NEDL TRANSFER
HN 6ZLK T

Cyc 210
KH26

Harvard College Library

BOUGHT WITH INCOME

FROM THE BEQUEST OF

HENRY LILLIE PIERCE,

OF BOSTON.

Under a vote of the President and Fellows,
October 24, 1898.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG.

Y GWAITH CENEDLAETHOL PWYSICAF

YN YR

**Iaith Gymraeg.**

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY,
A SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU,

GAN Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

Digitized by Google

# LLYTHYRAU O GANMOLIAETH I'R GWAITH.

It seems to me a Work of great promise......I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.

JOHN WILLIAMS,
*Bognor, Sussex.* *Archdeacon of Cardigan, &c.*

Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.

*Llundain.* THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.

*Llanfyllin.* DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.

*Llundain.* OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.

*Llanbrynmair.* SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.

*Llandeilo.* JOHN JONES, *Gwein. Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.

*Aberdâr.* THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. PARRY estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'fywyd o feirw.'

*Amlwch.* WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw y '*Gwyddoniadur*.'.....Daeth allan fel cawr grymus.

*Liverpool.* WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o daflu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.

*Cendl.* THOMAS REES.

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os ä yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.

*Athrofa Pont-y-pool.* T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.

*Bangor.* JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.

*Liverpool.* HENRY REES.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.

*Thrussington.* JOHN OWEN, *Rural Dean.*

# CYMMERADWYAETHAU Y WASG.

*Yr Amserau.*—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Sion-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

*Y Bedyddiwr.*—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

*The Carnarvon Herald.*—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg*.''

*Y Cronicl.*—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

*Y Cylchgrawn Cymreig.*—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur*.'

*Y Diwygiwr.*—'Y mae yn ddïau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

*Y Drysorfa.*—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwblhau, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. PARRY, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

*Y Dysgedydd.*—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

*Yr Eurgrawn.*—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fŷnu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

*Y Gwron.*—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'


*Y Seren Gomer.*—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

*Y Traethodydd.*—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, papur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

*Y Wasg.*—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur*.'


Digitized by Google

Digitized by Google




CYHOEDDEDIG GAN T. GEE. DINBYCH.

Digitized by Google




THOMAS GEE, PUBLISHER, DENBIGH.

Digitized by Google

# The Encyclopædia Cambrensis.

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG:

GAN

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCHEDIG JOHN PARRY, D.D.,

BALA.

YR AIL ARGRAPHIAD,

YN CYNNWYS

ERTHYGLAU NEWYDDION, A'R MANYLION DIWEDDARAF AR Y TESTYNAU AMRYWIOL SYDD YN Y GWAITH.

DAN OLYGIAD

THOMAS GEE.

Y Nawfed Gyfrol.

DINBYCH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCXCIV.

Digitized by Google

Cyc 210

HARVARD COLLEGE
OCT 4 1902
LIBRARY.

Pierce Fund

Digitized by Google

# CYNNWYSIAD Y NAWFED GYFROL.

YMDDENGYS Erthyglau yn y tudalenau hyn ar Bersonau a gwahanol Wledydd y Byd, &c., gyda llythyrenau o flaen y tudalenau y maent i'w cael ynddynt. Wrth ddefnyddio y cynllun hwn, yr ydym yn gallu cynnwys y manylion diweddaf am danynt yn y Gwaith hwn.

Yn y gyfrol ddiweddaf, bydd *Taflen lawn* o'r holl Erthyglau a gynnwysir yn y "GWYDDONIADUR," wedi eu trefnu yn ol y wyddor, fel y bydd yn hawdd cael pob Erthygl fydd ynddo, yn mha gyfrol bynag y bydd hi yn ymddangos.


Tudal.

Rabelais, Francois ... A 48
Radcliffe, Anne ... A 48
Radcliffe, John ... A 48
Radetzky, Johann Joseph ... A 48
Radowitz, Joseph Von ... B 48
Raeburn, Syr Henry, R.A. ... B 48
Raff ab Rhobert ... B 48
Raffles, Syr Thomas ... B 48
Raffles, Thomas, D.D. ... 135
Raglan, Arglwydd ... B 48
Raikes, Robert ... B 48
Rambouillet, Marquise de ... B 48
Ramsay, Allan ... C 48
Randolph, Edmund Jennings C 48
Randolph, John ... C 48
Randolph, Syr John ... C 48
Randolph, Thomas ... C 48
Ranke, Leopold, Von ... C 48
Rapin de Thoyras ... D 48
Rask, Rasmus Christian .. D 48
Reade, Charles ... D 48
Rebecca, Terfysgoedd ... S 48
Recorde, Robert ... D 48
Rees, David ... D 48
Rees, David ... E 48
Rees, David ... E 48
Rees, John ... E 48
Rees, Owen ... E 48
Rees, Rice ... E 48
Rees, Robert ... F 48
Rees, Thomas D.D. ... F 48
Rees, William ... F 48
Rees, William Jenkyn ... F 48
Reid, Cadben Mayne ... F 48
Renan, Ernest ... F 48
Renwick, James ... G 48
Renwick, James, LL.D. ... G 48
Retz, Cardinal de ... G 48
Reuchlin, Johann ... H 48
Reuss, Eduard ... H 48
Reuter, Adam ... H 48
Rhesymeg ... 9
Rhiallu ... H 48
Rhianon ... H 48
Rhieri ... H 48
Rhiryd ... H 48
Rhiryd Flaidd ... H 48
Rhisiart ab Ior. Fynglwyd ... I 48
Rhisiart ab Rhys ... I 48
Rhisiart Fynglwyd ... I 48
Rhisiart Gele ... I 48
Rhisiart Iorwerth ... I 48
Rhisierdyn ... I 48
Rhitta Gawr ... I 48
Rhiwallon (4) ... I 48
Rhiwallon Wallt Banadlen ... K 48
Rhobert, Huw Ieuan ... K 48
Rhobert, Morys ab .. K 48
Rhodri (3) ... K 48
Rhodri Molwynog ... K 48
Rhuddwyn Gawr ... K 48
Rhufawn ... K 48
Rhufawn Befr, neu Y Teg .. K 48
Rhun (6) ... K 48—L 48

Tudal

Rhun Baladr Fras ... L 48
Rhydderch (4) ... L 48
Rhydderch ab Rhisiard .. L 48
Rhydderch ab Sion ... L 48
Rhydderch, John ... L 48
Rhydderch Hael ... L 48
Rhyddid ... 49
Rhyddion ... L 48
Rhyddmarch ... L 48
Rhydychain. Gw. Prifysgol. M 48
Rhyod ail Morgant ... M 48
Rhys ... M 48
Rhys ab Caradog ab Iestyn ... M 48
Rhys ab Cynfrig Goch ... M 48
Rhys ab Dafydd ab Einion ... M 48
Rhys ab Llwyd ab Llygliw ... M 48
Rhys ab Ednyfed .. M 48
Rhys ab Einion ... M 48
Rhys ab Gorfyniawn ... M 48
Rhys ab Gruffydd ab Rhys ... M 48
Rhys ab Gwilym ab Thomas M 48
Rhys ab Hywel Len ... M 48
Rhys ab Ieuan ab Mer. Ddu ... M 48
Rhys ab Ifan ab Ll. ab Hywel M 48
Rhys ab Ll. ab Gr. ab Rhys ... M 48
Rhys ab Tewdwr Mawr ... M 48
Rhys ab Thomas, Syr ... 110
Rhys Brydydd ... O 48
Rhys Goch ab Collwyn ... O 48
Rhys Goch Eryri ... O 48
Rhys Gryg ... O 48
Rhys Grythor ... O 48
Rhys, Gweirydd ap ... P 48
Rhys, Ieuan ab ... O 48
Rhys, Ifan Thomas ... O 48
Rhys, Ioan Dafydd . O 108
Rhys, Ioan Dafydd ... 108
Rhys, o Garno ... O 48
Rhys, Morgan ... O 48
Rhys, Morgan ... 116
Rhys, Morgan John ... 49
Rhys Wyn ab Cadwaladr ... P 48
Ricardo, David ... P 48
Ricci, Matteo ... 6
Richard I., II., a III. ... 1—3
Richard de Bury ... 4
Richard, Ebenezer ... 117
Richard o Cirencester ... 5
Richard o Gernyw ... P 48
Richard, Thomas ... 121
Richards, Brinley ... P 48
Richards, Edward ... P 48
Richards, Dafydd ... 127
Richards, James ... 131
Richards, John ... R 48
Richards, Syr Richard ... R 48
Richards, Thomas ... R 48
Richards, William, LL.D. ... 134
Richardson, Charles ... R 48
Richardson, Evan ... S 48
Richardson, Henry ... S 48
Richardson, Samuel ... 6
Richardson, Syr John ... R 48
Richelieu, Cardinal de ... 7

Tudal.

Richter, Jean Paul Friedrich 8
Ridley, Nicholas ... 51
Rienzi. Gwel Rhufain ... 52
Rimmon (3) ... 52
Rimmon, Craig ... 52
Rimmon-Pares ... 53
Rinnah ... 53
Ripon, Iarll ... W 48
Riphath ... 53
Rispah, a Rissah ... 53
Rithmah ... 53
Ritschl, Albrecht ... W 48
Rivers, Iarll ... W 48
Rob Roy . F 108
Robert ab Dafydd Llwyd ... W 48
Robert I., II., a III. 61—64
Robert Leiaf ... W 48
Roberts, David (*Alawydd*) ... 135
Roberts, David ... W 48
Roberts, Edward ... 54
Roberts, Griffith ... W 48
Roberts, John ... 54
Roberts, John ... W 48
Roberts, John ... X 48
Roberts, John ... Y 48
Roberts, John ... D 135
Roberts, John (*Edeyrn Môn*) X 48
Roberts, John (*Ieuan Gwyllt*) B 135
Roberts, Michael ... 65
Roberts, Peter .. Y 48
Roberts, Richard ... Z 48
Roberts, Robert ... 67
Roberts, Robert ... Y 48
Roberts, Robert . G 135
Roberts, Syr Huw ... W 48
Roberts, Thomas ... Z 48
Roberts, Thomas (*Scorpion*) D 108
Roberts, Timotheus . D 108
Roberts, William ... 72
Roberts, William . E 108
Roberts, William, D.D. ... Z 48
Roberts, William, D.D. . D 108
Roberts, William, LL.D. ... 71
Robertson, Frederick William 58
Robertson, Joseph . E 108
Robertson, William, D.D. ... 61
Robespierre, M. Isidore de ... 64
Robin Ddu (2) ... E 108
Robin Hood ... E 108
Robinson, Edward, D.D., LL.D. 80
Robinson, Henry Crabb . F 108
Robinson, Hugh, D.D. . F 108
Robinson, John ... 80
Robinson, Nicholas, D.D. . F 108
Robinson, Robert .. 80
Rochester, Iarll ... G 108
Rockingham, Ardalydd . G 108
Roderick, David ... G 108
Rodney, Arglwydd . G 108
Roebuck, John Arthur . H 108
Rogelim ... 81
Rogeriaid ... 81
Roger I. a II. . H 108
Rogers, David ... H 108


Digitized by Google

| | Tudal. |
|---|---|
| Siôn Cent | R 172 |
| Siôn Dafydd Las | R 172 |
| Siôn Gwilym | R 172 |
| Siôn Llewelyn | R 172 |
| Siôn Lleyn | R 172 |
| Siôn Rhys ab Morus | R 172 |
| Sior | 347 |
| Sior I., II., III., a IV. | 347—348 |
| Sior Sant | 349 |
| Siphmiad, a Siphmoth | 350 |
| Siphtan | 350 |
| Sippai, a Siphi | 350 |
| Siprah | 350 |
| Sirah, a Sirion | 350 |
| Sirydd | 350 |
| Sisia | 350 |
| Sisac | 350 |
| Sisamai | 350 |
| Sisera (2) | 351 |
| Sitnah, a Sitrai | 351 |
| Sittim, Coed | 351 |
| Sittim, Dyffryn | 351 |
| Sixtus V. | 352 |
| Skenandoah | 352 |
| Skobeleff, M. Dmitrievitch | R 172 |
| Slafoniaid | 353 |
| Sloane, Syr Hans | 355 |
| Smaragdus | 355 |
| Smeaton, John | 355 |
| Smith, Adam | 356 |
| Smith, Albert | A 306 |
| Smith, Alexander | A 306 |
| Smith, Cadben John | A 306 |
| Smith, George | R 172 |
| Smith, George, LL.B. | A 3 6 |
| Smith, Henry | 357 |
| Smith, John Pye, D.D., LL.D. | 357 |
| Smith, Joseph | 358 |
| Smith, Sidney | 358 |
| Smith, Syr William Sydney | A 306 |
| Smith, William Henry | A 306 |
| Smollet, Tobias | 358 |
| Smyrna | 359 |
| So, a Soar | 360 |
| Sobab | 362 |
| Sobah | 362 |
| Sobai (3) | 361 |
| Sobieski, John | 362 |
| Sobrwydd | 362 |
| Socho, a Sochoh (3) | 363 |
| Sociniaeth | 369 |
| Socinus, Faustus, a Lælius | 364 |
| Socrates | 363 |
| Sodi | 365 |
| Sodom, Afalau, a Gwinwydd | 369 |
| Sodom, Môr | 369 |
| Sodom—ah | 369 |
| Sodomiaeth, a Sodomiaid | 369 |
| Soff—yn | 372 |
| Soffiar, Soffieir | 372 |
| Sohar (2) | 372 |
| Solario, Antonio de | 374 |
| Soldiniaid | V 135 |
| Solomon, neu Salomon | 374 |
| Solomon, Caniad | 374 |
| Solomon, Griffith | 382 |
| Solomon, Gweision | B 306 |
| Solon | 382 |
| Solyman II. | 382 |
| Somers, Arglwydd John, | 384 |
| Somerville, Mary | 384 |
| Sopater | 385 |
| Sophah, Sophai, a Sophar | 385 |
| Sophathah | 385 |
| Sophereth | 385 |
| Sophim, Maes | 385 |
| Sophocles | 385 |
| Sorah | 386 |
| Sorathiaid | 386 |
| Sorbonne | 386 |
| Soreah | 387 |
| Sorec, Dyffryn | 387 |
| Soriant | 387 |
| Sorod | 387 |
| Sosannim, a Sosannim-Eduth | 387 |
| Sosipater (2) | 388 |
| Sosthenes | 388 |
| Sotai | 388 |
| Sothach | 388 |
| Soudan, neu Nigrita. Gwel Dacaryddiaeth | 385 |
| Soult, Nicolas-Jean de Dieu | 388 |
| South, Robert, D.D. | 389 |
| Southcott, Joanna | 390 |
| Southey, Robert, LL.D | 390 |
| Southwell, Robert | 391 |
| Spark, Thomas, D.D. | B 306 |
| Sparta | 391 |
| Speed, John | 392 |
| Speke, John Hanning | B 306 |
| Spencer | B 306 |
| Spencer, George John | B 306 |
| Spencer, John Charles | B 306 |
| Spencer, Thomas | B 306 |
| Spenser, Edmund | 392 |
| Spinola, Ardalydd | 393 |
| Spinoza, Benedict | B 306 |
| Spohr, Ludwig | 393 |
| Spotswood, John | 394 |
| St. Vincent, Iarll | 394 |
| Spurzheim, Johann Gasper | W 135 |
| Stackhouse, Thomas | 395 |
| Stacte | 395 |
| Stael, Anne Germain de | 396 |
| Stafford, W. Howard, Is-iarll | 396 |
| Stauhope, Arglwyddes | 396 |
| Stanhope, Iarll | B 306 |
| Stanislaus, Augustus P. | C 306 |
| Stanley, Arthur Penrhyn | 397 |
| Stanley, Edward, D.D. | C 306 |
| Stanley, John | C 306 |
| Stanley, Thomas | 397 |
| Stater | C 3 6 |
| Steele, Syr Richard | 397 |
| Stein, Barwn | 397 |
| Stelio | C 306 |
| Stephan | 398 |
| Stephanas | 398 |
| Stephanus o Byzantium | 400 |
| Stephen | 400 |
| Stephen | 401 |
| Stephen Bathory | D 306 |
| Stephen, Edward | 402 |
| Stephen, Syr James | D 309 |
| Stephens, Thomas | 403 |
| Stephenson, George | 403 |
| Stephenson, Robert | 407 |
| Stepney, George | 413 |
| Sterling, John | D 306 |
| Sterne, Lawrence | D 306 |
| Stevenson, Robert | 416 |
| Stewart, Dugald | D 306 |
| Stillingfleet, Edward | 416 |
| Stoiciaid | 417 |
| Stow, John | 418 |
| Strabo | 418 |
| Stradling, Syr Edward | 419 |
| Stradling, Syr George, D.D. | D 306 |
| Stradling, Syr John | E 306 |
| Strafford, Iarll | E 306 |
| Stratford, De Redcliffe | 419 |
| Strathnairn, Arglwydd | E 306 |
| Strauss, David Friedrich | E 306 |
| Strype, John | 420 |
| Stuart, Arabella | 421 |
| Stuart, Charles Edward | 422 |
| Stuart, J. Francis Edward | 422 |
| Sturm, Christopher Christian | 422 |
| Sua, a Suah (3) | 423 |
| Sual, a Gwlad | 423 |
| Subael (2) | 423 |
| Sublapsariaid | 423 |
| Succiaid | 424 |
| Succoth (2) | 424 |
| Succoth-Benoth | 425 |
| Suchathiaid | 425 |
| Suez, Gyddfdir | 425 |
| Sugndraeth | 427 |
| Sugr | 427 |
| Suham | 429 |
| Suhamiaid | 429 |
| Suhiad | 429 |
| Sul. Gwel Sabbath | 430 |
| Sulamees, Y | 430 |
| Sulgwyn. Gwel Pentecost | 430 |
| Sulien. | F 306 |
| Sulien Ddoeth | F 306 |
| Sully, M. de Bethune, Duc de | 430 |
| Sumathiaid, Y | 430 |
| Sumner, Charles | F 306 |
| Sumner, John Bird | F 306 |
| Sunamees, Y | 431 |
| Sunderland, Iarll | F 306 |
| Suuderland, C. Spencer | G 306 |
| Sunem | 431 |
| Suni, a Suniaid | 431 |
| Sunniaid | V 135 |
| Suplapsariaid | 431 |
| Sur, a Surdoes | 431 |
| Susan. | 431 |
| Susan-Eduth | 434 |
| Susanchiaid | 434 |
| Susanna (2) | 434 |
| Susi | 434 |
| Suthelah | 434 |
| Suwarrow, Peter Alexis | 435 |
| Swch, Sychau | 436 |
| Sweden | 436 |
| Sweden yn 1893. | G 306 |
| Swedenborg, Emanuel | 439 |
| Swedenborgiaid | 441 |
| Sweyn | G 306 |
| Sweyn | G 306 |
| Swift, Jonathan, D.D. | 442 |
| Switzerland | 444 |
| Switzerland, yn 1894 | G 306 |
| Swithin, Sant | 448 |
| Swllt | 449 |
| Swm | 449 |
| Swmbwl | 449 |
| Swmer | 449 |
| Swn | 449 |
| Swp, Sypiau | 452 |
| Swper | 452 |
| Swper yr Arglwydd | 452 |
| Swrdwal Hywel | G 306 |
| Swyddog | 452 |
| Swyn, a Swyngyfaredd | 452 |
| Swynoglau | 453 |
| Sycamorwydden | 453 |
| Sycyon | 453 |
| Syench | 453 |
| Sylla, L. Cornelius Felix | 454 |
| Sylvester I. | 455 |
| Sylweddiaeth—iaid | 456 |
| Symbal | 456 |
| Symmons, Caroline | G 306 |
| Symmons, Charles, D.D. | G 306 |
| Synagog | 456 |
| Synagog Fawr, Y | 460 |
| Syntyche | 461 |
| Syracusa | 461 |
| Syro-Phœniciaid | 461 |
| Syria | 472 |
| Taanach | 479 |
| Taanath-Siloh | 479 |
| Tabbaoth, a Tabbath | 479 |
| Tabeal, a Tabeel | 479 |
| Taberah | 480 |

Tudal.
Tir—oedd ... 556
Tir Eglwys ... 557
Tiras .. ... 558
Tirathiaid, Y ... 558
Tirhacah ... 558
Tirhanah ... 558
Tiria .. ... 559
Tirsah (2) ... 559
Tirsatha, Y ... 559
Tischendorf, Contantin . G 548
Tisiad, Y ... 559
Titian, neu Tiziano, Vecelli 559
Titus .. ... 561
Titus Flavius S. Vespasianus 560
Titus, Yr Epistol at ... 562
Tlodi, Tlodion, a Deddfau. L 598
Toah... ... 563
Tob, Gwlad ... 563
Tob-Adoniah ... 563
Tobiah (3) ... 563
Tobias ... 564
Tobie, Lleoedd ... 564
Tobit, Llyfr ... 564
Tochen ... 567
Tocqueville, Alexis Henry ... 566
Togarmah ... 567
Toi ... ... 567
Tola (2), a Tolad. ... 567
Toland, John ... 567
Tollbyrth ... 568
Tom Colomenod . ... 568
Tomos, Robert ... . O 598
Ton—au Gwel Môr ... 569
Tone, Theobald Wolfe . G 548
Tonic Sol-ffa ... 569
Tooke, John Horne .. 575
Topas . ... 575
Tophel ... 576
Tophet ... 576
Toplady, Augustus Montague 567
Toriadau yn y Cnawd .. 577
Tormah ... 577
Torthau. Gwel Bara ... 577
Tostur—i—aethau ... 577
Tourville, Count de . H 548
Towerbridge, Robert . H 548
Townshend, Charles . H 548
Townshend, Charles, Is-iarll H 548
Towyn, Syr Siôn. . H 548
Toynbee, Arnold. . H 548
Trachonitis ... 586
Trachwant ... 586
Tractariaeth, a Defodaeth ... 578
Traddodiad ... 586
Tragywydd—ol—deb ... 587
Trahaiarn ab Caradog . B 598
Trahaiarn Brydydd Mawr . B 598
Traherne, John Montgomery B 598
Trai ... ... 588
Trais... ... 588
Trajan, Marcus Ulpius ... 588
Trallod—ion ... 588
Trawdybiau, Hanes ... 589
Trawseneidiad ... 589
Traws-sylweddiad ... 590
Tref. Gwel Dinas—oedd ... 590
Trefnant, Lewis... . B 598
Trefnyddion Calfinaidd ... 590
Trefnyddion Wesleyaidd ... 590
Trefor, John ... 682
Trefor, John, B.D. . B 598
Trefor, Siôn . B 598
Trefor, Syr Dafydd . H 548
Trefor, Syr John ... 682
Trefor, Syr Thomas . B 598

Tudal.
Trefor, Syr Thomas . C 598
Trefor, Tudur ... . C 598
Treftadaeth ... 590
Tregelles, Samuel Prideaux C 598
Trelawny, Edward John . C 598
Trelawny, Syr Jonathan . C 598
Tremyddiaeth ... 590
Tren, Rhys . D 598
Trench, Richard Chenevix . D 598
Trent, Cynghorfa ... 595
Treth, Trethiad, Trethoedd 596
Triagl ... 598
Tribun ... 598
Trigfa. Gwel Tŷ ... 599
Trindod—iaeth ... 599
Trindodiaid, a Triduwiaid ... 599
Tripolis ... 599
Troas.. ... 600
Trochi, a Trochwyr ... 600
Troed, Traed ... 601
Trogylium, a Trophimus ... 602
Trollope, Anthony . D 598
Tromp, Martin Harpertzoon D 598
Trowynt ... 602
Troy ... . Q 598
Trugaredd ... 603
Trugareddfa ... 602
Trwyn ... 603
Trydan ... 603
Trydan—manylion diweddaf. Gwel cyf. x. ... —
Trydanol, Goleuni . Q 588
Tryphena, a Thryphosa ... 606
Tryphon ... 606
Trysorfa ... 607
Trystan ab Tallwg . D 598
Trystan Ail March . E 598
Trywyll Difefl . E 598
Tubal, a Tubal-Cain ... 607
Tucker, Thomas... . E 598
Tucker, Josiah, D.D. ... 682
Tudur Aled ... 607
Tudur, Owain ... 608
Tudur, Siôn . E 598
Tudwal Befr, neu Y Teg . E 598
Tudwal Gloff . E 598
Tugel, Tugelu . S 598
Tullock, John . E 598
Turenne, H. T. D'Auvergne. 608
Turkestan ... 609
Turlupiaid ... 610
Turnor, Cadben John . E 598
Turner, J. Mallard William 610
Turpin, Dick . E 598
Turtur—od ... 611
Twng, Tyngu. Gwel Llw—on 612
Tŵr ... .. 612
Tŵr Llundain .. 612
Twrci . ... 621
Twrci yn 1893 . Y 598
Twrnog . E 598
Twrog . F 598
Twymyn—au .. 628
Tŷ ... 612
Tŷ Ddewi, Esgobaeth ... 615
Tybiawn . F 598
Tybie . E 598
Tychicus ... 614
Tydain Tad Awen ... 683
Tydecho ... 684
Tydeyrn . F 598
Tydio . L 598
Tyfei . Z 598
Tyfodwg . L 598
Tyfriog . L 598

Tudal.
Tyfrydog . K 598
Tyler, John . K 598
Tymmhestl—oedd ... 615
Tymmorau ... 615
Tympan—au ... 615
Tyndal (Tyndale), William... 629
Tyndall, John . Z 598
Tynel.. ... 631
Tynghedu ... 615
Tyranus ... 616
Tyrnog Gawr . L 598
Tyrus ... 616
Tyssilio Ab Bro. Ysgythrog 684
Tyst-io—ion—iolaeth ... 632
Tywallt . Z 598
Tywydd ... 635
Tywynwedd . Z 598
Tywysogaeth Cymru ... 636

Ubicuitariaid ... 707
Ucal ... ... 707
Uccewaliaid ... 707
Uchafiaeth ... 707
Uchanianaeth ... 708
Uchelfanau; Uchelfeydd ... 708
Uchel-Eglwyswyr ... 717
Ucnaz ... 709
Udgorn, a Gŵyl yr Udgyrn, 709
Uel ... 710
Ufudd-dod ... 710
Uffern ... 710
Ula, ac Ulai ... 713
Ulam (2) ... 713
Ulmann, Karl ... 713
Ulphilas ... 714
Ulric .. ... 714
Ulysses ... 713
Umah ... 714
Unbenaeth ... 714
Undeb ... 735
Undeb Efengylaidd ... 735
Undodiaeth ... 715
Unduwiaeth ... 715
Unffurfiaeth, Deddfau ... 715
Uniawngrededd .. ... 715
Unicorn ... 716
Unni (2) ... 717
Unol Daleithiau yr America 717
Unrhywiaeth, Unrhywdeb ... 735
Upaz, ac Uphas ... 736
Upharsin ... 736
Ur ... ... 736
Urbanus ... 738
Urddau Crefyddol ac Eglwysig 738
Uri (3) ... 738
Uriah (4), ... 738
Urias.. ... 739
Uriel (3) ... 739
Urien Rheged ... 739
Urim a Thummim ... 739
Us ... 742
Usal ... ... 743
Usbekiaid ... 743
Usher, James ... 743
Usuriaeth ... 744
Uta ... ... 744
Uthai (2) ... 744
Uthr Pendragon.. ... 744
Uzai, Uzzah ... 744
Uzza, ac Uzza (3) ... 744
Uzzen-Serah ... 744
Uzzi (7) ... 745
Uzzia, ac Uzziah (5) ... 745
Uzziel (6) ... 746
Uzzieliaid ... 746

Digitized by Google

# Y GWYDDONIADUR.



RICHARD I., brenin Lloegr, yr hwn a gyfenwid 'Calon y Llew' (*Cœur de Lion*), oedd trydydd mab Harri II., a'i wraig Eleanor. Ganwyd ef yn maenordy y brenin yn Rhydychain, yn mis Medi, 1157. Yn ol cyttundeb Montmirail, yr hwn a gwblhawyd yn Ionawr, 1169, rhwng Harri a Louis VII. o Ffraingc, penderfynwyd ar fod i dduciaeth Aquitaine gael ei gwneyd drosodd i Richard, yr hwn oedd i dalu gwarogaeth i Louis, ac i briodi Adelais, merch ieuengaf y brenin hwnw. Yn y flwyddyn 1173, fe ymunodd Richard, ynghyd â'i fam a'i frawd lleiaf, Geoffrey, â'i frawd hynaf Harri, yn ei wrthryfel cyntaf yn erbyn ei dad. Yn 1174, ymostyngodd y gwrthryfelwyr, pan ganiatawyd i Richard gael dau gastell yn Poitou, ynghyd â hanner cyllid yr iarllaeth hono; a thyngodd ef a Geoffrey lŵ o ffyddlondeb i'w tad. Parhaodd Richard ar ol hyn i lywodraethu yr oll o Aquitaine, ac i gael ei alw yn Dduc Aquitaine, er fod ei dad yn ystyried fod trefniadau Montmirail wedi eu gosod o'r neilldu, a'r dduciaeth wedi dyfod yn eiddo iddo ef yn ol. Yn 1183, cymmerodd anghydfod teuluaidd arall le o herwydd gwaith Richard yn gwrthod talu gwarogaeth i'w frawd hynaf am dduciaeth Aquitaine. Yn y rhyfel hwn, cymmerodd ei dad ochr Richard yn erbyn ei feibion Harri a Geoffrey. Terfynwyd y rhyfel y flwyddyn hono yn ganlynol i farwolaeth y tywysog Harri; a darfu i Richard, gan ei fod, dybygid, yn teimlo yn eiddigus tuag at ei frawd ieuangaf, John, ac yn ofni y buasai ei dad yn gadael iddo ef ei goron, ddadgan ei hun o dan warogaeth i frenin Ffraingc am ei feddiannau yn y wlad hono. Arweiniodd hyn i ryfel rhwng brenin Lloegr a Phylip o Ffraingc, yn yr hwn yr ymladdodd Richard yn erbyn ei dad. Gan fod Ffraingc yn ddiammheuol yn fwy llwyddiannus yn y rhyfel hwn, bu raid i Harri ymostwng i holl ofynion Ffraingc: ac yr oedd cyttundeb i'r perwyl hwnw ar gael ei gwblhau, pan y bu Harri II. farw, ar y 6ed o Orphenaf, 1189; a chladdwyd ef yn nghôrgell mynachdy Fontevraud.

Y peth cyntaf a wnaeth Richard, ar ol marwolaeth ei dad, oedd anfon gorchymyn i Loegr i ryddhau ei fam Eleanor, a'i phennodi yn rhaglaw y deyrnas; ac ni ddaeth drosodd i'r wlad hon ei hun hyd y 13eg o Awst: ac ar y 3ydd o Fedi canlynol yr aed trwy y seremoni o'i goroni yn Mynachlog Westminster. Ar yr achlysur hwnw y torodd terfysg mawr allan yn Llundain yn erbyn yr Iuddewon; ac yn y misoedd canlynol dioddefasant yr ymosodiadau creulonaf yn amryw o drefydd mawrion ereill y deyrnas. Ychydig amser cyn marwolaeth ei dad, yr oedd Richard a Phylip Augustus wedi tyngu llŵ yn gyhoeddus y byddai iddynt fyned i'r Tir Sanctaidd, i ymdrechu adfeddiannu dinas a theyrnas Ierusalem o ddwylaw yr anffyddiaid; o herwydd yr oedd Ierusalem wedi syrthio i ddwylaw yr enwog Saladin, yn y flwyddyn 1187. Yr oedd y trydydd croesgad yn cael ei barotoi i gychwyn tua Phalestina ar y pryd. Yn ei absennoldeb, gadawodd Richard lywodraeth y wlad yn nwylaw Longchamp, esgob Ely, a Pudsey, esgob Durham, ac ymadawodd o Loegr yn mis Rhagfyr, 1189. Yn y gobaith am ennill iachawdwriaeth i'w enaid, a chyda'r sicrwydd y dilynai alwedigaeth gydweddol â'i dueddfryd, efe a gychwynodd allan gyda'i fyddin i ymuno â'r trydydd croesgad, oedd y pryd hwnw ar ymadael o Ffraingc. Ymunodd ei fyddin ef â lluoedd Ffraingc ar wastadedd Vezalai, ac aeth y ddwy fyddin, yn rhifo tua chan mil o wŷr, yn mlaen tua Lyons, lle yr ymwahanasant—gan fyned ar hyd gwahanol ffyrdd tua Messina, lle yr ymgyfarfuant drachefn. Arosodd y ddau frenin yn Messina hyd fis Mawrth, 1191; ac yn y cyfamser dyweddiodd Richard ei nai Arthur i ferch Tancred, brenin Sicily, gyda'r hwn yr oedd wedi ffurfio cyfeillgarwch cynnhes. Hawlid gorsedd Sicily y pryd hwnw gan yr ymherawdwr Harri VI.; ac o herwydd hyn, trodd y cyfeillgarwch hwn â Thancred allan yn anffodus i Richard. Wedi terfynu yn foddhaol gweryl oedd yn bygwth tori allan rhyngddo ef a Phylip o barthed i'r hen gyttundeb ynghylch priodi Adelais, chwaer y diweddaf, hwyliodd brenin Lloegr o Messina ar y 7fed o Ebrill, 1191, am Cyprus, gan gymmeryd gydag ef Berengaria, merch Sancho VI., brenin Navarre. Yr oedd Richard wedi syrthio mewn cariad â'r dywysoges hon: a phriododd hi yn Cyprus, ar ei ffordd i Palestina. Ond nid oedd hyd yn oed cariad yn ddigon i beri iddo anghofio ei hoff waith o ryfela: efe a ymosododd ar ac a ddiorseddodd Isaac o Cyprus, gan gymmeryd yn esgusawd dros wneuthur hyny waith y diweddaf yn camymddwyn tuag at ddwylaw dwy long Saesnig a daflwyd ar lenydd yr ynys. Gwnaeth Richard yr ynys drosodd yn feddiant i Guy o Lusignan; ac ar y 4ydd o Fehefin, 1191, efe a hwyliodd allan o Cyprus. Ar y 10fed o'r un mis cyrhaeddodd i wersyll y croesgadwyr, y rhai oeddynt wedi cymmeryd eu safle i fyny o flaen amddiffynfa Acre, yr hon oedd wedi ei gwarchau am yn agos i ddwy flynedd cyn hyny; ac yr oedd y gwarchau eisoes, meddir, wedi costio bywydau agos i ddau can mil o'r ymosodwyr. Ond darfu i bresennoldeb brenin Lloegr yn y gwersyll—er fod ei iechyd yn wael iawn ar y pryd, a bod raid ei gario i'r ffosydd (*trenches*)



Digitized by Google

dwyreiniol a deheuol. Y rhai mwyaf hynod o'r terfysgwyr oeddynt ddau offeiriad Pabaidd, a elwid Jack Straw, a John Ball; Wat Tyler o Dartford, blaenor pobl sir Caergaint, y dewraf a'r mwyaf penderfynol o honynt oll; a dau ddyn o'r enw Lister a Westbroom, yn Norfolk a Suffolk. Aeth Wat Tyler a'i ddilynwyr i Lundain yn Mehefin, a gwnaethant ddinystr ofnadwy, a chyflawnasant greulonderau lawer. Dinystriasant amryw balasau ac adeiladau cyhoeddus, a rhoddasant amryw o brif swyddogion y wladwriaeth i farwolaeth. Ar y 15fed o'r un mis, pa fodd bynag, lladdwyd Tyler gan Syr William Walworth, arglwydd faer y dref. Wedi i'r terfysgwyr golli eu harweinydd, nid hir y buont heb roddi eu harfau i lawr. Dilynwyd hyn â thywalltiad llawer o waed ar y dienyddle —torwyd penau tua 1,500 o'r terfysgwyr; ac yr oedd Straw a Ball, a blaenoriaid ereill yn mhlith y nifer. Wedi hyn torwyd pob addewid a wnaethid gan yr awdurdodau i'r bobl tra yr oedd arfau yn eu dwylaw.

Ar y 14eg o Ionawr, 1382, priododd Richard gydag Anne o Bohemia, merch yr ymherawdwr Charles IV. Bu am y ddwy flynedd ddilynol i hyny mewn rhyfel â Ffraingc; ac yn 1385, yr oedd yn dwyn yn mlaen ryfel yn Ysgotland, a'r brenin ei hun yn llywyddu yno. Yn ystod tymmor absennoldeb John o Gaunt yn Yspaen, gosodwyd y Duc o Gaerloyw ei hun wrth lyw y llywodraeth; a throi yn fethiant a ddarfu i ymgais a wnaed gan Richard i ymryddhau oddi wrth arglwyddiaeth ei gynghor, ac i gael y rheolaeth i'w law ei hun: rhoddwyd amryw o'i gynghorwyr i farwolaeth, ac alltudiwyd y lleill o'r llys. Cymmeradwywyd y weithred hon o eiddo y blaid fuddugol gan y senedd, a gorchymynwyd dienyddio ereill o'r rhai a ymlynent wrth blaid y brenin; a chariwyd allan y penderfyniad hwn. O'r diwedd, yn 1389, mewn cynghor mawr a gynnaliwyd, mynegodd Richard ei benderfyniad, gan ei fod yn yr eilfed flwydd ar hugain o'i oedran, ei fod yn bwriadu cymmeryd y llywodraeth i'w ddwylaw ei hun; a chan i hyn ddigwydd yn ddisymmwth, llwyddodd y brenin ar y pryd yn hyn i gael yr hyn a geisiai. Ymneillduodd y Duc o Gaerloyw i'r wlad; ond o herwydd diogi a diffyg gallu yn y brenin, llithrodd y llywodraeth i ddwylaw y Duc o Gaerefrog, a Harri o Bolingbroke, mab y Duc o Lancaster. Bu farw y frenhines Anne yn y flwyddyn 1394; ac yn fuan wedi hyny gwnaeth Richard gais am law Isabella, merch Charles VI. o Ffraingc, yr hon nad oedd ond plentyn; ac ar ol cryn oediad, trefnwyd y cyttundeb priodasol yn Hydref, 1396; ac ar yr un pryd gwnaed cynghrair heddwch rhwng y ddwy wlad, oedd i barhau am ysbaid o wyth mlynedd ar hugain. Condemniwyd y briodas gan y Duc o Gaerloyw; ac ymddengys na bu y briodas yn boblogaidd gyda'r werin yn Lloegr chwaith. Parodd y brenin i'r duc gael ei ddal yn ddirgelaidd; ac anfonodd ef i Calais, lle y bu farw, neu ynte y llofruddiwyd ef, fel y myn rhai haeru.

Ar ymgyfarfyddiad y senedd, cafodd y brenin ei ffordd ei hun. Alltudiwyd Iarll Warwick, a thorwyd pen Iarll Arundel, cyfeillion mwyaf mynwesol y Duc o Gaerloyw. Wedi cael goruchafiaeth ar ei elynion, dechreuodd Richard gweryla â'i gyfeillion. Gan fod ymrafael wedi digwydd rhwng Bolingbroke a Mowbray, y Duc o Norfolk, yr oedd y brenin yn awyddus am gael ymwared o'r ddau; gan hyny, efe a anfonodd y blaenaf i alltudiaeth am ddeng mlynedd, a'r olaf dros ei fywyd. Ond yr oedd Bolingbroke wedi bod yn ymdrechu ennill y poblogrwydd ag yr oedd ei gefnder yn ddiofal yn ei gylch; a daeth y canlyniad o hyny yn amlwg yn 1399. Ar ei ddychweliad o'i ryfelgyrch yn yr Iwerddon, deallodd Richard fod Bolingbroke, yr hwn mewn canlyniad i farwolaeth ei dad oedd yn awr yn Dduc o Lancaster, yn ei absennoldeb ef wedi glanio yn Lloegr, a'i fod wedi casglu ynghyd fyddin gref—pan yn St. Albans, ar ei ffordd i Lundain, rhifai 60,000 o wŷr—a bod y Duc o Gaerefrog wedi cymmeryd ei blaid ef. Yna ymdeithiodd Bolingbroke a'r Duc o Gaerefrog i Gaerlleon, ac ymsefydlasant yn y ddinas. Glaniodd Richard yn Aberdaugleddyf ar y 5ed o Awst. Daeth y rhan fwyaf o'r fyddin a gymmerasai efe i'r Iwerddon gydag ef yn ol; ond nid cynt y glaniasant nag y darfu i'r rhan liosocaf o lawer encilio oddi wrtho, a'i adael. Ymwisgodd Richard mewn gwisg mynach Ffranciscaidd, ac yn nghwmni y Duc o Exeter, a chyfeillion ereill, efe a ffodd i Gonwy, lle yr oedd yr Iarll Salisbury yn blaenori llu mawr o'r brenhinwyr. Ar y 18fed o'r mis, daeth Iarll Northumberland ato oddi wrth Bolingbroke, a pherswadiodd ef i fyned gydag ef i gastell Fflint—lle, y dydd canlynol, yr ymddangosodd Bolingbroke iddo yn flaenor ar 80,000 o wŷr. Cymmerwyd y brenin anhapus gyda byddin Bolingbroke tua Llundain, a rhoddwyd ef yn garcharor yn y Tŵr. Ar y 29ain o Fedi, efe a gydsyniodd i ddarllen ysgrifdyst yn cynnwys ei ymwrthodiad â'r goron o flaen dirprwyaeth bwysig, yn cael ei gwneyd i fyny o esgobion, barwniaid, marchogion, a chyfreithwyr; ac hefyd yn cynnwys dadganiad, pe buasai efe yn meddu yr hawl o enwi ei olynydd, mai yr hwn y buasai yn pennodi arno fuasai ei gefnder, Lancaster. Ar y dydd canlynol, cyfarfu y ddau dŷ o senedd ynghyd yn Neuadd Westminster, a derbyniwyd ymddiswyddiad y brenin. Cododd y Duc o Lancaster ar ei draed i hawlio y goron, a chydnabyddwyd ef yn unfrydol fel brenin, o dan yr enw Harri IV.

Trwy orchymyn y brenin a'r pendefigion cadwyd Richard mewn rhyw gastell yn ddirgelaidd —ond yn mha le, nid yw yn hysbys. Yn mis Chwefror canlynol (1400), taenwyd y gair yn mhob man ei fod wedi marw, a dygwyd ei gorph neu yr hyn a dybid oedd ei gorph, gydag arwyddion o rwysg i Lundain o gastell Pontefract, a chaniatawyd i'r cyhoedd ei weled. Bu cryn siarad wedi hyny mai ei newynu ei hun wnaeth, neu ynte gael ei newynu; ond yn ol chwedl arall am dano, cymmerwyd ef ymaith mewn modd creulawn gan Syr Piers Exton, yn cael ei gynnorthwyo gan saith o fradlofruddion ereill: a thaenwyd chwedl hynod mai diangc i Ysgotland a wnaeth, ac iddo fyw yno am dymmor maith. Ond mewn gwirionedd, nid oes dim hyd sicrwydd yn wybyddus am ddiwedd Richard II.

RICHARD III., brenin Lloegr, oedd fab ieuangaf Richard, y Duc o Gaerefrog. Ganwyd ef ar yr 2il o Hydref, 1452, yn nghastell Fotheringay. Ar orchfygiad a marwolaeth y Duc o Gaerefrog yn Wakefield Green, ar yr 31ain o Ragfyr, 1460, lle y lladdwyd hefyd ei ail fab, Edmund, Iarll Rutland, anfonwyd Richard, a'i frawd hynach nag ef, sef George, wedi hyny y Duc o Clarence, i Utrecht, gan eu mam, lle yr arosasant o dan nawdd y Duc o Burgundy, hyd nes yr ennillwyd coron Lloegr gan Edward, eu

Digitized by Google

brawd hynaf. Yn fuan wedi hyn, gwnaed Richard yn Ddue o Gaerloyw, ac yn farchog y gardas, ac appwyntiwyd ef yn arglwydd brif lyngesydd, er nad oedd etto ond deng mlwydd oed. Yn 1469, gwnaed ef yn un o wardeiniaid cyffiniol Ysgotland: yn 1470, efe a ffodd gyda'i frawd, y brenin, i Flanders, ar adferiad disymmwth Harri VI. i'r orsedd gan Iarll Warwick: yn 1471, arweiniai adran o fyddin ei frawd yn mrwydr Barnet; a chynnorthwyodd Edward i ennill ei fuddugoliaeth gorenog yn Tewkesbury. Mynegir mai efe a'i frawd, y Duc o Clarence, oedd llofruddion y tywysog Edward, sef mab Harri, ar ol y frwydr. Myn llawer hefyd mai y blaenaf a lofruddiodd Harri ei hun yn y Twr, yn Llundain, ychydig wythnosau wedi hyny. Yn y flwyddyn 1472, efe a lwyddodd i gael gan yr Arglwyddes Anne Neville, merch Iarll Warwick, a gweddw y tywysog Edward, i roddi iddo ei llaw mewn priodas.

Tybir gan lawer fod ganddo law yn y gwaith o ddwyn oddi amgylch farwolaeth ei frawd, y Duc o Clarence; ac wedi ei gael ef oddi ar y ffordd, nid oedd ond plant y brenin ei hun rhyngddo a bod yn etifedd y goron. Yr un pryd rhaid addef nad yw y cyhuddiad hwn wedi ei brofi yn deg yn ei erbyn. Ar ei ddychweliad o ryfelgyrch yn Ysgotland, yn mis Ebrill, 1483, efe a dderbyniodd y newydd am farwolaeth ei frawd, y brenin. Aeth yn mlaen mor fuan ag y gallai i Lundain, gan aros yn Nghaerefrog, modd bynag, a galw ynghyd yno foneddwyr a phendefigion y sir i dyngu llŵ o ffyddlondeb i Edward V., gan gymmeryd yr un llŵ ei hun. Cyfarfu â'r Duc o Buckingham yn Northampton ar y 29ain o Ebrill, lle, fel y credir, y cynlluniwyd rhyngddynt y mesurau a ddygasant oddi amgylch ddienyddiad Arglwydd Hastings, ac ereill, ynghyd â charchariad yn y Twr ddau fab y brenin o'r blaen, y rhai oeddynt blant ieuaingc, a gosodiad y goron ar ben Richard. Cyfrifir fod ei deyrnasiad yn dechreu o'r 26ain o Fehefin, 1483. Coronwyd ef yn Westminster ar y 6ed o Orphenaf dilynol. Naill ai am fod cymmeriad penderfynol Richard, a'r dienyddiadau a gymmerasant le, yn cynnyrchu ofn yn meddyliau y cyhoedd, neu ynte am fod rhan fawr o'r genedl yn ystyried fod ganddo well hawl i'r goron nag un o'i neiaint, rhaid addef, nid yn unig na bu gwrthwynebiad i'w esgyniad o un cyfeiriad, ond y mae yn ymddangos ei fod yn mhob man wedi derbyn cymmeradwyaeth gyffredinol. Aeth ar daith drwy y siroedd gogleddol, lle y derbyniwyd ef yn frwdfrydig. Yn Nghaerefrog, pa fodd bynag, pan yr oedd yn dychwelyd yn ol, deallodd fod cyfeillion ei neiaint yn ymuno i godi yn ei erbyn yn y siroedd deheuol a gorllewinol, a bod ei brif gynghorwr yntau wedi troi yn flaenor arnynt. Y mae yn debyg y cymmerasai terfysgoedd le yn siroedd Caergaint, Essex, Sussex, Berks, Hants, Wilts, a Devon, pe na buasai hyny wedi ei attal, pan ddeallwyd fod dau blentyn y diweddar Harri VI. wedi marw. Ac ni wnaeth y wybodaeth o hyn ond yn unig beri i'r cydfradwyr newid eu cynllun. Mewn cydsyniad â chynghor esgob Ely, cynnygiwyd y goron i Harri, Iarll Richmond, ar yr ammod ei fod yn priodi y dywysoges Elizabeth, merch Edward IV.; ac mor fuan ag y gwnaed ei gydsyniad yntau â hyn yn hysbys, ymgododd ei gefnogwyr, a chymmerasant arfau o'i du drwy yr holl wlad lle yr oedd ganddynt ddylanwad. Ond darostyngwyd y terfysg hwn yn ddioed. Wedi cyrhaedd gororau Devon, ni feiddiodd Richmond lanio; enciliodd llu o Gymry oddi wrth Buckingham, y rhai a godasai yn Mrycheiniog, a syrthiodd yntau i ddwylaw y brenin, a thorwyd ei ben yn ddioed yn marchnadfa Salisbury; ond gallodd y rhai mwyaf ffodus o'i gymdeithion ddiangc y tu hwnt i'r môr; ac erbyn diwedd y mis, nid oedd un o elynion Richard mewn arfau yn ei erbyn drwy Loegr.

Galwyd senedd ynghyd ar y 23ain o Ionawr, 1484, yr hon a basiodd gyfraith yn dadgan fod Richard yn frenin diammheuol teyrnas Lloegr, yn cyhoeddi plant Edward IV. ac Elizabeth Rivers yn fastardiaid, ac yn attafaelu meddiannau y gwrthryfelwyr. Cynnygiodd Richard yn awr ar fod ei fab hynaf i briodi y dywysoges Elizabeth, merch Edward IV.; ac ar farwolaeth ei fab, yr hyn a gymmerodd le tua'r pryd hwnw, syrthiodd y frenhines Anne yn glaf; ac efe a gynnygiodd briodi Elizabeth ei hun, a hyny cyn i Anne farw! O'r diwedd, pan bu farw Anne ar yr 16eg o Fawrth, 1485—nid heb fod ammheuon yn cael eu coleddu mai ei gwenwyno a gafodd —darfu i gynghorwyr Richard ei gynghori i beidio priodi Elizabeth, am y rheswm y buasai hyny yn sicr o gyffroi digllonrwydd y bobl o'r naill ben i'r llall i'r deyrnas; a chymmerodd yntau y drafferth ar hyn er rhoddi ar ddeall i bawb nad oedd efe erioed wedi meddwl am y fath beth. Yn y cyfamser, yr oedd sefyllfa pethau yn myned yn fwy anfoddhaol yn barhaus. Yr oedd y gweithredoedd ysgeler y bu yn euog o'u cyflawni yn creu casineb dwfn yn meddyliau y pendefigion a'r bobl. Ni feiddiai alw y senedd ynghyd yn y sefyllfa yr oedd meddwl y cyhoedd ynddo ar y pryd; a chafodd ei hun heb arian, ac o'r bron heb un cyfaill y gallasai roddi ymddiried llawn ynddo. Yr oedd y rhai mwyaf galluog o'i bleidwyr, y naill ar ol y llall, yn myned drosodd i Ffraingc i ymuno âg Iarll Richmond. O'r diwedd, glaniodd Harri ar y 7fed o Awst, 1485, yn Aberdaugleddyf; ac ar yr 21ain o'r un mis yr ymladdwyd brwydr fawr Bosworth, pryd y collodd Richard ei goron a'i fywyd, ac y daeth i derfyniad Ryfeloedd gwaedlyd y Rhosynau, yn ffafr teulu Lancaster. Gadawodd Richard ar ei ol un mab anghyfreithlawn o leiaf, yr hwn a elwid John o Gaerloyw; yr hwn, er ei fod yn bur ieuangc yr amser y bu farw ei dad, oedd wedi ei bennodi yn llywodraethwr Calais. Mynegir chwedl ramantus am un Richard Plantagenet, yr hwn a fu farw yn mhlwyf Eastwell, yn sir Caergaint, yn y fl. 1550, yn hen ŵr pedwar ugain a dwy flwydd oed, ar ol treulio ei fywyd yn saer priddfeini, yr hwn a haerai ei fod ef yn bresennol yn maes Bosworth, pryd y dywedodd Richard wrtho mai mab iddo ef ydoedd; ond nid oes un awdurdod credadwy dros y chwedl hon.

Y mae cymmeriad Richard, yn gystal a llawer o ddigwyddiadau ei deyrnasiad, wedi bod yn destyn dadl yn mysg ysgrifenwyr diweddar: y mae rhai yn myned mor bell a dyweyd nad yw yr holl weithredoedd drygionus a briodolir iddo yn ddim amgen na dyfeisiau ei elynion. Yr oedd Richard yn ddiammheuol yn ddyn o allu, oedd ac egni mawr; ond yn ei amcanion yr oedd yn hunanol a diegwyddor. Rhaid cofio, modd bynag, nad oedd yr oes yr oedd efe yn byw ynddi yn ystyried fod bywyd dynol ond o ychydig iawn o werth.

**RICHARD DE BURY**, ydoedd fab i Syr

Digitized by Google

Richard Angerville. Ganwyd ef yn 1287, yn rhywle ar etifeddiaeth ei dad, neu ynte yn Bury St. Edmunds; ond y mae yn debyg mai yr hyn a wnaeth iddo gymmeryd y cyfenw Bury oedd, iddo dderbyn yn y lle hwnw elfenau ei addysg gan ei ewythr, John de Willoughby, clerigwr. Pan yn gymmhwys i fyned i Rydychain, efe a aeth yno, lle y parhaodd i astudio nes y cafodd ei bennodi i'r swydd o athraw i'r tywysog ieuangc Edward (wedi hyny, Edward III.), ynghyd a derbyniwr ei gyllid yn Nghymru. Darfu i'r swydd hon ei alluogi i gynnorthwyo ei ysgolor brenhinol pan yr oedd yn gyfyng arno; o herwydd pan y ffodd Edward gyda'i fam i Paris, yr oeddynt mewn cyfyngder am ariau; ac aeth De Bury yn ddirgelaidd yno ar ei ol, i estyn ymwared iddynt, gan gymmeryd gydag ef swm mawr o aur, yr hwn a gasglwyd ganddo tra y gweinyddai ei swydd. Ond darganfyddwyd ei ffoedigaeth; ymlidiwyd ar ei ol gan bedwar ar hugain o wŷr meirch hyd yn Paris, lle y bu yn agos iddo a chael ei ddal; ac felly y buasai, oni bae iddo gael ei guddio yn llofft y gloch, yn Mynachdy y Brodyr Ieuaingc. Pan y daeth Edward i'r orsedd, gwobrwywyd ffyddlondeb ei athraw trwy ei ddyrchafu i swyddau uchel ac urddasol yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Ymwelodd Richard â Rhufain ddwywaith fel cenad at y pab Ioan XXII.; ac ar y ddau achlysur, ymddygwyd tuag ato yn dra anrhydeddus. Bob tro yr ymddangosai o flaen y pab a'i gardinaliaid, byddai yn ei ganlyn chwech ar hugain o ysgrifenyddion, ac un ar bymtheg ar hugain o ysweiniaid—ac oll wedi ymwisgo yn y modd mwyaf ysblenydd. Yr oedd ganddo lawer ffynnonell i dynu cyfoeth o honi heb law ei fod yn dderbyniwr cyllid y brenin dros Gymru. Yn y chwe blynedd cyntaf o deyrnasiad Edward, cyflwynwyd iddo ddwy berigloriaeth, chwech o gorberigloriaethau, archddeoniaethau Salisbury a Northampton, canoniaeth Weston, a deoniaeth Wells. Gyda chydsyniad y pab, ar ei ddyfodiad o Rufain, appwyntiwyd ef yn esgob Durham yn y flwyddyn 1333. Yn 1334, pennodwyd De Bury yn uchel-drysorydd Lloegr. Bu deirgwaith yn Paris yn ystod y tair blynedd dilynol ar negeseuau pwysig mewn cyssylltiad â hawliau brenin Lloegr i goron Ffraingc.

Nid ydyw yn ymddangos i De Bury ymddiswyddo oddi wrth nemawr o'i swyddau gwleidyddol mewn trefn i gyflawni ei swydd esgobol; ac y mae yn debyg na threuliodd ond ychydig o amser yn ei esgobaeth hyd y fl. 1338. Pan oedd amser yn caniatau iddo, yr ydym yn cael ei fod yn dilyn gorchwylion mwy cydnaws â'i chwaeth na gwleidyddiaeth. Damwain a'i gwnaeth ef yn wladweinydd—ond yr oedd yn ysgolhaig o ran ei arferion a'i dueddiadau naturiol. Pan yn ieuangc, ymhyfrydai yn nghymdeithas dynion dysgedig, ac yr oedd yn frwdfrydig yn ei hoffder at lyfrau—efe oedd casglwr llyfrau enwocaf ei oes. Ac yn ffodus, yr oedd y brenin yn dangos pob cefnogaeth i'r tueddfryd hwn oedd ynddo, ac yn caniatau iddo ddefnyddio dylanwad ei swydd i gario allan ei amcan. Pan ar ei deithiau, gartref ac oddi cartref, pwrcasai lawer o lyfrau; a gwnai ei hun yn adnabyddus o gynnwysiad pob casgliad cyhoeddus a phreifat o lyfrau yn mhob man. Heb law hyny, efe a ddywed ei hun, pan y deallwyd yn gyffredinol fod llyfrau, ac yn enwedig hen lyfrau, yn fwy gwerthfawr yn ei olwg nag arian, neu galenig, neu roddion o'r fath ag yr arferid eu cyflwyno yn ei amser ef, yr oedd llyfrau yn cael eu danfon yn anrhegion iddo o bob cyfeiriad. Trwy ei ymchwiliadau ef, gwaredwyd llawer o lyfrau a fuasent yn ddiau, o herwydd esgeulusdra, wedi myned i ebargofiant oni bae hyny; a pharai i'r rhai hyn gael eu hadgyweirio. Y llyfrau nas gallai eu cael ar werth, benthyciai hwynt mewn trefn i'w copio; ac i'r dybeu hwn yr oedd ganddo sefydliad o lyfr-rwymwyr, llyfrwerthwyr, ac addurnwyr llawysgrifau a llyfrau *(illuminators)*, yn ei balas. Mynegir ei fod o'r diwedd wedi dyfod i feddiannu mwy o lyfrau na holl esgobion ereill Lloegr ynghyd; ac y mae yn deyrnged deg o barch i'w goffadwriaeth i ddywedyd fod ei ymdrechion yn y cyfeiriad hwn wedi eu bwriadu er lles y cyhoedd, ac nid at foddio chwaeth bersonol yn unig. Mewn cymmunrodd a wnaed ganddo ychydig cyn ei farwolaeth, dywedai ei fod yn gadael ei holl lyfrau i gwmni o ysgolheigion a drigent yn un o neuaddau Rhydychain; ac anfonwyd y llyfrau yno. Rhoddwyd hwynt mewn neuadd yn y fan lle yr adeiladodd Hatfield goleg Durham, yr hwn a elwir yn awr yn Goleg y Drindod.

Yr oedd De Bury nid yn unig yn ddyn nodedig am ei ddysg, ond yr oedd hefyd yn noddwr haelionus ar ddysg a llenyddiaeth, ac yr oedd ei hoffder at lyfrau yr un a'i hoffder at lenyddiaeth, ac yn cynnwys dymuniad gwresog i gefnogi yr un tueddfryd mewn ereill. Gofidiai fod gwybodaeth o'r ieithoedd Groeg a Hebraeg mor ammherffaith yn ei amser. Nid oes ddadl nad oedd De Bury ei hun yn gydnabyddus â'r Groeg. Y mae yn ddiau fod y Groeg yn cael ei dysgu yn Lloegr rhyw gymmaint cyn ei amser ef. Yr hanes goreu am ei lafur a'i ymchwiliadau ydyw yr hwn a geir yn y "*Philobiblon*"—traethawd bychan a ysgrifenwyd ganddo er egluro amcanion ei fywyd, yn yr hwn y ceir cyfarwyddiadau ynghylch llyfrau yn gyffredinol, ac yn enwedig ynghylch ei gasgliadau ef o lyfrau, o herwydd yr oedd llawer yn diystyru ei gynlluniau. Ni wyddys am un gwaith arall o'i eiddo, er y crybwyllir am un o'r enw "*Orationes at Principes*" o'i eiddo, ynghyd â rhyw lythyrau a ysgrifenwyd ganddo. Diammheuol ei fod yn gohebu â phrif lenyddion ei oes. Dywed Petrarch am dano, gyda'r hwn y bu yn ymddiddan, ei fod yn ddyn o dueddfryd selog a brwdfrydig. Yr oedd yn ddyn o nodwedd rhagorol; cyfranai yn helaeth o'i eiddo i ysgolheigion anghenus, ac nid attaliai ei elusenau oddi wrth y tlodion. Y mae ei lyfr yn arwyddo fod ei awdwr yn ddyn dyngarol a chymmwynasgar, er fod yn rhaid condemnio ei waith yn anghymmeradwyo i wŷr lleyg ddefnyddio llyfrau. Bu farw yn Auckland, ar y 14eg o Ebrill, 1345, yn ddeunaw a deugain mlwyddood, a chladdwyd ef yn anrhydeddus yn nghongl ddeheuol eglwys gadeiriol Durham.

RICHARD O CIRENCESTER, yr hwn a elwir 'Mynach Westminster,' oedd hanesydd mynachaidd yn byw yn y bedwaredd ganrif ar ddeg; a gelwir ef felly oddi wrth enw ei le genedigol, Cirencester, yn swydd Caerloyw. Nid oes neb wedi gallu olrhain ei deulu, na gwybod yn fanwl yr amser y ganwyd ef; ond y mae yr addysg ragorol a dderbyniodd yn ein harwain i gasglu ei fod yn hanu o deulu cyfoethog. Aeth i fynachdy Benedictaidd Sant Pedr, Westminster, yn 1330. Digwydda ei enw mewn amryw o ysgrifau yn 1389, 1397, a 1399. Cyfansoddodd amryw o weithiau o hanesiaeth Brythonaidd

Digitized by Google

a Sacsonaidd, ac ôl cryn lafur arnynt; ac er cangu ei wybodaeth, efe a ymwelodd â'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd y deyrnas, er cael cyfleusdra i chwilio llawysgrifau gwreiddiol. Cafodd drwydded gan ei abad i ymweled â Rhufain yn 1391. Tybir iddo ymgymmeryd â'r daith hon rywbryd rhwng y blynyddoedd 1391 a 1397. Ymddengys ei fod wedi ei gaethiwo gan afiechyd yn nghlafdy y mynachdy yn 1401, a'i fod wedi marw yn ystod y flwyddyn hono, neu yn yr un ganlynol. Y mae ei "*Historia ab Hengista ad ann.* 1348," wedi ei gyfansoddi yn ddwy ran. Y mae y rhan gyntaf yn ymdrin â'r cyfnod, o ddyfodiad y Sacsoniaid hyd farwolaeth Harold. Ysgrifenodd ryw gymmaint ar dduwinyddiaeth; ond y gwaith enwocaf o'i eiddo ydyw ei "*De Situ Britanniæ*," yr hwn a fu yn gorwedd mewn llawysgrif hyd y flwyddyn 1747, pan y darganfyddwyd ef gyntaf gan Charles Julius Bertram, athraw yr iaith Saesnig yn yr Athrofa Forwrol yn Copenhagen, yr hwn a anfonodd gopi o hono i Loegr, i Dr. Stukeley. Cyhoeddwyd ef yn Copenhagen, yn 1757, gan Dr. Bertram. Yn y fl. 1809, cyhoeddwyd argraphiad o hono hefyd yn Llundain. Yr oedd llawer yn ystyried fod darganfyddiad y traethawd hwn yn ffurfio cyfnod newydd mewn efrydiaeth o hynafiaethau Brythonaidd. Yr oedd rhai wedi ceisio ymosod ar Richard fel un hygoelus, ac nad oedd ymddiried i'w roddi ynddo; ond ychydig a fu llwyddiant y cyfryw: o herwydd, pan y byddai yr hyn y bu yn ysgrifenu yn ei gylch yn goddef gwneuthur ymchwiliad lleol iddo, yr oedd hyny yn wastad wedi chwanegu at ei gymmeriad am ddilysrwydd. Dywed Gibbon am dano fel y canlyn:—"Dengys wybodaeth nodedig o gywir o'r hen amseroedd wrth ystyried mai mynach o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ydoedd."

RICHARDSON, SAMUEL: y nofelydd Saesneg cyntaf—tad y ganghen hon o lenyddiaeth. Ganwyd ef yn swydd Derby, yn y flwyddyn 1689. Asiedydd oedd ei dad, a bu yn gweithio yn Llundain; ond daeth i lawr i'r wlad, ac ymsefydlodd yn yr Amwythig. Teimlai awydd mawr am ddwyn ei fab i fyny yn glerigwr; ond o herwydd iselder ei amgylchiadau, nis gallai roddi iddo yr addysg angenrheidiol: a phan yn ddwy ar bymtheg oed, daeth Richardson ieuangc i fyny i Lundain, heb gael dim mwy o addysg nag a allai ei gael mewn ysgol gyffredin, a rhwymodd ei hun yn egwyddorwas gydag argraphydd o'r enw John Wilde. Yr oedd Richardson yn rheolaidd a ffyddlawn yn nghyflawniad ei ddyledswyddau; a phan y daeth yn rhydd, pennodwyd ef yn ben gweithiwr yn sefydliad Mr. Wilde. Yn mhen rhai blynyddoedd, cychwynodd fel argraphydd ar ei gyfrifoldeb ei hun yn Salisbury Court; a chan iddo lwyddo yn ei alwedigaeth, priododd gyda Miss Allington Wilde, merch ei hen feistr, yr hon a fu farw yn 1731. Bu iddynt bump o feibion, a merch. Wedi hyny priododd Miss Leake; o'r hon y bu iddo bump o ferched, ac un mab. Bu yn dra llwyddiannus fel argraphydd, gan iddo gael ei bennodi yn argraphydd i Dŷ y Cyffredin.

Mewn cyfnod lled ddiweddar ar ei fywyd y blodeuodd athrylith lenyddol Richardson. Ni bu ond ychydig gyssylltiad rhyngddo â llenyddiaeth, ond yn unig fel argraphydd, nes yr oedd tua deg a deugain oed; ond yn y flwyddyn 1740 efe a synodd yr holl wlad, a holl Ewrop, trwy ddwyn allan ei "*Pamela*"—nofel a aeth yn boblogaidd a llwyddiannus ar unwaith. Galwyd am bum argraphiad o'r gwaith yn ystod deuddeng mlynedd ar ol ei gyhoeddi. Yn 1748 daeth ei "*History of Clarissa Harlowe*," mewn pedair cyfrol, allan; a chynnyrchodd ddyddordeb anghyffredin yn ystod yr amser y bu yn cael ei gyhoeddi. Hwn, yn addefedig, ydyw prif orchestgamp yr awdwr. Ei drydydd, a'i waith mawr diweddaf, oedd "*The History of Sir Charles Grandison*," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1753. Ar y cyfan, y mae y gwaith hwn yn meddu llai o ddyddordeb na'r rhai a'i blaenorodd. Ar ol cyhoeddiad "*Clarissa Harlowe*," nid oedd yr edmygedd gyda pha un yr edrychid ar ei weithiau yn gyfyngedig i'r wlad hon yn unig: cyfieithwyd y llyfr i'r Ffrangcaeg a'r Almaenaeg, ac aeth yr awdwr yn enwog dros holl Ewrop. Cafodd lawer o elw, yn gystal ac enwogrwydd oddi wrth ei weithiau; a chan ei fod mewn masnach hefyd, yr oedd ei amgylchiadau bydol mewn sefyllfa flodeuog. Bu farw ar y 4ydd o Orphenaf, 1761, a chladdwyd ef yn eglwys St. Bride, Llundain.

Yr oedd Richardson yn nodedig o ddiargyhoedd a dilychwin o ran ei gymmeriad. Yn nghyflawniad ei ddyledswyddau moesol a chrefyddol nid oedd neb yn fwy gofalus a manwl nag efe. Ei wendid mawr oedd ei fod braidd yn ymffrostgar o'i enwogrwydd llenyddol, a rhyw gymmaint o duedd ynddo i brisio yn is na'u teilyngdod ysgrifenwyr ereill ei oes—yn neillduol y rhai oedd yn rhagori yn yr un gangen o lenyddiaeth ag yntau. Yr oedd y rhai hyn yn wendidau yn tarddu yn naturiol o'r amgylchiadau yr oedd ynddynt; ac yn cael eu meithrin gan y ganmoliaeth uchel a roddai ei gyfeillion iddo.

RICCI, MATTEO: Italiad enwog, sylfaenydd y genhadaeth Iesuitaidd i China. Ganwyd ef yn Macerata, yn Ancona, Hydref 6ed, 1552; ac ar ol astudio y gyfraith yn Rhufain, ymunodd â'r Iesuitiaid yn 1571. Yn mhen chwe blynedd, aeth gyda Valignan, arolygwr cyffredinol ar y genhadaeth ddwyreiniol, allan i'r India Ddwyreiniol. Ac am fod Valignan yn canfod ynddo gyfuniad o ddoethineb a sêl, dewiswyd ef ganddo i fyned i gyhoeddi a dwyn i mewn y grefydd Babaidd i China; ac wedi darparu ei hun ar gyfer ei anturiaeth lafurus, trwy astudio yr iaith Chineaidd yn Macao, ymdrechodd gael mynedfa i mewn i'r ymherodraeth. Ond ofer fu ei ymdrechion ar y cyntaf, ac ni chafodd y tadau Iesuitaidd ganiatâd i ymsefydlu yn Tchaoling-fu hyd y flwyddyn 1583. Gwelodd Ricci yn fuan mai gorchwyl anobeithiol oedd ceisio troi y Chineaid, oddi eithr iddo ei gyfaddasu ei hun hyd y gallai at chwaeth ddeallol y bobl, mor bell ag yr oedd egwyddorion ei grefydd yn caniatau iddo. Gwyddai am y gwerth mawr a roddid gan y Mandariniaid ar fedrusrwydd llenyddol; gan hyny, efe a gyhoeddodd fap Chineaidd o'r byd, ac hefyd gatecism, yn yr hwn y crynhowyd y rhanau hyny o Gristionogaeth sydd yn cynnwys egwyddorion cyffredinol moesoldeb. Ennillodd y ddau waith hyn i Ricci gymmeriad uchel yn mysg llenyddion China; talai y Mandariniaid enwocaf ymweliad âg ef, a dadganent eu hedmygedd o'i gymmeriad a'i dalentau. Yn 1595, penderfynodd Ricci, mewn modd eofn, fyned i Pekin, gan gredu y gallasai wneyd mwy fel cenhadwr crefyddol yn y brifddinas nag yn un man arall. Ac wedi cael caniatâd i fyned, gwisgodd wisg ysgolhaig Chineaidd, a chychwyn-

Digitized by Google

odd tuag yno gyda chwmni o Fandariniaid; ond ni oddefwyd iddo fyned yn mhellach na Nankin. Bu raid iddo ddychwelyd yn ol; ond yn Nan-tchang-fu cyfansoddodd [yr offeiriad penderfynol a medrus hwn ddau draethawd:—un ar y "*Gelfyddyd o Gofio*" (*Art of Memory*), a'r llall a elwid ganddo yn "*Gydymddiddan ar Gyfeillgarwch.*" Efelychiadau o weithiau Cicero oedd y rhai hyn; y rhai a foddiodd chwaeth y Chineaid i'r fath raddau fel y cyfrifwyd hwynt ganddynt yn mysg eu llyfrau goreu, a chaniatawyd i'r awdwr ffodus i fyned yn mlaen tua'r gogledd. Cyrhaeddodd i Pekin; ac er na lwyddodd i gael ymddiddan â'r ymherawdwr, caniatawyd iddo drigiannu yn Nankin, yr ail ddinas yn yr ymherodraeth, lle yr oedd ei enwogrwydd fel ysgolhaig yn cynyddu yn feunyddiol. Caniatawyd iddo ef a'i gymdeithion ymsefydlu yn Pekin yn y flwyddyn 1600, ac hyd yn oed i adeiladu eglwys yno. Treuliodd Ricci y gweddill o'i oes i ddysgu mesuroniaeth, a gwyddorau ereill, yno i'r trigolion, ac i ysgrifenu llyfrau ar destynau cyffredinol, yn gystal a chrefyddol, ac i ddefnyddio ei ddylanwad mawr gyda'r penadur, y llys, a'r dosbarthiadau mwyaf dysgedig, i sicrhau ffafr, diogelwch, ac amddiffyniad y llywodraeth i'r grefydd y daeth efe yno i'w lledaenu. Bu Ricci yn offeryn i droi llawer at y grefydd a broffesai; a thrwy ei sêl, codwyd amryw sefydliadau cenhadol yn y prifddinasoedd yn China. Bu farw yn 1610, a theimlid galar cyffredinol ar ei ol. Y mwyaf pwysig o'i weithiau ydyw math o "*Hunangofiant*" a ysgrifenwyd ganddo, yr hwn sydd yn cynnwys lliaws mawr o sylwadau ar ddaearyddiaeth yn gystal a hanes China. Y mae yn nheulu ei ddisgynyddion yn awr drigain a chwech o lythyrau dyddorol a ysgrifenwyd gan y cenhadwr enwog hwn.

RICHELIEU, ARMAND JEAN DU PLESSIS, CARDINAL DE: oedd fab ieuangaf Francoise du Plessis, Arglwydd Richelieu. Ganwyd ef yn Paris, Medi 5ed, 1585. Astudiodd yn ngholeg Navarre ar gyfer yr alwedigaeth filwraidd; ond gan fod ei frawd hynaf, Alphonse, esgob Luçon, wedi penderfynu rhoddi heibio ei esgobaeth, ac ymneillduo i fynachdy Carthusaidd, edrychid ar Armand ieuangc fel olynydd iddo yn ei esgobawd. Gan hyny, efe a ymroddodd i astudio duwinyddiaeth, a chymmerodd y teitl o ddoctor mewn duwinyddiaeth pan yn ugain mlwydd oed. Gwrthwynebai y pab iddo gael ei gyssegru yn esgob Luçon o herwydd ei ieuengctid; ond aeth Armand i Rufain, a llwyddodd i berswadio y pab ei fod yn gymmhwys i'r swydd esgobol, a chyssegrwyd ef yn 1607. Ymroddodd yn selog i gyflawni ei ddyledswyddau, ac i bregethu. Pennodwyd ef yn un o gynnrychiolwyr y clerigwyr yn nghymmanfa y Taleithiau Cyffredinol yn Poitou, yn 1614; ac yno tynodd sylw neillduol y fam-frenhines, Marie de Medici, trwy araeth a draddodwyd ganddo yn mhresennoldeb y brenin ieuangc, Louis XIII.: a hi a'i happwyntiodd ef yn elusenwr y wladwriaeth. Gwnaed ef yn fuan wedi hyny yn ysgrifenydd y rhyfel ac achosion tramor; ond mewn canlyniad i anghydweledi ad a gymmerodd le rhwng ei fam a'r brenin, bu raid i Richelieu ymadael o'r llys, a dychwelyd i'w esgobaeth. Medrodd Richelieu, trwy gyfrwng mynach, a elwid 'y tad Joseph,' heddychu y brenin a'i fam; ac o hyny allan yr oedd ei ddylanwad gyda'r naill a'r llall yn fawr. Yn 1622, gwnaed ef yn gardinal; ac yn 1624, appwyntiwyd ef yn brif weinidog y wladwriaeth—swydd a ddaliodd am y deunaw mlynedd dilynol o'i oes.

Y mae hanes gyrfa wleidyddol y gweinidog gwladwriaethol mawr a galluog hwn yn ffurfio cyfnod neillduol yn hanes brenhiniaeth Ffraingc. Eglur yw fod gan Richelieu dri pheth mawr yn ei olwg yn ei fywyd; sef, yn 1af, cryfhau awdurdod a gallu y goron, a darostwng y pendefigion gwriogaethol; 2il, difodi yr Huguenotiaid fel plaid wleidyddol; 3ydd, darostwng gallu tŷ Awstria, yn ei ganghenau Almaenaidd ac Yspaenaidd, ac eangu a helaethu awdurdod Ffraingc. Nid oedd mewn un modd yn orofalus o barthed i'r moddion a ddefnyddiai i gario allan ei amcanion; a llwyddodd i dori grym dylanwad gwleidyddol y pendefigion—llawer o ba rai ar amryw esgusodion a anfonwyd i'r dïenyddle ganddo. Rhoddodd i farwolaeth mewn modd creulawn y cadlywydd De Marillac, y Duc o Montmorency, Cinq Mars, a De Thou, a llawer ereill. Cauwyd ereill i fyny mewn daeargelloedd am ystod bywyd y cardinal. Ei brif elyn politicaidd ydoedd Gaston d'Orleans, brawd y brenin, yr hwn a gynllwynodd yn erbyn y cardinal. Troi yn fethiant a ddarfu i'r fradwriaeth, a bu hyn yn achos i amryw o gyfeillion Gaston gael eu rhoddi i farwolaeth. Cariodd Richelieu allan yn llwyddiannus yr ail beth oedd ganddo mewn golwg; sef, dymchweliad y blaid Huguenotaidd fel gallu politicaidd. Llywyddai Richelieu yn bersonol y fyddin a warchauai ar La Rochelle (1628), a chymmerodd yr amddiffynfa gadarn hono; ac mewn canlyniad i'w darostyngiad hi rhoddwyd i fyny amryw amddiffynfeydd Huguenotaidd ereill. Diogelodd Richelieu, pa fodd bynag, i'r Huguenotiaid fesur o oddefiad crefyddol; ac, ar y cyfan, cydnabyddir iddo arfer ei lwyddiant yn yr ymdrechfa hon yn dra chymmedrol.

Gyda golwg ar berthynasau Ffraingc â gwledydd ereill, ei amcan mawr yn ei holl fesurau oedd dymchwelyd grym a dylanwad Awstria. Er mwyn hyn ni phetrusai wneuthur yr oll yn ei allu i greu ac i feithrin ymraniadau mewnol yn yr Almaen; ac i'r dyben hwnw yr oedd yn foddlawn i ymgynghreirio â'r Protestaniaid Almaenaidd, ac hyd yn oed âg arwr mawr yr achos Protestanaidd, Gustavus o Sweden; ac mewn cyssylltiad â'i wladlywiaeth wrth-Awstriaidd, cymmerodd ran gyda'r taleithiau Yspaenaidd terfysglyd yn yr Iseldiroedd. Methodd a chario allan yn llwyddiannus ei olygiadau gyda golwg ar Belgium. I'r un dyben hefyd estynodd gymmhorth i'r gwrthryfelwyr yn Catalonia yn erbyn Phylip IV., ac anfonodd fyddin i Piedmont; ac nid oes un rhan o'r wladlywiaeth dramor a fabwysiadwyd ganddo yr ymlynodd wrthi mor egnïol hyd derfyn ei oes ag ydoedd darostyngiad Awstria.

Clafychodd Richelieu, a bu farw yn ei dŷ ei hun yn Paris, yn mis Rhagfyr, 1642, yn y ddeunawfed flwydd a deugain o'i oedran. Aeth y brenin at ei wely ychydig cyn iddo farw, pryd y cyflwynodd Richelieu Mazarin, ac ereill, i'w sylw; a dywedodd wrth ei fawrhydi ei fod yn gadael y deyrnas ar y pinacl uchaf o ogoniant, a thystiodd wrtho fod ei holl weithrediadau ef fel gweinidog y wladwriaeth wedi eu hamcanu i fod er lles i grefydd a'r wlad—honiad nodedig iawn oddi wrth ddyn o'i gymmeriad ef; ond o bossibl ei fod yn meddwl felly am ei weithrediadau ei hun. Yr oedd ei gladdedigaeth yn ardderchog.

Digitized by Google

Ond cynneuodd pobl Paris goelcerthau er amlygu eu llawenydd o herwydd yr amgylchiad. Yr oedd Richelieu yn ammhoblogaidd yn mlynyddoedd olaf ei oes, o herwydd y beichiau o drethi newyddion a osodasai ar y bobl. Gadawodd eiddo mawr ar ei ol, wedi ei gasglu wrth wasanaethu yr eglwys a'r wladwriaeth. Y mae ei wladlywiaeth o achosion mewnol Ffraingc wedi ei chondemnio, neu o leiaf wedi ei beio yn fawr iawn gan lawer. Yr oedd yn hollol ddibetrus gyda golwg ar y moddion a ddefnyddid ganddo yn erbyn ei elynion, ac yr oedd y treuliadau y bu ei ryfeloedd tramor yn foddion i arwain iddynt yn peri i feichiau trymion gael eu rhoddi ar ysgwyddau pobl Ffraingc. Efe oedd sylfaenydd athrofa Ffraingc, efe hefyd a adeiladodd y Palais Royal, ac a ail adeiladodd y Sorbonne. Yr oedd Richelieu yn ddyn galluog a gwybodus yn ei oes, a gadawodd ar ei ol amryw o weithiau ar wleidyddiaeth, ac ar byngciau dadleuol a chrefyddol. Yr oedd yn noddwr haelionus ar lenyddiaeth. Diammheu fod y cardinal Richelieu yn un o'r gweinidogion mwyaf a berthynai ar unrhyw adeg i heu frenhiniaeth Ffraingc; yr oedd yn meddu ar olygiadau eang, craffder a dyfalbarhâd dirfawr, a meddwl uchelfrydig; ond yr oedd hefyd yn ddialgar, creulawn, a diegwyddor. Dywed Montesquieu i Richelieu wneyd ei feistr yr ail ddyn yn y frenhiniaeth, ond y blaenaf yn Ewrop:—dywed ei fod wedi darostwng ei frenin, tra yn dyrchafu ei lywodraeth a'i deyrnas.

RICHTER, JEAN PAUL FRIEDRICH, yr hwn a elwir y rhan fynychaf yn Jean Paul, a anwyd yn Wunsiedel, yn Bavaria, ar yr 21ain o Fawrth, 1763. Ysgolfeistr ac organydd tlawd oedd ei dad pan anwyd Jean Paul; ond yn fuan wedi hyny pennodwyd ef yn offeiriad plwyf yn Schwarzenbach ar y Saale. Gan nad oedd ei rieni mewn amgylchiadau da, yr oedd y bachgen hyd yma wedi ei addysgu adref gan ei dad. Aeth i ysgol, modd bynag, lle y dysgid Lladin a Groeg, yn gystal a Hebraeg. Nid hir y bu ei arosiad yn yr ysgol hon; anfonwyd ef i Goleg Hof, lle yr arosodd am ddwy flynedd; ac yn y cyfamser bu farw ei dad, yr hwn oedd bob amser mewn amgylchiadau cyfyng, ac mewn dyled pan y bu farw. Yr oedd ewythr iddo o du ei fam yn cynnorthwyo Jean Paul i gael addysg. Yn 1781, efe a aeth i brifysgol Leipzic, gan fod ei berthynasau yn dewis iddo astudio duwinyddiaeth; ond ni ddarfu i hyn ei attal rhag crwydro yn rhydd dros holl gylch llenyddiaeth. Tra yn y brifysgol yr oedd yn dlawd iawn, ac yn aml yn analluog i gael ymborth o'r fath ag y dylasai ei gael. Er hyn, parhaodd i ddilyn ei efrydiau yn siriol. Mewn trefn i dori ei anghenion, efe a benderfynodd ysgrifenu llyfr, sef y "*Grönländische Processe.*" Ni chafodd ond ychydig iawn am y gwaith hwn; ond er lleied oedd hyny, efe a benderfynodd o hyny allan gynnal ei hun trwy ysgrifenu. Ysgrifenodd lyfr arall; ond nis gallai gael neb a ymgymmerai â'r gwaith o'i gyhoeddi, gan nad oedd ei waith blaenaf wedi cael derbyniad da. Ar ol cyfarfod llawer o siomedigaethau, ymadawodd Richter â Leipzic yn 1785, ac aeth i Hof, i breswylio gyda'i fam. Disgynodd yn ddyfnach mewn tlodi nag o'r blaen; ond yr oedd bywiogrwydd anorchfygol ei feddwl, a charedigrwydd ychydig o gyfeillion, yn ei gynnal i fyny drwy y cwbl. Yn 1786, cymmerodd y swydd o athraw yn nheulu Herr von Oerthel. Ond ar ddymuniad amryw deuluoedd ereill, efe a aeth i breswylio i Schwarzenbach, i gymmeryd y gofal o addysgu eu plant, lle y bu yn ysgolfeistr preifat am rai blynyddoedd. Yn y cyfamser, nid oedd wedi rhoddi i fyny ysgrifenu. Yr oedd ei "*Auswahl aus des Teufels Papieren,*" wedi ei gyhoeddi yn Gera; ond nid oedd y llyfr hwn yn fwy poblogaidd na'i ragflaenydd: ac yn ol pob ymddangosiad, nid oedd Richter yn debyg o lwyddo fel awdwr. Yr oedd mor hynod yn ei ddigrifwch, a'i lyfrau mor annhebyg i ddim oedd mewn llenyddiaeth yn flaenorol, fel y tybiai llaweroedd fod yr awdwr yn hanner gwallgof. Ond yn 1793, fe ymddangosodd ei "*Die Unsichtbare Loge*" ("*Y Gyfrinfa Anweledig*"), yr hwn sydd yn fath o ramant wedi ei sylfaenu ar ei brofiad ei hun fel ysgolfeistr; a phrofodd y gwaith hwn yn annisgwyliadwy lwyddiannus, a daeth gweled a derbyn aur yn beth cyffredin i lygad Richter! Yn y blynyddoedd dilynol, efe a ysgrifenodd lawer iawn; ac ystyrid ef yn awr yn un o lenorion penaf yr Almaen: yr oedd ei lyfrau yn mhlith y rhai mwyaf poblogaidd—yn enwedig yn mysg merched oedd wedi cael addysg dda.

Yn y fl. 1801, efe a briododd gyda Charlotte Maier, merch i physygwr enwog o Berlin; a theithiodd gryn lawer gyda'i wraig ieuangc drwy yr Almaen, gan ymweled â Schiller, Goethe, a dynion dysgedig ereill; ond gwnaeth Baireuth, yn Bavaria, yn gartref, ac yno yr oedd yn mwynhau parch ac edmygedd goreuon ei gydwladwyr. Yn 1809, caniataodd y tywysog-archesgob, Carl von Dalberg, iddo 1,000 o floriniaid o flwydddâl. Anrhydeddwyd ef gan brifysgol Heidelberg â'r gradd o ddoctor mewn philosophi yn y fl. 1817; a thair blynedd yn ddiweddarach etholwyd ef yn aelod o Athrofa y Gwyddorau yn Munich. O'r amser yr ymsefydlodd Jean Paul yn Baireuth, efe a ddilynodd ei lafur llenyddol mor aiddgar ag erioed, a chyhoeddodd yn y cyfamser ddeg neu ddeuddeg o gyfrolau newyddion. Yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd, blinid ef gan anhwyldeb yn ei lygaid; yr hwn, yn nechreu y flwyddyn ddiweddaf y bu fyw, a derfynodd mewn llwyr ddallineb. Yr oedd ei alluoedd corphorol hefyd wedi dechreu adfeilio er's rhai blynyddoedd; a bu farw ar y 14eg o Dachwedd, 1825. Yr oedd marwolaeth ei fab, Max, yn 1821, yr hwn oedd ddyn ieuangc tra addawol, wedi tori archoll anfeddyginiaethol ar ei galon. Ychydig cyn ei farw, yr oedd wedi gwneuthur darpariadau ar gyfer dwyn allan argraphiad cyflawn o'i weithiau. Gwnaed hyn gan Dr. Otto ar ol ei farwolaeth, yr hwn a olygodd ei holl weithiau, y rhai a gyhoeddwyd yn Berlin, yn drigain cyfrol wythplyg bychan.

Fel dyn, ac fel awdwr, yr oedd Jean yn un o'r rhai rhyfeddaf a gynnyrchodd yr Almaen erioed. Yr oedd mor syml a phlentyn, ac yr oedd ei ddyngarwch a'i garedigrwydd yn mron yn ddigyffelyb; etto, yr oedd yn meddu ar ddigon o ddewrder i ymdrechu âg anhawsderau a thlodi dirfawr, heb golli un gronyn o'i sirioldeb a'i dymmer dda. Mae ei weithiau, y rhai ydynt oll wedi eu hysgrifenu mewn rhyddiaith, a'r rhan fwyaf o honynt yn nofelau llawn o ddigrifwch diniwed, yn amlygu y teimlad mwyaf angerddol a dwfn, a'r wybodaeth eangaf o'r natur ddynol, a chydnabyddiaeth gyfarwydd agos â phob canghen o wybodaeth. Ond er holl ragoriaethau Jean Paul, y mae rhai amgylchiadau sydd yn peri nad ydyw ei weithiau mor boblogaidd ag y

Digitized by Google

maent yn teilyngu bod. Y mae ei syniadau a'i amgyffredion yn rhy ddwfn i gael eu deall yn rhwydd a'u gwerthfawrogi gan y lliaws, ac y mae ei feddyliau yn cael eu gwisgo mewn iaith, âg ynddi anhawsderau hyd yn oed i Almaenwr. Yn mhen amser etto i ddyfod y llawn werthfawrogir Jean Paul. Mae rhai darnau o'i weithiau wedi eu cyfieithu i'r Saesneg gan yr enwog Thomas Carlyle, ac ereill. Ysgrifenodd Carlyle hefyd ddau draethawd rhagorol ar fywyd, ysgrifeniadau, ac athrylith y dyn rhyfeddol hwn.

RHESYMEG [rheswm]; Saes., *Logic*, o'r Groeg λογική a λόγος:—y wyddor neu y gelfyddyd o ymresymu, neu y wyddor sydd yn ymwneyd â'r profion o wirionedd, neu y wyddor sydd yn dysgu deddfau meddwl fel y cyfryw—hyny ydyw, deddfau ffurfiol ac augenrheidiol meddwl. Daeth y wyddor hon i lawr atom ni oddi wrth y Groegiaid, gan mwyaf yn y ffurf a roddwyd iddi gan Aristotle, ei phrif ddadblygydd, a'r hwn yn wir y gellir ei ystyried fel tad y wyddor.

Bydd yn fanteisiol i ni, o bossibl, ymdrin â rhesymeg yn unol â chynllun Syr William Hamilton, o dan ddau brif raniad:—yn gyntaf, Yr arweiniad i'r wyddor; yn ail, Y corph o wirionedd sydd yn cyfansoddi y wyddor ei hunan.

Y RHAN GYNTAF:—ARWEINIAD I RESYMEG.

Daw amryw bethau dan ein sylw yn yr arweiniad, y rhai y bydd yn fantais bwysig i ni feddu syniadau cywir a chlir am danynt, fel parotoad i astudiaeth reolaidd o egwyddorion a rheolau y wyddor. Gellir cynnwys yn y rhan arweiniol:—Enw y wyddor—ei natur a'i dyben, neu ddeffiniad o honi—pa un ai gwyddor ynte celfyddyd ydyw, ai y ddau—ei defnydd—ei rhaniadau—ei hanes—a'i llenyddiaeth.

I. ENW Y WYDDOR.

Y mae tarddiad y gair Cymraeg *rhesymeg* yn eglur o *rheswm*, ac yn gorphwys ar y deffiniad o'r wyddor hon fel y gangen o wybodaeth sydd yn ymwneyd â deddfau rheswm, neu y gelfyddyd o ymresymu. Tardda yr enw Saesneg *logic* o'r ansoddair Groeg λογική, â'r hwn y mae rhyw enw, megys y gair am wyddor, celfyddyd, neu efrydiaeth, yn ddealledig. Nid yw y gair fel enw ar wyddor neillduol gan hyned a'r wyddor ei hunan. Defnyddia Aristotle y gair yn ei amrywiol weithiau; ond nid fel enw ar y wyddor, athrawiaeth yr hon y darfu iddo ef yn gyntaf ei dadblygu. Nid yw yn wybyddus pwy oedd y cyntaf a ddefnyddiodd y gair fel enw ar y wyddor neillduol hon. Dywed Boethius, yr hwn a flagurai tua diwedd y bummed ganrif, fod yr enw, *logic*, wedi ei roddi iddi yn gyntaf gan yr hen athronwyr a elwid y *Peripatetics* (dysgyblion Aristotle). Ceir y gair yn fynych yn ysgrifeniadau Alexander o Apophrodidias, yr esboniwr hynaf ar weithiau Aristotle, a'r hwn oedd yn blodeuo tua diwedd yr ail ganrif; ac y mae yn air cynnefin yn ysgrifeniadau yr holl ysgrifenwyr Aristotelaidd dilynol. Ond y mae yn ddiau fod λογική wedi dyfod yn enw adnabyddus ar y wyddor yn mhell cyn amser Alexander, o blegid defnyddir ef yn yr ystyr hwn unwaith ac eilwaith gan Cicero; a thybia rhai gwŷr dysgedig ei fod ef wedi benthyca y deinydd hwn o'r enw oddi wrth y Stoiciaid. Y mae Laertius yn priodoli y rhaniad o athroniaeth i resymeg, anianaeth (*physics*), a moeseg (*ethics*), i Zeno, sylfaenydd sect y Stoiciaid—rhaniad a briodolir weithiau mewn camgymmeriad i Plato.

Tardd yr ansoddair λογική (*logicê*) o'r enw λογος (*logos*); ac yr oedd y naill air ar y cyntaf yn gyfled o ran ystyr a'r llall. Yr oedd i'r gair *logos* yn Groeg ystyr deublyg. Golygai feddwl (*thought*), a'r amlygiad o hono mewn iaith—yn gyfystyr â *ratio* ac *oratio* y Lladiniaid. Bu raid i'r Groegiaid chwanegu gair gwahaniaethol at yr un cyffredin i ochel yr amwysedd a ddeilliai o osod allan ddau beth o dan un enw. Felly y mae Aristotle yn gwahaniaethu *logos*, pan yn golygu meddwl, oddi wrth *logos*, pan yn golygu ymadrodd, trwy alw y blaenaf yr hyn sydd oddi fewn, neu yr hyn sydd yn y meddwl; a'r olaf, yr hyn sydd oddi allan. Gwneid yr un gwahaniaethiad ar ol hyny drwy yr ymadroddion λόγος ενδιάθετος—*verbum mentis*—'gair y meddwl,' a λόγος προφορικὸς—*verbum oris*—'gair y genau.' Y mae yr amwysedd a berthynai fel hyn ar y cyntaf i'r gair *logos* yn egluro yr amwysedd a dreiglodd i'r gair *logicê*, yr hwn a darddodd o hono; ac y mae yr amwysedd oedd ynglŷn â'r gair a enwyd olaf—y gair a ddaeth yn enw ar y wyddor o resymeg—wedi dylanwadu ar y golygiadau a gymmerwyd ar fater a gwrthddrychau y wyddor.

Yr enw hynaf oll ar y wyddor o resymeg ydoedd *dialectic*. Fel yr awgrymwyd eisoes, yr oedd y wyddor mewn bod, ac wedi cyrhaedd gradd uchel o berffeithrwydd, cyn i'r enw presennol (*logic*) gael ei roddi arni. Defnyddid yr enw *dialectic* gan Plato mewn ystyr eangach na *logic*, i ddynodi dosbarth neillduol o athroniaeth. Cynnwysai, nid yn unig resymeg (*logic*), ond uchanianaeth (*metaphysics*) hefyd. Yr oedd y dosbarth hwn yn cynnwys, nid yn unig ffurf, ond mater ein gwybodaeth. Tardda y gair *dialectic* o διαλεκτική, yr hwn sydd yn enw wedi dyfod o'r ferf διαλέγεσθαι, yn arwyddo cyd-ymddiddan. Arwydda *dialectic* felly yn llythyrenol, ymddiddan, ymgom, neu ddadl. Deffiniai Plato y gwaith o feddwl fel ymddiddan mewnol yr enaid âg ef ei hunan; a rhoddodd yr enw *dialectic*, nid yn unig ar gasgliadaeth resymegyddol, ond ar ddamcaniaeth arddansoddol. Ond os oedd Plato yn defnyddio y gair i osod allan fwy na rhesymeg, defnyddiai Aristotle ef i osod allan lai: cyfyngai ef at un gangen o resymeg; sef rhesymeg tebygolrwydd—yr hyn sydd yn dyfod i'r un peth a'r hyn a eilw efe yn *topics*= τοπική. Ceir ei fod yn defnyddio amryw enwau i osod allan amryw ranau neu gymmhwysiadau o resymeg. Nid oedd gan Aristotle un enw pennodol ar y wyddor o ba un yr oedd efe yn brif awdwr a pherffeithydd. Er fod yr enw Cymraeg *rhesymeg* yn eglur, ac heb un hanes yn perthyn iddo, y mae olrhain hanes yr enw Saesneg, *logic*, yn angenrheidiol dybygid, fel y ceisiwyd gwneyd, hyd yn oed mewn erthygl Gymreig, gan ei fod yn ein cario yn ol i'r Groeg, ac felly at dad y wyddor, a'i hymffurfiad boreuol.

II. EI NATUR, A'I DYBEN.

Dan y pen hwn yr ydym i roddi darnodiad o resymeg; hyny yw, atteb y cwestiwn, Beth yw rhesymeg, o ran ei natur a'i dyben? Y mae hwn yn gwestiwn tra phwysig, ac yn un sydd yn ein cyfarfod ar drothwy yr ymchwiliad, gan fod meddu syniad clir ar hyn yn anhebgorol fel parotoad i efrydiaeth lwyddiannus o'r wyddor—fel yn wir y mae darnodiad cywir o unrhyw destyn yn angenrheidiol tuag at ymchwiliad effeithiol iddo. Ond er mor angenrheidiol yw hyn, rhaid addef yr ymddengys ar yr olwg gyntaf yn anhawdd. Rhesymeg ydyw y wyddor sydd yn ein

Digitized by Google

dysgu i wneuthur darnodiad cywir o bob peth; ond gellid meddwl fod y wyddor sydd yn ein dysgu i ddarnodi pob peth arall y peth anhawddaf ei hunan i'w darnodi o'r cwbl. Arweinir ni i dybied hyny oddi wrth y ffaith fod yr ysgrifenwyr mwyaf ar y wyddor yn gwahaniaethu yn eu darnodiad o honi; yr hyn sydd wedi achlysuro llawer o ddadleu. Ond nid ydyw yr anhawsder wedi y cwbl yn gymmaint ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Erbyn craffu yn fanylach, gwelir fod y gwahaniaeth yn y darnodiadau yn cyfodi, nid oddi ar wahaniaeth barn am hanfod y wyddor, ond oddi ar edrych arni o wahanol safleoedd, neu oddi ar roddi arbenigrwydd mwy i ryw ran o honi, neu weithiau oddi ar ddim ond gwahanol ddulliau o eirio yr un peth o ran sylwedd.

I. Cwestiwn ag y bu llawer o ddadleu yn ei gylch ydyw—pa un ai gwyddor, ai celfyddyd, yw rhesymeg, ynte a ydyw yn un o'r ddau, neu ynte y ddau? Ac os gwyddor, pa un ai un ymarferol ai damcaniaethol, ai y ddau? Y mae Syr William Hamilton, gyda'i ddysgeidiaeth anghymharol o ran eangder a manylrwydd yn ysgrifeniadau athronyddol yr oesoedd a'r gwledydd, wedi cymmeryd y drafferth o ddosbarthu bron yr holl ysgrifenwyr ar resymeg yn ol y golygiad a gymmerent ar y cwestiwn hwn. Dywed yr un pryd fod y ddadl ar hyn y fwyaf ofer yn holl hanes damcaniaeth; a chyn belled ag y mae a wnelo rhesymeg â hi, nad yw o'r pwys lleiaf pa fodd y penderfynir y cwestiwn. Ei reswm dros ddyweyd felly ydyw—mai nid oddi ar wahaniaeth barn am natur ac amcan rhesymeg y bu athronwyr yn dadleu â'u gilydd am yr enw i'w roddi arni—ai gwyddor, ai celfyddyd ydoedd. Ystyr y ddadl mewn gwirionedd oedd, beth yn briodol yw celfyddyd, a pha beth yw gwyddor; ac yn ol eu syniad ar yr hyn yw gwyddor a'r hyn ydyw celfyddyd, yr honent fod rhesymeg yn wyddor neu yn gelfyddyd, neu y ddau, neu nad oedd yn un o'r ddau.

A ganlyn ydyw darnodiad Dr. Whately yn nechreu ei draethawd ar "*Elfenau Rhesymeg*:"—

"Gellir ystyried rhesymeg, yn yr ystyr eangaf ag y mae yn bossibl gyda phriodoldeb ei roddi i'r enw, fel y wyddor, ac hefyd fel y gelfyddyd o ymresymu. Chwilia i'r egwyddorion ar ba rai y dygir rhesymu yn mlaen, a gesyd reolau i sicrhau y meddwl rhag cyfeiliornad yn ei gasgliadau. Ei swydd fwyaf priodol, er hyny, ydyw gwneuthur elfeniad o ddull y meddwl yn gweithredu mewn ymresymu; ac yn y golygiad hwn, y mae mewn ystyr manwl yn wyddor; tra, wrth ei hystyried mewn cyfeiriad at y rheolau ymarferol a grybwyllwyd, y gellir ei galw y gelfyddyd o ymresymu. Y mae y gwahaniaethiad hwn, fel y gwelir yn mlaen, wedi cael edrych drosto, neu wedi bod heb ei nodi allan yn glir, gan y rhan fwyaf o ysgrifenwyr ar y mater; gan yr edrychid yn gyffredin ar resymeg fel celfyddyd yn unig, ac y gwedid yn bendant ei hawl i gael lle yn mhlith y gwyddorau."

Beirniada Syr William Hamilton y paragraph uchod yn llym, gan ei osod allan yn gyfeiliornus o'i ddechreu i'w ddiwedd. Dywed, yn y lle cyntaf, ei fod yn gyfeiliornus am yr hyn a haera o barth i farn athronwyr am resymeg—yr edrychid arni yn gyffredin fel celfyddyd, tra y gwedid ei hawl i le yn mhlith y gwyddorau; ac mai y gwrthwyneb hollol a fuasai yn wir, gan fod y mwyafrif mawr o resymegwyr hen a diweddar yn edrych ar resymeg fel gwyddor, ac yn gwadu yn bendant ei bod yn gelfyddyd. Yn ail, ar y dybiaeth fod darnodiad Whately o wyddor a chelfyddyd yn gywir, na buasai cymmaint ag un o'r rhesymegwyr blaenorol yn dychymygu am wadu fod rhesymeg y naill a'r llall, yn ol yr ystyr yna i'r geiriau. Ond yn y trydydd lle, fod y gwahaniaethiad ei hun (a wneir gan Whately) rhwng gwyddor a chelfyddyd, yn gyfeiliornus—gan, yn ol ei ddeffiniad ef, y byddai pob celfyddyd, yn ei rhan athrawiaethol, yn dyfod yn wyddor, a phob gwyddor ymarferol yn dyfod yn gelfyddyd; ac felly y buasai moeseg, gwladlywiaeth, a chrefydd, yn gelfyddydau. Ond chwanega, yn bedwerydd, pe buasai y gwahaniaethiad yn gywir, na buasai o ddim gwerth, gan nad yw yn gwahaniaethu dim mewn gwirionedd. Ni buasai yr ystyr yna i wyddor a chelfyddyd yn nodi allan yr un gwahaniaeth gwirioneddol rhwng amrywiol ganghenau gwybodaeth—ond yn unig dau ddull gwahanol o edrych ar yr un gangheu, gan y byddai pob un mewn gwahanol berthynasau ar unwaith yn wyddor ac yn gelfyddyd. Darnodiad Syr William ei hun, cyn belled ag y mae y cwestiwn hwn yn myned, yw, mai gwyddor ydyw rhesymeg; ac nid hyny yn unig, ond ei bod yn wyddor arddangosol hefyd, fel y cawn weled yn mhellach yn mlaen—*a demonstrative or apodictic science.*

O'n rhan ein hunain, nis gallwn weled fod yn hawdd dywedyd dim yn fwy boddhaol ar y cwestiwn hwn na'r dyfyniad canlynol o lyfr y proffeswr Jevons ar "*Resymeg*;" yr hwn, fel Whately, sydd yn gwneyd rhesymeg o ran ei hegwyddorion yn wyddor, ac o ran ei rheolau yn gelfyddyd:—

"Ymddengys yn sylweddol gywir a digonol i ddyweyd fod rhesymeg yn wyddor, cyn belled ag y mae yn unig yn gwneyd ymchwiliad i egwyddorion a ffurfiau angenrheidiol meddwl, ac felly yn ein dysgu i ddeall yn mha beth y mae meddwl yn gywir yn gynnwysedig; ond ei bod yn dyfod yn gelfyddyd pan y mae yn cael ei chymmeryd i fyny mewn ffurfio rheolau i gynnorthwyo dynion mewn cael allan ymresymu gau. *Gwyddor a'n dysga i wybod, a chelfyddyd i wneuthur;* ac y mae yr oll o'r gwyddorau mwyaf perffaith yn arwain i ffurfiad celfyddydau defnyddiol cyfattebol. Seryddiaeth yw sylfaen y gelfyddyd o forwriaeth, yn gystal ag o drefniad yr amseroni ac amseryddiaeth. Anianaeth yw sail y gelfyddyd o feddygiaeth, ac y mae fferylliaeth yn sylfaen amryw o gelfyddydau defnyddiol. Yr un modd y mae rhesymeg wedi cael ei hystyried fel sylfaen celfyddyd o ymresymiad neu ymchwiliad cywir, yr hon a ddysgai yr iawn ddull sydd i'w ddilyn yn yr holl wyddorau. Y rhesymegwr Brytanaidd enwog, Duns Scotus, yr hwn oedd yn byw yn y drydedd ganrif ar ddeg, a'r hwn a alwodd resymeg yn *wyddor y gwyddorau,* a'i galwodd hefyd yn *gelfyddyd y celfyddydau,* gan roddi mynegiad cyflawn i'w blaenafiaeth. Y mae ereill wedi ei deffinio, 'Rhesymeg yw y gelfyddyd o gyfeirio y rheswm yn iawn mewn casglu gwybodaeth am bethau, er ein haddysgiad ein hunain, ac ereill.' Y golygiad yma ar resymeg a gymmerai y Dr. Isaac Watts pan alwai ei lyfr adnabyddus ar yr enw '*Y Gelfyddyd o Feddwl.*' Yr un pryd, gellir yn deg ddywedyd fod gan resymeg fwy o ffurf gwyddor na chelfyddyd, am y rheswm hwn—fod pob dyn o angenrheidrwydd yn cyrhaedd y gallu a'r arferiad o ymresymu yn mhell cyn iddo hyd yn oed wybod am yr enw rhesymeg."—"*Elementary Lessons in Logic,*" by W. Stanley Jevons, M.A., professor of logic in Owen's College, Manchester, gwers i., td. 7, 8.

II. Ond yn awr yr ydym yn dyfod at y cwestiwn pwysig, Pa beth yw Rhesymeg? Beth yw ei natur a'i dyben? Ar un llaw, rhaid addef nas gellir deall y cwestiwn hwn yn ei holl gyflawnder a'i fanylrwydd, ond trwy astudiaeth reolaidd

Digitized by Google

o'r wyddor ei hunan; ond ar y llaw arall, y mae yn amlwg nas gellir astudio rhesymeg, nac unrhyw wyddor arall, i bwrpas, heb feddu syniad clir a chywir, mor belled ag y mae yn cyrhaedd, wrth ddechreu am ystyr ac amcan cyffredinol y wyddor. At hyn yr ymgeisiwn yn awr. Ac nis gwyddom am ddim gwell i'r dyben hwn na chymmharu y gwahanol ddeffiniadau a wneir o'r wyddor gan y prif ysgrifenwyr arni. Y mae yn wir fod y deffiniadau hyn yn amrywio cymmaint, fel y gallesid meddwl ar yr olwg gyntaf na buasai edrych arnynt gyda'u gilydd yn gwneyd dim ond dyrysu yr efrydydd, trwy lenwi y meddwl âg ansicrwydd: ond os edrychir arnynt yn fanwl, ceir gweled fod y gwahaniaeth rhyngddynt yn cyfodi, nid oddi ar wahaniaeth hanfodol yn meddyliau yr ysgrifenwyr am natur y wyddor, ond yn hytrach oddi ar edrych arni o wahanol safleoedd, ac o ganlyniad ei disgrifio yn ei gwahanol ochrau neu gyssylltiadau—oddi ar fod un yn cymmeryd golwg mwy eang arni, a'r llall un mwy cyfyng—oddi ar wahaniaeth barn am bwysigrwydd cymmhariaethol ei gwahanol ranau â'u gilydd; y naill yn rhoddi arbenigrwydd neillduol i un ran, a'r llall i ran arall; a thrwy hyny y naill a'r llall yn gwneuthur y rhan a ystyria pob un yn fwyaf pwysig i ffurfio prif nodwedd y wyddor:—ac yn olaf, fel yr awgrymwyd o'r blaen, oddi ar fod gwahanol ysgrifenwyr yn fynych yn defnyddio gwahanol ddulliau ac ymadroddion i osod allan yr hyn, erbyn ei chwilio, sydd yn dyfod yn hollol i'r un peth o ran sylwedd. O ganlyniad, y mae cymmharu y gwahanol ddarnodiadau hyn â'u gilydd, yr hyn a allasai ymddangos ar y cyntaf o duedd i ddyrysu yr efrydydd, yn dyfod mewn gwirionedd yn un o'r gwersi mwyaf buddiol mewn ffordd o arweiniad i'r efrydiaeth.

III. Y darnodiad symlaf a roddwyd, neu a ellir ei roddi, o resymeg yw, 'Y Gelfyddyd o Feddwl.' Bai hwn yw, ei fod yn rhy eang, ac yn cynnwys mwy na'r testyn: y mae yn ammhennodol, ac felly nid yw yn darnodi—yn dyweyd cymmaint fel nad yw mewn gwirionedd yn dyweyd dim. Yr un pryd, y mae yn gwasanaethu i ddwyn i sylw y syniad mwyaf cyntefig y gellir ei ffurfio am natur y wyddor; sef, ei bod yn ymwneyd â rhai o ddeddfau a gweithrediadau y *meddwl*. Y mae rhesymeg, gan hyny, yn dwyn perthynas âg athroniaeth feddyliol—neu yn un o'r gwyddorau sydd yn ei chyfansoddi. Yn ngeiriau ysgrifenydd yr erthygl ar resymeg yn yr "*Encyclopædia Britannica:*"—"Y mae rhesymeg, fel y mae yn dadblygiad rheolaidd o ddosbarth o ddeddfau meddyliol, yn cymmeryd ei lle yn mhlith y gwyddorau a gyfansoddant athroniaeth y meddwl. Un o'r gwyddorau deilliedig hyny ydyw sydd yn ymganghenu ar bob llaw oddi wrth feddyliaeth *(psychology);* yr hon yw un wyddor wreiddiol a chanolog y cylch."

Darnodiad cyffelyb i'r un uchod mewn byrder a symledd yw:—"Y wyddor, neu y gelfyddyd, o ymresymu." Dyma ddarnodiad Dr. Whately, a'r rhan fwyaf o'r ysgrifenwyr ar resymeg. Megys y mae y darnodiad blaenorol yn feius mewn bod yn rhy eang, felly, yn ol rhai ysgrifenwyr diweddar, perthyna i'r darnodiad hwn y bai cyferbyniol o fod yn rhy gyfyng. Cynnwysa rhesymeg weithrediadau meddyliol, angenrheidiol er cael allan y gwirionedd, nad ydyw y gair *ymresymu* yn cyrhaedd drostynt; megys amgyffrediad—sef, ffurfiad syniadau cyffredinol, a barn—neu y dadganiad o osodiadau.

Awn yn mlaen yn awr at ddarnodiadau llawnach a diweddarach. "Rhesymeg yw y wyddor *à priori* (yn mlaen llaw) o ddeddfau angenrheidiol meddwl, gyda chyfeiriad, nid at wrthddrychau neillduol, ond at bob gwrthddrychau pa bynag."—*Kant.* "Rhesymeg yw y wyddor o reolau meddwl....Nid ydyw yn cymmeryd un cyfrif o wahaniaethau yn mysg y gwrthddrychau. Cynnwysa, gan hyny, reolau i feddwl fel meddwl: a rhaid i'r rheolau hyn fod o ganlyniad yn gyffredinol ac angenrheidiol; hyny yw, rhaid iddynt fod yn ddeddfau."—*Kiessewetter.* "Rhesymeg bur yw y wyddor o ffurf meddwl."—*Hoffbauer.* Rhesymeg yw y wyddor o *ddeddfau meddwl fel meddwl;* hyny yw, o'r ammodau angenrheidiol i ba rai y mae yr oll o feddwl, a'i ystyried ynddo ei hun, yn ddarostyngedig. Gelwir hyn yn gelfyddydol ei ffurf. Mae rhesymeg, gan hyny, yn tybio tynu ymaith bob ystyriaeth o *fater* meddwl; hyny yw, y gwrthddrychau pendant afrifed mewn perthynas â'r naill neu y llall o ba rai y mae yn weithredol yn cael ei amlygu."—"*Sir William Hamilton's Reid, and Lectures on Logic.*" "Rhesymeg sydd wyddor ffurfiol: ni chymmer unrhyw ystyriaeth o fodolaeth wirioneddol, neu o'i pherthynasau; ond y mae yn ymwneyd yn unig o barth i'r fodolaeth hono a'r perthynasau hyny y rhai ydynt yn cyfodi trwy, ac yn cael eu rheoleiddio gan, ammodau meddwl ei hunan.........Gwahaniaethir rhesymeg oddi wrth feddyliaeth, uchanianaeth, &c., fel gwyddor resymyddol, nid sylweddol—fel un ffurfiol, nid materol.......... Nid oes ganddi, a llefaru yn briodol, ddim i'w wneyd â'r llwybr, neu y gweithrediad; ond y mae yn ymgydnabod yn unig â'i ddeddfau."—"*Sir William Hamilton's Discussions.*" "Rhesymeg ddadansoddol yw y wyddor o ddeddfau ffurfiol casgliad *(inference)*."—*Karslake.* "Rhesymeg yw damcaniaeth casgliad *(the theory of inference)*. O amgylch y gosodiad hwn y mae pob ymgais tuag at ddeffiniad manwl o'r wyddor yn troi."—*Spalding:* "*Encyc. Brit.,*" erth. *Logic.* "Rhesymeg yw y wyddor o ddeddfau a chynnyrchion meddwl pur neu ffurfiol."—*Mansel.* Gwelir fod yr oll, oddi eithr un, o'r darnodiadau uchod, er y gwahanol ddulliau o eirio, yn dyfod yn sylweddol i'r un peth. Swm a sylwedd y cwbl yw, mai rhesymeg yw y wyddor sydd yn ymwneyd â deddfau ffurfiol neu angenrheidiol meddwl. Ni a ddychwelwn at y darnodiad hwn etto, i roddi eglurhâd manylach o'i ystyr.

IV. Gadawsom allan o'r rhestr uchod un o'r ysgrifenwyr diweddar enwocaf ar resymeg; sef, y diweddar Mr. John Stuart Mill, am ein bod yn ystyried ei ddarnodiad ef yn ddigon pwysig i hawlio sylw ac eglurhâd wrtho ei hunan. Ar ei athrawiaeth ef y mae yr un darnodiad a eithriadwyd uchod wedi ei sylfaenu; sef, yr eiddo ysgrifenydd yr erthygl ar resymeg yn yr "*Encyclopædia Britannica.*" Nid gormod yw dyweyd fod Mr. John Stuart Mill wedi dwyn i mewn olygiad newydd, yr hwn sydd wedi gwneyd gwahaniaeth pwysig yn marn y rhai a'i mabwysiadant am ddeffiniad a swyddogaeth y wyddor hon. Yn ol yr awdwr hwn, "rhesymeg yw y wyddor sydd yn ymwneyd â'r gweithrediadau hyny o eiddo y deall y rhai ydynt wasanaethgar i'r gwaith o farnu prawf; yn cynnwys y gweithrediad ei hunan o fyned yn mlaen oddi wrth wirioneddau adnabyddus at rai anadnabyddus, ynghyd â phob gweithrediadau deallol ereill mor bell ag y maent yn gynnorthwyol i

Digitized by Google

hyn. Cynnwysa, gan hyny, y gwaith o enwi; o blegid y mae iaith yn offeryn meddwl, yn gystal ag yn gyfrwng i drosglwyddo ein meddyliau. Cynnwysa hefyd ddarnodiad a dosbarthiad."—Mill's "*Logic*," cyf. i. "*Introduction*," tudal. 11, § 7. Wele etto ddarnodiad nodedig o glir o'r rhandir neillduol o feddwl ag sydd o dan lywodraeth rhesymeg, yn ol golygiad yr awdwr hwn:—"Rhaid cyfyngu tiriogaeth rhesymeg i'r gyfran hono o'n gwybodaeth ag a wneir i fyny o gasgliadau oddi wrth wirioneddau adnabyddus o'r blaen; pa un bynag a fydd y seiliau blaenorol hyny yn osodiadau cyffredinol, neu sylwadau a syniadau neillduol. Nid gwyddor grediniaeth yw rhesymeg; ond gwyddor prawf, neu dystiolaeth. Mor bell ag y mae crediniaeth yn proffesu bod yn seiliedig ar brawf, swydd rhesymeg ydyw gosod maen prawf er cael allan pa un a ydyw y grediniaeth yn gorphwys ar sail ddigonol, ai nid ydyw. Nid oes gan resymeg ddim i'w wneyd â'r hawliau sydd gan unrhyw osodiad i grediniaeth oddi ar dystiolaeth ymwybyddiaeth; hyny ydyw, heb brawf yn ystyr priodol y gair."—Mill's "*Logic*," cyf. i., §4, tudal. 8.

Yn ol golygiad Mill, gan hyny, dyna ydyw yr amcan ymarferol pendant sydd i'r wyddor o resymeg—pwyso neu farnu prawf: mewn geiriau ereill, nid cael allan yr oll o wirionedd, ond y rhanau hyny o wirionedd ag ydynt yn cael eu sicrhau trwy gyfrwng gwirioneddau ereill, neu drwy gasgliadaeth (*inference*). Yn ol hyn, dyben eithaf yr holl wyddor ydyw dwyn yn mlaen yn gywir y gweithrediad meddyliol o gasglu y naill beth oddi wrth beth arall. Tuag at farnu cywirdeb y gweithrediad hwn, rhaid gosod i lawr wir safonau (*criteria*) casgliadaeth; a thuag at hyn y mae yn angenrheidiol rhoddi rhyw gymmaint o efrydiaeth i rai o weithrediadau y deall dynol; ond nid cyn belled ag i droi rhesymeg i gyfundrefn o athroniaeth feddyliol, ond yn unig mor bell ag i wasanaethu yr amcan mewn golwg. Felly, yn ol golygiad Mr. Mill, nid "deddfau angenrheidiol meddwl" sydd yn cyfansoddi mater y wyddor o resymeg, ond deddfau meddwl yn unig yn eu perthynas â chasgliadaeth (*inference*).

Ond tuag at gael golygiad cywir ar brif neillduolrwydd cyfundrefn Mr. Mill o resymeg, rhaid i ni ymdroi am ychydig yn y lle hwn i egluro natur casgliadaeth. Y mae casgliadaeth o ddau fath: deoliad (*deduction*), neu gasgliadaeth ffurfiol (*formal inference*); a chyfosiad (*induction*), neu gasgliadaeth wirioneddol (*real inference*). Yn y blaenaf, yr ydym yn tynu allan; ac yn yr olaf yn dwyn i mewn (fel y mae y geiriau Saesnig am y ddau weithrediad yn arwyddo yn llythyrenol). Nodwedd arbenig y dull blaenaf ydyw, fod y cynseiliau (*premises*) yn fwy na'r casgliad; tra yn yr olaf, y mae y casgliad yn fwy na'r cynseiliau. Enghraifft o'r dull cyntaf yw y cyfresymiad (*syllogism*) fel hyn—

Y mae pob dyn yn bechadur:
Yr ydym ni yn ddynion—
(Gan hyny) Yr ydym ni yn bechaduriaid.

Gwelir nad oes yn y casgliad; sef, y drydedd linell, ddim nad yw eisoes yn gynnwysedig yn y cynsail, sef y llinell gyntaf. Cymmhwysiad yn unig ydyw o wirionedd cyffredinol at amgylchiad neu esampl neillduol. Dyna y dull cyntaf a nodwyd; sef, deoliad, neu gasgliadaeth ffurfiol. Hwn yw y math o gasgliadaeth yr ymdrinir âg ef mewn rhesymeg ddeoliadol neu gyfresymiadol (*deductive or syllogistic logic*); a'r dosbarth hwn, hyd yn ddiweddar, a wnelai i fyny yr oll o resymeg. Ond yn y math arall o gasgliadaeth, sef yr un gyfosiadol (*inductive*), tynir casgliad sydd yn eangach na'r cynseiliau, trwy yr hyn yr ydym yn gwneyd cynnydd gwirioneddol yn ein gwybodaeth. Yr ydys yn ymresymu oddi wrth yr adnabyddus at yr anadnabyddus. Oddi wrth ryw bethau pennodol ag yr ydym wedi eu cael allan i sicrwydd, trwy wneyd prawf (*experiment*) uniongyrchol, yr ydym yn casglu pethau ereill nad ydys wedi eu sicrhau trwy brawfion uniongyrchol; a pha rai nas gallasem byth eu cael allan heb wneuthur y prawfion hyny (yr hyn mewn lliaws mawr o enghreifftiau a fuasai yn ammhossibl), oddi eithr drwy y dull hwn o weithio ein ffordd o'r gwybyddus at yr anwybyddus. Wele esampl:—

Y mae yn bwngc o sicrwydd, yn dyfod o dan ein sylwadaeth bersonol yn barhaus, fod y ffrwyth wrth ddisgyn oddi ar y goeden, neu y gareg wedi ei thaflu o'r llaw, a phob darn arall o fater, yn cael eu hattynu tua chanolbwynt y ddaear, neu dan ddeddf dysgyrchiant.

O ganlyniad—

Y mae pob gronyn o fater, yn mhob rhan o'r greadigaeth, adnabyddus ac anadnabyddus, yn cael eu hattynu yn gyffelyb gan gorph mwy o fater, neu dan ddeddf dysgyrchiant.

Dyna gasgliad cyfosiadol (*inductive*). Y mae y casgliad yn eangach ei derfynau na'r cynsail, ac felly yn chwanegiad at swm ein gwybodaeth. Trwy y dosbarth olaf hwn o ymresymu y cafwyd allan yr holl wyddorau cyfosiadol (*inductive sciences*); megys anianaeth, fferylliaeth, seryddiaeth, bywofyddiaeth, athroniaeth feddyliol, &c. Y mae Mr. Mill yn dwyn y dosbarth olaf hwn i mewn i diriogaeth rhesymeg, yn gystal a'r dosbarth blaenaf; sef, y gasgliadaeth ddeoliadol, ffurfiol, cyfresymiadol, neu angenrheidiol, i'r hon yr oedd rhesymegwyr blaenorol yn cyfyngu y wyddor yn unig—o leiaf yn ei hystyr priodol. Dylid crybwyll fod Syr William Hamilton yn dwyn i mewn gyfosiad i'w gyfundraeth ef o resymeg—ond dan yr enw "rhesymeg ddullweddiadol (neu gymmhwysiadol)" (*modified logic*), yn wrthgyferbyniol i "resymeg bur" (*pure logic*), neu gasgliadaeth ffurfiol. Ac y mae ysgrifenwyr ereill ar resymeg yn rhoddi pennod neu chwaneg i ymdrin â chyfosiad yn eu gweithiau, ar ol gorphen esbonio deddfau y cyfresymiad (*syllogism*). Ond dyna y cyfnewidiad a ddygodd Mr. Mill i mewn i'w gyfundrefn ef—gwneyd i'r rhan gyfosiadol o resymeg gymmeryd y lle blaenaf, fel yn fwy sylfaenol yn ei natur, yn gystal ag yn fwy yn ei phwysigrwydd ymarferol, na'r rhan arall. Gwna efe resymeg yn gyfled â phrawf, ac felly ceisia ddangos mai sicrhâd y cynseiliau—y rhai y mae y rhesymegwr ffurfiol yn cychwyn oddi wrthynt—mai hyn wedi y cwbl yw y pwngc mawr; ac nad yw y rhan arall o ymresymu (oddi wrth y cynseiliau i'r casgliad) ond israddol ac is-wasanaethgar, er yn meddu pwysigrwydd yr un pryd, ac yn gyfryw ag y gellir ei wneyd yn dda neu yn ddrwg, yn gywir neu yn gyfeiliornus. Dengys yn mhellach fod rheolau pennodol, neu ddulliau o weithredu, i'w dilyn yn yr ymresymu cyfosiadol, y rhai y mae dynion yn fynych yn eu troseddu oddi ar anwybodaeth neu ddiofalwch, yn gystal ag oddi ar achosion ereill; a dadleua dros alw sylw neillduol atynt, a'u gwneuthur yn gangen bennodol

o addysg, fel y mae yr hen resymeg wedi bod er's cyhyd o amser.—Chambers' "*Encyclopædia*," cyf. vi. erth. *Logic;* ac "*A system of Logic, Ratiocinative and Inductive,*" gan John Stuart Mill, cyf. i., rhagymadrodd, tudal. 1—14, *Definition and Province of Logic.*

Tybiem fod yn anhawdd llefaru yn rhy uchel am feddwl clir, treiddgar, ac athronyddol Stuart Mill, ac am bwysigrwydd y cyfraniad a wnaeth efe i un gangen o resymeg yn arbenig; sef, casgliadaeth, neu yn fwy neillduol cyfosiad (*induction*). Rhaid addef yr un pryd fod y prif ysgrifenwyr ar resymeg yn cymmeryd golwg wahanol iddo ar bwysigrwydd cymmhariaethol y gangen a nodwyd, neu ei lle priodol mewn cyfundrefn o resymeg, ac yn rhoddi terfynau eangach i'r wyddor na'r rhai a dynir allan ganddo ef. Nid ydym yn gwybod y gallwn wneyd dim yn well, tuag at roddi y darllenydd mewn meddiant o'r esboniad athronyddol ar natur, swydd, a dyben y wyddor o resymeg, na cheisio cyflwyno yma sylwedd darnodiad ac eglurhâd Syr William Hamilton; yr hwn yn ein barn ni yn gyfiawn a ystyrir fel yn cynnrychioli ymchwiliadau dyfnaf, ynghyd â dysgeidiaeth eangaf a manylaf yr amseroedd diweddar hyn, yn athroniaeth y meddwl.

V. Darnodiad Syr William Hamilton o resymeg (â'r hwn, fel y gellid disgwyl, y cyttuna yn sylweddol yr eiddo Mansel a'i ddysgyblion ereill) yw yr un a ganlyn:—"Rhesymeg yw gwyddor deddfau meddwl fel meddwl" (*logic is the science of the laws of thought as thought*). Ceisiwn roddi yma grynodeb mor fyr ag y gallwn o eglurhâd yr athronydd mawr ar y darnodiad hwn o'i eiddo.

Ymrana y darnodiad hwn i dri chwestiwn:—1. Beth yw meddwl? 2. Beth ydyw meddwl fel meddwl? (*thought as thought*). 3. Beth ydyw deddfau meddwl fel meddwl? (1.) Beth yw meddwl? Y mae gan y Saesneg fantais bwysig ar y Gymraeg gyda'r gair hwn. Ceir ynddi hi ddau air i osod allan ddau syniad: (1af) meddwl (y gallu=*mind;* (2il) meddwl (cynnyrch neu weithrediad y gallu)=*thought.* Nid oes genym ni ond un gair Cymraeg am y ddau; sef, *meddwl.* Felly, mewn ymchwiliadau manwl, y mae yn angenrheidiol nodi yn mha ystyr y defnyddir y gair. Defnyddir ef genym ni yn awr yn yr ail ystyr, yn gyfystyr â *thought*—cynnyrch neu weithrediad y gallu o feddwl.

Ond pa beth yw meddwl? Gellir deall y gair, hyd yn oed yn yr ystyr a nodwyd, mewn dwy ffordd—un yn eang, a'r llall yn fwy cyfyng. Dynoda meddwl yn yr ystyr eangaf bob gweithred wybodol (*cognitive*); ie, defnyddir ef gan rai athronwyr, megys Descartes a'i ddysgyblion, mewn ystyr eangach fyth—am bob dullwedd-iad meddyliol ag yr ydym yn ymwybodol o hono, ac felly yn cynnwys y teimladau, yr ewyllysiadau, a'r dymuniadau. Yn yr ystyr cyfyngach, dynoda yn unig actau y deall a elwir yn briodol felly. Yn yr ystyr cyfyngaf yma y mae meddwl yn ffurfio mater rhesymeg. Nid ydyw rhesymeg yn ymwneyd â'r deddfau a lywodraethant alluoedd ereill y meddwl; megys y galluoedd trwy ba rai yr ydym yn dyfod i feddiant o ddefnyddiau cyntaf gwybodaeth. Y mae hi yn tybio fod yr holl ddefnyddiau hyn mewn meddiant eisoes, ac ystyria yn unig y dull o'u gweithio. Ni chymmer gyfrif, o leiaf yn nosbarth rhesymeg bur, o'r cof a'r dychymyg, neu ddeddfau cymdeithasiad; ond cyfynga ei sylw i'r cyssylltiadau a lywodraethir gan ddeddfau dealltwriaeth. Nid ydyw yn trin deddfau dealltwriaeth chwaith fel y maent yn y gallu trefniadol (*regulative*)—dealltwriaeth—synwyr cyffredin; o blegid y mae y deddfau hyn yn y gallu yna yn seiliau, yn ffeithiau, ac felly yn derfynol, ac yn yr ystyr athronyddol o'r gair, yn annirnadwy: ond y mae pa beth bynag sydd y tu allan i derfynau y dirnadwy yn gorwedd hefyd y tu allan i derfynau rhesymeg.

Ond beth, gan hyny, yw meddwl yn yr ystyr priodol, neu yn ystyr y wyddor hon. Yr ydym yn feddiannol ar amryw alluoedd israddol, megys y synwyrau corphorol, trwy ba rai yr ydym yn dyfod i adnabod lliosogrwydd o wrthddrychau. Y mae y gwrthddrychau hyn yn ddefnyddiau noeth, yn eu ffurf syml a gwreiddiol, sydd yn cael eu trin a'u trafod gan allu uwch a hunanweithredol, yr hwn sydd yn gweithio arnynt mewn ufudd-dod i ddeddfau pennodol, ac mewn cydymffurfiad â dybenion pennodol. Gweithrediad y gallu hwn ydyw meddwl (*thought*).

Gellir gofyn yn mhellach, Pa beth ydyw un nodwedd fwyaf hanfodol y weithred o feddwl? Dyna ydyw, yn ol Syr William Hamilton—amgyffred unrhyw beth o dan syniad neu briodoledd gyffredinol; neu ynte, y weithred o gymmharu. Tybier fod gwrthddrych yn cael ei gyflwyno o'm blaen, megys llyfr. Y mae y gwrthddrych hwn yn cynnyrchu argraph arnaf: yr wyf yn ymwybodol o'r argraph, ond heb ymgydnabyddu â'r gwrthddrych fel ag i wybod beth ydyw. Nid yw hyn yna ond canfyddiad (*perception*)—nid meddwl mewn ystyr priodol. Ond tybier fy mod yn ei adnabod am yr hyn ydyw—hyny yw, yn ei gymmharu â, ac yn ei ddwyn o dan syniad, dosbarth, neu swp neillduol o briodoliaethau a alwaf yn llyfr; yna, wele fwy na chanfyddiad—dyna feddwl.

Y mae y nodwedd hanfodol hon a berthyn i feddwl; sef, adnabod unrhyw syniad fel yn cael ei gynnwys yn, neu yn dyfod o dan syniad arall—y mae yr adnabyddiaeth hon, meddwn, yn seiliedig ar y weithred o gymmharu. Y mae pob act o feddwl yn cynnwys cymmharu, adnabod tebygrwydd neu wahaniaeth:—y mae yn cynnwys cyssylltiad neu ddadgyssylltiad, cyfosiad (*synthesis*) neu elfeniad (*analysis*) o'i wrthddrychau. Dosberthir gweithrediadau y meddwl i dri phrif ddosbarth; y rhai ydynt yn sail i'r tair rhan cyfattebol i ba rai yn gyffredin y dosberthir y wyddor o resymeg—syniadaeth, barn, ac ymresymiad. Gweithred o gymmharu yw yr elfen gyntaf yn mhob un. Mewn syniadaeth (*conception*), hyny yw, wrth ffurfio *concepts,* neu syniadau cyffredinol, yr ydys yn cymmharu, yn dadgyssylltu, neu yn cydgyssylltu priodoliaethau: mewn gweithred o farn, yr ydys yn cymmharu, yn dadgyssylltu, neu yn cydgyssylltu syniadau (*concepts*): mewn ymresymiad, yr ydys yn cymmharu, yn dadgyssylltu, neu yn cydgyssylltu barnau. Ceir fod un elfen hanfodol yn mhob cam o'r gweithrediad hwn. Mewn trefn i feddwl, i gymmharu, i gydgyssylltu, y mae yn angenrheidiol adnabod un peth trwy, neu o dan beth arall; ac felly, wrth ddeffinio meddwl yn yr ystyr priodol, gallwn ei ddeffinio fel act o gymmhariaeth, neu fel adnabyddiaeth o un syniad, megys yn, neu o dan un arall. Pan yn cyflawni y weithred hon o feddwl peth o dan syniad cyffredinol y dywedir ein bod yn ei ddeall neu yn ei amgyffred.

(2.) Ond y mae meddwl arno ei hun etto yn

Digitized by Google

rhy ammhennodol. Y mae gwrthddrych priodol rhesymeg yn rhywbeth mwy pendant fyth. Nid â meddwl yn gyffredinol y mae y wyddor hon yn ymwneyd; ond â meddwl fel y cyfryw—meddwl, a'i ystyried yn unig fel meddwl. Mae eisieu egluro hyn; ac felly, dyna yr ail gwestiwn:

Pa beth a olygir wrth "feddwl fel meddwl?" Cofia y darllenydd yr hyn a ddywedwyd o'r blaen am y gweithrediad arbenig hwnw o eiddo y rheswm ag sydd yn cyfansoddi yr *act* o feddwl; sef, yr adnabyddiaeth o unrhyw beth fel yn dyfod o dan syniad cyffredinol, yr hwn a eilw Hamilton yn *concept;* neu, "nodi allan wrthddrych trwy briodoledd neu briodoleddau y gwyddid yn flaenorol eu bod yn perthyn i amrywiol wrthddrychau, ac i ba rai, gan hyny, yr ydym wedi rhoddi enw cyffredinol." I egluro oddi wrth hyn beth a olygir wrth "feddwl fel meddwl" neu "feddwl fel y cyfryw," dyfyna Syr William Hamilton y paragraph canlynol o waith yr ysgrifenydd Almaenaidd Esser ar resymeg:—

"Yn y gweithrediad hwn yr ydym yn alluog, trwy ddansoddiad, i wahaniaethu y ddau beth a ganlyn oddi wrth eu gilydd:—1af, Y gwrthddrych y meddylir am dano; ac yn 2il, Y dull a'r modd o feddwl y peth. I ddefnyddio yr ymadroddion celfyddydol hen a sefydlog, gadewch i ni alw y cyntaf o'r rhai hyn yn fater, a'r ail yn ffurf y meddwl. Er esampl, pan y meddyliwyf mai deublyg (*folio*) yw y llyfr sydd o'm blaen, mater y meddwl hwn yw llyfr, a deublyg; ffurf y meddwl ydyw barn. Yn awr, y mae yn ddigon amlwg, nad ydyw yr elfeniad hwn o feddwl i ddwy ddullwedd neu ochr yn ddim ond gwaith didoliad a chyferbyniad gwyddorol; o blegid megys, ar y naill law, nad yw y mater y meddyliwn am dano yn feddyliadwy ond trwy ryw ffurf bennodol, felly, ar y llaw arall, y mae y ffurf o dan ba un yr ydym yn meddwl yn gyfryw nas gellir ei sylweddoli yn ein hymwybyddiaeth, oddi eithr mewn cymmhwysiad gweithredol at wrthddrych."—Esser, "*Logik,*" § 3, tudal. 4, ail argraphiad Münster, 1830—dyfynedig gan Hamilton.

Wedi gwneuthur y dyfyniad hwn, eglura Syr William, pan y dywedai fod rhesymeg yn ymwneyd â meddwl, a'i ystyried yn unig fel meddwl, mai y cwbl a olygai efe wrth hyny oedd, fod rhesymeg yn ymdrin â ffurf meddwl yn unig, ac nid â'r mater. Nid yw rhesymegwyr wedi ymgadw yn ofalus bob amser at y terfynau hyn a berthyn i'r wyddor. Yn raddol y mae golygiadau cywir am y wyddor wedi eu mabwysiadu, ac yn fwy graddol na hyny y maent wedi eu cario allan yn ymarferol, fel ag y mae hyd yn oed etto rai athrawiaethau yn cael eu dysgu fel yn dyfod o fewn terfynau rhesymeg nad ydynt felly mewn gwirionedd o gwbl, a hyny am eu bod yn perthyn i fater meddwl, ac nid i'w ffurf.

Cawn gan Syr William Hamilton ddyfyniad etto o Esser, i ddangos nas gall rhesymeg osod dim ond ffurf meddwl fel testyn ei hystyriaeth. Gwelir, oddi wrth yr hyn a grybwyllwyd yn y frawddeg flaenorol, nas gellir dangos hyny oddi wrth hanes y wyddor; ond gellir ei ddangos oddi wrth natur a rheswm y peth ei hunan. Gan fod geiriau yr awdwr Almaenaidd, yn nghyfieithiad Hamilton, mor nodedig o glir a phendant, ac felly yn rhoddi syniad mor gywir i'r darllenydd, wrth gychwyn, am natur a dyben y wyddor, ni a roddwn y dyfyniad yma:—

"O blegid, pe y dadleuid fod rhesymeg yn cymmeryd nid yn unig ffurf ond mater meddwl i ystyriaeth (chwi a gofiwch fod mater yn air cynnwysfawr am yr amrywiol wrthddrychau â pha rai y mae meddwl yn ymwneyd; yna, os felly, rhaid i resymeg ymdrin â'r holl wrthddrychau hyny yn ddiwahaniaeth, neu ynte wneyd detholiad o rai o honynt yn unig. Yn awr, y mae y blaenaf o'r ddau beth yma yn ammhossibl; o blegid pe gofynid ar i resymeg gynnwys ymdriniaeth gyflawn â phob gwrthddrychau meddyliadwy: mewn geiriau ereill, pe byddai raid i resymeg dynu i mewn i'w chylch yr holl wyddorau ereill, ac felly mewn gwirionedd wneuthur ei hunan yn un wyddor gyffredinol, gwel pob un ar unwaith wrthuni yr hyn a ofynir, a'r ammhossiblrwydd i'w gwblhau. Ond a ydyw yr ail dybiaeth yn fwy rhesymol? A ellir cynnyg ar fod i resymeg ymgydnabod â rhai o wrthddrychau meddwl, a chau allan y lleill? Ar y dybiaeth hon, rhaid dangos pa ham y dylai rhesymeg ymdrin â'r gwrthddrych neillduol hwn, ac nid â'r llall hefyd; ond gan nas gellir rhoddi ond attebiad mympwyol i'r cwestiwn hwn, ac felly nas gellir rhoddi un attebiad o gwbl, nid yw gwrthuni y dybiaeth hon yn ddim llai eglur na'r llall. Yn awr, gan fod gwrthddrychau neillduol, neu fater meddwl, fel hyn wedi eu cau allan, nid oes dim yn aros ond ffurf meddwl dynol (*human thought*) i fod yn wrthddrych neu fater ein gwyddor; mewn geiriau ereill, nid oes a wnelo rhesymeg ond yn unig â meddwl, ac nid oes ganddi ddim i'w wneyd mewn modd uniongyrchol â'r hyn y meddylir am dano. Gelwir rhesymeg o blegid hyn, mewn iaith gyffredin, yn wyddor ffurfiol—nid bid siwr yn yr ystyr na fedd rhesymeg ond ffurf yn unig, ac nid gwrthddrych; ond yn syml am mai ffurf meddwl dynol ydyw gwrthddrych rhesymeg; fel nad yw y teitl 'gwyddor ffurfiol' mewn gwirionedd ond ymadrodd talfyredig."—Esser, "*Logik,*" § 3, tudal. 5, 6—dyfynedig gan Hamilton.

(3). Denwn yn awr at y trydydd cwestiwn i egluro darnodiad Hamilton o resymeg; sef, Pa beth a olygir wrth ddeddfau meddwl fel meddwl? Mewn geiriau ereill, Pa beth a olygir wrth ddeddfau ffurfiol meddwl?

Yr ydys wedi rhoddi eisoes ddau derfyn i'r deffiniad o resymeg. Dyna y cyntaf: fod rhesymeg yn ymwneyd â meddwl. Dyna yr ail: fod rhesymeg yn ymwneyd â ffurf meddwl. Ond y mae hyd yn oed hwn yn rhy eang—yn cynnwys gormod. Y mae mwy yn dyfod o dan ffurf meddwl nag y gall rhesymeg yn gyfreithlawn ei ystyried. Felly, y mae trydydd terfyn yn angenrheidiol. Rhoddwn yma etto ddyfyniad Syr William Hamilton o'r un awdwr meistrolgar i egluro pa beth ydyw deddfau ffurfiol meddwl:—

"Gellir ystyried meddwl dynol (*human thought*), ac edrych arno yn unig yn ei berthynas ffurfiol, mewn dau olygiad:—1af, Ar y naill law, y mae yn dyfod yn adnabyddus i ni yn unig trwy brofiad neu sylw—yr ydym yn adnabod ei nodweddion yn unig yn hanesyddol neu brofiadol (*empirically*): neu ynte, ar y llaw arall, 2il, yr ydym trwy ddamcaniaeth ac adfyfyrdod—trwy elfeniad a dansoddiad—yn chwilio allan ac yn gwahaniaethu o blith yr holl amlygiadau o feddwl yr hyn sydd o hono yn angenrheidiol a chyffredinol. Nid yw y blaenaf, yr ystyriaeth hanesyddol neu brofiadol o'n gallu meddyliol, yn perthyn i resymeg, ond i athroniaeth y meddwl—i feddyliaeth (*psychology*). Y mae yn wir fod y sylwadaeth brofiadol o weithrediadau y meddwl yn blaenori eu helfeniad damcaniaethol. Ond er hyn, y mae yn perthyn i resymeg diriogaeth neillduol iddi ei hun, yr hon sydd yn cyfansoddi gwyddor annibynol a phennodol. O blegid lle y mae ein hystyriaeth brofiadol o'r meddwl yn terfynu, yno y mae ein hystyriaeth ddamcaniaethol yn dechreu; yr elfenau angenrheidiol ag y mae yr olaf yn ei sicrhau allan o ddefnyddiau damweiniol sylwadaeth—dyma y pethau sydd yn cyfansoddi deddfau meddwl fel meddwl."—Esser, "*Logik,*" § 4, tudal. 6, 7—dyfynedig gan Hamilton.

Digitized by Google

Y terfyniad hwn a roddir i diriogaeth rhesymeg, fel y wyddor sydd yn ymwneuthur â "deddfau meddwl," ydyw yr un sydd yn gosod allan yr arbenigrwydd gwahaniaethol a berthyn i'r wyddor hon mewn gwrthgyferbyniad i'r holl wyddorion ereill. Y cwestiwn sydd ger ein bron yn awr yw—Pa beth a olygir wrth "ddeddfau meddwl fel meddwl?" Yn ol y dyfyniad uchod o awduriaeth Esser, yr atteb ydyw—ffurfiau angenrheidiol meddwl, ar wahân oddi wrth y rhai damweiniol. Teimla y darllenydd yn ddiau fod hyn yn gofyn eglurhâd pellach. Pan yr ydys yn gwneyd ymchwiliad manwl i weithrediadau ffurfiol y meddwl, ni a gawn eu bod o ddau fath. Y maent naill ai yn ddamweiniol, hyny yw, yn gyfryw ag a allant fod neu beidio bod; neu ynte, y maent yn angenrheidiol, hyny yw, yn gyfryw ag nas gallant beidio bod. Yr un pryd hefyd dylid cofio, er ein bod yn awr yn gwahaniaethu y ddau ddosbarth yma o weithrediadau meddyliol, nad ydynt ar wahân yn eu gweithrediad; y maent yn amlygu eu hunain mewn undeb â'u gilydd, y maent yn gymmhlethedig â'u gilydd, neu y naill yn y llall, o ran gweithrediad ymarferol y meddwl: athroniaeth, neu elfeniad damcaniaethol sydd yn eu gwahanu i'w dosbarthiadau priodol. Fel yr ydys wedi crybwyll o'r blaen, pan yr edrycha athroniaeth arnynt yn unig fel ymddangosiadau meddyliol, neu mewn dull cyffredinol fel amlygiadau o feddwl, y maent y pryd hwnw, nid yn ffurfio mater rhesymeg, ond yn dyfod o dan y wyddor o feddyliaeth brofiadol neu hanesyddol. Yn y wedd yna, ffurfiant ddefnyddiau athroniaeth y meddwl. Ond pan y mae athroniaeth, trwy ddansoddiad adfyfyriadol, yn gwahanu y ddau ddosbarth oddi wrth eu gilydd, ac yn cymmeryd allan ffurfiau angenrheidiol meddwl, gan eu deoli oddi wrth y rhai damweiniol, yna y mae gwyddor newydd yn cael ei ffurfio, yr hon a wahaniaethir oddi wrth bob gwyddor arall trwy gymmeryd y blaenaf o'r ddau ddosbarth yma yn unig fel ei thestyn; sef, ffurfiau angenrheidiol meddwl. Y wyddor hon yw rhesymeg. Felly y deffiniad llawn ac olaf o resymeg ydyw hwn—gwyddor ffurfiau angenrheidiol meddwl.

Y mae un cam pellach etto i'w wneyd yn yr eglurhâd o'r deffiniad hwn cyn y bydd yn gyflawn; sef, esbonio ystyr y gair "angenrheidiol" yn y cyssylltiad hwn. I symio i fyny yr eglurhâd a wnaethpwyd hyd yma:—1. Dangoswyd fod rhesymeg yn wyddor sydd yn ymwneyd yn gyfangwbl â meddwl, yn gyferbyniol i bob ymchwiliad i natur yn allanol. 2. Dangoswyd fod rhesymeg yn wyddor sydd yn ymwneyd â "meddwl fel meddwl;" hyny yw, â ffurf meddwl ar wahân oddi wrth y mater. Nid y gwrthddrych y meddylir arno yw ei thestyn, ond y dull y meddylir ynddo. Nid *pa beth?* ond *pa fodd?* Nid ynghylch y nwyddau sydd yn y cludfeni y mae ei hymchwiliad hi, ond ynghylch y llinellau y maent yn rhedeg ar hyd-ddynt. Nid cynnwysiad y llestr ydyw ei thestyn, ond ffurf y llestr. Ond nid yw hyn yn ddigon etto i gyfyngu y wyddor i'w therfynau priodol ei hunan; ac felly dangoswyd, yn 3. Fod rhesymeg yn wyddor sydd yn ymwneyd â "deddfau meddwl fel meddwl;" mewn geiriau ereill, â ffurfiau angenrheidiol meddwl. Y mae athroniaeth feddyliol yn ymgydnabod â'r ffeithiau a berthynant i ffurfiau meddwl, fel y maent yn rhan o ffeithiau meddwl yn gyffredinol. Ond y mae rhesymeg yn nodi allan y ffurfiau hyny o feddwl ag y gellir eu galw yn rhai "angenrheidiol," y rhai o ganlyniad a gyfansoddant "ddeddfau y meddwl fel y cyfryw;" ac yn y cyfyngiad olaf hwn y mae y wyddor o resymeg yn cael nodi allan ei gwir derfynau, fel ag i'w gwahanu a'i gwahaniaethu oddi wrth bob gwyddor arall. Ond i'r darllenydd anghynnefin âg ymchwiliadau athronyddol, y mae y gair 'angenrheidiol' yn rhwym o swnio yn ddyeithr yn y cyssylltiad uchod. O blegid hyny, dylem wneyd ei ystyr yn hollol eglur, hyd y gallwn. Dywedasom eisoes mewn ffordd gyffredinol mai y gwahaniaeth rhwng ffurfiau 'damweiniol' a ffurfiau 'angenrheidiol' meddwl, ydyw, fod y rhai blaenaf yn gyfryw ag y gallant fod neu beidio bod; ond fod yr olaf yn gyfryw ag nas gallant beidio a bod. Ond y mae eglurhâd pellach yn ofynol ar yr "angenrheidrwydd" hwn. Pan ddywedir mai rhesymeg yw y wyddor sydd yn ymdrin â "ffurfiau angenrheidiol meddwl," pa beth y mae y briodoledd hon o angenrheidrwydd yn ei olygu?

I egluro hyn, rhoddwn ger bron y darllenydd ddyfyniad Syr William Hamilton etto o draethawd meistrolgar yr awdwr Almaenaidd Esser:—

"Yn y lle cyntaf, y mae yn amlwg mor bell ag y mae ffurf o feddwl yn 'angenrheidiol,' fod yn rhaid i'r ffurf yma gael ei benderfynu neu ei wneuthur yn angenrheidiol gan natur perchen y meddwl ei hunan; o blegid pe buasai yn cael ei benderfynu gan unrhyw beth y tu allan i'r meddwl, yna nid penderfyniad angenrheidiol a fuasai, ond un damweiniol yn unig. Ammod cyntaf angenrheidrwydd ffurf o feddwl, gan hyny, ydyw—ei fod yn cael ei benderfynu gan yr hyn sydd oddi mewn i'r meddwl ei hunan, ac nid gan ddim oddi allan (*subjectively, not objectively determined*).

Yn yr ail le: os yw y ffurf o feddwl yn meddu angenrheidrwydd mewnol, rhaid ei fod yn wreiddiol, ac nid yn gaffaeledig. Canys pe buasai yn gyrhaeddedig —hyny yw, wedi dyfod trwy gaffaeliad y meddwl ei hunan—rhaid y bu amser rywbryd pan nad ydoedd yn bod; ond os bu adeg rywbryd pan nad oedd yn bod, y mae yn rhaid y gallwn o leiaf ddychymygu y possiblrwydd iddo beidio a bod yn awr. Ond os gallwn wneyd hyny, yna nid yw y ffurf hwnw yn 'angenrheidiol;' o blegid y nôd ar wybyddiad damweiniol ydyw, y gallwn ddychymygu i ni ein hunain y possiblrwydd iddo beidio a bod. Ail ammod angenrheidrwydd ffurf o feddwl, gan hyny, ydyw, ei fod yn wreiddiol, ac nid yn gaffaeledig.

Yn y trydydd lle: os ydyw ffurf o feddwl yn angenrheidiol ac yn wreiddiol, y mae yn rhaid ei fod yn gyffredinol; hyny yw, nis gall ei fod yn gosod angenrhaid ar ryw achlysuron, ac heb fod yn gwneuthur hyny ar achlysuron ereill. O blegid, pe na buasai yn angenrheidiol yn gyffredinol, yna buasai ei angenrheidiaeth (*necessitation*) yn ammodol, ac o ganlyniad ni buasai yn egwyddor wreiddiol ac angenrheidiol o feddwl. Y trydydd ammod gan hyny o angenrheidrwydd ffurf o feddwl ydyw, ei fod yn gyffredinol.

Yn y pedwerydd lle, os yw ffurf o feddwl yn angenrheidiol a chyffredinol, rhaid ei fod yn ddeddf; o blegid deddf yw yr hyn sydd yn cymmhwyso ei hunan at bob amgylchiad heb eithriad, ac oddi wrth ba un y mae ymadawiad, bob amser ac yn mhob man, yn ammhossibl, neu, o leiaf, yn anghaniatedig. Y pedwerydd ammod, gan hyny, a'r olaf, o angenrheidrwydd ffurf o feddwl ydyw, ei bod yn ddeddf."—Esser, "*Logik*," § 6, t.d. 9, 10 --dyfynedig gan Syr W. Hamilton.

Dengys yr eglurhâd uchod ar y pedair priodoledd a berthynant i ffurfiau angenrheidiol meddwl, yr hyn a olygir wrth ddarnodi rhesymeg fel "gwyddor deddfau meddwl fel meddwl," neu fel "gwyddor deddfau ffurfiol meddwl,"

Digitized by Google

neu fel "gwyddor deddfau ffurf meddwl," gan fod yr holl wahanol ddulliau yma o eirio yn golygu yr un peth.

Ond hwyrach y dylid, ac y gellir gwneuthur ychydig yn fwy eglur etto pa beth a olygir pan y sonir am "ddeddfau angenrheidiol meddwl." Ystyr hyn, ynte, ydyw, yr unffurfiaeth neu y tebygolrwydd hwnw sydd yn bod, ac a raid fod, rhwng y dulliau yn mha rai y mae dynion yn meddwl ac yn ymresymu, tra nad ydynt yn gwneyd yr hyn a elwir yn gamgymmeriadau, neu yn syrthio i wrthddywediad a chyfeiliornad: neu, y rheolau hyny wrth ba rai y mae y meddwl dynol yn gweithredu, o angenrheidrwydd ei gyfansoddiad ei hunan, pan yn meddwl neu yn ymresymu yn gywir. Deddfau naturiol gan hyny yw deddfau meddwl, y rhai nas gallwn eu newid. Y mae yn amlwg fod y rhai hyn yn wahanol i ddeddfau gwladol, y rhai a luniwyd gan ddynion, ac a ellir eu newid ganddynt. Y dyben ag y mae pob gwyddor yn ei osod iddi ei hunan ydyw darganfod ac esbonio y deddfau naturiol a lywodraethant y gwrthddrychau ag y mae y wyddor hono yn ymwneyd â hwynt. Y mae y wyddor o scryddiaeth, er esampl, yn gwneyd ymchwiliad i'r dull unffurf neu debyg hwnw yn yr hwn y mae yr holl gyrph nefol, ac yn wir pob sylwedd materol, yn tueddu i syrthio tuag at eu gilydd, fel y mae careg yn syrthio tua'r ddaear, neu i symmud o amgylch eu gilydd o dan ddylanwad y duedd hon. Fel hyn, deddf gyffredinol dysgyrchiant ydyw y ddeddf naturiol, neu yr unffurfiaeth yr ymdrinir â hi mewn seryddiaeth anianyddol (*physical astronomy*). Yr un fath mewn fferylliaeth—yr ydys yn cael fod pob sylwedd fferyllaidd yn ymuno â phob sylwedd fferyllaidd arall yn unig mewn rhyw gyfartaledd pennodol; megys, fod wyth ran o ufelai (*oxygen*) yn ymuno âg un ran o ulai (*hydrogen*) i ffurfio dwfr. Pa bryd bynag yr ydys yn cael allan ddulliau o weithredu unffurf, neu gyffelyb i'w gilydd, yr ydys yn darganfod deddfau naturiol ac yn creu gwyddoriaeth. Ond y mae rhai pethau ar y llaw arall mor gyfnewidiol ac ansicr a dyrus fel nas gallwn byth fod yn sicr ein bod wedi dyfod o hyd i ddeddfau y rhai y gwnant ufuddhau yn anffaeledig iddynt. Nid yw gwyddor, yn yr ystyr manylaf, yn bossibl yn y cyfryw amgylchiadau. Er esampl, y mae yn ammhossibl cyfansoddi gwyddor o gymmeriad dynol; o blegid y mae gweithrediadau yr ewyllys ddynol mewn gwahanol bersonau, ac yn yr un person ar wahanol adegau, mor annhebyg i'w gilydd, ac ansicr, fel nad ydyw yn bossibl ei dwyn o dan reolau unffurf. Nis gellir byth gael dau berson mor debyg i'w gilydd fel ag y gellid bod yn sicr y byddai i'r naill weithredu yn mhob amgylchiad yn hollol yr un fath a'r llall; felly, nis gellir dosbarthu dynolryw i ddosbarthiadau fel ag y byddai i bawb yn yr un dosbarth weithredu yn hollol yr un fath mewn unrhyw amgylchiadau pennodol. Ond y mae rhywbeth yn perthyn i ddynion, yn yr hwn y mae pawb yr un fath, ac yn rhwym o fod yr un fath, tra na chiliont oddi wrth natur. Y mae mwy nag un peth felly—ac y mae yr hyn sydd o dan ein sylw yn awr yn un o honynt. Mae dulliau pennodol o feddwl a rhesymu yn cael eu harddodi arnom, nid gan awdurdod oddi allan, ond gan angenrheidrwydd mewnol yn ein natur ni ein hunain; hyny ydyw, yn cyfodi yn anocheladwy o gyfansoddiad gwreiddiol y meddwl. Y mae pawb yn un yn y pethau hyn, ac nis gallant ond bod felly. Ac oni buasai fod rhyw ddeddfau sefydlog fel hyn yn perthyn i'r meddwl—rhyw linellau pendant ar ba rai y mae y meddwl dynol wedi ei ffurfio i ymsymmud yn ei holl weithrediadau, ni buasai unrhyw safon o iawn farn yn bossibl; ac felly ni buasai y fath beth ag ymresymu yn bod, am nas gallasem gyfarfod ein cyd-ddynion ar unrhyw dir cyffredin. Ni buasai genym seiliau cyffredin i gychwyn oddi wrthynt; felly buasai nid yn unig ymresymu yn ammhossibl, ond pob cymmundeb rhwng meddyliau â'u gilydd. Pan yr edrychom ar y dulliau hyn o feddwl wedi eu corphori mewn iaith yn y ffurf o osodiadau, yr ydym yn eu galw yn wirioneddau angenrheidiol neu hunanbrofedig, y rhai nas gellir eu hegluro â dim eglurach na hwy eu hunain; y rhai, o ganlyniad, nas gellir myned o'r tu ol iddynt, ond y rhaid eu derbyn gan y ddwy blaid yn mhob dadl fel y sylfeini cyntaf i adeiladu arnynt. Pan yr edrychom arnynt drachefn fel y ffurfiau mewnol a roddwyd ar alluoedd y rheswm yn eu creadigaeth, yr ydym yn eu galw yn "ddeddfau y meddwl," neu yn "ffurfiau angenrheidiol meddwl." Egluro a dosbarthu y rhai hyn sydd yn gwneyd i fyny y wyddor o resymeg. Er esampl, os yw pob un o ddau beth yr un a thrydydd peth, yna y mae y ddau gyntaf yr un â'u gilydd. Dyma ddeddf berthynol i'r meddwl, o nodwedd hynod o syml ac eglur. Gellir nodi gyda golwg arni:—

1. Fod pawb yn meddwl yn unol â'r ddeddf hon, ac yn cyttuno eu bod yn gwneyd felly mor gynted ag y maent yn deall ei hystyr.

2. Eu bod yn meddwl yn unol a hi, pa beth bynag fyddo y pwngc am ba un y maent yn meddwl.

Tybiwn mai y pethau y meddylir yn eu cylch ydynt y rhai canlynol:—

1. Dau ddernyn chwe' cheiniog.
2. Tri dernyn grôt.
3. Un dernyn swllt.

Os yw y cyntaf yr un faint (o werth) a'r trydydd, a'r ail hefyd yr un faint a'r trydydd, yna y mae yn canlyn o angenrheidrwydd i bob meddwl fod y cyntaf a'r ail yr un faint a'u gilydd.

Tybiwn ein bod yn cymmharu y tri pheth canlynol:—

Haiarn.
Y mettel mwyaf defnyddiol.
Y mettel rhataf.

Os addefir mai "haiarn ydyw y mettel mwyaf defnyddiol," ac os addefir hefyd mai "haiarn yw y mettel rhataf," y mae yn canlyn fel peth angenrheidiol yn mhob meddwl mai "y mettel mwyaf defnyddiol yw yr un rhataf." Wele yma ddwy enghraifft o'r gwirionedd cyffredinol fod pethau sydd yn gyfartal i'r un peth yn gyfartal hefyd i'w gilydd. Gellir dywedyd fod hon yn ffurf gyffredinol neu angenrheidiol o feddwl ac ymresymu. Cymmharer etto y pethau canlynol:—

Y ddaear.
Planedau.
Cyrph yn troi mewn cylchoedd hirgrwn.

Nis gallwn ddweyd, fel o'r blaen, fod "y ddaear yr un peth a'r planedau:" nid ydyw ond yr un peth ag un o'r planedau: felly yr ydym yn dyweyd "ei bod yn blaned." Yr un modd gallwn ddyweyd fod "y planedau yn gyrph sydd yn troi mewn cylohoedd hirgrwn," ond nad ydynt

Digitized by Google

ond rhan o'r cyfanrif sydd yn troi felly. Etto y mae yn canlyn, os yw y ddaear yn mhlith y planedau, a'r planedau yn mhlith cyrph sydd yn troi mewn cylchoedd hirgrwn, fod y ddaear yn mhlith y rhai olaf.

Gellir ymresymu yn gyffelyb am y pethau canlynol mewn fferylliaeth:—

Haiarn,
Meteloedd,
Sylweddau elfenol.

Y mae haiarn yn un o'r meteloedd, a meteloedd ydynt elfenau neu sylweddau syml nas gellir eu dadansoddi i ddim symlach; hyny yw, meteloedd ydynt yr elfenau hyny yn yr ystyr o fod yn eu plith neu yn rhan o honynt, ond nid fel yn cyfansoddi y cwbl. Y mae yn canlyn o angenrheidrwydd fod "haiarn yn un o'r sylweddau elfenol." Yr ydym yn awr gan hyny wedi cael dwy esampl o ffurf sefydlog ac angenrheidiol o feddwl, yr hon sydd yn angenrheidiol ac yn wir, beth bynag y gall y pethau fod at y rhai y cymmhwysir hi. Daw y ffurf hon o ymresymiad o dan sylw manylach etto pan y deuwn i ymdrin â chyfresymiaeth (*syllogism*); ond gellir ei gosod allan o ran ei hegwyddor, neu y gwirionedd sylfaenol ar ba un y gorphwysa, trwy ddyweyd fod "rhan o ran yn rhan o'r cyfan." Y mae haiarn yn rhan o'r dosbarth o fetteloedd, yr hwn etto sydd yn rhan o'r dosbarth o elfenau: o ganlyniad, y mae haiarn yn rhan o'r dosbarth o elfenau.

Erbyn gosod yr holl eglurhadau blaenorol at eu gilydd, yr ydym yn hyderu fod ein darllenwyr yn deall yn glir bellach beth a feddylir wrth ddeffinio rhesymeg fel 'y wyddor o ffurfiau angenrheidiol meddwl.' Dymunem etto adgofio y darllenydd o'r gwahaniaeth rhwng ffurf a mater. Y mae y "ffurf" yn rhywbeth a all aros yn un a digyfnewid, tra y gall y "mater" a deflir i'r ffurf hono gael ei newid yn barhaus. Y mae bathodau wedi eu gwneuthur oddi wrth yr un cerflun yn meddu yn hollol yr un ffurf a'u gilydd, ond gallant fod o ddefnydd neu "fater" gwahanol; megys pres, copr, aur, neu arian. Gallwn feddwl am adeilad o ffurf bennodol wedi ei gwneuthur naill ai o geryg neu briddfeini; y mae y ffurf yr un beth bynag fyddo y defnydd. Gellid gwneyd dodrefn o'r un ffurf yn hollol, ond o wahanol ddefnydd; megys derw, mahogani, collen ffrengig, neu ffawydd. Fel yr ydym yn gwahaniaethu rhwng y ffurf a'r sylwedd mewn pethau cyffredin teimladwy, megys yn yr enghreifftiau a nodwyd, felly mewn rhesymeg, y mae ffurf ymresymiad yn un peth, tra y mae y pwngc neu y mater yr ymdrinir ag ef yn y ffurf hono yn beth arall a hollol wahanol. Gellir defnyddio yr un ffurf at lawer o faterion. Y mae yn bossibl yn fynych rhoddi darlun ger bron y llygad o ffurf ymresymiad. Gallwn roddi ffurf y ddau ymresymiad a nodasom eisoes mewn darlun fel hyn:—

```
                (Y)
              ...  ...
            ...      ...
          ...          ...
         yw             yw
        ...              ...
       ...                ...
      ...                  ...
     ...                    ...
    (X)...........yw...........(Z)
```

Tybiwn fod *X*, *Y*, a *Z* yn sefyll am dri dosbarth o bethau yn dal y fath berthynas â'u gilydd fel y mae *X* yn gynnwysedig yn *Y*, a *Y* drachefn yn gynnwysedig yn *Z*; yna y mae yn canlyn o angenrheidrwydd fod *X* yn gynnwysedig yn *Z*. Jevons' "*Elementary Lessons in Logic*," *lesson* 1.

Y mae y ffugr a'r ymresymiad uchod, gan hyny, yn gosod allan un o ffurfiau meddwl. Yn awr, y mae y ffurfiau hyn yn sefydlog, yn cael eu bod yn nghyfansoddiad y meddwl ei hunan, ac yn hollol annibynol, fel y dangoswyd, ar fater y meddwl; ac o blegid hyny, y gelwir hwynt yn "ffurfiau angenrheidiol y meddwl." Yn ol yr eglurhâd a roddwyd eisoes, y maent yn dufewnol, yn wreiddiol, yn gyffredinol, ac felly yn dddeddfau. Yn unol â'r deddfau hyn y mae pawb yn rhwym o ymresymu, pa beth bynag yr ymresymir yn ei gylch. Y ffurfiau hyn o feddwl a raid eu defnyddio tra y byddys yn meddwl ac yn ymresymu yn gywir. Chwilio allan, egluro, dosbarthu, a sefydlu y deddfau neu y ffurfiau hyn mewn gwyddor reolaidd, mewn trefn i'w cymmhwyso yn gelfyddyd o ymresymu—dyma yw dyben *Rhesymeg*.

III. EI DEFNYDDIOLDEB.

Fel y crybwyllwyd yn y dechreu, un o'r cwestiynau pwysicaf sydd yn dyfod i mewn i arweiniad i resymeg, ydyw:—Pa beth yw ei defnydd? Beth yw ei gwir werth—ei lle priodol yn nhiriogaeth meddwl?

1. Cyn myned yn mlaen i geisio rhoddi yr atteb cywir i'r cwestiwn hwn, bydd yn fantais i ni daflu golwg ar yr attebion cyfeiliornus a roddwyd iddo o bryd i bryd gan wahanol ysgrifenwyr. Bydd hyn yn foddion i gyfyngu ein hymchwiliad; a rhwyddheir ein ffordd i gael allan pa beth *a all* rhesymeg mewn gwirionedd fel offeryn o feddwl, trwy wneyd yn sicr yn gyntaf pa beth *nas gall*. Tywyllwyd gwir werth y wyddor, a dygwyd hi i anfri yn rhy fynych, trwy hòni iddi yr hyn nas dichon, ac na fwriadwyd iddi ei gyflawni: pan welid nas gallai wneuthur pob peth a hònai ei hamddiffynwyr annoeth iddi, elid yn fuan i'r eithaf arall o dybied nas gallai wneyd dim. Y mae y gwirionedd rhwng y ddau: ar un llaw, nid yw yn hollalluog; ac ar y llaw arall, y mae iddi swyddogaeth o'r fwyaf pwysig yn ngwasanaeth meddwl.

2. Y mae yn amlwg fod cyssylltiad agos rhwng mater yr adran hon a'r adran flaenorol. Cyfododd syniadau cyfeiliornus am ddefnyddioldeb rhesymeg oddi ar syniadau anghywir am natur a dyben y wyddor. Ac un o'r rhai mwyaf camarweiniol o'r syniadau hyny oedd—fod rhesymeg yn ymwneyd â *mater* meddwl, yn lle â'i *ffurf* yn unig, fel y dangoswyd o'r blaen. Nis gellir byth cael syniad cywir am wir le a defnydd rhesymeg fel gwyddor neu gelfyddyd, heb ddeall yn glir nad oes a wnelo hi ond yn unig â ffurf meddwl.

3. Y dybiaeth fod rhesymeg yn ymgydnabod â *mater* meddwl a arweiniodd i'r cyfeiliornad ei bod, mewn rhyw ystyr, yn offeryn darganfyddiaeth wyddorol. Llochwyd y camsyniad mewn rhan gan y teitl, "*Organon*"—'offeryn'—a roddwyd ar y casgliad sydd genym o draethodau Aristotle ar resymeg, y rhai nad ydynt yn ffurfio ond rhan fechan o'i ysgrifeniadau ef ar y wyddor hon, ac nad ydynt yn ddyledus iddo am y teitl cyffredinol a roddwyd arnynt, na'r drefn yn yr hon y maent wedi eu cyfleu. Aethpwyd i edrych ar y traethodau hyn mewn amseroedd diweddarach fel yn ffurfio cyfundraeth gyflawn o resymeg; ac edrychid ar resymeg nid



Digitized by Google

wybodaeth. Traetha am darddiad a sylfeini gwybodaeth ei hunan; ac er ei fod yn wir y gall fod peth gwahaniaeth rhwng y dull rhesymegyddol a ddefnyddir mewn un wyddor rhagor yr un a ddefnyddir mewn gwyddor arall, etto pa beth bynag fydd y ffurf neillduol, rhaid iddi fod yn rhesymegyddol—rhaid iddi gydffurfio â deddfau meddwl. Mewn gair, rhaid fod rhywbeth yn yr hwn y mae yr holl wyddorau yn gyffelyb, ac â pha un y mae yn rhaid iddynt gydffurfio, cyhyd ag y byddant yn wir ac yn gysson â hwynt eu hunain: a gwaith rhesymeg yw egluro y sylfaen gyffredin hon i'r holl wyddorau.—Jevons' "*Elementary Lessons in Logic*," td. 5, 6.

8. Megys yr ydys eisoes wedi crybwyll, er nas gall unrhyw wyddor fod o gwbl, os na bydd wedi ei sylfaenu ar resymeg, mwy nag y gall tŷ gael ei adeiladu ar ddwfr, etto nid yw rhesymeg fel y cyfryw yn abl i helaethu terfynau unrhyw wyddor. Pan yr ydys yn cydffurfio â deddfau rhesymeg, nid ydys yn derbyn unrhyw wybodaeth newydd: galluogir ni yn unig i wneyd yr hyn sydd eisoes wedi ei gyrhaedd yn fwy dealladwy, trwy elfeniad a threfniad. Nid yw rhesymeg ond ammod nacaol gwirionedd. Byddai ymgais i helaethu terfynau gwyddor yn unig trwy wybodaeth o resymeg yn beth mor ynfyd ag a fyddai ceisio cael allan pa weithiau a ysgrifenwyd mewn iaith bennodol, yn unig trwy astudiaeth o reolau grammadegol yr iaith hono. Ond er nas gall rhesymeg eangu terfynau gwyddor, yn yr ystyr o ddarganfod ffeithiau newyddion, byddai yn gamsyniad i dybied nad yw rhesymeg o wasanaeth i gynnydd gwyddoriaeth. Nid mewn casglu defnyddiau newyddion yn unig y mae cynnydd gwyddoriaeth yn gynnwysedig; ond hefyd mewn darganfod y perthynasau sydd yn hanfodi rhwng y defnyddiau a gasglwyd eisoes; ac y mae y gweithrediadau meddyliol sydd yn gwneuthur hyn, megys adfyfyriad a dansoddiad, nid yn unig yn rhwym o ddilyn deddfau rhesymeg, ond yn cael eu hamaethu yn y modd mwyaf effeithiol gan yr arferion o efrydiaeth resymegyddol.

Gwelir, oddi wrth y sylwadau a wnaed, fod rheolau rhesymeg yn ymwneyd â ffurf meddwl, ac nid â'i fater; ac felly, y mae defnyddioldeb rhesymeg yn gynnwysedig yn ei dylanwad ar ein dull o feddwl, ac nid mewn unrhyw effaith ar yr hyn y meddyliwn am dano. Nid yw yn ddefnyddiol, gan hyny, fel offeryn sylweddol; hyny yw, fel cyfrwng i helaethu ein gwybodaeth trwy y darganfyddiad o wirioneddau newyddion; ond yn unig fel offeryn ffurfiol, hyny yw, fel cyfrwng trwy yr hwn y mae y wybodaeth a gasglwyd eisoes yn cael ei dullweddu a'i threfnu i'r ffurf gyfaddas i ammodau ein deall. Hefyd, nid yw i gael ei hystyried fel meddyginiaeth y meddwl yn yr ystyr o gywiro yr amrywiol wallau, y rhai ydynt â'u tarddiad yn natur gwrthddrychau ein gwybodaeth; ond yn unig yn yr ystyr o buro y meddwl oddi wrth y gwallau hyny a gyfodant o feddwl yn anghyssylltiol a chymmysglyd.—Krug, "*Logik*," § 9: dyfynedig gan Hamilton.

Ond y mae rhesymeg, wedi y cwbl, o ddefnydd tra phwysig. Cyflwyna i'n sylw y testyn mwyaf dyddorol o astudiaeth yn mheirianwaith y meddwl dynol; dysg ni mewn llawer o gyssylltiadau pa fodd i wahaniaethu gwirionedd oddi wrth gyfeiliornad, a pha fodd i drefnu ein gwybodaeth yn gyfundraeth; tra, ar yr un pryd, trwy droi y meddwl arno ei hun, dyry i'n galluoedd uchaf un o'u hymarferiadau mwyaf adgyfnerthol. Cynnysgaedda ni hefyd â'r moddion angenrheidiol i ffurfio beirniadaeth resymol, ac i gyfleu ei chanlyniadau i ereill.

Eglurir gwir werth a defnydd rhesymeg gyda goleuni a nerth yn y paragraph canlynol a ddyfynir gan Syr William Hamilton:—

"Ac addef, gan hyny, nad yw y wyddor hon yn dysgu dim newydd—nad ydyw yn helaethu terfynau ein gwybodaeth, nac yn dadblygu y dirgelion a orweddant y tu hwnt i gyloh y rheswm adfyfyriadol—ac nad ydyw ond yn unig yn gwneyd ymchwiliad i'r deddfau digyfnewid i ba rai y mae y meddwl yn ddarostyngedig yn y gwaith o feddwl; etto, yn gymmaint a'i bod yn dadblygu y cymmhwysiad o'r deddfau hyny, y mae yn rhoddi i ni, i ryw fesur, lywodraeth dros ein meddyliau ein hunain. Ac ai dim ydyw gwylio y weithfa ddirgel yn yr hon y mae natur yn cywreinio syniadau a meddyliau, ac yn treiddio i gyssegr ein hunan-wybyddiaeth, fel, wedi i ni ddysgu adnabod ein hunain, y byddom yn gymmhwys i ddeall pob peth arall yn iawn? Ai dim ydyw cymmeryd gafael yn llyw meddwl, a bod yn alluog i'w droi wrth ein hewyllys? O blegid, trwy ymchwiliad i ddeddfau meddwl, y mae rhesymeg yn rhoddi i ni, mewn rhyw ffordd, feddiant yn y meddyliau eu hunain. Y mae yn wir, yn ddiau, fod meddwl dyn, fel y greadigaeth faterol, yn cael ei lywodraethu gan ddeddfau tragywyddol, ac yn dilyn, hyd yn oed heb ymwybyddiaeth, ddeddfau dieithriad ein natur. Ei adnabod a'i ddeall ei hun, a ffurfio syniadau cyffredinol o'r tryblith diderfyn o ymddangosiadau a gyflwynir i'r synwyrau, a thrwy y syniadau cyffredinol i ddarostwng y tryblith hwnw i gydgordiad a threfn, ac fel hyn i sefydlu llywodraeth dealltwriaeth dros y bydysawd o hanfodiad—hyn yn unig sydd yn cyfansoddi rhagoriaeth ardderchog a gwahaniaethol dyn."—Heinrich Richter, "*Logik*," td. 3, 4.

"Nid ydyw dyn," medd y meddyliwr mawr, Pascal, "ond corsen—a'r fwyaf brau drwy holl natur; ond y mae yn gorsen sydd yn meddwl. Nid yw yn rhaid i'r holl greadigaeth ymarfogi i'w ddinystrio. Y mae yn marw trwy ychydig o awyr afiach, neu trwy ddyferyn o ddwfr. Ond pe byddai i'r greadigaeth gydgynghreirio i'w ddinystrio, byddai dyn etto yn fwy ardderchog na'r hyn fyddai yn ei drechu; o blegid y mae efe yn gwybod ei fod yn marw: ond am y fuddugoliaeth a gaiff y greadigaeth arno, nid yw y greadigaeth yn gwybod dim. Fel hyn, y mae ein holl urddas yn gynnwysedig mewn meddwl......Llafuriwn, gan hyny, i feddwl yn iawn: hyn ydyw sylfaen moesoldeb."

Y mae rhesymeg, mewn rhan o leiaf, yn ein cynnysgaeddu â safon i wahaniaethu gwirionedd oddi wrth gyfeiliornad. Yr ydym yn dueddol i gael ein camarwain yn barhaus gan ymddangosiadau twyllodrus; ymgymmysga breuddwydion gwâg â gwybodaeth sylweddol; camgymmerir y cynnefin am y sicr, a chymdeithasiad meddyliau am gyssylltiadau bodolaeth. Trwy resymeg galluogir ni i ddeol y gwir oddi wrth y gau—yr hyn sydd yn bod oddi wrth yr hyn sydd yn ymddangos yn unig. Dysgir ni gan resymeg i ddadansoddi pentyrau ein gwybodaeth i'w helfenau, a thrwy hyny dyry i ni ddirnadaeth glir a phendant o'i rhanau; dysg ni i feddwl yn gysson ac mewn trefn; a dysg ni pa fodd i gydgyssylltu y wybodaeth a gasglwyd i adeilad gadarn a chyfunol. "Y mae yr efrydiaeth o resymeg mor angenrheidiol tuag at feddwl yn gywir ag ydyw yr efrydiaeth o rammadeg tuag at siarad yn gywir—hyd yn oed pe na buasai mewn ystyr arall ac ynddi ei hunan yn efryd-

Digitized by Google

iaeth ddyddorol i chwilio i mewn i beirianwaith y rheswm dynol yn ngweithrediadau rhyfeddol meddwl. Y maent hwy, o leiaf y rhai ydynt yn gydnabyddus â'r peirianwaith hwn, yn llai agored i'r twyllebau cuddiedig sydd mor hawdd yn camarwain y rhai ydynt anghynnefin âg elfenu y gweithrediadau hyny."—Krug, "*Logik,*" § 9, td. 26: dyfynedig gan Hamilton.

Ond heb law fod rhesymeg yn cyfranu gwybodaeth a medr mewn elfenu gweithrediadau meddwl, y mae yn ddefnyddiol mewn ffordd arall; sef, trwy ein cynnysgaeddu â nerth meddyliol. Y mae troi meddwl i mewn i weithredu arno ei hunan—meddwl am neu ar feddwl *(the thinking of thought)*—yn ymdrech grymus, ac felly yn arferiad cryfhaol i'r deall; a chan mai y deall ydyw offeryn pob damcaniaeth wyddorol ac athronyddol, y mae rhesymeg, mewn modd arbenig, trwy ddiwyllio a chryfhau y deall, yn amddiffyn ei hen deitl i gael ei hystyried fel y ddysgyblaeth ragbarotoawl oreu i athroniaeth a'r gwyddorau yn gyffredinol.

Defnydd arall, israddol y mae yn wir, ond nid dibwys, a berthyna i resymeg ydyw ein cynnysgaeddu âg enwau priodol a chyfleus ar y deddfau a lywodraethant iawn feddwl, ac ar y troseddiadau o'r deddfau hyny drwy ba rai y mae meddwl yn dyfod yn gyfeiliornus neu yn ddirym. Dywed Butler yn yr "*Hudibras,*" nad yw holl reolau y rheithegwr ond yn gwasanaethu yn unig i roddi enwau ar ei arfau gweithio. Dyma yn ddiau un o brif ranau defnyddioldeb rheitheg. Nis gall gwybodaeth noeth o reolau rheitheg alluogi neb i gyfansoddi yn dda, mwy nag y gall gwybodaeth yn unig o reolau rhesymeg ei alluogi i feddwl yn dda. Rhaid i natur fod wedi rhoddi y gallu yn mlaen llaw yn y naill a'r llall; ond rhaid i'r gallu drachefn gael ei ddiwyllio trwy ymarferiad dyfal, ac yn yr iawn gyfeiriad. Rhoddir y cyfeiriad hwnw gan reolau rheitheg gywir yn y naill amgylchiad, a chan reolau rhesymeg gywir yn yr amgylchiad arall. Y mae defnydd y naill wyddor a'r llall, gan hyny, yn rhywbeth mwy nag enwi yr arfau. Ond y mae enwi yr arfau, er nad yn bwysig ynddo ei hun, etto yn werthfawr fel ammod swyddogaeth bwysig, yr hon heb hyny nas gallesid ei chyflawni. Nid yw geiriau yn rhoddi meddyliau; ond heb eiriau nis gallasai meddyliau gael eu sefydlu, eu terfynu, na'u mynegu. Mae geiriau, gan hyny, yn gyffredinol, yn ammod hanfodol o bob meddwl teilwng o'r enw. Ac y mae yr hyn sydd wir fel hyn am feddwl dynol yn gyffredinol, yn wir am reitheg a rhesymeg yn neillduol. Y mae yr enwau yn y ddwy wyddor hon yn enwau ar elfeniadau a gwahaniaethiadau cyffredinol, y rhai ydynt yn rhoddi ar ddeall i'r cyfarwydd mewn un gair yr hyn nas gallasai yr anghyfarwydd ei ddeall na'i ddadgan heb amgylch-eiriad blinderus ac ammhennodol; tra hefyd na chymmerai yn ei ddwylaw ef ond y ffurf o sylw neillduol, yn lle enghraifft neillduol o reol gyffredinol ac addefedig. Cymmerer, er esampl, y ffurf hono o dwyll-resymu a elwir mewn rhesymeg yn "ymresymu mewn cylch," yn yr hon y mae y naill a'r llall o ddau beth yn cael eu defnyddio, er mewn dull dirgel a chwmpasog fe allai, i brofi eu gilydd. Gall y dyn anghyfarwydd â rhesymeg gael allan y twyll hwn, a bod yn argyhoeddedig mai twyll ydyw; ond pe ceisiai ei egluro i un arall, cai ei hunan ar unwaith mewn anhawsder dirfawr. Rhaid iddo wneyd eglurhâd hir a chwmpasog o bossibl; ac wedi yr holl drafferth nid yw yn llwyddo yn y diwedd fe allai i wneyd ei wrthddadl yn glir a dealladwy. Ond rhwng rhai cydnabyddus â rhesymeg, byddai dau air yn ddigon i benderfynu yr holl gwestiwn. Ni byddai angen am ddim ond dyweyd a dangos fod y casgliad dan sylw yn cynnwys y bai o "ymresymu mewn cylch;" a deallid ac addefid ar unwaith fod y cyfryw gasgliad wedi ei wrthbrofi. A phe na wnaethai rhesymeg ddim ond sefydlu nifer pennodol o reolau pendant a therfynol mewn ymresymu, a'n cynnysgaeddu âg ymadroddion byr a phendant, trwy ba rai y gallem ddwyn unrhyw achosion neillduol o dan y rheolau cyffredinol hyny, gwnai wasanaeth pwysig i bawb sydd a wnelont â defnyddiad y rheswm, ac felly i'r rhai sydd yn amaethu pob gwyddor ddynol. Trwy y meddiant o reolau sefydlog felly, ac o gyfryw enwadaeth gelfyddydol yn unig, y gallwn gwblhau gyda rhwyddineb, ac i fesur digonol, feirniadaeth ar unrhyw waith o ymresymiad. Y mae iaith rhesymeg, felly, i'r ymresymwr, yr hyn ydyw nodiant rhifyddiaeth neu alsoddeg i'r mesuronydd. Galluoga y naill a'r llall ni i amgyffred a mynegu trwy ychydig o arwyddion llawn o ystyr, yr hyn fel arall a fuasai yn ein gorthrechu â'i gymmhlethrwydd. O blegid hyny, byddai cydnabyddiaeth gyffredinol â rheolau ac iaith rhesymeg yn un o'r moddion mwyaf effeithiol i hyrwyddo ac eangu y gallu i ymresymu.

### IV. EI RHANIADAU.

Y cwestiwn sydd genym i'w atteb o dan y pen hwn ydyw, Pa fodd y dosberthir rhesymeg? Y mae dau ystyr i'r cwestiwn hwn: un ydyw, Pa sawl math o resymeg sydd? Y llall ydyw, I ba ranau cyfansoddol y dosberthir hi? Yn y blaenaf, edrychir ar y wyddor yn ei chyffredinolrwydd; yn yr olaf, edrychir arni yn ei chyfanrwydd. Y cwestiwn blaenaf sydd i'w ystyried gyntaf, o blegid cyn myned yn mlaen i ddangos y rhanau o ba rai y cyfansoddir rhesymeg, y mae yn angenrheidiol penderfynu beth, neu pa un, yw y rhesymeg hono ag y mae y rhanau hyn yn ei gwneyd i fyny.

Yr ydym yn tybied mai y peth goreu a allwn ei wneyd dan y pen hwn yw rhoi dau eglurhâd ar raniadau rhesymeg, a'i golygu fel cyfundraeth allanol, neu wyddor gyffredinol a dansoddol. Bydd yn fantais, dybygem, i'r darllenydd anghyfarwydd âg efrydiau o'r natur hyn, i ni roddi yn y lle cyntaf yr eglurhâd mwyaf syml ac elfenol ag sydd yn bossibl ei roddi o'r pwngc dan sylw; ac yna myned yn mlaen at eglurhâd mwy gwyddorol a manwl.

I. Dechreuwn, gan hyny, gydag eglurhâd o'r fath fwyaf elfenol a syml ag y dichon i ni ei roddi o raniadau rhesymeg. Bydd yn fanteisiol hwyrach i grybwyll wrth gychwyn mai tair rhan fawr yr athrawiaeth sydd yn cyfansoddi rhesymeg, ydynt

Ymadroddion.
Gosodiadau.
Cyfresymiadau.

Ond ni ddylem adael y rhaniad hwn gyda dim ond ei grybwyll; y mae yn angenrheidiol chwilio ar ba egwyddorion y mae y rhaniad yn cael ei wneuthur: gall hyn fod yn gynnorthwy pwysig, chwanegol at y sylwadau a wnaethpwyd eisoes, i gael golygiadau clir am natur a dyben y wyddor.

Yr ydym eisoes wedi ceisio dangos yn helaeth mai dyna ydyw rhesymeg—y wyddor a'r gelfyddyd o ymresymu; neu y wyddor sydd yn

Digitized by Google

ymwneyd â deddfau angenrheidiol meddwl—y deddfau ag yr ydym o dan rwymau, oddi ar gyfansoddiad ein meddwl, i gydffurfio â hwynt os mynwn ymresymu yn gysson â ni ein hunain, ac yn gysson â gwirionedd neu natur pethau. Pwngc mawr y wyddor o resymeg gan hyny yw ymresymiad, neu ymresymu. Ond y ffordd fwyaf cyfleus a chyffredin i astudio rhesymeg ydyw gwneyd ymchwiliad yn mlaenaf i'r rhanau cyfansoddol o ba rai y gwneir unrhyw ymresymiad i fyny. Megys y mae yn angenrheidiol i'r adeiladydd fod yn gyfarwydd â defnyddiau adeilad, neu beiriannydd â defnyddiau peiriant, cyn y gall broffesu bod yn gyfarwydd â'i wneuthuriad, felly y mae yn briodol disgrifio y defnyddiau a'r offerynau â pha rai y mae yn rhaid i ni weithredu mewn ymresymu, cyn myned yn mlaen i sylwi ar y gwahanol ffurfiau a berthynant i ymresymiad.

Cymmerwn yr enghraifft syml a ganlyn o ymresymiad:—

Y mae haiarn yn fettel.
Y mae pob mettel yn elfen.
Gan hyny, y mae haiarn yn elfen.

Gwelir ei fod yn cael ei wneyd i fyny o dri gosodiad neu haeriad, a bod pob un o'r tri yn cynnwys dau sylweddair, neu enw, ynghyd â'r ferf "y mae," heb law geiriau mân israddol. Mewn gair, y mae dau o enwau, neu *ymadroddion*, pau gyssylltir hwynt gan ferf, yn gwneyd i fyny haeriad neu osodiad; ac y mae tri o'r fath osodiadau yn gwneyd i fyny ymresymiad, a elwir yn yr achos hwn yn *gyfresymiad* (*syllogism*). O ganlyniad, y mae yn gyfleus a naturiol i ddisgrifio termau neu ymadroddion yn mlaenaf, fel y rhanau mwyaf syml: yna myned yn mlaen i ystyried natur a gwahanol fathau y gosodiadau a ffurfir o honynt: wedi hyny, byddys mewn mantais i ymdrin â'r cyfresymiad yn ei gyfanrwydd. Dyma gan hyny, dair rhan athrawiaeth rhesymeg.

Yr ydym yn gweled felly fod tair rhan rhesymeg yn ymwneyd âg ymadroddion, gosodiadau, a chyfresymiadau. Ond mwy cywir, fe allai, a fyddai dyweyd mai gwir destyn y wyddor yw y gweithrediadau meddyliol hyny a osodir allan drwy y ffurfiau uchod o iaith. Ceir fod ysgrifenwyr ar resymeg yn gwahaniaethu ar y pen hwn, yn eu dull o eirio pa fodd bynag, os nad yn yr ystyr. Dywed Archesgob Whately yn bendant fod a wnelo rhesymeg yn gyfangwbl âg *iaith:* golyga Syr William Hamilton, Mr. Mansel, a'r rhan fwyaf o ysgrifenwyr ar resymeg, ei bod yn ymwneyd â'r *actau meddyliol* neu yr ystâd o feddwl a ddynodir drwy y geiriau: tra y mae Mr. John Stuart Mill drachefn yn dal mai *â'r pethau eu hunain* y mae a wnelo, o berthynas i ba rai yr ydys yn ymresymu. Y mae y cwestiwn yn cyfodi yma, gan hyny, Beth ydyw testyn rhesymeg—pa un ai *iaith*, *meddwl*, ynte *gwrthddrychau?* Yr atteb symlaf a chywiraf, dybygid, ydyw dyweyd ei bod yn ymdrin mewn rhyw ystyr â phob un o'r tri. Yn gymmaint ag nas gall unrhyw weithrediad ymresymiadol gael ei egluro na'i gyflwyno i berson arall heb eiriau, yr ydym felly yn ymarferol yn cael ein cyfyngu i'r cyfryw ymresymu ag a ddygir i lawr i'r ffurf o iaith. Felly bydd a wnelom bob amser â geiriau—ond yn unig mor bell ag y maent yn offerynau i gofrestru ac i gyfeirio at ein meddyliau. Y mae y grammadegwr hefyd yn ymdrin âg iaith, ond y mae efe yn ymdrin â hi yn unig fel iaith. Wedi iddo ddisgrifio ac egluro ffurfiau, amrywiaethau, a pherthynasau geiriau, y mae ei wyddor ef yn terfynu. Ymdrina rhesymeg hefyd âg iaith, ond yn unig fel y ddangoseg angenrheidiol i weithrediad meddwl.

Etto, tra y meddyliom yn gywir, mae'n rhaid i ni feddwl am bethau fel y maent; rhaid i ystâd y meddwl o'n mewn gyfatteb i ystâd pethau oddi allan i ni, pa bryd bynag y ceir cyfleusdra i'w cymmharu â'u gilydd. Y mae yn ammhossibl, ac yn annirnadwy, y byddai i haiarn droi allan i beidio bod yn sylwedd elfenol, os yw yn fettel, ac os yw pob mettel yn elfen. Nis gallwn dybied, ac nid oes unrhyw reswm dros dybied, ein bod o dan angenrheidrwydd, oddi ar gyfansoddiad ein meddyliau, i feddwl am bethau yn wahanol i'r hyn ydynt. Byddai tybied felly yn gabledd ar y Creawdwr—yn ei gyhuddo o fod yn Greawdwr anffyddlawn; ac o fod yn gweithredu arnom dwyll parhaus, trwy wneuthur i gyfansoddiad ein meddwl wrthddywedyd cyfansoddiad natur; neu, trwy ein gorfodi i feddwl am bethau yn wahanol i'r hyn ydynt mewn gwirionedd. Felly, os gallwn gymmeryd yn ganiataol fod pethau yn cyttuno, neu yn gwahaniaethu, yn unol â'r hyn ag y mae meddwl rhesymegyddol cywir yn ein harwain i gredu y gwnant, nid oes gwir anghyssondeb yn ngolygiadau y rhesymegwyr y cyfeiriwyd atynt. Yr ydym yn ymwneyd â phethau mor bell ag y maent yn wrthddrychau meddwl, ac yr ydym yn ymwneyd âg iaith mor bell ag y mae hi yn ymgorphoriad o feddwl. Bydd cadw hyn mewn cof yn gymmhorth i gyssoni gwahanol weithiau ar resymeg, y rhai ydynt yn gwahaniaethu yn fawr o ran eu dull o ymdrin â'r mater, neu o leiaf o ran eu dull o ymadroddi.

Os yw rhesymeg yn cael ei chyfansoddi o dair rhan, pan wedi ei chorphori mewn iaith, sef ymadroddion, gosodiadau, a chyfresymiadau, y mae yn rhaid fod yr un nifer o wahanol ddulliau o feddwl, neu o weithrediadau meddyliol. Gelwir y rhai hyn yn gyffredin—

1. Amgyffrediad syml.
2. Barn.
3. Ymresymiad.

1. Ystyr y cyntaf o'r rhai hyn, *amgyffrediad syml*, yw y weithred hono o eiddo y meddwl trwy ba un yr ydym yn unig yn dyfod yn wybyddus o unrhyw beth, neu yn derbyn syniad, drychfeddwl, neu argraph o'r peth hwnw i'n meddyliau. Yr enw Saesneg arno yw *simple apprehension:* y mae y gair *simple* (syml) yn golygu arno ei hun, ar wahân oddi wrth bethau ereill; ac ystyr y gair Saesneg *apprehension* (amgyffrediad neu ddirnadaeth) ydyw y meddwl yn ymaflyd mewn unrhyw beth. Fel hyn y mae y gair neu yr enw *haiarn* yn y fan yn gwneyd i ni feddwl am fettel pennodol cryf a thra defnyddiol; ond nid ydyw yn dywedyd dim wrthym am dano, nac yn ei gymmharu â dim arall. Y geiriau *haul*, *lleuad*, *sêr*, *môr*, *mynydd*, ydynt hefyd ymadroddion a alwant ger bron y meddwl wrthddrychau pennodol ac adnabyddus, y rhai a drigant yn ein cof hyd yn oed pan nad ydynt yn bresennol i'n synwyrau corphorol. Mewn gwirionedd, nid yw defnyddio un o'r geiriau a nodwyd fel esamplau ond peth a wneir yn lle arddangosiad o'r pethau eu hunain sydd yn cael eu henwi.

2. *Barn.*—Barn sydd weithrediad gwahanol o eiddo y meddwl, ac yn gynnwysedig mewn cymmharu dau syniad neu ddau ddrychfeddwl o wrthddrychau—syniadau a gafwyd trwy am-

Digitized by Google

gyffrediad syml, fel ag i gael allan pa un a ydynt yn gyffelyb neu yn wahanol i'w gilydd. Y mae yn amlwg felly nas gallwn farnu neu gymmharu oni byddwn yn ymwybodol o ddau beth yn y meddwl ar yr un amser. Er esampl: pan yr ydwyf yn cymmharu Jupiter a Sirius, y peth cyntaf yw meddu amgyffrediad syml am bob un o honynt ar wahân: ond wrth eu dwyn ar gyfer eu gilydd yn y meddwl, i'w cymmharu, yr wyf yn sylwi eu bod yn gyffelyb i'w gilydd mewn bod yn gyrph bychain, dysglaer, yn tywynu, y rhai ydynt yn cyfodi ac yn machlud ac yn troi o amgylch y nefoedd gyda chyflymdra sydd yn ymddangos yn gyfartal. Ond wrth sylwi yn fanylach, yr wyf yn cael eu bod yn gwahaniaethu: yr wyf yn gweled fod Sirius yn rhoddi goleu crynedig neu ddysbeidiol; hyny yw, yn amrantu fel llygad yn cau ac yn agor yn gyflym, tra y mae Jupiter yn tywynu yn sefydlog. Wrth barhau i sylwi, gwelir nad ydyw Jupiter a Sirius mewn gwirionedd yn ysgogi gyda chyflymdra cyfartal a rheolaidd; ond fod Jupiter yn newid ei sefyllfa yn y ffurfafen bob nos mewn dull nad yw yn hawdd ar yr olwg gyntaf i roddi cyfrif am dano. Os estynir y gymmhariaeth at ereill o'r cyrph nefol, y rhai a welir ar yr un adeg, neu y synier am danynt, yr wyf yn canfod fod yna lu o ser, y rhai ydynt yn debyg i Sirius mewn rhoi goleu crynedig, ac mewn aros yn berffaith sefydlog o ran eu sefyllfa berthynasol i'w gilydd; tra ar y llaw arall, y gellir gweled dau neu dri o gyrph ereill, y rhai ydynt yn bur gyffelyb i Jupiter mewn rhoddi goleu sefydlog, ac hefyd mewn newid eu lleoedd o nos i nos yn mhlith y ser sefydlog. Y mae genyf yn awr, trwy weithrediad barn, y syniad cyffredinol wedi ei ffurfio yn fy meddwl o *ser sefydlog;* yr hwn syniad a ffurfiwyd trwy ddwyn ynghyd yn fy meddwl nifer o wrthddrychau y rhai ydynt yn gyffelyb i'w gilydd; tra yr ydwyf drachefn, wrth ddwyn ynghyd yn fy meddwl nifor o wrthddrychau ereill, y rhai ydynt hefyd yn gyffelyb i'w gilydd, wedi ffurfio syniad cyffredinol o *blanedau.* Yn awr, wrth gymmharu y ddau syniad cyffredinol yma â'u gilydd, yr wyf yn cael nad ydynt yn meddu yr un ansoddau neu ymddangosiadau. Dyma y gweithrediad meddyliol a elwir yn *farn;* ac yr wyf yn gwneuthur mynegiad o'r farn hon yn y gosodiad—"Nid ser sefydlog ydyw planedau."

Y mae y darllenydd wedi sylwi ein bod wedi defnyddio fwy nag unwaith yn yr eglurhâd blaenorol yr ymadrodd "syniad cyffredinol." Y mae hwn yn ymadrodd pwysig mewn rhesymeg, ac yn gofyn eglurhâd ei hunan, o bossibl, cyn myned yn mhellach. Ceir fod yr ymadrodd hwn yn cael ei arfer gan athronwyr yn gysson er's mwy na dwy fil o flynyddoedd, sef syniad cyffredinol, neu ddrychfeddwl, amgyffrediad, neu syniad, &c.; ond nid ydynt erioed wedi cyttuno yn hollol am ystyr yr ymadroddion hyn. Gellir rhanu athronwyr yn dair plaid ar y mater hwn:—

(1.) *Enwedyddion* (*Nominalists*).—Deil y dosbarth hwn o athronwyr nad ydyw y cwbl ond pwngc o *enwau;* a phan yr ydym yn cyssylltu Iau, Mawrth, Sadwrn, Gwener, &c., â'u gilydd, ac yn eu galw yn blanedau, mai yr enw cyffredin i'r cwbl yw y rhwymyn sydd yn eu cyssylltu â'u gilydd yn ein meddyliau.

(2.) *Sylweddwyr* (*Realists*).—Haera y blaid hon fod, heb law y planedau neillduol hyn, rywbeth yn bod yn wirioneddol sydd yn uno y priodoliaethau cyffredin i'r cyfan o honynt, heb ddim o'r gwahaniaeth mewn maint, lliw, ac ysgogiad, sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd.

Gellir dyweyd, pa fodd bynag, fod pawb erbyn hyn yn addef fod yr haeriad hwn yn dal allan beth sydd yn ammhossibl:—nas gall dim hanfodi mewn anian sydd yn cyfatteb i syniad cyffredinol. O blegid rhaid iddo hanfodi yma neu acw, o'r maint hwn neu o'r maint arall; ac o ganlyniad, ni byddai hwn wedi y cwbl ond un blaned neillduol, ac nid unrhyw blaned pa bynag:—yr hon yw y dyb a ddelir yn y golygiad.

Gellid meddwl fod yr Enwedyddion yr un mor gyfeiliornus: o blegid cyn y bydd iaith o ddim defnydd, rhaid iddi ddynodi rhywbeth; a rhaid iddi gyfatteb, fel y dangoswyd, i actau o eiddo y meddwl. Felly, os yw enwau priodol yn galw i fyny yn ein meddyliau ddelweddau o bethau neillduol, megys yr haul, Jupiter, &c., dylai enwau cyffredinol yr un modd alw i fyny syniadau cyffredinol.

Ymddengys mai y golygiad cywir ar hyn yw eiddo yr athronwyr a elwir yn

(3.) *Syniadyddion (Conceptualists).*—Dywed y rhai hyn mai dyna yw y syniad cyffredinol, sef y wybodaeth sydd yn y meddwl o'r priodoliaethau cyffredin, neu y nodweddion o gyffelybrwydd a berthyn i'r pethau a gynnwysir yn y syniad. Fel hyn, y mae y syniad o blaned mewn gwirionedd yn golygu yr ymwybyddiaeth yn meddwl unrhyw berson fod rhyw rai pennodol o'r cyrph nefol yn gyffelyb i'w gilydd mewn rhoddi goleuni unffurf neu sefydlog, ac mewn symmud yn y ffurfafen—yn wahanol i'r sêr sefydlog. Dylid crybwyll hefyd fod rhai, a Syr William Hamilton yn eu mysg, a gyfrifid yn Enwedyddion, ond ydynt yn dal er hyny fod, ynghyd â'r enw cyffredinol, ymwybyddiaeth yn cael ei gyssylltu âg ef o'r tebygolrwydd sydd yn bod rhwng y pethau a ddynodir ganddo a'u gilydd. Gwelir nad yw yn hawdd gwahaniaethu rhwng y ffurf hon ar y golygiad â Syniadyddiaeth.

Gellir dywedyd mewn un ystyr fod yr oll o resymeg, a'r oll o unrhyw wyddor, yn gynnwysedig mewn trefnu y pethau neillduol a gyfarfyddwn dan syniadau cyffredinol neu ddosbarthiadau, ac mewn rhoddi iddynt enwau cyffredinol priodol i'w natur, yn y fath fodd fel ag i wneyd ein gwybodaeth o honynt mor syml a chyffredinol ag a fyddo yn bossibl. Pob syniad cyffredinol a ffurfir yn briodol a oddefa gael ei ddadgan mewn deddfau neu wirioneddau cyffredinol. Fel hyn, gellir gwneyd gosodiadau pennodol am y planedau; megys eu bod yn ymsymmud mewn cylchrodau hirgrwn o amgylch yr haul, o orllewin i ddwyrain; eu bod yn tywynu gyda goleuni yn cael ei adlewyrchu oddi wrth yr haul; ac felly yn mlaen. Am y sêr sefydlog drachefn, gellir hòni eu bod yn tywynu â'u goleuni priodol eu hunain; eu bod mewn pellder anghymmharol fwy na'r eiddo y planedau; ac felly yn mlaen. Ceir gweled fod yr oll o resymu yn tarddu o'r gallu hwn o farn, drwy yr hwn yr ydym yn abl i ddarganfod ac i hòni fod nifer liosog o wrthddrychau yn meddu ansoddau cyffelyb, fel pa beth bynag a wyddir am rai, y gellir ei gasglu a'i haeru am y lleill.

Wrth gymmhwyso y gyfryw wybodaeth yr ydym yn defnyddio y drydedd weithred o feddwl, a elwir yn

3. *Ymresymiad.*—Trwy ymresymiad galluogir ni, oddi wrth farnau pennodol, heb unrhyw

Digitized by Google

gyfeiriad newydd at y gwrthddrychau eu hunain, i ffurfio barn newydd. Os gwyddom fod haiarn yn dyfod o dan y syniad cyffredinol o fettel, a bod y syniad hwn yn dyfod o dan y syniad eangach etto o elfen, neu sylwedd elfenol, yna, heb unrhyw ymchwiliad pellach i haiarn, yr ydym yn gwybod ei fod yn sylwedd syml annadgyfansoddadwy, a elwir gan fferyllwyr yn elfen. Neu, os ydym yn gwybod o un ffynnonell o wybodaeth fod Neptune yn blaned, ac o ffynnonell arall fod planedau yn ymsymmud mewn cylchrodau hirgrwn, ni a allwn uno y ddwy gyfrau yma o wybodaeth â'u gilydd yn y meddwl fel ag i dynu allan y gwirionedd fod Neptune yn ymsymmud mewn cylchrawd hirgrwn.

Gellir darnodi *ymresymiad*, gan hyny, fel symmudiad y meddwl yn mlaen oddi wrth un neu fwy o osodiadau ag sydd wedi eu rhoi i lawr at osodiad arall gwahanol i'r rhai a roddwyd i lawr. Y gosodiadau hyny oddi wrth ba rai yr ydym yn ymresymu a elwir yn gynseiliau *(premises)*; a'r gosodiad a dynir oddi wrthynt a elwir yn gasgliad (*conclusion*). Dywedir fod yr olaf yn canlyn, yn cael eu tynu neu eu casglu oddi wrthynt; a gelwir y cynseiliau felly am eu bod yn sylfeini cyntaf ar ba rai y mae holl rym y casgliad yn ymddibynu. Y mae y gair Saesneg am danynt, sef *premises*, yn golygu yr hyn a roddir yn mlaen, neu yn y dechreuad—o'r Lladin *præ*, o flaen, a *mitto*, yr wyf yn anfon neu yn gosod. Y mae hanfod y gweithrediad hwn yn gynnwysedig mewn casglu y gwirionedd a gynnwysir yn y cynseiliau pan wedi eu huno â'u gilydd, a'i gario gyda ni i'r casgliad, lle y mae yn cael ei gorphori mewn gosodiad neu haeriad newydd. Yr ydym yn tynu allan o'r cynseiliau yr holl hysbysrwydd sydd yn ddefnyddiol i'r pwrpas mewn golwg: a dyma yr oll y mae ymresymiad yn ei gyflawni.

Wele ni yn awr wedi rhoddi eglurhâd mor syml ag y gallwyd o dair cangen athrawiaeth rhesymeg:—Ymadroddion, gosodiadau, ac ymresymiad neu gyfresymiad. Chwanega rhai bedwaredd rhan, a elwir yn *ddull*, neu *drefniad* (*method*), yr hon sydd yn ymwneyd â threfniad y gwahanol ranau mewn unrhyw gyfansoddiad. Dywedir weithiau mai yr hyn ydyw gosodiad i ymadrodd, a'r hyn ydyw cyfresymiad i osodiad, mai dyna ydyw trefniad i gyfresymiad; a bod y bedwaredd ran hon yn angenrheidiol i gyflawni athrawiaeth rhesymeg. Ond pa un bynag a ddylai y pwngc hwn ffurfio rhan wahanol arni ei hunan ai peidio, y mae yn ddiddadl ei bod yn mhell is law y tair rhan blaenorol mewn gwahanolrwydd a phwysigrwydd.—Jevons' "*Elementary Lessons in Logic*," *lesson* ii.

II. Ni a symmudwn yn mlaen yn awr i geisio gosod ger bron y darllenydd eglurhâd mwy manwl a gwyddorol o raniadau rhesymeg. Fel y canlyn y mae Mr. John Stuart Mill yn dosbarthu y wyddor:—1. Enwau. 2. Gosodiadau. 3. Ymresymiadaeth. 4. Cyfosiad. 5. Gweithrediadau gwasanaethgar i gyfosiad. 6. Twyllebau. 7. Rhesymeg y gwyddorau moesol. Gwelir mai yr hyn sydd yn gwahaniaethu y dosbarthiad hwn oddi wrth ddosbarthiadau cyffredin ydyw yr un peth sydd yn brif neillduolrwydd cyfundraeth Mr. Mill o resymeg; sef, y lle mawr a ddyry efe i gyfosiad, nid yn unig fel rhan hanfodol, ond fel y rhan bwysicaf o resymeg.

Ond yr ydym yn credu mai dosbarthiad Syr William Hamilton ydyw y mwyaf dwfn ac athronyddol o ran ei egwyddorion o bob un a wnaed yn Mhrydain; ac o blegid hyny hwn yw y perffeithiaf o ran eangder yn gystal a manylrwydd. Yr ydym, gan hyny, yn teimlo, os gallwn wneuthur dosbarthiad y meddyliwr cawraidd hwn yn eglur i'r darllenydd Cymraeg, o ran ei egwyddorion a'i fanylion, na bydd dim i'w chwanegu ar y pen hwn.

Dywedasom wrth ddechreu traethu ar yr adran hon, fod y cwestiwn—Pa fodd y mae rhesymeg yn cael ei dosbarthu? yn un y gellir ei ddeall mewn dwy ffordd, ac felly mewn gwirionedd yn cynnwys dau gwestiwn; sef, 1. Pa sawl *math* o resymeg sydd? Ac yn 2. I ba nifer o *ranau* cyfansoddol y mae rhesymeg yn cael ei dosbarthu? Yn y cyntaf, edrychir ar y wyddor yn ei chyffredinolrwydd; ac yn y llall, yn ei chyfanrwydd.

1. Pa sawl *math* o resymeg sydd? Dyma yr ymofyniad a ddaw ger ein bron gyntaf; o blegid cyn ymofyn o ba ranau y cyfansoddir rhesymeg, rhaid penderfynu pa fath neu rywogaeth o resymeg yw yr un a gyfansoddir o'r rhanau hyny. Ni a attebwn y cwestiwn hwn trwy edrych ar y wyddor mewn tair o berthynasau neillduol. Wrth ystyried rhesymeg fel hil neu ddosbarth *(genus)*, gellir edrych arni, mewn gwahanol berthynasau, yn cael ei rhanu i wahanol rywogaethau *(species)*.

1af, Pan edrychir ar resymeg yn ei pherthynas â'r *meddwl*, dosberthir hi i ddwy ran; sef, gwrthddrychol *(objective)* a mewnol *(subjective)*; neu, yn iaith rhai o'r hen awdwyr, rhesymeg gyfundraethol *(logica systematica)*, a rhesymeg ymarferol *(logica habitualis)*.

*a*. Ystyr y gyntaf—rhesymeg wrthddrychol neu gyfundraethol—ydyw, y cyfangorph hwnw o athrawiaethau o ba un y mae y wyddor o resymeg yn cael ei gwneyd i fyny.

*b*. Ystyr yr ail—rhesymeg fewnol neu ymarferol—ydyw, y wybodaeth byngciol neu ddamcaniaethol *(speculative)* o'r athrawiaethau hyn ag y dichon i unrhyw berson neillduol (megys Socrates, Plato, neu Aristotle) fod yn ei meddu, a'r medrusrwydd ymarferol â pha un y mae efe yn alluog i'w cymmhwyso. Y mae y gyntaf yn cyfatteb i grefydd fel y mae yn cael ei chyhoeddi yn allanol, yn gorph o athrawiaethau a rheolau, yn y Gair a'r efengyl. Yn yr ystyr yma y sonir am athrawiaethau crefydd a gwirioneddau crefydd. Y mae yr ail yn cyfatteb i grefydd fel y mae wedi dyfod yn allu tufewnol ac ymarferol yn yr enaid—yr athrawiaethau wedi troi yn egwyddorion yn ysbryd y dyn, ac yn llywodraethu ei holl ymarweddiad. Hyn a olygir wrth grefydd bersonol neu ymarferol. Fel mewn crefydd, felly mewn rhesymeg—y mae y gyntaf yn cyrhaedd ei hamcan yn yr ail. Nid ydyw rhesymeg, a'i golygu fel cyfundrefn o reolau, yn werthfawr ond fel moddion tuag at resymeg, a'i golygu fel ymarferiad o eiddo y meddwl. Dyben mawr ac eithaf yr athraw yn cyhoeddi ac yn dysgu y resymeg gyfundraethol o'i gadair ydyw, nid yn unig er mwyn i'r ysgolheigion ddyfod yn gydnabyddus â changen bwysig o wybodaeth ddynol o ran y pwngc, ond er mwyn iddynt droi y resymeg gyfundraethol yn resymeg ymarferol—yn ymarferiad sefydlog i lywodraethu holl weithrediadau eu meddyliau eu hunain. Y mae yn wir nad ydyw hyn ond cymmhwysiad neillduol o wirionedd cyffredinol. Dyben eithaf pob *dysgu* yw *gwneyd*:—y mae y pyngciol i fod yn foddion i gynnyrchu yr ymarferol. Mewn un

Digitized by Google

ystyr, y mae pob gwyddor yn gelfyddyd; y mae i bob gwyddor ei hochr byngciol a'i hochr ymarferol, yr hon sydd yn fwy neu yn llai pwysig. Yr hyn sydd yn neillduol i resymeg yn y cysylltiad hwn ydyw, graddau ei phwysigrwydd ymarferol. Perthyna iddi y pwys ymarferol mwyaf, yn gymmaint ag mai hi yw "gwyddor y gwyddorau." Ymestyna ei dylanwad at ein hefrydiaeth o bob gwyddor arall: ar gydffurfiad â'i hegwyddorion a'i rheolau y dibyna graddau ein llwyddiant yn mhob cangen o efrydiaeth—llwyddiant ein hymchwiliad am y gwirionedd, o ba natur neu yn mha gyfeiriad bynag y byddo. Y mae egwyddorion rhesymeg i deyrnasu dros holl faes ein gweithrediadau meddyliol.

2il, Pan edrychir ar resymeg yn ei pherthynas â *gwrthddrychau*—sef, pa un a gymmhwysir hi at wrthddrychau pennodol, ai ni wneir—dosberthir hi i ddwy ran: sef, y dansoddol neu gyffredinol, a'r cyfansawdd neu y neillduol. Gelwir y flaenaf o'r rhai hyn gan yr Aristoteliaid Groegaidd yn διαλεκτικὴ χωρὶς πραγμάτων (rhesymeg heb neu ar wahân i *bethau*): a chan yr ysgolwyr Arabaidd a Lladinaidd *logica docens* (rhesymeg yn yr *addysg*): tra y gelwir yr olaf gan y Groegiaid διαλεκτικὴ ἐν χρήσει καὶ γυμνασίᾳ πραγμάτων (rhesymeg yn y defnydd a'r ymarferiad o *bethau*): a chan yr Arabiaid a'r Lladinwyr, *logica utens* (rhesymeg yn y *defnydd*).

*a.* Rhesymeg ddansoddol *(abstract logic)* a ystyria ddeddfau meddwl yn gyfryw ag y gellir eu cymmhwyso at wrthddrychau yr holl gelfyddydau a'r gwyddorau, ond heb fod yn weithredol yn cael eu cymmhwyso at yr un o honynt.

*b.* Rhesymeg gyfunsawdd *(concrete logic)* a edrycha ar y deddfau hyn yn eu cymmhwysiad gweithredol ac uniongyrchol at bwngc neu fater y gelfyddyd neu y wyddor neillduol hon neu arall. Y flaenaf o'r rhai hyn sydd un, ac a berthyn yn unig i athroniaeth; tra y mae yr olaf mor amryfath ag ydyw y celfyddydau a'r gwyddorau i ba rai y mae yn berthynasol.

Nid yw y rhaniad hwn ar resymeg yn ymestyn yn ol mor bell ag Aristotle, ond ceir ef yn ngwaith yr esboniwr hynaf arno—Alexander o Aphrodisias; yr hwn a flodeuai tua diwedd yr ail ganrif: ac ar ei ol ef yn ngweithiau y rhan fwyaf o'r rhesymegwyr Groegaidd. Eglura Alexander y gwahaniaeth rhwng y resymeg ysgaredig oddi wrth bethau a'r rhesymeg wedi ei chymmhwyso at bethau trwy y gymmhariaeth driongl. Dywed y gellir cyffelybu y flaenaf, sef rhesymeg ddansoddol, i driongl, a'i ystyried fel ffurf mesuronol yn unig, neu ynddo ei hunan; tra y gellir cyffelybu yr olaf, sef rhesymeg gyfunsawdd, i'r un triongl, fel y mae yn hanfodi yn weithredol yn y sylwedd neillduol hwn neu acw. O blegid y mae y triongl, a'i ystyried ynddo ei hunan, bob amser yr un a'r unrhyw; ond a'i ystyried yn ei berthynas â'i ddefnydd, neu y sylwedd a lunir ar ei ffurf, y mae yn amrywio yn ol amrywiaeth y defnydd hwnw; o blegid y mae yn wahanol megys ag y mae o arian, aur, plwm, neu fel y mae o bren, neu gareg, &c. Deil yr un peth yn wir am resymeg. Y mae rhesymeg gyffredinol neu ddansoddol bob amser yr un a'r unrhyw; ond fel y cymmhwysir hi at y naill wrthddrych o fyfyrdod neu y llall, ymddengys yn amryfath. Dywed Syr William am y disgrifiad hwn o eiddo Alexander, nad yw yr ymddangosiad o amrywiaeth yn un gwirioneddol; gan nad oes gan y meddwl mewn gwirionedd ond un dull o feddwl, un dull o ymresymu, un dull o ymddwyn yn yr ymchwiliad am wirionedd, beth bynag a all fod y gwrthddrych ar yr hwn y mae yn ei ymarfer ei hunan. Ac y mae efe yn myned yn mlaen i egluro y gwahaniaeth rhwng y ddwy resymeg trwy y cymmhariaethau canlynol:—Cyffelyba resymeg i awdurdod ymherodraeth gyffredinol. Y mae yn y cyfryw ymherodraeth wahanol daleithiau, a gwahanol raglawiaid. Y mae un rhaglaw yn Asia, un arall yn Ewrop, un arall yn Affrica, a phob un yn cael ei wisgo â theitl gwahanol; ond y mae pob un yn llywodraethu ac yn cael ei lywodraethu gan ddeddfau cyffredin yr ymherodraeth, y rhai a ymddiriedwyd iddo ef i'w gweinyddu. Yn neddfau cyffredin yr ymherodraeth, gwelir rhesymeg ddansoddol neu gyffredinol, tra yn y dalaeth neu y rhaglaw neillduol y gwelir rhesymeg gyfunsawdd neu neillduol. Gellir edrych arni etto yn debyg i afon. Y mae yr afon Tafwys, wrth fyned heibio i Lundain, yn un afon—yn un corph o ddwfr; ond defnyddir ef yno at amrywiol ddybenion: defnyddir ef at yfed, at goginio, at fragu, at olchi, at ddyfrhau y tir, ac at forwriaeth, &c. Felly y mae rhesymeg ynddi ei hunan yn un, fel y mae yn wyddor neu yn gelfyddyd; ond yn ei chymmhwysiad at amrywiol ganghenau gwybodaeth, y mae ei defnydd yn amryw. Etto, nid oes ond un wyddor o rammadeg berthynol i'r un iaith; er y gellir cymmhwyso yr iaith ei hunan at holl ddybenion amrywiol bywyd. Felly, nid oes ond un dull o ymresymu, yr hwn y mae yr holl wyddorau fel eu gilydd yn ei ddefnyddio; ac er fod dynion yn cael eu cymmeryd i fyny mewn amrywiol ffurfiau o lafur, ac am hyny un yn cael ei alw yn dduwinydd, y llall yn gyfreithiwr, y llall yn feddyg, ac felly yn mlaen, y mae pob un yn defnyddio yr un gweithrediadau, ac yn cael ei lywodraethu gan yr un deddfau o feddwl. Y mae rhesymeg ei hunan, gan hyny, yn dra gwahanol i'r defnydd, neu y cymmhwysiad o resymeg. Nid yw rhesymeg yn gyfyngedig i unrhyw fater pennodol, ond yn ymestyn i'r cyfan sydd yn wrthddrych rheswm a dealltwriaeth. Ond y mae y defnydd o resymeg, er yn gyfryw ag a ellir ei gymmhwyso at bob mater, etto yn cael ei gymmhwyso yn weithredol bob amser trwy gyfeiriad neillduol at ryw un. Mewn gwirionedd, nid yw rhesymeg, pan ei cymmhwysir at wyddor neillduol, yn aros yn rhesymeg mwyach; ond y mae yn dyfod yn rhan a chyfran o'r gelfyddyd neu y wyddor at ba un y mae yn cael ei chymmhwyso. Fel hyn, rhesymeg wedi ei chymmhwyso at wrthddrychau mesuroniaeth, nid yw yn ddim amgen na mesuroniaeth; rhesymeg wedi ei chymmhwyso at wrthddrychau anianyddiaeth, nid yw yn ddim ond athroniaeth naturiol. Rhesymeg gyffredinol neu ddansoddol, yn rhinwedd ei chymmeriad cyffredinol (*universal*), sydd yn unig, ac yn unig a all fod, yn un—yn wyddor deddfau cyffredinol meddwl—ac felly yn unig yn meddu hawl i'r urddas o fod yn wyddor annibynol. A hi, gan hyny, yn unig y mae a wnelo traethodau ar resymeg.

3ydd, Pan edrychir ar resymeg etto, yn y trydydd lle, yn ei pherthynas â'r amgylchiadau o dan ba rai y mae yn bossibl iddi ddyfod i ymarferiad genym ni, y mae rhesymeg gyffredinol neu ddansoddol yn cael ei dosbarthu i ddwy ran; sef, rhesymeg bur (*pure logic*), a rhesymeg ddullweddiadol (*modified logic*). Rhesymeg bur a ymdrin â deddfau meddwl, a elwir yn briodol

felly (*the laws of thought proper*), fel y cynnwysir hwynt yn mlaen llaw (*a priori*) yn natur dealltwriaeth pur ei hunan. Rhesymeg ddullweddiadol, drachefn, a arddengys y deddfau hyn fel y maent yn cael eu dullweddu yn eu cymmhwysiadau gweithredol, gan amgylchiadau cyffredinol pennodol, allanol a thufewnol, ammodol ynddynt eu hunain, ond y rhai y mae y meddwl dynol bob amser yn cael ei ddylanwadu ganddynt yn fwy neu lai yn ei amlygiadau.

Y mae rhesymeg bur yn ymwneyd yn unig â meddwl yn yr ystyr mwyaf priodol (*thought proper*), yn syml ac ynddo ei hunan, ac ar wahân oddi wrth yr amrywiol amgylchiadau y rhai y dichon iddynt effeithio arno yn ei gymmhwysiad gweithredol. Y mae yn amlwg nad ydyw meddwl dynol (*human thought*) yn cael ei weithredu ond gan ddynion, a dynion fel personau neillduol. Yn awr, nid yw meddwl yn cael ei arfer gan ddynion allan o gyssylltiad â'r elfenau ereill a gyfansoddant eu cymmeriad deallol a moesol; ac y mae y cymmeriad hwn yn mhob person unigol yn cael ei ddullweddu, hyny yw yn cael rhoddi ffurf bennodol arno, mewn amrywiol ffyrdd, gan amrywiol ammodau damweiniol, megys gwahanol athrylith wreiddiol, a gwahanol amgylchiadau sydd yn cydweithio i ddadblygu gwahanol alluoedd ac arferion. Yn awr, gellir dychymygu am wyddor, yr hon a ymdrin â meddwl, nid yn unig fel y mae yn cael ei benderfynu gan ei ddeddfau angenrheidiol a chyffredinol ei hunan, ond fel y mae yn cael effeithio arno yn ddamweiniol gan yr ammodau ymbrofiadol (*empirical*) o dan ba rai y mae meddwl yn cael ei ymarfer yn weithredol; yr hon a ddengys pa beth yw yr ammodau hyn, pa fodd y maent yn rhwystro, ac yn gyffredinol yn dullweddu y weithred o feddwl; a pha fodd, mewn gair, y gall eu dylanwad gael ei wrthweithio. Y wyddor hon yw rhesymeg ddullweddiadol (*modified*), neu gyfunsawdd (*concrete*): yr un peth ag a elwir gan Kant ac athronwyr ereill yn rhesymeg gymmhwysedig (*applied logic =angewandte logik=logica applicata*). Ond fe wrthwyneba Syr William Hamilton yr enw hwn i osod allan yr hyn sydd dan sylw yn awr, gan ei fod yn cyfleu meddwl arall; sef, yr un peth a rhesymeg gyfunsawdd neu neillduol, *h. y.*, rhesymeg wedi ei chymmhwyso at wrthddrychau; tra nad yw yn cyfleu y gwir feddwl; sef, rhesymeg fel y mae yn cael ei dullweddu, neu newid ei ffurf, gan yr amrywiol ammodau o feddwl, amgylchiadau, ac arferion dan ba rai y mae yn cael ei hymarfer, y rhai y cyfeiriwyd atynt eisoes. Deil efe mai anghywirdeb ydyw defnyddio y geiriau 'pur' (*pure*) a 'chymmhwysedig' (*applied*) yn wrthgyferbyniol i'w gilydd, fel y gwneir yn athroniaeth Kant a'r Almaen yn gyffredinol:—nad yw y geiriau hyn yn briodol i'w cyferbynu:—nad ydynt yn gydberthynasol (*correlative*) i'w gilydd: mai y gair sydd yn briodol yn sefyll mewn cyferbyniad i 'pur' yw 'dullweddiadol' neu 'gymmysgedig' (*pure; modified or mixed*); ac mai y term cyferbyniol i 'gymmhwysedig' (*applied*) yw 'anghymmhwysedig' (*unapplied*), hyny ydyw, ysgaredig oddi wrth *bethau*, neu *abstract*.

Y mae Syr William Hamilton, gyda rheswm annattebadwy, dybygem, yn gwadu hawl yr hyn a eglurwyd uchod fel rhesymeg ddullweddiadol (*modified logic*) i'r anrhydedd o gael ei hystyried yn rhan hanfodol o resymeg yn gyffredinol, llawer llai o gael ei hystyried fel yn ffurfio rhan wrthgyferbyniol, ac o gyfartal bwysigrwydd, i resymeg bur neu ddansoddol. Ei reswm dros hyny ydyw hyn:—dangoswyd o'r blaen fod rhesymeg, a'i hystyried fel yn ymwneyd â dosbarth neillduol o weithrediadau meddyliol, yn ffurfio rhan o athroniaeth gyffredinol y meddwl; ond wrth ei hystyried fel yn ymwneyd yn unig â'r hyn sydd yn *angenrheidiol* yn ffeithiau meddwl; hyny yw â deddfau meddwl, ei bod yn dyfod ar wahân oddi wrth, ac yn gyferbyniol i feddyliaeth ymbrofiadol (*empirical psychology*); sef, yr athroniaeth hono sydd yn ymwneyd yn unig â gweithrediadau meddyliol fel ffeithiau. Yn awr, os ystyrir rhesymeg ddullweddiadol neu gyfunsawdd fel rhan neu rywogaeth o resymeg gyffredinol, y mae y gwahaniaethiad hwn ar resymeg fel yn ymwneyd â deddfau angenrheidiol meddwl (*the nomology of thought*), oddi wrth feddyliaeth, neu athroniaeth gyffredinol y meddwl, yr hon sydd yn ymwneyd â'r holl ffeithiau a'r gweithrediadau meddyliol (*the phænomenology of mind*) yn unig fel y cyfryw, yn syrthio i'r llawr. O blegid, yn ol yr eglurhâd a roddasom eisoes o resymeg ddullweddiadol fel yn rhagdybied gwybodaeth o nodweddion neu ymddangosiadau cyffredinol a damweiniol meddwl, y mae y rhesymeg hono felly yn cymmeryd i mewn feddyliaeth o fewn ei chylch hi, neu ynte yn cael ei chymmeryd i mewn ei hunan o fewn cylch meddyliaeth. Pa un bynag o'r ddau olwg yna a gymmerir, nid yw y ddwy wyddor mwyach ar wahân. Am y rheswm hwn, y mae Syr William Hamilton yn dal nad yw rhesymeg ddullweddiadol mewn gwirionedd yn rhan hanfodol, nac ychwaith yn rhywogaeth annibynol, o resymeg gyffredinol; ond nad yw yn ddim amgen na chymmysgedd o resymeg a meddyliaeth, ac y gellir ei galw felly yn feddyliaeth resymegyddol (*logical psychology*) neu resymeg feddyliaethol (*psychological logic*). Felly, yn ol ei olygiad ef, nid oes mewn gwirionedd ond un resymeg, sef rhesymeg bur neu ddansoddol. Edrycha ar y llall fel rhan yn cael ei chwanegu ati, mewn ffordd o attodiad, dan yr enw rhesymeg ddullweddiadol. Gan hyny, wrth ddosbarthu y wyddor o dan y ddau brif raniad yma, efe a rydd bwys neillduol ar ein bod yn cadw mewn cof yn wastadol mai rhesymeg bur, a llefaru gyda phriodoldeb manwl, ydyw yr unig wyddor o resymeg; ac nad ydyw rhesymeg ddullweddiadol ond yn unig yn attodiad damweiniol i'r wyddor (nid yn rhan hanfodol o honi), ac yn perthyn (yn ammhenderfynol) naill ai i resymeg neu i feddyliaeth.

Yr ydym yn barnu nas gallwn roddi terfyniad gwell i'r adran hon o'n herthygl, sef rhaniadau rhesymeg, na thrwy osod ger bron y darllenydd ddosbarthiad Syr William Hamilton yn gyflawn, yr hwn a wna efe yn sylfaen i'w ddarlithiau ar resymeg.

*Rhesymeg gyffredinol* neu *ddansoddol*, fel y gwelwyd, a ddosberthir i ddwy ran—*pur*, a *dullweddiadol*.

I. Dosberthir *rhesymeg bur* ar yr egwyddorion canlynol:—Gallwn feddwl, ac ni a allwn feddwl yn dda. Ar un llaw, nid ydyw ammodau meddwl yn cymmeryd i mewn ammodau meddwl yn dda; ond y mae ammodau meddwl yn dda yn cymmeryd i mewn ammodau meddwl. Rhaid i resymeg, gan hyny, fel gwyddor meddwl, ystyried o angenrheidrwydd ammodau y possiblrwydd o feddwl. Ar y llaw arall, dyben meddwl yw, nid meddwl yn unig, ond meddwl

Digitized by Google

yn dda; o ganlyniad, megys y mae yn rhaid i ddyben gwyddor gael ei gydffurfio â dyben mater neu destyn y wyddor hono, rhaid i resymeg, fel gwyddor meddwl, arddangos, nid yn unig ddeddfau meddyliad possibl, ond deddfau meddyliad perffaith (*perfect thinking*). Rhesymeg, gan hyny, a syrth yn naturiol i ddwy ran; un o ba rai a wna ymchwiliad i ammodau ffurfiol meddwl yn unig, a'r llall i ammodau ffurfiol meddwl yn dda.

i. Gyda golwg ar y flaenaf:—Y mae ammodau meddwl yn unig yn cael eu rhoddi mewn rhyw angenrheidiau elfenol pennodol; a gellir galw y rhan hono o resymeg sydd yn elfenu ac yn ymdrin â'r rhai hyn ei *stoicheiology*, neu athrawiaeth elfenau. Gelwir yr elfenau hyn yn ddeddfau, ac yn gynnyrchion (*products*).

ii. Gyda golwg ar yr olaf:—Megys ag y mae meddwl yn berffaith yn ddyben, ac megys, tra y mae moddion elfenol yn cael eu tybied, mai ammodau dyben ydynt y ffyrdd neu y dulliau trwy ba rai y gellir ei gyrhaedd, gellir galw y rhan hono o resymeg sydd yn elfenu ac yn ymdrin â'r dulliau o feddwl yn berffaith, yn *methodology*, neu athrawiaeth dull.

Fel hyn, dosberthir rhesymeg bur i ddwy ran —i elfenyddiaeth (*stoicheiology*), neu athrawiaeth elfenau; a dullyddiaeth (*methodology*), neu athrawiaeth dull.

1. *Elfenyddiaeth resymegyddol*, neu yr athrawiaeth sydd yn ymwneyd â'r elfenau angenrheidiol tuag at feddwl o gwbl, a ddosberthir i ddwy ran.

(1.) Ymdrinia y gyntaf o'r rhai hyn â deddfau sylfaenol meddwl; mewn geiriau ereill, âg ammodau cyffredinol y meddyliadwy (*the thinkable*) —(*noetic, nomology*).

(2.) Ymdrinia yr ail â deddfau meddwl, fel yn llywodraethu swyddau, galluoedd, neu gynnyrchion neillduol meddwl, yn ei dair gradd o syniad (*conception*), neu fel y gelwir ef bryd arall, amgyffrediad syml—barn, ac ymresymiad=(*dianœtic—dynamic*).

Bydd i'r ail ran hon o elfenyddiaeth, gan hyny, ymffurfio i dri rhaniad is raddol, yn cyfatteb i'r gwahanol raddau hyn o syniad, barn, ac ymresymiad.

2. *Dullyddiaeth rhesymegyddol*, neu yr athrawiaeth sydd yn ymwneyd â'r ffyrdd neu y dulliau rheoleiddiedig, yn y rhai y mae y moddion o feddwl yn cael eu dwyn yn mlaen i'w dyben o feddwl yn dda, a ddosberthir i gynnifer o ranau ag sydd o ddulliau; ac y mae cynnifer o ddulliau ag sydd o wahanol ansoddau yn y dyben i'w cyrhaedd yn wahanol. Yn awr, y mae perffeithrwydd meddwl yn gynnwysedig mewn tri rhinwedd—meddwl yn glir, meddwl yn drefnus, a meddwl yn gyssylltiol. Cyrhaeddir pob un o'r rhinweddau hyn trwy ddull gwahanol; a'r tri dull yma o ganlyniad a barant ddosbarthiad dullyddiaeth rhesymegyddol i dair rhan.

(1.) Y rhan gyntaf a gynnwysa y dull o feddwl yn glir, neu athrawiaeth eglurhâd (*illustration*), neu ddarnodiad (*definition*).

(2.) Yr ail ran a gynnwysa y dull o feddwl yn drefnus (*distinct thinking*), neu athrawiaeth dosbarthiad.

(3.) Y drydedd ran a gynnwys y dull o feddwl yn gyssylltiol neu gyd-ddolenol (*concatenated or connected thinking*), neu athrawiaeth prawf.

Nid yw y tair rhan hyn, pa fodd bynag, ond yn unig tri chymmhwysiad neillduol o ddull: nid ydynt, gan hyny, ond yn cyfansoddi bob un ddullyddiaeth neillduol yn unig. Ond y mae y cyfryw ddullyddiaeth neillduol, neu undeb o ddullyddiaethau, yn tybied ystyriaeth flaenorol o ddull yn gyffredinol, yn ei syniad, ei rywogaeth, a'i ammodau. Gwneir i fyny ddullyddiaeth rhesymegyddol, gan hyny, o ddwy ran—y cyffredinol a'r neillduol: y neillduol yn cael ei dosranu, fel y dangoswyd uchod. Fel yna y dosberthir rhesymeg bur.

II. Ymrana *rhesymeg ddullweddiadol* yn naturiol i dair rhan.

1. Y rhan gyntaf a draetha am natur gwirionedd a chyfeiliornad, ac am y deddfau uchaf tuag at eu gwahaniaethu (*alethiology*).

2. Yr ail ran a draetha am y rhwystrau i feddwl, ynghyd â'r moddion i'w symmud. Cyfyd y rhwystrau hyn, (1.) o'r meddwl; (2.) o'r corph; neu (3.) o amgylchiadau allanol. Yn eu perthynas â'r meddwl, gwreiddia y rhwystrau hyn yn y synwyrau—mewn hunan-ymwybyddiaeth, mewn cof, mewn cymdeithasiad, mewn dychymmyg, mewn rheswm, yn y gallu o iaith, yn y teimladau, yn y dymuniadau, yn yr ewyllys. Yn eu perthynas â'r corph, gwreiddiant mewn tymmherfryd, neu yn sefyllfa yr iechyd. Yn eu perthynas âg amgylchiadau allanol, gwreiddiant mewn amrywiaethau addysg, sefyllfa, oedran, hinsawdd, neu gydgyfeillach gymdeithasol, &c.

3. Y drydedd ran a draetha am y cynnorthwyon, neu y cyfryngau gwasanaethgar i feddwl; ac y mae meddwl yn cael ei gynnorthwyo naill ai

(1.) Trwy y caffaeliad, neu (2.) trwy y cyfraniad, o wybodaeth.

(1.) Cynnwysa y cyntaf o'r cynnorthwyon iswasanaethgar hyn (caffaeliad gwybodaeth) o yn [1.] Profiad (a hwnw genym ein hunain, neu gan ereill); [2.] Cyffredinoliad (a hwnw drwy gyfosiad a chyfattebiaeth); ac yn [3.] Tystiolaeth (a hono naill ai yn llafaredig neu ysgrifenedig). O dan y pen olaf hwn y daw i'w hystyried y pethau canlynol:—credinolrwydd tystion, gwiredd a dilysrwydd ysgrifeniadau, rheolau beirniadaeth a deonglyddiaeth.

(2.) Y mae yr olaf o'r cynnorthwyon hyn—y cyfraniad o wybodaeth—naill ai yn unochrog, neu o bob tu. Y cyntaf a gynnwysa addysgiaeth, naill ai llafaredig neu ysgrifenedig. Yr olaf a gynnwysa ymddiddan, cydymgynghoriad, a dadleuaeth.

Y mae y rhestr a roddwyd yn awr o raniadau rhesymeg i'w gweled ar un olwg mewn ffurf daflenol ar y tudalen nesaf. Bu raid i ni ei gosod yno o ddiffyg lle i'w chynnwys yn gyflawn yma.

VI. EI HANES.

Nid yw hanes rhesymeg, yn briodol, yn ffurfio rhan o draethawd ar resymeg. Byddai olrhain, hyd yn oed yn y modd mwyaf cynnwysfawr, hanes bywydau a gweithiau yr holl brif ysgrifenwyr ar resymeg—yr enwau neu yr ymadroddion celfyddydol a ddygwyd i mewn gan bob un, a'r ystyron yn y rhai yr oedd pob un yn eu defnyddio—y gwelliadau neu y llygriadau a ddygwyd i mewn i'r wyddor yn mhob cyfnod—mewn gair, byddai hanes a hynafiaethau y wyddor o resymeg yn destyn gwaith mawr arno ei hunan, yn gofyn cymmhwysderau uchel, a chydnabyddiaeth o'r fath fwyaf trwyadl â'r wyddor yn mhob gwedd a fu arni, ac yn mhob gradd o'i dadblyg-

Digitized by Google

iad, drwy yr oesoedd, o ddyddiau Aristotle hyd yn awr. Ond er fod hwn yn ffurfio maes eang a phwysig o ymchwiliad arno ei hunan, ac yn gorwedd yn hollol y tu allan i derfynau yr amcan presennol, gallai yr ystyrid erthygl fel hon yn ddiffygiol heb roddi byr-olwg o leiaf ar yr hyn a wnaethpwyd gan dadau y wyddor, neu yr ysgrifenwyr boreuaf ar resymeg. Ceisiwn, gan hyny, daflu golwg fer a brysiog ar hanes boreuol y wyddor—yr hyn a wnawn bron yn ngeiriau Archesgob Whately.

1. Cyttunir yn gyffredin mai Zeno yr *Eleatic*

GOLWG DAFLENOL AR RANIADAU RHESYMEG.

**RHESYMEG GYFFREDINOL NEU DDANSODDOL.**

- I. Pur.
  - i. Elfenyddiaeth.
    - 1. Deddfau sylfaenol meddwl *(noetic)*. Ammodau y meddyliadwy *(nomology)*.
    - 2. Deddfau neillduol meddwl *(dianœtic-dynamic)*.
      - a. Syniad.
      - b. Barn.
      - c. Ymresymiad.
  - ii. Dullyddiaeth.
    - Meddwl yn glir.—1. Darnodiad, neu eglurhâd.
    - Meddwl yn drefnus.—2. Dosbarthiad.
    - Meddwl yn gyssylltiol.—3. Prawfiadaeth.
- II. Dullweddiadol.
  - i. Gwirionedd a chyfeiliornad - sicrwydd a thwyll.
  - ii. Rhwystrau i feddwl, ynghyd â'r feddyginiaeth. Cyfyd y rhwystrau hyn o
    - 1. Y meddwl.
    - 2. Y corph.
    - 3. Amgylchiadau allanol.
  - iii. Cynnorthwyon neu cyfryngau gwasanaethgar i feddwl, trwy
    - 1. Caffaeliad gwybodaeth.
    - 2. Cyfraniad gwybodaeth, &c.

oedd yr ysgrifenydd cyntaf ar resymeg fel cyfundraeth, neu fel y gelwid hi y pryd hwnw, *dialectica*. Dosbarthodd efe ei waith yn dair rhan. Y mae y rhan gyntaf ar ganlyniadau, yr hwn a feiir gan Socrates [Plato, "*Parmen.*,"] am dywyllwch a chymmysgedd. Yn yr ail ran, pa fodd bynag, efe a ddygodd i mewn y dull holiadol o ymddadleuaeth *(ἐρώτησις)*, yr hwn a fabwysiadodd Socrates, ac a alwyd byth er hyny ar ei enw. Cymmerir i fyny y drydedd ran o'i waith gyda'r hyn a ellir yn briodol ei alw y gelfyddyd o groesddadleu neu herla *(wrangling=ἐριστική)*, yn yr hwn y rhoddid i'r dadleuwr gasgliad o gwestiynau twyll-resymegol (*sophistical*), wedi eu llunio yn gyfrwys yn y fath fodd fel ag y byddai yr addefiad o ryw bwynt a ymddangosai yn anocheladwy, yn y fan yn maglu yr addefwr i ryw wrthuni amlwg. Y mae rhai, oddi ar anwybodaeth neu ddiofalwch, wedi gosod hyn allan fel prif, neu briodol waith, rhesymeg; tra, mewn gwirionedd, y mae yn gwestiwn pa un a ydyw hyn i'w ystyried fel yn dyfod y tu fewn i diriogaeth rhesymeg o gwbl. Bernir fod yr athronwyr Groegaidd yn anffodus wedi talu gormod o sylw i'r math hwn o gywrain-ddadleu; ond dylid gochel y dyb gyffredin, fod yr hen athronwyr yn edrych ar hyn fel cangen briodol o efrydiaeth, ac yn meddu pwysigrwydd ynddi ei hunan. Ymddengys mai y gwirionedd ydyw, nad ystyrient y math hwn o ymddadleu ond fel difyrwch cywrain. Ymbleserai y dadleuwyr yn eu horiau hamddenol mewn gwneuthur prawf ar eu medr eu hunain, a'r eiddo eu gwrthwynebwyr, yn yr ymgais i ddyrysu eu gilydd o bob tu â thwyllebau ystrywgar; yn debyg fel yr arfera dynion yn awr ddifyru eu hunain trwy osod ger bron a dadrys dychymygion (*riddles*), neu trwy chwareu tawl-bwrdd (*chess*): dygai dadleuon chwareus yr hynafiaid lawer o debygrwydd i'r naill a'r llall o'r difyrion hyn. Yr oedd cyfattebiad agos rhyngddynt a'r campau corphorol o redeg, ymgodymu, a gorchestion ereill y gampfa. Fel yr oedd y rhai hyn yn feithriniad i rymusder a hoenusrwydd corphorol, felly cyfrifid fod y blaenaf i arferion o graffineb meddyliol. Ond yr amcan uniongyrchol yn y naill a'r llall oedd ymdrechfa chwareus, ac nid difrifol; er, yn ddiau, fod dull yr oes a'r ymgais i ragori yn achlysur yn fynych o roddi pwysigrwydd gormodol ar lwyddiant yn y naill a'r llall. Prin, gan hyny, y gellir edrych ar Zeno yn rhesymegwr yn mhellach na chyda golwg ar ei ddull holiadol o ymddadleuaeth.

2. Yn nesaf at Zeno, daw Euclid o Megara, ac Antisthenes—y ddau yn ddysgyblion i Socrates. Darfu i'r blaenaf o'r ddau hyn weithio yn mlaen bwngc y drydedd ran o draethawd ei ragflaenorydd, ac ystyrir ef yn awdwr amryw o'r twyllebau a briodolir i'r ysgol Stoicaidd. Nid oes dim sicr yn wybyddus am ysgrifeniadau yr olaf; os tybiwn, pa fodd bynag, mai ei ddysgyblion ef oedd y blaid a enwyd yn yr efrydiaeth hon, a'u bod wedi dal gafael yn ei egwyddorion ef, y mae yn ddiau ei fod ef wedi cymmeryd golwg fwy cywir ar y mater nag Euclid. Dosbarthai y Stoiciaid yr holl λεκτά—pob peth a ellir ei ddywedyd—i dri dosbarth; 1af, yr ymadrodd syml; 2il, y gosodiad; 3ydd, y cyfresymiad; *h. y.*, yr un *dybiaethol*. Ymddengys nad oedd ganddynt nemawr syniad am unrhyw elfeniad manylach o ymresymiad nag i'r ffurf gynnefin hono.

3. Y nesaf i deilyngu sylw yw Archytas; i'r hwn yr ydym yn ddyledus (fel yr oedd yntau ei hunan, y mae yn debyg, i raddau mawr, i ysgrifenwyr hynach) am athrawiaeth yr ansoddegau (*categories*). Ond nid ymddengys fod ganddo ef, mwy na'r ysgrifenwyr ereill ar y mater, olwg glir ar amcan priodol a therfynau teg y wyddor o resymeg; ond ei fod yn cymmysgu â hi ymdriniaethau arddansoddol, heb fod ganddynt gyssylltiad â hi mewn ystyr manwl, a'i fod yn ymhelaethu ar yr ymchwiliad i natur ymadroddion a gosodiadau, heb gadw cyfeiriad gwastadol at egwyddorion ymresymiad, i ba rai y mae yr oll o'r lleill i'w dwyn yn wasanaethgar.

4. Tad rhesymeg fel gwyddor, neu gyfun-

Digitized by Google

draeth reolaidd, oedd Aristotle. Ymddengys mai rhywbeth yn debyg i hyn oedd y sefyllfa yn yr hon y cafodd efe y wyddor (pe, yn wir, y gellid yn briodol ddyweyd fod y wyddor yn bod o gwbl cyn ei amser ef): yr oedd y dosbarthiad i ymadroddion syml, gosodiadau, a chyfresymiadau, wedi ei dynu allan yn fras: gosodasid i lawr athrawiaeth yr ansoddegau, ac, fe allai, cyferbyniaeth gosodiadau (*the opposition of propositions*); a chreda rhai fod elfeniad *rhyw* i *genus* a *differentia* wedi ei ddwyn i mewn gan Socrates. Ond nid oedd y pethau hyn ar y goreu ond defnyddiau y gyfundraeth, yn hytrach na'r gyfundraeth ei hunan; sylfaen yr hon yr hawliai efe yn eglur y clod o fod wedi ei gosod i lawr, a'r hon sydd yn aros yn sylfaenol yr un fath ag y gadawodd efe hi.

Gwnaed y sylw rai gweithiau fod rhesymeg yn un o'r ychydig wybodaethau a ddechreuwyd ac a gwblhawyd gan yr un person. Y mae hanes ei darganfyddiad, mor bell ag y mae prif egwyddorion y wyddor yn myned, yn dechreu ac yn diweddu yn briodol gydag Aristotle; a gall hyn, o bossibl, roddi cyfrif mewn rhan am y gŵyrdroadau a wnaed arni yn ddilynol. Darfu i fyrder a symledd ei gwirioneddau sylfaenol (i'r hwn bwynt, mewn gwirionedd, y mae yr oll o wir wyddoriaeth yn tueddu yn barhaus) arwain lliaws i dybied fod rhywbeth llawer mwy cymmhlethedig, anhawdd, a dirgel, yn aros etto i'w ddarganfod. Yr hunan-dyb hefyd, trwy yr hwn y cymmhellir pob dyn i fawrhau yn ormodol ei ymchwiliadau ei hunan, a arweiniodd feddyliau anathronaidd, nid yn yr achos hwn yn unig, ond mewn llawer ereill, i helaethu terfynau eu hamrywiol wyddorau, nid trwy ddadblygiad amyneddgar a chymmhwysiad teg o egwyddorion y gwyddorau hyny, ond trwy grwydro i faterion ammherthynasol. Yr enghraifft boreuaf o hyn, fe allai, ydyw y defnydd cyfriniol o *rifau* gan Pythagoras, mewn materion hollol bell oddi wrth rifyddiaeth. Esampl arall, rhyfeddach a phwysicach, ydyw dirywiad seryddiaeth i serddewiniaeth dynghedfenol. Ond nid oes un mwy tarawiadol na'r camgymmhwysiad o resymeg, gan y rhai ydynt wedi ymdrin â hi fel "y gelfyddyd o iawn-ddefnyddio y galluoedd rhesymol," neu y rhai sydd wedi ei gwthio i diriogaeth athroniaeth naturiol, ac a edrychent ar y cyfresymiad fel peiriant wedi ei lunio i'r dyben o wneuthur ymchwiliad i natur; tra yr esgeulusent y maes eang oedd o'u blaen o fewn terfynau cyfreithlawn y wyddor, ac heb ganfod pwysigrwydd ac anhawsder y dasg o gyflawni a llenwi i fyny y cynllun meistrolgar oedd wedi ei dynu ger eu bron.

5. Collasid ysgrifeniadau Aristotle i'r byd bron yn gyfangwbl am o ddeutu dwy ganrif; ond nid ymddengys yr astudiwyd ond ychydig arnynt am amser maith ar ol eu hadferiad. Gellir meddwl, pa fodd bynag, fod celfyddyd o resymeg, yr hon oedd wedi ei ffurfio o'r egwyddorion a gadweaid trwy draddodiad gan ei ddysgyblion ef, yn adnabyddus yn lled gyffredinol, ac wedi cael ei defnyddio gan Cicero yn ei weithiau athronyddol; ond ymddengys fod efrydiaeth y wyddor wedi ei adael heibio am amser maith. Bu adfywiad mawr ar yr athrawiaethau Aristotelaidd mor gynnar yn y cyfnod Cristionogol a'r ail a'r drydedd ganrif; ac yr ydym yn cyfarfod âg enwau Galen, Ammonius, Alexander o Aphrodisias (y rhai boreuaf yn mhlith esbonwyr Aristotle), a Porphyry, fel rhesymegwyr; ond nid cyn diwedd y bummed ganrif, neu ddechreu y chweched, y cyfieithiwyd gweithiau rhesymegyddol Aristotle i'r Lladin gan yr enwog Boethius, yr hwn a anwyd tua'r fl. 475 B. A., ac a fu farw tua'r fl. 524 B. A. Nid ymddengys fod cymmaint ag un o'r rhai hyn wedi gwneuthur unrhyw gynnydd o bwys mewn dadblygu y ddamcaniaeth o ymresymu. Ychydig a wyddys am lafur Galen, yr hwn a chwanegodd y pedwerydd ffugr at y tri a gydnabyddesid gan Aristotle; ac nid yw prif waith Porphyry ond yn unig ar yr adroddolion (*predicables*). Ychydig a welwn o'r wyddor hyd adfywiad dysgeidiaeth yn mhlith yr Arabiaid, gan y rhai yr efrydid yn awchus draethodau Aristotle ar y wyddor hon yn gystal a materion ereill.

6. Gan adael heibio enwau rhai ysgrifenwyr Byzantiaidd, heb fod o nemawr bwys, yr ydym yn awr yn dyfod at amser yr Ysgolwyr. Llawer o gwyno sydd wedi bod yn erbyn eu gwastraff hwy o gywreinrwydd, a'u gorfanylwch oferwag mewn dadleuaeth; ond ni pherthyn i ni yn bresennol chwilio i uniondeb y cwynion hyn. Digon yw crybwyll yma, mai nid yn eu hefrydiaeth ddyfal o resymeg yr oedd eu bai yn gynnwysedig, nac yn y gwerth uchel a osodent arni; ond yn eu gwaith yn camgymmeryd yn hollol wir natur ac amcan y wyddor; ac yn yr ymgais i'w harfer fel offeryn darganfyddiadau anianyddol, gan gau i mewn bob pwngc mewn niwl o eiriau, a thrwy hyny gau allan bob gwir ymchwiliad athronyddol. [Ceir yr eglurhâd goreu a ymddangosodd erioed, mae yn debyg, ar *dduwinyddiaeth* yr Ysgolwyr gan y Dr. Hampden yn ei "*Bampton Lectures.*"] Gallai mai eu camolygiadau hwy sydd yn rhoddi cyfrif am yr ymadroddion cryfion yn y rhai y mae Bacon weithiau yn ymddangos fel yn condemnio ymchwiliadau rhesymegyddol; ond gellir profi oddi wrth ei sylwadau ef ei hun ar y pwngc, yn ei "*Advancement of Learning,*" fod y cerydd hwn wedi ei fwriadu i'w weinyddu ar y gŵyrdroadau eithafol, ac nid ar yr amaethiad cyfreithlawn o'r wyddor.

7. Ond nid oedd pawb mor gymmedrol a Bacon. Cawn fod hyd yn oed Locke yn cymmysgu, mewn un condemniad cyffredinol, y ddamcaniaeth Aristotelaidd, a'r camgymmhwysiadau a'r gŵyrdroadau gwrthun a wnaed o honi mewn blynyddoedd diweddarach. Y mae ei wrthddadl yn erbyn y wyddor, fel yn ddiwasanaeth yn y *darganfyddiad* o wirionedd, yr hon a ddygwyd yn mlaen yn fynych gan ereill ar ei ol, er yn briodol i'w chymmhwyso at liaws o resymegwyr (a gamenwir felly), yn dangos yr un pryd, gyda golwg ar wir natur y wyddor ei hunan, nad oedd ganddo yntau syniadau cliriach na hwy am derfynau cywir y wyddor o resymeg, fel yn gyfyngedig i'r ddamcaniaeth o ymresymu; nac am y gwahaniaeth pendant sydd rhwng y gweithrediad hwnw, a'r sylwadau a'r prawfiadau y rhai ydynt yn hanfodol tuag at efrydu natur.

Dywed Locke, yn *pen.* xvii. "Ar Reswm" (yr hyn y mae yn ei gymmysgu yn barhaus âg *ymresymu*):—"Os rhaid cymmeryd cyfresymiadau (*syllogisms*) fel yr unig offeryn priodol o reswm a chyfryngau gwybodaeth, y mae yn canlyn nad oedd cyn Aristotle gymmaint ag un dyn yn gwybod, nac a allai wybod, dim trwy reswm; ac nad oes, ar ol darganfod cyfresymiadau, ddim un mewn deng mil yn gwybod etto. Ond nid yw Duw wedi bod mor grintach i ddynion a'u gwneyd yn ddim ond creaduriaid deudroed, a'i

Digitized by Google

adael i Aristotle i'w gwneyd yn rhesymol; *h.y.*, yr ychydig hyny o honynt ag y gallai efe eu cael i wneuthur y cyfryw ymchwiliad i sylfeini cyfresymiadau, fel ag i weled allan o fwy na thrigain o ffyrdd, yn y rhai y gall tri gosodiad gael eu gosod ynghyd, nad oes ond pedair ar ddeg yn y rhai y gallwn fod yn sicr fod y casgliad yn gywir," &c. Etto:—"Y mae Duw wedi bod yn fwy haelionus i ddynolryw na hyny: y mae efe wedi rhoddi iddynt feddwl a all ymresymu heb gael ei addysgu mewn dulliau o lunio cyfresymebau," &c. Y mae hyn oll mor afresymol a phe haerid—os oedd dosbarthiadau Linnæus o blanhigion a llysiau yn gywir, yna fod yr holl greadigaeth lysieuol yn ddiddefnydd cyn ei amser ef; neu pe yr haerid—os yw eglurhâd fferyllwyr diweddar yn gywir ar y dull y mae gwres yn berwi dwfr ac yn ei droi yn ager, yna nad oedd neb erioed wedi gallu berwi dwfr cyn amser y fferyllwyr hyny.

Gellir sylwi fod camsyniad arall, gwahanol o ran ymddangosiad, ond yr un yn ei natur, yn treiddio trwy draethodau Watts, ac ysgrifenwyr diweddar ereill ar resymeg. Wrth weled fod y ddamcaniaeth gyfresymiadol yn annigonol i gyrhaedd yr holl ddybenion ag yr oedd rhai o'i phleidwyr yn ceisio ei chymmhwyso atynt, teimlai Watts awydd i gynllunio rhyw gyfundraeth yr un mor eang a chynnwysfawr. A gwnaeth yr ymgais yn ei waith ar resymeg, o dan y teitl: "*Yr iawn ddefnydd o Reswm.*" Gesyd y gwaith hwn amcan eang o'i flaen; dim llai na chryfhau ac iawn gyfarwyddo holl alluoedd y meddwl—amcan mawreddog, yn ddiau; ond amcan nid yn unig nad yw yn dyfod o fewn tiriogaeth rhesymeg, ond hefyd nas gellir ei gyrhaedd trwy unrhyw wyddor na chyfundraeth unigol sydd mewn bod. Dywed Syr William Hamilton am "*Resymeg*" Watts, Duncan, ac ereill, eu bod yn werth eu darllen fel llyfrau, ond nid fel llyfrau ar resymeg.

8. Ymddengys mai y gwirionedd ydyw, fod rhesymeg, fel cangen o efrydiaeth, yn mhell o fod yn y safle a'r bri ag yr oedd ei phwysigrwydd yn ei deilyngu, hyd yn ddiweddar mewn cymmhariaeth, yn Mhrydain; yr oedd tlodi llenyddiaeth Saesnig ar y pwngc, hyd yn ddiweddar, mewn rhan yn effaith, ac mewn rhan hefyd yn achos, o'r cyfrif isel yn yr hwn y safai yr efrydiaeth. Ond o ddeutu deugain mlynedd yn ol, rhoddwyd symbyliad grymus i'r efrydiaeth hon yn Mhrydain, ac adferwyd hi, mewn rhan fawr, i'r bri a'r urddas teilwng i'w phwysigrwydd. Yr oedd rhywbeth o hyn yn ddyledus, y mae yn debyg, i gyhoeddiad gwaith yr Archesgob Whately ar resymeg, yr hwn a ymddangosodd ar y cyntaf tua dechreu yr hanner canrif presennol, yn y ffurf o erthygl ar resymeg yn yr "*Encyclopædia Metropolitana,*" ond a gyhoeddwyd wedi hyny yn llyfr, yr hwn a dynodd sylw ac a gyrhaeddodd boblogrwydd mawr yn y byd llenyddol, a'r hwn sydd er's blynyddoedd lawer bellach wedi myned trwy lawer o argraphiadau. Ond amgylchiad llawer pwysicach na chyhoeddiad y llyfr uchod, yn ei effaith i ddiwygio, cyfundrefnu, ac eangu terfynau yr efrydiaeth o resymeg, yn gystal ag i'w dyrchafu i fri newydd yn y deyrnas hon, oedd pennodiad Syr William Hamilton, yn y flwyddyn 1836 i gadair uchanianaeth a rhesymeg *(metaphysics and logic)* yn mhrifysgol Edinburgh. Y mae yn debyg na ddygodd proffeswr erioed at waith ei gadair alluoedd mwy cawraidd na dysgeidiaeth mwy rhyfeddol mewn eangder a manylrwydd nag a ddygodd yr athraw hwn at yr efrydiaeth o resymeg. Ac o'r adeg hono hyd yn awr, heb law darlithiau penigamp Syr William Hamilton ei hunan, dygwyd allan o bryd i bryd weithiau pwysig ereill, y rhai a gawsant effaith nid bychan i ddiwygio a dullweddu yr efrydiaeth hon, i wneuthur cymmhwysiadau newydd o'i hegwyddorion, ac hyd yn oed i ddwyn i mewn welliantau i sylfeini y wyddor. Gwneir sylw o'r rhai mwyaf pwysig o'r gweithiau hyn dan yr adran nesaf.

VI. EI LLENYDDIAETH.

Y cwestiwn sydd yn dyfod o dan ein hystyriaeth yn yr adran hon ydyw—pa rai yw y prif weithiau ar resymeg? Y mae nifer y llyfrau a gyhoeddwyd o bryd i bryd, mewn gwahanol ieithoedd a gwledydd, ar y wyddor dan sylw yn dra lliosog. Sonia Blakey, yn niwedd ei "*Essay on Logic,*" am restr o fwy na mil o honynt. Yn yr attodiad i ddarlithiau Syr William Hamilton, rhoddir rhestr o'r gweithiau ar resymeg a argymmhellai efe i sylw ei ddosbarth yn y brifysgol. Y mae efe yn y rhestr hon yn dosbarthu y gweithiau ar resymeg i ddau ddosbarth. Yn y dosbarth cyntaf, rhoddir gwahanol argraphiadau o "*Organon*" Aristotle, ynghyd â gweithiau yn dwyn perthynas uniongyrchol â'r traethodau Aristotelaidd. Byddai yn afreidiol hollol nodi y rhai hyn yma. Gallwn grybwyll, pa fodd bynag, wrth fyned heibio, mai un o'r gweithiau diweddar mwyaf pwysig yn yr iaith Saesnig ar ysgrifeniadau Aristotle, ydyw gwaith mawr a dysgedig Syr Alexander Grant—ond fod hwn wedi ei gyfyngu i ysgrifeniadau moesegol *(ethical)* Aristotle. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o'r gwaith hwn mewn dwy gyfrol wythplyg, yn y fl. 1857; a'r ail argraphiad wyth mlynedd yn ol (yn y fl. 1866). Ond y gwaith diweddaraf a phwysicaf o'r cwbl, dybygem, ar Aristotle, a'i ysgrifeniadau ar athroniaeth a rhesymeg, ydyw gwaith hanesydd enwog Groeg, sef George Grote, F.R.S., D.C.L., LL.D. Dygwyd y gwaith hwn allan ar ol marwolaeth yr awdwr, dan olygiaeth alluog Dr. Alexander Bain, proffeswr rhesymeg yn mhrifysgol Aberdeen, a Mr. G. Croom Robertson, M.A., proffeswr athroniaeth y meddwl a rhesymeg yn University College, Llundain. Cyhoeddwyd ef ddwy flynedd yn ol (yn y fl. 1872) mewn dwy gyfrol wythplyg. Diau fod y cyfrolau hyn yn un o'r cyfraniadau pwysicaf a wnaed er's llawer o amser i hanes y meddwl a'r athroniaeth Groegaidd. Yn yr ail ddosbarth, rhoddir cyfundraethau diweddar o resymeg—tramor a Phrydeinig. Byddai yn ofer hollol i ni nodi yma ond ychydig o'r rhai mwyaf pwysig o'r gweithiau Saesnig. Ymddengys fod gweithiau Dr. Wallis ac Aldrich—dau o resymegwyr prifysgol Rhydychain, wedi eu cyhoeddi er's mwy na chant a hanner o flynyddoedd yn ol; ond nid oeddynt o nemawr werth; o leiaf, ni feddent unrhyw ragoriaeth neillduol, a'u barnu hyd yn oed wrth safon yr amser hwnw. Cyhoeddodd Dr. Mansel, pa fodd bynag, dalfyriad o waith Aldrich, gyda nodiadau gwerthfawr o'i eiddo ei hun. Dygwyd allan mor foreu a'r fl. 1770 gyfieithiad da i'r iaith Seisnig o waith yr awdwr Almaenaidd Wolf—am yr hwn y dywed Syr William Hamilton ei fod, fe allai, er ei holl feiau a'i ammherffeithrwydd, y gwaith gwerthfawrocaf yn yr iaith Saesnig ar resymeg, gyda'r eithriad o'r "*Port Royal Logic.*" Ond rhaid cofio fod hyny yn cael ei ddyweyd yn agos i

Digitized by Google

ddeugain mlynedd yn ol, pan yr oedd Hamilton yn cychwyn ei yrfa fel proffeswr rhesymeg yn mhrifysgol Edinburgh. Gwaith a gyrhaeddodd enwogrwydd mawr a haeddiannol trwy Ewrop ydoedd y "*Port Royal Logic;*" yr hwn a ysgrifenwyd yn y Ffrangcaeg er's mwy na dau gant o flynyddoedd yn ol, ac a ddygwyd allan ar y cyntaf yn ddienw, yn y fl. 1662; ond a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd er y pryd hwnw mewn nifer mawr o ieithoedd. Yr oedd iddo ddau gyd-awdwyr, sef y ddau Janseniad enwog, Arnauld a Nicole. Corphorwyd ynddo hefyd ddernyn rhyfeddol ar ddull neu drefniant rhesymegyddol (*logical method*) gan Pascal; am yr hwn y dywed y Proffeswr Jevons nas gŵyr efe am yr un cyfansoddiad yn nes i fod wedi cyrhaedd perffeithrwydd, o ran gwirionedd mater a chlirder mynegiad. Galwyd y llyfr oddi wrth enw lle yn agos i Paris, yn yr hwn yr oedd cyfundeb crefyddol bychan yn byw; o ba un yr oedd ei ddau awdwr, ynghyd â Phascal, yr aelodau mwyaf enwog. Y gwaith hwn a ffurfiai i fesur mawr sylfaen llyfr tra adnabyddus y Dr. Watts ar resymeg. Yr ydoedd dau gyfieithiad o hono wedi eu cyhoeddi yn Saesneg (ond y ddau yn wael) er's deugain mlynedd yn ol: ond yn y flwyddyn 1850, cyhoeddwyd cyfieithiad rhagorol o hono gan y Proffeswr Spencer Baynes, o Brifysgol St. Andrews; o'r hwn y daeth argraphiadau ereill allan ar ol hyny. Cyfeiriwyd o'r blaen at yr "*Elements of Logic,*" gan Dr. Whately. Ystyrid hwn, pan y daeth allan, y gwaith goreu oedd wedi ei gyfansoddi yn yr iaith Saesnig ar resymeg; ond nid oedd hòn ond canmoliaeth fechan yn ol Hamilton, am nad oedd mewn gwirionedd cyn hyny ddim wedi ei ysgrifenu ar y pwngc yn yr iaith hono yn deilwng o sylw. Yn nghanol y fath dlodi mewn llenyddiaeth Saesnig ar y gangen hon, nis gallasai llyfr ar resymeg gan un o feddwl mor glir a threiddgar a Whately lai na thynu sylw mawr, a rhoddi cynnhyrfiad newydd i'r efrydiaeth hon yn mhrif sefydliadau addysg y deyrnas, ac yn mhlith llenorion yn gyffredinol. Ac felly y bu. Cadwodd ei le am flynyddoedd fel testyn-lyfr yn y prifysgolion, ac fel gwaith o fri uchel. Ond cafodd llenyddiaeth Saesnig ei chyfoethogi yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf â gweithiau newyddion ar resymeg o'r fath wreiddioldeb a phwysigrwydd, ac yn meddu rhagoriaethau mor uchel ar amryw gyfrifon, fel nas gallasai gwaith fel yr eiddo Whately, er fod ynddo lawer o bethau da, lai na chael ei ystyried yn dra diffygiol, ac yn mhell o ddyfod i fyny â gofynion presennol y wyddor. Beirniedir ef yn llym gan Hamilton fel yn gyfeiliornus mewn llawer o ystyriaethau, ac yn ammherffaith mewn mwy. Y pwysicaf o lawer, yn ddiammheu, o'r gweithiau diweddar y cyfeiriwyd atynt ydyw darlithiau Syr William Hamilton ar resymeg, y rhai a gyhoeddwyd tua naw neu ddeng mlynedd yn ol, mewn dwy gyfrol wythplyg, dan olygiad y diweddar Dr. Mansel, proffeswr athroniaeth foesol ac arddansoddol yn Mhrifysgol Rhydychain, a John Veitch, M. A., proffeswr rhesymeg a rheitheg yn Mhrifysgol Glasgow. Gwnaeth eu hawdwr ddefnydd helaeth ynddynt o ymchwiliadau ysgrifenwyr blaenorol mewn gwahanol ieithoedd; ac y maent o dan ddyled arbenig i weithiau rhesymegwyr Almaenaidd y ganrif bresennol—yn neillduol yr eiddo Krug ac Esser. Ond nid yw hyn yn cymmylu dim ar eu gwreiddioldeb. Un o nodweddion rhyfeddaf y llyfr ydyw y cyfuniad nodedig a welir ynddo o wreiddioldeb a dysgeidiaeth—y naill yn peri i'r llall ymddangos yn fwy rhyfedd. Mae yn ammheus a welwyd y fath enghraifft ag a welwyd yn y dyn mawr hwn o feddwl gwreiddiol ac annibynol, galluoedd y gellir eu galw heb ormodiaeth yn gawraidd, ynghyd âg athrylith neillduol at ymchwiliadau dyfnaf arddansoddiaeth, yn unedig â gwybodaeth mor ryfeddol o ran eangder, manylrwydd, a chywirdeb yn ysgrifeniadau athronyddol gwahanol oesoedd ac ieithoedd. Pa beth bynag a feddylir am ei gyfundrefn o athroniaeth, ac am rai o'i olygiadau neillduol, nis gall neb diduedd, ac wedi astudio ei weithiau, lai na thalu y warogaeth ddyfnaf i alluoedd a chyrhaeddiadau ag ydynt yn ymddangos bron yn ddihafal. Treiddia i lawr yn y darlithiau hyn i egwyddorion dyfnaf y wyddor hon; gwna ddarganfyddiadau pwysig ynddi, a dug i mewn iddi welliadau o bwysigrwydd a defnyddioldeb mawr, megys yr hyn a elwir "*the quantification of the predicate;*" ynghyd â chyfundraeth newydd o nodiant er dangos holl foddau y cyfresymiad mewn dull clir, ac hefyd ddeddf newydd neu ganon goruchaf y cyfresymiad, drwy yr hon y gellir profi cywirdeb ei holl ffurfiau. Nid ydym yn meddwl mai gormod yw dyweyd fod traddodiad y darlithiau hyn yn y brifysgol, a'u cyhoeddiad ar ol marwolaeth eu hawdwr, os nad wedi creu cyfnod newydd, wedi bod o leiaf y prif allu yn ei ddwyn oddi amgylch, yn yr efrydiaeth o resymeg yn y deyrnas hon. Saif ei waith yn gofgolofn o athrylith a dysgeidiaeth arddansoddol na cheir ond yn dra anfynych mewn unrhyw wlad nac oes eu cyffelyb.

Fel y dywed y Proffeswr Bowen, gwnaeth ei lafur ef fwy o wasanaeth i'r wyddor nag eiddo yr un dyn arall er amser Aristotle ei hunan.

Llyfr tra gwahanol i'r eiddo Hamilton, mewn amryw ystyriaethau, ac un a dynodd sylw mawr yn ebrwydd ar ei ymddangosiad, ac a ddaeth wedi hyny i fri uchel, ydoedd gwaith y diweddar Mr. John Stuart Mill ar resymeg, mewn dwy gyfrol wythplyg. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o'r gwaith hwn er's mwy nag ugain mlynedd yn ol; dygwyd allan amryw argraphiadau o hono yn ddilynol i hyny, wedi eu diwygio a'u helaethu. Yr oedd Mill yn wrthwynebwr pybyr i lawer o olygiadau athronyddol Hamilton; er nad ydym yn meddwl ei fod i'w gyffelybu i'r athronydd Ysgotaidd mewn nerth meddwl nac eangder cyrhaeddiadau. Y mae cyfundrefn Mr. Mill o athroniaeth feddyliol a moesol yn boblogaidd yn Lloegr, ac yn cyd-daraw â thymmer yr oes, er nad ydym yn barnu fod hyny mewn un modd yn ganmoliaeth iddi. Credwn fod athroniaeth Hamilton yn gorphwys ar sylfeini dyfnach a chadarnach, ac nad yw yr eiddo Mill, o'i chymmharu â hi, ond ysgafn ac arwynebol; er fod yn perthyn i Mr. Mill yn ddiau lawer o graffder athronyddol, clirder meddwl, a medr dadleuol. Addefir yn gyffredin fod ei waith ar resymeg yn meddu rhagoriaethau uchel; ond y mae yn ddiammheu, dybygem, mai yr hyn sydd yn cyfansoddi ei brif neillduolrwydd, yn gystal a'i brif werth, yw y lle mawr a roddir ynddo i gyfosiad (*induction*), a'i ymdriniaeth helaeth a manwl, a newydd i fesur, â'r gangen hon—i'r hon ni roddid ond lle bychan ac israddol o'r blaen mewn traethodau ar resymeg, ond sydd ar yr un pryd yn meddu y fath bwys ymarferol fel offeryn ymchwiliadaeth a darganfyddiad gwyddorol.

Digitized by Google

Ond ni chaniatâ ein terfynau i ni wneuthur dim ond crybwylliad byr am rai o'r gweithiau diweddar ereill mwyaf pwysig ar resymeg. Un o'r enwau diweddar enwocaf yn y deyrnas hon mewn mesuroniaeth, yn ei chyssylltiad â rhesymeg, oedd y Proffeswr De Morgan. Darganfyddodd yntau fanteision y "*quantified predicate*" (yr hyn a eglurir mewn rhan arall o'r erthygl), a chynlluniodd gyfundraeth yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth eiddo Syr William Hamilton. Eglurir hi yn llawn yn ei weithiau ar "*Formal Logic*," a "*The Syllabus of a new System of Logic*," ynghyd âg amryw erthyglau pwysig ar y cyfresymiad yn y "*Transactions of the Cambridge Philosophical Society*." Cyhoeddodd Archesgob Thomson hefyd lyfr rhagorol, yn cynnwys rhai pethau gwreiddiol a gwerthfawr, dan y teitl "*Outlines of the Laws of Thought*." Un o'r rhai a wnaeth y cyfraniad pwysicaf i'r wyddor, a mwyaf cywrain, oedd y diweddar Dr. Boole, proffeswr mesuroniaeth yn Queen's College, Cork. Efe a ddarganfyddodd gyntaf yr hyn a elwir yn gyfundraeth o "gasgliadaeth anuniongyrchol (*indirect inference*). Sylfaenwyd y gyfundraeth hon hefyd ar yr hyn a grybwyllwyd o'r blaen "*the quantification of the predicate*." Hynodrwydd cyfundraeth Boole oedd ei waith yn cymmhwyso mesuroniaeth (*mathematics*) at resymeg. Gwnaeth hyn y tu hwnt i neb a fu o'i flaen, y mae yn debyg, ac i'r graddau pellaf, dybygid, y mae yn bossibl i'r peth gael ei wneuthur. Edrychai Dr. Boole yn wir ar resymeg fel cangen o fesuroniaeth, a chredai y gallai weithio allan bob casgliad possibl trwy egwyddorion alsoddeg (*algebra*). Addefir fod y llwybr a ddefnyddiai efe yn hynod o dywyll ac anhawdd; ac nid oes braidd yr un awdwr wedi ceisio ei ddwyn i mewn i unrhyw waith elfenol ar resymeg. Ond y mae y Proffeswr Jevons wedi darganfod llwybr hynod o syml i atteb yr un dyben ag un Dr. Boole, ac i brofi pob peth a brofodd yntau, heb ddefnyddio mesuroniaeth o gwbl. Disgwyliwn gael cyfle i egluro y llwybr hwn yn mhellach yn mlaen. Rhaid i ni ddiweddu yr arweiniad hwn gyda'r enw a grybwyllasom yn awr—y Proffeswr Jevons, athraw rhesymeg yn Owen's College, Manchester. Cydnabyddir fod y gŵr hwn yn un o efrydwyr a dysgawdwyr enwocaf rhesymeg ar hyn o bryd. Y mae wedi ei hastudio yn ddwfn, ac yn meddu gallu neillduol i'w haddysgu gyda symledd ac eglurder. Gwelir hyn yn ei "*Elementary Lessons in Logic*." Ond rhaid ei ystyried hefyd mewn rhan fel darganfyddwr, ac un wedi gwneuthur cyfraniadau pwysig i'r wyddor, yn enwedig yn y gwaith tra gwreiddiol a galluog a gyhoeddwyd ddiweddaf ganddo mewn dwy gyfrol wythplyg, dan y teitl "*The Principles of Science: A Treatise on Logic and Scientific Method*:" —gwaith, os nad ydym yn camgymmeryd, sydd yn rhwym, nid yn unig o dynu sylw (yr hyn a wnaeth eisoes), ond o greu cyfnewidiad, yn fuan neu yn hwyr, nid yn unig mewn rhyw ranau o resymeg, ond yn nghymmeriad ymchwiliadaeth wyddorol yn gyffredinol; yn enwedig mewn cymmedroli uchelfrydedd a bôst gwyddoriaeth y dyddiau hyn, trwy brofi hyd yn oed ansicrwydd a diffygiolrwydd yn gystal a therfynoldeb ein gwybodaeth, a hyny yn y canghenau hyny ag y cyfrifid ein gwybodaeth o honynt o'r natur fwyaf sicr ac anffaeledig.

YR AIL RAN.—Y CORPH O ATHRAWIAETH SYDD YN CYFANSODDI Y WYDDOR EI HUNAN, NEU EGWYDDORION A RHEOLAU RHESYMEG.

Yn unol â chynllun Syr William Hamilton, dosbarthwyd rhesymeg i ddwy ran:—yn gyntaf, Rhesymeg bur (*pure logic*); yn ail, Rhesymeg ddullweddiadol (*modified logic*). Eglurwyd y gwahaniaeth rhwng y ddwy ran fel hyn:—y mae y flaenaf yn ymwneyd â deddfau meddwl yn ystyr mwyaf priodol y gair; hyny yw, fel y maent yn cael eu cynnwys yn wreiddiol yn natur y dealltwriaeth pur ei hunan. Ymdrinia yr olaf â'r deddfau hyny fel y maent yn cael eu dullweddu neu effeithio arnynt yn eu cymmhwysiad gweithredol, gan lawer o amgylchiadau cyffredinol, allanol a thufewnol. Nid yw y rhan olaf, mewn gwirionedd, fel y dangoswyd o'r blaen, yn ffurfio rhan hanfodol o resymeg o gwbl: cymmysgedd ydyw o resymeg a meddyleg, yn ffurfio math o attodiad y gellir yn gyfleus ei gyssylltu â'r wyddor. Felly, cyfyngwn ein hunain yn yr erthygl hon yn benaf, os nad yn unig, at resymeg yn yr ystyr priodol, sef rhesymeg bur.

Dangoswyd hefyd fod rhesymeg bur yn ymffurfio yn ddwy ran; sef, elfenyddiaeth (*stoicheiology*), neu athrawiaeth elfenau; a dullyddiaeth (*methodology*), neu athrawiaeth dull. Eglurwyd y gwahaniaeth rhwng y ddwy ran yn y mater gwahanol a berthyna i'r naill a'r llall: ymdrinia y rhan gyntaf âg ammodau meddwl, a'r ail âg ammodau meddwl yn dda. Y rhan gyntaf etto o'r ddwy sydd yn yr ystyr mwyaf priodol yn ffurfio testyn neu fater y wyddor o resymeg, fel y cyfryw. Felly, cyfyngwn ein sylwadau yn benaf i'r rhan hon, sef elfenyddiaeth, neu athrawiaeth elfenau (*stoicheiology*): hyny yw, yr athrawiaeth sydd yn ymwneyd âg anhebgorion elfenol meddwl.

Ymrana yr athrawiaeth hon etto i ddwy ran —y naill fel y llall o'r pwysigrwydd mwyaf. Y mae y rhan gyntaf yn ymwneyd â *deddfau meddwl pur*: hyny yw, deddfau sylfaenol meddwl, neu ammodau cyffredinol y meddyliadwy (*the universal conditions of the thinkable*). Y mae yr ail ran yn ymwneyd â deddfau meddwl, fel y maent yn llywodraethu ei wahanol gynnyrchion —y rhai etto a ddosberthir yn dair rhan; sef, syniad, barn, ac ymresymiad.

Dyma, gan hyny, grynodeb o'n cynllun: Rhesymeg bur. Elfenyddiaeth: Rhan I. Deddfau meddwl pur. Rhan II. Cynnyrchion meddwl yn eu tair ffurf o, 1. Syniadau *(concepts)*; 2. Barnau *(judgements)*; 3. Ymresymiadau *(reasonings)*. Neu, os edrychir ar y tair ffurf hyn o gynnyrch meddwl wedi eu corphori mewn iaith, y maent yn ymffurfio yn

1af, Ymadroddion *(terms)*; 2il, Gosodiadau *(propositions)*; 3ydd, Cyfresymiadau *(syllogisms)*.

Yn ol y cynllun hwn y ceisiwn fyned yn mlaen am y gweddill o'r erthygl.

RHAN I. DEDDFAU MEDDWL PUR.

Wrth 'ddeddfau meddwl pur' y golygir— deddfau sylfaenol meddwl. Nid y deddfau a lywodraethant rhyw ffurf neillduol o gynnyrch meddwl, megys syniad, neu ynte farn (yr hyn sydd yn dyfod o dan yr ail ran); ond y deddfau a lywodraethant y weithred o feddwl ynddi ei hunan, pa ffurf bynag, ac yn mhob ffurf:—yr ammodau yn ol pa rai yn unig y mae yn bossibl meddwl o gwbl. Cynnwysa y deddfau hyn y gwirioneddau cyntaf a mwyaf syml, yn y rhai y mae pawb yn cyttuno; y rhai ydynt mor eglur a chyntefig fel nas gellir myned y tu ol iddynt na'u profi â dim sicrach neu eglurach na hwy eu

Digitized by Google


hunain; y rhai o blegid hyny a raid fod yn sceiliau cyntaf pob ymresymiad, ac yn gyffredinol gymmhwysiadwy at bob peth. Y mae y deddfau hyn felly yn wirioneddau sylfaenol, neu arwireddau (*axioms*), o gymmhwysiad cyffredinol, yn gorwedd o dan ac yn llywodraethu pob gweithred a chynnyrch o eiddo y deall dynol.

Y deddfau hyn ydynt dair; neu, yn ol rhai ysgrifenwyr ar resymeg, pedair. Deil y Proffeswr Bowen, ac ereill, fod y deddfau hyn i gyd yn gynnwysedig mewn un egwyddor; sef, *Y mae yn rhaid i'r oll o feddwl fod yn gysson âg ef ei hunan.* Os ydyw yn anghysson, os ydyw yn gwrthddywedyd ei hunan, yna y mae yn hunanddinystriol: y mae y meddwl yn ei wneyd ei hunan yn ddim. Yn ol yr awdwr uchod, nid yw y tair deddf ond gwahanol ochrau, megys, i'r un egwyddor hon. Y mae Syr William Hamilton drachefn; yn gwadu fod yn bossibl dwyn i lawr y tair deddf i un, nac ychwaith godi un o honynt i fod yn flaenaf, fel ag i'r lleill ddeillaw o honi. Ar yr un pryd, addefa y gellir edrych arnynt fel tair ochr i'r un egwyddor, a phob un yn tybied y ddwy arall. Dywed ef eu bod fel tair ochr triongl; nid yr un peth a'u gilydd, nid yn gyfryw y gellir eu dwyn i lawr i un—ond pob un o gyfartal hawl i gael ei hystyried yn flaenaf; a pha un bynag a gymmerir yn flaenaf, fod hono yn ei hanfodiad ei hun yn rhoddi hanfodiad i'r ddwy arall.

Y tair deddf ydynt y rhai canlynol:—

1. *Deddf hunaniaeth* (*the law of identity*).= *Pa beth bynag sydd, y sydd.*
2. *Deddf gwrthddywediad* (*the law of contradiction*).=*Nis gall dim fod, ac hefyd beidio bod.*
3. *Deddf cauad allan y trydydd neu ganol* (*the law of excluded middle*).=*Rhaid i bob peth naill ai bod, neu beidio bod.*

Dyma ddeddfau cyntefig meddwl. Rhoddwn hwynt i lawr etto yn y ffurf o driongl, fel yr awgrymwyd o'r blaen:—




3 sydd naill ai = 1 a 2, neu = nid 1 a 2.

Chwanega rhai rhesymegwyr bedwaredd deddf:

4. Deddf rheswm a chanlyniad; neu, deddf rheswm digonol (*the law of reason and consequent; or the law of sufficient reason*).

Rhoddir hi gan Leibnitz yn y geiriau canlynol:—"Nid oes dim yn digwydd heb reswm pa ham y mae felly yn hytrach nag fel arall." Geirir hi gan awdwyr ereill, megys Schulze, Krug, a Hamilton, fel hyn:—"Na wneler unrhyw gasgliad heb sail neu reswm."

Ceisiwn yn awr roddi eglurhâd byr ar bob un o'r deddfau hyn. Gallant ymddangos ar yr olwg gyntaf yn rhy eglur i ofyn am eglurhâd—yn rhy eglur yn wir i fyned i drafferth i'w gosod mewn geiriau o gwbl. Ond dywed y Proffeswr Jevons nad oes ond ychydig o efrydwyr yn alluog i weled eu llawn ystyr a'u pwysigrwydd ar yr olwg gyntaf; a sylwa yn mhellach, fod awdwyr ar resymeg wedi bod hyd y blynyddoedd diweddaf heb dalu sylw i'r ffordd syml a hawdd yn yr hon y gellir egluro pob ymresymiad, wedi i'r deddfau hunan-brofedig hyn gael eu caniatau; ac nad ydyw yn ormod dywedyd y bydd yr oll o resymeg yn eglur i'r rhai a ddefnyddiant y deddfau hyn yn wastadol fel yr agoriad.

1. Deddf hunaniaeth (*the law of identity*). Y mae gwahanol ffyrdd mewn bod o eirio y ddeddf hon: megys, "Pa beth bynag sydd, y sydd;" neu, "Y mae pob peth yr un ag ef ei hunan;" neu, "Y mae pob peth yn gyfartal iddo ei hunan;" neu "Eglur gynnwysir yn y traethiad (*predicate*) yr hyn oll a ddirgel gynnwysir yn y testyn (*subject*)."

Y mae pwysigrwydd rhesymegol y ddeddf hon yn gynnwysedig yn hyn—mai hi yw egwyddor pob haeriad a darnodiad rhesymegol. Gellir ei hegluro yn mhellach trwy ddywedyd mai ei hegwyddor ydyw y gwirionedd hunanbrofedig hwn:—fod y cyfanswm o unrhyw beth yn gyfartal i'r oll o'r rhanau sydd yn ei gyfansoddi. Pan y dywedir fod unrhyw beth yn gyfartal âg ef ei hunan, y meddwl ydyw fod y syniad (*concept*) o unrhyw beth yn gyfartal i'r oll o'r nodweddion a gyfansoddant y syniad. Cymmerwn yr esamplau canlynol:—

1af, Tybiwn fod syniad pennodol yn cael ei gynnrychioli gan y llythyren *Z*. Tybiwn etto fod y nodweddion neillduol a wnant i fyny y syniad yn cael eu gosod allan drwy y llythyrenau *a*, *b*, *c*. Y mae yn canlyn fod y syniad yn y cyfanswm, neu fel undod, yn gyfartal i'r llythyrenau bychain gyda'u gilydd. Os haerir y blaenaf, y mae hyny yn haeriad o'r olaf. I roddi yr un peth yn iaith alsoddeg (*algebra*):—

$$z=(a+b+c).$$

(Cofir fod y nôd (=) yn arwyddo cyfartalwch; a'r nôd + yn arwyddo chwanegiad). Felly, gan mai $z$ yw $(a+b+c)$, y mae $z$ yn $a$, yn $b$, yn $c$. Cymmerwn y syniad pendant o *ddyn*. Gwneir y syniad hwn i fyny o nifer o nodweddion neu briodoliaethau neillduol; megys 1. sylwedd; 2. materol; 3 cyfluniedig; 4. bywiol; 5. rhesymol; 6. o'r ddaear. Mewn geiriau ereill: y mae *dyn* yn *sylwedd*, yn *faterol*, yn *gyfluniedig*, yn *fywiol*, yn *rhesymol*, ac *o'r ddaear hon*. Fel hyn, y mae y syniad cyfan o *ddyn* yn gyfartal, neu yn dyfod i'r un peth, a'r holl nodweddion sydd yn gwneyd i fyny y syniad.

2il, Tybiwn etto fod un o'r rhanau uchod, megys $a$, yn cael ei wneyd i fyny o ranau llai—fod y nodwedd $a$ yn cael ei gyfansoddi o'r nodweddion $l$, $m$, $n$. Y mae yn canlyn oddi wrth yr un ddeddf o hunaniaeth gan fod $z=a$, ac $a=(l, m, n)$, fod $z$ felly yn $l$, yn $m$, yn $n$. Tybiwn mai $z$ yw y syniad *dyn;* ac $a$ yn golygu *anifail* fel un o nodweddion dyn; a'r nodwedd *anifail* etto (neu $a$) yn cynnwys y nodweddion, *corphorol*, *cyfluniedig*, *bywiol*, (neu $l$, $m$, $n$): felly y mae dyn yn anifail, ac o blegid hyny yn gorphorol, yn gyfluniedig, yn fywiol. Megys y mae y syniad yn gwbl un a'r oll o'i ranau, y mae mewn rhan yn un a phob un o'i ranau; ac mewn rhan lai yn un â phob un o'r rhanau manach a gynnwysir yn y rhanau hyny.

2. Yr ail ddeddf yw yr un a elwir yn Ddeddf Gwrthddywediad (*The Law of Contradiction*), neu fel yr awgryma Syr W. Hamilton y byddai yn fwy priodol ei galw—Deddf An-ngwrthddywediad (*The Law of Non-contradiction*).

Ystyr y ddeddf hon ydyw—nas gall unrhyw beth feddu priodoliaethau gwrthwyneb ac anghysson â'u gilydd ar yr un pryd ac yn yr un lle. Er enghraifft: gall dernyn o bapyr fod yn ddu mewn un rhan, tra y mae yn wyn mewn rhanau ereill; neu gall fod yn wyn ar un adeg, ac wedi hyny ddyfod yn ddu; ond nis gallwn synio iddo fod yn wyn ac yn ddu yn yr un rhan ac ar yr un amser. Gall drws wedi ei agor gael ei gau; ond nis gall fod ar unwaith yn gauad ac yn agored. Gall dwfr deimlo yn gynnhes i un llaw ac yn oer i law arall, ond nis gall fod yn gynnhes ac yn oer i'r un llaw.

Nis gall unrhyw ansawdd fod yn bresennol ac yn absennol ar yr un pryd. Neu, mewn dull arall o eirio, pan y mae gwrthddrych yn cael ei nodi allan trwy hòni cymmeriad pennodol iddo, nis gellir meddwl am y gwrthddrych hwnw fel yr un un pan y mae y cymmeriad hwnw yn cael ei wadu iddo. Y mae haeriadau o barth i unrhyw beth yn gwrthddywedyd eu gilydd, pan y mae y naill yn haeru fod y peth hwnw yn meddu nodwedd ag y mae y llall yn haeru nad yw yn ei feddu. Geiria rhai y ddeddf hon mewn ffyrdd ereill, megys—"Y mae yn ammhossibl i'r un peth fod, a pheidio bod, ar yr un amser;" neu, "Nis gall priodoliaethau gwrthwynebol gael eu huno mewn un weithred o ymwybyddiaeth." Y gosodiad hwn a gynnwysir yn y gwahanol ddulliau yma o eirio, ydyw y gwirionedd mwyaf syml a chyffredinol y gellir ei haeru am unrhyw beth. Natur hanfodiad ei hunan ydyw, nas gall dim fod yr hyn ydyw, ac ar yr un pryd fod yn wahanol i'r hyn ydyw: a gellir dyweyd fod pob ymresymu gau a chyfeiliornus yn codi o droseddiad anymwybodol o'r ddeddf hon. Y mae pob haeriad sydd yn tybied uniad o briodoliaethau sydd yn gwrthddywedyd eu gilydd o angenrheidrwydd yn anghywir ac yn ammhossibl; a throsedd o'r ddeddf hon yw y nôd o'u hanghywirdeb. Y ffurf resymegyddol ar y ddeddf hon yw—Y mae yr hyn sydd yn wrthddywediad yn anfeddyliadwy. $A = nid\ A = 0$. Neu (cofier fod y nôd — yn arwyddo tynu allan, neu *lai* o'r hyn sydd ar ei ol): $A - A = 0$.

Y mae pwysigrwydd y ddeddf hon mewn rhesymeg yn gynnwysedig yn ei bod yn egwyddor pob negyddiad (neu nacâd) a gwahaniaethiad rhesymegyddol. Y mae deddf hunaniaeth a deddf gwrthddywediad yn gydymddibynol ar, neu yn gydberthynasol â'u gilydd. Nis gellir gosod y naill yn gyntaf, a'r llall yn ail, a phrofi y naill oddi wrth y llall, am fod pob un o'r ddwy o angenrheidrwydd yn rhagdybied y llall. Mewn gwirionedd, nid yw y ddwy o ran eu hanfod ond un ddeddf, yn gwahaniaethu yn unig yn eu mynegiad cadarnhaol a nacaol.

3. Deddf Cauad allan y Trydydd neu Ganol (*The Law of Excluded Third or Middle*). Ystyr y ddeddf hon ydyw, y rhaid fod pob peth y gellir meddwl am dano naill ai yn bod neu heb fod. Neu, Nis gellir crybwyll am unrhyw *beth* ac unrhyw *briodoledd*, heb addef fod y briodoledd yn perthyn i'r peth, neu nad yw yn perthyn iddo. Neu fel hyn:—Pan gyflwynir i'r meddwl ddau syniad gwrthwynebol, y cyfryw ag nas gall y naill a'r llall fod, yr ydym yn rhwym o gredu fod y naill neu y llall yn bod. Nid oes yn y cyfryw amgylchiad ddim ond dau i ddewis o honynt. Fel y mae enw y ddeddf yn dangos, y mae trydydd (at y ddau) neu ganol (rhwng y ddau) yn cael ei gau allan fel yn ammhossibl. Neu, cymmerer y wireb (*axiom*) hon: O ddwy briodoledd wrthddywediadol, nis gellir haeru ond un am beth; ac os gwneir haeriad pendant o un, bydd y llall yn rhinweddol yn cael ei gwadu. *Y mae A yn bod, neu nid ydyw yn bod. A yw B, neu nid A yw B.*

Tybier fod dau osodiad ger ein bron yn gwrthddywedyd eu gilydd:—y mae deddfau Hunaniaeth a Gwrthddywediad yn ein hawdurdodi, oddi wrth wirionedd un o'r ddau osodiad, i benderfynu geudeb y llall: a thrachefn, y mae y ddeddf sydd dan ein sylw yn awr yn ein hawdurdodi, oddi wrth geudeb y naill osodiad, i benderfynu gwirionedd y llall. Yn hyn y cynnwysir grym ac ystyr pennodol y ddeddf hon—ei hystyr resymegyddol—ei bod yn terfynu neu yn cau i fewn gylch y meddyliadwy mewn perthynas i haeriadaeth (*affirmation*); o blegid penderfyna—o'r ddwy ffurf a roddir yn y deddfau o Hunaniaeth a Gwrthddywediad, ac a haerir gan y deddfau hyn fel yr unig rai possibl—y rhaid haeru y naill neu y llall o honynt fel yn angenrheidiol.

Y ddeddf o Gauad allan y Canol ydyw eg-wyddor Barnau Dadgyssylltiadol; hyny ydyw, barnau yn y rhai y mae lliosawgrwydd o farnau yn cael eu cynnwys, a'r rhai ydynt yn sefyll yn y fath berthynas â'u gilydd o bob tu fel ag y mae haeriad y naill yn wadiad o'r llall.

Nid yw y ddeddf hon mor eglur ar y tarawiad cyntaf—nid ydyw mor hunanbrofedig a'r ddwy arall. Hwyrach y bydd yn fantais i'r darllenydd ei deall pe edrychem arni ar gyfer gwrthddadl neu ddwy y gellid eu codi yn ei herbyn. Dyma yw y ddeddf, a'i rhoddi mewn esampl: Tybier mai y peth yr ydys yn sôn am dano yw *craig*, a'r ansawdd *caled;* yna, medd y ddeddf hon, rhaid i graig fod naill ai yn galed, neu heb fod yn galed. Rhaid i aur fod naill ai yn wyn, neu heb fod yn wyn. Rhaid i linell fod yn uniongyth, neu heb fod yn uniongyth. Rhaid i weithred fod yn rhinweddol, neu heb fod yn rhinweddol.

Gellid gwrthddadleu yn erbyn hyn, nad ydyw craig bob amser yn galed nac yn feddal; o blegid gall fod rhwng y ddau—i raddau yn galed ac i raddau yn feddal, ar yr un amser. Y mae yr wrthddadl hon yn rhoi cyfleusdra i nodi allan wahaniaethiad pwysig mewn rhesymeg, ac un sydd o'i esgeuluso yn arwain i gyfeiliornad. Nid ydyw y ddeddf dan sylw yn dywedyd dim am *galed* a *meddal*, ond yn unig am *galed*, ac *heb fod yn galed*. Os dyry y darllenydd y gair 'meddal' am y gair 'heb fod yn galed' (*not hard*), y mae yn euog o gymmysgu ymadroddion cyfcyferbyniol âg ymadroddion gwrthwynebol neu wrthddywediadol. Y mae yn hollol bossibl i beth beidio bod yn galed nac yn feddal, ond yn y canol rhwng y ddau; ond nid yw yn iawn galw hwnw yn galed:—felly y mae y ddeddf yn dal. Yr un modd, y mae yn rhaid i ddwfr fod yn boeth, neu heb fod yn boeth; ond nid ydyw yn canlyn fod yn rhaid iddo fod yn boeth neu yn oer. Y mae yr ochr yma o'r dybiaeth, 'heb fod yn boeth,' yn amlwg yn cynnwys yr holl achosion yn y rhai y mae yn oer, ac hefyd yn cynnwys yr holl achosion lle y mae mewn tymmheredd canolig, ac heb fod yn boeth nac yn oer. Mae yn angenrheidiol i ni fel hyn fod yn



Digitized by Google

ofalus i wahaniaethu cwestiynau *o radd neu swm* oddi wrth gwestiynau o ffaith syml mewn rhesymeg. Lle y gall peth neu ansawdd fod i raddau mwy neu lai, y mae yno lawer o ddewisiadau i gymmeryd o honynt. Er enghraifft: gall dwfr cynnhes fod mewn unrhyw dymmheredd, o 70°, fe allai, i fyny i 120°. Daw yr un cwestiwn i fyny mewn ymresymau mesuronol. Ymresyma Euclid yn fynych yn ei "*Elfenau*" oddi wrth y gwirionedd hunan-brofedig, fod yn rhaid i unrhyw linell fod naill ai yn fwy na, neu yn gyfartal i, neu yn llai nag unrhyw linell arall. Fel hyn, nid oes ond dau ddewis i ddethol o honynt mewn rhesymeg, tra y mae tri mewn mesuroniaeth; er esampl, gall un linell, o'i chymmharu âg un arall, fod—

Mewn rhesymeg { yn fwy, / neu / nid yn fwy.

Mewn mesuroniaeth { yn fwy, / neu / yn gyfartal, / neu / yn llai.

Gellir cyfodi gwrthddadl arall etto fwy golygus yn erbyn trydedd deddf meddwl yn y ffordd yma. Tybiwn mai *rhinwedd* yw y peth a osodir i lawr, a *thrionglog* yr ansawdd. Y mae y ddeddf dan sylw yn ein galluogi ar unwaith i haeru fod rhinwedd naill ai yn drionglog, neu nid yn drionglog. Gallai ymddangos ar yr olwg gyntaf yn gyfeiliornus ac yn wrthun i ddyweyd am syniad ysbrydol, fel rhinwedd, ei fod yn drionglog, nac heb fod yn drionglog; o blegid nid oes ganddo ddim o'r un natur a'r sylweddau materol hyny sydd yn cymmeryd i fyny le (*space*), i ba rai y mae y syniad o ffurf neu ffugr yn perthynu. Ond y mae y gwrthuni yn cyfodi, nid o unrhyw geudeb yn y ddeddf, ond o gamesboniad ar yr ymadrodd *heb fod yn drionglog*. Pan yr ydym yn dyweyd fod peth 'heb fod yn drionglog,' os deallir hyny fel yn cynnwys fod gan y peth *ryw ffugr arall* o'r un natur, er nad un trionglog, megys ffugr crwn, neu ysgwâr, yna, wrth reswm nis gellir cymmhwyso yr ymadrodd at rinwedd, nac at ddim anfaterol. Ond mewn rhesymeg fanwl, nis gellir caniatau y cyfryw ystyr o gwbl; ac felly, byddai yr ymadrodd 'heb fod yn drionglog' yn cynnwys, nid yn unig pethau sydd yn meddu ffugr, eithr gwahanol i'r un trionglog, ond hefyd pethau nad oes ganddynt briodoliaethau ffugr o gwbl; ac yn yr ystyr olaf, y mae yr ymadrodd i'w gymmhwyso at rinwedd, neu unrhyw beth anfaterol.

Y tair deddf hyn, y rhai ydynt gyffredinol ac angenrheidiol wir, at ba bethau bynag y cymmhwysir hwynt, ydynt sylfeini ymresymiad.

4. Yn chwanegol at y tair deddf uchod, y rhai a elwir yn ddeddfau cyntefig meddwl, y mae rhai rhesymegwyr yn dal fod pedwaredd deddf, yr hon a elwir yn "egwyddor neu ddeddf rheswm digonol" *(the law of sufficient reason)*, neu "*ddeddf rheswm a chanlyniad*" (*the law of reason and consequent*).

Geirid hi gan Leibnitz fel hyn:—"Nid oes dim yn digwydd heb reswm pa ham y mae felly rhagor fel arall." Mynegir y ddeddf, yn ol Syr W. Hamilton, yn y ffurf-reol hon:—"Na thynwch unrhyw gasgliad heb sail neu reswm." Er esampl: os oes pâr o glorianau yn hollol yr un fath yn mhob ochr, a chyda yr un bwysau yn hollol yn mhob clorian, rhaid iddo aros heb ysgogi, ac mewn cydfantoliad; o blegid nid oes un rheswm pa ham y byddai i'r naill ochr fyned i lawr yn fwy na'r llall. Y mae yn ddiau yn beth a gymmerir yn ganiataol fel gwirionedd sylfaenol mewn gallofyddiaeth—os gweithredir ar gorph gan ddau allu perffaith gyfartal mewn dau gyfeiriad gwahanol, y bydd iddo symmud yn gyfartal rhyngddynt; o blegid nid oes un rheswm dros iddo symmud mwy i un ochr nag i'r llall.

Noda Syr William Hamilton y gwahaniaeth sydd rhwng rheswm a chanlyniad ar un llaw, ac achos ac effaith ar y llaw arall. Gwir fod yn rhaid meddwl am bob achos fel rheswm, ac am bob effaith fel canlyniad; ond nid yw y gwrthwyneb yn wir—nid yw pob rheswm mewn gwirionedd yn achos, na phob canlyniad yn effaith. Pan y mae rheswm a chanlyniad arnynt eu hunain yn unig, rheswm a chanlyniad meddyliol neu resymegyddol ydynt; ond pan y maent hefyd yn achos ac yn effaith, yna y maent yn dyfod yn rheswm a chanlyniad gwirioneddol neu arddansoddol. Yn y blaenaf, nid oes ond cydosodiad meddyliau; yn yr olaf, y mae gwir gysylltiadau bodolaeth. Felly, er y cymmysgir hwynt yn fynych, y mae gwireb achosiaeth, fel egwyddor arddansoddol, yn hanfodol wahanol oddi wrth wireb rheswm a chanlyniad fel egwyddor resymegyddol. Golygiad diweddaraf Syr William Hamilton (a Mansel yn gyffelyb) ar y ddeddf hon oedd, y dylid ei chau allan o resymeg, am y rheswm hwn: ar un llaw, yn yr hyn nad yw yr egwyddor hon yn berthynasol neu yn meddu pwynt sylweddol, nid yw ond wedi deilliaw o'r tair deddf ffurfiol; ar y llaw arall, yn yr hyn y mae yn meddu pwynt sylweddol, y mae yn dyfod i'r un peth ag egwyddor achosiaeth, ac felly yn gorwedd y tu allan i derfynau rhesymeg.

Yr ydym yn gweled ynte mai y tair deddf a eglurwyd sydd yn ffurfio deddfau sylfaenol, neu wirebau y wyddor. Yn gyssylltiedig â hyn nid oes genym, cyn myned yn mlaen at yr Ail Ran, ond gosod i lawr brif ofyneb (*postulate*) rhesymeg; wrth yr hyn y golygir—yr hyn a berthyn i resymeg, fel i fesuroniaeth, nas gellir gwneyd dim heb eu *caniatau*, ac nas gellir yn rhesymol wrthod eu caniatau.

Yr hyn a ofyna neu a hawlia rhesymeg ar y dechreu i'w ganiatau, ydyw hyn—

'Cyn ymwneyd â barn neu ymresymiad yn cael ei fynegu mewn iaith, fod ystyr ei ymadroddion yn cael eu deall yn gyflawn: mewn geiriau ereill, hawlia rhesymeg ganiatâd i draethu yn eglur mewn iaith yr oll a gynnwysir yn wirioneddol yn y meddwl.'

Y caniatâd hwn, wrth gwrs, nis gellir ei wrthod; ac nid yw yn gofyn eglurhâd pellach.

Symmudwn yn mlaen yn awr at yr ail ran.

### RHAN II. CYNNYRCHION MEDDWL.

Ymdrinwyd yn Rhan i. â "deddfau meddwl pur;" *h.y.*, deddfau sylfaenol meddwl—ammodau angenrheidiol y meddyliadwy, neu yr ammodau hyny yn ol pa rai yn unig y mae yn bossibl meddwl o gwbl. Yn y rhan hono eglurwyd tair deddf sylfaenol meddwl (neu yn ol ereill, pedair), ynghyd â gofyneb *(postulate)* rhesymeg. Yn awr, yr ydym yn symmud yn mlaen yn naturiol i ystyried "*cynnyrchion* meddwl." Y mae dwy ffordd i ymdrin â'r rhai hyn: (1.) fel y maent yn bod yn y meddwl ei hunan, yn ffrwyth gweithrediadau pennodol o'i eiddo; ac

Digitized by Google

(2.) fel y maent wedi eu corphori mewn iaith. Ymffurfiant o dan dri phen yn mhob un o'r ddwy wedd a nodwyd.

1. Fel y maent yn y meddwl, ymrestrant yn
1af, Syniadau.
2il, Barnau.
3ydd, Ymresymiad.

2. Fel y maent wedi eu corphori mewn iaith, cymmerant y ffurf o
1af, Ymadroddion.
2il, Gosodiadau.
3ydd, Cyfresymiadau.

Yn y wedd olaf yn unig yr ymdrinir â hwynt yn y gweithiau mwyaf elfenol ar resymeg—yn y wedd hon y ceir y *rheolau;* ond y mae yn amlwg fod yn rhaid gwneyd ymchwiliad iddynt yn y wedd flaenaf, i fyned at yr *egwyddorion* athronyddol, fel y mae Syr William Hamilton yn gwneyd yn ei ddarlithiau ar resymeg. Tuag at i'n hymdriniaeth fod mor gyflawn ag y gellir, o fewn terfynau un erthygl, ni a ymdrechwn gymmeryd i mewn y ddwy wedd. Felly, y rhaniad fydd fel y canlyn:—

I. ATHRAWIAETH SYNIADAU AC YMADRODDION.

II. ATHRAWIAETH BARNAU A GOSODIADAU.

III. ATHRAWIAETH YMRESYMIAD A CHYFRESYMIADAU.

Dechreuwn gydag

I. ATHRAWIAETH SYNIADAU AC YMADRODDION.

*Adran* 1.—SYNIADAU.

Gan fod ein herthygl eisoes wedi rhedeg yn faith, ni a ymdrechwn wasgu y gweddill i ychydig o le. Ceisiwn gyflwyno ger bron y darllenydd y pethau mwyaf pwysig ar yr adran hon, dan nifer o benau, mor fyr ac eglur ag y gallwn.

1. Beth yw syniadau yn gyffredinol? Y mae ystyr llythyrenol y gair Saesneg yn taflu goleuni cryf ar ystyr y peth. Y gair Saesneg am 'syniad' yw *conception,* neu *concept:* y blaenaf yn enw ar y weithred feddyliol o synio, a'r olaf wedi ei lunio gan Syr William Hamilton i osod allan gynnyrch y weithred hono—y peth sydd yn cael ei synied, y syniad ei hunan. Cyfansoddir y gair *conception* o'r ferf Lladin *capio*—cymmeryd, a'r blaenddawd *con*—ynghyd: felly, yr ystyr ydyw, "cymmeryd ynghyd." A dyna ydyw hanfod syniad:—y weithred (neu gynnyrch y weithred) o gymmeryd i mewn, neu gasglu ynghyd i undod, yr amrywiol ansoddau a berthynant i unrhyw wrthddrych. Neu, y weithred o gymmeryd i mewn lawer o wrthddrychau gwahanol, drwy yr ansoddau sydd yn gyffredin i'r cyfan, mewn un weithred o feddwl. Y mae dynion fel personau yn lliosog; ond y mae y lliaws yn myned yn un yn y *syniad*. Pan y mae y meddwl yn cymmeryd gafael yn yr ansoddau cyffredin a berthyn iddynt oll, gan eu huno â'u gilydd, dyna sydd yn gwneyd i fyny y syniad am ddyn.

2. Y mae dau fath o wybyddiaeth yn gynnwysedig yn ein hamgyffrediad o wrthddrych neillduol: (1.) y wybyddiaeth ddigyfrwng a neillduol sydd genym o'r gwrthddrych pennodol hwnw, fel yn uno ynddo ei hun ryw ansoddau neu briodoliaethau neillduol, a'u hystyried yn unig yn perthyn iddo ef ei hun; (2.) y wybyddiaeth gyfryngol neu berthynasol sydd genym o'r un gwrthddrych, fel yn cynnwys ansoddau neu briodoliaethau, y rhai ydynt yn gyffredin iddo ef a gwrthddrychau ereill. Y wybyddiaeth flaenaf ydyw yr un a gynnwysir yn nghyflwyniadau y synwyrau, allanol a thumewnol, ac adgyflwyniadau y dychymyg. Perthyna y rhai hyn yn unig i'r gwrthddrych neillduol, neu unigol. Y wybyddiaeth olaf ydyw yr un a gynnwysir yn syniadau y deall; ac sydd yn wybodaeth o'r cyffredin (*common*) ac o'r cyffredinol (*general, universal*).

Synio am wrthddrych, gan hyny, ydyw ei adnabod yn gyfryngol trwy syniad; a syniad yw y wybyddiaeth neu y drychfeddwl o'r briodoledd neu y priodoliaethau, y nôd neu y nodau, cyffredinol, yn y rhai y mae lliosawgrwydd o wrthddrychau yn cyttuno, neu yn gyffelyb i'w gilydd. Gwelir fod yr eglurhâd hwn yn cynnwys tair ffurf o weithrediad meddyliol:—(1.) Canfyddiad *(perception)*; sef, cyflwyniad gwrthddrych unigol i'r meddwl yn uniongyrchol drwy y synwyrau corphorol; megys pan yr ydym yn gweled *dyn*. (2.) Drychfeddwl:—trwy y cof a'r dychymyg gall y dyn a welsom gael ei adgyflwyno *(represented)* i'r meddwl, neu ei gynnrychioli gan y ddelw, y drychfeddwl am dano, pan nad yw mwyach yn y golwg. (3.) Syniad:—yn hwn y mae y deall, trwy sylwadaeth, cymmhariaeth, a dansoddiad *(abstraction)*, yn gweithio y defnyddiau a roddwyd gan y synwyrau, y cof, a'r dychymyg, i fath uwch o wybodaeth: yr ydym yn tynu allan y priodoliaethau a welsom mewn gwahanol ddynion unigol, ac yn eu symio at eu gilydd, i wneyd i fyny y syniad cyffredinol am *ddyn*. Rhyw ddyn neu ddynion unigol oedd yn y ddau flaenaf; ond y dyn cyffredinol sydd yn yr olaf. Hanfod y ddau flaenaf ydyw unigolrwydd; hanfod yr olaf yw cyffredinolrwydd.

3. Nid yw syniad yn rhoddi gwybodaeth gyflawn. Ni chynnwysa ond rhan o'r priodoliaethau amrywiol, o ba rai y mae unrhyw wrthddrych unigol yn swm: felly, nis gall roddi ond gwybodaeth unochrog ac anghyflawn o'r pethau a feddylir o dano.

Meddyliwn am Socrates, er esampl, o dan ryw *un* yn unig (ar y pryd) o'r syniadau hyn:—

*Atheniad, Groegiad, Ewropiad, dyn, creadur deudroed, anifail, bod.* Wrth feddwl am dano o dan un o'r syniadau hyn, yr ydym yn taflu allan o'r golwg y rhan fwyaf o'r priodoliaethau sydd yn cydgyfarfod yn Socrates, a'r rhai hyny hefyd ag ydynt yn fwyaf uniongyrchol yn cyfansoddi ei bersonoliaeth ef ei hun. Y mae yn amlwg hefyd, mai po fwyaf cyffredinol a fyddo y syniad y meddyliwn am Socrates o dano, y bydd yn cael ei gynnrychioli neu ei gyflwyno i'r meddwl trwy sypyn llai o briodoliaethau; ac felly byddwn yn meddwl am dano mewn ffordd fwy rhanol neu unochrog. Fel hyn, os meddyliwn am dano fel *Atheniad*, byddwn yn meddwl am dano drwy nifer fwy o nodau neu briodoliaethau na phe y meddyliem am dano yn unig fel *Groegiad;* a'r un modd bydd y drychfeddwl am dano yn llai-lai cyflawn o hyd, yn ol fel y meddyliwn am dano o dan bob syniad mwy cyffredinol yn y gyfres—*Ewropiad, dyn, creadur deudroed, anifail, bod.*

4. Nid yw syniad etto ond yn rhoddi gwybodaeth berthynasol *(relative)*, ac nid hollol neu hanfodol *(absolute)*, o'r gwrthddrych.[1] Gwelir hyn pan ystyriom mai trwy gymmharu y mae syniad yn cael ei ffurfio. Felly y mae, o angenrheidrwydd, fel ffrwyth cymmhariaeth, yn gosod

[1] Dyma un o byngciau neillduol a phwysicaf athroniaeth Syr William Hamilton:—nodwedd *berthynasol* yr oll o'n gwybodaeth.

Digitized by Google

allan berthynas. Y mae yn canlyn nad yw syniad yn wybyddadwy ynddo ei hun; hyny yw, nid ydyw yn ein cynnysgaeddu â gwrthddrych diammodol ac annibynol o wybodaeth: nis gellir ei sylweddoli mewn ymwybyddiaeth ond trwy ei gymmhwyso, fel *term* o berthynas, at un neu fwy o'r gwrthddrychau a osodir allan drwyddo; sef, y gwrthddrychau y rhai ydynt yn cyttuno yn y pwngc neu y pyngciau o debygolrwydd a ddadgenir trwy y syniad.

Y gwirionedd uchod, medd Hamilton, yw yr agoriad i holl ddirgelwch cyffredinoliad *(generalisation)* ac ymadroddion cyffredinol. Dyma darddiad yr holl ddadleuon rhwng y Syniadyddion a'r Enwedyddion (heb sôn am y Sylweddwyr). Cyfodasant o waith dynion yn edrych ar syniadau fel yn ffurfio gwrthddrych o feddwl —annibynol, ac ar wahân. Y mae yn hawdd rhoddi cyfrif am y camgymmeriad yma. Pan yr ydys yn cymmharu gwrthddrychau â'u gilydd, gwelir eu bod yn meddu priodoliaethau pennodol, y rhai, fel y maent yn cynnyrchu y cyfryw ddullweddiadau ynom ni ag nas gallwn wahaniaethu rhyngddynt, ydynt i ni yn hollol yr un fath a'u gilydd. O blegid hyny, edrychir arnynt fel yr un peth. Fel hyn y mae y berthynas o gyffelybrwydd yn cael ei throi i un o hunaniaeth; ac y mae y lliosawgrwydd a berthyn yn wirioneddol i ansoddau cyffelyb mewn natur, yn cael ei droi trwy ddychymyg i undod yn y meddwl; a chaiff yr undod hwn enw, yn yr hwn y mae ei natur berthynasol, trwy beidio cael ei fynegu, yn cael ei symmud yn mhellach fyth oddi wrth y sylw.

Ond y funyd y ceisiwn osod rhai o'r syniadau cyffredinol hyn o flaen ein meddyliau fel gwrthddrychau hanfodol wrthynt eu hunain, ac heb fod mewn perthynas âg unrhyw sylweddau cyfunsawdd neu unigol, daw eu natur berthynasol i'r golwg ar unwaith. Gwelir hyn pan ystyriom nas gallwn mewn un modd osod allan yr un o'r ansoddau a fynegir gan syniad, ond fel yn gyssylltiedig â rhyw wrthddrych unigol a phendant. Yn hyn, mewn gwirionedd, y mae y cwbl o'u cyffredinolrwydd yn gynnwysedig:—yn y ffaith, er fod yn rhaid i ni eu sylweddoli mewn meddwl o dan ryw un o'r dosbarth, y gallwn wneyd hyny o dan unrhyw un. Er enghraifft: cynnwysir swp o briodoliaethau yn y syniad *dyn;* ond nis gallwn feddwl am y cyfanswm hwn fel gwrthddrych hanfodol, arno ei hunan, ac ar wahân oddi wrth bob peth sydd yn ei ddwyn i lawr o fod yn wybyddiad cyffredinol i fod yn ddrychfeddwl neillduol a phendant. Nis gallwn lunio yn ein dychymyg unrhyw wrthddrych cyfartal i'r syniad neu yr enw cyffredinol, *dyn;* o blegid buasai raid i'r dyn a ddychymygid yma beidio bod nac yn dàl nac yn fyr, yn dew nac yn deneu, yn ddu nac yn wyn, yn ddyn nac yn ddynes, yn ieuangc nac yn hen. Buasai raid iddo fod yr oll o'r rhai hyn, ac etto peidio a bod yr un o honynt, ar unwaith.

4. Fel hyn dangosir nodwedd berthynasol ein syniadau yn y gwrthddywediad a'r gwrthuni a berthyn i'r dybiaeth wrthwynebol. Gan eu bod wedi eu ffurfio trwy gymmhariaeth, rhaid nad ydynt yn amlygu dim ond perthynas. Nis gallant, gan hyny, gael eu dal i fyny i ymwybyddiaeth fel gwrthddrych hanfodol neu bendant—nis gallant gael eu hadgyflwyno mewn dychymyg fel syniadau cyffredinol noeth. Nis gellir meddwl am danynt ond mewn perthynas â rhyw *un* o'r gwrthddrychau unigol y maent yn eu ffurfio yn ddosbarth. Pan yr edrychir arnynt mewn cyssylltiad â gwrthddrych felly, gellir eu darlunio neu ffurfio meddylddrych am danynt mewn dychymyg; ond y funyd y meddylir am danynt fel yna—sef mewn cyssylltiad â gwrthddrych—nid ydynt mwyach yn cyfansoddi syniadau neu briodoliadau *(attributions)* cyffredinol; y maent yn syrthio yn ol i ddim ond darluniadau neillduol o'r gwrthddrych pennodol mewn cyssylltiad â'r hwn yr edrychir arnynt. Y mae yn canlyn oddi wrth hyn nad yw cyffredinolrwydd syniadau ond galluogol *(potential)*, ac nid gweithredol. Nid ydynt yn gyffredinol ond yn unig yn yr ystyr y gellir eu cymmhwyso at unrhyw un o'r amrywiol wrthddrychau a gynnwysant; ond tra nas gellir eu dwyn allan yn weithredol i ymwybyddiaeth, ond mewn cymmhwysiad at ryw un neu gilydd o'r rhai hyn, felly, nis gellir eu cymmhwyso fel yna drachefn heb iddynt golli, i'r un graddau, eu cyffredinolrwydd. Nis gellir ffurfio y syniad cyffredinol am *geffyl* ar wahân oddi wrth wrthddrych; ond wrth feddwl am dano drachefn mewn cymmhwysiad at wrthddrych, yna meddylddrych am ryw geffyl neillduol ydyw, o liw a maintioli pennodol, ac nid y syniad cyffredinol a gynnwysa geffylau o bob lliw a maint. Y mae hefyd yr un mor wir, ar y llaw arall, nas gallasem feddwl am unrhyw geffyl neillduol fel y cyfryw, neu ei adnabod am yr hyn ydyw, ond trwy ddwyn y gwrthddrych neillduol hwnw o dan y syniad cyffredinol am y math yma o anifail, neu o dan y swp o briodoliaethau ar y rhai yr ydym wedi rhoddi yr enw *ceffyl.* Gwelir oddi wrth hyn fod y syniad cyffredinol a'r gwrthddrych neillduol sydd yn dyfod o dano yn hanfodol i'w gilydd, mewn meddwl; nis gellir meddwl y blaenaf yn annibynol ar yr olaf, na'r olaf yn annibynol ar y blaenaf—ond rhaid meddwl y naill trwy y llall. A gwelir hefyd, fel y dywedasom o'r blaen, nad yw syniadau (*concepts*) yn meddu cyffredinolrwydd gweithredol, ond un galluogol yn unig. Y maent yn gyffredinol yn yr ystyr o fod yn gyfryw ag y gellir eu cymmhwyso at unrhyw wrthddrych neillduol o'r dosbarth a gynnrychiolant; ond gyda'n bod yn eu cymmhwyso felly at wrthddrych unigol, y maent yn troi o fod yn briodoliad cyffredinol i fod yn briodoliaethau neillduol y gwrthddrych hwnw.

5. Ond dylid cofio nad ydyw yn canlyn oddi wrth hyn mai geiriau yn unig yw syniadau, ac nad oes dim cyffredinol mewn meddwl ei hunan. Nid oes yr un athronydd, mewn gwirionedd, hyd yn oed yr Enwedyddion, yn dal hyn yna. Addefa pawb ein bod yn alluog i amgyffred perthynasau, ac yn neillduol y berthynas o debygolrwydd a gwahaniaeth: fel mai gwreiddyn yr holl ddadl rhwng yr Enwedyddion a'r Syniadyddion ydyw y defnyddiad ammwys o'r un ymadroddion i osod allan feddylddrychau y dychymyg a syniadau y deall. Prawf arwyddocaol o hyn ydyw nad yw y ddadl yna yn bod o gwbl yn y wlad fwyaf athronyddol yn Ewrop, sef yr Almaen; a hyny am fod yn yr iaith hono wahanol ymadroddion i osod allan y gwahanol ffurfiau o feddwl a nodwyd.

6. Y mae syniadau yr un pryd, er yn fwy na geiriau, yn ymddibynu ar iaith. Wedi i'r syniad gael ei ffurfio trwy wahanu yr ansoddau tebyg mewn gwrthddrychau oddi wrth y rhai annhebyg, syrthiai y syniad yn ol drachefn i'r gymmysgfa a'r "diderfyn" o ba un y galwesid

Digitized by Google

ef allan, pe na byddai iddo gael ei wneuthur yn arosol i ymwybyddiaeth trwy gael ei sefydlu a'i gadarnhau mewn arwydd geiriol. Mewn ystyr cyffredinol, y mae meddwl ac iaith yn gydymddibynol y naill ar y llall; perthyna i'r naill holl ammherffeithderau a pherffeithderau y llall; ond heb iaith nis gellid sylweddoli gwybodaeth o briodoleddau hanfodol pethau, ac o gyssylltiad eu cyflyrau damweiniol. Nid yw dyn yn dyfod i feddiant o ddefnyddiad ei alluoedd ond trwy ddyfod i feddiant o'r defnydd o iaith; o blegid iaith ydyw cyfrwng anhebgorol y dadblygiad o'i alluoedd naturiol, pa un bynag ai deallol ai ynte moesol.

Arwyddion meddwl ydyw geiriau; a chan fod yn rhaid i'r hyn a arwyddoceir flaenori yr arwydd, felly y mae meddwl yn blaenori iaith. Cynnyrch a chydberthynas meddwl ydyw iaith. Ond ar y llaw arall, rhaid addef nas gallasem byth gyfodi uwch law y graddau isaf oll yn ngraddfa meddwl heb gynnorthwy arwyddion. Y mae y gair, neu yr arwydd, yn angenrheidiol i roddi diysgogrwydd yn ein cynnydd meddyliol, i sefydlu pob cam yn ein mynediad fel pwynt cychwynol newydd i'n mynediad i un arall y tu hwnt. Gellir goresgyn gwlad gan lu arfog, ond ni ellir ei gorchfygu ond trwy sefydlu amddiffynfeydd. Geiriau ydynt amddiffynfeydd meddwl. Galluogant ni i sylweddoli ein llywodraeth dros yr hyn yr ydym eisoes wedi ei oresgyn mewn meddwl; i wneuthur pob buddugoliaeth ddeallol yn sylfaen gweithrediadau i rai ereill pellach yn mlaen.

7. Wedi bod yn edrych hyd yma ar syniadau mewn ystyr cyffredinol, symmudwn yn awr i edrych arnynt mewn ystyr neillduol; hyny yw, i edrych arnynt yn eu gwahanol berthynasau. Y perthynasau hyn ydynt dair: y berthynas y maent yn ei dal â'u gwrthddrychau, â'u deiliad, ac â'u gilydd. Mewn perthynas â'u gwrthddrychau, ystyrir hwynt fel yn cynnwys nifer mwy neu lai o briodoliaethau, neu yn gymmhwysadwy at nifer mwy neu lai o wrthddrychau. Yr enw celfyddydol ar y berthynas hon yw eu *swm* (*quantity*). Mewn perthynas â'u deiliad, hyny yw, â'r meddwl ei hun, edrychir arnynt fel yn sefyll mewn gradd uwch neu is o ymwybyddiaeth—y maent yn fwy neu yn llai clir, yn fwy neu yn llai pendant (*distinct*). Gelwir hyn etto eu hansawdd (*quality*). Mewn perthynas â'u gilydd, edrychir arnynt fel yn gyffelyb neu yn wahanol, yn gydraddol neu israddol y naill i'r llall: dyna eu perthynas (*relation*) a elwir yn fanwl felly.

(1.) *Swm* (*quantity*). Gan mai syniad ydyw meddwl, yn yr hwn y mae lliosawgrwydd ammhennodol o nodweddion wedi eu rhwymo i fyny i undod o ymwybyddiaeth, ac yn gymmhwysiadwy at liosawgrwydd ammhennodol o wrthddrychau, y mae syniad gan hyny o angenrheidrwydd yn swm, ac yn swm sydd yn amrywio mewn dwy ffordd: yn ol y nifer mwy neu lai o nodweddion sydd yn ei wneuthur ef ei hun i fyny, ac hefyd yn ol y nifer mwy neu lai o wrthddrychau am ba rai y gellir ei ddyweyd. Fel hyn y mae swm o ddau fath; sef, fel y mae yn meddu dwysder ac eangder. Yr hyn sydd yn penderfynu y swm tufewnol neu 'ddwys' ydyw y nifer mwy neu lai o nodweddion sydd yn ei gyfansoddi. Yr hyn sydd yn penderfynu swm allanol neu 'eang' syniad yw y nifer mwy neu lai o wrthddrychau sydd yn dyfod o dano. Gelwir y blaenaf, sef y swm o ddwysder, gan rai o'r rhesymegwyr Groegaidd diweddaraf yn *ddyfnder* (βάθος); a chan yr ysgrifenwyr Lladinaidd ar resymeg yn *gynnwys* (*comprehension*). Gelwir yr olaf, y swm o eangder, gan yr un rhesymegwyr Groegaidd diweddaraf yn *lled* (πλάτος); a chan y rhesymegwyr Lladinaidd yn *helaethrwydd* neu *gylch*, ac hefyd yn *diriogaeth* neu *swydd-gylch* y syniad.

Gwneir i fyny swm tufewnol syniad, sef ei ddwysder neu ei gynnwys, o'r gwahanol briodoliaethau hyny o ba rai y mae y syniad yn gyfanswm; hyny yw, yr amrywiol nodweddion a gyssylltir gan y syniad i un *oll* mewn meddwl. Gwneir i fyny swm allanol syniad, ar y llaw arall, neu ei eangder, gan y nifer o wrthddrychau a feddylir drwyddo, neu a ddygir o dano. Er enghraifft, y mae y priodoliaethau *rhesymol*, *teimladwy*, *moesol*, &c., yn myned i wneyd i fyny ddwysder, neu swm tufewnol y syniad o ddyn; tra y mae y priodoliaethau *Ewropiad*, *Americaniad*, *athronydd*, *saer*, &c., yn myned i wneyd i fyny y syniad am y dyn neillduol hwn neu acw. Nid yw y ddau swm yn newidiadwy. I'r gwrthwyneb, y maent mewn cyfartaledd gwrthgyferbyniol i'w gilydd. Po fwyaf ydyw dyfnder neu gynnwys syniad, lleiaf ydyw ei led neu ei eangder; a'r un modd yn y gwrthwyneb (*vice versa*). Dyma hefyd wahaniaethiad bychan rhagorol i egluro hyn, yr hwn a arferir gan y rhesymegwyr goreu:—dywedir am y ddau swm eu bod yn cynnwys; ond dywedir am y swm o eangder ei fod yn cynnwys *dano;* a'r swm o ddyfnder ei fod yn cynnwys *ynddo.*

Trwy ddyfnder syniad, yr ydym yn meddwl fwyaf o ansoddau am leiaf o wrthddrychau; tra yr ydym trwy eangder syniad yn meddwl leiaf o ansoddau am fwyaf o wrthddrychau. Mewn geiriau ereill, trwy y blaenaf, yr ydym yn dyweyd y mwyaf am y lleiaf; a thrwy yr olaf, y lleiaf am y mwyaf.

Pan yr ydym yn rhoddi eglurhâd ar *gynnwys* (neu ddyfnder) syniad, gelwir hyny ei *ddarnodiad* (nis gellir gan hyny ddarnodi syniad syml); pan roddwn eglurhâd ar *eangder* syniad, gelwir hyny ei *raniad* (nis gellir rhanu syniad unigol).

Y mae *dyfnder* syniad yn golygu—pa briodoliaethau sydd yn ei wneyd i fyny. Er esampl: y mae y syniad *dyn* yn gyfansoddedig o ddwy ran neu briodoledd, neu o ddau syniad rhanol—*rhesymol* ac *anifail*. Y mae pob un o'r syniadau rhanol hyn etto yn gyfanswm yn cael ei wneyd i fyny o ranau llai, fel y mae *anifail* yn gyfansoddedig o *bywydol*, *teimladwy*, *cyfluniol*, &c., a phob un o'r rhai hyny o ranau llai drachefn, nes yr awn i lawr at briodoliaethau mor syml nes bod yn gyntefig neu elfenol, ac nas gellir o blegid hyny eu rhanu i ddim manach. Fel hyn, ni a welwn, yn unol â'r wireb "fod rhan o ran yn rhan o'r cyfan," y mae y syniad *dyn*, megys y mae yn uniongyrchol yn cynnwys y syniadau *rhesymol* ac *anifail*, felly yn gyfryngol yn cynnwys y rhanau sydd yn gwneyd i fyny y syniadau yna, a'r rhanau sydd yn gwneyd i fyny y rhanau hyny drachefn, i ddiwedd y gyfres. Dywedir fod yr holl briodoliaethau neu y syniadau rhanol hyn yn cael eu cynnwys *yn* y syniad cyntaf—megys *dyn.*

Wrth *eangder* syniad etto yr ydym yn golygu yr holl ranau sydd yn cael eu cynnwys *dano*, yn dal perthynas âg ef fel y neillduol i'r cyffredinol, ac felly yn cael eu darostwng neu eu rhestru o dano. Fel hyn, y mae y syniadau, *dyn*, *ceffyl*, *ci*, &c., yn cael eu cynnwys o dan y syniad mwy

Digitized by Google

cyffredinol, *anifail:* y syniadau *triongl, ysgwâr, cylch,* &c., a gynnwysir o dan y syniad mwy cyffredinol *ffugr;* o blegid gellir meddwl am bob un o'r rhai is-raddol trwy yr uwch neu y mwy cyffredinol. Y mae pob un o'r syniadau israddol hyn drachefn ei hunan yn syniad cyfan a chyffredinol (ond llai), yr hwn sydd yn cynnwys o dano yntau ranau neu syniadau manach fyth. Ac oddi ar yr un wireb, "fod rhan o ran yn rhan o'r cyfan," y mae yn canlyn fod pa beth bynag a gynnwysir o dan y syniad mwy rhanol a neillduol yn cael ei gynnwys hefyd o dan y syniad cyfan neu fwy cyffredinol. Fel hyn, y mae *triongl* yn cael ei gynnwys o dan *ffugr;* felly y mae yr oll a gynnwysir o dan driongl, megys y gwahanol fathau neu ffurfiau o honynt, yn cael eu cynnwys hefyd o dan *ffugr.*

Dyma yr hyn sydd i'w ddeall wrth y ddau fath o *swm* syniadau—eu dyfnder, a'u ehangder.

5. Ond y mae y symiau hyn nid yn unig yn wahanol, ond yn wrthgyferbyniol: er fod y naill yn tybied y llall fel ammod ei fodolaeth ei hunan, etto y maent yn sefyll mewn cyfartaledd gwrthwynebol *(inverse ratio)* i'w gilydd—mwyaf y naill sydd o angenrheidrwydd yn lleiaf y llall. Gellir gosod allan y ddeddf sydd yn penderfynu hyn fel y canlyn:—Y mae syniad yn fawr o ran dyfnder yn ol po fwyaf y nifer, ac yn fychan o ran dyfnder yn ol po leiaf y nifer, o nodau neu briodoliaethau a gynnwysir *ynddo.* Pan y mae dyfnder syniad yn ei fan lleiaf, hyny yw, pan y mae yn gyfryw nas gellir mwyach wahaniaethu lliosawgrwydd o briodoliaethau, gelwir ef yn *syml;* ond tra y gellir gwahaniaethu ei briodoliaethau, gelwir ef yn *gyfansawdd.*

Drachefn: y mae syniad yn fawr o ran eangder yn ol po fwyaf y nifer, ac yn fychan o ran eangder yn ol po leiaf y nifer, o nodau neu briodoliaethau a gynnwysir *dano.* Pan y mae eangder syniad yn ei fan lleiaf; hyny yw, pan nad yw yn cynnwys unrhyw syniadau ereill o dano, gelwir ef yn *unigol.* Saif y ddau swm yma bob amser mewn cyfartaledd gwrthwynebol i'w gilydd: Po fwyaf dyfnder syniad, lleiaf yw ei eangder; a pho fwyaf ei eangder, lleiaf yw ei ddyfnder. Er esiampl: pan y cymmerwyf allan o syniad, hyny yw, tynu oddi wrtho un neu fwy o'i briodoliaethau, yr wyf yn lleihau ei ddyfnder. Meddyliwn am y syniad *dyn:* y mae y syniad yna yn cynnwys y ddwy briodoledd neu nôd o *anifail* a *rhesymol;* hyny yw, y mae y syniad *dyn* yn gyfartal i *anifail rhesymol.* Yn awr, tybier fy mod yn tynu allan o hono y briodoledd *rhesymol,* yr wyf yn lleihau ei swm o ran dyfnder. Ond wrth leihau ei ddyfnder fel hyn, yr wyf yn mwyhau ei led—yn rhoddi iddo eangder mwy helaeth; o blegid yr hyn sydd yn aros yw y syniad o *anifail,* ac y mae y syniad *anifail* yn cynnwys o dano fwy o lawer o wrthddrychau na'r syniad *dyn.*

6. Y mae dau lwybr neu weithrediad rhesymegyddol trwy ba rai yr helaethir y symiau gwrthgyferbyniol hyn o syniadau: gelwir yr un a helaetha y dyfnder yn *benderfyniad;* a'r un a helaetha yr eangder yn *ddansoddiad* neu *gyffredinoliad.* Mewn *darnodiad,* yr ydym yn dwyn dyfnder syniad i lawr i'w ranau; ac mewn *dosbarthiad* yr ydym yn dwyn eangder syniad i lawr i'w ranau. Nis gellir darnodi syniad syml, ac nis gellir dosbarthu syniad unigol.

Po fwyaf a roddir yn nyfnder neu gynnwys syniad, lleiaf yn y byd y gwneir ei eangder—po fwyaf o briodoliaethau a gynnwysa *ynddo,* lleiaf o wrthddrychau a gynnwysa *dano;* nes dyfod o'r diwedd at y syniad mwyaf ei ddyfnder a lleiaf ei eangder, sef *bod unigol.* Ar y llaw arall, po leiaf a roddir yn nyfnder neu gynnwys syniad, mwyaf yn y byd y gwneir ei eangder:—po leiaf o briodoliaethau a gynnwysa *ynddo,* mwyaf o wrthddrychau a gynnwysa *dano;* nes dyfod o'r diwedd at y syniad lleiaf ei ddyfnder a mwyaf ei eangder, sef *bodolaeth* neu *hanfodiad.* Fel hyn, gwelir mwyaf *(maximum)* y swm o ddyfnder a lleiaf *(minimum)* y swm o eangder yn y syniad am *berson* neu *wrthddrych unigol;* tra y gwelir mwyaf y swm o eangder a lleiaf y swm o ddyfnder yn y syniad am *fodolaeth.*

7. Y mae dyfnder ac eangder bob un yn swm cyfan; a chan nad yw swm cyfan ond yr oll o'i ranau, a chan nas gallwn amgyffred dim fel yn gyfan ond i'r graddau yr ydys yn amgyffred ei ranau, y mae yn canlyn—1. Y gellir dadansoddi dyfnder ac eangder bob un i'w ranau; ac yn 2. Mai y dadansoddiad hwn a rydd i ni y cyfrwng trwy ba un y gellir deall pob un o'r ddau swm yn glir a phendant. Ond gan fod y ddau swm o natur gyferbyniol, y mae yn amlwg y bydd y ddau lwybr o ddadansoddiad hefyd yn gyferbyniol. Y mae dadansoddiad y swm tufewnol, neu *ddyfnder* syniadau, yn cael ei gyflawni trwy ddarnodiad; a'r eiddo swm eu heangder, neu eu *lled,* trwy ddosbarthiad. Felly, gan mai darnodiad yw dadansoddiad syniad cyfansawdd i'w ranau cyfansoddol neu ei briodoliaethau, os bydd syniad yn syml, hyny yw, heb gynnwys ond un briodoledd, rhaid ei fod yn annarnodiadwy; ac hefyd, gan mai dosbarthiad yw dadansoddiad syniad uwch neu fwy cyffredinol i ereill is a llai cyffredinol, os bydd syniad yn un unigol, hyny yw, yn ddim ond swp o ansoddau unigol, y mae yn annosbarthadwy, neu yn anrhanadwy. Nid yw mewn gwirionedd yn syniad priodol neu arddansoddol o gwbl; ond yn unig yn ddrychfeddwl pendant neu gyfunsawdd *(concrete)* o eiddo y dychymyg.

Symmudwn yn awr i ystyried—

2. *Ansawdd* syniadau. Dywedasom o'r blaen mai *swm* syniadau yw eu perthynas â'u gwrthddrychau; felly, *ansawdd* syniadau yw eu perthynas â'u deiliad, sef â'r meddwl ei hunan: hyny yw, yr ystyriaeth o honynt fel y maent yn sefyll mewn gradd uwch neu is o ymwybyddiaeth, neu fel y maent yn fwy neu yn llai clir, ac yn fwy neu yn llai pendant neu wahaniaethol *(distinct).*

(1.) Syniad yw lliosawgrwydd o briodoliaethau wedi eu huno mewn ymwybyddiaeth; a thybia, gan hyny, y gallu o feddwl y rhai hyn ar wahân, ac hefyd gyda'u gilydd. Ond gan fod amrywiol raddau yn yr ymwybyddiaeth â pha un y gall nodweddion syniad gael eu meddwl ar wahân ac ynghyd, bydd o ganlyniad amrywiol raddau yn mherffeithrwydd neu ammherffeithrwydd syniad. Y perffeithrwydd neu yr ammherffeithrwydd hwn sydd yn cyfansoddi ansawdd syniad mewn ystyr resymegyddol.

(2.) Y mae dwy radd yn perthynu i berffeithrwydd rhesymegyddol syniadau; sef, eu clirder a'u heglurder *(distinctness).* [Wrth "eglurder" yma y golygir—gweled yn bendant, yn fanwl, yn wahaniaethol.] Y mae o ganlyniad ddwy radd gyferbyniol o ammherffeithrwydd yn cyfatteb iddynt; sef, *tywyllwch* ac *aneglurder.* Dywedir fod syniad yn *glir* pan y mae y gradd o ymwybyddiaeth yn gyfryw ag sydd yn ein galluogi i'w wahaniaethu *yn y cyfanswm* oddi wrth ereill; a dywedir ei fod yn dywyll pan y mae y

Digitized by Google

gradd o ymwybyddiaeth yn annigonol i hyny. Dywedir fod syniad yn eglur *(distinct)* drachefn, pan y mae y gradd o ymwybyddiaeth yn gyfryw ag a'n galluoga i wahaniaethu oddi wrth eu gilydd yr amrywiol *nodweddion*, neu y *rhanau* cyfansoddol o ba rai y mae y syniad yn gyfanswm; a dywedir ei fod yn aneglur (*indistinct*) pan y mae y gradd o ymwybyddiaeth angenrheidiol i hyny ar ol.

I Leibnitz yr ydys yn ddyledus am y gwahaniaethiad uchod. Defnyddia Krug y gymmhariaeth ganlynol i'w osod allan:—Yn nhywyllwch hollol y nos, nid ydym yn gweled dim—nid oes dim canfyddiad, dim gwahaniaethu gwrthddrychau oddi wrth eu gilydd: ond ar ol toriad y wawr, pan y mae y goleuni wedi dyfod yn ddigon i'n galluogi i ganfod gwrthddrychau cyfain, a'u gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd, megys mynyddoedd, dyffrynoedd, tai, coed, anifeiliaid, &c.—yna dywedir ein bod yn gweled yn glir. Ond y mae y gwahanol ranau sydd yn gwneyd pob un o'r gwrthddrychau hyn i fyny etto yn ymgolli yn eu gilydd, ac heb fod yn weledig ond mewn modd aneglur. Ond pan y mae goleuni dydd wedi llawn gyfodi, gallwn wahaniaethu y rhanau, ac felly weled yn eglur.

(3.) Megys y mae syniad yn lliosawgrwydd o nodweddion wedi eu rhwymo i fyny i undod, ac megys y mae y lliosawgrwydd hwnw yn gynnwysedig mewn rhan yn ei swm o ddyfnder, ac mewn rhan o dan ei swm o eangder, y mae ei eglurder, yr un modd, mewn perthynas â'r ddau swm, mewn rhan yn eglurder tufewnol, neu yn un o ddyfnder, ac mewn rhan yn eglurder allanol neu yn un o eangder. Yr ydym yn cael gafael ar eglurder tufewnol syniad trwy ddarnodiad neu eglurhâd, sef trwy nodi allan yr amrywiol nodweddion neu syniadau rhanol sydd yn ei wneyd i fyny; yr ydym yn cael eglurder allanol syniad, o'r tu arall, trwy ddosbarthiad, sef trwy nodi y gwrthddrychau a gynnwysir o dano. Er enghraifft: gwneir y syniad *dyn* yn fwy eglur o ran dyfnder, pan y dywedwn fod dyn yn *anifail rhesymol;* gwneir ef yn fwy eglur o ran eangder, pan y dywedwn fod dyn, mewn rhan o'r rhyw *wrywaidd*, ac mewn rhan o'r rhyw *fenywaidd*. Yn y blaenaf, yr ydym yn chwalu y syniad i'w amrywiol nodweddion; yn yr olaf, yr ydym yn ei chwalu i'w amrywiol syniadau is-raddol, neu y gwahanol fathau o wrthddrychau sydd yn dyfod o dano. Y mae yn canlyn, mewn syniadau *syml*, fod eglurder o eangder yn bossibl, ond nid o ddyfnder; tra mewn syniadau *unigol*, fod eglurder o ddyfnder yn bossibl, ond nid o eangder.

(4.) Gellir sylwi fod syniadau yn agored i ammherffeithrwydd o dywyllwch ac aneglurder, oddi ar fod syniad yn cael ei wneyd i fyny o liosawgrwydd o briodoliaethau, a bod y lliosawgrwydd yma yn cael ei ddal wrth ei gilydd yn y meddwl yn unig, fel y mae y syniad yn cael ei sefydlu a'i gadarnhau mewn arwydd neu air: o blegid hyn, y mae yn digwydd yn fynych nad yw y gair, pan y defnyddir ef, yr holl swm o feddwl a gynnrychiolir ganddo; ond yn lle hyny, ein bod yn fynych yn rhoddi ac yn cymmeryd yr arwydd, heb ddim ond ymwybyddiaeth tywyll neu aneglur o'i ystyr, neu hyd yn oed heb ymwybyddiaeth gweithredol o'i ystyr o gwbl.

3. Wele ni wedi dyfod yn awr at yr hyn a elwir yn briodol yn *berthynas* syniadau. Wrth hyn y golygir eu perthynas *â'u gilydd*—fel y golygai eu *swm* eu perthynas â'u gwrthddrychau, a'u *hansawdd* eu perthynas â'r meddwl.

Y mae *perthynas* syniadau (yn yr ystyr priodol) yn gynnwysedig yn y priodoliaethau hyny a berthyn iddynt, nid ag edrych arnynt ar wahân ac ynddynt eu hunain, ond o'u cymmharu o bob tu y naill â'r llall. Gellir cymmharu syniadau â'u gilydd gyda golwg ar (1.) Eu ehangder; neu (2.) Eu dyfnder. Dibyna eu holl berthynasau, gan hyny, ar y naill neu y llall o'r ddau swm yma.

(1.) Fel yn ddibynol ar *eangder*, saif syniadau yn y pum perthynas canlynol â'u gilydd:—[1.] O gauad allan (*exclusion*). [2.] O gyflediad (*co-extension*). [3.] O is-raddiad (*subordination*). [4.] O gydraddiad (*co-ordination*). [5.] O groesymdoriad (*intersection*).

1af, Y mae un syniad yn cau un arall allan, pan nad oes yr un ran o'r naill yn cyd-daraw â'r un ran o'r llall. Esampl: y ddau syniad o *geffyl*, a *chyfresymiad:* y mae y rhai hyn yn hollol ammherthynasol, neu y tu allan i'w gilydd.

2il, Y mae un syniad yn gyfled âg un arall, pan y mae gan bob un yr un nifer o syniadau israddol o dano. Esampl: y ddau syniad o *fodau bywiol*, a bodau cyfluniol (*organized*). A defnyddio y gair *bywyd* mewn cymmhwysiad at lysiau yn gystal ag anifeiliaid, nid oes dim byw nad ydyw yn gyfluniol, na dim yn gyfluniol nad yw yn fyw. Gellir gosod allan y berthynas hon mewn ffugr trwy ddau gylch, yn hollol yr un faint a'u gilydd y naill ar y llall, neu trwy ddwy linell o'r un hyd mewn perthynas bendant â'u gilydd.

3ydd, Y mae un syniad yn is-raddol i un arall pan y mae y blaenaf yn cael ei gynnwys yn, neu yn gwneuthur rhan o gylch neu arlediad y llall. Esampl: y syniad o *anifail*, a'r syniadau *dyn*, *ci*, *ceffyl*, yn syniadau is-raddol iddo, ac yn gynnwysedig ynddo.

4ydd, Y mae dau neu fwy o syniadau yn gydraddol pan y mae y naill yn cau y llall allan o'i gylch ei hun, ond pan y mae y ddau yn uniongyrchol yn myned i wneyd i fyny arlediad neu eangder trydydd syniad, i ba un y maent yn gyd-israddol. Gwasanaetha yr un esampl ag o dan y 3ydd:—y mae *dyn, ci, ceffyl*, yn gydraddol â'u gilydd, ond yn gyd-israddol i'r syniad *anifail*, ac yn cael eu cynnwys ynddo.

5ed, Y mae syniadau yn croes-dori eu gilydd, pan y mae cylch y naill yn cael ei gynnwys mewn rhan o fewn cylch y llall—pan y mae eu cylchoedd yn croesi neu yn tori eu gilydd; hyny yw, yn syrthio mewn rhan y tu fewn, ac mewn rhan y tu allan, y naill i'r llall. Fel hyn y mae y ddau syniad *du* a *thrwm* yn croes-dori y naill y llall: o blegid o'r pethau sydd yn dyfod o dan y naill a'r llall, y mae rhai pethau du yn drwm, a rhai heb fod; a rhai pethau trwm yn ddu, a rhai heb fod.

Y ddwy fwyaf pwysig o'r perthynasau hyn yw is-raddiad a chyd-raddiad, gan mai arnynt hwy y gorphwys yr holl gyfundraeth o ddosbarthiad. Dylid gan hyny wneuthur ychydig o sylw pellach ar y ddwy yma.

(1). O'r syniadau a safant tuag at eu gilydd yn y berthynas o is-raddiad, y mae un yn *uchaf* a'r llall yn *isaf*. Gelwir yr uchaf hefyd y syniad *lletaf*, a gelwir yr isaf y *culaf*. Gelwir y syniad uchaf hefyd, yn gyferbyniol i'r isaf, yn syniad *cyffredinol;* a'r isaf yn syniad *neilltuol*. Gelwir y blaenaf yn gyffredinol am ei fod yn cynnwys priodoledd neu nodwedd gyffredin i nifer o syniadau is-raddol; yn lle *general notion*, defnyddir yn Saesneg yr un gair *genus*. Felly

Digitized by Google

gelwir yr olaf yn syniad neillduol, am ei fod ei hunan yn syniad is-raddol, yn cael ei gynnwys dan un uwch, ac yn cynnwys priodoliad cyffredin i nifer o syniadau israddol neu wrthddrychau unigol; yn lle *special notion*, defnyddir yn Saesneg yr un gair, *species*. Gelwir y dansoddiad sydd yn cario i fyny y syniadau is i rai uwch—y mathau (*species*) i rywiau (*genera*) yn *gyffredinoliad* (*generalization*). Gelwir y terfynoliad (*determination*) sydd yn rhanu y rhyw (*genus*) i'w fathau (*species*) yn *neillduoliad* (*specification*). Gelwir rhywiau a mathau yn *ddosbarthiadau;* a chan hyny gelwir trefniad pethau o danynt yn *ddosbarthiad* (*classification*).

(2). Y mae rhyw *(genus)* o ddwy radd—uchaf ac isaf. Yn ei gradd uchaf, gelwir hi y *rhyw goruchaf neu fwyaf cyffredinol*. Yn ei gradd isaf, gelwir hi yn *israddol* neu *gyfryngol*. Y mae math *(species)* hefyd o ddwy radd—uchaf ac isaf. Gelwir ef yn ei radd isaf yn *fath isaf a mwyaf neillduol;* ac yn ei radd uchaf yn *fath is-raddol neu gyfryngol*. Cymmerwyd y darnodiadau hyn o "*Arweiniad*" Porphyry i ddeg Rhithegres *("Categories")* Aristotle, sef y dosbarthiadau i ba rai y mae efe yn rhanu hanfodiad, y rhai ydynt fel y canlyn:—1. Sylwedd. 2. Maint. 3. Cynneddf. 4. Perthynas. 5. Gweithrediad. 6. Goddefiad. 7. Amser. 8. Lle. 9. Sefyllfa. 10. Agwedd.

(3.) *Rhyw* fel yn cynnwys o dano *fath*, neu *fath* fel yn cynnwys o dano wrthddrychau unigol, a elwir yn *gyfansawm rhesymegyddol*, neu *gyffredinol*, neu *alluogol;* tra y gelwir *math* fel yn gynnwysedig o dan *ryw*, a gwrthddrychau unigol fel yn gynnwysedig o dan *fath*, yn *rhanau rhesymegyddol*, neu *gyffredinol*, neu *alluogol*. O'r ochr arall: gwrthddrych unigol fel yn cynnwys ynddo *fath*, neu *fath* fel yn cynnwys ynddo *rywiau*, a elwir yn *gyfansawm arddansoddol*, *ffurfiol*, neu *weithredol;* tra y mae *math* fel yn gynnwysedig yn y gwrthddrych unigol, a rhywiau fel yn gynnwysedig mewn mathau, yn cael eu galw yn *rhanau arddansoddol*, *ffurfiol*, neu *weithredol*.

(4.) Y nodwedd, neu swm y nodweddion, trwy ba rai y gwahaniaethir *rhyw* neu *fath* is oddi wrth y rhyw i ba un y mae yn israddol, ac hefyd oddi wrth y rhywiau neu y mathau ereill â pha rai y mae yn gydraddol, a elwir y *gwahaniaeth rhywogaethol*, neu yr un *neillduol*. Etto, y swm o nodweddion drwy y rhai y mae peth neu wrthddrych unigol yn cael ei wahaniaethu oddi wrth y *math* dan ba un y saif, ac oddi wrth wrthddrychau unigol ereill ynghyd â pha rai y saif, a elwir y *gwahaniaeth arbenig*, neu *rifyddol*. Er enghraifft: rhwng *anifail* a *chareg* y mae gwahaniaeth rhyw (*genus*): rhwng *ceffyl* ac *ych* y mae gwahaniaeth math (*species*): a rhwng *Highflyer* ac *Eclipse* (enwau ar geffylau neillduol) y mae gwahaniaeth unigol a neillduol. Gelwir y tri gwahaniaeth yn Saesneg yn *generic difference*, *specific difference*, ac *individual or numerical difference*.

(5.) *Syniadau*, mor bell ag yr ystyrir hwynt yn fathau cydraddol o'r un rhyw, a elwir yn *gyd-fathau* (*conspecies*); ac i'r graddau y mae y rhai hyn yn wahanol, ond nid yn wrthwynebol, gelwir hwynt yn briodol yn *syniadau didoledig* neu *ddadgyssylltiedig* (*discrete or disjunct notions*).

(6.) Llywodraethir yr holl ddosbarthiad o bethau i rywiau a mathau gan ddwy ddeddf. Gelwir un yn ddeddf *cydnawsoldeb* neu *gydrywiaeth* (*homogeneity*). Ystyr y ddeddf hon yw hyn:—Pa mor wahanol bynag y gall dau syniad fod, eu bod etto yn sefyll yn israddol o dan ryw syniad uwch; mewn geiriau ereill, rhaid i'r pethau mwyaf annhebyg fod mewn rhyw ystyriaethau yn debyg. Y llall a elwir yn ddeddf *anghydnawsedd* neu *allrywiaeth* (*heterogeneity*). Ystyr y ddeddf hon yw—Fod pob syniad yn cynnwys syniadau ereill o dano; ac felly pan renir ef yn agosaf neu ddigyfrwng, yr ydym yn disgyn bob amser at syniadau ereill, ond byth at wrthddrychau unigol; mewn geiriau ereill, rhaid i'r pethau tebycaf—mwyaf cydnaws—fod, mewn rhyw ystyriaethau, yn annghydnaws—yn annhebyg.

2. Perthynas syniadau â'u gilydd o ran *dyfnder*. Pan y cymmherir dau neu fwy o syniadau â'u gilydd yn ol eu dyfnder (*comprehension*), y maent naill ai yn cyttuno neu nid ydynt. Rhenir syniadau fel hyn i rai *unrhywiol* a *gwahanol*. Rhenir hwynt etto, yn ol fel y gellir eu cyssylltu mewn meddwl, yn *gydweddol* (*congruent*), neu *wrthdarawiadol*. Rhenir hwynt hefyd gyda golwg ar briodoliaethau hanfodol neu ddamweiniol i dufewnol ac allanol. Rhenir hwynt hefyd dan y berthynas o *ddamblygiad* (*involution*), a *chydraddiad* (*co-ordination*). Y mae syniadau a gydraddir yn yr oll o ddyfnder, gyda golwg ar y nodweddion gwahaniaethol, yn wahanol heb ddim tebygolrwydd: felly yn hollol neu berffaith wahanol: gelwir hwynt yn syniadau anghyffelyb (*disparate notions*). Ar y llaw arall, syniadau a gydraddir yn y swm neu yr oll o eangder, ydynt gyda golwg ar y gwrthddrychau a wahaniaethir ganddynt yn wahanol (neu amrywiol); ond fel y dangoswyd o'r blaen, y mae ganddynt bob amser briodoledd neu briodoliaethau cyffredin yn y rhai y maent yn debyg. Fel hyn nid ydynt ond yn berthynasol wahanol (neu yn amrywiol); ac yn iaith rhesymeg gelwir hwynt yn briodol syniadau dadgyssylltiedig neu wahanredol (*disjunct or discrete notions*).

ADRAN II. AM YMADRODDION.

Ymadroddion yw syniadau wedi eu corphori mewn iaith. Dangoswyd yn flaenorol mai hanfod y weithred o feddwl yw cymmharu; a thrwy gymmharu gwrthddrychau â'u gilydd eu dosbarthu, yn ol eu tebygrwydd neu eu hannhebygrwydd i'w gilydd. Dangoswyd hefyd fod yn ammhossibl cario ein gweithrediadau meddyliol yn mlaen heb gynnorthwy geiriau; fod y gair yn arwydd yn sefyll am y meddwl, yn foddion i'w sefydlu a'i gadarnhau i berchen y meddwl ei hunan, yn gystal ag yn gyfrwng o gymmundeb a chylchrediad rhwng meddyliau â'u gilydd. O blegid hyn, y mae yn briodol ymdrin âg *ymadroddion* neu *eiriau* mewn adran fel hyn ar wahân. Ar yr un pryd, ni oddef ein terfynau i ni ond nodi yn y modd byraf rai o'r pethau mwyaf pwysig ar y pen hwn.

1. Gelwir y geiriau sydd yn nodi allan y pethau neu y dosbarthiadau o bethau yr ydys yn eu cymmharu mewn meddwl yn *ymadroddion*, a'r geiriau a ddynodant y gymmhariaeth a elwir yn *gyssylltair* (*copula*). Felly cyfansoddir haeriad neu fynegiad cyflawn o ddau ymadrodd a chyssylltair, a phan ei gosodir allan fel hyn ffurfia *osodiad*. Fel hyn, yn y gosodiad 'Geiriaduron ydynt lyfrau defnyddiol,' y ddau ymadrodd ydynt *geiriaduron* a *llyfrau defnyddiol;* y cyssylltair yw y ferf *ydynt*, a gesyd allan gyduniad pennodol rhwng y dosbarth a elwir geiriaduron a'r dosbarth a ystyrir yn llyfrau defnyddiol—y cyfryw gyduniad yn gynnwysedig yn y ffaith fod y dosbarth 'geiriaduron' yn ffurfio rhan o'r

Digitized by Google

dosbarth 'llyfrau defnyddiol.' Yn yr achos hwn gwneir pob un o'r ddau ymadrodd i fyny o ddim ond un neu ddau o eiriau; ond gall unrhyw nifer o eiriau fod yn angenrheidiol i ddisgrifio y syniadau neu y dosbarthiadau a gymmherir â'u gilydd.

2. Rhoddwn i lawr yma y prif ddosbarthiadau y gellir eu gwneyd o ymadroddion:—

(1.) Geiriau a safant neu a ymddangosant yn sefyll arnynt eu hunain fel ymadroddion cyflawn, sef yr enw a'r ansoddair, a rhanau neillduol o'r ferf, a elwir yn eiriau *ansoddegol* neu adroddebol (*categorematic*). Y rhanau ymadrodd hyny drachefn, megys arddodiadau, rhagferfau, a chyssyllteiriau, &c., y rhai nas gallant ond yn unig ffurfio rhanau o enwau neu ymadroddion, a elwir yn eiriau *cydansoddegol* (*syncategorematic*), am y rhaid eu defnyddio *gyda* geiriau ereill mewn trefn i ffurfio ymadroddion.

(2.) Gwahaniaethir ymadroddion i *unigol* a *chyffredinol*. Ymadrodd unigol yw un nas gall ddynodi ond *un* gwrthddrych, o leiaf cyhyd ag yr arferir ef yn hollol yn yr un ystyr; er esampl, ymherawdwr Rwssia, Môr y Werydd, Eglwys St. Paul, a William Shakespeare, ydynt ymadroddion unigol. Perthyna yr oll o enwau priodol i'r dosbarth hwn; o blegid er fod 'John Jones' yn enw ar liaws o ddynion, etto ni ddefnyddir ef yn yr ystyr o *unrhyw* un o'r dynion hyny, ond am ryw un neillduol—mewn gair, y mae iddo ystyr gwahanol bob tro y defnyddir ef; fel nad oes gan Fangor, enw dinas yn sir Gaernarfon, un berthynas o gwbl o ran ystyr a Bangor yn Unol Daleithiau yr America.

Y mae *ymadroddion cyffredinol*, ar y llaw arall, yn gyfryw ag y gellir eu cymmhwyso yn yr un ystyr at *unrhyw* un o lawer o wrthddrychau sydd yn debyg i'w gilydd mewn ansoddau pennodol. Fel hyn y mae *mettel* yn ymadrodd neu enw cyffredinol, am y gellir ei gymmhwyso yn ddiwahaniaeth at aur, neu arian, neu gopr, neu alcan, neu at ryw un o tua hanner cant o sylweddau adnabyddus. Nid ydyw yn enw ar un o'r rhai hyn yn fwy na'r lleill; cymmhwysir ef mewn gwirionedd at unrhyw sylwedd a fedd loewder mettelaidd, ac nas gellir ei ddadgyfansoddi, a'r hwn sydd yn meddu ansoddau neillduol ereill a adnabyddir yn hawdd gan fferyllwyr. Ac nid yw nifer y sylweddau yn y dosbarth hwn wedi ei gyfyngu; o blegid fel y mae mathau newyddion o fetteloedd yn cael eu darganfod o bryd i bryd, chwanegir hwynt at y dosbarth. Etto: tra y mae Mawrth, Iau, Sadwrn, &c., yn ymadroddion unigol, gan nas gall pob un ond dynodi un blaned, y mae yr ymadrodd *planed* yn un cyffredinol, gan ei fod yn gymmhwysadwy at gynnifer o gyrph ag y gellir eu darganfod i fod yn cylchdroi o gwmpas yr haul fel y gwna y ddaear.

Dylid bod yn ofalus rhag cymmysgu ymadroddion cyffredinol â rhai cynnulliadol. Wrth *ymadrodd cynnulliadol* yr ydys yn golygu enw nifer o bethau pan wedi eu cyssylltu oll â'u gilydd fel un cyfanswm; megys milwyr byddin, dynion rhaith (*jury*), dwylaw llong: fel hyn y mae ymadrodd cynnulliadol yn enw yr oll, ond nid yn enw ar bob un. Y mae ymadrodd cyffredinol, ar y llaw arall, yn enw nifer o bethau, ond yn enw ar bob un o honynt ar wahân; neu i ddefnyddio yr ymadrodd celfyddydol, yn gyfraniadol (*distributively*). Milwr, rheithwr, morwr ydynt yr enwau cyffredinol a allant fod yn perthyn i John Jones, Thomas Brown, &c.; ond nis gallwn ddyweyd fod John Jones yn fyddin, Thomas Brown yn rheithfa, ac felly yn mlaen. Y mae y gwahaniaeth fel hyn rhwng enwau cyffredinol a chynnulliadol yn amlwg. Ond nis gallwn yr un pryd ranu ymadroddion i'r ddau ddosbarth o rai cyffredinol a chynnulliadol, o blegid digwydda yn aml fod yr un enw yn gyffredinol a chynnulliadol, yn ol yr ystyr yn mha un y defnyddir ef. Fel hyn y mae *llyfrgell* yn enw cynnulliadol gyda golwg ar y llyfrau sydd yn ei chyfansoddi, ond yn gyffredinol gyda golwg ar y nifer mawr o lyfrgelloedd gwahanol, cyhoeddus a phersonol, sydd yn bod.

(2). Gwahaniaethiad pwysig arall rhwng ymadroddion ydyw yr un sydd yn eu rhanu i ymadroddion cyfunsawdd (*concrete*) a dansoddol (*abstract*). Nis gellir rhoddi darnodiad mwy cywir a syml o'r gwahaniaeth hwn na'r un a rydd Mr. Mill; sef, mai enw cyfunsawdd yw enw peth, a'r enw dansoddol yw enw ar ansawdd, priodoledd, neu amgylchiad perthynol i'r peth. Fel hyn, *Tŷ coch* sydd enw ar beth sydd yn bod yn sylweddol, ac felly yn enw cyfunsawdd; ond *cochni* sydd enw ar un ansawdd berthynol i'r tŷ, ac sydd yn ddansoddol. Golyga y gair Saesneg a gyfieithir 'dansoddol,' *tynu oddi wrth* (*abstract*, o'r Lladin *abstrahere*): gesyd allan fod yr ansawdd *cochni* yn cael ei 'dynu oddi wrth' y tŷ a'r holl ansoddau ereill perthynol iddo, ac yn cael edrych arno yn y meddwl ar wahân, neu arno ei hunan. Ond er y gallwn feddwl am ansawdd ar ei ben ei hun, nis gallwn dybied fod yn bossibl i'r ansawdd fodoli mewn natur ar wahân oddi wrth y gwrthddrych neu y sylwedd yn yr hwn y mae yn ei amlygu ei hun i ni. Y mae 'cochni' yn golygu felly, naill ai y syniad pennodol hwnw yn y meddwl, neu ynte yr ansawdd hwnw mewn gwrthddrychau cochion sydd yn galw y syniad i weithrediad.

Cyfunsawdd yw ansoddeiriau, ac nid dansoddol. Pan y dywedwn fod llyfr yn ddefnyddiol, at y llyfr yr ydym yn cymmhwyso yr ansoddair *defnyddiol;* yr enw (*noun*) dansoddol sydd yn gosod allan yr ansawdd yw *defnyddioldeb.*

(3.) Gwahaniaeth arall o'r fath fwyaf eglur rhwng ymadroddion ydyw y *cadarnhaol* a'r *nacaol*. Ymadroddion cadarnhaol a arwyddant fodolaeth neu y meddiant o ansawdd, megys diolchgar, cyfiawn, materol; tra y mae yr ymadroddion nacaol cyfattebol yn gosod allan absennoldeb yr ansoddau hyny, megys anniolchgar, anghyfiawn, anfaterol.

Dylid gofalu rhag cymmysgu ymadroddion sydd yn gosod allan bresennoldeb neu absennoldeb ansawdd â'r rhai sydd yn gosod allan ei *radd*. Nid y nacaol o *mwy* ydyw *llai*, o blegid y mae trydydd yn bossibl, sef *cyfartal*. Y nacaol o *fwy* ydyw *nid mwy*, ac y mae hyny yr un peth â *chyfartal* neu â *llai*. Pa bryd bynag y mae y cwestiwn yn un o *radd* neu *swm*, y mae ymadrodd *canol* yn bossibl; ond pan y mae y cwestiwn yn un o bresennoldeb neu absennoldeb ansawdd, nis gall fod ond dau gyferbyniol i ddewis o honynt, yn unol âg un o ddeddfau cyntefig meddwl (deddf cauad allan trydydd neu ganol).

Y mae rhesymegwyr wedi gwahaniaethu oddi wrth ymadroddion nacaol syml ddosbarth o ymadroddion a elwir yn *amddifadol*, megys *dall*, *marw*. Arwydda yr ymadroddion hyn fod peth wedi ei *amddifadu* o ansawdd ag oedd o'r blaen yn ei feddu, neu a allasai ei feddu, neu sydd yn gyffredin yn ei feddu. Gall dyn gael ei eni yn ddall, fel na ddarfu iddo erioed weled; ond y

Digitized by Google

mae yn feddiannol ar y rhanau a fuasent yn ei alluogi i weled oni buasai am ryw ddigwyddiad. Ond nis gallasai careg neu bren fod yn meddu y gallu i weled o dan unrhyw amgylchiadau. Nis gellir dyweyd fod unrhyw sylwedd mwnawl yn marw nac yn farw, o blegid nid oedd yn alluog o fywyd; ond gellir ei alw yn annghrystaledig, o blegid yr oedd yn bossibl iddo fod yn y ffurf o grystal. Fel hyn yr ydys yn cymmhwyso ymadrodd amddifadol at unrhyw beth sydd heb fod yn meddu ansawdd y gallasai fod yn ei feddu: yr ydys yn cymmhwyso ymadrodd nacaol at unrhyw beth nad ydyw yn meddu ac nas gallasai feddu yr ansawdd.

(4.) Rhenir ymadroddion etto i *berthynasol* a *hollol* (*absolute*). Arwydda y gair Saesneg *absolute* (o'r Lladin *ab*=oddi wrth, a *solutus*=wedi ei ryddhau) yr hyn sydd "wedi ei ryddhau oddi wrth berthynas â rhyw beth arall." Arwydda yr ymadrodd *perthynasol* drachefn yr hyn sydd yn cael ei gario, yn y meddwl o leiaf, i gyssylltiad â rhywbeth arall; a gesyd allan wrthddrych nas gellir meddwl am dano heb gyfeiriad at ryw wrthddrych arall, neu fel rhan o gyfanswm mwy. Nis gellir meddwl am dad, ond mewn perthynas â phlentyn; na brenin, ond mewn perthynas â deiliaid; na bugail, ond mewn perthynas â phraidd. Fel hyn, tad, brenin, a bugail ydynt ymadroddion perthynasol, tra mai plentyn, deiliad, a phraidd ydynt yr enwau cyd-berthynasol (*correlatives*), neu y gwrthddrychau hyny ag ydynt o angenrheidrwydd wedi eu huno yn y meddwl â'r gwrthddrychau gwreiddiol.

(5.) Er nad yw y gwahaniaethiad hwn o natur gyffelyb i'r rhai blaenorol, gellir ei osod yma er mwyn cyfleusdra. Rhenir ymadroddion gyda golwg ar eu heglurdeb neu eu hamwysedd, i rai *o un ystyr*, a rhai *amwys* neu o ystyr *ammheus*. Wrth y blaenaf, golygir yn syml yr hyn y mae yr enw yn ei osod allan—ymadroddion nad oes ond un ystyr yn perthyn iddynt, neu ystyr pendant a syml. Fel hyn y mae yr enw 'eglwys gadeiriol' (*cathedral*). Ond y mae y gair 'eglwys' yn nosbarth yr enwau amwys, neu o aml ystyr, am ei fod weithiau yn arwyddo un peth, ac weithiau beth arall.

(6.) Gwahaniaeth tra phwysig ydyw yr un sydd yn rhanu *ystyr* ymadroddion i ddau fath; sef, yr ystyr mewn *eangder* (*extension*), a'r ystyr mewn *dyfnder* (*intension*). Wrth yr ystyr mewn eangder y golygir, *y gwrthddrychau at ba rai y gellir cymmhwyso yr ymadrodd;* ac wrth yr ystyr mewn dyfnder y golygir, *yr ansoddau a berthyn i'r gwrthddrychau a ddynodir trwy yr ymadrodd.* Er enghraifft, Beth yw ystyr y gair *mettel?* Yr atteb cyntaf ac egluraf a fyddai, ei fod yn golygu naill ai aur neu arian, haiarn, copr neu ryw un arall o'r 48ain sylwedd a ystyrir gan fferyllwyr yn dyfod o dan ddosbarth y 'mettel-oedd.' Dyma ystyr y gair o ran *eangder.* Ond pe gofynid, Pa ham y mae yr enw *mettel* yn cael ei gymmhwyso at y sylweddau hyn, ac at y rhai hyn yn unig? Yr atteb fyddai, am eu bod yn meddu ansoddau pennodol, y rhai sydd yn perthyn i natur mettel; megys elfen neu sylwedd syml nas gellir ei ddadgyfansoddi i ddim symlach—cyfrwng da o wres a gwefr—gallu neillduol o adlewyrchiad, &c. Dyma briodoliaethau cyffredin a hanfodol i'r holl fetteloedd, y rhai ydynt yn gwahaniaethu mettel oddi wrth bob sylwedd arall. O ganlyniad, dyma ystyr yr enw mettel o ran *dyfnder.* Y mae deddf gyffredinol o bwys mawr yn cyssylltu y swm o eangder a'r swm o ddyfnder; sef, *fel y mae dyfnder ymadrodd yn chwanegu, y mae ei eangder yn lleihau.* Gan fod y mater hwn wedi ei drin yn helaeth eisoes o dan y pen hwn, *Swm Syniadau,* nid oes angen ymhelaethu arno yma, ond yn unig nodi ei gymmhwysiad oddi wrth syniadau at ymadroddion.

II. BARNAU A GOSODIADAU.

Yr ydym yn awr yn symmud yn mlaen at athrawiaeth *barnau,* a'r mynegiad o honynt mewn *gosodiadau.* Nid yw *syniadau* a *barnau* i'w hystyried fel cynnyrch gwahanol weithrediadau o eiddo y meddwl; o blegid nid yw pob syniad, fel y mae yn gynnyrch rhyw weithred flaenorol o gymmhariaeth, mewn gwirionedd ond barn wedi ei sefydlu a'i chadarnhau mewn arwydd. Ond mewn canlyniad i'r sefydlogrwydd hwn y maent wedi ei gyrhaedd, syniadau ydynt yn fforddio y moddion mawr i bob cymmhariaethau a barnau yn ddilynol i hyny. A chan mai hyn yn awr sydd yn ffurfio eu prif berthynas, yr ydym er mwyn cyfleusdra yn gadael allan o ystyriaeth linach gwreiddiol syniadau, ac yn eu hystyried fel cynnyrch cyntaf y deall, ac fel ammodau ac elfenau yr ail. Gellir edrych ar syniad fel barn gauedig, neu heb ei dadblygu; a barn fel syniad wedi ei agor neu ei ddadblygu. Ymdrinir â *barnau* a *gosodiadau* gyda'u gilydd.

*Adran* I.—BARNAU.

1. *Barnu* yw adnabod y berthynas o gydundeb neu wrthwynebiad, yn yr hon y mae dau syniad, dau wrthddrych, neu syniad a gwrthddrych, o'u cymmharu â'u gilydd, yn sefyll tuag at eu gilydd. Gelwir yr adnabyddiaeth hon, a'i hystyried fel ymwybyddiaeth tufewnol, yn *farn;* a'i hystyried fel yn cael ei mynegu mewn iaith, gelwir hi yn *osodiad.*

Yn gymmaint a bod barn yn tybied perthynas, cynnwysa o angenrheidrwydd liosawgrwydd o feddyliau; ond nid yw y gwrthosodiad yn wir —fod lliosawgrwydd o feddyliau o angenrheidrwydd yn cynnwys barn. Gyda golwg ar y meddyliau hyny ag y mae eu holyniad yn cael ei benderfynu yn unig gan ddeddfau cymdeithasiad *(association),* er eu bod yn cael eu hamlygu mewn lliosawgrwydd, mewn perthynas, ac o ganlyniad mewn cyssylltiad, nid ydynt yn y fath berthynas, ac yn y fath gyssylltiad ag i ffurfio barn. Cymmerwn, er esampl, y meddyliau *dwfr, haiarn,* a *rhydu:*—gall y rhai hyn ganlyn eu gilydd yn gyfres feddyliol; gellir hyd yn oed edrych arnynt gyda'u gilydd ar unwaith mewn un weithred o ymwybyddiaeth, a hyny heb i ni eu hystyried mewn gweithred o gymmhariaeth, ac felly heb eu cydgyssylltu na'u dadgyssylltu mewn gweithred o farn. Ond pan y mae dau neu fwy o feddyliau yn dyfod i fyny mewn ymwybyddiaeth, y mae yn gyffredin ymgais ar ein rhan i ddarganfod ynddynt, ac i ddadblygu, perthynas o gydundeb neu o wrthwynebiad; hyny ydyw, yr ydym yn ceisio cael allan pa un a wna y meddyliau hyn gyd-daraw ai peidio—pa un a ellir, ai ni ellir, eu cysoddi i un. Os cydunant, yr ydym yn barnu, yr ydym yn dadgan, eu cydnawsedd—eu cydweddiad; os na chyttunant, yr ydym yn barnu, ac yn dadgan, eu gwrthdarawiad neu eu hanghydweddiad. Fel hyn, os cymmharwn y meddyliau *dwfr, haiarn,* a *rhydu,* a chael eu bod yn gydunol, a'u cyssylltu i un meddwl fel hyn, *Y mae dwfr yn rhydu haiarn:*—yn yr achos yna yr ydym yn ffurfio *barn.*

Ond os bernir dau syniad yn gydunol—mewn geiriau ereill, os synier am danynt fel un—nis

Digitized by Google

gellir sylweddoli eu hundod hwn mewn ymwybyddiaeth, ond fel y bydd un o'r syniadau hyn yn cael ei olygu fel priodoledd neu ansawdd o'r llall. Canys, ar un llaw, y mae yn ammhossibl i ni feddwl am ddwy briodoledd fel un; hyny yw, dau beth yn cael edrych arnynt fel yn ansoddi, ac etto heb fod un o honynt yn ansoddi y llall; nac, ar y llaw arall, ddau destyn, hyny yw, dau beth yn cael edrych arnynt fel yn cael eu hansoddi, ac etto yr un o honynt yn cael ei ansoddi gan y llall. Er enghraifft, nis gallwn feddwl y ddwy briodoledd *gwefrol* a *phegynol* fel un syniad, oni bydd i ni droi un o'r priodoliaethau hyn i bwngc neu destyn i'w benderfynu neu i'w ansoddi gan y llall; ond os gwnawn—os dywedwn *y mae yr hyn sydd wefrol yn begynol*, yr ydys ar unwaith yn dwyn i lawr y ddau i undod, yr ydys yn barnu fod *pegynol* yn un o nodweddion cyfansoddiadol y syniad *gwefrol*, neu fod yr hyn sydd yn *wefrol* yn cael ei gynnwys o dan y dosbarth o bethau a nodir allan drwy y nodwedd gyffredin o *begyn-dyniad*. Yr un modd nis gallwn feddwl y ddau destyn *haiarn* a *mŵn* fel un syniad, os na bydd i ni droi un o'r testynau hyn i briodoledd, gan yr hon y mae y llall yn cael ei phenderfynu neu ei hansoddi; ond os gwnawn—os dywedwn *Haiarn sydd fŵn*, yr ydym etto yn dwyn i lawr y ddau i undod; yr ydym yn barnu mai un o briodoliaethau y testyn *haiarn* yw, ei fod yn *fŵn*, neu fod *haiarn* yn cael ei gynnwys o dan y dosbarth o bethau a nodir allan gan y nodwedd cyffredin o *fŵn*.

Y mae yn amlwg, oddi wrth yr hyn a ddywedwyd yn awr, fod yn rhaid i farn gynnwys a mynegu tri syniad, y rhai, pa fodd bynag, gan eu bod yn berthynasol i'w gilydd, a gyfansoddant un weithred anrhanadwy o feddwl. Rhaid iddi gynnwys—1. Y syniad o rywbeth *i gael* ei ansoddi *(determined)*: 2. Y syniad o rywbeth sydd *yn cael* ei ansoddi: ac yn 3. Y syniad o'r berthynas o ansoddiad rhwng y ddau. Parotoa hyn at y sylw nesaf.

2. Yr enw celfyddydol ar yr hyn, yn y weithred o farnu, yr ydym yn ei feddwl fel y syniad a ansoddir yw y Testyn (*subject*). Yr hyn yr ydym yn ei feddwl fel y syniad sydd yn ansoddi yw yr Adroddol (*predicate*); sef y peth sydd yn cael ei adrodd neu ei hòni o barth i'r testyn, ac felly yn ei ansoddi. A'r berthynas o ansoddiad a adnabyddir fel yn hanfodi rhwng y testyn a'r adroddol, a elwir y Cyssylltair (*copula*). Gellir, gan hyny, ddeffinio barn neu osodiad yn gynnyrch y weithred hono, yn yr hon yr ydys yn dadgan, o ddau syniad a feddylir fel testyn ac adroddol, fod y naill, neu nad ydyw, yn cyfansoddi rhan o'r llall, un ai yn y swm o eangder neu yn y swm o ddyfnder.

Fel hyn, yn y gosodiad, *Haiarn sydd ehedfaenol* (*magnetic*), y mae genym *haiarn* am y testyn, *ehedfaenol* am yr adroddol, a'r ferf *sydd* am y cyssylltair.

3. Gellir gwneyd dau fath o raniad ar farnau. Yn y math cyntaf, cymmerir i ystyriaeth ymddibyniad cyffredinol y gwahanol ranau sydd yn eu cyfansoddi ar eu gilydd: yn y math arall cymmerir i ystyriaeth y dosbarthiadau a grëir gan y rhaniad uchod o dan y gwahanol olygiadau o Swm, Ansawdd, a Pherthynas.

(1.) Y rhaniad mawr cyntaf ar farnau yw yr un a gymmerir o berthynas y testyn â'r adroddol, fel o bob tu yn gyfan a rhanol. Os ystyrir y testyn, neu y syniad sydd yn cael ei ansoddi, fel y cyfanswm cynnwysiadol (*containing whole*), yr ydym yn cael gosodiad o ddyfnder (*intensive*); os ystyrir yr adroddol, neu y syniad sydd yn ansoddi, fel y cyfanswm cynnwysiadol, y mae genym osodiad o eangder (*extension*).

Nid yw ond yn anfynych yn amlwg pa un o'r ddau a feddylir mewn gosodiadau syml. Pan y cyssylltir gosodiadau mewn cyfresymiad y gwneir yn eglur pa un ai y testyn neu yr adroddol yw y cyfanswm, yn neu o dan yr hwn y mae y llall yn gynnwysedig. Gall y ferf *sydd*, neu *y mae*, &c., osod allan y naill berthynas neu y llall—y berthynas o ddyfnder neu o eangder. Yn y gosodiad, *Dyn sydd greadur rhesymol*, gall y cyssylltair *sydd* olygu fod y syniad *dyn* yn cynnwys *ynddo* (yr hyn yw y swm o *ddyfnder*) y syniad *rhesymol*. Yn ol hyn, y testyn yw y cyfanswm cynnwysiadol, ac y mae yn rhoddi i ni osodiad o ddyfnder. Neu ynte, gall y cyssylltair *sydd* olygu fod yr adroddol *creadur rhesymol* fel dosbarth neu gyfanswm, yn cynnwys *o dano* (yr hyn yw y swm o *eangder*) y testyn *dyn* fel rhan o hono. Yn ol hyn, yr adroddol ydyw y cyfanswm cynnwysiadol, ac y mae yn rhoddi i ni osodiad o eangder.

(2.) Yr ail raniad ar farnau a seilir ar y modd gwahanol yn yr hwn y gall y berthynas o ansoddiad fodoli rhwng testyn ac adroddol gosodiad. Y mae y berthynas hon naill ai yn syml neu yn ammodol. Os y flaenaf, gelwir y gosodiad yn ansoddegol (*categorical*): os yr olaf, y mae tri math o osodiad, am fod yr ammod yn gorwedd naill ai yn y testyn, yn yr adroddol, neu yn y testyn a'r adroddol. Gelwir y math cyntaf yn amcan-dybiol (*hypothetical*); yr ail yn ddadgyssylltiol (*disjunctive*); a'r trydydd yn ddeurywiol (*dilemmatic*) neu amcandybiol-dadgyssylltiol (*hypothetico-disjunctive*).

1af, Barnau *ansoddegol*. Y farn hon yw yr un ag y mae y ddau ymadrodd yn sefyll ynddi tuag at eu gilydd yn hollol yn y berthynas hono ag y mae pob barn yn ei thybied, gan gau allan bob ammodau a orweddant y tu allan i hyny. O blegid hyn nis gellir dyweyd dim am farnau ansoddegol yn neillduol heb law yr hyn a ddywedwyd am natur hanfodol barnau yn gyffredinol. Gosodiad ansoddegol a fynegir yn y ffurfreol ganlynol:—A *yw* B, neu *Nid* A *yw* B.

2il, Barnau *ammodol*. Cynnwysa y dosbarth hwn, fel y dangoswyd eisoes, dri math, yn ol fel y byddo yr ammod yn gorwedd yn fwyaf uniongyrchol yn y testyn, neu yn yr adroddol, neu ynte lle y mae ammod deublyg—y naill yn y testyn, a'r llall yn yr adroddol.

[1.] Gosodiadau amcandybiol, fel y dywedwyd, yw y rhai hyny ag y mae yr ammod sydd yn ansoddi y berthynas rhwng y testyn a'r adroddol yn gorwedd yn fwyaf uniongyrchol yn y testyn. Yn y gosodiad B *yw* A, meddylir yn ddiammodol fod B yn hanfodi, ac felly ffurfia osodiad ansoddegol (*categorical*). Ond os meddyliwn yn unig fod B yn hanfodi yn ammodol, ac o dan yr hanfodiad ammodol hwn ddadgan y farn, yna, cawn y gosodiad amcandybiol, *Os yw* B *yn bod, y mae* A *yn bod;* neu, mewn esampl bendant, *Tywydd gwlawog sydd dywydd gwlyb*, dyna osodiad ansoddegol; ond *Os gwlawia, bydd yn wlyb*, sydd osodiad amcandybiol. Mewn gosodiad amcandybiol y mae y gwrthddrychau sydd yn cael eu meddwl yn sefyll yn y fath berthynas â'u gilydd o bob tu fel nas gellir meddwl y naill heb ein bod o angenrheidrwydd yn gorfod meddwl y llall. Fel hyn, safant yn y berthynas o reswm a chanlyniad.

Digitized by Google

[2.] Barnau dadgyssylltiol (*disjunctive*) yw y rhai hyny ag y mae yr ammod sydd yn ansoddi y berthynas rhwng y testyn a'r adroddol yn gorwedd yn fwyaf uniongyrchol yn yr adroddol; megys yn y gosodiad, D *yw naill ai* B, *neu* C, *neu* A. Yn y dosbarth hwn o farnau, y mae lliosawgrwydd pennodol o briodoliaethau yn cael ei adroddi am y testyn, ond yn y fath fodd fel nad yw y lliosawgrwydd hwn yn cael ei adroddi neu ei haeru gyda'u gilydd—cynnwysa y farn yn unig fod rhyw un, a dim ond un, o dan 'ammodau pennodol, o'r swp hwn o briodoliaethau yn perthynu i'r testyn. Pan y dywedaf *fod dynion naill ai yn ddu, neu yn wyn, neu yn felynddu*, nid oes un o'r tri adroddolion yn cael ei haeru yn ddiammodol yn y gosodiad hwn: y cwbl a ddywedir yw, y gellir haeru un o'r tri, ac wrth haeru rhyw un o'r tri, fod y ddau arall, o angenrheidrwydd, trwy yr haeriad hwnw ei hunan, yn cael eu gwadu. Y mae y priodoliaethau y rhai y gellir eu haeru fel hyn ar wahân, hyny yw, y naill neu y llall o honynt, am wrthddrych, yn cyfansoddi gyda'u gilydd gylch neu gyfanswm pennodol o eangder; a chan fod y priodoliaethau o bob tu yn cau eu gilydd allan, gellir edrych arnynt o bob ochr fel rheswm a chanlyniad. Y mae gan osodiad dadgyssylltiol ddwy ffurf, yn ol fel y rheoleiddir ef gan gyferbyniad gwrthddywediadol neu wrthwynebol (*contradictory or contrary*). Dyma enghreifftiau o'r blaenaf: A *yw naill ai* B, *neu nid* B. *Y mae y mûn hwn yn fettel, neu nid yw.* Dyma yr olaf: A *yw naill ai* B, *neu* C, *neu* D. *Y mae y mûn hwn naill ai yn blwm, neu yn alcam, neu yn sinc.* Y priodoliaethau neu y nodweddion cyferbyniol mewn gosodiad dadgyssylltiol a elwir yr *aelodau dadgyssyllt* (*disjunct members*); a'u perthynas â'u gilydd a elwir y *dadgyssylltiad*, yr hwn yn y Saesneg a osodir allan trwy y geirynau perthynasol *either, or;* ac yn Gymraeg trwy *naill ai, neu;* o ba herwydd y gelwir y geiriau hyn yn eirynau dadgyssylltiadol (*disjunctive particles*). Mewn gosodiadau o'r dosbarth hwn ffurfir y cyssylltair gan *naill ai yn,—neu yn*, o blegid trwy hyn y dygir y syniadau ynghyd fel ag i gyfansoddi un gwrthddrych o ymwybyddiaeth, ac fel hyn y mae cyfosodiad neu undeb o syniadau yn cael ei ffurfio.

[3.] Barnau deurywiol (*dilemmatic*) ydynt y rhai hyny a gynnwysant ammod yn y testyn a'r adroddol; a chan eu bod fel hyn yn uniad o'r ffurf amcandybiol a'r un dadgyssylltiadol, gellir yn briodol eu galw yn amcandybiol-ddadgyssylltiadol (*hypothetico-disjunctive*). Wele enghreifftiau o'r barnau hyn wedi eu ffurfio yn osodiadau:—'Os yw *X* yn *A*, y mae naill ai yn *B* neu yn *C*.' 'Os yw gweithred yn cael ei gwahardd, gwaherddir hi naill ai gan gyfraith naturiol neu bendant.' 'Os yw gwybyddiad yn wybyddiad o ffaith, y mae yn cael ei roddi naill ai trwy weithred o ganfyddiad allanol, neu trwy weithred o hunanymwybyddiaeth.' Nis gall gosodiad o'r dosbarth yma, er ei fod yn dwyn ffurf amcandybiol a dadgyssylltiadol, gael ei elfenu neu ei ddattod i farn amcandybiol ac un ddadgyssylltiadol. Cyfansodda undod o feddwl mor anrhanadwy a phob un o'r ddwy arall; ac nis gall, mwy na hwythau, gael ei ddwyn i lawr heb wahaniaethiad i liosawgrwydd o osodiadau ansoddegol.

Y mae i bob ffurf o farnau a fu dan ein hystyriaeth hyd yn hyn ei ffurf gyfattebol o gyfresymiad; ac y mae prif bwysigrwydd y gwahanol fathau o osodiadau yn gynnwysedig yn y ffaith eu bod yn cyfansoddi sylfeini gwahanol fathau o ymresymiadau. Gellir edrych, pa fodd bynag, ar y gwahanol fathau o osodiadau yn eu perthynas â'r tri pheth canlynol:—swm, ansawdd, a pherthynas.

1af, *Swm.* Y mae swm barnau yn ymwneyd â'r oll o eangder, neu nifer y gwrthddrychau am ba rai yr ydym yn barnu. Fe allai mai yn y fan yma y dylem roddi gair byr o grybwylliad ac eglurhâd o barth i'r diwygiad a ddygodd Syr William Hamilton i mewn i'r wyddor o resymeg, yr hwn a adnabyddir wrth yr enw a ymddengys ar yr olwg gyntaf yn ddyeithrol ac annealladwy—'symiad yr adroddol' (*the quantification of the predicate*). Ond y mae ystyr y peth wedi y cwbl yn hynod syml a hawdd ei ddeall, tra ar yr un pryd nid ydyw yn ormod dyweyd fod ei ddygiad i mewn yn ffurfio un o'r diwygiadau pwysicaf a wnaed yn y wyddor o resymeg. Nid yw ystyr y peth yn ddim mwy na llai na hyn: *mynegu pa un ai yr oll ynte rhan o'r adroddol sydd yn cyttuno â neu yn gwahaniaethu oddi wrth y testyn.* Er esampl, yn y gosodiad hwn—

"Yr holl fetteloedd sydd elfenau,"

y mae y testyn ("metteloedd") yn cael ei symio (*quantify*); hyny yw, nodir ei swm neu ei eangder trwy y gair "holl:" ond nid yw yr adroddol ("sydd elfenau") yn cael ei symio; hyny yw, tra yr hysbysir ni fod yr holl fetteloedd yn elfenau, nid yw y gosodiad yn ein hysbysu yn bendant pa un a ydyw metteloedd yn gwneyd i fyny yr *holl* elfenau, ai rhan o honynt. Ond wedi "symio yr adroddol" yn y gosodiad, dyna ydyw—

"Yr holl fetteloedd ydynt *rai* elfenau:"

ac yn awr y mae y gair bychan *rhai* yn dyweyd yn eglur nad ydyw metteloedd mewn gwirionedd yn ffurfio ond rhan yn unig o'r elfenau. Y mae y cyfnewidiad hwn wedi dwyn i mewn liaws mawr o osodiadau cadarnhaol nad oedd lle iddynt yn nghyfundraeth Aristotle, ac hefyd wedi symleiddio yn fawr ffurfiau ymresymu.

Y mae athrawiaeth Syr William Hamilton o berthynas i swm barnau yn gwahaniaethu oddi wrth yr eiddo rhesymegwyr ereill, heb law yn y diwygiad pwysig a eglurwyd yn barod a ddygwyd i mewn ganddo ef. Y mae yr athrawiaeth gyffredin, yr hon sydd yr un o ran hanfodolion er amser Aristotle, yn rhanu gosodiadau yn ol eu swm i bedwar dosbarth; sef, (1.) y cyffredinol: (2.) y neillduol: (3.) yr unigol: (4.) yr ammhennodol. Wrth osodiadau *cyffredinol* y golygir y rhai a gymmerant y testyn yn yr oll o'i eangder: wrth osodiadau *neillduol* y deallir y rhai a gymmerant y testyn mewn rhan (ammhennodol) o'i eangder: wrth osodiadau *unigol*, y rhai a gynnwysant y testyn mewn lleiafswm o eangder: ac wrth osodiadau *ammhennodol*, y cyfryw ag nad ydynt yn mynegu yn bendant ac eglur pa un a ydyw y testyn yn gyffredinol, yn neillduol, neu yn unigol. Dyna athrawiaeth y rhesymegwyr.

Deil Syr William Hamilton fod yr athrawiaeth hon yn gyfeiliornus; ac yn ei lle gesyd i lawr yr un ganlynol. Rhana efe osodiadau yn ol eu swm yn y dull a ganlyn:—Cyfyd y gwahaniaeth rhwng gosodiadau yn yr ystyr hwn naill ai (1.) megys mewn barnau, o ammod angenrheidiol y meddwl tufewnol; neu (2.) megys mewn gosodiadau, yn unig o amgylchiadau damweiniol y mynegiad allanol. O dan y pen cyntaf (1.) y mae barnau naill ai

Digitized by Google

[1.] O swm penderfynol neu bennodol, yn ol fel y mae eu cylch wedi ei amgau: neu

[2.] O swm ammhenderfynol neu ammhennodol, yn ol fel y mae eu cylch heb ei amgau. Etto, y mae barnau o swm penderfynol, [1.] naill ai

*a.* O gyfanswm anrhanedig (*a whole undivided*), yn yr hwn amgylchiad y cyfansoddant *osodiad cyffredinol:* neu

*b.* O undod anrhanadwy (*a unit indivisible*), yn yr hwn amgylchiad y cyfansoddant *osodiad unigol*. Barn o swm ammhenderfynol [2.] a gyfansodda *osodiad neillduol*.

O dan y pen olaf, y mae swm y gosodiadau fel y cyfryw, pa un bynag ai penderfynol ai ammhenderfynol, yn cael ei nodi allan gan arwydd geiriol, neu nid ydyw: y cyfryw swm yn cael ei gynnwys yn mhob meddyliad gweithredol. Gellir eu galw yn yr amgylchiad blaenaf yn rhagderfynedig (*predesignate*); ac yn y llall yn rhagannherfynedig (*preindesignate*).

Ynglŷn â'r dosbarthiad newydd uchod o eiddo Hamilton, yr hwn a roddasom yn ei eiriau ef ei hunan, dwg yn mlaen ei athrawiaeth am "symiad yr adroddol," yr hon a eglurasom yn fyr eisoes. Nid yw efe yma ond yn ei chyhoeddi mewn modd byr. Dyry eglurhâd llawnach o honi a'i chymmhwysiad yn mhellach yn mlaen. Fel hyn y dywed:—

"Etto, nid yw yr athrawiaeth gyffredin, yr hon hefyd sydd yn cyrhaedd yn ol mor bell ag Aristotle, yn cymmeryd i ystyriaeth ond y testyn *(subject)* yn unig, ac y mae yn rheoleiddio swm y gosodiad yn unig oddi wrth swm y rhan hono. Yn wir, nid yw Aristotle a'r rhesymegwyr yn caniatau fod yr adroddol *(predicate)* yn cael effeithio arno gan swm; o leiaf, y maent yn dal ei fod bob amser yn neillduol mewn gosodiad cadarnhaol, ac yn gyffredinol mewn un nacaol."

"Yr wyf fi yn dal fod yr athrawiaeth hon yn ganlyniad dadansoddiad diffygiol; a gobeithiaf ddangos fod y cymmysgedd a'r amryfedd a berthyn i'n rhesymeg bresennol, yn benaf yn tarddu o ymgais at gyfosodiad cyn bod yr elfenau eithaf wedi eu cyrhaedd yn deg trwy ddadansoddiad treiddiol, ac felly o esgeulusdra yn y peth hwn o ofyniad sylfaenol y wyddor."

Rhoddwn yma y daflen a'r eglurhâd canlynol o'i eiddo ar y gwahanol fathau o osodiadau, yn unol â'i ddosbarthiad diwygedig ef ei hunan:—

A. Barnau (meddyliol).
- *a.* O swm penderfynol neu bennodol.
  - 1. O gyfanswm anrhanedig—barnau cyffredinol.
  - 2. O undod anrhanadwy—barnau unigol.
- *b.* O swm ammhenderfynol neu ammhennodol—yn ffurfio barnau neillduol.

B. Gosodiadau (geiriol).
- *a.* Pan fynegir y swm—rhagderfynedig.
- *b.* Pan na fynegir y swm—rhagannherfynedig.

(1.) Barnau cyffredinol ydynt y rhai hyny yn y rhai y mae holl nifer y gwrthddrychau o fewn cylch neu ddosbarth yn cael barnu am danynt; megys *Pob dyn sydd farwol.* Yn y cyfryw farnau y mae y syniad o gyfanrwydd penderfynol yn y ffurf o gwbledd neu olledd *(omnitude or allness)* yn cael ei gynnwys.

(2.) Barnau unigol ydynt y rhai hyny, yn mha rai, yn yr un modd, y mae yr oll o gylch pennodol yn cael barnu am dano, ond yn yr hwn gylch ni cheir ond un gwrthddrych, neu gasgliad o wrthddrychau unigol; megys, *Catiline sydd uchelgeisiol. Y deuddeg apostol oeddynt ysbrydoledig.* Yn y cyfryw farnau y mae y syniad o gyfanrwydd penderfynol yn y ffurf o unedd, undod anrhanadwy, yn cael ei gynnwys.

(3.) Barnau neillduol ydynt y rhai hyny yn y rhai, yn mysg y gwrthddrychau o fewn cylch neu ddosbarth pennodol, yr ydym yn barnu o berthynas i ryw nifer ammhennodol llai na'r cyfan; megys, *Rhai dynion ydynt rinweddol. Lliaws o fechgyn ydynt wrol. Y rhan fwyaf o ferched ydynt dosturiol.* Y mae y lliosawgrwydd ammhennodol, o fewn y cyfanswm, yn cael ei ddynodi yma trwy y geiriau *rhai, lliaws, y rhan fwyaf.* Y mae geiriau pennodol y rhai a wasanaethant i nodi allan y swm mewn gosodiadau cyffredinol, unigol, a neillduol. Y geiriau a ddynodant gyffredinolrwydd ydynt *yr oll, y cyfan o, pob, y naill a'r llall, pob un o'r ddau, dim un, neb, y naill na'r llall, bob amser, yn mhob man,* &c. Y geiriau a ddynodant unigolrwydd ydynt *rhai, lliaws, y rhan fwyaf,* &c. Y geiriau a ddynodant neillduolrwydd ydynt *rhai, nid yr oll,* neu *nid pawb, un, dau, tri,* &c., *weithiau, rhywle,* &c.

Dywedir gan resymegwyr yn gyffredin fod gosodiad unigol, mewn perthynas resymegyddol, yn newidiadwy am un cyffredinol; am fod rhywbeth yn cael ei adroddi yn y ddau o barth i destyn cyflawn, ac nid oes un eithriad i'r naill na'r llall. Ond y mae barn neillduol, yr un modd, yn adroddi rhywbeth am destyn cyfan, ac nid yw yn goddef unrhyw eithriad; o blegid cymmer i mewn yr oll a olygir fel y testyn, a chaua allan yr oll a olygir fel heb fod yn perthyn iddo. Y mae yr holl wahaniaethiad yn gynnwysedig yn hyn:—mewn barnau cyffredinol ac unigol, fod nifer y gwrthddrychau y bernir am danynt yn cael ei feddwl genym fel yn bennodol; tra, mewn barnau neillduol, y mae nifer y cyfryw wrthddrychau yn cael ei feddwl genym fel yn ammhennodol. Y mae hyn yn dangos nad yw barnau unigol yn cyfatteb i farnau cyffredinol, yn unig yn rhinwedd unedd eu testyn —sef, os bydd i'r unigol gael ei wneuthur yn ammhennodol, cymmer y farn ar unwaith y cymmeriad o neillduolrwydd. Er esampl: y mae y gosodiadau hyn—'Almaenwr a ddarganfyddodd y gelfyddyd o argraphu:' 'Sais a gyffredinololdd ddeddf dyscyrchiant'—i'w golygu fel gosodiadau neillduol. Ond os rhoddwn yn lle yr ymadroddion ammhennodol 'Almaenwr' a 'Sais' yr ymadroddion pendant 'Fust' a 'Newton,' y mae y farn yn cymmeryd y ffurf o un gyffredinol.

Dywed rhesymegwyr etto gyda golwg ar swm, mai barnau ansoddegol (*categorical*) yn unig ydynt y rhai a gymmerant yr holl ffurfiau; a bod gosodiadau amcandybiol a dadgyssylltiadol bob amser yn gyffredinol. Y mae Syr William Hamilton yn dangos yn eglur fod hyn etto yn

Digitized by Google

gyfeiliornad—"am fod yn hawdd ffurfio gosodiadau, pa un bynag ai amcandybiol ai dadgyssylltiadol, y rhai nas gellir eu hesbonio fel yn gyffredinol nac yn unigol. Er enghraifft, pan y dywedwn yn amcandybiol—'Os oes rhyw Dodo yn bod, yna y mae rhyw anifail yn bod;' neu ynte yn ddadgyssylltiadol—'Rhai dynion ydynt naill ai cnafiaid ai ffyliaid:'—yn y naill amgylchiad neu y llall, y mae y gosodiad yn ammhennodol neu neillduol, ac nis gall unrhyw gywreinrwydd ddangos rheswm golygus pa ham y dylid ei ystyried fel yn bennodol—fel yn gyffredinol neu unigol."—Sir William Hamilton's "*Lectures on Logic*:" ll. I., darl. viii., td. 248.

Symmudwn yn awr at yn

2il, *Ansawdd* barnau. Yr hyn a olygir wrth 'ansawdd' barnau yw yr hyn sydd yn penderfynu eu dosbarthiad i gadarnhaol a nacaol. Y darnodiad mwyaf athronyddol a roddwyd o sylfaen cadarnhâd a nacâd gosodiadau, dybygem, yw un Syr William Hamilton, yr hwn a gynnwysir yn y paragraph nesaf:—

1. Rhenir barnau gyda golwg ar eu hansawdd i ddau ddosbarth. O blegid gellir adnabod y testyn a'r adroddol fel yn cynnwys ac yn cael eu cynnwys o bob tu, yn y symiau cyferbyniol o eangder a dyfnder; neu gellir eu hadnabod fel heb fod yn sefyll yn y berthynas hon. Yn yr achos blaenaf, y mae y testyn a'r adroddol yn cael eu haeru y naill am y llall, a gelwir y gosodiad yn un cadarnhaol. Yn yr achos olaf, y maent yn cael eu gwadu y naill am y llall, a gelwir y gosodiad yn un nacaol.

Gellir cymmeryd y brawddegau canlynol yn enghreifftiau o osodiadau cadarnhaol a nacaol:—A *yw* B—*Nid* A *yw* B: *Y mae Duw yn drugarog—Nid ydyw Duw yn anghyfiawn.* Mewn barn gadarnhaol, cymmerir y testyn i mewn yn gyflawn yn yr adroddol fel cyfanswm o eangder, neu yr adroddol i mewn yn y testyn fel cyfanswm o ddyfnder. Mewn barnau nacaol, ar y llaw arall, y mae y testyn yn cael ei gau allan yn gwbl o gylch yr adroddol (o ran eangder), neu y mae yr adroddol yn cael ei gau allan felly o gynnwys y testyn (o ran dyfnder). Mewn gosodiadau cadarnhaol mynegir hefyd yn eglur trwy ba adroddol y mae y syniad am y testyn i gael ei feddwl; hyny yw, pa adroddol a raid ei gyssylltu â'r syniad am y testyn. Mewn gosodiadau nacaol, yr un modd, mynegir yn eglur trwy ba adroddol y mae y syniad am y testyn i beidio cael ei feddwl; hyny yw, pa adroddol a raid ei gau allan o'r syniad am y testyn. Mewn gosodiadau nacaol, gan hyny, perthyna y negyddiad yn hanfodol i'r cyssylltair (*copula*); onid e, fel arall byddai pob gosodiad yn ddiwahaniaeth yn gadarnhaol. Bu hyn, pa fodd bynag, yn bwngc o ddadl yn mysg rhesymegwyr diweddar, am fod rhai yn dadleu fod y negyddiad yn perthyn i'r adroddol. Nid yw y mater yn ddigon pwysig, ac ni oddef ein terfynau, i ni fyned i mewn i'r ddadl yn bresennol: ond ceir gweled y rhesymau ar y ddwy ochr yn cael eu gosod i lawr yn narlithiau Hamilton, a'r athrawiaeth fod y negyddiad yn perthyn i'r cyssylltair yn cael ei phrofi yn ddiammheuol.

2. Os ystyriwn swm ac ansawdd barnau wedi eu dodi ynghyd, cyfyd allan o'r cyfuniad hwn bedair ffurf wahanol o osodiadau: canys y maent oll naill ai yn gadarnhaol gyffredinol, neu nacaol gyffredinol—cadarnhaol neillduol, neu yn nacaol neillduol. Er mwyn cyfleusdra, pan yn ymdrin â'r cyfresymiad, gwahaniaethir y pedwar math yma o osodiadau trwy lythyrenau, sef A, E, I, O. Gosodiadau cadarnhaol cyffredinol (*universal affirmative*) a ddynodir gan A; y nacaol cyffredinol (*universal negative*) gan E; y cadarnhaol neillduol (*particular affirmative*) gan I; y nacaol neillduol (*particular negative*) gan O. Er cynnorthwyo y cof, rhoddwyd y gwahaniaethau hyn mewn math o linellau barddonol, fel y canlyn, yn Lladin:—

Asserit A, negat E, sed universaliter ambæ,
Asserit I, negat O, sed particulariter ambo.

Yr hyn a ellir ei Gymreigio fel hyn:—

Haera A, gwada E, ond y ddwy yn gyffredinol,
Haera I, gwada O, ond y ddwy yn neillduol.

3. Gellir crybwyll fod gwahaniaethiad arall yn cael ei wneyd gan yr holl resymegwyr, yn flaenorol o leiaf i Syr William Hamilton, gyda golwg ar osodiadau, i ddau fath, a elwid *pur* a *moddawl* (*pure and modal*). Wrth y blaenaf—gosodiadau pur—y deallid y rhai hyny ag y mae yr adroddol yn cael ei haeru neu ei wadu ynddynt yn gyfangwbl am y testyn, yn syml ac heb ddim lleihâd na dullweddiad; ac wrth yr olaf, sef gosodiadau moddawl, y deallid y rhai hyny ag y mae yr adroddol yn cael ei haeru neu ei wadu ynddynt am y testyn, o dan ryw fodd neu ddullweddiad ansoddiadol. Er enghraifft: *Alexander a orchfygodd Darius*—dyna osodiad pur; ond *Alexander a orchfygodd Darius yn anrhydeddus*—dyna osodiad moddawl. Dengys Syr William Hamilton yn dra eglur fod y gwahaniaethiad hwn yn un hollol ofer a diystyr, yn gymmaint ag nad yw y *modd* yn y dosbarth olaf o osodiadau yn ddim ond rhan o'r adroddol.

4. Y golygiad olaf yn yr hwn y gellir ystyried barnau, ydyw eu *perthynas* â'u gilydd.

(1.) Pan y mae mater a ffurf dwy farn yn cael eu hystyried fel *yr un*, gelwir hwy yn *unrhywiol, newidiadwy, cyfartal*, neu *gydwerth.*

(2.) Pan yr ystyrir hwynt yn wrthwyneb i'w gilydd, gelwir hwynt yn *wahanol.*

(3.) Os ystyrir hwynt mewn rhai ystyriaethau yr un, ac mewn ereill yn wahanol, gelwir hwynt yn *berthynasol unrhywiol, cyffelyb, cydrywiol.* Gall y cyffelybrwydd hwn fod, naill ai yn y testyn a dyfnder, neu yn yr adroddol ac eangder. Os yw eu testyn yn gyffelyb, y mae eu hadroddol yn anghyffelyb (*disparate*); os yr adroddol sydd yn gyffelyb, y mae eu testyn yn ysgaredig *(disjunct)*.

(4.) Pan y mae dwy farn yn gwahaniaethu yn unig yn eu swm o eangder, a'r naill gan hyny yn neillduol, a'r llall yn gyffredinol, dywedir eu bod yn *israddedig*, a gelwir eu perthynas yn *israddiad.* Gelwir y farn sydd yn israddu, neu yr un uwchradd, yn israddiadur *(subalternant)*; a'r farn sydd yn cael ei hisraddu yn israddeb *(subalternate)*.

(5.) Pan, o ddwy neu fwy o farnau, y mae un yn haeru, a'r llall yn gwadu, a phan y maent fel hyn o bob tu yn wahanol mewn ansawdd, dywedir eu bod yn *gyferbyniol* neu *wrthwynebol;* a gelwir eu perthynas yn yr ystyr hwn yn wrthwynebiad *(opposition)*. Y mae y gwrthwynebiad hwn naill ai yn un o wrthddywediad neu wrthdarawiad, neu ynte o groesineb (*contrariety*).

(6.) Os na bydd gwrthwynebiad na chroesineb yn bod, gelwir y barnau yn gydweddol *(congruent)*.

(7.) Yn olaf, cyfyd amryw berthynasau o farnau o'r hyn a elwir eu troad (*conversion*), sef newid lle y testyn a'r adroddol. Gwahaniaethir

Digitized by Google

o leiaf dri math, yn ol rhai pedwar, o droad gosodiadau.

i. Y cyntaf, yr hwn a elwir 'troad syml neu bur,' yw, pan y mae swm ac ansawdd y ddwy farn yr un. Deil hwn mewn gosodiadau nacaol cyffredinol a rhai cadarnhaol neillduol.

ii. Yr ail, yr hwn a elwir 'troad trwy ddamwain' (*conversion by accident*) yw—pan y mae yr ansawdd yn aros heb ei newid, ond y swm yn cael ei dynu i lawr. Deil mewn gosodiadau cadarnhaol cyffredinol. Dyma y ddau fath o droad gosodiadau a gydnabyddir gan bawb. Dygir hwy allan gan Aristotle yn yr ail bennod o lyfr cyntaf ei "*Prior Analytics.*"

iii. Y trydydd, yr hwn a elwir 'troad trwy wrthosodiad (*conversion by contraposition*) yw, pan roddir yn lle y testyn a'r adroddol y gwrthwyneb i bob un, tra y mae y swm a'r ansawdd yn aros yr un. Deil hwn mewn gosodiadau cadarnhaol cyffredinol, a chaniatâ y rhan fwyaf o resymegwyr ef mewn rhai nacaol neillduol. Gwna Aristotle gofnod yn ei "*Topics*:" pen. viii., ll. ii.

(8.) Gallwn chwanegu at y saith math uchod o berthynasau rheolaidd rhesymegyddol gosodiadau, ddosbarth arall o wahaniaethau a wneir o barth i farnau a gosodiadau, y rhai, er nad ydynt yn fanwl o natur resymegyddol, sydd etto o bwys i wybod am danynt a'u deall.

i. Yn y lle cyntaf, a'u hystyried mewn golygiad defnyddiol, neu o ran eu mater, rhenir yr oll o farnau i ddamcaniaethol (*theoretical*) ac ymarferol (*practical*). Y rhai damcaniaethol ydynt y cyfryw ag a hònant fod cymmeriad pennodol yn perthyn, neu nad ydyw yn perthyn, i wrthddrych pennodol. Y rhai ymarferol ydynt y rhai a hònant y gellid neu y dylid gwneyd rhywbeth—ei ddwyn i weithredu.

ii. Barnau damcaniaethol ac ymarferol ydynt naill ai ammhrofadwy neu brofadwy. Y rhai ammhrofadwy (*indemonstrable*) ydynt y rhai sydd yn amlwg o honynt eu hunain, y rhai nad ydynt yn gofyn, ac nad ydynt chwaith yn alluog o brawf. Y rhai profadwy (*demonstrable*) ydynt y cyfryw nad yw eu gwirionedd na'u geudeb yn uniongyrchol amlwg, ond a ofynant am ryw reswm allanol iddynt eu hunain i sefydlu eu gwirionedd neu eu twyll.

iii. Gosodiadau ammhrofadwy ydynt egwyddorion cyntaf neu ddiammodol (*absolute*:—ἀρχαί, *principia*, *principles*); hyny ydyw, o ba rai yn nghyfansoddiad cyfundraeth o wyddoreg y mae gwybyddiaethau (*cognitions*) hollol sicr, nid yn unig yn deilliaw, ond yn deilliaw o angenrheidrwydd. Nis gall gosodiadau profadwy, ar y llaw arall, ar y goreu ond cyfansoddi egwyddorion perthynasol; hyny yw, y cyfryw, tra y maent eu hunain mewn angen am egwyddor uwch er eu sicrhâd, a allant etto ffurfio sylfaen amryw osodiadau ereill.

iv. Os bydd y gosodiadau ammhrofadwy o natur ddamcaniaethol, gelwir hwynt yn wirebau (*axioms*); os o natur ymarferol, gofynebau (*postulates*). Y blaenaf ydynt egwyddorion o wirionedd uniongyrchol; yr olaf, egwyddorion o gymmhwysiad uniongyrchol.

v. Gosodiad profadwy, os o natur ddamcaniaethol, a elwir yn ddansoddeb (*theorem*); ac os o natur ymarferol, yn ddarholeb (*problem*). Y mae angen am brofi y blaenaf, fel y maent yn osodiadau o sicrwydd cyfryngol; gan hyny, cyfansoddir hwynt o osodiad (*thesis*) a'i arbrofiad (*demonstration*): yr olaf, fel o gymmhwysiad cyfryngol, a dybiant *gwestiwn*, a'i *ddattodiad*.

vi. Fel mathau neillduol o'r uchod, y mae casgliadau (*corollaries*), hyny yw, gosodiadau ag ydynt yn deilliaw heb brawf newydd o ddansoddebau neu ofynebau wedi eu harbrofi yn flaenorol. Gosodiadau ag y mae eu gwirionedd yn gorphwys ar sylwadaeth neu brawf (*experiment*) a elwir yn osodiadau prawfiadol (*experiential, experimental*). Gosodiadau a gymmerir yn ganiataol gyda thebygolrwydd mewn trefn i egluro neu i brofi rhywbeth arall nas gellir fel arall ei egluro neu ei brofi, a elwir yn amcandybiau (*hypotheses*). Gosodiadau wedi eu benthyca o wyddor arall i'r dyben o wasanaethu fel gosodiadau cynnorthwyol yn y wyddor sydd genym mewn llaw, a elwir rhagosodiadau (*lemmata*). Yn olaf, gosodiadau a wasanaethant yn unig fel egluriadau (*illustrations*) o'r hyn a ystyrir fel y prif bwngc a elwir yn arnodiadau (*scholia*). Ceir yr esamplau cliriaf a mwyaf priodol o'r gwahanol fathau a grybwyllwyd yn awr mewn mesuroniaeth (*mathematics*).

III. YMRESYMIAD A CHYFRESYMIAD.

1. Yr ydym yn awr yn dyfod at y drydedd ran, a'r olaf, o athrawiaeth rhesymeg bur, sef *ymresymiad*. Megys mai uniad syniadau â'u gilydd sydd yn gwneyd gosodiad, felly uniad gosodiadau â'u gilydd sydd yn gwneyd ymresymiad. Y mae dwy ffordd o edrych ar bob un o'r tair rhan sydd yn cyfansoddi athrawiaeth rhesymeg, fel yr ydym wedi gwneuthur yn yr erthygl hon; sef, y gweithrediadau meddyliol eu hunain, a'r corphoriad o honynt mewn iaith. Corphorir syniadau mewn ymadroddion—barnau mewn gosodiadau—ac ymresymiad mewn cyfresymiad (*syllogism*). Megys yn y rhan flaenorol yr ymdrinwyd â barnau a gosodiadau gyda'u gilydd—y naill yn cael ei egluro trwy y llall—felly bydd yn gyfleus i ni etto yn y rhan hon ymdrin âg ymresymiad a chyfresymiad gyda'u gilydd.

2. Gellir deffinio ymresymiad fel symmudiad y meddwl yn mlaen o un gosodiad neu chwaneg at osodiad arall gwahanol i'r rhai y cychwynwyd oddi wrthynt. Y gosodiadau oddi wrth ba rai yr ydym yn ymresymu a elwir yn gynseiliau (*premises*), a'r gosodiad a dynir oddi wrthynt a elwir yn gasgliad (*conclusion*). Dywedir fod yr olaf yn canlyn, yn cael ei gasglu, neu ei dynu oddi wrth y lleill; a gelwir y gosodiadau blaenaf yn "gynseiliau" am eu bod yn sylfeini cyntaf yr ymresymiad—neu yn y Saesneg, '*premises*,' am eu bod yn cael eu gosod yn mlaen, neu yn y dechreu (o'r Lladin *præ*, o flaen, a *mittere* anfon neu ddodi). Fel y dywedwyd o'r blaen tua dechreu yr erthygl, y mae hanfod y gweithrediad yn gynnwysedig mewn casglu y gwirionedd a gynnwysir yn y cynseiliau pan eu dodir ynghyd, a'i gario gyda ni i'r casgliad, lle y corphorir ef mewn gosodiad neu haeriad newydd.

3. Cyfresymiad (*syllogism*) yw yr enw cyffredin am gasgliad cyfryngol (*mediate inference*), neu gasgliad trwy gyfrwng, neu trwy derm canol; ac y mae i'w wahaniaethu oddi wrth y gweithrediad a elwir yn gasgliad digyfrwng neu uniongyrchol (*immediate inference*); sef, y casgliad a geir heb ddefnyddio term canol neu drydydd.

4. Yr ydys yn arfer defnyddio term canol neu gyfrwng pa bryd bynag yr ydys yn analluog i gymmharu neu i gyferbynu dau beth yn uniongyrchol â'u gilydd, ond y gallwn gyferbynu pob un o honynt â rhyw drydydd peth. Nis gallwn gymmharu maint dwy ystafell trwy osod y naill yn y llall, ond gallwn fesur pob un o honynt gyda 'dwy droedfedd,' neu rhyw fesur cyfaddas

Digitized by Google

arall, yr hwn sydd yn ffurfio mesur cyffredin, ac yn ein galluogi i gael allan gydag unrhyw radd angenrheidiol o gywirdeb eu mesurau yn gyferbyniol i'w gilydd. Tybier fod arnom eisieu cymmharu dau lwyth o ŷd â'u gilydd; ni byddai yn angenrheidiol dwyn yr oll o'r naill lwyth at y llall, ond yn unig gymmeryd cyfran fel cynllun o un llwyth—yr hwn a gynnrychiolai yn gywir ansawdd y llwyth hwnw; ac yn ol fel y byddai y cynllun hwn o un llwyth yn cyttuno neu yn anghyttuno â'r llall, felly y byddai y llwyth ei hunan.

5. Y mae y defnydd o derm canol mewn cyfresymiad yn dwyn tebygolrwydd agos, er nad hollol, i'r hyn ydyw yn yr enghreifftiau uchod. Tybier, er esampl, fod arnom eisieu gwybod a "ydyw môrfilod yn fyw-hiliog (*viviparous*)," ai nid ydynt, ac nad ydym mewn mantais i edrych i mewn i'r ffaith yn uniongyrchol; gallem er hyny ddangos eu bod felly os gwyddem fod "môrfilod yn anifeiliaid tethog (*mammalian*)," a bod "yr holl anifeiliaid tethog yn fyw-hiliog." Canlynai oddi wrth hyny fod "môrfilod yn fyw-hiliog." Tybier mai yr ymofyniad ydyw—"A ydyw Gwener yn troi o amgylch yr haul?" Os gwyddom "fod Gwener yn blaned," a "bod yr holl blanedau yn troi o amgylch yr haul," yna yr ydym yn gwybod oddi wrth y seiliau yna "fod Gwener yn troi o amgylch yr haul." Y term canol yn yr enghreifftiau yna ydyw "anifail tethog," a "phlaned."

6. Ystyr y gair *cyfresymiad* yw uno ynghyd mewn meddwl ddau osodiad, o *cyd* a *rheswm:* ac yn Saesneg yr un modd, *syllogism*, o'r ddau air Groeg σύν cyd, gyda, a λόγος, meddwl neu reswm. Y mae fel hyn yn hollol gyfystyr â'r gair Saesneg *computation* (cyfrifiant), yr hyn a olyga meddwl ynghyd (o'r Lladin *con*, ynghyd, a *puto* meddwl). Yr ydym mewn cyfresymiad yn uno mewn meddwl ddau gynsail, neu osodiadau wedi eu dodi yn mlaen, yn y fath fodd, fel ag yr ydym yn alluog i dynu oddi wrthynt, neu gasglu, trwy gyfrwng y term canol a gynnwysant, drydydd gosodiad a elwir y *casgliad.* Gellir darnodi cyfresymiad gan hyny fel y weithred o feddwl drwy yr hon yr ydys yn myned yn mlaen, oddi wrth ddau osodiad a roddwyd i lawr, at drydydd gosodiad—gwirionedd yr hwn sydd yn canlyn o angenrheidrwydd oddi wrth wirionedd y gosodiadau a roddwyd i lawr. Pan y mae ymresymiad fel hyn wedi ei ddadgan yn rheolaidd a chyflawn mewn iaith, gelwir ef yn gyfresymiad (*syllogism*).

7. Y mae rheolau neillduol y cyfresymiad wedi eu sylfaenu ar y deddfau o feddwl a'r canonau yr ydys wedi eu hegluro mewn rhanau ereill o'r erthygl. Gwasanaethant i'n hysbysu yn fanwl o dan ba amgylchiadau y gellir tynu un gosodiad oddi wrth ddau osodiad arall. Y maent yn wyth o nifer, fel y canlyn:—

(1.) Y mae i bob cyfresymiad dri, a dim ond tri therm. Gelwir y termau hyn y term mwyaf, y term lleiaf, a'r term canol.

(2.) Y mae pob cyfresymiad yn cynnwys tri, a dim ond tri, gosodiad. Gelwir y gosodiadau hyn y cynsail mwyaf, y cynsail lleiaf, a'r casgliad.

(3.) Rhaid i'r term canol gael ei ddosbarthu (*distributed*) unwaith o leiaf, a rhaid iddo beidio bod yn amwys.

(4.) Nid oes yr un term i'w ddosbarthu yn y casgliad, a'r na ddosbarthwyd yn un o'r cynseiliau.

(5.) Nis gellir casglu dim o gynseiliau nacaol.

(6.) Os bydd un cynsail yn nacaol, rhaid i'r casgliad fod yn nacaol; ac i'r gwrthwyneb—tu ag at brofi casgliad nacaol, rhaid i un o'r cynseiliau fod yn nacaol.

Y mae y ddwy ganlynol yn rheolau israddol, y gellir eu tynu oddi wrth y rhai blaenorol.

(7.) Nis gellir tynu unrhyw gasgliad oddi wrth ddau gynsail neillduol (*particular*).

(8.) Os bydd un cynsail yn neillduol, rhaid i'r casgliad fod yn neillduol.

Enghraifft o'r cyfresymiad:—

Y mae pob rhinwedd yn ganmoladwy;
Y mae sobrwydd yn rhinwedd;
Gan hyny, y mae sobrwydd yn ganmoladwy.

MODDAU A FFUGRAU Y CYFRESYMIAD.

Trwy gymmhwysiad o'r rheolau uchod, gallwn adnabod cyfresymiad gwir oddi wrth un nad ydyw felly ond mewn ymddangosiad. Ceisiwn yn awr gael allan y gwahanol ffurfiau yn y rhai y gellir rhoddi y cyfresymiad. Gwyddom fod yn rhaid i bob cyfresymiad cywir gynnwys tri gosodiad, a thri o dermau gwahanol, pob un yn digwydd ddwywaith yn y gosodiadau hyny. Gall pob gosodiad o'r cyfresymiad fod, mor bell ag y gwyddys etto, naill ai yn gadarnhaol neu yn nacaol, cyffredinol neu neillduol, fel nad yw yn anhawdd gwneuthur cyfrifiad o'r holl amrywiaethau possibl o foddau yn y rhai y gellir dychymygu i gyfresymiad gael ei chynllunio. Cofia y darllenydd ein bod o'r blaen wedi dyweyd fod y pedwar math o osodiadau, y rhai a eglurwyd eisoes, yn cael eu gosod allan trwy y pedair llafariad—*A*, *E*, *I*, *O*. Gall unrhyw un o'r pedwar math hyn o osodiadau gael ei gymmeryd fel cynsail mwyaf, a'i gyssylltu âg unrhyw un o'r un ffurf fel cynsail lleiaf, a gall unrhyw un o'r pedwar gael ei chwanegu etto fel casgliad. Ni a gaem fel hyn gyfres o gyssylltiadau neu o'r moddau i gyplysu y llythyrenau *A*, *E*, *I*, *O*, ychydig o ba rai a ddodwn i lawr yma fel enghraifft:—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| AAA | AEA | AIA | AOA | EAA | EEA |
| AAE | AEE | AIE | AOE | EAE | EEE |
| AAI | AEI | AII | AOI | EAI | EEI |
| AAO | AEO | AIO | AOO | EAO | &c., &c. |

Y mae yn hawdd gweled y bydd 4 × 4 × 4, neu 64 o gwbl, o'r cyfryw gyfuniadau o ba rai ni roddir uchod ond 23. Gall y darllenydd yn hawdd ysgrifenu allan y gweddill trwy gario yn mlaen yr un cyfnewidiad rheolaidd o'r llythyrenau. Fel hyn: gan ddechreu gydag *AAA*, yr ydym yn newid y llythyren ar ochr y llaw dde yn olynol i *E*, *I*, ac *O*, ac yna gwneyd yr un peth gan ddechreu gydag *AEA:* ar ol i'r llythyren ganol gael ei chario trwy ei holl gyfnewidiadau yr ydym yn dechreu newid y llythyren ar y llaw chwith. Gyda phob newidiad o hon y mae yn rhaid i ni fyned eilwaith drwy yr oll o un ar bymtheg newidiadau y llythyrenau ereill, fel y mae yn amlwg y bydd o gwbl 64 o foddau gwahanol yn y rhai y gallwn ddychymygu fod gosodiadau yn cael eu trefnu i gyfresymiadau.

Y mae ein herthygl wedi myned yn feithach nag yr oeddym wedi bwriadu iddi fod ar y dechreu; ond er hyny, yr ydym yn hyderu nad ystyrir hi yn rhy faith. Gallesid helaethu ar y rhan ddiweddaf o'r wyddor, ond ni a derfynwn ar hyn yma.—[Sir William Hamilton's "*Lectures on Logic;*" Jevons' "*Elementary Lessons in Logic;*" Mill's "*System of Logic;*" a Whately's "*Elements of Logic,*" &c., &c.]

Digitized by Google

RABELAIS, FRANCOIS. Ganwyd y gŵr hwn yn nhref Chinon yn y flwyddyn 1483. Pan oedd yn naw ml. oed, anfonwyd ef i fynachdy (*convent*) yn Seuilly, a pharhaodd yn fynach dros flynyddoedd goreu ei fywyd. Trosglwyddwyd ef o Seuilly i fynachdy La Baumette, ger Angers, lle y bu dan addysg yn yr ysgol a sefydlwyd yno gan y brenin Renè o Anjou, ac y daeth i gydnabyddiaeth â'r tri brawd enwog Du Bellay. Ar derfyn ei gwrs efrydawl yno, cymmerwyd ef i mewn i fynachdy Franciscaidd Fontenay le Comte; yn yr hwn y bwriadai barhau ei efrydiau. Cafodd Rabelais gyfleusderau rhagorol yn llyfrgell gyfoethog y sefydliad i gasglu gwybodaeth. Darllenodd bob llyfr a allai ei gael ar yr ieithoedd Groeg, Hebraeg, ac Arabaeg. Efrydodd weithiau yr holl awduron Lladinaidd oedd o fewn ei gyrhaedd; ac yn wir, pob math o lyfrau safonol ar wahanol ganghenau o wybodaeth. Yr oedd iddo gydymaith yn ei lafur, un o'r enw Pierre Amy, yr hwn hefyd oedd fynach; ac yn ystod ei ymweliadau â thref fechan Fontenay, cafodd gyfeillion yn mhersonau Andre Tiraqueau, yr hwn oedd gyfreithiwr, ysgolhaig, ac ysgrifenydd o fri; a Geoffroy d'Estissac, esgob Marllezais. Bu ei ymgyfeillach â'r dysgedigion hyn o gryn fantais iddo yn nadblygiad ei alluoedd meddyliol. Er mai mynach ydoedd efe, dywedir fod Rabelais yn ddyn o dueddfryd nwyfus—mwy tueddol i chwerthin nag i ollwng dagrau; ac mewn blynyddoedd i ddyfod, daeth y nodwedd hwn yn un o'r elfenau amlycaf a chryfaf yn ei gymmeriad.

Yn 1532, efe a aeth i Lyons i gyhoeddi ei lyfr cyntaf *Hippocratis et Galeni libri aliquot.* Arosodd yno fel meddyg i'r clafdy. Ar y pryd hwn, yr oedd Lyons mor enwog am ei dysgeidiaeth ag oedd Edinburgh ar ddechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yno yr oedd gweithdy yr argraphydd enwog Gryphe; o wasg yr hwn y cyhoeddwyd cynnifer a 300 o lyfrau, yn cynnwys Beibl Lladin 1550, yr hwn oedd yn hynod am ei gywirdeb a phrydferthwch ei argraph, a nifer o lyfrau ereill o ddysgeidiaeth uchel. Tra bu yn Lyons, dechreuodd Rabelais y gyfres o lyfrau a wnaeth ei enw yn hynod adnabyddus.

O ddeutu yr un adeg y dechreuodd yr awdwr ei Almanac, yr hwn a gariwyd yn mlaen ganddo am ddeunaw mlynedd. Yn 1534, aeth gyda'i gyfaill, y Cardinal Du Bellay, i Rufain; a dychwelodd gyda llyfr Marliani's ar y ddinas hono, yr hwn a gyfieithodd efe, ac a gyhoeddodd gyda nodiadau o'i eiddo ei hun. Ymwelodd â'r ddinas drachefn yn 1536, ac y mae rhai o'i lythyrau o'r Eidal at yr Esgob d'Estissac ar gael etto.

Cyn y fl. 1543, yr oedd efe yn brysur gyda'r gorchwyl o ysgrifenu ei drydydd llyfr. Archodd fod y ddau lyfr cyntaf yn cael eu darllen i'r brenin; yr hwn a foddhawyd mor fawr ynddynt fel y gorchymynodd efe i argraphiad newydd gael ei ddwyn allan o honynt. Hefyd, rhoddodd drwydded i Rabelais i gyhoeddi ei drydydd llyfr. Ni chydsyniwyd â'r cyntaf, sef dwyn argraphiadau newydd allan, ond argraphwyd y trydydd llyfr yn 1546. Y flwyddyn ddilynol, bu yr hen frenin farw, a chodwyd gwrthryfel yn erbyn rhyddid barn yn y wlad. Ymosodwyd ar Rabelais. Nid yn unig gwelsant feiau yn ei lyfrau cyntaf, ond argraphasant yr hyn a briodolent yn bedwerydd llyfr iddo. Diangodd yntau i Metz, ac oddi yno i Rufain, at y Cardinal Du Bellay. Modd bynag, ar enedigaeth mab i'r brenin Henry, ysgrifenodd Rabelais hanes y llawenydd a achoswyd; a chaniatawyd iddo ddychwelyd, a rhoddwyd iddo fywoliaeth Meudon. Wedi gweled llawer tro ar fyd ar ol hyn, efe a ddychwelodd i Paris yn y fl. 1553, a bu farw yno. Claddwyd ef wrth wraidd pren, ar yr hwn y cerfiwyd ei enw. Yn mhen deng mlynedd ar ol ei farwolaeth, ymddangosodd ei lyfr olaf—y pummed; yr hwn a adawyd ganddo ef mewn llawysgrifen.

RADCLIFFE, ANNE. Awdures ffugchwedleuon o fri, a anwyd yn Llundain, Gorph. 9fed, 1764. Ei henw morwynol ydoedd Ward; ond pan yn 23ain oed, priododd, yn Bath, un William Radcliffe, yr hwn, yn ddilynol, a ddaeth yn berchenog a golygydd papur wythnosol o'r enw *The English Chronicle.* Hi a ddangosodd duedd lenyddol yn foreu; ac yn 1789, hi a gyhoeddodd ei nofel gyntaf—*The Castles of Athlin and Dunbayne*, yr hon a ddilynwyd yn 1790 gan *A Sicilian Romance; The Romance of the Forest* (1791); *The Mysteries of Udolpho* (1794); a *The Italian* (1797). Derbyniodd 800*p.* am y ddiweddaf, a 500*p.* am *The Mysteries.* Ni chyhoeddodd hi un ffugchwedl ar ol hyn; ond bu yn teithio trwy Loegr a Chymru yn nghymdeithas ei phriod. Fel nofelyddes, dywedir ei bod yn sefyll rhwng Horace Walpole a Clara Reeve ar y naill law, a Syr Walter Scott ar y llaw arall. Yr oedd yn feistres yn y gelfyddyd o ddeffroi chwilfrydedd, a dwyn sylw y darllenydd. Dewisai beirniad o gryn deilyngdod, Mr. Crabb Robinson, ei hystoriau hi o flaen nofelau hanesyddol a chanmoladwy Syr Walter Scott ei hun. Dioddefodd Mrs. Radcliffe am ddeuddeng mlynedd oddi wrth ddiffyg anadl, a bu farw Chwefror 7fed, 1823.

RADCLIFFE, JOHN. Meddyg, a anwyd yn Wakefield, yn sir Gaerefrog, yn 1650. Graddiodd yn M.D. yn 1682. Yn mhen dwy flynedd, symmudodd i Lundain, lle, yn fuan, y daeth yn un o feddygon enwocaf a mwyaf poblogaidd ei oes. Yr oedd yn hynod am wreiddioldeb ei syniadau, ei allu i barablu, a'i ffraethineb digymmhar. Yn Nachwedd, 1695, bu farw, a chladdwyd ef yn eglwys St. Mair, Rhydychain. Gadawodd ei holl eiddo at amcanion cyhoeddus o'r hyn yr oedd 40,000*p.* i'w defnyddio i sefydlu y llyfrgell a elwid *The Radcliffe Library.*

RADETZKY, JOHANN JOSEPH. Pendefig, ac un o faeslywyddion y fyddin Awstriaidd. Ganwyd ef yn Nghastell Tyrebnitz, ger Tabor, yn Bohemia, Gorph. 2il, 1766. Cymmerodd ran yn y cadymgyrch cyntaf yn erbyn y Tyrciaid yn 1788—89; ac ymladdodd wedi hyny yn mron yn yr holl frwydrau rhwng yr Awstriaid a'r Ffrangcod, gan hynodi ei hun yn fawr. Yn 1831, pennodwyd ef i lywyddiaeth y fyddin yn nhiriogaethau Lombardy a Venetia; ac yn mhen pum mlynedd wedi hyny, gwnaed ef yn faeslywydd. Enwogodd ei hun ar hyd ei oes fel milwr. Cymmerodd ran mewn amryw o frwydrau gwaedlyd ar ol hyn, a hyny gyda llawer o lwyddiant. Yn Awst, 1849, pennodwyd ef yn llywodraethwr tiriogaethau Lombardy a Venetia, a llywodraethodd hwynt gyda llaw haiarnaidd hyd ddechreu 1857. Bu farw yn Milan, Ionawr 5ed, 1858, a chladdwyd ef yn Metzdorf, ger llaw Vienna.



Digitized by Google

RADOWITZ, JOSEPH VON. Gwleidydd Prwssiaidd, a anwyd Chwefror 6ed, 1797, yn Blankenburg. Wedi bod am amser yn myddinoedd Westphalia a Prwssia, daeth i gyssylltiad, trwy ei briodas, â phendefigaeth y wlad; ac yn fuan wedi hyny yn arweinydd y blaid wrthchwyldroadol. Yn 1836, anfonwyd ef fel dirprwy milwrol Prwssiaidd i ddeddfwrfa Germany yn Frankfort; a bu yn dal swyddogaethau diplomyddol cyfrifol yn Carlsruhe, Darmstadt, a Nassau. Efe oedd cynghorwr y brenin Frederick William IV. yn ei ymdrechiadau i ddwyn o amgylch ddiwygiad yn y ddeddfwrfa Ellmynaidd. Ei waith ef, yn benaf, oedd yr ymdrechion a wnaed gan Prwssia, ar ol chwyldroad 1848, i roddi cyfansoddiad gwladol i Germany trwy foddion cynghrair y tri brenin. Ysgrifenodd amryw lyfrau, y rhai ydynt yn benaf o natur wleidyddol. Bu farw Rhagfyr 25ain, 1853.

RAEBURN, SYR HENRY, R.A. Arlunydd, a anwyd Mawrth 4ydd, 1756, yn Stockbridge, ger Edinburgh; lle yr oedd ei dad yn fasnachwr a melinydd. Derbyniodd beth o'i addysg dan David Deuchar a David Martin; a phan yn lled ieuangc, daeth yn fedrus mewn tynu darluniau. Priododd pan yn 22ain, Anne Edgar, gweddw y Count Leslie; yr hon oedd foneddiges o gyfoeth. Bu yn dilyn ei alwedigaeth yn Edinburgh am ryw gymmaint o amser, ac yna aeth i'r Eidal i efrydu y gelfyddyd yn mhellach. Arosodd yno ddwy flynedd; ac ar ei ddychweliad, yn 1787, sefydlodd eilwaith yn Edinburgh. Yn fuan iawn ystyrid ef yn un o arlunwyr blaenaf Ysgotland. Yn 1812, etholwyd ef yn llywydd Cymdeithas yr Arlunwyr yn Edinburgh; yn 1814, yn gydymaith (*associate*) o'r Athrofa Frenhinol yn Llundain; a'r flwyddyn ddilynol, yn aelod llawn (R. A.) o'r athrofa. Urddwyd ef yn farchog gan Sior IV. yn ystod ymweliad y penadur hwnw â'r Alban yn 1822. Efe a fu farw yn ninas Edinburgh, Gorphenaf 8fed, 1823.

RAFF AB RHOBERT. Bardd a flodeuai tua'r flwyddyn 1530, yn ol Morris Williams. Y mae ychydig o'i waith etto ar gael.

RAFFLES, SYR THOMAS STAMFORD. Mab oedd efe i gadben morwrol; a ganwyd ef yn nghyffiniau Port Morant, yn Jamaica, Gor. 5ed, 1781. Wedi dal amryw o fân swyddau, pennodwyd ef, yn 1811, yn ysgrifenydd i Argl. Minto, prif lywydd y cadymgyrch yn erbyn Java. Cymmerwyd yr ynys, a phennodwyd Raffles yn llywodraethwr cyffredinol arni, a'r ynysoedd cyssylltiol. Cafodd gryn drafferth i ddwyn y tywysogion brodorol i ddygymmod â llywodraeth Brydeinig, ac i ddwyn o amgylch ddiwygiad trwyadl yn ngweinyddiad amgylchiadau mewnol yr ynys; yn yr hyn y llwyddodd efe i raddau helaeth Yn yr ymdrechion hyn, torodd ei iechyd i lawr; ac yn 1816, efe a ddychwelodd i Loegr. Arosodd yn ynys St. Helena ar y ffordd, a chafodd gryn ymdrafodaeth yno gyda'r Ymherawdwr Napoleon. Wedi iddo gyrhaedd Lloegr, efe a ysgrifenodd ei *History of Java*, mewn dwy gyfrol—ac a dderbyniodd urdd marchog. Cafodd fyw i gario allan yr hyn a fu yn llanw ei fryd am flynyddoedd lawer, sef sefydlu Cymdeithas Filofyddol Llundain, i'r hon yr enwyd ef yn llywydd. Bu farw Gorphenaf 5ed, 1826.

RAGLAN, ARGLWYDD. Fitzroy James Henry Somerset oedd ei enw; ac efe ydoedd wythfed mab y pummed Dduc o Beaufort, a ganwyd ef Medi 30ain, 1788. Pan yn 16eg oed, ymunodd â'r fyddin; ac yn 1807, gweinyddai ar osgorddaw (*staff*) y Duc o Wellington yn ei ymdaith filwrol i Copenhagen. Aeth i'r Peninsula hefyd fel cadweinydd (*aide-de-camp*) i'r duc; ac yn 1812, pennodwyd ef yn ysgrifenydd milwrol iddo. Yr oedd yn bresennol yn yr holl frwydrau mawrion a gymmerasant le yn Yspaen, ac yn un o'r rhai cyntaf i dori i mewn i Badajoz ar ol y rhuthrgyrch. Iddo ef y rhoddodd y llywodraethwr ei gleddyf ar ei orchfygiad. Ar ddychweliad Napoleon o Elba, bu yn gweinyddu o dan y Duc o Wellington yn Flanders; ac wedi hyny yn mrwydr fythgofiadwy Waterloo—yn yr hon y collodd ei fraich ddeheu. Y dydd dilynol i'r ddamwain hon, cafwyd ef yn dysgu ysgrifenu â'i law chwith. Rhoddwyd iddo amryw urddau am ei wasanaeth milwrol gwerthfawr. Yn 1815, yr oedd yn Paris, fel cenhadwr llawn dros y wlad hon; ac o 1816 hyd 1819, bu yn ysgrifenydd i'r llysgenhadwr yn Ffraingc. Yn 1827, pan bennodwyd Wellington yn brif gadlywydd y fyddin Brydeinig, galwyd Arglwydd Fitzroy Somerset i swyddfa yr *Horse Guards* yn Llundain, fel ysgrifenydd milwrol iddo; a daliodd hi hyd farwolaeth y duc yn Medi, 1852. Yn lled fuan ar ol hyn, dyrchafwyd ef i dŷ yr arglwyddi dan y teitl o Arglwydd Raglan o Raglan, yn sir Fynwy. Yr oedd efe yn flaenorol wedi bod yn eistedd yn nhŷ y cyffredin yn seneddau 1818 ac 1826, fel aelod dros Truro. Yn Medi, 1854, anfonwyd ef allan fel prif gadlywydd y fyddin Brydeinig a yrwyd i'r Crimea. Rhifai y milwyr Prydeinig 25,000; a bu y rhan a gymmerodd efe yn mrwydr waedlyd Inkerman yn foddion i sicrhau iddo fatwn maeslywydd. Pa fodd bynag, fel yr oedd y cadymgyrch yn ymsymmud rhagddo, dechreuodd sylwadau anffafriol gael eu gwneyd ar ei gynllun ef o arwain y gâd. Yn ngauaf 1854—55, dioddefodd ei filwyr yn ddirfawr o flaen Sebastopol, a threngodd cannoedd o honynt—o ddiffyg ymborth, dillad, a chyfferïau. Yr oeddynt wedi eu hystorio yno; ond ni ellid cael gafael arnynt, o herwydd yr aflerwch a ffynai—bai yr awdurdodau cartrefol, gan mwyaf. Parhaodd y gwarchauad heb ond ychydig o lwyddiant ymddangosiadol hyd Mehefin, 1855, pan y gorchymynwyd fod i ymosodiad cyffredinol gael ei wneyd. Yn yr ymosodiad hwn, curwyd milwyr Raglan a'r milwyr Ffrengig yn ol gyda chanlyniadau alaethus. Bu ei arglwyddiaeth yn dioddef oddi wrth ymosodiad ysgafn o'r geri (*cholera*); ac yn lled fuan, bu farw ar Mehefin 28ain, 1855. Dygwyd ei weddillion drosodd i Loegr, a chladdwyd hwy yn nghladdfa y teulu yn Badminton.

RAIKES, ROBERT. Gwel cyf. x., dan y gair YSGOL SABBOTHOL.

RAMBOUILLET, CATHERINE DE VIVOUNE, MARQUISE DE. Un o ferched enwocaf a galluocaf yr ail ganrif ar bymtheg. Ganwyd hi yn Rhufain, yn 1588. Ei thad oedd Jean de Vivoune—wedi hyny yr Ardalydd o Pisani; ac yr oedd ei mam, Julia Savelli, yn hânu o deulu Italaidd henafol a pharchus. Pan yn ddeuddeng mlwydd oed, priododd Charles

Digitized by Google

d'Angennes, mab yr Ardalydd de Rambouillet, yr hwn a ddaeth i feddiant o'r etifeddiaeth a'r teitl ar farwolaeth ei dad, yn 1611. O'r adeg y rhoddodd ei throed gyntaf yn Ffraingc, hi a ddechreuodd gashau arferion anfoesol y llys Ffrengig, a phenderfynodd gasglu o'i chylch ei hunan nifer o gyfeillion detholedig. Yr oedd hi yn wraig rinweddol, a gwir alluog; ac ni chafodd hi nemawr o drafferth i ddwyn at eu gilydd y dynion a'r merched mwyaf talentog ac enwog o fewn y wlad. Am ysbaid o hanner canrif, ymgyfarfyddai y bobl hyn yn yr Hôtel Rambouillet—beirdd, llenorion, ysgolheigion, beirniaid, celfyddydwyr, &c., megys Malberbe, Racan, Balzac, Voiture, Corneille, Mènage, Chapelain, La Rochefoucauld, yn mysg y dynion; a Mademoiselle de Scudèry, y brydferth Dduces de Chevreuse, Mademsoille de la Vergne, Madame de Sèvigne, a'r Dduces de Longueville, yn mysg y merched. Machludodd pwysigrwydd y wraig hon dan deyrnasiad Louis XIV.; yr hwn na feddai nemawr o ymddiried mewn merched rhinweddol a galluog o'i bath hi. Bu farw yn Rhagfyr, 1665.

RAMSAY, ALLAN. Bardd Ysgotaidd, a anwyd yn mhlwyf Crawford, yn swydd Lanark, Hydref 15fed, 1686. Bu yn dilyn ei alwedigaeth fel gwneuthurwr perwigoedd nes bod yn 30ain oed. Yr adeg hon, daeth i sylw y cyhoedd fel bardd, trwy iddo gyhoeddi amryw o fân ddarnau barddonol o'i eiddo. Rhoddodd ei alwedigaeth gyntaf i fyny, a dechreuodd fasnachu fel llyfrwerthwr. Chwanegodd at y fasnach hon fath o lyfrgell gylchredol:—y gyntaf, fe dybir, a sefydlwyd yn Ysgotland. Bu yn hynod lwyddiannus yn ei amgylchiadau bydol a llenyddol; yn gymmaint felly fel y galluogwyd ef, yn 1755, i ymneillduo i fyw i dŷ cyfleus a adeiladodd efe. Ni chymmerodd Ramsay ei arwain gan ei lwyddiant fel bardd oddi wrth ei fasnach: nid oedd gronyn o falchder na choegni yn ei natur. Treuliodd y tair neu y pedair blynedd olaf o'i fywyd yn weddol gysurus; a bu farw Ionawr 7fed, 1 58. Cafodd y pleser o weled ei unig fab, a adawyd yn fyw iddo, yn ennill cymmeriad uchel fel arlunydd; a'r hwn, yn y flwyddyn 1767, a bennodwyd yn brif arlunydd i'r brenin. Y mae argraphiad cyflawn o farddoniaeth Ramsay yr hynaf wedi ei gyhoeddi gan Chalmers.

RANDOLPH, EDMUND JENNINGS. Gwleidydd Americanaidd, a anwyd yn Williamsburg, Virginia, Awst 10fed, 1753. Dygwyd ef i fyny yn fargyfreithiwr; ac yn 1776, bu yn cynnorthwyo i dynu allan amlinelliad o gyfansoddiad gwladol Virginia; a phennodwyd ef yn dwrnai cyffredinol cyntaf y dalaeth. Yn 1786–88, bu yn dal y swydd o lywodraethwr y dalaeth: yn ystod yr hwn amser hefyd yr oedd yn aelod o'r gynnadledd fu yn amlinellu cyfansoddiad yr Unol Dalaethau. Yn 1789, pennodwyd ef gan Washington yn dwrnai cyffredinol i'r holl dalaethau. Gwnaed ef yn ysgrifenydd gwladol y talaethau yn 1794; ond pan lawnododd yr arlywydd yr hyn a elwid yn *Jay Treaty*, yn 1795, efe a ymddiswyddodd, mewn trefn i amddiffyn ei ymddygiad ei hun yn y mater. Bu hyn yn ddinystr iddo mewn mwy nag un ystyr; ac ni lwyddodd mwyach i ennill y safle uchel a gollodd. Bu farw Medi 13eg, 1813.

RANDOLPH, JOHN, o Roanoke. Ganwyd ef yn Cawsons, Virginia, Mehefin 2il, 1773. Yr oedd yn berthynas i Edmund Randolph. Yn 1799, etholwyd ef i gyngres y talaethau, lle y daeth yn enwog yn fuan o herwydd ei hyawdledd, ei ffraethineb, ei watwareg, a'i ddifrïaeth, &c.; ac am ysbaid o ddeng mlynedd ar hugain, siaradwyd ac ysgrifenwyd mwy am dano nag am un gwleidydd Americanaidd arall. Efe oedd arweinydd democrataidd tŷ y cynnrychiolwyr; ond cwerylodd â Jefferson, a gwrthwynebodd ryfel 1812. O 1825 hyd 1827, bu yn eistedd yn y senedd; ac yn 1830, pennodwyd ef yn weinidog tramor y talaethau yn Rwssia. Yn ei ewyllys, efe a ryddhaodd ei gaethion, ac a ddarparodd ar gyfer eu sefydliad mewn trefedigaeth rydd. Bu farw yn Philadelphia, Mehefin 24ain, 1833.

RANDOLPH, SYR JOHN. Goruchwyliwr ffyddlawn i'r frenhines Elizabeth, a anwyd yn 1523. Tra y bu Mari yn teyrnasu, yr oedd ei fywyd beunydd mewn perygl; a bu raid iddo aros mewn gwledydd tramor hyd ei marwolaeth. Ond wedi esgyniad Elizabeth, gwasanaethai yn fynych ar genadwriaethau diplomyddol yn Ffraingc, Rwssia, ac yn arbenig yn Ysgotland. Yn 1559 yr anfonwyd ef i'r Alban gyntaf; ond am ysbaid o ugain mlynedd ar ol hyny, cymmerodd ran flaenllaw ar ran y frenh nes yn nghwestiynau gwleidyddol dyrus y wlad hono. Bu ei fywyd mewn perygl amryw weithiau yn ystod yr anturiaethau hyn. Bu farw yn 1590.

RANDOLPH, THOMAS. Bardd a chwareuwr, a anwyd yn swydd Northampton, yn 1605. Dechreuodd ysgrifenu pan yn ieuangc, a daeth yn gyfeillgar gyda Syr Aston Cockain, Shirley, a Ben Jonson; yr hwn a'i mabwysiadodd fel un o'i feibion barddonol. Ymddengys iddo fyw bywyd lled derfysglyd; a rhoddir disgrifiad yn un o'i weithiau barddonol o'r modd y collodd ei fŷs mewn cweryl. Bu farw yn 1635, cyn i'w alluoedd ymddadblygu nemawr. Gadawodd nifer o gyfansoddiadau barddonol o deilyngdod uchel ar ei ol, ynghyd â chwech o chwareugerddi—*Aristippus, or the Jovial Philosopher; The Conceited Peddler; The Jealous Lovers; The Muses' Looking-glass; Amyntas, or the Impossible Dowry;* ac *Hey for Honesty.*

RANKE, LEOPOLD VON. Yr enwocaf o holl haneswyr yr Almaen. Ganwyd ef Rhagfyr, 1795, yn Wiehe—lle rhwng Gotha a Halle. Er iddo fod yn efrydu duwinyddiaeth ac ieitheg yn Halle a Berlin, yr hyn yr ymhyfrydai fwyaf ynddo oedd hanesiaeth. Yn 1824, ysgrifenodd waith pwysig, yn dwyn y teitl *Geschichte der romanischen und germanischen Völker von 1494 bis 1535*; ac un arall o'r enw *Zur Kritik neuerer Geschichtschreiber:*—a chymmaint oedd y galln a arddangoswyd ganddo yn y gweithiau hyn fel y derbyniodd alwad, yn 1825, i fyned i Berlin yn athraw hanesyddol. Yn y gwaith olaf a enwyd, ac mewn un arall, *Analecta*, a gyhoeddwyd ganddo yn ddilynol, ceir ei syniad ar swyddogaeth yr hanesydd. Croniclo ffeithiau yn unig yw ei waith; ac ni ddylai yr hanesydd gwirioneddol gymmeryd ei ddylanwadu o gwbl gan bleidiau politicaidd neu eglwysig, na chan ei olygiadau ei hun chwaith. Yn 1827, anfonwyd ef gan lywodraeth Prwssia i chwilio i

Digitized by Google

mewn i gofysgrifau Vienna, Venice, Rhufain, a Florence. Treuliodd bedair blynedd gyda'r gorchwyl hwn, a dychwelodd gyda thoraeth o'r defnyddiau hanesyddol mwyaf gwerthfawr. Corphorwyd ffrwyth ei lafur yn ei weithiau:—*Fürsten und Völker von Sud-Europa im* 16 *und* 17 *Jahrhundert*, a llyfrau hanesyddol eraill yn ymwneyd â Servia, Twrci, a Venice; hefyd, ei *Die römischen Päpste im* 16 *und* 17 *Jahrhundert* (1834—37), yr hwn a ystyrir y mwyaf gorphenedig o'i weithiau, ac hefyd yn gampwaith yn mysg cyfansoddiadau hanesyddol y byd. Ar ol hyn, efe a drodd ei sylw i ganolbarth a gogleddbarth Ewrop. Cymmerwyd sylw ganddo o gyfnodau diweddarach, a chyfnodau arbenig mewn hanesiaeth Ellmynig mewn llyfrau a ysgrifenwyd ganddo ar Ddechreuad y Rhyfel Saith Mlynedd; ac ysgrifenodd hanes Germany a Ffrainge yn y 19eg ganrif yn 1874, ynghyd â llawer o lyfrau pwysig eraill ar wahanol gyfnodau a phersonau yn hanes ei wlad enedigol. Pan yn 82ain mlwydd oed, dechreuodd ysgrifenu ei *Die Weltgeschichte*, yr hwn a gyhoeddwyd mewn naw o gyfrolau. Y gwaith hwn ydyw y maen clô yn llafur hanesyddol Ranke, er na bu efe byw ond hyd argraphiad y seithfed gyfrol. Bu farw Mai 23ain, 1886, pan dros 90ain mlwydd oed.

RAPIN DE THOYRAS. Ganwyd ef yn Castres, Mawrth 25ain, 1661, yn nhiriogaeth Languedoc, a disgynai o deulu Protestanaidd a breswylient yn Savoyard, ond a ymsefydlasant yn Ffrainge yn yr 16eg ganrif. Pan ddirymwyd cyhoeddiad Nantes (*The Edict of Nantes*), yn 1685, gorfu iddo adael Ffrainge. Daeth drosodd i Loegr i geisio gwaith, ond bu yn aflwyddiannus. Wedi hyny, aeth i Holland; lle yr ymrestrodd mewn catrawd o wirfoddolwyr yn Utrecht, a ffurfiwyd gan berthynas iddo o'r enw Daniel de Rapin. Yn 1688, efe a ddilynodd, gyda'r gatrawd, y Tywysog o Orange i Loegr, gan arddangos gwroldeb mawr yn ystod gwarchauad Carrickfergus; ac yn rhyfel y Boyne, a gwarchauad Limerick—lle y saethwyd ef trwy ei ysgwydd. Yn 1693, pennodwyd ef yn athraw i fab Iarll Portland; gyda'r hwn y bu yn teithio yn Holland, Germany, a'r Eidal. Yn ddilynol, bu yn preswylio yn yr Hague; ond yn 1707, aeth gyda'i deulu i fyw i Wesel, yn yr hwn le y treuliodd y 17eg mlynedd gweddill o'i fywyd i gyfansoddi ei waith mawr o hanes Lloegr—*Histoire d'Angleterre*. Cyhoeddwyd y gwaith hwn mewn wyth cyfrol y flwyddyn cyn ei farwolaeth; a hwn, yn ddiammheuol, fel y dywedai Voltaire am dano, oedd y gwaith goreu a manylaf ar hanes Lloegr a gyhoeddwyd cyn yr adeg hono. Bu Rapin farw Medi 16eg, 1725.

RASK, RASMUS CHRISTIAN. Ieithyddwr enwog, a anwyd yn Brändekilde, ger Odense, o fewn Ynys Fünen, Tach. 22ain, 1787. Yn y fl. 1808, efe a gyhoeddodd ei waith cyntaf ar reolau yr iaith Icelandaidd. Yn ystod y blynyddoedd rhwng 1807 ac 1812, bu yn brysur yn ffurfio cyfundrefnau grammadegol ar gyfer yr ieithoedd Germanaidd, Slavonaidd, &c., gan gymmharu yr ieithoedd hyny hefyd âg eiddo yr India. Trethodd ei iechyd yn ormodol trwy fywyd o lafur llenyddol dirfawr; a bu farw Tachwedd 14eg, 1832, yn yr oedran cynnar o 45ain mlwydd.

READE, CHARLES. Nofelydd, ac awdwr chwareu-gerddi, a anwyd Mehefin 8fed, 1814. Yswain parchus oedd ei dad, yn swydd Rhydychain; ac efe oedd yr ieuangaf o un ar ddeg o blant. Yn 1835, etholwyd ef i gymmrodoriaeth lëygol yn Ngholeg Magdalen, Rhydychain; ac yn 1842, galwyd ef yn fargyfreithiwr yn Lincoln's Inn. Ychydig a ymarferodd efe ar ei alwedigaeth gyfreithiol. Yn y flwyddyn 1850 y dechreuodd efe ysgrifenu o ddifrif; ond ei gynnyrchion, gan mwyaf, y pryd hwnw oeddynt chwareu-gerddi; ac aflwyddiannus fu ei ymdrechion yn y cyfeiriad hwn, gan na chwareuwyd nemawr un o'i gyfansoddiadau. Bu farw yn Shepherd's Bush, Gwener y Groglith, Ebrill 11eg, 1884, a chladdwyd ef yn mynwent Willesden.

RECORDE, ROBERT. Mesuronydd enwog, a anwyd yn Ninbych-y-pysgod, yn sir Benfro. Mab oedd efe i Thomas Recorde, o'r un lle, a Rose, ei wraig, merch i Thomas Jones, o Fachynlleth. Bu dan addysg yn Rhydychain, lle y daeth yn gymmrawd o Goleg yr Holl Saint, ac y graddiodd yn B.A. Ar ol hyn, ymroddodd i efrydu physygwriaeth; ac yn 1545, graddiwyd ef yn ddoethawr yn y gangen hono yn Nghaergrawnt. Daeth yn fawr ei glod yn mysg ei gydysgolheigion, o herwydd ei wybodaeth ëang yn y gwyddonau a'r celfyddydau. Ond y gangen yr ymhyfrydai efe fwyaf ynddi ydoedd rhifyddiaeth ac uwchrifyddiaeth; a dywedir y byddai yn alluog i wneyd cyfrinion y canghenau hyn yn fwy clir nag un athraw arall o fewn y wlad. Efe oedd yr ysgrifenydd gwreiddiol cyntaf ar rifyddiaeth yn Saesneg; a'r cyntaf ar fesuroniaeth hefyd. Efe oedd y cyntaf a ddaeth â gwybodaeth o *algebra* i Loegr—a'r cyntaf o fewn y wlad i fabwysiadu cyfundrefn seryddol Copernicus. Efe ydoedd dyfeisydd y cynllun presennol o dynu allan y petryal gwreiddiol (*square root*), a dyfeisydd yr arwyddlun o gyfartaledd; ac efe oedd darganfyddydd amryw o ddeddfau eraill mewn uwchrifyddiaeth. Yn 1547, yr oedd yn byw yn Llundain, ac yn dilyn yr alwedigaeth feddygol. Yn anffodus, syrthiodd i ddyled, a rhoddwyd ef yn Ngharchar y Brenin—lle y bu farw yn 1558. Ni a roddwn yma restr o'i lyfrau cyhoeddedig:—*The Grounde of Arts, teachinge the Work and Practise of Arithmetike, both in whole Numbers and Fractions.* Cyhoeddwyd hwn gyntaf yn 1540; ond helaethwyd ef gan Dr. Doe yn 1573. *The Pathway to Knowledge, containing the First Principles of Geometrie, as they may moste aptly be applied unto Practise, both for use of Instruments Geometricall and Astronomical, and also for Projection of Plattes in every kinde, and therefore much necessary for all sortes of men.* Ysgrifenodd amryw lyfrau eraill hefyd; ac yn eu mysg draethodau ar y Sacrament, y Gyffesgell, Difyniaeth, a Gwir Ddelw o Werinlywodraeth.

REES, PARCH. DAVID. Pregethwr gyda'r Bedyddwyr oedd efe; ac yn dal cyssylltiad âg eglwys yr Hengoed. Ganwyd ef yn 1683; a bu am amser o dan addysg gyda'r enwog Samuel Jones, o Frynllywarch. Yn y bl. 1706—8, efe a gafodd wahoddiad i Lundain i weinidogaethu i'r eglwys yn Limehouse, lle yr ordeiniwyd ef. Ysgrifenodd, a chyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i eiddo—***Adnodau o rai lleoedd cableddus a sarhaus o lyfrau a osodwyd allan gan Mr.***

Digitized by Google

*Fowler Walker, mewn llythyr at yr awdwr yn mhlaid y Cynnulleidfaoedd tan Fedydd yn Neheudir Cymru*—1732; *Infant Baptism no institution of Christ, and the rejection of it justified from Scripture and Antiquity, in answer to Mr. Fowler Walker's Book, entitled, A Defence of Infant Baptism; to which is annexed, Animadversions on the Dr. Thomas Ridgley's Dissertation on Infant Baptism.* Bu farw yn 1748, yn 64ain mlwydd oed.

REES, Parch. DAVID. Mab ydoedd efe i Rees Rees, o'r Gymrig, yn mhlwyf Llanfynydd, yn sir Drefaldwyn. Ganwyd ef yn 1751. Ychydig o addysg fydol a gafodd—dim mwy nag a'i galluogai ef i ymwneyd â negeseuau y bywyd hwn. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn 1782; a daeth yn ebrwydd yn gymmeradwy. Yn 1811, yr oedd yn un o'r nifer a etholwyd gan y cyfundeb i'w bordeinio i weinyddu yr ordinhadau am y waith gyntaf. Ystyrid ef yn ŵr ffyddlawn iawn fel gweinidog, yn dduwinydd trwm, ac yn meddu ar wybodaeth ysgrythyrol helaeth. Byddai teithio i bregethu yn hyfrydwch mawr iddo. Yr oedd bob amser yn syml a siriol, ac yn lled boblogaidd fel dyn cyhoeddus. Bu farw Medi 10fed, 1818, yn 67ain mlwydd oed.

REES, DAVID. Mab ydoedd efe i'r Parch. William Rees, D.D. (*Gwilym Hiraethog*). Ganwyd ef yn Heol Mostyn, yn sir Fflint, Tach. 28ain, 1835; a bu farw yn Liverpool, ar ol cystudd maith, Medi 14eg, 1856, cyn cyrhaedd 21ain oed. Er bered fu ei oes, ac er trymed ei gystudd, rhoddodd brofion diammheuol o'i alluoedd cryfion, a'i athrylith ddisglaer; a disgwyliodd ei dad cryn lawer oddi wrtho. Bu am ysbaid yn ysgrifenydd mewn swyddfa fasnachol yn Liverpool; yr hon swydd a roddodd i fyny, o herwydd afiechyd, yn 1854. Cafodd sefyllfa drachefn yn adran Liverpool o Ariandy Gogledd a Deheudir Cymru; ond o herwydd ei fod yn dymuno cael myned allan i'r wlad, symmudwyd ef, yn Awst, 1855, i ariandy Dinbych. Bu ar ol hyn yn ymofyn am adferiad nerth mewn manau eraill, ond yn ofer; o blegid yr oedd y darfodedigaeth wedi cymmeryd gafael yn ei gyfansoddiad:—a bu farw fel y nodir uchod. Yr oedd yn ŵr ieuangc o ymddygiad syml a diffrycheulyd, ac yn Gristion dilychwin. Ac yn chwanegol at ei rinweddau moesol, yr oedd pob arwyddion y deuai, cyn hir, fel ei dad talentog, yn addurn i lenyddiaeth ei wlad enedigol. Darllenai ac efrydai lawer; a hyny dan anfanteision afiechyd parhaol. Cyhoeddodd ei dad fywgraphiad dyddorol am dano, dan y teitl 'Fy Mab,' yr hwn a ymddangosodd gyntaf yn y *Traethodydd*, ac wedi hyny yn llyfryn.

REES, JOHN. Ganwyd ef yn mhlwyf Pedr, Caerfyrddin, Ebrill 20fed, 1770. Pan yn ieuangc, bu yn gwrandaw ar John Wesley amryw weithiau: ond wrth wrandaw ar yr enwog William Huntington, yn nghapel Providence, yn Llundain, tueddwyd ei feddwl i gofleidio egwyddorion y Calfiniaid. Ymunodd yn gyntaf â chynnulleidfa Huntington, yna â chyfundeb yr Iarlles Huntington. Yn 1794, dychwelodd i Gaerfyrddin, i ymsefydlu mewn masnach; ac ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd, a dechreuodd bregethu gyda hwynt. Yn 1806, symmudodd i Lacharn; a thra yno, bu yn hynod o ymdrechgar i efengyleiddio y lle Saesnig hwnw. Ar ol claddu ei wraig, bu yn symmudol, gan lafurio fel math o genhadwr cartrefol yn Mristol, Llundain, a Chasnewydd-ar-Wysg, &c. Yn y fl. 1811, yr oedd yn un o'r pregethwyr cyntaf a neillduwyd i weinyddu yr ordinhadau yn nghorph y Methodistiaid. Yn ddilynol, bu yn gweinidogaethu yn mhlith y Saeson mewn cyssylltiad â chymdeithasau Mr. Whitfield, neu yr Iarlles Huntington, yn Radborough, yn sir Gaerloyw; a phan elai i Lundain, yr oedd yn boblogaidd iawn yn y Tabernacl, Tottenham Court Road, Savoy, a Seion. Dygwyd ef i sylw y Llundeinwyr trwy ganmoliaeth y Parch. Mathew Wilkes, yr hwn a'i clywodd yn ddamweiniol; a'r hwn, pan ofynwyd iddo 'Pa fodd y pregethodd y Cymro?' a attebodd 'O! efe a bregethodd yn y fath fodd fel y gwnaeth i mi gywilyddio o honof fy hun. Yr oeddwn yn meddwl wrth ei wrandaw na cheisiwn i bregethu drachefn. Mae'n rhaid fod y fath weinidogaeth dan fendith y Goruchaf.' Wedi bod yn Radborough am naw mlynedd, derbyniodd alwad, yn 1823, i weinidogaethu yn nghapel Crown street, Llundain; a chyrchai Ymneillduwyr ac Eglwyswyr, gwreng a boneddig, yno i'w wrandaw. Bu farw Ionawr 6ed, 1833, yn 63ain mlwydd oed.

REES, OWEN. Gŵr a fu am lawer o flynyddau yn aelod o'r cwmni enwog o gyhoeddwyr yn Llundain:—*Longman, Rees, and Longman.* Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain, ac ystyrid ef yn fasnachwr rhagorol. Casglodd gyfoeth mawr; ac ymneillduodd i'r Gelligron, yn sir Forganwg; lle y bu farw Medi 7fed, 1837, yn 67ain mlwydd oed.

REES, Parch. RICE. Mab ydoedd efe i David a Sarah Rees. Yr oedd ei fam yn ferch i Mr. Rice Rees, o Lanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn Tonn, Llandingad, ger y dref hono, Mawrth 31ain, 1804. Bu dan addysg yn Ysgol Rammadegol Llanbedr, dan y Parch. Eliezer Williams, ficer y plwyf, a'i olynydd, y Parch. J. Williams—wedi hyny yr enwog Archddiacon Ceredigion. Ar ol hyny, bu yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain; a gwnaed ef yn gymmrawd, Rhagfyr, 1828. Urddwyd ef yn ddiacon yn Rhydychain yn 1827, ac yn offeiriad yn 1828. Pan yr oedd Coleg Llanbedr ar fedr cael ei agor, ac y penderfynwyd y dylai un o'r athrawon fod yn ysgolhaig Cymraeg da, a chlasurol, gwahoddwyd Mr. Rees i ymgymmeryd â'r swyddau pwysig o athraw Cymraeg, ac athraw clasurol, a llyfrgellydd y coleg. Dechreuodd yntau ar ei ddyledswyddau yn mis Mawrth 1af, 1827; a llanwodd hwynt gyda chlod iddo ei hun, ac anrhydedd i'r coleg. Yn fuan ar ol hyn, pennodwyd ef gan Esgob Tŷ Ddewi yn un o'r arholwyr Cymreig, er profi cymmhwysderau y sawl a weinyddent mewn plwyfi na siaredid ond yr iaith Gymraeg ynddynt. Yn Hydref, 1838, pennodwyd ef yn gaplan teuluaidd i'r esgob hefyd. Yn Eisteddfod Caerdydd, yn 1835, ennillodd y wobr ar y traethawd goreu yn Saesneg o hanes y seintiau Cymreig. Canmolid y gwaith yn fawr gan y beirniaid, gyda chymmhelliad fod iddo gael ei gyhoeddi. Helaethwyd cryn lawer arno gan yr awdwr, a chyhoeddwyd ef yn Llanymddyfri y flwyddyn ganlynol, dan y teitl *An Essay on Welsh Saints, or the Primitive Christians, usually*

Digitized by Google

*considered to have been the Founders of Churches in Wales.* Rhoddwyd derbyniad calonog i'r llyfr gan ysgolheigion Celtaidd; a dyfynir ef hyd heddyw fel yr awdurdod uchaf ar y testyn. O herwydd ei enwogrwydd fel Cymreigydd, pennodwyd ef gan Esgob Tŷ Ddewi i gydweithredu â thri boneddwr o'r esgobaethau Cymreig eraill, i adolygu y cyfieithiad Cymraeg o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin.* Yr oedd yr adolygiad bron wedi ei orphen pan y bu Mr. Rees farw. Yn y cyfamser, treuliodd lawer o amser i adolygu argraphiad newydd o *Gamwyll y Cymry;* ond terfynwyd ei lafur, pan ar ganol ei waith, gan angeu. Methodd hefyd olygu y *Liber Landavensis*, yr hyn a ymddiriedwyd iddo gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig. Cymmerwyd ef yn glaf tra yn marchogaeth ar y ffordd fawr, ger y Bontnewydd-ar-Wy, yn sir Frycheiniog, a bu farw yn ddisyfyd Mai 20fed, 1839, yn yr oedran cynnar o 36ain. Yn ei farwolaeth, collodd llenyddiaeth Cymru un o'i gwŷr galluocaf. Gosodwyd maen marmor i goffa am dano yn eglwys Llandingad.

REES, ROBERT (*Eos Morlais*). Yr oedd efe yn un o brif ddatgeiniaid Cymru, a'i enw yn adnabyddus trwy yr holl Dywysogaeth. Ganwyd ef yn Dowlais, yn Ebrill, 1841. Yr oedd yn gerddor rhagorol, ac yn lleisiwr campus; ac am flynyddoedd lawer bu Eos Morlais yn dal y safle flaenaf fel *tenor.* Nid ystyrid unrhyw gyngherdd o bwys yn gyflawn heb ei fod ef yn gwasanaethu ynddi; a phrin y perfformid *oratorio* yn y Dywysogaeth, nac unrhyw gyfansoddiad arall o bwys, heb fod ganddo ef ran bwysig yn hyny. Cymmerai ran hefyd yn ngweithrediadau yr eisteddfod gyda llwyddiant mawr. Yn ystod blynyddau diweddaf ei oes, blinid ef yn fawr gan anhwylder yn yr ysgyfaint; o'r hwn y bu farw Mehefin 5ed, 1892, yn ei gartref yn Abertawe.

REES, PARCH. THOMAS, D. D., Abertawe. Gwel cyf. x.

REES, PARCH. WILLIAM JENKYN, o Gascob. Ganwyd ef yn Llanymddyfri, yn y fl. 1772. Wedi bod am amser yn ysgol ei dref enedigol, ac yn Ysgol Rammadegol Caerfyrddin, aeth i Goleg Wadham, yn Rhydychain, lle y graddiodd yn M. A. yn 1797. Ordeiniwyd ef gan yr Esgob Butler, o Henffordd, i giwradiaeth Stoke Edith a Westside yn yr esgobaeth hono; ond yn 1807, cafodd beriglorиaeth Cascob, yn sir Faesyfed, gan Dr. Burgess, esgob Tŷ Ddewi. Yn mysg y llyfrau a gyfansoddodd efe, y mae *A Short and Practical Account of the Principal Doctrines of Christianity* (1803); *The Hereford Guide Clerical Elocution, or an Essay on the Dilivery of Sermons* (1809); *The Necessity of Attention in a Christian Minister of his Duties* (1811); *Unconditional Election and its Dependent Doctrines disapproved*, &c., &c. Dywedir iddo hefyd gymmeryd rhan yn ngorpheniad *Lives of the Welsh Saints*, gan y Parch. Rice Rees, at yr hwn y cyfeirir mewn erthygl flaenorol.

REES, PARCH. WILLIAM, D. D. (*Gwilym Hiraethog*). Gwel cyf. x.

REID, CADBEN MAYNE. Awdwr poblogaidd ystorïau i fechgyn oedd efe. Ganwyd ef yn County Down, Iwerddon, yn 1818. Pan yn ugain oed, ymfudodd i'r America, lle y treuliodd fywyd rhamantus ac anturiaethus. Bu yn gwasanaethu yn llynges yr Unol Dalaethau yn ystod rhyfel Mexico, yn 1847, gan ennill anrhydedd uchel iddo ei hun pan ystormiwyd y Chapultepec. Yr oedd efe wedi llawn fwriadu cymmeryd rhan yn y rhyfel Hungariaidd; ond yr oedd hono wedi terfynu cyn iddo gyrhaedd Ewrop. Yna efe a ymsefydlodd yn Llundain, i ddilyn bywyd llenyddol; ac oddi yno symmudodd i swydd Buckingham, lle y bu farw, Hydref 22ain, 1883. Ysgrifenodd nifer fawr o ystoriau i fechgyn, y rhai a ddaethant yn hynod o boblogaidd. Yn mysg y goreuon o honynt, ceir *The Boy Hunter* (1853); *The Bush Boys* (1856); *The Boy Tar* (1860); *The Scalp Hunters* (1847); *The Rifle Rangers* (1850); *The War Trail* (1857); a *The Headless Horseman* (1865), &c.

RENAN, ERNEST. Ganwyd ef yn nhref fechan Trèguier, yn rhanbarth Côtes-du-Nord, yn Llydaw, Chwefror 27ain, 1823. O du ei dad disgynai o hiliogaeth Geltaidd; ac o du ei fam, perthynai i deulu y Gasconiaid. Yn ei dueddiadau meddyliol a moesol, dywed y beirniaid fod neillduolion y disgyniad deublyg hwn i'w canfod yn amlwg. Bu ei dad, yr hwn oedd yn forwr o ran ei alwedigaeth, farw pan nad oedd Ernest ond plentyn; a gadawodd ei weddw mewn amgylchiadau cyfyng, gydag un ferch a dau fab. Arosodd Ernest yn ysgol Trèguier hyd yn 16eg oed; a chan mai offeiriaid oedd yr oll o'i athrawon, cafodd eu bywyd bucheddol hwy gryn ddylanwad ar ei feddwl ieuangc. Yr oedd yr addysg a gyfrenid ganddynt yn unol â thraddodiadau yr Eglwys yn y ddwy ganrif flaenorol. Dysgent Lladin yn yr hen ddull; ond uwch law pob peth, ymdrechent, meddir, i droi allan 'ddynion da.'

Rhoddodd Renan ernes o'i fawredd dyfodol pan yn lled ieuangc; o blegid, yn 1836, yr oedd efe yn un o'r bechgyn a ddewiswyd gan yr Abbè Dupanloup i gael lle yn Athrofa Gatholicaidd St. Nicolas du Chardonnet, yn Paris—sefydliad a gerid yn mlaen gan Dupanloup yn unol â'i syniadau personol ei hun. Yr oedd y bachgen wedi derbyn addysg gyda'r amcan o'i barotoi ar gyfer yr eglwys, ac aeth yn rheolaidd drwy y cwrs a drefnid ganddi. Wedi aros am dair blynedd yn St. Nicolas du Chardonnet, a threulio dwy flynedd i efrydu athroniaeth mewn ysgol yn Issy, aeth i athrofa St. Sulpice—athrofa fawr esgobaeth Paris. Tra yno, gwnaeth yr ieithoedd Hebrëig ac Ellmynig yn brif faterion ei efrydiaeth. Ar ei ymadawiad o'r athrofa, yn 1845, rhoddodd i fyny bob bwriad o fyned i'r eglwys; a phenderfynodd dreulio y gweddill o'i fywyd i efrydu yn annibynol ar gredöau a seremonïau o bob math.

Yn 1850, pennodwyd ef i swydd yn adran y llawysgrifau yn y Bibliothèque Nationale, yn Paris; a thrwy gyhoeddiad amryw Frutiau (*Mémoires*) o'i waith, daeth ei enw i sylw mewn cyssylltiad â materion yn dwyn perthynas â gwledydd y dwyrain. Yn 1860, pennodwyd ef yn un o'r ddirprwyaeth a anfonwyd gan lywodraeth Louis Napoleon i wneyd ymchwiliad i weddillion y gwareiddiad Phœniciaidd. Y flwyddyn ddilynol, sef 1861, dewiswyd ef i'r gadair Hebrëig yn y *College de France;* ond gan nad oedd ei olygiadau ar Gristionogaeth draddodiadol, erbyn hyn, yn cael eu hystyried

Digitized by Google

yn anuniongred, yn ol syniadau yr eglwys, fe wrthododd yr ymherawdwr gadarnhau y pennodiad. Modd bynag, ar ddymchweliad y llywodraeth ymherodrol yn Nachwedd, 1870, dyrchafwyd ef i'r gadair. Yn ddilynol i hyn, bu ar deithiau ymchwiliadol yn yr Eidal, Scandinavia, a'r dwyrain:—ac y mae ffrwyth ei ymchwiliadau wedi ei gorphori yn ei wahanol lyfrau. Yn 1878, etholwyd ef yn aelod o'r Athrofa Ffrengig; yr hyn oedd y gydnabyddiaeth uchaf y gellid ei roddi o'i allu fel llenor ac ysgolhaig.

Cyhoeddodd Renan lawer o lyfrau, yn mha rai y ceir y fath gyfuniad o ddysgeidiaeth a pherffeithrwydd llenyddol ag a barodd iddo gael ei ystyried yn un o'r dynion galluocaf yn y cyfeiriad hwn yn Ewrop. Dechreuodd ei yrfa fel awdwr gyda phapur a ysgrifenodd dan y teitl *Sur les Langues Semitiques* (1847); yr hwn, yn ddilynol, a helaethwyd ganddo, ac a gyhoeddwyd gyda'r penawd *Histoire Generale des Langues Semitiques* (1854). Ystyrid cyhoeddiad y traethawd hwn ar yr ieithoedd Semitaidd yn ddechreuad cyfnod newydd yn efrydiaeth cwestiynau dwyreiniol. Y gwaith nesaf o bwys a ysgrifenwyd ganddo oedd ei *Averroès et l'Averroïsme* (1852), yn yr hwn y cafwyd prawfion, yn mysg eraill a roddwyd ganddo yn flaenorol, o'i adnabyddiaeth o fywyd a syniadau trigolion y canoloesoedd. Yn chwanegol at yr uchod, a gweithiau eraill yn ymwneyd â phyngciau arbenig, ysgrifenodd amryw draethodau a gasglwyd ac a gyhoeddwyd wedi hyny dan y teitlau *Etudes d'Histoire Religieuse* (1856), ac *Essais de Morale et de Critique* (1859). Tynodd y rhai hyn sylw anghyffredin; yn benaf o herwydd eu harddull brydferth, a gwreiddioldeb y syniadau a gynnwysid ynddynt. Yn 1863, efe a gyhoeddodd ei *Vie de Jésus* (Hanes Bywyd Crist), yr hwn ar unwaith a wnaeth ei enw yn llawer mwy adnabyddus nag o'r blaen trwy y byd gwareiddiedig; a'r hwn, ar y pryd, a ystyrid yn un o brif lyfrau y ganrif. Gyda'r *Vie de Jésus* y dechreuwyd yr hyn a ystyriai yr awdwr fel gwaith arbenig ei fywyd—*Histoire des Origines du Christianisme* (Hanes Dechreuad Cristionogaeth). Yn marn Renan, nid oedd yn bossibl ysgrifenu hanes Cristionogaeth, yn ngwir ystyr y gair, ond o ddiwedd yr ail ganrif ar ol Crist; o blegid yn flaenorol i hyny, nid oedd defnyddiau yn bodoli y gellid eu harfer gydag unrhyw raddau o sicrwydd, i allu dangos dadblygiad gwirioneddol Cristionogaeth. Ysgrifenodd Renan ddeg o gyfrolau trwchus ar y pwngc hwn; a threuliodd agos i ddeng mlynedd-ar-hugain gyda'r gorchwyl. Yn mysg gweithiau o'r natur hwn, saif y gwaith hwn ar ei ben ei hun o ran teilyngdod llenyddol; ond nid ydyw llawer o'i syniadau yn cael eu hystyried yn uniongred mewn un modd. Yn mhlith y cyfrolau a ysgrifenwyd ganddo ar ol Hanes Bywyd Crist, ac yn ymdebygu iddo o ran ei syniadau, ceir un ar yr apostol Paul, ac un arall yn dwyn y teitl *Marc-Aurèle et la Fin du Monde Antique*. Yn y cyntaf, gesyd Paul mewn safle lawer is-raddol mewn hanesiaeth i'r hon a roddir iddo gan yr Eglwys Gristionogol, a'r Protestaniaid.

Yn chwanegol at y gweithiau llafurfawr a enwyd, cynnyrchwyd amryw o gyfrolau gan athrylith y dyn hynod hwn ar rai o brif gwestiynau y dydd. Yn mysg y rhai hyn, ceir *Questions Contemporaines; La Réforme Intellectuelle et Morale; Dialogues Philosophiques;* a *Drames Philosophiques.* Yn y ddau gyntaf, dadgana ei opiniynau ar dueddiadau gwladol Ffraingc yn y blynyddoedd diweddaf, gan geisio dangos yn mha gyfeiriad y gorwedda ei gobaith am y dyfodol; ac yn y ddau olaf, gwna ymgais i bortreadu bywyd yn y gwahanol agweddau yr edrychir arno gan feddyliau gwahanol. Yn y fl. 1883, cyhoeddodd Renan ei *Souvenirs d'Enfance;* yn yr hwn yr olrheinia ddylanwad personau a phethau ar ei feddwl y treuliodd ei faboed yn eu mysg. Fel math o attodiad i'r gyfrol hon, cyhoeddodd ei *L'Avenir de Science* yn 1890—yr hwn a drefnwyd ac a ysgrifenwyd yn 1848; yn yr hwn y dadgana ei olygiadau y pryd hwnw ar dueddiadau meddyliol yr oes.

Nis gellir disgwyl i'w syniadau feddu ond ychydig o ddylanwad ar y byd Cristionogol. Er hyny, y mae un peth yn sicr—ei fod, fel llenor, yn un o'r rhai galluocaf a gynnyrchodd y byd. Yr unig un, meddir, y gellir ei gymmharu iddo yn yr hen oesoedd am gyfuniad o athrylith a dysgeidiaeth ydoedd Erasmus. Bu farw Hydref 2il, 1892.

RENWICK, JAMES. Yr olaf o ferthyron 'Y Cyfammod,' a anwyd yn Moniaive, yn swydd Dumfries, yn Ysgotland, Chwefr. 15fed, 1662. Bu dan addysg yn Mhrifysgol Edinburgh, gyda'r bwriad o ymbarotoi ar gyfer y weinidogaeth; ond gwrthodwyd iddo ei radd, am ei fod yn gwrthod cymmeryd llŵ o deyrngarwch. Wedi bod yn llygad-dyst o farwolaeth Cargill, ac eraill o'r merthyron, penderfynodd goffleidio yr achos dros yr hwn y dioddefasant. Dewiswyd ef gan y 'Societies' (yr enw a roddid i'r rhai a fuont yn ffyddlawn i'r 'Cyfammod'), i fyned i Holland, yn 1682, i gwblhau ei addysg. Wedi ei ordeinio yno y flwyddyn ddilynol, efe a hwyliodd i Ysgotland, lle y traddododd ei bregeth gyntaf yn Darmead Muir, yn yr un flwyddyn. Yn 1684, cyhoeddodd ei *Apologetic Declaration*, yr hwn a dynodd arno ŵg yr awdurdodau. Pan esgynodd Iago II. i'r orsedd, yn 1685, aeth Renwick gyda dau cant o wŷr i Sanquhar; o'r hwn le y cyhoeddwyd dadganiad yn gwrthod Iago fel teyrn. Cynnygiwyd gwobr o 100*p.* i'r neb a'i daliai; ond wedi llawer diangfa gyfyng, daliwyd ef o'r diwedd yn Edinburgh. Cafodd ei ddienyddio Chwefror 17eg, 1688.

RENWICK, JAMES, LL. D. Awdwr a physygwr o fri, a anwyd yn Liverpool yn y fl. 1792, ac a raddiodd yn Ngholeg Columbia, Efrog Newydd, yn 1807. Yn 1820, gwnaed ef yn athraw mewn fferylleg ac anianeg yn yr un coleg, yr hon swydd a ddaliodd hyd 1853. Yn 1838, pennodwyd ef gan lywodraeth yr Unol Dalaethau yn un o'r dirprwywyr fu yn archwilio y llinell derfyn rhwng talaeth Maine a New Brunswick, yn Canada. Heb law amryw o fân lyfrau a chyfieithiadau, cyhoeddodd *Outlines of Natural Philosophy* (1822—23)—y llyfr cyntaf o'r natur hwn a gyhoeddwyd yn y Talaethau; hefyd, *A Treatise on the Steam-engine* (1830): amryw o lyfrau ar Gallofyddiaeth, a bywgraphiadau o De Witt Clinton, Jay, Hamilton, ac eraill. Bu farw Ionawr 12fed, 1863.

RETZ, JEAN FRANCOIS PAUL DE GONDI, CARDINAL DE. Ganwyd ef yn Mont-

Digitized by Google

mirail, yn 1614. Disgynai o deulu Italaidd, a ddaethant i feddiant o etifeddiaethau eang yn Llydaw, ac a ffurfiasant gyssylltiad â rhai o deuluoedd mwyaf enwog Ffrainge. Yr oedd ei ewythr yn Archesgob Paris; a llwyddodd yntau, yn 1643, i gael ei bennodi yn gynnorthwywr iddo, gyda'r hawl i'r archesgobaeth ar ei farwolaeth. Gwnaeth Retz yn fawr o'r cyfleusderau a roddid iddo gan ei sefyllfa uchel, i'w wneyd ei hun yn boblogaidd gyda phreswylwyr y dref. O'i faboed i fyny, bu ganddo ran flaenllaw yn nghudd-gynllwynion politicaidd y wlad. Bu yn cynllwyn yn erbyn Mazarin, yr hwn oedd yn un o brif swyddogion eglwysig Ffrainge yn ystod maboed Louis XIV.; ac hefyd, yr oedd yn un o'r prif gynnhyrfwyr yn y cyffro a dorodd allan yn erbyn y llys brenhinol, ac yn erbyn dylanwad Mazarin, yn Hydref, 1648. Aeth trwy lawer o anturiaethau pwysig o hyny hyd 1652, pan y bwriwyd ef i garchar, yn gyntaf yn Vincennes, ac yna yn Nantes. Yn y cyfamser, yr oedd efe wedi ei ddyrchafu i fod yn gardinal—un o swyddau uchaf yr Eglwys Babaidd. Bu farw yn Paris, Awst 24ain, 1679. Yn ei Adgofion (*Memoires*), y rhai a ysgrifenwyd ganddo i lawr hyd 1655, ceir llawer o oleuni ar gyfnodau tywyll yr oes yr oedd efe yn byw ynddi. Y mae ei gymmeriad wedi cael ei bortreadu gan La Rochefoucauld, yr hwn a symia ei fywyd i fyny yn y geiriau hyn:—'Efe a fu yn achos o'r afreoleidddra mwyaf yn y wladwriaeth; ond nid oedd wedi ffurfio unrhyw gynllun i elwa ar y cyfryw annhrefn.'

REUCHLIN, JOHANN. Ieithyddwr enwog, ac un o'r rhai cyntaf i gychwyn efrydiau Hebrëig yn yr Almaen. Ganwyd ef yn Pforzheim, yn y Black Forest, Rhagfyr 28ain, 1455. Wedi derbyn y cwrs arferol, cafodd ei bennodi, yn 1473, yn gydymaith teithiol i'r Tywysog Friedrich o Baden. Yn y cymmeriad hwn, cafodd lawer o gyfleusdra trwy ei ddylanwad i efrydu yr ieithoedd Groeg, a Lladin, a Hebraeg. Ysgrifenodd Eiriadur Lladin — *Vocabularius Breviloquus* (1476). Yn 1481, ymsefydlodd yn Tübingen fel darlithydd. Yn 1506, ymddangosodd ei *Rudimenta Linguæ Hebraicæ*. Yr oedd ei efrydiau Hebrëig yn ei ddwyn i helyntion blin gydag Iuddewon dysgedig, proselytiaid Iuddewig, a'r Dominiciaid; ac ar yr un pryd, yn gynnorthwy uniongyrchol i hyrwyddiant y Diwygiad Protestanaidd. Ar ol bywyd helbulus, bu farw yn Liebenzell, yn Hirschau, Mehefin 30ain, 1522.

REUSS, EDUARD. Duwinydd Protestanaidd dysgedig, a anwyd yn Strasburg, Gorph. 18fed, 1804. Ar y cyntaf, bu yn astudio ieitheg yn Strasburg; yna bu drwy gwrs o astudiaeth dduwinyddol yno, ac yn Göttingen, a llalle. Wedi hyny, aeth i Paris, lle y bu yn astudio ieithoedd dwyreiniol o dan Silvestre de Sacy. O 1836 hyd 1838, bu yn llanw y swydd o athraw yn ngholeg duwinyddol Strasburg; a thrachefn, ar adsefydliad y brifysgol, o 1872 hyd 1888. Bu farw Ebrill 15fed, 1891.

REUTER, ADAM. Awdwr dysgedig a galluog. Ganwyd ef, yn ol Wood, yn sir Ddinbych; ond nid ydyw efe yn nodi yn mha le. Gyda'r amcan o gael hamdden a chyfleusdra i efrydu, ymneillduodd Reuter, yn 1608, i Rydychain. Yr oedd efe, ar y pryd, yn drwyddedig yn nwy gangen y gyfraith—yr eglwysig a'r wladol. Arosodd yn y brifysgol am lawer o flynyddoedd, a graddiwyd ef fel cyffredinwr yn Ngholeg Exeter. Dywed Wood ei fod yn dra hyddysg yn ngwaith y prif awduron; yn gyfansoddwr rhwydd yn Lladin, ond er hyny yn Galfiniad llym; yr hyn, y pryd hwnw, oedd yn ddigon derbyniol gan ddoethion a phenaethiaid y brifysgol. A ganlyn sydd restr o'i brif weithiau:—*Questiones Juris Controversi* 12. *Ex. L. ut rim.* 3 *just. and jure*, 1609; *Oratio quam Papam esse bestiam quae non est, et tamen est, apud Johan. Apoc.* xvii. *ver.* 18, yr hon araeth a draddodwyd yn gyhoeddus ger bron aelodau y brifysgol; *Libertatis Anglicae Defensio, seu demonstratio; Regnum Anglicae non esse Feudum Pontificus; In Acad. Oxon. publice opposita Martino Becano Societatis Jesu Theologo*, 1613; *Eadgarus in Jacobo Redivivus; seu Pietatis Anglicanae Defensio, &c., contra Ross Weydum*, 1614; *Tractatus de Concilio Theophilo Suffoliciae Comiti dedicat*, 1626.

RHIALLU. Mab Tudwalch Carnau, tywysog Cernyw. Ceir ei enw yn nghofrestrau y seintiau Cymreig; ond nid ydyw yn wybyddus fod un eglwys wedi ei sylfaenu ganddo, nac wedi ei chofrestru ar ei enw. Dyfanwedd, merch Amlawd Wledig, oedd ei fam—penaeth oedd yn blodeuo tua dechreu y chweched ganrif.

RHIANON. Merch i Hefeydd Hen:—un o gymmeriadau enwog y ffughanesion Cymreig. Bu yn briod y waith gyntaf gyda Phwyll, brenin Dyfed; ac yn *Mabinogi Pwyll Pendefig Dyfed*, ceir adroddiad helaeth am yr amgylchiadau cyssylltiedig â'i dyweddiad â'r penaeth hwnw. Wedi marwolaeth Pwyll, dyweddïwyd Rhianon gan ei mab, Pryderi, i Manawydan, mab Llyr; a cheir cryn lawer o'i hanes dilynol yn y Mabinogi sydd ar ei henw. Dywedir fod Rhianon yn dra hoff o gadw adar o wahanol rywogaethau; a bod y rhai hyny yn rhyfeddol yn eu galluoedd perleisiol. Byddai y rhyfelwyr a ddeuent heibio, meddir, yn cael eu swyno ganddynt. Crybwyllir am danynt yn y Triad canlynol:—'Tri pheth nas clywir yn fynych; Cân adar Rhianon; cân ddoeth o enau Saesoniaid, a gwahoddiad i wledd oddi wrth gybydd.'

RHIERI. Mab Tangwn, penaeth a flodeuai tua diwedd y chweched ganrif. Crybwyllir am dano mewn rhai o'r Trioedd fel un o 'dri gwrdd faglawg Ynys Prydain.' Y ddau eraill oeddynt Tynwedd a Phryderi.

RHIRYD. Un o feibion ordderch Owain Gwynedd. Gwnaed ef yn Arglwydd Clochran, yn yr Iwerddon; a chynnorthwyodd Hywel ei frawd yn yr ymdrech i sicrhau iddo benaduriaeth Gogledd Cymru. Yr oedd efe yn bresennol mewn brwydr waedlyd a ymladdwyd yn y fl. 1170, yn yr hon y clwyfwyd Hywel yn angeuol. Yn 1172, dywedir iddo fyned gyda Madog, ei frawd, i wlad bell yn y gorllewin; yr hon, fel y tybir, oedd America. Tiriasant yno, medd yr hanes; a dywedir fod eu hiliogaeth yno hyd y dyddiau presennol.

RHIRYD FLAIDD. Cymmerodd ei gyfenw 'Blaidd,' oddi wrth Blaidd Rhudd, neu Flaidd Gwaedlyd, o'r Gest, ger Penmorfa; yr

Digitized by Google

hwn oedd yn un o'i hynafiaid o du ei fam. Mab ydoedd efe i Gwrgenan ab Collwyn, o ferch Bleddyn, tywysog Powys. Yr oedd Rhiryd yn Arglwydd Penllyn, yn sir Feirionydd, ac yn byw yn y Rhiwaedog—yr hen breswylfod enwog ger llaw y Bala. Cynnwysai ei diroedd blwyfi Penllyn; Lleyn ac Eifionydd, yn sir Gaernarfon; Pennant Melangell, a'r Glyn, yn Mhowys; ac un ar ddeg o drefi yn sir Amwythig. Blodeuai tua chanol yr unfed ganrif ar ddeg. Olrheinia amryw o deuluoedd hynaf Gogledd Cymru eu disgyniad o hono.

RHISIART AB IORWERTH FYNGLWYD. Un o feirdd enwog diwedd y bymthegfed ganrif oedd efe; a blodeuodd rhwng 1460 a 1500. Y mae rhai darnau o'i weithiau barddonol ar gael, meddir, mewn llawysgrifau.

RHISIART AB RHYS, o Lanharan, yn sir Forganwg. Yr oedd efe yn fardd enwog; a blodeuodd tua dechreu yr unfed ganrif ar bymtheg—neu yn fwy cywir, rhwng 1480 a 15.0. Mab oedd efe i Rhys Llwyd, neu Rhys Brydydd; ac yr oedd yn byw yn Merthyr Mawr. Bu yn athraw i Iorwerth Fynglwyd; ac y mae barddoniaeth o'i waith ar gael mewn hen gasgliadau. Bu iddo ddau fab—un Llewelyn, a elwid yn y Gogledd wrth yr enw Lewis Morganwg; a'r llall, a elwid yn Fab Rhisiart Brydydd o Wig.

RHISIART FYNGLWYD. Un o feirdd dechreu yr unfed ganrif-ar-bymtheg. Ceir rhai o'i gyfansoddiadau yntau mewn hen lawysgrifau.

RHISIART GELE. Gelwid ef hefyd wrth yr enw 'Y Prydydd Brith.' Blodeuodd yn y rhan olaf o'r unfed ganrif-ar-bymtheg.

RHISIART IORWERTH. Bardd, oedd yn byw rhwng 1470 a 1500. Mab ydoedd efe i Iorwerth Fynglwyd. Dywedir fod rhai o'i gyfansoddiadau yntau mewn llawysgrifau.

RHISIERDYN. Bardd enwog a fu byw yn Ynys Môn; yr hwn oedd yn anterth ei enwogrwydd rhwng 1290 a 1340. Yn y *Myvyrian Archaiology*, ceir dwy awdl led faith o'i eiddo, cyflwynedig i Hywel ab Gruffydd, a Goronwy ab Tudur.

RHITTA GAWR, oedd ormedd-leiddiwr rhyfeddol, am yr hwn y rhoddir yr hanes canlynol yn yr Adgofion Cymreig. Mewn un o'r Trioedd, gelwir ef yn un o'r tri 'Gwrthrymardwy;' a gwnaeth fantell iddo ei hun o farfau brenhinoedd, y rhai a wnaeth efe yn ddi-farf, neu yn gaethion, o herwydd eu gorthrwm a'u traha. Y ddau eraill oeddynt Hu Gadarn a Phrydain ab Aedd Mawr. Mewn Triad arall, y mae yn cael ei osod gyda Phrydain a Charadawg, o dan y cyfenwad o un o'r tri 'madoreilltiwr,' ar gyfrif ei fod wedi erlyn trahausder ac anghyfiawnder y tywysogion gormesol. Yn *Brut y Brenhinoedd*, y mae Arthur yn dyweyd am ysgarmes ofnadwy a fu rhyngddo a Rhitta Gawr yn mynyddoedd y Wyddfa am ei fantell; a chwanegir, fod Rhitta wedi addurno ei fantell â barfau y brenhinoedd, gan adael y man uchaf yn wâg, er gosod croen gên a barf Arthur arno, yn gymmaint ag mai efe oedd y brenin mwyaf uchelfalch. Am hyny, anfonodd genadwri at Arthur am iddo anfon croen ei ên, a'i farf, iddo ef; neu ddyfod i ymladd âg ef, ar yr ammod fod y gorchfygwr i gael barf y gorchfygedig. Ennillodd Arthur y fantell, a gorchfygodd Rhitta. Y mae bryn yn agos i Towyn, yn sir Feirionydd, a elwir Rhiw y Barfau; lle, yn ol traddodiad, y darfu i'r brenin Arthur ladd Rhitta Gawr.

RHIWALLON. Un o feddygon enwog Myddfai, yn swydd Gaerfyrddin, yr hwn a flodeuodd tua dechreu y drydedd ganrif-ar-ddeg. Gwnaeth ef, a'i dri mab, Cadwgan, Gruffydd, ac Einion, 'gyflawn adroddiad o'r ymarfer o feddyginiaeth ag oedd yn wybyddus iddynt hwy y pryd hwnw;' a thybir yn lled sicr mai y llawysgrif wreiddiol a ysgrifenodd efe oedd yr un a drosglwyddwyd, ychydig flynyddau yn ol, o lyfrgell yr Ysgol Rad Gymreig yn Llundain i'r Amgueddfa Brydeinig. Parhaodd hiliogaeth Rhiwallon yn ddidor fel meddygon yn Myddfai hyd tua chanol y ganrif ddiweddaf.

RHIWALLON. Mab Cunedda; yr hwn, yn ol y Brut Cymreig, a olynodd ei dad ar orsedd Prydain; ac yr oedd ei deyrnasiad yn un heddychol. Dywedir, mewn hen hanesion, y bu yn gwlawio gwaed am dri diwrnod yn ei ddyddiau ef; yn ddilynol i'r hyn y bu marwolaethau lawer, y rhai a achoswyd gan frathiadau y pryfaid gwenwynllyd a fagwyd gan y gwlaw. Yn ol adroddiadau awdurdodedig, bu Rhiwallon yn teyrnasu am 46ain mlynedd; ac iddo, ar ei farwolaeth, gael ei gladdu yn Nghaerefrog.

RHIWALLON, mab Cynfyn. Ar farwolaeth y tywysog Gruffydd ab Llywelyn, yn y fl. 1062, anrhydeddwyd ef, gyda Bleddyn, ei frawd, â phenaduriaeth Gwynedd a Phowys; yr hyn sydd yn cynnwys holl Ogledd Cymru yn awr. Dygwyd hyn o amgylch trwy gynnorthwy Iorwerth y Cyfleswr, i'r hwn yr oedd y tywysogion hyn wedi cymmeryd llw o ffyddlondeb. Yn y fl. 1068, unodd Rhiwallon a Bleddyn â'u gilydd yn ystod absennoldeb y brenin William o Normandy; ac unasant âg Edric, Iarll Mercia, hefyd mewn gwibdaith ddarneidiol ar y gororau; ac anrheithiasant sir Henffordd mor bell a'r Wyebridge. Yr un flwyddyn, cyfododd Meredydd ac Ithel, meibion Gruffydd ab Llywelyn, fyddin er cael adfeddiant o benaduriaeth Gogledd Cymru oddi ar y tywysogion yn ei lywodraeth, ac ymladdwyd brwydr galed rhyngddynt; yr hyn a ddigwyddodd yn Mechain, yn sir Drefaldwyn. Lladdwyd un tywysog perthynol i'r ddwy blaid yn y frwydr hono; sef, Rhiwallon, ac Ithel.

RHIWALLON: mab Urien. Crybwyllir am dano yn y Trioedd fel y penaf o dri 'hueilogion deulu' Ynys Prydain. Y ddau lwyth eraill oeddynt eiddo Caswallon Law Hir, a Belyn o Leyn. Gelwid hwynt felly am iddynt rwymo eu hunain ynghyd a llyffetheiriau eu meirch, er cydoddef ymosodiadau eu gelynion; ac o ganlyniad, cawsant eu rhyddhau i beidio cydnabod unrhyw benarglwyddiaeth yn eu tiriogaethau, namyn yn y gyfraith genedlaethol a chyffredin. Yr oedd Rhiwallon yn byw yn y rhan flaenaf o'r chweched ganrif; ac yr oedd efe yn ymladd yn erbyn y Saesoniaid pan y cymmerodd yr amgylchiad uchod le.

Digitized by Google

RHIWALLON WALLT BANADLEN. Un o benaethiaid y chweched ganrif oedd efe; yr hwn a nodir yn y Trioedd fel un o dri 'deifnogion Ynys Prydain.' Y ddau eraill oeddynt Gwalchmai ab Gwyar, a Llechan Ab Arthur. Mewn Triad arall, unir ef â Rhun ab Maelgwn, a Chadwaladr, o dan y cyfenwad o dri 'aurhualogion' Ynys Prydain; am fod cylchau o aur o amgylch eu breichiau, eu penliniau, a'u gyddfau, fel nodau o'u hawlfreintiau brenhinol. Ond yn ol rhai adysgrifau o'r Trioedd, gelwid hwynt felly am eu bod yn rhy dal i farchogaeth yn y ffordd gyffredin; ac am hyny, eu bod yn defnyddio pedyll aur i ddal eu penliniau, tra yr oedd eu traed yn cael eu cadw yn ol â rhwymau oedd yn croesi pystylwyni (*cruppers*) eu meirch.

RHOBERT, HUW IEUAN. Bardd a flodeuodd tua diwedd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg oedd efe. Gelwir ef gan Moses Williams wrth yr enw Syr Huw Robert, Lên. Fel lliaws o feirdd y cyfnod hwn, y mae rhai o'i gynnyrchion yntau wedi eu cadw mewn llawysgrif.

RHOBERT, MORYS AB, o'r Bala. Efe a wnaeth enw iddo ei hun fel 'bardd gwlad' lled dda; ac oddi wrth yr amrywiol draddodiadau a geir am dano, ar lafar ac mewn argraph, yr oedd efe yn feddiannol ar awen barod. Nid llawer o'i waith, oddi gerth ambell englyn, sydd ar gôf a chadw.

RHODRI. Mab ieuangaf Idwal Foel, tywysog Gogledd Cymru, ydoedd efe; yr hwn a laddwyd gan y Gwyddelod yn Môn yn y fl. 966. Llwyddodd Idwal, ei frawd, i ddïal ei farwolaeth, trwy ymosod ar y Gwyddelod a ymsefydlasant yn niferoedd lliosog ar ororau y Gogledd. Difäwyd hwynt gan Idwal yn y fath fodd fel na feiddiasant geisio ymsefydlu mewn cyffelyb fodd yn Nghymru wedi hyny.

RHODRI. Mab ydoedd efe i Owain Gwynedd, tywysog Gogledd Cymru, o Crisiant, ei ail wraig, merch Gronw ab Owain ab Ednywain. Rhoddwyd Rhodri yn ngharchar yn y fl. 1174, gan ei frawd Dafydd; yr hwn a'i cadwodd yn gaeth hyd 1177:—pryd y diangodd, ac y cymmerodd feddiant o Ynys Môn. Yr oedd yn parhau i gadw ei feddiant o honi yn 1188, pan yr oedd Giraldus Cambrensis gyda'r Archesgob Baldwyn ar ei daith trwy Gymru. Cyfarfuwyd yr archesgob a'i osgorddlu gan Rhodri a'i feibion, a phreswylwyr yr ynys, pan groesent yr afon Menai. Gwnaeth yr archesgob, a'i ddilynwyr, ymdrechion egnïol i gael gan feibion Rhodri gymmeryd 'y groes;' ond methasant yn llwyr yn eu hymgais. Yn lled fuan ar ol hyn, ymlidiwyd Rhodri ymaith o'r ynys.

RHODRI. Mab Morgan Mawr, brenin Morganwg, oedd y Rhodri hwn; yr hwn a wnaed yn esgob Llandâf yn y fl. 961. Gwnaed y pennodiad hwn yn groes i ewyllys y pab, am fod Rhodri yn ŵr priod; yr hyn oedd yn groes i reolau yr Eglwys Babaidd. Yn fuan ar ol hyn, cafodd ei wenwyno.

RHODRI MOLWYNOG. Tywysog gwrol, a rhyfelgar, oedd efe; a mab i Idwal Iwrch, mab Cadwaladr. Pan fu farw Ivor ab Alan, yn y flwyddyn B.A. 720, esgynodd Rhodri i orsedd y rhan orllewinol o Brydain; ond galwyd arno adref yn uniongyrchol i amddiffyn ei diriogaethau rhag ymosodiad y Sacsoniaid. Gwnaeth y gelynion hyn eu hymosodiad dan arweiniad Addelred; yr hwn, yn flaenorol, a fu yn anrheithio sir Dyfnaint. Pan yn symmud yn mlaen i anrheithio Cernyw, cyfarfyddwyd a gorchfygwyd hwynt gan y Brythoniaid, dan Rhodri; a gorfodwyd hwy i gilio yn ol. Yn yr un flwyddyn, bu Rhodri yn llwyddiannus i orchfygu y Sacsoniaid yn Ngogledd Cymru hefyd—ac wedi hyny yn Morganwg. Yn y fl. 728, dinystriodd fyddin gref o'r Sacsoniaid ar fynydd Carno, ger Crughywel; a thrachefn yn mrwydr Henffordd, yn 735. Cymmerodd ymladdfeydd parhaus le rhyngddo a'r Sacsoniaid hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 755. Gadawodd ar ei ol ddau fab:—Cynan Tindaethwy, a Hywel. Yr hynaf o'r ddau hyn a esgynodd i orsedd Cymru ar ei ol.

RHUDDWYN GAWR. Yn ol traddodiadau, yr oedd efe yn wron Prydeinig mewn cyfnod boreuol. Ymddengys, yn ol yr hanes, mai efe a roddodd yr enw Caer Rhuddwyn i amddiffynfa fu ar ben Pentre Gaer, yn mhlwyf Croesoswallt. O dan y fan lle y safai yr amddiffynfa, y mae llyn mawr, a elwir Llyn Rhuddwyn. Sonir yn y chwedlau Cymreig am dri chawr o frodyr:—sef, Cawr Myfyr, Cawr Rhuddwyn, a Chawr Berwyn.

RHUFAWN. Un o feibion Cunedda Wledig oedd efe; a bu yn rhyfela gyda'i frodyr yn nëoliad y Gwyddelod o Ogledd Cymru. Fel gwobr am ei wroldeb gyda'r gorchwyl hwn, cafodd gantref Rhufoniog, yn sir Ddinbych. Gelwid ef yn Rhufawn Rhufoniog; ac hefyd yn Rhufawn Hael, am ei fod y dyn mwyaf haelionus yn Nghymru yn ei amser.

RHUFAWN BEFR, neu Y TEG. Yn ol rhai awdurdodau, yr oedd efe yn fab i Gwyddno Garanhir; ond mŷn eraill mai mab Dewrath Wledig oedd efe. Yr oedd efe yn byw yn y chweched ganrif, ac yn un o'r gwroniaid fu yn ymladd yn mrwydr Cattraeth. Dyma fel y dywed Aneurin am dano:—'Y penaeth hwn a ruthrai trwy luoedd. Syrthiodd pump o gadfyddinoedd trwy fin ei gleddyf. Rhoddodd aur i'r allor, a rhoddion o feini gwerthfawr i'r cerddor.' Ond lladdwyd ef mewn brwydr; a rhoddwyd ei bwysau o aur am ei gorph: ac am hyn, meddir, y gelwir ef yn y Trioedd yn un o dri 'eurgelain' Ynys Prydain; ac un o dri brenin 'bendigaid' Prydain. Rhestrir ef mewn Triawd arall yn un o'r tri 'treiawg.' Ceir crybwylliad am ei feddrod mewn awdl o eiddo Hywel, mab Owain Gwynedd, a gyfansoddwyd ganddo tua'r flwyddyn 1160, ac a argraphwyd yn y *Myvyrian Archaiology*. Yn mhen canrif ar ol hyn, crybwyllir am ei fedd hefyd gan Gwilym Ddu; oddi wrth yr hyn y gellir casglu fod y man lle y gorweddai yn eithaf adnabyddus y pryd hwnw.

RHUN. Mab Beli ab Maelgwyn. Blodeuodd y tywysog hwn yn y rhan flaenaf o'r seithfed ganrif. Cyfeirir ato yn y Trioedd fel un o dri wŷr 'rhuddfäawg' Ynys Prydain. Y ddau eraill oeddynt Llew Llaw Gyffes, a Morgan Mwynfawr.

Digitized by Google

RHUN:—mab Brychan Brycheiniog. Blodeuodd yn y bummed ganrif; ac yr oedd efe yn preswylio yn agos i Mara, neu Lyn Llan-y-gors, yn sir Frycheiniog. Lladdwyd ef, a'i frawd Rhawin, gan y Sacsoniaid paganaidd, ar bont Rhun, yn agos i Ferthyr Tydfil, pan yr oedd yn amddiffyn y bont yn ngwyneb eu hymosodiad. Efe oedd tad Nefydd, ac Andras.

RHUN:—mab Einion. Yr oedd efe yn benaeth a flodeuodd tua diwedd y seithfed ganrif. Yn y Trioedd, crybwyllir am dano fel un o dri wŷr 'trahäawg' Ynys Prydain. Y ddau ŵr trahäawg eraill oedd Sawl Benuchel, a Pasgen ab Urien.

RHUN:—mab Euryn y Coed Aur; yr hwn oedd yn fab i Caw o'r Tŵr Celyn. Dywedir yn *Achau y Saint* fod Rhun yn sant yn Ystumllwynarth, ac yn byw yn y chweched ganrif.

RHUN: — mab Maelgwyn Gwynedd. Yr oedd efe yn dywysog rhyfelgar; ac esgynodd i'r orsedd ar ol ei dad yn y fl. 560. Bu mewn rhyfel faith a gwaedlyd â'r tywysogion gogleddol; y rhai a wnaethant ruthrgyrch i sir Gaernarfon, gan anrheithio pob peth a ddeuai yn eu ffordd. Er dïal arnynt am eu hanfadwaith, aeth Rhun â byddin i Ogledd Cymru; ac fel tâl i wŷr Arfon am eu dewrder dihafal, ac am eu bod wedi eu cadw cyhyd oddi wrth eu teuluoedd, rhoddodd iddynt bedwar-ar-ddeg o hawlfreintiau; y rhai a elwir 'Breiniau Gwŷr Arfon;'—y rhai sydd ar gael yn Neddf-lyfr y Cyfreithiau Cymreig. Yn y Trioedd, gelwir ef yn un o 'dri Gwyndeyrn' Ynys Prydain, gyda Rhufawn Befr, ac Owain ab Urien. Rhestrir ef mewn Triad arall gyda Rhiwallon Wallt Banadlen, a Chadwaladr Fendigaid, i wneyd tri 'aurhualogion.' Prif breswylfod Rhun oedd y *Roman Conovium*, ar oror gorllewinol yr afon Gonwy; ac oddi wrtho ef y cafodd yr enw Caer Rhun. Bu farw yn y fl. 586, a dilynwyd ef yn y llywodraeth gan Beli, ei fab.

RHUN:—mab Peredur; yr hwn, yn ol y Brutiau Cymreig, a adferwyd i benaduriaeth Prydain ar farwolaeth Idwal. Tybir i hyn gymmeryd lle rywbryd yn y bummed ganrif cyn Crist.

RHUN BALADR FRAS. Nawfed brenin Prydain. Esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, Lleon Gawr. Bu yn teyrnasu am unmlynedd-a-deugain; ac yn ystod y cyfnod maith hwn, gwellhawyd amgylchiadau y genedl yn fawr, a chafodd heddwch ei adferu. Efe a adeiladodd ddinasoedd Caergaint a Chaerwynt; a'r ddinas ar fynydd y Gaer hefyd, yr hon a elwid Caerbaladrin a Chaersepton; ond yn awr, a elwir gan y Saeson yn Shaftesbury—lle y prophwydodd yr Eryr dynged Prydain, pan oedd y ddinas yn cael ei hadeiladu. Tua'r amser hwn, yn ol y cyfrifon, y gorphenodd Solomon adeiladu y deml yn Jerusalem.

RHYDDERCH. Esgob Tŷ Ddewi. Bu farw yn y flwyddyn 961.

RHYDDERCH. Brenin Prydain. Yn ol y Brutiau Cymreig, efe a ddilynodd Rhydion yn y frenhiniaeth yn yr ail ganrif cyn Crist.

RHYDDERCH. Brenin Dyfed, yn Neheubarth Cymru; yr hwn a fu farw yn y fl. 8 4.

RHYDDERCH. Mab i Caradog ab Iestyn. Esgynodd i orsedd Morganwg yn 1070, ar farwolaeth Caradog ab Rhydderch ab Iestyn, ei gefnder. Y flwyddyn ddilynol, gorchfygodd fyddin y Normaniaid, y rhai oedd yn anrheithio Deheudir Cymru, gyda lladdfa fawr. Pan fu farw Bleddyn ab Cynfyn, yn y fl. 1072, cafodd Rhydderch benarglwyddiaeth Deheudir Cymru yn gyssylltiedig â Rhys ab Owain. Yn fuan wedi hyny, lladdwyd ef yn fradwrus gan Meirion ab Rhydderch, ei gefnder, yn 1074.

RHYDDERCH AB RHISIARD. Bardd enwog ydoedd efe, a flodeuodd tua diwedd yr 16eg ganrif, a dechreu yr 17eg. Yr oedd yn foneddwr o gyfoeth mawr, ac yn byw yn Myfyrian, yn sir Fôn. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau i'w cael etto, meddir, mewn llawysgrifen.

RHYDDERCH AB SION. Bardd adnabyddus a flodeuodd yn y rhan olaf o'r unfed ganrif-ar-bymtheg.

RHYDDERCH, JOHN. Bardd a grammadegydd enwog. Argraphydd oedd efe o ran ei alwedigaeth; ac yn byw yn yr Amwythig, lle yr argraphodd amryw lyfrau Cymreig gwerthfawr. Yn 1718, argraphodd Ramınadeg Cymraeg bychan, yn meddu y teitl 'Grammadeg Cymraeg, o gasgliad, myfyrdod, ac argraphiad J. R., ac ar werth ganddo ef yn y Mwythig.' Casglodd Eiriadur Saesneg a Chymraeg hefyd, a chyhoeddodd argraphiad o hono yn y fl. 1725. Nid oes sierwydd llawn am adeg ei farwolaeth, er y tybir i hyny gymmeryd lle cyn 1731; o blegid yn y flwyddyn hon, dygwyd argraphiad arall o Eiriadur Saesneg a Chymraeg allan gan un Thomas Durston, ar wyneb-ddalen yr hwn y dywedir i'r gwaith gael ei ddechreu gan John Rhydderch, ond iddo gael ei adolygu a'i orphen gan y Parch. John Williams, periglor Willey, yn sir Amwythig.

RHYDDERCH HAEL. Mab ydoedd efe i Tudwal Tudglud ab Cedig ab Dyfnwal Hen ab Ednyfed ab Macsen Wledig. Efe oedd brenin y Brythoniaid a elwid Prydeiniaid Ystrad Clwyd tua'r flwyddyn 560, a phreswyliai yn Aelclwyd—lle a elwir yn bresennol yn Dunbarton. Yr oedd efe hefyd yn frenin Ynys Manaw. Perchid ef fel y dyn mwyaf rhyddfrydig a haelionus, ac fel un o ryfelwyr penaf ei oes. Cymmerodd ran flaenllaw yn mrwydr fythgofiadwy Arderydd, yn y fl. 577, yn erbyn Aeddan Fradawg a Gwenddolau ab Ceidio, yn yr hon yr ennillodd Rhydderch y fuddugoliaeth, ac y lladdwyd Gwenddolau, a nifer fawr o'i ganlynwyr. Rhestrir Rhydderch yn y Trioedd gyda Nudd Hael, a Mordaf Hael, o dan y cymmeriad o 'Dri Thywysog Hael' Ynys Prydain. Bu Rhyddferch fyw nes oedd yn 85ain mlwydd oed. Bu farw yn y fl. 601, a chladdwyd ef yn Abererch, yn sir Gaernarfon.

RHYDDION. Brenin Prydain tua dwy ganrif cyn Crist. Nid oes dim o'i hanes ar gael, namyn iddo gael ei ddilyn ar yr orsedd gan Rhydderch.

RHYDDMARCH. Mab Sulien, Esgob Tŷ

Digitized by Google

Ddewi, oedd efe; yr hwn a bennodwyd i'r swydd ar farwolaeth ei dad yn y fl. 1088. Disgrifir ef gan Caradawg fel un tebyg i'w dad; ond nad oedd yn gyffelyb iddo mewn doethineb a dysgeidiaeth. Bu farw yn y fl. 1098. Ceir ysgrif ragorol o'i waith yn mysg y Casgliad Cottonaidd yn yr Amgueddfa Freiniol, yr hwn sydd yn cynnwys, yn benaf, hanes bywydau y Saint Cymreig.

RHYDYCHAIN. Gwêl Prifysgolion.

RHYOD AIL MORGANT. Penaeth a flodeuodd yn y rhan flaenaf o'r chweched ganrif oedd efe. Yn y Trioedd, crybwyllir am dano fel un o 'dri beirdd afreolaidd' Ynys Prydain, gydag Arthur, a Chadwallawn, mab Cadfan. Rhestrir ef hefyd gyda Thrystan, a Dalldaf, mab Cynin Côf, fel un o 'dri cyforddwyr' llys Arthur. Enw ei farch oedd Rhyddfrych.

RHYS AB CARADOG AB IESTYN. Boneddwr oedd efe a breswyliai yn Morganwg. Lladdwyd ef gan y Normaniaid yn Mrowyr, yn y fl. 1099, pan y cymmerasant feddiant o'r wlad hono, o dan lywyddiaeth Henry Beaumont.

RHYS AB CYNFRIG GOCH. Gelwid ef hefyd wrth yr enw Rhys Goch Glyndwrdu, a rhestrid ef yn mysg y beirdd a flodeuent rhwng 1400 a 1430. Derbyniodd ei addysg yn y cynghaneddion gan Iolo Goch; yr hwn oedd yn ewythr iddo, brawd ei dad.

RHYS AB DAFYDD AB EINION. Bardd lled enwog oedd efe, yn byw rhwng y bl. 1460 a 1490. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau barddonol etto i'w cael mewn hen lawysgrifau.

RHYS AB DAFYDD LLWYD AB LLYWELYN LLYGLIW:—un o feirdd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Ond ychydig o'i hanes sydd ar gael.

RHYS AB EDNYFED. Bardd a gyrhaeddodd anterth ei enwogrwydd rhwng 1560 a 1600 oedd efe.

RHYS AB EINION. Bardd o radd uchel, a flodeuodd tua chanol yr unfed ganrif-ar-bymtheg.

RHYS AB GORFYNIAWN. Efe, yn ol y 'Brut Cymraeg,' a ddilynodd ei ewythr Elidr Wâr ar orsedd Prydain. Darfu iddo hefyd ddilyn yr un cwrs doeth a'i ragflaenydd yn nygiad yn mlaen y llywodraeth. Ffieiddiai ormes yn mhob gwedd arni; a safodd yn dŷn o blaid cyfiawnder a thynerwch.

RHYS AB GRUFFYDD AB RHYS. Olynydd ei dad, fel tywysog Deheubarth Cymru, yn y fl. 1136. Yn ystod blynyddau cyntaf ei deyrnasiad, yr oedd mewn rhyfel barhaus â'r Saeson dan Harri II.; a thrwy ei wrhydri, efe a adfeddiannodd yr holl diroedd a gymmerwyd yn y Deheubarth ganddynt. Yn chwanegol at hyn, efe a ddinystriodd, neu a gymmerodd feddiant o'r holl gastelli a adeiladwyd ganddynt. Yn 1164, modd bynag, gorfu iddo ymostwng i'r brenin Saesneg, ac ymrwymo mewn llŵ o ffyddlondeb iddo yn y dyfodol. O herwydd y sarhâd a fwrid arno, methodd a chadw at delerau ei ymrwymiad; ac yn 1165, ymunodd â'r tywysogion Cymreig mewn rhyfel cyffredinol yn erbyn y brenin. Wedi llwyddo, trwy nerth arfau, i gadw ei annibyniaeth am amryw flynyddau, darfu iddo, yn 1172, ddyfod i gymmod heddychol â Harri; a derbyniwyd ef fel ymwelydd i Dŷ Gwyn ar Dâf, yn sir Gaerfyrddin—un o'r palasau brenhinol. O hyny allan, yr oedd Rhys yn fath o gaethwas i'r brenin Saesneg; ac ymfoddlonodd i'r enw a'r swydd o brif ynad Deheudir Cymru. Efe oedd tywysog olaf y Deheubarth; a gelwid ef yn gyffredin yn 'Arglwydd Rhys.' Yn 1195, cawn iddo drachefn godi mewn gwrthryfel, a llwyddo i gymmeryd amryw o'r castelli o afael y Saeson. Ond yn 1196, y flwyddyn ddilynol, rhoddwyd terfyn ar ei anturiaethau gan angeu. Claddwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, lle y mae ei gofadail i'w gweled hyd heddyw mewn cyflwr lled dda. Er yr ymostyngiad y cyfeirir ato uchod i frenin Lloegr, y mae yr hanesydd Caradawg yn galw Rhys y tywysog dewraf a'r mwyaf rhyddfrydig o dywysogion y Deheubarth. Priododd Gwenllian, merch Madog ab Meredydd, Arglwydd Bromfield; o'r hon y ganwyd iddo amryw feibion a merched. Y blaenaf oeddynt Gruffydd, Cadwallawn, Maelgwn, Meredydd, a Rhys. Ei ferch, Gwenllian, a briododd Ednyfed Fychan.

RHYS AB GWILYM AB THOMAS. Bardd o enwogrwydd a flodeuodd rhwng y bl. 1520 a 1550.

RHYS AB HYWEL LEN. Ychydig o'i hanes ef sydd ar gael, amgen na'i fod yn fardd yn byw rhwng y bl. 1500 a 1540.

RHYS AB IEUAN AB MEREDYDD DDU. Bardd a ddaeth i enwogrwydd rhwng 1440 a 1480. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael etto mewn llawysgrifau.

RHYS AB IFAN AB LLYWELYN AB HYWEL. Bardd o fri, rhwng 1490 a 1530.

RHYS AB LLEWELYN AB GRUFFYDD AB RHYS. Un o feirdd diwedd y bymthegfed ganrif, a dechreu y ganrif ddilynol. Tybir iddo farw tua'r fl. 1520.

RHYS. Mab Owain ab Edwyn, oedd gymmeriad o enwogrwydd yn hanes yr hen Gymry. Er mwyn ei ddiogelwch, bu raid iddo ffoi unwaith i Ynys Manaw; ond efe a ddychwelodd oddi yno yn y fl. 1072. Yna, wedi codi byddin gref o wŷr Ystrad Tywi a sir Frycheiniog, ymladdodd frwydr â Bleddyn ab Cynfyn, brenin Cymru, yn yr hon y lladdwyd Bleddyn. Yn ddilynol i'r fuddugoliaeth hon, arweiniodd Rhys ei luoedd i Ddeheudir Cymru, yn erbyn Rhydderch ab Caradog; ond cyn dechreu ymladd, daethant i gyttundeb heddychol i gydlywodraethu y Deheubarth. Byr fu mwyniant Rhys o'r anrhydedd hwn; o blegid lladdwyd ef gan Trahaiarn ab Caradog yn y fl. 1074.

RHYS AB TEWDWR MAWR. Tywysog y Deheubarth, a disgynydd yn y bedwaredd âch mewn llinell uniongyrchol o'r enwog Hywel Dda. Lladdwyd Tewdwr, tad Rhys, mewn ymladdfa ffyrnig a gymmerodd le yn y fl. 997;

Digitized by Google

a gadawodd ei feibion, Rhys a Rhydderch, i ymdaro oreu y gallent hwy yn y dyddiau cyffrous a therfysglyd hyny. Darfu i ryfeloedd ei gydgenedl, ynghyd âg ysbeiliad ei dreftadaeth, yru Rhys, pan yn lled ieuangc, i ymofyn am nodded at Frytaniaid Llydaw, yn Ffraingc; a bu yno, meddir, am dros hanner canrif. Ychydig o'i hanes sydd yn awr ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Yn 1077 y cawn yr hanes cyntaf am dano, ar ol ei ymadawiad i Lydaw. Yr amser hwnw y bu farw Rhys ab Owen; yr hwn a ladrataodd arglwyddiaeth y Deheubarth, yr hon a berthynai yn gyfiawn i Rhys ab Tewdwr. Pan y derbyniodd Rhys y newydd am farwolaeth Rhys ab Owen, efe a ddychwelodd i Gymru, gan ddadgan ei hawliau fel penaeth y Deheubarth. Rhaid fod Rhys y pryd hwn tua 80ain oed; ac felly, yn hynod anghyfaddas i wrthsefyll yr helyntion oedd i'w gyfarfod. Pleidleisiodd y wlad yn unfrydol dros ei sefydlu yn ei arglwyddiaeth gyfreithlawn; ac yr oedd yntau yn sefyll yn eu golwg fel gŵr o dynerwch a doethineb. Yr oedd arglwyddiaeth Gwynedd, y pryd hwnw, yn meddiant anghyfreithlawn Trahaiarn ab Caradog; yr hwn, gyda llaw, fu y prif foddion i ddiorseddu Rhys ab Owen. Ac yr oedd Trahaiarn yn dirgel chwennych cael arglwyddiaeth y Deheubarth hefyd i'w feddiant; a chynnhyrfodd ei lid yn fawr yn erbyn Rhys pan adferwyd i'r olaf ei frenhiniaeth. Gwir etifedd gorsedd Gwynedd oedd Gruffydd ab Cynan; ac efe a wnaeth lawer cynnyg i'w hadennill oddi wrth y trawsfeddiannydd; ond yn aflwyddiannus. Yn awr, fodd bynag, gwnaeth appeliad taer am i Rhys ab Tewdwr ddyfod allan i'w gynnorthwyo. Wedi deall eu gilydd, gwnaethant barotoadau i ymosod ar Trahaiarn. Darfu i'r treisiwr, yntau, wrth weled ei berygl, gyflogi ei gefnderoedd, Caradog a Meilyr, i fod yn gynnorthwywyr iddo. Cyfarfyddodd y byddinoedd ar fynydd Carno, yn sir Drefaldwyn; ac yno, ar gyttir y Gogledd a'r Deheu, yr ymladdwyd un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd a gofnodir mewn hanesiaeth Gymreig. Cwympodd Trahaiarn, a'i gefnder, a nifer fawr o'u milwyr, yn gelaneddau ar ben Carno. Cymmerodd y frwydr fythgofiadwy hon le yn y fl. 1079; ac yn uniongyrchol, daeth yr etifeddion priodol, yn mhersonau Rhys a Gruffydd ab Cynan, i feddiant o'u gwahanol arglwyddiaethau. Bu tawelwch ar ol hyn; ond terfynodd yn fuan. Yn ystod arosiad Rhys yn Llydaw, yr oedd teulu Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, wedi lled dybied y gallent hwy feddiannu arglwyddiaeth y Deheubarth; ac felly, yn lled fuan ar ol y frwydr y cyfeiriwyd ati, cododd Iestyn, yr hwn oedd ddyn gwrol ac anturiaethus, ond uchelgeisiol a diegwyddor, faner gwrthryfel yn erbyn Rhys. O herwydd ei dymmer afrywiog, a'i natur fradychlyd, yr oedd Iestyn yn dra anmhoblogaidd gyda gwŷr Morganwg: — yn gymmaint felly fel y penderfynasant na oddefid iddo fod yn olynydd i'w dad ar ei farwolaeth. Dyn o'r natur hwn, gan hyny, oedd yr hwn a heriai Rhys ab Tewdwr. Yr oedd Rhys yn ddigon cyfarwydd â chyfrinion rhyfel, fel y gwyddai mai cam pwysig er ennill buddugoliaeth ydoedd taraw ei elyn yn uniongyrchol. Felly, heb ymdroi, efe a gychwynodd gyda'r fyddin tua Morganwg. Difrododd gryn lawer ar y wlad y ffordd y symmudodd; a chymmerodd feddiant o gastelli Llanilltyd, Dindryfan, a Dinas Powys. Gweithiodd Iestyn ei ffordd hefyd i diroedd Rhys yn Mrycheiniog ac Ystrad Tywi, a gwnaeth yno ddifrod mawr. Parhaodd yr ymgyrchoedd hyn rhwng y pleidiau am gryn ysbaid o amser; ac yn chwanegol at yr helyntion hyn, yr oedd gan Rhys elynion, heb law Iestyn. Er enghraifft, cynghreiriodd meibion Bleddyn ab Cynfyn, Tywysog Powys, yn ei erbyn. Casglasant fyddin gref, ac ymosodasant gyda'r fath benderfyniad ar filwyr Rhys fel y bu gorfod arno gilio o'r wlad unwaith yn rhagor. I'r Iwerddon y diangodd efe y waith hon; ac yno cododd fyddin gref, er ail ymosod ar derfysgwyr ei wlad. Yn ei absennoldeb, gwnaeth Iestyn, a meibion Bleddyn, ddifrod dychrynllyd ar ei diriogaeth, trwy ladd a llosgi yr hyn fyddai yn ei ffordd. Pan ddychwelodd Rhys gyda'i fyddin Wyddelig, ymrestrodd ei ddeiliaid ffyddlawn wrth y miloedd dan ei faner. Cyfarfu y byddinoedd yn Llechryd, ger Aberteifi; ac yno yr ymladdwyd y frwydr. Ymladdodd Rhys a'i wŷr yn wrol. Cwympodd dau o feibion Bleddyn; ac aeth byddin y terfysgwyr yn annhrefnus. Gwelodd Iestyn fod lliaws o'i ganlynwyr wedi syrthio; a diangodd am ei fywyd. Yna gwasgarodd Rhys ei fyddin Wyddelig, a thalodd yn anrhydeddus iddynt. Wedi hyny, efe a ymsefydlodd drachefn yn arglwyddiaeth y Deheubarth. Ond ni bu iddo heddwch ond am ychydig amser; o blegid yn y fl. 1088, cyfododd Llewelyn ac Einion, meibion Cadifor ab Collwyn, Arglwydd Dyfed, a'u hewythr Einion, mewn gwrthryfel yn ei erbyn. Bu ymladdfa ddychrynllyd rhwng y byddinoedd yn Llandudoch. Rhedai gwaed y milwyr yn ffrydiau, a gorweddai cyrph dynion a meirch blith-draphlith ar wyneb y maes. Ond bu Rhys, unwaith etto, yn fuddugoliaethus. Lladdwyd meibion Cadifor; ond llwyddodd eu hewythr, Einion, i ffoi at Iestyn ab Gwrgant. Yna ymgynghreiriodd y ddau ffoadur, a gwnaethant amryw ymosodiadau ar derfynau Rhys. Ond yr oedd yr hen dywysog yn alluog i'w gwrthsefyll, ac i'w gyru yn ol gyda cholled fawr bob tro. Yn yr anobaith hwn, cychwynodd Einion, gyda chydsyniad Iestyn, i Loegr i ymofyn cynnorthwy y Normaniaid; a daeth haid o honynt i Gymru, ac ymunasant â milwyr Iestyn. Cyfarfu y lluoedd gwrthwynebol o fewn plwyf Aberdâr, lle y bu un o'r brwydrau erchyllaf a geir yn holl hanes y Deheubarth. Y mae dau le o'r enw 'Gadlys,' neu Llys y Gâd, ger llaw tref Aberdâr. Yno, meddir, y gwersyllai y ddwy fyddin; ac mae'r enwau sydd ar y meusydd, y bryniau, a'r nentydd, &c., oddi yno i Hirwaun, yn profi fod ymladdfa arswydus wedi cymmeryd lle yno. Ar Hirwaun Wrgant, collodd mab dewr Tewdwr y dydd, a ffodd i Gwm Rhondda; ond cafodd ei elynion afael ynddo, a thorasant ei ben yn ddiseremoni. Dywed traddodiad i r oruchwyliaeth greulawn o ddi-benu Rhys gymmeryd lle mewn man a elwir hyd heddyw yn 'Penrhys' — enw ar dyddyn yn yr ardal. Dyma'r dydd y collodd Morganwg ei hannibyniaeth; a hyny trwy fradychiad Iestyn ac Einion; yr hyn, fel pob brâd arall, a esgorodd ar wobr anwiredd. Talodd Iestyn i'r Normaniaid am eu gwasanaeth mewn aur melyn; ac y mae lle yn Morganwg a elwir 'Y Filldir Aur' hyd y dydd heddyw. Wedi cael eu gwobr, trodd y Normaniaid eu hwynebau tua Chaerdydd, gan fwriadau myned i'w llongau, er

Digitized by Google

dychwelyd. Yn y cyfamser, torodd Iestyn ei gyfammod âg Einion; yr hwn a redodd ar ol y Normaniaid i'w cymmhell yn ol. Adroddodd Einion ei gŵyn wrthynt, gan eu cymmhell i godi yn erbyn Iestyn. Gwnaethant hyn gyda phob parodrwydd; a gorchfygasant ef ger llaw Caerdydd. Ar ol hyn, rhanasant y wlad rhyngddynt â'u gilydd, ac ni roddasant ond darn bychan i'r bradwr Einion.

RHYS, IEUAN AB:—neu, IEUAN AB RHYS BRYDYDD. Yr ydoedd efe yn ail fab i Rhys Llwyd ap Rhys ap Richard; neu Rhys Brydydd o Glaen Cynllan, yn Llanharan, Morganwg; a blodeuodd tua 1450. Dygwyd ef i fyny yn fynach yn Margam; ond am iddo gofleidio Lolardiaeth, trowyd ef oddi yno. Yn ddilynol, efe a briododd fynaches; yr hon oedd, fel yntau, wedi ymryddhau oddi wrth ddefodau mynachaidd—o'r hon y bu iddo blant. Daeth Thomas, eu mab, yn brydydd o enwogrwydd. Ymddengys fod Rhys, ar ol ei ymadawiad o'r fynachlog, a phriodi, yn dal tir yn Nghynffig, o dan Syr Mathew Cradock, yr hwn oedd yn Babydd selog. O herwydd gwahaniaeth mewn credo, trowyd ef oddi ar ei etifeddiaeth gan Syr Mathew. Ymsefydlodd y waith nesaf yn Merthyr Cynog, yn sir Frycheiniog, lle y cafodd lonydd am hir amser. Oddi yno, symmudodd i Langynwyd, i gadw ysgol.

RHYS, IFAN THOMAS. Ganwyd ef yn Llwyn Dafydd, yn mhlwyf Llandysilio, yn Ngheredigion, tua chanol y ganrif ddiweddaf; a daeth yn fardd o fri. Adwaenid ef hefyd wrth yr enw IFAN THOMAS RHYS O LANARTH, am mai yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Crydd oedd efe o ran ei alwedigaeth. Casglwyd ei waith, yn benaf oddi ar lafar gwlad, a chyhoeddwyd ef yn 1842.

RHYS, o GARNO: neu, fel y gelwid ef, Syr RHYS O'R DREWEN, a Syr RHYS AB HYWEL, DYRNOR. Yr oedd efe yn glerigwr ac yn fardd. Nid oes sicrwydd ynghylch amser ei enedigaeth; ond bu farw tua'r flwyddyn 1470. Ceir rhai cyfansoddiadau o'i eiddo mewn llawysgrifen.

RHYS BRYDYDD. Ei enw priodol oedd RHYS LLWYD; ac yr oedd efe yn byw yn Llanharan, rhwng 1450 a 1490. Meibion iddo ef oedd Rhisiart Brydydd, ac Iefan ab Rhys; y rhai oeddynt fynachod yn mynachlog Margam. Enwau eraill wrth ba rai y gelwid Rhys Brydydd oeddynt RHYS LLWYD BRYDYDD, RHYS LLWYD AP RHYS AP RHISIART, a HEN FARDD LLWYD O FORGANWG.

RHYS GOCH AB RICCARD AB EINION AB COLLWYN. Bardd enwog oedd efe, o'r Coity, yn Morganwg; a bu fyw rhwng 1140 a 1170. Yr oedd efe yn ŵyr i Einion ab Collwyn, yr hwn a wahoddodd y Normaniaid i Forganwg. Gelwid ef hefyd RHYS GOCH O DIR IARLL. Ceir ugain o ganeuon serch o'i waith yn yr *Iolo MSS.*

RHYS GOCH ERYRI; yr hwn a elwid hefyd yn RHYS GOCH AB DAFYDD. Bardd enwog a chlodfawr oedd efe, a flodeuodd rhwng 1330 a 1420. Meddai gyfoeth mawr, a thrigiannai yn Hafod Garegog, yn mhlwyf Beddgelert; yr hwn balas, ynghyd â'r arglwyddiaeth oedd yn gyssylltiedig âg ef yn sir Feirionydd, a berthynent iddo. Dangosir ei hen eisteddle ar fryn yn agos i'r pentref, a gwneir ef i fyny o geryg mawrion ar ddull cadair. Bu farw tua'r fl. 1420, a chladdwyd ef yn Meddgelert, pan tua 100 oed.

RHYS GRYG. Mab oedd efe i Rhys ap Gruffydd, tywysog y Deheubarth. Yn 1219, efe a briododd ferch i Iarll Clare. Bu farw yn Llandeilo Fawr, yn sir Gaerfyrddin, yn 1233; a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, lle y ceir delw goffa am dano, fel am ei dad. Yr oedd efe yn rhyfelwr enwog; a gwnaeth gryn wrhydri yn yr ysgarmesoedd a gymmerasant le yn ei ddydd. Ceir amryw awdlau a gyfeiriwyd ato gan Llywarch ap Llywelyn, Phylip Brydydd, a Dewi Mynwy, yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology of Wales.*

RHYS GRYTHOR, Hiraethog. Clerfardd, a digrifwas poblogaidd oedd efe. Blodeuodd yn yr 16eg ganrif, a chydoesai â dau ŵr enwog arall, William Cynwal a Siôn Tudur. Anfonodd y blaenaf gywydd at yr olaf dros y Dr. Prys, o Blasiolyn, i ofyn benthyg y crythor i ddyfod i'r wledd flynyddol a gynnaliai y boneddwr hwnw. Y mae y ddau gywydd hyn i'w gweled yn y *Brython*, cyf. iii., td. 426; a gwae i Rhys fyth eu canu. Gwna y ddau gyff clêr o hono, a thraethant ei achau a'i wendidau yn ysmala a difloesgni. Graddiwyd ef yn 'Ddysgybl Dysgyblaidd Cerdd Grŵth' yn Eisteddfod Caerwys, yn 1568.

RHYS, MORGAN. Ganwyd ef yn nghymmydogaeth Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, tua dechreu y 18fed ganrif. Dygwyd ef i gyssylltiad â chrefydd dan weinidogaeth Howel Harris a Daniel Rowlands; a dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Bu am y rhan fwyaf o'i oes yn cadw ysgol yn Nghapel Isaac, ger Llandeilo Fawr; oddi wrth yr hyn, yn benaf, yr ennillai ei fywoliaeth. Tybir iddo fod am ysbaid yn un o ysgolfeistri yr enwog Barch. Griffith Jones, o Landdowror. Ond nid fel ysgolfeistr na phregethwr yr ennillodd efe ei enwogrwydd, ond fel emynydd. Ei brif waith oedd yr un a ddygai y teitl *Golwg o Ben Nebo a Gwlad yr Addewid.* Yn yr emynau a gynnwysir ynddo, cymmer y bardd olwg ar gwymp dyn yn yr Adda Cyntaf, a'i gyfodiad yn yr Ail Adda. Cyhoeddwyd ef yn 1760. Yn 1764, daeth ail argraphiad o hono allan, o dan yr enw *Golwg o Ben Nebo ar Wlad yr Addewid;* a chynnwysa hwn emynau ac odlau newyddion. Tua'r un pryd, efe a gyhoeddodd 'Farwnad ar ol rhyw Gristion da;' ac wedi hyny, yn 1773, cyhoeddodd argraphiad diwygiedig o *Golwg o Ben Nebo;* a thrydydd argraphiad yn 1775. Bydd i'r gwaith hwn gadw ei enw mewn coffadwriaeth barhaus, wedi i enwau miloedd o'i gydoeswyr gael eu hanghofio. Yn 1769, cyhoeddodd lyfryn o'r enw *Golwg ar ddull y Byd hwn yn myn'd heibio, a Thragwyddoldeb o Hapusrwydd yn nesau i holl Waredigion Seion.* Yn 1771, ysgrifenodd *Farwnad neu Goffadwriaeth o ddedwydd Farwolaeth rhai o Weinidogion ffyddlon yr Efengyl*, a *Golwg ar ddinas Noddfa, mewn Casgliad o Hymnau*, &c., ynghyd â *Marwnad Ester, gwraig William Siôn, o'r Llwcelau*, &c. Yn y fl. 1774, cyhoeddodd *Hanes byr o Fywyd a Marwolaeth Morgan Nathan*, o

Digitized by Google

*Landeilo Fawr;* a thua'r un adeg, cyhoeddodd ddau lyfryn bychan arall—un o dan yr enw *Ffrwyth Ysbrydol, neu Gasgliad o Hymnau Newyddion ar amryw Fesurau,* mewn cyssylltiad âg un Thomas Dafydd; a'r llall ganddo ef ei hun, o dan yr enw *Griddfanau y Credadyn am Berffeithrwydd ac Anllygredigaeth.* Y mae ei holl emynau yn llawn o felusder; a dywedir eu bod yn britho ein llyfrau hymnau, er fod rhai o honynt yn cael eu priodoli gan draddodiad i awduron eraill. Bernir iddo farw yn y fl. 1776, a chael ei gladdu yn mynwent Llanfynydd; ond nid oes yno feddfaen i ddynodi 'man fechan ei fedd.'

RHYS WYN AB CADWALADR. Bardd oedd efe, yn byw rhwng y bl. 1580 a 1640.

RHYS, GWEIRYDD AP. Gwel cyf. viii., dan yr enw John Robert Prys.

RICARDO, DAVID. Trefnidydd politicaidd enwog oedd efe, a anwyd yn Llundain, Ebrill 19eg, 1772. Iuddew oedd ei dad, ac yn aelod o'r *Stock Exchange;* i'r hon alwedigaeth hefyd y dygodd ei fab i fyny. Yn 1793, priododd Ricardo ieuangc y tu allan i gylch y genedl Iuddewig; a chydymffurfiodd â'r Cristionogion. Parhaodd i ddilyn ei alwedigaeth gyda'r fath lwyddiant fel y casglodd gyfoeth lawer pan yn gymmharol ieuangc. Yn 1799, efe a ddechreuodd deimlo dyddordeb mewn trefniedydd gwladol *(political ecomony),* mewn canlyniad i'w waith yn darllen *The Wealth of Nations,* gan Adam Smith; ac yr oedd ei ddygiad i fyny mewn cyssylltiad â chwestiynau arianol yn ei gymmhwyso, i raddau helaeth, i ymdrin â'r pwngc. Yn 1809, efe a gyhoeddodd bamphledyn, yn dwyn yr enw *The High Price of Bullion a Proof of the Depreciation of Banknotes.* Wedi ymddangosiad amryw bamphledau eraill o'i eiddo, efe a gyhoeddodd, yn 1817, y gwaith ar ba un y mae ei gymmeriad fel trefnidydd yn gorphwys; sef, *On the Principles of Political Economy and Taxation.* Nid yw hwn yn draethawd cyflawn ar drefnidedd gwladol; ond ceir trafodaeth ynddo ar rai o brif byngciau y cwestiwn; megys, gwerth (*value*), cyflogau, ardrethi, &c. Yn 1819, anfonwyd Ricardo i'r senedd, fel aelod dros Portarlington; a daliodd ei sêdd hyd ei farwolaeth, ar Medi 11eg, 1823. Yr oedd yn rhy wylaidd i fod yn siaradwr effeithiol; ond cafodd ei areithiau, yn enwedig ar faterion arianol a masnachol, gryn lawer o ddylanwad.

RICHARD O GERNYW (*Richard of Cornwall*). Ail fab i'r brenin John oedd efe, a anwyd Ionawr 5ed, 1209. Yn 1225–26, yr oedd efe, a'i ewythr, William o Salisbury, yn llywyddu yr anturiaeth filwraidd a anfonwyd i adfeddiannu Gascony; a'r flwyddyn ddilynol, rhoddwyd Cernyw yn eiddo iddo, fel canlyniad i waith yr iarllod yn gorfodi y brenin Harri III. i wneyd darpariaeth ar ei gyfer. Cydweithredodd Richard am rai blynyddoedd gyda'r barwniaid Saesnig; âg amryw o ba rai y daeth i berthynas trwy ei briodas âg Isabel, Is-iarlles Gloucester, merch Iarll Penfro. Yn 1240–41, aeth Richard o Gernyw ar groesgad; a'r flwyddyn ddilynol, yr oedd gyda'i frawd yn Gascony. Yn 1244, priododd Sanchia o Provence, chwaer i'r frenhines Eleanor. Yn 1252, gwrthododd gynnyg y pab i werthu iddo goron Ynys Sicily; ond yn 1257, etholwyd ef, trwy fwyafrif, yn frenin teitlog y Rhufeiniaid; ac yn fuan wedi hyny, coronwyd ef yn Aix-la-Chapelle. Bu yn ddigon doeth i gadw gafael o ryw fath ar yr Almaen, gan wario ei gyfoeth â llaw haelionus er cadw i fyny ei safle ei hun, ac urddas yr ymherodraeth. Yn ystod y cweryl a fu rhwng Harri III. a'i bendefigion, gweithredai Richard ar y cyntaf fel heddychwr rhwng y pleidiau; ond yn ddilynol, cymmerodd blaid ei frawd yn erbyn Simon de Montfort. Cymmerwyd ef yn garcharor yn Lewes, a chadwyd ef yn gaeth hyd 1265, pan y gollyngwyd ef yn rhydd yn ystod brwydr Evesham. Yn 1267, priododd y drydedd waith:—a'r tro hwn gyda Beatrice, merch Etholwr Cologne. Bu Richard farw yn Kirkham, Rhag. 12fed, 1271, o doriad calon, o herwydd colli ei fab hynaf, Henry; yr hwn a lofruddiwyd yn Viterbo.

RICHARDS, BRINLEY. Cymro oedd efe, a ennillodd safle uchel fel pêrdonegydd, ac fel cyfansoddwr cerddorol. Mab ydoedd efe i Mr. H. Richards, organydd Eglwys St. Pedr, yn Nghaerfyrddin; a ganwyd ef yn y dref hono yn y fl. 1819. Trefnwyd iddo gael ei ddwyn i fyny yn feddyg gydag un o'r alwedigaeth hono yn ei dref enedigol; ond yr oedd cerddoriaeth yn fwy cydweddol â'i chwaeth; ac felly, rhoddodd heibio efrydu meddyginiaeth. Gyda chynnorthwy y Duc o Newcastle, aeth i'r Athrofa Gerddorol Frenhinol yn Llundain, lle yr ennillodd ysgoloriaeth y brenin yn 1835 ac 1837. Ar derfyn ei gwrs athrofäol, ennillodd safle dda yn y brifddinas fel pêrdonegydd, ac fel athraw cerddorol. Ond ni pharodd hyn iddo anghofio 'y wlad a'i macodd;' o blegid byddai yn cymmeryd rhan flaenllaw yn ngherddoriaeth genedlaethol Cymru; ac yr oedd y cariad a feddai at bob peth cyssylltiedig â'r Dywysogaeth yn peri ei fod yn ymdaflu gyda holl wres ei natur i weithio yn mhlaid hyny. Bu gan yr ysbryd hwn ddylanwad mawr ar ei yrfa gerddorol. Rhoddodd symbyliad i'w athrylith, a chwanegodd lawer at ei lwyddiant. Cyfansoddodd amryw ddarnau oedd yn dwyn cyssylltiad agos â Chymru; sef, *The Cambrian War Song, The Cambrian Plume, Harp of Wales,* a *God Bless the Prince of Wales*—yr olaf o ba rai a ddaeth yn hynod boblogaidd. Chwareuwyd rhai o'i ddarnau cerddfaol yn aml yn Llundain a Pharis; a thra ar ymweliad â'r lle olaf, tynodd sylw y cyfansoddwr enwog Chopin, a ffurfiwyd cyfeillgarwch rhyngddynt a barhaodd hyd ei farwolaeth. Yn mysg rhai o gyfansoddiadau Mr. Richards, gellir nodi ei ganeuon cyssegredig, *In the hour of my distress, The Pilgrim's Path, As o'er the Past, Through the Day,* ac amryw o gyfansoddiadau poblogaidd eraill. Cyflwynwyd ef i Dywysog a Thywysoges Cymru, dydd Gŵyl Dewi, 1867, fel cyfansoddwr 'Ar Dywysog Gwlad y Bryniau.' Bu farw Mai 1af, 1885; a chladdwyd ef y dydd Iau canlynol, yn nghladdfa Brompton.

RICHARDS, EDWARD. Bardd, ac ysgolfeistr, a hynafiaethydd o enwogrwydd. Ganwyd ef yn mhlwyf Ystradmeurig, yn sir Aberteifi, yn y fl. 1714; ac yr oedd ei dad, Thomas Richard, yn cadw teilwriaid yno, a thafarndy. Wedi derbyn peth addysg gan ei frawd hynaf, Abraham, aeth Edward i Ysgol Ramadegol

Digitized by Google

Caerfyrddin; wedi hyny, bu o dan addysg Mr. Pugh, Llanarth—gŵr oedranus, ac o gymmeriad uchel am ei ddysg, yn enwedig yn yr iaith Roeg. Tua'r flwyddyn 1734, anturiodd Edward Richards agor ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun yn Ystradmeurig; a buan y daeth hono yn enwog drwy yr holl wlad. Yn fuan ar ol hyn, dywedir iddo roddi yr ysgol hono i fyny; am ei fod, yn ei dyb ei hun, yn analluog i gyfranu chwaneg o addysg i'r plant gyda hyny o ddysgeidiaeth a feddai. Yna ymroddodd am ysbaid dwy flynedd i chwanegu at ei wybodaeth; a gwnaeth eglwys y plwyf yn efrydfa, a chafodd yr enwog Ieuan Brydydd Hir yn athraw. Haf a gauaf, ac oerni a gwres, dechreuai Edward Richard ar ei efrydiau yn eglwys Ystrad; a dywedir na byddai un amser yn dechreu heb weddïo. Ar derfyn y ddwy flynedd, agorodd yr ysgol uchod eilwaith; a daeth ato yn fuan nifer fawr o wŷr ieuainge o bob cwr o'r Dywysogaeth. Yna pennodwyd ef yn athraw ysgol rydd waddolog yn mhlwyf Lledrod—yr hon swydd a lanwodd efe er ei anrhydedd ei hun, a mantais ei ysgolheigion. Wedi llwyddo i gasglu ychydig gyfoeth, a chan ei fod yn ddibriod, efe a benderfynodd sefydlu ysgol rammadegol yn Ystradmeurig, er cyfranu addysg yn yr iaith Lladin, ac hefyd yn egwyddorion yr Eglwys Sefydledig. Yn 1757, troes fferm o'i eiddo i'r perwyl hwn. Bu farw ei fam, yr hon a garai yn fawr, yn 1764; a chyfansoddodd y fugeileg alarnadol ardderchog hono iddo a welir yn argraphedig yn ei waith. Dywedir y byddai yn gohebu yn fynych â Lewis Morus o Fôn, Dr. Phillips, a gwŷr enwog eraill, ar gwestiynau oedd yn dwyn cysylltiad â hanesiaeth a hynafiaeth Cymru; a cheir amryw o'r cyfryw lythyrau yn y *Cambrian Register*. Cyn marw, yr hyn a gymmerodd le Chwefror 28ain, 1777, rhoddodd amryw ffermydd a berchenogai yn waddol i Ysgol Ystradmeurig. Cyhoeddwyd hanes ei fywyd, a chasgliad o'i fugeilgerddi, a'i ganeuon clasurol, yn Llundain, yn 1811, dan y teitl *Yr Eos*.

RICHARDS, SYR RICHARD. Cyfreithiwr enwog, a anwyd yn mhlwyf Dolgellau, yn Meirionydd, Tach. 5ed, 1752. Wedi derbyn addysg yn Ysgol Rhuthyn, efe a aeth i Rydychain, lle yr etholwyd ef i gymmrodoriaeth Michel, yn Ngholeg y Frenhines. Wedi hyny, bu yn fargyfreithiwr. Yn 1813, pennodwyd ef yn brifynad Caerlleon; yn 1814, yn un o farwniaid y trysorlys; ac yn 1817, yn arglwydd brif farwn y llys hwnw:—ac ni safai un gŵr yn uwch nag ef yn marn ei gyfeillion, nac yn mharch y cyhoedd. Yr oedd yn foneddwr caredig a haelfrydig; a threuliodd yr holl amser a feddai yn rhydd oddi wrth ofalon ei swyddi i gyflawni gweithredoedd dyngarol. Ennillodd gyfeillgarwch ac ymddiried llwyraf Arglwydd Eldon; yn absennoldeb yr hwn y llywyddodd lawer gwaith fel llefarydd tŷ yr arglwyddi. Yn 1785, priododd Catherine, merch ac etifeddes Robert Vaughan Humphreys, Ysw., o Gaerynwch, yn Meirion: o'r hon y ganwyd iddo wyth o feibion, a dwy ferch. Bu farw yn Llundain, Tach. 1823, a chladdwyd ef mewn cell yn Eglwys y Deml (*Inner Temple*). Disgynodd ei etifeddiaethau i feddiant Richard Richards, ei fab, yr hwn oedd yn un o farnwyr yr uchel ganghelllys, ac a ddewiswyd yn aelod seneddol dros sir Feirionydd.

RICHARDS, JOHN (*Iocyn Ddu*) Yr oedd efe yn enedigol o Lanerchymedd, yn Ynys Môn. Gwasanaethodd am flynyddau lawer yn Nholldy (*Custom-house*) Liverpool, ac am amser fel y prif swyddog yn y sefydliad. Arddangosai ddyddordeb mawr mewn materion llenyddol a gwladgarol ei gydgenedl yn y dref hono yn ystod ei drigias yno. Tua'r flwyddyn 1844, rhoddodd ei swydd yn y tolldy i fyny; a daeth i fyw i Gymru. Cartrefodd am hir amser yn Nhref Iorwerth, ger Bodedern, yn Môn. Yn Eisteddfod Aberffraw, a gynnaliwyd yn 1849, yr oedd efe yn gydfeirniad âg Eben Fardd a Mr. Joseph Jones, Caernarfon, ar destyn y gadair, pryd y barnwyd Nicander yn fuddugol ganddo ef a Mr. Jones. Bu helynt flin yn y cofnodolion Cymreig o herwydd y dyfarniad hwn; am y credid fod awdl ragorach na hi yn y gystadleuaeth; sef, yr hon a fernid yn oreu gan Eben Fardd. Flynyddoedd cyn hyn, nid oedd un enw mwy adnabyddus i ddarllenwyr Cymreig na 'Richards, o Dre Iorwerth.' Ond wedi i'r dymmhestl grybwylledig fyned drosodd, anghofiwyd ef yn fuan. Yn mlynyddoedd olaf ei oes, preswyliodd yn Mron Menai, ger Caernarfon; ac yno y bu farw, Tachwedd 17eg, 1864, yn 69ain ml. oed.

RICHARDS, PARCH. THOMAS. Disgynydd oedd efe o deulu adnabyddus Caerynwch, yn Meirion. Bu yn dal ficeriaeth Llansannan, yn sir Ddinbych; a Llanfyllin, yn sir Drefaldwyn; a'r swydd o gantawr yn Llanelwy. Ar farwolaeth y Frenhines Caroline, gwraig Siôr I., efe a gyhoeddodd ddarn o farddoniaeth Lladin ar y digwyddiad; a dywedai Dr. Trapp, proffeswr barddoniaeth yn Rhydychain, mai efe oedd bardd Lladinaidd goreu ei oes.

RICHARDSON, CHARLES. Geiriadurwr o fri oedd efe, a anwyd Gorph., 1775. Bu yn cadw ysgol yn Clapham; ac yn efrydu y gyfraith. Yn 1852, rhoddwyd iddo flwydd-dâl o 75p.; a bu farw Hydref 6ed, 1865. Darfu i'w waith cyntaf *Illustrations of English Philology* (1815) ei arwain i gyfansoddi Geiriadur Saesneg ar gyfer yr *Encyclopædia Metropolitana*—y rhifyn cyntaf o'r hwn a ymddangosodd yn Ionawr, 1818. Ond cyn i'r gwaith gael ei orphen, torodd yr anturiaeth i lawr. Yn y fl. 1837, modd bynag, ymddangosodd gwaith tebyg o'i eiddo dan y teitl *New Dictionary of the English Language*, yn gyflawn mewn dwy gyfrol. Cafodd y gwaith dderbyniad cynnes; ac ystyrid ef gan rai awdurdodau y geiriadur goreu o'i fath y pryd hwnw. Gwaith arall a gyhoeddwyd ganddo oedd *On the Study of Language*.

RICHARDSON, SYR JOHN. Naturiaethwr oedd efe: a ganwyd ef yn Dumfries, Tach. 5ed, 1787. Wedi treulio cwrs o addysg yn Mhrifysgol Edinburgh, ymunodd â'r llynges fel meddyg; ac yn y cymmeriad hwn, bu gyda Parry a Franklin ar eu hyntiau ymchwiliadol i Fôr y Pegwn (*Arctic Ocean*), yn y blynyddoedd 1819—22, a thrachefn yn 1825—27; ac wedi hyny gyda Franklin drachefn yn 1848—49. Rhoddwyd iddo urdd marchog yn 1846. Bu farw yn agos i Grasmere, Mehefin 5ed, 1865. Ei lyfrau gwerthfawrocaf ydynt (*Fauna Boreali-Americana* (1829—37), ac *Ichthyology of the Voyage of H. M. S. Erebus and Terror* (1844—48). Cyhoeddwyd hanes ei fywyd yn 1868.

Digitized by Google

RICHARDSON, EVAN, o Gaernarfon. Y gŵr enwog hwn oedd prif sefydlydd Methodistiaeth yn nhref Caernarfon. Ganwyd ef yn y fl. 1759, yn Bryngwyn bach, yn mhlwyf Llanfihangel-genau'r-glyn, yn sir Aberteifi. Ei dad oedd Rhisiart Morus Huw—saer maen wrth ei alwedigaeth. Gyda'r bwriad o'i ddwyn i fyny yn glerigwr yn yr Eglwys Sefydledig, anfonwyd Evan i Ysgol Ystradmeurig. Ond yn lled fuan ar ol myned yno, daeth truenusrwydd ei gyflwr fel pechadur i bwyso yn ddirfawr ar ei feddwl; ond cafodd gryn dawelwch meddwl wrth glywed Daniel Rowlands a Dafydd Morys yn pregethu. Ffromodd ei dad yn ddirfawr wrtho pan ddeallodd nad äi yn glerigwr. Torwyd felly ei gyssylltiad â'i gartref. Yna aeth i rywle yn nghymmydogaeth Llanddewi-brefi, i gadw ysgol; a thybir mai y pryd hwn yr ymunodd efe â'r Methodistiaid. Bob mis yn gysson, byddai yn myned i Langeitho ar y Sabbath i gymmuno, ac i wrandaw Daniel Rowlands. Dygodd duwioldeb a dysgeidiaeth Evan Richardson ef i sylw y brodyr crefyddol; a phan nad oedd efe dros ugain oed, cymmhellwyd ef i fyned gyda gŵr arall ar daith trwy Wynedd, i ddechreu y cyfarfodydd o'i flaen. Pan yn Nolgellau, ar eu taith gartref, cymmhellwyd ef gan y pregethwr i bregethu; a chydsyniodd yntau. Pan ar y daith hon, cyttunodd â'r enwog Robert Jones, Rhos-lan, i fyned i Frynengan, yn sir Gaernarfon, i gadw ysgol. Bu cryn lwyddiant ar ei waith yno; ond symmudodd yn fuan i Bwllheli. Symmudodd yn nesaf i Langybi, ger llaw Glasfryn-fawr—lle y bu yn hynod o lwyddiannus. O herwydd y llwyddiant hwn, cenfigenodd rhywrai wrtho; a chawsant gan barson y plwyf ei droi oddi yno, dan yr esgus ei fod yn gweddïo yn yr eglwys. Dywedir na welwyd erioed gymmaint o wylo yn ardal Llangybi ag a fu ar ymadawiad Mr. Richardson. Yn Nghaernarfon yr ymsefydlodd efe nesaf—yn y fl. 1789, pan yr oedd tuag wyth ar hugain oed. Yr oedd cyflwr cymdeithasol a chrefyddol y dref ar y pryd yn lled anfoddhaol; ond cafodd fyw i weled, fel ffrwyth ei lafur ef, a'i frodyr, ddiwygiad mawr yno. Dechreuodd ei ysgol mewn ysgoldy yn nghanol y dref; a chymmerodd dŷ o'r enw Tan-yr-allt yn fuan wedi hyny i gynnal moddion crefyddol ynddo. Yn mhen tua phedair blynedd, priododd wraig weddw dduwiol; o'r hon y ganwyd iddo ddau o blant. Wedi bod yn y dref am tua phum mlynedd, pwrcasodd dir i adeiladu capel arno; yr hwn a orphenwyd yn 1793. Parhaodd i gadw ei ysgol; ac yn 1796, cafodd y fraint o fod yn athraw i'r enwog John Elias; ac efe a fu yn foddion i yru y cawr bregethwr hwnw i sir Fôn ar ei daith bregethwrol gyntaf. Bu yn hynod lafurus gyda chrefydd, a dilynwyd ei lafur â chryn lwyddiant. Efe, mewn gwirionedd, fu yn foddion i sefydlu yr achos Methodistaidd yn nhref Caernarfon. Ac ar wahân i'w ymdrechion fel athraw, gwnai ddefnydd o bob cyfleusdra i bregethu; ac i'r amcan hwn, teithiodd gryn lawer i drefydd Lloegr, ac i rai o brif drefydd ei wlad enedigol. Nid oes ammheuaeth na bu efe yn un o'r prif offerynau i ddwyn trigolion Arfon i wrandaw yr efengyl; ac fe'i perchid yn Nghaernarfon yn fwy nag mewn un man arall. Bu farw Mawrth 29ain, 1824, yn 64ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am tua 45ain mlynedd; a gwnaeth wasanaeth mawr i grefydd yn ei oes.



RICHARDSON, HENRY, o Aberhirnant, yn sir Feirionydd. Trydydd mab ydoedd efe i Samuel Richardson, o'r un lle. Disgynodd o linach Syr Thomas Richardson, arglwydd brif-farnwr y Llys-benadur yn amser y Siarliaid; a ganwyd ef rywbryd tua'r flwyddyn 1791. Ar ol graddio yn Rhydychain, efe a ymunodd â'r fyddin, ac a wasanaethodd am rai blynyddoedd fel banerydd ac is-gadben yn y 69ain gatrawd yn yr Orynys (*Peninsula*), ac wedi hyny yn Ffraingc. Ar derfyn y rhyfel, ymneillduodd o'r fyddin, ac ymsefydlodd yn Aberhirnant. Pennodwyd ef yn ustus heddwch, ac yn rhaglaw y sir; ac yn 1851, llanwodd y swydd o sirydd. Yn 1850, dyfeisiodd fath o fywyd-fad, yr hwn a osodwyd yn mhorthladd Weymouth. Bu farw yn Rhiwaedog, ger y Bala, yn 1861, yn 70ain mlwydd oed.

REBECCA, TERFYSGOEDD. Dechreuodd y terfysgoedd hyn yn sir Gaerfyrddin, yn 1843 ac 1844; ac ymledasant yn gyflym dros siroedd Penfro, Aberteifi, a Brycheiniog. Yr achos dechreuol o honynt oedd palldod amynedd y bobl yn wyneb y cynnydd dirfawr a gymmerodd le yn nifer y tollbyrth ar y ffyrdd cyhoeddus. Y mae yr enw 'terfysgoedd Rebecca' i'w briodoli i waith y bobl a ymunasant â'u gilydd yn mabwysiadu yr enw, oddi wrth *Gen.* xxiv. 60:—'Ac a fendithiasant Rebecca, ac a ddywedasant wrthi, Ein chwaer wyt, bydd di fil fyrddiwn; ac etifedded dy hâd borth ei gaseion.'

Y tollborth (*turnpike gate*) cyntaf y darfu i Rebecca wneyd ymosodiad arno oedd tollborth y Blue Boar, yn nhref St. Clears. Mae chwaneg nag un peth yn cyfrif am gyfodiad Rebecca yn y parth y cyfododd. Un peth oedd amledd y toll-ffyrdd yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei holl brif-ffyrdd hi yn mron yn ffyrdd toll. Peth arall:—yr oedd tollbyrth y ffyrdd yn amlach na chyffredin. Gosodwyd hwynt ar bob croesffordd, fel yr oeddynt mewn llawer o enghreifftiau yn ngolwg eu gilydd. A'r peth penaf o'r cwbl, sir Gaerfyrddin oedd sir y glô a'r calch, a'r sir yr oedd yn rhaid i gludwyr (*carriers*) siroedd Penfro ac Aberteifi fyned drwyddi ar eu teithiau i weithfaoedd Morganwg a Mynwy. Ychydig o ffyrdd toll oedd yn sir Benfro, yn enwedig yn y parth Cymraeg (a Chymraes oedd Becca); ac yr oedd amryw o brif-ffyrdd sir Aberteifi heb fod dan doll.

Cerddai tua phum cant o ddynion, fwy neu lai, â'u blaenoriaid wedi ffugwisgo mewn dillad merched, dros y wlad dan gaddug y nos, gan fwrw i'r llawr y tollbyrth; ac wedi hyny, ymwasgarent. Y mae yn ymddangos mai amaethwyr, gwŷr ieuaingc di-brofiad, gan amlaf, oedd yr arweinwyr. Yr oedd Becca ei hun bob amser yn marchogaeth ar anifail porthiannus, yn ngwisg benyw; ac felly, hefyd yr oedd amryw o'i phlant agosaf ati. Byddai y dyrfa oll yn dwyn offer—nid arfau rhyfel, ond offer cymmhwys, y cymmhwysaf ellid eu cael, i'r gwaith yr oeddynt yn myned allan i'w gyflawni. Yr oedd gan y gwŷr blaenaf ryw wybodaeth pa le i gael offer, ac ni phetrusent eu cymmeryd o'r lle yr oeddynt i'w cael, heb ofyn caniatâd neb; ac oddi eithr eu colli mewn ffoedigaeth, dychwelid yr oll pan y ceid cyfleusdra. Ac fel rheol, yr oedd minteioedd o blant Becca yn myned ar draws cymmydogaethau ar noson ymosodiad, ac yn gorfodi gwŷr cymmhwys i'w canlyn, ac i gymmeryd offer gyda hwynt.

Digitized by Google

Yr oedd yr ymosodwyr agos mor ddiarbed o geidwaid y pyrth ag oeddynt o'r pyrth eu hunain. Ond odid nad ceidwad y glwyd fyddai dan orfod taraw yr ergyd cyntaf arni; ac oddi eithr fod y clwydwr yn taraw yn egnïol, yr oedd Becca â'i fflangell ar ei gefn. Yr oedd dryllio tai y clwydwyr yn un o'r pethau cyntaf yn yr ymosodiadau; a ffos y clawdd fyddai lle eu dodrefn—a'u teuluoedd hefyd. Lladdwyd un hen wreigan oedd yn cadw y glwyd yn Mhontardulais, o herwydd iddi ddangos ei bod yn adnabod rhai o'r blaenoriaid, ac iddi alw allan eu henwau.

Er mai dryllio tollbyrth ar y ffyrdd oedd prif amcan proffesedig Becca yn y cychwyn, torwyd dros ben y terfynau hyn cyn pen nemawr o amser; ac aethpwyd i ymosod ar bob peth y byddai cysgod o deimlad yn ei erbyn. Mewn rhai amgylchiadau, cymmerwyd mantais ar y symmudiad i ddïal cŵyn a chenfigen personol. Yn sir Benfro, llyn neu drofa Felin Gigfran, yn mhlwyf Melinau, oedd gwrthddrych yr ymosodiad. Rhyw filldir îs-law Pontgynon yr oedd gawse wedi ei hadeiladu yn groes i'r afon Nefern (Naunhyfer), i droi dwfr at y felin; ond o blegid y tybid fod y gawse hono yn rhwystr ar ffordd pysgod i fyned yn uwch i fyny yr afon, dryllwyd y gawse gan Rebecca fwy nag unwaith. Ond y mae yn amlwg fod yno ryw genfigen yn y gwraidd; o herwydd y tro diweddaf y pennodwyd ymosodiad, clywodd Becca cyn dyfod i'r fan, neu wedi dyfod i'r fan, fod milwyr o Aberteifi ar eu hymdaith at y llyn; ac ar dderbyniad y newydd, cyfeiriodd y fintai eu camrau at le bychan oedd gan chwaer y melinydd wedi ei gau i mewn ar y mynydd; ac yno gwnaethant y cloddiau yn gydwastad â'r llawr. Mawr y difyrwch a wnaent iddynt eu hunain yn peri i'r perchenog ddinystrio ei eiddo ei hun. Yr oedd efe yn gorfod ceibio ei gloddiau, o dan chwip y fonedd iges rwysgfawr a safai uwch ei ben. Yn sir Aberteifi, pan oedd yr ŷd yn brin iawn, a rhai amaethwyr yn oedi dyrnu, gan ddisgwyl codiad chwanegol yn y pris, darfu i Becca, mewn rhai lleoedd, gludo y teisi o'r ydlan i'r ysgubor, a rhybuddio am ddyrnu a gwerthu yr ŷd allan o law, neu ynte y gwneid hyny gan eraill oedd yn barod i'r gwaith. Anfonwyd milwyr i'r wlad i geisio eu darostwng, ond gydag anhawsder mawr y gwnaed hyny; ac yn wir, nid heb golli gwaed lawer. Pennodwyd dirprwyaeth gan y llywodraeth i chwilio i'r achos o'r terfysgoedd, a chanfyddwyd mai nid heb achos y cymmerasant le. Cymmerwyd mesurau i ysgafnhau y baich; a gollyngwyd y troseddwyr yn rhydd, gyda chospau ysgeifn, fel rheol. Nid gyda chospau ysgeifn chwaith y gollyngwyd pawb o'r troseddwyr; canys profwyd dau ŵr o sir Forganwg yn mrawdlys Caerfyrddin, ac alltudiwyd hwynt—un dros ei fywyd, a'r llall am un mlynedd ar hugain. Ymddengys fod y ddau yn gymmeriadau eithafol yn eu Beccäyddiaeth; canys fe ddywedir iddynt beri y fath derfysg yn ffair Awst, yn Llangyndeyrn, yn 1843, fel y torwyd y ffair i fyny ar ei hanner.

### Rebecca yn siroedd Aberteifi, a Chaerfyrddin, a Phenfro.

Yn y flwyddyn 1843, yr oedd cymmaint o gythrwfl yn y siroedd uchod ag sydd wedi bod mewn llawer o siroedd Cymru yn y blynyddoedd diweddaf. Y pryd hwnw y tollbyrth oedd yn blino y bobl, fel y dywedwyd yn barod; ond yn ddiweddar, taliad y degwm, ynghyd â dadgyssylltiad a dadwaddoliad yr Eglwys, sydd wedi achosi y cyffro.

Yr oedd digofaint yn ffynu yn mynwesau y bobl yn mhell cyn yr adeg a enwir uchod. Dechreuwyd dangos anfoddlonrwydd cyhoeddus i ormes y tollbyrth yn y fl. 1833. Tua deng mlynedd ar ol hyny y cyrhaeddodd yr anfoddlonrwydd hwn ei eithafbwynt yn ffrwydriadau Rebecca. Yr oedd deddf i sefydlu tollbyrth wedi ei phasio rhyw gan mlynedd cyn amser Rebecca. Yr oedd amcan y ddeddf, yn ddïau, yn dda pan y gwnaed hi; o blegid nid oedd ond teg i'r bobl dalu am ffurfio ac adgyweirio y ffyrdd, er mwyn hyrwyddiant teithwyr a masnach; er y dylasai y draul ddisgyn yn benaf ar berchenogion y tir. Ond, yn anffodus, darfu i ymddiriedolwyr y prif-ffyrdd yn siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi, anghofio ysbryd y gyfraith, a thalu sylw gormodol i'w llythyren. Aethant mor wangcus ac anghyfiawn fel y gosodasant dollbyrth a bariau i fyny ar ben pob prif-ffordd a chulffordd bron, er mai y plwyfi eu hunain fyddai yn adgyweirio llawer o'r ffyrdd hyny. Yr oedd y wlad mor lawn o dollbyrth fel yr oedd teithwyr yn cyfarfod â hwynt yn fynych bob dwy neu dair milldir; ac weithiau yn amlach na hyny. Er profi hyn, cymmerer tref Llandyssul, yn sir Aberteifi, er enghraifft. Ni allasai y bobl fyned i un fferm tu draw i'r Teifi, yn sir Gaerfyrddin, oddi gerth fferm Pen-y-bont, heb dalu toll. Y pryd hwnw, yr oedd y bobl yn llosgi tyweirch yn lle glô; ac yr oedd raid iddynt fyned i Rhos, Llangeler, er ei gael. Ond nis gallent wneyd hyny heb dalu toll; o blegid yr oedd dau dollborth yn Penrhiw-fawr—un ar y ffordd i Gaerfyrddin, a'r llall ar y ffordd i Gastell-newydd-Emlyn. Yn ddiweddarach, symmudwyd hwynt i Bontweli, a chawsant eu cadw yno gan 'fam a'i merch' hyd nes y cyfododd 'Rebecca a'i theulu' i'w dinystrio. Yr oedd tollborth ar Troed-rhiw-gribyn, un arall yn Llanfihangel, un arall yn Alltwallis, un yn Pencader, un yn Bwlch-y-ddwy-ros, arall etto ddwy filldir yn nes i Lanpumsaint, ac un arall yn Gwaralltt. Nid rhyfedd, gan hyny, i Rebecca ymddangos er amddiffyn hawliau y cyhoedd.

Penderfynodd y bobl godi fel un gŵr i osod yr ormes hon i lawr; a dewisasant fel eu harwyddair y gair 'Rebecca,' fel y nodwyd uchod. Dywedai y *Times*, a phapyrau Toriaidd eraill, mai yr Ymneillduwyr oedd wedi galw Rebecca i fodolaeth, trwy bregethu yn y capeli oddi ar y geiriau uchod. Ond nid dyma y tro cyntaf i'r papyr hwn, a'i noddwyr, gyhoeddi celwyddau ar yr Ymneillduwyr:—ac yn ol yr arwyddion presennol, nid dyma y diweddaf chwaith.

Yn awr, ni a roddwn hanes lled fanwl am ei gweithrediadau, gan ddechreu gyda

Llandyssul.—Pan glywodd James Davies, Cwm-tywyll, a John James, Pen-y-bont, y sôn fod Rebecca yn tori y tollbyrth i lawr mewn manau eraill, penderfynasant gychwyn ar yr un llinell yn Llandyssul. Un prydnawn Sabbath, galwasant eu cyfeillion, a chyfarfuasant ar ddarn o dir ger llaw yr afon Teifi. Deuddeg oeddynt mewn nifer; ac yn eu plith yr oedd tri o seiri, a Thomas Evans, neu fel yr adnabyddir ef 'Thomas Elias, y gôf!' O'r tri saer, John Jones, Penstâr, a Daniel, ei frawd, oedd dau o honynt. Penderfynasant dori y tollbyrth yn Pontweli a Throed-rhiw'r-gribyn yn union-

Digitized by Google

gyrchol; ond yr oedd raid iddynt gael gwisgoedd priodol, offerynau cyfaddas, yn ogystal a drylliau; ac felly y gwnaethant. Y pryd hwn, yr oedd Edward Evans, Abercerdin, yn cadw maelfa yn Castell Tyssul; a chan ei fod mewn cydymdeimlad â'r amcan, rhoddodd iddynt yr arfau angeurheidiol. Nid oedd eisieu ond gwisgoedd bellach; a rhoddodd David Williams ynau gwynion Clwb yr Odyddion iddynt. Felly, gwisgasant eu gŷnau gwynion, arfogasant eu hunain â'r drylliau, a'r pŷst, &c., a neillduasant fel eu 'Sais,' un o honynt eu hunain; gan nad oedd gair o Gymraeg i gael ei siarad pan wrth eu gwaith, er mai 'Cymry o waed coch cyfan' oeddynt, heb lawer, os dim, o fanteision addysg. Tua chanol nos, dyna'r deuddeg yn dechreu saethu, nes yr oedd ardal Pontweli yn adseinio drwyddi; a chyn pen ychydig funydau, yr oedd clwydi Pontweli ar lawr. Torwyd hwynt yn ddarnau yn ddioed, a thaflwyd hwynt i'r afon Teifi. Yna penderfynasant groesi yr afon Tweli, er gallu myned at glwyd Troed-rhiw'r-gribyn, gan danio eu drylliau yn achlysurol, a pheri y fath ofn ar bawb ag a barodd iddynt gadw yn eu tai. Nid hir y buwyd cyn bod y glwyd hon etto wedi ei dryllio. Yna dychwelasant i'w cartrefi, yn hollol foddlawn ar yr hyn a wnaethant.

Boreu dranoeth, yr oedd y newydd yn tramwy yn gyflym drwy yr holl ardal, a'r bobl yn tyru i weled y galanasdra a wnaed y nos flaenorol. Yn mhlith y dorf o flaen Troed-rhiw'r-gribyn, safai Mr. Edward Evans; ac aeth un ato oedd wedi eu clywed yn siarad Saesneg, ac yn gwaeddi, 'Mr. Evans bach, yr ydych chwi yn dipyn o Sais. Dyna! Saeson oeddynt hwy i gyd! Yr oeddynt wedi dyfod o waelod sir Benfro!' Pan y clywodd Mr. Lloyd Davies, o Flaen-dyffryn, am hyn, penderfynodd bennodi cwnstabliaid ar unwaith i wylied 'Becca' a'i phlant. A'r cyntaf a gafodd ei bennodi oedd Mr. Daniel Davies, Pontweli; yr hwn sydd yn fyw yn awr, ac yn preswylio yn Llandyssul; gan yr hwn y cafwyd yr hanes canlynol.

'Cefais fy appwyntio yn brif gwnstabl. A rhoddwyd i mi y ffon rhif y cyntaf, ac arni yn baentiedig y llythyrenau V. R., ac I. o danynt. Deuwch yma yfory (meddai), ac mi a'i rhoddaf i chwi:'—yr hyn a wnaeth. 'Cafodd Dafydd Jacob ei osod yn gwnstabl yn Llandyssul, a minnau a John Evans yn Pontweli, lle yr oeddwn yn byw ar y pryd. Ein gwaith oedd gwylied 'Becca.' Rhanasom y nos i dair gwyliadwriaeth o bedair awr yr un: felly, yr oeddym ein tri yn gwylied deuddeg awr y nos, am yr hyn yr oeddym yn cael 15*s.*; sef, 5*s.* yr un; a pharhaodd hyn am o ddeutu tri chwarter blwyddyn. Yr oedd Mr. Lloyd Davies yn talu i ni yn fisol; ond nis gwn o ba le yr oedd yr arian yn dyfod. Wedi i Becca dori y clwydi yn Pontweli a Throed-rhiw'r-gribyn, darfu i'r awdurdodau geisio gan seiri y lle, a Tomos Elias, y gôf, i osod clwydi yn eu lle; yr hyn y darfu iddynt ei wneyd. Ond cyn pen nemawr o amser, dyna Becca a'i merched yn talu ail ymweliad â Phontweli. Ac yn awr, nid deuddeg o ddynion oedd wrthi, ond cannoedd! o blegid yr oedd llythyrau yn cael eu danfon i wahanol bersonau, i'w gorchymyn i fod yn bresennol ar noson bennodedig, neu byddai raid iddynt gymmeryd y canlyniadau. Erbyn hyn, yr oedd y fath fraw ar bawb fel nad oedd neb yn beiddio anufuddhau i orchymyn Becca. Yr ail waith, dyna glwydi Pontweli yn cael eu tori yn deilchion. Wedi hyny dyna'r dorf fawr yn cyfarfod wrth dŷ Daniel Davies, y cwnstabl, gan waeddi 'Daniel Davies, deuwch i lawr!' 'Na wnaf!' attebai yr hen ŵr. 'Beth sydd a fynoch â mi? Nid wyf yn gwylio yn awr. Yr wyf newydd orphen fy mhedair awr.' 'Os na ddeuwch i lawr yn uniongyrchol, a rhoddi benthyg eich traws-lif (neu llif draws) i ni, bydd eich tŷ ar dân.' 'Daniel! Daniel! (meddai Mary, ei wraig—hen wreigan barchus a gladdwyd chwe blynedd yn ol), codwch ar unwaith, neu byddwn yn y flamiau!' Ar hyn, dyna Daniel yn codi, ac allan âg ef i'r gweithdy. 'Dyma'r draws-lif i chwi,' meddai. 'O! (meddai'r bobl), rhaid i chwi ei chario bob cam i Troed-rhiw'r-gribyn drosom!' 'Beth! cwnstabl rhif y cyntaf yn cario llif draws dros Becca!' 'Ië, yn wir!' A mawr oedd difyrwch y bobl wrth weled y cwnstabl yn cario y llif. Ar ol cyrhaedd y glwyd, dyna Becca a'i phlant yn ei darnio yn dipiau mân; ac ar hyn, rhoddwyd y gorchymyn gan Becca i un o'i phlant i gario y llif draws yn ol i Daniel Davies:—yr hyn a wnaeth bob cam, a Daniel yn cerdded yn ei ymyl. Boreu dranoeth, aeth rhai o weithwyr y pentref i Blaendyffryn i weithio, fel arferol. Wedi clywed yr hanes gan un o honynt, gofynodd Mr. Davies, 'Sut yr wyt ti yn gwybod hanes Becca mor dda—a hyny dranoeth i'w thaith?' Ond efe a aeth yn fud! Ar hyny, danfonodd Mr. Davies am y cwnstabliaid i Flaen-dyffryn, a chroesholwyd hwynt ganddo yn ofalus—yn neillduol felly Daniel Davies. 'Ai nid ydych yn adnabod cymmaint ag un o honynt, Daniel?' gofynai. 'Nac ydwyf, o gwbl,' meddai. 'Ai nid oes genych ddychymyg? Rhoddwch eich barn am un o honynt.' 'O meistar! ni thâl fy marn i ddim o'r tro. Rhaid i mi wneuthur fy llŵ cyn y gellir cospi neb; ac nis gallaf wneyd hyny!' 'Wel, Daniel, treiwch feddwl am rywun.' ''Be well, meistar—nis gallaf fi gymmeryd fy llŵ pwy oedd un o honynt.' Felly, aeth y cwnstabliaid gartref.

Erbyn hyn, yr oedd Mr. Davies wedi ei ddychrynu i'r fath raddau fel yr oedd yn treulio rhan o'i nosweithiau ar nen ei dŷ—yn cael ei amgylchynu gan ddrylliau parod i'w tanio ar unrhyw un a feiddiai ddyfod yn agos ato, os na roddai efe gyfrif boddhaol am dano ei hun.

Llwyddodd Becca yn ei hamcan dechreuol; o blegid ni chafodd clwyd Troed-rhiw'r-gribyn byth ei chodi drachefn; ac amglwydi Pontweli, er iddynt gael eu hail godi, llwyddwyd yn y diwedd, fel na chodwyd hwynt drachefn yno. Dinystriwyd un yn gwbl, a symmudwyd y llall yn agos i Tancoed, ar y ffordd i Gastell-newydd-Emlyn—lle y safodd hyd ddyddiau y cynghor sirol. Cafodd clwyd Castell-newydd-Emlyn ei symmud o'r dref yn nes i Landyssul, fel yr oedd ychydig yn llai na saith milldir rhyngddynt. Yr oedd un o'r ddwy glwyd yn clirio y llall, fel y gallasai gŵr â'i geffyl deithio yn agos i bedair milldir ar ddeg cyn y byddai galw arno i dalu yr ail waith.

Sir Gaerfyrddin.—Yn y fan hon, y mae yn naturiol gofyn a oedd rhyw arweinydd yn cynllunio holl derfysgoedd Becca, er mwyn sicrhau cydweithrediad? Y mae yn ammhossibl atteb y gofyniad yn hollol foddhaol; ond y mae hyn yn sicr—fod y gwahanol ardaloedd yn gweithredu mewn rhan yn annibynol; er ei fod yn amlwg hefyd fod undeb rhyngddynt.

Digitized by Google

Yn sir Gaerfyrddin, yr oedd yr holl wlad yn deall eu gilydd, ac yn cydweithredu, fel yr oedd miloedd wedi dyfod ynghyd ddydd Llun, Mehefin 19eg, 1843, yn nhref Caerfyrddin, er gwneuthur ymosodiad ar y tlotty—yr hwn a safai tu cefn i'r farchnad. Dydd Sul, y 18fed, gosodwyd llythyr ar glwyd gweithdy Daniel Davies yn Pontweli, Llandyssul, yn orchymyn iddo fod yn Pen-rhiw-cefnfryn, ger Conwil, yn gynnar boreu dranoeth, er gorymdeithio i Gaerfyrddin erbyn deg yn y boreu, i ymosod ar y tlotty. Er mai cwnstabl, rhif y cyntaf, oedd Daniel, yr oedd gormod o ofn arno i anufuddhau. Aeth gydag un arall, o'r enw Daniel Davies, yr hwn oedd dros 60ain oed; a phan gyrhaeddasant Pont-allt-cafan, cyfarfuasant â Mr. Lloyd Davies. 'Holo, Daniel (meddai), i b'le yr ydych yn myn'd?' 'Wn i ddim, syr, yn iawn (attebodd Daniel); ond cefais orchymyn i fod yn Pen-rhiw-cefnfryn yn foreu heddyw, er mwyn teithio i Gaerfyrddin i ymosod ar y tlotty.' 'Pwy a'ch gorchymynodd?' ''Becca, syr! Dyma'r llythyr i chwi i'w weled,' ebai Daniel. Darllenodd Mr. Davies y llythyr yn frysiog; ac yna cododd ei olygon i fyny oddi arno mewn syndod, gan ofyn, 'Beth yn y byd mawr sydd i'w wneyd? Daniel, gofelwch chwi am eich hunan (meddai), a pheidiwch gwneyd dim eich hun i'r tlotty. Af i Ben-rhiw-cefnfryn fy hunan.' Ar hyn, cychwynodd nerth traed ei farch yn nghyfeiriad Conwil. Wedi i'r ddau gwnstabl gyrhaedd Pen-rhiw-cefnfryn, er eu mawr syndod, yr oedd yno filoedd o ddynion wedi dyfod ynghyd, a phob un yn siarad am yr uchaf. Yr oedd ymddangosiad Mr Davies yno yn eu cynnhyrfu i raddau mawr iawn. Yr oedd y dynion yn chwythu bygythion wrtho; ac yntau yn ceisio eu darbwyllo i ddychwelyd gartref. O'r diwedd, gwaeddodd un, 'Gadewch i ni ladd y sgweier!' Cymmerodd y bobl y waedd i fyny ar y funyd, a gwaeddodd yntau, 'Beth yr wyf wedi ei wneyd?' Attebodd un mewn llais cryf, 'Yr ydych wedi cadw arian y gweithwyr a wnaethant yr heol o Gonwil i Gaerfyrddin!' Ar hyn, dad-fotymodd ei gôb, a gwaeddodd allan, 'Os wyf wedi gwneuthur cam âg unrhyw un, lleddwch fi yn awr! Saethwch fi yn awr!'—a daliodd ei law ar ei fron. Cafodd hyn effaith amlwg ar y bobl. Troisant oddi wrtho, a gwaeddasant 'I Gaerfyrddin! I Gaerfyrddin!' yna symmudodd pawb i gyfeiriad y dref. Pan gyrhaeddodd y ddau gwnstabl y dref, yr oedd yr ystrydoedd yn llawn o ddynion, a'r lle yn fyw i gyd:—y dyrfa yn rhedeg at y tlotty, a'r cwnstabliaid gyda hwy. Erbyn iddynt gyrhaedd y muriau amgylchynol, y peth cyntaf a welent oedd blancedi y tŷ yn cael eu taflu allan drwy y ffenestri gan y rhai oedd wedi cyrhaedd yno gyntaf. A chan fod y dorf mor fawr, methodd ond ychydig fyned i mewn. Yna troisant yn ol i gyfeiriad Petryal Nott.

Ar yr heolydd, yr oedd myfyrwyr y Coleg Presbyteraidd—dau o ba rai oedd y Mri. Thos. Thomas a Peter Joseph. Y mae y blaenaf yn fyw yn awr (1893), ac yn weinidog ar eglwysi Pant-y-defaid a Chapel-y-groes, yn sir Aberteifi. Yr oedd y diweddaf yn weinidog ar eglwys Llwyn-rhyd-owen; ond y mae wedi marw er's llawer o flynyddoedd. Cyrhaeddodd deg ar hugain o'r *4th Light Dragoons* y tlotty erbyn hyn, ac amgylchynasant yr adeilad. Yna cymmerwyd yr oll o'r dynion oedd oddi mewn yn garcharorion; ac yn eu plith yr oedd arweinyddion Rebecca, a dynion eraill nad oeddynt yno o'u gwirfodd. Wedi eu profi, cafodd rhai eu carcharu, eraill eu dirwyo; a rhyddhawyd ychydig. Dychwelodd y ddau Daniel o Gaerfyrddin gartref yn ddianaf. Ond cyn iddynt gyrhaedd Llandyssul, deallasant fod 'Becca a'i phlant yn ddiwyd tua—

LLANFIHANGEL-AR-ARTH. — Pobl Llandyssul a ddechreuodd y terfysg yno, ac a gynlluniodd ac a gariodd allan y cyfan, dan arweiniad gwŷr o'r enw John James, Pen-y-bont, a Samuel Jones. Penderfynasant roddi llythyr yn mhob tŷ yn y dref, i rybuddio pob preswylydd i fod yn bresennol yn Llanfihangel-ar-Arth ar noson bennodol; a rhoisant allan y buasai 'Becca yn Bwlch-y-clawdd ar yr un noson, er mwyn eu twyllo. Ond daeth Mr. Lloyd Davies, Blaendyffryn, i wybod 'y gwirionedd;' a gwnaeth ei oreu i rwystro y bobl i fyned yno. Aeth oddi amgylch ar ei farch i gyhoeddi y byddai cannoedd o filwyr yn Llanfihangel; ac mai gwell fyddai i'r bobl aros gartref. Ond myned yno a wnaethant, er pob peth; gan fod arnynt fwy o ofn 'Becca na Mr. Lloyd Davies. Er profi hyn, nodwn ddwy enghraifft. Aeth Mr. Lloyd Davies ei hun at John Jones, Penstâr, i geisio ganddo aros gartref. 'Gwnaf (meddai John), os gwnewch chwi addaw fy nigolledu pan y caiff tŷ fy nhad ei losgi i lawr gan 'Becca.' Nid addawodd. Felly hefyd y gwnaeth eraill. Yr oedd yno wŷr ceffylau, a gwŷr traed, o bellder o ffordd; ac yr oedd llawer iawn o'r dosbarth olaf wedi duo eu gwynebau. Wedi i'r arweinwyr gyrhaedd yno, aeth John Jones i dŷ y tollborth, ac ymosododd Moses Jones a Dafydd Rees, derbynwyr y doll, arno. Ond mor fuan ag y gwaeddodd efe, rhuthrodd hanner cant o ddynion i mewn, ac allan y bu raid i Moses a Dafydd fyned yn ddiseremoni. Ar y pryd, yr oedd dros 120 o ddrylliau un ochr i'r glwyd yn barod i'w defnyddio, os byddai raid; tra yr oedd llaweroedd yn dal erymanau ar ben polion y tu fewn i'r cloddiau i 'groesawu y meirchfilwyr,' fel y dywedent, pan ddeuent yno. Ar hyn, gorchymynodd y ddau lywydd i ryw saer ddyfod â'i lif, a dechreu ar y gwaith; a gwnaeth hyny yn ddioed. Gorchymynwyd hefyd i Ebenezer Jones, 'y siop,' i fyned i dori y tylau ar ben y tŷ; ac ufuddhaodd yntau yn y fan. Yn ei gynnorthwyo yr oedd Evan Shôn, o Landyssul. Y canlyniad fu, tori y glwyd yn ddarnau mân. Taflwyd y tŷ hefyd i lawr yn gandryll; ac aethpwyd â rhan helaeth o'r coed i Landyssul.

Ond nid oedd y cyfan drosodd etto. Yr oedd yno fâr yn groes i'r eglwys. Aeth y dorf yno, a thynwyd ef i lawr yn ddiseremoni, a chafodd ei ddryllio, fel y glwyd. Er mwyn ysgubo y cyfan yn yr ardal, neillduodd yr arweinwyr Mr. Hand, heol fesurydd plwyf Llandyssul, Mr. John Jones a Mr. Benjamin Jones, marsiandwr glô, Llandyssul, i fyned i dori y glwyd yn ymyl Gwarallt, tua dwy filldir o Cross Inn; ac wrth gwrs ufuddhasant!

Ond pa le yr oedd y milwyr? Yr oeddynt yn yr ardaloedd. Ond yr oedd y bobl yn eu twyllo, fel nad oeddynt yn y manau y disgwylid hwy, ond mewn manau eraill lle yr oedd heddwch yn teyrnasu. Daeth deuddeg o filwyr y 76ain i Landyssul; ond nis gallasant wneuthur dim. Buont yno am fisoedd, yn treulio eu hamser i goitio, a phethau cyffelyb. Ar y cyntaf, yr oeddynt yn aros yn y tafarndai. Yna daeth 60ain o feirch-filwyr yno un diwrnod o Gastell-

Digitized by Google

newydd-Emlyn; a phan y nesasant at y dref, tynasant eu cleddyfau allan o'r wain, ac aethant i mewn gan ddal y cleddyfau noeth yn eu dwylaw; ond ni pharhaodd eu harosiad ond un diwrnod. Yna daeth y *Marines* i'r pentref, ac ymsefydlasant yn y man a elwir 'y Barracks,' ger Capel y Graig yn bresennol. Yr oeddynt yn 'paradio' bob boreu o flaen y King's Head, a threulient y rhelyw o'r dydd i ymbleseru. Dywedir yn gyffredin fod Satan yn darganfod rhyw ddrygioni bob amser i ddwylaw segur; felly y bu gyda'r milwyr yn Llandyssul. Nid bendith, mewn un modd, ond i'r gwrthwyneb yn hollol, ydyw cael milwyr i aros mewn tref; a phrofir hyn y dyddiau presennol yn mhob man lle y maent yn aros, fel y gwnaed yn yr amgylchiad hwn.

Wedi i'r milwyr ymadael, daeth dau heddgeidwad o Lundain i'r dref am y tro cyntaf, o'r enw Cos a Feltenham; a chafodd y bobl ddioddef llawer o herwydd anwybodaeth a drwgdybiaeth y ddau hyn o gymmeriad y Cymry, a'u hannoethineb yn y cyflawniad o'u swydd.

Amcan daionus oedd gan 'Becca a'i phlant ar y cyntaf: o blegid yr oedd yn anniodefol i feddwl fod yn rhaid i ffermwr dalu 3*s.* ar dollbyrth bob tro yr elai â'i gert o Landyssul i Gaerfyrddin:—ond dyna oedd y ffaith. Yr oedd Beccaod gau; ond ni wnaethant hwy ond y drwg yn y cyffredin.

Pan y darfu i ymddiriedolwyr y ffyrdd gau yr hen heol o Droed-y-rhiw, yn sir Gaerfyrddin, i Bentre-cwrt, aeth rhai dynion at Mr. Fitz-Williams, tad yr un presennol, a gosodasant eu cwyn ger ei fron. Dywedodd wrthynt yr elai i'r heddlys nesaf yn Llandyssul, a mynai weled yr ynadon ynghylch y mater. Ar ddiwedd trafodaeth y llys am y dydd, dywedodd Mr. Fitz-Williams fod y ffordd grybwylledig wedi ei chau, ond ei fod yn bwriadu ei defnyddio. Ar ei gais, ail agorwyd y ffordd; yr hon sydd at wasanaeth yr ardal hyd y dydd heddyw.

Yn y modd hwn y caed ymwared o'r tollbyrth o'r siroedd a enwyd uchod.

RIPON, FREDERICK JOHN ROBINSON, IARLL. Mab oedd efe i'r ail Arglwydd Grantham, a ganwyd ef Tachwedd 1af, 1782. Wedi graddio yn Nghaergrawnt, etholwyd ef yn y fl. 1806 i'r senedd fel Tori cymmedrol. Bu yn dal swyddi fel is-ysgrifenydd dros y trefedigaethau, is-lywydd bwrdd masnach, a changhellydd y trysorlys. Yn Awst, 1827, ychydig wedi iddo gael ei ddyrchafu fel Is-iarll Goderich, daeth yn brifweinidog; ond ni pharhaodd ei weinyddiaeth ond am tua saith mis. Bu yn dal swydd wedi hyny fel ysgrifenydd y trefedigaethau, arglwydd y sêl gyfrin, a llywydd bwrdd masnach. Yn 1833, gwnaed ef yn Iarll Ripon, a bu farw Ionawr 28ain, 1859.

RITSCHL, ALBRECHT. Duwinydd Protestanaidd oedd efe, a anwyd Mawrth 25ain, 1822, yn Berlin, lle yr oedd ei dad yn glerigwr. Bu yn efrydu yn mhrifysgolion enwog Bonn, Halle, Heidelberg, a Tubingen; ac yn dal swydd athraw mewn duwinyddiaeth yn Athrofa Gottingen, lle y treuliodd weddill ei fywyd. Cyhoeddodd lyfrau ar lawer o gwestiynau duwinyddol; megys, Y Berthynas rhwng Efengyl Marcion ac Efengyl Luc; Dechreuad yr Eglwys Gatholig; Perthynas yr Eglwys a'i Chyffes; Traethawd Lladin ar Ddigofaint Duw; Traethawd ar Berffeithrwydd Cristionogol; pamphled ar Gydwybod, &c. Ei brif waith ydoedd yr un a gyhoeddodd ar Gyfiawnhâd a Chymmod, yr hwn a gyfieithwyd i'r Saesneg yn y fl. 1871. Bu farw yn Göttingen, Mawrth 20fed, 1889.

RIVERS, RICHARD WOODVILLE, IARLL. Un o brif gyfeillion Harri V. oedd efe; a'r hwn, yn ystod teyrnasiad mab Harri, a wnaed yn llywodraethwr y tŵr (1424). Yn 1425, gwnaed ef yn farchog. Ymladdodd lawer yn Lloegr â Ffraingc, ac yn mhlaid y Lancastriaid yn Rhyfel y Rhosynau. Priododd weddw y Duc o Bedford; a'u merch hwy, Elizabeth, a ddaeth yn wraig i Edward IV. Parodd hyn i Syr Richard newid ei ochr, gan fyned drosodd at yr Yorkiaid; a chafodd ei bennodi yn gwnstabl Lloegr, ei greu yn Arglwydd Rivers yn 1448, ac yn Iarll Rivers yn 1466. Darfu i'r ffafraeth hon a arddangosid at y teulu gynnhyrfu llid yr hen bendefigion; ac yn 1469, cymmerwyd Iarll Rivers i'r ddalfa, a thorwyd ei ben yn Northampton. Dilynwyd ef yn y bendefigaeth gan ei fab, Anthony.

ROBERT AB DAFYDD LLWYD. Bardd oedd efe a fu byw rhwng y bl. 1550 a 1590.

ROBERT LEIAF. Bardd, ac achyddwr, a flodeuodd rhwng 1450 a 1490.

ROBERTS, DAVID. Darluniwr *(painter)* galluog ydoedd efe, a anwyd yn Edinburgh, Hydref 24ain, 1796. Bu farw Tachwedd 25ain, 1864; ac ysgrifenwyd cofiant iddo gan James Ballantine.

ROBERTS, GRIFFITH. Grammadegydd dysgedig ydoedd efe. Nid oes fawr ddim yn wybyddus am ei achau, nac am flynyddoedd boreu ei oes. Addysgwyd ef yn Mhrifysgol Sienna, yn yr Eidal, o dan nawdd Gwilym Herbert, Iarll Penfro. Efe oedd awdwr y grammadeg Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd erioed, dan y teitl *Dosbarth byrr ar y rhan gyntaf i Rammadeg Cymraeg; lle cair llawer o byngciau i un a chwenychau na doedyd y Cymraeg yn ddilediaeth, na'i 'sgrifenu yn iawn.* Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn Milan, yn 1567. Dilynwyd ef gan ail ran—*Etymologia*; a thrachefn gan drydedd ran. Gelwir y bedwaredd ran yn *Prosodia; Dosbarth ar fesurau Cerdd Dafod.* Ac yn y bummed ran, ceir enghreifftiau o farddoniaeth Gymreig. Am un copi cyflawn o'r grammadeg hwn y mae gwybodaeth; sef yr un sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yr oedd un arall yn llyfrfa Wynnstay, ger Rhiwabon; ond tybir iddo gael ei ddifa gan y tân dinystriol a oddeithiodd y palas hwnw flynyddoedd yn ol.

ROBERTS, SYR HUW. Bardd a chlerigwr, a addysgwyd yn Eglwys Crist, Rhydychain, lle y graddiodd. Bu am gyfnod yn dal ciwradiaeth Aberffraw, yn Môn. Cyfansoddodd *Six Lectures upon the latter part of the third Chapter of the Epistle to the Hebrews;* yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn y fl. 1600. Y mae cân o'i waith ar 'Gyffelybiaeth Dyn' i'w gweled yn y *Brython*, cyf. v., td. 22.

ROBERTS, PARCH. JOHN. Ficer Tremeirchion, yn Nyffryn Clwyd, ydoedd efe; a ganwyd ef yn Mhlas Harri, yn mhlwyf Llan-

Digitized by Google

nefydd, yn sir Ddinbych, yn y fl. 1775. Bu yn Ysgol Bettws, Abergele, dan y Parch. David Jones, ysgolfeistr; ac yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiodd yn M.A., yn 1799. Rhoddwyd argraphiad o'r Beibl Cymraeg, a'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*, yn y wasg yn Rhydychain, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Fuddiol, dan olygiad y Parch. David Davies, clerigwr Penegoes. Diwygiwr y wasg (darllenwr y prawfleni, yn ddiau), oedd y Parch. R. Hughes, cymmrawd o Goleg yr Iesu. Rhoddodd ef y gwaith i fyny ar orpheniad Pum Llyfr Moses, a phennodwyd Mr. Roberts yn olynydd iddo yn y gorchwyl, ar yr hwn y bu am tua deunaw mis. Yn y fl. 1809, bu yn cydlafurio i barotoi argraphiad newydd o'r Beibl a'r *Llyfr Gweddi Cyffredin* yn Gymraeg. Lledaenwyd dros uga'n mil o hwn gan y gymdeithas uchod. Rhoddwyd iddo giwradiaethau Chislehampton a Stadhampton, ger Rhydychain, lle y bu am saith mlynedd. Yn 1807, cafodd fywoliaeth Tremeirchion gan Dr. Cleaver, Esgob Llanelwy. Yn 1813, bu yn brif offeryn i sefydlu cangen sir Fflint o'r Feibl Gymdeithas; ac o ddeutu yr un adeg, cymmerodd ran flaenllaw mewn sefydlu cangen o'r Gymdeithas Genhadol Eglwysig yn siroedd Dinbych a Fflint. Hefyd, bu yn foddion i gael argraphiad newydd o *Lyfr yr Homiliau*. Dechreuodd ddwyn allan o'r wasg gyhoeddiad cyfnodol Cymraeg a Saesneg, o'r enw *Cylchgrawn Cymru;* ond bu hwnw farw o ddiffyg cefnogaeth wedi cyhoeddi pedwar neu bum rhifyn. Cyhoeddodd gasgliad o hymnau at wasanaeth yr Eglwys Sefydledig. Ychydig flynyddoedd cyn hyn, sef yn 1828, cymmerodd ran yn Sefydliad Cymdeithas Traethodau Cymreig a Saesnig; a chyda hyn y treuliodd y rhan fwyaf o flwyddyn ddiweddaf ei fywyd. Yr oedd yn eiddigeddus iawn o burdeb gweinidogaeth yr Eglwys; a gofidiai yn fawr fod dynion llygredig ac anghymmhwys yn cael y swydd gyda'r fath rwyddineb. Yn chwanegol at yr hyn a enwyd, cyhoeddodd ddwy neu dair o bregethau, Traethawd ar yr Iaith Gymraeg; Cyfarwyddiadau i fyw yn Ofn Duw, allan o *Alarum Allein*. Yr oedd Mr. Charles, o'r Bala, yn gydweithiwr âg ef yn y gwaith olaf hwn. Bu farw, ar ol treulio bywyd defnyddiol, Gorphenaf 25ain, 1829, yn 54ain oed, a chladdwyd ef yn Llannefydd.

ROBERTS, JOHN (*Edeyrn Môn*). Mab hynaf ydoedd efe i'r Parch. John Roberts, Salem, Môn; yr hwn a fu yn weinidog llafurus gyda'r Annibynwyr yn y lle hwnw am lawer o flynyddoedd. Ganwyd Edeyrn mewn ffermdy o'r enw Neuadd, yn mhlwyf Llanfaelog, yn y fl. 1801. Cafodd addysg ragorol; a phan yn ieuangc, dechreuodd arddangos ei allu llenyddol trwy ysgrifenu i'r wasg. Y prif gyhoeddiad Cymraeg y pryd hwnw oedd *Seren Gomer*. Wedi priodi, ymsefydlodd yn Pandy Cefncoch, yn mhlwyf Llanfechell; ac yno y treuliodd ef, a'i briod garedig, weddill eu hoes yn cario masnach helaeth yn mlaen, ac yn barchus gan wreng a bonedd. Adeiladodd gapel bychan o'r enw Siloh, ger llaw ei gartref, bron yn gwbl ar ei draul ei hun; a dangosodd ei ysbryd haelionus mewn amryw roddion eraill at amcanion da. Cymmerodd ran flaenllaw yn y prif ddadleuon a gerid yn mlaen yn y *Seren* a'r *Dysgedydd* ar y fath byngciau a'r Pechod Anfaddeuol, Y Sabbath, Yr Iawn, a Chyfryngdod Crist, &c. Bu farw Hydref 1af, 1855, a chladdwyd ef yn mynwent Llanbeulan.

ROBERTS, JOHN. Adnabyddwyd ef yn fwyaf cyffredin wrth yr enw SIÔN ROBERT LEWIS. Efe oedd 'Almanaciwr Caergybi.' Efe a ddaeth yn adnabyddus iawn, yn benaf, trwy ei almanaciau; ac hefyd, trwy ei ddarlithiau ar seryddiaeth, y rhai a draddodwyd mewn llawer o drefydd y wlad; a thrwy lyfrau eraill a ysgrifenodd efe. Enw ei dad oedd Robert Lewis; ond yn ol arfer y wlad y pryd hwnw, gelwid ef yn Siôn Rhobert. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanaelhaiarn, yn sir Gaernarfon, yn y fl. 1731. Wedi gwrandaw ar Howel Harris yn pregethu unwaith, penderfynodd fyned i Drefecca i ymuno â'r gymdeithas a ffurfiwyd yno ganddo ef, ac i fod yn aelod o honi tra y byddai byw. Ond o herwydd rhyw reswm, dychwelodd oddi yno yn mhen ychydig wythnosau. Ar ei ddychweliad i Lanaelhaiarn, ymunodd â'r Methodistiaid, y rhai a gyfarfyddent mewn tŷ annedd yn y lle. Gan yr ystyrid ef yn fwy gwybodus na neb arall yno, ac yn ddiargyhoedd a dichlynaidd ei ymarweddiad, annogwyd ef i ddechreu cynghori yn gyhoeddus; â'r hyn y cydsyniodd yntau. Er na bu efe erioed yn bregethwr rheolaidd, pregethodd gryn lawer, a hyny, yn benaf, yn erbyn ofergoelion gwâg yr oes. Yn mhen blynyddoedd, daeth ei feddwl yn fwy ansectol; a rhoddodd ei aelodaeth gyda'r Methodistiaid i fyny, gyda'r bwriad o gyfeillachu yr un mor agored gyda phob sect grefyddol. O herwydd rhyw afiechyd a'i hanalluogodd i ddilyn ei alwedigaeth, dechreuodd gadw ysgol; eithr am iddo wneyd hyn heb drwydded, gwysiwyd ef i lys Bangor. Ar yr achlysur hwn, cafodd ymddiddan maith gyda'r esgob. Yn mysg pethau eraill, gofynodd yr esgob iddo, 'Pa le y buoch yn dysgu seryddiaeth?' Attebodd yntau mewn Saesneg clogyrnog o'r fath a siaradai, 'Ar fryniau Clynog, fy arglwydd esgob, wrth gadw defaid fy nhad, ac wrth ymofyn am danynt pan yn myned ar ddisperod.' Ymddygodd yr esgob yn dirion tuag ato; ac ar ol talu y swm gofynedig, rhyddhawyd ef. Heb law ceisio dysgu ei gydgenedl trwy bregethu, a chadw ysgol, ymgymmerodd â gwneyd hyny hefyd trwy y wasg. Yr oedd yn llenor ac yn brydydd da. Yr Almanac cyntaf a gyhoeddodd oedd am y flwyddyn 1760, pan yr oedd efe tua 29ain oed. Parhaodd i gyhoeddi un bob blwyddyn hyd 1804—cyfnod o 44ain mlynedd. Gwerthid o bymtheg i ugain mil o hono yn flynyddol.

Yr oedd amryw 'almanacwyr' ar y maes o flaen John Roberts; sef, Thomas Jones, John Jones, Siôn Prys, Siôn Cain Jones, Siôn Rhydderch, ac eraill. Rhyw goeg seryddwyr oedd y mwyafrif o'r rhai hyn; a thrinient eu gilydd yn erwin, weithiau, yn eu rhagymadroddion blynyddol. Priodolent anwybodaeth, a lladrad y naill i'r llall; a hyny yn fynych mewn iaith isel. Ond pan ddaeth 'Seryddwr Caergybi' i'r maes, darfu eu hymgecraeth yn ddisyfyd; o blegid cydnabyddid fod John Roberts yn tra ragori arnynt oll. Daeth enw 'John Roberts, Caergybi,' cyn hir yn air teuluaidd trwy Gymru; a dywedir fod ei almanaciau yn hynod gywir am y newydd-loerau, a'r dyddiau gwyl. Yr oedd ei gywirdeb yn un o elfenau ei lwyddiant. Yr oedd toll drom ar almanaciau a argrephid yn yr ynys hon y pryd hwnw. Gan

Digitized by Google

sir yr Amwythig, gan Arglwydd Crewe; ac ar ol hyny, yn 1818, dyrchafwyd ef gan yr Esgob Luxmoore, o Lanelwy, i beriglorïaeth Helygain, yn sir Fflint. Ond byr iawn fu ei fwynhâd o'r fywoliaeth fraisg hono. Y 29ain o Fai dilynol, tra yr oedd efe yn y weithred o estyn elusen i gardotyn a alwodd wrth ei ddrws, tarawyd ef gan y parlys. Syrthiodd i lawr yn y fan, a bu farw y boreu canlynol. Yr oedd Peter Roberts yn hyddysg iawn yn nysgeidiaeth y Rabbiniaid Iuddewig; ac arddengys ei *Letters to Volney* gydnabyddiaeth ëang â gwahanol ieithoedd, a phyngciau gwyddonol. Ysgrifenodd y llyfrau canlynol:—*Christianity Vindicated, in answer to Volney on Ruins* (1800); *Sketch of the Early History of the Cymry* (1803); *Chronicles of the Kings of Britain* (cyfieithiad o Frut Tysilio); *The Cambrian Popular Antiquities* (1815); *An Essay on the Origin of Constellations; The Art of Universal Correspondence; Review of the Policy and Peculiar Doctrines of the Modern Church of Rome; A Manual of Prophecy; Letter to Dr. Milner, on the Supposed Miracle of Winifred's Well; Cyfieithiad i'r Saesneg o'r 'Trioedd' a briodolir i Ddyfnwal Moelmud*; a *History of Oswestry* (1815).

ROBERTS, RICHARD. Peiriant wneuthurwr enwog oedd efe; a mab i grydd tlawd o Geryg Hwfa, yn mhlwyf Llanymynech, yn sir Drefaldwyn. Gan yr arferai ei dad weithio i grydd arall yn Nghroesoswallt, gelwid ar y bachgen yn fynych i gario esgidiau ol a blaen i ac o'r dref hono. Pan ar y teithiau hyn, dywedir y byddai efe yn arfer gwneyd lluniau a thrionglau yn llwch y ffordd, ac yn nhywod yr afon; ond ni feddyliodd neb fod dim yn y pethau hyny, amgen na math o ddifyrwch i'r bachgen ei hun. Ond un tro, daeth boneddwr o Fanchester i dŷ gwraig yn yr ardal; i'r hon, yn flaenorol, yr oedd Richard Roberts wedi cyflwyno troell nyddu fechan, ond hynod gelfydd, o'i wneuthuriad ei hun. Wedi deall pwy oedd ei gwneuthurwr, a gwybod ei fod wedi gwneyd pethau tra chelfydd eraill, cymmerodd y boneddwr ef gydag ef i Loegr, i'r amcan o feithrin ei chwaeth beiriannyddol. Yn 1814, aeth i Lundain am y waith gyntaf; ac wedi bod am ysbaid gyda'r peiriannwyr enwog Mri. Maudsley, efe a ymsefydlodd yn mhen tua thair blynedd yn Manchester, fel peiriannydd ar ei gyfrifoldeb ei hun. Efe a wnaeth y peiriant cyntaf i lyfnhau haiarn; yr hwn sydd etto yn nghadw yn Amgueddfa y Breintlenau yn South Kensington. Dilynwyd hwn yn fuan gan ei beiriant *slopio*, a'i beiriant i dori olwynion; a gellir ystyried y rhai hyn, ynghyd â'i welliantau yn y llithr-droell, yn mhlith y cynnorthwyon pwysicaf i ddadblygu y gelfyddyd o wneyd peiriannau. Yn fuan, dygodd ei dalentau uwchraddol ef i gyssylltiad â gŵr o'r enw Mr. Thomas Sharp; a sefydlasant gyda'u gilydd y gwaith mawr a elwir 'yr Atlas,' yn Manchester; yr hwn oedd ar y pryd yn un o brif weithfeydd peiriannyddol y deyrnas. Yn y fl. 1825, parodd y streic a ffynai yn mysg llaw-nyddwyr Staleybridge iddo ddyfeisio mân beiriannau cywrain a defnyddiol i weithio edafedd; sef, y ful-droell hunan-weithiol (*self-acting mule*), yr hon y gallai plentyn ofalu am dani, a chynnyrchu edafedd gwastatach a meinach gyda hi nag y gellid ei wneyd â'r droell law. Yn fuan wedi agor ffordd haiarn Liverpool a Manchester, trodd Mr. Roberts ei sylw at wellhau peiriannau teithio; a gwnaed rhai cannoedd o honynt yn y weithfa lle y gwnaeth efe yr un gyntaf yn 1834. Ymddengys fod y sôn am ei allu fel peiriannydd dyfeisiol wedi cyrhaedd hyd yn oed i Ffraingc a Rwssia; o blegid cafodd wahoddiadau taer o'r gwledydd hyny i ymsefydlu ynddynt; ond gwrthododd. Yn ystod ei amser hamddenol, efe a ad-drefnodd weithfa beiriannol fawr y Mri. Roechlen, yn Mulhouse, yn Alsace. Tua'r pryd hwn, dyfeisiodd welliantau mewn tŵr-awrleisiau, nwy-fesurydd, gwehyddion sidan, &c. Yn 1847, ar gais gwneuthurwr chwibol fawr pont Conwy, dyfeisiodd, yn fyrfyfyr o'r bron, y peiriant trydyllu a adwaenir wrth yr enw 'Jacquard,' yr hwn sydd offeryn hunan-weithiol at dori tyllau mewn llafnau o haiarn o unrhyw fathau neu faintioli. Gyda'r un peiriant y tyllwyd chwibolau trosglwyddfa y Boyne; pont Victoria, dros y St. Laurence, yn Montreal; a phont fawr Jumna, ar ffordd haiarn yr India Ddwyreiniol. Yn y fl. 1852, gwnaeth ei ddyfeisiau yn hysbys i wellhau peiriannau agerlongau; ac y mae y cyfryw welliantau yn cael eu harfer yn bresennol mewn amryw o wledydd. Yn 1855, cafodd yr anrhydedd o osod y dyfeisiau hyn ger bron yr ymherawdwr Napoleon Ymneillduodd o'i fasnach yn 1852; ond rhoddai gynghor ar faterion peiriannol pan elwid arno i wneuthur hyny. Gan ei fod yn weithiwr ei hun, yr oedd yn gyfaill gwirioneddol i bob gweithiwr cywir a gonest. Bu farw yn Llundain, Mawrth 11eg, 1864, yn 75ain mlwydd oed.

ROBERTS, THOMAS. Brodor oedd efe o Lwynrhydol, yn sir Gaernarfon; ond treuliodd ran fwyaf ei oes yn Llundain. Yr oedd yn Gymro twymngalon a gwladgarol, ac yn aelod gwresog o Gymdeithas y Cymmrodorion. Fel hynafiaethydd Cymreig, yr oedd iddo gymmeriad uchel yn mysg ei gydnabod; a'i gasgliad ef yw y penillion Cymreig a geir yn y *Cambro-Briton*. Yn 1831, cyhoeddodd *The Welsh Interpreter*—llyfr i gynnorthwyo Sais i feistroli yr iaith Gymraeg. Bu iddo amryw blant; ac un o honynt ydoedd Maurice Roberts; yr hwn a gyfieithodd i'r Saesneg awdl 'Dafydd Benfras i Llywelyn ab Iorwerth.'

ROBERTS, WILLIAM, D.D. Clerigwr yn yr Eglwys Sefydledig. Ganwyd ef yn Ninbych, yn 1585. Cafodd ei addysg yn Ngholeg y Frenhines, Caergrawnt; o'r hwn y gwnaed ef yn gymmrawd a phrwyadur. Yn 1629, pennodwyd ef yn is-ddeon Wells. Cafodd hefyd beriglorïaeth Llandyrnog, a pheriglorïaeth wâgswyddol Llanrhaiadr-yn-Nghinmerch—y ddau le yn Nyffryn Clwyd. Wedi hyny, gwnaed ef yn Esgob Bangor; i'r hon swydd y cyssegrwyd ef yn Medi, 1637. Fel ei ragflaenoriaid, daliai y bywoliaethau uchod, ynghyd âg archddeoniaethau Bangor a Môn, ar ol ei ddyrchafiad i'r gadair esgobawl. Yn ystod tymmor y werinlywodraeth, dioddefodd gryn lawer o herwydd ei deyrngarwch; ac yn y fl. 1649, attafaelwyd ei etifeddiaeth bersonol. Yn 1660, modd bynag, dychwelwyd iddo yr holl eiddo a gymmerwyd oddi arno. Bu farw Awst 12fed, 1665, wedi treulio oes dduwiolfrydig ac elusengar. Cymmerodd ei farwolaeth le yn mharsondy Llandyrnog: ac yn nghangell yr eglwys hono y claddwyd ei weddillion.

Digitized by Google

RHYDDID. Y mae rhyddid yn dynodi sefyllfa o ryddhâd, yn wrthgyferbyniol i sefyllfa o gaethiwed neu o gyfyngiad ar iawnderau dyn. *Rhyddid cydwybod* a olyga gyflawn hawl i wneyd dewisiad mewn mater crefyddol, ac i ymarfer barn bersonol ar yr hyn a gyflwynir i'n sylw. *Rhyddid mewnol*, neu ryddid i wneuthur dewisiad, yw y rhyddid hwnw a fwynheir pan nad yw ein hewyllysiadau yn cael eu penderfynu gan unrhyw ystyriaeth neu achos allanol, ond gan ein deall neu ein tueddiad ein hunain. *Rhyddid allanol*, ydyw rhyddid i weithredu, heb fod ein galluoedd pan yn gweithredu dan orfodaeth nac [attaliad; ac y mae yn gynnwysedig yn y gallu i roddi ein hewyllysiadau mewn grym. *Rhyddid athronyddol* neu *foesol* sydd gynnwysedig mewn tuedd gref i weithredu yn ol argyhoeddiad y rheswm; hyny ydyw, yn y fath fodd, a chymmeryd pob peth i ystyriaeth, ag a fydd yn fwyaf effeithiol er dwyn oddi amgylch ein dedwyddwch mwyaf. *Rhyddid ysbrydol* sydd yn gynnwysedig mewn rhyddhâd oddi wrth felldith y ddeddf foesol; oddi wrth lywodraeth euogrwydd, a thueddiad a hoffder at bechod; oddi wrth arglwyddiaeth Satan; oddi wrth lygredigaeth y byd; oddi wrth ofn marwolaeth; ac oddi wrth gaethiwed y seremonïau Iuddewig. Defnyddir y gair hefyd am ryddhâd, yn *Rhuf.* vi. 14; viii. 1; *Gal.* iii. 13; *Ioan* viii. 34, 36; *Rhuf.* viii. 26; *Gal.* v. 1. Gwel EWYLLYS.

Y mae rhyddid gwladol a chrefyddol wedi bod bob amser yn bethau ag y mae dynion wedi ymgyrhaedd am eu mwynhau; ond yn gyffrediu iawn yn hanes y byd y mae y rhai fydd mewn awdurdod yn dueddol i geisio difuddio eu cyddynion o fwynhâd o'r naill a'r llall. Y mae hanes yr ymdrechion a wnaed gan ddynion i ennill rhyddid gwladol a chrefyddol—i feddiannu yr hawliau gwladol sydd yn gyfiawn eiddo iddynt fel deiliaid o gyfundeb gwladol, a'r rhagorfreintiau crefyddol hyny ag y maent, fel bodau cyfrifol i Dduw yn unig am eu syniadau a'u hymarferiadau crefyddol, yn meddu hawl iddi ymwad iddynt, yn gwneyd i fyny ran fawr o hanes gwledydd a theyrnasoedd drwy yr oesoedd; ac y mae y rhyddid gwladol a chrefyddol a fwynheir gan bobl yr oes hon yn ffrwyth ymdrechion celyd a dioddefiadau mawrion mewn oesoedd a aethant heibio. Gellir dywedyd, pa fodd bynag, mai ar ganol ei dwyn yn mlaen y mae y frwydr rhwng rhyddid a chyfiawnder a gormes ac anghyfiawnder, mewn llawer o wledydd etto: ond y mae y byd yn myned rhagddo; ac fel yr elo yn mlaen mewn goleuni a gwybodaeth, cydnabyddir hawliau teg a chyfiawn ei breswylwyr i fwynhau eu rhyddid gwladol a chrefyddol gan yr awdurdodau. Gwel CAETHIWED; UCHANIANAETH.

RHYS, MORGAN JOHN. Gweinidog enwog i'r Bedyddwyr yn Mhen-y-garn, Pontypool, oedd Morgan Rhys, fel yr arferai yr hen bobl ei alw. Ysgrifenai ef ei enw 'M. J. Rhees.' Ganwyd ef Rhagfyr 8fed, 1760, a bu farw yn Mhennsylvania, Rhagfyr 7fed, 1804. Mab oedd i John Rees, o'r Graddfa, Llanfabon, yn Morganwg. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn Hengoed yn ieuangc, a dechreuodd bregethu yn lled fuan. Cawsai addysg dda gan ei dad yn ol manteision yr ardaloedd hyny. Gwelsom rai o'i gopïau pan yn yr ysgol, a *phroblems* dyrys rhifyddiaeth wedi eu gweithio ganddo â llaw brydferth:—yr hyn a ddengys ei fod wedi cael ysgol dda o'i febyd.



Aeth i athrofa Bristol, a threuliodd bedair blynedd yno dan y Dr. Caleb Evans, a Robert Hall yn athraw ieithyddol iddo. Cafodd ei ordeinio yn Mhen-y-garn, Hydref 17eg, 1787, pryd y pregethodd Benjamin Francis, yr emynydd clodfawr, ar ei ddyledswyddau. Dyn tal, gewynog, â nodau y frech wen ar ei wyneb, oedd M. ab Ioan Rhys, fel yr arferai weithiau ysgrifenu ei enw; ac yn llawn sêl, egni, a gweithgarwch. Teithiai lawer trwy Gymru i bregethu; ac y mae ei enw i'w weled fel un o'r rhai blaenaf yn nghymmanfaoedd y Bedyddwyr yn y Deheu a'r Gogledd. Gwnaeth ei oreu i sefydlu Ysgolion Sabbothol yn Ngwent yn y blynyddoedd 1789, 1790. Cofiai y diweddar Ddr. Jenkins, o Hengoed, am dano yn dyfod i Langynydr, yn Mrycheiniog, tua yr amser a nodwyd, i annog yr eglwysi i sefydlu ysgolion, ac i werthu llyfrau bychain at ddysgu darllen. Rhoddes Jenkins ieuangc dair ceiniog am un o'r llyfrau; a thrwy gymmhorth hwnw dysgodd ddarllen ei Feibl. Dyma eiriau yr hen ddoctor yn hanes ei fywyd:—

"Yn y cyfamser, daeth heibio weinidog cyfrifol iawn o'r enw Morgan Rhys, yr hwn a aeth drosodd i America cyn hir wedi hyny. Llafuriodd ef yn ddiwyd, ond yn ofer i raddau mawr yr amser hwnw, i gynnhyrfu codi Ysgolion Sabbothol trwy Gymru, cyn eu bod wedi dechreu gydag un enwad yn y Dywysogaeth. Daeth trwy Langynydr, fel lleoedd ereill, i bregethu, ac annog codi Ysgolion Sabbothol a nosweithiol; ac yr oedd wedi cyfansoddi ac argraphu llyfryn bychan, gwerth tair ceiniog, i ddysgu darllen. Prynais un o honynt. Trwy gael y llyfr bychan hwn, ac ychydig o wersi ysgol nosol a godwyd yr amser hwnw o dŷ i dŷ yn y gymmydogaeth am dymmhor bach, gydag ychydig gyfarwyddiadau gan fy meistr gartref, y cefais y fraint ammhrisiadwy o ddysgu darllen Gair Duw."

Yr oedd Morgan Rhys yn teimlo yn eiddigus rhag i ysgolion Madam Bevan gael eu dwyn oddi ar blant tlodion Cymru. Ond yn ngwyneb y gwaethaf, y mae yn dywedyd, "Pe byddai pregethwyr, ac ereill sydd yn ofni Duw, yn ffurfio cymdeithas yn mhob cymmydogaeth i olygu y fath waith (sef dysgu darllen), ac yn gwneuthur casgliadau i gynnal ysgolfeistri, a rhoddi llyfrau i'r plant, ni ddelai ddim i lawer o arian yn y flwyddyn." Gwelwn fod M. Rhys gyda'r Ysgolion Sul mor foreu, os nad yn foreuach na Mr. Charles o'r Bala; ond iddo ef fethu yn ei amcanion, ac i Mr. Charles lwyddo. Yr oedd Morgan Rhys yn ormod o ryddfrydwr i'r oes hono allu ei oddef, fel y gorfu arno yn y diwedd ffoi o'i wlad. Dywedir yn hanes cymmanfa Hengoed, 1791—"Y brawd Morgan Rees wedi ymadael o Ben-y-garn." Pa fodd bynag, efe oedd llywydd cymmanfa Abertawe y flwyddyn hono. Pennodwyd ef i bregethu yn y gymmanfa nesaf yn Moleston—yr hyn a wnaeth. Rhwng y ddwy gymmanfa yma bu yn Paris yn treulio peth amser. Anhawdd gwybod yn awr pa beth oedd ei neges yn Ffraingc. Pan yn Ffraingc, bu farw ei gyfaill, Dafydd Jones, ei ragflaenor yn Mhen-y-garn, a chydgyhoeddwr "*Beibl Cann*" gyda Peter Williams. Cyfansoddodd farwnad dda i'w frawd tra yn Paris. Dyma ddarn o honi:—

"Jones â'i delyn yn y bywyd,
Minnau yn mhrif ddinas Ffraingc
Yn pregethu cyfraith rhyddid,
Lle bu'r pab â'i orseddfaingc;
Jones y llynedd gyda'i Feiblau[1]
Yn eu taenu ar hyd y wlad,

[1] Sef, "*Beiblau Cann*.

Digitized by Google

Minnau 'leni yn dechreu printio,
I'r dyben i'w cyfranu 'n rhad,
I dlodion Ffraingc fu'n hir yn dwlio
Uwch ben crefydd *Latin* dlawd;
A'r offeiriaid yn eu twyllo
I 'ddoli pren, yn lle eu Brawd."

Tybied yr oedd Morgan Rhys, mae'n debyg, y buasai chwyldroad Ffraingc yn dyfod â rhyddid i bregethu yr efengyl, a gwasgaru Beiblau, &c., i'r Ffrangcod; a barnodd gwŷr Lloegr mai rhyw ddybenion drwg oedd ganddo mewn golwg, a chadwasant wyliadwriaeth arno mwyach. Dywed bywgraphydd Richards o Lynn, yr hwn oedd yn gydfyfyriwr â Morgan Rhys yn Bristol yn 1784, iddo adael Pen-y-garn, a myned i Ffraingc, yn 1792, ac agoryd lle o addoliad Protestanaidd yn Bologne:—hefyd, iddo ffurfio cymdeithas i ranu y Testament Newydd yn rhad i'r Ffrangcod; ond i'r rhyfel dilynol roddi terfyn ar ei weithrediadau. Dychwelodd i Gymru, a dechreuodd gyhoeddi y "*Cylchgrawn Cynmraeg.*" Cyhoeddiad trimisol, pris chwe cheiniog, oedd y "*Cylchgrawn.*" Yr oedd y Dr. W. O. Pughe a D. Ddu Eryri yn gohebu iddo, a llythyreg y Dr. Pughe sydd ynddo, fel y mae *Cynmraeg* yn dangos. Daeth y rhifyn 1af allan "am Chwefrol, 1793," o argraphwasg Trefecca; a'r 2il "am Mai, 1793," o'r un lle; rhif 3ydd, "am Awst, 1793." Mae rhifyn 3ydd wedi colli yr *n* o'r *Cynmraeg:* dim ond *Cymraeg;* ac y mae rhywun tebyg i Iolo Morganwg yn y rhifyn hwn yn ymosod ar Lythyreg G. Owain o Feirion; sef, y Dr. Pughe. Nid oes dim ond "*Cylchgrawn; neu Drysorfa Gwybodaeth,*" yn benawd i rhif 5ed. Dyma yr olaf o'r "*Cylchgrawn*" a ddaeth allan. Saif hwn "am Ionawr a Chwefror, 1794." Ross a Daniel, Caerfyrddin, oedd yr argraphwyr. Ni bu Morgan Rhys yn weinidog sefydlog yn Nghymru mwyach; ond teithiai i ddihuno y wlad at ddarllen, a derbyn y "*Cylchgrawn,*" &c. Yr oedd ef yn Nglynceiriog yn ordeinio dau weinidog, Gorphenaf 2il, 1794; ac yn y gymmanfa yn Llangefni yr un flwyddyn. Yr oeddynt yn neillduo diaconiaid yn y Glyn hefyd. Dranoeth, deallai Morgan Rhys fod un o'r diaconiaid yn gymmerwr degwm: gofidiai yn fawr o herwydd iddo neillduo ei fath mewn amryfusedd, ac ni buasai waeth ganddo osod ei ddwylaw ar ben ci nag ar ei ben yntau. Cafodd y bregeth a draddododd ef yn y Glyn ei hargraphu yn Ngwrecsam. Aeth Morgan Rhys yn ol i Gaerfyrddin—lle y trigai fynychaf, ac yr argraphai wahanol lyfrau, casgliad o hymnau, &c. Un noswaith pan yn ei letty, daeth swyddogion o Lundain i'w ddal; a disgynasant mewn tafarn. Deallodd y tafarnwr eu neges, a rhoddes rybudd dirgel i Morgan Rhys i ffoi. Diangodd yntau ar hyd y nos trwy Ddyffryn Towy, gan gyfeirio tua Liverpool, a daeth i Lynceiriog; a bûm yn ymddiddan a'r hynafgwr a'i hebryngasai oddi yno i Wrecsam, i orphen gwastatau am argraphu y pregethau. Aeth oddi yno i Liverpool, ac yna i'r America; ac felly gwaredwyd ef o enau y llew. Cafodd dderbyniad croesawgar iawn yn America; ac ymdrechai ddarbwyllo ei gyfaill Richards, o Lynn, i ddyfod yno hefyd. Ysgrifenai ato fel hyn:—"*Philadelphia,* Hydref 19eg, 1794.—Adeg ddedwydd, pan y mae y gwyn, y melyn, a'r du, yn cael ymuno yn un frawdoliaeth." Yr oedd ef yn gwynfydu yn rhyddid y byd newydd, fel un wedi diangc o Abred i 'ryddid yn nyndod.' Cyhoeddodd argraphiad o "*Hanes holl Gredöau y byd*" yn fuan wedi myned drosodd, ynghyd â chynllun o eglwys rydd, yn seiliedig ar hyn o gredo:—"Iesu Grist yw yr unig ben, credinwyr ynddo ef yw yr unig aelodau, a'r Testament Newydd yw unig reol y cydfrawdoldeb."

Y mae llythyr o'i eiddo yn y "*Cambrian Register,*" cyf. i, td. 379, dyddiedig Tach. 24ain, 1795, yn dyweyd iddo deithio miloedd o filldiroedd drwy y taleithiau, a'i fod yn holi am y Madogiaid yn aml: a'i fod, fel ereill fu yn hela ar ol y cyfryw giwdawd dychymygol, bron a chael eu hanes! Daeth i fri mawr yn America, priododd i deulu anrhydeddus; ond bu farw, er gofid i'w holl gydnabod, yn 44ain mlwydd oed.

Wrth ddarllen ei "*Gylchgrawn,*" nis gallwn ddirnad pa ddrygau sydd ynddo, yn mhellach na bod ei gyhoeddwr yn mhell o flaen ei oes mewn gwladyddiaeth a chrefydd. Rhyddid a chyfiawnder oedd elfenau ei enaid. Dywedai, gyda Robert Robinson, "*Bigotry is the great devil!*" Daliai fod unffurfiaeth opiniwn yn beth annichonadwy—mai unig rwymyn cymdeithas yw cariad a chydoddefgarwch. Gwel sylwadau arno ef a'i "*Gylchgrawn,*" gan Dr. Edwards, Bala; "*Memoirs of Dr. Richards, of Lynn,*" gan John Evans, M.A.

Wedi ysgrifenu yr uchod, cawsom olwg ar ychydig yn rhagor o hanes Morgan John Rhys. Dychwelodd o Ffraingc yn gynnar yn 1792, a gosododd argraphwasg i fyny yn Nghaerfyrddin i oleuo ei genedl ar byngciau gwladol ac eglwysig. Gwahoddodd Josuah Watkins, o Lanwerth, i ddyfod i'w gynnorthwyo. Yr oedd Mr. Watkins yn bregethwr poblogaidd iawn, er nad oedd ond 22ain mlwydd oed; a bu yn weinidog llwyddiannus yn Heol y Prior, Caerfyrddin, hyd ei farwolaeth yn 1841. Nid oedd Morgan John Rhys ond 31ain oed ar ei ddychweliad o Ffraingc. Efe oedd cymmedrolwr neu gadeirydd cymmanfa Moleston yn haf 1792, a phregethodd yn Gymraeg a Saesneg. Un o benderfyniadau y gynnadledd oedd hwn: "Ar ddymuniad y brawd M. Rees, cyttunwyd i annog yr eglwysi i wneyd casgliad at roddi Gair yr Arglwydd i'r Ffrangcod, a'i ddanfon i law Mr. Williams, o Aberteifi, fel y gallo ef ei ddanfon i'r rhai fyddo i ddosbarthu y Beiblau, y rhai sydd yn dyfod allan yn iaith y wlad hono." Yn nghymmanfa Cwmdu, yn 1793, penderfynwyd rhoddi "cynghor i'r eglwysi i ymdrechu cael ysgolion Cymreig i ddysgu ieuengctyd i ddarllen yr Ysgrythyr." Nid oedd Morgan John Rhys yn y gymmanfa hon, ond yr oedd efe yn nghymmanfa y Gogledd yn y Cefn Bychan.

Ymddengys mai gwasg fechan, ac ychydig o ddefnyddiau at argraphu llyfrau bychain, oedd gan Morgan John Rhys a'i gyfaill Mr. Watkins; canys argrephid "*Y Cylchgrawn*" mewn manau ereill. Ei amcan, y mae yn debyg, pe cawsai lonydd, oedd byw yn bregethwr teithiol, ac yn gyhoeddwr llyfrau; ond yr oedd gwaedgwn Sior III. yn sychedu am ei waed, ac yr oedd yntau yn gwybod hyny, ac yn golygu myned i America cyn iddo orfod ffoi mor ddisymmwth; canys dywed yn ei "Resymau dros fyned i America:"—

"Nid ydym heb weled yr ysbryd erledigaethus hwn yn ymddangos yn barod. Y mae llawer o'n cydwladwyr yn dywedyd fod crogi neu losgi yn rhy dda i ni—y dylem ni gael ein dirdynu a'n darnio rhwng ceffylau gwylltion. Ond am beth? Dim yn y byd ond dymuno daioni iddynt hwy, a cheisio agor eu llygaid i weled eu hawl dinasaidd ac eglwysaidd; ond hyd yn hyn y maent yn caru tywyllwch yn fwy na'r goleuni."

Digitized by Google

Barn gormeswyr bob amser yw, y dylai pob diwygiwr gael ei ferthyru—a diau fod Morgan John Rhys mewn perygl am ei fywyd. Bu gweinidog i'r Undodiaid, sef y diweddar Barch. Thomas Evans, o Aberdar, yn ngharchar Caerfyrddin ddwy flynedd, ac yn y rhigawd (*pillory*) hefyd, am ddim ond canu pennillion ar ryddid a breintiau dyn! Golygai Morgan John Rhys gyhoeddi pigion o hymnau at wasanaeth y Bedyddwyr, canys nid oedd ganddynt gasgliad da o hymnau cyn hyny, er bod hymnau Harri Sion, o Bontypool, a'r eiddo B. Ffrancis, a Dafydd William, o Lanbedrfro, ganddynt; a dywedai, "Bydded i bwy bynag sydd am annog y gwaith hwn yn mlaen, anfon eu henwau gyda brys at yr awdwr i Gaerfyrddin, am ei fod yn meddwl na fyddai ei arosfa ond byr yn Nghymru." Nodasom iddo fod yn Nglynceiriog, Gorphenaf 2il, 1794, yn ordeinio Thomas Jones a John Edwards, a'r dyddiau canlynol yn Llangefni, yn y gymmanfa, pryd y "rhoddwyd annogaeth i'r eglwysi i barhau i godi Ysgolion Sabbothol, i ddysgu ieuengctyd ac ereill i ddarllen Cymraeg."

Daeth yn ol i Gaerfyrddin cyn diwedd y mis. Arferai alw mewn tafarndy cyfrifol a gedwid gan un, Mr. Reid, yn nghanol y dref. Un min nos, daeth gŵr dyeithr i'r tŷ yn ddisymmwth, i ofyn am letty; ac wedi ei gael, gofynodd i ŵr y tŷ a wyddai efe am un Morgan Rees yn y dref hono: attebodd Mr. Reid ei fod yn ei adnabod, a'i fod yn ddyn da a pharchus iawn. Dywedodd y dyeithrddyn ei fod wedi dyfod o Lundain yn un swydd â gwarant i'w ddal, a myned âg ef i'r brif ddinas. Addawodd Mr. Reid yr arweiniai ef i dŷ Morgan John Rhys boreu dranoeth. Digwyddodd Morgan John Rhys fod mewn ystafell arall yn y tafarndy ar y pryd; aeth Mr. Reid ato, hysbysodd ef am y warant, ac annogodd ef i ffoi yn y man, heb oedi awr. Aeth ei frawd, Josuah Watkins ar ei ol i Liverpool, gyda phethau angenrheidiol i'r fordaith. Cymmerodd y môr Awst 1af, ac ymadawsant â'u gilydd yn alarus iawn. Cadwodd Morgan John Rhys ddyddlyfr o'i fordaith. Priododd yn America â boneddiges gyfoethog, a bu farw yn 1804, yn 44ain mlwydd oed. Cwrddodd y Dr. Phillips, o Henffordd, â'i ferched pan ar daith yn America, a chafodd y dyddlyfr ganddynt, a chyhoeddodd lawer o ddyfyniadau o hono yn y newyddiaduron Cymreig. Dyna ddiwedd Morgan John Rhys—dyn nad oedd ei oes yn deilwng o hono.

RIDLEY, NICHOLAS: un o arweinyddion enwocaf y Diwygiad Protestanaidd yn Mhrydain yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef yn swydd Northumberland, rywbryd tua dechreu yr unfed ganrif ar bymtheg. Addysgwyd ef yn ysgol rammadegol Newcastle-upon-Tyne; ac wedi hyny yn ngholeg Penfro, Caergrawnt. Yr oedd ysbryd y Diwygiad eisoes wedi dechreu gweithio ei ffordd i'r prifysgolion yn Rhydychain a Chaergrawnt. Yr oedd Tyndal a Bilney wedi dysgu yr athrawiaeth yn y lle diweddaf; ac yr oedd Ridley, yn gystal a Cranmer a Latimer, y rhai oeddynt oll yn efrydwyr yn Nghaergrawnt yr un amser, dybygid, wedi eu trwytho i raddau yn yr un ysbryd. Gryfhawyd y tueddfryd hwn i bleidio y Diwygiad yn fawr gan daith a wnaeth efe ar gyfandir Ewrop, yr hon yr ymgymmerodd â hi ar gwblhâd ei efrydiau yn Nghaergrawnt. Cyfarfu â rhai o'r Diwygwyr mwyaf gweithgar a llafurus yno; ac ar ol bod yn absennol am dros dair blynedd, efe a ddychwelodd i'w wlad ei hun wedi ei wreiddio yn ddyfnach nag o'r blaen yn egwyddorion y Diwygiad. Yn y cyfamser yr oedd wedi bod yn efrydydd yn rhai o golegau Ffraingc, ac wedi ennill iddo ei hun enw uchel fel dyn dysgedig; ac ar ei ddychweliad i Gaergrawnt, cymmerodd urddau eglwysig; dewiswyd ef yn gymmrawd, ac yn fuan ar ol hyny pennodwyd ef yn athraw ei goleg. Enwyd ef hefyd yn ynad (*proctor*) y brifysgol; ac yn y cymmeriad hwn efe a wrthdystiodd yn erbyn hawliau y sedd Babaidd i'r awdurdod eglwysig oruchaf yn Mhrydain. Dewiswyd ef hefyd yn areithiwr cyhoeddus; ac o dan nawddogaeth ei gyfaill Cranmer, dyrchafwyd ef yn un o gaplaniaid y brenin; ac yn 1547, pennodwyd ef yn esgob Rochester. Condemniai o'r pulpud yn ddiarbed y defnydd oedd yn cael ei wneuthur o ddelwau a'r dwfr sanctaidd yn yr addoliadau; a thrwy hyn, yn gystal ag mewn ffyrdd ereill, profai ei hun yn gefnogwr gwresog i'r athrawiaethau Protestanaidd; ac yr oedd ei alluoedd yn gyfryw ag a barent iddo gael ei restru yn mhlith y Diwygwyr blaenaf. Efe a ymunodd, fel dyn yn llawn o ysbryd gweithio, i bleidio y mesurau a ddygid yn mlaen yn nheyrnasiad Edward VI. Dadleuai yn fynych ar draws-sylweddiad ac athrawiaethau Pabaidd ereill. Eisteddodd fel aelod ar ddirprwyaeth a bennodwyd i archwilio y cyhuddiadau a ddygwyd yn erbyn Bonner, esgob Llundain. Diswyddwyd Bonner gan y ddirprwyaeth hono; ac yn lled fuan, appwyntiwyd Ridley yn olynydd iddo i esgobaeth Llundain, yn 1550.

Yn y sefyllfa uchel hon, efe a ennillodd iddo ei hun enw uchel am ei gymmedroldeb, ei ddysg, a'i haelfrydedd. Cefnogai y Diwygiad yn y modd gwresocaf; etto nid oedd yn benboeth ac annioddefol; gweithiodd yn egnïol i sylfaenu *Christ's Hospital*, ac hefyd feddygdai St. Bartholomeus a St. Thomas, Southwark; ac y mae y ddau sefydliad diweddaf wedi dyfod yn enwog fel ysgolion meddygol—a'r blaenaf fel ysgol i gyfranu addysg glasurol a chyffredinol. Elai oddi amgylch ei esgobaeth gan ymdrechu lledaenu egwyddorion Protestanaidd; a chynnorthwyodd Cranmer i gyfansoddi y namyn un deugain erthygl, y rhai a ledaenwyd gyda'r amcan o gael y bobl i ddeall yr athrawiaethau Protestanaidd yn well. Enwyd ef yn esgob Durham; ond ni chafodd yr appwyntiad hwn ei gwblhau. Crybwyllir tair enghraifft nodedig, yn y rhai y daeth i'r golwg ei ymdrechion i gyrhaedd dybenion mawr trwy rym a nerth pregethu:—amcanai at droi y dywysoges Mary at Brotestaniaeth, aeth i'w phreswylfod yn Hunsdon, ac erfyniodd am ganiatâd i bregethu o'i blaen. Gwrthodwyd hyn yn bendant iddo; yr hyn, dybygid, a dueddai i dramgwyddo Ridley: ond ar ol hyny efe a amlygodd gryn haelfrydigrwydd meddwl, a pharodrwydd i faddeu, trwy eiriol âg Edward VI. dros Mary, ar iddi gael rhyddid i broffesu ac ymarfer ei chrefydd ei hun. Yn ail, ymdrechodd trwy ei bregethu i gyfarwyddo meddwl y brenin ieuangc tuag at wneyd gweithredoedd elusengar, trwy ddisgrifio tri math o dlodion—y rhai oeddynt yn dlawd o herwydd gwendid, damweiniau, neu ddiogi. Gwnaeth y bregeth argraph nodedig ar feddwl Edward; ac o dan ei dylanwad efe a orchymynodd i Eglwys y Mynachod Llwydion, gyda'r cyllid a berthynai iddi, gael ei gwneyd yn dŷ i blant amddifaid, a St. Bartholomeus, ger Smithfield, yn feddygdy:

Digitized by Google

a rhoddodd ei balas ei hun, sef y Bridewell, i'r pwrpas i gadw ac i geisio diwygio y rhai oedd â thuedd ynddynt i gamymddwyn. Yn drydydd, ar gymmhelliad cefnogwyr hawliau yr Arglwyddes Jane Grey, achos yr hon a bleidiai yntau, efe a ddadleuodd ei hawliau i'r goron, mewn pregeth a draddodwyd ganddo yn eglwys St. Paul, yn yr hon y rhybuddiai y bobl o'r perygl yr oeddynt ynddo, a'r dinystr a ddygid ar yr achos Protestanaidd os byddai i'r Dywysoges Mary esgyn yr orsedd. Troi yn fethiant buan a wnaeth yr ymgais i osod yr Arglwyddes Jane Grey ar yr orsedd.

Ar esgyniad y Dywysoges Mary (yr hon a elwir 'Mari Waedlyd') i'r orsedd, carcharwyd Ridley yn ddioed. Yr oedd ei gyssylltiad â'r gwaith o geisio dyrchafu Jane Grey i'r orsedd, ynghyd a'i sêl a'i ymroddiad i ledaenu yr athrawiaeth Brotestanaidd, wedi ennyn digofaint y frenhines a'r blaid Babaidd yn gyffredinol yn ei erbyn. Taflwyd ef yn garcharor i'r Tŵr yn Llundain yn mis Gorphenaf, 1553, ac ni symmudwyd ef oddi yno hyd nes y cwynid fod y Protestaniaid mwyaf dysgedig yn cael eu gwahardd a'u cadw o'r dadleuon a ddygid yn mlaen ar wahanol byngciau dadleuol rhwng y Pabyddion a'r Protestaniaid. Appwyntiwyd cynnadledd eglwysig i fod yn Rhydychain yn Ebrill, 1554; yn yr hon yr oedd yr athrawiaeth o wir bresennoldeb Crist yn Swper yr Arglwydd i gael ei dadleu; a chan mai Cranmer, Ridley, a Latimer, a ystyrid y dynion mwyaf dysgedig ar yr ochr Brotestanaidd i'r cwestiwn, caniataodd y frenhines i wŷs gael ei rhoddi allan i'w symmud o'r Tŵr i'r carchar yn Rhydychain. Nis gallesid disgwyl, pa fodd bynag, i ddim daioni ddeilliaw oddi wrth unrhyw ddadleuon o'r natur yma, o dan yr amgylchiadau. Nid oedd y ddadl mewn gwirionedd yn ddim amgen na ffug. Yr oedd y tri, mae'n wir, yn cael caniatâd i siarad yn eu tro; ond yr oeddynt yn gwneyd hyny yn nghanol annhrefn, bloeddiadau, dannodiadau, a gwawd o bob math oddi wrth y gwyddfodolion. Ystyrid, wrth gwrs, fod y Diwygwyr wedi eu gorchfygu, a chondemniwyd hwynt, fel hereticiaid cyndyn, i ddioddef marwolaeth drwy gael eu llosgi wrth yr ystangc. Ni adawodd Ridley Rydychain byth mwy. Arweiniwyd ef a'i gymdeithion yn ol i'r carchar; ac ar ol gwneuthur llawer o ymdrechion aflwyddiannus i geisio ganddo ddadgyffesu, efe a arweiniwyd, yn nghwmni ei gyfaill yr esgob Latimer, at yr ystangc ar yr 16eg o Hydref, 1555, pryd y dioddefodd y ddau ferthyrdod drwy gael eu llosgi. Cyfodwyd yr ystangc o flaen Coleg Baliol. Parhaodd Ridley, yn gystal a'i gydymaith, yn ddiysgog ac yn gysson yn ei ddiwedd, fel y gwnaethai ar hyd ei fywyd. Rhwymwyd pylor am ei wddf; ond bu y tân yn hir cyn ennyn yn gryf, ac ni ddarfu i ffrwydrad y pylor derfynu ei fywyd. Ni bu farw nes yr oedd ei aelodau wedi eu llwyr losgi; ond daliodd yr arteithiau gyda diysgogrwydd a goddefgarwch di-ildio, gan ei chyfrif yn fraint i gael dioddef dros achos mor deilwng. Yn ol tystiolaeth yr esgob Burnet, Ridley oedd un o'r rhai duwiolaf, dysgedicaf, a galluocaf o'r holl Ddiwygwyr a fu yn dwyn yr achos gogoneddus hwn yn mlaen yn Mhrydain, os nad y galluocaf oll o honynt. Yr oedd yn meddu cymmeriad uchel, hunanymwadol, a dilychwin. Fox, hanesydd mawr y Diwygiad, a ddywed am dano, ei fod "yn ddoeth mewn cynghor, yn ddwfn o ran synwyr, ac yn llawn caredigrwydd o ran ei ysbryd." Yr oedd ei addfwynder a'i hynawsedd gwastadol yn ennill cydymdeimlad, a darfu i'w ddiysgogrwydd tawel a duwiolfrydig yn ei ddiwedd gyffroi edmygedd ei oloeswyr.

RIENZI. Gwel RHUFAIN.

RIMMON: dinas yn nhiriogaeth llwyth Zabulon, yr hon a berthynai i'r Lefiaid Meraraidd: 1 *Cron.* vi. 77. Y mae cryn wahaniaeth i'w ganfod yn y rhestr lle y digwydd ei henw, wrth ei chyferbynu â'r rhestr gyfochrog yn *Ios.* xxi. Y mae y flaenaf yn cynnwys dau, yn lle pedwar o'r lleoedd a enwir yn y diweddaf, ac nid oes un o honynt yr un a'u gilydd. Nid ydyw yn beth ammhossibl nad oedd Dimnah (*Ios.* xxi. 35) wedi bod yn cael ei galw yn Rimmon, gan fod yn hawdd cymmeryd y *D* a'r *R* yn yr Hebraeg y naill yn lle y llall. O leiaf nid oes genym le i dybied mai yr un oedd Rimmon a Rimmon Zabulon (*Ios.* xix. 13), a elwir yn y Beibl Cymraeg "Rimmon-methoar."

RIMMON: tref yn y rhan ddeheuol o diriogaeth Iudah (*Ios.* xv. 32), a drefnwyd i Simeon: *Ios.* xix. 17; 1 *Cron.* iv. 32. Yn y ddwy restr uchod, y mae yn dilyn enw Ain, yr hon hefyd oedd un o ddinasoedd Iudah a Simeon. Yn rhestr y lleoedd a adfeddiannwyd gan yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o Babilon (*Neh.* xi. 29), y mae y ddau le yn cael eu huno dan yr enw En-Rimmon. Nid oes dim o olion Rimmon wedi eu darganfod hyd yma yn neheubarth Palestina. Y mae yn wir fod y lle yn cael ei grybwyll yn yr "*Onomasticon,*" gan Eusebius a Jerome; ond y maent hwy yn ei lleoli ryw bymtheng milldir i'r gogledd o Ierusalem, ac y mae yn amlwg eu bod yn ei gwneyd yr un a chraig Rimmon. Ei bod yn y deheu, sydd amlwg oddi wrth *Zech.* xiv. 10, lle y dywedir ei bod "o'r tu deheu i Ierusalem," a lle yr enwir hi a Geba (terfyn gogleddol y deyrnas ddeheuol) fel terfynau y cyfnewidiad oedd i gymmeryd lle yn agwedd y wlad.

RIMMON (רִמּוֹן: Ῥεμμάν: *Remmon*): duw a addolid gan Syriaid Damascus, lle yr oedd teml neu dŷ i Rimmon wedi ei adeiladu: 2 *Bren.* v. 18. Fe allai fod rhyw weddillion o'r gair i'w cael yn yr enw Hadad-rimmon neu Tabrimmon; ond y mae yn ammheus beth ydyw ei ystyr. Serarius a dybiai ei fod yn deilliaw o'r gair Hebraeg *rimmon,* neu pomgranad—ffrwyth oedd yn cael ei gyssegru i Gwener, ac mai y duw hwnw a addolid o dan yr enw hwnw. Movers a dybia mai talfyriad ydyw *Rimmon* o *Hadad-Rimmon* (fel y mae *Peor* o *Baal-peor*)—mai Hadad oedd haul dduw y Syriaid. Selden, Rosenmüller, Le Clerc, Vitringa, ac ereill, a dybiant ei fod yn tarddu o'r gair *ramam*=y dyrchafedig; ac os felly, y mae yn ddiammheu ei fod yn enw a gymmhwysid at yr haul, neu yn hytrach at ryw eilun oedd yn cynnrychioli yr haul. Nid yw yn bossibl penderfynu rhwng y gwahanol opiniynau sydd wedi eu dadgan. Nid ydyw yr enw yn digwydd ond unwaith, ac nid oes fodd i benderfynu y cwestiwn yn ei gylch; er, fe allai mai y diweddaf a nodwyd (a gymmeradwyir gan Selden, Gesenius, &c.) sydd debycaf o fod yn gywir.

RIMMON, CRAIG: ydoedd graig neu fryn creigiog, ac yn amddiffynfa gref. Yno y darfu i chwe chant o'r Beniaminiaid a ddiangasant rhag

Digitized by Google

y gyflafan yn Gibeah gymmeryd noddfa, ac yr amddiffynasant eu hunain am bedwar mis, nes y rhyddhawyd hwynt drwy i'r holl lwythau benderfynu eu rhyddhau, a chyhoeddi heddwch iddynt. Dywedir fod y Rimmon hon yn yr anialwch; hyny yw, yn y dosbarth anniwylliedig o'r wlad a orweddai ar du y dwyrain i ucheldir canolbarth Beniamin, lle yr oedd Gibeah yn sefyll, rhwng yr ucheldir ac afon yr Iorddonen. Y mae yr enw i'w gael yn awr ar bentref wedi ei adeiladu ar ben bryn pigfain o farm (*chalk*) sydd i'w ganfod o bob cyfeiriad.—Robinson's "*Biblical Researches.*" Y mae y bryn yn serth a noethlwm. Ar du y deheu y mae yn ymgodi i amryw gannoedd o droedfeddi oddi ar gornant mawr y *Wady Mutyâh*, ac ar yr ochr ogleddol y mae yn ymgodi oddi wrth ddyffryn isel. O ran ei sefyllfa, y mae yn gorwedd, mewn cyfeiriad uniongyth, tua thair milldir o Bethel, a saith o Gibeah. Y mae y fan yma, o ran enw, cymmeriad, a sefyllfa, yn cyttuno â'r hyn a ddywedir am "Graig Rimmon."

RIMMON-PARES: un o wersyllfaoedd cenedl Israel yn yr anialwch: *Num.* xxxiii. 19, 20. O ran ei sefyllfa gorweddai y lle hwn rhwng Rithmah a Libnah. Nid oes un man yn adnabyddus yn awr y gellir bod yn sicr mai efe oedd Rimmon-Pares.

RINNAH: un o feibion Simon a gofnodir yn y rhestr o achau disgynyddion Iudah a geir yn 1 *Cron.* iv. 20. Yn y Deg a Thrigain a'r *Vulgate*, gelwir ef yn "fab Haman."

RIPHATH (ריפת: Ῥιφάθ: *meddyginiaeth*): ail fab Gomer, a brawd i Ascenas a Thogarmah: *Gen.* x. 3. Yn y testyn Hebraeg, yn 1 *Cron.* i. 6, y ffurf *Diphath* a roddir i'r gair. Nid ydyw yr enw Riphath yn digwydd ond yn unig yn nhaflen yr achau: o ganlyniad nid oes genym ond ychydig i'n harwain at y gymmydogaeth y mae yn cyfeirio ati. Y mae yr enw ei hun wedi cael ei gyssylltu â gwahanol fanau gan wahanol bersonau, megys y mynyddoedd Rhipæanaidd; yr afon Rhebas yn Bithynia; y Rhibii, pobl oedd yn preswylio ar yr ochr ddwyreiniol o'r Môr Caspiaidd; a'r Ripheaid, hen enw y Paphlagoniaid. Y mae y golygiad diweddaf, yr hwn a fabwysiadwyd gan Josephus, yn cael ei gadarnhau i ryw raddau yn ddiau gan agosrwydd Ascenas a Thogarmah. Ond fe allai fod mwy i'w ddyweyd mai poblogi y Mynyddoedd Rhipæanaidd oeddynt; y rhai, fel y tybia Knöbel, oeddynt y gadwen o fynyddoedd Carpathiaidd yn ngogledd orllewin Dacia. Y mae ymgais Knöbel i brofi mai yr un oedd y Riphath a'r Celtiaid neu y Gauliaid, fodd bynag, wedi ei seilio ar y dybiaeth na buasai cenedl mor bwysig yn cael ei gadael allan o'r daflen, ac nad oes un enw arall i'w gymmhwyso atynt; ond nid oes genym un prawf sicr i'r Gauliaid fod yn preswylio yn nghymmydogaeth y Mynyddoedd Carpathaidd.

RISPAH: gordderchwraig Saul, brenin Israel, a mam ei ddau fab, Armoni a Mephiboseth. Fel llawer ereill o'r benywod mwyaf nodedig y sonir am danynt yn yr Hen Destament—Ruth, Rahab, Iezebel, &c.,—ymddengys mai nid Iuddewes oedd Rispah, ond Hefiad o genedl, a'i bod wedi disgyn o un o hynafiaid enwog y genedl hono; sef Aiah, mab Sibeon, enw yr hwn sydd yn rhestr yr Ismaeliaid yn *Gen.* xxxvi. Ymddengys fod Saul drwy hyn wedi dechreu arferiad y darfu i'w olynwyr ar yr orsedd yn Israel ac Iudah ei efelychu ynddo; sef, dewis merched tramorol yn ordderchwragedd. Ar ol marwolaeth Saul, ac i'r wlad o'r tu hwnt i'r Iorddonen gael ei meddiannu gan y Philistiaid, aeth Rispah gyda'r gweddill o'r teulu brenhinol i'w cartref newydd yn Mahanaim; ac yma y crybwyllir ei henw gyntaf mewn cyssylltiad â chyhuddiad a wnaed yn erbyn Abner gan Isboseth (2 *Sam.* iii. 7), yr hyn a arweiniodd yn gyntaf i farwolaeth Ioab trwy fradwriaeth, ac yn y diwedd i lofruddiad Isboseth. Yr oedd y cyhuddiad, pa un bynag ai gwir ai anwir ydoedd—a gellid casglu yn naturiol oddi wrth fod Abner yn ei wadu nad oedd gwirionedd ynddo—yn cynnwys mwy nag sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf; yn gymmaint a bod y weithred y cyhuddid Abner o honi mewn cyssylltiad â Rispah, gan ei bod yn weddw y brenin, yn cael ei hystyried yn awgrym fod Abner yn ymawyddu am gael yr orsedd.

Nid ydym yn clywed dim mwy am Rispah nes y digwyddodd yr amgylchiad trychinebus yn 2 *Sam.* xxi. 8—11, yr hwn a'i gwnaeth yn un o'r personau hyny yn y Beibl sydd wedi tynu sylw hen ac ieuange. Y mae pawb yn gwerthfawrogi ac yn edmygu cariad a goddefgarwch y fam a wyliodd dros gyrph ei dau fab, a phump o'i cheraint, i'w gwaredu rhag ammharch ac anfri a achosai boen dirfawr i'r hynafiaid: *Salm* lxxix. 2. Nid eu "crogi" a gafodd y saith hyn, dybygir; yr hwn yw y gair a ddefnyddir yn y cyfieithiad Cymraeg; ond eu croeshoelio. Gosodwyd y saith groesbren ar fryn cyssegredig Gibeah; yr hwn, er nad lle genedigol Saul ydoedd, a elwid, o herwydd iddo fod ei breswylfod am dymmor maith, ar ei enw ef ar ol hyn: 1 *Sam.* xi. 4. Ymddengys fod cyfran, os nad yr oll o'r bryn hwn, pan y digwyddodd hyn, wedi ei gyflwyno mewn rhyw fodd yn gyssegredig i'r Arglwydd. Fe allai mai dyma y llanerch y rhoddodd Abiah, yr offeiriad, yr arch pan y cafodd nodded yn Gibeah, yn ystod y rhyfel Philistaidd: 1 *Sam.* xiv. 18. Rhoddwyd hwynt i farwolaeth yn nechreu cynhauaf yr haidd, a buont yn hongian ar y coed yn ngwres haul yr haf nes y disgynodd y gwlaw cyfnodol yn yr hydref. Am yr holl ysbaid yma o amser arosodd Rispah wrth y croesbrenau hyn, ar y rhai yr oedd cyrph ei dau fab a'i cheraint yn hongian. Nid oedd ganddi babell i ymlochesu ynddi rhag tywyniadau poeth yr haul a ddisgynai y dydd, neu y gwlith oer a ddisgynai y nos; ond taenai sachlian ddu ar y llawr creigiog, yr hon a wisgid ganddi fel gweddw; a chan ymgysgodi dani, gwyliai na chaffai fwlturod na gwylltfilod ymosod ar y cyrph.

RISSAH. Y mae yr enw yr un a gair sydd yn arwyddo 'pryf,' ac yn un o'r manau y gwersyllodd Israel ynddynt yn yr anialwch: *Num.* xxxiii. 22, 23. Gorweddai rhwng Libnah a Cehelathah; ac y mae llawer yn ei ystyried yr un a Resa. Nid ydys, fodd bynag, wedi cael allan y fan hyd yma.

RITHMAH. Enw ar un o'r manau y gwersyllai Israel ynddynt yn yr anialwch: *Num.* xxxiii. 18, 19. Y mae yn cael ei enwi yn nesaf i Haseroth; a gorweddai, dybygid, mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol o'r llanerch hono: ond nid ydyw y lle yn hysbys yn bresennol.

Digitized by Google

ROBERTS, EDWARD (*Iorwerth Glan Aled*): mab oedd y bardd athrylithgar hwn i'r Parch. Peter Roberts, gweinidog gyda'r Trefnyddion Calvinaidd, a'r ieuangaf o naw o blant. Ganwyd ef ar y 5ed o Ionawr, 1819, yn Llansannan. Cafodd ei adael yn amddifad o dad a mam pan yn ddeng mlwydd oed, canys bu farw ei dad Ebrill 23ain, 1829, ac yn y Gorphenaf canlynol bu farw ei fam hefyd. Cafodd gwrthddrych y cofiant hwn, pa fodd bynag, addysg dda, gan fod ei dad, cyn ei ymadawiad, yn ei lythyr cymmun, wedi trefnu ar gyfer hyny. Ac am ei fod yn fachgen o ddeall cryf a chyflymder meddyliol, ni bu yn ol o dderbyn ei addysg. Pan yn bymtheng mlwydd oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda Mr. Miller, *draper*, Abergele; a bu gyda'r gŵr hwnw am dair blynedd, sef hyd nes y rhoddodd ei fasnach heibio. Yna symmudodd yntau at ei frawd-yn-nghyfraith, sef y Parch. John Foulkes, yr hwn oedd ar y pryd yn fasnachwr yn Abergele, a bu gydag ef am tua blwyddyn. Yr oedd yn ddyn ieuangc ymofyngar am wybodaeth: darllenai a myfyriai lawer, a chynnyddai yn gyflym mewn gwybodaeth a deall. Pan yn bedwar ar bymtheg oed, cyhoeddodd lyfryn bychan a elwid "*Dyddanion*," yn cynnwys casgliad o fân hanesion difyr ac adeiladol. Tua'r pryd hwn, teimlai awydd cryf am fyned i goleg y Methodistiaid, yn y Bala; a thrwy garedigrwydd cyfarfod misol sir Ddinbych, cafodd ei ddymuniad. Bu yn y coleg am o ddwy i dair blynedd, a gwnaeth ddefnydd da o'i amser yno i ymberffeithio mewn dysg a gwybodaeth. Wedi ymadael â'r coleg, a phan yn 22ain oed, priododd gyda Miss Jones, Plas Isaf, Llansannan. Cychwynodd fasnach yn Rhuddlan, ond symmudodd yn fuan oddi yno i Ddinbych. Yr oedd y pryd hwnw yn awyddus am fyned i'r weinidogaeth gyda'r Methodistiaid; ond ar ol ei symmudiad o Ruddlan, ymunodd gyda'r Bedyddwyr. Dechreuodd bregethu yn fuan, a dewiswyd ef yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Ninbych, yr hon a ddigwyddai fod ar y pryd yn amddifad o weinidog. Cymmerodd gwasanaeth yr urddiad le Medi 29ain, 1842. Nid hir iawn y bu yn gweinidogaethu yno, na symmudodd i Liverpool, ac oddi yno drachefn i Rhymni. Ni a'i cawn ef wedi hyny yn cadw masnachdy yn y Rhyl; ac ymddengys iddo fod yn llwyddiannus yn ei fasnach, o leiaf am dymmor; ond wedi i rai blynyddoedd fyned heibio, bu farw ei briod. Effeithiodd marwolaeth ei briod yn fawr ar feddwl Iorwerth, er ei bruddhau; ac nid hir y bu heb symmud i Lansannan, lle y bu yn aros gyda Mr. Morris, masnachwr. Ni bu yn ddiwaith yn ystod yr amser y bu yma; ond cyfansoddodd amryw o ddarnau barddonol. Yn nechreu haf y flwyddyn 1866, priododd Iorwerth yr ail waith, gyda Miss Ann Jones (*Eos Aled*), yr hon a fu yn dyner a gofalus iawn o hono yn ystod ei waeledd maith. Am naw mis y bu yn briod yr ail waith, ac am chwech o'r naw bu yn afiach. Bu farw y bardd a'r darlithydd enwog ac athrylithgar hwn ar y 18fed o Chwefror, 1867, yn y Rhyl, heb fod ond ychydig uwch law ei wyth mlwydd a deugain oed. Ar ei ddymuniad ei hun, claddwyd ef yn mynwent Llansannan.

Cyfansoddodd Iorwerth Glan Aled lawer mewn rhyddiaeth a barddoniaeth; ac, yn mhlith pethau ereill, gellir nodi y rhai canlynol:—"*Y Dyddanion;*" "*Anfarwoldeb;*" "*Palestina;*" "*Adgyfodiad Crist;*" "*Y Messiah,*" ail yn Eisteddfod Dinbych; "*Y Blodeuos;*" "*Ysbrydion Anian;*" "*Yr Eos;*" "*Y Llinos;*" a'r "*Ehedydd;*" "*Cerdd Allwyn;*" "*Y Llenor Diwylliedig,*" &c. Y mae naturioldeb, tlysni, a thynerwch neillduol i'w canfod yn nodweddu ei weithiau barddonol.

Cyrhaeddodd enwogrwydd mawr hefyd fel darlithydd. Darlithiodd lawer yn ei ddydd, a chydnabyddid yn gyffredin ei fod yn rhagori ar yr esgynlawr. Darlithiai yn benaf ar y testynau a ganlyn:—Y Golosgiad Cyffredinol; Mormoniaeth; Rhyfeddodau Natur a Chelfyddyd; Beirdd a Barddoniaeth; Addysg; Yr Ysgolhaig; Dyn; Yr Adgyfodiad; a Seryddiaeth a Christionogaeth. Heb law hyn hefyd, ysgrifenodd gryn lawer i gyfnodolion a newyddiaduron y dydd, ar wahanol byngciau yn dal perthynas â llenyddiaeth gyffredinol.

ROBERTS, JOHN, o Lanbrynmair. Crynodeb o brif amgylchiadau ei fywyd, a ysgrifenwyd ganddo ei hun, ar ddymuniad rhai o'i gyfeillion, ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, sydd fel y canlyn:—

"Ganwyd fi Chwefror 25ain, 1767, yn Bronllan, Mochdref, Maldwyn. Nid wyf yn gwybod am neb o'm hynafiaid fuont yn enwog iawn o ran eu sefyllfa yn y byd, nac am neb o honynt fuont yn isel iawn o ran eu hamgylchiadau: ond yr wyf yn credu fod llawer o honynt yn wir grefyddol; a'u bod yn awr mewn 'gwlad well:' ac yr wyf yn hyderus fod genyf amryw berthynasau anwyl ar eu taith tuag yno; ac yr wyf yn ei chyfrif yn fil mwy braint cael perthynu i'r gwaelaf o deulu y ffydd nag i'r uchaf o enwogion y ddaear. Bu gan fy rhieni, Evan a Mary Roberts, ddeuddeg o blant. Bu pump o honynt feirw yn eu babandod; hunodd dau yn yr Iesu pan o gylch deg ar hugain oed; y mae y pump ereill, yn ghyd â'n dwy chwaer o'n llysfam, etto yn fyw. Yr oedd fy rhieni yn aelodau o'r eglwys gynnulleidfaol yn Llanbrynmair, mewn cymdeithas yn benaf â'r gangen o honi oedd yn cyfarfod yn Aberhafesp. Bu fy nhad yn aelod eglwysig am ddeng mlynedd a thrigain, sef o amser ei dderbyniad yn bymtheg oed hyd ei farwolaeth, yn chwech a phedwar ugain. Yr oedd fy rhieni yn ofalus iawn i faethu eu plant yn ofn yr Arglwydd, ac ni bu eu pryder a'u hymdrech yn ofer. Cefais y fraint un noson, pan yn bedair oed, o gysgu gyda'm mam. Gydag i ni orwedd yn y gwely, treuliwyd ganddi beth amser i ddysgu ac esbonio i mi Weddi yr Arglwydd. Gofynais iddi, a oedd raid i mi farw? Atebodd, fod pawb i farw, a'm bod innau i farw; ond fod genyf enaid i fyw byth: ac wrth geisio gwasgu ar fy meddwl fy mod i 'fyw byth,' torodd allan i wylo, ac ymollyngais innau i wylo; a gwnaed argraph y pryd hyny ar fy meddwl nad ellir byth ei ddileu. Cofiwn yn fynych, ar ol hyn, pan yn nghanol difyrwch fy mebyd, fod genyf 'enaid i fyw byth;' a byddai pob adgofion o'r tro hwnw yn trymhau yr argraph ar fy nghalon, ac yn peri i mi wylo llawer. Gallai mamau etto fod o fythol les i'w plant bychain, wrth wasgu yn foreu ar eu meddyliau eu bod i fyw byth. Pan oeddwn o gylch un ar ddeg oed, bu farw fy mam, a pharodd hyny i mi feddwl mwy nag erioed am angeu, a byd tragywyddol. Ar ol hyn, cefais y fraint o gysgu gyda'm tad; yr hyn a fu o fendith neillduol i mi, am ei fod drwy hyny yn cael mynychach hamdden i'm hyfforddi yn y pethau a berthynent i'm 'byw byth.' Yr oeddwn, pan weithiau yn glaf a gwan yn y gwely, yn cael hyfrydwch nas medraf ei ddarlunio wrth glywed fy nhad yn darllen a gweddïo yn y teulu, ac wrth fyfyrio ar gariad y Gwaredwr yn marw dros bechadur; a melus iawn genyf heddyw ydyw yr adfeddwl am ddwysder y cynghorion a roddwyd i mi gan fy rhieni drigain mlynedd yn ol.

Digitized by Google

Pan yn ddwy ar bymtheg oed, aethum i fyw at geraint i mi yn Ngallt y ffynnon, Aberhafesp; eithr ni chefais yno ond ychydig o freintiau crefyddol. Denwyd fi i gymdeithasu â dynion ieuaingc nad oeddynt yn ofni Duw, ac o radd i radd i hoffi eu cyfeillach, ac i ddysgu eu ffyrdd; ac er i mi gael fy nghadw rhag pechodau rhyfygus, ymollyngais i gryn ddideimladrwydd am achos fy enaid. Wedi treulio dwy flynedd yn y sefyllfa yma, darfu i'r Arglwydd, yn ei fawr diriondeb, drefnu fy symmudiad i Lanbrynmair, lle yr oedd fy chwaer hynaf yn byw. Yr oedd yn chwaer nodedig o ran gwres ei chrefydd, a thynerwch ei gofal am ei brodyr a'i chwiorydd ieuangaf. Parotodd le i mi at fy ngalwedigaeth; a denodd fi i'r cymdeithasau crefyddol, lle y cefais lawer o adeiladaeth a chysur.

Ar y 29ain o Hydref, 1786, ymunais â'r eglwys gynnulleidfaol yn Llanbrynmair, ag oedd y pryd hyny dan ofal gweinidogaethol y Parchedig Richard Tibbot; a gwnaethum hyny dan deimladau a syniadau lled anarferol. Nid oeddwn yn gallu credu fy mod wedi cael gras; ond yr oeddwn yn gwybod mai fy nyledswydd oedd ufuddhau i orchymynion Iesu Grist, ac mai un o'i orchymynion egluraf oedd, 'Gwnewch hyn er coffa am danaf.' Yr oeddwn yn credu mai fy nyledswydd oedd ufuddhau i'r fath orchymyn pwysig, ac na ddigiai ef wrthyf am wneyd yr hyn a geisiai genyf. Dechreuais yn fuan i fawr ymhyfrydu yn ngwaith yr Arglwydd; a chefais brawf fod ffyrdd doethineb yn ffyrdd hyfrydwch, a bod ei holl lwybrau hi yn llwybrau heddwch. Llawenychwn wrth feddwl y cawn wneuthur yr eglwys yn gartref i mi i drigo ynddi byth.

Yr oeddwn yn teimlo y pryd hyny awydd cryf i fod o ryw ddefnydd gyda chrefydd; ac nid oedd dim yn fwy o hyfrydwch i mi na chael cyfle i ryddymddiddan â'm cydieuengctyd am eu pethau tragywyddol. Yr oeddwn yn gwasanaethu mewn teulu digrefydd; ond wrth fy mod yn ymdrechu i ryngu bodd fy meistr, rhoddodd gryn ymddiried ynof, ac ymddygodd tuag ataf gyda llawer o diriondeb. Pan geisiwyd genyf weddio yn y teulu, ni feiddiwn wrthod cydsynio, er fy mod yn hynod o wangalon, dan deimlad o fyrdra fy nawn. Yr oedd dau deulu oeddynt yn byw yn ymyl, yn dyfod atom yn rheolaidd i'n hwyrol addoliad; a chafwyd lle i gredu i'r Arglwydd fendithio yr ymarferiadau hyny i fod o fythol les i rai oedd yn eu mwynhau. Treuliais bron bedair blynedd yn gysurus iawn yn y teulu hwnw, yn mwynhau mewn llawenydd lawer o gymdeithas gyda'r Arglwydd, a chyda'i bobl.

Ar ol fy nerbyniad i'r eglwys, yr oedd rhyw feddyliau am waith y weinidogaeth yn fy nilyn bron yn feunyddiol. Ymbiliwn yn fynych am gael gwarediad oddi wrthynt, am fy mod yn ofni nad oeddynt ond cynnhyrfiadau y gelyn yn codi oddi ar lygredd calon. Wedi bod am bron dair blynedd yn y cyflwr yma, heb agor fy meddwl i neb, cyfarfu hen ŵr profiadol fi, Awst 18fed, 1789, a dywedodd, 'Yr wyf wedi hir ddymuno cael eich gweled, er gofyn i chwi, a ydych erioed wedi meddwl am y weinidogaeth?' Parodd ei ofyniad y syndod mwyaf i mi; ac wedi cydnabod fod meddyliau felly wedi peri i mi anesmwythder, dywedais nad oeddwn wedi gallu credu am funyd i'r Arglwydd fy mwriadu i fod yn weinidog yr efengyl. Attebodd yntau, 'Y mae yr Arglwydd wedi bwriadu rhywrai i ymroddi i'r weinidogaeth; ac nid ellwch fod yn sicr nad yw wedi eich bwriadu chwi; a dylai y peth gael ei ddwys ystyried genych.' Ar hyn, aeth fy meddwl yn anesmwythach nag o'r blaen; ac yr oeddwn yn feiadwy awyddus i gael gwybod ar unwaith, pa un ai ewyllys yr Arglwydd oedd i mi gynnyg pregethu ai peidio. Ymgynghorais â'm gweinidog parchedig, ac â chyfeillion duwiol ereill, gan feddwl y gallent hwy yn hawdd derfynu y ddadl yn fy meddwl. Er fod hyn yn ormod i mi ei ddisgwyl, ymddygasant tuag ataf gyda llawer o garedigrwydd; a dywedodd Mr. Tibbot wrthyf, 'y gallai fod yr Arglwydd yn fy ngadael am dro mewn ammheuaeth er profi fy ffydd, a'm gwneuthur yn fwy taer mewn gweddi am ei gyfarwyddyd; ond os gwnawn ei gywir gydnabod ef yn fy holl ffyrdd, y byddai yn sicr o fy nhywys ar hyd y ffordd union.' Ar ol hyn, dechreuais ymddiddan gyda mwy o ryddid yn ein cymdeithasau crefyddol, a chefais radd o hyfrydwch—ond nid cymmaint ag i'm boddloni fod yr Arglwydd am i mi fod yn bregethwr. Ar brydnawn Sabbath, Ionawr 21ain, 1790, cynnygiais, am y tro cyntaf, yn y Tŷ brith, Manafon, oddi wrth *Phil.* iii. 9; 'Ac y'm cair ynddo ef:' ac yn yr hwyr, yn Penarth, oddi wrth *Ioan* i. 29; 'Wele Oen Duw.' Ni chefais fy ngadael yn hollol ddi-ddiddanwch, ond er hyny yr oeddwn mewn cymmaint o ammheuaeth ag erioed.

Yr oedd athrofa Gogledd Cymru y pryd hyny yn Nghroesoswallt, dan ofal y Dr. Edward Williams; ac yn Mawrth, 1790, ar annogaeth fy nghyfeillion, aethum i'r athrofa, ar fy nhraul fy hun, ac arosais yno hyd y Sulgwyn, i geisio dysgu Lladin. Ymddygodd Dr. Williams, a'i barchus gydathraw, Maurice Phillips, tuag ataf gyda'r hynawsedd mwyaf; ond er y cyfan, yr oedd fy meddwl yn hynod o isel—yn edifarhau am roddi heibio fy ngalwedigaeth; am fy mod yn barnu y gallaswn fod yn fwy defnyddiol a dedwydd yn y sefyllfa hono nag mewn cylch mwy cyhoeddus. Treuliais ŵyliau y Sulgwyn yn Llanuwchllyn, dan addysg y Parch. Abraham Tibbot, lle y teimlais braidd fwy o rwyddineb i ddysgu. Symmudais oddi yno yn niwedd Gorphenaf i Bwllheli, dan addysg fy hoff gyfaill, y Parch. Benjamin Jones; ac arosais yno hyd y Nadolig; ac ymroddais i ddysgu gyda chryn lawer o hyfrydwch, o blegid yr oeddwn yn cael y caredigrwydd tirionaf oddi wrth Mr. Jones a'i gyfeillion. Yn Ionawr, 1791, dan nâwdd Bwrdd Gweinidogion Cynnulleidfaol Llundain, dychwelais i'r athrofa mewn gwell ysbrydoedd na phan yn gadael, a threuliais y flwyddyn yno yn y modd mwyaf hyfryd a dedwydd. Yn nechreu 1792, rhoddodd Dr. Williams ei swydd i fyny fel blaenor yr athrofa, a symmudodd i Birmingham. Parodd hyn i mi ofid dwys, am fy mod yn ei garu a'i barchu yn fwy na neb a adnabum erioed. Symmudwyd yr athrofa i Wrecsam, dan ofal yr hawddgar Barchedig Jenkin Lewis. Treuliais dair blynedd gydag ef yn ddedwydd iawn. Yr oedd ei ddiwydrwydd a'i diriondeb yn ennill serch ei holl adnabyddwyr. Naw mis cyn gorphen fy amser yn yr athrofa, derbyniais wahoddiad o Lanbrynmair i lafurio yn eu mysg fel cynnorthwywr i'r hybarch Richard Tibbot. Yr oedd yn hyfrydwch i mi feddwl am ddychwelyd i ardal lle yr oeddwn wedi cael cymmaint o hyfrydwch yn ffyrdd a gwaith yr Arglwydd; ac ar ol ymgynghori â chyfeillion, a cheisio cyfarwyddyd oddi uchod, ysgrifenais fy mod yn bwriadu cydsynio â'r gwahoddiad. Ac ar derfyn fy amser yn y coleg, gadewais Wrecsam, Rhagfyr 23ain, 1794; ac ar ol treulio rhai dyddiau dedwydd iawn gyda Dr. Williams yn Birmingham, dychwelais i Lanbrynmair erbyn y Sabbath cyntaf yn 1795. Fy nhestyn y boreu oedd 1 *Cor.* ii. 2, a'r prydnawn 2 *Thes.* iii. 1. Cefais fy urddo Awst 25ain, 1796—y gyn-araeth gan Mr. Griffiths, Caernarfon; y gofyniadau gan Dr. G. Lewis; y weddi gan Mr. R. Tibbot; y cynghor i mi gan fy athraw, Mr. J. Lewis; a'r bregeth i'r gynnulleidfa gan Mr. Jones, Pwllheli. Mwynheais lawer o gysuron gwasanaeth y cyssegr tra yn cydweinidogaethu â Mr. Tibbot; ac wedi iddo ef wasanaethu ei genhedlaeth am drigain mlynedd, gorphenodd ei yrfa ddefnyddiol mewn tangnefedd, ar ddydd yr Arglwydd, Mawrth 18fed, 1798, yn bedwar ugain mlwydd oed. Ar yr ail o Fehefin, cefais alwad yr eglwys i gymmeryd ei gofal fel gweinidog, ac ar y pedwerydd o Awst amlygais fy nghydsyniad; a phregethais drachefn oddi ar 1 *Cor.* ii. 2; 'Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Ac wedi cael help gan Dduw, yr wyf yn parhau hyd y dydd hwn, gan hyderu mai fy nymuniad blaenaf yw, cael

Digitized by Google

tystiolaeth i fychan a mawr iachawdwriaeth ogoneddus ein Harglwydd Iesu Grist.

Y mae genyf lawer o achosion i fod yn ddiolchgar, ac yn arbenig i fendigo Duw am y cysuron teuluaidd a gawsom mor helaeth eu mwynhau. Rhydd i mi hyfrydwch i feddwl na ffurfiais erioed, gyda golwg ar briodi, unrhyw gyfeillach â neb, ond â'r un ag y mae genyf le i feddwl a amcanwyd i mi. Priodwyd ni Ionawr 17eg, 1797. Rhoddodd yr Arglwydd i ni bump o blant, a chawsom yr hyfrydwch o'u derbyn oll i gymdeithas yr eglwys, yr hynaf pan yn 19eg oed, a'r lleill pan yn 16eg; ac O! gobeithio y bydd i bob un o honynt gael nerth i ddal ei ffordd, fel y gallom sefyll yn ein rhan yn niwedd y dyddiau. Y mae fy nau fab hynaf wedi ymroddi, gobeithio mewn modd cywir, i weinidogaeth yr efengyl. Ni roddais ond ychydig iawn o annogaeth iddynt i ddechreu pregethu, o blegid gŵyr yr Hwn sy'n pwyso calonau fy mod yn ofni iddynt redeg i'r gwaith heb gael eu danfon ganddo ef; ond hyderaf eu bod wedi cael eu galluogi i ymddwyn hyd yma gyda gweddeidd-dra, a gobeithio y mwynhânt yn barhaus o nawdd a gwên yr Arglwydd; a'm dymuniad taer yw iddynt gael eu cadw yn ffyddlawn hyd eu bedd.

Yr hyn yr oeddwn yn ei ofnifwyaf wrth ddechreu fy ngweinidogaeth oedd, na fedrwn gael digon o amrywiaeth i'w bregethu i'r un bobl; ond darfu i'r Arglwydd yn ei ras fy nghynnorthwyo fel nad wyf yn cofio fy mod erioed heb destyn pan oedd ei eisieu. Yr esmwythder mwyaf i'm meddwl ynghylch hyn oedd yr ystyriaeth o gyflawnder diderfyn yr Ysgrythyrau. Yr oeddwn yn teimlo bob amser fod y Beibl yn cynnwys dyfnderoedd diwaelod, a goludoedd anchwiliadwy o ddoethineb a diddanwch; a bod yr Ysbryd Glân wedi ei addaw i'm tywys i bob gwirionedd; a'i fod ef yn abl fy nysgu i ddwyn allan bethau newydd a hen o drysorau y Gair. Cefais lawer o hyfrydwch yn fy oes wrth fyfyrio yn yr Ysgrythyrau, a hyfryd iawn genyf feddwl nad wyf etto ond wedi prin gwlychu gwadn y troed yn moroedd didrai y dwyfol wirionedd; ac y mae y gobaith o gael bod byth gyda dilynwyr yr Oen yn treiddio i ddyfnderoedd rhyfeddodau y prynedigaeth yn rhoddi i mi gynnaliaeth a gorfoledd ag sydd uwch law fy narluniad.

Yn fy ymchwiliadau am y gwirionedd, nid wyf yn ymwybodol fy mod yn rhagbleidiol i unrhyw gyfundrefn o athrawiaethau. Yr wyf yn dymuno dysgu yr hyn a ddadguddiodd Duw yn ei Air; ac ymollwng, fel y dywed Doddridge, i ffrwd bur yr Ysgrythyrau, heb arswyd iddynt fy nghludo i un lle peryglus. Yr wyf yn awr yn cael boddhâd mewn rhai pethau ag y bum unwaith yn teimlo dyryswch yn eu cylch. Yr wyf yn hiraethu am gael mwy o oleuni; ac yr wyf yn credu y bydd gweinidogion y Gair, pan gyflawner y prophwydoliaethau am ddisgleirdeb gwybodaeth y dyddiau diweddaf, yn llawer mwy medrus i esbonio pethau dyfnion yr efengyl nag ydys yn bresennol.

Yr ydym wedi bod ar y cyfan yn bur ddedwydd fel eglwys. Yr oedd arnaf ofnau ar y cyntaf rhag i ymrysonau anfuddiol gyfodi yn ein mysg i'n blino a'n llygru; ond trwy ras y nef, y mae cariad a chydweithrediad wedi parhau hyd yma. Er nad anrhydeddwyd ni â diwygiadau anghyffredinol, yr ydym wedi cynnyddu o flwyddyn i flwyddyn; ac nid llawer o Sabbothau cymmundeb aethant heibio heb chwanegiad at yr eglwys. Er ein bod yn lliosog, nid ydym mor liosog ag y gallesid disgwyl oddi wrth y rhif a dderbyniwyd. Nid oes yn awr ond pump yn fyw oeddynt yn aelodau pan dderbyniwyd fi yn 1786, nac ond ychydig yn fyw oeddynt yn aelodau pan ymsefydlais yma yn 1795.

Yr wyf wedi hebrwng llawer o honynt i lan yr afon, ac wedi cael yr hyfrydwch annhraethadwy o weled amryw o honynt yn tawel fuddugoliaethu ar 'frenin y dychryniadau;' ac y mae yr hyder o gael eu cyfarfod etto yn y baradwys hyfryd fry yn adfywio fy meddwl wrth ymdeithio yn yr anial.

Y mae nifer mawr o'n cyfeillion wedi ein gadael o bryd i bryd i sefydlu mewn manau ereill; ugeiniau yn yr Unol Daleithiau, America, lle y maent yn ddefnyddiol a dedwydd. Y mae yn gysur mawr i mi fod fy mab wedi dyfod yma i'm cynnorthwyo. Nid allaswn fod mor ddedwydd gyda neb ag ydwyf gydag ef. Y mae llafur parhaol yr Ysgolion Sabbothol wedi rhoddi i mi lawer o foddhâd a hyfrydwch. Yr ydym yn ddiweddar, heb law ail adeiladu yr addoldy, wedi codi chwech o adeiladau cryfion, er gwell cyfleusdra i'r ysgolion, a moddion achlysurol ereill; ac y mae yr ysgolion wedi bod am hir amser yn flodeuog a llwyddiannus. Er fod fy ngyrfa wedi profi gwirionedd gair Iesu—'yn y byd gorthrymder a gewch;' ond yn nghanol pob anhawsderau byddai yn dda genyf droi fy meddwl at ddwy adnod, ac ni fethais bron erioed a chael esmwythâd wrth eu hystyried, sef *Iob* xxii. 21; "Ymarfer attolwg âg ef; a bydd heddychlawn: o hyn y daw i ti ddaioni:" a *Diar.* iii. 6; "Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybrau."

Y mae mwy o brofion genyf o'm bod yn ddefnyddiol i bersonau neillduol drwy ymddiddanion na thrwy fy ngweinidogaeth gyhoeddus. Yr wyf yn hiraethu fwy-fwy am y fraint o wneuthur daioni yn y modd yma. Dymunwn fod bob amser yn barod i ymddiddan am grefydd, a bod yn daer mewn gweddi am i gyfleusderau i wneyd, neu i ddyweyd rhywbeth er iachawdwriaeth fy nghyd-anfarwolion. Y mae rhai yn awr ar y ffordd tua Seion yn tystio iddynt gael eu cychwyn drwy lythyrau a dderbyniasant oddi wrthyf. Yr wyf yn crybwyll hyn dan y gredininaeth a'r teimlad y gallai gweinidogion ac ereill gael cyfleusderau i ennill eneidiau drwy ymddiddanion a llythyrau, pe byddid yn ofalus i'w defnyddio."

Ar ol ysgrifenu yr adroddiad uchod, parhaodd Mr. Roberts i lafurio gyda'i serch cynnes arferol am flwyddyn; ac yr oedd yn eglur i bawb o'i amgylch ei fod yn mwynhau hyfrydwch cynnyddol yn ngwasanaeth ei Arglwydd: ond yn mis Mawrth, 1834, o herwydd poen yn ei ben a'i fynwes, dechreuodd wanychu. Yn Mehefin, aeth i'r Amwythig, er cael cynnorthwyon meddygol pellach. Tra yno gyda'i gyfeillion, yr oedd yn cael llawer o hyfrydwch wrth fyfyrio ar gyfaddasrwydd crefydd Crist i feithrin y cariad puraf; ac ar ol canu yn iach iddynt am y tro olaf ar y ddaear, crybwyllodd wrth ei fab, ag oedd gydag ef, fod y gobaith o gael gorphwys byth yn y nef gyda chymmanfa y rhai cyntafanedig, a chydag Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, yn rhoddi iddo y fath lawenydd gorfoleddus ag oedd yn ddigonol i gynnal ei feddwl dan y gwasgfeuon trymaf. Pan ar ei ffordd adref, treuliodd Sabbath, Mehefin 15fed, 1834, yn y Berriew. Arosodd yn y tŷ y boreu a'r prydnawn, a darllenodd ranau o hanes bywyd llafurus Rowland Hill. Yn niwedd oedfa yr hwyr, gweinyddodd Swper yr Arglwydd yn y modd mwyaf effeithiol.

Testynau y pregethau olaf a wrandawodd oeddynt, "Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw," a'r darluniad o'r adgyfodiad yn *Mat.* xxii. 29—33. Y tro olaf y bu yn yr addoldy oedd boreu Sabbath, Mehefin 29ain, 1834. Wrth ymadael, â llais bloesg gwan, rhoddodd allan y ddau bennill canlynol:—

"Mae'm dyddiau bron a darfod,
  Mae pen fy nhaith ger llaw;
Pan deithiwyf etto ychydig,
  Mi fydda'r ochr draw;
Mor wâg yw 'r byd presennol!
  Beth dâl pleserau 'r llawr!
O'm blaen mi wela'n agor
  Y tragwyddoldeb mawr!

Digitized by Google

Pan ddelo amser marw,
 A deued yn ei bryd,
Ffarwel i'r byd gaf roddi,
 A'i holl ofidiau i gyd:
I arall fyd y'm ganwyd,
 I arall fyd 'rwy'n myn'd,
'Dwy'n 'mofyn neb ond Iesu
 Wrth fyn'd oddi yma'n ffrynd."

Ceisiodd y gynnulleidfa eu canu. Yr oedd yno lawenydd bron nefol mewn llawer mynwes, ond yr oedd y wylo yn fwy na'r canu.

Y Sabbath canlynol, gan ei fod yn rhy wan i adael ei ystafell, anfonodd ei gariad at yr eglwys, erfyniodd gael rhan yn eu gweddïau, tystiodd ei fod wedi cael llawer o addysg a hyfrydwch yn eu cymdeithas, ei fod yn ddiolchgar am yr holl arwyddion o'u hanwyldeb;—y byddai ei galon gyda hwy y boreu hwnw wrth fwrdd eu cymmundeb, a'i fod yn gobeithio cael eu cyfarfod hwy a'u plant cyn hir mewn gwlad well. Parhaodd mewn tangnefedd heddychol yr ychydig ddyddiau y bu byw ar ol hyny, â'i obaith ar Grist yn unig; a chyda therfyniad y Sabbath, Gorphenaf 20fed, 1834, diangodd ei ysbryd dedwydd i gadw Sabbath yn y deml fry. Y dydd Iau canlynol, daeth bron yr holl ardalwyr, a llaweroedd o'r plwyfydd cymmydogaethol, i'w angladd; a chafwyd anerchion dwys gan Morgan, Machynlleth; Griffiths, Tŷ Ddewi; a Williams, o'r Wern; a gweddïodd Jones, Dolgellau; Jones, Llanuwchllyn; a Davies, Drefnewydd. Pregethwyd ar yr achlysur gan ugeiniau o'i frodyr yn y weinidogaeth; a darfu i dros bedwar ugain o honynt, mewn cyfarfod yn Machynlleth yr wythnos ganlynol, gofnodi eu teimlad o barch i'w goffadwriaeth, a'u cydymdeimlad â'i deulu ac â'i eglwys. Y flwyddyn y bu farw ydoedd adeg yr egnïad mawr i ddileu dyledion yr addoldai; a chafodd y taliad olaf o'i ddengain punt ef ei wneyd ychydig oriau cyn ei farw. Deng niwrnod ar ol ei farwolaeth oedd y "dydd cyntaf o Awst," sef dydd rhyddhâd caethion Prydain. Yr oedd ei galon yn gorlenwi o lawenydd wrth feddwl fod amser eu gwaredigaeth mor agos; ac y byddai hyny yn gryfhâd i achos rhyddid, ac i gyflymu lledaeniad buddugoliaethau yr efengyl.

Ceir byr-olwg ar rai o nodweddau ei gymmeriad yn y llythyr canlynol a ysgrifenwyd at ei feibion gan y Parch. W. Williams, o'r Wern:—

"Anwyl Gyfeillion,

Un o'r pethau sydd yn rhoddi yr hyfrydwch penaf i'm meddwl ydyw, gweled plant pobl dduwiol yn dyfod i lenwi eu lle yn nhŷ yr Arglwydd. Y mae yn llawenydd mawr genyf eich bod chwi wedi eich dewis i le eich *parchedig dad.* Yr ydych yn cael dyfod i mewn i'w lafur ef, i gael medi o'r hyn a hauodd ef mewn dagrau a diwydrwydd. Mawr yw eich braint. Nid wyf yn gwybod am unrhyw gymmeriad ar y ddaear ag y dymunwn yn fwy ei efelychu na'r eiddo eich anwyl dad; a bydd yn llawenydd mawr gan laweroedd, heb law fi, i weled ychydig o hanes ei fywyd. Er mwyn fy mrodyr ieuaingc yn y weinidogaeth, ac ereill, nodaf rai o'r pethau hyny yn ei nodweddiad ag y byddai yn dda i ni eu hefelychu:—

1. Ei brif addurn oedd ei *dduwioldeb*—ofni pechu. Yr oedd yn gadael arogl sanctaidd ar ei ol yn mhob man lle yr elai, ac ar bob cyfeillach y byddai ynddi. Yr oedd cymmaint o nefolrwydd yn ei agweddau a'i ymddiddanion fel na bûm erioed yn ei gyfeillach heb deimlo mwy o awydd i fyw yn dduwiol. Yr oedd yn iechyd i enaid gyd-deithio âg ef; a meddyliais yn fynych mai gwyn eu byd y rhai oeddynt yn bwyta bara ar ei fwrdd, ac yn cael cydblygu wrth ei allor. Ni adnabum neb erioed mwy parod i gydnabod llaw yr Arglwydd yn mhob goruchwyliaeth nag ef, a mwy teimladwy o'i ymddibyniad beunyddiol ar Dduw.

2. Yr oedd yn disgleirio yn hynod o ran ei *ostyngeiddrwydd.* Ni welais neb erioed yn cythruddo llai yn wyneb celwyddau a chableddau anfoneddigaidd a chwerwon. Ni oddefai ei larieidd-dra iddo ddysgu y gelfyddyd o gablu; ond fel y wenynen, tynai fêl o'r llysieuyn chwerwaf. Yr oedd yr holl gyhuddiadau anghywir a daenwyd yn ei erbyn, a'r enwau o ddirmyg a roddwyd arno, yn ei wasgu yn nes at Dduw, ac i weddïo dros ei wrthwynebwyr. Mynych y clywais ef yn dywedyd, pan y cyfeirid at ei athrodwyr:—'Wel, os cyfarfyddwn yn y nefoedd, ni a ysgydwn ddwylaw yn garedig iawn, ac fe dry ein dadleuon i ryfeddu y gras a'n dygodd yno.'

3. Peth arall a lewyrchai yn rhagorol yn ei nodwedd oedd ei *awyddfryd i wneuthur lles i ereill.* Nid oedd, fel rhai, yn meddwl fod ei *holl* waith yn yr areithle; ond yn mhob tŷ, ac yn mhob cyfeillach, yr oedd yn chwilio am gyfleusderau i ddyweyd gair dros Grist er gwneuthur daioni. Cymmaint oedd ei ffyddlondeb yn hyn, fel yr oedd ar rai ofn ei gyfarfod ar y ffordd, am y gwyddent y dywedai yn ffyddlawn wrthynt am eu perygl, gan eu cymmhell i newid eu ffordd. Cydymdeimlai yn dyner iawn â rhai mewn adfyd. Cynghorai yn dirion y rhai fyddent mewn dyryswch. Erfyniai gymmhorth i'r gwan ei ffydd, a hyfforddiai bob *plentyn* y cai afael arno. Darfu i laweroedd o'r cyfryw wylo eu dagrau tyneraf pan y clywsant am ei farwolaeth. Y maent yn hiraethu ar ei ol, a diau y cofiant ei gynghorion tra byddont yn y byd. Nid ymadawai o dŷ heb adael rhyw addysg fuddiol ar ei ol yno; a byddai pawb yn y tŷ, ac yn enwedig y plant, am ei weled drachefn. Gwyddom am rai gweinidogion enwog a fuont o les mawr i'r cyhoedd, ond a esgeulusasant eu teuluoedd gartref; ond nid felly y bu Mr. Roberts. Gallesid ei anerch ef, a'r 'eglwys oedd yn ei dŷ.' Nid oedd na gwas na morwyn nad oedd yn teimlo gofal am eu heneidiau. Yr oedd ei deulu mor barod i ymddiddan am bregethau a phethau crefydd ag oeddynt i siarad am amgylchiadau y byd hwn, o blegid ei fod ef wedi eu harfer at hyny. Llawer gwas a morwyn gafodd achos i fendithio Duw iddynt erioed gael y fraint o ddyfod dan ei gronglwyd.

4. Yr oedd ei ofal yn fawr am achos Crist yn *gyffredinol.* Nid llawer, er dyddiau Paul, allasai ddyweyd yn fwy priodol—'Heb law y pethau sydd yn digwydd oddi allan, yr ymosod yr hwn sydd arnaf beunydd—*y gofal dros yr holl eglwysi.*' Os oedd efe yn anghymmedrol mewn dim, yn *hyn* yr oedd felly. Yr oedd ei bryderus ofal yn gwanhau ei natur, ac yn mynych effeithio ar ei iechyd. Yr oedd achos ei frodyr yn y weinidogaeth yn agos iawn at ei galon; ac yr oedd yn ei wneuthur fel ei achos ei hun. Yr wyf yn teimlo yn ddwys am ei golli; o blegid fy mod wedi colli un oedd yn gweddïo beunydd drosof fi a'm brodyr. Nid anghofiaf byth y cynghorion dwys a gwerthfawr a gefais ganddo; ac y mae yn drwm iawn genyf feddwl na chaf gynghor o'i enau byth mwyach.

5. Yr oedd bob amser yn *wyliadwrus* i ymddwyn yn ddoeth a gochelgar. Ychydig o weinidogion yn Nghymru, os neb, oedd yn fwy anwyl a pharchus gan eu heglwysi gartref, a chan eu brodyr yn gyffredinol. Yr oedd ei dduwioldeb, a'i ddoethineb, a'i ofal yn llawn wneuthur i fyny y diffyg oedd yn ei ddoniau.

6. Fel duwinydd, yr oedd o olygiadau cysson ac eglur ar y Beibl. Nid oedd yn rhwymo ei gred wrth unrhyw gyfundraeth ddynol—ond wrth Air Duw yn unig. Y mae dynion yn o gyffredin, fel y maent yn *heneiddio,* yn cau eu drysau yn erbyn pob peth newydd—yn erbyn pob gwelliant a diwygiad. Eu harwyddair yw, 'Hyn a gredais, a hyn a gredaf.' Nid oes braidd ddim yn fwy o rwystr ar ffordd

Digitized by Google

rhydd-redfa a chynnydd gwybodaeth na'r ysbryd dilafur yma; a dyma yr achos fod llawer o bregethwyr, ac ereill, yn myned mor ddiddefnydd yn eu henaint. Nid un felly oedd Mr. Roberts. Yr oedd yn ymdaith yn mlaen gyda'r oes; ac yr oedd yn un o'r rhai blaenaf ar ei rwn hyd ddiwedd ei yrfa. Dichon ei fod yn nechreuad ei dymmor yn un o'r rhai olaf—yn araf ac ofnus; ond yr oedd ei feddwl yn iraidd a bras yn ei *henaint*. Treuliodd gryn lawer o ddiwedd ei amser ar faes *dadleuaeth*. Nid oedd neb mwy annhebyg i fyned i'r maes hwnw nag ef, eithr cafodd ei *wthio* iddo. Fel dadleuwr, yr oedd yn deg a llednais. Yr oedd ei resymau yn eglur a grymus; ond yr oedd gwawdiaith, a chabledd, a thwyll is law ei foneddigeiddrwydd Cristionogol. Efe oedd un o'r rhai *cyntaf* a dorodd y garw yn erbyn gorlif Antinomiaeth yr oes, a dioddefodd erledigaeth nid bychan o herwydd hyny: bu yr ymosodiadau arno yn lliosog; ond y mae llu o olfyddin yn awr yn ei ddilyn a fedrant saethu at drwch y blewyn.

Buasai yn dda iawn genyf pe buasai rhywun yn cymmeryd mewn llaw y gorchwyl o roddi darluniad llawnach o'i gymmeriad nag y medraf fi wneyd, nid yn unig er gwneuthur cyfiawnder âg ef, ond er annogaeth i'm brodyr ieuaingc i yfed o'i ysbryd, ac i rodio yn ei lwybrau. *Duwioldeb*, a *diwydrwydd*, a *phwyll* ddarfu ei wneuthur ef mor ddefnyddiol ac mor gymmeradwy; a dyna y *prif* gymmhwysderau ddylai fod mewn golwg gan eglwys wrth alw dynion ieuaingc i waith pwysfawr y weinidogaeth. Heb y rhai hyn, ni bydd y cymmhwysderau ereill o ddim gwerth: ond gyda'r rhai hyn, gall ychydig wneyd y tro, ac atteb yn dda.

Gan ddymuno eich llwyddiant, a hyderu yr erys ol llafurus weinidogaeth eich duwiol dad am oesau hir yn Llanbrynmair.

Ydwyf, Anwyl gyfeillion,
Yr eiddoch,
1834. WILLIAM WILLIAMS."

Mewn pregeth oddi wrth 2 *Sam*. iii. 38; "Oni wyddoch chwi i dywysog, ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?" rhoddodd y Parch. James Griffiths, o Dŷ Ddewi, olwg lawn ar ei gymmeriad fel dyn, fel credadyn, fel cymmydog, fel pen teulu, fel gweinidog, fel ymresymydd, ac fel un "mawr" mewn gweddi. Sylwa fel y canlyn am ei ddefnyddioldeb fel ysgolfeistr:—"Yr oedd ysgol rydd dan ei olygiad drwy dymmor ei weinidogaeth; ac yr oedd ei fedrusrwydd a'i ffyddlondeb fel athraw, yn gystal a phethau ereill, yn nodedig o eglur. Yr oedd yn ddedwydd iawn ei fedrusrwydd i ddwyn plant cyndyn, aflywodraethus dan lywodraeth, heb fod yn greulawn wrthynt. Trwy diriondeb a chariad yr oedd am lywodraethu yn mhob man. Dranoeth dydd ei gladdedigaeth, dywedodd gŵr cyfrifol o'r gymmydogaeth am dano, y medrai wneyd mwy mewn pythefnos tuag at ddofi plentyn gwyllt nag a fedrai ei rieni yn fynych wneyd mewn blwyddyn. . Hawdd deall fod y fath lywodraeth yn cael ei chyssylltu â hyfforddiadau difrifol a chynghorion caredig. Felly, yr oedd yn cael cyfleusdra i ymwneyd â'i ardalwyr megys o'u babandod; gan eu dilyn yn ddyfal yn ei ymweliadau teuluaidd a'i weinidogaeth gyhoeddus, nes eu cael bron oll at y Gwaredwr: ac wedi hyny, meithrinai hwynt yn nhŷ Dduw mewn addfwynder a chariad, fel tad ei blant ei hun. Gellir dywedyd gyda golwg ar holl lafur ei fywyd, mai "gŵr mawr yn Israel" ydoedd. Attebai i esboniad Crist ar fod yn wir fawr—"Y mwyaf o honoch a fydd yn was i chwi."

Cyfeiria Dr. William Rees at ei ddefnyddioldeb yn yr iaith a ganlyn. Wedi sylwi fod y rhai a "gerddant ffordd Cain" yn felldith i'w hoes a'u hiliogaeth, crybwylla fod coffadwriaeth y rhai a rodiant "lwybrau ffydd Abraham" yn fendigedig; bod arogl eu henwau yn bêr yn ffroenau y byw, ac y bydd y cof am danynt fel "pwysi myrr" rhwng dwyfronau eu cyfeillion. Chwanega mai "un nodedig o'r nodwedd olaf oedd y Parch. John Roberts, 'tywysog a gŵr mawr yn Israel;' un o 'ffyddloniaid y tir,' ac o 'rai rhagorol y ddaear;' un o'r tri chyntaf 'yn mysg y cedyrn. Wedi bod yn y filwriaeth yn hir, ac 'ymdrechu ymdrech deg, cadwodd y ffydd, a gorphenodd ei yrfa,' â'i goron ar ei ben, a'i arfau yn loywon, a'i ddillad yn lân—disgynodd mewn henaint i'r bedd, megys y cyfyd ysgafn o ŷd yn ei amser. O! mor hyfryd ac annogaethol ydyw cofio am y cyfryw a fuont hir flynyddau yn ngwinllan Crist, 'a ddygasant bwys y dydd a'r gwres,' a urddasant eu swydd drwy eu bywyd duwiol, ac a guddiwyd yn y bedd heb gwmmwl ar eu nodweddiad."

Ysgrifenai y Parch. Cadwaladr Jones:—"Diau yr hir gofir am y fath sant a duwinydd. Gobeithiwn y bydd i'w gynghorion dwys a'i esamplau duwiol effeithio yn ddaionus ar laweroedd ar ol ei ymadawiad. Bydd colled mawr ar ei ol mewn lliaws o ffyrdd; ac nis gallwn lai na chwyno ar ei ol, fel y mwyaf duwiol, synwyrlawn, a ffyddlawn o ysgrifenwyr y *Dysgedydd*."

Ysgrifenai Syr J. Bickerton Williams, o'r Amwythig, fel y canlyn:—"Ni chlywais hyd neithiwr fod fy hen gyfaill anwyl, sef eich tad parchedig, wedi ei symmud i ogoniant. Hyfrydwch nid bychan i Mrs. Williams a minnau ydyw, ein bod wedi cael cyfle mor ddiweddar i geisio gweinyddu ychydig er ei adfywiad. Yr oeddym yn ceisio gobeithio, er ein hofnau, yr arbedid ef i'w deulu ac i'r eglwys; ond barnodd yr Athraw fel arall; ac y mae wedi ei ddyrchafu i'r llawenydd addawedig. Bendigedig fyddo Duw i'r fantell syrthio ar ei feibion. Gall Duw eich tad beri i bob gras amlhau. Y mae ein teulu ieuaingc yn cofio gyda serch am dano. Hoffwn weled y cofiant fyddwch yn anfon i'r *Evangelical Magazine*: a gobeithio y gofynwch i Dr. Morison fynu cerfio y *profile* i ymddangos gyda'r cofiant. Bydd yn dda gan laweroedd gael ei ddarlun."

ROBERTSON, FREDERICK WILLIAM: pregethwr enwog perthynol i'r Eglwys Sefydledig. Efe oedd yr hynaf o saith o blant. Ganwyd ef yn nhŷ ei daid, yn Llundain, ar y 3ydd o Chwefror, 1816. Yr oedd yn deilliaw o deulu milwraidd. Yr oedd ei dad yn gadben yn y cyflegrwyr brenhinol, a'i daid yn filwriad yn y fyddin; ac yr oedd iddo dri o frodyr, oll yn filwyr; ac ychydig a fu rhwng Frederick Robertson ei hun ag ymuno â'r 17eg gatrawd o wŷr meirch. Pan yn naw mlwydd oed, anfonwyd ef i'r ysgol rammadegol yn Beverley, swydd Gaerefrog, lle y bu am ychydig flynyddoedd; yna efe a aeth drosodd i'r Cyfandir, ac yno daeth yn hollol gyfarwydd yn y Ffrangcaeg; ond pan y torodd y chwyldroad allan yn Ffraingc yn 1830, daeth y teulu yn ol i'r wlad hon. Er iddo gael ei dadlu yn ol ac yn mlaen gryn lawer, ymddengys fod gofal yn cael ei gymmeryd gyda'i addysgiaeth. Yr oedd Robertson pan yn fachgen yn hynod o hoff o grwydro ar draws gwastattiroedd a rhosdiroedd, ac yn ymhyfrydu yn fawr mewn anifeiliaid, ac yn enwedig mewn adar. Yn 1832, pan yn un ar bymtheg oed, anfonwyd ef i'r Athrofa Newydd, Edinburgh. A'r flwyddyn

Digitized by Google

ddwyn i'r bedd yn gynnar ac anamserol. Nid oedd gan y dosbarth gweithiol yn y dref well cyfaill nag ef: teimlai ddyddordeb yn eu hachos. Efe oedd prif gefnogwr sefydliad perthynol i'r dosbarth hwn, aelodau yr hwn a rifai tua deuddeg cant. Ar un adeg, yr oedd dadl fawr yn eu plith gyda golwg ar oddef i lyfrau anffyddol gael eu cymmeryd i'r llyfrgell. Ceir yn y dyfyniad canlynol o'r bywgraphiad a gyhoeddwyd o Frederick Robertson, gan y Parch. S. A. Brooke, ddarlun bywiog o ymddangosiad y blaenaf yn neuadd y dref pan yn gwrthwynebu dygiad i mewn y cyfryw weithiau i'r llyfrgell. Yr oedd lliaws o ammheuwyr ac anffyddwyr wedi dyfod ynghyd y noson hono, gyda'r amcan o orfodi y siaradwr i fod yn ddistaw, a'i rwystro yn mlaen:—

"Efe a ddechreuodd yn bur dawel, gan ddyweyd ei eiriau yn araf, yn eglur, a hunanfeddiannol. Eglurodd amcan y cyfarfod, a pha ham y llefarai efe am dano ei hun fel y person oedd wedi eu gwysio i fod yn bresennol—fel un oedd yno i wrthwynebu dygiad i mewn y llyfrau anffyddol. Cododd amryw yma a thraw drwy yr ystafell i geisio ei attal yn mlaen. Clywid rhai udiadau a hisiadau; ond yr oedd agwedd ddiysgog y dyn, y llais tawel a rhediad difwlch y geiriau, yn ddigon effeithiol i'w cadw o dan reol: aeth yntau yn mlaen, a bu raid iddynt hwythau eistedd i lawr. Drachefn a thrachefn, o wahanol barthau o'r ystafell, codai un yn sydyn ar ei draed, a dechreuai ryw hanner siarad; ond yna, megys pe yn cywilyddio neu yn ofni, ymdawelai. Yr oedd yn furmur drwy y lle, ac yn fath o gyffro trydanol, a hwnw yn cyflwyno ei hun oddi wrth y dynion cyffrous i bawb oedd yn yr ystafell. O'r diwedd, pan y dywedodd yr areithydd, 'Yr ydych wedi clywed am le a elwir castell y dyn llwfr. Castell y dyn llwfr ydyw y pulpud neu yr esgynlawr hwnw oddi ar ba un y mae, pan, wedi ei amgylchu gan ei gyfeillion, yn absennoldeb ei wrthwynebwyr, yn sicrhau iddo ei hun ganmoliaeth, ac yn teimlo yn dawel nad oes neb a'i hatteba, yn condemnio y rhai sydd yn anghydweled âg ef.' Yr oedd yn ddistawrwydd dwfn yn yr holl le. Yr oedd wedi taraw ar y syniad oedd yn uchaf yn meddyliau y cynnhyrfwyr—y pwynt ar ba un, yn mherthynas i'r anerchiad, yr oeddynt wedi ymhelaethu; ac o'r foment hono nid ynganwyd un gair yn mron—o'r braidd y cafwyd un amlygiad o gymmeradwyaeth, hyd nes y traddodwyd y frawddeg ddiweddaf. Ymddangosai, medd un oedd yn bresennol—ac y mae yr hyn a ddywedai efe yn cael ei gadarnhau gan ereill—megys pe buasai pob un yn yr ystafell wedi ei drydanu â'r un teimladau, fel pe buasai rhyw allu gwefrol yn llifo oddi wrth yr areithiwr, ac yn eu huno oll âg ef ei hun, ac ynddo ef yn eu huno oll â'u gilydd. Yr anerchiad yma oedd y mwyaf nodedig o'i holl areithiau am ei hyawdledd; os hyawdledd yw y gallu hwnw sydd yn gorchfygu dynion trwy gyfrwng geiriau eofn a pherswadiol. Yr oedd yr anerchiad hefyd yn un anghyffredin am ddau reswm arall; y rhai, fe allai, na feddyliai y darllenydd cyffredin am danynt. Yn gyntaf, yr oedd yr areithiwr yn dadguddio llawer o'i fywyd mewnol a'i gymmeriad yn yr anerchiad yma. Gorfodwyd ef, gan yr amgylchiadau o dan ba rai y traddododd efe yr anerchiad, i siarad am dano ei hun. Yr oedd yr eglurhadau personol a roddwyd ganddo yn hunan-ddadguddiadau cyhoeddus. Ond yr oedd yn un rhan o'r anerchiad yma, er yn anhysbys i'w wrandawyr, yn yr hon y dadblygodd efe hanes cyfnod mwyaf pwysig ei fywyd."

Ymddengys fod yr araeth a draddodwyd ganddo ar yr achlysur y cyfeirir ato uchod yn un o'r darnau mwyaf nerthol a hyawdl o areithyddiaeth boblogaidd a draddodwyd yn yr oes. Efe a barhaodd i weinidogaethu gydag ymroddiad a ffyddlondeb digyffelyb yn Brighton am chwe blynedd; a diau fod ei bregethau yn ystod y cyfnod hwn yn gyfryw am dynerwch a nerth meddwl, prydferthwch barddonol, ac iaith eglur a chlir, na chlywyd yn Mhrydain erioed ddim a ragorai arnynt. Nid oedd Robertson, pa fodd bynag, yn cael ei ystyried yn hollol uniongred ar bob pwngc mewn duwinyddiaeth: o ganlyniad yr oedd llawer yn ei gamddeall, ac yn ei gamesbonio, ac felly yr oedd llawer o'i frodyr eglwysig yn achosi llawer o boen a gofid iddo. Ond yr oedd ei fywyd mor brydferth ac mor gywir, a'i ymroddiad i'w waith mor llwyr a diffuant, fel y darfu iddo yn fuan or-fyw, i raddau pell, yr anfri a dywalltwyd arno. Fodd bynag, yr oedd yn ddyn o deimladau mor dyner fel yr oedd angharedigrwydd yn effeithio yn ddirfawr arno; ïe, hyd yn oed ar ei iechyd. Pe buasai yn weinidog Ymneillduol, fel y gwelwyd mewn llawer o enghreifftiau, gallesid llenwi ei bulpud am flwyddyn neu ddwy, a'i anfon yntau i'r Cyfandir, i gael adferiad iechyd, os oedd hyny yn bossibl; ond yr oedd Robertson yn ammhoblogaidd gyda'r blaid uchel-eglwysig yn y dref; ac yn enwedig gyda'r ficer, y Parch. H. Wagner. Appwyntiodd Robertson ei gurad i ysgafnhau ei feichiau, tra yr oedd ei iechyd yn gwanhau, a'i fywyd yn ol pob argoelion yn tynu tua'r terfyn; ond yr oedd gan y ficer hawl i wrthod cydsynio â phennodiad Mr. Robertson, a gwrthododd wneyd hyny. Yn awr oedd yr amser i'r ficer ddangos ei anghymmeradwyaeth o Robertson, a dyma y ffordd a ddewisodd efe i wneyd hyny; sef, trwy beidio cadarnhau ei bennodiad ef. Nis gallai Robertson bregethu, o herwydd ei waeledd; gan hyny, gorfodwyd ef i roddi i fyny Eglwys y Drindod, lle yr oedd cynnifer o'r dynion mwyaf deallgar a choeth wedi bod megys yn hongian ar ei wefusau—ïe, cynnifer o bob gradd a sefyllfa—pob gradd mewn rhagoriaeth moesol ac ysbrydol wedi eu swyno gan feddyliau tryloew a hyawdledd pur y pregethwr anghyffredin hwn. Gwaelodd ei iechyd yn fwy yn raddol, a throes ei afiechyd yn ddarfodedigaeth cyflym arno. Ond yr oedd yn dawel, amyneddgar, ac ymostyngol wrth deithio y glyn tywyll y bu yn ymdrechu mor ffyddlawn i daflu pelydr o oleuni arno i ereill. Yr oedd ei ymddiried yn Nghrist yn parhau yn ddiysgog, a'i feddwl yn cael ei gynnal gan obaith anfarwoldeb. Yr oedd prydferthwch yn mhob peth yn y byd allanol yn effeithio yn fawr arno bob amser. Pan nad oedd o'r bron yn alluog i godi o'i wely, ddiwrnod neu ddau cyn ei farw, efe a gyfododd ac a ymlusgodd at y ffenestr, i edrych, fel y dywedai, ar "y boreu prydferth." Noswaith neu ddwy cyn ei ymadawiad, breuddwydiodd fod ei ddwy chwaer, y rhai oeddynt wedi marw er's amser maith, yn dyfod i'w goroni. Yr oedd pob caredigrwydd yn cael ei amlygu tuag ato gan bobl y dref yn gyffredinol. O'r diwedd daeth dydd ei ymddattodiad; sef, y dydd Sabboth, Awst 15fed, 1853. Daeth pangfeydd o boenau bron annioddefol arno; gwaeddai allan yn wanaidd, yn awr ac eilwaith "Fy Nuw, fy Nhad! fy Nuw, fy Nhad!" Ymladdodd y frwydr galed y mae yn rhaid i bawb ei hymladd yn ddewr. Parhaodd hyn ddwy awr, ond ni chollodd ei ymwybodolrwydd. Yr oedd ei fam, a'i wraig, un cyfaill, a'r physygwr, yn gwylio drosto y pryd hwn. Pan y ceisient esmwythau arno, trwy symmud ei sefyllfa yn ei wely, nis gallai oddef y cyffyrddiad. "Nis gallaf ei oddef," meddai: "gadowch i mi

Digitized by Google

gymmeryd i fyny achos ei wlad. Ond yr oedd person a adwaenid wrth yr enw y Comyn Coch (*Red Comyn*) yn wrthwynebydd iddo am yr hawl i'r goron. Cyfarfu y ddau un diwrnod, yn y fl. 1306, mewn eglwys yn Dumfries; ac wrth rodio yn ol ac yn mlaen, ac ymddiddan â'u gilydd, pan oeddynt yn methu cydweled ynghylch rhywbeth, cyhuddodd Bruce Comyn o fradwriaeth. O'r diwedd, pan ger llaw yr allor, llidiodd rhywbeth a ddywedwyd gan Comyn gymmaint ar Bruce fel y tynodd y diweddaf ei bicell allan, ac y trywanodd y blaenaf. Cwympodd Comyn i'r llawr, ac yr oedd ei waed yn llifo o'r archoll. Rhuthrodd Bruce allan mewn dychryn, a chyfarfyddodd yn y drws â Kirkpatrick o Closeburn, a Syr Christopher Seton, y rhai a ofynasant iddo, beth a wnaeth efe. Dywedai yntau: "Yr wyf yn tybied fy mod wedi lladd Comyn." "Tybied?" llefai Kirkpatrick, "mi a wnaf hyny yn ddiogel;" a rhedodd i'r eglwys, a thrywanodd Comyn ddwy waith, nes y bu efe farw. Lladdodd Seton hefyd ewythr i Comyn, yr hwn a aethai i mewn i'w gynnorthwyo ef. O hyn allan, edrychai Bruce ar hyn fel pechod mawr ei fywyd:—nid yn gymmaint am ei fod wedi lladd Comyn, o herwydd y dyddiau hyny edrychid ar weithred o'r fath, o dan yr amgylchiadau, yn ddigon cyfreithlawn—ond am i'r weithred gael ei chyflawni o fewn muriau yr eglwys. Ystyrid hyn yn halogiad o'r cyssegr, nad oedd yn bossibl gwneuthur iawn am dano ond yn unig trwy fywyd o lafur, edifeirwch, a gweithredoedd da. Beth bynag oedd teimladau Bruce cyn hyny, ymddengys ei fod yn awr yn ystyried fod yr adeg wedi dyfod iddo daflu ymaith ei warogaeth orfodol i frenin Lloegr. Casglodd ei ddilynwyr ynghyd yn Dumfries, a chymmerodd feddiant yn ddioed o'r dref: ond caniatawyd i'r Saeson a ddigwyddent fod yn cynnal llys cyfreithiol yn y lle i ymadael yn dawel oddi yno i'w gwlad eu hunain.

Clywodd Edward am lofruddiad Comyn, tra yr oedd efe a'i lys yn Winchester. Anfonodd genad yn uniongyrchol at y pab, yn deisyf am ei gynnorthwy; gorchymynodd gadarnhau y trefydd oedd ar gyffiniau Ysgotland a Lloegr; nododd Iarll Penfro i fod yn warcheidwad Ysgotland, ac anfonodd wŷs i bob rhan o'r wlad i godi milwyr. Prysurodd i Lundain, galwodd am ei fab, ac ynghylch tri chant o ddynion ieuaingc o'r teuluoedd goreu yn Lloegr, a rhoddodd y teitl o farchog i bob un o honynt. Gwnaeth wledd ardderchog i'r marchogion newydd, pryd y darfu iddynt gymmeryd adduned ddifrifol i ddial ar Bruce a'i ddilynwyr. Nid oedd Bruce, ar y llaw arall, wedi darparu unrhyw gynllun o amddiffyniad nac ymosodiad; ac ychydig mewn nifer oedd rhifedi ei ganlynwyr. Gwelai, modd bynag, i Wallace lwyddo mewn amgylchiadau mwy anhapus, a bod teimladau y bobl wedi eu meddiannu â brwdfrydedd drosto ef; yr hyn oedd yn argoeli yn dda i'w achos. Gobeithiai, dybygid, y gallasai roddi dyrnod effeithiol ar y dechreu; gan hyny, efe a anfonodd herfeiddiad i Iarll Penfro, yr hwn a sefydlasai ei bencadlys yn Perth, yn ei herio i frwydr: ac addawodd yr iarll ei gyfarfod dranoeth. Cymmerodd Bruce ei lu bychan i goedwig gymmydogaethol Methven, gyda'r amcan o wersyllu yno am y noson hono; ond o herwydd rhyw achos neu gilydd, esgeuluswyd gosod y wyliadwriaeth arferol. Deallodd yr iarll hyn, galwodd allan ei wŷr tua diwedd y dydd, ac mewn munyd anwyliadwrus, ymosododd ar y gwersyll Ysgotaidd, a thaflodd yr holl lu i annhrefn hollol.

Ar ol y gorchfygiad hwn yn Methven, aeth Bruce gyda'i fyddin i fynyddoedd Athol; ond o herwydd gerwinder y tywydd, ac angen darpariaethau, gorfodwyd hwynt i ddyfod i lawr i wastattiroedd swydd Aberdeen. Deallwyd, pa fodd bynag, fod y Saeson yn dynesu, a chiliasant hwythau i ardal fynyddig Breadalbane. Nid oeddynt yn ddiogel oddi wrth ymosodiad yma. Yr oedd Arglwydd Lorne, un o gefnogwyr Edward, a châr i Comyn, ar ol clywed am ddynesiad Bruce, wedi casglu ynghyd tua mil o wŷr, a chymmerwyd meddiant o'r bylchau yn y mynyddoedd: ac felly gorfodai yr Ysgotiaid i ymladd mewn glyn cul, lle nad oedd eu meirchfilwyr o un gwasanaeth iddynt. Yr oedd y canlyniad o hyn yn anocheladwy; a phe na buasai Bruce wedi gorchymyn i gilio yn ol, a myned ei hunan yn eofn i'r tu cefn i'w fyddin, ac amlygu dewrder, bywiogrwydd, a nerth digyffelyb yn mron, er attal ymosodiadau yr erlidwyr, yn ol pob golwg, cawsai ei fyddin fechan ei llwyr ddistrywio. O'r diwedd, llwyddodd Bruce i adfywio gobeithion ei ganlynwyr; ac wedi anfon y frenhines, a rhyw foneddigesau ereill, oedd gyda hi, i gastell Kildrummie, penderfynodd ef, ynghyd â'i ddau cant dilynwyr, wneyd eu ffordd yn mlaen i Kintyre; a chroesi oddi yno i ogleddbarth yr Iwerddon, mewn gobaith y cawsai gymmhorth Iarll Ulster. Gan nad oedd ond un cwch bychan a gwael i'w gael, yn yr hwn y gallasent groesi Llyn Lomond, buont am ddiwrnod a noswaith llawn yn myned drosto: nid oedd y cwch yn alluog i gario dim ond tri ar unwaith. Trwy garedigrwydd Iarll Lennox, galluogwyd hwynt i gyrhaedd yn ddiogel i gastell Dunaverty, yn Kintyre; ac aeth y brenin ac ychydig o'i ddilynwyr ffyddlonaf drosodd i ynys fechan Ruthlin, ar oror gogleddol yr Iwerddon, lle yr arosasant dros y gauaf. Yn ffodus, yr oedd Bruce am beth amser yn y lle hwn yn anhysbys o'r creulondeb mawr a amlygwyd gan Edward tuag at ei wraig, ei deulu, a'i gyfeillion, ynghyd â'i waith yn attafaelu ei etifeddiaethau; ac hefyd o waith cenad y pab yn ei esgymmuno yn Carlisle.

Ar ddynesiad y gwanwyn, gadawodd Syr James Douglas a Syr Robert Boyd y brenin, ac aethant drosodd i Arran, lle yr ymunodd yr olaf â hwynt yn mhen ychydig ddyddiau gyda llynges o dair ar ddeg ar hugain o rwyf-longau bychain. Glaniasant yn ardal Carrick, yr hon oedd yn meddiant y Saeson; a chan fod y milwyr o dan Percy yn gwersyllu yn ddiofal yn y lle, hwy a ruthrasant arnynt, ac a'u lladdasant oll o'r bron—tua dau gant mewn nifer. Ond gan i adgyfnerthion gyrhaedd i Turnberry er cynnorthwyo y Saeson, bu raid i Bruce ymgadw yn ardal fynyddig Carrick. Gwrthweithiwyd hefyd effeithiau ei lwyddiant gan orchfygiad ei frodyr, Thomas ac Alexander, yn Galloway, pan y gyrwyd eu holl lu ar ffo, y lladdwyd amryw bersonau o safle uchel, y cymmerwyd y ddau frawd, ac y dienyddiwyd hwynt yn ddioed. Pan y crwydrai Bruce yn nghilfachau mynyddoedd Carrick, nid oedd ei fyddin ddim mwy na thrigain mewn nifer. Ond darfu i'w ddewrder personol ef mewn ymladdfa—yr hon, pe na buasai yr awdurdod lle y ceir hi yn gywir ar bethau ereill yn gyffredin, yr edrychasid arni fel chwedl ddisail, neu o leiaf fel un yr arferid gormodiaith yn ei chylch—lwyddo i adferu hyder cryf yn

Digitized by Google

meddyliau ei ddilynwyr yn llwyddiant ei achos. Gobeithiai pobl Galloway allu dwyn oddi amgylch ei ddinystr llwyr; ac i'r dyben hwnw casglasant ynghyd tua dau cant o wŷr; ac yr oedd ganddynt amryw waedgwn hefyd, i'r dyben o ymlid ar ol y ffoaduriaid trwy y coedwigoedd a'r siglenydd. Er fod y darpariadau hyn yn cael eu dwyn yn mlaen yn ddirgelaidd, cafodd Bruce rybudd o'i berygl; ac yn yr hwyr efe a gymmerodd ei wŷr i safle lle yr oedd ar un llaw iddynt gors, ac ar y llall afon nad oedd ynddi ond un rhyd gul yn y gymmydogaeth, dros yr hon yr oedd y gelyn yn rhwym o groesi. Gadawodd Bruce ei ganlynwyr i orphwys, ac aeth ei hunan at y rhyd; a chyda'i fod yno, disgynai udiad cyfagos gwaedgi ar ei glust, a lleisiau dynion yn ei annog yn mlaen. Arweiniodd y gwaedgwn bobl Galloway yn union at y rhyd lle yr oedd y brenin yn sefyll; yr hwn nid oedd heb ei ofnau y cawsai ei holl blaid ei distrywio ond i'r gelyn unwaith ddyfod dros y rhyd; gan hyny, efe a benderfynodd ei hamddiffyn ei hun hyd eithaf ei allu. Pan y gwelodd pobl Galloway nad oedd ond un person yr ochr arall i'r afon yn ceisio eu hattal drosodd, daeth y blaenaf o honynt yn mlaen yn eofn; ond wrth geisio cyrhaedd yr ochr arall i'r afon, gosododd Bruce ef yn farw wrth ei draed â thrywaniad ei bicell. Cyfarfu pedwar o'i gymdeithion â'r un dynged ag yntau —cyrph y rhai a godid yn fath o amddiffynfa yn erbyn ymosodiadau y gweddill. Mewn braw wrth weled y fath dderbyniad annisgwyliadwy a gawsai eu cymdeithion, ciliasant yn ol mewn annhrefn am foment; ond fel pe yn cywilyddio fod cymmifer o honynt yn cael eu gorchfygu gan un dyn, dychwelasant gyda grym chwanegol i'r ymgyrch. Daliodd y brenin ei dir gyda'r fath ddewrder, modd bynag, fel y llwyddodd i'w cadw draw. O'r diwedd, clywid gwaedd uchel oddi wrth ddilynwyr Bruce, wrth ddyfod i'w waredu; yr hyn a barodd i'r gelyn encilio, ar ol colli yn yr ymgyrch rhyfeddol yma bedwar ar ddeg o wŷr. Cyffrodd perygl Bruce a'i ddewrder ar yr achlysur hwn ysbryd ei blaid, a daeth llaweroedd ereill yn mlaen i ymrestru o dan ei faner.

Safai Bruce mewn angen am bob cymmhorth oedd yn bossibl iddo ei gael; o herwydd yr oedd Iarll Penfro yn dyfod i'w gyfarfod gyda mintai gref o wŷr, wedi cael adgyfnerthion gan Arglwydd Lorne. Mynegir fod gan Lorne waedgi, yr hwn a fuasai ar un adeg yn eiddo i'r brenin, oedd yn berffaith gyfarwydd â'i sawyr *(scent)*; yr hwn, ond iddo unwaith fod ar ei lwybr, na orphwysai nes dod o hyd iddo. Cafodd Bruce brawf o hyn, a fu yn agos a phrofi yn farwol iddo. Wedi dyfod i'r gymmydogaeth lle yr oedd Bruce a'i fyddin yn gorwedd, gollyngwyd y gwaedgi yn rhydd; ac er pob ystryw a ddyfeisiwyd i'w daflu oddi ar y llwybr, nododd y ci ef allan; ac yn y modd hwn arweiniwyd y gelyn i ymlid ar ei ol ef a'i gydymaith—yr oedd Bruce a'i gydymaith wedi gadael y fyddin—hyd nes y daethant at lan afon, i'r hon y taflasant eu hunain. Wedi llwyddo fel hyn i ddistrywio y sawyr a arweiniai y ci yn mlaen, troisant i frysglwyn cyfagos, ac felly cyrhaeddasant y man lle y llechai ei ganlynwyr. Tybiodd y Saeson fod byddin fechan Bruce wedi myned yn hollol ar ddisberod, ac aethant yn ddiofal; deallodd Bruce hyn, a chasglodd ynghyd ychydig wŷr, a rhuthrodd yn ddisymmwth ar warthaf tua dau cant o honynt, a lladdodd â'r cleddyf y rhan fwyaf o'r nifer yma. Yna ciliodd Iarll Penfro yn ol tua Lloegr, ac arosodd yn Carlisle.

Mentrodd Bruce fyned i lawr i'r iseldir, a darostyngodd ardaloedd Kyle, Carrick, a Cunninghame i'w awdurdod. Penderfynodd Iarll Penfro gymmeryd y maes drachefn; ac yn flaenor ar gorphlu cryf o feirchfilwyr, efe a aeth yn mlaen i swydd Ayr, lle y cyfarfydodd byddin Bruce, yr hon a wersyllai ar Fryn London. Er fod byddin Bruce yn llawer llai mewn nifer nag un y Saeson, ac yn gynnwysedig yn hollol o wŷr traed, anturiodd i frwydr gyda hwynt; ac ymladdodd y fyddin hon mor ragorol fel nad oedd colled yr Ysgotiaid ond bychan iawn, tra y gyrwyd holl luoedd Penfro ar ffo, a lladdwyd nifer mawr o honynt. Yn mhen tridiau, cyfarfu Bruce â chorph cryf o filwyr, o dan arweinyddiaeth Monthermur, a gorchfygodd hwynt â lladdfa fawr. Profodd y buddugoliaethau hyn o wasanaeth pwysig i achos Bruce; yr hwn a gryfhawyd yn fwy, gan i Edward ddigwydd marw yn Cumberland ar y 7fed o Orphenaf, 1307, pan ar ei daith i Ysgotland. Gorchymynodd y penadur hwn, gyda'i anadl olaf, ar fod i'w gorph gael ei gymmeryd gyda'r fyddin i Ysgotland, a'i gadw heb ei gladdu hyd nes y byddai yr holl wlad wedi ei llwyr ddarostwng; ond ni ddarfu i'w fab, Edward II., yr hwn a esgynodd yr orsedd ar ei ol, gario allan ei ddymuniad hwn; ond claddwyd gweddillion ei dad yn Mynachlog Westminster. Yr oedd y mab, yn wir, yn analluog i ddwyn yn mlaen yr anturiaeth a ddisgynai arno; ac ar ol rhyfelgyrch dianrhydeddus ac aflwyddiannus, enciliodd o'r ymrysonfa. Bu raid i Bruce, am y tair blynedd dilynol i hyn, ymladd â'r llywodraethwyr a ddanfonid gan Edward, ac â'i elynion ereill mewn amrywiol barthau o Ysgotland. Buddugoliaethodd arnynt oll; ac yn gynnar yn 1310, ymgynnullodd clerigwyr Ysgotland mewn cynghor taleithiol, a chyhoeddasant ddadganiad, wedi ei gyfeirio at holl ffyddloniaid yr eglwys; sef, fod y genedl Ysgotaidd, wrth weled y deyrnas yn cael ei bradychu a'i gorthrymu, wedi cymmeryd Robert Bruce yn frenin, a bod y clerigwyr yn talu gwarogaeth ewyllysgar iddo yn y cymmeriad hwnw.

Wrth weled fod ei awdurdod wedi ei sefydlu gartref, a bod gan Edward ddigon i'w wneyd i ddarostwng yr anghydfod a'r terfysgoedd oedd yn ei deyrnas ei hun, penderfynodd Bruce oresgyn Lloegr, er dial i ryw fesur am y trueni a achoswyd gan y wlad hono i'w deyrnas. Aeth yn mlaen mor bell ag esgobaeth Durham, gan anrheithio y wlad â chleddyf ac a thân, a goddef i'r milwyr redeg i bob eithafion yn eu dialgarwch. Ar y cyntaf, gosododd Edward ei gŵyn ger bron y pab; ond yn fuan wedi hyny, agorwyd ymdrafodaeth er penderfynu ar gadoediad rhwng Lloegr ac Ysgotland. Gwyddai Bruce, pa fodd bynag, ei fod yn bwysig iddo ef ddilyn yn mlaen y llwyddiant oedd wedi bod ar ei arfau, a gwrthododd wrandaw ar ei gynnygion, a goresgynodd Lloegr drachefn. Yn yr un flwyddyn hefyd efe a gymmerodd amryw o amddiffynfeydd yn ei deyrnas ei hun, oedd hyd hyny yn nwylaw y gelyn. Yr olaf o'r amddiffynfeydd hyn oedd castell Stirling, ar yr hwn yr oedd gobaith y Saeson yn gorphwys; gan hyny, casglodd Edward ei luoedd i'w amddiffyn. Ar yr achlysur hwn yr ymladdwyd brwydr enwog Bannockburn, ar y 24ain o Fehefin, 1314, pan y cafodd Bruce fuddugoliaeth lwyr ar ei elynion. [Gwel YSGOTLAND.] Sefydlwyd uchafiaeth a phenad-

Digitized by Google

uriaeth Bruce mewn canlyniad i'r frwydr hon, a threuliwyd y rhan fwyaf o'r gweddill o'i fywyd i oresgyn Lloegr, a'i amddiffyn ei hun rhag goresgyniadau y wlad hono, mewn trafodaethau er dwyn oddi amgylch gyttundebau â hi, ac i ffurfio cyfreithiau er rheoleiddio a chadarnhau yr awdurdod a ennillasai efe. Yn mis Ebrill, 1328, cynnaliwyd senedd yn Northampton, i benderfynu ar gyttundeb heddychol parhaol rhwng teyrnasoedd Lloegr ac Ysgotland, prif erthyglau yr hwn oedd yn gynnwysedig mewn cydnabod hawliau Bruce i'r goron, penaduriaeth y deyrnas, ac hefyd ar fod i Joanna, chwaer brenin Lloegr, briodi Dafydd, mab ac etifedd brenin Ysgotland.

Wedi penderfynu fel hyn achosion ei deyrnas, ac, fel y tybiai, wneyd heddwch â'i gymmydogion, efe a ymneillduodd i Cardross, palas dymunol ar lan y Clyde, i farw mewn heddwch; o herwydd yr oedd erbyn hyn yn tynu i oedran, ac wedi ei ammharu gan ei lafur dirfawr, ac afiechyd. Nid hir y bu fyw ar ol hyn. Edrychai yn mlaen at adeg ei farwolaeth gyda thawelwch ac ymostyngiad; ond nid heb edifeirwch dwys am y pechodau a gyflawnasai, yn gystal a gofid dwfn am iddo fod yn euog o dywallt cymmaint o waed. Bu farw ar y 9fed o Orphenaf, 1329, yn bymtheg a deugain mlwydd oed, ac yn y drydedd flwyddyn ar hugain o'i deyrnasiad. Un o ddymuniadau olaf Bruce oedd, ar fod i'w galon gael ei thynu allan, a'i pherarogli, a'i chymmeryd i'r Tir Sanctaidd; ac yn ol ei ddymuniad, gwnaed hyny; a chladdwyd ei weddillion yn yr eglwys berthynol i fynachdy Dunfermline. Felly y bu farw Robert Bruce—y mwyaf arwrol o frenhinoedd Ysgotland.

ROBERT II.: brenin Ysgotland. Ganwyd ef Mawrth yr 2il, 1316:—dwy flynedd ar ol brwydr Bannockburn. Ei dad oedd Walter Stewart; a'i fam, Marjory, unig ferch Robert y Bruce. Collodd Robert ei dad a'i fam pan oedd yn faban. Yr oedd yn un o wladgarwyr penaf Ysgotland yn ystod teyrnasiad anffodus ei ewythr, Dafydd II. Yr oedd yn bresennol yn mrwydrau Halidon Hill, a Neville's Cross. Ar farwolaeth Dafydd, dyrchafwyd ef i'r orsedd yn Mawrth, 1371; ac efe oedd sylfaenydd teyrnach Stuart. Mewn rhan o herwydd ei fod yn dechreu heneiddio, ac mewn rhan am ei fod o dueddfryd felly, profodd Robert ei hun yn frenin heddychol, er nad oedd yn anwrol. Yr oedd y rhyfeloedd a ddygid yn mlaen rhwng Ysgotland a Lloegr yn cael eu llunio gan ei bendefigion aflonydd, ac yn enwedig yr iarllod Douglas, Mar, March, a Moray. Yr oedd y trueni a ddioddefid gan y preswylwyr oedd ar derfynau y ddwy wlad mewn canlyniad i hyn yn ofnadwy iawn. Ond y digwyddiadau mwyaf nodedig yn nheyrnasiad Robert oedd goresgyniadau Ysgotland gan luoedd milwrol a morwrol Lloegr, dan arweiniad y duc o Lancaster, yn 1385; ac wedi hyny dan arweiniad y brenin Richard II. ei hun yn 1386, pryd yr anrheithiwyd y wlad mor bell ag Edinburgh a Fife; ac anfoniad byddin fawr o Ysgotland i Loegr, wedi ei rhanu yn ddwy, mewn ffordd o ad-daliad. Bu y naill a'r llall o'r ymgyrchoedd hyn o Ysgotland yn dra llwyddiannus. Bu farw Robert yn nghastell Dundonald, swydd Ayr, Ebrill 19eg, 1390. Yn ol tystiolaeth Buchanan, efe a lafuriodd yn galed i ddarostwng cyffroadau mewnol y wladwriaeth; ond fel y mwyafrif o deulu Stuart, yr oedd yn wastraffus o ran ei arferion, ac yn benrydd ei foesau.

ROBERT III.: brenin Ysgotland, oedd fab i Robert II. Ganwyd ef 1340. Yr enw oedd arno gynt oedd John, ond o herwydd rhyw resymau nad ydynt yn hysbys, newidiwyd ef gan senedd y wlad pan yr esgynodd i'r orsedd yn 1390. O herwydd ei anallu fel llywodraethwr yr oedd awenau y llywodraeth yn rhinweddol yn nwylaw ei frawd uchelgeisiol, Robert, iarll Menteith a Fife, yr hwn, yn 1398, a wnaed yn dduc o Albany—yn ystod llywodraethiad yr hwn y dechreuodd y barwniaid ymarfer yr awdurdod annhrefnus oedd, yn nheyrnasiadau y tri Iago cyntaf, yn bygwth dinystrio awdurdod y penadur yn hollol. Y prif ddigwyddiadau a gymmerodd le yn nheyrnasiad Robert oedd, goresgyniad Ysgotland gan Harri IV. o Loegr, yn 1400, yr hwn, gyda byddin liosog, a aeth mor bell ag Edinburgh; ond ni wnaeth anrhaith mawr ar y wlad—nid o ddiffyg gallu, ond o herwydd tynerwch yn hytrach; ac ymgyrch addaliadol yr Ysgotiaid, yn y flwyddyn ddilynol, dan Archibald Douglas, yr hwn a derfynodd mor drychinebus yn eu gorchfygiad ofnadwy ar faes Homildon Hill. Yr oedd gan Robert ddau fab; yr hynaf o ba rai oedd Dafydd, duc o Rothesay —dyn ieuangc nad oedd yn ddiffygiol mewn gallu, ond yr oedd yn hynod am afradlonedd ac afleudid ei fuchedd. Cyhyd ag y bu ei fam byw ymgadwodd, yn gymmharol, mewn rhyw fath o derfynau; ond wedi ei marwolaeth hi, medd Buchanan, ymollyngodd i arwain y bywyd mwyaf annuwiol ac anfad. Gorchymynwyd i Albany weithredu fel ei warcheidwad; ac yn mhen ychydig amser, efe a'i newynodd i farwolaeth yn nghastell Falkland—am yr hyn y dygwyd ef i ryw ffug brawf gan ei gyfeillion ei hun; ac wrth gwrs cyhoeddwyd ef yn ddiniwed. Y mae Syr Walter Scott wedi rhoddi y ffurf draddodiadol o'r gyflafan hon yn ei ramant, "*The Maid of Perth.*" Teimlai Robert yn awr yn bryderus am ddiogelwch Iago, ei fab ieuangaf; ac wedi ymgynghori â'i gyfeillion, efe a'i hanfonodd i Ffraingc; ond tra ar ei ffordd yno, glaniodd yn Flamborough, yn swydd Gaerefrog, naill ai i ochelyd ystorm, neu i wella o glefyd y môr. Cymmerwyd ef yn garcharor gan y Saeson yn 1405. Pan y clywodd ei dad y newydd pruddaidd, teimlai bangfeydd o ofid; a bu farw, wedi tori ei galon, yn Rothesay, yn y flwyddyn ddilynol.

ROBESPIERRE, MAXIMILIEN MARIE ISIDORE DE: un o flaenoriaid y chwyldroad mawr a gymmerodd le yn Ffraingc yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Ganwyd ef yn Arras, yn y fl. 1759. Dadleuydd cyfreithiol oedd ei dad; ond ymddengys mai lled aflwyddiannus oedd yn yr alwedigaeth hono. Hynododd Robespierre ei hun yn ieuangc fel un yn dysgu yn rhagorol yn ysgol ei dref enedigol; a thrwy garedigrwydd esgob Arras, anfonwyd ef i Goleg Louis le Grand yn Paris, lle yr oedd yn gyd-efrydydd â Fréron, ac a Camille Desmoulins. Yr oedd Robespierre yn dilyn ei efrydiau gyda diwydrwydd mawr; ac wedi treulio ei amser yn y coleg, efe a ymroddodd i astudio y gyfraith. Dychwelodd i Arras i ddilyn yr un alwedigaeth a'i dad, a daeth yn mlaen yn dra llwyddiannus. Pan y galwyd ynghyd y llwyrwys (*states general*) yn 1789, yr oedd Robespierre yn meddu digon o ddylanwad

Digitized by Google

yn Arras i gael ei ethol yn gynnrychiolydd y bobl ynddi. Mor fuan ag yr etholwyd ef, aeth tua Versailles yn ddioed. Bu am amryw fisoedd ar ol agor y llwyrwys yn aelod lled ddibwys o hono; ond o'r tu allan i'r llwyrwys yr oedd yn graddol ennill dylanwad trwy gasglu o'i gwmpas anturiaethwyr a diogwyr yn y tai coffi, a thrwy areithio iddynt ar ryddid a chydraddoldeb. Gwnaeth argraph ddofn ar feddyliau y dosbarth hwn a arferai wrandaw arno. Nid oedd ganddo ddim manteision corph i'w gynnorthwyo. Yr oedd ei wynebpryd yn fychan, yn llwydaidd ei wedd, ac wedi ei nodi yn ddwfn gan y frech wen, a'i lais yn gras, yn fain, ac yn annymunol. Ond er ei fod yn llafurio o dan yr anfanteision hyn, ymgododd mewn ffafr a chymmeradwyaeth gyda'r werin. Ar yr 17eg o Fehefin y traddododd ei araeth gyntaf yn y llwyrwys. Ennillodd safle iddo ei hun ar unwaith, a gwelai sylwedyddion craff ynddo ryw fath o ddifrifwch, ac arwyddion o argyhoeddiadau dyfnion, a barai iddynt brophwydo [y] byddai efe yn 'rhywun' yn y dyfodol. "Fe ä y dyn hwn yn mhell yn mlaen," meddai Mirabeau, "oblegid y mae yn credu pob peth y mae yn ei ddyweyd."

Ar ol marwolaeth Mirabeau—yr hwn, tra y bu efe byw, yr oedd ei faintioli a'i nerth corphorol a meddyliol megys yn gwneuthur pob un o'i gwmpas yn llai na hwy eu hunain—daeth Robespierre i fwy o gyhoeddusrwydd; ac o hyny allan hyd ddydd ei farwolaeth, y mae ei fywgraphiad ef, mewn rhan fawr, yn cynnwys hanes y chwyldroad. Ar ddadgorphoriad y llwyrwys, yn mis Hydref, 1791, ymwelodd Robespierre, yr hwn, erbyn hyn, oedd wedi esgyn i enwogrwydd, â'i dref enedigol, lle y derbyniwyd ef gyda brwdfrydedd mawr. Arosodd yno am saith wythnos; ac yna dychwelodd drachefn i Paris, ac ail ymaflodd yn ei waith fel arweinydd y clwb Jacobinaidd. Ar y 10fed o Awst canlynol, diorseddwyd y brenin; ond ni chymmerodd Robespierre unrhyw ran arbenig yn nygiad hyny oddi amgylch. Ar ffurfiad y Gymmanfa Genedlaethol, dychwelwyd ef yn mlaenaf o gynnrychiolwyr Paris; ac fel arweinydd y blaid eithafol, yr hon a elwid 'Plaid y Mynydd,' efe oedd un o'r prif offerynau i ddwyn oddi amgylch ddienyddiad y brenin—yr hyn a gymmerodd le yn Rhagfyr, 1792. Yn y flwyddyn ganlynol y bu ei ymdrechfa fawr yn erbyn y Girondiaid, y rhai oeddynt wedi ymosod arno ddwywaith gyda'r amcan o ddinystrio ei ddylanwad, a dwyn ei fywyd ymaith. Ac yn yr ymdrechfa hon, efe a fu yn fuddugol. Dechreuodd 'teyrnasiad dychryn' mewn gwirionedd y pryd hwn. Llywodraethid y deyrnas yn benaf gan Bwyllgor y Diogelwch Cyhoedd [gwel PWYLLGOR Y DIOGELWCH CYHOEDD], o ba un yr oedd Robespierre, Couthon, a St. Just yn driwyriaid. Anfonwyd Marie Antoinette, y Duc o Orleans, Petion, Danton, a Camille de Desmoulins i'r dienyddle; ac yr oedd y tywallt gwaed a fu yn Paris am fisoedd yn ddychrynadwy:—cafodd miloedd eu rhoddi i farwolaeth! Yn nghanol y dychrynfeydd hyn, ar yr 8fed o Fehefin, 1794, y cymmerodd, digwyddiad tra nodedig le; sef, cydnabod a chyhoeddi, yn enw y weriniaeth, fod Duw yn bod (yr oedd llywodraeth chwyldroadol Ffraingc ychydig cyn hyny wedi dadgan ei barn nad oedd Duw yn bod). A Robespierre, fel y dyn penaf yn Ffraingc, a lywyddai yn nygiad yn mlaen y ffugchwareu hwn. Ond yr oedd y diwedd bellach yn nesau. Darfu i'w waith yn rhoddi i farwolaeth mor ddiseremoni gynnifer o'r dinasyddion greu gelynion lliosog iddo; ac yn mis Gorphenaf, 1794, daeth ei elynion yn rhy gryfion iddo. Cyhuddwyd Robespierre gan Billaud-Varennes, un o'i bleidwyr ef ei hun, ac hefyd gan y Dantoniaid—y rhai oeddynt yn ddigllawn wrtho o herwydd dienyddiad eu harweinydd—o geisio ei ddyrchafiad ei hun ar draul aberthu ei gymdeithion. Yn ofer yr ymneillduai Robespierre—yn ofer y cymmerai ddeugain niwrnod i barotoi ei amddiffyniad—yn ofer y rhoddai pob gewyn ar waith i wrthbrofi eu cyhuddiadau. Ar ol golygfa ofnadwy o gyffrous, condemniwyd ef, ynghyd â'i frawd, Couthon, St. Just, a Lebas, i farw! Gwahanwyd Robespierre oddi wrth y carcharorion ereill, a chymmerwyd ef i garchar y Luxembourg: ond cafodd rywfodd gyfle i ddiangc oddi yno. Rhyddhawyd ef gan geidwad y carchar, yr hwn oedd gyfaill iddo; aeth yntau yn mlaen yn erbyn y gynnadledd gyda nifer o filwyr a phleidwyr, ac nid ydyw yn ymddangos y buasai yn beth ammhossibl iddo allu ail osod i fyny ei awdurdod pe buasai yn meddu ar ddigon o wroldeb, a'i ddilynwyr ar ddigon o fedrusrwydd. Ond ei gymmeryd a gafodd yr ail waith; ac wedi saethu darn o'i ên ymaith, mewn ymgais aflwyddiannus i'w ladd ei hun, llusgwyd ef i'r dïenyddle—i'r man lle yr oedd efe wedi anfon llawer o'r blaen—yn nghanol edliwiadau a bloeddiadau o lawenydd oddi wrth y bobl.

Y mae cymmeriad Robespierre wedi ei bortreadu yn dra gwahanol gan rai ysgrifenwyr. Mŷn rhai ei osod allan fel un hollol amddifad o bob ansoddau sydd yn cyfansoddi mawredd; ei fod yn llwfr, yn greulawn, a balch. Ereill a addefant nad oedd yn feddiannol ar ansoddau mawr ac arwraidd; ond er hyny, haerant nad oedd efe y creadur isel a dirmygus y mae llawer am ei wneuthur. Gwyddys fod dylanwad ei areithyddiaeth ar y rhai a'i gwrandawent yn rymus iawn; ac hyd yn oed wrth eu darllen y mae cryn nerth meddwl yn ganfyddedig yn ei areithiau. Rhaid ei fod yn meddu rhyw fath o ddoethineb a barn; ac er mai dyn o dueddfryd ofnus, ac yn hytrach dyn llwfr, ydoedd efe, er hyny yr oedd yn dra galluog i gymmeryd mantais ar yr hyn a ennillid trwy eofndra pobl ereill. Yr oedd ei ymlyniad wrth egwyddor yn ymroddgar a chysson, ac am hyny y cafodd ei alw 'yr anllygradwy.' Ymddengys ei fod mewn bywyd preifat yn ddyn digon hawddgar; ac er na phetrusai efe wneyd ei ffordd yn mlaen trwy lifogydd o waed i gyrhaedd ei amcanion cyhoeddus, nid oedd yn teimlo, dybygid, y llawenydd barbaraidd a briodolir iddo gan y rhan fwyaf. Yn ystod teyrnasiad dychryn, yr oedd yn cael ei gario yn mlaen gan amgylchiadau, ac yn cymmeryd ei lywodraethu ganddynt. Diammheu ei fod yn cael ei ddal yn gyfrifol am weithredoedd nad oedd ganddo un law weithredol ynddynt, ond goddefol yn unig. "Marwolaeth, marwolaeth, o hyd!" meddai yn fynych iawn wrth ei gyfeillion; "ac y mae y dyhirod yn taflu yr holl fai arnaf fi! Y fath goffadwriaeth a adawaf ar fy ol, os bydd i hyn barhau! Y mae bywyd yn faich arnaf." Pa fodd bynag, pan yr oedd efe y penaf o lywodraethwyr Ffraingc y digwyddodd y creulonderau a'r tywallt gwaed mwyaf ofnadwy a fu yn Paris, a threfydd mawrion ereill yn y wlad hono.

ROBERTS, MICHAEL, Pwllheli. Yr oedd



Digitized by Google

efe yn fab i'r Parch. J. Roberts, o Langwm, gynt o Lanllyfni, ac yn nai i'r pregethwr enwog Robert Roberts, o Glynog. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1780, yn Llanllyfni. Cafodd ei ddwyn i fyny mewn addysg gyffredin dan ofal ei dad; ond pa ysgol-ddysg heb law hyny a gafodd nid ydys yn gwybod. Yr oedd efe yn ysgolhaig Cymraeg a Saesneg da. Dygwyd ef i fyny yn grefyddol o'i febyd, wedi ei faethu yn ofalus yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Yr oedd yn amlwg wedi ei barotoi gan Dduw, a chan ei deulu, i weinidogaeth y gair. Dechreuodd bregethu yn niwedd 1796, pan nad oedd ond un ar bymtheg mlwydd oed. Pan oeddid yn ceisio trwydded iddo i bregethu, yr oedd ei dad a rhyw gyfaill gydag ef; ond yr oedd yr ustus, wrth ei ganfod mor ieuangc, yn petruso yn fawr a oedd yn addas caniatau trwydded iddo i waith mor bwysig a phregethu yr efengyl. Dadleuai ei dad a'i gyfaill drosto, gan sicrhau ei fod wedi dysgu yn dda, yn deall Saesneg fel y gallai gyfieithu o'r iaith hono i'r Gymraeg gyda rhwyddineb, a'i fod yn dra hyddysg yn yr Ysgrythyrau. Dywedai yr ustus yn bwyllog, os cai efe foddlonrwydd am gymmhwysderau y llangc ieuangc i bregethu, y gwnai efe ganiatau eu dymuniad; ac wedi ychydig ymofyniad yn chwaneg, rhoddodd iddo y drwydded angenrheidiol. O hyny allan, ymroddodd i lafurio hyd y gallai, a bu yn teithio cryn lawer gyda'i ewythr, Robert Roberts, trwy ogledd a deheu Cymru yn ei flynyddoedd cyntaf; a daeth yn fuan yn bregethwr tra phoblogaidd a dylanwadol. Yn y flwyddyn 1802, pan yr oedd yn ddwy ar hugain oed, symmudodd i Bwllheli i gadw ysgol, ac yno y preswyliodd hyd derfyn ei oes. Yr oedd Mr. Evan Richardson, Caernarfon, wedi bod yn Mhwllheli am beth amser lawer o flynyddoedd cyn hyny, ond ryw fodd wedi methu gwneyd ei gartref yno, a dywedodd, "Wel, fy nghyfaill ieuangc, yr ydych yn wynebu tua'r Pwll. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn gysurus a defnyddiol yno;" a rhoddodd rai cynghorion annogaethol iddo. Wedi ymsefydlu yn Mhwllheli, ymaflodd yn egnïol yn y gorchwyl o gadw ysgol ddyddiol —gorchwyl y buasai amryw o bregethwyr sir Gaernarfon yn wasanaethgar a thra llwyddiannus ynddo. Bu yntau yn ffyddlawn i hyfforddi llawer, nid yn unig yn elfenau dysgeidiaeth gyffredin, ond hefyd yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Yn 1805, priododd ferch ieuangc o Dremadog, a bu iddynt bedwar ar ddeg o blant. Yr oedd magu a chynnal y fath deulu lliosog yn gofyn llafur a diwydrwydd mawr, gan y dibynai y cyfan ar ymdrech y penteulu. Ymaflodd afiechyd corphorol ynddo hefyd pan yn lled ieuangc, sef diffyg anadl; yr hyn a'i dilynodd mewn rhyw ffurf neu gilydd drwy ei oes. Ar ol rhoi yr ysgol heibio, bu yn cadw maelfa neu siop am lawer o flynyddoedd; ond er holl drafferthion ysgol a masnach, yr oedd yn ffyddlawn a gweithgar gyda'r achos crefyddol yn y dref. Anfynych y byddai yn absennol o gyfarfodydd crefyddol yr eglwys. Pregethai bob nos Iau yn ei gartref, hyd y goddefai ei iechyd, heb law gwasanaethu ar y Sabbath yn fynych yno. Nid oedd neb yn fwy cymmeradwy nag efe yn ei gartref; a pho amlaf y pregethai, lliosocaf y gwrandawyr. Byddai galw parhaus arno i bregethu yn ngwahanol deithiau Sabbothol y sir; a mynych y dychwelai adref ar foreu Llun, erbyn amser yr ysgol, heb fod funyd yn ei wely drwy y nos, o herwydd diffyg anadl. Yr oedd yn arfer dilyn cyfarfodydd misol y cyfundeb yn y sir yn gydwybodol a manwl; ac am lawer o flynyddoedd blaenorai yn y cyfarfodydd hyny, a theimlid colled os byddai yn absennol. Yr oedd sir Gaernarfon y pryd hyny heb ei rhanu yn ddau gyfarfod misol. Dilynai y cymdeithasfaoedd chwarterol hefyd mor gysson ag y gallai, yn y rhai y pregethai bob amser yn rymus ac effeithiol, oddigerth ei luddias gan afiechyd. Er ei holl anfanteision, yr oedd efe yn efrydydd dyfal, ac wedi darllen yr awduron goreu, hen a diweddar; a byddai ol llafur a myfyrdod yn amlwg ar ei holl bregethau.

Tua dechreu 1832, canfuwyd arwyddion fod ei afiechyd yn cymmeryd ffurf arall, trwy godi yn ei ben, ac ar amserau yn ymddangos fel yn effeithio ar ei synwyrau. Er hyny, parhaodd i bregethu am gryn ysbaid—ac ni welid un amser ddim coll arno yn y pulpud. Yr oedd ei gyfeillion wrth hyn yn gobeithio ei fod yn gwellhau; ond yn haf 1834, gwaethygu yn fawr a wnaeth: ac ar ol oedi yn hwy nag y dylesid, anfonwyd ef i noddfa (*asylum*) rhai yn y cyffelyb anhwyldeb yn Nghaerlleon; a than ofal y prif feddyg yno, cafodd adferiad perffaith i'w bwyll, a dychwelodd adref yn niwedd 1840. Ond bu am flynyddoedd ar ol hyny yn dioddef yn drwm o herwydd diffyg anadl, ac yn hollol analluog i bregethu, nac i fod yn bresennol yn yr addoliad cyhoeddus ond yn anfynych. Yn raddol daeth i allu dyfod yn fwy cysson ar y Sabbath a dyddiau gwaith, ond ni anturiai i wneuthur dim yn gyhoeddus, oddi eithr dywedyd ychydig mewn ambell gyfarfod eglwysig; a phryd bynag y dywedai air, byddai yn nodedig o effeithiol. Wedi bod fel hyn heb bregethu am o ddeutu tair blynedd ar ddeg, cafodd adferiad iechyd i'r fath raddau ag y gallodd ail ymaflyd yn ei waith, er llawenydd mawr i'w holl gyfeillion. Bu mewn amryw o gyfarfodydd misol yn Lleyn ac Eifionydd, ac unwaith o leiaf yn Arfon, yn pregethu gyda dylanwad mawr. Pregethodd hefyd yn Nghymdeithasfa'r Bala yn 1848, gyda nerth anarferol. Yr oeddid yn gobeithio ar y pryd yr estynid ei ddyddiau rai blynyddoedd yn mhellach i wasanaethu ei genedl yn yr efengyl; ond fel arall y bu, er galar a siomedigaeth i laweroedd. Yr oedd y cynnhyrfiad i'r fath lafur yn fwy nag y gallai ei natur ei ddal; ac mewn canlyniad daeth gradd o ammhariaeth ar ei feddwl drachefn. Adfeiliodd ei iechyd yn gyflym, a therfynodd ei yrfa braidd yn annisgwyliadwy i'w gyfeillion. Bu farw mewn tangnefedd, ac mewn llawn feddiant o'i synwyrau, Ionawr 29ain, 1849, yn 68ain mlwydd oed. Pregethodd y Parchedig John Jones, Tremadog, yn ei gynnhebrwng i'r dorf liosog a galarus oedd wedi ymgynnull ar yr achlysur. Rhoddwyd ei weddillion i orphwys yn mynwent Deneio—llan y plwyf y mae Pwllheli yn sefyll ynddo.

Yr oedd Michael Roberts yn ddiau yn un o bregethwyr hynotaf ei oes. Ystyrid ef yn un o'r rhai mwyaf galluog yn mhlith ei frodyr. Yr oedd wedi darllen llawer, a'i gof yn gryf, a'i ddeall yn gyflym. Er yn fychan ac eiddil o gorph, yr oedd ei lais yn dreiddgar, yn glir, yn fwyn, ac yn beraidd, fel y pregethai yn rymus ac effeithiol i'r cynnulleidfaoedd mwyaf. Dywedir fod trefnusrwydd manwl ei dad, a difrifoldeb dwys ei ewythr, wedi cydgyfarfod ynddo, a bod ei wybodaeth yn llawer helaethach. Yr oedd difrifwch ei ysbryd, pwysigrwydd ei faterion, pereidd-dra toddedig ei lais, purdeb ei iaith,

Digitized by Google

a godidawgrwydd ei syniadau y fath fel y byddai dylanwadau angerddol weithiau yn dilyn ei weinidogaeth. Sonir am un bregeth nodedig ar *Salm* i. 5, a bregethwyd ganddo ddydd Llun y Pasc, 1818, yn y Pennant, ger llaw Dolbenmaen, gyda'r fath nerth ac effeithiau neillduol wrth ddisgrifio cyflwr truenus yr annuwiol yn y farn, fel yr ennillwyd drwyddi yn mron bawb oedd yn ei gwrandaw i broffesu crefydd. Rhoddodd y bregeth hono ergyd drom ac anesgorol i ŵylmabsant Tremadoc, oedd y pryd hyny yn cael ei gynnal gyda rhwysg mawr. Yn Ebrill canlynol, pregethodd ar yr un testyn yn nghymdeithasfa Llanidloes, gyda grymusder anarferol. Yr oedd ei ysbryd wedi ei gynnhyrfu ynddo, wedi gweled annuwioldeb y dref; ac yr oedd dychryn Duw yn llanw y lle, fel nad oedd braidd neb yn mysg y miloedd cynnulledig heb deimlo i ryw raddau awdurdod y gwirionedd. Yr oedd sobrwydd yn dilyn y bregeth ar y dref am wythnosau; a chyn pen y flwyddyn chwanegwyd dros gant a hanner at yr eglwys yn Llanidloes yn unig mewn canlyniad iddi, ac amryw gannoedd hefyd at eglwysi y wlad o amgylch.

Yr oedd y diweddar Barchedig William Ambrose, Porthmadoc, pan yn ieuangc, yn hoff iawn o'i wrandaw, a chyfansoddodd Farwnad brydferth ar ei ol, yn yr hon y rhydd y disgrifiad canlynol o hono fel pregethwr:—

"Nid oedd neb yn nyddiau 'm hi'engctid
Garwn weled fel efe;
Pan agorai ei wefusau,
Teimlwn Dduw yn llenwi 'r lle.
Drychfeddyliau yn disgleirio
Drwy 'r ymadrodd treiddiol, mwyn,
Nes oedd creigiau hen galonau
Yn ymollwng dan y swyn.

Nid drwy floedd a geiriau gweigion
Y cyrhaeddodd y fath radd:
Nid oes niwed mewn taranau—
Y mellt distaw sydd yn lladd.
Yr oedd sŵn ei ddoniau esmwyth
Fel awelon rhwng y dail;
Medrai ysgwyd teimlad plentyn,
A'i gydwybod bob yn ail."

Ychydig iawn o gynnyrch ei feddwl a roddodd Michael Roberts allan drwy y wasg. Yr oedd ganddo gryn law yn nghyfansoddiad "*Cyffes Ffydd*" y Methodistiaid Calvinaidd, drwy gyfuno y ddwy rag-ysgrif a barotöasid—un dros y Deheubarth, a'r llall dros y Gogledd. Dywedir mai efe oedd bywyd y cyfeisteddfod a bennodasid i hyny yn nghymdeithasfa Aberystwyth, Ebrill, 1823:—"yr oedd efe ar funyd yn gweled pa beth i'w ddodi i mewn, a pha beth i'w adael allan." Cydnabyddir iddo drwy ei graffder wneyd gwasanaeth anmhrisiadwy i'r cyfundeb yn hyn. Yn 1829, gyda chynnorthwy ei dad, a'r Parch. Richard Jones o'r Wern, ysgrifenodd gofiant byr am ei ewythr, Robert Roberts, o Glynog. Yn 1830, cyfieithodd a chyhoeddodd draethawd y Parch. John Munro, Knocklands, "*Am Ddeiliaid a Dull Bedydd*:" ac yn ei lythyr at y darllenydd, ceir ei resymau dros gymmeryd y gorchwyl hwnw mewn llaw. Y mae ein llyfrau hymnau yn cynnwys un hymn ragorol o'i waith ar "Etholedigaeth gras." Cyfansoddodd hi Hydref 22ain, 1805, wedi darllen y bennod ar y pwngc yn nhraethawd Eliseus Coles, ar "Benarglwyddiaeth Duw, a'i gyfiawnder." Gwelsom yr ysgrif wreiddiol o honi ar ddalen wen cyfargraph o'r llyfr hwnw, yn ei lawysgrifen deg a phrydferth ei hun. Cynnwysai bump o benillion; ond y mae y pedwerydd pennill wedi ei adael allan yn mhob argraphiad o honi. Fel hyn y mae:—

"O! ddyfnder anchwiliadwy
I reswm na dawn dyn;
Ac anamgyffredadwy
I bawb ond Duw ei hun!
O! gnawd—rhaid i ti dewi—
'Rwy'n penderfynu 'n awr,
Addoli, credu, caru
Duw yn ei arfaeth fawr."

Yn ei gyssylltiad â'r pennillion ereill, fe allai mai yn olaf y mae ei le yn fwyaf naturiol, ac y darllenai oreu. Gwel yr hymn "Rhyfeddol byth! rhyfeddol!" &c., yn y gwahanol gasgliadau. Yn nghasgliad Harris, Abertawe (B.), cyfrifir yr hymn yn amryfus i Ann Griffiths, am ei hargraphu gyda'i hymnau hi yn yr "*Hymnau o fawl i Dduw ac i'r Oen*," 1806 ac 1808. Heb law yr emyn grybwylledig, nid ydym yn gwybod fod dim arall o'i brydyddiaeth ar gael.—"*Methodistiaeth Cymru*;" "*Cofiant y Parchedig John Jones, Tal-y-sarn*;" "*Casgliad o hen Farwnadau Cymreig*," &c.

ROBERTS, ROBERT, Clynog, yn swydd Gaernarfon, ydoedd weinidog o enwogrwydd anghyffredin gyda'r Trefnyddion Calvinaidd. Ganwyd ef Medi 12fed, 1762: ei rieni oeddynt Robert Thomas a Catherine Jones, o Ffridd Baladeulyn, Llanllyfni. Yr oeddynt yn bobl grefyddol, yn cynnal addoliad teuluaidd yn eu hannedd, ac yn rhoddi yr addysgiadau crefyddol goreu i'w plant. Parhaodd gwrthddrych y nodiadau hyn, er yr holl fanteision, yn lled ddisylw o grefydd hyd onid oedd tuag un mlwydd ar bymtheg oed. Y pryd hwnw, wrth wrandaw ar y Parch. Dafydd Jones, o Langan, yn pregethu mewn lle a elwir Bryn'rodyn, yn agos i dref Caernarfon, dygwyd ef i ystyriaeth briodol o'i sefyllfa golledig fel pechadur; ac yn fuan wedi hyny i feddwl yn ddwys am y gwaith oedd gan ei Arglwydd iddo i'w gyflawni, cyn y byddai hir, fel llestr etholedig ganddo i ddwyn ei enw ger bron y byd; ac yn lle gweithio yn nghloddfeydd llechi Llanllyfni, lle yr ymarferai â'i alwedigaeth gyffredin, buan y cymmhwyswyd ef i godi o'r tyrau llwch feini bywiol o ddynion at adeiladaeth ei dŷ ysbrydol drwy yr holl Dywysogaeth, o'r naill derfyn i'r llall. Wedi ymwasgu at ddysgyblion y Gwaredwr, newidiodd ei alwedigaeth fydol, ac aeth i wasanaeth amaethydd yn y Coed-cae-du, yn yr un ardal, wedi bod am ychydig amser yn Mrynengan; ac yr oedd yn hyfrydwch ganddo feddwl ei fod erbyn hyn mewn lle manteisiol i fyw yn grefyddol, a hyny yn y man a ddaeth wedi hyny yn gartref i'r enwog Richard Jones, o'r Wern. Arosodd yma hyd nes y priododd; ac mewn tŷ ar y tyddyn hwnw y bu fyw, wedi ymsefydlu yn y byd, am rai blynyddau. Symmudodd oddi yno cyn hir i Glynog Fawr, yn Arfon—lle y treuliodd weddill ei oes, ac y gorphenodd ei yrfa ddaearol fer a disglaer yn orfoleddus iawn. Yn mhen wyth mlynedd wedi iddo brofi melusder athrawiaeth gras yr efengyl gyntaf y dechreuodd bregethu Crist yn geidwad i bechaduriaid; a pharhaodd yn y gwaith yn llwyddiannus iawn hyd nes y cyrhaeddodd ei ddeugain mlwydd oed—pan y gorphenodd ei yrfa. Tystiai ei gydweinidogion, ac ereill a'i hadwaenent oreu, ei fod fel seren lewyrchus a thanbaid yn ffurfafen yr eglwys, ac fel seraph tanllyd yn ehedeg yn nghanol y nef, â'i lef soniarus fel taranau cryfion rhwygol

Digitized by Google

yn erbyn Babilon Fawr, nes peri i'w wrandawyr o'r braidd ddychymygu fod adsain ei leferydd yn cydatteb o fryniau tragwyddoldeb, ac o feddgelloedd merthyron saint y Duw Goruchaf. Dywedir y byddai ar amserau y fath gyflawnder o arddeliad oddi uchod yn ymdywallt ar ei weinidogaeth nes y byddai ei natur yn methu ymgynnal dano, a'r bobl yn llefain wrth yr ugeiniau a'r cannoedd fel pe buasai cleddyfau yn eu trywanu, a'r dagrau yn llifeiriol ar eu gruddiau, a'r effeithiau mewn canlyniad o'r braidd yn annarluniadwy yn mhob cymmydogaeth lle yr elai i bregethu.

Ymddengys na chafodd Robert Roberts nemawr o fanteision addysg foreuol uwch law ei ddiwydrwydd diorphwys, yn ei hunanhyfforddiant. Wrth ddarllen y salmau perthynol i bob dydd gyda y Parch. Richard Jones, o'r Wern, a'i dad, pan yn gwasanaethu gyda hwy, y dysgodd efe ddarllen Cymraeg benaf oll. Bu wedi hyny gyda Mr. Evan Richardson, o Gaernarfon, yn dysgu Saesneg, mor bell ag y daeth yn alluog i ddeall gwaith awdwyr yn yr iaith hono yn lled dda. Dywedai Richard Jones, o'r Wern, ei fod yn cofio, pan y daeth i wasanaeth ei dad, ei fod naill ai trwy oerni neu ysigo wedi cael rhyw afiechyd cyn iddo ddyfod atynt hwy; ac erbyn pen y ddwy flynedd y bu yno, yr oedd ei afiechyd wedi myned mor gryf fel yr analluogid ef i barhau wrth ei orchwylion fel o'r blaen; ac er ei fod y pryd hwnw yn ddyn hoew a bywiog, etto yr oedd ei afiechyd wedi gwreiddio mor ddwfn yn ei gyfansoddiad fel nad allai ei ysgwyd ymaith; ac fe effeithiodd o'r diwedd mor gryf nes ei ddarostwng o fod yn ddyn tal a lluniaidd yn gorach byr a chrwca; ac felly y parhaodd agweddiad ei gorph afiachus tra y bu yn llafurio yn y weinidogaeth, ac yn teithio drwy wahanol barthau y Dywysogaeth gyda'r gwaith.

Y mae y cyhoedd drwy ein gwlad dan yr argraph fod nifer o gawri yr areithfa yn Nghymru, rai blynyddau yn ol, na wnaed cyfiawnder â'u hanes hyd y dydd hwn, ac y dylid ymdrechu, drwy lwybr priodol, i osod eu rhagoriaethau yn deg ger bron, fel y byddont ar "gôf a chadw" i'r oesoedd a ddeuant. Y mae amryw o honynt nad oes neb o'r rhai sydd yn fyw yn awr wedi eu clywed na'u gweled; ond y mae nifer ar gael hyd yn hyn, ac a glywsant adroddiadau lled fanwl am yr hyn oedd yn eu hynodi, ac sydd etto fel tystion credadwy, a fu yn mysg eu gwrandawyr. Pan yr elo y tô presennol ymaith i ffordd yr holl ddaear, bydd yn rhy ddiweddar i geisio gwneyd ymofyniad yn eu cylch; a bydd y traddodiadau wedi myned yn rhy bell ac oedranus i allu pwyso nemawr arnynt. Y mae gwrthddrych yr erthygl bresennol yn un o'r rhestr hon. Yr oedd cyfarfod pregethu gan yr Annibynwyr yn nhref Pwllheli ar yr 20fed o Hydref, 1836—bellach er yn agos i ddeugain mlynedd yn ol. Gwahoddwyd y gweinidogion oll y boreu dranoeth i dŷ y diweddar D. Williams, Ysw., Castell Deudraeth, a breswyliai yn y dref ar y pryd; ac yr oedd y diweddar Barch. Michael Roberts, gweinidog y Trefnyddion Calvinaidd, yno gyda hwynt. Yn ystod y gyfeillach ddyddorol, gofynodd Caledfryn iddo:—"Mr. Roberts, rhoddwch i ni yn awr ddarluniad lled gyflawn a chryno am eich ewythr. Beth oedd ei brif hynodion? yn mha le yr oedd cuddiad ei gryfder ef? yn mha bethau y gwahaniaethai oddi wrth arall, ac y rhagorai ar bawb? a pha beth oedd ynddo yn peri cynnyrchu yr effeithiau anarferol ar y cynnulleidfaoedd, ag y clywsom oll gymmaint am danynt, yn mhob pregeth a draddodai? Diau y byddai yn ddyddordeb ac adeiladaeth i ni i gyd." Amlygodd y cyfeillion oll yr un taerineb, a chydsyniodd yntau â'r cais yn bwyllog a helaeth iawn. Ychydig o gofnodau sydd ar gael am dano. Y mae hyny sydd ar gael mewn cofiant am dano a gyhoeddwyd gan Mr. Roberts yn 1829. Y mae rhai nodiadau gan Eben Fardd, a marwnad ar ei ol gan Dewi Wyn, pan yr oedd yn ieuangc; a cheir cynnwysiad o'i sylwadau yn y gyfeillach grybwylledig yn gydblethedig â'r adgofion y cyfeiriwyd atynt. O ran ei gymmhwysderau i'r weinidogaeth, er ei fod o ran agwedd ei gorph yn egwan, etto yr oedd ei lais yn glir, a'i barabl yn groew; a meddai ar gof rhagorol. Er nad oedd yn deall nemawr am wir gelfyddgarwch ffugyrau areithyddiaeth, na rhesymeg, etto, er hyn i gyd, yr oedd yn gallu gwneyd ei hun yn berffaith ddealladwy i bawb. Yr oedd ei ymadroddion fel ffrydiau tryloew yn eu traddodiad, ei gyffelybiaethau yn briodol i'w hamcan, ac yn enwedig pan y byddai llewyrch oddi uchod ar y gwirioneddau, ac Ysbryd y Gras yn rhoddi ei sêl ar y cyfan, o'r braidd, yn mhob pregeth ac anerchiad a roddai. Yr oedd bywiogrwydd ac eofndra anarferol i'w ganfod yn nhrem ei wynebpryd. Yr oedd ei edrychiad difrifol yn gwbl ddirodres, ac yn codi disgwyliadau uchel yn meddyliau y dorf am ryw bethau teilwng o genadwri y cymmod, a chynnygiad o drugaredd rad i bechaduriaid euog. Nid ar hwyl yn unig y dibynai; o blegid dangosai arwyddion o drefn a chynllun ar bob amgylchiad—etto, anfynych y byddai heb yr hwyliau nefol. Yr oedd llawer o gyferbyniadau yn ei bregethau, ac yr oedd ganddo allu i ddwyn yr eithafion pellaf oddi wrth eu gilydd i gydgyfarfod yn naturiol iawn. Seiniai gloch larwm mewn rhybudd cyffrous, a thorai i wylofain a dagrau, gyda'r anadliad nesaf. Lluchiai fellt y gyfraith gyda gwreichion ysol ar gydwybodau dynion ar un munyd, a thywalltai gawodydd graslawn efengyl iachawdwriaeth, mewn brawddegau cyssylltiedig â'u gilydd yn ddidor. Yr oedd dull darlleniad ei destyn yn wastadol yn ergyd barotoawl i greu disgwyliad, ac yr oedd pertrwydd ei ragymadrodd yn cyflwyno boddhâd arbenig, ac yr oedd ganddo ddigon o yni, ymadferth, a thân byw i weithio ei genadwri adref ar bob calon. Yr oedd ymadroddion yr ysgrythyr mor dwymn ar ei galon, ac mor hylithr ar ei dafod, gyda chyflawnder eu trysorfa, fel yr oeddynt yn newyddion oll ar ei gof, fel na byddai un attaliad na diffyg byth yn eu llefariad; ac ni chai y gwrandawr orphwys dim heb ei ddilyn yn mlaen hyd derfyn ei gadwyn o ymresymiadau, nes toddi y galon graig gallestr yn llyn dwfr. Adroddir am dano yn pregethu ar un amgylchiad, yn ei ddull bywiog a thanllyd, pan yn nghanol ei hyawdledd cyffrous y gogwyddai ei ben ac y gwaeddai dair gwaith yn olynol:—"Ust, ust, ust! Beth yw y sŵn a glywaf?" Ac yna bloeddiai allan yn uchel a tharanllyd:—"Ar yr annuwiol y gwlawia efe faglau tân a brwmstan," &c., nes yr oedd yr holl dorf fel pe buasai wedi ei rhwygo ar unwaith. Ar amgylchiad arall, darluniai Ionah yn cael ei daflu i'r môr, a'r morfil yn ei lyngcu i'w fynwes, ac yntau yn treiddio drwy y dyfnderoedd, nes yr oedd llwybr brigwyn ar ei ol, gan waeddi yn ei ymddangosiad: "Cliriwch y ffordd i deithiwr y Brenin, ac Ionah o'i fewn

Digitized by Google

yn gwaeddi, 'Teml! teml! teml!'" Ac yr oedd mil o seiniau mor effeithiol yn mhob llythyren o'r gair "teml," fel y gorlenwid teimladau yr holl dorf â rhyw effeithiau nad allesid yn hawdd roddi cyfrif am danynt. Ni byddai efe byth yn foddlawn yn yr areithfa os na byddai dan yr argraph fod ei bregeth yn "eglurhâd yr Ysbryd a nerth." Ar rai amgylchiadau, dywedid, pan na byddai arwyddion fod ei genadwri yn cael nemawr o argraph ar y bobl, y byddai iddo sefyll fel gŵr wedi synu, a chodai ei lygaid i'r nef heb ddywedyd gair; a thra y byddai ei ddagrau gloew yn disgyn o un i un, y naill ar ol y llall, dros ei ruddiau, fod iddo dori allan gyda banllef ddifrifol, "O Arglwydd! difa y llen—symmud y gorchudd!" nes y byddai yr holl dorf wedi eu trwytho yn eu dagrau, yr un modd ag yntau ei hun. Wedi cael y bobl i'r hwyl hon, byddai teimladau pawb at ei law mewn canlyniad hyd derfyn yr oedfa, nes y byddai y mawl cyffredinol yn llanw pob man. Yr oedd efe mewn cymmanfa un Nadolig yn Manchester yn 1794, a thra yr oedd yn pregethu, cyfarchai y dorf gyda dwysder anarferol, gan floeddio allan:—"O bobl! ai rhaid i mi ddyfod yma o Gymru i'ch gwneyd chwi yn fwy aeddfed i dân uffern?" Gyda'i ymadroddion cerddai y fath ddylanwad ag a feddiannai bob mynwes â braw; teimlai y caletaf ei fod megys yn ngŵydd y Barnwr; ofnent fod gwlad y trueni yn ymagor arnynt, a ffoent ar frys i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodid o'u blaen. Dro arall, pan yr oedd efe mewn cymdeithasfa yn Môn, yn nhref Caergybi, nid oedd yn gallu llefaru ond ychydig eiriau yn ddilynol nad oedd y gynnulleidfa yn tori allan—rai mewn ofn a chyni, a'r lleill mewn gorfoledd a llawenydd—i deimladau dwys; a bu effeithiau rhyfeddol mewn canlyniad i'r oedfa hynod hono hefyd.

Y mae Mr. Michael Roberts, yn ei gofiant am dano, yn crybwyll am ei ymweliadau â Llangeitho, i wrandaw y Parch. Daniel Rowlands yn pregethu. Bob amser yr elai yno, byddai yn ysgrifenu y pregethau a wrandawai. Dywedwyd wrth Mr. Rowlands unwaith ei fod wedi ysgrifenu ei bregeth ef; ond ammheuodd yntau yn fawr, gan ddywedyd, "Ni wnaeth neb erioed mo hyny etto." Attebwyd, "Yn wir, syr, y mae yn debyg iawn." "Wele," ebai yntau, "dyro i mi ei gweled, bid a fyno?" Yna yntau a'i dangosodd yn wylaidd a gostyngedig; a phan ei darllenodd, dywedai Mr. Rowlands:—"Mi a welais lawer o ladron yn dyfod i Langeitho, ond tydi ydyw y lleidr goreu a welais erioed." Dros y saith mlynedd y bu yn gwasanaethu, nid oes bethau anghyffredin wedi digwydd mewn perthynas iddo; ond amryw waredigaethau a gafodd am ei fywyd, yn enwedig ar dri amgylchiad neillduol:—un wrth gynnorthwyo ceffyl i godi o'r ffos; un arall, cael ei gipio mewn afon gyda'r cefnllif; ac un arall, drwy i bren syrthio dan ei droed, o daflod, pan ddisgynai y pren gydag ef i lawr, ac mor agos ato fel y darfu iddo dori cudyn o'i wallt. Effeithiodd y gwaredigaethau hyn yn ddwys ar ei feddyliau, nes ei ddwyn dan deimladau difrifol, a phryder mawr am feddiannu grym duwioldeb: gwasgodd hyny ef at ddarllen ac i fwy o fanylrwydd ac ystyriaeth wrth ddarllen. Wedi iddo ddyfod i'r Coed-cae-du a enwyd yn barod, yr oedd ganddo gyfleusdra manteisiol i ddarllen a myfyrio drwy fod y tŷ allan, lle y byddai yn cysgu, wrth y drws, a byddai ganddo yntau ganwyllau o'r eiddo ei hun; ac ar ol swper bob nos arosai yno, yn fynych am oriau, gyda'i lyfrau, cyn myned i orphwys. Pan yr oedd ei frawd, John, yn ymadael âg ef unwaith, cynghorodd ef i beidio aros yn rhy hir ar ei draed, rhag ofn canlyniadau niweidiol; ond yr atteb oedd hyn:—"Nid oes genyf fi fodd yn y byd i roddi heibio ddarllen, gan y fath bleser wyf yn ei gael yn y Beibl. Y dull sydd yma o gyflawni addoliad teuluaidd yw, darllen y Salmau perthynol i'r diwrnod wrth y dydd o'r mis, yn ol y drefn yn y *Llyfr Gweddi Cyffredin.*" Gofynodd ei frawd iddo:—"A fyddwch chwi yn gwneyd felly bob dydd?" "Byddwn," ebai yntau, "bob dydd: hwyr a boreu, er na gwair nac ŷd, gwlaw na hindda, bydd fy meistr a Richard, ei fab, yn darllen bob yn ail adnod; ac y mae y gofal yn cael ei roddi arnaf nad esgeulusir mewn un modd er dim; ac y mae hyn wedi bod yn fendith fawr i mi. Yr wyf yn cael y fath olwg newydd ar fawredd Duw, manylrwydd ei ragluniaeth, teyrnas ei ras, cyflwr dyn annuwiol, a chyflwr plant Duw; profiad dyn duwiol, weithiau mewn profedigaethau oddi wrth Satan, byd, a chnawd, ac weithiau yn mwynhau heddwch a chysuron o wedd wyneb yr Arglwydd, fel pe byddai yn nefoedd ar y ddaear. Byddaf yn rhyfeddu pa fodd yr oeddwn yn darllen o'r blaen; ni ddysgais i ddarllen yn dda erioed o'r blaen nes y daethum yma i ddarllen y Salmau."

Dechreuodd ei afiechyd yn beswch trwm anarferol; ond yr oedd ei feistres, Margaret Evans, yn bur gyfarwydd â rhinweddau amryw fath o ddail, ac nid arbedodd draul na thrafferth tuag at wneyd lleshâd iddo; a llwyddodd yn rhyfeddol yn ei hamcan, canys gwellhaodd yn dda oddi wrth y peswch oedd arno; ond ar ol hyn trodd yr anhwyldeb yn boen i'w aelodau, ac yn grydcymmalau i'w esgyrn, ac yntau a lesghaodd. O ddeutu yr amser hwn, yr oedd wedi ammodi priodi—a bu yn ymgynghori âg amryw, ac â'i frawd yn neillduol, ar yr achos—sef, pa un a oedd ei afiechyd yn ddigon o achos dros iddo dori ei ammod; ond barnwyd nad oedd yn achos ag y gallai fod yn rhydd o'i herwydd, yn enwedig os nad oedd y ferch ieuangc yn foddlawn; ac annogwyd ef i gyflawni mor fuan ag y gallai, yn ol cyfaddasrwydd ei amgylchiadau, ac felly y bu. Ond cynnyddu a wnaeth ei afiechyd nes ei analluogi at ei waith, a bu raid myned i'r gwely; ac yno y bu am naw wythnos dan boenau trymion iawn drwy ei holl gorph, heb ddim esmwythdra nos na dydd. Ni arbedwyd ymofyn meddygon ac arfer moddion; etto, nid attebasant fawr, os dim dyben. Ond cafodd un cynghor a wnaeth beth lles iddo, sef cymmeryd chwŷs; ac ar ol hyny cymmeryd ŵy a *rum* ddwy waith yn y dydd am beth amser. Y mae yn debyg fod hyn wedi bod yn foddion i'w gynnhesu, ac i leddfu graddau ar ei boenau; ond erbyn dechreu ceisio codi, yr oedd golwg ryfedd arno. Yr oedd ei holl gymmalau yn ymddangos fel wedi myned o'u lle, ac hyd yn oed ei gefn wedi crymu, a'i gorph yn fyrach o dair modfedd nag y buasai pan yr oedd yn ei iechyd, ac felly yr arosodd tra y bu byw; ond etto unionodd yn raddol, a chryfhaodd cymmalau ei aelodau i raddau mawr. Tua yr amser hwn daeth gŵr ieuangc oedd feddyg adref, wedi bod yn teithio y gwledydd tramor; un o ardal Pen-y-morfa ydoedd. Pan yr aeth Robert i ymofyn âg ef mewn perthynas i'w iechyd, edrychai yn sŷn arno, a gofynodd pa beth oedd ei waith? Dywedodd yntau mai gwasanaethwr amaethyddol a fuasai tra y gallodd. Gofynodd

Digitized by Google

a oedd efe wedi arfer llawer â moddion meddygol: i'r hyn yr attebodd ei fod. "Welc," cbe y gŵr, "chwi a ellwch gymmeryd llawer etto, ond ni wnant un lleshâd i chwi." Gofynodd Robert iddo a welsai efe neb yr un fath ag ef? "Do," ebai yntau, "lawer gwaith. Gwelais hen filwyr wedi bod yn hir yn gorwedd allan yr un fath a chwi, ac wedi cael gormod o oerfel. A gwelais rai wedi bod yn hir mewn gwaith toddi mettelau, wedi cael gormod o wres, wedi myned yn debyg chwi; a gwelais rai wedi bod dan ormod trallod meddwl wedi myned yn gyffelyb. Y mae eich clefyd chwithau wedi dyfod oddi wrth un o ddau o'r pethau hyn. Ond mi a roddaf gynghor i chwi yn rhad, gan eich bod yn ddyn tlawd. Y mae yn awr yn myned at yr haf; edrychwch am ryw ffrwd lle y caffoch y dwfr clauaraf, cronwch bwll ag a fyddo o ddyfnder at eich gên; yna ewch iddo yn ddisymmwth, ac aroswch yno hyd nes y clywoch eich hun yn dechreu oeri, yna deuwch allan, a gwisgwch am danoch mor fuan ag y gallоch; a pharhewch am fis i wneyd hyny bob dydd pan y byddo yr hin yn deg—ond na wnewch os bydd yn oer." Felly y gwnaeth, a chafodd les mawr: esmwythaodd yn hollol oddi wrth y poenau, a chryfhaodd i raddau mawr o ran ei nerth corphorol.

Mewn llythyr at John Roberts, dywedai Richard Jones, Coed-cae-du:—"Rhyfeddais lawer gwaith na buasai rhywun cyn hyn wedi ysgrifenu rhywbeth o hanes eich brawd, Robert Roberts; ond wrth weled nad oedd neb yn gwneuthur, meddyliais y gallai yr hyn sydd genyf fi o'i hanes fod yn wasanaethgar; a gobeithiaf y bydd i chwi, gyda'r neb a allo, chwanegu yr hyn sydd ddiffygiol." Rhydd mewn canlyniad grynhoad o'i hanes boreuol yn Nghefn-pen-coed, yn mhlwyf Llanarmon, Eifionydd, a'i symmudiad oddi yno i wasanaeth ei dad a'i fam, yn Coed-cae-du. Crybwylla am ei afiechyd, a'r anfanteision dan ba rai y llafuriai. Dywed:—"O ran ei dymmher naturiol yr oedd yn ddyn siriol, diniweid; ac o herwydd hyn, gan fy mod innau yn fachgen llon a chwareus, yr oeddwn yn dra hoff o Robert Roberts, canys efe a chwareuai â mi yn llawen weithiau; ond byddwn yn gofalu na wnawn ymgipris at hyn pan y byddai yn agos at amser dyledswydd deuluaidd. Yr wyf yn barnu yn dra sicr fod fy mam, yn llaw rhagluniaeth, wedi bod yn foddion estyniad ei oes yn ysbaid amser ei weinidogaeth, ac ychydig cyn hyny." Dywed hefyd fod y naill afiechyd wedi esgor ar y llall ynddo, sef y graianwst a'r gareg; yr hon a orchfygodd holl ymdrech anian, ac a barodd i'r seren ddisglaer hon fachludo. Chwanega fel hyn:—"Pan oedd Robert Roberts o dair i bedair ar hugain oed yr ymwelodd yr Arglwydd mewn modd neillduol âg eglwys a chymmydogaeth Brynengan. Parodd i'r fath dywalltiadau ddisgyn o'r nef ar blant a phobl ieuaingc yr ardal, ynghyd â lliaws o hen broffeswyr hefyd, ac yn eu plith Robert Roberts, nes yr oedd adsain cân a moliant yn llenwi yr ardaloedd nos a dydd. Yn hyn, ofnai fy mam yr äi ei holl lafur gyda'i physygwriaeth yn ofer. Bu yn ei gynghori yn ddwys i beidio gwaeddi gormod, a gochel lladd ei hun yn neidio, onid e y byddai yn debyg o yru ei hen gymmalau afiach o'u lle. 'Nid oes mo'r help am dani, meistres,' meddai Robert:—

'Ni chollwyd gwaed y groes
Erioed am ddim i'r llawr.'

'Gwir,' meddai hithau—'a gwir na chollwyd mo hono i beri i neb waeddi a lladd ei hun.' Eithr er nac afiechyd na chynghor, nac arbed ei esgyrn na dim arall, canu a bloeddio a wnai Robert; ac uchel waeddi, 'Gogoniant!' â'i ddagrau yn llif. Ond i adrodd i chwi ychydig o'i hanes fel pregethwr. Nid oes dim i'w adrodd yn hyn am dano o'r pethau ag sydd yn fawr ac o fri uchel yn nghyfrif y byd: megys pa le y derbyniodd ei raddau mewn dysgeidiaeth, namyn na thrwy ei ddiwydrwydd yr ychydig amser a allai hebgor yn awr a phryd arall. Yn arfogaeth dlawd ei hunan-addysgiant yr anfonwyd ef i'r fyddin yn erbyn y cedyrn, ac nid gan ddyn na thrwy ddyn y cynnysgaeddwyd ef, a brofwyd yn rhy eglur; eithr efe a nerthwyd o wendid i wneuthur rhwygiadau yn myddin y gelyn, ac 'arhôdd ei fŵa ef yn gryf trwy ddwylaw grymus Duw Iacob.' O ran ei gymmhwysderau i'r weinidogaeth—er ei fod o ran agwedd ei berson yn ddiolwg, yr oedd ei barabl yn groew, ei resymau yn eglur, a'i fywiogrwydd a'i eofndra yn cyflwyno eu dylanwad gydag effeithioldeb mawr. Ond y peth mwyaf nodedig yn ei holl gymmhwysderau i'r fath orchwyl pwysig a goruchel ydoedd, yr addurn dwyfol o'r nef, â'r hwn y cafodd ymdrwsio, yr hwn ydoedd fel gwisgoedd llaesion Aaron, yn ei guddio o'i ben i'w draed. Pa wendid bynag a allasai fod o danynt, yr oedd arogl y pomgranadau a sain y clych aur yn cyhoeddi ei sancteiddrwydd trwy holl Israel. Eithr y mae yn debyg na wisgwyd yr offeiriaid erioed â'r fath addurn ag y gwisgodd yr Arglwydd yr offeryn hwn, ac a'i cadwodd i lewyrchu yn danbaid yn ffurfafen yr eglwys nes gorphen ei dymmor. Y mae yn ddiau fod defnydd mawr wedi ei wneyd o hono i fwrw i lawr lawer darn o furiau Iericho yn ein gwlad." Dywed Eben Fardd y cofir enw Robert Roberts, o Glynog, yn gyffredin gyda serch a syndod hiraethus, gan y rhai a'i hadwaenent, a chyda math o ocheuaid siomedig gan y rhai nad adwaenent ef, ond a glywsant y sôn mawr a rhyfedd am dano. Y mae ochenaid y rhai diweddaf yn arwyddocau gresyndod y meddwl am na buasid naill ai yn alluog i ffurfio rhyw arddrych meddyliol cryno a chywir am ei gymmeriad a'i dalentau, neu ynte, na buasid yn y byd rhyw drigain mlynedd yn gynt, i'w weled a'i glywed yn gwneuthur yr amlygiadau gogoneddus hyny o sêl danbaid a hyawdledd awdurdodol ag sydd wedi gadael argraphiadau mor ddyfnion ar feddyliau ei hen wrandawyr, nad allai cyfnewidiadau oes nac olyniaeth ac amrywiaeth doniau hanner canrif byth eu dileu! Dywed fod rhai adgofion am ei agweddiad personol a ellid eu casglu, fel y gellid dychymygu gweled, i raddau, ei ddarlun fel pregethwr. "Pan edrychwn ar hyny o goffadwriaeth sydd am dano yr ydym fel yn edrych ar amlinelliad darlun. Canfyddir rhywbeth fel pen ac ysgwyddau, dwyfron a breichiau, a rhywbeth fel llyfr yn y llaw; ond nis gallwn ddarganfod dim o fywiogrwydd ac arwyddolrwydd y llygaid, ysgafnolrwydd neu drymolrwydd yr ael, mynegolrwydd y genau, hysbysolrwydd y talcen, a nodweddolrwydd y trwyn:—pethau ag ydynt anhebgorol angenrheidiol tuag at roddi ar y darlun argraph o debygiaeth hunaniaeth. Yn union fel hyn (a siarad mewn dull cyffelybiaethol), yr ydym yn edrych ar benpryd gweinidogaethol Robert Roberts. Y mae y cyffyrddiadau hyny a amlygant nwydau y meddwl, cynnheddfau yr anian, a neillduolion y talentau a'r tueddiadau, heb eu rhoddi etto; a gwneyd i fyny i ryw raddau am y diffyg hwn yw dyben yr ymgais presennol."

Digitized by Google

Yna dilyna mewn cyfeiriadau at y gwahanol nodiadau sydd yn gyhoeddedig am dano, a thyn gasgliadau naturiol oddi wrth y tystiolaethau hyn ynghyd. Wedi cyfeirio at eofndra a bywiogrwydd ei ysbryd, a'i wynebpryd, ei lais, ei barabl, ei gof, a'i resymiaeth, chwanega: "Edrychwn bellach pa lun sydd arno genym erbyn hyn. Gosodwn ef yn y pulpud, yn weithiwr amaethyddol, gwargrwn, bychan; ond etto yn ei wynebpryd a'i edrychiad yn amlygu cynneddfau deallol o raddau uwchafol a dysgybledig. Dychymygwn ei glywed yn adrodd ei destyn mewn modd syml, difrifol, a tharawiadol; yna yn pregethu yn fywiog, hylithr, ac awdurdodol, gyda llais hyfryd, uchel, a pherseiniol—heb amlygu dim dyryswch na thywyllni yn ei amgyffredion, annibendod nac anhawsder yn y traddodiad, na gorthrech nac anneheurwydd yn ei ddadl a'i resymiad; ond yn dyfod drwy y cwbl yn lled foddhaol i deimladau a syniadau y gwrandawyr. Ymddengys i ni fod yr hyn a drinwyd eisoes o'i nodweddiad yn cyfiawnhau darluniad tebyg i hyn o hono, ac y mae hyn yn gwneyd i fyny bregethwr gwych. Ond rhaid i ni ddeall fod eithriadau achlysurol i'r ymddangosiad a'r cyflawniad yma o'i eiddo; o blegid dywedir yn ei gofiant, 'na phregethai bob amser mor nawsaidd a buddiol ag y buasai dymunol.' Hawdd genym ganiatau hyn; ond nid ydym drwy hyny yn rhoddi i fyny ddim o'i ragorion a nodwyd, mwy nag y rhoddwn i fyny fod yr haul yn ddisglaer a goleu pan y byddom yn canfod arno weithiau ddiffyg achlysurol drwy gyfryngiad rhyw sylweddau tywyll a effeithiant ar ei ymddangosiad i ni, er nad ydynt mewn un modd yn diddymu nac yn cyfnewid dim ar ei hanfod a'i briodoliaethau ef ei hunan. Ond fe allai fod ein darllenwyr ieuaingc, aiddgar, brwdfrydig, a dychymygfawr, yn barod i ofyn bellach gyda gradd o siomedigaeth, Ai dyna y fath un oedd Robert Roberts, o Glynog? Os felly, nid yw o gwbl y cyfryw un ag a ddychymygem ei fod?" Y mae yn naturiol i ni addef fod yn lled anhawdd cael darlun cyflawn o hono, ar hyn o bryd, heb gyfle i ddwyn ger bron yr holl draddodiadau am dano i un darlun teg. Y mae darluniad awen gyssegredig Dewi Wyn o hono, er mai yn ei ieuengctid yr ysgrifenodd, yn derfyniad priodol i'w fywgraphiad:—

"Ei goeth ergydion ef, a'i saethau
Miniog glynent mewn calonau,
Fe ga'dd fwynhau bendithion clau
Y dyddiau diweddaf;
Ond yn ei flodau, gefn cynhauaf,
Hunodd Robert!—hyn ddiarebaf!"

ROBERTS, WILLIAM, LL.D. (*Nefydd*). Mab ydoedd i Robert Roberts, crydd, o Lannefydd, a ganwyd ef yn y flwyddyn 1813. Yn ei ieuengctid cafodd addysg led dda. Yn 1830, symmudodd i Landdulas i weithio; ac yno ymunodd âg achos y Bedyddwyr, yn haf y fl. 1832. Oddi yno symmudodd i Henllan, a bu yno yn canlyn ei alwedigaeth fel crydd am un flwyddyn. Aeth i Landdulas y Sul cyntaf yn 1834, i draddodi ei bregeth gyntaf, ac ennillodd gymmeradwyaeth mawr. Yn haf y flwyddyn hono aeth i Lansilin, at y diweddar Barch. J. Williams, wedi hyny o'r Rhos, i dderbyn addysg ragbarotoawl i'r weinidogaeth. Ysgrifenai law dda, deallai Saesneg yn wych, a gwyddai gryn lawer o rifyddiaeth pan aeth i Lansilin; a chynnyddodd lawer yn y pethau hyny o dan ofal Mr. Williams, heb law dysgu ychydig o Ladin hefyd. Hynodid ei bregethau, hyd yn oed y pryd hwnw, gan lawer o feddylgarwch; ond byddai ei athraw yn poeni llawer arno o blegid ei hunanoldeb mympwyol a'i bendantrwydd di-ildio wrth bregethu. Wedi treulio wyth neu ddeng mis yn yr ysgol yn Llansilin, symmudodd yn ngwanwyn 1835 i'r Wyddgrug, fel math o genhadwr cartrefol, o dan nawdd y gymmanfa; a bu yno am yn agos i ddwy flynedd, mor lwyddiannus a derbyniol ag y gellid disgwyl i neb fod, tra nad oedd y Bedyddwyr ond gweiniaid yn y lle. Cymmerai ran yn mhob symmudiad cyhoeddus yn y dref, a pherchid ef yn gyffredinol.

Symmudodd i Liverpool yn nechreu 1837, ac ordeiniwyd ef yn yr haf canlynol yn weinidog ar eglwys Stanhope Street. Cafodd gyfleusderau neillduol yn Liverpool i gasglu gwybodaeth; ac ni bu neb erioed yn fwy diwyd a chydwybodol i wneuthur y defnydd goreu o'i gyfleusderau nag y bu ef. Treuliodd lawer iawn o amser yn y llyfrgelloedd cyhoeddus, yn sugno i mewn wybodaeth helaeth a fu yn sylfaen i'w enwogrwydd dyfodol.

Yn niwedd y flwyddyn 1845, ymadawodd o Liverpool, ac ymsefydlodd yn Mlaenau Gwent, lle y treuliodd weddill ei ddyddiau. Ennillodd wobr yn Eisteddfod y Fenni, yn 1848, ar "Hanes Mari Lwyd, neu Ofergoelion yr Oesoedd Tywyll." Dyna y tro cyntaf iddo alw ei hun yn *Nefydd*; ond ar ol hyny aeth ei enw priodol i raddau o'r golwg, ac adnabyddid ef yn mysg beirdd a llenorion Cymru wrth yr enw derwyddol a osododd wrth ei draethawd buddugol ar "Mari Lwyd." Cyhoeddodd y traethawd hwnw, gyda thraethawd gwobrwyedig arall ar "Ddylanwad yr Ysgol Sabbothol er cadwraeth y Gymraeg," ynghyd âg attodiad helaethach na'r ddau draethawd ynghyd ar y "Calendar Cymreig, Gŵyliau y Saint," &c., yn debyg o ran ystyr i'r "*Book of Days*," a gyhoeddwyd yn mhell ar ol hyny gan Chambers. Ysgrifenodd lawer o erthyglau galluog i'r "*Seren Gomer*," "*Y Bedyddiwr*," &c., megys "Hanes Bywyd y Dr. Llewelyn," a "Morgan J. Rhys," &c.

Bu am ddeuddeng mlynedd yn arolygydd Ysgolion Brytanaidd Deheudir Cymru, a gwnaeth lawer iawn o ddaioni yn y cylch pwysig hwnw. Gallwn nodi fod Nefydd yn ddyn o wybodaeth helaeth iawn—yn enwedig mewn hynafiaethau eglwysig a chenhedlaethol, derwyddiaeth, &c. Byddai yn fynych yn barnu mewn eisteddfodau ar byngciau cyffelyb, a byddai yn hynod dawel a digyffro pan rwgnechid yn ei erbyn gan ymgeiswyr aflwyddiannus. Heb law ei lafur gweinidogaethol, ei lafur gyda'r ysgolion, ei lafur gyda'r Eisteddfod Genedlaethol ac eisteddfodau lleol, a'i lafur diflino fel dinesydd a phlwyfwr, casglodd lawer iawn o lyfrau hynafiaethol, a llafuriodd lawer i ddeall hanes Anghydffurfiaeth, ac yn enwedig hanes y Bedyddwyr yn Nghymru. Ond angeu a roes derfyn ar ei holl amcanion; a rhwng dyryswch haiarn-weithiau y lle a'r ddamwain boenus a gafodd yntau ar y ffordd haiarn, machludodd ei haul a hi etto yn ddydd. Bu farw Mehefin 18fed, 1872, a chladdwyd ef Mehefin 24ain, yn mynwent capel yr Hen Flaenau.

Prif nodweddau ei gymmeriad oeddynt, hynawsedd, tynerwch, lledneisrwydd, a pharodrwydd hunanymwadol i amddiffyn ac ymgeleddu y gwan. Ei ddiffyg mawr oedd ei hwyrfrydigrwydd a'i arafwch digyffro i ddwyn ei arfaethau

Digitized by Google


i ben. Cafodd ei anrhydeddu cyn diwedd ei oes â'r gradd o LL.D. gan un o brifysgolion America; eithr bychan oedd ei syched am raddau o'r fath, ac ychydig o ddefnydd a wnaeth o'i urdd enw.

ROBERTS, WILLIAM, Amlwch, Môn: un o'r gweinidogion mwyaf parchus, galluog, a defnyddiol, a ymddangosodd yn nghyfundeb y Trefnyddion Calvinaidd yn y ganrif bresennol. Ei rieni oeddynt Robert ac Elizabeth Evans, Aberarch, plwyf Llaneilian, swydd Môn. Bu iddynt bedwar o blant, o ba rai yr oedd William yn drydydd, yr hwn a anwyd yn Aberarch ar y 19eg o Fedi, 1784. Ei hen daid o ochr ei fam ydoedd Richard Hughes, brawd i John Hughes, taid y diweddar Arglwydd Dinorben, Llysdulas, Môn. O ochr ei dad, yr oedd yn garenydd i'r diweddar Barchedig John Elias, trwy fod Robert Evans yn gefnder i Elias Jones; a diammheu fod y berthynas naturiol rhwng y ddau weinidog enwog, yn chwanegol at eu cyffelybrwydd i'w gilydd yn nheithi eu cymmeriad, yn sylfaen i'r cyfeillgarwch cu a fu rhyngddynt cyhyd ag y bu Mr. Elias byw. Pan oedd William yn agos i bum mlwydd oed, symmudodd ei rieni o Aberarch i dyddyn bach yn yr un gymmydogaeth o'r enw Hen Felin, yn yr hwn y preswylia rhai o'r teulu hyd y dydd hwn. Trwy fod ei dad, ac fe allai ei fam, yn bobl anllythyrenog, treuliodd William ei flynyddoedd boreuaf heb ddim manteision addysg. Nis gellir ammheu, pan ystyrir nodweddion neillduol ei feddwl, a'r awydd angerddol a amlygai ar ol hyn am feistroli mwy nag un gangen o wybodaeth, na elwasai lawer, yn adeg ei febyd, ar y manteision hyny oedd y pryd hwnw allan o gyrhaedd plant pobl gyffredin eu hamgylchiadau. Yr oedd Mr. Roberts trwy ei oes, yn gystal a Mr. Elias, yn hynod yn mysg ei frodyr yn y weinidogaeth am ei ymofyniad awyddus am wybodaeth o'r canghenau hyny na chyfrifid hwy y pryd hwnw yn angenrheidiol, os o unrhyw wasanaeth, i waith y weinidogaeth. Nis gellir, gan hyny, lai na gresynu fod gŵr o'r fath alluoedd wedi cael ei orfodi gan amgylchiadau i dreulio y blynyddoedd pwysicaf i'r efrydydd yn gwbl amddifad o'r manteision a fuasent yn sicr o adael argraph ddofn arno dros ei holl fywyd dilynol: ac nid oedd neb parotach nag ef ei hun i gydnabod y golled hon. Er hyny, tystiolaeth i nerth ei alluoedd, i rym ei benderfyniad, ac i ddyfalwch ei lafur, ydyw, ddarfod iddo, ar ol dechreu pregethu, a myned i drafferthion bywoliaeth, gasglu y fath wybodaeth ar faterion cyffredin—ar wyddoniaeth, hanesyddiaeth, cyfraith Prydain, &c.—fel ag i beri i'r rhai a gawsant fanteision ysgolion a cholegau lawer gwaith ryfeddu at eangder a chywirdeb ei wybodaeth. Byth ni fradychai anwybodaeth ar bethau cyffredin mewn ymddiddan nac mewn pregeth. Yr oedd ei gallineb yn ddigon i'w gadw rhag hyny; ond buasai yr un callineb yn ei gadw rhag dangos cymmaint o barodrwydd i gychwyn ymddiddan ar ganghenau gwybodaeth gyffredin, oni buasai ei fod wedi astudio llawer arnynt. Yr oedd gallu i ddeall, i dderbyn, ac i gadw, mor gryf ynddo ag oedd y gallu adfyfyriadol; ac y mae pawb a'i gwrandawodd yn gwybod fod yr olaf yn nodedig o gryf yn ei feddwl. Treuliodd y rhan foreuaf o'i fywyd hefyd heb y fantais bwysicach o gael ei ddwyn i fyny yn grefyddol. Er fod ei rieni yn bobl ddiwyd, gonest, a di-achwyn arnynt, etto nid oedd ganddynt fwy o grefydd nag a feddai pobl ddiniweid y plwyf, ac ereill heb fod mor ddiniweid; sef, cyrchu i'r llan, a derbyn y cymmun ar Sul y Pasc. Gellid meddwl mai yr unig addysg a dderbyniai gan ei rieni oedd y siars i fod yn ddiwyd, sobr, a gonest—addysg o'r fath werthfawrocaf, yn ddiau; a rhoddid i'r bachgen yr esampl oreu gartref o'r rhinweddau yma. Yr oedd yn gynnefin o'i febyd â gwaith, a pharhaodd yn weithiwr diarbed yn y naill gylch neu y llall, trwy ei oes. Dyn ydoedd yn casau diogi. Ni chydymdeimlai â'r diog mwy nag â'r meddw. Aeth i fynydd Paris pan yn ddeng mlwydd oed i weithio gyda'i dad yn y cloddfeydd copr. Dywedir gan ei nai, y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, ei fod, pan yn llengcyn ieuangc, yn hoff o waith, ac yn dra galluog i'w gyflawni. "Yr oedd yn ddyn o gyfansoddiad corphorol esgyrnog, ystwyth-gryf, ac felly yn fwy galluog na'r cyffredin i gyflawni gorchestwaith. Tynai gryn sylw arno fel dyn cryf a gweithgar. Clywsom ef yn dywedyd fwy nag unwaith iddo wneuthur cam â'i natur trwy ryw orchestion ffol, a thrwy weithio yn rhy galed." Nid oedd ei feddwl yn y blynyddoedd hyn yn cael ei aflonyddu ond ychydig gan ddim tu hwnt i derfynau "y pethau a welir." Yr oedd y dwyfol a'r tragwyddol heb ddadguddio eu hunain etto iddo. Un hollol ddiofal am bethau byd arall ydoedd y mwnwr ieuangc. Ei fwyd a'i ddiod ydoedd cyfeillach wagsaw ieuengctyd annuwiol y gymmydogaeth, a'r 'nosweithiau llawen' a gynnelid yn y tai yn hirnos y gauaf: ac yr ydym yn darllen fod mwy o swyn i William yn y cyfarfod 'llawen' a gynnelid yn nhŷ Shôn Robert Rolant nag yn odfaeon y capel. Unwaith, fodd bynag, tra yr oedd ei fam a'i chwaer, yr hon oedd yn ddiweddar wedi ymuno âg achos crefydd yn mhlith y Methodistiaid Calvinaidd, yn cyrchu i Borth Amlwch, i wrandaw gŵr dyeithr yn nghapel yr Annibynwyr, a William yn dilyn eu lled-ol i 'gapel Shôn Robert Rolant' i oedfa y 'noswaith lawen;' wedi iddynt ymwahanu—y fam a'r chwaer i un cyfeiriad, a William i gyfeiriad arall—digwyddodd peth i'r olaf a fu yn fendithiol i dori ar anystyriaeth ei feddwl pechadurus, ac i roddi y syniadau bywiog cyntaf iddo am yr ysbrydol; ac y mae y dull a gymmerodd y Goruchaf i'w ddeffro yn awgrymu fod ei feddwl yn flaenorol yn gwbl ddyeithr i ddylanwadau o natur uchel. Pan oedd ei feddwl yn llawn o ysbrydiaeth 'y noswaith lawen,' a chanwyll yn ei law i roddi goleuni ar y gweithrediadau yn nhŷ Shôn Robert Rolant, ar y ffordd dychymygodd fod rhyw ddrychiolaeth yn cymmeryd gafael ynddo ac yn ei wasgu, nes iddo feddwl fod ei anadl yn cael ei gymmeryd ymaith. Llanwyd ef âg arswyd, a dododd y ganwyll yn ochr y clawdd, ac aeth ar ffrwst i gapel yr Annibynwyr ar ol ei fam a'i chwaer. Wedi cyrhaedd yno, cafodd ei feddwl ei gythryblu yn fwy gan eiriau y pregethwr. Bu y ddrychiolaeth a'r bregeth yn foddion i dori am byth y cyssylltiad a fu rhyngddo a Shôn Robert Rolant, a rhoddes i fyny ei enwogrwydd fel arwr 'y nosweithiau llawen' yn yr ardal; ond ychydig, er hyny, oedd y cyfnewidiad yn ysbryd ac arferion y llangc. Pa fodd bynag, ryw noson, wrth ddychwelyd yn hwyr o dref Amlwch ar ol bod am oriau yn ymwerthu i bleser a gorwagedd, pan ar ei ffordd adref, "teimlodd," ebe ei fywgraphydd, "rywbeth arswydol yn ymaflyd ynddo, gan ei godymu a'i lusgo amgylch ogylch y parc, a'i adael yno yn hanner marw." Dichon nad oedd "drychiolaeth" y noswaith gyntaf, a

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google



Y PARCH. WILLIAM ROBERTS,

AMLWCH.

Digitized by Google

Digitized by Google

"rhywbeth arswydol" y nos hon yn ddim amgen na dychymygion ei feddwl ofnog ei hun; o blegid y mae gallu mawr gan feddwl anesmwyth a chydwybod gythryblus i greu drychiolaethau. Ond y mae yn sicr iddynt brofi iddo ef, yn yr effaith ddymunol ar eu hol, yn sylweddau gwirioneddol; "dofwyd ei feddwl gwyllt, gadawodd ei hen lwybrau, ac ymroddodd i fywyd sobr." Ond yr oedd rhyw ymweliadau gwell wedi eu bwriadu ar ei gyfer nag ymweliadau drychiolaeth. Dechreuodd wrandaw y Gair: yr oedd ei berthynas â John Elias yn ddigon o reswm yn ei olwg dros gyrchu i'w wrandaw ef; ac ar ol unwaith fyned i gyrhaedd swyn y pregethwr hwnw, ofer mwyach oedd ceisio ymddattod oddi wrtho. Bu gweinidogaeth gyffrous Elias o fendith fawr iddo. Ar ail ymweliad y pregethwr mawr â Môn, pan oedd yn pregethu yn nghapel Lledrod, ger llaw Amlwch, ar y testyn hwnw, "Ond y rhai a ymdroant i'w trofeydd, yr Arglwydd a'u gyr gyda gweithredwyr anwiredd," mor fawrion oedd yr effeithiau ar feddwl William fel yr arferai ddyweyd ei fod "yn teimlo fel pe buasai wedi ei warchau yn uffern, a'i fod yn ofni mai yno y buasai efe dros byth." Ond nid hir y bu heb i'w ofnau caethiwus—dychrynfeydd Duw a thân uffern, y rhai oedd yn yfed ei ysbryd; dychrynfeydd oeddynt yn effeithiol i'w ddwyseiddio, ac ymlid ymaith ei oferedd annuwiol, ond nid i'w sancteiddio—nid hir, meddwn, y parhaodd heb i'r rhai hyn ymadael. Tangnefedd Duw sydd yn glanhau y galon oddi wrth bechod: os gall arswyd Duw beri i'r drygionus adael ei ffordd, ei fuchedd allanol afreolus, tangnefedd Duw yn Nghrist a'i dwg i adael ei feddyliau ansanctaidd. Trwy bregethau Mr. Elias yn benaf y llewyrchodd goleuni Duw yn wyneb Iesu Grist i'w galon ef, ac y cynnyrchwyd ffydd, a chariad, a llawenydd o'i fewn. Arweiniwyd ef i ryddid gogoniant plant Duw: rhoddes ei hun i'r Arglwydd, ac wedi hyny i'w bobl ef, trwy ewyllys Duw. Yr oedd yn proffesu crefydd yn nghapel Lledrod cyn bod yn y 18fed flwydd o'i oedran; ac un o'r rhai hynotaf o'i chwiorydd crefyddol yn y capel oedd Catrin Rondol. Archwaethai yn awr orfoledd a mawl a phrofiadau efengylaidd Catrin yn llawn cymmaint ag yr hoffasai goegddigrifwch a maswedd Shôn Robert Rolant cyn noswaith y ddrychiolaeth gyntaf. Gwnaeth gweinidogaeth Elias argraphiadau dwys iawn ar ei feddwl yn yr adeg hon o'i fywyd. Er ei fod y pregethwr mwyaf tanbaid ac effeithiol drwy holl Gymru ar y pryd, a bod ei weinidogaeth yn gwneuthur yr argraphiadau dyfnaf ar gannoedd, etto y mae yn naturiol meddwl nad oedd neb o'i wrandawyr o Gaergybi i Gaerdydd yn teimlo yn ddwysach na'i garenydd. Yr oedd yn un a allai deimlo yn angerddol—a chanddo natur lawn o deimlad: yr oedd yn awr yn ieuangc, ac heb gynnefino â gwrandaw yr efengyl; ac yr oedd llaw Duw yn drom arno. Nid ydyw, gan hyny, yn beth i synu ato ei fod, nid yn unig yn ystyried John Elias y pregethwr mwyaf nerthol a glywsai yn ei oes—â hyn cydsynia miloedd âg ef—ond ei fod yn ystyried John Elias, pan yn ddyn ieuangc, yn bregethwr llawer mwy nerthol nag ydoedd ar ol hyny. Mynych y dywedai Mr. Roberts wrth ei gyfeillion ieuangach, na chlywsant erioed mo 'John Elias;' mai 'Mr. Elias' a glywsant hwy. Gwrandawodd efe arno yn y blynyddoedd na feddyliai neb ei alw yn ddim ond 'John Elias.' Clywsom ninnau ef yn dyweyd mai y tymmor uchaf ar weinidogaeth Mr. Elias oedd y flwyddyn neu ddwy pan yr oedd, ar ol ymsefydlu yn Môn, yn pregethu cyfres o bregethau ar yr eilfed bennod ar bymtheg yn Efengyl Ioan. Wedi i William Roberts ymuno â'r eglwys, buan yr ennillodd barch mawr yn mysg yr aelodau. Yr oedd yr argyhoeddiadau dwysion a brofodd wedi rhoddi elfen o ddifrifwch yn ei feddwl; ac yr ydoedd hyny, mewn undeb â gwedd sobr, nerth cymmeriad, a symlrwydd buchedd yn mhob peth, yn rhoddi iddo oruchafiaeth ar ei gyfoedion. Un fantais arbenig a gafodd yn yr adeg hon, oedd bod yn aelod mewn eglwys a ystyrid yn hynod yn mysg eglwysi yr ynys am wresawgrwydd a duwiolfrydedd ei haelodau. Disgynodd ei goelbren yn mysg crefyddwyr cymmhwys iawn i arwain a phorthi un ieuangc fel efe. Yr oedd yn yr eglwys rai dynion â llygaid yn eu penau; ac felly nid hir y bu William Roberts yn eu plith cyn iddynt ganfod ynddo, er ei holl wyleidd-dra, gymmhwysder i fod yn fwy cyhoeddus nag aelodau cyffredin. Trwy fod yn analluog i ddilyn ei alwedigaeth o herwydd gwaeledd ei iechyd, aeth am dri mis i ysgol y Parch. John Evans, gweinidog yr Annibynwyr yn Amlwch:—a'r tri mis yma oedd yr holl dymmor y bu dan addysg. Bu yn ddiwyd dros ben am yr adeg fer yma; ennillodd un peth ynddi nad ennillodd rhai mewn blynyddoedd o fod dan addysg—chwaeth at efrydiau. Y tri mis yma a osododd sylfaen y wybodaeth helaeth a'r ddysgyblaeth feddyliol a elent ar gynnydd am drigain o flynyddoedd. Gadawodd ysgol Mr. Evans, ar ol gwneuthur iddo ei hun le cyssegredig yn mynwes ei hen athraw. Ar ol hyn, symmudodd i Lanerchymedd i weithio ar dir un Mr. Roberts, lledrwr, yr hwn oedd yn henadur yn eglwys y Methodistiaid yn y dref hono. Cafodd yma fwy o fanteision i chwanegu ei wybodaeth grefyddol, trwy fod yn yr eglwys amryw o wŷr ieuaingc o ysbryd ymchwilgar. Bu ei arosiad yn Llanerchymedd yn fanteisiol i ddadblygu ei ddoniau cyhoeddus, ac i'w wneuthur ychydig yn fwy rhydd a hyderus i ymarfer â gweddïo yn y gynnulleidfa. Yr oedd yn awr, fel ar ol hyn, yn arbenig fel gweddïwr. Nid oes angen dyweyd nad yr hyn a'i hynodai oedd llithrigrwydd ymadrodd, a'r hyn a ystyrid gan rai yn ddawn gweddi poblogaidd; ond ysbryd defosiynol, a syniadau mawreddog, ac angerddoldeb teimlad, yn ymdori fel rhaiadrau nes ysgytio yr holl gynnulleidfa! Grym oedd yn awr yn ei nodweddu fel gweddïwr—grym syniadau, a grym teimlad; a'r un grym oedd ei ragoriaeth ar ol hyny fel pregethwr. Gwiriwyd ynddo ef y dywediad hwnw, mai gweddïwyr mawrion a wnant bregethwyr mawrion.

Ni bu adeg ei arosiad yn Llanerchymedd ond byr—o ddeutu deuddeng mis; wedi hyny ymsefydlodd yn Amlwch, gydag un Mr. Morgan, canwyllwr, yr hwn hefyd oedd un o flaenoriaid y Methodistiaid yn y lle. Yn fuan, etholwyd yntau yn flaenor neu henadur yn eglwys Lledrod, pan nad oedd ond ychydig dros ugain oed; ond trwy anhawsder mawr y cafwyd ganddo gydsynio â'r alwad. Yr adeg yma o'i fywyd, tra yn gwasanaethu ei feistr gyda ffyddlondeb mawr, nid anghofiai ddodrefnu ei feddwl ei hun; a mawr y defnydd a wnai o lyfrgell Mr. Elias yn Llanfechell. Croesawid ef gan Mr. Elias, yr hwn a roddai bob cynnorthwy iddo; ac nid gormod o lafur gan William Roberts, ar ol gweithio yn galed trwy y dydd, fyddai cerdded o bedair

Digitized by Google

i bum milldir yn aml, o Amlwch i Lanfechell, a threulio nosweithiau cyfain yn y llyfrgell i ddarllen. Ceid ef, fodd bynag, y boreu yn Amlwch gyda gorchwylion ei feistr. Wedi bod am ddwy flynedd yn flaenor, llwyddwyd gydag ef i ddechreu pregethu; ac yr oedd yn dra phoblogaidd yn ei doriad cyntaf allan. Y Sabbath, Mehefin 8fed, 1808, oedd y cyntaf iddo bregethu yn ei daith gartrefol. Ei destyn yn Lledrod ydoedd *Mat.* xvi. 26. Yr oedd y llanw yn ddigon uchel i godi cwch Catrin Rondol i nofio. Pan waeddai y pregethwr "fod gan Dduw drefn i gadw enaid," nid allai Catrin ymattal; ac ereill a deimlent can ddwysed a hithau, er nad oedd eu sŵn can uched. Tystiai amryw o'r rhai a'i gwrandawsant y Sabbath cyntaf o'i fywyd cyhoeddus fod ei bregethau y diwrnod hwnw yn dra effeithiol; y gwrandawyr a deimlent i'r byw o dan ei weinidogaeth, ac yr oeddynt yn synu yn aruthr fod pregethwr mor ieuangc, ac heb dderbyn ond ychydig iawn o fanteision, yn gallu pregethu gyda'r fath nerth. Dirgelwch y mater ydoedd, fod William Roberts wedi ei ddysgu gan Dduw, a llefaru yr ydoedd yr hyn a brofasai ei galon: dyn wedi gweled ei hunan y perygl yr oedd ynddo fel pechadur, yn rhybuddio ereill rhag y llid a fydd; dyn wedi adnabod gogoniant ac addasrwydd Crist fel Gwaredwr iddo ef ei hun, yn cymmhell ei gymmydogion ato.

Ar ol y Sabbath hwn yn nhaith Amlwch a Lledrod, cyflym yr ymdaenodd y sôn am William Roberts drwy yr holl ynys. Ymddengys iddo ddyfod ar unwaith yn bregethwr nerthol. Araf a graddol, yn ddiau, ydoedd ei gynnydd mewn gwybodaeth; nid ar unwaith y cyrhaeddodd y gallu dihafal a feddai yn y blynyddoedd yr ydym ni yn ei gofio i "eglurhau y gair trwy bregethu." Etto, o ran nerth, cyfeirioldeb, ac effeithiau ar y gwrandawyr, torodd allan ar y cyntaf yn bregethwr grymus. Yr oedd llawer o'i feddyliau mwyaf yr adeg hon, a'i ddulliau tarawiadol o ddangos y meddyliau hyny, yn codi yn uniongyrchol o'r galon. Allan o eirias ei deimlad tanllyd y lluchiai yr ymadroddion a ddisgynent fel talpiau tân ar y gynnulleidfa. Gwahoddid ef, pan yn ieuangc iawn fel pregethwr, i siroedd ereill, gan faint awydd y cynnulleidfaoedd i'w glywed. Unwaith, aeth dan wahoddiad i gyfarfod misol a gynnelid yn Nghaernarfon. Nid oedd rhai o'r pregethwyr yn cymmeradwyo ei ddyfodiad yno: dichon fod eiddigedd, neu hoffder o'u sŵn eu hunain, neu ofal am drefn y Corph, yn peri iddynt edrych ar ymweliad y pregethwr ieuangc â'u cyfarfod misol gyda chilwg. Dangosodd y Parch. J. Roberts, o Langwm, ei anfoddlonrwydd mewn geiriau: ac aeth yn enau drosto ei hun a thros ei frodyr eiddigeddus. Pa fodd bynag, trodd pregeth y gŵr ieuangc allan mor llwyddiannus nes gorchfygu pob rhagfarn, a gwneyd yr hen weinidog yn gyfaill calon iddo tra y bu byw. Cawn hefyd iddo fod yn pregethu yn Nghymdeithasfa y Bala yn mhen dwy flynedd ar ol dechreu ar ei lafur cyhoeddus; ac er nad oedd y diweddar Barch. Simon Lloyd yn cydweled â'i holl sylwadau, etto tystiodd gŵr llawer mwy am yr un sylwadau, nid amgen Mr. Charles, "na chafodd efe erioed ei foddhau yn gymmaint mewn ymadroddion ar farwolaeth y Gwaredwr." Ac yr oedd cymmeradwyaeth Mr. Charles o'r bregeth nid yn unig yn effeithiol i gefnogi meddwl W. Roberts, ond hefyd i newid barn Mr. Lloyd am dani.

Yn y tymmor yma o'i fywyd, pan ynghylch 30ain mlwydd oed, yr oedd yn nodedig am ei lafur—ei lafur fel gweithiwr i Mr. Morgan, ei feistr, a'i lafur hefyd fel pregethwr. Yn fuan aeth i wasanaethu am dymmor i Lundain, ac yn lled fuan ar ol hyny ymadawodd â Mr. Morgan, a chododd fasnach ar ei gyfrifoldeb ei hunan. Ennillodd iddo ei hun radd dda fel masnachwr; ac ymroddodd i astudio egwyddorion masnach. Beth arall oedd iddo ei wneyd? Carasai, y mae yn sicr, gydffurfio â'r drefn apostolaidd—"parhau mewn gweddi a gweinidogaeth y Gair:" ond yr oedd rheidiau bywyd a bywoliaeth yn galw arno, ac yr oedd yn rhaid gwrandaw arnynt. Nid oedd un o fil y dyddiau hyny wedi digwydd meddwl fod gorchwylion y weinidogaeth yn ddigon o faich i'r pregethwr, ac nid oedd yr eglwysi yn ddigon cryfion i roddi dim mwy na 'chydnabod' iddo. Felly yr oedd y pregethwr Methodistaidd dan gymmaint o rwymau a neb yn y wlad i fod yn llygadog gyda phethau y bywyd hwn; ac yr oedd gan William Roberts "lygad yn ei ben" a welai bob peth. Yr oedd yn ddyn hefyd at bob gwaith yr ymaflai ynddo. Rhagorai fel mwnwr, fel llafurwr tir, fel canwyllwr; a chyrhaeddodd ragoriaeth arbenig fel masnachwr. Daeth i ddeall egwyddorion masnach, a meddai y callineb ymarferol a allai gymmhwyso yr egwyddorion hyny. Nid elai un prynwr mwy llygadog nag ef o un man o Gymru i drefydd Lloegr. Ac felly, trwy ei ofal, ei wybodaeth, a'i ddiwydrwydd, daeth yn ngwyneb llawer o anfanteision yn fuan yn un o'r masnachwyr blaenaf yn y dref. Oni buasai ei fod yn bregethwr, gallasai ddyfod yn un pur gyfoethog. Prawf o nerth ei feddwl, ac o'i ymroddiad cydwybodol i'r gwaith mawr y galwyd ef iddo, ydyw, ei fod yn weinidog effro a llafurus yn y tymmor mwyaf prysur a phryderus arno fel masnachwr. Pan osodai i lawr sylfaen ei fywoliaeth, ac y masnachai dan lawer o anfanteision, cadwai ei olwg yn wastadol ar y weinidogaeth fel gwaith mawr ei fywyd. Yn y flwyddyn 1817, dewiswyd ef, ynghyd â'r diweddar Barch. Cadwaladr Williams, i'w ordeinio i'r holl waith; ac yr ydym yn cael fod etholiad y ddau yn dramgwydd mawr i frodyr hynach o fewn cylch yr un cyfarfod misol; a chawsant ddioddef llawer oddi wrth falais a chenfigen brodyr gau, y rhai oedd heb feddu digon o anrhydedd, heb sôn am ras, i'w cadw rhag ysgrifenu llythyrau dienw i'w difrïo. Bu yr ymddygiad brwnt a bradwrus yn niwed o'r mwyaf i'r rhai a'i cyflawnasant; eu cenfigen at eu brodyr a wanychasant eu defnyddioldeb —ond ni pharodd niwed iddynt hwy.

Ar yr 2il o Fawrth, 1818, ymunodd William Roberts mewn glân briodas â Miss Sarah Jones, Gwerni Hywel, Ysbytty, sir Ddinbych; yr hon a fu iddo yn ymgeledd gymmhwys hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth. Bu iddynt naw o blant, o ba rai y bu pedwar feirw yn ieuaingc. Dwy o'r merched a briodasant weinidogion yn Nghorph y Trefnyddion Calvinaidd—y Parchn. Owen Thomas, Liverpool, a Rees Jones, Port Dinorwic. Dwy ereill a briodasant ddiaconiaid yn yr un cyfundeb. Y mae ei unig fab yn ddiacon yn eglwys Amlwch.

Ar ol priodi, a myned yn benteulu, yr ydym yn ei gael, yn nghanol trafferthion, yn cadw ei lygad yn syml, fel cynt, at brif orchwyl ei fywyd. Ymrodda i lafur y weinidogaeth. Pregetha bob mis yn Amlwch, heb dderbyn dim gan yr eglwys. Y mae yn dilyn cyfarfodydd misol y sir gyda diwydrwydd. Dangosa y gofal mwyaf

Digitized by Google

cydwybodol am ei gyhoeddiadau Sabbothol. Amlyga ofal a phryder mawr ynghylch llwyddiant y cyfundeb y perthyna iddo. Teifl ei holl ddylanwad o blaid pob symmudiad a duedda i leshau ei gyd-ddynion. Y mae ei farn a'i ymddygiad yn gefnogol i bob cais i ddarostwng meddwdod ac anniweirdeb yn y wlad. Cydweithia â'r diweddar Barch. J. W. Trevor, periglor Llanbeulan, i wrthwynebu arferion llygredig yr ynys. Rhydd bob cefnogaeth i Gymdeithasau Cenhadol ac i Gymdeithas y Beiblau, trwy gyfranu at eu cronfeydd, a thrwy eu cefnogi yn eu cyfarfodydd blynyddol. Pan y sefydlwyd Ysgol Frytanaidd yn Amlwch, taflodd ei holl yni o'i phlaid. Ar ol marwolaeth Mr. Elias, nid edrychid ar neb fel olynydd teilwng iddo yn nghyfarfod misol y sir ond efe; ac er nad oedd neb purach oddi wrth uchelgais, etto yr oedd, o gydwybod a chariad at achos crefydd yn y wlad, yn cyfrif fod ei bresennoldeb bellach yn angenrheidiol yn y cyfarfod hwn. Daeth yn wir esgob dros yr holl ynys. Gwir ofalai am yr holl eglwysi: anfonid ef i bob cwr o'r wlad i ddadrys materion dyrys, ac i dawelu anghydfyddiaethau; ac yr oedd ei ddoethineb yn y cyfryw amgylchiadau yn llawer mwy nag eiddo un pregethwr yn yr ynys er pan y sefydlwyd Methodistiaeth o'i mewn. Er nad oedd efe yn "byw wrth yr efengyl," yn ol y gosodiad apostolaidd, ac na ddywedai gymmaint ag a ddymunai rhai ar ddyledswydd yr eglwysi yn y cyfeiriad hwn, etto naturiol yw disgwyl i un o feddwl mor graff fod yn iawn synied ar hyn, fel ar bethau ereill. Tra y condemniai wâg siarad ar gynnaliaeth y weinidogaeth, am y credai fod hyny yn tueddu i wneuthur niwed, etto amlygai bryder am ddyfodol Methodistiaeth, o herwydd ei musgrellni yn y pwngc o drefnu cynnaliaeth briodol i'w gweinidogion; ac er na siaradai yn aml, dywedai yn gryf ac effeithiol ar yr achos. Dywedodd wrth ysgrifenu at gyfaill, pe buasai ei amgylchiadau, er pan ddechreuodd bregethu, yn caniatau iddo fod yn rhydd oddi wrth fasnach, na buasai ganddo nemawr o hyfrydwch yn negeseuau y bywyd hwn. "Os na cheir rhyw ymwared i bregethwyr y Methodistiaid oddi wrth y gofalon hyn, y mae yn anhawdd heddyw gobeithio am lwyddiant y Corph yn fawr. Ond hyd yma ni byddai yn ddoeth i neb ymddiried llawer i'r Methodistiaid am ryw swm mawr oddi wrth lafur gweinidogaethol."

Gwna ei fywgraphydd y sylwadau canlynol ar Mr. Roberts yn ei gartref:—

"Yr oedd y priod serchocaf a'r tad mwyaf tyner. Nid oedd neb a hoffai ei deulu, ac a hoffid gan ei deulu, yn fwy nag ef. Parai hyn iddynt ymhyfrydu yn nghymdeithas eu gilydd. Er hyny, y mae yn rhaid dywedyd y byddai yn cael ei flino yn dost ar brydiau gan brudd-der mawr; yr hyn a dueddai i daflu mesur o drymder ar yr holl deulu. Ond yr oedd ganddo 'angel yn ei dŷ' yn mherson ei wraig, yr hon ydoedd yn dra llwyddiannus i ymlid ymaith y drwg ysbryd yna. Er hyn oll, yn gymmaint a'i fod yn ddarostyngedig i'r anhwylder hwn, ceid ef trwy ei oes mewn gwahanol foddau ar wahanol amserau. Yn y modd prudd y ceid ef bob amser bron, yn cychwyn o hono i daith bregethwrol neu i gymmanfa. Byddai amgylchiadau fel hyn yn taflu eu cysgodion tywyll ar ei feddwl am wythnosau cyn eu hamser, gan beri iddo boeni a phryderu nes ammharu ei iechyd. Meddiennid ef gan y fath brudd-der weithiau, fel nas gellid llai na thosturio wrtho. Ar adegau fel hyn, gorchwyl caled fyddai ei gychwyn oddi cartref. Byddai yn rhaid cuddio ei hen ddillad, a dodi ei ddiwyg Sabbothol yn ei ymyl, ac erchi y march allan; ac nis gwyddid yn iawn, hyd oni welid ef ar gefn ei farch, pa un a wnelai ai cychwyn, ai peidio. A llawer gwaith y gwelwyd ef wrth gychwyn i deithiau â'i ddagrau ar ei ruddiau, fel plentyn. Ymddengys mai cael ei lethu y byddai gan deimlad o'i anghymmhwysder i'r gwaith o'i flaen, a chan ofn myned yn faich ar bobl. Yr oedd ei wraig yn ei ddeall yn drwyadl, a da oedd hyny iddo ef, ac i ereill hefyd. Gwyddai hefyd yn burion, ond ei gael unwaith ar ei farch—a chyda llaw, marchogwr dihafal ydoedd—y cai ymwared buan oddi wrth ei anhwylder."

Er ei holl drafferthion teuluaidd, a'r galwadau mynych arno oddi cartref i bregethu, i gyfarfodydd misol y sir, ac i ymweliad âg eglwysi, etto parhaodd hyd ddiwedd ei oes i fod yn astudiwr mawr. Yr oedd yn darllen llawer, ac yn meddwl llawer hefyd; ac ni oddefai i'r naill ymarferiad fod yn rhwystr i'r llall. Er ei fod yn ddyn o wir athrylith, etto ni feddyliai, fel y gwna ambell un, y gallai greu byd o ddim. Ac er ei fod, fel meddyliwr, yn feddiannol ar raddau nodedig o annibyniaeth, etto byddai bob amser yn awyddus am wybod golygiadau meddylwyr ereill ar bob mater a ddeuai o dan eu sylw. Nid hir y bu ar ol dechreu pregethu heb feistroli yr iaith Saesnig mor bell a'i deall; a daeth i wybod cymmaint o'r Groeg a'r Hebraeg fel ag i fod yn alluog i ddarllen yr Hen Destament a'r Newydd yn y gwreiddiol, trwy gynnorthwy geiriaduron. Aml iawn y byddai Parkhurst yn ei law. "Troai ei sylw yn feddylgar at symmudiadau gwleidyddol, darganfyddiadau gwyddoniaeth, gweithiau celfyddydol, a llenyddiaeth y dydd." Nid ydoedd yn gwbl ddyeithr i fesuroniaeth. Yr oedd hefyd wedi astudio llawer ar seryddiaeth —gwyddoniaeth yr arferai deimlo y dyddordeb mwyaf ynddo. Un o'r gweithiau gwerthfawrocaf yn ei olwg oedd yr "*Encyclopædia Britannica.*" Mynych y gwelid ef yn ei dŷ, pan fyddai rhyw gwestiwn gwyddonol yn fater ymddiddan, ac y byddai eisieu ychwaneg o oleuni arno, yn cilio o'r gyfeillach am ennyd i'r efrydfa, i ymgynghori â'r llyfr hwnw. Yr oedd hefyd, trwy ddarllen a sylwi, wedi casglu cryn lawer o wybodaeth ar bethau cyfreithiol.

Er fod Mr. Roberts yn fawr yn mhob peth, ac y daethai yn enwog mewn unrhyw gylch neu alwedigaeth, etto yn y pulpud, fel un o bregethwyr rhagoraf y ganrif, y gwnaeth ei enw yn adnabyddus yn y Dywysogaeth; ac fel pregethwr y trosglwyddir ei enw i lawr yn ein gwlad i'r oesoedd a ddêl. Er ei fod, ar lawer o gyfrifon, yn bregethwr anarferol o fawr, rhy brin y meddyliwn fod y genedl wedi ei adnabod fel y cyfryw i'r un graddau ag y mae wedi adnabod rhai o'i gyfoedion. Dichon nad oedd cymmaint o gyrchu ar ei ol ef ag a welid ar ol ereill o enwogion Cymru; ie, gwelsom rai ag y byddai yn fai eu cystadlu âg ef am funyd yn crynhoi ynghyd niferi mwy o ryw fath o wrandawyr. Y mae yn sicr yr edrychid i fyny ato gan y miloedd fel un o'r gwŷr mwyaf urddasol yn y weinidogaeth. Yr oedd ei ddifrifwch dwys yn rhwym o effeithio ar bawb, ac nis gallasai y rhai isaf eu chwaeth, a byraf eu hamgyffred, lai na theimlo oddi wrth nerth ei draddodiad, yn enwedig ar yr amserau pan fyddai ei weinidogaeth "yn aruthrol fel y daran, ac yn effeithiol fel y gwlaw." Yr adegau hyny byddai pawb yn cael eu llorio gan nerth ei hyawdledd. Nid oedd yn bossibl sefyll o flaen y fath ymdoriadau o deimlad—y fath raiadrau o hyawdledd. Ond er hyn i gyd, nid oedd ei boblogrwydd ef yn hollol yr un fath a

Digitized by Google

phoblogrwydd ereill y gallesid eu henwi. Nid ydym yn deall iddo wneuthur erioed rhyw gyffroadau mawr yn siroedd y Deheubarth, a chodi ugeiniau ar ei ol o fan i fan, megys y gwnaeth John Elias yn ei ddydd, a Henry Rees a John Jones ar ol hyny. Gwelsom un neu ddau, os nad tri o weinidogion Môn, y rhai ydynt oll wedi huno, am dymmor yn codi mwy o gynnulleidfaoedd na Mr. Roberts. Pregethwr hynod o boblogaidd oedd yr anwyl William Charles; a mawr hefyd oedd dylanwad y diweddar John Phillips ar y werin. Yr oedd William Roberts, er hyny, yn dra phoblogaidd yn yr ystyr uchaf. Ar ol cael gafael unwaith ar ddynion, cadwai ei feddiant arnynt byth mwy; ac elai ei feistrolaeth ar eu meddyliau yn gryfach y naill flwyddyn ar ol y llall. Nid elai yn llai poblogaidd wrth ei wrandaw yn aml. Dyn ydoedd nad oedd modd myned yn gynnefin âg ef; ac nad oedd modd cynnefino â'i bregethau. Er darllen yr un testyn, a defnyddio yr un amlinelliad Sabbothau olynol, etto nid yr un yn hollol fyddai y bregeth. Byddai yn ei meddwl drosodd bob tro yn adnewyddol, a thrwy ei bod o hyd yn newydd iddo ef, byddai yr un modd yn newydd i'r rhai a'i clywsant o'r blaen. Byddai ynddi ddrychfeddyliau newyddion, ac yn enwedigol ymadroddion newyddion—a'r rhai hyny mor newyddion iddo ef ei hun ag oeddynt i'r bobl, a hyny am eu bod yn bwrlymu i fyny o'i deimladau cyffrous ar y pryd. Gellir cynnefino â dawn ac â medrusrwydd mewn pregethwr, ond nis gellir cynnefino ag athrylith gref fel a feddai Mr. Roberts, yr hon a argraphai gymmaint o newydd-deb ar ei weinidogaeth; a llawer llai y gellir cynnefino â gwir ddifrifoldeb, os bydd yn ddifrifoldeb nodedig o ddwys a dwfn, ac â thoriadau allan y teimladau mwyaf angerddol. Un o'r golygfeydd mwyaf effeithiol ydyw dyn gwir fawr yn cael ei ysgwyd gan deimlad cryf yn ngwyddfod pethau dwyfol! Meddai Mr. Roberts ar yr elfenau hyny sydd yn sicrhau parhâd i boblogrwydd pregethwr—sydd yn ei wneyd yn wrthddrych yr edmygedd mwyaf i bobl fwyaf coeth a mwyaf sanctaidd cyfundeb o grefyddwyr—i raddau mor uchel a'neb yn yr oes. Os nad oedd yn llawn mor boblogaidd yn nghyfrif y werin a'r rhai y cyrchid fwyaf ar eu hol, y mae yr achosion o hyny yn hawdd i'w cael allan. Un o brif elfenau un math o boblogrwydd ydyw hylithredd ymadrodd—yr hyn a gamgymmerir gan lawer am hyawdledd gwirioneddol: ond yn lle bod yr un pethau, dichon eu bod yn ddinystriol y naill i'r llall. Lle y mae rhwyddineb mawr mewn meddwl ac ymadroddi, nid oes yno lawer o ddwysder; a lle nad oes dwysder dwfn, nid oes yno hyawdledd o'r rhywogaeth uchaf. Ond yr oedd Mr. Roberts yn bob peth ond pregethwr rhwydd. Ni fuasai parabliad cyflym yn cydweddu â nodwedd ei feddyliau; ac nid yn unig fe fyddai yn araf yn ei draddodiad, ond yr oedd yn naturiol iddo fod yn amrosgo, yn enwedig ar ddechreu y bregeth: perthynai iddo fath nodedig o afrwyddineb—priodol yn unig iddo ei hun. Pe y ceisiai arall ei efelychu yn hyn, elai yn wrthddrych gwawd; ond rywfodd yr oeddym yn dygymmod âg ef yn Mr. Roberts: yr oedd yn naturiol iddo, yn amlygiad o'r ymdrech a geisiai lusgo meddyliau pwysfawr i'n golwg. Dichon hefyd nad oedd ef ei hun wedi gofidio funyd erioed o blegid yr afrwyddineb hwn. A chan fod yr hyn a ystyriai ambell un yn ddiffyg ynddo yn ymddangos mor naturiol i'r dyn, ac mor addas i'r pethau a ddywedai, cyfrifem ni yn wastad ei fod yn gorwedd yn brydferth arno—ei fod yn aml 'yn gyfrwng o hyawdledd cu'—yn peri fod y geiriau, er y byddent weithiau yn aros yn hir yn yr esgoreddfa, etto ar ol ymwthio i'r goleuni, y geiriau grymusaf, ac yn sicrhau i'r gwirionedd arosfa yn meddyliau y rhai a ddisgwylient yn amyneddgar am danynt. Nid llefaru hen eiriau pobl ereill y byddai. Pe gwnaethai hyny, dichon y gallasai barablu yn llawer rhwyddach; ond gan ei fod yn eu bathu yn ei fathdy ei hun, yr oedd yn argraphu holl ddelw ei feddwl arnynt, yr hyn a barai ei fod yn fwy gwreiddiol a tharawiadol yn ei eirweddiad nag un pregethwr yn ei oes. Yr un pryd, yr oedd yr afrwyddineb y cyfeiriwn ato yn anfantais i'w boblogrwydd. Y mae y cyffredin o wrandawyr yn mhob gwlad yn edmygu llafar lithrig a pharabliad cyflym, ac yn analluog i farnu coethder a phriodoldeb yr ymadrodd. Gwell ganddynt ddigon o eiriau, gan nad beth fyddo'eu hansawdd. Achosion ereill na chyrhaeddodd y poblogrwydd uchaf gyda'r miloedd oedd amledd yr oedfaeon trymaidd a gaffai; a gradd o aneglurder yn achlysurol yn ei arddull—yn codi, fe allai, mewn rhan oddi wrth y drafferth a gymmerai i roddi golygiad ar gyssylltiad y rheswm mewn cyfres o adnodau. Cyfrifid John Elias yn esboniwr eglurach i'r lliaws: dichon ei fod felly; ond un achos o hyny oedd, fod ganddo fwy o gyflawnder iaith, er nad oedd ei iaith yn agos mor fynegiadol; ac achos arall, a'r prif un, ydoedd ei fod yn ymlithro ar y wyneb yn fwy na Mr. Roberts—yr hwn a gloddiai yn fwy i'r dwfn. Llefaru yn hylithr y golygiadau ar destyn fyddai wrth law y byddai John Elias; ond eu dyweyd yn y fath fodd, gyda chymmaint o ddeheurwydd, nes peri i'r hen ymddangos yn newydd, ac i'r cyffredin ymddangos yn odidog. Rhoddai Mr. Roberts olygiadau gwreiddiol yn fynych gyda'r fath ddwfndreiddiad i ystyr geiriau Duw, nes dwyn pethau cudd i olwg y sylwgar; er fe allai, yr elai llawer adref o'r gwasanaeth heb elwa rhyw lawer ar y rhan esboniadol o'r bregeth. Dywedai un gweinidog unwaith fod elfen fechan o blentynrwydd yn hanfodol, yn gymmysg âg elfenau ereill gwell, i'r poblogrwydd eangaf. Os felly, mae yn rhaid cydnabod fod Mr. Roberts yn amddifad o honi. Y mae yn rhaid myned i lawr at y bobl mewn trefn i fod yn eilun yn eu golwg: ond y mae dwy ffordd i fyned i lawr atynt; y naill ydyw siarad yn gyfeiriol wrthynt, amcanu cyffwrdd â'u calonau a'u cydwybodau, a gwneuthur pethau mawrion yr efengyl mor ddealladwy ag sydd bossibl; y llall ydyw ymostwng atynt mewn chwaeth isel, a dywedyd pethau plentynaidd a digrifol. Amcanai Mr. Roberts wneuthur y cyntaf—ond ymogelai bob amser rhag yr olaf. Cadwodd y weinidogaeth trwy ei oes yn fawreddog yn ngolwg y wlad: amcanai leshau y gwrandawyr yn mhob modd, ond nid oedd dim yn mhellach oddi wrth ei amcan na'u boddhau trwy eu difyru. Ni ddymunem mewn un modd wneuthur cam â choffadwriaeth gwas mor enwog i Dduw trwy wneuthur cyfeiriad fel hyn at fesur o aneglurder yn ei arddull. Yr ydym wedi sylwi eisoes fod ei appeliadau o'r fath fwyaf cyfeiriol, ac yn gwneuthur yr argraphiadau dwysaf ar bob dosbarth o'r gwrandawyr; a byddai ei eirian yn fynych fel picellau yn suddo i gydwybodau y rhai anystyriol: yr oedd amcan pob pregeth hefyd at leshau y gwrandawyr yn yr ystyr uchaf; ac yn ei adegau mwyaf hapus, ceid yr eglurder

Digitized by Google

mwyaf yn ei bregethau. Etto ar adegau ereill, byddai y brawddegau yn ddyrus: byddai y bregeth bob amser yn un cyfanwaith—y naill sylw yn codi o'r sylw blaenorol, a'r cwbl yn codi yn naturiol o'r testyn. Nid crynhoad o sylwadau bychain yn ymyl y bobl fyddai y bregeth; ond ymresymiad manwl, cyfangorph o'r gwirioneddau mwyaf, ac weithiau deongliad llafurus ar baragraph cyfan. Yr oedd pwysau ei fater, cydgyssylltiad gwahanol ranau y bregeth â'u gilydd, a gwreiddioldeb arddull y pregethwr, o angenrheidrwydd yn gwneyd y bregeth fel cyfan yn anhawdd ei deall ar ei hyd gan y cyffredin na phregethau gweinidogion poblogaidd ereill, er y byddai mewn rhai rhanau, yn enwedig y rhanau mwyaf cyfeiriol, wrth gymmhwyso y gwirionedd, yn llefaru yn y fath fodd fel y deallid ef gan bawb. Perthynai yr eglurder a'r cyfeiriolder mwyaf canmoladwy i ranau o'r bregeth.

Gyda golwg ar ei nodweddion fel pregethwr, iawn y dywed ei fywgraphydd "ddarfod iddo brofi ei hun yn un o brif addurniadau y pulpud Cymraeg, ac iddo gael ei gynnysgaeddu â meddwl galluog yn gystal a chorph cadarn at y gwaith." Ac nid mantais fechan i bregethwr Methodistaidd yn ddiau ydyw yr olaf. Pan yn dwyn yn mlaen y gwaith cyhoeddus, safai yn syth yn yr areithfa; edrychai yn wrol, heb fod yn hyf; yn awdurdodol, heb fod yn drahaus; yn sobr, heb fod yn surllyd a chwerw. Gwir y byddai, pan ar fin pregethu mewn cynnulliadau mawrion, bron a chael ei lethu gan bryder, a chan feddylian isel am dano ei hun; etto ni oddefai i'r cyfryw deimladau byth ei ddarostwng i waseidd-dra; a phan yr ofnai fwyaf y cyrhaeddai fwyaf o arddercha wgrwydd; pan yn wan, y byddai gadarn; a pho fwyaf yr angen am nerth yn y pregethu, mwyaf yr ymddyrchafai yntau at yr achlysur; ac felly yr oedd braidd bob amser mewn cymmanfa yn gymmaint ag ef ei hun, a "thrwy Dduw" yn fwy. Byddai ei wedd barchedig a difrifol yn ennill goruchafiaeth ar y gwrandawyr, y rhai a deimlent ar unwaith eu bod ar gael eu hanerch gan ŵr o ddynoliaeth fawr a galluog, a hono yn cael ei threiddio gan ddifrifwch a sobrwydd meddwl a ymdeimlai â "baich Gair yr Arglwydd." Difrifoldeb, dwysder, ac awdurdod oedd y nodweddion a argraphent eu hunain ar ei wynebpryd a'i holl ymddygiad. Nid fel areithiwr y lliaws, nac yn unig fel dysgawdwr i eangu eu syniadau, yr ymddangosai ger eu bron, ond yn hytrach fel cenad Duw, yn traethu gwirioneddau o ganlyniad tragwyddol. Cymmerai feddiant o'r gynnulleidfa yn y dechreu, wrth gyflawni rhan ddefosiynol y gwasanaeth, y rhai y teimlai oddi wrth eu pwysigrwydd, ac a weinyddai gyda'r graddau helaethaf o ddefosiwn ysbryd, yr hwn a ddeuai i'r golwg yn ei wedd, ei ymadroddion, a thonau ei lais. Nid gweithio ei hunan i deimlad yn nghwrs y gwasanaeth y byddai—ymdwymno wrth y tân a gynneuasai; ond hawdd oedd gweled y byddai ei deimlad defosiynol mor ddwys yn y dechreu ag yn y diwedd, er nad oedd etto wedi rhoi ei nwydau ar dân. Rhoddai y salm neu yr emyn allan gyda'r mynegiant goreu; ac er na roddai hi allan yn llithrig, rhoddai hi yn effeithiol. Ni chlywsom erioed fwy o afrwyddineb gyda'r rhan yma o'r gwaith nag a arferai fod ynddo ef; ac etto ni chlywsom gymmaint o wir hyawdledd ac effeithiolrwydd. Un o'r profion cryfaf o'r gwahaniaeth rhwng hyawdledd a hylithredd oedd gwaith Mr. Roberts yn rhoddi emyn i'w chanu. Gwelsom ef lawer gwaith yn codi cynnulleidfa gyfan i lefel uwch o ddefosiwn wrth wneyd peth mor fychan a thraddodi pedair llinell—er enghraifft, y pennill hwnw—

> "Pa le mae'r Graig pan fyddo'r gwres,
> Sy'n cadw'r defaid rhag y tês?
> Yn mysg y praidd mae f' enaid prudd
> Yn chwennych gorphwys ganol dydd."

Nid oedd, yn ddiau, neb yn Nghymru i'w gystadlu âg ef yn y gallu i ddwyn allan y teimlad byw sydd yn llosgi yn marddoniaeth Williams, o Bant-y-celyn. Pan yn gweddïo drachefn, byddai yr olwg arno yn addolgar, ei gydnabyddiaeth o'r Mawredd Dwyfol yn wir barchus, ei ddiolchiadau yn wresog, ei ddeisyfiadau yn ddwysion, ei eiriau yn anaml—yr holl gyflawniad yn cyferbynu yn fawr â'r hylithredd amleiriog, anochelgar, a hyf a gamenwir gan rai yn 'ddawn gweddi.' Un o nodweddion ei bregethau oedd eu perthynas agos â'r testyn. Yr oeddynt yn destynol yn yr ystyr uchaf. Arferai, yn anad neb yn ei oes, dynu meddwl y testyn a'r cyd-destynau allan o honynt. Pan y ddarllenai ran o'r Gair, gallech fod yn sicr mai un o'i brif amcanion—yn wir, ei amcan cyntaf—fyddai rhoddi syniad priodol i'r gwrandawyr am feddwl Duw yn y gyfran hono. Buasai parotoi y bregeth yn gyntaf, ac yna, er mwyn cydffurfio â hen arferiad, chwilio am air o'r Beibl fel testyn iddi, yn beth ammhossibl iddo ef, ac yn anghymmeradwy, yr ydym yn sicr, ganddo. Dadblygiad fyddai y bregeth o'r testyn a'r cyddestynau, ac agorfeydd fyddai ei brif faterion trwy ba rai y llifeiriai cyfoeth y testyn allan o hono. Er nad oedd olion parotoad llafurfawr ar ieithwedd a chyfansoddiad ei bregethau, etto yr oedd olion y myfyrdod dwysaf ar eu mater. Yr oeddynt yn drefnus iawn yn yr ystyr uchaf: trefn olyniad y meddyliau; trefn perthynas a chyflead y drychfeddyliau â'u gilydd. Dichon y meddyliai y gwrandäwr llai meddylgar mai pregethwr annhrefnus ydoedd, er ei holl nerth a'i wreiddiolder; ond gwelai ereill fod ei bregeth yn un cyfanwaith medrus, er na byddai pob careg yn yr adeilwaith wedi ei llyfnhau i foddlonrwydd y llenor mursenaidd. Yn ei ragymadrodd, yr hwn yn y cyffredin a fyddai yn faith iawn—yn llawer rhy faith yn nghyfrif y sawl a fesurant bregeth, yr un fath a brethyn, wrth y llath—amcanai yn wastad roddi golwg gywir i'r gwrandawyr ar gyssylltiadau ei destyn; a byddai ei eglurhadaeth yn rhagorol; byddai yn wledd i'r meddylgar: a thra y byddai y pregethwr yn gallu taflu ei deimlad i'r rhan hon o'r bregeth, byddai wrth agor deall y gwrandäwr fel y deallai yr Ysgrythyrau, yr un pryd yn llwyddo i wresogi ei galon at y gwirionedd. Gwelid wynebau hen wragedd duwiol Môn yn fudron gan wylo pan y byddai William Roberts yn esbonio. Ni ddii-dynai adnodau byth o'u lleoedd priodol i wasanaethu unrhyw amcan. Yr oedd yn bregethwr perffaith onest. Nid äi i daeru mai "etholedigion" a feddylia Ioan wrth "yr holl fyd." Yr oedd efe, er yn Galviniad cryf, yn mhell o fod yn "ofalus" am yr athrawiaeth. Yr oedd holl Air Duw yn bur yn ei olwg. Nid oedd ganddo adnodau anghymmeradwy i'w gochel:—nid ysgoai yr adnodau a fawr hoffir gan Arminiaid. Annogai ar ereill ryw fath o "ddiofalwch" uwch ben geiriau y Beibl, ac yr oedd ei esampl yn cydfyned â'i gynghor. Am y credai fod geiriau Duw yn eangach nag unrhyw gyfundraeth ddynol, nid oedd yn gofalu am gyssoni y pethau a

Digitized by Google

ymddangosent i rai yn anghysson. Ei waith ef oedd traethu yr hyn a ddywed yr Arglwydd, gan adael y gorchwyl o oleuo pob tywyllwch, a chyssoni pob rhyw anghyssonderau ymddangosiadol i Dduw, ac i dragwyddoldeb. Talai lawer o sylw i *eiriau* y testyn yn y gwreiddiol. Fe wnaeth ddefnydd mawr ar un adeg o'r geiriau cyfystyr â "threisio" wrth bregethu ar *Mat.* xi. 12; sef, 'rhuthro,' 'gorthrech:' a'r un modd ar adeg arall, o'r gair "ciriol," wrth bregethu ar *Heb.* vii. 25. Dywedai, "Nid yw y gair *eiriol* yn y fan hon ond un a allesid ei ddarllen *cyhuddo*, oni buasai'am y geiriau canlynol, '*trostynt hwy*.' Gallasai Iesu Grist gario cyhuddiadau i'r nef, a dyweyd, 'Mewn ystabl y'm ganwyd—heb le i roddi fy mhen i lawr y cefais fyw—fy ngwrthod a gefais gan yr eiddof fy hun—anghyfiawn oedd fy nhreial—cenfigen a malais a barodd fy nghondemnio—ar y groes y bûm farw! Gallasai fel hyn droi y driniaeth greulawn a dderbyniodd yn y byd yn ddadl yn erbyn y byd. Ond nid felly y gwnaeth. *Scheme* ddwyfol oedd troi y cwbl yn ddadl yn ffafr y byd—eiriol *drostynt hwy—drostynt hwy! O! ryfedd ras!*" Dywed ei fywgraphydd fel hyn:—

"Hynodid ei bregethau gan angerddolrwydd teimlad, sydynrwydd, a nerth. Fel y sylwyd eisoes, perchenogai nwydau cryfion, meddai hefyd ardymmher cyffrous (*nervous*); ac yn nghyfarfyddiad gwirioneddau mawrion yr efengyl â'i natur, gweithid ef i'r teimladau mwyaf angerddol. Ni byddai fel hyn bob amser, y mae yn wir; etto ceid ef fel hyn yn fynych—mor fynych fel ag i beri fod hyn yn un o nodweddion hynotaf ei bregethu. Hyd yn oed ar yr adegau y byddai yn pregethu yn fwyaf dieffaith, teimlem ein bod yn nghymmydogaeth llosgfynydd—fod elfenau cryfion yn ymweithio o'i fewn, y rhai, pan y cynnhyrfid ef, a barent i'w hyawdledd ymarllwys yn hylif poeth ar y gwrandawyr. Disgynai ei nerthoedd arnynt gyda sydynrwydd. Digwyddai hyn weithiau ar ei waith yn dechreu eu cyfarch; brydiau ereill, byddai am ennyd yn hynod o drymaidd; ond trymder fyddai hwnw, hwyrach, tebyg i'r eiddo natur o flaen ystorm o fellt a tharanau. Yn y cyfamser, graddol ymgrynhoai yr elfenau cyffrous. Os byddai yr awyrgylch yn drom, ceid teimlo cyn hir ei bod yn llawn o ddefnyddiau ystorm. Dyna'r gwydrddrychau yn cael eu gwthio i fyny ganddo ar ei ben—y Beibl mawr yn cael ei daraw dan y gesail aswy—penelin y fraich dde ar astell y pulpud—y dwrn i fyny—y llygaid yn fflachio—y wyneb yn fyw drwyddo! Ar darawiad, dyna'r dymmhestl yn ymdori—taranau ei gadernid yn rhuo—ei feddyliau fel mellt yn gwibio—fel mellt yn sydyn—fel mellt yn ddisglaer—fel mellt yn ddifaol—a'r gwlaw graslawn yn disgyn yn ddafnau mawrion i lawr! Ar yr adegau hyn, ymddangosai fel dyn dan ysbrydoliaeth:—nid efe yn feistr ar ei fater, ond ei fater yn feistr arno ef—wedi ei gwbl feddiannu ganddo, a syniadau gogoneddus yn croesi ei feddwl, y rhai oeddynt, fel y credwn ni, mor ddyeithrol iddo ef ei hun ag oeddynt i'r gwrandawyr. Y prydiau hyn byddai rhyw aruthredd ar ei weinidogaeth:—teimlid hi yn nerthol ofnadwy. Deuai pob peth oddi wrtho gyda nerth; byddai darnau cynnefin o'r Beibl, wrth eu hadrodd ganddo, fel yn rhwygo'r creigiau. Cofus gan lawer am dano yn pregethu, yn yr ystâd yma ar ei feddwl, ar y geiriau 'Amgylchwch Seion, ac ewch o'i hamgylch hi; rhifwch ei thyrau hi,' &c. Wrth draethu ar gadernid a diogelwch yr eglwys, gwaeddai yn fuddugoliaethus, 'Y mae ei thyrau yn eu rhif er pob peth a ddigwyddodd iddi. Ni lwyddodd un offeryn yn ei herbyn. Yn yr ystyr yma ni ŵyr y Beibl ddim am *the Church in danger*.' Galwai ar Celsus a Porphyry, Twm Paun, Voltaire, a Hume yn mlaen, i weled nad oedd dim o ôl eu hymosodiadau ar Seion. Gwaeddai allan eu henwau gyda'r fath nerth a beiddgarwch, nes y disgwyliai rhai i ysbrydion y cyfeiliornwyr hyn wneyd eu ffordd o'r dyfnder, ac ymddangos mewn rhyw ffurf o'u blaenau. Nid yn fuan yr anghofir yr effeithiau a ddilynent y traddodiad o'r bregeth ryfedd hon yn nghyfarfod misol Glasinfryn, a hyny mewn adeg tra marwaidd ar achos crefydd yn y wlad. Ond y pryd hyn, yr oedd y capelaid pobl fel crochan berwedig, a rhedai un hen flaenor tawel a digyffro a berthyn i'r eglwys yn y lle, o'r naill ben i'r capel i'r llall, fel wedi cwbl ddyrysu. Yr oedd y nerth a'r dylanwad yn annisgrifiadwy.

Nodweddid ei bregethau hefyd gan ddifrifoldeb a rhyddfrydedd. Ymddangosai fel cenad Duw. Pregethai gydag awdurdod a difrifwch un yn traethu cenadwri oddi wrth Dduw at ddynion ar fater bywyd. Siaradai wrth y gynnulleidfa. Llwythid ei bregethau âg appeliadau difrifol at y gwrandawyr. Gwneid y rhai hyn ganddo yn fynych ar ddechreu y bregeth, drwy yr hyn y sicrhäai y gwrandawyr ar unwaith, i fesur mawr, o dan ei feistrolaeth. Wrth bregethu ar y geiriau, 'Yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi i mi a ddaw ataf fi,' &c., dywedai ar y cychwyn, 'Y mae y dywediad hwn i ni o'r gwerth mwyaf; o herwydd y peth sobraf, mwyaf ofnadwy, a gyfarfu â neb erioed ydoedd i Dduw ei fwrw ef allan. Yr oedd Dafydd, er ei fod yn frenin, ac er ei fod yn dduwiol, yn ymdeimlo na allai oddef y meddwl i'r Arglwydd ei fwrw ef ymaith. Gweddi ei galon ef ydoedd, 'Na fwrw fi ymaith yn amser henaint; na wrthod fi pan ballo fy nerth.' Pa faint a dâl *securio* hyn? Pa faint yw gwerth hyder sicr na wna efe, yr hwn sydd i'n barnu, ein bwrw allan? Beth fydd gallu dyweyd mewn tawelwch ar wely angeu, 'Pan yw fy nhad a fy mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn?' Ac O! mor ddychrynllyd ydyw i Dduw sicrhau i gydwybod pechadur ei fod yn ei fwrw ymaith. Mor ofnadwy oedd teimladau Saul, brenin Israel, yn wyneb fod Duw yn ei adael a'i wrthod! Dacw fe, wedi dyrysu ac ymwylltio, yn myned at Satan ei hun i chwilio am ryw help a chyfarwyddyd. Meddyliwch pa beth mor arswydus a fydd i Fab Duw wadu pechaduriaid, gan ddywedyd, 'Nis adnabum chwi erioed; ewch ymaith oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd!' Fe fydd y cyfryw eiriau yn dyferu tân a brwmstan i enaid colledig. Os oes arnoch chwi, fel gwrandawyr efengyl, ofn rhag myned dan y fath farnedigaeth, mi allaf roddi i chwi, oddi wrth y testyn, ddefnydd *claim* o flaen gorseddfainge Duw am beidio eich bwrw ymaith. Dim, ond i chwi, fel yr ydych, ddyfod at Grist—a dyna chwi dan amddiffyn tragwyddol rhag eich taflu allan. 'Yr hwn a ddêl ataf fi,' medd yr Iesu yma, 'nis bwriaf ef allan ddim.' Pregethai un tro mewn cymdeithasfa yn Llanrwst. Ymddangosai y gynnulleidfa oedd ar y maes yn hynod o ddifater tra y llefarai y gweinidog parchus oedd o'i flaen. Wedi iddo ef orphen, cyfododd Mr. Roberts, a chan edrych yn syn ar y dorf, dywedai, 'Bobl, yr wyf yn teimlo arnaf eich ofn. Yr ydych yn edrych yn hyf yn fy wyneb. A oes genych heddwch â Duw? A ydych yn sicr na ddemnir mo honoch?' Rhoddodd yr appêl difrifol hwn, yn cael ei gyfeirio gan ei ysbryd difrif ef, y dorf ar unwaith yn ei feddiant, a mawr oedd y nerth a ddilynai. Ysid ei ysbryd gan awyddfryd am achub dynion, a dangosai hyny yn amlwg yn osgo ei weinidogaeth. Amcanai bob amser osod allan lwybr cadwedigaeth pechadur mor eglur fel na byddai berygl i'r dylaf ei gamgymmeryd. 'Mae yr Arglwydd Iesu,' dywedai unwaith, 'yn 'crynhoi pob peth sydd yn angenrheidiol tuag at wneyd i fyny ddedwyddwch dyn, yn yr ymadrodd yma, 'Dyfod ataf fi.' Ni fedraf fi feddwl am un *act* bennodol o eiddo yr enaid yn y dyfodiad hwn: y mae yn cynnwys y cwbl sydd yn cymmeryd lle yn nhrafodaeth pechadur â Chyfryngwr. Y mae y gwirionedd hwn am yr angenrheidrwydd o ddyfod at Grist mor amlwg, mor syml, mor unplyg, fel nad

Digitized by Google

manfaoedd oedd, y byddai y sylw a wnai, bron bob amser, yn derfyn ar yr ymdrafodaeth. Yr achos o hyn oedd, na byddai byth yn siarad er mwyn siarad. Gofalai am beth i'w ddyweyd cyn agor ei enau. Ni siaradai yn aml chwaith; ond pan godai i fyny, byddai pob clust yn agored i wrandaw. Heb law hyny, yr oedd ei farn yn hynod o gywir ar bob mater: a rhwng ei oedran, cywirdeb arferol ei farn, a'r nerth gyda pha un y llefarai, nid yn aml y gwelsom neb a'i gwrthwynebai, nac hyd yn oed a gyfodai i lefaru ar ei ol.

Ar ol bod am fisoedd yn nychlyd, wedi sibrwd yn ddistaw, "Arglwydd Iesu! derbyn fy ysbryd," ymadawodd â'r byd hwn ar y 19eg o Orphenaf, 1864. Gorwedda ei weddillion yn mynwent eglwys y plwyf—Amlwch. Ar ei gareg fedd y mae y geiriau hyn:—

"Yma y gorwedd yr hyn sydd farwol o'r Parchedig William Roberts, o'r dref hon, yr hwn a fu farw Gorphenaf 19eg, 1864, yn 80 mlwydd oed, ar ol bod yn pregethu yr efengyl yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd am un mlynedd ar bymtheg a deugain: a hyny gydag ymroddiad, a nerth, a difrifoldeb, ac awdurdod, a ymddangosai yn anniflanedig hyd ddiwedd ei oes.

'A ni gan hyny yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perswadio dynion.'"

Am chwaneg o'i hanes, gwel y cofiant dyddorol am dano, gan y Parch. Hugh Jones.

ROBINSON, EDWARD, D.D., LL.D.: ieithydd ac ysgolhaig Beiblaidd enwog, a anwyd yn Southampton, Connecticut, yn yr Unol Daleithiau, Ebrill 10, 1794. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg Hamilton, Clinton, lle y graddiodd yn 1816; ac arosodd yno fel athraw cynnorthwyol ac efrydydd hyd y flwyddyn 1821, pryd yr aeth i Andover, Massachussetts, i arolygu argraphiad o chwe llyfr cyntaf yr "*Iliad.*" Yr oedd wedi bod yn briod, a chladdodd ei wraig cyn hyn. Astudiodd yr iaith Hebraeg o dan y Proffeswr Stewart yn Andover, a phennodwyd ef yn athraw cynnorthwyol iddo. Yn 1826, daeth ar daith am bedair blynedd i Ewrop, lle y priododd Miss Therese A. L. von Jakob, merch i athraw coleg yn Halle. Dychwelodd i Andover yn y fl. 1830, ac appwyntiwyd ef yn athraw llenyddiaeth gyssegredig yn y Sefydliad Duwinyddol Undebol, yn ninas New York; ac hefyd yn llyfrgellydd. Y pryd hwn, aeth allan, yn nghwmni y Parch. Eli Smith, gyda'r amcan o wneuthur archwiliad a mesuriad manwl ar wlad Palestina, o'r hyn y rhoddwyd adroddiad llawn ganddo yn ei lyfr gwerthfawr a rhagorol, a elwir "*Biblical Researches in Palestine and adjacent Countries,*" tair cyfrol a gyhoeddwyd yn 1841. Bydd y gwaith hwn yn wastad yn un safonol ar yr hyn yr ymdrinia âg ef. Yn 1850, efe a ymaflodd yn ymarferol yn nyledswyddau ei swydd fel athraw; ond yn 1852, talodd ail ymweliad â Phalestina, a chyhoeddodd hanes yr ymweliad hwn yn 1856. Ei weithiau ereill oeddynt cyfieithiad o Rammadeg Groeg Buttman; "*Greek and English Lexicon of the New Testament;*" "*Harmony of the Four Gospels,*" yn yr iaith Roeg yn 1845, ac yn yr iaith Saesnig yn 1846. Yr oedd hefyd yn olygydd y "*Biblical Repository;*" y "*Bibliotheca Sacra;*" a "*Calmet's Bible Dictionary;*" a chyfieithodd "*Hebrew Lexicon*" Gesenius.—Bu farw y dyn dysgedig a llafurus hwn yn y flwyddyn 1864.

ROBINSON, JOHN: gweinidog eglwys yn Holland, i'r hon yr oedd llawer o'r ymsefydlwyr cyntaf yn Lloegr Newydd yn perthyn. Ganwyd ef yn 1575, yn y deyrnas hon, a bu yn efrydydd yn Nghaergrawnt. Yn 1602, ymsefydlodd yn weinidog ar gynnulleidfa Ymneillduol mewn rhyw ardal yn ngogleddbarth Lloegr; ond symmudodd i Holland yn 1608. Yr oedd wedi arfaethu myned gyda'i gynnulleidfa pan yr ymfudasant i'r gorllewin-fyd; ond lluddiwyd ef, canys bu farw yn ddisyfyd yn 1625. Yr oedd Robinson yn ddyn o athrylith, o amgyffrediad cyflym, o synwyr cryf a pharod, ac yn ddyn cywir, diffuant, a difrifol. Yr oedd hyd yn oed ei wrthwynebwyr yn cydnabod ei ragoriaeth mewn dysg ac mewn dadleuaeth. Yr oedd hefyd yn ddyn doeth a chraff yn ei ymdriniaeth â phethau gwladol. O ran ei syniadau am lywodraeth eglwysig, yr oedd yn Annibynwr, neu yn Gynnulleidfaolwr. Yn ei anerchiad olaf i'r ymfudwyr oedd yn myned allan i Loegr Newydd, efe a ddywedai fel y canlyn:—

"Os bydd i Dduw ddadguddio rhywbeth i chwi trwy offerynoliaeth rhywun arall, byddwch mor barod i'w dderbyn ag y buoch erioed i dderbyn unrhyw wirionedd trwy gyfrwng fy ngweinidogaeth i; o herwydd yr wyf yn llawn argyhoeddedig, ïe, yr wyf yn dra hyderus, fod gan yr Arglwydd fwy o wirionedd i dywynu o'i Air Sanctaidd. O'm rhan fy hun, yr wyf yn gofidio yn fawr wrth feddwl am sefyllfa yr eglwysi diwygiedig, y rhai ydynt wedi cyrhaedd pwynt yn eu crefydd nad ydynt yn bresennol yn foddlawn myned yn ddim pellach nag arweinwyr y diwygiad. Nis gellir perswadio y Lutheriaid i fyned yn mhellach na'r hyn a welodd Luther. Pa gyfran bynag o'i ewyllys y mae ein Duw da wedi ei ddadguddio i Calvin, byddant farw yn hytrach na'i fabwysiadu. A chwi a welwch fod y Calviniaid yn glynu wrth yr hyn a adawyd iddynt hwythau gan y dyn mawr hwnw yn ngwasanaeth ei Arglwydd—ond yr hwn, er hyny, ni welodd bob peth."

Efe a gyhoeddodd amryw lyfrau, megys ei "*Defence of the Brownists;*" "*Justification of the Separation from the Church of England;*" "*Peoples' Plea for the Exercise of Prophesying;*" "*Essays, Moral and Divine,*" &c. Gwel Tadau Pererinol.

ROBINSON, ROBERT, o Gaergrawnt, a aned yn Swaffham, swydd Norfolk, Ionawr 2il, 1735. Derbyniodd addysg led dda yn Swaffham, ac arferai ei athraw ddywedyd na adnabu efe fachgen erioed yn meddu y fath alluoedd meddyliol ag efe. Yr oedd ei fam yn wraig rinweddol a chrefyddol, a phlanodd yn meddwl y plentyn pan oedd yn ieuangc hoffder at wirionedd a chrefydd. Cymmerwyd ef o'r ysgol yn y fl. 1749, a rhwymwyd ef yn egwyddorwas gydag eilliwr yn Llundain. Ei hoff bregethwyr, tra y bu yn Llundain y blynyddoedd hyn, oedd Dr. Gill, Dr. Guise, a Mr. Romaine; ond y gweinidog efengylaidd yr oedd ganddo fwyaf o ymlyniad wrtho oedd George Whitfield, yr hwn a ystyrid ganddo fel ei dad ysbrydol. Wedi gorphen ei amser fel egwyddorwas yn y brif ddinas, efe a'i gadawodd am swydd Norfolk; ac yr oedd yn ddyn ieuangc diargyhoedd o ran ei gymmeriad. Dechreuodd bregethu, a pharodd ei ieuengctid, hawddgarwch ei dymmher a'i ymddygiadau, a'i athrylith anghyffredin, iddo fod yn dra phoblogaidd yn ddioed. Ymadawodd â chyfundeb Mr. Whitfield; a darfu iddo, ynghyd â thri ar ddeg o bersonau a ymlynent wrtho, ffurfio cynnulleidfa neu eglwys wrthi ei hun, yn mhlwyf St. Paul, yn Norwich. Ymsefydlodd

Digitized by Google

yn fugail ar yr eglwys hon, a gweinyddodd ynddi ordinhadau o fedydd a Swper yr Arglwydd; ond yn 1759, cafodd wahoddiad i fyned o Norwich i Gaergrawnt. Yr oedd cyn hyny wedi ymuno â'r Bedyddwyr, ac wedi ei fedyddio trwy drochiad. Bu yn pregethu am ddwy flynedd ar brawf yn Nghaergrawnt; ac yn 1761 cydnabyddwyd ef yn weinidog sefydlog yr eglwys yno. Pregethai yn rheolaidd ddwy waith neu dair bob Sabbath yn Nghaergrawnt; ac ar y rhan fwyaf o nosweithiau yr wythnos pregethai neu darlithiai yn y pentrefydd cylohynol, ac yr oedd y Parch. J. Berridge, gweinidog efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig, yn gefnogwr gwresog iddo yn y gwaith da hwn. Daeth ei alluoedd fel pregethwr mor hysbys fel ag i dynu sylw yr efrydwyr oedd yn y colegau yno, a gwelid llawer o honynt yn feunyddiol yn mhlith ei wrandawyr.

Cyhoeddodd lawer o bregethau a darlithau, &c.; a rhwng y blynyddoedd 1770 a 1782, dygodd allan o'r wasg gyfieithiad o bregethau Saurin, mewn tair cyfrol. Yn Mehefin, 1773, efe a symmudodd i Chesterton, pentref ynghylch dwy filldir o Gaergrawnt, a throdd i amaethu tyddyn bychan o dir. Dosbarthai ei amser yn awr rhwng ei waith fel amaethwr, fel llenor, ac fel pregethwr. Y pryd hwn yr ysgrifenodd ac y cyhoeddodd efe "*A Plea for the Divinity of our Lord Jesus Christ.*" Tynodd y gwaith hwn sylw arbenig; a dadgenid ef gan rai o urddasolion penaf yr Eglwys Sefydledig yr amddiffyniad goreu o ddwyfoldeb Crist a gyhoeddwyd erioed. Cynnygiwyd iddo beriglorïaeth yn yr eglwys, ond gwrthododd wrandaw ar hyny. Yn 1777, cyfieithodd Robinson draethawd enwog Claude "*On the composition of a Sermon.*" Yn y flwyddyn ddilynol, cyhoeddodd waith o deilyngdod uchel, "*A plan of Lectures on the principles of Nonconformity.*" Cymmerodd ran amlwg iawn yn y symmudiad er ceisio dwyn oddi amgylch ryddhâd y caethion, a diddymiad y gaethfasnach; a thynwyd allan y ddeiseb gyntaf a gyflwynwyd erioed i Dŷ y Cyffredin dros hyn o dref Caergrawnt gan Robinson. Cymmerodd daith fawr trwy Loegr ac Ysgotland yn 1780.

Yr oedd Robinson erbyn hyn wedi casglu ynghyd ychydig gyfoeth oddi wrth gyhoeddiad ei weithiau llenyddol lliosog, ac yr oedd ei fferm hefyd wedi chwanegu mewn maintioli a gwerth. Ymgymmerodd yn 1781 âg ysgrifenu hanes bedydd, ar ddymuniad rhyw bwyllgor neillduol yn Llundain, a rhoddodd y rhan fwyaf o'i amser ar yr adeg i'r gwaith hwn. Preswyliodd Robinson am amser y pryd hyny yn Llundain, a chyhoeddodd yn 1782 gatecism gwleidyddol, yn egluro egwyddorion rhyddfrydiaeth. Yn 1786, cyhoeddodd ei "*Sixteen Discourses,*" yr hwn sydd waith nodedig, am yr hwn y dywedodd un fel y canlyn:—"O'r braidd y gallwn ei ganmawl, na'i feio yn ormodol." Y mae yn y pregethau hyn lawer o'r hyawdledd naturiol a nodweddai y pregethwr hynod hwn; ac y mae ynddynt ddarnau y byddai yn anhawdd cael eu rhagorach am brydferthwch a symlder yn mysg ysgrifeniadau yr oes hono.

Fod cyfnewidiad mawr wedi cymmeryd lle yn meddwl Robinson ynghylch y pryd hwn ar byngciau duwinyddol, sydd ddiddadl, er nas gellir olrhain ei deimladau ar yr achlysur hwn yn hawdd. Wrth weled y cyfnewidiad, peidiodd y blaid uniongred a dal cymmundeb gydag ef, ac yntau gyda hwythau. Daliodd i weinidogaethu i'w gynnulleidfa yn Nghaergrawnt. Yr oedd Robinson yn awr wedi darparu i'r wasg ei "*History of Baptism,*" yr hwn sydd waith dysgedig a llafurfawr. Ni wnaeth nemawr mewn ffordd o gyfansoddi yn y flwyddyn olaf y bu fyw. Ond yr oedd ei lafur blaenorol wedi bod mor fawr fel yr oedd ei iechyd wedi gwaethygu. Bu ei iechyd yn adfeilio am beth amser, fel y cynghorwyd ef i deithio y wlad er mwyn cael newid awyr; ac yn mhlith manau ereill, efe a ymwelodd â Birmingham. A boreu dydd Mercher, Mehefin 9fed, 1790, cafwyd ef yn hollol farw yn ei wely; a chan nad oedd dillad y gwely wedi eu symmud, na'i wyneb chwaith wedi ei anffurfio, y mae yn debyg iddo gael marw, fel y bu yn fynych yn dymuno cael, "yn esmwyth, yn sydyn, ac wrtho ei hun." Felly y bu farw y dyn hawddgar, caredig, haelfrydig, a thalentog hwn, oedd mor nodedig am ei alluoedd pregethwrol ac awdurol.

ROGELIM: trigfan Barzilai y Gileadiad yn yr ucheldir ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen: 2 *Sam.* xv. 27; xix. 31. Ni wneir un crybwylliad yn y Beibl am y lle ond ar yr achlysur hwn yn unig. Ni ddywedir dim a'n harweinia i gael allan ei sefyllfa, ac nid oes un enw tebyg wedi ei gael yn yr ardal hono hyd yma. Os edrychir ar y gair hwn fel un Hebraeg, y mae yr enw yn ddeilliedig o *regel,* y *troed,* ac yn golygu y 'panwyr' neu y 'golchwyr,' y rhai oeddynt—ac sydd etto yn y dwyrain—yn arfer defnyddio eu traed i sathru y brethyn neu y lliain a lanheir ganddynt. Ond y mae hyn yn dra ansicr.

ROGERIAID: sect a elwid felly ar ol enw eu prif arweinydd, John Rogers. Ymddangosasant yn Lloegr Newydd, yn yr Unol Daleithiau, tua'r flwyddyn 1677. Y prif beth oedd yn dynodi y sect hon oedd, ei bod yn edrych ar yr addoliad a ddygid yn mlaen ar y dydd cyntaf o'r wythnos yn fath o eilunaddoliaeth a ddylasai gael ei attal. Mewn canlyniad i hyn, defnyddient amryw o fesurau i aflonyddu ar y rhai a ymgynnullent i addoliadau cyhoeddus ar y Sabbothau.

ROGERS, JOHN: y merthyr cyntaf a ddioddefodd yn Mhrydain yn amser y frenhines Mari. Addysgwyd ef yn Mhrifysgol Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd raddau uchel o ddysgeidiaeth. Aeth o Gaergrawnt i Antwerp, a dewiswyd ef yn gaplan i gwmni o farsiandwyr. Cynnorthwyodd yma i gyfieithu y Beibl i'r iaith Saesnig, a daeth i oleuni am athrawiaethau yr efengyl; gan hyny, efe a ymwrthododd âg addoliad eilunaddolgar Eglwys Rhufain, ac a dderbyniodd y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Aeth o Antwerp i Wittemberg, lle y gwnaeth y fath gynnydd yn yr Isellmynaeg, fel y dewiswyd ef yn fuan i gymmeryd gofal eglwys yno, yn yr hon y gwasanaethodd gyda ffyddlondeb mawr am rai blynyddoedd. Yn nheyrnasiad Edward VI., galwyd ef adref gan yr esgob Ridley, a gwnaed ef yn gôr-beriglor ac yn ddarlithydd Eglwys Gadeiriol St. Paul, lle y bu yn pregethu gyda sêl, brwdfrydedd, a ffyddlondeb mawr hyd nes yr esgynodd y frenhines i'r orsedd. Parodd ei sêl hi dros Babyddiaeth iddi edrych gydag anghymmeradwyaeth mawr ar Rogers, a chyfyngwyd ef drwy orchymyn i'w dŷ ei hun am chwe mis; ar ol hyny, cymmerwyd ef i garchar Newgate, a chadwyd ef am amser maith yno. Cafodd ei holi deirgwaith, pryd yr amddiffynodd ei hun yn

eofn; ond yn y diwedd condemniwyd ef, a chafodd ei ddedfrydu i'w roddi i farwolaeth trwy gael ei losgi:—dedfryd a roddwyd mewn grym ar y 4ydd o Chwefror, 1555. Er fod pob peth yn amgylchiad Rogers yn tueddu i beri iddo ymlynu wrth fywyd, ac yn ei dreialon hefyd i chwanegu at ei ddioddefiadau, etto cadwodd ei feddwl mewn tawelwch nodedig, ac wynebodd ei dynged yn llawen. Yn ystod ei garchariad efe a ysgrifenodd hanes yr ymholiadau a fu arno, ynghyd â phapurau ereill, y rhai yn rhagluniaethol a gadwyd, ac a drosglwyddwyd i lawr i'n hamser ni. Y maent i'w gweled yn "*Hanes y Merthyron*," gan y Parch. T. Jones, Dinbych.

ROMAINE, WILLIAM: oedd dduwinydd enwog, a anwyd ar y 25ain o fis Medi, 1714, yn Hartlepool, yn swydd Durham. Yr oedd ei dad yn ddyn crefyddol iawn, er nad oedd yn gyfoethog; ac yn un o'r ymnoddwyr Huguenotaidd a ddaethant o Ffraingc yn ystod yr erledigaeth a gymmerodd le pan alwyd yn ol reitharch Nantes. Addysgwyd Romaine yn yr un egwyddorion ag a goleddwyd gan ei dad. Canfyddai ei rieni arwyddion athrylith yn y bachgen pan oedd yn ieuangc, a rhoddwyd ef yn yr ysgol rammadegol a sylfaenwyd gan Bernard Gilpin. Cafodd yma addysg fydol a chrefyddol ragorol, yr hyn a osododd i lawr sylfaen ei enwogrwydd dyfodol. Yn y flwyddyn 1730, gan fod ei dad wedi ei fwriadu ef i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, anfonwyd ef i Rydychain—ar y cyntaf i Goleg Hertford, ond wedi hyny efe a symmudodd i Goleg Crist. Yn Hydref, 1737, cymmerodd ei radd o athraw yn y celfyddydau, ac ordeiniwyd ef yn ddiacon, gan Dr. Henry Egerton. Ei guradiaeth gyntaf oedd un Trenchard, yn swydd Devon. Yn 1739, efe a ymosododd yn gyhoeddus ar y "*Divine Legation of Moses*," gan Dr. Warburton. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn yr un flwyddyn gan yr esgob Hoadley; a daeth yn gurad i glerigwr o'r enw Edwards, yr hwn oedd yn meddiannu dwy o fywoliaethau eglwysig, sef Barnstead a Horton, Middlesex. Etholwyd ef yn ddarlithydd St. Botolph yn 1748. Y flwyddyn ganlynol dewiswyd ef yn ddarlithydd St. Dunstan, ac appwyntiwyd ef yn bregethwr boreuol i eglwys St. George, Hanover Square. Yr oedd ei ffyddlondeb a'i hyawdledd yn nodedig, a'i weinidogaeth yn hynod boblogaidd. Creodd ei boblogrwydd lawer o genfigen tuag ato:—gwrthodai y periglor iddo wasanaethu yn ei bulpud, a dygwyd yr achos o flaen y brenin-lys. Yn ol y dyfarniad, cymmerwyd un ddarlithwriaeth oddi arno, ond cadarnhawyd ef yn y llall, yr hon a waddolwyd â'r tâl o ddeunaw punt y flwyddyn! Attaliwyd ef drachefn i fyned â'i waith yn mlaen gan y wardeniaid, y rhai a wrthodent agor drysau yr eglwys hyd saith o'r gloch, na'i goleuo pan oedd angen am hyny; ond ar waith Dr. Terrick, esgob Llundain, yn cymmeryd ei blaid gyda'r periglor a'r wardeniaid, caniatawyd iddo barhau ei weinidogaeth am chwe blynedd, pryd y penodwyd ef yn gurad a phregethwr boreuol i St. Olave. Yn y fl. 1755, priododd Miss Price; a'r flwyddyn ddilynol, cyflwynwyd iddo beriglor-iaethau St. Anne, a St. Andrew, yn Llundain, y rhai a ddaliwyd ganddo hyd ei farwolaeth. Gweithiodd Romaine yn egnïol dros gymdeithas a sefydlwyd i ddosbarthu Beiblau yn y fyddin a'r llynges.

Diweddodd ei oes lafurus ac ymroddgar mewn tangnefedd, gan edrych yn mlaen at ddydd ei ymddattodiad gyda'r sirioldeb a'r tawelwch a deimlir ac a fwynheir gan ddynion da yn unig. Bu farw ar y Sabbath, Gorph. 28ain, 1795, yn yr unfed flwydd a phedwar ugain o'i oedran. Fel pregethwr, yr oedd yn hynod o efengylaidd a phoblogaidd. Yr oedd y llyfrau a gyfansoddwyd ac a gyhoeddwyd gan yr hybarch ŵr hwn hefyd yn lliosog a gwerthfawr. Y penaf yn eu mysg ydyw y rhai canlynol:—"*A Concordance and Lexicon of Marius de Calasio;*" "*Nine Sermons on the 107th Psalm;*" "*The Life of Faith;*" "*The Scriptural Doctrine of the Lord's Supper briefly stated;*" "*The Walk of Faith;*" "*The Triumph of Faith,*" &c.

ROMAMTI-EZER: un o bedwar mab ar ddeg Heman, penaeth y pedwar dosbarth ar hugain o'r cantorion yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxv. 4, 31.

ROSA, SALVATOR: arlunydd Italaidd enwog. Ganwyd ef ar yr 20fed o Fehefin, 1615, yn Renella, pentref yn nghymmydogaeth Naples; a bwriedid ef ar y cyntaf gan ei rieni i gymmeryd urddau eglwysig. Tra yr oedd yn blentyn, dangosodd duedd gref at y gelfyddyd o arlunio; a phan yn ieuangc astudiodd gerddoriaeth a barddoniaeth. Ei addysgydd cyntaf yn y gelfyddyd y daeth i ragori cymmaint ynddi oedd Francesco Francanziani, ei frawd-yn-nghyfraith. Bu farw ei dad pan nad oedd efe ond deunaw mlwydd oed, ac yr oedd ei deulu wedi hyny yn ddibynol i raddau arno ef am eu cynnaliaeth. Mewn trefn i allu eu cynnal, tynai ddarluniau ar bapur tew, gan nad oedd ei dlodi yn caniatau iddo brynu llian, a rhoddai hwynt i ereill i'w hail werthu ar hyd heolydd Naples. Tynodd un o'r darluniau hyn, oedd yn gosod allan Hagar ac Ismael, sylw Lanfranco, yr hwn a'i hedmygai yn fawr; a bu yr arlunydd hwnw yn noddwr o hyny allan i'r celfyddydwr ieuangc. Ffurfiodd hefyd gyfeillgarwch âg Aniello Falcone, arlunydd enwog, yr hwn a roddodd iddo gyfarwyddiadau gwerthfawr, ac a'i cyflwynodd i Spagnuoletto. Ymwelodd Rosa â Rhufain ar wahoddiad cyfaill, a chafodd nawdd y cardinal Brancaccio. Aeth eilwaith i'r ddinas hono yn 1639. Yr oedd Salvator yn enwog yn awr fel arlunydd, bardd, cerddor, a chwareuydd. Yr oedd ei weithiau fel arlunydd yn cyrhaedd prisiau uchel. Ar doriad allan wrthryfel Masaniello yn Naples, dychwelodd Salvator Rosa i'r ddinas hono, ac ymunodd â'r gwrthryfelwyr. Pan lethwyd y gwrthryfel, efe a ddiangodd o Naples, ac a aeth i Florence. Cymdeithasai yma â llenyddion ac â phendefigion penaf y ddinas. Wedi bod amryw flynyddoedd yn Florence, dychwelodd i Rufain, lle y bu yn dilyn ei gelfyddyd gyda dyfalwch. Yn 1663, efe a baentiodd dri darlun ysblenydd ar gyfer arddangosfa San Giovanni:—un oedd Pythagoras ar y traeth; y llall oedd, yr un athronydd yn adrodd hanes ei ymweliad â'r byd anweledig; a'r trydydd oedd, y prophwyd Ieremiah wedi ei daflu i'r daeardy am brophwydo cwymp Ierusalem: ac yn fuan wedi hyny y gorphenodd efe ei ddarlun o Gydfradwriaeth Cataline. Yn arddangosfa 1668, dangoswyd ei Saul a'r ddewines o Endor. Nid llawer o weithiau pwysig a wnaeth efe ar ol hyn; a bu farw ar y 15fed o Fawrth, 1673, yn y ddeunawfed flwydd a deugain o'i oedran. Yr afiechyd o ba un y bu farw oedd y dyfrglwyf.

Digitized by Google

Yr oedd Rosa yn meddu gallu dychymmygol mawr, ac yn gallu cario allan ei feddylddrychau i weithrediad yn ardderchog iawn. Rhagorai yn fawr mewn tir-ddarluniau a môr-ddarluniau *(landscapes and sea views)*. Y mae nifer mawr o'i ddarluniau yn y wlad hon—amryw o ba rai sydd yn nghasgliadau y Duc o Westminster, ac Arglwydd Egerton, y Duc o Devonshire, a'r Duc o Buckingham. Pwrcaswyd rhai o lyfrau cerddorol Salvator Rosa gan Dr. Burney yn Rhufain, ac yr oedd llawer o'r darnau cerddorol oedd ynddynt yn gyfansoddiadau yr arlunydd ei hun; ac yr oedd y rhai hyn yn dangos ei fod yn feddiannol ar athrylith gerddorol o radd lled uchel; ac y mae y farddoniaeth a gyfansoddwyd ganddo yn arwyddo ei fod hefyd yn fardd gwell na'r cyffredin.

ROUSSEAU, JEAN JACQUES: awdwr Ffrengig enwog. Ganwyd ef yn Geneva yn y flwyddyn 1712. Oriadurwr oedd ei dad wrth ei gelfyddyd. Yr oedd y teulu yr hanodd o hono o darddiad Ffrengig, ond wedi sefydlu yn Geneva er's mwy na chant a hanner o flynyddoedd. Collodd ei fam cyn bod yn flwydd oed, ond gofalwyd am dano yn dyner gan chwaer ei dad. Pan yn ddeng mlwydd oed, gosodwyd ef, ynghyd â chefnder iddo, o dan ofal M. Lambercier, gweinidog Protestanaidd Bossey, ger Geneva, gyda'r hwn yr arosodd am ddwy flynedd. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda cherfiedydd yn Geneva, o'r enw Abel Ducommun, triniaeth frwnt yr hwn a dueddai i wneyd un oedd yn naturiol yn gyffrous ac aflywodraethus ei dymmer yn fwy felly nag y buasai. Mynegir hefyd ei fod yn un o arferion segur, ac yn chwanog i ddyweyd celwyddau a lladrata mân bethau. O'r diwedd, o herwydd ei fod yn ofni cerydd am ryw gamymddygiad, efe a ymadawodd â'i feistr, ac a grwydrodd trwy Savoy. Ar waith esgob Annecy yn ei gymmeradwyo, cymmerwyd ef ar y cyntaf i wasanaeth Madame de Warens yn ei phalas, ger llaw Chambrey, gan yr hon y cafodd nawdd hyd y flwyddyn 1740, pryd y gadawodd efe hi yn hollol. Wedi hyny bu yn athraw, yn gerddor, ac yn ysgrifenydd i lysgenhadwr Ffraingc yn Venice. Aeth o Venice i Paris yn y fl. 1745. Ffurfiodd gwmniaeth â morwyn mewn gwestty yn y ddinas hono, o'r enw Therese Levasseur, a pharhaodd y gydnabyddiaeth rhyngddynt y gweddill o'i oes. Yn 1748, y daeth i gydnabyddiaeth gyda Madame d' Epinay, yr hon fu yn un o'i gyfeillion mwyaf cywir a diysgog. Yn ei thŷ hi y daeth efe i gydnabyddiaeth a D' Alembert, Diderot, a Condillac, pan y cyttunwyd ar fod iddo ysgrifenu erthyglau i'r "*Encyclopédie.*"

Un diwrnod, gwelodd Rousseau hysbysiad fod athrofa Dijon yn cynnyg gwobr am y traethawd goreu ar y testyn—"Pa un a oedd cynnydd gwyddoniaeth a chelfyddyd yn fanteisiol i foesau dynolryw, ai nid oedd?" Yna efe a benderfynodd gymmeryd yr ochr nacaol; ac a ysgrifenodd gyda'r fath hyawdledd a brwdfrydedd fel yr ennillodd y wobr. Yr oedd yn dibynu yn benaf y pryd hwn ar gopio cerddoriaeth, ac yr oedd amryw bersonau a wyddent ei fod mewn amgylchiadau cyfyng yn anfon gwaith iddo, ac yn cynnyg iddo dair neu bedair gwaith ei wir werth am ei lafur, ond ni dderbyniai efe ddim mwy na'r pris cyffredin. Efe a ysgrifenodd gryn lawer i'r wasg hefyd yn y blynyddoedd hyn. Yn 1756, cafodd wahoddiad gan Madame d' Epinay i breswylio yn ei phalas hi yn nyffryn Montmorency, ger llaw Paris. Ac yma y dechreuodd efe ysgrifenu ei nofel a elwir "*Julie,*" yr hon a orphenwyd ganddo yn 1759. Condemnir "*Julie*" yn gyffredin am fod tuedd yn y cyfansoddiad i wneuthur drygioni yn wrthddrych dyddordeb a chydymdeimlad y darllenydd. Y mae cymmeriad yr arwr yn y gwaith hwn i'w gondemnio yn fawr; ond y mae Rousseau, pa fodd bynag, trwy gymmeriad uchel yr arwres ar ol ei phriodas, wedi talu gwarogaeth briodol i gyssegredigrwydd y cyfammod priodasol, a phwysigrwydd dyledswyddau priodasol; y rhai, mewn rhai ystyriaethau, ydyw sylfaen dedwyddwch cymdeithasol. Yr oedd Rousseau yn edmygu rhinwedd, ac yn teimlo ei nerth, er nad oedd yn nodedig am ddilyn rhinwedd ei hun. Etto gwelai, os oedd am i'w gynghor gael ei wrandaw, fod yn rhaid i'w ymddygiad gyfatteb i'w egwyddorion proffesedig. A'r ystyriaeth yma, dybygid, a barodd iddo briodi Therese Levasseur, gyda'r hon yr oedd wedi byw am gyhyd o amser, fel pe buasai yn ŵr iddi; yr hon, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, ni feddai ragoriaethau corphorol na meddyliol i'w chymmeradwyo, ond yn unig y gofal a gymmerai o hono ef a'i ffyddlondeb iddo, ac yn enwedig ar yr adegau y byddai yn glaf neu yn isel ei feddwl. Yr oedd hefyd yn edifarhau yn ei flynyddoedd olaf am ei fod wedi anfon ei blant anghyfreithlawn i ysbytty (*foundling hospital*) i'w magu.

Ymddangosodd "*Emile*" Rousseau yn 1762, llyfr sydd yn cynnwys cynnygiad am gyfundrefn newydd o addysg. Y mae llawer o gynghorion da yn y rhan gyntaf o'r llyfr. Ond cyn ei ddiwedd, wrth gyfeirio at foesoldeb a chrefydd, tramgwyddodd yr awdwr Babyddion a Phrotestaniaid hefyd. Condemniwyd y llyfr gan senedd Ffraingc; ac anghymmeradwywyd ef gan archesgob Paris; a chadwyd ef allan o daleithiau Holland; a gorchymynodd cynghor Switzerland i'r dienyddwr ei losgi yn gyhoeddus. Aeth Rousseau i Neuchâtel, ac oddi yno efe a ysgrifenodd attebiad i archesgob Paris, ac hefyd lythyr at ynadon Geneva, yn yr hwn yr ymwrthodai â'i ddinasyddiaeth yn y dref hono. Derbyniodd wahoddiad oddi wrth David Hume i ddyfod i breswylio i'r wlad hon, a chynnygiodd iddo noddfa dawel yn Lloegr. Cyrhaeddodd Rousseau Lundain yn Ionawr, 1766; ac yn y Mawrth canlynol, aeth i Wooton, yn swydd Derby, lle yr oedd lletty cysurus wedi ei barotoi iddo. Cwerylodd Rousseau, pa fodd bynag, â Hume, ac â Davenport, ei lettywr, a dychwelodd yn ol yn sydyn i Ffraingc. Ymddangosodd llythyr yn y newyddiaduron wedi ei arwyddo gan un a alwai ei hun 'Frederick o Prwssia,' yn yr hwn y gwnaed sylwadau llym ar ddiffygion moesol Rousseau: ond cyhuddai y diweddaf Hume o fod yn gynlluniwr ac yn awdwr y llythyr hwn. Yn ofer y gwrthdystiai Hume na wyddai efe ddim o gwbl am dano: ac o'r diwedd cydnabyddodd Horace Walpole mai efe oedd awdwr y llythyr. Ni fynai Rousseau, pa fodd bynag, ei berswadio fod hyn yn wir, a pharhaodd i gyhuddo Hume o'r bwriadau bryntaf yn ei erbyn. Cyhoeddwyd yr ohebiaeth a fu rhyngddynt yn yr argraphiad cyflawn a ddaeth allan o weithiau Rousseau. Ymddengys fod Rousseau, pa fodd bynag, wedi cydnabod ar ol hyn ei fod, tra yn preswylio yn Lloegr, wedi bod yn ddarostyngedig i bangfeydd o orphwylldra.

Ar ol dychwelyd i Ffraingc, arweiniodd fywyd

Digitized by Google

ansefydlog, gan gyfnewid ei le o fyw yn feunyddiol, hyd y flwyddyn 1770. Yna dychwelodd efe i Paris, a gadawodd yr awdurdodau ef yn llonydd: ond cafodd ei roddi ar ei ocheliad, gan fod y llywodraeth wedi meddwl ei gospi o herwydd rhyw bethau a ddadganwyd ganddo yn ei "*Emile,*" i beidio gwneyd ei hun yn rhy amlwg; ond ni wnaeth hyn ond effeithio er peri iddo wneyd ei hun yn fwy felly. Tua'r pryd hwn aeth i ryw gyflwr rhyfedd o ran ei feddwl: tybiai fod pawb yn cynllwyn yn ei erbyn, a chwynai ar yr un pryd ei fod yn dioddef poenau meddyliol dwfn a llym. Un o gŵynion Rousseau oedd, fod llywodraeth Ffrainge yn ceisio attal gwerthiant ei weithiau llenyddol. Fel yr elai yn hen a methedig, daeth y gwaith o gopïo cerddoriaeth yn faich arno; ac yr oedd ei holl dderbyniadau arianol yn gynnwysedig mewn blwydd-dâl o lai na 60*p.* yn y flwyddyn. Yr oedd ei wraig hefyd yn wael ei hiechyd, a lluniaeth yn ddrud iawn, fel y gwelai nad oedd yn bossibl iddo aros yn Paris. Pan glywodd yr Ardalydd de Girardin hyn, cynnygiodd i Rousseau gael byw mewn palasdy bychan, yn agos i'w balas ef ei hun, ger llaw Chantilly. Derbyniodd yntau y cynnygiad hwn yn llawen, a symmudodd yno yn Mai, 1778. Ymddangosai yn gysurus a dedwydd yn y drigfan newydd hon ar unwaith. Arferai fyned allan i gasglu llysiau gydag un o feibion yr ardalydd. Ar y 1af o Orphenaf, aeth allan fel arferol; ond dychwelodd yn ol yn flinedig a gwael. Boreu dranoeth, clafychodd yn fwy. Deisyfodd ar ei wraig eistedd yn ei ymyl, ac erfyniai ei maddeuant am bob gofid a achosodd efe iddi, a dywedai ei fod yn marw mewn heddwch â'r holl fyd, a'i fod yn ymddiried yn nhrugaredd Duw. Gofynodd iddi agor y ffenestr, fel y gallai unwaith yn rhagor weled gwyrddlesni prydferth y meusydd. "Mor bur a phrydferth ydyw y ffurfafen," medd efe, "nid oes gwmmwl arni. Yr wyf yn gobeithio y derbynia yr Anfeidrol fi acw." Wedi dywedyd hyn efe a syrthiodd ar ei wyneb ar y llawr; a phan y cyfodwyd ef yr oedd yn hollol farw. Claddwyd ef, yn ol ei ddymuniad, mewn ynys yn cael ei chysgodi gan goed poplys mawr, ar lyn bychan Ermenonville, ac y mae darn o fynor plaen wedi ei gyfodi yno yn goffadwriaeth am dano.

Dechreuodd Rousseau ysgrifenu ei hunan-gofiant tra yr oedd yn Lloegr, o dan yr enw "*Confessions.*" Y mae yn y gwaith hwn lawer o ddarnau i'w hanghymmeradwyo yn hollol: ond dylid cofio nad oedd efe yn bwriadu i'r gwaith gael ei gyhoeddi hyd y flwyddyn 1800, gan y tybiai y buasai y personau a enwid ynddo erbyn hyny wedi meirw; ond ni wnaed yn ol ei ddymuniad ef:—cyhoeddwyd ef yn 1788. Nid oes modd gwadu nad oedd llawer o bethau gwael ac annheilwng yn ystaenio cymmeriad Rousseau: y mae genym ei dystiolaeth ef ei hun ar y mater hwn yn ei "*Confessions;*" lle y mae yn condemnio ei hun yn y modd chwerwaf o herwydd hyny. Ond nid oedd Rousseau yn gwawdio ac yn dirmygu crefydd a moesoldeb fel yr arferai Voltaire wneyd. Yr oedd yn ammheuwr, ond nid oedd yn teimlo dygasedd penboethyn tuag at Gristionogaeth. I'r gwrthwyneb, canmolai ac edmygai y moesoldeb a ddysgir gan yr efengyl. "Yr wyf yn cydnabod," meddai yn ei "*Emile,*" fod mawreddigrwydd y Beibl yn fy rhyfeddu, a bod sancteiddrwydd yr efengyl yn siarad wrth fy nghalon. Edrycher ar lyfrau yr athronwyr; gyda'u holl rwysg, mor fychain yr edrychant yn ochr yr un llyfr hwnw? A all llyfr mor syml, ac etto mor fawreddig, fod yn waith dynion? Mor rhagfarnllyd, mor ddall y rhaid i'r dyn hwnw fod, a all gymmharu mab Sophroniscus (Socrates) â mab Mair?" Nis gallai Rousseau, tra yn coleddu syniadau o'r fath, gyttuno yn hir â Diderot, Helvetius, D' Holbach, a'u cwmni. Gwawdient hwy ef. Ymosodd Voltaire arno ar amryw achlysuron, oddi ar eiddigedd llenyddol, fel y tybir; ond nid oedd Rousseau yn arfer ad-dalu mewn ymosodiadau yn ol. Dywed Rousseau, "Myfi a dreuliais fy mywyd yn mysg anffyddwyr, heb gymmeryd fy llithio ganddynt: yr oeddwn yn parchu ac yn edmygu llawer o honynt yn bersonol, etto yr oedd eu daliadau yn annioddefol i mi. Dywedwn wrthynt yn feunyddiol nas gallwn i eu credu ........Yr wyf yn gadael i'm cyfeillion y gwaith o brofi fod y byd wedi dyfod i fod o ddamwain. Yr wyf fi yn cael hyd yn oed yn archadeiladwyr y dybiaeth newydd hon, er eu gwaethaf hwy a'u hymresymiadau, brawf newydd o fodolaeth Duw, Creawdwr pob peth." O herwydd na chafodd Rousseau ond addysg ddiffygiol, ac o herwydd diffygion ei dymmher a'i farn, yr oedd yn dra anghymmhwys i ysgrifenu ar wleidyddiaeth. Rhoddodd esampl ddrwg i ereill hefyd oeddynt yn fwy anghymmhwys nag yntau i alw eu hunain yn ddeddfwneuthurwyr ac yn ddiwygwyr. Trwy ei hyawdledd yr oedd Rousseau yn camarwain y deall; ond yr oedd Voltaire drwy ei enllib a'i wawd yn dinystrio pob teimlad moesol. Yr oedd gan y ddau ddylanwad mawr ar y genedl ieuangc, y rhai a ddygasant oddi amgylch y chwyldroad yn Ffrainge; ac etto y mae yn debyg y gallasai Rousseau ddywedyd nad oedd efe yn bwriadu dwyn oddi amgylch y fath drychineb ag a ddigwyddodd y pryd hwnw. Yr oedd Rousseau yn nodedig o hoff o gerddoriaeth, er nad yw yn ymddangos iddo gyrhaedd gwybodaeth ddofn yn y wyddor hono. Cyhoeddwyd gweithiau y dyn nodedig hwn mewn dwy ar hugain o gyfrolau.

ROWE, JAMES. Gweinidog i'r Bedyddwyr yn Abergwaun oedd y Parch. James Rowe, ac un o ddynion cedyrn ac arbenig ei oes. Un o Abergwaen ydoedd. Ganwyd ef Ionawr 10fed, 1810. Nid oes dim hynod i'w gofnodi mewn cyssylltiad â'i febyd: ychydig o addysg a gafodd yn moreu ei oes. Derbyniwyd ef trwy fedydd i eglwys y Bedyddwyr yn Abergwaun yn 1827, gan y Parch. James Richards, wedi hyny o Bontypridd. Dechreuodd bregethu tua diwedd 1832; ond edrychid arno fel un tra anghymmhwys i'r gwaith, o herwydd afrwyddineb ei ddawn ymadrodd, a'i ystumiau poenus ac anhylaw. Gorchwyl caled iddo ef oedd llefaru yn gyhoeddus; canys, er ei fod yn un o'r dynion cryfaf o gorph, byddai y chwys yn llifo hyd ei wyneb yn fynych cyn iddo draddodi chwarter ei bregeth. Pa fodd bynag, yn 1835, annogwyd ef i fyned i'r athrofa i Abergafenni—yr hon, yn mhen y flwyddyn, a symmudwyd i Bontypool. Ar ei draul ei hun y bu efe yn Ysgol y Fenni; ond cafodd ddeunaw mis yn Mhontypool ar draul yr enwad. Ychydig fel yna oedd ei fanteision addysg. A chan na chafodd fawr o addysg yn moreu ei oes, a'i fod yn bump ar hugain yn myned i'r athrofa, nis gallai fod yn ysgolhaig mawr; etto, gan ei fod o feddwl cryf, ac ymroddiad a diwydrwydd diflino, daeth yn fwy dysgedig nag y gallesid disgwyl iddo fod. Yr oedd yn Gymro rhagorol, yn Sais da, ac yn medru defnyddio geirlyfrau Lladin, Groeg, a

Digitized by Google

Hebraeg. Cafodd ei urddo i'r weinidogaeth yn Mhenrhyncoch, ger Aberystwyth, a bu yn ddefnyddiol iawn yno am tua thair blynedd. Symmudodd i Risca, yn sir Fynwy tua dechreu 1842, a bu yno yn weinidog parchus a defnyddiol am o ddeutu dwy ar bymtheg o flynyddoedd. Yr oedd Bedyddwyr sir Fynwy ar yr adeg hono yn anesmwyth ac ymrysongar yn eu plith eu hunain:—berw y ddadl Fulleraidd heb lonyddu, tymmherau afrywiog y gwahanol bleidiau heb oeri, a chlwyfau y rhyfelwyr heb lwyr ymiachau. Yr oedd y llesgaf yn y llwythau yn tybied ei hun yn dduwinydd mawr, a disgwylid i'r bechgynach gwanaf eu galluoedd, os yn anturio pregethu, fod yn benderfynol ac anffaeledig yn eu barn ar y pyngciau mwyaf dyrys ac anhawdd i'w hamgyffred; canys yr oedd y tywyllwch yr un ffunud a'r goleuni i lawer o honynt. Ystyrid James Rowe yn Armin. Dyna yr enw a roddid ar bob un a ymadawai â geiriadaeth bregethwrol yr hen frodyr da, ond aflenorawl, a fuasai yn teyrnasu o'r blaen. Gorfu i Rowe oddef llawer gan ei frodyr, y rhai a ddylasent eistedd wrth ei draed, a chymmeryd eu dysgu ganddo; a chan nad oedd ei ddawn yr hyn a ystyrid yn wlithog gan y werin, na'i lais yn gerddgar a dylanwadol o ran tôn a goslef, trwy fywyd addas, dyfalbarhâd mewn myfyrdod yn y Gair, ac ymdrechion diflin i lesoli yr ardal, y daeth efe i sylw; ac efe, cyn hir, oedd oracl y gymmydogaeth, a dyn pwysicaf y cylchoedd hyny.

Symmudodd i Abergwaen, i fod yn weinidog i'w fameglwys, yn 1859. Yr oedd efe bellach wedi gorphen tyfu—yn 49 mlwydd oed, ac wedi ennill safle uchel o ddylanwad a pharch yn yr enwad y perthynai iddo, a'r wlad hefyd yn ei fawrhau. Bu yn boblogaidd a llwyddiannus yn Abergwaen am wyth mlynedd. Bu farw Hydref 4ydd, 1867, yn 57ain mlwydd oed; a bu galar mawr yn y wlad am dano.

Bellach, taflwn olwg ar rai o'i ragoriaethau. O ran ymddangosiad, dyn mawr, esgyrnog, cadarn, ac afrosgo ydoedd, heb na choegedd nac athlerwch yn ei wisg; ond pob peth yn dynodi fod rhyw urddas elephantaidd ynddo rhagor ereill. Fel pregethwr, traddodwr anghelfydd ydoedd o ran llais a medr areithyddol; ond yr oedd y bregeth yn gampus, yr iaith yn bur, er fod ychydig o'r Ddyfedaeg ynddi, y syniadau yn gedyrn a chywir, y cyfansoddiad yn gryno, yr esboniad yn feirniadol a gofalus, a'r athrawiaeth yn iachus ac ysgrythyrol. Anhawdd cael neb yn deall y gorchymyn, "Pregetha y gair," ac yn amcanu ei gyflawni yn well a ffyddlonach na James Rowe. Cyhoeddwyd cyfrol yn cynnwys cant o'i bregethau, gyda braslun o'i fywyd, ar ol ei farwolaeth. Os edrychir arnynt fel cyfansoddiadau gorphenedig, y maent yn dra ammherffaith; ond pan gofir mai brasluniau at ei wasanaeth ei hun yn ystod ei weinidogaeth ydynt, y maent yn adlewyrchu yr anrhydedd mwyaf arno fel myfyriwr gofalus yn parotoi at angen ei wrandawyr. Pe buasai efe ei hun yn eu parotoi i'r wasg, buasent yn ddiau yn rhagori yn ddirfawr ar yr hyn ydynt; ond fel y maent, ni raid eu diystyru, ond yn hytrach rhyfeddu at ei ddiwydrwydd yn darparu mor gyflawn.

Bu Mr. Rowe yn brifolygydd "*Seren Gomer*" am tua deng mlynedd. Ysgrifenasai lawer iddi cyn hyny—yn wastad ar byngciau ysgrythyrol. Nid elai efe byth allan o sŵn y weinidogaeth i ysgrifenu ar byngciau estroniaethus. Cyfyngodd ei lafur yn hollol i faes y Gair. Deallai helyntion yr amseroedd, ac egwyddorion llywod-ddysg, ac addysg, &c., cystal a neb o'i frodyr; ac aelod gwerthfawr, o farn bwyllog a doeth, mewn cynnadleddau o bob natur ydoedd: etto, duwinyddiaeth Feiblaidd oedd ei hyfrydwch, ac yn y wybodaeth bwysig hono y rhagorai. Ei athraw cyntaf, a'i arweinydd, oedd y diweddar Barch. James Richards, o Bontypridd. George Campbell, James Macknight, Dr. Boothroyd, a Moses Stuart oedd ei hoff awdwyr. Nid oedd gwell y rhai hyny ddeugain mlynedd yn ol; ac fel y cynnyddai llenfeirniadaeth, elai Mr. Rowe yn mlaen gyda'r oes, a daliai yn dirf ac yn iraidd hyd ddiwedd ei einioes. Yr oedd ei barch yn cynnyddu gyda blynyddoedd ei fywyd; a theimlir galar a hiraeth am dano gan gyfeillion lawer hyd y dydd hwn.

ROWLAND, DANIEL: un o bregethwyr hynotaf ei oes, ac un o'r rhai mwyaf dylanwadol yn mhlith y tadau Methodistaidd yn Nghymru. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1713, mewn lle o'r enw Pant y beudy, yn mhlwyf Llancwnlle, yn swydd Ceredigion. Ail fab ydoedd i'r Parch. Daniel Rowland, parson Llangeitho a Llancwnlle. Ychydig iawn a wyddys am ei dad; ond oddi ar ryw draddodiad am dano, y mae genym le i dybied ei fod yn ŵr difrifol a duwiol—yn enwedig tua diwedd ei oes. Bu farw yn y flwyddyn 1731, yn 72ain mlwydd oed. Dygodd ddau o'i feibion i fyny i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, sef John a Daniel. Dilynodd John ei dad fel parson Llangeitho a Llancwnlle; a chwanegwyd iddo yn fuan beriglorïaeth Llanddewi-brefi at y ddau le arall. Nid ymddengys ei fod yn ŵr crefyddol, er ei fod yn meddu galluoedd cryfion; ond yr oedd yn hytrach yn wyllt ac afradlawn. Boddodd wrth ymdrochi yn y môr, ger Aberystwyth, yn y flwyddyn 1760.

Dygwyd Daniel i fyny mewn dysgeidiaeth yn Ysgol Rammadegol Henffordd; ond bu farw ei dad pan nad oedd efe ond deunaw mlwydd oed. Dichon mai hyny a barodd na anfonwyd ef i un brifysgol. Yr oedd yn berchen galluoedd tra chyflym a disglaer; ac yr oedd wedi gwneyd y fath gynnydd mewn dysg a gwybodaeth fel y barnwyd ef yn addas i gymmeryd urddau yn ieuengach nag yr arferir yn gyffredin. Derbyniodd urdd diacon pan oedd tuag ugain mlwydd oed; ond bu rai blynyddau cyn cael ei gyflawn urddau. Tybir iddo gael ei urddo fel curad i'w frawd yn Llangeitho; a bu yn gweinidogaethu am ryw ysbaid, yn fuan wedi hyny, yn Ystradffin, yn swydd Gaerfyrddin. Dywedir ei fod yn dra chymmeradwy gan y plwyfolion yno, a chyfrifent ef yn bregethwr galluog; ond hoffent ef yn benaf o herwydd ei arabedd a'i dymmher siriol. Nid oedd efe etto wedi dangos un cymmhwysder i swydd gweinidog yr efengyl, heb law ei alluoedd naturiol a'i ddysgeidiaeth, a'i fod y pryd hyny, dybygid, yn awyddus i ragori fel pregethwr. Yr oedd efe etto yn ymollwng i gydredeg â'r werin ddigrefydd yn arferion llygredig yr oes; a chan ei fod yn llawn bywiogrwydd, ac yn dra heinyf a gwisgi, rhagorai yn mron ar bawb yn y 'campau a'r chwareuon arferedig; a dywedir y byddai yn blaenori ynddynt hyd yn oed ar y Suliau, ar ol y gwasanaeth boreuol yn yr eglwys. Yr oedd y fath ymddygiad yn beth digon cyffredin yn y dyddiau hyny, er mor anghysson ac afreolaidd ydoedd; ond yr oedd y fath dywyllwch moesol yn gorchuddio y wlad fel na chymmerid dim sylw o hono. O fawr drugaredd

Digitized by Google

y nefoedd, nid hir y cafodd y gweinidog ieuangc ei adael yn y cyflwr alaethus hwn, gan i gyfnewidiad trwyadl ac amlwg gymmeryd lle ynddo tua'r flwyddyn 1735.

Y mae dull ei dröedigaeth, yn ol adroddiadau ei fywgraphwyr, yn amrywio, fel y mae braidd yn anhawdd eu cyssoni. Dichon fod y naill amgylchiad a'r llall yn wirionedd, ac wedi digwydd yn agos i'r un amser, a dybenu mewn gwir gyfnewidiad. Yn ol un adroddiad, y peth cyntaf a dueddodd i'w ddeffro o'i gwsg ysbrydol oedd canfod leied o bobl oedd yn dyfod i'w wrandaw yn Llangeitho:—er cystal, yn ei dyb ei hun, y pregethai, fod y bobl yn ei adael, ac yn myned i wrandaw ar weinidog Ymneillduol parchus, duwiol, a llafurus, yn ardal Blaenpenal, ger llaw Llangeitho, sef y Parch. Philip Pugh. Wedi deall fod pregethau y gŵr da hwnw yn tueddu i gyffroi y rhai diofal i ystyried perygl eu cyflwr, a'u hannog i ffoi rhag y llid a fydd, penderfynodd yntau roddi prawf ar ddull tebyg. Dewisai yn destynau y cyfryw eiriau a'r rhai hyn:—"Yr annuwiolion a ymchwelant i uffern;" "Daeth dydd mawr ei ddigter ef;" "Y rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol," &c. Oddi wrth y rhai hyn, a'u cyffelyb, traddodai y cyfryw wirioneddau a dueddent i ddeffro ei wrandawyr o'u difaterwch, ac i bryder ynghylch achubiaeth eu heneidiau. Llwyddodd y cynllun tu hwnt i'w ddisgwyliad. Daeth y bobl yn lluoedd i'w wrandaw, a dywedir fod nifer mawr dan ddwys argyhoeddiad cyn bod y pregethwr ei hun wedi ffoi i gymmeryd gafael yn ngobaith yr efengyl, er fod lle i feddwl y rhaid ei fod yn teimlo i ryw raddau bwys y pethau yr oedd yn eu pregethu i ereill, a'i fod hefyd wedi diwygio llawer yn ei fuchedd.

Yn y cyfamser, yn ol adroddiad arall, yr oedd y Parch. Griffith Jones, o Landdowror, i bregethu ryw Sabbath yn Llanddewi-brefi: ac o flys i'w glywed, aeth Rowlands,[1] a llawer o'i gymmydogion, i'w wrandaw yno. Ymddangosai Rowlands y tro hwn, meddir, yn falch a gwatwarus; yn gymmaint felly ag i dynu sylw Mr. Jones, fel yr ymattaliodd ar ei bregeth, ac y torodd allan mewn gweddi dros y gŵr ieuangc oedd o'i flaen, gan erfyn ar Dduw ei wneyd yn offeryn defnyddiol yn ei law i droi llawer o dywyllwch i oleuni. Effeithiodd y weddi yn fawr arno, ac ymddangosai wrth ddychwelyd adref fel wedi ei lwyr ddarostwng, ac mewn dwys fyfyrdod. Teimlai gymmaint oddi wrth y bregeth fel y syrthiodd i'r fath ddigalondid nes penderfynu na cheisiai bregethu byth mwy. Yr oedd y bobl yn canmawl y bregeth fel yr oreu a glywsant erioed; ond un gŵr a ddywedodd yn debyg i hyn:—"Canmolwch chwi a fynoch ar y bregeth heddyw, ni chefais i ddim budd drwyddi: y mae genyf fi achos i ddiolch am offeiriad bach Llangeitho," a tharawai ei law ar ei ysgwydd ef. Teimlodd yntau, ar hyn, radd o adfywiad i'w ysbryd, a dywedai ynddo ei hun:—"Pwy a ŵyr na wna yr Arglwydd ryw ddefnydd o honof finnau, er mor annheilwng ydwyf!" Y mae yn debyg mai trwy ryw foddion o'r fath y dechreuwyd ynddo y gwaith da. Pregethai mewn canlyniad yn fwy tanllyd ac argyhoeddiadol nag o'r blaen—fel un yn teimlo yn ddwys yr hyn a draddodai. Cyflwynodd ei hunan, a chyssegrodd ei ddoniau, yn gwbl i waith y weinidogaeth. Cyrchai y bobl o bob parth i'w wrandaw, a byddai yr eglwysydd lle y pregethai, ac hyd yn oed y mynwentydd, yn orlawn o wrandawyr astud. Yr oedd effeithiau grymus anarferol yn dilyn pregethiad y Gair, a lliaws o bobl dan argyhoeddiadau dyfnion, fel eu gwelwyd yn fynych yn syrthio ar y ddaear, mewn profiad o nerthoedd y byd a ddaw.

Yr oedd efe yn teimlo yn angerddol o herwydd anfoesoldeb y wlad, oedd wedi suddo mewn anwybodaeth a drygioni. Llefarai yn erbyn pechod gyda'r dwysder mwyaf, ac ymddangosai fel un wedi ei lenwi â thosturi a chydymdeimlad, gyda phryder am achubiaeth ei wrandawyr, ac ar yr un pryd dan argyhoeddiad dwfn o'i annheilyngdod ei hun—yn bechadur euog fel hwythau. Yr hyn a deimlai yn brofiadol ei hun a bregethai i ereill. Nid rhyfedd, gan hyny, fod yr effeithiau mor rymus. Llifai y dagrau dros ruddiau cannoedd o'i wrandawyr ar unwaith, wedi eu dwysbigo yn eu calonau. Ymddengys fod ei genadwri danllyd yn addas i amgylchiadau yr oes, pryd yr oedd y werin dywyll yn ymroddi i lygredigaeth ac annuwioldeb. Yn raddol, er hyny, y dygwyd ef ei hun i lawn adnabyddiaeth o'r gwirionedd. Un o'r prif offerynau i'w ddysgu yn fanylach oedd ei gymmydog Ymneillduol, Mr. Pugh; yr hwn yn y modd mwyaf caredig a roddodd lawer o gynghorion a hyfforddiadau da a buddiol iddo, ac a lawenychai yn fawr yn ei lwyddiant. Bu ei gydnabyddiaeth â Howel Harris, Howel Davies, a George Whitfield, tua'r un adeg, yn dra bendithiol iddo, er ei ddwyn yn mlaen mewn gwybodaeth a phrofiad ysbrydol, ac i oleuni eglurach am wirioneddau dwyfol, yr hyn a barhaodd i lewyrchu yn ddigwmmwl hyd y diwedd.

Mewn canlyniad i hyn, newidiodd tôn ei weinidogaeth yn fawr: daeth "mab y daran," o hyny allan, yn fwy o "fab diddanwch;" ac at y cyfnewidiad hwn y cyfeiria Williams yn ei farwnad, lle y dywed am dano:—

"'Nol pregethu 'r ddeddf dymmestlog,
Rai blynyddau yn y blaen,
A rhoi llawer yn friwedig,
'N awr cyfnewid wnaeth ei gân:
Fe gyhoeddodd iachawdwriaeth
Gyflawn hollol, berffaith lawn,
Trwy farwolaeth y Messïah,
Ar Galfaria un prydnawn."

Yr oedd ei weinidogaeth yn awr mor hynod am ei melusder efengylaidd, ag ydoedd o'r blaen o gyffrous ac arswydol: yr oedd ei bregethau yn llawn eneiniad nefol, yn dwyn ymborth a meddyginiaeth i eneidiau trallodedig. Diwygiad mawr ac effeithiol a ddilynodd, ac a ymdaenodd yn helaeth yn mhlith y bobl, fel y byddent yn fynych yn tori allan mewn gorfoledd a mawl. Torodd allan yn gyntaf mewn dull tra nodedig. Fel yr oedd efe, un boreu Sabbath, yn darllen gwasanaeth yr eglwys, yr oedd ei feddwl wedi ei gymmeryd i fyny gymmaint gan y gweddïau nes effeithio gyda rhyw ddylanwad rhyfeddol ar ei ysbryd ei hun, pan yn defnyddio yr ymadroddion toddedig hyn:—"Trwy dy ddirfawr ing, a'th chwys gwaedlyd; trwy dy grôg a'th ddioddefaint; trwy dy werthfawr angeu, a'th gladdedigaeth; trwy dy anrhydeddus gyfodiad, a'th esgyniad; a thrwy ddyfodiad yr Ysbryd Glân." Disgynodd yr un dylanwad ar y gynnulleidfa, nes yr oedd efe a hwythau wedi eu llwyr orchfygu gan gariad, syndod, a diolchgarwch.

[1] *Rowland* oedd y ffurf yr ysgrifenai ef ei enw: ond ei frodyr crefyddol a'r werin yn gyffredin a'i galwent ef yn *Rowlands*, gan chwanegu yr *s* yn niwedd yr enw, yn arwydd o'u parch iddo. Yn yr erthygl hon, cymmerir y ffurf uchod er mwyn hyseinedd a byrdra.

Digitized by Google

Yr oedd efe bellach, er yn parhau i bregethu y gyfraith, yn rhoddi mwy o arbenigrwydd i'r efengyl. Defnyddiai y naill i agor y clwyfau, a'r llall i gymmhwyso y feddyginiaeth. Yr oedd goleuni a nerth rhyfedd, ac anhygoel yn mron, yn dilyn ei weinidogaeth. Rhoddwn yma dystiolaeth Howel Harris, mewn dyfyniad o lythyr a ysgrifenwyd ganddo yn gynnar yn y flwyddyn 1743, at Gymdeithas y Tabernacl, yn Llundain:—

"Nis gall geiriau ddywedyd fel y mae yr Arglwydd yn bendithio y brawd Rowlands, o sir Aberteifi, a'r brawd Howel Davies, o sir Benfro, a'r holl gynghorwyr, y rhai, yn eu lleoedd, a arddelwir yn rhyfeddol; ac y mae gallu mawr yn wir yn y cymdeithasau, yn eu cynnulliadau neillduedig. Y mae rhai o'r mawrion yn dyfod i wrandaw, ac yn ymddangos yn teimlo. Yn fyr, ni welodd fy llygaid y fath beth o'r blaen; ac y mae yn ymdaenu fwyfwy, fel nad oes odid blwyf na thref mewn chwech neu saith o siroedd heb glywed yr hyfryd sain.......Diau fod gan yr Arglwydd bethau mawrion i'w gwneyd ar y ddaear, ac yn y rhan dlawd a dirmygedig hon o'r ddaear hefyd."

Yr oedd Howel Harris wedi cychwyn ei yrfa ddeffrous yn sir Frycheiniog ychydig o flaen Rowlands yn sir Aberteifi; a Howel Davies yn sir Benfro, yn agos i'r un amser. Yr oeddynt, modd bynag, yn anhysbys i'w gilydd ar y cyntaf, ond ni buont yn hir heb ddyfod yn gydnabyddus, ac yn gydlafurwyr. Rowlands, y mae yn amlwg, oedd y gweinidog ordeiniedig cyntaf ar y maes. Nid oedd Harris mewn urddau, gan i'r esgob ei wrthod; ac am hyny 'cynghorwr' y gelwid ef. Daeth Rowlands a Harris i gydnabyddiaeth â'u gilydd yn y flwyddyn 1737, pan oedd Rowlands yn pregethu yn eglwys Defynog. Dechreuodd Rowlands deithio yn lled foreu ar ei weinidogaeth; ond ar y cyntaf, byddai yn ofalus nad elai i blwyf neb arall i bregethu heb genad gweinidog y plwyf, gan weinyddu yn unig mewn eglwysydd a chapelau eglwysig, a bod yn ochelgar na wnelai ddim a fyddai yn anghysson â threfniadau yr Eglwys Sefydledig. Nid oedd efe, na'i gydlafurwyr, yn amcanu ffurfio plaid grefyddol ar wahân oddi wrth yr eglwys hono: yr oedd hyny yn bell oddi wrth eu meddwl; ond cawsant eu harwain yn raddol, mewn ufudd-dod i lais cydwybod, ac awgrymiadau Rhagluniaeth, i ymarferiadau nas gallai yr awdurdodau uchel-eglwysig eu goddef. Gyrwyd hwy yn Ymneillduwyr o angenrhaid, nid o fwriad; ond yn unig am eu bod yn teimlo rhwymedigaeth y "rhaid ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion." Etto, er mor anghysson yr ymddengys hyny yn awr, bu y diwygwyr Methodistaidd yn hir cyn cael eu llwyr ddiddyfnu oddi wrth eu hymlyniad wrth y sefydliad gwladol, er fod eu hymarferiadau yn cynnwys elfenau Ymneillduaeth o'r dechreuad.

Y mae lle i dybied i Rowlands, ar ol bod ysbaid byr yn gwasanaethu yn Ystrad Ffin, ddychwelyd i Langeitho, lle yr oedd pan y cafodd ei droedigaeth, ac iddo wedi hyny gael ei bennodi yr ail waith i Ystrad Ffin. Oddi wrth lythyr o'i eiddo, deallwn iddo gael ei droi allan o'r lle hwnw yn 1742. Dywed Williams, yn ei farwnad, y byddai cynnulliadau mawrion yn cyrchu yno i'w wrandaw o'r gwahanol siroedd o amgylch, a bod gwaith mawr yn cael ei wneyd trwyddo. Cynnhyrfodd y gelyn i'w ddifuddio o faes ei lafur yno, a bu raid iddo ddychwelyd drachefn i Langeitho—lle y cartrefodd o hyny allan. Tebygol mai at ei lafur llwyddiannus yn Ystrad Ffin y cyfeiria awdwr "*Hanes y Bedyddwyr*," pan y dywed am dano ei fod "yn pregethu yn y flwyddyn 1737 mewn modd anghyffredin iawn yn sir Gaerfyrddin."

Dechreuodd bregethu yn yr awyr agored oddi ar ei awyddfryd i ddarostwng cynnulliadau llygredig, a chwareyddiaethau, a gynnelid ar y Sabbothau, ar un o'r bryniau ger llaw Llangeitho, lle y byddai llawer o'i hen gymdeithion gynt yn treulio Dydd yr Arglwydd mewn oferedd. Wedi methu eu cael i'r eglwys i wrandaw y Gair, ymwrolodd i fyned i'w plith; a phregethodd yno mor rymus ac effeithiol fel na bu yno mwy ymgynnull i halogi y dydd Sabbath. Bu ei lwyddiant yn hyn yn annogaeth a chyfnerthiad iddo i droi allan yn fynych i'r prif-ffyrdd a'r caeau i alw pechaduriaid i edifeirwch, i adael eu pechodau, a dychwelyd at yr Arglwydd.

Gwelodd Rowlands yn fuan angen am ryw drefniant i ymgeleddu ac i hyfforddi y dychweledigion yn fanylach yn egwyddorion a dyledswyddau crefydd. Hyn a'i harweiniodd i sefydlu cymdeithasau crefyddol i'r amcan hwnw yn y fl. 1737:—y gyntaf yn mhlwyf Llancwnlle, yna yn Llangeitho, Ystrad Ffin, a manau ereill, ac yn benaf yn sir Aberteifi. Yr oedd Harris wedi dechreu ychydig yn gynt—tua diwedd 1736. Ymddengys nad oedd y ddau yn gwybod dim am gynlluniau eu gilydd ar y cyntaf, ond ymunasant yn fuan yn y gwaith, ac yr oeddynt wedi trefnu tua deg-ar-hugain o'r fath gymdeithasau cyn i Whitfield a Wesley ymweled â Chymru, a chyn bod dim o'r fath wedi ei gychwyn ganddynt hwy yn Lloegr. Ar y cyntaf, cedwid y cyrddau neillduol hyn yn achlysurol—mor fynych ag y byddai oyfleusderau i hyny yn caniatau, ar y Sabbath neu ddydd gwaith, yn y dydd neu yn yr hwyr, ac weithiau ar ol pregeth pan fyddai pregethwr ar ei daith: ond fel yr oedd yr achosion bychain yn lliosogi ac yn cryfhau, daethant i'w cadw yn wythnosol, fel eu cedwir yn awr; a gofelid am alw pob brawdoliaeth o'r fath yn 'gymdeithas grefyddol,' ac nid yn 'eglwys,' rhag tramgwyddo yr uchel Eglwyswyr. Argraphwyd "*Rheolau Cymdeithasau Crefyddol*" yn 1742, gyda rhai hymnau gan Howel Harris, Daniel Rowlands, Morgan Jones, a Herbert Jenkins. Yr oedd y brodyr yn 1741 wedi dechreu cyfarfod unwaith bob mis neu ddeufis, i gydystyried ansawdd y gwaith, ac i arolygu yr achosion bychain a godasid ganddynt; ac mewn cymdeithasfa yn Waterford, yn sir Forganwg, Ionawr 5ed a'r 6ed, 1742—3 (y gymdeithasfa reolaidd gyntaf a gynnaliwyd), trefnwyd y cymdeithasau yn ddosbarthiadau, a gosodwyd golygwyr o'r cynghorwyr lleyg i ofalu am danynt, a goruchwylwyr lleol i'w cynnorthwyo; ac nid oedd neb i weithredu felly ond a gymmeradwyid gan y gymdeithasfa. Yr oedd y trefniant hwn yn rhyddhau y gweinidogion urddedig i fyned o amgylch i efengylu hyd y gallent. Dyma ddechreuad cyfarfodydd eglwysig presennol y Methodistiaid, eu cyfarfodydd misol neu henaduriaethau, ffurfiad eu cymdeithasfaoedd chwarterol yn y Deheubarth a'r Gogledd, ac erbyn hyn eu Cymmanfa Gyffredinol hefyd.

Whitfield a ddewiswyd yn gyntaf yn llywydd y gymdeithasfa, a Rowlands i gymmeryd ei le yn ei absen, a Harris yn ysgrifenydd. Ond yn raddol, fel yr oedd y gwaith yn cynnyddu, disgynodd y llywyddiaeth yn naturiol ar ysgwyddau Rowlands, yr hon swydd a gyflawnodd yn

Digitized by Google

ffyddlawn a boddhaol hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd ei gyfaill, Williams, o Pant-y-celyn, yn gynnorthwyol iawn iddo, gan fod ei ddoniau yn hynod o adeiladol, fel yr oedd yn dra chymmeradwy yn mhlith y brodyr. Dywedai Griffiths, o Nevern, "fod Rowlands a Williams yn meddu talentau digonol i lywodraethu teyrnas." Y mae y modd y dygasant achosion y cyfundeb yn mlaen yn brawf o'u doethineb, a'u pwyll, a'u hymgyssegriad llwyr i wasanaeth yr efengyl.

Yr oedd y gwaith da yn'myned rhagddo yn llwyddiannus am o ddeg i bymtheng mlynedd; ond cyfarfu âg anffawd ofidus yn yr ymraniad a gymmerodd le rhwng Rowlands a Harris yn 1751. Yr oedd gradd o anghydweledíad wedi dechreu tua'r flwyddyn 1746, mewn canlyniad i rai ymadroddion cryfion am Berson y Gwaredwr a ddefnyddiai Harris wrth bregethu; megys, "fod Duw wedi marw ar y groes," a geiriau cyffelyb. Yr oedd Rowlands, a'r rhan fwyaf o aelodau y gymdeithasfa, yn anghymmeradwyo golygiadau Howel Harris: cyfododd dadleuon yn mysg y bobl; ond mewn cymdeithasfa fechan yn Llanidloes, yn 1751, fe derfynodd yr helynt anghysurus mewn ymraniad. Aeth y bobl yn ddwy blaid—rhai yn ymlynu wrth Harris, a'r lleill, y rhai mwyaf goleuedig, gyda Rowlands. O herwydd y dadleuon chwerwon, drylliwyd y cymdeithasau mewn llawer o leoedd, a syrthiodd yr achos i wywdra ac iselder mawr. Rhoddodd Harris heibio deithio, ac adeiladodd fath o grefydd-dy yn Nhrefecca, lle yr ymgynnullodd llawer o'i gyfeillion i gartrefu gydag ef ynddo.

Ymroddodd Rowlands a'i gydlafurwyr i fyned yn mlaen fel cynt i daenu gwybodaeth o'r efengyl hyd y gallent drwy yr holl wlad, yn wyneb llawer o rwystrau a 'digalondid. Yr oedd y gweinidogion oll, a'r nifer fwyaf o'r cynghorwyr a'r aelodau cyffredin, wedi aros yn ffyddlawn gyda Rowlands; ac yn raddol trodd y fantol o'u tu:—adferwyd amryw o'r blaid wrthwynebol, a diflanodd dylanwad y lleill, nes eu myned yn ddim. Diwygiad nerthol a ddilynodd hyn, yn enwedig tua'r flwyddyn 1762.

Yr eglwysi a wasanaethai Rowlands yn y cyfamser oedd Llangeitho a Llancwnlle. Dywedir iddo fod yn gwasanaethu y ddwy hyn am yn agos i ddeg ar hugain o flynyddoedd am ddeg punt yn y flwyddyn! Cafodd guradiaeth Llanddewi-brefi at y ddwy arall yn 1742, wedi ei droi ymaith o Ystrad Ffin. Daliodd y tair eglwys hŷn hyd nes y trowyd ef allan; a phregethai yn gyffredin y pryd hyny dair gwaith bob Sabboth, ac yn aml hefyd mewn manau ereill yn mhell ac yn agos, er nad oedd yn teithio cymmaint a rhai o'r gweinidogion ereill. Ond y mae yn wybyddus iddo yntau deithio llawer: a dywed Williams am dano fel hyn:—

"Nid oes un o siroedd Cymru
Braidd, na phlwyf, sy'n berchen cred,
Na bu Rowlands yn eu teithio
Ar eu hyd, ac ar eu lled;
Tros fynyddau, trwy afonydd,
Ac aberoedd gwaethaf sydd,
O Dŷ Ddewi i Lanandras,
O Gaergybi i Gaerdydd."

Y gyntaf o siroedd y Gogledd yr ymwelodd Rowlands â hi oedd sir Drefaldwyn. Yr oedd rhai cymdeithasau bychain wedi eu sefydlu yno yn moreu y Diwygiad Methodistaidd. Ymwelodd â sir Feirionydd tua diwedd 1740, pryd y cynnygiodd bregethu yn Llanuwchllyn, wedi cael cenad parson y plwyf; ond attaliwyd ef trwy wrthwynebiad parson y plwyf nesaf. Yn 1747 efe a anturiodd mor bell a sir Gaernarfon. Wedi croesi y Traeth Mawr, bygythiwyd ef yn erchyll yn Mhenmorfa; ond cafodd bregethu ar gareg farch wrth borth y fynwent, yn Llan Mellteyrn, yn Lleyn, wedi cau drws yr eglwys yn ei erbyn. Ei destyn oedd *Ier.* xxx. 21: "Canys pwy yw hwn a lwyr roddodd ei galon i nesau ataf fi? medd yr Arglwydd." Yr oedd y bregeth yn rymus anarferol; ac ni anghofiwyd y tro hwnw gan lawer o'r gwrandawyr ddyddiau eu hoes. Ymwelodd amryw weithiau â'r Gogledd ar ol hyn. Cafodd Môn, Fflint, a Dinbych eu breintio â'i weinidogaeth lawer gwaith. Dywedir y rhoddai tro drwy Gymru unwaith yn y flwyddyn am ysbaid helaeth o'i oes, a rhoddai ei ddyfodiad ysgogiad adnewyddol i'r achos crefyddol y ffordd yr elai. Y mae yn debyg iddo fod yn Llundain yn gwasanaethu capelau Whitfield fwy nag unwaith o ddeutu y fl. 1742. Bu yn pregethu yn nghapelau yr Iarlles Huntingdon yn Bristol, Bath, a manau ereill, yn ddiweddarach ar ei oes. Ond er cymmaint a deithiai efe, yr oedd yn dra gofalus am ei braidd gartref. Byddai gyda hwynt yn gyffredin ar y Sabbothau, yn enwedig Sabbothau cymmundeb, bob pen mis, oddi eithr pan elai ar daith bell; a dywedir y byddai ei weinidogaeth gartref yn fwy llewyrchus a llwyddiannus nag yn un man arall.

Fel ei gydlafurwyr, er fe allai nad i'r un graddau a rhai o honynt, cyfarfu Rowlands â gwrthwynebiadau lawer oddi wrth barsoniaid a boneddigion gelyniaethus, y rhai a gynnhyrfent y werin anwybodus i'w gablu a'i erlid mewn llawer dull a modd, nes bod yn fynych mewn perygl am ei fywyd. Dyrysid yr addoliad weithiau, a byddai raid iddo ef a'i wrandawyr ffoi rhag ffyrnigrwydd eu herlidwyr, dan gawodydd o laid'a cheryg, nes diangc o'u cyrhaedd i ryw gilfach ddirgel; ac yno, mewn tawelwch, mwynhaent y fath gysur a diddanwch yn ordinhadau crefydd ag oedd yn talu yn dda am y dirmyg a'r gorthrymderau oll. Fel y cerddodd amser, daeth y wlad i'w ddeall yn well—lliniarodd y gwrthwynebiadau, fel yn mhell cyn diwedd ei oes y cai berffaith lonyddwch, a thyrfaoedd lliosog a pharchus i'w wrandaw, pa le bynag y pregethai.

Yn Llanddewi-brefi y byddai y cynnulliad lliosocaf, cyn iddo gael ei fwrw allan, gan fod yr eglwys hono yn helaethach na'r ddwy ereill—mor eang fel y cynnwysai o ddwy i dair mil o bobl; ond nid oedd yn rhy eang y pryd hyny. Sefyll ar eu traed y byddai y rhan fwyaf o'r gynnulleidfa, a chyn dŷned ag y ganent, o gŵr-bwy-gilydd i'r adeilad. Byddai llawer o'r bobl yn dilyn Rowlands o'r naill eglwys i'r llall ar hyd y Sabbath, heb ddychwelyd adref hyd yn hwyr iawn, heb gael braidd ddim lluniaeth ar hyd y dydd, ond yr ymborth ysbrydol a fwynhaent mor ddiamdlawd.

Bernir i Rowlands gael ei droi allan o'i eglwysydd tua'r fl. 1763. Yr hyn a roddwyd yn ei erbyn ydoedd, ei fod yn myned o amgylch i bregethu, a hyny mewn lleoedd heb eu cyssegru. Derbyniodd rybudd cyhoeddus dan law yr esgob ar y Sabbath, yn Llanddewi-brefi, yn amser y gwasanaeth, yn ei wahardd i bregethu a gweinyddu ei swydd. Dan deimladau poenus, nid oedd ganddo ond ufuddhau, a myned allan, a'r dyrfa liosog yn ei ganlyn dan wylo; a gadawyd yr eglwys yn mron yn wâg. Curad i'w frawd oedd Rowlands, a thrwy hyny yr oedd yn

Digitized by Google

ngallu yr esgob i gymmeryd ei drwydded oddi arno y pryd y mynai—yr hyn hefyd a wnaeth er galar i aelodau cywiraf a ffyddlonaf yr Eglwys hyd heddyw. Dywedai y Dr. Burgess, mai annoethineb mawr yn ei ragflaenor yn yr esgobaeth ydoedd troi Rowlands allan o'r eglwys, ac mai niwed mawr a wnaeth i'r Eglwys drwy hyny. Yr oedd Rowlands y pryd hyny yn ei amser goreu, o ddeutu 50ain mlwydd oed, a chanddo wraig a theulu i ofalu am danynt. Wedi colli ei guradiaeth, nid oedd ganddo i ddibynu arno am eu cynnaliaeth ond cynnyrch dau dyddyn bychan yr oedd efe yn eu dal dan ardreth. Hawdd meddwl nad oedd yn byw mewn llawnder, ac nad oedd ei dŷ ond bychan, a llwydaidd yr olwg arno:—yn meddu ymborth a dillad, yr oedd efe yn foddlawn ar hyny. Ond cyfododd yr Arglwydd iddo gyfeillion yn mhlith caredigion yr efengyl, oeddynt yn alluog, yn haelionus, ac yn barod i gyfranu at ei angenrheidiau: yn mhlith ereill, y dyngarol John Thornton a fu yn un o'i gyfeillion penaf, yn ei gynnorthwyo a'i gefnogi yn ei lafur a'i ddefnyddioldeb hyd yr oedd modd. Cynnygiodd Thornton iddo fywoliaeth Trefdraeth, yn sir Benfro: ond o serch at ei bobl yn Llangeitho, y rhai oeddynt yn drallodus iawn wrth feddwl ei golli o'u mysg, penderfynodd wrthod y cynnyg, ac aros yn ei le. Yr oedd efe yn hynod o farw i'r byd, ac ymroddgar i wasanaethu Crist yn yr efengyl. Y mae yn debygol mai tua'r amser hwn, trwy ddylanwad rhai o'i gyfeillion, y gwnaed ef yn "gaplan i'r Duc o Leinster, un o anrhydeddusaf gyfringynghor ei fawrhydi yn nheyrnas yr Iwerddon." Nid anrhydedd yn unig a ddygai hyn iddo, dybygid; ond rhywbeth sylweddol hefyd tuag at ei gynnaliaeth, tra nad oedd dyledswyddau y sefyllfa ond ysgeifn. Fel hyn yr oedd Rhagluniaeth yn gofalu am dano, fel na bu arno eisieu dim daioni hyd ei fedd.

Nid oedd ei droad allan o'r Eglwys yn beth annisgwyliadwy iddo: yr oedd wedi cael ei fynych rybuddio a'i fygwth gan ei uchafiaid, a gwyddai fod ei gyfeillion, Howel Davies, a'r ddau Williams, er's blynyddau wedi eu bwrw allan. Yr oedd yntau wedi gwneuthur ei feddwl i fyny pa beth i wneyd pan ddeuai y prawf. "Ni chaf lonydd gan yr Eglwyswyr," meddai; "ac yr wyf yn penderfynu gadael y llan iddynt hwy, ond fe ddaw y bobl gyda fi." Ac felly y bu; a chyfodwyd addoldy eang iddo o fewn tua hanner milldir i hen eglwys y plwyf, y tu arall i'r afon, o ba un yr oedd ganddo gynllun yn barod erbyn bod galwad am dano. Gelwid yr adeilad hwn ar y cyntaf "yr Eglwys Newydd." Yr oedd tua 45ain troedfedd o hyd, a'r un faint o led, heb un oriel; a'r pulpud yn y cefn, a drws bychan i ddyfod i mewn iddo oddi allan, heb orfod ymwthio drwy y gynnulleidfa. Yr oedd efe wedi dechreu cynnal cyfarfodydd crefyddol mewn ysgubor ar un o'i dyddynod er o ddeutu 1757, lle hefyd y byddai y cynghorwyr di-urddau yn pregethu, o ba rai yr ydoedd amryw yn perthynu i'r gymdeithas yno. Aeth yr ysgubor yn fuan yn rhy 'gyfyng, ac adeiladwyd capel neu dŷ cwrdd bychan yn gyfagos yn 1760, a chafwyd gweithred ar y tir yn y cyfamser. Erbyn hyn, yr oedd y lle hwnw yn rhy fychan o lawer, ac adeiladwyd y capel newydd ar yr un llanerch yn 1764; ac yno y gweinidogaethodd Rowlands yn benaf hyd ddiwedd ei oes, tua 27ain mlynedd, gyda llwyddiant mawr.

Daeth "yr Eglwys Newydd" yn Llangeitho ar unwaith yn gyrchfan miloedd: deuent yno o bob parth o'r Dywysogaeth—a pharhaodd felly am ei oes ef, ac am gryn amser wedi iddo farw. Cyrchid yno yn gyffredin o gylch deg a phymtheng milldir o gwmpas; ac ar Sabbothau y cymmundeb, deuent yno ddeugain, hanner cant, a chwaneg o filldiroedd; a mynych 'y gwelid minteioedd yn cynniwair tuag yno o'r Gogledd —hyd yn oed y rhanau pellaf o Wynedd hefyd, yn arbenig o'r Bala, siroedd Fflint a Dinbych, Lleyn ac Eifionydd, ac o sir Fôn! Dywedir y byddai yno ambell waith ddim llai nag o ddeuddeg i bymtheg cant yn cyfranogi o Swper yr Arglwydd, ac weithiau lawer mwy: byddent yn gyffredin o fil i ddeuddeg cant. Nid yr un rhai a fyddent yno bob pen mis: ni ddeuai y rhai pell ond bob dau neu dri mis, a rhai yn fwy anfynych. Tebygol yw na byddai hanner y rhai a arferent gymmuno yno yn bresennol ar yr un pryd. Byddai dau neu dri o weinidogion yn cynnorthwyo ar Sabbothau y cymmundeb, ac ar amserau ddim llai na saith neu wyth. Ni dderbynid neb at fwrdd yr Arglwydd ond y rhai a gyfrifid yn aelodau wedi ymuno â'r cymdeithasau neillduol yn eu gwahanol ardaloedd.

Yr oedd y tyrfaoedd a ymgynnullent i wrandaw ar yr achlysuron hyn yn lliosog iawn—dim llai, meddir, na phedair neu bum mil; ond ni byddent mor liosog ar Sabbothau ereill. Pregethai Rowlands yn gyffredin ar y Sadwrn blaenorol, am un ar ddeg yn y boreu. Ymddygai y bobl yn syml a difrifol, a byddai hyd yn oed yr ieuengctyd yn ymddwyn yn astud a diofregedd. Tebyg yw nad oes un man o'r deyrnas, nac odid yn yr holl fyd, lle y bu cynnifer o ddynion yn ymgynnull i wrandaw yr efengyl, a thros gymmaint o amser, ag yn Llangeitho. Rhaid fod rhyw attyniad nerthol a rhyfedd yn y weinidogaeth yno, a bendithion grasol yn cael eu tywallt yn helaeth, i gasglu ynghyd y fath dyrfaoedd, ac i barhau felly yn gysson dros gymmaint o amser. Ni welwyd y cyffelyb mewn un wlad nac oes. "Pregethau Daniel Rowlands, a chaniadau William Williams," meddai Mr. Charles, "a wnaethant yr oes yr oeddynt yn byw ynddi yn fwy nodedig na nemawr o oesoedd a fu ar Gymru erioed." Yr oedd yn gyfnod newydd yn ddiau ar y genedl, ac y mae ei effeithiau etto yn parhau, ac i barhau hefyd i oesoedd etto i ddyfod.

Y mae yn werth sylw mai nid y dosbarth diwybod, isel, ac ofergoelus, oedd yn gwneyd i fyny y tyrfaoedd hyn—rhai yn cael eu denu yno trwy ddilyn ereill, heb ganddynt un rheswm dros hyny: ond yr oedd yn eu mysg rai o bob dosbarth, llawer o weinidogion dysgedig, pregethwyr, a goruchwylwyr y cymdeithasau crefyddol; uchelwyr, canolradd, a thlodion; y bobl oreu yn mhob ardal—rhai wedi cael cyffwrdd â'u calonau, ac agor eu deall i weled gwerth yr efengyl. Byddai yn Llangeitho ddarpariaeth dda ar eu cyfer, gweinidogaeth gyfaddas i bob gradd ac oedran, a gair y gwirionedd yn cael ei iawn gyfranu a'i gymmhwyso. Er uched eu disgwyliadau ar eu mynediad yno, ni ollyngid hwynt i ddychwelyd adref yn siomedig. Gwedi cael eu diwallu yno â brasder yr efengyl, a mwynhau cymdeithas eu gilydd yn yr Arglwydd, ymadawent i bob cyfeiriad, gyda theimladau cynnhes a diolchgar. A byddai yr adroddiad o'r adgofion o'r hyn a welsent, a glywsent, ac a brofasent, yn effeithio yn ddaionus ar ereill, a gwybodaeth grefyddol drwy y moddion hyn yn

Digitized by Google

ymdaenu trwy y gwledydd. Yr oedd y budd a'r diddanwch a dderbynient yn Llangeitho yn talu yn dda i'r ffyddloniaid hyny am eu llafur a'u lludded, y peryglon a'r profedigaethau, y dirmyg a'r erlidiau, a oddefent ar eu teithiau, ac oddi wrth y byd annuwiol.

Yn y cyfarfodydd hyn, fel yn y cymdeithasfaoedd, byddai y dyeithriaid yn cael cyfleusdra i ofyn cyhoeddiadau gweinidogion a phregethwyr i ymweled â pharthau pellenig y Gogledd, a rhanau anghysbell o'r Deheubarth, i gadarnhau yr eglwysi, ac i agoryd lleoedd newyddion. Byddai y cynghorwyr yn ymdrechu i fod yn bresennol ar Sabbothau cymmundeb hyd y gallent, a derbynient y fath ymgeledd i'w hysbrydoedd, fel y byddent yn wynebu ar eu gwahanol gylchoedd gyda nerth ac ymroddiad adnewyddol i'r gwaith: felly yr oedd Llangeitho yn amser Rowlands yn orsaf genhadol gref, er efengyleiddio yr holl wlad. Yn ei ddyddiau a than ei weinidogaeth ef a'i gydlafurwyr y torodd allan y diwygiadau nerthol y sonir mor fynych am danynt. Dywedir iddo weled saith diwygiad nodedig yn ei oes. Diammheu eu bod yn effaith pregethiad yr efengyl trwyddo ef a'i frodyr dan ddylanwad dwyfol; ac yn tori allan weithiau mewn cyfarfodydd gweddïau a chyfeillachau eglwysig, ond fynychaf o dan weinidogaeth y Gair. Ymdaenent dros ranau helaeth o'r wlad, pryd y dychwelid cannoedd lawer at grefydd, ac y byddai yr eglwysi yn cael eu sirioli yn fawr, a'u hadeiladu yn ffydd yr efengyl.

Yn adeg y diwygiadau mawrion hyny, byddai y bobl yn fynych yn dychwelyd adref o'r cynnulliadau crefyddol—rhai ar draed, a rhai ar geffylau, yn wŷr a gwragedd, meibion a merched—dan ganu a gorfoleddu, a byddai eu sŵn i'w glywed yn mhell, yn ol darluniad Williams:—

"Mae'r torfeydd yn dychwel adref,
Mewn rhyw ysbryd llawen fryd,
Wedi taflu 'lawr eu beichiau,
Oedd yn drymion iawn o hyd;
Y ffyrdd mawr yn frith o werin,
Sŵn caniadau'r nefol Oen,
Nes mae'r creigiau oer a'r cymmoedd
Yn adseinio'r hyfryd dôn."

Cafodd Rowlands ei anrhydeddu gan Dduw i fod yn offeryn mwy bendithiol i Gymru nag un pendefig a anwyd ynddi mewn unrhyw oes. Gwir ei fod yn meddu doniau naturiol rhagorol; er hyny, nid dim ond y dylanwadau dwyfol a allent gynnyrchu y fath effeithiau. Llais Duw yn cydfyned â llais dyn, ac Ysbryd Duw yn cydweithio âg ymdrech dyn, oedd yn gwneyd ei weinidogaeth mor lwyddiannus. Yr oedd pwys y gwaith yn gorwedd yn drwm arno, fel y byddai ar brydiau yn mron cael ei lethu dano. Yr oedd hyn yn rheidiol, mae yn debyg, er ei gadw yn ei le, i ymddibynu yn gwbl ar nerth Duw. Dywedir y byddai yn fynych yn treulio nos Sadwrn ar ei hyd yn ei fyfyrgell fechan; a chlywid ef yn gweddïo, yn wylo, ac yn griddfan ganol nos: a mynych yr elai oddi yno i'r capel y boreu Sabbath heb archwaethu dim ymborth, gan ddwysder ei deimladau. Yn gyffredin ni phregethai yn faith—tua deugain neu bum munyd a deugain fynychaf; ond ar achlysuron, byddai megys yn anghofio ei hunan a phethau amser yn mhwysigrwydd ei genadwri, ac yn parhau i lefaru am dair awr neu bedair. Ond anfynych y digwyddai hyny. Ni byddai neb byth yn achwyn ar ei feithder; ond byddai aml gŵyn o herwydd byrdra ei bregeth.

Y mae yn bur amlwg nad oedd Rowlands yn segur a diofal yn mharotoad ei bregethau. Arferai foreu godi, a threulio llawer o amser i ddarllen a myfyrio; a meddai fedr nodedig i gasglu yr hufen oddi ar bob llyfr a ddarllenai, ac i dderbyn y cwbl i'w feddwl gafaelgar, a'u gwneyd yn eiddo iddo ei hun trwy fyfyrdod. Ond er maint ei ddawn a'i hyawdledd, byddai mewn pryder dwys weithiau am genadwri addas i wynebu y tyrfaoedd a ymgynnullent i'w wrandaw. Yn aml, pan y byddai wedi bod dywyllaf arno, y byddai y llewyrch a'r arddelwad mwyaf gogoneddus yn dilyn.

Yr oedd llawer o weinidogion a llefarwyr yn ei ddyddiau ef yn meddu doniau helaeth a disglaer iawn, ond yr oedd Rowlands fel tywysog yn eu mysg hwynt oll. Nid oedd neb o honynt y gellid ei gystadlu âg ef. Y mae tystiolaethau personau cymmhwys i farnu, y rhai a gawsent gyfleusderau i'w wrandaw, yn brawf diymwad o'i ragoriaethau fel pregethwr. Dywedai rhai o'r Ymneillduwyr, ar ei darawiad cyntaf allan, "na chlywsant erioed ei gyffelyb yn Eglwys Loegr, ond Mr. Griffith Jones." Dywedai Jones o Creaton, "Na chlywodd efe ond un Rowlands erioed," ac mai ei ragoriaeth arbenig oedd dyfnder a gwresawgrwydd. Ysgrifenai Mr. Charles mewn llythyr at gyfaill, ar ol bod yn wyddfodol mewn cymdeithasfa yn Llangeitho—"Gellwch dybied pa mor dda oedd genyf glywed yr hen Elias penllwyd yn cyhoeddi dyfnion bethau Duw gyda'r tynerwch toddedig, yr eglurder, a'r egni, priodol iddo ei hun." Ac mewn llythyr arall, cyfeiria at "ei agwedd syml, dyfnderoedd ei faterion, helaethrwydd ei ddoniau, nerthoedd yr Ysbryd Glân yn gweithredu trwyddo, a'i fawr lwyddiant yn y weinidogaeth."

Heb ymhelaethu yn y modd hwn, gellir symio i fyny ei ragoriaethau nodedig yn y pethau canlynol. Yr oedd yn meddu deall cyflym, eglurder amgyffrediad, cryfder cof, teimladau tanbaid, llais treiddiol a pheraidd, dyfalwch a thaerineb ffyddiog mewn gweddïau, ac ymddibyniad llwyr ar Dduw am gymmhorth yn ei waith. Yn y pethau hyn yr oedd dirgelwch ei lwyddiant, a pharhâd ei boblogrwydd a'i ddylanwad iachusol hyd derfyn ei oes faith.

Ychydig sydd ar gael am ei gymmeriad personol; ond gellir casglu fod ei ymarweddiad yn ddiargyhoedd, ac yn anrhydedd i grefydd. Ystyrid ef felly gan y dynion goreu a mwyaf adnabyddus o hono yn ei gartref. Diau nad oedd heb ei wendidau—yn cyfodi yn benaf oddi ar ei dymmer fywiog a phenderfynol ei hun. Er iddo gyfarfod â phrofedigaethau yn ei deulu, ac oddi wrth yr eglwysi, ni wyddys ddarfod iddo gamymddwyn mewn un amgylchiad; ond yn y gwrthwyneb, trwy arfer gwyliadwriaeth a gweddi, cafodd nerth i gadw ei le, fel na ddigwyddodd dim i attal ei ddefnyddioldeb. Yr oedd ei ostyngeiddrwydd a'i hunanymwadiad yn fawr, ac yn amlwg yn ei nodweddiad. Yr oedd yn ŵr serchog, siriol, a thirion iawn: ac yn nodedig felly at bregethwyr ieuaingc. Ymddygai yn addfwyn a llariaidd, drwy fod ei dymmher naturiol frwd wedi ei dwyn dan lywodraeth gras. Ni byddai yn tra-awdurdodi yn mysg ei frodyr yn llywyddiaeth eu cymdeithasfaoedd, nac yn yr eglwysi gartref. Yr oedd yn hynod yn ei ddianwadalwch mewn ymlyniad wrth y gwirionedd. Nid corsen yn ysgwyd gan wynt ydoedd efe; ond derwen gref wedi gwreiddio yn ddwfn yn egwyddorion cedyrn a mawr yr efengyl.

Digitized by Google

Dywedir hefyd ei fod, yn ol ei allu, yn elusengar i'r tlawd, ac y byddai ei elusenau a'i gymmwynasau yn aml, yn hael, a chyfamserol.

Y traddodiad am dano o ran ei ymddangosiad corphorol yw, "ei fod yn ŵr o faintioli cyffredin, o wneuthuriad cydnerth, yn llawn bywiogrwydd cynhenid, yn dra heinyf a gwisgi." At yr hyn chwanega Christmas Evans, fod "ei dalcen yn uchel, a llawn; ei lygad yn llym, yn fywiog, a threiddiol; trwyn eryraidd neu Rufeinig; ei wefusau yn weddus, ei ên yn taflu allan, ac yn codi ychydig, a'i lais yn soniarus, peraidd, a dylanwadol." Yn yr areithfa, "yr oedd ei wedd yn mhob ystyr wedi ei haddurno â mawredd, ac yn arddangos synwyr cryf, hyawdledd, ac awdurdod." "Ei ddull o lefaru ydoedd fyr-ciriog: byddai ei ymadroddion yn gryno, sylweddol, a synwyrlawn."

Yr oedd iechyd Rowlands yn gwanhau yn y flwyddyn olaf o'i fywyd, ond yr oedd yn parhau i bregethu yn Llangeitho hyd y Sabbath diweddaf y bu efe byw, er mai anfynych yr ai i un man arall. Ei ddymuniad gwastadol oedd cael ymadael pan ddarfyddai ei waith—myned yn union oddi wrth ei lafur i'w orphwysfa; a chaniataodd ei Dad Nefol iddo ei ddymuniad. Yr oedd ei feddwl yn bur gysurus yn ei ddyddiau olaf: yr oedd hyny i'w ganfod yn ei ddull tawel, a'i ymddiddanion ar bethau crefyddol ac ysbrydol. "Nid oes genyf ddim mwy i'w ddywedyd," meddai, "fel tystiolaeth o'm cymmeradwyaeth gyda Duw, ond a ddywedais bob amser: yr wyf yn marw yn bechadur tlawd, gan bwyso yn unig ac yn hollol ar haeddedigaethau yr Iachawdwr croeshoeliedig am fy nghymmeradwyaeth gyda Duw." Clafychodd yn beryglus ddydd Gwener; a thranoeth, yn lle pregethu fel y disgwylid, gorphwysodd mewn tangnefedd. Bu farw yn ficerdy Llangeitho, Hydref 16eg, 1790, yn 77ain mlwydd oed, wedi bod yn llafurio yn y weinidogaeth dros 53ain o flynyddau. Yr oedd lliaws mawr wedi ymgasglu i'r oedfa am un-ar-ddeg y dydd Sadwrn hwnw, o flaen yr ordinhâd fel arferol, a'r addoliad wedi dechreu pan ddaeth cenadwri o'r ficerdy ei fod wedi marw! Yr oedd galar y dorf y fath, fel nas gallwyd myned yn mlaen gyda'r addoliad: ac ymwasgarodd y bobl ar frys, gan ddwyn y newydd athrist gyda hwynt i'w cyfeillion absennol. Teimlid y galar dwfn, nid yn unig yn Llangeitho a'r gymmydogaeth, ond trwy Gymru oll, gan ieuaingc a hen, uchel ac isel—yn enwedig gan bobl Dduw o bob enwad. Teimlent eu bod wedi colli tad, ac arweinydd ffyddlawn—un a fuasai yn offeryn troedigaeth i laweroedd, ac i fwy fyth yn feithrinydd caredig a gofalus iawn. Claddwyd ef yn mynwent Llangeitho, wrth ffenestr ddwyreiniol yr eglwys.

Ychydig iawn a ysgrifenodd Rowlands: pregethu, ac nid ysgrifenu, oedd ei waith arbenig ef. Nid oes ar gael ond deuddeg o'i bregethau; y rhai, er eu bod yn dra gwerthfawr, ni roddant ond dychymyg gwan am ei ddoniau, a'r nerth trydanol a fyddai yn cydfyned â'r traddodiad o'i bregethau. Yn ei ymbarotoad i'r pulpud, yn gyffredin, nid ysgrifenai ond rhai nodiadau byrion, cynnwysfawr, ac ymddiriedai y gweddill i'w gof. Pe buasai ysgrifenydd medrus yn mhlith ei wrandawyr, un yn gallu meddiannu ei hun, i gymmeryd i lawr ei ymadroddion yn gyflawn, fel yr elai yn mlaen, diammheu y cadwesid felly lawer o sylwadau gwerthfawr a gwreiddiol o'i eiddo, a rhai o'r syniadau tanbaid a dorent allan yn fynych yn ddisymmwth fel fflachiadau mellt, pan fyddai yn llefaru, nes y byddai ei wrandawyr wedi eu llwyr orchfygu.

Am ei bregethau argraphedig, y maent yn ysgrythyrol ac efengylaidd, yn eglur, dwys, a chymmhwysiadol iawn; yn llawn o feddwl a mater, wedi eu gosod allan mewn iaith ddymunol, ac ymadroddion cryno, destlus, a tharawiadol. Y mae ei gymmhariaethau lliosog wedi eu cymmeryd oddi wrth braidd bob peth yn y byd, ac yn hawdd i'r mwyaf diddysg eu deall. Oddi eithr enghraifft neu ddwy, y mae eu cyfaddasder yn dra nodedig a darluniadol. Y mae yn amlwg y byddai yn tynu yn lled helaeth weithiau o awdwyr cymmeradwy a ddarllenai; ond gwisgai y cwbl yn ei ddull priodol ei hun, ac i'r amcan a fyddai ganddo mewn golwg. Y mae eisieu argraphiad newydd, cywirach, a llawer mwy destlus, o'r Deuddeg Pregeth, nag a gafwyd etto; yn cynnwys hefyd rai traethodau byrion, llythyrau, a hymnau, o'i waith sydd etto ar gael. Yr ydys yn deall fod hyn yn mwriad pwyllgor cyhoeddiadau Cymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calvinaidd.

"*Drych yr Amseroedd*," gan Robert Jones; "*Goleuad Cymru*," am 1826; "*Coffhâd am y Parch. Daniel Rowlands*," gan John Owen; "*Ministerial Records*," gan Edward Morgan, M.A., o Syston; "*Cofiant Byr*," gan Owen Jones, yn rhagllaenu argraphiad o'r Pregethau yn 1864; "*England a Hundred Years ago*," gan J. C. Rylo; "*Methodistiaeth Cymru*;" "*Y Traethodydd*;" "*Y Drysorfa*;" a "*Welsh Calvinistic Methodism*," gan W. Williams, &c., &c.

ROWLAND, DAVID: gweinidog gyda'r Trefnyddion Calvinaidd yn sir Feirionydd. Ganwyd ef yn y Bala, tua dechreu Mehefin, yn y flwyddyn 1795. Mab ydoedd i David Rowland, y *trumpeter*—un tra adnabyddus i bobl y Bala yn yr oes o'r blaen fel udganydd y brawdlys—a Jane Roberts, merch Cwmtylo, ffermdy yn mhlwyf Llanuwchllyn. Cydfagwyd ef am ennyd gyda'r Parch. John Peters, gweinidog yn yr un cyfundeb. Bu ei fam farw tra nad oedd efe ond ieuangc, a dygwyd ef i fyny gan ei nain yn Nghwmtylo. Diau fod yr awyr grefyddol yn burach yno nag a fuasai iddo yn y Bala wedi marwolaeth ei fam, a bod y symmudiad hwn wedi rhoddi argraph arno na ddilëwyd dros weddill ei oes. Tyddyn anghysbell ar odrau mynydd yr Arenig, yn mlaen Cwm-glan-llafar, yw Cwmtylo; a'i waith ef yno ydoedd bwydo y gwartheg, a bugeilio y defaid. Teimlodd argraphiadau crefyddol yn dra ieuangc; diangai i'r cyfarfodydd eglwysig yn nghysgod hen chwaer, ar adeg na oddefid i'r plant fod yn wyddfodol. Teimlodd rywbeth anghyffredin dan weinidogaeth Dafydd Cadwalad, ar yr hwn yr edrychai fel ei dad yn y ffydd. Derbyniwyd ef yn gyflawn aelod yn foreu ar ei oes; a chafodd yn unigedd y mynydd gyfleusderau da, y rhai a ddefnyddiodd efe i bwrpas, i ddarllen a dysgu allan o'r Ysgrythyrau, gweddïo, a phregethu yn y dirgel, o'r hyn yr oedd llawer yn hysbys. Yr oedd ganddo ei allorau ar hyd y ffrithoedd a'r mynyddoedd, a'i bulpudau yn yr ysguboriau a'r beudai. Cymmhellwyd ef i gymmeryd rhan yn y cyfarfodydd gweddïau cyhoeddus; ac yn wylaidd iawn, ufuddhâai. Tua diwedd y flwyddyn 1815, annogwyd ef i bregethu gan rai brodyr oedd wedi meddwl fod ynddo ddefnyddiau pregethwr; ac ychydig cyn y Nadolig, pregethodd

yn Nghapel y Parc, am y waith gyntaf. Yr oedd golwg hynod o wladaidd arno yn ei berson a'i wisg. Tueddai y blynyddoedd cyntaf hyn i ymollwng yn ei feddwl gan brudd-der ac ofn. Cafodd ddysgyblaeth Ioan Fedyddiwr yn yr anial y treuliai ei amser ynddo; ond pan y daeth efe allan, ni feddai ar ei hyfder a'i eofndra ef. Cawn yn ei hanes mai nid heb ymdrech mawr gyda dynion a chyda Duw yr aeth efe yn mlaen. Bu Dafydd Cadwalad yn noddwr da iddo, ac yn gymmhellydd cryf iddo i fyned rhagddo; a chyn hir cafodd radd o oruchafiaeth ar ei brudd-der a'i ofn, ac ymaflodd yn ei waith o ddifrif. Aeth sôn mawr am dano trwy y wlad, a dilynai y bobl ar ei ol yn dyrfaoedd yn ei deithiau Sabbothol. Diau na chododd un pregethwr yn sir Feirionydd oedd mor boblogaidd ag ef yn ei gychwyniad; a pharhaodd yn gymmeradwy hyd ddiwedd ei oes. Yn mhen tua dwy flynedd wedi iddo ddechreu y torodd "Diwygiad mawr Beddgelert" allan; a bu i amryw o'i gydoeswyr dderbyn cyfran helaeth o ysbryd y diwygiad hwnw, a bu eu gweinidogaeth yn hynod o lwyddiannus o hyny i ddiwedd eu hoes. Yn eu plith cafodd yntau ei eneinio yn helaeth â'r un ysbryd, a bu trwy ei weinidogaeth yn offeryn i droi llawer at gyfiawnder. Teithiai yn mhell, llafuriai yn galed, a phregethai lawer, fel ei gydoeswyr, am ychydig iawn o gydnabyddiaeth, heb law y boddlonrwydd o gael lle i feddwl ei fod yn gwneyd daioni. Syml iawn oedd ei bregethau ar y cyntaf, yn tueddu i fod yn fwy athrawiaethol nag ymarferol am dro; yna trodd i fod yn hynod o gyffrous—yn un o feibion y daran. Nid oedd mor goeth yn ei ymddangosiad a'i bregethau ag y mynai llawer iddo fod y pryd hwnw. Pregethai ar destynau dyeithr a hynod; megys, "Shibboleth," "Y milgi cryf yn ei feingefn," a'r cyffelyb; am yr hyn y cafodd ei geryddu, os nad ei erlid yn dost. Anfonwyd ef ar daith gyda John Elias pan yr oedd yn bur ieuangc, fel y dysgai rai gwersi. Cafodd fanteision addysg, gwell na'r gyffredin o'i sefyllfa, pan yn ieuangc. Ond yn y flwyddyn 1820, cynnorthwyodd Mr. Davies, o Fronheulog, ef â moddion i fyned i'r ysgol a gedwid yn Ngwrecsam, gan y diweddar Barch. John Hughes, wedi hyny o Liverpool. Cymmerodd llawer o droion digrif le y tymmor hwn, ac nid ychydig o ddifyrwch a gai yr athraw a'r efrydwyr gydag ef. Daeth trwy y moddion hyn yn abl i ddeall llyfrau duwinyddol yn yr iaith Saesnig, yr hyn a fu o fantais fawr iddo dros weddill ei oes. Cadwodd ei neillduolion trwy yr addysgiant i gyd; a dychwelodd i'w hen gartref, Cwmtylo, i ddechreu llafurio yn y sir oedd i fod yn faes penaf ei lafur bellach. Yn 1822, ymbriododd â Jane, merch Robert Jones, Nantbudr, yn mhlwyf Trawsfynydd; a bu yno, ac yn y Faen Filldir, yn yr un plwyf, hyd y flwyddyn 1825; pryd y symmudodd i dyddyn o'r enw Pentref, yn Waen y Bala, yn nghymmydogaeth Capel Llidiardau, lle y cartrefodd hyd ei farw. Neillduwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa y Bala, yn y flwyddyn 1831. Teithiodd gryn lawer trwy Ogledd, De, a threfydd Lloegr; a chai dderbyniad da, cynnulleidfaoedd mawrion, a chalonau parod i dderbyn ei genadwri, pa le bynag yr äi. Wedi i'w briod farw, ymbriododd eilwaith â Mrs. Lloyd, Tal-y-bont, yn y flwyddyn 1858. Dechreuodd lesghau yn fuan ar ol hyn, etto äi i'w deithiau Sabbothol. Ond Medi 22ain, 1861, pregethodd ei bregeth olaf, pan yn Nhreffynnon. Cyfyngwyd ef ar ol hyn i'w ardal ei hun; ac er yr äi i'r capel, nis gallai bregethu; a methai adael ei dŷ a'i ystafell o'r diwedd. Dangoswyd cydymdeimlad mawr âg ef yn ei gystudd olaf; a boreu Llun, Chwefror 24ain, 1862, bu farw yn 67ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu 47ain mlynedd, ac yn weinidog cyflawn 31ain mlynedd. Claddwyd ef Chwefror 27ain, yn y fynwent sydd wrth Gapel Llidiardau, lle y gorphwys llwch amryw ereill o weinidogion y Gair.

Bu yn gefnogydd gwresog i bob achos da trwy ei oes; a chymmerai ran yn eu dygiad yn mlaen —yn wladol, moesol, a chrefyddol. Pleidiai yr Ysgol Sul, yr oedd yn ddirwestwr aiddgar, yn Rhyddfrydwr i'r carn, yn Ymneillduwr trwyadl, ac yr oedd yn selog dros athrofeydd i addysgu pregethwyr ieuaingc. Ni chawn ei fod yn ddyn mawr yn nghynnadleddau a dadleuon y cyfundeb, mewn na chymmanfa na chyfarfod misol. Yr oedd yn rhagorol yn y cyfarfodydd eglwysig; byddai yn dyner iawn pan fyddai eisieu tynerwch, ac yn llym pan fyddai eisieu llymder—yn debyg fel y byddai yr Athraw Mawr ei hun. Byddai yn gefnogol iawn i'r ieuaingc gwylaidd ac ofnus. Ond pa faint bynag o le a lanwai, ac o waith a wnai mewn cylchoedd ereill, yn y pulpud, ac yn y gymmanfa, yn y cyfarfod misol, yn y cyfarfod pregethu, ac ar adegau cyffredin, y byddai yn fwyaf cartrefol, ac y teimlid ei ddylanwad yn fwyaf. Hoffai pawb ef fel dyn cyfeillgar iawn, a mawrygid ef fel Cristion cywir a didwyll; ond fel pregethwr safai ar ei ben ei hun yn ei oes, ac yn yr oesoedd. Meddai ar neillduolion anghyffredin, a math o wreiddioldeb; ond yr oedd yn fwy gwreiddiol yn ei ddull nag yn ei fater; yn y wisg a roddai am ei feddyliau, a'r oslef y dywedai hwy ynddi, nag yn y meddyliau eu hunain. Gwnai lawer o ddefnydd o'r hyn a ddarllenai ac a glywai, ond byddai yn ei roddi i ereill bob amser wedi ei draddodi yn gyntaf i'w *fold* ei hun; ac yr oedd y dullwedd hwn yn hynod o gymmeradwy gan bawb a'i clywai. Yr oedd y pulpud fel ei amddiffynfa, o'r hwn yr ergydiai yn chwerw yn erbyn pob drwg y byddai angen ei gael i lawr. Meddai ar allu i gyrhaedd clustiau ei wrandawyr na feddai, neu na ddefnyddiai, pawb mo hono: yr oedd ei lais yn glir a hyglyw pan ddywedai y gair cyntaf fel pan ddywedai y gair diweddaf; clywid ef yn dyweyd y testyn mor eglur ag y clywid un rhan o'r bregeth; ac am hyn canmolid ef, a chyrchid ar ei ol, ie, gan fyddariaid. Ond yn chwanegol at hyn, meddai ar ryw allu i gyrhaedd teimlad a chydwybod y bobl, nad oes ond ychydig a ragorai ynddo. Bu yn offeryn i argyhoeddi a dychwelyd llawer ar hyd ei yrfa weinidogaethol; ac yr oedd yr eneiniad a'r nerth yn ei ddilyn i ddiwedd ei oes. Nid fflachiad am dymmor ydoedd ei lwyddiant, ond parhaodd i oleuo yn ddisglaer hyd ei farw. Yr oedd ei draddodiad a'i arddull yn hynod—y naill a'r llall yn cydweithio er cynnyrchu effaith. Yr oedd ef yn ei bregeth yn "canu caniadau Seion" mor beraidd fel ag i dynu sylw ac ennill serch ato ar unwaith; ac yr oedd yr amrywiaeth yn ei lais yn ddiderfyn, er mai yr un ydoedd bob amser. Dywedai ambell i frawddeg, a hyny yn aml mewn llais isel, a yrai bawb i wenu; cyrhaeddai felly sylw y rhai mwyaf anystyriol o'r gwrandawyr; ond yn nghanol y digrifwch, yr oedd ef yn annelu ei fŵa, a phan y cai y ffordd yn glir i ddeall y bobl, clywid y llais yn codi, yn glir ei sain, a lleddf ei dôn, ac yn y llais ciriau gwirionedd a sobrwydd, nes y byddai

Digitized by Google

calonau yn cael eu dwysbigo, a chydwybodau yn cael eu deffro i ystyried gyda'r difrifwch mwyaf. Cyn bod y gwenau wedi cilio oddi ar y gruddiau, gwelid y dagrau yn araf dreiglo drostynt. Byddai yn hynod o hapus mewn aralleirio a chymmhwyso hanesion sanctaidd y Beibl: pan yn gwneyd felly â hanes y wraig o Samaria gyda'r Gwaredwr, neu hanes gwas Abraham yn myned i geisio gwraig i Isaac, neu hanes Iacob yn anfon ei feibion i'r Aipht i'w cadw rhag newyn, yn ol yr esamplau a gawn yn ei gofiant, yr oedd yn ammhossibl i neb beidio gwrandaw gyda dyddordeb, ac yn anhawdd i neb beidio teimlo oddi wrth y cymmhwysiad. Y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig gan bawb sydd yn ei gofio. Nid oedd yn ysgrifenwr mawr; ac ni roddai ond penau ei bregethau ar bapur. Cymmaint ag sydd ar gael er mantais i'r oes sydd yn codi i gael syniad am ei bregethau, y mae i'w weled yn yr attodiad i'w gofiant, ond yn unig fod y llais yn eisieu.

ROWLANDS, WILLIAM *(Gwilym Lleyn)*: gweinidog Wesleyaidd, a hynafiaethydd rhagorol. Ganwyd ef yn mhentref Bryncroes, Lleyn, sir Gaernarfon, ar y 24ain o Awst, 1802. Dygwyd ef i fyny gyda'r Trefnyddion Calvinaidd, gan fod ei rieni yn aelodau ffyddlawn o'r cyfundeb hwnw. Pan oedd yn lled ieuangc, symmudodd ei rieni o Bryn croes i blwyf Mellteyrn, —lle ger llaw. Cafodd fanteision addysg gwell na'r cyffredin o'i gydoeswyr yn yr ardal lle y preswyliai, gan ei fod yn alluog i ddarllen Saesneg a Chymraeg cyn bod yn llawn naw mlwydd oed. Gwehydd oedd ei dad, Thomas Rowlands, wrth ei gelfyddyd, a dygwyd yntau i fyny yn yr un alwedigaeth. Yr oedd efe er yn ieuangc iawn yn ymchwiliwr dyfal am wybodaeth, a pharhaodd felly ar hyd ei oes. Nid oedd ond tair ar ddeg oed pan y troes allan o dŷ ei dad i chwilio am waith. Yr oedd yn ymhyfrydu mewn symmud o fan i fan. Yn ystod ei grwydriadau, cafodd waith gan un o'r enw Robert Hughes, Ty'n y clawdd, ger llaw Bangor. Yr oedd yn aelod gyda'r Wesleyaid; a mynych y cymmerai dadl le rhwng y meistr a'i weithiwr ieuangc ar y pyngciau y gwahaniaethai y Calviniaid a'r Wesleyaid yn eu cylch. Bu darlleniad pregeth ar "Brynedigaeth Gyffredinol" o eiddo y diweddar Barch. Samuel Davies, yn foddion tra effeithiol i'w ddwyn i benderfynu ymuno gyda'r Wesleyaid. Arferai ddarllen llawer o awduron Arminaidd, ac yr oedd wedi mabwysiadu rhai o'u syniadau; a bu dadl frwd rhyngddo a blaenoriaid Uwchmynydd, o'r hon yr oedd yn aelod diargyhoedd a ffyddlawn; ond o'r diwedd, pan yn ddeunaw mlwydd oed, barnodd mai doethach iddo, ac mai ei ddyledswydd oedd ymuno â'r Wesleyaid. Pan y deallodd ei dad ei fod wedi cymmeryd y cam hwn, daeth yr holl ffordd o Fellteyrn i Aberdaron i geisio ei ddarbwyllo, a'i ddwyn i ail ystyried yr hyn a wnaethai, ac ymddengys iddo ei geryddu yn llym; ond yr oedd argyhoeddiadau cydwybodol ei fab yn ddigon dwfn i beri iddo lynu yn ddiysgog wrth yr hyn a gredai oedd wirionedd. Nid hir y bu y frawdoliaeth Wesleyaidd heb ganfod ynddo gymmhwysderau i fod yn gyhoeddus, ac annogwyd ef i ddechreu pregethu; ac â hyn cydsyniodd yntau. Traddododd ei bregeth gyntaf yn nghapel Bryn caled, Aberdaron. Gan i'w rieni symmud i fyw i Bryn coch, ger llaw Bangor, symmudodd yntau yno gyda hwynt. Ymgododd yn fuan i sylw a phoblogrwydd fel pregethwr, ac yr oedd galw mawr am ei wasanaeth. Yr oedd iddo gymmeriad uchel fel dyn ieuangc hynod ymofyngar yn mhob cangen o wybodaeth, Cristion aiddgar, a phregethwr rhagorol. Bu yn gwasanaethu fel pregethwr cynnorthwyol dros amryw flynyddoedd. Yn 1828, galwyd ef yn gynnorthwywr i Mr. Davies, cadeirydd y Dalaeth Gymreig, i Landyssul, yn sir Aberteifi. Yn 1829, penderfynwyd fod William Rowlands yn cael ei alw i'r weinidogaeth Wesleyaidd; ac wedi myned drwy yr arholiadau angenrheidiol ar y cyfryw achlysuron, pennodwyd ef i gylchdaith Caerdydd. Yn mhen dwy flynedd, symmudodd oddi yno i Ferthyr. Priododd gyda Miss Ann Andrews, o Gaerdydd, yn y fl. 1834, yr hon, wedi byw yn ddedwydd gyda'u gilydd, a'i goroesodd ef. Yn Merthyr yr oedd pan yr ymddangosodd fel awdwr gyntaf. Cyhoeddodd bregeth ar "*Gwymp oddi wrth Ras*," yr hon a fu yn achos o gryn ddadleuon. Ei symmudiadau yn ystod tymmor ei weinidogaeth oeddynt o Ferthyr i Amlwch; oddi yno i Bwllheli; o Bwllheli i Newmarket; o Newmarket i Ruthyn; o Ruthyn i Lanidloes; o Lanidloes i Dredegar; o Dredegar i Fachynlleth; o Fachynlleth i Brynmawr; o Brynmawr i Lanidloes eilwaith; o Lanidloes i Dredegar eilwaith; o Dredegar i Aberystwyth; o Aberystwyth i Fachynlleth eilwaith:—a dyna ei gylchdaith ddiweddaf. Ymneillduodd yn uwchrif yn 1864, ac aeth i drigo i Groesoswallt, gan hyderu y cawsai adferiad nerth, a hamdden i ddilyn ei lafur llenyddol, yn gystal ag i weithio dros ei Feistr Mawr, trwy ei bregethu. Ond prin saith mis y bu fyw ar ol rhoddi heibio ei weinidogaeth. Bu farw yn dawel yn Nghroesoswallt, Mawrth 21ain, 1865, yn 65ain mlwydd oed, ar ol bod yn pregethu am bum mlynedd a deugain. Claddwyd ef yn mynwent Wesleyaidd y Caerau, yn sir Drefaldwyn.

Gwnaeth Gwilym Lleyn waith mawr—gwaith oedd yn gofyn y diwydrwydd a'r dyfalbarhâd mwyaf, wrth gasglu defnyddiau ei erthyglau yn y *Traethodydd* ar "*Llyfryddiaeth y Cymry.*" Yr oedd yn ei fryd eu perffeithio a'u cyhoeddi yn un gyfrol fawr; ond goddiweddwyd ef gan angeu cyn medru o hono gario allan ei ddymuniad: ond cafodd y gwaith ei ddwyn allan wedi hyny, o dan olygiaeth y Parch. D. Silvan Evans. Ysgrifenodd lawer o erthyglau i amryw ereill o'r cyfnodolion Cymreig, a bu am flynyddau yn golygu yr "*Eurgrawn Wesleyaidd.*" Cyhoeddodd hefyd draethawd ar "*Ragluniaeth*," ac un arall ar "*Annibyniaeth Wesleyaidd.*" Yr oedd Mr. Rowlands yn ddyn o gymmeriad unplyg a dirodres, yn Gristion diffuant, ac yn bregethwr gwresog a chymmeradwy; ac yr oedd hefyd yn llenor gwych a llafurus.

RUBENS, PETER PAUL: un o baentwyr enwocaf yr ysgol Ffiemingaidd. Ganwyd ef yn Cologne, neu yn ol ereill, yn Siegen, yn Westphalia, yn y flwyddyn 1577. Yr oedd ei rieni wedi cymmeryd noddfa yn yr Almaen, mewn canlyniad i'r terfysgoedd a gymmerasant le yn yr Iseldiroedd. Bu farw ei dad yn Cologne yn 1587. Yn fuan ar ol hyny, cymmerodd ei fam fantais ar adferiad a goruchafiaeth Pabyddiaeth yn Flanders, mewn canlyniad i fuddugoliaeth y Duc o Parma, a dychwelodd i Antwerp. Yn ei unfed flwydd ar bymtheg, aeth Peter Paul Rubens i wasanaeth Ardalyddes Lalaing; ond nid oedd bywyd felly yn gyfaddas iddo, a dychwelodd

Digitized by Google

adref yn fuan. Ar ei ddymuniad ei hun, cafodd fyned at Tobias Verhaegt, tir-arlunydd *(landscape painter)*, ac wedi hyny at Adrian van Oort, yr hwn oedd yn nodedig ar gyfrif ei allu rhyfeddol i drefnu lliwiau mewn darlun; a thrachefn bu gydag Otho Venius, yr hwn oedd arlunydd o gryn fri; ac wedi bod gyda'r diweddaf am bedair blynedd, efe a dalodd ymweliad âg Italy yn y fl. 1600, pan oedd yn dair ar hugain oed. Ar y cyntaf, aeth i Venice, ac oddi yno i Mantua, ac yno noddwyd ef gan y Duc Vincenzio Gonzaga. Aeth i Rufain am ychydig amser yn 1601, ac ar ol dychwelyd i Mantua, ymwelodd â Venice; ac yn y ddinas hono efe a ymroddodd i astudio gweithiau Titian a Paul Veronese. Yn 1605, anfonodd Gonzaga ef ar genhadwriaeth arbenig i Yspaen, gydag anrheg i Philip III. Derbyniwyd ef yn groesawus gan y penadur hwnw; ac wedi paentio llawer o ardebau o wŷr y llys yn y wlad hono, efe a ddychwelodd i Mantua. Ymwelodd y drydedd waith â Rhufain, ac aeth i Geneva yn 1607. Gweithiodd lawer ar ei gelfyddyd yn y ddinas ddiweddaf, ac y mae yno gryn nifer o'i ddarluniau hyd heddyw. Ar dderbyniad y newydd fod ei fam yn glaf iawn, efe a ddychwelodd yn ddioed i Antwerp, ond cyrhaeddodd yn rhy ddiweddar i'w gweled hi yn fyw.

Bwriadai Rubens ddychwelyd yn ol i Italy, ond perswadiwyd ef i aros yn Antwerp gan yr Archddue Albert, llywodraethwr yr Iseldiroedd. Yn 1609, priododd ei wraig gyntaf, Elizabeth Brant, ac ymsefydlodd yn Antwerp. Y mae yn debygol iddo dynu y darlun prydferth sydd yn oriel Munich o'i wraig ac yntau yn eistedd mewn gardd, yn fuan ar ol priodi. Ymwelodd â Pharis yn 1621, ar ddymuniad Maria de Medici; a chafodd gyfarwyddyd i baentio cyfres o ddarluniau yn dwyn perthynas â phrif ddigwyddiadau ei bywyd hi, i addurno palas y Luxembourg. Yn Antwerp y gwnaed y darluniau hyny, ac yn benaf gan ddwylaw ei brentisiaid lliosog. Y mae yr amlinellau gwreiddiol o honynt yn rhagori ar y darluniau gorphenedig eu hunain. Bu farw gwraig Rubens yn y fl. 1626. Anfonwyd ef gan weddw yr Archddue Albert ar neges ddiplomyddol at Philip IV. o Yspaen yn 1628; ac yn y flwyddyn ddilynol ar neges debyg at Charles I. o Loegr, gan yr hwn y cafodd ei wneyd yn farchog yn 1630. Y mae ei lwyddiant fel llysgenhadwr yn deilwng o sylw, gan fod hyn yn arwyddo ei fod yn feddiannol ar gynneddfau meddyliol a thalentau oeddynt yn wasanaethgar i'w wlad mewn mwy nag un ffordd. Yn 1631, priododd Rubens ei ail wraig, Helena Forman, geneth ieuangc hynod o brydferth, un ar bymtheg oed; a cheir darlun o honi yn mysg y darluniau a dynwyd ganddo ef. Safai cymmeriad Rubens fel celfyddydwr yn awr yn uchel iawn; ac yr oedd yr archiadau a dderbyniai mor liosog fel nad allai ddyfod i ben â'u gwneyd, ond yn unig trwy gymmhorth ei ddysgyblion lliosog a galluog. Bu farw yn berchen cyfoeth mawr, yn 1640, yn dair a thrigain mlwydd oed.

Yr oedd Rubens yn ddyn hardd o ran ei ymddangosiad, ac yr oedd ei ymddygiadau y fath ag a barai iddo gael ei hoffi yn gyffredinol. Ymddygai yn y modd mwyaf haelionus tuag at gelfyddydwyr ereill; a mynegir iddo waredu Vandyke o anghysur trwy brynu ei holl ddarluniau. Cydnabyddir yn gyffredinol mai Rubens ydyw pen yr ysgol Fflemingaidd o arlunwyr. Yn y rhanau hyny o'i gelfyddyd sydd yn dylanwadu yn uniongyrchol ar y synwyrau, yr oedd Rubens yn ddiammheuol yn feistr mawr. Deallai yn berffaith y modd i ddwyn i'w weithiau oleuni a chysgod, ffurf a lliw. Os dadleuir yn erbyn ei deilyngdod, fe wneir hyny o berthynas i'r testynau a ddewisai, a'i ddull o ymdrin â hwynt; ac nid gyda golwg ar ei fedrusrwydd celfyddydol. Nid efelychwr oedd efe:—gwir iddo astudio yn fanwl weithiau y meistriaid mawr yn Venice, a manau ereill; ond yr oedd ei athrylith gref yn gwneyd y cwbl a gymmerid i fyny, neu a fenthyciwyd ganddo, yn eiddo iddo ef ei hun. Yr oedd Rubens yn dra llwyddiannus yn ei waith yn rhoddi nodwedd neillduol i'r ffurfiau a bortrëadir ganddo; ac nid rhagoriaeth bychan ydyw hyn. Rhaid addef nad ydyw y rhan liosocaf o'r darluniau a dynwyd ganddo o 'Mair Forwyn a'r bachgen Iesu' ond afrosgo, a diffygiol mewn urddas; ac nid ydynt deilwng o'r testyn. Er hyn oll, yr oedd efe yn rhagori mewn portrëadu nwydau a theimladau cryfaf dynion. Yr oedd Rubens, o herwydd ei fedrusrwydd yn tynu, a'i liwiau ysblenydd, yn gallu gwneuthur tir-ddarluniau *(landscapes)* tra rhagorol. Y mae ei ddarnau sydd yn gosod allan helwriaeth, a'i ardebau hefyd, yn enwog. Y darlun y cyfeirir ato yn gyffredin fel prif waith Rubens ydyw, y Disgyniad oddi ar y Groes, yr hwn sydd yn awr yn Antwerp, o'r hwn y canfyddir cerfluniau yn fynych iawn yn y wlad hon. Y mae llawer o'i ddarluniau yn awr ar gael yn Yspaen ac yn y ddinas hono.

RUFFUS. Sonir am Ruffus, ynghyd âg Alexander (*Marc* xv. 21), fel mab i Simon o Cyrene, yr hwn a gymmhellwyd i ddwyn croes yr Iesu pan oedd y diweddaf ar ei ffordd i Golgotha: *Luc* xxiii. 26. Y mae gwaith yr efengylwr yn hysbysu ei ddarllenwyr pwy oedd Simon, wrth enwi ei feibion, yn arwyddo yn eglur fod y meibion yn fwy adnabyddus yn y cylch Cristionogol yr oedd Marc yn troi ynddo na'r tad. Etto yn *Rhuf.* xvi. 13, y mae yr apostol Paul yn cyfarch Ruffus fel un "etholedig yn yr Arglwydd," ac yn cyfeirio at ei fam fel un yn meddu hawl o gael ei chydnabod wedi gwneuthur rhan mam âg yntau, trwy weithredoedd o garedigrwydd a ddangoswyd ganddi tuag ato. Tybir yn gyffredin fod y Ruffus hwn yr un ag y cyfeiria Marc ato; ac os felly, gan fod Marc, yn ol pob tebygolrwydd, wedi ysgrifenu ei Efengyl yn Rhufain, yr oedd yn naturiol iddo ddisgrifio i'w ddarllenwyr y tad (yr hwn, gan fod y fam yn Rhufain, ond nad oedd y tad yno, dybygid: fe allai ei fod wedi marw, neu ynte ei fod wedi dyfod i'r ddinas ar ol hyny) o herwydd ei berthynas â dau aelod amlwg ac adnabyddus yn yr un cyfundeb. A golygu, gan hyny, mai yr un person a olygir yn y ddau le, y mae ger ein bron amryw gredinwyr dyddorol; sef tad (o herwydd o'r bron y mae yn bossibl i ammheu na ddaeth Simon yn Gristion, os nad oedd felly yn barod, yn amser y croeshoeliad), a mam, a dau frawd, oll yn yr un teulu. Ond dylid cofio hefyd nad oedd Ruffus ddim yn enw anghyffredin; ac o ganlyniad, gan hyny, fe allai, wedi y cwbl, mai nid yr un personau oedd mewn golwg gan Marc ag oedd gan Paul.

RUHAMAH (רֻחָמָה). Ar ymyl y ddalen yn y Beibl Cymraeg y mae yn cael ei gyfieithu "yr hon a drugarhawyd wrthi;" *Hos.* ii. 1. Y mae yr enw, os enw personol ydyw, fel Lo-ruhamah,

Digitized by Google

yn arwyddocaol, ac fel yr hwn a roddwyd i ferch y prophwyd Hosea, yn dynodi fod trugaredd Duw wedi ei droi ymaith oddi wrth Israel: felly, y mae yr enw Ruhamah yn cael ei roddi ar ferched y genedl i ddynodi eu bod etto yn wrthddrychau ei gariad a'i gydymdeimlad tyner ef.

RUMAH. Ni wneir crybwylliadau am y lle hwn ond yn unig yn 2 *Bren.* xxiii. 36, pan y sonir am dano fel lle genedigol Pedaiah, tad Zebudah, un o ordderchadon y brenin Iosiah, a mam Eliacim neu Ioacim. Tybia rhai mai yr un lle ydoedd ag Arumah (*Barn.* ix. 41); yr hwn fel y mae yn eglur, oedd yn agos i Sichem. Mwy tebygol, fe allai, ydyw ei fod yr un 'a Dumah, un o ddinasoedd mynydd Iudah, yr hon oedd ger llaw Hebron (*Ios.* xv. 52), ac heb fod yn mhell o Libnah, tref enedigol un arall o wragedd Iosiah. Y mae y *d* a'r *r* mor debyg yn aml yn yr iaith Hebraeg, fel ag i beri eu bod yn cael eu cymmeryd yn lle eu gilydd weithiau. Sonia Josephus am Rumah yn Galilea.—"*Rhuf. Iudd.*," iii. 7, *adr.* 21.

RUSSELL, ARGLWYDD WILLIAM: mab i William, y pummed Iarll Russell, ac un o ferthyron rhyddid Prydain Fawr. Ganwyd ef yn Medi, 1639: derbyniodd ei addysg athrofaol yn Nghaergrawnt. Wedi hyny, bu yn preswylio yn Augsburg, a threuliodd gryn amser mewn gwahanol ranau o'r Cyfandir; ond dychwelodd i Loegr yn adeg yr adferiad o dan Charles II., ac etholwyd ef yn aelod seneddol dros Tavistock. Yn 1669, priododd gyda Rachel Wriothesly, ail ferch Iarll Southampton, a gweddw i Arglwydd Vaughan, boneddiges nodedig am ei serch gwresog a thyner: yr oedd hefyd yn wraig grefyddol, bwyllog, ddiysgog, a dewr—yn wastad yr un o ran ei hymddygiad mewn llwyddiant ac mewn adfyd, pan yn ngŵydd y lliaws a phan mewn neillduaeth. Tebygol ydyw y buasai Russell yn ymfoddloni ar arwain bywyd anghyhoedd yn nghwmni ei wraig ragorol pe buasai y llywodraeth yn cael ei dwyn yn mlaen ar dir diogel ac anrhydeddus. Ond cynnhyrfwyd ei ddigofaint a'i ofnau gan ragrith a bywyd llygredig a hynod Charles II.

Etholwyd Russell yn aelod seneddol dros swydd Bedford yn 1678—1679. Cymmerodd ei le yn ddioed gyda'r rhai oedd yn amddiffyn Protestaniaeth, ac yn gwrthwynebu dyfeisiau Pabyddol y brenin; a bu o wasanaeth mawr i blaid y bobl. Dywed Burnet am dano:—"Nid adwaenais ddyn erioed yn meddu cymmaint o ymddiried y genedl. Daeth allan yn fuan o'r dyrysweh y dygwyd ef iddo gan y llys, ac arweiniai fywyd dilychwin yn mhob ystyr. Yr oedd bob amser yn dueddol i fod yn bleidiol i'r Anghydffurfwyr, ac yn ewyllysio gweled y cyfreithiau yn delio yn dynerach tuag atynt. Dyn pwyllog, ac heb fod yn siaradus, oedd efe; ond yr oedd ganddo farn gywir o'i eiddo ei hun ar y pethau a gyflwynid i'w sylw. Nid oedd ei ddeall yn ddiffygiol, ond yr oedd ei rinweddau yn gyfryw fel y buasent yn gorfantoli gwir ddiffygion pe buasent i'w cael yn ei alluoedd deallol." Arglwydd Cavendish, Syr W. Coventry, y Milwriad Birch, Mr. Powle, a Mr. Littleton oedd prif aelodau y blaid gyda'r hon y gweithredai.

Siaradai Russell yn erbyn y weinyddiaeth oedd mewn awdurdod; condemniai ddylanwad Ffrainge, a dechreuad dianrhydeddus y rhyfel gyda Holland, a'r twyll a ymarferid tuag at yr arianwyr. Yr oedd yn barod yn wastad pan y gelwid am hyny i groesi bwriadau y llys, ac i sefyll i fyny dros achos rhyddid a chyfiawnder. Efe a ymddangosodd yn gyhoeddus yn llys y brenin, yn Neuadd Westminster, Mehefin 16eg, 1680, gan ddisgrifio y Duc o Gaerefrog fel un wedi ymwrthod â chymmundeb eglwys ei wlad. Cariodd hefyd fesur i Dŷ yr Arglwyddi, yn cael ei ddilyn gan tua dau cant o aelodau Tŷ y Cyffredin. Amcan y mesur oedd, cadw y duc rhag dyfod i feddiant o'r goron. Yr oedd y mesur yn gosod allan y duc fel Pabydd; ac, o ganlyniad, ei fod yn anghymmhwys i fod yn olynydd i'r goron. Penderfynodd y brenin a'r duc y mynent ddial ar Russell a'r blaid Whigaidd. Cyhuddwyd hwynt o fod yn gyfranog yn mradwriaeth y Rye House; ac fel y cyfryw, daliwyd Arglwydd Russell, Iarll Essex, ac Algernon Sidney. Rhoddwyd Russell ar ei brawf am deyrnfradwriaeth yn yr Old Bailey, Gorphenaf 13eg, 1683; a boddhawyd y rheithwyr—y fath ag a eisteddent ar ei achos!—gan y tystion digymmeriad a ddygwyd yn mlaen o'i euogrwydd. Fel yr oeddynt ynghylch ymneillduo, dywedodd y carcharor:—"Yr wyf yn galw nefoedd a daear yn dystion na bûm i erioed yn cynllwyn am einioes y brenin." Ond cyhoeddodd y rheithwyr y dyfarniad a ddygodd Russell i'r dienyddle; a chyhoeddwyd uwch ei ben y ddedfryd ofnadwy a gyhoeddir uwch ben y rhai sydd yn euog o deyrnfradwriaeth. Yr oedd y brenin a'r duc yn benderfynol o gael ei waed, ac o lethu blaenoriaid y blaid Ryddfrydig. Beiddiodd rhai a berthynent i'r weinyddiaeth roddi gair o'i blaid—ond yn ofer! Yr oedd y Duc o Bedford wedi ennill y Dduces o Portsmouth, gan yr hon yr oedd dylanwad ar y brenin, o'i du; a chynnygiodd, drwyddi hi, y swm o 100,000*p.* os arbedid bywyd ei fab. Er boddloni ei dad oedrahus, ac ar ddymuniad taer ei wraig alarus, deisebodd Russell ei hun y brenin am arbediad; a dywedai yn y modd mwyaf difrifol nad oedd ganddo y bwriad lleiaf at fywyd y brenin, na'r bwriad lleiaf i gyfnewid y cyfansoddiad gwladol: a dywedir fod Charles yn tueddu i drugarhau wrtho, ond fod y Duc o Gaerefrog yn benderfynol o gael rhoddi y carcharor i farwolaeth. Y mae hanes oriau diweddaf Arglwydd Russell, fel yr adroddir ef gan yr esgob Burnet, ei hoff gyfaill a'i gydymaith, yn cael ei ystyried yn un o'r darnau mwyaf toddedig mewn hanesyddiaeth.

O'r amser y cyhoeddwyd y ddedfryd hyd ei ddienyddiad, amlygai Arglwydd Russell y teimladau mwyaf duwiolfrydig, ac yr oedd yn hollol dawel o ran ei feddwl. Dilynwyd ef i'r dienyddle gan yr esgob Burnet a'r deon Tillotson; ac y mae y blaenaf wedi ysgrifenu hanes ei ddyddiau olaf. Rhoddodd Russell, pan y torwyd ei ben yn Lincoln's Inn Fields, ar yr 21ain o Orphenaf, 1683, bapur i'r swyddogion, yn cynnwys eglurhâd ac adroddiad ynghylch ei ymddygiad. Yr oedd y dienyddiad, neu yn hytrach y llofruddiaeth yma!—a gyflawnwyd i ddybenion annheg, a chyda moddion annheg, ac i gael ei ddilyn yn fuan wedi hyny gan ddienyddiad Algernon Sidney, ac ereill—yn peri i'r wlad ffieiddo teulu Stuart o herwydd eu gorthrwm, ac arweiniodd yn y teyrnasiad dilynol i ddymchweliad y teulu. Bu farw Russell yn ddwy flwydd a deugain oed, gan adael ar ei ol enw a choffadwriaeth a anrhydeddir ac a berchir yn mhob man lle yr anrhydeddir ac y perchir gwirionedd a rhyddid! Yr oedd ymddygiad ardderchog a ffyddlondeb

Digitized by Google

digymmhar yr Arglwyddes Russell i'w gŵr yn ystod ei brawf yn teilyngu yr edmygedd mwyaf. Cymmerai nodiadau o'r oll a elai yn mlaen, a gwnaeth bob peth oedd yn ei gallu mewn ffordd o gynnorthwy iddo. Yr oedd eu hymadawiad â'u gilydd yn un o'r golygfeydd mwyaf effeithiol! ac y mae parhâd ei gofid yn cael ei amlygu ganddi yn ei gohebiaeth yn ol hyny. Bu farw yr Arglwyddes Russell yn Southampton House, Medi, 1723, yn yr oedran teg o chwech a phedwar ugain.

RUTH (רוּת: Ῥοὺθ): Moabes, a ddygwyd, o dan amgylchiadau neillduol, i gyssylltiad agos â theulu yn Israel, hanes yr hwn a adroddir yn y llyfrau sydd yn yr Hen Destament ar ei henw. Gwraig oedd Ruth yn gyntaf i Mahlon, ac wedi hyny i Boaz, a mam i Obed, ac un o hynafiaid Dafydd a Christ. Y mae rhai o fanylion bywyd Ruth yn cael eu hadrodd yn y llyfr sydd ar ei henw. Digwyddodd newyn tost yn ngwlad Iudah. Y mae yr adeg y cymmerodd hyn le yn destyn dadl yn mhlith esbonwyr. Hwyrach fod barn Usher yn llawn mor debyg o fod yn gywir ag un, yr hwn a dybia iddo gymmeryd lle yn amser Gedeon. Cynnyrcha gorthrwm y Midianiaid, y crybwyllir am dano yn *Barn.* vi. 3—6, newyn—oddi wrth yr hwn orthrwm y bu Gedeon yn offerynol i waredu y bobl—anrheithiwyd y wlad, a dinystriwyd "cnwd y ddaear, hyd oni ddelych i Gazah;" ac yr oedd hwn yn cynnwys y dosbarth o'r wlad lle y gorweddai Iudah a Bethlehem. Yr oedd tiriogaeth Iudah hefyd yn gydiol â Moab, ac felly yr oedd symmud yno yn naturiol a hawdd. Mewn canlyniad i'r newyn, cymmhellwyd Elimelech, brodor o Bethlehem Ephratah, i ymfudo i wlad Moab, ynghyd â'i wraig Naomi, a'i ddau fab, Mahlon a Chilion. Yn mhen deng mlynedd, yr oedd Naomi wedi ei gadael yn weddw ac yn amddifad mewn gwlad estronol. Clywodd fod digonolrwydd etto erbyn hyn yn Iudah, a phenderfynodd ddychwelyd i Bethlehem; a daeth Ruth, ei merch-yn-nghyfraith, gyda hi. Pan ddeisyfid arni droi yn ol i'w gwlad ei hun, dyna a ddywedodd: "Canys pa le bynag yr elych di, yr af finnau; ac yn mha le bynag y llettyech di, y llettyaf finnau: dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fydd fy Nuw innau: lle y byddych di marw, y byddaf finnau marw, ac yno y'm cleddir;" *Ruth* i. 16, 17. Ymadroddion cryf ac effeithiol yw y rhai hyn; ond dyma y geiriau a ddefnyddid gan y weddw ieuangc Foabaidd i amlygu ei hymlyniad wrth fam, wrth wlad, ac wrth grefydd ei gŵr oedd wedi marw. Cyrhaeddasant Bethlehem tua dechreu cynhauaf yr haidd; ac wrth fyned allan i loffa, er cael defnydd cynnaliaeth iddi ei hun a'i mam-yn-nghyfraith, digwyddodd iddi fyned i faes Boaz, yr hwn oedd yn gyfoethog, ac yn gâr agos i Elimelech, ei thad-yn-nghyfraith. Yr oedd y son am ei rhinweddau, a'i charedigrwydd, a'i ffyddlondeb i'w mam-yn-nghyfraith, a'r flaenoriaeth a roddai i wlad enedigol ei gŵr, ar wlad Moab, wedi dyfod o'i blaen; ac yn ddioed ar ol clywed pwy oedd y wraig ieuangc ddyeithr, ymddygodd Boaz ati gyda'r caredigrwydd a'r parch mwyaf, ac anfonodd hi adref yn llwythog o'r ŷd oedd wedi ei loffa ganddi. Wedi ei chalonogi gan y digwyddiad hwn, cyfarwyddodd Naomi Ruth i hawlio llaw Boaz, neu ar fod iddo wneyd rhan perthynas neu gyfathrachwr agos i'w gŵr hi, trwy bwrcasu etifeddiaeth Elimelech, a'i chymmeryd hithau yn wraig iddo. Ond yr oedd cyfathrachwr nes na Boaz, ac yr oedd yn angenrheidiol i hwnw gael y cyfleusdra cyntaf i brynu yr etifeddiaeth iddo ei hun, os ewyllysiai efe wneuthur hyny. Gwrthododd hwnw, pa fodd bynag, rhag peryglu ei etifeddiaeth ei hun. Ar hyn, cymmerodd Boaz Ruth yn wraig, yn nghanol llongyfarchiadau a dymuniadau da yr holl gymmydogion. Fel esampl nodedig o rinwedd a chrefydd mewn oes dywyll, ac yn mysg pobl eilunaddolgar—fel un o flaenffrwyth cyntaf cynhauaf y Cenhedloedd a gesglir i'r eglwys—fel arwres ystori nodedig am ei phrydferthwch a'i symledd—fel un yn egluro yn ei hanes weithrediadau dwyfol ragluniaeth, a gwirionedd y dywediad, "llygaid yr Arglwydd sydd ar y cyfiawn:" ac am lawer o ddadguddiadau dyddorol o hen arferion teuluaidd a chymdeithasol sydd yn gyssylltiedig â'i hanes, y mae Ruth yn wastad yn meddu lle uchel yn mysg cymmeriadau ysgrythyrol. Y mae Jerome yn gwneyd y sylw y gellir mesur mawredd rhinweddau Ruth wrth fawredd ei gwobr.

RUTH, LLYFR. Y mae y llyfr hwn wedi ei drefnu yn nghanon y Beibl rhwng Llyfr y Barnwyr a Llyfrau Samuel; a gellir yn ddigon priodol edrych arno fel attodiad i'r blaenaf, ac arweiniad i mewn i'r rhai diweddaf. Arferai yr hen Iuddewon ei chwanegu at Lyfr y Barnwyr, am y tybient i'r digwyddiadau y traethir eu hanes ynddo gymmeryd lle yn amser barnwyr Israel: *Ruth* i. 1. Ac yr oedd amryw o'r tadau Cristionogol yn edrych ar y Barnwyr a Ruth fel un llyfr. Y mae dyddiad ac awduriaeth cywir y llyfr yn anhysbys, er ei fod yn dyb gyffredin mai Samuel oedd yr ysgrifenydd. Ymddengys yn debyg iddo gael ei ysgrifenu gryn amser ar ol i'r digwyddiadau a gofnodir ynddo gymmeryd lle; canys yn *pen.* iv. 7, cyfeirir at arferiad oedd yn ffynu fel yr "hyn oedd ddefod gynt yn Israel, am ryddhâd, ac am gyfnewid, i sicrhau pob peth." Cymmh. *Deut.* xxv. 9. Oddi wrth yr adnod olaf yn y llyfr hefyd, gellir casglu ei fod wedi ysgrifenu mor ddiweddar o leiaf a sefydliad teulu Dafydd ar orsedd Israel:—"Ac Obed a genhedlodd Iesse, ac Iesse a genhedlodd Dafydd." Heb law hyny, y mae yr ymadrodd sydd yn *pen.* i. 1, "Yn y dyddiau yr oedd y brawdwyr yn barnu," yn dynodi y cyfnod pan y cymmerodd y digwyddiadau le, yn arwyddo, yn ddiammheuol, fod brenhinoedd wedi dechreu teyrnasu yn nyddiau yr ysgrifenydd.

Nid ydyw hawl y llyfr i fod yn nghanon yr Ysgrythyrau chwaith un amser wedi cael ei ammheu, gan yr ystyrir fod y ffaith fod Ruth, y Foabes, yn cael ei henwi yn rhestr achau ein Harglwydd (*Mat.* i. 6) yn ddigon o gadarnhâd i hyn. Y mae yr anhawsder penaf a berthyna i'r llyfr, fodd bynag, yn codi o'r achau hyn; lle y dywedir fod Boaz, gŵr Ruth, a hen daid Dafydd, yn fab i Salmon, o Rachab. Yn awr, os ydym yn golygu wrth Rachab, fel y deallir yn gyffredin, Rahab y butain, yr hon a amddiffynodd yr ysbïwyr, nid peth hawdd iawn ydyw amgyffred mai Boaz, Obed, ac Iesse ydoedd yr unig dri oedd rhyngddi hi a Dafydd—cyfnod o tua phedwar can mlynedd. Ond mỳn rhai gredu, fel Usher, fod hynafiaid Dafydd wedi eu bendithio â hir ddyddiau. Neu, fe allai nad ydoedd yr ysgrifenwyr sanctaidd yn nodi neb ond y rhai oeddynt yn fwyaf adnabyddus ac enwog yn mhlith yr Iuddewon.

Y mae amryw farnau o berthynas i dueddiad

Digitized by Google

neu ogwyddiad cyffredinol y llyfr yn mhlith esbonwyr. Umbreit a dybia ei fod wedi ei ysgrifenu gydag amcan moesol pennodol, i ddangos y modd y gallai hyd yn oed y dyeithrddyn, ïe o hâd Moabaidd, fod yn ddigon anrhydeddus a mawrfrydig i fod yn fam i Dafydd, y brenin galluog, am ei bod wedi gosod ei hymddiried yn Nuw Israel. Berthold a dybia nad ydyw yr hanes yn ddim ond ffug-chwedl, wedi ei bwriadu i gymmhell y ddyledswydd ar i ddyn briodi ei gares; tra yr ystyriai Eichhorn i'r llyfr gael ei gyfansoddi yn benaf er anrhydeddu teulu Dafydd, er nad ydyw yn celu tlodi y teulu. Ond yr amcan mwyaf tebyg i'r llyfr, gellid meddwl, ydyw dangos, ac egluro, megys y cafodd merch oedd yn hanu o blith y Cenhedloedd, y tu allan i derfynau Israel, ei mabwysiadu i deulu o ba un yr hanodd Crist yn ol y cnawd, y derbynid y Cenhedloedd eu hunain i'r wir eglwys, fel cydetifeddion o fendithion yr efengyl. Y mae y gwersi moesol a ddysgir ynddo o'r nodwedd mwyaf dyddorol:—canfyddir fod gofal rhagluniaeth yn gymmaint am deuluoedd cyffredin ag ydyw am deuluoedd tywysogion; fod y bywyd presennol yn fywyd o gyfnewidiadau adfydus; nad ydyw gosod ymddiried llawn mewn rhagluniaeth goruwchlywodraethol byth yn methu sicrhau ei gwobr; ac nad oes un sefyllfa, pa mor adfydus ac isel bynag y byddo, yn hollol anobeithiol. Ni chafodd y gwirioneddau hyn yn mron un amser eu hegluro yn well nag yn yr hanes byr a syml a gofnodir yn Llyfr Ruth.

RWSSIA, EGLWYS. Canghen o Eglwys Groeg, neu yr Eglwys Ddwyreiniol, yw Eglwys Rwssia—am yr hon ni a roddwn yma y ffeithiau canlynol. Ymddengys fod cenhadon y flaenaf wedi myned yn foreu i bregethu i'r cenhedloedd Sclafonaidd a breswylient y gwledydd i'r gogledd o'r Môr Du. Rhwyddhawyd y ffordd i Gristionogaeth gan y fasnach a ddygid yn mlaen rhwng trefedigaethau Groegaidd glanau y Môr Du a'r Sclafoniaid. Yr oedd nifer y dychweledigion Sclafonaidd at Gristionogaeth yn lled liosog yn niwedd y nawfed ganrif; a sonir am esgobaeth Rwssia gan ysgrifenwyr Byzantaidd ynghylch y flwyddyn 900. Aeth y dywysoges Olga i Gaer Cystenyn, i gael ei bedyddio, yn B. A. 955. Ni ddilynwyd ei hesampl gan ei mab Sviutoslaf, yr hwn a barhaodd yn ffyddlawn wrth eilunaddoliaeth ei dadau; er nad erlidiodd efe y Cristionogion, ac nad attaliodd efe ei fam yn ei gwaith yn adeiladu eglwysydd. Yr oedd y gwrthwynebiad a gafodd y Cristionogion yn Kiew, yn B. A. 980, yn profi fod eu nifer eisoes yn gyfryw ag a gynnhyrfai eiddigedd y paganiaid; ac yn 988, bedyddiwyd Vladimir Fawr, Uchel Dduc Rwssia, gan y cenhadon Groegaidd. Distrywiwyd y delwau paganaidd yn ol ei orchymyn ef; ond ni lwyr ddilëwyd delwaddoliaeth o Rwssia hyd y ddeuddegfed ganrif. Sefydlwyd yr esgobaeth gyntaf yn Kiew yn B. A. 900, gan batriarch Caer Cystenyn. Dewisid esgob Kiew yn gyffredin o blith y Groegiaid. Ar ol cymmeriad Caer Cystenyn gan y Lladiniaid, pan y trosglwyddwyd eisteddle y llywodraeth, yn gystal ag un y patriarch i Nicea, cyssegrid esgobion Rwssia yn y ddinas hono hyd nes y gyrwyd y Lladiniaid ymaith.

Gwnaeth y pabau amryw geisiadau i ddwyn Eglwys Rwssia o dan eu hawdurdod; ac y mae un digwyddiad, a gymmerodd le yn nghylch diwedd yr unfed ganrif ar ddeg, yn rhyw led arwyddo eu bod yn meddu cryn ddylanwad yn Kiew; sef, gwaith Ephraim, Groegwr dysgedig, esgob y dref hono, o 1070 hyd 1096, yn dwyn i mewn i'r calendar Rwssiaidd ŵyl goffadwriaethol am drosglwyddiad gweddillion St. Nicholas o Lycia i Bari, yn Italy; yr hon ŵyl nad oedd Eglwys Groeg yn ei chadw, ond a gedwid gan Eglwys Rhufain. Y mae yn bossibl fod esgobion Rwssia yn petruso rhwng eglwysi Rhufain a Groeg—i ba un y dylent ufuddhau?—cyn i'r ymwahaniad a ddygwyd oddi amgylch rhwng yr eglwysi gorllewinol a dwyreiniol gymmeryd lle, o dan Michael Cerularius. Modd bynag, ni chafodd y gallu Pabaidd erioed ei gydnabod yn deg yn nhiriogaethau Rwssia.

Cafodd goresgyniad y Mongoliaid, a darostyngiad Rwssia mewn canlyniad i hyny, ddylanwad mawr ar sefyllfa y wlad hono. Dinystriwyd llawer o'r eglwysydd a'r mynachdai, a rhoddwyd lliaws mawr o'r clerigwyr i farwolaeth y pryd hwn; ond mor fuan ag y sefydlodd y Mongoliaid eu hawdurdod yno, ceisient ei gadarnhau trwy ennill y clerigwyr o'u tu. Gosodwyd yr Eglwys Rwssiaidd mewn sefyllfa ffafriol o dan lywodraeth y Mongoliaid, ac o dan lywodraeth y Tartariaid wedi hyny, a chynnyddodd hithau mewn cyfoeth a dylanwad yn y wladwriaeth. Distrywiwyd Kiew gan y Mongoliaid yn 1240, ond ni bu eu hawdurdod hwynt erioed wedi ei sefydlu mor gadarn yn nhaleithiau gorllewinol Rwssia ag yn y rhai dwyreiniol. Yr oedd cynnhyrfiadau beunyddiol yn cymmeryd lle yn y blaenaf. Parodd hyn i Maxim, esgob Kieff, gymmeryd eisteddle ei esgobaeth oddi yno i Vladimir, yn y flwyddyn 1299. Unwyd Kiew, ynghyd âg amryw ereill o daleithiau Rwssia Orllewinol, gyda Lithuania yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ymdrechai esgobion Vladimir, y rhai a aethant i breswylio i Moscow, i gadw eu huchafiaeth dros eglwysi Lithuania; ac i'r dyben hwnw, treulient beth o'u hamser yn flynyddol yn y wlad hono. Ond er eu holl ymdrechion, yr oedd yr ymwahaniad rhwng eglwysi Moscow a Lithuania yn ymledu yn barhaus, hyd nes y cwblhawyd y rhwyg rhyngddynt yn 1415; pan yr ymgyfarfu esgobion Lithuania yn Novogrodek, ac y dewisasant Gregory Zambiak yn ben esgob Kiel, olynwyr yr hwn a barhaent i fod yn annibynol ar esgobaeth Moscow. Ni chydnabyddent uchafiaeth neb ond patriarch Caer Cystenyn, cyhyd ag y buont o dan lywodraeth Poland, gyda'r hon yr unwyd Lithuania o'r diwedd. Er y pryd hwnw y mae dwy eglwys Rwssiaidd annibynol yn bod; sef, eglwys Rwssiaidd Muscovy, ac un Poland.

Llywodraethid eglwys Muscovy gan ei hesgobion hi ei hunan, y rhai a gyssegrid neu a gymmeradwyid gan batriarchiaid Caer Cystenyn. Aeth Isidore, Groegwr dysgedig, esgob Moscow, i gynghor a gynnelid yn Florence yn 1439, lle yr ymgymmerodd efe â ffurfio undeb âg Eglwys Rhufain. Dychwelodd i Moscow yn 1439, wedi ei ddyrchafu yn gardinal, a'i bennodi yn genad y pab; ond cafodd ei ddiswyddo, a charcharwyd ef mewn mynachdy; llwyddodd, pa fodd bynag, i ddiangc o'i gaethiwed, a bu farw mewn oedran teg, yn ninas Rhufain. Wedi i Gaer Cystenyn gael ei darostwng gan y Tyrciaid, etholid a chyssegrid esgobion Moscow yn hollol annibynol ar batriarch Caer Cystenyn. Yn 1551, cynnaliwyd cymmanfa eglwysig yn Moscow, a gwnaed rhestr o ddeddfau eglwysig. Yn y fl. 1588, daeth Jeremiah, patriarch Caer



Digitized by Google

Cystenyn, i Moscow, i'r dyben o geisio cynnorthwy arianol i'w eglwysi. Cynnorthwywyd ef yn haelionus gan y Czar Fedor Ivanovich, a chyssegrodd yntau Jeremiah, esgob Moscow, fel patriarch Rwssia. Yr oedd y patriarchiaid hyn yn mwynhau dylanwad anghyffredinol, nid yn unig mewn pethau eglwysig, ond mewn pethau gwladol hefyd. Cythryblwyd yr eglwys yn nheyrnasiad Alexis trwy gyfodiad amryw sectau. Ar ol marwolaeth y patriarch Adrian, yn 1702, diddymodd Pedr Fawr y swydd batriarchaidd, a chyhoeddodd ei hun yn ben yr eglwys Rwssiaidd, a sefydlodd brif gynghor i benderfynu achosion eglwysig o dan yr enw '*Y Gymmanfa Sanctaidd*.' Gorchymynodd Pedr sefydlu ysgolion yn mhob esgobaeth, a chyhoeddodd nad oedd y mynachdai i gasglu dim mwy o eiddo, trwy roddion na thrwy bryniant; gwnaeth feddiannau yr eglwys yn ddarostyngedig i'r trethoedd cyffredin, a dygodd i mewn lawer o ddiwygiadau i drefn yr eglwys. Yn 1764, attafaelodd yr ymherodres Catherine holl feddiannau yr eglwys, a phennododd flwydd-daliadau i esgobion, a mynachdai, &c. Sefydlwyd amryw o ysgolion eglwysig yn ystod teyrnasiadau Catherine, Paul, ac Alexander; a phenderfynwyd yn derfynol ar y deddfau oedd i'w llywodraethu yn y flwyddyn 1814.

Yr ymherawdwr ydyw pen yr eglwys hon—achosion yr hon a weinyddir, fel y cyfeiriwyd o'r blaen, gan brif gynghor, a elwir Y Gymmanfa Sanctaidd, aelodau yr hon sydd yn gynnwysedig o wŷr eglwysig a gwŷr lleyg hefyd; ac ymddengys nad ydyw y cynghor hwn yn gyfyngedig i rifedi neillduol. Cynnwysa yr Eglwys Rwssiaidd ddeugain o esgobaethau. Y mae pedair o athrofeydd eglwysig yn Rwssia; sef, yn Moscow, St. Petersburg, Kiew, a Casan, heb law llawer o sefydliadau colegawl llai. Rhaid addysgu holl feibion clerigwyr yn y sefydliadau hyn; ac y mae ynddynt ddarpariaethau, nid yn unig i gyfranu addysg, ond hefyd i gynnal yn rhad yr efrydwyr tlotaf. Y mae y drefn orfodol hon o addysg yn peri fod llawer o feibion clerigwyr yn mysg dynion mwyaf dysgedig y deyrnas. Ffurfia y clerigwyr Rwssiaidd fath o ddosbarth gwahanedig a neillduedig; a digwyddiad tra anghyffredin ydyw, fod neb a berthyna i ryw ddosbarth arall yn cymmeryd y swydd glerigol. Fel rheol gyffredin, ar un adeg, yr oedd yn rhaid i feibion clerigwyr ddilyn swydd eu tad, a chael trwydded bennodol cyn y caniateid iddynt ymaflyd mewn unrhyw alwedigaeth arall. Caniateid y drwydded hon yn rhydd, modd bynag; ac erbyn hyn nid oes angen am dani, gan fod yr arferiad wedi ei diddymu.

Mae ymneillduwyr oddi wrth Eglwys Rwssia yn lled liosog yn y wlad hono. Dechreuodd ymneillduaeth yno yn mron mor foreu a'r adeg y dygwyd Cristionogaeth gyntaf i Rwssia. Yn B. A. 1003, ymosododd mynach o'r enw Andrew ar y prif swyddogion eglwysig, ac ar addoliad delwau, ynghyd â rhai athrawiaethau ereill perthynol i'r eglwys ddwyreiniol; ond galwodd yn ol yr hyn a ddywedodd efe yn wrthwynebus, a dychwelodd yn ymostyngol i fynwes yr eglwys yn ol. Carcharodd Nicephorus, esgob Kiew (1122—23), ddyn o'r enw Demetrius, am ledaenu egwyddorion a ystyrid ganddo yn gyfeiliornus. Ymosododd mynach Armeniaidd o'r enw Martin ar yr eglwys, mewn rhyw waith a ysgrifenwyd ganddo yn 1150; ond yr oedd ei ymosodiad yn gyfeiriedig yn benaf yn erbyn ei ffurfwasanaeth yn hytrach nag yn erbyn ei hathrawiaethau. Condemniwyd golygiadau Martin gan gymmanfa eglwysig yn 1157, ac anfonwyd ef at batriarch Caer Cystenyn—o flaen yr hwn y dadgyffesodd, ac yr heddychwyd ef â'r eglwys. Pregethodd un o'r enw Seit rai syniadau a dybid yn heresiol yn 1312; a chondemniwyd hwy gan gymmanfa o esgobion yn Pereyaslaff yn y flwyddyn ddilynol, a chospwyd yr awdwr. Yn 1375, darfu i Karp Strigolnik, dinesydd o Novgorod, gyhuddo y clerigwyr o Simoniaeth, o herwydd arferiad oedd wedi ei sefydlu yn Rwssia—fod yr esgobion i dderbyn tâl am ganiatau urddau eglwysig. Gwrthwynebai hefyd gyffesu i offeiriad. Yr oedd ganddo lawer o bleidwyr, a bu ymdrechfa rhyngddynt hwy a phleidwyr yr eglwys sefydledig yn heolydd Novgorod. Gorchfygwyd plaid Strigolnik, a thaflwyd ef a rhai o'i brif bleidwyr i'r afon, a boddwyd hwynt. Gadawyd gweddill o honynt, modd bynag, ac ymddengys i'w dylanwad gael ei deimlo yn lled bwysig ar ol hyn, gan fod patriarch Caer Cystenyn wedi ysgrifenu at esgobion Rwssia lawer gwaith ar y mater.

Ynghylch diwedd y bymthegfed ganrif, fe wnaeth yr hon a elwid y 'Sect Iuddewig' ystŵr mawr yn eglwys Rwssia. Priodolir dechreuad y symmudiad hwn i Iuddew o'r enw Zacharias, yr hwn a ddarlunir fel ser-ddewin, ac a ddaeth o Poland i Novgorod yn 1470. Dechreuodd ddysgu yn ddirgelaidd mai cyfraith Moses oedd yr unig un ddwyfol, fod y Messïah etto i ddyfod, a bod addoli delwau yn bechod. Ennillodd y gŵr hwn ei ddysgyblion cyntaf yn mysg y clerigwyr a'u teuluoedd; ac mor selog oeddynt, fel y dymunent gael eu henwaedu. Cynghorai Zacharias hwynt i beidio amlygu eu gwir syniadau drwy hyn, ond yn hytrach i gydymffurfio yn allanol â'r grefydd Gristionogol. Chwanegwyd proselytiaid i'r golygiadau hyn yn barhaus. Dirgelai y bobl felly eu gwir syniadau trwy amlygu mwy o sêl ymddangosiadol dros ddefodau yr eglwys. Appwyntiwyd dau o honynt, sef Alexis a Dionysius, yn offeiriaid yn yr eglwysydd penaf yn Moscow, yn 1480, gan yr Uchelddue Ivan Vasilovich. Yr oedd Alexis mewn ffafr mawr gan y penadur hwn, a dyrchafwyd ef i archesgobaeth Moscow. Felly, cafodd un oedd yn ddirgelaidd yn elyn i'r Eglwys Rwssiaidd ei appwyntio i'r swydd uchaf ynddi. Bu farw Alexis yn 1489; ac ar ol ei farwolaeth y daeth ei olygiadau yn wybyddus. Gennadius, archesgob Novgorod, a ddarganfyddodd fodolaeth y sect hon; a galwyd cymmanfa eglwysig yn Moscow, yn 1490, i ddwyn yr hereticiaid hyn i brawf. Mynai yr esgobion eu cospi gyda llymder, ond yr oedd y penadur yn tueddu at fod yn dyner tuag atynt. Parhaodd Theodor Kuritzin, ac ereill, i ledaenu yr egwyddorion, ac i chwanegu at nifer eu dilynwyr; yn enwedig trwy ddysgu ser-ddewiniaeth. Tueddai hyn i greu ysbryd chwilio yn mysg y bobl; ac yr oedd y clerigwyr a'r llëygwyr yn dadleu yn fynych ynghylch athrawiaethau crefydd. Ni chlywyd nemawr am y sect hon er y flwyddyn 1503; ond y mae yn bresennol mewn parthau o Rwssia rai sydd yn cyflawni rhai o ddefodau cyfraith Moses.

Ond yr ymneillduad penaf o'r Eglwys Rwssiaidd oedd yr un a achoswyd gan y gwelliant a wnaed ar destyn ammherffaith y cyfieithiad Sclafonaidd o'r Ysgrythyrau, a ddefnyddir gan Eglwys Rwssia. Yr oedd llyfrau yr Ysgrythyrau wedi eu hysgrifenu gan gopïwyr anwybodus ac

Digitized by Google

anfedrus yn oesoedd tywyll llywodraeth y Tartariaid, a llawer o ddarnau wedi eu gadael allan, a mwy o chwanegiadau wedi eu rhoddi i mewn gan ysgrifenwyr anwybodus ereill a ymdrechent wneyd i fyny y diffygion oedd ynddynt. Cymmerwyd y gwaith o ddiwygio y cyfieithiad i fyny yn selog gan y Czar Vasil-Ivanovich; yr hwn, yn 1520, a osododd Roegwr dysgedig o'r enw Maxim ar waith i gario yr amcan i ben. Dechreuodd y mynach hwn ar y gwaith gyda sêl ac ymroddiad neillduol, a pharhaodd i ddilyn yn mlaen arno am ddeng mlynedd; ond cyhuddwyd ef o heresi gan glerigwyr anwybodus Moscow, a chanwyd ef i fyny mewn mynachdy. Ac er iddo dystio yn y modd difrifolaf ei fod yn uniongred, cadwyd ef yn y carchar hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn 1555. Cydnabyddwyd fod angenrheidrwydd am wellhau y testyn ysgrythyrol ar amryw o achlysuron; ond o dan deyrnasiad y Czar Alexey, yn 1654, y cariwyd hyn i weithrediad. Galwyd cynghor ynghyd yn Moscow, pryd yr oedd yn bresennol un ar bymtheg ar hugain o esgobion, ynghyd â phatriarch Antiochia; a phenderfynwyd yn unfrydol i ddiwygio y testyn Rwssiaidd o lyfrau y Beibl. Casglwyd ynghyd gannoedd o gopiau llawysgrifol o'r testyn Groegaidd o wahanol barthau; ac ymroddodd lliaws o'r dynion mwyaf dysgedig yn y wlad i'r gorchwyl, a chwblhawyd y gwaith. Ond er fod hyn wedi ei ddwyn yn mlaen yn y modd mwyaf difrifol a chyhoeddus, etto nid oedd yn cael cymmeradwyaeth gyffredinol yr holl genedl, a'r clerigwyr Rwssiaidd. Yr oedd blaenoriaid y blaid wrthwynebol i hyn yn gyffredin yn perthyn i'r dosbarth isaf o'r clerigwyr, [gyda'r eithriad o esgob. Kolomna. Ymledodd y gwrthwynebiad hwn yn fawr, yn enwedig yn y taleithiau gogleddol: ac yr oedd clerigwyr a lleygwyr yno yn ei gwrthwynebu yn egnïol. Ymgododd erledigaeth gref, a thywalltwyd gwaed mewn llawer o fanau. Mewn rhai lleoedd, yr oedd y rhai a ymlynent wrth yr hen gyfieithiad yn cau eu hunain i fyny mewn eglwysydd, ac ereill mewn tai neu ysguboriau, ac yna yn rhoddi tân ynddynt eu hunain, ac yn trengu yn nghanol y fflamau; gan gredu yn ddiysgog y cawsent etifeddu bywyd tragywyddol, drwy yr hyn a alwent yn 'fedydd tân.' Er mwyn osgoi erledigaeth, ffodd ereill i Poland, lle y ffurfiasant sefydliadau mawrion. Ymsefydlodd ereill ar lanau y Danube, yn nhiriogaeth Twrci. O'r diwedd, yn 1702, cyhoeddodd Pedr Fawr ddadganiad yn caniatau goddefiad i'r sectau, ond yn eu gwneuthur yn ddarostyngedig i dreth arbenig.

Y mae llawer o sectau crefyddol yn Rwssia, sydd yn nodedig ar gyfrif hynodrwydd eu syniadau, ynghyd â'u harferion a'u defodau. Y mae aelodau y sectau hyn yn gyffredin yn cael eu gwneyd i fyny yn benaf o'r dosbarthiadau isaf; ac er fod gwareiddiad yn cynnyddu, nid ydyw nifer y sectau yn lleihau. Priodolir hyn i sêl yr aelodau yn gwneyd proselytiaid; ac i'r amgylchiad fod unrhyw berson, ond iddo ymuno â hwynt, gan fabwysiadu eu golygiadau, ac ymostwng i'w holl arferion ofergoelus, yn sicr o gael derbyniad a chefnogaeth, beth bynag fydd ei ymddygiadau blaenorol.

**RWSSIA, YMHERODRAETH.** Y mae tiriogaethau Rwssia yn ymestyn dros ranau helaeth o ardaloedd gogleddol y ddaear; yn cynnwys y rhan ogledd-ddwyreiniol o Ewrop, holl Asia Ogleddol, a gororau gogledd-orllewinol America. Terfynir hi ar du y gogledd gan Fôr y Gogledd; ar du y dwyrain gan y Môr Tawelog a thiriogaethau Prydain yn Ngogledd America; ar du y deheu gan ymherodraeth China, Turkestan, Môr Caspia, Persia, Twrci yn Ewrop ac Asia, a'r Môr Du; ac ar du y gorllewin gan Awstria, Prwssia, Môr y Baltic, a Sweden. Ei hyd o'r gorllewin i'r dwyrain, sef o Prosna, ar derfyn Prwssia, i Fynydd St. Elias, yn America, sydd tua 9,800 o filldiroedd; ei lled o ogledd i ddeheu sydd ynghylch 2,667 o filldiroedd. Y mae ei hamgylchedd o ddeutu 30,333 o filldiroedd; ac o'r rhai hyn y mae 21,000 yn terfynu ar y moroedd. Mynegir fod arwynebedd ei thiriogaethau, yn annibynol ar y rhai sydd yn ngogleddbarth America, yn 7,846,747 o filldiroedd ysgwar; ac y mae y boblogaeth tua 80,000,000 o eneidiau, dybygid.

Y mae Rwssia yn Ewrop yn gynnwysedig o wastadedd anferth, a hwnw yn cael ei derfynu yn benaf gan fynyddoedd:—ar du y dwyrain gan fynyddoedd yr Ural, y rhai a ffurfiant gadwen lydan o fynyddoedd, heb fod yn uchel; ar du y gogledd gan Fôr y Gogledd; ac ar du y deheu gan gyfres o ucheldiroedd ar yr ochr aswy i'r Volga. Ar du y de-ddwyrain i'r gwastadedd mawr y mae mynyddoedd uchel y Caucasus. Y mae y dosbarthiadau hyny sydd yn ne-orllewin Rwssia, rhwng afonydd y Vistula a'r Pruth, yn cael eu gorchuddio gan fryniau yn rhedeg yn un llinell o'r mynyddoedd Carpathiaidd. Ar du y gogledd-orllewin, y mae mynyddoedd Finland— yn cael eu gwneyd i fyny o greigiau ithfaen, ac ynddynt lynau lliosog. Nid ydynt o ran uchder ddim dros 600 o droedfeddi. Ymrana gwastadedd Rwssia yn Ewrop yn naturiol yn dri dosbarth, a phob un yn gwahaniaethu oddi wrth y llall yn natur ac ansawdd y tir. Cyrhaedda y dosbarth gogleddol oddi wrth Fôr y Gogledd hyd ucheldir yr Ural-Baltic, y dosbarth canol o'r Ural-Baltic hyd i ucheldir Ural-Carpathia, a'r dosbarth deheuol rhwng ucheldir Ural-Carpathia a'r Môr Du a'r Môr Caspiaidd. Mae tir y dosbarth gogleddol yn gorsiog, a'r hinsawdd yn oer ac afrywiog. Yn y rhan ganol o hono, rhwng yr afonydd Onega a Mezen, ac yn enwedigol ar hyd glenydd y Dwina Ogleddol, y mae coedwigoedd mawrion o ffawydd a phorfeydd i anifeiliaid. Tua'r dwyrain o'r ardaloedd hyn y mae y coedwigoedd yn darfod, a siglenydd mawrion, y rhai sydd yn rhewedig y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yn gorchuddio y wlad. Ymestyna y dosbarth canol yn nghyfeiriad y deorllewin i ddeheudir Poland, ac ar y gogleddddwyrain i fynyddoedd yr Ural. Yn y gorllewin y mae iseldir eang, wedi ei orchuddio â choed ac â chorsydd. Yn y rhan ganol o'r dosbarth yma y mae y tir mewn rhan yn drwm; ond fel y deuir tua'r gogledd, y mae yn dywodlyd. Y tu hwnt i'r Oka, y mae cyflawnder o ddolydd ffrwythlawn; ac ar du y dwyrain i'r Volga y mae gwastadedd eang, a hwnw yn gynnyrchiol o goed, ac yn ymgodi yn fryniau yn nghymmydogaeth mynyddoedd yr Ural. Y mae y dosbarth deheuol yn cynnwys gwastattiroedd yn ymestyn ar hyd glenydd y Môr Du a'r Môr Caspiaidd.

Y mae llywodraeth y wlad yn un benadurol —pen yr hon ydyw yr ymherawdwr; yr hwn sydd yn uno ynddo ei hun bob gallu ac awdurdod: hyny yw, efe ydyw pen milwrol, gwleidyddol, a chyfreithiol y wladwriaeth; ac efe hefyd

Digitized by Google

ydyw pen y sefydliad a elwir yr Eglwys Roeg Uniongred. Trefn yr olyniaeth i'r orsedd sydd trwy dreftadaeth—yn mlaenaf yn y llinell wrywaidd; ond os bydd diffyg ynddi, y mae hi yn myned i'r llinell fenywaidd. Disgwylir i bob swyddog gwladol gymmeryd llŵ o ffyddlondeb i'r goron. Cyrhaedda treuliadau y palas ymherodrol i o ddeutu 1,200,000*p*. yn flynyddol. Y mae yr eiddo a berthyna i'r goron, neu eiddo personol y teulu ymherodrol, yn werth 700,000*p*. yn flynyddol. Cynghor y wladwriaeth ydyw y gangen uchaf o'r gallu gweinyddiadol ynddi. Y mae y llywydd a'r aelodau hefyd—yn mysg pa rai y mae gweinidogion y goron—yn cael eu pennodi gan yr ymherawdwr. Gofala ysgrifenydd y wladwriaeth ar fod gweithrediadau y cynghor hwn yn cael eu gosod ger bron yr ymherawdwr. Ar ol cynghor y wladwriaeth, y gangen o'r llywodraeth nesaf mewn pwysigrwydd ac awdurdod ydyw pwyllgor y gweinidogion. Dosberthir Rwssia yn Ewrop i ddeg a deugain o daleithiau; a thros bob un o honynt pennodir llywodraethwr gan yr ymherawdwr, yr hwn yw pen gweinyddwr y cyfreithiau yn y dalaeth. Y mae rhai taleithiau yn cael eu rheoli gan lywodraethwyr, ond yn cael eu huno ynghyd o dan lywodraethwyr cyffredinol. Y mae y trefniad hwn yn angenrheidiol, o herwydd fod yr ymherodraeth mor eang ei therfynau. Yn y blynyddoedd diweddaf y mae diwygiadau pwysig wedi eu dwyn i mewn yn caniatau mwy o ryddid gyda golwg ar hunan-lywodraethiad yn y trefydd, yn gystal ag yn y dosbarthiadau gwledig; ac y mae diwygiadau cyfreithiol tra phwysig hefyd wedi eu dwyn oddi amgylch.

Y dosbarth a elwir 'y pendefigion' sydd uchaf yn y wladwriaeth mewn safle gymdeithasol; ac y maent hwy yn mwynhau y gyfran fwyaf o freintiau pennodol, megys rhyddhâd oddi wrth orfodaeth i wasanaethu yn y fyddin; ac arbedir hwynt rhag talu rhai trethi neillduol. Ffurfiant yn mhob talaeth gyfundeb gwahaniaethol, yn cael eu blaenori gan flaenor o'u dewisiad hwy eu hunain. Y mae swyddogion gwladol, clerigwyr, a rhai celfyddydwyr cywrain, yn meddu o'r bron gymmaint o freintiau a'r pendefigion. Y dosbarth nesaf yw y marsiandwyr. Y bwrdeisiaid a'r gwladwyr sydd yn gwneyd i fyny y dosbarth isaf. Y mae pob dosbarth i ryw raddau yn mwynhau yr hawl o weinyddu eu hachosion eu hunain. Trefna pob un eu trethi eu hunain, a dewisant rai o'u swyddogion eu hunain. Pan y cyhoeddwyd y rhyddhâd yn 1861, daeth yn agos i 20,000,000 o wladwyr, neu o gaethweision amaethyddol *(serfs)* yn rhydd. Cyn y flwyddyn hono, gan eu bod yn cael eu llywodraethu yn benaf gan eu perchenogion, nid oeddynt yn mwynhau ond ychydig iawn o hawliau gwladol.

Tua diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg y ffurfiwyd byddin sefydlog yn Rwssia gan yr ymherawdwr Pedr Fawr. Cyn hyny, y drefn oedd codi milwyr yn awr ac eilwaith, fel y byddai yr angen am danynt; er fod rhyw ychydig yn cael eu cadw yn filwyr gwastadol er yn dra boreu. Cedwir i fyny nerth y fyddin yn bresennol trwy restriad o dan orchymyn ymherodrol; a chymmerir y milwyr hyn o blith y gwladwyr, neu y bwrdeisiaid. Amrywia y gorchymyn am filwyr o ddau hyd i ddeuddeg yn y fil o'r boblogaeth; ac y mae y sawl a elwir i'r gwasanaeth hwn yn cael eu tynu trwy goelbren, neu trwy hawl a arferir ar y teuluoedd hyny lle y mae y meibion liosocaf. Yn ol cyfraith Rwssia, oedran y rhai a gymmerir i'r fyddin ydyw o un mlwydd ar hugain hyd ddeg ar hugain; y taldra safonol ydyw pum troedfedd ac un fodfedd; a thymmor y gwasanaeth ydyw pymtheng mlynedd. Cynnwysa y fyddin reolaidd yn gyffredin yn awr tua 900,000, rhwng swyddogion a milwyr cyffredin, heb law rhai cannoedd o filoedd ereill sydd yn rhwym o droi allan pan elwir arnynt i wasanaethu yn y fyddin, yn lle talu trethi. Mewn canlyniad i orchymyn ymherodrol a gyhoeddwyd yn 1864, diddymwyd amryw bethau a berthynent i'r hen drefniant milwraidd, a mabwysiadwyd trefn debyg i'r eiddo Ffraingc: rhanwyd yr ymherodraeth i ddeg o ddosbarthiadau milwrol. Yn amser Pedr Fawr y dechreuodd Rwssia adeiladu llynges, yr hon sydd erbyn hyn yn rhifo dros 700 o lestri, yn cario dros 20,000 o fagnelau, ac yn cael ei gweithio gan o ddeutu 64,000 o wŷr; a'r un trefniadau sydd i gael dynion i'r llynges ag sydd i'r fyddin.

Caniateir goddefiad i bob crefydd yn Rwssia ar nad ydyw yn myned ar draws trefn dda, neu foesoldeb cyhoeddus; ac erbyn hyn nid ydyw peidio proffesu crefydd mewn cyssylltiad âg Eglwys Groeg, yr hon a ystyrir yn uniongred yno, yn anghymmhwyso dyn i lawn fwynhâd o bob breintiau gwladol. Nid yw y gyfraith yn caniatau i'r rhai sydd eisoes yn proffesu y grefydd sefydledig i gilio oddi wrthi; ac os, mewn teulu, y bydd y tad neu y fam yn aelod o Eglwys Rwssia, rhaid dwyn yr holl blant i fyny yn nghyfundeb yr eglwys hono. Yr ymherawdwr ydyw pen yr eglwys, achosion yr hon a weinyddir ganddo trwy gyfrwng synod, yn cael ei gwneyd i fyny o'r prif esgobion, y rhai a elwir ynghyd i gyfarfodydd pennodol. Gwel Rwssia, Eglwys. Fel y canlyn yr oedd y cyfrif crefyddol o sefyllfa Rwssia yn 1858. Yr oedd yn Rwssia, heb gymmeryd i mewn Finland a Pholand, 53,763,471 o rai yn proffesu y ffydd Roegaidd uniongred; o Sismaticiaid, 853,282; Groegiaid Armeniaidd, 33,937; Pabyddion Rwssiaidd ac Armeniaidd, 2,818,914; Protestaniaid, 1,959,334; Iuddewon, 1,447,479; Mahometiaid, 5,316,455; ac eilunaddolwyr, 478,343.

Gwlad ydyw Rwssia lle y teimlir yn ddirfawr oddi wrth ddiffyg ffyrdd da, lle y mae pellderau mor fawr, a'r boblogaeth mor deneu. Y mae cadw y ffyrdd sydd yno mewn sefyllfa dda yn waith anhawdd iawn, a hyny am ddau reswm; yn gyntaf, o herwydd yr anhawsder i gasglu yn nghyd nifer digonol o weithwyr lle y mae mor lleied o honynt, a'r rhai hyny mor wasgaredig; a'r llall ydyw toddiad yr eira a gorlifiad yr afonydd yn y gwanwyn. Y mae y ddaear wedi ei gorchuddio yn drwchus âg eira am o bedwar i bum mis o'r flwyddyn; yr hwn, fel y mae yn caledu wrth rewi, sydd yn gwneyd y wlad yn anfanteisiol i deithio drosti. Ar ddychweliad y tywydd teg, pa fodd bynag, y mae yr eira yn toddi, yn cael ei sugno i'r ddaear, ac yn meddalu y tir, yr hwn hefyd a orlifir gan yr afonydd. Wedi gorlifiad y ffyrdd yn y modd hwn, y mae o'r bron yn ammhossibl eu teithio hyd nes y bydd y ddaear wedi sychu eilwaith. Tua'r Hydref y mae y gwlawogydd arferol yn disgyn, ac y mae y ddaear yn cael ei mwydo drachefn; felly, y mae yr adeg yn mha un y gellir teithio yn rhwydd yn ystod yr haf yn fyr iawn. Y mae dros bum mil o filldiroedd o ffyrdd haiarn, modd bynag, yn cael eu gweithio yn awr yn ymherodraeth Rwssia. Yn gymmaint a bod y ffyrdd mor ddrwg, a bod lliosogrwydd o afonydd

Digitized by Google

yn rhedeg drwy y wlad, y mae llawer o eiddo masnachol yn cael ei ddwyn gyda'r afonydd. Cludir llawer hefyd gyda'r camlesydd, y rhai ydynt dra lliosog trwy y wlad.

Y mae poblogaeth ymherodraeth Rwssia yn hynod o wasgaredig dros ei gwyneb eang. Yn ol y cofrifiad a gymmerwyd yn 1858, yr oedd yr holl boblogaeth yn rhifo 73,920,000; ac os ydyw nifer y boblogaeth wedi cynnyddu yn gyffelyb i fel y gwnaeth yn y deuddeng mlynedd a fu rhwng cofrifiad 1846 ag un 1858, y mae y boblogaeth yn bresennol dros 80,000,000 o eneidiau. Y mae y mwyafrif mawr o boblogaeth Rwssia yn dilyn gorchwylion amaethyddol, ac yn preswylio mewn pentrefydd, sydd yn dra gwasgaredig ac anghysbell dros gyfran fawr o'r ymherodraeth. Yn ol cofrifiad a wnaed yn 1863, yr oedd pymtheg o drefydd yn Rwssia yn cynnwys dros hanner can mil bob un o drigolion; sef, St. Petersburg, Moscow, Warsaw, Odessa, Kichineff, neu Bessarabia, Riga, Vilna, Kieff, Nicolaieff, Kasan, Saratoff, Tiflis, Tula, Berditcheff, a Kharkoff. Y mae nifer liosog o'r boblogaeth weithiol a masnachol a drigant yn y dinasoedd mwyaf o'r rhai hyn naill ai wedi dyfod eu hunain o wledydd ereill, neu ynte y maent o ddisgyniad estronol. Y mae mwy na chant o lwythau, yn siarad cynnifer a hyny o ieithoedd neu o dafod-ieithoedd gwahanol, o fewn cylch yr ymherodraeth Rwssiaidd; ond y mae y llwythau gwahaniaethol hyn yn mron i gyd yn trigo yn agos i gyffiniau y wlad, gan y preswylir rhanau mewnol y wlad gan y Rwssiaid priodol, y rhai a rifant o 50,000,000 i 55,000,000—tra nad ydyw yr holl lwythau ereill ynghyd ond o 24,000,000 i 26,000,000. Fel y crybwyllwyd, y mae y tramorwyr sydd wedi eu denu gan y llywodraeth i ymsefydlu yn y wlad y naill dro ar ol y llall yn ddosbarth lliosog o'r boblogaeth. Diammheu fod y darnau helaeth o wlad sydd yn cynnwys tir rhagorol, ond anniwylliedig, a'r boblogaeth deneu oedd yn mhob rhan o honi, wedi awgrymu yn gynnar i'r llywodraeth y dymunoldeb o ddwyn y tiroedd diffaeth o dan ddiwylliant trwy wahodd trefedigion o wledydd ereill i ymsefydlu ynddynt.

O herwydd ei eangder mawr, y mae yn yr ymherodraeth Rwssiaidd amrywiaeth o hinsoddau. Yn Archangel, ardymmer canolig y flwyddyn ydyw 32°; yn Yalta, yn y Crimea, 52°; ac yn Kutais, yn y Caucasus, 58°. Yn gymmaint a bod y wlad yn cynnwys y fath arwynebedd dirfawr o dir sych, y mae hinsawdd yr ymherodraeth o angenrheidrwydd yn un cyfandirol; ac y mae hinsawdd eu rhanau mewnol yn llawer gerwinach na hinsawdd lleoedd yn yr un lledredau ar ororau gorllewinol Ewrop. Mae ardymmer canolig Edinburgh a Christiania yn uwch na'r eiddo Moscow a Kasan. Y mae gerwinder yr hinsawdd yn cynnyddu nid yn unig gyda'r lledred, ond hefyd fel yr eir yn mlaen tua'r dwyrain. Cynnydda sychder yr awyrgylch yn y cyfeiriad o'r gogledd-orllewin i'r deddwyrain. Ar lenydd y Baltic, ar gyfartaledd, disgyna gwlaw neu eira am gant a hanner o ddyddiau yn y flwyddyn, ac y mae y swm a ddisgyn tuag ugain modfedd. Nid yw nifer y dyddiau hyny yn agos i'r Môr Caspiaidd ond deg a thrigain, a'r gwlaw a ddisgyna yw pedair modfedd. Yn gyffredinol, y mae hinsawdd Rwssia yn dra iachusol; ond y mae rhai ardaloedd fel pe baent yn achlesu afiechyd, megys glenydd y Môr Rhewllyd, lle y mae y clefri poeth *(scurvy)* yn gyffredin; y siglenydd ar ochrau y Niemen a'r Vistula, lle y mae afiechyd neillduol yn ffynu yn mron yn wastad; a'r tiroedd corsog ar ororau y Môr Du, ac Azoff, a'r Caspiaidd, lle y mae y cryd yn feunyddiol yn poeni y trigolion.

Yn gymmaint a bod yr ymherodraeth Rwssiaidd yn cynnwys taleithiau a wahaniaethant yn ddirfawr yn eu hadnoddau naturiol a masnachol, y mae ynddi faes helaeth i fasnach o'i mewn ei hun; ac y mae helaethrwydd ei chynnyrchion yn ei chynnorthwyo i wneuthur masnach eang â gwledydd ereill hefyd. Am y fasnach flaenaf, yr hon yn ddiau ydyw y bwysicaf, nis gellir cael amcangyfrif am ei helaethrwydd na'i gwerth, o herwydd nad oes gwybodaeth ystadegol i'w chael yn ei chylch. Moscow yw canolbwynt taleithiau mwyaf masnachol a chynnyrchiol yr ymherodraeth, a'r gronfa fawr o ba le y ceir nwyddau i gyflenwi masnachwyr rhanau mewnol y wlad, neu brif eisteddle masnach gartrefol. Y trefydd mawrion masnachol ereill ydynt yn benaf y rhai sydd ar lanau yr afonydd mawrion. Cynnwysir y fasnach dramor yn benaf mewn anfon allan ddefnyddiau heb eu gweithio *(raw materials)*, a dwyn iddi nwyddau llaw-weithfaol. Y mae y fasnach dramor gyda'r môr bum waith mwy na chyda'r tir. Dygir yn mlaen un rhan o dair o'r holl fasnach dramor yn St. Petersburg, un rhan o naw yn Odessa, ac un rhan o bymtheg yn Riga. Y mae masnach dramor Rwssia wedi ymeangu yn ddirfawr yn ystod y pymtheng mlynedd diweddaf.

Gwlad amaethyddol ydyw Rwssia, er nad oes ond rhan fechan, mewn cymmhariaeth, o honi o dan ddiwylliant; sef, o 272,000,000 i 280,000,000 o erwau. Yn y dosbarth canol, a enwyd uchod, y mae y tir yn briddyn du hollol yn mron, ac yn ffrwythlawn; ac nid oes arno un amser angen gwrtaith. Y drefn o drin y tir a ddefnyddir fynychaf yno ydyw yr hwn a elwir "trefn y tri maes," yn ngweithiad allan yr hwn y mae un rhan o dair o'r tir yn wastad yn gorwedd yn fraenar. Yn y deheu, ac yn y de-ddwyrain, arferir dull o drin y ddaear sydd yn briodol i Rwssia ei hun. Yr enw a roddir ar y dull hwn ydyw "trefn y braenar;" ac y mae yn cynnwys cyfodi tri neu bedwar o gnydau o'r un peth o'r un tir yn olynol, ac wedi hyny gadael iddo orwedd yn fraenar am bump neu chwe blynedd; ar ol hyny, y mae yn dechreu cynnyrchu plufwellt, yr hwn a ystyrir yn arwydd o adnewyddiad ffrwythlondeb. Y mae amaethyddiaeth yn gyffredinol, modd bynag, wedi myned o dan lawer o gyfnewidiad yn Rwssia er adeg rhyddhâd y caethweision *(serfs)*, i ba rai y mae rhan fawr o'r wlad wedi ei drosglwyddo yn eiddo rhydd-ddaliadol. Y mae y tirfeddiannwyr, wedi eu difuddio o'u hawl flaenorol i lafur y caethweision hyn, yn cael allan mai gwell iddynt yw amaethu llai o dir, a gosod darnau o hono ar brydles i'r gwladwyr; a gwnant hyny yn fynych am hanner y cnwd a gynnyrchir—yr hwn a roddir iddynt yn lle ardreth. Yr hyn a duedda i gadw amaethyddiaeth i lawr yn Rwssia ydyw diffyg moddion priodol trosglwyddiad o'r naill le i'r llall: dyna yw yr achos fod pris yr ŷd mor isel yn yr ardaloedd lle y codir ef. Anfynych y gwrteithir tir porfa, gan fod cyflawnder o hono i'w gael yn y dolydd helaeth, a hwnw yn tyfu yn naturiol. Y prif rawn a godir yno ydyw gwenith, yr hwn a dyf mor bell i'r gogledd a lledred 62°, a rhyg, haidd, a cheirch. Tyfir gwenith, ynghyd â milet, yn y deheu; a dyma, ac

Digitized by Google

yn enwedig rhyg, brif ddefnyddiau ymborth y trigolion. Diwyllir cywarch a llin yn helaeth; ac y mae yr olew a wesgir allan o hadau y blaenaf yn cael ei ystyried yn hanfodol angenrheidiol yn nhŷ y gwladwr, gan y defnyddir ef yn ymborth ar adeg yr ymprydiau, y rhai a ddigwyddant yn Rwssia yn fynych iawn. Ar ol newyn 1839, gwnaeth y llywodraeth ei goreu i gefnogi y bobl i amaethu cloron. Gorchuddir tua 480,000,000 o erwau o dir â choedwigoedd; ond er hyny, y mae y coed rywfodd yn lleihau. A choed yr adeilada y gwladwr Rwssiaidd ei fwthyn, y cynnhesa ei ystafell, y goleua ei dy, ac y gwna y llestri a ddefnyddir ganddo at ei wasanaeth teuluaidd; â'r un defnydd hefyd y gwna efe ei gerti a'i offer amaethyddol, &c.; a gwisga hefyd esgidiau o goed, a gwna orchudd ei lawr o rusgl coed. Y mae coed yn un o brif nwyddau trafnidiaeth yn rhanau mewnol y wlad, a nofir hwynt i lawr yr afonydd o'r parthau sydd yn eu cynnyrchu yn dda i'r lleoedd sydd yn amddifad o honynt.

Cedwir anifeiliaid yn y taleithiau gogleddol a chanolbarthol yn benaf er mwyn cael gwrtaith; ond mewn ardaloedd ereill, y mae magu anifeiliaid yn rhan bwysig o waith y bobl. Y mae ar gyfartaledd yn Rwssia tua 30,000,000 o wartheg. Megir y ceffylau yn y rhanau deheuol. Y mae ceffylau Viatka, Kazan, a Finland yn gryfion a chelyd. Rhifa yr holl geffylau sydd yn Rwssia yn rhywle o 18,000,000 i 19,000,000; ac y mae ynddi tua 10,000,000 neu 11,000,000 o ddefaid, o bob math. Heb law yr anifeiliaid hyn, y mae yn neheubarth y wlad gamelod, yn y gogleddbarth geirw, a moch ac adar dofion mewn cyflawnder yn mhob rhan o honi. Yn mhlith yr anifeiliaid gwylltion, y rhai sydd i'w cael gan mwyaf yn y gogleddbarth, y mae yr arth, y blaidd, yr elch *(elk)*, a'r llwynog, &c. Y pysgodfeydd mwyaf cynnyrchiol ydynt rhai y Môr Du a'r Môr Caspiaidd, a Môr Azoff, a'u cymmydogaethau. Nid ydyw Môr y Baltic yn nodedig o gyfoethog mewn pysgod; ond y mae cynnyrch y llynau cyssylltiol âg ef yn fawr iawn. Cynnyrch yr holl bysgodfeydd mewn gwerth blynyddol sydd tua 2,000,000*p*. Diwyllir gwenyn yn bur gyffredinol drwy y wlad; ac hefyd diwyllir y pryf sidan yn helaeth, ond gwneir hyny yn benaf yn y Caucasus.

Y mae poblogaeth ymherodraeth Rwssia yn cael ei gwneyd i fyny o amrywiol genhedloedd, ond y liosocaf ydyw yr un Sclafonaidd. Ymsefydlodd y Sclafoniaid dwyreiniol, hynafiaid y Rwssiaid, yn agos i darddellau yr afonydd Volkhof, y Bug, y Dniester, y Dnieper, a'r Don; ac yr oeddynt yn gynnwysedig o amryw lwythau, prif drefydd pa rai oeddynt Novgorod a Kief. Yn gymmaint a'u bod yn cael eu haflonyddu yn fawr gan eu cymmydogion rhyfelgar, ac yn gwanychu o herwydd ymrysonau mewnol, anfonodd Sclafoniaid Novgorod, a'r llwythau Finiaidd cymmydogaethol, yn B. A. 862, genhadau at y Varangiaid (Normaniaid) o'r tu hwnt i'r môr, yn gwahodd eu penaethiaid hwynt i ddyfod i deyrnasu arnynt. Yn ol yr hen groniclwyr, derbyniodd tri brawd y gwahoddiad, sef Rurik, Sineous, a Truvor; ac yn flaenoriaid ar fintai o ddilynwyr arfog, cymmerasant feddiant o diriogaeth Novgorod. Cymmerwyd Kief gan Oleg, rhaglaw i Igor mab Rurik, a gwnaeth hi yn brif ddinas yr ymherodraeth ddyfodol, a darostyngodd y llwythau cylchynol. Ymddengys na wnaeth Igor ddim neillduol yn ei oes; ond yr oedd ei weddw a'i olynydd, Olga, yn llywodraethu yn ddoeth a galluog. Bedyddiwyd hi i'r ffydd Gristionogol yn B. A. 955, gan batriarch Caer Cystenyn; ond ymneillduodd o'r orsedd yn fuan wedi hyny yn ffafr ei mab, Sviatoslaf—brenin rhyfelgar, a phagan, yr hwn a lofruddiwyd yn fradwrus gan lwyth cyfagos yr oedd mewn rhyfel â hwynt. Ar ei farwolaeth ef, rhanwyd y dywysogaeth rhwng ei dri mab, a dechreuodd ymrysonau rhyngddynt, hyd nes y llwyddodd Vladimir, y mab ieuangaf (980—1015), i gael bod yr unig lywodraethwr. Fel hyn yr ymgymmysgodd y Normaniaid â'r Sclafoniaid. Ystyrir teyrnasiad Vladimir yn un arwraidd mewn hanesiaeth Rwssiaidd, ac yn ffurfio cyfnod disglaerwych, yr hwn sydd wedi ei ddathlu mewn chwedl a chân. Ymestynodd ei ryfeloedd llwyddiannus y tu hwnt i Rwssia hyd Lyn Ilmen, ar du y gogledd; hyd eneuau yr Oka a'r Khoper, ar du y dwyrain; hyd ddisgyniadau y Dnieper, ar du y deheu; ac hyd wreiddiau y Vistula, ar du y gorllewin. Dychwelwyd ef at y grefydd Gristionogol yn 988, a bedyddiwyd ef a'i ddilynwyr i'r ffydd hono; ac yn fuan dilynwyd yr esampl hon gan yr holl genedl, ac appwyntiwyd esgob yn Kief. Dilynodd y Vladimir esampl ei dad trwy ranu ei diriogaethau; ac ar ol ei farwolaeth, torodd rhyfel allan rhwng ei bedwar mab, yn yr hwn y bu Yaroslaf, tywysog Novgorod, o'r diwedd (1036) yn llwyddiannus. Gwnaeth y tywysog hwn lawer tuag at wareiddio ei ddeiliaid trwy adeiladu trefydd, a sefydlu ysgolion, ac yn enwedig trwy orchymyn casglu ynghyd gyfres o gyfreithiau Rwssiaidd. Ar ei farwolaeth ef, yn 1054, rhanwyd ei diriogaethau rhwng ei feibion. Ac yn ei dro, darfu i bob un o'r mân dywysogion hyn ranu ei diriogaeth yn mysg ei feibion yntau, nes yr aeth yr hon a fu unwaith yn deyrnas unedig yn gasgliad o fân daleithiau, y rhai oedd yn cweryla yn feunyddiol â'u gilydd.

Parhaodd y sefyllfa hon o annhrefn, i raddau mwy neu lai, o ddyddiau Jaroslaf, yn 1054, hyd 1478. Yn ol yr awdurdodau Rwssiaidd, y rhai canlynol ydyw y dosbarthiadau i ba rai y rhanwyd y wlad yn yr adeg yma: y Sousdal, ar lenydd y Volga, o'r hon y tarddodd y taleithiau Tver, Rostof, a'r Vladimir; y Tchernigof a'r Seversk, neu amgylchoedd yr afon Desna, yn ymestyn at darddiad yr Oka; Riazan a Murom, ar hyd glenydd yr Oka a tharddellau y Don; Polotsk, yn cynnwys y wlad lle y rhed y Dwina orllewinol a'r Dnieper drwyddi; Volhynia a Gallicia, drwy y flaenaf o ba rai y rhed y Pripet, a gorwedda yr ail ar lechwedd gogledd-ddwyreiniol y Mynyddoedd Carpathaidd, y rhai a unwyd â'u gilydd yn 1198; Novgorod, yr hon oedd y fwyaf o honynt oll o lawer, yn cynnwys yr ardaloedd eang ar ba rai y terfyna Llynclyn Finland, y Llyn Peipus, rhan uchaf y Volga, y Môr Gwyn, a'r Dwina ogleddol; ac ucheldduciaeth Kief, yr hon, o fod yn flaenorol yn eisteddle y gallu canolbarthol, a ddaeth i ymarfer rhyw fath o awdurdod ar y gweddill. Yr oedd Novgorod, modd bynag, o herwydd ei maint a'i phellder, yn gystal ag mewn canlyniad i freintiau neillduol a ganiatawyd iddi gan Jaroslaf, o'r bron yn annibynol ar yr ucheldduciaeth. Dewisai pobl Novgorod eu duciaid, eu harchesgobion, a'u holl urddasolion yn gyffredin; a rhoddasant brawf o ragoriaeth eu trefn o weinyddu eu hachosion eu hunain, trwy gynnyddu mewn gallu a chyfoeth flwyddyn ar ol blwyddyn. Sefydlwyd un o brif

Digitized by Google

law-weithfaoedd y Cynghrair Hanseataidd yn Novgorod yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mewn gwirionedd, y fath oedd ei henwogrwydd trwy holl Rwssia fel yr aeth yn ddiareb yn y wlad—"Pwy a all wrthwynebu Duw a Novgorod alluog." Yr oedd gan dywysogion y taleithiau hyn ryw fath o fyddinoedd sefydlog, ac yr oeddynt yn feunyddiol yn ymryson â'u gilydd; ond yr oedd llai o orthrwm ar y bobl nag y gallesid disgwyl o dan y fath amgylchiadau, o herwydd fod 'cynghor cyffredin' yn mhob talaeth, yr hwn a arferai ddylanwad iachusol mewn achosion gwladwriaethol, ac heb yr hwn yr oedd y tywysog o'r bron yn ddiallu. Cyfnod oedd hwn hefyd yn mha un yr oedd y gwahanol genhedloedd Sclafonaidd yn ymgymmysgu â'u gilydd yn un genedl, sef y genedl Rwssiaidd bresennol. Y penaf o ucheldduciaid Kief, yn ddiammheuol, oedd Vladimir, a gyfenwid 'Monomachus' (1113—1125), yr hwn y mae y croniclwyr yn mron yn ddieithriad, ac yn ddiflino yn parhau i'w ganmawl a'i foliannu fel cynllun o dywysog, a'r hon y cydnabyddid ei awdurdod hyd yn oed yn mysg tywysogion taleithiau ereill. Yn 1163, cymmerodd llywodraethwr talaeth Vladimir feddiant o Kief, a chyhoeddodd ei hun yn uchelddue.

Yn 1222, ysgubodd y Mongoliaid dros y wlad y tu gorllewin i gartrefle y Polotziaid—llwyth crwydredig a ymwibient ar hyd y gwastaddiroedd diffaeth rhwng y Môr Du a'r Don, â dymuniadau taerion pa rai am gymmhorth y cydsyniodd y tywysogion Rwssiaidd yn ddioed. Ond mewn brwydr fawr, a ymladdwyd yn 1223, ar lenydd y Kalka, llwyr orchfygwyd y Rwssiaid. Ni ddarfu i'r Mongoliaid, mwy nag arferol, ddilyn yn mlaen eu buddugoliaeth; ond yn mhen deuddeng mlynedd wedi hyny, daeth Batû Khan, yn blaenori hanner miliwn o'r Kiptchak a'r Mongoliaid, a gorchfygodd ddwyreinbarth Rwssia, gan ddistrywio Riazan, Moscow, a Vladimir, a threfydd ereill. Costiodd y gwrthwynebiad arwraidd a wnaed iddynt gan y tywysog George o Vladimir ar lenydd y Siti iddo ef a'i holl fyddin eu bywydau. Daeth ymdaith fuddugoliaethus y goresgynydd Mongolaidd i ben, pa fodd bynag, pan y cyrhaeddodd goedwigoedd mawrion a siglenydd peryglus deheubarth Novgorod, a gorfodid ef i ddychwelyd yn ol tua'r Volga. Yn 1240, efe a anrheithiodd y de-ddwyrain, a distrywiodd Tchernigof, Galich, a Kief; ysbeiliodd Poland a Hungary, a gorchfygodd y Pwyliaid yn Wahlstatt, a'r Hungariaid yn Saïo. Ond taflwyd rhwystr ar ei ffordd yntau yn Moravia—derbyniodd ar yr un pryd hysbysrwydd o farwolaeth y *khagan*, ac ymneillduodd i Sarai, dinas ar lan yr afon Akhtuba. Yma y daeth y tywysogion i dalu eu gwarogaeth i'r Khan, ac i gymmeryd rhan yn y seremoniau darostyngol y gorfodai y gorchfygwr hwynt i fyned drwyddynt.

Gosodai y Khan y gwaith o gasglu y trethi i'r rhai a dalai uchaf am yr hawl i'w casglu; ac yn gyffredin masnachwyr dwyreiniol oedd y casglwyr hyn. Ond mewn amseroedd diweddarach, sef yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, pan yr oedd y Mongoliaid yn gwarchau ac yn colli eu gafael i raddau ar y wlad, yr oedd y trethi yn cael eu casglu gan y tywysogion Rwssiaidd, ac yn cael eu danfon i Sarai. Dylanwad niweidiol, yn ddiammheuol, mewn ystyr gwleidyddol, cymdeithasol, a moesol a gafodd goresgyniad y Mongoliaid ar Rwssia. O'r braidd na bu hyn yn achos o lwyr ddinystriad yr elfenau o hunanlywodraethiad oedd yn flaenorol wedi eu dadblygu yno i raddau helaeth. Attaliodd gynnydd y wladwriaeth mewn masnach, llenyddiaeth, ac elfenau ereill gwareiddiad, a thaflodd yr holl wlad yn ol i wledydd ereill Ewrop fwy na dau can mlynedd. Yn wir, nid ymuniawnodd taleithiau Kief a Tchernigof byth ar ol y ddyrnod drom hon, a symmudwyd y brif esgobaeth i Vladimir. Rhwyddhaodd eu dadfeiliad hwy, pa fodd bynag, y ffordd i gyfodiad Galich i uchafiaeth yn Rwssia Orllewinol; ac o dan reolaeth rhestr o dywysogion doeth, cadwodd fwy o annibyniaeth nag un o'r tywysogaethau Rwssiaidd, hyd, yn y rhan olaf o'r drydedd ganrif ar ddeg, y cymmerwyd meddiant o honi gan Kasimir III. o Poland; ac ynghylch yr un pryd hefyd unwyd Volhynia âg uchdduciaeth Lithuania. Yr hyn a fu yn ffafriol iawn i ddyrchafiad y dalaeth ddiweddaf oedd, yr iselder i ba un y darostyngwyd y tywysogion Rwssiaidd gan oresgyniad y Mongoliaid. Bu am amryw ganrifoedd mewn sefyllfa flodeuog; ac yn ystod yr amser hwnw ymhelaethodd mewn awdurdod a gallu, fel ag i gynnwys Livonia briodol, a'r taleithiau Rwssiaidd canlynol:—Volhynia, Podolia, Rwssia Wen, a'r Ukraine: ond unwyd hi â Pholand yn 1569.

Ar du y gogledd i Lithuania, yn nechreu y drydedd ganrif ar ddeg, cododd gallu arall, a elwid y 'Cleddyfwyr Livoniaidd,' y rhai a gymmerasant feddiant o Livonia, Courland, ac Esthonia, yn gystal a rhai parthau o Novgorod a Pskov. Aeth y teitl o 'uchelddue' ar ol y goresgyniad Mongolaidd o Kief i Novgorod, ac wedi hyny i Vladimir, lle y bu yr enwog Alexander Nevsky yn teyrnasu o 1252 hyd 1263. Yr oedd Rwssia, yn nechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn gynnwysedig o dywysogaethau Sousdal, Nijni-Novgorod, Tver, Riazan, a Moscow; a bu ymrysonau maith a gwaedlyd rhwng y ddwy dywysogaeth alluocaf o honynt, sef Tver a Moscow, am yr uchafiaeth. O'r diwedd, o dan arweiniad Ivan Kalita, yr hwn a deyrnasodd o 1328 hyd 1340, sylfaenwyd yn y wlad y drefn lywodraethol a gweinyddiadol a ddygwyd yn mlaen ynddi hyd amser Pedr Fawr, a chyhoeddwyd Moscow yn brif uchelddueiaeth. Yr oedd amryw bethau yn peri hyn; ond fe allai mai y prif achosion ydoedd sefyllfa genedlaethol Moscow, ffafr y Khan Mongolaidd, cydymdeimlad yr eglwys (canys yr oedd ei phen esgob wedi symmud yno o Vladimir yn 1325), a gwendid y rhan lioseaf o'r tywysogion ereill. Cerddodd Simeon y balch, ei fab a'i olynydd, yn llwybrau ei dad Ivan; ac felly hefyd y darfu y rhaglawiaeth oedd yn gweinyddu achosion y wladwriaeth yn ystod teyrnasiad Ivan II., a thra yr oedd ei fab Dmitri o dan oed. Gorchfygodd Dmitri Nijni-Novgorod, a dygodd ryfel lwyddiannus yn mlaen yn erbyn Tver a Riazan, a chymmerodd fantais ar wendid llywodraeth y Mongoliaid i wneyd y cais cyntaf tuag at daflu ymaith iau orthrymus y Mongoliaid, o dan yr hon y bu y Rwssiaid yn griddfan am gynnifer o flynyddoedd. Ei fuddugoliaeth ysblenydd ar Khan Mamai, ar lenydd y Don, yn 1380, mewn canlyniad i'r hon y cafodd ei alw yn Donskoi, oedd y cam cyntaf i ryddid; ond darfu i'r Khan dilynol, mewn dialedd, losgi Moscow, cyfodi trethi trymach nag erioed oddi ar y bobl, a gwneyd eu cadwynau yn dynach nag o'r blaen. Cafodd Vasali I. feddiant o dywysogaeth Nijni-Novgorod gyda chydsyniad y

Digitized by Google

Khan, a gorchfygodd Rostof a Murom. Yn ystod ei deyrnasiad goresgynwyd Rwssia ddwywaith gan y Tartariaid—yn gyntaf o dan Timur, a thrachefn o dan Edijei; ac ar yr un pryd ymosodwyd arni gan y Livoniaid. Teyrnasodd Vasali II., 'y dall,' mewn cyfnod a nodweddid gan ryfeloedd cartrefol yn mysg yr amrywiol dywysogion am orsedd yr uchelddue; ond o'r pryd hwnw peidiodd yr ymraniadau mewnol, ac adunodd y genedl mewn trefn i fwrw ymaith iau y Tartariaid. Cyrhaeddwyd yr amcan hwn gan Ivan III., yr hwn a gyfenwid 'y Mawr,' yr hwn a deyrnasodd o 1462 hyd 1505, ac a gymmerodd fantais ar bob cyfle i ddiddymu y mân dywysogaethau hyny oedd yn talu gwarogaeth iddo ef fel uchel ddue; a dygodd bethau oddi amgylch fel y darfu i rai yn wirioneddol roddi eu hawliau i fyny, a gadawodd ereill eu tiroedd iddo; tra y bu raid darostwng ereill drachefn, megys y tywysog Tver, trwy rym arfau. Y gwaith caletaf o'r cwbl, fodd bynag, oedd darostwng Novgorod; ond cariodd Ivan ei gynlluniau mor effeithiol fel y cafodd yr olaf hon o'r taleithiau mawrion ei chwanegu at yr ymherodraeth. Yna cymmerodd fantais ar yr ymrysonau oedd rhwng y Khan Achmet a Mengli-Gherai, i ryddhau Rwssia o sefyllfa o warogaeth trwy ymuno â'r olaf; a darfu i'w galluoedd unedig ddinystrio gallu y blaenaf yn 1480. Yr oedd teyrnas Astrakhan, yr hon a ymgododd ar ei hadfeilion, yn hollol anghymmhwys bellach i sefyll yn erbyn y benaduriaeth gref. Yna cyfeiriodd Ivan ei sylw at y taleithiau gorllewinol, a berthynent gynt i ddisgynyddion Vladimir, ond oeddynt ar y pryd yn eiddo i'r Lithuaniaid, o dan ba rai yr oedd yr ymlynwyr wrth Eglwys Groeg yn cael eu herlid yn dost gan y Pabyddion; ac o ganlyniad, croesawent ddyfodiad byddin Ivan fel gwaredigaeth o erledigaeth. Trodd y frwydr a ddilynodd yn ffafriol i'r Rwssiaid, ond ni chynnyrchwyd canlyniadau o bwys. Yn 1472, priododd Ivan nith i Constantine Palæologus, yr ymherawdwr Byzantaidd diweddaf, a dygodd i mewn i'r wlad gelfyddydau gwareiddiad trwy gyfrwng archadeiladwyr, toddwyr, a mwnwyr, &c.; y rhai a ddygwyd ganddo o Italy—ffrwyth llafur pa rai a ganfyddir etto yn y Kremlin, ac yn yr eglwys gadeiriol yn Moscow. Gosododd Ivan amryw drefydd mewn sefyllfa o amddiffyniad, dygodd i mewn i'w lys amryw o arferion costus y llys Byzantaidd, cymmerodd y teitl o 'Czar (penadur) yr holl Rwssiaid,' mabwysiadodd arfbais yr ymherodraeth Roegaidd, a chasglodd ynghyd y corph hwnw o gyfreithiau a elwir y *Soudebnik*. Bu farw Ivan B. A. 1405.

Dilynwyd gwladlywiaeth Ivan yn fanwl gan ei fab Vasali III., yr hwn a deyrnasodd o 1505 hyd 1533. Aeth i ryfel â'r Lithuaniaid, a chymmerodd Smolensk oddi arnynt, ac unodd â'i diriogaethau ei hun y gweddill o'r mân dywysogaethau. Yn y flwyddyn 1533, dechreuodd ei fab Ivan IV. deyrnasu—yr hwn a adwaenid ar ol hyny wrth y cyfenw, 'yr ofnadwy'—pan yn deirblwydd oed, a bu y wlad yn ystod yr amser y bu efe o dan oed yn cael ei rhwygo gan ymrysonau a chyffroadau mewnol, a achosid gan y pleidiau a ymdrechent am awdurdod a gallu. Yn ffodus, modd bynag, pan y daeth i'w gyflawn oedran, yn 1547, cyfarfu Ivan â dau o gynghorwyr doeth, sef Sylvestre ac Adascheff; y rhai, ynghyd â'i wraig, Anastasia Romanoff, a ymarferasant ddylanwad grymus ac iachusol arno. Gweinyddwyd achosion mewnol y wladwriaeth ar gynllun rhagorach nag o'r blaen, diwygiwyd a gwellhawyd y *Soudebnik*, a gasglwyd gan ei daid, ffurfiwyd byddin sefydlog, y gyntaf o ddim pwys a sefydlwyd yn Rwssia, a chefnogodd y gelfyddyd o argraphu. Yr oedd ei arfau yn mhob man yn fuddugoliaethus: cymmerwyd dinas gadarn Kazan yn 1552, ac unwyd y deyrnas yr oedd yn brifddinas iddi â'r ymherodraeth; a chafodd teyrnas Astrakhan ei darostwng yr un modd yn fuan ar ol hyny. Cadwyd Tartariaid ysbeilgar y Crimea o fewn terfynau pennodol, a gyrwyd yn ol y cleddyfwyr marchogol o Livonia ac Esthonia.

Tua'r pryd hwn, cymmerodd rhyw gyfnewidiad nodedig le yn nghymmeriad Ivan—cyfnewidiad, fel yr ymddengys, oedd mewn mwy nag un ffordd yn dal cyssylltiad â marwolaeth ei wraig, Anastasia. Dechreuodd Ivan fod yn ddrwgdybus o bawb o'i amgylch: credai ei fod wedi ei amgylchynu gan fradychwyr, alltudiodd ei ddau brif gynghorwyr, sef Sylvestre ac Adascheff, ac erlidiodd swyddogion ereill y wladwriaeth—llawer o ba rai a fuont feirw ar y dienyddle, tra y darfu i ereill ddiangc i wledydd tramor. Disgynodd ei greulondeb gorphwyllog ar y trefydd;—lladdwyd miloedd o bobl yn Tver, Novgorod, a Moscow; ac, o'r diwedd, efe a lofruddiodd ei fab hynaf. Yn y cyfamser, cymmerwyd Livonia oddi arno gan Stephen Bathory, brenin Poland, a gwnaeth Tartariaid y Crimea ymgyrch i'r gogledd, a llosgasant Moscow. Yn ystod teyrnasiad y penadur hwn y gorchfygwyd Siberia Orllewinol. Tywysog egwan oedd ei fab, Feodor, yr hwn a deyrnasodd o 1584 hyd 1598, a'r hwn a ymddiriedodd weinyddiad achosion y wladwriaeth i'w frawd-yn-nghyfraith, Boris Godounof. Yr oedd Godounof yn ddyn o alluoedd meddyliol anghyffredin, a phrofodd ei hun yn alluog fel gweinyddwr a llywodraethwr gwladol. Yn ei amser ef cadarnhawyd meddiant y Rwssiaid o Silesia; adeiladwyd llawer o drefydd ac amddiffynfeydd yn y deheu, fel gwrthgloddiau yn erbyn Tartariaid y Crimea; a dadganwyd unwaith yn rhagor fod Eglwys Rwssia i fod yn annibynol ar Eglwys Caer Cystenyn. Feodor ydoedd y diweddaf o dylwyth Rurik a deyrnasodd, gan iddo farw yn ddiblant; a llofruddiwyd ei frawd, Dmitri, yn y flwyddyn 1591; ac yn ol y sibrwd cyffredin, gwnaed hyny ar orchymyn Godounof. Wedi marwolaeth Feodor, fe ymgasglodd cynnrychiolwyr pob dosbarth i'r cynghor a alwyd yn Moscow i ethol penadur newydd, a disgynodd eu dewisiad ar Godounof. Cymmerodd hyn le yn 1598. Rhoddodd marwolaeth ddirgelaidd y tywysog Dmitri achlysur i amryw dwyllwyr ac ymhonwyr ymddangos, y rhai a honent hawl i'w enw a'i radd. Y cyntaf a wnaeth hyn oedd mynach tybiedig o'r enw Gregory Otrepieff, yr hwn a orchfygwyd gan Godounof; ond ar farwolaeth ddisymmwth y diweddaf, coronwyd y blaenaf yn 1605. Torodd gwrthryfel allan yn fuan o dan Vassili Shouisky:—llofruddiwyd y czar, a dyrchafwyd Shouisky i'r orsedd wâg. Ond ar hyn fe ymddangosodd ail Dmitri twyllodrus; a chymmerodd Sigismund o Poland fantais ar y cynnhwrf oedd yn y wlad. Goresgynodd hi, a chyhoeddodd ei fab Vladislaf yn czar: cymmerodd feddiant o Moscow yn 1610, a dygodd gydag ef i Poland y czar, a thaflodd ef i garchar—lle y bu efe farw. Ar yr un pryd, yr oedd minteioedd o Dartariaid, heidiau o Bwyliaid difrodgar, a thyrfaoedd o ysbeilwyr yn anrheithio y taleithiau; a rhwng pob peth, darostyngwyd y

Digitized by Google

wlad i sefyllfa o annhrefn a thrueni dirfawr. Ond addefir yn gyffredin fod y clerigwyr y pryd hwnw wedi sefyll yn gadarn a dewr dros waredigaeth eu gwlad, a darfu i ddinesydd cyffredin yn Nijni-Novgorod, o'r enw Minin, trwy ei areithyddiaeth danllyd, ddylanwadu cymmaint ar feddyliau a theimladau ei gyd-drefwyr fel y darfu iddynt o'u gwirfodd droi allan yn filwyr, a dewiswyd yn arweinydd ganddynt y tywysog Pojarsky, yr hwn oedd yn ddyn o ddewrder anghyffredin. Ad-gymmerodd Pojarsky y brif ddinas, gyrodd y Pwyliaid ymaith o Rwssia, a galwodd ynghyd gydgyfarfyddiad o gynnrychiolwyr, y rhai yn unfrydol a ddewisasant yn ymherawdwr Michael Feodorovitch Romanoff, yn 1613. Y peth cyntaf y talodd Romanoff sylw iddo ydoedd, rhoddi i lawr y gwrthryfel oedd yn mhlith y Cossacciaid, y rhai a osodasent fab y Dmitri twyllodrus yn czar, ac hefyd y gwaith o gospi yr ysbeilwyr a anrheithient y wlad yn ne-orllewin Rwssia. Cwblhaodd gyttundeb â Sweden yn 1617, yn rhinwedd yr hwn y cafodd y gallu hwnw ororau Morgaingc Finland, a chryn swm o arian hefyd, fel iawn i Phylip, brawd brenin Sweden, am roddi i fyny ei hawl i orsedd Rwssia. Yn 1618 a 1634, efe a bwrcasodd heddwch â Pholand am y draul o golli Smolensk a Seversk. Wedi rhyddhau ei hun oddi wrth y perygl o ymyriad gwledydd oddi allan, efe a droes ei sylw at ddygiad yn mlaen weinyddiadau mewnol y llywodraeth, ac yn enwedig at lysoedd cyfiawnder, gweithrediadau pa rai a ddygid yn mlaen mewn modd cywilyddus; ac mewn trefn i gael cynnorthwy i ddwyn oddi amgylch y gwaith angenrheidiol a dymunol hwn, efe a alwodd ynghyd gynghor cynnrychioliadol yn Moscow. Gan fod ei fab a'i olynydd Alexis o dan oed, ymaflodd y pendefigion yn y cyfleusdra i chwanegu eu gallu, ac i arglwyddiaethu a gormesu ar eu hisafiaid, hyd nes y torodd terfysg allan mewn amryw o ardaloedd. Achosion ereill o anfoddogrwydd oedd y trethi trymion a gyfodid, y gorthrwm a ddioddefwyd gan y caethweision *(serfs)*, prinder arian, ac enciliad o Eglwys Groeg y dosbarth hwnw a anghymmeradwyent y cyfnewidiadau a'r diwygiadau a ddygwyd i mewn i lyfrau a ffurfwasanaeth yr eglwys hono gan y patriarch Nikon. Erlidiwyd yr anfoddogion hyn, a hwy a ffoisant—rhai i ogleddbarth Rwssia, ac ereill i'r Ukraine, lle y sylfaenasant amryw drefedigaethau; ac y maent yn byw ar wahân etto, o dan yr enw 'Hen Ddefodwyr.' Darfu i gynghor cyffredinol, a alwyd yn 1649, i ymgynghori ar y moddion goreu i adferu heddwch i'r wlad, ddiwygio y cyfreithiau, a chyfansoddi deddfau newydd, a chaniatau i bob un o'r deiliaid hawl i appelio ar unrhyw fater yn uniongyrchol at y czar. Diddymwyd tollau ar y ffyrdd fawr, a difuddiwyd marsiandwyr Prydeinig, ac ereill, o'r fraint ac o'r manteision a ddeillient oddi wrth fasnach rydd â Rwssia. Y prif ddigwyddiadau mewn gwladlywiaeth dramor yn y cyfnod hwn oedd chwanegu at diriogaethau ymherodraeth Rwssia Fechan trwy ymostyngiad gwirfoddol y Cossackiaid; rhyfel â Pholand mewn canlyniad i hyny, pryd yr ennillodd Rwssia Smolensk, ynghyd â'r rhan fwyaf o Rwssia Wen; a rhyfel â Thwrci, yr hwn a barhaodd hyd ar ol esgyniad Feodor i'r orsedd yn 1676, ac a derfynodd yn 1681, pan y gwnaed cyttundeb Bakhtchisarai, yn ol ammodau yr hwn y rhoddodd Twrci i fyny bob hawl i Rwssia Fechan. Ar ol marwolaeth Feodor, yn 1682, darfu i gynghor cyffredinol y wladwriaeth, yn unol â'i ddymuniad olaf ef, ac â'u hewyllys hwy eu hunain, ddewis Pedr, hanner brawd Feodor, yn czar; ond llwyddodd ei hanner chwaer, Sophia, yr hon oedd ddynes alluog ac uchelgeisiol, i gael gafael yn awenau y llywodraeth fel rhaglaw. [Gwel PEDR FAWR.]

Gwnaeth Sophia heddwch â Pholand yn 1686, a gwnaed rhuthrgyrch aflwyddiannus yn erbyn Tartariaid y Crimea; ac ar ol gwneuthur ymgais ofer i ysbeilio Pedr o'i hawl i'r orsedd, a methu yn hyny, ac yna i'w lofruddio ef a'i fam, gorfodwyd hi mewn canlyniad i roddi i fyny ei hawdurdod, ac i ymneillduo i leiandy. Rhoddwyd i farwolaeth yr holl rai hyny oedd yn ei chynnorthwyo i gario allan yr amcanion uchelgeisiol hyn; ac yn 1691, esgynodd Pedr Fawr orsedd Rwssia fel yr unig lywodraethwr. Caniatawyd i'w hanner brawd, Ivan, arfer, mewn undeb âg ef, y teitl o 'czar,' ac ymddangos fel y cyfryw ar achlysuron cyhoeddus; ond nid oedd ganddo un math o awdurdod gwirioneddol. Mewn trefn i ganfod yn llawnach y cyfnewidiadau pwysig a ddygwyd oddi amgylch gan Pedr yn Rwssia, y mae yn angenrheidiol taflu trem frysiog dros ei sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol pan yr esgynodd efe yr orsedd. Yr oedd y czar yn ben y llywodraeth, ac yn meddu awdurdod hollol mewn achosion gweinyddiadol, cyfreithiol, a milwraidd. Yn yr arferiad o'i awdurdod cynnorthwyid ef gan ei gynghor, a elwid y *Bojarskaia Douma;* ac mewn achosion o bwysigrwydd arbenig, gan gynghor cyffredinol o gynnrychiolwyr y bobl. Nid oedd gan y diweddaf, fodd bynag, hawl i ddim ond ymgynghori: nis gallai benderfynu dim. Yr oedd cospau y gyfraith droseddol yn llym i'r eithaf. Nid oedd ond y dosbarth a elwid y *Streltzi* o'r milwyr yn teilyngu eu galw yn fyddin sefydlog. Rhanwyd y boblogaeth i ddau ddosbarth mawr; sef, y pendefigion *(bojars)*, y rhai oedd yn rhwym o wasanaethu y wladwriaeth, o herwydd eu bod yn feddiannol ar etifeddiaethau; y bwrdeisiaid, neu y dosbarth gweithiol a masnachol; a'r caethweision *(serfs)*, y rhai oeddynt yn rhwym wrth y tir. Ymarferai y clerigwyr gryn ddylanwad ar bob dosbarth:—eisteddent yn y cynghor, a gweinyddent swyddi gwladol. Mewn sefyllfa isel yr oedd amaethyddiaeth yn gyffredinol, ac yr oedd yr ychydig law-weithfaoedd oedd yn y wlad yn nwylaw tramorwyr yn benaf. Nid oedd dysg a gwareiddiad byth wedi adfeddiannu y tir a gollwyd mewn canlyniad i waith y Mongoliaid yn goresgyn y wlad. Yr oedd addysg y dosbarthiadau uchaf yn gyfyngedig yn gwbl i ddarllen ac ysgrifenu; ac yn ystod teyrnasiad Feodor y sefydlwyd yr ysgol gyntaf i ddysgu y clasuron a duwinyddiaeth. Cyfyngid y celfau teg i arch-adeiladaeth ac arluniaeth, a hyny yn ol yr ysgol Byzantaidd. Ymddangosodd y newyddiadur cyntaf (yn Moscow), a sefydlwyd y chwareudy cyntaf, yn nheyrnasiad Alexis. Gadawodd safle isel gwareiddiad a dylanwad dwyreiniol y Mongoliaid eu heffeithiau yn ddirfawr ar arferion teuluaidd y Rwssiaid, yn yr awdurdod ormesol a ymarferai y tad dros ei deulu, ac yn sefyllfa isel y benywod mewn bywyd teuluaidd. Nid oedd y benywod yn y dosbarthiadau isaf ddim yn amgen na chaethion; tra yr oeddynt mewn dosbarthiadau uwch yn cael eu cau allan yn hollol rhag cymdeithasu â'r ystlen arall. Penderfynai y rhieni briodas y priodfab a'r briodferch yn gwbl heb eu cydsyniad hwynt.

Digitized by Google

Y mae hanes Rwssia yn ystod teyrnasiad Pedr I., neu Pedr Fawr, yn gynnwysedig yn mywgraphiad y penadur hwnw, ac y mae amlinelliad byr wedi ei roddi o'r diwygiadau lliosog a phwysig a wnaed yn ei deyrnasiad ef o dan y gair PEDR FAWR. Dylid sylwi, pa fodd bynag, mai yn anfynych iawn yr ymgynghorai efe â nodwedd genedlaethol ei ddeiliaid, neu sefyllfa naturiol ei wlad, yn nygiad oddi amgylch ei gynlluniau; ac o ganlyniad, pan nad oedd ei ddeall cryf ef a'i ewyllys anhyblyg i'w cario allan, cafwyd, mewn rhan fawr, nad oedd y gwareiddiad a orfodwyd ganddo ar ei ddeiliaid ond arwynebol iawn. Mewn cydymffurfiad â'i ewyllys ddiweddaf, ei ail wraig, Catharine I., a esgynodd i'r orsedd fel olynydd iddo, yn 1725, er fod y pendefigion oedd yn erbyn dwyn i mewn ddiwygiadau yn bleidiol i unig fab yr anffodus Alexis, sef Pedr II., yr hwn yn fuan a gafodd feddiant o'r orsedd ymherodrol (1727). Yr oedd cwerylon parhaus yn y llys yn ystod teyrnasiad y ddau ddiweddaf. Y llywodraethwr mewn gwirionedd yn ystod teyrnasiad Catherine oedd Menchickoff; a'r hwn a lywodraethai yn nheyrnasiad Pedr II. oedd Dolgorouki. Ar farwolaeth Pedr, yn 1730, gosododd y cyfringynghor hawliau disgynyddion ereill Pedr Fawr o'r neilldu, a chynnygiasant y goron i Anna, Duces Courland, merch Ivan. Nodweddid teyrnasiad yr ymherodres hon, o 1730 hyd 1740, gan y ffaith fod y blaid Almaenaidd yn meddu y dylanwad mwyaf yn y llys; y rhai, yn gymmaint a'u bod yn cael myned yn mlaen yn eu ffordd eu hunain yn ddiwrthwynebiad gan yr ymherodres, a ymddygent tuag at Rwssia fel gwlad nad oedd dda i ddim ond i'w hysbeilio, ac at y trigolion fel barbariaid. O dan ddylanwad y blaid hon, adferodd Rwssia i Persia y taleithiau ar lan y Môr Caspiaidd, a gollasai yr olaf cyn hyny, ac arweiniwyd hi i ryfel â Thwrci, yr hyn a derfynodd mewn colledion dirfawr i'r wlad mewn bywydau ac arian. Olynydd Catharine oedd Ivan, mab ei nith, Antonia, Tywysoges Brunswick; ond diorseddwyd ef yn 1741, yn mhen tua blwyddyn wedi iddo ddechreu teyrnasu, gan Elizabeth, merch Pedr Fawr, yr hon a gymmerodd oddi ar y blaid Almaenaidd y gallu y gwnaethai y fath gamddefnydd cywilyddus o hono, ac adferodd y senedd a appwyntiwyd gan Pedr i'r gallu a ymddiriedwyd iddi ganddo ef, sefydlodd gyfundrefn reolaidd o ymrestriad i'r fyddin, diddymodd dollau, a chynnyddodd y trethi ar nwyddau tramor a ddygid i'r wlad. Yn ystod ei theyrnasiad hi, dylanwad Ffrainge a deimlid fwyaf yn y llys, a mabwysiadwyd y Ffrangcaeg fel iaith y llys, yn lle yr un Almaenaidd. Yn ol cyttundeb Abo (1743), ennillodd Rwssia barthau o Finland, a chymmerodd ran hefyd yn y Rhyfel Saith Mlynedd. Bu farw Elizabeth yn 1762. Ei holynydd oedd ei nai, Pedr III. Rhoddodd efe derfyn ar bob ymyriadau gyda chwerylon gorllewin Ewrop, a gwnaeth gyfnewidiadau dymunol a gwerthfawr mewn rhai cyfreithiau gormesol a basiwyd gan ei ragflaenoriaid; ond diorseddwyd ef yn fuan gan ei wraig alluog; sef, yr Ymherodres Catherine II., yn 1762, yr hon yn ddiau oedd y penadur penaf a deyrnasodd yn Rwssia ar ol dyddiau Pedr I. Darfu i'r rhyfeloedd llwyddiannus a ymladdwyd rhyngddi a Thwrci, Persia, Sweden, a Pholand eangu ei thiriogaethau yn ddirfawr; a thra yr ydoedd, trwy ei gwladlywiaeth dramor, yn amddiffyn ei deiliaid rhag goresgyniad oddi wrth elynion allanol, nid anghofiai yr angenrheidrwydd oedd am gynllunio a chefnogi gwelliantau o'i mewn. Diwygiwyd y cyfreithiau a'r dull o weinyddu y llywodraeth a'r cyfreithiau; a rhanwyd yr ymherodraeth yn ddosbarthiadau i'w llywodraethu—trefniad sydd, gydag ychydig iawn o gyfnewidiad, yn parhau yr un yn Rwssia hyd heddyw; a rhoddwyd i bob un ei llywodraeth weinyddiadol ei hun, mewn materion yn dal perthyaus â gweinyddiad cyfiawnder yn gystal a gwladlywiaeth. Bu farw Catherine yn 1796.

Ei mab a'i holynydd oedd Paul I., yr hwn, ar y cyntaf, gan ei fod yn ofni y chwyldroad yn Ffrainge, a ymunodd â'r Awstriaid a'r Prydeiniaid yn erbyn Ffrainge; ond yn fuan wedi hyny, efe a dynodd yn ol, yn hytrach oddi ar fympwy, dybygid, na dim arall; ac yr oedd ar fedr cychwyn rhyfel yn erbyn Prydain, pan y llofruddiwyd ef gan haid o fradlofruddion. Efe a ganiataodd ryddid addoliad i'r Hen Ddefodwyr, yr hyn, hyd ei amser ef, a ommeddid iddynt; ond sefydlwyd arolygiaeth fanwl iawn ganddo ar y wasg, a gwaharddodd i lyfrau tramor gael eu dwyn i Rwssia, a sefydlodd heddgeidwaid dirgelaidd. Ei fab hynaf ef, Alexander I., oedd ei olynydd. Efe a esgynodd yr orsedd yn 1801. Yr oedd yr ymherawdwr Alexander o'r dechreu yn awyddus am heddwch; ond cafodd ei sugno yn fuan i'r ymdrechfa fawr oedd yn cael ei dwyn yn mlaen yn erbyn Ffrainge; yn yr hon, wedi hyny, y cymmerodd yntau ran amlwg. Er nad oedd ar un adeg yn rhyw gysson iawn âg ef ei hun, bu yn foddion i gyfodi Rwssia i safle fel y rhestrid hi yn mysg galluoedd blaenaf Ewrop. Gwrthododd Alexander gydnabod Napoleon yn ymherawdwr, ac unodd yn y cynghrair Awstriaidd yn ei erbyn ef; ac yr oedd efe ei hun yn bresennol yn mrwydr Austerlitz, pan y gorchfygwyd y fyddin unedig gan y Ffrangcod, o dan Napoleon. Yn 1806, parodd y cyttundeb newydd a wnaed rhwng Ffrainge a Sultan Twrci, i Rwssia gyhoeddi rhyfel yn erbyn y gallu diweddaf, yr hwn a barhaodd o 1806 hyd 1812; a meddiannwyd Moldavia a Wallachia gan y Rwssiaid. Arweiniodd y buddugoliaethau a ennillodd y Ffrangcod yn Eylau a Friedland, yn 1807, i'r cynnadleddau a gynnaliwyd gan Napoleon ac Alexander, a dygwyd oddi amgylch heddwch Tilsit. Ymunodd Rwssia mewn cynghrair gyda Ffrainge; cyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Lloegr a Sweden yn 1808, a gorfodwyd y ddiweddaf, pan y gwnaed heddwch Fredericksham yn 1809, i roddi holl Finland, Bothnia Ddwyreiniol, ac Aland i'r flaenaf. Adnewyddwyd y rhyfel gyda Thwrci, a chymmerodd rhyfelgyrchoedd gwaedlyd le yn 1810—11—12. Ond yr oedd yr hyn a elwid yn 'Gyfundrefn Gyfandirol' Napoleon yn effeithio mor niweidiol ar fasnach Rwssia fel nas gallai y wlad ddiweddaf ei oddef yn hwy; yr hyn a arweiniodd i anghydfod gyda Ffrainge yn y fl. 1812. Ffurfiwyd cynghrair yn awr rhwng Lloegr a Sweden, a chwblhawyd heddwch â'r Sultan, pryd yr estynwyd terfynau Rwssia hyd at y Pruth. Yn niwedd haf 1812, goresgynodd Napoleon Rwssia gyda byddin o yn agos i 600,000 o wŷr; gorchfygodd Kutusoff yn Borodino, ac aeth yn mlaen tua Moscow. Ond yr oedd y wlad yn mhob man wedi ei hanrheithio o'i flaen; a thrwy orchymyn y llywodraethwr Rostopchin rhoddwyd Moscow ei hun ar dân—yr hyn a orfododd y Ffrangcod i encilio o Rwssia ar adeg anfanteisiol iawn, sef yn nghanol gauaf oedd yn ddigyffelyb am ei oerni a'i erwinder.

Digitized by Google

Ymlidiwyd hwynt gan y Rwssiaid; a threngodd, neu cymmerwyd yn garcharorion, naw o bob deg o'r fyddin liosog a aeth i'r wlad ychydig fisoedd yn flaenorol; a thrwy adael ei fyddin y diangodd Napoleon ei hun. Yr oedd byddin Rwssiaidd gref yn gweithredu yn erbyn Napoleon yn rhyfelgyrchoedd 1813—14, ac yr oedd yr ymherawdwr Alexander yn un o'r rhai a aethant yn fuddugoliaethus i Paris. Yn ol trefniad cynnadledd Vienna, yn 1815, unwyd Warsaw, ynghyd â thiriogaeth fawr, o dan yr enw 'teyrnas Poland,' â choron Rwssia. Dygwyd rhyfel a fuasai am amser maith yn cael ei dwyn yn mlaen rhwng Rwssia a Phersia (o 1804 hyd 1813) i derfyniad trwy gyttundeb Goolistan, pan y darfu i Persia roddi i fyny y rhan fwyaf o'i thaleithiau Caucasaidd, ac hefyd ei hawliau ar Georgia.

Yr oedd Rwssia erbyn hyn yn gryfach ei gallu a'i dylanwad nag un wlad arall ar y Cyfandir; ac wedi cwymp Napoleon, daeth yn ben yr hyn a elwid y 'Cynghrair Sanctaidd,' a wnaed rhyngddi ac Awstria, Prwssia, a Ffraingc, gyda'r amcan o ddarostwng egwyddorion chwyldroadol. Bu y gweddill o deyrnasiad Alexander yn heddychol, a chyflwynodd y rhan fwyaf o'i amser i ddwyn oddi amgylch ddiwygiadau mewnol; tra y cryfnawyd y llinell faith gyffiniol trwy ffurfio trefedigaethau milwraidd. Tueddai y teithiau mynych a gymmerai trwy ranau o'i ymherodraeth hefyd at lwyddiant ei ddeiliaid.

Ar un o'r teithiau hyn y bu farw Alexander yn Taganrog, ar lan y Don, yn mis Rhagfyr, 1825, yn wyth a deugain mlwydd oed. Gan nad oedd ganddo blant, ei olynydd ar yr orsedd oedd ei frawd Nicholas—trydydd mab Paul; gan fod Constantine, yr ail fab, wedi rhoddi i fyny ei hawl i'r goron. Achosodd y cyfnewidiad yn yr olyniaeth hwn beth terfysg, ond tawelwyd ef heb dywallt gwaed. O hyny allan, nid cyflym iawn oedd cynnydd diwygiadau a gwelliantau yn nhaleithiau mewnol y wlad. Cyhoeddwyd rhyfel â Phersia ac â Thwrci; dechreuodd hefyd ymdrechfa galed a gwaedlyd rhwng Rwssia a mynyddwyr Circassia—ac amcan Rwssia, fel yr oedd yn eithaf amlwg, yn y cyfan oedd chwanegu at ei therfynau. Ni ddarfu i waith Persia yn rhoddi i fyny iddi daleithiau Erivan a Nahituvan, ennilliad gwastadedd Kuban, a chael noddaeth y tywysogaethau Danubaidd, a'r hawl i forio yn rhydd yn y Môr Du, y Dardanelles, a'r Danube a gafodd gan Twrci, ond yn unig gryfhau ei hawyddfryd anniwalladwy am fwy o ysbail. Yn 1830, gwnaeth Nicholas Poland yn dalaeth Rwssiaidd. Yr oedd holl wladlywiaeth dramor Nicholas ar hyd y blynyddoedd dilynol yn arwyddo mai ei amcan mawr yn mhob peth oedd chwanegu at eangder ac awdurdod Rwssia. Yn 1849, efe a gynnorthwyodd Awstria i ddarostwng ymdrechion yr Hungariaid pan yn ymladd am eu rhyddid; ac yn 1853, arweiniodd ei wangc anniwalladwy yn mron am helaethu terfynau ei lywodraeth (gan ei fod o bossibl yn credu y cawsai Twrci ei gadael ei hunan fel mewn rhyfeloedd blaenorol) ef i ryfel y Crimea, yn yr hwn—er na ddarfu i'r cynghreiriaid, sef Prydain, Ffraingc, a Sardinia, ennill rhyw fanteision neillduol—y dioddefodd Rwssia golledion dirfawr mewn ystyr filwraidd ar y Danube, yn Silistria, yr Alma, ac o flaen Sebastopol; a bu yn agos iddi gael ei dyhysbyddu am y tro o filwyr ac arian. Bu farw Nicholas yn 1855; ac un o'r pethau cyntaf a wnaed gan ei fab a'i olynydd, Alexander II., yr hwn sydd yn awr (1874) yn teyrnasu yn Rwssia, oedd cydsynio â chyttundeb heddwch Paris, 1856. Y diwygiad mawr cyntaf yr ymroddodd Alexander i'w ddwyn oddi amgylch oedd diddymu (fel y cyfeiriwyd o'r blaen) math o gaethwasiaeth *(serfdom)* oedd yn Rwssia; ac felly gollwng yn rhydd yn agos i ugain miliwn o'i ddeiliaid, yn gwneyd i fyny y corph mawr o lafurwyr amaethyddol y wlad. Diddymwyd hefyd gospedigaethau corphorol, a'r hen drefn o osod y trethi i'w casglu i'r uchaf ei bris; sefydlwyd treialon trwy reithwyr; byrhawyd tymmor y gwasanaeth milwraidd; a symmudwyd llawer o'r attalfeydd oedd ar ffordd gwasg rydd, &c. Pan y gwrthryfelodd y Pwyliaid yn 1863—64, llethwyd hwy mewn amser byr, a defnyddiwyd moddion llym i hyny—llawer llymach nag yr oedd yr amgylchiadau yn galw am danynt.



Ystyrir ef er hyny yn mysg diwygwyr coronog yr oes; ac y mae teulu brenhinol Prydain Fawr a'i deulu yntau wedi eu dwyn i gyssylltiad agos â'u gilydd trwy fod y Tywysog Alfred Ernest Albert, y Duc o Edinburgh, ail fab ein brenhines, wedi priodi y Dduces Anrhydeddus Marie Alexandrovna o Rwssia, unig ferch yr ymherawdwr; yr hyn a gymmerodd le y 23ain o Ionawr, 1874.

Yr ydym yn cyflen yma restr o benaduriaid Rwssia:—

B. A. Y DUCIAID O KIOV.

850?. Rurick.
879. Oleg.
913. Igor I.
945. Olga, gweddw; rhaglaw.
955. Swiatoslaw I.—buddugol.
973. Jaropalk I.
989. Vladimir, y Mawr.
1015. Swiatopalk.
1018. Jaraslaw, neu Jaroslaf I.
1054. Isiaslaw I.
1073. Swiatoslaw II.
1078. Wsewolod.
1093. Swiatopalk II.
1113. Vladimir II.
1125. Mitislaw.
1132. Jaropalk II.
1138. } Wiatschelaw.
1139. } Wsewolod.
1146. } Isiaslaw II. ac Igor II.
1153. } Rostislaw.
1149. Jurie neu George I. Adeiladwyd dinas Moscow gan y duc hwn.

UCHEL-DDUCIAID Y VLADIMIR.

1157. } Andrew I. hyd 1175. Yr archddue cyntaf.
1175. } Michael I.
1177. Wsewolod III.
1213. } Jurie neu George II.
1217—18. } Constantine.
1238. Jaraslaw II.; olynwyd ef gan ei fab.
1245. Alexander-Nevski neu Newski, y Sant.
1263. Jaraslaw III.
1270. Vasali neu Basil I.
1275. Dmitri neu Demetrius I.
1281. Andrew II.
1294. Daniel-Alexandrovitz.
1303. Jurie neu George III.; yr hwn a ddiswyddwyd.
1305. Michael III.
1320. Vasali neu Basil II.
1325. Jurie neu George III.:—ei adferiad.
1327. Alexander II.

[Y mae y dyddiadau braidd yn ammheus, o herwydd yr anhawsderau a ddigwyddant yn feunyddiol yn nghofnodion boreuol Rwssia.]

UCHEL-DDUCIAID MOSCOW.

1328. Ivan neu Ioan I.

Digitized by Google

1340. B. A.—Simeon, y balch.
1353. Ivan neu Ioan II.
1359. Demetrius II., tywysog Susdal.
1362. Demetrius III., Donskoi.
1389. Vasali neu Basil III., Temnoi.
1425. Vasali neu Basil IV.

CZARIAID MUSCOVY.

1462. Ivan (Basilovitz) neu Ioan III.; yr hwn a gymmerodd y teitl o Czar, 1482.
1505. Vasali neu Basil V., yr hwn a gafodd y teitl gan yr ymherawdwr Maximilian I.
1533. Ivan IV. yr ofnadwy; gorthrymydd.
1584. Feodor neu Theodor I.; a'i fab Demetrius, yr hwn a lofruddiwyd gan ei olynydd.
1598. Boris-Godonof, yr hwn a drawsfeddiannodd yr orsedd.
1605. Feodor II., yr hwn a lofruddiwyd.
1606. Demetrius, y twyllwr—mynach Pwylaidd ieuangc; yr hwn a gymmerai arno mai efe oedd y tywysog llofruddiedig. Demetrius; yr hwn a roddwyd i farwolaeth.
„ Vasali-Chouiski, neu Zouinski.
1610. Ladislaus o Poland; yr hwn a ymneillduodd yn 1613.
1613. Michael-Feodorovitz, o dŷ Romanoff, yr hwn ydoedd ddisgynydd o'r czar, Ivan-Basilovitz.
1645. Alexis; yr hwn a elwir yn 'dad ei wlad.'
1676. Feodor neu Theodor II.
1682. { Ivan V. a / Pedr I., brodyr i Feodor.

YMHERAWDWYR AC YMHERODRESAU.

1689. Pedr I. Fawr, yr hwn a gymmerodd y teitl o ymherawdwr ar yr 22ain o Hydref, 1721; efe a sylfaenodd St. Petersburg.
1725. Catherine I., ei weddw. March-filwr Swedaidd oedd ei gŵr cyntaf, yr hwn a laddwyd, meddir, ar ddydd ei briodas.
1727. Pedr II., mab Alexis-Petrovitz, ac ŵyr i Pedr Fawr; yr hwn a ddiorseddwyd.
1730. Anne, duces Courland, merch y czar Ivan.
1740. Ivan VI., plentyn, or-ŵyr i Pedr Fawr; yr hwn a garcharwyd mewn daeargell am ddeunaw mlynedd, ac a lofruddiwyd yn 1764.
1741. Elizabeth, merch Pedr Fawr, yr hon a deyrnasodd yn ystod carchariad Ivan.
1762. Pedr III., mab i Anne a Charles-Frederick, y duc o Holstein-Gottorp: yr hwn a ddiorseddwyd, ac a fu farw yn fuan wedi hyny, a thybir mai ei lofruddio a gafodd.
„ Catherine II., ei wraig, yr hon oedd benadures enwog iawn, a'r hon a estynodd derfynau tiriogaethau Rwssia yn mhob cyfeiriad. Bu farw Tachwedd 17eg, 1796.
1796. Paul, mab Catherine, yr hwn a lofruddiwyd ar yr 2il o Fawrth, 1801.
1801. Alexander I., mab i Paul; yr hwn, ar ol llawer o frwydrau aflwyddiannus, a chynghreirio yn anewyllysgar gyda Ffraingc, o'r diwedd a gynnorthwyodd i ddymchwelyd Napoleon Bonaparte. Bu farw yn mis Rhagfyr, 1825.
1825. Nicholas I., brawd i'r diweddaf. Bu farw Mawrth 2il, 1855.
1855. Alexander II., mab Nicholas I.; yr hwn a anwyd Ebrill 29ain, 1818; ac a briododd y dywysoges Mary o Hesse, Ebrill, 1841. Bu hi farw Mehefin 3ydd, 1880; a phriododd yr ymherawdwr y dywysoges Dolgorouki yn y mis Gorphenaf dilynol. Brad-lofruddiwyd ef yn St. Petersburg, ddau o'r gloch y prydnawn, Mawrth 13eg, 1881.
1881. Alexander III., mab Alexander II. Ganwyd ef Mawrth 10fed, 1845. Priododd y dywysoges Mary o Denmarc, Tachwedd 9fed, 1866.

Etifedd: Nicholas, mab Alexander III., a anwyd Mai 18fed, 1868.

RWSSIA YN 1894. Y mae cryn lawer o gyfnewidiadau pwysig wedi cymmeryd lle yn yr ymherodraeth ëang hon er pan ysgrifenwyd yr erthygl flaenorol. Gan hyny, rhoddir yma y ffeithiau olaf y gellid eu cael am ei maintioli, ei phoblogaeth, a'i rhaniadau gwladol, &c., &c.

*Maintioli a Phoblogaeth.*—Y mae yr ymherodraeth yn ymestyn dros y rhan fwyaf o ddwyreinbarth Ewrop; dros yr oll o ogleddbarth Asia; a thros ran fawr o ganolbarth y cyfandir ëang hwnw. Gellir cael rhyw syniad am ei maintioli anferth oddi wrth y ffaith ei bod yn cynnwys y chweched ran o holl arwynebedd tirol y ddaear; a'i maintioli yr un, o'r bron, a'r holl diriogaethau sydd yn awr dan deyrnged i goron Prydain. Y mae arwynebedd Rwssia Briodol—neu fel y gelwir hi fynychaf, Rwssia yn Ewrop—yn 2,088,000 o filldiroedd petryal; ond nid ydyw hyn ond tuag un ran o bedair o arwynebedd yr holl ymherodraeth.

Cyfrifir fod poblogaeth yr ymherodraeth hon tua chant a phymtheg o filiynau (115,000,000), a'i bod yn cynnyddu yn flynyddol filiwn a hanner (1,500,000), o leiaf. Rhenir yr ymherodraeth i'r adranau canlynol:—Rwssia yn Ewrop, yr hon sydd yn cynnwys tua thair rhan o bedair o'r holl boblogaeth; hefyd, Finland, Poland, Caucasia, Siberia, Turkestan, a'r diriogaeth a elwir y Transcaspian Territory. Cafodd y tiriogaethau a berthynant i Rwssia yn Ngogledd America (sef, Alaska), eu gwerthu i lywodraeth yr Unol Dalaethau yn 1867, am dros saith miliwn (7,200,000) o ddoleri.

Yn y daflen isod, ceir maintioli a phoblogaeth gwahanol adranau gwladol yr ymherodraeth yn 1887—89; a'r nifer oedd y pryd hyny yn byw ar bob milldir petryal ynddynt:—

| Llywodraethau a Thiriogaethau. | Arwyn. mewn mill. petryal. | Poblogaeth. | Poblog. mill. pet. |
|---|---|---|---|
| RWSSIA YN EWROP— | | | |
| Archangelsk | 331,505 | 340,251 | 1 |
| Astrakhan | 91,327 | 932,539 | 10 |
| Bessarabia | 17,619 | 1,588,329 | 90 |
| Courland | 10,535 | 676,582 | 64 |
| Don, Talaeth y | 61,886 | 1,896,113 | 30 |
| Ekaterinoslav | 26,118 | 1,871,162 | 71 |
| Esthonia | 7,818 | 392,738 | 50 |
| Grodno | 11,931 | 1,351,425 | 90 |
| Kaluga | 11 942 | 1,199,882 | 100 |
| Kazan | 24,601 | 2,140,702 | 87 |
| Kieff | 19,691 | 2,917,997 | 148 |
| Kostroma | 32,702 | 1,354,162 | 41 |
| Kovno | 15,692 | 1,532,747 | 97 |
| Kursk | 17,937 | 2,666,573 | 148 |
| Kharkoff | 21,041 | 2,322,039 | 110 |
| Kherson | 27,523 | 2,026,853 | 73 |
| Livonia | 18,158 | 1,229,468 | 67 |
| Minsk | 35,293 | 1,680,615 | 47 |
| Moghilev | 18,551 | 1,294,116 | 69 |
| Moscow | 12,859 | 2,210,791 | 171 |
| Nijni-Novgorod | 19,797 | 1,513,318 | 76 |
| Novgorod | 47,236 | 1,213,058 | 25 |
| Olonetz | 57,439 | 341,568 | 5 |
| Orel | 18,042 | 2,021,239 | 112 |
| Orenburg | 73,816 | 1,289,358 | 17 |
| Penza | 14,997 | 1,522,537 | 101 |
| Perm | 128,211 | 2,713,987 | 21 |
| Podolia | 16,224 | 2,423,755 | 149 |
| Poltava | 19,265 | 2,794,739 | 145 |
| Pskov | 17,069 | 965,355 | 56 |
| Ryazan | 16,255 | 1,843,345 | 113 |
| St. Petersburg | 20,760 | 1,680,273 | 80 |
| Samara | 58,321 | 2,614,405 | 43 |
| Saratoff | 32,624 | 2,311,220 | 70 |
| Simbirsk | 19,110 | 1,579,847 | 82 |
| Smolensk | 21,638 | 1,339,144 | 61 |
| Tamboff | 25,710 | 2,730,145 | 106 |
| Taurida | 24,539 | 1,096,670 | 44 |
| Tchernigoff | 20,233 | 2,109,983 | 104 |
| Tula | 11,954 | 1,415,600 | 120 |
| Tver | 25,225 | 1,781,861 | 70 |
| Ufa | 47,112 | 2,018,356 | 41 |
| Vilna | 16,421 | 1,304,783 | 79 |

Digitized by Google

1859, nid oedd ond 74,000,000; ond yn 1891, cyfrifir ei bod dros 115,000,000.

*Crefyddau a Chredöau.* — Perthyna y rhan fwyaf o'r trigolion i'r Eglwys Roegaidd Uniongred (*Russo-Greek Church*), yr hon yw eglwys genedlaethol gydnabyddedig y wlad. Y mae llawer, er hyny, yn perthyn i'r amrywiol sectau sydd yn anghydffurfio â daliadau a defodau yr eglwys hono. Mewn mater o grefydd, y mae y boblogaeth yn ymranu fel y canlyn: — y Catholiciaid Groegaidd, gan gynnwys yr Anghydffurfwyr a nodwyd eisoes, 72,990,000; Pabyddion, 8,910,000; Protestaniaid, 4,766,000; Iuddewon, 2,954,000—(yn ol un gŵr y maent yn llawer nes i bedair miliwn); Mahometiaid, 11,814,000; a phaganiaid, tua 450,000. Gellir gweled y cynnydd sydd wedi cymmeryd lle yn yr enwadau hyn os cymmherir y ffigyrau uchod â'r rhai a geir yn yr erthygl gyntaf.

*Afonydd.*—Y mae rhai o'r afonydd mwyaf yn Ewrop yn Rwssia. Ei phrif afonydd ydynt y Dneister, Bug, Dneiper, a'r Don, y rhai a ymarllwysant i'r Môr Du; y Kur, Volga, a'r Ural, i'r Môr Caspiaidd; y Petchora, Mezen, a'r Dwina Ogleddol, i'r Cefnfor Gogleddol; a'r Niemen, Düna, a'r Dwina Orllewinol, i Fôr y Baltic. Y brif afon ydyw y Volga. Hon ydyw yr afon fwyaf yn holl Ewrop, a gellir ei mordwyo o'r môr bron hyd ei tharddiad.

*Trefydd.*—Y prif drefydd, a'r ffeithiau hynotaf ynglŷn â hwynt, ydynt fel y canlyn:—

*Akerman.*—Caerfa gref, a thref enwog mewn cyssylltiad â Chyttundeb 1826—trwy yr hwn y rhyddhawyd Roumania oddi wrth ei dibyniaeth ar Twrci.

*Odessa*, sydd borthladd wedi ei hamddiffyn â chaerfeydd cedyrn. Yn y dref hon y cerir yn mlaen brif farchnad ŷd yr ymherodraeth. Hi ydyw y drydedd dref fasnachol; ac y mae ynddi 400 o ystorfeydd anferth i gynnwys grawn.

*Nicolaiev.*—Er pan y cwympodd Sebastopol, hon ydyw prif arf-orsaf forwrol Rwssia yn y Môr Du.

*Kiev:*—yr hon a fu unwaith yn brifddinas y wlad. Y mae hi yn awr yn enwog o herwydd y beddrodau tanddaearol henafol a geir ynddi.

*Smolensk* sydd fwyaf adnabyddus, o herwydd y frwydr waedlyd a ymladdwyd ynddi yn y flwyddyn 1812, pan y llwyr ddinystriwyd rhan fawr o'r dref.

*Poltava.*—Y mae hi yn enwog am mai ynddi y gorchfygwyd Siarl XII., o Sweden, gan Pedr Fawr.

*Sebastopol.*—Y dref a warchauwyd am amryw fisoedd gan fyddinoedd unedig Ffraingc, Lloegr, a Sardinia, yn 1855—adeg rhyfel fythgofiadwy y Crimea.

*Nijni Novgorod.*—Prif neillduolrwydd y dref hon ydyw ei ffair flynyddol; yr hon a ystyrir y ffair fwyaf yn yr holl fyd. Dechreua ar y laf o Orphenaf, a pharhâ am wyth wythnos. Masnechir ynddi gan nifer fawr o brif farsiandwyr Ewrop ac Asia.

*Kostroma* a *Jaroslav.*—Yma y gwneir y lledr Rwssiaidd, a elwir *Russia*, ar raddfa ëang.

*Kaluga* a *Tula* ydynt y trefydd llaw-weithfaol mwyaf o fewn yr ymherodraeth.

*Moscow* oedd gynt yn brif ddinas y wlad; ond y mae hi yn awr yn ail i St. Petersburg, y brif ddinas, o ran poblogaeth a phwysigrwydd gwladol; ond medda ar fasnach llawer helaethach na'r brif ddinas. Y mae Moscow yn ymddangos mewn rhan fel tref ddwyreiniol. Yn mysg yr adeiladau pwysicaf o'i mewn, y mae y Kremlin; lle y parheir i goroni a chladdu yr ymherawdwyr. Yn 1812, wedi i'r Rwssiaid gael eu gorchfygu yn mrwydr Borodino, ac i'r Ymherawdwr Napoleon symmud ei fyddin fawr tuag ati, llosgodd preswylwyr Moscow y dref yn lludw, i'r amcan o orfodi Napoleon a'i fyddin i encilio allan o'r wlad; a llwyddasant yn eu hamcan. Trowyd ei fyddin ardderchog yn ol wedi ei dyfetha gan yr eira a'r rhew ofnadwy oedd ar y pryd yn gorchuddio y wlad.

*Arkhangel.*—Porthladd pwysig, er fod ei harbwr yn rhewedig am wyth mis o bob blwyddyn. Yn flaenorol i sefydliad St. Petersburgh, hwn oedd yr unig borthladd masnachol o fewn yr ymherodraeth.

*Kronstadt* ydyw prif orsaf fôr-lysawl, neu lyngesol, yr ymherodraeth; ac y mae hi hefyd yn un o'r caerfeydd cadarnaf sydd o'i mewn.

*St. Petersburg* yw y brif ddinas. Sefydlwyd hi yn 1703, gan Pedr Fawr.

*Warsaw* yw trydedd dref yr ymherodraeth o ran poblogaeth; ac y mae hi yn un o'r gorsafoedd milwrol blaenaf sydd gan Rwssia.

*Arwynebedd a Mynyddoedd.*—Gyda'r eithriad o'r hyn a elwir Bryniau Valdai (*Valdai Hills*), y rhai a safant yn agos i darddle y Volga, y mae holl arwynebedd Rwssia yn un gwastattir ëang. Ar eithaf y dwyrain, modd bynag, ac hefyd ar y cyttir deheu-ddwyreiniol, y mae dwy gadwen o fynyddoedd uchel, yn ymestyn am gannoedd o filldiroedd. Y rhai hyn ydynt y Gadwen Uralaidd (*Ural Range*), a'r Caucasus. Y pigyn uchaf yn y rhai hyn ydyw mynydd Elburz, yr hwn sydd yn 18,751 o droedfeddi uwch law arwynebedd y môr. Hwn ydyw y mynydd uchaf yn Ewrop.

*Marsandïaeth y Wlad.* — Un o gwsmeriaid goreu Rwssia ydyw Prydain; ac y mae yr oll o'r bron a brynir gan Brydain o Rwssia yn gynnyrch brodorol Rwssia ei hun.

Y mae gwerth y prif nwyddau a allforiwyd ganddi i'r Deyrnas Gyfunol yn 1892 fel y canlyn:—ymenyn, 184,067*p.*; rhaffau a llinyn cyfrodedd, 43,341*p.*; gwenith, 1,470,425*p.*; ceirch, 1,601,346*p.*; mathau eraill o ŷd, 2,169,733*p.*; blew moch, 149,942*p.*; llin, 1,592,515*p.*; rhawn, 236,244*p.*; cywarch, 216,901*p.*; crwyn a lledr, 126,316*p.*; llïan, 24,349*p.*; *petroleum*, pŷg, &c., 622,538*p.*; cacenau olew, 320,603*p.*; hadau o bob math, 606,547*p.*; coed, &c., 3,065,970*p.*; a gwlân, 724,910*p.* Y cyfan yn 13,158,747*p.*

Nid ydyw Rwssia yn prynu cymmaint o'r hyn a gynnyrchir yn y Deyrnas Gyfunol. Y prif nwyddau a brynwyd ganddi yn 1892 oedd y rhai a ganlyn:— Alkali (nwydd fferyllol), 123,084*p.*; bagiau a sachau, 5,331*p.*; defnyddiau at gànu (*bleaching*), 56,619*p.*; glô, &c., 813,094*p.*; cynnyrchion fferyllol, 101,069*p.*; edafedd cotwm, &c., &c., 350,321*p.*; penwaig, 164,971*p.*; offerynau, celfi, &c., 88,999*p.*; peiriannau o bob math, 227,782*p.*; gwrteithiau, 83,612*p.*; mettelau o bob math, 1,376,383*p.*; gwlân a gwlaneni, 157,642*p.*; edafedd, alpaca, &c., 156,256*p.* Y cyfanswm yn 8,876,899*p.*

*Y Fyddin.*—Y mae byddin Rwssia wedi ei had-drefnu yn drwyadl er pan ddigwyddodd y rhyfel rhyngddi a Thwrci. Mewn adeg o heddwch, y mae ganddi dros 800,000 o ddynion, gyda 3,400 o fagnelau, yn barod i ryfel. Y mae 420,000 o'i milwyr, a 2,800, o'i magnelau, yn Rwssia yn Ewrop; 250,342 o filwyr, a 300 o fagnelau yn y Caucasus; ac yn Asia, 131,116

Digitized by Google

o filwyr, a 196 o fagnelau. Mewn adeg o ryfel, y mae y trefniadau milwraidd yn gyfryw fel y gellir anfon cynnifer a 2,532,496 o ddynion, a 3,400 o fagnelau, i'r maes.

*Y Llynges.*—Prif orsafau llyngesol Rwssia ydynt yn Môr y Baltic a'r Môr Du. Yn y mor-oedd hyn y gosodir y prif ryfel-longau; ond ceir eraill yn Môr Aral, a'r Môr Caspiaidd, ynghyd âg ychydig yn Siberia hefyd. Rhifa y cyfan 268 o agerlongau, gyda 1,348 o fagnelau.

*Ffyrdd haiarn, &c.* Yn Tachwedd, 1892, yr oedd 18,670 o filldiroedd yn agored i deithio ar hyd-ddynt. Y mae yn y wlad 5,980 o lythyr-dai; ac yn 1887, yr oedd nifer y llythyrau, &c., a anfonwyd trwy y rhai hyn yn 280,000,000. Y mae yno 3,790 o swyddfeydd pellebrol, gyda 91,000 o filldiroedd o wifrau.

Rhifai llongau masnachol y wlad yn 1891 tua 2,418, gyda gallu cludawl o 545,620 o dynelli. Yr oedd 313 o'r nifer uchod yn agerlongau.

*Sefyllfa Gyllidol y wlad.*—Y mae cyllid yr ymherodraeth mewn cyflwr hynod anfoddhaol. Er fod ei chyllid wedi cynnyddu o 58,700,000*p.* yn 1887, i 94,800,000*p.* yn 1890, er hyn i gyd, fe gynnyddodd y llogau, &c., ar y ddyled gy-hoeddus yn ystod yr un cyfnod, o 11,400,000*p.* i 26,600,000*p.* Yr oedd cyfanswm y ddyled gyhoeddus Ionawr 1af, 1890, yn 552,524,000*p.*, neu o ddeutu 5*p.* ar gyfer pob un o drigolion y deyrnas. Trethir y werin-bobl mor drwm fel y mae eu hôl-ddyledion yn cynnyddu y naill flwyddyn ar ol y llall; ac y maent felly yn neillduol ar ol methiant y cnydau ŷd. Erbyn hyn, modd bynag, y mae y cyllid mewn sefyllfa mwy ffafriol; yr hyn a briodolir i raddau pell i fedrusrwydd y gweinidog cyllidol presennol; sef, M. Vishnegradsky. Rhoddir isod fanylion pellach am danynt:—

| | *P.* |
|---|---|
| Y Cyllid yn 1889 .. .. .. | 89,516,000 |
| Dyled y ffyrdd haiarn, 1888 .. | 165,612,086 |
| Y ddyled—ei chyfanswm yn 1888 .. | 746,220,720 |
| Llog, &c., ar y ddyled—1888 .. | 41,736,852 |
| Dadforion yn 1892 .. .. | 58,108,333 |
| Allforion yn 1892 .. .. .. | 74,416,666 |
| Dadforion o'r Deyrnas Gyfunol yn 1892 .. .. .. .. | 8,876,899 |
| Allforion i'r Deyrnas Gyfunol yn 1892 | 15,122,677 |

*Cyfundrefn farnol y wlad.*—Cafodd y gyfundrefn hon ei diwygio yn hollol yn 1864. Dygwyd yr arfer dda i mewn o brofi achosion gyda rheithwyr; agorwyd y llysoedd cyfreithiol i'r cyhoedd; a chafodd cospedigaethau corphorol trwy gyfraith eu diddymu. Y mae materion gwleidyddol, a throseddau gwleidyddol, yn parhau yn nwylaw swyddogion yr heddgeidwaid gwladol. Dygir achosion gwleidyddol arbenig, o dro i dro, dan sylw adran neillduol o'r senedd; ond gwrandewir hwynt gyda drysau caeedig. Anfonir personau a ammheuir o gymmeryd rhan mewn cynllwynion politicaidd i benyd-wasanaeth i Siberia; ond nid cyn iddynt fod dan brawf yn adran yr 'heddgeidwaid gwladol,' fel ei gelwir. Anfonir o bymtheg i ugain mil (15,000 i 20,000) o droseddwyr yn erbyn y ddeddf gyffredin i Siberia bob blwyddyn. Llafur caled yn Siberia ydyw y gosp a roddir hefyd am lofruddiaeth. Cospir troseddwyr politicaidd, wedi eu cael yn euog, â marwolaeth.

*Addysg.*—Pan ryddhawyd y caethweision, yn 1861, gwnaed ymdrech neillduol i ddiwygio cyfundrefn addysg yr ymherodraeth. Agorwyd nifer fawr o ysgolion yn mhob rhan o honi, a thaflwyd y prifysgolion yn agored i efrydwyr—i wrywod a benywod. Cychwynwyd y symmudiad hwn gan y dosbarth cyfoethocaf: ond nid hir y bu y llywodraeth cyn ymyryd; a rhoddwyd pob peth oedd yn dwyn perthynas âg addysg dan reolaeth yr hyn a elwir yn Weinyddiaeth yr Addysg Gyhoeddus (***Ministry** of Public Instruction*). Symmuda y swyddfa addysg hon yn dra hwyrfrydig gyda'r gwaith o estyn manteision addysg i'r dosbarth cyffredin, ac ychydig o gefnogaeth a dderbyniai cynlluniau o'r natur hyn ganddi. Yr hyn yr ymdrechai fwyaf yn ei gylch oedd, ëangu addysg glasurol yn mhlith y dosbarthiadau uchaf o'r boblogaeth, gan lwyr esgeuluso addysg elfenol, wyddonol, a chrefftwrol, yn mysg y dosbarthiadau eraill. Yn ystod y teyrnasiad presennol, y mae y weinyddiaeth wedi dechreu estyn cefnogaeth neillduol i'r ysgolion plwyfol; y rhai a gerir yn mlaen dan nawddogaeth y clerigwyr. Ni ofynir i ysgolfeistriaid yr ysgolion hyn basio yr arholiadau arferol, gan eu bod yn cael eu henwi i'w swyddi gan yr esgobion—fel y gwneid gynt yn Ffrainge, cyn i Ddeddf Diwygiad yr Ysgolion ddyfod i rym yn 1880. Er hyn i gyd, y mae cryn gynnydd wedi cymmeryd lle ynglŷn âg addysg y werin-bobl yn nghorph y deng mlynedd ar hugain diweddaf. Yn 1888, nis gallai ond un ran o bump o'r rhai a ymunasant â'r fyddin ddarllen ac ysgrifenu. Ar hyn o bryd, y mae yn yr ymherodraeth tua 50,000 o ysgolion elfenol, yn mha rai y mae dwy filiwn a chwarter (2,250,000) o blant. Y mae yn yr ymherodraeth hefyd 1,000 o ysgolion canolraddol, yn cynnwys 140,000 o fechgyn, a 80,000 o enethod. Ac y mae gyda hyny 31 o sefydliadau uwchraddol—o ba rai y mae wyth yn brifysgolion; yn mha rai y mae 20,000 o ddynion ieuaingc, a 600 o ferched, yn efrydwyr.

Yn Rwssia, y mae addysg merched ar y blaen i'r hyn ydyw yn llawer o'r gwledydd Ewropëaidd eraill; a hyny, yn benaf, mewn canlyniad i ymdrechion diflino y merched eu hunain. Nid ydyw Rwssia yn eithriad i wledydd eraill yn hyn; o blegid yn Mhrydain, er gwaethaf gwrthwynebiad yr awdurdodau yn yr holl brifysgolion, o'r bron, y cawsant yr hawliau sydd ganddynt. Yn 1886, llwyddasant i gael pedwar o golegau i ferched; un athrofa feddygol, ac amryw o ysgolion is-raddol. Er fod y sefydliadau uchel hyn yn cael eu cario yn mlaen trwy danysgrifiadau personol, cawsant eu cau yn 1886 gan Alexander III. Ond cafodd dau goleg eu hail agor drachefn yn 1890; ac y mae ynddynt yn awr tua 500 o efrydesau.

*Amaethyddiaeth y Wlad.*—Y mae Rwssia yn Ewrop, yn annibynol ar Finland, yn ymestyn dros 1,237 miliwn o aceri; ac o'r nifer hwn y mae 1,019 o filiynau wedi eu cofrestru. Perthyna tua dwy ran o bump o'r arwynebedd cofrestredig hwn i'r Goron. Delir un ran o dair (317½ miliwn) gan y werin-bobl — yn rhifo 25,000,000 o ddynion. Delir 252,000,000 o aceri, neu un ran o bedair, gan berchenogion preifat, y nifer fwyaf o ba rai ydynt y pendefigion.

Gellir rhanu Rwssia yn Ewrop i ddwy ran yn nglŷn âg amaethyddiaeth. Yn y rhan ddeheuddwyreiniol tyfir cyflawnder o wenith a rhŷg:—y rhan fwyaf o lawer o'r hyn a allforir ganddi. Tyfir llai yn y rhanau eraill o'r wlad; ac nid ydyw y swm yn ddigon o lawer i gyfarfod âg angenrheidiau y trigolion eu hunain. Rhwng 1883 ac 1887, yr oedd ar gyfartaledd 161,930,000

Digitized by Google

o aceri o dan wahanol gnydau o ŷd yn Rwssia Briodol—gan gau allan Poland a Finland; a thua 3,712,000 dan bytatw. Cyrhaeddai cyfanswm y cynnyrch ar gyfartaledd 81,100,000 o chwarteri o rŷg (*rye*), 27,014,400 o wenith, 64,255,000 o geirch, 16,269,000 o haidd; o ydau eraill, 12,150,000; a 33,935,000 o bytatw. Ond yn 1889, modd bynag, yr oedd cyfartaledd yr holl gnydau 25 y cant o dan y ffigyrau uchod.

*Mŵnau.*—Y mae yr ymherodraeth yn hynod gyfoethog o lawer math o fwnau. Rhoddir gwaith i 400,000 o ddynion yn ei mwngloddiau. Ceir aur yn Siberia a Mynyddoedd Ural; ond amrywia y swm o 871,000 i 1,702,800 wns yn flynyddol. Codir aur—rhwng 264,000 a 396,000 wns yn y flwyddyn—yn Siberia, Kirghes Steppes, y Caucasus, a Finland. Ceir mwn haiarn i helaethrwydd yn Rwssia Briodol, ac yn ei thiriogaethau Asiaidd; ac y mae yr haiarn a wnaed wedi cynnyddu o 448,000 o dynelli yn 1880, i 734,000 tynell yn 1889. O'r swm diweddaf, y mae 258,000 tynell yn ddûr. Cynnyrchir singc (*zinc*) yn Poland, alcan yn Finland, a *cobalt* a *manganese* yn y Caucasus. Ceir halen o lynau halen Asia, a'r rhan ddeheuol o Rwssia. Y mae yn y wlad ddigonedd o lô, er mai ychydig, mewn cymmhariaeth, a godir o hono, o herwydd yr anhawsderau sydd ynglŷn â hyny. Y mae ffynnonau olew cyfoethog Baku yn cyflenwi Rwssia â *petroleum*, &c., ac anfonir llawer o hono i wledydd eraill.

ROBERTS, THOMAS (*Scorpion*). Gweinidog gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn Ninbych, yn y fl. 1818, a derbyniwyd ef yn aelod gan Dr. William Rees, tra yn gweinidogaethu yn y dref hon. Dechreuodd bregethu yn 1838; a thra yn Ngholeg Aberhonddu, daeth i gyffyrddiad âg Ioan Gwynedd, a'r tô hwnw o fyfyrwyr a gydoesent âg ef. O'r coleg, aeth i Lanuwchllyn, ac oddi yno i Newmarket. Wedi hyny, ymgymmerodd â gofal eglwysi Llanrwst a Nant-y-rhiw; a bu mewn cyssylltiad â hwy hyd ei farwolaeth. Tra yn Llanuwchllyn y daeth efe i'r amlwg gyntaf fel llenor. Ymddangosodd cyfres o lythyrau o'i eiddo yn yr *Haul*, yn dwyn y penawd 'Cymmanfa Jackyddol'—yn y rhai y beirniadai yn llym rai o weinidogion a threfniadau yr Annibynwyr. Dangosodd yn y llythyrau hyny ei fod yn feddiannol ar allu cryf—a pharasant gryn gyffro. Yn y fl. 1848, codwyd ail gynnhwrf yn y wlad, ac yn enwedig yn mysg yr Annibynwyr, gan ysgrif a ymddangosodd yn y *Dysgedydd*, yn dwyn y penawd 'Ocheneidiau y Weinidogaeth.' Amcan yr ysgrif hon oedd dangos cyflwr dirywiedig gweinidogaeth, diaconiaeth, ac eglwysi y cyfundeb ar yr adeg hono, rhagor yr hyn oeddynt dan oruchwyliaeth y gweinidogion eu hunain gynt. Wrth yr ysgrif yr oedd y ffugenw 'Scorpion;' ac er mor amrywiol oedd y barnau am gywirdeb darluniadau yr erthygl, cydnabyddid ei bod yn amlygu llawer mwy o allu nag a welid yn fynych yn y cyhoeddiad hwnw. Dylifai y gwrthdystiadau cryfaf yn ei herbyn i swyddfa y *Dysgedydd*, a bu cryn helynt mewn canlyniad iddi. O hyny allan, wrth y ffugenw hwn yr adnabyddid ef hyd derfyn ei oes. Bu am flynyddau ar ol hyn yn golygu y *Dysgedydd* gyda Dr. William Rees (*Gwilym Hiraethog*), y Parchn. Richard Parry (*Gwalchmai*); Hugh Pugh, Mostyn; William Ambrose, Porthmadog; a William Williams (*Caledfryn*), o'r Groes-wen. Ymddangosodd yn y cylchgrawn hwnw yn ystod yr amser y bu efe yn dal cyssylltiad âg ef sylwadau bywgraphyddol tra rhagorol. Tybir iddo sefydlu yn Llanrwst rywbryd tua'r flwyddyn 1861 neu 1862; ac yn ystod ei drigias yno, bu yn hynod lafurus a chymmeradwy fel gweinidog. Nid ydoedd un sefydliad llenyddol na cheid ef yn barod i gymmeryd rhan ynddo, er mai gydag anhawsder y ceid ganddo ddyfod i'r amlwg. Dewisai fod y naill du, yn hytrach nag ymwthio er mwyn cyhoeddusrwydd i'r sedd fawr. Efe oedd awdwr y *Testament Daearyddol*, ac *Esboniad ar y Testament Newydd*—gweithiau o gryn deilyngdod. Bu yn llanw y swydd o bostfeistr yn Llanrwst am flynyddoedd lawer, gyda chymmeradwyaeth gyffredinol. Er's peth amser cyn ei farwolaeth, ymgymmerodd âg ysgrifenu bywgraphiad i'r diweddar Gwilym Hiraethog; ac y mae yr hyn a ysgrifenodd o'r gwaith yn mysg y pethau goreu a gynnyrchodd ei ysgrifell erioed. Pan ar ganol y gwaith, cymmerwyd ef yn wael; a bu farw Mehefin 12fed, 1887, yn 69ain mlwydd oed.

ROBERTS, TIMOTHEUS. Ychydig o hanes y gŵr enwog hwn sydd ar gael; ac ymddengys fod prinder ffeithiau am dano wedi bod yn achos o fawr ofid i'w fywgraphwyr. Y cwbl a ddywedir ydyw, ei fod yn frodor o Gymru; yn glerigwr; yn ddyn dysgedig, yn enwedig yn yr Hebraeg; yn ŵr gostyngedig a hunan-ymwadol; yn fyfyriwr caled; ac yn bregethwr tra defnyddiol. Pennodwyd ef i fywoliaeth Barton, yn Westmoreland, yn 1653—y flwyddyn y dechreuodd y Werin-lywodraeth o dan Oliver Cromwell. Oddi wrth hyn, casglir iddo gael ei eni yn gynnar yn yr 17eg ganrif. Daliodd y fywoliaeth nes yr amddifadwyd ef o honi yn 1660, gan yr erlidwyr dan Siarl II.—pan aeth y Ddwy Fil allan. Carcharwyd ef hefyd yn Appleby, am bregethu yn groes i'r cyfreithiau creulawn a gwaedlyd oedd mewn grym ar y pryd. Dywed Baxter iddo farw o'r pla, rhwng yr Amwythig a Chroesoswallt, ar sypyn o wellt, heb i neb feiddio fyned yn agos ato!

ROBERTS, WILLIAM, D.D., Utica. Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Ganwyd ef yn Llanerchymedd, yn Môn, Medi 25ain, 1809; a phan yn lled ieuangc, anfonwyd ef i'r ysgol a gedwid gan y Parch. John Pritchard, Llanerchymedd a Choedana. Dywedir ei fod yn alluog i ddarllen y Beibl yn Gymraeg a Saesneg cyn bod yn chwech oed. Pan yn 13eg, anfonwyd ef i Ysgol Rammadegol Caergybi; yr hon oedd dan arolygiaeth y Parch. William Griffith, gweinidog yr Annibynwyr; yn yr hon y bu am bum mlynedd yn efrydu y Saesneg, y Lladin, a'r Groeg, ynghyd â changhenau eraill. Dechreuodd bregethu nos Sabbath y Sulgwyn, 1830, yn nghapel Hyfrydle, Caergybi, o flaen y diweddar Barch. Thomas Jones, Amlwch. Yr oedd efe ar y pryd tuag 20ain oed. Yn Hydref, 1831, aeth i Athrofa Bresbyteraidd Ormond Quay, Dublin, lle y bu am flwyddyn. Tra yno, yr oedd efe yn awyddus i ddwyn yr efengyl i sylw ei gydwladwyr oedd yn wasgaredig yn y ddinas; ac i'r amcan hwn, ac yn enwedig felly er mwyn cyfarfod âg anghenion ysbrydol y morwyr Cymreig a alwent yn y porthladd, efe a logodd hen eglwys Ellmynaidd i bregethu ynddi. Yr oedd yn ofynol defnyddio rhyw foddion effeithiol i gael y morwyr ynghyd; ac

Digitized by Google

elai yntau o'r naill long i'r llall i gymmhell ac i ddenu y morwyr i ddyfod i'r moddion Cymreig y Sabbath; a dyma oedd dechreuad achos y Trefnyddion Calfinaidd yn Dublin. Ar ei ddychweliad o'r Iwerddon, cyflogwyd ef gan Dr. Roberts, Mynydd-y-gôf, yn athraw i'w blant—yr hon swydd a lanwodd am dair blynedd. Ar yr 16eg o Ionawr, 1835, priododd Miss Mary Evans, o Fron-y-berllan, sir Ddinbych, chwaer y diweddar Barch. Emrys Evans, Cotton hall, Dinbych. Ond yn mhen dau fis ar bymtheg—sef Mehefin 6ed, 1836, bu farw Mrs. Roberts. Y flwyddyn hon, sefydlodd ysgol fyrddiol yn Nghaergybi; ac yn mhlith y rhai a addysgwyd ynddi yr oedd amryw bregethwyr. Adroddir ffaith ddyddorol am dano tra ar daith yn y Deheudir yn misoedd Tachwedd a Rhagfyr, 1834. Yr oedd yr hin yn oer a gwlyb, a tharawyd ef gan y *rheumatic fever;* ond ni adawai i hyn ei luddias rhag pregethu. Cerid ef i'r capel ar gefn un o'r brodyr, gan nad allai symmud na llaw na throed; ond yr oedd ei dafod mor rydd ag erioed. Ar y 4ydd o Fawrth, 1843, priododd yr ail waith, â Miss Parry, Allt goch, Llanfaethlu, yn Môn, o'r hon y ganwyd iddo chwech o blant—dau o ba rai fuont feirw yn fabanod; a bu un arall, y Cadben Richard Lloyd Roberts, farw yn New York, tua'r fl. 1882. Y tri oedd yn fyw pan y bu efe farw oeddynt y Parch. W. H. Roberts, D.D., proffeswr yn Lane Seminary, Cincinnatti; Elizabeth, priod Dr. Mitchell, Asbury Park, New Jersey; a Frank, *civil engineer*, Philadelphia. Ei unig fab o'i wraig gyntaf ydoedd Mr. J. E. Roberts, Providence. Yn 1849, derbyniodd Dr. Roberts alwad oddi wrth eglwys Saesnig St. John, yn Runcorn, yn Lloegr; a bu yn llafurio yno gyda chryn lwyddiant am chwe blynedd a hanner. Yn y fl. 1855, ymfudodd i New York, ar alwad eglwys y Trefnyddion Calfinaidd; yr hon, ar y pryd, a addolai mewn annedd-dŷ wedi ei droi yn gapel. Bu yn weinidog arni am dair blynedd ar ddeg; a dewiswyd ef yn aelod o bwyllgor lledaeniad yr efengyl, perthynol i'r Gymdeithas Feiblaidd Americanaidd; ac efe a ddarllenodd brawfleni y Beibl Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd gan y gymdeithas hono. Yn 1865, anrhegwyd ef â'r urdd o D.D. gan Brif Athrofa New York.

Yn Mai, 1869, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Bellevue, Scranton, Pa., lle yr arhosodd hyd 1877—pryd y symmudodd i Utica, i fugeilio yr eglwys Fethodistaidd yn Seneca street; a bu yn llwyddiannus iawn gyda hi. Traddododd ei bregeth gyntaf yno yn Mehefin, 1877, a'r olaf yn Mai, 1887.

Er iddo fod yn hynod brysur ar hyd ei oes gyda'r weinidogaeth, cyflawnodd gryn lafur llenyddol fel ysgrifenydd erthyglau, traethodau, a llyfrau, ac fel beirniad a golygydd. O 1857 hyd 1860, cyhoeddodd y *Traethodydd* yn yr America; ond bu raid iddo roddi yr anturiaeth i fyny, o ddiffyg cefnogaeth. Bu yn golygu y *Cyfaill* am 16eg mlynedd. Tra yn Nghymru, ysgrifenodd amryw erthyglau i'r *Traethodydd*. Cyhoeddodd draethawd ar *Gyfammod Duw âg Abraham*, ac un arall ar *Etholedigaeth Gras*—yr hwn hefyd a gyhoeddwyd yn yr America. Fel pregethwr, yr oedd Dr. Roberts gryfaf—yn hytrach nag fel arweinydd mewn symmudiadau perthynol i'w gyfundeb. Yn ei lyfrgell, yr oedd yn llafurus; a dangosai ei bregethau ol darpariaeth fanwl; a chynnwysent dduwinyddiaeth gref ac iachus. Bu farw Hydref 2il, 1887, yn 78ain mlwydd oed.

ROBERTS, WILLIAM, Clynnog. Gweinidog gyda'r Methodistiaid. Ganwyd ef yn mhlwyf Clynnog, yn Arfon, Awst 8fed, 1773. Aelodau gyda'r Bedyddwyr oedd ei rieni; ond pan yn ugain oed, efe a ymunodd â'r Trefnyddion Calfinaidd yn nghapel uchaf Clynnog. Yn fuan wedi hyny, ar annogaeth Mr. Charles, o'r Bala, ac eraill, cymmerodd ran flaenllaw yn sefydliad yr Ysgolion Sabbothol yn ardaloedd Clynnog. Tua'r flwydd. 1804, dechreuodd bregethu; ac yn mhen pymtheng mlynedd ar ol hyny, urddwyd ef fel gweinidog. Bu yn preswylio am y rhan fwyaf o'i oes mewn ffermdy o'r enw Hendre bach. Fel pregethwr, yr oedd yn bwyllog ac athrawiaethol, ac yn ddiarebol am ei hyddysgrwydd yn y Beibl. Rai blynyddau cyn diwedd ei oes, collodd ei olwg; ond wedi ei golli, adroddai ranau o'r Ysgrythyr cyn y bregeth mor gywir a naturiol a phe buasai yn eu darllen. Yn y fl. 1819, cyhoeddodd lyfryn bychan, yn cynnwys detholion o waith y Parch. J. Angell James i athrawon yr Ysgolion Sabbothol. Yn 1845, cyhoeddodd lyfr arall ar yr *Ordinhâd o Fedydd*. Bu farw Hydref 14eg, 1857, wedi treulio oes ddefnyddiol yn ngwinllan ei Arglwydd.

ROBERTSON, JOSEPH. Hynafiaethwr Ysgotaidd, a anwyd yn Aberdeen, Mai 17eg, 1810. Cafodd addysg dda, a bwriadwyd ef i fod yn gyfreithiwr. Rhoddodd hyny i fyny, a threuliodd tua chwe blynedd ar y maes llenyddol yn Edinburgh. Yna, o 1839 hyd 1853, bu yn golygu newyddiaduron yn Aberdeen, Glasgow, ac Edinburgh. Y flwyddyn olaf a nodwyd, pennodwyd ef yn arolygwr yr adran hanesyddol yn Nhŷ Cofrestriadol Edinburgh. Rhoddwyd iddo urdd LL.D. yn 1864, a bu farw Rhagfyr 13eg, 1866. Efe oedd cychwynydd yr Aberdeen Spalding Club (1839—1870), i'r hwn glwb y golygwyd pedwar o weithiau ganddo. Ysgrifenodd lawer o erthyglau i'r argraphiad o *Chambers' Encyclopædia*, ac erthygl ragorol i'r *Quarterly Review*, am Mehefin, 1849, ar Fynachlogydd ac Eglwysi Cadeiriol Ysgotland.

ROBIN DDU, o Fôn. Bardd enwog oedd efe, a flodeuodd rhwng 1430 a 1470. Gadawodd amryw o'i ddarnau barddonol mewn llawysgrifen; ac yn eu plith, gywydd a gyfansoddwyd yn y fl. 1450, yn mha un y dywedir ei fod newydd ddychwelyd o bererindod i Rufain, er ymweled â'r pab Nicholas V., mewn llong lwythog o win yn rhwym i Fôn, ei sir enedigol.

ROBIN DDU, o Ddeheubarth, a elwir gan Moses Williams, yn ROBIN DDU AB SIENCYN BLEDRYDD. Bardd a flodeuodd rhwng 1470 a 1510 oedd efe.

ROBIN HOOD. Arwr mewn nifer o faledau Saesnig; yr hwn a osodir allan yn y cymmeriad o gadben ar nifer o ladron pen-ffordd; ond yn ddyn llawn o garedigrwydd a haelioni. Cariai ei chwiw-ladradau yn mlaen yn nghymmydogaeth coedwig Sherwood, yn swydd Nottingham. Disgrifir ef fel gŵr o dymmher dda, o duedd grefyddol, ac un a fawr barchai y rhyw fenywaidd bob amser. Yr oedd yn byw ar geirw y brenin; ac er yn proffesu teyrngarwch,

Digitized by Google

cariai ryfel ddiddiwedd yn mlaen yn erbyn esgobion, mynachod, a marchogion beilchion o bob math a gradd. Ysbeiliai oddi arnynt eu golud; a rhoddai ef drachefn gyda llaw haelionus i ddynion tlodion a gonest. Yr oedd yn anghymmharol o ran ei fedrusrwydd gyda'r bŵa; er ei fod, yn ol rhai o'r baledau, wedi ei orchfygu yn hyn o beth gan un a ddylanwadwyd ganddo wedi hyny i ymuno â'i gwmni o ysbeilwyr. Gwneir cyfeiriad at Robin Hood mewn rhai gweithiau adnabyddus; sef, *Piers Plowman*, o waith Percy; *Chronicle of Scotland*, gan Wyntoun; *Scotichronicon*, gan Bower; *Worthies of England*, gan Fuller; ac yn y *Paston Letters*, gan Syr John Paston. Dywedir iddo farw yn mhriordy Kirkless, rhwng Wakefield a Halifax, trwy gael ei waedu i farwolaeth gan y briores; yr hon oedd berthynas iddo, ac at yr hon yr aeth yn ei afiechyd. Oddi wrth y tystiolaethau sydd ar gael, prin y cred rhai fod Robin Hood yn ddim amgen na chreadigaeth dychymyg y cyhoedd. Yn nhreigliad amser, deuwyd i gredu mai efe oedd yr Iarll Huntingdon; yr hwn a warthruddwyd ac a drowyd o'r llys gan Richard I. ar ei adferiad. Disgrifir ef gan Syr Walter Scott yn ei *Ivanhoe*, a chan Thierry yn ei *Conquête de l' Angleterre* fel penaeth Sacsonaidd a safodd allan yn erbyn y Normaniaid. Ond gosodir ef allan gan Joseph Hunter fel un o ddilynwyr Iarll Lancaster yn ngwrthryfel y fl. 1322. Wrth gwrs, edrychir ar yr adroddiadau uchod mor ddychymygol a disail a'r tybiau cyntaf. Y mae rhai o'r baledau y cyfeiriwyd atynt yn rhagorol; ac yn mysg y pethau goreu o'r un natur a geir yn marddoniaeth y Saeson.

ROBINSON, HENRY CRABB. Ganwyd ef o deulu cyffredin, yn Bury St. Edmunds, Mai 13eg, 1775. Wedi derbyn peth addysg yn Lloegr, aeth i Jena, Weimar, &c., ar y Cyfandir, lle y bu am bum mlynedd; a daeth i gydnabyddiaeth â rhai o ddynion enwocaf Germany. O 1807 hyd 1809, bu yn gwasanaethu fel gohebydd rhyfel i'r *Times* yn yr Yspaen. Yn 1813, pan yn 38ain mlwydd oed, galwyd ef at y *bar*, a daeth yn arweinydd cylchdaith Norfolk. Yn 1828, ymneillduodd oddi wrth y *bar* gyda math o flwydd-dal o 500*p*. yn y flwyddyn. Yn ddilynol, preswyliai gan mwyaf yn Llundain, gan fyned ar daith yn awr ac eilwaith i'r gwledydd tramor. Bu farw yn Llundain, Chwefror 5ed, 1867, yn 91ain mlwydd oed, ac yn ddibriod. Yr oedd efe yn Ymneillduwr, ac yn rhyddfrydwr, ac yn un o sefydlwyr Prifysgol Llundain yn y fl. 1828. Yn 1869, o dan olygiaeth Dr. Sadler, cyhoeddwyd tair cyfrol o'i waith, sef ei *Diary*, *Reminiscences*, *and Correspondence*—pa rai a barhânt yn ddyddorol tra y parhao llenyddiaeth ei hunan.

ROBINSON, HUGH, D.D. Pummed mab ydoedd efe i Dr. Nicholas Robinson, esgob Bangor; a ganwyd ef yn mhlwyf Llanfair, yn Môn. Wedi graddio yn Rhydychain, a bod am dymmor yn brif athraw Ysgol Caerwynt, pennodwyd ef, yn 1634, yn archddiacon Caerloyw. Yr oedd hefyd yn ganon Wells, ac yn beriglor Dursley, yn y sir hono. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, cymmerwyd ef yn garcharor yn Dursley, a bwriwyd ef i garchar Caerloyw. Wedi hyny, ymunodd â phlaid y senedd; cymmerodd eu llŵ, ac ysgrifenodd i'w hamddiffyn. O herwydd iddo golli y ganoniaeth a'r archddeoniaeth yn ystod y rhyfel, rhoddwyd periglorìaeth Hinton, ger Caerwynt, yn wobr iddo. Yr oedd Dr. Robinson yn ieithydd rhagorol, yn dduwinydd galluog, yn gydnabyddus â hanesiaeth henafol; ac yn awdwr amryw lyfrau gwerthfawr. Bu farw Ebrill 8fed, 1655, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys St. Giles in the Field, Llundain.

ROBINSON, NICHOLAS, D. D. Prelad enwog a anwyd yn nhref Conwy oedd efe; a mab i ŵr o'r enw Mr. John Robinson, o Elin, merch Mr. William Birkdale. Yr oedd ei hynafiaid er's amser maith yn frodorion o Gonwy, er yn Saeson o darddiad. Graddiodd, a gwnaed ef yn gymmrawd o Goleg y Frenhines, Caergrawnt. Urddwyd ef yn ddiacon gan yr esgob William Glynn, o Fangor, ac yn 'ffeiriad y dydd canlynol, trwy freinthawl oddi wrth y Cardinal Pole. Wedi marwolaeth Mari, yn ystod teyrnasiad yr hon y dioddefodd lawer o herwydd ei Brotestaniaeth, pennodwyd ef yn gaplan teuluaidd i Dr. Parker, archesgob Caergaint. Yn 1562, pennodwyd ef yn archddeon Meirionydd; a chafodd hefyd beriglorìaeth wâg-swyddol Llaneurgain, yn esgobaeth Llanelwy. Yna, ar farwolaeth yr Esgob Meyrick, dyrchafwyd ef i esgobaeth Bangor, i'r hon swydd y cyssegrwyd ef Hydref 20fed, 1566. Ysgrifenodd amryw lyfrau; ond ni chyhoeddodd un o honynt. Yn eu mysg, yr oedd casgliad helaeth o ddefnyddiau hanesyddol, yn dal cyssylltiad âg eglwys a sefyllfa y Prydeiniaid a'r Cymry; yr hon sydd yn llyfrgell Hengwrt, yn llawysgrif yr esgob ei hun. Hefyd, fywgraphiad o Gruffydd ab Cynan, yr hwn a gyfieithodd o'r Gymraeg i'r Lladin. Daliodd yr esgobaeth am ddeunaw mlynedd, a bu farw Chwef. 13eg, 1584—85. Claddwyd ef yn eglwys gadeiriol Bangor. Ei briod oedd Jane, merch Mr. Randle Brereton, ac ŵyres i Syr William Griffith, o'r Penrhyn.

ROB ROY. Cymmeriad sydd yn meddu lle tebyg mewn chwedloniaeth Albanaidd i'r hyn a feddai Robin Hood yn y baledau Saesnig. Ganwyd ef tua'r flwyddyn 1660. Yr oedd efe yn fab i'r is-Filwriad Donald Macgregor, o Glengyle. Hyd y fl. 1661, yr oedd llwyth y Gregoriaid, er's mwy na chanrif, yn cael eu herlid yn barhaus gyda thân a chleddyf, gan faint yr elyniaeth a deimlid tuag atynt; ond o'r flwyddyn hono hyd y Chwyldroad, lliniarwyd y mesurau eithafol a gymmerwyd i'w herbyn; a chafodd Rob Roy, yr hwn a briododd berthynas iddo, sef Mary Macgregor, lonydd i fyw yn dawel mewn cwmmwd mynyddig. Er yn fachgen, yr oedd Rob yn hyfedr neillduol ar drin y cleddyf llafnlydan Albanaidd (*claymore*), a meddai fantais arbenig i hyny gan faintioli anferth ei freichiau. Ymosodid mor erwin ar ei ddeadelloedd gan ysbeilwyr gogleddol, fel y gorfodid ef i gadw nifer o ddynion arfog i amddiffyn ei eiddo, ac eiddo ei gymmydogion. Gyda'r dilynwyr hyn y darfu iddo, yn 1691, wedi cofleidio achos y Jacobiniaid, droi allan i ysbeilio ar ei gyfrif ei hun: ac yn mhen dwy neu dair blynedd wedi hyny, ar ol prynu tiroedd Graigroyston ac Inversnaid gan ei nai, hawliodd y teitl o benaeth y llwyth. O herwydd colledion a gafodd tua'r fl. 1712, trwy anturio gormod wrth fasnachu mewn gwartheg, cymmerwyd meddiant o'i diroedd; ysbeiliwyd

Digitized by Google

ei dŷ, camdriniwyd ei wraig, a thrlowyd hi a'i phlant dros y drws yn nghanol y gauaf. Cyffrowyd Rob Roy i'r fath raddau gan y camdriniaethau hyn fel y galwodd ei ddilynwyr ynghyd i'r dyben o ryfela yn erbyn y Duc o Montrose, ei erlidiwr. Wedi ysgubo ymaith holl wartheg y dosbarth, dododd ddwylaw ar y duc ei hun, gan ei gymmeryd i'r ddalfa, a meddiannu ei ardrethi i'r swm o 3,000*p.* Cymmerodd hyn oll le yn y fl. 1716, blwyddyn ar ol y gwrthryfel Jacobinaidd. Y mae llaweroedd o ystoriau am ddiangfeydd hynod a gwyrthiol Rob Roy yn ystod y gwrthryfel hwnw, a'r blynyddoedd cyffrous a'i dilynodd. Yn ystod yr erledigaethau fu arno, ymddygodd yn dirion a charedig at y tlodion, gan gymmeryd o eiddo y cyfoethogion a'i drosglwyddo iddynt. Fel cydnabyddiaeth iddo am hyn, hysbysid ef yn brydlawn o fwriadau a chynlluniau ei ddau arch-elyn; sef, y duciaid Montrose ac Athole. Un o'i gyfeillion a'i amddiffynwyr penaf oedd y Duc o Argyll. Yn ddiweddar ar ei fywyd, dywedir iddo droi yn Babydd. Ond ceir ei enw yn rhestr y tanysgrifwyr at hanes yr Eglwys Esgobaethol gan yr Esgob Keith; sef, 'Robert Macgregor, *alias* Rob Roy.' Rhagfyr 28ain, 1734, y flwyddyn y daeth yr hanes allan o'r wasg, bu Rob Roy farw yn ei dŷ ei hun yn Balquhidder. Gadawodd bump o feibion—dau o ba rai a fuont feirw yn 1734; sef, James, yr hwn oedd herwr, yn Paris; a Robert, yr ieuengaf, ar y dienyddle yn Edinburgh, am gyflawni traisddygiad (*abduction*); yr hyn, y pryd hwnw, a gyfrifid yn drosedd cospadwy â marwolaeth.

ROCHESTER, JOHN WILMOT, Iarll. Anfadyn digrifol oedd efe, a feddai gyssylltiad â llys brenhinol Siarl II. Ganwyd ef yn Ditchley, yn swydd Rhydychain, Ebrill 10fed, 1647. Wedi bod ar daith trwy Ffrainge a'r Eidal, dychwelodd i Loegr; a thrwy ei ymddangosiad personol hardd, a'i ffraethineb dihafal, gwnaeth ei hun yn un o aelodau mwyaf adnabyddus y llys brenhinol. Erbyn cyrhaedd ei 31ain ml. oed, yr oedd, trwy ei arferion afradlawn, wedi dyhysbyddu ffynnonell ei fywyd. Bu farw Gorph. 26ain, 1680.

ROCKINGHAM, CHARLES WATSON, Ardalydd. Gwleidyddwr ydoedd efe. Ganwyd ef yn 1730; ac efe oedd unig fab Thomas Watson Wentworth, yr hwn a ddyrchafwyd i'r bendefigaeth fel y chweched Arglwydd Rockingham yn 1746, ac a wnaed yn ardalydd yr un flwyddyn. Dilynodd Charles ei dad yn y bendefigaeth yn y fl. 1750. Y flwyddyn ddilynol, gwnaed ef yn arglwydd raglaw y Riding Gogleddol a Gorllewinol—o'r hon swydd y difreiniwyd ef yn 1762, mewn canlyniad i'w anghytundeb â'r brenin ieuangc, Siôr III. Wedi marwolaeth y Duc o Dyfnaint, yn 1764, cafodd ei hun yn arweinydd yr wrthblaid—y Whigiaid; ac yn mis Gorphenaf, 1765, galwyd arno i ffurfio ei weinyddiaeth gyntaf. Efe a ddiddymodd dedd y stampiau; a buasai wedi myned yn mlaen gyda mesurau da eraill, oni buasai am gynllwynion dirgelaidd y llys brenhinol, a'i ddifyg dylanwad ef ei hun yn y senedd. Ymddiswyddodd yn Awst, 1766; a bu allan o swydd am un-mlynedd-ar-bymtheg, ac yn wrthwynebydd i Arglwydd North. Daeth yn brif weinidog drachefn yn Mawrth, 1782; ac yr oedd Fox a Shelburne yn mysg ei weinidogion. Bu farw ar y 1af o Orphenaf, yn yr un flwyddyn.

RODERICK, DAVID. Ganwyd ef yn Llandeilo Fawr, yn sir Gaerfyrddin, yn y fl. 1746. Ymadawodd oddi yno pan yn ieuangc, i fod yn ail athraw cynnorthwyol yn Ysgol Harrow, pan yr oedd yr enwog Dr. Parr yn athraw cyntaf ynddi. Bu, ar ol hyny, yn cydwasanaethu â Dr. Parr, mewn sefydliad cyffelyb yn Stanmore. Bu farw yn Choolsbury, yn sir Berks, yn 1831, yn 85ain mlwydd oed.

RODNEY, GEORGE BRYDGES RODNEY, Arglwydd. Llyngesydd Prydeinig enwog, a anwyd Chwefror 19eg, 1718. Ymunodd â'r llynges pan yn ddeuddeg oed; ac yn y flwyddyn 1739, gwnaed ef yn is-gadben. Yn 1742, dyrchafwyd ef gan y llyngesydd Mathews i fod yn gadben, ac anfonwyd ef adref o Fôr y Canoldir fel prif lywydd y rhyfel-long *Plymouth.* Ar ol hyny, bu yn llywyddu rhyfel-longau eraill. Yn Mai, 1759, dyrchafwyd ef yn ôl-lyngesydd; ac efe oedd prif lywydd y gadlynges fechan fu yn tânbelenu Havre yn y Gorphenaf dilynol, ac yn dinystrio y llynges a gasglwyd ynghyd i'r amcan o wneyd rhuthrgyrch difrodawl ar lanau Lloegr. Yn Hydref, 1761, pennodwyd ef yn brif lywydd gorsaf lyngesol Ynysoedd y Leeward; ac yn ystod ei arosiad yno, cymmerodd feddiant o Martinique, St. Lucia, a Grenada. Yn fuan wedi ei ddychweliad i Loegr, yn y fl. 1763, gwnaed ef yn farwnig; ac yna, yn Nhachwedd, 1765, pennodwyd ef yn llywodraethwr Ysbytty Greenwich. Yn 1771, modd bynag, cafodd ei alw yn ol i'r llynges, ei ddyrchafu yn llyngesydd, a'i anfon allan yn fôr-lywydd gorsaf Jamaica. Y pennodiad nesaf a gafodd ydoedd llywyddu llynges Ynysoedd y Leeward—yr hon swydd a ddaliwyd ganddo yn flaenorol. Ar y 29ain o Ragfyr, 1779, aeth allan i'r môr, gyda llynges gref i waredu Gibraltar; yr hon gaerfa a warchauid y pryd hyny gan yr Yspaeniaid. Ionawr 9fed, 1780, daeth ar warthaf nifer o longau Yspaenaidd a gludent ystorfeydd, y rhai a osgorddid gan ryfel-long nerthol:—yr oll o ba rai a gymmerwyd ganddo y naill du i Benrhyn Finisterre. Gyda ei fod wedi morio heibio i Benrhyn St. Vincent ar yr 16eg o Ionawr, cyfarfyddodd a'r gad-lynges Yspaenaidd, o dan y llyngesydd Don Juan de Langara. Ymosododd arni gyda'r fath nerth a phenderfyniad fel y cariodd bob peth o'i flaen. O'r un ar-ddeg llongau a gyfansoddent y llynges hono, cymmerwyd neu dinystriwyd saith; ond llwyddodd y gweddill i ddiangc i Cadiz. Yn y modd hwn y rhyddhawyd Gibraltar; ac ar y 13eg o Chwefror, hwyliodd Rodney i gyfeiriad Ynysoedd India y Gorllewin. Gyda ei fod wedi cyrhaedd i St. Lucia, yr hwn le a fwriadai wneyd yn bencadlys, derbyniodd hysbysrwydd fod llynges Ffrengig, dan y Count de Guichen, wedi troi allan i'r môr o Martinique. Dilynodd yntau y gelyn—daliodd ef ar yr 17eg o Ebrill, a dechreuodd ymladd. Modd bynag, o herwydd nad oedd yr arwyddion a roddai Rodney yn ddigon clir i gadbeniaid llongau eraill ei lynges eu deall, trodd yr ymgais allan yn fethiant. Dychwelodd i Loegr o herwydd gwaeledd ei iechyd; ond yn Rhagfyr, 1781, fe aeth drachefn i India y Gorllewin. Yn fuan wedi

Digitized by Google

cyrhaedd St. Lucia, clywodd, fel o'r blaen, fod y llynges Ffrengig, o dan lywyddiaeth y Count de Grasse, wedi hwylio, gyda phum mil o fôrfilwyr ar ei bwrdd, am Benrhyn Francois, lle yr oedd i gyfarfod llynges Yspaenaidd gref, i'r dyben o gydymosod ar Jamaica. Daeth Rodney o hyd iddi yn agos i Dominica; ac ar y 12fed o Ebrill, 1782, gorchfygodd hi, gan ennill buddugoliaeth ardderchog arni. Yr oedd colled y Ffrangcod, rhwng y rhai a laddwyd ac a archollwyd, yn hynod fawr. Cymmerwyd saith o'u llongau; ac ar fwrdd un o honynt yr oedd y llyngesydd Ffrengig ei hun. Pan ddychwelodd Rodney i Loegr, dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth gyda blwydd-dâl o 2,000*p*. Ond oeraidd, ar y cyfan, fu ei dderbyniad gan y llywodraeth, am y tybid ei fod yn hynod bleidiol i Arglwydd Sandwich. Diweddodd y llyngesydd enwog hwn ei oes mewn tawelwch yn Llundain, lle y bu farw Mai 24ain, 1792.

ROEBUCK, JOHN ARTHUR. Gwleidydd Saesneg ydoedd efe, a anwyd yn Madras, yn Rhagfyr, 1802, ond a dreuliodd flynyddoedd ei faboed yn Canada. Daeth i Loegr yn 1824; ac yn 1831, galwyd ef at y *bar* yn yr Inner Temple. Y flwyddyn ddilynol, etholwyd ef i'r senedd gan dref Bath, fel diwygiwr Radicalaidd. O 1849 hyd 1868, bu yn cynnrychioli Sheffield; a thrachefn, o 1874 hyd ei farwolaeth, Tachwedd 30ain, 1879. Ennillodd yr yni a'r egni mawr a ddangosai yn ei fywyd gwleidyddol iddo y llysenw poblogaidd '*Tear 'em.*' Ei brif fuddugoliaeth boliticaidd oedd ei waith yn cynnyg fod ymchwiliad yn cael ei wneyd i sefyllfa y fyddin Brydeinig oedd yn gwarchau ar Sebastopol yn Ionawr, 1855; yr hwn a gariwyd trwy fwyafrif mawr, ac a ddygodd o amgylch gwymp gweinyddiaeth Arglwydd Aberdeen. Pennodwyd ef yn gadeirydd y pwyllgor a etholwyd i wneyd yr ymchwiliad. Yr oedd yn gefnogydd selog i wladlywiaeth Iarll Beaconsfield yn ystod yr Argyfwng Dwyreiniol yn 1877–78; ac yn 1879, gwnaed ef yn aelod o'r cyfrin-gynghor. Yn mysg ei weithiau, y mae *The Colonies of England* (1849), a *History of the Whig Ministry of* 1830 (1852).

ROGER I. Adnabyddid ef hefyd wrth y teitl '*Count of Sicily.*' Mab ydoedd efe i Tancred de Hauteville, o Normanby; a ganwyd ef yn y dduciaeth hono yn y fl. 1031. Yn 1061, gwahoddwyd ef i Sicily, i ymladd yn erbyn y Saraceniaid. Llwyddodd i gymmeryd Messina, ac i sefydlu catrawd o filwyr yno. Rhoddid derbyniad cynnes i Roger a'r Normaniaid gan Gristionogion yr ynys; a chymmerasant hwythau dref ar ol tref, hyd nes y cwympodd Palermo, prif dref y Saraceniaid, i'w dwylaw yn 1071. Yr adeg yma y rhoddwyd iddo y teitl o '*Count of Sicily.*' Treuliodd Roger y gweddill o'i fywyd, oddi gerth yr amser a dreuliodd mewn anturiaethau milwrol mewn gwledydd eraill, i gwblhau darostyngiad Sicily —yr hyn a wnaed yn 1090. Ar farwolaeth ei frawd, y Duc Robert, yn 1085, daeth Roger i feddiant o'i feddiannau yn yr Eidal; a thrwy hyny, daeth yn benaeth y gallu Normanaidd yn neheubarth Ewrop. Rhoddwyd rhagorfreintiau eglwysig eithriadol iddo gan y pab Urban II.; megys, yr awdurdod i bennodi esgobion, &c. Bu Roger farw yn Mileto, yn Calabria, yn Mehefin, 1101.

ROGER II. Brenin Sicily. Ail fab oedd efe i Roger I. Ganwyd ef yn 1097; a thrwy farwolaeth ei frawd hynaf, Simon, daeth yn etifedd gorsedd Sicily. Yn y fl. 1127, daeth i feddiant o dduciaeth Apulia, ar farwolaeth y duc William: yr hyn a'i galluogodd i sefydlu teyrnas Normanaidd gref yn Sicily a deheubarth Italy; a choronwyd ef yn frenin Sicily ac Italy gan Anacletus yn 1130. Yn 1136, chwanegodd dywysogaeth Capua at ei diriogaethau; ac yn 1140, dduciaeth Naples, a thiriogaethau yr Abruzzi. O ddeutu y flwyddyn 1139, cymmerwyd y pab Innocent II., gyda yr hwn yr oedd efe newydd wneuthur cyttundeb manteisiol, yn garcharor ganddo. Cydnabyddwyd ef yn frenin Sicily gan Innocent, a chydnabyddwyd Innocent gan Roger yn bab— a chaniatawyd iddo ei ryddid. Mewn canlyniad i waith yr ymherawdwr Byzantaidd Manuel yn sarhau llysgenhadydd Roger, anfonodd yr olaf ei lyngesydd, George o Antioch, i ddifrodi ei diriogaeth. Anrheithiodd arfordir Dalmatia ac Epirus. Cymmerodd Corfu hefyd; ac ysbeiliodd Corinth ac Athens. Cymmerodd hyn le tua'r flwyddyn 1146. Y flwyddyn ddilynol, croesodd Roger Fôr y Canoldir, ac ennillodd diriogaeth eang oddi ar y Saraceniaid yn Ngogledd Affrica; sef, Tripolis, Tunis, ac Algeria. Yr oedd ei lys yn un o'r rhai ardderchocaf yn Ewrop. Caniatâai i'r bobl addoli yn unol âg unrhyw gredöau a welent yn dda eu mabwysiadu. Yr oedd ei lywodraeth yn un gadarn a goleuedig; ac yr oedd ei enw yn ddychryn i'r Groegiaid a'r Moslemiaid. Bu farw Chwef., 1154, gan adael ei orsedd i'w fab William; yr hwn oedd yn gwbl anghymmhwys iddi.

ROGERS, Parch. DAVID. Gweinidog galluog a dylanwadol gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd ydoedd efe. Ganwyd ef yn y Garth, Llanfair Dyffryn Clwyd, yn y fl. 1783. Bu am ysbaid o amser yn flaenor, ac yn bregethwr cynnorthwyol. Ond yn y fl. 1805, dechreuodd deithio fel gweinidog a chydlafurwr â'r Parch. John Bryan. Dywedir am dano, iddo fod am flynyddoedd yn methu gweled fod ynddo unrhyw gymmhwysder at y gwaith pwysig o bregethu yr efengyl—yn benaf o blegid ei anwybodaeth; a threuliai lawer nos Sabbath mewn wylofain a gweddi o herwydd ei ddiffygion yn nghyflawniad gwaith y dydd. Byddai yn fynych yn colli ei gwsg gan faint ei awydd i ymbarotoi ar gyfer ei waith pwysig; ac efrydai yn ddyfal hyd doriad y wawr. Bu ei gynnydd mewn gwybodaeth yn fawr a chyflym; ac yn y man, daeth yn un o oleuadau disgleiriaf y cyfundeb y perthynai iddo. Yn 1807, dechreuodd ei ddawn a'i ddefnyddioldeb ymddangos yn fwy amlwg; ac o hyny allan, daeth yn ŵr o barch, a dylanwad mawr. Yn 1809, pennodwyd ef i gylchdaith Caerphili. Tra yno, cyfieithodd y *Prawf Draethawd i gynnorthwyo deongliad yr Ysgrythyrau*, ac hefyd ar *Hunanymholiad*, gan y Parch. R. de Courcey. Yn 1812 a 1813, bu yn gweinidogaethu yn Llundain; ac efe oedd golygydd yr *Eurgrawn*—yr hwn a argrephid ar y pryd yn y brifddinas. Yn y cymmeriad o olygydd, ysgrifenodd aml erthygl alluog a llym yn erbyn Dr. Lewis a'r Parch. Thomas Charles; o blegid i'r blaenaf wneyd sylwadau ar 'Brynedigaeth Neillduol' mewn pregeth a gyhoeddodd; ac i'r olaf ddysgu yr unrhyw athrawiaeth yn ei *Eiriadur*. Yn

Digitized by Google

yn Llundain, Mawrth 1af, 1757, ac addysgwyd ef yn y gyfraith. Ymunodd â chylchdaith y canolbarth fel bargyfreithiwr; ond yn y canghell-lys yr ymddangosai efe amlaf. Yn 1784, daeth i gydnabyddiaeth â Mirabeau; yr hwn a'i cyflwynodd i sylw Arglwydd Lansdowne. Yn 1790, efe a gyhoeddodd bamphledyn galluog ar y Chwyldroad Ffrengig. Yn 1806, ar argymmhelliad Mr. Fox, pennodwyd ef yn gyfreithiwr cyffredinol yn ngweinyddiaeth Grenville; a gorfodwyd ef i dderbyn urdd marchog. Bu yn eistedd fel aelod dros Queensborough yn y senedd; ac yna, mewn seneddau dilynol, dros Horsham, Wareham, ac Arundel. Yn y cyfamser, trwy ysgrifenu pamphledau, a chynnhyrfu yn y senedd, dangosodd yr angenrheidrwydd am ddiwygiad yn y deddfau ynglŷn â throseddau (*criminal law*), y rhai a ddarparent gosp marwolaeth am dros ddau cant o wahanol droseddau. Daliai Romilly fod hyny yn rhy galed, ac appeliai yn gryf am i'r deddfau gael eu lliniaru. Daeth â mesurau i'r senedd i'r perwyl hwn; ond gwrthodwyd hwynt, dro ar ol tro. Dyfal-barhaodd, modd bynag; ac er mai ychydig ffrwyth a ddilynodd ei lafur yn ystod ei fywyd, daeth ei enw yn adnabyddus trwy holl Ewrop. Cymmerodd ran flaenllaw hefyd yn y cyffro yn erbyn y gaethfasnach; ac yn amryw o symmudiadau pwysig eraill yn erbyn deddfau gormesol oedd mewn grym y pryd hwnw. Bu ei wraig farw Hydref 29ain, 1818; a phwysodd hyn gymmaint ar ei feddwl fel y darfu iddo, yn mhen tri diwrnod ar ol hyny (Tach. 2il) roddi terfyn ar ei fywyd ei hun. Cyhoeddwyd ei *Speeches in Parliament* yn 1820, a'i Hunan-fywgraphiad yn 1840.

ROOKE, SYR GEORGE. Llyngesydd Prydeinig a anwyd yn mhalas ei dad, Syr William Rooke, ger Caergaint, yn y fl. 1650. Ymunodd â'r llynges; a phan yn 30ain oed, yr oedd wedi ennill safle cadben. Erbyn 1689, yr oedd wedi cyrhaedd y radd o ôl-lyngesydd. Cymmerodd ran yn y fôr-frwydr a ddigwyddodd ger llaw Beachy Head, rhwng Iarll Torrington a llynges Ffrainge dan Tourville; ac yn 1692, gwnaeth enw iddo ei hun trwy ei wroldeb yn y frwydr fythgofiadwy a ymladdwyd ger Penrhyn La Hogue, rhwng y llynges Ffrengig a llyngesoedd unedig Lloegr a'r Iseldiroedd. Am hyny, fe'i dyrchafwyd ef rîs yn uwch yn y llynges; urddwyd ef yn farchog, a rhoddwyd iddo flwydd-dâl o 1,000*p*. Yn y fl. 1702, pennodwyd ef yn llywydd y llynges a anfonwyd yn erbyn Cadiz; ac mewn cydweithrediad â Syr Cloudesley Shovel, llwyddodd i gymmeryd Gibraltar, Gorphenaf 21ain, 1704. Ar y 9fed o Awst, yr un flwyddyn, bu yn ymladd â llynges Ffrengig lawer cryfach na'r eiddo ef ger llaw Malaga. Yr oedd hon yn un o'r môr-frwydrau mwyaf gwaedlyd y mae genym hanes am dani; ac er mai 'r Saeson fu drechaf, gwnaed yr oruchafiaeth yn llai boddhaol trwy fod y llongau Ffrengig wedi llwyddo i ddiangc trwy'r niwl. Parhaodd y frwydr am agos i ddiwrnod llawn. Collodd y Ffrangcod dros 3,000, a'r Saeson dros 2,000 o wŷr. Derbyniwyd Syr George gydag anrhydedd gan y frenhines Anne; ond gan fod y llywodraeth yn elyniaethus iddo ar seiliau gwleidyddol, ymneillduodd o fywyd cyhoeddus, a rhoddodd ei sedd yn y senedd i fyny. Bu yn byw ar ol hyny ar eiddo y teulu yn Nghaint. Bu farw Ionawr 24ain, 1709.

ROSCOE, WILLIAM. Hanesydd enwog oedd efe, a brodor o Liverpool, lle y ganwyd ef Mawrth 8fed, 1753. Dygwyd ef i fyny yn gyfreithiwr; ac yn 1774, dechreuodd ar ei alwedigaeth yn ei dref enedigol, ar ei gyfrifoldeb ei hun. Yn y cyfamser, yr oedd efe yn prysur ddadblygu ei alluoedd meddyliol, gan droi ei sylw yn arbenig at yr iaith Eidalaidd a llenyddiaeth. Ysgrifenodd amryw lyfrau oedd yn meddu cryn ddyddordeb. Bu farw yn Liverpool, Mehefin 30ain, 1831.

ROSENMULLER, JOHANN GEORG. Duwinydd a phregethwr Ellmynig enwog, a anwyd yn Ummerstadt, ger Hildburghausen, Rhag. 18fed, 1736. Addysgwyd ef yn Altdorf; a bu yn llenwi cadeiriau athraw yn athrofeydd Erlangen, Giessen, a Leipzig. Cyhoeddodd tua chant o lyfrau hynod boblogaidd: y pwysicaf o ba rai oedd ei *Scholia in Novum Testamentum*, yr hwn a aeth drwy chwech o argraphiadau. Bu farw yn Leipzig, Mawrth 14eg, 1815.

ROSMINI, ANTONIO ROSMINI-SERBATI. Un o athronwyr mwyaf gwreiddiol y 19eg ganrif. Ganwyd ef o deulu pendefigaidd yn Rovereto, yn y Tyrol, Mawrth 25ain, 1797. Treuliodd ei faboed yn bur a dihalog, gan efrydu ar gyfer yr offeiriadaeth Babaidd; ond yn groes i ddymuniad ei rieni. Bu ei dad farw yn 1820; a daeth yntau, mewn canlyniad, i feddiant o gynnysgaeth led fawr. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn y fl. 1821; a threuliodd y pum mlynedd nesaf yn darllen llyfrau athronyddol o bob math—hen a diweddar—gan dynu allan, yn ei feddwl ei hun, gyfundrefn ëang o athroniaeth, i wasanaethu fel sail i wirioneddau dadguddiedig; tra, ar yr un pryd, y cynlluniodd sefydliad newydd i'r amcan o ddwyn athrawon ac offeiriad i fyny. O'r fl. 1826 hyd 1828, bu yn preswylio gan mwyaf yn Milan; wedi hyny, ymneillduodd i fysg yr Alpau, lle y tynodd allan yn ei feddwl amlinelliad o gyfansoddiad urdd newydd. Oddi yno, aeth i Rufain, pryd y llwyddodd i sierhau cymmeradwyaeth y pab Pius VIII. yn ffafr ei sefydliad. Yn 1830, cyhoeddodd ei *New Essay on the Origin of Ideas*, yr hwn ar unwaith a wnaeth ei enw yn adnabyddus yn holl gylchoedd yr Eglwys Babaidd. Wedi bod yn llafurio am rai blynyddoedd yn Trent, lle y blinid ef gan eiddigedd llywodraeth Awstria, yr hon a fawr ofnai ei wladgarwch Eidalaidd, a'i gydymdeimlad â Phabyddiaeth, efe a ymsefydlodd, yn y fl. 1837, mewn lle o'r enw Stresa, ar draethell orllewinol Lago Maggiore. Yn mhen dwy flynedd wedi hyny, derbyniodd gymmeradwyaeth ffurfiol Gregory XVI. i'w urdd. Y blynyddoedd dilynol oedd y rhai hapusaf a mwyaf cynnyrchiol yn ei holl hanes. Anfonai gyfrol ar ol cyfrol i'r wasg, rhesymeg pa rai a wnaent ei wrthwynebwyr mwyaf cedyrn ar gwestiynau o athroniaeth yn edmygwyr o hono, ac yn gyfeillion iddo. Ei brif ddymuniad gwladwriaethol, yn ol fel yr eglurir ef yn ei *Constitution according to Social Justice* (1848), oedd ffurfio cynghrair o dalaethau yr Eidal, o dan lywodraeth y pab fel llywydd parhaol. Ond rhoddwyd terfyn ar ei holl obeithion yn y cyfeiriad hwn pan ddadganodd y pab ei fwriad i beidio cymmeryd unrhyw ran yn y rhyfel yn erbyn Awstria.

Bu mewn ffafr uchel ynglŷn â'r llys Pabaidd am ysbaid byr; ac addawyd iddo gan Pius IX.

Digitized by Google

gadair cardinal. Am saith wythnos, bu yn gwasanaethu fel llysgenad Piedmont yn y llys Pabaidd; ac efe oedd yr un y gofynwyd am dano gan y Rhufeiniaid fel eu gweinidog yn y cyfnod rhwng llofruddiaeth Rossi a ffoedigaeth y pab i Gaeta. Trwy ammheuon dichellddrwg Antonelli, ac eraill o'r un blaid ag ef, gwenwynwyd meddwl y pab yn ei erbyn, ac ni lwyddodd Rosmini byth mwyach i adennill ei ymddiried. Cafodd ei weithiau—*Constitution*, a *The Five Wounds of the Holy Church*—y rhai a gyfieithwyd i'r Saesneg gan y Canon Liddon, gwahardd gan gyfarfod afreolaidd o'r hyn a elwir *The Congregation of the Index*, a alwyd ynghyd yn Naples. Cymdeithas Babaidd ydyw hon, sydd yn gofalu am y rhestr o'r llyfrau y gwaherddir trwy awdurdod i aelodau yr eglwys hono eu darllen; a chynnwysa y rhestr hon lyfrau ar gwestiynau athrawiaethol, moesol, a chrefyddol. Ymostyngodd Rosmini yn dawel i'r awdurdod hon. Yna dychwelodd i Stresa i dreulio y saith mlynedd diweddaf o'i fywyd i gyfansoddi gweithiau oedd â'u hamcan i gwblhau a chyfanu ei gyfundrefn o athroniaeth. Parhaodd ei elynion i'w flino â chyhuddiadau o heresi mewn athrawiaeth, ac o anffyddlondeb i'r Babaeth. Ond cariasant eu rhyfel ychydig yn rhy bell; o herwydd, o'r diwedd, rhoddodd y pab wrandawiad llawn i Rosmini; gan orchymyn fod ymchwiliad trwyadl yn cael ei wneyd i'w weithiau er gweled pa sail oedd i'r tri chant, ac uchod, o gyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn. Parhaodd yr ymchwiliad hwn am bedair blynedd—o 1851 hyd 1854; ac ar ei derfyn, cyhoeddwyd ei weithiau yn rhydd oddi wrth bob achos o gerydd, a rhoddwyd gorchymyn i'w gyhuddwyr ymattal â'u cableddau i'w erbyn. Ychydig y bu efe byw i fwynhau y fuddugoliaeth y disgwyliodd efe mor amyneddgar am dani; o blegid bu farw yn Stresa, Gorph. 1af, 1855; a thybir mai ei wenwyno a gafodd. Yn chwanegol at y gweithiau a nodwyd eisoes, yr oedd yn awdwr llyfrau rhagorol ar *Psychology* (1846—48); un yn anorphenedig ar *Theosophy* (1859—74), ynghyd âg amryw o lyfrau eraill.

ROSS, SYR JOHN. Ganwyd ef ar Mehefin 24ain, 1777, yn Inch, yn Wigtownshire, lle yr oedd ei dad yn weinidog. Pan tua naw ml. oed, ymunodd â'r llynges—mewn cyssylltiad â'r hon y daeth ei enw yn adnabyddus iawn. Gwasanaethodd gydag anrhydedd yn y rhyfelodd â Ffrainge. Ond yr hyn a ddygodd iddo ei brif enwogrwydd oedd ei archwiliadau yn Môr y Gogledd (*Arctic Ocean*). Yn y fl. 1818, hwyliodd tuag yno, gyda'r amcan o wneuthur archwiliad trwyadl yn Mau Baffin, a cheisio darganfod tramwyfa forawl heibio i'r pegwn. Cyhoeddodd ganlyniad ei archwiliadau yn 1819, yn *A Voyage of Discovery*. Yn Mai, 1829, pennodwyd ef yn llywydd llynges arall gyda'r un amcanion; a gwnaeth ddarganfyddiadau chwanegol. Ar ei ddychweliad, yn y fl. 1833, rhoddwyd iddo urdd marchog; a chyhoeddodd hanes ei ymchwiliadau mewn cyfrol arall—*A Narrative of a second Voyage in Search of a North West Passage* (1835). Gwnaeth un fordaith chwanegol gyda'r amcan o geisio darganfod Syr John Franklin; yr hwn a gollwyd yno tra ar fordaith ymchwiliadol. Syr John Franklin sydd yn meddu yr anrhydedd o fod wedi darganfod yr hyn a elwir y *North West Passage* gyntaf o bawb. Gadawodd ef, a'i ddynion, y llongau *Erebus* a *Terror* oedd ganddynt yn gwneyd y fordaith ar Medi 12fed, 1846, rywle rhwng Ynys Melville ac Ynys y Brenin William —105 o ddynion o gwbl—a bu Franklin farw ar Mehefin 11eg, 1847. Ysgrifenodd Syr John Ross *Memoirs and Correspondence of Admiral Lord De Saumarez* (1838); *Treatise on Navigation by Steam* (1828), a gweithiau eraill. Bu farw yn Llundain, Awst 30ain, 1856.

ROSS, SYR JOHN CLARK. Yr oedd efe yn nai i Syr John Ross. Gwnaeth yntau enw iddo ei hun fel archwiliwr pegynawl. Bu farw Ebrill 3ydd, 1862, yn Aylesbury.

ROSSETTI, GABRIELE. Bardd a llenor Italaidd enwog, a anwyd Chwefror 28ain, 1783, yn Vasto, yn Abruzzo Citeriore; yr hwn, y pryd hwnw, a ffurfiai ran o deyrnas Naples. Dangosodd yn foreu ei fod yn feddiannol ar dalentau cryfion; a dodwyd ef, mewn canlyniad, yn Mhrifysgol Naples. Treuliodd ran gyntaf ei oes yn nghanol cyffroadau gwleidyddol anghyffredin; mewn canlyniad, yn benaf, i'r cyffroadau chwyldroadol ac ymherodrol a gymmerent le yn Ffrainge. Un o'r swyddi cyntaf y pennodwyd ef iddi ydoedd ceidwad y bathodynau henafol yn Amgueddfa Naples; ac oddeutu yr un adeg, pennodwyd ef yn eir-gantodwr (*librettist*) i'r chwareudy San Carlo. Bu yn gweithredu fel aelod o'r llywodraeth ragddarpariadol a anfonwyd i Rufain gan Murat. Ar adferiad y brenin Ferdinand i orsedd Naples, yn y fl. 1815, parhaodd Rossetti i gyfathrachu â gwleidyddwyr rhyddfrydig, gan ymuno â'r cymdeithasau dirgelaidd a elwid 'y Carbonari.' Yn 1820, torodd cyffro milwraidd allan, a gorfu i Ferdinand ganiatau cyfansoddiad gwladol i'r deyrnas, tebyg i'r un a sefydlwyd yn flaenorol yn Yspaen. Dathlwyd yr amgylchiad gan Rossetti gydag un o'r darnau barddonol mwyaf aruchel. Yr oedd cryn ammheuaeth yn bodoli o'r dechreu am gywirdeb bwriadau y brenin; —ac yn 1821, efe a ddirymodd y cyfansoddiad trwy gynnorthwy milwyr Awstria. Yn ganlynol i hyn, erlidiwyd y rhai oedd yn bleidiol i'r cyfansoddiad, a Rossetti yn eu mysg; a thrwy ei farddoniaeth, parodd i'r brenin lidio yn ddirfawr yn ei erbyn. Tua'r fl. 1824, daeth drosodd yma, i Loegr, i ddilyn yr alwedigaeth o athraw Eidalaeg; ac yn fuan ar ol hyny, fe etholwyd ef yn athraw Eidalaeg yn Ngholeg y Brenin, yn Llundain. O'i sefydliad yn y brifddinas, dechreuodd Rossetti fyw bywyd efrydgar, llafurus, ac anrhydeddus, fel y daeth yn wr o fawr barch gan ysgolheigion o bob gradd. O ran ei gredo gwladol, yr oedd yn rhyddfrydwr egwyddorol; mewn crefydd, tueddai at fod yn rhydd-feddyliwr; ond tua diwedd ei oes, gogwyddodd ei feddwl at Gristionogaeth, ond yn annibynol ar unrhyw athrawiaethau pendant. Yr oedd yn hollol wrthwynebol i'r gyfundrefn Babaidd, a honiadau y grefydd hono. O ddeutu y fl. 1842, dechreuodd ei iechyd ballu; ond bu fyw hyd Ebrill 26ain, 1854, pan yr ehedodd ei ysbryd ymaith.

Heb law rhai darnau barddonol a gyhoeddwyd ganddo yn yr Eidal, ysgrifenodd a chyhoeddodd Rossetti amryw weithiau o gryn enwogrwydd. Perchid ei goffadwriaeth yn fawr yn ei wlad enedigol; a phrynwyd y tŷ y ganwyd ef ynddo i fod yn eiddo i'r cyhoedd.

Digitized by Google

ROSSETTI, DANTE GABRIEL:—neu yn briodol GABRIEL CHARLES DANTE. Yr oedd efe yn fab hynaf i Gabriel Rossetti; a ganwyd ef yn Llundain, Mai 12fed, 1828. Derbyniodd addysg dda yn Ysgol Coleg y Brenin, Llundain; ond o herwydd ei fawr awydd i ddyfod yn arlunydd, dodwyd ef yn yr Athrofa Frenhinol yn 1843, i ddysgu y gelfyddyd y gosododd efe ei fryd arni. Tra yno, daeth i gydnabyddiaeth âg efrydwyr addawol eraill; sef, John Everett Millais, Holman Hunt, a Thomas Woolner y cerflunydd, ac eraill; gyda pha rai y sefydlwyd y Frawdoliaeth Gyn-Raphaelaidd. Yr hyn a fu yn brif achos o sefydliad y frawdoliaeth hon, a'r ysgol o arlunwyr a ddygwyd i fod drwyddi, oedd, fod yr arlunwyr ieuaingc yn ystyried fod arlunwyr Lloegr yn ddiffygiol o amgyffrediad, ac yn anfedrus yn y gelf o drosglwyddo eu hamgyffredion ar y gynfas, ragor y perffeithrwydd a ddangosid yn hyn gan arlunwyr Ewrop yn flaenorol i amser Raphael, a'r arlunwyr enwog a gwir alluog a gydoesent âg ef. Yr oedd gan Rossetti ran flaenllaw yn sefydliad y gymdeithas hon—cymdeithas oedd â'i hamcan i godi y gelfyddyd o arlunio yn Lloegr i safon uwch o berffeithrwydd na'r sefyllfa yr oedd ynddi y pryd hwnw. Un o ddarluniau cyntaf Rossetti mewn olew oedd *The Girlhood of Mary Virgin,* a arddangoswyd yn 1849; a'r nesaf, *The Annunciation*, yr hwn a arddangoswyd yn 1850, ac sydd yn awr yn nghadw yn yr Oriel Genedlaethol, gydag amryw eraill o enwogrwydd. O ddeutu yr un adeg ag y dechreuodd Rossetti efrydu, ac arfer y gelfyddyd o arlunio, dechreuodd hefyd ysgrifenu barddoniaeth; a chyhoeddwyd amryw o'i weithiau. Ond mewn canlyniad i brofedigaeth deuluaidd a'i goddiweddodd, rhoddodd heibio y bwriad o gyhoeddi am rai blynyddoedd. Yn y fl. 1851, syrthiodd Rossetti mewn cariad â genethig ieuangc brydferth o'r enw Elizabeth Eleanor Siddal. Priododd hi yn 1860; ond bu farw ar ol byr gystudd Chwef., 1862. Effeithiodd y digwyddiad hwn i'r fath raddau arno fel y claddodd ei lawysgrifau gyda hi yn ei harch. Yn 1869, daeth i'w feddwl eu hadferu; ac yn 1870, cyhoeddodd y gyfrol a elwir *Poems*, yr hon a gynnwysai y caneuon a nodwyd, ac amryw eraill a ysgrifenwyd ganddo ychydig cyn blwyddyn eu cyhoeddiad. Yn mhen amser, daeth ei iechyd i gyflwr hynod o anfoddhaol; a bu farw Ebrill 9fed, 1882, yn Birchington-on-Sea, ger Margate.

ROSSETTI, CHRISTINA GEORGINA. Merch i Gabriele a Frances Rossetti, a anwyd yn Llundain, Rhag. 5ed, 1830. Dygwyd hi i fyny yn gyfangwbl o dan addysg ei mam gartref, fel aelod o Eglwys Loegr. Dechreuodd ysgrifenu barddoniaeth yn fuan; a chyn bod yn 17eg oed, lledaenwyd cyfrol o'i barddoniaeth yn gyfrinachol gan ei thaid, Gaetano Polidori. Y mae amryw o'i chaneuon wedi eu cymmeryd gan brif gerddorion y deyrnas i gyfansoddi darnau cerddorol arnynt.

ROW, JOHN. Diwygiwr Ysgotaidd, a anwyd yn Stirling, tua'r fl. 1525. Bu yn efrydu yn St. Andrews; ac yn 1550, anfonwyd ef gan glerigwyr Ysgotland fel eu cynnrychiolydd i Rufain. Tra yn yr Eidal, cymmerodd y radd o ddoethawr yn y gyfraith yn Padua. Yn y fl. 1558, dychwelodd i Ysgotland; a'r flwyddyn ddilynol, ymwadodd â'r ffydd Babaidd. Yn 1560, bu yn cynnorthwyo i ysgrifenu y *Confession of Faith*, a *First Book of Discipline*. Daeth hefyd yn weinidog yn Perth; ac fel y cyfryw, eisteddodd yn nghymmanfa gyffredinol gyntaf yr Eglwys Albanaidd. Bu yn gymmedrolwr bedair gwaith, a chymmerodd ran helaeth yn mharotoad y *Second Book of Discipline*.

ROWLANDS, DAVID. Ganwyd ef yn rhywle yn Ynys Môn; ond addysgwyd ef yn Ngholeg St. Mary's Hall, Rhydychain. Cyn cymmeryd ei raddau, ymadawodd o'r brifysgol i ymgymmeryd â bod yn athraw i fab Iarll Lennox. Bu yn teithio gyda'r boneddwr ieuangc ar y Cyfandir; yr hyn a roddodd gyfleusdra iddo ymgydnabyddu âg ieithoedd y gwledydd hyny. Ar ei ddychweliad, daeth yn ddysgawdwr proffesedig yn yr ieithoedd Groeg a Lladin; ac er mwyn ei ddysgyblion, cyhoeddodd *A Comfortable Aid for Scholars* (1578). Cyfieithodd o'r Yspaenaeg *The Pleasant History of Lazarillo de Tormes* (1586).

ROWLANDS, HENRY, D.D. Ganwyd ef yn Mellteyrn, yn Lleyn, yn sir Gaernarfon, yn 1551. Hanai o deulu uchel. Ei dad ydoedd Rolant ab Robert o Fellteyrn; a'i fam oedd Elizabeth, merch Griffith ab Robert Vaughan, Ysw., o Talhenbont. Addysgwyd ef yn ysgol Penllech; ac wedi hyny yn y Coleg Newydd, yn Rhydychain, yn yr hwn y graddiodd yn M.A. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn Mangor, Medi 14eg, 1572; a phennodwyd ef i berigloriaeth Launton, yn swydd Rhydychain. Wedi rhoddi Mellteyrn i fyny, yn 1581, gwnaed ef yn brebend Penmynydd, yn Eglwys Gadeiriol Bangor, ac yn beriglor Aberdaron, yn 1588. Yn 1593, cafodd ddeoniaeth Bangor; ac yna, yn 1598, dyrchafwyd ef i esgobaeth Bangor; i'r hon swydd y cyssegrwyd ef Tach. 12fed. Yr oedd yn ŵr diarebol am ei elusengarwch a'i haelfrydedd. Heb law rhoddion eglwysig lliosog, anrhegodd Bottwnog, ei blwyf genedigol, âg ysgol rammadegol; a gwaddolodd hi â thiroedd. Bu yr ysgol hon o fantais fawr i blant cyrau anghysbell Lleyn ac Eifionydd. Sefydlodd hefyd ddwy gymmrodoriaeth yn Ngholeg Iesu, yn Rhydychain; ac yn ei ewyllys, gadawodd 6*p*. i'r dyben o addysgu dau fachgenyn tlawd yn ysgol Bangor, i gael eu galw yn 'Ysgolorion Hutchins,' er côf am frawd ei wraig—Mr. Hutchins, boneddwr o sir Gaerloyw. Gadawodd hefyd 40*p*. yn y flwyddyn, er cynnal chwech o hen ddynion tlodion yn yr Elusendy, ger llaw Eglwys Gadeiriol Bangor. Bu farw Gorph. 6ed, 1616, yn 65ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn yr eglwys gadeiriol. Claddwyd yr Esgob Humphreys Lloyd wedi hyny yn yr un beddrod.

ROWLANDS, HENRY. Hynafiaethydd enwog, ac awdwr *Mona Antiqua*. Yr oedd efe yn ail fab i William Rowlands, o'r Plas gwyn, yn mhlwyf Llanedwen, yn Môn, lle y ganwyd ef yn 1655. Ei fam oedd Maud, merch i Edward Wynn, o Benhesgyn. Derbyniodd ei addysg yn gwbl yn Ynys Môn; ac ni bu erioed yn mhellach o'i wlad enedigol na'r Amwythig. A myn rhai nad ymdeithiodd efe yn mhellach nag afon Gonwy. Er hyny, yr oedd yn ŵr o ddysgeidiaeth uwch law y cyffredin, ac yn feddiannol ar alluoedd naturiol cryfion iawn.

Digitized by Google

oedd efe, a anwyd yn Woburn, Massachusetts, Mawrth 26ain, 1753. O herwydd ei syniadau ar frenhiniaeth, tynodd arno ei hun ŵg trefedigaethwyr New Hampshire i'r fath raddau fel y barnodd yn ddoeth ymfudo i Loegr yn 1775. Yn Llundain, rhoddodd i'r llywodraeth wybodaeth werthfawr am sefyllfa pethau yn y drefedigaeth a adawodd; am yr hyn y gwobrwywyd ef â swydd yn y swyddfa drefedigaethol. Er yn fachgen yr oedd tuedd gref ynddo at wneyd ymchwiliadau anianyddol; ac wedi dyfod i Loegr, gwnaeth lawer o arbrawfiadau gyda phylor (*gunpowder*). Yn 1779, etholwyd ef yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol. Yn 1782, ymddangosodd drachefn yn America, gydag awdurdod fel îs-filwriad yn myddin Lloegr. Wedi gwneuthur heddwch, urddwyd ef yn farchog, ac aeth i wasanaeth Etholwr Bavaria. Yn y cylch newydd hwn, gweithiodd yn ddifefl i wellhau sefyllfa ei wlad fabwysiedig. Dygodd oddi amgylch ddiwygiadau trwyadl yn y fyddin. Sychodd y morfeydd llaith o amgylch Mannheim; sefydlodd athrofa filwrol, &c., yn Munich; cliriodd y wlad oddi wrth y cwmnïau o fegerwyr a'i cerddai, gan sefydlu cyfundrefn o ddeddf tlodion yno; cefnogodd y tyfiad o bytatw; dyfeisiodd alchau a phobtai; gwellhaodd rywogaethau ceffylau a gwartheg y wlad, a llaweroedd o ddiwygiadau gwerthfawr eraill. Am hyn oll, gwobrwywyd ef âg etholiad i athrofeydd Gwyddonol Munich, Mannhein, a Berlin; ac yn ben ar y swyddfa rhyfel yn Bavaria; a gwnaed ef yn *count* o ymherodraeth Rhufain. Dewisodd yr enw Rumford am mai hwn oedd cyn-enw tref Concord, yn Massachusetts. Yn ystod ymweliad a wnaeth â Lloegr, yn 1796, rhoddodd waddoliad i Gymdeithas Frenhinol Llundain, a'r Athrofa Americanaidd (gwyddor a chelf), er hyrwyddo ymchwiliadau i oleuni a gwres. Efe, hefyd, fu y prif foddion i sefydlu y *Royal Institution*, dair blynedd ar ol hyny, i'r amcan o ledaenu gwybodaeth mewn dyfeisiadau peiriannol. Pan aeth yn ol i Munich, yr un flwyddyn, deallodd fod y dref yn cael ei bygwth gan fyddinoedd gelyniaethus Ffraingc ac Awstria. O herwydd hyn, dïangodd yr Etholwr, gan adael *Count* Rumford yn llywydd cynghor y rhaglawiaeth; yn brif gadfridog y byddinoedd, ac yn benaeth yr heddgeidwaid. Yn 1799, efe a ymneillduodd o wasanaeth yr Etholwr, ac a dreuliodd y gweddill o'i ddyddiau i wneyd archwiliadau anianyddol. Bu farw yn Anteuil, ger Paris, Awst 21ain, 1814.

RUSHWORTH, JOHN. Disgynodd o deulu parchus yn swydd Northumberland, a ganwyd ef yn y fl. 1607. Ymsefydlodd yn Llundain fel bargyfreithiwr; ond ymddengys iddo dreulio cryn lawer o'i amser yn rhai o brif sefydliadau y ddinas; megys y *Star Chamber*, *The Court of Honour*, *The Exchequer Chamber*, a'r senedd, gan gymmeryd y gweithrediadau i lawr mewn llaw fer. Pan gyfarfyddodd y Senedd Hir yn 1640, pennodwyd ef yn gynnorthwywr i Henry Elsynge—clerc tŷ y cyffredin. Bu farw Mai 12fed, 1690.

RHYS, IOAN DAFYDD, fel yr ymddengys, yr arferai efe ysgrifenu ei enw yn Gymraeg, canys "I. D. R." sydd wrth ei "*Anerch at y Cymry*" sydd o flaen ei "*Rammadeg*." "John Davys" sydd wrth un o'i lythyrau Saesnig at Syr Edward Stradling; a Syr Edward a'i geilw yn ei lythyr cymmun, "My friend Mr. Doctor Davys." Y mae yr ychydig a draethir arno gan wahanol ysgrifenwyr, mor wahanol, ac ymddangosant weithiau megys yn gwrthddywedyd eu gilydd, fel y tueddir ni i farnu nad oes dim diammheuol ar gof am dano, ond a ellir ei gasglu oddi wrth ei "Anerch" ef ei hun, a rhagymadrodd Humphrey Prichard i'w "*Rammadeg;*" oddi wrth gof-lyfrau y prifysgolion; oddi wrth ei ohebiaeth â Syr Edward Stradling, ac oddi wrth lythyr cymmun y boneddwr hwnw. Weithian, dodwn grynhoad o'r hyn sydd yn ymddangos i ni yn fwyaf diammheuol yn ei gylch.

Y mae ei enw ef ei hun yn arwyddo mai enw ei dad oedd Dafydd Rhys; ac ymddengys ei fod yn ngwasanaeth Syr William Gruffydd, o'r Gareg-lwyd, Llanfaethlu, Môn, yr hwn y dywedir iddo briodi Jane, merch Thomas Stradling, o Gastell Sant Dunwyd, yn sir Forganwg. Dywed Gwilym Lleyn fod "Dafydd Rhys yn frawd i Risiart Rhys, y bardd, o Ferthyr Mawr, ger Pen-y-bont-ar-ogwy, yr hwn oedd athraw Iorwerth Fynglwyd, y bardd, o Graig-yr-eos, yn mhlwyf Sant-y-brid, ac un o feirdd teuluaidd Castell St. Donat's" (Sant Dunwyd). Dengys yr un awdwr mai ar ol i Syr William Gruffydd briodi y cymmerth efe Dafydd Rhys gydag ef o Forganwg "i fod yn arddwr iddo," yn y Gareglwyd; "a chymmerodd ei wraig, Jane, hefyd ei morwyn gyda hithau." Enw y forwyn, yn ol yr un awdurdod, "oedd Anues neu Agnes;" yr hon a gymmerth Dafydd Rhys yn wraig briod iddo. Os ydyw y mynegiad yma yn gywir, brodorion o Forganwg oedd tad a mam Ioan Dafydd Rhys. Gellir casglu oddi wrth awdurdodau ereill fod Dafydd Rhys yn ngwasanaeth Syr William Gruffydd cyn iddo briodi y rhian, Jane Stradling; ac y mae hen draddodiad yn Llanfaethlu, mai clochydd y plwyf hwnw oedd Dafydd Rhys; ond gallasai fod yn glochydd, ac yn ngwasanaeth Syr William hefyd. Beth bynag am haniad a galwedigaeth rhieni I. D. Rhys, y mae yn dra sicr mai yn Llanfaethlu, yn Môn, y ganwyd ef; canys geilw ei hun yn enwad-ddalen ei "*Rammadeg*," yn "Joanne Davide Rhæso Monensi Lanvaethlæo." Ganwyd ef o gylch 1534. Dywed Gwilym Lleyn y bu farw Dafydd Rhys, Syr William, a'i wraig Jane, yn fuan wedi hyny; ac y cludodd ei fam y mab bychan, Ioan, o sir Fôn i Gastell Sant Dunwyd, yn Morganwg, lle y cymmerwyd hi yn glaf yn ebrwydd ar ol ei thaith flinderus, ac y bu farw. Yna cymmerth Syr Edward Stradling y plentyn amddifad i'w gastell, a dododd ef dan ofal yr un athrawon a'i fab ei hun, Thomas. Yn y cyfamser, aeth y ddau fachgen mor hoff o'u gilydd fel na fynent ar un cyfrif gael eu gwahanu; am hyny, anfonodd Syr Edward y ddau i brifysgol Sienna, yn yr Ital, lle y dygwyd hwy i fyny yn holl ddysgeidiaeth y lle a'r oes.

Nid ydyw Gwilym Lleyn yn son dim fod I. D. Rhys wedi bod yn Rhydychain o gwbl; tra y mae coflyfrau y brifysgol, yn ol Wood, ac ereill, yn profi yn ddiammheuol ei fod yno pan ydoedd o gylch dwy ar bymtheg oed. Yn 1555, etholwyd ef yn fyfyriwr yn ngholeg Eglwys Crist, Rhydychain, ac efe o ddeutu un ar hugain oed; ond ymddengys iddo adael y brifysgol yn lled fuan wedi hyny; ac nid oes sicrwydd iddo gael unrhyw radd yno cyn ei ymadawiad. Y mae cyssylltiad agos a diammheuol I. D. Rhys â Stradlingiaid Sant Dunwyd yn ein tueddu i

Digitized by Google

gredu bod tebygolrwydd cryf o blaid y rhan fwyaf o fynegiadau Gwilym Lleyn; ac y mae yn rhyfedd genym iddo anghofio ei fynediad i Rydychain. Yn fuan ar ol dyfod o Rydychain, aeth I. D. Rhys i brifysgol Sienna, fel y crybwyllwyd; ac y mae Parry, awdwr y "*Cambrian Plutarch*," yn mynegu y dywedir mai ar draul, a thrwy annogaeth Syr Edward Stradling yr aeth yno—lle, ar ol diwyd ddilyn ei fyfyrdod, y graddiwyd ef yn "D.PH." (doctor physygwriaeth); ond ni sonia neb, hyd y gwyddom, ond Gwilym Lleyn, fod Syr Edward wedi anfon ei fab, Thomas, yno gydag ef; yr hyn y buasai yn boff genym iddo ei brofi, rhag mor naturiol ydyw yr haeriad.

Pa gynnydd bynag a wnaeth Rhys mewn physygwriaeth tra yn Sienna, y mae yn amlwg nad esgeulusodd wybodau ereill, yn enwedig ieithyddiaeth; canys pennodwyd ef ar ol hyny yn gymmedrolwr cyhoeddus yn ysgol Pistoia, a rhodd foddlonrwydd cyffredinol tra yn y swydd hono, yr hyn a brawf ei fod yn meddu gwybodaeth drwyadl o'r iaith Italaidd. Tybir mai y pryd hyn yr ysgrifenodd "*Rheolau i ddysgu yr iaith Lladin*" yn Italaeg, a gyhoeddwyd wedi hyny yn Venice. Ysgrifenodd draethawd hefyd yn Lladin ar "*Gynaniad yr iaith Italaidd*," yr hwn a argraphwyd yn Padua; a dywedir bod y ddau mewn bri mawr yn yr Ital, yn enwedig yr olaf, gan deithwyr yn y wlad hono.

Nid yw Gwilym Lleyn yn son dim am gysylltiad I. D. Rhys âg ysgol Pistoia; ond yn lle hyny edrydd yr hyn a ganlyn:—

"Wedi eu dychweliad adref," sef I. D. Rhys a'i gyfaill, Thomas Stradling, "priododd Syr Thomas; cafodd fab, yr hwn a alwyd Edward; a phennodwyd Sion Dafydd Rhys i fod yn athraw iddo yn y castell. Rhywbryd, fel yr oedd yr etifedd ieuangc yn rhodio ar hyd traeth y môr, sy'n terfynu ar y castell, efe, yn ddifeddwl, a arosodd ar le oedd yn uwch na lle arall, hyd nes oedd y llanw wedi ei amgylchynu yn rhy ddwfn i gerdded trwyddo. Efe a waeddodd am gynnorthwy, a chlywyd ei lef o'r castell. Aeth dynion ar geffylau yn ebrwydd i geisio ei waredu; ond ni ellid llwyddo i gael gan un ceffyl i gymmeryd y dwfr yn erbyn y tonau ewynog. Ar hyn taflodd Sion Dafydd Rhys ei ddillad uchaf oddi am dano, ac aeth yn hyf i'r dwfr yn erbyn yr holl donau, a dygodd yr etifedd ieuangc i dir yn ddiangol. Os oedd ei barch yn y tŷ yn fawr gynt, yr oedd yn filwaith mwy bellach. Pan ddaeth yr amser priodol, anfonwyd y boneddwr i'r un brifysgol ag y buasai ei dad ynddi o'r blaen [Sienna], yn yr Ital, a Sion Dafydd Rhys gydag ef, i fod yn brif athraw iddo. Arosasant yno rai blynyddau; a daeth S. D. Rhys yn glodfawr am ei helaeth wybodaeth, a chafodd ei raddio yn "D.M." (doctor meddyginiaeth)."

Y mae hon yn ystori ddifyr, a digon naturiol; ond ni wyddom a oes gwell sail iddi na thraddodiad a ysgrifenwyd yn mhen tua chant a hanner o flynyddau ar ol amser I. D. Rhys, gan un Edward Gamage, o St. Athan, yn Morganwg; ac a gofnodir yn "*Doom of Colyn Dolphin*," gan Taliesin ab Iolo.

Gellir casglu oddi wrth 'gyflwyniad' I. D. Rhys, sydd o flaen ei "*Rammadeg*," iddo dario dros hir flynyddau yn yr Ital; ond pan ddychwelodd i Gymru, ymsefydlodd yn Aberhonddu, fel meddyg; a daeth yn fuan yn dra chymmeradwy yn ei alwad. Y mae yn debyg iddo ddewis Aberhonddu fel lle ei breswylfod, ar gais Syr Edward Stradling, castell yr hwn oedd heb fod yn mhell oddi yno; ac ymddengys iddo dreulio llawer o'i amser yn nghymdeithas ei gyfaill a'i noddwr, gan fod y ddau o duedd mor lenyddol a'u gilydd.

Weithian am brif gampwaith y Dr. Rhys, sef ei "*Rammad Cymraeg yn Lladin;*" y grammadeg cyntaf a argraphwyd, oddi eithr un Gruffydd Roberts, yr hwn a ysgrifenwyd yn Gymraeg, ac a argraphwyd, meddir, yn Milan, 1567, dan yr enw "Dosparth Byrr ar y rhan gyntaf i Rammadeg Cymraeg, lle cair llawer o byncian anhepcor i un a chwennychai na doedyd y Gymraeg yn ddilediaith, na i scrifenu 'n iawn." Y mae'n debyg mai at hwn y cyfeiria y Dr. Rhys yn ei "Annerch," pan y dywed (arferir y llythyrenau cyffredin mwyach yn y dyfyniadau)—"Eithr o rann y gwrda a'r pendefic mawrddyscêdic, a gyfansoddodd ei lyfr cywrein o rann yr Orthographia neu yr Iawnscrif, y llyfr goreu a wnaethpwyd erioed ynn y Gymraec, am gymeint a chymeint." Yr enw a ddyry I. D. R. i'w Rammadeg sydd fel hyn:—"*Cambrobrytannicæ Cymraecæ Lingvæ Institvtiones et Rvdimenta accuratè & (quantùm fieri potuit) succinctè & compendiosè conscripta à Joanne Dauide Rhæso Monensi Lanuaethlæo Cambrobrytanno, Medico Senensi: Ad Illust. virum Edouardum Stradlingum Equestris ordinis Cambrobrytannum. Ad intelligend. Biblia Sacra nuper in Cambrobrytannicum sermonem & castè & eleganter versa, non minùs necessaria quam vtilia: Cum exacta carmina Cymræca condendi Ratione, & Cambrobrytannicorum Pœmatum generibus, alijsquè rebus nonnullis eôdem spectantibus, ijsdémque pariter non minùs necessarijs quàm vtilibus.—Londini excudebat Thomas Orwinus*, 1592."

Yr hyn sydd ar frig y dail yw "*Linguæ Cymraecæ Institutiones accuratæ*"=Gosodiadau cywir yr iaith Gymraeg." Llyfr pedwarplyg lled fawr ydyw, yn cynnwys 304 o dudalenau, heb law yr enwad-ddalen, y cyflwyniad i Syr Edward Stradling yn Lladin, llinellau Lladin o glod i'r awdwr o waith Guil. Camdenus a Ioan Stradlingus, rhagymadrodd Lladin gan Hvmfredvs Prichardvs, "Annerch" yr awdwr yn Gymraeg "at y Cymry," a chyweiriad gwallau—oll yn 24 tudalen. Y cyfan yn gwneyd 328 o dudalenau.

Yr achlysur o ddechreuad y cyfansoddiad llafurfawr hwn, medd Parry, oedd gwaith Syr Edward Stradling yn dangos cân Lladin o waith un Thomas Leyson o folawd i Gastell St. Dunwyd i'r Dr. Rhys, gan ddymuno arno ei throi i'r Gymraeg; yr hyn a wnaeth yntau, gan gyflwyno y cyfieithiad i'w arfollwr, ynghyd â chyfieithiad Cymraeg o gân Italaidd, yn canmawl bywoliaeth wladaidd. Dywedir i Syr Edward gael ei foddhau i'r fath raddau gan y cyfieithiadau hyny fel yr annogodd y cyfieithwr yn y fan i ysgrifenu traethawd Lladin ar y Gymraeg, yn enwedig ei barddoniaeth, er addysg i estroniaid. Pa wedd bynag, dywed y Dr. Rhys ei hun, yn ei "Annerch," ei fod yn disgwyl "er ys llawer dydd" weled rhywun o'r Cymry yn cymmeryd y gorchwyl mewn llaw; ac o'r diwedd, wedi llwyr ddiflasu yn disgwyl, iddo ef "yn ei henaint," ymaflyd yn y gorchwyl. "A mwyaf parth o'r llyfr yma," eb efe, "a fyfyriwyd ac a feddyliwyd yn gyntaf, yn Nhŷ y Pendefig M. Morgan Meredydd, o ymyl y Bugeildy yn Nyffryn Tafida, o fywn swydd Facsyfed: yn y lle lawer gwaith y bu fawr fy nghroeso, a'm hansawdd o fwyt a llyn gan y gwrda a'r wreicdda. Eithr diweddbarth y llyfr hyn, a fyfyriwyd dan berthi a dail gleision mywn gronyn o fangre i mi fy hunan a elwir Y Clûn Hir (Glyn Hir?) ym mlaen

Digitized by Google

Cwm y Llwch, a than odreuon mynydd Banwchdêni. Rhai a eilw y mynydd hwn, Ban Arthur, ereill Moel Arthur:"—yr un a Banau Brycheiniog. Pa wedd bynag, y mae genym brawf pendant mai ar draul Syr Edward Stradling yr argraphwyd y gwaith; canys y bonedd-wr hwnw a ddywed yn ei lythyr cymmun, "Yn gymmaint ag i ddeuddeg cant a hanner o'r Grammadegau Brytanaidd gael eu hargraphu ar fy nhraul i, yr wyf yn rhoddi hanner cant o honynt wedi eu rhwymo yn barod i'm cyfaill, Mr. Doctor Davys, eu hawdwr."

Y mae yn amlwg mai prif amcan y llyfr, fel yr awgrymir, yn wir, yn yr enwad-ddalen, yw egluro mydryddiaeth Gymraeg, yn hytrach nag egwyddorion grammadegol yr iaith. "Er bod arwydd llafur a chywreinrwydd dirfawr ar y gwaith hwn," fel y dywedwn mewn lle arall, "ychydig iawn, os dim, lles a wnaeth i'r Cymry fel cenedl; canys heb law bod corph y gwaith yn Lladin, yn gymmysg âg Italaeg, y mae hyny o Gymraeg sydd ynddo, yn yr esamplau a'r rheolau barddoniaeth, mewn llythyraeth mor ddyrys a mympwyol fel nad oes ond ychydig y dydd heddyw, heb son am y pryd hyny, a all ei darllen heb gryn lafur. Y mae ei waith yn defnyddio y fath lythyraeth anghymmen, na bu erioed ar arfer, a'r fath ieithwedd amrosgo, yn ymddangos i ni yn dra rhyfedd pan gofiom y gallasai fod yn eithaf cynnefin â llythyraeth syml ac ieithwedd ystwyth Beibl y Dr. Morgan ar y pryd. Dywed golygydd '*Llyfryddiaeth y Cymry*,' mai dysgu yr athrawon oedd bwriad y Dr. Rhys; 'a gadewid iddynt hwythau daenu gwybodaeth yn mhlith y werin, a hyny trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.' Beth bynag oedd ei fwriad ef, y mae yn amlwg mai ychydig iawn o dderbyniad a gafodd ei gynllun; canys ni alwyd byth am ail argraphiad o'i waith, er ei fod wedi ei gyhoeddi er ys dros ddau gant a hanner o flynyddau yn ol; a phe dodid yr holl addysg sydd ynddo yn nghyrhaedd y werin gan eu hathrawon, ni chyrhaeddai hyny odid yn ddim pellach na gwybodaeth o'r mesurau caethion! Pan yr ysgrifenasom at y diweddar ddysgedig Ioan Tegid, tua deng mlynedd ar hugain yn ol, yn nghylch Grammadeg Cymraeg, gan ei hysbysu ddarfod i mi lwyddo i gael copi o '*Rammadeg Ioan Dafydd Rhys*,' attebodd yntau, gan ddywedyd, 'Nid oedd y Dr. Rhys ond grammadegydd pur ganolig; eithr am ei reolau o'r mesurau caethion, nid oes genym eu hafal o ran cywreinder.'" Dywedir iddo adael rhai llyfrau ereill ar ei ol mewn ysgrifen; ond, os buont erioed yn hanfodi, y maent wedi colli er ys oesoedd. Y mae amryw o gofianwyr y Dr. Rhys yn dywedyd, ar ol Wood, ddarfod iddo fyw a marw yn Babydd; tra y barna ereill fod Humffrey Prichard, yn ei ragymadrodd i'r "*Grammadeg*," yn profi i'r gwrthwyneb; yr hwn a ddywed mai prif amcan yr awdwr yn ysgrifenu ei rammadeg oedd hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin yr Ysgrythyrau, y rhai a gyfieithasid yn ddiweddar i'r iaith Gymraeg; sef cyfieithiad y Dr. Morgan, yr hwn a gyhoeddasid yn 1588, tua phedair blynedd cyn cyhoeddiad grammadeg y Dr. Rhys. Er na welwn ni y gallasai y grammadeg dan sylw, fel y crybwyllwyd, hyrwyddo odid ddim dealltwriaeth gyffredin o'r Ysgrythyrau; etto credwn bod yr ymadrodd cyntaf sydd yn yr "Annerch at y Cymry," o waith yr awdwr ei hun, y fath ag na buasai Pabydd byth yn ei ysgrifenu, yr hwn sydd fel y canlyn:—"Nyd oes nemor o iaith, hyd y gwn i, yn Ewropa a'i hynysoedd, na's cafas ei hymgeleddu a'i choledd gan ei ieithyddion a'i gwladwyr 'i hun o amser i gilydd, onyd eyn hiaith ni y Cymry; yr hon yn awr, yn hwyr ac o fraidd, a ddechreuodd gaffael peth gwrtaith gan wŷrda dyscedic o'n hamser ni; a hyny yn enwêdic o ran Cymreichâu corph yr Yscrythyr lân." Y mae yn bur anhygoel hefyd y buasai Pabydd yn goddef dywedyd o flaen "Owdl Fair a gânt Gwilym Tew, —ond am Ddewiniaeth, gochelwch y surdoes, mêdd William Midelton." Gŵyr pawb nad oes yn yr awdl hono ddim a ystyrir yn "surdoes" gan y Pabyddion mwyaf cymmedrol, od oes rhai mwy cymmedrol na'u gilydd o honynt.

Haera rhai, heb unrhyw sail, hyd y gwyddom ni, mai mynach oedd y Dr. Rhys, ac iddo farw yn ddibriod o gylch 1609; ond dywed Theophilus Jones, hanesydd enwog sir Frycheiniog, fod bedd ei wraig yn Aberhonddu, â'r cerfiad canlynol arno:—"*Uxor John'is David;*" a bod ei fab, Walter, yn ficer Aberhonddu, o 1576 hyd 1621.—(Wood's "*Athen. Oxon.;*" Traherne's "*Stradling's Letters;*" Jones' "*Hist. Brecon.;*" Dod's "*Church Hist. Engl.;*" Parry's "*Cambr. Plutarch;*" Williams' "*Emin. Welshmen;*" "*Y Gwladgarwr*, 1839;" "*Llyfryddiaeth y Cymry;*" "*Hanes y Brytaniaid a'r Cymry.*")

RHYS AP THOMAS, Syr: ydoedd ŵyr i Gruffydd ab Nicolas, llywydd enwog Eisteddfod Caerfyrddin yn 1451. Nicolas oedd fab Phylip ap Syr Elidir Ddu, &c., hyd Urien Rheged, yr hwn a etholwyd "yn ben ar dri theyrn ar ddeg y Gogledd" (Alban), yr hwn Urien a lofruddiwyd o gylch B.A. 584, "ar annogaeth Morcant, o genfigen o herwydd ei fod yn rhagori cymmaint o ran gwybodaeth filwrol." Mam Rhys ap Thomas oedd ferch Syr John Gruffydd, o Abermarlais, yn sir Gaerfyrddin, yr hwn a olrheiniai ei achau i Elystan Glodrydd, tywysog y dalaeth rhwng Gwy a Hafren yn y ddegfed ganrif, cyff un o bymtheg llwyth Gwynedd.

Ganwyd Rhys yn Abermarlais, preswylfod ei daid o du ei fam, yn 1451, yr un flwyddyn ag yr oedd ei daid o du ei dad yn llywydd Eisteddfod Caerfyrddin—y gyntaf o'r fath a gynnaliwyd yn Nghymru. Dywedir yn gyffredin, ar ol J. H. Parry, awdwr y "*Cambrian Plutarch*" (td. 274), mai trydydd mab Thomas ab Gruffydd ab Nicolas, oedd Rhys ap Thomas. Dichon i Parry gasglu hyn oddi wrth waith hen ysgrifenydd yn y "*Cambrian Register*" (cyf. i., td. 75) yr hwn a ddywed, yn gymmaint ag i'w dad, Thomas ab Gruffydd, a'i ddau frawd hynaf, Morgan a Dafydd, gael eu lladd yn yr ymrysonau gwaedlyd oedd ar droed yn barhaus yn y dyddiau hyny, ddarfod i Rhys feddiannu eu holl etifeddiaethau fel eu hetifedd cyfreithlawn. Pa wedd bynag, y mae gwaith Lewis Glyn Cothi (td. 130—166), yn dangos yn ddigon amlwg mai chweched mab Thomas ab Gruffydd oedd Rhys; yr hwn, ar ol i'r pump ereill (Morgan, Dafydd, Harri, Siencyn, a Siôn) gael eu lladd yn y rhyfeloedd gwaedlyd a ymleddid ar y pryd rhwng tylwythau Caerefrog a Chaerwerydd, a elwir Rhyfeloedd y Rhosynau, a gafodd holl etifeddiaethau llydain ei hynafiaid, at y rhai y mawr chwanegodd trwy briodi Efa, merch ac etifeddes Harri ab Gwilym, meddiannydd cyfoethog Llys Harri, yn sir Gaerfyrddin.

Gan mai Rhys oedd mab ieuangaf Thomas ab Gruffydd, yr oedd gan ei dad, a hyny yn ddigon

Digitized by Google

naturiol, feddwl uchel iawn o hono. Fel yr oedd y plentyn yn cynnyddu, yr oedd ei gampau babanaidd anghyffredin yn peri i feddwl a serch y tad fwyhau yn ddirfawr. Dan ddylanwad y syniadau uchel hyn am y plentyn, aeth y tad, yn ol arfer ofergoelus yr oes hono, a llawer o oesau ar ei hol, at un o swyngyfareddwyr ei ardal i ofyn pa beth a fyddai y bachgen hwn; a dywedodd y dewin, wrth reswm, a hyny am y tro yn gywir, y byddai yn un o'r pendefigion rhagoraf a fu erioed yn Nghymru o ran moesgarwch, dewrder, a llwyddiant. Wedi derbyn y fath newydd da, cymmeradwy, penderfynodd Thomas nad arbedai na thraul na thrafferth er cymmhwyso ei hoff blentyn i gyflawni y brophwydoliaeth ddymunol. Ar ol holi ac ymofyn am yr athraw goreu yn y wlad i hyfforddi Rhys ieuangc yn holl ddysgeidiaeth bendefigaidd yr oes, penderfynwyd ar un Edward Lewis, M. D., brodor o Wynedd, yr hwn a dderbyniasai ei addysg yn mhrifysgol Padua, yn yr Ital. Cynnyddodd Rhys yn holl wybodaeth a dysgeidiaeth uchelryw yr oes dan ofal y dysgawdwr enwog hwn, er llawn foddlonrwydd i'w dad a'i athraw. Tra yr oedd efe etto yn lled ieuangc, blinodd ei dad, Thomas, ar ymrysonau dinystriol y wlad hon, ac aeth i deithio i'r Cyfandir, a chymmerodd ei hoff fab Rhys gydag ef; ac ymsefydlodd y ddau yn llys Phylip Dda, yn Burgundy—y lle enwocaf yn yr oes am bob gwrolgampau mewn rhith-ymgyrchoedd (*tournaments*). Ennillodd moesgarwch, bywiogrwydd, a medr Rhys yn y campau hyny serch y tywysog Phylip i'r fath raddau, fel y cymmerth ef dan ei nawdd ei hun. Gwnaeth ef yn gydymaith i'w unig fab; a chynnygiodd swydd anrhydeddus iddo yn y fyddin.

Wedi i Rhys ddringo fel hyn i ben yr ysgol yn Burgundy, ymrafaeliodd ei dad, Thomas, âg un o geraint y tywysog Phylip, a gorchfygodd ef mewn ymladdfa lawlaw; a bu raid i'r ddau ffoi i Gymru yn ddioed am eu heinioes.

Yn lled fuan ar ol eu dychweliad adref, cwympodd ei dad, Thomas, trwy law llofrudd yn Pennal, yn sir Feirionydd, o blegid iddo guro perchenog y llys hwnw mewn brwydr lawlaw. Lladdwyd ei frodyr oll, fel y crybwyllwyd, yn Rhyfeloedd y Rhosynau; a meddiannodd yntau eu holl etifeddiaethau eang, ynghyd âg etifeddiaeth gyfoethog ei wraig, Efa. Yr oedd hen elyniaeth oesol rhwng teulu Rhys ac Efa, fel yr oedd rhwng y rhan fwyaf o'r hen deuluoedd pendefigaidd, a byddai hyny yn fynych yn peri difrod erchyll ar fywydau a meddiannau; ond darfu i briodas Rhys âg Efa derfynu gelyniaeth y ddau deulu galluog hyny at eu gilydd; ac ymroddodd Rhys hefyd i ddwyn ei gymmydogion i heddwch a thangnef; a chafodd gynnorthwy esgob Pabaidd dylanwadol Tŷ Ddewi i ddwyn ei amcan canmoladwy i ben. Dywedir bod gan Rhys ddeunaw cant o denantiaid, a llawer o gestyll cryfion, neu lysoedd castellog, megys Carew, Arberth, Emlyn, Abermarlais, Gwibley, ac amryw ereill; ac o blegid ei ddewrder gwych, ei gyfoeth enfawr, ei haelioni digyrrith, a'i foesau coethedig, yr oedd ei ddylanwad yn y Deheubarth yn gyfartal braidd i'w hynafiaid—yr hen dywysogion Cymreig. Dywedir y gallai gynnull pedair neu bum mil o wŷr meirch mewn byr amser—y rhai a arfogid ganddo oll ar ei draul ei hun, a'r sawl a'i dilynent yn awchus a ffyddlawn i ba le bynag yr elai, a pha antur bynag a gymmerai mewn llaw. Arwydda y llinellau canlynol i Rhys o waith Guto'r Glyn, ei gydoeswr, nad ydyw y darlun yma wedi ei orliwio:—

> "Trawst yw'r sant tros y tair sir:
> Tros wledydd, tras Elidir.
> Eiddil yw llu i ddal llys,
> Wrth un a bortha ynys;
> Ni roe gant o wŷr i gyd
> A roes hwn er ys ennyd:
> Mae'n ŵr hefyd mewn rhyfel,
> Mwy no duc i'r man y dêl.
> Da gŵyr ef dagr y drin,
> Dewrfab oedd, darfu byddin."

Rhys Nanmor hefyd a ddywed:—

> "Y brenin bïau'r ynys
> Ond sy o ran i Syr Rys."

Pan ydoedd Rhys ap Thomas yn uchder ei nerth a'i rwysg, dechreuodd y Duc o Buckingham, ac ereill, gynllunio ymgodiad er diorseddu yr anfad drawsymhonwr gan Richard III., fel y gellid dodi Henry Tudur, Iarll Richmond, ar orsedd Brydain yn ei le, yr hwn oedd weithiau ar ffo yn Llydaw rhag y gwaedlyd Richard. Pleidiwr Richard oedd Rhys ap Thomas; ac yr oedd ef a Buckingham yn elynion i'w gilydd, fel yr oedd eu teulu wedi bod er's hir amser; a mynych y byddai y naill deulu yn difrodi meddiannau y llall. Yr oedd holl borthladdoedd Lloegr yn cael eu gwylied mor ofalus a chadarn y pryd hyn fel yr oedd yn ammhossibl i Henry dirio mewn un man ar ororau y wlad hono; am hyny penderfynodd y cynllunwyr mai Aberdaugleddyf oedd yr unig fan iddo lanio. Ond gwyddid yn dda, os nad ellid ennill Rhys ap Thomas at blaid Henry, mai cwbl ofer fyddai meddwl y gallai lanio yno; o herwydd pa ham, y cam cyntaf at lwyddo oedd cymmodi Rhys â Buckingham. Y gŵr a ddewiswyd i gyflawni yr orchest yma oedd y Dr. Lewis, yr hwn, fel y gwelsom, a fuasai yn athraw i Rhys yn ei ieuengctid, a'r hwn hefyd oedd bleidiwr cydwybodol i Henry, Iarll Richmond. Llwyddodd y gŵr doeth hwnw i gael gan Rhys a Buckingham gyfarfod yn Trecastell, tua hanner y ffordd rhwng Abermarlais a Brycheiniog, lle y llwyr gymmodwyd hwynt â'u gilydd. Ni fynegodd y Dr. Lewis wrth Rhys fod cynllun ar droed eisoes i ddwyn yr Iarll Richmond drosodd; ond gadawodd y gorchwyl hwnw i'w gyfaill ef a Rhys, sef Morgan o Gydweli, yr hwn a lwyddodd o'r diwedd i argyhoeddi Rhys fod diogelwch yr holl wlad yn gofyn diorseddu yr adyn gwaedlyd gan y trawsfeddiannydd Richard; a dangosodd hefyd mor ddymunol a fyddai uno y ddau 'rosyn' trwy i Richmond, yr hwn oedd Gymro, cystal ag un o deulu Caerwerydd, briodi Elizabeth, merch hynaf Edward IV., y brif gangen weithiau o dylwyth Caerefrog—yr hyn a ddygai dangnefedd i'r holl deyrnas.

Gan fod y digwyddiad yma yn un o'r rhai pwysicaf, nid yn unig yn hanes bywyd Rhys ap Thomas, ond hefyd i'r Deyrnas Gyfunol, goddefer i ni fanylu ychydig arno. Ymddengys i Rhys arwyddo ei gydsyniad â rhesymoldeb cais y wlad wrth Morgan o Gydweli; ac na wrthsafai efe laniad yr iarll yn Aberdaugleddyf, er nad oedd efe etto wedi ymrwymo i gymmeryd ei blaid yn weithredol. Ond tra yr oedd ei gyfeillion ar hanner argyhoeddi Rhys i fod yn bleidiwr i Henry Tudur, daeth Richard ei hun yn mlaen i orphen y gwaith. Yr oedd yr adyn diegwyddor yn meddwl fod pawb, fel efe ei hun, yn fradwyr a llofruddion. Yn mhlith ereill y syrthiodd ei ammheuaeth arnynt, yr oedd ei

Digitized by Google

gyfaill galluog, Thomas, yr Arglwydd Stanley, o blegid iddo briodi Margaret Iarlles Richmond, mam ei gydymgeisydd, Henry Tudur. Er i'r pendefig hwnw dystio ei deyrngarwch iddo yn y modd cadarnaf, etto gorfodwyd ef i adael ei fab, George, yr Arglwydd Strange, fel gwystl o'i ffyddlondeb cyn y goddefid iddo fyned i'r wlad i gasglu ei ddilynwyr ynghyd, hyd yn oed o blaid yr ammheuwr ei hun. Llwyddodd y tro gwael yma i oeri llawer ar deimladau Stanley at y gormesdeyrn.

Yr oedd y dyhiryn yma weithian fel pe buasai wedi ymddiofrydu gorphen dirwyn ei linyn i'r pen; canys o gylch yr un amser anfonodd genhadon at Rhys ap Thomas i erchi iddo dyngu llŵ o ffyddlondeb iddo; a mynai i Rhys, fel Stanley, drosglwyddo ei unig fab, Gruffydd, iddo fel gwystl o'i ffyddlondeb. Tyngodd Rhys y llŵ; ond ysgrifenodd lythyr at y brenin i ymesgusodi dros beidio rhoddi ei blentyn i fyny o blegid tynerwch ei oedran, gan nad oedd etto ond prin bum mlwydd oed.[1] Yn lled fuan ar ol hyn, gwysiodd Rhys ap Thomas gyfarfod, i'r hwn y daeth esgob Tŷ Ddewi, abad Tal-y-llychau, Morgan o Gydweli, ynghyd â'r milwyr profiadol Arundel Butler, Richard Gruffydd, a Syr John Morgan. Dadganodd Rhys ap Thomas yn eglur yn y cyfarfod hwnw ei fod wedi llwyr ymwrthod âg achos y gormesdeyrn, a dyfod yn bleidiwr gonest ac egniol i hawliau teg yr Iarll Richmond; canys nid gŵr a adawai waith ar ei hanner oedd Rhys ap Thomas. Ysgrifenodd lythyrau at Richmond ar ol y cyfarfod, yn mynegu ei benderfyniad i amddiffyn ei hawliau, y rhai a ddanfonwyd i'r iarll gan Morgan o Gydweli. Pan wnaed amcanion a phenderfyniadau y cyfarfod yn hysbys, ymunwyd â Rhys gan Syr Thomas Perrott, o Haroldston, ger llaw Hwlffordd; Syr John Wogan, o Gastell Whiston, yn sir Benfro; John Savage, ac amryw foneddigion o Wynedd, yn enwedig teulu Salisbury, dan arweiniad Syr Robert Salisbury, yr hwn a fuasai gyfaill i Rhys yn y rhyfeloedd Ffrengig. Ymunodd teulu Salisbury mor dŷn wrth Rhys a'i deulu fel yr aeth "Salbriaid y brain" yn ddiareb, gan gyfeirio at lun y brain oedd yn mhais arfau Rhys ap Thomas.

Yr oedd y ddau gydymgeisydd, weithian, Richard y trawsfeddiannydd, a Henry, y Cymro, yn ymbarotoi i'r ymgyrch â'u holl egni. Ymunodd amryw foneddigion â Henry Tudur; sef, y dewr John de Vere, Iarll Rhydychain; Syr John Fortescue, porthor Calais; a llu o foneddigion Saesnig ieuaingc oedd yn myfyrio yn mhrifysgol Paris; y rhai, ynghyd âg alltudion Saesnig, a thua dwy fil o anturwyr Ffrengig, oedd yn gwneyd i fyny fyddin o gylch tair mil o wŷr. Hwyliodd Henry Tudur efo'r fyddin fechan hon o Harfleur, yn Normandy, ar y 1af o Awst, 1485, a glaniodd ar ddydd Sadwrn, y 6ed o'r un mis, yn nghanol banllefau croesawus, yn Aberdaugleddyf, yn sir Benfro, lle y cyfarfu Rhys ap Thomas ef gyda byddin wych, wedi ei dysgyblu a'i harfogi yn ardderchog. Y mae gan Eben Fardd, yn ei Awdl ar "Frwydr Maes Bosworth," ddarlun prydferth o'r ymgyfarfyddiad yma, yr hwn, cystal a darnau ereill o'r awdl odidog hono, yr ydym yn sicr y maddeua y darllenydd i mi am eu dyfynu:—

"Caed yno Rhismwnt a'r Hwntw,
Law yn llaw, do, lŵ yn llŵ;
Gloywddur Aberdaugleddyf
Wnai'r ddau gawr yn awr yn hyf:
Ap Tudur yn bur i'w bau,
Ar hyn agorai 'i enau:
Areithiai'n gall wrth ein gwŷr,
Diofrydai 'i gydfrodyr,
I resu yn erbyn Risiard,
A rhoi gwth i'w wŷr o Gard,
Nes cyrhaedd ynys Cawri,
A'i hawl yn ol i'n hil ni.
Ymgrymai, a gwenai'r gŵr,
A dyma 'i eiriau, dwym arwr:—
'Os fi 'n wir sy i fwynhau
Y Goron, heb law geiriau
A gwâg sŵn, profwn mewn pryd;
Dyma 'mŵa a 'mywyd!
At ornest hawl teyrnas deg
Fy nheidiau, hon fo 'n hadeg!
A chwithau, profwch weithion
Nad sur frad a ysai'r fron;
Ond rhin gorau teyrngariad,
I alw i'w le lyw y wlad,
Yn erbyn malais trais trwch,
Tarian gwŷr yw teyrngarwch;
Teyrngarwch at 'r hen goron,
A'r iawn aer i arwain hon:
'Baich y brad a'r toriad hwn,
At Rhisiart ni a'i troswn;
Dyma'r gŵr, bradwr Brydain!
Coll fydd gan ein picell fain!
Lluchddwn â'r llaw iddo,
O'i lurig falch, lawr ag fo!
Chwimrwydd, a 'Duw a Chymru,'
Addawant oll ddydd o'n tu!'
Ar y gair hyawdl, O! 'r goroian—fu,
Diattal lamu hyd at ei luman!
Gan sŵn aml benwn ban – siffrwdiadau
Hyd y bryniau 'n dadebru anian!
Ymwibiai myrdd ymhob man—i wel'd brys
Cymry, o wyllys, yn camrio allan."

Er mwyn i'r holl wlad gael cyfleusdra i ymuno â'r byddinoedd, cyttunodd yr arweinwyr i'r Iarll Richmond a'i lu deithio i fan y cyfarfyddiad, ar Gefn Digoll,[2] trwy Geredigion a Gwynedd; tra yr aeth Rhys ap Thomas a'i lu trwy Gaerfyrddin a Brycheiniog tua llanerch y gyrchfa. Dyma ddarlun Eben Fardd o'r cychwyniad:—

"Y Ddraig Goch[3] roddai'r cychwyn,"
Hyf weilch dewr fu'n falch o'i dwyn;
Morwriai fel mawr arwydd,
Neu eilun chwai lawn o chŵydd;
Siffrwd drwy ffrwd awyr ffraw,
Drwy uchafion derch chwyfiaw!
Gan chwarau yn nhonnau nen,
Ei phrawf hyf drwy'r ffurfafen;
Dig lacio ac adglecian
Drwy sybwb mawr dros bob man!
Nes troi'r fro yn gyffro gwyllt
O wrhydri rhaiadrwyllt.
Ymweithient tua'r Mwythig,
A'u hanadl dewr yn dal dig;
A'u llun a'u gwedd yn llawn gwŷr
Calonog, fywiog feiwyr!

[1] Amserwyd y llythyr yn Nghastell Caerfyrddin, 1484. Dywed yr hen ysgrifenydd yn y "*Cambrian Register*," (ll. i., td. 87) i'r llythyr gael ei gyfansoddi gan abad Tal-y-llychau; yn yr hwn y dywedir, os deuai rhyw estron i'r parthau hyny o Gymru, na chai dreiddio i'r wlad ond dros ei gorph ef, Rhys; a dywed yr un ysgrifenydd, pan laniodd yr Iarll Richmond yn Aberdaugleddyf, y gorweddodd Rhys ar y ddaear tra y llamodd yr iarll drosto ("*Cambr. Register*," ll. i., td. 86, 100). Barna Carnhuanawc ("*Hanes Cymru*," td. 776, nodyn) fod hyn yn rhy chwedlonol i'w dderbyn fel gwirionedd; ond gwyddys yn dda fod llawer o bethau llawn mor ddigrif yn cael eu cyflawni gan ein cyndadau.

[2] Mynydd yn sir Drefaldwyn, ar gyffiniau sir Amwythig, lle y dywedir i fyddin Richmond a Rhys ap Thomas ail gyfarfod.

[3] Baner Cymru, oedd yn dwyn llun y Ddraig Goch.

Digitized by Google

Ac o'u blaen yn gwbl unol,
Syr Rhys, heb un gwas ar ol,
Siaspar,[1] a'r T'wysog Harri,
Ba ŵr traws wynebai 'r tri?"

Pan yr oedd yr Iarll Richmond ar ei daith yn Ngheredigion, ymunwyd âg ef gan Richard Gruffydd a Syr John Morgan; a phan yn Ngwynedd dywedir i wŷr Môn ymuno â hwy dan arweiniad Rhys Bodychain; gwŷr Arfon, dan arweiniad yr uchel sirydd, Gwilym ab Gruffydd ab Robin o'r Penrhyn a Chochwillan; gwŷr y "wlad uchaf," dan Syr Rhys Fawr ab Meredydd o Ysbytty; ac un cant ar bymtheg o löwyr sir Fflint, dan arweiniad Mostyn:—pawb o dan ei luman priodol. Erbyn i fyddinoedd y ddau brif arweinydd, Henry Tudur a Rhys ap Thomas, gyfarfod ar Gefn Digoll, yr oedd ganddynt lu cadarn o wŷr cymmhwys i ryfel. Y mae darlun Eben o'r ymgyfarfyddiad ar Gefn Digoll, fel y rhan fwyaf o'i awdl odidog, yn rhy wych i ni allu ysgoi y brofedigaeth o'i ddyfynu:—

"Diogel ar 'Gefn Digoll,'
I ddant aer, llueddynt oll;

Perrott, Wogan, a'r Morganiaid—dewr,
Dyrent gyda'u cydblaid;
I ffurfio pleth, ffurfhau plaid
Ddiïalai ar gau ddeiliaid.

Bronau duon 'brain' y Deau—oeddynt
Eiddig ar faneran;
A llewod o bob lliwiau
Yn ngherrynt y gwynt yn gwau!
A llewod o bob lliwiau,
Di ffug wedi dod o'u ffau!
Ab Gruffydd deg ddi freg fron,
Lywiai dorfoedd gwlad Arfon!

A swyn mawrhydi Sion Amhredydd,
Alwai i fyny lu Eifionydd;
Hwy aent yn llewod dan eu llywydd
I gâd y gelyn gyda'u gilydd.

Dichwith oedd Rhys Bodychen,
Yno'n bur ar Fôn yn ben;
Gŵr Mostyn mewn grymusder,
A phlant ei bau o Fflint bêr;
A Rhys Fawr yn gawr a gaf,
I awchu y wlad uchaf;
Sêl brëyr y Salbriaid,
Oedd i'n plith yn nawdd i'n plaid.

Pob enw mawr, pawb yn eu min—ddisgleiriynt
A dilwfr oeddynt ar dal y Freiddin.[2]

A pha Loegyr na phlygai
Dan gedyrn mor chwyrn a chwai!
Pa ŵr dreng ddarparai drin
Fyth i feiddio'r fath fyddin!"

Ymdeithiodd Henry a'i luoedd o Gefn Digoll i'r Amwythig, lle y derbyniwyd hwynt gyda phob arwyddion o barch a gorfoledd y trigolion. Ymddengys mai ei gydgenedl y Cymry oedd holl fyddin yr iarll hyd yn hyn, oddi eithr y tair mil cymmysg a ddaethant gydag ef o Ffraingc; ond wedi iddo gyrhaedd yr Amwythig, dechreuodd y Saeson hefyd ymuno âg ef. Aeth o'r Amwythig i Newport, lle yr ymunodd Syr George Talbot âg ef, gyda dwy fil o wŷr—deiliaid ei nai ieuangc, Syr Richard Corbet, Iarll Amwythig; ac ychwanegwyd at ei fyddin hefyd gan Syr Thomas Bourchier a Syr Walter Hungerford. O Newport, aeth Henry a'i lu i Stafford, lle yr oedd Syr William Stanley, ystafellydd Gwynedd, yn barod i ymuno âg ef gyda thair mil ereill o Gymry; ac wedi cynnal cynnadledd yno, aethant rhagddynt i Faes y Cyrph *(Lichfield)*; ac oddi yno i Atherstone, lle yr ymwelodd Henry â Thomas, yr Arglwydd Stanley, ei dad-yn-nghyfraith.

Pan glybu Richard am ymgiliad Rhys ap Thomas, ac anweithgarwch Syr William Herbert, prysurodd yn ffrochwyllt, gyda byddin yn cynnwys pymtheng mil o wŷr arfog, i gyfarfod ei elynion; ac ar ddydd Sul, yr 22ain o Awst, medd yr hen awdurdodau (dydd Sadwrn, yr 21ain, medd ysgrifenwyr diweddarach), gwersyllodd y noswaith hono yn abatty Merival, heb fod yn mhell o Bosworth. Gwersyllodd Henry a'i wŷr yr un noswaith rhwng pentrefydd Sutton a Darlington, mor agos i wersyll y gelyn fel y ciliodd amryw foneddigion yn ystod y nos at Henry, er mawr ddigalondid ac ammheuaeth i fyddin y gormesdeyrn. Fe gofia y darllenydd fod mab yr Arglwydd Stanley yn afflau y llofruddiog Richard; am hyny gwersyllodd Stanley, yn ol cyttundeb a fu rhyngddo, ond odid, â'i fab-yn-nghyfraith yn Atherstone, ar un aden, gyferbyn â'r gwagle oedd rhwng y ddwy fyddin, rhag i Richard feddwl ei fod wedi troi yn anffyddlawn iddo, a lladd ei fab yn y fan; a gwersyllodd Syr William Stanley o'r ochr arall, ar gyfer ei frawd. Ni chymmerodd yr Arglwydd Stanley ran yn y frwydr nes iddi fyned yn bur boeth; ac y mae Eben Fardd, mewn llinellau prydferth, yn ei feio yn llym o blegid hyny, gan ddywedyd:—

"Stanley i'r cymhelri mawr,
Dynesai yn wydn aesawr;
Hwyr o'i dwll rhodiai allan,
A'i gâd-dorf fig tua'r fan;
Edrychodd pwy wnai drechu,
Cyn ceisio taro o'u tu:
Ofnai falais trais trwm
Eofngryf lid y 'Cefngrwm'[1]
I Rhisiart eisoes rhoisai
Ei fab yn wystl; ef be' wnai?
Os troi wnai yn yr ystrîn,
Nerth bron yn ngwrth y brenin,
Collai ei fab! ond call fu—
Hir oedodd i'w waredu.
Er hyny, mae rhyw anair
O gas liw ac isel air
I'r tro hwn rhyw watwor oedd—
Drwc ehyd gyda'r cyhoedd;
Bloedd rhyddid gwlad brid Brydain,
Ro'i wŷs i'w gleddyf o'r wain;
A dylasai gwlad-lesiant
Y bobl oll heibio i'w blant,
Ei yru'm mlaen yn arab
Dros y myrdd; Duw dros y mab!
Y genedl ar ei gwyneb
Hawlia'n uwch na theulu neb;
Gnawd i arwr gwên dirion
Aberthu teulu at hon;
Trawsedd i ŵr betruso,
Os gwel frâd yn siglo 'i fro!
I dd'ledog mae'n ddyladwy,
O gefn ei farch, gofio'n fwy
Am ei wlad, nag am ei les
Ei hun, neu fun ei fynwes;
Ië, yn nalfa anwylfab,
Naw mwy yw cenedl na mab!

Pa wedd bynag, pan boethodd y frwydr, fe arweiniodd yr Arglwydd Stanley ei fintai i'r ymgyrch; ac efe a'i frawd, Syr William, a lwyr droisant y fantol o blaid Henry Tudur; canys cyn gynted ag yr aeth y frwydr yn gyffredinol, ymosododd y ddau Stanley ar ystlys byddin

[1] Jasper Tudur, ewythr Henry Tudur, Iarll Richmond, o frawd ei dad.

[2] Dygen Freiddin, neu Graig y Freiddin, oedd orsaf filwrol yr hen Gymry gynt ar Gefn Digoll.

[1] Dywedir fod un ysgwydd i Richard yn uwch na'r llall, ac am hyny y gelwid ei "Richard Gefngrwm."



Digitized by Google

Richard, gan ei chwalu i bob cyfeiriad. Pan welodd Richard iddo gael ei werthu gan Stanley, a bod yr holl Gymry wedi cefnu arno, ymgynddeiriogodd yn aruthr; ac wrth ganfod nad oedd ei gydymgeisydd, Henry Tudur, neppell oddi wrtho, penderfynodd roddi terfyn ar yr ornest trwy ei farwolaeth ei hun neu ei wrthwynebwr; a chan daraw ei ysparduriau yn ei gâdfarch hoywgryf, torodd ei ffordd, gydag ychydig ddilynwyr dewrion, trwy bob rhwystrau, at wrthddrych ei gynddaredd:—lladdodd Syr William Brandon, banerydd Henry Tudur, â'i law ei hun; bwriodd Syr John Cheney oddi ar ei farch yn archolledig; a phan oedd bron o fewn cyrhaedd dyrnod i Henry, yr hwn ni wrthodai ymladd âg ef, amgylchynwyd Richard gan amryw ar unwaith, y rhai a'i bwriasant yntau weithian oddi ar ei gadfarch, a dilys fod Rhys ap Thomas yn eu plith, yr hwn a gadwai Henry yn agos i'w berson ar hyd y frwydr; ond ymladdodd Richard fel llew, ar ei draed, hyd y diwedd. Y mae gan Shakespeare ddarlun effeithiol o'r ymdrechfa farwol yma, yr hwn a wna i Catesby lefain:—

Achub, fy Arglwydd Norfolk—achub, achub!
Gwna'r brenin ryfeddodau mwy na dŷn;
Wyneba bob rhyw berygl yn ddigrŷn.
Lladdwyd ei farch, ymladd yntau ar draed,
Wrth geisio Richmond yn ngwddf angau a gwaed.
Achub, deg Ri, neu llwyr gollir y dydd!

*Richard*:—
March! march!—fy nheyrnas rown am farch!

*Catesby*:—
Ymgiliwch fy llyw; rhoddaf i chwi farch.

*Richard*:—
Y caeth! dodais fy mywyd yn llwyr ar antur,
A safaf y ddamwain yn ddewr ac yn bybyr,
Tybiaf bod ar y maes chwe Richmond yn ddiau:
Pump eisoes a leddais; ond etto byw yntau!
March! march!—fy nheyrnas rown am farch!

Pan oedd Richard, yn ol y traddodiad Cymreig, ar roddi y ddyrnod farwol i Henry Tudur, tarawodd Rhys ap Thomas y gormesdeyrn â'i gadfwyall, nes yr oedd yn ymdreiglo wrth ei draed, a'r goron, yr hon a wisgai am ei ben yn ystod y frwydr, yn rholio mewn gwaed oddi wrtho. Ar y traddodiad yma y seiliodd Eben Fardd y llinellau cyffrous canlynol:—

Hwnt â Rhisiart, a'i ryswyr,
O greulawn ŵg, ar lawn ŷr,
At Richmond mewn eonder,
Pwysai 'i ddigllon waywffon ffer;
Yn hyny deuai'n hoenwych
Syr Rhys ap Thomas, "gwas gwych!"
Fe wnai at fod yn fin at fin,
Gyfer-wyneb â'r gau frenin;
Arwrol oedd gweryriad
A mawr wawch certh eu meirch câd!
Dau farchog mewn hyrddiog hynt:
Pin teyrnas pwyntiai arnynt.
Bu galed y bygylu
A'r hyrddio dewr o'r ddau du:
Ni ddorai y ddau wron
Unrhyw ffurf wnai'r wayw-ffon!
A theflynt o'u gwrthaflau
Ddyrnod am ddyrnod y ddau:
Nes i Syr Rhys, aswy'r hwrdd!
Gynddeiriogi'n ddewr agwrdd;
Ac â'i fraich fraisg, a'i froch fryd,
Daro 'i fwyall drwy 'i fywyd!

Cymmerwyd y goron oedd wedi ei dwbio â gwaed, a dodwyd hi, yn nghanol banllefau y buddugwyr, ar ben Henry Tudur (Henry VII. o hyny allan) yn maes y gyflafan, fel y tystia Lewis Glyn Cothi, ei gydoeswr:—

Yngo 'n y fyddin dangnefeddus,
Coroned Harri, carw anturus.

Wedi diolch i'r Goruchaf am y fuddugoliaeth, a chanmawl y milwyr am eu ffyddlondeb, fe wnaeth Henry VII. amryw o honynt, cyn symmud o faes yr ymgyrch, yn farchogion; ac yn eu plith, Rhys ap Thomas, yr hwn ar ol hyny a alwyd yn Syr Rhys ap Thomas.

Ar ol i'r brenin gael ei goroni yn rheolaidd ar y 30ain o Hydref, ac ymsefydlu yn weddol ddiogel yn ei deyrnas, dechreuodd feddwl am Gymru, er mawr foddhâd i'r genedl, lle y cafodd nawdd gyntaf yn ei gyfyngder. Yn gyntaf oll, dyrchafodd ei "Dad Rhys," fel yr arferai alw Syr Rhys ap Thomas, i fod yn Brif Ynad a Rhaglaw Deheubarth Cymru, gyda llawn awdurdod i ddiwygio holl gamarferion y dalaeth. Hefyd, gwnaed ef yn Heddgeidwad a Rhaglaw Brycheiniog, ac yn Ystafellydd siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, ac yn Sensyllt (*Seneschal*) arglwyddiaeth Buallt a sir Frycheiniog.

Cafwyd heddwch ar ol hyn dros gryn ddwy flynedd; ond tra yr oedd Syr Rhys, yn y cyfamser, yn llywodraethu ei genedl ei hun yn ddoeth, cyfiawn, a boddhaol, ac yn llarieiddio teimladau ymladdgar ei gydwladwyr yn erbyn eu gilydd o blegid y rhyfeloedd diweddar, galwodd y brenin am dano yn ddisymmwth i ymgynghori âg ef ynghylch gwrthryfel a gynnhyrfid gan fynach o Rydychain, o'r enw Simon, yr hwn a osodai un Simnel i fyny fel Iarll Caerwythelin (*Warwick*), ac etifedd nesaf y goron. Ymunodd amryw bleidwyr cyfoethog Caerefrog â'r mynach; a gwelodd y brenin a'i gynghorwyr nad oedd dim amser i'w golli heb eu dodi i lawr. Trefnodd ei filwyr ar frys dan lywyddiaeth y Duc o Bedford, Iarll Rhydychain, Argl. Strange, Syr Rhys ap Thomas, ac ereill. Gan nad oedd amser i Syr Rhys i fyned i Gymru, dododd y brenin gatrawd o wŷr meirch Saesnig o dan ei arweiniad. Cyfarfu y ddwy fyddin elynol eu gilydd ar yr 16eg o Fehefin, 1487, yn Stoke ar y Trent; ac ar ol brwydr gyndyn a gwaedlyd dros dair awr, llwyr orchfygwyd y gwrthryfelwyr gyda lladdfa fawr. Ymddygodd Syr Rhys mor foneddigaidd at ei filwyr Saesnig, a gwnaeth y fath wrhydri personol yn y frwydr hon, fel yr hoffwyd ac y mawrygwyd y Cymry gan y Saeson dros hir amser wedi hyn. Ond bu agos i'r frwydr hono fod yn angeu i'r arwr Rhys; canys tra yr oedd yn ymladd law-law âg iarll dewrwych Kildare, cafodd ryw niwed oddi ar law milwr cyffredin o Wyddel, yr hyn a'i ffyrnigodd mor erchyll fel y rhuthrodd i ganol y gelynion, gan eu medi i lawr yn gelaneddau meirw ar bob llaw; eithr canfu Iarll Amwythig fod y gelynion wedi ei lwyr amgylchu, ac yntau yn y perygl mwyaf am ei fywyd, ac achubodd ef o ganol y fileindorf, ar ol iddo wneyd gwrhydri oedd wedi synu y Saeson, a llwyr ennill eu hedmygedd. Pan adroddwyd i'r brenin y fath westfa chwerw a gafodd Syr Rhys gan y Gwyddelod, gofynodd Henry iddo, mewn digrifwch, "Wel, y Tad Rhys! sut yr oeddit yn mwynhau yr arfolliad yma? P'un oreu genyt, ai bwyta cenin yn Nghymru, ai meillion yn mhlith y Gwyddelod?" "Yn wir, eich Mawrhydi," ebai Rhys, "bwyd digon garw ydyw pob un o honynt; ond byddai y naill neu y llall yn wledd gyda'r fath gydymaith," gan gyfeirio ei fys at Iarll Amwythig.

Yn mhen ennyd ar ol hyn, galwyd ar Syr Rhys i ddilyn Henry VII. ar ei ymgyrch ddi-

Digitized by Google

ffrwyth i Ffraingc, lle na chafodd nemawr gyfleusdra i ddangos ei wrhydri; ond daeth achos mwy pwysig i alw am wasanaeth Syr Rhys ap Thomas yn lled fuan. Yn y flwyddyn 1492, lluniodd Margaret, gweddw y Duc o Burgundy, ail ffug ymgeisydd am orsedd Prydain, yn mherson un a elwid Perkin Werbeck, enw priod yr hwn oedd Peter Osbeck, mab un John Osbeck ab Dirick Osbeck, o dref Tourney, yn Fflandrys. Dygwyd y ffugymhonwr yma yn mlaen yn fwy celfydd na Simnel, ac yr oedd yntau yn llawer mwy galluog ac egniol yn ei ymdrech. Cafodd gefnogaeth amryw bendefigion galluog yn yr Iwerddon, ac Ysgotland, a Chernyw; y rhai a ddiwyd gynllunient i fwrw Henry oddi ar yr orsedd; ac wedi bod yn bradfwriadu am o gylch pum mlynedd, arweiniasant eu lluoedd o'r diwedd i'r Blackheath (y Grugle Du), o fewn pum milldir i ddinas Llundain. Ond nid oedd Henry wedi bod yn segur ac anwyliadwrus yn y cyfamser; eithr yr oedd ganddo fyddin gref ar eu cyfer. Pan glybu iddynt ddyfod mor agos i'r brifddinas, trefnodd ei fyddin yn dair adran. Dododd y gyntaf dan arweiniad Iarll Rhydychain, fel cadlywydd; yn cael ei gynnorthwyo gan Iarll Essex, Iarll Suffolk, Syr Rhys ap Thomas, a Humphrey Stanley. Yr oedd y rhai hyn i amgylchynu ochr dde y bryn ar yr hwn y gwersyllai y gelynion, ac i attal iddynt ffoi ar yr ochr chwith. Yr ail adran a ddodwyd dan arweiniad yr Arglwydd Daubeney, yr hwn oedd i ymosod ar y flaenfyddin. Arosodd y drydedd gyda'r brenin, yr hwn oedd i weinyddu cymhorth wrth raid ac achos. Gwnaed yr ymosodiad ar yr 22ain o Fehefin, 1497, ac ymladdwyd mor wrol gan y ddwyblaid fel yr oedd y fuddugoliaeth yn ammheus dros amser; ond o'r diwedd, llwyr orchfygwyd y terfysgwyr, y rhai a ffoisant mewn annhrefn, gan adael dwy fil yn feirw ar faes y gyflafan; a chymmerwyd pymtheg cant yn garcharorion. Yr oedd gan Syr Rhys ap Thomas bymtheg cant o wŷr meirch wrth ei orchymyn yn y frwydr hon. Lladdwyd dau o feirch oddi dano: yna galwodd am ei hoff farch, a elwid "Llwyd y Bacsau," a rhuthrodd trwy ganol y gelynion at yr Arglwydd Audley, un o brif gynhyrfwyr y gwrthryfel; ac ar ol brwydr lawlaw wrolfryd o'r ddeutu, cludodd Rhys ef yn garcharor at y brenin. Am yr orchest hon, gwnaed Rhys yn fanerwr ar y maes, yn nghanol ei glwyfau; a rhoddwyd holl feddiannau yr Arglwydd Audley iddo yn anrheg am ei wrhydri. Crogwyd dau o'r prif derfysgwyr Cernywaidd, a thorwyd pen yr Arglwydd Audley. Goddefwyd i'r holl garcharorion ereill brynu eu rhyddhad fel y gallent gan y rhai a'u carcharasant.

Diangodd y ffugymhonwr Werbeck o'r frwydr i Ysgotland, o ba le y gyrwyd ef i'r Iwerddon; ac wedi casglu ynghyd ychydig o derfysgwyr Gwyddelig, hwyliodd i Gernyw drachefn, lle y cyhoeddwyd ef gyda gwag rwysg a rhodres yn frenin Lloegr, dan yr enw Richard IV. Llwyddodd yn ebrwydd i gasglu o gylch tair mil o'r werin at y fintai fechan o anturwyr a ddaethant gydag ef o'r Iwerddon; a dechreuasant warchau dinas gadarn Caerwysg (*Exeter*). Er nas gallai y brenin lai na chilwenu at eu rhyfyg pan adroddwyd yr hanes iddo, etto nid oedodd anfon cynnorthwy i'r ddinas dan arweiniad yr Arglwydd Brooke, yr Arglwydd Daubeney, a'r "ffyddlawn Gymro, Syr Rhys ap Thomas," fel y geilw Speed ef. Pan ddeallodd y twyllwr Perkin Werbeck hyn, gadawodd ei ddilynwyr twylledig, a ffodd yn nyfnder y nos i'r Fforest Newydd, yn sir Hamp, a chymmerodd nawdd yn abatty Beauliew (Bôliw). Pan glywodd y brenin am ei ffoad, archodd i Syr Rhys ap Thomas ei erlyn gyda phum cant o wŷr meirch; ond gan iddo gymmeryd nawdd yn yr abatty, nis gallai Syr Rhys ei gyrchu o'r noddfa eglwysig heb archiad pellach oddi wrth y brenin. "Gwn fod rhai o'n hysgrifenwyr," medd yr hen hanesydd yn y "*Cambrian Register*," "wedi cipio y gorchwyl yma oddi ar Syr Rhys ap Thomas, a'i briodoli i'r Arglwydd Daubeney; ond nis gallwn ni oddef i'n cydwladwr gael ei ysbeilio o'r anrhydedd sydd deilwng iddo; canys gelwir ef yn bendant yn y rhaglith i'w freinteb sydd yn Llyfr Marchogion y Gardas, yn 'erlyniwr Perkin Werbeck.'"

Pan gafodd y brenin Henry VII. hamdden, ar ol yr holl helbulon hyn, anfonodd wŷs i Syr Rhys ap Thomas, Iarll Caint, a'r Arglwydd Stafford, i ymddangos yn ei lys; a gwnaeth y tri yn Farchogion y Gardas, fel arwydd o'i gymmeradwyaeth o'u ffyddlondeb a'u gwrhydri; ac ar yr un pryd anrhegodd Syr Rhys âg arglwyddiaeth Arberth. Pan ofynodd y brenin iddo a fynai efe i Urdd y Gardas fod yn barhaus yn ei deulu, attebodd yntau, er mawr foddhâd i'r brenin, y dewisai efe, o rhyngai bodd i'w fawrhydi, adael i'w hiliogaeth chwysu am dani fel y gwnelsai yntau. Ymddengys i hyn ddigwydd o gylch 1498, yn fuan ar ol llwyr ddarostwng ymgyrch Perkin Werbeck.

Y flwyddyn ganlynol, cynnaliodd Syr Rhys ap Thomas baledgamp, neu ffug ryfel ardderchog, yn ei lys yn Carew, gyda rhwysg tywysogaidd, er anrhydedd i'r urdd a dderbyniasai; a daeth yno liaws o farchogion a barwniaid o'r Dywysogaeth ac o'r cyffindiroedd, rhai er mwyn difyrwch, ac ereill i ddangos eu medr milwrol a'u gwrhydri, y rhai a arfollwyd oll yn anrhydeddus.

Yr oedd Syr Rhys yn fawr ei barch yn llys Henry VIII. yr un modd; yr hwn a gadarnhaodd iddo yr holl ragorfreintiau a roddasid iddo gan ei dad, Henry VII. Yn y flwyddyn 1513, pan oedd Syr Rhys yn 62ain oed, dilynodd Henry VIII. i Ffraingc, a gwnaeth wrhydri, yn enwedig yn mrwydr Terouenne, ac yn ngwarchauad Tourney. Ymddengys fod mab Syr Rhys, a elwir Syr Gruffydd, yn y brwydrau hyn gyda'i dad; canys dywedir i Henry, ar ol dychwelyd o'r Cyfandir, "anrhegu Syr Gruffydd, mab ac etifedd Syr Rhys ap Thomas, â'r swydd o lywodraethwr Dynas [yr un a Dynefawr, fel y tybir] yn Neheubarth Cymru, ynghyd â'r holl elw a thaliadau a berthynent iddi." Yn fuan wedi hyny gwnaed Syr Rhys, a'i fab Syr Gruffydd, yn Sensyllt a Changhellydd arglwyddiaethau Hwlffordd a Rouse. Yr oedd hyn, ynghyd â'r swyddi ereill a lenwid gan Syr Rhys, yn cynnwys bron yr holl leoedd o anrhydedd a feddai y goron yn y parth hwnw o'r deyrnas; ac ymddengys wrth waith y beirdd fod yr holl ffafrau brenhinol hyn 'a bentyrid arno yn peri i rai o bendefigion Lloegr genfigenu wrtho; canys dywed Tudur Aled ei fod yn "wenwyn Lloegr," a'r cyffelyb.

Ymddengys mai ymgyrch Syr Rhys ap Thomas gyda Henry VIII. i Ffraingc oedd ei antur filwraidd ddiweddaf. Treuliodd weddill ei oes yn y mwynhâd o gysuron tangnefedd, yn ei hoff Gastell Carew, yn sir Benfro, gan ymddifyru yn benaf mewn marchwriaeth, prif hyfrydwch ei

Digitized by Google

holl oes. Er hyny, nid esgeulusai un o ddyledswyddau ei aml swyddogaethau; ac yr oedd yn dra defosiynol yn nghrefydd ei oes, sef Pabyddiaeth. O blegid ei gymmeriad uchel, ynghyd â'i fawr gyfoeth, ei haelioni, a'i diriondeb, yr oedd yn annichonadwy i'w glod fod yn uwch nag ydoedd, mewn byd ac eglwys. Terfynodd ei oes yn llawn anrhydedd a pharch yn 1527, pan yn 76ain, gan adael bwlch ar ei ol yr oedd yn dra anhawdd cael neb yn y parth hwnw o'r wlad i'w lenwi dracbefn. Claddwyd ef ar y cyntaf yn abatty Caerfyrddin, ond wedi hyny symmudwyd ei weddillion ef a'i wraig i eglwys St. Pedr yn y dref hono, lle y dodwyd cofadail ardderchog er cof anrhydeddus am danynt; ond gan iddi gael ei gwneyd o faen meddal, yr oedd bron yn ammhossibl gwybod i bwy y perthynai, hyd yn oed yn amser ei hen gofiannwr yn oes James I., dros ddau gant a hanner o flynyddau yn ol.

Bu Syr Gruffudd ap Rhys, unig fab Syr Rhys ap Thomas o'i wraig briod, farw o flaen ei dad, gan adael un mab ar ei ol, yr hwn a feddiannodd holl etifeddiaethau llydain ei daid. Anrhydeddwyd un o hiliogaeth Syr Rhys ap Thomas gan George III., yn 1780, â'r urdd o Arglwydd Dinefawr, o Gastell Dinefawr, sir Gaerfyrddin; ac y mae yr urdd yn aros fyth yn y teulu.—("*Gwaith L. G. Cothi;*" "*Cambrian Register;*" Speed's "*Hist. Brit.;*" Bacon's "*Henry* VII.;" "*Cambr. Biog.;*" "*Cambrian Plutarch;*" "*Y Gwladgarwr;*" "*Hanes Cymru,*" Carnhuanawc; Williams' "*Eminent Welshmen;*" "*Taliesin,*" Ab Ithel; "*Hanes y Bryt. a'r Cymry,*" &c.

RHYS, MORGAN: un o hen gynghorwyr y Methodistiaid Calvinaidd yn y Deheubarth, ac awdwr nifer lled fawr o hymnau melusion a phoblogaidd. Dywedir ei fod yn enedigol o gymmydogaeth Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef, fel y tybir, yn agos i ddechreu y ddeunawfed ganrif, ond nid yw yn hysbys pa flwyddyn; ac ni wyddys chwaith beth oedd sefyllfa ei rieni, na pha ddygiad i fyny a gafodd, na dim am helyntion boreu ei oes. Gellir casglu, modd bynag, iddo gael rhyw gymmaint o ysgol, gan iddo fod am ryw ysbaid yn un o ysgolfeistriaid ysgolion Cymraeg cylchynol y Parchedig Griffith Jones, Llanddowror; ac iddo fod wedi hyny, yn y rhan ddiweddaf o'i oes, yn cadw ysgol ddyddiol, ar ei gyfrif ei hun, yn ardal Capel Isaac, ger llaw Llandeilo Fawr. Y mae efe yn gwneuthur coffa serchog am Mr. Jones, yn marwnad Howel Davies, W. Richard, a John Parry:—

"Jones, Llanddowror, addfwyn, cu,
Ar orsedd fry 'n teyrnasu."

"Jones, Llanddowror, nid yw 'n wylo
Tros y byd annuwiol yno:
Er mor helaeth fu ei lafur,
Ca'dd gan cymmaint, nid wrth fesur."

Ymddengys iddo gael ei ennill at grefydd trwy weinidogaeth Howel Harris a Daniel Rowlands. Ymunodd â'r Methodistiaid yn Nghil y cwm, lle y bu yn aelod defnyddiol drwy ei oes; ac heb law cadw ysgol, fel y soniwyd, bu yn llafurio fel pregethwr neu gynghorwr, yn dra chymmeradwy, am lawer o flynyddoedd. Ni wyddys pa bryd y dechreuodd bregethu, ond dywedir iddo barhau yn ffyddlawn hyd ei farwolaeth. Preswyliai mewn tŷ bychan ar dir Cwm-gwaun-hendŷ, yn mhlwyf Llanfynydd; ac yno, ymddengys, y gorphenodd ei yrfa. Y cofnodiad yn nghofrestr claddedigaethau yn eglwys plwyf Llanfynydd yw hyn yn unig:—"Morgan Rees, *August the 9th*, 1779." Claddwyd ef felly yn mynwent Llanfynydd; ond nid oes yno un beddfaen i ddangos y man y gorwedda ei weddillion marwol. Nid yw hyny o ddim pwys iddo ef: y mae yn gorphwys mewn tangnefedd yn y tywyll fedd yno, i aros adgyfodiad gorfoleddus y dydd diweddaf. Gadawodd enw da ar ei ol, ac y mae ei goffadwriaeth, er prined ydyw, yn fendigedig; ac yn ei emynau rhagorol ac efengylaidd, "y mae efe, wedi marw, yn llefaru etto."

Ei brif waith yw y llyfryn bychan o hymnau a elwir, "*Golwg o Ben Nebo ar Wlad yr Addewid,*" yr hwn a argraphwyd amryw weithiau, gyda chwanegiadau gan yr awdwr, yn amser ei fywyd, ac amryw weithiau ar ol ei farwolaeth, ac o fewn y ganrif bresennol. Cyhoeddodd hefyd bedwar o lyfrynau bychain ereill o hymnau yn dwyn yr enwau canlynol:—"*Golwg ar Ddull y Byd hwn yn myned heibio, a Thragywyddoldeb o Hapusrwydd yn nesâu i holl Waredigion Seion;*" "*Golwg ar y Ddinas Noddfa, mewn Casgliad o Hymnau, i ddifyru y Pererinion sydd yn teithio trwy Lyn Wylofain i'r Breswylfa lonydd;*" "*Y Frwydr Ysbrydol: mewn Casgliad o Hymnau Newydd, ar amryw Fesurau,*" gan Morgan Rhys a Thomas Dafydd; a "*Griddfanau'r Credadyn am Berffeithrwydd ac Anllygredigaeth, ar Fesur Newydd.*"

Ceir yn ein gwahanol lyfrau hymnau gryn nifer o bennillion detholedig a chynnull-gânau o'i waith, a rhai heb ei enw wrthynt; rhaid addef hefyd nad ydyw eu trefniad mor dda ag y buasai yn ddymunol, ac y gellid yn hawdd eu haddrefnu yn well. Prif ragoriaeth cynnyrchion awenyddol Morgan Rhys yw eu gwreiddiolder a'u melusder. Nid oes "dim tebyg i gyfieithiad nac efelychiad yn ei waith, fel y gellir edrych ar ei gyfansoddiadau yn wreiddiol Gymreig, er nad ydynt yn dangos nemawr ymwybodolrwydd o nerth a chyfoeth yr iaith; yr hyn a allasai fod o wasanaeth gwerthfawr iddo er gwneuthur ei ganiadau yn fynych yn fwy tarawiadol, hyfryd, ac adeiladol. Y mae ei destynau yn ysgrythyrol, ac ansawdd y brydyddiaeth yn efengylaidd a phrofiadol. Ynghyd â'r ystyriaeth o bechadurusrwydd a thrueni dyn dan y cwymp yn yr Adda cyntaf, mae yn dal allan yn ngoleuni yr efengyl ei godiad i gymmod, heddwch, a ffafr Duw yn yr ail Adda, yr Arglwydd o'r nef. Y mae yn gorfoleddu yn yr amlygiad o anfeidrol gariad Duw, a chyfoeth ei ras, yn iachawdwriaeth ei bobl trwy yr Arglwydd Iesu Grist. Y mae yn tynu ei gynnaliaeth a'i gysuron, ar daith yr anialwch, a than orthrymderau a gormes gelynion ei enaid, allan o drysorau yr addewidion, a ffyddlondeb y Gwaredwr; ac yn yr olwg ar fyrder a breuolder oes dyn ar y ddaear, ac ar "ddull y byd hwn yn myned heibio," y mae yn esgyn i ben Nebo i syllu trwy ysbïenddrych ffydd ar wlad yr addewid, y Ganaan nefol, etifeddiaeth y saint tu draw i angeu. Y mae yn fynych yn pyngcio yn hyfryd am ogoneddiad a gwynfyd y briodasferch, gwraig yr Oen; ond yr hyn sydd yn tanio ei serchiadau mewn clodforedd gorfoleddus a buddugol ydyw gogoniant person y Gwaredwr fel Duw-ddyn, teilyngdod ei aberth, llwyddiant ei eiriolaeth y tu fewn i'r llen, ei ddyrchafiad ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd, ei ail ddyfodiad i farnu y byd, ac fel Alpha ac Omega yr holl oruchwyliaethau dwyfol, mewn creadigaeth, rhagluniaeth, ac yn iachawdwriaeth ei eglwys—"ar yr hyn bethau,"

Digitized by Google

fel y dywed yr apostol, "y mae yr angylion yn chwennychu edrych."

"Wrth fyned yn lled fanwl dros hymnau Morgan Rhys, a hoffi llawer o honynt yn fawr, rhaid addef y gwelir ganddo gryn nifer, o ran prydyddiaeth, o ansawdd is-raddol; a hyny ran fynychaf o ddiffyg meddwl yn fwy trefnus, cryno, a manwl; ac o eisieu gwell gofal i wisgo ei feddyliau mewn iaith ddestlus a choeth. Y mae ei syniadau yn aml yn gymmysglyd a gwasgarog, ac ambell un yn cael ei dra mynychu; ei ffugrau weithiau yn ymddangos yn gloffion ac anghyfaddas; a llinellau yn cynnwys tor mesur, neu gorfaniad afrywiog, a beiau cyffelyb, yn gwneyd rhai pennillion yn anystwyth ac afrwydd i'w canu. Dyna ei golliadau penaf; ond y mae y rhagoriaethau a nodwyd yn myned yn mhell i wneyd iawn am danynt. Nid yw byth yn ymgais am un math o addurn na gorchest; a lle y mae yn brydferth, ymddengys felly yn hollol naturiol. Nid yw yn ymgais am gynghanedd blethedig, fel rhai cyfansoddwyr emynau; a phan y ceir ganddo rywbeth tebyg, y mae felly yn gwbl o ddamwain."

Ceir yn y "*Traethodydd*" am 1872, td. 57—70, elfeniad manwl ar hymnau Morgan Rhys, a detholiad helaeth o'r goreuon o honynt, wedi eu trefnu yn ofalus, allan o wahanol fân-lyfrau yr awdwr. Heb law hymnau, cyfansoddodd hefyd rai marwnadau, y rhai sydd yn dangos ei fod yn meddiannu teimladau tyner a serchog iawn, a'i fod yn dra chydnabyddus â chrefyddwyr ei oes yn siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi: ac y mae yn cyfeirio at y rhai ymadawedig o honynt yn gynnes a pharchus iawn, ac at y teuluoedd a'r eglwysi y perthynent iddynt gyda llawer o gydymdeimlad; a chyda'r symledd mwyaf, ond nid i dristau fel rhai heb obaith. Gwelir dwy o'i waith yn y "*Casgliad o Hen Farwnadau Cymreig*," gan y Parch. Thomas Levi. Nid ymddengys i Morgan Rhys gyhoeddi dim ond hymnau a marwnadau.

RICHARD, EBENEZER: pregethwr poblogaidd yn mhlith y Trefnyddion Calvinaidd. Mab hynaf ydoedd efe i Henry Richard, o'i ail wraig, Hannah. Ganwyd ef ar y 5ed o Ragfyr, 1781, yn mhentref Treffin, swydd Benfro. Yr oedd ei dad yn ŵr crefyddol a duwiolfrydig, a bu yn bregethwr defnyddiol gyda'r Methodistiaid am drigain mlynedd; ac yr oedd ei fam hefyd yn hynod am ei hysbryd crefyddol, a'i phroffiad Cristionogol addfed. Gofalent am ddwyn eu plant i fyny yn grefyddol, trwy blanu ynddynt yn foreu barch dwfn i wirioneddau yr efengyl, a'i hathrawiaethau. Felly, cafodd gwrthddrych y cofiant hwn y fraint o gael dygiad i fyny crefyddol o'i febyd. Ymddengys ei fod pan yn blentyn o dymmher addfwyn a gwylaidd, a'i fod yn hoff iawn o ddysgu a darllen; ac yr oedd yn amlwg ei fod yn meddu ar gynneddfau meddyliol cryfach na'r cyffredin. Pan yn fachgenyn, yr oedd yn hoff iawn o wrandaw yr efengyl, ac arferai ddilyn gweinidogion enwog a ddeuent trwy y dosbarth o'r wlad yr oedd yn byw ynddo, o fan i fan ar hyd yr ardaloedd; a byddai yn dda ganddo adgofio a son am y teithiau hyn yn nghyfnodau ereill ei oes. Yn 1796, yn y bymthegfed flwydd o'i oedran, bu yn ngafael afiechyd trwm a pheryglus—ychydig o obaith a'goleddid am ei adferiad; ac mewn cyfeiriad at hyn, dywed ef ei hun:—"Bum glaf, yn agos i angeu." Ond adferwyd ef yn raddol; ac mor fuan ag y gwellhaodd, ymddengys iddo gynnyg ei hun am gyflawn aelodaeth yn eglwys Dduw. Tebygol yw ei fod yn flaenorol i hyny yn arfer myned i'r cyfarfodydd eglwysig, yn ol yr arferiad yn mysg Methodistiaid y dyddiau hyny.

Digwyddodd amgylchiad nodedig yn nechreu y flwyddyn 1797. Yr oedd y rhyfel ar y Cyfandir yr adeg hono yn ei phoethder, a Napoleon yn bygwth goresgyn Prydain, ac yn casglu byddinoedd mawrion ar ororau Ffraingc gyda'r amcan hwn; yr hyn a barai anesmwythder nid bychan yn mhreswylwyr y wlad hon. Yn y flwyddyn rag-grybwylledig, tiriodd ychydig o Ffrangcod mewn lle a elwir Pencaer, ger llaw Abergwaun, ar yr 22ain o Chwefror. Ni wyddys hyd y dydd hwn hyd sicrwydd a ddeuent o dan awdurdod Ffraingc, ai peidio; ond yr oeddynt yn ngwisgoedd milwraidd byddin Ffraingc: tebygol ydyw mai llu o ddrwgweithredwyr oeddynt. Pa fodd bynag, parodd yr amgylchiad gythrwfl a chynnhwrf mawr yn y Dywysogaeth. Cododd y bobl gyda phob brys, gan eu harfogi eu hunain â'r peth cyntaf y caffent afael arno; ac mewn canlyniad i ddychryn neu annhrefn, rhoddodd y Ffrangcod eu harfau i lawr yn fuan i Arglwydd Cawdor. Effeithiodd hyn yn ddwys ar feddwl ieuangc Ebenezer Richard, a chyfansoddodd gân o ddiolchgarwch ar yr amgylchiad, yr hon a argraphwyd y flwyddyn hono. Yn mhen gryn ysbaid o amser ar ol hyn, symmudodd o breswylfod ei rieni i gadw ysgol i Brynhenllan, rhwng Trefdraeth ac Abergwaun. Yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi ei ddyfodiad i'r lle hwn, ymaflwyd ynddo gan argyhoeddiad llym a thanllyd; effeithiwyd arno i'r fath raddau fel y gorfodwyd ef i roddi i fyny ei alwedigaeth, a dychwelyd i dŷ ei rieni; ac ar ol hyny, bu am beth amser yn teimlo yn mron yn anobeithiol. Ysgrifenai am ei deimladau y noson olaf o'r gwewyr poenus hwn fel y canlyn:—"Gorphenaf 1af, 1801.—Y noswaith hon oedd y fwyaf ofnadwy yn fy mywyd; ond yr wyf yn gobeithio mai ynddi hi y dechreuodd dydd na bydd terfyn arno byth." Y noson hono y torodd gwawr ar ei enaid, ac y cafodd olwg ar drefn yr efengyl i gyfiawnhau yn *Heb.* vii. 25; "Am hyny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy." Yn ol llaw, byddai Mr. Richard yn rhybuddio ereill rhag coleddu dymuniadau rhyfygus am ryw argyhoeddiad hynod ac ofnadwy. "Gwnaethum i felly," ebe fe, "a chefais fy neisyfiad yn wir; ond dioddefais dano loesion ac arteithiau na ewyllysiwn weled ci na sarph byth yn dioddef eu bath." Ar ol i'r dymmhestl fawr hon fyned heibio, dychwelodd Mr. Richard drachefn i Brynhenllan, wedi ei gyfnewid yn fawr. Yr oedd ei ddoniau a'i dduwioldeb yn amlwg. Cymmhellwyd ef i ddechreu odfeuon o flaen gweinidogion dyeithr, ac ymddengys fod nerth ac ysbrydolrwydd ei weddïau y pryd hwn yn synu pawb.

Erbyn hyn, yr oedd llawer yn edrych arno fel un cymmhwys i'w alw i'r gwaith o bregethu yr efengyl, er nad oedd efe ei hun yn ystyried ei fod yn gymmhwys; ac yn wir, cymmaint oedd ei wylder a'i ostyngeiddrwydd fel y gwrthododd am dymmor; ond o'r diwedd, cydsyniodd â chais ei frodyr. Mewn lle a elwir Dinas, ger Brynhenllan, y pregethodd efe gyntaf, pryd y cafwyd arwyddion amlwg o foddlonrwydd yr Arglwydd ar yr holl wasanaeth. Ei destyn oedd *Rhuf.* viii. 34; "Crist yw yr hwn a fu farw." Un o'r tymmorau goreu ar eglwys y Dinas oedd yr adeg y bu efe yn trigo ac yn llafurio yn eu mysg. Ymroddodd ar unwaith i'r gwaith mawr yr

Digitized by Google

ymgymmerodd âg ef, a nodweddid ef gan sêl a hunan-ymgyssegriad ar hyd ei oes. Yn fuan ar ol dechreu pregethu, galwyd ef a'i frawd (y Parch. Thomas Richard, Abergwaun) o flaen cyfarfod misol y sir, i gael eu holi. Tystiolaeth Mr. Jones, Llangan, yr hwn yn benaf a'i holai hwynt, am danynt oedd:—"Y mae y ddau fachgen hyn yn pregethu fel dau angel." Y mae dyddlyfr Mr. Richard am y blynyddoedd 1805 a 1806 yn dangos ei fod yn cael ei lywodraethu i raddau pell iawn gan ysbryd gwyliadwriaeth a gweddi. Yn y fl. 1806, symmudodd i Aberteifi, i fod yn athraw teuluaidd i feibion Mr. James Bowen, wedi hyny o Lwyn-gwair. Cafodd Mr. Bowen yn garedig anarferol yn mhob ystyr; a bu yntau, trwy ei lafur a'i ymroddiad diflin, yn fendithiol iawn i'r achos crefyddol yn Aberteifi a'r cylchoedd. Yr oedd yr Ysgol Sabbothol yn cael llawer o'i sylw a'i lafur. Teimlai ei hun yn ddedwydd iawn pan yn ymweled â'r ysgolion, ac yn holi y plant. Y mae yr hanesyn canlynol i'w gael mewn cyssylltiad â'i daith gyntaf i'r Gogledd, yn nghwmni Mr. Bowen. Llettyent mewn gwestty yn Mhont-ar-Fynach, ar eu ffordd i gymdeithasfa Llanidloes. Cafwyd caniatâd i gadw addoliad teuluaidd. Daeth y teulu yngnyd, pryd y gweddïodd Mr. Richard mor effeithiol, a chyda'r fath arddeliad, nes y bu raid i ŵr y tŷ, â'r dagrau yn treiglo dros ei ruddiau, adael yr ystafell, gan lefain, â'i ddwylaw yn blethedig, "O! beth a wnaf, beth a wnaf?" Crybwyllwyd eisoes am ei lafur yn yr adeg hon yn mhlaid yr Ysgolion Sabbothol; ac, yn wir, fe ellir dyweyd iddo fod yn un o'r prif offerynau, os nad y prif offeryn, i sefydlu yr Ysgol Sabbothol yn y Deheudir. Yr oedd ei sêl drosti o'r dechreuad yn angerddol, a pharhaodd felly hyd y diwedd. Y mae ei ddyddiaduron yn y blynyddoedd hyn yn dangos yn amlwg ei wresawgrwydd a'i weithgarwch yn ngwasanaeth yr ysgolion.

Yr ydym yn symmud yn mlaen yn awr at amgylchiad arall o bwys yn mywyd Mr. Richard; sef, ei briodas â Mary, unig ferch Mr. William Williams, o Dregaron, yr hyn a gymmerodd le yn eglwys Tregaron, ar y 1af o Dachwedd, 1809. Wedi cyflawniad y ddefod, pregethodd ei gyfaill, Mr. Ebenezer Morris, oddi ar *Gen.* ii. 18. Penderfynodd Mr. Richard symmud ei drigfan i breswylfod ei briod, yn gymmaint a bod ei rhieni yn oedranus, ac nad oedd hithau yn foddlawn eu gadael. Pan ddeallodd ei gyfeillion yn nghylchoedd Aberteifi hyn, ceisiasant drwy bob moddion gael ganddo newid ei fwriad. Wedi methu yn mhob ffordd arall, penderfynasant ddwyn yr achos o flaen cyfarfod misol y sir, a gynnelid yn Aberystwyth; ond trodd y fantol o blaid iddo fyned i Dregaron. Modd bynag, yr oedd gafael pobl Aberteifi mor fawr ynddo fel y gwnaethant gais arall i'w berswadio i ddyfod yn ol. Daeth Cadben Bowen, ac un o flaenoriaid Aberteifi, i Dregaron, o bwrpas gyda'r amcan hwn; ond aflwyddiannus a fuont. Cyn diwedd y flwyddyn, pennodwyd ef yn ysgrifenydd cyfarfod misol y sir—swydd a gyflawnwyd yn ffyddlawn ganddo hyd derfyn ei oes. Pan yr ymsefydlodd yn Nhregaron, er ei alar, canfu fod yr eglwys yno, yn gystal a'r eglwysi cymmydogaethol, mewn sefyllfa ddirywiedig. Ymddengys fod hen arferiad lygredig yn y cwr hwnw o'r wlad, pan y byddai pobl ieuaingc yn myned i'r ystâd briodasol, o barotoi a gwerthu diodydd meddwol i'r gwahoddedigion. Nid yn unig yr oedd hyn yn drosedd yn erbyn y llywodraeth, ond yr oedd hefyd yn achos o anfoesoldeb dirfawr trwy yr ardaloedd. Yr oedd y bobl, ac yn enwedig y bobl ieuaingc, yn ymroddi i gyfeddach a meddwdod, a chrefyddwyr yn ymgymmysgu â hwynt, ac i raddau yn cael eu llithio gan yr un pechod. Yr oedd llawer yn teimlo o blegid yr anwiredd hwn; ond yr oedd yr ymdrechion oedd yn cael eu gwneyd i'w roddi i lawr wedi profi yn aflwyddiannus; ac nid rhyfedd, canys yr oedd hyd yn oed swyddogion eglwysig yn ei amddiffyn. Wedi cydoddef â'r annhrefn hwn am tua blwyddyn, er fod hyny yn peri poen dirfawr iddo, ennynodd ei sêl a'i eiddigedd i'r fath raddau nes ei ddwyn i benderfyniad i ddyrchafu ei lef yn groew yn ei erbyn. Ymosododd o ddifrif ar y gwaith o ddysgyblu y troseddwyr; ond ni chafodd ond un blaenor i'w gefnogi. Cafwyd deuddeg o'r aelodau yn euog o'r trosedd, a diarddelwyd hwynt oll yn yr un cyfarfod. Aeth Mr. Richard dranoeth i Langeitho, a llonaid ei galon o sêl dros ogoniant Duw ac anrhydedd ei achos; a'r canlyniad fu diarddel amryw yno hefyd. Bu drwy hyn yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i ddistrywio yr arfer niweidiol a phechadurus oedd wedi tynu cymmaint o warth ar achos yr Arglwydd yn y rhan hono o'r Dywysogaeth.

Cyn y flwyddyn 1811, nid oedd neb yn cael ei ystyried yn gymmhwys i weinyddu yr ordinhadau yn mysg y Trefnyddion Calvinaidd ond y sawl a dderbyniasent urddau eglwysig. Ond yn y flwyddyn uchod, penderfynwyd, yn nghymdeithasfa y Bala, i neillduo llawer o bregethwyr ffyddlawn y corph i gyflawn waith y weinidogaeth. Ordeiniwyd yn sir Aberteifi y Parchedigion Ebenezer Morris, John Thomas, a gwrthddrych y cofiant hwn. Y rhai a gymmerasant rau yn ngwasanaeth yr ordeiniad oeddynt y Parchedigion John Williams, Lledrod; Thomas Charles, Bala; a John Williams, Pant-y-celyn. Torodd diwygiad grymus allan yn Nhregaron, a'r cyffiniau, yn 1812; ac yr oedd gweinidogaeth Mr. Richard yn llwyddiannus i ddwyn eneidiau lawer at Grist. Pregethodd yn Llangeitho un boreu Sabboth oddi ar *Luc* xvi. 23, gyda'r fath nerth ac arddeliad dwyfol fel y dwysbigwyd cymmaint ag wyth ar hugain o eneidiau drwy y bregeth. Mewn cyfarfod eglwysig a gadwyd yno yn fuan ar ol hyny, chwanegwyd deg ar hugain at yr eglwys—wyth ar hugain o ba rai a briodolent eu hargyhoeddiad i'r bregeth hono. Pennodwyd ef yn 1813 yn ysgrifenydd cymdeithasfa y Deheudir, a chyflawnodd ddyledswyddau y swydd hon yn ddeheuig a ffyddlawn dros ben hyd ddiwedd ei oes. Tua'r pryd hwn gwnaeth amryw foneddigion gais i'w berswadio i gymmeryd urddau yn yr Eglwys Sefydledig, i wasanaethu yn ei chyfundeb hi. Ond gwrthododd yn ddibetrus. Ei attebiad i Mr. J. Jones, Derry Ormond, ger Llanbedr, oedd—"Y mae y peth yn ammhossibl, syr." Synodd y boneddwr yn fawr wrth glywed hyn, a gofynodd, "Paham?" Dywedodd yntau—"Y byddai rhoddi derbyniad i'r cynnyg hwn, yn gyntaf, yn weithred gwbl groes i'w gydwybod, o blegid ei fod o egwyddor yn ymneillduo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig. Yn ail, ei fod yn barnu y gallai fod o fwy o ddefnyddioldeb gyda'r gwaith yn y man yr oedd. Ac yn drydydd, fod cymmaint o undeb ac anwyldeb rhyngddo ef a'i frodyr, ag a wnelai y rhwygiad yn annioddefol i'w deimladau." Fel hyn y parhaodd Mr. Richard drwy ei oes yn Ymneillduwr cadarn. Yn 1814, dechreuodd

Digitized by Google

ymroddi llawer, a chyssegru llawer o'i amser i ddwyn ger bron y wlad achos y cymdeithasau Beiblaidd a chenhadol. Deallodd fod cryn anwybodaeth o berthynas iddynt mewn llawer man, ac ymdrechodd ei symmud ymaith. Yr oedd ei areithiau ar ran y cymdeithasau hyn yn nerthol a hyawdl; a diau iddo wneuthur mwy nag odid neb yn ei amser, o leiaf yn sir Aberteifi, i gynnhyrfu meddyliau y bobl, a chreu dyddordeb ynddynt tuag at yr achosion hyn. Nid oes dim yn neillduol i'w ddyweyd am dano yn y blynyddoedd dilynol, ond fod ei lafur yn gysson a diflin yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Teithiai lawer trwy bob rhan o Gymru—y Gogledd yn gystal a'r Deheudir; ac yr oedd ei barch, ei gymmeradwyaeth, a'i boblogrwydd yn cynnyddu yn feunyddiol.

Ymwelodd Mr. Richard am y waith gyntaf â'r brifddinas yn y flwyddyn 1818, i'r dyben o weinidogaethu yn mysg ei frodyr, y Methodistiaid. Cadwodd ddyddlyfr tra chyflawn o ddigwyddiadau pob dydd yn ystod ei arosiad—sef am tua naw wythnos. Yn ysbaid ei arosiad yn Llundain y tro hwn, bu yn bresennol mewn un ar hugain o gyfarfodydd cyhoeddus, a gwrandawodd chwech ar hugain o bregethau Saesnig.

Yn y flwyddyn 1822, gan fod y Trefnyddion Calvinaidd yn cynnyddu mewn rhifedi a dylanwad, barnwyd yn ddoeth i ddefnyddio moddion priodol i ddwyn y Corph i ffurf mwy rheolaidd a phendant, fel cyfundeb crefyddol. Ac fel sylfaen gyfaddas i'r cyfundeb, penderfynwyd parotoi mynegiad eglur o brif egwyddorion eu ffydd. Derbyniodd y cynnygiad hwn gymmeradwyaeth cyffredinol y Corph trwy ei gynnrychiolwyr. Pennodwyd nifer o ddynion i dynu allan Gyffes Ffydd; y rhai, yn ddiamheuol, a aethant o gwmpas y gwaith yn yr ysbryd mwyaf pwyllog a difrifol. Y gweinidogion canlynol a enwyd i ymgymmeryd â'r gwaith o dynu allan y gyffes hon. O'r Deheudir:—y Parchn. J. Williams, Ebenezer Morris, David Charles, John Evans, Arthur Evans, Thomas Jones, ac Ebenezer Richard. O'r Gogledd:—y Parchedigion John Roberts, John Elias, John Humphreys, John Hughes, Michael Roberts, a Humphrey Gwalchmai. Wedi cryn bryder, cwblhawyd y gorchwyl hwn yn llwyddiannus er llawenydd i'r personau oedd wedi ymgymmeryd â'r gwaith. Tua'r pryd hwn yr ysgrifenwyd y darn llythyr canlynol gan Mr. Richard—ac nis gallwn ymattal ei gyfleu yma, fel enghraifft o ddull deheuig ac effeithiol Mr. Richard o ysgrifenu llythyrau. Y mae y llythyr yn ei esbonio ei hun:—

"Y brodyr yn sir Aberteifi yn ymgynnulledig yn eu cyfarfod misol, at y brodyr yn Ngwynedd, yn gynnulledig yn eu Cymdeithasiad Flynyddawl, yn anfon anerch:—

Gras, trugaredd, a chariad oddi wrth Dduw ein Tad, yr Arglwydd Iesu Grist, a'r Ysbryd Glân y Diddanydd, a fyddo gyda chwi oll, ac a orphwyso yn ehelaeth arnoch oll.

FRODYR ANWYL A HOFF,

Yr ydym yn attolwg i chwi ein gwrandaw ar fyr eiriau, o blegid ar fyr eiriau yr ysgrifenasom atoch. Y mae yn ofidus genym fod amryw o'n brodyr yn y sir hon, a fyddent arferol er's llawer o flynyddau o fod yn Nghymdeithasiad y Bala, eleni yn cwbl fethu, fel y gellwch glywed gan y brodyr sydd o'n gwlad ni yna; ac yr ydym yn gobeithio na bydd i neb o honoch gyfrif eu habsennoldeb i ddiffyg serch ac ymdrech gyda'r gwaith, nac ychwaith i ddiffyg awydd am eich cymdeithas chwithau yn yr efengyl, ond yn hollawl ac yn gyfangwbl i ddiffyg gallu.

Yr oedd ein Cymdeithasiad Flynyddawl ni (fel y gwyddoch yn dda) yn arfer cael ei chynnal er's yn agos i 80ain mlynedd yn Llangeitho, gydag ychydig iawn o lysiant; ond barnwyd eleni mai gwell fuasai symmud y gwersyll yn nes i amddiffynfa *(citadel)* y gelyn, fel y gallai'r magnelau mawrion gael gwell cyfle i ollwng ar fagwyrydd y castell. O ganlyniad, y mae y rhyfel wedi ei gyhoeddi, a'r lle a'r amser wedi eu nodi i agor y frwydr—y lle yw Llanbedr, a'r amser y 6ed a'r 7fed o Awst nesaf. Nid oes neb o honoch chwi yn y Gogledd sydd yn adnabod y maes nas bernwch fod Llanbedr yn sefyllfa addas i wneuthur yr ymosodiad. Gan hyny, yr ydym yn deisyf arnoch anfon y nifer fwyaf a fyddo yn bossibl i chwi hebgor o eich tal-filwyr, eich llym-saethwyr, ac eich tân-belenyddion, wedi eu trwsio a'u harfogi yn 'Nhŵr Dafydd, yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau; tarianau fil sydd yn crogi ynddo, i gyd yn estylch y cedyrn.' Chwi a wyddoch, frodyr, fod cynghreiriad diffynawl ac ymosodol rhyngom ni a chwithau, a gwyddom y byddai yn ddrwg dros ben genych fod eich brodyr gweiniaid yn y Deheubarth yn cael eu baeddu a'u dadymchwel; a phe byddai unrhyw orchest arnoch chwithau yn Ngwynedd, ni thrigai ewin o honom ninnau gartref heb ddyfod i'ch cynnorthwyo â'n holl egni."

Ergyd drom iawn i deimladau Mr. Richard oedd colli drwy angeu, yn yr un mis, gydlafurwyr ffyddlawn yn ngwinllan ei Arglwydd; sef, y Parchedigion Ebenezer Morris a David Evans. Teimlodd yn ddirfawr oddi wrth hyn, fel y dengys amryw o'i lythyrau.

Ar ol ystyriaeth maith a dwys, penderfynodd y Trefnyddion Calvinaidd yn 1826 ddefnyddio moddion i ddiogelu y meddiannau a berthynai iddynt, fel corph crefyddol, yn eiddo iddynt yn ol y drefn ofynol gan y gyfraith, trwy gael gweithred gyfansoddawl *(trust deed)*. Wedi i'r weithred gael ei chwblhau, yr oedd yn angenrheidiol iddi gael ei llawnodi gan holl ymddiriedolwyr yr ammod-weithredoedd *(trustees of leases)* perthynol i'r gwahanol addoldai trwy y wlad; a phennodwyd y Parch. John Elias i fyned trwy y Gogledd, a Mr. Richard i fyned trwy y Deheudir, i dderbyn y llawnodau hyn. Wrth gwrs, cymmerodd hyn lawer o amser Mr. Richard yn niwedd y flwyddyn hono a dechreu yr un ganlynol. Yn haf y flwyddyn 1828, goddiweddwyd y Parch. David Charles, Caerfyrddin, âg anhwyldeb galarus; yr hyn a barodd ofid dwys i'w gyfeillion lliosog, ond i neb yn fwy felly nag i wrthddrych y cofiant hwn, gan fod Mr. Charles yn un o'i gyfeillion mwyaf mynwesol. Amlygai y cydymdeimlad mwyaf âg ef yn ei ymddiddanion, ac yn ei lythyrau. Yn 1830, ymwelai Mr. Richard, ar gais cyfarfod misol sir Aberteifi, â'r brifddinas, gan fod tro y sir hono, yn ol cynllun Cymdeithasfa y Deheudir, i anfon pregethwr yno; ac yr oedd ar yr un pryd yn hebrwng un o'i feibion yno. Wedi aros yn Llundain y tro hwn am ddau fis, dychwelodd i Gymru. Yn fuan ar ol ei ddychweliad, derbyniodd lythyr o Gaerfyrddin, oddi wrth Henry, ei fab ieuangaf (yr hwn yn awr ydyw yr aelod yn senedd Prydain dros Ferthyr Tydfil, ac ysgrifenydd Cymdeithas Heddwch), yn rhoi ar ddeall ei fod er's amser maith wedi cael tueddu ei feddwl i ymroddi i waith y weinidogaeth. Yr oedd ei rieni wedi ffurfio rhyw ddisgwyliadau o'r fath yn eu meddyliau eu hunain (ond wedi celu hyny yn ofalus oddi wrtho ef); ond pan y gwnaeth efe hyn yn hysbys, deallwyd yn fuan fod ei dad yn llawenychu yn fawr yn y gobaith o weled ei fab yn cyflwyno ei hun i'r gwaith goruchel yr oedd efe ei hun wedi ymdaflu mor ymroddedig iddo.

Digitized by Google

Ysgrifenodd yn ol yn dadgan ei lawenydd a'i gymmeradwyaeth o'r penderfyniad y daethai Henry iddo, ac yn rhoddi ar ddeall y rhoddai efe bob cymmhorth yn ei allu iddo. Yn mhen ychydig fisoedd derbyniwyd Henry i Goleg Highbury, Llundain, lle yr arosodd am bedair blynedd.

Yn niwedd y flwyddyn 1832, goddiweddwyd Mr. Richard gan afiechyd trwm, yr hwn a'i hanalluogodd i gyflawni ei ddyledswyddau arferol am lawer o wythnosau. Yr oedd arwyddion o'r afiechyd wedi dechreu ymddangos er's amryw flynyddoedd, ac yn graddol gynnyddu, nes o'r diwedd y bu raid defnyddio moddion cryf a llym er achub ei fywyd. Math o hun-glwyf (*lethargy*) trwm oedd ei glefyd, yr hwn a'i llwyr orthrechai, er gwaethaf pob ymdrech. Cafodd ymosodiad mor dost o'r afiechyd fel y soddodd yn ddwfn mewn math o drwmgwsg angerddol, o ba un nis gellir dywedyd iddo ddeffro yn iawn am amryw ddiwrnodiau. Digwyddodd fod ei fab hynaf, Edward, yr hwn oedd feddyg, adref ar y pryd; a bu ef o gymmhorth mawr iddo. Yn ystod yr afiechyd hwn, yr oedd ei dymmher yn nefolaidd, ac ymroddai yn llwyr i ewyllys yr Arglwydd. Wedi gwella, ymwelodd â Llundain am y drydedd waith yn 1833, ar daer gais yr eglwys yn Jewin Crescent; ac yr oedd ynddo dyniad tua'r brifddinas yn awr, yn gymmaint a bod ei ddau fab yn preswylio yno. Arosodd y tro hwn am o ddeutu chwech wythnos. Nid oes lawer i'w ddyweyd am dano yn y blynyddoedd dyfodol yn amgen na'i fod yn llafurio hyd eithaf ei allu, gyda sêl, ymroddiad, a derbyniad, yn ngwinllan ei Arglwydd. Yn niwedd y flwyddyn 1835, talodd ef a Mrs. Richard ymweliad â Llundain, ac arosasant yno am dri mis. Yn ystod yr amser hwn yr ordeiniwyd ei fab, Henry, yn weinidog yn nghapel Marlborough, Llundain. Dychwelodd Mr. Richard adref o'r daith hon â'i iechyd wedi ei adnewyddu yn rhyfeddol, yr hyn a'i galluogai i ymaflyd yn ei orchwylion pwysig gyda bywiogrwydd a nerth; ac yr oedd gobeithion ei gyfeillion yn cryfhau y cawsent am gryn ysbaid fwynhau ei lafur a'i gymdeithas etto yn eu plith:—ond fel arall yr oedd efe ei hun yn meddwl. Ymddengys fod rhyw ragdybiaeth yn ei feddiannu nad oedd tymmor ei ymadawiad yn mhell; a than ddylanwad y greddiniaeth hon yr oedd yn fwy llwyr ymgyssegredig o ran ei feddwl i waith ei Arglwydd nag erioed. Yn ofer y ceisiai ei gyfeillion ei berswadio i beidio niweidio ei iechyd trwy ymdrechiadau gormodol; ni fynai laesu dwylaw. Yn ystod y flwyddyn hon (1836) ymunodd â'r gymdeithas ddirwestol, a gweithiodd yn egniol ac ymdrechgar gyda'r achos hwn. Teimlai fod angen defnyddio rhyw foddion i wrthsefyll llifeiriant andwyol meddwdod, a gwelai fod dirwest yn gymmhwys i wneyd hyn. Bu yn ddiau yn foddion, a'r prif foddion, i sefydlu yr achos dirwestol yn mysg y Trefnyddion Calvinaidd yn y Deheudir. Arferai ysgrifenu yn rheolaidd ac yn fynych lythyrau llawn o serch a chynghorion Cristionogol at ei feibion yn Llundain; a llythyrau oddi wrthynt hwy yn attebiad oedd y geiriau diweddaf yr edrychodd arnynt yn ei fywyd —o blegid darllen y rhai hyn oedd y peth olaf a wnaeth cyn myned i orphwys y noson o flaen ei farwolaeth.

Yr oedd iechyd Mr. Richard wedi bod yn graddol lesgau yn ystod y flwyddyn hon, er nad oedd neb yn tybied ar y pryd ei fod yn gorfod ymdrechu yn erbyn y fath iselder meddwl. Yr oedd yn wasgaredig yma a thraw, mewn dyddlyfr bychan a gadwai efe, nodiadau byrion yn profi hyn; megys, "Cefais lewyg trwm;" "Mewn dyfroedd dyfnion, dyfnion iawn;" "Eiddil a methedig i'r eithaf;" "O! am nerth," &c. Mae yn amlwg fod rhyw rag-dyb wedi ymaflyd yn ei feddwl er's amser, fod ei oes yn prysuro i'w therfyn. Pan yn Llundain ddiweddaf, ychydig ddyddiau cyn ei ddychweliad oddi yno, dywedai, mewn cyfeiriad at ei feibion—"Fy mechgyn bach i! ni chaf byth eu gweled mwy; nid oes gen i ddim i'w wneyd ond eu rhoddi yn llaw yr Arglwydd!" Yn haf 1836, pan yn ei gynnefin iechyd yn Nghymdeithasfa y Bala, pan yn cyfarch ei frodyr yn un o'r cyfarfodydd neillduol, gan eu hannog i ymweled â'r Deheudir er mwyn bod yn bresennol yn Nghymdeithasfa Tŵr Gwyn, dadganai ei grediniaeth ei fod yn eu hanerch am y tro diweddaf byth yn y Bala. "Hon," medd efe, "yw y flwyddyn yr wyf yn cyrhaedd yr oed yn mha un y bu fy mrodyr farw [y Parchedigion Ebenezer Morris a David Evans]; ac y mae genyf ryw dystiolaeth gref i mi fy hun mai hon yw yr olaf i minnau hefyd." Ac wrth bregethu yn Nhregaron ar ddydd Calan, 1837, cymmerodd yn destyn y geiriau canlynol o *Jer.* xxviii. 16; "O fewn y flwyddyn hon y byddi farw;" a sylwai yn nghorph y bregeth ei fod yn credu fod cyfaddasder neillduol yn y geiriau at ei achos ef ei hun. Yr oedd yn amlwg i bawb ei fod yn prysur addfedu i'r orphwysfa nefol. Ychydig, mewn cymmhariaeth, oedd wedi ei dalu o sylw i bethau amgylchiadol y bywyd hwn ar hyd ei oes, gan ei fod yn ei ystyried ei hun yn llwyr ymgyssegredig i waith ei Arglwydd; ond y pryd hwn, o'r braidd y ceffid ganddo dalu sylw i bethau gwir angenrheidiol. Yr hyn a'i gofidiai yn fawr oedd yr agwedd farwaidd oedd ar grefydd yn gyffredinol yn Nghymru. Arferai ymofyn llawer a oedd dim arwyddion adfywiad i'w canfod yn un man; ac yr oedd meddwl ymadael o'r byd heb weled hyn yn dwyn trallod i'w feddwl. Arferai ddyweyd wrth ei wraig: "A raid i mi adael y byd, Mary fach, heb weled unrhyw arwydd o wellhâd arno?"

Aeth Mr. Richard i gyfarfod misol Lledrod, yr hwn a gynnelid ar y 1af a'r 2il o Fawrth, 1837; a sylwai ei frodyr yno fod ei lesgedd wedi cynnyddu; ac fel prawf pendant ei fod yntau ei hun yn teimlo hyny, amlygodd ei benderfyniad i roddi ei swydd i fyny fel ysgrifenydd. Oddi yno aeth gyda Mr. John Morgan, Aber-y-ffrwd, yn ol cynllun a fabwysiadwyd gan y cyfarfod misol, i ymweled â'r eglwysi mewn dosbarth o sir Aberteifi. Y dydd Llun canlynol cyrhaeddasant i Dŵr Gwyn; ac yno y pregethodd efe am y tro diweddaf byth, yn yr un pulpud ag y pregethodd ei gyfaill, y Parch. Ebenezer Morris, ei bregeth olaf yntau. Ei destyn oedd *Act.* xxiv. 16. Cysgodd y noson hono yn nhŷ ei fab-yn-nghyfraith, Mr. Samuel Morris, a dywedodd ei fod yn teimlo yn llesg anarferol. Aeth oddi yno dranoeth i Salem, lle y cynnaliodd gymdeithas neillduol, yn dwyn perthynas âg amcan ei daith. Yn ol ei gyhoeddiad, yr oedd i fod yn Blaenanerch nos Fercher; ond barnodd, o herwydd ei waeledd, mai doethach iddo oedd dychwelyd adref. Am ddeg o'r gloch y boreu, ymadawodd ef a Mr. Morgan o Blaenywern, cartref ei ferch, a chyrhaeddasant i Dregaron erbyn yr hwyr. Daliodd Mr. Richa[rd]

Digitized by Google

fyny yn lled ryfedd, er fod y daith hon yn agos i ddeg ar hugain o filldiroedd; ac ymddiddanai yn siriol gyda Mr. Morgan ar hyd y ffordd. Gwnaeth y sylw canlynol yn mron ar derfyn y daith:—"Y mae fy oes i yn mron terfynu." "O! nac ydyw, Mr. Richard bach," ebe Mr. Morgan, "ni a'ch cawn am flynyddoedd etto; nid wyf fi yn gweled pen neb yn dyfod i'r golwg i gymmeryd eich lle." Wedi iddo gyrhaedd adref, gofynai Mrs. Richard a oedd efe yn sâl. "Nac wyf," ebe yntau, "ond fy mod yn teimlo yn lleg, a'r cwsg yn fy mlino, a thrwy hyny yn barnu bod yn well i fi ddychwelyd adref." Ar ol cymmeryd lluniaeth, fel yr oedd ei ferch ieuengaf yn sefyll ger llaw iddo, dywedodd—"'Yr wyt yn ei orchfygu ef yn dragywydd, fel yr elo ymaith; a chan newidio ei wyneb ef, yr wyt yn ei ddanfon ef i ffordd.' Nid yw hyny ddim llawer o gamp, goeliaf fi." Yna darllenodd ddau lythyr oddi wrth ei feibion yn Llundain, ac aeth i'w wely. Yn mhen rhai oriau aeth ei briod i'r ystafell, pryd yr ymddangosai yn cysgu yn esmwyth. Ynghylch chwech o'r gloch boreu dranoeth, trwy drafferth, llwyddodd ei wraig a'i ferch i'w ddeffro, i roddi iddo gyfferiau meddygol y cynghorai ei fab hynaf ef i'w cymmeryd. Wedi i'r teulu orphen eu boreubryd, aeth ei ferch i'w ystafell i edrych a oedd efe yn ddeffro; ond wrth sylwi ar ei wedd, canfyddai yn fuan fod rhyw gyfnewidiad mawr wedi cymmeryd lle arno. Galwodd ar ei mam; ac yn mhen chwarter awr, tra yr oeddynt yn sefyll o amgylch ei wely, bu farw, yn 56ain mlwydd oed! Y dydd Mawrth canlynol, yn ol ei ddymuniad ei hun, cymmerwyd ei gorph yn gyntaf i'r capel, lle y traddodwyd dwy bregeth ar yr achlysur, gan y Parchedigion John Jones, Llanbedr, ac Evan Evans, Aber-y-ffrwd. Yna gosodwyd ei weddillion i orwedd yn mynwent Tregaron.

Pan y bu farw Mr. Richard collodd y Methodistiaid un o'r pregethwyr mwyaf melus a dylanwadol a feddai y Corph; ac hefyd un o'r gweithwyr mwyaf ffyddlawn ac ymroddgar yn mhob cylch crefyddol. Yr oedd yn nodedig o dderbyniol a phoblogaidd fel pregethwr. Yr oedd grym a nerth yn ei weinidogaeth i agor y deall, i gyffroi y gydwybod, ac yn enwedig i agor ffynnonau serch y galon. Meddai ddawn nodedig i chwareu ar deimladau y galon, a byddai cynnulleidfaoedd mawr yn fynych yn tywallt cawodydd o ddagrau wrth ei wrandaw. Yr oedd ei allu i siarad yn ddifyfyr yn ei wneyd yn ddefnyddiol iawn mewn cyfeillachau neillduol neu gynnadleddau. Gallai draddodi areithiau maith a hyawdl ar unrhyw destyn a gyfodai yn ddamweiniol mewn gwahanol gyfarfodydd; a diau fod hyn, ynghyd â'i ysbryd gwresog a brwdfrydig, yn rhoddi cyfrif hefyd am ei ddawn hynod ac anarferol mewn gweddi. Yr oedd yn hynod am ei sêl a'i weithgarwch, fel y dywedasom, gyda'r Ysgolion Sabbothol; ac fel holydd cyhoeddus, hwyrach na bu ei ragorach erioed yn Nghymru: ar adegau, pan yn holi ysgolion, cynyrchid effeithiau bron anorchfygol. Fel hyn y dywedai y Parch. J. Jones, Llanbedr, am dano, yn ei bregeth angladdol iddo:—"Collodd yr efengyl un o'r pregethwyr mwyaf hyawdl a melus yn yr oes. Profwyd hi o'i enau, nid fel gair dyn, ond fel gwir air Duw yn aml. Collodd yr Ysgol Sabbothol yr holiedydd goreu ar dir Cymru i gyd: daeth llawer o'r nefoedd i waered i'r ddaear pan fyddai ef gyda'r gwaith hwn."

Yr oedd ei ddeheurwydd fel trefnwr achosion amgylchiadol y Corph yn deilwng o sylw. Yr oedd hoffder o drefnusrwydd a rheoleidd-dra yn rhan o'i natur; a phan y galwyd ef i'r swydd o ysgrifenydd y gymdeithasfa, daeth hyn yn fuan yn amlwg yn ei weithrediadau: gofalai fod holl beirianwaith y cyfundeb yn gweithio gyda'r rhwyddineb a'r tawelwch mwyaf. Fel hyn y sylwai un a'i hadwaenai yn dda, sef y diweddar Barch. W. Morris, Tyddewi, yn ei bregeth angladdol iddo:—

"Pe buasai (Mr. Richard) byw yn yr oesoedd gynt, cawsai ei gyfrif yn un o dadau yr eglwys....... Pwy fel efe i drefnu achosion y gwaith mawr yn ein plith? ac fel cyflawnwr amryw orchwylion neillduol dros y Corph ag ydoedd yn gwasanaethu iddo, ni chaed neb fel efe. Fel ysgrifenydd y gymdeithasiad, yr ydoedd heb ei fath. Yr oedd gan Dafydd frenin Iehosaphat yn gofiadur, a Sadoc yn ysgrifenydd; ond mi feddyliwn nad oeddynt eill dau ynghyd ddim cymmaint a'n Ebenezer ni. Y pethau a drinid yn sathredig, efe a osodai bob aelod yn ei le, ac a ddarllenai y sylwadau yn y gymdeithasiad nesaf, nes y byddai pawb wedi cael cyflawn daliad am eu trafferth i deithio i'r lle. Hyderaf y ceir y blwch, a'i osod yn yr argraphwasg, nes y gwasgerir ei beraroglau dros holl derfynau yr iaith Gymraeg......Ei lwyddiant hefyd ydoedd yn fawr iawn. Y mae yn gwestiwn a fu neb yn y blynyddoedd diweddaf hyn yn fwy yn llaw Duw i ddeffroi eneidiau nag efe. Byddant yn goron ac yn ogoniant iddo pan ymddangoso y Pen-bugail. Cafodd hwn eneidiau yn wobr ei waith."

Yn y bywgraphiad rhagorol o hono, a gyhoeddwyd gan ei feibion, ceir taflen yn rhoddi dangosiad cywir o natur a helaethrwydd llafur Mr. Richard. Y mae y ffeithiau wedi eu cymmeryd allan o'i ddyddlyfr, yr hwn a gedwid ganddo yn ofalus. Oddi wrth y daflen hon canfyddir ei fod wedi pregethu 7,048 o weithiau; gweinyddodd Swper yr Arglwydd, 1,360; Bedyddiodd 824; gwasanaethodd mewn 651 o gyfarfodydd pregethu; a theithiodd 59,092 o filldiroedd.

RICHARD, THOMAS. Gweinidog enwog yn mhlith y Trefnyddion Calvinaidd. Mab ydoedd efe i Henry Richard, a Hannah ei wraig, o Trefin, a brawd i Ebenezer Richard, gwrthddrych yr erthygl ddiweddaf. Ganwyd ef yn Trefin, ar y 13eg o Chwefror, 1783. Dygwyd ef, a'i frawd Ebenezer, i fyny ynghyd ar aelwyd eu rhieni; ac yr oeddynt pan yn ieuaingc yn hoff o'u gilydd, er yn wahanol o ran eu tymmherau naturiol, yn gymmaint a bod Ebenezer yn fachgen llariaidd ac arafaidd, a Thomas yn fwy cyflym, gwyllt, ac anwyliadwrus. Fel llawer o dymmherau sydyn, y gair gwaethaf a ddeuai allan gyntaf ganddo, a deuai ato ei hun yn y fan. Yr oedd Thomas Richard tua phedair ar ddeg oed pan y glaniodd tua phedwar cant ar ddeg o Ffrangcod ar gyffiniau sir Benfro—at yr hyn y mae cyfeiriad yn yr erthygl ddiweddaf—ac yn gwneyd i fyny un o'r lliaws edrychwyr oedd ar y traeth yn gweled y llynges Ffrengig fechan yn nesau tua'r glanau. Byddai Mr. Richard yn ymhyfrydu adrodd yr hanes hwn yn ei hen ddyddiau. Ymddengys fod ei fam yn fenyw hynod am ei duwioldeb; ac y mae efe ei hun yn cyfeirio at ei fam gyda pharch neillduol yn ei ddyddlyfr, ac yn priodoli yr argraphiadau crefyddol boreuaf ar ei feddwl i'w hofferynoliaeth hi. Yr oedd ei gofal am ei phlant yn fawr: gweddïai lawer drostynt. Yn absennoldeb ei phriod, byddai yn wastad yn dwyn yn mlaen y ddyledswydd

Digitized by Google

deulnaidd, ac arferai ar y cyfryw adegau weddïo gyda thaerni mawr ar eu rhan; ac yr oedd yr argraph a wnaed ar eu meddyliau gan y gweddïau hyn yn gyfryw ag na ddilewyd byth mo hono. Crefai lawer ar Thomas, neu 'Tommy,' fel yr arferid ei alw, i ddyfod i'r cyfarfodydd crefyddol; canys pan yn fachgen nid oedd ei duedd yn gref at fod yn grefyddol. Cynghorid ef yn aml gan ei fam, a'r dagrau yn treiglo dros ei gruddiau; ac yn ol ei addewiad ef ei hun, ar osod yr argraph o hyn ar ei galon byth. Yn gymmaint a'i fod yn fachgen gwyllt a thymmherog, ac yn tueddu at fod yn chwareus, poen iddo oedd peidio cael ei ollwng gyda phlant penrhydd y gymmydogaeth i dori y Sabbath. Dyma ei dystiolaeth ei hun: —"Llawer gwaith y bu fy anwyl fam dduwiol yn wylo dagrau uwch fy mhen am ddyfod gyda hi i'r *society*—y cyfeillachau neillduol: minnau yn gwrthwynebu ar wastad fy nghefn ar y llawr, fel y mae y ddallhuan yn arfer ymladd, yn llawn llid a chynddaredd. Fel hyn y parheais mewn pob gwylltineb ac ynfydrwydd, yn maeddu ac yn gorchfygu pawb, hyd o ddeutu pedair ar ddeg oed."

Tua'r pryd hwn, pa fodd bynag, daeth cyfnewidiad drosto, a dechreuodd ymawyddu am fyned i foddion crefyddol. Nid oedd ei fam mwyach yn cael trafferth i'w gael iddynt: ei hunig waith o hyn allan oedd ei barotoi i fyned, yr hyn a barodd i'w thristwch blaenorol droi yn llawenydd. Daeth yn fuan i deimlo yn ddwys ynghylch mater ei enaid. Sobrwyd ei feddwl i raddau mawr. Ac at ei fam y trodd i ddyweyd ei helynt, gan fod ei dad, dybygid, o herwydd ei wylltineb a'i anufudd-dod, yn ymddwyn yn hytrach yn sarug; yr hyn a'i gwnai yntau yn awr yn ofnus. Pan yr hysbysodd y fam i'r tad fod y bachgen mewn tywydd garw am ei gyflwr, a'i fod yn teimlo yn awyddus i ymwasgu at ddysgyblion y Gwaredwr, llanwyd calon y tad o lawenydd gwirioneddol. Llawenychodd y tad a'r fam wrth weled y cyfnewidiad hwn yn y bachgen gwyllt ac ystyfnig. Cafodd ganddynt bob cyfarwyddiadau angenrheidiol i fyned yn mlaen. Ac un boreu, pan yr oedd y rhieni yn myned i'r cwrdd eglwysig, ymddiddanasant â'r bachgen, gan ei annog i ddyfod gyda hwy; ac aeth Henry Richard ar ei liniau, gan ddwyn achos Tommy yn arbenig ger bron yr orsedd. Aeth Tommy yn wylaidd gyda'i rieni tua'r gyfeillach, a gellir yn ddigon priodol dywedyd fod Hannah Richard, fel yr Hannah gynt yn cyflwyno Samuel, yn ei "roddi ef i'r Arglwydd, yr holl ddyddiau y byddo efe byw." Wedi myned i'r *society*, safai y bachgen yno o flaen y rhai a'i holent heb allu dyweyd gair—dim ond wylo. Dyma fel y dywed ef ei hun am yr amgylchiad hwn:—"Aethum i'r cyfarfod; a phan ddechreuwyd fy holi, yn ol trefn y Corph, nid oedd genyf ond ychydig iawn i atteb gan fy ofn, canys yr oedd i mi fel lladdfa; felly treuliais lawer o fy amser mewn tywyllwch ac anwybodaeth dan amrywiol fath ar dywydd." Y mae y grefydd sydd yn dechreu mewn argyhoeddiad dwfn, neu i ddefnyddio iaith Mr. Richard ei hun, mewn "lladdfa," yn sicr o ddybenu mewn bywyd. Ond yn ol cofnodion dyddlyfr gwrthddrych ein sylwadau, bu yn y sefyllfa derfysglyd hon dymmor maith. Er ei fod wedi ymuno âg eglwys Dduw, ni chafodd brofi tawelwch: myned yn waeth-waeth yr oedd. Weithiau, yr oedd megys yn ymylu ar anobaith. Dychymygai fod y geiriau, "Ni faddeuir iddo" yn swnio yn ei glustiau. Pan yn y sefyllfa hon, aeth ar ymweliad at fodryb iddo, i Dŷ Ddewi, yr hon oedd wraig dduwiol iawn, ac a lefarodd "air yn ei bryd wrth yr enaid diffygiol:" ac yn llaw yr Arglwydd bu yn offerynol i'w arwain i fan lle y cafodd dawelwch i'w feddwl terfysglyd. Dychwelodd o Dŷ Ddewi â'i ysbryd wedi gwellhau yn fawr, ac ymaflodd yn ei orchwyl fel cynnorthwywr i'w dad ar ei dyddyn. Ond yn mhen ychydig aeth i ofni ei fod etto yn annuwiol, ac nad oedd wedi ei gyfiawnhau. Ymdrechai ei dad a'i fam lawer i godi ei feddwl, a'i gysuro yn yr iselder hwn; ac ofnent yn aml rhag i sefyllfa ei feddwl ddwyn arno afiechyd ac angeu. Ond yr oedd yn yr adegau hyn yn mwynhau graddau o oleuni ar ei ysbryd weithiau. Ac fel hyn, i raddau mwy neu lai, y bu yn teimlo hyd yr amser yr aeth i'r weinidogaeth. O'r diwedd cafodd "gilfach, a glan iddi." Daeth i ddeall trefn yr efengyl yn well, ac i ymdaflu arni yn llwyrach, ac ymgysurodd yn "Nuw ei iachawdwriaeth."

Dyma ni yn bresennol wedi dyfod at gyfnod pwysig yn mywyd Mr. Richard, sef yr adeg y dechreuodd bregethu, yn mhen pump neu chwe blynedd ar ol ymuno â chrefydd, a phan oedd tuag ugain mlwydd oed. Pregethodd ei bregeth gyntaf yn y capel lle y derbyniwyd ef yn aelod, ar foreu Sabbath yn y flwyddyn 1803, oddi ar *Iob* xvi. 21. Yn mhen ychydig drachefn, cafodd ei annog i bregethu eilwaith, a chymmerodd yn destyn *Num.* xi. 6. Yn 1805, yn yr eilfed flwyddyn ar hugain o'i oedran, ar ddeisyfiad y brodyr, aeth drwy sir Aberteifi ar daith bregethwrol: cafodd amryw odfaeon llewyrchus y mae yn ymddangos ar y daith hon. Ymroddodd i astudio athrawiaethau crefydd gyda dyfalwch, a chafodd bleser mawr yn y gwaith, yn gystal ag wrth bregethu. Cadwai ddyddlyfr yn ofalus am y blynyddoedd dyfodol, yn mha un y cofnodai, nid yn unig ei symmudiadau pregethwrol, ond hefyd agwedd ei feddwl a'i brofiad crefyddol personol ei hun. Y mae y dyddlyfr hwn yn werthfawr gan y dengys sefyllfa ei feddwl a'i symmudiadau ar y pryd. Oddi wrth y cofnodion hyn, canfyddir ei fod yn ddyn o deimladau crefyddol dwys, a'i fod yn byw yn agos at yr Arglwydd. Yr oedd y pryd hwn yn ymgodi yn barhaus i fwy o barch a chyhoeddusrwydd, a'i bregethau o nodwedd boblogaidd a dylanwadol. Yn y blynyddoedd hyn teithiai yn feunyddiol yn mron, erbyn y Sabbathau, ac ar ddyddiau gwaith, o'r naill gyfarfod ac o'r naill gymdeithasfa i'r llall. Pregethai lawer ei hun, a gwrandawai lawer o bregethau gan ereill. Yn mysg ereill y cyfarfyddai â hwynt yn y cymdeithasfaoedd a fynychid ganddo y blynyddoedd hyn, gellir enwi yr enwogion canlynol:—y Meistri Jones, Llangan; Howells, Trehil; Howells, Llwynhelig (Howells, Long Acre, Llundain, wedi hyny); Ebenezer Morris, Twr gwyn; David Evans, Aberaeron; John Evans, Llwyn ffortun; Arthur Evans, Cynwil Gaio; T. Charles, Bala; D. Charles, Caerfyrddin; John Elias, o Fôn; R. Lloyd, Beaumaris; Thomas Jones, Caerfyrddin, a W. Lloyd, Henllan:—cewri o ddynion gan mwyaf ar faes y gymmanfa. Meistriaid y gynnulleidfa oeddynt. Diammheuol i hyn fod yn fanteisiol iawn i ddyn ieuangc ymroddgar ac addawol fel Thomas Richard. Buasai yn dda genym allu dyfynu o'i ddyddlyfr yn y blynyddoedd hyn, ond ni oddef ein terfynau i ni wneuthur hyny.

Yr oedd Mr. Richard yn y cyfamser yn prysur

Digitized by Google

bryd arall canmolai ambell oedfa iraidd a gaffai, âg arwyddion o bresennoldeb yr Arglwydd arni. Yr oedd yn nodi hyd yn oed y teimlad a'i meddiannai wrth yr orsedd deuluaidd: ac y mae ei ofid a'i bleser, ei ofnau a'i hyder, yn cael eu cofnodi. Llafuriodd yn galed yn y blynyddoedd hyn mewn gwahanol ddulliau; ac yn niwedd 1828, dywed fel y canlyn:—"Tachwedd 27ain, 1828.—Fy nghyffes onest am danaf fy hun yw, 1. Y creadur tlotaf, a'r pechadur mwyaf ydwyf. 2. Y Cristion gwanaf. 3. Y gwas gwaelaf. Fy holl ddymuniad sydd gynnwysedig mewn dau beth; sef, cymmod â, a delw Duw. Fy mhrofiad yw, fod genyf deimlad o bob trueni sydd mewn bod ynof fy hun; ond nis gallaf, er hyny, wadu nad oes ynof egwyddor i ofni Duw, a gweithredu cyfiawnder." Dyma brofiad un o brif bregethwyr Cymru! Yma ni a ganfyddwn y Cristion gostyngedig yn y dirgel yn ymostwng mewn hunan-gondemniad ger bron yr Arglwydd.

Yr ydym wedi dilyn yn frysiog fywyd Mr. Richard i lawr hyd y flwyddyn 1828. Yr oedd yr wyth mlynedd diweddaf o honynt yn flynyddoedd o dywydd garw; canys yn ddiau yr oedd yn cael ei faeddu gan amgylchiadau cyfyng. Ond o'r flwyddyn 1828 hyd y flwyddyn 1850, yr oedd bywyd Mr. Richard o ran ei amgylchiadau yn fwy gwastad a llyfn: er yn ddiau iddo ef, fel y rhan fwyaf o blant dynion, gyfarfod â llawer o brofedigaethau, etto profedigaethau oeddynt gan mwyaf mewn cyssylltiad âg achos crefydd. Cafodd siomedigaethau mewn dynion, a dioddefodd oddi wrth hen gyfeillion, mewn cyssylltiadau nad yw o un dyben gyfeirio atynt. Darllenodd, myfyriodd, a phregethodd lawer yn y blynyddoedd hyn; ac o'r braidd y gellir dywedyd ei fod yn gymmhwys at ddim arall. Yr oedd weithiau yn Llundain, Bristol, a threfydd ereill Lloegr, a phryd arall yn ngwahanol siroedd y Deheu a'r Gogledd; ac yn fynych iawn yn y cymmanfaoedd. Disgwylid am dano yn wastad ar ddydd y gymmanfa, a byddai yn siomedigaeth fawr i'r bobl os na byddai Mr. Richard, Abergwaen, yn bresennol. Byddai llawer yn cerdded milldiroedd meithion er mwyn clywed y ddau Richard, a John Evans, Llwynffortun, yn pregethu; ac yr oeddynt yn ddiammheuol yn werth gwneuthur ymdrechion mawr er eu clywed.

Bu Mr. Richard am flynyddoedd lawer yn cael ei flino gan beswch a diffyg anadl; yr hyn a'i hanalluogai i deithio i gymmanfaoedd a chyfarfodydd hyd yn oed pan y byddent yn ei sir ei hun. Pregethai o gwmpas cartref yn fynych ar y Sabbothau; ac ambell dro byddai mewn llawn hwyliau, er fod natur yn gorfod teimlo oddi wrth ei ymdrechion. Gallesid meddwl wrth ei weled mewn ymdrech, ac yn brwydro am ei anadl, ac yn pesychu wrth esgyn grisiau y pulpud, nad oedd mewn un modd yn gymmhwys i'r gwaith yr ymaflai ynddo; ond wrth fyned yn mlaen gyda'r gwasanaeth, yr oedd yn gwella, a'r frest yn clirio. Pregethai yn Abergwaen yn fisol; ac yn ei le genedigol, Trefin, yn amlach na hyny, gan ei fod yn agos i'w gartref: a dywedid am dano y pryd hwn ei "fod yn ddyn newydd bob Sabbath." Llafuriodd hyd y diwedd: yr oedd yn gwneyd pregethau newyddion o hyd. Dywedai wrth gyfaill, "Yr wyf gystal ag erioed i wneyd pregethau. Gallaf gyfansoddi mor hwylus yn awr a chynt; ond dyna y diffyg, pan yr elwyf i'w pregethu, yr wyf yn methu eu cofio fel cynt."

Nid oedd cymdeithasfa yn myned heibio nad oedd holi mawr ar gyfeillion sir Benfro ynghylch iechyd Mr. Richard. Sonid llawer am dano, a dadgenid llawer o gydymdeimlad âg ef yn ei lesgedd, ac anfonid ato lythyrau o gydymdeimlad o'r cymdeithasfaoedd. Yn ol pob arwyddion, ei lafur caled fel efengylwr a ddygodd arno ei afiechyd poenus. Pregethai weithiau mewn capelydd bychain twymn, a chwysai nes y byddai ei ddillad yn wlybion, yna elai allan i oerni y nos, a theithiai filldiroedd tuag adref yn ei chwys. Bryd arall, ar faes y gymmanfa, pan yn cyhoeddi yr efengyl i ddeg neu ddeuddeng mil o bobl, digwyddai, fe allai, weithiau fod yn wynt a gwlaw. Fel cydnabyddiaeth fechan o'i lafur mawr cyflwynwyd tysteb iddo yn nghyfarfod misol Abergwaeu, yn nechreu y flwyddyn 1855. Derbyniwyd hi yn ddiolchgar gan Mr. Richard; ac yntau, yn yr anerchiad a draddodwyd ganddo wrth ei derbyn, a roddai ar ddeall ei fod yn gweled ynddi amlygiad o garedigrwydd, serch, a brawdgarwch mawr; a dywedai yr ystyriai ei hun yn gwbl annheilwng o'r fath rodd haelfrydig.

Yr oedd Mr. Richard yn gefnogwr i bob achos da, ac yn barod i weithio o'i blaid; rhoddai ei wyneb i gymdeithasau dyngarol a chrefyddol. Yr oedd yn bleidiwr gwresog i'r Feibl Gymdeithas, ac yn selog iawn o blaid dirwest; yr oedd ganddo feddwl mawr o'r Ysgol Sabbothol, a gweithiai yn egnïol o'i phlaid bob amser. Yr oedd hefyd yn cadw ei lygad ar symmudiadau neillduol y cyfundeb y perthynai iddo, ac yn teimlo dyddordeb ynddynt. Rhoddodd ei ddylanwad a'i gefnogaeth i Goleg Trefecca. Ond, fel y rhoddwyd ar ddeall o'r blaen, bu Mr. Richard yn nychlyd ac yn wael ei iechyd am dymmor maith, yn rhodio megys glenydd yr Iorddonen; ac yn yr adegau hyny byddai llawer yn ysgrifenu ato i ddeisyf arno roddi ei bresennoldeb yn eu cyfarfodydd cyhoedddus, gan fynegu y mwynhâd a gafwyd gynt wrth wrandaw arno, a'u bod yn disgwyl cael yr un pleserau etto—am iddo ddyfod, er ei lesgedd, gan fod disgwyliad mawr am dano. Wedi derbyn rhyw lythyrau o'r natur yma, arferai ddyweyd:—

"Ah! y mae y bobl yn camsynied yn ddirfawr: y maent hwy yn meddwl mai y dyn a welsant hwy yn y cymmanfaoedd ddeugain mlynedd yn ol sydd yma yn awr. Nid hwnw, ffrynds, sydd yma bellach. Yr oedd y dyn hwnw yn wridgoch a phenfelyn; ond y dyn hwn yn welw a phenwyn. Yr oedd y dyn hwnw yn gryf ac yn gefn-gymmhwys; ond y dyn hwn yn nychlyd ac yn wargam. Yr oedd y dyn hwnw yn ieuangc a heinyf; ond y dyn hwn yn hen ac anystwyth. Yr oedd y dyn hwnw yn gallu siarad, ac yn gallu gweddi; ond y dyn hwn ni all siarad na gweddi. Nid yr un dyn, bobl, oedd y dyn hwnw a'r dyn hwn; 'dyw hwnw ddim yma yn awr. Ni byddaf mwy yn eich cyfarfodydd ond *lumber*—rhywbeth ar ffordd pawb; yn cymmeryd lle dyn, heb allu gwneyd gwaith dyn. Yr wyf bellach yn dyfod i deimlo fy hun yn fwy cymmhwys i'r bedd nag i'r pulpud. Y mae tymmor i bob peth; ac y mae tymmor pregethu wedi darfod, a thymmor gorphwys wedi dyfod. Gadewch fi yn llonydd bellach, canys nid y dyn yr ydych chwi yn ei ymofyn yma sydd yma yn awr."

Anfynych y gwelwyd neb yn pregethu dan fwy o anfantais nag efe, o herwydd y peswch poenus, a'r diffyg anadl mawr a'i blinai. A byth ar ol derbyniad ei dysteb yn Ionawr, 1855, yr oedd Mr. Richard yn teimlo ei afiechyd yn fwy. Yn yr haf dilynol cymmerwyd Mrs. Richard yn

Digitized by Google

glaf iawn; ac ar y 9fed o Fehefin, 1855, bu farw. Chwanegodd marwolaeth ei anwyl briod yn fawr at brofedigaethau ei henaint a'i lesgedd. Dyna y wraig y bu mewn cymmaint pryder yn ei chylch yn nyddiau ei hieuengctid, a fu yn ymgeledd mor gymmhwys iddo, ac a wyliodd mor ofalus drosto, ac a fu yn cydgyfranogi âg ef yn ei holl ofidiau, wedi ei dwyn oddi arno; ond cysur mawr iddo yn ngwyneb yr ergyd drom oedd, fod ei anwyl ferch, Bridget Hannah, etto yn fyw; yr hon a ofalodd am ei thad gyda'r tynerwch mwyaf; canys bu fyw i weled ei gladdu, er ei bod hithau yn fuan wedi ei ddilyn ef. Yr oedd Mrs. Richard yn meddu ar feddwl diwylliedig, ymchwilgar, a gwir grefyddol. Treuliodd lawer o'i hamser i fyfyrio ac ysgrifenu, ac y mae yr ysgrifeniadau a adawyd ar ei hol ganddi yn dangos chwaeth goethedig. Bu farw mewn tangnefedd, gan bwyso ar yr iawn; yr hwn y pregethodd mor felus am dano.

Gwaelu a gwaethygu a wnaeth Mr. Richard yn awr, nes y daeth yr amser iddo i ymddiosg "oddi wrth faich y cnawd." Y diwrnod y bu farw, gwaeddodd mor uchel ag y gallai, "Ah! y mae y *bar* yn arw iawn, ond y mae yr hafan ddymunol yn y golwg!" Cymmerodd ei farwolaeth le ddydd Iau, Ionawr 3ydd, 1856, yn 73ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am 52ain o flynyddoedd. Claddwyd ef yn barchus yn yr un bedd ag y gosodwyd ei wraig ynddo ychydig fisoedd yn flaenorol, yn mynwent Maenorowen.

Yr oedd Mr. Richard o ran ei berson yn ddyn o daldra cyffredin, yn sefyll tua phump troedfedd a naw modfedd, ac o wneuthuriad yn hytrach yn gadarn drwyddo; ac o ran ei ymddangosiad corphorol yn un o'r dynion harddaf y gellid eu cyfarfod. Yr oedd urddasolrwydd, naturioldeb, a difrifwch ei ymddangosiad yn y pulpud yn myned yn mhell iawn yn ei ffafr gyda'i wrandawyr. Y mae yr hyn sydd wedi ei ddyweyd yn flaenorol am dano yn ddigon o brawf ei fod yn un o brif bregethwyr Cymru. Yr oedd ei fater, ei draddodiad, a'i lais yn gyfryw ag oedd yn rhwym o dynu sylw a denu serch y cynnulleidfaoedd mawrion a ymgynnullent i wrandaw arno. Yr oedd mewn gwirionedd yn meddu "tafod y dysgedig," ac yn un o "feistriaid y gynnulleidfa."

Cyn terfynu, nis gallwn lai na chyfleu yma rai o'i ddywediadau doeth a chynnwysfawr ar bregethu a phregethwyr, sydd yn amlygu sylw a chraffder ei feddwl:—

"Ni welwyd, ac ni welir yn bresennol, y defnyddiol iawn ond lle y mae profedigaethau mawr; canys y mae profedigaethau at dymmheru ac at gyfansoddi, fel tymmheru llestr i ddal ynddo; ac at ei gyfansoddi a'i helaethu, canys y maent yn awchu y meddwl, yn esbonio y gair, ac yn egluro dirgelion. Nis gall llong o un maint fod heb *fallast* ynddi; mae y *ballast* i fod yn ol maint y llong. Er ei fod yn llai na'r llwyth, y mae o gymmaint defnydd fel nas gellir bod hebddo at y llwyth mwyaf a'r gwerthfawrocaf. Felly, y mae defnydd profedigaethau at ddefnyddioldeb.

Dymuniadau enaid gwir bregethwr yw credu ei bregeth yn fwy na neb, ymarfer ei bregeth yn fwy na neb, a mwynhau ei bregeth yn fwy na neb. Mae yn gysur iddo fod y gwirionedd a draddodir yn lles i ereill; ond y mae yn llawer mwy cysur ei fod yn lles iddo ei hun. Y mae y cysur ei fod yn lles i ereill, heb fod yn lles iddo ei hun, yn profi fod y cysur hwnw yn gnawdol. Y ddau gyda'u gilydd yw yr iawn. Fel goruchwyliaeth y famaeth—cymmeryd lluniaeth i roddi magwraeth.

Fe ddylai pob pregethwr, os bydd yn gallu, ddechreu y cwrdd ei hunan trwy weddi; canys y mae peidio gwneyd hyn yn dangos diffyg synwyr dynol, ac yn dangos diffyg mewn trefn grefyddol, a diffyg adnabyddiaeth o'r fraint ysbrydol; canys y mae myned at Dduw mewn gweddi fel trin a defnyddio allweddau i agor y clô. Yn ol fel y byddo myned-iad at Dduw mewn gweddi, mae cael mynediad at ddynion mewn pregethu. Y mae yr holl ddefnyddiau at fod yn genad dros Dduw i'w cael mewn gweddi gyda Duw. Nid oes dim mewn pregethu ond a fyddo yn effaith cymdeithas â Duw, wedi ei gael gan y pregethwr ei hun mewn gweddi ger bron gorseddfaingc Duw. Gweddïer—canys yn attebiad i weddi yr addewir bendithion ysbrydol. Y mae analluedd i weddïo yn nechreu yr oedfa i bob pregethwr ystyriol yn fwy o faich gofid nag yw o ddymuniad. Y mae hefyd yn gam â'r eglwys yn y lle, ac â'r gynnulleidfa hefyd.

1. Goruchwyliaeth ail enedigaeth sydd yn rhoi profiad. 2. Dylanwadau yr Ysbryd Glân sydd yn rhoi adnewyddiad. 3. Arweiniad yr Ysbryd Glân sydd yn rhoi cynnaniad. Y cyntaf yn braenaru, yr ail yn maethu, a'r trydydd yn addfedu. Gall hyn wneyd gwas defnyddiol dros Dduw, heb ddysgeidiaeth; ond nis gall dysgeidiaeth heb hyn; ond hyn a dysgeidiaeth sydd wedi gwneyd gweision o'r defnydd mwyaf. Y mae ammharch ar ddysgeidiaeth, o blegid y gellir bod yn ddefnyddiol hebddi lle y bo y pethau a enwyd, yn gamddeall; mae pwyso hefyd ar ddysgeidiaeth am ddefnyddioldeb, heb y pethau a enwyd, yn gamgymmeriad; canys y mae i'r naill a'r llall eu lleoedd priodol; ac mewn ystyr nis gall y naill fod yn lle y llall; etto gall y cyntaf fod yn well heb yr ail na'r ail heb y cyntaf. Y mae bod yn ngweinidogaeth yr efengyl yn meddu y cyntaf, heb yr ail, yn fawr anfantais; ac yn meddu dysgeidiaeth heb y tri pheth cyntaf yn farw, farw, farw; neu heb feddu yr un o'r ddau yn dra rhyfygus.

Nis gall Cristion bach fod yn bregethwr mawr at fod yn bregethwr mawr, y mae yn rhaid bod yn Gristion mawr. Llais uchel, bloedd fawr, a sŵn cryf gan Gristion bach, neu ddim Cristion, sydd fel sŵn mewn corn, neu mewn ogof wâg. Pregethwr mawr a Christion bach sydd fel pledren wedi ei chwythu, neu ddyn yn y dropsi; y naill yn llawn o wynt heb ddim ynddi, a'r llall yn llawn o ddwfr a gwynt, yn waeth na dim ynddo. Fe ellir bod yn Gristion mawr heb fod yn ddim o bregethwr. Fe ellir bod yn bregethwr mawr ar lawer cyfrif, yn enwedig yn nghyfrif llawer, heb fod yn ddim Cristion. Pregethwr yn cynnyddu, a Christion yn erthylu, sydd brawf o fod heb fod yn Gristion na phregethwr; Cristion a phregethwr yn cydgynnyddu a wna y ddau yn fawr, ac sydd brawf am wirionedd y ddau.

Y mae cystudd yn analluogi i bregethu. Y mae anallu yn gwanhau, yn cymmylu, yn tywyllu, yn lleihau, ac yn diflasu gwirioneddau wrth eu llefaru. Y mae harddwch ymadroddi yn gofyn nerth i roddi pob ymadrodd yn ei le, a'i le priodol i bob ymadrodd, mewn aceniad, sain, a phwys. Y mae pethau cyffredin yn ymddangos yn hardd lle y byddo hyn; a'r pethau mwyaf yn ymddangos yn anhardd heb hyn. Yn ddiau ysbryd i bregethu yw enaid y gwaith: etto, y mae yn anhawdd cario yr ysbryd hwnw allan heb y pethau a nodwyd.

Y mae mabwysiadu unrhyw ddull mewn dynwaredu, mewn ystum, llais, neu eiriadu, wrth bregethu, yn rhoddi cymmeriad pregethwr, gweinidogaeth pregethwr, ac anfoniad pregethwr o dan gwmmwl, iddo ei hun ac i ereill; canys y mae yn dynoethi gwendid, y mae yn cuddio anian, ac yn dirmygu Awdwr natur. Os bydd hyn yn wastadol a pharhaus, er y gall y naill fod yn debyg i'r llall, y mae digon o wahaniaeth rhwng y peth sydd yn debyg yn naturiol a'r hyn sydd yn debyg ddynwaredol: gwêl y craffus hyn, ond camfernir hyn gan y cenfigenus. Pan y gwelir dynwarediad o ddyn yn ei

Digitized by Google

bethau mwyaf cyssegredig, y mae yn anhawdd iawn ei oddef; o blegid pa nesaf at Dduw o ran ymarferiad y byddo unrhyw agwedd gnawdol, mwyaf poenus ydyw i anian dduwiol."

Yr ydym yn chwanegu ychydig o ddywediadau o'i eiddo ar faterion cyffredinol, gan gredu y byddant yn dra derbyniol:—

"Yr ydwyf yn dri phechadur mewn un:—1af, Pechadur naturiol, euog, ac aflan. 2il, Pechadur crefyddol. Y mae fy 'holl gyfiawnderau megys bratiau budron.' 3ydd, Pechadur swyddogol—pechadur pregethwrol. Nid wyf yn abl gweled dim yn wyneb y tri hyn yn haeddedigaeth i mi ond damnedigaeth; am hyny yr wyf fi â'm holl galon am fod â fy holl fywyd yn ffoedigaeth i'r noddfa, trwy gysson a dibaid roddiad arnaf fy hun i Geidwad y colledig, a ddaeth i'r byd i gadw pechaduriaid, 'o ba rai penaf ydwyf fi.' Y Tad a'm tyno, Crist a'm golcho, a'r Ysbryd Glân a'm selio:—yr hyn yw fy unig obaith am fywyd. Nid hanes na dysg yw hyn, ond profiad; er na bu genyf brofiad erioed oedd yn ddigon dwys a phrofiadol. Un o ryfeddodau mwyaf y nef, os nid y mwyaf, fydd i mi fod yn ddigywilydd.

Dymunol gan bob credadyn fyddai cofio holl weddïau Dafydd, holl ddiarebion Solomon, holl athrawiaeth Paul, holl gynghorion Pedr, Iago, ac Ioan. Yn ngwyneb pob methiant am hyn, y peth cyflawnaf yw ofn Duw yn y galon.

Gwell cariad nag aur. Gwell heddwch na thrysor. Gwell rhinwedd na meddiant. Gwell diddig na dawn. Gwell ofn Duw na meddu byd.

Y mae yr Arglwydd yn gymmaint o wrandäwr gweddi ei bobl yn wyneb eu drwg ag yn wyneb eu da; canys nid eu da a'u drwg yw na sail, na rheol, na grym i weddïo, ond trefn Duw yn Nghrist i dderbyn pechadur; etto mae y gradd lleiaf o barch i bechod yn y galon yn attal gweddi ger bron Duw. Parchu pechod yn y galon yw dyn yn cuddio ei bechod, yn ei wadu, ei fychanu, a pheidio ei gyffesu.

Y mae pob dyn yn ysgrifenu hanes ei fywyd yn ei gymmeriad. Darllen cymmeriad dyn yw darllen hanes ei fywyd. Y mae cymmeriad i ddyn fel rhuddin mewn pren. Calon y pren, beth bynag fyddo ei amgylchiadau, yw ei ruddin: calon buchedd dyn, beth bynag fyddo ei amgylchiadau, yw ei gymmeriad. Y mae yn isaf, o dan y cwbl a berthyn i ddyn: y mae ei gwbl yn troi o ddeutu y canolbwynt hwn.

Credu yn Nghrist, rhodio yn Nghrist, marw yn Nghrist, yw llofrudd yn y noddfa rhag dialydd, pechadur yn yr arch rhag boddi, bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw rhag cyfiawnder gofynol, rhag y diafol gelynol, a rhag hunan ddinystriol. Gwyn fyd y dyn gaffo y ddoethineb hon, ac a ddygo y deall hwn allan.

Un o brofedigaethau mwyaf taith y pererinion yw, bod rhagluniaethau mewn golwg yn croesi yr Ysgrythyrau, ac yn croesi gweddïau. Addewidion y Gair a gweddïau y credadyn â'u hwynebau un ffordd, a goruchwyliaethau yr Arglwydd yn ffordd ei ragluniaeth yn gwbl ffordd arall. Y mae y fath rym yn hyn, fel y mae tuedd ynddo i ddyrysu y cwbl, a meddwl bod y cwbl yn ofer. Fel hyn yr oedd ar Dafydd:—'Dywedais, yn ofer y glanheais fy nghalon;' etto y mae y rhai a adwaenant Dduw yn ei addef yn gyfiawn, er fod y fath oruchwyliaeth atynt yn peri iddynt synu. Fel y gwelir iddi fod ar Ieremiah:—'Cyfiawn wyt, Arglwydd, pan ddadleuwyf â thi, er hyny ymresymaf â thi am dy farnedigaethau: Pa ham y llwydda ffordd yr anwir, ac y ffyna yr anffyddloniaid oll?......Ond ti, Arglwydd, a'm hadwaenost i: ti a'm gwelaist, ac a brofaist fy nghalon tuag atat.' Fel hyn yr ymresymai â'r Arglwydd am yr oruchwyliaeth, yr hon oedd yn dywyll iddo. Nid ydyw yn rhyfedd ei bod yn dywyll i ni. Ni ellir adnabod hyn gan neb ond yn nghyssegr Duw, lle y deallodd Dafydd hi.

1af, Yn wyneb adfyd, ymgysurwn yn yr Arglwydd. 2il, Yn wyneb hawddfyd, ymddigrifwn yn yr Arglwydd. 3ydd, Yn wyneb eisieu, ymddiriedwn yn yr Arglwydd. 4ydd, Yn wyneb ofnau, ymguddiwn yn yr Arglwydd. 5ed, Yn wyneb dyryswch, distawn yn yr Arglwydd. 6ed, Yn wyneb tristwch, gorfoleddwn yn yr Arglwydd. Gwnawn hyn oll mewn gweddi yn ol ei air. Amen.

Cymdeithasu â'r Arglwydd yn mhob peth ydyw bod yn ddiolchgar iddo am bob peth a fwynheir, ymostwng iddo dan bob peth a ddioddefir, ymddiried ynddo yn wyneb pob peth a ofnir, disgwyl wrtho am bob peth a ofynir. Y mae natur y gymdeithas mewn mwynhâd i fod yn ol gweithrediad y gymdeithas. Nid yw ymostwng dan ddioddefiadau, ac ymddiried ynddo yn wyneb ofnau, a disgwyl wrtho am atteb deisyfiadau, mor ddiddanus cymdeithas a moliannu yr Arglwydd am fwyniant cysurus; etto y mae mor sylweddol gymdeithas, canys y mae yn ufudd-dod ffydd."

Hawdd fyddai myned yn mlaen i ddyfynu; ond ni oddef ein terfynau hyny. Pa fodd bynag, nis gallwn ymattal rhag dyfynu yn mhellach ychydig o'i ffraetheiriau neu ei ddiarhebion synwyrgall. Y mae y rhai hyn, ynghyd â'r dyfyniadau blaenorol, wedi eu cymmeryd o "*Fywgraphiad*" Mr. Richard, gan y Parch. Edward Matthews; yr hwn sydd, fel pob peth a ysgrifenir gan Mr. Matthews, yn nodedig ddyddorol, ac o'r hwn yn benaf y cafwyd defnyddiau yr erthygl hon:—

"Tymmher sanctaidd ar yr enaid wna harddwch sancteiddrwydd ar y fuchedd.

Y peth nad yw yn golled ei golli, nid yw yn ennill ei feddu.

Nid oes dim a rydd ddyn i lawr ond efe ei hun; na dim a'i rhydd ef ei hun i lawr ond ei bechod.

Harddwch dyn ato ei hun yw cuddio ei hun.

Y cyntaf a orchfygodd ddyn yw y diweddaf a orchfygir ganddo—balchder. Y mae fel calon y cwbl; y cyntaf yn fyw, a'r diweddaf yn marw.

Calon dan reolaeth hunan-elw sydd bob amser yn anesmwyth. Y mae hunan yn drallodwr poenus.

Gair yr Arglwydd yn llaw ffydd yw ffon pererindod; ar hon y mae yn pwyso pan yn diffygio, ac yn ymgysuro mewn ofn.

A gesglir trwy gybydd-dra, a wasgerir mewn llwfrdra.

Nesau at ffau, nesau at lewod.

Gelyn mwyaf dyn yw ef ei hunan; cariad mwyaf dyn ato ei hun yw ei berygl mwyaf iddo ei hun.

Gweddi heb daerni sydd fel cloch yn canu—i gyd yn sŵn, heb ddim sylwedd.

Myfyrdod yw mammaeth cof; cof yw mammaeth cadw; cadw yw mammaeth cynnydd.

Na fyno gynghor ni fyn addysg; na fyno addysg, ni fyn wellhâd.

Nid oes un dyn heb feiau; mae nodi beiau i leihau rhinweddau yn sicr nodau balchder a chenfigen.

Y mae profedigaeth yn mhob man heb Dduw ynddo i waredu; y mae anallu at bob peth heb Dduw i nerthu ato.

Llyfr egwyddorion yw y Beibl—nid llyfr dadleuon.

A feio bawb ond ei hun a feïir ei hun gan bawb; a feio ei hun nis beïir gan neb.

Cariad heb aur wna letty oer yn gynnes; aur heb gariad wna letty cynnes yn oer.

Yr hwn ni wêl fraint mewn gweddi ni ddylai gael pregethu.

Nid oes neb a obeithia yn Nghrist, ond sydd yn anobeithio ynddo ei hun.

Prif dangnefedd crefydd yw gwaed Crist; prif drysor crefydd yw cyfiawnder Crist; prif obaith crefydd yw eiriolaeth Crist; prif ddymuniad crefydd yw gogoneddu Crist; prif nefoedd crefydd yw bod gyda Christ.

Haws yw gweled gwall na'i wella.

Digitized by Google

A chwarddo pan fo ddicaf, yw y dig gwaethaf.
A dalo ei ddyled yn fach, nid aiff byth yn fawr.

Iselu mewn amgylchiadau sydd yn rhoddi adgyfodiad i feiau; codiad mewn amgylchiadau sydd yn rhoddi codiad i rinweddau, pan y gall mewn gwirionedd na byddo y naill na'r llall.

Y mae cenfigen fel cnoi esgyrn, yn tori dannedd ac yn chwanegu pydredd.

Gostyngeiddrwydd yw rhinwedd Crist, ac ysbryd Crist—unig addurn a harddwch Cristion, unig blanhigfa a meithrinfa Cristionogaeth. Y mae mor bell oddi wrth fod yn niwed i un gras fel y mae yn ei gysgodi rhag rhuthr a drwg; am hyny nid ammhriodol yw ei alw yn 'noddwr gras.' Y mae yr hwn a gario rasusau ereill heb ostyngeiddrwydd fel cario powdwr heb orchudd drosto mewn gwynt."

RICHARDS, DAFYDD, a adwaenid yn gyffredin wrth ei enw barddol, *Dafydd Ionawr*, a anwyd mewn amaethfa a elwid Glanmorfa, yn mhlwyf Tywyn, sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1752. Mab ydoedd i John ac Anne Richards, y rhai a berchenogent, bob un, etifeddiaeth dreftadol yn y sir grybwylledig. Cadwai Mrs. Richards ei henw morwynol, Anne Dafydd, fel yr oedd yr arferiad y pryd hwnw mewn rhai parthau o'r wlad, dros dymmor ei hoes. Yr oedd gan y ddau bob mantais i ymsefydlu yn gysurus yn eu hamgylchiadau bydol: meddai John Richards bob cymmhwysder tuag at gasglu trysorau y byd hwn; ac yr oedd gan Anne Dafydd dalent neillduol tuag at ymbarotoi ar gyfer y byd a ddaw. Yr oedd Dafydd, eu mab hynaf, a anwyd iddynt ar yr 22ain o Ionawr, 1751, yn fwy dyledus am ei ddygiad i fyny a'i feithriniad mewn egwyddorion rhinweddol i'w fam nag i'w dad. Cyfeiriai ef yn fynych, yn yr ymadroddion mwyaf serchus, at dduwiolfrydedd ei fam, gyda'i gofal pryderus am ei addysg a'i gymmeriad moesol. Gofalai ei dad fwy am wychder y byd na hyfforddiant ei blant. Yr oedd iddynt ddau o blant heb law Dafydd. Yn ol ei sefyllfa yn y byd, gallasai yn hawdd roddi gwell manteision addysgol i'w fab hynaf nag a roddodd. Ymddengys iddo ei anfon i ysgol wledig o fewn terfynau Dyffryn Ardudwy, i ddysgu ychydig Saesneg ac ysgrifenu, heb olwg ar nemawr ddim yn uwch na hyny. Ni chafodd ddilyn ei ysgoloriaeth yn rheolaidd yma, canys galwai ei dad yn fynych am ei wasanaeth ar yr amaethfa gartref: ac amaethwr y bwriadai efe iddo fod. Pa fodd bynag, darllen oedd prif hoffder Dafydd yn wastadol, a darllen barddoniaeth yn benaf oll. Sorai ei dad wrtho i raddau mawr, wrth weled fod ganddo y fath hoffder at farddoniaeth, gan y deallai y byddai i hyny droi ei chwaeth mewn ffordd oedd anghymmeradwy ganddo ef, oedd a'i galon yn y bywyd yma. Pa fodd bynag, yr athrawiaeth "a ddysgodd ei fam iddo" oedd yn cael mwyaf o argraph ar feddwl a theimlad y mab. Ymddengys mai iddi hi yr ymddiriedodd rhagluniaeth y nef y gorchwyl o gerfio y fold, i ba un y cyflwynwyd ei holl alluoedd ar gyfer y dyfodol. Pan yr ydoedd tua phedair ar ddeg oed, daeth yn wrthddrych sylw neillduol yr ysgolhaig uchel a'r bardd disglaer, y Parch. Evan Evans (*Ieuan Brydydd Hir*), yr hwn ydoedd gurad y plwyf ar y pryd; a'r hwn a ganfyddodd ac a wir brisiodd dalentau a galluoedd anghyffredin ei gyfaill ieuangc. Ffurfiwyd serchawgrwydd cynnhes iawn rhwng y ddau; yr hyn a brofodd yn fanteisiol i Dafydd Richards, yn yr addysg a dderbyniodd oddi wrtho, yn ngwrteithiad ei feddwl yn gyffredinol, yn gystal ag yn ei hyfforddiad yn yr ieithoedd Saesnig a Lladin yn neillduol. Y pryd hwn y darganfyddodd ei athrylith a'i chwaeth naturiol at farddoniaeth Gymreig, yr hyn a drodd allan i fod yn elfen mor gyhoeddus yn ei fywyd rhag llaw. Daeth llafur a gofalon yr amaethfa yn ddiflas ganddo; a chan y gwelai ei dad o'r diwedd na ellid gwneyd amaethwr o hono, ymollyngodd yn anfoddog gyda'r llifeiriant, a chaniataodd iddo fyned i ysgol Ystradmeurig, oedd y pryd hwnw dan ofal y dyn a'r ysgolhaig galluog, Edward Richard. Yma efe a ymwrolodd gyda phenderfyniad anhyblyg, i ymgyflwyno yn ei holl alluoedd i wneyd y goreu o'i fanteision addysgol, a hyny mor drwyadl; fel y darfu iddo ymgodi i gryn raddau o enwogrwydd yn ei wybodaeth o'r iaith Roeg, a gwyddoniaeth yn gyffredinol, yn gyflym iawn. Y mae yn debyg mai mewn canlyniad i gynghor y Parch. E. Evans y caniataodd ei dad iddo fyned i ysgol Ystradmeurig, gyda y bwriad o'i ddwyn i fyny i'r eglwys, fel y dywedir—lle y buasai Evans ei hun, o'i flaen ef, yn cael ei osod ar ben y ffordd tuag at gyrhaedd yr enwogrwydd a ennillodd yn ngwahanol ganghenau llenoriaeth. Yr oedd ganddo feddyliau mawr a theimlad serchus at ei athraw, fel y tystia ei alareb ar ei ol, yr hon oedd un o gynnyrchion boreuaf ei awenydd. Rhydd y llinellau cyntaf gynllun tra dedwydd o ddull ei ddawn, ac ysbrydoliaeth ei awen:—

> "Ai gwir a glywir?—gwae 'n gwlad,
> Gwae finnau o'r gofyniad,
> Farw gŵr o fawr ragoriaeth.
> O! rhy wir!—ni fu wir waeth;
> O! Iorwerth; y gŵr certh cu,
> Gloewddoeth, pan glybum gladdu
> Dy harddwch, mewn llwch a llaid,
> Griddfanodd gwraidd fy enaid.
> Mae achos mawr im' ochi,
> Wr rhagorol, ar d' ol di:
> Canwaith ydd wyf mewn cynnhwrf;
> Meddalu, a llaesu 'n llwrf!"

Bu gwrthddrych ein cofiant hefyd mewn ysgol yn Ngwrecsam, dan un Mr. Tisdale, fel ysgolor neu gynnorthwywr; ond fe allai, yn fwy tebygol, yn mhob un o'r ddau gymmeriad. Fel hyn y gweithiodd ei hun i sylw y byd a chymmeradwyaeth ei gyfeillion, o blegid rhagoroldeb ei alluoedd a phrydferthwch ei ymddygiad; a phenderfynwyd ei anfon i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, pan yr ydoedd yn bedair blwydd ar bymtheg o oedran: ond nid arosodd yno am ddigon o amser i ymraddoli; a'r rheswm a roddai yn wastadol am hyny ydoedd, ei wrthwynebiad i'r lle, o blegid llygredigaeth ei gymmeriad, ar y pryd hwnw, ac annheilyngdod yr athrawon, yn gystal a'i anghefnogiad i bob dysgeidiaeth a rhinwedd. Wedi alaru ar Rhydychain, ymgeisiodd am sefyllfa fwy cydweddol â'i chwaeth, a rhwymodd ei hun, fel athraw ar y dosbarthau iselaf, a'r rhai rhifyddiaethol, dan ei gynathraw Mr. Tisdale, yr hwn oedd wedi cael ei ddyrchafu ychydig cyn hyny yn ben athraw mewn ysgol rammadegol yn Nghroesoswallt. Yr oedd efe, yr hwn oedd Wyddel o genedl, wedi ei arddangos ei hun fel clerigwr, ac wedi gwasanaethu fel y cyfryw am lawer o flynyddoedd; ond pan gynnygiwyd bywoliaeth iddo, yn ei hen ddyddiau, gan yr esgob Horsley, ni allai ddangos ei lythyrau graddoliad; a chafwyd allan nad' oedd efe erioed wedi ei ordeinio. Symmudodd Richards wedi hyny o Groesoswallt i Gaerfyrddin, lle y daethai yn gynnorthwywr i'r Parch. Mr. Barker, ysgolfeistr a ficer y plwyf hwnw. Yn nghanol

Digitized by Google

ei holl drafferthion, yr oedd efe yn efrydydd diwyd; ac yn arbenig darllenai waith Milton, a'r beirdd Saesnig goreu. Etto, er hyn i gyd, ymgydnabyddu â barddoniaeth Gymraeg oedd ei brif hoffder; a phrif wrthddrych ei serch a'i fawrygiad ydoedd gwaith yr enwog Goronwy Owain. Yn Nghaerfyrddin y decbreuodd efe ar orchestwaith duwinyddol "*Cywydd y Drindod,*" yr hwn, gyda'i holl orchwylion ereill, oedd raid iddo gymmeryd llawer o flynyddoedd i'w gwblhau. O blegid disgleirdeb ei dalentau, a dichlynrwydd ei fuchedd, yr oedd yn ennill sylw y cyhoedd, ac yn cael ei fawrygu gan bawb; ac yr oedd wedi dyfod i serchawgrwydd neillduol gyda y Parch. John Walters, awdwr y "*Geiriadur Saesneg a Chymraeg*" llafurfawr, yr hwn a argraphwyd ac a gyhoeddwyd flynyddoedd yn ol yn y swyddfa hon gan Mr. Gee. Trwy adnabyddiaeth o'i dalentau a'i gymmhwysderau, fe lwyddodd Mr. Walters i gael iddo drwydded am ordeiniad; ond yr oedd gan Dr. Watson, esgob Llandaff y pryd hwnw, wrthwynebiad i'r drwydded hono; ac nid oedd y gyflog bennodedig iddo ond pymtheg punt yn y flwyddyn; ac o blegid yr ystyriaethau hyn ynghyd, rhoddodd i fyny bob meddwl am urddoliaeth yn yr Eglwys. Wedi gorphen y cywydd crybwylledig, dychwelodd i Ogledd Cymru, i ofyn i'w dad am gymmhorth i'w gyhoeddi, gan nad oedd efe wedi ennill trwy ei lafur fel ysgolfeistr ond yn unig prin ddigon tuag at ei gynnaliaeth. Nid oedd llenoriaeth Gymreig yn cael ei chefnogi ond i raddau bychain iawn, yn enwedig ar y pryd hwnw; ac yr oedd argraphu yn ddrud, a'r anturiaeth felly yn beryglus. Yr oedd tad y bardd yn troi clust-fyddar hollol at ei gais; ond cafodd ei ddymuniad wedi hyny trwy law Mr. Thomas Jones—y pryd hwnw o Ddolgellau, ac wedi hyny o Ynysfaig, yr hyn a gydnabydda efe yn garedig yn ei ragymadrodd i'r gwaith. Derbyniwyd ei awenyddiaeth yn galonog gan y cyhoedd, a chafodd yr awdwr teilwng gefnogaeth ei gydwladwyr, yn mhlith pa rai yr oedd y prif farnwr Richards yn un o'r rhai blaenaf; ac yr oedd y wlad oll o hyny allan yn awyddus i groesawu holl gynnyrchion awenydd y bardd. Cyhoeddwyd "*Cywydd y Drindod*" yn Ngwrecsam yn 1793, gyda rhestr fechan iawn o danysgrifwyr. Gan fod holl adnoddau ei gynnaliaeth mewn bywyd erbyn hyn wedi eu llwyr dreulio, bu gorfod arno droi drachefn at y swydd o gadw ysgol—yn gyntaf yn y Tywyn, ac wedi hyny yn Nolgellau. Etto, fel yr oedd ei feddyliau llawn a'i ddarfelydd uchel yn ymgodi yn naturiol yn mhell uwch law i'r alwedigaeth hono, yr oedd yr holl oriau hamddenol a allai eu hebgor yn cael eu defnyddio yn ystod y tymmor hwnw gyda darllen, barddoni, ac ysgrifenu. Yn ystod y tymmor hwn, sef yn 1809, cyhoeddodd ei gywydd ar "*Joseph,*" yn saith llyfr; ac un arall ar y "*Milflwyddiant;*" a derbyniodd y naill a'r llall gymmeradwyaeth unfrydol yr holl genedl. Bu farw ei dad yn fuan wedi hyny, ac felly daeth yn abl i ymryddhau oddi wrth gaethrwymau ysgolfeistradaeth, yn yr hyn y treuliasai bellach agos i ddeugain mlynedd. O hyny allan, cymmerodd ei breswylfod gyda ei gyfaill a'i garenydd, Mr. Thomas Jones, o Ynysfaig, lle y cafodd o'r diwedd fwynhau y tawelwch a'r hamdden a deilyngai mor fawr. Yno, wrth droed Cadair Idris, gyda glanau Môr Ceredigion, y myfyriodd ac y cyfansoddodd ei ddarnau prydyddol prydferth olaf, y rhai a alwai efe yn "*Farddoniaeth Gristionogol.*" Am ychydig flynyddau diweddaf ei fywyd, wedi marwolaeth Mr. Jones, yn 1819, ymgartrefodd gyda Mr. Griffith Jones, mab y gŵr a enwyd yn flaenorol, yn y Bryntirion, ger llaw Dolgellau, lle y bu farw ar yr 11eg o Fai, 1827, yn y modd tawelaf; canys wedi huno yn yr angeu y cafwyd ef, yn ei wely, heb un afiechyd blaenorol.

Dywedir yn gyffredin, wrth wneyd nodiadau ar athrylith, awen, darfelydd, a hynodion pob bardd, mai yr hyn a ganfyddir yn ngwaith pob un ydyw y safon goreu, fel prawf o alluoedd a theilyngdod; a dichon mai cymmeryd golygiad ar eangder ei lafur a fyddai fwyaf priodol wrth gyfeirio at gynnyrchion "Bardd mawr Meirion." Cynnwysa y rhestr ganlynol ei holl weithiau, ynghyd â lle ac amser eu cyhoeddiad:—"*Cywydd y Drindod,*" Gwrecsam, 1793; "*Y Mil Blynyddau,*" Dolgellau, 1799; "*Cywydd Joseph,*" Dolgellau, 1809; "*Barddoniaeth Gristionogol,*" Dolgellau, 1815; "*Cywydd y Diluw,*" Dolgellau, 1821. Heb law y cyfansoddiadau hyn, ysgrifenodd lawer o ddarnau byrion ereill, y rhai nad ydynt i'w hystyried fel ei weithiau cyhoeddus. Y tri gwaith ar y rhai y gorphwysa enwogrwydd Dafydd Ionawr yn benaf oll ydynt "*Gywydd y Drindod,*" "*Cywydd Joseph,*" a "*Chywydd y Diluw.*" Gorchest fawr ei fywyd, a'r hwn a anfarwolai ei enwogrwydd, yw y blaenaf o'r tri hyn. Hwn oedd meddylfryd ei ieuengctid, ac i gynnyrchu hwn y llwyr ymroddodd gyntaf, yn nghryfder ei alluoedd; ac aberthodd lafur tymmor maith i'w gwblhau, wedi i'w awenydd ddyfod i gyflawn aeddfedrwydd. Y mae yn cynnwys llawer o elfenau cân arwrol, yn gystal a barddoniaeth hanesiol—a pha beth all fod y naill heb y llall?—er nad ydyw yn gyfyngedig i un o honynt ar wahân. Y mae yr eneiniad cyssegredig sydd yn rhedeg drwyddi yn ei gwir fawrhau. Y mae "*Cywydd y Drindod,*" o ran ei gynllun, wedi ei ddosbarthu yn dair rhan, ac wedi ei fwriadu er darlunio gweithredoedd neillduol pob un o'r personau dwyfol yn y Drindod Sanctaidd. Y Tad yn creu ac yn llywodraethu, y Mab yn prynu, a'r Ysbryd Glân yn sancteiddio. Y mae y cywydd hwn, fel y lleill oll, yn ysgrythyrol ac addysgiadol. Y mae rhyw fath o gyssylltiad i'w ganfod yn eglur rhwng y cywyddau hyn a'u gilydd. Y mae meddyliau perthynasol y naill a'r llall yn rhedeg i'w gilydd, er na cheir drwyddynt oll ond ychydig iawn o dra-mynychiad. Wrth ddarlunio eangder llafur y bardd, dywedai Ieuan Gwynedd fel y canlyn:—"Gwelir fod y bardd wedi codi Gwyddfa anferth ei maint a gwerthfawr ei defnyddiau i'w Iachawdwr. Cynnwysa '*Cywydd y Drindod*' 13,606 o linellau; '*Cywydd y Diluw,*' 1,698; '*Cywydd Joseph,*' 5,342; '*Cywydd y Mil Blynyddau,*' 1,682; a'r '*Farddoniaeth Gristionogol,*' 5,840; heb son am ei garolau, &c. Gwelir wrth y rhestr hon na adawodd ddim llai nag wyth mil ar hugain o linellau fel cymmunrodd i'w gydwladwyr, a hyny ar y testynau mwyaf goruchel. Bu yn ddiymmod a helaeth yn ngwaith ei Arglwydd yn wastadol, nes i'w enaid awengar fyned i mewn i'w lawenydd. Nid llawer o feirdd y ddaear a adawsant ar eu hol golofnau mor fawrion ac mor werthfawr o'u hathrylith, a hyny ar destynau mor gyssegredig." Dywed y gellir cymmeryd dau olygiad ar athrylith Dafydd Ionawr, sef yr elfenau meddyliol a'u cyfansoddent, a'r egwyddor foesol a'u rheolai. Hawdd gweled wrth ddarllen ei weithiau fod yr elfenau deallawl yn cynnyrchu gwreiddioldeb,

Digitized by Google

parhaodd pobl Meirionydd yn anorchfygedig heb gynnorthwyon o'r fath. Os oes ambell ran o'r wlad yn meddu ar fwy o ddanteithion, nid oes un lle yn perchen ymborth iachus yn fwy na Meirionydd. Gall ambell swydd ymffrostio mewn trefi gwychach: nis gall un ymgystadlu â hi am fryniau prydferthion:—

'Pob carn a welir arnynt
Sydd uchel gapel i'r gwynt,
I chwythu, emynu mawl
Ar g'oedd i'r Iôn tragwyddawl.'

Os yw Arfon yn uwch ei mynyddau, Meirionydd yw y fwyaf mynyddig. Y mae ei harucheledd yn gyfartal i'w chwaer ogleddol, a rhagora arni mewn amledd, amrywiaeth, a phrydferthwch. Os yw ei bryniau yn is, y mae eu lliwiau yn well, a'u ffurf yn harddach. Mewn gair, ceir ynddi gyflawnder. Nid yw yn gyfoethog iawn mewn rhai pethau, nac yn dlawd iawn mewn pethau ereill:—'Duw a wnaeth y naill beth ar gyfer y llall.'" Y mae yn rhaid addef fod y darluniad hwn yn lled wasgarog ac ymhongar, ond heb roddi un math o sêl ar ei gywirdeb llythyrenol, nid allasem gael gwell eglurhad ar y pwngc dan sylw. Y mae yn llefaru yn groew dros gyflawnder defnyddiau, amrywiaeth darluniadau, pryd-ferthwch ymadroddion, a theilyngdod ymarferol awenyddiaeth yr enwog Dafydd Ionawr. Nid oes neb na addef i'n bardd gyssegru gwasanaeth ei oes i anrhydedd Duw, ac adeiladaeth ei gydgenedl. Yr oedd ef, o ran ei sefyllfa yn y byd, uwch law y cyffredin o feirdd Cymru. Dynion ydynt hwy yn gyffredin ag sydd wedi gallu ymgodi o gyflwr o ddinodedd i sylw y cyhoedd trwy ymgyflwyniad diorphwys mewn hunan-addysgiant, nerth talent, ac ymroddiad penderfynol i dori drwy anhawsderau, a gweithio drwy anfanteision, nes cyrhaedd safle o gymmeradwyaeth ger bron y byd. Gosodasant nôd digon uchel iddynt eu hunain wrth gychwyn ar eu gyrfa lenyddol, a mynasant gwblhau eu hanturiaeth cyn gorphen eu tymmor ar y llawr. Ond am Mr. Richards, gellid sylwi yn wahanol; yr oedd mwyniant y byd, a gwenau cyfeillion, ac esmwythder yr oes, oll o'i flaen; ond ymwrthododd â holl wychder cymdeithas, i ddwyn ei dalentau disglaer i fwrdd y cyfnewid yn ngwasanaeth ei Dduw a'i bobl. Nid oedd unrhyw aberth yn ormod ganddo ei wneyd. Nid yn unig yr oedd ei waith yn fawr, ond yr oedd y draul o'i gyflawni yn aruthr. Mewn anhunedd, mewn afiechyd, mewn prinder, mewn trallod, a than ŵg perthynasau, cyssegrodd holl ymadferthoedd ei enaid, a chyflwynodd holl fanteision ei oes ar allor gwasanaeth y cyhoedd. Rhoddodd y cyhoeddiad cyflawn o'i waith gyffro newydd yn ngwersylloedd llenyddiaeth drwy yr holl wlad. Rhoddwyd gwobrwyon mewn copïau o'r gwaith am ragoroldeb yn narlleniad "*Cywydd y Diluw*," &c., mewn llawer man. Ymddangosodd y gwaith hwn yn ei gyflawnder dan olygiad Nicander, yr hwn a'i cyflwyna fel y canlyn:—"I'r Parch. John Jones, M.A., Borthwnog, mab y diweddar Thomas Jones, Ysw., Ynysfaig—y boneddwr hybarch yr ydym fel cenedl yn rhwymedig iddo am alluogi awdwr athrylithgar y gweithiau cynnwysedig yn y gyfrol hon i gyhoeddi ei brif waith, ac un o brif addurniadau ein llenyddiaeth genhedlaethol, '*Cywydd y Drindod*,' ac i gyssegru ei dalentau ysblenydd, trwy ei holl oes wedi hyny, mor ffyddlawn ac egnïol i wasanaeth ei Greawdwr a'i gydgenedl fel bardd Cristionogol Cymreig; y cyfaill personol mwyaf cydnabyddus â'r bardd sydd yn awr yn fyw, a boneddwr sydd ei hun yn hoffwr gwresog a noddwr ffyddlawn i'n llenyddiaeth—y cyflwynir y casgliad canlynol o holl waith Dafydd Ionawr, fel arwydd o'r parch cywiraf iddo, gan y cyhoeddwr." Dilynir y ddalen enwawl âg anerchiad gan R. O. Rees, y cyhoeddwr; hanes yr awdwr; nodiadau ar ei athrylith a'i weithiau, gan Ieuan Gwynedd; englynion anerchiadol i'r gwaith, gan Meurig Ebrill, Eben Fardd, Gwalchmai, Caledfryn, Hiraethog, D. Jones, Evan Evans, ac Elen Egryn. Dilynir y gwaith hefyd â rhagymadrodd gan yr awdwr, yn Saesneg, i "*Gywydd y Drindod*," "*Cywydd Ioseph*," "*Barddoniaeth Gristionogol*," "*Dafydd a Goliah*," ynghyd â "*Chywydd y Diluw*;" a therfynir y cyfan gydag amrywion ar wahanol destynau. Gwerthfawrogir y gyfrol hon gan y cyhoedd yn fawr iawn. Cyhoeddwyd hi yn 1851, gan R. O. Rees, Dolgellau. Argraphwyd y cyhoeddiad cyntaf o "*Gywydd y Drindod*" yn Ngwrecsam, yn 1793, gan A. Hughes.

Mewn sylw ar yr awdwr enwog, fel hyn y terfynir ei gofiant yn yr "*Eminent Welshmen*:"—"Er holl anfanteision ei ddyddiau boreuaf, a phob anhawsderau y bu raid iddo eu gorchfygu, o'r braidd drwy yr holl dymmor hwnw yr oedd Dafydd Richards yn gyffredin yn ddedwydd, ac yn dra bendigaid yn ei awen. Yr oedd yn gymmedrol yn ei ymarferion, yn ddiargyhoedd mewn buchedd, yn efrydydd twymnfrydig, tra annibynol mewn ysbryd, heb fod dan lywodraeth chwant ymgyfoethogi. Er yr attaliad a gafodd yn ei gais am urddoliad, etto parhaodd yn aelod o Eglwys Loegr. Ei wrthddrych mawr ac uwchaf oll oedd cyssegru ei dalentau i wasanaeth ei Dduw trwy farddoniaeth Gristionogol, a dyrchafu meddyliau ei frodyr barddol, a'i gydwladwyr yn gyffredinol, oddi wrth wrthddrychau isel a gwagsaw; yn yr hyn, y mae yn rhaid addef, y bu yr effaith a ganlynodd mewn graddau mawr yn llwyddiannus."

Mab tangnefedd ydoedd Dafydd Ionawr, yn unol â'i anerchiad cyffredin ar ei ddyfodiad i bob tŷ. Yr oedd yn iach a siriol yn gyffredin. Arferai yr hen fardd orphwys yn amyneddgar cyn codi y boreu. Gadawai y teulu iddo ei amser ei hun i ddyfod i lawr at ei foreufwyd. Ond boreu Mai 11eg, 1837, ni ddaethai i lawr, fel arferol, ac aeth morwyn y tŷ i guro ar ddor ei ystafell; ond nid oedd na llef na neb yn atteb. O'r diwedd, agorodd y drws, ond nid attebai i'w enw: a chanfyddid ei fod wedi marw. Claddwyd ef yn mynwent newydd Dolgellau. Hebryngid ei weddillion marwol i dŷ ei hir gartref gan nifer o foneddigion gwahoddedig. Yn 1849, cyfodwyd cofgolofn hardd, gwerth ynghylch deg punt ar hugain, o barch i'w goffadwriaeth, gan ei gyfaill, y Parch. John Jones, Borthwnog. Pe cawsai y bardd ei ddymuniad, ni welsid byth gymmaint a chareg i "nodi allan fan ei fedd." Y mae y golofn o gylch pum llath o uchder. Ar un ochr iddi y mae, "Bedd Dafydd Ionawr. Bu farw Mai 11eg, 1827. Ei oedran, 76ain." Ar ochr arall ceir "M. S. Bardi Christiani Merveniensis, Ob. A.D. 1827. Aetat. Suæ, 76." Ar yr ochr arall, "Revd. J. Jones, A.M., De Ynysfaig Posuit."

SYLW.—Yn yr "*Eminent Welshmen*," gelwir mam Dafydd Ionawr yn "Cathrine Dafydd;" yn mywgraphiad Rees, gelwir hi "Anne Dafydd." Pa un sydd yn iawn? Tebygol mai yr olaf.

Digitized by Google

RICHARDS, JAMES, Pontypridd, Morganwg. Yr oedd y gŵr hwn yn dra adnabyddus yn Nghymru. Ganwyd ef yn mhentref Llanddarog sir Gaerfyrddin, Ion. 28ain, 1804. Cymro oedd tad Mr. Richards; ond yr oedd ei fam yn disgyn o deulu Saesneg o un tu, ac o'r Ysgotiaid o'r tu arall; ac "fel hyn," medd Mr. Richards, "y mae gwaed tair cenedl ynof, heb, fe allai, ragoriaethau un o honynt. Pan oeddwn tua dwy flwydd oed, symmudodd fy nhad o Landdarog i Borth-y-rhyd; ac yn y gymmydogaeth brydferth hono, ac ar lanau afon Gwendraeth, yr wyf yn cofio fy hun gyntaf ar y ddaear hon. Wedi byw o wyth i naw mlynedd mewn tŷ bychan ger llaw Porth-yrhyd, symmudodd fy nhad i fferm o'r un enw." —*Ysgrif Mr. Richards*. Yn yr amser hwnw, arferai gweinidogion y Bedyddwyr bregethu mewn tŷ bychan ger llaw Porth-y-rhyd, ac yno yr ennillwyd sylw Mr. Richards gyntaf at y Gwaredwr. Dywed ef am dano ei hun y pryd hwnw fel y canlyn:—

"Yr oeddwn yn gallu darllen Cymraeg; ac fel yr oedd fy nhad wedi derbyn neu brynu y casgliad mawr cyntaf o hymnau Williams, Pant-y-celyn, yn hwnw, a Beibl bychan, y byddai fy llygaid yn barhaus. Yn y moddion, pa un bynag ai cyfarfodydd gweddïo neu bregethu, y byddai fy mhleser a'm holl hyfrydwch. Yn yr amser hwn yr ymwelwyd â mi, ac y cefais deimladau nad änt byth o'm cof; dyna y pryd y gwnaed y gwaith grasol ynof. Er mor wael y bum ganwaith wedi hyny, etto nid wyf yn gallu meddwl nad oedd a fynai Duw â mi y pryd hwnw. Yr oedd y teimladau mor nerthol ac mor anghyffredinol, a gwahanol i ddim a brofaswn o'r blaen, fel nad allent fod ond gwaith ei Ysbryd ef. Rhodiana ar y Sabbath, ac ymdrochi yn afon Gwendraeth, oedd gwaith bechgyn fy ardal yn misoedd yr haf. Y mae un o'r Sabbothau hyn ar fy nghof yn bresennol (1867), ac ni ddilëir yr argraph byth. Yr oedd gwas yn perthyn i'r fferm nesaf atom, yn nghwmni yr hwn y byddwn yn fynych. Yr oedd yn fachgen addfwyn a diniwed, a theimlwn yn wresog tuag ato. Fel yr oeddwn i wedi cael blâs ar foddion gras, yr oedd chwant arnaf iddo yntau gael yr un peth; felly, yn yr wythnos flaenorol, gofynais iddo a ddeuai ef, y Sabbath canlynol, i wrandaw Thomas Williams, Cwmdu [Cwmdwfr, Llywel, wedi hyn], yr hwn, am ddau o'r gloch, oedd i bregethu yn Porth-y-rhyd. Yr oedd yn anhawdd ganddo addaw; ond drwy fy nhaerni, addawodd ddyfod, ar yr ammod fod i mi fyned yn fuan gydag ef ar ol ciniaw i weled y bechgyn yn ymdrochi. Addewais fyned. Wedi cyrhaedd y fan, yr oedd yno tuag ugain o fechgyn, a mawr oedd y *sport;* ond nid oedd y cwbl yn ddim i mi:—dim, dim. Yr oedd rhyw ddallineb wedi dyfod droswyf. Yr oeddwn yn gweled, ond nid yn edrych. Yr oedd y cwbl i mi fel i ddyn marw; yr oedd fy meddwl a'm calon yn gwbl a llwyr mewn lle a pheth arall. Wedi bod yno yn boenus am tuag ugain munyd, gofynais i'r gwas, 'Dafydd, a ddeui di yn awr i'r cwrdd?' Ymesgusododd; a minnau a aethum fy hun, gan redeg tua hanner milldir. Wedi cyrhaedd y lle, yr oedd y cwrdd wedi dechreu, a'r lle yn orlawn. Beth bynag, ymwthiais, a cefais yn nghanol y bobl—y chwys yn rhedeg, a minnau heb ddim i'w sychu. Yr wyf wedi meddwl mwy am y Sabbath hwn nag am un arall yn fy mywyd. Dyna'r dydd y cefais fy nghroeshoelio i'r byd, a'r byd i minnau. Ni welwyd mo honof mwyach ar y Sabbath ar lan Gwendraeth hyd y boreu Sabbath y cefais fy medyddio yn enw y Drindod. Y Sabbath hwnw, pan yn gwrandaw Thomas Williams, oedd dydd fy symmudiad o feddiant Satan at Dduw; os felly, er bod fy meddwl yn flaenorol wedi ei dueddu at Dduw a'i waith, barnwyf mai'r Sabbath uchod oedd yr adeg ddedwydd, pan, drwy ras anfeidrol, y deuais i yn eiddo Crist, ac yn etifedd teyrnas nefoedd. Os wyf yn gamsyniol am y tro, y mae y dydd a'i deimladau i mi yn ddirgelwch pur. Wedi y Sabbath a nodwyd, nid oeddwn yn colli na chwrdd gweddi na chwrdd pregethu. Yn hymnau Williams, y Beibl bach, a'r brodyr, yr oedd fy holl hyfrydwch."—*Talfyriad o'r Ysgrif.*

Nid ydyw Mr. Richards wedi nodi yr adeg y bedyddiwyd ef; ond cymmerodd hyn le pan yr oedd tua thair ar ddeg oed. Bedyddiwyd ef gan y Parch. Daniel Davies, o'r Felin-foel; ac yr oedd y Parch. Josuah Watkins, Caerfyrddin, yn bresennol. Dechreuodd Mr. Richards bregethu yn fuan ar ol ei fedyddiad, canys cawn ef yn ymafael â'i waith yn 1817. Mewn llythyr a ysgrifenodd Mr. Richards, Gorphenaf 13eg, 1863, at y Parch. Thomas Lewis, Caerfyrddin, efe a ddywed:—"Y mae fy iechyd yn dal i fyny yn hynod; ond nid oes genyf fawr o hyder ynof fy hun. Mi a hoffwn nerth i gario y weinidogaeth yn mlaen etto am *bedair blynedd,* a bydd hyny tua HANNER CANRIF oddi ar yr amser yr oeddwn yn pregethu gyntaf gyda'm tad Watkins, yn Heol-y-prior." Y mae yn dra hynod, fe gafodd Mr. Richards ei ddymuniad yn llawn; cafodd fyw hyd Medi, 1867; ac wedi tynu hanner canrif o'r dyddiad hwn, dygir ni yn ol i'r flwyddyn 1817.

Pan oedd Mr. Richards yn 16eg oed, cawn ef yn pregethu yn agoriad Horeb, Cwmdwr, lle y sefydlodd Thomas Williams yn weinidog; ac yn yr un flwyddyn, cawn ef yn pregethu mewn cymmanfa yn Llangefni, yn sir Fôn. Bu hyn yn 1820. Dywed Mr. Richards hefyd iddo fod drwy sir Fflint yn 1820. [Gwel ei ysgrif yn "*Seren Gomer,*" 1851, td. 292.] Tua'r flwyddyn 1821, aeth Mr. Richards i goleg Bradford—y pryd hwnw dan lywyddiaeth Dr. Steadman; ac yno y bu am tua phedair blynedd. Dywed un o'i hen gydfyfyrwyr am dano fel hyn:—"Mewn beirniadaeth Feiblaidd yr oedd efe yn rhagori yn y coleg. Yr oedd cyfansoddiad a thuedd ei feddwl yn ei arwain at resymeg, a dwys fyfyriai ef yn aml byngciau a ystyrid gan lawer yn sychion a thywyll; ond y cyfan er mwyn ei gymmhwyso i bregethu yr efengyl yn fwy effeithiol a defnyddiol. Yr oedd pregethu iddo ef yn nŵyd—yn neillduol pregethu Cymraeg. Llawer gwaith y clywais ei lais melus a pheroriaethol yn adseinio yn mhlith prenau yr ardd tra yr oedd efe yn hwyr y dydd yn pregethu yn Gymraeg i'r gwrthddrychau difywyd o'i amgylch. Nid oedd ei lais, er ei fod yn felus, yn nerthol."

Wedi gorphen ei efrydiaeth yn Bradford, treuliodd Mr. Richards ran o'r flwyddyn 1825 fel cenhadwr cartrefol yn y Gogledd, tua chymmydogaeth Rhuddlan. Ond nid hir y bu yno; canys efe a ddechreuodd ei weinidogaeth yn Abergwaun, Rhagfyr 4ydd, yn yr un flwyddyn. Bu Mr. Richards yn llwyddiannus yn ei gylch newydd, ac ymgododd i sylw rhyfeddol fel prif bregethwr y wlad. Pan oedd Mr. Richards yn y lle hwn, clywodd un o brif weinidogion y Trefnyddion Calvinaidd ef yn pregethu, a dywedodd: "Nid oeddwn erioed wedi meddwl fod gan Dduw y fath bregethwr ar y ddaear yn yr oes hon." Yr oedd Mr. Richards yn awr yn ŵr priod, ac yn myned yn mlaen yn hwylus yn ei gylch; ond gwanychodd ei iechyd yn fawr, collodd ei lais, aeth ei gylla yn ammharus, a bu raid iddo beidio a phregethu dros fisoedd. Clywsom ef yn dyweyd iddo gredu un amser na chawsai ei lais byth yn ol, ac y buasai yn rhaid iddo gyfyngu ei hun i'w fasnach, sef gwneyd canwyllau, &c. Beth bynag, cafodd gryn adferiad; ond fe

Digitized by Google

gadwodd at ei fasnach fydol hyd nes y symmudodd o Bont-y-pridd i Gaerphili yn rhan olaf ei oes.

Gan fod teulu Mr. Richards yn lliosogi, efe a gafodd ar ei feddwl i symmud o Abergwaun i Bont-y-pridd, yr hyn a fu yn Mehefin, 1838. Tra yn Mhont-y-pridd, daeth Mr. Richards i'w enwogrwydd penaf, a llwyddodd yn fawr yn y byd, ac mewn crefydd. Ond ar ol blynyddau, ammharodd ei iechyd yn fawr, fel ag y cawn ef yn fynych yn achwyn ar ei nerth, ei gylla, a'i lais:—"Methu cysgu gan boen yn y cylla wedi llefaru." Gan ei fod yn gwanychu, penderfynwyd cael brawd i gydlafurio âg ef. Syrthiodd y coelbren ar y diweddar Dr. Emlyn Jones, a dechreuodd ei gydweinidogaeth â Mr. Richards yn Mawrth, 1852. O dan Gorphenaf 10fed, 1853, cofnoda Mr. Richards fel hyn:—"Rhoddi i fyny fy ngofal gweinidogaethol yn Carmel, wedi bod yno bymtheng mlynedd a mis o amser. Diolch am allu gwneyd hyn yn heddychol ac mewn cariad; ac nid cael fy mwrw ymaith, fel rhai." Wedi darfod â'r eglwys yn Carmel, parhaodd Mr. Richards i drigo yn Mhont-y-pridd, heb ofal eglwys, am bedair blynedd; ond drwy y cyfnod hwnw, efe a bregethai mewn gwahanol leoedd, yn ol fel y byddai ei nerth a'i iechyd yn caniatau. Yn Mai, 1857, teimlodd Mr. Richards ei iechyd yn well, a derbyniodd alwad i weinidogaethu yn Ton-y-felin, Caerphili. Wedi bod yno yn ddefnyddiol am flynyddau, teimlodd fod yn rhaid iddo ymneillduo, gan fod henaint a methiant yn pwyso arno. Efe a gofnoda fel hyn:—"Mai 15fed, 1864, rhoddi i fyny y weinidogaeth yn Ton-y-felin, wedi bod yno dros saith mlynedd." Mawrth 21ain, 1865, efe a ddychwelodd i fyw i Bont-y-pridd. "Yr wyf yn awr," medd efe, "os yr Arglwydd a'i mŷn, yn bwriadu treulio fy oes i ben yn Mhont-y-pridd. Gan fy mod yn awr yn drigain ac un mlwydd oed, gallaf ddweyd gydag Iob, 'Pan ddêl ychydig flynyddoedd, mi a rodiaf lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelaf.' Os caf yr ychydig flynyddoedd hyn, yr wyf yn crefu am nerth, iechyd, a gras, i'w treulio yn ofn yr Arglwydd, ac iddo yn llwyr." Wedi symmud i Bontypridd, pregethai Mr. Richards mor fynych ag y gallai. Tua diwedd yr haf 1867, efe a ddihoenodd yn gyflym iawn. Mewn nodyn byr at y Parch. Thomas Lewis, yn dyddiadu Awst 17eg, 1867, efe a ddywed:—"Y mae yn gwestiwn genyf pa un a allaf bregethu byth etto. Yr wyf yn wael iawn, ac wedi cael fy ngorfodi i alw yn ol fy holl addewidion am y ddau fis nesaf. Er dydd Mercher, wythnos i'r diweddaf, yr wyf ddydd a nos o dan driniaeth y meddyg." Medi 4ydd, mewn nodyn at ei frawd, dywed Mr. Richards fel hyn:—"Rhaid i mi addef fod fy ngobaith am adferiad iechyd yn wanaidd iawn yn wir." Cyn pen tair wythnos, yr oedd efe wedi huno! canys ymadawodd Medi 22ain, 1867. Aeth i "dŷ ei Dad" yn dawel a hyderus; a chladdwyd yr hyn oedd farwol yn meddrod y teulu, yn ymyl y capel lle y bu yn efengylu dros hir amser.

*Darlun.*—Yr oedd Mr. R., o ran maintioli, tua'r radd ganol. Ymddangosai yn *specimen* o ddynoliaeth berffaith. Y mae yn debyg ei fod, pan yn ieuangc, yn landeg rhagorol; ond yr oedd cystudd maith, a llawer o boen, wedi peri iddo ymddangos yn llwydaidd a thrymaidd. Tarcwid yr edrychydd meddylgar â'r syniad fod Mr. Richards yn ddyn ar ei ben ei hun, a bod neillduolrwydd arbenig yn perthyn iddo. Yr hyn a welid amlycaf yn ei wynebpryd oedd, meddylgarwch a threiddioldeb, ynghyd â difrifoldeb mawr. Ymddangosai yn wastadol fel pe mewn dwysfyfyriaeth; ac nid ydym yn ammheu na threuliodd ei oes mewn *constant thinking*. Yr oedd ei dalcen yn uchel, cyflawn, a lluniaidd, a'i lygaid yn hynod o'r eryraidd; mewn gair, yr oedd ei holl agwedd yn arwyddo ei fod yn ddyn o'r radd flaenaf.

*Rhwystr* mawr Mr. Richards, drwy ei oes, oedd afiechyd. Fel hyn yr ysgrifenai yn Saesneg at gyfaill yn Mawrth, 1855:—

"I have been very poorly since I last wrote to you, and am so now. My life has been a scene of weakness, and pain, and trial. My inability and my desire to be of service to others, and thereby to gratify my own mind, sends me often to a fit of angry feeling. Patience or contentment is the grace I most need. Thinking of many full of life, health, and vigour, and yet mentally incapable of being of any service; and of others who are mentally endowed with some degree of capacity for usefulness, yet denied life, health, and all other corporeal qualifications, a passing feeling and query are called up—Is there a Providence, and where is the wisdom? Thus I sin, tho' my faith in both are unshaken. If I were to tell you, or any other brother, all the revolving thoughts of my inmost soul, you would think me a great sinner. To fortify myself, I am now, when free from pain in the chest, studying a little sermon, which perhaps will never be preached, on the Providence of God. I am more inclined to Dr. Carson's theory than that of Dr. Thomas Brown, though the last is very philosophic and beautifully expressed. Before I shall be satisfied, I must have a Providence that agrees with prayer. This, when fully considered, will make Providence *that ever present* and gracious agency which suits a prayer in all its uplifted petitions."

Fel dyn duwiol a meddylgar, yr oedd Mr. Richards yn hoff iawn o gwmni unrhyw ddyn a ymddiddanai ar bethau buddiol. Fel hyn y dywed mewn llythyr, yn 1862, at frawd yn y weinidogaeth:—"Pa bryd y deuwch yma? Y mae yn eich cymdeithas fwyd i mi. Bu genym bregethwr nos Iau diweddaf. Daeth i'm tŷ am dri, ac arosodd hyd saith. O ran *hyd*, gwnaeth y pedair awr fel pedair wythnos. Nid oedd un bai ar y cloc; ond edrychais arno droiau, a thybiwn nad oedd yn symmud dim. Yn nghwmni rhai, y mae diwrnod yn edrych fel munydyn: gydag ereill, fel rhyw dragwyddoldeb."

Dyn tawel a difrifol oedd Mr. Richards. Wrth lefaru am Dduw, naturiaeth, dynion, llyfrau, pregethu, &c.; wrth droi yn y teulu, yr eglwys, y gymdeithas, neu y gynnulleidfa—yn mhob peth, ac yn mhob man, ni cheid oddi wrtho nac ymddygiad na gair yn dangos syniad isel a chwaeth lygredig. Ar gyfrif ei ddifrifoldeb, gallasai dyn dyeithr farnu nad oedd Mr. Richards yn ddyn parod, difyrus, a dymunol mewn cymdeithas; eithr yn ddistaw, marwaidd, digyfeillach, os nid yn sarug: ond y rhai a'i hadwaenent, ac a arferent âg ef, a wyddent yn well, ac yn wahanol. Nid yn aml y cwrddid â dyn mwy caredig a dymunol mewn cymdeithas. Os byddai rhyw bwngc pennodol dan sylw, gwnai ef loni pob meddwl o chwaeth drwy lawnder ei wybodaeth, cywirdeb ei farn, ac addfedrwydd ei olygiadau. Nid ydym yn meddwl fod Mr. Richards yn gwybod rhyw gymmaint am deimladau cyffrous—nid oedd yn arfer myned i eithafoedd. Yr efengyl fel peth Duw, a pheth dwyfol wedi ei derbyn ganddo yn y cariad o honi—ei fys

Digitized by Google

o hyd megys yn ôl yr hoelion, a'i law yn ôl y waewffon—ydoedd ei bob peth, a'i holl hyfrydwch. Nid oedd modd iddo ammheu a bod yn anghredadyn, ond credadyn. Nid ydoedd efe chwaith yn gwybod am deimladau tanllyd a gorfoleddus, fel un wedi ei dra dyrchafu. Nid oedd yn un o blant y gweledigaethau a'r dadguddiedigaethau; ac ni ddyrchefid ef yn awr ac eilwaith i'r drydedd nef i glywed geiriau annhraethadwy. Yr oedd ei Gristionogaeth ef o'r natur ddofn, araf, sefydlog, a sylweddol. Ei hinsawdd oedd y *gymmedrol*—nid y poeth ac nid yr oer. Hefyd, yr oedd ei Gristionogaeth yn *un gysson*. Un prawf o hyn oedd ei ddifrifoldeb mawr, a braidd gwastadol. Pan gofiom fod yr efengyl yn dwyn y meddwl i gymdeithas â Duw—y Mawredd ag sydd yn gwneyd i angel deimlo ei waeledd—y mae yn eglur nad oes dim yn gweddu ac yn atteb ond difrifoldeb. Wel, yr oedd hyn i raddau anghyffredinol yn Mr. Richards. Nid ydym yn cofio i ni erioed weled dyn yn fwy dwys-ddifrifol. Yn y cyffredin, ac yn neillduol wrth bregethu, gwelid fod yn ei ysbryd deimlad dwfn, nid yn unig o werth pethau yr efengyl, ond hefyd o'u hanhraethol bwys. Y mae yn ammheus genym fod y pulpud Cymreig mewn unrhyw oes wedi meddiannu dyn mwy prysur a difrifol ei ysbryd. Nid oedd neb yn *deall* pregethu yn well na Mr. Richards:—

"Y mae pregethu," medd efe, "yn cynnwys llawer, ond yn arwyddo mwy; sef, bod gan Dduw ryw bethau annhraethadwy ac o anfeidrol bwys, ac nad oes dim lle i'w cuddio na'u gosod dan lestr. Rhaid eu hefengylu ar fynyddoedd, a'u pregethu ar benau tai. Cnawdoliaeth'yr Uniganedig, ei fywyd digyffelyb mewn purdeb, amcan, a gwyrthiau grasol; ei angeu iawnol yn sylfaen gobaith byd colledig; gyda ei adgyfodiad ef, a llwyddiant difêth ei eiriolaeth yn y cyssegr nid o waith llaw, ynghyd â phwys tragwyddol y gogoniant ar ol hyny:—dyna bethau nad oes lle i'w cuddio. Fe ellir boddloni i aur fod yn drysor cuddiedig—i feini gwerthfawr a pherlau i orwedd byth yn ngwaelodion moroedd—i sêr grogi mewn cylchoedd yn yr uchelder annhraethadwy tu hwnt i drem y drychau mwyaf eu pŵerau; ond byth ni foddlonir, yn y nef na'r llawr, i guddio a chladdu anchwiliadwy olud Crist. Y maent yn eu natur a'u teilyngdod o flaen pob peth, ac yn hawlio cyhoeddusrwydd nes bo'r wybodaeth o honynt yn toi'r ddaear."

Dull cyffredin Mr. Richards o bregethu oedd yr *esboniadol* a'r *dyhysbyddol*. Yn y dull hwn, cymmerai ryw adnod, neu *gyssylltiad;* dangosai sefyllfa y cyfryw yn y bennod; deonglai eiriau neu frawddegau, os byddai galwad; ceisiai y prif feddylddrych, yr hwn bob amser, beth bynag ei faint neu ei bwys, ydoedd meddwl bwriadol yr ysgrifenydd; cyfodai *hwn* i sylw, dilynai a dangosai ef, gan wneyd defnydd *presennol* o hono. Y mae y dull hwn bob amser, o reidrwydd, yn codi i'r golwg, ac yn cadw yn y golwg, *wirionedd Duw*. Genau ydyw i Dduw lefaru; nefoedd yw, lle y caiff Haul y Cyfiawnder gylch i droi. "*Egluro*," medd Mr. Richards, "yw gwaith yr esboniwr; ond mewn *pregethu*, gydag egluro, rhaid athrawiaethu, argyhoeddi, ceryddu, a hyfforddi mewn cyfiawnder; rhybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn, fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist. A'r *Beibl* y mae a wnelo yr esboniwr; ac â'r *efengyl* y mae a wnelo y pregethwr. Y mae y *cwbl* i'w esbonio, ond yr *efengyl* sydd i'w phregethu, ac ar ei maes cyfoethog a diderfyn hi y mae y *testynau*."

Sylfaenai Mr. Richards ei bregeth, nid ar hanner brawddeg neu ddarn o gyssylltiad, ond ar ddrychfeddwl cyfan a pherffaith yn Ngair Duw; yna, gyda phwyll mawr a sylwadau pwrpasol, neu nodiadau eglurhaol, arweiniai y meddwl at y testyn, yna codai ddau neu dri o benau. Wedi hyn, dechreuai ei daith yn araf ar iseldir ei destyn, gan ddringo o radd i radd nes cyrhaedd yr uchelder, a sefyll ar ben y bryn; yna gwnai ddefnydd *presennol* o'i faterion; ac yn hyn byddai bob amser yn ddedwydd, effeithiol, a naturiol dros ben. I ddychymygu am ei bregeth ef, rhaid peidio meddwl am dymmestl ofnadwy o fellt a tharanau; na chwaith am ddim yn wyllt a mawreddog mewn natur, megys creigiau serth, mynyddoedd cribog, coedwigoedd, dyfnderoedd, ac afonydd; na chwaith am ruthr dinystriol y corwynt yn diwreiddio coedydd, yn dymchwelyd cestyll, ac yn peri i'r moroedd ferwi, a'r tonau digofus wylltio a rhuo. Nid oedd dim tebygolrwydd yna. Ond meddylier am lanw y môr, ar ddiwrnod tawel o haf, yn chwyddo a chodi yn ddistaw a graddol—uwch, uwch, nes bo'r llongau yn yr aber yn nofio, y traeth yn cael ei guddio, ac eithafnod y terfyn gosodedig yn cael ei gyrhaeddyd; neu, meddylier am daith raddol a hyfryd y goleuni yn mlaen o wawr y boreu fwy fwy hyd hanner dydd. Yr oedd y cwbl yn graddio. Yr oedd ei lais yn wan, a phesychlyd, ond yn felus ac effeithiol. Siaradai yn bwyllog, gofalus, pwyslefol; a rhwng difrifoldeb, mawredd, a phertrwydd pethau, yr oedd calonau y gwrandawyr astud a deallus, yn toddi ac yn llawenhau; ac ymddangosai trefn y prynedigaeth yn or-ardderchog. Fel hyn yr ysgrifena y Dr. Prichard, o Langollen:—"Pregethwr anghyffredin oedd Mr. Richards. Yr oedd ganddo lygad eryr i ganfod gwirionedd, a chalon seraph i deimlo gwirionedd, a dawn dyn medrus i osod allan wirionedd, nes y llosgai calonau dynion wrth wrandaw y gwirionedd yn dylifo o'i enau. Yr oedd ei wefusau fel y lili yn dyferu myrr dyferol. Yr ydym yn cofio ei wrandaw, lawer blwyddyn yn ol, yn nghymmanfa Aberystwyth, yn pregethu oddi ar dystiolaeth Ioan am Oen Duw. Codai y dyrfa fawr ar eu traed; anghofiem bob peth ond yr hyn a lefarid; a dywedem, 'Y mae y pregethwr a'r bregeth uwch law dynol.' Ni chlywais y fath bregeth ragorol erioed o'r blaen; a dywedai un o gewri y pulpud: 'Yr oedd James Richards yn pregethu, ac yr oedd yn goleuo goleuni.'"

Y Parch. E. Thomas, Casnewydd, yr hwn oedd yn Mhont-y-pridd pan ddaeth Mr. Richards i'r lle, a ysgrifena fel hyn:—

"Nid gorchwyl hawdd yw darlunio Mr. Richards fel pregethwr. Yr oedd yn hynod, ac yn fawr; ond nid oedd y mawredd hwnw yn gynnwysedig mewn *un* rhagoriaeth. Yr oedd llawer o ragorion yn cydgyfarfod ynddo, a hyny mewn rhyw gyfartaledd dedwydd. Hynodid ei bregeth gan ysbryd y peth byw, a chan ryw dynerwch toddedig. Yr oedd ei ddawn yn suddo i'r galon, ac ar yr un pryd yn agor y meddwl. Pe y gallem osod y darllenydd yn yr un amgylchiadau ag y buom ni ynddynt, gallem roddi iddo syniad o natur ei ddylanwad. Cawsom y fraint o fod yn Carmel, Pont-y-pridd, yn gwrandaw Mr. Richards yn pregethu y tro cyntaf fel gweinidog yr eglwys. Bu hyn ar foreu Sabbath, Mehefin 17eg, 1838. *Mehefin*—un o fisoedd hyfrydaf y flwyddyn; y *Sabbath*—dydd gwerthfawrocaf yr wythnos; y *boreu*—adeg ac awr fwyaf adfywiol y dydd. Gyda ni oll yr oedd hi yn foreu yn Mehefin, ac yn Sabbath ar a thrwy bob peth. Y testyn oedd, 'Y mae fy nefaid i yn gwrandaw fy llais i.' Soniai y preg-

Digitized by Google

ethwr am ddefaid, bugail, corlan, porfa, &c.; ac i goroni y cyfan, dyna lais Iesu a llais James Richards yn cyrhaedd ein clustiau, ac yn swnio y naill drwy y llall yn beroriaeth mwy nefol na dim a glywsom erioed. Pe gellid casglu amgylchiadau a phethau y tro a'r dydd at eu gilydd yn un clwstwr fel yr oeddynt yn ymddangos i ni, ac yn effeithio arnom ar y pryd, byddai o flaen ein llygaid wrthddrych tebyg i'r hyn oedd Mr. Richards yn ein barn ni fel pregethwr:—*Mehefin* y flwyddyn, *Sabbath* yr *wythnos*, *boreu* y Sabbath, a'i oleuni yn tywynu ar ddefaid, bugail, corlan, porfa, a llais pereiddiaf y nefoedd (eiddo Iesu) gyda llais mwyaf soniarus y ddaear (eiddo Richards) yn ymdòni yn yr awyr. O'r dydd hwnw hyd ddiwedd ei oes, rhyw fis Mehefin o bregethwr fu Mr. Richards i ni; gwlith nefol yn dew, trwm, a chynnyrchiol, neu wres bywydol haul oedd ei bregeth bob amser. Pan fyddai yn cymmeryd castell neu ddinas oddi ar y gelyn, nid hyrddio bwledi, a llenwi yr awyr â sŵn y byddai ef; ond cloddiai dan sail y muriau, nes y syrthient yn garnedd megys o honynt eu hunain. Nodwedd amlwg iawn yn ei fyfyriaeth wrth ddarparu ei bregethau, oedd manylrwydd. Nid dyweyd rhywbeth oddi wrth y testyn, a'i boddlonai; ond dyweyd *y peth* i'r hyn y bwriadwyd y testyn. I gyrhaedd yr amcan pwysig hwn—pwysig iawn yn ei fryd ef!—yr oedd yn dra hoff o aros uwch ben ei destyn; ac aros a wnelai ef hefyd nes y byddai 'y cyssylltiad pwysig hwn' wedi dadguddio ei gyfrinach iddo. Araf iawn oedd ei ddull yn traddodi; ond mor reolaidd yn ei ddadleniad o'r gwan i'r cryfach, ac o'r araf i'r cyflymach, a gwawr y boreu yn ymgolli yn nylif goleuni canol dydd. 'Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo.'"

Gwel hefyd ysgrif Mr. Richards, yn nghofiant y Parch. Thomas Jones, Rhydwilym.

RICHARDS, WILLIAM, LL.D.: yr hwn a adwaenir yn gyffredin fel y Dr. Richards, o Lynn:—Cymro dysgedig a gwladgarol, a dynodd lawer o sylw yn ei ddydd fel ysgrifenydd galluog ar wahanol byngciau Beiblaidd a chenedlaethol. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1749, mewn lle o'r enw Penrhydd, yn agos i Hwlffordd. Ei dad, Henry Richards, oedd yn dyddynwr parchus, ac aelod crefyddol gyda'r Bedyddwyr. Symmudodd i fyw i St. Clears, yn sir Gaerfyrddin, yn y fl. 1758. Ymunodd William â chrefydd yn ieuangc, a dechreuodd bregethu, mewn cyssylltiad â'i fam-eglwys yn Rhydwilym, tua 1769; a thrwy ei ymdrechion ef—ac ereill, canys bu ei dad farw yn 1768—codwyd capel bychan, a elwir Salem, Meidrim, hyd heddyw. Yn 1773, aeth i athrofa Bristol, yr hon a lywyddid ar y pryd gan y Parch. Hugh Evans, M.A., ac a gynnorthwyid gan ei fab, Caleb, yr hwn ar ol hyny a raddiwyd yn D.D. Cymry gwladgarol o Bont-newydd-ar-Wy oeddynt. Yr oedd athrofa Bristol er ei chychwyniad yn ddyledus i'r Cymry uchod, a Thomas Llewelyn, LL.D., o Hengoed, ac ereill; ac yno y byddai gweinidogion Bedyddwyr y Deheudir yn cael eu haddysg cyn iddynt sefydlu Athrofa y Fenni, yn 1807.

Bu William Richards yn ddiwyd ac ymroddgar iawn tra bu yn yr athrofa. Ymadawodd yn 1776; a bu am beth amser yn cynnorthwyo Dr. Ash, awdwr grammadeg a geiriadur Saesneg, a gweinidog i'r Bedyddwyr yn Pershore; a chyn diwedd y flwyddyn hono ymsefydlodd yn Lynn, lle y treuliodd y gweddill o'i einioes.

Nid oedd doniau Dr. Richards fel pregethwr yn boblogaidd, ac yr oedd ei rydd ymofyniad parhaus am y gwirionedd yn attalfa i hyny—canys hen syniadau wedi treulio, fel hen chwecheiniogau wedi colli pob argraph, os gellir eu traddodi yn fywiog, yw y pethau mwyaf poblogaidd gan y werin—heb law fod ei ymadrodd yn sychgras. Byddai yn ymweled â Chymru braidd bob blwyddyn, ac weithiau yn aros blwyddyn neu ddwy heb ddychwelyd adref; a hyny yn benaf o herwydd gwendid iechyd. Yr oedd yn wrthwynebwr mawr i neidio a gorfoleddu, ysbrydoli hanesion ysgrythyrol, a phethau gwyllt-ion o'r fath. Gwawdiai y cyfryw bethau fel lloerigrwydd gwallgof; ac nid hir y buont hwythau cyn ei warthnodi yntau fel *heretic*—yn enwedig o fod yn Armin, yr hyn y pryd hwnw a ystyrid yn un o'r pechodau duaf. Gŵyrodd nifer o eglwysi Bedyddwyr y Deheudir at Arminiaeth yn niwedd y ganrif o'r blaen, a diarddelwyd deuddeg eglwys yn y gymmanfa, yn 1799. Dr. Richards oedd yn cael y bai am hudo y gweinidogion a'r eglwysi at Arminiaeth. Yr oedd ganddo barch mawr i Mr. A. M'Lean, o Edinburgh, ac ymohebai âg ef yn fynych. Bu yn gohebu llawer hefyd â J. R. Jones, o Ramoth; ond ni feddai y ddau (sef Mr. M'Lean a Mr. Jones) er hyny, y cydymdeimlad lleiaf âg Arminiaeth. Y gwir yw, yr oedd Dr. Richards yn gyfaill i bob ymofynwr gonest a diragfarn am y gwirionedd.

Ysgrifenodd lawer yn Gymraeg a Saesneg. Gwaith mawr yw ei "*History of Lynn*," yn ddwy gyfrol wythplyg. Ysgrifenodd hefyd "*A Review of the Memoirs of the Protectorial House of Cromwell, by the Rev. Mark Noble.*" Canmolid y gwaith hwn yn fawr gan gyfeillion rhyddid gwladol a chrefyddol yn yr oes hono. Cyhoeddodd ddau lyfryn ar lywod-ddysg—"*Reflections on French Atheism, and on English Christianity;*" a'r llall a alwai "*Food for a Fast Day.*" Amcan y llyfrau yna oedd gwrthwynebu rhyfeloedd, a meithrin heddwch cyffredinol. Dyma ddernyn wedi ei gyfieithu oreu gellir i ddangos ei ddawn a'i ysbryd:—"Y fath weithredoedd erchyll o anghyfiawnder a gyflawnwyd yn y byd! Y fath ffrydiau o waed gwirion a dywalltwyd ar y ddaear gan sancteiddiolaf babau, enwocaf gardinaliaid, gwir barchedicaf esgobion, ymherawdwyr apostolig, Catholig a Christioneiddiaf frenhinoedd, mawrhydi cyssegredig, diffynwyr y ffydd, ac felly yn y blaen—a'r cwbl dan orchudd duwioldeb, yn enw yr Arglwydd, ac er cariad Duw a Christ! Pwy na wel nad oedd Rousseau, Helvetius, Voltaire, a D'Alembert, yn engyl goleuni yn ymyl y fath ddyhirod!"

Ysgrifenodd y Dr. Richards dri o lyfrau ar Fedydd yn y Gymraeg, mewn attebiad i Mr. B. Evans, o'r Dre-wen; a thebygol na chafodd y Bedyddwyr erioed well diffynydd. Fe allai nad oedd neb yn yr oes hono a allasai ysgrifenu Cymraeg mwy pur a diledryw. Gyrodd y ddadl hono yr enwadau yn Nyfed i dymmher lled ymladdgar; a phwy a ddaeth i'r gymmanfa yn mhoethder y rhyfel ond Dr. Richards; ac yr oedd Mr. B. Evans yno hefyd. Disgwyliai y werin benboeth y buasent mor ffyrnig wrth eu gilydd a dau darw; ond er syndod i'r cyfryw rai, cerddent fraich yn mraich mor gyfeillgar a dau frawd. Dyma ddau ŵr boneddig yn medru dadleu yn finiog, heb gashau eu gilydd.

Cyhoeddodd Dr. Richards Eiriadur Saesneg a Chymraeg, yr hwn a argraphwyd gyntaf yn 1798. Cyhoeddodd "*A Brief Account of the original state of the Sacred Writings,*" a "*Reflections on Allegorical Preaching.*" Pethau digon anhawdd i'r brodyr ffugrol eu goddef ydoedd y "*Reflections*" uchod; ac nid rhyfedd os oedd y rhai a nyddent y Beibl i bob ystum yn nyddu ac yn

Digitized by Google

gŵyrdroi pob peth perthynol iddo yntau. Yr oedd gwybodaeth hanesyddol y Dr. Richards yn helaeth iawn. Gwyddai fwy o hanes y Bedyddwyr na neb arall, ar ol marwolaeth Joshua Thomas. Graddiwyd ef yn LL.D., gan goleg Rhode Island.

Ei lafur penaf, yn ddïau, yw ei "*Cambro-British Biography*," yr hwn a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth gan ei fywgraphydd, y Dr. Evans. Cynnwysa "*Sketch of Druidism;*" "*Introduction of the Gospel into Britain;*" "*Account of Pelagius;*" "*State of Christianity in Wales, from Pelagius to Wickliffe.*" Yna bywgraphiadau yr Anghydffurfwyr, o Vavasor Powell hyd ei amser ef. Mewn Derwyddiaeth, perthynai y Dr. Richards i'r un ysgol ag Iolo Morganwg a Dr. W. O. Pughe; a chydlafuriodd gyda hwynt ar y "*Myvyrian*," a'r "*Cambrian Register*," &c.

Cymro trwyadl, o ran pryd a gwedd, ac o faintioli cadarn ac esgyrnog, oedd y Dr. Richards; ond goddefodd lawer o boenau gewynol. Bu farw Medi 13eg, 1818, yn 69ain mlwydd oed. "A man of fearless integrity, and unaffected piety, as well as of great goodness of heart," medd ei feddargraph am dano; ac yn mhellach, "He followed no party; but was the consistent disciple of truth and righteousness."

RAFFLES, THOMAS, D.D.: un o bregethwyr enwocaf yr Annibynwyr yn Lloegr yn yr oes ddiweddaf. Brodor o Lundain oedd efe, lle y ganwyd ef ar yr 17eg o Fai, 1788. Cyfreithiwr wrth ei alwedigaeth oedd ei dad, ac yr oedd yn uchel ei gymmeriad yn yr alwedigaeth hono: yr oedd ei fam yn wraig rinweddol a chrefyddol, ac yn aelod gyda'r Wesleyaid. Pan yn lled ieuangc, ymunodd Thomas Raffles â'r eglwys yr oedd ei fam yn aelod o honi; ond ymddengys na pharhaodd ei aelodaeth yno yn hir, gan iddo ymuno â'r Annibynwyr yn Peckham, yn yr eglwys oedd dan ofal gweinidogaethol Dr. Collyer. Cyn bod yn bymtheg oed, cafodd ei roddi yn ysgrifenydd cyfreithiol yn y Doctor's Commons; ond ymddengys nad oedd y gwaith yn unol â'i chwaeth. Mewn gwirionedd, ymddengys fod ei feddwl wedi ei sefydlu yn foreu ar y gwaith mawr y treuliodd ei oes i'w gyflawni gydag ymroddiad a llwyddiant. Canfu Dr. Collyer, a'r eglwys oedd dan ei ofal, fod ynddo gymmhwysderau naturiol a moesol i bregethu yr efengyl, a chynghorwyd ef i ymgymmeryd â'r gwaith. Ufuddhaodd yntau i'r cais, a derbyniwyd ef yn efrydydd i Athrofa Homerton, oedd ar y pryd dan lywyddiaeth y Parch. Thomas Hill, tra yr oedd y galluog Dr. J. Pye Smith yn athraw duwinyddol yno. Treuliodd Raffles bedair blynedd yn y coleg; ac yn ystod yr amser hwn yr oedd ei enw wedi dyfod yn dra adnabyddus fel pregethwr rhagorol. Yr oedd galw mawr am ei wasanaeth, ac yr oedd eisoes yn cael ei hoffi yn ddirfawr gan gynnulleidfaoedd mawrion pa le bynag yr elai. Yr oedd cynnifer o geisiadau taerion o bell ac agos yn ei gyrhaedd pan oedd yn y coleg ar iddo ddyfod i bregethu i eglwysi oedd heb weinidogion, fel y byddai ar rai adegau am wythnosau allan o'r coleg; yr hyn, yn ddiau, fu yn anfantais fawr iddo ragori fel ysgolhaig. Yn nghyfnodau eraill ei fywyd, yr oedd Raffles yn teimlo gofid ei fod wedi pregethu cymmaint yn yr adeg yma, ac iddo felly golli y cyfle i dalu y sylw gofynol i'w wersi, ac i ragori yn y dosbarth. Ar ei fynediad o'r athrofa yn 1809, ordeiniwyd ef yn weinidog yn Hammersmith. Nid oedd yn arfer pregethu ond boreu y Sabbath yn unig yn y lle hwn; gan hyny, yr oedd y gweddill o'r dydd ganddo i wasanaethu eglwysi eraill oedd yn awyddus am ei wasanaeth i bregethu iddynt. Arosodd yma am dair blynedd, a bu ei weinidogaeth yn hynod dderbyniol a llwyddiannus.

Ar ol marwolaeth y pregethwr ieuangc seraphaidd a phoblogaidd, Thomas Spencer, gweinidog yn nghapel Newington, yn Liverpool, trwy foddi pan yn ymdrochi yn yr afon Mersey, yn mysg eraill rhoddwyd gwahoddiad i Raffles i dreulio amryw Sabbothau yn y dref hono. Cydsyniodd yntau, a phregethodd yn rymus a dylanwadol y Sabbath cyntaf. Erbyn y Sabbath olaf o'i arosiad, yr oedd ei boblogrwydd y fath fel yr oedd yr heolydd cyfagos i'r capel yn llawn o bobl cyn amser dechreu y gwasanaeth, gan mor fawr ydoedd yr awydd am ei glywed. Cafodd alwad daer gan yr eglwys i fod yn weinidog iddi —a chydsyniodd yntau, a chafwyd cyfarfod i'w sefydlu ar y 27ain o Fai, 1812. Yn y flwyddyn 1815, priododd Miss Hargreaves, o Liverpool, yr hon oedd foneddiges rinweddol a chrefyddol, ac yn meddu llawer o gyfoeth. Bu Mrs. Raffles fyw hyd y fl. 1843; a cholled fawr a gafodd ei phriod yn ei marwolaeth, yr hyn a gymmerodd le y flwyddyn hono. Aeth capel Newington yn rhy fychan yn fuan i ddal y tyrfaoedd a gyrchent i wrandaw ar Dr. Raffles, ac adeiladwyd iddo gapel Great George Street, yr hwn oedd adeilad eang, ond a ddinystriwyd gan dân tua'r flwyddyn 1840; ac adeiladwyd capel newydd eang ac ardderchog yn ei le, a allai ddal tuag un cant ar bymtheg o wrandawyr i eistedd yn gysurus. Parhaodd i lafurio yma yn dra chymmeradwy a llwyddiannus hyd ddiwedd y flwyddyn 1861—pryd yr ymneillduodd, ar ol bod yn weinidog yr eglwys am yn agos i hanner can mlynedd. Bu farw Awst 18fed, 1863, yn 75ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am yn agos i 58ain o flynyddoedd. Nid oes ddadl nad oedd Dr. Raffles yn un o bregethwyr mwyaf hyawdl a phoblogaidd yr Annibynwyr yn Lloegr yn ei ddydd; ac y mae yn debyg iddo wasanaethu mewn mwy o gyfarfodydd pregethu yn Lloegr nag un arall o weinidogion yr enwad y perthynai iddo. Yr oedd yn cydgyfarfod ynddo lawer o hanfodion pregethwr poblogaidd a swynol. Yr oedd yn meddu ar berson hardd, doniau hylithr, llais soniarus, gwresawgrwydd ysbryd, traddodiad rhagorol, a phregethai athrawiaeth iachus. Nid rhyfedd gan hyny ei fod yn anwylddyn y bobl pa le bynag yr elai.

ROBERTS, DAVID (*Alawydd*), o'r Tai duon, Bethesda, ger Bangor. Mab ydoedd efe i Moses ac Ellen Roberts, Cae'r-berllan, yn mhlwyf Llanllechid. Ganwyd David yn mis Mehefin, 1820, yn Tal-y-bont, Llanllechid—pentref bychan heb fod yn mhell o Gastell y Penrhyn, ac o fewn tua milldir a hanner i eglwys Llandegai. Bu i'w rieni naw o blant—pump o fechgyn, a phedair o ferched, ac efe oedd yr hynaf o'r bechgyn. Gôf oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, ac yn gweithio dan Argl. Penrhyn yn yr efail berthynol i waith llechi Chwarel Cae Braich y Cafn, yr hon sydd tua phedair milldir o Tal-y-bont. Yn mhen rhyw gymmaint o amser, symmudodd rhieni Alawydd, er mwyn bod yn nes at y gwaith, i Cae'r-berllan, i'r tŷ cyntaf o'r rhes sydd â'i dalcen i'r ffordd fawr sydd yn arwain o Fangor i Gapel Curig, a thua hanner y ffordd o Bethesda



Digitized by Google

i'r chwarel. Tai cymmharol fychain oeddynt, yn cynnwys llawr (*cegin*), a siamber, a llofft dros yr olaf, a gerddi bychain o'u blaenau, i dyfu pytatws a phethau eraill at wasanaeth y teulu. Dyna ddisgrifiad o'r annedd y treuliodd dymmor ei ieuengctid ynddo, oddigerth yr ychydig o'r rhan foreuaf a dreuliodd yn Nhal-y-bont. Bu yn yr ysgol am flwyddyn yn Llandegai pan oedd tua chwech oed, yn ysgol Capel y Carneddi yn y flwyddyn 1828, ac yn ysgol Llanllechid ar ol hyny; a bu mewn ysgol nos, ar ol iddo ddechreu gweithio, mewn lle o'r enw Ty'n-y-clawdd, Tre'r Garth. Yr oedd Tre'r Garth yn lle enwog am ei llenorion Cymreig yr adeg hon, a chododd yno feirdd, athronwyr, a phregethwyr—nid amgen y diweddar Barch. Hugh Hughes (*Hugh Tegai*), a Mr. J. W. Thomas (*Arfonwyson*), ac eraill.

Ychydig oedd cyfleusderau addysg yn y ddau blwyf eang y pryd hwnw, pa rai oedd yn rhedeg yn gyfochrog o Fangor i fyny i Gapel Curig, a'r afon Ogwen yn derfyn rhyngddynt, y rhai oeddynt tua deng milldir o hyd. Tair ysgol sefydlog oedd yn y ddau blwyf; un yn Llandegai, a'r llall yn yr Achub—pentref bychan yn agos i eglwys Llanllechid; ac un arall dan nawdd y Penrhyn, yn Ty'n twr, yn agos i'r chwarel. Ysgolion achlysurol oedd y rhai oedd mewn cyssylltiad â'r capelau. Un felly oedd ysgol Capel y Carneddi, yn yr hon y bu Alawydd yn gorphen ei addysg cyn iddo ddechreu gweithio yn y chwarel. Aeth i'r chwarel i weithio yn mis Mai, 1831, pan nad oedd ond un-ar-ddeg oed. Ymunodd â'r gymdeithas gerddorol yn Bethesda pan yn dair ar ddeg oed. Corawl oedd y canu yno hyd yn dra diweddar; ac felly yr oedd aelodau y côr, o angenrheidrwydd, yn gorfod dysgu ac ymgyfarwyddo i ryw raddau yn egwyddorion elfenol cerddoriaeth. Yr oedd y darnau oll yn cael ei ysgrifenu, a byddai y gorchwyl hwnw yn disgyn ar y dosbarth ieuangc. Yr oedd gan Alawydd un llyfr main, hir, o'r hen ffasiwn, tua dwy fodfedd o dew, wedi ei ysgrifenu yn llawn mewn llaw brydferth; a dau arall yn ddiweddarach, o lyfrau llydain yn cynnwys wyth erwydd ar bob tudalen, y naill a'r llall o honynt tua modfedd o dew, wedi eu hysgrifenu yn ddestlus a chywir. Yr oedd llyfrau argraphedig mor hynod o ddrud y pryd hwnw fel nad oedd y gymdeithas yn gallu fforddio i brynu ond un copi; ac yna ysgrifenid y darnau dewisedig o honynt. O fesur ychydig daeth Alawydd i foddion, trwy ei gynnildeb, i brynu amryw lyfrau ar ei gyfrifoldeb ei hun; ac wedi hyny yr oedd efe yn alluog i ysgrifenu copïau o'r darnau oedd yn taraw ei chwaeth i'r cyfeillion hyny oedd yn ymddadblygu mewn gallu i ddarllen oddi wrth y nodau; ac o dipyn i beth ennillodd, trwy ei sêl a'i lafur, y swydd o flaenor yr ysgol gân. Felly rhanwyd y gwaith rhyngddo ef a'r blaenor arall, sef Mr. Griffith Rowlands (*Asaph*), yr hwn ydoedd yn ddyn hynod o garedig a siriol, ac yn barod i roddi pob help i'r ieuengctyd oedd yn dangos tuedd ymlynol, ac yn ymroi i ymhyddysgu mewn cerddoriaeth. Bu y dyrchafiad hwn yn foddion i ennyn sêl a gweithgarwch mawr yn y blaenor ieuangc. Daeth yr Anthem i boblogrwydd mawr, a dysgid darnau rhagorol ar gyfer y Sabbothau. Cenid un neu ddwy o anthemau yn mhob oedfa drwy gydol y flwyddyn, a hyny rhwng y darllen a'r gweddïo, a rhwng y gweddïo a'r bregeth; a phan y byddai pregethwr achlysurol ar noson waith, dilynid yr un reol. Ar ol y bregeth, cenid hen dônau adnabyddus i bawb, megys "*Denton's Green*" (neu Babel), "Delight," ac amryw eraill o'r un dosbarth, pa rai oedd yn dra phoblogaidd yn yr adeg hono. Cyhoeddodd ei "*Rammadeg Cerddorol*" yn 1848, a daeth ail argraphiad diwygiedig allan o'r wasg ar ol hyny, a gwerthwyd y copi a'r *plates* i gyhoeddwr am y swm o 100*p*.

Ysgrifenwyd y Grammadeg ar y cyntaf yn wersi at wasanaeth addysgiaeth gerddorol ei wahanol ddosbarthiadau elfenol, pa rai a fuont yn hynod lwyddiannus yn eu hamcan. Pan y cafodd ar ddeall fod Novello, a'i Gyf., yn dyfod âg argraphiadau rhad o weithiau y prif gerddorion at wasanaeth y miloedd, sefydlodd glwb fel y gallai y rhai tlotaf o'r gymdeithas ddyfod i feddiant o'u dewis o'r *oratorios*, a llyfrau eraill yn dadlenu holl ganghenau y gelfyddyd gerddorol. Fel hyn, trwy dalu 6c. yn y mis am bob llyfr a brynid, daeth lliaws o'r cantorion i feddiant o'r holl *oratorios* oedd allan y pryd hwn; ac eithriad oedd i un canwr yn yr ardal fod heb un neu chwaneg o'r *oratorios*. Yr oedd eu prisiau y pryd hwnw o 5*s*. i 7*s*. 6*c*. yr un. Fel amlygiad o deimlad da y cantorion tuag ato am ei lafur a'i ddiwydrwydd gyda'r gân, cyflwynwyd iddo oriawr aur, gwerth ugain punt, yn anrheg.

*Ei Gyfansoddiadau.* — Ychydig, mewn cymmhariaeth i'w alluoedd, ydyw nifer ei gyfansoddiadau cerddorol, heb law ei dônau cynnulleidfaol, o ba rai y mae cryn nifer ar gael a chadw. Y mae ei anthemau buddugol yn Eisteddfod Bethesda yn y blynyddoedd 1851, 1852, ac 1853, wedi dal, ac yn sicr o ddal, yn eu blas cyhyd ag y pery cerddoriaeth gyssegredig y Cymry i gael sylw ein cantorion, ac i gael ei hamaethu ganddynt. Y mae anthem 1851 yn cynnwys cydgan i ddau gôr, neu wyth llais, ac wedi ei hysgrifenu yn ol y rheolau manylaf. Dyma ddyfarniad ar ei anthem yn nghystadleuaeth 1852:—"Ni raid i neb arswydo rhoddi y wobr i *Musico*. Ennillodd hi yn deg, a digon wrth gefn." Dyma etto y feirniadaeth ar Anthem 1853:—

"Dyma gyfansoddi â'r ysbryd, beth bynag am y deall. Yn y *fugue* sydd ar y geiriau 'Graslawn a thrugarog yw yr Arglwydd,' ceir celfyddyd a theimlad wedi eu cyssylltu yn y modd goreu, fel nad yw y teimlad yn cael ei lethu gan gelfyddyd, na'r gelfyddyd gan y teimlad. Y mae y *trio* yn ystwyth, gwreiddiol, a tharawiadol—y peth a ddymunid i bob *trio* fod. *Fugue of imitation* sydd ar 'Traetha fy ngenau;' er yn amddifad o gywreinrwydd celfyddydol, y mae yn llawn o ystwythder a thlysni.

Rhwng D. ap Gwilym ac Awenydd y mae y dorch i'w thynu. Tybiwyf mai cyfansoddiadau gwerthfawr sydd gan y ddau; ond pa un yw y goreu yw y pwngc. Nid ammheua neb nad yw y *chorus* cyntaf a'r *trio* sydd gan Awenydd yn tra rhagori o ran amrywiaeth yn eu trefniadau ac ystwythder yn eu symmudiadau, cywirdeb yn eu cynghanedd, a pheroriaeth yn eu sylfonau, ar eiddo D. ap Gwilym; felly, yr unig fan y maent yn agos at eu gilydd yw, yn y *chorus* olaf. Yno y mae D. ap Gwilym ar ei oreu mewn *pomp* a chelfyddyd; ac Awenydd ar ei oreu mewn symledd a thlysni: yr *actors* a'r *scenes* ffugiol ydynt y gwrthddrychau amlycaf gan un, ond y pethau yn fyw sydd gan y llall. Wel, os yw y pethau yna yn wir, fel y credwyf eu bod, y maent yn troi y fantol o du Awenydd."—E. STEPHEN.

Yr oedd tri beirniad wedi eu dewis i farnu cyfansoddiadau 1853; sef, y Parchn. J. D. Edwards, Rhos-y-medre; E. Stephen, Dwygyfylchi; a John Mills, Llundain. A threfnwyd i ranu y cyfansoddiadau rhwng dau, ac i un sefyll fel canolwr (*umpire*), os byddai angen am dano. I

Digitized by Google

ran y Mri. Stephen a Mills y daeth yr anthemau ar y testyn hwn. Derbyniodd y Parch. E. Stephen yr hyn a ganlyn oddi wrth y Parch. John Mills:—"Yr wyf yn cyduno â chwi i farnu Awenydd yn oreu, a D. ap Gwilym yn ail." Fel hyn ennillodd Mr. Roberts dri o dlysau arian gwerth gini yr un, a thri gini am y ddwy anthem gyntaf, a phedwar gini am yr olaf.

Y peth arall, a'r olaf, o ffrwyth ei lafur cerddorol oedd cyhoeddiad ei "*Lyfr Salmau;*" sef, casgliad o'r Salmau wedi eu troi ar gân gan amryw feirdd ar wahanol fesurau, ynghyd â thonau cyfaddasedig atynt, o ba rai y mae cryn nifer o'i waith ef ei hun.

Priododd ddydd Nadolig, 1848, gyda merch hynaf Mr. David Thomas, o Bethesda, a bu iddynt chwech o blant, o ba rai y mae pedwar yn fyw; sef, un ferch a thri mab—ac y mae y tri yn ngwasanaeth Ariandy Lloegr.

Bu farw Mai 26ain, 1872, yn 52ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Glanogwen, Bethesda, Mai 31ain.

Dyn hynaws a charedig ydoedd, a bu yn dra gwasanaethgar mewn amryw gylchoedd o gymdeithas heb law yn ei gyssylltiad cerddorol. Yr oedd yn llawn dwy lath o daldra, ac yn cario pen *noble*, yn cael ei orchuddio â gwallt du crychfodrwyog, ac o feddwl penderfynol a lled anhyblyg; ond gwrandawai ar reswm ar ol iddo ei bwyso a'i brofi. Cyfarfyddodd â damwain ddifrifol yn y chwarel yn 1842, trwy i'r graig ymollwng dan ei draed, ac yntau yn nghanol y plygion o'r graig; ond safodd felly ar step tua chwe llath o'r lle yr oedd yn sefyll, ac arbedodd hyny godwm a fuasai yn sicr o'i ddryllio yn chwilfriw; ac wedi iddo gael help, a chael ei dynu yn rhydd, a rhwymo ei aelod briwedig, gafaelodd yn y rhaff, a dringodd i fyny y graig tua deg llath o uchder er syndod a dychryn i'r edrychwyr pryderus. Ond yr oedd wedi ei anafu mor dost fel y gorfuwyd ei gario i Fangor i'r ysbytty perthynol i'r gwaith, pellder o yn agos i chwe milldir, a bu am fisoedd dan law y meddygon. Efe oedd yr olaf a gludwyd i'r ysbytty i Fangor, o blegid yr oedd yr ysbytty newydd agos a bod yn barod yn Bryn-llwyd, yn ymyl y gwaith, pan gyfarfyddodd efe â'r ddamwain. Cyfarfyddodd â damweiniau ar ol hyny; a bernir fod yr ysigiadau hyn, y naill ar ol y llall, wedi myned â'i fywyd mewn adeg gymmharol gynnar o'i oedran.

Bu o wasanaeth pwysig i'r enwad Annibynol yn yr ardal. Cafodd allan fod esgeulusdra anfwriadol wedi bod gydag adnewyddu gweithredoedd capel Bethesda, a thrwy gryn drafferth bu yn foddion i'w gosod mewn sefyllfa sicr a diogel. Hefyd, efe a roddodd dir i adeiladu capel yn y Gerlan, yr hwn a adnabyddir wrth yr enw Treflys, a rhoddodd bum punt yn enw y plant i gychwyn y drysorfa adeiladu. Bu yn aelod selog a ffyddlawn o'r eglwys y perthynai efe iddi hyd ei fedd.

ROBERTS, JOHN (*Ievan Gwyllt*). Ganwyd ef yn Tanrhiw-felen, Penllwyn, yn agos i Aberystwyth, mewn amgylchiadau lled isel, Rhagfyr 22ain, 1822. Cafodd fantais addysg foreuol mewn ysgol wledig; ond dangosodd yn lled foreu ei fod yn meddu galluoedd cryfion. Dysgai bob peth a roddid iddo gyda rhwyddineb neillduol, a chasglodd lawer o wybodaeth ysgrythyrol a chyffredinol pan nad oedd efe ond bachgenyn. Dechreuodd gadw ysgol ei hun pan yn ieuangc iawn. Pan yn ugain oed, cyflogwyd ef gan y Mri. Griffiths a Roberts, fferyllwyr, fel ysgrifenydd yn Aberystwyth. Tua dwy flynedd ar ol hyny aeth i'r Coleg Normalaidd yn y Borough Road, Llundain; a'r flwyddyn ganlynol (1845) agorodd Ysgol Frytanaidd yn Aberystwyth. Gan nad oedd y swydd hon, y mae yn ymddangos, yn gydweddol âg ansawdd ei feddwl, rhoddodd yr ysgol i fyny yn niwedd y flwyddyn; a chan fod ei gymmhwysderau fel ysgolhaig ac ysgrifenydd erbyn hyn yn hysbys, cafodd le i fod yn ysgrifenydd yn swyddfa y Mri. Hughes a Roberts, y cyfreithwyr, o Aberystwyth. Parhaodd yn y swydd hon am saith mlynedd, ac ennillodd iddo ei hun gymmeriad uchel. Yr oedd erbyn hyn mewn sefyllfa fanteisiol i ymddadblygu fel meddyliwr, llenor, a cherddor. Yr oedd yn aelod o gymdeithas gerddorol oedd yn dra blodeuog y pryd hwnw yn Aberystwyth, dan arweiniad y cerddor galluog, Mr. Edward Edwards (*Pencerdd Ceredigion*). Hynododd ei hun fel cerddor, ac yr oedd pereidd-dra a nerth ei lais yn nodedig. Yn 1852, aeth i Liverpool i fod yn gynnorthwywr i'r Parch. W. Rees (*Gwilym Hiraethog*), yn ngolygiaeth "*Yr Amserau;*" ac yn lled fuan ar ol ei fynediad i'r dref hono, taflwyd yr olygiaeth ar ei ysgwyddau ef. Ar y 10fed o Ragfyr, yn 1852, yr ymddangosodd yr erthygl arweiniol gyntaf o'i eiddo yn "*Yr Amserau.*" Yr oedd yr ysgrifau a ysgrifenid ganddo yn profi yn eglur ei fod yn rhyddfrydwr trwyadl, yn deall gwleidyddiaeth yn dda, ac yn ysgrifenydd medrus a galluog. Am yr ysbaid y bu yn y swydd o olygydd, cyflawnodd ei waith yn ddeheuig a meistrolgar. Yn ystod ei arosiad yn Liverpool, dewiswyd ef yn flaenor yn un o eglwysi y Methodistiaid, a dechreuodd bregethu yn fuan ar ol hyny. Traddododd ei bregeth gyntaf yn Runcorn, Mehefin 15fed, 1856. Yn Liverpool hefyd y cyfansoddodd ei ddarlith ar Gerddoriaeth; ac yn y blynyddoedd hyny yr oedd yn parotoi ei "*Lyfr Tônau Cynnulleidfaol.*" Yn 1858 y symmudodd i Aberdâr i olygu y "*Gwladgarwr,*" ac yn y flwyddyn 1859 priododd Miss Richards, o Aberystwyth; yr hyn a brofodd yn un o ddigwyddiadau hapusaf ei fywyd. Y flwyddyn hon hefyd y cyhoeddodd ei "*Lyfr Tônau.*" Symmudodd i Ferthyr yr un flwyddyn i gymmeryd gofal yr eglwys Fethodistaidd yn Pant-tywyll. Ordeiniwyd ef yn weinidog, yn Awst, 1861, yn Nghastellnewydd Emlyn. Dechreuodd gyhoeddi y "*Cerddor Cymreig*" yn y flwyddyn grybwylledig. Symmudodd i'r Gogledd yn 1865, i gymmeryd gofal yr eglwys Fethodistaidd yn y Capel Coch, Llanberis, sir Gaernarfon; ac yn y flwyddyn 1869, ymgartrefodd yn y Fron, palasdy bychan prydferth o'i eiddo ei hun, yr hwn oedd yn sefyll ar lechwedd o dir dymunol yn agos i dref Caernarfon. Dygodd allan "*Ychwanegiad*" i'r "*Llyfr Tônau Cynnulleidfaol*" yn 1870. Pan y daeth Meistri. Moody a Sankey drosodd o'r America i Ysgotland, aeth Mr. Roberts yno i'w cyfarfod, a chafodd ganiatâd ganddynt i gyfieithu eu hemynau i'r Gymraeg; ac ar ol dychwelyd, cyhoeddodd gyfres o honynt dan yr enw "*Sŵn y Jubili.*"

Y "*Blodau Cerdd*" oedd ei anturiaeth gerddorol gyntaf, ac yr oedd yn un hapus; a chafodd ei gwerthfawrogi trwy gylchrediad helaeth yn Aberystwyth a'r cylchoedd. Tônau ac emynau at wasanaeth yr ieuengctyd oedd cynnwys y gyfres; ac yr oedd y tônau yn dra swynol, a'r emynau yn dangos chwaeth dda a duwiolfrydig.

Digitized by Google

Dywedir mai yr hyn a'i tueddodd i ddewis y ffugenw "Ieuan Gwyllt" oedd adgof am olygfeydd gwylltion bro ei enedigaeth.

Yn Liverpool yr ydym yn gweled ei lafur yn ymranu i ddau gyfeiriad; sef, y crefyddol a'r cerddorol. Trwy gymmhellion taer ei gyfeillion, ymgymmerodd â darlithio ar gerddoriaeth. Prif bwynt ei ddarlith oedd diwyllio caniadaeth y cyssegr. Traddodwyd y ddarlith hon ganddo braidd yn mhob ardal boblogaidd trwy Dde a Gogledd Cymru, a chynnullai tyrfaoedd lliosog i'w gwrandaw. Er nad oedd y darlithydd y pryd hwnw yn meddu ar hyawdledd arbenig, etto yr oedd mater y ddarlith mor addysgiadol ac ymarferol fel yr hawliai y sylw a'r gwrandawiad mwyaf astud. Arferai, cyn ei ymddangosiad, anfon ychydig dônau o'i arddullwedd fabwysiedig ei hun o'i flaen i'r lle y byddai i ddarlithio, er mwyn i'r cantorion eu dysgu erbyn noswaith y ddarlith; a byddai hyny yn chwanegu at ei dyddordeb. Fel gwrthddarluniau, byddai yn galw ar y gynnulleidfa i ganu tônau o arddull eithafol i'w arddull fabwysiedig—nid amgen, "Lydia," "Calcutta," "Lingham," &c.; ond digwyddodd i'r glorian droi o chwith i'w ddisgwyliad mewn tref yn y Deheudir—aeth y gynnulleidfa dipyn i hwyl wrth ganu y tônau yr oedd efe â'i fryd yn eu herbyn. Ond ni bu yr amgylchiad hwnw, na chwaith ymlyniad yr hen bobl wrth yr hen ffasiwn o ganu, yn foddion iddo newid dim ar ei gynllun; ond gweithiodd ef allan yn gyflawn a llwyr. Yn Aberdâr, tua diwedd mis Ebrill, 1859, y cwblhaodd y gwaith o gasglu y "*Llyfr Tônau,*" yr hwn sydd yn hollol gysson âg osgo y ddarlith. Y mae y dyfyniad a ganlyn yn egluro y cynllun a ddewisodd, ac hefyd yn awgrymu y drafferth a gafodd i'w ddwyn oddi amgylch:—

"Nid oes ond yr ychydig a gawsant fesur o brofiad ar waith cyffelyb a fedrant ffurfio dirnadaeth deilwng am y drafferth a'r draul a gostiodd darparu llyfr o'r fath. Yn y lle cyntaf, yr oedd genyf i gasglu cynnifer ag oedd yn gyrhaeddadwy i mi o'r prif gasgliadau o dônau eglwysig a gyhoeddwyd—nid yn Nghymru yn unig, ond hefyd yn Lloegr, yr Alban, yr Almaen, yr Eidal, a'r America. Wedi cael rhai miloedd o dônau felly i law, y gorchwyl nesaf oedd dethol. Y prif deithi yr ymofynwn am danynt mewn tôn oeddynt cerddoriaeth, symlrwydd, eangder meddylddrych, urddas, a chrefyddoldeb neu ddefosiwn. Os heb y naill neu y llall o'r hanfodion hyn, yr oedd yn wrthodedig ar unwaith. Nid oes ond ychydig o dônau yr unfed a'r eilfed ganrif ar bymtheg, yn y wlad hon ac yn yr Almaen, heb fod yn cynnwys graddau helaeth o bob un o'r elfenau crybwylledig. Y pryd hwnw yr oedd cerddoriaeth yr eglwysi Protestanaidd yn nwylaw *dynion*—dynion o athrylith, dysgeidiaeth, a barn. Cedwid llinell y gwahaniaeth rhwng y gân, y ganig, yr anthem, a'r cydgan, a'r dôn salm, yn ddigon amlwg, ac ni adewid i'r rhai blaenaf un amser droseddu ar iawnderau yr olaf. Nid oedd eisiau siarad yn erbyn ail-adroddiadau, llithreni, efelychiadau, dilyniadau, &c., mewn tôn salm. Cewri a drigent ar y ddaear y dyddiau hyny, y rhai yr oedd eu chwaeth mor bur, a'u barn mor gywir, fel na feddyliai neb am gyfarfod âg unrhyw gêr o'r fath ond yn eu lle priodol, sef, y *Madrigal*, a'r anthem. Ar ol hyny disgynodd cerddoriaeth yr eglwys i ddwylaw cenhedlaeth o 'blant dynion,' y rhai, yn lle cynnal i fyny ei hurddas a'i dyrchafu, a'i tynasant i lawr i eigion eiddilwch, annhrefn, a thlodi."

Wrth sylwi ar y llyfr drwyddo, y mae yn eglur ei fod wedi dilyn ei gynllun yn y modd ffyddlonaf. Ond y mae yr "*Attodiad*" yn cynnwys ychydig eithriadau, sydd yn peri i lawer dybied ei fod yn graddol newid ei farn. Yno gwelwn "Ein' Feste Burg," yr alaw a'r emyn gan Luther, 1529, a'r cynghaneddiad gan Schein, 1627. Nid ydyw arddull yr alaw yn perthyn dim i'r arddull oedd yn cael ei chadw mor bur a dilychwin gan y "dynion" a'r "cewri," fel y galwai efe hwynt, ond y mae hi yn meddu cymmeriad hollol wahanol. Y mae ei mydr yn amrywiol, ac y mae ynddi nifer dda o "lithreni" (*slurs*). Yn mysg y nodiadau sydd yn ei dilyn y mae a ganlyn:—"Canwyd yr emyn hon yn ystod y gymmanfa, nid yn unig yn Augsburg, ond yn holl eglwysi Saxony, a mynych y darfu i'w hodlau grymus roddi bywyd ac ysbryd newydd yn y meddyliau mwyaf athrist." Da y gwnaeth efe yn ddiau wrth fyned o'i lwybr i'n hanrhegu â'r alaw ardderchog hon.

Yr ydym yn cael nifer dda o alawon Cymreig wedi eu mabwysiadu ganddo; ond y mae yr addurniadau, a'r ail-adroddiadau, &c., wedi cael eu tynu ymaith, a'u harddull gyntefig wedi cael ei newid i arddull y "dynion" a'r "cewri" y cyfeiriai atynt yn y dyfyniad blaenorol. Ond pa fodd bynag, cafodd y llyfr newydd groesawiad boneddigaidd, er i lawer, heb law yr hen bobl, deimlo eu bod yn cael eu hamddifadu o hen dônau oedd yn anwyl ganddynt, a bod y canu yn llithro i ffurf a farnent hwy oedd yn rhy ffurfiol a difywyd.

Ymffurfiodd y cantorion mewn gwahanol ardaloedd i ddysgu y tônau, a chadwent gylchwyliau a chymmanfaoedd cerddorol i ganu y tônau gyda'u gilydd, a gwahoddid Mr. Roberts i'w harwain a'u hyfforddi, fel erbyn hyn nad oes odid dôn o fewn y llyfr nad yw y cantorion yn gydnabyddus â hi. Y mae tua dwsin o dônau gwreiddiol yr awdwr wedi ymddangos yn y llyfr, ac y maent yn dônau da, oddigerth un neu ddwy o eithriadau. Gallesid hebgor "Everton" fel tôn gynnulleidfaol. Ac am "Rheidiol," y mae rhyw dywyllwch yn bodoli yn mherthynas i'w gwreiddioldeb. Ymddengys mai tôn seiliedig ar un o dônau Freylinghausen yn yr eilfed ganrif ar bymtheg ydyw, ac iddi lithro heb fod ffynnonell ei tharddiad yn cael ei gydnabod. Felly hefyd y gellir dyweyd am "Noddfa," ac ychydig o dônau eraill sydd yn y llyfr o'r un cyfansoddiad, neu drefniad yn hytrach. Cyhoeddwyd yr "*Ychwanegiad*" o'i waith yn y flwyddyn 1870, i gyfarfod â'r chwanegiad mesurau a wnaed yn y llyfr hymnau a ddygwyd allan gan y Methodistiaid ar ol cyhoeddiad y "*Llyfr Tônau,*" ac am fod galwad am chwaneg o'r hen dônau a genid er's o ddeugain i gan mlynedd yn ol.

Y mae gwahanol farnau yn mysg cantorion ac eraill am y llyfr hwn. Yn ol nifer fawr, y mae yn bob peth y dylasai fod, ac wedi bod o fendith fawr i'r canu cynnulleidfaol. Ond yn ol eraill, y mae y tônau a gynnwysa yn rhy ffurfiol, neu yn rhy "Germanaidd," fel y dywedir, i deimladau crefyddol y Cymry; a dywedant hefyd fod y tônau Cymreig wedi eu hamddifadu o'u hystwythder, a'u hail-adroddiadau, fel y maent wedi colli llawer iawn o'u dylanwad ar deimladau yr addolwyr. Yr ydym ni ein hunain yn cydymdeimlo â'r syniad diweddaf; ond pe y caniateid mai dyma y syniad cywir, y mae yn rhaid addef fod Mr. Roberts wedi gwneyd llawer o lês i'n canu cynnulleidfaol.

Y peth nesaf a gyhoeddodd oedd "*Sŵn y Jubili,*" sef caniadau Mr. Sankey, gyda geiriau Cymraeg ganddo ef ei hun; sef, lled-gyfieithiad

Digitized by Google

o emynau Mr. Sankey. Buan y cafodd y llyfr hwn ddylanwad cryf ar ein cerddorion ieuaingc. O'r braidd y gallesid cael un ardal drwy ein gwlad nad oedd y sŵn yma yn hofran ar adenydd yr awelon, ac yn cario dylanwad iachus ar 'blant dynion.' Bu cyhoeddiad y "*Cerddor Cymreig*" dan ei olygiaeth yn offerynol i ddwyn amryw o gerddorion da i'r amlwg fel cyfansoddwyr anthemau a chanigau. Cyfoethogwyd ein cronfa gerddorol gyda llawer o gerddoriaeth newydd, a chafwyd trefniadau gan y golygydd o rai o'n hen anthemau hoff ac anwyl, megys "Pâr i mi wybod dy ffyrdd," "Arglwydd, chwiliaist, ac adnabuost fi," &c., heb law erthyglau gwir fuddiol ar wahanol byngciau perthynol i gerddoriaeth. Yn y "*Cerddor Cymreig*" yr eglurwyd cyfundrefn y Tonic Sol-Ffa gyntaf yn yr iaith Gymraeg.

Cyfieithodd rai o lyfrau Mr. Curwen i'r Gymraeg, sef "*How to observe Harmony*," "*Common places of Music*," a'r Rhan III. o "*Gerddoriaeth Cymreig*." Teimlai Mr. Curwen yn ddwys pan glywodd am ei farwolaeth; a chan nad allasai ddyfod i'r claddedigaeth ei hun, anfonodd ei fab hynaf, Mr. John Spencer Curwen, i gyflwyno ei gydymdeimlad i'w weddw unig a galarus.

Ysgrifenai erthyglau achlysurol i'r "*Traethodydd*," a chylchgronau eraill cyhoeddedig yn y Dywysogaeth, ac hefyd i rai o gyfnodolion y Saeson. Ymddangosodd ffrwyth ei ymchwiliad i awduriaeth y dôn "St. Mary," yn un o rifynau y "*Musical Times*" ychydig amser cyn ei farwolaeth.

Yn awr dychwelwn i Liverpool, lle yr ymganghenodd ei lafur, a chymmerwn olwg arno fel crefyddwr a phregethwr. Testyn ei bregeth gyntaf oedd *Eph.* ii. 12; "Eich bod chwi y pryd hwnw heb Grist, wedi eich dyeithrio oddi wrth wladwriaeth Israel, ac yn estroniaid oddi wrth ammodau yr addewid, heb obaith genych, ac heb Dduw yn y byd." Fel pregethwr, ar y cyntaf nid oedd ei draddodiad o'i bregethau yn cael ei nodweddu â llithrigrwydd ymadrodd, nac â'r gwres tanbeidiol hwnw sydd yn nodweddu yr areithfa Gymreig; ond gwelai y gwrandawr craffus ei fod yn meddu ar ddigon o allu a chymmhwysder meddyliol, fel yr ymddadblygent, i'w wneyd yn bregethwr rhagorol. Yr oedd ei bregethau yn sylweddol, a chadwai amcan mawr y weinidogaeth yn amlwg o flaen ei feddwl yn wastad. Yr oedd hefyd yn dduwinydd cryf, yn deall athrawiaethau yr efengyl yn dda, ac yn teimlo dylanwad y gwirionedd ar ei ysbryd ei hun yn bwysig. Byddai ei weinidogaeth yn wastad â'i chyfeiriad at y deall, y gydwybod, a'r serch; ac ni byddai byth yn pregethu heb ymdrechu gosod argraph o'i ddifrifoldeb ar feddyliau ei wrandawyr. Gwnaeth ei ymweliad â'r Meistri. Moody a Sankey effaith neillduol ar ei feddwl parthed y dull y dylid pregethu yr efengyl. Cyfranogodd yn helaeth o'u hysbryd; ac o hyny allan pregethai yn fwy eglur, syml, a chyda mwy o deimlad a difrifwch nag erioed; a byddai yn mwynhau oedfaon anghyffredin o nerthol a llewyrchus ar ol yr ymweliad bendithiol hwn. Gellir dyweyd am dano yn ystod ei yrfa bregethwrol, ei fod wedi parhau i gynnyddu yn ei bregethu o'r dechreu hyd y diwedd. Testyn ei bregeth ddiweddaf, y Sabbath olaf ond un iddo ar y ddaear (Mai 6ed, 1877), ydoedd—"Y gelyn diweddaf a ddinystrir yw yr angeu:" a dinystr angeu oedd testyn y cyfarfod eglwysig y nos Lun ganlynol. Ac yn mhen yr wythnos, cymmerwyd ei ysbryd adref i wlad yr hedd a'r canu tragwyddol. Bu farw yn 54ain mlwydd oed, o groniad yr ysgyfaint a'r ymenydd, heb fawr o boenau, nos Lun, Mai 14eg, 1877, a chladdwyd ef y Sadwrn canlynol, Mai 19eg, 1877, yn mynwent capel y Methodistiaid, yn Cae-athraw, ger Caernarfon. Cafodd gladdedigaeth nodedig o barchus gan dyrfa liosog o gyfeillion o bell ac agos, a dilynid ei elor gan gorph cryf o gantorion—pa rai a ganent dônau o'i waith ef ei hun, fel eu teyrnged olaf o barch i'w goffadwriaeth.

ROBERTS, JOHN, Henllan. Y mae hanes cerddoriaeth gynnulleidfaol Cymru etto heb ei ysgrifenu; ond pan ddeuir i bwyso gwasanaeth noddwyr penaf y rhan hon o ganiadaeth, ac i gymmharu eu teithi a'u hathrylith, rhaid rhoi lle pwysig i goffadwriaeth John Roberts, o Henllan. Fel y gellid disgwyl, y mae cynnulleidfaoedd Cymru wedi defnyddio amrywiaeth o dônau—rhai Cymreig, a rhai estronol. Byddai pregethwyr gynt yn dwyn gyda hwy dônau newyddion o Loegr; a chlywsom fod Mr. Elias yn gwneuthur hyn yn arferiad gysson. Nid oedd casgliadau Saesnig chwaith y tu hwnt i gyrhaedd dechreuwr canu sclog a phenderfynol. Y cyntaf i wneuthur casgliad cerddorol yn mhlith y Methodistiaid Calvinaidd ydoedd John Ellis, o Lanrwst, yr hwn a gyhoeddodd yr anthemau, a'r ychydig dônau a gynnwysir ynddo, yn 1816. Yr oedd yni a bywiogrwydd yn nodweddion arbenig yn nghyfansoddiadau John Ellis, ac y mae rhai o'i dônau yn aros yn eu gwerth hyd heddyw. Yr oedd nodwedd ei athrylith hefyd yn Gymreig; ond nid llawer o'r lledlnais na'r caboledig sydd i'w ganfod yn y gweithiau yr adnabyddir ef oreu oddi wrthynt. Yn 1817, ymddangosodd "*Brenhinol Ganiadau Seion*," o ddetholiad Owen Williams, o Fôn. Dywed Mr. Morris Davies, o Fangor, ddarfod i'r tônau a gynnwysir yn y casgliad hwn gael eu hadolygu gan ddau o brif gerddorion Llundain, nad yw yn cynnwys ond ychydig o dônau Cymreig, ac fod trefniant y geiriau, o ran aceniad, yn wallus yn fynych. A barnu oddi wrth y tônau Cymreig a gymmerwyd allan o'r casgliad hwn gan Ieuan Gwyllt, estynwyd adolygiad y ddau gerddor hyd at yr alawon; o herwydd perthyna i'r rhai a ddyfynir yno fwy o lyfnder ac o unffurfiaeth amser nag y gellid disgwyl eu cael mewn tônau Cymreig a ysgrifenid yn ol y ffurfiau gwreiddiol. Fodd bynag, yr oedd pris y llyfr, sef 31*s.* 6*c.*, yn rhwystr i ledaeniad helaeth arno. Darfu i yni John Ellis, yr hwn a deithiai ei hunan i ddysgu cerddoriaeth, ddylanwadu yn amlwg ar y wlad; ond gellir cael y rhan fwyaf o'r tônau Saesnig mwyaf poblogaidd yn nghynnulleidfaoedd y Methodistiaid yn llyfr John Parry, Caerlleon, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1837, dan yr enw "*Peroriaeth Hyfryd*"—sef, "Derby," "Devizes," "Cranbrook," "Mount Pleasant," "Job," "Tranquillity," "Duke St.," "Grosvenor St.," "Lydia," &c. Y mae cynnifer o'r tônau yma, y rhai oeddynt yn mhlith prif alawon yr holl gynnulleidfaoedd hyd ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn gynnwysedig yn y gyfrol hon, fel y gallai un yn hawdd weled mai hi a fu yn un o'r prif offerynau i benderfynu cylch caniadaeth gynnulleidfaol y Methodistiaid am lawer o flynyddoedd wedi ei hymddangosiad. Y mae yn bossibl mai am fod y tônau hyn eisoes yn boblogaidd y rhoddwyd hwy yn y llyfr; ond hyd yn oed os felly, y mae yn debyg fod iddo

Digitized by Google

awdurdod mawr yn meddyliau y genedl oedd yn ieuaingc pan y cyhoeddwyd ef. Y mae yn y casgliad hwn hefyd nifer o dônau Cymreig; ac am amryw o honynt, ynghyd â'u cyhoeddiad, yr oedd yr awdwr yn ddyledus i John Roberts, o Henllan. Y tônau a anfonwyd gan J. R. oeddynt "Aberhonddu" (M. S.), "Bethel," "Caerlleon," "Hyder," "Callestr" (llau), "Ffynnon Loew" (8. 7. 4), "Penllyn" (M.S. = "Sabbath" I. Gwyllt), "Pen Calfaria" (Sau), "Paradwys" (M. H.), "Gibeah" (8. 7.), "Bethania" (M. S.), "Gilboa" (8. 7.), "Dinbych" (M. H.), "Trefriw" (M. S.), ac "Ymadawiad" (M. H.). "Dinbych" ydoedd un o'r tônau a ganwyd ar ymweliad bythgofiadwy John Elias â Rhuddlan, pan y dilynwyd hi gan effeithiau mawr. Yn y casgliad hwn y dechreuodd John Roberts y gwaith sydd wedi ennill iddo le a fydd yn anrhydeddus tra y pery cerddoriaeth Cymru; sef, y gwaith o roddi ar gôf a chadw, gyda pharch a mawrhâd, rai o'r alawon Cymreig a fendithiwyd gan yr Arglwydd mewn modd arbenig, ond oeddynt etto heb eu cydnabod mewn argraph, mor bell ag y mae'n hysbys, erioed o'r blaen. Y tônau a roddodd ef i awdwr "*Peroriaeth Hyfryd*" oeddynt y pryd hyny, ac ydynt yn awr, y rhai sydd yn rhoddi i'r llyfr ei brif werth. Gellid cael y rhai eraill mewn casgliadau Saesnig; ond yma, am y tro cyntaf mewn argraph, y ceid rhai o'r alawon mwyaf cymmhleth â chrefydd, a mwyaf eu dylanwad, drwy fendith Duw ar ei hordinhadau. Anhawdd fuasai cael neb mwy cymmhwys at y gwaith o'u casglu a'u cynghaneddu na John Roberts. Nid oedd yn eu dewis yn ol unrhyw ddamcaniaeth neu dybiau mympwyol. Yr hyn oedd yn penderfynu y dewisiad ydoedd yr hyn y gellir ymddiried y fath ddewisiad yn fwyaf diogel iddo; sef, gwir athrylith gerddorol, ag ydoedd ar yr un pryd yn eang ac yn ddwys—wedi ei dysgyblu gan raddau o addysg, a'i choethi gan grefydd. Fe allai nas gall y rhai sydd yn byw yn yr oes bresennol deimlo gwerth pob alaw a roddir ar gadw gan John Roberts; ond y mae eu bod wedi eu rhoi ar gadw ganddo yn brawf fod teimlad ynglŷn â hwy unwaith. Yr hyn yw telyn i law y cywrain, hyny ydoedd ei galon ef i deilwng gerddoriaeth. Siglai ei holl galon o flaen pêr awelon athrylithgar tôn. Chwaeth, deall, teimlad—bywhëid pob gallu ynddo i'r fath raddau gan gerddoriaeth fel yr elai bron yn ddyn arall.

Perthynai i'r dosbarth bychan hwnw o ddynion, y rhai a nodweddir yn gyffredin gan ddwysder a distawrwydd:—o gorph gwan, ac o natur hawdd effeithio arni. Yr oedd ei wendid ei hunan yn galw am ddylanwadau cryfion i gynnyrchu ynddo effeithiau mawr; ac o'r ochr arall, yn peri fod dylanwadau cryfion yn cynnhyrfu i raddau nas gallai dyn cadarn eu dirnad o gwbl. Pan ganai efe ddarnau a werthfawrogid eisoes gan y rhan fwyaf, canai hwynt fel y teimlid ystyr dyfnach ynddynt; a gallai ddadganu tônau nad oedd y mwyafrif yn gweled dim ynddynt o gwbl nes na byddai ond ychydig heb weled eu gwerth. O'r bron nad ellir dywedyd nad oedd John Roberts yn fyw i gyd ond pan yn canu, neu dan ddylanwad anghyffredin rhai o wirioneddau crefydd. Ac ynddo ef yr oedd y naill yn cynnorthwyo y llall. Caniadaeth grefyddol oedd ei hoff ganiadaeth; ac fel y gellir meddwl mai teimlad crefyddol dwys a roddes fod i'r alawon cynnulleidfaol mwyaf effeithiol, felly yr oedd ynddo ef ddigon o'r teimlad hwnw i ail anadlu iddynt y bywyd a'u creodd. Nid oedd y grym o deimlad ynddo chwaith yn gyfryw ag na foddlonid ef ond gan gorph mawr o sŵn. Un o'r pethau mwyaf amlwg ynddo ef oedd lledneisrwydd, ei chwaeth, a'r ymhyfrydiad bywiog a gaffai mewn brawddegau coeth, tlws, a pheraidd; ac yn aml lle y gwelir gwahaniaeth rhwng ei ffurf ef ar alaw Gymreig a ffurf ysgrifenwyr eraill arni, ceir gweled ei fod ef wedi rhoddi i lawr rhyw frawddeg athrylithgar sydd yn mhlith y rhai mwyaf prydferth a swynol a gafwyd mewn canu cynnulleidfaol.

Yr oedd ganddo hefyd gydymdeimlad neillduol o gryf â'r arddulliau cerddorol a ystyrir genym, pa un ai oddi ar wybod neu anwybod, yn fwyaf Cymreig eu nodwedd. Y mae tôn fel "Caerlleon" (casgliad Ieuan Gwyllt) bron a myned yn gywrain-beth henafol erbyn hyn; ond yr oedd ei reddf Gymreig ef mor fywiog a dwfn fel y parai ei theimlo fel tôn, ond bron yn newydd-anedig. Yn 1839, cyhoeddwyd casgliad o'i awduriaeth ei hun, blwyddyn ar ol ymddangosiad y "*Seraph*" gan Ieuan Glan Geirionydd. Cyn manylu ar gasgliad J. Roberts, fe allai mai priodol fyddai rhoddi yma fyr hanes o'i fywyd, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun. Ymddengys fod rhai Cymry yn America wedi bwriadu, tuag ugain o flynyddoedd yn ol, gyhoeddi llyfr dan yr enw "*Cerddorion a Cherddoresau Cymru;*" a derbyniodd John Roberts lythyr yn gofyn am fraslun o'i hanes i'w osod ynddo. Cydsyniodd yntau â'r cais; ond nid ydym yn deall i'r bwriad byth gael ei gyflawni. Cymmaint a hyn i hysbysu pa fodd y bu i wrthddrych y sylwadau hyn ysgrifenu bywgraphiad o hono ei hun. Rhed yr ysgrif fel y canlyn:—

"Ganwyd fi yn Henllan, ger Dinbych, ar y 30ain o Fawrth, 1807. Enwau fy rhieni oeddynt Aaron a Jane Roberts. Yr oedd fy nhaid o du fy mam yn frawd i'r bardd, John Thomas, Pentrefoelas. Preswyliai rhieni fy nhad yn Mhont-y-Bwdein, ger yr Wyddgrug; a'm taid o'r ochr hono i'r teulu, William Roberts wrth ei enw, oedd un o'r rhai cyntaf a ddychwelwyd at grefydd yn mysg y Methodistiaid Calvinaidd. Byddai y gŵr da hwn yn fynych iawn yn dyfod o'i gartref ar ei draed foreu Sabbath i'r oedfa yn Nhan-y-fron, pentref bychan ger Llansannan, tuag ugain milldir o ffordd: äi erbyn dau o'r gloch y prydnawn i'r Bont Uchel, ac fe allai i'r Berthen erbyn yr hwyr, gan mai yn y tri lle a enwyd yn unig yr oedd pregethu yn lled gysson y pryd hwnw. Erbyn cyrhaedd gartref, ni byddai efe wedi teithio nemawr ddim dan ddeg a deugain o filldiroedd. Cymmaint oedd newyn ei ysbryd am y Gair fel y parhaodd i wneuthur hyn am amser maith."

Yna dywed mai efe oedd y cyntaf o'r teulu, yn ol ei wybodaeth ef, i ymroddi i astudio a chyfansoddi cerddoriaeth:—

"Bûm yn yr ysgol hyd 1820—a'r ddwy flynedd olaf yn Ninbych, gyda'r Parch. Thomas Jones, gweinidog gyda'r Annibynwyr, yr hwn oedd athraw rhagorol dda.

Yr oedd genyf hoffder mawr mewn canu er yn ieuangc; ond tua phymtheg oed, daethum i ddechreu copïo tônau, a dysgu ychydig ar y nodau—yn cael fy nghyfarwyddo gan y person a ddeallai fwyaf am gerddoriaeth yn yr ardal, gŵr o'r enw Thomas Daniel. Ni wyddai yr hen gyfaill fawr am reolau cyfansoddiant a chynghaneddiad; ac etto, bu yn rhyw gymmaint o help i mi. Wedi hyny ceisiais y llyfrau goreu oedd yn gyrhaeddadwy ar y pryd i'w hastudio, megys Burrow's "*Thorough Bass Primer;*" Busby's "*Grammar of Music,*" ac un awdwr arall ar "*Thorough Bass.*" Trwy y llyfrau hyny, a thrwy sylwi ar weithiau cyfansoddwyr da, cyrhaeddais

Digitized by Google

a symledd, a'u gwneyd yn weddus i addoliad y Goruchaf;" a chwanega, "o ba herwydd, gallai na foddhânt y rhai tra chelfyddgar.'

Cyn ac ar ol cyhoeddiad "*Caniadau y Cyssegr*," yr oedd ei awen ei hun yn cynnyrchu cerddoriaeth; a rhoddwyd dwy dôn o'i gyfansoddiad yn y casgliad hwnw. Am amryw flynyddoedd wedi hyn, trigodd yn dawel yn ei hoff gartref, heb i ddim o'i waith ymddangos. Cymmerai fawr ddyddordeb yn ngherddoriaeth y cyssegr yn mhob man—ac, yn wir, yn holl ranau gwaith yr Arglwydd. Yr oedd ei feddwl yn barhaus gyda phethau crefyddol, a llanwodd lawer llyfr â'i fyfyrdodau, ei hunan-ymchwiliad, a'i weddïau. Yr oedd ei gydymdeimlad crefyddol â geiriau yr hymn, a greddfol â pheroriaeth y dôn, yn gwneyd ei ganu—er nad oedd ei lais, pan oeddym ni yn ei adwaen, o'r cryfaf a'r rhagoraf—yn wahanol i ddim a glywsom gan neb ond y cerddorion penaf. Yn 1876, darfu i'w feibion, Aaron a W. H. Roberts, yn benaf yr olaf, gyhoeddi nifer o alawon eu tad. Yr oedd yr awdwr yn fyw pan ddechreuwyd y llyfr; ond cyn ei orphen, yr oedd yn rhaid newid y teitl, ac ysgrifenu "*In Memoriam*" uwch ei ben. Cynnwysa un ar hugain o alawon o'i waith ei hun—un ar ddeg o ba rai a ymddangosant ynddo am y tro cyntaf. Nis gellir darllen y casgliad hwn heb deimlo fod yr awdwr yn perchen gwir athrylith. Y mae brawddegau a thônau ynddo sydd yn y fan yn deffro yn y meddwl yr atteb hwnw nas gall ond athrylith ei gael.

Eu harddull, bron oll, yw arddull Cymreig yr oes pan yr oedd y canu yn fwyaf effeithiol yn y cyssegr. Yr ymollyngiad nas caethiwid ef gan ddim ond prydferthwch, y mynych adwy a'r naid, tryloewder y teimlad a ddadgenir—y mae y pethau hyn oll yn ei alawon ef; ond y maent yn derbyn eu gwerth oddi wrth lewyrchiad ei athrylith ei hun, oddi wrth ehediad hoew enaid ag yr oedd iddo wir adenydd y gân. Ni raid i'n hedmygedd ein dallu i'r ffaith fod tônau mwy mawreddog wedi eu cynnyrchu gan eraill, a'i fod ef ei hun, drwy ei awydd, y mae yn debyg, i beidio a gollwng dim i'r tônau a'u hanghymmhwysent i fod yn ddefnyddiol i rai heb ymarfer â cherddoriaeth, wedi ymfoddloni mewn rhai brawddegau ar arddull cyffredin. Nid ydyw hyn o gymmaint pwys, gan mor anwrthwynebadwy ydyw dylanwad y rhanau eraill. Ni fwriedir dywedyd chwaith fod yr holl dônau yn ogystal a'u gilydd. Ond y mae yn rhaid i ni er hyny restru ein gwrthddrych yn mysg y rhai hyny o gerddorion Cymru sydd yn perchen fwyaf o wir athrylith gerddorol. Nis gallwn lai na chredu, pe rhoddasai ei fywyd at ganu, y cynnyrchasid ganddo weithiau mawrion teilwng o barch tu hwnt i derfynau ei wlad ei hun. Pan ddychwela cerddoriaeth y cyssegr—nid heb gael rhyw wellhâd, y mae yn wir, oddi wrth y gwrthryfel yn erbyn yr hen ddull sydd erbyn hyn wedi ffynu am flynyddoedd—pan ddychwela cerddoriaeth, meddwn, yn fwy at yr hen ddulliau Cymreig, pan y deffröir y cynnulleidfaoedd i deimladau mwy angerddol o'u hanghenion, credwn y daw gwaith John Roberts, un o'r cantorion mwyaf duwiol a rhagorol a gafodd ein gwlad, i fri a defnyddioldeb newydd.

Ymbriododd yn y flwyddyn 1841 âg Elizabeth, merch William Hughes, Tan-y-clochdy, Henllan. Bu farw, Ebrill 4ydd, 1876, a dodwyd ei weddillion i orwedd yn mynwent fach a thawel capel y Groes.

ROBERTS, ROBERT, Llangeitho. Ychydig iawn o Gymry, ac yn wir, nid llawer o Saeson a geir chwaith, ag ydynt yn gydnabyddus â hanesiaeth eglwysig, nad ydynt yn gwybod am enw Llangeitho. Er nad ydyw ond pentref digon cyffredin, y mae ei enw, er hyny, wedi ei anfarwoli. Cyrhaeddodd yr anfarwoldeb hwn yn unig ac yn hollol yn ei gyssylltiad â'r byd-enwog Daniel Rowlands—gweinidogaeth danllyd, gyffrous, ac argyhoeddiadol yr hwn a fu yn foddion i ddeffroi Cymru o'r cwsg trwm yr oedd wedi syrthio iddo, a barodd i Langeitho fod yn gyrchfan miloedd o'i phreswylwyr, a hyny am o ddeutu hanner cant o flynyddoedd. Ac er nad ydoedd y gŵr ag y bwriadwn wneuthur ychydig o [illegible] mewn perthynas iddo wedi cyrhaedd enwogrwydd a chyhoeddusrwydd Daniel Rowlands, etto darfu iddo yntau wneyd ei enw yn llawn mor adnabyddus—o leiaf, yn mhlith y Methodistiaid—ag ydyw enw y llall. Mae'n sicr y byddai yn ormod i ni ddywedyd y byddai i enw Llangeitho ddyfod mor adnabyddus yn unig yn ei gyssylltiad â Mr. Roberts ag y mae wedi dyfod yn ei gyssylltiad â Daniel Rowlands; ond teimlwn er hyny, pe na buasai yr olaf wedi bod erioed yn preswylio yno, y byddai y pentref bychan hwn yn llawn mor adnabyddus i'n cydwladwyr ag unrhyw le arall yn Nghymru—yn unig fel preswylfod y diweddar Barch. Robert Roberts. Beth bynag, yr oedd digon o ragoriaethau yn cydgyfarfod yn Mr. Roberts fel ag i'w alluogi i gynnal i fyny yr enwogrwydd ag yr oedd enw y lle wedi ei gyrhaedd yn ei berthynas â Daniel Rowlands.

Nid oedd Robert Roberts, megys Daniel Rowlands, yn frodor o Langeitho; canys ganwyd ef yn Pen-y-garn, yn mhlwyf Llanfihangel-genau-y-glyn, ger llaw Aberystwyth, a hyny yn y fl. 1800. Y manteision addysgawl a gafodd efe, fel y deallwn, ydoedd yn y plwyf lle y ganwyd ef. Ymddengys fod yn Llanfihangel-genau-y-glyn ysgol nid anenwog; ac y mae rhai o brif enwogion y pulpud, yn gystal a llenyddiaeth Gymreig, yn ddyledus iddi am y cychwyniad cyntaf a gawsant ar lwybr dysg a gwybodaeth. Gwnaeth Robert Roberts y defnydd goreu o'i ysgol. Yr oedd ei syched am wybodaeth yn gryf ac angerddol. Meddai ar dalent i ddysgu; a pha beth bynag a gymmerai mewn llaw, fe'i dysgai yn drwyadl. Yr oedd ei fam yn cydymdeimlo âg ef yn yr awyddfryd hwn, a rhoddodd bob chwareu teg iddo i gyrhaedd ei ddymuniad trwy ei gadw yn yr ysgol am flynyddoedd—a daeth yn ysgolhaig gwych. Wedi gorphen ei addysg yn Llanfihangel, a phan yr oedd wedi yfed cymmaint o wybodaeth ag oedd i'w gael yno, darfu iddo symmud i Loegr; ac ymsefydlodd mewn rhyw le yn agos i Lundain, gan ymgymmeryd â'r swydd o is-feistr mewn ysgol rammadegol yn y lle hwnw. Bu yno am rai blynyddoedd; ac y mae yn ddiammheuol i'w drigianniad yn mhlith y Saeson fod yn fantais neillduol iddo er ei alluogi i gyrhaedd medrusrwydd mewn siarad yr iaith Saesnig. Ofnai ei gyfeillion, pan yr aeth ymaith i Loegr, ei fod wedi ei golli bellach i hen wlad ei enedigaeth, ac mai y Saeson gaent fwynhau ei dalentau disglaer o hyny allan. A phe buasai Mr. Roberts yn golygu yn unig fanteision bydol, y mae yn debyg mai aros yno a wnelsai, fel llawer Cymro o'i flaen; ac nid oes dadl na buasai hyny yn llawer gwell iddo mewn ystyr dymmorol. Ond yr oedd bwriadau Rhagluniaeth, yn gystal a'i

Digitized by Google

dueddiadau yntau ei hun, yn rhedeg mewn cyfeiriad gwahanol. Nis gwyddom yn hollol yn mha le, nac yn mha ffordd y bwriadai Mr. Roberts dreulio ei oes, os oedd ganddo fwriadau penderfynol ynghylch hyny hefyd; ond y mae yn amlwg erbyn hyn fod y Nefoedd wedi trefnu ei breswylfod i fod yn Llangeitho. Daeth yno i gadw ysgol, fel olynydd i'r diweddar Barch. John Jones, Llanbadarn. Ystyrid yr ysgol hon o nodwedd uwch na'r cyffredin, a chafodd amryw wŷr ieuaingc oeddynt yn ymgeiswyr am y weinidogaeth eu haddysg ynddi; ac yr oeddynt oll yn coleddu y syniadau uchaf am eu hathraw, a'r parch dyfnaf tuag ato. Yr un pryd, nid ymddengys i un o ysgolheigion Mr. Roberts gyrhaedd ei safle ef ei hun mewn enwogrwydd a defnyddioldeb. Am ei ragflaenydd yn yr ysgol, er ei fod yn ŵr o ddysg, ac iddo dreulio bywyd tra defnyddiol mewn cyssylltiad â'r weinidogaeth, etto darfu i rai o'i ysgolheigion ragori arno ef ei hun, a chyrhaedd enwogrwydd mwy, a bod o ddefnyddioldeb helaethach. Ond tra y darfu i rai o ddysgyblion Mr. Jones fyned o'i flaen, a driugo yn uwch nag ef ei hun, nid ydyw yn ormod dyweyd am holl ddysgyblion Mr. Robert Roberts, na ddarfu i gymmaint ag un o honynt gyrhaedd ei safle ef ei hun. Y mae hyn i'w briodoli—nid i unrhyw ragoriaeth yn Mr. Jones o ran gallu i gyfranu addysg, eithr yn hytrach i'w ffawd dda yn cael gwell defnyddiau o ran talent a medr i ddysgu o dan ei ofal. Ni all yr athraw galluocaf ddim rhoi talentau i'w ddysgyblion: yr oll a ddichon efe ei wneyd yw eu dadblygu lle y byddont yn bodoli eisoes. Yr un pryd, y mae yn ddyledus i ddyweyd ddarfod i amryw o'r rhai a fuont o dan ofal Mr. Roberts droi allan yn ddynion pur ddefnyddiol; a dygent oll dystiolaeth uchel i'w fedr a'i ffyddlondeb yn ei swydd bwysig fel athraw. Ac fel prawf o'r syniadau uchel a goleddid am dano yn y cyssylltiad hwn, digon yw dywedyd ddarfod iddo gael gwahoddiad taer gan gymdeithasfa y Deheudir i ymgymmeryd â'r swydd o fod yn brif athraw yn Ngh











oleg Trefecca.

Ni bu Mr. Roberts nemawr o amser wedi dyfod i fyw i Langeitho cyn rhoddi ar ddeall mai nid dyn cyffredin ydoedd; a'i fod, yn chwanegol at ei ragoriaethau fel ysgolfeistr, yn perchen ar ddoniau areithyddol ysblenydd. Y mae yn wir eu bod wedi dechreu ymagor yn ystod ei arosiad yn Lloegr; ond wedi dyfod i breswylio i'r lle hwn y darfu iddynt gael eu dadblygu yn llawn. Gan ei fod eisoes, a hyny er's amryw o flynyddoedd, wedi ei feddiannu gan grefydd, cyssegrodd ei holl ymadferthoedd a'i dalentau i'w gwasanaeth. Tyfodd yn gyflym, nes myned yn fwy na llonaid y cylchoedd bychain ac anghyhoedd y troai ynddynt ar y cyntaf. Aeth yn fuan yn uwch o'i ysgwyddau na neb yn Llangeitho. Ystyrid ef, nid yn unig y prif areithiwr yn nghyfarfod dau fisol yr Ysgolion Sabbothol, ond fel un ag ydoedd yn meddu ar deilyngdod digonol i gael ei wahodd i'r cyfarfodydd blynyddol--pa rai nad oedd neb, fel rheol, yn cymmeryd rhan ynddynt, ond y brodyr oeddynt yn y gwaith cyhoeddus. A lle bynag y gosodid ef, teimlid yn ebrwydd, nid yn unig ei fod yn llanw y cylch hwnw, ond ei fod yn alluog i lanw cylch helaethach a phwysicach yn ngwyneb hyny. Nid ydyw yn rhyfedd i'r hen flaenoriaid, a'r eglwys yn Llangeitho, i ddechreu gwasgu arno i esgyn i'r pulpud, gan ei fod yn llawer cymmhwysach i fyned iddo na lluoedd ag oeddynt ynddo yn barod. Yr oedd cychwyniad Mr. Roberts gyda gwaith y weinidogaeth yn naturiol ac o ddeheu, a charem weled mwy yn esgyn i'r pulpud yn gyffelyb iddo; sef, trwy brofi eu cymmhwysder iddo yn mlaen llaw. Er na ddylid tynu llinyn rhy gaeth mewn achosion fel hyn, yn gymmaint ag nad oes un reol heb eithriad iddi, etto y mae yn llawer mwy dymunol a phriodol i weled yr eglwys yn cymmhell y gŵr ieuangc i ymaflyd yn y gwaith mawr, oddi ar ganfod cymmhwysderau ynddo ato, nag fel y mae hi yn digwydd yn rhy fynych—ei weled ef yn poeni yr eglwys o eisieu cael myned i'r pulpud, pan y bydd yn ddigon amlwg nad ydyw efe yn hanner llanw y cylch y bydd ynddo eisoes. Peth diflas ydyw clywed dynion yn gofyn cwestiynau fel ag y gwneir gyda golwg ar ambell ymgeisydd am y weinidogaeth; megys, "Pwy a ddywedodd wrth hwna y gwnai efe bregethwr?" &c. Ond gellir sicrhau am Mr. Roberts fod pethau yn hollol wahanol yn eu cyssylltiad âg ef. Yr oedd llaweroedd yma a thraw ar hyd y wlad yn ymholi, a hyny am flynyddoedd cyn iddo ymaflyd yn y weinidogaeth, "Pa beth ydyw yr achos na wna y dyn yna sydd yn Llangeitho fyned yn bregethwr? Pa ham nad aiff Mr. Roberts i'r pulpud?" Er mor barchus a defnyddiol ydoedd efe fel ysgolfeistr, teimlid yn gyffredinol mai y pulpud oedd ei le, ac mai y weinidogaeth ydoedd ei gylch priodol ef:—ac nid oedd esmwythdra iddo nes y darfu iddo ymgymmeryd â hi.

Yr oedd Mr. Roberts, nid yn unig yn "llawn deugain mlwydd oed" pan y dechreuodd bregethu, eithr yr oedd yn rhyw flwydd neu ddwy dros hyny. Nis gwyddys yn iawn pa beth a barodd iddo ommedd cydsynio â chais yr eglwys yn gynt. Y mae yn anhawdd meddwl nad ydoedd yn teimlo rhyw gymmhelliadau tufewnol at y gwaith ag yr oedd wedi ei ddonio â'r fath gymmhwysderau amlwg iddo. Ac ymddengys y peth yn fwy hynod fyth pan yr ystyrir ei fod, fel yr awgrymasom eisoes, mor barod ac ymroddgar i ymgymmeryd â phob gwasanaeth a geisid ganddo mewn cylchoedd llai cyhoeddus. Pa fodd bynag, pan yr ydoedd wedi cyrhaedd yr oedran a nodwyd uchod y plygwyd ei feddwl i ymaflyd yn ngwaith y weinidogaeth. Yr oedd felly, fel y gallesid disgwyl, yn ei gyflawn faintioli yn mhob ystyr. O ganlyniad, nis gellir dyweyd am ei lwybr ef fel pregethwr, ei fod yn gyffelyb i lwybr y cyfiawn—"yr hwn sydd fel y goleuni, ac yn llewyrchu fwy-fwy hyd ganol dydd." Nid ydym yn meddwl iddo ef gynnyddu dim fel pregethwr trwy ystod ei oes. Yr oedd yn gymmaint pregethwr ar ei gychwyniad allan ag ar un adeg yn ei fywyd. Wrth ddyweyd hyn, nid ydym yn tynu dim oddi wrth ei glod. Pan y gwneir sylwadau felly am lawer o bregethwyr, bydd hyny yn cynnwys rhyw fath o gondemniad arnynt, ac yn awgrymu eu bod wedi siomi disgwyliadau eu cyfeillion wrthynt, a hyny o blegid iddynt fyned yn ddiog a dilafur. Eithr am Mr. Roberts, nid oedd neb yn disgwyl iddo ef gynnyddu fel pregethwr, mwy nag fel dyn; a hyny am y rheswm ei fod yn cychwyn ei fodolaeth bregethwrol yn nghyflawnder ei nerth a'i faintioli. Yr oll a obeithiai ei gyfeillion ef mewn perthynas iddo ydoedd—nid iddo gynnyddu, ond iddo beidio a lleihau. Ac yr ydym yn gallu tystio, a gwyddom fod miloedd yn barod i gadarnhau ein tystiolaeth, iddo barhau yn ei nerth a'i boblogrwydd fel pregethwr

Digitized by Google

hyd y diwedd. Neillduwyd ef i'r holl waith yn Nghymdeithasfa Aberteifi, yn y flwyddyn 1847; sef, o ddeutu chwe blynedd wedi iddo ddechreu pregethu. Gwnaed cais yn nghyfarfod misol y sir y perthynai iddo am ei neillduo yn gynt; a buasai hyny wedi cymmeryd lle oni bae fod rheolau y cyfundeb, a rhyw amgylchiadau eraill, yn rhwystrau ar y ffordd. Daeth yn fuan i gael ei ystyried yn un o ddynion blaenaf y cyfarfod misol, a rhoddid ef i bregethu yn yr oedfaon mwyaf poblogaidd. Ac wedi iddo ddechreu mynychu y cymdeithasfaoedd, cydnabyddid ef fel un o flaenion pregethwyr y cyfundeb, a rhoddid iddo ei le yn mysg y cyfryw. Gosodid ef i bregethu yn y lle mwyaf cyhoeddus, a hyny fwy nag unwaith yn fynych, yn yr un gymdeithasfa. Pennodwyd ef i gyflawni y gorchwylion pwysig ac anrhydeddus hyny nad oes neb ond y "rhai a dybir eu bod yn golofnau" yn cael eu hystyried yn gymmhwys atynt; sef, bod yn arholwr cymdeithasfaol, traddodi yr araeth ar natur eglwys yn y cyfarfod ordeinio, a rhoddi y cynghor i'r brodyr ordeiniedig. Bu hefyd yn llywydd Cymdeithasfa y Deheudir am y flwyddyn 1873—4.

Nid ydym yn petruso dyweyd fod Mr. Roberts yn teilyngu cael ei restru yn mhlith y dosbarth blaenaf o bregethwyr Cymru. Cam âg ef fyddai ei osod mewn un dosbarth arall. Yr oedd holl elfenau pregethwr, ïe, a'r "pregethwr mawr," yn cydgyfarfod ynddo. Heb sôn am y pethau hyny ag y mae yn rhaid fod rhyw gymmaint o honynt gan bob dyn ag sydd yn deilwng o gael ei alw yn bregethwr—megys ei fod yn ddyn o argyhoeddiadau a theimladau crefyddol dyfnion a dwysion iawn, yn ŵr difrifol a phwysig, a'i holl ymarweddiad yn addas i urddasolrwydd a sancteiddrwydd ei swydd—gallwn nodi amryw bethau ynddo, pa rai y darfu i'r cydgyfarfyddiad o honynt wasanaethu er ei wneuthur yr hyn ydoedd fel pregethwr, ac i hawlio iddo gael ei le yn mysg y penaf o gedyrn y weinidogaeth yn Nghymru. Un peth a'i hynodai ydoedd eangder ei wybodaeth. Nis gallasai neb a ddigwyddai fod yn ei wrandaw lai na chael ei argyhoeddi ei fod yn ddarllenydd mawr, ac yn sylwedydd craffus. Yr oedd ei feddwl wedi ei ystorio yn dda, a byddai yn wastad yn chwanegu at ei ystôr. Yr oedd ganddo ddigon i'w ddyweyd ar unrhyw fater; ac nid dywedyd rhywbeth yr ydoedd; eithr byddai yr hyn a ddywedai yn profi cydnabyddiaeth fanwl â'r mater neu y pwngc fyddai ganddo mewn llaw. Meddai ar gôf cryf a gafaelgar, yr hwn oedd bob amser yn ufudd i'w alwad. Parai hyn iddo fod yn feddiannol ar helaethrwydd o'r hyn a elwir yn "ddawn parod," a hyny i fesur nad oes ond ychydig yn meddu arno. Yr oedd yn nodedig am ei allu i siarad yn ddifyfyr. Gallasai godi i fyny ar ychydig neu ddim rhybudd, a thraddodi araeth gampus ar bwngc nad oedd wedi meddwl dim yn neillduol am dano yn flaenorol; ac ystyrid ei areithiau difyfyr ef yn tra rhagori ar eiddo llawer o'r rhai fyddent wedi cael amser i barotoi eu hareithiau yn mlaen llaw. Llawer gwaith yr aeth i'w gyhoeddiad ar foreu Sabbath pan yr oedd afiechyd yn ei deulu, ac yntau o herwydd hyny heb gael dim hamdden i ddarpar ar gyfer y pulpud y Sabbath hwnw; ac ni wyddai wrth fyned ar gefn ei anifail pa destynau y pregethai arnynt. Yr unig amser oedd ganddo i barotoi ei bregethau ydoedd cyhyd ag y byddai ar y ffordd wrth deithio i'r lleoedd yr ydoedd i fod ynddynt. Ond ni byddai y cynnulleidfaoedd yn gwybod dim oddi wrth hyny, gan mor ardderchog y byddai yn pregethu. Diammheu fod i'r "dawn parod" hwn ei fanteision; ac er iddo fod yn bur wasanaethgar i Mr. Roberts ar lawer adeg, etto y mae lle i dybied iddo beri rhyw gymmaint o niwed iddo mewn rhai ystyriaethau. Rhagoriaeth arall a berthynai iddo ydoedd, ei fod yn feddiannol ar gyfoeth o iaith, a hono o'r fath fwyaf tlws. Nid oedd pall un amser ar ei eiriau; ac yr oedd y rhai hyny y mwyaf detholedig a mynegiadol a allesid gael. Byddai ei eiriau fel afon yn llifo yn ddiymattal o'i enau. Ac nid oedd prydferthwch ei iaith ond gwisg gyfaddas am y syniadau tlysion a godidog a draethid ganddo. Yn mhellach etto, yr oedd ganddo lais hynod o ddymunol, yr hwn oedd yn beraidd, eglur, a threiddgar, a phob amser o dan ei lywodraeth; a pho mwyaf y dyrchefid ef, yr hyn a gymmerai le y rhan fynychaf, goreu oll ydoedd. Ac yn chwanegol at y cyfan, yr oedd efe yn ddyn o deimladau tyner iawn, ac yn un parod i dderbyn argraph (*impression*) oddi wrth bob peth. Nid oedd yn bossibl lai nag i'r cydgyfarfyddiad o'r holl bethau a nodwyd beri iddo fod yn bregethwr grymus a thra dylanwadol. Yr unig beth oedd yn angenrheidiol er ei dynu allan yn iawn oedd iddo gael rhywbeth i beri cyffro yn ei feddwl, ac i'w ysbryd gael ei danio. Gan ei fod yn feddiannol ar y fath adnoddau a hyn, ac mor rydd a dilyffethair o ran y rhagbarotoadau yr oedd wedi eu gwneuthur gyda golwg ar ei bregethau, byddai ar adegau felly yn nerthol anghyffredin, ac yn cario dylanwad rhyfeddol ar y cynnulleidfaoedd fyddent yn ei wrandaw. Fel pob dyn gwir fawr, byddai yn ymddyrchafu yn gyfattebol i bwysigrwydd yr amgylchiadau, neu y cynnulliadau ag y byddai efe wedi ei alw i wasanaethu ynddynt. Yr un pryd, nid pregethwr y cymmanfaoedd mawrion yn unig ydoedd; eithr deuai efe allan yn fynych, a hyny yn ei holl ogoniant, yn yr oedfaon ac yn yr amgylchiadau mwyaf cyffredin. Nid ydym yn deall fod ganddo ef ryw bregethau mwy neillduol na'u gilydd. Yr oeddynt oll yn dda, os nad yn gyfartal o ran eu gwerth, a'u golygu fel cyfansoddiadau. Byddent oll yn dwyn argraph o'i feddwl a'i alluoedd ysblenydd ef. Pa bwngc bynag a gymmerai mewn llaw, ymgollai yn hollol ynddo; ac ni byddai efe yn meddwl am, nac yn gweled dim arall. Felly yr ydoedd pan yn y pulpud. Dywedai un am dano, "Pe digwyddai i ffrynt yr oriel gwympo tra y byddai efe yn pregethu, ni welai efe mo hyny, gan mor lwyr yr oedd ei feddwl wedi ei lyngcu i fyny gan ei bregeth." Nid llawer o ystumiau a wnai efe pan yn pregethu; eithr byddai ei holl gorph, oddi gerth ei dafod, ac ychydig o symmudiadau ar ei fys, mewn cyflwr llonydd. Yr un pryd, yr oedd golwg hynod ddynodiadol arno yn yr areithfa, yn enwedig yr adegau hyny pan y byddai efe yn ei 'hwyliau goreu.' Llawer gwaith y buom, wrth ei wrandaw, yn methu peidio meddwl am rai o'r prif areithwyr y darllenwn am danynt mewn hanesyddiaeth. Ac nid yn anfynych y teimlid gan ei wrandawyr, ar ol ei wrandaw, y byddai yn anhawdd iawn gan neb arall gyfodi i fyny i bregethu ar ei ol.

Cwynid gan rai fod ei bregethau yn lled anhawdd eu cofio; ac yr oedd hyny, mewn rhan, yn wirionedd. Un rheswm am hyny ydoedd, nad oedd efe, fel rheol, yn arfer y dull cyffredin o ddosbarthu materion ei bregeth o dan wahanol

Digitized by Google

benau; yr hyn, o bossibl, sydd yn fwy manteisiol i'r cof. Ond er na byddai Mr. Roberts yn arfer rhaniadau celfyddydol, etto nid oedd ei bregethau mewn un modd yn ymgymmysglyd a didrefn, oddi eithr yn bur anfynych—yr hyn nad oedd i ryfeddu ato mewn pregethwr o'i nodwedd ef. Yr oedd ganddo drefn neu gynllun ag oedd yn wybyddus iddo ef ei hun, ac yr oedd yn hawdd i ddynion craffus ganfod ei fod yn myned yn mlaen yn unol â rheolau manylaf cyfansoddiad. Ei lwybr cyffredin ydoedd rhagymadroddi yn fyr; ac yna, deuai yn hollol ddiseremoni, ac yn berffaith naturiol, at brif fater ei bregeth; ac yna traethai yn rhydd ac esmwyth arno, ac fel pe byddai yn siarad yn ddifyfyr. Am y rhan gyntaf o'r amser, cymmerai yn benaf at y dull athrawiaethol, a byddai ganddo ryw gyflawnder o'r meddylddrychau mwyaf gogoneddus, pa rai a gyflwynai mor ddirodres i sylw ei wrandawyr, a hyny gyda'r llais a'r dullwedd mwyaf dengar; ac fel yr elai yn y blaen, caem ynddo y cyfuniad mwyaf hapus o'r duwinydd, yr athronydd, a'r bardd. Yn y rhan olaf o'i bregeth, byddai, y rhan amlaf, yn hynod o effeithiol; byddai ei bethau yn tanio ei ysbryd, a hyny drachefn yn peri iddo ddyrchafu ei lais, ac i floeddio â'i holl egni—a'r cyfan gyda'r fath brydferthwch, a chyda hollol lywodraeth arno ei hun; a therfynai gydag appeliadau dwysion at gydwybodau ei wrandawyr. Yr oedd ei bregeth ef fel rhyw un cyfanwaith drwyddi. Byddai yr holl sylwadau yn dda, ac yn dilyn eu gilydd fel rhyw gynnifer o berlau; a'r rhai hyny, agos oll, yn gyfartal o ran gwerth, fel yr awgrymasom eisoes, fel yr oedd yn anhawdd iawn gwahaniaethu rhyngddynt. Ac os oedd ei wrandawyr, weithiau, yn methu cofio dim o'i bregeth, a'r hon y buont yn cael cymmaint o fwynhâd wrth ei gwrandaw, y rheswm goreu am hyny, yn ol ein barn ni, ydoedd eu banallu i gofio yr oll o honi. Byddai digon o fater yn mhob pregeth o'r eiddo ef i wneuthur dwsin o bregethau i lawer math o bregethwyr. Ond er mai yr uchod oedd nodwedd pregethau Mr. Roberts yn gyffredin, byddai ganddo rywbeth ynddynt, ar rai troion, ag a barai i ddynion i'w cofio am hir amser:—naill ai hanesyn (pur anfynych fyddai hyny), neu ynte rhyw gymmhariaeth, a hono yn cael ei gwisgo mor brydferth, ac yn gosod allan yr hyn a fyddai ganddo mewn llaw mor ardderchog, fel ag y byddai y gynnulleidfa o dan ddylanwad rhyfeddol ar y pryd. Yr oedd efe yn hynod o hapus a medrus i wneuthur defnydd o sylw a glywsai gan frawd a ddigwyddasai fod yn pregethu o'i flaen, a'i droi at ei wasanaeth ei hun. Pregethai unwaith yn nghyfarfod misol ei sir oddi ar y geiriau hyny:—"O na baent ddoethion, na ddeallent hyn: nad ystyrient eu diwedd." Llefarai yn rhagorol a phwysig iawn; ond etto nid oedd efe yn cael rhyw ddylanwad neillduol ar y gynnulleidfa, ac yr oedd arwyddion mai felly y byddai i'r oedfa derfynu. Digwyddodd, pa fodd bynag, i'r gweinidog parchus oedd yn pregethu o'i flaen goffhau rhyw sylw neillduol o eiddo un o'r hen Buritaniaid; ac er na ddarfu iddo wneuthur fawr o argraph ar y gynnulleidfa ar y pryd, y mae yn debyg i feddwl cyflym Mr. Roberts weled rhywbeth ynddo; a phan yr oedd efe ar fin gorphen ei bregeth, efe a aeth yn hollol naturiol ar ei draws, a gosododd ef mewn gwedd newydd ger bron y gynnulleidfa, ac ymhelaethodd arno gyda'r fath oleuni a nerth nes yr oedd yr holl dyrfa yn foddfa o ddagrau; a therfynodd yr oedfa, a arwyddai unwaith y diweddai yn ddigyffro, yn y modd mwyaf llewyrchus. Ac nid tro damweiniol oedd hyn, canys gwelwyd yr un peth laweroedd o weithiau. Yn wir, anaml y byddai efe yn pregethu heb iddo gael "gafael arni," fel y dywedir, cyn terfynu; a gofalai yn wastad i orphen yn nghanol y gwres.

Nis gallwn ymattal heb grybwyll un llinell arall yn nghymmeriad Mr. Roberts, a'r hon oedd yn goron ar yr holl ragoriaethau oeddynt yn ymddisgleirio ynddo yn y pulpud; sef, ei symlrwydd a'i sobrwydd, ynghyd âg absennoldeb pob math o amcan i wneuthur unrhyw arddangosiad o hono ei hun. Gosodai ei nôd yn unig at gael meddyliau ei wrandawyr at y pethau a draethid ganddo; ac nid oedd nemawr o bregethwr yn cyrhaedd ei amcan yn hyn yn well nag ef. Ei bregethau ef fyddai yn wastad yn y ffrynt—ac yntau ei hun yn aros, megys, o'r tu cefn. Nid oedd arogl dim ar ei bregethau, ond eu harogl priodol eu hunain. Meddai ar ormod o synwyr cyffredin, a chwaeth dda, heb sôn am ras a chrefydd, i oddef i ddim fod yn y golwg yn yr areithfa ond yr efengyl ei hun; ac yr oedd ei holl ymddygiad yn cydweddu â natur ei genadwri bwysig. Ac megys nad oedd dim rhodres ynddo yn y pulpud, ni cheid mo hono ynddo yn un lle arall chwaith. Ni byddai un amser yn hoff o siarad am dano ei hun. Yr oedd yn hollol ddiymhongar; ac yn mhell oddi wrth geisio rhoddi argraph ar feddwl y cwmpeini lle y byddai ei fod ef yn rhywun mwy na hwynt. Yr oedd yr elfen gymdeithasgar yn gref ynddo, a chymmerai y pen trymaf yn yr ymddiddan, a hyny yn hollol naturiol a dirodres; ac er y byddai yn hollol rydd yn y gyfeillach, etto ymgadwai rhag pob peth fyddai yn anghydweddol â'i swydd fel gŵr yn y pulpud; a byddai ei iaith mor bur, a'i chwaeth dda, yr un mor amlwg yno ag yn yr areithfa. Ac yn gymmaint a'i fod yn ŵr o wybodaeth mor eang, ac yn sylwi mor fanwl ar bob peth, yr oedd ei gymdeithas, fel y gallesid disgwyl, yn dra dyddorol bob amser. Ond y man y ceid ef yn fwyaf hapus ydoedd yn nghwmpeini brodyr o'r cyffelyb feddwl iddo ef ei hun—ac o bossibl yn yr un swydd ag ef e hun. Ar y prydiau hyny, byddai yn wledd o'r fath fwyaf blasus i wrandaw arno yn traethu ei olygiadau ar wahanol faterion; ac yn neillduol hefyd pan yn adrodd hanes yr hen bregethwyr oeddynt yn eu gogoniant penaf pan yr oedd efe yn llange ieuange, yn gystal a'r rhai a gyfodasant ar eu hol. Mewn gair, pregethu a phregethwyr oeddynt ei bob peth ef.

Ond nid dyn y pulpud yn unig ydoedd Robert Roberts, eithr ceid yr holl ragoriaethau a'i hynodent ef yn yr areithfa yr un mor amlwg ynddo gyda pha beth bynag a gymmerai mewn llaw. Yr oedd ei weddïau ef yn llawn mor hynod a'i bregethau. Nid oedd o un gwahaniaeth pa beth a fyddai yr achlysur—pa un bynag ai dechreu yr oedfa gyhoeddus, neu wrth fwrdd y cymmun, neu ynte wrth yr allor deuluaidd, neu ar unrhyw achlysur arall, neillduol neu gyffredin—byddai ei weddïau yn amlygu y fath allu a chyfaddasder nes peri eu bod o nodwedd tra arbenig. Hir gofir gan lawer am weddïau Mr. Roberts pan yn eiriol drostynt wrth yr allor deuluaidd; ac ystyrid hi yn fraint, hyd yn oed gan ddynion digrefydd, i'w gael ef o dan eu cronglwyd, o blegid y meddyliau uchel oedd ganddynt am dano, yn gystal ag am ei weddïau taerion ar eu rhan. Yr oedd hefyd yn nodedig o effeithiol mewn cladd-

Digitized by Google

edigaethau. Cymmaint oedd ei hynodrwydd ar yr achlysuron hyn fel nad ystyrid fod y marw yn cael ei gladdu gyda'r parch priodol oni byddai Mr. Roberts yn pregethu yn yr angladd. Gyrid am dano o bellder mawr, yn enwedig os byddai yr ymadawedig o safle uwch na chyffredin; a byddai yn siomedigaeth ddirfawr os na byddai efe yn alluog i ddyfod yno. A phan ddigwyddai iddo fyned i gladdedigaethau dynion fuasent yn aelodau yn yr Eglwys Wladol, byddai raid i'r clerigwr, pa beth bynag oedd ei feddwl am, a'i deimlad tuag at yr Ymneillduwyr, i alw ar Mr. Roberts i gyflawni rhyw wasanaeth, gan nad oedd modd pasio heibio iddo, yn gymmaint a bod llygaid pawb arno, a disgwyliad cyffredinol am iddo wneyd rhywbeth. A'r drefn gyffredin fyddai i'r clerigwr roddi pennill allan i ganu, a darllen pennod neu salm, ac yna byddai Mr. Roberts yn gweddio; a gwnai hyny gyda'r fath nerth ac eneiniad nes y byddai pawb mewn teimladau difrifol a nefolaidd iawn. Pregethai ar yr achlysuron hyn gyda hyawdledd anghyffredin; a byddai ei anerchiadau wrth y drws pan yn 'codi y corph,' yn gystal ag wrth y bedd, yr enghreifftiau goreu o areithyddiaeth a glywid nemawr erioed. Pwy bynag nas clywodd ef ar yr achlysuron hyny, nid oes ganddynt syniad llawn am Mr. Roberts yn ei holl ogoniant; o blegid ar y prydiau hyny y ceid ef, mewn rhyw ystyr, wedi ymwisgo yn ei ddillad goreu. Yr oedd cymdeithas agos rhwng ei feddwl a'r sefyllfa ddyfodol; ac ar yr adegau dan sylw, byddai yn traethu am dani gyda grym ac ymroddiad neillduol, ac fel un ag ydoedd wedi gweled ei phwysigrwydd a'i gogoniant. Llawer gwaith y bu ei wrandawyr yn dychymmygu, wrth ei glywed yn llefaru am y bywyd a'r anllygredigaeth sydd wedi eu dwyn i oleuni trwy yr efengyl, ac yn cyfeirio mor odidog at foreu mawr yr adgyfodiad, a hyny pan yn sefyll wrth ymyl carchar tywyll y bedd, a chyn gadael y marw yno dan glo, fod y diwrnod rhyfedd hwnw wedi gwawrio, a'u bod yn gweled y barnwr yn dyfod ar y cymmylau. Rhoddid y fath wedd ddymunol ganddo ar y sefyllfa ddyfodol yn ei chysylltiad â'r dyn duwiol ag a fyddai yn rhoddi rhyw dangnefedd a chysur neillduol i feddyliau y perthynasau, nes eu dwyn i gymmodi â'r bedd ac âg ymadawiad eu cyfeillion; a byddai llawer hen bererin yn barod i ddyweyd gyda'r apostol Paul—"Y mae arnaf chwant i'm dattod, ac i gael bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw." Nid oes nemawr yn ardaloedd Llangeitho na bydd yn hyfrydwch ganddynt gofio tra y byddant byw am bregethau Mr. Roberts yn nghladdedigaethau eu perthynasau ymadawedig, ac am ei anerchiadau yn ymyl eu beddau.

Ni byddai hanes Mr. Roberts yn gyflawn heb i ni wneuthur crybwylliad am dano fel arholwr yr Ysgolion Sabbothol. Bu o wasanaeth a defnyddioldeb mawr gyda'r gorchwyl hwn. Nid ystyrid yr un cyfarfod dau fisol, na chymmanfa ysgolion, yn llawn, oddi eithr ei fod ef yn bresennol, a chymmerid gofal i sicrhau ei bresenoldeb ynddynt; ac wedi iddo gyrhaedd i'r lle, teimlid fod y cyfarfod yn llawn, pwy bynag a ddigwyddai fod yn absennol. Fel arholwr, ei ddull cyffredin ef fyddai rhoddi y cwestiwn mewn ffurf ag a fyddai yn awgrymu yr attebiad. Efe ei hun fyddai yn dywedyd fwyaf; ac yr oeddid yn cael mwy o hysbysrwydd a gwybodaeth am y pwngc fyddai dan sylw trwyddo ef ei hun na thrwy yr ysgol a arholid ganddo. Beiid arno gan rai am na bai yn rhoddi mwy o waith i'r ysgol, ac yn dywedyd llai ei hun. Pa fodd bynag, yr oedd dull Mr. Roberts o holi yn un tra dymunol a sylweddol. Ni byddai efe yn ymfoddloni ar ryw gwestiynau sychion ynghylch afonydd, mynyddoedd, trefydd, a phethau cyffelyb; ac ni byddai un amser yn ceisio 'hollti blew.' Yr oedd yn rhy fawr i hyny. Gwell oedd ganddo ef ymaflyd mewn egwyddorion, a thrin gwirioneddau mawr y datguddiad dwyfol; a gwnai hyny gyda medr a deheurwydd arbenig, fel yr oedd y deall yn cael ei oleuo, a'r gydwybod yn cael ei hargyhoeddi. Gofynai ambell gwestiwn weithiau ag a fyddai yn trethu holl alluoedd yr ysgol; a gwnai hyny mor effeithiol nes ysgafnhau ambell un hunan-dybus o'r llwyth o wynt fyddai yn ei flino. Eithr nid hyny ydoedd ei lwybr arferol ef; ond amcanai yn benaf at gynnorthwyo yr ysgol i atteb. Ymddangosai yr holl ragoriaethau a'i hynodent pan yn pregethu yr un mor amlwg pan fyddai wrth y gwaith o arholi. Nid oedd o nemawr wahaniaeth pa un a fyddai efe wedi cael hysbysrwydd blaenorol am y mater neu y pwngc yr oedd i holi arno, neu beidio—ymaflai yn ei waith ar unwaith fel meistr. Yr oedd yn dduwinydd mor rhagorol, yn hanesydd mor fanwl, ac yn meddu cydnabyddiaeth mor eang â gwahanol ganghenau gwybodaeth, fel yr oedd bob amser yn barod at ei waith; a byddai rhyw fawredd a blâs nefolaidd, ac eneiniad dwyfol, ar yr holl wasanaeth. A chyn gollwng y dyrfa ymaith ar ddiwedd y cyfarfodydd hyn, rhoddai gyfarchiad cyffredinol i'r gynnulleidfa, a hyny gyda'r fath briodoldeb ac effeithiolrwydd fel y byddai pawb yn ymwasgaru â'u llestri yn llawnion.

Eithr ofer ydyw ymhelaethu. Yr un hynodrwydd a rhagoriaethau oedd yn nodweddu Mr. Roberts yn mhob man, a chyda phob peth. Nis gwyddom am lawer o wŷr y gallem ddyweyd am danynt eu bod yn ddynion cyfan a chyflawn yn yr un ystyr, ac i'r un graddau, ag y defnyddiem y geiriau yn eu cyssylltiad âg ef. Ceir llawer ag ydynt yn disgleirio mewn rhai cylchoedd pennodol; eithr pan y gosodir hwy mewn cylchoedd eraill, byddant yn myned yn dra chyffredin. Ceir dosbarth arall a fyddant yn ddynion lled gyfain (*round*), ac na bydd raid cywilyddio o'u plegid pa le bynag y gosodir hwynt; ac etto, ni byddant hwy yn rhagori neu yn disgleirio mewn dim. Eithr am Mr. Roberts, yr oedd efe nid yn unig yn ddyn cyflawn a chyfan, ac yn gyfryw ag y gellid ei roddi yn unrhyw fan, ac i gyflawni unrhyw orchwyl; ond byddai yn rhagori ac yn disgleirio ynddynt oll. Pe gofynid i ni yn mha le yr oedd yn rhagori fwyaf, buasem yn rhwym o ddyweyd fod y cwestiwn yn fwy nag y gallwn ei atteb. Yr oedd yn weinidog cymmhwys y Testament Newydd—yn ddyn ag ydoedd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd—yn weithiwr dyfal, ac yn iawn gyfranu Gair y gwirionedd.

O ran ei berson, neu ei gorph, yr oedd Mr. Roberts yn ŵr lled dàl, ac yn bur deneu; ei ben ydoedd o faintioli cyffredin, a'i dalcen yn isel; yr oedd ei lygaid yn lled fawrion, ac yn danbaid a threiddgar; trwyn bwäog, a gwefusau yn arwyddo dyn siaradus; ac er yr edrychai yn gyffredin yn bur wael o ran ei iechyd, etto yr oedd yn feddiannol ar gyfansoddiad cryf, ac yn alluog i fyned trwy lawer o lafur heb deimlo nemawr o ludded corphorol. Pregethai dair gwaith agos bob Sabbath, a hyny gyda'r ymroddiad mwyaf. Amlygai gryn ddiofalwch ynghylch ei ddyn oddi

Digitized by Google

allan. Ymwisgai mewn diwyg hollol wledig:—a pha faint bynag o barch a derbyniad a roddid iddo, nid oedd yn ddyledus am hyny i 'deilwriaeth.' Nid oedd neb wrth edrych ar ei wisg mewn profedigaeth i dybied fod un berthynas rhyngddo a'r Defodwyr (*Ritualists*). Nid oedd dim byd clerigol yn ei ymddangosiad. Anfynych y byddai yn gwisgo neisied wen; eithr y rhan amlaf, mewn napcyn sidan du, a hwnw yn ddigon didrefn, y gwelid ef. Tybiai rhai ei fod yn myned i eithafoedd y ffordd yna; a byddai rhyw ddosbarth o ddynion, pa rai y mae eu holl ragoriaethau a'u haddurniadau oddi allan iddynt, yn dueddol i edrych yn ddiystyrllyd arno, o leiaf, cyn i'r rhagoriaethau tufewnol a meddyliol yr oedd yn feddiannol arnynt ddyfod yn wybyddus iddynt. Yr oedd mewn cymdeithasfa unwaith, yn lled fuan wedi iddo gael ei neilltuo i'r holl waith, yr hon a gynnelid mewn tref lled bwysig, ac yn yr hon yr oedd coleg (nid un Methodistaidd) yn perthyn i un o'r enwadau Ymneillduol. Yn ngwyneb fod Mr. Roberts yn anadnabyddus yn y lle, yr oedd yno rai personau yn lled ddigyfrif o hono, o blegid ei fod mor gyffredin o ran ei ymddangosiad allanol; a theimlent yn synedig, ac yn dra anfoddlawn, pan ddeallasant ei fod i bregethu yn un o'r prif oedfaon ar y maes. Nis gallent lai na meddwl fod y gymdeithasfa yn cael ei darostwng trwy fod dyn mor hynod wledig yr olwg arno yn cael ei osod i bregethu mewn lle mor gyhoeddus. Yr oeddynt yn cydrodio ar, ac yn breichio y gweinidogion eraill i'r cae; ond gadawsant Mr. Roberts i gerdded wrtho ei hun. A phan ddaeth ei dro yntau i sefyll i fyny ar yr esgynlawr i bregethu, yr oedd y personau a nodwyd mewn teimladau pur anhapus. Fodd bynag, nid hir y buont cyn cael eu hargyhoeddi o'u bod wedi gwneuthur camgymmeriad mawr iawn, a thrwy hyny wedi gwneyd mesur o ffyliaid o honynt eu hunain. Darfu i'r pregethwr yr oeddynt hwy wedi bod mor ddigyfrif o hono ddyfod allan gyda'r fath fawredd nes cuddio pawb yn y gymdeithasfa hono. Ar ol cymmeryd ei destyn, dechreuodd ei esbonio gyda medrusrwydd neillduol, gan ddangos pa beth ydoedd ystyr y prif eiriau ynddo yn ol yr ieithoedd gwreiddiol, a hyny mewn modd hollol ddirodres, ac etto mor gywir a meistrolgar nes yr oedd athrawon a myfyrwyr y coleg oedd yn y lle, yn gystal a lluoedd eraill, yn agor eu llygaid mewn syndod. Aeth y pregethwr rhagddo gyda'r fath nerth, gan ddyrchafu ei lais sein-bêr fel udgorn; ac fel yr oedd yn myned yn mlaen, yr oedd ei ragoriaethau a'i alluoedd yn ymddadblygu yn fwy-fwy, nes y darfu iddo ennill meistrolaeth hollol ar y gynnulleidfa fawr oedd o'i flaen. Teimlai pawb erbyn hyn nad wrth ei wisg a'i olwg allanol y mae barnu dyn—na phregethwr chwaith. Profodd y gweinidog enwog, os ydoedd efe yn ddiffygiol mewn addurniadau allanol, ei fod yn feddiannol ar addurniadau mil mwy gwerthfawr, a hyny gryn raddau yn helaethach na nemawr, os nad pawb, o'r rhai oedd yn ei wrandaw ar y pryd. Ac wedi i'r oedfa ddarfod, gwelid y personau ag oeddynt yn cywilyddio cydgerdded âg ef wrth fyned i'r cae yn ei theimlo yn fraint ac yn anrhydedd i gael mwynhau ei gymdeithas wrth ddychwelyd oddi yno. Nid oedd ei ddyn oddi allan yn cael nemawr iawn o feddwl Mr. Roberts un amser; eithr yr hyn yr oedd ei feddylfryd ef arno oedd trwsio y dyn oddi fewn, a chyfoethogi ei feddwl â gwybodaeth ac â deall.

Yr oedd Mr. Roberts yn meddu hoffder neillduol at y tlws, y swynol, a'r prydferth; ac nid yn unig yr oedd efe yn caru edrych ar dlysni a phrydferthwch, eithr yr oedd ei glust yn hoff ryfeddol o beroriaeth. Un o anhebgorion pregethwr, yn ei olwg ef, ydoedd, ei fod yn meddu llais dymunol. Wrth reswm, nid ar sŵn yn unig y byddai efe yn gosod pwys a gwerth; ac etto, os na byddai gan y pregethwr, yn chwanegol at ei ragoriaethau eraill, lais dymunol, ni byddai mor gymmeradwy yn ei olwg ef; ac yn enwedig hefyd os byddai y llais yn anhyfryd ac aflafar, yr oedd yn radd o gosp arno i wrandaw y cyfryw. Yr oedd mor deimladwy, hyd yn oed o ran ei glust, fel yr oedd llais aflafar yn boenus iddo fod yn ei sŵn.

Nid oedd Mr. Roberts heb ei ffaeleddau a'i ddiffygion:—a phwy sydd hebddynt? Ond y mae yn hyfrydwch genym i ddyweyd fod llawer o honynt yn cael eu hachlysuro, i raddau pell iawn, gan yr elfenau hyny ag oeddynt yn prydferthu ei gymmeriad. Fel y gallesid disgwyl oddi wrth ei safle, byddai yn cael ei bennodi yn fynych gan y cyfarfod misol i fyned i ymweled â'r eglwysi; ac weithiau, byddai yn cael ei ddanfon i geisio penderfynu ymrafaelion, ac i heddychu rhwng brodyr a'u gilydd. Cwynid gan rai ei fod ar yr achlysuron hyn yn dangos ei hun yn ddyn unochrog. Os golygir wrth hyny ei fod yn bwriadu cymmeryd un ochr yn fwy na'r llall, yr ydym yn tystio fod hyny yn gam o'r mwyaf âg ef. Nid ydym yn dywedyd na byddai efe yn cymmeryd un ochr i fyny, a hyny yn aml mewn modd penderfynol, os nid eithafol; ond byddai y cyfan yn codi oddi ar dynerwch ei deimlad. Yr anffawd mewn cyssylltiad âg ef oedd, ei fod yn dueddol iawn i roddi gormod o gred i'r blaid a elai ato yn gyntaf; ac wedi i hono ennill ei gydymdeimlad, yr oedd yn bur anhawdd cael ganddo newid ei feddwl am dani ar ol hyny. Y gwir ydyw, yr oedd efe yn dra anghymmhwys at bethau o'r fath; ac yr oedd yr anghymmhwysder hwnw yn codi mewn rhan oddi wrth ei ragoroldeb.

Ond y mae y gŵr enwog hwn, bellach, fel miloedd o'i flaen, wedi tynu ei gŵys i'r pen. Yr oedd yn hynod o barchus a phoblogaidd, ac nid yn un man yn fwy felly nag yn ei gartref ei hun. Cafodd gystudd maith a chaled iawn; ond yr oedd yn dra hyderus am ddiogelwch ei gyflwr. Hunodd yn yr Iesu prydnawn ddydd Llun, Gorphenaf 15fed, 1878; a chladdwyd ef y dydd Gwener canlynol yn mynwent capel Llangeitho. Daeth llu o'i frodyr yn y weinidogaeth i'w gladdedigaeth, yn gystal a thyrfa fawr iawn o bobl, o bell ac agos—pa rai a ymddangosent mewn galar dwys o blegid colli gweinidog mor enwog a defnyddiol.

Dylasem ddyweyd i Mr. Roberts ymuno mewn priodas â Catherine, merch y diweddar Peter Davies, Yswain, Glyn, ger llaw Llangeitho, yr hwn oedd, nid yn unig yn flaenor yn eglwys Llangeitho, ond yn un o flaenoriaid mwyaf cyfrifol a dylanwadol y sir; ac yn un ag yr oedd parch mawr yn cael ei goleddu tuag ato gan yr holl ardaloedd lle yr oedd yn byw. Bu i Mr. Roberts chwech o blant—oll yn ferched—pa rai ydynt oll, ynghyd â'u mham, wedi ei oroesi. Nodded y Nefoedd a fyddo drostynt oll!

ROGERS, HENRY: traethodwr a beirniad rhagorol. Ganwyd ef yn St. Albans, yn y fl. 1806. Addysgwyd ef yn moreu ei oes gyda'r

Digitized by Google

amcan o'i ddwyn i fyny i'r alwedigaeth feddygol; ond cyn dechreu ymarfer â'r alwedigaeth hono drosto ei hun, penderfynodd fyned i'r weinidogaeth gyda'r Annibynwyr, i'r hwn enwad y perthynai. I'r dyben hwn derbyniwyd ef yn efrydydd i Goleg Highbury, yn Llundain, lle yr oedd y diweddar Barch. Ddoctor Halley yn un o'r athrawon. Pan y gadawodd Highbury ar ddiwedd tymmor ei efrydiaeth, efe a ymsefydlodd yn Poole, fel cydweinidog â Mr. Durant. Yr oedd ei lais, yr hwn bob amser oedd yn wan a chryglyd, yn rhwystr mawr i'w lwyddiant fel pregethwr, ac nid arosodd yn Poole ond tua blwyddyn neu ddwy. Rhoddodd y weinidogaeth i fyny; ac yn fuan wedi hyny pennodwyd ef yn athraw llenyddiaeth Saesnig yn Ngholeg y Brifysgol. Tra yn Llundain, efe a ysgrifenai lawer i'r "*Eclectic Review*," yr hwn ar y pryd oedd yn gyfnodolyn rhagorol, ac yn amddiffynwr cadarn i Anghydffurfiaeth. Ac yr ydym yn meddwl iddo fod yn is-olygydd y newyddiadur Anghydffurfiol a elwid y "*Patriot.*" Ar sefydliad Coleg Springhill, Birmingham, gwahoddwyd ef i lenwi cadair mesuroniaeth ac athroniaeth ynddo. Bu yn dal y swydd hon am ddeuddeg neu dair ar ddeg o flynyddoedd, pan y cynnygiwyd iddo lywyddiaeth Coleg Annibynol swydd Lancaster, ger llaw Manchester, ynghyd â chadair duwinyddiaeth athrawiaethol ac athroniaeth. Symmudodd yntau yno, a bu yn dal y swydd bwysig hon dros amryw flynyddoedd; ac ymneillduodd o fywyd cyhoeddus. Tra yr oedd yn llenwi cadair Coleg y Brifysgol y daeth i gyssylltiad â'r "*Edinburgh Review.*" Yr oedd y "*Review*" ar y pryd wedi colli gwasanaeth Jeffrey, Sydney Smith, ac Arglwydd Brougham, y rhai fuont am dymmor maith yn ysgrifenwyr ffyddlawn iddo; ac ni byddai Macauley yn ysgrifenu ond yn achlysurol iddo. Yr oedd gwasanaeth Henry Rogers yn ennill mawr i'r "*Edinburgh.*" Tynai rhai o'r erthyglau a ysgrifenai sylw neillduol—mewn rhan ar gyfrif y wybodaeth lenyddol gyfoethog ac amrywiol a amlygid ynddynt, mewn rhan ar gyfrif llymder eu ffraethineb a'u digrifwch boddhaol, ac mewn rhan ar gyfrif teleidrwydd a phrydferthwch eu harddull. Hwyrach mai ei erthyglau ar Leibnitz, Des Cartes, a Plato ydyw ei erthyglau llenyddol goreu; ond y fwyaf boblogaidd, pa fodd bynag, ydoedd ei erthygl ar "*Reason and Faith,*" yr hon a gyhoeddwyd yn llyfryn, ac a aeth drwy amryw argraphiadau. Yr oedd ei erthyglau ar Tractariaeth, a ymddangosent rywbryd ynghylch y flwyddyn 1840, yn rhai rhagorol; a dywedir fod yr erthyglau hyny wedi peri i fwy nag un esgob gynnyg bywoliaeth iddo yn yr Eglwys Sefydledig. Ail gyhoeddwyd ei "*Edinburgh Essays*" mewn tair cyfrol. O ddeutu y fl. 1852, efe a gyhoeddodd ei "*Eclipse of Faith,*" yr hwn a aeth drwy amryw argraphiadau mewn ychydig amser. Yna dilynodd ei "*Defence of the Eclipse of Faith,*" a'r gyfrol ddifyrus a elwir "*Greyson's Letters.*" Y gwaith diweddaf a gyhoeddodd oedd "*The Supernatural Origin of the Bible.*" Yr oedd hwn yn ymddangos fel y cyntaf o gyfres o ddarlithiau yr Undeb Cynnulleidfaol. Y mae ei "*Life of John Howe*" hefyd yn ddernyn o fywgraphiad rhagorol. Yr oedd Mr. Rogers yn hynod am ei wylder a'i ostyngeiddrwydd; ond gallai wynebu ymosodwr yn ddewr pan y byddai achos yn galw—ac yr oedd yn wrthwynebwr cryf mewn dadl. Wedi ymneillduo o'i swydd yn Ngholeg sir Lancaster, cymmerodd balasdy i fyw ynddo ger llaw Machynlleth, lle y bu farw Awst 21ain, 1877, yn 71ain mlwydd oed.

ROSSINI, GIOACCHINO ANTONIO: cyfansoddwr cerddoriaeth Italaidd enwog, yr hwn a anwyd yn Pesaro, Chwefror 29ain, 1792. Dysgwyd elfenau cerddoriaeth iddo gan ei dad, yr hwn oedd glerigwr tlawd. Pan y torodd ei lais, yn bymtheg oed, derbyniwyd ef i mewn i Lyceum Bologna, fel y gallai ymberffeithio mewn cerddoriaeth o dan addysgiaeth Stanislas Mattei. Caswaith gan Rossini oedd astudio gwrthalawiad dwbl (*double counterpoint*); a phan ddigwyddodd iddo glywed ei athraw yn dyweyd rhyw ddiwrnod fod deall gwrthalawiad sengl yn ddigon i gyfansoddwr a ymgeisiai yn unig at ysgrifenu y mathau ysgafnaf o gerddoriaeth, efe a drodd ac a ofynodd iddo, "A ydych yn bwriadu dyweyd y gallwn i, gyda hyny o wybodaeth a ennillais, ysgrifenu cân-chwareuon?" (*operas*). "Ydwyf," meddai yr athraw. "Yna," ebai Rossini, "yr wyf yn bwriadu ysgrifenu cân-chwareuon, ac nid oes arnaf eisieu chwaneg o wersi." Y gân-chwareu gyntaf a'i gwnaeth ef yn enwog oedd "Tancredi," yr hon a ddygwyd allan yn Venice yn 1813. Wedi ei galonogi gan y llwyddiant hwn, dygodd allan amryw weithiau eraill, yn fuan ar ol eu gilydd. Yn 1816, dygodd allan "Il Barbiere di Siviglia" (Eilliwr Sevilla), yr hwn a gyfrifir y mwyaf poblogaidd o'r holl gyfansoddiadau o'r fath yma, oddi gerth "Don Giovanni" Mozart. Y lleill o'i weithiau ag sydd yn parhau i gadw eu lle ar y chwareufa ydynt "La Cenerentola," "La Gazza Ladra," "La Donna del Lago," a "Guglielmo Tell." Ei gampwaith ydyw "Tell," yr hwn a ddygwyd allan yn yr Academie Royal, pan oedd yr awdwr yn 37ain oed. Ni chyfansoddodd Rossini ddim ar ol hyny. "Ni chwanegai llwyddiant arall ddim at fy nghlod," meddai; "a gwnai methiant ei niweidio." Heb law cân-chwareuon, cyfansoddodd Rossini amryw ddarnau eglwysig tra phrydferth, ynghyd â marw-gân (*requiem*) odidog, yr hon a ganwyd am y tro cyntaf ar adeg ei gladdedigaeth.

Bu Rossini unwaith yn ymweled â Llundain, a chafodd yno lawer o barch, a llawer o arian. Yn Paris y preswyliai, gan mwyaf, o'r flwyddyn 1824 hyd adeg ei farwolaeth. Cymmerodd yr amgylchiad hwnw le ar y 3ydd o Dachwedd, 1868.

ROUMANIA. Gwel EWROP YN 1879, yn niwedd yr *Attodiad* hwn.

RUSSELL, JOHN, IARLL: gwladweinydd galluog ac enwog yn Mhrydain. Adwaenid ef am y rhan fwyaf o'i oes fel Arglwydd John Russell; ond yn agos i ddiwedd ei oes, dyrchafwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi, gyda'r teitl Iarll Russell. Yr oedd y teulu o ba un yr hanodd, ac o'r hwn y gellir ei ystyried ef yn un o'r prif addurniadau, yn dal cyssylltiad agos â hanes y cyfnewidiadau cyfansoddiadol a fu yn y wlad hon, yn mhob cyfnod pwysig, o'r Diwygiad Protestanaidd i lawr. Yr oeddynt bob amser yn hynod am eu hymlyniad wrth egwyddorion rhyddfrydig; ac am yr holl Russelliaid a fuont yn dal cyssylltiad âg achosion cyhoeddus, gellir dywedyd eu bod yn hynod am eu gonestrwydd a'u cywirdeb, ac am eu galluoedd a'u hathrylith ddisglaer. Ganwyd gwrthddrych yr erthygl hon yn Llundain, Awst 18fed, 1792. Mab ieuangaf y chwechfed

Digitized by Google

Duc o Bedford oedd efe. Addysgwyd ef ar ddechreu ei oes yn ysgol gyhoeddus Sunbury; ac yn hytrach na'i ddanfon i un o'r prif ysgolion yn Lloegr, danfonwyd ef i Edinburgh i gael ei addysgu yn mhellach o dan arweiniad y proffeswr Dugald Stewart. Hwyrach mai y rheswm am hyn oedd, am fod prif ysgolion Rhydychain a Chaergrawnt yn nawddleoedd arbenig i egwyddorion Ceidwadol; a bod Edinburgh y pryd hwnw yn nodedig fel man lle yr oedd cydgasgliad o dalent yn ei phrifysgol nad yn fynych y gwelwyd y cyffelyb; ac heb law hyny, yr oedd y prif arweinwyr yno yn Whigiaid selog. Cafodd Russell ieuangc, yn nhŷ y proffeswr Stewart, gyfle i gyfarfod dynion oedd yn llenwi Ewrop a'r byd â'u henwogrwydd, yn enwedig fel gwyddonwyr. Yn 1813, pan yn 21ain oed, etholwyd ef yn aelod o Dŷ y Cyffredin dros fwrdeisdref Tavistock—lle ag yr oedd gan ei dad ddylanwad mawr ynddo. Yr oedd gweinyddiaeth Doryaidd gref yr arglwyddi Liverpool a Castlereagh mewn awdurdod y pryd hwnw; a chymmerodd yr aelod ieuangc ei le gyda'r wrthblaid fel aelod o'r blaid Whigaidd. Cychwynodd Arglwydd John Russel ei fywyd politicaidd fel cefnogwr diffuant yr egwyddorion y bu Hampden farw drostynt ar faes y frwydr, ac yr aberthodd un o'i hynafiaid —sef Arglwydd William Russell, a'i gyfaill Sidney—eu heinioes drostynt ar y dïenyddle. Dechreuodd gymmeryd rhan yn ngweithrediadau y tŷ yn fuan ar ol cymmeryd ei le ynddo. Ond yr araeth gyntaf o'i eiddo sydd yn awr ar gael oedd un a draddodwyd ganddo yn mhen agos i flwyddyn ar ol cymmeryd ei eisteddle. Araeth oedd hono yn erbyn y cynghrair oedd yn cael ei wneyd rhwng Prydain Fawr, Rwssia, a Sweden, i dori yr hen gyssylltiad oedd rhwng Norway a Denmarc, ac i gyssylltu Norway â Sweden, mewn ffordd o lwgr-wobrwyaeth i Bernadotte, brenin newydd Sweden, am droi ei gefn ar achos ei hen arweinydd, Napoleon, ac ymuno â'r galluoedd oedd yn wrthwynebol iddo. Gwrthwynebodd hefyd, ar yr un tir—sef hawl pob cenedl i ddewis eu llywodraethwyr eu hunain—y rhyfel yn erbyn Napoleon, pan y diangodd y dyn rhyfeddol hwnw o Elba, yn 1815. Ni ddygodd yr heddwch a sefydlwyd ar ol brwydr Waterloo y manteision a ddisgwylid i'r wlad hon. Gyda bod y cyffro a deimlid mewn cyssylltiad âg achosion tramor wedi tawelu, cafodd y bobl hamdden i feddwl am eu hachosion cartrefol; a bernid fod angen am ddiwygiad mewn llawer o bethau. Ffynai y teimlad hwn yn neillduol yn mysg y dosbarthiadau gweithiol drwy y wlad. O'r diwedd, yn 1817, cyfododd rhyw anfoddogrwydd i'r fath bwynt, fel y darfu i Arglwydd Castlereagh, arweinydd Tŷ y Cyffredin, gynnyg mesur i attal gweithrediad deddf yr *Habeas Corpus*. Gwrthwynebwyd y cynnygiad hwn yn egniol gan y Whigiaid, ac nid oedd neb yn fwy blaenllaw yn y gwrthwynebiad nag Arglwydd John Russell. Yr oedd yr araeth a draddododd y pryd hwnw yn dangos mor eiddigus yr oedd efe dros hawliau a rhyddid cyfansoddiadol y bobl—a pharhaodd felly ar hyd ei oes.

Yr oedd ar yr adeg hon yn dioddef o herwydd gwaeledd ei iechyd, a meddyliai yn ddifrifol am ymneillduo o Dŷ y Cyffredin. Ymddengys fod yr olwg dywyll oedd ar achosion y wladwriaeth, yn gystal a gwaeledd ei iechyd, yn ei dueddu i wneyd hyn. Ymgynghorodd âg amryw o'i gyfeillion yn mherthynas i'r priodoldeb o wneuthur hyny, ac o ymroddi i fywyd llenyddol. Y mae yn ymddangos fod y syniad hwn yn groes iawn i feddwl y cyfeillion hyny; ac mewn cydsyniad â'u cais hwy, wedi cael mwynhau gradd o adferiad i'w iechyd, etholwyd ef yn aelod dros Tavistock yn etholiad 1818. O'r pryd hwnw allan, yr ydys yn cael Arglwydd John Russell, er nad oedd yn ddiofal ynghylch pethau eraill, yn troi ei sylw yn arbenig at y cwestiwn mawr o ddiwygiad seneddol; â'r hwn, ar ol hyny, y daeth ei enw yn anwahanol gyssylltiedig. Yn 1819 y daeth efe â'i gynnygiad cyntaf am ddiwygiad yn y gynnrychiolaeth yn mlaen; a chyda rhai eithriadau, parhaodd i'w ddwyn yn flynyddol ger bron Tŷ y Cyffredin hyd yr adeg pan y gallai lefaru gydag awdurdod fel un o weinidogion y goron. Yr oedd y cwestiwn hwn yn cael ei adael yn ei law ef fel arweinydd. Terfynodd araeth faith a thra hyawdl yn 1819 ar y mater hwn trwy gynnyg pedwar o benderfyniadau yn Nhŷ y Cyffredin. Y cyntaf oedd, i rwymo y Tŷ hwnw i ddifreinio bwrdeisdrefi y gellid profi eu bod yn hollol lygredig; ac i roddi i'r etholwyr hyny, na chawsid hwynt yn feius, yn gyfnewid am eu difreiniad yno yr hawl i bleidleisio dros y sir. Yr ail oedd, fod breiniolaeth y bwrdeisdrefi hyn yn cael ei throsglwyddo i drefydd, gyda phoblogaeth o ddim llai na phymtheng mil o eneidiau, ac i rai o'r siroedd mwyaf. Y trydydd oedd, fod darpariaethau pellach yn cael eu gwneuthur er attal llwgr-wobrwyaeth mewn etholiadau. Yr oedd y pedwerydd, a'r olaf, yn hytrach yn fater o drefniad nag o egwyddor; sef, fod Grampound, lle oedd wedi ei brofi yn hynod lygredig, yn cael ei ddifreinio. Gwrthwynebai y gweinidogion yr oll o'r penderfyniadau. Gellir crybwyll yma fod Grampound, yn mhen dwy flynedd, wedi ei ddifreinio; ond yn lle bod y ddwy eisteddle oedd yno yn cael eu rhoi i Leeds, fel y cynnygiai Russell, cawsant eu rhoddi i swydd Gaerefrog.

Cwestiynau eraill y darfu i Arglwydd John Russell eu pleidio yn selog oedd rhyddfreiniad y Pabyddion, a diddymiad Cyfreithiau y Proflŵon a'r Corphoriaethau (*Test and Corporation Acts*), ac amddiffyniad i'r Frenhines Caroline. Arferai ddyfod â chynnygiad blynyddol yn mlaen ar y materion hyn. Pan y bu farw y prif weinidog, Arglwydd Liverpool, yn nechreu y fl. 1827, ac y pennodwyd Mr. Canning yn olynydd iddo, cododd gobeithion y bobl yn uwch; o herwydd parodd hyn rwyg yn y blaid Doryaidd, a'r dosbarth mwyaf Rhyddfrydig o'r blaid hono oedd yn awr mewn swyddau. Teimlai llawer o'r Whigiaid yr angenrheidrwydd am bleidio Canning yn y cyfwng pwysig hwn, yn erbyn ymosodiadau ei hen gymdeithion, a chydsyniasant i gymmeryd swyddau dano ef. Ond er na ddarfu i Russell gymmeryd swydd, etto teimlai yn bryderus rhag taflu unrhyw rwystr diangenrhaid ar ffordd y weinyddiaeth newydd; a chyda'r amcan hwn, ni ddaeth â'i gynnygiad blynyddol am ddiwygiad seneddol yn mlaen y flwyddyn hono. Yr un modd hefyd y gwnaeth â'r cynnygiad am ddiddymu Cyfreithiau y Proflŵon a'r Corphoriaethau. Er fod ei syniadau yn rhyddfrydig, y mae yn ymddangos fod Canning yn hollol wrthwynebol i'r ddau gynnygiad yma; er hyny, gan fod Russell yn teimlo y manteision oedd i'w disgwyl drwy ei gadw ef mewn awdurdod, nid ydoedd yn ewyllysio gwanhau ei safle trwy ei osod mewn sefyllfa i wrthwynebu y cynnygion. Ac yr oedd llawer o'r Ymneillduwyr mwyaf blaenllaw hefyd yn cydsynio âg ef yn hyn—a hyny am yr un rhesymau yn hollol.

Digitized by Google

Yn mhen ychydig fisoedd, pa fodd bynag, bu farw Canning, a galwyd y Duc o Wellington a Syr Robert Peel i awdurdod. Mewn canlyniad i hyny, yn 1828, daeth Arglwydd John Russell â chwynion yr Ymneillduwyr i sylw drachefn; a chynnygiodd ddiddymu y cyfreithiau hyny oeddynt, er dyddiau Siarl II., wedi eu cau allan o bob lleoedd a swyddau o ymddiried dan y Llywodraeth, ac o bob swydd o anrhydedd mewn corphoraeth ddinesig, os na chydsynient i gyfranogi o'r cymmun yn ol gosodiadau yr Eglwys Sefydledig. Dangosodd yn eglur, drwy y canlyniadau a ddilynodd y cynnygiad hwn, y cynnydd cyflym, ond distaw, a gymmerasai le mewn lledaeniad egwyddorion rhyddfrydig mewn ychydig flynyddoedd. Er fod holl nerth y llywodraeth wedi ei ddwyn i wrthwynebu y mesur, cariwyd ef gan fwyafrif mor fawr fel y teimlai Syr Robert Peel mai anobeithiol hollol oedd ei wrthwynebu yn hwy. Dranoeth, gan hyny, efe a gynnygiodd i'r Tŷ ar fod i'r Ymneillduwyr, wrth dderbyn swyddau, gymmeryd llŵ, neu wneyd ardystiad, na byddai iddynt ddefnyddio yr hawlfraint oedd ar gael ei hestyn iddynt i ddrygu Eglwys Loegr. Darfu i Arglwydd John Russell, ar ran yr Ymneillduwyr, gyttuno â hyn; a phasiodd ei fesur ef, gyda'r cyfnewidiad a enwyd, bron yn ddiwrthwynebiad yn Nhŷ y Cyffredin trwy y gwahanol ddarlleniadau; ac aeth trwy Dŷ yr Arglwyddi yr un modd, a derbyniodd y cydsyniad brenhinol, a daeth yn gyfraith y tir.

Yn y flwyddyn ddilynol, daeth mesur rhyddfreiniad y Pabyddion yn gyfraith y wlad; ond ni chymmerodd Arglwydd John Russell unrhyw ran yn hyn y tro hwn; ond cefnogodd y mesur trwy roddi ei bleidlais drosto, fel y gwnaethai bob amser y dygid y cwestiwn o flaen y Tŷ. Crybwyllir am hyn yma yn benaf am ei fod wedi bod yn achlysur i effeithio rhwyg yn y blaid Doryaidd, ac i hyny balmantu y ffordd i gyfnewidiadau pwysig eraill a ddilynasant. Pan y cymmerodd etholiad cyffredinol le yn 1830, mewn canlyniad i farwolaeth Sior IV., yr oedd y cwestiwn o ddiwygiad seneddol wedi dyfod yn bwngc mawr y dydd. Yr oedd wedi bod yn gwestiwn mawr yn etholiad 1826; ond yr oedd y diwygwyr wedi cael eu gorchfygu yn lled gyffredinol y pryd hwnw; ac yn mhlith eraill, cafodd Arglwydd John Russell ei hun ei orchfygu, yr hwn a etholasid dros sir Huntingdon yn 1820; ond taflwyd ef allan oddi yno yn 1826, a bu raid iddo gymmeryd noddfa yn mwrdeisdref fechan Bandon Bridge, yn yr Iwerddon. Yn 1830, pa fodd bynag, yr oedd y Whigiaid yn llwyddo yn mhob man. Syrthiodd gweinyddiaeth y Duc o Wellington ar gwestiwn cyssylltiedig â phenderfynu treuliau y penadur; a phennodwyd Iarll Grey, yr hwn a fuasai yn perthyn i'r wrthblaid er y flwyddyn 1807, yn brif weinidog. Yntau, wrth ddewis aelodau y weinyddiaeth, a gadwai mewn golwg mai gwladlywiaeth ei lywodraeth ydoedd—diwygiad, cynnildeb, a heddwch. Gall ymddangos yn rhyfedd na chafodd Arglwydd John Russell, yr hwn a fuasai mor amlwg o flaen y wlad am gynnifer o flynyddoedd, sedd yn y cyfringynghor (*cabinet*) newydd. Ond y gwirionedd am hyn yw—yr oedd hawliau diwygwyr oeddynt yn hynach mewn dyddiau nag ef i'w cymmeryd i ystyriaeth: ac yn mhellach, un o amcanion Arglwydd Grey oedd sicrhau iddo ei hun gymmaint o gefnogaeth ag oedd yn alluadwy iddo trwy ffurfio undeb â chyfeillion Mr. Canning, yn mhlith y rhai yr oedd Argl. Palmerston, yr hwn a adawyd heb ei alw i swydd gan y Duc o Wellington. Yr oedd llawer o bleidwyr Canning yn awr yn dal golygiadau oedd yn fwy cydnaws â'r Whigiaid nag â'r blaid arall. O herwydd yr achosion hyn, gadawyd Russell heb sedd yn y cyfringynghor; ond cafodd ei dalentau eu cydnabod, nid yn unig trwy gael ei bennodi i'r swydd o bentalawdwr y byddinoedd, ond gan arwydd uwch o ymddiriedaeth; sef, er nad oedd efe yn aelod o'r cyfringynghor, cafodd ei nodi i dynu allan Fesur y Diwygiad, ac hefyd i'w ddwyn i mewn, a gofalu am ei gario trwy Dŷ y Cyffredin. Y rhai a enwyd gydag ef at y gwaith o'i dynu allan oeddynt Iarll Durham a Syr James Graham. Gosodwyd y cynllun o flaen y cyfringynghor, a mabwysiadwyd ef, gyda rhai cyfnewidiadau. A'r dydd cyntaf o Fawrth, 1831, dygwyd ef yn mlaen gan Arglwydd John Russell, mewn un o'r tai llawnaf a ymgynnullodd erioed o fewn muriau yr hen St. Stephan. Dygodd ei arglwyddiaeth y mesur i mewn gydag araeth dra ardderchog, deilwng o'r amgylchiad; a chafodd ganmoliaeth uchaf yr holl wlad. Hyd hyny, yr oedd meddyliau dynion wedi eu cyfeirio at y cwestiwn o ddiwygiad seneddol ynddo ei hun, heb ddyfod i unrhyw benderfyniad o berthynas i'r pellder y dylesid ei gario. Synodd y mesur bob plaid. Nid oedd y diwygwyr mwyaf brwdfrydig wedi meiddio gobeithio y buasai mesur mor eang, a chyflawn, a brwdfrydig, yn derbyn cefnogaeth gweinidogion y goron; ac o blegid hyny, yr oedd y llawenydd o'i gael yn fawr. Yn nhrefydd mawrion y deyrnas, yr oedd masnach i raddau yn cael ei hesgeuluso; nid oedd dim yn cael siarad am dano yn mron ond y rhagolwg y byddai i'r dosbarthiadau canol ennill eu hawliau a'u safle yn y wladwriaeth—hawliau oedd wedi eu cadw rhagddynt cyhyd. Yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, cyfeiriai yr hanesydd Macauley at y "brwdfrydedd dros fesur y diwygiad, a thros y weinyddiaeth ryddfrydig, oedd drwy yr holl wlad y pryd hwnw, pan yr oedd dymuniadau miliynau wedi eu sylweddoli drwy y fuddugoliaeth a ennillwyd—pan yr oedd cannoedd yn disgwyl bob nos o gwmpas drysau Tŷ y Cyffredin hyd gyfodiad haul, i glywed am y llwyddiant—pan yr oedd yn ninasoedd mawrion yr ymherodraeth filoedd yn troi allan i gyfarfod y llythyr-gerbydau o'r brif ddinas er cael gwybod pa fodd yr oedd brwydr fawr y bobl wedi ei hymladd a'i hennill."

Yr oedd angen am frwdfrydedd mawr dros y mesur, o blegid nid oedd ei wrthwynebwyr yn ychydig na di-sêl. Pan ddaeth yr ail ddarlleniad o hono yn mlaen ar yr 22ain o fis Mawrth, cariwyd ef gan fwyafrif o un yn unig, mewn Tŷ yn yr hwn yr oedd 603 o'r aelodau yn bresennol. Ond y mis canlynol, cariwyd gwelliant mewn pwyllgor, a ystyrid yn ddinystriol i gyfanrwydd y mesur:—ac ar Ebrill 22ain, darfu i'r brenin, mewn cydsyniad â chynghor y gweinidogion, dori y senedd. Yr oedd y bobl yn penderfynu yn awr na byddai un camgymmeriad yn mherthynas i olygiadau eu haelodau trwy y deyrnas. Nid oedd ond un ymrwymiad yn cael ei ofyn gan yr etholwyr i'r ymgeiswyr, sef ar fod iddynt gefnogi mesur y diwygiad—yr holl fesur, a dim ond y mesur. Dychwelwyd mwyafrif mawr o aelodau oedd yn bleidiol iddo. Etholwyd Arglwydd John Russell—yr hwn hyd yma a fuasai yn cynnrychioli bwrdeisdrefi bychain yn unig,

Digitized by Google

RUMSEY, WALTER. Ganwyd ef yn Llanofer, yn sir Fynwy, yn y fl. 1584. Bu yn efrydu y gyfraith yn Gray's Inn, lle y pennodwyd ef yn fargyfreithiwr, yn feingciwr, ac yn ddarllenydd y Grawys. Yn 1635, gwnaed ef yn ynad cylchdaith Brycheiniog; ac yn 1637, yn brif ynad; o'r hon swydd y symmudwyd ef yn ystod gwerin-lywodraeth Cromwell. Yr oedd efe mor enwog yn ei alwedigaeth fel yr adwaenid ef yn gyffredin wrth yr enw 'Pigiwr Cloion y Gyfraith.' Yn 1640, etholwyd ef yn aelod seneddol dros sir Fynwy. Dechreuodd ar ei yrfa yn Westminster Ebrill 13eg. Dewiswyd ef eilwaith i eistedd yn y senedd hir:—ond gwrthododd. Ysgrifenodd ddisgrifiad o'r offeryn cywrain a elwir *Provang*, a'r dull o'i ddefnyddio; a chyhoeddwyd ef mewn llyfryn, dan y teitl, *Organon Salutis:—an Instrument to cleanse the Stomach*, 1657—9; at yr hwn y chwanegodd *Divers New Experiments of the Virtue of Tobacco and Coffee*. Bu farw yn y fl. 1660, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn eglwys Llanfor.

RUNEBERG, JOHAN LUDVIG. Bardd cenedlaethol Finland oedd efe, a'r bardd enwocaf o bawb ar a ysgrifenasant yn yr iaith Swedaidd. Ganwyd ef yn Jacobstad, yn Finland, Chwefror 5ed, 1804. Ei weithiau cyhoeddedig ydynt, *Lyric Poems* (1830); *The Grave in Perrho* (1831), am ba un y rhoddwyd bathodyn aur iddo gan yr Athrofa Swedaidd; *The Elk-hunters* (1832), yr hwn a ystyrir yn gyfansoddiad o'r radd flaenaf; *Poems* (1833), yn cynnwys darnau godidog o fugeilgerddi arwrol, megys *Christmas Eve*, a *Hanna*. Yn 1837, cafodd y swydd o ddarllenydd llenyddiaeth Rhufeinig yn Ngholeg Borga—lle y bu farw Mai 6ed, 1877. Yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn, ysgrifenodd amryw ddarnau godidog o farddoniaeth glasurol ac uchelryw.

RUPERT, Y TYWYSOG. Trydydd mab yr Etholwr Frederick V., o Elizabeth, merch i Iago I., brenin Lloegr. Ganwyd ef yn Prague, Rhagfyr 18fed, 1619; yn mhen o ddeutu mis ar ol eu coroniad yn frenin a brenhines Bohemia. Treuliodd flwyddyn a hanner yn llys brenhinol Lloegr; yna, bu yn gwasanaethu am flwyddyn yn y rhyfel a adwaenir wrth yr enw *Thirty Years War*. Cymmerwyd ef yn garcharor yn Lemgo, a chaethiwyd ef am dair blynedd yn Linz. Yn 1642, dychwelodd i Loegr, a hyny mewn pryd i fod yn bresennol yn nyrchafiad lluman y brenin yn Nottingham; ac am y tair blynedd dyfodol, efe, y '*Mad Cavalier*,' fel ei gelwid, oedd enaid achos y brenin. Bu farw yn Llundain, Tach. 29ain, 1682, wedi treulio o hono y deng mlynedd olaf o'i oes i wneyd ymchwiliadau anianyddol, fferyllol, a pheirianyddol. Darganfyddodd fath neillduol o bylor, a elwir '*Prince's Metal*;' a gwellhaodd y gelfyddyd o gerfio, a elwir *mezzotint*.

RUSH, BENJAMIN. Meddyg Americanaidd oedd efe, a anwyd yn yr hyn sydd yn awr yn rhan o dref Philadelphia, Rhag. 24ain, 1745. Etholwyd ef i'r Gyngres Gyfandirol (*Continental Congress*); ac yn 1776, yn y cymmeriad hwn, llawnododd y Dadganiad o Annibyniaeth (*Declaration of Independence*). Yn Ebrill, 1777, pennodwyd ef yn llaw-feddyg cyffredinol; ac yna yn Ngorphenaf yn physygwr cyffredinol, y fyddin gyfandirol. Yn y fl. 1778, rhoddodd ei swyddau yn y fyddin i fyny, a dychwelodd at ei ddyledswyddau blaenorol o athraw fferylliaeth yn Ngholeg Meddygol Philadelphia. Efe oedd sefydlydd Clafdy Philadelphia, a Choleg y Physygwyr; a bu yn hynod weithgar gyda'r sefydliad o ysgolion cyhoeddus. Bu farw ar Ebrill 19eg, 1813.

RUTHERFORD, SAMUEL. Pregethwr a duwinydd Ysgotaidd enwog oedd efe, a anwyd yn mhentref bychan Nisbet, ger Jedburg, tua'r fl. 1600. Wedi graddio yn 1621, arweiniodd ei dalentau eithriadol yn mhen dwy flynedd i'w bennodiad yn athraw yn un o'r colegau; ond rhoddodd y swydd hon i fyny yn fuan, gan ddychwelyd at ei efrydiau mewn duwinyddiaeth. Trwy ddylanwad Gordon o Kenmure, wedi hyny Is-Iarll Kenmure, ymsefydlodd fel gweinidog yn Anwoth yn 1627. Arferai godi am dri yn y boreu i weddïo ac i ddarllen; ac am ei weinidogaeth, dywedir ei fod bob amser naill ai yn gweddïo, yn pregethu, yn ymweled â'r cleifion, yn ysgrifenu, neu yn darllen. Yr oedd yn un o bregethwyr rhagoraf ei oes. Tra yn aros yn Anwoth yr ysgrifenodd efe y llyfr bychan hwnw a ennillodd, pan yn cael ei gyhoeddi, y teitl o fod y llyfr mwyaf seraphaidd yn holl lenyddiaeth y wlad. Dywedodd Baxter na welodd y byd erioed y fath lyfr, ac eithrio y Beibl; a chredai Mr. Spurgeon yr un fath. Yn y fl. 1636, daeth ei *Exercitationes de Gratia* allan yn Amsterdam—llyfr wedi ei gyfeirio yn benaf yn erbyn yr Arminiaid. Ar ol cyhoeddiad hwn, gwahoddwyd ef i lanw cadair dduwinyddol yn Holland. O herwydd y gwaith uchod, a'i anghydffurfiad yntau â seremonïau esgobaethol, gwysiwyd ef ger bron Llys yr Uchel Ddirprwywyr yn Wigtown, Gorphenaf 27ain, 1636. Amddifadwyd ef o'i swydd fel gweinidog, ac yna alltudiwyd ef i Aberdeen. Arosodd yno o Medi, 1636, hyd Chwefror, 1638, gan dreulio ei amser yn ysgrifenu llythyrau, yn cweryla gyda'r esgobaethwyr, ac yn gofidio yn ei galon o herwydd ei 'Sabbathau mud,' fel y galwai hwynt. Wedi ei adferiad i Anwoth, cafodd ei bennodi, yn 1639, yn broffeswr duwinyddiaeth yn Mhrifysgol St. Andrews; yna daeth yn gydweithiwr â Robert Blair, yn eglwys St. Andrews; ac yn 1647, cafodd y swydd o brifathraw y Coleg Newydd. Yn flaenorol i hyn, sef yn 1643, anfonwyd ef i Gymmanfa Westminster, fel dirprwywr oddi wrth Eglwys Ysgotland; yr hyn a ddengys ei fod yn ŵr o gryn bwysigrwydd a dylanwad yn nghylchoedd eglwysig y wlad. Yn 1644, cyhoeddodd ei *Due Right of Presbyteries;* a *Lex Rex;* yn 1645, *Trial and Triumph of Faith;* ac yn 1647, *Christ Dying and Drawing Sinners to Himself*. Ysgrifenwyd *Lex Rex* mewn ysbryd rhy feiddgar i fod yn gymmeradwy yn ngolwg llywodraeth Siarl II.; a llosgwyd ef gan y crogwr cyhoeddus yn Edinburgh, a chan ŵr o'r enw Sharpe yn St. Andrews, yn 1661. Amddifadwyd Rutherford o'i swyddau hefyd, a gwysiwyd ef i atteb y cyhuddiad o deyrn-fradwriaeth yn y senedd ganlynol. Derbyniodd y wŷs ar ei wely angeu; ac anfonodd atteb i'r perwyl fod yn rhaid iddo atteb gwŷs oddi wrth lys uwch! Bu farw Mawrth 29ain (nid 20fed, fel sydd ar gareg ei fedd), 1661, a chladdwyd ef yn St. Andrews. Codwyd cofadail iddo yn Anwoth

Digitized by Google

# S.



SAIN-FWYADUR (*Microphone*): offeryn cyffelyb i'r pell-seinyr (*telephone*), a'r mwyaf perffaith sydd wedi ei ddyfeisio hyd yn hyn i drosglwyddo seiniau. Y Proffeswr D. E. Hughes yw y dyfeisydd. Gellir ei ddisgrifio yn fyr fel y canlyn. Y mae ystyllen deneu yn cael ei gosod yn syth ar fwrdd, ar un tu i'r hon y mae dau ddarn bychan o nwy carbon wedi eu sicrhau, un yn agos i'r top, a'r llall i'r gwaelod. Y mae dau dwll wedi eu cafnu iddynt fel ag i ffurfio math o gwpanau, i dderbyn pen dwy wïalen syth o garbon. Ceir fod y sain neu y cryniad lleiaf ar yr ystyllen yn effeithio ar demigau y carbon; ac y mae hyn yn effeithio ar y ffrwd sydd yn pasio trwy wifren drydanol sydd yn cyssylltu y ddau garbon ynghyd. I ddefnyddio iaith y dyfeisydd ei hun—"Nid yn unig y mae sain clywadwy a geiriau yn cael eu cipio a'u trosglwyddo i orsaf bell yn hollol eglur; ond y mae y sigliadau lleiaf yn cael eu troi yn sŵn mawr. Y mae y cyffyrddiad ysgafnaf â'r ystyllen—ïe, y mae hyd yn oed cyffyrddiad â phwyntel o flew camel yn cael ei lusgo ar hyd y bwrdd ar ba un y gosodir yr offeryn—yn ddigon i beri sŵn eglur. A'r hyn sydd ryfeddach drachefn—y clywir cerddediad gwybedyn wrth symmud dros y bwrdd yn hollol hyglyw gan berson y byddo ei glust wrth y pell-seinyr, er y gall efe fod filldiroedd o bellder." Dylid cofio, fod y sain-fwyadur, i ddybenion ymarferol, yn cael ei ddefnyddio gyda'r pell-seinyr.

Y mae cyfleusderau i'w cael yn fynych yn y *Polytechnic Institution*, a sefydliadau cyhoeddus eraill, i weled y sain-fwyadur yn gweithio. Yn y *Polytechnic* yr oedd rhan o'r peiriant mewn neuadd fechan, a'r gweddill mewn tŷ yn Cavendish Square, a'r ddau ddarn yn cael eu cyssylltu ynghyd gan wifren drydanol. Yr oedd seiniau oddi wrth darawiad pluen, disgyniad darn o bapur, curiad oriawr, a chwareuad blwch cerddorol—oll yn cyrhaedd y glust yn hyglyw ar ol teithio dros chwarter milldir o wifren.

Nid ydyw yn un rhyfedd fod dynion meddylgar yn ymdrechu yspïo yn mlaen i'r dyfodol gyda golwg ar weithrediadau yr offeryn hynod hwn. Trwy gyfrwng y sain-fwyadur y mae cyffyrddiad bys i'w glywed fel sŵn gwynt mewn coedwig bell; cyffyrddiad brws o flew camel ar gerdyn yn debyg i sibrwd uchel; a churiad oriawr neu guriad y galon i'w clywed trwy bellderau nas gellir yn awr nodi terfynau iddynt. O barthed i sŵn gwybedyn, ebai Mr. Preece, "Yr wyf fy hunan wedi clywed drwyddo gerddediad gwybedyn ar draws bocs, ac yr oedd y sŵn agos mor uchel a phe buasai geffyl yn croesi pont goed." Ysgrifena un fel hyn—"Gobeithir y bydd i'r sain-fwyadur gyfleu i ni sain y sudd sydd yn rhedeg i fyny goed a phlanhigion pan yn tyfu, am ba un y dywedai Humboldt y gallai ei fod yn beroriaeth barhaus yn nghlywedigaeth creaduriaid manaf y ddaear. Ië, fe allai ei fod yn bossibl i ni glywed y glaswellt yn tyfu." O bossibl na wna y ddyfais hon, i ryw raddau, leihau anfanteision y mud a'r byddar. Y mae llawfeddygon yn gwneyd ymchwiliad ai nid ellir cael allan belen guddiedig mewn clwyf trwy gyfrwng y sain-fwyadur, neu ddarn bychan o asgwrn mewn cnawd archolledig, neu ddarn o ddant yn y dannedd-le (*gums*); neu, ai nid ellir deall a chael allan anhwylderau eraill trwy ei ddefnyddio yn well nag yr ydys yn gallu yn awr? Amser a ddengys i ba ddefnyddioldeb ymarferol y gellir troi yr offeryn cywrain hwn.

SAIN-FYNEGYDD (*Phonograph*): offeryn hynod, o ddyfeisiad diweddar, sydd yn alluog i gadw seiniau, a'u hadgynnyrchu. Nid oedd neb wedi llwyddo gydag un ddyfais i wneuthur hyn hyd yn ddiweddar. Yr oedd rhai o ddyfeisiau y Mri. Leon Scott, Wheatstone, a Marcy yn myned i'r cyfeiriad hwn. Ac yr oedd Mr. W. H. Barlow, drwy ei *logograph*, wedi dyfeisio peiriant i alluogi seiniau i amlygu eu hunain mewn modd gweledig. Ond er fod dyfais Mr. Barlow, yn ddiammheu, yn gywrain iawn, nis gallai adgynnyrchu y seiniau a gofnodid; ac yn y peth hwn gwahaniaethai yn fawr oddi wrth yr offeryn a adwaenir wrth yr enw sein-fynegydd. Ni wyddai y byd ddim am y ddyfais hon hyd yn agos i ddiwedd y flwyddyn 1877—pan y daeth Mr. Edison un diwrnod i swyddfa y "*Scientific American*," yn Efrog Newydd, ac y gosododd beiriant bychan ar fwrdd y golygydd. Rhoddodd dro mewn *handle*, ac ar unwaith dechreuai y peiriant siarad â'r golygydd, gan ddywedyd wrtho ei fod yn hollol iach, &c. Wrth gwrs, yr oedd syndod y golygydd yn fawr. Pan y cofnodwyd y ffaith yn ngholofnau y cyfnodolyn, mawr yn wir oedd syndod y darllenwyr hefyd; ac yr oedd ymofyniad yn eu mysg pwy oedd y dyfeisydd. Yr atteb oedd, mai Thomas Elvey Edison, Jersey Newydd, oedd y gŵr; yr hwn a gymmerodd allan freinteb ar ei ddyfais yn Ionawr, 1878.

Gadawer i ni weled pa fodd y mae y cantwr, neu y llefarwr, yn gallu cerfio ei lais ar y ddalen alcan sydd ar wyneb y rhôl (*cylinder*) ar ba un y cymmerir ef i lawr. Pan y mae llais yn siarad yn ngenau yr offeryn, y mae cryniad yn cymmeryd lle mewn darn o fettel teneu sydd ar un ochr i'r rhôl, a math o bwyntel dur yn symmud yn ol ac yn mlaen ar hyd-ddi; ac y mae y marciau a wneir yn ysgafnach, neu yn drymach, yn ol fel y byddo y seiniau, yn uchel neu yn isel. Ond pa fodd y gall y ddalen alcan ail adrodd yn hyglyw i'r cyhoedd yr araeth neu y gân a dderbyniodd? Dyma nodwedd brydferthaf y ddyfais

Digitized by Google

hon; ac etto y mae hyn yn cael ei wneyd mewn modd hynod o syml. Y mae y rhôl yn cael ei ddwyn i'w safle wreiddiol, a'i gylchdroi; ac y mae y rhiciadau yn y ddalen alcan yn rhoddi ysgogiad i'r pwyntel dur; ac y mae hyny yn peri i'r ddalen ddirgrynu, nes y mae tônau soniarus yn cael eu ffurfio yn yr awyr yn y man lle y rhoddir y genau. Nid ydyw adgynnyrchiad y seiniau yn y rhan fwyaf o'r manylion ond gweithrediad croes yn yr offeryn i'r hyn a'u cynnyrchodd ar y cyntaf. Y mae yn mron bob rhan o'r peiriant wedi ei wellhau o bryd i bryd; etto y mae ei egwyddor yn aros yr un. Maintioli cyfleus i'r rhôl bres ydyw pum modfedd o hyd, a thua tair neu bedair o drawsfesur. Yn ddamweiniol y digwyddwyd cymmeryd dalen alcan fel gorchudd y rhôl; ond y mae wedi ei brofi yn ddefnydd rhagorol, gan ei fod yn dal ac yn cadw marciau mân iawn. Gellir defnyddio yr un ddalen ddwy neu dair gwaith drosodd i adgynnyrchu yr un seiniau; a disgwylir, gyda gofal priodol, y gellir gwneyd hyny ddeg neu ddeuddeg o weithiau. Pan y cylchdröir y rhôl yn chwyrn, clywir math o sain main plentynaidd; cylchdro araf a ddyry sŵn bâs anhyfryd: gan hyny cylchdro cymmedrol sydd yn rhoddi y sain mwyaf dymunol. Dealler, os bydd cenadwri, araeth, neu gân, i gael ei hadgynnyrchu fod yn rhaid defnyddio yr un ddalen, pa un bynag a ddefnyddir yr un sain-fynegydd, ai peidio. Rhaid i ddau gyfaill a fyddont yn cyfathrachu mewn pellder oddi wrth eu gilydd gael dau offeryn fyddont yn hollol yr un fath; rhaid i'r ddalen argraphedig gael ei chymmeryd oddi ar y rhôl gan *A*, a'i danfon gyda'r llythyrgod, neu ryw ffordd arall, i *B*, a'i rhoi yn ofalus am ei rôl gan *B*, i'r dyben iddi draethu wrtho yn hyglyw pa beth a ddywedodd *A*. Y mae offeryn yn siarad yn y modd hwn yn creu syndod hyd yn oed yn y rhai sydd wedi ymarfer fwyaf âg ef. Gellir ystorio geiriau i fyny yn y modd hwn am unrhyw amser, a'u danfon i unrhyw le. Gellir siarad wrth ddarn o ddalen alcan yn y wlad hon, ac i'r ddalen hono ei adrodd drachefn yn hyglyw wrth gyfaill yn America neu Awstralia. Y mae y peiriant hwn yn awr i'w weled mewn lleoedd cyhoeddus, megys y *Polytechnic Institution*, ysgolion, &c.

Ond er mor ragorol ydyw yr offeryn rhyfedd hwn, y mae ynddo ddiffygion, y rhai yn ddiau gydag amser a wellheir. Nid ydyw yr efelychiad o'r llais yn wir dda: y mae yn rhy debyg i gryglais. Yn ammherffaith y seinir y llythyrenau *s*, *z*, a *th*; yn wir, y mae yr *s* yn mron yn cael ei cholli yn nechreu a diwedd geiriau. O'r braidd hefyd y gellir gwahaniaethu *d* oddi wrth *t*, neu *m* oddi wrth *n*. Mor bell ag y mae a fyno efelychiad â'r cwestiwn, efelychir canu yn well na siarad. Er hyny, fe allai y gellir dywedyd fod y sein-fynegydd, nid yn unig yn gyfartal, ond yn rhagori ar y llais gwreiddiol mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft. os bydd gan y siaradwr wefus ddiffygiol, neu enau anffurfiol, nid ydyw y llafariaid yn cael eu seinio mor ddiffygiol pan yr adgynnyrchir hwy gan yr offeryn ag ydynt yn y llais gwirioneddol.

Y mae cryn ddyfalu ynghylch y defnydd a wneir o'r offeryn yma. Tybia rhai y bydd yn bosibl adgynnyrchu caneuon cantorion poblogaidd yn union fel y cenir hwynt ganddynt hwy: nid yn unig y nodau eu hunain, ond yr hynodion hyny sydd yn gwahaniaethu y naill gantor mawr oddi wrth y llall. Y mae rhai wedi awgrymu y possiblrwydd, fe allai, i drosglwyddo i lawr, trwy gyfrwng y sein-fynegydd, i oesoedd dyfodol, mewn llafnau o alcan, ond eu cadw yn briodol, y sain sillebawl a geiriol, a roddir i iaith, pan y byddo yr iaith hono wedi diflanu yn mron yn hollol o'r ddaear. Fel hyn y dywed Dr. W. F. Channing ar hyn:—"Bydd orielau yn mha rai y cedwir dalenau sein-fynegol fel y cedwir gwawl-ddarluniau a llyfrau yn awr. Cedwir yr hyn a draethir gan areithwyr mawrion, neu a genir gan gantorion enwog am fil o flynyddoedd. Yn yr orielau hyn, cedwir ieithoedd llafaredig o ganrif i ganrif, gyda holl neillduolion eu hacenjad a'u tafodiaith. Eir i neuaddau cyhoeddus, i glywed yno berlau mewn araeth a chân yn cael eu dwyn allan a'u hadgynnyrchu mor uchel, neu yn uwch, na phan y traddodwyd neu y canwyd hwynt gyntaf gan fawrion ac enwogion y ddaear."

SAMUEL, Y PARCH. EDWARD: y cyfieithydd enwog. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1674, mewn lle o'r enw Cwt y Defaid, yn mhlwyf Penmorfa, yn sir Gaernarfon. Tlodion oedd ei rieni; a dywedir mai Dr. Humphreys, esgob Bangor y pryd hwn, a'i cynnorthwyodd ef i fyned yn glerigwr. Nid oes dim lle i gasglu iddo fod erioed yn un o'r prif athrofeydd. Yn y flwyddyn 1702, cafodd barsoniaeth Bettws Gwerfil Goch, rhwng Corwen a Llanfihangel; ac ar ol bod yno am bedair blynedd ar ddeg, efe a symmudodd i blwyfoliaeth Llangar, yn yr un gymmydogaeth, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le ar yr 8fed o Ebrill, 1748, yn y 75ain flwydd o'i oedran. Claddwyd ef yn mynwent Llangar, ac y mae ei gareg fedd i'w gweled yno yn awr. Wyr i Edward Samuel ydoedd David Samuel, yr hwn a fu yn mordeithio o amgylch y byd gyda'r Cadben Cook yn y llong *Discovery*.

Ychydig o gyfansoddiadau gwreiddiol a gyhoeddodd Edward Samuel, ond cyfieithodd gryn lawer o lyfrau da, ac y mae gwedd fwy Cymreigaidd ar ei gyfieithiadau ef nag ar ysgrifeniadau gwreiddiol y rhan fwyaf o awduron Cymreig. Wele yn canlyn restr o'r pethau a gyhoeddodd:—1. "*Bucheddau yr Apostolion a'r Efengylwyr*, a gasglwyd allan o'r Ysgrythyr Lân, ac ysgrifeniadau yr athrawon goreu," 1704, 16plyg. 2. "*Gwirionedd y grefydd Gristionogol*," cyfieithiad o waith Hugo Grotius. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o hono gan John Rhydderch, o'r Amwythig, yn 1716, a'r argraphiad diweddaf gan Mr. Spurrell, o Gaerfyrddin, yn 1854. 3. "*Holl Ddyledswydd Dyn: gyda Duwiol-Swyddau Dirgel ar amryw Achosion*," 1718. 4. "*Prif Ddyledswyddau Cristion, sef Angenrhaid a Mawrlles Gweddi Gyffredin a Mynych Gymmuno*," o waith y Parchedig William Beveridge, D.D., esgob Llanelwy, 1722 a 1723. 5. "*Athrawiaeth yr Eglwys*. Y rhangyntaf:—yn cynnwys deuddeg o Draethiadau Bucheddol ar amryw achosion, gan Peter Nourse, D.D. At yr hyn y chwanegwyd Gweddiau Boreuol a Phrydnawnol i Deuluoedd, o waith y Parch. William Wake, D.D., Arglwydd Archesgob Caergaint." Argraphwyd ef yn Nghaerlleon, 1731. 6. "*Pregeth ynghylch Gofalon Bydol*, a bregethwyd yn eglwys Llangywer, yn mis Mai, 1720, ar gladdedigaeth Mr. Robert Wynn, ficer Gwyddelwern, 1731." 7. "*Pregeth ar Adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist*:" yr hon a gyhoeddwyd yn 1766. Cyfansoddodd Edward Samuel rai darnau prydyddol

Digitized by Google

hefyd, y rhai sydd i'w gweled yn "*Mlodeugerdd Cymru*," a'r "*Dewisiol Ganiadau.*"

SCHUBERT, FRANZ: un o gyfansoddwyr cerddorol enwocaf yr Almaen. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1797, yn Vienna—lle y bu fyw yn mron ar hyd ei oes. Mynai ei gyfeillion wneyd athronydd o hono; ond dangosodd o'i febyd duedd mor gref at gerddoriaeth, fel y gadawsant iddo o'r diwedd gael ei ffordd ei hun. Pan yr oedd yn saith mlwydd oed, aeth yn ddysgybl i Michael Holzer, ac wedi hyny i Salieri, ac i gôr-gantor y llys. Astudiodd weithiau Haydn, Mozart, a Beethoven hefyd, a rhoddai wersi mewn cerddoriaeth tuag at gynnal ei hun. Y mae rhifedi y darnau a gyfansoddodd yn ystod ei oes fer yn mron yn anhygoel, gan fod eu henwau yn unig yn llenwi deg tudalen ar hugain, wedi eu hargraphu mewn llythyren fân. Y rhai mwyaf cymmeradwy o honynt ydyw "Der Erlkönig," "Ave Maria," "Der Wanderer," a "Die Erwartung." Heb law y cyfansoddiadau hyn, ysgrifenodd gân-chwareuon (*operas*), offerdonau (*sonatas*), cyfundonau (*symphonies*), rhag-chwareuon (*overtures*), alawganau (*cantatas*), offerenau (*masses*), &c. Gadawodd ar ei ol lawer o weithiau heb eu cyhoeddi. Neillduolion cerddoriaeth Schubert ydyw gwreiddioldeb, dwysder teimlad, a nerth. Er adeg ei farwolaeth, y mae clod Schubert fel cyfansoddwr wedi bod yn ymledu yn raddol drwy holl Ewrop, ac y mae ei gerddoriaeth yn cael ei phrisio yn awr yn Mhrydain yn fwy nag y cafodd erioed o'r blaen.

Bu farw yn Vienna, ar y 19eg o fis Tachwedd, 1828. Y mae ei fywgraphiad gan Kreisle von Hellborn wedi ei gyfieithu i'r iaith Saesnig gan Arthur Duke Coleridge. Y mae *Schubert Society* hefyd wedi ei sefydlu yn ddiweddar yn Llundain.

SCHUMANN, ROBERT: cyfansoddwr cerddorol enwog, yr hwn y mae ei weithiau yn dra chymmeradwy yn ei wlad ei hun. Ganwyd ef yn Zwickau yn Saxonia, yn y flwyddyn 1810. Dangosodd yn foreu fod ganddo ddawn i gyfansoddi cerddoriaeth, ac i chwareu ar offerynau. Anfonwyd ef yn 1828, pa fodd bynag, i brif athrofa Leipsic, i astudio y gyfraith. Er mwyn boddloni ei fam y darfu iddo fel hyn fygu ei dueddiadau, ac ymgymmeryd âg astudiaeth ag oedd yn annymunol ganddo. Yn 1830, efe a berswadiodd ei fam i adael iddo roddi heibio y gyfraith, ac ymroddi i gerddoriaeth. Dododd ei hun dan addysg Wieck—merch yr hwn a briododd. Yn fuan wedi hyn, dechreuodd olygu y "*Neue Zeitschrift fur Musik*," ac yn 1844 symmudodd i Dresden. Bach, Beethoven, Mendelssohn, a Schubert oedd ei dduwiau cerddorol. Cyfansoddodd gerddoriaeth gyfaddas i ganeuon Heine, Ruckert, Chamisso, Burns, a beirdd eraill. Dygodd allan wedi hyn lawer o gyfansoddiadau perorfaol (*orchestral*). Ond cyn hir, daeth pruddglwyf mawr ar Schumann, a thaflodd hyny ei gysgod dros ei gerddoriaeth hefyd, gan ei gwneuthur yn fynych yn drymllyd a phoenus. Trodd y pruddglwyf hwn yn raddol yn wallgofrwydd anobeithiol; ac ar y 29ain o Orphenaf, 1856, bu farw yn Endenich, ger Bonn. Er fod Schumann, fel cerddor, yn cael ei ddiystyru a'i ddirmygu gan y rhan fwyaf ar y cyntaf, etto rhestrir ef yn awr yn mhlith y goreuon. Un o'i brif gynnyrchion ydyw yr alaw-gân a elwir "*Paradise and the Peri*"—geiriau yr hon a gyfieithwyd o gân Moore. Canwyd hi yn Llundain yn 1856; ond er cymmaint oedd swyn llais Jenny Lind, ni ddarfu i'r alaw-gân foddhau y bobl. Canwyd hi eilwaith yn 1866, ond ni chafodd gymmeradwyaeth y pryd hwnw chwaith. Ysgrifenwyd hanes bywyd Schumann gan Wasielewski, ac yn ddiweddarach gan Reissmann.

SEINIADAETH (*Acoustics*). Gwel SŴN.

SERVIA. Gwel EWROP YN 1879.

SOLARIO, ANTONIO DE; yr hwn, hefyd, a elwid 'IL ZINGARO,' neu y SIPSIWN; yr hwn, yn ol Dominici, a anwyd yn Chivita, yn yr Abruzzi, yn y flwyddyn 1382: ond eraill a dybiant mai Venetiad ydoedd efe. Un o'r bobl a adwaenid wrth yr enw 'Sipsiwn' oedd efe o ran ei enedigaeth; ac yn ei ieuengctid, teithiai ar hyd y wlad i weithio fel gôf, a mynegir iddo gael ei gymmeryd i mewn i gartref yr arlunydd Colantonio del Fiore yn Naples, o herwydd ei fedrusrwydd mawr fel gwneuthurwr offerynau heiyrn. Y mae o'r bron yr un chwedl yn cael ei hadrodd am Solario a'r hon a adroddir am Mastys, gôf Antwerp. [Gwel MASTYS, QUENTIN]. Syrthiodd Solario mewn cariad gyda merch Colantonio; a syrthiodd hithau mewn cariad âg yntau. Gwnaeth Solario ei feddwl yn hysbys i Colantonio; ond dywedai yr olaf na chydsyniai efe byth i'w ferch briodi â neb ond âg arlunydd a feddai o leiaf gymmeriad mor uchel ag ef ei hun. Nid oedd y Sipsiwn i gael ei ddigaloni yn y ffordd hon: gofynodd am gael deng mlynedd o amser i astudio y gelfyddyd, ac er mwyn boddloni ei ferch, cydsyniodd Colantonio â'r cais. Rhoddodd Solario ei hun yn ddysgybl i Lippo Dalmasi yn Bologna, gyda'r hwn yr arosodd am chwech neu saith mlynedd; ac wedi hyny, teithiodd trwy brif drefydd Italy mewn trefn i astudio gweithiau meistriaid eraill yn y gelfyddyd. Yn mhen ychydig gyda naw mlynedd, dychwelodd yn ddirgelaidd i Naples; ac wedi anrhegu brenhines Naples â darlun o'r Forwyn Fair, ac o'r bachgen Iesu yn cael ei goroni gan angylion, ac hefyd wedi cael caniatâd i baentio darlun o'r frenhines, gwahoddwyd Colantonio i weled cynnyrchion yr arlunydd anadnabyddus; a dadganodd yntau ei edmygedd mwyaf o honynt. Yna amlygodd Solario ei hun; ac yn fuan ar ol hyny, daeth yn fab-yn-nghyfraith i Colantonio. Sefydlwyd ei gymmeriad ar unwaith, a chafodd lawer o waith, yn enwedig yn Naples, i baentio allorau yr eglwysydd, ac addurno muriau mynachdai a thai crefyddol eraill. Yn ystum y pen a mynegiad y wynebpryd, ac yn rhagoriaeth a chyfoethogrwydd ei liwiau, y mae wedi cael ei gymmharu i Titian. Canmolir ef hefyd am agweddiad teleidwiw ei luniau; ond dywedir ei fod yn ddiffygiol mewn tynu y traed a'r dwylaw. Yr oedd Solario hefyd yn enwog iawn fel addurnwr llawysgrifau, ac yn enwedig Beiblau. Bu farw yn y flwyddyn 1455, yn 73ain mlwydd oed.

SUNNIAID: traddodiedyddion neu gredinwyr yn y *Sunna*:—yr hyn a arwydda ddywediadau ac esamplau Mahomet. Enw ydyw hwn a roddir ar y Moslemiaid 'uniawngred,' i'w gwahaniaethu oddi wrth y Sitiaid. Dosberthir hwy i bedair sect fawr; y rhai, er y gwahaniaethant ar byngciau dibwys, etto ydynt yn cydnabod eu gilydd, ac yn rhestru eu gilydd yn mhlith y

Digitized by Google

'ffyddloniaid,' ac yn 'ddeiliaid iachawdwriaeth;' ac y mae ganddynt oll gyssegrfa yn Mecca. Y flaenaf o'r sectau hyn ydyw yr Hanefitiaid, a sylfaenwyd gan Abu Hanifa; yr hwn a fu farw 150 o flynyddoedd ar ol sefydliad Mahometiaeth. Gelwir hwynt yn bennodol yn 'ddilynwyr rheswm,' tra y mae y tair sect arall yn cymmeryd eu harwain yn hollol gan draddodiad. Y maent hwy yn caniatau i reswm y rhan benaf yn eu penderfyniadau ar faterion cyfreithiol, &c. I'r sect hon yn benaf y perthyna y Tyrciaid a'r Tartariaid. Yr ail sect ydyw y Malekiaid, a sylfaenwyd gan Malek Ibn Ans; yr hwn a fu farw yn Medina 180 o flynyddoedd wedi sylfaenu Mahometiaeth. Fel un prawf mawr o ragoriaeth cymmeriad y gŵr hwn am ostyngeiddrwydd, dywedir, pan y gofynwyd am ei benderfyniad ar wyth a deugain o gwestiynau, na phenderfynai efe ond un ar bymtheg o honynt, gan addef yn rhwydd ei anwybodaeth ynghylch y gweddill. Yn Barbary, a lleoedd eraill yn Affrica, y mae ei ddilynwyr yn benaf. Mohammed Al Shâfei, a anwyd yn Palestina yn y fl. 150 o'r cyfnod Mahometaidd, ac a addysgwyd yn Mecca, oedd sylfaenydd y drydedd sect—y Saffeitiaid. Yr oedd efe yn elyn mawr i'r duwinyddion ysgolheigaidd, ac ymddengys ei fod yn ddyn o feddwl galluog a gwreiddiol. Ni byddai byth yn tyngu yn enw yr Arglwydd; a chymmerai amser i ystyried yn wastad pa un ai atteb cwestiwn a roddid iddo, a wnai, ai peidio. Anrhydeddid ef mor fawr fel y dywedai ei gydoeswyr am dano, ei fod "fel haul i'r byd, ac fel iechyd i'r corph;" a dywedid fod holl draddodiadau Mahomet yn huno hyd nes y daeth efe i'w dihuno. Y mae'n debyg mai efe oedd y cyntaf i roddi rheithofyddiaeth Fahometaidd mewn trefn. Yn Arabia a Phersia y ceir ei ddilynwyr yn awr liosocaf. Sylfaenydd y bedwaredd sect, sef yr Hanbaliaid, oedd Ahmed Ibn Hanbal. Ganwyd ef y fl. 164 o'r cyfnod Mahometaidd, ac yr oedd yn gyfaill mynwesol i Shâfei. Yr oedd ei wybodaeth o'r traddodiadau (o ba rai, meddir, y gallai adrodd miliwn) yn nodedig, a mynegir ei fod yn hynod am ei grefyddolder. Dysgai mai nid peth creedig oedd y *Coran;* ond ei fod yn bod erioed yn hanfod Duw—athrawiaeth, am gyhoeddi yr hon y ceryddwyd ef yn dost gan Caliph Al-Motasem. Dywedir na ddarfu i ddim llai nag ugain mil o Iuddewon, Cristionogion, swyddogion, ac anghredinwyr, gofleidio ffydd Mahomet ar ddydd ei farwolaeth ef. Buont unwaith yn dra lliosog; ond yn bresennol nis gellir cyfarfod â'r Hanbaliaid yn mron yn un man y tu allan i Arabia.

SACKVILLE, THOMAS:—IARLL DORSET. Bardd a gwladweinydd oedd efe, a anwyd yn Buckhurst, swydd Sussex, tua'r fl. 1536. Ei dad oedd Syr Richard Sackville, canghellydd y trysorlys. Dychwelwyd ef i'r senedd yn 1558, yn lled fuan wedi iddo gael ei alw at y bar yn y Deml Ganol. Gyda Thomas Norton cyfansoddodd treisgerdd (*tragedy*) mewn mesur diodl, a elwid *Ferrex and Porrex:*—y gyntaf a gyfansoddwyd yn yr iaith Saesnig. Gwaith arall o'i eiddo ydoedd *Induction to a Myrrour for Magistrates* (1563). Wedi hyny, dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth, dan y teitl o Arglwydd Buckhurst. Yn 1586, cafodd y gorchwyl poenus o ddarllen ei dedfryd marwolaeth i Mary, brenhines y Scotiaid. Gwnaed ef yn Iarll Dorset yn 1604. Bu farw Ebrill 19eg, 1608, tra yn eistedd yn Whitehall wrth fwrdd y cynghor.

SAERNAN. Cymmeriad hynod oedd efe, a flodeuodd yn y chweched ganrif. Mab ydoedd i Geraint Saer, o'r Iwerddon, a chladdwyd ef yn Llanynys, sir Ddinbych; oddi wrth yr hwn amgylchiad y priodolir y sylfaeniad o'r eglwys hono iddo. Nid yw Llywarch Hen yn derbyn y syniad hwn; o blegid dywed ef mai Mor ab Ceneu ab Coel oedd ei sylfaenydd.

SAFIN—yr hwn hefyd a elwid 'YR HEN SAFIN'—oedd foesolydd enwog, ac ysgrifenydd synwyr-wersi. Yr oedd efe yn enedigol o sir Forganwg, ac yn byw yn y rhan olaf o'r 16eg ganrif.

SAINT-SIMON, LOUIS DE ROUVROY, DUC DE. Un o lenorion penaf Ffraingc, a anwyd yn Paris, Ionawr 16eg, 1675. Yr oedd ei dad, yr hwn oedd yn 68ain mlwydd oed pan anwyd Louis, yn fath o wastrodyn i Louis XIII.; ond buan yr ymddyrchafodd o'r sefyllfa hon, gan ennill y teitl o ddug yn 1636. Rhoddwyd i'r bachgen y teitl o Vidame o Chartres; ac wedi derbyn o hono ei addysg gartref ac yn Athrofa Rochefort, ymunodd â'r gwasanaeth gwladol fel milwr yn nghatrawd deuluaidd y brenin, yn y fl. 1691. Gadawodd y fyddin yn 1702; ac am amser ar ol hyny, yr oedd mewn anghydfod parhaus â'r bendefigaeth ar amryw o gwestiynau a materion a ymgodent i sylw. Cymmerodd ran flaenllaw ar ol hyn yn helyntion gwladol Ffraingc. Byddai weithiau yn ffafr, a phryd arall dan ŵg y frenhiniaeth. Ar farwolaeth y Duc o Orleans, yn 1723, ymneillduodd o fywyd cyhoeddus. Bu farw yn Paris, Mawrth 2il, 1755.

O ddeutu y flwyddyn 1739, dechreuodd Saint Simon ysgrifenu ei Frutiau (*Memoires*), yr hwn waith a gwblhaodd tua 1752. Ystyrir y Brutiau hyn yn gampwaith o gelfyddyd lenyddol. Ymddangosodd cyfrol o ddyfyniadau anghyflawn o hono yn Brussels yn 1780; ond yn 1830 yr ymddangosodd yr argraphiad awdurdodedig cyntaf. Modd bynag, yr argraphiad cyflawnaf yw yr hwn a gyhoeddwyd mewn ugain cyfrol, ac a olygwyd gan Chéruel yn y flwyddyn 1856. Ond yn 1871 y dechreuodd yr argraphiad terfynol o'r *Memoires* anghymmharol hyn ymddangos; ac erbyn 1891, yr oedd yr wythfed gyfrol allan. Tua'r flwyddyn 1857, cyhoeddwyd argraphiad Saesneg talfyredig o honynt, mewn pedair cyfrol.

ST. VINCENT, IARLL. Ganwyd ef yn Meaford Hall, swydd Stafford, Ionawr 9fed, 1734. Diangodd ymaith o'i gartref pan yn fachgen, i fyned i'r môr; ac nid hir y bu heb roddi arwyddion fod iddo ddyfodol disglaer yn llynges ei wlad. Erbyn 1754, yr oedd wedi cyrhaedd y safle o îs-gadben yn y llynges; ac yn mrwydr Quebec, yn 1759, dangosodd y fath wroldeb fel y dyrchafwyd ef i fod yn llywydd y llynges. Yn 1793, llywyddodd y rhan forawl o'r ymosodiad llwyddiannus a gymmerodd le yn erbyn yr ynysoedd Ffrengig yn India y Gorllewin. Yn 1795, pan wedi ei ddyrchafu yn llyngesydd llawn, efe a bennodwyd yn llywydd y rhyfel-longau Prydeinig yn Môr y Canoldir. Ar y 14eg o Chwefror, 1797, daeth i gyfarfyddiad â llynges Yspaen, ger llaw Penrhyn St. Vincent. Er fod llongau y gelyn yn lliosocach na'r rhai oedd dano ef, penderfynodd ymladd; ac ennillodd y fuddugoliaeth. Mewn canlyniad

Digitized by Google

i'r oruchafiaeth hon, gwnaed ef yn Iarll St. Vincent gan y brenin, a rhoddwyd blwydd-dal o 3,000*p.* iddo gan y senedd. Wedi iddo, trwy ei benderfyniad, attal i derfysg dori allan ar ei ryfel-longau ger llaw Cadiz, yr hyn, am amser, a beryglodd yr holl lynges, gorfodwyd ef i ddychwelyd adref gan waeledd ei iechyd. Yn lled fuan, modd bynag, gwnaed defnydd o'i wasanaeth gan y llywodraeth i ddarostwng yr ysbryd cythryblus a dorodd allan yn mysg dwylaw y llynges yn Môr y Canoldir; ac yn hyn, drachefn, bu yn hynod lwyddiannus. Bu yn dal y swydd o brif arglwydd y morlys am dair blynedd—1801—4; a dygodd o amgylch ddiwygiadau gwir angenrheidiol yn y llynges yn ystod y tymmor hwnw. Bu farw Mawrth 13eg 1823; a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol St. Paul.

SALISBURY, Parch. JOHN. Gwel cyf. x.

SALISBURY, THOMAS. Bardd a beirniad enwog oedd efe, a flodeuodd rhwng 1580 a 1620. Preswyliai yn Llundain; ac yn y flwyddyn 1603, argraphodd Salmau Cân y Cadben William Myddleton, mewn cyfrol 4 plyg. Y mae llythyr oddi wrtho, cyfeiriedig at yr enwog Syr John Wynn, o Wydr, dyddiedig Mehefin 22ain, 1611, yn argraphedig yn cyf. i. o'r *Cambro-Briton.*

SAADI: awdwr Persiaidd enwog. Ganwyd ef yn ninas Shiraz, yn y flwyddyn 1175. Hwyrach ei fod yn fwy cydnabyddus i ddarllenwyr Ewropaidd nag unrhyw fardd neu ysgrifenydd dwyreiniol, oddi eithr Mahomet. Arweiniodd fywyd mynach, neu offeiriad Tyrcaidd crwydredig, a threuliodd y rhan fwyaf o'i flynyddoedd boreuol i deithio o'r naill wlad i'r llall. Yn nghwrs y teithiau hyn, cymmerwyd ef yn garcharor gan y Croesgadwyr, a rhoddwyd ef i weithio ar amddiffynfeydd Tripoli. Prynwyd ef o'r caethiwed hwn gan farsiandwr cyfoethog; yr hwn wedi hyny a roddodd ei ferch yn wraig iddo, gyda chynnysgaeth o gant o ddarnau aur gyda hi. Rhoes y foneddiges brawf llym ar amynedd y bardd. "Unwaith," medd efe, "hi a'm ceryddodd, ac a ddywedodd, 'Ai nid tydi ydyw yr hwn a brynwyd gan fy nhad o gaethiwed yn mhlith y Ffrangciaid am ddeg *dinar* (darnau o aur)?'" "Ië," attebais innau, "efe a'm prynodd am ddeg *dinar*, ac a'm rhoddodd yn eich llaw am gant o honynt.'" Mynegir chwedl arall am dano yn cyfarfod â brawd o fardd; sef, Hemam o Tabriz, yr hwn, gan ei fod yn anhysbys o enw, ac yn gwybod dim ond enw lle genedigol ei gydymaith, a ddaliodd o'i flaen waelod cwpan (yr oedd y Shiraziaid yn hynod am fyned yn foel yn ieuaingc), a gofynai, "Pa ham y mae penau y Shiraziaid fel gwaelod y gwpan hon?" Trodd y mynach ato enau y gwpan, fel ag i'r gwagle fod ato, a gofynodd "Pa ham y mae penau y Tabriziaid fel y gwagle hwn?" Gofynai Hemam a oedd efe yn gydnabyddus â phennillion Saadi; ac adroddodd y mynach un o'r rhai prydferthaf o honynt. Yna efe a ofynodd "A ydyw y bobl yn mawrygu pryddestau Hemam?" Attebodd Saadi trwy gyfeirio at ddwy linell brydferth o waith y blaenaf, yn y rhai yr arwyddai y bardd ei awyddfryd am adnabod yr olaf:—ac yn y modd hwn y daeth y ddau fardd i gydnabyddiaeth â'u gilydd.

Bu farw Saadi yn 1291, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 116 o flwyddi; wedi treulio, meddir, ddeg ar hugain o honynt mewn teithio a gwasanaeth milwrol, yn ystod pa rai y bu yn crwydro mor bell ag India ar un llaw, ac Asia Leiaf, neu ddwyreinbarth Ewrop, ar y llall; a deg ar hugain arall mewn unigedd neillduedig, yn myfyrio ar y pethau a fu o dan ei sylw yn nhymmor blaenorol ei fywyd; a'r deuddeg olaf o flynyddoedd ei oes i gyfleu mewn ffurf barhaol ffrwyth ei sylw a'i fyfyrdod. Bu ar bererindod yn Mecca bymtheng waith yn ystod ei oes faith.

Argraphwyd holl weithiau Saadi, yn yr Arabaeg a'r Persiaeg gwreiddiol, mewn dwy gyfrol, yn Calcutta, yn 1807; ac yn nechreu y gyfrol gyntaf, y mae bywgraphiad dyddorol o'r awdwr, gan Harrington, y golygydd.

SAALABBIN: tref yn nhiriogaeth Dan, yr hon a enwir rhwng Ir-semes ac Ajalon: *Jos.* xix. 42. Bu y Daniaid am gryn amser, modd bynag, cyn difeddiannu yr Amoriaid o honi: *Barn.* i. 35. Yn amser Solomon, enwir hi fel lle yr oedd un o'r deuddeg swyddog a appwyntiasid gan y brenin i ddarparu lluniaeth iddo ef a'i dŷ: 1 *Bren.* iv. 9. Perthynai un o gedyrn Dafydd i'r lle hwn: 2 *Sam.* xxiii. 32; 1 *Cron.* xi. 33. Enwir y lle gan Eusebius a Jerome, a sonir am dano fel pentref mawr yn nosbarth Samaria, ac a elwid y pryd hwnw yn Selaba. Ond nid ydyw yn hawdd deall hyn; canys heb law yr hyn a fynegir gan Josephus ["*Hynaf. Iudd.*," v. 1, *adr.* 22], sef, fod tiriogaeth y Daniaid yn cyrhaedd cyn belled i'r gogledd a Dor, nid oes genym ddim i'n harwain i gredu fod un o'u trefydd yn agos i Samaria, tra y mae Saalabbin yn cael ei henwi yn gydiol âg Ir-semes ac Ajalon, a gwyddys yn lled sicr fod y ddau le diweddaf o fewn cylch rhyw bymtheng milldir i Ierusalem. Y mae hyn gan hyny yn milwrio yn erbyn y syniad ei bod yn nosbarth Samaria. Nid oes un lle ag y mae tebygrwydd yn yr enw rhyngddo a Saalabbin wedi ei ddarganfod hyd yma.

SAALBONIAD. Yr oedd Eliahba y Saalboniad yn un o ddau ar bymtheg ar hugain cedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 32; 1 *Cron.* xi. 33. Brodor oedd efe o le a elwid Saalbon; lle am yr hwn nid oes genym grybwylliad yn un man arall, os nad yr un lle ydyw a Saalabbin, yr hon oedd yn nhiriogaeth Dan.

SAANAN: lle a enwir gan Micah (*Micah* i. 11) yn ei anerchiad i ddinasoedd yr iseldir. Y mae y frawddeg hon, fel ereill yn yr un man, yn chwareu ar eiriau sylfaenedig ar ystyr (neu ar ystyr tybiedig) yr enw Saanan, fel yn ddeilliedig o'r gair *yatsah*, 'i fyned allan.' "Ni ddaeth preswylferch Saanan allan." Yr un lle yn ddiau oedd Saanan a Senan. Gwel Senan.

SAAPH: mab Caleb, brawd Ierameel, o'i orddderchwraig Maachah. Gelwir ef yn dad, hyny ydyw, yn sylfaenydd, tref Madmannah: 1 *Cron.* ii. 49.

SAARAIM, neu yn gywirach, Saarim. Dinas yn nhiriogaeth Iudah: *Jos.* xv. 36. Yr oedd yn un o'r dosbarth cyntaf a enwir o drefydd yr iseldir neu y dyffryn, yr hwn a gynnwysai Soreah, Iarmuth, a Sochob, ac ereill hefyd nad ydys hyd yn hyn wedi eu darganfod. Crybwyllir enw y lle hwn drachefn mewn cyssylltiad â'r ymlidiad a gymmerodd le mewn canlyniad i waith Dafydd yn lladd y cawr Goliath, pryd y cwympodd y

clwyfedigion "ar hyd ffordd Saaraim; sef, hyd Gath, a hyd Ecron;" 1 *Sam*. xvii. 52. Y mae y ddau grybwylliad yma yn hollol gysson â'u gilydd. Syrthiodd Goliath, dybygid, mewn lle a elwir yn awr yn *Wady es-Sumt*, gyferbyn â pha un y safai Sochob ac Iarmuth; ac yr oedd Gath ychydig filldiroedd i'r gorllewin o Sochob; tra y gorweddai Ecron yn mhellach i'r gogledd drachefn. Gan hyny, y mae yn rhaid chwilio am Saaraim, mae'n debyg, ar lechweddau isaf y bryniau, ar ymylon y dyffryndir mawr. Crybwyllir am y lle unwaith yn rhagor; sef, yn rhestr dinasoedd Simeon: 1 *Cron*. iv. 31. Gan fod tiriogaeth Simeon yn gorwedd yn y rhan isaf o Iudah, lawer o filldiroedd i'r deheu o'r ardal a nodir uchod, y mae yn eglur mai nid yr un Saaraim a olygir yma.

SAAVEDRA, MIGUEL DE CERVANTES: awdwr enwog "*Don Quixote*." Ganwyd ef yn Alcala de Henares, ar y 9fed o Hydref, 1547. Deilliai o deulu hynafol a ddaethent yn wreiddiol o Gallicia, ond a ymsefydlasant yn Castile, yn Yspaen. Ychydig iawn a wyddys am fywyd boreuol Cervantes, oddi eithr iddo dderbyn elfenau cyntaf ei addysg yn ei le genedigol, ac amlygu yn foreu ei fod yn feddiannol ar alluoedd y tu hwnt i'r cyffredin. Wedi cyrhaedd oedran priodol, aeth yn efrydydd i brif athrofa Salamanca, ac arosodd yno am ddwy flynedd. Aeth oddi yno i Madrid, lle yr astudiodd dduwinyddiaeth o dan De Hoyes—duwinydd dysgedig. Ymunodd Cervantes â theulu y cardinal Aquaviva, ac aeth gyda'r cardinal i Rufain. Bu yno am flwyddyn: wedi hyny ymunodd â'r fyddin, a gwasanaethodd fel gwirfoddolwr o dan Marco Antonio Colonna—arweinydd byddin y pab yn erbyn Twrci. Gwnaeth enw yno iddo ei hun am ddewrder, lle y clwyfwyd ef ddwywaith yn ei fron, ac unwaith yn ei law, oddi wrth effeithiau yr hyn y cafodd ddioddef ar hyd ei oes. Parhaodd yn y fyddin hyd y flwyddyn 1575, pan yr ymwelodd eilwaith â'i wlad enedigol. Appwyntiwyd ef yn gadben catrawd oedd i fyned allan i'r Iseldiroedd; ond ar y fordaith ymosodwyd arnynt gan ysgwadron Algieraidd, a chymmerwyd hwynt oll yn garcharorion, a gwerthwyd hwynt i gaethiwed.

Y mae Cervantes wedi rhoddi llawer o fanylion dyddorol am ddigwyddiadau ei fywyd boreuol, y rhai a gadarnheir o ffynnonellau ereill, yn un o'i nofelau ("*Captive*"), sydd yn amlygu y fath ddiysgogrwydd a dewrder nes ennill edmygedd pawb a'u darllenont. Ar ol gwneuthur amryw geisiadau eofn, ond aflwyddiannus, i adennill ei ryddid, pryd y gosodai ei fywyd yn fynych mewn perygl, prynwyd ei ryddid iddo yn 1580, am y swm dirfawr o bum cant o ddarnau aur (pob un yn werth 9*s*. o'n harian ni), y rhai a gyfranwyd gan ei gyfeillion a'i berthynasau. Pan ddychwelodd adref, yr ydoedd yn eithaf tlawd; gan hyny, efe a ymgymmerodd â'r alwedigaeth filwrol unwaith drachefn, a gwasanaethodd mewn tair anturiaeth filwraidd ar Ynysoedd yr Azores. Ar ol ei ddychweliad i Yspaen yn 1584, yr ymddangosodd gyntaf fel awdwr, a chyhoeddodd yn fuan ei "*Galatea*"—ffugchwedl fugeiliol mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Yna cyflwynodd ei sylw at chwareuon, o ba rai y cyfansoddodd efe dros ddeg ar hugain. Y mae y rhai hyn oll ar goll, fodd bynag, oddi eithr dau gyfansoddiad. Ymddengys nad oedd amgylchiadau Cervantes ond lled isel; o herwydd gwnaeth appeliad yn 1590 am gael rhyw alwedigaeth y gallasai ei chyflawni yn yr America. Yn 1596, cawn ef yn oruchwyliwr i amryw gorphoriaethau a dynion cyfoethog, a thrwy hyn yn ennill bywoliaeth gyffredin iddo ei hun a'i deulu. Yr oedd ar y pryd yn preswylio yn Seville. Tybir iddo ysgrifenu gryn lawer pan oedd yn y parth hwn o'r wlad.

O'r flwyddyn 1598, pan y gadawodd efe Seville, hyd 1602, pan y ceir ei fod yn Valladolid, y mae adwy yn hanes y dyn mawr hwn, nad yw holl ddiwydrwydd ei fywgraphwyr ddim wedi bod yn alluog i'w llenwi i fyny:—ni wyddys yn mha le y trigai, na pha fodd y defnyddiai ei amser. Tybia rhai ei fod yn gasglwr trethi yn La Mancha; ac y mae yn rhaid addef fod y cywirdeb â pha un y disgrifir ganddo diriogaeth ac arferion preswylwyr y dalaeth hono yn ffafriol i raddau i'r dybiaeth iddo fod ynddi yn preswylio dros dymmor. Pa fodd bynag am hyn, yr oedd Cervantes yn Valladolid yn 1602. Yn mhen tair blynedd wedi hyny y cyhoeddodd efe y rhan gyntaf o'i "*Don Quixote*"—ei brif waith llenyddol. Ni ddaeth llai na phump o argraphiadau o hono allan yn ystod blwyddyn gyntaf ei ymddangosiad. Ymdaenodd y syniad am enwogrwydd y gwaith yn brysur yn y gwledydd cymmydogaethol. Ond er i'r gwaith gael y derbyniad brwdfrydig hwn, parhau yn dlawd yr oedd yr awdwr; a llogwyd ef gan y duc o Lerma i ysgrifenu hanes y llawenydd, yr ymladdau teirw, y seremonïau crefyddol, &c., a ddygid yn mlaen ar dderbyniad arglwydd Howard, llysgenhadwr Iago I., yn Valladolid. Dychwelodd Cervantes gyda'r llys i Madrid, ac arosodd yn y ddinas hono hyd derfyn ei oes. Yn 1608, dygodd allan argraphiad cywirach o'r rhan gyntaf o "*Don Quixote*;" ac yn 1613, daeth allan ei "*Novelas Exemplares*"—gwaith a chwanegodd at ei gymmeriad. Yn 1614, cyhoeddodd ei "*Viage al Parnaso*" (taith i Parnassus), yr hwn, yn nesaf at "*Don Quixote*," ydyw cynnyrch mwyaf rhagorol ysgrifell ei awdwr athrylithgar. Rhoddwyd yn y wasg, yn gynnar yn y flwyddyn 1615, yr ail ran o "*Don Quixote*."

Bu farw Cervantes yn Madrid ar yr un dydd a'i gydoesydd mawr, Shakespeare—ar y 23ain o Ebrill, 1616, yn y nawfed flwydd a thrigain o'i oedran. Claddwyd ef yn y modd symlaf yn mynwent lleiandy y Calle del Humilladero—lle yr oedd ei ferch, Dona Isabel, wedi cymmeryd y gorchudd er's dros bedair blynedd. Ond gan i'r lleianod symmud i leiandy arall, tynwyd yr hen un i lawr; ac ni wyddys yn mha le y gorwedda gweddillion Cervantes. Y mae amryw gofgolofnau, fodd bynag, wedi eu cyfodi i'w goffadwriaeth yn Madrid. Yr oedd Cervantes yn meddu ar ddarfelydd a chrebwyll o radd uchel: ysgrifenai yn wastad yn gywir, ac yn aml yr oedd ei arddull yn dra swynol. Ond nid oedd yn fardd gwych: nid oes ond ychydig o'i chwareuadau yn gyfansoddiadau rhagorol. Etto, y mae ei brif waith, "*Don Quixote*," yn un o'r gweithiau perffeithiaf yn ei holl ranau y cyfarfyddir â hwynt. Y mae y cynllun yn un rhagorol; a dengys yr awdwr yn mhob tudalen ei fod yn feddiannol ar feddwl athronyddol o radd uchel. Dadgenir y syniadau mwyaf dyrchafedig yn yr iaith symlaf, ac amlyga wybodaeth anghyffredinol o'r galon ddynol. Ei amcan yn y gwaith hwn oedd diwygio chwaeth a dyrchafu syniadau ei gydwladwyr. Diammheuol ei fod yn un o'r gweithiau mwyaf poblogaidd a ysgrifenwyd

Digitized by Google

erioed. Fel hyn y dywedai Goodwin am dano:—"Pan oeddwn yn ugain oed, yr oeddwn yn ystyried '*Don Quixote*' yn nodedig am ei gymmhwysder i gynnyrchu chwerthin. Pan yn ddeugain, meddyliwn ei fod yn gampwaith. Yn awr, pan yn agos i drigain, yr wyf yn edrych arno fel un o lyfrau rhagoraf y byd."

SAASGAZ: eunuch yn mhalas Ahasferus; yr hwn oedd geidwad y gordderchadon yn llys y brenin hwnw: *Esth.* ii. 14.

SABBATH. Ystyr y gair Hebraeg hwn yw 'dydd o orphwysfa.' Tardda o wreiddair yn arwyddo 'ymattal oddi wrth waith,' neu orphwys. Y mae y gair Hebraeg, *saba*, yr hwn sydd gyffelyb iddo o ran llythyren a sain, yn arwyddo 'saith,' a barna rhai fod cyssylltiad rhyngddynt. Ond y mae hyn yn dra annhebyg, ac nid oes genym ddim prawf fod y tebygolrwydd yn ddim mwy na damweiniol. Y mae y gair yn cael ei gymmhwyso, yn enwedig yn ei ffurf liosog, at amryw o'r prif ŵyliau Iuddewig—ond yn arbenigol at y seithfed dydd. Y mae mater y Sabbath yn un-eang, a llawer wedi ei ysgrifenu arno o bryd i bryd; ac hwyrach, nad oes odid fater ag y mae mwy o ysgrifenu difudd ac ammhenderfynol arno nag ydyw. Ceisiwn yn yr erthygl hon roddi i lawr mor gryno ag y mae yn bossibl yr hyn a ellir ei ddywedyd i radd o sicrwydd ar yr amrywiol ranau perthynol iddo.

I. EI SEFYDLIAD CYNTEFIG.

Cawn y cyfeiriad cyntaf ato ynglŷn â hanes y greadigaeth yn Llyfr Genesis: *pen.* ii. 2, 3. Nid ydyw yn cael ei grybwyll yno wrth yr enw *Sabbath*. Y mae y cyfeiriad a wneir yn y rhan hon o'r Ysgrythyr at y seithfed dydd fel un o orphwysiad trwy ei sancteiddio gan Dduw, yn awgrymiad cryf, o leiaf, o sefydliad boreuol, y dydd hwnw fel dydd o orphwysiad i ddynion yn ol esampl Duw ei hun iddynt. Y mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y rheswm a roddir dros ei gadwraeth yn y pedwerydd gorchymyn (*Exod.* xx. 11); o herwydd y mae y ffaith a grybwyllir yn *Gen.* ii. 2, 3, am orphwysiad Duw, yno yn cael ei defnyddio fel rheswm a chymmhelliad i ddynion orphwys yn ol ei esampl ef. I ddyn yn ei sefyllfa gyntefig, yr oedd esampl Duw yn ddigon fel cymmhelliad i'w gynnhyrfu i ddilyn ei hôl, heb i'r esampl hono gael ei chyhoeddi fel gorchymyn ffurfiol. Ond wedi hir lygriad dynolryw, yr oedd angen gwirioneddol am i'r esampl gael ei hegluro o ran ei hystyr, a'i grymuso o ran ei hawdurdod, i fod yn orchymyn eglur a phennodol. Drachefn, y mae cyssylltiad y crybwylliad uchod am esampl Duw, fel yr oedd yn cynnwys gorchymyn hanfodol, er nad ffurfiol, â hanes y greadigaeth a hanes sefyllfa gyntefig a sanctaidd dyn, yn awgrymu yn gryf fod y gorphwysiad ag oedd yn cael ei argymmhell ar ddyn yn ol esampl Duw yn un cyfaddas a phriodol i'w sefyllfa wreiddiol; ac nid, fel y barna rhai, yn ddarpariaeth a ddygwyd i mewn i gyfarfod â gwaethygiad ei sefyllfa, fel ffrwyth ei anufudd-dod a'i gwymp, er y rhaid addef fod y cwymp hwnw wedi dyfnhau ac ychwanegu yr angen oedd yn ei natur, a'r gofyn oedd yn ei amgylchiadau fel creadur syrthiedig a thruenus am y cyfryw ddarpariaeth. Drachefn, y mae ystyr eglur a chyflawn yr amrywiol eiriau a ddefnyddir i ddynodi gweithrediad Duw gyda golwg ar y seithfed dydd yn eglur ddangos fod yr hyn a wnaeth efe ei hun i gael ei olygu fel esampl orchymynol, neu orchymyn trwy esampl i ddynion wneuthur yn gyffelyb. Dywedir iddo "orphwys" ar y seithfed dydd, ei "fendithio" a'i "sancteiddio." Mae y gair cyntaf, "gorphwys," wrth reswm, yn ei gyssylltiad â Duw, yn cau allan bob peth tebyg i flinder, gwendid, ac ammherffeithrwydd, ac yn cynnwys y drychfeddwl hanfodol o orphwys; sef, yr ymhyfrydiad a'r ymfoddhâd a lanwai ei fynwes yn yr adolwg ar ragoriaeth a pherffeithrwydd ei waith creadigol. Gallasai gael y cyfryw foddlonrwydd iddo ei hun ar yr adeg pan yr oedd yn gweithio; ond ymattaliodd rhag y mwynhâd o hono hyd nes y darfu iddo ei *orphen*. Y mae hyn yn awgrym cryf i ni fod ei orphwysiad ef wedi ei fwriadu yn gynllun ac esampl i ni fel ei greaduriaid, y rhai y mae yn rhaid i ni wrth ysbeidiau gwahanol o amser i weithio a gorphwys, gan nas gallwn, ond i raddau tra ammherffaith, orphwys yn ein gwaith, na gweithio mewn gorphwysiad. Dywedir hefyd iddo ei "fendithio;" hyny yw, cyssylltu bendith i'w greaduriaid rhesymol ar y ddaear trwy eu perthynas â'r dydd, a'u cadwraeth o hono. Yn y trydydd lle, y mae y gair "sancteiddio" yn uniongyrchol yn arwyddo ei fod i'w neillduo ar wahân oddi wrth y chwe diwrnod arall. Ac nis gallwn ddirnad pa ham y rhoddwyd y rhan yma o'r dadguddiad dwyfol mewn cyssylltiad â hanes y greadigaeth, os nad ydyw yn awgrymiad cryf i ni o berthynas angenrheidiol gorphwysiad Duw â'r eiddo dynion. Nid ydyw fod y Beibl mor ddistaw am gadwraeth y dydd o amser Adda hyd roddiad y ddeddf yn tynu dim oddi wrth yr ystyriaethau hyn. Y mae y ddadl oddi wrth ddistawrwydd mewn amgylchiadau o'r fath yn un dra anniogel ac anfoddhaol. Nid yw yn digwydd fod genym yn ystod yr adeg hono ddim crybwylliad am ganu mawl i Dduw; ond byddai tynu y casgliad oddi wrth y distawrwydd hwnw nad oedd dim canu mawl yn bod y pryd hwnw yn beth lled ryfygus i'w wneuthur pan yr ystyriom reddf y natur, a'r lle hanfodol sydd i fawl mewn addoliad. Drachefn, er y rhaid addef fod gormod o bwys wedi ei roddi gan rai ysgrifenwyr ar y cyfeiriadau a wneir yn Llyfr Genesis at raniad amser i wythnosau, etto nis gellir rhoddi cyfrif boddhaol am y cyfryw ar wahân oddi wrth gadwraeth y seithfed dydd fel sylfaen y cyfryw raniad. Addefwn hefyd y gall y gair "cofia" gyfeirio yn unig at y gorchymyn blaenorol ynghylch ei gadwraeth ynglŷn â chasglu y manna; neu ynte, nad ydyw yn golygu dim mwy na'r drychfeddwl cyffredinol o ystyried a chadw yn y meddwl. Ond ar yr un pryd, rhaid addef ar y llaw arall fod rhywbeth yn dra hynod yn y ffaith fod y gair yn cael ei ddodi yn unig ynglŷn â'r pedwerydd gorchymyn. A thrachefn, os golygir fod y Sabbath wedi cael ei anghofio yn y byd yn ystod yr oesoedd blaenorol; ac yn enwedig os ystyriwn ei fod yn hollol naturiol i'r gorchymyn hwn, ragor un o'r lleill, o herwydd ei ffurf mwy pendant, gael ei esgeuluso—y mae y gair a gyssylltir â'r gorchymyn, a'r wedd orchymynol gadarnhaol, yn hytrach na'r un nacaol, yn cydweddu yn darawiadol â'r golygiad uniongred am sefydliad boreuol y Sabbath. Y mae yn anhawdd credu, os ydyw gwir sail y Sabbath yn gorwedd yn ngwaith y greadigaeth a gorphwysiad y Creawdwr oddi wrtho, y buasai y sylfaen yn cael ei gadael am filoedd o flynyddoedd heb i'r adeilad gael ei gosod arni. Os ydyw rheswm y gorchymyn yn cydredeg â holl

Digitized by Google

oesoedd amser, y mae yn rhaid i ni gredu fod y gorchymyn ei hun felly. Dadleuir gan rai fod y Sabbath yn cael ei osod allan mewn rhai rhanau o'r Ysgrythyr fel rhodd yr Iehofah i'r genedl: *Neh.* ix. 14, &c. Ond y mae yr un ymadroddion yn cael eu defnyddio am y gorchymynion ereill, y rhai a addefir yn foesol ac yn orchymynedig o'r dechreuad.

II. NATUR AC EANGDER RHWYMEDIGAETH DYNION I'W GADW YN SANCTAIDD.

A ydyw y gorchymyn i gadw y Sabbath i'w olygu fel un moesol, ac yn rhwymo dynion fel y cyfryw, ac felly yn un o awdurdod cyffredinol a pharhaol? Y mae amryw ystyriaethau, yn ngwyneb y rhai nis gallwn lai, ar dir teg, na rhoddi attebiad cadarnhaol i'r cwestiwn. Hyd yn oed pe y gellid profi i radd uchel o debygolrwydd, mai mewn amseroedd diweddarach y rhoddwyd y gorchymyn ffurfiol am y Sabbath, a hyny i genedl Israel; etto, pan ystyrir fod y genedl wedi ei hethol gan Dduw oddi wrth y byd, nid i gau allan fendithion crefydd rhag eu hestyn i'r byd, ond i'w cyfaddasu mewn modd mwy arbenig i'w cyfranu i'r byd drwy eu crynhoi a'u hangerddoli, y mae yn hawdd i ni gredu fod perthynas rhwng sefydliad y Sabbath â dyn fel y cyfryw. O herwydd yr oedd cenedl Israel yn etholedig—yn gynllun ac yn gynnrychiolydd o'r ddynoliaeth yn gyffredinol. I gadarnhau y syniad hwn, dywedir gan Iesu Grist fod y Sabbath "wedi ei wneuthur er mwyn dyn," nid er mwyn yr Iuddew fel y cyfryw—eithr er mwyn dyn yn gyffredinol. Gwir y dadleuir gan rai fod y fannod "y" yn y gwreiddiol; ac y dylid darllen gan hyny "er mwyn y dyn," sef y person, yn wrthgyferbyniol i'r sefydliad, ac felly nad ydyw o angenrheidrwydd yn cymmeryd i mewn holl ddynolryw, eithr yn unig yr Iuddew. Ond a chaniatau yr esboniad hwn, y mae y ddadl yn aros yr un, os na ellir profi fod lleshâd yr Iuddew yn ngoruchwyliaeth rhagluniaeth Duw yn cau allan wir leshâd y ddynoliaeth yn gyffredinol; yr hyn nis meddyliai neb synwyrol byth am geisio ei wneuthur. Drachefn, y mae y ffaith fod y gorchymyn i gadw y Sabbath wedi ei roddi i ffurfio rhan o'r deg gorchymyn yn brawf chwanegol o rwymedigaeth cyffredinol a moesol y gorchymyn am y Sabbath. Dadleuir nas gall fod y gorchymyn hwn yn foesol yn ei gyfanrwydd am y gwyddom ei fod yn rhai o'i ranau wedi ei gyfnewid; ond, mewn attebiad i hyny, gellir dywedyd fod moesoldeb pob un o'r gorchymynion yn dibynu ar natur a pharhâd y perthynasau sydd rhwng dynion a Duw ar y naill law, neu rhwng dynion a'u gilydd ar y llall. Os gallwn dybied unrhyw un o'r perthynasau hyny yn cael eu cyfnewid neu eu difodi, rhaid i ni olygu rhwymedigaeth y gorchymyn fel yn cael ei gyfnewid neu ei ddilcu yn unol â hyny. Pe y dilëid meddiannau, ac y sefydlid y gyfundraeth o gyd-feddiant hollol, fel rheol y gymdeithas ddynol, byddai hanfod yr wythfed gorchymyn mewn grym wedi hyny, er y byddai ei ffurf wedi ei gyfnewid o angenrheidrwydd. Byddai wedi hyny yn ddyledswydd ar bob un o'r hil ddynol wneuthur ei oreu i chwanegu cyfoeth a golud cyffredin y teulu dynol; a chyfrifid pob esgeulusdra o hyny yn drosedd o'r wythfed gorchymyn, ac o ran hanfod y trosedd yn lladrad gwirioneddol. Byddai yr hyn a elwir genym yn awr yn ddiogi a segurdod y pryd hwnw yn lladrad ffurfiol; ac nid fel y mae yn awr, yn gyfryw mewn hanfod yn unig. Yr un modd y gellir dywedyd gyda golwg ar y cyfnewidiad yn y gorchymyn am y Sabbath. Y mae ein perthynas â Duw fel Creawdwr nefoedd a daear, er yn aros, etto wedi ei chymmeryd i mewn i berthynas agosach, a mwy pwysig; sef, ein perthynas âg ef fel Creawdwr y nefoedd newydd a'r ddaear newydd yn Nghrist; ac am hyny y mae yr orphwysfa a'r gorphwysiad ar sail y greadigaeth hono wedi llyngcu yr hen Sabbath iddynt eu hunain—o herwydd y greadigaeth newydd ydyw gwir orpheniad a dyben yr hen.

Y mae trefn y dydd Sabbath yn ei berthynas â'r iachawdwriaeth sydd yn Nghrist wedi ei gyfnewid gan drefn yr iachawdwriaeth hono yn ei chyssylltiad âg adegau amser; ond y mae y dydd ei hunan yn aros—y seithfed o ran cyfartaledd, er nad y seithfed o ran trefn. Y mae Proudhon wedi profi i raddau uchel o debygolrwydd fod y cyfartaledd uchod yn seiliedig ar angen cyfaddas cyfansoddiad dyn, a lleshâd y gymdeithas ddynol; ac y mae hyny yn myned yn mhell iawn er profi gwir foesoldeb a chyffredinolrwydd y Sabbath fel sefydliad wedi ei wneuthur gan Dduw er mwyn dynion.

III. NEWIDIAD Y DYDD—Y SEITHFED AM YR WYTHFED; SEF, Y DYDD CYNTAF O'R WYTHNOS, YR HWN A ELWIR HEFYD YN "DDYDD YR ARGLWYDD."

Y mae y newidiad hwn yn gorphwys yn gwbl ar esampl Crist a'i apostolion, yr hon esampl sydd yn gyfartal mewn awdurdod â gorchymyn ffurfiol a phendant. Megys mai esampl Duw ei hun yn gorphwys ar y seithfed dydd a osododd i lawr wir sail y Sabbath cyntefig, felly esampl Crist, ac ar ei ol ei apostolion, ydyw gwir sylfaen y Sabbath Cristionogol. Cyfododd Crist ar y dydd cyntaf o'r wythnos, ac ymddangosodd y diwrnod hwn i'w ddysgyblion ar wahanol adegau bump o weithiau; sef, yn gyntaf i Mair Magdalen; yn ail, i'r gwragedd ereill; yn dryddydd, i'r ddau ddysgybl ar y ffordd i Emmaus; yn 4ydd, i Pedr; yn bummed, i'r deg apostol. Wedi *wyth* niwrnod, ymddangosodd eilwaith i'r un-ar-ddeg. Syrthiodd dydd y Pentecost y flwyddyn hono ar y dydd cyntaf o'r wythnos; pryd y darfu i'r apostolion, ac ereill, "ymgynnull ynghyd i'r un lle." Yn Troas, darfu i'r apostol Paul a'i gyfeillion ymuno â'r Cristionogion yno, am y rhai y dywedir eu bod wedi dyfod ynghyd y dydd cyntaf o'r wythnos i fwyta bara. Yn 1 *Cor.* xvi. 1, 2, cyfeirir at y dydd cyntaf o'r wythnos fel yr un yr arferai yr eglwys ymgynnull i addoli a gwasanaethu Duw. Ac yn *Dad.* i. 10, dywed Ioan ei fod "yn yr ysbryd ar ddydd yr Arglwydd;" yr hwn y mae yn rhaid i ni, ar y seiliau mwyaf tebygol, ei olygu fel yn cyfeirio at yr wythfed dydd, neu y cyntaf o'r wythnos, fel un wedi ei neillduo trwy ei esampl ef, ac er coffadwriaeth arbenig am ei adgyfodiad, i'w addoli a'i wasanaethu. Nis gellir ei ddeall am ddydd y farn, mewn ystyr weledigaethol fel y mŷn rhai; gan y byddem felly yn cymmysgu y llythyrenol â'r arwyddluniol: ac nid ydyw chwaith yn cyfeirio at y Sabbath Iuddewig, fel y mŷn ereill. Buasai y gair arferol, 'Sabbath,' yn yr amgylchiad hwnw yn fwy tebyg o gael ei arfer; a buasai yr ymadrodd hwn, "Dydd yr Arglwydd," yn un hollol annaturiol ac annhebygol. Y mae hanes yr eglwys am y ddwy ganrif gyntaf yn gweini profion clir a boddhaol fod yr eglwys wedi deall esampl Crist a'i apostolion; ac yn unol â hyny wedi cydymffurfio â hi yn ymarferol. Nis gallwn ddyfynu y geiriau yma, rhag

Digitized by Google

gormod meithder. Digon yw dyweyd fod genym dystiolaethau diamwys—Epistol at Barnabas, Llythyr Pliny at yr Ymherawdwr Trajan, Justin Ferthyr, Dionysius esgob Corinth, Irenæus, Tertullian, Origen, ac ereill—i brofi cadwraeth y dydd cyntaf o'r wythnos fel Sabbath wythnosol. Y mae yn deilwng o sylw fod y ffaith nad oes un ymdrech i'w amddiffyn yn yr ysgrifeniadau boreuol hyn yn profi nad oes unrhyw ammheuaeth yn ei gylch, nac ymosodiad ar ei awdurdodiad. Yn y flwyddyn B. A. 321, darfu i'r ymherawdwr Cystenyn gyhoeddi cyfraith, yr hon oedd yn gorchymyn i bawb o fewn cylch yr ymherodraeth—Paganiaid yn gystal a Christionogion—gadw y dydd cyntaf o'r wythnos, yr hwn a elwid yn gyffredin yn 'ddydd yr haul' neu yn 'ddydd Sul' (oddi wrth *sol*, y Lladin am haul) fel dydd o orphwysiad oddi wrth waith. Y mae y parodrwydd a'r ewyllysgarwch gyda pha un y cydffurfiwyd â'r gyfraith yn brawf o'r addfedrwydd oedd yn yr ymherodraeth i hyny trwy esampl flaenorol Cristionogion, a'u dylanwad yn yr esampl hono ar y rhan baganaidd o'r ymherodraeth. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyny, yn nghynghor Nicea, cawn y tadau Cristionogol yn cymmeryd awdurdod y Sabbath fel yn ganiataol, ac yn cyfyngu eu sylw ynglŷn âg ef at drefnu y dull corphorol yr oedd yn briodol i addolwyr Cristionogol ei arfer pan yn offrymu eu mawl i Dduw; a phenderfynasant o blaid sefyll, yn hytrach nag un arall. Ynglŷn â'r mater hwn, y mae un ffaith deilwng o'n sylw, yr hon sydd yn awgrymu yn gryf iawn fod gan ragluniaeth Duw, fel llywodraethwr mawr y byd, law yn parotoi y Sabbath fel sefydliad parhaol i'w eglwys hyd ddiwedd amser. Y ffaith hono ydyw fod y byd, neu yr ymherodraeth Rufeinig, yr hon oedd y pryd hwnw yn mron yn gyfystyr a'r byd, wedi mabwysiadu oddi wrth yr Aiphtiaid y rhaniad o amser i wythnosau, yn gydamserol âg adeg sefydliad y grefydd Gristionogol. Ni ddylem adael y mater hwn heb nodi fod genym debygolrwydd cryf o ragfynegiad newidiad dydd y Sabbath yn yr Hen Destament. Golygir yn gyffredin fod y deml a welodd Ezeciel, a'r gwasanaeth perthynol iddi, yn ddarluniad prophwydoliaethol o oruchwyliaeth yr efengyl, a'r gwasanaeth ysbrydol; ac y mae yn rhywbeth tarawiadol fod y prophwyd (*pen.* xliii. 27) yn cyfeirio at yr wythfed dydd fel yr un i'r offeiriaid offrymu eu hebyrth ynddo. Y mae *Salm* cxviii. 24, yn cael ei dyfynu yn aml i'r un perwyl, ond gyda llai o awdurdod a thebygolrwydd.

IV. CADWRAETH Y DYDD.

Y mae y mater hwn yn un ag y mae amrywiaeth a gwahaniaeth mawr gyda golwg arno, yn enwedig gyda golwg ar fanylion. Nid ydym yn bwriadu cyffwrdd â'r cyfryw fanylion, a diau fod gormod o lawer o sylw wedi cael ei dalu iddynt. Lle y mae egwyddor ddofn o gariad at Dduw ac ufudd-dod i'w orchymynion, fe'n cyfarwyddir i wybod ein hunain y terfynau y dylem ymgadw o'u mewn yn well nag y mae yn bossibl i unrhyw reolau manwl o ddyfeisiad ereill ein dysgu gyda golwg arnynt. O'r tu arall, y mae prif egwyddorion iawn gadwraeth y dydd hwn wedi eu rhoddi yn amlwg i ni yn y Beibl. Y mae yn amlwg, wrth i ni ddarllen yn yr Hen Destament, fod lle a phwys mawr yn cael eu rhoddi i ufudd-dod i'r gorchymyn am y Sabbath. Y mae rhybuddion mynych a bygythion cryfion yn cael eu cyhoeddi mewn cyssylltiad âg anufudd-dod gyda golwg arno. Y mae y prophwydi Ieremiah ac Ezeciel yn rhagfynegi dinystr y ddinas a thrueni y genedl, fel barn o herwydd trosedd o'r gorchymyn hwn: *Ier.* xvii. 21—27; *Ezec.* xx. 10—24. Yn ystod y deunaw ar hugain o flynyddoedd y bu Israel yn crwydro yn yr anialwch, y mae gwagle yn hanes y genedl; ac ni chrybwyllir dim am danynt yn ystod y gwagle hwnw ond pedwar o amgylchiadau i dori ar y distawrwydd; ac un o'r cyfryw oedd y farn o farwolaeth a roddwyd ar y dyn a droseddodd y Sabbath trwy gasglu cynnud, drwy yr hyn yr awgrymir y pwys oedd ynglŷn âg ufudd-dod neu anufudd-dod i'r gorchymyn. Ac megys mai un o brif amcanion Duw yn caethgludo y genedl i Babilon oedd ei llwyr ddiddyfnu oddi wrth eilunaddoliaeth, ac y cafodd yr amcan hwnw ei gyflawni, felly yn gyffelyb gyda golwg ar y Sabbath. Ar ol y dychweliad o Babilon, er iddi dori allan unwaith yn amser Nehemiah; etto ar ol hyny, ac yn ddilynol i'r cyfammod a wnaethant trwy gyfarwyddyd a chynghor Nehemiah i gadw a sancteiddio y Sabbath, nid ydym yn cael iddynt ei esgeuluso, oddi gerth yn amgylchiad personau neillduol, y rhai a wrthgiliasant oddi wrth y gwir Dduw. Yn wir, syrthiasant yn hytrach i'r eithaf arall; sef, i gadwraeth gorfanwl ac ofergoelus o hono, fel ag i'w wneuthur yn ddydd o faich a phrudd-der, yn lle yn ddydd o orphwysdra a llawenydd ysbrydol. Yn awr, gan fod y Sabbath yn sefydliad wedi ei wneuthur er mwyn dyn, ac am hyny yn sefydliad parhaol a chyffredinol, gallwn fod yn sicr fod yr Arglwydd yn dwyn yr un eiddigedd dros ei gadwraeth yn y dyddiau diweddaf hyn ag a wnai o dan yr hen gyfammod. Drachefn, y mae yn rhaid i ni olygu, o herwydd yr un rheswm, fod y modd o'i gadw, o ran ei hanfod, yr un a'r unrhyw ag ydoedd y pryd hwnw. Pa beth ydyw yr hanfod hwnw? Ymattaliad oddi wrth bob gwaith a llafur corphorol a meddyliol o natur fydol, fel y mae, ac i'r graddau y mae yn gwrthdaraw y gorphwysiad hwnw ag sydd yn ddyledus i ddyn, a'r creaduriaid sydd yn gwasanaethu arno yn ei amgylchiadau tymmorol, ac hefyd yn rhwystr i'r addoliad a'r gwasanaeth ysbrydol hwnw ag sydd yn ddyledus oddi wrth ddyn i'w Greawdwr. Ar yr egwyddorion uchod, y mae yn ddiau y rhoddwyd y gorchymynion pendant a gynnwysir yn llyfrau Moses; megys y gwaharddiad i gynneu tân, i gasglu cynnud, ac i fyned allan o'r gwersyll ar y dydd Sabbath. Y mae y cyntaf yn cyfeirio at goginiaeth diangenrhaid; yr ail at ddilyn galwedigaeth dymmorol; a'r trydydd at ymblesera a chrwydro. Gwelir yn amlwg fod y tri yn dyfod o fewn yr egwyddor a enwyd. Fel yr oedd, felly y mae etto, pob darpariaeth neillduol i borthi blysiau corphorol, pob ymwneyd diangenrhaid â'u galwedigaethau tymmorol, a phob ymbleseriad crwydrol ar ddydd yr Arglwydd, yn drais ar y rhodd o orphwysdra sydd wedi ei chyflwyno i ni yn y dydd sanctaidd hwn; ac hefyd yn peryglu esgeulusdra o'n cyflawniadau crefyddol, a'r addoliad dyledus oddi wrthym i'r Creawdwr. Wrth reswm, nis gellir golygu y dylai y cyfryw orchymynion fod yn osodedig arnom o ran eu ffurf, yn gystal ag o ran eu hegwyddor. Er enghraifft, mewn gwledydd oerion, fel yr eiddom ni, byddai coginiaeth a fuasai yn ddiangenrhaid yn y dwyrain, yn angenrheidiol yn ein hinsawdd ni, ac felly yn gofyn cynneu tân i'w wneuthur. Dylem fod yn feddiannol ar ddigon o synwyr i wahaniaethu mewn

Digitized by Google

pethau o'r fath rhwng hanfod peth a'i ffurf—rhwng egwyddor gorchymyn a'i wedd allanol. Y mae breinlen ogoneddus y Sabbath yn cynnwys y rhodd ddwbl o eiddo Duw i ddynion; sef, gorphwysdra yn gyntaf oddi wrth ein llafur ein hunain; ac yn ail, cyfranogiad ysbrydol o orphwysdra Duw ei hun yn ei addoliad a'i wasanaeth. Y mae y cyntaf ar unwaith yn cau allan bob peth ag sydd ar un llaw yn feichus a phoenus ei natur; pob peth a allai wneyd y Sabbath yn faich, yn lle yn "hyfrydwch;" pob peth a dueddai i'w wneuthur yn ddydd o ympryd, yn lle yn ŵyl o lawenydd: ac ar y llaw arall, pob peth ag sydd yn milwrio yn erbyn iachusrwydd a chryfder y cyfansoddiad dynol. Y mae yn rhaid, gan hyny i ni gondemnio pob manyldra a llymder ofergoelus fel yr eiddo y Phariseaid, ac ar y llaw arall bob llacrwydd a chefnogaeth i ymfoddhâd cnawdol ar y dydd Sabbath. Y mae y naill a'r llall yn gwrthweithio yr angenrheidrwydd am seibiant a gorphwysdra sydd yn gorweid yn natur dyn, a'r ddarpariaeth a roddodd y Creawdwr i'w gyfarfod o ddechreu y byd. Cawn fod y ddau eithaf, sef gorfanylder a llacrwydd wedi llithro i mewn yn hanes y genedl Iuddewig. Y mae yr Efengylau yn tystio i'r cyntaf, fel y daeth i gyfarfyddiad â gweinidogaeth a gwaith Crist. Gwaharddent y gweithredoedd mwyaf trugarog ac angenrheidiol. Nid oeddynt yn foddlawn i'r Iesu iachau ar y Sabbath. Nid oedd yn gyfreithlawn i'r hwn a iachesid godi ei wely, a'i ddwyn ymaith; ac mewn rhai amgylchiadau, os syrthiai anifail rhywun i bwll, gwaharddent ei gyfodi o hono. Mewn amgylchiadau ereill, goddefent hyny. Yr oedd yn anghyfreithlawn i un, hyd yn oed ddal chwanen ar ei berson, os na byddai yn ymosod arno ar y pryd: ac yn mysg y Samariaid, dysgai Dositheus yr athrawiaeth, y dylai pob dyn aros yn llonydd—heb symmud oll o'r sefyllfa y digwyddai fod ynddi ar ddyfodiad y Sabbath i mewn! Ar y llaw arall, y mae tystiolaethau y tu allan i'r Ysgrythyr yn dangos eu bod mewn amgylchiadau ereill yn ei wneuthur yn ddydd o wledda, dawnsio, ac ymfoddhau yn mhob pleser cnawdol. Felly yr oeddynt yn nyddiau Augustine. Y mae gwir orphwysdra oddi wrth ein gweithredoedd ein hunain yn gochelyd y ddau eithaf a grybwyllwyd. Fel y daw deddfau anianyddol y cyfansoddiad dynol trwy ledaeniad gwybodaeth fuddiol o dan nawdd Cristionogaeth i gael eu deall yn well gan y cyffredin o ddynolryw, caiff gorphwysdra y Sabbath ei werthfawrogi a'i ddeall yn llawer gwell nag y mae wedi ei ddeall hyd yn hyn, oddi gerth megys yn reddfol gan ysbrydolrwydd crefydd—fel yr arddangoswyd ef yn Ysgotland ac yn Lloegr gan y Puritaniaid, ac yn Nghymru ar ol y diwygiadau mawrion yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Yn cydweddu â'r gorphwysdra hwn y mae yr un ysbrydol sydd yn tarddu o gymmundeb â Duw mewn addoliad a gwasanaeth. Y mae gwir addoliad yn dwyn i mewn i'r enaid orphwysiad yn Nuw fel gwrthddrych addoliad. O herwydd hyny, y mae y gorchymyn i gadw y Sabbath yn cynnwys ein dyledswydd i ymarfer â'r ordinhadau a osododd Duw ei hun fel cyfryngau ein haddoliad. 'Y mae y syniad hwn yn cael ei wrthod gan un dosbarth o ysgrifenwyr; ac y mae yn beth dyeithr fod y cyfryw un a Vitringa yn coleddu y syniad nad ydyw y pedwerydd gorchymyn yn galw arnom ond yn unig i ymattal â phob llafur a gwaith bydol, a bod ein dyledswydd i addoli Duw yn seiliedig ar orchymyn arall. Ond y mae yn amlwg iawn yn wyneb y Beibl fod y gorchymyn hwn yn ein rhwymo i wasanaeth ac addoliad ysbrydol ar ddydd yr Arglwydd. Mae yn cael ei gyssylltu â'r gorchymyn i barchu y cyssegr: *Lef.* xxvi. 2. Gwyddom fod yr aberthau hwyrol a boreuol ar y Sabbath yn ddwbl yr hyn oeddynt ar ddyddiau yr wythnos. Yn 2 *Bren.* iv. 23, awgrymir yr arferid ymgynghori â Duw trwy y prophwydi ar y dydd Sabbath; a chan y prophwydi diweddaraf cyssylltir cadwraeth y Sabbath âg addoliad Duw: *Esa.* lviii. 13, 14. Y mae yn ammhossibl heb olygu hyn roddi cyfrif am sefydliad a gwasanaeth y synagogau; a phrofir yr un peth gan y ffaith fod yr apostolion wedi gwneuthur yn gyffelyb trwy ordeinio ar fod i'r dydd cyntaf o'r wythnos gael ei gadw yn ddiwrnod neillduol o ymgynnulliad ac addoliad cyhoeddus.

Terfynwn yr erthygl hon trwy roddi crynodeb o hanes cadwraeth graddol a chynnyddol y Sabbath gan yr eglwys yn y canrifoedd cyntaf. Fel y gallesid disgwyl, yr oedd yn ammhossibl i'r mwyafrif o'r eglwys wneuthur defnydd ymarferol o'r Sabbath fel dydd yr Arglwydd, ac un o'i roddion goreu i'w bobl, gan fod lliaws mawr o'r dychweledigion Cristionogol yn ddibynol, fel gweision caeth ac aelodau israddol mewn teuluoedd. Trwy y ddeddf a gyhoeddodd Cystenyn, y cyfeiriasom ati o'r blaen, symmudwyd yr attalfeydd, a dygwyd rhyddid llawn i'r byd Cristionogol weithio allan ei ragorfreintiau. Am amser maith, cedwid y seithfed dydd hefyd yn y dwyrain fel dydd o lawenydd—ond yn Rhufain a manau ereill fel dydd o ympryd. Ond o radd i radd, daeth yr eglwys i ganfod y cyssylltiad rhwng dydd yr Arglwydd â hanfod y pedwerydd gorchymyn, ac i ddeall trosglwyddiad cyssegredigaeth a neillduad y seithfed dydd i'r dydd cyntaf—nid trwy rym cyfraith allanol, ond "trwy nerth bywyd annherfynol" Crist yn ei adgyfodiad, yn taflu y cysgod o'r golwg yn dawel, gan ddyfod â'r sylwedd i mewn i lanw ei le.

**SABBATH, TAITH DIWRNOD** (Σαββάτου ὁδός: *Act.* i. 12): y pellder y caniateid i'r Iuddewon ei deithio i fyned a dychwelyd o leoedd eu preswylfod ar y dydd Sabbath: *Exod.* xvi. 29. Gwaherddid yr Israeliaid i fyned y tu allan i'r gwersyll i gasglu manna ar y dydd Sabbath; yr hyn, dybygid, a fu yn achlysur i wneuthur y trefniad hwn, am yr hwn nid oes grybwylliad pendant yn y gyfraith, er y gellir yn deg gasglu oddi wrth yr egwyddor ar ba un yr oedd y gyfraith yn mherthynas i'r Sabbath Iuddewig yn sylfaenedig, nad oedd yn iawn fyned i daith reolaidd ar y Sabbath. Yr oedd bwriad y Deddfroddwr yn yr ystyr yma yn cael ei arwyddo hefyd yn y cyfarwyddyd, fod i'r anifeiliaid gael gorphwys ar y dydd Sabbath. Arferai yr Iuddewon diweddar dynu allan reolau manwl oddi wrth gyfarwyddiadau syml ac eglur. Yn y modd hwn yr oedd y pellder y gallai Iuddew ei deithio ar y Sabbath yn cael ei gyfyngu i ddwy fil o gufyddau, neu yn agos i filldir, y tu allan i furiau y dref y preswyliai ynddi, neu derfynau ei breswylfod; o herwydd tybid fod y gwersyll agosaf i mewn yn yr anialwch yn sefyll tua'r pellder hwnw oddi wrth y tabernacl (*Ios.* iii. 4); a bod yr un pellder tu hwnt i ddinas i fod yn daith diwrnod Sabbath yn cael ei arwyddo yn *Num.* xxxv. 4, 5; y *Targum* ar *Ruth* i. 6; Jarchi ar *Ios.* iii. 4; ac Occum ar *Act.* i. 12.

Digitized by Google

Dyma hefyd y pellder a nodir yn y *Talmud*, lle y mae y dull o fesur yn cael ei benderfynu, a rhyw ychydig o achosion yn cael eu nodi allan yn y rhai y gallai personau feiddio myned dros y pellder o ddwy fil o gufyddau.

Ymddengys fod ein Hiachawdwr yn cyfeirio at yr arfer neu y gyfraith hon wrth rybuddio ei ddysgyblion i weddïo na byddai eu ffoedigaeth o Ierusalem yn adeg ei barnedigaeth "ar y dydd Sabbath;" *Mat*. xxiv. 20. Ni buasai Cristionogion Ierusalem, megys pe buasent genhedloedd, yn teimlo yn rhydd i deithio y diwrnod hwnw fel rhyw ddydd arall.

Pan osodid angenrheidrwydd ar ddyn i fyned yn mhellach na thaith diwrnod Sabbath, ar ryw amcan da neu ar ryw dir esgusodol, yr oedd yn gorphwys arno ar y prydnawn blaenorol i barotoi digon o ymborth i wasanaethu am ddau bryd. Yr oedd ganddo i eistedd i lawr mewn rhyw bellder pennodol, a bwyta; a chladdu yn y ddaear yr hyn a adewid yn weddill ganddo, a diolch i Dduw am gael cyrhaedd y terfyn. Cyfeirir at anewyllysgarwch yr Iuddew i fyned yn mhellach na dwy fil o gufyddau gan Origen, Jerome, Œcumenius; ond y mae ychydig wahaniaeth rhyngddynt ynghylch y mesuriad cywir. Y mae Jerome yn dwyn yn mlaen awdurdod Akiba Simeon, a Hillel, dros y syniad cyffredin mai dwy fil o gufyddau oedd hyd y daith.

SABBOTHOL, Y FLWYDDYN. Yn ol cyfraith Moses, yr oedd un diwrnod o saith ac un mis o saith yn sanctaidd, felly hefyd yr oedd un flwyddyn o bob saith. Ceir y crybwylliad am hyn gyntaf yn y gyfraith yn *Exod*. xxiii. 10, 11, mewn geiriau cyffelyb i'r rhai a ddefnyddir yn y pedwerydd gorchymyn; ac yn *adn*. 12 adnewyddir y gorchymyn. Y mae yn anhawdd darllen hyn heb ystyried fod y flwyddyn Sabbothol a'r dydd Sabbath yn rhanau o un gyfraith gyffredinol. Y gorchymyn ydyw, i hau a chasglu ffrwyth am chwe blynedd, a bod y tir i gael llonydd ar y seithfed, "fel y caffo tlodion dy bobl fwyta, a bwytaed bwystfil y maes eu gweddill hwynt." Chwanegir yr ymadroddion a ganlyn, "Felly y gwnai am dy winllan, ac am dy olewydden." Yr ydys yn cael yr un gorchymyn drachefn yn *Lef*. xxv. 2—7, a *Deut*. xv. 1; ac yn y lle diweddaf, rhoddir ar ddeall fod y seithfed flwyddyn hefyd yn rhyddhau dyledwyr.

Wrth ddarllen yn y gwahanol leoedd uchod, ceir fod y tir bob seithfed flwyddyn yn cael gorphwys i fwynhau ei Sabbothau. Nid oedd na thriniaeth na diwylliant i fod arno. Nid oedd y meddiannydd i fedi y cynnyrch a dyfai o hono ei hun, canys yr oedd ei hawl iddo megys wedi ei roddi o'r neilldu am y tro. Yr oedd pawb i gael rhan ynddo: y tlawd, yr alltud, ac hyd yn oed yr anifeiliaid. Gellid meddwl, ar yr olwg gyntaf, fod hyn yn beth nad oedd yn bossibl ei gario allan; ond nid ymddengys mor anhawdd, wrth ystyried na oddefid i'r meddiannydd ar unrhyw flwyddyn i fedi yr holl gynnyrch: *Lef*. xix. 9; xxiii. 22. Gan hyny, os na loffid y gweddill yn dra gofalus, gellir yn hawdd weled fod digon o hâd wedi ei adael i sicrhau mewn tir mor ffrwythlawn a Syria a Phalestina gryn swm o gynnyrch, tra yr oedd yr olewydd a'r gwinwydd yn cynnyrchu eu ffrwyth arferol. Heb law hyny, y mae'n eglur fod meddiannwyr y tir i ofalu am gadw ŷd yn y blynyddoedd blaenorol erbyn y flwyddyn Sabbothol, er eu diwallu eu hunain a'u teuluoedd. Mae hyn yn gasgliad anocheladwy oddi wrth *Lef*. xxv. 20—22. Ac er fod yr hawl i feddiannau tirol megys yn cael ei roddi o'r neilldu yn y flwyddyn Sabbothol, tybir fod hyn yn gymmhwysiadol at y meusydd yn unig, ac nad oedd felly at y gerddi hefyd.

Yr ydym yn dysgu, oddi wrth *Deut*. xv., ei fod yn anghyfreithlawn hawlio dyledion yn ystod y flwyddyn hono. Yr eithriadau i hyny oedd yn achos y dyeithr neu yr alltud, ac hefyd pryd na byddai tlawd yn y tir; ond am y diweddaf, fe ddywedir yn eglur na ddigwyddai amser felly. Ond er y rhoddir ar ddeall nas gellid hawlio dyledion, ni ddywedir nad oedd rhyddid i'w talu yn wirfoddol; ac y mae o'r braidd yn ammheus pa un a oedd gollyngdod y seithfed flwyddyn yn barhaol, neu ynte ai parhau am y flwyddyn hono yn unig yr oedd. Ymddengys i'r gyfraith hon yn rhinweddol gael ei rhoddi o'r neilldu mewn amseroedd diweddarach, trwy roddi i'r barnwyr hawl i ganiatau i'r coeliwr gael gwasgu ei hawl ar y dyledwr pan yr ewyllysiai wneuthur hyny.—*Sheviith*, 10, 4. Ni ddylid tybied mai yr un peth oedd rhyddhau y dyledwr bob saith mlynedd a rhyddhau y caethweision ar y seithfed flwyddyn o'u gwasanaeth. Y mae yn amlwg fod y naill ar wahân oddi wrth y llall:—yr oedd un yn digwydd ar un adeg bennodol i bawb, tra yr oedd y llall yn amrywio gydag amrywiol deuluoedd, ac amrywiol gaethweision. Y mae ysbryd y gyfraith hon yr un ag un y Sabbath wythnosol. Yr oedd tuedd dda i'r naill a'r llall; yr oedd yn cyfyngu i raddau ar hawliau perchenogaeth; ac yr oedd un yn dangos hawliau Duw ar amser, y llall ei hawliau ar y tir. Hwyrach hefyd, fel y tybia Kalisch, fod golwg yn cael ei gadw ar y lles a ddeilliai i'r tir o gael gorphwys yn fraenar am un flwyddyn o bob saith.

Agorai y flwyddyn Sabbothol gyda'r mis Sabbothol; ac yr oedd yr holl gyfraith i'w darllen ar bob un o'r blynyddoedd hyny, ar ŵyl y pebyll, i'r bobl ymgynnulledig. Fel ar y Sabbath wythnosol, yr oedd gwaith sanctaidd a chysegredig i gael ei ddwyn yn mlaen. Ar derfyn wythnos o Sabbothau blynyddol, yr ydoedd blwyddyn yr Iwbili yn cymmeryd lle. Am y cwestiwn, pa un a oedd hono yr un a'r seithfed flwyddyn Sabbothol, neu ynte yr un ddilynol iddi? hyny yw, pa un a ddisgynai blwyddyn yr Iwbili ar bob nawfed flwydd a deugain, neu ar bob degfed a deugain? gwel IWBILI, BLWYDDYN YR. Y cwestiwn nesaf sydd yn cyflwyno ei hun i'n sylw sydd o berthynas i'r amser y daeth cadw y flwyddyn Sabbothol yn rhwymedig ar y genedl. Y mae rhai wedi casglu oddi wrth *Lef*. xxv. 2 ("Pan ddelych i'r tir yr hwn a roddaf i chwi; yna gorphwysed y tir Sabbath i'r Arglwydd"), ei bod i gael ei chadw y flwyddyn gyntaf y deuai y bobl i Ganaan: ond y mae y syniad braidd yn groes i'r geiriau dilynol—"Chwe blynedd yr heui dy faes, a chwe blynedd y tori dy winllan, ac y casgli ei chnwd. Ac ar y seithfed flwyddyn y bydd Sabbath gorphwysdra i'r tir." Dichon mai mwy rhesymol ydyw tybied, gyda'r awdurdodau Iuddewig uchaf, fod y gyfraith wedi dyfod yn rhwymedig yn mhen pedair blynedd ar ddeg ar ol y mynediad i Ganaan, yr hon a gymmerodd saith mlynedd i'w darostwng, a saith ereill i'w dosbarthu. Ymgyfyd cwestiwn arall yn y fan hon; sef, Pa bryd bynag yr oedd i ddechreu, a delid ufudd-dod

Digitized by Google

gwirioneddol i'r gyfraith hon? Hwyrach fod yr un ymofyniad yn briodol i'w gymmhwyso at amryw ereill o osodiadau Moses. Anfynych y gwelir deddfres gyflawn yn cael ufuddhau iddi yn llawn. Yn y bygythion a roddir yn *Lef.* xxvi., y mae barnau am beidio cadw y flwyddyn Sabbothol mewn golwg yn neillduol, dybygid, yn *adn.* 33, 34; a bod y gyfran hon o'r gyfraith yn cael ei hesgeuluso a ymddengys oddi wrth 2 *Cron.* xxxvi. 20, 21; "A'r rhai a ddiangasant gan y cleddyf, a gaethgludodd efe i Babilon; lle y buant hwy yn weision iddo ef, ac i'w feibion, nes teyrnasu o'r Persiaid: i gyflawni gair yr Arglwydd trwy enau Ieremiah, nes mwynhau o'r wlad ei Sabbothau; canys yr holl ddyddiau y bu hi yn anghyfannedd, y gorphwysodd hi, i gyflawni deng mlynedd a thrigain." Y mae rhai o'r esbonwyr Iuddewig wedi casglu oddi wrth hyn fod eu tadau wedi esgeuluso ei chadw am ddeg a thrigain o flynyddoedd Sabbothol. Os oedd y cyfryw esgeulusdra yn digwydd yn olynol, rhaid fod anufudd-dod i'r gyfraith wedi parhau am y cyfnod o 490 o flynyddoedd; hyny yw, o'r bron trwy holl gyfnod parhâd y frenhiniaeth: a chan nad oes dim yn yr hanes blaenorol yn arwain i'r casgliad fod y bobl yn fanylach y pryd hwnw, rhaid i ni edrych at adeg y dychweliad o'r gaethglud am arwyddion fod y flwyddyn Sabbothol yn cael ei chadw. Fe ddywedir yn 1 *Macc.* vi. 49; "A hwy a ddaethant allan o'r ddinas, am nad oedd ganddynt ymborth yno, i aros y gwarchau, o blegid ei bod hi yn Sabbath i'r tir." Mynegir fod Alexander Fawr wedi esgusodi yr Iuddewon rhag talu trethi yn ystod y flwyddyn Sabbothol, gan ei fod yn anghyfreithlawn iddynt i hau hâd neu i fedi cynhauaf. Felly hefyd y gwnaethai Julius Cæsar.—"*Hyn. Iudd.*," xiv. 10, *adr.* 6. Y mae Paul, wrth gyhuddo y Galatiaid o dueddiadau Iuddewig, yn dannod iddynt eu bod yn cadw blynyddoedd yn gystal a dyddiau, misoedd, ac amseroedd (*Gal.* i. 10): oddi wrth hyn y mae yn naturiol casglu fod yr athrawon a ddysgai hyn iddynt yn ofalus am wneyd hyny eu hunain.

SABBATHWYR: dosbarth o bobl a elwid felly am eu bod yn cadw y seithfed dydd yn Sabbath. Y maent i'w cael yn benaf, os nad yn hollol, yn mysg rhai yn dal golygiadau y Bedyddwyr ar fedydd. Y maent yn gwrthwynebu y rhesymau a ddygir yn mlaen yn gyffredin dros gadw y dydd cyntaf o'r wythnos; a haerant fod y cyfnewidiad o'r seithfed i'r dydd cyntaf wedi ei wneyd gan Cystenyn Fawr ar ei ddychweliad at Gristionogaeth. Cynnwysa y tri gosodiad a ganlyn grynodeb o'u hegwyddorion gyda golwg ar y Sabbath:—1. Fod Duw wedi gorchymyn ar fod i'r seithfed, neu y dydd olaf o'r wythnos, gael ei gadw gan ddynolryw yn gyffredinol yn Sabbath wythnosol. 2. Fod y gorchymyn hwn o eiddo Duw yn rhwymedig ar ddyn hyd ddiwedd amser. Ac yn 3. Nad ydyw gorphwysfa gyssegredig y seithfed wedi ei newid (gan awdurdod ddwyfol) o'r seithfed, a'r olaf, i'r dydd cyntaf o'r wythnos; neu, nad ydyw yr Ysgrythyr yn un man yn gofyn am gadw un diwrnod arall o'r wythnos fel y Sabbath wythnosol, ond y seithfed dydd yn unig. Y mae y sect hon yn dal athrawiaethau ereill Cristionogaeth fel y gwneir gan Gristionogion yn gyffredinol. Yr oedd ychydig flynyddoedd yn ol—a dichon fod etto—ddwy gynnulleidfa o Sabbathwyr yn Llundain: un yn dal syniadau y Bedyddwyr Cyffredinol, yn cyfarfod yn Mill Yard, ac yr oedd gweithredoedd eu capel wedi eu dyddio mor bell yn ol a'r flwyddyn 1678, ond yr oedd yn ychydig mewn nifer: ac un arall yn dal golygiadau y Bedyddwyr Neillduol, yn cyfarfod yn Cripplegate. Ceid hefyd ychydig o honynt yma a thraw mewn amryw barthau o'r deyrnas; ac yn America y mae tua deunaw cynnulleidfa o'r sect hon, ac wyth neu ddeg ar hugain o weinidogion a phregethwyr, ac o ddwy i dair mil o gymmunwyr. Gelwir hwy *Bedyddwyr y Seithfed Dydd.*

SABEAID. Gwel SEBA.

SABIAH: mab Saharaim, o'i wraig Hodes: 1 *Cron.* viii. 10.

1. SABBETHAI. Lefiad yn amser Ezra, yr hwn a gynnorthwyodd i wneyd ymchwiliad i'r priodasau á gwragedd dyeithr a gymmerasant le yn yr oes hono: *Ezra* x. 15. Y mae yn amlwg mai yr un oedd efe a'r hwn a fu gydag Iesua yn addysgu y bobl yn y gyfraith: *Neh.* viii. 7.

2. SABBETHAI. Sabbethai ac Iozabad oeddynt benaethiaid y Lefiaid dros y gwaith a ddygwyd yn mlaen y tu allan i dŷ yr Arglwydd ar ol y dychweliad o Babilon: *Neh.* xi. 16. Tybia rhai mai yr un oedd y Sabbethai hwn a'r cyntaf a enwir o'r enw, ac a nodir allan yn *Neh.* viii. 7, fel un o'r offeiriaid.

SABELLIUS: blaenor y blaid hereticaidd a elwir ar ei enw—y *Sabelliaid.* Ganwyd ef, dybygid, yn Ptolemais, yn Pentapolis, Affrica, yn y drydedd ganrif; o leiaf, yn y lle hwn y lledaenwyd ei opiniynau gyntaf. Nid oes dim yn wybyddus am ei fywyd; gan fod yr ychydig a ddywedir am dano o nodwedd wrthddywediadol ac ammheus: a thybir yn gyffredin na ddarfu iddo ddadguddio y syniadau a goleddid ganddo hyd o fewn ychydig amser i'w farwolaeth. Ac nid ydyw dyddiad ei farwolaeth chwaith yn hysbys. Dywed Neander am Sabellius, mai efe oedd "y meddyliwr mwyaf dwfn a gwreiddiol yn mysg y Monarchiaid," hyny ydyw yn mysg yr Undodiaid; ond ychydig o grybwyllion am yr hyn a ddysgid ganddo sydd yn aros, a'r rhai hyny wedi eu cadw gan y rhai oedd wrthwynebol mewn barn iddo. Ymddengys nad oedd Sabellius yn ymwrthod â'r ymadroddion ysgrythyrol yn mha rai y sonir am y Duwdod. "Tad, Mab, ac Ysbryd Glân," oeddynt enwau a berchid ganddo ef, fel gan Gristionogion uniongred yn gyffredin; ond yr oedd yn sefyll yn erbyn y syniad cyffredin a goleddid am y Drindod, fel Trindod o bersonau gwahaniaethol neu sylweddau. Yr oedd yn dal allan fod coleddu y dyb hon yn ynfydrwydd, a dadleuai mai Trindod o arddangosiadau a olygir. Gwadai bersonoliaeth gwahaniaethol y Mab a'r Ysbryd Glân, gan haeru mai golygu cynnifer a hyny o alluoedd yn deilliaw o'r un Duw, neu gynnifer o nodweddion yn cael eu gwisgo ganddo, yr oedd enwau y personau. Dywedai nad oedd ond un person yn y Duwdod—y Tad; ac nad oedd Iesu Grist ond dyn yn unig, ond fod yn trigo ynddo ryw allu deilliedig oddi wrth Dduw, neu ryw gyfran o'r natur ddwyfol. Edrychai hefyd ar yr Ysbryd Glân fel rhyw allu dwyfol neu ddeilliadol oddi wrth Dduw. Yr oedd ei ddilynwyr, y Sabelliaid, yn egluro eu syniadau trwy gymmharu y Tad i'r haul, y Gair i'w allu i oleuo, a'r Ysbryd Glân i'w allu i wresogi. Gwrthwynebid

Digitized by Google

y Sabelliaid yn alluog ac egnïol gan Dionysius o Alexandria; ond parhasant i fod yn sect lled gryno am gryn amser.

SABINIAID: cenedl henafol a breswyliai ganolbarth Italy. Yr oedd ei thiriogaeth yn gorwedd i'r gogledd-ddwyrain o Rufain. Nis gellir nodi allan yn fanwl y terfynau yn awr; ond y mae yn ymddangos eu bod yn cyrhaedd o darddellau yr afon Nar, mor bell i'r deheu ag Anio. Y cenhedloedd agosaf i'r Sabiniaid ar du y gogledd oedd yr Umbriaid; ar du y gorllewin, yr Umbriaid a'r Etruscaniaid; ar du y deheu, y Lladiniaid a'r Æqui; ac ar du y dwyrain, y Marsi a'r Picentini. Nid oedd eu holl diriogaeth, dybygid, nemawr dros bedwar ugain milldir o hyd. Y prif drefydd oedd Reate, Interocrea, Falacrinum, Nursia, Amiternum, Casperia, a Cures; ond nid oedd un o'r manau hyn yn lleoedd o faintioli neu bwysigrwydd gwleidyddol. Nid oedd gan y preswylwyr un rheswm cryf yn eu cymmhell i drigo mewn trefydd mawrion. Tiriogaeth ganolbarthol oedd eu gwlad; a llawer o honi, yn y rhau ogleddol yn noethlwm a mynyddig, er fod y dyffrynoedd yn fras a chynnyrchiol. Yr oedd y Sabiniaid yn bobl ddewr, weithgar, o duedd grefyddol, ac yn syml a dirodres yn eu dull o fyw. Sonia Cicero a Livy am ddysgyblaeth lem a manwl yr hen Sabiniaid; ac y mae y beirdd Rhufeinig—Horace, Virgil, a Juvenal, &c., yn hoff o dynu llinell gymmharol rhwng eu dull disyml a chyntefig hwy o fyw a dull moethus llygredig pobl Rhufain. Pa law oedd ganddynt hwy, os oedd ganddynt law hefyd, yn sylfaeniad dinas Rhufain, sydd erbyn hyn yn anhawdd ei benderfynu, gan fod cynnifer o chwedleuon yn bod am hyn. Y duwiau a addolid ganddynt oedd Sancus, Iau, Mercher, Minerva, yr Haul, &c. Fod y Sabiniaid yn rhai o hen breswylwyr Italy sydd sicr. Yr oeddynt, dybygid, yn gangen o'r un llwyth a'r Umbriaid; ond daethant mor liosog fel yr oeddynt dan yr angenrheidrwydd o sefydlu amrywiol drefedigaethau, ar du y deheu a'r dwyrain. Nid oes ond ychydig eiriau ar gael o'r iaith Sabinaidd; oddi wrth ba rai y gellir casglu nad oedd ond tafodiaith o'r Lladin. Gwel RHUFAIN.

SABTAH: y trydydd a enwir ar restr meibion Cus: *Gen.* x. 7; 1 *Cron.* i. 9. Yn ol y syniad a goleddir yn gyffredin, dylid edrych am ddisgynyddion Sabtah ar hyd gororau deheuol Arabia. Nid oes yn ysgrifeniadau yr Arabiaid gyfeiriad at Sabtah; ond ymddengys fod yr hyn a ddywedir gan Pliny o barthed i *Sabbatha*, *Sabota*, a *Sobotale*, prif ddinas Atramitæ, yn cyfeirio rywbeth at olion y llwyth a ddisgynodd o Sabtab, a thybied mai nid llygriad o *Saba*, *Seba*, neu *Sheba*, ydoedd. Cyfeirir at hyn d.g. SEBA. Rhaid bod yn ofalus wrth ystyried yr hyn a fynegir gan yr ysgrifenwyr Groegaidd a Rhufeinaidd am ddaearyddiaeth Arabaidd, gan fod ynddynt lawer iawn o wrthddywediadau o berthynas i'r ardaloedd anadnabyddus oedd yn rhai parthau o Arabia. Ptolemy a ddywed am Sabbatha, ei bod yn ddinas bwysig, yn cynnwys dim llai na thrigain o demlau; ac hefyd ei bod yn sefyll yn nhiriogaeth y brenin Elisarus neu Eleazus. Winer a ddywed ei bod yn debygol mai yr un ydyw Sabtah a Sabbatha; ac felly hefyd y meddylia Bunsen. Y mae Sabbatha yn ddiau mewn safle lle y gallesid disgwyl cael arni ryw olion o Sabtah, a lle y ceir olion o'r llwythau Cusaidd mewn amseroedd boreuol, pan ar eu ffordd, dybygid, o'u trefedigaethau cyntaf yn Ethiopia tua'r Euphrates.

Gesenius a ystyria yn ddiddadl fod Sabtah ar lan y Morgaingc Arabaidd, yn agos i'r man lle y mae Arkike yn bresennol; yn nghymmydogaeth pa un y bu y Ptolemiaid yn hela cawrfilod. Michaelis drachefn a dybia fod Sabtah yr un a Ceuta gyferbyn a Gibraltar, yr hon a elwir yn yr Arabaeg Sebtah; ond Bochart a ystyria ei bod ar lan gorllewinol y Morgaingc Persiaidd; a'i bod yr un a Saphtha Ptolemy:—enw hefyd sydd ar ynys yn y morgaingc hwnw.

SABTECA: y pummed o feibion Cus (*Gen.* x. 7; 1 *Cron.* i. 9), olynwyr yr hwn, dybygid, a ymsefydlasant yn agos i Forgaingc Persia; lle hefyd yr oedd meibion Raamah, y pedwerydd o feibion Cus. Nid ydyw yr enw hyd yma wedi ei gyssylltu âg unrhyw enw neu ddosbarth yn Arabia, na chwaith âg un enw a ddefnyddir gan yr awdwyr clasurol. Bochart a ymresyma mai yn Carmania y mae, ar ochr Persiaidd y morgaingc, a chymmhara Sabteca gyda y ddinas Samydace. Ymddengys y geirdarddiad hwn yn lled bellgyrchol. Meddylia Gesenius mai enw priodol rhyw ddosbarth o Ethiopia ydyw Sabteca.

SACKEVEREL, HENRY, D.D.: oedd glerigwr perthynol i Eglwys Loegr. Ganwyd ef yn Marlborough, yn y flwyddyn 1672. Yr oedd ei dad yn barson eglwys St. Pedr yn y dref uchod; ac yn nodedig am ei ymlyniad wrth egwyddorion uchel-eglwysig, y rhai a goleddwyd gan ei fab hefyd. Addysgwyd Henry ieuangc yn ysgol rammadegol ei le genedigol, ac yn Ngholeg Magdalen, Rhydychain—lle yr oedd ganddo yr un ystafelloedd a'r enwog Joseph Addison. Cafodd ei enwi yn gymmrawd o'r coleg, a chymmerodd ei raddau fel y canlyn:—A. C. yn 1696, G. D. yn 1707, a D. D. yn 1708. Yn 1705, pennodwyd ef yn bregethwr St. Saviour, Southwark; ac yn 1709, y traddododd efe y ddwy bregeth—un yn adeg brawdlys Derby, a'r llall ar y 5ed o Dachwedd, yn St. Paul—sydd wedi rhoddi ei le iddo yn hanes ei wlad. Argraphwyd y ddwy bregeth—yn y rhai yr oedd y pregethwr yn ymosod ar yr egwyddorion a sefydlwyd yn adeg y chwyldroad yn 1688, y dadleuai dros yr athrawiaeth o beidio gwrthwynebu yr awdurdodau mewn achosion crefyddol, ac y condemniai Ddeddf y Goddefiad; yr hyn a gynnhyrfodd ddigofaint y llywodraeth Whigaidd. Yn Rhagfyr canlynol dygwyd hwynt o dan sylw Tŷ y Cyffredin, a phasiodd y tŷ hwnw benderfyniad yn eu condemnio fel yn cynnwys "cabldraethau maleisus a brwnt, yn gwneyd awgrymiadau cás am ei mawrhydi y frenhines, a'i llywodraeth, ar y chwyldroad hapus diweddar, a'r olyniaeth Brotestanaidd fel y sefydlwyd hi trwy gyfraith, a'r y ddau dŷ o senedd; a bod tuedd yn y cyfan i oeri serch deiliaid ei mawrhydi ati, ac i greu eiddigedd ac ymraniadau yn eu plith." Gorchymynwyd i'r awdwr a'r argraphydd ymddangos o flaen y tŷ—yr hyn a wnaethant ar y 14eg o Ragfyr; ac yna, wedi i Sackeverel gydnabod yr awduriaeth, cynnygiwyd a phasiwyd ar fod iddo gael ei gyhuddo o droseddau uchel, a chamymddygiad. Cymmerodd ei brawf le o flaen Tŷ yr Arglwyddi yn ngwanwyn y flwyddyn 1710; a chafwyd ef yn euog; ac yn mhen tridiau ar ol ei gael yn euog, cyhoeddwyd dedfryd arno, yn

Digitized by Google

ei orchymyn i ymattal rhag pregethu am y tair blynedd dilynol, ac yn gorchymyn i'w bregeth gael ei llosgi gan y dïenyddwr cyffredin. Ystyriai y rhan fwyaf o'r clerigwyr, a llawer o'r bobl, ef yn brif amddiffynwr yr Eglwys Sefydledig; a chynneuasant goelcerthi, a gwnaethant arddangosiadau ereill o lawenydd yn Llundain, a thros yr holl deyrnas; a phan aeth i gymmeryd meddiant o fywoliaeth Salatin, yn sir Amwythig, ar gyffiniau sir Ddinbych, yr oedd yr arwyddion penaf o groesawiad yn cael eu rhoddi iddo yn Rhydychain, Banbury, Warwick, Gwrecsam, a lleoedd ereill. Addefir yn gyffredin fod gwaith y llywodraeth yn ei gospi, pan ddaeth etholiad cyffredinol, wedi bod yn achos o gwymp gweinyddiaeth Godolphin.

Ar derfyn yr adeg yr attaliwyd ef i bregethu, yn Mawrth, 1713, pregethodd Sackeverel yn eglwys St. Saviour, ar "fuddugoliaeth y Cristion; neu, y ddyledswydd o weddïo dros ein gelynion," a chyhoeddodd y bregeth hon hefyd. Ond dywed Swift am dani—"nid oedd ynddi air am ei achos ei hun, oddi eithr dau neu dri o awgrymiadau pell." Fel arwydd neillduol o ffafr hefyd, pennodwyd ef i bregethu o flaen Tŷ y Cyffredin newydd, a diolchwyd iddo yn arbenig. Ac fel arwydd cryfach o ffafr drachefn, cyflwynwyd iddo berigloriaeth St. Andrews, Holborn. Ar ol hyn nid oes nemawr o son am dano, er fod rhyw reswm dros dybied fod ganddo law mewn cynllwyn i geisio adferu teulu Stuart i'r orsedd. Ond ymddengys nad oedd yn gallu bod yn dawel iawn, gan fod cyffro o ryw fath bron yn hanfodol i'w natur. Byddai anghydfod neu gyfreithio yn gyffredin rhyngddo a'i blwyfolion. Bu farw ar y 5ed o Fehefin, 1725.

SACHLIAN. Gwëadwaith bras, o liw tywyll, wedi ei wneyd o flew geifr: *Esa.* l. 3; *Dad.* vi. 12. Defnyddid ef, yn 1af, i wneyd sachau. Arferid y gair i osod allan y defnydd ei hun, a'r peth a wneid o hono: *Gen.* xlii. 25; *Lef.* xi. 32; *Jos.* ix. 4. Ac yn 2il, defnyddid ef i wneuthur gwisg arw o'r fath ag a wisgid gan alarwyr, yr hon mewn amgylchiadau eithafol a wisgid yn nesaf i'r croen (1 *Bren.* xxi. 27; 2 *Bren.* vi. 30; *Job* xvi. 15; *Esa.* xxxii. 11), a hyny hyd yn oed gan fenywod (*Joel* i. 8; 2 *Macc.* iii. 19): ond ar adegau ereill gwisgid y sachlian ar y dillad ereill, yn lle y wisg allanol: *Jonah* iii. 6. Yr oedd y wisg, dybygid, yn gyffelyb i sach o ran ffurf, ac yn ymlapio yn lled dyn am y person, fel y gellir casglu oddi wrth y cymmhwysiad a wneir o'r gair *châgar* i'r arfer o wisgo sachlïan: 2 *Sam.* iii. 31; *Ezec.* vii. 18, &c. Defnyddid gwregys hefyd o ddefnydd cyffelyb: *Esa.* iii. 24. Gwisgwyd hi weithiau hefyd ar hyd y nos: 1 *Bren.* xvi. 17.

SACRAMENT—AU. Y mae y gair *sacrament* yn deilliaw o'r gair Lladin, *sacramentum;* yr hwn sydd yn arwyddo llŵ, ac yn enwedig y llŵ a gymmerid gan filwyr i fod yn ffyddlawn i'w gwlad a'u cadfridog. Mabwysiadwyd y gair gan ysgrifenwyr yr Eglwys Babaidd i ddynodi yr ordinhadau crefyddol trwy ba rai yr ystyrient fod Cristionogion yn ymrwymo i ufuddhau i Dduw, a'r ymrwymiad hwnw a alwent yn llŵ cyssegredig. Am nifer y sacramentau, fel y mae yn eithaf hysbys, y mae dwy farn yn ffynu yn y byd Cristionogol. Y mae eglwysi Groeg a Rhufain yn dal fod saith o sacramentau; tra nad ydyw Cristionogion o gyfundebau Protestanaidd yn cydnabod ac yn dal allan ond dwy yn unig. Y rhai canlynol a gydnabyddir yn sacramentau gan eglwysi Groeg a Rhufain—bedydd, y cymmun, bedydd esgob, penyd, yr eneiniad diweddaf, priodas, ac urddau eglwysig. Y ddwy sacrament a gydnabyddir gan y cyfundebau Protestanaidd ydyw bedydd a Swper yr Arglwydd. [Gwel SWPER YR ARGLWYDD.] Yn ol yr eglwysi blaenaf a nodir, y mae bedydd yn arwydd o'r enedigaeth ysbrydol; y cymmun, yn foddion trwy ba un y mae bywyd ysbrydol yn cael ei feithrin a'i faethu; bedydd esgob, yn gadarnhâd i'r unrhyw; penyd, er adferiad i'r gwrthgiliedig; yr eneiniad diweddaf, fel parotoad ar gyfer marwolaeth; priodas, er cadw olyniaeth o'r hil ddynol ar y ddaear; ac urddau eglwysig, er cadw i fyny olyniaeth o weinidogion i'r Goruchaf.

Y mae athrawiaeth Eglwys Rhufain yn mherthynas i sacramentau yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth syniadau y cyfundebau Protestanaidd. Gan y mwyafrif o'r cyfundebau diweddaf, edrychir arnynt fel arwyddion yn unig o wirioneddau a ffeithiau mawr, y rhai y disgwylir i holl ddisgyblion Crist gyfranogi o honynt, a thrwy hyny arddangos eu crediniaeth o'r gwirioneddau a'r ffeithiau hyny. Y maent wedi eu bwriadu hefyd i gryfhau a meithrin ffydd a theimladau defosiynol y cyfranogwyr. Am eu rhifedi, fel y cyfeiriwyd yn barod, y mae yr holl fyd Protestanaidd yn cyttuno nad oes ond dwy sacrament, neu ddwy ddefod a elwir wrth yr enw hwn. Ond y mae yn yr Eglwys Sefydledig yn wastad, ac yn enwedig yn y blynyddoedd diweddaf hyn, ddosbarth sydd yn tueddu i fabwysiadu y golygiadau a goleddir gan y Pabyddion ar hyn. Y mae y dosbarth hwn, nid yn unig yn tueddu i briodoli i'r ddwy ddefod o fedydd a Swper yr Arglwydd y gallu i gynnyrchu gras mewnol (yr hyn yn y blaenaf a elwir yn adenedigaeth); ond y mae llawer o honynt yn foddlawn i alw y defodau ereill, yn enwedig bedydd esgob, penyd, ac urddau eglwysig, wrth yr enw sacramentau, ond mewn ystyr ail-raddol, er nad ystyrient hwynt yn "angenrheidiol er iachawdwriaeth." Gwel TRACTARIAETH.

SACRAMENTARIAID: yr enw a roddwyd i'r blaid hono yn mhlith y Diwygwyr a wahaniaethent oddi wrth Luther ar athrawiaeth y cymmun, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Nid oedd Luther yn ymwrthod â'r athrawiaeth o wir bresennoldeb corph a gwaed Crist gyda y bara a'r gwin. Y cyntaf o'i ddilynwyr a ymwrthodai â'r athrawiaeth hon oedd Andrew Carlstadt; ac er gwaethaf gwrthdystiad Luther, yr oedd gan Carlstadt lawer o ddilynwyr—y mwyaf gweithgar o ba rai oeddynt Capito a Bucer. Daeth y blaid mor liosog fel y darfu iddynt yn nghynghor Augsburg hawlio cyflwyno cyffes arbenig, wahanol i'r hon a wnaed gan y corph cyffredinol a ymgynnullodd yno. Adwaenir y gyffes wrth yr enw 'y Gyffes Tetrapolitaidd:' a galwyd hi felly oddi wrth y pedair dinas—Strasburg, Constance, Lindau, a Memmingen. Y mae y gyffes hon yn ymwrthod â'r syniad fod Crist yn bresennol yn gorphorol yn y Swper, er yn addef ei bresennoldeb ysbrydol—yr hwn a deimlir ac a fwynheir gan yr enaid addolgar. Yn gydfynedol â'r ysgogiad Almaenaidd hwn, etto yn annibynol arno, yr oedd y symmudiad arall yr hwn yr oedd Zuinglius yn flaenor iddo—athrawiaeth yr hwn, gyda golwg ar y



Digitized by Google

cymmun, oedd yr un o ran hanfod ag a goleddid gan Carlstadt. Parhaodd y pedair dinas a nodwyd uchod am lawer o flynyddoedd i lynu wrth y gyffes a gyflwynwyd i Gynghor Augsburg yn eu henwau hwynt; ond yn y diwedd, hwy a dderbyniasant yr hyn a elwir yn 'gyffes Augsburg, ac ymgymmysgasant â chorph cyffredin y Lutheriaid.

SACSONIAID: enw ar gangen o'r genedl Almaenaidd. Myn rhai fod eu henw yn tarddu o *Saces* ar yr Indus; ereill a haerant ei fod yn ddeilliedig o *sacho*, bwyall; ac ereill drachefn a'i holrheiniant i'r gair *sassen*, hyny ydyw, 'sefydlog,' mewn gwrthgyferbyniad i'r llwythau Almaenaidd a arweinient fywyd crwydrol a symmudol. Yr ysgrifenwyr cyntaf a wnaethant grybwylliad am y Sacsoniaid a'u disgrifiant fel cymmydogion i'r Daniaid, yn trigiannu i'r deheu o'r Gorynys Cimbrig (*Jutland*). Sonia Ptolemæus am ynysoedd y Sacsoniaid; y rhai, dybygid, oeddynt Eiderstedt, Nordstrand, Wicking Harde, a Böking Harde. Dywed Orosius eu bod yn trigiannu gwlad dywodlyd, ac ymddengys fod yn anhawdd i ddyeithriaid fyned iddi. Nid yw yn debyg eu bod ar y cyntaf wedi dyfod i'r de-orllewin y tu hwnt i'r Elbe. Nid ydyw Tacitus, er ei fod yn sôn am yr Angli a'r Varini, y rhai oeddynt, dybygid, yn gymmydogion agos i'r Sacsoniaid, yn dywedyd dim am danynt. Y mae tebygolrwydd eu hiaith i'r eiddo y Persiaid a'r hen Indiaid yn rheswm dros gredu fod y Sacsoniaid o ddeilliad dwyreiniol; ond pa fodd a pha bryd y daethant i feddiannu rhanau gogledd-orllewinol yr Almaen sydd gwestiynau nas gall hanesyddiaeth roddi eglurhâd arnynt. Y mae cymmaint a hyn yn sicr, eu bod ar y cyntaf yn trigiannu rhan fawr o'r wlad sydd rhwng yr Elbe a'r Gorynys Cimbrig; ond pan, yn ystod mudiad y barbariaid, y newidiodd y llwythau cyfagos eu gwledydd, ac yr ymfudasant yn ddeheuol, dechreuodd y Sacsoniaid hefyd ymsymmud tua'r un cyfeiriad; ac o'r diwedd yr ydym yn eu cael yn meddiannu y wlad rhwng yr Elbe, y Rhine, y Lippe, a'r Môr Almaenaidd. Gelwir y dosbarth mawr hwn o wlad gan ysgrifenwyr Anglo-Sacsonaidd yn Hen Sacsony, er ei gwahaniaethu oddi wrth y Sacsony Newydd, neu Loegr.

Yn y drydedd ganrif, glaniai y Sacsoniaid yn fynych ar ororau Ffraingc a Lloegr, ac anrheithient y parthau hyny o'r gwledydd hyn oedd agosaf i'r môr; ond ynghylch canol y bummed ganrif (B. A. 449), hwyliodd corph mawr o Sacsoniaid ac Angliaid, o dan arweiniad Hengist a Horsa, drosodd i Loegr, ac ymsefydlasant yn arosol ar yr ynys hon. Ymddengys, fodd bynag, fod yr Angliaid rywfodd yn gryfach mewn rhif neu ddylanwad, o herwydd hwynthwy a roddodd yr enw i'w gwlad newydd, (*Angel-land, Anglia—England;* Lloegr), er y gelwid hi weithiau yn *Saxonia Transmarina.* Dyfeisiwyd yr enw *Anglo-Saxoniaid* gan ysgrifenwyr diweddarach er mwyn cyfleusdra. Y mae hanes y Sacsoniaid, pa rai, ynghyd â'r Angliaid, a fuont yn sylfaenwyr poblogaeth newydd, ac o hyny allan y mae eu hanes yn ffurfio rhan o hanes Lloegr. Gwel CYMRU: PRYDAIN.

Mewn cyssylltiad â'r Ffrangciaid, darfu i'r Sacsoniaid a arosasant yn yr Almaen orchfygu y rhan ogleddol o Thuringia, mor bell ag afon fechan Unstrut, yn y fl. B. A. 530; ond yn fuan ar ol hyny hwy a roddasant i fyny y dosbarth dwyreiniol o'r gyfran a orchfygwyd ganddynt i lwyth Sclafonaidd. Yn B. A. 550, ymostyngodd y Sacsoniaid mwyaf deheuol i dalu gwarogaeth i'r Ffrangciaid, i'r rhai y cyflwynent deyrnged o bum cant o wartheg yn flynyddol. Yn ol fel yr elai y Sacsoniaid tua pharthau mewnol yr Almaen, ac y deallent yn well fanteision amaethyddiaeth a magu anifeiliaid, hwy a roddasant heibio yn raddol eu dull ysbeilgar blaenorol o fyw; ond yr oeddynt er hyny yn parhau yn genedl llawn o fywiogrwydd ac o ysbryd rhyfelgar. Tua diwedd y seithfed ganrif yr ydys yn cael y Sacsoniaid yn ymranedig i dri o lwythau; sef, yr *Ostfali,* ar du gorllewinol yr Elbe; y *Westfali,* yn y wlad rhwng y Rhine, y Lippe, a'r Ems; a'r *Engeri* yn y canol, rhwng y ddau lwyth blaenaf, hyny yw, o bob tu i'r afon Weser. Ennynodd eu teimladau llidiog tuag at y Ffrangciaid i'r fath raddau nes tori allan yn rhyfel rhyngddynt a hwy yn amser Charles Martel, yr hwn a orchfygodd rhyw ddosbarthiadau Sacsonaidd ar lanau gogleddol y Lippe, ac a orfododd y trigolion i dalu teyrnged. Nid oedd hwn, pa fodd bynag, ond dechreuad rhyfeloedd mawrion a gwaedlyd; y rhai, gydag ychydig seibiant yn awr ac eilwaith, a ddygwyd yn mlaen gan Charlemagne, o B. A. 772 hyd B. A. 803. Yn ystod y rhyfeloedd hyn cwympodd llawer o'r Sacsoniaid mewn brwydrau, a rhoddwyd miloedd i farwolaeth am y gwrthodent fabwysiadu y grefydd Gristionogol. Ond dal allan a ddarfu iddynt hyd y diwedd; ïe, hyd yn oed ar ol i'w blaenor Wittekind ymostwng, a phroffesu Cristionogaeth. Mewn canlyniad i gyttundeb Selz ar y Saale (B. A. 803), terfynwyd y rhyfel o'r diwedd: cyttunodd y Sacsoniaid i droi yn Gristionogion, a chawsant eu cydnabod ar dir cyfartal â'r Ffrangciaid. O hyny allan, y mae eu hanes yn ffurfio rhan o'r ymherodraeth a sylfaenodd Charlemagne. Er lledaenu gwybodaeth Gristionogol yn eu mysg, ac i'w sefydlu yn y grefydd hono yn gadarnach, sylfaenodd Charlemagne saith o esgobaethau; ac oddi wrth y lleoedd a bennodwyd i fod yn seddau yr esgobaethau hyn, gellir casglu pa beth oedd eangder y wlad a feddiennid ganddynt. Y lleoedd hyn oeddynt, Osnabrück, Verden, Bremen, Paderborn, Minden, Hildesheim, a Münster.

1. SACHAR: Haraniad; tad Ahiam, un o gedyrn Dafydd: 1 *Cron.* xi. 35. Yn 2 *Sam.* xxiii. 33, gelwir ef yn Sarar; ond y mae Kennicott yn golygu mai Sachar ydyw y darlleniad cywir o hono.

2. SACHAR. Pedwerydd mab Obededom: 1 *Cron.* xxvi. 4.

SADI, SHEIKH MUSLIH ADDIN: un o'r rhai enwocaf o'r beirdd Persiaidd. Ganwyd ef yn Shiraz, ynghylch y flwyddyn 1184. Ychydig a wyddys am amgylchiadau ei fywyd. Enw ei dad oedd Abdallah, ac yr oedd yn ddisgynydd o Ali, mab-yn-nghyfraith Mahomet: ond er ei fod yn deilliaw o linach uchel, yr oedd mewn amgylchiadau digon isel. Collodd ei dad pan yn bur ieuangc. Derbyniodd ei addysg mewn gwyddoniaeth a duwinyddiaeth yn Bagdad; ac oddi yno yr aeth, yn nghwmni ei athraw, ar ei daith bererindodol gyntaf i Mecca. Bu ar bererindod yno wedi hyny tua phedair ar ddeg o weithiau. Teithiodd am lawer o flynyddoedd; a mynegir iddo ymweled â pharthau o Ewrop, Barbary, Abyssinia, yr Aipht, Syria,

Digitized by Google

Palestina, Armenia, Asia Leiaf, Arabia, Persia, Tartary, Afghanistan, ac India. Pan yn agos i Ierusalem, cymmerwyd ef yn garcharor gan y Croesgadwyr: nid tra yn ymladd yn eu herbyn, ond tra yn myned trwy ymarferiadau crefyddol yn y diffaethwch. Pwrcaswyd ei ryddhâd gan farsiandwr o Aleppo trwy dalu swm o arian; yr hwn a wnaeth gydnabyddiaeth o hono, ac a roddodd ei ferch mewn priodas iddo. Ni phrofodd yr undeb hwnw yn un hapus, pa fodd bynag. Priododd yr ail waith, a chollodd ei fab o'r briodas hono. Treuliwyd y rhan olaf o oes Sadi mewn neillduaeth, yn agos i'w dref enedigol; a bu farw, wedi cyrhaedd henaint teg, yn y flwyddyn B. A. 1263; ond yn ol ereill, ni bu farw hyd B. A. 1292.

O ran ei berson, lled ddiolwg yr ymddangosai. Nid oedd ond byr ac eiddil o gorpholaeth, ac ychydig a ellir ei ddywedyd am ei orchestion corphorol. Ond yr oedd o ran ei dueddfryd yn fyfyriol, crefyddol, ac athronyddol. Treuliodd flynyddoedd ei neillduaeth i gyfansoddi y gweithiau lliosog hyny sydd wedi gwneyd ei enw yn enwog yn y dwyrain a'r gorllewin. Er mai o'r bron y mae Ewropiaid yn barod i gydsynio â dyfarniad ei gydwladwyr, mai efe oedd "y mwyaf hyawdl o ysgrifenwyr, yr awdwr mwyaf parod a ffraeth mewn amseroedd hen na diweddar, ac un o bedwar penaeth hyawdledd ac arddull;" etto, nid oes ddadl nad yw efe, yr hwn a elwir yn "eos mil o ganiadau," yn deilwng o'i restru yn mysg prif feistriaid barddoniaeth, a'i fod yn haeddol o'r anrhydedd a gyflwynwyd iddo gan bendefigion a thywysogion yn ystod ei fywyd, ac a delir i'w goffadwriaeth ar ol iddo farw. Cyfodwyd beddadail odidog, ac eglwys Fahometaidd, a choleg ynglŷn â hi, er anrhydeddu Sadi, yn Shiraz, ac yn fuan dechreuodd y bobl fyned ar bererindodau yno; ac mor ofalus y cedwid ei fedd, fel y dywed y Milwriad Franklin ei fod yn yr un cyflwr a phan y gwnaed ef ar y cyntaf pan yr ymwelodd ef â'r lle yn y fl. 1787. Ysgrifenodd Sadi lawer, mewn rhyddiaeth a barddoniaeth, yn yr Arabaeg a'r Persiaeg, ond yn benaf mewn barddoniaeth. Cyhoeddwyd argraphiad cyflawn o'i weithiau gan Harrington, yn Calcutta, yn 1791—1795, ac argraphwyd hwynt amryw weithiau wedi hyny yn India.

1. SADOC (צדוק: *Σαδώκ*: *cyfiawn*): mab Ahitub, ac un o'r ddau archoffeiriad yn amser Dafydd. Y llall oedd Abiathar. Yr oedd Sadoc o deulu Eleazar, mab Aaron (1 *Cron.* xxiv. 3), a'r unfed ar ddeg mewn disgyniad o Aaron. Gwneir crybwylliad gyntaf am dano yn 1 *Cron.* xii. 28, lle y mynegir iddo ymuno â Dafydd yn Hebron ar ol marwolaeth Saul gyda dau ar hugain o gadbeniaid tŷ ei dad. Gellir meddwl ei fod hyd yn hyn wedi glynu wrth dŷ Saul:—ond o hyny allan bu yn hollol ffyddlawn i dŷ Dafydd. Pan y gwrthryfelodd Absalom, ac y ffodd Dafydd o Ierusalem, aeth Sadoc a'r holl Lefiaid gydag ef gyda'r arch; ac ar orchymyn y brenin y dychwelasant i Ierusalem, i fod yn gyfryngau ymdrafodaeth rhwng y brenin a Husai yr Arciad: 2 *Sam.* xv. a xvii. Pan y bu farw Absalom, Sadoc ac Abiathar a gymmhellasant henuriaid Iudah i wahodd Dafydd i ddychwelyd: 2 *Sam.* xix. 11. Pan osododd Adoniah ei hun i fyny yn frenin, pan oedd Dafydd wedi heneiddio, ac y perswadiodd efe Ioab ac Abiathar i'w bleidio, safodd Sadoc yn ddiysgog, a defnyddiwyd ef gan Dafydd i eneinio Solomon i fod yn frenin yn ei le: 1 *Bren.* i. Gwobrwywyd ef gan Solomon am y ffyddlondeb hwn: ac efe a "fwriodd Abiathar ymaith o fod yn offeiriad i'r Arglwydd," ac "a osododd Sadoc yr offeiriad" yn ei le ef: 1 *Bren.* ii. 27, 35. O hyny allan, fodd bynag, ychydig sydd yn cael ei ddyweyd am dano. Mynegir, wrth enwi swyddwyr gwladol Solomon, mai Sadoc oedd yr offeiriad (1 *Bren.* iv. 4; 1 *Cron.* xxix. 22), ond ni sonir am un weithred a wnaeth efe. Nid oes son am ei enw hyd yn oed yn hanes cyssegriad teml Solomon, ac felly fe ymddengys, er fod Josephus yn dywedyd mai Sadoc yr archoffeiriad oedd yr archoffeiriad cyntaf yn y deml a adeiladodd Solomon ["*Hyn. Iudd.*" x. 8, *adr.* 6], y mae yn dra ammheus a fu efe byw hyd gyssegriad y deml; ac y mae yn ymddangos yn debycach mai Azariah, ei fab neu ei ŵyr, oedd yr archoffeiriad yn adeg y cyssegriad: cymmh. 1 *Bren.* iv. 2, a 1 *Cron.* vi. 10. Pe buasai Sadoc yn bresennol, o'r braidd y gellir meddwl na buasai crybwylliad am ei enw mewn adroddiad mor fanwl ag a geir yn 1 *Bren.* viii.

Cyfyd amryw gwestiynau dyddorol mewn cyssylltiad â Sadoc o berthynas i'r achoffeiriadaeth. Yn gyntaf, yr achosion a arweiniodd ddisgynyddion Ithamar i feddiannu yr archoffeiriadaeth yn lle tŷ Eleazar. Nid oes genym ddim pennodol, pa fodd bynag, i'n harwain i dynu casgliad penderfynol. Yr oll a wyddom ydyw fod Phineas, mab Eleazar, yn archoffeiriad ar ol ei dad; ac ar ol hyny, mewn cyfnod diweddarach, fod Eli o dŷ Ithamar yn archoffeiriad, a bod y swydd wedi parhau yn ei deulu ef hyd amser Sadoc; yr hwn ar y cyntaf a fu yn cydweinyddu y swydd gydag Abiathar, ac wedi hyny a gymmerodd ei le ef. Parhaodd disgynyddion Sadoc i fod yn archoffeiriaid treftadol hyd amser Antiochus Eupator, ac fe allai hyd nes y diddymwyd y swydd. Ond hwyrach y gellir taflu rhyw oleuni ar y cwestiwn hwn trwy gyfrwng un arall sydd yn ymgodi; sef, pa beth ydyw yr achos o archoffeiriadaeth ddwbl Sâdoc ac Abiathar? 2 *Sam.* xv. 29; 1 *Cron.* xxiv. 6, 31. Mewn amseroedd diweddarach, yr oedd yn gyffredin ddau offeiriad, sef yr archoffeiriad, a'r ail offeiriad (2 *Bren.* xxv. 18); ac nid ymddengys fod nemawr o wahaniaeth rhyngddynt mewn anrhydedd. Felly hefyd y ceir yn *Luc* iii. 2. Y mae yr ymadrodd "offeiriad penaf o dŷ Sadoc" (2 *Cron.* xxxi. 10) yn ymddangos fel pe yn arwyddo fod dau offeiriad (o urddas cyfartal. Yr oedd Sadoc ac Abiathar o urddas agos cyfartal: 2 *Sam.* xv. 35, 36; xix. 11. Y mae Hophni a Phinees drachefn, ac Eleazar ac Ithamar yn cael eu cyplysu ynghyd. Yr oedd gwaith y swydd yn cael ei ranu rhwng Sadoc ac Abiathar. Gweinyddai Sadoc o flaen y tabernacl yn Gibeon (1 *Cron.* xvi. 39), a gofalai Abiathar am yr arch yn Ierusalem. Ond nid felly yr oedd yn ddieithriad, fel y gwelir oddi wrth 1 *Cron.* xvii., a 2 *Sam.* xv. 24, 25, 26. Amgylchiad arall sydd yn tueddu i gryfhau y dybiaeth fod dechreuad yr offeiriadaeth ddwbl rywbryd yn gynt na dyddiau Sadoc, ydyw yr hyn y cyfeirir ato yn 1 *Cron.* ix. 11, a *Neh.* xi. 11; lle y disgrifir Ahitub, tad Sadoc, fel "tywysog tŷ Dduw"—swydd a gyflawnid yn fynych gan yr archoffeiriad, er y gweinyddid hi weithiau gan yr ail offeiriad. Ac os fel hyn yr oedd pethau, y mae yn arwyddo fod tŷ Eleazar wedi dal ei dir yn ochr tŷ Ithamar, er fod y prif anrhydedd wedi disgyn dros amser i ran Eli. Beth oedd

Digitized by Google

safle gywir Sadoc pan yr ymunodd gyda Dafydd gyntaf, sydd anhawdd ei benderfynu. Ond ymddengys ei fod islaw i Iehoiada "tywysog yr Aaroniaid."

2. SADOC: mab Baana, yr hwn a adgyweiriodd ran o fur Ierusalem yn amser Nehemiah: *Neh.* iii. 4. Yr un, dybygid, oedd efe a'r hwn a enwir yn rhestr y rhai a seliodd y cyfammod yn *Neh.* x. 21, gan fod ei enw yn y ddau le yn dilyn enw Mesezabeel. Ond os felly yr oedd, gwyddys nad oedd yn offeiriad, fel y buasai ei enw ar yr olwg gyntaf yn arwain i dybied, ond un "o benaethiaid y bobl," neu y lleygwyr. A hyn y cyttuna enw ei dad, Baana; yr hyn sydd yn awgrymu ei fod o lwyth Iudah; o herwydd yr oedd Baana, un o gedyrn Dafydd, yn Netophathiad (2 *Sam.* xxii. 29); hyny yw, o Netophah, dinas yn Iudah. Yr oedd gwŷr Tecoa, dinas arall yn Iudah, yn gweithio yn nesaf at Sadoc. Yr oedd Mesulam o dŷ Mesezabeel hefyd, yr hwn a enwir o'i flaen yn y ddwy restr (*Neh.* iii. 4, a x. 20, 21), o lwyth Iudah: *Neh.* xi. 24. Ymddengys fod y teulu offeiriadol yn ymgymmysgu yn amlach trwy briodasau â llwyth Iudah nag âg un o'r llwythau ereill. O bossibl mai fel yma y mae rhoddi cyfrif am yr enw Sadoc.

3. SADOC: mab Inmer, offeiriad a adgyweiriodd fur dinas Ierusalem ar gyfer ei dŷ ei hun: *Neh.* iii. 29. Perthynai i'r ddeunawfed dosbarth o feibion Aaron (1 *Cron.* xxiv. 14), yr hwn oedd un o'r rhai a ddychwelasant o gaethglud Babilon.

4. SADOC: tad Ierusah, gwraig y brenin Uzziah, a mam y brenin Iotham. Yr oedd efe, dybygid, yn tarddu o deulu offeiriadol.

SADRACH: enw Caldeaidd Hananiah, un o'r "tri llange" a fwriwyd i'r ffwrn dân: *Dan.* vii. 7. Y mae hanes Sadrach, neu Hananiah, yn fyr fel y canlyn. Cymmerwyd ef yn gaeth gyda Daniel, Misael, ac Azariah, pan y goresgynwyd Iudea y tro cyntaf gan Nebuchodonosor, yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim (*Dan.* i. 1), pan oedd y brenin Iuddewig ei hun wedi ei gadwyno i'w ddwyn yn gaeth i Babilon. Ymddengys ei fod ef, fel ei dri chydymaith, o'r hâd brenhinol (*Dan.* i. 3), yn meddu ar wybodaeth a deall, ac o berson hardd. Detholwyd ef a hwythau i wasanaethu yn uniongyrchol ar y brenin; ac i'r dyben hwn addysgwyd ef yn iaith a dysg, a doethineb y Caldeaid, fel y dysgid yn ngholegau y dewiniaid. Fel Daniel, efe a ymattaliodd rhag ymhalogi trwy fwyta y bwyd ac yfed y gwin a ddarperid iddynt ar fwrdd ac ar draul y brenin, a chafodd ganiatâd i fwyta ffa ac i yfed dwfr. Wedi i amser y prawf ddyfod i ben, cafwyd ei fod ef a'i gymdeithion yn edrych yn well na'r gweddill o'r doethion; a phennodwyd hwynt i sefyll ger bron y brenin. Pan aeth y gorchymyn allan oddi wrth Nebuchodonosor i ladd yr holl ddoethion neu y dewiniaid, ymunodd Sadrach, ynghyd â'i gymdeithion, mewn gweddi at Dduw ar iddo ddadguddio a dehongli y breuddwyd i Daniel: ac wedi i Daniel, mewn attebiad i'r weddi hono, ddeongli y breuddwyd yn llwyddiannus, a chael ei wneyd yn llywodraethwr talaeth Babilon, dyrchafwyd Sadrach i swydd uchel o ymddiried yn y wladwriaeth. Ond yr oedd efe yn wrthddrych ymosodiadau y Caldeaid cenfigenus; ac am wrthod addoli y ddelw aur taflwyd ef ynghyd â Mesach ac Abednego i ffwrn o dân. Ond daliodd ei ffydd yn gadarn, a chafodd ei waredu yn wyrthiol (*Dan.* iii. 26); ac yr oedd wedi ennill buddugoliaeth gyflawn pan y daeth allan o'r ffwrn, ynghyd â'i ddau gydymaith, heb ei niweidio, a chlywodd y brenin ei hun yn dwyn tystiolaeth i ogoniant Duw; a mawrhaodd y brenin Sadrach, Mesach, ac Abednego, o fewn talaeth Babilon." Ni chlywir dim mwy yn yr Hen Destament am y tri llange ar ol hyn; ac ni sonir am danynt chwaith yn y Testament Newydd, ond yn unig yn y cyfeiriad a wneir atynt yn yr Epistol at yr Hebreaid, fel rhai "a ddiffoddasant angerdd y tân;" *Heb.* xi. 33, 34. Ymddengys fod merthyron y cyfnod Maccabeaidd wedi cael eu calonogi yn fawr gan ddylanwad eu hesampl hwy: 1 *Macc.* ii. 59, 60. Sylwa Ewald nad oedd un llyfr yn cael cyfeirio ato yn amlach na Llyfr Daniel yn y cyfnod hwn, ond llyfrau Moses.

SADUCEAID (Σαδδουκαῖοι: *Sadducaei*): plaid neu ysgol grefyddol yn mysg yr Iuddewon yn amser Crist, a wadent fod y gyfraith lafaredig yn ddadguddiad oddi wrth Dduw i'r Israeliaid, ac a haerent mai y gyfraith ysgrifenedig yn unig oedd yn rhwymedig ar y genedl, fel yn meddu awdurdod ddwyfol. Er y sonir am danynt yn fynych yn y Testament Newydd mewn cyssylltiad â'r Phariseaid, nid ydynt wedi bod yn achlysur i daflu cymmaint o oleuni ar Gristionogaeth a'u gwrthwynebwyr. Ni ddarfu i Iesu Grist erioed ymosod mor llym ar y Saduceaid ag y gwnaeth ar y Phariseaid, oddi gerth unwaith; a hyny pan oeddynt wedi cydfwriadu â'r Phariseaid yn ei erbyn, a gofyn iddo am arwydd o'r nef (*Mat.* xvi. 1, 4, 6): ac nid yw yn ymddangos chwaith iddynt gymmeryd un rhan weithredol mewn mabwysiadu mesurau i'w roddi ef i farwolaeth. Yn yr ystyr yma, ac mewn ystyriaethau ereill, nid ydynt wedi bod mor fawr eu dylanwad a'r Phariseaid yn hanes y byd.

Y mae tarddiad enw ambell sect yn hollol ddibwys, tra mewn amgylchiadau ereill y mae hyny o bwys er mwyn olrhain yr egwyddorion sydd ynglŷn â'u henwau. O'r dosbarth olaf, y mae y *Saduceaid:* ac y mae cael allan sicrwydd ar hyn yn myned yn mhell i'n cynnorthwyo i ffurfio syniad cywir am safle y Saduceaid yn mysg yr Iuddewon. Y mae y mater hwn, pa fodd bynag, wedi ei amgylchu â chryn anhawsderau. Yr enw Hebraeg a roddir arnynt yn y "*Mishna*" yw *Tsedûcîm*—y lliosog o'r gair *Tsâdôc*, yr hwn yn ddiau sydd yn arwyddo *cyfiawn*. Ond nid ydyw un amser yn cael ei arfer yn y Beibl ond fel enw priodol; ac yn y Beibl Cymraeg y mae yn wastad yn cael ei gyfieithu yn 'Sadoc;' 2 *Sam.* viii. 17; 2 *Bren.* xv. 33; 1 *Cron.* vi. 8, 13, &c.; *Neh.* iii. 4, 29; xi. 11. Y cyfieithiad goreu ac egluraf o'r gair, gan hyny, fyddai *Sadociaid;* ond wedi hyny, codai y cwestiwn pa ham y galwyd hwy felly? Yr adroddiad Iuddewig cyffredin ydyw, eu bod wedi eu galw felly ar ol un Sadoc, dysgybl i Antigonus o Socho, am yr hwn y crybwyllir yn y "*Mishna*" (*Afôth*) ei fod wedi derbyn y gyfraith lafaredig gan Simon y Cyfiawn, yr olaf o wŷr y Synagog Fawr. Mynegir yr arferai Antigonus ddywedyd:—"Na fyddwch fel gweision a wasanaethant eu meistr er mwyn derbyn gwobr; ond byddwch fel gweision a wasanaethant eu meistr heb fod un olwg ganddynt ar y wobr." A'r hyn a ddywedir yn gyffredin ydyw, i Sadoc, yr hwn a roddes ei enw i'r Sadociaid, neu y Saduceaid, gamesbonio hyn mor bell, fel yr oedd nid yn

Digitized by Google

unig yn credu y gwirionedd y dylai rhinwedd fod yn rheol ymddygiad dyn yn annibynol ar wobr a chosp, ond yn cyhoeddi yr athrawiaeth nad oes un sefyllfa ddyfodol o wobr a chosp yn bod. Os olrheinir y dywediad yma, pa fodd bynag, i'w ffynnonell darddiol, fe geir nad ydyw i'w gael yn y "*Mishna*," nac yn un rhan arall o'r "*Talmud*" [Geiger's "*Urschrift*," &c., td. 105]; ac mai y crybwylliad cyntaf a wneir am rywbeth o'r fath sydd mewn gwaith bychan o eiddo y rabbi Nathan, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo ar y traethawd sydd yn y "*Mishna*" a elwir yr *Afoth*, neu y 'Tadau.' Ond y mae yr oes yr oedd Nathan yn byw ynddi yn ansicr; a'r cyfeiriad cyntaf a wneir ato sydd mewn geiriadur rabbinaidd a gwblhawyd tua'r flwyddyn B. A. 1105. A ganlyn ydynt eiriau y Nathan hwn, am y dywediad a briodolir i Antigonus:—"Yr oedd gan Antigonus o Socho ddau ddysgybl a ddysgent y dywediad hwn i'w dysgyblion, a dysgodd y dysgyblion hyny ef drachefn i'w dysgyblion hwythau. O'r diwedd dechreuasant edrych i mewn iddo yn fanwl, a dywedasant, 'Beth oedd ein tadau yn ei olygu wrth ddysgu i ni y syniad hwn? A ydyw yn bossibl fod y llafurwr i weithio ar hyd y dydd, ac heb dderbyn cyflog yn yr hwyr? Yn sicr, pe buasai ein tadau yn gwybod fod byd arall ac adgyfodiad y corph i fod, ni buasent yn siarad fel hyn.' Yna hwy a ddechreuasant bellhau oddi wrth y gyfraith; ac felly cyfododd dwy sect, sef y Sadociaid a'r Baithusiaid—y flaenaf yn ddilynwyr i Sadoc, a'r olaf yn ddilynwyr i Baithos." Gellir sylwi yma nad oes yn y dyfyniad uchod un ymgais yn cael ei wneyd i gyfiawnhau yr hyn oedd unwaith yn gredíniaeth gyffredinol; sef, fod Sadoc wedi camesbonio dywediad Antigonus; ac nid oes un rheswm yn cael ei awgrymu pa ham yr oedd dilynwyr y syniadau newyddion tybiedig wedi ymgyfenwi ar ol Sadoc, yn hytrach nag ar ol Antigonus. Wrth gadw hyn o flaen y meddwl, ynghyd âg amryw ystyriaethau y gallesid cyfeirio atynt pe buasai gofod yn caniatau, nid ymddengys yn afresymol i ni ammheu cywirdeb adroddiad Nathan.

Hen dybiaeth arall a awgrymwyd am ddeilliad yr enw *Saduceaid*, ydyw yr un y cyfeirir ato gan Epiphanius ["*Adversus Haereses*," i. 4]; yr hwn a ddywed i'r Saduceaid alw eu hunain ar yr enw hwnw oddi wrth y gair *cyfiawnder*, sef y cyfieithiad o'r gair Hebraeg *czede*; "a bod hefyd gynt un Sadoc yn mysg yr offeiriaid, ond na ddarfu iddynt barhau i lynu wrth athrawiaeth eu blaenor." Ond y mae yr adroddiad hwn hefyd yn anfoddhaol mewn dau ystyr:—1. Nid ydyw yn egluro pa ham, os ydyw y geir-darddiad tybiedig yn gywir, na buasai *Tsaddicin* neu Sadociaid yn enw ar y Saduceaid, yr hyn a fuasai yr ansoddair Hebraeg rheolaidd am 'gyfiawn.' Yn 2. Tra yr arwyddir yn amlwg eu bod unwaith yn dal athrawiaeth hen offeiriad o'r enw Sadoc, yr hwn a elwid eu hathraw, ni ddywedir yn eglur fod cyssylltiad rhwng ei enw ef a'r eiddynt hwy; ac etto ni ddywedir chwaith fod y cyd-ddigwyddiad rhwng y ddau enw yn ddamweiniol. Heb law hyny, ni roddir hysbysrwydd pa bryd yr oedd Sadoc yn byw, na pha rai oedd yr athrawiaethau hyny o'i eiddo a ddelid gan y Saduceaid, ond yr ymwrthodasant â hwy wedi hyny. Felly nid llawer mwy boddhaol ydyw eglurhâd Epiphanius ar darddiad y gair *Saduceaid* na'r eiddo y rabbi *Nathan*. Yn yr amgylchiadau hyn, os rhaid syrthio yn ol ar dybiaeth, y peth cyntaf i'w ystyried yw hyn—A ydyw y gair yn debyg o fod yn codi o ystyr y gair *cyfiawnder*, neu ynte oddi wrth enw person? Rhaid penderfynu yn ffafr y dewisiad olaf, yn gymmaint ag nad yw y gair Sadoc un amser yn digwydd yn y Beibl ond fel enw priodol; ac yna arweinir ni i ymofyn, pwy tybed oedd Sadoc y Saducead? Yn hanes yr Iuddewon yr ydys yn cael fod un Sadoc o bwysigrwydd a dylanwad mawr yn eu plith, a dim ond un; sef, yr offeiriad hwnw a gymmerodd ran mor amlwg yn amgylchiadau y wladwriaeth yn amser Dafydd, a'r hwn a bleidiodd Solomon pan yr oedd Abiathar yn cymmeryd plaid Adoniah fel olynydd Dafydd i'r orsedd: 1 *Bren.* ii. 32—45. Y degfed yn ei ddisgyniad o'r archoffeiriad Aaron oedd efe yn ol yr achau; a pha un bynag yw yr esboniad cywir ar yr hyn a ddywedir yn 1 *Bren.* ii. 35, sef fod Solomon wedi ei osod ef yn lle Abiathar, y mae ei linach ef o offeiriaid yn wastad wedi hyny yn cael y flaenoriaeth. Fel hyn, pan y dywedir yn 2 *Cron.* xxxi. 10 i Hezeciah roddi cwestiwn i'r offeiriaid a'r Lefiaid yn gyffredinol, y mae yr attebiad yn cael ei briodoli i Azariah, "yr offeiriad penaf o dŷ Sadoc:" ac yn ngweledigaeth brophwydoliaethol Ezeciel am y deml ddyfodol, sonir am "feibion Sadoc," a'r "offeiriaid a'r Lefiaid y rhai sydd o hâd Sadoc," gyda pharch neillduol, fel rhai a gymmerasant ofal cyssegr Duw, pan y gwrthgiliodd meibion Israel: *Ezec.* xl. 46; xliii. 19; xliv. 15; xlviii. 11. Yn awr, gan fod trawsfudiad y gair o "feibion Sadoc" ac "offeiriaid o hâd Sadoc" i *Sadociaid* yn hawdd, a chan y dywedir yn *Act.* v. 17, "A'r archoffeiriad a gyfododd, a'r holl rai oedd gydag ef (yr hon yw heresi y Saduceaid), ac a lanwyd o genfigen," y mae Geiger yn tybied mai yr un oedd y Saduceaid, neu y Sadociaid, yn wreiddiol, a meibion Sadoc, a'u bod yn gwneyd i fyny fath o bendefigaeth offeiriadol. Ymgyssylltodd y rhai a ystyrient eu hunain yn perthyn i'r bendefigaeth; megys, er enghraifft, teulu yr archoffeiriad, y rhai a ddaethant i sylw mawr o dan deyrnach Herod gyda hwynt. Yr oedd y rhai hyn gan mwyaf yn farnwyr, ac yn bersonau mewn swyddi yn perthyn i'r dosbarth llywodraethol. Yn awr, er nad yw y golygiad hwn ar y Saduceaid ond ffrwyth casgliad, ac nad yw ond tybiaeth, y mae yn ddiammheu ei fod yn dybiaeth sydd yn egluro yr enw yn well nag un arall a ddygwyd yn mlaen, ac hefyd yn egluro yr hyn a ddywedir yn y cyfeiriad a wneir yn Llyfr yr Actau—a ystyrir braidd yn dywyll—at yr archoffeiriad a'r rhai oedd gydag ef, eu bod o sect y Saduceaid. Ni a dderbyniwn, gan hyny, y golygiad hwn hyd nes y ceir un tebycach o fod yn gywir, ac a gyfeiriwn yn awr at rai o neillduolion credo y blaid hon yn mysg yr Iuddewon.

Un pwngc mawr yn nghredo y Saduceaid oedd, gwrthwynebu y syniad fod yr Israeliaid mewn meddiant o gyfraith' lafaredig, neu eiriol, a drosglwyddwyd iddynt oddi wrth Moses—yr hyn a gredid gan y Phariseaid. Y mae y syniad hwn o eiddo y Phariseaid yn cael ei wrthod gan Gristionogion yn gyffredinol; ac yn wir y mae mor ddyeithr i lawer o Gristionogion fel mai o'r bron y gellir dywedyd eu bod yn gwybod dim am y syniad, er ei fod yn awr yn cael ei goleddu gan yr Iuddewon a dybiant eu hunain yn uniongred yn mron dros yr holl fyd. Ond nid oes genym dystiolaeth personau annibynol oedd yn gydoeswyr â Moses iddo drosglwyddo cyfraith o'r fath i'r Israeliaid—yr hyn a fuasai yn brawf

Digitized by Google

hanesyddol; ac nid oes genym chwaith dystiolaeth personau o'r genhedlaeth nesaf ati am fodolaeth y cyfryw gyfraith lafaredig oddi wrth Moses, yr hyn y gallesid ei ystyried yn brawf hanesiol o'r ail radd. Ond nis gellir cydnabod crediniaeth yr Israeliaid ar y mater yn mhen deuddeg can mlynedd ar ol dyddiau Moses, yn absennoldeb pob tystiolaeth bellach yn ol, yn brawf o ffaith hanesyddol. Er hyny, y mae yn gamgymmeriad i gymmeryd yn ganiataol fod y rhai a wadant y gyfraith lafaredig Foesenaidd yn ystyried fod y gyfraith lafaredig hon, fel un gyfundrefn fawr, wedi ei mabwysiadu yn sydyn rywbryd gan yr Israeliaid. Mwy tebygol ydyw fod yn mhlith yr Iuddewon, pan ddychwelasant o Babilon, gorph mawr o benderfyniadau ac arferion, nad oeddynt yn gynnwysedig yn Mhum Llyfr Moses, y cydnabyddid eu hawdurdod yn ymarferol yn mhell cyn iddynt gael eu priodoli i Moses. Yr unig beth o bwys sydd yn gofyn eglurhâd arno yw hyn:—nid bodolaeth yr arferion a gymmeradwyir gan y gyfraith lafaredig, ond y grediniaeth a goleddid gan ddosbarthiadau pennodol o Iuddewon fod Moses wedi cyflwyno yr arferion yn gyfreithiau i'r Israeliaid fel dadguddiad dwyfol. Y mae egluro hyn yn hanesyddol oddi wrth gofnodion ysgrifenedig yn ammhossibl, o herwydd distawrwydd yr ychydig ysgrifeniadau hanesyddol Iuddewig sydd yn proffesu bod wedi eu hysgrifenu rhwng y dychweliad o Babilon, yn y flwyddyn c. c. 538, a'r amser ansicr hwnw pan y cauwyd i fyny canon y Beibl, yr hyn nis gallasai fod rhyw lawer cyn marwolaeth Antiochus Epiphanes, c. c. 164. Am yr holl amser hwn, sef tua 374 o flynyddoedd, nid oes genym hanes yr Iuddewon yn Palestina wedi ei ysgrifenu gan gydoesydd:—dim oll, ond yr hyn sydd yn gynnwysedig yn llyfrau y Beibl—sef, *Ezra* a *Nehemiah*. Ac nid ydyw y diweddaf o'r llyfrau yma yn dwyn yr hanes i lawr yn llawer diweddarach na chan mlynedd ar ol dychweliad y gaethglud: gan hyny, y mae cyfnod maith a phwysig o fwy na dau cant a hanner o flynyddoedd cyn gwrthsafiad anwrol y Maccabeaid, nad oes un Iuddew oedd yn byw ar y pryd wedi ysgrifenu ei hanes. Gan fod defnyddiau hanesyddol mor brin, ofer yw ceisio rhoi adroddiad pendant o'r amgylchiadau o dan ba rai y priodolwyd y gyfraith lafaredig i Moses fel ei hawdwr. Dichon y gellir cael awgrym o'r modd y bu wrth ystyried fel yr oedd pobl yr amseroedd gynt yn priodoli cyfreithiau a ddaeth i rym yn llawer diweddarach nag amser Minos, Lycurgus, Solon, a Mnua i'r gwŷr enwog hyn. Yn gyffelyb hefyd, fe allai, y priodolwyd y gyfraith lafaredig hon i Moses.

Dylid sylwi yma nad ydym i ddeall fod y Saduceaid, am eu bod yn ymwrthod â chyfraith lafaredig Moses, yn gwrthod pob traddodiad a phenderfyniad a gynnygid mewn ffordd o eglurhâd ar Bum Llyfr Moses. Er eu bod yn gwrthdystio yn erbyn yr haeriad fod y fath byngciau wedi eu penderfynu trwy ddadguddiad gan Moses, yr oeddynt, dybygid, mewn llawer o enghreifftiau, yn dilyn yn ymarferol yr un traddodiadau a'r Phariseaid. Y mae hyn yn egluro pa ham y nodir allan yn y "*Mishna*" bethau y gwahaniaethai y Phariseaid a'r Saduceaid yn eu cylch, sydd mor ddibwys; megys, er enghraifft, pa un a oedd cyffwrdd â'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn gwneuthur y dwylaw yn gelfyddydol "aflan" yn yr ystyr Lefiaidd, a pha un a oedd y dwfr pan y tywelltid ef o lestr glân i un aflan ynddo ei hun yn gelfyddydol "lân" neu "aflan." Os oedd y Phariseaid a'r Saduceaid yn gwahaniaethu ar bob peth nad yw yn cael ei grybwyll yn bennodol yn Mhum Llyfr Moses, o'r braidd y buasai yn angenrheidiol nodi allan bethau o'r fath yma y gwahaniaethent yn eu cylch, y rhai i Gristionogion wedi eu trwytho yn nysgeidiaeth Crist, a ymddangosent mor hynod o ddibwys: *Mat.* xv. 11; *Luc* xi. 37—40.

Athrawiaeth arall a goleddid gan y Saduceaid oedd gwadu yr adgyfodiad ar ol marw; yr hyn a ddilynai, yn ol eu syniadau hwy, fel canlyniad naturiol eu gwaith yn gwadu i Moses ddadguddio i Israel y gyfraith lafaredig. O herwydd ar bwngc mor bwysig a bywyd ar ol marw nid oedd un blaid grefyddol yn mysg yr Iuddewon yn ystyried ei hun yn rhwym o dderbyn un athrawiaeth fel erthygl o ffydd, os na byddai wedi ei chyhoeddi gan Moses, ei deddfroddwr mawr; a chymmerent hwy yn ganiataol nad oedd yn ysgrifeniadau Moses ddim yn cael ei ddywedyd am athrawiaeth yr adgyfodiad. Gan fod cyfraith Moses yn addaw i'r rhai a ufuddhaent i'r Arglwydd y gwobrwyon tymmorol mwyaf deniadol (*Deut.* vii. 12—15; xxviii. 1—12; *Exod.* xx. 12; xxiii. 25, 26), ac yn bygwth yr anufudd â'r drygau a'r cospau tymmorol trymaf (*Deut.* xviii. 15—68), haerai y Saduceaid, gan hyny, nad oedd ysgrifeniadau Moses yn cynnwys yr athrawiaeth o fywyd dyfodol. Y mae llawer mewn amseroedd diweddar yn cydolygu â hwy cyn belled a hyn yna. Etto, fe ddaeth Iesu Grist â phrawf o'r athrawiaeth hono allan o Bum Llyfr Moses (*Mat.* xxii. 31, 32); ond y mae y syndod a ddadganwyd yn wyneb y ddysgeidiaeth hon megys pe yn awgrymu nad oedd y rabbiniaid yn gyffredin yn arfer tynu yr un casgliad oddi wrth y geiriau a ddyfynwyd gan y Gwaredwr ag a dynwyd ganddo ef. Y mae yn amlwg fod rhanau ereill o'r Hen Destament yn arwyddo crediniaeth gref yn yr adgyfodiad, megys *Esa.* xxvi. 19; *Dan.* xii. 2; *Iob* xix. 26, a hefyd y mae yn y Salmau gyfeiriadau ati; ac ar ryw olwg gellir rhyfeddu nad oedd y Saduceaid wedi eu hargyhoeddi gan yr hyn a dystiolaethir yn y lleoedd uchod. Ond er fod y Saduceaid yn ystyried y llyfrau a nodwyd i ryw raddau yn gyssegredig, y mae braidd yn ammheus a oedd yr Iuddewon yn gyffredin yn eu hystyried yn gyssegredig yn gwbl yn yr un ystyr ac i'r un graddau a'r gyfraith ysgrifenedig.

Arferai yr Iuddewon edrych gyda pharch arbenig ar Moses, ac ystyrid ef ganddynt yn uwch mewn awdurdod nag un prophwyd a ddaeth ar ei ol ef. Nid yn unig yr oedd yr arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaeth efe yn yr Aipht ac wrth y Môr Coch yn rhagori ar ddim a wnaed gan un dyn arall y sonir am dano yn yr Hen Destament, ac nid yn unig efe oedd y mwyaf ar Sinai, ac yn yr holl ymdrafodaeth gyda golwg ar roddi y ddeddf i feibion Israel, ond yr oedd hyd yn oed y dull yn mha un y cyflwynwyd iddo y dadguddiedigaethau dwyfol yn briodol iddo ef ei hun. Tra yr oedd ereill yn derbyn eu cenadwriaethau mewn gweledigaethau neu freuddwydion, yr oedd y Goruchaf yn mynegu ei ewyllys i Moses trwy lefaru âg ef wyneb yn wyneb: *Num.* xii. 6—8; *Exod.* xxxiii. 11; *Deut.* v. 4; xxxiv. 10—12. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oedd y Saduceaid yn ystyried y dylasent gredu athrawiaeth yr adgyfodiad, oni bae fod Moses wedi ei chyhoeddi yn eglur—yr hyn, yn eu tyb hwy, ni wnaeth efe yn y gyfraith ysgrifenedig; ac yr

Digitized by Google

oeddynt yn gwrthod credu fod Moses wedi trosglwyddo i lawr gyfraith lafaredig. Nis gellir gwadu nad oedd credinwyr Iuddewig yn yr adgyfodiad yn cael cadarnhâd i'w ffydd trwy gyfeiriadau at yr adgyfodiad a wneir mewn rhanau ereill o'r ysgrifeniadau sanctaidd; ac yr oedd yr ysgrifeniadau yn cael eu darllen a'u hesbonio ganddynt yn ngoleuni y gyfraith lafaredig. Nid oedd y Saduceaid, pa fodd bynag, yn gwneuthur defnydd o'r goleuni hwnw; gan hyny, tybient fod yr holl ranau hyny yn annigonol i benderfynu y cwestiwn. Mewn cyssylltiad â gwaith y Saduceaid yn anghredu yr adgyfodiad, y mae yn briodol gwneyd sylw ar yr hyn a ddywedir yn *Act.* xxiii. 8; sef, eu bod hefyd yn gwadu nad oes "nac angel, nac ysbryd." Y mae yn anhawdd gwybod pa mor bell yr ydym i ddeall eu bod yn gwadu bodolaeth angel ac ysbryd. Sonir am angylion mor bendant yn Mhum Llyfr Moses, fel y mae yn anhawdd deall pa fodd y gallai y rhai a gydnabyddent yr Hen Destament fel dadguddiad dwyfol wadu eu bodolaeth. Sonir am danynt yn y lleoedd canlynol, ac mewn manau ereill yn yr Hen Destament: *Gen.* xvi. 7; xix. 1; xxii. 11; xxviii. 12; *Exod.* xxiii. 20; *Num.* xxii. 23; *Barn.* xiii. 18; 2 *Sam.* xxiv. 16. Y mae yn fwy anhawdd drachefn rhoddi cyfrif am hyn pan y meddylir nad yw Josephus, na'r "*Mishna*," nac un rhan o'r ysgrifeniadau Talmudaidd, yn dyweyd fod y Saduceaid yn gwadu eu bodolaeth. Y ddau brif reswm sydd wedi eu hawgrymu dros hyn ydynt, naill ai fod y Saduceaid yn ystyried angylion yr Hen Destament yn ymddangosiadau yn unig yn cynnrychioli yr Arglwydd; neu ynte eu bod yn anghredu nid yn angylion yr Hen Destament, ond yn unig yn y gyfundrefn angylaidd oedd wedi ymddadblygu yn nghredo y bobl gyffredin yn mhlith yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o gaethiwed Babilon. —Herzfeld, "*Geschichte des Volkes Israel.*" Hwyrach fod un o'r ddau eglurhâd hwn yn gywir. Dichon, pa fodd bynag, y gellir cynnyg tybiaeth arall. Ymddengys, oddi wrth *Act.* xxiii. 9, fod rhai o'r ysgrifenyddion, "o ran y Phariseaid," wedi awgrymu y possiblrwydd i ysbryd neu angel ymddiddan â Phaul, ar yr achlysur pan y mynegir fod y Saduceaid yn gwadu bodolaeth angel ac ysbryd. Tybia rhai mai anghredu yr oedd y Saduceaid fod y fath fodau yn ymddangos yn eu hamser hwynt, er eu bod yn credu yn yr adroddiadau a geid yn yr Hen Destament. Os fel hyn yr oedd, y mae yr allwedd i ddeall yr wythfed adnod, fod y Saduceaid yn gwadu "angel neu ysbryd," i'w gael yn y nawfed adnod.

Y mae cyfeiriad wedi ei wneyd at farn y Saduceaid gyda golwg ar ryddid yr ewyllys, a'r dull y cyfeiriai Josephus at hyny, yn yr erthygl PHARISEAID. Dyma eiriau Josephus ar y mater hwn:—"Y mae y Phariseaid yn priodoli pob peth i ffawd (neu ragluniaeth), ac i Dduw; ond y mae y Saduceaid yn gwneyd i ffordd â ffawd yn hollol, ac yn tybied nad ydyw Duw yn gofalu dim pa un ai gwneyd drwg a wnawn ai peidio; a dywedant fod gweithredu yr hyn sydd dda neu ddrwg yn hollol at ddewisiad dyn ei hun; a bod pob peth yn dibynu arnom ni ein hunain." —"*Rhyf. Iudd.*," ii. 8, *adr.* 14; "*Hynaf. Iudd.*," xxiii. 5, 9. Y mae casgliad sydd braidd yn anffafriol iddynt wedi cael ei dynu oddi wrth hyn, megys pe buasent yn gwadu rhagluniaeth ddwyfol yn hollol; ond y mae eu gwaith yn derbyn llyfrau canonaidd yr Ysgrythyrau, ac hefyd yn ymarfer y dull o addoli a orchymynir ynddynt, yn anghysson â gwadiad o'r fath. Hwyrach mai yr un peth sydd yn dyfod i'r golwg yma ag sydd wedi cyflwyno ei hun i feddyliau llawer o ddynion meddylgar; sef, yr anhawsder i gyssoni rhyddid moesol dyn âg ewyllys a threfniadau yr hwn sydd yn llywodraethu yn y nefoedd.

Y mae rhai o'r ysgrifenwyr Cristionogol cyntefig, megys Epiphanius, Jerome, ac Origen (yn eu gwahanol esboniadau ar *Mat.* xxii. 31—33) yn dyweyd fod y Saduceaid yn ymwrthod â'r holl Ysgrythyrau Sanctaidd, oddi eithr Pum Llyfr Moses. Os ydyw hyny yn gywir, gwna yn ddiammheuol wahaniaeth mawr a phwysig arall rhwng y Saduceaid a'r Phariseaid. Y mae llawer erbyn hyn, pa fodd bynag, yn tybied fod hyn yn seiliedig i raddau ar gamgymmeriad; ac, hwyrach, wedi codi mewn rhan o gymmysgu syniadau y Saduceaid â'r eiddo y Samariaid.—Lightfoot's "*Hor. Hebr.*" ar *Mat.* iii. 7. Mae Josephus yn ddistaw gyda golwg ar y gwahaniaeth barn ar y mater hwn rhwng y Saduceaid a'r Phariseaid; ac y mae yn anhawdd dychymygu pa fodd y buasai, ar dri o wahanol achlysuron pan y mae yn cyfeirio at opiniynau y ddwy sect, yn parhau yn ddistaw o berthynas i wahaniaeth barn ar bwngc o'r fath, os ydoedd yn bod.—"*Hynaf. Iudd.*," xiii. 5, *adr.* 9; xviii. 1, *adr.* 3; "*Rhyf. Iudd.*," ii. 8, *adr.* 14. Etto, y mae y syniad fod cymmaint o wahaniaeth a hyn rhwng y Saduceaid a'r Phariseaid yn anghysson â'r dull yn mha un y mae Josephus yn llefaru am Ioan Hyrcanus, yr hwn oedd archoffeiriad a brenin Iudea am un mlynedd ar ddeg ar hugain, a'r hwn, ar ol bod yn Pharisead, a droes yn Saducead tua diwedd ei oes. Bu farw yr Hyrcanus hwn c. c. 106; ac yr oedd wedi bod mor elynol i'r Samariaid fel y darfu iddo, ynghylch tair blynedd cyn ei farwolaeth, gymmeryd eu dinas, Samaria, a'i dinystrio i'r llawr; a dywedir iddo gloddio math o ogofeydd mewn amryw barthau o'r dref mewn trefn i suddo arwynebedd y tir, ac yna troi dwfr dros y lle, i'r dyben o ddileu pob olion fod y fath ddinas wedi bod o gwbl. Os oedd y Saduceaid wedi dyfod mor agos yn eu credo i'r Samariaid fel ag i wadu awdurdod ddwyfol holl lyfrau yr Hen Destament, oddi eithr Pum Llyfr Moses, y mae yn dra annhebyg y buasai Josephus, ar ol crybwyll am farwolaeth Hyrcanus, yn llefaru fel y gwna yn y dull canlynol:—"Barnwyd ef gan Dduw yn deilwng o dair o'r rhagorfreintiau penaf—llywodraethu y genedl, ei ddyrchafu i urddas yr archoffeiriadaeth, a'i wneyd yn brophwyd. Canys yr oedd Duw gydag ef, a galluogodd ef i wybod amgylchiadau dyfodol." Oddi wrth yr ymadroddion hyn, o'r braidd nas gellir casglu nad oedd Josephus yn ei ystyried yn rhyw bwngc pwysig iawn pa un ai Saducead ynte Pharisead a fuasai yr archoffeiriad; ond pe buasai y Saduceaid yn gwadu awdurdod ddwyfol holl lyfrau yr Hen Destament, oddi eithr llyfrau Moses, gallesid tybied na buasai yn synied felly. Fe allai mai yr hyn a effeithiodd yn llawn cymmaint a dim i ddyfnhau yr argraph hwn oedd gwaith Crist yn ymresymu gyda hwynt am athrawiaeth bywyd dyfodol trwy ddyfynu o lyfrau Moses yn unig, er fod testynau a ymddangosent yn gryfach er cadarnhau yr athrawiaeth hono o lyfrau ereill yr Hen Destament.

Byddai yn briodol sylwi ar y ffaith yma, yr hon, tra yn cyfrif am yr hyn a ddichon fod yn gamgymmeriad yn yr ysgrifenwyr Cristionogol

boreuol o berthynas i'r Saduceaid, sydd ar dir arall yn deilwng o sylw. Y ffaith hono ydyw, diflaniad cyflym y Saduceaid o'r golwg ar ol y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, a gwaith yr Iuddewon yn mabwysiadu syniadau y Phariseaid. Y mae dau amgylchiad, er yn anuniongyrchol, wedi effeithio yn rymus er dwyn hyn oddi amgylch:—1. Sefyllfa yr Iuddewon ar ol cymmeriad Ierusalem gan Titus; ac yn 2. Cynnydd y grefydd Gristionogol. Gyda golwg ar y peth cyntaf, y mae yn anhawdd dychymygu y dychryn a'r arswyd a achoswyd gan ddinystr Ierusalem i feddyliau Iuddewon crefyddol. Yr oedd eu dinas sanctaidd mewn adfeilion; eu teml sanctaidd ac ysblenydd, canolbwynt eu haddoliad a'u serch, wedi ei llosgi yn fileinig i'r llawr, ac heb gareg wedi ei gadael ar gareg o honi: eu gobeithion godidog, naill ai am frenin oedd i adferu iddynt ymherodraeth Dafydd, neu am Fab y dyn oedd i ymddangos ar gymmylau y nef, yn ymddangos iddynt am dymmor yn ddim amgen na breuddwydion ofer a gwâg; ac yr oedd pob peth yn y byd yn ymddangos i'w dychymyg yn llawn o dywyllwch ac anobaith. Yn eu hing a'u cyfyngder, yr oeddynt yn troi yn naturiol am gysur at obaith am sefyllfa ddyfodol; ac yn y cyfryw amgylchiadau, ymddangosai athrawiaeth y Saduceaid, nad oes dim yn bod y tu hwnt i'r byd presennol, yn oer, digysur, a chås. Drachefn, pan oeddynt wedi suddo i'r iselder mwyaf, yr oedd crefydd newydd a ddirmygid ganddynt hwy fel ofergoeledd a heresi—crefydd ag yr oedd un o'u cenedl yn sylfaenydd iddi, ac un arall yn un o'i chenhadon mwyaf llwyddiannus at y paganiaid—yn graddol weithio ei ffordd yn mlaen yn mhlith deiliaid eu gorchfygwyr, sef y Rhufeiniaid. Un o achosion y llwyddiant hwn ar Gristionogaeth yn ddiau oedd crediniaeth gref yn adgyfodiad yr Iesu, ac yn ganlynol yn adgyfodiad dynolryw yn gyffredinol: gwirionedd oedd yn cael ei dderbyn gan y dychweledigion Cenhedlig gydag awyddfryd neillduol, am yr hwn nas gall y rhai sydd yn bresennol yn gyfarwydd â'r athrawiaeth o adgyfodiad y meirw o'u mebyd ond ffurfio dychymyg egwan. Buasai ceisio attal cynnydd y grefydd newydd hon yn mhlith yr Iuddewon trwy appelio at y gwobrau a'r cospau tymmorol y cyfeirir atynt yn Llyfrau Moses yn berffaith ynfydrwydd. Ymunodd amryw bethau i gymmhell yr Iuddewon, y rhai nad oeddynt yn Phariseaid, ond a wrthwynebent y grefydd newydd, i ymgasglu o gwmpas baner y gyfraith lafaredig, ac i haeru fod ei deddfroddwr sanctaidd, Moses, wedi trosglwyddo, er nad mewn ysgrifen, y gyfraith lafaredig hon i'w bobl ffyddlawn, yr hon oedd yn cynnwys dadguddiad am fywyd a sefyllfa ddyfodol o wobr a chosp. Fel hyn, o bossibl, y dygwyd llawer i gredu mewn gwirionedd mawr a phwysig trwy gyfrwng yr hyn a elwir y gyfraith lafaredig. Ac fel yr awgrymwyd, yr oedd y Saduceaid fel plaid wedi darfod, ac amryw o'r syniadau a goleddid ganddynt yn cael eu gwrthod cyn diwedd y ganrif gyntaf.

SADWRN. Gwel PLANED—AU.

SADWRN (*Saturnus; Saturn*): un o brif dduwiau yr hen Italiaid, yr hwn a ystyrid ganddynt yn brif amddiffynwr amaethyddiaeth, a'r holl wareiddiad a ymgodai oddi wrth y gelfyddyd hono; a darlunir ef yn gyffredin gyda chryman yn ei law. Y mae yr enw Lladinaidd yn ddeilliedig o *satum* (*sero*—i hau); ac yn arwyddo, dybygid, y duw a roddai ei nawdd dros yr hyn a heuid ac a blenid, ac un a gyfranai 'lawnder' *(plenty)*. Yn ol yr hen chwedlau Italaidd, daeth o bell i ororau Italy, yn nheyrnasiad Janus, gan yr hwn y cafodd groesawiad caredig. Er hyn oll, ystyrid Sadwrn yn wastad fel brenin cyntaf y brodorion; a hyny, dybygid, am mai yn ei deyrnasiad ef y dechreuodd amaethyddiaeth a gwareiddiad flodeuo yn Italy. Mynegir iddo sefydlu trefedigaeth wrth droed bryn y Capitol, yn Rhufain, a alwyd ar ei enw ef yn *Saturnia*. Yna dechreuodd ddysgu i'r Italiaid y gelfyddyd o ddiwyllio y meusydd, ac arweiniodd hwynt oddi wrth eu dull anwaraidd o fyw i ymaflyd yn ngalwedigaethau heddychol bywyd gwareiddiedig; a galwyd holl wlad Italy ar ei enw ef yn *Saturnia*, neu wlad y ffrwythydd. Dywedir ei fod wedi dysgu ei ddeiliaid werth gwrtaith, a'r modd i'w ddefnyddio. Llywodraethai mewn tiriondeb ac addfwynder, a gelwir yr oes hono yn oes aur Italy. Addolwyd ei wraig, yr hon a elwid *Ops*, mewn amseroedd diweddarach, fel 'duwies llawnder.' Ar ol marwolaeth Sadwrn, neu yn hytrach ar ol ei ymadawiad, yn ol syniad yr Italiaid, dyrchafwyd ef i'r safle o dduw: cyfodwyd allor iddo ar y llanerch lle yr adeiladwyd y *Forum* wedi hyny, a theml wrth droed y Capitol.

Yr oedd yr ysgrifenwyr Groegaidd, a'r Rhufeiniaid diweddar, y rhai a welent yn nuwiau y naill genedl dduwiau y llall, a thrwy hyny a barasant lawer o ddyryswch yn chwedlofyddiaeth Italy, yn ystyried *Sadwrn* a *Kronos* yr un duwiau. Y mae y golygiad hwn wedi ei amddiffyn yn gryf gan Buttmann, ac ereill; ond y mae Hartung, gyda mwy o debygolrwydd, fe allai, yn ystyried eu bod yn gwbl wahanol, ac mai un o hen dduwiau yr Italiaid eu hunain oedd Sadwrn.

SAFEH, DYFFRYN (שוה: Σαβὴ: *gwastad*): enw na cheir ef ond yn *Gen.* xiv. yn unig. Y mae yn un o'r enwau hynafol hyny sydd mor liosog yn y bennod hon. Y mae rhai o'r enwau hyn mor hynafol fel y mae enwau ereill diweddarach wedi eu dodi i mewn yn nghorph y bennod i'w hegluro. Ond ymddengys nad ydyw yr hyn a ddywedir yn achos Safeh yn taflu dim goleuni ar ei safle:—"Dyffryn Safeh, hwn yw dyffryn y brenin;" *adn.* 17. Y mae yn wir y gwneir crybwylliad drachefn am "ddyffryn y brenin" yn 2 *Sam.* xviii. 18, fel y man lle y cyfodwyd colofn gan Absalom; eithr nid ydyw yr hyn a fynegir yma chwaith yn cyfleu i ni un syniad am ei leoldeb, ac nis gellir bod yn sicr mewn un modd mai at yr un man y cyfeirir yn y ddau le. Y mae y tywyllwch sydd yn gorwedd ar holl hanes taith Abraham o Ddamascus yn cael cyfeirio ato dan y gair SALEM. Hen syniad ydyw, mai colofn Absalom yw yr adail byramidiol sydd yn gwneuthur i fyny y fwyaf gogleddol o'r cofadeiliau ar odrau gorllewinol Mynydd yr Olewydd. Fe allai fod hyn wedi ei seilio yn wreiddiol ar yr hyn a ddywed Josephus ["*Hynaf. Iudd.*," vii. 10, *adr.* 3],—fod Absalom wedi codi colofn o fynor ynghylch dwy ystâd o bellder o Ierusalem. Ond nid ydyw y llanerch yma, na'r hyn a elwir yn "feddrod Absalom," yn cyttuno â'r disgrifiad hwn, nac â'r hyn a welir yn 2 *Sam.* xviii. 18. Dyffryn agored llydan ydoedd "dyffryn y brenin," heb

Digitized by Google

fod yn debyg yn ei brif nodweddau i'r glyn dwfn y rhedai y Cedron drwyddo. Y mae Safeh yn digwydd mewn cyssylltiad â hen enw arall yn yr un bennod.

SAFEH-CIRIATHAIM: lle a grybwyllir yn *Gen.* xiv. 5, fel preswylfod yr Emiaid yn adeg goresgyniad Cedorlaomer. Sonir am Ciriathaim mewn hanesiaeth ddiweddarach; ac er nad ydyw wedi ei chael allan, gwyddys ei bod yn ddwyreiniol i'r Iorddonen; a Safeh-Ciriathaim, yr hon oedd hefyd yn yr un ardal (os ystyr Safeh yw 'gwastadedd') oedd y dyffryn, dybygid, yn neu ger llaw yr hwn y gorweddai y dref.

SAFFRWN, neu SAFFRWM (כרכם, *carcôm: crocus*). Nid ydyw y gair yn cael ei grybwyll yn un man yn y Beibl ond yn unig yn *Can.* iv. 14, lle y sonir am dano ynghyd â sylweddau perarogius ereill, megys nardus, calamus, synamon, &c.; ond nid oes ammheuaeth nad ydyw *saffrwn* yn gyfieithiad cywir o'r gair Hebraeg a ddefnyddir. Y mae y gair Arabaeg *curcum* yn debyg i'r un Hebraeg, ac yn dynodi y *crocus sativus.* Y mae saffrwn, o'r amseroedd boreuaf, yn cael ei ystyried yn berarogl rhagorol. Y rhan o'r planigyn a ddefnyddid oedd y paladr: ar ol tynu y blodeuyn oddi arno sychid ef. Dywed Dr. Royle fod "y paladrau weithiau yn cael eu parotoi trwy gael eu gwasgu, ac yna eu gwneyd yn fath o deisen saffrwn; ac yn y ffurf yma y mae yn aml hyd heddyw yn cael ei gymmeryd o Persia i India." Y mae y gair *saffrwn* yn ddeilliedig o'r gair Arabaeg, *zcafran*—melyn. Diwyllir y planigyn i raddau helaeth mewn rhai parthau o'r wlad hon.

SAGE, LE ALAIN-RENE: y nofelydd enwog, a anwyd yn mhentref Sarzeau, yn Ffraingc, Mai 8fed, 1668. Cyfreithiwr oedd ei dad, yr hwn a fu farw yn 1682. Gadawodd ychydig o eiddo i'w fab, ac ymddiriedodd ei ofal a'r eiddo hefyd i ewythr iddo. Efe a anfonodd Le Sage i goleg Jesuitaidd Vannes. Dywedir fod yr ewythr hwn wedi gwastraffu yr eiddo; ac ymddengys fod Le Sage ieuangc, pan yn gadael y coleg, wedi cael y swydd o gasglwr trethi ei dalaeth enedigol, sef Llydaw, yr hon a weinyddwyd ganddo am chwe blynedd. Wedi colli y swydd hon, efe a aeth i Paris, yn 1692. Ei brif amcan yn symmud yno oedd cael mantais i astudio athroniaeth a chyfraith wladol. Yn gymmaint a'i fod yn ddyn hardd o ran ei berson, o ymddygiad moesgar, talentau gwych, a chwaeth goeth at lenyddiaeth, yr oedd ei bresennoldeb yn dra derbyniol yn y cylchoedd goreu yn y ddinas. Yn 1694, priododd ferch i ddinesydd o Paris. Bu yn dal dwy neu dair o swyddau bychain, ond rhoddodd hwy i fyny mewn trefn i ymgyflwyno yn fwy llwyr i wasanaethu llenyddiaeth. Cafodd noddwr haelfrydig yn mherson yr abad De Lyonne, yr hwn a roddodd iddo flwydd-dâl anrhydeddus; ac iddo ef hefyd yr oedd Le Sage yn ddyledus am ei gymmhell i astudio iaith a llenyddiaeth Yspaen—yr hyn a fu o gymmaint gwasanaeth iddo yn ol llaw.

Cyfansoddodd lawer o ddarnau, a chyfieithodd ereill o'r Yspaenaeg ar gyfer y chwareudy yn y blynyddoedd yma. Ac erbyn hyn yr oedd yn ddeunaw mlwydd ar hugain oed, a rhaid addef nad oedd wedi gwneyd llawer i bwrpas; ond yr oedd wedi parotoi ei hun ar gyfer rhoddi dadblygiad mwy ysblenydd o'i alluoedd. Yr oedd wedi ymgyfarwyddo â llenyddiaeth ddramayddol Yspaen, sydd mor gyfoethog mewn creadigaethau dychymygol, a llenwi ei feddwl â'r golygfeydd, y digwyddiadau, a'r cymmeriadau a geid yn yr ystorfa gyfoethog hono; ac hefyd yr oedd efe wedi talu sylw neillduol i arddull cyfansoddiad o'r fath. Yr oedd rhai o'r chwareuawdau a gyfansoddodd ar ol hyn yn hynod o boblogaidd. Yna cynnyrchodd Le Sage ei nofel enwog, yr hon a anfarwolodd ei enw; sef, "*Gil Blas.*" Ymddangosodd y ddwy gyfrol gyntaf o'r gwaith yn 1715, pan oedd yr awdwr yn saith a deugain mlwydd oed; ymddangosodd y drydedd yn 1724, a daeth y bedwaredd allan yn 1735. Yn 1743, efe a ymneillduodd i Boulogne, gyda'i wraig a'i ferch, er bod yn agos at ei fab; ac yno y bu efe fárw, Tachwedd 17eg, 1747, yn 79ain mlwydd oed.

Gwaith mawr Le Sage ydyw ei "*Gil Blas;*" yr hwn, fel nofel, sydd hwyrach yn un o'r rhai perffeithiaf a ysgrifenwyd erioed; ac y mae yn meddu y teilyngdod uchel o fod yn un o'r llyfrau hyny a ddarllenir yn wastad gyda mwynhâd chwanegol. Nid ydyw y rhagoriaeth yma i'w briodoli i ddyddordeb yr ystori; o herwydd pan y gwyddys ystori yn dda, y mae nofel yn colli y gyfran hono o'r attyniad sydd ynddi, a rhaid i'w llwyddiant parhaol ddibynu ar ansoddau ereill. Ond pan y byddys wedi gorphen darllen pennod o "*Gil Blas,*" ceir yn agos gymmaint o bleser mewn dechreu ei darllen drosodd drachefn; a'r rheswm am hyny ydyw hyn—mai cyfres o ddarluniau o fywyd mewn gwahanol agweddau ydyw y llyfr. Ychydig o ddyddordeb a deimlir yn anturiaethau Gil Blas, fel y cyfryw: nid ydym yn ei adgofio ond yn unig ar gyfrif y personau y daethom i gydnabyddiaeth â hwynt trwy ei offerynoliaeth. Oriel o ardebau (*portraits*) ydyw y gwaith, ac y mae ei ddyddordeb, o ganlyniad, yn arosol. Ychydig o'r awdwr sydd yn y golwg ar hyd y gwaith; ac y mae yn hyn yn tebygu i bob gwaith mawr. Nid ydys yn meddwl am y gelfyddyd nodedig sydd wedi cynnyrchu yr hyn a ymddengys mor syml a naturiol. Byddai yn anhawdd cael brawddeg ofer a diystyr drwy yr holl waith, yn enwedig yn y ddwy gyfrol gyntaf a gyhoeddwyd, y rhai ar lawer cyfrif ydyw y rhai goreu. Ysgrifenodd yr awdwr amryw nofelau ereill heb law "*Gil Blas,*" yn gystal a llawer o chwareuawdau gwreiddiol a chyfieithiedig.

SAHARA, neu yr ANIALWCH MAWR, sydd wlad eang yn y rhan ganol o Ogledd Affrica. Y mae yn ymestyn o lenydd y Werydd yn nghyfeiriad y dwyrain, bron ar draws cyfandir Affrica, ac yn cael ei ysgaru oddi wrth y Môr Coch gan ddyffryn y Nilus a'r wlad garegog sydd yn gorwedd rhwng yr afon hono a'r Môr Coch. Dyffryn y Nilus yw y terfyn dwyreiniol. Y mae y Sahara tua 2,650 o filldiroedd o hyd o'r dwyrain i'r gorllewin. Ychydig mewn cymmhariaeth, a wyddys am y terfynau deheuol a gogleddol. Ar du y gogledd, y mae yn cyrhaedd i odreu Mynyddoedd yr Atlas, ac ar du y deheu yn agos i'r afon Senegal; gan hyny, y mae yn mesur tua 960 o filldiroedd o'r gogledd i'r deheu. Y mae arwynebedd y Sahara o fewn y cyffiniau hyn yn 2,500,000 o filldiroedd ysgwâr, neu yn fwy na dwy ran o dair o holl arwynebedd Ewrop.

Anialwch ydyw y Sahara: ond nid ydyw, fel y tybir yn gyffredin, oll yn dywod mân a rhydd. Y mae rhan helaeth iawn o hono yn ddiau â'i

Digitized by Google

wyneb wedi ei orchuddio â haen dew o dywod mân o'r fath, ac â bryniau isel tywodlyd; ond, a barnu oddi wrth y wybodaeth ammherffaith sydd genym am y darn anferth hwn o wlad, y mae yn ymddangos fod y rhan fwyaf yn gynnwysedig o dir tywodlyd caled, a rhanau ereill yn dywodfaen. Y mae parthau ereill drachefn yn orchuddiedig â chreigiau—yn enwedig âg ithfaen, wedi ei gymmysgu yn aml gyda chreigrisial. Ond pa fath bynag ydyw y tir mewn gwahanol fanau, y mae yn dra diffrwyth, ac âg ond ychydig o wyrddlesni yn tyfu arno. Y mae yn wir fod rhai llanerchau yn orchuddiedig â phrysgwydd a glaswellt bras; ond y mae y llanerchau yn anaml, a'r glaswellt yn fyr o ran maintioli. Priodolir y diffrwythder cyffredinol hwn yn benaf i sychder yr awyrgylch. Y mae y Sahara, o ran ei sefyllfa, yn y rhan hono o'r ddaear sydd rhwng yr ardaloedd lle y ceir gwlaw yn y gauaf a'r ardaloedd lle y gwlawia yn yr haf, ac nid ydyw yn cyfranogi yn hollol o nodwedd y naill na'r llall. Nid oes braidd byth ddyferyn o wlaw yn disgyn ar y wlad i adfywio y ddaear sych a llosgedig; ac yn y parthau hyny sydd agosaf at y gwledydd lle y disgyna digon o wlaw, ni cheir ond ychydig o gawodydd yn Awst a Medi, ac hyd yn oed y pryd hwnw nid ydynt i'w cael bob blwyddyn. Y mae y diffyg hwn o wlaw yn peri fod yr holl wlad yn mron yn anghymmhwys i'w diwyllio; ond nid ydyw, er hyny, yn annhrigiannol, gan fod yn y pantiau hyn ychydig ffynnonau, ac yn y cymmydogaethau hyny y mae ychydig o laswellt a phrysglwyni yn tyfu, lle y ceir porfa i gamelod, geifr, a defaid. Y mae y creaduriaid hyn yn ddefnydd cynnaliaeth i'r llwythau crwydrol sydd yn cynniwair ar hyd y wlad ddiffrwyth yma. Y mae teithwyr a groesant yr ardaloedd hyn yn agored i lawer o beryglon, oddi wrth natur y wlad a nodwedd ei thrigolion. Er i'r camelod weithiau gael gafael mewn ychydig o laswellt a llysieuwydd i dori eu heisieu, nid oes darpariadau i ddyn i'w cael ar hyd yr holl daith—yr hon sydd yn fwy na mil o filldiroedd o hyd! Rhaid i'r teithiwr gario pob peth i'w ganlyn. Y mae y ffynnonau y gellir yfed eu dyfroedd, o ran pellder, tua thaith deng niwrnod oddi wrth eu gilydd, ac weithiau yn mhellach na hyny. Rhaid i deithiwr yr anialwch, gan hyny, ddarparu cymmaint o ddwfr ag a fydd angen arno nes y cyrhaedda o'r naill ffynnon i'r llall; ac os bydd y tymmor yn sychach a phoethach nag arferol, y mae mewn perygl o drengu gan syched. Os colli y ffordd a wna yn yr anialwch, y mae yn sicr yn mron o farw gan newyn a syched. Yn y parthau hyny sydd wedi eu gorchuddio gan dywod mân a rhydd, y mae corwyntoedd yn fynych iawn yn chwythu gyda nerth aruthrol, gan gyfodi cyfran fawr o'r tywod oddi ar y llawr i gryn uchder—yr hwn a ddisgyna drachefn rhyw gymmaint o bellder oddi wrth y man y cyfodwyd ef. Y mae y cyfryw golofnau o dywod lawer tro wedi claddu dynion ac anifeiliaid. Arweinia y preswylwyr fywyd crwydredig; ac, fel llwythau crwydrol yn gyffredin, y maent yn barod iawn i ymosod ar ddyeithriaid a theithwyr, i'w hysbeilio o'u heiddo, a'u darostwng i sefyllfa caethweision. Er gwaethaf yr anfanteision a'r peryglon hyn ll, y mae y Sahara yn cael ei deithio gan amryw finteioedd yn flynyddol, y rhai a ddygant yn mlaen fasnach rhwng Soodan a'r gwledydd sydd ar lan Môr y Canoldir.

Y mae rhyw lwybr ar draws yr anialwch, pa fodd bynag, ar hyd yr hwn y mae y peryglon yn llawer llai. Gorwedda y darn hwn rhwng 13° ac 16° hydred dwyreiniol, lle y mae yr hinsawdd a'r tir ychydig yn well na'r gweddill o'r wlad. Ac un peth sydd yn hynod ydyw, fod y parth hwn yn digwydd bod lle nad oes ucheldir yn gorwedd rhyngddo a Môr y Canoldir. Y mae y ffynnonau ar hyd y darn hwn yn lliosocach, ac nid ydynt yn gyffredin ond taith ychydig ddyddiau o bellder oddi wrth eu gilydd. A'r ffordd drwy y parth hwn sydd yn agor rwyddaf i ganolbarth Affrica hefyd. Wedi gadael tref Tripoli, y mae y ffordd yn rhedeg yn dde-ddwyreiniol yn nherfyn gogleddol Fezzan dros wlad sydd yn cyfranogi i ryw raddau o natur y Sahara. Y mae wyneb y gwastadedd yn gyffredin yn dywod caled, gydag ychydig o fryniau creigiog, a llanerchau caregog. Mewn rhai manau nid oes y tipyn lleiaf o wyrddlesni i'w ganfod; ac nid yw y ddaear yn un man yn gwbl orchuddiedig â gwyrddlesni, oddi eithr mewn ychydig o lanerchau bychain. Nid yw y bryniau yma o nemawr uchder, nac yn gyffredin dros 400 o droedfeddi, na'r rhai uchaf dros 600 troedfedd. Y mae llawer o honynt yn gareg galch, yn cael ei gorchuddio â llosgwy (*lava*); a'r lleill yn fryniau tywodlyd. Nid oes wyrddlesni arnynt; ond y mae yn eu ceseiliau rai dyffrynoedd bychain lled ffrwythlawn. Y mae yn y parth hwn, sydd yn ymestyn hyd dref Sokna yn Fezzan, gyflawnder o ffynnonau a dwfr. Y mae tref Sokna, yr hon a gynnwysa dair mil o boblogaeth, wedi ei hamgylchu â muriau, ac y mae yn y gymmydogaeth lwyni o dal-balmwydd, cynnyrch pa rai sydd o ansawdd ragorol. I'r deheu o'r lle hwn y mae bryniau yr Harutsh Assouat, neu y Mons Niger. Y mae teithio y ffordd hon yn anhawdd, gan fod yn y bryniau holltau dyfnion a cheunentydd culion; ac y mae y lle hefyd yn amddifad o wyrddlesni a dwfr. Y mae yn Fezzan, i'r gogledd oddi yma, lanerchau gwyrddlas, yn cael eu hysgaru oddi wrth eu gilydd gan leoedd tywodlyd. Y mae yma ddigonedd o ddwfr, oddi eithr tua'r terfyn deheuol; yno y mae gwastadedd anial, nas gellir ei groesi mewn llai na phedwar diwrnod. Yn Kasrowa a Tegerby y mae planigfeydd helaeth o dal-balmwydd, a helaethrwydd o ddwfr. O derfyn deheuol Fezzan hyd dref Bilma y mae y ffordd yn gorwedd mewn gwastadedd caregog rhwng creigiau, a golwg hollol ddiffrwyth ar bob peth. Nid oes un gyfran o'r parth hwn yn cael ei boblogi; ond y mae yma ffynnonau o ddyfroedd y gellir eu hyfed i'w cael rhyw daith tridiau neu bedwar oddi wrth eu gilydd. Yn agos i 19° lledred gogleddol, pa fodd bynag, y mae amryw o fân drefydd a phentrefydd—nid yn gymmaint am fod y tir yn ffrwythlawn iawn, ond o herwydd y llynau lliosog sydd yn ngodreuon y bryniau creigiog. Ar lenydd rhai o'r llynau hyn y mae llwyni o dal-balmwydd a phorfeydd i anifeiliaid. Y mae Bilma yn nodedig am ei phyllau halen, ac y mae yn y gymmydogaeth rai llanerchau gwyrddlas. Yn ddeheuol i Bilma y mae y rhan anhawddaf i'w theithio o'r holl ffordd. Nid oes ond ychydig o ffynnonau ar hyd y ffordd hon. Y mae yr anialwch hwn yn terfynu yn agos i 16° lledred gogleddol; ond ni cheir trigfanau dynol nes cyrhaedd cymmydogaeth Lari—tref ychydig bellder oddi wrth lyn Tchad. Gelwir yr anialwch rhwng Bilma a Lari yn Anialwch Tintuma.

Digitized by Google

Y mae y parth a nodwyd uchod, ar draws yr anialwch o'r gogledd i'r deheu, yn ysgaru y Sahara yn ddau ddarn—y naill yn fwy na'r llall. Yr un gorllewinol ydyw y mwyaf, a'r enw a roddir arno gan y brodorion ydyw y Sahel; a gelwir y darn dwyreiniol, sef y lleiaf, gan ddaearyddwyr, yr Anialwch Libyaidd.

*Arfordir.*—Yr oedd llawer o gamgymmeriadau yn bod o barthed i'r arfordir hwn, yr hwn a ymestyna am tua 1,200 o filldiroedd, fe allai, ar hyd Môr y Werydd. Arferid dywedyd fod yr arfordir mor dywodlyd ac mor isel fel nas gellid ei weled o bellder o'r môr—fod y glenydd yn llawn o draethellau a beisleoedd peryglus, a bod y rhedlif yn cyfeirio yn uniongyrchol tua'r traeth. Chwanegid hefyd fod tarth a niwl yn fynych yn ei guddio oddi wrth y morwr, yr hwn a yrid rhyngddo ar y traeth yn ddiarbed gan y gwynt cryf. Tybid fod yr holl bethau hyn yn achosi llawer o'r llongddrylliadau a gymmerent le yn flynyddol ar yr arfordir hwnw, drwy yr hyn y telid nifer fawr o Gristionogion i ddwylaw y Mooriaid, y rhai a'u cymmerent i gaethiwed. Y mae ymchwiliadau cymmharol diweddar a wnaed ar yr arfordir, pa fodd bynag, yn profi fod bron yr holl arfordir yn uchel, ac yn gynnwysedig o dywodfaen, ac yn ymgodi y rhan fynychaf o drigain i gan troedfedd. Y mae yr holl arfordir, mor bell i'r deheu a Phenrhyn Blanco, yn rhydd oddi wrth draethellau a beisleoedd; a'r dyfnder yn fwy yn raddol fel y pellheir oddi wrth y traeth. Yn y pellder o bedair milldir, y mae o ddeg ar hugain i ddeugain gwrhyd; yn y pellder o ddeuddeng milldir, o hanner cant i drigain gwrhyd; a deng milldir ar hugain oddi wrth y traeth y mae tua chan gwrhyd. O Fau y Milgi i Benrhyn Mirik y mae y draethell fwyaf. O barthed i'r rhedlifiadau, dywed yr is-gadben Arlett, nad ydynt yn rhedeg yn union tua'r tir, ond yn gyfochrog gyda'r arfordir, oddi eithr yn ddwyreiniol i Benrhyn Juby, lle mae y tir yn troi yn sydyn o'r deheu-orllewin i'r gorllewin; yna y mae y rhedlif yn llifo ychydig tua'r traeth cyn adfeddiannu ei gwrs priodol. Dyma'r man mwyaf peryglus ar yr holl arfordir, gan fod y môr yn ymchwyddo o'r gogledd-orllewin, ac o ganlyniad yn gyru bron yn uniongyrchol i gyfeiriad y traeth.

*Tir.*—Y Sahel, neu y gyfran orllewinol o'r anialwch, ydyw y rhan waethaf o lawer o hono. Ymddengys nad oes yn y darn anferth hwn o wlad un gyfran yn cynnwys digon o leithder na phridd cymmhwys i ddibenion amaethyddol nac i dyfu tal-balmwydd. Y mae y tir yn gwahaniaethu yn fawr, modd bynag, o ran ei natur; y mae peth o hono yn dywod mân, a'r llall yn dywod bras, a pheth arall yn raian ac yn fân geryg. Y mae bryniau cymmedrol o uchel yma a thraw; a rhai o honynt yn cael eu gwneyd i fyny o dywod, sydd yn agored i gyfnewid mewn maint a ffurf dan effeithiau y gwynt. Y mae ereill yn ithfaen a chreigrisial. Nid oes dim llysiau yn tyfu ar y lleoedd hyn, oddi eithr fod ambell lecyn gwyrddlas yma a thraw yn y pantleoedd rhwng y bryniau. Ymddengys, pa fodd bynag, fod glaswellt yn tyfu mewn rhai llanerchi, cymmhwys i anifeiliaid i'w fwyta; o herwydd yn ol yr hanes, nid ychydig iawn ydyw nifer y personau sydd yn cael eu cynnaliaeth yn y rhan yma o'r Sahara, sydd yn byw yn hollol ar gynnyrch eu deadelloedd a'u minteioedd anifeiliaid. Y mae yn wir fod y ffordd fawr fasnachol sydd yn croesi yr anialwch rhwng Deah a Morocco a Thimbuctoo yn Soodan yn rhedeg trwy wlad sydd yn analluog i roddi cynnaliaeth yn mron i un teulu. Mynegir, modd bynag, gyda graddau o debygolrwydd, fod y ffordd fasnachol hon wedi ei gwneyd drwy y rhan waelaf o'r wlad, a hyny yn bwrpasol, gan fod y marsiandwyr yn ofni llai ar beryglon yr anialwch nag yr ofnent ar y bobl a gwrddent tra yn teithio y dosbarth a breswylir gan lwythau annibynol, sydd yn awyddus am ysbeilio masnachwyr er eu cyfoethogi eu hunain, neu ynte am gyfodi oddi arnynt dreth drom am ganiatâd i fyned drwy eu tiriogaethau. Y mae yn ddiammheuol nad yw y wlad ar hyd yr arfordir yn amddifad o breswylwyr, gan eu bod bob amser yn gwneyd eu hymddangosiad pan y mae llestr yn nesau at y tir, neu yn cael ei thaflu ar y traeth. Ymddengys hefyd fod yno borfeydd lled gynnyrchiol heb fod yn mhell oddi wrth y môr, er fod y borfa o ansawdd hynod wael. Nid ydyw y wlad sydd rhwng Tripoli a Lari mor adnabyddus ag y mae y rhan orllewinol o'r Sahel; ond ymddengys fod y llwythau Tuarickaidd yn lled liosog. Y mae yr anialwch Libyaidd, neu y gyfran ddwyreiniol o'r Sahara, yn cynnwys amryw ddarnau ffrwythlawn, yn cynnal cryn boblogaeth, ac ynddynt lwyni eang o dal-balmwydd.

*Hinsawdd.*—Ychydig mewn cymmhariaeth o deithwyr Prydeinaidd sydd wedi croesi y Sahara; ac nid ydyw ein gwybodaeth am ei hinsawdd ond ammherffaith. Y mae digon o sicrwydd nad oes gwlaw yn disgyn ar hyd yr arfordir yn ddeheuol i Benrhyn Juby; ond y mae yn sicr hefyd fod rhai cawodydd yn disgyn yn flynyddol yn y gwledydd deheuol i Fynydd yr Atlas, er nad ydys yn gwybod pa mor bell i'r rhanau mewnol o'r wlad y cyrhaeddant. Disgyna y cawodydd hyn rhwng Awst a Thachwedd. Y mae gwlith trwm yn disgyn ar hyd yr arfordir yn misoedd yr haf; ond ymddengys nad oes dim gwlith yn y canolbarth, yn gymmaint ag nad ydyw Caillié yn gwneyd un crybwylliad am wlith o gwbl. Y mae y gwynt yn chwythu yn mron yn ddieithriad o'r dwyrain. Cymmedrola y gwynt cryf ryw gymmaint ar y gwres mawr; ac o ganlyniad y mae oerder y nos yn fwy annioddefol na gwres y canolddydd. Y fath yw ffyrnigrwydd y gwynt yn fynych, fel y cyfyd swm mawr o dywod yn haen dew i'r uchder o ugain troedfedd, neu fwy. Pan y cynnhyrfir y tywod hwn gan y corwynt, y mae weithiau yn claddu mintai fasnachol, ac yn taflu ereill i'r dyryswch mwyaf. "Croesodd un o'r colofnau mwyaf o dywod," medd Caillié, "ein gwersyll ni: taflodd i lawr ein pabellau, a lluchiodd ni o gwmpas fel gwellt, gan ein taflu ar draws ein gilydd gyda nerth mawr. Nis gwyddem pa le yr oeddym, ac nis gallem wahaniaethu rhwng y naill beth a'r llall o fewn troedfedd o bellder. Yr oedd y tywod yn ein lapio i fyny mewn tywyllwch fel tarth tew, a'r nefoedd a'r ddaear megys wedi eu cymmysgu â'u gilydd. Tra y parhaodd y dymmhestl ofnadwy hon, gorweddasom ar y llawr, heb symmud, ac yn mron marw gan syched, yn cael ein llosgi gan wres y tywod, a'n curo gan y gwynt. Ni ddioddefasom, pa fodd bynag, ddim oddi wrth yr haul, wyneb yr hwn oedd wedi ei guddio gan y tywod, ac megys wedi ei amddifadu o'i belydrau." Nid ydys yn gwybod yn fanwl beth ydyw graddau y poethder yn yr ardaloedd hyn. Dywed Davidson fod y gwresfesurydd ar ganol

Digitized by Google

dydd yn yr haf ger y *Wadi nun*, yn agos i odreu yr Atlas, ac yn gyssylltiol â'r Sahara, yn gwahaniaethu o 126° i 140°. Ymddengys mai yn misoedd Mai a Medi y mae y gwres fwyaf, er mai dyna yr adeg y mae rhanau gogleddol yr anialwch yn cael eu hadfywio â chawodydd o wlaw.

*Cynnyrchion.*—Yr anifail mwyaf defnyddiol yn y parth yma ydyw y camel. Hebddo ef nis gellid teithio yr anialwch eang hwn. Y mae y camelod a fegir gan breswylwyr yr anialwch yn nodedig am eu cyflymdra anghyffredin. Yn nesaf i'r camel, y creadur mwyaf defnyddiol yno ydyw yr afr: ac y mae y geifr yn dra lliosog yn y Sahel, am fod y porfeydd sychion yn fwy cymmhwys iddynt hwy nag i ddefaid. Y mae yno ddefaid hefyd, ac hefyd wartheg duon o rywogaeth bychan, yn y lleoedd y mae y porfeydd yn weddol dda. Prin ydyw meirch yn y Sahel; ond y mae mwy o honynt i'w cael yn mhellach i'r dwyrain. Y mae yno lewod a phantheriaid, ac anifeiliaid gwylltion llai o faintioli. Mae gezaliaid yn lliosog yn y lleoedd y ceir porfeydd a phrysgwydd, a chyfarfyddir âg ewigod mewn rhai manau. Yn y Sahel, y mae estrysod yn dra lliosog, ac y mae y brodorion yn arfer eu hela o Fai hyd Gorphenaf er mwyn eu pluf. Fwlturod a chigfrain ydyw yr unig adar sydd yn preswylio yr anialwch; oddi eithr ar lenydd y llynau yn mysg y bryniau rhwng Fezzan a Bilma, lle y gwelir mynieir a hwyaid gwylltion. Y mae yn yr anialwch hefyd seirph. Gan y defnyddir mêl gan y bobl, y mae yn rhaid fod yno wenyn. Ychydig mewn rhif ydyw y cynnyrchion amaethyddol. Nid oes tal-balmwydd i'w cael ond yn y darnau gwyrddlas sydd rhwng y dosbarth dwyreiniol a Mynyddoedd yr Atlas. Y mae y Tibbosiaid, llwyth brodorol yn yr anialwch Libyaidd, yn diwyllio math o filet. Gan fod milet yn gwneyd i fyny ran o ymborth dyddiol y Mooriaid a breswyliant y parth gorllewinol o'r Sahel, ymddengys fod y grawn hwn yn cael ei godi yno hefyd; ond nid oes un awdurdod dros ddweyd ei fod. Y mae rhai planhigion gwylltion ereill yn tyfu yma a thraw yn yr anialwch a fwyteir gan gamelod. Yn agos i gongl ddeorllewinol y Sahel y mae coedwigoedd mawr, yn gynnwysedig o'r coed a elwir draenen yr Aipht; ac oddi yma y ceir y rhan fwyaf o'r glud a elwir yn Ewrop y glud Arabaidd. Cesglir ef yno gan y Mooriaid, ac yna fe'i gwerthir i'r marsiandwyr Saesnig a Ffrengig yn St. Louis ar lan yr afon Senegal.

Y mae yno geryg haiarn hefyd, a halen. Rhwng Fezzan a Bilma y ceir y ceryg haiarn. Ceir halen mewn aberoedd a llynau, yn gystal ag yn welyau creigiog helaeth, yn y Sahel. Y mae o werth mawr i'r preswylwyr, gan eu bod yn masnachu llawer ynddo. Ymddengys nad oes dim halen yn y parthau hyny sydd yn gorwedd yn ddeheuol i'r Sahara, a elwir y Soodan; ac y mae yr holl halen a ddefnyddir ynddynt yn dyfod o Sahara. Yr unig leoedd a boblogir yn barhaus yn y Sahel ydyw y cymmydogaethau lle y mae halen i'w gael.

*Trigolion.*—Y mae lliaws o lwythau annibynol yn wasgaredig dros y Sahara. Perthynant i bedair cenedl; sef, y Mooriaid, y Tuarickiaid, y Tibboosiaid, a'r Arabiaid. Ymddengys fod yr holl wlad orllewinol i'r ffordd sydd yn arwain o Timbuctoo i Drah yn cael ei meddiannu gan y Mooriaid. Cangen ydynt o'r Mooriaid sydd yn cyfanneddu Morocco; ond y mae mwy o waed negroaidd wedi ei gymmysgu â hwynt. Y mae eu prydwedd yn gyffredin yn agos yn ddu, ond y mae y lliw coch i'w ganfod oddi tanodd. Lled deneuon ydynt, y wyneb yn hir, a'r gruddiau yn pantio, a'r llygaid yn suddo yn y pen, ond yn dra bywiog. Y maent yn siarad un o ganghenau yr Arabaeg; ac er eu bod yn byw ar gynnyrchion eu hanifeiliaid, ac o ganlyniad yn arwain bywyd gwibiog a chrwydrol, y maent yn dra gofalus am addysg eu plant, y rhai a ddysgir oll i ddarllen, fel y deallont y *Coran*. Yn nghanolbarth y Sahara, neu y wlad hono sydd yn gorwedd rhwng y ddwy ffordd fawr a deithir gan farsiandwyr sydd yn teithio o'r gogledd i'r deheu, y mae y llwythau Tuaricaidd. Y mae ffurf eu cyrph hwy a'u hiaith yn profi eu bod yn perthyn i drigolion brodorol Affrica ogleddol, a adwaenir wrth yr enw Berberiaid. Y maent yn gadarnach o wneuthuriad na'r Mooriaid, ac nid ydyw eu prydwedd mor dywyll. Y mae y trwyn yn fwäog, y llygaid yn fawrion, y gweflau yn lled deneuon, y wyneb yn hir, a'r talcen braidd yn uchel. Y maent yn cael eu bywoliaeth oddi wrth gynnyrchion eu hanifeiliaid, a thrwy gario halen i Soodan; ond y maent hefyd yn gorfodi rhai parthau o'r gwledydd hyny i dalu teyrnged iddynt, gan eu bod yn bobl anturiaethus a rhyfelgar. Rhwng Fezzan a Llyn Tchad, ac yn y wlad eang sydd yn ymestyn yn ddwyreiniol i'r llinell hon tua therfyn yr Aipht, y mae y Tibboosiaid yn preswylio. O ran eu hwynebau y maent yn ymdebygu i'r negroaid. Y mae y rhan liosocaf o honynt yn hollol ddnon, er fod rhai o liw copr. Y maent yn eiddil a lluniaidd o gorph, esgyrn bochau uchel, trwyn negroaidd, genau mawr, a'u dannedd wedi eu hystaenio wrth arfer myglys yn helaeth. Y maent uwch law y cyffredin o ran taldra, ac yn byw ar gynnyrchion eu hanifeiliaid; ond y maent yn diwyllio milet a chotwm. Nid ydynt o duedd mor ryfelgar a'u cymmydogion y Tuariciaid; ac y mae y diweddaf yn eu hysbeilio yn fynych, lle y mae y ddwy genedl yn byw yn agos at eu gilydd. Ar hyd y llinell derfynol rhwng y Sahara, a'r Aipht, a Nubia, y mae rhai llwythau Arabaidd sydd wedi cadw arferion ac iaith y Bedouiniaid; ac y maent yn mhob peth yn ymdebygu yn fawr iddynt. Y mae y defnydd a wneir ganddynt hwy o arfau tân yn eu gwneyd yn ddychryn i'w cymmydogion, y Tibboosiaid, ac hyd yn oed i'r Tuarickiaid dewr.

*Masnach.*—Er nad ydyw y Sahara yn cynnyrchu ond tri math o nwyddau masnachol; sef, halen, glud Arabaidd, a phluf estrys, y mae cryn fasnach yn cael ei gario yn mlaen rhwng y gwledydd sydd yn ogleddol ac yn ddeheuol i'r anialwch, ar draws yr hwn y bydd minteioedd o ddau i bum cant o bobl, ac hefyd o bum cant i ddwy fil o gamelod, yn aml yn croesi. Pum cant o bwysau ydyw llwyth camel. Y mae y masnachwyr yn cymmeryd o'r gwledydd sydd ar lan Môr y Canoldir nwyddau o wneuthuriad Ewropaidd yn benaf, megys arfau tân, pylor, cotwm wedi ei weithio, myglys, a phalmaeron, &c.; a dychwelant gydag aur, pluf estrus, ifori, &c. Wrth fyned drwy yr anialwch, prynant swm mawr o halen yn gyffredin, yr hwn a werthir ganddynt yn Soodan, a derbyniant elw rhagorol oddi wrtho. Y mae halen i'w gael mewn helaethrwydd mawr mewn tri lle yn y Sahel:—yn Toudeny, yn Hoden neu Waden, ac yn Shingarin. Y mae trigolion tref El Arawan yn anfon cyflawnder o gynnyrch craig halen

Digitized by Google

Toudeny i'r gwledydd ar lenydd y Joliba, yn enwedig i Sansanding ac Yamina; ac y maent yn derbyn yn gyfnewid am dano, ifori, aur, cŵyr, mêl, lliain Soodan, a chig hallt. Dygir halen Hoden a Shingarin i'r un gwledydd, yn gystal ag i Sego. Mae llawer o bysgota ar y glenydd gydag arfordir y Sahara gan drigolion Ynysoedd y Canary. Y mae y pysgod yn hynod liosog yno, ac yn pwyso o wyth i drigain pwys yr un. Y mae y badau a ddefnyddir ganddynt i bysgota yn cymmeryd yn ddyddiol ar gyfartaledd tua thri chanpwys bob un; ac y mae cryn nifer o bobl yn dwyn yn mlaen y gwaith hwn.

*Darganfyddiadau.*—Y mae natur y Sahara, neu yr anialwch mawr, yn gyfryw ag sydd yn taflu rhwystrau neillduol ar ffordd gorchfygwyr rhyfelgar. Nid oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn gydnabyddus ond yn unig â'r rhanau hyny o'r anialwch Libyaidd, nad ydynt bell iawn oddi wrth ymylon gorllewinol dyffryn y Nilus, ynghyd â'r parthau cyfagos i'r ardal garegog sydd yn gwahanu yr anialwch oddi wrth Fôr y Canoldir. Darganfyddwyd arfordir y Sahara gan y Portugiaid, rhwng y flwyddyn 1412 a 1443; ond yr oedd canolbarth y wlad hono yn anadnabyddus hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif, gyda'r eithriad o'r ychydig a ellid ei wybod am dani oddi wrth ysgrifeniadau Leo Africanus. Y cymhyrfiad cyntaf a roddwyd i ddarganfyddiad yn y rhanau mewnol o Affrica oedd sefydliad Cymdeithas Affricanaidd yn 1788; ond cyn i'w llafur gynnyrchu unrhyw ganlyniad pwysig, yr oedd y teithiwr Browne wedi llwyddo, yn 1793, i fyned can belled a Dar-Fur, gyda masnachwyr o Soodan, drwy y llanerchau gwyrddlas sydd yn orllewinol o ddyffryn y Nilus. Cyn iddo gyhoeddi ei deithiau (1800), yr oedd Mungo Park wedi dychwelyd o lenydd y Joliba, lle yr oedd wedi casglu rhyw gymmaint o wybodaeth ynghylch parthau de-orllewinol y Sahara, er na bu efe ond ar ymylon yr anialwch. Dwy flynedd yn ddiweddarach, cyhoeddwyd teithiau Hornemann, yr hwn a aeth o'r Aipht i Fezzan trwy Siwah ac Augila. Er fod mwy wedi ei wneyd fel hyn er darganfod rhan fewnol Affrica yn y deng mlynedd diweddaf o'r ddeunawfed ganrif nag mewn unrhyw gyfnod blaenorol, ni wnaed un chwanegiad pwysig at ein gwybodaeth o'r Sahara am yr ugain mlynedd dilynol, oddi eithr cael allan ychydig ffeithiau, y rhai a gafwyd mewn cyssylltiad â llongddrylliad morwr Americaidd o'r enw Adams, a gyhoeddwyd yn 1816. Mynegir yn wir i Hornemann groesi y Sahara, ac iddo fyned mor bell a Myffe, yr hon y tybir ei bod ynghylch 10° 30' lledred gogleddol; ond nid oes dim cofnodion wedi eu cadw o hanes ei daith.

Aeth y cadben Lyon i Affrica o Tripoli yn 1819; ac er na ddarfu iddo chwanegu llawer at ein gwybodaeth am y Sahara, gan nad aeth yn mhellach na Tegerhy, yn agos i derfyn deheuol Fezzan, etto efe a gasglodd lawer o hysbysiadau dyddorol, y rhai a gyhoeddwyd yn y fl. 1821. Yna dilynodd Denham, Clapperton, ac Oudney yn 1822—24, yr un llwybr; ac nid yn unig teithiasant yr anialwch yn ei led mwyaf, o Tripoli i Bornou, ond darganfyddasant ran fawr o Soodan. Chwanegwyd at y darganfyddiadau hyn gan yr uchgadben Laing, yr hwn yn 1825 a ymadawodd o Tripoli, ac a aeth trwy lanerchi ffrwythlawn y Gadames, ac a deithiodd holl led y Sahara, ac a gyrhaeddodd i Timbuctoo; ond wrth geisio dychwelyd i Morocco ar hyd ffordd El Arawan, llofruddiwyd ef gan y brodorion cyn cyrhaedd El Arawan. Yn anffodus, nid oes gofnodion o'i deithiau wedi eu cadw. Dwy flynedd yn ddiweddarach (1827), teithiodd Caillie, Ffrangcwr, y gyfran ddeheuol o Senegambia, rhwng 10° a 12° lledred gogleddol; ac yna aeth drwy wledydd gorllewinol y Soodan i Timbuctoo, gan adael y lle diweddaf, a chyrhaedd y ffordd a fynychir gan y minteioedd masnachol sydd yn teithio rhwng Soodan a Morocco. Ymdrechodd Davidson wedi hyny gyrhaedd i Timbuctoo ar hyd y ffordd o Wady Nun i Tatta, a thrachefn ddyfod i'r ffordd yr arferai y masnachwyr ei theithio; ond llofruddiwyd ef gan y brodorion. Y mae yr holl lwythau crwydrol a breswyliant y Sahara yn annibynol ar eu gilydd; ond y mae Fezzan a Gadames yn ddarostyngedig i Tripoli; ac y mae y wlad sydd ar derfyn gorllewinol dyffryn y Nilus, yn gystal a Siwah, yn ddibynol ar raglaw yr Aipht.

SAINT JUST, LOUIS ANTOINE DE: un o'r dynion mwyaf nodedig a gymmerodd ran yn chwyldroad mawr Ffraingc. Ganwyd ef yn Decize, yn Nivernais, ar y 25ain o Awst, 1767, a derbyniodd ei addysg yn Soissons. Yn ganlynol i hyny efe a aeth i Rheims i astudio y gyfraith; ond dychwelodd yn fuan i'w bentref genedigol, lle y llwyr ymroddodd i lenyddiaeth. Pan dorodd y chwyldroad allan, llanwyd Saint Just â brwdfrydedd a gorfoledd; ac yn fuan edrychid arno fel un o brif bleidwyr y symmudiad nodedig hwnw. Fe allai nad oedd yn holl Ffraingc un oedd yn credu yn fwy diysgog yn egwyddorion y chwyldroad. Yr oedd yn nodedig am burdeb ei foesau a'i ymarweddiad diargyhoedd, yn dawedog mewn cymdeithas, ond yn hyawdl pan y cyfodai i siarad, a'i argyhoeddiadau yn ddwfn iawn. Ymgododd yn fuan yn nghymmeradwyaeth preswylwyr ei ddosbarth ei hun, ac etholwyd ef yn isfilwriad y gwarchodlu cenedlaethol a anfonwyd i Paris yn 1790. Yn 1791, cyhoeddodd bamphledyn, yn yr hwn y nodai allan amrywiol achosion y chwyldroad mewn modd tawel, craff, a byr; ac yn y flwyddyn ddilynol, dewiswyd ef gan etholwyr Aisne i'w cynnrychioli hwynt yn y gynnadledd genedlaethol. Aeth Saint Just i Paris ar y 18fed o Fedi. Pleidleisiodd dros roddi y brenin i farwolaeth; ac mewn araeth lawn o syniadau gwerinol, efe a ddadganodd ei resymau dros hyny. Yr araeth hon a'i gwnaeth yn enwog a dylanwadol. Ceisiodd y Girondiaid ei ddwyn drosodd i'w pleidio hwy—ond bu y cwbl yn ofer. Cymmerodd Saint Just ran yn mhrif ddadleuon y cyfnod; ond dangosodd hefyd ar yr un pryd alluoedd trefniadol a gweinyddiadol o radd uchel; ac ar yr 11eg o Chwefror, 1792, cariodd ei gynllun i ffurfio pwyllgor i arolygu y rhyfel. Wedi cwymp y Girondiaid yn mis Mehefin y flwyddyn hono (er na chymmerodd Saint Just un llaw yn eu dymchweliad, ac na siaradodd unwaith yn ystod y dadleuon a ddygid yn mlaen rhwng y ddwy blaid), torodd y rhyfel cartrefol allan; ac o'r pryd hwnw y gellir dyweyd fod ei ddadganiad ar bob achlysur o'i syniadau gwerinol eithafol wedi ei wneyd yn gydymaith i Robespierre. Meddylir yn gyffredin nad oedd Saint Just—dichon fod hyny am ei fod mor ieuangc—ond offeryn yn unig yn llaw Robespierre: ond y mae y ffeithiau sydd yn adnabyddus am dano yn ein harwain i dynu casgliad tra gwahanol; ac y mae rhai ysgrifenwyr wedi myned

Digitized by Google

mor bell a dywedyd mai Saint Just mewn gwirionedd oedd arweinydd y blaid eithafol a fu yn gweinyddu y llywodraeth yn Ffraingc yn ystod Teyrnasiad Dychryn. Cafodd yr holl fesurau cryfion, neu waedlyd, a fabwysiadwyd i lethu y brenhinwyr a'r gwerinwyr ofnus yn Ffraingc, ac i wrthwynebu byddinoedd y cynghreirwyr ar y terfynau, eu dyfeisio ganddo ef. Etholwyd ef yn llywydd y gynnadledd yn Chwefror. Tynodd allan adroddiad ofnadwy; yr hyn a arweiniodd i gondemniad a dïenyddiad Hebert a Danton, a'u dilynwyr. Nid oedd Saint Just yn teimlo dim petrusder i dori ymaith ei wrthwynebwyr. Yr oedd dyfnder ei argyhoeddiadau yn peri iddo fod yn ddiofal pa faint o greulondeb a ymarferai. Pan y cymmerodd gwrthweithiad gwleidyddol le, ac y cafodd y blaid gymmedrol y llaw uchaf yn y gynnadledd, daliwyd a charcharwyd Robespierre a Saint Just, ar y 27ain o Orphenaf, 1794, a gorchymynwyd tori eu penau y dydd canlynol, yn ol yr arfer yn y wlad hono. Cyfarfu Saint Just ei dynged mewn distawrwydd sarug. Ni ddywedodd gymmaint a gair.

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF. Gwel Mormoniaid.

SAIR: lle a enwir yn 2 *Bren.* viii. 21 yn unig, yn yr hanes a roddir am ryfelgyrch Ioram yn erbyn yr Edomiaid. Efe a "aeth trosodd i Sair, a'r holl gerbydau gydag ef;" ac ymddengys ei fod ef a'i lu yno wedi eu hamgylchu gan Edomiaid, a'u bod wedi llwyddo i ddiangc oddi yno drwy dori trwy rengau y gelynion yn y nos. Y mae hanes yr un digwyddiad yn 1 *Cron.* xxi. 9 yn cyttuno â hyn, oddi eithr fod y geiriau "i Sair" yn cael eu gadael allan, a'r geiriau "a'i dywysogion" yn cael eu dodi i mewn. Dilynir hyn hefyd gan Josephus ["*Hynaf. Iudd.*," ix. 5, *adr.* 1]. Y mae y geiriau a adewir allan, a'r rhai a roddir i mewn, yn rhyw debyg o ran sain ac o ran y llythyrenau a'u gwnant i fyny, צעירה a עם־שריו; ac ar y sail yma y mae rhai wedi tybied fod y diweddaf wedi ei roddi yn lle y blaenaf naill ai trwy gamgymmeriad y copïwr, neu ynte yn fwriadol, o herwydd nad oedd yr enw Sair ddim i'w gael yn un man arall. Fel yna y mae Kiel yn meddwl. Ereill drachefn, megys Movers ac Ewald, a awgrymant mai yr un ydyw Sair a Soar. Yn ddiau yn y canoloesoedd, yr oedd y ffordd dros yr hon y teithiai byddin o Iudea i'r wlad a berchenogid gynt gan yr Edomiaid, yn myned drwy y lle a dybid y pryd hwnw oedd Soar, is law i *Kerah*, i'r de-ddwyrain o'r Môr Marw; ac mor bell a hyn y mae yn ffafriol i'r golygiad mai yr un oedd y ddau le. Ond nid oes dim arall i gadarnhau hyn yn narlleniadau y llawysgrifau gwreiddiol na chyfieithiadol.

Yr oedd y Soar y sonir am dani yn Genesis [gw. Soar] yn nes i ben gogledd-ddwyreiniol y llyn, dybygid; a'r dyddordeb mawr sydd mewn ystyried fod Sair a Soar yr un, ydyw y ffaith, pe bae hyn yn cael ei gadarnhau, y dangosai fod Soar wedi ei symmud o'r lle yr oedd ar y cyntaf erbyn yr adeg yr ysgrifenwyd 1 *Bren.* viii. 21, a'i gosod lle yr oedd yn nyddiau Jerome a'r croesgadau. Hwyrach fod y ffaith fod lle o'r enw Sair yno yn flaenorol wedi bod yn un rheswm dros y symmudiad. Tybiaeth arall a fabwysiedir, seiliedig ar ddarlleniadau y *Vulgate* o'r cyfieithiad Arabaidd, ydyw, fod Sair yn gyfnewidiad o Seir—yr enw wrth yr hwn y gelwid gwlad yr Edomiaid.

SALADIN, neu SALAH-ED-DEEN: sultan yr Aipht a Syria. Ganwyd ef B. A. 1137, yn nghastell Tekreit, tref ar lan y Tigris, lle yr oedd ei dad Ayub yn llywodraethwr, dan frenin Persia. Dilynodd esampl ei dad a'i ewythr, drwy fyned i wasanaeth Noureddin, tywysog Syria; a bu gyda'i ewythr Shirkoh yn ei amrywiol ryfelgyrchoedd i'r Aipht, pan oedd y diweddaf yn llywyddu byddin Noureddin. Yr oedd Saladin y pryd hwn yn dueddol iawn hefyd i yfed gwin a hapchwareu; ac ni ddangosodd ei fod yn feddiannol ar yr ansoddau sydd yn angenrheidiol i wneyd rhyfelwr mawr hyd nes y cauwyd ef, a chyfran fechan o fyddin Syria, i fyny yn Alexandria gan Gristionogion Palestina a milwyr yr Aipht. Sefydlodd hyn ei gymmeriad milwraidd. Pennodwyd Shirkoh yn rhaglaw y deyrnas o dan Noureddin; ond bu farw yr un flwyddyn, a gadawodd ei awdurdod i'w nai, yr hwn oedd yn parhau i lywodraethu yr Aipht, yn cael ei gynnorthwyo gan ei dad Ayub, yr hwn a wahoddwyd o Damascus i gydgyfranogi o lwyddiant ei fab. Yr oedd yr olaf o'r Fatimiaid, Aded Ledini Liah, yn parhau i arfer y teitl o galiph yr Aipht; ond penderfynodd Noureddin ei ddiswyddo; ond cyn i hyny yn weithredol gymmeryd lle bu farw Aded, B. A. 1171. Gadawyd Saladin yn awr yn rhinweddol yn benadur yr Aipht; er ei fod, mewn ufudd-dod i gynghor doeth ei dad, yn parhau i dalu gwarogaeth ymddangosiadol i Noureddin. Bu farw y diweddaf B.A. 1173. Nid oedd ei etifedd, Malek-al-saleh, ond plentyn un ar ddeg oed, ac felly yn anghymmhwys i gymmeryd arno ofal yr ymherodraeth. Cyfododd dadleuon yn fuan rhwng ei dywysogion a'u gilydd, a chymmerodd Saladin fantais ar hyn i gymmeryd meddiant o Damascus; yr hyn a wnaed ganddo yn ddiwrthwynebiad, yn y flwyddyn 1174. Cyfranogodd trefydd ereill oedd yn ddibynol ar Damascus o'r un dynged; a phan ymdrechodd Saleh, gyda chymmhorth ei gefnder, Ghazi, eu hadfeddiannu, gorchfygwyd hwy mewn dwy frwydr fawr, a gwarchauwyd ar Saleh yn Aleppo, pryd y gorfodwyd ef i bwrcasu heddwch trwy roddi i fyny i'w wrthwynebydd holl Syria Ddeheuol. Cymmerodd Saladin yn awr y teitl o sultan, a'r holl ragorfreintiau a berthynent i benaduriaeth frenhinol, a helaethodd ei diriogaethau trwy orchfygu y rhan fwyaf o'r mân freniniaethau oedd ar derfynau Syria a Mesopotamia. Cospwyd a darostyngwyd hefyd yr Ismailis, neu frad-lofruddion Libanus, cenhadau y rhai a wnaethant gais at ei fywyd yn ngwarchauad Aleppo; ond yn y frwydr gyntaf a ymladdwyd rhyngddo a'r Ewropiaid, gorchfygwyd ef gan Reginald de Chatillon, yn mis Tachwedd, 1177. Treuliodd y pedair blynedd dilynol yn benaf yn yr Aipht, gan adael gofal achosion Syria yn nwylaw ei raglawiaid; ond yn 1182, gadawodd Cairo am y tro diweddaf, ac ymosododd ar diriogaethau yr Atabekiaid, gan gymmeryd Edessa, Amida, Nisibin, &c.; ac yn 1183 meddiannodd ddinas Aleppo. O Yemen i fynydd Taurus yn Cilicia, ac o Tripoli yn Affrica i'r Tigris, yr oedd Saladin yn llywodraethu ar y cyfan, gyda'r eithriad o deyrnas Ladinaidd Ierusalem; a darfu i waith Chatillon yn tori y cadoediad pedair blynedd a wnaed yn 1185, roddi iddo esgusawd i ddechreu rhyfel yn ei erbyn yn mrwydr enwog Hittin, neu Tiberias (Gorphenaf 1187), pan y bradychwyd y Cristionogion gan y Count Tripoli, ac y cawsant eu llwyr orchfygu. Cymmerwyd y brenin, Guy de Lusignan, yn

Digitized by Google

dau reswm dros iddynt gymmeryd y cwrs hwn; sef, yr ystyriaeth mai Cyprus (a Salamis, y mae yn debyg) oedd lle genedigol Barnabas, ac agosrwydd y pen hwn o'r ynys at Antiochia. Ond y mae rheswm arall yn cael ei awgrymu gan un amgylchiad yn yr hanes: *Act.* xiii. 5. Yma yn unig, yn mhlith y dinasoedd Groegaidd yr ymwelwyd â hwynt gan Paul, yr ydym yn darllen am synagogau yn y rhif liosog. Oddi wrth hyn yr ydys yn naturiol yn casglu fod llawer o Iuddewon yn Cyprus. Heb grybwyll dim am y tebygolrwydd fod masnach yn cael ei dwyn yn mlaen gan breswylwyr Cyprus gyda'r Iuddewon er yn foreu, sonir fod Iuddewon yn preswylio yn yr ynys yn y cyfnod hwnw pan y teyrnasai y Seleuciaid yn Antiochia.—1 *Macc.* xv. 23. Yn nyddiau Augustus, gweithiwyd mwngloddiau copr gan Herod Fawr; ac o bossibl na bu hyn yn foddion i dynu yno lawer o deuluoedd Iuddewig. Hefyd, mewn cyfnod diweddarach, yn nheyrnasiadau Trajan a Hadrian, mynegir fod terfysgoedd ofnadwy wedi tori allan yno, wedi ei achosi gan nifer fawr o Iuddewon; yn nghwrs y terfysgoedd hyn "gwnaed dinas boblog Salamis yn garnedd." Y mae yn hawdd credu fod rhai o Iuddewon Salamis wedi dyfod yn rhai o'r Cristionogion Cyprusaidd boreuol a grybwyllir yn hanes lledaeniad Cristionogaeth y tu hwnt i derfynau Palestina, hyd yn oed cyn y daith genhadol gyntaf a gymmerodd Paul a Barnabas: *Act.* xi. 19, 20. A dichon fod Mnason yn un o honynt: *Act.* xxi. 16. Ni ddylid chwaith anghofio Marc. Yr oedd efe yn Salamis gyda Phaul, a chyda'i gâr ei hun—Barnabas; ac ymddengys ei fod yno drachefn gyda'r olaf ar ol y camddealltwriaeth a fu rhyngddo a Phaul, a'i ymadawiad âg ef: *pen.* xv. 39.

Nid oedd Salamis yn mhell oddi wrth y *Famagousta* ddiweddar. Safai ger llaw afon a elwid y Pediæus, ar dir isel, yr hwn, mewn gwirionedd, sydd yn barhâd o'r gwastadedd sydd yn rhedeg i fyny i barthau mewnol y wlad, tua'r fan lle y saif *Nicosia*, prifddinas bresennol Cyprus. Canmolir porthladd Salamis yn fawr gan awdwyr Groegaidd. Y mae i Salamis le lled enwog drachefn mewn hanesyddiaeth Gristionogol. Darfu i Cystenyn, neu ei olynydd, ei hail adeiladu, a'i galw wrth yr enw *Constantia*.

O'r teithwyr a ymwelsant â Salamis, ac a roisant ddisgrifiad o honi, Pococke yw y penaf.

SALAPH: tad Hanun, yr hwn oedd un o adeiladwyr muriau Ierusalem: *Neh.* iii. 30.

SALATHIEL (שאלתיאל: *gofynais gan Dduw*): mab Iechonias brenin Iudah, a thad Zorobabel, yn ol yr achau yn *Mat.* i. 12; ond yn ol *Luc* iii. 17—19, mab ydoedd i Neri, a thad Zorobabel. Ond y mae yr achau a gofnodir yn 1 *Cron.* iii. 17—19, yn ein gadael braidd mewn ammheuaeth pa un ai mab Assir ai mab Iechonias oedd efe, ac yn gwneyd Zorobabel yn nai iddo. Gwel ZOROBABEL.

SALCHAH: dinas a nodir allan yn foreu yn nghofnodion cenedl Israel fel terfyn eithaf Basan (*Deut.* iii. 10; *Ios.* xiii. 11) a llwyth Gad (1 *Cron.* v. 11). Ar achlysur arall y mae yr enw yn ymddangos fel yn dynodi dosbarth o wlad, yn hytrach na thref: *Ios.* xii. 5. Nid ydyw Jerome ac Eusebius ond prin grybwyll am y lle, a hyny y mae yn amlwg heb fod ganddynt un wybodaeth bendant yn ei gylch. Gellir bod o'r bron yn sicr mai yr un ydyw a *Sulkhad*, yr hon a saif ar derfyn dwyreiniol eithaf y Jebel Hauran, ugain milldir i'r deheu o *Kunawat* (y Cenath hynafol), yr hon ydoedd rhagorsaf *Leja*—Argob yr Ysgrythyrau. Enwir *Sulkhad* gan haneswyr Mahometaidd a Christionogol y canoloesoedd. Ymwelwyd â'r lle gan Burkhardt (yn 1810), a chan Seetzen ac ereill, ac yn ddiweddarach gan Porter, yr hwn sydd yn rhoddi disgrifiad lled fanwl o honi. Ymddengys mai Gesenius a gafodd allan gyntaf mai yr un ydyw hi a Salchah y Beibl.

Yn union islaw Salchah y dechreua gwastadedd diffaethwch mawr yr Euphrates—yr hwn a ymestyn o'r bron heb ddim bryn arno oddi yno hyd Busra ar lan Morgaingc Persia. Y mae y dref yn un o gryn faintioli, rhyw ddwy neu dair milldir o amgylchedd, yn amgylchynu castell wedi ei adeiladu ar ben bryn uchel, sydd yn ymgodi o 300 i 400 o droedfeddi uwch law y rhanau ereill o'r dref.—"*Porter's Giant Cities of Bashan*," td. 178, 179. Y mae ar un o'r pyrth sydd yn arwain i'r castell arysgrifen yn rhoddi y dyddiad o B. A. 246:—ac y mae dyddiad boreuach ar gareg fedd yno, sef, B. A. 196. Y mae rhai pethau ereill o fanylion ei hanes diweddarach i'w cael yn ngwaith Porter. Y mae y bryn ar yr hwn y saif y castell wedi bod yn llosgfynydd ar un adeg, ac y mae ei ystlysau yn orchuddiedig etto â lludw a thalpiau o losgwy.

SALEM (שלם: Σαλήμ), oedd y fan yr oedd Melchisedec yn frenin arno: *Gen.* xiv. 18; *Heb.* vii. 1, 2. Y mae o'r bron yn ammhossibl penderfynu hyd sicrwydd yn mha le y safai. Nid oes dim a ddywedir yn yr hanes yn ein cynorthwyo i benderfynu y llanerch yn fanwl. Hwyrach na byddai yn ddiogel tynu casgliad, fel y mae rhai wedi gwneyd, fod Salem yn rhywle rhwng Damascus a Sodom; er y mynegir fod brenin Sodom—yr hwn a adennillodd ei ddinas ei hun, ar ol enciliad yr Assyriaid—wedi myned allan i gyfarfod Abram; etto dywedir yn bendant fod hyn wedi digwydd ar ol i Abram ddychwelyd o ladd y brenhinoedd. Gellid meddwl nad oes un sicrwydd diymwad fod cysylltiad amser neu le rhwng cydgyfarfyddiad brenin Sodom ac ymddangosiad Melchisedec. Neu, a golygu fod yr ammheuaeth yna wedi ei chwalu, nid oes un cymmhorth yn cael ei estyn i benderfynu ar y lle yn y crybwylliad a wneir am Ddyffryn Safeh, gan fod ei sefyllfa yntau hefyd yn ansicr. Y mae Dr. Wolff, yr hwn sydd awdurdod lled uchel ar gwestiynau dwyreiniol, yn un o'i weithiau yn awgrymu mai teitl oedd Salem, ac nid enw lle; fel y gellir casglu hefyd oddi wrth yr Epistol at yr Hebreaid. Fel hyn y dywed efe:—

"Yr oedd Melchisedec gynt......yn meddu teitl brenhinol; yr oedd yn 'frenin cyfiawnder,' yn Hebraeg, *Melchi-zedek*. Ac yr oedd hefyd yn 'frenin heddwch,' *Melek-salem*. A phan y daeth Abraham i'w babell ef, daeth Melchisedec i'w gyfarfod gyda bara a gwin, a galwyd ef yn 'offeiriad y Duw Goruchaf,' a chyflwynodd Abraham iddo gyfran o'r ysbail a gymmerasai. Felly, y mae gan gyfaill Wolff yn anialwch Meru, yn nheyrnas Khiva—enw yr hwn ydyw *Abd-er-Rahman*, enw sydd yn arwyddo 'Gwas y Duw trugarog'—deitl brenhinol hefyd. Gelwir ef *Shahe-Adaalat*, 'brenin cyfiawnder'—yr un ydyw a *Melchisedec* yn yr Hebraeg. A phan yn gwneyd heddwch rhwng brenhinoedd, y mae yn arfer y teitl, *Shahe Soolkh*, 'brenin heddwch'—yn Hebraeg, *Melek-salem*."

Digitized by Google

I ddychwelyd at ddaearyddiaeth y cwestiwn: y mae dwy farn wedi eu dadgan yn ei gylch er yr oesoedd boreuol. 1. Barn yr esbonwyr Iuddewig, y rhai âg un llais yn mron sydd yn cyhoeddi mai Salem ydyw Ierusalem; a hyny yn benaf ar y sail fod Ierusalem yn cael ei galw ar yr enw hwnw yn *Salm* lxxvi. 2. Haerir fod y Salmydd yno, am ryw reswm neu gilydd, yn gwneyd defnydd o'r enw gwreiddiol oedd arni yn hytrach nag o'r enw ar ba un y gelwid hi yn gyffredin. Y mae ereill drachefn yn ystyried nad ydyw hyn yn ddigon o reswm dros ddyfod i benderfyniad mai yr un oedd Salem Melchisedec ac Ierusalem. Ymddengys, oddi wrth yr hyn a ddywedir gan Jerome ["*Ep. ad Evangelium*"], fod Cristionogion y bedwaredd ganrif yn mabwysiadu golygiad yr Iuddewon hyn. Nid oedd Jerome ei hun, pa fodd bynag, o'r un farn a hwynt. Efe a ddywed yn ddibetrus mai nid yr un lle oedd Salem Melchisedec ac Ierusalem. Dywedai mai tref yn agos i Scythopolis oedd y flaenaf; yr hon, yn ei ddyddiau ef, a elwid Salem, a lle y gellid gweled gweddillion helaeth o balas Melchisedec yn ei amser ef. Mewn lle arall, y mae Jerome yn dyweyd yn fanylach ei bod o fewn y pellder o wyth milldir o Scythopolis, a rhydd arni yr enw Salumias. Drachefn, y mae yn ystyried fod y Salem hon yr un lle a Salim Ioan Fedyddiwr. Nis gellir ammheu nad oedd lle, a elwid Salem, gynt yn y man y sonir am dano gan Jerome. Ond y mae penderfynu mai y Salem, Salim, neu y Salumias yma oedd Salem Melchisedec mor anhawdd ag ydyw sicrhau mai Ierusalem ydoedd. Ychydig o gymmhorth hefyd a geir i benderfynu ar sefyllfa y lle, trwy gymmeryd i ystyriaeth daith Abraham tuag adref. Dygodd ei bobl, dybygid, ar hyd ffordd y gwastadedd hyd Iericho; ac yna trodd i'r deheu, ac esgynodd i lefel uchaf y wlad yn nghyfeiriad Mamre: ond pa un a groesodd efe yr Iorddonen yn *Jisr Benat Yakub*, uwch law Llyn Gennesaret, neu ynte yn *Jisr Mejamia*, is law iddo, ni wyddys: ond pa un bynag, ni wnaethai hyny un gwahaniaeth, gan yr aethai heibio i Scythopolis ac Ierusalem hefyd. Ar yr un pryd, rhaid addef fod pellder Salem (o leiaf bedwar ugain milldir o'r lle tybiedig y safai Sodom) yn ei gwneyd yn anhawdd i dybied y deuai brenin Sodom mor bell i gyfarfod Abram, yn chwanegu at y tebygolrwydd i'r cyfarfyddiad gymmeryd lle ar ol i Abram ddychwelyd—ac nid yn ystod ei ddychweliad. Ac mor bell a hyn yna y mae yn ffafriol i'r golygiad mai yr un ydoedd Salem ac Ierusalem.

Tybia Ewald fod Salem yn dref o'r tu hwnt i'r Iorddonen, ar y ffordd o Damascus i Sodoma; a dyfyna *Ioan* iii. 23 fel prawf. Ond nid yw yr ysgrifenydd yn gallu dwyn yn mlaen unrhyw awdurdod dros hyn, nac unrhyw brawf fod enw felly i'w gael yn y cyfeiriad hwnw mewn amseroedd hen na diweddar.

Sonia Eupolemus am draddodiad, yn gwahaniaethu mewn rhai pethau pwysig oddi wrth yr hanes ysgrythyrol. Yn ol y traddodiad hwnw, cymmerodd y cyfarfyddiad rhwng Melchisedec ac Abram le yn nghyssegrfa dinas Argarizin—gair a ddeonglir gan Eupolemus fel yn golygu "Mynydd y Goruchaf." Argarizin oedd Mynydd Garizim. Y mae y traddodiad hwn, gan hyny, dybygid, o darddiad Samariaidd, gan fod y Samariaid yn mynu dyweyd mai yn Mynydd Garizim y cyfarfu Abram â Melchisedec.

Crybwyllir am ryw Salem yn "Llyfr Judith" (*pen.* iv. 4), yn mhlith y lleoedd a gymmerwyd ac a osodwyd mewn sefyllfa o amddiffyniad gan yr Iuddewon ar ddynesiad Olophernes. Hwyrach fod yr ymadrodd "Dyffryn Salem," fel y ceir ef yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl, yn golygu dyffryn yr Iorddonen: os felly, y mae y Salem y cyfeirir ati yr un ag a nodwyd yn barod gan Jerome. Ond yn y fan hon gall, gyda llawn cymmaint o debygolrwydd, olygu gwastadedd eang y *Mukhna* sydd yn ymestyn o Ebal a Garizim ar un llaw, hyd at y bryniau lle y saif Salim ar y llall—yr hwn a elwir hyd heddyw yn "wastadedd Salim" [Porter's "*Handbook*," td. 340], a thrwy yr hwn yr ä ffordd fawr ganolbarthol y wlad. Neu, yr hyn sydd fe allai yn debycach, cyfeiria at Salim, ger *Zerin* (Iezreel), ac at y gwastadedd sydd yn rhedeg i fyny rhwng y ddau le hyn, mor bell a *Jenin*, yr hwn a orweddai yn union ar ffordd y fyddin Assyriaidd. Nid oes yn ein meddiant un prawf i ddangos fod y goresgynwyr wedi cyrhaedd mor bell i barthau mewnol y wlad a gwastadedd y *Mukhna*. Ac y mae y lleoedd ereill a enwir yn yr adnod yn ymddangos, mor bell ag y gellir eu gwneyd allan, yn fanau lle yr oedd y prif fyneddfeydd i ganolbarth y wlad yn cael eu gwylio o honynt (un o'r rhai penaf oedd ger Iezreel ac En-gannim); ac nid trefydd yn y canolbarth, megys Sichem, neu y Salem oedd ger llaw iddi.

Y mae agos bawb yn cyttuno fod y gair Salem yn cael ei ddefnyddio am Ierusalem yn *Salm* lxxvi. 2; ond pa un a ddefnyddir ef fel talfyriad er cyfarfod â rhyw angen yn y farddoniaeth, ac mewn cyfeiriad at yr heddwch *(salem)* yr oedd y ddinas yn ei fwynhau drwy amddiffyniad yr Arglwydd: neu ynte, yn ol un o arferion adnabyddus y beirdd, ai hen enw ydyw, i'r hwn y rhoddir y flaenoriaeth ar yr enw diweddarach a mwy cyffredin, sydd gwestiwn nas gellir ei benderfynu. Yr olaf ydyw barn yr esbonwyr Iuddewig; ond y mae hyn yn sylfaenedig ar y grediniaeth mai Salem Melchisedec a ddaeth wedi hyny i fod yn ddinas Ierusalem. Gwel IERUSALEM.

SALESBURY, WILLIAM: enw sydd yn anwyl gan y Cymry hyd y dydd hwn, ac a fydd felly yn ddiau hyd ddiwedd amser, o blegid mai efe oedd prif gyfieithydd y Testament Newydd a argraphwyd gyntaf yn yr iaith Gymraeg. Normaniad ydoedd William Salesbury o du ei dad—wedi hanu, yn ol yr achau a ddyry Lewis Dwnn, yn y ddegfed radd, o Adam De Saltzburg, marchog Germanaidd a ddaeth i Brydain gyda William y Goresgynydd, yn B.A. 1066; ac a wnaed, ar ol y goresgyniad, yn gadben gwylwyr Castell Dinbych.

Y mae yn dra sicr mai fel gormeswr ac ysbeiliwr tiroedd y cymmerth y De Saltzburg yma afael yn Lleweni, a'r tiriogaethau breision o amgylch, trwy gymmhorth milwyr y castell, ond odid, yn ol arfer y rhan fwyaf o'r marchogion ysbeilgar a ddaethant drosodd gyda'r Goresgynydd yn ngwahanol barthau y wlad, yn enwedig yn y Cyffindiroedd. Yn wir, y mae prydydd pur hen, a'i enw Edward Llwyd, o Lan Ynys, yn dywedyd yn y llinellau canlynol "i S. Jo. Salbri Farchawg," un o hiliogaeth Adam De Saltzburg, mai "lle concwerwr" oedd Lleweni:—

"Lleweni deg, llyna dŵr
Can câr, a *lle concwerwr.*"

Newidiwyd yr enw Saltzburg yn ebrwydd ar



Digitized by Google

ol i'r teulu ymsefydlu yn Nyffryn Clwyd; canys cofnodir mab y De Saltzburg crybwylledig wrth yr enw "Syr John *Salusbury,* o Leweni," yr hwn a fu farw yn 1089. Newidiwyd yr enw wedi hyny gan y Saeson i *Salesbury* a *Salisbury,* a chan y Cymry i *Salbri;* megys yn y llinellau hyn, gan "D. ap Edmwnd i'r T. Salbri Hen:"—

"Echel men a chael i mi,
Yn nes hwylbren i *Salbri.*"

Ac yn lliosog, *Salbrïaid,* megys yn y llinellau canlynol gan "G. Hiraethog, i S. Salbri:"—

"Pen marchawg enwawg enaid—pwys Dinbych,
Post iawn-ben *Salbrïaid.*"

*Salsbri,* a *Salsbrïaid* sydd gan Gwallter Mechain. *Salesbury* oedd y dull a ddewiswyd ganddo ef ei bun, fel y mae'n amlwg wrth enwad-ddalen y llyfr cyntaf a gyhoeddodd yn 1547, yr hwn y ceir arfod i sylwi arno rhag llaw.

Daeth y Salbrïaid mewn amser, fel hiliogaeth llawer o'r hen farchogion Normanaidd ereill, trwy gyfathrach briodasol â hen deuluoedd y Cymry, yn wir Gymreig eu hunain, o ran iaith, teimlad, syniad, ac arferion; ac edrychid arnynt gan y Cymry fel eu gwladgarwyr penaf. Ymdaenodd y Salbrïaid o Leweni dros yr holl wlad; a daeth eu hiliogaeth, trwy eu priodasau, i berchenogi Bachymbyd, Bachegraig, Rug, Llewesog, Maescadarn, Brynbarcut, Dolbeledr, *Plas Isaf,* Brynsylltu, Berthddu, Henblas, ac amryw ereill; ac yr oedd ganddynt etifeddiaethau llydain yn Lleprog, Clocaenog, Llanrhaiadr, Llanfwrog, Gwytherin, &c. Mor briodol ydyw sylw Gwallter Mechain, yr hwn a ddywed:—"Ond, 'golud yn ddiau a gymmer adenydd, ac a eheda ymaith megys eryr tua'r wybr.' Enwau a theuluoedd a ymddangosant yn fawr eu rhwysg, ac a ddiflanant. Felly, o'r Salbrïaid llydain eu hesgyll, nid oes heddyw ond—'prin ddau, lle'r oedd gynnau gant'—neu lai na dau; canys ar wibfeddwl ysgafn nis gwn am ond *un* tylwyth cerbydawg, boneddwiw, o'r enw, a hwnw, nid yn *Ngwynedd,* ond yn *Ngwent.*"

Y fath ydoedd hynafiaid tylwyth tad ein cyfieithydd enwog, William Salesbury, ail fab Foulk Salesbury, ap Robert Salesbury, ap Thomas Salesbury Hen o Leweni, &c., hyd Adam De Saltzburg. Mam ein William Salesbury, yr hon ni ddaeth ei heuw i lawr hyd atom ni, oedd ferch i un Pilstwn, o Fôn. Ei daid, Robert Salesbury, a briododd Gwenhwyfar, merch Rhys ap Einion Fychan, ap Robin Fychan, ab Dafydd, ap Hywel. Mam Gwenhwyfar oedd Catherin, etifeddes y Plas Isaf, gwraig Rhys ap Einion Fychan. Mam Catherin oedd Angharad, gwraig Robin Fychan ab Dafydd, ap Hywel, a merch Rhys, ab Gruffydd, ap Rhys, ap Ednyfed Fychan, arglwydd Brynffanigl, Abergele, Cadfridog, Canghellydd, a Chynghorwr *(Councillor)* Llewelyn ap Iorwerth, a elwid Llewelyn Fawr, Tywysog Cymru, o 1194 hyd 1240. Gwelir, gan hyny, fod ein cyfieithydd ysgrythyrol wedi hanu o'r teuluoedd mwyaf anrhydeddus a hynafol yn y wlad.

Ganwyd William Salesbury yn y Plas Isaf, treftadaeth ei hynafiaid o du ei nain, Gwenhwyfar; ond ni wyddys yn fanwl pa flwyddyn y ganwyd ef, nac yn mha flwyddyn y bu farw. Ar enwad-ddalen yr ail argraphiad (1807) o "*Reitheg*" Henri Perri, dywedir fel hyn:—"Rhetoreg neu Rheitheg, a ddechreuwyd gan Mr. William Salisbury, a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. Henri Perri, trwy draul Syr Siôn Salisbury, o Leweni, yn sir Ddinbych, 1580." Os ydyw yr amseriad yna yn gywir, rhaid bod Salesbury wedi marw cyn 1580; ond ofnwn mai dyfaliad cyhoeddwyr yr ail argraphiad, y Dr. Pughe ac Owain Myvyr, ydyw y flwyddyn grybwylledig; canys nid ydyw ar enwad-ddalen yr argraphiad cyntaf, yr hon sydd fel y canlyn:—"Egluryn Phraethineb, sef Dosbarth ar Retoreg, un o'r saith gelbhydhyd yn dyscu lhuniaeth ymadrodh a'i pherthynasau. A dhechreuwyd gan Mr. William Salesbury, a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. Henri Perri, drwy draul Syr Siôn Salisbury, o Leweni, sir Dhinbych. Printiedig gan Ioan Dantes, yn Llundain, 1595." Dywed Gwilym Lleyn yn "*Llyfryddiaeth y Cymry,*" ar awdurdod enwad-ddalen yr ail argraphiad, ond odid, fod "y gwaith wedi ei gyfansoddi er y flwyddyn 1580; ond na ddeallir iddo gael ei argraphu y pryd hyny." Dywed Syr John Wynn, o Wydir, cydoeswr Salesbury, y bu fyw o ddeutu pedair blynedd ar hugain ar ol yr anghydfod llenyddol rhyngddo a'r Esgob Davies. Bernir i'r amgylchiad hwnw ddigwydd yn mhen tua dwy flynedd ar ol cyhoeddi cyfieithiad Salesbury o'r Testament Newydd, sef o gylch 1569. Os chwanegir 24 at hyny, ceir 1593, y flwyddyn, yn ol pob tebyg, yr ymadawodd ein cyfieithydd llafurus â'r fuchedd hon. Beth bynag, y mae'n sicr i hyny ddigwydd rywbryd cyn 1595—y flwyddyn y cyhoeddwyd "*Egluryn Phraethineb*" Henri Perri.

Cafodd W. Salesbury ei addysg athrofaol yn Rhydychain, ac ymddengys iddo yfed ei ddysg yn gyflym ac yn helaeth. Yn gymmaint ag y dodir esamplau yn yr "Anerch" sydd o flaen yr "*Egluryn Phraethineb*" i ddangos fod yr Hebraeg, y Galdaeg, y Syriaeg, y Rywaeg, y Lladinaeg, y Ffrangcaeg, yr Italaeg, a'r Yspanaeg yn defnyddio troellau ymadrodd, fe ddywedodd amryw yn bendant fod yr "Anerch" hwnw yn dangos bod William Salesbury yn hyddysg yn y naw iaith hyny, heb law y Gymraeg a'r Saesneg; er bod yr "Anerch" yn mhob un o'r tri argraphiad yn terfynu fel hyn:—"Duw a'ch rhwyddo oll i fod yn Gristionogion diball, yn danlywyddiaid ffyddlawn, yn frodyr anesgor, yn foneddigion hylyw, yn beriglorion hydraeth, yn brydyddion diweniaith, yn Gymry Cymreigaidd: a henffych iwch yn y byd yma, ac yn yr uchelnef, llawenydd didrangc a'ch goddiweddo. Boed felly y bo, yr eiddoch oll i'w orchymyn yn yr Arglwydd Dduw, Hen. Perri." Y gwirionedd ydyw, nas gellir gwybod dim amcan oddi wrth yr "Anerch" dan sylw, eiddo *Henri Perri,* pa faint o ieithoedd a fedrai *William Salesbury;* ond y mae ei gyfieithiad o'r Testament Newydd yn dangos ei fod yn deall Groeg a Lladin; ac y mae y gwirionedd ddarfod iddo ddechreu cyfieithu yr Hen Destament gyda'r Esgob Davies, yn arwyddo ei fod yn deall Hebraeg.

Nid yw yn hysbys pa hyd y bu Salesbury yn Rhydychain; ac ni wyddai Anthony Wood pa un ai yn ngholeg St. Alban ai yn Broadgate yr arosai tra y bu yno. Ar ol bod yn Rhydychain dros ryw ennyd, aeth i Lundain i fyfyrio y gyfraith wladol; ond, medd Gwallter Mechain, "ni adawodd Rhagluniaeth iddo ymrwymo am ei oes yn ngwasanaeth y gyfraith ac elw bydol. Gadawai y rhai hyn i Ddemas a'i deulu, a dychwelodd i fyw ar ei etifeddiaeth yn ngwlad ei enedigaeth. Helaethrwydd ei wybodaeth, a dyfnder ei ddysg, mewn llawer o ieithoedd a

Digitized by Google

wnaeth i orengwyr a dysgedigion ei wlad edrych arno gyda pharch a charedigrwydd."

Pa fodd bynag, ymddengys bod gan farwolaeth ei frawd hynaf, Robert Salesbury, etifedd y Plas Isaf, gryn effaith ar ddychweliad William o Lundain. Yn ysgriflyfr John Gruffydd, o'r Cae Cyriog, yn Maelor, "hynafiaethydd diwyd a deallus yn ei oes," medd Gwallter Mechain, dywedir fel hyn:—"Wiliam Salsbri, Llên, ail frawd Robert Salsbri, a ddaliodd y Plas Isaf oddi wrth y ddwy aeres uchod, ei nithoedd, Gwen ac Elen; a'i eppil ef a'i pīau etto; a buasai yn dal mwy oddi arnynt oni buasai i'r Dr. Elis Prys, o Blas Iolyn, ei luddias. Cwtogwyd tiriogaeth y Plas Isaf yn fawr, herwydd rhaniadau i'r meibion ieuaf, o oes i oes. Aeth Bryn y Barcud i un; Pant y Gareg Newydd i un arall; arall oedd Tomos Salsbri o Wytherin; arall yn Rhyd Llanfair, hynaf yr aeres a briododd Hwmffrai Llwyd; un arall yn Llan Nefydd," &c.

Y mae Gwallter Mechain yn ymdrechu amddiffyn ymddygiad ein cyfieithydd gyda golwg ar ei waith yn cymmeryd meddiant o etifeddiaeth y Plas Isaf, fel y canlyn:—

"Gan nad oedd na chyfraith na defod wladol yn llesteirio i fenywaid etifeddu tir a daear yn yr oes dan ein sylw, nid yw debyg y gwnai gŵr o gynneddfau addefedig W. Salsbri gymmeryd meddiant ar dir a da ei nithoedd drwy drais. Nid oedd Wynniaid *Gwydir* chwaith y cyfryw fabanod a chymmeryd eu dietifeddu yn ddiymdrech. Etto, ped gwir yr haeriad uchod [eiddo John Gruffydd, o'r Cae Cyriog], ni roddasai Syr John Wynn, o Wydir, gŵr o ddoniau anianol mwy na chyffredin, y fath eirda digymmysg i'r 'ysgolhaig digymmhar o'r Plas Isaf,' fel y galwai efe William Salsbri yn ei ysgrifeniadau, y rhai sydd i'w gweled etto. Pa fodd bynag, o blaid enw da prif gyfieithydd Cymru (?), gellir dyfalu iddo ef etifeddu y Plas Isaf, ar ol marwolaeth ei frawd hynaf heb fab, trwy rym ammodau priodasol ei rieni, neu ryw weithred gyfreithiol arall; ac mai gelyn i ledaeniad yr efengyl, rhyw Babydd neu gilydd, er mwyn pardduo ei enw da, osododd ar droed y chwedl, mai trwy draws anghyfiawnder y daliasai efe diroedd ei ddwy nith."

Pa fodd bynag y daeth W. Salesbury i feddiant o etifeddiaeth y Plas Isaf, y mae yn ddigon sicr iddo ymroddi i lenyddiaeth yn bur fuan ar ol dychwel i Gymru o Lundain. Y mae amryw wedi priodoli y llyfr cyntaf a argraphwyd yn Gymraeg i W. Salesbury, enw yr hwn sydd fel hyn:—

"Beibl. Yn y Llyvyr hwn y Traethyr Gwyddor Kymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampau arveradwy, a'r Gweddïau Gocheladwy ac Keingeu'. [Llundain, 1546, 4 plyg]."

Dywed awdwr "*Llyfryddiaeth y Cymry*" y "tybia rhai mai Syr John Pryce, LL.D., a gyhoeddodd y llyfr hwn;" ac mai brodor o sir Frycheiniog oedd y gŵr hwnw. Nid yw hysbys fod gan W. Salesbury un llaw yn nghyfansoddiad na chyhoeddiad yr argraphiad yma o'r gwaith. Dywedir mai math ar Almanac oedd y llyfr hwn; ac i'r gair "Beibl" gael ei ddodi ar ben uchaf y ddalen, mewn llythyrenau breision, er mwyn tynu sylw ato, gan fod rhai darnau o'r Beibl ynddo; ac yr oedd y Beibl yn llyfr hollol ddyeithr y pryd hyny i genedl y Cymry.

Y llyfrau y gwyddys hyd sicrwydd bod gan William Salesbury law yn eu cyfansoddiad neu eu cyhoeddiad, yw y rhai canlynol:—

1. "A Dictionary in Englyshe and Welshe moche necessary to all suche Welshemen as wil spedly learne the englyshe tōgue thought vnto the kynges maiestie very mete to be sette forthe to the vse of his graces subiectes in Wales: Wherevnto is p'fixed a litle treatyse of the englyshe prontīciacion of the letters, by Wyllyam Salesbury."

Ar gefn y ddalen enwol, y mae cyflwyniad i Henry VIII.:—"To the moost Victoriouse & Redowpted prince Henry theyght by the grace of God Kynge of Englande, Fraunce, and Irelande defender of the faythe And of the Churche of Englande and also of Irelāde in erthe the supreame Hedde be al prosperitye in continuall honour." Yn nesaf, "Wyllyam Salesburi wrth y darlleawdr." Wedi hyny, "Natur a sain y llythyreu vchod yn Saesnec," neu, ar frig y ddalen, "Athrawaeth i ddyscy darllen Saesnec." Yn nesaf daw y Geiriadur ei hun. Gellid casglu oddi wrth y ddalen enwol mai Saesneg a Chymraeg ydyw y gwaith; ond yn y gwrthwyneb y mae. Trefnir y gwaith yn bedair colofn ar bob tudalen. Uwch ben y golofn gyntaf dodir y gair *Kamberaec*, ac weithiau *Camraec; Saesonaec*, neu *Saesnec*, uwch ben yr ail; *Welshe*, a phryd arall, *Walshe*, uwch ben y drydedd; ac *Englyshe* uwch ben y bedwaredd. Y mae llawer gair Cymraeg ynddo heb air Saesneg ar ei gyfer; ac weithiau eglurir y gair Cymraeg yn Gymraeg, megys yn yr esampl ddigrif ganlynol:—"Wynwyn llyseun o ddyryr gwragedd wrth eu llygait er kymel wylo pan fo meirw eu gwŷr." Ar waelod y tudalen olaf ceir yr hyn a ganlyn:—"Imprynted at London in Foster lane, by me John Waley. (1547.) Cum privilegio ad imprimendum Solum." Y mae yr holl lyfr wedi ei argraphu â'r llythyren ddu; a chynnwys 166 o dudalenau pedwar plyg bychan. Y mae dau gopi o hono yn yr Amgueddfa Brydeinig, ac un yn Llyfrgell Peniarth, Meirion. Gelwir yr awdwr gan Strype yn ei "*Annals*" yn "Wyllyam Salesbury of Llanrwst, gent." Gellir casglu oddi wrth hyn mai i'r Plas Isaf yr aeth Salesbury gyntaf ar ei ddychweliad o Lundain.

2. "Calender of Months and Days, by W. Salesbury." 1547.

Dywed gol. "*Llyfryddiaeth y Cymry*" mai yr un yn ddiau oedd hwn a'r llyfr a elwid "Beibl," a fu dan sylw eisoes, a gyhoeddwyd gan Syr John Pryce, yn 1546. Os felly, cyhoeddwr ail argraphiad o'r llyfr yma oedd William Salesbury, ac nid ei awdwr; a Chymraeg ydoedd, er bod ei enw yn Saesneg. Gwallter Mechain a'i geilw "Calendr o fisoedd a dyddiau y flwyddyn;" a gwna efe y nodiadau canlynol arno:—"Rhenir y ddalen yn chwe cholofn: y gyntaf a gynnwys yr Epact, a'r Llythyren Sul, yr hon, yn y flwyddyn y cyhoeddwyd, oedd A: yr ail a gynnwys ddosbarthiad Rhufeinaidd y mis i *Nonau, Ideau,* a *Chalanau:* yn y drydedd yr Ymprydiau a'r Gŵyliau, hwyl yr haul drwy yr arwyddion, a'i godiad a'i fachludiad: yn y bedwaredd y cyflëir dyddiau y mis: yn y bummed yr ail lith blygain: yn y chweched yr ail lith osber."

3. "The baterie of the Popes Botereulx, commonly called the high Altare. Compiled by W. S."

Dyna y cwbl sydd ar yr enwad-ddalen; ond ar odrau y ddalen olaf dywedir:—"Imprinted

Digitized by Google

at London by Robert Crowley, dwellyng in Elye tentes in Holburne. The yere of our Lord. M. D. L."=1550.

"Dymchweliad allor uchel y Pab," yw yr enw gan Moses Williams; ond dywed golygydd y "*Llyfryddiaeth*" na chyhoeddodd Salesbury un gwaith yn dwyn yr enw hwnw. Saesneg ydyw y "*Baterie*," yn cynnwys 108 o dudalenau wyth plyg; a chyflwynwyd ef "To hys singuler good Lord Syr Richarde Ryche, Lorde Ryche, & Lord Chauncelloure of Englande: his mooste fayethfull and humble seruaunt Wyllyam Salesburye wyshcth euerlastynge felicitie." Y mae copi o'r gwaith yn yr Amgueddfa Brydeinig.

4. "Kynniver llith a ban or yscrythyr ac a ddarlleir yn yr Eccleis pryd commun y Sulieu a'r Gwilieu trwy'r vlwyddyn; o Cambreiciat W. S.

Tit. ii.

Llewychawdr iachwyawl rat Deo i pawp dyn can en dyscu y ymwady ac annuwoldab a chwanteu bydol a byw yn sobr ac yn gyfyawn ac yn dduwiol yn y byd yn awr can ddisgwyl am y wynvydedic obaith a llewychat gogoniant y Deo mawr a'n Iachawdyr Ieshu Christ yr hwn ac dodes ehunan trosom er en pryny o ywrth oll enwiredd a charthu iddo ehunan popl priawt y ymgar a gweithredoedd da.

Rom. i.

Nyd cywilyddus *geny* vi Euangel Christ can ye gallu Deo ydyw hi ar iecheit pop vn yn credy ynthei."

Ar ddiwedd y llyfr ceir yr hyn a ganlyn:—"¶ Imprinted at London by Roberte Crowley for William Salesbury dwellynge in Elye tentes in Houlbourne Anno Domini M. D. L...i"=1551.

Am y gwaith hwn dywed Gwallter Mechain fel hyn:—"Cyfieithad o'r *Epistolau* a'r *Efengylau*, yn y gwasanaeth eglwysig, drwy y flwyddyn, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1551, yn nheyrnasiad Edward VI." Daeth "Mari Waedlyd" i'r orsedd yn mhen tua dwy flynedd ar ol cyhoeddi y llyfr hwn; a chan fod William Salesbury yn Brotestant zelog, fel y prawf ei holl waith, dywedir iddo fod mewn perygl o gael ei erlid, os nad ei losgi, gan offerynau y frenhines waedlyd hono; ac am hyny, darfod iddo gilio o'r Plas Isaf i dyddyn anghysbell arall perthynol i'w etifeddiaeth, sef Cae Du, Llansannan, sir Ddinbych. Dywed traddodiad ei fod wedi darpar ystafell gudd iddo ei hun mewn cornel uchel yn yr hen dŷ hwnw, yn yr hon y gallai ymguddio pan y mynai, gan nad oedd mynedfa iddi ond trwy ochr fewnol y simnai. Nid yw hysbys weithian beth a ysgrifenodd Salesbury yn ystod y pum mlynedd y bu yn llechu yn y Cae Du, os ysgrifenodd rywbeth ar y pryd; canys nid oes sicrwydd iddo *gyhoeddi* dim dros bymtheng mlynedd ar ol y "*Kynnifer llith a ban*."

5. "A playne and a familiar Introductiō, teaching how to pronounce the letters in the British tongue, now commonly called Welshe, whereby an English man shall not onely wyth ease reade the sayde tong rightly: but marking the same wel, it shal be a meane for hym wyth one labour to attayne to the true pronounciation of other expedient and most excellent languages. Set forth by VV. Salesbury, 1550. And now 1567, pervsed and augmēted by the same."

I Humfrey Toy, yr hwn oedd Gymro o du ei fam, y cyflwynwyd y llyfr hwn, fel y canlyn:—"To my loving Friend Maister Humfrey Toy;" ac amserir y cyflwyniad fel hyn:—"Soiurning at your house in Paules Churchyarde, the 6, of Maȳ. 1567."

Tybiodd awdwr y "*Llyfryddiaeth*" mai ail argraphiad oedd hwn o'r "*Athrawaeth i ddysg darllen Saesnec*," oedd o flaen y "*Dictionary*" yn 1547; ond dengys y gol. mai camsyniad yw hyny, o blegid *Cymraeg* yw yr "*Athrawaeth*" i ddysgu y Cymry i seinio y llythyrenau Saesneg. Ond *Saesneg* ydyw hwn i ddysgu y Saeson i seinio y llythyrenau Cymraeg. Llyfryn pedwar-plyg bychan ydyw, yn 54ain o dudalenau, mewn llythyrenau duon. A gyhoeddodd yr awdwr gyfieithiad neu dalfyriad o hono yn Gymraeg, dan yr enw, "*Arweiniad hawdd ac eglur i'r iaith Gymraeg*," yn 1550, fel y tybia awdwr y "*Llyfryddiaeth*," sydd dra ammheus.

6. "*Llyfr Gweddi Gyffredin*."

Ar ddiwedd hwn y mae yr hyn a ganlyn:—"Finis Tra Vo—Imprinted at London by Henry Denham at the costes and charges of Humfrey Toy, 1567, and are to be sold at his shop at the sygne of the Hamlet in Paules Churchyard. Cum privilegio ad imprimendum solum."

Gwnaed gweithred seneddol yn 1563, y bummed flwyddyn o deyrnasiad Elizabeth, yr hon a ddeddfai "Bod i'r Bibl, yn cynnwys yr Hen Destament a'r Newydd, ynghyd â'r '*Llyfr Gweddi Gyffredin*,' a gweinidodaeth y sacramentau, gael eu cyfieithu i'r iaith Frytanaidd neu Gymraeg; ac y rhaid iddynt fod wedi eu hargraphu yn barod at wasanaeth yr eglwysydd erbyn Gŵyl Dewi [y 1af o Fawrth], 1566, dan boen deugain punt o ddirwy ar bob un o bedwar esgob Cymru, ac ar esgob Henffordd." Mewn canlyniad i'r gyfraith hon y cyfieithwyd y "*Llyfr Gweddi Gyffredin*" dan sylw, gan William Salesbury a Dr. Richard Davies, esgob Mynyw; eithr ni wyddys gan ba un o'r ddau yr oedd y llaw benaf yn y gwaith. Pa wedd bynag, y mae yn ddigon amlwg na chyhoeddwyd y llyfr hwn a'r Testament Newydd hyd yn mhen dros flwyddyn ar ol yr amser a nodwyd yn y gyfraith; ac ni chyhoeddwyd yr Hen Destament hyd yn mhen dwy flynedd ar hugain ar ol yr amser appwyntiedig, sef yn 1588, pan y cyhoeddodd y Dr. William Morgan ei gyfieithiad campus o'r Hen Destament a'r Newydd, ynghyd â'r Apocrypha. A orfodwyd y pum esgob i dalu y deugain punt dirwy bob un am fethu dyfod i fyny â'r gyfraith sydd anhysbys.

Yr ydym yn casglu y cyhoeddwyd y "*Llyfr Gweddi*" yma yn gynnarach yn y flwyddyn na chyfieithiad Salesbury o'r Testament Newydd, oddi wrth yr ymadrodd canlynol sydd yn "*Epistol Episcp. Menew at y Cembru*," sydd o flaen Testament Salesbury:—"Eto or hen [Destament] may r psalmau cenyt eysus yn gymraeg yn llyfr y gwasanaeth." Heb law hyny, ni chyhoeddwyd cyfieithiad Salesbury o'r Testament Newydd hyd ddechreu Hydref y flwyddyn hon, fel y cawn weled yn ebrwydd. "*Llyfr Gweddi*" unplyg mawr, yn y llythyren ddu, wrth reswm, i'r eglwysydd, oedd y llyfr dan sylw.

7. "Testament newydd ein Arglwydd Iesu Christ. Gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfiaith 'air yn ei gylydd or Groec a'r Llatin, gan newidio ffurf llythyren geiriae-dodi. Eb law hyny y mae pob Gair a dybiwyt y vot yn andeallus, ai o ran Llediaith y 'wlat, ai o ancynefinder y deunydd, wedi ei noti ai eglurhau ar 'ledymyl y tu dalen gydrychiol."

Ar y tudalen olaf o'r llyfr dywedir fel hyn:—

Digitized by Google

"Imprinted at London, by Henry Denham, at the costes and charges of Humfrey Toy, dwelling in Paules churchyarde, at the signe of Helmet. Cum privilegio ad imprimendum solum. Anno. 1567. Octob. 7."

Cymmerwn y sylwadau canlynol ar gyfieithiad gwrthddrych dyddorol ein herthygl, gan mwyaf, o "*Hanes y Brytaniaid a'r Cymry.*" Yn ei "*Epistol at y Cembru,*" a grybwyllwyd eisoes, dywed yr Esgob Davies fel hyn:—"Ti a ddylyt fod yn llawen, ac yn fawr dy ddiolch i Dduw, i ras y Vrenhines, i vrddas, ac i gyffredin y deyrnas, sy yn adnewyddu dy fraint a'th vrddas (vrddas tragywyddawl a ro Duw yddynt am hyny) Cans trwy eu awdurtot, ae gorchymyn hwynt i may dy Escopion trwy gymhorthwy William Salsbury, yn dwyn yt yn gymraeg, ac yn brint yr yscrythyr 'lan, (dy gynefin gynt) a gynhwyair ofewn corph y Bibl cysegredic. Dyma r naill ran yn barot, rhon a elwir y Testment newydd, tra vych yn aros (trwy Dduw ni bydd hir hyny) y rhan arall a elwir y hen Testment."

Prawf hyn yn gadarn mai William Salesbury oedd y prif offeryn i ddwyn y gwaith mawr yma i ben; yr hwn, fel y dywed Gwallter Mechain, oedd "gwaith penaf W. Salsbri, a'r gwaith a rydd beraidd sain i'w enw yn mhlith ei genedl hyd ddiwedd amser." Y mae yn y dyfyniad o "*Epistol*" yr Esgob Davies awgrymiad fod gan yr "esgobion" ryw law yn nygiad y gwaith allan. Dichon eu bod yn cymmhell Salesbury i'w gyflawni; ond nis canfyddwn fod gan neb o honynt, oddi eithr yr Esgob Davies yn unig, ddim arall a fynent âg ef; canys ar *gost* Humffrey Toy y cafodd y gwaith ei argraphu. Pa wedd bynag, ymddangosodd y Testament Newydd, fel y sylwa Gwallter Mechain, yn yr amser a nodwyd.

"Yn llyfr pedwarplyg hardd, yn y llythyren ddu, yn cynnwys pedwar cant ond un o ddalenau [798 o dudalenau], ynghyd âg epistol 'Richard can rat Dyw Episcop Menew, yn damuno adnewyddiat yr hen ffydd catholic a' golauni Euangel Christ i'r Cembru oll, yn enwedic i bop map eneid dyn o vewn ey Escopawt,' megis rhagarweiniad; a llythyr byr oddi wrth 'Eu car o waet yn ol y cnawt, ai brawd ffydd in Christ Iesu William Salesbury.' Y mae rhagarweiniad helaeth, dan yr enw 'Argument,' o flaen y pedair Efengyl, Llyfr Actau yr Apostolion, pob un o'r Epistolau, a Llyfr Gweledigaeth Ioan, ynghyd â chynnwysiad cyfrdo i bob pennod. Ni renir y pennodau yn adnodau o ddechreu Matthew hyd ddiwedd yr Epistol 1af at Timotheus; ond dosparthir i adnodau oddi yno i ddiwedd gweledigaeth Ioan.

"Cynnorthwywyd W. Salsbri yn ei gyfieithiad gan ddau Gymro dysgedig, a llafurwyr diwyd yng ngwinllan eu Harglwydd, sef Risiart [y Dr. Richard Davies], esgob Mynyw, a'r Parchedig Thomas Huet, cantor Mynyw; a rhaniad y llafur rhyngynt a ddynodir ar ymylau y dalenau yn y drefn ganlynol:—O ddechreu Matthew hyd ddiwedd yr ail Epistol at y Thessaloniaid, gan W. S., sef Wiliam Salsbri. Yr Epistol 1af at Timotheus gan D. R. D. M., sef yr Esgob Risiart Davies Mynyw [yn hytrach, yn ol y pedair llythyren uchod, y Dr. Richard Davies Mynyw]. Yr ail at Timotheus, Titus, a Philemon, gan W. S. At yr Hebreaid, Epistol St. Iago, a dwy St. Pedr, gan yr esgob. Tri Epistol Ioan ac un Iudas, gan W. S.; a'r Datguddiad, gan T. H., cantor."

Er mai cyfieithiad Salesbury o'r Testament Newydd oedd y rhan ddigymmysg gyntaf erioed a argraphwyd o'r Beibl yn Gymraeg, etto y mae'r Esgob Davies yn barnu yn gadarn fod y Testament Newydd, a rhanau helaeth o'r Hen hefyd, os nad yr holl Feibl, yn iaith y Brytaniaid er sefydliad cyntaf Cristionogaeth yn eu plith. Casgl hyn oddi wrth berffeithrwydd ffydd y merthyron Brytanaidd hynaf; oddi wrth dystiolaeth Eusebius, yr hwn a ddywed, "Pregethwyd yr efengyl mewn byr amser yn yr holl fyd; a derbyniodd y Groegiaid a'r barbariaid yr hyn a *ysgrifenwyd* am Iesu, yn *llythyrenau* ac yn *iaith* y wlad;" ac oddi wrth y gwirionedd fod cynnifer o hen ddiarhebion y Cymry "wedi eu tynu o berfedd yr Ysgrythyr Lân;" megys, "A Duw a digon;" "Heb Dduw heb ddim;" "A gair Duw yn uchaf;" "Y Mab rhad;" "Cyn wired a'r efengyl;" a llawer ereill cyffelyb, y rhai y dengys efe yn helaeth o ba Ysgrythyrau y maent wedi eu tynu.

Pan lwyr lygrodd Eglwys Rhufain, ac y trodd i gyssegru temlau, allorau, offeiriaid, gwisgoedd, mynwentydd, a'r cyffelyb; i aberthu yr offeren; i addoli delwau, creiriau, Mair y Forwyn, a saint; i weddïo dros y meirw; i ddal mai'r pab oedd unig ben yr eglwys ar y ddaear, ei fod yn anffaeledig, ac i gusanu bawd ci droed fel math o addoliad iddo; a'r cyfryw gyfeiliornadau dinystriol a gwrthun; a phan ddechreuodd rhai, wrth weled ysgelerder yr offeiriaid a'r mynachod, wrthod "cymmun gan ysgymmun fyneich;" a'u galw yn "fyneich geuawg, bwydiawg, gwydus;" gwelodd y gau grefyddwyr Pabaidd fod yn llawn bryd cymmeryd yr Ysgrythyrau o afael eu dysgyblion. Mewn canlyniad i hyn, ymroisant i losgi y Beiblau yn mhob man y cyfarfyddent â hwynt; ac yn mhen ychydig amser wedi hyny i losgi eu darllenwyr hefyd; gan ddysgu mai "mammaeth duwioldeb yw anwybodaeth; a chawsant gymmhorth brenhinoedd a phendefigion i ddwyn eu hamcanion ysgeler i ben. Nid rhyfedd, gan hyny, i'r Esgob Davies fethu gweled cymmaint ag un Beibl Cymraeg yn ei oes; dim ond Pum Llyfr Moses yn nhŷ ewythr iddo pan ydoedd yn fachgenyn, a neb yn gwneyd un sylw o'r rhai hyny; canys yr oedd Pabyddiaeth yn ei llawn rym yn Nghymru pan oedd efe yn dechreu bucheddu. Yr oedd yn y wlad ryw ddernynach o'r Beibl, "yn gymmysgedig â dychymygion disylfaen;" megys talfyriad llygredig o ddechreu Genesis, talfyriadau cymmysgedig Dafydd Ddu o Hiraddug; ac ond odid ereill cyffelyb.

Erbyn yr amser yr oedd William Salesbury a'r esgob Davies yn dechreu cyfieithu y Testament Newydd, yr oedd ansawdd y genedl wedi llwyr newid, ac yr oedd awydd am y Beibl wedi dyfod yn angerddol yn Mhrydain, cystal a holl wledydd Protestanaidd Ewrop. Yr oedd cyfieithiad Saesneg William Tyndal (brodor o Gymru) o'r Testament Newydd, y cyntaf erioed a argraphwyd yn Saesneg, wedi ei gyhoeddi yn Antwerp, neu yn Hamburg, mor foreu a 1526; ac yr oedd y pummed argraphiad o hono allan erbyn 1534, ac wedi eu taenu yn helaeth yn Lloegr; o herwydd yr hyn y llindagwyd ac y llosgwyd y cyfieithydd duwiol, trwy ddichell yr adyn gan Henry VIII., a'i lôg-offerynau ysgymmun, yn Vilvoord, ger llaw Antwerp, yn Tachwedd, 1536, tra y llefai y merthyr bendigaid wrth y pawl, yn nghanol y fflamau, "O Arglwydd! agor lygaid brenin Lloegr!" Hefyd, cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o'r holl Feibl yn Saesneg, trwy awdurdod brenhinol, yn 1535, dan enw "Miles Coverdale;" a'r ail argraphiad yn 1550, a'r trydydd yn 1553. "Yn 1560, cyhoeddwyd

Digitized by Google

'Beibl Geneva,' o gyfieithiad y ffoedigion Saesnig, pan oeddynt ar herw [ar ddidol] yn y ddinas hono rhag llosgi o sêl yn Lloegr, gyda Chranmer, Latimer, a Ridley."

Heb law yr argraphiadau uchod, y rhai oll, wrth reswm, oedd at alwad William Salesbury a'r Esgob Davies, pan yn cyfieithu y Testament Newydd i'r Gymraeg, dywedir fod llythyr ysgrifenedig yn llyfrgell Syr Thomas Mostyn, yn Ngloddaith, oddi wrth un Tomas Llywelyn, yr hwn hefyd a elwid Tomas Llewelyn Deio Powel, at yr Esgob Davies, yn ei annog i gyfieithu yr Ysgrythyrau, ac yn rhoddi ychydig o hanes ei gyfieithiad ei hun o Destament Saesneg William Tyndal, yr hwn a orphenwyd ganddo o gylch 1540. "Ni fynegir i ni," medd Halkin, "ddarfod i'r Esgob Davies a William Salsbri fenthycio cyfieithiad Tomas Llywelyn; ond y mae rhesymau cedyrn o blaid hyny. Os nad ydyw fy awdwr yn fy nghamarwain, y mae Cymreigiaeth Gwent a Morganwg yn drylawn drwy eu holl gyfieithiad, yn mherthynasau cystrawen, treigliadau perwyddiadau [berfau], dull ymadrodd, a myrdd o briodoliaethau ereill; yn gymmaint nas gall un ond rhyfeddu pa fodd y dangosai y Testament Cymraeg cyntaf argraphedig gynnifer o nodweddiadau Gwenhwysaidd, os na chafodd cyfieithiad yr hen fardd o Ystrad Dyfodwg [T. Llywelyn] ei arferyd a'i ddilyn drwy gydol y gwaith. Gwyneddwyr o enedigaeth oedd yr Esgob Davies a William Salsbri; ac nid oes wybodaeth iddynt erioed gyfanneddu yn Ngwent a Morganwg, nac un ardal arall lle y lleferir y Wenhwyseg. Ac y mae Testament argraphedig William Salsbri heddyw, ac erioed, gan mwyaf yn annealladwy i drigolion Gwynedd."

Gan y gwyddys fod yr Esgob Davies a Salesbury yn wŷr mor ddysgedig a chyfarwydd yn yr ieithoedd gwreiddiol, tuedda Gwallter Mechain i ammheu y casgliadau uchod—eiddo Halkin; ond rhaid i ni gyfaddef yr ymddangosant i ni yn ddigon naturiol; ac nis gwelwn ei fod yn ddim sarhâd ar y cyfieithwyr dysgedig wneyd defnydd o bob moddion yn eu cyrhaedd, yn Gymraeg, Saesneg, neu ryw ieithoedd ereill, cystal a'r ieithoedd gwreiddiol, er mwyn gwneyd eu cyfieithiad y goreu ag y medrent. O leiaf, byddwn ni yn defnyddio pob gwaith a fo wrth law er cyrhaedd ein hamcan ein hunain pan yn ysgrifenu; canys nis gwyddom ni pa ddyben i awdwr brynu llyfrau, os na chaiff eu defnyddio wrth gyfansoddi.

Pa wedd bynag, y mae golygydd dysgedig y "*Llyfryddiaeth*" yn cymmeryd golwg arall ar yr achos fod cyfieithiad Salesbury mor debyg i gyfieithiad T. Llywelyn, fel hyn :—"Y rheswm pa ham y mae y cyfieithiadau Cymreig o'r Ysgrythyrau yn dwyn arnynt gymmaint o nodwedd y Ddeheubartheg, er mai Gwyneddigion gan mwyaf oll oedd y cyfieithwyr, ydyw, o herwydd mai ynddi hi braidd yn hollol yr ysgrifenasid yr holl *ryddiaith* hyd yr amser dan sylw. Nid oes ond y peth nesaf i ddim o gyfansoddiadau rhyddieithol i'w cael yn nhafodiaith Gwynedd, o flaen Testament Gwilym Salsbri; a hyn, tebygol, yw yr achos fod ieithwedd y cyfieithiad hwnw mor hynod o drwstan ac annhelediw."

Y dystiolaeth hon sydd wir: yn nhafodiaith "drwstan ac annhelediw" y Deheubarth, yr oedd ein holl ryddiaith braidd hyd yn hyn, fel y prawf "*Cyfreithiau Hywel Dda,*" yr ychydig Gymraeg sydd yn "*Llyfr Llandaf;*" y "*Mabinogion;*" "*Bucheddau y Saint;*" "*Achau y Saint;*" "*Meddygon Myddfai;*" "*Dosparth Edeyrn Dafod Aur,*" fel y'i gelwir, y "*Trioedd,*" ac, ond odid, ychydig o bethau ereill. Yr achos penaf, fe allai, fod llafarwedd y cyfansoddiadau a nodwyd "mor hynod o drwstan ac annhelediw" i'n clustiau ni yn awr, ydyw eu hamddifadrwydd o dreigliad rheolaidd y llythyrenau; heb law fod llawer mwy o eiriau estronol yn llafarwedd y Deheubarth nag sydd yn un Gwynedd, o herwydd i'r trigolion ymgymmysgu cymmaint â'r Fflandrysiaid a'r Normaniaid. Y mae cyfieithiad clogyrnog W. Salesbury yn dilyn y brodyr Deheuol yn y ddau beth a nodwyd bron i'r eithafoedd, fel mai pur briodol yw duchan lem Gwallter Mechain ar y gwaith, yr hwn a ddywed, "Pe rhoddid enw un o'r pedwar mesur ar hugain cerdd dafod ar waith William Salsbri yn llythyrenu geiriau Cymraeg, *Clogyrnach* a fyddai yr enw cymmhwysaf; o herwydd nad yw efe ond ambell waith yn lleddfu geiriau, trwy newid y llythyrenau i w deilliaid perthynol......Yr ystyriaeth o hyn a arweiniodd y dysgawdwyr, Morgan Davies [o Fallwyd], a Parry, i ystwytho y clogyrnaidd eiriau yn ol priodoliaethau yr iaith, yn eu Beiblau yn y fl. 1588, a 1620."

Er mwyn y rhai a ddichon fod heb weled Testament Salesbury, dodwn yr ychydig esamplau a ddetholodd Gwallter Mechain ger bron i egluro y sylwadau uchod, o'r sawl y mae y Testament yn frith drwyddo :—

*Mat.* xvii. 27;—"A' chymer y pyscotyn cyntaf a ddel i fynydd, ac wedy yt' agory ei eneu, ti a gei ddarn o vgein ceinioc."

*Ioan* xx. 25;—"Any welaf yn ei ddwylo ol y cethri, a' dodi vy-bys yn ol y cethri."

*Act.* v. 21;—"A alwesont y cygcor yn-cyt."

*Act.* v. 9;—"I tempto Yspryt yr Arglwydd."

*Act.* xxviii. 20;—"Ac y gydympwyll â chwi."

1 *Cor.* xv. 8;—"Ac yn ddywethaf oll a welspwyt geny vine hefyt, vegis gan vn antempic."

Dyma esamplau ereill o'i gyfieithiad o'r Salmau :—

*Salm* xl. 2;—"Ac ef am cyfodes o'r pytew anhygyrch, allan o'r pridd tomlyd, ac a osotes vy-traet ar y graic, ac a hwyliodd vy-creddet."

*Salm* xliii. 1;—"Barn fi Dew, a dadle vy-dadl yn erbyn y popul antrugarawc."

Canfyddir fod W. Salesbury yn fynych yn defnyddio y cyssylltnod (-) i arwyddo lleddfiad neu dreigliad y llythyren wreiddiol i'w modd deilliadol, megys yn y geiriau canlynol a'u cyffelyb :—vy-traet, vy-dwylo, vy-calon, vy-Dew; an-cyfion, an-dewiolion; cym-porth; ym-porth, ym-plith, y-cyt: yn lle, fel y gwnaeth y Dr. Morgan a'r Dr. Parry, fy nhraed, fy nwylaw, fy nghalon, fy Nuw; anghyfiawn, annuwiolion; cymmorth; ymborth, ymhlith, ynghyd.

Y mae William Salesbury yn dilyn yr un anystwythder blin wrth ddefnyddio geiriau o'r Groeg a'r Lladin, trwy ymgadw yn rhy gaeth at lythyreniad y gwreiddiol, megys yr esamplau canlynol o'r Groeg :—

| W. S. | Groeg. | Cymraeg. |
| --- | --- | --- |
| Eccles | *Ecclesia* | Eglwys |
| Episcop | *Episcopos* | Esgob |
| Angelion | *Angeloi* | Angylion |
| Euangel | *Euangelion* | Efengyl |
| Hypocritieit | *Hypocritai* | Rhagrithwyr |
| Batyddio | *Baptizo* | Bedyddio |
| Parabolæ | *Parabolai* | Damhegion |
| Y membranæ | *Tas membranas* | Y memrwn |

Digitized by Google

Cyffelyb ydyw ei ddull gyd â'r geiriau a gymmer efe o'r Lladin, fel y gwelir yn yr ychydig esamplau canlynol:—

| W. S. | Lladin. | Cymraeg. |
|---|---|---|
| Pechat | *Pecatum* | Pechod |
| Discipulon | *Disciputi* | Dysgyblion |
| Prophwyti | *Prophetæ* | Prophwydi |
| Cariat | *Charitas* | Cariad |
| Ffycuspren | *Ficus* | Ffigysbren |
| Temp | *Tempus* | Tymp (amser) |
| Parat | *Paratus* | Parod |
| Commun | *Communio* | Cymmun |
| Defficio | *Deficio* | Diffygio |
| Pytew | *Puteus* | Pydow |
| Destruw | *Destruo* (bref) | Distrywio |
| Dew, Deo | *Deus* | Duw |
| Popul | *Populus* | Pobl |
| Orribil | *Horribilis* | Erchyll |
| Tristit | *Tristitia* | Tristwch |
| Pericl | *Periculum* | Perygl |
| Lleo | *Leo* | Llew |

Heb law hyn oll, a mil o'r cyffelyb, yr oedd Salesbury yn defnyddio y dull Saesneg ar eiriau yn bur fynych; megys, "Llawn *hypocresi* ac enwiredd;" "Vy *monei* at y cyfnewidwyr;" "A hwn a *gompellasant;*" "Ac mal y *descendent* o'r mynyth;" "Ac ef a *yscyrsiodd* yr Iesu;" "*Amproffitiol*, amyn yr awrhon yn *proffitiol* y ti ac y minheu." Nid rhyfedd, gan hyny, i'r hen Forus Cyttin ddywedyd am y cyfieithiad hwn, "E ddarfuesid cyfieuthu'r Testament Newydd yn nghylch yr wythfed flwyddyn o deyrnas ein harglwyddes frenhines Elizabeth; ond yr oedd cyfled llediaith, a chymmaint anghyfiaith yn yr ymadrodd printiedig, na allai clust gwir Gymro ddioddef clywed mo hono yn iawn."

Dywedir i'r Esgob Davies a Salesbury ddechreu cyfieithu yr Hen Destament ar ol gorphen y Newydd; ac wedi bod wrth y gwaith dros ddwy flynedd, fel yr awgrymwyd o'r blaen, ddarfod iddynt ymrafaelio ynghylch tadogaeth rhyw un gair; ac o herwydd hyny i'r ddau daflu y gwaith i fyny, ac nad oes sicrwydd iddynt ysgrifenu dim byth mwyach i'r wasg. Galara rhai yn ddwys o blegid "yr anffawd;" ond o'n rhan ni, os na buasent yn ysgrifenu yr Hen Destament a llyfrau ereill yn llawer gwell na'r Newydd, nid ystyriwn y golled ond bechan; a dichon y buasai eu gwaith hwy yn parhau i gyfieithu yn lluddiais i'r Dr. Morgan gymmeryd y gorchwyl mewn llaw, yr hwn a gyflawnodd efe mor ardderchog.

Ond er yr hyn oll a ddywedwyd, dylai coffadwriaeth William Salesbury fod yn fendigedig yn nghyfrif cenedl y Cymry, o blegid mai efe oedd y cyntaf i gyhoeddi argraphiad cyflawn o'r Testament Newydd yn iaith eu gwlad, heb son am y llyfrau da ereill a gyhoeddodd efe er eu haddysg a'u hyfforddiant.

SALIM (Σαλλείμ): lle yn agos i Ainon, y bu Ioan yn bedyddio ynddo: *Ioan* iii. 23. Nid oes dim yn cael ei ddyweyd yn yr hanes ei hun yn ein cynnorthwyo i benderfynu ar safle Salim, a'r unig dystiolaeth uniongyrchol am hyny ydyw yr eiddo Jerome ac Eusebius. Y mae y ddau yn mynegu yn ddibetrus ["*Onomasticon*"] ei bod ar gael yn eu dyddiau hwy yn agos i'r Iorddonen, tuag wyth milldir o bellder i'r deheu o Scythopolis. Y mae Jerome yn chwanegu mai ei henw ar y pryd oedd Salumias. Mewn lle arall, efe a ddywed ei bod yr un a Salem Melchisedec. Gwnaed amryw o geisiadau yn y blynyddoedd diweddaf i benderfynu lle y llanerch ddyddorol hon. Y mae rhai yn tybied mai Shilhim, neu Ain, yn eithaf deheubarth Iudea, yn mhell y tu allan i gylch gweinidogaeth Ioan a'n Gwaredwr, ydoedd y lle. Ereill drachefn a dybiant mai yr un ydoedd a'r Salim a grybwyllir yn 1 *Sam.* ix. 4; ond y mae y lle diweddaf hwn hefyd yn anadnabyddus.

Dr. Robinson a dybia y gall mai yr un lle oedd a'r *Salim* sydd rhyw dair milldir i'r dwyrain o *Nablus* ["*Biblical Researches*," iii. td. 333]; ond y mae y lle hwn hefyd allan o gylch gweinidogaeth Ioan, dybygid, ac yn rhy agos at y Samariaid; ac er fod yn y pentref hwn ddwy ffynnon, nid yw hyny o'r braidd yn ddigon i roddi cyfrif am y "dyfroedd lawer" oedd yno, y sonir am danynt yn yr hanes. Y mae y dosbarth o'r wlad sydd yn ddwyreiniol i Salim yn mron yn wâg ar y map. Teimlai Dr. Barclay yn hyderus fod Salim i'w chael yn y *Wady Seleim*, ac Ainon yn ffynnonau *Ain Farah*, yn mysg y ceunentydd sydd rhyw bum milldir i'r gogledd-ddwyrain o Ierusalem. Y mae yn ddiau fod yr enw yn ffafriol i'r golygiad hwn; ac, os ydyw disgrifiad bywiog a darlun cerfiedig Dr. Barclay yn gywir, y mae yno gyflawnder o ddwfr.

Y mae Van de Velde wedi darganfod yr enw *Salim* ar le mewn sefyllfa sydd yn cyfatteb yn fanwl i'r disgrifiad a roddir o hono gan Eusebius; sef, rhyw chwe milldir i'r deheu o *Beisân*, a dwy filldir yn orllewinol i'r Iorddonen. Y mae yn dra thebygol fod taith Ioan trwy y wlad o'r deheu i'r gogledd [gwel Ioan Fedyddiwr], ac nad oedd y fan y sonir am dano fel y lle y bu yn bedyddio olaf ynddo yn mhell iawn o'r fan a ddynodir gan Eusebius, ac a ddarganfyddwyd gan Van de Velde. Sonia Reland am draddodiad mai Salim oedd lle genedigol Simon Zelotes. Y mae hyn o hono ei hun yn ymddangos megys pe yn awgrymu fod y grediniaeth, pan y dechreuodd y traddodiad, yn ffynu, fod y lle yn nes i Galilea nag ydoedd i Iudea.

SALIM, GWLAD: dosbarth o wlad yr aeth Saul drwyddo pan yn chwilio am asynod ei dad: 1 *Sam.* ix. 4. Ymddengys ei bod yn gorwedd rhwng "gwlad Salisah" a "gwlad Iemini." O herwydd yr ansicrwydd mawr o berthynas i'r daith—ei chychwyniad a'i gorpheniad, yn gystal a'i holl gwrs—y mae yn dra anhawdd ffurfio tybiaeth am sefyllfa Salim. Yn ol fel y sillebir y gair yn yr iaith wreiddiol, ymddengys nad oes un cyssylltiad rhyngddo a'r gair Salem, neu â'r *Salim* ddiweddar, yr hon sydd yn ddwyreiniol i *Nâblus.* Y mae yn bossibl fod Salim yn rhywle yn nghymmydogaeth *Taiyibeh;* hyny ydyw, tua chwe milldir i'r gogledd o Michmas, ac ynghylch naw o Gibeah Saul. Ond nid ydyw hyn ond tybiaeth.

SALISAH, GWLAD: un o'r dosbarthiadau hyny a deithiwyd gan Saul pan yn chwilio am asynod Cis, ei dad: 1 *Sam.* ix. 4. Y mae yn amlwg y gorweddai rhwng "Mynydd Ephraim" a "gwlad Salim;" ond er mor fanwl yr ymddengys y disgrifiad yma, nis gellir bod yn sicr ynghylch sefyllfa y lle, o herwydd y mae maintioli Mynydd Ephraim mor ansicr; ac nid ydys, hyd yma, wedi penderfynu ar y lle y mae Salim, er ei bod, dybygid, yn agos i *Taiyibeh.* Ond os oedd gwlad Salisah yn cynnwys, yr hyn nid yw yn ammhossibl, y lle a elwir Baal-salisa (2 *Bren.* iv. 42), yr hon, yn ol tystiolaeth Eusebius a Jerome, oedd tua deuddeng milldir i'r gogledd o

Digitized by Google

*Lydd*, yna yr oedd cwrs taith Saul mewn cyfeiriad gwahanol.

SALLUST, CAIUS CRISPUS: hanesydd Rhufeinaidd o fri mawr. Ganwyd ef yn Amiternum, tref yn ngwlad y Sabiniaid, yn y fl. c. c. 86. Yn mhlith y werin y cyfrifid y teulu yr hanai o hono, er eu bod yn dda eu hamgylchiadau. Derbyniodd ei addysg o dan y grammadegwr Atteius Philologus. Ymgododd i swyddi o anrhydedd ac ymddiried yn y wladwriaeth, gan ei fod yn drysorydd y wladwriaeth tua c. c. 59; ac wedi hyny yn driban y bobl yn c. c. 52, y flwyddyn yn mha un y lladdwyd Claudius gan Milo. Yr oedd Sallust yn wrthwynebwr mawr i'r blaid bendefigol, ac o ganlyniad cymmerodd ran flaenllaw yn y gweithrediadau a gymmerwyd yn erbyn Milo. Yn c. c. 50, gyrwyd ef allan o'r senedd, mewn canlyniad, medd rhai, i anfoesoldeb ei fuchedd; ond dywed ereill nad oes awdurdod dda dros hyn, tra y gwyddys fod y senadur (*censor*) Appius Claudius, yr hwn oedd â'r llaw benaf yn ei anfoniad allan, yn perthyn i blaid Pompey, ac nad oedd Sallust ond yn cyfarfod â thynged holl gyfeillion Cæsar.

Yn y rhyfel cartrefol, efe a ymunodd â gwersyll Cæsar, yn Gaul; ac ymddengysiddo fyned gydag ef i Italy. Yn ol rhai adroddiadau, gwnaed ef yn drysorydd y wladwriaeth drachefn ar ol brwydr Pharsalia, c. c. 48; ond gwyddys hyd sicrwydd ei fod yn bretor yn y flwyddyn ddilynol (c. c. 47), a'i fod yn bresennol pan y torodd gwrthryfel allan yn mysg milwyr Cæsar yn Campania; a diangfa gyfyng a gafodd am ei einioes ar y pryd. Aeth gyda Cæsar yr un flwyddyn i Affrica, lle y cymmerodd ran flaenllaw yn y rhyfel yno; a phan y gadawodd Cæsar Affrica y flwyddyn ddilynol (c. c. 46), efe a adawodd Sallust yn llywodraethwr y dalaeth—lle, yn ol Dion Cassius, y daeth i afael cyfoeth dirfawr trwy ysbeilio y wlad. Ar ei ddychweliad adref, adeiladodd Sallust balas ysblenydd yn Rhufain, yr hwn, wedi hyny, a ddefnyddiwyd gan yr ymherawdwyr, ac ni ddinystriwyd ef hyd amser Alaric. Mynegir iddo, ynghylch y pryd hwn, briodi Terentia, gwraig Cicero, yr hon a ysgarasid oddi wrtho. Bu farw c. c. 34, bedair blynedd o flaen brwydr Actium, yn 52ain mlwydd oed.

Y mae cymmeriad moesol Sallust wedi ei dynu yn y lliwiau duaf gan lawer o ysgrifenwyr. Cyhuddir ef o'r afradlonedd mwyaf penrydd; ac ystyrir fod hyn yn fwy anesgusodol ynddo, yn gymmaint a'i fod, yn ei weithiau, yn canmawl cymmaint ar gymmedroldeb a rhinwedd. O'r braidd y mae y cyhuddiadau hyn yn gorphwys ar seiliau digonol, ond y mae cryn debygolrwydd fod y cyhuddiad o odineb a ddygir yn ei erbyn gyda gwraig Milo yn gywir. Yr oedd Sallust yn ddyn plaid selog. Yr oedd yn casau achos y blaid bendefigaidd, ac ni chymmerai drafferth i gelu ei opiniynau ar hyn; ac am hyny, o bossibl nad yw ei gymmeriad wedi ei bardduo yn fwy nag a haeddai gan ei wrthwynebwyr gwleidyddol. Ond gellid meddwl nad oedd Sallust yn ddim gwell na'r gweddill o'i gydwladwyr; ac nid oes un rheswm dros ammheu y cyhuddiad a ddygir yn ei erbyn gan Dion Cassius—ei fod wedi dilyn esampl ei gydoeswyr i ysbeilio y dalaeth a lywodraethai.

Ysgrifenodd Sallust hanes bradgynllwyn Cataline, a'r rhyfel gyda Jugurtha, ac hefyd hanes cyffredinol o achosion Rhufeinaidd o farwolaeth Sylla, c. c. 78, hyd bennodiad Pompey i lywyddiaeth y fyddin oedd yn y rhyfel Mithridataidd, c. c. 67. Y mae y ddau waith blaenaf wedi ein cyrhaedd yn gyflawn; ond oes nid ond darnau o'r diweddaf ar gael; ac y mae ei golli yn fwy o achos gofid, yn gymmaint a'i fod yn hanes un o'r cyfnodau pwysicaf yn holl hanes Rhufain, ac nad yw ein gwybodaeth yn ei gylch ond lled ammherffaith. Y mae rhai beirniaid diweddar yn rhoi i Sallust le isel fel hanesydd ac athronydd. Wrth farnu ysgrifeniadau Sallust, pa fodd bynag, dylid cadw yn y meddwl nad oedd gan y Rhufeiniaid ddim gweithiau teilwng o'r enw hanesyddiaeth yn ei amser ef. Nid oedd ysgrifenwyr blaenorol ond yn gwneyd adroddiad o ddigwyddiadau fel y cymmerent le, heb un ymgais i olrhain achosion na chanlyniadau y digwyddiadau a gofnodir ganddynt. Bu Sallust yn ofalus i ymwrthod âg arddull ei ragflaenoriaid, ac ymddengys iddo gymmeryd Thucydides yn gynllun, i'r hwn y mae yn cael ei gymmharu gan yr hynafiaid eu hunain; ac y mae yn brawf o ragoriaeth arddull Sallust fod Tacitus wedi ei hefelychu.

SALMANESER. Gwel SHALMANESER.

SALMAU, LLYFR Y.

I. TEITL A RHANIADAU Y LLYFR.

Y teitl cyffredinol Hebraeg ydyw *Tehillim*, neu weithiau *Tehilloth*, "Caniadau o fawl," neu *Sepher Tehillim*, "llyfr o fawl." Talfyrir y gair weithiau i'r ffurf *tillim*, *tillin*, neu *tilli*. Mae y teitl hwn yn cyfatteb i nodwedd ac amcan cyffredinol y llyfr, er fod rhai rhanau o hono yn gyfryw ag y byddai yn anhawdd ei gymmhwyso atynt. Byddai yn anhawdd cael un mwy cymmhwys i osod allan natur ac amcan y llyfr fel cyfanwaith. Yn y Testament Newydd (*Luc* xx. 42; *Act.* i. 20), a'r cyfieithiadau boreuol, gelwir ef wrth yr enw *Salmau* neu *Salmydd*. Tarddodd y teitl, oddi wrth gyfieithiad y Deg a Thrigain, trwy y *Vulgate*. Y mae ei ystyr yn cyfeirio, nid at fater y llyfr, ond at ffurf ei gyfansoddiadau fel y maent wedi eu cyfaddasu i gael eu canu gyda chynnorthwy offeryn neu offerynau cerdd. Y mae yn cyfatteb i'r gair Hebraeg *mizmor*, yr hwn sydd wedi ei ddodi fel argraph o flaen Salmau iii., iv., v., vi. Diffyg y teitl hwn ydyw ei fod yn gadael allan bob cyfeiriad at ystyr manwl cynnwysiad y llyfr; ond ar gyfer hyn, y mae yn gosod allan gyssylltiad y llyfr â gwasanaeth ac addoliad cyhoeddus crefydd. Gall y darllenydd craffus, heb ddim ond y cyfieithiad i'w gyfarwyddo, weled fod Llyfr y Salmau yn rhanedig i bum llyfr—pob un o ba rai sydd yn terfynu gyda mawl-wers. Y mae yn cyfatteb yn y rhaniad hwn i lyfrau Moses, y rhai a elwir o herwydd hyny yn *Pentateuch* neu "Pum Llyfr." Sylwyd ar y cyfattebiad hwn gan awdwyr boreuol iawn. Cyfeirir ato yn y *Midrash* Hebreig ar *Salm* i. 1; "Rhoddes Moses bum llyfr y gyfraith i'r Israeliaid, ac fel gwrthbarth iddynt rhoddes Dafydd y Salmau yn gynnwysedig mewn pump o lyfrau." Cyfeirir at hyn hefyd gan Hippolytus ac Epiphanius. Y mae rhai yn cymmeryd hyn fel awgrymiad o'r cyd-darawiad a ddylai fod rhwng ansawdd y galon a gorchymynion y gyfraith. Hwyrach mai mwy cywir fyddai dywedyd ei fod yn hytrach yn awgrymiadol o'r cyfattebiaeth a ddylai fod rhwng ein gogoniant a'n mawl ni i Dduw, a'r

Digitized by Google

amlygiadau a wnaeth Duw o hono ei hun yn ei oruchwyliaethau at y byd, ac yn enwedig tuag at ei bobl. Y mae y rhaniad y cyfeiriwn ato fel y canlyn:—

Llyfr i. ............ *Salm* i.—xli.
Llyfr ii. ............ *Salm* xlii.—lxxii.
Llyfr iii. ............ *Salm* lxxiii—lxxxix.
Llyfr iv. ............ *Salm* xc.—cvi.
Llyfr v. ............ *Salm* cvii.—cl.

Yn *Llyfr* i., y mae y salm gyntaf yn fath o salm arweiniol: ac yn ol barn rhai cafodd ei dodi o flaen a chyda'r ail salm, yr hon yn ol hyn a ddylai gael ei hystyried fel y salm gyntaf. Oddi wrth amryw o'r ymadroddion, y rhai sydd yn gyffelyb i rai a geir yn Llyfr y Diarhebion, a bod arddull y salm yn debyg i'r eiddo y llyfr hwnw, bernir iddi gael ei dodi ar flaen y llyfr gan Solomon. Y mae *Salm* x. heb feddu un arysgrif, gan y bernir ei bod yr un a'r ix. Y mae *Salm* xxxiii. heb yr un hefyd, ond ni wyddys pa ham. Priodolir 37ain o salmau y llyfr hwn i Dafydd. Yn yr Hebraeg, defnyddir yr enw *Iehofah* (Arglwydd) yn y llyfr hwn gan fynychaf o lawer. Defnyddir *Elohim* 15eg o weithiau, ond *Iehofah* 272ain o weithiau.

Yn *Llyfr* ii., y mae *Salm* xlii.—xlix. yn cael eu priodoli i feibion Corah; *Salm* l. i Asaph; *Salmau* lxvi. a lxvii. yn ddienw; *Salm* lxxii. i Solomon; gan adael y deunaw gweddill i Dafydd. Yn y llyfr hwn y gair *Elohim* (Duw) a arferir fynychaf; sef, mwy na phump o weithiau yn amlach nag *Iehofah*. Yn y fawl-wers ar ddiwedd y llyfr, cyfunir *Elohim* âg *Iehofah*.

Yn *Llyfr* iii., priodolir un ar ddeg i Asaph; sef, lxxiii.—lxxxiii.; pedair i feibion Corah, sef, lxxxiv., lxxxv., lxxxvii., lxxxviii.; *Salm* lxxxvi. i Dafydd; ac lxxxix. i Ethan yr Ezrahiad. Y mae llawer o dermau cerddorol yn cael eu harfer yn y rhaniad hwn. Y mae yr enwau *Iehofah* ac *Elohim* yn cael eu defnyddio y naill bron mor aml a'r llall.

Yn *Llyfr* iv., priodolir *Salm* xc. i Moses; y mae deg yn ddienw, a'r pump ereill yn eiddo Dafydd. Yr enw *Iehofah* yn unig a geir yma.

Yn *Llyfr* v., yr hwn ydyw yr helaethaf—yn cynnwys 44ain o salmau—y mae y gyntaf, sef *Salm* cvii., yn ddienw. Priodolir *Salm* cviii., cix., cx., i Dafydd. Y mae *Salmau* cxi., cxii., cxiii., cxiv., cxv., cxvi., cxvii., cxviii., cxix., yn ddienw. Gelwir *Salm* cxx.—cxxxiv., yn Salmau y graddau:—o ba rai y priodolir *Salm* cxxvii. i Solomon; *Salm.* cxxii., cxxiv., cxxxi., cxxxiii., i Dafydd; a *Salm.* cxx., cxxi., cxxiii., cxxv., cxxvi., cxxviii., cxxix., cxxx., cxxxii., cxxxiv., yn ddienw. Yr un modd y mae *Salmau* cxxxv., cxxxvi., cxxxvii., yn ddienw. Priodolir *Salm* cxxxviii.—cxlv. i Dafydd. Y mae *Salm* cxlvi.—cl. yn ffurfio un fawl-wers derfynol. Yn y llyfr hwn y mae yr enw *Iehofah* i'w gael yn benaf.

Oddi wrth y dadelfeniad uchod, gwelir fod, yn ol y traddodiad Iuddewig, 73ain o salmau yn cael eu cyfrif i Dafydd—yr hanner ond dwy; dwy salm i Solomon; deuddeg salm i Asaph; deuddeg i feibion Corah; un i Ethan; un i Moses. Gellir taflenu fel y canlyn:—

| | | |
|---|---|---|
| | Dafydd, 73. | |
| Asaph, 12. | | Meibion Corah, 12. |
| | Solomon, 2. | |
| Ethan, 1. | | Moses, 1. |
| | Dienw 49. | =150. |

II. YR ARYSGRIFAU.

Y mater mawr mewn dadl rhwng ysgrifenwyr gyda golwg ar yr arysgrifau a geir uwch ben y nifer fwyaf o'r salmau yw eu hawdurdodiad neu eu gwirionedd. Nid oedd ammheuaeth yn cael ei goleddu gyda golwg ar eu gwirionedd gan yr hen ysgrifenwyr, oddi gerth Theodore o Mopsuestia. Dechreuwyd taflu ammheuaeth gyda golwg ar eu cywirdeb yn mhlith awduron diweddar gan Vogel. Dilynwyd ef gan Hupfeld, yr hwn a geisiai brofi eu bod yn hollol ddiwerth a diawdurdod. Ennillodd y syniad ammheus hwn dir mawr yn yr Almaen; a daeth i fod yn un cyffredinol, hyd yn bur ddiweddar. Y mae Moll, un o'r esbonwyr Almaenaidd diweddaraf, ac un o'r rhai galluocaf hefyd, yn sylwi fod yr ymchwiliadau llwyraf a goreu ar y cwestiwn hwn yn ddiammheuol yn troi yn ffafr yr hen olygiad ynghylch gwirionedd cyffredinol yr arysgrifau yn Llyfr y Salmau. Nid oes angenrheidrwydd myned i mewn i'r cwestiwn yn yr erthygl hon. Ymfoddlonwn ar nodi yn unig y dadleuon o blaid eu gwirionedd.

1. Yn y cyfansoddiadau barddonol a cherddorol ereill a geir yn yr Hen Destament, yr ydym yn cael arysgrifau o'r fath; yr hyn sydd brawf rhagflaenol o'r tebygolrwydd y buasai y cyffelyb yn cael eu rhoddi ynglŷn â'r salmau. Enghreifftiau: *Gen.* iv. 23; xlix. i. 2; *Exod.* xv. 1; *Deut.* xxxi. 30; xxxiii. 1; *Barn.* v. i; 1 *Sam.* ii. 1; 2 *Sam.* i. 17; xxii. 1; a xxiii. 1; *Esa.* xxxviii. 9.

2. Y mae yn hollol annhebygol y buasai teitl, ar ol iddo gael ei roddi unwaith gan yr awdwr, yn cael ei newid yn fwriadol. Y mae arferiad ysgrifenwyr hynafol yn profi nad oedd y cyfryw newidiad gwirfoddol yn beth cyffredin, ond i'r gwrthwyneb yn hollol ddyeithr. Yr oeddynt yn ofalus hyd ofergoeledd yn mhlith yr holl genhedloedd boreuol, ac yn enwedig yr Iuddewon, i gludo enwau, achau, a theitlau hynafol i lawr i'w hiliogaeth gyda manyldra mawr. Gallwn ganiatau fod ynddynt enghreifftiau o drawsysgrifiadau, camgyfleadau, a gadawiadau; ond nid llygriadau bwriadol.

3. Y mae eu nodwedd amrywiaethol a digynllun, ac yn aml eu hystyr aneglur a dyfeisiol yn anghysson â'r dybiaeth o'u hawduriaeth mwy diweddar na'r eiddo y salmau â pha rai y maent wedi eu cyssylltu.

Gyda golwg ar y goleuni a deflir oddi wrth yr arysgrifau hyn ar gydgasgliad ac amseriad y salmau, gellir sylwi fod genym debygolrwydd cryf ddarfod i'r llyfr cyntaf, *Salm* i.—xli., gael ei gydgasglu gan Dafydd ei hun. Y mae bron yr oll o honynt yn cael eu cyfrif iddo yn yr arysgrifau. Pe buasai y llyfr hwn wedi ei gasglu gan awdwr diweddarach na Dafydd ei hun, diau y buasai yn dodi i mewn y salmau ereill o'i eiddo ef. Y mae amseriad *Salm* xlvi. yn gwneuthur yn debygol i'r ail lyfr gael ei gasglu yn amser y brenin Hezeciah. Yn niwedd y llyfr hwn, dywedir ei fod yn cynnwys gorpheniad o weddïau neu salmau Dafydd, mab Iesse. Ond yn y llyfrau dilynol, ceir amryw wedi eu teitlo ar ei enw. Pa fodd y mae i ni gyssoni hyn? Fe allai mai y cyssoniad goreu ydyw, fod y salmau dilynol, sydd âg enw Dafydd ynglŷn â hwynt, i'w golygu fel rhai wedi eu cyfansoddi gan ereill, y rhai oeddynt yn hiliogaeth iddo, ac yn ei gynnrychioli fel peraidd ganiedydd Israel. Cadarnheir y golygiad hwn gan y ffaith nad ydyw y salmau a geir ar enw Dafydd ar ol llyfr yr ail, i'w cael wedi eu sypio gyda'u gilydd, fel o'r blaen. Drachefn, y maent yn anghydweddol âg amgylchiadau y brenin Dafydd; ac heb law hyny, y

Digitized by Google

maent mewn llawer o ranau wedi eu gwneuthur i fyny o ddarnau o salmau blaenorol Dafydd. A'r hyn sydd yn gryfach prawf etto:—y mae ynddynt enghreifftiau o eiriau a dulliau Caldaeg hollol annhebyg i'r salmau blaenorol. Y mae y trydydd llyfr yn rhedeg i lawr i deyrnasiad Manasseh, yn ol Thrupp; a barna iddo gael ei gasglu yn nheyrnasiad y brenin Iosiah. Y mae y pedwerydd llyfr yn cynnwys y salmau hyd amser iad y caethiwed i Babilon; a'r pummed salmau y dychweliad o'r caethiwed.

Hwyrach na ddylem adael allan bob cyfeiriad at y ddadl rhwng ysgrifenwyr ynghylch y cwestiwn, A gafodd rhai o'r salmau eu cyfansoddi mor ddiweddar ag oes y Maccabeaid? Seilir y golygiad hwn, yn mhlith pethau ereill, ar yr hyn a ddywedir yn un o lyfrau yr Apocrypha; sef, 2 *Maccabeaid* ii. 14—lle y dywedir fod Iudas Maccabeus wedi "casglu ynghyd yr holl bethau a gollwyd o herwydd y rhyfel." Y mae Lengerke a Justin Olshausen yn hòni nas gellir profi yn ddiammheuol fod cynnifer ag un o'r salmau yn eiddo Dafydd, a bod y nifer fwyaf o lawer o honynt yn perthyn i'r cyfnod Maccabeaidd. Y mae Hitzig yn ceisio profi fod y tri llyfr diweddaf felly. Addefa Calvin fod salmau xliv., lxxiv., lxxix. yn rhai Maccabeaidd; a barna Venema fod pedair ar ddeg ar hugain o salmau yn gyfryw. Y mae Dathe yn golygu yn gyffelyb. Yn mhlith awduron diweddar y mae Delitzsch ar un llaw yn addef, ond y mae Bleek, Ewald, a Gesenius yn gwrthwynebu y syniad. Y mae yr ystyr iaethau a ganlyn yn tueddu i'w wrthbrofi.

1. Hanes ffurfiad a chload i fyny y casgliad o lyfrau canonaidd yr Hen Destament.

2. Y mae genym seiliau cryfion dros gredu fod y mawl-wersi ar ddiwedd pum llyfr y salmau yn bod pan ysgrifenwyd 1 *Cron.* xvi. 36; ac y mae yn sicr fod y llyfr hwnw wedi ei ysgrifenu yn y bedwaredd ganrif C. C.

3. Nid oes unrhyw awgrymiad yn *Llyfr y Maccabeaid* am ysgrifenwyr barddonol, y cyfryw ag y gellir eu hystyried fel awdwyr y salmau, neu ranau o honynt.

4. Y mae yr arddull perthynol i'r salmau yn gwbl rydd oddi wrth eiriau Aramaeg, y rhai oeddynt wedi dechreu ymlusgo i mewn i lenyddiaeth Iuddewig yn yr oesoedd y cyfeirir atynt.

SALMAU MESSIAIDD.

Y mae beirniaid o'r naill ochr a'r llall yn cyduno i addef fod y llyfr hwn yn cynnwys dadganiad o obeithion a disgwyliadau Messïaidd, ond y maent yn gwahaniaethu yn ddirfawr gyda golwg ar wir nodwedd a graddau y cyfryw. Ar un llaw, yr oedd rabbiniaid henafol yn gyffredinol yn egluro y salmau fel yn cyfeirio at y Messïah. Parhaodd y golygiad hwn i fod, yr un uniongred a chyffredin, am ganrifoedd ar ol i'r rabbiniaid ddyfod i ganfod yr anhawsder yr oedd yn eu rhoddi ynddo i gyfarfod â Christionogion. O'r diwedd, darfu i rai o honynt yn onest gyfaddef fod yn rhaid iddynt ei roddi i fyny, o herwydd y defnydd a wneid o hono gan Gristionogion. Dyfeisiodd ereill y dychfeddwl am ddau Fessïah; un yn wir ddelw Duw, ac i ymddangos yn ymgnawdoliad gweledig o Dduw mewn gogoniant a disgleirdeb mawr; a'r llall, yn un o lwyth Ioseph—nid Iudah—i gael ei wrthod a'i gamdrin gan Iuddewon a Chenhedloedd, yr hwn, fel bwch diangol, a ddygai arno ei hun, ac a ddygai ymaith bechodau dynion. Yn amser Crist, y mae yn amlwg fod yr Iuddewon perthynol i bob dosbarth yn credu yn nodwedd Fessïaidd y salmau. Y mae yn amlwg fod yr ysgrifenyddion yn cydnabod hyn; onid ê buasent yn amlygu i'r gwrthwyneb wrth ddadleu âg Iesu Grist. Drachefn: nid oes gwestiwn i fod gyda golwg ar awdurdod Crist ei hun a'i apostolion dros y golygiad hwn. Ar y llaw arall, cawn fod y tadau Cristionogol cyntaf yn egluro y salmau yn unol â'r golygiad hwn, a golygent fod yr ysbryd Messïaidd yn anadlu pob un o'r salmau fel eu gilydd. Gwnaent hyn weithiau, mae yn rhaid addef, hyd at beryglu esgeuluso yr ystyr cyntefig a llythyrenol. Cawn yr un gyfundrefn esboniadol gan y prif awduron yn y canol oesoedd; ac y mae yn parhau i gael ei chofleidio yn yr oes hon fel y golygiad mwyaf cyffredinol ac uniongred o ran ei egwyddorion. Y mae mwy o le i amrywiaeth barn gyda golwg ar y tri chwestiwn canlynol:—

1. A ydyw yr oll o'r salmau yn Fessïaidd?

2. A ydyw nifer mawr yn cyfeirio yn y lle cyntaf at Dafydd, neu ryw berson dynol arall, fel cysgod o'r Messiah?

3. A oes, ac os oes, pa rai o'r salmau sydd yn cyfeirio yn uniongyrchol ac yn unig at Grist?

Ar y cwestiwn cyntaf, y mae attebiad cadarnhaol yn ammhossibl ar dir teg, oddi gerth mewn ystyr eang; sef, fod ysbryd y brophwydoliaeth yn cynnwys tystiolaeth i Grist. Os addefwn mai Ysbryd Crist oedd yn llanw ac yn anadlu yn y rhai a'u cyfansoddasant, ac os oedd Crist trwy ei Ysbryd ynddynt o angenrheidrwydd yn gadael rhyw argraph rhaglewyrchiad o hono ei hun yn eu hymadroddion, yna gellir eu golygu oll yn rhai Messïaidd. Ond y mae yn amlwg fod y rhaglewyrchiad hwn yn gryfach mewn rhai o'u cymmharu âg ereill—ac mewn rhai o'r salmau yn gyfryw mewn angerddoldeb a bywiogrwydd nes cuddio o'r golwg yn hollol y gwaelod dynol, ar ba un y mae y salm yn gorphwys. Y mae y sylw hwn i'w gymmhwyso yn arbenig at *Salmau* xxii., xlv., a cx.; a dyma yr atteb goreu, dybygem, i'r trydydd cwestiwn uchod. Teilynga sylw hefyd fod y salmau sydd yn dwyn nodweddion personol yn hytrach na chenedlaethol yn dwyn enw Dafydd—naill ai y brenin hwnw ei hun, neu rai o'i hiliogaeth fel cynnrychiolwyr iddo; tra y mae y rhai o nodwedd cenedlaethol yn cael eu cyssylltu yn yr arysgrifau âg enwau y Lefiaid, Asaph, Heman, &c. Y rheswm o hyn ydyw, mai yr awdwyr salmyddol hyny ag oeddynt o ran eu haniad, eu swydd, a'u cymmeriad yn gysgodau neillduol o Grist sydd wedi eu dewis i roddi portreadau personol o'r Messiah; tra y mae y lleill yn hytrach yn rhagddangos ei ymdrech a'i fuddugoliaeth fel pen yr eglwys, ac yn ei undeb â hi. Y mae hyn yn attebiad i'r ail o'r cwestiynau uchod.

Y mae dyfod o hyd i'r syniadau a geir yn y llyfr hwn gyda golwg ar Dduw, pechod, cymmeriad moesol y dyn duwiol, a sefyllfa ddyfodol, yn beth ag y mae yn llawer haws ei gyrhaedd trwy astudio yn ofalus y llyfr ei hun, na thrwy unrhyw sylwadau cyffredinol y gellid eu gosod o fewn cylch erthygl fel hon. Gyda golwg ar ragoriaeth cyffredinol y llyfr, nid oes prin angen gwneuthur unrhyw sylw, gan yr addefir hyny gan bawb. Prawf arbenig o hyn ydyw y ffaith, nad oes yr un gyfran o'r Hen Destament wedi tywallt ei ysbryd i'r eglwys Gristionogol i'r graddau y mae Llyfr y Salmau wedi gwneuthur hyny. Fel eglurhâd o hyn dywedir, o'r 283ain o ddyfynion a geir yn y Testament Newydd o'r

Digitized by Google

Hen Destament, fod 116eg wedi eu cymmeryd allan o Lyfr y Salmau. Dywedir y byddai addysg Cristionogion yn Syria yn dechreu gyda Llyfr y Salmau, yna y Testament Newydd, ac yna yr Hen. I gyfatteb i'r rhagoriaeth hwn sydd yn perthyn i'r llyfr ei hun, cawn nad oes un llyfr wedi ei esbonio mor gyflawn ag ydyw. Y mae agos yr oll o'r tadau wedi ysgrifenu esboniadau arno. Yn ddiweddarach, cawn Mercer a Calvin, Luther, Zuingle, Bucer; ond y mae Calvin yn tra rhagori arnynt. Mae yr esbonwyr Almaenaidd diweddar yn dra lliosog. Y mae yr eiddo De Wette, Hengstenberg, Ewald, Delitzsch, Hupfeld, ac yn ddiweddaf, Moll, yn "*Bibelwerke*" Lange, yn rhagori—pob un yn ei linell briodol ei hun. Yn yr iaith Saesnig, gallwn enwi fel y rhai mwyaf pwysig, Hammond, Horsley, Horne, Dr. Kay, Dr. Phillips, J. T. Thrupp, Perowne, a Spurgeon.

## EGLURHAD AR Y TERMAU A ARFERIR YN YR ARYSGRIFAU.

### I. Y RHAI SYDD YN DWYN CYSSYLLTIAD A'R GWASANAETH CYHOEDDUS.

1. *Lam'natsäach.* "I'r Pencerdd." Digwydda hwn 55ain o weithiau. Y mae y gair Hebraeg yn tarddu o wreiddyn yn arwyddo 'bod yn gryf,' neu 'bod yn feistr.' Cyfeiria at flaenor y gân fel un cryf ei lais, neu yn hytrach fel un o ran ei sefyllfa ag oedd yn feistr y gynnulleidfa yn ei cherddoriaeth. Rhoddai y salm i'w gosod a'i chyfaddasu i gerddoriaeth. Yn *Salmau* xxxix., lxii., lxxvii., chwanegir enwau Ethan (neu Ieduthun). Ni ddodir y teitl hwn ond o flaen salmau Dafydd, Asaph, neu yr eiddo meibion Corah.
2. *l'lamed.* "Er addysg," neu 'i ddysgu,' *Salm* lxx. Gelwir hwynt yn gyfryw am eu bod i gael eu dysgu allan gan y Lefiaid, a'u dysgu drachefn trwy y Lefiaid i'r gynnulleidfa.
3. *l'hazkir.* "Er coffa," neu 'er dwyn i gof;' *Salm* xxxviii. a lxx. Cenid hwy ynglŷn âg offrymiad yr arogldarth, ac fel offrymiad arogldarth ysbrydol o fawl, neu weddi yn dwyn ar gof i Dduw ddymuniadau dynion.
4. *l'thodah.* "Diolch;" *Salm* c. I'w chanu fel diolch, ac ynglŷn â'r offrwm diolch.
5. *t'hillah.* "Hymn." Salmau wedi eu cyfansoddi i ddadgan llawenydd, mawl, a diolch.
6. *t'phillah.* "Gweddi."
7. *Shir y'didoth.* "Cân cariad."

### II. Y RHAI SYDD YN DWYN CYSSYLLTIAD A'U CYMMERIAD CERDDOROL.

1. *Y gwahanol enwau wrth ba rai y dynodir y salmau.*

1af, *Shir.* "Cân." Yr enw mwyaf cyffredin.
2il, *Mizmor.* Salm wedi ei chyfaddasu i offeryn cerdd. Unir y ddau deitl ynglŷn âg amryw o'r salmau.
3ydd, *Michtam.* "Cân o ystyr gyfriniol a dwfn."
4ydd, *Maschil.* "Cân o gyfansoddiad medrus."
5ed, *Shiggaion.* "Cân afreolaidd," neu rydd.

2. *Offerynau cerdd neillduol gyda pha rai y cenid y salmau.*

1af, *Nehiloth.* *Salm* v. Y bibell (*flute*).
2il, *Neginoth.* *Salm* iv., vi., liv., lv., lxi., lxvii., a lxxvi. Offerynau llinyn, neu dannau.

3. *Tônau neu fesurau wedi eu gwneuthur i ganu y salmau arnynt.*

1af, *Ar Alamoth.* "Yn ol dull llangcesau;" *h. y.*, yn ol llais neu nodau uchel y lleisiau benywol—y *soprano.*
2il, *Ar Seminith.* *Salm* vi. 12, &c. "Ar yr wythfed;" *h. y.*, llais neu nodau isel y llais gwrywol—y *bass.*
3ydd, *Ar Gittith.* "Yn ol Gath;" *h.y.*, yn ol rhyw fesur wedi ei fenthyca gan breswylwyr Gath yn ngwlad y Philistiaid. Gwel *Salm* viii.
4ydd, *Ar Ieduthun; h. y.*, ar fesur o'i eiddo ef.
5ed, *Ar y Mahalath; h. y.*, ar fesur cerddor o'r enw.

4. *Alawon yn ol y rhai yr oedd y salm i gael ei chanu.*

Y mae yn hen arferiad i fenthyca alawon poblogaidd, a'u cyfaddasu i eiriau cyssegredig a gwasanaeth y cyssegr. Enwid yr alawon yn ol y geiriau cyntaf oedd yn y canigion neu y baledi ar ba rai y cenid y tônau neu yr alawon. Enghreifftiau:—

1af, *Salm* xxii. *Aieleth hasahar:* "hydd y wawr;" *h. y.*, yr alaw a genid ar y gân yn dechreu gyda'r geiriau hyny.
2il, *Salm* lvi. *Helen Rechochim:* "Y golomen yn y gwledydd pell draw."
3ydd, *Salm* lvii.—lix., a lxxv. *Al-taschith:* "Na ddistrywiwch."
4ydd, *Sosannim:* "yn ol y lili."

Y mae dau air arall yn gofyn ein sylw cyn terfynu; sef, *Caniad y graddau*, a *Selah.* Y mae tywyllwch parhaus yn gorchuddio gwir ystyr ac amcan y gair *Selah.* Y dyfaliad mwyaf tebygol ar y cyfan yw, mai gair arwyddol ydyw, i alw ar y lleiswyr a'r offerynau cerdd i ymuno yn uchel a chryf â'r lleisiau dynol, pan gyrhaeddai y côr y fan lle y doder ef. Y mae amryw olygiadau drachefn ar ystyr y geiriau *Caniad y graddau* (*Shir hamma'aloth*). Rhoddwn yma grynodeb:—

*Gesenius.*—Gwneuthuriad mydrol y salmau y ceir yr enw wrthynt; sef, cxx.—cxxxv. Gair neu ymadrodd mewn un adnod yn cael ei ail adrodd yn y nesaf, fel ag i ffurfio megys ysgol neu raddeg ddyrchafol. Yn erbyn hyn, y mae y ffaith nad ydyw hyn i'w ganfod yn yr oll o honynt, a'i fod i'w ganfod mewn ereill.

*Amryw o'r esbonwyr Iuddewig diweddar.*—Fod y salmau hyn yn arferol o gael eu canu ar y grisiau oeddynt yn arwain o gyntedd y dynion i gyntedd y gwragedd. Y mae y golygiad hwn yn ddiffygiol o brawf, ac yn gorphwys ar gamgasgliad oddi wrth gymmhariaeth a ddefnyddir yn y *Talmud* Iuddewig.

Y golygiad mwyaf tebyg ydyw, fod yr ymadrodd yn cyfeirio at yr arferiad o'u canu wrth fyned i fyny i'r prif ŵyliau i Ierusalem. Y mae y teitl ei hun yn awgrymu hyn, ynghyd âg amryw ymadroddion yn y salmau. Y mae yn bur bossibl, os nad yn debygol hefyd, fod rhai o honynt o leiaf wedi eu cyfansoddi gan rywrai o'r genedl ar eu ffordd o Babilon, yn y dychweliad o'r caethiwed.

TAFLEN O'R SALMAU Y RHAI Y MAE GWYBODAETH DEBYGOL GENYM GYDA GOLWG AR YR ACHLYSUR O'U CYFANSODDIAD.

LLYFR I.

*Salm* i. Salm arweiniol, wedi ei rhagddodi gan Solomon yn y casgliad a wnaeth o salmau ei dad. Mewn rhai llawysgrifau golygir hi fel arweiniad i mewn i'r llyfr. Yn *Act.* xiii. 33, darllenir yn y llawysgrifau goreu, yn lle "yr ail salm, 'y salm gyntaf.'
*Salm* iii. Gwel yr arysgrif. Salm foreuol.
*Salm* iv. Ar yr un amgylchiad a *Salm* iii. Hwyrol.
*Salm* v. Un foreuol. Ansicr.
*Salm* vi. Un o'r saith salm edifeiriol. Y lleill ydynt xxxii., xxxviii., li., cii., cxxx., cxliii. Achlysur yn ansicr.
*Salm* vii. Gwel yr hanes yn 1 *Sam.* xxiv. a 1 *Sam.* xxvi. Cymmharer âg *adn.* 4 o'r salm.
*Salmau* ix., x. Buddugoliaethol. Cyfeiriant at fuddugoliaethau Dafydd ar y Syriaid a'r Ammoniaid, o bossibl.
*Salm* xi. Erledigaeth oddi ar ddwylaw Absalom, neu Saul.
*Salm* xv. Symmudiad yr arch i Seion, a chyssegriad y tabernacl.

Digitized by Google

*Salm* xvii. Erledigaeth arno gan Saul.
*Salm* xviii. Tua diwedd ei oes. Gwel 2 *Sam.* xxii.
*Salm* xxiv. Symmudiad yr arch o dŷ Obededom i dŷ Dafydd, ar fynydd Seion.
*Salm* xxvi. Gwrthryfel Absalom, fe allai.
*Salm* xxvii. Etto etto.
*Salm* xxviii. Etto etto.
*Salm* xxx. Ar adferiad Dafydd o afiechyd, ynghyd â chyssegriad ei dŷ ar fynydd Seion.
*Salm* xxxii. Ar ol dyfodiad Nathan ato. Adroddiad o'i gyffes yn *Salm* li., a'r maddeuant a'i dilynodd.
*Salm* xxxiv. Gwel yr arysgrif.
*Salm* xxxv. Y gwrthryfel o dan Absalom.
*Salm* xli. Ar ei adferiad o afiechyd.

LLYFR II.

*Salm* xlii. Ei ffoedigaeth rhag Absalom i ucheldiroedd Mahanaim. 2 *Sam.* xvii. 24.
*Salm* xliii. Etto.
*Salmau* xlvi., xlvii., xlviii. Er coffa am y waredigaeth wyrthiol rhag Senacherib.
*Salm* li. Gwel yr arysgrif.
*Salm* lii. Erlidiad Dafydd gan Doeg yr Edomiad.
*Salm* lvi. Pan yr oedd yn Gath gyda'r Philistiaid.
*Salm* lvii. Pan ffodd rhag Saul i'r ogof.
*Salm* lix. Pan anfonodd Saul rai i gadw y tŷ i ladd Dafydd. 1 *Sam.* xix. 11—18.
*Salm* lx. Gwel yr arysgrif.
*Salm* lxi. Pan yn cael ei erlid gan Saul, neu gan Absalom.
*Salm* lxiii. Pan ar ffo rhag Absalom.
*Salm* lxv. Ar yr achlysur o gynhauaf toreithiog, yn uniongyrchol wedi dinystr y fyddin Assyriaidd o flaen Ierusalem. *Esa.* xxxvii. 30. Nid Dafydd ei hun a'i cyfansoddodd.
*Salm* lxvi. Etto.
*Salm* lxxi. Wedi ei chyfansoddi gan Ieremiah: *adn.* 6ed. *Ier.* i. 5. Yr arddull, y dôn gŵynfanus.
*Salm* lxxii. Gan Dafydd i Solomon. Y mae yr arysgrif Cymraeg yn goddef yr ystyr hwn, os nad yn ei roddi yn fwriadol.
*Salm* lxxiv. Goresgyniad gwlad Israel gan Nebuchodonosor.
*Salm* lxxv. Gyda chyfeiriad at ddinystr barnol Duw ar Senacherib a'i lu.
*Salm* lxxvi. Etto.
*Salm* lxxxi. I'w chanu ar un o'r prif ŵyliau Iuddewig.
*Salm* lxxxv. Ar ol y dychweliad o'r caethiwed.
*Salm* lxxxvii. Yn nheyrnasiad Hezeciah. Cân buddugoliaeth ar Senacherib, neu yn fwy tebyg cân o lawenydd o herwydd derbyniad lliaws o broselytiaid ar ol y fuddugoliaeth fawr hono.
*Salm* lxxxix. Yn amser Iehoiacim. Cymmh. *adn.* 36 âg *Ier.* xxii. 24—29.

LLYFR IV.

*Salm* xc. Salm Moses.
*Salm* xcii. Salm y Sabbath, am y cenid hi yn ngwasanaeth y deml ar y dydd hwnw.
*Salmau* xciii.—xcix. Un olyniad, yn ffurfio un oratorio fawr o fawl i frenhiniaeth Duw.
*Salm* ci. Yn foreuol yn amser Dafydd, cyn symmud yr arch o dŷ Obededom: *adn.* 2.
*Salm* cii. Gan un o'r gaethglud yn Babilon, tua diwedd y 70ain mlynedd.

LLYFR V.

*Salm* cx. Cludiad yr arch o Seion.
*Salm* cxv. I'w chanu tra yr offrymid yr aberthau.
*Salm* cxviii. I'w chanu yn ystod yr addoliad yn y deml, ac yn enwedig ar ŵyl y Pebyll.
*Salm* cxix. Ar ol y dychweliad o Babilon.
*Salm* cxxxvii. Gan un o'r gaethglud ar ol ei ddychweliad.
*Salm* cxli. Dafydd, yn amser gwrthryfel Absalom.
*Salm* cxlii. Erledigaeth Dafydd gan Saul.
*Salm* cxliv. Yn y Deg a Thrigain, ar yr achlysur o ladd Goliath.
*Salmau* cxlvii.—cl. Anthemau wedi eu cyfansoddi ar yr achlysur o gyssegriad muriau Ierusalem yn amser Nehemiah.

1. SALMON, NEU SALMA: mab Nahson, penaeth meibion Iudah, a thad Boaz, gŵr Ruth: *Ruth* iv. 21, 22. Ar fynediad yr Israeliaid i Ganaan, cymmerodd Salmon Rahab o Iericho yn wraig (*Mat.* i. 15); ac o'r briodas hon yr hanodd Crist yn ol y cnawd. [Gwel RAHAB.] Oddi wrth yr amgylchiad fod Salmon yn byw yn amser gorchfygiad Canaan, yn gystal a'i fod yn feddiannydd cyntaf Bethlehem, lle yr arosodd ei deulu am gynnifer o ganrifoedd, gellir ei ystyried ef fel sylfaenydd teulu Dafydd. Heb law Bethlehem, yr oedd y Netophathiaid, tŷ Ioab, y Soriaid, ac amryw deuluoedd ereill, yn edrych ar Salmon fel eu penaeth: 1 *Cron.* ii. 54, 55. Gwel ACHAU IESU GRIST.

2. SALMON: "Salmon yr Ahohiad" y gelwir ef:—un o gedyrn Dafydd. Gelwir ef yn Ilai yn 1 *Cron.* xi. 29; ac y mae Kennicott yn ystyried mai y darlleniad diweddaf ydyw y cywiraf.

SALMON: enw ar fynydd ger Sichem (*Barn.* ix. 48), ar yr hwn y darfu i Abimelech a'i ddilynwyr dori y cangau â pha rai y gosodwyd tŵr Sichem ar dân. Ni wyddys yn fanwl yn mha le y safai. Tybir yn gyffredin mai y bryn hwn a grybwyllir yn *Salm* lxviii. 14; ac y mae hyn yn debygol, er fod yr ymadrodd braidd yn dywyll ac yn anhawdd ei ddeall; ac hwyrach fod yr ystyr manwl a fwriadai y bardd iddo wedi ei golli yn hollol. Yn wir, o chwech o esbonwyr diweddar enwog—De Wette, Hitzig, Ewald, Hengstenberg, Delitzsch, a Hopfold—nid oedd dau o honynt yn rhoddi yr un ystyr a'u gilydd; ac y mae Mr. Keble, yn ei gyfieithiad ef o'r Salmau, yn rhoddi cyfieithiad, er ei fod yn farddonol, a wahaniaetha oddi wrth bob un o'r esboniadau a awgrymir gan y chwech ysgolhaig uchod. Nis gellir gwneuthur yma ymchwiliad maith a llwyr i'r geiriau. Gellir crybwyll, pa fodd bynag, mai y cyfieithiad llythyrenol o'r geiriau חשלג פצלמון ydyw, "Ti a'i gwnei yn eira," neu "y mae yn gwlawio eira:"—gyda rhyddid i ddefnyddio y gair naill ai yn yr amser presennol neu ddyfodol. Mewn anobaith o ddeall yn iawn y cyfeiriad at Salmon, y mae rhai yn tybied nad ydyw Salmon—hyny yw, *Tsalmôn*—yn enw priodol o gwbl yn y frawddeg, ond yn air yn unig sydd yn arwyddo 'tywyllwch;' ac y mae yr eglurhâd hwn—yn cael ei gefnogi gan y *Targum*—er yn cael ei wrthwynebu gan y Deg a Thrigain, ac wedi ei fabwysiadu gan Ewald, ac hefyd gan Fürst. Gan fod *tselem* yn arwyddo 'cysgodi,' o'r braidd y mae hyn yn bossibl. Ond nid oes y fath air a *Tsalmôn* yn digwydd yn un man arall yn yr iaith Hebraeg, tra y mae ynddi amryw o eiriau am dywyllwch. Os nad edrychir ar y frawddeg fel un â rhyw gamsyniad geiriol ynddi, y mae yn ymddangos yn fwy unol â rheswm i addef fod rhyw gyfeiriad yn meddwl y Salmydd, yr allwedd i ba un sydd yn awr ar goll; ac ni ddylai ryfeddu un ysgolhaig a ystyria liosawgrwydd y cyfeiriadau sydd yn y beirdd Groegaidd sydd yn hollol anealladwy ac yn galw am nodiadau yr esbonwyr Groegaidd. Nid oes dim yn cyfatteb yn fanwl i hyn mewn llenyddiaeth Hebreig; ac heb gynnorthwy o'r fath, y mae amryw ranau o'r Hen Destament y rhaid i ni foddloni ar fod yn anwybodus o'r ystyr uniongyrchol sydd iddynt.

Digitized by Google

SALE, GEORGE. Ysgolhaig dwyreiniol enwog oedd efe, a anwyd yn swydd Caint, o ddeutu'r flwyddyn 1690. Dygwyd ef i fyny yn efrydydd o'r gyfraith, a bu yn cynnorthwyo amryw awduron enwog eraill i gasglu yr *Universal History*—i'r hwn waith yr ysgrifenodd erthyglau galluog ar hanesiaeth ddwyreiniol. Yr oedd efe hefyd yn un o awduron y *General Dictionary*. Ond y gwaith a wnaeth ei enw yn fwyaf adnabyddus, oedd ei gyfieithiad anghymmharol o'r *Koran*, a gyhoeddwyd tua'r fl. 1734. Bu y cyfieithiad rhagorol hwn, ynghyd â'r rhagdraeth dysgedig a ysgrifenodd yr awdwr, yn foddion i alw mwy o sylw at Fahometiaeth a'i llenyddiaeth. Bu farw Tach. 14eg, 1736; ac ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd rhestr o'i lawysgrifau dwyreiniol, y rhai sydd yn awr yn y Llyfrgell Fodlëaidd yn Rhydychain.

SALE, SYR ROBERT HENRY. Milwr Prydeinig, a anwyd yn 1782. Fel milwr, efe a aeth drwy amryw o frwydrau pwysig, gan ymladd yn mhob brwydr o bwys a ddigwyddodd yn nghadymgyrch Burmah yn 1824—25. Pan gyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Affghanistan yn 1838, cafodd '*Fighting Bob*,' fel ei gelwid, ei ddyrchafu i lywyddiaeth y frigad gyntaf o adran fyddinawl Bengal. Gwnaeth enw uchel iddo ei hun yn yr ymosodiad ar, a'r cymmeriad o Ghanzi, yn ystod yr hon frwydr yr anafwyd ef. Yn Hydref, 1840, anfonwyd ef i gospi penaethiaid gelyniaethus yn Kohistan, ac i gadw gwyliadwriaeth fanwl ar symmudiadau y traws-oresgynwr, Dost Mahammed; yr hwn a wyliai ei gyfleusdra i ymosod ar Cabul. Pan benderfynwyd galw y fyddin Brydeinig yn ol o Affghanistan, brigad Syr Robert Sale oedd y gyntaf i gychwyn ar y daith yn ol i India; ond bu raid iddi ymladd ei ffordd trwy yr oll o'r bylchau mynyddig *(passes)* a orweddant rhwng Cabul a Jellalabad. Yn y gaerfa ddiweddaf hon, cadwyd ef yn gaeth o Tach. 12fed, 1841, hyd Ebrill 7fed, 1842. O'r diwedd, rhyddhawyd ef gan y Cadfridog Pollock; yr hwn a lywyddai y fyddin a anfonwyd i geryddu yr Afghaniaid am eu gwaith yn bradychu ac yn lladd milwyr y Cadfridog Elphinstone. Ac yn ddilynol, cymmerodd ran, gyda Pollock, yn adgymmeriad Cabul, a'r digwyddiadau a'i dilynasant. Lladdwyd Sale tra yn ymladd yn erbyn y Sikhiaid yn mrwydr Mudki, Rhagfyr 18fed, 1845.

SAIS, ELIDIR. Bardd a flodeuodd rhwng 1160 a 1220. Ceir un-ar-ddeg o'i gyfansoddiadau yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology of Wales*.

SALISBURY, HENRY. Ganwyd ef yn Dolbelydr, yn sir Ddinbych, yn y fl. 1561. Addysgwyd ef yn Rhydychain, lle y daeth yn is-efrydydd o Neuadd St. Alban; ac wedi graddio yn y celfyddydau, ymroddodd i efrydu physygwriaeth; yr hon gelfyddyd a arferwyd ganddo ar ei sefydliad wedi hyny yn Ninbych. Perchid ef yn fawr, nid yn unig o herwydd ei allu fel meddyg, ond fel un oedd yn hyddysg yn iaith a hynafiaethau Cymru. Yn y fl. 1593, argraphodd Rammadeg Cymraeg yn yr iaith Ladin; yr hwn a gyflwynwyd ganddo i Henry, Iarll Penfro. Llwyddodd hefyd i gasglu Geiriadur Cymraeg a Lladin, yr hwn y bwriadai ei gyhoeddi gydag argraphiad newydd o'i Rammadeg; ond nid yw yn ymddangos i hyn gymmeryd lle. Yr oedd yr ysgrifau, ynghyd â'r gwelliantau olaf ynddo, yn meddiant yr Esgob Humphreys; ac yr oedd yn cynnwys llawer o eiriau na chrybwyllwyd am danynt gan y Dr. Davies yn ei eiriadur ef.

SALISBURY, SYR THOMAS, BARWNIG. Gwel cyf. x.

SALISBURY, THOMAS. Gwel cyf. x.

SALMASIUS, CLAUDIUS. Enw Lladinaidd yr ysgolhaig Ffrengig enwog Claude De Saumaise, yr hwn a anwyd yn Semur, yn Burgundy, Ebrill 15fed, 1588. Pan yn ddeg oed, cyfieithodd Pindar, a chyfansoddodd farddoniaeth mewn Lladin a Groeg. Yr oedd ei awydd am wybodaeth gymmaint fel y treuliai nosweithiau cyfain, a hyny yn olynol, i ddarllen a myfyrio; yr hyn a fu yn agos iawn i droi yn angeu iddo. Yn 1629, ymddangosodd ei brif waith, *Plinianæ Exercitationes in Caii Julii Solini Polyhistora.* Ar ol hyn, ymroddodd i feistroli yr ieithoedd Hebraeg, Arabaeg, a'r Goptaeg, ac ieithoedd dwyreiniol eraill, a hyny hefyd heb gynnorthwy unrhyw athraw. Fel ysgolhaig, yr oedd Salmasius yn enwocach, o bossibl, na neb arall trwy gyfandir Ewrop. Ystyrid ef y dysgedicaf o'r dysgedigion. Yn Lloegr, daeth ei enw i fri mawr mewn cyssylltiad â'r ddadl fu rhyngddo a Milton ynghylch dïenyddiad Siarl I. Ar gais Siarl II., darfu iddo, fel yr awdurdod uchaf yn Ewrop ar faterion o ddysg, gyhoeddi, yn 1649, ei *Defensio Regia pro Carolo* I.; yr hwn a attebwyd, yn 1651, gan Milton yn ei *Pro Populo Anglicano Defensio.* Bu parotoad y pamphlet hwn yn achos i Milton golli ei olwg; ond gan i Salmasius farw yn fuan wedi ysgrifenu atteb iddo, ymhònai y bardd Saesnig mai ei wrthwynebydd a gafodd y gwaethaf o'r ddadl. Bu Salmasius farw dan dwymyn a achoswyd trwy yfed dyfroedd Spa, Medi 6ed, 1658.

SALMON, GEORGE. Rhyddfrydwr a duwinydd, a anwyd yn Dublin, Medi 25ain, 1819. Yn 1841, pennodwyd ef yn gymmrawd o Goleg y Drindod; cymmerodd urddau eglwysig yn 1844; pennodwyd ef yn athraw duwinyddol yn 1866; ac yn brofost y coleg yn 1888. Ysgrifenodd weithiau dysgedig ar y gelfyddyd o rif a mesur, ynghyd â thraethodau galluog ar ganghenau eraill o wybodaeth. Cyhoeddodd hefyd *College Sermons* (1861); *The Reign of Law* (1873); *Non-Miraculous Christianity* (1881); *Gnosticism and Agnosticism* (1887); ynghyd â dau gasgliad o'i ddarlithiau lliosog—y cyntaf o ba rai sydd yn ffurfio arweiniad rhagorol i mewn i'r Testament Newydd.

SAMSON. Archesgob Tŷ Ddewi, ac olynydd i Arthmael. Dywedir ddarfod iddo, o herwydd afiechyd heintus a ffynai yn ei archesgobaeth, ymneillduo i Dole, yn Llydaw, a chymmeryd ei brein-gochl *(pall)* gydag ef. Gan nad oedd y cochl hwn ar gael, darfu i olynwyr Samson golli y teitl o 'archesgob.' Er hyny, cafodd yr holl esgobion Cymreig eu hurddau oddi wrth esgobion Tŷ Ddewi hyd amser Harri I. Yna, cafodd yr Esgob Barnard, yr hwn oedd yn Normaniad, ac heb ei ddewis gan glerigwyr Cymru, yn ol fel yr arferwyd, ei



Digitized by Google

wthio arnynt gan frenin Lloegr; ac yntau a lanwodd sir Benfro o'r bron â Ffiemingiaid, ac a yrodd ymaith y Cymry. O'r amser hwn, gosodwyd esgobaeth Tŷ Ddewi dan archesgobaeth Caergaint. Bu yr Esgob Samson farw yn Dole—lle y claddwyd ef; ond yn ddilynol, symmudwyd ei weddillion i Middleton, yn sir Dorset, lle yr oedd mynachlog fawreddog wedi ei hadeiladu gan y brenin Athelstan.

SAMUEL, CHRISTMAS. Bernir iddo gael ei eni yn 1674, yn mhlwyf Llanegwad, yn sir Gaerfyrddin. Efe oedd olynydd Mr. T. Bowen fel gweinidog eglwys Pant-teg, yn sir Gaerfyrddin, yn 1710; a bu yn hynod lwyddiannus yno. Cyhoeddodd lawer o lyfrau defnyddiol yn yr iaith Gymraeg; ac yn eu plith, grynodeb o *Esboniad Matthew Henry ar y Testament Newydd*, ac eglurhadau yr un gŵr ar *Gatecism y Gymmanfa.* Gwnaeth wasanaeth gwerthfawr hefyd trwy gynnorthwyo Griffith Jones, o Landdowror, i sefydlu ei ysgolion yn ngwahanol ranau y Dywysogaeth. Dywedir nad oedd un gweinidog Ymneillduol arall i'w gymmharu âg ef o ran ei ddylanwad gyda'r boneddigion. Bu farw Mehefin 18fed, 1764, yn 90ain mlwydd oed.

SAMWELL, (NEU SAMUEL), DAVID. Brodor oedd efe o Nantglyn, yn sir Ddinbych; ac ŵyr i'r Parch. Edward Samuel, clerigwr Bettws Gwerfil Goch, a chyfieithydd '*Gwirionedd y Grefydd Gristionogol.*' Yr oedd efe yn fardd coeth a galluog. Wedi myned trwy gwrs o addysg feddygol, pennodwyd ef yn feddyg ar fwrdd y llong *Discovery;* yr hon a lywyddid gan yr enwog Cadben Cook. Yn y llestr hon, aeth, yn y fl. 1776, i'r moroedd gogleddol; ac yr oedd gyda Cook hefyd yn ei ymgyrch i geisio darganfod y cyfandir deheuol. Yr oedd efe yn llygad-dyst o lofruddiaeth Cook gan frodorion ynysoedd Sandwich—hanes yr hon gyflafan a ysgrifenwyd ganddo i'r *Biographia Britannica,* ac a gyhoeddwyd yn llyfryn ar wahân yn 1786, dan y teitl '*Narrative.*' Y mae y cywreinbethau a gasglodd efe yn ystod ei fôr-deithiau yn awr yn nghadw yn llyfrgell Coleg y Drindod, yn Nghaergrawnt. Ceir cywydd marwnad iddo, o waith Twm o'r Nant, yn *Niliau Barddas* Bardd Nantglyn. Bu farw yn y flwyddyn 1798, a chladdwyd ef yn mynwent St. Andrew's, Holborn, ger llaw yr Ysgol Gymraeg yn Llundain. Cyhoeddwyd ei ddarlun yn Paris, ac y mae rhai o'i ysgrifeniadau yn argraphedig yn y *Cambrian Register.*

SANCROFT, WILLIAM. Archesgob Caergaint. Ganwyd ef yn Fressingfield, yn swydd Suffolk, Ionawr 30ain, 1616—17. Perffeithiodd ei addysg yn Ngholeg Emmanuel, Caergrawnt; ac yn 1642, etholwyd ef yn gymmrawd. Wedi iddo gael ei ddyrchafu o un swydd i arall, cafodd ddeoniaeth St. Paul; ac fel y cyfryw, yr oedd ganddo law yn ail adeiladiad y brif eglwys hono. Yn 1668, gwnaed ef yn archddiacon Caergaint; ac yn 1678, yn archesgob. Ennillodd gymmeradwyaeth gyffredinol o herwydd y doethineb a ddangosodd yn nghyflawniad ei ddyledswyddau uchel; a'r unig fai neu ddiffyg yn ei ymddygiad ydoedd, iddo gyflogi ysbïwr Italaidd yn Holland, yr hwn a fu yn ddigon beiddgar i geisio sicrhau cymmeradwyaeth Sancroft i fradlofruddiaeth Syr William Waller. Bu yr archesgob yn gweinyddu ar Siarl II. ar ei wely angeu, ac yn hynod rydd ei ymadroddion wrtho ynghylch natur ei fywyd blaenorol. Gwrthododd eistedd ar Ddirprwyaeth Eglwysig Iago II., yn 1686; ac yn 1688, bwriwyd ef i'r Tŵr, am gyflwyno o hono ddeiseb y saith esgob yn erbyn darlleniad yr hyn a elwir yn *Second Declaration of Indulgence.* Ond yn y prawf a fu arnynt yn Neuadd Westminster, cafodd ef, a'i gyd-esgobion, eu rhyddhau. Llwyddodd i ymgadw rhag ymyryd, ond i raddau bychain, â'r digwyddiadau cyffrous a flaenorent ac a ddilynent y chwyldröad. Gan iddo gymmeryd llŵ o ffyddlondeb i Iago II., nid oedd yn foddlawn i drosglwyddo ei ddylanwad yn mhlaid William a Mary. O herwydd hyn, cafodd ei attal rhag cyflawni dyledswyddau ei archesgobaeth trwy weithred seneddol, Awst 1af, 1689; er hyny, ni adawodd ei balas yn Lambeth nes y bwriwyd ef allan, Mehefin 23ain, 1691. Yna efe a ymneillduodd i'r pentref lle y ganwyd ef; ac yno y bu farw, Tachwedd 24ain, 1693. Priodolir wyth o gyfansoddiadau iddo; ond nid oes dyddordeb arosol ond mewn un—*Fur Prædestinatus* (1651)—math o ymddiddan rhwng gweinidog Calfinaidd a lleidr collfarnedig.

SAND, GEORGE. Enw llên merch o'r enw Armandine Lucile Aurore Dupin, 'Barwnes' Dudevant, oedd hwn; a anwyd yn Paris, Gor. 5ed, 1804. Pan yn ddeunaw oed, priododd M. Dudevant, a ganwyd iddynt ddau o blant. Wedi naw mlynedd o fywyd priodasol, a chan nad oedd eu cyssylltiadau teuluaidd yn bob peth y gellid eu dymuno, rhoddodd Aurore ei heiddo personol i fyny i'w gŵr fel math o iawn am ysgariad heddychol rhyngddynt. Yna, hi a aeth i Paris i wneyd ei bywoliaeth yn y maes llenyddol; ac i gymdeithasu â rhai o brif lenorion Ffrainge. Yn mhen rhai blynyddoedd, cafodd y llysoedd cyfreithiol fod digon o reswm yn ymddygiad ei gŵr i roi grym cyfraith yn yr ymwahaniad heddychol; a bu hyn yn foddion i adferu iddi ei heiddo. Am y rhan oreu o ugain mlynedd, bu yn ysgrifenu llyfrau, ac yn cymdeithasu â thalentau disgleiriaf y wlad. Dywed rhai nad oedd ei chyssylltiad â rhai o'r dynion hyn yn deilwng o gymmeradwyaeth. Pa un bynag, yr oedd ei chymmeriad llenyddol yn gorbwyso pob peth arall yn ei hanes. Am y ddwy flynedd gyntaf y bu yn Paris, arweiniodd ei chwaeth hi i ymgydnabyddu â beirdd a cherddorion enwog; sef, Alfred de Mussett, a Chopin, &c. Mewn cyfnod diweddarach, trodd ei sylw at y dosbarth gwylltaf o athronwyr a gwleidyddwyr; sef, Lamennais, Pierre Leroux, a Michel (de Bourges). Modd bynag, ar ol Chwyldroad 1848, dechreuodd ar gyfnod o weithgarwch llenyddol dihafal—yn cael ei ysgafnhau yn awr ac yn y man gan deithiau i wledydd tramor, ac ymweliadau achlysurol â Pharis; o'r hon yr oedd ychydig yn flaenorol wedi ymneillduo i Nohant. Yn y cyfnod hwn, ysgrifenodd gyfres o lyfrau a ddygodd ei henw i fri ac anrhydedd. Ar y cyntaf, dechreuodd gyhoeddi nofelau o natur rhamantus, a thra chydnaws â thuedd y Ffrangcod yn y cyfnod yr oedd hi yn byw ynddo. Yn mysg y nofelau hyn, ceir ei *Indiana, Valentine, Lélia,* a *Jacques.* Yn yr ail ran o'i bywyd llenyddol, cynnyrchodd *Spiridion, Consuelo,* a *Comtesse de Rudolstadt*—llyfrau o natur athronyddol a gwleidyddol, &c.—yn cyfatteb i'r cyfnod hwnw ar ei

Digitized by Google

bywyd pan y bu yn cymdeithasu âg athronwyr a gwleidyddwyr, &c. Rhwng y ddau gyfnod uchod, ysgrifenodd nofel ragorol, yn dwyn y teitl *Mauprat*. Yn ddiweddarach ar y ganrif, ymddangosodd y llyfr hynod a elwir *Lucrezia Floriani*, prif gymmeriadau yr hwn sydd wedi eu portrëadu ganddi oddi wrthi ei hun, a'i chyfaill Chopin. Ysgrifenodd y gyfres nesaf o'i gweithiau ar fywyd gwledig yn ei wahanol agweddau. Cyfansoddiadau rhagoraf y dosbarth hwn ydynt, *La Petite Fadette*, *Francois le Champi*, a *La Mare au Diable;* a thybia llawer o'i hedmygwyr mai dyma gynnyrchion goreu ei hysgrifell. Yn mysg ei nofelau amrywiaethol, rhoddir lle uchel i *Les Beaux Messieurs de Bois Dorè*, *Le Marquis de Villemer*, a *Mlle. la Quintini.* Yn yr erthygl fèr hon, nis gellir enwi ond nifer fechan o'i nofelau lliosog, na chwaith y nifer fawr o weithiau eraill a ysgrifenwyd ganddi. Bu farw yn Nohant, Mehefin 7fed, 1876. Er y pryd hwnw, y mae ei phoblogrwydd fel awdures, fel llawer o'i blaen, wedi disgyn yn fawr, ragor yr hyn ydoedd. Ysgrifenai gyda'r rheoleidd-dra mwyaf, yn debyg fel y gwnai y nofelydd Saesneg Anthony Trollope. Dywedir fod ei chynnyrchion yn peri can lleied o lafur iddi fel yr anghofiai bob peth am danynt yn mhen ychydig flynyddoedd; a dywedir y byddai yn darllen ei nofelau ei hun fel pe baent yn eiddo arall.

SANDERSON, ROBERT, Esgob Lincoln. Ganwyd ef Medi 19eg, 1587, naill ai yn Sheffield, neu yn mhreswylfod ei dad, Gilthwaite Hall, ger llaw Rotherham. Addysgwyd ef yn Ngholeg Lincoln, Rhydychain, o'r hwn y daeth yn gymmrawd yn 1601. Wedi amryw ddyrchafiadau yn yr eglwys, pennodwyd ef, yn 1631, yn gaplan y brenin. 'Yr wyf yn cario fy nghlustiau i wrandaw pregethwyr eraill,' ebai Siarl I. unwaith; 'ond byddaf yn cario fy nghydwybod i wrandaw ar Mr. Sanderson, ac i weithredu yn unol â hi.' Yn Hydref, 1660, cyssegrwyd ef yn Esgob Lincoln. Y flwyddyn ddilynol, llanwodd y swydd o gymmedrolwr Cynnadledd Savoy; ac iddo ef yr ydym yn ddyledus am y rhagdraith presennol i'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*, a'r *Gyffes Gyffredinol.* Bu farw yn ei balas, Buckden, Hunts, Ion. 29ain, 1663. Y mae ei weithiau, heb law ei bregethau, yn cynnwys y llyfrau rhagorol a ganlyn:—*Logicæ Artis Compendium* (1615); *De Obligatione Conscientiæ Prælectiones* (1647); *Nine Cases of Conscience resolved* (1628—78); ac *Episcopacy not Prejudicial to the Regal Power* (1661).

SANDDE BRYD ANGEL. Un o'r tri-wŷr a ddiangasant o Gad Gamlan. Y ddau eraill oeddynt Glewlyd Gafaelfawr, a Morfran Ail Tegid:—y cyntaf o nerth, a'r ail o hacrwch. Tybiai pawb mai cythraul, o uffern, ydoedd Morfran, medd yr hanes; ond tybiai pawb fod Sandde, o herwydd ei harddwch, yn angel o'r nef; ac ni feiddient roddi noeth arf yn ei erbyn. Mab ydoedd efe i Lywarch Hen, a blodeuodd tywbryd yn y chweched ganrif.

SAUNDERS, DAVID. Gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn nghapel Seion, Merthyr Tydfil. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1773; ac adnabyddid ef fel dyn nodedig am ei uniondeb, a helaethrwydd ei wybodaeth; ac yn enwedig fel gweinidog rhagorol yn mhob ystyr. Ysgrifenodd lawer, ond barddoniaeth yn benaf, i'r hen gylchgronau Cymreig; sef, y *Seren Gomer*, &c. Bu farw Chwefror 4ydd, 1840, yn 70ain mlwydd oed.

SAUNDERS, PARCH. DAVID, D.D., o Abertawe. Gwel cyf. x.

SAUNDERS, DR. ERASMUS. Hànai o deulu Saunders, o Pendyne a Gellywig, yn sir Benfro. Bu yn dal swydd fel parson Morton-in-the-Marsh, swydd Gaerloyw. Ysgrifenodd *Egluriadau Byrion ar y Beibl*, a thraethawd bychan a rhagorol ar ddyledswyddau teuluaidd; ac yr oedd mewn llawer ystyr yn ddyn enwog iawn. Bu ei fab, yr hwn hefyd oedd o'r un enw ag ef, ac yn ddoethawr fel yntau, yn ganon Windsor, ac yn barson St. Martin's-in-the-fields. A phe buasai fyw ychydig yn hwy, dyrchafesid ef, meddir, i'r esgobaeth gyntaf a elai yn wàg. Bu rhai o'r un teulu yn wŷr enwog yn y gyfraith, ac yn farnwyr, o ddeutu dau gan mlynedd, neu ragor, yn ol.

SAUNDERS, WILLIAM. Mab ydoedd efe i Evan Saunders, amaethwr parchus yn Gwary-cwm, plwyf Llanllwni, yn sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef Ionawr 17eg, 1806. Derbyniodd ran o'i addysg dan yr enwog Davies, o Gastell Hywel, ac hefyd yn Ysgol Rammadegol Caerfyrddin. Gosodwyd ef, yn 1821, gyda Samuel Williams, o Aberystwyth, i ddysgu y gelfyddyd o argraphu; ac arosodd yno hyd 1829. Dangosodd, pan yn ieuangc, fod ynddo dalent gref at farddoni; a thua'r flwyddyn 1824, pan nad oedd ond 18eg mlwydd oed, ennillodd wobr a thlws arian yr Archddeon Benyon, yn Nghaerfyrddin, am y bryddest ddiodl oreu ar 'Y Gwanwyn.' Yn 1826, ennillodd y wobr a'r tlws am gyfansoddiad cyffelyb ar 'Yr Haf;' a thrachefn, yn 1827 ac 1828, gwobrwywyd ef am bryddestau ar 'Yr Hydref' a'r 'Gauaf.' Ystyrid pryddest y 'Gauaf' yn gyfartal i waith Daniel Ddu ar yr un testyn; a gwobrwywyd y ddau yn gyfartal. Yn 1828, ennillodd wobr arall am bryddest Bindaraidd ar 'Y Daran;' a'r flwyddyn ddilynol, cipiodd y llawryf am y cyfieithiad goreu o'r '*Deserted Village*,' gan Goldsmith. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas Gymreigyddion Aberystwyth; ynglŷn â'r hon yr ennillodd wobrau am awdl i'r 'Môr,' ac am gywydd ar 'Gastell Aberystwyth.' Yn 1830, symmudodd o Aberystwyth i Lanymddyfri, ar ddymuniad y Mri. R. a W. Rees; a bu yno hyd ei farwolaeth. Bu yn cynnorthwyo Mr. Blackwell fel is-olygydd y *Cylchgrawn*, a chyfieithodd amryw o'r erthyglau a ymddangosasant yn y cyhoeddiad adnabyddus hwnw. Cyhoeddwyd amryw o'i gynnyrchion yn y cylchgronau eraill a gyhoeddwyd gan y Mri. Rees—yn arbenig felly yn yr *Haul*, yn yr hwn y ceir ei gyfieithiadau o'r beirdd clasurol Horace a Homer. Wedi marwolaeth y Cadeirdraw Rees, pennodwyd ef i olygu yr argraphiad newydd o *Ganwyll y Cymry;* a bu yn gymmhorth nid bychan i ddwyn allan amryw o lyfrau gwerthfawr eraill o wasg enwog Llanymddyfri. Bu farw Mehefin 30ain, 1851; a chladdwyd ei weddillion yn mynwent Llandingad.

SANTA-ANNA, ANTONIO LOPEZ DE. Arlywydd Mexico. Ganwyd ef yn Jalapa, ar Chwef. 21ain, 1795. Wedi iddo wasanaethu

Digitized by Google

am beth amser yn y fyddin Yspaenaidd, ac, yn y cymmeriad o filwr, ymladd yn erbyn ei gydwladwyr ei hun, gwnaed ef gan yr Yspaenwr Iturbide yn frigadwr, ac yn llywodraethwr Vera Cruz. Yr oedd Iturbide wedi sefydlu llywodraeth ymherodrol dros Mexico; ond yn y fl. 1822, cyhoeddwyd gwerin-lywodraeth yno gan Santa-Anna, a dygwyd o amgylch gwymp ei nawddwr Iturbide. Yn 1828, efe a gododd derfysg yn y wlad, a gosododd Guerrero yn y gadair arlywyddol; ac yn 1829, gorchfygodd a chymmerodd yn garcharorion adran o filwyr Yspaenaidd a laniasant ger llaw lle o'r enw Tampico, gyda'r amcan o ddwyn Mexico eilwaith o dan lywodraeth Yspaen. Ar ol hyn, cymmerodd ran mewn cyfres o gynllwynion a arweiniasant i wrthryfel agored yn erbyn yr arlywydd Bustamente yn 1832; ac i'w etholiad ef ei hun i'r arlywyddiaeth. Er yn awyddus i sicrhau y gallu a'r awdurdod, ychydig o gariad feddai Santa-Anna at fanylion beichus a osodid arno gan y swydd; ac yn fuan, efe a ymneillduodd i'w balas yn y wlad, gan adael y gallu gweinyddol yn nwylaw yr îs-arlywydd. Yn mhen amser, aeth yr îs-swyddog hwn yn anhydrin—yn gymmaint felly fel na feddai Santa-Anna unrhyw ddylanwad arno. Y canlyniad o hyn fu, i Anna godi gwrthryfel i'w ddïorseddu; yn yr hyn y llwyddodd yn 1835, gan bennodi arall yn ei le. Yn debyg i hyn y treuliodd yr ugain mlynedd nesaf o'i oes. Pennodwyd ef, tua'r flwyddyn 1853, gan y gynghres yn arlywydd am ei oes. Ei lywodraethiad caled a gorthrymus ef a arweiniodd i amryw o wrthryfelon; ac yn 1855, gyrwyd ef allan o'r wlad, a chafodd nodded yn St. Thomas. Pan sefydlwyd yr ymherodraeth dan Maximilian, caniatawyd iddo ddychwelyd, ar yr ammod na byddai iddo ymyryd yn amgylchiadau gwleidyddol y wlad; ond nis gallai ymattal rhag cynllwyna a chyhoeddi yr hen broclamasiwn; ac felly, efe a anfonwyd drachefn i St. Thomas gan Bazaine. Nid oedd ei bennodiad yn uch-gadlywydd yr ymherodraeth yn ddigon o wobr i'w gadw yn ffyddlawn; ac o herwydd cynllwyna o hono yr ail waith yn erbyn Maximilian, bu raid iddo ffoi drachefn. Glaniodd mewn lle o'r enw Sisal ar ol hyn; ond daliwyd a phrofwyd ef, a dedfrydwyd ef i farwolaeth. Modd bynag, cafodd faddeuant, ar yr ammod fod iddo adael Mexico; a threuliodd y gweddill o'i fywyd yn benaf ar Ynys Stephen, New York—lle y mwynhäodd ei hun trwy gydfradu, ymladd ceiliogod, a chwareu cardiau, nes y caniatawyd iddo ddychwelyd yn ôl, yn 1872. Yno bu farw, Mehefin 20fed, 1876.

SAUMAREZ, JAMES, BARWN DE. Llywydd llyngesol enwog oedd efe, a anwyd yn St. Peter-Port yn Guernsey, Mawrth 11eg, 1757. Ymunodd â'r llynges pan yn 13eg mlwydd oed, a gwasanaethodd yn y rhyfel Americanaidd (1774—82). Ymladdodd gyda'r fath wroldeb yn yr ymosodiad ar Charleston (1775), fel y dyrchafwyd ef i fod yn îs-gadben. Yn y frwydr fythgofiadwy a fu rhwng y llyngesydd Saesneg Rodney a'r llyngesydd Ffrengig De Grasse (gwel d.g. RODNEY), Ebrill 12fed, 1782, yr oedd Saumarez yn llywyddu y rhyfel-long *Russell;* ac ennillodd anrhydedd trwy ei wroldeb a'i ymbwylledd. Ar yr 20fed o Hydref, 1793, llwyddodd i ddal y llong Ffrengig *La Réunion* gyda llestr llawer gwanach na hi; ac am y weithred feiddgar a llwyddiannus hon, rhoddwyd iddo urdd marchog. Cymmerodd ran flaenllaw yn mrwydr L'Orient, Mehefin 23ain, 1795; ac yn mrwydr Cape St. Vincent, Chwef. 14eg, 1795. Efe, hefyd, oedd yr ail mewn awdurdod yn mrwydr forawl y Nile—yn ystod yr hon y clwyfwyd ef yn ddifrifol. Yn 1801, gwnaed ef yn farwnig, ac yn ol-lyngesydd; ac yn ystod yr un flwyddyn, ymladdodd ei brif frwydr, yr hon a gymmerodd le y naill du i Cadiz, Gorphenaf 12fed. Gorchfygodd lynges unol Ffraingc ac Yspaen, yr hon a gynnwysai 14 o longau, gydag ysgwadron fechan o chwe llong. Collodd y gelyn dair o longau, a 3,000 o ddynion. Ystyrid y frwydr hon gan Nelson yn un o'r môr-frwydrau caletaf a ymladdwyd erioed. Derbyniodd Saumarez ryddid dinas Llundain, a diolchgarwch y senedd, am ei wrhydri. Yn y rhyfel a dorodd allan rhwng Sweden a Rwssia, yn 1809, efe oedd llywydd y llynges Brydeinig a anfonwyd i Fôr y Baltic i gynnorthwyo y Swediaid. Yn 1814, dyrchafwyd ef yn llyngesydd; ac yn 1821, i'r safle uchel o ôl-lyngesydd Prydain Fawr. Yn 1831, gwnaed ef yn bendefig. Bu farw yn Guernsey, Hydref 9fed, 1836.

SAVILE, SYR HENRY. Ysgolhaig dysgedig, a anwyd yn sir Gaerefrog, Tach. 30ain, 1549. Wedi graddio yn Rhydychain, a chael ei ethol i gymmrodoriaeth yn Ngholeg Merton, bu yn teithio ar y Cyfandir Ar ei ddychweliad, pennodwyd ef yn athraw mewn Groeg, a rhif a mesur, i'r frenhines Elizabeth; a chafodd amryw ddyrchafiadau eraill, ac urddwyd ef yn farchog yn 1604. Bu farw Chwef. 19eg, 1622. Tair blynedd yn flaenorol i'w farwolaeth, efe a sefydlodd gadeiriau meintoniaeth (*geometry*) a seryddiaeth yn Mhrifysgol Rhydychain, y rhai ydynt etto yn myned ar ei enw. Ei brif weithiau ydynt *Rerum Anglicarum Scriptores post Bedam præcipui* (1596); *Commentaries concerning Roman Warfare* (1598); *Fower Bookes of the Histories;* a'r *Agricola* (1581), ynghyd âg argraphiad rhagorol o weithiau St. Chrysostom, mewn wyth gyfrol.

SAWYL BENISEL. Yr oedd efe yn olynydd i'w dad Rhydderch, fel brenin Prydain, yn yr ail ganrif cyn Cred.

SAWYL BENUCHEL. Penaeth a flodeuai yn y chweched ganrif oedd efe; ac yr oedd yn fab i Pabo Post Prydain. Rhestrir ef yn y Trioedd, gyda Pasgen a Rhun, fel 'tri thräawg,' am ba rai y dywedir:—'a thrahausaf ar bob trahaus eu trahâ wynt, ac anhaws hyny dwyn difrawd ar Ynys Prydain; a'r ddifrawd hon a ddamgystlyses â'r Saeson, ac o'r diwedd myned yn Sacson.' Wedi iddo fel hyn golli ei gyfoeth a'i deyrnedd, efe a ymneillduodd i fynachlog Bangor Is-y-coed, pan yr oedd Dunawd yn brif fynach yno.

SCHALL, JOHANN ADAM VON. Cenhadwr Jesuitaidd i China, a anwyd yn Cologne, yn y fl. 1591. Ymunodd â'r urdd Jesuitaidd yn Rhufain, yn 1611; ac anfonwyd ef i'r maes cenhadol yn China, o blegid ei wybodaeth eang o seryddiaeth a mesuroniaeth. Bu ei glod fel ysgolhaig yn foddion iddo gael ei wahodd i'r llys ymherodrol yn Pekin, lle yr ymddiriedwyd iddo amryw orchwylion pwysig yn y ddinas

Digitized by Google

ynglŷn âg addysg, &c. Yr oedd efe wedi ennill meistrolaeth berffaith ar yr iaith Chineaidd, yn yr hon y casglodd ynghyd lawer o draethodau ac ysgrifeniadau ar byngciau gwyddonawl a chrefyddol. Y mae casgliad gwerthfawr o'i ysgrifau Chineaidd yn nghadw yn llyfrgell palas y Pab, yn Rhufain. Hefyd, ysgrifenodd yn Lladin lyfr ar hanes y cenhadon Jesuitaidd yn China (1655).

SCHEFFEL, JOSEPH VIKTOR VON. Bardd Ellmynaidd, a anwyd yn Carlsruhe, Chwefror 16eg, 1826. Wedi pum mlynedd o efrydu, ac o arfer y gyfraith fel galwedigaeth, efe a'i rhoes i fyny, ac ymadawodd i'r Eidal, lle y dechreuodd ymroi i fywyd llenyddol. Y llyfr cyntaf a ysgrifenodd ydoedd *Der Trompeter von Säkkingen, ein Sang vom Oberrhein* (1854)—yr hwn sydd fath o hanes mewn barddoniaeth am yr hyn a elwir y *Thirty Years War*. Ystyrir hwn yn gyfansoddiad rhagorol—a'r goreu, fe dybir, o'i holl ysgrifeniadau. Heb law yr uchod, ysgrifenodd amryw lyfrau poblogaidd eraill, ynghyd â rhyw gymmaint o gerddoriaeth—yn ganeuon a baledau; pa rai a genir, meddir, trwy holl Germany o ben-bwygilydd. Ar ei ddychweliad o Italy, ymsefydlodd yn ei dref enedigol, lle y bu farw Ebrill 9fed, 1886.

SCHELLING, FRIEDERICH WILHELM JOSEPH. Ganwyd ef yn Leonberg, yn Würtemberg, Ionawr 27ain, 1775. Bu yn efrydu duwinyddiaeth ac athroniaeth yn Mhrifysgol Tubingen; ac ar ol hyny, gwyddoniaeth, a rhif a mesur, yn Leipzig. Yn 1798, dechreuodd ei yrfa fel athraw mewn athroniaeth yn Mhrifysgol Jena. Yn y fl. 1803, priododd Carolina, gwraig ysgaredig A. W. von Schlegel. O 1803 hyd 1808, bu yn athraw yn Würzburg; yna, hyd 1820, yn ysgrifenydd yr Athrofa Gelfyddydol Frenhinol yn Munich; wedi hyny, yn athraw yn Erlangen hyd y fl. 1827, pryd y dychwelodd i Munich i'r brifysgol newydd yno. Yn 1841, o herwydd ei enwogrwydd fel athronydd, galwyd ef i Berlin, gan yr ymherawdwr Frederick William IV. Bu farw yn maddonau Ragaz, yn Switzerland, Awst 20fed, 1854.

Mewn erthygl feirniadol ar weithiau Schelling, dywed un awdwr galluog fod ei enwogrwydd yn gynnwysedig, nid am ei fod wedi sefydlu cyfundrefn o athroniaeth, ond am ei fod, trwy rym ei athrylith, wedi gallu byw trwy brif gwestiynau damcaniadol y dydd, ar ba rai y traethodd yn helaeth. Gellir dosranu ei gynnyrchion lliosog i dri o gyfnodau neillduol. Estyna y cyfnod cyntaf o 1797 hyd 1800—pan yr oedd Schelling yn benaf o dan ddylanwad yr athronydd Fichte. Estyna yr ail o 1801 hyd 1803—yn ystod yr hwn gyfnod yr oedd athroniaeth Spinoza a Boehme yn dylanwadu yn fawr arno. Y mae y trydydd cyfnod, a'r lleiaf gwerthfawr o honynt, yn cynnrychioli yr hyn a alwai Schelling ei hun yn dyfiant ei *Positive Philosophy*. Tua'r fl. 1809 yr oedd hyn, pan yr ymddangosodd ei waith athronyddol ar *The Inquiry into the Nature of Human Freedom*. Y mae ei holl gyfansoddiadau yn ymranedig i'r naill neu y llall o'r cyfnodau uchod. Yn mysg y gweithiau hyn, ceir y rhai a ganlyn:—*On the Possibility of any Form of Philosophy* (1795); *On the Ego as Principle of Philosphy; Letters on Dogmatism and Criticism* (1796–98); *The Philosophy of Nature; The World-Soul* (1797—99); *The System of Trascendental Idealism* (1800); *Method of Academical Study* (1803); *Bruno* (1803), &c. Yn chwanegol at y llyfrau uchod, bu yn golygu dau o gylchgronau pwysig a dylanwadol; sef, *Speculative Physics*, a'r *Critical Journal of Philosophy*. Yr oedd yr athronydd enwog Hegel yn gydolygydd âg ef.

SCHLEICHER, AUGUST. Ieithydd o fri, a anwyd yn Meiningen, Chwef. 19eg, 1821, ac a addysgwyd yn Mhrifysgolion Leipzig, Tübingen, a Bonn. Dechreuodd ddarlithio ar ieitheg gymmhariaethol yn y brifysgol olaf, yn 1846. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, galwyd ef i gadair yr ieithoedd Slafonaidd yn Mhrifysgol Prague. O 1857 hyd 1868, bu yn preswylio yn Jena, tref enwog arall am ei dysgeidiaeth, fel athraw anrhydeddus yn y brifysgol: ac yno y bu farw, Rhag. 6ed, 1868. Ysgrifenodd rai llyfrau dysgedig a gwir alluog ar wahanol ieithoedd a thafod-ieithoedd.

SCHLIEMANN, HEINRICH. Gŵr a wnaeth enw iddo ei hun fel archwiliwr safleoedd y ddwy ddinas enwog—Caerdroia (Troy) a Mycenæ. Brodor ydoedd o Neubuckow, yn Mecklenburg-Schwerin, lle y ganwyd ef Ionawr 6ed, 1822. Tra yn gwasanaethu mewn swyddfa marsiandwr, ac yn masnachu wedi hyny ar ei gyfrifoldeb ei hun yn St. Petersburg, daeth yn hyddysg yn rhai o brif ieithoedd Ewrop. Ennillodd gyfoeth mawr yn ei fasnach; ac yn 1870, dechreuodd gyssegru ei amser a'i arian i'r amcan o archwilio adfeilion Hissarlik, yn y Troad (Asia Leiaf). Cariodd y gwaith hwn yn mlaen am ddeuddeng mlynedd. Daliai allan mai yn y lle hwn y safai hen ddinas Caerdroia gynt. Am ei fod wedi cludo ymaith oddi yno yr holl gywrain-bethau a gododd i'r wyneb, a hyny yn groes i'w gyttundeb gyda llywodraeth Twrci, gorfodwyd ef, trwy ddedfryd yn y llysoedd Groegaidd, i dalu y swm o 2,000*p*. i lywodraeth Twrci. Ond cadwodd feddiant o'r hyn a gasglodd, er hyny; ac y maent yn awr yn nghadw mewn amgueddfa yn Berlin. Yn 1876, dechreuodd archwilio safle Mycenæ, yn Groeg; lle y darganfyddodd drysorau gwerthfawr. Dygodd i'r amlwg yno adeiladau o henafiaeth a phwysigrwydd mawr. Gwnaeth waith tebyg hefyd yn ynys Ithaca (1869—78); yn Orchomenus (1881—2); ac yn Tiryns (1884—85); ac y mae canlyniadau yr ymchwiliadau llafurfawr a chostus hyn wedi eu cofnodi ganddo mewn nifer o lyfrau galluog. Bu farw yn Naples, Rhagfyr 27ain, 1890, a chladdwyd ef yn Athens.

SCHNITZER, EDUARD. Adnabyddid ef yn fwy cyffredinol wrth yr enw EMIN PASHA. Ganwyd ef o rieni Iuddewig, mewn lle o'r enw Neisse, yn Silesia, Mawrth 28ain, 1840. Dygwyd ef i fyny i'r alwedigaeth feddygol, a graddiodd ynddi yn Mhrifysgol Berlin, yn 1864. Yn fuan wedi hyny, aeth i Twrci, gyda'r amcan o arfer ei alwedigaeth yno; ac hyd y fl. 1873, bu yn dal swydd ar ysgorddawd Hakki Pasha, yn Scutari. Yn ystod yr amser y daliodd y swydd hon, casglodd wybodaeth fanwl am Armenia, Syria, ac Arabia; a dyma'r pryd, hefyd, y mabwysiadodd efe yr enw Emin, ynghyd âg arferion â defion y Tyrciaid. Yn 1876, efe a ymunodd â'r gwasanaeth meddygol Aiphtaidd, dan yr

Digitized by Google

enw Dr. Emin Effendi. Aeth i Khartoum, o'r hon dref yr anfonwyd ef gan Ismail Pasha, y llywodraethwr cyffredinol, i diriogaethau y cyhydedd. Yna, pennodwyd ef gan Gordon Pasha (y Cadfridog Gordon), yn swyddog meddygol dros y Dalaeth Gyhydeddol *(Equatorial Province)*. Daliodd y pennodiad hwn hyd y fl. 1878; ond yn achlysurol, gwnai Gordon, yr hwn a goleddai syniad uchel am ei dalentau, ddefnydd mynych o'i wasanaeth i fyned ar negeseuau diplomyddol, ac ymdeithiau archwiliadol i wahanol ranau o'r wlad. Yn y fl. 1878, pennodwyd Emin, gan Gordon, yn llywodraethwr y Dalaeth Gyhydeddol; yr hon swydd a ddaliwyd ganddo nes y cyrhaeddodd Mr. H. M. Stanley, a'i ddilynwyr, yno yn 1889. Yn 1879, rhoddwyd i Emin yr anrhydedd o 'Bey;' ac yn 1887, dyrchafwyd ef i fod yn 'Pasha.'

Yr oedd ynddo, er pan yn ieuangc, duedd gref at ddysgu ieithoedd; a daeth yn hyddysg yn y Ffrangcaeg, y Saesneg, yr Italaeg, yr Arabaeg, ac hefyd yn iaith y Twrc. Yr oedd ganddo hefyd wybodaeth helaeth am amryw o'r ieithoedd Slafonaidd, ac ieithoedd canolbarth Affrica. Profir ei allu fel llywodraethwr a gweinyddwr gan y ffaith ddarfod iddo, am amryw flynyddau, a hyny heb gymmhorth neb, ddal ei dir mewn gwlad oedd megys tu hwnt i derfynau gwareiddiad. Daeth Emin yn hynod gydnabyddus âg arferion y bobl hanner gwareiddiedig y bu fyw yn eu mysg; ac o bossibl, nid oes neb wedi chwanegu mwy at ein gwybodaeth am lwythau canolbarth Affrica nag efe. Gwnaeth wasanaeth gwerthfawr hefyd i daflu goleuni ar hanes anianyddol *(natural history)* y gwledydd uchod; ac y mae yn ammhossibl rhifo y samplau a anfonodd o honynt yn awr ac eilwaith i Ewrop. Yr oedd un casgliad o'i eiddo, a anfonwyd i'r Amgueddfa Brydeinig yn 1878, yn cynnwys dros bymtheg cant o wahanol fathau o nadroedd, adar, ac ysgorpionau, &c., oedd i'w cael yn y wlad—amryw o ba rai oedd yn newydd ac anadnabyddus i wyddonwyr y wlad hon. Casglodd Emin hefyd laweroedd o samplau ar lysieuaeth; a bydd ei arbrawfiadau a'i archwiliadau yn y cyfeiriad hwn o werth mawr pan y deuir i ddiwyllio tir canolbarth Affrica. At hyn oll, llafuriodd yn galed i gasglu geiriau, a ffurfio geiriaduron i ieithoedd a thafod-ieithoedd y brodorion canlynol:—y Waganda, Wanyoro, Wahuma, Madi, Bari, a Mombuttu, &c. Pan gofir fod yr holl waith mawr hwn wedi ei gyflawni gan ddyn yr oedd cyfrifoldeb llywodraeth gwlad ëang yn gorwedd ar ei ysgwyddau, a'i fod, hefyd, fel pe wedi ei dori ymaith oddi wrth fanteision gwareiddiad, gellir ffurfio rhyw ddirnadaeth am yr athrylith ddiammheuol a feddai. Ychydig o duedd at filwriaeth oedd ganddo; ond profodd ei hun yn llywodraethwr effeithiol. Yr oedd yn elyn anghymmodlawn i'r caethfeistri; a llwyddodd, trwy nerth ei benderfyniad, i ddiddymu caethwasiaeth trwy yr oll o'r dalaeth. Ei brif ymgais oedd dwyn y bobl yr oedd yn preswylio yn eu mysg i fwynhau bendithion gwareiddiad; ac yn hyn, efe a lwyddodd yn rhyfeddol. Yn mis Rhagfyr, 1889, cyrhaeddodd Emin Zanzibar, gyda Mr. Stanley, a'r gosgorddlu a anfonwyd i ganolbarth y wlad i'w waredu. Tra yno, efe a gyfarfyddodd â damwain a fu bron yn angeuol iddo; ac oddi wrth effeithiau yr hon y dioddefodd am amser maith. Yr oedd ymgyrch Mr. Stanley wedi ei hanfon allan i'r pwrpas neillduol o'i waredu, am y tybiwyd fod ei sefyllfa yn y Dalaeth Gyhydeddol yn un dra pheryglus, ac mai gobaith gwan oedd iddo allu diangc oddi yno yn fyw. Pan yn Zanzibar, amlygodd Emin awydd i ddychwelyd; ac er pob ymgais o eiddo ei gyfeillion i geisio ei ddarbwyllo i ddyfod gyda hwynt i Ewrop, yr oedd ei gariad at y wlad hono mor fawr fel y trosglwyddodd ei wasanaeth i ddwylaw llywodraeth Germany; yr hon a'i hanfonodd yn ol i ganolbarth Affrica fel arweinydd cwmni cryf o anturiaethwyr. Gwnaeth gryn lawer ar ol hyn i estyn terfynau tiriogaethau Germany—yn neillduol felly yn nghymmydogaeth Llyn Victoria.

Yn Hydref, y flwyddyn ddiweddaf (1893), cyrhaeddodd y newydd i Brydain ei fod wedi ei frad-lofruddio gan un o'r brodorion; yr hyn, yn ol pob adroddiad dilys a gafwyd o Affrica, oedd yn wirionedd. Y mae y byd gwareiddiedig, gan hyny, yn awr yn gorfod dygymmod â'r golled o un o'r dynion mwyaf llafurus ac anturiaethus a drodd ei wyneb ar gyfandir tywyll Affrica erioed.

SCHOLTEN, JAN HENDRICK. Un o flaenoriaid yr ysgol newydd o dduwinyddion yn Holland, a anwyd yn Vleuter, ger Utrecht, Awst 17eg, 1811. Yn 1840, pennodwyd ef yn athraw duwinyddol yn Franeker, ac yn fuan ar ol hyn i swydd gyffelyb yn Mhrifysgol Leyden. Bu farw yn Leyden, Ebrill 10fed, 1885. Ysgrifenodd ei gyfansoddiadau, naill ai yn yr Isellmynaeg (*Dutch*), neu y Lladin; a chawsant gylchrediad helaeth mewn gwledydd eraill; a chyfieithwyd hwy i'r Ffrangcaeg a'r Ellmynaeg. Ei brif weithiau ydynt *Principles of the Theology of the Reformed Church; Historical and Critical Introduction to the New Testament; A Critical Study of the Gospel of John; The Oldest Witnesses to the Writings of the New Testament; The Oldest Gospel;* a'r *Pauline Gospel.*

SCHOMBURGK, SYR ROBERT HERMANN. Teithydd adnabyddus, genedigol o Freiburg, Meh. 5ed, 1804, oedd efe. Anfonwyd ef gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, yn 1835, ar hynt ymchwiliadol i Guiana Brydeinig. Er cymmaint yr anhawsderau, cyflawnodd ei waith yn foddhaol; a chyflwynodd ganlyniadau ei archwiliad, fel yr oedd yn myned yn mlaen, i'r gymdeithas. Yn ystod yr hynt hon, ar lanau yr afon Berbice, darganfyddodd y llysieuyn ardderchog hwnw, a elwir *Victoria Regia*. Ar ei ddychweliad i Loegr, yn 1839, cyhoeddodd ei *Travels and Researches in British Guiana* yn 1835—39. Yn 1840, dychwelodd i Guiana dan nawdd llywodraeth Prydain; ac ar ei ddychweliad, ar derfyn ei lafur, rhoddwyd iddo urdd marchog. Ysgrifenodd hanes yr hynt olaf hon dan y teitl *Description of British Guiana*. Yn 1847, cyhoeddodd lyfr rhagorol arall, *History of Barbadoes;* a'r flwyddyn ddilynol, cychwynodd allan i San Domingo, i'r hwn le y pennodwyd ef yn drafnoddydd, a chynnrychiolydd y llywodraeth Brydeinig. Bu farw Mawrth 11eg, 1865, yn Schöneberg, ger llaw Berlin.

SCHUYLER, PHILIP JOHN. Un o'r arweinyddion yn y Chwyldroad Americanaidd. Ganwyd ef yn Albany, Tach., 1733. Cymmerodd ran yn mrwydr Lake George, yn 1755; ac ymladdodd yn ddewr yn ystod ysgarmesoedd eraill yn Ngogledd America. Yr oedd yn aelod

Digitized by Google

o'r *Colonial Assembly* o'r fl. 1768, ac yn genad i'r Gyngres Gyfandirol yn y fl. 1775; yr hon a'i pennododd yn un o'r pedwar is-gadfridog cyntaf a ddewiswyd i'r swydd filwraidd uchel hono. Rhoddodd Washington y llywyddiaeth iddo ar y rhan ogleddol o New York. Ond pan yn parotoi i gymmeryd ei filwyr ar hynt i Canada, lluddiwyd ef gan ei iechyd; a bu gorfod iddo drosglwyddo y llywyddiaeth i ddwylaw y Cadfridog Montgomery. Bu o fawr wasanaeth mewn amryw swyddau pwysig eraill a ymddiriedwyd iddo gan lywodraeth ei wlad. Bu farw yn Albany, Tachwedd 18fed, 1804.

SCHWENKFELD, CASPAR VON. Sefydlydd sect Brotestanaidd. Ganwyd ef yn 1490, yn nhalaeth Silesia Isaf. Treuliodd flynyddoedd i efrydu yr Ysgrythyrau yn fanwl; daeth yn gydnabyddus â golygiadau John Huss; a thrwy ddewrder ysbrydol Luther yn Worms, ennillwyd ef yn llwyr a hollol i roddi ei gefnogaeth i'r Diwygiad mawr Protestanaidd. Yn y fl. 1525, gwnaeth ddadganiad cyhoeddus o'i ymlyniad wrth Luther, ac aeth i Wittenberg gyda'r amcan o ymddiddan âg ef; ond cafodd fod eu golygiadau yn gwahaniaethu yn fawr ar y bedydd a'r cymmun. Gwahaniaethai oddi wrth y Lutheriaid hefyd ar y priodoldeb o gyssylltu yr Eglwys Ddiwygiedig â'r wladwriaeth. Ni fynai efe gyfranogi ei hun o Swper yr Arglwydd, er nad oedd efe yn ei wahardd i eraill. Nid oedd efe yn bleidydd i fedydd babanod, chwaith; ond ni fynai, er hyny, gydnabod golygiad y Bedyddwyr ar fedydd credinwyr. Bu y rhai hyn, ynghyd â golygiadau eraill a ddaliai efe ar brif gwestiynau athrawiaethol y grefydd Gristionogol, yn foddion i ddwyn arno, yn yr amser cyffrous hwnw, adgasedd y Lutheriaid a'r Pabyddion. Alltudiwyd ef o diriogaeth y Duc o Liegnitz yn 1529; yr hyn a barodd iddo deithio i Ulm, Augsburg, Nuremberg, a Strasburg; ac ennillodd ddysgyblion yn mhob man yr elai iddo. Cyhoeddodd Luther achwyniadau difrifol i'w erbyn, a dygwyd amryw o gyhuddiadau anwireddus yn ei erbyn gan eraill; yr hyn oll a ddioddefodd gydag amynedd dihafal. Bu farw yn Ulm, Rhagfyr 10fed, 1561. Ysgrifenodd gynnifer a 90 o wahanol lyfrau:—y mwyafrif o ba rai a losgwyd gan y Protestaniaid a'r Pabyddion. Rhifai ei bleidwyr yn Germany dros 4,000; y rhai a alwent eu hunain yn Gyffeswyr, neu Ddilynwyr Gogoniant Crist. Yn 1734, ymfudodd deugain o deuluoedd o'i ddilynwyr i Loegr, ac ar ol hyny i Pennsylvania, yn ngogledd America, lle y maent yn parhau dan yr enw Schwenkfeldiaid hyd y dydd hwn.

SCOTT, DAVID. Arlunydd Ysgotaidd enwog, a anwyd yn Edinburgh, yn Hydref, 1806. Yn y fl. 1828, cafodd ei ddarlun cyntaf, *The Hopes of Early Genius dispelled by Death*, ei ddangos yn y Sefydliad Brenhinol yn Edinburgh; a'r flwyddyn ddilynol, etholwyd ef yn aelod o'r Athrofa Ysgotaidd a ffurfiwyd ychydig cyn hyny. Yn y fl. 1829, ymddangosodd darlun arall o'i eiddo, yn dwyn y teitl *Adam and Eve Singing their Morning Hymn;* ac yn 1831, ei ddarlun enwog, *Nimrod, the Mighty Hunter.* Parotowyd 25ain o ddarluniau godidog ganddo yn 1837, i egluro cân yr anfarwol Coleridge—*The Ancient Mariner.* Yn 1832, aeth ar ymweliad â Rhufain. Ac yn yr hon ddinas arosodd am bymtheng mis, gan dreulio ei amser i astudio gweithiau prif arlunwyr yr oesoedd gynt, ac i baentio rhai o'i ddarluniau godidocaf ef ei hun. Dychwelodd i Edinburgh pan tua 28ain oed, gan roddi i'r byd gyfres o arluniau a barasant syndod anghyffredin, gan faint eu gwreiddioldeb, a'u harddangosiad o alluoedd dychymygol eu hawdwr. Ychydig o gefnogaeth a dderbyniodd efe oddi ar law y cyhoedd, modd bynag; a thybir i hyn effeithio yn fawr ar ei iechyd. Bu farw Mawrth 5ed, 1849, yn yr oedran cymmharol ieuangc o 43ain mlwydd.

SCOTT, WINFIELD. Cadfridog Americanaidd, a anwyd ger Petersburgh, yn Virginia, Mehefin 13eg, 1786. Dygwyd ef i fyny yn fargyfreithiwr; ond gan fod ynddo duedd gref at fod yn filwr, efe a sicrhaodd swydd cadben yn y fyddin yn Mai, 1808. Yn fuan ar ol hyn, difreiniwyd ef am ysbaid o flwyddyn, am iddo wneuthur sylwadau ammharchus ar ei uchswyddog. Pan gyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Prydain Fawr, yn 1812, cafodd Scott, yr hwn oedd wedi ei ddyrchafu i fod yn is-filwriad, ei anfon i gyffiniau Canada. Croesodd ef, gyda'i wŷr, afon y Niagara yn Hydref, ac ymladdodd frwydr ffyrnig yn Queenstown. Cymmerwyd ef yn garcharor; ond yn mhen tri mis, rhyddhawyd ef. Yn Mai, 1813, archollwyd ef yn y frwydr a ddibenodd yn nghwymp Fort George, a thrachefn yn mrwydr Lundy's Lane, Gorph., 1814. Ar ol y frwydr ddiweddaf hon, dyrchafwyd ef i fod yn is-gadfridog. Bu yr ymdrechion i gymmeryd Canada yn fethiant; ond llwyddodd Scott i ennill anrhydedd a chlod am y gwroldeb personol a ddangosodd efe yn y cadymgyrch hwnw.

Yn ystod y cyfnod o heddwch a ddilynodd hyn, ymddiriedwyd y gwaith iddo o dynu allan 'Rheolau Cyffredinol' ar gyfer y fyddin. Yn 1841, rhoddwyd iddo brif lywyddiaeth y fyddin. Yn mhen chwe blynedd ar ol hyn, pennodwyd ef i arwain byddin y Talaethau ar ei hymgyrch ryfelgar i Mexico; ac ar y 12fed o Fawrth (1847), daeth gyda'i filwyr (12,000 o wŷr) hyd Vera Cruz. Cymmerodd y ddinas, a chastell cadarn San Juan d'Ulloa. Yna efe a symmudodd yn mlaen yn llwyddiannus nes y cafodd y cyttundeb heddwch ei lawnodi. Y mae ei glod fel milwr yn gorphwys ar y cadymgyrch llwyddiannus hwn.

Mewn gwleidyddiaeth, perthynai Scott i blaid y Whigiaid; ac yn 1852, efe oedd ymgeisydd y blaid hono am arlywyddiaeth y Talaethau; ond aflwyddodd. Parhaodd yn mhrif lywyddiaeth y fyddin hyd Tachwedd, 1861. Bu farw Mai 26ain, 1866, yn West Point, a chladdwyd ef yno.

SCRIVENER, FREDERICK HENRY AMBROSE. Beirniad ysgrythyrol enwog oedd efe, a anwyd yn Bermondsey, yn Surrey, Medi 29ain, 1813. Bu yn dal amryw swyddau a bywoliaethau yn yr Eglwys; ac yn ddiweddaf yn brebendiad yn mhrif eglwys Exeter. Yr oedd efe yn un o adolygwyr y Cyfieithiad Newydd o'r Testament Newydd o'r dechreu; ac am ei lafur gyda hyn, caniatawyd iddo, yn 1872, flwydd-dâl o 100*p.* o bwrs y llywodraeth (*civil list*). Yn 1872, anrhydeddwyd ef gan Brifysgol St. Andrews â'r urdd o LL.D.; ac yn 1876, â'r teitl o D.C.L. gan Brifysgol Rhydychain. Fe

Digitized by Google

ystyrir ei *Plain Introduction to the Criticism of the New Testament* (1861) yn waith safonol ar y pwngc. Yn mysg eraill o'i weithiau, ceir *Bezae Codex Cantabrigiensis* (1867); *Cambridge Paragraph Bible* (1870—71); *Six Popular Lectures on the New Testament Text* (1875). Bu farw yn Hendon, Hydref 26ain, 1891.

SECKER, THOMAS. Archesgob Caergaint o 1758 hyd 1768. Ganwyd ef yn Sibthorpe, yn swydd Nottingham, yn 1693. Anghydffurfiwr oedd ei dad, yn meddu ar ychydig gyfoeth; a'i ddymuniad ef ydoedd dwyn ei fab i fyny yn ngweinidogaeth ei enwad ei hun. Yn 1716, modd bynag, dechreuodd y bachgen efrydu meddyginiaeth; ac yn 1721, ennillodd radd meddyg yn Leyden. Yn y cyfamser, penderfynodd, ar annogaeth ei gydysgolor, Joseph Butler — wedi hyny yr Esgob Butler — gymmeryd urddau yn yr Eglwys Sefydledig. Bu yn dal y swyddi uchaf yn yr Eglwys. Wedi ei bennodi i amryw fywoliaethau pwysig, pennodwyd ef yn Esgob Bristol yn 1735, yn Esgob Rhydychain yn 1737, i ddeoniaeth St. Paul yn 1750, ac yn archesgob yn 1758. Yr oedd yn ddyn doeth, a hynaws, yn weithiwr diwyd, ac yn un o bregethwyr enwocaf ei oes. Bu farw Awst 3ydd, 1768.

SEDGWICK, ADAM. Ganwyd ef yn Dent, yn swydd Gaerefrog, yn y fl. 1785. Etholwyd ef yn broffeswr daeareg yn Mhrifysgol Caergrawnt yn 1818; ac am lawer o flynyddoedd, cymmerodd ran flaenllaw yn ymdrafodaethau Cymdeithas Ddaearegol Llundain — i'r hon y bu yn llywydd o 1829 hyd 1831. Y mae y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau yn gynnwysedig yn nghyhoeddiadau y gymdeithas hon. Un o'i brif gyfansoddiadau ydyw, *British Palæozöic Rocks and Fossils.* Mewn cydweithrediad â Murchison, treuliodd lawer o amser i efrydu daeareg Mynyddoedd yr Alpau, a'r hyn a elwir *The Devonian System* yn Lloegr. Yr oedd efe yn anghymmeradwyo syniadau hynod Darwin yn ei *Origin of Species.* Bu farw yn Nghaergrawnt, Ionawr 25ain, 1873.

SEFNYN. Bardd enwog, a flodeuai rhwng y blynyddoedd 1320 a 1370. Ganwyd ef yn Llanbabo, yn sir Fôn. Ceir tair o'i awdlau yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology.*

SEISYLLT BRIF-FWRCH. Bardd oedd efe, a fu byw rhwng 1160 a 1210. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau yn y *Myvyrian Archaiology.* Y mae yn mysg y cyfansoddiadau hyn ddwy o farwnadau—y naill i Iorwerth ab Owain, a'r llall i Owain Gwynedd.

SEITHENYN:—yr hwn a elwid hefyd yn SEITHENYN FEDDW—oedd frenin gwastadedd Gwyddno. Blodeuodd tua diwedd y bummed ganrif. Mab oedd efe i Seithenyn Hen, neu Seithyn Seidi, mab Plaws Hen, brenin Dyfed; yr hwn yntau oedd fab i Gwrtherin, pendefig o Rufain, a ddaeth i yru y Gwyddelod o Frowyr a Dyfed. Rhestrir Seithenyn yn y Trioedd gyda Geraint a Gwrtheyrn, fel 'tri carn-feddwon' Ynys Prydain. Pan mewn cyflwr eithafol o feddwdod, gadawodd i'r môr ddyfod trwy y llif-ddorau; y rhai oedd wedi cael eu gosod i fyny i fod yn ddiogelwch rhag dylifiant Cantre y Gwaelod; a gorlifwyd yr holl Gantre mewn canlyniad. Gelwir y lle yn awr yn Forgilfach Aberteifi; ond yn flaenorol i'w orlifiant, cynnwysai un ar bymtheg o ddinasoedd. Y preswylwyr a ffoisant rhag y trychineb i fynyddau Meirion ac Arfon, a lleoedd eraill nad oedd neb yn preswylio ynddynt. Tybir i'r galanasdra hwn ddigwydd yn y fl. 520. Meibion Seithenyn oeddynt Gwyndeg, Senewyr, Arwystli Gloff, Llibio, Tudglud, Merini, Gwynodl, Hoedloyw, Tudno, a Teneio. Daethant oll yn aelodau o Goleg Dunawd, yn Bangor-Is-y-coed. Gwneid cyfeiriadau mynych gan yr hen feirdd at alanasdra Cantre'r Gwaelod. Y mae un bryddest o waith Gwyddno yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology.*

SELIM I. Sultan Twrci, mab i Bajazet II. Ganwyd ef yn y fl. 1467, a diorseddodd ei dad trwy gynnorthwy Janizaries, Ebrill 25ain, 1512. Wedi sicrhau yr awdurdod, rhoddes orchymyn ar fod ei dad, ei frodyr, a pherthynasau eraill iddo, yn cael eu rhoddi i farwolaeth. Yr oedd efe yn ŵr rhyfelgar, dïegwyddor, a phenboeth. Yn 1514, wedi llofruddio deugain mil (40,000) o'r bobl a elwir Shütes, cyhoeddodd ryfel yn erbyn yr ymherawdwr Ismail o Persia; yr hwn a orchfygwyd ganddo mewn lle o'r enw Chaldiran yn nghymmydogaeth Tabriz, drwy yr hon y daeth i feddiant o dalaethau Diarbekir a Kurdistan. Yn 1517, gorchfygodd y Mamelukiaid—llywodraethwyr yr Aipht; a chyssylltodd y wlad hono, ynghyd â Syria a Hejaz, â'i feddiannau. Yn chwanegol at hyn, ennillodd oddi ar y penaeth Abbaside—yr hwn, y pryd hwnw, a breswyliai fel 'tywysog ysbrydol' yn Cairo—y safle uchaf yn y byd Mahometaidd; sef, y teitl o '*imam*,' a'r cymmeriad o brophwyd. Cymmerodd hefyd feddiant o drefi 'sanctaidd' Mecca a Medina. Bu farw Medi 22ain, 1520, tra yn perffeithio cynlluniau ei gadymgyrch yn erbyn y bobl a elwid y Rhodiaid. Dilynwyd ef ar yr orsedd gan ei fab Soliman.

SELWYN, GEORGE AUGUSTUS. Ganwyd ef Ebrill 5ed, 1809. Yn 1841, tra yn dal curadiaeth Windsor, pennodwyd ef yn esgob cyntaf New Zealand a Melanesia; ac ar ei fordaith yno, efe a astudiodd forwriaeth, ac iaith y Maoriaid, fel y gallai bregethu i'r brodorion yn eu tafodiaith eu hunain ar ei laniad yno, a morio ei long ei hun ar ei fordeithiau cenhadol. Ymwelodd â phob rhan o'i esgobaeth ëang, cyn dechreu ar y gwaith llafurfawr o ad-drefnu y cyfryw. Yn y fl. 1867, yr oedd yn bresennol yn y Synod Pan-Anglicanaidd yn Lambeth, yn Lloegr; ac yn erbyn ei ddymuniadau ei hun, pennodwyd ef yn esgob Lichfield. Yn y ddinas hono, cyfarfu y gynnadledd esgobaethol gyntaf; yn yr hon y caniatawyd i lëygwyr fod yn bresennol; yr hyn a ddygwyd o amgylch trwy yr Esgob Selwyn ei hun. Bu farw yn Lichfield, Ebrill 11eg, 1878.

SELYF, ydoedd fab i Cynan Garwyn, mab i Brochwel Ysgythrog, penaeth o Bowys; yr hwn oedd yn byw tua chanol y chweched ganrif. Rhestrir ef yn y Trioedd gydag Afaon, a Gwallawg, fel 'tri aerfeddawg,' am eu bod yn dïal eu hunain ar eu gelynion o'u beddau.

SEMLER, JOHANN SALOMO. Un o'r duwinyddion Ellmynaidd mwyaf dylanwadol yn y ddeunawfed ganrif. Ganwyd ef Rhagfyr

Digitized by Google

18fed, 1725, yn Saalfeld, yn Thuringia, ac addysgwyd ef yn mhrifysgol enwog Halle. Yn 1752, pennodwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth yn y brifysgol—lle y dysgodd gyda llwyddiant mawr. Efe a fu farw yno Mawrth 14eg, 1791. Mwynhaodd am flynyddoedd lawer boblogrwydd anarferol fel proffeswr; ac yr oedd ei ddylanwad yn y byd duwinyddol yn gyfryw fel y gelwid ef yn 'dad beirniadaeth ysgrythyrol.' Efe oedd un o'r duwinyddion cyntaf a geisiodd gadw duwinyddiaeth ar wahân oddi wrth draddodiad. Fel meddyliwr, yr oedd efe yn ddiffygiol mewn cyssondeb athronyddol ac ëangder golygiadau. Ysgrifenodd nifer fawr o lyfrau a ystyrir yn ddibwys yn y dyddiau hyn.

SENYLLT. Mab Cedig ab Dyfnwal Hen; yr hwn oedd dywysog a flodeuodd tua diwedd y bummed ganrif. Efe oedd tad Nudd Hael.

SERVIA. Cwel cyf. x.

SHADRACH, AZARIAH. Gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Aberystwyth oedd efe. Ganwyd ef yn Garndeilo fach, ger Abergwaun, yn sir Benfro, Mehefin 24ain, 1774. Cafodd ei ddychwelyd at grefydd dan weinidogaeth y Parch. J. Phillips, gweinidog Trewyddel; âg eglwys yr hwn yr ymunodd. Wedi iddo, trwy gryn ymroddiad a llafur, gyrhaedd mesur lled helaeth o wybodaeth ysgrythyrol, annogwyd ef i ddechreu pregethu. Tua diwedd 1802, urddwyd ef yn Hen Gapel Llanrwst; ac am bedair blynedd, bu yn llafurio yn ymroddgar yn y dref hono a'r cylchoedd. Oddi yno, symmudodd i Dal-y-bont, a Llanbadarn Fawr, yn Ngheredigion, lle yr arosodd am tua phedair-blynedd-ar-ddeg. Y lle nesaf yr aeth iddo oedd Aberystwyth; yn yr hon dref y llwyddodd i sefydlu eglwys Annibynol; a thrwy lawer o ymdrech, casglodd ddigon o arian i godi addoldy da yn y dref. Lafuriodd yn galed hefyd ynglŷn â llenyddiaeth. Cyhoeddodd un ar hugain o lyfrau, y rhai a gawsant gylchrediad helaeth. Bu farw Ionawr 12fed, 1844, yn 69ain mlwydd oed.

SHAFTESBURY, ANTHONY ASHLEY COOPER, Iarll. Ganwyd ef Gorph. 22ain, 1621, yn Wimborne St. Giles, yn swydd Dorset—cartref tad ei fam, sef Syr Anthony Ashley, yr hwn a fu am ysbaid yn ysgrifenydd y cyfringynghor. John Cooper, o Rockborne, yn swydd Hamps, oedd ei dad; ac efe oedd ei fab hynaf. Gwnaed ei dad y flwyddyn ddilynol yn farwnig. Bu ei fam farw yn 1628, a'i dad yn 1631; ac yna, daeth yntau i feddiant o'r etifeddiaeth. Addysgwyd ef yn Ngholeg Exeter, Rhydychain, ond ymadawodd oddi yno heb gymmeryd graddau. Priododd dair gwaith; ond ni anwyd iddo ond dau fab (o'i ail wraig—chwaer Iarll Exeter)—a bu un o honynt farw pan yn blentyn. Yn y fl. 1640, etholwyd ef i'r senedd yn aelod dros Tewkesbury; ond nid oedd ganddo sedd yn y Senedd Hir. Yn 1643, daliai swydd milwriad yn myddin y brenin; ond wedi gwasanaethu ynddi am ddeng mis, aeth drosodd at blaid y senedd. Bu yn llywydd ar filwyr y senedd yn swydd Dorset am naw mis; ac yna, o 1645 hyd 1652, treuliodd ei amser yn lled heddychol a thawel ar ei etifeddiaethau. Yn y fl. 1653, dychwelwyd ef i'r hon a elwir 'Senedd Barebone' (*Barebone's Parliament*), a phennodwyd ef yn un o aelodau Cynghor Gwladol Cromwell. Modd bynag, yn 1655, ymunodd â'r Wrthblaid; ac yna, yn 1677, yr oedd yn mysg y rhai mwyaf blaenllaw yn hawlio adferiad y frenhiniaeth. Yr oedd efe yn un o'r deuddeg dirprwywr a anfonwyd i Breda, i wahodd Siarl II. gartref. Am y gwasanaeth hwn, gwnaed ef yn gyfringynghorwr (1660); a'r flwyddyn ddilynol, yn Farwn Ashley, ac yn ganghellydd y trysorlys. Profodd ei hun yn weinidog diwyd a gofalus; rhoddodd ei gefnogaeth i'r rhyfel â Holland; ac ar ol cwymp llywodraeth Arglwydd Clarendon, yn 1667, ymgyssylltodd â Buckingham; a chyfrifwyd ef yn un o'r aelodau a elwir y *Cabal*. Rhoddwyd yr enw hwn i'r weinyddiaeth waradwyddus a ffurfiwyd yn nheyrnasiad Siarl II., ar ol diswyddiad Iarll Clarendon. Dynodai bwyllgor neu weinyddiaeth ddirgel—ac yr oedd llythyrenau cyntaf enwau y gwladweinwyr a'i ffurfiodd yn gwneyd i fyny y gair *Cabal*. Y gwladweinwyr hyn oedd Clifford, Arlington, Buckingham, Ashley-Cooper (Barwn Shaftesbury), a Lauderdale. Yn 1672, dyrchafwyd Shaftesbury i fod yn iarll, ac yn arglwydd ganghellydd. Profodd ei hun yn ganghellydd teg ac uniawn. Yn y fl. 1673, efe a bleidiodd Brotestaniaeth, ac a gefnogodd y *Test Bill*—yr hwn fesur, a'r helynt ynglŷn âg ef, a brofodd yn ddiwedd i'r weinyddiaeth uchod.

Ar Hydref 9fed, yn yr un flwyddyn, bu raid iddo roddi i fyny y ganghelliaeth; ac yna, gwnaeth ei hun yn enwog trwy ddyfod allan yn erbyn Danby (y Duc o Leeds), yn benaf fel cefnogydd aiddgar rhyddid yr Anghydffurfwyr, gan broffesu amddiffyn iawnderau cenedlaethol preswylwyr y deyrnas yn gyffredinol. Yn mis Chwefror, 1677, am wneuthur o hono wrthdystiad beiddgar yn erbyn gohiriad y senedd, dacth i wrthdarawiad â'r goron; a bwriwyd ef i'r Twr. Bu yno am ddeuddeng mis. Gwnaed y fl. 1678 yn fythgofiadwy gan yr hyn a elwir y *Popish Plot*—enw a roddir mewn hanesiaeth ar gydfradwriaeth dychymygol o du y Pabyddion yn erbyn Siarl II., a'i lywodraeth. Cododd y dadguddiedigaethau echryslawn a wnaed gan Titus Oates am fwriadau llofruddiog y Pabyddion yn erbyn y brenin—pa rai nad oeddynt ond dychymygol—gyffro a helynt annaele yn y wlad; a chymmerodd Shaftesbury fantais lawn ar y cyffro hwn i erlid y Pabyddion mewn modd eithafol. Am amser, ymddangosai llwyddiant fel pe yn dilyn ei holl weithredoedd. Dilynwyd cwymp ei wrthymgeisydd Danby gan ei bennodiad ef yn llywydd y cyfrin-gynghor newydd o ddeg ar hugain o aelodau, a bennodwyd yn Ebrill, 1679, i gario yn mlaen lywodraeth y wlad. Yn fuan ar ol hyn, dygwyd yr hyn a elwir yr *Exclusion Bill* i mewn i'r senedd—yr hwn oedd wedi ei amcanu i ddadgan fod James, y Duc o Gaerefrog, yn anghymmhwys i'r goron, o herwydd ei Babyddiaeth. Rhoddodd Shaftesbury ei gefnogaeth i'r mesur; yr hyn a fu yn achos iddo golli ffafr y brenin. Ond yn ystod y tymmor byr y bu yn y swydd, cafodd deddf yr *Habeas Corpus*—un o'r cyfreithiau mwyaf teg ac adnabyddus—ei phasio; yr hon, ar y pryd, a elwid yn Ddeddf Arglwydd Shaftesbury. Yn y fl. 1680, gwnaeth ymgais i gyhuddo y Duc o Gaerefrog fel un oedd wedi ymwrthod â Phabyddiaeth; ond lluddiwyd ef yn ei amcan gan y barnwyr. Yn 1681, cyfarfyddodd y senedd yn Rhydychain, ac ymddangosodd Shaftesbury ynddi gyda nifer fawr o wŷr arfog. Parodd hyn, ynghyd â'r celwyddau

Digitized by Google

cywilyddus a ledaenwyd gan Titus Oates, ac eraill, iddo golli cryn lawer o'i ddylanwad; ac yn Gorphenaf yr un flwyddyn, anfonwyd ef i'r Tŵr, ar y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth. Dygwyd ef i brawf; ond o blegid i'r rheithwyr anghredu y cyhuddiad yn ei erbyn, rhyddhawyd ef. Ar ol hyny, dechreuodd gynllwyn gyda Sydney, Russell, a gwladweinwyr enwog eraill, i geisio dwyn oddi amgylch gyfnewidiad yn y llywodraeth, gyda'r bwriad, fe dybir, o osod Monmouth ar yr orsedd. Darganfyddwyd y brâd; a bu raid i Shaftesbury, er iddo allu ymguddio am rai wythnosau, ddiangc drosodd i Holland. Cymmerodd hyn le ddechreu Rhagfyr, 1682. Yn mhen tua dau fis—Ionawr 22ain, 1683, bu farw yn Amsterdam; ond dygwyd ei gorph i Loegr i'w gladdu.

SHAFTESBURY, ANTHONY ASHLEY COOPER:—y trydydd iarll. Yr oedd efe yn ŵyr i'r iarll blaenorol, a ganwyd ef yn Llundain, Chwef. 26ain, 1671. Yr oedd efe yn fab i'r ail iarll; a'i fam ydoedd yr Arglwyddes Dorothy Manners, merch Iarll Rutland. Derbyniodd ran o'i addysg dan yr enwog Locke; ac wedi hyny yn Winchester: ond nid oedd ei fywyd yn y coleg yn un hapus, am fod ei gydefrydwyr yn edliw iddo weithredoedd ei daid enwog. Yn ddilynol i'w ymadawiad o'r coleg, bu ef, a dau fachgen arall, yn teithio gyda'u hathraw yn yr Eidal, Germany, a Ffraingc; ac ar ei ddychweliad, ymroddodd i barhau ei efrydiau. O'r fl. 1695 hyd 1698, bu yn aelod Whigaidd o'r senedd dros Poole; ond o herwydd sefyllfa anfoddhaol ei iechyd, darfu â gwleidyddiaeth, a throdd ei sylw at lenyddiaeth. Bu farw yn Naples, yn Chwefror, 1713.

SHAFTESBURY, ANTHONY ASHLEY COOPER:—y seithfed iarll. Ganwyd ef yn Llundain, Ebrill 28ain, 1801. Derbyniodd argraphiadau crefyddol dwys dan ddylanwad Maria Mills — gwasanaethyddes ffyddlawn y teulu; a pharasant tra y bu efe byw. Tra yn dwyn y teitl o Arglwydd Ashley, bu yn cynnrychioli Woodstock yn y senedd, o 1826 hyd 1830; ac wedi bwrw ei goelbren gyda'r Ceidwadwyr, a arweinid y pryd hwnw gan Iarll Liverpool, a Canning, ffurfiodd gyfeillgarwch agos â'r Duc o Wellington—dan yr hwn y pennodwyd ef i'r swydd o ddirprwywr ar fwrdd llywodraeth yr India (1828). Yn 1834, gwnaed ef yn arglwydd y morlys, dan Peel. Pedair blynedd yn flaenorol—sef yn 1830—efe a briododd Emily, merch i'r pummed Iarll Cowper; o'r hon y ganwyd iddo chwech o feibion a phedair o ferched. O'r fl. 1830 hyd y fl. 1831, cynnrychiolodd Dorchester; o 1833 hyd 1846, Dorset; a Bath, o 1847 hyd 1851—pan y dyrchafwyd ef i dŷ yr arglwyddi fel olynydd i'w dad. Ystyrir ef yn un o ddyngarwyr enwocaf y ganrif hon; ac yn mysg ei ymdrechion cyntaf at ddwyn oddi amgylch ddiwygiadau dyngarol, yr oedd dau fesur yn neillduol. Amcan un oedd dwyn y gwallgofdai dan reolaeth; ac amcan y llall oedd sierhau gwell triniaeth i'r gwallgofiaid yn y sefydliadau hyny. A bu y mesurau hyn yn foddion i effeithio cyfnewidiadau pwysig yn sefyllfa y gwallgofiaid. O'r fl. 1828 hyd ei farwolaeth, yn y fl. 1885, bu yn gweithredu fel cadeirydd y ddirprwyaeth ar wallgofrwydd—cyfnod o 57ain mlynedd. Fe arddangosodd cryn ddyddordeb yn y ddeddf a basiwyd yn 1840, er attal i fechgyn gael eu cyflogi fel ysgubwyr simneiau; a gweithiodd yn egnïol am gyfnod o bedair blynedd ar ddeg ar ran mesur oedd â'i amcan i gyfyngu oriau gweithio merched a phobl ieuaingc i ddeng awr yn y dydd. Ond ni wnaed y mesur yn ddeddf hyd 1847, pan y digwyddai ei arglwyddiaeth fod heb sêdd yn y senedd. Gwrthododd ymuno â gweinyddiaeth Syr Robert Peel yn 1841, am iddo wrthod rhoddi ei gydsyniad i fesur y deng awr. Ond yn 1846, rhoddodd ei gefnogaeth i Peel yn ei ymdrech i ddiddymu deddfau yr ŷd; yr hyn fu yn achos iddo golli ei sêdd dros swydd Dorset. Y brif araeth a draddododd efe yn y senedd oedd mewn cyssylltiad â Mesur y Mŵnau a'r Glöfeydd yn y fl. 1842. Y flwyddyn hono, pasiwyd mesur i ddiddymu prentisiaeth mewn mwngloddiau, ac i attal merched, ynghyd â bechgyn dan 13eg, rhag gweithio dan y ddaear. Efe hefyd oedd cadeirydd y ddirprwyaeth ymchwiliadol a arweiniodd i Eangiad Deddf y Maelfeydd yn 1867 (*Factory Acts Extension Act*), a deddfau pwysig eraill yn dwyn cyssylltiad â sefyllfa y dosbarth gweithiol. Yn 1843, ymunodd â'r symmudiad o blaid yr Ysgolion Carpiog (*Ragged Schools*). Wedi ymwadu â phob pleserau yr oedd y bendefigaeth yn eu dilyn, treuliodd weddill ei fywyd i hyrwyddo amcanion daionus o bob math. Byddai yn ammhossibl rhoddi rhestr gyflawn o'r cymdeithasau crefyddol a dyngarol y rhoddodd Argl. Shaftesbury ei gefnogaeth iddynt; ac yr oedd y llafur a gymmerai gyda phob symmudiad oedd â'i duedd i lesoli a dyrchafu ei gyd-ddyn, wedi ennill iddo y cymmeriad o fod yn un o ddyngarwyr blaenaf ei oes. O'i ymdrechion ef y tarddodd cynlluniau Peabody i ddarparu gwell tai i'r dosbarth gweithiol yn Llundain. Gwasanaethai ei arglwyddiaeth yn fynych fel cynghorydd Argl. Palmerston, pan yn gwneyd ei bennodiadau Eglwysig; ac ymgynghorid âg ef hefyd mewn materion pwysig gan y frenhines a'r Tywysog Cydweddog. Efe oedd un o gefnogwyr ffyddlonaf y Feibl Gymdeithas. Bu yn llywydd arni am lawer o flynyddoedd; a theimlwyd ei golli yn fawr yn ei chyfarfodydd blynyddol yn Neuadd Exeter yn Llundain. Yn 1878, anrhydeddwyd ef â rhyddid dinas Edinburgh, a gwnaeth Llundain yn gyffelyb yn 1884. Bu farw yn Folkestone, Hydref 1af, 1885; a chodwyd cofadail iddo yn Neuadd Westminster.

SHAMMAI. Doethawr enwog yn y gyfraith Iuddewig yn amser Herod oedd efe; penaeth ar ysgol bwysig, a phrif farnwr y Sanhedrim yn ystod llywyddiaeth Hillel. Ychydig o hanes ei fywyd sydd yn wybyddus; ond fe'i ganwyd, yn ol pob tebyg, yn Palestina; ac y mae yn lled sicr iddo gymmeryd rhan flaenllaw ynglŷn â'r cwestiynau gwleidyddol a chrefyddol a gynnhyrfent y wlad yn yr oes foreuol hono. O ran ei olygiadau crefyddol, yr oedd efe yn hynod gaeth a llymdost.

SHARPE, SAMUEL. Ysgolhaig Beiblaidd oedd efe, a anwyd yn Llundain, Mawrth 8fed, 1799. Yr oedd efe yn un o ddisgynyddion Philip Henry; ac yn nai i Rogers y bardd—yn ariandy yr hwn y bu yn gweithio hyd yn 60ain ml. oed. Er pan yn ieuangc, dechreuodd dalu sylw neillduol i hynafiaethau yr Aipht, a hynodion eraill cyssylltiedig â'r wlad enwog hono.

Digitized by Google

Ysgrifenodd lyfr dysgedig a galluog fel ffrwyth ei ymchwiliadau; sef, *Egyptian Inscriptions.* Ei weithiau eraill oeddynt, *A History of Egypt* (1846); *A History of the Hebrew Nation and Literature* (1869); ac ysgrifeniadau ar Rammadeg Hebraeg; ac Amseryddiaeth Epistolau Paul, &c., &c. Undodwr oedd efe o ran ei syniadau crefyddol. Bu farw yn Highbury, Gorph. 28ain, 1881.

SHEIL, RICHARD LALOR. Gwladgarwr ac areithydd Gwyddelig hynod o alluog oedd efe. Ganwyd ef yn Drumdowney, yn swydd Tipperary, ar Awst 17eg, 1791. Marsiandwr llwyddiannus o Cadiz oedd ei dad; a dychwelodd i'r Iwerddon pan oedd y mesurau creulawn yn erbyn y Pabyddion yn cael eu diddymu. Cymmerodd ei raddau yn Ngholeg y Drindod, Dublin, yn Gorph., 1811; ac yn Nhachwedd, yr un flwyddyn, dechreuodd efrydu y gyfraith yn Lincoln's Inn. Galwyd ef at y bàr Gwyddelig yn 1814. Treuliodd yr ychydig flynyddau nesaf mewn llafur llenyddol, gan ysgrifenu amryw chwareugerddi a berfformiwyd gyda chryn lwyddiant yn Nublin a Llundain. Yn y fl. 1822, ymddangosodd ei *Sketches of the Irish Bar*—y rhai a ysgrifenwyd ganddo ef, a Curran yr ieuangaf, y rhai a gyhoeddwyd yn y *New Monthly Magazine.* Yn 1823, ymunodd Sheil â Chymdeithas Babyddol O'Connell; yr hon a ddiddymwyd yn 1825. Wedi i dŷ yr arglwyddi daflu allan y *Catholic Relief Bill*, Mai, 1825, efe a fu o gryn gymmhorth i O'Connell yn ffurfiad y Gymdeithas Babyddol Newydd; ac yn ystod yr ysbeidiau o gyffro fu yn yr Iwerddon yn ddilynol i hyny, traddododd rai o'r areithiau hyawdlaf a mwyaf gwladgarol sydd yn awr ar gôf a chadw. Wedi i'r Pabyddion sicrhau eu rhyddfreiniad—yr hyn a gymmerodd le yn y flwyddyn 1829—dilynodd Sheil ei alwedigaeth gydag ymroddiad mwy. Etholwyd ef i'r senedd dros Milborne Port, yn swydd Dorset; yna drachefn dros Louth, yn 1831; ac wedi hyny, bu yn eistedd dros Tipperary a Dungarvan. Yn 1834, dygwyd cyhuddiad difrifol i'w erbyn gan Argl. Althorp, yr hwn a ddywedai ddarfod iddo, yn gyfrinachol, roddi ei gefnogaeth i Fesur Gorfodol 1833, tra yn proffesu yn gyhoeddus ei fod yn wrthwynebol iddo. Fe chwiliwyd i mewn i'r cyhuddiad hwn gan bwyllgor rhagorfreintiau tŷ y cyffredin; a chafwyd nad oedd un sail i'r cyhuddiad. Yn 1839, cafodd Sheil ei bennodi yn is-lywydd bwrdd masnach yn llywodraeth Argl. Melbourne, a chyda hyny yn aelod o'r cyfrin-gynghor. Efe oedd y Pabydd cyntaf a ennillodd yr anrhydedd hwn. O dan Argl. John Russell, yn 1846, pennodwyd ef yn Feistr y Bathfa (*Mint*); ac yna, yn 1850, yn gynnrychiolydd Prydain yn Florence. Gwaelodd ei iechyd yn fawr; ac yno y bu farw, yn 1851.

SHELBURNE, WILLIAM PETTY, IARLL. Mab oedd efe i'r iarll cyntaf o'r un enw, ac ŵyr, o du ei dad, i'r enwog Syr William Petty. Ganwyd ef yn Nublin, Mai 20fed, 1737. Etholwyd ef, yn 1761, i'r senedd dros fwrdeisdref Wycombe; ond ni ddaliodd efe y sedd ond am ychydig wythnosau, gan iddo, trwy farwolaeth ei dad, gael ei ddyrchafu i dŷ yr arglwyddi. Pan olynwyd Bute gan George Grenville yn 1763, dewiswyd Argl. Shelburne yn llywydd y bwrdd masnach; a phan y ffurfiodd Iarll Chatham ei ail weinyddiaeth yn y fl. 1766, fe'i gwnaed ef yn un o brif ysgrifenyddion y wladwriaeth *(secretary of state).* Pan gwympodd gweinyddiaeth Argl. North, yn 1786, anfonodd Sior III. am Shelburne, i geisio ganddo ffurfio gweinyddiaeth; ac iddo ef ei hun fod yn brif weinidog ynddi. Am nad oedd efe yn arweinydd plaid, efe a wrthododd; ond anfonwyd ef gan y brenin at yr Ardalydd Rockingham, gan gynnyg i'r olaf fod yn brif weinidog, ac iddo yntau ei hun (Shelburne) gymmeryd un o'r prif swyddi yn y weinyddiaeth. Ond cyn hir, gwelwyd fod Shelburne yn fwy o wrth-ymgeisydd i Rockingham nag yn gydweithredydd; ac ar farwolaeth Rockingham, yn y mis Gorphenaf dilynol, anfonodd y brenin ar unwaith am Shelburne, gan gynnyg iddo y swydd o brif weinidog. Ymddiswyddodd Fox mewn canlyniad, a chymmerodd Shelburne fantais ar y cyfleusdra i wneyd William Pitt, yr hwn nad oedd etto yn 23ain oed, yn ganghellydd y trysorlys. Pan hysbysodd y brenin ei benderfyniad i ganiatau eu hannibyniaeth i'r Trefedigaethau Americanaidd, cafodd gweinyddiaeth Shelburne eu hunain mewn lleiafrif; yr hyn a ddygwyd o amgylch trwy ymuniad pleidiau Fox ac Argl. North (Chwefror, 1783). Ymddiswyddodd Shelburne, a chymmerwyd awenau y llywodraeth gan y weinyddiaeth undebol *(coalition ministry);* yr hon, pa fodd bynag, a dorodd i fyny yn fuan. Disgwyliodd y wlad y byddai i'r brenin, yn yr argyfwng hwn, anfon am Iarll Shelburne; ond rhoddwyd yr anrhydedd i'r gwleidydd ieuangc, William Pitt. Yr oedd hyn yn gryn siomedigaeth i Shelburne; ond ymdawelodd o herwydd iddo gael ei ddyrchafu radd yn uwch yn y bendefigaeth, gyda'r teitl o Ardalydd Lansdowne. Digwyddodd hyn yn 1784; a threuliodd yntau weddill ei ddyddiau mewn neillduaeth. Bu farw yn Bowood Park, yn swydd Wilts, Mai 7fed, 1805.

SHEPPARD, JACK. Ganwyd ef yn Stepney, yn y fl. 1702; a phan yn ddeuddeg oed, rhwymwyd ef fel egwyddorwas gyda saer coed, yn Wych street, yn Drury Lane. Dilynodd yr alwedigaeth hon am tua chwe blynedd; ond disgynodd i gwmni drwg, a dechreuodd ddilyn llwybrau drygionus. Yn Gorphenaf, 1720, cyflawnodd y cyntaf o'r lliaws lladradau a wnaeth ei enw yn enwog yn mysg drwg-weithredwyr y wlad. Yn y flwyddyn 1724, daliwyd ef bedair gwaith, ond llwyddodd i ddiangc bob tro. Ar y trydydd achlysur, llwyddodd i agor chwech o ddrysau cedyrn yn ngharchar Newgate. Pan ddaliwyd ef y bummed waith, gadawodd ffawd ef; a chafodd ei grogi yn Tyburn, Tachwedd 18fed, yn ngŵydd dau gan mil o edrychwyr (200,000). Yr oedd yr enwogrwydd a ennillodd iddo ei hun fel drwg-weithredwr yn gymmaint fel y gwnaed ef gan Mr. Harrison Ainsworth yn arwr yn un o'i brif nofelau; a lled gymmhwysir yr enw 'Jack Sheppard' at droseddwyr beiddgar iawn hyd y dydd hwn.

SHERBROOKE, IS-IARLL. Robert Lowe oedd ei enw gwreiddiol. Ganwyd ef rywbryd yn 1811, yn mhlwyf Bingham, yn Notts; yn yr hwn blwyf yr oedd ei dad yn rheithior. Addysgwyd ef yn Winchester, a Choleg y Brifysgol, Rhydychain; o'r hwn y daeth yn gymmrawd ac yn athraw. Galwyd ef at y bàr yn 1836; ac yn 1846, ymfudodd i Awstralia—lle y bu yn dilyn ei alwedigaeth fel bargyfreithiwr.

Digitized by Google

Cymmerodd ran flaenllaw yn mywyd gwleidyddol y drefedigaeth hono; a bu yn eistedd yn ei senedd fel aelod dros Sydney. Dychwelodd i Loegr yn y fl. 1850; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, etholwyd ef yn aelod seneddol dros Kidderminster. Daeth allan fel ymgeisydd annibynol, ond o dueddiadau Ceidwadol. Bu ei lwyddiant mor gyflym fel y cafodd swydd yn ngweinyddiaeth Argl. Aberdeen, yn 1853; a thrachefn dan Argl. Palmerston, yn 1855. Yn 1859, dewiswyd ef yn aelod dros fwrdeisdref Calne, trwy ddylanwad Argl. Lansdowne. Ond o'r flwyddyn 1868 hyd ei ddyrchafiad i dŷ yr arglwyddi, efe a gynnrychiolodd Brifysgol Llundain. O 1859 hyd 1864, daliai swydd fel îs-lywydd bwrdd addysg, yn ail weinyddiaeth Argl. Palmerston; ac yn ystod yr adeg y bu yn dal y swydd hon, efe a gyflwynodd i sylw y tŷ yr hyn a elwir *The Revised Code of* 1860—un o brif egwyddorion yr hwn oedd, fod rhoddion y llywodraeth i'r ysgolion elfenol i fod 'yn ol y canlyniadau' *(payment by results)*; hyny yw, yn ol nifer y plant fyddant yn alluog i fyned yn llwyddiannus drwy yr arholiadau blynyddol. Bu ganddo law flaenllaw i ddwyn oddi amgylch wrthodiad Mesur Diwygiadol y Whigiaid yn 1866. Yn ganlynol i hyn, cynnygiwyd swydd iddo ef, ac amryw eraill, yn ngweinyddiaeth Argl. Derby; ond efe a wrthododd adael y blaid Ryddfrydig, â'r hon yr oedd efe yn flaenorol wedi ymuno. Bu aml i gweryl blin rhyngddo ef a'r blaid, modd bynag; ond llwyr anghofiwyd hwy, o herwydd y rhan egnïol a gymmerodd i'w cynnorthwyo i gario mesur Dadsefydliad yr Eglwys Wyddelig drwy y senedd. Yn ngweinyddiaeth Ryddfrydig Mr. Gladstone, pennodwyd ef yn ganghellydd y trysorlys; yr hon a newidiodd, yn 1873, am y swyddfa gartrefol. Tra yn dal swydd fel canghellydd y trysorlys, gwnaeth gynnygiad i osod treth neu doll ar *fatches*, yr hwn gynnygiad oedd yn hynod ammhoblogaidd. Gwnaeth yr hyn oll a allai i gadw y treuliau gwladol i lawr; ond bu ei ymddygiad llym at y rhai a geisient ran o arian y cyhoedd yn foddion i beri i'r cyfryw edrych arno gydag adgasedd. O ran manylrwydd, yni, a grymusder ei ymresymiadau, yr oedd efe, yn ddïau, yn mysg areithwyr galluocaf ei oes. Fel gweinidog addysg, yr oedd efe yn hynod wrthwynebol i'r pwys a roddid ar yr ieithoedd clasurol. Yn 1867, rhoddwyd iddo y radd o LL.D., gan Brifysgol Edinburgh; D.C.L. gan Rhydychain, yn 1870; ac yn 1880, efe a ddyrchafwyd i dŷ yr arglwyddi, gyda'r teitl o îs-Iarll Sherbrooke.

SHERIDAN, PHILIP HENRY. Ganwyd ef yn Albany, New York, Mawrth 6ed, 1831, yn mhen ychydig wythnosau wedi i'w rïeni gyrhaedd i'r America o'r Iwerddon. Bu am amser yn gwasanaethu mewn masnachdy yn nhalaeth Ohio; i'r hon yr ymfudodd ei rïeni. Ond yn ddilynol, ymunodd â'r fyddin, a dyrchafwyd ef i rai o brif swyddau milwraidd y Talaethau Unedig. Yn mrwydrau Perryville a Stone River, collodd 1,600 o wŷr. Cyflawnodd ei ddyledswyddau yn anrhydeddus mewn llawer o frwydrau yn y wlad hono; ac yn ddiweddarach, dan gyfarwyddyd y Cadfridog Grant; a chymmerodd ran flaenllaw yn yr ymladdau terfynol a arweiniasant i lwyr orchfygiad Lee—pen cadlywydd y fyddin ddeheuol—yr hwn a roddodd ei hun i fyny i'r Gogleddwyr yn llys-dy Appomattox, ar Ebrill 9fed, 1865. Wedi i'r rhyfel ddibenu, parhaodd Sheridan i ddal swyddau o bwysigrwydd ac ymddiried yn y fyddin. A phan etholwyd Grant yn arlywydd y Talaethau, gwnaed ef yn ail mewn awdurdod i'r Cadfridog Sherman. Yn y fl. 1870, ymwelodd âg Ewrop, er mwyn gweled natur symmudiadau y byddinoedd yn y rhyfel waedlyd fu rhwng Ffraingc a Germany; ac yr oedd efe gyda'r maes-lywydd Germanaidd enwog, Von Moltke, yn ystod brwydr Gravelotte. Ar ymneillduad Sherman, yn 1883, fe'i pennodwyd ef yn brif gadfridog y fyddin. Yn Mai, 1888, cymmerwyd Sheridan yn beryglus o wael; a chafodd mesur ei basio trwy ddau dŷ y senedd er rhoddi iddo holl ragorfreintiau cadfridog llawn, ynghyd â'i gyflog, &c. Bu farw yn Nonquitt, Massachusetts, Awst 5ed, 1888. Claddwyd ef yn Arlington, Virginia, lle y mae colofn hardd yn anrhydeddu ei goffadwriaeth. Efe oedd y pedwerydd ar bymtheg yn rhestr prif gadfridogion y Talaethau. Ni chollodd frwydr erioed; ac ystyrir nad oedd y fyddin yn meddu rhagorach llywydd nag efe, heb law Grant a Sherman.

SHERMAN, WILLIAM TECUMSEH. Y deunawfed yn rhestr prif gadfridogion yr Unol Dalaethau. Ganwyd ef yn Lancaster, yn Ohio, Chwefror 8fed, 1820. Efe oedd pummed mab y Barnwr Sherman, yr hwn a fu farw pan oedd William yn naw mlwydd oed. Wedi bod yn y fyddin am beth amser, ac heb weled fawr o obaith am ddyrchafiad, ymddiswyddodd yn 1853, gyda'r amcan o ddilyn bywyd cyffredin. Yn y cyfamser, priododd Miss Ellen Boyle Ewing, merch i Mr. Thomas Ewing, Gweinidog Gwladol y Canolbarth. Bu yn arianwr yn San Francisco am amryw flynyddoedd; ac ar ddechreuad y rhyfel cartrefol, yr oedd yn arolygydd Athrofa Filwrol Louisiana, yn Alexandria. Rhoddodd y swydd i fyny ar unwaith. Yn Mai, 1861, gwnaed ef yn filwriad catrawd o wŷr traed, ac ymunodd â hi yn Washington. Yr oedd efe yn llywydd ar frigad yn mrwydr enwog a gwaedlyd Bull's Run; ac am ei allu a'i wroldeb yn yr ymdrechfa hon, dyrchafwyd ef i fod yn gadfridog *(brigadier-general)* ar y gwirfoddolwyr. Dywedir fod Sherman yn un o'r rhai cyntaf gafodd amgyffrediad cywir am natur ddifrifol y rhyfel oedd ar y pryd hwnw yn dechreu. Yn Awst, anfonwyd ef i Kentucky; ond pan y gofynodd am ddau gan mil o wŷr (200,000) i roddi terfyn ar y rhyfel yn y parth hwnw, edrychodd yr awdurdodau yn Washington ar ei gais gyda diystyrwch, ac amddifadwyd ef ganddynt o'i awdurdod llywyddol. Yn lled fuan ar ol hyn, modd bynag, rhoddwyd iddo lywyddiaeth adran o fyddin Tennessee; ac yn Ebrill, 1862, arddangosodd wroldeb anarferol yn mrwydr Shiloh; yn yr hon, er ei anafu, y gwrthododd efe adael y maes. Tystiolaethodd Grant mai i ymdrechion personol Sherman yr oedd efe yn ddyledus am y fuddugoliaeth hono. Yn yr amryw ymgyrchoedd a wnaed gan Grant yn erbyn Vicksburg, rhoddodd Sherman gynnorthwyon gwerthfawr iddo, gan ddangos ei fod yn feddiannol ar allu milwraidd o'r radd flaenaf. Nid oedd ond Grant yn unig yn uwch nag ef mewn awdurdod; a pharhaodd yn llwyddiannus yn yr holl frwydrau canlynol. Ar Ebrill 9fed, 1865, rhoddodd Lee ei arfau i lawr i Grant. Yn fuan ar ol hyny,

Digitized by Google

rhoddodd holl fyddinoedd y Deheu eu harfau i lawr; a dygwyd y rhyfel boenus hono i derfyniad, ar ol pedair blynedd o frwydro caled iawn. Pan etholwyd Grant yn arlywydd, dyrchafwyd Sherman yn brif gadfridog y Talaethau. Yn 1872, efe a ymwelodd âg Ewrop; a derbyniodd yma yr anrhydedd uchaf, a dangoswyd y parch mwyaf iddo. Bu farw yn New York, Chwefror 14eg, 1891; a chafodd gladdedigaeth gyhoeddus.

SHIRLEY, JAMES. Chwareuydd enwog, a anwyd yn Llundain, Medi 13eg, 1596. Cafodd ei addysg yn Rhydychain; a dywed yr hanesydd Wood fod gan yr Archesgob Laud feddwl uchel am ei alluoedd; ond iddo ei attal am beth amser rhag cymmeryd urddau eglwysig, o herwydd anaf oedd ar ei wyneb. Symmudodd Shirley o Rydychain i Gaergrawnt; a thra yno, efe a gymmerodd urddau, ac a fu am dymmor, wedi hyny, yn dal bywoliaeth yn agos i St. Albans. Tua'r flwyddyn 1624, efe a symmudodd i Lundain, i ysgrifenu chwareu-gerddi. Gweithiodd yn ddiwyd yn y cymmeriad hwn; ac nid oes ond Shakespeare ei hun wedi cynnyrchu mwy o'r chwareu-gerddi a elwir *five act plays*. Y mae cynnifer a 33 o'r rhai hyn yn argraphedig. Dywed Wood iddo ef, a'i ail wraig, farw ar yr un diwrnod—marw fel pe o doriad calon, mewn canlyniad i'r tân mawr a fu yn y brifddinas. Claddwyd hwynt hefyd yn yr un bedd, Hydref 29ain, 1666.

SHORE, JANE. Yr oedd hi yn un o'r cymmeriadau mwyaf hynod yn hanesiaeth Lloegr. Yr oedd hi yn 'feistres' i'r brenin Iorwerth IV. Ganwyd hi yn Llundain, a dygwyd hi i fyny dan amgylchiadau cysurus. Pan yn ieuange, priododd William Shore; yr hwn, o ran ei grefft, a dybir ei fod yn ôf aur. Pan ddaeth y gyfathrach rhyngddi a'r brenin yn wybyddus, gadawodd ei gŵr hi. Bu hi fyw hyd farwolaeth Iorwerth yn nghanol yr ysblander mwyaf, gan fwynhau awdurdod a gallu mawr; yr hwn, yn ddieithriad, a ddefnyddid ganddi i amcanion da. Yr oedd hi yn foneddiges brydferth neillduol, ac yn un a fawr edmygid o herwydd ei ffraethineb. Wedi marwolaeth y brenin, treuliodd beth amser dan amddiffyniad Hastings; ac ar ei farwolaeth yntau drachefn, dan nawdd Ardalydd Dorset. Ond darfu i'r brenin Richard III., yr hwn a broffesai feddu sêl fawr dros rinwedd a moes, ac er gwneyd bywyd ei frawd yn anhapus, ysbeilio ei thŷ o swm mawr o arian, ac achosi i Esgob Llundain ei gorfodi i wneuthur penyd cyhoeddus, trwy gerdded â chanwyll gŵyr yn ei llaw trwy'r ddinas, ac wedi ei gwisgo mewn pais yn unig. Dywed yr hanesydd More fod Richard, ar y cyntaf, wedi ei chyhuddo o geisio ei swyno; o'r hyn y gwneir defnydd gan Shakespeare yn ei dreisgerdd (*tragedy*) *Richard* III. Bu Jane Shore fyw am ddeugain mlynedd ar ol adeg ei phenyd; o blegid ni bu farw hyd y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Harri VIII. Dywedir, er mai ychydig o seiliau hanesyddol sydd i hyny, iddi farw dan amgylchiadau echryslawn, mewn ceubwll—a elwid, oddi wrth y digwyddiad, yn 'Shoreditch,' ac a elwir felly hyd y dydd hwn.

SIAM. Gan fod cyfnewidiadau pwysig yn myned yn mlaen yn y wlad hon yn awr, gadewir y manylion yn mherthynas iddi am ychydig. Gwelir yr erthygl, gan hyny, yn cyf. x.

SIAMS AB HARRI. Un o feirdd yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd efe yn enedigol o le o'r enw Euas. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael etto mewn ysgrifen.

SIANCYN, HYWEL. Un o feirdd gwlad Emlyn, yr hwn a flodeuai rhwng y blynyddoedd 1590 a 1630.

SIANCYN AB EINION. Bardd lled enwog, a fu byw rhwng y blynyddoedd 1540 a 1580.

SIBERIA, YN 1894. Gwahenir y dalaeth, neu y diriogaeth ëangfawr hon, oddi wrth y gweddill o ymherodraeth Rwssia, i'r hon y perthyna, gan Fynyddoedd yr Ural; dros ba rai yn awr y mae ffyrdd haiarn wedi eu gosod, er dwyn y ddwy wlad i gyssylltiad mwy agos a chyfleus â'u gilydd.

*Arwynebedd a Phoblogaeth.*—A chynnwys y tiriogaethau a feddiannwyd yn ddiweddar gan Rwssia yn nghanolbarth Asia, cyfrifir fod arwynebedd Siberia, ar hyn o bryd, yn 7,147,000 mill. pet.; neu gymmaint ddwy waith a holl Ewrop; a bod y boblogaeth yn 14,000,000; neu ddau berson yn unig ar gyfer pob mill. petryal. Oddi wrth hyn, ymddengys fod y boblogaeth yn hynod o deneu—yn fwy felly, ond odid, nag ydyw mewn un wlad arall ar y ddaear.

*Afonydd.*—Y prif afonydd ydynt yr Obi, Yenisei, Lena, Amur, a Syr Daria. Gan nas gellir mordwyo y tair gyntaf ond yn unig yn yr haf, a chan fod y Cefnfor Pegynol yn mron bob amser yn rhewedig, nid ydynt o fawr o werth fel moddion trafnidiaeth allanol. Er hyny, y mae afonydd Siberia o werth ammhrisiadwy i fywyd mewnol y wlad; ac yn ystod yr ychydig wythnosau y maent yn rhydd oddi wrth rew, y mae anturiaethwyr a marsiandwyr Ewropëaidd wedi llwyddo i gymmeryd llonglwythi o nwyddau i ganolbarthau y wlad, na buasent yn alluog i wneyd pe hebddynt. Y mae yr afonydd hyn hefyd yn hynod fanteisiol i fasnach fewnol y wlad ei hun; o blegid y maent yn ddigon llydain a dwfn i alluogi llestri o gryn faintioli i'w mordwyo o'r naill dref i'r llall. Y mae agerlongau yn morio yn barhaus rhwng Tiumen a Tomsk—prif dref gorllewinbarth Siberia. Y mae camlas wedi ei gwneyd yn ddiweddar hefyd rhwng yr Obi a'r Yenisei; a phan ddyfnheir hwn yn ddigonol, gall agerlongau drawsgludo nwyddau o gyffiniau Mynyddoedd yr Ural, mor bell ag Irkutsk, prif dref dwyreinbarth Siberia. Y mae cynnifer a 160 o agerlongau yn awr yn mordwyo ar yr afonydd Obi a'r Irtysh. Gall agerlongau fordwyo yr Amur hefyd am y pellder o 2,000 o filldiroedd o'r môr.

*Llynau.*—Y mae y rhai hyn eisoes wedi eu nodi yn yr erthygl flaenorol. Mesura Llyn Tchany 1,390 o filldiroedd petryal, a Llyn Khangka gynnifer a 1,690 milldir petryal.

*Mynyddoedd ac Ucheldiroedd.*—Nodweddir Siberia gan wastadeddau uchel, ëang; ac y mae rhai o honynt yn anhygyrch. Yn nwyreinbarth y wlad, ceir gwastattir sydd yn 4,000 o droedfeddi o uchder, ac yn 1,340 milldir o led. Ceir rhai trumanau neillduol yn Mynyddoedd yr Altai, yn cyrhaedd uchder o rhwng 7,000 ac 11,000 o droedfeddi.

*Prif Drefydd.*—Y mae y rhai hyn oll o'r bron wedi eu sefydlu ar lanau y prif afonydd. Saif Tobolsk, prif dref gorllewin Siberia, yn

Digitized by Google

nyfrgist yr afon Obi; ac y mae ei phoblogaeth tua 18,000. Y dref hon yw canolbwynt masnach y wlad. Y mae Tomsk yn meddu 21,000 o boblogaeth, a Barnaul, 11,000—y ddwy yn drefydd o gryn bwys, o herwydd eu hagosrwydd i fwngloddiau yr Altai. Medda Irkutsk 27,000 o drigolion. Saif ar yr afon Angara; a hi ydyw prif dref dwyrain Siberia. Cyssylltir hi trwy y pellebyr â St. Petersburg; ac y mae hi yn dref sydd yn dal cyssylltiad masnachol ar raddfa ëang rhwng Rwssia a China. Yakutsk, yr hon a saif ar yr afon Lena, yw y dref oeraf yn yr holl fyd ag y mae neb yn byw ynddi. Y mae hi yn cario masnach helaeth yn mlaen mewn blewgrwyn *(furs)*, ac mewn ifori. Tashkend yw tref ar yr afon Syr Daria—yn meddu ar boblogaeth o 90,000. Khojend, ar yr un afon, sydd dref yn meddu tua 50,000 o drigolion. Dyma y ddwy dref liosocaf eu preswylwyr o fewn yr holl wlad. Y mae eu masnach hefyd yn lled helaeth.

*Y Boblogaeth.*—Y mae y boblogaeth wedi ei gwasgaru yn hynod o anghyfartal. Ceir rhwng 20 a 40 o breswylwyr ar bob milldir petryal mewn rhanau o ddeheu Tomsk a Tobolsk; ond y mae anialdiroedd y rhanau gogleddol heb fod neb o'r bron yn preswylio ynddynt. Yn nechreu y ganrif bresennol, bernir nad oedd mwy na miliwn o bobl yn byw drwy yr holl wlad. Erbyn hyn, chwanegir yn flynyddol at y boblogaeth yn ol tua hanner can mil (50,000) o ymfudwyr o Rwssia. Y mae y Rwssiaid yn rhifo yno agos i bedair miliwn (3,800,000); ac wrth gwrs, ganddynt hwy y mae y meddiant o ranau goreu ei thiroedd. Gwneir y brodorion i fyny o amryw lwythau—iawnderau pa rai sydd, i raddau helaeth, wedi disgyn trwy drais i ddwylaw y Rwssiaid. Mewn gair, nid ydyw y rhan fwyaf o hen frodorion y wlad yn ddim amgen na chaethion i'r ymsefydlwyr Rwssiaidd a'r marsiandwyr.

*Crefyddau.*—Ceir amrywiaeth o gredöau yn y wlad. Perthyna y Rwssiaid, gan mwyaf, i'r Eglwys Roegaidd Uniongred, fel y gelwir crefydd Rwssia; neu yn hytrach i rai o'r sectau sydd wedi tarddu o honi, ac wedi ymadael â hi. Y mae y llwythau Tyrcaidd, gan mwyaf, yn Fahometiaid:—crefydd sydd yn parhau i ennill dychweledigion, ac y mae hi yn cynnyddu yn gyflym. Proffesir Buddhiaeth gan y Buriatiaid. Ychydig ydyw y cynnydd y mae Cristionogaeth yn ei wneuthur yn mysg y boblogaeth.

*Alltudion.*—Y mae y cynnydd yn mhoblogaeth Siberia i'w briodoli i amryw achosion. Y mae miloedd o'r preswylwyr nad ydynt yno o wirfodd. Siberia yw gwlad alltudion Rwssia. Yno yr anfonir drwg-weithredwyr wrth y miloedd bob blwyddyn; a dywedir fod cynnifer a miliwn o bobl wedi eu halltudio yno er y flwyddyn 1840. Yn nghorph y blynyddoedd diweddaf, alltudiwyd tuag 20,000 yno bob blwyddyn. Cedwir rhai o honynt mewn carcharau; a gorfodir eraill i weithio yn y mwngloddiau. Ychydig, ar gyfartaledd, sydd yn cyrhaedd yn ol i'w cartrefi yn Rwssia Briodol. Ymfuda eraill yno o herwydd gwaith llywodraeth Rwssia yn eu herlid yn y fam wlad. Bydd caethion ffoedig yn troi eu wynebau yno am nodded hefyd; ac mewn cyfnod diweddarach, trodd nifer lled fawr eu hwynebau yno er osgoi myned i'r fyddin. Dyma rai o achosion y cynnydd dirfawr sydd yn y boblogaeth.

*Amaethyddiaeth, &c.*—Prif alwedigaeth trigolion y wlad ydyw amaethu y tir, a magu anifeiliaid. Y mae tiriogaethau Tomsk, Deheu Tobolsk, Minusinsk, Irkutsk, a chanolbarth Amur, yn cynnyrchu mwy o ŷd nag sydd yn angenrheidiol ar gyfer y trigolion; ac allforir llawer o hono. Cyfrifir fod y cynnyrch o bob math o ŷd—sef gwenith haf, rhŷg, haidd, a cheirch—yn cyrhaedd cyfartaledd blynyddol o dros 7,000,000 o chwarteri yn ngorllewin Siberia; a 4,500,000 o chwarteri hefyd yn nwyrain Siberia. Megir pob anifeiliaid ar raddfa ëang mewn rhai rhanau yn y dwyrain, a chyfrifir fod 2,000,000 o geffylau, 1,500,000 o anifeiliaid corniog, 3,000,000 o ddefaid, a 1,000,000 o geirw yn ngorllewin Siberia; ac o ddeutu 850,000 o geffylau, 1,100,000 o anifeiliaid corniog, 1,120,000 o ddefaid, a 50,000 o geirw yn y dwyrain. O berthynas i fasnach law-weithfäol y wlad, nid ydyw hon, a siarad yn gymmhariaethol, etto ond yn ei babandod; ac y mae yno, mewn rhai parthau, anwybodaeth dygn yn bodoli yn mherthynas iddi.

*Mŵnau.*—Y mae mwngloddiau y wlad yn rhoi gwaith i filoedd lawer o'r trigolion; ac y maent yn hynod gyfoethog mewn pob math o fŵnau. Yn y cyfnod, rhwng y bl. 1860 ac 1890, cafwyd rhwng 404 a 584 canpwys o aur yn flynyddol yn nwyreinbarth Siberia; a 48 canpwys yn y gorllewin—yn annibynol ar Perm. Ceir rhwng 130 a 300 canpwys o arian yn Mynyddoedd yr Altai bob blwyddyn; plwm, 3,250 canpwys yn yr Altai, a 232 canpwys yn Nertchinsk; copr, o 5,800 i 7,740 canpwys yn flynyddol yn yr Altai; a haiarn, hefyd, o 97,000 i 130,000 o ganpwysi.

*Ffyrdd Haiarn.*—Ar hyn o bryd, y mae y ffordd haiarn hwyaf yn y byd yn cael ei gosod i lawr yno. Wedi llawer o betrusder, penderfynodd dirprwyaeth ffyrdd haiarn y llywodraeth yn ffafr gwneyd llinell—hyd yr hon fydd o leiaf yn 4,785 milldir, neu o ddeutu cymmaint arall a llinell Canada i'r Cefnfôr Tawel. Bydd y draul, a chyfrif y peiriannau a'r cerbydau, &c., tua 36,765,000*p.*, neu gyfartaledd o 7,680*p.* i bob milldir. Torwyd y dywarchen gyntaf gan etifedd Coron Rwssia yn Vladivostock, ar y 24ain o Fai, 1891; ac y mae amser terfynedig o chwe blynedd wedi ei osod i gwblhau y llinell. Yn Chwefror, 1893, pennodwyd pwyllgor arbenig i'r amcan o hyrwyddo cwblhâd yr anturiaeth; ar yr hwn bwyllgor y dewiswyd mab hynaf yr ymherawdwr yn llywydd, trwy orchymyn yr ymherawdwr ei hun.

*Addysg.*—Y mae addysg yn parhau yn hynod o isel yn Siberia; ac nid yw nifer y bechgyn a'r genethod sydd yn bresennol yn holl ysgolion y wlad ond tua 60,000. Y mae rhyw fath o brifysgol wedi ei hagor yn Tomsk, er na lwyddwyd i wneuthur hyny heb lawer o wrthwynebiad oddi ar law y llywodraeth.

SIDMOUTH, HENRY ADDINGTON, Is-Iarll. Ganwyd ef yn Llundain, Mai 30ain, 1757. Yr oedd efe yn fab i feddyg Arglwydd Chatham; sef, Dr. Anthony Addington. Cafodd addysg golegawl dda, a dygwyd ef i fyny i'r alwedigaeth gyfreithiol yn Lincoln's Inn. Modd bynag, bu i'w gyfeillgarwch â Pitt ei arwain i adael y gyfraith, ac i gymmeryd dyddordeb mewn achosion gwleidyddol. Yn 1783, etholwyd ef yn aelod seneddol dros Devizes. O 1789 hyd 1801, bu yn gwasanaethu y swydd o

Digitized by Google

lefarydd tŷ y cyffredin; a llanwodd hi gydag anrhydedd anarferol iddo ei hun, ac i urddas y tŷ. Pan ymddiswyddodd Mr. Pitt, yn 1801, gwahoddwyd ef gan y brenin, ac argymmhellwyd ef ganddo, i ffurfio gweinyddiaeth. Cydsyniodd yntau, a bu mewn awdurdod fel prif weinidog hyd 1804. Yn ddilynol, dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth, dan y teitl o Is-Iarll Sidmouth. Bu yn arglwydd lywydd y cynghor deirgwaith; arglwydd y gyfrin-sêl unwaith; ac o'r fl. 1812 hyd 1821, yn ysgrifenydd cartrefol. Yn y cymmeriad olaf hwn, yr oedd efe yn hynod ammhoblogaidd, o herwydd y mesurau gorfodol ac eithafol a arferid ganddo yn ngweinyddiad ei swydd. Ymneillduodd o'r weinyddiaeth yn 1824; a bu farw Chwefror 15fed, 1844. Yr oedd efe yn Geidwadwr egwyddorol.

SEISYLLT I. Mab ydoedd efe i Gwrwst; yr hwn a olynodd efe fel brenin Prydain yn yr wythfed ganrif.

SEISYLLT II. Mab ydoedd i Cuhelyn, brenin Prydain; ar farwolaeth yr hwn y cymmerodd Marsia, ei weddw, y deyrniaeth i'w llaw, gan nad oedd ei mab, Seisyllt, ar y pryd ond saith mlwydd oed. O blegid doethineb y fam, buont am hir amser yn cyd-deyrnasu. Tybir ei fod yn byw yn y drydedd ganrif cyn Cred.

SEISYLLT III. Dywedir yn y Brutiau Cymreig mai mab oedd efe i Owain; ac iddo ei ddilyn ar yr orsedd fel brenin Prydain, tua thri chant o flynyddoedd cyn Crist.

SIMPSON, THOMAS. Un o wyddonwyr blaenaf ei oes. Ganwyd ef Awst 20fed, 1710, yn Market Bosworth, yn swydd Leicester; a bwriadwyd iddo ddilyn yr un alwedigaeth a'i dad, sef gwehydd. O herwydd hyn, ni chafodd efe ond ychydig ddysg; ac ni chafodd unrhyw fanteision at ddadblygu ei dalentau, oddi eithr trwy hunan-ddiwylliant. Yr oedd efe yn dra chwannog i efrydu, ond gwaherddid ef gan ei dad—yr hyn fu yn achos i'r bachgen adael ei gartref. Aeth i Nuneaton, lle y bu yn dilyn ei alwedigaeth fel gwehydd; a gwasanaethodd fel athraw mewn ysgol hwyrol. Symmudodd oddi yno i Derby, lle yr arosodd o 1733 hyd 1736—pan yr ymsefydlodd yn Llundain fel athraw mewn rhif a mesur. Cyhoeddodd restr o lyfrau dysgedig; sef, *A Treatise of Fluxions* (1737); *A Treatise on the Nature and Laws of Chance* (1740); *Essays on Several Subjects in Speculative and Mixed Mathematics* (1740); *The Doctrine of Annuities and Reversions* (1742); gydag amryw eraill rhy liosog i'w henwi yma. Byddai hefyd yn ysgrifenu yn fynych i'r *Ladies Dairy*, i'r hwn y bu yn olygydd o 1754 hyd 1760. Yn 1743, pennodwyd ef yn athraw rhif a mesur yn Athrofa Frenhinol Woolwich; ac yn y fl. 1745, derbyniwyd ef yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol. Bu farw ar Mai 14eg, 1761.

SIMSON, ROBERT. Ganwyd ef yn swydd Ayr, Ysgotland, Hydref 14eg, 1687. Addysgwyd ef yn Mhrifysgol Glasgow, gyda'r bwriad o'i ddwyn i fyny yn yr eglwys. Ond gan na feddai fawr o chwaeth at efrydiau duwinyddol, trodd ei sylw at wyddoniaeth, ac yn enwedig meintoniaeth. Yn y fl. 1711, pennodwyd ef yn broffeswr rhif a mesur yn Glasgow; a bu yn llanw y gadair hon am y cyfnod maith o hanner canrif. Cyhoeddodd amryw o weithiau llafurfawr yn y canghenau dyrus yr oedd efe yn feistr ynddynt; ond y gwaith mwyaf adnabyddus o'i eiddo ydyw ei *Elements of Euclid*, yr hwn a ymddangosodd yn Lladin a Saesneg yn 1756. Ar y gwaith clasurol hwn y seiliwyd yr holl lyfrau ar *Euclid*, a gyhoeddwyd yn nghorph y can mlynedd dilynol. Yn 1761, rhoddodd y swydd o broffeswr i fyny; ac o hyny hyd ei farwolaeth, Hydref 1af, 1768, treuliodd ei holl amser i drefnu a chywiro ei bapurau gwyddonawl a meintonawl.

SINCLAIR, SYR JOHN. Ganwyd ef yn Thurso Castle, Mai 10fed, 1754. Addysgwyd ef yn mhrifysgolion Edinburgh, Glasgow, a Rhydychain, a derbyniwyd ef yn fargyfreithiwr yn Lloegr ac Ysgotland. Yn 1780, etholwyd ef i'r senedd i gynnrychioli Caithness; a thrachefn, yn 1784, dros Lostwithiel; ac yn y fl. 1796, dros Petersfield. Parhaodd ei fywyd seneddol hyd 1811. Yn 1784, cyhoeddodd *A History of the Revenue of the British Empire;* ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, gwnaed ef yn farchog. Teithiodd lawer dros Ewrop, gan gasglu cryn wybodaeth ar gwestiynau masnachol a thrafnidiol. Ar ei ddychweliad i Ysgotland, sefydlodd gymdeithas oedd â'i hamcan i wellhau y rhywogaethau o ddefaid y wlad, ac hefyd i wella ansawdd y gwlân; a dywedir mai ei ymdrechion ef yn y cyfeiriad hwn a arweiniodd i sefydliad y Bwrdd Amaethyddol yn 1793—i'r hwn y bu ef yn llywydd am dair blynedd ar ddeg. Y gwaith a wnaeth enw Syr John yn fwyaf hysbys oedd, cychwyn, a chario drwodd hyd ei orpheniad, yr hyn a elwir yn *Statistical Account of Scotland*, mewn un-gyfrol-ar-hugain; yr hwn a gynnwysa ddisgrifiad o bob plwyf o fewn yr Alban. Bu yn llafurio ar y gwaith hwn am saith mlynedd. Heb law hyn, efe a ysgrifenodd ar amrywiol byngciau; a dywedir fod ei gyhoeddiadau yn ystod cyfnod o hanner canrif, yn rhifo 39 o gyfrolau, a 397 o bamphledi. Bu farw yn Edinburgh, Rhagfyr 21ain, 1835, yn 81ain mlwydd oed.

SION, CAERAU HEN. Bardd yn byw rhwng 1580 a 1620.

SION AB HYWEL GWYN. Un o feirdd diwedd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Ceir rhai o'i gyfansoddiadau yn nghadw etto mewn llawysgrifen.

SION AB MEREDYDD AB HYWEL. Bardd enwog oedd efe, yn byw yn rhywle yn Neheudir Cymru. Tybir iddo gael ei eni yn Nyffryn Llethi, yn Ngheredigion, a'i fod wedi blodeuo rhwng 1590 a 1630. Y mae rhanau o'i gyfansoddiadau yntau ar gael mewn llawysgrifen.

SION AB RHOBERT, yr hwn hefyd a elwid SIÔN AB RHOBERT AB RHYS HYWEL. Yr oedd efe yn fardd enwog; a blodeuodd rhwng 1590 a 1630.

SION AB RHYS AB MORYS. Bardd oedd efe, yn byw yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg.

SION AB WILLIAM AB SION. Perorydd,

Digitized by Google

neu delynor enwog oedd efe, yn byw yn amser y frenhines Elizabeth. Efe a ennillodd y delyn arian yn yr eisteddfod freiniol a gynnaliwyd yn Nghaerwys, yn 1568.

SION DAFYDD LAS. Bardd a thelynor, oedd yn byw yn y Pandy, yn Llanuwchllyn, yn Meirion, rhwng 1650 a 1690. Gelwid ef yn fynych wrth yr enw 'Bardd Nannau,' am fod Fychaniaid Nannau yn rhoddi iddo eu nawddogaeth. Argraphwyd rhai o'i gyfansoddiadau yn y *Gwyliedydd*, cyf. ii., td. 123.

SION GWILYM. Mab oedd efe i Siôn ab Llewelyn Ddu, o Lanegwad, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd efe yn un o filwyr gosgorddiol Harri vii. Yr oedd hefyd yn un o ysgolorion barddonol yr enwog Lewis Glyn Clothi. Y mae Lewis wedi cyflwyno un o'i awdlau iddo; ac yn hono, efe a noda y ffaith eu bod yn arfer darllen ac olrhain hanesiaeth Gymraeg gyda'u gilydd. Ymddengys ei fod yn ŵr o gyfoeth, ac yn fardd o safle uchel—yn byw rhwng 1460 a 1490.

SION LLEWELYN, o Langewydd, yn Morganwg. Arwydd-fardd enwog, a chynnullydd mawr ar lawysgrifau Cymreig. Cyhoeddwyd y llawysgrifau canlynol o'i gasgliad ef yn yr *Iolo MSS*:—1. 'Enwau a Hiliogaeth Brenhinoedd Morganwg.' 2. 'Llyma Rol Côf a Chadw, sef yn gyntaf y sonir am a fu ar gôf cyn cadw ar gyfrif, allan o hen ysgrif yn Llyfrgell Castell Rhaglan.' 3. 'Llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, o lyfr Meuryg Morganwg, yn Nghastell Rhaglan.' 4. 'Maelgwyn Hir, Talhaiarn, Taliesin.' 5. 'Hanes Coelbren y Beirdd.' 6. 'Cywydd i Fair, gan Ieuan ab Rhydderch ab Ieuan Llwyd.' 7. 'Cyfrinach y Beirdd;' allan o lyfr Meuryg Dafydd, ac eraill. Efe oedd yr hwn a bennodwyd i gasglu Cyfundraeth Barddas, fel yr oedd wedi ei chadw mewn traddodiad yn ngorsedd Morganwg; ar yr hon y bu yn llywydd yn 1580. Bu farw yn y fl. 1616.

SION LLEYN. Bardd athrylithgar a anwyd yn y Traian, yn mhlwyf Llanarmon, Eifionydd, yn sir Gaernarfon, yn y fl. 1749. Ei enw bedydd oedd John Roberts. Yr oedd yn daid, o du ei fam, i 'Ellis Bryncoch' Liverpool, awdwr *Oriel y Beirdd;* ac yn ewythr, frawd ei dad, i John Thomas, o Chwilog (*Siôn Wyn o Eifion*). Ceir llawer o gywyddau ac englynion o'i waith yn argraphedig yn *Nghorph y Gainge*, yr hwn a gyhoeddwyd gan Dafydd Ddu Eryri; ac aml i emyn peraidd o'i waith hefyd yn y llyfrau hymnau Cymreig. O ran ei ymarweddiad, yr oedd yn ŵr bucheddol a moesol; ac yn annhebyg, yn hyn o beth, i feirdd ei oes. O herwydd diffyg y gefnogaeth a haeddent, y mae llawer o'i gyfansoddiadau yn aros heb eu cyhoeddi, ac ar wasgar—ar fin myned ar goll. Bu farw Mai 7fed, 1817, yn 68ain oed; a chladdwyd ef yn mynwent Denio, Pwllheli.

SION RHYS AB MORUS. Un o feirdd sir Forganwg, yr hwn oedd yn byw yno tua diwedd y 15fed ganrif. Am iddo ddangos ei egwyddorion gwrth-Babaidd, fe gafodd efe, a Thomas ab Ifan ab Rhys, bardd arall oedd yn coleddu syniadau cyffelyb, eu carcharu gan Syr Mathew Cradock:—y cyntaf yn Abertawe, a'r llall yn Nghastell Kynffig. Ceir cywyddau ar hyn gan Iorwerth Fynglwyd, yn mha rai y deisyfa ryddhâd y carcharorion.

SION CENT. Ychydig sydd yn wybyddus am dano; ac y mae cryn ansicrwydd yn bodoli am gywirdeb y traddodiadau a gyssylltir â'i enw. Cyfarfyddir â'i enw, er hyny, yn fynych mewn gweithiau llenyddol Cymreig, a gadawodd ar ei ol amryw gyfansoddiadau barddonol o natur grefyddol. Yn ol y traddodiadau uchod, rhoddid iddo y cymmeriad o ddewin; ac y mae Williams, yn ei *History of Monmouthshire*, yn meddwl fod Siôn Cent yn enwog fel *actor* yn y chwareugerddi, ac mai dyna ddechreu y chwedlau am 'Siôn a'r diawl.' Modd bynag, y mae Siôn, yn ei gywyddau a'i englynion, yn ymddangos yn eglur yn ŵr dysgedig, difrifol, a chrefyddol. Ceir traddodiad dyddorol am dano yn y *Myvyrian Archaiology*, td. 828, yn yr ail argraphiad.

SKOBELEFF, MICHAEL DMITRIEVITCH. Un o gadfridogion mwyaf galluog ac adnabyddus Rwssia. Ganwyd ef yn 1841; ac wedi ei ymuniad â'r fyddin Rwssiaidd, cymmerodd ran flaenllaw mewn amryw ryfeloedd pwysig. Yn ystod y blynyddau, rhwng 1871 ac 1875, yr oedd yn Asia yn parotoi ar gyfer, ac wedi hyny, yn cymmeryd rhan weithredol yn ngorchfygiad Khiva a Khokand. Ennillodd enw uchel fel milwr mewn canlyniad i'r gwroldeb a ddangosodd yn y rhyfel rhwng Rwssia a Twrci yn 1877—78. Yn y rhuthr a wnaed ar Plevna, yr oedd yn llywyddu un o adranau y fyddin; ac aeth i mewn i'r gaerfa ar flaen ei filwyr. Yn 1880, yr oedd yn ol drachefn yn Asia; ac efe oedd yn llywyddu y fyddin pan gymmerwyd y gaerfa gadarn Geok Tepe, ar Ionawr 24ain, 1881. Bu farw Gorphenaf 7fed, 1882, yn Moscow.

SMITH, GEORGE. Ganwyd ef o deulu tlawd yn Llundain, Mawrth 26ain, 1840. Yn 1867, trwy ddylanwad Syr Henry Rawlinson a Dr. Birch, cafodd ei bennodi yn swyddog cynnorthwyol yn adran yr hynafiaethau yn yr Amgueddfa Brydeinig; ac yn y cymmeriad hwn, bu yn cynnorthwyo i barotoi y drydedd gyfrol o'r *Cuneiform Inscriptions* (1870). O herwydd ei allu fel deonglydd y cerfiadau Assyriaidd, llwyddodd i bennodi dyddiadau digwyddiadau o bwys yn hanes y Dwyrain. Llwyddodd hefyd, yn 1872, i ddarganfod y *Chaldæan Account of the Deluge*. Yr un flwyddyn, anfonwyd ef gan berchenogion y *Daily Telegraph* i Ninefeh, ar daith archwiliadol; a chafodd y casgliad o hynafiaethau a ddygodd adref gydag ef eu cyflwyno i'r genedl. Yn y fl. 1873, dymunodd awdurdodau yr Amgueddfa Brydeinig arno ddychwelyd i orphen y gwaith a ddechreuwyd ganddo, o gloddio am hen adfeilion yn Assyria. Ceir hanes y darganfyddiadau a wnaed ganddo yno yn ei *Assyrian Discoveries*, yr hwn lyfr a gyhoeddwyd yn 1875. Tra ar ei drydedd hynt yno, bu farw yn annisgwyliadwy yn Aleppo, yn Syria, Awst 19eg, 1876. Heb law y gweithiau a nodwyd uchod, ysgrifenodd *Annals of Assurbanipal* (1871); yr hwn a ystyrir yn un o'i brif weithiau. Ysgrifenodd hefyd *The History of Assyria* (1875); *Eponym Canon* (1875)—gwaith ar amseryddiaeth dwyreiniol; a *History of Babylonia;* a *History of Sennacherib*, &c., &c.

Digitized by Google

clô ar ba un y mae y ffugyrau arwyddluniol yn pwyso. Y mae y cwestiwn o ddechreuad yr arwydd yma yn ein cyfarfod ar drothwy unrhyw ymdriniaeth ar y rhifnod saith. Gellir nodi yn fyr olygiadau beirniaid ysgrythyrol, y rhai y gellir eu cynnwys o dan ddau ben, yn ol fel y byddo yr arwyddlun yn cael ei briodoli i ddamcaniaethau o barthed i briodoleddau mewnol y ffugr ei hun, neu ynte rhyw ymddangosiadau allanol o nodwedd anianyddol neu hanesyddol. Yn ol y blaenaf o'r golygiadau hyn, olrheinir arwyddocâd y rhifnod saith i'w elfenau cynhenid o dri a phedwar: y cyntaf o'r rhai hyn yn gosod allan Ddwyfoldeb, a'r ail Ddynoliaeth:—saith, Dwyfoliaeth a Dynoliaeth; neu, mewn geiriau ereill, yr undeb rhwng Duw a dyn, fel y ceir ef yn yr amlygiadau o ddwyfoliaeth mewn creadigaeth a dadguddiad. Ymddengys y ddamcaniaeth hon yn swynol o blegid ei chywreinwydd, ac y mae yn appelio at y dychymyg. Ond ymddengys hefyd nad oes ond ychydig o sail iddi; o herwydd, yn un peth, nad ydys yn cael un arwydd fod, mewn amser boreuol o leiaf, unrhyw amlygiad fod y rhif saith yn cael ei ranu yn dri a phedwar, mwy nag i ryw gyfrif arall, megys dau a phump, &c. Byddai hefyd yn anhawdd dangos fod unrhyw gyssylltiadau o natur cyssegredig yn cael eu priodoli i dri a phedwar cyn i'r rhif saith ei hun gael ei ystyried yn rhif neillduol: ac yr oedd pob damcaniaethau ar rifnodau yn ddyeithr i ysbryd syniadaeth Hebreaidd. Perthynu y mae hyn yn hytrach i sefyllfa arall ar gymdeithas, pan yr oedd ysgolion athronyddol yn dychymygu pethau cywrain.

Yr ydym yn troi at y syniad arall sydd yn priodoli arwyddocâd y rhif saith i berthynasau allanol. Gellir rhanu y dosbarth hwn etto yn ddau, yn ol fel y tybir i'r arwyddlun ddechreu trwy sylwi ar ymddangosiad hollol anianyddol; neu, ar y llaw arall, yn ngosodiadau crefyddol neillduol Moeseniaeth. Nid oedd dylanwad y rhif saith yn gyfyngedig i'r Hebreaid. Yr oedd arbenigrwydd yn cael ei gyssylltu âg ef hefyd yn mysg y Persiaid (*Esth.* i. 10, 14), yn mhlith yr hen Indiaid, yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid i raddau pennodol, ac yn mhlith yr holl genhedloedd dybygid, lle yr oedd yr wythnos o saith niwrnod wedi ei sefydlu; megys yn China, yr Aipht, Arabia, &c. Y mae y defnydd mawr a wneid o'r gair *saith* yn yr ystyr yma yn ffaith nodedig. Yn y gwledydd a enwir uchod, y mae y defnydd oedd yn cael ei wneyd o saith fel rhif crwn yn cael ei briodoli i'r sylw a dalwyd i gyfnewidiadau y lleuad, neu ynte rifedi tybiedig y planedau. Myn rhai ysgrifenwyr fod yr Hebreaid wedi benthyca eu syniadau am gyssegredigrwydd y rhif saith oddi wrth eu cymmydogion Cenhedlig, naill ai mewn rhan neu yn hollol; ond yr oedd neillduolrwydd y golygiad Hebreaidd yn gynnwysedig yn yr urddas a roddid ar y seithfed, ac nid ar saith yn unig. Pa ddylanwad bynag, gan hyny, a briodolir i sylwadaeth seryddol, neu i hen ddefod arferedig, yn mherthynas i sefydliad gwreiddiol yr wythnos, nis gellir olrhain yn ol berthynasau neillduol yr Hebreaid â hi yn mhellach hwyrach na'r adeg pan y cadarnhawyd gosodiad y seithfed dydd i fod yn ddiwrnod o orphwysfa gyssegredig.

A chymmeryd hyn yn ganiataol, a chychwyn oddi yma, y syniad cyntaf cyssylltiedig â'r gair yw *cyfnodoldeb crefyddol.* Gan fod y Sabbath ar y seithfed dydd, y mae yn awgrymu pennodiad yr holl gyfnodau cyssegredig. Yr ydym yn cael mai y seithfed mis oedd yn dwyn i mewn ŵyl yr udgyrn, ac yn hynodi gŵyl y pebyll a dydd mawr y cymmod: saith wythnos oedd rhwng y Pasc a'r Pentecost: yr oedd y seithfed flwyddyn yn flwyddyn Sabbothol: a'r flwyddyn a ddilynai y seithfed o'r saith mlwyddi hyn yn flwyddyn yr Iwbili. O'r syniad o gyfnodoldeb y cymmerwyd y meddylddrych o barhâd neu fynychiad trefniadau crefyddol; ac felly saith niwrnod a bennodwyd fel parhâd gŵyliau y Pasc a'r pebyll; saith niwrnod a roddid at seremonïau cyssegriad yr offeiriaid; saith niwrnod oedd i fod rhwng yr achlysur a symmudiad ymaith yr amrywiol fathau o aflendid yn ol y gyfraith, megys ar ol genedigaeth, ac ar ol cyffyrddiad â chorph marw, &c.; seithwaith yr oedd gwaed yr aberth (*Lef.* iv. 6; xvi. 14) neu ddwfr y puredigaeth i'w taenellu (*Lef.* xiv. 51: cymmh. 2 *Bren.* v. 10, 14); saith beth oedd i'w cyflwyno yn offrwm; sef, ychain, defaid, geifr, colomenod, gwenith, olew, a gwin; saith o ebyrth oedd i'w cyflwyno ar achlysuron neillduol, megys yn aberthiad Balaam (*Num.* xxiii. 1), ac yn enwedig wrth gadarnhau cyttundeb: *Gen.* xxi. 28. Yr oedd yr un arferiad yn cael ei chario allan yn mhellach yn mherthynas i lestri a threfniadau y tabernacl:—y saith lusern, a'r saith prif ddodrefn: allor y poethoffrwm, y noe bres, bwrdd y bara gosod, allor yr arogldarth, y ganwyllbren, yr arch, a'r drugareddfa.

Wedi gosod fel hyn y sêl o gyssegredigrwydd ar y rhif *saith*, mabwysiadwyd ef yn gyffredin fel rhif crwn, a chyssylltwyd âg ef y syniad o gwblhâd neu berffeithiad. O ganlyniad, defnyddir ef mewn amgylchiadau pan y gofynid am iawn neu foddlonrwydd, pan y cospid am fai (*Gen.* iv. 13; *Lef.* xxvi. 18, 28; *Salm* lxxix. 12; *Diar.* vi. 31), a phan y maddeuir i droseddwr: *Mat* xviii. 21. Crybwyllir am y rhif hwn mewn llawer o fanau rhy liosog i'w henwi (megys *Iob* v. 19; *Ier.* xv. 9; *Mat.* xii. 45) mewn ffordd sydd yn gyfystyr â rhif crwn, ond gyda'r syniad chwanegol o ddigonolrwydd a chwblhâd. Cyfeirir at lawer o enghreifftiau o bersonau a phethau o dan y rhif saith; megys, y saith o wartheg blithion a'r saith dwysen yn mreuddwyd Pharaoh, saith merch offeiriad Midian, saith mab Iesse, y saith diacon, saith mab Scefa, y ddau saith o genedlaethau yn achau Iesu Grist (*Mat.* i. 17); a'r crybwyllion a wneir am seithiau mewn cyssylltiad â saith niwrnod, neu saith mlynedd. Wrth gymmeryd Iericho, amgylchynwyd y dref am saith niwrnod, ac ar y seithfed hi a gwympodd mewn canlyniad i udganiad mewn saith udgorn a udganwyd o gwmpas y dref saith waith gan saith o offeiriaid. Yn amser y diluw drachefn, bu cyfwng o saith niwrnod rhwng y rhybudd i fyned i mewn i'r arch a dyfodiad y diluw, aeth yr anifeiliaid i mewn iddi bob yn saith; saith niwrnod a fu rhwng yr amser y gollyngwyd y golomen allan y tro cyntaf a'r ail, &c. Ymddengys mai saith mlynedd oedd yr amser arferol i gyflogi (*Gen.* xxix. 18); saith niwrnod yr oedd gwledd briodasol yn parhau (*Gen.* xxix. 27; *Barn.* xiv. 12); a'r un faint o amser, neu weithiau saith deg o ddyddiau, y galerid am y meirw: *Gen.* l. 3, 10; 1 *Sam.* xxxi. 13.

Y mae y cymmhwysiadau uchod a wneir o'r rhif saith yn meddu pwysigrwydd ymarferol mawr mewn cyssylltiad âg esbonio rhai rhanau prophwydoliaethol o'r Beibl, ac yn enwedig Llyfr y Dadguddiad. O herwydd yn y llyfr hwn y mae y rhif saith yn digwydd yn fynych

Digitized by Google

a dinasoedd anrheithiedig ereill, yn ol gorchymyn Gabinius. Ond yr hwn a wnaeth fwyaf tuag at eu hail adeiladu oedd Herod Fawr; i'r hwn, ar farwolaeth Antony a Cleopatra, y rhoddwyd hi gan Augustus. Galwodd Herod hi Sebaste—y Groeg am Augustus—ar ol enw ei noddwr. Y mae Josephus yn rhoddi disgrifiad helaeth a manwl o'r gwelliantau a wnaeth Herod. Yr oedd y mur a'i hamgylchynai yn ugain o ystadiau o hyd. Yn ei chanol yr oedd amgae, o ystâd a hanner ysgwâr, yn cynnwys teml ardderchog, wedi ei chyflwyno i Cæsar. Poblogwyd y lle gyda chwe mil o bobl, a rhoddwyd iddynt y wlad brydferth o amgylch y ddinas tuag at eu cynnaliaeth. Dyben Herod yn y trefniadau hyn, dybygid, oedd, yn gyntaf, meddiannu safle gref; ac wedi hyny dymuniad i'w hynodi ei hun am ragoriaeth ei chwaeth trwy addurno llanerch oedd eisoes wedi ei ffafrio gymmaint gan natur.

Nid yw yn hysbys pa hyd y cadwodd Samaria ei harddwch ar ol i Herod ei phrydferthu. Nid ymddengys fod y ddinas ei hun yn cael ei henwi yn y Testament Newydd—ond rhyw gyfran o'r dosbarth o wlad a elwid ar yr enw Samaria hyd yn oed mewn hen amseroedd. Dywedir, y mae yn wir, yn y cyfieithiad Cymraeg *Act.* viii. 5, i Phylip y diacon fyned "i wared i ddinas Samaria;" ond y mae yr ymadrodd yn y Groeg yn golygu "dinas y Samariaid." A gellir ymresymu yn deg oddi wrth absennoldeb y fannod bennodol, ac oddi wrth y tebygolrwydd os dinas Samaria a olygid mai y gair a arferasid fuasai *Sebaste,* mai rhyw ddinas yn nosbarth Samaria, nad ydyw yn cael ei henwi, oedd yn meddwl yr ysgrifenydd. Yn *adn.* 9 o'r un bennod y mae "pobl Samaria," yn ol y Groeg, yn golygu "cenedl y Samariaid;" ac y mae yr ymadrodd yn *adn.* 25, "llawer o bentrefi y Samariaid," yn dangos nad oedd y gwaith o efengylu yn cael ei gyfyngu i ddinas Samaria ei hun, os bu y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen yno o gwbl ar y pryd. Cymmh. *Mat.* x. 5, "Ac i ddinas y Samariaid nac ewch i mewn," âg *Ioan* iv. 4, 5, lle, ar ol dyweyd fod yn "rhaid iddo fyned trwy Samaria," lle y mae yn amlwg y golygir y dosbarth; yna dywedir, "Efe a ddaeth i ddinas yn Samaria, a elwid Sichar." Wedi hyn, tra anghyssylltiol ydyw yr hanes am dani. Planodd Septimius Severus drefedigaeth Rufeinig ynddi yn nechreu y drydedd ganrif. Y mae amryw enghreifftiau o arian bathol wedi eu gwneyd yn y lle o amser Nero hyd amser Geta, brawd Caracalla, wedi eu darganfod. Ond er ei bod yn drefedigaeth Rufeinig, nis gallai ei bod yn lle o bwysigrwydd gwleidyddol. Yr ydym yn cael, yn ol "*Codex*" Theodosius, fod y Tir Sanctaidd, yn B.A. 409, wedi ei ddosbarthu i Palestina Prima, Secunda, a Tertia. Cynnwysai Palestina Prima (y gyntaf) wlad y Philistiaid, Samaria (y dosbarth), a'r rhan ogleddol o Iudea: ond nid Sebaste oedd ei phrifddinas, ond Cesarea. Safai braidd yn uwch mewn safle eglwysig. Yr oedd yno esgob Cristionogol mor foreu a diwedd y drydedd ganrif. O leiaf, yr oedd ei hesgob yn bresennol yn mysg esgobion Palestina yn nghynghor Nicea, B.A. 325; a phan yn llawnodi ei enw galwai ei hun Maximus Sebastenus. Y mae enwau rhai o'i olynwyr wedi eu cadw: yr olaf o honynt oedd Pelagius, yr hwn a fu mewn cynghor yn Ierusalem, B.A. 536. Syrthiodd Sebaste i ddwylaw y Mahometiaid yn ystod y gwarchau ar Ierusalem. Y mae dinas Omri a Herod yn cael ei chynrychioli yn awr gan bentref bychan, heb fod ynddo nemawr o olion yr hyn a fu gynt, oddi eithr yr enw *Sebûstieh,* llygriad Arabaidd o'r gair Sebaste. Ceir yno hen olion o adeiladau tra hynafol, megys eglwys St. Ioan Fedyddiwr. "Y mae rhodfa yn cael ei hymylu gan golofnau toredig," medd Dr. Stanley, "yr hon gynt, y mae'n eglur, oedd prif heol dinas Herod. Yma, megys yn Palmyra a Damascus, y mae yr heol yn cael ei haddurno etto â rhes o golofnau o bob tu. Ond y mae ymddangosiad candryll ac adfeiliedig yr holl le yn arwyddo fod prophwydoliaeth Micah wedi ei chyflawni (*pen.* i. 5), er y dichon ei bod wedi ei chyflawni fwy nag unwaith o'r blaen pan anrheithiwyd y lle gan Salmaneser ac Ioan Hyrcanus. "Gosodaf Samaria yn garnedd-faes dda i blanu gwinllan; a gwnaf i'w cheryg dreiglo i'r dyffryn, a dadguddiaf ei sylfeini;" *Micah* i. 6; cymmh. *Hos.* xiii. 16.

Y mae Jerome, adnabyddiaeth yr hwn o wlad Palestina sydd yn myned yn mhell i gadarnhau y traddodiad a gredid mewn amseroedd diweddarach, yn haeru mai Sebaste, yr hon yn ei farn ef oedd yr un a Samaria, oedd y man lle y carcharwyd ac y torwyd pen Ioan Fedyddiwr. Yma y tybiai efe y claddwyd y prophwydi Elias ac Obadiah. Y mae y teithwyr Robinson, Reland, Raumer, Van de Velde, Stanley, ac ereill, yn disgrifio yn fanwl sefyllfa ac agwedd bresennol Samaria.

Nid oes ond ychydig o gwestiynau mewn cyssylltiad â geiryddiaeth ysgrythyrol, mewn amseroedd diweddar, wedi arwain dysgedigion i dynu casgliadau mor wahanol i'w gilydd ag ydyw helaethrwydd y diriogaeth at yr hon y cymmhwysid yr enw Samaria, a deilliad y bobl a elwir yn y Testament Newydd yn Samariaid. Ond wrth dalu sylw priodol i'r adroddiadau hanesyddol a geir yn yr Ysgrythyrau ac yn ngweithiau Josephus, ac ystyried nodweddion daearyddol Palestina, gellir, dybygid, gael syniad lled gywir am hyn. Yn yr ystyr manylaf o'r gair, buasai *Samariad* yn golygu preswylydd o ddinas Samaria. Ond nid ydyw i'w gael yn yr ystyr yma, neu o leiaf yn gyfyngedig i hyn, yn yr Hen Destament. Mewn gwirionedd, nid yw yn digwydd yno ond unwaith—a'r pryd hwnw mewn ystyr eangach, sef yn 2 *Bren.* xvii. 29. Yno defnyddir ef i ddynodi y rhai a berthynent i deyrnas y deg llwyth; yr hon, mewn ystyr eang, a elwid Samaria. Ac fel yr oedd y deyrnas hono yn amrywio, weithiau yn fwy a phryd arall yn llai, o ganlyniad yr oedd y gair *Samariad* yn amrywio hefyd.

Yr oedd Samaria ar y cyntaf yn cynnwys yr holl lwythau dros y rhai y gwnaeth Ieroboam ei hun yn frenin, pa un bynag ai i'r dwyrain neu i'r gorllewin o'r Iorddonen yr oeddynt yn preswylio. Gan hyny, cyn i ddinas Samaria gael ei hadeiladu yr ydym yn cael yr "hen brophwyd" oedd "yn" trigo yn Bethel yn disgrifio rhagfynegiadau "gŵr Duw, yr hwn a ddaethai o Iudah," mewn perthynas i'r allor yn Bethel, fel yn gyfeiriedig nid yn unig yn erbyn yr allor, ond "yn erbyn holl dai yr uchelfeydd sydd yn ninasoedd Samaria" (1 *Bren.* xiii. 29); hyny yw, o angenrheidrwydd, y dinasoedd o ba rai yr oedd Samaria ar y pryd, neu i fod wedi hyny, yn ben neu yn brifddinas. Mewn lleoedd ereill yn llyfrau hanesyddol yr Hen Destament (gyda'r eithriad o 2 *Bren.* xvii. 24, 26, 28, 29) ymddengys fod Samaria yn dynodi y ddinas yn bennodol. Ond y mae y prophwyd yn defnyddio y gair, yn

Digitized by Google

debyg fel y darfu i'r hen brophwyd o Bethel, mewn ystyr eangach o lawer. Er enghraifft, y mae "llo Bethel" yn cael ei alw gan Hosea (*pen.* viii. 5, 6) yn "llo Samaria;" yn *Amos* iii. 9, sonir am "fynyddoedd Samaria;" a chrybwyllir am "gaethiwed Samaria a'i merched" gan Ezeciel: *pen.* xvi. 53. Gan hyny, rhaid fod y gair *Samariaid* yn dynodi pob un o ddeiliaid brenin y ddinas ogleddol. Ond pa mor eang bynag y defnyddid y gair, o angenrheidrwydd yr oedd yn cyfyngu o ran ei ystyr fel yr oedd terfynau teyrnasoedd Israel yn cyfyngu. Yn ol pob tebygolrwydd yr oedd tiriogaethau Simeon a Dan yn mron i gyd wedi eu huno â theyrnas Iudah. Dyna un cyfyngiad. Yn nesaf, yn c.c. 773 a 774, "Duw Israel a annogodd ysbryd Pul, brenin Assyria, ac ysbryd Tiglath-pilcser, brenin Assyria, ac a'u caethgludodd hwynt (sef y Reubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh), ac a'u dug hwynt i Halah, a Habor, a Hara, ac i afon Gozan;" 1 *Cron.* v. 26. Dyna gyfyngu drachefn ar y terfynau. Ond aeth yr ail o'r brenhinoedd hyn yn mhellach—"ac a ennillodd Ijon, Abel-bethmaachah, ac Ianoah, Cedes hefyd, a Hazor, a Gilead, a Galilea, holl wlad Naphtali, ac a'u caethgludodd hwynt i Assyria;" 2 *Bren.* xv. 29. Dyna gyfyngu deirgwaith ar y terfynau. Yr oedd yr Arglwydd er's yn agos i gan mlynedd cyn y flwyddyn c.c. 860, wedi dechreu "tori cyrau Israel," o blegid "Hazael a'u tarawodd hwynt yn holl derfynau Israel, o'r Iorddonen tua chodiad haul, sef holl wlad Gilead, y Gadiaid, a'r Reubeniaid, a'r Manasiaid, o Aroer (yr hon sydd wrth yr afon Arnon) i Gilead a Basan hefyd;" 2 *Bren.* x. 32, 33. Gellir tybied, pa fodd bynag, nad oedd hyn ond rhyw ruthrgyrch disymmwth; ac ni chafodd y wlad ei darostwng yn barhaol na'r trigolion eu dwyn ymaith i gaethiwed. Mewn canlyniad i oresgyniadau Pul a Tiglath-pileser, yr oedd y boblogaeth yn cael eu dwyn ymaith. Wedi i'w tiriogaeth gael ei hanrheithio yn y modd yma, fe allai fod cenhedloedd paganaidd y cymmydogaethau, a rhyw deuluoedd Israelaidd crwydredig, wedi gwasgu yn mlaen i'w phoblogi. O barthed i ben gogleddol Galilea, gwyddys fod yno lawer o'r Cenhedloedd wedi gwneyd eu cartref. Dyna pa ham y galwyd hi "Galilea y Cenhedloedd;" *Esa.* ix. 1; 1 *Mac.* v. 15. Ac yn gyffelyb hefyd yn ddiau yr oedd o'r tu hwnt i'r Iorddonen.

Ond y mae genym etto i gyfeirio at bedwerydd cyfyngiad ar deyrnas Samaria; ac, o ganlyniad, ar y gair *Samariad.* Y mae yn amlwg oddi wrth ddigwyddiad a gymmerodd le yn nheyrnasiad Hezeciah fod awdurdod brenin Iudah, neu o leiaf ei ddylanwad ef, yn cael ei gydnabod gan gyfran o Aser, Issachar, a Zabulon, ac hyd yn oed o Ephraim a Manasseh, ychydig cyn diorseddiad a marwolaeth Hosea, y brenin olaf yn Israel: 2 *Cron.* xxx. 1—26. Yr oedd pobl yn dyfod o blith yr holl lwythau hyn i Ierusalem i gadw y Pasc. Yr oedd hyn tua c.c. 726. Mewn gwirionedd, yr oedd teyrnas Samaria wedi ei gwneyd mor fechan o ran ei therfynau fel y mynegir ddarfod i Salmaneser, ddwy neu dair blynedd yn ddiweddarach, fyned "trwy yr holl wlad;" ac ar ol tair blynedd o warchau cymmerwyd dinas Samaria, ac yna "y caethgludodd efe Israel i Assyria, ac a'u cyfleodd hwynt yn Halah ac yn Habor, wrth afon Gozan, ac yn ninasoedd y Mediaid" (2 *Bren.* xvii. 5, 6). A thrachefn, fe ddywedir wrthym i Israel gael ei gaethgludo "allan o'i wlad ei hun i Assyria;" *adn.* 23. Nid oedd ond Samaria (y ddinas), ac ychydig o bentrefydd cylchynol, erbyn hyn yn cynnrychioli y deyrnas a fu unwaith yn ymestyn o Bethel hyd Dan yn y gogledd, ac o Fôr y Canoldir i gyffiniau Syria ac Ammon tua'r dwyrain. Cadarnheir hyn yn mhellach gan yr hyn a ddarllenir genym am daith Iosiah, c. c. 641, trwy "ddinasoedd Manasseh, Ephraim, a Simeon, a hyd Naphtali;" 2 *Cron.* xxiv. 6. Nis gallesid gwneyd y fath daith pe buasai nifer y dinasoedd a'r pentrefydd a feddiennid gan y bobl a elwid *Samariaid* yn lliosog mewn nifer. Dygir ni gan hyn yn agosach at yr ymofyniad, o berthynas i darddiad y rhai a elwir yn 2 *Bren.* xvii. 29 ac yn y Testament Newydd hefyd wrth yr enw *Samariaid.* Cariodd Salmaneser Israel, hyny yw, y gweddill o'r deg llwyth, oedd yn parhau i gydnabod awdurdod Hosea, gydag ef i wlad Assyria: 2 *Bren.* xvii. 5, 6, 26. Yr oedd y gweddill yma, fel y dangoswyd, yn gynnwysedig o drigolion Samaria (y ddinas), a'r pentrefi o amgylch. Y mae dau gwestiwn yn codi yma:—1. A gariodd efe yr holl drigolion i gaethiwed, ai ni wnaeth? 2. Pa un a waghawyd hwy yn llwyr, neu mewn rhan, a phwy a ddaeth yno drachefn yn eu lle i'w phoblogi? Ar yr atteb a roddir i'r cwestiynau hyn y dibyna ein penderfyniad gyda golwg ar y cwestiynau, A oedd y Samariaid yn hiliogaeth gymmysg, yn cael eu gwneyd i fyny mewn rhan o Iuddewon, ac o ymsefydlwyr newydd? neu, a oeddynt yn hollol o darddiad tramor?

Mewn perthynas i'r blaenaf o'r ymofyniadau hyn, o'r braidd y gellir camddeall iaith yr ysgrythyr. "Israel a gaethgludwyd allan o'i wlad ei hun" (2 *Bren.* xvii. 6, 23); a dygodd brenin Assyria bobl o wledydd ereill, a "chyfleodd hwynt yn ninasoedd Samaria, yn lle meibion Israel;" 2 *Bren.* xvii. 24. Nid oes grybwylliad yn cael ei wneyd, megys y gwneir pan y dinystriwyd teyrnas Iudah, fod rhai o dlodion y wlad wedi eu gadael "yn winllanwyr ac yn arddwyr;" 2 *Bren.* xxv. 12. A gellir chwanegu, pe buasai yno rai wedi eu gadael, mai o'r braidd y buasai y trigolion newydd mor hollol anwybodus yn nghylch "defod Duw y wlad," fel yr oedd yn ofynol i frenin Assyria anfon un o'r offeiriaid a gymmerasid yn gaeth i'w dysgu. Heb law hyny, nid peth anghyffredin i orchfygwyr dwyreiniol oedd cymmeryd ymaith breswylwyr gwlad yn llwyr. Ac y mae y bygythiad yn erbyn Ierusalem, yr hwn na chariwyd allan ond mewn rhan, yn dangos mor gyflawn a fu dinystr teyrnas Israel: "A mi a estynaf linyn mesur Samaria ar Ierusalem, a phwys tŷ Ahab: golchaf hefyd Ierusalem fel y gylch un gwpan, yr hwn pan olcho, efe a'i try ar ei wyneb;" 2 *Bren.* xxi. 13. Llefarwyd hyn yn mhen deugain mlynedd ar ol y flwyddyn c.c. 721, yn ystod teyrnasiad Manasseh. Yr oedd nerth mawr yn y rhagfynegiad, gan ei fod yn dyfod mor fuan ar ol digwydd y trychineb mawr i deyrnas Samaria.

Gellir casglu, gan hyny, fod dinasoedd Samaria, nid yn unig mewn rhan, ond bron yn hollol wedi eu diboblogi c.c. 721; a pharhaodd yn y sefyllfa anrheithiedig hon hyd nes y defnyddir y geiriau sydd yn 2 *Bren.* xvii. 24; "A brenin Assyria a ddug bobl o Babilon, ac o Cuthah, ac o Afa, o Hamath hefyd, ac o Sepharfaim, ac a'u cyfleodd hwynt yn ninasoedd Samaria yn lle meibion Israel: a hwynt a feddiannasant Samaria, ac a drigasant yn ei dinasoedd hi." Gwelir mai Assyriaid o genedl, neu ynte rhai wedi eu darostwng ganddynt, oedd y Samariaid newydd,



Digitized by Google

Y mae cwestiwn yn codi yma, pa fodd bynag, sef, Pwy oedd y brenin Assyriaidd a boblogodd y dinasoedd hyn? Ar yr olwg gyntaf, gallesid meddwl mai Salmaneser oedd efe; o herwydd o'r bron y mae bwlch yn yr hanes, ac y mae yr adboblogiad yn ymddangos megys canlyniad naturiol y diboblogiad. Dyna, dybygid, oedd golygiad Josephus; o herwydd efe a ddywed am Salmaneser, "pan y symmudodd efe y bobl allan o'u gwlad, efe a ddygodd genhedloedd ereill o Cuthah i Samaria, a gwlad yr Israeliaid."—["*Hynaf. Iudd.*," ix. 14, *adr.* 1, 3; x. 9, *adr.* 7]; ond y mae yn bossibl ei fod wedi ei arwain i goleddu y dybiaeth hon gan agosrwydd y ddau ymdrafodaeth yn y testyn Hebraeg Beiblaidd. Y mae y Samariaid eu hunain, yn *Ezra* iv. 2, 10, yn priodoli y gwaith o'u dwyn yno, nid i Salmaneser, ond i "Esarhadon, brenin Assyria," neu i'r "Asnapper mawr ac enwog"—y brenin ei hun, neu ynte un o'i gadfridogion. Y mae yn debyg mai yn yr adeg y goresgynodd efe Iudah, yn nheyrnasiad Manasseh, ynghylch c.c. 677, y canfu Esarhadon y ffolineb o adael dosbarth o wlad ar gyffiniau y deyrnas hono yn mron yn anrheithiedig, ac y penderfynodd ddwyn tramorwyr i'w phoblogi a'i chadw. Y mae y ffaith hefyd fod rhai o'r tramorwyr hyny wedi dyfod o Babilon yn ein cyfeirio at Esarhadon yn hytrach nag at ei daid, Salmaneser, fel yr hwn a adboblogodd y wlad. Ychydig yn flaenorol i hyny y daeth Babilon i feddiant yr Assyriaid. Ac y mae rheswm arall hefyd dros dybied mai y dyddiad hwn sydd gywir:—y mae yn cyfatteb i bum mlynedd a thrigain prophwydoliaeth Esaiah, a gyhoeddwyd c.c. 749, o fewn pa rai "y torid Ephraim rhag bod yn bobl;" *Esa.* vii. 8. Ni chwblhawyd hyn yn hollol nes i'r wlad ei hun gael ei phoblogi â dyeithriaid. Cyhyd ag yr oedd hyn heb gymmeryd lle, yr oedd rhyw obaith i'r genedl am ddychweliad: wedi hyny, dim gobaith. Y mae Josephus yn gwneyd sylw neillduol ar y gwahaniaeth hwn rhwng y deg a'r ddau lwyth.—"*Hynaf. Iudd.*," x. 9, *adr.* 7. Meddiannwyd tiriogaeth y blaenaf gan ddyeithriaid, ond nid felly tiriogaeth yr olaf. Eilunaddolwyr, wrth gwrs, oedd y dyeithriaid hyn a ddygwyd i "ddinasoedd Samaria" gan Esarhadon—rhai yn addoli gwahanol dduwiau. Dywed Josephus fod gan bob un o'r pum cenedl a enwir ei duw ei hun, a phrofir hyn yn yr Ysgrythyrau. Nid oedd neb yn addoli y Duw oedd berchenog y wlad. Cynnhyrfwyd digofaint yr Arglwydd, a blinwyd y preswylwyr gan fwystfilod rheibus, y rhai, dybygid, oeddynt wedi cynnyddu tra y bu y wlad mewn sefyllfa anrheithiedig. Yr "Arglwydd a anfonodd lewod i'w plith, y rhai a laddasant rai o honynt." Ar eu gwaith yn anfon at frenin Assyria i fynegu iddo eu cyflwr adfydus, efe a anfonodd atynt un o offeiriaid y gaethglud, i ddysgu "iddynt pa fodd yr ofnent yr Arglwydd." Daeth yr offeiriad i'w plith, ac o hyny allan, yn ol iaith yr hanesydd cyssegredig, yr oeddynt yn "ofni yr Arglwydd, ac yn gwasanaethu eu delwau cerfiedig, eu plant a'u hwyrion; fel y gwnaeth eu tadau y maent hwy yn gwneuthur hyd y dydd hwn;" 2 *Bren.* xvii. 41. Dichon mai Ezra a roddes i mewn y frawddeg olaf. Gwasanaethai i ddangos dau beth:—1af, i gymmedroli ychydig ar honiadau y Samariaid yn amser Ezra eu bod yn wir addolwyr Duw; ac yn 2il, i ddangos mor bell yr oedd Samariaid y dyddiau diweddaf hyny yn gwahaniaethu oddi wrth eu hynafiaid.

Yn debyg i hyn yna yr oedd tarddiad y Samariaid ar ol y gaethglud. Ychydig iawn yn ddiau oedd â haniad Iuddewig iddynt; ond deuent gan mwyaf o'r dwyrain. Dywed Josephus fod y Cuthahiaid yn perthyn gynt i ganolbarth Persia a Media; ond gelwid hwynt y pryd hwnw yn 'Samariaid,' gan gymmeryd enw y wlad y symmudasant iddi. Dywed hefyd y gelwid hwynt yn yr Hebraeg yn 'Cuthahiaid,' ond yn y Groeg yn 'Samariaid.' Geilw Iesu Grist un o'r Samariaid yn "estron;" *Luc* xvii. 18. Mae bwlch yn digwydd yn hanes y Samariaid hyd nes y dychwelodd Iudah o'r caethiwed. Yna dymunasant ganiatâd i gynnorthwyo yn y gwaith o ail adeiladu y deml yn Ierusalem. Y maent y pryd hwnw yn cael eu galw, fel rhyw ragarwydd o'u nodwedd ac o'u bwriadau twyllodrus, yn "wrthwynebwyr Iudah a Beniamin" (*Ezra* iv. 1); ac felly y profasant eu hunain wedi hyny. Mor bell ag yr oedd proffes yn myned, nid oeddynt yn elynion; ond yn hytrach yn pryderu am gael eu hystyried yn gyfeillion. Dywedent fod eu crefydd yr un a chrefydd y ddau lwyth; gan hyny, dadleuent eu hawl i gymmeryd rhan yn y gwaith crefyddol mawr a ddygid yn mlaen. Nid oeddynt yn proffesu eu bod o waedoliaeth Iuddewig: addefent eu deilliad Assyriaidd, ac ystyrient eu tröedigaeth at yr Arglwydd fel rheswm dros gael bod yn gyfranog yn y gwaith. Ni chafodd eu cynnygiad dderbyniad ffafriol gan yr Iuddewon. Deallwyd eu hamcanion. Ar hyny taflodd y Samariaid y gorchudd o'r neilldu, ac amlygasant eu hunain yn elynion cyhoeddus: taflent attalfeuon ar ffordd yr Iuddewon trwy ystod teyrnasiad dau o'r brenhinoedd Persiaidd, ac ni chawsant eu distewi yn effeithiol hyd deyrnasiad Darius Hystaspis, c.c. 519.

Aeth yr anghydfod a ddechreuodd fel hyn yn fwy chwerw o flwyddyn i flwyddyn. Y mae yn debyg hefyd, po fwyaf yr oedd y Samariaid yn ymadael oddi wrth eilunod, ac yn ymroddi i addoli yr Arglwydd, mai mwyaf yn y byd y condemnient waith yr Iuddewon yn gwrthod ymgyfeillachu â hwynt. Daeth pethau i bwynt o'r diwedd. Yn y flwyddyn c.c. 409, cafodd dyn o'r enw Manasseh, un o linach yr offeiriaid, yr hwn a alltudiwyd o Ierusalem gan Nehemiah am briodi gwraig ddyeithr, genad gan frenin Persia, Darius Nothus, i adeiladu teml i'r Samariaid, yn mhlith y rhai y cawsai nodded, ar Fynydd Garizim. Yr unig beth angenrheidiol er gwneyd yr anghydfod rhwng y ddwy genedl yn barhaol oedd cael rhyw fan i'r Samariaid i addoli—yr hyn a gafwyd. Erbyn hyn yr oedd eu gelyniaeth tuag at eu gilydd yn fwy nag o'r blaen. Mynegir fod y Samariaid yn gwneyd yr oll a allent i boeni yr Iuddewon. Gwrthodent groesaw i bererinion ar eu ffordd i Ierusalem, fel y gwnaethant yn achos ein Harglwydd. Ymosodent arnynt ar y ffordd pan ar eu taith ["*Hynaf. Iudd.*," xx. 6, *adr.* 1]; ac yr oedd llawer yn cael eu gorfodi i fyned ar hyd ffordd bellach ar du dwyreiniol yr Iorddonen. Mynegid fod rhyw Samariaid unwaith wedi myned i'r deml yn Ierusalem, a'i halogi trwy daenu llwch esgyrn y meirw ar y palmant cyssegredig. —"*Hynaf. Iudd.*," xvii. 2, *adr.* 2. Ystyriai y Samariaid fod eu teml hwy ar Garizim yn rhagori yn fawr ar y deml yn Ierusalem. Yno yr aberthent basc. Tua'r mynydd, hyd yn oed ar ol i'r deml syrthio, pa le bynag y byddent, y cyfeirient eu haddoliad. Priodolent hynafiaeth mwy, ac awdurdod uwch, i'w copi hwy o'r gyf-

Digitized by Google

raith nag i'r copi oedd yn meddiant yr Iuddewon. Y gyfraith (hyny yw, Pum Llyfr Moses) oedd eu hunig gyfraith hwynt: o herwydd yr oeddynt yn ymwrthod â phob llyfr arall yn y canon Iuddewig. Yr oeddynt hefyd yn proffesu cadw y gyfraith yn well na'r Iuddewon eu hunain; a dywedent yn fynych, "Yr ydym ni yn cadw llythyren y gyfraith, ac yn hyn yn rhagori ar yr Iuddewon."

Nid oedd yr Iuddewon, ar y llaw arall, ddim mwy caredig yn eu hymddygiadau tuag at y Samariaid. Haerent fod y copi o'r gyfraith a feddiannent wedi ei adael iddynt gan wrthgiliwr, sef Manasseh; a thaflent ammheuon ar ei ddilysrwydd. Yr oedd gwrthgilwyr Iuddewig ereill, o bryd i bryd, wedi cymmeryd noddfa yn mysg y Samariaid. O ganlyniad, yn raddol, daeth y Samariaid i osod mwy o bwys ar hyny o waed Iuddewig oedd yn eu gwythïenau, pan y byddai hyny yn gwasanaethu rhyw amcan o'r eiddynt. Ceir enghraifft arbenig o hyn mewn erfyniad a anfonwyd ganddynt at Alexander Fawr, ynghylch c.c. 332. Dymunent gael eu hesgusodi rhag talu treth ar y flwyddyn Sabbothol, ar y sail eu bod, fel gwir Israeliaid, disgynyddion Ephraim a Manasseh, meibion Ioseph, yn ymattal rhag llafurio y ddaear y flwyddyn hono. Wrth eu croesholi, cafodd Alexander allan dwyll eu honiadau i raddau pell. Y mae enghraifft arall o'u hawl i ddisgyniad Iuddewig yn ymddangos yn ngeiriau y wraig o Samaria wrth ein Harglwydd (*Ioan* iv. 12)—"Ai mwy wyt ti na'n tad Iacob, yr hwn a roddodd i ni y pydew?" Ond hwyrfrydig ac anewyllysgar oedd yr Iuddewon i gydnabod perthynas â hwynt. Nid oeddynt yn ol o'u hadgofio mai dyeithriaid oeddynt o Assyria. Cyhuddent hwynt o wasanaethu y delwau a guddiesid er's cenedlaethau lawer o "dan y dderwen oedd yn ymyl Sichem;" *Gen.* xxxv. 4. Nid oeddynt am wneuthur un ymdrafodaeth â hwynt, os gallent osgoi hyny. Ystyrid pob peth y cyffyrddai Samariad âg ef yn halogedig. Melldithid y Samariad yn gyhoeddus yn eu synagogau—nis gellid ei ddwyn yn mlaen fel tyst mewn llysoedd barn Iuddewig —ac ni dderbynid ef fel proselyt: ac felly, mor bell ag yr oedd yn ngallu yr Iuddew, cauid ef oddi wrth obaith bywyd tragywyddol. Gellir casglu rhywbeth am y casineb traddodiadol oedd gan yr Iuddew tuag at y Samariad yn *Eccles.* l. 25, 26; "Dwy genhedlaeth sydd flin gan fy enaid, a'r drydedd nid yw genhedlaeth: y rhai a eisteddant yn mynydd Samaria (yn mysg y Philistiaid), a'r bobl ynfyd y rhai a drigant yn Sichem." Yr oedd cymmaint o waith alltudio hyn allan o feddwl yr Iuddewon, fel yr oedd hyd yn oed yr apostolion yn tybied fod ymddygiad angharedig pentref Samariaidd yn gommedd derbyn Crist yn galw am ddial trwy i Dduw ddanfon tân o'r nefoedd. "Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych," ebai Iesu Grist, mewn attebiad; ac nid ydym yn cael iddo ddyweyd dim un amser oedd â thuedd ynddo i ddiraddio y Samariaid. Y mae ei eiriau, pa fodd bynag, a'r cofnodion sydd genym o'i weinidogaeth, fel yn tueddu i gadarnhau y golygiad mai ychydig o waed Iuddewig oedd yn y Samariaid. Wrth anfon y deuddeg apostol allan gyntaf (*Mat.* x. 5, 6), efe "a orchymynodd iddynt, gan ddywedyd, Nac ewch i ffordd y Cenhedloedd, ac i ddinas y Samariaid nac ewch i mewn; eithr ewch yn hytrach at ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel." A thrachefn, yn ei gyfarchiad diweddaf iddynt ar fynydd yr Olewydd, efe a ddywed, "Ac a fyddwch dystion i mi yn Ierusalem, ac yn holl Iudea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear;" *Act.* i. 8. Y mae y naw gwahanglwyfus anniolchgar, y rhai oeddynt Iuddewon, yn cael eu cyferbynu ganddo â'r degfed gwahanglwyfus—y dyeithrddyn diolchgar (ἀλλογενής), yr hwn oedd Samariad. Yr un modd hefyd, yn y ddammeg dra adnabyddus, y mae y Samariad trugarog yn cael ei gyferbynu â'r offeiriad a'r Lefiad annhrugarog. Ac y mae addoliad y ddwy genedl yn cael ei ddisgrifio ganddo fel yn gwahaniaethu o ran ei nodwedd:—"Chwychwi ydych yn addoli y peth ni wyddoch; ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom: canys iachawdwriaeth sydd o'r Iuddewon;" *Ioan* iv. 22. Dyna oedd Samariaid dyddiau ein Harglwydd: pobl ar wahân oddi wrth yr Iuddewon, er eu bod yn trigo megys yn eu canol. Yr oeddynt yn cadw eu hunaniaeth i raddau pell, er fod saith o ganrifoedd wedi myned heibio er yr adeg pan y dygwyd eu hynafiaid yno o Assyria gan Esarhadon, ac er iddynt ymwrthod â'u hamldduwiaeth, am ryw fath o Foeseniaeth:—pobl, y rhai, er i'w tiriogaeth gael ei chyfyngu yn raddol, a'u prif le o addoliad ar Fynydd Garizim gael ei ddistrywio gant a hanner o flynyddoedd yn flaenorol gan Ioan Hyrcanus (c.c. 130), ac er i Samaria (y ddinas) gael ei dinystrio amryw weithiau, a'u tiriogaeth fod yn faes brwydrau rhwng Syria a'r Aipht, etto, ymgadwent yn genedl. Cyrchent i addoli o Sichem, a'u sefydliadau ereill, tua'r Mynydd Sanctaidd: nid ymgymmysgent â'r Iuddewon. Diammheu nad ydym i dybied fod yr holl wlad a elwid Samaria yn nyddiau Crist yn feddiant i'r Samariaid Cuthahaidd, nac iddi erioed fod chwaith. "Y mae Samaria," medd Josephus ["*Rhyf. Iudd.*," iii. 3, *adr.* 4], "yn gorwedd rhwng Iudea a Galilea. Y mae hi yn dechreu o bentref a elwir Ginæa (*Jenin*), neu y gwastadedd mawr (yr Esdraelon), ac yn ymestyn hyd barthlywiaeth (*toparchy*) yr Acrabatta," yn mharthau isaf tiriogaeth Ephraim. Y mae y disgrifiad hwn yn ein galluogi i benderfynu ar y terfynau yn lled sicr. Terfynid hi ar du y gogledd gan drum o fryniau a gychwynent ger mynydd Carmel ar du y gorllewin, ac, wedi tueddu ychydig tua'r de-orllewin, rhedai yn mron yn union i'r dwyrain tua dyffryn yr Iorddonen, a ffurfiai derfyn deheuol gwastadedd Esdraelon. Tua'r deheu, cyffyrddai yn mron â therfynau gogleddol Beniamin. Felly, yr oedd yn cynnwys hen diriogaeth Ephraim, a chyfran o Manasseh oedd o'r tu hwnt i'r Iorddonen. Chwanega Josephus, a dywed, "Nid ydyw ei nodwedd mewn dim yn wahanol i Iudea. Y mae y naill a'r llall yn llawn o fynyddoedd a dyffrynoedd, ac yn addas i ddybenion amaethyddol—yn gynnyrchiol, yn goediog, ac yn llawn o ffrwythydd diwylliedig ac anniwylliedig. Nid ydynt yn cael eu dyfrhau yn helaeth; ond y mae llawer o wlaw yn disgyn arnynt. Y mae y ffynnonau yn rhoddi dwfr peraidd i'r archwaeth; ac, o blegid rhagoriaeth y porfeydd, y mae y gwartheg yn cynnyrchu mwy o laeth nag mewn lleoedd ereill. Ond y prawf goreu o frasder a ffrwythlonrwydd y tir ydyw lliosawgrwydd y boblogaeth." Y mae teithwyr diweddar yn cadarnhau y disgrifiad hwn o eiddo yr hanesydd Iuddewig gyda golwg ar y "tir da" a ddaeth i ran y dosbarth grymus hwnw o dŷ Ioseph a groesodd yr Iorddonen, pan ddosbarthwyd y diriogaeth ar y cyntaf. Nid oedd y Samariaid Cuthahaidd, modd bynag, yn

Digitized by Google

meddiannu ond ychydig o drefydd a phentrefydd o'r darn mawr hwnw o dir; ac yr oedd y rhai hyny yn gorwedd gyda'u gilydd yn nghanol y dosbarth. Sichem, neu Sychar, oedd eu prif sefydliad, hyd yn oed cyn i Alexander Fawr ddinystrio Samaria. Y rheswm, dybygid, am hyn oedd, ei bod yn agos i Fynydd Garizim. Daeth yn fwy amlwg felly yn ddiweddarach, ar ddinystriad y deml ar Garizim gan Ioan Hyrcanus, canys hwy a adeiladasant deml iddynt eu hunain. Yr enw diweddar ar Sichem ydyw *Nâblus*, llygriad o Neapolis—y "dref newydd;" yr hon a adeiladwyd gan Vespasian, ychydig i'r gorllewin oddi wrth yr hen dref. Y mae gan y Samariaid sefydliad bychan etto yn *Nâblus*, sef tua dau gant o bersonau; ac y maent etto yn parchu y gyfraith, ac yn cadw y Pasc, ar lanerch a ystyrir yn gyssegredig ganddynt, ar Fynydd Garizim, gyda manylrwydd na cheir mo hono hyd yn oed yn mysg yr Iuddewon eu hunain.

Yr oedd y Samariaid yn achosi aflonyddwch mawr i'w cymmydogion Iuddewig ac i'w llywodraethwyr Rhufeinaidd yn y ganrif Gristionogol gyntaf. Ymddygodd Pilat yn llym tuag atynt; yr hyn, yn ol Josephus, a fu yn achos o'i gwymp ef ei hun, a lladdwyd deng mil o honynt o dan Vespasian. Ond er hyn oll, yr oeddynt wedi lliosogi erbyn diwedd y ganrif. Ystyrid hwynt gan Epiphanius, yn y bedwaredd ganrif, y prif elynion a feddai Cristionogaeth, ac enwir ganddo y gwahanol sectau oedd yn eu plith. Gwnaethant ymosodiad ar Gristionogion Neapolis yn nheyrnasiad Zeno, yn niwedd y bummed ganrif; ond cospwyd hwynt yn llymdost am hyn, a syrthiasant wedi hyny i gryn ddinodedd; ac er fod rhai teithwyr yn gwneuthur sylw bychan o honynt yn y ddeuddegfed a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, ychydig mewn cymmhariaeth a ddywedir am danynt hyd yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn y rhan ddiweddaf o'r ganrif hono dechreuwyd gohebiaeth gyda hwynt gan Scaliger. Derbyniodd Job Ludolf lythyr oddi wrthynt, yn y rhan ddiweddaf o'r ganrif nesaf. Y mae hwn, ynghyd â'r ddau lythyr a dderbyniodd Scaliger, yn hynod ddyddorol, ac yn disgrifio yn fanwl eu gwasanaeth crefyddol a defodol. Y mae un peth teilwng o sylw yn cael ei ddwyn ger bron; sef, yr anghyssondeb a ddangosir gan yr ysgrifenwyr oedd yn ymffrostio nad oeddynt yn Iuddewon, ac etto yn hawlio bod yn ddisgynyddion o Ioseph.—Gwel Pum Llyfr Samariaidd; Ebal; Garizim; Sichem; Sychar.

SAMARIAIDD, PUM LLYFR. Gwel Pum Llyfr Samariaidd.

SAMGAR. Gwel Shamger.

SAMGAR-NEBO: un o dywysogion neu gadfridogion brenin Babilon, oedd yn arwain byddin fuddugoliaethus y Caldeaid, pan y darostyngwyd Ierusalem: *Ier.* xxxix. 3. Y *Nebo* ydyw y *Mercher* Caldeaidd. Y mae gwahaniaeth barn yn bod ynghylch Samgar. Awgryma Von Bohlen ei fod yn dyfod o'r iaith Sanscrit *sangara*—'rhyfel;' y gellir ffurfio o hono y gair *sângara*,—'rhyfelwr,' ac mai dyma ydoedd tarddiad y gair *Samgar*.

1. SAMIR: tref yn mynydd-dir Iudah: *Ios.* xv. 48. Y gyntaf ydyw o'r dosbarthiad hwn o'r rhestr, ac enwir hi mewn cyssylltiad âg Iattir, yn y dosbarth a gynnwysa Sochoh ac Astemoh. Gorweddai, dybygid, rhyw wyth neu ddeng milldir i'r deheu o Hebron, yn nghymmydogaeth y tri lle a enwyd—yr oll o ba rai y gellir eu nodi allan yn bresennol gyda graddau o sicrwydd. Ond nid ydyw Samir ei hun wedi ei darganfod hyd yma.

2. SAMIR: lle yn Mynydd Ephraim, preswylfod a mangre beddrod y barnwr Tola: *Barn.* x. 1, 2. Yr oedd yn rhyfedd fod y barnwr hwn, gŵr o Issachar, wedi dewis lle allan o derfynau ei lwyth ei hun i wneyd ei breswylfod swyddol ynddo. Hwyrach y gellir cyfrif am hyny trwy dybied fod gwastadedd yr Esdraelon, yr hwn a ffurfiai y rhan fwyaf o diriogaeth Issachar, wedi ei oresgyn gan y Canaaneaid, neu ryw ymosodwyr ereill, megys y gwnaed yn amser Gedeon, er na ddywedir dim am hyny; a bod Tola, mewn canlyniad, wedi ei yru i chwilio am ddiogelwch i fynyddoedd Ephraim. Neu, ynte, o herwydd fod gan Manasseh ddinasoedd arbenig o Issachar wedi eu neillduo iddo, hwyrach fod Issachar ar y llaw arall yn perchenogi rhyw ddinasoedd yn mynyddoedd Ephraim. Nid ydyw y ddwy dybiaeth, pa fodd bynag, ond dyfaliadau yn unig, nad oes un dystiolaeth gadarnhaol iddynt mewn unrhyw gofnodion sydd ar gael. Ni sonia yr hen awdwyr a ysgrifenent ar ddaearyddiaeth y wlad am Samir. Mŷn Schwarz mai yr un ydyw a *Sanûr*, lle o gadernid naturiol mawr yn y mynyddoedd, tua hanner y ffordd rhwng Samaria a *Jenîn*, tuag wyth milldir rhwng y naill a'r llall. Van de Velde a dybia mai *Khirbet Sammer*, lle adfeiliedig yn y mynyddoedd sydd uwch ben dyffryn yr Iorddonen, deng milldir i'r de-ddwyrain o *Nâblus*, ydyw y fan.

SAMLAH: un o frenhinoedd Edom, ac olynydd i Hadad neu Hadar: *Gen.* xxxvi. 36, 37; 1 *Cron.* i. 47, 48. Yr oedd Samlah yn frodor o Masrecah; yr hon, dybygid, oedd y brif ddinas yn ystod ei deyrnasiad ef. Y mae y crybwylliad a wneir am ddinas wahanol yn perthynu yn mron i bob un o frenhinoedd Edom, yn awgrymu y syniad fod teyrnas Edom yn gyfansoddedig o amryw o lwythau cynghreiriol, ac mai dinas benaf y llwyth llywodraethol oedd prif ddinas y cyfan.

SAMOS: ynys Roegaidd enwog ar gyfer Asia, lle y mae Ionia yn cyffwrdd â Caria, yn agos i ororau Lydia, yn cael ei gwahanu yn unig gan gulfor oddi wrth bentir sydd yn terfynu yn Mhenrhyn Trogyllium. Nid ydyw y culfor yn y man culaf yn llawn filldir o led. Y mae Samos tua phedwar ugain milldir o amgylchedd. Yr oedd, ac y mae etto, yn lle tra ffrwythlawn. Yn ol y traddodiadau boreuaf, yr oedd yn brif gartref y Cariaid a'r Leleges, ac yn lle preswylfa eu brenin cyntaf, Ancæus; ond poblogwyd hi yn benaf gan Æoliaid o Lesbos, ac Ioniaid o Epidaurus. Yn y cofnodau hanesyddol cyntaf, yr oedd Samos yn aelod grymus o'r cynghrair Ioniaidd. Dywed Thucydides mai y Samiaid, o'r holl Roegiaid, ar ol y Corinthiaid, a dalasant y sylw mwyaf i achosion morwrol. Daethant yn foreu i fod mor gryf ar y môr fel, heb law cael meddiant o'r rhanau hyny oedd ar y glenydd cyferbyniol o Asia, y darfu iddynt sefydlu llawer o drefedigaethau. Ar ol i'r llywodraeth fyned o dan amryw gyfnewidiadau, gwnaed yr ynys yn ddarostyngedig i'r enwocaf o'r rhai a elwir yn orthrymwyr, sef Polycrates, c. c. 532; o dan yr hwn yr esgynodd Samos i'w phinacl uchaf o allu

Digitized by Google

â gwin a diod gadarn, a phob ymborth aflan. Gwel NAZAREAD. Yn ol rhagfynegiad yr angel, ganwyd Samson y flwyddyn ddilynol; a gwelwyd pan oedd yn bur ieuangc ei fod yn cael ei gynnysgaeddu â nerth goruwchnaturiol, yn awr ac eilwaith, trwy yr ysbryd a'i meddiannai. Yr oedd yr enghreifftiau hyn o gryfder anghyffredinol, megys lladd y llew yn Timnath pan yn anarfog, yn ddiammheuol yn ganlyniad neu yn ffrwyth y dylanwad hwn o eiddo "Ysbryd yr Arglwydd" y cyfeirir ato yn *Barn.* xiii. 25; "Ac Ysbryd yr Arglwydd a ddechreuodd ar amseroedd ei gynnhyrfu ef yn ngwersyll Dan, rhwng Sorah ac Estaol." Nid ydym yn gwybod a oedd yr anianawd hon, i'r graddau eithaf, yn trigo ynddo yn wastadol; ond gellid meddwl nad oedd.

Gan fod sefyllfa llwyth Dan, oedd yn terfynu ar diriogaeth y Philistiaid, yn eu gwneyd mewn modd neillduol yn wrthddrychau ymosodiadau y bobl hyny, yr oedd yn eithaf eglur beth oedd amcan yr Arglwydd yn cyfodi gwaredwr yn y parth hwnw o'r wlad. Y Philistiaid, gan hyny, a fuont yn wrthddrychau ymosodiadau Samson a'i ddilynwyr. Cafwyd achlysur i hyn trwy i Samson gyfarfod âg un o ferched y Philistiaid yn Timnath; ac wedi ei gweled, ceisiai gan ei rieni ei hymofyn yn wraig iddo, am y rheswm ei bod "wrth ei fodd ef;" yr hyn a arwyddai, fel y mŷn llawer gredu, ei bod yn gymmhwys i atteb y dyben oedd ganddo ef mewn golwg. Nid oes un lle i ammheu, er ei fod yn cadw ei olwg ar y fantais a gawsai drwyddi i gyrhaedd ei amcan o ddrygu y Philistiaid a gwellhau sefyllfa yr Israeliaid, nad ydoedd yn mynwesu serch gwirioneddol tuag ati: ond diau ei fod yn bwriadu, ar yr un pryd, gwneyd y gyfathrach hon yn ddarostyngedig i'r amcan mawr o ryddhau ei wlad oddi wrth orthrwm; a'i fod yn hyny yn gweithredu o dan reolaeth ddirgelaidd Rhagluniaeth sydd amlwg oddi wrth yr ymadroddion a ddilynant, pan, mewn cyfeiriad at wrthwynebiad ei rieni i'w briodas, y dywedir—"Ond ni wyddai ei dad na'i fam mai oddi wrth yr Arglwydd yr oedd hyn, mai ceisio achos yr oedd efe yn erbyn y Philistiaid." Ymddengys, oddi wrth ei holl hanes, mai ei amcan penaf oedd ymdrechu yn erbyn y gallu Philistaidd yn fwy trwy ei nerth personol ei hunan nag mewn un ffordd arall. Nid oedd blaenor Israel, gan hyny, yn gymmaint o arweinydd byddinoedd ag ydoedd o fyddin ynddo ei hun. Yr oedd hyn yn amlygu gallu yr Arglwydd yn fwy yn ngorchfygiad ei elynion. Pa mor bell yr oedd Samson ei hun yn rhagweled canlyniad yr ymdrafodaeth hon, neu pa mor bell yr oedd wedi gosod i lawr gynllun yn cyfatteb i'r canlyniadau a ddilynodd, y mae yn anhawdd dywedyd. Yr oedd yn meddu rhyw argraph cyffredinol cryf, dybygid, ar ei feddwl, a hwnw wedi ei gynnyrchu gan Ysbryd yr Arglwydd, yn hytrach na dirnadaeth glir o'r digwyddiadau a gymmerent le. Pa fodd bynag, yr oedd argyhoeddiad digonol ar ei feddwl ef a'i rieni i'w gwarantu i ymddwyn fel y gwnaethant. Yr oeddynt yn ymwybodol, mewn rhyw fodd, eu bod yn dwyn yn mlaen waith a oruwchlywodraethid gan yr Arglwydd i hyrwyddo amcanion ei drugaredd tuag at ei bobl, a'i farnau ar eu gelynion.

O'r pryd hwn y dechreuodd weithrediadau a'i gwnaeth yn ddychryn i'w elynion, ac yn syndod i'r holl oesau. Daeth cwmni lliosog ynghyd i'w wledd briodasol ef, yn ol arfer gwledydd y dwyrain, i'r dyben proffesedig o anrhydeddu y briodas, ond mewn gwirionedd i gadw gwyliadwriaeth ar ei symmudiadau. Gosododd Samson ddychymyg ger eu bron, yr eglurhâd ar ba un a gyfeiriai at y mêl a gawsai efe yn ysgerbwd y llew; ond costiodd y dull llechwraidd a ddefnyddiwyd i gael allan y dirgelwch i'r Philistiaid ddeg ar hugain o fywydau. Achoswyd yr enghraifft nesaf a geir yn ei hanes o'i gyfrwysdra dialgar gan ymddygiad ei dad-yn-nghyfraith tuag ato; yr hwn, ar ryw esgusawd, a roddasai ei ferch yn wraig i ddyn arall. Daliodd Samson nifer fawr o lwynogod, a rhwymodd eu cynffonau hwy ynghyd bob yn ddau, a rhoddodd dân ynddynt, a gollyngodd hwynt i feusydd ŷd ei elynion. Pan y deallodd y Philistiaid pwy a wnaeth hyn, hwy a dywalltasant eu digofaint ar deulu ei dad-yn-nghyfraith ef, yr hwn a fuasai, mewn rhyw ystyr, yn achlysur o'r galanasdra a wnaed, trwy losgi ei dŷ—yn yr hwn y trengodd y tad a'r ferch. Dialodd Samson arnynt hwythau drachefn am hyn; ac yn ddiattreg "efe a'u tarawodd hwynt, glun a morddwyd, â lladdfa fawr;" *Barn.* xv. 8. Wedi cymmeryd ei drigfod yn nghraig Elam, cydsyniodd i fyned oddi yno, mewn canlyniad i drefniad anwrol a wnaed gan ei gydwladwyr, pan y cyttunodd efe i roddi ei hunan yn eu dwylaw, ar yr ammod na byddai iddynt syrthio arno a'i ladd. Teimlai, hwyrach, y gallasai, trwy roddi ei gydsyniad, gael cyfle newydd i ddial ar ei elynion. Yn y sefyllfa ddigymmhorth yma, efe a ddaeth i le a elwir ar enw yr amgylchiad a gymmerodd le yno yn *Lehi;* sef *gên.* Daeth yr ysbryd goruwchnaturiol arno, ac efe a ddrylliodd ei gadwynau yn ddarnau, a chipiodd i fyny ên asyn; ac â'r offeryn distadl hwnw efe a laddodd fil o'r Philistiaid yn y fan. Cafwyd allan yn fuan mai nid gwaith dyn yn unig oedd hyn, ond gwaith Duw. Yn flinedig mewn canlyniad i'w lafur, gorweddodd y Daniad arwrol i lawr mewn llesgedd a syched; ac yn gymmaint ag nad oedd dwfr yn y lle, efe a weddïodd am ddwfr i dori ei syched. Gwrandawyd ei weddi; parodd yr Arglwydd i ffynnon darddu allan o agen craig ger llaw: ac mewn ffordd o ddiolchgarwch galwodd Samson enw y lle yn *En-haccore*—ar ymyl y ddalen, *ffynnon y geilwad*, neu *ffynnon y gweddïwr;* a dyna fu enw y ffynnon byth wedi hyny. Y mae y cyfieithiad Cymraeg—"Duw a holltodd y cilddant oedd yn yr ên"—braidd yn anhapus, gan mai y gair gwreiddiol ydyw לחי *lehi;* sef, yr un gair ag a gyfieithir yn niwedd yr adnod "yn Lehi." Cafodd y lle ei enw oddi wrth yr amgylchiad o'i fod y pryd hwnw wedi defnyddio y gên asyn (לחי, *lehi*) mewn dull mor effeithiol.

O hyny allan edrychai Samson gyda rhywbeth tebyg i ddirmyg ar y Philistiaid; ac aeth i Gaza, a chyfarfu yno â gwraig o gymmeriad isel, yr hon â'i hudoliaethau a'i harweiniodd ef i berygl mawr. Deallwyd ei fod yn y dref y noson hono, a gwnaed ymgais i'w gadw yno drwy gau pyrth y ddinas; ond ar hanner nos cyfododd Samson, "ac a ymaflodd yn nrysau porth y ddinas, ac yn y ddau bôst, ac a aeth ymaith â hwynt ynghyd â'r bar, ac a'u gosododd ar ei ysgwyddau, ac a'u dug hwynt i fyny i ben bryn sydd gyferbyn â Hebron" (*Barn.* xvi. 3):—bryn, dybygid, oedd yn ngolwg y ddwy ddinas a olygir, gan fod Hebron tuag ugain milldir o Gaza. Yr oedd ei elynion bellach yn ceisio ei rwydo trwy dwyll, yn hytrach na thrwy ymosod yn agored arno. Ymserchodd mewn gwraig o Sorec, â'i henw

Digitized by Google

Dalilah; a chan fod y gwendid hwn yn Samson yn hysbys i bendefigion y Philistiaid, penderfynasant, os yn bossibl, gael gafael ynddo yn bersonol. Mewn trefn i gael hyn oddi amgylch, hwy a gynnygiasant lwgr-wobrwyaeth i Dalilah, a chyttunodd hithau â'r cynnygiad yn rhwydd. Defnyddiodd ei holl gyfrwysdra er cael allan ddirgelwch ei gryfder nodedig. Am beth amser efe a'i twyllodd trwy ddywedyd wrthi ryw chwedlau; ond o'r diwedd, mewn munyd o wendid, efe a fynegodd iddi y ffaith fod ei gryfder yn ei wallt; a phe y torasid ef y buasai efe fel dyn cyffredin arall. Nid oedd ei nerth ef mewn gwirionedd yn ei wallt, o herwydd nid oedd gan hyn ddylanwad naturiol arno, y naill ffordd na'r llall. Yr oedd ei gryfder yn codi oddi ar ei berthynas â Duw fel Nazarëad, ac yr oedd cadw ei wallt heb ei dori yn arwydd o'i Nazareaeth, ac yn ammod o du yr Arglwydd o barhâd ei nerth anianyddol gwyrthiol. Cymmerodd Dalilah y cyfle cyntaf er rhoddi prawf ar ei dystiolaeth. Tra yr oedd efe yn cysgu eilliwyd ei ben, ac ymosododd y Philistiaid arno yn ddioed. Daeth yntau i ddeall fod yr Arglwydd wedi cilio oddi wrtho: fel cosp am ei bechodau a'i wrthgiliadau, gadawyd ef iddo ei hun. Cafodd fedi o'r hyn a hauodd. Yr oedd ei gospedigaeth yn llymdost mewn gwirionedd, er ei fod ar ol hyny wedi dial ar y gelynion, ac adfeddiannu i fesur ei anrhydedd ei hun, trwy y dull yn yr hwn yr wynebodd ei farwolaeth. Wedi i'r Philistiaid dynu ei lygaid ef, hwy a'i rhwymasant â gefynau pres, a gosodwyd ef i falu fel caethwas yn melin y carchardy. Gan fod hyn yn wasanaeth a ddisgyna i ran y merched yn gyffredin yn y dwyrain, yr oedd rhoddi y fath un a Samson i'w wneyd yn ddarostyngiad mawr. Yr oedd malu ŷd i ereill, ac hyd yn oed i ferch, yn ymadrodd diarebol er gosod allan sefyllfa isel a gorthrymedig dyn. Pa faint mwy felly arwr mawr Israel!

Tra yn cael ei gadw yn y carchardy, dechreuodd ei wallt dyfu, a chafodd ei nerth ei adferu iddo; ac ymddengys ei fod yn edifarhau yn fawr o herwydd ei ffolinebau blaenorol. Nid oedd ei elynion yn hysbys o'r ffaith hon. Ymfalchïent yn yr ystyriaeth fod eu gelyn yn ddiogel yn eu meddiant, a chadwent ef mewn trefn i'w sarhau a'i ddirmygu. Ar un o'r achlysuron pan y mynent wneuthur hyn âg ef, yr oedd lliaws o bendefigion a phobl y Philistiaid wedi dyfod ynghyd i fath o amchwareufa fawr, i gadw gŵyl er anrhydeddu eu duw Dagon; i'r hwn y priodolent y gwaith o roddi eu gelyn yn eu llaw, pryd y galwyd am Samson yno i fod yn destyn gwawd a chrechwen eu gelynion, neu yn ol iaith yr ysgrythyr, "i beri i ni chwerthin." Penderfynodd Samson wneuthur defnydd ofnadwy o'i nerth adferedig, a pherswadiodd y llangc a'i harweiniai i'w osod rhwng y ddwy golofn ar ba rai yr oedd nen yr adeilad yn gorphwys. Ar ol aros am ennyd, efe a weddïodd, ac yna efe a ymaflodd yn y colofnau, "ac efe a ymgrymodd â'i holl nerth; a syrthiodd y tŷ ar y pendefigion, ac ar yr holl bobl oedd ynddo; a'r meirw y rhai a laddodd efe wrth farw, oedd fwy nag a laddasai efe yn ei fywyd;" *Barn.* xvi. 30. Fel hyn y trengodd Samson, ac ynghylch tair mil o'r Philistiaid gydag ef. Claddwyd ef "rhwng Sorah ac Estaol," yn meddrod ei dad.

Mynegir i ni fod Samson wedi barnu "Israel am ugain mlynedd;" *Barn.* xvi. 31. Ymddengys, pa fodd bynag, fod ei awdurdod yn gyfyngedig i'r parth hwnw o'r wlad a derfynai ar diriogaeth y Philistiaid; ond nid oedd yr hyn a wnaeth fel gwaredydd yn cynnwys, hwyrach, ddim mwy nag ymosodiadau yn awr ac eilwaith ar y Philistiaid a arglwyddiaethent ar Israel, trwy ba rai yr oedd eu gafael ar Israel yn cael ei wanhau, a'r ffordd ei rhwyddhau i ryddhâd dyfodol yr Israeliaid oddi wrth eu hiau orthrymus. Y mae yn eglur oddi wrth *Barn.* xiii. 1, 5, a xv. 9—11, 20, a'r holl hanes, fod yr Israeliaid, neu o leiaf Iudah a Dan, y rhai ydynt y llwythau a enwir, yn ddarostyngedig i'r Philistiaid ar hyd tymmor swyddogaeth Samson; ac felly, o angenrheidrwydd, yr oedd ugain mlynedd ei swyddogaeth ef yn cael eu cynnwys yn y deugain mlynedd y bu y Philistiaid yn llywodraethu. Oddi wrth yr hyn a ddywedodd yr angel wrth fam Samson (*Barn.* xiii. 5), ymddengys yn mhellach fod yr Israeliaid yn ddarostyngedig i'r Philistiaid cyn ei eni; ac am nad allai Samson fod yn farnwr cyn ei fod yn ugain mlwydd oed, y mae yn canlyn y rhaid mai yr ugain y bu efe yn barnu oedd yr ugain olaf o lywodraethiad y Philistiaid. Ond pan y sylwir ar yr hyn a ddywedir yn Llyfr Cyntaf Samuel, ac yn enwedig yn *pen.* vii. 1—14, canfyddir i lywodraethiad y Philistiaid derfynu yn yr amser y gweinyddai Samuel y swydd o farnwr yn Israel. Gan hyny, y mae yn hawdd casglu fod y rhan gyntaf o'r tymmor y gweinyddai Samuel y swydd o farnwr yn cyfatteb i dymmor swyddogaeth Samson; a bod y Philistiaid wedi dwyn ymaith yr arch—yr hyn a ddigwyddodd yn amser Eli—yn ystod bywyd Samson. A chymmeryd pob peth i ystyriaeth, nid oes un cyfnod tebycach o fod yr adeg yr oedd Samson yn byw ynddi na hwn. Rhaid fod effaith ei wrhydri yn gynnwysedig mewn cynnhyrfu ysbryd isel a digalon pobl Israel, a chyffroi ysbryd trahaus a diofal y Philistiaid, yn hytrach nag mewn dwyn oddi amgylch fuddugoliaeth fawr neu waredigaeth hollol: ac o ganlyniad, darparu y ffordd a wnaeth efe, yn hytrach na chwblhau y gwaith. Nid oes un cyfeiriad yn cael ei wneyd at barthau ereill o Israel yn ystod tymmor swyddogaeth Samson, oddi eithr yn unig y ffaith fod gwŷr terfynau llwyth Iudah, tair mil mewn nifer, wedi ei gyrchu o graig Elam i'w roddi yn nwylaw y Philistiaid: *Barn.* xv. 9—13.

Sonir am Samson yn yr Ysgrythyrau fel un wedi ei gynnysgaeddu yn arbenig â nerth goruwchnaturiol gan Ysbryd yr Arglwydd:—"Ac Ysbryd yr Arglwydd a ddechreuodd ar amseroedd ei gynnhyrfu ef yn ngwersyll Dan." "Ac Ysbryd yr Arglwydd a ddaeth arno ef; a'r rhaffau oedd am ei freichiau a aethant fel llin a losgasid yn tân." "Ac Ysbryd yr Arglwydd a ddaeth arno ef; ac efe a aeth i waered i Ascelon, ac a darawodd o honynt ddeg ar hugain." Ond ar y llaw arall, wedi tori ei wallt, ac i'w nerth ei adael ef, dywedir, "Ond ni wyddai efe fod yr Arglwydd wedi cilio oddi wrtho;" *Barn.* xiii. 25; xiv. 6, 19; xvi. 20. Y mae yr un ymadrodd gyda golwg ar Ysbryd yr Arglwydd yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas âg Othniel a Gedeon (*Barn.* iii. 10; vi. 34); ond y mae cyssylltiad y nerth goruwchnaturiol â chadw yn ddilwgr yr adduned Nazareaidd, a'r ddawn neillduol o nerth corphorol mawr, fel y gwelir yn ngwaith Samson yn lladd y llew, yn dryllio ei rwymau, yn cario pyrth y ddinas ar ei ysgwydd, ac yn taflu i lawr y colofnau a gynnalient deml Dagon, yn briodol iddo ef ei hun. Mewn gwirionedd,

Digitized by Google

nid oes yn yr holl Feibl hanes a chymmeriad fel yr eiddo Samson. Yr unig grybwylliad a geir am Samson yn y Testament Newydd sydd yn *Heb.* xi. 32, lle y mae yn cael ei gyssylltu gyda Gedeon, Barac, ac Iephthae, fel un o'r rhai "a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, ac a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio." Y mae y ffaith fod ei enw yn mhlith rhestr saint yr Hen Destament oedd yn enwog mewn ffydd, yn ein cyfiawnhau i farnu ei gymmeriad ar y cyfan yn ffafriol. Ond ar yr un pryd yr ydym yn gweled ffyddlondeb yr hanes ysbrydoledig yn nodi y gwendidau a'r diffygion a nodweddent ei fywyd, ac a dynent gwmmwl ar ddisgleirdeb rhai o'i weithredoedd enwocaf.

SAMUEL (שמואל, *Shemûel; a ddymunwyd, neu a archwyd gan Dduw*): yr olaf o'r barnwyr a fu yn barnu Israel, a'r cyntaf o'r gyfres reolaidd o brophwydi a ymddangosasant yn Israel, a sylfaenydd y frenhiniaeth. Efe oedd yr uchaf ei gymmeriad, a'r enwocaf a ymddangosodd yn Israel er dyddiau Moses. Mab ydoedd i Elcanah yr Ephratëad, neu yr Ephraimiad, ac i Hannah, neu Anna, ei wraig. Y mae haniad Elcanah yn aros i raddau mewn tywyllwch. Yn 1 *Sam.* i. 1, y mae yn cael ei osod allan fel Ephraimiad. Yn 1 *Cron.* vi. 22, 23, mynegir ei fod yn ddisgynydd o Corah y Lefiad. Y mae Hengstenburg ac Ewald yn esbonio hyn trwy dybied fod y Lefiaid yn achlysurol yn cael eu corphori i'r llwythau yn mysg y rhai y preswylient. Nid ydyw y cwestiwn o un pwys ymarferol; canys, hyd yn oed os oedd Samuel yn Lefiad, y mae yn ddiammheu nad oedd o ddisgyniad offeiriadol.

O barthed i le genedigaeth Samuel, yr oll a ymddengys gyda sicrwydd oddi wrth yr hanes yw, mai yn mynyddoedd Ephraim y ganwyd ef; ac, fel y gellir casglu oddi wrth yr enw, yr oedd yn fath o ddau fryn, y rhai a ddefnyddid o bossibl yn lleoedd o wyliadwriaeth: 1 *Sam.* i. 1. Wrth droed y ddau fryn yr oedd ffynnon: 1 *Sam.* xix. 22. Ar ael y ddau fryn yr oedd y ddinas; ac ymddengys fod serch Samuel at y lle bob amser yn fawr. Yn mlynyddoedd olaf ei oes, gwnaeth ei drigfod ynddi. Am ei dad, Elcanah, y dywedir—"A dwy o wragedd oedd iddo; enw y naill oedd Hannah, ac enw y llall Peninnah: ac i Peninnah yr ydoedd plant, ond i Hannah nid oedd plant;" 1 *Sam.* i. 2. Teimlwyd oddi wrth effeithiau arferol amlwreiciaeth yn nheulu Elcanah. Gan fod Hannah yn ammhlantadwy, gwarthruddwyd hi gan Peninnah, yr hon "a'i cyffrodd hi i'w chythruddo, am i'r Arglwydd gau ei bru hi;" 1 *Sam.* i. 6. Cynnhyrfwyd eiddigedd Peninnah hefyd am fod ei gŵr yn amlygu serch mwy tuag ati hi:—"ond i Hannah y rhoddes efe ran hardd, canys efe a garai Hannah;" 1 *Sam.* i. 5. Ar y prif ŵyliau yr oedd Hannah yn teimlo yn benaf o herwydd y ffaith ei bod yn ddiblant, pan y gwelai ei phriod yn rhoddi anrhegion i feibion a merched Peninnah, yr hon a gymmerai fantais ar yr adegau hyn i'w gofidio a'i phoeni hithau. Ymofidiai Hannah yn ddirfawr, "fel yr wylai, ac na fwytäai;" *adn.* 7.

Yn hanes amgylchiadau genedigaeth Samuel, y mae dyddordeb mawr yn ymgasglu o amgylch ei fam. Diammheu ei bod yn wraig dra chrefyddol; a'i bod o ran ei harferion yn tynu at fod yn Nazaread: 1 *Sam.* i. 15. Yr oedd o ran ei doniau o'r braidd yn brophwydes: 1 *Sam.* ii. 1. Aeth i'r babell, ac yn nyfnder ei gofid gweddïodd ar yr Arglwydd am fab; a phan y caniatawyd iddi yn raslawn ei dymuniad gan yr Arglwydd, trwy roddi iddi fab, yr oedd yr enw a roddwyd arno ar unwaith yn arwyddo taerni a dwysder ei dymuniad—Samuel, "gan yr Arglwydd y dymunais ef;" 1 *Sam.* i. 20. Gan ei bod yn byw mewn oes y telid sylw mawr i addunedau, yr oedd Hannah, yn flaenorol i enedigaeth Samuel wedi ei gyflwyno mewn adduned i'r Arglwydd holl ddyddiau ei fywyd, ac ar yr un pryd wedi ei rwymo yntau i fod yn Nazaread. O herwydd dwysder ei theimlad, yr oedd ei gwefusau yn symmud pan yn gweddïo am dano, ond nid oedd ei geiriau yn glywadwy: tybiodd Eli, yr archoffeiriad, yr hwn a eisteddai ar faingc wrth bôst y deml, ei bod yn feddw, a chymmerodd gyfle i'w cheryddu. Ond yr oedd yr eglurhâd effeithiol a roddwyd ganddi yn ddigon i symmud ymaith bob ammheuaeth o feddwl yr archoffeiriad, ac efe a'i bendithiodd hi. Adlonwyd ei hysbryd, a hi "a aeth i'w thaith." Cyflawnwyd ei gobeithion goreu yn fuan pan y ganwyd iddi fab. Fel y sylwyd o'r blaen, yr oedd y bachgen hwn wedi ei gyflwyno mewn adduned i'r Arglwydd dros ei holl ddyddau. Yr oedd dull ei gyssegriad ef i wasanaeth yr Arglwydd, dybygid, yn gyffelyb i'r modd y cyflwynwyd offeiriaid afreolaidd Ieroboam mewn amser diweddarach (2 *Cron.* xiii. 9); sef, trwy ddwyn tri o fustych, ephah o beilliad, a chostrelaid o win, i dŷ yr Arglwydd yn Siloh: 1 *Sam.* i. 24. Yr emyn a ddilynodd y cyflwyniad hwn ydyw y gyntaf o'r fath a geir yn y gyfrol ysbrydoledig. O'r pryd hwn yr oedd Samuel "yn gweini o flaen yr Arglwydd," yn y babell, "wedi ymwregysu âg ephod liain;" 1 *Sam.* ii. 18.

Yn y modd hwn y treuliwyd ei ddyddiau bachgenaidd. Tra yn cysgu yn y babell y derbyniodd yr alwad brophwydol gyntaf. Y mae tawelwch y nos, sydynrwydd y llef, camgymmeriad Eli, a'r gwrthgyferbyniad rhwng ei dynged ofnadwy a'r bachgen llariaidd a ddewisodd yr Arglwydd i'w chyhoeddi—oll yn tueddu i roddi i'r gyfran hono o'r hanes ddyddordeb anghyffredinol. O'r pryd hwn fe sefydlwyd cymmeriad prophwydol Samuel. Trysorwyd ei eiriau fel pethau rhy werthfawr i fyned ar goll, ac yr oedd y bobl yn cyrchu i Siloh i wrandaw arno:—"A chynnyddodd Samuel; a'r Arglwydd oedd gydag ef, ac ni adawodd i un o'i eiriau ef syrthio i'r ddaear. A gwybu holl Israel, o Ddan hyd Beerseba, mai prophwyd ffyddlawn yr Arglwydd oedd Samuel. A'r Arglwydd a ymddangosodd drachefn yn Siloh: canys yr Arglwydd a ymeglurhaodd i Samuel yn Siloh trwy air yr Arglwydd;" 1 *Sam.* iii. 19—21.

Yr oedd pobl Israel yn llygredig a gwrthgiliedig yn adeg ieuengctid Samuel, ac yr oedd tynged tŷ Eli wedi ei chyhoeddi. Goresgynodd y Philistiaid wlad Israel, a dygwyd arch Duw i faes y frwydr gan yr Israeliaid. Aeth Hophni a Phinees, meibion Eli, i'r maes hefyd, fel gwarcheidwaid yr arch, a chwympasant yn y lladdfa ofnadwy a ddilynodd. Eisteddai Eli, eu tad, ar eisteddfa ar fin y ffordd, i ddisgwyl am y newyddion cyntaf a gyrhaeddai o faes y frwydr, "canys yr oedd ei galon ef yn ofni am arch Duw;" a daeth ffoadur heibio, a hysbysodd iddo y trychineb a gymmerasai le, gan sefyll yn fwy neillduol ar y manylion pruddaidd—Israel yn ffoi mewn dychryn, Hophni a Phinees wedi eu lladd, ac arch Duw wedi ei chymmeryd. Dychrynwyd Eli gymmaint gan yr hysbysiad am

Digitized by Google

arch Duw fel y syrthiodd oddi ar ei eisteddfa wysg ei gefn, "a'i wddf a dorodd, ac efe a fu farw;" 1 *Sam.* iv. 18. Pan y terfynodd tymmor gweinyddiaeth egwan Eli, ar ol barnu Israel am ddeugain mlynedd, yr oedd Samuel yn rhy ieuangc i ymaflyd yn y swydd o farnwr, ac y mae digwyddiadau y cyfnod dilynol o'i fywyd am dymmor maith yn anhysbys. Anfonodd y Philistiaid yr arch yn ol i dir Israel yn mhen saith mis. Ni chyrhaeddodd yr arch i Siloh, pa fodd bynag, mewn canlyniad i farn ofnadwy yr Arglwydd yn Beth-semes (1 *Sam.* vi. 19), ond gorphwysodd yn Ciriath-iearim am ugain mlynedd: 1 *Sam.* vii. 2. Ni cheir golwg ar Samuel hyd ddiwedd y cyfnod hwn. Bu mewn neillduaeth am o leiaf ugain mlynedd, mor bell ag y mae y cofnodion ysgrythyrol yn arwyddo i ni. Daeth Israel i deimlo i raddau oddi wrth eu darostyngiad cenedlaethol, "a holl dŷ Israel a alarasant ar ol yr Arglwydd." Cymmerodd Samuel fantais ar y teimlad hwn, ac ymddangosodd yn sydyn yn mhlith y bobl, gan eu rhybuddio i beidio a dilyn arferion eilunaddolgar. Gwrandawsant ar y cynghor, a bwriasant ymaith eu duwiau: 1 *Sam.* vii. 4. Galwodd y prophwyd gyfarfod o'r holl lwythau yn Mispah —lle o'r enw hwnw, dybygid, oedd yn nhiriogaeth llwyth Beniamin; ac yno aed trwy ddefod dra arwyddocaol, yn gosod allan mewn rhan ymostyngiad dwfn, ac mewn rhan arwydd o gyfammod; canys yno tywalltasant "ddwfr ger bron yr Arglwydd, ac a ymprydiasant," a chyhuddasant eu hunain o bechu yn erbyn y Goruchaf. Yma hefyd, dybygid, y dewiswyd Samuel yn farnwr: 1 *Sam.* vii. 6.

Parodd cyfarfyddiad yr Israeliaid yn Mispah ddychryn i'r Philistiaid, ac "arglwyddi y Philistiaid a aethant i fyny yn erbyn Israel." Cymmerodd Samuel y flaenoriaeth yn Israel, offrymodd boethoffrwm, a gweddïodd am amddiffyniad yr Arglwydd. "A'r Arglwydd a'i gwrandawodd ef," ac "a daranodd â tharanau mawr yn erbyn y Philistiaid y diwrnod hwnw." Ymdorodd tymmestl fawr hefyd, ac ymladdodd yr elfenau yn eu herbyn. Ffodd y Philistiaid yn orchfygedig o'r llanerch lle yr oeddynt ugain mlynedd cyn hyny wedi ennill buddugoliaeth fawr. Gosodwyd maen i fyny, yr hwn a barhaodd am amser maith yn goffadwriaeth o fuddugoliaeth Samuel, yr hwn a roddes ar y lle yr enw Ebenezer—"hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyni;" 1 *Sam.* vii. 12. Ymddengys i'r hen Ganaaneaid, oedd wedi eu difeddiannu gan y Philistiaid o'u tiriogaethau oedd ar ymylon bryniau Iudea, fod yn cynnorthwyo Israel yn y frwydr, ac adfeddiannwyd cyfran o'r diriogaeth: 1 *Sam.* vi. 14. Mor bell ag y mae y Beibl yn ein dysgu, hon oedd y gyntaf a'r unig anturiaeth filwraidd y bu a fyno Samuel â hi; ond megys yn achos barnwyr ereill, hyn yn ymddangosiadol a'i dyrchafodd ef i'r swydd o farnwr. Enwir ef gydag Ierubaal, Bedan, ac Iephthah yn 1 *Sam.* xii. 11. Wrth gyflawni dyledswyddau ei swydd fel llywodraethwr, ymwelodd â'r tri phrif gyssegrfan oedd ar du y gorllewin i'r Iorddonen—Bethel, Gilgal, a Mispah: 1 *Sam.* vii. 16. Yr oedd yn parhau, fodd bynag, i breswylio yn ei ddinas frodorol ei hun, sef Ramah neu Ramathaim, lle yr adeiladodd efe allor i'r Arglwydd: 1 *Sam.* vii. 17. Yma y priododd efe, ac y tyfodd ei ddau fab i fyny, ac y bu yn dyst o'u gwaith hwy yn gŵyro barn, fel y buasai yn achos meibion Eli o'r blaen. Un o'i feibion oedd Abiah, a'r llall oedd Ioel—a elwir yn 1 *Cron.* vi. 28, yn Fasni. Yn ei hen ddyddiau, yn ol arfer gyffredin y barnwyr a fu o'i flaen, efe a ganiataodd iddynt hwy ran o'r awdurdod a berthynai i'w swydd, a gweinyddent ar y terfynau deheuol —yn Beerseba: 1 *Sam.* viii. 1—4.

Hyd yn hyn, ychydig o bethau a ddigwyddasant i osod mwy o fri ar yrfa swyddol Samuel na'i ragflaenoriaid. Pe buasai farw Samuel yn lled ieuangc, ni buasai ei enwogrwydd yn nemawr mwy nag enwogrwydd Gedeon neu Samson. Yr oedd yn farnwr, yn Nazaread, yn rhyfelwr, ac yn brophwyd. Ond y mae ei safle neillduol yn yr hanes ysgrythyrol yn troi ar ddigwyddiadau a gymmerasant le ar ol hyn. Yn ei ddyddiau ef y newidiwyd y ddwyflywiaeth i frenhiniaeth. Prysurodd camymddygiadau ei feibion, wrth dderbyn llwgrwobrwyon a gŵyro barn, hyn o amgylch: 1 *Sam.* viii. 3, 4. Mynai y bobl frenin. Y mae Josephus yn mynegu fod Samuel yn gofidio yn fawr o blegid hyn, "o herwydd ei syniad mewnol o gyfiawnder, ei gasineb at frenhinoedd, gan yr ystyriai y ffurf frenhinol o lywodraeth islaw yr un bendefigaidd, yr hon a barai i'r rhai oedd yn byw dani fod yn bobl o nodwedd ardderchog."—"*Hyn. Iudd.*," vi. 3, *adr.* 3. Yr oedd y cyfnewidiad yn anfoddloni Samuel ar amryw ystyriaethau. Heb law ei fod yn ymadawiad oddi wrth y sefydliad gwleidyddol cyntaf, ac mor bell a hyny yn fath o gyfyngiad ar hawliau pen goruchel y ddwyflywiaeth, edrychid ar y peth gan y barnwr fel math o gyhuddgwyn yn ei erbyn ef ei hun. Y mae yr Arglwydd yn cysuro Samuel trwy ddywedyd wrtho, "Nid ti y maent yn ei wrthod, ond myfi a wrthodasant." Wedi ei rybuddio gan Dduw i gydsynio â dymuniadau y bobl i gael brenin arnynt, ac ar yr un pryd i osod ger eu bron beryglon a gorthrwm llywodraeth frenhinol (1 *Sam.* viii. 10, &c.), efe a aeth o gwmpas y gwaith o ddewis brenin. At Saul, mab Cis, yr hwn oedd "ŵr ieuangc dewisol a glân," â'r hwn y cyfarfu efe yn ddisymmwth, y cyfeiriodd yr Arglwydd ef, fel yr hwn oedd i fod yn frenin ar Israel; ac efe a gyfarchwyd ac a eneiniwyd gan y prophwyd fel brenin. Galwodd Samuel ynghyd holl Israel i Mispah; a chyda gonestrwydd a sêl duwiolfrydig, efe a gondemniodd eu cynllun, ond parodd i'r goelbren gyssegredig gael ei bwrw. Syrthiodd y goelbren ar Saul. Cyflwynodd y prophwyd ef yn ffurfiol i'r bobl, y rhai a'u derbyniasant ef yn llawen—"a'r holl bobl a floeddiasant, ac a ddywedasant, Byw fyddo'r brenin;" 1 *Sam.* x. 24.

Nid oedd Samuel yn foddlawn ar egluro i'r bobl mewn geiriau natur y deyrnas frenhinol, ond fe'i "hysgrifenodd mewn llyfr, ac a'i gosododd ger bron yr Arglwydd." Hwyrach fod hyn yn golygu i Samuel ddyfynu o lyfrau Moses y ddarpariaeth sydd yno ar gyfer brenhiniaeth ddyfodol, a chwanegu at hyn y cyfarwyddiadau, y cynghorion, a'r rhybuddion a gynnygient eu hunain i'w feddwl ef ei hun dan ddylanwad ysbrydoliaeth. Yn gymmaint ag i'r frwydr gyntaf y cymmerodd Saul ran ynddi droi allan mor lwyddiannus, a bod y rhagddarpariadau ar ei chyfer yn dangos egni a phenderfyniad cymmeriad, daeth ar unwaith yn boblogaidd, ac esgynodd i'r orsedd. Cymmerodd Samuel fantais ar y teimlad hwn, oedd yn ffafriol i Saul i alw y bobl ynghyd yn Gilgal drachefn, i adnewyddu y frenhiniaeth, ac i gadarnhau cyfansoddiad y wladwriaeth, ac i orseddu y brenin: 1 *Sam.* xi.

Digitized by Google

14, 15. Gwnaeth y barnwr yma appeliad difrifol at y gynnulleidfa mewn amddiffyniad i'w lywodraeth ef ei hun:—"Tystiolaethwch i'm herbyn ger bron yr Arglwydd, a cher bron ei eneiniog: ych pwy a gymmerais? neu asyn pwy a gymmerais? neu, pwy a dwyllais? neu, pwy a orchymynais i? neu, o law pwy y cymmerais wobr i ddallu fy llygaid âg ef? a mi a'i talaf i chwi." Attebodd yr holl dorf trwy ddadgan eu llawn ymddiried yn ei onestrwydd a'i gywirdeb: 1 *Sam.* xii. 3, 4. Yna, gan ei fod yn parhau yn eiddigus dros awdurdod Duw, a hawliau gwladol ei bobl, y mae yn adrodd eu hanes yn fyr, ac yn dangos nad oeddynt un amser mewn angen arweinyddion pan y byddent hwy yn gwasanaethu yr Arglwydd; a chyhoeddai mai diffyg ymddiried yn Nuw, y cyfodai iddynt arweinydd newydd mewn cyfnod o gyfyngder, a gynnhyrfodd bobl y wlad i geisio brenin. Mewn trefn i brofi y cyhuddiad hwn—cyhuddiad oedd yn priodoli iddynt ddrwg mawr yn ngolwg Duw—efe a appeliodd at yr Arglwydd, yr hwn a attebodd mewn tymmhestl ofnadwy o daranau a gwlaw. Cyffesodd yr Israeliaid dychrynedig eu heuogrwydd, a deisyfasant ar Samuel i eiriol drostynt; yr hyn a addawodd efe ei wneyd:—"a minnau, na atto Duw i mi bechu yn erbyn yr Arglwydd, trwy beidio a gweddïo drosoch: eithr dysgaf i chwi y ffordd dda ac uniawn. Yn unig ofnwch yr Arglwydd, a gwasanaethwch ef mewn gwirionedd â'ch holl galon: canys gwelwch faint a wnaeth efe eroch;" 1 *Sam.* xii. 19, 20, 23, 24. Gellir dyweyd fod gwaith Samuel yn ymneillduo o'i swydd yn un o'r enghreifftiau hynotaf a geir yn yr Hen Destament o ddyn mawr ac enwog yn ymgymmodi âg agwedd gyfnewidiol a newydd ar bethau.

Yr oedd y perthynasau a fu rhyngddo a Saul o hyn allan yn amrywio. Yr oedd y ddwy ffurf o lywodraeth rywfodd yn rhedeg yn gyfochrog yn Israel. Mynegir, yn 1 *Sam.* vii. 15, i Samuel farnu "Israel holl ddyddiau ei fywyd." O bryd i bryd daeth ar draws llwybr y brenin. Hwyrach fod hyn yn golygu, hyd yn oed ar ol coroniad Saul, fod a fyno Samuel gryn lawer â llywodraethu achosion y genedl. Nid ymgymmerid âg un anturiaeth heb gydsyniad Samuel; gan fod ei awdurdod ef yn uwch na'r eiddo y brenin. Yr ydym yn cael fod Saul wedi casglu ei fyddinoedd ynghyd i fyned yn erbyn y Philistiaid, ond yn oedi myned hyd nes y deuai Samuel i roddi ei ganiatâd i gychwyn yr anturiaeth, ac i erfyn bendith Duw arni. Ni ddaeth yn yr adeg appwyntiedig, yn ol meddwl Saul, ac offrymodd y brenin boeth-offrwm ei hun; a thrwy wneyd hyny bu yn euog o dori y gyfraith: 1 *Sam.* xiii. 8—10. Pan gyrhaeddodd y prophwyd yno, yr oedd y gwasanaeth crefyddol wedi ei gwblhau, ac efe a geryddodd Saul am ei ryfyg, ac awgrymodd iddo yn eglur na byddai ei deyrnasiad yn faith: 1 *Sam.* xiii. 14. Etto yr ydym yn cael Samuel yn gorchymyn i Saul ddinystrio yr Amaleciaid. Gwnaeth y brenin ryfelgyrch yn eu herbyn, ond ni chariodd allan i fanylrwydd y gorchymyn a roddwyd iddo. Yr oedd ei ymddiheurad neu ei amddiffyniad yn un cyfrwysgall. Dywedai fod y bobl wedi arbed y defaid a'r gwartheg, a'u cadw i'r dyben o'u haberthu i'r Arglwydd Dduw yn Gilgal. Ond nid oedd y prophwyd yn ymfoddloni ar ei esgusodion: efe a'i ceryddodd yn dost, a dywedodd wrtho ef, fod gwrandaw yn "well nag aberth, ac ufuddhau na braster hyrddod;" 1 *Sam.* xv. 22. Yr oedd Saul wedi fforffetio ei goron trwy anufuddhau i Dduw. Etto yr oedd Samuel yn gofidio drosto. Ymddengys ei fod yn teimlo llawer o serch at y milwr dewr; ac yn ddiau yr oedd eu hymadawiad â'u gilydd yn arwyddo cyfeillgarwch mawr. Yn ol Josephus ["*Hyn. Iudd.*," vi. 7, *adr.* 3] taflodd y brenin ei hun ar wddf y prophwyd, a chydag anhawsder y gallodd y diweddaf ymryddhau oddi wrtho. Yn yr ymdrechfa rhwygwyd mantell Samuel: ac efe a gyfeiriai at hyny fel arwyddlun o rwygiad y frenhiniaeth oddi wrth Saul. Ymwahanasant bob un i'w dŷ ei hun; ond yr oedd y prophwyd yn parhau i ofidio yn achos y brenin. "A bu ddrwg gan Samuel." "Ond Samuel a alarodd am Saul." "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Samuel, Pa hyd y galeri di am Saul?" 1 *Sam.* xv. 11, 35; xvi. 1. A mynegir nad aeth Samuel i ymweled â Saul mwyach hyd ddydd ei farwolaeth. Ond rhoddir ar ddeall i Saul ac yntau gyfarfod eu gilydd yn Naioth yn Ramah (1 *Sam.* xix. 23), lle y daeth y brenin wrth ymlid ar ol Dafydd. Yn gyffelyb fel y digwyddodd ar achlysur blaenorol, efe a ddaeth i gwmni y prophwydi, â Samuel yn flaenor arnynt; ac yntau a "brophwydodd hefyd ger bron Samuel; ac a syrthiodd i lawr yn noeth yr holl ddiwrnod hwnw, a'r holl nos;" 1 *Sam.* xix. 24.

Samuel oedd y cyntaf o'r olyniaeth reolaidd o brophwydi:—"A'r holl brophwydi hefyd o Samuel, ac o'r rhai wedi;" *Act.* iii. 24. Yr oedd Moses, Miriam, a Deborah, ac fe allai Ehwd hefyd, wedi bod yn brophwydi. Ond o Samuel yr oedd yr olyniaeth yn parhau yn ddidor. Dichon nad oedd hyn yn ddim amgen na chyd-ddigwyddiad yn unig o'i ymddangosiad yn yr adeg ag yr oedd y drefn newydd ar bethau yn dechreu—y brif nodwedd yn mha un oedd y swydd brophwydol. Yr oedd ei fam, er nas gelwir hi felly yn bendant, mewn gwirionedd yn brophwydes. Y mae y gair *Sophim*, oedd mewn cyssylltiad â Ramathaim, yn cael ei esbonio gan rai fel yn golygu 'gwledydd;' ac y mae Elcanah, ei dad, yn y cyfieithiad Caldeaidd o 1 *Sam.* i. 1, yn cael ei alw yn "ddysgybl y prophwydi." Ond ymddengys fod cyssylltiad parhâd y swydd gyda Samuel yn fwy uniongyrchol nag ydyw gyda neb o'i flaen. Yn ystod ei fywyd ef, ac yn hir ar ol ei gydnabod yn "brophwyd ffyddlawn yr Arglwydd" (1 *Sam.* iii. 20), yr ydys yn clywed am gwmnïau o ddysgyblion, a elwir yn yr Hen Destament yn "feibion y prophwydi," a chan ysgrifenwyr diweddarach "ysgol y prophwydi." Y mae holl hynodion eu haddysg yn cael ei awgrymu neu ei fynegu yn 1 *Sam.* x. 5, 10, ac yn 1 *Cron.* xxv. 1, 6. Yn flaenor y gynnulleidfa hon y dywedir fod Samuel: 1 *Sam.* xix. 20. Yr oeddynt yn preswylio y pryd hwn gyda Samuel yn ei drigfod ei hun yn Ramah (1 *Sam.* xix. 19, &c.); ond ymddengys, fel yr oedd y sefydliad yn eangu, iddynt godi math o fythynod iddynt eu hunain.

Yn yr ysgolion hyny, yn cael eu cyfarwyddo a'u dysgu mewn doniau prophwydol, yr addysgwyd y rhai y gwyddom am danynt, ac ereill y mae genym le cryf i gasglu ddarfod iddynt dderbyn eu haddysg ynddynt, neu dderbyn dylanwad drwyddynt. Yr oedd Saul yn un o'r cyfryw. Hysbysir ddwywaith o leiaf ei fod yn nghwmni dysgyblion Samuel, ac i ysbryd prophwydol ddisgyn arno i'r fath raddau, fel y darfu iddo yntau hefyd "brophwydo yn eu mysg hwynt:" 1 *Sam.* x. 10. Ar un achlysur arall dywedir

Digitized by Google

iddo ddiosg ei ddillad, a bod yr holl nos mewn sefyllfa o berlewyg brophwydol: 1 *Sam.* xix. 24. Un arall o honynt oedd Dafydd. Y pryd y daeth Samuel i gydnabyddiaeth gyntaf â Dafydd oedd pan yr eneiniodd ef yn nhŷ ei dad Iesse. Ond rhaid fod y gydnabyddiaeth a ddechreuwyd fel hyn â'r bugail ieuangc wedi parhau ar ol hyny. Ffodd Dafydd ar y cyntaf i "Naioth, yn Ramah," fel pe yr aethai adref (1 *Sam.* xix. 19); ac yr oedd ei ddoniau barddonol, cerddorol, a phrophwydol, y rhai a ddadblygwyd ar raddeg mor eang, yn gyfryw ag y sonir am danynt mewn cyssylltiad âg ereill a edrychent i fyny at Samuel fel eu hathraw. Ac y mae yn dra thebyg mai yno y cyfarfu Dafydd gyntaf â'i ddau gyfaill ffyddlawn, Gad a Nathan, y rhai oeddynt brophwydi fel yntau. Nid ydyw yn angenrheidiol ymhelaethu ar y pwysigrwydd y mae y digwyddiadau hyn yn ei roddi ar Samuel. Arno ef, dybygid, y gellir edrych ar arweinydd ac athraw ysbrydol y brenin Dafydd. Efe hefyd oedd sylfaenydd y sefydliad rheolaidd cyntaf a godwyd er cyfranu addysg grefyddol, ac hwyrach addysg gyffredinol hefyd. Nid oedd ysgolion gwlad Groeg mewn bod y pryd hwnw. Hwyrach mai oddi wrth y sefydliadau Iuddewig hyn yr ymddadblygodd prif ysgolion mawrion teyrnasoedd cred. A gellir chwanegu fod holl fywyd Samuel mewn cyssondeb â'r golygiad hwn. Efe yw y prophwyd—yr unig brophwyd hyd amser Esaiah—ag y gwyddom ei fod yn brophwyd o'i flynyddoedd boreuaf.

Mynegir i farwolaeth Samuel gymmeryd lle yn y flwyddyn olaf o grwydriadau Dafydd. Dywedir gyda phwys neillduol, fel pe yr amcan fuasai nodi allan y golled a gafwyd yn symmudiad Samuel—"A holl Israel a ymgynnullasant, ac a alarasant am dano ef, ac a'u claddasant ef yn ei dŷ ei hun yn Ramah;" 1 *Sam.* xxv. 1. Dywedir fod ei weddillion wedi eu dwyn "o Iudea" (ni fynegir o ba le yno) yn B. A. 406, i Gaer Cystenyn, ac iddynt gael eu derbyn gyda rhwysg mawr gan yr ymherawdwr Arcadius. Glaniwyd hwynt yn llongborth Chalcedon, ac oddi yno fe'u cymmerwyd i eglwys yn agos i balas yr Hebdomon.—Gwel "*Acta Sanctorum,*" Awst 20fed.

Nis gellir bod yn sicr iawn o barth i sefyllfa Ramathaim. Ond y lle a nodir allan fel y man y claddwyd Samuel ydyw y bryn—y mwyaf amlwg o'r holl fryniau yn nghymmydogaeth Ierusalem—sydd yn union uwch ben tref Gibeon, a adwaenid gan y Croesgadwyr wrth yr enw *Montjoye*, am ei fod yr ysmotyn oddi ar ba un y cawsant yr olwg gyntaf ar Ierusalem, ond yr hwn a elwir yn awr yn *Neby Samwil*—'y prophwyd Samuel.' Gellir olrhain y traddodiad yn ol hyd y seithfed ganrif, pan y sonid am fynachlog S. Samuel yn y lle [Robinson, "*Bib. Res.*" ii. td. 142]; ac os tybir mai nid Ramathaim oedd y ddinas nad yw yn cael ei henwi, lle y cyfarfu Samuel a Saul, y mae y traddodiad hwn yn ddigon tebyg o fod yn gywir. [Gwel RAMATH; RAMATHAIM-SOPHIM.] Dangosir ogof hyd heddyw o dan lawr yr eglwys Fahometaidd. Dywed y gwarcheidwaid Mahometaidd a wyliant y lle, fod Samuel wedi adeiladu ei feddrod yn ystod ei fywyd. Dyma yr unig lanerch yn Mhalestina sydd yn hawlio cyssylltiad uniongyrchol â'r prophwyd mawr a anwyd gerllaw. Yr oedd ei olafiaid yn y lle yn amser Dafydd. Heman, ŵyr Samuel, oedd un o brif gantorion y côr Lefiaidd; 1 *Cron.* vi. 33; xv. 17; xxv. 5. Y mae tybiaeth Iuddewig yn bod i Samuel ysgrifenu hanes bywyd boreuol Dafydd, yr hwn oedd wrth law awdwr, neu un o awdwyr Llyfr Cyntaf Cronicl; ond y mae hyn yn ammheus. Y mae traddodiad Iuddewig yn priodoli iddo awduriaeth amryw o lyfrau ereill yr Hen Destament:—llyfrau y Barnwyr, Ruth, dau lyfr Samuel: yr olaf, fe dybir, mewn ysbryd prophwydoliaeth. Edrychid arno gan y Samariaid fel swynwr ac anffyddiwr!—Hottinger, "*Hist. Orient.*" td. 32.

Yr oedd Samuel yn enwog am urddasolrwydd ei gymmeriad a'i wladgarwch. Y peth penaf yn ei olwg oedd lles ei wlad. Y mae Grotius yn ei gymmharu i Aristides, a Saul i Alcibiades. Ei amcanion mawr oedd cadw i fyny addoliad Arglwydd Dduw Israel, gwylio dros hawliau y bobl, a'u diogelu rhag goresgyniadau gelynion allanol, ac ymraniadau mewnol. Nid oedd ei wladgarwch yn cymmeryd y ffurf o ymhyfrydu mewn gorchfygu a darostwng gwledydd ereill; ond yn unig pan ddigwyddai i'r cyfryw geisio tori ar dawelwch ei wlad ei hun. Nid oedd yn cymmeradwyo gwaith y genedl yn newid ffurf ei llywodraeth; ond gwnaeth y gwaith a ddisgynodd i'w ran yn dra doeth. Y peth cyntaf a wnaeth oedd appelio at y gosodiad arferol o fwrw coelbren; ac felly y dygwyd Saul, y dewisedig, ger bron y bobl, a chyfeiriwyd ato fel un rhagorol yn eu plith o ran ei berson a'i ymddangosiad allanol. Wedi hyny efe a arosodd nes y darfu i Saul wneyd rhywbeth i enwogi ei hun; yr hyn a wnaeth yn yr ymgyrch yn erbyn yr Ammoniaid, pan y cadarnhawyd ef yn ei awdurdod: ac yr oedd ei lwyddiant yn cynnhyrfu brwdfrydedd y genedl, ac yn ei ddwyn i ffafr neillduol y bobl. Cymmerodd Samuel, er mwyn heddwch dyfodol, gyfle i amlygu fod Saul yn ddewisedig yr Arglwydd, ac yn rhinweddol wedi ei ethol gan y bobl. Y mae y weithred ochelgar a haelfrydig hon yn dangos mor lleied o sail sydd i'r cyhuddiad a ddwg rhai ysgrifenwyr yn erbyn Samuel yn y cyssylltiad hwn.

Mewn llwyddiant gyda Duw, fel eiriolwr dros ei bobl, y mae Samuel yn cael ei gymmharu i Moses: *Ier.* xv. 1; *Salm* xcix. 6. Efe oedd y cyntaf o restr reolaidd o brophwydi a barhaodd yn un gadwen annhoredig hyd nes y cwblhawyd canon yr Hen Destament: *Act.* iii. 24. Yn nyddiau Samuel y gwneir y crybwylliad cyntaf am ysgolion y prophwydi. Y mae yn ddigon naturiol dyfalu ei fod ef i ryw raddau yn sylfaenydd iddynt. Yr oedd yr ysgolion hyn yn ddiau yn enwog am ddiwyllio a dysgu barddoniaeth a cherddoriaeth, ac o'u plith hwy yn fynych yr oedd Duw yn dewis ei weision neillduol ei hun. Mynegir, yn 1 *Cron.* ix. 22, mai Dafydd a Samuel y gweledydd a osodent y Lefiaid yn eu swyddau yn ngwasanaeth y deml; hyny ydyw, dybygid, fod Dafydd wedi dilyn rhyw gynllun neu awgrymiadau o eiddo y prophwyd. Mynegir hefyd (1 *Cron.* xxvi. 28) fod y prophwyd wedi cyflwyno rhoddion haelionus i'r tabernacl, yr hwn oedd yn Nob, ac a fu wedi hyny yn Gibeon, er fod yr arch yn Ciriath-iearim. Wedi hyny, dywedir fod gweithredoedd Dafydd y brenin "yn ysgrifenedig yn ngeiriau Samuel y gweledydd;" 1 *Cron.* xxix. 29. Y mae y ganmoliaeth a roddir i Samuel gan fab Sirach yn amlygu y parch a deimlid tuag ato gan y genedl Iuddewig:—*Eccles.* xlvi. 13—20.

SAMUEL, LLYFRAU: dau o lyfrau hanesiol

Digitized by Google

yr Hen Destament, y rhai nid ydynt wedi eu gwahanu yn y llaw-ysgrifau Hebraeg; ac oddi wrth eu cyfansoddiad gellir eu hystyried fel un traethawd. Ymddengys mai yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain y gwnaed ef yn ddau lyfr, a mabwysiadwyd trefn y Deg a Thrigain yn y *Vulgate;* ac yn y naill a'r llall o'r cyfieithiadau hyn, y maent yn cael eu galw yn Llyfrau Cyntaf ac Ail Brenhinoedd. Dywed Origen yn bendant mai un llyfr oeddynt yn yr Ysgrythyrau Hebraeg. Dywed Jerome yr un peth; ac yn y *Talmud,* lle y priodolir eu hawduriaeth i Samuel, fe'u gelwir yn 'Llyfr Samuel,' a hyny yn y rhif unigol. Ar ol dyfeisio y gelfyddyd o argraphu, cyhoeddwyd hwynt fel un llyfr yn yr argraphiad cyntaf o'r holl Feibl, yr hwn a gyhoeddwyd yn Soncino, B. A. 1488, ac hefyd yn y Beibl amlieithog a argraphwyd yn Alcala, B. A. 1502—1517; ac ni fabwysiadwyd y rhaniad a wnaed gan y Deg a Thrigain yn y Beibl Hebraeg hyd y flwyddyn 1518; sef, yn yr argraphiad a ddaeth allan yn Venice. Gelwid y llyfr gan yr Hebreaid yn "Llyfr Samuel;" a hyny, dybygid, am mai genedigaeth a bywyd Samuel ydyw yr hyn yr ymdrinir â hwy yn nechreu y llyfr. Y mae Abarbanel yn awgrymu fod y llyfr wedi ei alw ar enw Samuel am y gellir dywedyd mewn rhyw ystyr fod pob peth a gofnodir yn y ddau lyfr, fel gweithredoedd Saul a Dafydd, yn cyfeirio at Samuel; yn gymmaint a bod y naill a'r llall wedi eu heneinio ganddo ef, a bod ganddo ef lawer a wnelai â hwynt. Ond y mae hyn yn ddull mwy celfyddydol nag ydyw o naturiol o roddi cyfrif am ffeithiau.

AWDURIAETH A DYDDIAD Y LLYFRAU.

Un o'r pethau mwyaf dyddorol a berthyn i waith hanesyddol pwysig ydyw cael allan enw a nodwedd yr hanesydd, a gwybod y manteision oedd ganddo i gasglu gwybodaeth gywir o'r hyn y traetha neu yr ysgrifena arnynt. Os na bydd hyn yn wybyddus, y peth nesaf mewn dyddordeb ydyw cael allan yn fanwl yr amser y cyfansoddwyd y gwaith. O barthed i lyfr neu lyfrau Samuel, pa fodd bynag, gellir gofyn mwy o gwestiynau nag y gellir eu hatteb.

Rhaid addef fod llawer o anhawsderau ynglŷn â chael allan awduriaeth Llyfrau Samuel. Fel y gweddill o lyfrau hanesyddol yr Hen Destament —oddi eithr dechreu llyfr Nehemiah—nid ydyw llyfr Samuel yn cynnwys un crybwylliad am enw yr awdwr. Y mae y gwaith hanesyddol Groegaidd cyntaf, a ysgrifenwyd gan yr hwn a elwir yn gyffredin yn dad hanesyddiaeth, yn dechreu gyda'r ymadrodd a ganlyn, "Dyma adroddiad o ymchwiliadau Herodotus o Halicarnassus;" ac yna mynegir pa beth a annogodd Herodotus i fyned â'r gwaith yn mlaen. Felly hefyd y gwna Thucydides—yr ail hanesydd Groegaidd mawr. Ond gyda'r unig eithriad a nodwyd uchod, nid oes dim hysbysrwydd cyffelyb i'w gael mewn un llyfr hanesyddol yn yr Hen Destament; er fod darnau, nid yn unig yn Nehemiah, ond hefyd yn Ezra, wedi eu hysgrifenu yn y person cyntaf. Etto, lle nad oes un hysbysiad yn yr arweiniad i mewn, nac mewn un rhan arall o'r gwaith, y mae yn bossibl i hen weithiau hanesyddol ddyfod i lawr i ni yn meddu teitl yn cynnwys enw yr awdwr. Gellir enwi gweithiau Livy a Julius Cæsar fel engrheifftiau. Yn ei "*Commentaries,*" yn wir, er fod Cæsar yn crybwyll am restr faith o'i weithredoedd, ac heb awgrymu mai efe oedd awdwr y gwaith, a bod hyn mewn rhyw ystyr yn taflu rhyw fath o annhebygolrwydd ar y dybiaeth mai efe a'i hysgrifenodd, etto y mae awdurdod traddodiadol teitl y gwaith yn gorbwyso yr annhebygolrwydd hwn, gan fod y traddodiad yn cael ei gadarnhau gan gadwen ddidor o dystiolaethau, a hono yn dechreu gyda chyfoeswyr. Ond nid oes dim yn debyg i hyn chwaith mewn hanesiaeth Hebreaidd.

Nid oes i Bum Llyfr Moses un teitl yn yr Hebraeg oddi eithr y gair Hebraeg cyntaf sydd yn mhob un o'r llyfrau; ac nid ydyw yr enwau *Genesis, Exodus, Lefiticus, Numeri,* a *Deuteronomium,* y rhai sydd yn ddeilliedig o'r Deg a Thrigain, yn cyfleu un hysbysrwydd i ni am eu hawdwr. Yr un modd hefyd nid ydyw Llyfr y Barnwyr, a Llyfrau y Brenhinoedd a'r Croniclau, yn cael eu priodoli i unrhyw hanesydd pennodol; ac er fod chwech o lyfrau hanesiol yr Hen Destament, yn myned ar enwau Ruth, Samuel, Ezra, Nehemiah, ac Esther, nid oes dim, dybygid, yn y gweithiau eu hunain yn cau allan y syniad mai at y testynau yr ymdrinir â hwynt yn y gwahanol lyfrau y cyfeirir drwy hyn, ac nid at eu hawduriaeth; a dangosir hyn yn bennodol gan deitlau llyfrau Ruth ac Esther. Nid oes neb wedi haeru fod hyn yn golygu mai y merched enwog hyn a ysgrifenodd eu hanes eu hunain. A diammheuol nad yw y teitl *Samuel* yn cynnwys o angenrheidrwydd mai y prophwyd oedd awdwr yr oll o Lyfrau Samuel; o herwydd y mae marwolaeth Samuel yn cael ei gofnodi yn nechreu *pen.* xxv. o'r llyfr cyntaf; ac felly y mae yn rhaid fod awdwr arall wedi cyfansoddi y pennodau dilynol, y rhai a gynnwysant gryn lawer mwy na hanner yr holl waith. Etto, o barthed i awduriaeth llyfr neu lyfrau Samuel, gellir dywedyd, yn chwanegol at absennoldeb enw yr hanesydd o'r llyfr a'r teitl, na fynegir ei enw gan un ysgrifenydd arall mewn cyfnod agos at yr adeg y tybir iddo gael ei ysgrifenu. Ni wneir crybwylliad am enw yr awdwr yn Llyfrau y Brenhinoedd, nac yn Llyfrau y Cronicl, nac mewn un man arall yn yr ysgrifeniadau sanctaidd. Ni chrybwyllir yr enw chwaith yn yr "*Apocrypha,*" nac yn ngweithiau Josephus. Cyhoeddodd ef ei "*Hynafiaethau Iuddewig*" ynghylch un cant ar ddeg o flynyddoedd ar ol marwolaeth Dafydd, a gwna ddefnydd parhaus o Lyfr Samuel yn un rhan o'r hanes. Dyma unig ffynnonell ei awdurdod am ei hanes am Samuel a Saul; a phrif awdurdod hefyd, gyda Llyfrau y Cronicl, ei hanes am Dafydd. Etto, nid ydyw yn un man yn crybwyll enw awdwr Llyfr Samuel. Distaw hefyd ydyw y "*Mishna*" ar hyn. Yn y "*Gemara*" Babilonaidd, yr hwn, fel y tybir, a gwblhawyd yn ei ffurf presennol B. A. 500, y ceir yr adroddiad Iuddewaidd cyntaf am yr awduriaeth; ac yno fe ddywedir fod "Samuel wedi ysgrifenu ei lyfr;" hyny ydyw, fel y mae y geiriau yn awgrymu, y llyfr a elwir ar ei enw.—"*Baba Bathra,*" cyf. 14, p. 2. Ond nis gellir profi hyd sicrwydd fod yr adroddiad hwn wedi ei wneyd yn foreuach na 1550 o flynyddoedd ar ol marwolaeth Samuel; ond yn annibynol ar bob math o dystiolaeth arall, y mae bron yn annheilwng o grediniaeth, pe na buasai yn y llyfr ei hun brawf i'r gwrthwyneb. Tybiai yr Iuddew dysgedig Abarbanel, yr hwn a flodeuai yn niwedd y bymthegfed, ac yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, fod Llyfr Samuel wedi ei ysgrifenu gan y prophwyd Ieremiah; a mabwysiadwyd yr un farn gan Hugo Grotius. Ond er fod y ddau yn awdwyr a beirniaid enwog,

Digitized by Google

y mae yn rhaid ymwrthod â'u tybiaeth fel un hynod annhebyg o fod yn gywir. Nis gallesid edrych ar y syniad hwn, o dan unrhyw amgylchiadau, yn ddim amgen na dyfaliad yn unig; ac y mae yn rhaid chwanegu ei fod yn ddyfaliad nad oes dim neillduol yn iaith nac yn arddull y llyfr yn ffafriol i'r dybiaeth fod hanes Samuel yn gynnyrch yr un ysgrifell ag ysgrifeniadau Ieremiah. Y mae yn hen dybiaeth, ac yn un a goleddir yn gyffredin iawn yn bresennol, mai y prophwyd ei hun a ysgrifenodd y pedair pennod ar hugain o'r llyfr cyntaf, a bod y gweddill o'r cyntaf a'r ail wedi eu hysgrifenu gan y prophwydi Nathan a Gad. Dyma y golygiad a gymmerir gan Horne ["*Introduct. to the Holy Scriptures*," td. 45], mewn gwaith a gafodd ledaeniad helaeth. Ond erbyn chwilio yn fanwl ei awdurdod dros y golygiad hwn, hwyrach mai yr hyn a ganlyn ydyw y peth cryfaf y gorphwysa arno; sef, mai dyma oedd barn "y Talmudiaid, yr hon a fabwysiadwyd gan y Cristionogion mwyaf dysgedig yn yr eglwys Gristionogol, y rhai yn ddiammheu oeddynt mewn gwell cyfle i ffurfio barn ar y mater hwn nag yr ydym ni." Yr ydys eisoes wedi dyweyd nad oes brawf dros hyn yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y "*Talmud*;" ac y mae yn anhawdd deall pa ham y dylid rhoddi pwys mawr arni, serch iddi gael ei mabwysiadu gan Iuddewon dysgedig a elwid y 'Talmudiaid,' neu gan Gristionogion dysgedig a elwir yn 'dadau yr eglwys Gristionogol,' oedd yn byw cyn cyhoeddi y "*Talmud*." Nid oes genym y sail wanaf dros gredu fod gan Gristionogion nac Iuddewon yr oes hono unrhyw gofnodion y gellid ymddiried iddynt ar y mater hwn nad ydynt wedi eu trosglwyddo i amseroedd diweddar; ac yn niffyg y cyfryw, nid oedd ganddynt hwy y pryd hwnw well cyfle a mantais i benderfynu y cwestiwn nag sydd genym ni yn bresennol.

Er nas gellir penderfynu awduriaeth Llyfrau Samuel, y mae rhai arwyddion i'w cael o barth i ddyddiad y gwaith. Ac etto, hyd yn oed ar y pwynt hwn, nis gellir cyrhaedd sicrwydd manwl; a rhaid i ni hwyrach foddloni ar ddyfaliad am gyfnod yn cynnwys llawer o flynyddoedd yn mha un y cyfansoddwyd ef. Rhaid i'r prawfion ar y mater fod naill ai yn allanol neu yn fewnol. Ymddengys mai y prawf allanol diymwad am fodolaeth y llyfrau yw, y cyfieithiad o honynt i'r Groeg gan y Deg a Thrigain. Nid ydym yn gwybod hyd sicrwydd yn fanwl pa bryd y gwnaed y cyfieithiad hwn; ond rhaid ei fod rywbryd rhwng yr amser y cyfieithwyd Pum Llyfr Moses yn nheyrnasiad Ptolemy Philadelphus, yr hwn a fu farw c. c. 247, a'r ganrif o flaen genedigaeth Crist. Y prawf allanol goreu yn nesaf at hyn ydyw yr ymadroddion sydd yn 2 *Macc*. ii. 13; lle y dywedir am Nehemiah, "fel y gwnaeth efe lyfrdy, ac y casglodd actau y brenhinoedd a'r prophwydi, actau Dafydd ac epistolau y brenhinoedd am y rhoddion sanctaidd." Yn awr, er nas gellir drwy yr ymadrodd uchod brofi yn bendant ddarfod i Nehemiah ei hun sylfaenu y fath lyfrdy mewn gwirionedd, etto y mae yn myned yn mhell i brofi fod actau y brenhinoedd ar gael pan yr ysgrifenwyd ef; ac nis gellir yn rhesymol wadu nad oedd Llyfrau Samuel yn ngolwg yr ysgrifenydd, pa rai sydd yn gyfystyr â dau Lyfr Cyntaf y Brenhinoedd yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain. O ganlyniad, y mae genym brawf allanol fod Llyfrau Samuel wedi eu hysgrifenu o flaen "*Ail Lyfr y Maccabeaid*." Ac heb law hyny, y mae yr hyn a ddywedir yn 1 *Cron*. xxix. 29, "Ac am weithredoedd cyntaf a diweddaf y brenin Dafydd, wele y maent yn ysgrifenedig yn ngeiriau Samuel y gweledydd, ac yn ngeiriau Nathan y prophwyd, ac yn ngeiriau Gad y gweledydd," yn brawf allanol tebygol fod Llyfrau Samuel wedi eu hysgrifenu o flaen y Croniclau. Er nas gellir bod yn berffaith sicr o hyn, y casgliad mwyaf naturiol oddi wrth y geiriau ydyw, fod hanes Dafydd, "cyntaf a diweddaf," yn gynnwysedig yn ngeiriau Samuel, a geiriau Nathan, a geiriau Gad. Yn gymmaint a bod gwaith a elwir 'Llyfrau Samuel,' oedd yn cynnwys hanes bywyd Dafydd hyd o fewn ychydig amser i'w farwolaeth, ymddengys yn ddigon rhesymol i dybied fod ysgrifenydd y Croniclau yn cyfeirio at y gwaith hwn fel geiriau Samuel. Yn yr amgylchiad yma, a chaniatau y dyddiad a briodolir gan ysgrifenydd Iuddewig diweddar o ddysg a galluoedd beirniadol diammheuol i Lyfrau y Cronicl, byddai genym brawf allanol fod Llyfrau Samuel mewn bod cyn y flwyddyn c. c. 247, o leiaf. A thybied fod y Croniclau wedi eu hysgrifenu yn gynt, y mae y prawf yn myned, mewn cyfartaledd, yn mhellach yn ol; ond nid oes brawf allanol boreuach nag sydd i'w gael yn Llyfrau y Cronicl. Ond os bydd i ni, yn lle edrych yn unig ar y dystiolaeth allanol ynghylch Llyfrau Samuel, sylwi ar y profion mewnol sydd ynddynt, ni a ganfyddwn eu bod wedi eu hysgrifenu ganrifoedd yn foreuach. Ac mewn cyssylltiad â hyn y mae y pethau a ganlyn yn deilwng o sylw:—

I. Ymddengys fod Llyfrau Samuel wedi eu hysgrifenu pan nad oedd Pum Llyfr Moses, yn eu ffurf bresennol, yn cael eu cymmeryd yn fanwl yn rheol dygiad yn mlaen wasanaeth crefyddol y genedl. Yn ol y gyfraith Foesenaidd, nid oedd yn gyfreithlawn cyflwyno aberthau i'r Arglwydd ond o flaen pabell y cyfarfod, pa un bynag ai mewn teml arosol, megys y deml yn Ierusalem, neu ynte mewn pabell i'w thynu i lawr a'i symmud, fel yr un yn yr anialwch: *Deut*. xii. 13, 14; *Lef*. xvii. 3, 4; a gwel *Exod*. xx. 24. Ond yn Llyfrau Samuel, sonir am gyflwyno aberthau, neu godi allorau, yr hyn sydd yn golygu aberthu, mewn amryw leoedd; sef, Mispah, Ramah, Bethel, llawr dyrnu Arafnah yr Iebusiad, a manau ereill, lle y cyflwynid aberthau; ac ni ddywedir dim mewn ffordd o gondemniad ar hyn: 1 *Sam*. vii. 9, 10, 17; ix. 13; x. 3; xiv. 35; 2 *Sam*. xxiv. 18—25. Y mae yr amgylchiad hwn yn cyfeirio at ddyddiad boreuach i Lyfrau Samuel na'r diwygiad a gymmerodd le yn amser y brenin Iosiah, pan y dywedodd Hilciah yr archoffeiriad wrth Saphan yr ysgrifenydd ei fod wedi darganfod llyfr y gyfraith yn nhŷ yr Arglwydd, pryd y cadwyd y Pasc fel y gorchymynid yn y llyfr hwnw, mewn dull na chynnaliwyd un Pasc cyffelyb iddo er dyddiau y barnwyr, ac y rhoddwyd heibio addoli yn yr uchelfeydd yn ol gorchymyn y brenin: 2 *Bren*. xxiii. 8, 13, 15, 19, 21, 22. Nid ydyw y tebygolrwydd y buasai hanesydd cyssegredig ar ol y diwygiad hwnw yn dadgan ei anghymmeradwyaeth o, neu yn rhoddi cyfrif am wrthgiliad ymddangosiadol oddi wrth, gyfreithiau Pum Llyfr Moses gan Dafydd, Saul, a Samuel, ynddo ei hun yn gasgliad penderfynol ar hyn; ond yn nglŷn âg ystyriaethau ereill y mae yn deilwng o sylw neillduol. Y mae ysgrifenydd Llyfrau y Brenhinoedd, yr hwn, dybygid, oedd yn byw ar ol y diwygiad yn amser Iosiah, neu o leiaf yn flaenorol i gaethglud Iudah (2 *Bren*. xxv. 21,

Digitized by Google

27), yn gwneuthur hyn. Crybwylla am y gydd-efiad hwn i addoli yn yr uchelfeydd gydag anghymmeradwyaeth, nid yn unig mewn cyssylltiad â brenhinoedd fel Manasseh ac Ahaz, ond hefyd fel peth i'w anghymmeradwyo mewn brenhinoedd fel Asa, Iehosaphat, Iehoas, Amasiah, Azariah, ac Iotham, y rhai a ganmolir am wneuthur yr hyn sydd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd: 1 *Bren.* xv. 14; xxii. 43; 2 *Bren.* xii. 3; xiv. 4; xv. 4, 35; xvi. 4; xxi. 3. Gallesid disgwyl y buasai ysgrifenydd Llyfrau Samuel yn gweinyddu cerydd cyffelyb pe buasai yn byw ar ol i'r addoli yn yr uchelfeydd gael ei ddiddymu.

II. Mewn cyssondeb â'r syniad hwn o ddyddiad boreuol Llyfrau Samuel, y gellir edrych ar anamledd y cyfeiriadau at Moses ynddynt. Wedi y dychweliad o Babilon, ac yn enwedig ar ol y cyfnewidiadau a effeithiwyd gan Ezra, nis gallai Moses lai na bod y prif gymmeriad yn mryd yr Iuddewon crefyddol, pan yr ymdrechid ufuddhau i holl gyfreithiau llyfrau Moses, gan eu bod yn edrych arno ef fel y prophwyd mawr a'u derbyniasai hwy o enau yr Arglwydd. Dyrchafwyd Moses i'r safle uchel yma yn syniad y genedl pan ddarganfyddwyd llyfr y gyfraith yn adeg y diwygiad yn nheyrnasiad Iosiah. Y mae yn beth hynod mai Llyfrau Samuel, o holl lyfrau hanesyddol yr Hen Destament, sydd yn cyfeirio leiaf at enw Moses. Yn Llyfr Iosuah ceir ef 51ain o weithiau; yn y Croniclau, Ezra, a Nehemiah, 31ain o weithiau; yn y Barnwyr deirgwaith, ond yn Llyfrau Samuel ni cheir ef ond dwywaith. Ac y mae yn deilwng o sylw mai fel gwaredydd y genedl o'r Aipht, mewn cyssylltiad âg Aaron, y gwneir hyny, ac nad oes dim yn cael ei ddywedyd am gyfraith Moses: 1 *Sam.* xii. 6, 8. Fel y sylwyd o'r blaen, pan y cedwid cyfreithiau y Pum Llyfr yn fanwl, nis gallai Moses lai na chael lle mawr ac uchel yn meddwl pob Iuddew crefyddol; ond ni buasai Moses mor bwysig yn mryd hanesydd Iuddewaidd cyn y diwygiad yn amser Iosiah.

III. Y mae dyddiad boreuol cyfansoddiad Llyfrau Samuel yn cael ei gadarnhau wrth ystyried eu bod yn un o'r enghreifftiau rhagoraf o ryddiaith Hebrëig bur, fel y mae cyfansoddiadau Ioel ac Esaiah mewn barddoniaeth Hebrëig. Diau fod purdeb yr iaith a ddefnyddir ynddynt yn cyfeirio at gyfnod boreuol. A chymmeryd yn ganiataol gan hyny iddynt gael eu hysgrifenu mewn cyfnod heb fod yn ddiweddarach na diwygiad Iosiah (c. c. 622) y mae y cwestiwn yn cyfodi pa mor foreu y gellir meddwl eu bod ar gael yn eu ffurf bresennol? Yr atteb yw, fod hyn dybygid, rywbryd ar ol ysgariaeth y deg llwyth. Canfyddir hyny oddi wrth yr ymadrodd a ganlyn, yn 1 *Sam.* xxvii. 6, lle y dywedir am Dafydd—"Yna Achis a roddodd iddo ef y dydd hwnw Siclag: am hyny y mae Siclag yn eiddo brenhinoedd Iudah hyd y dydd hwn;" o herwydd nid ydyw Saul, na Dafydd, na Solomon, mewn un enghraifft yn cael eu galw yn frenhinoedd Iudah yn unig. Cyn yr ysgariaeth gelwid y brenhinoedd yn frenhinoedd Israel: 1 *Sam.* xiii. 1; xv. 1; xvi. 1; 2 *Sam.* v. 17; viii. 15; 1 *Bren.* ii. 11; iv. 1; vi. 1; xi. 42. Gan hyny, gellir cymmeryd yn ganiataol nas gallasai Llyfrau Samuel fod yn eu ffurf bresennol mewn cyfnod boreuach na theyrnasiad Rehoboam, yr hwn a esgynodd i'r orsedd c. c. 975. Os ymdrechir nodi allan yn fanwl yr amser, rhwng c. c. 975 a c. c. 622, yr ysgrifenwyd hwynt, cyfarfyddir âg anhawsderau bron anorfod. Y mae y dywediad "hyd y dydd hwn," yr hwn a ddefnyddir amryw weithiau (1 *Sam.* v. 5; vi. 18; xxx. 25; 2 *Sam.* iv. 3; vi. 8), yn chwanegol at yr adnod a ddyfynir uchod, yn rhy ammhennodol i benderfynu dim, ond yn unig fod yr ysgrifenydd a'i defnyddiodd yn byw ar ol yr amgylchiadau a ddisgrifir. Y maent yn annigonol i brofi pa un a oedd efe yn byw yn mhen hanner cant, neu yn mhen tri chant o flynyddoedd ar ol i'r amgylchiadau ddigwydd. Y mae yr un sylw yn briodol i'w gymmhwyso at ymadrodd "a aeth yn ddiareb, 'A ydyw Saul hefyd yn mysg y prophwydi?'" (1 *Sam.* x. 12); ac hefyd at y gair, "Gynt yn Israel, fel hyn y dywedai gŵr wrth fyned i ymgynghori â Duw; Deuwch, ac awn hyd at y gweledydd: canys y prophwyd heddyw, a elwid gynt yn weledydd;" 1 *Sam.* ix. 9. Yn y naill amgylchiad, nid yw yn sicr a oedd yr ysgrifenydd yn byw mwy na rhyw bedwar ugain mlynedd ar ol y digwyddiadau y cyfeiria atynt. Yr un modd hefyd y gellir dywedyd am yr amryw draddodiadau a berthynant i'r dull y daeth Samuel yn gydnabyddus â Dafydd am y waith gyntaf (1 *Sam.* xvi. 14—23; xvii. 55—58), ac o barthed i farwolaeth Saul (1 *Sam.* xxvi. 2—6, 8—13; 2 *Sam.* i. 2—12), nad ydynt o angenrheidrwydd yn dangos fod amser maith (dyweder can mlynedd) wedi myned heibio er pan y cymmerodd y digwyddiadau le yn weithredol hyd nes yr ysgrifenwyd cofnodion o honynt. Nid ydyw y dystiolaeth fewnol a geir yn yr iaith a ddefnyddir yn y llyfrau eu hunain chwaith yn ein cynnorthwyo i benderfynu pa bryd, o fewn cyfnod o 353 o flynyddoedd, yr ysgrifenwyd hwynt; o herwydd nid ydyw yr ysgrifeniadau Hebrëig, y gwyddys hyd sicrwydd eu bod wedi eu cyfansoddi yn y cyfnod hwn o amser, ond ychydig mewn cymmhariaeth, a dim un o honynt yn hanesyddol. Nid ydynt yn cynnwys nemawr mwy nag ysgrifeniadau Amos, Ioel, Hosea, Micah, Nahum, ac Esaiah. A chymmeryd pob peth i ystyriaeth, yr hyn y gellir dyfod i benderfyniad sicr yn ei gylch ydyw, na chyfansoddwyd Llyfrau Samuel, fel y maent, yn ddiweddarach na diwygiad Iosiah, nac ychwaith yn eu ffurf bresennol yn gynt na theyrnasiad Rehoboam.

Yr ydym wedi gosod uchod y rhesymau a ddygir yn mlaen yn gyffredin dros y golygiad, fod y llyfrau wedi eu cyfansoddi rywbryd rhwng teyrnasiadau Rehoboam ac Iosiah; ond y mae llawer o ddynion dysgedig yn barnu eu bod wedi eu hysgrifenu yn gynt. Ac un o'r prif resymau a ddygir yn mlaen ganddynt i amddiffyn y golygiad hwn ydyw arddull a thôn y llyfrau. Dywedir fod yr iaith, y cyfeiriadau a wneir ynddynt, a'r dull o gyfansoddi, yn arwyddo eu henafiaeth; fod y darnau o farddoniaeth a chaneuon sydd ynddynt yn eu gwneyd yn gyffelyb o ran eu nodwedd i lyfrau Moses; a bod y disgrifiadau manwl sydd yn eu britho yn profi fod yr awdwr yn llefaru am y pethau a wyddai, ac yn dwyn tystiolaeth i'r hyn a welsai; a'u bod fel pe wedi eu cymmeryd o ddyddlyfr—rhai rhanau wedi eu hysgrifenu yn helaethach a llawnach nag ereill, yn ol fel y tarawent y sylwedydd ei hun. Heb law hyny, y mae yn amgylchiad nodedig nad ydyw Llyfrau Samuel yn cofnodi marwolaeth Dafydd, er eu bod yn cynnwys ei eiriau diweddaf—ei eiriau ysbrydoledig diweddaf. Buasid yn disgwyl yn naturiol i'r awdwr, os oedd efe yn fyw ar ol amser Dafydd, ac yn ysgrifenu hanes ei fywyd, orphen hanes ei

Digitized by Google

farwolaeth yn llawn. Pe buasai Llyfrau Samuel a'r Brenhinoedd yn tarddu o'r un ffynnonell, gallesid priodoli diweddiad sydyn un gyfran o'r gwaith, yn cynnwys bywyd Dafydd i lawr hyd ei ddyddiau diweddaf, a gadawiad allan pob sylw o'i farwolaeth, i ryw fympwy anesboniadwy yn yr awdwr. Ond y mae Llyfrau y Brenhinoedd a Llyfrau Samuel yn dangos arwyddion eglur nad ydynt yn gynnyrchion yr un ysgrifell. Pa reswm, gan hyny, sydd i'w gael dros fod ysgrifenydd Llyfrau Samuel wedi rhoi manylion bywyd, gweithredoedd, a llywodraeth Dafydd, ac etto wedi gadael allan gofnodion o'i farwolaeth ef? Y casgliad naturiol, meddir, ydyw, fod y llyfrau wedi eu cyfansoddi cyn marwolaeth y brenin, neu o leiaf, tua'r adeg hono. Haerir fod y tebygolrwydd yn fawr y rhaid fod hanes am Dafydd, a'r hanes yn ei ddilyn i ymyl adeg ei ymddattodiad, ac etto heb gynnwys cofnodiad am hyny, wedi ei ysgrifenu cyn i'r penadur hwnw huno gyda'i dadau. Gan hyny, y mae lliaws yn edrych ar y llyfrau fel wedi eu cyfansoddi, neu o leiaf fod y defnyddiau o ba rai y ffurfiwyd hwynt wedi eu casglu, gan un oedd yn cydoesi â'r digwyddiadau a gofnodir; a bod yr ysgrif oedd yn cynnwys amlinelliad o fywyd Dafydd wedi ei chasglu, ei chyfansoddi, a'i gorphen yn flaenorol i'w farwolaeth ef.

FFYNNONELLAU LLYFRAU SAMUEL.

A thybied fod y llyfrau yn cynnwys casgliadau o wahanol ffynnonellau, y mae yn werth gwneuthur ymofyniad er cael allan o ba le y cafwyd y defnyddiau. Ond y mae ein gwybodaeth ar hyn yn hynod o brin. Yr unig lyfr y dyfynir o hono ydyw *Llyfr Iaser;* hyny yw, 'Llyfr yr Uniawn.' Y mae llawer o wŷr dysgedig wedi gwneyd ymchwiliad i ystyr y teitl hwn; ond rhaid addef na ddarfu iddynt lwyddo nemawr, a bod nodwedd y llyfr yr un mor anadnabyddus a'r enw. Hwyrach mai y dybiaeth gywiraf a gynnygiwyd i sylw hyd yma ydyw, mai llyfr barddonol, yn benaf, ydoedd; ond y mae y ffeithiau yn rhy anhysbys i seilio casgliad pendant arno. Dwywaith y dyfynir o hono yn yr holl Feibl; unwaith fel gwaith yn cynnwys Galarnad Dafydd am Saul ac Ionathan (2 *Sam.* i. 18), a thro arall fel awdurdod dros y ffaith fod yr haul a'r lleuad wedi sefyll ar orchymyn Iosuah: *Ios.* x. 13. Yn gymmaint a bod galarnad Dafydd am Saul ac Ionathan ynddo, ymddengys ei fod yn cynnwys barddoniaeth, beth bynag arall a gynnwysai. Ond heb un cyfeiriad at Lyfr Iaser, y mae Llyfrau Samuel yn cynnwys amryw ddarnau barddonol, na byddai yn anfuddiol cyfeirio atynt. Ni a ddechreuwn, pa fodd bynag, gyda

1af, Galarnad Dafydd am Saul ac Ionathan. Y mae yr alarnad brydferth a thoddedig hon yn cael ei chydnabod yn gyffredinol yn gyfansoddiad o eiddo Dafydd. Ymddengys i'r gân hon gael ei chadw trwy i Dafydd orchymyn iddi gael ei dysgu i feibion Iudah: 1 *Sam.* i. 18. 2il, Galarnad Dafydd ar marwolaeth Abner: 2 *Sam.* iii. 32, 33. Nid oes un sail i ammheu nad ydyw hon wedi ei chyfansoddi gan Dafydd. 3ydd, 2 *Sam.* xxii.—Cân Dafydd; yr hon, fel y mynegir yn ei dechreu a lefarodd Dafydd wrth yr Arglwydd, "yn y dydd y gwaredodd yr Arglwydd ef o law ei holl elynion, ac o law Saul." Nid ydyw y gân hon ond ail adroddiad, gyda rhai gwahaniaethau geiriol dibwys o *Salm* xviii., yr hon sydd yn dechreu o ran sylwedd yn gyffelyb. Y mae o ran prydferthwch barddonol yn gyfansoddiad rhagorol. Ond y mae rhai beirniaid yn gweled ynddi anhawsderau mewnol i briodoli ei hawduriaeth i Dafydd. 4ydd, Cân, a elwir yn "eiriau diweddaf Dafydd;" 2 *Sam.* xxiii. 2—7. Yn ol y testyn, cyfansoddwyd hi gan "Dafydd, mab Iesse, y gŵr a osodwyd yn uchel, eneiniog Duw Iacob, a pheraidd ganiedydd Israel;" *adn.* 1. Ymddengys yn eglur nad oes seiliau digonol dros wadu y ffaith mai Dafydd oedd cyfansoddwr y salm hon, er fod rhai wedi amcanu gwneyd hyny. 5ed, Y gân arall ydyw Cân Hannah, gwraig Elcanah: 1 *Sam.* ii. 1—10.

Wrth fyned gam yn mlaen, yr ydym yn teimlo ei bod yn anhawdd penderfynu hyd sicrwydd yn nghylch y defnyddiau oedd wrth law yr awdwr; ac y mae yn rhaid boddloni ar dybiaethau tebygol. Er enghraifft, gellir gweled yn eglur mewn rhai amgylchiadau fod dau adroddiad am yr un ymdrafodaeth; gan hyny, y mae yn ddymunol i allu ffurfio barn, pa un a sylfaenwyd hwynt ar ryw gofnodion ysgrifenedig, neu ynte ar draddodiadau llafaredig. Y mae y pwynt hwn yn agored i ddadl; ond y mae yn fwy tebygol fod y defnyddiau i'w cael mewn cofnodion ysgrifenedig. Drachefn, y mae y symledd gwirioneddol a'r bywyd anghyffredinol a geir yn rhai o'r disgrifiadau yn Llyfrau Samuel yn naturiol yn awgrymu y meddylddrych eu bod wedi eu seilio ar ysgrifeniadau cydoesol, neu draddodiadau y gellid rhoddi y grediniaeth lwyraf ynddynt. Y mae hyn yn gymmhwysiadol at hanes y frwydr rhwng Dafydd a Goliath, yr hwn sydd wedi rhoddi pleser neillduol i genhedlaethau dilynol, yn swyno hen ac ieuangc, dysgedig ac annysgedig, a'r hyn sydd yn peri i ni dybied fod yr hanes wedi dyfod oddi wrth lygad-dyst. Ond ar y llaw arall, y mae yn rhaid cofio fod bywiogrwydd disgrifiadol yn fynych yn dibynu yn fwy ar alluoedd dirnadol yr hanesydd nag ar ei bresennoldeb corphorol. Fe allai mai y ddwy dybiaeth fwyaf teilwng o sylw o berthynas i gyfansoddiad Llyfrau Samuel ydynt—1af, Fod y llechres sydd yn cynnwys enwau y swyddogion cyhoeddus o dan Dafydd wedi eu cofrestru ar y pryd: ac yn 2il, Fod Llyfrau Samuel yn gasgliad gan un a berthynai i ysgol y prophwydi, neu ynte oedd wedi ei feddiannu â'r un ysbryd a hwy. O berthynas i'r cyntaf, gellir cyfeirio at 2 *Sam.* vii. 16—18, a xx. 22—26. Ar yr ail bwynt, canfyddir fod amlygrwydd yn cael ei roddi i brophwydi yn yr hanes, o'u cymmharu â'r offeiriaid a'r Lefiaid. Dichon fod hyn yn tueddu i gryfhau y dybiaeth iddynt gael eu hysgrifenu gan y prophwydi Samuel, Nathan, a Gad. Y mae yr amgylchiadau canlynol hefyd yn tueddu i gadarnhau y grediniaeth fod casglydd Llyfrau Samuel yn dal cyssylltiad âg ysgolion y prophwydi. Nid ydyw yr arfer o alw yr Iehofah yn "Arglwydd y lluoedd," neu "Dduw y lluoedd," yn digwydd yn llyfrau Moses, nac yn Iosuah, na'r Barnwyr; ond y mae yn cael ei ddefnyddio yn Llyfrau Samuel dri ar ddeg o weithiau. Yn Llyfrau y Brenhinoedd, nid yw yn digwydd ond seithwaith. Yn awr, y mae yr ymadrodd hwn, nad yw yn digwydd ond anaml mewn rhyddiaith, i'w gael yn amlach ddwywaith yn Llyfrau Samuel nag yn holl lyfrau hanesiol ereill yr Hen Destament ynghyd, yn hoff ymadrodd yn rhai o'r ysgrifeniadau prophwydol penaf. Defnyddir ef ddwy a thrigain o weithiau yn Esaiah; ac yn Ieremiah, o leiaf bump a thrigain o weithiau. Canfyddir hefyd y syniad

Digitized by Google

tri, fel dechreuad, canol, a diwedd yr un oruchwyliaeth fawr o eiddo Ysbryd Duw o fewn ei bobl; ond etto, y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Duw, trwy ei Ysbryd, sydd yn gwneuthur y tri—yn galw, yn aileni, ac yn sancteiddio. Crist fel Iawn ydyw sail y tri; o herwydd y mae wedi "ei wneuthur i ni gan Dduw yn gyfiawnder a sancteiddrwydd." Ond y mae gwahaniaeth amlwg rhyngddynt ar y llaw arall. Yn yr alwedigaeth effeithiol, y mae y dyn yn cael ei ddwyn i gredu yn Nghrist, drwy yr hyn o ran ei berson y mae yn cael ei gyfiawnhau yn Nghrist; ond o ran ei natur, y mae trwy gredu yn cael ei gymmhwyso i dderbyn anian sanctaidd trwy gyfraniad yr hon y mae yn cael ei aileni. Yn yr alwedigaeth effeithiol, gan hyny, gwneir lle i'r anian sanctaidd; yn yr adenedigaeth, plenir hi yn ei lle; ac yn y sancteiddhâd, dadblygir hi i'w chynnydd a'i pherffeithiad graddol, i newid y dyn i ddelw Crist, a Duw. Y mae y cynnydd hwn i'w briodoli fel achos gwirioneddol i Dduw trwy ei Ysbryd. Yr Ysbryd Glân ydyw y gwir sancteiddydd. O herwydd hyn y gelwir ef yn "Ysbryd Glân," yn "Ysbryd y gwirionedd," yn "Ysbryd gras a gweddïau," ac yn "Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu," &c. Ofer a fyddai dyfynu rhanau o'r Beibl i brofi y gwirionedd hwn, gan ei fod yn rhedeg mor amlwg a helaeth trwy y Beibl. Drachefn, fel mai yr Ysbryd Glân, trwy ei breswyliad mewnol yn y saint, ydyw gweithredydd sancteiddhâd, felly hefyd Crist ei hun ydyw ei ffynnonell uniongyrchol:—Crist yn trigo trwy ffydd yn nghalonau ei bobl ydyw defnydd y sancteiddhâd; a'r Ysbryd Glân yn preswylio ynddynt, ac yn cymmeryd o eiddo Crist, ydyw ei wir weithredydd. Ond y mae y credadyn yn ei sancteiddiad yn cymmeryd i fyny weithrediadau yr Ysbryd o'i fewn, ac yn eu troi yn weithrediadau ac yn weithredoedd iddo ei hun —ac felly y mae yn ymsancteiddio. Gwaith yr Ysbryd ydyw dwyn y credinwyr eu hunain i "weithio allan eu hiachawdwriaeth eu hunain." Nid gweithredu drostynt, ond gweithredu ynddynt—i'w cael hwythau i weithredu allan o'u natur yr hyn y mae efe yn ei weithredu o'u mewn. Hyn sydd yn gwir egluro yr ymadroddion hyny yn y Beibl, yn y rhai y gelwir ar y saint i wneuthur eu hunain yr hyn a briodolir mewn agwedd arall i Dduw trwy ei Ysbryd. Y mae y goruchwyliaethau sancteiddiol a ddygir yn mlaen yn y credinwyr yn amlygu eu hunain yn weithredol:—yn gyntaf, mewn marweiddio gweithredoedd yr anian lygredig; ac yn ail, mewn meithrin gweithrediadau yr anian sanctaidd. I osod allan ac egluro y ddwy oruchwyliaeth hon, defnyddir amryw ymadroddion cryfion a tharawiadol. Lleferir am ddarfodiad graddol yr hen anian fel "marwhau" (*Col.* iii. 5); *h. y.*, rhoddi i farwolaeth, neu ladd; fel "croeshoelio" (*Rhuf.* vi. 6); "marweiddio" (*Rhuf.* viii. 13); "dodi heibio" (*Eph.* iv. 22); "ymlanhau" (2 *Cor.* vii. 1); "ymnewid" (*Rhuf.* xii. 2); a'r cyffelyb. Y mae yr ymadroddion hyn oll yn darlunio yr actau mewnol hyny trwy ba rai y mae y saint, fel ffrwyth gwaith yr Ysbryd ynddynt, yn gorchfygu ac yn gwanhau grym yr egwyddor lygredig sydd o'u mewn; ac ar gyfer hyny y mae yr ymadroddion cadarnhaol cyfattebol yn desgrifio cryfhâd a pherffeithiad yr anian santaidd fel ffrwyth yr un gwaith. Y mae y cynnydd neu y dadblygiad hwn yn treiddio trwy yr holl natur, yn gweithio allan oddi fewn—o'r ysbryd trwy yr enaid i'r corph: 1 *Thes.* v. 23. O herwydd hyn gelwir yr anian yn "ddyn newydd." Dywed Ioan yn ei Epistol Cyntaf fod hâd Duw yn aros yn y credadyn; *h. y.*, yn aros i gael ei berffeithio a'i weithio allan o fewn cyfansoddiad priodol iddo ei hun. Fel y mae yr hedyn naturiol yn amgau o'i fewn ei ffurf a'i gyfansoddiad priodol ei hun, felly y mae yr hâd sanctaidd hwn. Ffurf yr hedyn hwn ydyw y dyn Crist Iesu, yr hwn sydd yn cael ei ffurfio yn y credadyn—"hyd oni ffurfier Crist ynoch." Mae Crist yn y saint yn graddol newid a pherffeithio y ddynoliaeth y mae yn trigo ynddi, gan ei gwneuthur yr un ffurf ag ef ei hun: *Rhuf.* viii. 29. Y mae y gwaith hwn yn myned rhagddo, yn cynnyddu, ac yn cael ei orphen hyd ddydd Iesu Grist: nid bob amser mewn llinell uniawn, ond yn fynych trwy wrthgyferbyniadau a gwrthweithiad cryf o eiddo llygredigaeth y galon a gelyniaeth Satan; ond y cyfan yn cael ei oruwchlywodraethu i beri i gorph pechod gael ei raddol wanhau, ac i'r anian sanctaidd ymgyrhaedd a chyrchu at y nôd o berffeithrwydd sydd o'r blaen. Pa un a all y dyn duwiol yn weithredol gyrhaedd y nôd hwnw tra y mae yn y fuchedd hon, sydd bwngc ag y mae amrywiaeth barn wedi bod arno. Mae y gwahaniaeth hwnw wedi tarddu mewn rhan fawr oddi ar gamddealltwriaeth ynghylch yr hyn a olygir wrth berffeithrwydd; ond y mae yn ddiau ei fod hefyd i'w briodoli i achosion dyfnach. Yr oedd y Pelagiaid gynt yn hòni yn gryf y possiblrwydd o gyrhaedd perffeithrwydd yn y byd hwn. Golygent drwy hyny allu profi nad ydyw pechod yn anwahanol gyssylltiedig â'r natur ddynol yn y fuchedd hon, a thrwy hyny gyfranu tuag at ddadymchwelyd yr athrawiaeth am y pechod gwreiddiol. Y mae y Pabyddion yn ffafrio perffeithrwydd, er mwyn rhoi lle i'w hathrawiaeth am weithredoedd da. Y mae yr Arminiaid wedi eu harwain i'r syniad gan eu hathrawiaeth am gyfaddasiad a newidiad y ddeddf fel y mae yn dwyn perthynas â'r credadyn. Ond y mae yn anhawdd meddwl y gall neb ystyriol ddal allan yn gryf y possiblrwydd o gyrhaedd ystâd ddibechod yn y byd hwn yn wyneb yr ystyriaeth ddifrifol o'r gosodiadau canlynol:—

1af, Tystiolaethau rhanau pennodol o'r Beibl: 1 *Ioan* i. 8; *Iago* iii. 8; 1 *Bren.* viii. 46; *Diar.* xx. 9.

2il, Teimlad dwfn o ddiffygion ac o dueddiadau llygredig yn y dynion mwyaf sanctaidd, a hwnw yn cynnyddu gyda chynnydd eu purdeb.

3ydd, Hanes y saint disgleiriaf yn yr Hen Destament a'r Newydd, fel y mae yn arddangos gwendidau a cholliadau ynddynt.

4ydd, Ein cyssylltiad yn y byd hwn â'r corph, ac â gwrthddrychau daearol, ac â'r "creadur" sydd wedi ei ddarostwng i oferedd.

5ed, Yr angenrheidrwydd a arddangosir, a'r cymmhelliadau a roddir yn y Beibl i wyliadwriaeth a gweddi.

6ed, Y darluniad a roddir yn yr Ysgrythyrau o fywyd y saint fel ymdrechfa yn erbyn gelynion ac egwyddorion drwg.

7fed, Yr alwad sydd arnom tra yn y byd hwn i ofyn am faddeuant o'n pechodau.

Yn wyneb yr ystyriaethau hyn, nis gellir priodoli ond perffeithrwydd cymmhariaethol i'r goreu o saint Duw yn y fuchedd hon, yr hon a gynnwys yr elfenau canlynol:—

1af, Gwneuthur perffeithrwydd hollol yn nôd parhaus, yn gymmaint ag nad ydyw yn naturiol ammhossibl, ac am ei fod yn cael ei orchymyn yn neddf Duw. "Byddwch sanctaidd," &c.

Digitized by Google

2il, Meddiant o anian sanctaidd, yr hon sydd ynddi ei hun yn berffaith ddibechod.

3ydd, Gweithrediad a chynnydd yr anian hono yn holl alluoedd a rhanau ein natur.

4ydd, Llwyr ymgiliad oddi wrth, a chasineb at bob pechod adnabyddus, ac ymarferiad â phob rhinwedd, gras, a doniau ysbrydol.

Y mae y sylw canlynol o eiddo Awstin yn attebiad i amryw wrthddadleuon yn erbyn ammherffeithrwydd y saint.

"Nid ydyw Duw yn gorchymyn yr hyn sydd ammhossibl; ond yn yr hyn a orchymyna, y mae yn dy alw i wneuthur yr hyn a elli, ac i geisio gwneuthur yr hyn ni elli." Gyda golwg ar y cwestiwn a oes haeddiant yn ngweithredoedd da y saint, digon ydyw dywedyd nas gall hyny fod, yn gymmaint a'u bod fel y dangoswyd yn ammherffaith; ac hefyd, am mai ffrwyth gras Duw yn yr enaid ydynt oll. Rhaid gan hyny i'w gwobr fod fel hwy eu hunain—yn wir ras Duw. "Y mae y gwobr o ras, nid o ddyled."

Y mae sancteiddhâd yn gwahaniaethu oddi wrth gyfiawnhâd yn y pethau canlynol:—

1af, Y mae a wnelo cyfiawnhâd âg euogrwydd—sancteiddhâd â halogrwydd.

2il, Gweithred allanol a barnol ydyw cyfiawnhâd—gwaith mewnol ac anianyddol yw sancteiddio.

3ydd, Y mae a wnelo y cyfiawnhâd â'r person—sancteiddhâd â'r natur.

4ydd, Y mae cyfiawnhâd yn weithred—sancteiddhâd yn waith.

SANDAL—AU (נַעַל: *ὑπόδημα σανδάλιον*): gorchudd i'r traed, a elwir y rhan fynychaf yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl yn 'esgid,' 'esgidiau.' Yr oedd sandalau yn cael eu gwneyd i fyny yn gyffredin o wadn o groen, lledr, neu bren, a hwnw yn cael ei rwymo am y traed gan gareiau; er y gall fod y gair weithiau yn golygu esgidiau o'r fath ag a ddaeth i arferiad cyffredin wedi hyny. Daeth y gair *ὑπόδημα*, a arwydda yn llythyrenol, 'yr hyn sydd wedi ei rwymo o danodd,' hyny yw, o dan y traed, a'r hwn, ar y cyntaf, oedd yn ddiau yn dynodi sandal, mewn amser i gael ei gymmhwyso at yr hyn a elwid y *calceus* Rhufeinaidd, neu esgid yn gorchuddio yr holl droed. Arferir y gair gan Josephus i osod allan y *caliga*—yr esgid gref, wedi ei hoelio yn dda, a wisgid gan y milwr Rhufeinig. Y mae y gair hwn yn digwydd yn y lleoedd canlynol yn y Testament Newydd—*Mat.* iii. 11; x. 10; *Marc* i. 7; *Luc* iii. 16; x. 4; *Ioan* i. 27; *Act.* vii. 33; xiii. 25: a defnyddir ef yn fynych gan y Deg a Thrigain fel cyfieithiad o'r gair Hebraeg. O ganlyniad, y mae yr ymadrodd a gyfieithir yn "garai esgid" yn *Gen.* xiv. 23, yn golygu yn briodol carai y sandal. Nid oes genym ddisgrifiad o'r sandalau yn y Beibl ei hun, ond gellir gwneuthur i fyny y diffyg hwn o ffynnonellau ereill. Yr ydym yn dysgu, oddi wrth yr hyn a ddywed y Talmudiaid, fod y defnydd a arferid at y gwadnau, naill ai yn lledr, llawban *(felt)*, brethyn, neu goed, ac yn achlysurol rhoddid haiarn hefyd, dybygid, ar y gwadn. Arferid amryw o ddefnyddiau ereill yn yr Aipht i'r pwrpas hwn, megys dail palmwydd a phaladr y papyrus, yn gystal a lledr; tra yn Assyria y defnyddid naill ai coed neu ledr. Yr oedd sandalau yr Aipht yn gyffredin yn troi i fyny yn y blaen, fel y mae y math o esgidiau a ddefnyddir i lithrellu *(skating)*; ac yr oedd math arall o honynt â'u blaen yn grwn ac yn hirfain. Yn Assyria, yr oedd y sawdl ac ochrau y traed yn cael eu gorchuddio, ac weithiau yr oedd y sandalau bron i gyd yn gynnwysedig yn hyn. Ymddengys nad oeddynt felly yn Mhalestina, o herwydd yr oedd carai o'r sawdl yn hanfodol i'r sandal. Gellir casglu fod y boneddigesau Iuddewig, a boneddigesau y dwyrain yn gyffredin, yn talu llawer o sylw i brydferthwch sandalau: *Can.* vii. 1. Os Aiphtes oedd y briodferch y cyfeirir ati yn y Caniadau, fel y tybia rhai, y mae y dywediad, "Mor deg yw dy draed mewn esgidiau, ferch pendefig!" yn cyfeirio at edmygedd boneddigesau Aiphtaidd o sandalau prydferth: ac yr oedd y chwaeth yma, dybygid, yn gyffredinol yn y dwyrain; o blegid, hyd heddyw, y mae sandalau boneddigesau o radd uchel yn mysg y pethau mwyaf costus o'u gwisgoedd, gan y byddant yn eu haddurno â blodeu, a lluniau ereill, wedi eu gweithio mewn sidan, arian, ac aur.

Nid ymddengys yn debygol fod sandalau yr Hebreaid yn gwahaniaethu llawer oddi wrth y rhai a ddefnyddid yn yr Aipht; oddi eithr, fe allai, eu bod yn gyffredin yn cael eu gwneyd o ddefnyddiau mwy parhaol, am fod eu gwlad yn fwy anwastad ac afrywiog. Yr oedd y sandalau Aiphtaidd yn amrywio ychydig mewn ffurf: gan fod y rhai a arferid gan y dosbarthiadau uchaf, a chan fenywod, yn gyffredin yn fain, ac yn troi i fyny yn y blaen; ac felly y mae llawer o'r sandalau dwyreiniol hyd heddyw. Yr oedd pobl o'r dosbarth canol a arferent sandalau yn fynych yn cerdded yn droednoeth. Darganfyddir hen esgidiau neu fotasau yn aml yn awr yn Thebes; ond y mae Syr J. G. Wilkinson yn credu eu bod o ddyddiad lled ddiweddar, a'u bod yn perthyn i'r Groegiaid, yn gymmaint ag nad oes neb yn y lluniau Aiphtaidd yn cael eu gosod allan yn eu gwisgo, oddi eithr tramorwyr. Lledr ydyw eu defnydd, o liw gwyrdd yn gyffredin, a chauid hwy â chareiau o'r tu blaen. Defnyddid hwy y rhan fynychaf gan ferched, megys yn Groeg ac Etruria.—"Wilkinson," iii. 364—367.

Arferid sandalau gan bob dosbarth o gymdeithas yn Mhalestina, hyd yn oed gan y dosbarth tlotaf (*Amos* viii. 6); ac yr oedd y sandal a'r garai mor gyffredin a rhad fel y cyfeirid atynt yn ddiarebol fel pethau o ychydig werth: *Gen.* xiv. 23; *Eccles.* xlvi. 19. Nid oeddynt yn cael eu gwisgo yn wastad, pa fodd bynag. Ni wisgid hwy yn y tŷ: ond fe'u gwisgid pan yr ymgymmerid â rhyw orchwyl oddi cartref; megys pan yn troi allan i anturiaethau milwrol (*Esa.* v. 27; *Eph.* vi. 15), neu i daith (*Exod.* xii. 11; *Jos.* ix. 5, 13; *Act.* xii. 8). Ar y fath achlysuron yr oedd personau yn cario gyda hwynt fwy nag un pâr o esgidiau—arferiad ag yr oedd ein Harglwydd yn wrthwynebol iddi yn ei pherthynas â'r apostolion: *Mat.* x. 10; cymmh. *Marc* vi. 9 â'r hyn a welir yn *Luc* x. 4. Yr oedd angen am bâr heb law yr un a wisgid mewn rhai amgylchiadau, am fod y gwadnau yn gwisgo allan yn fuan: *Jos.* ix. 5. Pan yn eistedd wrth y bwrdd i fwyta, diosgid y traed yn ddiammheuol, fel yr awgrymir yn *Luc* vii. 38; *Ioan* xiii. 5, 6; ond yn yr eithriad a wnelid yn arbenig mewn cyssylltiad â gŵyl y Pasc (*Exod.* xii. 11); a rhaid fod yr un arferiad yn ffynu pa le bynag yr oedd eistedd ar ledorwedd pan yn bwyta yn beth arferol. Yr oedd yn arwydd o barch i ddiosg yr esgidiau wrth agoshau at le neu berson y tybid ei fod yn fwy sanctaidd na'r cyffredin. Dyna y

Digitized by Google

a gymmerodd le tua'r pryd hwn, o blegid y dystiolaeth a ddygwyd ganddo yn gyhoeddus yn erbyn pob sefydliadau gwladol o grefydd, fel peth hollol groes i natur teyrnas Iesu Grist, yr hon "nid yw o'r byd hwn," greu cyffro a chynnhwrf mawr drwy Ysgotland yn gyffredinol. Yn mhlith ereill, mabwysiadodd Sandeman olygiadau Mr. Glas ar y pwngc; a'r canlyniad fu iddo roddi i fyny pob meddwl am fyned yn glerigwr, a throi ei sylw at fasnach. Gwnaeth ei drigfod yn Edinburgh, ymunodd â'r Glasiaid, a phriododd un o ferched Mr. Glas; a gwnaed ef yn flaenor yn yr eglwys a ffurfiasid yn y ddinas hono; a chariai yn mlaen fasnach mewn lliain, &c., i'w gynnal ei hun a'i deulu.

Hynododd ei hun yn lled gynnar ar ei oes fel awdwr. Ymddengys mai ei waith cyntaf oedd "*Some Thoughts on Christianity, in a Letter to a Friend.*" Gwaith oedd hwn a ysgrifenwyd o ddeutu y flwyddyn 1750, ar ddymuniad rhyddfeddyliwr, yr hwn yn garedig a groesawodd yr awdwr yn ei dŷ, ac a erfyniodd yn daer arno ysgrifenu ei syniadau ar y cwestiwn pwysig yna. Er nad ydyw y pamphledyn hwn ond bychan, y mae yr awdwr yn dangos ei fod yn feddyliwr gwreiddiol. Gosodir y mater allan mewn goleuni newydd a tharawiadol; ac y mae y casgliadau y mae yr ysgrifenydd yn eu tynu oddi wrth ei egwyddorion cyntaf yn dangos ei fod yn meddu ar alluoedd ymresymiadol cryfion. Yn 1757, efe a gyhoeddodd ei "*Letters on Theron and Aspasio,*" wedi eu cyflwyno i Mr. Hervey, mewn dwy gyfrol; gwaith yn yr hwn y mae yn ymosod ar ddaliadau y diweddaf ar natur ffydd gyda chraffder anghyffredinol, a chryn lawer o rym. Mewn gwrthwynebiad i hoff syniad Mr. Hervey, sef mai yn yr egwyddor o ymaflyd y mae hanfod ffydd gyfiawnhaol yn gorphwys, dadleuai Sandeman yn gryf nad oedd ffydd na mwy na llai na "chrediniaeth noeth mewn gwirionedd noeth," o berthynas i berson a gwaith Crist. Pa fodd bynag, i wneyd cyfiawnder âg ef, rhaid cadw mewn golwg nad oedd efe yn coleddu y syniad fod neb yn medru hawlio yn deg fod ei syniadau yn gywir ac ysgrythyrol o'r gwirionedd hwnw, ond i'r graddau y meddai oleuni a dysgeidiaeth ddwyfol, yn ol 1 *Cor.* ii. 14.

Y mae yn cwyno, ac nid yn ddiachos, o herwydd llymder ei arddull, a'r sylwadau chwerw a wnelai pan y digwyddai i "bregethwyr poblogaidd" ddyfod megys ar ei ffordd. Edrychai arnynt fel rhai yn llygru yr efengyl y proffesent ei phregethu; ac o ganlyniad, yn camarwain eu cyd-ddynion yn mhethau pwysig byd arall—ac yn ddiammheuol nid oedd yn eu harbed. Yn y flwyddyn 1764, wedi derbyn gwahoddiad oddi wrth rhyw bersonau yn America, a ddarllenasant ei weithiau, ac a broffesent edmygedd mawr o honynt, i ddyfod i ymsefydlu yn eu mysg, efe a hwyliodd am Loegr Newydd. Y mae lle i gredu iddo gael ei siomi yn fawr yn y personau a'i gwahoddodd drosodd, ac yn ei ddisgwyliadau cyffredinol ynghylch y wlad hono. Dechreuodd dadleuon ymgodi yn fuan ar ol ei symudiad yno rhwng y trefedigaethau a'r fam wlad. Arweiniodd syniadau Sandeman ef i ddadgan ei gydymdeimlad hollol â'r ddiweddaf, yr hyn a'i gwnaeth yn ammhoblogaidd yn mysg y trefedigaethwyr. Chwerwyd ei gysuron; taflwyd rhwystrau ar ffordd ei ragolygon i wneyd daioni i fesur mawr; ac, ar ol casglu ynghyd ryw ychydig nifer o fân gymdeithasau, efe a derfynodd ei oes yn Danbury, swydd Fairfield, Connecticut, yn 1771. Ymddangosodd amryw o draethodau o'i waith ar ol iddo farw, yn cynnwys llawer o sylwadau buddiol ac addysgiadol. Y mae y syniad y dadleuai Sandeman yn fawr drosto yn cael ei osod allan fel y canlyn ar ei feddfaen yn Danbury:—"Yma y gorwedd, hyd yr adgyfodiad, gorph Robert Sandeman, yr hwn, yn wyneb gwrthwynebiad parhaus oddi wrth bob dosbarth o ddynion, a safodd yn hir ac yn eofn dros yr hen athrawiaeth, fod marwolaeth Iesu Grist yn unig, heb weithred na meddwl o eiddo dyn, yn ddigonol i gyflwyno y penaf o bechaduriaid yn ddifrycheulyd ger bron Duw."

SANDEMANIAID: sect yn proffesu bod yn ddilynwyr i Robert Sandeman a John Glas, o Edinburgh. Ceir yr hanes goreu am y sect gan Mr. Walter Wilson, yn ei "*History and Antiquities of the Dissenting Churches in London.*" Ar ol rhoddi adroddiad manwl o'r pethau a gredir gan y blaid hon, y mae yn myned yn mlaen i ddarlunio rhai o'r arferion sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth bleidiau Cristionogol ereill. Y maent yn gweinyddu yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd yn wythnosol; cynnaliant gariad-wleddoedd hefyd, ac y mae gan yr holl aelodau hawl i fod yn bresennol ynddynt. Y maent yn gynnwysedig mewn ciniawa ynghyd yn nhai eu gilydd yn y cyfwng rhwng y gwasanaeth boreuol a phrydnawnol; "cusan cariad" hefyd a arferir ganddynt ar yr achlysur o dderbyn aelod newydd i gymmundeb yr eglwys, ac ar adegau ereill pan y bernir hyny yn angenrheidiol ac yn briodol. Y mae ganddynt gasgliad wythnosol tuag at gynnorthwyo y tlodion, ac i dalu eu treuliadau cyffredinol; y maent yn addysgu ac yn adeiladu eu gilydd; yn ymattal oddi wrth waed, a phob peth a dagwyd; golchant draed eu gilydd, gan eu bod yn cymmeryd y gorchymyn o barthed i hyn, fel cynghorion ereill, yn llythyrenol; ystyriant fod eiddo i fod yn gyffredin rhyngddynt. Ystyriant fod yr oll a feddant i fod at alwad y tlodion a'r eglwys. Dadleuant hefyd ei fod yn anghyfreithlawn i roddi o'r neilldu gyfoeth ar y ddaear, gyda'r bwriad o'i ddefnyddio mewn rhyw adeg ansicr yn mlaen yn y dyfodol. Y maent yn cymmeradwyo amryw flaenoriaid, bugeiliaid, neu esgobion, yn mhob eglwys; a rhaid iddynt gael presennoldeb dau flaenor pan y gweinyddir dysgyblaeth, neu pan y gweinyddir Swper yr Arglwydd. Y maent yn fanwl a llym yn eu dysgyblaeth; ond y maent yn mhob peth yn rhoddi pwys mawr ar unfrydedd barn a syniad. Beddyddiant trwy drochiad. Y mae amryw gynnulleidfaoedd o honynt yn Nghymru.

SANHEDRIM, neu SANHEDRIN (סנהדרין: *συνέδριον*): prif gynghorfa yr Iuddewon, yn enwedig gyda golwg ar bethau yn dal perthynas âg achosion crefyddol. Y mae y "*Mishna*" yn priodoli—ac â hyn y mae llawer o ddynion dysgedig yn cyttuno—sefydliad y cynghor hwn i Moses, yr hwn a ordeiniodd ddeg a thrigain o henuriaid i fod yn gyfranog âg ef yn llywodraethiad Israel: *Num.* xi. 16, 17. Parhaodd y cynghor hwn, yn ol adroddiadau y Rabbiniaid, cyhyd ag y parhaodd Palestina i fod yn wladwriaeth Iuddewig. Yn mysg yr ysgrifenwyr Cristionogol, y mae Schickhard, Isaac Casaubon, Salmasius, Selden, Grotius, ac ereill, wedi bod yn dal yr un golygiad. Er amser Vorstius, yr hwn a gymmerodd i fyny y golygiad nad ydyw

Digitized by Google

y syniad mai yr un oedd cyfarfod y deg henuriad a thrigain yr hwn a grybwyllir yn *Num.* xi. 16, 17, a'r sanhedrim oedd yn bod yn nghyfnodau diweddaf y wladwriaeth Iuddewig, yn ddim amgen na thybiaeth o eiddo y Rabbiniaid, ac nad oes dim arwyddion o'r fath gynghor i'w cael yn *Deut.* xvii. 8, 10, nac yn amser Iosuah, na'r barnwyr, na chwaith yn ystod teyrnasiad y brenhinoedd. Cydnabyddir yn lled gyffredin nad oedd y frawdle neu y llys a sefydlwyd gan Moses yn ddim amgen na pheth am dymmor, ac na pharhaodd mewn bod ar ol i'r Israeliaid ymsefydlu yn Mhalestina; ac fe allai, ar y cyfan, mai y golygiad diweddaf hwn ydyw yr un mwyaf tebyg o fod yn gywir.

Yn gymmaint ag nad oes genym ddim hysbysrwydd pendant o berthynas i sefydliad y sanhedrim, gellir dywedyd fod y geirdarddiad Groegaidd o'r enw yn cyfeirio at gyfnod yn amser neu ar ol amser llywodraethiad y Macedoniaid. Y mae y ffaith i Herod, pan yn rhaglaw Galilea, gael ei alw o flaen y sanhedrim (c.c. 47) ar y cyhuddiad o fod, wrth roddi dynion i farwolaeth, wedi trawsfeddiannu awdurdod y corph hwnw, yn dangos, dybygid, nad oedd y sefydliad yn un o darddiad diweddar iawn. Os ydyw yr hyn a gyfieithir "cynghor" a "senedd" yn 2 *Macc.* i. 10; iv. 44; xi. 27, yn golygu y sanhedrim—fel y mae, dybygid—dyma y cyfeiriad hanesyddol cyntaf at ei fodolaeth. Ar y seiliau hyn gellid ystyried barnau Vorstius, Witsius, Winer, Keil, ac ereill, yn debyg o fod yn gywir; sef, fod y sanhedrim a ddisgrifir yn y "*Talmud*" wedi ei sylfaenu ar ol dychweliad yr Iuddewon o Babilon—naill ai yn amser y Maccabeaid neu y tywysogion Asmoneaidd. Ond beth bynag oedd dechreuad sefydliad y sanhedrim, y mae yn eglur fod y cynghor hwn yn bod yn nyddiau ein Harglwydd, o herwydd fe sonir am dano yn yr Efengylau: *Mat.* v. 21; *Marc* xiii. 9; xiv. 55; xv. 1. O'i flaen ef y condemniwyd ein Gwaredwr; ac yn Ierusalem y cynnelid ef; a dyma y llys a derfynai y dadleuon pwysicaf a ymgodent yn mysg yr Iuddewon. Pan y mae Philo, Josephus, a'r "*Mishna*" yn ddistaw gyda golwg ar gyfansoddiad y sanhedrim, yr ydys yn gorfod boddloni yn unig ar yr ychydig gyfeiriadau a wneir at y sefydliad yn y Testament Newydd. Oddi wrth y rhai hyn yr ydym yn casglu fod y cynghor yn gynnwysedig o'r archoffeiriaid (yn cynnwys y rhai a fuont yn archoffeiriaid), henuriaid, gwŷr o oedran a phrofiad, ysgrifenyddion, a chyfreithwyr, neu ddynion dysgedig yn y gyfraith Iuddewig: *Mat.* xxvi. 57, 59; *Marc* xv. 1; *Luc* xxii. 66; *Act.* v. 21.

Tybir yn gyffredin mai nifer aelodau y sanhedrim oedd un ar ddeg a thrigain; ond mater ydyw hwn nad ydyw dysgedigion ddim yn cyttuno yn hollol o berthynas iddo. Fel y canlyn y mae tystiolaeth y "*Mishna*:"—"Yr oedd y sanhedrim fawr yn gynnwysedig o un ar ddeg a thrigain o farnwyr. Pa fodd y profir hyn? Oddi wrth *Num.* xi. 16; lle y dywedir, 'Casgl i mi ddeng ŵr a thrigain o henuriaid Israel.' Chwaneger at y rhai hyn Moses, a cheir un ar ddeg a thrigain. Er hyny, y mae y Rabbi Iudah yn dyweyd mai deg a thrigain ydoedd y nifer."—"*Sanhed.*" i. 6. Ymddengys fod yr un gwahaniaeth yn cael ei wneuthur drwy chwanegu neu adael allan Moses gan ysgrifenwyr Cristionogol, yr hyn sydd yn cyfrif am yr amrywiaeth sydd mewn llyfrau rhwng deg a thrigain ac un ar ddeg a thrigain. Y mae Baronius, fodd bynag, ynghyd â llawer ereill o ysgrifenwyr Pabaidd, a Phrotestaniaid nid ychydig, megys Drusius, Grotius, Prideaux, Jahn, Bretschneider, ac ereill, yn dal mai y nifer oedd deuddeg a thrigain, ar y sail fod Eldad a Medad, ar y rhai y mynegir yn bendant i'r ysbryd orphwys (*Num.* xi. 26), aros yn y gwersyll, ac y dylid eu chwanegu hwy at y deg a thrigain. O'r tri golygiad yma o barthed i nifer aelodau y sanhedrim, gellid meddwl y dylid rhoddi y flaenoriaeth i'r traddodiad cyffredin a ffyna yn mysg yr Iuddewon; ond yn gymmaint, fel y gwelsom, ag nad oes un prawf mai parhâd o'r un cynghor ydoedd y sanhedrim oedd mewn bod ar ol y gaethglud Fabilonaidd, a'r henuriaid a alwyd gan Moses, y mae yr ymresymiad oddi wrth *Num.* xi. 16 o barthed i nifer yr aelodau a berthynai i'r cynghor blaenaf yn ddirym; a gadewir ni, fel y dywed Keil, heb ddim sicrwydd pendant ar y mater.

Yr enw a roddid ar lywydd y corph hwn o bobl oedd נשיא, *nasi;* ac yn ol barn Maimonides a Lightfoot, dewisid ef ar gyfrif ei deilyngdod a'i ddoethineb mewn cynghor. Rhoddid y flaenoriaeth yn aml, os nad yn wastad, i'r archoffeiriad. Y mae yn amlwg oddi wrth yr hanes mai yr archoffeiriad oedd yn llywyddu pan y condemniwyd Iesu Grist: *Mat.* xxvi. 62. Yn y "*Talmud*" gelwir yr is-lywydd yn "dad tŷ barn," ac eisteddai ar law ddeheu y llywydd. Dywed rhai ysgrifenwyr y perthynai i'r sanhedrim ddau o islywyddion; ond nid oes brawfion cedyrn iawn dros hyn, dybygid. Dywed "*Gemara*" Ierusalem fod yn perthyn i'r cynghor ddau o ysgrifenyddion—un yn cofnodi y pleidleisiau dros ryddhâd, a'r llall y rhai dros gondemniad. Eisteddai aelodau y sanhedrim ar gylch hanner crwn, yn ol y "*Gemara;*" ac â hyn y cyttuna tystiolaeth Maimonides (yr hon a ddyfynir gan Vorstius):—"Appwyntir yr hwn a ystyrir ganddynt y doethaf yn eu mysg yn ben ar y cyfarfyddiad. Ac efe yw yr hwn a elwir gan y doethion yn mhob man yn NASI, gan ei fod yn cymmeryd lle eu blaenor, Moses. Hefyd, y maent yn gosod yr hwn sydd hynaf o'r deg a thrigain ar ei law ddeheu ef, a gelwir ef yn 'dad tŷ barn.' Eistedda y gweddill o'r deg a thrigain o flaen y ddau hyn, yn ol eu gradd mewn urddas, mewn cylch hanner crwn, fel y gallo ŷ llywydd a'r islywydd eu cael oll o flaen eu llygaid."

Yn ol y "*Talmud,*" yr oedd y cynghor yn cynnal eu cyfarfodydd yn gyffredin yn y boreu; ac yn ol barn yr un awdurdod, cynnelid hwynt yn gyffredin mewn neuadd, neu lysdy, yn agos i gongl dde-ddwyreiniol un o'r cynteddau ger llaw y deml. Ar achlysuron neillduol, pa fodd bynag, ymddengys yr eisteddai y cynghor yn nhŷ yr archoffeiriad: *Mat.* xxvi. 3. Dywed traddodiad, fod aelodau y sanhedrim, ddeugain mlynedd cyn dinystr Ierusalem, wedi eu gorfodi gan y Rhufeiniaid i adael y neuadd hon, a chynnal eu cyfarfodydd mewn ogofäau ar ochr ddwyreiniol y mynydd ar yr hwn y safai y deml; ond am fod y "*Mishna*" yn ddistaw o barthed i hyn, ac am fod yr hanes a geir yn y Testament Newydd hefyd yn ymddangos yn groes i'r traddodiad hwn, rhaid penderfynu, dybygid, fod rhyw ddigwyddiad unigol fe allai yn cael cyfeirio ato yn y traddodiad fel arferiad cyffredin. Fel corph cyfreithiol, ymddengys y perthynai i'r sanhedrim awdurdod eang. Yr oedd yn uchel lys, at yr hwn y gwneid appeliad o lysoedd is. O flaen y cynghor hwn y dygid

Digitized by Google

merch) y bwriedir ei anrhydeddu yn deilwng, ar gyfrif ei rinweddau, i gael ei ystyried yn sant neu yn santes, ac i'w anrhydeddu fel y cyfryw. Er fod y dadganiad o wynfydedigrwydd yn llai cyflawn nag ydyw y dadganiad llawn o ganoneiddiad, y mae y rhagbarotoad hwn yn mhob peth hanfodol o ran sylwedd yr un. Eglurir yr holl fanylion gan y pab, o'r enw Benedict XIV., mewn gwaith neillduol a gyhoeddwyd ganddo, at ddyddordeb yr hwn y chwanegir yn fawr am ei fod yn cynnwys cofnodion o'r holl weithredoedd mewn cyssylltiad â chanoneiddio a gymmerasant le yn ystod yr amser y bu efe ei hun yn dwyn perthynas â'r gwaith. Y mae yr ymchwiliad i deilyngdod y person yn cael ei wneyd gan gynnulleidfa y cardinaliaid, yr hon a elwir Cynnulleidfa y Defodau; a'r peth cyntaf a wneir ydyw gwneyd ymchwiliad i ysgrifeniadau (os bydd rhai), i sancteiddrwydd buchedd ac ymarweddiad, ac i'r gwyrthiau y mynegir iddo eu cyflawni yn ystod ei fywyd, neu ynte a effeithiwyd neu a ddygwyd oddi amgylch gan ei greiriau neu ei eiriolaeth wedi iddo farw! Rhaid cael sicrwydd am ddwy wyrth ar yr hyn a dybir yn dystiolaeth neu brawf boddhaol. Proffesir gwneyd yr ymchwiliadau manylaf, a chadarnheir pob tystiolaeth trwy lŵ. Parhâ yr ymchwiliadau hyn weithiau am dymmor maith, a dygir hwynt yn mlaen gan ddadleuydd, yr hwn a elwir *promotor fidei*, gwaith yr hwn ydyw cyfodi pob math o wrthwynebiadau i dderbyniad y tystiolaethau. Wedi cwblhau yr ymchwiliad, ac i'r canlyniadau gael eu cofnodi mewn ysgrifen, gosodir y cyfan o flaen y cardinaliaid, y rhai a gyfarfyddant deirgwaith mewn cynnulliad dirgelaidd; ac yn y diwedd, os bydd yr ymchwiliad wedi troi allan yn foddhaol, mewn cynnulleidfa gyhoeddus, pryd y gwneir eu penderfyniad yn hysbys i'r pab. Os bydd y penderfyniad hwn yn dderbyniol gan y pab, eir yn mlaen i berffeithio y gwaith. Cymmer y cyhoeddiad hwn le yn eglwys y Vatican. Estyna y cardinal a fyddo yn llywyddu cynnulleidfa y defodau fyrlythyr y pab i'r cardinal, archoffeiriad y Vatican, gan yr hwn y darllenir ef; yna hirdonir *(intone)* y *Te Deum;* a dinorchuddir cerfddelw o'r person a ganonir, i dderbyn gwarogaeth y gynnulleidfa; yna fe genir yr uchel offeren, a cholect, er ei anrhydeddu; ac yn y prydnawn bydd y pab ei hun yn myned yn gyhoeddus i'r eglwys i dalu ei warogaeth i'r gerfddelw.

Pan y canonir merthyr, y mae y gweithrediadau ychydig yn wahanol. Ond yn y naill a'r llall nid ydyw hyn ond rhagarweiniol i'r weithred o ganoneiddiad cyhoeddus. Y mae hyn yn cynnwys (1.) dadganiad fod y person a ganonir i gael ei ystyried yn sant drwy yr holl eglwys; (2.) y gellir ei anerch mewn gweddïau cyhoeddus; (3.) y gellir adeiladu temlau ac alloran er ei anrhydeddu; (4.) y gellir ei anerch mewn offerenau a gwasanaeth cyhoeddus; (5.) y gellir cynnal gŵyl yn goffadwriaethol iddo; (6.) y gellir gosod i fyny gerfddelw o hono mewn lle cyhoeddus; ac yn olaf, y gellir cadw ei greiriau a'u hanrhydeddu yn gyhoeddus. Y mae y gwaith o ganoneiddio, yr hwn a flaenorir gan ymchwiliad newydd, cyffelyb i'r un a berthyna i'r gwynfydedigrwydd, yn un o'r seremonïau mwyaf ysblenydd o holl seremonïau yr Eglwys Babaidd. Cymmer le yn eglwys y Vatican (St. Pedr), a bydd yn bresennol yn gyffredin nifer fawr o esgobion o amrywiol barthau o'r byd. Mewn llawer o bethau y mae y seremoniau yn gyffelyb i'r rhai yr eir drwyddynt pan yn dadgan y gwynfydedigrwydd; ond eu nodwedd wahaniaethol ydyw, y dadganiad difrifol a wneir, trwy orchymyn y pab yn bersonol, ar ol canu yr emyn gyfarchiadol i'r Ysbryd Glân, o'r canoniad. Yn ddilynol i hyn, gweinyddir gwasanaeth yr offeren gan y pab yn bersonol, ac weithiau traddodir homili gan y pab er coffadwriaeth anrhydeddus yr hwn a ganonir. Addurnir eglwys St. Pedr, a hyny gyda thraul fawr, yn bwrpasol ar gyfer amgylchiad o'r fath. Cyfrifir nad yw yr holl draul ar achlysuron o'r fath yn ddim llai nag 20,000*p*. Y mae y Pabyddion yn dal allan fod barn eu heglwys mewn penderfyniadau o'r fath yn anffaeledig; ac y mae gwadu nad ydyw person neillduol fyddo wedi ei ganoneiddio yn sant gwirioneddol, yn cael ei ystyried, os nad yn heresi pendant, o leiaf yn taflu dirmyg mawr ar ffydd yr eglwys.

Telid parch mawr i goffadwriaeth y seintiau a hen greiriau perthynol iddynt, yn enwedig yn yr Eglwys Babaidd gynt. Y mae ysgrifeniadau llawer o'r tadau Cristionogol yn cynnwys esamplau o rinweddau gwyrthiol a briodolid i'w creiriau; a rhoddwyd bywyd adnewyddol i'r warogaeth addoliadol a roddid i greiriau y seintiau yn y gorllewin gan y Croesgadau; pan y dygwyd o'r dwyrain amrywiol wrthddrychau cyssegredig, o eglwysydd Syria, Asia Leiaf, a Chaer Cystenyn, gan rai yn dychwelyd o Palestina, a chan orchfygwyr Lladinaidd Caer Cystenyn; ond y mae hyd yn oed y Pabyddion eu hunain yn cydnabod fod llawer o greiriau twyllodrus a hynod wedi eu dwyn i Ewrop y pryd hwnw. Er hyny, nid oedd yr arfer o dalu gwarogaeth gref iddynt yn cael ei gondemnio ond gan y Waldensiaid, Wicliff, ac ychydig bersonau ereill, yma a thraw, hyd adeg y Diwygiad Protestanaidd, pan y condemniwyd hyn, ynghyd âg athrawiaethau ac ymarferiadau ereill y Babaeth gan y Diwygwyr. Y mae Pabyddion, pa fodd bynag, yn parhau i edrych ar greiriau fel pethau sydd yn tueddu i feithrin eu ffydd a'u duwioldeb, trwy alw ger bron eu meddyliau fywydau, ac hyd yn oed bresennoldeb corphorol, ac ymarweddiad a buchedd y seintiau y perthynent iddynt, rhinweddau pa rai y disgwylir iddynt eu hefelychu. Yn ol dadganiad Cynghor Trent, y mae addoliad y creiriau yn cael ei gyssylltu â'r cwestiwn cyffredinol o santaddoliad; ac edrychir ar greiriau y seintiau, nid fel yn meddu rhinwedd gwirioneddol a hanfodol, ond yn unig fel offerynau "trwy ba rai y mae Duw yn rhoddi bendithion i ddynion."

Y mae Eglwys Groeg, ac eglwysi dwyreiniol ereill, a'r rhan fwyaf o'r sectau dwyreiniol, yn cyduno âg Eglwys Rhufain yn y warogaeth a delir ganddi i'w seintiau canonaidd a'u creiriau. O'r tu arall, y mae yr eglwysi diwygiedig, yn ddieithriad, yn ymwrthod â'r arferiad fel un anysgrythyrol, a thuedd ynddi i attal addoliad oddi wrth Dduw, ac i greu ofergoeledd lawer.

SAMIR: Cohathiad, mab i Micah, neu Michah, cyntafanedig Uzziel: 1 *Cron.* xxiv. 24.

SAMMA: un o feibion Sophah, Aseriad: 1 *Cron.* vii. 37.

1. SAMMAH: mab i Reuel, fab Esau, ac un o benaethiaid ei lwyth: *Gen.* xxxvi. 13, 17; 1 *Cron.* i. 37.

Digitized by Google

2. SAMMAH: trydydd mab Iesse, a brawd i Dafydd: 1 *Sam.* xvi. 9; xvii. 13. Yr oedd yn bresennol pan eneiniwyd Dafydd gan Samuel, ac ymunodd, ynghyd â'i ddau frawd hynaf, gyda'r Hebreaid yn nyffryn Elah i ymladd â'r Philistiaid.

3. SAMMAH: un o dri chedyrn penaf Dafydd. Yr oedd efe gydag ef pan yr oedd ar ffo yn ogof Adulam, ac enwogodd ei hun trwy amddiffyn darn o faes oedd yn llawn o ffacbys yn erbyn y Philistiaid, pan oeddynt ar un o'u hymgyrchoedd ysbeilgar. Ennillodd hyn iddo le ac enw yn mhlith y gwroniaid, y rhai ar achlysur arall a weithiasant eu ffordd yn mlaen trwy warchodlu y Philistiaid, ac a ddaethant â dwfr i Dafydd o ffynnon Bethlehem: 2 *Sam.* xxii. 11—17. Lled fyr yw y cyfeiriadau yn y Croniclau; ac yno yr hyn a berthyn i Sammah a briodolir i Eleazar mab Dodo. Y mae un peth arall yn wahanol yn y ddau adroddiad. Dywedir yn Samuel mai mewn maes o "ffacbys" y gwnaeth Sammah ei wrolwaith; ac yn 1 *Cron.* xi. 13, dywedir mai llawn o "haidd" oedd y maes. Mŷn Kennicott mai 'haidd' a ddylid ei ddarllen yn y ddau le, gan fod y geiriau yn yr Hebraeg mor debyg fel mai ychydig iawn o drawsddodiad a chyfnewidiad ar y llythyrenau a'u troai o'r naill i'r llall. Y mae yn llawn tebycach hefyd y buasai y Philistiaid yn ymosod ar, a'r Israeliaid yn amddiffyn maes o haidd na maes o ffacbys.

4. SAMMAH: Harodiad oedd efe, ac un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 25. Gelwir ef "Sammoth yr Harodiad" yn 1 *Cron.* xi. 27, ac yn 1 *Cron.* xxvii. 8, "Samhuth yr Izrahiad." Y mae Kennicott yn ystyried mai y darlleniad cywir ydyw 'Sammoth yr Harodiad.'

1. SAMMAI: mab Onan, a brawd i Iudah: 1 *Cron.* ii. 28, 32.

2. SAMMAI: mab Recem, a thad neu sylfaenydd Maon: 1 *Cron.* ii. 44, 45.

3. SAMMAI: brawd Miriam ac Isbah, sylfaenydd Estemon: 1 *Cron.* iv. 17. Tybia y rabbi D. Kimchi mai plant Mered oeddynt, o'i wraig Aiphtaidd Bithiah, merch Pharaoh. Yn ol y Deg a Thrigain, Iether oedd tad y tri. Ac y mae traddodiad yn cyssylltu Sammai gyda Moses, ac Isbah gydag Aaron.

1. SAMMUA: mab Zaccur, ac ysbïwr a ddewiswyd o lwyth Reuben, i edrych ansawdd gwlad Canaan: *Num.* xiii. 4.

2. SAMMUA: mab Dafydd, o'i wraig Bathseba, yr hwn a anwyd yn Ierusalem: 1 *Cron.* xiv. 4.

3. SAMMUA: Lefiad, a thad Abda: *Neh.* xi. 17.

4. SAMMUA: cynnrychiolydd teulu offeiriadol Bilgah neu Bilgai, yn nyddiau yr archoffeiriad Ioiacim: *Neh.* xii. 18.

SAPH: un o feibion y cawr a laddwyd gan Sibbechai yr Husathiad yn y frwydr yn erbyn y Philistiaid, a ymladdwyd yn Gob, neu Gaza: 2 *Sam.* xxi. 18. Gelwir ef yn Sippai yn 1 *Cron.* xx. 4.

SAPHAN: ysgrifenydd y brenin Iosiah. Mab ydoedd i Azaliah (2 *Bren.* xxii. 3; 2 *Cron.* xxxiv. 8), a thad Ahicam, Elasah, a Gemariah (2 *Bren.* xxii. 12; 2 *Cron.* xxxiv. 8; *Ier.* xxix. 3; xxxvi. 10, 11, 12), a thaid Gedaliah a Michaiah: *Ier.* xxxix. 14; xxxvi. 11. Ymddengys nad oes dim digon o reswm dros dybied fod Saphan, tad Ahicam, a Saphan yr ysgrifenydd, yn bersonau gwahanol. Y mae hanes Saphan yn amlygu rhai pethau sydd yn dwyn perthynas â'r swydd hon o ysgrifenydd a weinyddid ganddo. Ymddengys ei fod ar dir cyfartal â llywodraethwr y ddinas a'r cofnodydd brenhinol, gyda'r hwn yr anfonwyd ef gan y brenin at Hilciah i gymmeryd cyfrif o'r arian a gasglwyd gan y Lefiaid tuag at adgyweirio y deml, ac i dalu i'r gweithwyr: 1 *Bren.* xvi. 4; 2 *Cron.* xxxiv. 9. Ar yr achlysur hwn y gwnaeth Hilciah yn hysbys y darganfyddiad o gopi o'r gyfraith, yr hwn a gawsai efe, dybygid, pan yn gwneuthur darpariadau ar gyfer adgyweirio y deml. Ymddiriedwyd i Saphan y gwaith o'i gyflwyno i'r brenin. Pa gyfran bynag o Bum Llyfr Moses a ddarganfyddwyd fel hyn, yr oedd y dull y darganfyddwyd ef, ac ymddygiad y brenin wrth ei glywed yn cael ei ddarllen gan Saphan, yn profi ei fod am lawer o flynyddoedd wedi bod ar goll, a'i gynnwysiad, i raddau o leiaf, wedi ei anghofio. Ymddengys mai rhan o Deuteronomium a ddarllenwyd ganddo; a phan y gorphenodd Saphan ddarllen, anfonwyd ef, ynghyd â Hilciah yr archoffeiriad, ac ereill o safle uchel, i ymgynghori â Huldah, y brophwydes. Fe effeithiodd attebiad y brophwydes yn ddwfn ar Iosiah, a chymmerodd y gwaith a ddechreuodd gydag adgyweiriad y deml yn fuan y ffurf o ddiwygiad crefyddol cyflawn: adferwyd y gwasanaeth Lefiticaidd, ac ysgubwyd ymaith am dymmor bob olion o ddelwaddoliaeth. Yr oedd Saphan, dybygid, y pryd hwn yn ŵr oedranus; o herwydd rhaid fod ei fab Ahicam mewn safle o bwysigrwydd, a'i ŵyr Gedaliah, eisoes wedi ei eni; fel y gellir casglu oddi wrth y ffaith ei fod bymtheng mlynedd ar hugain ar ol hyn wedi ei wneyd yn llywodraethwr y wlad gan y Caldeaid—swydd na buasai dyn ieuangc iawn, dybygid, yn cael ei bennodi iddi. Bydded hyn fel y byddo, y mae Saphan yn cilio o'r golwg; ac o bossibl na bu efe farw cyn y bummed flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim—deunaw mlynedd yn ddiweddarach, pan yr oedd Elisama yn ysgrifenydd: *Ier.* xxxvi. 12. Y mae un peth mewn cyssylltiad â llosgiad y llyfr yn mhrophwydoliaethau Ieremiah trwy orchymyn y brenin, sydd yn myned yn mhell i brofi mai yr un oedd Saphan tad Ahicam, a Saphan yr ysgrifenydd. Y mae yn eithaf hysbys mai Ahicam oedd cyfaill ac amddiffynwr mawr Ieremiah yn y llys; ac yr oedd gan hyny yn hollol gysson â'r cyfeillgarwch hwn o eiddo ei frawd tuag at y prophwyd i Gemariah, mab Saphan, rybuddio Ieremiah a Baruch i ymguddio, ac hefyd iddo gyfryngu gyda'r brenin ar iddo beidio llosgi y llyfr: *Ier.* xxxvi. 12, 19, 25.

1. SAPHAT: mab Hori, yr hwn a etholwyd o lwyth Simeon yn ysbïwr i fyned i wlad Canaan: *Num.* xiii. 5.

2. SAPHAT: tad y prophwyd Eliseus: 1 *Bren.* xix. 16, 19; 2 *Bren.* iii. 11; vi. 31.

3. SAPHAT: un o chwe mab Semaiah yn llinach frenhinol Iudah: 1 *Cron.* iii. 22.

4. SAPHAT: un o benaethiaid y Gadiaid yn Basan: 1 *Cron.* v. 12.

5. SAPHAT: mab Adlai, yr hwn oedd yn arolygu gwartheg Dafydd yn y dyffrynoedd: 1 *Cron.* xxvii. 29.

SAPHER, MYNYDD: enw ar un o'r lleoedd y gwersyllodd yr Israeliaid ynddynt yn yr

Digitized by Google

anialwch (*Num.* xxxviii. 23), nad oes grybwylliad yn cael ei wneyd am dano mewn un man na chyssylltiad arall yn y Beibl. Arwyddo y mae yr enw, dybygid, "mynydd hyfrydwch;" ond nid ydys wedi cael allan sefyllfa y lle hyd yma.

SAPHIR: un o'r pentrefydd a gyferchid gan y prophwyd Micah: *Micah* i. 11. Ni wneir crybwylliad am y lle yn un man arall yn y Beibl. Disgrifir ef gan Eusebius a Jerome fel lle yn y mynydd-dir rhwng Eleutheropolis ac Ascelon." Y mae yn y cyfeiriad hwn bentref etto a elwir *es-Sawâfir*, ac o bossibl, nad ydyw yr un a'r hen Saphir gynt.—Rob. "*Bib. Res.;*" ii. 34 nod. Gorwedda o ddeutu wyth milldir i'r gogledd-ddwyrain o Ascelon, a thua deuddeg o *Beit-jibrin*, i'r deheu o'r ffordd sydd yn myned ar hyd yr arfordir o Gaza. Tybia Tobler mai Saber ydyw, yr hwn sydd bentref ger llaw *Sawâfir*, yn yr hwn y mae ffynnon hynafol ac ynddi gyflawnder o ddwfr peraidd. Mewn un ystyr, pa fodd bynag, nid ydyw safle y naill o'r rhai hyn yn cyfatteb i'r darluniad yn yr "*Onomasticon*," gan nad ydynt yn agos i'r mynyddoedd, ond ar wastadedd y Sefelah. Ond gan fod *Beit-jibrin* (yr hen Eleutheropolis) yn sefyll ar lechweddau mynyddoedd Iudah, y mae yn anhawdd deall pa fodd y gallasai un lle yn orllewinol iddo (hyny yw, rhyngddi hi ac Ascelon) fod yn y mynydd-dir, os nad yw yr ymadrodd yna yn cyfeirio at leoedd, er eu bod o ran eu safle yn y gwastadedd, sydd o herwydd rhyw reswm neu gilydd yn cael eu cyfrif yn perthyn i drefydd y mynydd-dir.

SAPHIR (ספּיר: *σάπφειρος*: *saphirus*): maen gwerthfawr; o liw glas disglaer, dybygid. Yn *Exod.* xxiv. 10, mynegir fod Moses a'r henuriaid wedi gweled mewn gweledigaeth Dduw Israel, "a than ei draed megys gwaith o faen saphir, ac fel corph y nefoedd o ddisgleirdeb:" cymmh. *Ezec.* i. 26. Saphir oedd yr ail faen yn yr ail res yn nwyfroneg yr archoffeiriad: *Exod.* xxviii. 18. Yr oedd yn faen tra gwerthfawr (*Iob* xxviii. 16); ac yn un o'r gemau a addurnent berson brenin Tyrus: *Ezec.* xxviii. 13. Y mae y maen a elwir genym ni yn saphir, yn nesaf mewn caledrwydd a gwerth i'r adamant *(diamond)*, ac y mae gan mwyaf o liw glas amrywiol. Ond y mae y maen a ddisgrifir gan Pliny o dan yr enw saphir, yr un, dybygid, a'r *lapis lazuli;* o herwydd dywed efe ei fod yn faen annhryloew, ac yn tueddu at fod yn lâs tywyll o liw y gwiolydd *(violet)*, ac arno weithiau ysmotiau melynion euraidd. Mŷn rhai mai hwn ydyw saphir y Beibl. Y mae ereill, pa fodd bynag, yn ystyried nad yw hyn yn cyfatteb i ddisgrifiad yr Ysgrythyr o hono, gan ei fod yn cael ei osod allan fel maen disglaer, tryloew, ac o werth mawr i'r cerfiwr; ac hefyd, ymddengys yn amlwg nad oedd hwn mor werthfawr a'r un Beiblaidd. A chymmeryd pob peth gyda'i gilydd, y mae yn ymddangos mai y saphir gwirioneddol oedd yr un y crybwyllir am dano yn yr Ysgrythyrau. Y mae i'w gael yn fynych mewn casgliadau o hen emau a meini gwerthfawr.

SAPPHIRA: gwraig Ananias, ac un oedd yn gyfranog âg ef yn y trosedd am yr hwn y bu efe farw: *Act.* v. 1—10. Nid oedd Sapphira yn gwybod am y farn a ddisgynodd ar ei gŵr; a hi a aeth i'r lle yn mhen tair awr wedi i hyny ddigwydd, i edrych am dano ef, dybygid; ac wrth gael ei holi gan Pedr, adroddodd hithau y "celwydd wrth yr Ysbryd Glân," yr hwn a fu yn achlysur dinystr ei gŵr; ac ar hyn, gwnaeth yn hysbys y gosp a oddiweddodd Ananias, a chyhoeddodd ei dedfryd hithau—"Wele draed y rhai a gladdasant dy ŵr di wrth y drws, a hwy a'th ddygant dithau allan." Wrth glywed y geiriau difrifol hyn, hi a gwympodd yn farw wrth ei draed ef. Cymmerodd marwolaeth Sapphira le dan yr un amgylchiadau a marwolaeth ei gŵr; yr hyn, pe na buasai felly, a gawsai ei briodoli gan rai, fe allai, i achosion naturiol. Gwel ANANIAS.

SAPPHO: barddones enwog, yr hon a anwyd yn ynys Lesbos; ond y mae lle ei genedigaeth yn yr ynys hono yn ansicr. Yn ol rhai, ganwyd hi yn Eresus, ac yn ol ereill, yn Mitylene, rywbryd yn flaenorol i'r flwyddyn c. c. 600. Y mae adeg ei genedigaeth yn fanwl yn anhysbys; ac mewn gwirionedd, nid oes ond ychydig o ddigwyddiadau ei bywyd yn gyfryw ag y gellir teimlo sicrwydd penderfynol yn eu cylch. Y mae y darnau barddonol a adawyd ar ei hol hi ac Alcæus yn dangos fod y naill a'r llall, y rhai a ystyrir yn brif feirdd yr ysgol Æoliaidd, yn cydoesi. Mynegir iddi, pan yn mlodau ei dyddiau, adael ei gwlad, a myned i Sicily; ond ni fynegir yr achos o hyn. Yr oedd yn grediniaeth led gyffredinol gynt i Sappho ddistrywio ei hun trwy neidio i'r môr oddi ar y graig Leucadiaidd, mewn sefyllfa o anobaith, am nad oedd ei serch tuag at ddynes ieuangc o'r enw Phaon yn cael ei addalu. Y mae yn wir ei bod yn cyfeirio at ddyn ieuangc a gerid ganddi, a'r hwn nid oedd yn ei had-dalu mewn serch yn ol; ond nid oes dim arwydd ei bod yn cyfeirio at un o'r enw Phaon mewn unrhyw gân o'i heiddo; ac os digwyddodd grybwyll yr enw Adonis, anwylddyn Gwener a olygid ganddi, dybygid, yr hwn, mewn rhai chwedlau a elwid yn Phaon neu Phaeton. Nid ydyw yn annhebyg, gan hyny, i'r dull yn mha un y darfu i'r awdures hon ddarlunio Gwener yn cyfarch Phaon roddi achlysur i'r chwedl o'i chariad nwyfus at Phaon. Y mae chwedl y "naid oddi ar y graig Leucadaidd," fel y mae O. Müller ac ereill wedi profi, yn ymddangos yn ffugiaeth ddisail, yn codi ar ymadroddion ffugrol barddonol. Ni fynegir yn bendant gan neb o'r hynafiaid sydd yn adrodd y chwedl, a gollodd Sappho ei bywyd mewn canlyniad i hyny, ai peidio.

Gyda'r eithriad o un dernyn barddonol cyflawn, a chryn nifer o fân ddarnau anghyflawn, y mae caniadau Sappho wedi myned oll ar goll; ond y mae digon o'i gweithiau yn aros i gyfiawnhau edmygedd yr hynafiaid o'i gweithiau. Mewn gwres a phurdeb teimlad, mewn teleidrwydd a phereidd-dra, mewn tynerwch a phrydferthwch, nid oes odid fardd telynol, hen na diweddar, wedi rhagori arni. Y mae colliant eu gweithiau wedi bod yn achos o gymmaint o ofid ag a fu colliant ysgrifeniadau unrhyw hen awdwr; o herwydd, yn annibynol ar yr hyfrydwch a geid ynddynt fel gweithiau barddonol, buasent yn ddiammheuol yn taflu llawer o oleuni ar sefyllfa gymdeithasol merched mewn rhai parthau o Groeg yn yr oesoedd hyny—pwngc ag y mae tywyllwch mawr yn gorphwys arno yn bresennol.

SARACENIAID: enw sydd wedi cael ei ddefnyddio gan ysgrifenwyr Cristionogol y canoloesoedd am Fahometiaid Syria, a Phalestina, a'r

Digitized by Google

Arabiaid yn gyffredinol, neu yr Arabiaid Berberaidd a orchfygasant Yspaen a Sicily, ac a oresgynasant Ffraingc. Mewn amseroedd diweddarach, defnyddiwyd y gair fel enw ar yr holl genhedloedd anffyddol, yn erbyn pa rai y cyhoeddwyd y Croesgadau; ac yn y modd hwn y cymmhwysid ef at Seljukiaid Jeonium, y Tyrciaid, ac hyd yn oed at y Prwssiaid paganaidd. Y mae tarddiad y gair wedi dyrysu llawer ar ieithyddwyr. Tybia Dr. Gange ei fod yn ddeilliedig o Sarah, gwraig Abraham—opiniwn yn yr hwn y mae ysgrifenwyr Cristionogol y canoloesoedd yn cydsynio âg ef. Hottinger a ystyria ei fod yn deilliaw o'r gair *saraca*, yr hwn a arwydda 'i ladrata, i ysbeilio.' Forster drachefn a ddywed ei fod yn tarddu o *sahra*, 'anialwch;' tra yr haera ereill y ceir ei darddiad yn y gair Hebraeg *sarac*, 'tlawd.' Ond y farn a goleddir yn fwyaf cyffredin yn awr ydyw, ei fod yn deilliaw o'r gair *sharceyn*—yr hyn a arwydda yn yr Arabaeg 'pobl y dwyrain'—wedi ei lygru gan y Groegiaid i *saracenoi*, a'i droi gan yr ysgrifenwyr Lladinaidd i *saraceni*. Stephanus Byzantinius a ddywed fod Saraka yn ardal yn Arabia, yn gyssylltiol â Nabathæi, a bod y preswylwyr yn cael eu galw yn 'Saraceni.' Dywed Ptolemy mai dinas yn Arabia Felix ydoedd Saraka. Y mae yr enw Saraceni yn digwydd yn ysgrifeniadau Pliny; ac ymddengys y dechreuwyd ei ddefnyddio tua'r ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, a chymmhwyswyd ef at yr Arabiaid Bedŵinaidd a breswylient y gwledydd rhwng yr Euphrates a'r Tigris, oedd yn ysgaru rhwng y meddiannau Rhufeinaidd yn Asia a thiriogaethau y brenhinoedd Parthiaidd. Y mae y disgrifiad a roddir o'r Saraceniaid yn cyfatteb yn fanwl i arferion y Bedŵiniaid. Mewn cwrs amser daeth yn enw a roddid ar yr holl Arabiaid a goleddent grefydd Mahomet, ac a aethant allan i oresgyn, ac a lwyddasant i orchfygu y rhan fwyaf o Asia ac Affrica.

SARAH (שרה: *tywysoges, pendefiges*): gwraig Abraham, a mam Isaac. Nid oes genym sicrwydd penderfynol o barthed i'w genedigaeth, na'i rhieni, yn yr hanes ysgrythyrol. Y crybwylliad cyntaf a wneir am ei henw sydd yn *Gen.* xi. 29, yr hwn sydd fel y canlyn:—"Yna y cymmerodd Abram a Nachor iddynt wragedd: enw gwraig Abram oedd Sarai; ac enw gwraig Nachor, Milcah, merch Haran, tad Milcah, a thad Iscah." Yn *Gen.* xx. 12, y mae Abraham yn llefaru am dani fel ei chwaer: efe a ddywed, "Merch fy nhad yw hi, ac nid merch fy mam." Y traddodiad Iuddewig cyffredin, yr hwn a gymmerir yn ganiataol gan Josephus, a chan Jerome, ydyw, mai yr un ydyw Sarah ag Iscah, merch Haran—mab hynaf Terah, tad Abraham—a chwaer i Lot, yr hwn a elwir yn "frawd" Abraham yn *Gen.* xiv. 14, 16. A barnu oddi wrth y ffaith fod Rebeccah, ŵyres Nachor, yn wraig i Isaac, mab Abraham, ymddengys fod rheswm cryf dros dybied mai Abraham oedd y brawd ieuangaf; ac felly, nid ydyw yn ammhosibl i'w wraig fod yn ieuangach na gwraig Nachor. Os ydyw y traddodiad hwn yn gywir, y mae yn rhyfedd na buasai cyfeiriad uniongyrchol at hyny yn *Gen.* xi. 29. Ond y mae yn rhaid addef nad ydyw y peth yn annhebyg ynddo ei hun.

Yn ol y golygiad hwn, yr oedd Sarai yn nith i Abraham, er nad oedd ond deng mlynedd yn ieuengach nag ef, ac yn chwaer i Milcah a Lot. Y mae y rhesymau dros y golygiad hwn yn lled gedyrn. Mae yn sicr fod Nachor, brawd Abraham, wedi priodi Milcah, merch arall Haran; ac y mae y dull yn mha un y mynegir hanes priodas Sarai gydag Abraham yn awgrymu ei fod yntau wedi priodi ei ferch arall ef: *Gen.* xi. 29. Fel y crybwyllwyd eisoes, y mae y rhan fwyaf o'r ysgrifenwyr Iuddewaidd yn dywedyd mai yr un oedd Iscah a Sarai; ac heb dybied hyny, y mae yn anhawdd deall pa ham yr oedd Haran, tad Milcah, yn cael ei nodi allan mewn modd mor arbenig yn dad i Iscah hefyd. Heb law hyny, os nad yr un oedd Sarai ac Iscah, nid ydyw Moses yn rhoi hanes ei haniad; ac o'r braidd y gellid meddwl y gadawsid hyny allan, gan y buasai yn dra derbyniol gan bobl oeddynt mor ofalus am achau i wybod o bwy yr oeddynt yn ddisgynyddion, o du y fam yn gystal a'r tad. Drachefn, pan y gadawodd Terah Ur y Caldeaid, fe ddywedir, "Terah a gymmerodd Abram ei fab, a Lot fab Haran, mab ei fab, a Sarai ei waudd, gwraig Abram ei fab; a hwy a aethant allan ynghyd;" *Gen.* xi. 31. Pan yn sylwi ar yr adnod hon, y mae Aben Ezra yn dywedyd, pe buasai Sarai yn ferch i Terah (fel y mae rhai wedi tybied) ac yn chwaer i Abraham, mai fel hyn y buasai yr adnod: "Terah a gymmerodd ei fab, a Sarai ei ferch, gwraig Abraham." Heb law hyny, y mae perthynas ddwbl Abraham â Lot a gynnyrchid gan y fath undeb yn ein cynnorthwyo hefyd i ddeall rhai pethau yn y cyssylltiadau oedd rhwng Lot ac Abraham. Yn erbyn y golygiad hwn y mae genym i gyfeirio at yr hyn a ddywedodd Abraham ei hun; sef, fod Sarai yn hanner chwaer iddo—"Merch fy nhad yw hi, ac nid merch fy mam;" ond y mae llawer yn ystyried nad yw hyn yn golygu dim mwy na bod Haran ei thad yn hanner brawd iddo ef, yn gymmaint a bod arfer ymddiddanol yr Hebreaid o lefaru yn y mater hwn yn rhoddi ar ddeall y gallai alw ei *nith* yn *chwaer*, ac *ŵyres* yn *ferch*. Mewn ymddiddan cyffredin, buasai merch yn cynnwys unrhyw ddisgynydd benywaidd, a chwaer yn golygu unrhyw radd o berthynas deuluaidd.

Gwnaed y cyfnewidiad yn ei henw o *Sarai* i *Sarah* ar yr un amser ag y cyfnewidiwyd enw Abraham:—ar sefydliad cyfammod yr enwaediad rhyngddo ef a Duw. Cydnabyddir yn gyffredinol mai 'tywysoges' ydyw ystyr yr enw 'Sarah.' Ond y mae yr enw 'Sarai' yn parhau yn destyn dadl. Y mae yr hen esbonwyr yn tybied mai ei ystyr ydyw 'fy nhywysoges;' ac eglurant y cyfnewidiad o *Sarai* i *Sarah* fel yn arwyddo nad brenhines un teulu ydoedd i fod mwyach, ond mam frenhinol "holl dylwythau y ddaear." Yr oeddynt hefyd yn tybied fod y llythyren ה, a chwanegwyd at enwau *Abram* a *Sarai*, mewn ystyr cyfriniol yn golygu eu bod wedi eu derbyn i gyfammod â'r Arglwydd. Y mae yn mysg ysgolheigion Hebraeg diweddar, fodd bynag, gryn wahaniaeth barn gyda golwg ar yr eglurhâd priodol i'w roddi ar hyn. Ond y tebycaf o fod yn gywir, fe allai, ydyw y deongliad a gynnygir gan Ewald, ac a fabwysiedir gan lawer ereill; sef, fod yr enw yn ddeilliedig o שרה—gwraidd yr hwn a geir yn *Gen.* xxxii. 28, a *Hos.* xii. 4, ac a olyga 'dadleugar,' 'ymrysongar.' Y mae hyn yn ymddangos yn fwy naturiol, o herwydd y mae newidiad yr enw ynddo ei hun yn lled arwyddo fod rhywbeth yn annymunol yn yr enw oedd arni yn flaenorol: *Gen.* xvii. 5.

Digitized by Google

Y mae ei hanes, wrth gwrs, yr un a'r eiddo Abraham. Hi a ddaeth gydag ef o Ur y Caldeaid i Haran, o Haran i Ganaan, a dilynodd ef yn holl grwydriadau ei fywyd. Yr unig weithred annibynol o'i heiddo a gofnodir ydyw, ei gwaith yn hawlio ar fod Hagar ac Ismael yn cael eu troi ymaith o dŷ Abraham, fel na byddent yn gydymgeiswyr peryglus am ei ffafr ef, yn ei herbyn hi ac Isaac; yr hyn, yn *Gal.* iv. 22—31, a gymmhwysir yn arwyddluniol at symmudiad yr hen gyfammod a gosodiad i fyny y newydd. Yr adegau y mae Sarah yn dyfod i'r golwg amlycaf yn yr hanes ydyw yr adegau pan yr oedd Abraham yn ymdaith, yn gyntaf yn yr Aipht, ac yna yn Gerar, lle y bu Sarah yn gyfranog o'i dwyll ef tuag at Pharaoh ac Abimelech. Ar yr achlysur cyntaf, pan ynghylch canol ei hoes, cyfeirir at ei phrydferthwch fel yr achos (*Gen.* xii. 12—15); ar yr ail, ychydig cyn genedigaeth Isaac, pan oedd yn hen, ond pan oedd ei nherth a'i bywiogrwydd wedi eu hadfer iddi yn wyrthiol, cyfeirir at yr un peth fel achos, fel y tybiai Abraham, er na fynegir hyny yn bendant: *Gen.* xx. 9—11. Yn yr amgylchiadau hyn, ac yn enwedig yn y diweddaf, y mae cymmeriad Abraham a Sarah yn ymddangos braidd yn anffafriol o'u cymmharu â'r eiddo Pharaoh ac Abimelech. Gofynir weithiau a oedd Sarah yn gwybod am y bwriad i aberthu Isaac—mab ei gobeithion a'i dymuniadau. Yn ol pob tebyg, yr oedd Sarah yn fyw ar y pryd; ac os felly, gellid meddwl, wrth ystyried y gofal a gymmerodd Abraham i gadw hyny yn ddirgel, nad oedd hi yn hysbys o amcan y daith i Moriah; ac, yn wir, nid ydyw yn annaturiol i dybied mai un rheswm dros ofal Abraham ydoedd cadw y peth yn ddirgelwch iddi. Yr oedd yr anhawsder iddo wneuthur hyn yn llai, gan fod ei ffydd y fath ag a'i galluogai i gredu y dygai yn ol gydag ef yn fyw y bachgen y gorchymynwyd iddo ei aberthu: *Heb.* xi. 19. Pa fodd bynag, y mae hanes ei marwolaeth yn dilyn yn uniongyrchol hanes yr aberthiad; ac y mae rhai ysgrifenwyr Iuddewig wedi dychymygu mai y wybodaeth am hyny a'i hachosodd, ac i Abraham ei chael wedi marw ar ei ddychweliad. Ond nid oes dim awdurdod dros y syniad yma. Bu farw Sarah yn Hebron, yn yr 127ain blwydd o'i hoed, a chladdwyd hi yn ogof Machpelah: *Gen.* xxiii. 1, 2, 19. Prynodd Abraham le ei beddrod iddi gan Ephron yr Hethiad, a dyma oedd yr unig feddiant oedd ganddo yn Ngwlad yr Addewid. Edrychir ar y lle yn gyssegredig gan Iuddewon, Cristionogion, a Mahometiaid hyd heddyw; a dangosir beddrod Sarah gyferbyn ag un Abraham, gyda beddau Isaac a Rebeccah ar y naill ochr, a rhai Iacob a Leah ar y llall.—Stanley's "*Lect. on Jewish Church,*" app. ii., td. 484—509.

Y mae Sarah yn cael ei dwyn ger ein bron mor anfynych yn yr hanes fel y mae yn anhawdd rhoddi golwg ar ei chymmeriad, gan fod y defnyddiau yn brin. Nid ydyw yn dyfod i'r amlwg ond yn unig pan y gellid meddwl fod ei phresennoldeb yn hanfodol; ac ar adegau o'r fath, ymddengys yn eithaf syml a naturiol, ond o'r braidd yn annoeth, yn ei hawydd i gario allan yr argraph gyntaf a wneid ar ei meddwl. Yr oedd mwy o'r fam yn dyfod i'r golwg ynddi nag o'r wraig. Y mae ei serch mamaidd naturiol yn ymddangos yn yr awyddfryd tyner a amlygwyd ganddi i gael plant, hyd yn oed o'i gwasanaethferch, ac yn yr eiddigedd a deimlai tuag at y wasanaethferch hono, wedi iddi ddyfod yn fam; yn ei gwaith yn llawenychu pan y cafodd fab; ac yn yr eiddigedd a barai iddi gospi y sarhâd lleiaf a deflid arno, yn gystal ag yn attal Ismael i gyfranogi o'r rhagorfreintiau a berthynent i'r mab. Arweiniai hyn hi i fod braidd yn llym tuag at ereill, yn gystal ag yn dyner tuag at ei phlentyn ei hun. Rhywbeth o'r un nodwedd hefyd oedd ei gwaith yn chwerthin yn drahaus pan y rhoddwyd yr addewid gyntaf o fab iddi; yr hwn y bu am dymmor maith yn ei ddymuno, ond a ystyrid ganddi y pryd hwnw y tu hwnt i bob gobaith: ei gwadiad crynedig hefyd o'r chwerthiniad hwnw, a'i gwaith yn ei droi yn chwerthiniad o lawenydd diolchgar. Ymddengys fod Sarah yn meddu ar deimladau serchog; ond yr oedd hefyd yn hawdd ei chyffroi, yn eiddigus, ac yn dra awdurdodaidd yn yr amlygiad o'i serch. Nis gellir peidio gweled, pa fodd bynag, ei bod, fel gwraig, yn serchog ac ymlyngar iawn wrth ei gŵr. Yr oedd efe yn wrthddrych neillduol ei serch; ac nid ydyw yn ei anghofio pan yn nghanol ei llawenydd mwyaf ar ol dyfod yn fam: *Gen.* xxi. 7.

Ymddengys mai Esaiah yn unig o'r prophwydi sydd yn enwi Sarah: *pen.* li. 2. Cyfeiria Paul at ei gobaith am ddyfod yn fam (*Rhuf.* iv. 19); ac wedi hyny at yr addewid a dderbyniodd (*Rhuf.* ix. 9): a chanmola Pedr yr amlygiad o serch a ddangosai drwy ei hymostyngiad i'w gŵr (1 *Pedr* iii. 6); ac yn yr Epistol at yr Hebreaid, sonir am dani fel un yn rhoddi esampl o ffydd gref: *pen.* xi. 11.

SARAI: un o feibion Bani, yr hwn a roddes heibio ei wraig ddyeithr ar orchymyn Ezra: *Ezra* x. 40.

SARAMEL: enw lle yn yr hwn yr ymgynnullai y cyfarfyddiad o Iuddewon pan y gwnaed Simon Maccabeus yn archoffeiriad.—1 *Macc.* xiv. 28. Y mae y ffaith nad yw yr enw i'w gael ond yn unig yn y fan hon wedi arwain i'r dybiaeth mai cyfieithiad ammherffaith ydyw o air yn yr Hebraeg neu y Syriaeg, o ba un y mae testyn Groegaidd Llyfr y Maccabeaid yn gyfieithiad. Y mae Castellio ac ereill yn edrych arno fel llygriad o'r gair *Ierusalem;* ond ymddengys hyn yn bur annhebyg, o herwydd o'r braidd y gellir meddwl am air mor gyffredin ac adnabyddus a hwnw yn cael ei lygru o gwbl. Y mae amryw dybiaethau ereill wedi eu ffurfio, ond y mae y rhan fwyaf o honynt yn lled anfoddhaol. Un dybiaeth, a ymddengys mor debyg o fod yn gywir ag un yw, mai *Hassar-Am-El* ('tywysog tŷ yr Arglwydd') yw y gair, fel pe na bae yn enw ar le; ond mai teitl Simon ydyw, a bod y gair 'yn' wedi ei ddodi i mewn yn 1 *Mac.* xiv. 28 gan ryw gopiwyr. Mabwysiedir y ddamcaniaeth hon gan amryw o wŷr dysgedig. Y mae ganddi yn ei ffafr y ffaith os nad fel hyn y mae, nad yw Simon yn cael ei alw yn ddim ond archoffeiriad yn unig, a bod ei ail deitl o "dywysog ar genedl yr Iuddewon a'r offeiriaid" (1 *Macc.* xiv. 47) yn cael ei adael allan yn y cofnodiad swyddol cyhoeddus—y man a'r pryd lle y gallesid disgwyl y cawsai ei wneyd yn hysbys. Ond rhaid addef mai o'r braidd y gellir dywedyd fod un o'r eglurhadau hyn yn foddhaol, a bod cryn dywyllwch yn aros etto arno.

SARAPH: enw ar un o ddisgynyddion Selah, mab Iudah, a grybwyllir am dano yn 1 *Cron.* iv. 22. Y mae Burrington yn dyweyd mai un o

Digitized by Google

hiliogaeth Ioacim, yr hwn a ystyria efe yn drydydd mab Selah, oedd Saraph. Yn "*Nhargum*" y Rabbi Ioseph, dywedir mai yr un oedd Ioas a Saraph, a Mahlon, a Chilion, "y rhai a briododd yn nhir Moab."

SARAR: tad Ahiam yr Harariad, un o warchodlu Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 33. Gelwir ef Sachar yn 1 *Cron.* xi. 35; a thybia Kennicott mai dyna y darlleniad cywiraf o'r enw.

SARDIN, SARDIUS (אדם, *ôdem*: *σάρδιον*): y maen oedd yn meddu y lle cyntaf yn y rhes flaenaf yn nwyfroneg yr archoffeiriad: *Exod.* xxviii. 17; xxxix. 10. Sonir am sardius, yn *Eze.* xxviii. 13, fel un o addurniadau brenin Tyrus. Dywed Ioan (*Dad.* iv. 3) fod yr hwn a eisteddai ar yr orsedd nefol "yn debyg yr olwg arno i faen iaspis a sardin." Sardius ydoedd chweched sail mur yr Ierusalem nefol: *Dad.* xxi. 20. O'r braidd y mae ammheuaeth nad y sard, neu y sardonyx, oedd y maen a adwaenid wrth yr enw *ôdem*. Y mae awdurdod Josephus o barthed i'r oll a berthyn i ddwyfroneg yr archoffeiriad o werth neillduol; o herwydd, fel y sylwa Braun, yr oedd efe nid yn unig yn Iuddew, ond hefyd yn offeiriad; a gwelodd felly y ddwyfroneg a holl wisgoedd yr archoffeiriaid laweroedd o weithiau, gan fod y deml yn sefyll yn ei amser ef. Y mae y *Vulgate* yn cyttuno âg ef. Yn amser Jerome yr oedd y ddwyfroneg i'w gweled yn nheml Concord; a chydnabyddir fod hyn o gryn bwysigrwydd.

Y mae y sard, yr hon sydd yn fath rhagorol o'r agat, bob amser wedi bod yn werthfawr gan y cerfiedydd. "O'r maen hwn," medd Mr. King ["*Antique Gems*," td. 5], "y mae gweithiau rhagoraf y celfyddydwyr mwyaf cywrain i'w cael: ac y mae digon o reswm dros hyny, o herwydd y mae yn wydn, ac yn hawdd ei weithio; ei liw yn brydferth, ac yn goddef ei gaboli i'r graddau uchaf; a dywed Pliny ei fod yn dal y caboliad yn hwy nag un gem arall." Y mae y maen hwn, o ran ei liw, yn goch disglaer; ac yn gyffredin ceir ychydig o felyn yn ymgymmysgu â'r coch. Yn ol Pliny, cafodd y sardius ei enw oddi wrth Sardis yn Lydia, o ba le y cafwyd ef gyntaf; ond y sardius Babilonaidd a brisid uchaf. Gallasai yr Hebreaid, yn amser Moses, gael y meini hyn yn ddigon rhwydd o Arabia, lle yr oeddynt pan y gwnaed y ddwyfroneg gyntaf: am feini ereill, nad oeddynt i'w cael fe allai yn Arabia yn ystod eu crwydriadau yno, dichon eu bod wedi eu dwyn gyda hwynt o wlad y caethiwed, pan yr ysbeiliasant yr Aiphtiaid.

SARDIS: dinas a safai ynghylch dwy filldir i'r deheu o enau yr afon Hermus, yn mron wrth droed mynydd Tmolus. Yno y cartrefai hen frenhinoedd Lydia. Wedi i'r lle gael ei orchfygu gan Cyrus, cadwai y Persiaid warchodlu yn yr amddiffynfa yn wastad, ar gyfrif cryfder naturiol y lle; yr hyn a barodd i Alexander Fawr, pan y rhoddwyd y ddinas i fyny iddo mewn canlyniad i frwydr y Granicus, ei meddiannu yn yr un modd, trwy osod gwarchodlu ynddi. Yr oedd Sardis, er yn foreu iawn, o herwydd ffrwythlonrwydd y tir o'i chwmpas, a'i sefyllfa fanteisiol, yn lle masnachol o bwys. Dywed Pliny mai yno y dyfeisiwyd y gelfyddyd o liwio gwlân. Sardis, fodd bynag, oedd ystorfa fawr y brethynau lliwiedig, yr oedd Phrygia, gyda'i deadelloedd lliosog, yn cynnyrchu cyflawnder o wlân tuag at eu gwneyd. Ymddengys fod brethynau lled fain yn cael eu gwneyd yno. Yr oedd y neuadd, ar hyd yr hon yr elai brenin Persia o'i ystafelloedd brenhinol i'r porth, i fyned ar gefn ei farch, wedi ei orchuddio â'r brethynau hyn; ac ni oddefid i droed neb ond y brenin sathru arnynt. I Sardis yr anfonai y Spartiaid, chwe chanrif C. C., i brynu aur i'r dyben o oreuro wyneb Apollo yn Amyclæ. Ceid yr aur hwn, dybygid, yn gymmysg â gro yr afon Pactolus, yr hon a redai o'r Tmolus. Ond er y dichon fod yr afon hon yn enwog gynt am yr aur a geid yn ei gwaelod, yr oedd mawredd Sardis yn ei dyddiau goreu yn llawer mwy dyledus i'w phwysigrwydd masnachol cyffredinol, a'i chyfleusderau fel ystorfa fasnachol, nag i hyny. Ymddengys hyn oddi wrth yr adroddiad, nid yn unig mai yma y bathwyd aur ac arian gyntaf, ond mai yma hefyd y cododd marsiandwyr sefydlog (mewn gwrthgyferbyniad i'r marsiandwyr teithiol) gyntaf. Ymddengys fod Sardis, o leiaf rhwng adeg cwymp brenhiniaeth Lydia a'r deyrnach Bersiaidd, yn farchnadfa i brynu a gwerthu caethion.

Adfeddiannodd Sardis ei rhagorfraint dinesig ar ei hymostyngiad i Alexander Fawr; ond am y tri chan mlynedd dilynol i hyny nid oes ond ychydig iawn o'i hanes yn hysbys. Newidiodd ddwylaw fwy nag unwaith yn ystod yr ymrysonau a gymmerodd le rhwng y gwahanol deyrnachau a gyfodasant ar ol marwolaeth Alexander. Cymmerwyd ac ysbeiliwyd hi gan Antiochus Fawr, yr hwn a fu yn gwarchau ar ei gefnder Achæus ynddi am ddwy flynedd cyn llwyddo i'w chymmeryd; ond o'r diwedd llwyddodd i wneyd hyny trwy dwyll drwy gael gafael yn mherson y diweddaf. Ar ol cwymp Antiochus, syrthiodd, fel y gweddill o Asia yr ochr hono i'r Taurus, o dan awdurdod brenhinoedd Pergamus, buddiannau pa rai a barasant iddynt droi cwrs y fasnach rhwng Asia ac Ewrop o Sardis. Diau fod ei thir ffrwythlawn yn ffynnonell o gyfoeth gwastadol i Sardis, ond ymddengys fod ei phwysigrwydd fel ystorfa fasnachol wedi lleihau o'r amser y goresgynwyd Asia gan Alexander. O'r ychydig aysgrifau a ddarganfyddwyd ynddi, y maent o'r bron i gyd yn perthynu i gyfnod yr ymherodraeth Rufeinig. Etto, y mae yno gryn lawer o olion amlwg o adeiladau dyddiau boreuach. Y mae gweddillion teml fawr Cybebe hyd heddyw yn dwyn tystiolaeth i gyfoeth a medrusrwydd archadeiladol y bobl a'i cyfododd. Ymwelodd Mr. Cockerell â'r lle yn 1822, a chafodd yno ddwy golofn, ynghyd â'u pendrawstiau, yn sefyll, yr hon oedd yn un darn o gareg yn ymestyn o ganol y naill golofn i ganol y llall. Yr oedd y gareg hon, er nad hi oedd y fwyaf yn y pendrawst, yn ol cyfrifiad Mr. Cockerell, yn pwyso tua 25ain o dynelli. Yr oedd y colofnau a'u cynnaliai, ynghylch pymtheg troedfedd ar hugain islaw pen y colofnau, yn chwe troedfedd a phedair modfedd a hanner o drawsfesur. Y mae y pridd yn bresennol (yr hwn sydd wedi ymffurfio, dybygid, trwy falurio i lawr o'r bryn sydd o'r cefn i'r deml ar ei thu dwyreiniol) dros bump ar hugain o droedfeddi uwch law y palmant. Nid oeddynt yn llai na'r colofnau yn yr Haræum yn Samos; y rhai, yn ol syniad Herodotus, oedd yn gyfartal i golofnau y Chwerlys (*Artemisium*) yn Ephesus, o ran harddwch yn n..sg campweithiau celfyddyd gwlad Groeg. O barthed i'r manylion am danynt, y mae Mr. Cockerell yn dyweyd am benau y colofnau hyn,

Digitized by Google

eu bod yn rhagori mewn cynllun a gwneuthuriad ar bob colofnau Ioniaidd a welodd efe erioed. Ar du gogleddol y castell, yn wynebu dyffryn yr Hermus, y mae gweddillion chwareudy yn agos i bedwar can troedfedd o drawsfesur. Cyfodwyd hon, mae'n debyg, ar ol adferiad Sardis, gan Alexander. Yn amser yr ymosodiad a wnaed ar Sardis gan Antiochus, a ddisgrifir gan Polybius, yr oedd yn un o'r lleoedd, ar ol i'r fyddin ymosodol fyned i'r ddinas, yr ymosodwyd arno gyntaf. Ymddengys fod y deml wedi ei hadeiladu pan yr oedd y deyrnach Lydiaidd yn teyrnasu, a thua'r un adeg, dybygid, a theml Zeus yn Ægina, a theml Herè yn Samos. Tua'r un dyddiad y gellir ei briodoli hwyrach i 'Ddyffryn y Melusion'—tir i ymbleseru ynddo, yr hwn a berthynai i'r dref.

Yr enw diweddar sydd ar weddillion Sardis ydyw *Sert-Kalessi*. Y mae y disgrifiad o'r lle a roddir gan deithwyr wrth ddyfod ato o gyfeiriad y gogledd-orllewin yn ei osod allan fel lle hollol unigol. Nid ydyw y Pactolus ond yn unig ryw rimyn cul o ddwfr, ac y mae ei wely yn mron yn wâg yn yr haf sych. Y mae y *Wadis-tchai* (Hermus) yn nghymmydogaeth y dref, rhwng hanner cant a thrigain o latheni o led, ac yn agos i dair troedfedd o ddyfnder; ond y mae ei ddwfr yn lleidiog ac annymunol i'r archwaeth, ac nid yn unig yn cael ei ystyried yn anghymmhwys i'w yfed, ond hefyd yn cael y gair o fod yn cynnyrchu twymyn sydd yn ffrewyll drom ar y gwastadeddau cyfagos.

Anrheithiwyd Sardis gan ddaeargryn, yn amser yr ymherawdwr Tiberius, ynghyd âg un ar ddeg neu ddeuddeg o ddinasoedd ereill Asia. Dywedir fod holl arwyneb y wlad wedi ei gyfnewid gan y cynnhyrfiad hwn. Gwnaed y peth yn waeth yn ei berthynas â Sardis, yn gymmaint ag i hyn gael ei ddilyn gan bla heintus; a chyffrowyd cymmaint o gydymdeimlad yn Rhufain at y preswylwyr, fel y maddeuwyd y deyrnged iddynt am bum mlynedd, a chawsant gyda hyny roddion o bwrs personol yr ymherawdwr. Digwyddodd hyn yn B. A. 17. Yn mhen naw mlynedd ar ol hyn ceir fod preswylwyr Sardis yn mysg yr ymgeiswyr am yr anrhydedd o gyfodi, fel cynnrychiolydd dinasoedd Asia, deml i'w cymmwynaswr. Dadleuent ar yr achlysur hwn, nid yn unig eu hen wasanaeth i Rufain yn amser y rhyfel Macedoniaidd, ond dadleuent hefyd fod eu gwlad wedi ei dyfrhau yn dda, ei hinsawdd yn dda, a ffrwythlonrwydd y tir yn y gymmydogaeth yn nodedig. Ymddengys, modd bynag, na wnaed cyfeiriad y pryd hwnw at bwysigrwydd ei llaw-weithfeydd na'i masnach yn yr amseroedd boreuol.

Yr unig fan lle y nodir Sardis yn y Beibl, ydyw *Dad.* iii. 1—6. Nid oes dim yno sydd yn ymddangos fel yn meddu un cyfeiriad arbenig at amgylchiad neillduol y ddinas, nac at ddim arall, ond at sefyllfa foesol a chrefyddol yr eglwys Gristionogol a gyfarfyddai yno. Yr oedd yr eglwys hon, dybygid, yn ei pherthynas fydol, yn gyffelyb i eglwys Philadelphia. Y mae y llythyr a ysgrifenwyd at eglwys Sardis yn profi fod yr efengyl wedi ei phregethu yn foreu yno; ond nid yw hysbys gan bwy, na chwaith pa bryd yn fauwl. Tra thebyg ydyw i hyny gymmeryd lle yn yr amser pan "y darfu i bawb oedd yn trigo yn Asia glywed gair yr Arglwydd;" *Act.* xix. 10.

SARDONYX (σαρδόνυξ). Nid ydyw yn cael ei enwi yn y Testament Newydd ond unwaith yn unig; sef, yn *Dad.* xxi. 20—y maen oedd yn bummed sail i fur yr Ierusalem nefol. "Wrth Sardonyx," medd Pliny, yr hwn sydd yn disgrifio amryw fathau o hono, "y deallid gynt, fel y mae ei enw yn arwyddo, y maen sard, gyda gwaelod gwyn oddi tano, fel y cnawd o dan ewin y bys." Ymddengys fod pedwar math o'r meini hyn, a bod y rhai gwerthfawrocaf o honynt yn dyfod o'r India Ddwyreiniol. Y mae y maen hwn i'w gael yn Arabia, yr Aipht, Yspaen Newydd, a'r Almaen; ond nid ydyw yn gyfartal mewn gwerth i'r sardonyx a ddygir o India.

SAREPHTAH: tref Phœniciaidd rhwng Tyrus a Sidon, y crybwyllir am dani yn 1 *Bren.* xvii. 9, 10; *Obad.* 20. Dyma y fan lle yr aeth Elias i drigo, ac y cyflawnodd y wyrth o chwanegu y blawd yn nghelwrn, ac olew yn ystên y wraig weddw, a lle y cyfododd efe fab y weddw o farw yn fyw. Y mae y lle yn adnabyddus etto fel pentref mawr o dan yr enw *Surafend.* Sefydlodd y Croesgadwyr esgobaeth Ladinaidd yn Sarephtah o fewn terfynau archesgobaeth Sidon, a chyfodasant gapel bychan ar y fan lle y mynegir i Elias gyflawni ei wyrth. Y mae yn amlwg fod Sarephtah y Croesgadwyr yn sefyll ar lan y môr; ac o ganlyniad, y mae yn rhaid fod y pentref presennol, yr hwn a saif ar un o'r bryniau cyfagos, wedi ei adeiladu yn ddiweddarach.—Robinson's "*Biblical Researches*," iii., td. 413, 414.

SARESER: mab Senacherib, yr hwn, ynghyd â'i frawd Adrammelech, a laddodd ei dad: 2 *Bren.* xix. 37. Geilw Moses o Chorene ef yn Sanasar, a dywed iddo gael ei dderbyn yn groesawus gan frenin Armenia, at yr hwn y ffodd efe, a'r hwn a roddodd iddo ddosbarth o wlad ar gyffiniau Assyria, lle y daeth ei hiliogaeth yn dra lliosog.—"*Hist. Armen.*," i. 22.

SARGON: un o'r rhai penaf o frenhinoedd Assyria. Yn yr arysgrifau henafol, gelwir ef yn *Sargina*, tra y mae tref a adeiladwyd ganddo, ac a alwyd ganddo ar ei enw (gelwir hi yn awr *Khorsabad*), yn cael ei hadnabod gan y daearyddwyr Arabaidd wrth yr enw *Sarghûn.* Nid oes grybwylliad am dano wrth ei enw ond unwaith yn y Beibl, sef yn *Esa.* xx. 1. Ond yn gymmaint ag nad ydyw Esaiah yn un o lyfrau hanesyddol y Beibl, arweiniwyd rhai haneswyr a beirniaid gynt i dybied nad oedd efe yn frenin ar wahân oddi wrth y rhai a grybwyllir yn llyfrau y Brenhinoedd a'r Croniclau, ond yn hytrach arall. Myn rhai dysgedigion mai yr un oedd a Salmaneser; ereill, mai yr un oedd a Senacherib; mai un o'r brenhinoedd hyny oedd efe o dan enw ereill drachefn a dybiant mai yr un ydoedd efe ag Esarhadon. Y mae yr holl dybiaethau yma, erbyn hyn, wedi eu profi yn anghywir gan yr arysgrifau Assyriaidd, y rhai a brofent fod Sargon yn benadur gwahanol i'r brenhinoedd a enwyd, a bod ei le yn y rhestr (lle y mae Rosenmüller, Gesenius, Ewald, a Winer eisoes wedi ei osod) i fod rhwng Salmaneser a Senacherib. Diau ei fod yn dad i Senacherib, ac nid oes genym le i ammheu nad efe oedd ei ragflaenydd uniongyrchol ef. Efe a esgynodd i orsedd Assyria, fel y gellir casglu oddi wrth gofnodau ei frenhiniaeth, yn yr un flwyddyn ag yr esgynodd Merodach-Baladan orsedd Babilon; yr hon, yn ol Ptolemy Canæ, oedd c.c. 721. Ymddengys mai

Digitized by Google

trawsfeddiannydd oedd efe, ac nad oedd o waed brenhinol; o herwydd yn ei arysgrifau y mae megys yn cymmeryd gofal i beidio enwi ei dad. Tybia rhai iddo gymmeryd mantais ar absennoldeb maith Salmaneser yn adeg gwarchauad Samaria (2 *Bren.* xvii. 5), i ddwyn oddi amgylch chwyldroad yn y llywodraeth, drwy yr hyn y diorseddwyd y brenin, ac y cymmerodd yntau ei le. Y mae yn beth tra nodedig fod Sargon yn hawlio iddo ei hun yr anrhydedd o gymmeryd Samaria, gan yr ymddengys fod yr hanes yn Llyfr y Brenhinoedd yn priodoli hyny i'w ragflaenydd. Y mae yn gosod y digwyddiad yn ei flwyddyn gyntaf, ac o flaen pob rhyfelgyrch arall o'i eiddo. Fe allai, gan hyny, mai efe ydyw y "brenin Assyria" a olygir yn 2 *Bren.* xvii. 6, a xviii. 11. Ni ddywedir yn y lleoedd yma mai Salmaneser oedd efe, er y gellid tybied hyny yn naturiol, gan nad oes un enw arall yn cael ei grybwyll. Neu, hwyrach ei fod yn hawlio y gorchfygiad fel un a wnaed ganddo ef, o blegid i'r ddinas gael ei chymmeryd ar ol iddo gael ei gydnabod yn frenin yn mhrifddinas Assyria. Modd bynag, y brenin hwn, pwy bynag oedd, a gymmerodd ymaith y Samariaid (27,280 o deuluoedd, yn ol ei adroddiad ef ei hun), y rhai a gyflewyd ganddo yn Halah, ac yn Habor (*Khabour*), wrth afon Gozan, ac (mewn cyfnod diweddarach, dybygid) yn ninasoedd y Mediaid.

Diammheuol fod Sargon yn rhyfelwr enwog a llwyddiannus. Yn ei gofnodion o'i hanes, sydd yn ymestyn dros y cyfnod o bymtheng mlynedd (o c.c. 721 hyd c.c. 706), y mae yn rhoddi adroddiad o'i ymgyrchoedd yn erbyn Babilonia a Susiana ar du y deheu, Media ar du y dwyrain, Armenia a Chappadocia ar du y gogledd, a Syria, Palestina, Arabia, a'r Aipht tua'r gorllewin a'r de-orllewin. Efe a ddiorseddodd Merodach-Baladan yn Babilon, ac a osododd raglaw yn ei le ef: adeiladodd nifer o ddinasoedd yn Media, y rhai a boblogwyd â rhai a gymmerwyd ganddo o wledydd ereill: ac yn Armenia, a'r gwledydd cylchynol, ennillodd lawer o fuddugoliaethau; tra y darfu iddo yn y gorllewin ddarostwng Philistia, myned yn mhell i mewn i orynys Arabia, a gorfodi yr Aipht i ymostwng, a thalu teyrnged iddo. Ymddengys ei fod wedi dwyn yn mlaen dri o ryfeloedd yn y cyfeiriadau hyn—un am feddiannu Gaza, yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad; un arall yn y chweched flwyddyn, yn erbyn yr Aipht; a'r trydydd yn y nawfed flwyddyn, pan yr ymdrechai gael meddiant o Asdod, yr hon a gymmerwyd gan un o'i gadfridogion. Dyma y digwyddiad sydd yn achlysuro dygiad i mewn enw Sargon i'r Beibl. Cyfarwyddwyd Esaiah yn adeg y rhyfelgyrch hwn i "ddiosg ei esgidiau oddi am ei draed, a rhodio yn noeth ac heb esgidiau," yn arwydd "yr arweiniai brenin Assyria gaethiwed yr Aipht, a chaethglud Ethiopia, sef yn llangciau, a hynafgwyr, yn noethion ac heb esgidiau." Gellir casglu oddi wrth hyn fod yr Ethiopiaid a'r Aiphtiaid yn ffurfio rhan o warchodlu Asdod, ac wedi eu cymmeryd pan ddarostyngwyd y ddinas; neu ynte, fod yr Aipht wedi ei goresgyn pan y cymmerwyd y ddinas Philistiaidd, yr hyn a drodd allan yn drychinebus i'r Aiphtiaid. Gan mai blwyddyn yr ymosodiad oedd c.c. 712, disgynai yn nheyrnasiad y brenin Ethiopaidd cyntaf, Sabaco I., yr hwn, dybygid, a orchfygodd yr Aipht c. c. 714: ac mewn cydymffurfiad â hyn y mae Sargon yn sôn am yr Aipht fel yn ddarostyngedig i Meroë. Heb law yr ymgyrchoedd hyn o eiddo Sargon, y mae ei gofadeiliau yn crybwyll iddo gymmeryd Tyrus, a derbyn teyrnged gan Roegiaid Cyprus, er nad oes genym le i gasglu ei fod wedi gwneuthur ymosodiad yn bersonol arnynt hwy.

Ond nid fel rhyfelwr yn unig y mae Sargon yn teilyngu cael ei enwi yn mysg brenhinoedd Assyria. Efe a adeiladodd lawer o adeiladau defnyddiol, ac un o'r palasau mwyaf ardderchog a feddai Assyria. Efe a ddywed iddo adgyweirio yn hollol furiau Ninefeh, yr hon a ddyrchafwyd ganddo yn ddinas flaenaf yr ymherodraeth; a chwanega yn mhellach, iddo, yn ei chymmydogaeth, adeiladu y palas a'r dref, lle yn benaf y trigiannai. Hon ydoedd y dref a adwaenir yn awr wrth yr enw *Khorsabad*, o'r hon y mae y cofadeiliau gwerthfawr sydd yn y Louvre, yn Paris, wedi eu cael yn mron i gyd. Yr ydys wedi darganfod hefyd olion o adeiladau Sargon yn Nimroud a Keyunjik. Ac yn ei deyrnasiad ef ymddengys fod cryn gynnydd wedi ei wneyd i gefnogi y celfyddydau, a diau fod cyssylltiad Assyria â'r Aipht wedi bod yn fanteisiol i hyn. Teyrnasodd, dybygid, am bedair blynedd ar bymtheg, o c.c. 721 hyd c.c. 702, pan y gadawodd ei orsedd i'w fab—yr enwog Senacherib.

SARID: un o brif derfynau tiriogaeth Zabulon—y pegwn yn mha un yr oedd y cyffiniau gorllewinol a deheuol yn cyfarfod: *Jos.* xix. 10, 12. Yr oll a ellir ei gasglu am ei safle ydyw, ei bod yn gorwedd i'r gorllewin o Cisloth-Tabor. Yr oedd y lle yn anhysbys i Eusebius a Jerome, ac nid yw yn ymddangos fod un teithiwr ar ol eu dyddiau hwynt wedi llwyddo i gael dim olion o honi.

SARON (שרון: Σάρων): rhan o Wlad Canaan ag y mae cyfeiriad yn cael ei wneyd ato yn achlysurol yn y Beibl: 1 *Cron.* v. 16; xxvii. 29; *Esa.* xxxviii. 9; xxxv. 2; lxv. 10; *Can.* ii. 1; *Act.* ix. 35. Ymddengys fod Saron yn ardal digon adnabyddus i'r Israeliaid, er nad yw yr enw i'w gael yn mysg y lleoedd a enwir pan y rhanwyd y wlad. Oddi wrth yr adnodau a nodir uchod, yr ydys yn casglu, mai lle da i gadw anifeiliaid ydoedd—ac yno yr oedd ychain Dafydd yn porfäu (1 *Cron.* xxvii. 29); fod godidawgrwydd y lle yn cael ei gydnabod yn gyffredin fel yr eiddo Carmel (*Esa.* xxxv. 2); ac y buasai anrheithiad yr ardal i'w ystyried yn drychineb (*Esa.* xxxiii. 9), a'i hadferiad yn arwydd o'r llwyddiant mwyaf: *Esa.* lxv. 10. Yr oedd rhosyn Saron yn arwyddlun o'r tegwch penaf: *Can.* ii. 1. Dyna yr oll y gellir ei gasglu o'r Beibl am nodweddau Saron.

Y mae ardal Saron yn cael ei gyssylltu gyda Lyda yn *Act.* ix. 35. Ceir yma, gan hyny, fantais i wybod yn mha le yr oedd safle y flaenaf. Yr ardal fras lydan a orwedda rhwng mynyddoedd canolbarthol Palestina a Môr y Canoldir ydyw hi—parhâd o'r rhan ogleddol o'r Sefelah. Nid ydyw Josephus yn cyfeirio ond yn anfynych at yr ardal hon; a phan y gwna y mae ei gyfeiriadau mor dywyll fel nas gellir penderfynu gyda sicrwydd ei fod yn cyfeirio ati o gwbl. Defnyddia efe yr un gair a'r Deg a Thrigain, a geilw hi yn 'goet-tir.' Heb law cyssylltiad y gymmydogaeth â Charmel, nid oes genym un fantais arall i gael allan yn mha le yr oedd Saron. Y mae yn amlwg, pa fodd bynag, mai y gwastadedd eang hwnw a ymestyna o Cesarea i Ioppa ar

Digitized by Google

lan y môr, yn ddwyreiniol i fynyddoedd Iudea, sydd yn enwog am ei winoedd, ei flodau, a'i borfeydd, ydoedd Saron. Canfyddir ynddo etto ryw ran o'i brydferthwch naturiol, ac addurnir ef yn y gwanwyn gan y rhosyn gwyn a choch, blodau Mawrth, y lili gwyn a melyn, y blodyn cigliw (*carnation*), ynghyd â blodau ereill; ond am y gweddill o'r flwyddyn, nid ymddengys yn nemawr amgen nag anialwch, â phentref adfeiliedig yma a thraw i'w ganfod ynddo, a rhyw sypiau o olewydd a sycamorwydd.

Ond y mae yn ymddangos fod tair o ardaloedd yn Palestina yn cael eu hadnabod wrth yr enw Saron. Un ydoedd yr hon y cyfeirir ati uchod; yr oedd y llall, yn ol Eusebius a Jerome, rhwng Tabor a Môr Tiberias; a'r drydedd y tu hwnt i'r Iorddonen, yn ngwlad Basan, yn nhiriogaeth llwyth Gad. Y mae teithwyr diweddar yn rhoddi yr enw hwn ar y gwastadedd sydd yn gorwedd rhwng Ecdippe a Ptolemais.

SARONIAD. Setrai, yr hwn a ofalai am finteioedd anifeiliaid y brenin Dafydd a borent yn Saron (1 *Cron.* xxvii. 29), oedd yr unig Saroniad y crybwyllir am dano wrth yr enw hwnw yn y Beibl.

SARPH, SEIRPH: dosbarth o ymlusgiaid, i'r rhai y mae cyrph hirion, ond heb aelodau ganddynt. Y mae y pen, y corph, a'r gynffon, wedi eu gorchuddio â chen; ac asgwrn y cefn yn rhedeg ar hyd yr holl gorph, ac y mae yr asenau sydd yn ymuno âg ef yn hynod o liosog. Y mae i rai seirph fwy na thri phâr o asenau. Gwasanaetha yr asenau, nid yn unig i ffurfio y corph, a chynuorthwyo yr anadliad, ond hefyd fel peiriannau symmudiad i'r creaduriaid hyn. Nid oes ynddynt asgwrn bron, i uno pen lleiaf yr asenau âg ef, megys mewn anifeiliaid ereill sydd yn meddu ar asgwrn cefn; ond y mae pob asen yn cael ei huno gyda madruddyn main a gewynau bychain wrth bilionen y bol. Ymsymmuda y sarph trwy gymmhorth yr asenau a'r pilionau hyn. Gall symmud yn mlaen yn gyflym iawn ar hyd y llawr, neu dros ganghenau coed; y mae rhai rhywogaethau o honynt a allant ddringo i fyny y coed gyda'r un hawsder a phe yn ymsymmud ar hyd llawr gwastad. Y mae y rhan fwyaf, os nad yr oll, o'r rhywogaethau hefyd yn alluog i gyfodi rhan fawr o'u cyrph oddi wrth y llawr; ac y mae llawer o'r rhai sydd yn trigo rhwng cangau y coed yn gallu diogelu eu hunain trwy i gyfran o'r corph, yn agos i'r gynffon, ymlapio am y gaingc, tra y bydd y rhan fwyaf o'r corph yn ymestyn yn ol ac yn mlaen yn yr awyr yn ol tueddfryd y creadur ei hun. Nis gall sarph ymsymmud o'r braidd ddim ar unrhyw ddefnydd llyfn, megys gwydr, neu y cyffelyb.

O ran ei ffurfiad, y mae asgwrn cefn y sarph y fath fel y goddefa i'r corph fod yn ystwyth nodedig. Y mae yn medru ymffurfio yn dorch, â'r pen yn nghanol y dorch; ac y mae rhai rhywogaethau yn feddiannol ar y gallu o daflu eu hunain i ryw gymmaint o bellder o'r sefyllfa dorchedig yma. Dosbarthai Cuvier seirph i dri dosbarth:—Y cyntaf yn gynnwysedig o'r rhai sydd yn perchen pen, dannedd, a thafod, tebyg i'r eiddo madfilod *(saurians)*, ac yn y rhai y mae y llygaid yn meddu tri chlawr *(lid)*, ac olion esgyrn yn eu haelodau mewnol. Yr ail a eilw Cuvier, yn seirph priodol; rhai nad oes ynddynt ddim olion o'r fath esgyrn, a'r llygad heb feddu dim cloriau, ac esgyrn y pen wedi eu ffurfio yn y fath fodd fel ag i beri fod y genau a'r gwddf yn alluog i ymestyn allan yn ddirfawr. Y trydydd dosbarth a eilw efe yn seirph noeth—yn cynnwys dim ond y math hwn a adwaenir yn awr. Er eu bod o ran ffurf yn debyg i'r lleill, er hyny cydnabyddir hwy yn perthyn i dylwyth y creinogion neu y dwy-elfeniaid *(batrachians* neu *amphibia)*. Y mae y dosbarth cyntaf o seirph a nodir gan Cuvier yn cael eu rhestru gan Mr. Gray gyda rhai o dylwyth y madfilod, â chanddynt i raddau mwy neu lai aelodau oddi allan i'w cyrph, dan yr enw *saurophidia*. Cyssylltir hwynt â'r seirph priodol gan dylwythau yr *amphisbœnidæ* a'r *typhlopsidæ;* y rhai sydd o'r braidd yr un fath a hwynt o ran ffurfiad y pen, a'r genau, ond eu bod yn ddiffygiol o drydydd glawr y llygad; ac fel y seirph priodol, nid oes ynddynt un asgwrn bron neu ysgwydd o gwbl. Y mae y rhai hyn, gyda'r holl greaduriaid sydd yn yr adran yma, mor bell ag y mae yn wybyddus, yn lled ddiniweid. Y maent yn byw gan mwyaf ar drychfilod a chreaduriaid bychain ereill.

Am y seirph priodol neu wirioneddol, y rhai y gellir eu hystyried yn dyfod yn fanwl dan yr enw, y maent yn ymborthi ar ysglyfaeth mwy a chryfach, yr hwn a lyngcir yn gyfan ganddynt, a'r hwn a wesgir trwy ymdorchi am dano nes tori ei esgyrn. Y mae ysglyfaeth y sarph yn fynych yn fwy nag ydyw y sarph ei hun; ac mewn trefn iddi allu ei lyngcu, y mae yn rhaid fod y gwddf a'r corph yn ymledu ac yn ymestyn yn ddirfawr ganddi. Y mae esgyrn y pen hefyd yn gyfaddas tuag at i'r genau a'r gwddf ymeangu. Ymosoda seirph weithiau ar ysglyfaeth fydd yn rhy fawr iddynt allu ei lyngcu, a byddant farw yn yr ymgais, gan fod eu dannedd wedi eu ffurfio yn y fath fodd fel nas gallant fwrw allan o'u genau beth a fyddo wedi myned i'r gwddf.


Y mae dannedd y seirph gwirioneddol yn geimion, yn gogwyddo tuag yn ol, ac yn awchlym. Yn y rhywogaethau hyny nad ydynt yn wenwynig, y mae pedair rhes o ddannedd ar ran uchaf y genau, dwy res ar yr ên uchaf, a dwy yn nhaflod y genau; y mae i ddwy ran yr ên isaf hefyd un res o ddannedd ar bob un. Nid oes gan wiberod, y nadroedd cynffondrwst, a seirph gwenwynig ereill, ddannedd ar yr ên uchaf, heb law yr ysgythrddaint gwenwynig yn unig; ond y mae y ddwy res sydd yn nhaflod y genau, pa fodd bynag, a threfniad y dannedd yn yr ên isaf, yr un modd ynddynt hwy ag yn y rhywogaethau hyny nad ydynt yn wenwynig. Nid oes ar y seirph gwenwynig angen am gymmaint o ddannedd a'r rhai nad ydynt wenwynig; gan eu bod yn dibynu ar eu gwenwyn am eu hysglyfaeth. Ymosodir a chlwyfir yr ysglyfaeth yn ddisymmwth ganddynt, ac yna disgwyliant ger llaw nes y bydd farw. Y mae eu hysgythr-ddannedd yn hirion mewn cymmhariaeth i'r dannedd ereill. Dau ydynt mewn nifer. Pan na bydd y creaduriaid yn eu defnyddio, y maent yn gorwedd yn wastad ar daflod y genau, wedi eu gorchuddio â math o wain wedi ei wneyd o bilionen llyslyd; a phan y mae y sarph wedi ei chyffroi, ac ar fedr gwneuthur ymosodiad ar ei gelyn neu ei hysglyfaeth, maent yn sefyll allan fel dwy gyllell o'r ên uchaf, ac yn ymsymmud gyda'r asgwrn symmudol yn mha un y maent wedi eu gosod; ac y mae yr asgwrn hwn a'r gewynau wedi eu trefnu fel y mae agoriad y genau yn eu dwyn i sefyllfa gyfleus i'w defn-

Digitized by Google

yddio. Uwch law iddynt, a thua'r tu ol i'r pen, y mae math o goden neu chwaren fawr, lle y mae y gwenwyn yn cael ei gadw; ac oddi yno drwy weithrediad y gewynau, y mae yn cael ei wasgu allan, gan fod y ddau ysgythrddaint â math o dwll yn rhedeg drwyddynt. Y mae y dannedd yn agored iawn i gael eu distrywio, ond y mae yn gyffredin rai newydd yn dechreu ac yn barod i gymmeryd eu lle.

Nodir allan y gwahaniaeth rhwng seirph gwenwynig a rhai heb fod felly gan y dannedd; o herwydd nad oes gan y blaenaf ond dwy res o ddannedd ar y rhan uchaf o'r genau, tra y mae gan y diweddaf bedair. Nid ydyw y rheol hon, pa fodd bynag, i'w derbyn yn ddieithriad. Y mae gan y seirph dyfrawl *(hydridæ)*, resi o ddannedd yn yr ên y tu ol i'r ysgythrddaint gwenwynig; ac y mae rhai o seirph gwenwynig y tir, megys y *bongariaid*, neu nadroedd y graig, yn yr India Ddwyreiniol—y rhai nid ydynt, modd bynag, yn mysg y rhai mwyaf gwenwynig—yn meddu rhai dannedd llai yn yr ên o'r tu ol i'r ysgythrddaint gwenwynig.

Y mae gwenwyn y seirph yn gwahaniaethu yn fawr mewn gwahanol rywogaethau yn ei effeithiau marwol. Achosa brathiad rhai o honynt farwolaeth dyn mewn ychydig funydau, ac nid oes greaduriaid yn y byd i'w hofni yn fwy. Nid ydyw brathiadau rhai ereill, megys y wiber gyffredin, ond yn anfynych yn profi yn farwol, er eu bod yn achosi poen dirfawr a chanlyniadau annymunol. "Yr wyf wedi chwilio yn fanwl yr holl dystiolaethau sydd ar gael," ebe Mr. Buckland, "o barthed i'r feddyginiaeth fewnol fwyaf effeithiol y gellir ei defnyddio yn y fath amgylchiadau (pan fyddo un wedi ei frathu), ac yr wyf wedi dyfod i'r penderfyniad nad oes dim cystal ag *ammonia*." Y mae yr un ysgrifenydd yn cymmeradwyo brandi, neu rhyw gyfferïau cyffroawl ereill. Ond y mae o'r pwys mwyaf i sugno yr archoll mor fuan ag y gwneir ef; ac ni raid ofni perygl oddi wrth hyny, os na bydd toriad neu agen yn y cnawd yn rhywle o gwmpas y genau, o herwydd y mae y gwenwyn, er mor farwol yw pan ymgymmysga â'r gwaed, yn hollol ddiberygl pan y cymmerir ef i'r cylla. Sonir am lawer o bethau mewn gwahanol wledydd fel cyfferïau priodol i wrthweithio y gwenwyn sydd yn y sarph; ond y mae y rhan fwyaf o honynt, yn ddiammheuol, yn gwbl aneffeithiol.



Dar. 888.—Seirph *(Hooded Snakes)*.

Ond y mae y dull a ddefnyddir yn India, gan y rhai sydd yn arfer dal rhywogaeth farwol y *cobra*, gyda'r amcan o'u swyno, yn ymddangos yn deilwng o sylw: sef, cymmhwyso at y dolur belenau neillduol, y rhai, dybygid, sydd yn sugno y gwaed gwenwynig allan o hono. Nid ydyw yn hysbys o ba beth y gwneir y pelenau hyn; ond y mae y defnyddiau yn ymddangos yn debyg i esgyrn wedi eu llosgi. Diau fod y gallu i sugno y gwenwyn allan yn fawr ynddynt.

Y mae tafodau seirph yn fforchogi, ac y mae y creaduriaid hyn yn fynych yn arfer eu gyru allan o'r genau. Yn gyffredin, ystyrir ef fel colyn y creaduriaid; ond nid oes gan y seirph golyn mewn gwirionedd. Eu hunig arfau yw yr ysgythrddaint y cyfeiriwyd atynt eisoes. Yr unig sŵn a wneir gan y sarph ydyw math o hisiadau. Y mae y creaduriaid hyn naill ai yn dodwy eu hwyau, neu ynte yn eu deor yn eu cyrph eu hunain. Eu dodwy yn gyffredin y mae y rhai nad ydynt yn wenwynig; a'r rhai gwenwynig yn eu deor yn eu cyrph eu hunain. Gosodir yr wyau gan y rhai sydd yn arfer eu dodwy yn un llinell faith, wedi eu cyssylltu ynghyd gan ryw sylwedd glydiog, mewn rhyw bentwr o lysiau pydredig; ac nid ydynt yn gofalu dim mwy am danynt. Ond y mae rhai seirph yn ymdorchi o amgylch eu hwyau ac yn eu deor. Ymddengys fod arferion hyd yn oed yr un rhywogaethau yn gwahaniaethu gyda golwg ar hyn mewn gwahanol hinsoddau. Nid ydyw wyau seirph yn hollol ddiblisg; ond y mae y plisgyn yn hynod o feddal. Peth sydd wedi ei ddweyd yn fynych ydyw, fod gwiberod, a seirph ereill, pan y dychrynir hwynt, ac y tybiant fod perygl, yn llyngcu eu rhai bychain, ac yn eu bwrw i fyny eilwaith ar ol cyrhaedd lle o ddiogelwch. Y mae rhyw gymmaint o ammheuaeth yn gorphwys ar y cwestiwn nodedig hwn, ac y mae cryn lawer o ymdrin wedi bod arno mewn blynyddoedd diweddar; ond hwyrach y gellir priodoli y ffaith o fod rhai ieuaingc yn dyfod allan o gorph y fam, pan y gwesgir ef, i'r dull o genhedliad trwy ddeoriad yr wyau o fewn y corph.

Ymddengys yn debygol nad ydyw seirph yn meddu y synwyrau o archwaeth ac arogl ond yn lled ammherffaith. Nid oes i'r glust agoriad allanol, nac un tabwrdd, ac nid oes sicrwydd llawn fod y synwyr o glywed yn gryf ynddynt, er eu bod yn agored i gymmeryd eu dylanwadu yn fawr gan gerddoriaeth: ac ar hyn y mae




Digitized by Google

swynwyr seirph yn cymmeryd mantais, i'w dwyn allan o'u tyllau i'w dofi a'u llywodraethu. Yr oedd boneddwr Ewropaidd yn preswylio mewn rhan fynyddig o India, yr hwn a gafodd allan fod ei chwibanogl yn denu y fath nifer o'r creaduriaid at ei dŷ, fel yr oedd o dan angenrheidrwydd o roddi heibio chwareu arni. Bychain ydyw eu llygaid, ac amddiffynir hwynt rhag y peryglon y gallent fod yn agored iddynt gan bilionen deneu dryloew sydd yn gyssylltiedig â'r croen, ac sydd yn dyfod i ffordd gydag ef pan y mae yr hen groen yn cael ei fwrw ymaith, yr hyn a gymmer le o leiaf unwaith yn y flwyddyn. Y mae lliwiau seirph yn dra amrywiol, ac yn fynych yn brydferth iawn. Fel rheol gyffredin, ond nid yn ddieithriad, y mae y rhywogaethau gwenwynig o liw tywyllach a mwy unffurf na'r rhai nad ydynt yn wenwynig. Y mae y dychryn a'r ofn gyda pha un yr edrychir ar seirph yn gyffredin, wrth gwrs, yn codi oddi wrth nodwedd beryglus llawer o honynt, a'r anhawsder a deimlir i'w gochelyd. Defnyddir hwy yn ymborth gan rai llwythau anwaraidd. Gellir eu dofi, ac y mae llawer o'r rhywogaethau nad ydynt yn wenwynig yn cael eu dofi; ac y maent yn dra defnyddiol i ladd llygod, bach a mawr, a mân bryfetach ereill hefyd.

Mewn gwledydd trofanol yn benaf y maent i'w cael, er fod rhai i'w gweled mewn gwledydd gogleddol, megys Scandinavia. Tybiwyd hyd yn ddiweddar nad oedd y rhywogaethau Prydeinig ond tair mewn nifer; sef, y neidr ddall *(blind worm)*, y neidr gyffredin, a'r wiber. Yr olaf o honynt yn unig sydd yn wenwynig. Yn ddiweddar, pa fodd bynag, cynnyrchwyd cryn ddyddordeb yn Mhrydain trwy ddarganfyddiad y *coronella*—neidr ddiniwed, sydd yn gyffredin yn rhai parthau o gyfandir Ewrop.

Y mae y cyfeiriadau ysgrythyrol a wneir at seirph yn gynnwysedig yn benaf yn y rhai canlynol:—Sonir am eu cyfrwysder yn *Gen.* iii. 1; gwneir cyfeiriad at eu doethineb gan ein Harglwydd yn *Mat.* x. 10; crybwyllir yn fynych am briodoleddau gwenwynig rhai rhywogaethau (gwel *Salm* lviii. 4; *Diar.* xxiii. 32); cyfeirir at dafod llym y sarph, yr hon, fel yr ymddengys, y tybiai yr Hebreaid gynt oedd yn cynnwys ei gwenwyn, yn *Salm* cxl. 3; *Iob* xx. 16, "tafod gwiber a'i lladd ef." Mewn lleoedd ereill (megys *Diar.* xxiii. 32; *Preg.* x. 8, 11; *Num.* xxi. 9) y mae y gwenwyn yn cael ei briodoli i'r brathiad. Cyfeirir at arfer seirph o orwedd mewn cloddiau yn *Preg.* x. 8; ac mewn tyllau mewn parwydydd yn *Amos* v. 19; eu hoffder o leoedd sych a thywodlyd yn *Deut.* viii. 10; ac ni ddiangodd eu dull rhyfeddol o ymsymmud sylw awdwr *Diar.* xxv., yr hwn a gyfeiria ato fel un o'r tri pheth oedd guddiedig iddo ef; ïe, y pedwar peth nid adwaenai: *adn.* 18. Cyfeirir at arfer y rhan fwyaf o'r ymlusgiaid hyn o ddodwy eu hwyau yn *Esa.* lix. 5. Ymddengys fod y gwaith o ddofi a swyno seirph yn un o hynafiaeth mawr, a sonir am dano yn *Salm* lviii. 5; *Preg.* x. 11; *Ier.* viii. 17. Diau fod cyfeiriad at hyn gan Iago hefyd (*pen.* iii. 7), yr hwn sydd yn nodi allan seirph ('ymlusgiaid' yw y gair a arferir yn y cyfieithiad Cymraeg) yn mysg yr holl anifeiliaid "a ddofir ac a ddofwyd gan y natur ddynol."

O dan y ffurf o sarph y twyllodd Satan Efa; o ganlyniad efe yn yr Ysgrythyrau ydyw "yr hen sarph;" *Dad.* xii. 9, cymmh. 2 *Cor.* xi. 9. Hwyrach na ddylid myned heibio i'r rhan a gymmerodd y sarph yn amser y cwymp heb wneyd sylw arno, gan ei fod yn llawn o ddyddordeb. Y peth cyntaf i'w ystyried ydyw, mai y cyfrwysdra a briodolir i'r ymlusgiad hwn ydyw y rheswm i Satan ei ddewis yn offeryn i dwyllo, a chymmeryd gyda hyny y gynneddf o ddoethineb y sonia ein Harglwydd ei bod yn perthynu iddo: "Byddwch chwithau gall fel y seirph;" *Mat.* x. 16. Yr oedd yn hen syniad, yn mysg pobl y dwyrain a'r gorllewin, fod y sarph wedi ei chynnysgaeddu â chyfran helaeth o synwyr. Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir 'cyfrwys,' yn cael ei ddefnyddio yn fynych i osod allan ystryw a dichell ddrwg a niweidiol. Arferai yr hynafiaid ddwyn yn mlaen amryw resymau dros dybied fod seirph wedi eu cynnysgaeddu â doethineb; megys, am fod un rhywogaeth, sef y *cerastes*, yn cuddio ei hun yn y tywod, ac yn brathu sodlau anifeiliaid fel yr elent heibio; neu, gan yr ystyrir mai y pen ydyw y lle hawddaf i'w niweidio, fod y sarph yn cymmeryd gofal i'w guddio yn mhlygion y corph. Y mae y seirph yn wastad yn cael priodoli iddynt graffder cyfrwysgall. Cyfeirio, dybygid, y mae y doethineb neillduol y sonir am dano gan ein Harglwydd at y callineb a amlygir ganddynt i ochelyd perygl. Cynghorid y dysgyblion i fod yr un mor gall i ochelyd erledigaethau diangenrhaid.



DAR. 389.—SARPH.

Y mae rhai wedi tybied ei bod, cyn y cwymp, yn ymsymmud yn mlaen yn syth. Dyna oedd golygiad Josephus "*Hyn. Idd.*," i. 1, *adr.* 4, yr hwn a gredai fod Duw, ar ol y cwymp, am y waith gyntaf, wedi rhoddi gwenwyn o dan dafod y sarph, a'i hamddifadu o draed, a pheri iddi ymlusgo ar hyd y llawr. Mabwysiadai Patrick y syniad hynod fod sarph y cwymp yn un yn perchen edyn. Ond y mae yn ymddangos yn lled eglur fod cerdded yn mlaen yn syth yn hollol anghydweddol â gwneuthuriad corph y sarph; symmudiadau yr hwn ar y llawr sydd yn cael ei weithio yn mlaen mor brydferth gan asgwrn y cefn a'r asenau lliosog sydd yn y creadur; gan hyny os oedd y seirph cyn y cwymp yn cerdded yn syth, y mae yn rhaid eu bod wedi eu ffurfio ar gynllun arall hollol. Gwir y dywedir yn yr Ysgrythyr "ar dy dòr y cerddi," a bod y geiriau yn cael eu defnyddio ar ol y cwymp; ond nid ydyw hyn yn golygu fod cyfnewidiad wedi ei wneuthur yn ffurf y sarph mewn canlyniad i'r rhan a gymmerodd yn nhemtiad dyn. Yr oedd ffurf y sarph, a'i dull yn symmud, yr un cyn ac ar ol y cwymp; ond ar ol hyny edrychai dynion gydag adgasrwydd ar ei ffurf a'i hysgogiad, a melldithiwyd yr anifail hwn yn fwy "na'r holl anifeiliaid," a rhoddwyd nôd o gondemniad arno am byth. Nid oes angenrheidrwydd am gyfeirio at y dull y mae melldithiad yn cael ei wireddu yn llythyrenol yn yr elyniaeth oedd i fod o hyny allan rhwng dynolryw a'r sarph; ac er, wrth gwrs, fod hyn yn cyfeirio yn fwy neillduol at y diafol, etto y mae yn wirionedd hefyd am y creadur hwn. Mynegir yn y Beibl fod seirph yn

Digitized by Google

amcan o'u haddoli. Ond y mae y gofyniad yn aros, pa ham y dewiswyd y ffurf yma? O'r bron y mae atteb esbonwyr Iuddewig yn foddhaol—y gallesid dewis unrhyw foddion allanol, megys y swp ffigys yn afiechyd Hezeciah, neu yr halen er pereiddio y dyfroedd chwerwon; a bod y sarph bres yn gwneyd y wyrth yn fwy gwyrthiol, yn gymmaint a bod disgleirdeb y pres, wrth edrych ar ffurf y sarph, mewn ystyr naturiol yn debyg o brofi yn fwy marwol i'r sawl a frathwyd. O'r braidd y mae hyn yn foddhaol. Dywed llawer o esbonwyr Cristionogol ei bod yn gysgod o Grist. Ond yr oedd rhyw ystyr yn yr arwyddlun yn ei berthynas â'r Israeliaid oedd yn y lle. Os ydyw geiriau ein Harglwydd, yn *Ioan* iii. 14, 15, yn cyfeirio at gyflawniad y cysgod, rhaid fod rhyw ystyr arall i'r arwyddlun; o herwydd gellir meddwl nad oedd syniadau yr Israeliaid ar y pryd yn glir iawn o barthed i ddirgelion y prynedigaeth trwy y Gwaredwr. Y prif syniad sydd mewn cyssylltiad â'r sarph yn hanes y cwymp, fel y mae yn wir yn yr Ysgrythyrau, ydyw doethineb: *Gen.* iii. 1; *Mat.* x. 16; 2 *Cor.* xi. 3. Y mae doethineb, ar wahân oddi wrth roddi ufudd-dod i gyfreithiau Duw, pan yn cyssylltu ei hun â natur isaf dyn, yn troi yn gyfrwysdra. Cael ei gwenwyno a'i hiselhau y mae y natur ddynol trwy gyfrwysdra. Ond y mae y ddoethineb sydd yn ymostyngol i'r gyfraith ddwyfol yn ffynnonell o ddylanwadau gwellhaol ac adferiadol. Dysgid yr Israeliaid yr adferid hwythau mewn cyfartaledd i fel y rhoddent heibio fywyd pechadurus a rhyfelgar. Yr oedd ffeithiau yn hanes bywyd Moses ei hun oedd yn cyssylltu eu hunain â'r arwyddlun hwn. Pan y dysgwyd ef y gallai yr Arglwydd weithio gyda rhyw offerynau, fe droes ei wialen yn sarph: *Exod.* iv. 1—5. Pan y galwyd ef, ac Aaron ei frawd, i ymgymmeryd â'r ymdrech mawr yn erbyn doethineb swynyddol yr Aipht, gorchfygwyd lliaws seirph y dewiniaid gan sarph yr hwn oedd i fod yn archoffeiriad. Yr oedd y gorchfygwr a'r gorchfygedig yr un o ran ffurf allanol: *Exod.* vii. 10—12.

Y mae cyfran arall hefyd o hanes y sarph bres yn teilyngu ein sylw, sydd yn dangos mor hawdd ydyw i arwyddlun sydd yn gyfreithlawn ynddo ei hun, wrth ei gadw ar ol ei amser, ac iddo wneyd ei waith, fod yn achlysur o eilunaddoliaeth. Ymddengys fod y sarph bres yn nyddiau Hezeciah yn wrthddrych addoliad am ryw gyfnod, nad ydyw yn cael ei nodi allan. Arweiniodd sêl y brenin hwnw ef i'w distrywio hi. Rhoddodd iddi, neu ynte yr oedd yr enw arni yn flaenorol, yr enw *Nehustan.*—Gwel Nehustan. Gadewir ni i ddyfalu pa bryd y dechreuwyd ei haddoli, ac yn mha gymmydogaeth yr oedd wedi ei gosod. O'r braidd y gellir meddwl y buasai hyn yn cael ei oddef gan frenhinoedd o sêl ddiwygiadol fel Asa ac Iehosaphat. Yr oedd yr addoliad wedi dyfod yn fwy amlwg a gwrthun, dybygid, ychydig o amser cyn i'r sarph gael ei distrywio. Y mae yr oll a wyddom am deyrnasiad Ahaz yn peri i ni dybied mai yn ei amser ef y cafodd addoliad y sarph ddadblygiad llawn. Gallesid meddwl, wedi i'r hyn a ddigwyddodd gymmeryd lle yn mherthynas i'r sarph, y buasai yr awydd am barchu creiriau yn gwanhau. Ond bu eglwys St. Ambrose yn Milan, yn ol arfer y Babaeth, yn ymffrostio am ganrifoedd fod y sarph bres a osododd Moses i fyny yn yr anialwch i'w gweled yno!

Wedi dinystrio yr arwyddlun allanol, dechreuodd ei hanes awgrymu meddyliau dyfnach yn nghalonau y bobl. Y mae ysgrifenydd llyfr *Doethineb Solomon* yn yr "*Apocrypha,*" mewn cyferbyniad a wna rhwng gwir a gau grefyddau yn y defnydd a wneir ganddynt o arwyddion allanol, yn dyweyd:—"O blegid yr hwn a drodd at yr arwydd hwnw a iachawyd, nid gan yr hwn a welid, eithr genyt ti, Iachawdwr pob peth."—"*Doeth. Solomon,*" xvi. 6, 7. Y mae "*Targum*" Jonathan yn aralleirio *Num.* xxi. 8 fel y canlyn:—"Efe a iacheir os bydd iddo gyfarwyddo ei galon at enw a Gair yr Arglwydd." Y mae Philo yn gosod yr hanes fel dammeg am fuddugoliaeth dyn ar ei natur iselaf.

Ni ellir yma fyned i mewn yn llawn i'r ystyr cysgodol a gyssylltir â'r sarph bres. Perthyna hyny yn hytrach i esboniadaeth ysgrythyrol. Bydd yn ddigon i ni yma sylwi ar yr hyn sydd yn dal cyssylltiad â ffeithiau neu ddamcanion a grybwyllwyd eisoes. Ar un llaw, y mae y ddeongliadaeth gysgodol wedi ei hestyn i'r holl fanylion. Tybia rhai fod y drostan ar ba un y gosodwyd y sarph, nid yn unig yn gysgod o'r groes, ond ei bod hefyd ar ffurf croes, a bod y sarph wedi ei hoelio wrthi fel yr hoeliwyd Crist arni. Ac fel arwyddlun o bechod, y gosodai allan iddo ef gael ei wneyd yn bechod trosom ni. Ystyrir fod y pres, megys y pres coeth yn *Dad.* i. 15, yn arwyddo allor a gogoniant Mab y dyn. Ar y llaw arall, y mae Patrick a Jackson, ac ereill, yn haeru fod y sarph o'r dechreu, a'i bod yn parhau felly etto, yn arwyddlun o ddrwg, a dim ond drwg, a bod dyrchafiad Mab y dyn yn cyfatteb yn unig i ddyrchafiad y sarph, o herwydd i'r fuddugoliaeth ar y sarph gael ei hennill ar y groes. Nid ydyw y cyferbyniad yn gorwedd rhwng y sarph a Christ; ond rhwng edrychiad yr Israeliaid ar yr arwyddlun gweledig, ac edrychiad ffydd gadwedigol at groes Crist. Y mae y rhai sydd wedi eu niweidio gan bechod yn cael gwaredigaeth wrth edrych arno ef—yr hwn nid adnabu bechod, ac sydd gadarn i iachau. Buasai yn dda i eglwys Crist pe buasai yn foddlawn i ymorphwys ar y gwirionedd hwn. Ond y mae hanesiaeth yn dangos mor hawdd y gall hen gyfeiliornad adgyfodi mewn gwahanol ffyrdd. Y mae arwyddluniau yn fynych iawn yn cael eu camddefnyddio yn fawr. Y mae yn bossibl i groes Crist (hyny yw, y groes yn llythyrenol, fel y gwna y Pabyddion, ac ereill) gael ei chymmeryd fel y Nehustan, neu y sarph bres. Gwel Nehustan.

**SARPH-SWYNWYR.** Nid oes ddadl nad oedd gan ddosbarth neillduol o bobl y dwyrain allu nodedig i ddylanwadu ar seirph gwenwynig er yn foreu. Gwnaed cyfeiriad at hyn yn yr erthygl ar Sarph. Sonir mewn modd pendant am hyn yn y Beibl; ac at hyn, dybygid, y cyfeiriai Iago yn *pen.* iii. 7. Y rhai hawddaf effeithio arnynt yn y ffordd hon yn Affrica ac India ydyw y seirph cycyllog *(hooded)* a'r *cerastes* corniog. Yr oedd medrusrwydd yr Italiaid a'r Libyaid i ddofi seirph yn adnabyddus i'r holl fyd; ac hyd y dydd heddyw, dywed Syr George Wilkinson, fod ar ororau Barbary rai yn awr sydd yn olynwyr teilwng iddynt. Y mae llawer iawn o gyfeiriadau at y seirph-swynwyr a'u gwaith yn ysgrifeniadau Bochart.

Y mae yn bur debyg fod seirph-swynwyr yn aml, os nad yn gyffredin, yn tynu ymaith wenwyn y seirph cyn dechreu ar y gwaith o'u

Digitized by Google

dofi; ond nid felly y hyddent yn gwneyd yn wastad, fel y mae yn amlwg oddi wrth dystiolaeth Bruce, a lliaws o ysgrifenwyr ereill:—

"Y mae rhai pobl," ebe yr ysgrifenydd a nodwyd, "yn tybied mai twyll ydyw, a bod y bobl sydd yn trin y creaduriaid fel hyn wedi eu dysgu hwynt yn gyntaf, ac yna fod eu gwenwyn wedi ei dynu ymaith; ac fel rhai sydd yn hoff o'r darganfyddiad, y maent wedi gorphwys arno heb un prawf, er gwaethaf tystiolaeth yr hynafiaid. Ond nid wyf fi yn petruso dywedyd i mi weled yn Cairo ddyn, yr hwn a gymmerodd *cerastes* yn ei law noeth o blith nifer o rai ereill a orweddent ar waelod y twb: rhoddodd hi ar ei ben noeth, gan ei gorchuddio â'r cap coch y byddai yn arferol o'i wisgo: fe'i rhoddodd yn ei fynwes, a rhwymodd hi am ei wddf fel cadwen, ac wedi hyny gosododd hi yn ymyl iar, yr hon a frathwyd ganddi, ac a fu farw yn mhen ychydig funydau."

Y mae Dr. Davy, yn ei "*Interior of Ceylon*," wrth son am seirph-swynwyr, yn dywedyd fel y canlyn ar y mater hwn:—

"Y mae y werin gyffredin anwybodus yn credu fod y bobl hyn yn meddu rhyw swyn, drwy yr hwn y gallant weithredu yn ddiberygl. Y mae dynion mwy goleuedig yn gwawdio y fath syniad a hwn, ac yn ystyried y swynwyr yn dwyllwyr; ac wrth chwareu eu triciau nad oes dim i'w ofni, gan fod y gwenwyn wedi ei dynu o'r creaduriaid. Y mae y bobl wybodus yn yr enghraifft hon yn gwneyd camgymmeriad, a'r werin gyffredin yn nes at y gwirionedd yn eu barn. Yr wyf wedi bod yn chwilio y seirph a welais yn cael eu dangos, a chefais fod y gwenwyn heb ei dynu o honynt. Y mae y dynion hyn yn meddu swyn—nid un oruwchnaturiol, ond hyder a dewrder....Hwy a chwareuant eu campau gydag unrhyw rywogaeth gycyllog, pa un bynag ai newydd eu dal y byddant, neu ynte wedi bod yn hir mewn caethiwed; ond ni wnant hyny gydag un rywogaeth wenwynig arall." Gwel hefyd "*Ceylon*," gan Tennent, i. td. 199.

Meddylia rhai fod cyfeiriad at gymmeriad ymaith y gwenwyn oddi ar y seirph yn *Salm* lviii. 6:—"Dryllia, O Dduw! eu dannedd yn eu geneuau."

Yr offeryn a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin i wneyd ei waith gan y seirph-swynwr ydyw y chwibanogl. Sŵn clir, treiddgar, ydyw yr hwn a glywir oreu gan y seirph, gan nad ydyw y synwyr o glywed yn gryf ynddynt. Gwel SARPH.

SARPHWYR (*Serpentinians*): sect hereticaidd yn yr ail ganrif, a elwid felly o blegid y parch oedd ganddynt i'r sarph a demtiodd Efa, a'r addoliad a gyflwynent i'r sarph wirioneddol. Haerent mai Iesu oedd y sarph, a'i fod wedi dysgu dynion y wybodaeth o dda a drwg. Gwahaniaethent rhwng Iesu a Christ. Dywedent i'r Iesu gael ei eni o'r forwyn, ond i Grist ddyfod i lawr o'r nefoedd i ymuno âg ef; croeshoeliwyd yr Iesu, ond yr oedd Crist wedi ei adael, a dychwelyd i'r nefoedd. Gwahaniaethent Dduw yr Iuddewon, yr hwn a alwent *Iald-abaoth*, oddi wrth y Duw mawr. I'r blaenaf y priodolent greadigaeth cyrph dynion—i'r diweddaf eu heneidiau. Mynegir fod ganddynt sarph fyw, yr hon a gedwid ganddynt mewn math o gell wedi ei gwneyd o wifrau. Ar amserau hynod agorent y ddôr, a galwent allan y sarph; a deuai y creadur allan; elai ar fwrdd, ac ymdorchai am dorthau o fara. Torent hwythau y bara hwn, a rhanent ef yn mhlith y cwmni, a dyma a alwent eu cymmun sanctaidd.

SARSECHIM: un o gadfridogion byddin Nebuchodonosor, pan gymmerwyd Ierusalem: *Ier.* xxxix. 3. Ymddengys ei fod yn dal y swydd o brif eunuch: o herwydd teitl, dybygid, ac nid enw priodol, ydyw Rabsaris. Yn *Ier.* xxxix. 13, gelwir Nebushasban yn Rabsaris—"y prif eunuch:" ac y mae y cwestiwn yn cyfodi, ai nid enwau ar yr un person oedd Nebushasban a Sarsechim. Yn y Deg a Thrigain, y mae adnodau 3 a 13 wedi eu cymmysgu ynghyd, ac yn gyfryw fel y mae yn ammhossibl i gasglu dim oddi wrth y darlleniad fel y ceir ef yno. Y mae Gesenius yn tybied fod Sarsechim a Rabsaris yr un, ac yn ddau enw ar yr un swydd.

SARUCH: mab Ragau, a hen daid Abraham: *Luc* iii. 35. Cyrhaeddodd yr oedran o ddau cant a deg ar hugain o flwyddi. Y mae Bochart yn tybied fod tref *Seruj*, taith diwrnod o Charræ, yn Mesopotamia, wedi ei henwi ar enw y patriarch hwn. Priodola Suidas, ac ereill, iddo ef y gwaith o ddyrchafu yn dduwiau y dynion a fuont yn enwog a mawr yn eu dydd. Epiphanius, yr hwn a ddywed fod yr enw yn golygu 'dígder,' a ddywed, er fod eilunaddoliaeth wedi codi yn amser Saruch, etto ei fod yn cael ei gyfyngu i luniau; a bod gwneyd duwiau o ddynion oedd wedi marw, yn gystal a gwneuthur delwau, yn perthyn i amser diweddarach.

SARUHEN: dinas a enwir yn *Ios.* xix. 6 yn unig, yr hon a ddisgynodd i ran Simeon, o fewn terfynau Iudah. Nid ymddengys enw Saruhen yn rhestr dinasoedd Iudah; ond yn ei lle, ac yn yr un sefyllfa mewn cyssylltiad â'r enwau ereill, yr ydym yn cael fod Silhim: *Ios.* xv. 32. Yn y rhestr yn Llyfr Cyntaf Cronicl, ar y llaw arall, y mae Saaraim yn cael ei gosod yn yr un safle: *pen.* iv. 31. Pa un a ydynt yn lleoedd gwahanol, ai ynte enwau gwahanol ar yr un lle ydynt, sydd, fe allai, yn awr yn ammhossibl eu benderfynu. Hwyrach, o'r tri, mai gan Saaraim y mae yr hawl gryfaf i gael ei ystyried yn gywir, yn gymmaint a'i fod yn enw ar le oedd mewn cyfeiriad arall hefyd, tra nad ydyw Saruhen a Silhim i'w cael ond yn y lleoedd a nodir yn unig. Geilw Knöbel sylw at *Tell Sheri'ah*, yr hwn oedd tua deng milldir i'r gorllewin o *Bir es-Seba*. Nid ydyw yn annhebyg na allasai Saaraim neu Saruhen fod yn y fan hon; ond rhaid cydnabod nad ydys hyd yn hyn wedi cael allan ddim yn benderfynol ar y mater.

SASAC: Beniaminiad, un o feibion Beriah: 1 *Cron.* viii. 14, 25.

SASAI: un o feibion Bani, a briododd wraig ddyeithr yn amser Ezra, ac wedi hyny a'i bwriodd ymaith: *Ezra* x. 40.

SATAN. Gwel DIAFOL.

SATANIAID: cangen o'r Messaliaid, a ymddangosodd tua'r flwyddyn B. A. 390. Mynegir eu bod yn credu, yn mysg pethau ereill, fod y diafol yn nodedig o alluog, ac mai doethach o lawer ydyw ei barchu a'i glodfori na'i gasau a'i felldithio.

SATURNIAID (*Saturnians*): sect a gododd tua'r flwyddyn B. A. 115. Cawsant eu henw oddi wrth Saturnius o Antiochia, un o'r prif Gnosticiaid. Yr oedd Saturnius yn dal yr athrawiaeth fod dwy egwyddor yn bod, o'r rhai y

Digitized by Google

deilliai pob peth:—un yn Dduw doeth a da: y llall yn ddefnydd, neu fater, ac yn egwyddor hanfodol ddrwg; yr hon, fel y tybiai, a weithredai o dan arolygiaeth bod deallgar o dueddiadau drygionus. Yn ol cyfundrefn Saturnius, crewyd y byd a'i breswylwyr gan saith angel, a lywodraethent y saith blaned. Dygwyd y gwaith hwn yn mlaen yn ddiarwybod i'r Duw da, ac yn groes i ewyllys yr egwyddor faterol. Edrychai y blaenaf arno, pa fodd bynag, gyda chymmeradwyaeth, ac anrhydeddodd y gwaith âg amrywiol arwyddion o'i haelfrydedd a'i garedigrwydd. Cynnysgaeddodd y bodau a breswylient y byd yma âg eneidiau, i'r rhai nad oedd eu creawdwyr wedi rhoi ond bywydau anifeilaidd yn unig; ac wedi rhanu y byd yn saith o ddosbarthiadau, efe a'u rhanodd rhwng y saith angel hyn—un o ba rai oedd Duw yr Iuddewon; ond cadwodd iddo ei hun yr arolygiaeth gyffredinol dros y cyfan. At y creaduriaid hyn, a gynnysgaeddwyd gan yr egwyddor dda âg eneidiau rhesymol, ac â thueddiadau a arweinient i ddaioni a rhinwedd, fe ddarfu i'r bod drwg, i'r dyben o gadw ei lywodraeth, chwanegu un o fath arall, a ffurfiwyd ganddo o nodwedd ddrwg a phechadurus; a dyma yr achos o'r gwahaniaeth a ganfyddir yn mysg dynion. Pan y darfu i greaduriaid y byd hwn syrthio oddi wrth eu teyrngarwch a'u ffyddlondeb i'r Duw mawr, efe a anfonodd o'r nefoedd adferwr trefn—enw yr hwn oedd 'Crist.' Daeth y gorchfygwr dwyfol hwn i'r byd wedi ymwisgo âg ymddangosiad corphorol, ond nid oedd ganddo gorph gwirioneddol. Daeth i ddinystrio llywodraeth yr egwyddor faterol, ac i nodi allan i eneidiau rhinweddol y ffordd ar hyd pa un y rhaid iddynt ddychwelyd at yr Arglwydd. Y mae y ffordd hon wedi ei hamgylchynu âg anhawsderau a dioddefiadau, yn gymmaint a bod yn rhaid i'r eneidiau hyny a fwriadent droi at y Bod Mawr ymattal oddi wrth win, oddi wrth gig, ac oddi wrth briodi; ac mewn gair oddi wrth bob peth a dueddai i foddloni y cnawd, neu hyd yn oed i gyfarfod angenrheidiau corphorol.

SATRAP: llywodraethwr talaeth yn yr hen frenhiniaeth Bersiaidd, awdurdod yr hwn, cyhyd ag y meddai ffafr y brenin, oedd o'r bron yn unbenaethol. Codai drethi yn ol ei ewyllys, a gallai efelychu gorthrwm y brenin ei hun heb neb i'w luddias. Pan y dechreuodd brenhiniaeth Cyrus adfeilio, taflodd rhai o'r Satrapiaid yr ychydig deyrngarwch a berthynai iddynt heibio, a sylfaenasant deyrnasoedd annibynol o'r eiddynt eu hunain—yr enwocaf o ba rai oedd teyrnas Pontus.

1. SAUL (שאול: *gofynedig*): mab Simeon. Canaanëes oedd ei fam: *Gen.* xlvi. 10; *Exod.* vi. 15; *Num.* xxvi. 13; 1 *Cron.* iv. 24. Efe oedd sylfaenydd tylwyth y Sauliaid.

2. SAUL, yr hwn a elwir "Saul o Rehoboth wrth yr afon." Efe oedd un o frenhinoedd Edom: *Gen.* xxxvi. 37; 1 *Cron.* i. 48, 49.

3. SAUL O TARSIS, yr hwn hefyd a gyfenwid Paul. Gwel PAUL.

4. SAUL: brenin cyntaf Israel. Mab ydoedd i Cis, gŵr o lwyth Beniamin: 1 *Sam.* ix. 1, 2, &c. Ni fynegir yn bendant yn mha le y ganwyd Saul; ond yn gymmaint a bod ei dad, Cis, wedi ei gladdu yn Sela (2 *Sam.* xxi. 14), gellid meddwl mai y Sela yma oedd ei bentref genedigol. Nid oes genym sicrwydd digonol i'n galluogi i ddyweyd mai Gibeah ydoedd, er fod y lle hwnw, oddi wrth ei gyssylltiad diweddarach âg ef, yn cael ei alw yn fynych "Gibeah Saul." [Gwel GIBEAH SAUL.] Yr oedd Cis, ei dad, yn benaeth cyfoethog a galluog, er nad oedd y teulu y perthynai iddo yn un o bwysigrwydd a dylanwad neillduol: 1 *Sam.* ix. 1, 21. Ymddengys fod cyfran o'i eiddo yn gynnwysedig mewn minteioedd o asynod. Anfonodd Cis ei fab, Saul, ynghyd â'i was, i chwilio am yr asynod hyn, oeddynt wedi myned i grwydro ar y mynyddoedd: 1 *Sam.* ix. 3—10. Ar ol tri diwrnod o daith (*pen.* ix. 20); yr hon sydd yn anhawdd yn awr ei holrhain) trwy diriogaethau Ephraim a Beniamin, hwy a ddaethant at droed bryn yn cael ei amgylchynu gan ddinas, pan y cynnygiodd Saul fod iddynt ddychwelyd adref; ond llesteiriwyd ef trwy wrandaw ar gynghor y gwas, yr hwn a awgrymodd ar fod iddynt, cyn gwneuthur hyny, ymgynghori â "gŵr Duw," yr hwn oedd weledydd, o barthed i dynged yr asynod, a chynnyg iddo bedwaredd ran sicl o arian. Yr oeddynt wedi eu cyfarwyddo gan y llangcesau a ddaethent i'r ffynnon i dynu dwfr, am y modd y gwelent y gweledydd; sef, pan y deuai allan o'r ddinas i fyned tua'r uchelfa "i fendigo yr aberth;" 1 *Sam.* ix. 10—12. Hwy a gyfarfuant â'r gweledydd, sef Samuel, yn y porth. Yr oedd y prophwyd wedi cael amnaid oddi wrth Dduw yn mhertynas i dynged ddyfodol y Beniaminiad ieuangc. Synodd Saul a'i langc yn ddirfawr wrth wrandaw ar Samuel; ond ufuddhasant i'w wahoddiad i fyned i'r uchelfa gydag ef, ac eisteddasant i lawr wrth y bwrdd i fwyta, ynghyd â deg ar hugain ereill (neu, yn ol y Deg a Thrigain a Josephus, "*Hynaf. Iudd.*," vi. 4, *adr.* 1, deg a thrigain) a wahoddasid, yn mysg y rhai y cyflewyd iddynt hwy y prif leoedd. Mewn rhagddisgwyliad am gael rhyw un dyeithr enwog, yr oedd Samuel wedi cyfarwyddo y côg i osod ysgwyddog ferwedig ger bron y penaf o'r gwahoddedigion: 1 *Sam.* ix. 23, 24. Yna hwy a aethant i lawr i'r ddinas, a darparwyd gwely i Saul ar nen y tŷ. Ar doriad y wawr dranoeth, deffrowyd ef gan Samuel. Yna hwy a aethant "i gŵr eithaf y ddinas," ac yno (yr oedd y llangc erbyn hyn wedi eu gadael) tywalltodd Samuel yr olew cyssegredig am ben Saul, a rhoddes iddo gusan cyfarchiadol, gan ei hysbysu fod yr Arglwydd wedi ei eneinio "yn flaenor ei etifeddiaeth;" 1 *Sam.* ix. 21—x. 1. O'r funyd hono allan, teimlai Saul fod bywyd newydd wedi gwawrio arno. Efe a ddychwelodd adref, fel y daethai yno, ar hyd ffordd y mae yn awr bron yn ammhossibl ei holrhain yn gywir; a phob cam a roddai tuag adref yr oedd pob digwyddiad yn cadarnhau rhágfynegiadau Samuel: *pen.* x. 9, 10. Wrth fedd Rahel, cyfarfu â dau ŵr, y rhai a fynegasant iddo fod asynod ei dad wedi eu dal. Ger llaw y dderwen (yr hon a gyfieithir "gwastadedd" yn y Beibl Cymraeg), yn Tabor, efe a gyfarfu â thri o wŷr yn dwyn mynod, a bara, a chostrelaid o win, i'w cyflwyno yn offrwm i'r Arglwydd yn Bethel. Rhoddwyd iddo ef ddwy o'r torthau hyny yn arwydd o'i urddas presennol ac o'r dyrchafiad oedd yn ei aros. Ac wedi dyfod o hono i "fryn Duw" (beth bynag a olygir wrth hyn—hwyrach mai Gibeah, "ei ddinas ei hun,"), efe a gyfarfu â thyrfa o brophwydi yn disgyn o'r uchelfa, a'r rhai hyny yn cael eu blaenori gan gerddorion yn chwareu ar offerynau cerdd, ac yn prophwydo;

Digitized by Google

a disgynodd ysbrydoliaeth arno yntau hefyd, ac efe a brophwydodd gyda hwynt, fel arwydd fod bywyd newydd yn eiddo iddo.

Dyna ddywedir am ei alwad ddirgelaidd. Yr oedd yr alwad allanol, hanes yr hon a roddir yn annibynol ar y llall, fel y canlyn. Galwodd Samuel gyfarfod yn Mispah, a bwriwyd coelbrenau (bwrid coelbrenau yn fynych y pryd hwnw) er cael allan y llwyth a'r teulu o ba un yr oedd y brenin i'r genedl i ddyfod o honynt. Enwyd Saul; a thrwy awgrym oddi wrth yr Arglwydd, daethpwyd o hyd iddo yn ymguddio yn mysg y dodrefn oedd y tu allan i'r wersyllfa: 1 *Sam.* x. 17—24. Pan y gwelodd y bobl Saul, ennillodd ei daldra a'i ymddangosiad tywysogaidd eu cymmeradwyaeth a'u ffafr iddo ar unwaith, a chyfodasant am y waith gyntaf y floedd, sydd wedi ei dyrchafu mor fynych mewn amseroedd diweddar, "Byw fyddo'r brenin!" (*pen.* x. 23, 24) ac efe a ddychwelodd i Gibeah, ynghyd â byddin o wŷr arfog, ar ba un yr oedd efe yn awr yn benaeth. Ymddengys fod y rhai mwyaf diwerth a dibwys o'r bobl yn tueddu i gwyno o herwydd eu dewisiad, ac yn gwrthod rhoddi iddo yr anrhegion arferol; ond cafwyd achlysur yn fuan i gyfiawnhau y dewisiad a wnaed o hono. Yr oedd Saul ar ei ffordd adref (wedi dychwelyd yno er mwyn arwain bywyd anghyhoedd), ac yr oedd yn gyru mintai o wartheg o'r maes, pan y clywodd efe bobl Gibeah yn dyrchafu eu llef mewn wylofain, o'r fath a glywid mewn dinasoedd dwyreiniol ar ddyfodiad newydd drwg iddynt. Yr achos o'r galar oedd bygythiad Nahas, brenin yr Ammoniaid, yn erbyn Iabes Gilead. Yr oedd rhyw gyssylltiad rhwng trigolion Iabes Gilead a Beniamin, er pan y cymmerodd y digwyddiad a gofnodir yn *Barn.* xxi. le. Ymddengys fel pe na buasai ond un wreichionen yn angenrheidiol i gynnhyrfu ysbryd y brenin. "Ac Ysbryd Duw a ddaeth ar Saul," megys y daethai ar y barnwyr gynt. Ymadawodd â'r gwyleidd-dra a ymddangosai fel yn ei gadw yn ol o'r blaen; a gwnaeth yn gyffelyb fel y gwnelid mewn dyddiau boreuach:—drylliodd bâr o'r ychain oedd yn ei fintai, ac anfonodd genhadau gyda'u hesgyrn trwy holl derfynau Israel ac Iudah i wysio y bobl ynghyd. Daeth y bobl "allan yn unfryd; a phan gyfrifodd efe hwynt yn Bezec, meibion Israel oedd dri chan mil, a gwŷr Iudah yn ddeng mil ar hugain;" 1 *Sam.* xi. 7, 8. Gwaredwyd Iabes Gibead. Yr oedd yr effaith ffafriol a wneid ar y bobl gan y weithred hon yn uniongyrchol—hawliwyd ar fod i'r grwgnachwyr gael eu cospi; ond nid oedd Saul yn barod i ganiatau hyn. Eneiniwyd ef yn gyhoeddus yn Gilgal, a chydnabyddwyd ef mewn modd difrifol ger bron yr Arglwydd yn frenin ar Israel ac Iudah. Cymmerodd Samuel fantais ar y cyfleusdra i geryddu y bobl am eu hanghrefydd a'u hanniolchgarwch, ac i'w rhybuddio hwy a Saul am y perygl o anufuddhau i orchymynion yr Arglwydd: 1 *Sam.* xii. Dyna y prif ddigwyddiadau a gymmerasant le yn ystod blwyddyn gyntaf teyrnasiad Saul.

Tynodd Samuel (yr hwn hyd yn hyn a ystyriwyd yn llywodraethwr gyda Saul: *pen.* xi. 7, 12, 14) yn ol yn awr, a chydnabyddwyd Saul yn benaeth cyffredinol. Yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, efe a ddechreuodd drefnu ar gyfer gwneuthur ymgais egniol i ysgwyd ymaith iau y Philistiaid a wasgai ar y wlad; ac ar ei lwyth ef ei hun, hwyrach, yn llawn mwy nag ar un o'r lleill, canys yr oedd gwarchodlu o Philistiaid hyd yn oed ger llaw y lle y cartrefai: *pen.* x. 5; xiii. 3. Casglodd ynghyd fyddin o dair mil o wŷr yn fuan; a chymmerodd Ionathan, ei fab, lywyddiaeth mil o honynt; a chyda chydsyniad ei dad, dybygid, efe "a darawodd sefyllfa y Philistiaid, yr hon oedd yn Geba;" *pen.* xiii. 2—4. Mewn canlyniad, cyffrowyd yr holl genedl Philistaidd yn ei erbyn ef. Darostyngwyd ysbryd yr Israeliaid yn ddirfawr. Ymguddiodd llawer yn yr ogofäau; croesodd lliaws o honynt yr Iorddonen; diarfogwyd hwynt oll, oddi eithr Saul a'i fab, a'r ychydig oedd gyda hwynt. Yn yr argyfwng poenus hwn, cafodd Saul ei hunan yn Gilgal, ar derfynau ei deyrnas, ac yn y sefyllfa a ddisgrifiasid cyn hyny gan Samuel: hiraethai am ymarfer ei hawl frenhinol i aberthu, ond llesteirid ef gan ei awyddfryd i ufuddhau i'r prophwyd, at yr hyn y cyfeirir yn 1 *Sam.* x. 8. O'r diwedd, ar y seithfed dydd, nis gallai ymattal yn hwy; a chyn cwblhau yr offrymiad, fe wnaeth Samuel ei ymddangosiad, a chyhoeddodd y felldith gyntaf arno o herwydd ei sêl anghymmedrol: *pen.* xiii. 5—14. Yn y cyfamser, darfu i anturiaeth ddewrfrydig Ionathan yn Michmas ddwyn pethau i addfedrwydd, ac o'r diwedd gyrwyd y Philistiaid yn ol i'w gwlad eu hunain. [Gwel IONATHAN.] Tafiwyd hwynt i ddychryn mawr, yn enwedig gan y ddaeargryn a gymmerodd le, a gwnaed lladdfa fawr arnynt. Cymmerodd dau o ddigwyddiadau hynod bywyd Saul le y pryd hwn. Un oedd ymddangosiad cyntaf ei orphwylldra yn yr adduned afresymol a byrbwyll a wnaeth, a fu yn mron a chostio iddo fywyd ei fab: 1 *Sam.* xiv. 24, 25. Y llall oedd cyfodi ei allor gyntaf, naill ai er anrhydeddu y fuddugoliaeth, neu ynte er gwneyd iawn am y wledd annuwiol, yn yr hon y bwytäai y bobl newynog y cig ynghyd â'r gwaed: *pen.* xiv. 35.

Ymddengys fod anfoniad ymaith y Philistiaid o wlad Israel (yr hon ni chwblhawyd yn hollol ar y pryd: *pen.* xiv. 52) wedi gosod Saul ar unwaith mewn safle uwch nag un o lywodraethwyr blaenorol Israel. Yr ydys eisoes wedi cyfeirio at y tair mil oedd fel math o fyddin sefydlog ganddo: 1 *Sam.* xiii.; xxiv. 2; xxvi. 2. Gwnaed Abner yn gadfridog ar y fyddin hon: 1 *Sam.* xiv. 50. Ffurfiwyd hefyd warchodlu personol iddo, cynnwysedig o weision a rhedegwyr: 1 *Sam.* xvi. 15, 17; xxii. 14, 17; xxvi. 22. Gwnaeth Dafydd yn benaeth ar y rhai hyn. Hwynthwy, gan hyny, oeddynt ddau swyddog penaf y llys, ac eisteddent gydag Ionathan wrth fwrdd y brenin: 1 *Sam.* xx. 25. Crybwyllir am swyddog arall yn ddamweiniol, sef ceidwad asynod y brenin, yr hwn oedd Edomiad, o'r enw Doeg: 1 *Sam.* xxi. 7; xxii. 9. Efe ydyw yr enghraifft gyntaf sydd genym o dramorwr yn gweinyddu yn y llys. Yn ol traddodiad Iuddewig, efe oedd y gwas oedd gyda Saul pan yn chwilio am asynod ei dad, ac a'i cynghorodd ef i yru am Dafydd (1 *Sam.* xvi. 15), mab yr hwn, yn y diwedd, a laddodd y brenin: 2 *Sam.* i. 10.

Gwahaniaethid y brenin oddi wrth y llywodraethwyr blaenorol gan rwysgfawredd ei ymddangosiad. Yr oedd ganddo waewffon hir, tebyg i'r hon oedd gan Goliath. Cymmerai hono gydag ef yn wastadol—pan yn ddrwg ei hwyl (1 *Sam.* xviii. 10; xix. 9); pan yn bwyta ei fwyd (*pen.* xx. 33); pan yn gorphwyso (*pen.* xxvi. 11); a phan mewn brwydr: 2 *Sam.* i. 6.

Digitized by Google

Pan yn rhyfela, gwisgai hefyd goron ar ei ben, a breichledau am ei freichiau: 2 *Sam.* i. 10. Yn ol cyfieithiad y Deg a Thrigain o 1 *Sam.* xx. 25, efe a eisteddai i fwyta ar gyfer ei fab Ionathan. Ar ei ddyfodiad o ryfel, derbynid ef gan wragedd Israel â chaniadau (1 *Sam.* xviii. 6), yn mysg y rhai yr adwaenid ef ar y fath achlysuron fel un yn dwyn oddi ar y gelyn ddillad ysgarlad, ac addurnwisg aur i'w gwisgoedd: 2 *Sam.* i. 24. Parhau yr oedd nodwedd rhyfelgar ei deyrnasiad, ac yntau yn awr yn alluog, nid fel ei ragflaenoriaid, i sefyll ar yr amddiffynol yn unig, ond i ymosod ar y llwythau cyfagos, sef y Moabiaid, yr Ammoniaid, yr Edomiaid, preswylwyr dinasoedd Sobah, a'r Amaleciaid: 1 *Sam.* xiv. 47. Adroddir hanes y rhyfel â'r Amaleciaid ddwywaith:—y tro cyntaf yn fyr (*pen.* xiv. 48), a'r ail waith yn helaethach: *pen.* xv. 1—9. Y mae prif gyssylltiad y rhyfel hwn â hanes Saul yn gorwedd yn ei waith yn anufuddhau i orchymyn prophwydol Samuel; yna ymddengys yn ei waith yn arbed y brenin, ac yn cadw yr ysbail.

Nid oes genym le i farnu fod y brenin wedi arbed Agag, brenin Amalec, ond am yr un rheswm ag yr arbedodd yr ysbail; sef, er gwneyd arddangosiad mawreddog pan yn aberthu i'r Arglwydd yn Gilgal: 1 *Sam.* xv. 21. Dyna y syniad a gyflëir yn y traddodiad Iuddewig y cyfeiria Josephus ato ["*Hyn. Iudd.*," vi. 7, *adr.* 2]. Efe a ddywed yn bendant fod Agag wedi ei arbed o herwydd ei faintioli a'i harddwch; ac y mae yr hanes a roddir am y fuddugoliaeth, a'r llawenydd a ddilynodd, yn gadael argraph gyffelyb ar y meddwl. Dygodd yr ail weithred hon o anufudd-dod ail felldith ar Saul, a'r dadganiad pendant y byddai i'r deyrnas gael ei throsglwyddo i un arall; ac arwyddwyd hyny yn rhwygiad mantell y prophwyd: 1 *Sam.* xv. 23, 27. Ar ol yr ail anufudd-dod beiddgar hwn, ni chafodd Saul ddim o ffafr gyhoeddus y prophwyd; ac efe a'i gadawodd ef i'w bechodau, a'i gospau, a'i geryddon. "Ond Samuel a alarodd am Saul; ac edifar fu gan yr Arglwydd osod Saul yn frenin ar Israel;" *pen.* xv. 35.

O hyny allan hanes pruddaidd ydyw hanes Saul. Suddodd bygythion Samuel i galon Saul, a chynnyrchasant brudd-der dwfn ynddo, yr hyn, naill ai mewn gwirionedd, neu fel y dywedai ei feddygon (1 *Sam.* xvi. 14, 15), oedd yn cael ei achlysuro gan ysbryd drwg oddi wrth yr Arglwydd. Y mae yn hawdd deall y gallasai cerddoriaeth fod yn foddion i effeithio yn foddhaus ar ei deimladau, sirioli ychydig arno, neu ymlid ymaith ei brudd-der; ond nid mor hawdd ydyw amgyffred pa fodd y gallasai hyn feddu y gallu i ymlid ymaith ysbryd wedi ei anfon oddi wrth yr Arglwydd i geryddu y brenin am ei droseddau. Rhaid barnu achos Saul, dybygid, ar yr un egwyddorion a'r cythreuligion y crybwyllir am danynt yn y Testament Newydd. [Gwel Cythreulig—ion.] Mynegwyd i Saul am fedrusrwydd nodedig Dafydd fel cerddor gan un o wŷr ieuaingc ei warchodlu. Y mae bywyd Saul a Dafydd o hyn allan yn dal cyssylltiad agos y naill â'r llall. [Gwel Dafydd.] Pan oedd Saul yn ei funydau mwyaf pwyllog a rhesymol, y mae yn ymddangos nad oedd wedi colli y serch mawr a deimlai tuag at Dafydd. "Hoffodd ef yn fawr;" 1 *Sam.* xvi. 21. "A Saul a'i cymmerth ef ato y diwrnod hwnw, ac ni adawai iddo ddychwelyd i dŷ ei dad;" *pen.* xviii. 2. "Pa ham na ddaeth mab Iesse at y bwyd;" *pen.* xx. 27. "Ai dy lef di yw hon, fy mab Dafydd .....Dychwel, fy mab Dafydd..... Bendigedig fyddych di, fy mab Dafydd;" *pen.* xxiv. 16; xxvi. 21, 25. Dychwelai ei ddawn brophwydol hefyd ar adegau, yn gymmysg â'i orphwylldra. "Ac efe a ddiosgodd ei ddillad, ac a brophwydodd hefyd ger bron Samuel; ac a syrthiodd i lawr yn noeth yr holl ddiwrnod hwnw, a'r holl nos," yn Ramah: 1 *Sam.* xix. 24. Ond cyflawnai yn fynych weithredoedd o greulondeb, oedd yn codi oddi ar sêl aflywodraethus; megys lladd yr offeiriaid a'u teuluoedd (*pen.* xxii. 11—23); lladd y Gibeoniaid, tua'r un amser, fe allai (2 *Sam.* xxi. 1); a dyfetha y dewiniaid a'r swynyddion: 1 *Sam.* xxviii. 3, 9. O'r diwedd, mewn canlyniad i weinyddiadau y brenin, dymchwelwyd y frenhiniaeth ei hun. Daeth y Philistiaid i'r wlad, a meddiannasant ddyffryn yr Esdraelon gyda'u cerbydau heiyrn a'u meirch. Gosodasant eu gwersyll ar lechweddau deheuol y lle a elwir yn awr Hermon Fychan, ger llaw Sunem. Cymmerodd byddin Israel ei safle ar yr ochr gyferbyniol ar fynydd Gilboa, gan ofalu, fel arfer, am gael yr uchelderau, lle yr oedd eu diogelwch.

Yn awr, gan fod yr Arglwydd wedi gadael Saul, fe benderfynodd ymgynghori â "dewines o Endor," er cael y cyfarwyddiadau y gwrthodasai yr Arglwydd eu rhoddi iddo. Am y cwestiwn o barthed i nodwedd y weledigaeth a ymddangosodd i Saul mewn canlyniad i gais y ddewines, gwel Dewines. Ond gellir sylwi yma, fod rhai yn barnu fod y brenin ei hun wedi gweled ac ymddiddan â'r weledigaeth, pa beth bynag oedd, a ymddangosodd yn nghymmeriad Samuel, rhagfynegiadau pa un a gwblhawyd mewn dull mor hynod: ac y mae ereill yn barnu na welodd Saul ddim, ond yn unig ei fod wedi gwrandaw ar ddisgrifiad y ddewines o ŵr oedranus, "a hwnw yn gwisgo mantell." Y mae cyfrolau wedi eu hysgrifenu ar y cwestiwn, pa un ai twyllwr, ai ynte Samuel yn wirioneddol a ymddangosodd yn y weledigaeth. Y mae Eustathius, a'r rhan fwyaf o'r tadau, yn tybied mai twyllwr ydoedd; ond y mae Origen yn golygu yn wahanol. Siglo yn ei farn yr oedd Awstin. Tybia Josephus mai Samuel ei hun a ymddangosodd.—"*Hynaf. Iudd.*," vi. 14, *adr.* 2, 3. Pan y clywodd Saul y bygythiad ofnadwy a gyhoeddodd y ddrychiolaeth, efe "a syrthiodd ei hyd gyhyd ar y ddaear" (1 *Sam.* xxviii. 20); ac yno y bu heb symmud hyd nes y darfu i'r wraig a'i weision ei berswadio i godi a bwyta.

Yr oedd y ffaith y byddai iddo ef ei hun a'i feibion fod yn mysg y lladdedigion dranoeth wedi ei sicrhau iddo; y dinystrid ei fyddin, ac yr ennillai ei elynion fuddugoliaeth: o ganlyniad, gellid meddwl nad oedd Saul yn galonog a dewr i wynebu ar waith y dydd canlynol, pryd y cymmerodd y frwydr le rhyngddo ef a'r Philistiaid. Gyrwyd ef a'i wŷr i fyny ystlysau mynydd Gilboa, yn nghẁr eithaf dyffryn yr Esdraelon. Llwyr orchfygwyd ei fyddin, a lladdwyd ei dri mab: 1 *Sam.* xxxi. 2. Ymlidiwyd ar ol Saul, ac ar ol cludydd ei arfau, yr hwn oedd gydag ef, gan y cerbydwyr a gwŷr y bwâau (*pen.* xxxi. 3); archollwyd ef gan y saethyddion, a bwriwyd ymaith ei darian: 2 *Sam.* i. 21. Yn ol 1 *Sam.* xxxi. 4, syrthiodd Saul ar ei gleddyf ei hun. Yn ol adroddiad arall (yr hwn y gellir ei gyssoni â'r un blaenorol, trwy dybied ei fod yn disgrifio yr hyn a gymmerodd le yn ddilynol), daeth Amaleciad ato yn yr adeg y rhoddodd yr

Digitized by Google

archoll farwol iddo ei hun; ac er ei fod wedi "cwympo," efe a safai ar ei waewffon: 2 *Sam.* i. 6, 10. Yr oedd cyfyngder marwolaeth wedi dyfod arno, ond yn fyw; ac ar ei ddymuniad ei hun, lladdwyd ef, neu gorphenwyd ei ladd, gan yr Amaleciad (2 *Sam.* i. 7—10), yr hwn a gymmerodd "y goron oddi ar ei ben ef, a'r freichled oedd am ei fraich ef" (2 *Sam.* i. 10), ac a ddygodd y newydd i Dafydd. "Felly y bu farw Saul am ei gamwedd a wnaethai efe yn erbyn yr Arglwydd, sef yn erbyn gair yr Arglwydd, yr hwn ni chadwasai efe, ac am iddo ymgynghori â dewines, i ymofyn â hi: ac heb ymgynghori â'r Arglwydd; am hyny y lladdodd efe ef, ac y trodd y frenhiniaeth i fab Iesse;" 1 *Cron.* x. 13, 14.

Pan y daeth y Philistiaid dranoeth i ysbeilio y lladdedigion, hwy a gawsant gorph Saul, a chyrph ei dri mab ef, a thorasant eu penau, diosgasant eu harfau, ac anfonasant hwynt i'r dinasoedd Philistaidd, a gosodwyd hwynt yn nheml Astaroth, yn nghymmydogaeth tref Ganaaneaidd Bethsan, dybygid; a hoeliwyd eu cyrph ar furiau y ddinas. Crogwyd pen Saul (yn Asdod, dybygid) yn nheml Dagon: 1 *Cron.* x. 10. Ond daeth gwŷr Iabes Gilead, o dan deimlad o'u rhwymedigaeth i Saul (1 *Sam.* xi.) dros yr Iorddonen liw nos, a dygasant ymaith y cyrph oddi ar furiau Bethsan, ac a'u llosgasant, "ac a'u claddasant o dan bren yn Iabes, ac a ymprydiasant saith niwrnod;" 1 *Sam.* xxxi. 13. Yr oedd Saul wedi gadael rhywrai ar ei ol a deimlent yn ddiolchgar iddo ar gyfrif y caredigrwydd a dderbyniasant ganddo. Yr oedd preswylwyr Iabes yn galaru am dano. Cymmerwyd esgyrn Saul a'i feibion o Iabes gan Dafydd, a chladdwyd hwynt yn Seba yn meddrod Cis ei dad.

Anfynych y cyflwynir i'n sylw gymmeriad mwy pruddaidd na'r eiddo Saul. Ymddengys ei fod yn naturiol yn ddyn digon gostyngedig a gwylaidd, ond o nwydau cryfion. Mewn amgylchiadau a sefyllfa gyffredin mewn bywyd, gallasai, dybygid, ymddwyn yn gymmeradwy a rhinweddol; ond mewn amgylchiadau oedd yn ei ddwyn i wyneb temtasiynau mawrion, nid oedd yn alluog i'w dal. Yr oedd pob teimlad da yn gorfod rhoddi ffordd yn fynych i'w uchelgais, ei gynfigen, a'i eiddigedd. Efe a deyrnasodd ar Israel am ddeugain mlynedd, ond gadawodd i'w ol-oeswyr esampl o frenin, wedi ei ddyrchafu i binacl anrhydedd daearol, yr hwn, wedi gadael heibio ofni yr Arglwydd, a aeth yn raddol yn gaethwas i'w eiddigedd, ei nwyd, a'i dymmheran drwg. Yr oedd ei ymddygiadau tuag at Dafydd yn hollol annheg ac annheilwng; a diau fod ei ymddygiad yn hyn wedi bod yn un achos o wendid ei lywodraeth, a barodd i'r Philistiaid i oresgyn ei wlad, a dwyn yn mlaen y rhyfel a fu yn ddinystr iddo ef a'i feibion. "Rhoddais it' frenin yn fy nig, a dygais ef ymaith yn fy llid;" *Hos.* xiii. 11.

SAUNDERSON, NICHOLAS, LL. D.: ysgolhaig rhagorol, nodedig am ei gyrhaeddiadau mewn dysgeidiaeth glasurol a mesuroniaeth, er ei amgylchiadau anfanteisiol trwy golli ei olwg drwy y frech wen pan yn ddeuddeng mis oed. Ganwyd ef yn Thurleston, swydd Gaerefrog, yn 1784, lle yr oedd ei dad yn swyddog y cyllid: cafodd ei addysgu pan yn ieuangc yn ysgol rydd Penniston, lle y dysgwyd iddo elfenau yr ieithoedd Groeg a Lladin. Ni fynegir pa foddion a ddefnyddiwyd i ddwyn y plentyn i wybodaeth o ffurf y llythyrenau a'r ffigyrau. Cyflewyd iddo yr addysg cyntaf a dderbyniodd mewn llenyddiaeth a gwyddoniaeth dybygid trwy lafar.

Ymddengys i'w dad yn gynnar ganfod tuedd ei fab at fesuroniaeth; ac er ei fod wedi ei feichio â dyledswyddau ei swydd, a gofal am ei deulu lliosog, efe a lafuriodd i gyfranu iddo gymmaint o wybodaeth o'r wyddor hon ag oedd yn ei allu. Nid oedd hyn ond ychydig. Trwy garedigrwydd Richard West a Dr. Nettleton, pa fodd bynag, cefnogwyd ymdrechion y tad. Canfu y boneddigion hyn dalent anghyffredin y dyn ieuangc, yr hwn oedd ar y pryd yn ddeunaw mlwydd oed, a gwnaethant eu goreu i gyfranu addysg iddo mewn alsoddeg a meintoniaeth. Cynnorthwywyd ef ganddynt i dreulio peth amser gyda'i efrydiau mewn athrofa ger llaw Sheffield. O'r pryd hwn allan yr oedd ei gynnydd yn gyflym. Trwy gymmhorth cof anarferol o gryf ymdriniai â chwestiynau dyrus mewn mesuroniaeth. Ond ni pharodd ei ymroddiad i efrydiau mesuronol iddo esgeuluso llenyddiaeth glasurol. Dywedir ei fod yn deall gweithiau dysgedig a ddarllenid iddo yn yr ieithoedd Lladin a Groeg. Penderfynodd Saunderson ymdrechu ymsefydlu yn Nghaergrawnt fel athraw; ac aeth i Goleg Crist yno yn y flwyddyn 1707. Dechreuodd yn fuan draddodi darlithiau ar rifyddiaeth gyffredinol, tremyddiaeth, a "*Principia*" Newton. Yn mhen pedair blynedd, dilynodd Mr. Whiston fel athraw mesuronol. Bu yr amgylchiadau neillduol o dan ba rai y cyfranai addysg, ynghyd â'i dalent anghyffredinol, yn foddion i ddwyn iddo lawer o ysgolheigion. Bu yn gohebu gyda Syr Isaac Newton, a daeth i gydnabyddiaeth â llawer o fesuronwyr mawr ereill. Graddiwyd ef yn A. C. yn 1711; ac yn 1728, pan yr ymwelodd Sior II. â'r brif ysgol, yn LL. D. Parhaodd Dr. Saunderson i fwynhau iechyd da hyd yn agos i ddiwedd ei oes. Bu farw ar y 19eg o Ebrill, 1739, yn 57ain mlwydd oed.

Yr oedd y synwyrau o glywed a theimlad yn nodedig o gryf yn Dr. Saunderson. Dywedir ei fod yn gallu gwahaniaethu bathodau Rhufeinaidd gwirioneddol oddi wrth rai ffugiol trwy deimlo eu gwahanol raddau o lyfndra; ac ar un achlysur, pan oedd rhai o efrydwyr Coleg Crist yn mesur uchder yr haul yn ngardd y coleg, yr oedd yn gallu dyweyd, trwy ryw effaith a gaffai yr awyr ar ei berson, pan yr oedd cymmylau ysgeifn iawn yn myned dros wyneb yr haul. Pan elai i mewn i ystafell, gallai farnu ei maintioli a'i phellder oddi wrth y mur oddi wrth sŵn ei gerddediad ei hunan. Yr oedd wedi dysgu chwareu ar y chwibanogl pan yn ieuangc; a dywedir ei fod mor lwyddiannus yn hyn fel y tybiai y rhai a gawsant gyfle i ffurfio barn, pe buasai yn cymmhwyso ei hun at gerddoriaeth, y gallasai yn y gelfyddyd hono ragori cymmaint ag y gwnaeth mewn mesuroniaeth. Ymddengys fod Saunderson yn ddyn lled nwydwyllt. Yr oedd yn meddu argyhoeddiad dwfn o bwysigrwydd gwirionedd; ond yr oedd yn fynych yn dyweyd ei feddwl gyda'r fath ryddid a gerwinder nes gwneyd iddo lawer o elynion. Gellir dywedyd, hwyrach, fod y dyn nodedig a galluog hwn yn fwy cymmhwys i gynnyrchu edmygedd nag i gadw cyfeillion.

SAURIN, JAMES: duwinydd a phregethwr Protestanaidd Ffrengig enwog. Yr oedd yn fab i gyfreithiwr nid anenwog. Ganwyd ef yn

Digitized by Google

Nismes, Ionawr 6ed, yn y flwyddyn 1677. Yr oedd ei dad a'i deulu yn alltudiedig, gan iddo adael Ffraingc am Geneva, dybygid, pan y galwyd yn ol reitharch Nantes; ac yn ystod yr amser hwnw gwnaeth ei fab, James, gryn gynnydd mewn llenyddiaeth; ond rhoddodd heibio y gorchwyl difyrus hwn mewn trefn i ymrestru yn myddin Prydain. Yr ydym yn ei gael, gan hyny, yn y flwyddyn 1694, pan nad oedd ond dwy ar bymtheg oed, yn gwasanaethu fel cadlangc *(cadet)* yn nghwmni Arglwydd Galloway; a'r flwyddyn ddilynol, cafodd ei wneyd yn llumanwr gan ei lywydd; ond pan lawnodwyd yr heddwch rhwng Ffraingc a Savoy, efe a roddes i fyny fywyd milwrol, yr hwn, wedi y cwbl, oedd yn anghydnaws â'i natur, ac a ymroddodd i astudio athroniaeth a duwinyddiaeth, o dan yr athrawon enwog, Turretin, Trouchin, Pictet, Chouet, a gwŷr dysgedig ereill; o herwydd yr oedd Geneva yn llawn o ddysgedigion y pryd hwnw, rhwng brodorion ac ymnoddwyr. Ymroddodd Saurin yn galonog i astudio duwinyddiaeth; ac yn y flwyddyn 1698, dechreuodd feddwl am gwbl ymroddi i waith y weinidogaeth. Yn 1700, efe a ymwelodd â Holland ac â Lloegr; ac yn 1701, dewiswyd ef yn weinidog eglwys Walloon, yn Llundain, lle y bu yn pregethu ac yn gweinidogaethu gyda chymmeradwyaeth mawr yn mysg ei gydymnoddwyr, am bedair blynedd. Yn ystod ei arosiad yn Lloegr, efe a briododd Miss Catherine Boynton yn y fl. 1703, o'r hon y bu ganddo un mab, o'r enw Philip. Yn mhen dwy flynedd ar ol priodi, efe a ddychwelodd i Holland, gan fod hinsawdd y wlad hon yn anffafriol i'w iechyd, ac a dderbyniodd y swydd o gaplan yn nheulu rhyw bendefig yn yr Hague; ac wedi hyny, efe a gydsyniodd â galwad eglwys Ffrengig yno (yr hon a roddwyd at wasanaeth yr ymnoddwyr, ac yn yr hon y byddent yn wastad yn addoli), i ddyfod yn un o'i bugeiliaid—swydd y parhaodd i'w gweinyddu hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd yn nodedig o boblogaidd fel pregethwr: ymgasglai tyrfaoedd mawrion i wrandaw arno, a gwrandawent gyda'r pleser mwyaf; ac yr oedd effeithiau hapus ei bregethau i'w canfod yn argyhoeddiad a thröedigaeth llawer o'i wrandawyr.

Ar ddymuniad y dywysoges Caroline, o Loegr, efe a gyfansoddodd draethawd ar Addysg Tywysogion. Ond ei waith mwyaf nodedig ydyw ei *"Discourses, Historical, Critical, and Moral, on the most Memorable Events of the Old and New Testament."* Ymgymmerodd yr awdwr â'r gwaith hwn ar ddymuniad marsiandwr o Holland, yr hwn a wariodd swm mawr o arian i barotoi cerfiadau ar gopr i addurno y gwaith. Cynnwysa chwech o gyfrolau. Bu farw Mr. Saurin, pa fodd bynag, cyn cwbl orphen y drydedd gyfrol; ond gorphenwyd hi gan Mr. Roques; a chwanegwyd ati bedwaredd gyfrol ar y Testament Newydd gan M. de Beausobre. Y mae y cyfan yn amlygu dysgeidiaeth eang, ac yn teilyngu eu darllen yn ofalus gan efrydwyr duwinyddol. Cyfieithwyd y cyfrolau cyntaf i'r Saesneg yn fuan wedi eu hymddangosiad cyntaf yn y Ffrangcaeg. Darfu cyhoeddiad gwaith Saurin, a elwir, *"Dissertation on the Expediency of sometimes disguising the Truth,"* greu cyffro a chyfodi ystorm gref yn ei erbyn. Dygwyd cyhuddiad yn ei erbyn yn y gymmanfa eglwysig o fod yn priodoli twyll i Dduw. Bu ymddadleu mawr yn y gymmanfa ar hyn; ond o'r diwedd, penderfynodd y gymmanfa yn ffafriol iddo. Efe a gyhoeddodd hefyd draethawd byr, ond tra gwerthfawr, *"On the State of Christianity in France."* Cyhoeddwyd deuddeg o gyfrolau o'i bregethau yn yr iaith y traddodwyd hwynt, ac y mae y rhan fwyaf o honynt wedi eu cyfieithu i'r Saesneg gan Mr. Robinson, ac ereill, o ba rai y cyhoeddwyd argraphiad destlus yn 1824, mewn chwe chyfrol wythplyg. Y mae y pregethau hyn wedi eu nodweddu gan ddysgeidiaeth gywir, syniadau efengylaidd, hyawdledd, teimlad, a mawreddigrwydd. Bu farw Saurin yn yr Hague ar y 30ain o Ragfyr, 1730, yn y 63ain mlwydd o'i oedran, er galar mawr i'w gydnabod, ac i'r Eglwys Brotestanaidd ar y Cyfandir yn gyffredinol.

Yr oedd ei lais yn gryf, yn glir, a soniarus; ac ni wyddys iddo erioed yn mron golli y llywodraeth arno. Yr oedd o ran ei arddull yn bur, dirodres, a hyawdl—weithiau yn syml, ac weithiau yn flodeuog. Er fod ei iaith yn gyfoethog ac amrywiol, yr oedd yn wastad wedi ei chyfaddasu ar gyfer cyrhaeddiadau ei wrandawyr. Yn ei ragarweiniad i'w bregethau, arferai draddodi yn wylaidd a distaw; yn nghorph y bregeth, lle yr appeliai at y deall, yr oedd yn glir, yn blaen, ac ymresymiadol; gan orphwys yn niwedd pob ymadrodd cyflawn o'i eiddo, fel y gallai weled, wrth sylwi ar agweddau a symmudiadau ei wrandawyr pa un a oeddynt yn cymmeryd eu hargyhoeddi gan ei resymau, ai nid oeddynt. Collodd ei eglwys, pan y collwyd ef, weinidog Cristionogol oedd wedi yfed yn helaeth o ysbryd yr hen Gristionogion cyntefig, a'r hwn a dreuliodd ei fywyd i wylio dros ei braidd fel un a wyddai y byddai raid iddo roddi cyfrif. Fel pregethwr, y mae yn cael ei ystyried yn mhen y rhestr o Brotestaniaid Ffrengig. Fel y canlyn y mae un o'i fywgraphwyr yn symio i fyny nodwedd Saurin fel pregethwr:—"Dyfnder meddwl, grym ymresymiadol, trefniad medrus ar wahanol ranau, ffrydiau o deimlad toddedig, cyffyrddiadau a effeithient ar y dychymyg a'r galon, a symlrwydd mawreddog fel yr eiddo yr Ysgrythyrau, ydynt nodweddion ei hyawdledd ef."

SAVAGE, RICHARD: bardd Saesneg o gryn hynodrwydd. Ganwyd ef yn Llundain, Ionawr 10fed, 1697. Mab anghyfreithlawn ydoedd i'r Countess o Macclesfield ac Arglwydd Rivers, a bu yn achos o ysgariaeth rhwng y flaenaf a'i gŵr, yr Iarll Macclesfield. Cydnabyddwyd y plentyn gan Arglwydd Rivers, a safodd yn dad bedydd iddo, a chaniataodd i'w enwi ar ei enw ei hun: ond wedi hyny, gadawodd ef yn hollol i ofal ei fam, yr hon hefyd a'i hesgeulusodd mewn modd cywilyddus, gan ei adael ar drugaredd dyeithriaid; ac i'w nain, Arglwyddes Mason, yr oedd yn ddyledus am yr addysg a gafodd yn ysgol rammadegol St. Albans. Wedi hyny rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda chrydd yn Holborn, Llundain; ond yn ddamweiniol daeth yn gydnabyddus âg amgylchiadau ei enedigaeth, oedd hyd hyny yn ddirgelwch iddo. Gwnaeth lawer o ymdrechion i gael ymddiddan â'i fam, ond gwrthododd hi yn bendant ei weled. Gan nad oedd ganddo un ffordd arall i gynnal ei hun, efe a droes ei feddwl at lenyddiaeth; a phan yn bur ieuangc efe a ddygodd allan amryw chwareugerddi, ond ni chyfarfu â nemawr o lwyddiant ar y llwybr hwn. Bu yn fwy ffodus gyda'i dreisgân *"Sir Thomas Overbury:"* er na chafodd hono dderbyniad ffafriol ar y chwareufwrdd, etto

Digitized by Google

mewn argraph cafodd gymmeradwyaeth, a dygodd ychydig arian i logell yr awdwr. Yn y flwyddyn 1727, efe a laddodd ddyn mewn cweryl a gymmerodd le rhyngddynt uwchben y ddiod feddwol—trosedd am ba un y profwyd ef, ac y dedfrydwyd ef i farw. Cafodd faddeuant, fodd bynag, trwy i'r Arglwydd Hertfort eiriol ar ei ran gyda'r frenhines; a daeth manylion ei hanes yn adnabyddus, yr hyn a gynnyrchodd deimlad cryf yn ei ffafr. Er fod ei fam yn parhau yn anghymmodlawn, a thybid y buasai yn dda ganddi gael gwared o hono trwy law y dienyddwr, darfu i amryw o berthynasau wneyd eu goreu drosto; a chafodd dderbyniad i dŷ Arglwydd Tyrconnel, yr hwn a ganiataodd iddo 200p. yn y flwyddyn, ac a fu yn haelionus wrtho mewn ystyron ereill. Cyhoeddodd yn awr ei bryddest-gân, "*The Wanderer:*" a bu yn hynod lwyddiannus, ac ennillodd Savage safle uchel am dymmhor; ond nid hir y parhaodd felly. O herwydd ei arferion afreolaidd, tynodd arno ei hun anfoddlonrwydd Arglwydd Tyrconnel, yr hwn a oerodd yn ei gyfeillgarwch tuag ato. Suddo yn ddyfnach mewn llygrediaeth a wnaeth Savage o hyn allan. Er iddo fethu yn ei ymgais i gael yr appwyntiad o fardd brenhinol, rhoddodd cân a gyfansoddodd ar ŵyl genedigaeth y frenhines y fath foddlonrwydd iddi, fel y caniatawyd iddo flwydd-dâl o 50p. y flwyddyn. Gallasai y swm hwn, gyda gofal priodol, wasanaethu i'w gadw rhag angen, o leiaf, ar hyd y flwyddyn; ond ei arfer gwastadol ef oedd eu gwario mewn un wythnos o oferedd ac afradlonedd, a byw fel y gallai am y gweddill o'r flwyddyn. Pan attaliwyd ei flwydd-dâl ar farwolaeth y frenhines gwnaed tanysgrifiad iddo, trwy ddylanwad Pope yn benaf, gyda'r bwriad o'i ddanfon i breswylio mewn tawelwch yn Abertawe. Mewn canlyniad i hyn, ymneillduodd Savage i'r dref hono; ond efe a ddigwyddodd dalu ymweliad â Bristol, lle y bu fyw yn y modd mwyaf afradlawn, fel yr arferai yn wastad. Cymmerwyd ef i fyny am ddyled o wyth bunt, a bu farw yn y carchar yno ar yr 31ain o Orphenaf, 1743, yn 46ain mlwydd oed.

Er fod yn marddoniaeth Savage lawer o linellau cryfion, etto o'r braidd y mae ei ragoriaeth fel bardd yn teilyngu iddo enw ac enwogrwydd parhaol. Ei ddernyn mwyaf galluog a gorphenedig yn ddiammheuol ydyw "*The Bastard,*" yn yr hwn y mae yn amlygu teimladau naturiol cryfion, wedi eu cyffroi gan y cam a gafodd oddi wrth ei rieni a'i berthynasau. Ond y mae yn sicr ei fod yn fwy dyledus am ei enwogrwydd i'r bywgraphiad meistrolgar o hono a ysgrifenwyd gan ei gyfaill Dr. Johnson, yr hwn, pan yn ddyn ieuangc, a fu gryn lawer yn ei gymdeithas ef, nag i'w ysgrifeniadau ei hun. Y mae y cofiant hwn o eiddo Johnson yn ddyddorol, nid yn unig o herwydd y cynnwysa ddarlun cywir o Savage, ac arferion yr oes yr oedd yn byw ynddi, ond hefyd am ei fod yn dangos yn eglur brif ragoriaethau a diffygion yr awdwr enwog fel bywgraphydd a beirniad.

SAVONAROLA, GIROLAMO, NEU JEROME: pregethwr enwog, a diwygiwr gwladol a chrefyddol yn Florence. Ganwyd ef yn Ferrara, ar yr 21ain o Fedi, 1452. Efe oedd trydydd fab ei rieni. Enw ei dad oedd Nicole, ac enw ei fam oedd Elena, boneddiges o deulu y Buonaccorsi o Mantua. Yr oedd Jerome yn blentyn meddylgar, ac ymhyfrydai yn fawr fod wrtho ei hun; ac hyd yn oed pan yn ymgymmysgu mewn difyrion plentynaidd, dangosai lawer o ddifrifwch, arferai adeiladu allorau bychain, a chwareuai yr offeiriad. Dysgodd yr iaith Ladin yn fuan, yr hon ar y pryd oedd yn dra arferedig yn nghylchoedd uchaf cymdeithas yn Italy; ac o dan addysgiaeth ddyfal ei daid, o du ei dad, magwyd ynddo syched angerddol am wybodaeth. Pan oedd yn ddeng mlwydd oed, bu farw ei hen addysgydd diwyd; mynodd ei dad yr athrawon goreu oedd yn Ferrara iddo, ac nid oedd y rhai hyny yn ol i neb yn Ewrop y pryd hwnw. Wedi iddo gyrhaedd oedran priodol, aeth yn efrydydd i brif ysgol ei dref enedigol. Yr oedd moesau ac arferion dysgedigion Italy yn isel a llygredig—a hyny yn cael ei gefnogi gan y pabau, y cardinaliaid, a'r offeiriaid yn gyffredinol, ac yn derbyn cymmeradwyaeth y bobl, yn hytrach na'u condemniad; yr hyn a'i gwnai yn annhebyg iawn y cawsai efe yno unrhyw addysg grefyddol. Ond cadwyd ef yn rhyfedd rhag ymlygru ac ymollwng i fywyd pechadurus, yn ol arfer cyffredin y rhai y deuai i gyffyrddiad â hwynt yn y brif ysgol.

Mwynhau ei ymchwiliadau llenyddol, a dilyn yn mlaen gyda'i efrydiau, yn hytrach nag erlyn ar ol y difyrwch gwâg yr oedd y lliaws o'i gwmpas yn ymawyddu am dano, yr oedd Savonarola ieuangc. Anfynych y gwelid ef yn rhodfeydd cyhoeddus palas y duc, nac yn ymgymmysgu yn nghymdeithas y mawrion, nac mewn unrhyw gymdeithas arall, oddi eithr yn nghwmni ei athrawon, y rhai a ganiataent iddo fwy o ryddid nag y gwnaent i ysgolheigion yn gyffredin, ar gyfrif grym ac annibyniaeth ei gymmeriad. Astudiodd Aristotle yn ddyfal, gan ei fod yn rhoi y flaenoriaeth i'w graffder rhesymegol ef ar ddamcaniaethau ysblenydd Plato. Tra yr oedd ei feddwl yn cael ei ffurfio a'i ddodrefnu gan ei ymchwiliadau a'i efrydiau athronyddol; yr oedd ar yr un pryd hefyd yn sylwi ar symmudiadau cymdeithas yn y byd o'i ddeutu; ac yr oedd rhyw arwyddion yn ymddangos fod cyfnewidiadau mawr yn debyg o gymmeryd lle yn sefyllfa wladol a chrefyddol y byd. Clywodd dystion byw yn mynegu hanes anturiaethau y gwrthbabau a'u pleidwyr—hanes cynnygion cynghorau Ferrara a Florence am undeb âg Eglwys Groeg—cwymp diweddar yr ymherodraeth Roegaidd—y gwrthdystiadau a wnaed yn Ferrara yn erbyn y pabau—hanes yr Hussiaid yn Bohemia, a'r Wickliffiaid yn Lloegr—merthyrdod Huss a Jerome o Prague—y molawd a ysgrifenwyd gan Poggio y Florentiad ar y ddau ferthyr hyn—traethawd nodedig Lorenzo Villa, yr hwn a gyhoeddasid yn ddiweddar, er mwyn ennyn fflam o anghydfod gwleidyddol drwy yr holl daleithiau Italaidd yn erbyn Rhufain—y gwrthweithiad oedd yn cynnyddu yn mysg y clerigwyr israddol yn erbyn gorthrwm a chyfoeth eu huwchafiaid eglwysig—a rhagfynegiadau arwyddocaol gwŷr doeth a deallus, a chwynion yr anfoddogion. Yr oedd y cyfan yn llenwi meddwl ieuangc a brwdfrydig a doeth Savonarola, ac yn gwasanaethu i'w barotoi ar gyfer ei waith yn y dyfodol.

Wedi i ychydig flynyddoedd fyned heibio fel hyn, ac iddo yntau orphen ei addysg, yr oedd mynach Awstinaidd yn tynu sylw neillduol yn Ferrara trwy ei bregethau. Wrth wrandaw arno, rhoddodd ei bregethau gyffroad i feddwl Savonarola, a dyfnhawyd yr argraphiadau crefyddol hyny oedd i effeithio cymmaint arno yn fuan ar ol hyn. Teimlai fod yn rhaid i grefydd

Digitized by Google

ddyfod i gyffyrddiad agosach âg athroniaeth, ac allan o weithiau Aristotle, Plato, Thomas Aquinas, a'r Beibl, aeth o gwmpas y gwaith o dynu allan gyfundrefn dduwinyddol ddetholedig iddo ei hun; ac ymchwiliai yn ddyfal yn ngweithrediadau ei feddwl ei hun, ac mewn gweddïau taerion am y boddlonrwydd hwnw nas gellir ei gael ond yn unig wrth drugareddfa y Gwaredwr. Nid oedd yn gwybod hyd yn hyn am unig ffordd iachawdwriaeth, ac nid oedd ganddo neb i'w ddysgu. Teimlai duedd i ymneillduo i fynachdy; ac yr oedd pregethau y meudwy y cyfeiriwyd ato o'r blaen yn cryfhau y tueddfryd hwn ynddo, fel y bu yn ei feddwl ymrysonfa a barai iddo golli ei gysgu y nos, ac a beryglai ei iechyd. Nis gallai feddwl am ddim arall am dymmor maith, hyd nes y deffrodd yn sydyn un noson o gwsg anesmwyth, a theimlai rhyw iasau dyeithr yn myned drwyddo, fel pe buasai dwfr oer yn cael ei daflu drosto; a chan ei fod, fel y cyffredin o bobl yr oes hono, yn lled hygoelus, efe a gymmerodd hyn fel arwydd ei fod i droi ei gefn ar dŷ ei rieni, lle yr oedd hyd yn oed cwsg yn ei adael. Bu yn y gwely hyd y boreu, a chododd yn benderfynol "i adael gogoniant a gwagedd y byd, a chyflwyno ei hun i ogoniant Iesu Grist." Wedi iddo ffurfio y penderfyniad hwn, nid oedd ganddo ddim amser i'w golli. Ymdrechodd ddyfeisio cynllun i weithio wrtho. Yr amcan mewn golwg ganddo oedd ymneillduo oddi wrth y byd llygredig; ond yr oedd y mynachod mor ymyrgar a dadleugar eu hysbryd, a'u hefrydiau mor baganaidd yn eu nodwedd, fel yr arswydai fod yn aelod yn un o'r cyfundebau mynachaidd oedd yn adnabyddus iddo. Ond tybiai y gallai ymguddio y tu mewn i'r muriau mewn rhyw fynachlog, ac yno ymneillduo hyd yn oed o gymdeithas y brodyr. Tybiai y gallai fyw yno yn ddiniwed fel gwas; canys fel mynach, ystyriai fod yn anhawdd iawn iddo fyw yn ddilwgr. Ni pharhaodd y frwydr yn faith iawn rhwng hyn a'i serch tuag at ei berthynasau, er fod ei serch yn gryf etto; ond ni phetrusai roddi heibio efrydiau a ymddangosent yn awr i'w gydwybod ef yn rhy fydol i'w dilyn yn hwy. Rhoddodd ei lyfrau yn bentwr ar ffenestr ei ystafell, fe allai er mwyn ymgadw rhag bod yn wrthddrych sylw rhanau ereill o'r tŷ; ac yn mysg y rhai hyn gopi o bryddest fer o'i waith ei hun, yr hon a wasanaethai i ddangos nad oedd yn prisio ond ychydig ar y byd yr oedd ar fedr troi ei gefn arno.

Daeth dydd St. Sior, Ebrill 23ain, 1475. Yr oedd ei dad, ei fam, ei frodyr, a'i chwiorydd, yn ngwasanaeth yr offeren, neu yn rhodiana, neu yn mwynhau eu hunain gyda rhyw ddifyrwch neu gilydd. Nid oedd Jerome yn un o'r cwmni; ond yr oedd yn absennol mor fynych fel mai o'r braidd y gwelwyd ei golli. Aeth yn ddistaw allan o'r dref, a chyfeiriodd ei gamrau tua Bologna; a'r dydd canlynol, daeth at byrth mynachlog ardderchog St. Dominic. Croesawyd yr ymnoddwr blinedig yn galonog. Llawenychai y tadau selog gael chwanegiad at eu rhifedi o un ag oedd yn hanu o deulu pendefigaidd, yn ysgolhaig gwych, ac yn un o dalentau gwych, a'r hwn a ymroddai, fel y tybient, gorph ac enaid, i'w hachos. Er ei anewyllysgarwch blaenorol i gymmeryd y wisg fynachol, proffesai yn awr ymostyngiad hollol. Dywed Burlomacchi ei fod, o drefniad dwyfol, wedi anghofio ei deimlad o adgasrwydd blaenorol; ond y mae yn llawer mwy tebygol iddo, dan ddylanwad cymmysg deimladau, gymmeryd ei arwain gan gynnhyrfiad a ystyriai efe yn un sanctaidd, a cholli ei hunanfeddiant. Gwaghaodd ei logellau o'r ychydig ddarnau arian a ddigwyddai fod ganddo, a chymmerodd yn ddioed wisg mynach Dominicaidd. Ond nid oedd yr holl waith wedi ei benderfynu. Gallasai Nicolo Savonarola ddwyn yn mlaen gyhuddiad yn erbyn y brodyr, pe yr ammheuai eu bod wedi denu ei fab. Ac yn wir yr oedd rhyw sylfaen i'r cyfryw ammheuaeth; o herwydd gwelwyd un o'r enw Lodovico, yr hwn a berthynai i'r urdd hono, mewn ymddiddan mynych â'r gŵr ieuangc yn Ferrara. Mynai y frawdoliaeth, gan hyny, i Jerome ysgrifenu llythyr at ei dad; ac yna byddai tystiolaeth ysgrifenedig ar gael yn tueddu i'w rhyddhau hwynt o bob cyfrifoldeb. Ar ol noson o orphwys, efe a gododd yn foreu dranoeth, ac a ysgrifenodd lythyr llawn o serch a theimlad mabaidd at ei dad, yn yr hwn y mynegai ei resymau dros y cam a gymmerasai.

Er mai ei fwriad blaenaf oedd bod yn frawd lleyg, a dim mwy, etto efe a gydsyniodd i dderbyn ordeiniad i'r offeiriadaeth: gweinyddodd yn ngwasanaeth yr offeren, ac aeth i mewn i orchwyl y gyffesgell, lle, yn awr ac eilwaith, y gallasai cyffeswr goleuedig a theimladwy y pryd hwnw sibrwd ychydig frawddegau o wirionedd i glustiau yr edifeiriol, na feiddiasai eu cyhoeddi yn y pulpud. Gwnaeth Savonarola y naill, mor bell ag yr oedd yn meddu goleuni; ac ni adawodd y llall heb ei wneyd, pan, mewn amser diweddarach y troes allan yn bregethwr. Cymmerodd o hyn allan faes eangach i'w efrydiau: dechreuodd astudio dynion yn gystal a llyfrau. Talai sylw i hanesyddiaeth naturiol, athroniaeth feddyliol a duwinyddiaeth. Ond yr oedd y gwahanol ganhenau hyn o wybodaeth wedi eu cymmysgu ynghyd yn y modd rhyfeddaf y pryd hwnw. Yr oedd yn angenrheidiol iddo dalu sylw neillduol i'r materion hyn gan y golygid iddo fod yn ddarlithydd ar athroniaeth feddyliol a hanesyddiaeth naturiol. Bu hyn, pa fodd bynag, yn fendithiol iddo. Mewn cyssondeb â'r adduned o dlodi a gymmerasai, yr oedd wedi gadael ei holl lyfrau adref, ond dau yn unig. Y rhai hyn oeddynt llyfr yn cynnwys gwasanaeth beunyddiol Eglwys Rhufain, a Beibl. Astudiodd y diweddaf gyda'r dyfalwch a'r ymroddiad mwyaf, a mynegir iddo ddysgu allan holl lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd. Dywedir fod y Beibl hwn ar gael mor ddiweddar a'r flwyddyn 1782, yn llyfrgell mynachlog Dominicaidd St. Vincenzo, yn ninas Prato, yn Tuscany, ac ymyl ei ddail wedi eu gorchuddio â sylwadau, wedi eu hysgrifenu gan ei law ef ei hun mewn llythyrenau nodedig o fân.

Pan y bygythiwyd goresgyn Ferrara, lle yr oedd Savonarola yn aros ar ol diwedd tymmor ei brawf fel mynach, penderfynodd awdurdodau y fynachlog fod i'r brodyr gael eu dosbarthu i sefydliadau ereill y tu hwnt i derfynau y rhyfel. Symmudwyd Savonarola o Ferrara i Florence, lle yr awgrymwyd gyntaf am iddo ddechreu pregethu. Mewn ufudd-dod i'w uwchafiaid, efe a wnaeth y cais: ond methu yn druenus a wnaeth yn yr ymgais cyntaf a wnaeth, er iddo ddyfod wedi hyny yn ddiammheuol yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd yr holl oesau. Yr oedd ei gymmeriad uchel am ddysg a thalent wedi dwyn llawer ynghyd i wrandaw ar ei ymgais cyntaf; ond terfynu y cwrs cyntaf hwn o bregethau a wnaeth trwy gyfaddef i ryw bump ar hugain o gardotwyr a thlodion, oedd yn

Digitized by Google

gwaeddai, nes yr oedd ei eiriau yn cael eu hargraphu ar bob meddwl a'i gwrandawai: "Cleddyf yr Arglwydd ar y wlad a ddaw yn fuan a disymmwth." Gofynai y bobl pa bryd? Yr un atteb oedd ganddo i'w roddi i'r miloedd a'i gwrandawent—"Yn fuan a disymmwth." Cyflawnwyd y rhagfynegiad cyn pen hir. Yr oedd llawer o son am ryfeloedd, a Naples yn cael ei bygwth. Yr oedd Venice yn crynu; ac ofn ac arswyd hefyd yn llywodraethu yn nghynghorau Rhufain. Etto i gyd, yr oedd llygredigaeth yn dyfnhau, ac annuwioldeb yn cynnyddu. Safai Savonarola ei hunan yn unig dyst ffyddlawn a chywir yn erbyn yr awdurdodau, gwladol ac eglwysig, a'u llygredigaethau a'u hanghyfiawnderau. Rhagfynegai yn feunyddiol y fflangell oedd i ddyfod, nes oedd pobl Florence, o'r mwyaf hyd y lleiaf yn mron, yn plygu mewn ymostyngiad yn wyneb y bygythiad, ac yn ymprydio, yn wylo, a gweddïo. Bu farw y gwladweinyddion goreu yn fuan, y naill ar ol y llall; ac nid oedd un wedi ei adael ar ol, trwy fedrusrwydd yr hwn y gallesid gochelyd rhyfel trwy fabwysiadu gwladlywiaeth heddychol. Pan oedd pob peth mewn dyryswch, penderfynodd brenin Ffraingc oresgyn Italy, mewn trefn i osod ei hun, trwy rym arfau, ar orsedd Naples, yn rhinwedd rhyw hen hòniad a roddasid o'r neilldu o'r blaen.

Croesodd Charles VIII., gyda byddin liosog, fynyddoedd yr Apennines, yn Monte Ginevra, yn mis Awst, 1494; ac heb ddiweinio cleddyf, efe a gasglodd ysbail lawer, ac a nesaodd at diriogaethau y weriniaeth. Yma y gwnaed y gwrthsafiad cyntaf yn erbyn ei fyddin; ond cymmerodd y Ffrangcod ddwy dref, sef Fivizzano a Sarzana, ac ymddygasant yn dra chreulawn tuag at y gwarchodluoedd oedd ynddynt. Aeth mab Lorenzo de Medici i wersyll y gelynion, er nad oedd wedi ei awdurdodi gan ei gyd-ddinaswyr; ac ymostyngodd, neu cymmerodd arno ymostwng, gan gyflwyno i frenin Ffraingc amryw drefydd. Taflwyd Florence i ddychryn gan y weithred hon: ac wedi ymgynghori yn frysiog, aeth yr ynadon i St. Marco, i erfyn ar Savonarola—ynghyd â dau neu dri ereill—i fyned fel eu prif gynnrychiolydd i ymddiddan â Charles, a chael allan ei fwriad o barthed i Florence, a'i berswadio i beidio ymosod ar y ddinas ar ei ffordd i Naples. Cyflwynodd Savonarola ei achos ger bron yr Arglwydd mewn gweddi ddwys, ymgynghorodd â'r mynachod, a gwnaeth ei feddwl i fyny i gydsynio â chais ei gyd-ddinasyddion, ac yna aeth ymaith yn ddioed gyda'i genadwri. Daeth y cenhadon o hyd i'r brenin yn Pisa, a chaniataodd yntau iddynt ddyfodfa i'w bresennoldeb yn ddiymdroi; ac anerchodd Savonarola ef, yn hytrach fel cenad oddi wrth Dduw nag oddi wrth drigolion Florence. Dywedodd wrtho ei fod ef eisoes wedi rhagfynegu ei ddyfodiad i Italy, fel un oedd yn gweinyddu cyfiawnder Duw, "i ddarostwng y balch, ac i ddyrchafu y gostyngedig, i roddi i lawr ddrygioni, i gefnogi rhinwedd, i adferu yr hyn a daflwyd i annhrefn, i adgyweirio yr hyn oedd ar y ffordd i ddinystr, ac i ddiwygio yr hyn oedd feius." Er hyny cynghorodd ef i ymddwyn yn drugarog; ac yn enw y Drindod, rhagrybuddiodd ef o anfoddlonrwydd Duw os euog a fyddai o anghyfiawnder, neu os caniatau a wnelai i'w fyddin arfer creulonderau. Ond aeth Charles i mewn i Florence gyda rhwysg mawr, ac arosodd yno dros amryw ddyddiau, gan ymdrechu gosod mesurau gorthrymus ar y ddinas, yr hyn a barodd i'r bobl deimlo yn anesmwyth; a chythruddwyd ef i'r fath raddau nes peri iddo ddarparu ar gyfer rhoddi trigolion y dref yn gyffredinol yn aberth i'r cleddyf, pryd yr appeliwyd eilwaith at Savonarola, i ddeisyf ar iddo ymdrechu lliniaru ei ddigllonrwydd. Ni chollodd foment o amser; ac aeth yn ddioed at y gorchwyl peryglus, a medrodd weithio ei ffordd yn mlaen i bresennoldeb y brenin; a chydag eofndra, ag y synai efe ei hun ato ar ol hyny, dywedodd wrtho y dygai y Duw hwnw sydd yn cospi brenhinoedd anghyfiawn ddinystr arno ef a'i fyddin, os nad ymogelai rhag y fath weithred greulawn, a gosod o'r neilldu y bwriad a ffurfiwyd ganddo yn erbyn y ddinas hono. A dywedodd wrtho, os nad ymattaliai, y byddai i weinidogion ac anwyliaid yr Arglwydd yn y lle waeddi ar eu Duw am iddo ddyrysu ei gynlluniau, a distrywio ei fyddin. Adgofiodd ef o dynged druenus Senacherib, brenin balch yr Assyriaid, a sicrhaodd iddo mai ewyllys yr Arglwydd ydoedd, ar iddo ymadael o Florence yn uniongyrchol. Tarawyd y brenin â mudandod, ac felly hefyd gwŷr ei lys; ac yna trodd Savonarola ei gefn ar y brenin a'i lys. Ni chyflawnwyd y gyflafan:—ymadawodd Charles, ac aeth yn mlaen tua Rhufain. Ar achlysuron ereill, ar ol hyn, pan fu y penadur hwnw yn y gymmydogaeth, bu Savonarola yn ymddiddan âg ef, a derbynid ef ganddo gyda phob amlygiad o barch diffuant; ac edrychai y Ffrangcod arno fel gweinidog i Dduw, os nad o'r bron fel prophwyd ysbrydoledig.

Yr oedd Savonarola yn awr yn ymarfer dylanwad moesol dirfawr ar bobl y ddinas y preswyliai ynddi. Talai sylw arbenig i'r plant, fel y gellid meddwl eu bod yn wrthddrychau neillduol ei ofal. Ymgasglent yn dyrfaoedd i orielau coed a gyfodasid iddynt yn yr eglwys gadeiriol, ac unodd hwynt ynghyd mewn math o gymdeithas, gan eu galw "Plant Crist." Rhanodd hwynt yn bedair rhan, yn cyfatteb i bedwar chwarter y ddinas, ac yr oedd pob un o'r rhaniadau hyn yn cael eu dosranu yn gwmniau llai. Yr oeddynt yn rhwym o ufuddhau i reolau rhagorol gyda golwg ar eu hymddygiadau; hynodid hwy gan wisgoedd syml; ac am rai blynyddoedd, deuent ynghyd at eu gilydd ar ddiwrnod pennodol yn y Grawys, a'r oll o honynt yn rhifo tuag wyth mil. Yn ystod y flwyddyn, elent oddi amgylch tai y dinasyddion, i'r dyben o berswadio y bobl i roddi heibio pob oferedd a gwagedd mewn gwisgoedd a dodrefn; ac ymddygid tuag atynt nid yn unig yn garedig, ond hefyd mewn modd parchus. Rhoddai pobl iddynt nwyddau o werth mawr, y tybid nad oeddynt yn ddim amgen nag addurn, ac yn tueddu at fagu moethusrwydd; ac ar ddiwedd pob tair blynedd nesaf i'w gilydd, pentyrid y pethau hyn ar eu gilydd yn yr ysgwâr fwyaf yn y dref, ar ddarnau o goed, yn y rhai y dodid tân, pryd y cenid clychau, y chwythid udgyrn, a chôrgenid hymnau. Diammheuol fod y dyn a allai berswadio y Florentiaid i wneyd aberth blynyddol o'r fath eiddo gwerthfawr yn pregethu gyda grym a nerth anarferol. Ond yr oedd y bobl yn gwneyd mwy na'r aberthau hyn. Yr oedd yr ymprydiau, gyda gweddïau, mor gyffredinol a mynych, fel yr oedd cigyddion y ddinas mewn perygl o gael eu dinystrio yn eu hamgylchiadau; ac o ganlyniad rhyddhawyd hwynt rhag talu trethi. Rhoddodd y benywod i fyny ymwisgo yn gostus, ac yr oedd arwyddion difrifwch yn eu holl ymddygiadau. Diwygiwyd llawer oedd

Digitized by Google

arweiniad prif ynad newydd, yr hwn a fuasai yn elyn dirgel i Savonarola er's amser maith. Daeth un o'r enw Francesco da Puglia, o urdd y Brodyr Lleiaf, ac un o'r lliaws pregethwyr yr oedd eu talentau wedi eu profi yn aflwyddiannus yn eu hymosodiadau arno mewn blynyddoedd o'r blaen, allan i'w herfeiddio i ymostwng i'r hyn a elwid 'y prawf tanllyd' *(fiery ordeal)*, er profi gwirionedd ei athrawiaeth a'i ragfynegiadau. Diammheu fod y dyn hwn, neu y sawl a'i pleidiodd, yn gobeithio, os cawsai yr herfeiddiad ei dderbyn, y buasai efe, fel ereill o'i flaen, yn gallu myned drwy math o dân heb ei niweidio, trwy arfer rhyw gymmysgedd nad oedd yn adnabyddus ond i ychydig; ac yr oedd y wybodaeth hon yn cael ei chadw fel dirgelwch o werth mawr ar y fath achlysuron. Cofnodir am rai gwŷr eglwysig yn y canol oesoedd a lwyddasant i ddal y prawf hwn. Yr oedd Pietro Aldobrini, yr hwn wedi hyny a wnaed yn gardinal, wedi myned trwy 'brawf y tân' heb dderbyn niwed yn ninas Florence, yn y ganrif o'r blaen; ac am hyny y gelwid ef *Pedr danllyd.* Rhoddwyd yr un enw ar ereill hefyd am yr un rheswm. Nid oedd Savonarola yn adnabod y dirgelwch yma; neu, os gwyddai am dano, yr oedd yn rhy onest i wneuthur defnydd o hono: nid oedd chwaith yn ewyllysio gwneyd gweithred mor orphwyllog a cherdded yn mlaen i gael ei losgi yn anocheladwy, ac nis gallai gymmeradwyo y cynllun fod neb i wneuthur hyn drosto. Gan hyny, efe a wrthododd yr herfeiddiad, a rhoddodd ei resymau dros y gwrthodiad. Ond parhau yr oedd y llall i herio, a chynnygiodd llawer o bersonau gymmeryd lle Savonarola, a myned drwy y prawf yn ei le: ac o'r diwedd daeth Domenico da Pescia, cyfaill o'r fath ffyddlonaf i Savonarola, yn mlaen, a derbyniodd yr heriad, a chynnygiodd i amddiffyn, gyda 'phrawf y tân,' y pethau canlynol:—

"Fod angen ar eglwys Dduw am ddiwygiad. Y ceryddir hi yn gyntaf, ac wedi hyny y diwygir hi."

"Y bydd i ddinas Florence, hefyd, ar ol y cerydd, gael ei hadnewyddu, a llwyddo."

"Yr argyhoeddir ac y dychwelir anffyddwyr: ac y cymmer yr holl bethau hyn le yn ein dyddiau ni."

"Ac yn mhellach: Fod yr esgymmundod a gyhoeddwyd ar Fra Girolamo yn ddirym, ac nad ydyw y sawl sydd yn edrych arno felly yn cyflawni pechod."

Un o'r enw Guigliano Rendinelli oedd i gynnrychioli Francesco da Puglia. Caniataodd maingc yr ynadon i'r prawf gymmeryd lle; a chafwyd cyttundeb ysgrifenedig rhwng y ddau fynach, yr hwn a wnaed yn eu presennoldeb, ac ymgymmerasant i wneuthur yr holl drefniadau angenrheidiol i gwblhau y prawf. Nis gallai Savonarola attal yn hwy i'r prawf fyned yn mlaen. Yr oedd yr Eglwys Babaidd wedi caniatau i brawfion o'r fath gymmeryd lle, a'r pab wedi dadgan yn gyhoeddus ei gymmeradwyaeth o'r prawf hwn, a dechreuai y bobl waeddi am dano; a gobeithiai Savonarola y gwaredai yr Arglwydd ei was fel y gwaredodd efe yr Hebreaid o'r ffwrn boeth yn Babilon. Gwnaed darpariadau o dan gyfarwyddyd yr awdurdodau gwladol. Cyfodwyd esgynlawr coed, yn ysgwâr fawr Palas Cyfiawnder, yr hon oedd yn ddeuddeg troedfedd o uchder, a deunaw o led, a chant ac ugain o hyd. Taenwyd drosti haen dew o bridd, er attal y tân i gyrhaedd y coed. Ymgodai dau bentwr o ffagodau i gryn uchder gyferbyn â'u gilydd, ac yn nghanol y ffagodau rhoddwyd pŷg a defnyddiau llosgadwy ereill, ynghyd â mân gydau llawn o bylor. Nid oedd pylor yn adnabyddus pan y cerddodd 'Pedr danllyd' trwy y fflamau; neu, os oedd, tybed a gawsai efe ei ddefnyddio? Onid cynllun oedd hwn wedi ei amcanu i ladd—ac nid i brofi!

Daeth Savonarola a Domenico da Pescia allan o St. Marco, yn blaenori yr holl fynachod oedd yn y fynachlog hono, ynghyd â'r rhai oedd mewn dwy ereill berthynol i'r un urdd, mewn gorymdaith ddifrifol, yn cael eu dilyn gan nifer mawr o lëygwyr—oll yn cario croesau cochion syml, a chanwyllau cŵyr wedi eu goleuo. Corganai y cantorion *Salm* lxviii., sydd yn dechreu fel hyn:—"Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion; a ffoed ei gaseion o'i flaen ef." Ac ail adroddid pob adnod gan y rhai a ymunasant yn yr orymdaith. Yr oedd heolydd y ddinas yn mhob man, y ffenestri, ac hyd yn oed penau y tai, wedi eu llenwi âg edrychwyr; a phan aeth Savonarola i'r ysgwâr, tarawyd yr holl bobl oedd yn bresennol yn fawr gan ddifrifwch ei ymddangosiad, fel y torodd pawb yn mron allan i wylo. Parotowyd dwy allor, un i bob plaid. Ymostyngodd Savonarola a'i gyfaill mewn gweddi wrth ei allor ei hun. Ni wnaeth cynnrychiolydd Puglia ei ymddangosiad. Mynegid ei fod yn y Palas, ond nis gwelodd neb ef. Yr oedd dau ddirprwywr wedi eu pennodi o bob tu, i weithredu fel cefnogwyr yn yr achos; ac yn mhen ychydig gwnaeth cefnogwyr y Brodyr Lleiaf eu hymddangosiad, a chynnygiasant nad oedd Domenico i fyned i'r tân yn ei ddillad ei hun, rhag bod rhyw swŷn yn perthynu iddynt, ond ei fod i ymwisgo yn nillad un o'r Brodyr Lleiaf. Gwrthwynebodd Savonarola hyn, am y rheswm y buasai y cyfnewidiad yn ammharch ar yr urdd y perthynai iddi, ac yn ddarostyngiad arno ef ei hun; ond rhoddodd ar ddeall, os oedd arnynt ofn rhyw sŵyn, na byddai gwrthwynebiad iddo ymwisgo yn ngwisg unrhyw frawd o'r un urdd ag ef, y byddai iddynt hwy benderfynu arni. Ar ol peth ymddadleu, cyttunwyd ar hyn. Aeth Domenico, ynghyd â'r pedwar dirprwywr, a brawd arall, o'r neilldu, a gwnaed y cyfnewidiad hwn. Wedi hyny, cyfododd anhawsder arall; ni oddefid iddo fyned â'r groes i'w ganlyn i'r tân. Ond nid oedd Domenico yn foddlawn i'w rhoddi i fyny, a bu llawer o ymddadleu mewn canlyniad. Yr oedd yr oediad o amryw oriau a gymmerasai le yn barod yn mron wedi gwisgo allan amynedd y bobl, y rhai a ddechreuent waeddi am gael gweled yr hyn y daethant ynghyd i fod yn dystion o hono. Yn nghanol y cyffro, yn anffodus cynnygiodd un o'r Dominiciaid ar fod i Domenico adael y groes, ond cymmeryd aberth yr offeren *(host)* gydag ef. Cydsyniodd Savonarola â hyn. Cariodd y dirprwywyr y cynnygiad hwn i'r Palas i ofyn caniatâd yr ynadon, y rhai oeddynt yno ar hyd y dydd yn eistedd ar yr achos hwn; ond mor fuan ag y clywodd y blaid wrthwynebol y cynnygiad hwn, gwaeddodd un o honynt allan:—"Beth! a oes arno eisieu myned â'r sacrament gydag ef i'r prawf? Y mae hyny yn ammhossibl." Crewyd cyffro dirfawr mewn eiliad. Yr oedd yr ynadon yn y fath benbleth fel nas gallent ddyfod i benderfyniad; ac mewn ychydig funydau rhoddasant y prawf i fyny fel un anymarferol. Yr oedd eisoes adroddiad yn cael ei daenu yn mhlith y bobl yn yr ysgwâr fod Savonarola wedi dymuno

Digitized by Google

cael llosgi arlladen y sacrament, a throdd y digwyddiad dibwys hwn ynddo ei hun deimlad y bobl ar unwaith yn ei erbyn. Hwtiwyd ef gan y lliaws fel un a fynai ysbeilio y cyssegr; taflent geryg, a phethau ereill, ato ef a'i fynachod; a chydag anhawsder mawr y gallodd ei gyfeillion ei amddiffyn nes iddo gyrhaedd porth St. Marco. Ymosodwyd ar y fynachlog drachefn gan rai o'i elynion; ond amddiffynwyd hi yn ddewr gan y rhai oedd y tu fewn. Teimlai yr ynadon newydd yn llawen o blegid y digwyddiad hwn, a chefnogasant yr ymosodiad, a llofruddiwyd llawer o'i gyfeillion yno, ac mewn amryw barthau ereill o'r ddinas, ac yn eu plith brawd i Savonarola. Pan y daeth y nos, hwy a anfonasant allan wŷr arfog, nid i amddiffyn y fynachlog, ond i gymmeryd Savonarola i'r ddalfa. Dygwyd ef yn rhwym i'w presennoldeb, taflwyd ef i garchar, a thranoeth rhoddwyd ef, a Domenico, ac un arall, ar yr un arteithglwyd pan yn eu holi. Ni chafwyd dim allan o hono a dueddai i'w gondemnio; ond darfu i nodiadur, oedd yn hynod am ei anonestrwydd, gynnyg ei wasanaeth i ddarparu rhywbeth ar ffurf o gyhuddiad a fuasai yn atteb eu dyben. Gwnaed hyny, ac anfonwyd y brawfysgrif a barotowyd ganddo i Rufain. Anfonwyd Savonarola yn ol i'r carchar, a bu yno am fis; ac yn y cyfamser yr oedd y pab yn ymdrechu perswadio y Florentiaid i'w ddanfon ef i Rufain. Ond nid oedd yr ynadon, gan yr ofnent iddo fradychu "dirgelion y weriniaeth," am gydsynio â hyn: gan hyny, anfonodd y pab ddau genhadwr i'w gynnrychioli ef yn Florence. Galwyd Savonarola i fyny ger bron yr ynadon unwaith yn rhagor, a chafodd ei gondemnio, a'i ddedfrydu i'w roddi i farwolaeth.

Dranoeth, ar ol cyhoeddi y ddedfryd arno, cymmerwyd ef, a'i gymdeithion, F. Domenico da Pescia, a Silvestro Maruffi, i le y dienyddiad. Cymmerodd hyn le y 23ain o Fai, 1498. Dygwyd yn mlaen ei ferthyrdod yn lled debyg i'r drefn arferol a appwyntiasid gan yr Eglwys Babaidd yn y cyfryw amgylchiadau. Ond pan y cymmerodd yr esgob ef gerfydd ei law i gyhoeddi arno ddedfryd ei ddiswyddiad, nid ymfoddlonai ar ddywedyd—"Yr wyf yn dy ysgaru oddi wrth yr eglwys filwriaethus;" ond, yn ei lawenydd, chwanegodd at hyny ddau air arall; sef, "a buddugoliaethus." "Na," attebai Savonarola, mewn llais uchel, ond hynod dawel, "oddi wrth yr eglwys filwriaethus, os gwelwch yn dda, ond nid oddi wrth yr eglwys fuddugoliaethus." Edrychai yr esgob fel un wedi cywilyddio. Cyflwynodd swyddog perthynol i'r llys bapur i Romolino, cenhadwr y pab, yn cynnwys copi o ddedfryd marwolaeth a gyhoeddasid arno am heresi. Yna llefarodd Remolino fel y canlyn:—"Y mae yn rhyngu bodd i'w sancteiddrwydd, ein harglwydd Alexander VI. i'ch gwaredu o boenau y purdan, ac i'ch adferu i'ch diniweidrwydd blaenorol. A ydych chwi yn barod i dderbyn hyn?" Plygodd Savonarola, a'i gydferthyron, ychydig ar eu penau, ond ni ddywedasant air. Nid oeddynt yn gofyn am, nac yn dymuno ei faddeuant. Ac yn ddioed dygwyd hwynt allan i'r dienyddle—er fod y pab wedi cymmeryd arno eu hadferu i sefyllfa o ddiniweidrwydd, a'u gwneyd yn ddigon pur i gael eu gwaredu rhag poenau y purdan! Crogwyd hwynt ar yr un grogbren, o dan yr hon yr oedd ffagodau wedi eu gosod, yn y rhai y rhoddwyd tân; a chyn eu bod yn mron yn hollol farw, yr oedd eu cyrph wedi eu hamdoi yn llwyr gan y fflamau. Ac fel na byddai i ddim a berthynai iddynt gael ei gadw, ïe, hyd yn oed eu cyrph meirw, casglwyd ynghyd eu lludw, a thaflwyd ef i'r afon Arno.

Yr oedd coffadwriaeth y pregethwr llofruddiedig yn beraidd a pharchus gan y Florentiaid am amser maith. Cenid ei glod a'i rinweddau gan eu beirdd: yr oedd eu harlunwyr a'u cerflunwyr yn paentio ac yn cerfio ei ddarlun, un o ba rai a ddangoswyd i Luther, er lled arwyddo iddo y dynged y gallasai yntau hefyd ei disgwyl: ac y mae enw a choffadwriaeth Savonarola yn dyfod yn uwch yn Italy yn feunyddiol. Gellir edrych arno fel un o'r rhai mwyaf nodedig ac enwog o holl ragredegwyr y Diwygiad Protestanaidd. Mynegir iddo ef, a'r ddau a gydddioddefent âg ef, broffesu eu hymlyniad wrth yr Eglwys Babaidd; ond y mae yn gwestiwn gan rai Pabyddion hyd heddyw pa fodd i edrych arno—pa un ai fel un ymroddedig i'w crefydd hwynt, neu ynte fel rhagredegydd brwdfrydig y symmudiad mawr hwnw a ymddadblygodd yn llawn yn y Diwygiad Protestanaidd. Fel un o ragredegwyr penaf y Diwygiad yr ydym ni yn edrych arno; a dyma y rheswm pa ham yr ydym wedi rhoddi cymmaint o fanylion ei fywyd yn yr erthygl hon.

Yr oedd Savonarola yn awdwr i amryw o lyfrau Ysgrifenwyd hwynt oll naill ai yn y Lladin neu yn yr Italaeg; ond y maent gan mwyaf wedi eu cyfieithu i'r Ffrangcaeg, yr Almaenaeg, yr Yspaenaeg, ac ieithoedd ereill. Ei weithiau yn y Lladin ydynt: (1.) "*Ar Unolioeth yr Enaid Dynol;*" (2.) "*Buddugoliaeth y Groes;*" (3.) "*Ymddiddaniad rhwng yr Ysbryd a'r Enaid;*" (4.) "*Esboniad Pedwarplyg ar Weddi yr Arglwydd;*" (5.) "*Ar Berffeithrwydd y Bywyd Ysbrydol.*" Cyfieithwyd y rhan fwyaf o honynt yn yr oes hono i'r Italaeg, a rhai hyd yn oed gan Savonarola ei hun. Ei brif weithiau Italaidd ydynt: (1.) "*Traethawd ar Ostyngeiddrwydd;*" (2.) "*Ar Gariad Iesu Grist;*" (3.) "*Ar Sefyllfa o Weddwdod;*" (4.) "*Dau Draethawd ar Weddi;*" (5.) "*Rheolau Bywyd Cristionogol;*" (6.) "*Ar Ddirgelion yr Offeren,*" ynghyd âg amryw draethodau ar faterion athrawiaethol ereill. Ni chyhoeddwyd casgliad o'i bregethau, ac y mae ei ohebiaethau hefyd gan mwyaf wedi eu colli;" ond y mae y gweithiau sydd yn aros yn ddigon i amlygu hynodion ei athrylith gref, a'r brwdfrydedd a'r anhyblygrwydd a fuont yn elfenau mor gryfion yn y dylanwad a ymarferai ar yr oes lygredig, ond i raddau pell ddiwylliedig, yr oedd yn byw ynddi. Y mae rhai o'i bregethau ar gael etto, a hwy yn ddiau ydyw ei gynnyrchion mwyaf nodedig. Yr oedd yn areithiwr hynod o boblogaidd, ac yn deall y ffordd i effeithio ar deimladau ei wrandawyr yn mron i berffeithrwydd.

SAVOY, CYNNADLEDD: enw a roddwyd ar gynnadledd eglwysig a gynnaliwyd yn Mhalas y Savoy (yr hwn a elwid felly ar ol Peter, Iarll Savoy a Richmond, gan yr hwn yr adeiladwyd ef yn 1245; llosgwyd ef gan Wat Tyler yn 1381; ac ail adeiladwyd a gwaddolwyd ef, yn 1505, fel meddygdy i bobl dlodion) gan y duwinyddion esgobaethol a Phresbyteraidd, i'r dyben o gael allan pa faint y gofynid i'r blaenaf ei ganiatau er boddloni y diweddaf; a disgwylid i hyny "arwain i undeb ac unffurfiaeth drwy yr holl deyrnas." Yr oedd Eglwys Loegr mewn



Digitized by Google

sefyllfa hynod annhrefnus am yr ysbaid o amser y bu Cromwell yn amddiffynydd. Yr oedd y mwyafrif o'r clerigwyr a ddalient swydd yn nhymmor boreuaf y rhyfel cartrefol yn bleidiol iawn i frenhiniaeth; a throwyd hwynt allan, neu diangasant, pan y buddugoliaethodd achos y senedd. Cymmerwyd eu lleoedd mewn llawer o amgylchiadau gan Bresbyteriaid selog—corph lled liosog yn Lloegr ar y pryd; ac o herwydd hyn, ar adferiad Charless II., yr oedd cryn nifer o weinidogion o fewn yr eglwys yn wrthwynebol i ddwyn yn ol iddi y drefn esgobyddol. Gwyddai y brenin hyn; a chan ei fod yn awyddus, i raddau, i osgoi mesurau llymion, pe y gellid eu gochelyd, anfonodd freintlythyrau allan, a phennododd ddeuddeg o esgobion, a naw o glerigwyr fel cynnorthwywyr ar yr ochr esgobaethol, i gyfarfod yr un nifer o dduwinyddion Presbyteraidd, i ymgynghori ynghylch, ac i adolygu y "*Llyfr Gweddi Cyffredin.*" Yn mysg y dirprwywyr esgobaethol, yr oedd Frewen, archesgob Caerefrog; Sheldon, esgob Llundain; Gauden o Exeter; Reynolds, o Norwich, &c.: yn mhlith eu cynnorthwywyr yr oedd y doctoriaid Peter Heylin, John Pearson, a Thomas Pierce, &c. Yn mysg y rhai enwocaf o'r cynnrychiolwyr o'r ochr arall, yr oedd Richard Baxter, Dr. John Wallis, Edmund Calamy, William Spurstow, a Mathew Newcomen. Agorwyd y gynnadledd, yr hon a barhaodd am bedwar mis, ar y 13eg o Ebrill, yn y flwyddyn a nodir uchod. Yn ol Burnet, yr oedd y Presbyteriaid yn hawlio ar fod cynllun yr archesgob Usher o "adferiad esgobyddiaeth," yn yr hwn yr oedd elfenau y gyfundrefn Ysgotaidd o henaduriaethau, synodau, a chymmanfaoedd yn cael eu cyfuno gyda'r gwahaniaethau mewn swyddogaethau eglwysig, yn cael ei wneyd yn sylfaen i ddechreu gweithio. Hawlient hefyd ar fod i'r ail adroddiadau neu yr attebion *(responses)* yn y gwasanaeth cyhoeddus gael eu rhoddi heibio; ar fod i'r gweddïau yn y litani i gael eu cyfuno yn un; na byddai un o'r llithoedd i gael eu cymmeryd o'r "*Apocrypha;*" fod i'r salmau a ddarllenid yn y gwasanaeth dyddiol i fod yn ol y cyfieithiad newydd; fod y term 'ailanedig' (yn mysg ereill) yn cael ei dynu allan o'r gwasanaeth bedyddiol; a bod arfer y wenwisg, y groes yn y bedydd, a defnyddio tadau a mamau bedydd, a dyddiau y gwyliau, yn cael eu troi heibio. Mewn attebiad, mynegid iddynt nad oedd gan y ddirprwyaeth un awdurdod i ymdrin â chwestiynau yn dwyn perthynas â llywodraethiad yr eglwys—y fath ag oedd yn gynnwysedig yn nghynllun yr archesgob Usher; ac ar hyny aethpwyd i ystyried pyngciau a dybid yn fwy dibwys i'w cyfnewid yn y ffurfwasanaeth. Tynodd Baxter allan, trwy gydsyniad ac ar gais ei blaid, Ffurfwasanaeth Diwygiedig, ar yr hwn nid edrychai y dirprwywyr esgobaethol, gan y tybient fod ymwrthod â'r hen un yn beth nad oedd ganddynt hawl i'w wneuthur. O'r diwedd, ymwahanodd y pleidiau heb ddyfod i un math o benderfyniad; a dilynwyd yr ymgais aflwyddiannus hwn i wneyd ymheddychiad gan "Ddeddf yr Unffurfiaeth" yn 1662, pryd y gorfodwyd dwy fil o glerigwyr mwyaf talentog, dysgedig, selog, a ffyddlawn yr Eglwys Sefydledig i droi allan o honi.

SAXE, HERMANN MAURICE, COUNT O SAXONY: un o ryfelwyr penaf Ewrop yn y ddeunawfed ganrif. Mab ordderch oedd i Augustus II., etholydd Saxony a brenin Poland, a'r Countess Aurora von Königsmark, boneddiges Swedaidd. Ganwyd ef yr 28ain o Hydref, 1696. Pan nad oedd efe ond deuddeng mlwydd oed, efe a redodd oddi cartref, ac a wnaeth ei ffordd i Flanders, lle yr ymunodd â byddin y Duc o Marlborough, a chymmerodd ran yn narostyngiad Lille a gwarchauad Tournay. Pan nad oedd ond deunaw mlwydd oed, perswadiodd ei fam ef i briodi, yn 1714, âg aeres Almaenaidd brydweddol, tua'r un oedran. Cymmerodd ran yn ystod y ddwy flynedd ddilynol yn y rhyfel cartrefol a ddygid yn mlaen yn Mholand; ond gan iddo gweryla gyda gweinidog mwyaf ffafredig ei dad, efe a ddychwelodd i Dresden; ond nid hapus iawn oedd ei fywyd yno, gan fod gan ei wraig sail gref i ammheu ei ffyddlondeb i'w gyfammod priodasol. Cafodd ysgariaeth oddi wrth ei wraig, a blwydd-dâl gan ei dad; ac aeth i Paris yn 1720, lle yr ymroddodd am rai blynyddoedd i astudio cadofyddiaeth, ac yn enwedigol y gelfyddyd o ymosod ar leoedd amddiffynedig.

Etholwyd ef yn Dduc o Courland yn 1726, ac am yspaid amddiffynodd ei hun yn ei diriogaeth newydd yn erbyn y Rwssiaid a'r Pwyliaid; ond gorfodwyd ef i encilio i Ffraingc yn y flwyddyn ganlynol. Yn 1728, ar farwolaeth Catherine I. o Rwssia, gwahoddwyd ef i ddychwelyd i Courland gan y Dduces waddolog o Courland (trwy ddylanwad yr hon, yn benaf, yr etholwyd ef yn Dduc o Courland), yr hon oedd wedi gosod ei serch arno. Cydsyniodd yntau â'r cais; ac nid oes lle i ammheu na buasai wedi ei wneyd yn gyfranog â hi o orsedd y Czariaid, i ba un yr etholwyd hi yn 1730, pe na buasai wedi darganfod cyn hyny enghreifftiau o'i anffyddlondeb ef, yr hyn a barodd iddi ar unwaith ymwrthod âg ef. Yna efe a ddychwelodd i Paris, ac a aeth drachefn i Dresden. Bu farw ei dad, Augustus II., yn y fl. 1733. Cyhoeddwyd rhyfel rhwng Ffraingc ac Awstria yn 1733, ac aeth Maurice o Saxony i lys Versailles i gynnyg ei wasanaeth. Anfonwyd ef i fyddin y Rhine, yr hon oedd o dan lywyddiaeth y Duc o Berwick. Gwnaeth Maurice enw iddo ei hun yn ngwarchauad Phillipsburg, ac appwyntiwyd ef yn isgadfridog pan y gwnaed heddwch yn 1736. Dychwelodd yn awr i Dresden, gyda'r amcan o hòni ei hawl i dduciaeth Courland; ond gan iddo fethu yn yr ymgais hwn, efe a ddychwelodd i Paris, ac ymroddodd eilwaith i astudio y gelfyddyd o ryfela, ac i gwblhau gwaith ar yr hwn y buasai yn llafurio arno am beth amser, yr hwn a elwid ganddo "*Mes Rêveries.*"

Ar farwolaeth yr ymherawdwr, Charles VI., yn 1740, torodd rhyfel cyffredinol allan. Anfonodd Louis XV. fyddin i Bohemia o dan arweiniad yr Ardalydd Belle-Isle—yr aden aswy o ba un a ymddiriedwyd i lywyddiaeth y Count o Saxony, yr hwn a orchymynwyd i amgylchu a gwarchau ar Prague (1741), yr hon a gymmerwyd trwy ruthr yn mhen ychydig ddyddiau; a chymmerodd Riga hefyd ychydig ddyddiau yn ddilynol i hyny; ac am y gweddill o'r rhyfelgyrch, dangosodd nad oedd ei alluoedd ar y maes agored yn llai na'i fedrusrwydd gyda darostwng amddiffynfeydd. Yn 1744, gwnaed ef yn faeslywydd Ffrengig, a phennodwyd ef i lywyddu byddin Ffraingc yn Flanders; ac yn y rhyfelgyrch hwn rhoddodd brofion amlwg o ragoriaeth ei drefniadau newydd o gadofyddiaeth, trwy orfodi gelyn oedd yn lliosocach i aros yn llonydd, a thrwy gymmeryd oddi arno amryw o

Digitized by Google

wedi ei uno â synwyr a chraffder digymmhar yn mron. Er ei fod yn ei feirniadaethau ar eiriau, ac yn ei welliadau a'i ddyfaliadau, yn fynych yn rhy eofn a mympwyol, etto y mae yr oll a wnaeth yn dwyn argraph ei athrylith fawr, ac nid yn fynych y gwna ei hun yn agored i'r cyhuddiad o anghywirdeb. Y penaf o weithiau Scaliger ydyw ei "*De Emendatione Temporum*," yr hwn sydd yn cynnwys cyfundrefn o amseryddiaeth wedi ei threfnu ar egwyddorion sefydlog, ac ennillodd y gwaith hwn iddo y teitl o dad y wyddor o amseryddiaeth. Rhifai yn mysg ei gyfeillion ddysgedigion penaf ei ddydd, megys Lipsius, Casaubon, Grotius, Heinsius, y Dupuys, Saumaise, Vossius, Velser, a P. Pithou.

SCEFA: Iuddew oedd yn trigo yn Ephesus pan y talodd Paul ei ail ymweliad â'r ddinas hono: *Act.* xix. 14—16. Y mae yn cael ei ddisgrifio fel 'archoffeiriad' (ἀρχιερεύς). Nid ydyw yn debyg ei fod wedi arfer y swydd hono. Yr oedd, fe allai, yn un o benaethiaid un o'r pedwar dosbarth ar hugain, ac yn offeiriad o radd uchel ac enwogrwydd. Ymdrechodd ei saith mab i arfer awdurdod dros yr ysbrydion trwy ddefnyddio enw yr Iesu; ond gwrthodent ufuddhau iddynt; ac ar un achlysur niweidiwyd hwynt yn dost gan un oedd wedi ei berchenogi gan "yr ysbryd drwg."

SCHILLER, FREDERICK: un o feirdd rhagoraf yr Almaen. Ganwyd ef yn nhref fechan Marbach, ar lenydd y Neckar, yn Würtemberg, ar yr 11eg o Dachwedd, 1759. Derbyniodd Schiller elfenau cyntaf ei addysg gan Moser, offeiriad y plwyf, yn Lorch; ac yn 1773, cynnygiodd y duc, yr hwn oedd wedi ffurfio syniadau hynod o ffafriol am Schiller a'i dad, roddi addysg yn rhad i'r bachgen, mewn coleg a sylfaenwyd ganddo. Derbyniodd y cynnygiad; ac ar ei fynediad i'r sefydliad, ymdrechodd y bachgen ymroddi i astudio rheithofyddiaeth. Nid llwyddiannus iawn y bu fel efrydydd yn y gangen hon; ac ar ol bod ddwy flynedd yn ei hastudio, efe a'i newidiodd am physygwriaeth. Ond llenyddiaeth, ac yn enwedig barddoniaeth, oedd yr hyn yr ymhyfrydai efe yn benaf ynddo. Arferai ar y pryd ddarllen llawer ar weithiau Plutarch, Shakespeare, Klopstock, Lessing, Göthe, Garve, Herder, Gerstenberg, ac ereill. Darllenodd lawer ar "*Messias*" Klopstock, ac "*Ugolino*" Gerstenberg. Yr oedd nodweddion ei athrylith yn dechreu ymddangos yn ei dueddiadau. Ei ymgeisiadau llenyddol blaenaf o unrhyw bwys oeddynt ei "*Student of Nassau*" a'i "*Cosmus von Medici;*" y rhai, wedi y cwbl, am ryw resymau a roddwyd yn aberth i'r tân ganddo. Yn y cyfamser, yr oedd y bardd yn myned yn mlaen mewn diwylliant cyffredinol, ac yn ei efrydiau arferol: ac yn 1780, efe a basiodd yn llwyddiannus fel llawfeddyg milwrol; ond nid oedd yn meddu tuedd at fywyd meddygol. Yn 1778 y cwblhaodd Schiller yr amlinelliad cyntaf o'i chwareugerdd nodedig, "*The Robbers;*" yr hon, pan y cyhoeddwyd hi, yn 1780, a wnaeth y cyffro mwyaf, yn enwedig yn mhlith yr ieuengctyd, yn yr Almaen. Yr oedd yn cael ei chondemnio yn fawr gan y dosbarthiadau uchaf o gymdeithas; a chafodd yr awdwr ei geryddu yn llym gan y duc, ei noddwr, a'i wahardd i ysgrifenu a chyhoeddi dim chwaneg o farddoniaeth heb ei ddangos iddo ef! Dygwyd y "*Robbers*" ar y chwareufwrdd yn nhref Manheim yn 1782, pan yr oedd yr awdwr yn bresennol, yn ddiarwybod i'w uch-swyddogion; ac mewn canlyniad i hyn dodwyd ef mewn dalfa am bythefnos! Chwerwodd hyn ei deimlad yn fawr; ac o'r diwedd, yn Hydref y flwyddyn hono, efe a ymadawodd o wasanaeth y duc, ac a ffodd i Franconia; a bu fyw yn Bauerbach am flwyddyn o dan enw benthyciol; ac yno y gorphenodd efe ei "*Fiesco,*" a'i "*Cabale und Liebe,*" a ddechreuasid ganddo yn Stuttgart.

Yn Bauerbach hefyd y tynwyd allan gynllun ei "*Don Carlos.*" Aeth yn ol i Manheim yn Medi, 1783; a chyfansoddodd tua'r pryd hwnw amryw o'i fân ganeuon. Gadawodd Schiller Manheim yn mis Mawrth, 1785; ac yna aeth i Leipsic, lle y daeth yn gydnabyddus, yn mysg ereill, gyda Huber a Körner; ac yma yr ysgrifenodd efe ei "*Lied an die Freude.*" Aeth oddi yno drachefn, yn mhen ychydig fisoedd, i Dresden, lle y dechreuodd ar yr arferiad o gyfansoddi yn ystod y nos—yr hyn, fel y tybir, a fu yn un achos effeithiol i ddwyn ei oes i derfyniad. Yma yr ysgrifenodd efe ramant nodedig o alluog, a elwir "*The Ghost-seer;*" ac yma hefyd y cwblhawyd ei chwareugerdd "*Don Carlos.*" Gwahoddwyd ef i Weimar, yn 1787, a derbyniwyd ef yn wresog gan Herder a Wieland; ond aeth heibio rai blynyddoedd cyn i Goethe ac yntau ddeall eu gilydd yn dda; ond wedi hyny daethant yn gyfeillion mynwesol. O hyn allan yr oedd dylanwad Goethe ar Schiller yn fwy na dylanwad neb arall; a daeth hyny i'w ganfod yn amlwg yn ei ysgrifeniadau olaf. Trodd ei feddwl i astudio gweithiau yr hynafiaid, yr hyn yn ddiammheuol a ddylanwadodd yn dda arno. Astudiodd athroniaeth Kant—ysgrifeniadau yr hwn ar y pryd oedd yn creu chwyldroad mewn llawer meddwl; ac yr oedd Schiller yn y perygl, yn hytrach na bod yn fardd, o droi ei sylw at athroniaeth feddyliol. Ysgrifenodd amryw o draethodau o dan ddylanwad yr efrydiaeth newydd hon, rhwng 1792 a 1802, y rhai a gyhoeddwyd mewn pedair o gyfrolau.

Ar ymneillduad Eichhorn o gadair hanesyddiaeth yn Jena, ac mewn canlyniad i gymmeradwyaeth Goethe, pennodwyd Schiller yn olynydd iddo. Yma y priododd gyda Charlotte von Longefold, a gwnaed ef yn aelod o'r cyfringynghor gan y Duc o Meiningen. Yn Jena, yn chwanegol at y darlithiau a draddododd, y gweithiodd ar ei "*History of the Thirty Years War,*" yr hwn a ystyrir yn waith rhagorol. Yn 1799 yr ymddangosodd ei "*Wallenstein,*" yr hwn, ar ryw gyfrif, oedd ei brif waith; a'r hwn mewn gwirionedd sydd yn amlygu mwy o wybodaeth, o allu barddonol, a meistrolaeth ar y defnyddiau oedd dan ei ddwylaw, nag un arall o'i chwareugerddi. Cyfieithwyd y gwaith hwn i'r Saesneg gan y diweddar S. T. Coleridge. Ar ol cyhoeddi "*Wallenstein,*" newidiodd Schiller ei le o fyw. Yr oedd awyr fynyddig Jena yn rhy gryf iddo, a phenderfynodd fyned i Weimar. Ymddangosodd ei "*Maria Stuart*" yn 1800; ei "*Die Jungfrau von Orleans*" yn 1801; ei "*Braut von Messina*" yn 1803; ac yn ddiweddaf un o'i weithiau rhagoraf, sef "*Wilhelm Tell*" yn 1804. Dywed A. W. Schlegel mai "yr olaf, a'r goreu o'i weithiau," oedd "*Wilhelm Tell.*" Ond yr oedd ei iechyd er's talm yn gwaelu, mewn rhan o herwydd gwendid naturiol ei gyfansoddiad, ac mewn rhan o herwydd ei ymroddiad diflino gyda'i efrydiau. Ar y 9fed o Fai, 1805, teimlai fod ei ddiwedd ger llaw, a ffarweliodd

Digitized by Google

yn y modd mwyaf tawel a thyner â'i gyfeillion. Gofynodd un o honynt iddo pa fodd yr ymdeimlai? Attebai yntau, "Tawelach, tawelach." Tua chwech o'r gloch y prydnawn hwnw, syrthiodd i drymgwsg; ond unwaith, am funydyn, edrychodd i fyny gyda golwg fywiog, a dywedodd fod llawer o bethau yn myned yn gliriach ac yn eglurach iddo. Ac felly bu farw, yn 46ain mlwydd oed.

Y mae enwogrwydd Schiller ar gynnydd er pan y bu farw. Ystyrir ef gan bawb, yn nesaf at Goethe, y bardd penaf a gynnyrchodd yr Almaen; ac y mae y nifer fawr o argraphiadau y mae y rhan fwyaf o'i weithiau wedi myned drwyddynt yn brawf diymwad o'i boblogrwydd anarferol. Yr hyn a'i hynodai ef yn fawr, ac a'i gwnaeth yn eilun ei wlad a'i genedl oedd, y teimlad o haelfrydigrwydd a brwdfrydigrwydd tuag at ddynolryw yn gyffredinol, a'i ffydd ddiledryw yn yr hyn a ystyriai oedd wir a rhagorol, a ddeuant i'r golwg mor amlwg yn ei weithiau. Hwyrach mai y pethau perffeithiaf o holl ysgrifeniadau Schiller ydyw ei ganeuon telynol, am fod ei deimladau ef ei hun yn bersonol yn cael eu dadguddio yn arbenig ynddynt. Y mae rhai yn ei alw yn Æschylus yr Almaen; ond myn ereill ei fod yn ei brif nodweddau fel bardd yn ymdebygu mwy i Euripides. Y mae llawer o'i farddoniaeth ar dafod leferydd gan ei gydwladwyr; perchir ei goffadwriaeth ganddynt; a diau fod ei weithiau, er fod ynddynt ddiffygion pwysig, yn cynnwys y farddoniaeth buraf: ac y maent yn gyfryw na oddefir iddynt yn fuan syrthio i ebargofiant.

SCHLEIERMACHER, FREDERICK ERNEST DANIEL: un o dduwinyddion enwocaf yr Almaen mewn amseroedd diweddar. Ganwyd ef yn Breslau, Tachwedd 21ain, 1768. Perthynai ei rieni i'r sect grefyddol a elwir y Morafiaid, a chafodd yntau elfenau cyntaf ei addysg mewn ysgol a gedwid gan y Morafiaid yn Niesky; a dyma y pryd y derbyniodd yr argraphiadau crefyddol hyny a ddylanwadasant mor amlwg arno yn y rhanau dilynol o'i oes. Dechreuodd ar ei efrydiau duwinyddol yn Barby, lle y mae gan y Morafiaid goleg i dduwinyddion ieuaingc. Ond pan yn ddeunaw mlwydd oed, efe a adawodd y Morafiaid, ac a ddechreuodd gwrs o efrydiau yn mhrifysgol Halle, lle yr ymroddodd gydag egni a sêl anarferol i astudio ieithyddiaeth a duwinyddiaeth. Er mai fel duwinydd yr oedd yn bwriadu treulio ei oes, yr oedd yn gwbl argyhoeddedig nas gallai astudio duwinyddiaeth i'r fantais oreu heb ei fod yn meddu gwybodaeth am hynafiaeth a llenyddiaeth yr hynafiaid. Gorphenodd ei efrydiau athrofaol yn 1790, a phennodwyd ef yn athraw i blant pendefig Prwssiaidd; ond nid hir yr arosodd yn y sefyllfa hon. Symmudodd i Berlin—lle y bu yn athraw mewn coleg athrawol am yspaid. Yn 1794, pennodwyd ef yn weinidog cynnorthwyol mewn eglwys yn Landsberg, lle yr arosodd am ddwy flynedd. Yna dychwelodd yn ol i Berlin, a bu yn bregethwr i feddygdy mawr a elwid *Charité* hyd y flwyddyn 1802.

Yn Berlin y daeth yn gydnabyddus â'r duwinydd enwog, F. S. G. Sack, yr hwn oedd ar y pryd yn cyfieithu pregethau Blair o'r Saesneg i'r Almaenaeg. Cymmerodd Schleiermacher ran yn y gwaith hwn, ac efe ei hun a gyfieithodd y gyfran fwyaf o'r gyfrol ddiweddaf. Ar gymmhelliad Sack, efe a gyfieithodd bregethau Fawcett hefyd. Y gwaith gwreiddiol cyntaf a gyhoeddodd Schleiermacher oedd amryw draethodau yn yr "*Athenæum;*" yr hwn oedd gyhoeddiad a ddygid allan dan olygiaeth Schlegel. Yn 1799, efe a gyhoeddodd ei "*Reden über, die Religion:*"—Pregethau ar Grefydd. Bu y pregethau hyn yn foddion i raddau helaeth i ddeffro yr Almaen o'i chysgadrwydd ysbrydol, ac i amddiffyn y syniad o'r angenrheidrwydd tragwyddol sydd ar ddyn am gael crefydd iawn. Cynnwysant rai o'r darnau mwyaf ysblenydd o areithyddiaeth Almaenaidd, ac y maent yn ffrwyth meddwl dwfn a threiddiol, ac yn bregethau rhagorol i argyhoeddi dosbarthiadau uchaf cymdeithas o'r angenrheidrwydd am feddu crefydd. Edrychai Neander ar y gwaith hwn fel y pegwn yn ei yrfa ysbrydol ef. Ystyrir hyd heddyw fod y pregethau hyn wedi creu cyfnod newydd ar dduwinyddiaeth yn yr Almaen, er nad ellir ystyried fod y syniadau yn mhob peth yn uniongred. Cyhoeddodd ddau o weithiau bychain ereill yn ystod y ddwy flynedd ddilynol. Yn nghylch y pryd hwn, darfu iddo ef, a'i gyfaill Frederick Schlegel, benderfynu cyfieithu gweithiau Plato i'r Almaenaeg; a phan y rhoes Schlegel hyn i fyny, aeth Schleiermacher yn mlaen gyda'r gwaith ei hun. Cyhoeddwyd y gwaith, yr hwn yn anffodus nid yw yn cynnwys holl ysgrifeniadau Plato, mewn tair cyfrol. Y cyfieithiad hwn o Plato a ystyrir y mwyaf pryd-ferth a chywir a gyhoeddwyd erioed mewn unrhyw iaith Ewropaidd. Y mae y cyfieithydd wedi chwanegu rhagymadrodd gwerthfawr i bob un o'r cydymddiddanion (*dialogues*); a gwelir ynddynt ei fod wedi yfed yn helaeth o ysbryd yr athroniaeth Blatonaidd. Yn 1801, cyhoeddodd gasgliad o bregethau, y rhai a ddilynwyd mewn blynyddoedd ar ol hyny gan chwech o gasgliadau ereill; a gwna y cyfan i fyny saith o gyfrolau. Heb law y rhai hyn, cyhoeddodd yr awdwr amryw bregethau ereill ar wahân, a draddodwyd ganddo ar achlysuron neillduol. Y mae ei holl bregethau wedi eu nodweddu gan eglurder a manylrwydd o ran meddwl ac arddull. Appeliant at y galon—ond yn benaf at ddeall y darllenydd. Aeth Schleiermacher i Stolpe fel un o bregethwyr y llys, yn 1802; ac yma efe a ysgrifenodd ddau neu dri o weithiau rhagorol. Yn 1804, gwahoddwyd ef yn bregethwr ac yn athraw mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth i brifysgol Halle. Dychwelodd i Berlin yn 1806, a thraddododd yno ddarlithiau ar byngciau duwinyddol ac athronyddol.

Yn ystod y cyfnod y darostyngwyd Prwssia mewn ystyr gwleidyddol, profodd Schleiermacher ei hun yn wladgarwr cywir; ac ar amryw achlysuron, ymdrechodd trwy ei bregethau yn gystal a'i ysgrifeniadau i godi a thanio ysbryd ei gydwladwyr yn erbyn y gorthrymwyr tramorol. Ysgrifenodd lawer yn yr adeg hon. Appwyntiwyd ef yn bregethwr yn Eglwys y Drindod, Berlin, yn y fl. 1809; ac yn 1810, pan agorwyd prifysgol newydd y brifddinas, pennodwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth ynddi; a dechreuodd yr un pryd gymmeryd rhan weithredol yn ngweinyddiaeth addysg gyhoeddus. Ennillodd ei ddarlithiau yn y brifysgol edmygedd cyffredinol: cyfunodd yn nghadair yr athraw y galluoedd areithyddol mawr a amlygodd yn barod yn y pulpud, a'r craffder a'r dyfnder meddwl mwyaf a'r ddysgeidiaeth eangaf. Cafodd gyfle manteisiol i ddwyn allan yma drysorau cyfoethog ei feddwl mawr, ac i ddilyn yr

Digitized by Google

ymchwiliadau meddyliol mwyaf dyrus i'w manylion, a'u trefnu yn y ffordd fwyaf rheolaidd. Etholwyd ef yn aelod o Athrofa y Gwyddonau, Berlin, yn 1811; a darllenodd yn ei chyfarfodydd rai o'r papurau goreu, yn enwedig mewn cyssylltiad â phyngciau yn dal perthynas âg athroniaeth henafol. Pennodwyd ef yn ysgrifenydd i adran athronyddol yr athrofa yn 1814; ac am y rheswm hwn, rhyddhawyd ef oddi wrth ei ddyledswyddau yn y swyddfa addysg. Yn y cyfnod a ddilynodd, treuliodd Schleiermacher lawer o'i amser mewn rhan i ddwyn allan argraphiadau newydd o'i weithiau blaenorol, ac mewn rhan i gyhoeddi gweithiau dadleuol, ac yn neillduol yn erbyn Schmalz ac Ammon. Talodd ymweliad â Phrydain yn 1833, ac agorodd y capel Almaenaidd newydd yn Savoy, Llundain. Bu farw ar y 12fed o Chwefror, 1834. Cyhoeddwyd ei weithiau duwinyddol, yn cynnwys ei bregethau, ar ol ei farwolaeth, mewn naw o gyfrolau; ei weithiau athronyddol mewn pump; a'r ysgrifeniadau a adawodd ar ei ol mewn dwy gyfrol.

Yr oedd Schleiermacher yn gyfartal fawr fel duwinydd, ieithydd, beirniad, areithydd, a chyfieithydd; ac yr oedd dylanwad ei ysgrifeniadau yn fawr ar yr holl Almaen; ond yr oedd dylanwad ei addysg, a phurdeb a chrefyddoldeb ei gymmeriad personol fel Cristion yn fwy ar y rhai oedd yn trigiannu ger llaw iddo. Dysgyblion iddo ef mewn rhan fawr y gellir ystyried Neander, Nitzch, Twesten, Olshausen, Lucke, Bleek, ac Ullmann. Nid oedd Schleiermacher yn uniongred, yn yr ystyr cyffredin a roddir i'r gair yn mhob peth; ond nid oedd chwaith yn perthyn i'r ysgol resymolaidd. Y mae llawer wedi ei ysgrifenu a'i gyhoeddi yn yr Almaen ar gyfundrefn a syniadau Schleiermacher.

SCHWARZ, CHRISTIAN FREDERICK: cenhadwr Almaenaidd enwog, a anwyd yn Sonnenburgh, yn nhalaeth Brwssiaidd Brandenberg, ar y 26ain o Hydref, 1726. Pan yn wyth mlwydd oed, anfonwyd ef i ysgol y dref hono, lle y derbyniodd lawer o argraphiadau crefyddol trwy offerynoliaeth Mr. Helm, y periglor. Mewn adroddiad a wneir gan Schwarz ar ol hyn, dywed y byddai yn fynych y pryd hwnw yn myned i le unigol, ac yn tywallt ei galon ger bron Duw; ac wrth wneyd hyny teimlai ei hun yn nodedig o hapus. Pan y gwnelai rywbeth ar fai gartref, nid oedd yn teimlo yn esmwyth nes myned at yr Arglwydd i ymbil yn daer am faddeuant.

Pan yn yr ugeinfed flwydd o'i oedran, aeth i brifysgol Halle; a phan oedd yno, efe a ffurfiodd gyfeillgarwch gyda Herman Franke, yr hwn oedd gefnogwr gwresog i bob llafur cenhadol. Pennodwyd Schwarz ac efrydydd arall i ddysgu yr iaith Tamul, mewn trefn i'w gwneyd yn alluog i arolygu argraphiad o'r Beibl yn yr iaith hono; yr hyn, modd bynag, ni chariwyd i weithrediad. Ond parodd y wybodaeth o'r Tamul a gafodd Schwarz i Franke gynnyg ar ei fod yn myned allan yn genhadwr Cristionogol i India. Yr oedd Schwarz wedi derbyn ei addysg ar gyfer gweinidogaeth yr efengyl: yr oedd ei dueddiadau boreuol ei hun yn ffafriol i ddymuniadau ei dad, a chydsyniodd yn ddioed â deisyfiad Franke. Ar yr wythfed o Fawrth, 1749, cychwynodd gan hyny, gyda dau ymgeisydd cenhadol arall, tua Chopenhagen. Wedi eu hordeinio yno, hwy a ddychwelasant i Halle, ac oddi yno hwy a aethant i Lundain. Hwyliasant oddi yno Ionawr 21ain, 1750; ac yn mis Gorphenaf canlynol cyrhaeddasant Tranquebar, ar ororau Coromandel, lle y bwriedid i faes eu llafur fod, a lle yr oedd gorsaf genhadol gan y Daniaid.

Parhaodd Schwarz i drigiannu yn benaf yn Tranquebar, ac i lafurio mewn cyssylltiad â chenhadaeth y Daniaid hyd y flwyddyn 1766. Yna cynnygiodd ei wasanaeth i'r Gymdeithas Brydeinig er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol mewn Gwledydd Tramor, gyda'r hon yr unwyd cenhadaeth y Daniaid yn fuan wedi hyn. Gwnaeth ei breswylfod yn awr yn Trichinopoly, lle yr oedd efe wedi sylfaenu eglwys ac ysgol yn 1765. Cyflawnodd waith caplan i'r gwarchodlu, am yr hyn y derbyniai y swm o gan punt y flwyddyn, yr hyn a drosglwyddwyd ganddo oll i drysorfa y genhadaeth. Tra yn Trichinopoly, talai ymweliad yn achlysurol â lleoedd ereill, yn enwedig Tanjore. Casglodd ynghyd gynnulleidfaoedd bychain o Hindŵaid; ac yn 1777, anfonwyd cenhadwr arall o Tranquebar i'w gynnorthwyo. Talai ymweliadau mynychach â Tanjore, a sicrhaodd gyfeillgarwch y rajah Tulia Maha, gan yr hwn y cafodd ganiatâd i adeiladu eglwys neu gapel yn Tanjore. Aeth yn mlaen gyda'r gwaith hyd nes y darfu ei arian, ac yna efe a appeliodd at lywyddiaeth Madras am gynnorthwy. Mewn attebiad, dymunwyd arno fyned yn uniongyrchol i eisteddle y llywodraeth, mewn trefn i gael ei appwyntio yn llysgenhadwr, i'r dyben o ymdrafod â Hyder Ali am barhâd heddwch—gorchwyl at yr hwn y galwyd ef gan Hyder ei hun. "Peidiwch a danfon ataf," ebe Hyder, "neb o'ch goruchwylwyr, o herwydd nid wyf yn gallu rhoddi ymddiried yn eu geiriau na'u cyttundebau; ond os ewyllysiwch i mi wrandaw ar eich cynnygion, anfonwch attaf y cenhadwr, am gymmeriad da yr hwn yr wyf wedi clywed cymmaint gan bawb. Myfi a'i derbyniaf ef, am fy mod yn ymddiried ynddo." Cafodd Schwarz fath o fraw pan glywodd hyn; ond ar ol cael amser i ystyried y peth, efe a dderbyniodd y cynnyg. Aeth i Seringapatam, ac arosodd yn llys Hyder am dri mis. Bu ei genhadaeth yn hollol lwyddiannus; penderfynwyd ar delerau yr heddwch, ac yna efe a ddychwelodd i Tanjore.

Ni pharhaodd yr heddwch, pa fodd bynag, ond am dymmor byr; a chwynai Schwarz mai y Prydeiniaid a fu yn euog o dori y telerau. Goresgynodd Hyder y Carnatic; ac yn ystod y flwyddyn 1781, a'r ddwy ganlynol, yr oedd dioddefiadau y trigolion yn echryslawn: a ffoent i'r trefydd am ddiogelwch. Yr oedd Tanjore a Trichinopoly wedi eu gorlenwi â lliaws o bobl yn mron newynu. Yn y lle blaenaf yn enwedig bu farw llaweroedd yn yr heolydd gan newyn, ac afiechyd, yn cael ei achosi gan angen, ac yr oedd y gwarchodlu yn teimlo yn dost oddi wrth y newyn, ac yn ddiysbryd wrth feddwl fod byddin alluog yn eu gwylio y tu allan i'r muriau. Yr oedd defnydd ymborth yn y wlad; ond yr oedd gorthrwm y Prydeiniaid a'r rajah wedi distrywio hyder yr amaethwyr, fel nad oeddynt yn foddlawn i'w ddwyn i'r gaerfa. Dywedodd y rajah o'r diwedd—"Yr ydym oll wedi colli ymddiried y bobl. Boed i ni edrych a wna y trigolion ymddiried i Mr. Schwarz." Awdurdodwyd Schwarz, gan hyny, i fasnachu â'r amaethwyr. Anfonodd yntau lythyrau allan, yn y rhai yr addawai, nid yn unig dalu am bob peth a ddygid i mewn, ond hefyd am bob eidion a

Digitized by Google

gymmerai y gelyn. Cafwyd mil o ychain yn mhen dau neu dri o ddyddiau; ac mewn ychydig amser, cafwyd 80,000 o fesurau o rawn. Gwaredwyd y dref trwy y moddion hyn.

Yn y flwyddyn 1784, anfonwyd Schwarz ar negeswriaeth at Tippoo Sahib gan Gwmni yr India Ddwyreiniol; ond nid oedd mab Hyder Ali yn barod i'w dderbyn. Erbyn hyn yr oedd ei gynnulleidfa wedi cynnyddu i'r fath raddau yn Tanjore nes oedd yn angenrheidiol cael eglwys yn y gymmydogaeth—ac adeiladwyd un; ac yn 1785 mabwysiadodd Schwarz gynllun i sefydlu ysgolion trwy y wlad i ddysgu yr iaith Saesnig i'r brodorion, a chariwyd y cynllun yn mlaen yn Tanjore, a lleoedd ereill; ac yr oedd dull teg a gonest Schwarz o'u dwyn yn mlaen yn gyfryw ag a barodd i'r bobl yn gyffredin—yr uchel yn gystal a'r isel radd—deimlo hyder ynddo, ac ni phetrusent ddanfon eu plant iddynt. Yn 1787, gorweddai rajah Tanjore ar drangcedigaeth. Yr oedd wedi mabwysiadu fel ei olynydd fachgen oedd etto heb gyrhaedd addfedrwydd oedran; ac yn awr efe a anfonodd am ei gyfaill Schwarz fel yr unig berson y gallai ymddiried ynddo i'w roddi o dan ei ofal ef. "Nid fy mab i yw efe," ebe y rajah, "ond yr eiddoch chwi: i'ch llaw chwi yr wyf yn ei gyflwyno." Pennodwyd Ameer Sing, brawd Tulia Maha, yn rhaglaw a gwarcheidwad iddo; ond yr oedd ynddo ef duedd i droi yn fradwrus, ac yr oedd plaid Brydeinig gref yn gefnogol iddo. Gan hyny, gelwid am holl ofal a dylanwad Schwarz gyda Chwmni yr India Ddwyreiniol i sefydlu y tywysog ieuangc yn y meddiant o'i etifeddiaeth. Darfu i'r rajah, Maha Sarbojee, rai blynyddoedd wedi hyny, amlygu ei serch at ei athraw a'i amddiffynydd trwy godi cofadail i'w goffadwriaeth yn yr eglwys genhadol yn Tanjore, ar yr hon y gosodir allan y rajah yn ymaflyd yn llaw y cenhadwr pan oedd ar ymadael o'r byd, ac yn derbyn ei fendith. Ymddengys fod Schwarz wedi bod yn llwyddiannus iawn i addysgu ei ddysgybl, oddi wrth y ffaith fod yr esgob Heber yn siarad mor uchel am y rajah yn 1826. Dywed Heber am dano ei fod yn "ddyn anghyffredinol;" ei fod yn dyfynu darnau o weithiau Fourcroy, Lavoisier, Linnæus, a Buffon yn hylithr, a'i fod wedi ffurfio barn gywir ar deilyngdod Shakespeare. Ysgrifenai Saesneg yn weddol dda, a "pherchid ef gan y swyddogion milwrol Saesnig yn y gymmydogaeth fel un o'r barnwyr goreu a ellid ei gael ar feirch, ac yn un o'r saethwyr goreu yn yr holl wlad." Y mae Heber yn symio i fyny ei ddisgrifiad o hono trwy ddywedyd ei "fod yn edrych ac yn siarad yn debyg i swyddog milwraidd Ffrengig o safle uchel."

Bu farw Schwarz ar y 13eg o Chwefror, 1798, yn y ddeuddegfed flwydd a thrigain o'i oedran. Yn ol pob ymddangosiad, ni bu ei lafur i ddychwelyd yr Hindŵaid ond lled aflwyddiannus am amryw o flynyddoedd. Ond nis gellid priodoli ei aflwyddiant i unrhyw erledigaeth neu wrthwynebiad oddi wrth y trigolion; ond yn hytrach ac yn mron yn hollol i gyfansoddiad meddyliol brodorion y wlad hono, y rhai ydynt yn oer, pwyllog, cyfrwys, a hoff o ymresymu, ac yn gyndyn iawn i gymmeryd eu hargyhoeddi. Ond er hyny, yr oedd effeithiau ei bregethu, a dylanwad ei fywyd rhinweddol ac anhunangar yn peri i achos Cristionogaeth lwyddo yn sicr, er yn raddol. Ffurfiwyd cynnulleidfaoedd mewn llawer o bentrefydd, a sefydlwyd pregethwyr yn Cuddalore, Negapatam, a threfydd ereill, heb law yn hen orsafoedd Tranquebar, Trichinopoly, a Tanjore. Y mae coffadwriaeth Schwarz yn cael ei barchu gan y Mahometiaid a'r Hindŵaid annychweledig, yn gystal a chan y dychweledigion at Gristionogaeth yn India hyd heddyw. Dywed yr esgob Heber am dano ei fod "yn un o'r rhai mwyaf gweithgar a diofn, yn gystal ag yn un o'r cenhadon mwyaf llwyddiannus a ymddangosodd er dyddiau yr apostolion. Nid ydyw dyweyd ei fod yn edrych yn nesaf peth i ddim ar arian ond dyweyd bychan: yr oedd yn hollol ddiofal am awdurdod a gallu, ac nid oedd yn gofalu dim am glod. Yr oedd yn ddyn o feddwl agored, syml, ac o dymmer siriol; ac yn ei ymdrafodaethau gwleidyddol—gwaith nad oedd byth yn ymawyddu am dano, ond a ddisgynai yn achlysurol yn ei ffordd—yr oedd yn hollol deg a chyfiawn."

Y mae y ffyddlondeb â pha un y llafuriodd; yr hunanymwadiad a ymarferwyd ganddo; y llwyddiant a ddilynodd ei bregethu; y parch a delid iddo, nid yn unig gan Ewropiaid, ond hefyd gan yr Indiaid; a'r anrhydedd yr ystyriai ei holl frodyr ei fod yn deilwng o hono, fel eu cyfarwyddwr a'u hesampl, yn ymddangos yn eithaf eglur oddi wrth yr holl hanes a geir am dano. Llafuriodd, yn ddiammheuol, lawer, a mawr yn ddiau fydd ei wobr. Mwynhaodd iechyd rhagorol yn ddidor yn mron hyd y diwedd; yr hyn a'i cynnorthwyodd i gyflawni ei waith gyda rhwyddineb yn wastad. Ond yn ei flynyddoedd olaf, cwynai fod ei nerth yn pallu i raddau, ac nad oedd yn gallu myned o gwmpas i bregethu i'r paganiaid, a'u cynghori fel y byddai yn arfer. Pan y bu farw y dyn gwir ragorol, a'r cenhadwr ffyddlawn hwn dros Grist, yr oedd nid yn unig ei gynnulleidfaoedd, ei ysgolion, ac aelodau o'r un genhadaeth ag ef, ond yr holl wlad yn galaru am dano fel pe buasent wedi colli tad. Cyfodwyd cofadail i Schwarz yn India, wedi ei gwneuthur gan y cerflunydd Bacon, ar draul Cwmni yr India Ddwyreiniol.

SCIPIO, PUBLIUS CORNELIUS, a gyfenwid AFRICANUS YR HYNAF: un o ryfelwyr enwocaf Rhufain hynafol, ac un a ennillodd iddo ei hun gymmeriad uchel iawn yn mysg ei gydwladwyr. Ganwyd ef naill ai yn 237 neu 234 c. c. Y crybwylliad cyhoeddus cyntaf a wneir am dano sydd fel un yn cymmeryd rhan, er nad oedd ond bachgenyn ieuangc, yn mrwydr Ticinus, c. c. 218, lle y bu yn foddion i waredu bywyd ei dad, P. Cornelius Scipio. Dwy flynedd wedi hyny efe a ymladdodd yn mrwydr Cannæ fel tribun milwrol, ac yr oedd yn un o'r ychydig swyddogion Rhufeinig a ddiangodd o'r maes gwaedlyd hwnw. Yn c. c. 212, etholwyd Scipio yn adeilior *(curule ædile)*, er nad oedd efe etto wedi cyrhaedd yr oedran cyfreithlawn. Ymdrechodd tribuniaid y bobl attal ei ddewisiad; ond bu raid iddynt roddi i fyny eu gwrthwynebiad, o herwydd yr oedd gan y bobl gredíniaeth gref yn ngalluoedd y dyn ieuangc—ac etholwyd ef yn unfrydol. Lladdwyd ei dad a'i ewythr yn Yspaen yn y flwyddyn ddilynol, a chymmerodd y Carthageniaid feddiant etto o'r wlad, yr oeddynt o'r bron wedi llwyr golli eu gafael ynddi o'r blaen. Wedi i Capua syrthio etto i'w dwylaw, a phan nad oedd Italy mwyach yn galw am eu holl sylw, penderfynodd y Rhufeiniaid weithredu gyda mwy o egni yn erbyn y Carthageniaid yn Yspaen. Ar ddydd yr etholiad, ni feiddiodd neb ddyfod yn mlaen

Digitized by Google

i gynnyg ymgymmeryd â llywyddiaeth y fyddin yn y rhyfel hwnw. Ond o'r diwedd, cynnygiodd Scipio gymmeryd ei llywyddiaeth, er nad oedd ond pedair ar hugain mlwydd oed ar y pryd. Tarawyd y bobl yn fawr gan ddewrder y dyn ieuangc, ac ymddiriedwyd iddo lywyddiaeth y fyddin oedd i weithredu yn Yspaen, a chynnysgaeddwyd ef âg awdurdod rhaglawiaethol.

Hwyrach fod y gallu a'r dylanwad rhyfeddol oedd gan Scipio ar ei gydoeswyr i'w briodoli i raddau pell i ofergoeledd; o herwydd credid ei fod yn ffafryn y duwiau. Yr oedd efe ei hun yn ddiau yn cyfranogi o'r opiniwn hwn; a diammheu fod llwyddiant anghyffredinol ei holl anturiaethau yn ei gadarnhau yn y gredíniaeth hon. Yn niwedd y flwyddyn c. c. 210, neu ar ddechreu yr un ddilynol, cychwynodd Scipio i Yspaen gyda byddin o 11,000 o wŷr, a glaniodd yn ngenau yr Iberus, a chymmerodd lywyddiaeth holl luoedd Rhufain yn y wlad hono. Yr oedd ei gyfaill Lælius gydag ef. Y peth cyntaf a wnaeth oedd ceisio meddiannu Carthage Newydd, lle yr oedd y Carthageniaid yn cadw eu gwystlau Yspaenaidd. Arweiniodd Lælius yr ymosodiad oddi ar y môr, a Scipio oddi ar y tir. Syrthiodd y dref i ddwylaw y Rhufeiniaid; a chan i Scipio ymddwyn yn haelfrydig tuag at yr Yspaeniaid, ennillodd serch llawer o'r genedl hono. Ymladdwyd brwydr fawr a gwaedlyd rhwng Scipio a'r cadfridog Carthagenaidd Hasdrubal, yn Bæcula, yn nyffryn Guadalquiver, c. c. 209. Ennillodd y blaenaf fuddugoliaeth ysblenydd; lladdwyd 8,000 o'r Carthageniaid, a syrthiodd 22,000 o honynt i ddwylaw y buddugwr; ond methodd lwyddo i attal y gweddill o'r fyddin Garthagenaidd i groesi y Pyrenees i gynnorthwyo Hannibal. Yr oedd Hasdrubal, pa fodd bynag, wedi cario swm mawr o gyfoeth gydag ef yn ei ffoedigaeth; a chyda'r cyfoeth hwnw efe a gyfododd fyddin yn Yspaen, i'r dyben o'i chymmeryd i Italy i gynnorthwyo ei frawd, Hannibal; gan obeithio drwy hyny allu dwyn y rhyfel i derfyniad yn y wlad hono. Yn y cyfamser, yr oedd Scipio yn gweithredu yn erbyn dau gadfridog Carthagenaidd ereill; sef, Mago, a Hasdrubal, mab Gisco. Yn c. c. 207, efe a ennillodd fuddugoliaeth fwy penderfynol ar y ddau hyn mewn lle anadnabyddus, a elwid Silpia, neu Elinga, yn rhyw gŵr o Andalusia; ac mewn canlyniad i hyn syrthiodd yr oll o Yspaen i ddwylaw y Rhufeiniaid. Aeth Scipio yn awr i Affrica, ar ymweliad â'r brenin Syphax, a mynegir iddo wneuthur argraph ffafriol iawn ar Hasdrubal, mab Gisco, yn gystal ag ar Syphax. Dychwelodd yn fuan i Yspaen, lle y ceryddodd efe amryw drefydd am eu hanffyddlondeb, ac y darostyngodd amryw o'r penaethiaid Yspaenaidd a feiddient hòni eu hannibyniaeth.

Tua diwedd y flwyddyn c. c. 206, rhoddodd Scipio i fyny lywyddiaeth y fyddin yn Yspaen, a dychwelodd i Rufain. Cyflwynodd y trysorau dirfawr a gawsai yn Yspaen i drysorfa y wladwriaeth. Yr oedd yn ei fryd yn fawr gael derbyniad cyhoeddus buddugoliaethus i Rufain; ond nid oedd y senedd yn talu un sylw i'w ddymuniad yn hyn, o herwydd nid oedd neb erioed wedi cael y cyfryw dderbyniad heb ei fod yn mlaenaf wedi bod yn gonsul. Dewiswyd Scipio yn gonsul gyda P. Licinius Crassus yn c. c. 205. Os dygid rhyfel yn mlaen mewn gwledydd tramor, yr oedd llywyddiaeth y byddinoedd yn disgyn yn naturiol ar Scipio. Ei ddymuniad ef oedd hwylio yn ddioed i Affrica; ond nid oedd y senedd yn cydolygu âg ef ar hyn. Yr oll a allai efe gael oedd Sicily fel ei dalaeth, gyda deg ar hugain o lestri, a chaniatâd i hwylio drosodd i Affrica os barnai efe y byddai hyny yn fanteisiol i'r weriniaeth. Ond ni lwyddodd i gael caniatâd y senedd i godi byddin; er hyny, darfu i'w gynghreiriaid Italaidd ei gynnorthwyo i wneyd hyny: felly, galluogwyd ef i hwylio i Sicily gyda 7,000 o wŷr, a deg ar hugain o lestri. Treuliodd Scipio ei amser i ddysgyblu ac i ddarparu ei fyddin newydd ar gyfer ei gwaith. Yr oedd Massinissa yn teimlo yn awyddus am weled Scipio yn Affrica; ond yr oedd Syphax wedi newid ei wladlywiaeth, ac ymuno etto â'r Carthageniaid.

Cafodd gelynion Scipio yn Rhufain o'r diwedd gyfle i ymosod arno o herwydd rhyw weithrediadau milwraidd o'i eiddo, a buont yn mron a llwyddo i'w ddiswyddo. Ond medrodd ei gyfiawnhau ei hun; ac yn lle ei alw yn ol, caniataodd y senedd iddo hwylio i Affrica mor fuan ag y barnai yn briodol wneyd hyny, ac hefyd i fabwysiadu unrhyw fesurau a dybiai yn ddoeth. Efe a hwyliodd gan hyny, c. c. 204, gyda byddin gref, ac a laniodd yn nghymmydogaeth Utica. Methodd gael meddiant o Utica; a bu raid iddo auafu ar ddarn o dir a redai i'r môr, a chadarnhau hwnw oreu y gallai. Tua diwedd y gauaf, ymunodd y Carthageniaid â Syphax, gyda'r amcan o wneyd ymosodiad cyffredinol ar ei fyddin a'i lynges; ond hysbyswyd Scipio o'u cynlluniau, ac ymosododd yntau yn ddisymmwth ar wersylloedd Hasdrubal a Syphax yn y nos, ac ni ddiangodd ond ychydig o honynt. Aeth Syphax tua ei diriogaethau ei hun; ond gorchfygwyd ef gan Massinissa a Lælius, a chymmerwyd ef, a'i wraig, ac un o'i feibion yn garcharorion. Cynyddodd ofnau y Carthageniaid yn awr i'r fath raddau fel y barnent fod yn angenrheidiol galw Hannibal yn ol o Italy, ac ar yr un pryd ymbilient am heddwch. Buasai y telerau a gynnygid gan Scipio yn anrhydeddus i'r Rhufeiniaid. Nid amlygodd y Carthageniaid wrthwynebiad, gan mai eu hamcan oedd ennill amser, a chawsant gadoediad bum niwrnod a deugain. Cyn i'r cadoediad hwn ddyfod i ben, fodd bynag, yr oedd y Carthageniaid wedi ysbeilio rhai llestri Rhufeinaidd, a ddrylliwyd ar dueddau Carthage, ac hyd yn oed ddifrïo y cenad Rhufeinig a hawliai iawn am hyn; ond ni ddialodd Scipio am hyny, a chafodd y cenhadau Carthagenaidd ddychwelyd o Rufain i Carthage heb eu llesteirio. Cyrhaeddodd Hannibal i Affrica tua chynhauaf y flwyddyn c. c. 203, a chasglodd yn ebrwydd fyddin oedd yn lliosocach o gryn lawer nag un Scipio. A'r peth cyntaf a wnaeth oedd dwyn yn mlaen ryfelgyrch llwyddiannus yn erbyn Massinissa. Derbyniodd Scipio hysbysrwydd y deuai Nero i Affrica gyda byddin i gydweithredu âg ef yn erbyn Hannibal. Yr oedd Scipio yn awyddus am weled y rhyfel yn dyfod i derfyniad, ac yn anewyllysgar i neb ranu âg ef y gogoniant: gan hyny penderfynodd orfodi Hannibal i ymladd brwydr derfynol. Ar y cyntaf, gochelai y Carthageniaid frwydr; ond pan y darfu i Scipio, mewn trefn i dwyllo y gelyn, encilio yn ddisymmwth, fel pe buasai yn bwriadu ffoi, dilynodd Hannibal ef gydâ'i wŷr meirch, a gorchfygwyd ef yn nghymmydogaeth Zama. Yr oedd y telerau a gynnygid gan Scipio i'r Carthageniaid mor ddiraddiol, fodd bynag, fel y gwrthodwyd hwynt. Wedi i bob ymgais

Digitized by Google

am derfyniad heddychol fethu, bu raid i Hannibal fentro brwydr, er fod ei fyddin mewn cyflwr hollol ammharod i hyny; yr hon a ymladdwyd yn Naragra, ar y Bagradas, ger llaw Zama, ar y 19eg o Hydref, c. c. 202, pryd y gorchfygwyd y Carthageniaid gyda lladdfa fawr. Cynghorodd Hannibal ei gydwladwyr i roddi i fyny yr ymdrechfa fel un hollol anobeithiol—a chymmerwyd ei gynghor. Cwblhawyd heddwch yn y flwyddyn ddyfodol.

Ar ei ddychweliad i Italy, derbyniwyd Scipio gyda'r brwdfrydedd mwyaf; ac aeth i mewn i Rufain fel buddugwr, ac o hyny allan cyfenwid ef yn Africanus. Ymddengys iddo fyw am amryw flynyddoedd yn ddilynol i hyn heb gymmeryd unrhyw ran mewn achosion cyhoeddus. Gwnaed ef yn gonsul yr ail waith yn c. c. 194, ac yn brif seneddwr—anrhydedd a osodwyd arno o'r blaen, c. c. 196, ac un a gafodd am y drydedd waith, c. c. 190. Yn y flwyddyn c. c. 193, yn ystod un o'r dadleuon a gymmerasant le rhwng y Carthageniaid a Massinissa, aeth Scipio allan, ynghyd â dau ereill, i gyfryngu rhwng y pleidiau. Ond ni phenderfynwyd dim, er y dywed Livy y gallasai Scipio yn hawdd iawn ddwyn y ddadl i derfyniad. Y mae yn eithaf hysbys mai Scipio oedd yr unig Rufeinwr a dybiai ei fod yn beth annheilwng i'r weriniaeth i gefnogi y Carthageniaid a erlidient Hannibal; ac y mae traddodiad ei fod, yn c. c. 193, pan wedi ei anfon ar genadwriaeth at Antiochus, wedi cyfarfod â Hannibal yn ei alltudiaeth; yr hwn, mewn ymddiddan a gymmerodd le, a ddywedodd mai Scipio oedd y cadfridog penaf a fu gan Rufain erioed.—*Livy*, xxxv. 14. Pa un a ydyw y chwedl am yr ymddiddan hwn yn gywir ai nid ydyw, y mae y farn a briodolir i Hannibal yn ddiau yn lled gywir a theg; o herwydd nid oedd Scipio fel cadfridog yn ail yn mron i neb ond i Hannibal ei hun.

Cyfododd dadleuon yn y senedd yn y flwyddyn c. c. 190, o barthed i ba daleithiau a roddid i'r consuliaid Lælius ac L. Cornelius Scipio, brawd yr Africanus mawr. Cynnygiodd Africanus, er ei fod yn brif seneddwr, fyned gyda'i frawd fel llysgenhadwr, os rhoddai y senedd iddo Groeg fel ei dalaeth; o herwydd mewn canlyniad i hyny cawsai Lucius lywyddiaeth y fyddin yn y rhyfel yn erbyn Antiochus. Derbyniwyd y cynnyg; ac aeth y ddau frawd yn gyntaf i Groeg, ac oddi yno i Asia. Cymmerodd Africanus ei fab gydag ef ar yr ymgyrch hwn; ond trwy ryw ddamwain anffodus, cymmerwyd y bachgen yn garcharor, ac anfonwyd ef i Antiochus. Cynnygiodd y brenin i'r bachgen ei ryddid, ynghyd â swm mawr o arian, os byddai i'w dad ddefnyddio ei ddylanwad i gael telerau ffafriol iddo ef. Gwrthododd Africanus hyn; ond er hyny, anfonodd y brenin y bachgen yn ol i'w dad; yr hwn oedd yn dioddef oddi wrth afiechyd ar y pryd, ac yn absennol o'r gwersyll. Er amlygu ei ddiolchgarwch, anfonodd Africanus genad at Antiochus, i'w gynghori i beidio ymladd brwydr hyd nes y byddai iddo ef ddychwelyd i'r gwersyll Rhufeinaidd. Ar ol y frwydr fawr ger llaw mynydd Sipylus, appeliodd Antiochus drachefn at Africanus am heddwch, a defnyddiodd yr olaf ei ddylanwad gyda'i frawd Lucius a'r cynghor rhyfel ar ran y brenin. Yr oedd telerau yr heddwch yn gymmharol ysgeifn, ond gwnaethpwyd hwynt yn llawer llymach pan y cadarnhawyd hwynt yn Rhufain. Yr oedd gan elynion Africanus yn Rhufain erbyn hyn gyhuddiad newydd i'w ddwyn yn ei erbyn ef. Edrychid ar delerau yr heddwch a gynnygiwyd gan Africanus, a'i frawd, Lucius, fel ffrwyth llwgrwobrwyad gan Antiochus, ac fel ad-daliad am ryddhad mab Africanus. Dygwyd cyhuddgwyn, gan hyny, yn erbyn y ddau frawd ar eu dychweliad i Rufain; sef, eu bod wedi derbyn llwgrwobrwyon gan y brenin, a chadw rhan o'r trysorau a ddylasent eu rhoi i fyny i'r drysorfa wladwriaethol. Ar yr un pryd, galwyd arnynt i roddi cyfrif o'r arian a dderbyniasant gan Antiochus. Yr oedd Lucius yn barod i ufuddhau; ond darfu i'w frawd Africanus, mewn digllonrwydd mawr, gipio y cyfrifon o'i ddwylaw, a'u rhwygo yn ddarnau mân yn ngŵydd yr holl senedd. Dirwywyd Lucius, pa fodd bynag, gan Minucius, tribun y bobl; a phan yr oedd ar gael ei gymmeryd i'r carchar hyd nes y talai y ddirwy drom, llusgodd Africanus ef ymaith; ac er fod y tribun Gracchus yn anghymmeradwyo gwylltineb Africanus, efe a ollyngodd Lucius yn rhydd. Gwysiwyd Africanus o flaen y bobl gan y tribun M. Nævius; a'r ffordd a gymmerodd efe i'w waredu ei hun oedd trwy adgofio y bobl y fuddugoliaeth a ennillodd efe yn Zama.

Ar ol yr helyntion hyn, ymneillduodd Scipio Africanus i'w balas, ger llaw Liternum; ac oni buasai i Gracchus gyfryngu ar ei ran, buasai raid iddo atteb i wŷs arall. Attafaelwyd etifeddiaethau Lucius, ei frawd, pa fodd bynag; ond nid oedd y swm a gafwyd am danynt yn ddigon i dalu y ddirwy. Cynnygiodd ei gyfeillion, nid yn unig wneyd i fyny y swm gofynol, ond yr oedd eu haelfrydedd yn gyfryw ag a'i gwnaeth ef yn gyfoethocach nag oedd o'r blaen; ond gwrthododd gymmeryd dim mwy nag oedd yn angenrheidiol er ei gynnal. Ni ddychwelodd Africanus o'i alltudiaeth gwirfoddol; ond efe a dreuliodd flynyddoedd olaf ei fywyd mewn neillduaeth tawel yn ei balas. Mynegir iddo amlygu dymuniad i gael ei gladdu ar ei etifeddiaeth; ond yr oedd traddodiad yn bod, fel y dywed yr hanesydd Livy, iddo farw yn Rhufain, a chael ei gladdu yn meddrod ei deulu, ger llaw Porth Capena, lle y cyfodwyd cofadeiliau iddo ef a'i frawd Lucius. Nid oes sicrwydd am y flwyddyn yn mha un y bu Scipio Africanus farw; o herwydd, yn ol Polybius, bu farw yr un flwyddyn a Hannibal a Philopœmen (c. c. 183); ond yn ol ereill, bu farw ddwy flynedd yn gynt (c. c. 185).

Wrth ffurfio barn ar Scipio Africanus fel cadfridog, gellir mabwysiadu y syniad a briodolir i Hannibal. Edrychir arno yn gyffredinol fel y cadfridog Rhufeinig mwyaf a ymddangosodd o flaen Julius Cæsar; er, fe allai, pe yr edrychid yn fanwl i'w yrfa filwrol, ei fod i raddau pell yn ddyledus i ffawd dda yn gystal ag i'w athrylith filwrol gref am ei lwyddiant anghyffredinol. Bu yn nodedig o lwyddiannus: ennillodd fuddugoliaethau ysblenydd, a gwnaeth y goreu o'r manteision mawrion oedd yn ei feddiant. Fel dinesydd Rhufeinig, nid llawer o glod a haeddai. Yr oedd ei falchder a'i drahausder yn mron yn annioddefol ar brydiau; a rhoddai o'r neilldu gyfreithiau a chyfansoddiad y wladwriaeth pan oeddynt yn wrthwyneb i'w olygiadau a'i nwydau ef. Ychydig hefyd a wnaed ganddo fel gwladweinydd. Ond yr oedd ei ymddygiad mawrfrydig tuag at ei wrthymgeisydd mawr, Hannibal, ar ol cwymp y diweddaf, yn llinell brydferth a thyner yn ei gymmeriad.

Digitized by Google

SCIPIO ÆMILIANUS, yr hwn a gyfenwid AFRICANUS YR IEUANGAF, oedd fab i Æmilius Paulus, yr hwn a orchfygodd Macedonia. Ganwyd ef c. c. 185. Mabwysiadwyd ef gan P. Cornelius Scipio, mab Scipio Africanus. Aeth gyda'i dad ar ei ryfelgyrch Macedonaidd, pan yr ymladdwyd brwydr derfynol Pydna, c. c. 168, yn yr hon y gorchfygwyd Perseus, brenin Macedonia, gan Paulus. Yr oedd Scipio er yn fachgen yn teimlo hoffder at ymchwiliadau deallol, ac yn gwneyd yn fawr o gyfeillgarwch Polybius, Panætius, Lælius, ac ereill. Hwyrach mai o herwydd hyn y tybiai ei berthynasau ei fod yn ddiffygiol yn y bywiogrwydd corphorol a berthyna i ieuengctyd, ac o blegid hyn nad oedd eu gobeithion yn uchel iawn oddi wrtho. Ond gyda'i hoffder o wyddoniaeth, celfyddyd, a choethder Groegaidd, nid oedd yn prisio yn llai rinweddau mwy llym a gerwin y Rhufeiniaid goreu. Yn yr ystyr yma, Cato yr hynaf oedd ei gynllun. Yn nechreu y trydydd rhyfel Punicaidd, c. c. 151, pan nad oedd neb yn foddlawn i roddi ei enw fel swyddog na milwr cyffredin i ymuno yn y rhyfelgyrch i Yspaen, daeth Scipio yn mlaen (er fod pobl Macedonia yn deisyf arno ddyfod i benderfynu rhyw achosion yn eu plith hwynt) i ddadgan ei fod ef yn barod i gymmeryd unrhyw swydd neu waith yn y fyddin a gynnygid iddo. Dilynwyd ei esampl gan lawer oeddynt hyd hyny wedi cadw yn ol. Gwnaed Scipio yn dribun milwraidd o dan L. Lucullus. Nodir dwy weithred arwrol o'i eiddo yn arbenig yn y rhyfelgyrch hwn. Efe oedd yr unig Rufeinwr a feiddiodd dderbyn herfeiddiad penaeth Yspaenaidd, yr hwn oedd ddyn o faintioli anferth; a lladdwyd ef gan Scipio mewn ymladdfa bersonol. Efe hefyd oedd y cyntaf i ddringo i fyny muriau tref Intercatia, yr hon a warchauid gan y Rhufeiniaid. Mewn canlyniad i'r profion hyn o ddewrder personol, a rhinweddau ereill a ddaethant i'r golwg ynddo, llanwyd hyd yn oed ei elynion âg edmygedd o hono.

Y flwyddyn ganlynol (c. c. 150) anfonwyd Scipio gan Lucullus i Affrica, i ddeisyf ar i Massinissa ddanfon nifer o elephantiaid drosodd i Yspaen. Derbyniwyd ef yn y modd mwyaf anrhydeddus. Yr oedd Massinissa a'r Carthageniaid yn parotoi at frwydr. Edrychai Scipio ar yr ymdrechfa hon oddi ar fryn cyfagos; ac mor fuan ag y deallodd y Carthageniaid ei fod yn bresennol, hwy a ddeisyfasant arno weithredu fel cyfryngwr rhyngddynt hwy a Massinissa. Ond ni bu yn llwyddiannus i wneyd yr hyn a geisient ganddo, ac efe a ddychwelodd i'r Yspaen gyda'r elephantiaid. Pan dorodd y rhyfel Punicaidd diweddaf allan, yr oedd Scipio yn parhau yn dribun milwraidd, ac aeth i Affrica, ac yno efe a enwogodd ei hun drachefn gymmaint trwy ei ddewrder, ei gallineb, a'i gyfiawnder, fel y darfu iddo, nid yn unig ennill ymddiried llawn ei gydwladwyr ei hun a Massinissa, ond hyd yn oed y Carthageniaid hefyd—y rhai nad ymddiriedent mewn un Rhufeinwr ond Scipio. Nid oedd derfynau i'r clod a roddid iddo gan y dirprwywyr a anfonwyd allan o Rufain i wneyd ymchwiliad i sefyllfa pethau yn Affrica, pan y dychwelasant yn ol i'r brifddinas. Ymddengys oddi wrth eu hadroddiad ei fod yn hynod boblogaidd gyda'r fyddin hefyd. Ar waith y consul Calpurnius yn cymmeryd llywyddiaeth y fyddin yn Affrica dychwelodd Scipio i Rufain; ond yr oedd pawb yn argyhoeddedig mai efe yn unig oedd yn alluog i ddarostwng y Carthageniaid. Dywedai Cato mai Scipio yn unig oedd yn ddyn byw, ac nad oedd yr holl gadfridogion yn ddim amgen na chysgodion. Ychydig o lwyddiant oedd ar arfau Calparnius yn Affrica; a thra yr oedd Scipio yn ymgeisydd am yr adeiloriaeth *(ædileship)*, etholwyd ef yn unfrydol yn gonsul am y flwyddyn (c. c. 147), er nad oedd etto wedi cyrhaedd yr oedran cyfreithlawn; ac enwyd Affrica fel ei dalaeth. Ar ei ddychweliad i Affrica aeth Polybius a Lælius gydag ef; ac yn ddioed ar ol ei fynediad yno, efe a waredodd gorph cryf o filwyr Rhufeinig, oedd wedi myned yn agos iawn i gymmydogaeth Carthage. Adsefydlodd ddysgyblaeth yn y fyddin. A'r peth cyntaf a wnaeth oedd attal yn mlaen y darpariaethau yr arferai y Carthageniaid eu cael o ganolbarth Affrica; ac yn y gauaf dilynol, efe a lwyddodd i gymmeryd Nepheris, o ba le yr oedd y Carthageniaid hyd hyny wedi derbyn eu darpariaethau gyda'r môr. Estynwyd amser ei lywyddiaeth ar y fyddin hyd y flwyddyn c. c. 146; ac yn ngwanwyn yr un flwyddyn, efe a wnaeth ei ymosodiad ar y ddinas, yr hon a amddiffynwyd gyda'r diysgogrwydd a'r dewrder mwyaf, ond fe'i darostyngwyd; ac yn ol penderfyniad y senedd efe a'i dinystriodd i'w sylfeini. Dywedir fod Scipio wedi wylo yn dost uwch ben ei hadfeilion, fel y daeth y syniad i'w feddwl y byddai i Rufain hefyd hwyrach gael ei dinystrio rywbryd; a daeth y ddwy linell ganlynol o "*Iliad*" Homer dros ei wefusau:—

> "The day shall come when sacred Troy shall perish,
> And Priam and his people shall be slain."

Wedi gwneyd y trefniadau angenrheidiol yn Affrica, a llwyr orthrechu gelyn yr arferai Rhufain edrych gyda llygaid eiddigus arno, dychwelodd Scipio i Italy, ac aeth i mewn i Rufain fel buddugwr. Efe, dybygid, oedd y boneddwr Rhufeinig mwyaf coeth yn ei oes. Arferai yn fanwl y rhinweddau a berchid mor fawr gan yr hen Rufeiniaid; a phan yn gweinyddu y swydd o seniadur *(censor)* c. c. 142, ymdrechai ddilyn ol traed Cato. Yn y cyfnod hwn, pan yr oedd Rhufain yn myned yn fwy fwy moethus yn feunyddiol, cyflawnai ddyledswyddau ei swydd gyda'r manylrwydd mwyaf, heb dderbyn wyneb unrhyw berson. Ond yr oedd ei ymdrechion i leihau anfoesoldeb a moethusrwydd cynnyddol y brifddinas yn cael ei attal i raddau pell gan wrthwynebiad ei gydswyddog, Lucius Mummius, gorchfygwr gerwin Corinth. Yn fuan ar ol hyn, anfonwyd ef i'r Aipht, Syria, Asia, a Groeg, i wneyd ymchwiliad i sefyllfa pethau yn y gwledydd hyny; ond yn y cyfamser, yr oedd pethau wedi myned i annhrefn mawr yn Yspaen. Yr oedd Viriathus, y gwladgarwr Lusitanaidd, drachefn a thrachefn wedi gorchfygu y byddinoedd Rhufeinig, ac yr oedd ei esampl dewrfrydig ef wedi codi gobeithion y llwythau Celtiberaidd, y rhai hefyd a gyfodasant mewn rhyfel yn erbyn y gelyn cyffredin. Parhaodd yr ymdrechfa ar adegau yn llwyddiannus, ac weithiau yn aflwyddiannus; ond yr oedd y dyddordeb mawr yn canolbwyntio at ddinas Numantia, preswylwyr yr hon a ddangosasant ddewrder digyffelyb yn eu hymdrech yn erbyn Rhufain. Am amser maith, ymddangosai y Numantiaid fel pe buasent yn anorchfygadwy—yr oedd y naill gonsul ar ol y llall wedi methu eu darostwng: ond o'r diwedd, yn y flwyddyn c. c. 134, fe etholwyd Scipio yn gonsul yr ail waith, ac aeth i'r Yspaen. Wedi iddo warchau Numantia am wyth mis,

Digitized by Google

gorfodwyd y dinasyddion gan newyn tost i roddi y dref i fyny, pryd y llwyr ddinystriwyd hi. Yr oedd llawer o'r trigolion, pa fodd bynag, wedi lladd eu hunain yn hytrach na rhoddi eu hunain i fyny i ddwylaw eu hymosodwyr. Dewiswyd hanner cant o'r rhai a adawyd yn fyw o honynt i addurno gorymdaith fuddugol y gorchfygwr; gwerthwyd y gweddill i gaethiwed, a llwyr ddinystriwyd y dref i'w sylfeini! Ar ol ei ddychweliad i Rufain, cymmerodd ran amlwg mewn achosion gwleidyddol, gan gymmeryd arweinyddiaeth y blaid bendefigaidd; ac o blegid hyn aeth ei boblogrwydd yn llai gyda'r blaid ddemocrataidd.

Tra yr ydoedd Scipio yn dwyn yn mlaen warchauad dinas Numantia, cymmerodd y terfysg Gracchaidd le yn Rhufain. Er fod ei wraig, Sempronia, yn chwaer i Tiberius Gracchus, yr oedd Scipio yn cyfiawnhau y gwaith o roddi Gracchus i farwolaeth; er nad oedd, fel llawer ereill, yn bleidiwr cyndyn i'r dosbarthiadau mwyaf breintiedig o gymdeithas. Yr oedd Scipio yn wrthwynebol i bob mesurau treisiol a gorthrymus: gochelgarwch oedd un o'i brif nodweddau. Diammheuol ei fod yn ddyn diffuant ac anhunangar. Ond darfu i'w waith yn gwrthwynebu plaid y bobl beri iddo golli llawer o'r dylanwad a feddiannai yn flaenorol yn eu mysg. Y canlyniad o hyn fu, pan oedd efe yn ewyllysio ymgymmeryd â llywyddiaeth y fyddin yn erbyn Aristonicus, na chafodd ond pleidlais dau lwyth. Yn fuan ar ol hyn, digwyddodd amgylchiad a alwodd allan wrthwynebiad ffyrnicaf plaid y bobl yn ei erbyn. Gwnaeth Scipio gynuygiad yn ffafr yr hen filwyr Italaidd, yr hwn a gymmeradwywyd gan y senedd, ac yn ol yr hwn yr oedd y dadleuon a gyfodent o ddosbarthiad y tiroedd cyhoeddus i gael eu penderfynu, nid gan y dosbarthwyr eu hunain, ond gan bersonau ereill. Parodd y mesur hwn i oediad gymmeryd lle yn y dosbarthiad; a gwnaeth yr arweinwyr poblogaidd, F. Flaccus, C. Gracchus, a Papirius Carbo, yr ymosodiadau chwerwaf ar Scipio yn nghynnulliadau y bobl, a galwent ef yn elyn y bobl. Pan yr ail ddywedodd Scipio ei fod yn cymmeradwyo y weithred o roddi Gracchus i farwolaeth, gwaeddai y lleill allan, "I lawr â'r gorthrymwr!"

Ar ol y dadleuon cyffrous hyn, aeth Scipio i'w dŷ yn dawel, yn cael ei ddilyn gan aelodau y senedd, a nifer mawr o'r Lladinwyr a chynghreirwyr Rhufeinaidd. Aeth i'w ystafell yn yr hwyr, gyda'r bwriad o ysgrifenu araeth i'w thraddodi yn y senedd boreu dranoeth. Ond yn y boreu, cafwyd ef yn farw yn ei wely. Attaliwyd i ymchwiliad gael ei wneuthur i achos ei farwolaeth gan y lliaws, ac o ganlyniad y mae y digwyddiad wedi parhau yn ddirgelwch. Yr oedd y farn gyhoeddus yn pwyntio at lawer fel rhai a ammheuid o fod yn euog o'i lofruddiaeth; ond ar Carbo y disgynai y drwgdybiaeth drymaf, yr hwn oedd ei elyn gwleidyddol gwaethaf. Gellir dywedyd am Scipio nad oedd yn orselog dros y blaid bendefigaidd, nac yn wenieithiwr i'r bobl chwaith. Mewn athrylith ddisglaer, yr oedd, fe allai, yn israddol i'r Scipio hynaf, tad y Paulus Scipio a'i mabwysiadodd ef; ond yr oedd yn ddiau yn rhagori arno yn mhurdeb ei gymmeriad, symlder ei wladgarwch, ac yn eangder a choethder ei ddiwylliant.

SCOT, REGINALD. Ganwyd y dyn enwog a thra hynod hwn yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; ac yr ydoedd efe yn un o'r gwrthwynebwyr penaf i'r hyn y credid ynddo o'r bron yn gyffredinol yn y cyfnod hwnw—sef, swynyddiaeth. Yr ydoedd yn fab i foneddwr o Sais, ac o deulu cyfrifol, ac addysgwyd ef yn Rhydychain. Ni chymmerodd un gradd yno; ond dychwelodd i Smeeth, yn swydd Caergaint, ac ymroddodd i astudio, ond yn fwyaf neillduol i ddarllen hen awduron anadnabyddus; gan ddefnyddio ei oriau hamddenol i ddiwyllio y gelfyddyd arddwrawl. Cyhoeddodd ddau o weithiau llenyddol yn 1584—un ar "*Arddwriaeth,*" a'r llall ar "*Swynyddiaeth.*" Yn y naill a'r llall, canfyddir cymmysgiad hynod o synwyr a ffolineb, dysgeidiaeth eang ac amcandybiau plentynaidd ac anaeddfed, ynghyd â dyfyniadau diddarfod o awduron Groegaidd a Lladinaidd; yr hyn oedd mor gyffredin i awduron y cyfnod hwnw. Y mae un darn tarawiadol yn rhagymadrodd y gwaith ar swynyddiaeth i'r perwyl a ganlyn:—"Y mae y gwaith hwn wedi ei gyfansoddi yn gyntaf, fel na byddai i ogoniant Duw gael ei ddarostwng a'i leihau, fel ag i roddi yn llaw neu ar wefusau hen wraig ddrygionus i briodoli gwaith y Creawdwr i'r creadur; yn ail, fel y gweler y bydd i'r grefydd Gristionogol sefyll heb y fath ysbwrial a ffiloreg ffol; yn drydydd, fel y byddo i dynerwch a chydymdeimlad Cristionogol gael eu dangos tuag at y bobl druain hyn, yn hytrach na llymder a chreulondeb." Nis gallai gwaith o'r fath, gyda'r fath amcan iddo, ar y fath adeg, ac ynddo gymmaint o synwyr cyffredin yn gymmysgedig â dyngarwch lai na dwyn ar ben yr awdwr bob sarhâd, dirmyg, a gwrthwynebiad. Ystyrid dyweyd nad oedd y diafol yn meddu un gallu yn y byd i ymyraeth â threfn natur, ac nad oedd hen wragedd yn offerynau dirprwyol a gofalus o'i awdurdod a'i allu, yn ddim amgen nag atheistiaeth. Gan fod Scot yn chwerthin ac yn gwneyd gwawd o'r triciau anhawdd a chywrain a gyflawnid trwy arfer hudgastiau (*legerdemain*), ac yn egluro pa fodd y cyflawnid hwynt, nid ydym yn synu i'w lyfr gael ei losgi gan y dïenyddwr cyffredin, a bod "attebwyr" iddo yn ymddangos ar bob llaw; ac yn eu plith Casauben, Glanvil, ac Iago I., brenin Lloegr, yr hwn a ysgrifenodd ei "*Demonologie,*" fel y dywed, "yn benaf yn erbyn opiniynau condemniedig Wierus a Scot; y diweddaf o ba rai nid oedd arno gywilydd i wadu mewn argraph nad oedd y fath beth yn bod a swynyddiaeth."

Nis gallasai hyfder ac eofndra Scot lwyddo ar unwaith pan yn wrthwynebol i'r brenin a deyrnasai, ac i gyfraith y wlad. Pan yr oedd rheswm dynol wedi ei ddallu gymmaint gan ofergoeledd fel yr oedd yn arferiad digon cyffredin i daflu merch a ddrwgdybid o fod yn ddewines i lyn, ac os diangai rhag boddi, llosgid hi; nis gallesid disgwyl i synwyr cyffredin ennill llawer o ddysgyblion; ac etto, oddi wrth y ffaith fod y gwaith wedi myned trwy dri argraphiad, ac iddo gael ei gyfieithu i'r Ffrangcaeg a'r Almaenaeg, y mae yn ymddangos iddo fod yn dra llwyddiannus. Y mae yn awr yn hynod brin. Dywed Hallam, yr hanesydd enwog, pan yn cyfeirio at Scot, "Y dyn dysgedig a sylweddol hwn—o herwydd yr oedd felly y tu hwnt i holl Saeson yr oes hono yn mron." Bu farw yn 1599, a chladdwyd ef gyda'i hynafiaid yn eglwys Smeeth.

SCOTT, SYR MICHAEL: ysgolhaig coeth ac athronydd enwog yn y drydedd ganrif ar ddeg;

Digitized by Google

Tua'r pryd hwn daeth i feddiant o bump neu chwe mil o bunnau, y rhai a adawyd gan ewythr iddo. Yr oedd hyn, ynghyd â'r gyfran o'r hyn a adawodd ei dad iddo, a'r hyn a ddeuai iddo oddi wrth ei siryddiaeth, a'r hyn a ganiateid i'w wraig gan ei brawd, yr hwn oedd ar y ffordd i gasglu cyfoeth yn India, yn gwneyd ei holl incwm yr adeg yma tua mil o bunnau yn y flwyddyn. Yr oedd wedi bod am tua deng mlynedd wrth y bar, gydag ond ychydig o lwyddiant:—nid oedd ei ennillion y rhan fynychaf, ddim dros ddau cant o bunnau yn y flwyddyn. Ynghylch yr amser y daeth y "*Minstrelsy*" o'r wasg, gofynwyd i Scott gan Iarlles Dalkeith i ysgrifenu cân ar chwedl draddodiadol oedd yn nheulu Buccleuch, am ysbryd a ymrithiai ar brydiau. Dechreuodd yntau ar gyfansoddiad o'r fath, gan fabwysiadu fel mesur i ganu arno un cyffelyb i'r hwn y canasai Coleridge arno; ond ymchwyddai o dan ei law yn fwy nag y meddyliasid iddi fod ar y cyntaf. Mewn gair, daeth yn fath o gân hanesiol ramantus, wedi ei dosranu yn amrywiol raniadau. Cyhoeddwyd hi yn Ionawr, 1805, dan yr enw "*The Lay of the Last Minstrel.*" Rhoddodd cyhoeddiad y gwaith hwn i Scott le uchel ar unwaith yn mhlith llenorion ei wlad fel bardd gwreiddiol. Wedi i'r argraphiad cyntaf brofi yn llwyddiannus, rhoddodd y cyhoeddwyr iddo 600*p*. am yr hawlysgrif. Trwy ddylanwad yn mysg y pendefigion, cafodd y swydd o ysgrifenydd yr arseddlys; ond nid oedd i dderbyn y tâl, yr hwn wedi hyny a bennodwyd i fod yn 1,300*p*. y flwyddyn, hyd farwolaeth yr hwn oedd yn dal y swydd o'i flaen ef; ac mewn gwirionedd, ni chafodd Scott ddim oddi wrthi hyd y flwyddyn 1812. Gan fod golwg obeithiol yn awr ar ei amgylchiadau, nid rhyfedd iddo ymaflyd yn fwy ymroddgar mewn efrydiau a gwaith llenyddol. Yr oedd ganddo erbyn hyn bedwar o blant iachus. Gan ei fod yn byw yn mhell oddi wrth yr eglwys, darllenai weddïau a phregethai i'w deulu ar y Sabbothau. Arferai fyned gyda chyfeillion a ddeuent i ymweled âg ef i ddangos iddynt y golygfeydd, ac i ymweled â hynafiaethau y gymmydogaeth; ac yn yr hwyr, yr oedd yn hoff iawn o adrodd chwedlau a hanesion dyddorol i'w cadw yn ddifyr. Yr oedd yn rhoddi caniatâd i'w blant ddyfod i'w ystafell bob amser; a phan y deuent, gan ofyn iddo adrodd chwedl iddynt, cymmerai hwynt ar ei liniau, ac adroddai chwedl neu gân, a chusanai hwynt, a gollyngai hwy i chwareu. Yr oedd yn briod hawddgar, ac yn dad serchog a charedig. Am ei gŵn, o ba rai y byddai ganddo ddau neu dri yn wastad, yr oeddynt hwy o'r bron yn cael breintiau mwy: cadwai ei ffenestr agos yn wastad yn agored, fel y gallent neidio i mewn ac allan i'w ystafell fel yr ewyllysient. Dyma rai o ddyddiau dedwyddaf bywyd Scott.

Yn 1808, esgynodd i binacl uchaf ei enwogrwydd fel bardd, pan y cyhoeddwyd ei "*Marmion,*" am yr hon gân y cyttunodd Mr. Constable, cyn ei chyhoeddi, i roddi iddo 1,000*p*. Yn 1810, daeth allan ei "*Lady of the Lake:*" cân a ddaeth yn fuan yn fwy poblogaidd na'r ddwy flaenorol a enwyd. Ymddangosodd ei "*Vision of Don Roderick*" yn 1811, "*Rokeby*" yn 1812, a "*Lord of the Isles*" yn 1814. At y rhai hyn gellir chwanegu "*The Bridal of Triermain,*" a "*Harold the Dauntless,*" a gyhoeddwyd yn ddienw—y flaenaf yn 1814, a'r olaf yn 1816. Synodd y caneuon hyn y byd llenyddol, gan eu bod yn annhebyg, rywfodd, i ddim oedd wedi ymddangos o'r blaen. Yr oedd llawer o'u poblogrwydd, hwyrach, i'w briodoli i newydd-deb y testynau, ac i'r ffaith eu bod yn cyfarfod â chwaeth yr oes; ond yr oedd y synwyr cynhenid cryf a ddeuai i'r golwg ynddynt, yr ystorfeydd helaeth o wybodaeth am bethau anghyffredin oedd gan eu hawdwr, a rhwyddineb llithrig ei ddychymyg a'i fedr, yn eu gwneyd yn weithiau o wir deilyngdod. Wedi i'r newydddeb cyntaf fyned heibio, dechreuwyd eu beirniadu yn fwy llym; a diammheu nad oedd ei gynnyrchion barddonol diweddaf yn gyfartal i'w rai blaenaf. Yr oedd Byron wedi ymddangos fel bardd o'r radd gyntaf; a gwelodd Scott hyny yn eglur. Gan hyny, efe a benderfynodd adael y maes hwn o lenyddiaeth, gan ei fod yn gweled ei fod mewn perygl o golli ei boblogrwydd; ac ni chyhoeddodd fwy o farddoniaeth.

Ymddengys fod Scott, mor foreu a'r flwyddyn 1805, wedi dechreu cyfansoddi ffugchwedl ryddieithol ar arferion preswylwyr ucheldir Ysgotland, yr hon a alwai yn "*Waverley; or 'Tis Sixty Years Since.*" Dangosodd y pennodau cyntaf o honi i ychydig gyfeillion; ond nid oedd y rhai hyny yn cymmeradwyo y gwaith, a thaflodd yntau yr ysgrif o'r neilldu i hen ysgrifgist, ac yno y bu yn gorwedd am naw mlynedd. Wrth chwilio am rywbeth arall, digwyddodd ddyfod o hyd i'r ysgrif yn ddamweiniol un diwrnod: meddyliodd y gorphenai y gwaith, ac y torai iddo ei hun lwybr newydd mewn llenyddiaeth. Gweithiodd yn galed ar y gwaith hwn yn mis Mehefin, 1814, a chyhoeddwyd yr ystori mewn tair cyfrol yn mhen mis neu ddau wedi hyny. Daeth y cyhoedd yn ddioed i weled teilyngdod y gwaith, a chyfarfu yr argraphiad cyntaf o fil o gopïau â gwerthiad buan, a dilynwyd ef gan ail a thrydydd argraphiad. Teimlid awyddfryd mawr am wybod pwy oedd yr awdwr anhysbys, gan fod y gwaith wedi ei gyhoeddi yn ddienw. Yr oedd llawer o ddynion meddylgar a chraff yn methu meddwl am neb a allasai gyfansoddi "*Waverley*" ond yr hwn a gynnyrchodd "*Marmion,*" a'r "*Lady of the Lake;*" ond yr oedd corph y darllenwyr yn methu dyfalu pwy oedd yr awdwr. Priodolai rhai y gwaith i Thomas, brawd Scott, ac ereill i Mr. Jeffrey. Parodd llwyddiant *Waverley* i Scott wneyd cais arall yn yr un cyfeiriad. Tua Chwefror, 1815, daeth allan ei "*Guy Mannering;*" a derbyniwyd ef gyda'r arwyddion amlycaf o foddhâd, yn Lloegr ac Ysgotland. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1816 yr ymddangosodd ei ffugchwedl, "*The Antiquary;*" yr hon, fe ddichon, o'i holl weithiau, sydd yn cynnwys mwyaf o'i syniadau ei hun. Ac o'r bron y cafodd y gwaith hwn ddyfod o'r wasg nad oedd "*Tales of my Landlord*" wedi eu cynllunio—y gyfres gyntaf o ba rai a ddaeth allan, fel gan awdwr newydd, yn y mis Rhagfyr dilynol, ac a dderbyniwyd gyda'r un amlygiad o gymmeradwyaeth lawn ag a roddasid i'w rhagflaenoriaid. Yn ystod y tair blynedd dilynol, daeth allan ei "*Black Dwarf,*" "*Old Mortality,*" "*Rob Roy,*" a'r "*Heart of Midlothian;*" a'r cwbl yn ddigamsynied yn dwyn arnynt yr argraph mai cynnyrch yr un meddwl oeddynt. Parodd yr amgylchiad fod Scott wedi cyhoeddi pryddest faith yn yr un flwyddyn ag y daeth "*Waverley*" allan, a'i lafur gyda gweithiau llenyddol ereill, ynghyd â'r dyb gyffredin nas gall bardd ragori fel ysgrifenydd rhyddieithol, i'r ammheuaeth mai efe oedd awdwr ffugchwedlau y "*Waverley,*" fel y gelwid hwynt, am gryn amser beidio diagyn

Digitized by Google

yn gyffredinol arno ef. Ac yr oedd y ffyddlondeb â pha un y cadwai yr ychydig hyny yr ymddiriedwyd dirgelwch yr awduriaeth iddynt yn gwneyd pob ymgais i gael prawf uniongyrchol o'r awduriaeth yn ofer. Ond fel yr awgrymwyd o'r blaen, yr oedd amryw bethau yn peri i rai oedd yn fwy craff nag ereill i dybied yn gryf mai Scott oedd yr Anadnabyddus Mawr *(Great Unknown)*, fel y gelwid yr awdwr yn gyffredin y pryd hwnw.

O'r pryd hwnw hyd ddiwedd y flwyddyn 1825—tuag wyth mlynedd o amser—yr oedd llwyddiant hynod ar holl amgylchiadau bywyd Scott. Daeth ei nofelau, "*The Bride of Lammermoor,*" "*The Legend of Montrose,*" "*Ivanhoe,*" "*The Monastery,*" "*The Abbot,*" "*The Pirate,*" "*Kenilworth,*" "*The Fortunes of Nigel,*" "*Peveril of the Peak,*" "*Quentin Durward,*" "*St. Ronan's Well,*" "*Redgauntlet,*" a "*Tales of the Crusaders,*" yn gyflym anarferol oddi wrtho fel ffrwyth ei ysgrifell ffrwythlawn, ac nid oedd dwy farn gyda golwg ar eu teilyngdod. Fel rheol, yr oedd tua deng mil o gopïau o honynt yn cael eu lledaenu ar eu hymddangosiad cyntaf; ac wedi hyny yr oeddynt yn parhau i werthu yn gyflym mewn adargraphiadau prydferth. Yr oedd Scott ar y fath binacl o enwogrwydd, ac mor uchel o ran ei safle gymdeithasol a'i lwyddiant bydol, fel y gellir dywedyd na bu llenor Prydeinig erioed yn yr un sefyllfa ag ef. Preswyliai am tua saith mis o'r flwyddyn yn Abbotsford—lle yr aeth efe i draul fawr i'w adeiladu. Yr oedd Abbotsford ar gyffiniau Lloegr ac Ysgotland, ac yn ardal a garai Scott yn fawr. Ac i'r lle hwn y cyrchai llaweroedd o feibion athrylith, yn gystal a mawrion a phendefigion y wlad, y naill haf ar ol y llall, i fwynhau ei gymdeithas ac i gyfranogi o'i lettygarwch tywysogaidd. Yn 1820, gwnaed ef yn farwnig, fel arwydd neillduol o ffafr y goron. Nid oedd efe yn ceisio yr anrhydedd hwn; a derbyniodd ef, mewn rhan am fod hyny yn boddhau ei deulu, ac mewn rhan er mwyn ei fab hynaf, yr hwn oedd ar y pryd newydd ymuno â chatrawd o wŷr meirch. Er ei fod yn awr yn sefyll yn uchel mewn cymdeithas, ac yn ŵr o urdd a theitl, yr oedd ei chwaeth a'i arferion personol, a'i ymddygiadau tuag at ei gyfeillion, a'i berthynasau, a'r iselradd a'r tlodion, yn parhau yr un. Yr oedd yn mynwes ei deulu gartref yn nodedig o siriol a charedig. Pan yn rhodio o gwmpas yn ei erddi, neu ar ei diroedd, ymddiddanai yn y modd mwyaf rhydd â'i weithwyr a'i weision, a gwladwyr y gymmydogaeth; ac yr oedd yn wrthddrych parch a serch arbenig y cyfryw. Gwelid ef yn fynych yn gweithio am hanner diwrnod yn taflu coed yn ei goedwigoedd, ac yn cydymgais â'i weithwyr pa un a dorai bren i lawr gyda lleiaf o ergydion y fwyall; a phan y byddai iddo ddigwydd bod yn fuddugwr, chwarddai yn galonog. Ymhyfrydai i rodio yn unig yr hwyr tua thŷ un o'i hen weision, fel y gallai glywed y salm a ganai yr hen ŵr a'i briod wrth ddwyn yn mlaen y gwasanaeth crefyddol teuluaidd hwyrol. Dywedai un o'i weision wrth ryw ymwelydd unwaith fod "Syr Walter yn siarad â phob dyn fel pe buasent yn geraint iddo." Nid siarad â'r bobl gyffredin y byddai efe fel pe buasai yn ddarostyngiad ynddo wneuthur hyny. Ond elai i mewn i'w teimladau, a'u chwaeth, a siaradai yn eu tafodiaeth hwy eu hunain, a pharai iddynt deimlo yn hollol gartrefol yn ei bresennoldeb.

Nid oedd caneuon a nofelau Scott wedi myned â'i holl amser, pa fodd bynag, yn ystod deng mlynedd ar hugain ei oes weithgar, er mai iddynt hwy yr oedd wedi cyflwyno ei hun yn benaf. Ysgrifenai i'r "*Edinburgh Review*" yn ei ddechreuad; a phan y darfu i anghydwelediad gwleidyddol ei gymmhell i dori y berthynas a fuasai rhyngddo â'r cyhoeddiad hwnw, cymmerodd ddyddordeb mawr yn sefydliad y "*Quarterly Review.*" Ac fel y cyfeiriwyd o'r blaen, yr oedd ganddo law, fel golygydd, mewn amryw o lyfrau ereill a gyhoeddwyd gan y Ballantynes, a chyhoeddwyr ereill. Ond y mae ei ysgrifeniadau bywgraphyddol a beirniadol yn cael eu nodweddu gan synwyr cryf, bywiogrwydd, a ffraethineb, yn hytrach na chan alluoedd beirniadol o'r radd uchaf, a chwaeth dyner goethedig. O'r flwyddyn 1796 hyd 1826, yr oedd bywyd Scott yn un prysur, dedwydd, a llwyddiannus, ar y cyfan. Trwy noddaeth cyfeillion dyrchafwyd ef i amgylchiadau cysurus; a thrwy ei lafur a'i weithgarwch ei hun daeth i feddiant o gyfoeth. Yr oedd ei alluoedd fel awdwr yn eangu cylch ei gyfeillgarwch; ac fel cydymaith difyr yn ei gymdeithas nid oedd neb a ragorai arno. Parai ei lwyddiant ymddangosiadol cynnyddol iddo deimlo hyder yn ei adnoddau i raddau oedd yn ymylu ar ryfyg. Teimlai awydd cryf i fod yn debyg i'r hen arglwyddi gwriogaethol—bywyd pa rai yr oedd mor hoff o'i bortreadu o flaen ei ddychymyg. Dyna barodd iddo bwrcasu Abbotsford, a'i wneyd yn lle mor ardderchog, ac yn fangre cymmaint o lettygarwch. Efe a ymdrechodd hefyd i adnewyddu arferion yr hen amseroedd mor bell ag y gallai yn ei breswylfod newydd.

Ond nid oedd sefyllfa pethau i barhau yn hir fel hyn. Yr oedd Scott, yn y flwyddyn 1805, yn ddiarwybod i'w gyfeillion, wedi ymuno â James Ballantyne, hen gydysgolhaig âg ef, i sefydlu swyddfa argraphu yn Edinburgh. Yn mhen ychydig flynyddoedd, chwanegwyd at hyn y fasnach o gyhoeddi llyfrau, o dan arolygiaeth broffesedig John Ballantyne, brawd i James; a daeth Scott yn bartner yn yr anturiaeth hon hefyd. Yn raddol, ymunodd y ddau gwmni hwn â chwmni Constable, y cyhoeddwr enwog. Yr oedd Constable, Ballantyne, a Scott yn ddynion o dalent a synwyr cryf; ond yr oedd ysbryd anturio yn gryfach ynddynt nag ydoedd gofalu am gael manylion cywir o gyfrifon y fasnach. Bu eu hanturiaethau o'r dechreu ar raddfa helaethach nag yr oedd eu cyfalaf yn ei warantu; ac fel y lliosogai anhawsderau o'u cwmpas, disgwylient am waredigaeth oddi wrthynt trwy ymgymmeryd âg anturiaethau mwy eofn. Nid oedd yn bossibl i hyn fyned yn mlaen o hyd; a darfu i'r cyfyngder masnachol a gymmerodd le yn 1825—26 brysuro dinystr y tŷ, er nad dyna oedd yr achos o'r trychineb a ddigwyddodd. Methodd Ballantyne a'i Gyf., a Constable a'i Gyf. Ac yr oedd dyledion personol Syr Walter Scott yn rhywle o ddeutu 150,000*p.*, yn rhinwedd ei gyssylltiad fel partner â'r cwmnïau hyn. Nis gellir ei ryddhau oddi wrth gyfrifoldeb, a'i gyfiawnhau yn ngwyneb y diofalwch a amlygodd wrth fyned o dan y baich dirfawr hwn o ddyled. Ond er ei anrhydedd gwastadol, ni chiliodd yn ol un fodfedd oddi wrth y cyfrifoldeb ofnadwy yr aethai mor ryfygus dano. Fel hyn y dywedai wrth y rhai yr oedd yn ddyledus iddynt:—"Foneddigion: Amser a minnau yn erbyn unrhyw ddau. Gadewch

i mi gael y cynghreirydd da hwn i'm cwmni, ac yr wyf yn credu y byddaf yn alluog i dalu i chwi bob hatling." Ac er ei fod i raddau braidd yn pallu o ran ei nerth a'i fywiogrwydd, ymroddodd i lafurio yn y modd mwyaf penderfynol i leihau ei ddyled drom.

Rhoddodd i fyny ei holl eiddo, a llawnododd ammodrwym yn trosglwyddo i foneddwyr neillduol yr hawl i dderbyn yr hyn a dderbyniai efe oddi wrth ei lafur llenyddol, er talu ymaith yn raddol y gofynion oedd arno. Gwerthodd ei balas a'i ddodrefn yn Abbotsford, a hyny tua'r adeg yr oedd ei anwyl briod yn gorwedd ar ei gwely angeu. Ymneillduodd i letty yn Edinburgh; ac yno, gyda phenderfyniad di-ildio, llafuriai gyda'r diwydrwydd a'r dyfalbarhâd mwyaf canmoladwy. "Y mae yn galed iawn," meddai, mewn llais dwfn a phryderus, wrth gyfaill a amlygai gydymdeimlad âg ef, "i golli holl lafur bywyd fel hyn, a chael fy ngwneyd yn ddyn tlawd yn y diwedd, pan y dylaswn fod yn rhywbeth gwahanol i hyny. Ond os caniatâ Duw i mi fywyd a nerth am ychydig flynyddoedd etto, nid wyf yn ammheu nad allaf wneuthur pob peth yn dda." Daeth cyfres o nofelau o'i ysgrifell ffrwythlawn fel o'r blaen; ac ymgymmerodd âg ysgrifenu ei "*History of Napoleon*," mewn wyth o gyfrolau, yr hyn a gwblhawyd ganddo, ynghyd â phethau ereill; ac mewn dwy flynedd o amser, yr oedd Scott wedi ennill y swm aruthrol o yn agos i ddeugain mil o bunnau tuag at dalu ei ddyledion. Dygwyd allan argraphiad newydd o'r nofelau gyda sylwadau eglurhaol, gyda llwyddiant anghyffredinol; ac, yn ol pob ymddangosiad, mewn yspaid rhesymol o amser, gallai Scott, yn ol fel y dywedai efe ei hun, wynebu y byd etto heb fod yn nyled neb o geiniog. Gyda'r gobaith hwn o flaen ei lygaid llafuriai yn mlaen; ond llafuriodd ormod, rhoddodd ormod o waith i'w ymenydd, ac o dreth ar ei natur yn yr ymdrech galed yma. Yn 1830, tarawyd ef i lawr gan ergyd o'r parlys, ac ni ddaeth byth yr un dyn wedi hyny, er ei fod wedi dyfod ato ei hun mewn rhan, a bod yr awydd i ysgrifenu a chyfansoddi mor gryf ynddo ag erioed. Ysgrifenai ar yr adeg hono fel hyn:—"Yr wyf ar y môr yn y tywyllwch, a'r llestr yn agenu ac yn gollwng dwfr hefyd yn y fargen. Yr wyf wedi dioddef yn ofnadwy, dyna y gwirionedd—yn hytrach mewn corph nag mewn meddwl; a byddaf yn fynych yn dymuno cael gorwedd i lawr a chysgu, ac heb ddeffro. Ond myfi a'i hymladdaf hi allan, os gallaf!" Cynghorai ei gyfeillion a'i feddygon ef yn feunyddiol i roddi heibio yr ymdrechion hyn, o herwydd yr oedd trwy hyn yn graddol ddyfetha ei hun; ond troi clust fyddar yr oedd at y cwbl. Gobeithid y buasai hinsawdd Italy yn dwyn oddi amgylch wellhâd iddo. Cynghorwyd ef i dreulio misoedd y gauaf yno; a rhoddodd y llywodraeth long at ei wasanaeth, yn yr hon yr hwyliodd i Naples, yn nghwmni ei fab hynaf a'i ferch ieuangaf, yn mis Hydref, 1831. Teimlai yn anewyllysgar iawn i adael cartref; ond yr oedd ei awyddfryd am gael gweled rhai o wledydd y Cyfandir, heb law Ffrainge, yn cymmodi ychydig ar ei feddwl i wynebu y daith. Cafodd fordaith ddymunol; mwynhaodd y golygfeydd nodedig a phrydferth a geir yn Malta, a meddyliai lawer am y ffugchwedlau y gellid eu seilio arnynt. Cyrhaeddodd i Naples ar yr 17eg o Ragfyr, pryd y perswadiodd y brenin a phrif ddynion y lle, ac yn eu plith amryw Saeson, ef i wneuthur ei drigfod yn y ddinas hono, ac ymdawelu. Ei gyfaill penaf yno oedd Syr William Gell, yr hwn a ysgrifenodd ar hynafiaethau Italy. Edrychai Syr Walter ar y rhan fwyaf o'r hynafiaethau clasurol yn ddigon digynnhwrf. Wrth edrych ar Pompeii ni ddywedodd ond dau air:—"Dinas y meirw!" Ond yr oedd pob gwrthddrych neu ysgrifen a ddygai ei feddwl i rywle tua'r canol-oesoedd yn peri dyddordeb mawr iddo. Bu am beth amser yn coleddu gobeithion siriol fod ei iechyd yn gwella: yr oedd hefyd o dan yr argraph fod ei ddyledion wedi eu talu:—ni raid dywedyd fod y naill syniad a'r llall yn dwyllodrus. Aeth pedwar mis heibio yn y modd hwn. Yna daeth i deimlo yn bryderus am gael dychwelyd adref; ac o blegid na fynai ymostwng i reolau pennodol yn mherthynas i ysgrifenu na bwyta, barnwyd mai doeth oedd gadael iddo, mewn gobaith y gallesid mewn amser ei gael i ymostwng yn well i reolau a osodwyd i lawr.

Gadawodd Scott Naples ar yr 16eg o Ebrill, 1832, yn nghwmni ei fab ieuangaf, yr hwn oedd un o ysgrifenyddion y llysgenhadwr Prydeinig yn y ddinas hono, a'i ferch ieuengaf. Treuliodd ychydig wythnosau yn Rhufain; ac yn y ddinas hono hefyd, yr hyn oedd yn dwyn cyssylltiad â'r canol-oesoedd oedd yn tynu mwyaf o'i sylw, ac yn creu mwyaf o ddyddordeb ynddo. Anrhydeddid ef yno, fel yn Naples, gan bersonau o'r radd uchaf mewn cymdeithas. Ymadawodd o Rufain ar yr 11eg o Fai, ac aeth heibio Venice, a thrwy y Tyrol, i Frankfort, gyda chryn brysurdeb, er yn ddiau nas gallai hyn fod yn ffafriol iawn i'w iechyd; ond mŷnai deithio yn gyflym. Canfyddwyd fod yn angenrheidiol i'w was, Nicolson, ollwng gwaed arno; yr hwn a gyfarwyddwyd i wneuthur hyny pan y gwelai angen. Ar y 13eg o Fehefin efe a gyrhaeddodd i Lundain, wedi ei lwyr fwrw i lawr. Yr oedd pob peth yn arwyddo fod y dyn enwog hwn yn prysur dynu i derfyn ei yrfa ddaearol. Cadwyd ef yn Llundain am dair wythnos; ac yn ystod yr amser hwnw rhyw ambell lygedyn yn achlysurol y canfyddai ei gyfeillion fod ei synwyrau yn ei feddiant. Nid oedd yn gwybod yn iawn yn mha le yr oedd; gwyddai, pa fodd bynag, nad oedd yn Abbotsford, lle yr oedd yn ymawyddu bod. Er mwyn ei foddloni, cymmerwyd ef i Ysgotland gyda'r môr; ac aed âg ef o Edinburgh mor fuan ag yr oedd yn bossibl i'w dŷ ei hun. Fel yr oedd yn nesau ato, dechreuai ddangos arwyddion ei fod yn dyfod i adnabod rhai gwrthddrychau yr oedd yn arfer bod yn gyfarwydd â hwynt; ac yr oedd yn anhawdd ei gadw yn y cerbyd, gan mor gynnhyrfus yr elai. O'r diwedd, daeth at y porth, ac wrth weled ei oruchwyliwr a'i gyfaill, efe a ddywedodd:—"Ha, Willie Laidlaw! O ddyn! mor aml yr wyf wedi meddwl am danoch!" Ymgasglai ei gwn o'i gwmpas. Wrth edrych arnynt, efe a dorodd allan i wylo, hyd nes y syrthiodd i sefyllfa o ddideimladrwydd synedig; a pharhaodd yn y sefyllfa ofidus hon am ddeufis. Yn ystod yr amser hwn yr oedd ei feddwl yn gloewi ychydig ar adegau. Ar un achlysur mynodd gael ei osod wrth yr ysgrifgist, i ysgrifenu; ond methodd ei fysedd ag ymaflyd yn yr ysgrifell, ac efe a syrthiodd yn ol i'w gadair, ac a wylodd yn chwerw. Cysgu y byddai yn fwyaf cyffredin. Pan yn ymwybodol, gorchymynai i'r Beibl a gwasanaeth yr eglwys gael eu darllen iddo. O'r diwedd, ar yr 21ain o Fedi, 1832, bu farw yn

Digitized by Google

dawel, yn yr eilfed flwydd a thrigain o'i oedran. Claddwyd ef yn mhen ychydig ddyddiau yn Mynachlog Dryburgh.

Wedi marw Scott, cliriwyd ei holl ddyledion oddi wrth yr elw a gafwyd oddi wrth ei weithiau; ac y maent wedi hyny wedi dwyn llawer o elw i'w ddisgynyddion.

Nid ydym am sylwi ond ychydig yn mhellach ar deilyngdod Scott fel awdwr. Ychydig o wahaniaeth barn sydd yn bod o barthed i'w farddoniaeth. Er nad ydyw ei deilyngdod fel bardd o'r radd uchaf, perthyna i'w farddoniaeth ragoriaethau sydd yn parhau i sicrhau iddo ryw gymmaint o'r ffafr a amlygwyd tuag atynt ar eu hymddangosiad cyntaf. Y maent yn ddiau yn ddiffygiol yn rhai o ansoddau dyfnaf ac uchaf barddoniaeth, ac yn y coethder hwnw a ofynir ac a ddisgwylir mewn barddoniaeth ddiweddar; ond y mae ei farddoniaeth yn nodedig am eofndra, rhwyddineb, darluniau clir, bywyd, ysbryd, a symmudiadau grymus a thanllyd. Rhagorai Scott yn arbenig fel bardd telynol; ac y mae yn wasgaredig yma a thraw ar hyd ei weithiau ganeuon bychain na cheir yn mron yn unrhyw iaith ddim i ragori arnynt. Hwyrach mai peth digon anhawdd ydyw rhoddi gyda manylrwydd ei le i Syr Walter Scott fel ysgrifenydd rhamantau a ffugchwedlau. Esgynodd yn mron i binacl uchaf enwogrwydd yn y cyfeiriad hwn. Pe buasai yn ysgrifenu yn fwy hamddenol, ac yn cymmeryd chwaneg o amser uwch ben ei weithiau yn gyffredin, diammheuol y llwyddasai i gyrhaedd graddau helaeth o berffeithrwydd. Ond fel yr oedd, gan ei fod yn cyfansoddi rhai o'i weithiau mewn ychydig iawn o amser, y maent yn lled anwastad, a theilyngdod y naill yn rhagori cryn lawer ar y llall. Amlyga rhai o'i nofelau gryn ddiofalwch, ac arwyddion ereill o brysurdeb. Etto, wrth gymmeryd pob peth i ystyriaeth, y mae yn parhau, fe allai, hyd heddyw y penaf o nofelwyr Prydain. Os y prawfnod i benderfynu mawredd a rhagoriaeth yn y maes hwn ydyw gallu i roddi bywyd mewn cymmeriadau, i gyfoethogi ein profiad trwy ein dwyn mewn dychymyg i gyfarfyddiad â bodau sydd byth wedi hyny yn fwy byw a sylweddol ger bron ein meddyliau na'r dynion a welir genym â'n llygaid, nid oes o'r braidd neb yn rhagori ar Scott. Yn mhellach, efe oedd dyfeisydd y nofel hanesyddol; ac wrth wneyd hyn efe a greodd gangen newydd o lenyddiaeth. Rhoddodd fywyd i'n hamgyffredion o'r pethau a aethant heibio, a dygodd chwyldroad i'r dull o ysgrifenu hanesyddiaeth ei hun trwy ddwyn i mewn iddi elfenau darluniadol a dychymygol.

SCOTUS, JOHN DUNS: un o ddysgedigion y drydedd ganrif ar ddeg. Ganwyd ef, dybygid, tua'r flwyddyn 1265. Mae y Saeson, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod wedi bod yn ei hawlio fel cydwladwr iddynt. Yn ol un adroddiad Gwyddelig, ganwyd ef yn Thathmon, neu Taghmon, yn Werford: yn ol adroddiad arall, ganwyd ef yn Downpatrick. Dywed yr Ysgotiaid ei fod yn frodor o Dunse, yn swydd Berwick; ac y maent yn cymmeryd arnynt ddangos y tŷ lle y ganwyd ef yn y pentref hwnw hyd heddyw. Y chwedl sydd yn mhlith y Saeson ydyw, iddo gael ei eni mewn treflan a elwir Dunstan, neu Dunstance, yn mhlwyf Embleton, nid yn mhell o Alnwick, Northumberland. Y mae Camden, yr hanesydd, yn cadarnhau hyn ar awdurdod ysgrifen oedd ar ddiwedd copi llawysgrifiol o weithiau y person hwn yn llyfrgell coleg Merton, Rhydychain. Ond Arglwydd Hailes a sylwa, nad ydyw "y dystiolaeth hon yn ddigon i wrthweithio y dybiaeth a goleddid yn gyffredin; o herwydd, a chymmeryd yr olwg fwyaf ffafriol arni, nid ydyw yn cynnwys dim amgen na bod rhyw ysgrifiwr annysgedig o weithiau John Duns yn dewis ei wneyd yn frodor o le yn Embleton, Northumberland, a elwir Dunstan, a hyny trwy dybiaeth ddychymygol fod Duns yn dalfyriad o'r gair." Mewn cyfieithiad Saesneg o un o'i draethodau, y mae y cyfieithydd, W. B., mewn rhagymadrodd cyflwynedig "i'r gwir anrhydeddus Edmund Duns, Ysw.," yn dywedyd fod y boneddwr hwnw yn ddisgynydd o'r un teulu ag yr hanodd Scotus o hono, gan ddadleu nad yw Duns Scot ond yr un peth a Dunscot, wedi ei ffurfio allan o *cot* (bwthyn)—yr un fath ag y mae Westcot, Southcot, &c. Mackenzie a ddywed fod Scotus yn hanu o deulu y Dunses, yn y Merse. Tybia Camden ei fod yn cael ei alw yn Scotus am ei fod yn hanu o rieni Ysgotaidd. Y mae llawer o'r rhai sydd wedi bod yn ysgrifenu ynghylch Duns Scotus yn ymhyfrydu yn fawr mewn ymdrin â lle ei enedigaeth. Y mae Wadding, un o'i fywgraphwyr, yn tybied fod hyn yn ei ddyrchafu uwch law Homer; o herwydd gwahanol ddinasoedd oedd yn ymddadleu am gael yr anrhydedd o fod yn lle genedigaeth y bardd, tra yr oedd teyrnasoedd yn hòni eu hawl i fod yn lle genedigaeth Scotus.

Ymddengys, pa fodd bynag, fod pawb yn barod i ganiatau y ffaith iddo dderbyn y gyfran fwyaf o'i addysg yn Lloegr. Mynegir i ddau fynach o urdd y Ffranciscaid ddyfod o hyd iddo pan yr oedd yn fachgenyn yn gofalu am wartheg ei dad, ac iddynt gael eu taraw yn fawr gan ei wybodaeth a'i ddeall. Gan fynachod o'r urdd hon yr addysgwyd ef gyntaf yn elfenau blaenaf dysgeidiaeth; ac wedi hyny anfonwyd ef i Goleg Merton, Rhydychain; ac mewn amser priodol gwnaed ef yn gymmrawd o'i goleg. Diau y gellir myned heibio i lawer a ddywedir o berthynas iddo fel chwedlau disail, ond gallwn nodi rhyw ychydig o bethau a ymddangosant yn wirionedd yn ei gylch.

Tra yr oedd yn efrydydd yn y coleg, mynegir ei fod wedi enwogi ei hun yn fawr mewn duwinyddiaeth, mewn rhesymeg ac athroniaeth feddyliol, mewn gwybodaeth o'r gyfraith wladol ac eglwysig, mewn mesuroniaeth, mewn anianyddiaeth naturiol, ac mewn athronyddiaeth. Yn y flwyddyn 1301, ar symmudiad William Varron i Paris, pennodwyd ef i'r gadair dduwinyddol. Yr oedd y darlithiau a draddodai y pryd hwnw yn cael eu mynychu gan luoedd o wrandawyr. Mynegir fod nifer yr efrydwyr yn Rhydychain yr adeg hono yn 30,000:—"Ond yn mysg y rhai hyn," medd Anthony Wood, "yr oedd cwmniau o ddyhirod, y rhai a gymmerent arnynt fod yn ysgolheigion, yn gwthio eu hunain i mewn, ac yn cyflawni anfadwaith dirfawr yn y brifysgol, trwy ladrata, terfysgu, &c. Yr oeddynt yn byw yn hollol ddiddysgyblaeth; ac nid oedd ganddynt athrawon. Yn unig er mwyn defod, hwy a ymwthient yn achlysurol i'r ysgolion pan y traddodid y darlithiau cyffredin; a phan yr elent i gyflawni unrhyw ddrwg, yna cyfrifid hwynt yn ysgolheigion, ac felly gallent ymryddhau oddi wrth awdurdod y bwrdeisiaid trefol." Yn 1307, symmudodd Duns Scotus o Rydychain i Paris—dinas, yn yr hon, ychydig o amser cyn hyny, pan ar ymweliad â hi, yr oedd Scotus



Digitized by Google

wedi ei enwogi ei hun mewn modd anghyffredin trwy ei ddull yn amddiffyn, mewn dadl gyhoeddus, yr athrawiaeth o feichiogiad dihalog y Forwyn. Canmolir ef gymmaint gan ei bleidwyr a'i edmygwyr, fel y mynegir iddo ddechreu y ddadl trwy ddymchwel tua dau gant o wrthddadleuon yn erbyn yr athrawiaeth, a diweddu trwy ei chadarnhau â chwmmwl o dystiolaethau. Dywed ysgrifenydd oedd yn bresennol, Pelbártus â Temeswar, ei fod yn dattod cylymau tynaf ymresymiadau ei wrthwynebwyr fel y dattodai Samson rwymau Dalilah. Y peth nesaf a ddywedir ydyw, mai canlyniad y ddadl hon oedd i'r holl brifysgol gael ei hargyhoeddi o wirionedd yr athrawiaeth, ac i benderfyniad gael ei basio nad oedd neb i gael graddio yno wedi hyny heb gymmeryd llŵ i amddiffyn athrawiaeth y beichiogiad dihalog. Fe ymddengys mai ar yr achlysur hwn y rhoddwyd i Scotus y teitl o "Doctor Doeth" *(Subtle Doctor)*—enw wrth yr hwn yr adwaenid ef yn gyffredin yn mhlith yr ysgolwyr. Canmolid cymmaint arno yn ei gadair athrawol newydd ag a wnelid yn Rhydychain; ond ni oddefwyd iddo aros yn hir yn Paris. Yn 1308, gorchymynodd penaeth ei urdd iddo symmud i Cologne, i sefydlu prifysgol yn y ddinas hono. Ar ei ddyfodiad i Cologne, daeth preswylwyr y dref yn mron i gyd allan i'w gyfarfod, a dygwyd ef i mewn i'r ddinas mewn cerbyd, gydag arwyddion o lawenydd mawr. Ond yr oedd ei yrfa ddacarol yn awr bron ar ben. Ar yr 8fed o fis Tachwedd, yr un flwyddyn, bu farw gan ergyd o'r parlys mud. Yn ol rhai adroddiadau, bu farw yn y drydedd flwydd a deugain o'i oedran; ond yn ol ereill, yn ei bedwaredd flwydd ar ddeg ar hugain. Dywed Paulus Jovius iddo gael ei gladdu cyn ei fod wedi marw, a bod y peth rywfodd wedi ei ddarganfod wrth edrych y bedd; a'i fod, yn ei drallod a'i drueni, wedi curo ei ymenydd allan wrth guro ei ben yn erbyn yr arch. Mynegiad arall o'r un chwedl ydyw, iddynt ei gael wedi bwyta y cnawd oddi ar ei freichiau.

Anfonwyd amryw o draethodau Duns Scotus i'r wasg ar ol dyfeisio y gelfyddyd o argraphu, ac y mae rhai o honynt wedi eu hargraphu lawer gwaith. O'r diwedd, casglwyd ynghyd ei holl weithiau, a chyhoeddwyd hwynt yn Lyons, yn 1639, mewn deuddeg cyfrol pedwar-plyg. Y mae copi cyflawn o'r argraphiad hwn yn brin iawn. Dygwyd y gwaith allan o dan olygiaeth Luke Wadding, Gwyddel o genedl, a chyflwynwyd ef i Phylip IV. o Yspaen. Nid ydyw yn cynnwys y cyfan, pa fodd bynag, o weithiau Scotus. Y mae llawer etto heb eu hargraphu.

Y mae edmygwyr Scotus yn ystyried ei fod o ran ei graffder a'i gallineb yn ddigyffelyb; a chyfrifir ef bob amser yn brif addurn urdd y Francisciaid, fel y mae y Dominiciaid yn rhoddi y flaenoriaeth i Thomas Aquinas yn eu hurdd hwythau. Os darfu iddo ysgrifenu yr holl lyfrau a briodolir iddo yn gyffredin, rhaid ei fod wedi bod yn ddiwyd y tu hwnt i fesur. Nid oedd neb o'r doctoriaid a berthynent i'r ysgolwyr yn enwocach nag ef yn ystod ei fywyd, nac yn hir ar ol ei farwolaeth. Cyfododd dwy blaid wrthwynebol mewn duwinyddiaeth, a elwid yn Scotiaid ac yn Thomiaid *(Scotists a Thomists)*, ac yr oedd ysgolwyr yr oesoedd dilynol yn rhanedig i'r ddwy blaid. Y brif athrawiaeth y dadleuai y Scotiaid drosti ydoedd, beichiogiad dihalog y Forwyn Fair; ond yr oeddynt hefyd yn gwahaniaethu oddi wrth y Thomiaid ar y pyngciau o ewyllys rydd ac effeithiolrwydd gras dwyfol. Mewn athroniaeth yr oedd y Scotiaid yn wrthwynebol i'r Occamiaid, neu ddilynwyr William o Occam [Gwel OCCAM, WILLIAM o], yr hwn oedd ei hun yn ddysgybl i Scotus; ond gwahaniaethai oddi wrth ei athraw ar y pwngc o dermau cyffredinol, y rhai yr haerai y Scotiaid eu bod yn gosod allan sylweddau gwirioneddol. Dadleuai yr Occamiaid nad oeddynt yn ddim amgen nag enwau yn unig. O ganlyniad, galwyd y Scotiaid yn Sylweddwyr, a'r Occamiaid yn Enwoliaid.

SCYTHOPOLIS. Gwel BETH-SEAN.

SCYTHIA, SCYTHIAID (Σκυθική, Σκύθης). Y mae yr enw *Scythiaid* yn cael ei ddefnyddio weithio gan hen ysgrifenwyr i osod allan y cenhedloedd crwydrol hyny a wibient yn mharthau gogleddol Ewrop ac Asia; ond nid ydyw yr arferiad hwn a wneir o'r gair yn gyffredinol, ac y mae yn fwy cywir ei arfer i ddisgrifio cenhedloedd penodol. Ymddengys i'r enw *Scythia* gael ei roddi ar y cyntaf i ran o Ewrop, a chyfyngwyd ef am amser maith at y rhan hono. Yn ol Herodotus [iv. 10], yr oedd y Scythia yma yn ymestyn ar un ochr o'r Ister i'r Borythenes, ac o'r Borythenes i'r Palus Mæotis; ac ar y llall o'r môr (Pontus) i'r Melanchlæni. Teimlir cryn anhawsder i benderfynu ar y terfynau a osodir i Scythia gan Herodotus; ond mewn ymadroddion cyffredinol gellir dywedyd ei bod yn cynnwys y rhan dde-ddwyreiniol o Ewrop, rhwng Mynyddoedd Carpathia a'r Tanais, neu y Don. Y mae gwahanol adroddiadau am darddiad y Scythiaid; ond y mae yr hyn a ddywed Herodotus yn llawn mor debyg o fod yn gywir a dim a ddywedir ar y mater hwn: dywed efe eu bod o darddiad Asiaidd. Yn ol yr adroddiad hwn, gyrwyd hwynt o'u sefydliadau i'r ochr ogleddol i'r Araxes, ac wedi croesi yr afon hono daethant i Ewrop, a gyrasant y Cimmeriaid allan o'r wlad a alwyd wedi hyny yn Scythia. Gellir penderfynu amser eu dyfodiad i Ewrop yn lled gywir, os oedd dyfodiad y Cimmeriaid i Lydia yn nheyrnasiad Ardys (ynghylch c. c. 640), yn ganlyniad o'u gorchfygiad gan y Scythiaid.

Oddi wrth y disgrifiad a roddir gan Hippocrates o'u hymddangosiad, a chan Herodotus o'u harferion, ymddengys eu bod yn llwyth Mongolaidd. Sonia Hippocrates am eu cyrph tewion, a dywed fod eu cymmalau wedi eu claddu mewn brasder, a'u gwallt yn deneu. Yr oeddynt wedi ymranu yn amrywiol finteioedd, fel y byddai y Mongoliaid yn arfer gwneyd bob amser: ond yr oeddynt oll yn amser Herodotus yn ddibynol i ryw raddau ar y fintai a elwid y Scythiaid Brenhinol. Enw cyffredinol a gwirioneddol y Scythiaid oedd *Scoloti*. Rhoddwyd yr enw Scythiaid arnynt gan y Groegiaid. Yr unig ddau amgylchiad o bwys y cyfeirir atynt gan Herodotus yn hanes Scythia ydyw, 1af, goresgyniad Media gan y Scythiaid yn nheyrnasiad Cyaxares (c. c. 635—595), a'u gwaith yn gorchfygu Asia mor bell a chyffiniau yr Aipht, ac yn cadw meddiant o honi am wyth mlynedd ar hugain: ac yn 2il, goresgyniad Scythia gan Darius, mab Hystaspes—ymgyrch yn yr hon y bu y Persiaid yn aflwyddiannus. Mewn amseroedd diweddarach, collodd y Scythiaid eu holl allu llywodraethol. Gorchfygodd y Getæaid ran fawr o ochr orllewinol eu gwlad; gwasgodd y Sauromatæ arnynt o'r dwyrain; a chafodd y genedl ddiweddaf, o'r

Digitized by Google

diwedd, feddiant o'r rhan fwyaf o Scythia, a rhoddasant eu henw eu hunain ar yr holl wlad; sef, *Sarmatia*. Yr oedd y Scythiaid, fel cenedl, wedi darfod yn amser Pliny: yr oedd eu gwlad wedi ei pherchenogi gan yr Almaeniaid a'r Sarmatiaid, a'r enw Scythiaid yn cael ei gyfyngu i un o lwythau pellaf a mwyaf anadnabyddus y gogledd.

Dechreuwyd cymmhwyso yr enw Scythia at ranau gogleddol Asia yn y cyfnod Macedonaidd. Y mae Herodotus mewn modd pendant yn ysgaru y Scythiaid oddi wrth yr holl genedloedd oedd yn ddwyreiniol i'r Tanais, megys y Thyssagetæ, a'r Issedones, &c.; ac yr oedd y defnydd hwn o'r gair yn cael ei wneyd yn yr amser y gorchfygwyd Asia gan Alexander. Ond pan y daeth y Macedoniaid o hyd i genhedloedd yn tebygu i'r Scythiaid ar lenydd y Jaxartes, rhoddasant yr enw Scythia ar y rhan yma o Asia; ac fel hyn gwelir fod y Scythia Asiaidd yn gorwedd yn ddwyreiniol i'r Scythia wirioneddol. Dyma Scythia briodol Strabo, gan fod yr hen Scythia wedi ei galw yn Sarmatia. Yn amser Ptolemy yr oedd yr enw Scythia yn cael ei roddi i'r wlad rhwng y Sarmatia Asiaidd a Serica: terfynid hi ar du y deheu gan India. Nid yw ei therfynau ar du y gogledd yn cael ei nodi allan.

Y mae y gair *Scythiad* yn digwydd unwaith yn y Testament Newydd, sef yn *Col.* iii. 11; a defnyddia yr apostol ef fel term cyffredin ar rywbeth isel, anwybodus, a llygredig. Dan yr efengyl, medd Paul, "nid oes na Groegwr nac Iuddew, enwaediad na dienwaediad, barbariad na Scythiad, caeth na rhydd; ond Crist sydd bob peth, ac yn mhob peth." Cymmerir yr un olwg ar farbariaeth Scythiaidd yn 2 *Macc.* iv. 47. Fe allai y gellir casglu, oddi wrth *Col.* iii. 11, fod Scythiaid hefyd yn mysg y dychweledigion boreuol at Gristionogaeth. Yr oedd llawer o'r bobl hyn yn preswylio mewn gwledydd perthynol i Groeg a Rhufain, a gallasent glywed yr efengyl yn y gwledydd hyny, hyd yn oed os nad oedd rhai o'r pregethwyr cyntaf wedi ei chyhoeddi yn Scythia ei hun.

SEARIAH: un o chwe mab Asel, o hiliogaeth Saul: 1 *Cron.* viii. 38; ix. 44.

SEAR-IASIB: mab i Esaiah y prophwyd, yr hwn a aeth gyda'i dad i gyfarfod Ahaz, "wrth ymyl pistyll y llyn uchaf, yn mhrif-ffordd maes y panwr;" *Esa.* vii. 3. Ymddengys fod i'r enw, fel enw mab arall y prophwyd, Maher-shalal-hasbaz, rhyw ystyr cyfriniol, a bod yr enw wedi ei roddi arno gyda theimladau cymmysg o ofid a gobaith—gofid o herwydd caethiwed y bobl, a gobaith y caffai y gweddill o honynt ddychwelyd i wlad eu tadau: cymmh. *Esa.* x. 20, 22.

SEBA, SHEBA, SABEAID. Y mae y gair yn cael ei gyfieithu yn gyffredin yn y Beibl Cymraeg yn *Sabeaid;* er, dybygid, y buasai yn llawn mor briodol ei gyfieithu 'pobl Seba.' Seba yw y blaenaf ar restr meibion Cus. Ymddengys fod y rhestr o feibion Cus yn arwyddo safle y genedl Cusaidd, neu wlad Seba. Llywodraethodd Nimrod, yr hwn a enwir ar ddiwedd y rhestr, ar y cyntaf yn Babilonia, ac ar ol hyny dybygid yn Assyria: ac am yr enwau sydd rhwng Seba a Nimrod, y mae yn dra thebygol mai i Arabia y perthyna rhai o honynt. Gellid meddwl fod rhes o sefydliadau Cusaidd yn ymestyn ar hyd y ffordd o Babilonia i Cus neu Ethiopia. Cyfeirir yn awr at safle Seba. Heb law y crybwylliad a wneir am Seba yn rhestr meibion Cus (*Gen.* x. 7; 1 *Cron.* i. 9), nid oes ond tri, neu, fel yr haera rhai, pedwar, sylw yn cael ei wneyd ar y genedl yn y Beibl. Yn *Salm* lxxii., lle y ceir cyfeiriad llythyrenol at deyrnasiad Solomon, sonir am Seba yn mysg y cenhedloedd o bell a ddeuent i dalu gwarogaeth i'r brenin: "Brenhinoedd Tarsis a'r ynysoedd a dalant anrheg: brenhinoedd Sheba a Seba a ddygant rodd;" *adn.* 10. Y mae y crybwylliad hwn a wneir o Sheba a Seba ynghyd i'w ystyried yn ngoleuni y digwyddiad fod Seba yn cael ei enwi yn mysg disgynyddion Cus: *Gen.* x. 7. Nid oes fawr o ammheuaeth nad oedd teyrnas Arabaidd Sheba yn un Cusaidd yn gystal ac Ioctanaidd; ac y mae y ffaith fod Sheba a Seba yn cael eu henwi gyda'u gilydd yn ddiau i ryw raddau yn tueddu i gadarnhau y golygiad hwn. Ar y llaw arall, y mae ei chyssylltiad â theyrnas Asiaidd yn bwysig yn mherthynas i'w phobl; pa rai, neu o leiaf y dosbarth llywodraethol o ba rai, nid oeddynt yn negroaid. Yn *Esa.* xliii., sonir am Seba mewn cyssylltiad â'r Aipht, ond yn fwyaf neillduol â Chus, gyda chyfeiriad, dybygid, at yr ymadawiad o'r Aipht, lle y darllenwn—"Myfi a roddais yr Aipht yn iawn drosot, Ethiopia a Seba am danat;" *adn.* 3. Yn mhellach yn mlaen yn yr un llyfr, y mae ymadrodd o gyffelyb ystyr: "Llafur yr Aipht, a marsiandïaeth Ethiopia, a'r Sabeaid hirion, a ddeuant atat ti, ac eiddot ti fyddant;" *pen.* xlv. 14. Y mae y tair cenedl yn cael eu henwi ynghyd yma hefyd, a'r un berthynas rhwng Cus (Ethiopia) a Seba. Cyfeiria Herodotus at daldra a harddwch yr Ethiopiaid, yr hwn a ddywed am danynt yr ystyrid hwynt yn gyffredin y dynion talaf a harddaf yn y byd; ac hyd y dydd heddyw y mae rhai llwythau o'r bobl dywyll eu lliw rhwng y negroaid a'r Aiphtiaid, yn gystal a'r Abyssiniaid, yn nodedig am eu llunieidd-dra a'u taldra. Y mae y cyfansoddiadau ysgrythyrol uchod yn myned yn mhell i brofi fod Seba yn genedl Affricaidd, yn ymylu ar, os nad yn cael ei chynnwys yn Cus (neu Ethiopia), a'i bod yn amser Solomon yn genedl annibynol ac yn meddu pwysigrwydd gwleidyddol. Galluogir ni fel hyn i ffurfio tybiaeth am safle Seba.

Dywed Josephus mai Seba oedd hen enw yr ynys a'r ddinas Ethiopaidd Meroë ["*Hynaf. Iudd.*," ii. 10, *adr.* 2], ond y mae yn ysgrifenu *Sabas* yn y sylw a wneir ganddo ar ymsefydliadau disgynyddion Noah.—"*Rhyf. Iudd.*," i. 6, *adr.* 2. Dilys ydyw i deyrnas Meroë ddilyn un Seba; a dichon fod yr hen ddinas o'r enw hwnw wedi bod yn brif ddinas, neu yn un o brif ddinasoedd Seba, er nas gellir cael fod un o'i chofadeiliau o ddyddiad boreuach na'r bummed ar hugain deyrnach. Nid oes gyssylltiad rhwng y ddau enw. Yn ol Josephus, ac ereill, enwyd Meroë ar ol chwaer i Cambyses; ond y mae hyn yn dra annhebyg: ac hwyrach mai mwy priodol fyddai tybied fod yr enw yn deilliaw o Meru, yr hwn sydd hen enw Aiphtaidd ar ynys, ac a ddigwydda yn enw ar ran o Ethiopia yn rhai o'r cofnodion Aiphtaidd. Yn gymmaint a bod Meroë, o herwydd ei ffrwythlonrwydd, yn rhwym o fod yn gyfran bwysig o unrhyw deyrnas Ethiopaidd y gwnaethai i fyny ran o'i thiriogaethau, ni a ddodwn yma y prif ffeithiau sydd yn hysbys am dani. Gellir sylwi ei bod yn debyg, os nad yn sicr, nas gallasai Ethiopia, islaw Meroë, erioed ffurfio teyrnas annibynol gref—

Digitized by Google

teyrnas na buasai yn annibynol i ryw raddau, naill ai ar Meroë, neu ar yr Aipht. Y mae ynys Meroë yn gorwedd rhwng yr Astaboras, yr afon fwyaf gogleddol sydd yn ymarllwys i'r Nilus, a'r Astapus, a'r Bahrel-Azrak, neu yr 'Afon Lâs.' Yr oedd hi yn gyfoethog a chynnyrchiol pan yn deyrnas. Ei phrif ddinas oedd Meroë, lle yr oedd oracl i'r duw Iau Ammon. Y mae ymchwiliadau diweddar yn cadarnhau y manylion hyn. Trwy ddiwylliant a masnach byddai yn bossibl gwneyd y wlad yn un gyfoethog etto, er fod ei hagosrwydd i Abyssinia wedi bod yn attalfa ar ei masnach yn y cyfeiriad hwnw, gan yr ofn a deimlid gan yr Abyssiniaid y bydd i'w gwlad hwy, fel rhai o daleithiau ereill Affrica, gael ei llyngcu i fyny gan yr Aipht. Nid ydyw adfeilion dinas Meroë wedi eu darganfod hyd sicrwydd hyd heddyw.

SEBA: y ffynnon enwog a roddodd ei henw i Beer-seba: *Gen.* xxvi. 33. Yn ol yr hanes hwn, Seba oedd y bedwaredd ffynnon a gloddiodd gweision Isaac; ac efe a roddes enw arni, mewn cyfeiriad, dybygid, at y llŵ a fu rhyngddo ef a'r penaeth Philistiaidd y diwrnod cyn hyny; *adn.* 31. Ond yn ol adroddiad mewn pennod flaenorol, yr oedd y ffynnon yn dal cyssylltiad âg enw tad Isaac: *pen.* xxi. 32. Yn wir, gellir casglu, oddi wrth yr hanes yn *pen.* xxvi. 23, fod y ffynnon ar gael yn gynt. Y mae y ddwy ymdrafodaeth ynghylch ei chloddio yn hynod debyg i'w gilydd mewn llawer o'u hamgylchiadau—sefyllfa ac enwau y penaethiaid Philistiaidd, yr ymryson fu rhwng y gweision, y cyfammod, y llŵon, a'r ddinas a gafodd ei henw oddi wrth y ffynnon. Yr hyn y gwahaniaethant ynddo ydyw, mai y prif gymmeriad yn y naill adroddiad ydyw Abraham—ond yn y llall, Isaac. Y mae rhai esbonwyr, megys Kalisch, yn tybied fod dwy ffynnon fawr yn Beer-seba, gan edrych ar y ddau amgylchiad yn rhai gwahanol—y naill yn perthyn i un ffynnon, a'r ail i'r llall. Ond tybia ereill, mai dau adroddiad gwahanol sydd yma o'r un amgylchiadau, o dan ba rai y cloddiwyd y ffynnon nodedig hon gyntaf. Ac yn ddiau yn y cydweddiad sydd yn hanes boreuol cenhedloedd ereill, ac yn y tebygolrwydd mawr sydd rhwng manylion y ddau adroddiad, y mae llawer i'w ddyweyd dros y golygiad hwn.

SEBA: un o feibion Bichri, Beniaminiad, o fynydd Ephraim (2 *Sam.* xxi. 1—22), y tywysog a ddaliodd allan olaf yn ngwrthryfel Absalom. Disgrifir ef fel un o feibion y fall. Rhaid ei fod yn ddyn o gryn bwysigrwydd, pa fodd bynag, wrth ystyried y dylanwad a gynnyrchid gan ei ymddangosiad. Yr oedd ei waith fel math o ragarweiniad i wrthryfel Ieroboam. Nid ymdrech rhwng dwy blaid yn llys Iudah ydoedd; ond ymdrech llwyth Beniamin i adfeddiannu yr uchafiaeth yr oedd wedi ei golli; ymdrech yr oedd rhyw arwyddion o hono wedi ymddangos yn ymddygiad Simci y Beniaminiad. Yr achlysur y cymmerodd Seba fantais arno oedd y cyffro a gymmerodd le yn mysg y llwythau gogleddol a deheuol yn adeg dychweliad Dafydd. Yn ol yr hen arferiad, efe a alwodd yr holl lwythau i'w pebyll; a "gwŷr Iudah" yn unig a lynasant yn ffyddlawn wrth Dafydd: 2 *Sam.* xx. 1, 2. Yn briodol y gallasai y brenin ddywedyd, "Seba, mab Bichri, a'n dryga ni yn waeth nag Absalom;" *adn.* 6. Ofnai yn benaf rhag i Seba gael meddiant o'r dinasoedd caerog ac amddiffynedig. Yr oedd yr ofn yma yn ddigon naturiol wrth ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn ol llaw. Aeth Seba, y mae'n amlwg, drwy Palestina, i gynnhyrfu y bobl, ac ymlidiodd Ioab ar ei ol; ac mor bwysig oedd hyn yn ei olwg, fel nad oedd llofruddiaeth yr enwog Amasa yn cael edrych arno ond fel un o ddigwyddiadau cyffredin y rhyfelgyrch. Nid arosodd ddim ar ol cyflawni y weithred hon; ond aeth ef, ac Abisai ei frawd, "ar ol Seba, mab Bichri." Arosodd y fyddin, modd bynag, am foment uwch ben corph marw Amasa, ac yna "yr holl wŷr a aethant ar ol Ioab, i erlid ar ol Seba mab Bichri." Ymddengys mai ei fwriad oedd ymgadarnhau yn amddiffynfa Abel-Beth-maachah, yn eithafoedd gogleddol Palestina—lle ag oedd, dybygid, yn bleidiol i Absalom, o herwydd cyssylltiad ei fam Maachah âg ef, a lle hynod hefyd am ddoethineb y preswylwyr: 2 *Sam.* xx. 18. Rhoddwyd eu doethineb i'r prawf yn yr amgylchiad hwn. Ammodau Ioab oeddynt—cael pen y gwrthryfelwr. Ymgymmerodd gwraig o'r ddinas â myned â'r genhadwri at bobl y ddinas, a chynnygiodd i'w chyd-ddinasyddion ar fod iddynt dori ei ben ef. Felly, taflwyd pen Seba dros y mur, a therfynodd y gwrthryfel.

2. SEBA: Gadiad, un o dywysogion ei lwyth, yr hwn a breswyliai yn Basan: 1 *Cron.* v. 13.

SEBAM: un o'r dinasoedd oedd yn y dosbarth bugeiliol ar du y dwyrain i'r Iorddonen—"Gwlad Iaser a Gwlad Gilead"—a hawlid, ac o'r diwedd a roddwyd i lwythau Reuben a Gad: *Num.* xxxii. 3. Enwir y lle rhwng Elealeh a Nebo, ac y mae yn debygol mai yr un ydyw ag a grybwyllir mewn adnod ddilynol yn y bennod. Ar achlysuron diweddarach, ymddengys iddi gael ei chyfnewid yn *Sibmah.* Y mae y cyfnewidiad o Sebam i Sibmah, hwyrach, yn ddyledus i'r gwahaniaeth rhwng yr ieithoedd Amoraeg, neu y Moabaeg, a'r Hebraeg.

1. SEBANIAH: Lefiad yn amser Ezra:—un o'r rhai a safent yn mhulpud y Lefiaid, ac a ganent salm o gyffesiad a diolchgarwch, yr hon ydoedd un o'r salmau olaf a gyfansoddwyd o salmau yr Hen Destament: *Neh.* ix. 4, 5. Efe a seliodd y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 10. Yn ol cyfieithiad y Deg a Thrigain o *Neh.* ix. 4, yr oedd efe yn fab i Serebiah.

2. SEBANIAH: offeiriad, neu deulu offeiriadol, yr hwn a seliodd y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 4; xii. 14. Sechariah y gelwir ef yn *Neh.* xii. 3.

3. SEBANIAH: Lefiad arall a seliodd y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 12.

4. SEBANIAH: un o'r offeiriaid a appwyntiwyd gan Dafydd i chwythu yn yr udgorn o flaen arch yr Arglwydd: 1 *Cron.* xv. 24.

SEBARIM: lle a enwir yn *Ios.* vii. 5, fel un o'r manau yr aeth Israel iddynt yn y ffoedigaeth o Ai. Gwraidd y gair ydyw 'ymraniad,' neu 'doriad;' ac y mae hyn yn lled awgrymu fod yr enw yn dal cyssylltiad â lle ag yr oedd rhyw rigolau neu holltau yn y tir yn dyfnhau yn raddol nes terfynu mewn disgyniad neu glogwyn i'r ceunant, drwy yr hwn y daethai yr Israeliaid o Gilgal—y 'goriwaered;' *adn.* 5. Yr oedd y tir o gwmpas Ai, dybygid, yn cyfranogi i raddau mawr o'r nodwedd yma. Nid ydys hyd yn hyn, pa fodd bynag, wedi cael allan y gymmydogaeth, na dim o olion yr enw. Keil

Digitized by Google

a dybia fod y gair Sebarim yn arwyddo 'chwarelau ceryg;' ond ymddengys nad yw hyn yn cael ei gadarnhau gan esbonwyr, na geirlyfrwyr ereill. Y mae hen esbonwyr yn gyffredin yn meddwl mai nid enw ar le ydoedd, ac yn ei gyfieithu, 'hyd nes y torwyd hwy i fyny.'

SEBASTIAN, yr hwn hefyd a elwir SANT SEBASTIAN, oedd un o ferthyron yr eglwys gyntefig; ac un y mae ei goffadwriaeth yn barchus gan eglwysi y dwyrain a'r gorllewin. Ychydig yw y wybodaeth sydd wedi ein cyrhaedd ni am dano: ac er fod yr hyn sydd wybyddus yn ei gylch yn cyfranogi i raddau pell o'r dôn chwedleuol sydd yn dal cyssylltiad â llawer ereill y ceir eu hanes o'r oesoedd hyny, y mae yn cael ei ystyried, ar y cyfan, yn lled gywir, nid yn unig gan Baronius a'r Bollandiaid, ond hefyd gan feirniad mor graff a Tillemont, ac ereill o'r un ysgol ag ef. Yn ol yr hanes a geir, ganwyd Sebastian yn Narbonne, dinas yn Gaul; ac addysgwyd ef yn Milan. Er ei fod yn Gristion, efe a ymunodd â'r fyddin Rufeinig; ond ni ddarfu iddo, pa fodd bynag, ddadguddio ei fod wedi mabwysiadu Cristionogaeth: a'i amcan yn celu oedd, er cael bod o wasanaeth er cynnorthwyo ac amddiffyn Cristionogion erlidiedig. Cafodd gyfleusdra yn y modd yma i gynnorthwyo a chysuro llawer o'r merthyron yn Rhufain; a bu yn offeryn i argyhoeddi Nicostratus, ceidwad y carchar yn yr hwn y carcherid y merthyron, ynghyd â'i wraig, Zöe; i'r hon, meddir, yr adferodd efe y gallu i siarad, wedi iddi fod yn fud am dros chwe blynedd. Yn gymmaint ag nad oedd Sebastian yn cael ei gydnabod fel Cristion, efe a ymgododd i ffafr uchel o dan deyrnasiad Diocletian; a galwyd ef gan Caius, esgob Rhufain, yn Amddiffynydd yr Eglwys. Daeth yr amser o'r diwedd iddo wneuthur proffes lawn ac agored o'i ffydd. Arferodd Diocletian bob ymdrech i'w berswadio i ymwrthod â Christionogaeth, ond yn ofer; ac yn y diwedd condemniwyd ef i'w roddi i farwolaeth trwy ddwylaw cwmni o saethyddion Mauritiaidd, y rhai a saethasant lawer o saethau i'w gorph, ac a'u gadawsant ef am un marw. Ac yn ol y chwedl, daeth boneddiges Gristionogol o'r enw Irene heibio, a deallodd nad oedd bywyd wedi ei lwyr adael; a gorchymynodd gario y corph i'w thŷ, ac yno y llwyr adferwyd ef. Yr oedd y Cristionogion yn dymuno dirgelu adferiad Sebastian; ond efe a ymddangosodd drachefn yn gyhoeddus o flaen yr ymherawdwr, i broffesu ei ffydd yn y grefydd Gristionogol. Condemniodd Diocletian ef i gael ei guro â ffystiau yn yr amchwareudy nes y byddai farw; a thaflwyd ei gorph i un o garthffosydd y ddinas, lle y darganfyddwyd ef, yn ol tystiolaeth y "*Merthyrdraith*," trwy gyfrwng gweledigaeth; a chymmerwyd ef gan foneddiges Gristionogol o'r enw Lucina i'r bedd-ogof (*catacomb*), a alwyd wedi hyny ar ei enw. Dioddefodd ferthyrdod ar yr 20fed o Ionawr, B.A. 288. Y mae sant arall o'r un enw—yr hwn y dywedir iddo ddioddef merthyrdod yn Armenia.

SEBASTIAN, DOM, oedd fab i Dom Joam, a Joanna, merch i'r ymherawdwr Charles v. Ganwyd ef yn Lisbon, Gorphenaf 20fed, 1554. Yr oedd ei dad wedi marw cyn ei eni. Esgynodd Dom Sebastian i'r orsedd pan nad ydoedd ond tair blwydd oed, fel olynydd ei daid, Joam III.—pryd y pennodwyd Catherine o Awstria, gweddw y diweddar frenin, yn rhaglaw. Dangosodd Sebastian o'i febyd duedd gref at filwriaeth. Yr oedd o dueddfryd rhamantus, ac yn edmygu yn fawr anturiaethau milwrol; a rhoddodd ei holl feddwl pan yn ieuangc ar orchfygu Affrica, lle yr oedd ei hynafiaid eisoes wedi ennill cryn lawer o fuddugoliaethau. Pan yn ugain mlwydd oed (yn 1574), ymgymmerodd âg ymgyrch rhyfelgar yn erbyn y Mooriaid yn Affrica; ond ni bu yn llwyddiannus. Yn fuan ar ol hyny, darfu i'r helyntion a gymmerasant le yn Affrica roddi iddo gyfleusdra i gario allan ei gynlluniau. Cychwynodd Sebastian i'w ymgyrch; ond cyn cychwyn amlygodd ei fwriad i Phylip, brenin Yspaen, yr hwn a geisiodd ei berswadio i ymattal, ond yn ofer. Wedi cwblhau ei drefniadau, a phennodi y Cardinal Enrique yn rhaglaw yn ei absennoldeb, hwyliodd ef a'i fyddin allan yn mis Mehefin, 1578. Yr oedd y fyddin oedd dano yn gynnwysedig o naw mil o Bortugeaid, dwy fil o Yspaeniaid, tair mil o Almaeniaid, a chwe chant o Italiaid; sef, tua phymtheng mil o wŷr rhwng pawb. Glaniodd y fyddin hon ar y 10fed o Orphenaf yn Arsila, lle yr ymunwyd â hwynt gan Muley Mohammed, a'i fyddin. Gwysiwyd cynghor rhyfel yn uniongyrchol; ac wedi colli deunaw niwrnod o amser, yn ystod pa rai y lleihaodd darpariadau y fyddin yn fawr, ac y cafodd y gelyn hamdden i wneyd ei barotoadau, penderfynwyd dechreu y rhyfelgyrch drwy warchau ar Larache. Er fod Muley Abdu-l-malik, yr hwn a elwir Moluc gan groniclwyr y cyfnod, ar eu dyfodiad yno yn dioddef oddi wrth yr afiechyd o ba un y bu farw yn fuan wedi hyny, gwnaeth bob darpariadau ar gyfer ymosodiad ei elynion, a mynodd ei gario mewn cerbyd tua'r glanau, i'w cyfarfod. Yr oedd ei fyddin yn llawer lliosocach na'r eiddo y Portugeaid, a phenderfynodd eu hattal dros yr afon Luk, ar eu ffordd i Larache; a chyda'r amcan hwn efe a drefnodd ei fyddin gyferbyn â'r unig rŷd oedd ar yr afon yn yr ardaloedd hyny. Wrth weled, pa fodd bynag, fod Sebastian, o dan gyfarwyddyd ei gynghreirydd Mohammed, yn penderfynu rhoddi i fyny ei fwriad blaenorol, ac yn ymdrechu cyrhaedd Larache ar hyd ffordd mwy cwmpasog, efe a groesodd yr afon, ac a gynnygiodd ymladd brwydr âg ef. Methodd meirchfilwyr y Portugeaid a dal ymosodiad ffyrnig ac ymroddgar y Mooriaid, ac ar y cyntaf ciliasant yn ol; ond arweiniodd Sebastian yn bersonol ei wŷr traed yn mlaen, a gorfododd y gelyn i syrthio yn ol o dan amddiffyniad y magnelau. Ar y foment hon, ofnodd Moluc am y canlyniadau—marchogodd ei farch, tynodd allan ei waywffon, ac arweiniodd ei feirchfilwyr yn mlaen, ac mewn ychydig amser drylliwyd colofn gwŷr traed y Portugeaid. Er fod ymdrechion grymus wedi cael eu gwneyd gan aden dde ac aswy y fyddin Bortugeaidd, daeth y ffoedigaeth yn gyffredinol. Gwnaeth Sebastian ei oreu i geisio adferu calon ac ysbryd i'w filwyr—ond yn ofer. Syrthiodd y rhan fwyaf o'i swyddogion wrth ei ochr. Yr oedd ei ddilynwyr yn awyddus am waredu ei fywyd ef, a chynghorent ef i ffoi; ond gwrthododd, ac aeth i'r man lle yr oedd y frwydr boethaf—ac yno y cwympodd. Chwiliwyd am ei gorph y boreu ar ol y frwydr, a chafwyd hyd iddo; ac er ei fod wedi ei anafu yn dost, etto adnabuwyd ef yn ddioed gan ei was, Resende. Llwyddodd Mohammed i ddiangc o faes y frwydr; ond cafodd ei foddi tra yn ymdrechu croesi yr afon. Yr oedd llafur y dydd hwn yn

Digitized by Google

ormod i nerth Moluc; a bu yntau farw yn ystod y frwydr, er fod y ffaith wedi ei chadw yn ddirgel, yn ol ei orchymyn ef ei hun; ac felly, bu farw y tri brenin a aethant i'r maes yr un dydd. Achosodd y newydd am farwolaeth Sebastian y dychryn mwyaf yn mysg ei filwyr, a thrwy holl Portugal. Ac o'r braidd y gallai y Portugeaid gredu yn ei farwolaeth; a thybient am lawer o flynyddoedd ei fod yn fyw mewn caethiwed. Parodd marwolaeth Sebastian yn ddiblant i deyrnas Portugal gael ei huno âg Yspaen.

SEBAT. Gwel MISOEDD IUDDEWIG.

SEBER: mab Caleb, mab Hezron, o'i orddercliwraig Maachah: 1 *Cron.* ii. 48.

SEBON (Lladin, *Sapo(n)*, yr hwn, fel y gwelir, sydd yn debyg iawn i'r gair Cymraeg, *sebon*. Ystyriai y Rhufeiniaid mai dyfais Geltaidd oedd sebon. Yn ol Pliny, daeth y nwydd ei hun yn hysbys gyntaf i'r Rhufeiniaid trwy eu gwaith yn gorchfygu Gaul. Ceir rhai crybwylliadau am dano yn y Beibl. Nid ydyw y gair Hebraeg, *bôrîth*, ynddo ei hun yn cynnwys yr ystyr arbenig o sebon, ond enw cyffredinol ydyw am unrhyw sylwedd o ansawdd *glanhaol*. Modd bynag, gan ei fod yn ymddangos yn *Ier.* ii. 22, mewn gwrthgyferbyniad i *nether*, yr hwn yn ddiammheu sydd yn arwyddo 'nitr,' neu alcali mwnawl, cesglir fod *bôrîth* yn cyfeirio at alcali llysieuol, neu ryw fath o lyshal *(potash)*, yr hwn sydd yn ffurfio un o'r defnyddiau arferol yn ein sebon. Y mae yn Mhalestina, a'r gwledydd o amgylch, lawer o blanhigion cymmhwys i wneyd alcali. Gallwn grybwyll un a elwir *hubeibeh*, a geir yn agos i'r Môr Marw, gyda dail tebyg i ddail glaswellt, lludw yr hwn a elwir *el-kuli*, oddi wrth ei ansoddau alcalaidd cryf:— yr *ajram* hefyd, a geir yn agos i Sinai, yr hwn, wedi ei bwyo, sydd yn gwasanaethu yn lle sebon: a'r *gilloo*, neu 'blanhigyn sebon' Gwlad yr Aipht: a'r grug yn nghymmydogaeth Ioppa. Gwnaed symiau mawrion o alcali o'r ffynnonellau hyn yn yr hen oesoedd, fel y dengys y tomenydd o ludw sydd o'r tu ol i Ierusalem a *Nâbulus;* ac y mae masnach fywiog yn y nwydd yn cael ei chario yn mlaen etto âg Aleppo mewn un cyfeiriad, ac âg Arabia mewn cyfeiriad arall. Ni ddylem gymmeryd yn ganiataol fod y lludw yn cael ei weithio yn y ffurf ag yr ydym ni yn gydnabyddus âg ef; canys nid oedd un nwydd o'r fath yn hysbys i'r Aiphtiaid. Defnyddid sebon yn mhlith yr Hebreaid i ddau ddyben:— 1. I lanhau naill ai y person (*Ier.* ii. 22; *Iob* ix. 30, lle am "yn lân," darllener 'âg alcali'), neu y dillad. 2. I buro metteloedd (*Esa.* i. 25, lle am "lân," darllener 'fel trwy alcali'). Awgryma Hitzig y dylid rhoddi *bôrîth* yn lle *berîth*, "cyfammod," yn *Ezra* xx. 37, a *Mal.* iii. 1.

Mewn ymarferiad, ceir yn gyffredinol mai y brasder a'r olew ag sydd yn myned gyntaf yn ddrwgsawrus—hyny yw, yn dadgyfansoddi yn naturiol, ac yn rhyddhau eu surion—ydyw y goreu i wneyd sebon. Heb law olew, brasder, ac alcali, defnyddir ystor hefyd, mewn trefn i arbed yr alcali mwyaf costus; hefyd, y mae ychydig o galch, wedi ei yslecio gan y dwfr yn y cam cyntaf o'r gweithrediadau, yn myned i mewn i gyfansoddiad sebon. Y prif olew neu frasder a ddefnyddir i wneyd sebon ydyw gwêr a saim, palm-olew, olew cnau cocoa, ac olew olewydd, i sebon caled; ac olew hâd llin a hâd cywarch i sebon meddal. Gwneir *sebon môr* o olew cnau cocoa, soda, a dwfr; ac y mae yn meddu y briodoledd nodedig o doddi mewn dwfr hallt yn gystal ag mewn dwfr croyw. O herwydd hyn gwneir defnydd helaeth o hono ar y môr i ymolchi.

1. SEBUEL: un o hiliogaeth Gersom (1 *Cron.* xxiii. 16; xxvi. 24), yr hwn oedd yn llywodraethwr trysorau tŷ Dduw. Gelwir ef hefyd Subael: 1 *Cron.* xxiv. 20.

2. SEBUEL: un o bedwar mab ar ddeg Heman y cantor: 1 *Cron.* xxv. 4. Gelwir yntau hefyd Subael: 1 *Cron.* xxv. 20.

SECACAH: un o chwe dinas Iudah, y rhai oeddynt yn sefyll yn y *Midbar* ('anialwch'); hyny yw, y darn tir sydd yn terfynu ar y Môr Marw: *Ios.* xv. 61. Y mae yn digwydd yn y rhestr rhwng Midin a Nibsan. Nid oedd yn adnabyddus i Eusebius a Jerome; ac ni chyfarfyddwyd etto â'r enw yn y cyfeiriad hwnw mewn amseroedd mwy diweddar. O *Sinjil*, yn mhlith ucheldiroedd Ephraim, ger *Seilun*, gwelodd Dr. Robinson le a elwid *Sekâkeh*.

SECKER, THOMAS: archesgob Caergaint, a anwyd yn y flwyddyn 1693. Y mae hanes y dyn nodedig hwn yn wahanol i lawer o bersonau ereill a ddyrchafwyd yn yr Eglwys. Yn fynych trwy yr ysgolion grammadegol gwaddoledig a phrifysgolion y wlad yr esgynant i fyny; ond ganwyd Secker o rieni nad oeddynt yn aelodau o'r Eglwys Sefydledig, ond yn Ymneillduwyr oddi wrthi. Addysgwyd ef yn ysgol rammadegol Chesterfield, lle yr oedd chwaer iddo, a'i gŵr, Mr. Milnes, yn trigiannu; ac anfonwyd ef i athrofa berthynol i'r Ymneillduwyr yn Attercliffe, gogledd Lloegr. Bwriedid yr athrofa hon i ddysgu rhai oedd â'u golwg ar y weinidogaeth yn mhlith yr Ymneillduwyr; a dyna oedd bwriad Secker ieuangc pan yn myned iddi. Yr oedd llawer o'r gweinidogion blaenaf yn mhlith yr Ymneillduwyr wedi eu haddysgu yn yr athrofa hon. Ar ol bod yma o ddwy i dair blynedd, symmudwyd ef i sefydliad arall o'r un natur, lle yr ymddengys fod yr addysg a gyfrenid ynddo o ddosbarth uwch. Yr oedd y sefydliad hwn yn Tewkesbury, a than ofal ysgolhaig rhagorol o'r enw Jones. Yma y cyfarfu Secker â Chandler, yn dilyn yr un cwrs o efrydiau ag yntau. Efe a fu yn weinidog o gryn enwogrwydd yn mysg yr Ymneillduwyr, ac yn awdwr amryw o weithiau beirniadol. Yr oedd Butler yno hefyd, awdwr "*Cyfattebiaeth Crefydd Naturiol a Dadguddiedig;*" ond troes yn Eglwyswr, a chyfodwyd ef i esgobaeth Durham. Ffurfiodd Secker gyfeillgarwch agos â'r duwinyddion hyn, a pharhasant ar delerau cyfeillgar â'u gilydd am y gweddill o'u hoes.

Yn yr athrofäau hyn y gosodwyd i lawr sylfaen ei wybodaeth dduwinyddol, am yr hyn yr oedd mor enwog, ac o'r hyn y mae ei weithiau argraphedig yn brawf. Ond y mae profion cryfach o hyny, meddir, yn y sylwadau ar yr Ysgrythyrau sydd mewn llawysgrifau, ac sydd hyd heddyw yn Llyfrgell palas Lambeth. Pan y gadawodd Secker y coleg, pregethai yn achlysurol gyda'r Ymneillduwyr; ond ni bu erioed yn weinidog sefydlog ar unrhyw eglwys Ymneillduol. Nid ydyw yn hysbys beth oedd yr achos o hyn; ond ymddengys, pa fodd bynag, iddo wneyd ei feddwl i fyny i roddi heibio y bwriad

Digitized by Google

o fyned i'r weinidogaeth, ac ymroddi i astudio physygwriaeth; a bu yn gwrando darlithiau ar y wyddor hon yn Llundain, ac wedi hyny yn Paris. Yr oedd gan Secker, fodd bynag, rai cyfeillion yn yr Eglwys Sefydledig yn anfoddlawn iddo beidio defnyddio ei dalentau yn y llwybr y bwriadai wneyd ar y cyntaf; ac yn enwedig cyfaill ei ieuengctid, Butler, yr hwn, oedd yntau hefyd wedi troi i'r Eglwys erbyn hyn, ac wedi ei bennodi yn gaplan i feistr y Rholau; a Mr. Talbot, mab i esgob Durham. Perswadiwyd Secker i gymmeryd y pwngc o gydymffurfiad o dan ei ystyriaeth, a phenderfynodd yntau fyned i'r Eglwys. Aeth i Goleg Exeter, Rhydychain, ac yn mhen ychydig iawn o amser ordeiniwyd ef gan esgob Durham. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 1723.

Yr oedd ei ddyrchafiad yn yr Eglwys yn gyflym. Gwnaed ef yn gaplan i'r esgob Talbot; cafodd fywoliaeth Houghton-le-Spring, yr hon a gyfnewidiodd efe yn fuan am Ryton. Yn 1732, etholwyd ef yn un o gaplaniaid y brenin, ac yn beriglor St. Iago, Piccadilly. Yn 1735, gwnaed ef yn esgob Bristol; yn 1737, symmudwyd ef i Rydychain. Rhoddodd i fyny beriglorïaeth St. Iago yn 1750, lle yr oedd wedi dwyn oddi amgylch rai diwygiadau defnyddiol, a phennodwyd ef yn ddeon St. Paul. Yn 1758, cafodd ei ddyrchafu yn archesgob Caergaint. Bu farw ar y 3ydd o Awst, 1768, yn 75ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Lambeth. Yn y gwahanol gylchoedd y bu yn gweinyddu ynddynt, ymddygai fel dyn cydwybodol, haelfrydig, a chrefyddol; ac yr oedd yn ymroddgar yn nghyflawniad ei holl ddyledswyddau. Y mae ei weithiau argraphedig yn gynnwysedig o bregethau, darlithiau, &c.

1. SECHANIAH: un o hiliogaeth Zorobabel, ac o deyrnach brenhinol Iudah: 1 *Cron*. iii. 21, 22.

2. SECHANIAH. Ymddengys fod rhai o hiliogaeth Sechaniah wedi dychwelyd gydag Ezra: *Ezra* viii. 3. Gelwir ef Sechaniah yn 1 *Esd*. viii. 29.

3. SECHANIAH. Meibion Sechaniah oedd deulu arall a ddychwelodd gydag Ezra, o dri chant o nifer, â mab Iahaziel yn ben arnynt: *Ezra* viii. 5.

4. SECHANIAH: mab Iehïel, o feibion Elam, yr hwn a gynnygiodd i Ezra i roddi terfyn ar y priodasau dyeithr a wnaethpwyd ar ol y dychweliad o Babilon: *Ezra* x. 2.

5. SECHANIAH: tad Semaiah, ceidwad porth y dwyrain yn Ierusalem: *Neh*. iii. 29.

6. SECHANIAH: mab Arah, a thad-yn-nghyfraith i Tobiah, yr Ammoniad: *Neh*. vi. 18.

7. SECHANIAH: tad teulu offeiriadol a ddychwelodd gyda Zorobabel: *Neh*. xii. 3. Gelwir ef hefyd Sebanïah: ac efe oedd y degfed mewn trefn o'r offeiriaid yn nheyrnasiad Dafydd.

SECHEM, neu SICHEM; ystyr y gair Hebraeg, m, ydyw 'ysgwydd' neu 'gefn.' Coleddir peth ammheuaeth o barth i wreiddyn yr enw. Ni wyddys yn sicr pa un a alwyd y lle felly oddi wrth Sichem, mab Hamor, penaeth eu llwyth yn amser Iacob (*Gen*. xxxiii. 18, &c.); ynte a dderbyniodd ei enw oddi wrth y ddinas. Y mae ystyr y gair yn ffafriol i'r dybiaeth olaf, gan fod y cyfryw enw yn debyg o godi yn naturiol oddi wrth sefyllfa y lle ar 'gefn,' neu ar 'ysgwydd' y bryniau, y rhai sydd yno yn gwahanu y dyfroedd sydd yn rhedeg i Fôr y Canoldir o du y gorllewin a'r Iorddonen o du y dwyrain; ac wedi i'r enw gael ei ddwyn i mewn fel hyn, byddai yn debyg o ymddangos drachefn a thrachefn yn nheulu llywodraethwyr etifeddol y ddinas, neu y rhan hono o'r wlad. Hefyd, os i'r ddinas y rhoddwyd yr enw gyntaf yn amser Hamor, yn ol cyfattebiaeth hanesiol, cymmerwyd ef oddi wrth y tad yn hytrach na'r mab. Rhoddir yr enw hefyd yn y ffurf o SYCHEM, at yr hwn, yn gystal ag at SYCHAR, y cyfeirir y darllenydd.

Y mae gwreiddyn y gair Hebraeg *shecĕm* yn dynodi fod y lle yn sefyll ar rhyw fynydd neu ochr bryn; a chadarnheir y dyb hon gan *Ios*. xx. 7, yr hwn sydd yn ei gosod yn Mynydd Ephraim (gwel hefyd 1 *Bren*. xii. 25), a chan *Barn*. ix. 9, yr hwn sydd yn ei gosod dan ben mynydd Garizim, yr hwn a berthynai i fynyddoedd Ephraim. Nid ydyw y cyfeiriadau ysgrythyrol ereill at ei sefyllfa ond anuniongyrchol yn unig. Teilyngant sylw, er nad ellir rhoddi un pwys mawr arnynt. Fel hyn, er esampl, rhaid nad oedd Sechem yn mhell o Siloh, gan y dywedir fod Siloh (*Barn*. xxi. 1) ychydig i'r dwyrain o'r brif-ffordd oedd yn arwain o Bethel i Sechem. Drachefn, os enw priodol ydyw Salem yn *Gen*. xxxiii. 18 (*ymyl y ddal.*), ac os yw yr un a *Salím* bresennol ar yr aswy i wastadedd *Mukhna*, yna rhaid fod Sechem, yr hon y dywedir ei bod o du y dwyrain i *Shalim*, yn mhlith y bryniau ar yr ochr arall. Yn mhellach, rhaid fod Sichem, fel y dysgwn oddi wrth hanes Ioseph (*Gen*. xxxvii. 12, &c.), yn agos i Dothan; ac, a chaniatau mai Dothan ydyw y lle o'r enw hwnw sydd yn gorwedd ychydig filldiroedd o du y gogledd-ddwyrain i *Nâbulus*, rhaid fod Sechem yn mhlith yr un mynyddoedd, ac heb fod yn mhell. Felly, hefyd, gan ei bod yn debygol mai y Sychar, yn *Ioan* iv. 5, oedd yr hen Sechem, rhaid fod y dref hono yn agos i fynydd Garizim, at yr hwn y cyfeiriai neu yr edrychai y wraig o Samaria pan y safai yn ymyl y ffynnon wrth ei droed.

Dywed Josephus fod Sechem yn gorwedd rhwng Garizim ac Ebal. Llygriad yn unig o Neapolis ydyw y *Nâbulus* bresennol; a Neapolis a ddilynodd yr enw hynach, Sechem. Y mae yr holl ysgrifenwyr boreuol, y rhai sydd yn cyffwrdd â daearyddiaeth Palestina, yn tystiolaethu mai yr un lle oedd y ddau. Yn gyffredin, arferir yr hen enw gan Josephus, ond y mae yn defnyddio Neapolis yn *llyfr* i. iv. 8, §1. Derbyniodd y ddinas ei henw newydd (Neapolis = *Nâbulus*) gan Vespasian; ac ar arian bathol sydd yn awr ar gael, gelwir hi "Flavia Neapolis." Yn ol pob tebygolrwydd, yr oedd wedi ei hanrheithio yn ystod y rhyfel Iuddewig; ac yr oedd ei dinystr wedi bod mor lwyr fel na ddarfu iddi byth ar ol hyny adennill yr enw gwreiddiol, Sechem, yn mhlith pobl y wlad. Rhydd ei sefyllfa gyfrif am enw arall wrth ba un yr adnabyddid hi gan y brodorion, tra yr oedd yn hysbys yn benaf fel Neapolis i ddyeithriaid. Y mae yn gorwedd yn mron yn y canol rhwng Iudea a Galilea; a chan eu bod yn arfer gorphwys bedair gwaith ar y daith rhwng y taleithiau hyny, y mae gorphwysfa yr ail ddiwrnod yn digwydd yn dra chyfleus yn y lle hwn. Gan ei bod fel hyn ar y brif-ffordd ar y daith bwysig hon, gelwid hi hefyd *Mabortha*, neu *Mabartha*. Myn ereill gyfyngu yr enw i raddau, a deallant ef yn hytrach am y bwlch neu y fynedfa drwy y mynyddoedd lle y gorweddai y dref.

Digitized by Google

Dichon fod yr hen dref, yn ei hamser mwyaf blodeuog, yn gorwedd ar fwy o dir na'i chynnrychiolydd diweddar. Gallai yn hawdd ymestyn yn mhellach i fyny ochr Garizim, a thua'r dwyrain, yn nes at yr agoriad i'r dyffryn o'r gwastadedd. Ond dengys nodweddau naturiol y gymmydogaeth na chymmerodd cyfnewidiad mawr le yn yr ystyr hwn. Gellir casglu oddi wrth yr adroddiad yn Ioan (*pen.* iv. 1, &c.) am agosrwydd Ffynnon Iacob i Sychar, fod cyffiniau y dref, yn amser Crist, yn nes nag ydynt yn awr at y fynedfa i'r dyffryn rhwng Garizim ac Ebal. Yr argraph a wneir yno ar feddwl y darllenydd ydyw, y gallesid yn hawdd weled y bobl a "ddaethant allan o'r ddinas" at yr Iesu at y ffynnon; tra y mae *Nâbulus* dros filldir oddi yno, ac yn anweledig o'r llanerch hono. Creda y trigolion presennol fod Sechem yn meddiannu rhan o'r dyffryn o du y dwyrain tu hwnt i derfynau y dref ddiweddar; ac y mae rhai teithwyr yn sôn am adfeilion yno—yr hyn a ystyrir ganddynt fel prawf o'r un ffaith. Gellir egluro adroddiad Eusebius fod Sychar yn gorwedd o du y dwyrain i Neapolis drwy yr amgylchiad fod y rhan o Neapolis yn y parth hwnw wedi syrthio i'r fath gyflwr adfeiliedig pan oedd efe byw, fel ag i gael ei gamgymmeryd am safle tref arall. Yr oedd y rhan o'r dref oedd yn gorwedd ar fin y gwastadedd yn fwy agored na'r rhan oedd yn gorwedd yn nghilfach y dyffryn; ac, yn nhrefn naturiol pethau, dinystrid hi yn gyntaf, neu gadewid hi yn anghyfannedd ac adfeiliedig. Dywed Josephus fod uwch law deng mil o Samariaid—trigolion Sechem a feddylir—wedi eu lladd gan y Rhufeiniaid ar un achlysur. Gan hyny, rhaid fod y boblogaeth yn llawer iawn mwy nag a gynnaliai *Nâbulus* yn ei maintioli presennol.

Saif y dref mewn lle prydferth iawn. "Y mae gwlad Syria," ebe Mohammed, "yn anwylach gan Allah nag un wlad; a'r rhan o Syria y mae efe hoffaf o hono ydyw dosbarth Ierusalem; a'r lle goreu ganddo yn nosbarth Ierusalem ydyw mynydd *Nâbulus*." Edmygir ei hymddangosiad gan bob teithiwr a ymwêl â hi y mae gan swynion natur rhywfaint o ddylanwad arno. Y mae yn gorwedd mewn dyffryn cysgodol, ac yn cael ei hamddiffyn gan Garizim ar du y deheu, a chan Ebal ar du y gogledd. Nid ydyw godrau y mynyddoedd hyn, lle y maent yn ymgodi o'r dref, yn fwy na phum cant o droedfeddi oddi wrth eu gilydd. Y mae gwaelod y dyffryn o ddeutu 1,800 o droedfeddi uwch law lefel y môr, a phen Garizim yn uwch drachefn o 800 o droedfeddi. "Nid oes dim mwy prydferth yn holl Palestina," medd Dr. Clarke, "na golwg ar *Nâbulus* oddi ar y bryniau o'i hamgylch. Fel y disgyna y teithiwr tuag ati o'r bryniau, ymddengys ei bod yn gorwedd yn hapus yn mynwes y deildai mwyaf hyfryd a phereraroglus, yn cael ei hanner guddio gan erddi cyfoethog, a llwyni o goed mawreddog—oll o amgylch y dyffryn prydferth yn mha un y saif." "Yr oedd yr holl ddyffryn," medd Dr. Robinson, "yn llawn o erddi llysiau, a pherllanau o ffrwythydd o bob math, yn cael eu dyfrhau gan ffynnonau, y rhai sydd yn tarddu allan mewn amrywiol fanau, ac yn rhedeg tua'r gorllewin yn ffrydiau adfywiol. Daeth i'n golwg yn ddisymmwth fel yr olygfa fwyaf swynol y gallasem feddwl am dani. Ni welsom ddim i'w gymmharu â hi yn holl Balestina. Yma, dan gysgod merwydden aruthrol, wrth ochr ffrwd grychleisiog, y gosodasom ein pabell i lawr am y gweddill o'r dydd a'r nos. ...Codasom yn foreu, wedi ein deffroi gan ganiadau eosiaid, ac adar ereill, o ba rai yr oedd y gerddi o'n hamgylch yn llawnion."

"Nid oes dim anialwch yma," medd Van de Velde, "nid oes yma ddim llwyni tewion gwylltion; etto y mae yma bob amser wyrddesni, bob amser gysgod: nid y dderwen, y tyrpant, y pren carob, ond y llwyn olewydd, mor esmwyth o ran ei liw, mor brydferth o ran ei ffurf, fel, er ei fwyn, yr ymwrthodem yn ewyllysgar â phob coed ereill. Perthyna i ddyffryn Sechem un hynodrwydd arbenig, a hwnw ydyw y lliw neillduol a gymmerir gan wrthddrychau ynddo. Lle bynag y mae dwfr, gwyddoch fod yr awyr yn cael ei lenwi â themigion dyfrog, a bod gwrthddrychau pell a welir trwy y cyfrwng hwnw yn ymddangos fel pe byddent wedi eu hamgylchynu gan niwl glas neu lwyd gwanaidd, yr hyn sydd yn chwanegu llawer at swyn yr olwg ar y tir. Ond nid oes ond ychydig o'r lliwiau awyrol hyn i'w canfod yn Mhalestina. Gwelir lliwiau tanllyd yn y boreu ac yn yr hwyr, a lliwiau du-goch las, neu borphoraidd disglaer, lle y mae y goleuni yn disgyn yn nesaf at y cysgodion hir a dwfn. Ond y mae yn ddiffygiol o liw, ac o'r wawr dywyll swynol hono yn mha un y mae gwrthddrychau yn gwisgo y fath ffurfiau cymmysgedig esmwyth, ac yn mha un hefyd y mae y cyfnewidiad mewn lliw, o'r rhaglawr i'r pellder mwyaf, yn colli y caledwch o fraslun neillduol i dryloywder perffaith ffurfafen ddwyreiniol. Fel arall y mae yn nyffryn Sechem—o leiaf yn y boreu a'r hwyr. Yma y mae y tarthiadau yn aros, ac yn chwyfio yn mhlith canghenau a dail yr olewydd; ac oddi wrth hyn y cyfyd y niwl glasaidd dymunol a nodasom. Y mae y dyffryn yn mhell o fod yn llydan—heb fod yn fwy mewn rhai lleoedd nag ychydig gannoedd o droedfeddi. Cewch ei fod yn gyffredinol yn cael ei amgau ar bob ochr. Yn y dyffryn hwn hefyd, y mae y tarth wedi ymgasglu yn dew. Ac felly yr ydych yn myned yn mlaen dan gysgod y dail, gyda'r dyfroedd bywiol, ac yn cael eich swyno gan gerddoriaeth llu o adar cân—canys y maent hwythau hefyd yn gwybod yn mha le y cânt y llanerch goreu. Yma y mae yr olygfa yn diflanu ymaith, ac yn ymgolli yn yr awyrgylch laith, darthog."

Y cyfryw ydynt swynion naturiol yr hoff gyrchfa hon o eiddo y patriarchiaid gynt: y cyfryw ydyw prydferthwch yr olygfa, a'r ymddangosiad annisgrifiadwy o dawelwch ac esmwythyd sydd yn ymgrogi uwch ben yr olygfa, fel y mae y teithiwr, er mor awyddus y gall fod i brysuro yn mlaen yn ei daith, yn teimlo y byddai yn dda ganddo allu ymdroi, a threulio dyddiau ac wythnosau yno i fwynhau swynion y llanerch.

Y mae y cyfeiriadau at Sechem yn y Beibl yn lliosog, ac yn dangos mor bwysig ydoedd y lle mewn hanesiaeth Iuddewig. Pan yr ymfudodd Abraham gyntaf i Wlad Canaan, efe a "estynodd ei babell," ac a adeiladodd allor "dan y dderwen oedd yn ymyl Sechem." "A'r Canaaneaid oedd yn y wlad y pryd hyny:" ac y mae yn amlwg fod y wlad, os nad y ddinas, eisoes yn meddiant y cynfrodorion: *Gen.* xii. 6. Casgla rhai oddi wrth yr ymadrodd, "lle Sechem," nad oedd hi yn cael ei phreswylio fel dinas yn amser Abraham. Ond ceir fod yr un ymadrodd yn cael ei ddefnyddio am ddinasoedd neu drefydd mewn enghreifftiau ereill (*Gen.* xviii. 24; xix. 12; xxix. 22); a gallesid ei newid yma, heb wneyd un gwahaniaeth yn y meddwl, â'r ymadrodd, "dinas Sechem," yr hwn sydd yn digwydd yn xxxiii. 8. O'r braidd y gallesid disgwyl i le mor swynol beidio cael ei feddiannu mor gynted ag yr hanfodai unrhyw boblogaeth yn y wlad.

Digitized by Google

draddodiad, gyda golwg ar feibion ereill Iacob) wedi eu claddu yn Sichem. Dywed Jerome, yr hwn a fu byw mor hir mewn lle o ddeutu taith diwrnod o Sichem, fod beddau y deuddeg patriarch i'w gweled yno yn ei amser ef. Ffaith gwerth ei chofio ydyw mai yn Sichem y ganwyd Justyn Ferthyr, yr hwn a ddilynodd mor fuan ar ol oes yr apostolion.

Enw y dref sydd yn sefyll yn bresennol ar hen safle Sichem ydyw *Nâbulus*. Cynnwysa boblogaeth o tua phum mil; yn mhlith y rhai y mae pum cant o Gristionogion Groegaidd, cant a hanner o Samariaid, ac ychydig o Iuddewon. Y mae yr elyniaeth rhwng y Samariaid a'r Iuddewon yn awr yn llawn cymmaint ag oedd yn nyddiau Crist. Wrth gwrs, Mahometaniaid ydyw corph mawr y boblogaeth. Dilyna y brif heol linell y dyffryn, o'r dwyrain i'r gorllewin; a chynnwysa fasnachdy mawr, wedi ei gyflenwi yn dda âg amrywiol nwyddau. Croesir hi gan y rhan fwyaf o'r heolydd ereill—lle y mae y siopau bychain a gweithdai y crefftwyr. Y mae y rhan fwyaf o'r heolydd yn gulion a thywyll, gan fod y tai yn crogi drostynt ar fwäau, yn debyg iawn fel y maent mewn rhanau o Cairo. Ceryg ydyw defnyddiau y tai, ac y maent wedi eu gwneuthur yn y modd mwyaf cyffredin, gyda'r eithriad o dai penaethiaid cyfoethog Samaria, y rhai sydd yn byw yno. Nid oes yno un adeilad gyhoeddus hynod. Adeilad fechan ydyw synagog y Samariaid; oddi mewn i'r hon nid oes dim nodedig, oddi eithr yr ystafell lle y cedwir eu hysgrifeniadau cyssegredig. Dichon fod oed yr adeilad hon yn dri neu bedwar cant o flynyddoedd. Y mae yn nhref *Nâbulus* bump o demlau Mahometanaidd—dwy o ba rai, yn ol traddodiad, yn mha un y cyttuna Mahometaniaid, Cristionogion, a Samariaid, oeddynt yn wreiddiol yn eglwysydd. Dywed Dr. Rosen nad ydyw y trigolion yn ymffrostio mewn dim llai na phedwar ugain o ffynnonau dwfr oddi mewn ac o amgylch y ddinas. Y mae efe yn rhoddi enwau saith ar hugain o'r prif rai o honynt. Un o'r rhai hynotaf yn eu plith hwynt ydyw *'Ain el-Kerun;* yr hon sydd yn codi yn y dref, dan adeilad fwäog, i ba un y mae grisiau hir yn arwain i lawr, ac o'r hon y trosglwyddir y dwfr yn helaeth trwy gamlesydd i ddwy o'r temlau Mahometanaidd, a llawer o'r tai preifat; ac wedi hyny y mae yn gwasanaethu i ddyfrhau y gerddi ar yr ochr ogleddol i'r ddinas. Y mae yr amrywiol ffrydiau sydd yn tarddu o hon, a ffynnonau ereill, ar ol cael eu dosbarthu fel hyn yn mhlith y gerddi, yn disgyn o'r diwedd i un sianel, ac yn troi melin—yr hon a gedwir i fyned haf a gauaf. Gyda golwg ar y ffynnonau o'r tu allan i'r ddinas, nid oes ond tair yn unig o honynt yn derbyn eu dwfr o'r wlad ar y rhan ddwyreiniol. Y mae un o honynt, *'Ain Balâta*, ger llaw pentref o'r enw hwnw, yn codi mewn rhan mewn ystafell danddaearol, yn cael ei chynnal gan dri o golofnau, o ddeutu ergyd careg o ffynnon Iacob, ac y mae mor fawr fel y gwelodd Dr. Rosen bysgod bychain ynddi. Y mae un arall, *'Ain Askar*, yn tarddu o fynedfa fwäog, yr hon sydd yn arwain i waelod Ebal, ac yn rhedeg oddi yno i ddyfrlestr mawr, wedi ei naddu mewn careg—gwneuthuriad yr hwn, yn gystal a'r fynedfa fwäog, sydd yn dangos ei fod yn hen iawn. Y mae y drydedd ffynnon, *'Ain Defna*, yr hon sydd yn dyfod o'r un mynydd, yn dwyn ar gof i ni, drwy ei henw, yr amser pan yr oedd Sichem yn cael ei galw yn Neapolis. Dyfrheir rhai o'r gerddi o'r ffynnonau; ond y mae daear ereill mor laith fel nad ydynt yn sefyll mewn angen am y cyfryw ddyfrhâd. Yr olewydden, fel yn y dyddiau pan y llefarodd Iotham ei ddammeg enwog, ydyw y prif bren yno etto. Mae ffigysbrenau, coed almon, coed cnau Ffrengig, olewydd, eurafalau, bricyllwydd, pomgranadwydd, yn lliosog iawn. O'r braidd y mae dyffryn y Nilus ei hun yn rhagori ar y *Nâbulus* mewn cynnyrchu llysiau o bob math.

Gan ei bod, fel y mae, yn borth masnach rhwng *Jaffa* a *Beirût* ar un ochr, a'r dosbarthiadau tu hwnt i'r Iorddonen ar yr ochr arall, ac hefyd yn ganolbarth talaeth mor gyfoethog o wlân, ŷd, ac olew, y mae *Nâbulus*, o angenrheidrwydd, yn dyfod yn eisteddle masnach fywiog, a moethusrwydd, na cheir eu cyffelyb mewn ond ychydig, mewn cymmhariaeth, o ddinasoedd dwyreiniol canoldirol. Y mae hi yn cynnyrchu, yn ei llaw-weithfeydd ei hun, lawer o'r brethynau brasaf, sidanau rhagorol, brethynau o flew camel, ac yn enwedig sebon: ac o'r nwydd olaf hwn yr anfonir symiau mawrion, ar ol diwallu anghenion y wlad gyfagos, i'r Aipht, a rhanau ereill o'r dwyrain. Y mae y lludw, a'r gwaddodion ereill a daflwyd allan o'r ddinas, fel canlyniad gwneuthuriad sebon, wedi chwyddo i faintioli bryniau, ac yn rhoddi gwedd neillduol i gyffiniau y dref.

Gwnaeth Rosen, yn ystod ei arosiad yn *Nâbulus*, ymchwiliad newydd i'r cerf-ysgrifau Samariaidd a geir yno; y rhai y tybir eu bod yn mhlith y cerf-ysgrifau hynaf yn Mhalestina. Llwyddodd ef i'w copïo yn fanwl. Yr oedd y cerfysgrifau ar y llechi a wahaniaethir ganddo ef yn ei hanes fel *Rhif* 1 a *Rhif* 2, yn perthyn yn wreiddiol i synagog Samariaidd a safai ychydig o'r tu allan i'r ddinas, yn agos i'r porth Samariaidd, o ba synagog nid oes yn awr ond ychydig weddillion wedi eu gadael. Tybir eu bod o leiaf mor hen ag oes Justinian, yr hwn (yn B. A. 529) a ddinystriodd gynnifer o'r addoldai Samariaidd. Meddylia rhai, gyda llai o reswm, y dichon eu bod wedi eu harbed o'r deml ar Garizim, ac wedi eu symmud ar ol hyny i synagog ddiweddarach. Y mae y cerfysgrifau yn gynnwysedig o ddyfyniadau o'r Pum Llyfr Samariaidd. Ceir llechi cyffelyb wedi eu dodi yn muriau amryw o'r lleoedd cyssegredig yn nghymmydogaeth *Nâbulus;* fel y ceir wrth feddau Eleazar, Phineas, ac Ithamar yn *Awertah*.

Byddai yr hanes hwn yn anghyflawn heb rhyw grybwylliad am ddau lanerch yn nghymmydogaeth *Nâbulus*, y rhai sydd yn dwyn yr enwau o Ffynnon Iacob, a Bedd Ioseph. O'r rhai hyn, y blaenaf ydyw y mwyaf nodedig. Y mae yn gorwedd o ddeutu milldir a hanner ar du y dwyrain i'r ddinas, yn agos i'r ffordd isaf, ac ychydig y tu hwnt i bentref truenus *Balâta*. Yn mhlith y Mahometaniaid a'r Samariaid, adnabyddir hi fel *Bîr el-Yakûb*, neu *'Ain-Yakûb*. Weithiau, gelwir hi gan y Cristionogion yn *Bîr es-Samariyeh*—"ffynnon y wraig o Samaria." Mae caingc isel o graig yn ymestyn o waelod Garizim mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol, rhwng y gwastadedd a genau y dyffryn. Ar flaen y gaingc hon y mae pentwr bychan o adfeilion annhrefnus, gydag amryw ddarnau o golofnau gwenithfaen. Yn ymyl y rhai hyn y mae y ffynnon. Ei dyfnder, pan fesurwyd hi ddiweddaf, oedd 75 o droedfeddi; a chredwyd fod cryn lawer o ysbwrial yn ei gwaelod. Ar y goreu ni bydd yn cynnwys ond ychydig droedfeddi o

Digitized by Google

ddwfr, a bydd weithiau yn hollol sych. Y mae hi wedi ei gwneyd yn y graig galed, yn berffaith gron, yn naw troedfedd o drawsfesur, gyda'r ochrau wedi eu naddu yn esmwyth ac yn rheolaidd. Nid oes un ammheuaeth nad hon yw y ffynnon a wnaed gan Iacob. Dyma y traddodiad am y lle a ffynai yn nyddiau olaf y genedl Iuddewig: *Ioan* iv. 6, 12. Ac y mae ei sefyllfa yn chwanegu tebygolrwydd at y casgliad, ac yn dynodi, fel y sylwyd yn briodol, ei bod wedi ei chloddio yno gan un nas gallai ymddiried i'r ffynnonau oedd yn ymyl yn y dyffryn cyfagos—ffynnonau *'Ain Balâta* ac *'Ain Defneh*—y rhai oeddynt etto yn perthyn i'r Canaaneaid.

Yr ail lanerch y cyfeiriwyd ato ydyw Bedd Ioseph. Y mae yn gorwedd o ddeutu chwarter milldir o du y gogledd i'r ffynnon, yn union yn nghanol genau y dyffryn, rhwng Garizim ac Ebal. Nid ydyw ond darn bychan o dir—yn cynnwys bedd cyffredin, wedi ei amgylchynu gan furiau gwyngalchedig. Ceir wrth ben y bedd golofn a ddefnyddid fel allor, yn ddu gan effaith tân; ac y mae un arall wrth ei waelod. Yn y gongl ar y llaw aswy, wrth fyned i mewn, y mae gwinwydden, canghenau yr hon sydd yn "rhedeg dros y mur," ac yn dwyn ar gôf y geiriau yn mendith Iacob: *Gen.* xlix. 22. Yn y mur y mae dwy lech gydag arysgrifeniadau Hebraeg: ac y mae y tu mewn yn mron wedi ei orchuddio gan enwau pererinion, yn Hebraeg, Arabaeg, a Samariaeg. Heb law hyn, nid oes hynodrwydd yn yr adeilad ei hun. Y mae hi yn proffesu ei bod uwch ben bedd Ioseph, yr hwn a gladdwyd yno yn y darn tir a gymmunroddodd ei dad iddo fel ei hoff fab, ac yn yr hwn y gosodwyd ei esgyrn ar ol llwyr orchfygiad y wlad: *Ios.* xxiv. 32.

SECHARIAH. Gwel ZECHARIAH.

SECHU: lle a enwir unwaith yn unig yn y Beibl (1 *Sam.* xix. 22), fel yn gorwedd mewn ymddangosiad ar y ffordd rhwng preswylfod Saul, Gibeah, a Ramah (Ramathaim Zophim), preswylfod Samuel. Yr oedd yn hynod ar gyfrif y ffynnon fawr oedd ynddi. Y mae yr enw yn tarddu o wreidd-air yn arwyddo dyrchafiad; yr hyn, hwyrach, sydd yn rhoddi ar ddeall fod y lle yn sefyll ar fryn.

A chymmeryd yn ganiataol fod Saul wedi cychwyn o Gibeah (*Tuleil el-Ful*, ac mai *Neby Samwil* ydyw Ramah, yna byddai *Bîr Neballa* (ffynnon Neballa) yn sefyllfa briodol i ffynnon fawr Sechu. Tybia Schwarz, mai yr un ydyw ag *Askar*, ar ben de-ddwyreiniol Mynydd Ebal, ac mai yr un ydyw y ffynnon a Ffynnon Iacob yn y gwastadedd is law; ac y mae Van de Velde, gyda gradd o betrusder, yn ei gosod yn *Shûk*, yn mynyddoedd Iudah, ar du y gogledd-ddwyrain i Hebron; ond gorfodir hwynt i wneyd hyn gan eu gwahanol dybiau yn mherthynas i sefyllfa Ramathaim Zophim.

SECT: plaid. 'Heresi' yw y gair Groeg a gyfieithir *sect* yn y cyfieithiad Cymraeg (*Act.* xxiv. 4; xxvi. 5); ond y mae yn ddiammheu mai *heresi* ddylasai fod yn y naill a'r llall. Trwy newid y gair, ymddengys yr amddiffyniad yn ammhriodol; canys nid *heresi* y galwodd Tertulus hi, yn ol y cyfieithiad Cymraeg, ond *sect*. Y mae amddiffyniad Paul yn y Groeg yn ymddangos yn berffaith briodol. Yn amser Crist yr oedd pedair plaid arbenig yn mhlith yr Iuddewon; sef, y Phariseaid, y Saduceaid, yr Herodianiaid, a'r Esseniaid. Nid oedd y gair *sect*, fel y cymmhwysid ef gan yr Iuddewon, yn gwbl o'r un ystyr a'r un gair fel y cymmhwysir ef gan Gristionogion at y pleidiau sydd yn eu plith. Defnyddir ef genym ni yn mron bob amser am y rhai sydd yn ymffurfio yn gyfundebau gwahanol, ac heb ymuno â'u gilydd mewn addoliad a defodau crefyddol. Fel hyn yr ydym yn galw yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd, yn wahanol *sectau*—nid yn gymmaint ar gyfrif y gwahaniaeth sydd rhwng eu syniadau, ag o herwydd eu bod wedi ymffurfio yn wahanol gyfundebau. Nid ydyw gwahaniaeth mawr a hysbys mewn syniadau, pan na chanlynir ef gan unrhyw ymraniad allanol yn y gymdeithas, yn cael ei ystyried genym ni yn cyfansoddi sect wahanol. Yn awr, nid oedd yn mhlith yr Iuddewon, gyda'r eithriad o'r Samariaid, unrhyw gyfundebau gwahanol. Rhoddai y Phariseaid a'r Saduceaid eu presennoldeb yn yr un deml, a'r un synagogau: ïe, byddai rhai o'r ddwy blaid yn y Sanhedrim, ac hyd yn oed yn yr offeiriadaeth. Gwahaniaeth arall hefyd oedd, nad oedd enw y sect yn cael ei gymmhwyso at bawb a goleddent yr un syniadau; ond yn unig at yr enwogion yn eu plith a ystyrid fel arweinyddion y blaid.

SECUNDIAID: plaid o Valentiniaid, a elwid ar ol eu harweinydd, Secundus. Gwel VALENTINIAID.

SECUNDUS: un o'r personau a aethant gyda'r apostol Paul o Corinth mor bell ag Asia, ac y mae yn debygol i Troas neu Miletus (aethant oll mor bell a hyn, rhai yn mhellach), ar ei ddychweliad i Ierusalem, o'i drydedd daith genhadol: gwel *Act.* xx. 4. Dywedir yno mai Thessaloniaid oedd efe ac Aristarchus. Ni wyddys ddim arall yn ei gylch.

SEFYDLEDIG, YR EGLWYS. Gwel dan y geiriau EGLWYS YR ALBAN a LLOEGR.

SEFYDLIADAU EGLWYSIG *(Church Establishments)*. Wrth sefydliadau eglwysig yr ydys yn golygu eglwysi Cristionogol mewn cyssylltiad â'r wladwriaeth, megys yr Eglwys Esgobaethol yn Lloegr, a'r Eglwys Bresbyteraidd yn Ysgotland, &c. Ni bu yr eglwys Gristionogol mewn cyssylltiad â'r wladwriaeth, i'r graddau lleiaf, am y tri chanrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol: ond yn hytrach i'r gwrthwyneb, hi gafodd lywodraethau galluocaf y byd yn elynion ac ymosodwyr, a bu y Cristionogion yn wrthddrychau erledigaeth chwerw a llym oddi ar eu dwylaw. Ond yn nechreu y bedwaredd ganrif, gwnaed Cristionogaeth yn grefydd sefydledig y wladwriaeth. Ynddi ac o honi ei hun, nid oedd yn dal unrhyw gyssylltiad â'r wladwriaeth. Ac fel crefydd yn ymwneyd â'r gydwybod, yn tynu ei holl nerth a'i chymmhellion o ffydd yn unig, nid oedd arni angen am darian y gallu gwladol i'w hamddiffyn. Yr oedd yr eglwys Gristionogol, fel teyrnas nad yw o'r byd hwn, wedi ei dyrchafu ei hun yn nghanol yr ymherodraeth Rufeinig; ac o herwydd ei natur fewnol ac ysbrydol wedi cynnhyrfu gelyniaeth y byd. Ond cofleidiodd yr ymherawdwr, Cystenyn Fawr, Gristionogaeth—a newidiwyd pob peth. Yr oedd gwladweinyddiaeth cyn hyny yn gymmhlethedig â phaganiaeth; ond yn

Digitized by Google

ol gwladlywiaeth Cystenyn daeth yr eglwys a'r wladwriaeth i undeb agos â'u gilydd. Effeithiodd yr undeb hwn ar yr eglwys mewn dwy ffordd.

Ar un llaw, peidiodd yr erledigaethau, ac fe ennillodd y clerigwyr, ac yn enwedig yr esgobion, hawlfreintiau pwysig. Talwyd am weinidogaeth yr eglwys o drysorfa y wladwriaeth; ac wrth orchfygu paganiaeth, daeth i feddiant o lawer o'r eiddo oedd yn drysoredig yn y temlau paganaidd. Gwnaed y clerigwyr yn rhydd oddi wrth lawer o rwymedigaethau gwladol. Chwanegodd eu gallu, nes eu bod yn meddu dylanwad grymus ar ddynion yn y sefyllfaoedd uchaf. Daeth pob gwaith a berthynai i briodasau ac ewyllysiau i gael ei drin yn y llysoedd eglwysig; a gosodwyd i lawr sylfaen glwysbenaeth yr eglwys. Ond ar gyfer y manteision (?) hyn, y mae yn rhaid gosod anfanteision mawrion. Nid oedd y wladwriaeth yn barod i estyn y fath hawliau a breintiau, heb gael rhywbeth yn gyfnewid am hyny. Hyd amser Cystenyn Fawr yr oedd yr eglwys wedi bod yn hollol annibynol ar y wladwriaeth. Yr oedd hi yn byw arni ei hun, ac er ei mwyn ei hun a'i galwedigaeth nefol, heb gymmhellion nac amcanion anghydnaws â'i natur. Pan yn cael ei llenwi o gariad Crist daliodd allan yn ngwyneb gallu Rhufain gyda hunanymwadiad arwraidd. Ond yn awr, wedi i'r llywodraethwyr gwladol gofleidio Cristionogaeth, defnyddiasant yr eglwys i wasanaethu eu gwladlywiaeth fydol; a thrwy hyny dinystriwyd ei phurdeb a'i diniweidrwydd cyntefig. Yn raddol cafodd yr awdurdodau gwladol lais yn newisiad prif swyddogion yr eglwys; ac yn fuan daeth y llys ymherodrol, nid yn unig i benderfynu cwestiynau ynghylch pethau allanol a berthynent i'r eglwys, ond hyd yn oed i ymyraeth â materion yn dal cyssylltiad âg athrawiaeth. Yn y modd hwn, bu cyssylltiad yr ymherawdwr Cystenyn â hi yn foddion dyrchafiad a darostyngiad iddi: dyrchafiad allanol, ond darostyngiad mewnol:—dyrchafiad, yn nghyfoeth, sefyllfa, gallu, ac awdurdod y clerigwyr; ond darostyngiad, trwy fod bydolrwydd wedi llifo i mewn iddi fel afon, yn gystal ag ymraniadau:—ac nid oedd ond canlyniadau niweidiol o'r fath i'w disgwyl.

Yr oedd plaid yn ymgodi yn yr eglwys ar y pryd a fynai adferu Cristionogaeth i'w phurdeb gwreiddiol. Dyna oedd ei hamcan mawr proffesedig. Enw y blaid oedd y Donatiaid. Cymmerodd aelodau y blaid hon y pwngc o gyssylltiad crefydd â'r wladwriaeth i'w hystyriaeth yn ddifrifol. Canfyddent fod undeb a rhyddid yr eglwys, o herwydd ei hundeb â'r wladwriaeth, mewn dirfawr berygl. O ganlyniad, daethant allan yn ddiammwys a phenderfynol i'w wrthwynebu, ac i ddadleu yn erbyn y fath gyssylltiad anachaidd. Parhaodd yr Eglwys Babaidd, pa fodd bynag, i gydnabod yr egwyddor hon, ac i sicrhau undeb rhyngddi ei hun â'r llywodraethau gwladol yn mhob man lle y gallai hi lwyddo i ddwyn hyn oddi amgylch. Ac yn raddol aeth yr eglwys hono yn y canol-oesoedd i ddadleu fod ei hawliau yn uwch na'r eiddo y wladwriaeth—fod y pab uwchlaw Cæsar. Yr oedd eisieu rhyw ddyn o ewyllys gref a gallu mawr ar y sedd Babaidd i gario allan honiadau haerllug ac uchelgeisiol y Babaeth; ac fe'i cafwyd yn mherson Gregory VII.—yr hwn a gyhoeddodd fod yr eglwys yn annibynol ar y wladwriaeth, a'r wladwriaeth yn ddibynol ar yr eglwys! A chwerw a blin fu y dadleuon rhwng y ddau allu yma—pwy fyddai fwyaf ac uchaf. Yr oedd llygredigaeth a daearoldeb yr Eglwys Babaidd erbyn hyn mor fawr fel yr oedd dynion oedd â chariad at sancteiddrwydd a phurdeb yn tanio eu meddyliau yn cyfodi eu llais yn awr ac eilwaith, yma a thraw, yn ngwahanol wledydd Ewrop, ac yn llefain am ddiwygiad trwyadl ynddi. Ac o'r diwedd, ymddangosodd Luther, arwr mawr y Diwygiad Protestanaidd, a mawr fu y chwyldroad moesol a chrefyddol a effeithiwyd gan y diwygiwr enwog, a'i gydlafurwyr ymroddgar a ffyddlawn! Ysgydwad oedd y Diwygiad Protestanaidd y teimla Ewrop a'r byd oddi wrtho yn rymus hyd yn awr—ac hyd byth.

Ffrwyth cynnhyrfiad mawr diwygiadol yr unfed ganrif ar bymtheg oedd i liaws yn Mhrydain, yn gystal ag ar gyfandir Ewrop, ddyfod allan o Eglwys Rhufain, a llwyr ymwrthod â Phabyddiaeth. Ond bu eu hawl i ymneillduo o'r cyfundeb mawr Cristionogol yr oeddynt yn aelodau o hono yn flaenorol, a sefydlu eglwysi o'r eiddynt eu hunain, yn bwngc o ddadl bwysig. Ond penderfynodd Protestaniaid Ewrop hyny drostynt eu hunain; ac yn Lloegr, Ysgotland, Saxony, Geneva, a gwledydd ereill, hwy a sefydlasant eglwysi gwladol, wedi eu seilio ar y gyfraith gyhoeddus, ac yn cael eu llywodraethu gan yr un ewyllys gyhoeddus ag oedd yn trefnu ac yn rheoli achosion gwladol a bydol y gwledydd hyny. Yr oedd yr eglwysi sefydledig Protestanaidd hyn yn amrywio mewn trefniadau, defodau, ac athrawiaeth, yn ol barnau ac opiniynau personol neillduol y bobl a ddigwyddent feddu y dylanwad mwyaf pan y sefydlwyd hwy; neu ynte, mewn cyfnod diweddarach, gan rai a feddent ddigon o ddylanwad i wneuthur cyfnewidiadau yn y pethau hyn. O ganlyniad, nid oes un cyfundeb mawr Protestanaidd, neu un eglwys unedig sydd yn cynnwys yr holl Brotestaniaid, yn bod. Ac hyd yn oed yn y gwledydd lle y mae eglwysi sefydledig Protestanaidd, nid yw pawb o ddeiliaid y wladwriaeth yn aelodau o honynt. Y mae yn Lloegr, Ysgotland, a gwledydd Protestanaidd ereill, lawer sydd yn parhau i broffesu eu hymlyniad wrth Babyddiaeth, yn ymarfer ei defodau, ac yn credu ei hegwyddorion. Heb law hyny hefyd, y mae nifer fawr o Brotestaniaid yn Mhrydain nad ydynt yn aelodau o eglwysi sefydledig Lloegr nac Ysgotland chwaith, o herwydd amryw resymau. Y mae rhai yn teimlo gwrthwynebiad i gyfansoddiad a threfn yr eglwys yn Lloegr, am ei bod yn esgobyddol; ac ereill i'r un sydd yn Ysgotland, o herwydd ei bod yn henaduriaethol. Y mae ereill yn gwrthwynebu pyngciau sydd yn llyfr ffurf-wasanaeth Eglwys Loegr; ereill a anghymmeradwyant erthyglau ei ffydd, am nad ydynt yn cyflwyno golwg gywir ar yr hyn a ddysgir yn yr Ysgrythyrau sanctaidd; ereill a dybiant nad yw yr eglwys yn awr yn caniatau digon o ryddid i'w gweinidogion yn nghyflawniad eu dyledswyddau; ereill a feddyliant nad ydyw yn ymarferol yn ffafriol i ledaeniad egwyddorion a dylanwadau Cristionogol—yr hyn a ystyrir fel y prif amcan a ddylai fod mewn golwg yn holl osodiadau yr Eglwys Gristionogol. Yr ydym yn enwi rhai o'r prif wrthwynebiadau yn unig. Ond y mae lliaws mawr yn ymneillduo o'r eglwysi sefydledig, am eu bod yn teimlo yn wrthwynebol i'r egwyddor o sefydliad gwladol o grefydd, neu o gyssylltu crefydd â'r llywodraeth o gwbl. Dadleuant na ddylai eglwys gael ei rheoli gan gynghorau a seneddau, ond y dylid gadael i'r

Digitized by Google

cyffredinolrwydd o'r bobl byth ar ol y Diwygiad Protestanaidd." Yn yr ail eisteddiad o'r un senedd sefydlwyd Presbyteriaeth; a chafodd y gweinidogion ag oeddynt wedi eu bwrw allan ar yr Adferiad, ac yn fyw ar y pryd, eu hadferu i'w sefyllfa a'u hawdurdod. Hònodd y gymmanfa gyntaf a gynnaliwyd gan y pendefigion hawl i ddiddymu esgobyddiaeth. Yr oedd y cyfringynghor hefyd wedi gorchymyn ar i bob gweinidog weddïo dros William a Mari, dan boen diswyddiad; ac yn y rhanau dwyreiniol o Ysgotland, o du y deheu i'r Forth, yr oedd llawer wedi eu bwrw allan o'u bywoliaethau am anufudd-dod i'r gorchymyn. Yr oedd y senedd hefyd wedi awdurdodi y trigain gweinidog Presbyteraidd oedd yn fyw "i brofi a charthu allan bob gweinidog aneffeithiol, esgeulus, gwaradwyddus, a chyfeiliornus trwy gwrs priodol o weithrediadau a cheryddon eglwysig." Cafodd y trigain hyn ddigonedd o waith, er eu bod hwy yn hòni eu bod wedi ei gyflawni yn y modd mwyaf teg a diduedd. Gwysiwyd y gymmanfa gyffredinol, yr hon nid oedd wedi ymgyfarfod er's deng mlynedd ar hugain, i ymgynnull ar yr 16eg o Hydref, 1690; a phan gymmerodd y trigain gweinidog hyn, y rhai oeddynt wedi eu bwrw allan yn adeg yr Adferiad, eu heisteddleoedd, nid yn unig ni ddangosasant un duedd i ddial, ond yn hytrach rhwyddhasant y ffordd i'w gwrthwynebwyr esgobyddol gael derbyniad. Yn y cofnodion o'u gweithrediadau, ceir "nad oedd y gymmanfa yn ewyllysio diswyddo unrhyw weinidog, yn unig am ei farn o barth i lywodraeth eglwysig, nac yn annog ail ordeiniad unrhyw glerigwr." Ymddengys fod y dadganiad hwn yn diogelu rhyddid barn mewn materion o athrawiaeth a chymmeriad. Fod yr elfen olaf o flaen eu meddwl, sydd eglur oddi wrth ran arall o'u cofnodion, yr hon sydd yn rhybuddio y ddirprwyaeth i fod yn "ochelgar iawn wrth dderbyn cyhuddiadau yn erbyn y cydffurfwyr diweddar, a bod iddynt weinyddu cerydd gyda'r pwyll mwyaf, fel na chaffo neb achos cyfiawn i gwyno o herwydd eu llymder." Os oedd llawer o'r "cydffurfwyr diweddar," fel yr haera Burnet, yn anfoesol gyhoeddus, "yn warth i'w hurdd a'u swyddi cyssegredig, ac yn wir yn sorod ac yn wehilion y rhanau gogleddol, yr oedd y fath ymchwiliad i'w bucheddau yn angenrheidiol." Yr oedd y gweinidogion, y rhai a ffurfiasant y gymmanfa, gan fod henaduriaeth yn awr wedi ei hadsefydlu, yn awyddus am i'w hadferiad, yn unol â dymuniadau y llywodraeth, gael ei ddwyn oddi amgylch mor esmwyth a thawel ag oedd modd. Gan hyny, mewn cymmanfaoedd dyfodol, fel yn 1694, gorchymynasant i'r ddirprwyaeth "dderbyn i gymmundeb gweinidogaethol y cyfryw o'r gweinidogion cydffurfiol diweddar" ag oedd wedi cymmhwyso eu hunain yn ol y gyfraith, ac wedi tanysgrifio y ffurf—a'r ffurf hono heb fod yn ddim ond dadganiad o ffaith, "mai y llywodraeth eglwysig, fel y mae yn awr wedi ei sefydlu trwy gyfraith, ydyw unig lywodraeth yr eglwys hon." Cynnyrchodd y mesur hwn ganlyniadau tra niweidiol; ac yr oedd yn anghysson mewn eglwys ag oedd yn edrych ar henaduriaeth fel sefydliad dwyfol, ac wedi dioddef mor drwm dros y cyfryw grediniaeth, i ymyryd felly â'i hargyhoeddiadau a'i chredo ei hun. Ond, mewn gwirionedd, yr oedd holl symmudiadau dechreuol yr eglwys yn ddrwg. Ymostyngodd i reolaeth y gallu gwladol, ac wedi hyny nis gallai weithredu yn annibynol: ac yn wir, ni theimlid un parodrwydd i ganiatau y cyfryw ryddid iddi. Holl amcan William oedd ei chadw danodd. Yr oedd y cyfringynghor wedi gweinyddu cospedigaeth eglwysig ar y curadiaid anufudd, a dyrchafodd y senedd y gweddill Presbyteraidd i swyddi; ac nid yn unig dywedasant wrthynt yn mlaen llaw pa waith y disgwylid iddynt ei wneyd, ond hefyd yn mha ysbryd yr oeddynt i'w gyflawni. Y personau a dderbyniwyd i mewn gan y mesur y cyfeiriwyd ato, mewn llawer o amgylchiadau oedd y dosbarth a ddisgrifiwyd gan Burnet "fel rhai iselwael a dirmygus yn mhob ystyr, a'r pregethwyr gwaelaf y gwrandawsai efe arnynt erioed." Yn yr adeg y ffurfiwyd undeb â Lloegr, ddeunaw mlynedd ar ol y Chwyldroad, yr oedd cant a phump a thrigain o glerigwyr esgobol yn gweinyddu oddi mewn i Eglwys Ysgotland. Arferodd y gymmanfa yr iaith fostfawr hon wrth y frenhines Anne yn 1712:—"Nis gallwn lai na gosod ger bron eich mawrhydi yr enghraifft bwysig hon o'n cymmedrolder—ein bod, ar ol y sefydliad dedwydd diweddar, wedi cymmeryd i mewn a sicrhau parhâd gwasanaeth cannoedd o weinidogion Ymneillduol ar y telerau esmwythaf." Yn y dull hwn, yn dra boreu, y dechreuodd adfeiliad graddol yn mhulpudau a llysoedd Eglwys Ysgotland, ac ysgariaeth graddol ei gweinidogion i ddwy blaid. Ni ddarfu i'r gweddill diegwyddor o'r hen esgobyddion, a droisant mor rwydd yn weinidogion Presbyteraidd, ond yn unig newid eu gwisg wen am wisg Geneva, a darllen homiliau yn lle gweddiau. Fel hyn, sylfaenwyd eglwys y Sefydliad Chwyldroadol ar gyttundeb; a thra y gwarthruddwyd ef yn gyhoeddus fel un llac a niweidiol gan y Cyfammodwyr oddi allan, yr oedd yn groes iawn hefyd i feddwl llawer oddi mewn iddi.

SEFYLLFA: lle i sefyll arno, safle, gorsaf, cyflwr. Defnyddir y gair hwn hefyd i ddynodi swydd neu alwad; megys sefyllfa ennillfawr, swydd ennillfawr: *Salm* lxix. 2; *Esa.* xxii. 10; *Mic.* i. 11.

SEFYLLFA DDYFODOL sydd ymadrodd a ddefnyddir i osod allan fodolaeth yr enaid ar ol marw. Bod y fath sefyllfa yn bod sydd wirionedd a gredir yn mron yn gyffredinol. Y mae yn wirionedd ag y mae deddf natur dyn yn dwyn tystiolaeth iddo. Er nad ydyw rheswm ynddo ei hun yn alluog i sefydlu y gwirionedd hwn ar seiliau cedyrn a diammheuol, etto y mae yn cydsynio âg ef, ac yn ei dderbyn; a cheir yn enaid dyn, yn gystal ag yn Ngair Duw, gadarnhâd iddo. Y mae yn natur dyn ddeddf, drwy yr hon y gwahaniaethir pethau a gweithredoedd yn dda a drwg. Nid oes neb a wnêl ddefnydd o'i reswm a dybia mai peth dibwys ynddo ei hun ydyw, pa un ai ufuddhau i rieni, ynte eu diystyru a'u dianrhydeddu a wneir; pa un ai llefaru yr hyn sydd wirionedd, ai adrodd twyll a wneir; pa un ai bod yn ddiolchgar, ai ynte ymddwyn yn fradwrus tuag at gymmwynaswr a wneir. Y mae gwahaniaeth hanfodol rhwng y pethau hyn. Y mae rheswm yn sicr o gymmeradwyo y naill, a chondemnio y llall. Ac wrth edrych ar ddynolryw yn gyffredinol fel y cyfryw, fe geir fod rhyw ddrygau ag y mae barn a rheswm dynolryw yn gyffredinol yn eu condemnio ac yn eu hanghymmeradwyo; a rhyw rinweddau a gydnabyddir ac a gymmeradwyir

Digitized by Google

y gosodir yr achos gan y rhai a'i hammheuant:—Nad oedd y cyfammod Moesenaidd yn cynnwys addewidion uniongyrchol yn dwyn perthynas â sefyllfa ddyfodol; a hyny, y mae'n debygol, fel yr ymresyma Dr. Warburton, o herwydd y teimlai Moses yn ddiogel o ofal rhagluniaeth, ac o ganlyniad nad oedd angen am unrhyw gymmhellion neu annogaethau chwanegol, wedi eu cymmeryd oddi wrth fodolaeth sefyllfa ddyfodol—heb gredu yn yr hon nis gellir amddiffyn yr athrawiaeth o ragluniaeth gyffredinol, na rhoddi grym yn ngosodiadau crefydd. Ond yn wrthwynebol i'r syniad hwn, y mae Dr. Doddridge yn sylwi, ei bod yn amlwg iawn fod dynion da, hyd yn oed cyn amser Moses, yn credu yn modolaeth sefyllfa ddyfodol (*Heb.* xi. 13, 16), fel y mae yn eglur ei fod ef ei hun (*adn.* 24, 25); a bod yr addewidion o fwynhâd a dedwyddwch yn y nefoedd yn gynnwysedig yn y cyfammod a wnaed âg Abraham, pa rai nas gallai yr un Moesenaidd eu dirymu. Bod y saint o dan yr hen oruchwyliaeth yn disgwyl gwobrwyon dyfodol, sydd yn amlwg iawn; ac yr ydym yn cael yn ysgrifeniadau y prophwydi amryw ymadroddion sydd yn gosod allan yn eglur y disgwyliadau hyn; yn enwedig *Gen.* lxix. 18; *Salm* xvi. 9—11; xvii. 15; lxxiii. 17, 27; *Preg.* iii. 15—22; vii. 12, 15; *Esa.* iii. 10, 11; *Ezec.* xviii. 19, 21; *Job* xix. 23, 27; *Dan.* xii. 2; *Esa.* xxvi. 19; xxxv. 8. Gellir tynu yr un casgliad hefyd oddi wrth yr addewidion neillduol a wnaed i Daniel (*Dan.* xii. 13), i Zorobabel (*Hag.* ii. 23), ac i Iesua yr archoffeiriad (*Zech.* iii. 7); yn gystal ag oddi wrth ffeithiau hanesyddol a gofnodir yn yr Hen Destament, megys llofruddiaeth Abel, symmudiad Enoch ac Elias heb brofi angeu, a marwolaeth Moses; ac oddi wrth yr hyn a ddywedir am ymddangosiadau angylion, a'u hymddiddanion gyda dynion da. Gwel yn mhellach ar hyn dan y geiriau ADGYFODIAD; ANFARWOLDEB; ENAID; HADES.

SEGUR (*cur*): diog, diwaith, dilafur. "Paham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?" *h. y.*, heb fyned i'r winllan i weithio. Nid oes neb wedi ei greu i fod yn segur; ac nid oes un pechadur sydd wedi ei achub i fod heb ymdrechu i eangu terfynau teyrnas y Gwaredwr. Y mae gan bob dyn gylch neillduol o ddefnyddioldeb, a disgwylia Pen Mawr yr eglwys iddo halltu y cylch hwnw; ac nid disgwyl a dibynu ar lafur ereill am lwyddiant. "Canys os yw y pethau hyn genych, ac yn aml hwynt, y maent yn peri na byddoch na segur na diffrwyth yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist." Dyn digysur iddo ei hun, a dilês i ereill ydyw Cristion segur.

SEHON: brenin yr Amoriaid, pan gyrhaeddodd Israel derfynau Gwlad yr Addewid: *Num.* xxi. 21. Y mae yn amlwg ei fod ef yn ddyn dewr a beiddgar. Ychydig cyn dyfodiad Israel, yr oedd efe wedi difeddiannu y Moabiaid o diriogaeth ysblenydd, gan eu gyru hwynt i'r deheu i'r afon Arnon gyda cholled fawr mewn lladdedigion a charcharorion: *Num.* xxi. 16—29. Pan ymddangosodd llu yr Israeliaid, ni ddarfu iddo, fel Balac, betruso nac oedi; ond casglodd ei bobl ynghyd ar unwaith, ac ymosododd arnynt gyda ffyrnigrwydd mawr. Ond y frwydr hono fu ei frwydr olaf. Dinystriwyd ef a'i holl lu, a chymmerodd y gorchfygwr ar unwaith feddiant o'u dosbarth—o'r Arnon i'r Jabboc.

Rhydd Josephus [gw. "*Hynaf.*," iv. 5, § 2] rai manylion nodedig am y frwydr, y rhai ni cheir yn y Beibl. Disgrifia ef y fyddin Amoriaidd fel yn cynnwys pob dyn yn y genedl oedd yn gymmhwys i ddwyn arfau. Dywed eu bod yn analluog i ymladd pan na byddent dan gysgod eu dinasoedd; ac wedi eu harcholli yn drwm gan geryg a saethau yr Hebreaid, ac yn y diwedd yn dioddef yn dost oddi wrth syched, hwy a ruthrasant i'r afon, ac i gysgod cilfachau yr Arnon. Ymlidiwyd hwynt i'r cilfachau hyn gan eu gelynion, a lladdwyd nifer mawr o honynt.

SEIBIANT (*saib*): hamdden, gorphwysfa, ymaros, llonyddwch. "Pan welodd Pharaoh fod seibiant iddo;" *Exod.* viii. 15.

SEINTIOLAETH: gwel SANT.

SEIR ('garw' neu 'glogwynog.') Ceir yn y Beibl grybwylliad am "wlad Seir" (*Gen.* xxxii. 3; xxxvi. 30), a "Mynydd Seir" (*Gen.* xiv. 6).

1. SEIR: enw gwreiddiol trum o fynyddoedd yn ymestyn ar hyd yr ochr ddwyreiniol i ddyffryn Arabah, o'r Môr Marw at y Morgainge Elanitaidd. Gall yr enw fod wedi tarddu oddi wrth Seir yr Horiad; yr hwn, fel yr ymddengys, oedd penaeth y trigolion gwreiddiol (*Gen.* xxxvi. 20); neu, yr hyn sydd hwyrach yn fwy tebygol, oddi wrth ymddangosiad garw yr holl wlad. Y mae yr olygfa oddi ar fedd Aaron, ar Hor, yn nghanol y mynydd, yn ddigon i ddangos priodoldeb yr enw. Y mae y trumiau serth a danneddog, y creigiau a'r clogwyni ysgythrog, y llwyni gwasgarog a'r coed bychain yn rhoi gerwindeb digyffelyb yn mron i'r holl olygfa. Yn *Nhargum* Ierusalem, yn lle "Mynydd Seir" yr ydym yn cael *Mynydd Gabla.* Y mae y gair *Gabla* yn arwyddo 'mynydd,' ac felly y mae yn ddisgrifiadol o'r wlad. Cymmhwyswyd yr enw *Gebala*, neu *Gebalene* at y dalaeth hon gan Josephus, ac hefyd gan Eusebius a Jerome. Gelwir y rhan ogleddol o Fynydd Seir, mor bell a Petra, etto yn *Jebâl*—y ffurf Arabaidd o Gebal. Yr oedd Mynydd Seir y Beibl yn ymestyn yn llawer pellach i'r deheu na'r dalaeth ddiweddar, fel y dangosir gan y geiriau yn *Deut.* ii. 1—8. Mewn gwirionedd, disgrifir ei derfynau yno gyda chryn fanylrwydd. Yr oedd yr Arabah ar du y gorllewin iddo (*adn.* 1 a'r 8); yr oedd yn ymestyn mor bell i'r deheu a phen Morgainge Akabah (*adn.* 8); a rhedai ei derfyn dwyreiniol ar hyd y trum o fynyddoedd lle y mae gwastadedd uchel Arabia yn dechreu. Nid ydyw ei derfyn gogleddol wedi ei nodi mor fanwl. Yr oedd gwlad Israel, fel y disgrifir hi gan Iosuah, yn ymestyn o "Fynydd Halac, yr hwn sydd yn myned i fyny i Seir, hyd Baal-Gad;" *Ios.* xi. 17. Gan na roddwyd un rhan o Edom i Israel, rhaid mai Mynydd Halac oedd ei therfyn gogleddol. Yn awr, y mae llinell o fryniau neu glogwyni gwynion llymion (ystyr y gair *halac* ydyw 'llwm'), y rhai sydd yn rhedeg ar draws y dyffryn mawr o ddeutu wyth milldir i'r deheu i'r Môr Marw, yn ffurfio dosbarth rhwng yr Arabah briodol a'r glyn dwfn o du y gogledd iddi. Y mae yr olwg ar y clogwyni hyn, oddi ar lan y Môr Marw, yn dra nodedig. Ymddangosant fel llinell o fryniau yn cau y dyffryn i mewn, ac yn ymestyn i fyny at fynyddoedd Seir. Yr argraph a adawyd ganddynt ar feddwl Robinson oedd, mai hwn yw "Mynydd Halac, yr hwn sydd yn myned i

Digitized by Google

fyny i Seir." Terfyn gogleddol dosbarth diweddar Jebâl ydyw y *Wady-el-Ahsy*, sydd yn ymarllwys i'r Ghor rai milldiroedd nes i'r gogledd.

Yn *Deut.* xxxiii. 2, ymddengys fod Seir yn gyssylltiedig â Sinai a Paran; ond dengys ymchwiliad manwl i'r adnod ddyrys hono mai nid un daearyddol ydyw y cyssylltiad. Nid ydyw Moses yno ond yn unig yn symio i fyny yr amlygiadau gogoneddus o'r Mawrhydi Dwyfol i'r Israeliaid, ac heb dalu un sylw i amser na lle: gwel *Barn.* v. 4, 5.

Preswylid Mynydd Seir yn wreiddiol gan yr Horiaid, neu 'ogof-anneddwyr;' y rhai yn ddiammheu oedd cloddwyr y lliaws preswylfeydd hynod hyny mewn creigiau a gafwyd yn y ceunentydd a'r clogwyni o amgylch Petra. Difeddiannwyd hwynt, ac yn ol pob tebygolrwydd diddymwyd hwynt, gan hiliogaeth Esau, y rhai a "drigasant yn eu lle hwynt;" *Deut.* ii. 12. Fel hyn y mae hanes Seir yn ymgymmysgu yn foreu â hanes Edom. Er i'r wlad ar ol hyny gael ei galw yn Edom, nid aeth yr hen enw, Seir, allan o arferiad yn hollol. Crybwyllir hi yn fynych yn hanes ddilynol yr Israeliaid; 1 *Cron.* iv. 42; 2 *Cron.* xx. 10. Y mae Mynydd Seir yn destyn melldith brophwydoliaethol arswydus a gyhoeddwyd gan Ezeciel (*pen.* xxxv.), yr hon a ymddengys yn awr wedi ei llwyr gyflawni:—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Wele fi i'th erbyn di, mynydd Seir, estynaf hefyd fy llaw i'th erbyn, a gwnaf di yn anghyfannedd ac yn ddiffaethwch. Gosodaf dy ddinasoedd yn ddiffaethwch......pan lawenycho yr holl wlad, mi a'th wnaf di yn anghyfannedd......gwnaf di yn anrhaith tragwyddol, a'th ddinasoedd ni ddychwelant; fel y gwypoch mai myfi yw yr Arglwydd."

2. SEIR: lle hollol wahanol i'r un blaenorol. Un o'r tirnodau ar derfyn gogleddol tiriogaeth Iudah: *Ios.* xv. 10. Gorweddai ar du y gorllewin i Ciriath-iearim, a rhyngddi a Beth-semes. Os *Kuriet-el-Enab* yw y flaenaf, ac *Ain-shems* yr olaf o'r ddau le hyn, yna rhaid mai Mynydd Seir yw y trum sydd yn gorwedd rhwng y *Wady Aly* a'r *Wady Ghurab*. Y mae pentref o'r enw Saris yn sefyll ar gwr deheuol y trum yma; yr hwn, yn ol barn Tobler a Schwarz, sydd yr un a Seir. Yr hyn sydd yn anffafriol i'r dybiaeth hon ydyw y ffaith fod yr enwau yn hollol wahanol. Y mae y *Sa'trah* ar du y deheu i'r *Wady Surar* yn nes mewn geiryddiaeth, ond nid ydyw mor gyfaddas o ran ei sefyllfa.

Pa fodd y daeth yr enw *Seir* i gael ei osod mor bell i'r gogledd i brif eisteddleoedd y Seiriaid ni ellir gwybod. Hwyrach, fel enwau ereill sydd yn digwydd yn llwyth Beniamin, mai cofadail ydyw o ruthrgyrch gan yr Edomiaid na wnaed cofnodiad o hono. Ond y mae yn fwy tebygol ei fod wedi cael ei enw oddi wrth ryw neillduolrwydd yn ffurf neu ymddangosiad y llanerch. Y mae Dr. Robinson, yn ol pob tebygolrwydd, heb fwriadu gwneyd un cyfeiriad at yr enw Seir, yn siarad am y "clogwyni ysgythrog oedd yn cyfansoddi prif drum" y mynydd dan sylw. Y cyfryw ydyw ystyr y gair Hebraeg, *Seir.* Pa un a oes rhyw gyssylltiad rhwng y mynydd hwn a *Seirath* neu *has-Seirah* [gwel yr erthygl nesaf] sydd ammheus. Nid ydyw yr enw yn un cyffredin, ac nid yw yn annhebygol y dichon ei fod wedi cael ei roddi i fryniau mwy gogleddol Iudah, y rhai a redent i fyny i Beniamin—neu, fel y gelwid ef y pryd hwnw, Mynydd Ephraim.



SEIRATH: y lle i'r hwn y diangodd Ehwd wedi iddo lofruddio Eglon (*Barn.* iii. 26); a'r lle, trwy udganu mewn udgorn, y casglodd efe ei gydwladwyr i ymosod ar y Moabiaid yn Iericho: *Barn.* iii. 27. Yr oedd yn Mynydd Ephraim; yr hwn, hwyrach, nid oedd ond parhâd o'r un bryniau ysgythrog, y rhai oeddynt yn ymestyn mor bell i'r deheu ag i fyned i diriogaeth Iudah: *Ios.* xv. 10. Dengys y fannod bennodol a ddodwyd o flaen yr enw yn y gwreiddiol ei fod yn lle tra adnabyddus yn ei ddydd.

SEIRIOL: sant oedd yn byw yn nechreu y chweched ganrif, a mab i Owain Danwyn ab Einion Yrth ab Cunedda Wledig. Yr oedd efe ar y cyntaf yn aelod o goleg Garmon; a phan sefydlodd Einion, brenin Lleyn, goleg yn Mhenmon, Môn, efe a osododd Seiriol, ei nai, yn llywydd arno, ac a'i gwaddolodd â llawer o diroedd a chyfoeth. Daeth Côr Seiriol mor glodfawr trwy y wlad fel y deuai gwŷr Llychlyn, neu y Scandinafiaid, y rhai a wladychasant yn Ysgotland ac Ynys Manaw, yno am addysg ddefnyddiol a chrefyddol. Yr oedd Côr Beuno a Chôr Seiriol yn enwocach am eu dysg na holl gorau gogledd Cymru y pryd hwnw. Yr oedd cell feudwyol mewn cyssylltiad â Choleg Seiriol yn Ynys Glanach, yn *Priestholme.* Gelwir yr ynys hono yn awr ar enw Seiriol. Dywed traddodiad fod Seiriol a Chybi yn arfer cyfarfod yn wythnosol yn Clorach, ger Llanerchymedd, yr hwn le sydd tua hanner y ffordd rhwng Caergybi a Chapel Seiriol yn Mhenmon, ac y mae dwy ffynnon tua deg llath oddi wrth eu gilydd yn y lle y cyfarfyddent, a adwaenir hyd y dydd heddyw wrth yr enwau Ffynnon Seiriol a Ffynnon Cybi, at ba rai yr ymgynnullai lliaws mawr o bobl yn y dyddiau gynt am iachâd o'u gwahanol glefydau. Gan y byddai Cybi yn teithio i'r cyfarfodydd hyn o orllewin i ddwyrain, ac felly â'i wyneb at yr haul, a Seiriol i'r gwrthwyneb, tarddodd yr ymadrodd sydd etto ar lafar gwlad, "Seiriol *wyn,* a Chybi *felyn.*"

SEISONEG, BEIBL. Gwel BEIBL.

SEITHBENAETH (*Heptarchy*). Yn fuan ar ol i'r Sacsoniaid ddyfod drosodd i Brydain, yn y bummed a'r chweched ganrif o'r cyfnod Cristionogol, a darostwng y boblogaeth, neu ynte eu gyru am nodded ac amddiffyniad i fynyddoedd Cymru, Cernyw, a Chumberland, hwy a sylfaenasant y gyfundrefn a elwir wrth yr enw 'seithbenaeth' (*heptarchy*); a rhanwyd y wlad i saith, os nad chwaneg, o ddosbarthiadau—pob un yn fath o deyrnas yn cael ei llywodraethu gan benaeth, neu frenin. Y rhai canlynol ydyw y teyrnasoedd a sylfaenwyd ganddynt:—

1. CAINT: a gynnwysa y dosbarth o'r wlad a elwir wrth yr enw hwn yn bresennol. Sylfaenwyd gan Hengist a Horsa, B. A. 457. Yr oedd Caint yn hôni ei hannibyniaeth hyd nes y gorchfygwyd hi gan Cenwulf, brenin Mercia, yn B. A. 796. Yn 823, cyssylltwyd hi â Wessex gan Egbert; ond am un ganrif o leiaf ar ol hyn, y mae hi yn cael ei chrybwyll fel teyrnas annibynol, ond israddol.

2. SUSSEX: a gynnwysa y rhanbarth sydd yn myned o dan yr enw hwn yn awr. Sefydlwyd ef gan Ella, B. A. 491. Yn B. A. 686, fe'i gorchfygwyd gan Cledwalla, brenin Wessex; ac ymddengys ei bod o hyny allan yn talu gwarogaeth

Digitized by Google

naill ai i'r dosbarth hwnw, neu i Mercia. Yn 828, ymostyngodd i Egbert; ac o'r pryd hwn ymddengys fod Sussex a Surrey yn cael eu hystyried yn rhanau mewnol o frenhiniaeth Wessex, mewn cyssylltiad â theyrnas Caint.

3. Wessex: yn cynnwys y rhan fwyaf o Surrey, Hants, ynghyd âg Ynys Gwŷth, Berks, Wilts, Dorset, Gwlad yr Haf, Devon, a rhan o Gernyw. Sylfaenwyd hi gan Cynric, B. A. 519. Gorchfygwyd Jutiaid Ynys Gwŷth gan Cerdic, a'i fab Cynric, B. A. 530; ond yn 681 cymmerwyd yr ynys oddi ar Wessex gan Wulfere, brenin Mercia. Yn mhen rhyw gymmaint o amser ar ol hyn, ymddengys iddi gyhoeddi ei hannibyniaeth, a chadwodd hyny o dan ei brenhinoedd ei hun hyd ddechreuad y ddegfed ganrif, pan yr ymostyngodd i Iorwerth yr Hynaf. Yn nheyrnasiad Egbert (B. A. 800—836) ennillodd teyrnas Wessex uchafiaeth dros y taleithiau ereill.

4. Essex: yn cynnwys siroedd Essex a Middlesex, a rhan ddeheuol o sir Hertford; yr hon, fel y tybir, a sylfaenwyd gan Æscwin, B. A. 527. Ammheuai rhai a fu y deyrnas hon erioed yn un annibynol. Diau iddi gael ei gwneyd yn ddarostyngedig i Mercia yn y seithfed ganrif, ac yn 823 ymostyngodd yn hollol i Egbert o Wessex.

5. Northumbria: yr hon a gynnwysai daleithiau Bernicia a Deira. Yr oedd y flaenaf (oddi wrth yr enw brodorol, *Bryneich*) yn cynnwys swydd Northumberland, a siroedd de-ddwyreiniol Ysgotland mor bell a'r Forth, ac wedi ei sylfaenu gan Ida, B. A. 547: a'r olaf (oddi wrth yr enw brodorol, *Deifyr*) yn cynnwys siroedd Cumberland, Durham, Westmoreland, Efrog, a Lancaster, a sylfaenwyd gan Ella, B. A. 560. Ymddengys fod y ddwy dalaeth yma wedi ymuno cyn dechreu y seithfed ganrif; ac ar ol 655, nid ysgarwyd hwynt, cyhyd ag y cadwasant eu hannibyniaeth. Yr ydoedd terfynau teyrnas Northumbria i'r gogledd yn amrywio o bryd i bryd yn ol fel y byddai ei rhyfeloedd â'r Pictiaid, yr Ysgotiaid, a theyrnas Ystrad Clwyd (*Strathclyde*) yn llwyddo neu yn aflwyddo. Nid ydyw hanes Northumbria, o ganol yr wythfed ganrif, ond hanes cwerylon, terfysgoedd, a thywallt gwaed; yn cyfodi oddi ar yr hawliau a ddygid yn mlaen gan amryw ymgeiswyr am yr orseddfaingc. Ymostyngodd y Northumbriaid yn ffurfiol i Egbert, B.A. 829. Yn 869, gorchfygwyd y wlad gan y Daniaid; ac o'r pryd hwnw gellir ystyried iddi fod yn dalaeth annibynol o dan dywysogion Danaidd hyd 924, pan gydnabyddodd y preswylwyr Saesnig a Danaidd uchafiaeth Iorwerth yr Hynaf. Parhaodd Northumbria, pa fodd bynag, i gael ei llywodraethu gan dywysogion o'r eiddo ei hun; pa rai, er eu bod mewn enw yn ddarostyngol i'r penadur Saesneg, a wisgent y teitl o frenhinoedd hyd 952. Wedi hyny, gelwid eu llywodraethwyr yn 'ieirll.' Rywbryd ar ol y gorchfygiad Normanaidd y daethpwyd i ystyried fod y tiriogaethau a ffurfient y dalaeth Sacsonaidd hon yn fanwl o fewn terfynau llywodraeth Lloegr.

6. Anglia Ddwyreiniol: yn cynnwys Norfolk, Suffolk, a Chaergrawnt, ynghyd â rhan o swydd Bedford, a sylfaenwyd gan Uffa, B.A. 571. Rhoddodd preswylwyr y parth hwn eu hunain o dan benaduriaeth Egbert o Wessex ynghylch y flwyddyn 823; ond parhasant i fod am ryw gymmaint o amser ar ol hyny o dan lywodraeth uniongyrchol eu brenhinoedd hwy eu hunain. Gorchfygwyd y wlad gan y Daniaid yn 883; ac ni ddygwyd hi yn ol yn hollol o dan y goron Saesnig hyd esgyniad Athelstan, yn 925. Ymddengys ei bod yn cael ei llywodraethu ar ol hyny gan arglwyddi neu dduciaid.

7. Mercia: yn cynnwys Caerlleon, Derby, Amwythig, Leicester, Stafford, Rutland, Northampton, Huntington, Hereford, Worcester, Warwick, Gloucester, Rhydychain, Buckingham, a rhanau o Hertford a Bedford. Sylfaenwyd hi gan Crida, B. A. 585. Dywed Camden, ac ereill, fod y gair *Mercia* yn deilliaw o air yn golygu 'terfyn.' Tybia Lingard fod y bobl yn cael eu galw yn Merciaid, fe allai, oddi wrth y dosbarth morfäog lle yr ymsefydlasant gyntaf. Ond fe allai mai yr eglurhâd mwyaf naturiol ydyw yr un a roddir gan Macpherson; yr hwn a sylwa fod y gair Sacsonaidd *Myrenaric* yn arwyddo yn briodol y 'deyrnas goediog.' Tua chanol y seithfed ganrif, gorchfygwyd Mercia gan Oswio, brenin Northumbria; ond yn mhen ychydig flynyddoedd, adfeddiannodd ei hannibyniaeth; a chyn diwedd y ganrif ddilynol, yr oedd wedi darostwng y taleithiau cymmydogaethol, Anglia Ddwyreiniol a Chaint. Darostyngwyd hi, modd bynag, gan Egbert o Wessex, yn y flwyddyn 825; ac er iddi gael am beth amser ei hystyried yn deyrnas ar wahân, parhaodd i fod yn ddibynol ar y dalaeth hono, gyda'r eithriad o gyfnod byr yn niwedd y ganrif hono, yn ystod pa un y goresgynwyd ac y meddiannwyd hi gan y Daniaid.

Gelwir y taleithiau hyn yn gyffredin y *Seithbenaeth*. Ond y mae mewn gwirionedd yn ammheus a fu amser pan yr oedd cymmaint a saith dalaeth yn hanfodi ar wahân ac yn annibynol ar eu gilydd yma yr un pryd. Ymddengys hefyd fod amrywiol o fân ddosbarthiadau wedi bod am fwy neu lai o gyfnodau yn meddu pob peth ond annibyniaeth cydnabyddedig yn nghanol y taleithiau mwyaf, â'r naill neu y llall o ba rai yr ystyrid hwynt yn dal cyssylltiad. Y mae yn anhawdd dangos fod y gair *Seithbenaeth* yn briodol, os ydyw wedi ei fwriadu i gynnwys (ac y mae felly mewn ystyr priodol, gellid meddwl) fod yr amrywiol daleithiau hyn wedi eu huno ynghyd mewn rhyw fath o undeb neu gynghrair; a'u bod yn ffurfio, mewn gwirionedd, rhyw gyfundrefn wleidyddol yn atteb i'r enw. Gwyddom eu bod yn mron yn barhaus mewn rhyfel â'u gilydd; ac am fodolaeth unrhyw awdurdod llywodraethol cyffredinol, oddi gerth yr hyn yr oedd un brenin yn achlysurol yn alluog i'w gael dros y gweddill drwy rym y cleddyf, nid ydyw eu hanes yn profi dim o'r fath. I rai o'r brenhinoedd, pa fodd bynag, y rhai, fel yr ymddengys, a ennillasant yr uchafiaeth amserol hwn yn y modd amlycaf, y mae Bede, a chroniclwyr Sacsonaidd ereill, wedi rhoddi y teitl o *Bretwalda;* hyny yw, fel y deonglir ef, rheolwr neu ymherawdwr Prydain: ac y mae yn debyg fod rhyw anrhydedd mwy, ac uwch, yn cael ei hawlio gan y tywysogion hyn, ac hefyd yn cael ei roddi iddynt gan eu cymmydogion a ddygwyd dan deyrnged ganddynt, a chan ereill, er nad oeddynt wedi eu darostwng, a ofnent dynu eu gŵg. A ganlyn ydyw y rhestr o'r Bretwaldiaid a roddir gan Bede:—1. Ella: yr hwn oedd frenin Essex o'r fl. 491 hyd 518. 2. Collin: yr hwn a deyrnasodd yn Wessex o'r fl. 560 hyd 591. 3. Ethelbert: yr hwn oedd frenin Caint cyn 568, ac, fel y tybir, a gydnabyddwyd yn *Bretwalda* o 589 hyd ei farwolaeth, yn 614. 5. Edwin o

Digitized by Google

Northumbria: o'r fl. 635 hyd 642. 6. Oswald o Northumbria: o'r fl. 635 hyd 642. 7. Oswio o Northumbria: o'r fl. 642 hyd 670. Ystyrir mai Egbert o Wessex oedd yr wythfed *Bretwalda*, yr hwn a gafodd yr anrhydedd yn y flwyddyn 827. Yn ol yr adroddiad hwn, fe welir fod y wlad heb un penadur cyffredinol am tua hanner y cyfnod a ddigwyddodd rhwng marwolaeth Ella ac esgyniad Egbert i'r orsedd. Gadewir allan o'r cyfrif hefyd rai brenhinoedd, megys Ina o Wessex, ac Offa o Mercia; y rhai yn ddiammheu oeddynt yn meddu cymmaint o allu ag un o'r rhai uchod, oddi eithr Egbert, y rhoddwyd y teitl o *Bretwalda* iddynt. Ar y cyfan, nis gellir edrych ar y teitl hwn yn ddim llawer yn amgen na hôniad gwâg o eiddo rhai o'r brenhinoedd Sacsonaidd, neu enw o fri a roddir arnynt gan weniaith y croniclwyr. Nid oedd yn cario gydag ef ond ychydig o awdurdod gwirioneddol. Nid oes rhestr gyflawn o frenhinoedd gwahanol daleithiau y seithbenaeth i'w cael. Syr Francis Palgrave sydd wedi cyhoeddi y berffeithiaf. Egbert o Wessex, er nad ydyw efe mewn ystyr manwl yn meddu hawl i gael ei ystyried yn frenin cyntaf Lloegr, etto yn ddiau efe a osododd i lawr sylfaen yr hyn a ddaeth wedi hyny yn frenhiniaeth Lloegr. Ni chollodd teulu Wessex yr uchafiaeth a ennillodd efe iddo cyhyd ag y parhaodd yr Anglo-Sacsoniaid yn feistri ar Loegr.

SEITHDEG, CYFIEITHIAD Y. Gwel d.g. BEIBL, CYFIEITHIADAU Y.

SELA a SELAH: a gyfieithir "y graig" yn *Barn.* i. 36; 2 *Cron.* xxv. 12; *Obad.* 3. Y ddinas, y mae yn debygol, a adnabyddid yn ddiweddarach fel Petra, 500 o filldiroedd Rhufeinig o Gaza, adfeilion yr hon a geir o ddeutu taith dau ddiwrnod i'r gogledd i ben uchaf Morgainge Akaba, a thri neu bedwar i'r deheu o Iericho. Yr oedd yn nghanol Mynydd Seir, yn nghymmydogaeth Mynydd Hor; ac am hyny yr oedd yn diriogaeth Edomaidd, a gymmerwyd gan Amaziah, ac a elwid Ioctheel: felly, dylid gwahaniaethu rhyngddi a'r Ioctheel (*Ios.* xv. 38), yr hon oedd yn perthyn i Iudah yn amser Iosuah. Ymddengys iddi wedi hyny ddyfod dan lywodraeth Moab. Yn niwedd y bedwaredd ganrif cyn Crist, ymddengys fel pencadlys y Nabathæaid, y rhai a wrthsafasant yn llwyddiannus ymosodiadau Antigonus; a danynt hwy daeth yn un o'r gorsafoedd mwyaf pwysig i fasnach ddwyreiniol â Rufain. O ddeutu 70 C. C. ymddengys Petra fel preswylfod Arabaidd a elwid Aretas. Darostyngwyd hi gan Trajan i ymherodraeth Rhufain, a chan yr ymherawdwr nesaf derbyniodd yr enw Hadriana. Gorweddai dinas Petra, er mewn lefel uchel, mewn gwagle wedi ei gau i mewn gan glogwyni; ac ni ellid myned i mewn iddi ond yn unig trwy geunant cul, trwy ba un, ac ar draws y tir y mae y ddinas yn gorwedd arno, y rhed yr afon.

SELA HAMMAH-LECOTH: craig neu glogwyn yn anialwch Maon, lle y digwyddodd un o'r diangfeydd nodedig hyny, y rhai sydd mor fynych yn hanes ymlidiad Saul ar ol Dafydd: 1 *Sam.* xxiii. 28. Y mae ei henw, os cyfieithir ef fel Hebraeg, yn arwyddo 'craig y diangfeydd' neu 'y gwahaniadau.' Y blaenaf ydyw eglurhâd Gesenius; yr olaf y *Targum*, a'r hen esbonwyr Iuddewig. Y ddiangfa, meddant, yw yr eiddo Dafydd: y gwahaniadau ydynt eiddo meddwl ammhenderfynol Saul, pa un a barhäai i ymlid ei elyn, neu ynte myned ar ol y Philistiaid a wnai efe. Ond y mae yn ddiammheu nad ydyw y cyfryw esboniadau, er eu bod yn briodol i'r naill gyfieithiad a'r llall, ac yn gysson â'r arferiad dwyreiniol o chwareu ar eiriau, yn ddim ond tybiau disail. Y mae cyfattebiaeth enwau lleoedd yn ei gwneyd yn mron yn sicr y rhaid fod y clogwyn hwn wedi cael ei enw oddi wrth ei lyfndra, neu oddi wrth rhyw neillduolrwydd ffurf neu sefyllfa; yr hyn a ddynodir yn nghyfieithiadau y Deg a Thrigain a'r *Vulgate.*

SELAH. Y mae y gair hwn, sydd i'w gael yn unig yn llyfrau barddonol yr Hen Destament, yn digwydd un ar ddeg a thrigain o weithiau yn y Salmau, a thair gwaith yn Habacuc. Mewn un ar bymtheg o salmau ceir ef unwaith, mewn pymtheg ddwywaith, mewn saith deirgwaith, ac mewn un bedair gwaith:—bob amser yn niwedd adnod, oddi eithr yn *Salm* lv. 19; a *Hab.* iii. 3, 9, lle y mae yn y canol, er yn niwedd brawddeg. Ceir hefyd yn yr holl salmau yn mha rai y mae yn digwydd, gyda'r eithriad o un ar ddeg (iii., vii., xxiv., xxxii., xlviii., l., lxxxii., lxxxiii., lxxxvii., lxxxix., cxlii.), y cyfarwyddyd cerddorol "I'r Pencerdd" (gwel hefyd *Hab.* iii. 19). Yn yr eithriadau hyn yr ydym yn cael y geiriau hyn, Mizmôr (cyf. Cymraeg, 'salm') a Sigaion, neu Maschil—yr hyn sydd yn ddigon o brawf eu bod wedi eu bwriadu i gael eu canu. Heb law y rhai hyn, yn nheitlau y salmau yn mha rai y mae Selah yn digwydd, yr ydym yn cyfarfod â'r geiriau cerddorol Alamath (xlvi.); Altaschith (lvii., lix., lxxv.); Gittith (lxxxi., lxxxiv.); Mahalath Leannoth (lxxxviii.); Michtam (lvii., lix., lx.); Neginoth (iv., liv., lv., lxvii., lxxvi.; gwel *Hab.* iii. 19); a Susan-eduth (lx.). Gellid casglu oddi wrth y cyssylltiad hwn yn unig fod y gair Selah ei hun, fel y geiriau hyn, yn meddu ystyr cerddorol yn ngherddoriaeth yr Hebreaid. Beth a all fod yr ystyr hwnw nid oes genym ond dyfalu. Am y damcaniaethau lawer a ffurfiwyd, y mae yn hawddach dyweyd beth sydd yn annhebygol o fod yn gywir na dyweyd yn sicr pa beth sydd felly.

Coleddir dau syniad o barth i ystyr y gair *Selah.* Y mae rhai, ac yn eu plith Herder, De Wette, Ewald, a Delitzsch yn ei darddu o air Hebraeg yn arwyddo *codi;* ac yn meddwl ei fod yn dynodi codiad y llais, neu y gerddoriaeth. Ereill, ar ol Gesenius, a'i tarddant o air Hebraeg yn arwyddo *bod yn llonydd*, neu yn *ddistaw;* a deallant ef fel gorphwysnod yn y gerddoriaeth. Felly hefyd y deallir ef gan Rosenmüller, Hengstenberg, a Tholuck. Yn ol pob tebygolrwydd, defnyddir *Selah* i gyfarwyddo y cerddor i fod yn ddistaw, neu i orphwys ychydig, tra y byddai yr offerynau yn chwareu cyfrwng neu gynghanedd. Yn *Salm* ix. 16, y mae yn digwydd yr ymadrodd *higgaion selah*, yr hwn gan Gesenius a gyfieithir *cerddoriaeth offerynol*, a *gorphwysfa; h. y.*, tarawed yr offerynau gynghanedd, a gorphwysed y cerddor. Gan Tholuck a Hengstenberg, modd bynag, cyfieithir y ddau air yn *fyfyrdod, gorphwysfa; h. y.*, Myfyried y cerddor tra y bydd y gerddoriaeth yn gorphwys.

SELAM: "A'r Selam yn ei ryw;" *Lef.* xi. 22. Gair Hebraeg anghyfieithiedig ydyw hwn, yn arwyddo, fel y tybir, rhyw fath o locustiaid. Gellid eu bwyta dan y gyfraith.

Digitized by Google

SELCHAH: dinas yn ngwlad Basau, ond nid oedd un hynodrwydd naturiol na hanesiol yn perthyn iddi: *Deut.* iii. 10; 1 *Cron.* v. 11; *Jos.* xii. 5; xiii. 11.

SELDEN, JOHN: cyfreithiwr ac ysgolhaig Saesneg enwog. Ganwyd ef Rhagfyr 16eg, 1584, yn agos i Worthing, yn Sussex. Addysgwyd ef yn ysgol rammadegol rydd Chichester; a phan yn bedair ar ddeg oed, symmudwyd ef i Hart Hall, yn Rhydychain; pan yn bedair ar bymtheg oed, aeth i Clifford's Inn; ac yn 1604, i'r Inner Temple, i astudio y gyfraith. Yr oedd natur wedi ei anghymmhwyso, neu ynte rhyw ddamwain wedi ei analluogi i ymaflyd yn nyledswyddau mwyaf cyhoeddus ei alwedigaeth; gan hyny, ymroddodd i gyflwyno yr adeg hon ar ei oes i astudio hanesyddiaeth a hynafiaethau, gwladol a chyfreithiol, i ddysgu ieithoedd, ac i efrydu rhesymeg ac athroniaeth foesol; a thrwy ei ymroddiad efe a ddaeth o'r diwedd i gael ei anrhydeddu i'r fath raddau nes cael ei ystyried yn un o ddynion dysgedicaf ei oes. Pan yn ddwy ar hugain oed, efe a ysgrifenodd ei "*Analecton Anglo-Britannicon*," gwaith y rhyfeddodd ei gyfeillion ato, ac a ddygodd iddo enw uchel fel awdwr. Dilynwyd hwn gan weithiau ereill; ac yn 1614, ymddangosodd ei draethawd, "*Titles of Honour*:"—llyfr sydd yn meddu awdurdod uchel hyd heddyw ar y mater yr ymdrinir âg ef. Yn 1618, gwysiwyd ef i ymddangos o flaen Llys yr Uchel Ddirprwyaeth, am gyhoeddi ei "*History of Tithes*," yn yr hwn y mae yn amcanu profi nad ydyw degymau yn ddyledus i'w talu yn ol cyfraith neu awdurdod ddwyfol, ond yn unig am fod y gyfraith wladol yn eu gofyn. Gwnaeth fath o ymddiheurad mewn ymadroddion nad oeddynt yn amlygu ei fod yn galw yn ol yr opiniynau a ddadganwyd ganddo; ond cydnabyddai ei ofid o herwydd ei fod, drwy eu cyhoeddi, wedi cynnhyrfu yr eglwys a thramgwyddo y llys. Ystyrid ef fel y cynnhyrfydd a barodd i Dŷ y Cyffredin wrthdystio yn erbyn athrawiaeth y brenin Iago; sef, fod y breintiau a fwynheid gan yr aelodau yn wreiddiol yn ffafrau brenhinol. O herwydd hyny fe'i taflwyd i garchar; ond trwy ddylanwad esgob Winchester, rhyddhawyd ef yn mhen pum wythnos.

Etholwyd ef i Dŷ y Cyffredin fel aelod dros Lancaster, yn 1623—y senedd olaf i Iago I.; ac yn 1625, ar esgyniad Charles I. i'r orsedd, yn y senedd a ymgyfarfu yn Rhydychain, eisteddodd fel aelod dros Great Bedwfn. Torwyd y senedd hon yn lled fuan, ond etholwyd Selden yn aelod dros yr un lle yn yr ail senedd a alwodd Charles. Un o benderfyniadau cyntaf y senedd hono oedd dwyn yn mlaen gyhuddgŵyn yn erbyn y Duc o Buckingham; ac yr oedd Selden yn un o'r aelodau a bennodwyd i dynu allan yr erthyglau, a phennodwyd ef hefyd yn rheolwr *(manager)* yr erlyniad. Ymddengys oddi wrth hyn ei fod wedi ymuno â'r blaid oedd yn wrthwynebol i'r llys; ond er hyny, cafodd ddiangc rhag y dynged a ddigwyddodd i Digges ac Elliot, oedd yn gyfranog o'r un gwaith, ac am hyny a daflwyd i garchar. Torwyd y senedd drachefn yn 1626, ac attaliwyd yr erlyniad yn erbyn y duc; ond darfu i waith Charles yn anfon allan orchymyn i fenthyca arian yn orfodol, yn rhinwedd yr hyn a ystyriai efe fel ei hawlfraint ei hun, alw Selden at y bar, er na byddai ond yn anfynych yn ymddangos yno, i amddiffyn Syr Edward Hampden yn llys y brenin; yr hwn, ynghyd â phedwar ereill, a daflwyd i garchar am wrthod talu ei ran o'r swm. Ond efe, a'i gyd-ddadleuydd, a fethasant lwyddo i'w ryddhau. Cyfarfu trydedd senedd Charles I. yn 1628, a dychwelwyd Selden yn aelod dros Ludgershall; a phan yr adnewyddwyd y gweithrediadau yn erbyn y Duc o Buckingham, gofynai am i ddedfryd gael ei chyhoeddi yn erbyn y duc ar gyhuddgŵyn y senedd flaenorol. Cymmerodd ran flaenllaw yn y dadleuon seneddol ar y trethi a gyfodai y brenin, ac i dynu allan ddeiseb y breinteban *(petition of rights)*. Yr oedd dylanwad y llys yn parhau i amddiffyn Buckingham; ac hwyrach y buasai y ddadl rhwng Tŷ y Cyffredin a'r brenin wedi dechreu yn gynt, pe na buasai Buckingham wedi ei lofruddio gan Felton yn union ar ol tori y senedd.

Rhoddodd Selden ei amser gan mwyaf at lafur llenyddol nes y cyfarfu y senedd newydd yn Ionawr, 1629; ac ymddengys ei fod yn gogwyddo at fod yn un o'r blaid anfoddog. Yn ystod yr amser yr oedd y senedd heb gyfarfod, cymmerodd y goron feddiant o eiddo llawer o farsiandwyr, i dalu y tollau a ofynid oddi wrthynt; ac yn eu plith yr oedd un o'r enw Rolles, aelod o'r tŷ. Wedi i'r senedd ddyfod ynghyd, ceisiwyd gan y llefarydd roddi y cwestiwn o flaen y tŷ o berthynas i hawl y goron i weithredu fel y gwnaeth; ond ei atteb oedd, na feiddiai wneuthur hyny, am fod y brenin wedi gorchymyn yn wahanol. Cyfododd Selden i fyny yn ddioed, a dywedai yn ddibetrus mai dyledswydd y llefarydd oedd ufuddhau i archiad y cyffredinwyr. Gohiriwyd y tŷ mewn cyffro mawr; a phan gyfarfu drachefn, ac i'r llefarydd barhau i wrthod gwneyd yr hyn a geisid, cadwodd dau o'r aelodau ef yn ei gadair, a chlodd Hobart ddrws y tŷ, a chynnygiodd Elliot a Stroud y cwestiwn. Gwrthododd y llefarydd drachefn ufuddhau; yna ffurfiwyd penderfyniad yn gwrthwynebu y tollau a elwid *tonnage and poundage*: darllenwyd ef gan ysgrifenydd y tŷ ar ddymuniad Selden, a chymmeradwyid ef. Ffromodd y brenin yn ddirfawr wrth y cyffredinwyr am hyn; torodd y senedd dranoeth, a thaflwyd Selden, ac amryw ereill, i garchar y Tŵr. Wedi bod yno am wyth mis, dygwyd ef o flaen llys y brenin; ond am ei fod yn gwrthod rhoddi meichiafon y byddai yn ddistaw yn y dyfodol, er fod ei ryddhâd wedi ei gynnyg iddo ar y telerau hyny, carcharwyd ef yn ngharchar llys y brenin, ond nid ymddygid mor llym tuag ato. Cydsyniodd â'r cais i roddi meichiafon yn 1634, ac yna rhyddhawyd ef. Anfonwyd deiseb at y brenin am ei ryddhâd llwyr; ac ymddengys nad oedd y penadur yn edrych ar Selden gyda chymmaint o adgasrwydd ag ar rai ereill o'r un blaid ag ef, o herwydd caniatawyd y ddeiseb; ac ymddengys i Selden ddyfod i ryw gymmaint o ffafr gyda Charles, canys fe gyflwynodd iddo ei draethawd "*Mare Clausum*."

Nid ydym yn cael un crybwylliad am Selden mewn cyssylltiad â'r hyn a elwir *ship money*; a chan fod ei wybodaeth a'i ddysgeidiaeth yn gyfryw ag a'i gwnaethai yn ddadleuydd gwerthfawr dros Hampden, y mae yn debygol ei fod, naill ai wedi gwrthod ei amddiffyn, neu ynte fod plaid Hampden yn tybied mai doeth oedd peidio gofyn ei gymmhorth, am ei fod yn ddiweddar yn ymddangos fel pe buasai y llys ac yntau yn fwy cyfeillgar â'u gilydd. Gellir edrych ar ei ymddygiadau, rai o honynt, fodd bynag, ar ol hyn braidd yn anghysson. Yn 1640, etholwyd ef yn aelod o'r senedd hir, dros Brifysgol Rhydychain.

Digitized by Google

Eisteddai ar bwyllgorau Tŷ y Cyffredin, a gymmerodd arnynt y gwaith o ddwyn yn mlaen gyhuddgwyn yn erbyn Iarll Stafford, er nad oedd efe yn un o'r arweinwyr a ymddangosasant o flaen Tŷ yr Arglwyddi, a rhestrwyd ei enw fel "un o elynion cyfiawnder:"—teitl a roddwyd i'r rhai a bleidient yr iarll. Er ei fod yn gyfaill personol i Laud, enwyd ef gan Dŷ y Cyffredin i dynu allan erthyglau y cyhuddgwyn a ddygid yn erbyn yr archesgob. Ni chyfododd unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniadau a achosodd yn y diwedd i'r esgobion gael eu cau allan o Dŷ yr Arglwyddi. Wedi hyny ni a'i cawn yn cyttuno â phenderfyniad, ar fod i Dŷ y Cyffredin amddiffyn a dal i fyny y grefydd Brotestanaidd yn ol athrawiaeth Eglwys Loegr, ac amddiffyn awdurdod y breintiau, a pherson y brenin. Ymddengys hefyd na ddarfu iddo amlygu gwrthwynebiad i weithrediadau cyfreithiol y senedd hono yn erbyn Syr John Hotham; ond yn gymmaint ag nad oedd yn eu cefnogi, tybiodd y llys ei fod yn parhau ar dir cyfeillgar âg ef, hyd nes y cyfododd y ddadl rhwng y brenin a Thŷ y Cyffredin ynghylch y cartreflu, pryd y siaradodd Selden yn erbyn dirprwyaeth yr ymfyddiniad a bennododd Charles pan gymmerwyd yr awdurdod ar y fyddin oddi arno. Ar ddymuniad Charles, ysgrifenodd Arglwydd Falkland lythyr cyfeillgar at Selden, yn gofyn ei resymau am y farn a gyhoeddasai efe ar y cwestiwn hwn. Yn ei atteb, dadleuai Selden drachefn dros anghyfreithlondeb y ddirprwyaeth.

Eisteddodd Selden fel lleygwr yn Nghymmanfa dduwinyddol Westminster, 1643; a mynegir ei fod yn arwain i ddyryswch y rhai a'i gwrthwynebent trwy ddyfnder ei ddysgeidiaeth ac amrywiaeth ei wybodaeth. Yn 1645, yr oedd yn un o'r deuddeg o aelodau Tŷ y Cyffredin a bennodwyd yn ddirprwywyr y llynges; ac etholwyd ef yn olynydd i Dr. Eden fel athraw Coleg y Drindod, Caergrawnt—anrhydedd a wrthodwyd ganddo. Yn y flwyddyn ddilynol, wrth ystyried ei deilyngdod, a'r gwasanaeth a wnaeth i'r senedd a'r wlad, pleidleisiodd y senedd iddo y swm o 5,000*p*. Yr oedd gan Selden ddylanwad mawr yn Nhŷ y Cyffredin, ac arferai ef yn fynych i wneyd daioni. Bu yn aelod o'r senedd ar ol dienyddiad y brenin, er nad ydyw yn hollol sicr beth oedd ei ymddygiad a'i farn gyda golwg ar yr ymdrafodaeth hono; tybir yn fwyaf cyffredin ei fod yn ei hanghymmeradwyo fel peth anghyfreithlawn a diangenrhaid. Yna fe ymgiliodd gymmaint ag a allai rhag ymyraeth â materion cyhoeddus; ac ymddengys iddo wrthod cais Cromwell i ysgrifenu attebiad i'r "*Eikon Basilike.*" Bu farw Selden Tachwedd 30ain, 1654, yn Whitefriars, yn nhŷ Elizabeth, Iarlles Waddolog Kent; etifeddiaethau yr hon a arolygid ganddo, a chyda'r hon yr oedd yn preswylio er's peth amser; a thybiai llawer eu bod wedi priodi. Claddwyd ef yn eglwys y Temple, lle y cyfodwyd cofadail i'w goffadwriaeth.

Yr oedd Selden yn efrydydd diwyd, a pharhaodd i lafurio gyda llenyddiaeth tra y bu fyw. Yn y traethawd a elwir "*Mare Clausum,*" a gyhoeddwyd yn y fl. 1635, efe a ddadleuai dros hawl Prydain i yru pysgotwyr Isellmynaidd o'r moroedd y gellid eu galw yn eiddo iddi, mewn attebiad i "*Mare Liberum*" Grotius, yr hwn a wadai yr hawl hono. Cyfododd y ddadl oddi ar anghydwelediad rhwng y Prydeinwyr a'r Isellmyniaid ynghylch y pysgodfeydd penwaig ar oror Prydain. Dadleuai Selden y gellir cael llywodraeth ar unrhyw ran o'r môr. Cyfododd y gwaith hwn ef yn uchel yn syniadau y llys, lle yr ystyrid fod ei resymau yn ddigon o benderfyniad ar y mater. Yn 1640 yr ymddangosodd ei waith mawr, "*De Jure Naturali et Gentium juxta Disciplinam Ebræorum.*" Am y gwaith hwn, fe ddywed yr hanesydd Hallam, mai amcan yr awdwr ynddo oedd, "olrhain opiniynau yr Iuddewon ar ddeddf natur a chyfraith cenhedloedd, neu rwymedigaeth foesol, fel yn wahaniaethol oddi wrth gyfraith Moses; gan fod y flaenaf yn gyfraith y dalient holl ddynolryw yn gyfrifol iddi. Yr oedd y pwngc hwn, wrth gwrs, yn un na ddarfu i'r athronwyr Groegaidd a Rhufeinaidd gyffwrdd âg ef, ac nid llawer a ysgrifenasid arno gan awdwyr diweddar. Yr oedd ei amcan gan hyny yn hytrach yn hanesyddol nag yn rhesymegol; ond ymddengys ei fod wedi mabwysiadu y ddamcaniaeth Iuddewig am ddeddf natur mor llwyr, fel y gellir ei ystyried yn ddysgybl i'r rabbiniaid yn gymmaint ag yr oedd efe yn hanesydd iddynt." Yr oedd Selden hefyd yn awdwr amryw o lyfrau galluog ereill.

Fel cyfreithiwr dysgedig, safai yn uchel iawn. Y mae ei "*Dissertation on Fleta,*" yr hwn, fel y rhan liosocaf o'i weithiau a ysgrifenwyd yn y Lladin, yn dangos ei fod yn hollol gyfarwydd â dechreuad cyfreithiau y wlad hon, a'u dadblygiad graddol. Canfyddir ychydig o gamgymmeriadau yn y traethawd gwerthfawr hwn; ond y mae yn amlygiad o ddysg ac ymchwiliad na chafwyd ond ychydig o enghreifftiau cyffelyb yn mysg cyfreithwyr hyd heddyw. Y mae Whitelocke, Wilkins, Baxter, a Clarendon, oll yn dwyn tystiolaeth uchel i'w gymmeriad a'i ddysg. Dywed Clarendon, yr hwn oedd yn gyfaill mawr âg ef, am dano:—"Yr oedd Mr. Selden yn ddyn nas gellir disgrifio ei gymmeriad yn gyfartal i'w deilyngdod a'i rinweddau." Dywed Wood am dano, ei fod, "trwy gyfrwng corph cryf a chof digyffelyb, nid yn unig wedi chwilio drwy holl gorph y gyfraith, ond yn gawr yn mhob rhan o ddysgeidiaeth, ac yn enwedig mewn pethau nad oedd ond ychydig o efrydwyr y dyddiau hyny yn talu sylw iddynt. Yn mhen ychydig flynyddoedd yr oedd ei enw yn uchel, nid yn unig yn ei wlad ei hun, ond mewn gwledydd tramor hefyd; a gelwid ef yn gyffredin yn benrheolwr *(dictator)* dysg y genedl Saesnig...... Yr oedd yn ieithydd, yn hynafiaethydd, yn achofydd, ac yn wladweinydd mawr." Er hyny, rhaid addef fod rhyw anmhenderfyniad a chyfnewidiadau i'w canfod yn ymddygiadau Selden fel dyn cyhoeddus, sydd yn ei wneyd yn anhawdd i benderfynu beth mewn gwirionedd oedd ei egwyddorion gwleidyddol. Hwyrach mai y peth cywiraf y gellir ei ddweyd am dano gyda golwg ar hyn ydyw, ei fod yn gwrthwynebu yn ddiffuant fesurau gorthrymus y goron, a'r un mor anewyllysgar hefyd, fe allai, i fyned mor bell ag yr aeth y senedd o'i thu hithau.

Y mae enw Selden wedi dyfod yn gyfarwydd i lawer trwy gydnabyddiaeth â chyfrol fechan o'i eiddo a gyhoeddwyd o dan y teitl "*Table Talk.*" Daeth y casgliad bychan hwn o sylwadau craff a dysgedig allan yn y flwyddyn 1689, bymtheng mlynedd ar hugain wedi marwolaeth Selden. Cofnodwyd a chyhoeddwyd y sylwadau hyn gan Richard Milward, ei ysgrifenydd. Dywed Coleridge, yr hyn yn ddiau sydd ormodiaith—"Y mae mwy o synwyr cryf a gwirioneddol yn y llyfr hwn nag a allaf fi ei gael yn yr

Digitized by Google

un nifer o dudalenau o waith unrhyw ysgrifenydd anysbrydoledig."

SELEC: Ammoniad, un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 37; 1 *Cron.* xi. 39.

SELED: un o feibion Nadab, un o ddisgynyddion Ierameel: 1 *Cron.* ii. 30.

SEERAH: merch Ephraim (1 *Cron.* vii. 24), a sylfaenydd y ddwy Beth-horon, a thref a alwyd ar ei hol yn Uzzen-Seerah.

SELEMIA: un o'r pum dyn "y rhai a fedrant ysgrifenu yn fuan."—2 *Esd.* xiv. 24.

SELEMIAH: un o feibion Bani: 1 *Esd.* ix. 34; gwel *Ezra* x. 39.

SELER, SYLER: ystafell wedi ei thori yn y ddaear, yr hon, o herwydd ei bod yn oerach nag ystafell arall, a ddefnyddid mewn tai yn benaf yn ngwledydd y dwyrain, fel yn y wlad hon, i gadw diodydd—diodgell, trull. "Selerau i gnwd yr ŷd, a'r gwin, a'r olew;" 1 *Cron.* xxvii. 28.

SELES: mab Helam: 1 *Cron.* vii. 35.

SELEUCIA: yn ymarferol oedd porthladd Antiochia, fel yr oedd Ostia yn borthladd Rhufain, a Neapolis yn borthladd Philippi. Yr oedd yr afon Orontes, ar ol rhedeg heibio Antiochia, yn ymarllwys i'r môr heb fod yn mhell oddi wrth Seleucia. Y pellder rhwng y ddwy dref oedd tuag 16eg o filldiroedd. Dywedir wrthym yn bendant fod Paul, gyda Barnabas, wedi hwylio o Seleucia yn nechreu ei daith genhadol gyntaf (*Act.* xiii. 4); ac y mae yn mron yn sicr ei fod wedi glanio yno ar ei ddychweliad o honi: *Act.* xiv. 26. Dengys enw y lle ar unwaith fod ei hanes yn gyssylltiedig â hanes teyrnach Seleucidæ, yr hwn a deyrnasodd yn Antiochia o farwolaeth Alexander Fawr hyd ddiwedd Gweriniaeth Rhufain, a theyrnach yr hwn oedd yn dal cyssylltiad mor agos â chofnodion Iuddewig. Gwnaed yr amddiffynfa gref hon, a'r porthladd cyfleus hwn, gan Seleucus y cyntaf; ac yma y claddwyd ef. Cadwodd ei phwysigrwydd mewn amserau Rhufeinaidd, ac yn amser Paul yr oedd hi yn meddu breintiau dinas rydd. Y mae y gweddillion yn lliosog; ond y pwysicaf o honynt ydynt dwy lanfa yr hen borthladd, y rhai sydd etto yn dwyn enwau Paul a Barnabas.

SELEUCIAID: canlynwyr Seleucus, dysgawdwr a fabwysiadodd syniadau Gnosticaidd Hermogenes.

SELEUCUS, a gyfenwid NICATOR: sylfaenydd brenhiniaeth Syria, yr hwn oedd yn teyrnasu o 312—280 c. c. Mab ydoedd i Antiochus, Macedoniad o enwogrwydd yn mhlith swyddogion Phylip II., a ganwyd ef o ddeutu y flwyddyn 358. Efe a aeth gydag Alexander ar ei ryfelgyrch i Asia, ac a enwogodd ei hun yn neillduol yn y rhyfelgyrchoedd Indiaidd. Ar ol marwolaeth Alexander (323) efe a gymmerodd blaid Perdiccas, gyda'r hwn yr aeth efe ar ei ryfelgyrch yn erbyn yr Aipht; ond cymmerodd ran arbenig yn ngwrthryfel y milwyr, yr hwn a derfynodd yn marwolaeth Perdiccas (321). Yn yr ail raniad o'r taleithiau a ddilynodd, cafodd Seleucus raglawiaeth gyfoethog a phwysig Babilonia. Yn y rhyfel rhwng Antigonus ac Eumenes, rhoddodd Seleucus gymmhorth effeithiol i'r blaenaf; ond ar ol marwolaeth Eumenes (316), dechreuodd Antigonus drin y rhaglawiaethau ereill fel ei ddeiliaid. Ar hyn ffodd Seleucus i'r Aipht, lle y darbwyllodd efe Ptolemy i ymuno â Lysimachus a Cassander mewn cynghrair yn erbyn eu gelyn cyffredin. Cymmerodd Seleucus ran arbenig yn y rhyfel a ddilynodd. O'r diwedd, yn 312, efe a adferodd Babilon; ac o'r tymmor hwn yr ystyrir yn gyffredin fod brenhiniaeth Syria wedi dechreu. Cyfrifa amserwyr fod y cyfnod Seleucidaidd hwn, fel y gelwir ef, wedi dechreu ar y dydd cyntaf o Hydref, 312. Yn fuan ar ol hyny, gorchfygodd Seleucus Nicanor, rhaglaw Media, a dilynodd ei fuddugoliaeth i fyny drwy orchfygu Susiana, Media, a rhai dosbarthiadau cyfagos. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, efe a raddol estynodd ei allu dros yr holl daleithiau dwyreiniol, y rhai a ffurfient ran o ymherodraeth Alexander, o'r Euphrates hyd at lenydd yr Oxus a'r Indus. Yn 306, dilynodd Seleucus esampl Antigonus a Ptolemy, trwy ymgymmeryd yn ffurfiol â'r teitl brenhinol a'r goron. Yn 302, efe a ymunodd â'r ail gynghrair a ffurfiwyd gan Ptolemy, Lysimachus, a Cassander, yn erbyn eu gelyn cyffredin, Antigonus. Ennillodd galluoedd unedig Seleucus a Lysimachus fuddugoliaeth benderfynol ar Antigonus yn Ipsus (301), yn yr hon y lladdwyd Antigonus ei hun. Wrth ranu yr ysbail, Seleucus a gafodd y gyfran fwyaf, gan ei fod wedi ei wobrwyo am ei wasanaeth â rhan fawr o Asia Leiaf (yr hon a ranwyd rhyngddo ef a Lysimachus) yn gystal a Syria oll, o'r Euphrates at Fôr y Canoldir. Ymherodraeth Seleucus oedd yr eangaf a'r alluocaf o'r rhai a ffurfiasid allan o diriogaethau Alexander. Yr oedd yn cynnwys Asia oll, o daleithiau pell Bactria a Sogdiana hyd at lenydd Phœnicia, ac o'r Paropamisus at wastad-diroedd canolbarthol Phrygia, lle nid ydyw y terfyn oedd yn ei hysgaru oddi wrth Lysimachus yn cael ei benodi yn eglur. Ymddengys fod Seleucus wedi teimlo yr anhawsder o gadw rheolaeth manwl dros ymherodraeth mor eang; ac am hyny, yn 293, efe a roddodd i fyny lywodraeth yr holl daleithiau tu hwnt i'r Euphrates i'w fab Antiochus, i'r hwn y rhoddes efe y teitl o frenin, yn gystal a llaw ei wraig ieuangc ei hun, Stratonice, at yr hon y teimlai y tywysog gariad cryf. Yn 288, cynnhyrfodd amcanion uchelgeisiol Demetrius (erbyn hyn yr oedd yn frenin Macedonia) eiddigedd cyffredin ei hen wrthwynebwyr unwaith yn rhagor, a pharodd i Seleucus ymuno drachefn mewn cynghrair â Ptolemy a Lysimachus yn ei erbyn ef. Wedi i Demetrius gael ei yru o'r deyrnas gan Lysimachus, efe a symmudodd faes y rhyfel i Asia Leiaf; ond bu raid iddo ymostwng i Seleucus yn 286. Cadwodd brenin Syria Demetrius yn ngharchar am dair blynedd ar ol hyny; ond yn ystod yr holl amser hwnw ymddygodd yn gyfeillgar ac yn rhyddfrydig tuag ato. Yr oedd eiddigedd yn ffynu er's peth amser rhwng Seleucus a Lysimachus; ond adroddir yr achos uniongyrchol o'r rhyfel rhwng y ddau benadur, yr hwn a derfynodd yn ngorchfygiad a marwolaeth Lysimachus (281), yn hanes bywyd yr olaf. Yn awr croesodd Seleucus yr Hellespont mewn trefn i gymmeryd meddiant o orsedd Macedonia, yr hon oedd wedi ei gadael yn wâg trwy farwolaeth Lysimachus; ond nid oedd efe wedi teithio yn mhellach yn mlaen na

Digitized by Google

Lysimachia, pan y llofruddiwyd ef gan Ptolemy Ceraunus; i'r hwn, fel mab ei hen gyfaill a'i gynghreiriad, yr oedd efe wedi rhoi amddiffyniad cyfeillgar. Cymmerodd ei farwolaeth le yn nechreu 280, dim ond saith mis ar ol marwolaeth Lysimachus, ac yn y 32ain flwyddyn o'i deyrnasiad. Yr oedd efe yn y 78ain mlwydd o'i oedran. Ymddengys fod Seleucus wedi cario allan gydag egni a diwydrwydd mawr y cynlluniau a ffurfiwyd yn wreiddiol gan Alexander ei hun, er Heleneiddio ei ymherodraeth yn Asia; ac yr ydym yn ei gael ef yn sylfaenu, yn mron yn mhob talaeth, daleithiau Groegaidd neu Macedonaidd, y rhai a aethant yn gynnifer o ganolbarthau gwareiddiad a diwylliant. O'r rhai hyn ni chrybwyllir am ddim llai nag un ar bymtheg yn dwyn yr enw o Antiochia ar ol ei dad; pump a ddygent yr enw Laodicea, oddi wrth ei fam; galwyd saith, ar ei ol ef, yn Seleucia; tair ar enw ei wraig gyntaf, Apamea; ac un Stratonicea, oddi wrth ei wraig, merch Demetrius. Y mae llawer o ddinasoedd ereill, enwau pa rai sydd yn profi eu gwreiddyn Macedonaidd—Berœa, Edessa, Pella, &c., ac oll yn ddyledus am eu sylfaeniad cyntaf i Seleucus.

SELEUCUS, a gyfenwid PHILPATOR: "brenin Asia" [2 *Macc.* iii. 3]; hyny yw, y taleithiau a gynnwysir yn mrenhiniaeth Syria, yn ol y teitl a hawlid gan y Seleucidæ, hyd yn oed wedi iddynt golli eu safle yn Asia Leiaf: [1 *Macc.* viii. 6; xi. 13; xii. 39; xiii. 32]. Mab ac olynydd oedd i Antiochus Fawr. Cymmerodd ran yn mrwydr ddinystriol Magnesia (190 C. C.); ac yn mhen tair blynedd ar ol hyny, ar farwolaeth ei dad, esgynodd i'r orsedd. Ymddengys ei fod wedi ymgyssegru i gryfhau gallu Syria, yr hwn a dorasid i lawr yn Magnesia, gan geisio cadw ar delerau da gyda Rhufain a'r Aipht, hyd nes y cai gyfleusdra ffafriol i fyned i ryfel. Modd bynag, llofruddiwyd ef, ar ol teyrnasiad o ddeuddeng mlynedd (175 C. C.), gan Heliodorus, un o'i lyswyr ef ei hun—"nid mewn nwyd o ddigofaint, nac mewn brwydr" (*Dan.* xi. 20), ond trwy fradwriaeth uchelgeisiol, heb iddo wneyd dim o bwys. Yn 162 C. C., ei fab, Demetrius I., ar ol cyfres o anturiaethau rhamantus, a ennillodd y goron; yr hwn a anfonasai efe, tra etto yn fachgen, fel gwystl i Rufain.—1 *Macc.* vii. 1; 2 *Macc.* xiv. 1. Yr oedd gwladlywiaeth gyffredinol Seleucus tuag at yr Iuddewon, fel yr eiddo ei dad [2 *Macc.* iii. 2, 3], yn gymmodawl, gan ei fod yn teimlo y meddiant o Palestina o'r pwys mwyaf iddo pe digwyddai i ryfel dori allan rhyngddo a'r Aipht; ac fe ymgymmerodd â rhan fawr o dreuliadau gwasanaeth y deml.—2 *Macc.* iii. 3, 6. Ar un achlysur, trwy adroddiad anwireddus Simon, swyddog Iuddewig [gwel d.g. SIMON, 3], darbwyllwyd ef i wneyd ymgais i gario ymaith y trysorau a ddodasid i'w cadw yn y deml, trwy offerynoliaeth yr un Heliodorus ag a'i llofruddiodd ef. Trodd yr ymgais allan yn fethiant hollol; ond nid ydyw yn ymddangos ddarfod iddo ar ol hyny ddangos un elyniaeth yn erbyn yr Iuddewon [2 *Macc.* iv. 5, 6], er y gallai fod ei ddiffyg o arian i dalu y dreth aruthrol oedd yn ddyledus i'r Rhufeiniaid wedi ei orfodi i godi cyllid anghyffredin, am yr hyn desgrifir ef, yn *Dan.* xi. 20, yn "un a gyfyd drethau."

SEL—10. Cyssylltir y fath bwysigrwydd â seliau yn ngwledydd y dwyrain, fel na ystyrir un ysgrif yn awdurdodedig heb sêl wrthi. Gan hyny, y mae yn amlwg y defnyddid rhyw ddull i selio yn oesau boreuaf y byd. Yn mhlith y mathau a ddefnyddid yn dra boreu yn yr Aipht yr oedd ceryg cerfiedig, wedi tori twll drwy eu hyd, a'u crogi gyda llinyn neu gadwen wrth y fraich neu y gwddf, neu wedi eu gosod mewn bysedd-fodrwyau. Y ffurf hynaf a ddefnyddid i'r pwrpas hwn oedd y chwilfaen, wedi ei ffurfio o gareg werthfawr neu gyffredin, neu hyd yn oed o bridd glas—ar yr ochr wastad o ba un yr oedd yr arysgrifen wedi ei cherfio. Hefyd, arferid rholfeini gydag arwyddeiriau yn gerfiedig arnynt fel seliau. Y mae un yn Amgueddfa Alnwick yn dwyn y dyddiad o Osirtasen I., neu rhwng 2,000 a 3,000 o flynyddoedd cyn Crist. Heb law bysedd-fodrwyau, byddai yr Aiphtiaid, ac hefyd yr Assyriaid a'r Babiloniaid, yn gwneuthur defnydd o roliau o feini gwerthfawr; y rhai y mae yn debygol, a osodid mewn ffrâm, ac a rolid dros yr ysgrif oedd i gael ei selio. Gwneid yr ysgrif ei hun yn fynych, yn mhlith y ddwy genedl olaf, o glai crasedig wedi ei selio tra yn wlyb, a'i losgi ar ol hyny. Ond mewn llawer o amgylchiadau yr oedd y sêl yn gynnwysedig o dalp o glai, wedi ei argraphu â'r sêl, a'i gyssylltu â'r ysgrif, pa un bynag ai o *papyrus*, neu o ryw ddefnydd arall, â llinynau. Y mae y talpiau clai hyn yn fynych yn dwyn argraph y bys, ac hefyd gweddill y llinynau trwy ba rai yr oeddynt wedi eu cyssylltu. Un o'r cyfryw a gafwyd yn Nimroud oedd sêl Sabaco, brenin yr Aipht, 711 C. C.; a chreda Mr. Layard mai sêl Senacherib oedd y llall, o agos yr un dyddiad. Mewn dull lled gyffelyb y selid drysau beddau, neu leoedd ereill y bwriedid iddynt fod yn gauedig, â thalpiau o glai. Crybwyllir am y ddefod a ffynai yn mhlith y Babiloniaid o gario seliau gan Herodotus, yr hwn hefyd sydd yn crybwyll am seliau ar feddau: *Mat.* xxvii. 66; *Dan.* vi. 17. Cyfeirir at y defnyddiad o glai i selio yn Llyfr Iob (xxxviii. 14); ac at y sêl-fodrwy fel rhan arferol o daclau dyn yn hanes Iudah (*Gen.* xxxviii. 18); yr hwn, y mae yn debygol, fel llawer o Arabiaid diweddar, a'i gwisgai yn grogedig wrth linyn oddi ar ei wddf neu ei fraich. Crybwyllir am y fodrwy neu y sêl fel arwyddlun o awdurdod yn yr Aipht, yn Persia, a lleoedd ereill, yn amgylchiadau Pharaoh gydag Ioseph (*Gen.* xli. 42), Ahab (1 *Bren.* xxi. 8), Ahasferus (*Esth.* iii. 10, 21; viii. 2); ac fel prawf o gyfammod, yn *Ier.* xxxii. 10, 54; *Neh.* ix. 38; x. 1; *Hag.* ii. 23. Dynodir ei phwysigrwydd cyffredinol drwy y defnydd cyffelybiaethol a wneir o'r gair yn *Dad.* v. 1; ix. 4. Crybwyllir am fodrwyau gyda seliau yn y "*Mishna*" [*Shabb.* vi. 3], ac am glai yn cael ei ddefnyddio fel seliau codau [*Shabb.* viii. 5]. Defnyddid pedair math o seliau yn y deml, yn gystal a phersonau arbenig i ofalu am danynt: *Shekal.* v. 1.

Yn mysg dwyreinwyr diweddar y mae maintioli a lle y sêl yn amrywio yn ol pwysigrwydd anfonwr y llythyr, a'r person at yr hwn yr anfonir ef. Yr oedd seliau cerfiedig mewn arferiad yn mhlith yr Hebreaid mewn amserau boreuol, fel y mae yn amlwg oddi wrth ddwyfroneg yr archoffeiriad: *Exod.* xxviii. 11, 36: xxxix. 6.

SELKIRK, ALEXANDER: a anwyd yn Largo, ar ororau Fife, yn Ysgotland, yn 1676, a dygwyd ef i fyny yn forwr. Wedi ymlenwi o'r ysbryd anturiaethus yr oedd llawer o'i gydwladwyr wedi cyfranogi o hono yn y cyfnod hwnw, efe a ymunodd â llong a aeth allan ar

Digitized by Google

fordaith, a broffesai fod yn un ymchwiliadol; ond yr oedd yr amcan mewn golwg yn llawn cymmaint i ysbeilio yr hyn a ddelai yn ei ffordd ag oedd i geisio gwneyd darganfyddiadau newyddion. Gwibforiai ei lestr yn y moroedd Americanaidd. Enw y cadben a'i llywyddai oedd Straddling, a digwyddodd i ryw gweryl gymmeryd lle rhwng Selkirk âg ef; ac mewn ffordd o ddial arno, gadawodd y cadben ef ar ynys annhrigiannol a elwid Juan Fernandez. Yr oedd ganddo ychydig o lyfrau, ei offerynau morwrol, cyllell, berwedydd, bwyall, pylor, a bwledi; a dyna yr holl ddarpariaethau a feddai. Digwyddodd hyn yn mis Medi, 1704. Ar ol bod ar yr ynys hono am bedair blynedd a phedwar mis, cymmerwyd ef ymaith gan lestr Saesnig, yr hon oedd yn cael ei llywyddu gan y Cadben Woods Rogers, yn mis Chwefror, 1709, yn hanes mordaith yr hwn y ceir y manylion hynod a ganlyn:—

"Ar y cyntaf, disgynodd unigrwydd y lle yn ddwfn i'w feddwl (Selkirk), ond mewn amser cynnefinodd âg ef, a chafodd y feistrolaeth ar ei brudd-der a'i iselder meddwl. Yr oedd wedi adeiladu dau fwthyn—un i wasanaethu fel cegin, a'r llall fel ystafell giniaw, ac ystafell wely. Adeiladwyd hwy o chwaethrawn, neu goed pupur *(pimento)*, a'r un coed a ddefnyddid ganddo hefyd yn danwydd ac yn ganwyllau: llosgai y coed yn glir iawn, ac yr oedd yr arogl oddi wrthynt yn beraidd anghyffredin. Gorchuddid y tô â glaswellt tal, ac yr oedd y parwydydd wedi eu gwneyd o grwyn geifr—o ba rai y lladdodd Selkirk yn agos i bum cant yn ystod ei arosiad ar yr ynys, a daliodd bum cant ereill, a nododd eu clustiau, a gollyngodd hwynt yn rhydd. Pan yr oedd ei bylor a'i fwledi wedi darfod, efe a ddaliai y geifr trwy redeg ar eu hol; ac mor fedrus oedd efe gyda hyn, fel mai o'r braidd y gallasai y rhai cyflymaf ar yr ynys ddiango rhagddo. Pan y gadawyd ef ar yr ynys gyntaf, nid oedd yn gallu mwynhau ei ymborth, yr hwn oedd yn gynnwysedig o gig geifr a physgod wedi eu berwi, o ddiffyg halen; daeth yn raddol, pa fodd bynag, i gael blâs arno trwy ddefnyddio ffrwyth y pren pupur gydag ef. Wedi i'w ddillad wisgo allan, gwnaeth iddo ei hun orchudd o grwyn geifr, wedi eu huno ynghyd gyda bachau a wnelai â'i gyllell, y rhai a roddid ganddo trwy dyllau wedi eu tori â hoelen, a ddefnyddiwyd ganddo yn lle nydwydd. Yr oedd ganddo ddarn o lian gydag ef, o ba un y gwnaeth fath o grys, a gwnïwyd hwnw i fyny yr un modd. Yr oedd wedi gwisgo ei esgidiau allan yn mhen mis ar ol cael ei adael ar yr ynys: a chan i'w draed fod yn noeth am gyhyd o amser, aethant yn hollol galed; a bu am beth amser ar ol dyfod ar fwrdd y llong cyn gallu gwisgo esgidiau. Yr oedd y llygod Ffrengig, pan aeth ar yr ynys gyntaf, yn peri llawer o boen iddo, gan eu bod mor hyf a chnoi ei draed, a bwyta ei ddillad tra y cysgai. Efe a'u dysgodd hwynt yn fuan, pa fodd bynag, i ymgadw o fewn pellder priodol, gyda chymmhorth ychydig o gathod a adewsid ar yr ynys gan y llongau; ac o'r rhai hyn, ynghyd â rhai o'r geifr ieuaingc, yr oedd wedi gwneyd cyfeillion gwresog; a difyrai ei hun trwy ddysgu iddynt wneyd llawer o gampau digrifol."

Cafodd un ddiangfa gyfyng iawn; cwympodd dros ddibyn craig, wrth redeg ar ol un o'r geifr. Pan yr adfeddiannodd ei deimladrwydd, efe a gafodd fod y creadur yn farw o dano ar y llawr. Pan dreuliodd ei gyllell allan, medrodd wneyd rhai ereill o ryw hen fachau heiyrn. Ar ol cael ei gymmeryd i'r llong gan y Cadben Rogers, teimlai gryn anhawsder i adfeddiannu ei allu i siarad, ac hefyd i fyw ar yr ymborth a fwytäai y dwylaw. Gwnaeth y Cadben Rogers ef yn ail swyddog ar y llestr, a dychwelodd i Loegr yn 1711. Mynegir iddo roddi ei bapurau i Daniel Defoe; yr hwn, meddir, a nyddodd allan o honynt yr ystori gywrain, naturiol, ac enwog a elwir "*Robinson Crusoe;*" ond yn ol y dyfyniad uchod, gwelir yn eglur, pa beth bynag a fu rhwng Defoe a Selkirk, na ddarfu i'r blaenaf fenthyca ond ychydig heb law y syniad neu y meddylddrych o ddyn wedi ei adael ei hunan ar ynys anial, gan nad oes nemawr o debygolrwydd rhwng anturiaethau y gwirioneddol Selkirk a'r dychymygol *Crusoe*. Ond pa fodd bynag am hyny, y mae y cyssylltiad tybiedig hwn rhwng Selkirk a'r ffugchwedl ddigymmhar "*Robinson Crusoe*" wedi gosod hynodrwydd nodedig ar y blaenaf.

1. SELOMITH: merch Dibri, o lwyth Dan: *Lef.* xxiv. 11. Yr oedd hi wedi priodi Aiphtwr, a llabyddiwyd ei mab am gabledd.

2. SELOMITH: merch Zorobabel: 1 *Cron.* iii. 19.

3. SELOMITH: penaeth yr Ishariaid, un o bedwar teulu meibion Cohath: 1 *Cron.* xxiii. 18. Gelwir ef Selomoth yn 1 *Cron.* xxiv. 22.

4. SELOMITH: un o hiliogaeth Eliezer, mab Moses, dan ofal yr hwn, a'i frodyr, yr oedd y trysorau a roddid at wneyd y deml yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxvi. 25, 26, 28.

5. SELOMITH: yn ol y testyn presennol, dychwelodd meibion Selomith, gyda mab Iosiphïah yn benaeth arnynt, o Babilon gydag Ezra: *Ezra* viii. 10. Ymddengys, pa fodd bynag, fod geiriau wedi eu gadael allan, y rhai y gellir eu cyflenwi o'r Deg a Thrigain: a'r gwir ddarlleniad, y mae yn debygol, ydyw, 'O feibion Bani, Selomith mab Iosiphïah.' Gwel hefyd 1 *Esdr.* viii. 36, lle y gelwir ef 'Assalimot, mab Iosaphïas.'

SELUMIEL: mab Serusàdai, a thywysog llwyth Simeon ar amser ymadawiad yr Israeliaid o'r Aipht. Yr oedd ganddo 59,300 o wŷr dano: *Num.* i. 6; ii. 12; vii. 36, 41; x. 19. Yn *Iudith* viii. 1, gelwir ef *Samael.*

SEM: mab hynaf Noah, a anwyd (*Gen.* v. 23) pan oedd ei dad wedi cyrhaedd yr oedran o 500 o flynyddoedd. Yr oedd efe yn 98ain mlwydd oed, yn briod, ond yn ddiblant, pan gymmerodd y diluw le. Ar ol y diluw, derbyniodd ef, gyd a'i dad, ei frodyr, a'i chwiorydd-yn-nghyfraith, a'i wraig, fendith Duw (*Gen.* ix. 1), ac aeth i gyfammod âg ef. Yn mhen dwy flynedd, cafodd fab a elwid Arphaxad (xi. 10), a ganwyd ereill iddo ar ol hyny. Gyda chymmhorth ei frawd Iapheth, efe a guddiodd noethni eu tad, yr hyn ni ofalodd Canaan a Cham am ei guddio. Yn mhrophwydoliaeth Noah, yr hon sydd yn dal perthynas â'r digwyddiad hwn (*pen.* ix. 25—27), y mae y fendith gyntaf yn disgyn ar Sem. Bu farw yn 500 mlwydd oed.

Ymddengys fod gan Methuselah, yr hwn yn ei 243 cyntaf o flynyddoedd yn cydoesi âg Adda, etto agos i gan mlynedd o'i fywyd hir i redeg wedi geni Sem. A phan fu farw Sem, yr oedd Abraham yn 148ain mlwydd, ac yr oedd Isaac wedi priodi er's naw mlynedd. Felly, nid oes ond dwy gadwen—Methuselah a Sem—rhwng Adda ac Isaac. Nid oes un annhebygolrwydd amseryddol yn yr hen draddodiad sydd yn hysbysu fod Sem ac Abraham wedi bod yn ymddiddan â'u gilydd.

Y mae camgymmeriad mewn cyfieithu *Gen.* x. 21, yr hwn sydd wedi ei ollwng i mewn i'r

Digitized by Google

Deg a Thrigain, ac a ddilynir gan y cyfieithiad Cymraeg, a Luther, wedi rhoddi lle i dybied fod Sem yn ieuangach nag Iapheth. Nis gall, modd bynag, fod un ammheuaeth nad fel hyn, yn ol rheol rammadegol, y dylai y cyfieithiad fod: 'brawd hynaf Iapheth.' Yn y chwe lle (*adn.* v. 32; vi. 10; vii. 13; ix. 18; x. 1; 1 *Cron.* i. 4) lle y mae tri mab Noah yn cael eu henwi ynghyd, rhoddir y flaenoriaeth yn wastad i Sem. Yn *pen.* x. y mae hiliogaeth Cham ac Iapheth yn cael eu rhoddi i lawr gyntaf, o herwydd fod yr hanesydd sanctaidd, gan ystyried y Semiaid fel ei bwngc priodol, wedi cymmeryd y cyfleusdra cyntaf i ddychwelyd at ei destyn. Gellir yn briodol ddeall *adn.* v. 32, wrth ei chymmharu âg xi. 10, fel yn arwyddo fod tri mab Noah wedi eu geni ar ol i'w tad gyrhaedd yr oedran o 500 o flynyddoedd; ond nis gellir yn rhesymol gasglu oddi wrth hyn mai Sem oedd yr ail fab, neu eu bod oll wedi eu geni yn yr un flwyddyn.

Y mae y rhan o'r ddaear a feddiennid gan hiliogaeth Sem (*pen.* x. 21—31) yn croesi rhanau Iapheth a Cham, ac yn ymestyn mewn llinell ddidor o Fôr y Canoldir i Gefnfor India. Gan ddechreu fel ei chwr gogledd-orllewinol eithaf gyda Lydia (yn ol yr holl hen awdurdodau), y mae yn cynnwys Syria (Aram), Caldea (Arphaxad), rhanau o Assyria (Assur), Persia (Elam), a Gorynys Arabia (Ioctan).

Cyflawnwyd rhagfynegiad Noah (*Gen.* ix. 26), am gaethwasiaeth Canaan dan Sem yn gyntaf yn narostyngiad pobl Palestina: *Jos.* xxiii. 4, a 2 *Cron.* viii. 7, 8. Y mae yn ammheus pa un ai Duw, ai Iapheth, a grybwyllir yn *adn.* 27 fel yn preswylio yn mhebyll Sem. Yn yr ystyr blaenaf gellir cyfeirio at ei bresennoldeb arbenig gyda'r Iuddewon, ac at haniad Crist oddi wrthynt: neu, yn yr ystyr olaf, at feddianniad Palestina a'r gwledydd cyfagos gan y Rhufeiniaid, ac (o'u deall yn ysbrydol) at dderbyniad y Cenhedloedd i eglwys Dduw.

1. SEMA: un o'r Reubeniaid, hynafiad Bela: 1 *Cron.* v. 8.

2. SEMA: mab Elpaal, ac un o benaethiaid tadau trigolion Aijalon, yr hwn a yrodd allan breswylwyr Gath: 1 *Cron.* viii. 13.

3. SEMA: un o'r rhai hyny a safent ar law ddeheu Ezra, pan yr oedd efe yn darllen y gyfraith i'r bobl: *Neh.* viii. 4. Gelwid ef Sammus.—1 *Esdr.* ix. 43.

SEMA: un o drefydd Iudah. Gorweddai yn rhanbarth y deheu, ac enwir hi rhwng Amam a Moladah: *Jos.* xv. 26. Yn rhestr trefydd Simeon a ddewiswyd o blith y rhai oedd yn y rhan ddeheuol o Iudah, y mae Seba yn cymmeryd lle Sema, trwy wall ysgrifeniad, neu gyfnewidiad cynaniad. Hysbysa rhestrau achyddol 1 *Cron.* (ii. 43, 44), fod Sema wedi dyfod yn wreiddiol oddi wrth Hebron, a'i bod hithau, yn ei thro, wedi sefydlu trefedigaeth yn Maon.

SEMAAH: Beniaminiad o Gibeah, a thad Ahiezer ac Ioas, dau ryfelwr o'u llwyth, y rhai a ymunasant â Dafydd yn Siclag: 1 *Cron.* xii. 3. Ysgrifenir ei enw gyda'r fannod—ac yn briodol *Hasshemaah* ydyw. Ar ymyl y ddalen yn y Beibl Cymraeg ceir 'Hasmaah.'

1. SEMAIAH: prophwyd yn nheyrnasiad Rehoboam. Pan yr oedd y brenin wedi casglu ynghyd 180,000 o wŷr Beniamin ac Iudah i ail orchfygu y deyrnas ogleddol ar ol y gwrthryfel, awdurdodwyd Semaiah i orchymyn iddynt ddychwelyd i'w cartrefi, a pheidio ymladd yn erbyn eu brodyr: 1 *Bren.* xii. 22. Ei ail ymddangosiad, a'r olaf, ar y maes oedd ar yr achlysur o'r ymosodiad ar Iudah a gwarchauad Ierusalem gan Sisac, brenin yr Aipht. Cenadwri gysurus oedd ganddo y pryd hwnw; sef, sicrhau i dywysogion Iudah na chospid hwynt am eu heilunaddoliaeth trwy law Sisac: 2 *Cron.* xii. 5, 7. Y mae y digwyddiad hwn yn nhrefn yr adroddiad ar ol y cyntaf; ond o herwydd rhyw amgylchiadau, ymddengys ei fod wedi digwydd cyn ymraniad y deyrnas. Cymmh. *pen.* xii. 1, lle y mae pobl Rehoboam yn cael eu galw yn "Israel," â *pen.* xii. 5, 6, lle y mae y tywysogion yn cael eu galw yn "dywysogion Iudah," ac yn "dywysogion Israel" yn ddiwahaniaeth. Efe a ysgrifenodd gronicl yn cynnwys hanes y digwyddiadau a gymmerasant le yn nheyrnasiad Rehoboam: 2 *Cron.* xii. 15.

2. SEMAIAH: mab Sechanïah, yn mhlith hiliogaeth Zorobabel: 1 *Cron.* iii. 22. Efe oedd ceidwad porth dwyreiniol y ddinas, a chynnorthwyodd Nehemiah i adferu y mur: *Neh.* iii. 29.

3. SEMAIAH: hynafiad Ziza, un o dywysogion llwyth Simeon: 1 *Cron.* iv. 37.

4. SEMAIAH: mab Ioel, un o'r Reubeniaid: 1 *Cron.* v. 4.

5. SEMAIAH: mab Hasub, un o'r Lefiaid Meraraidd, yr hwn oedd yn byw yn Ierusalem ar ol y caethgludiad (1 *Cron.* ix. 14; *Neh.* xi. 15), ac oedd yn arolygu gorchwylion allanol tŷ Dduw.

6. SEMAIAH: tad Obadiah, neu Abda, Lefiad a ddychwelodd i Ierusalem ar ol y caethgludiad; 1 *Cron.* ix. 16. Gelwir ef mewn lle arall yn Sammua: *Neh.* xi. 17.

7. SEMAIAH: mab Elisaphan, a phenaeth ei deulu yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xv. 8, 11. Cymmerodd ran yn y ddefod gyda pha un y dygodd y brenin yr arch o dŷ Obededom.

8. SEMAIAH: Lefiad, mab Nethaneel, ac ysgrifenydd yn amser Dafydd. Efe a gofrestrodd raniadau yr offeiriaid wrth goelbren yn bedwar ar hugain o ddosbarthiadau: 1 *Cron.* xxiv. 6.

9. SEMAIAH: mab hynaf Obed-edom y Gethiad. Yr oedd efe, a'i frodyr, a'i feibion, yn geidwaid pyrth y deml: 1 *Cron.* xxvi. 4, 6, 7.

10. SEMAIAH: un o ddisgynyddion Ieduthun y cerddor, yr hwn oedd yn byw nheyrnasiad Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 14. Efe a gynnorthwyodd i buro y deml, ac i ddiwygio y gwasanaeth; a chydag Uzziel cynnrychiolodd ei deulu ar yr achlysur hwnw.

11. SEMAIAH: un o feibion Adonicam, yr hwn a ddychwelodd yn yr ail fintai gydag Ezra: *Ezra* viii. 13. Gelwir ef Samaias yn 1 *Esdr.* viii. 39.

12. SEMAIAH: un o'r "penaethiaid" yr anfonodd Ezra am danynt i'w wersyll wrth afon Ahafah, i'r dyben o gael Lefiaid, a gweinidogion i'r deml, o'r "fan a elwir Chasiphia;" *Ezra* viii. 16. Gelwir ef 'Masman' yn 1 *Esdr.* vii. 43.

13. SEMAIAH: offeiriad o deulu Harim, yr hwn a roddodd ymaith ei wraig ddyeithr ar orchymyn Ezra: *Ezra*. x. 21. Gelwir ef 'Sameius' yn 1 *Esdr.* ix. 21.

14. SEMAIAH: llëygwr Iuddewig, mab Harim arall, yr hwn hefyd oedd wedi priodi gwraig ddyeithr: *Ezra* x. 31. Gelwir ef Sabbeus yn 1 *Esdr.* ix. 32.

Digitized by Google

15. SEMAIAH: mab Delaiah, mab Meheta-beel—prophwyd oedd yn byw yn amser Nehemiah; yr hwn a lwgrwobrwywyd gan Sanbalat a'i gynghreiriaid i ddychrynu yr Iuddewon oddi wrth eu gwaith o ail adeiladu y mur, ac i fygwth Nehemiah: *Neh.* vi. 10.

16. SEMAIAH: pen teulu offeiriadol, yr hwn a lawnododd y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 8. Aeth ei deulu i fyny gyda Zorobabel, a chynnrychiolid hwynt yn amser Ioacim gan Iehonathan: *Neh.* xii. 6, 18.

17. SEMAIAH: un o dywysogion Iudah, a aeth mewn gorymdaith gydag Ezra, yn llaw ddeheu y ddau gwmni diolchgar a gyssegrent furiau Ierusalem: *Neh.* xii. 34.

18. SEMAIAH: un o'r côr a gymmerodd ran yn yr orymdaith ar yr achlysur o gyssegriad mur newydd Ierusalem: *Neh.* xii. 36.

19. SEMAIAH: offeiriad a chwythai udgorn ar yr un achlysur: *Neh.* xii. 42.

20. SEMAIAH: y Nehelemiad, gau brophwyd yn amser Ieremiah. Efe a brophwydodd wrth y bobl am y caethgludiad yn enw yr Arglwydd, ac a wnaeth ymgais i wrthweithio dylanwad cynghor Ieremiah, fod iddynt ymsefydlu yn dawel yn nhir eu halltudiaeth, adeiladu tai, planu gwinllanoedd, a disgwyl yn amyneddgar am dymmor eu dychweliad yn niwedd y deng mlynedd a thrigain. Dangosodd ei elyniaeth at Ieremiah ei hun yn y ffurf mwy amlwg o lythyr at yr archoffeiriad Zephaniah, yn ei annog ef i gyflawni gwaith ei swydd, ac yn rhoddi y prophwyd yn ngharchar, ac yn y cyffion. Darllenwyd y llythyr gan Zephaniah i Ieremiah, yr hwn a gyhoeddodd farn Duw yn erbyn Semaiah am ei ryfyg, na thrigai neb o'i deulu yn mhlith y bobl, ac na chai ef ei hun fyw i weled eu dychweliad o'r caethiwed: *Ier.* xxix. 24—32.

21. SEMAIAH: Lefiad yn y drydedd flwyddyn i Ichosaphat, yr hwn a anfonwyd gyda Lefiaid ereill, yn cael eu canlyn gan ddau offeiriad a rhai o dywysogion Iudah, i ddysgu llyfr y gyfraith i'r bobl: 2 *Cron.* xviii. 8.

22. SEMAIAH: un o'r Lefiaid yn nheyrnasiad Hezeciah, y rhai a osodwyd yn ninasoedd yr offeiriaid i ddosbarthu degymau yn mhlith eu brodyr: 2 *Cron.* xxxi. 15.

23. SEMAIAH: Lefiad yn nheyrnasiad Iosiah, yr hwn a gynnorthwyodd i gadw y Pasc godidog: 2 *Cron.* xxxv. 9.

24. SEMAIAH: tad Uriah o Ciriath-iearim, yr hwn a brophwydodd yn erbyn Ierusalem, ac yn erbyn Iudah: *Ier.* xxvi. 20.

25. SEMAIAH: tad Delaiah, un o dywysogion Iudah: *Ier.* xxxvi. 12.

1. SEMARIAH: un o'r rhyfelwyr Beniaminaidd, "cynnorthwywyr y rhyfel," y rhai a ddaethant at Dafydd yn Siclag: 1 *Cron.* xii. 5.

2. SEMARIAH: un o deulu Harim, llëygwr Iuddewig, yr hwn a roddodd ymaith ei wraig ddyeithr yn amser Ezra: *Ezra* x. 32.

3. SEMARIAH: un o deulu Bani, dan yr un amgylchiadau a'r blaenorol: *Ezra* x. 41.

SEMARIAID: hiliogaeth degfed mab Canaan. Tybir mai hwy a adeiladasant ac a boblogasant Simyra yn Phœnica: *Gen.* x. 18.

SEMEBER: brenin Seboim, a chynghreiriad brenin Sodom, pan ymosodwyd arno gan yr ymosodwyr gogledd-ddwyreiniol dan Cedarlaomer: *Gen.* xiv. 2.

SEMEI: tad Mattathias yn llinach Iesu Grist: *Luc* iii. 26.

SEMER: perchenog y bryn ar ba un yr adeiladwyd dinas Samaria (1 *Bren.* xvi. 24), ar ol yr hwn y galwyd hi *Shomeron* gan ei sylfaenydd, Omri, yr hwn a brynodd y tir am ddwy dalent arian.

SEMERAIM: dinas yn Beniamin, yn agos i Bethel: *Ios.* xviii. 22; 2 *Cron.* xiii. 4.

1. SEMUEL: mab Ammihud, a bennodwyd o lwyth Simeon i ranu Gwlad Canaan rhwng y llwythau: *Num.* xxxiv. 20.

2. SEMUEL: Samuel y prophwyd: 1 *Cron.* vi. 33.

3. SEMUEL: mab Tola, ac un o benaethiaid llwyth Issachar: 1 *Cron.* vii. 2.

SEMIDA: mab Gilead, ac un o hynafiaid tylwyth y Semidiaid: *Num.* xxvi. 32, ac *Ios.* xvi. 2.

SEMIDIAID, Y: hiliogaeth Semida, mab Gilead: *Num.* xxvi. 32. Cawsant eu coelbren yn mhlith plant gwrywaidd Manasseh: *Ios.* xvi. 2.

SEMINITH. Cynnwysa teitl *Salm* vi. gyfarwyddyd i arweinydd offer tannau côr y deml yn mherthynas i'r dull yn mha un yr oedd y salm i gael ei chanu. "I'r pencerdd ar Neginoth ar y Seminith;" neu yr 'wythfed,' fel y mae ar ymyl y ddalen. Ceir cyfarwyddyd cyffelyb yn nheitl *Salm* xii. Yn Nghyfieithiad Geneva rhoddir 'ar yr wythfed dôn.' Yn 1 *Cron.* xv. 21, yr ydym yn cael fod rhyw Lefiaid wedi eu happwyntio gan Dafydd i chwareu "â thelynau ar y Seminith." Yr eglurhâd a roddir gan Gyfieithiad Geneva ar ymyl y ddalen ydyw, "yr hon oedd yr wythfed dôn, yr hon oedd dan ofal y mwyaf rhagorol." Gan nad ydym yn gwybod ond ychydig am gerddoriaeth yr Hebreaid, y mae pob tybiaethau o barth i ystyr eu geiriau cerddorol o angenrheidrwydd yn ddirym ac anghysson. Gyda golwg ar Seminith, y mae y rhan fwyaf o'r ysgrifenwyr rabbinaidd, fel Rashi ac Aben Ezra, yn dilyn y "*Targum*" ar y Salmau, drwy ei ystyried fel telyn gydag wyth o dannau; ond heb un sail, ac y mae yn dibynu ar gam-esboniad ar 1 *Cron.* xv. 21. Dywed Gesenius ei fod yn dynodi y *bas*, mewn cyferbyniad i *Alamoth* (1 *Cron.* xv. 20), yr hwn sydd yn arwyddo y *trebl*. Ond gan fod ystyr *Alamoth* ei hun yn dywyll iawn, nis gallwn wneuthur defnydd o hono i benderfynu ystyr y gair; yr hwn, er ei fod yn wahanol iddo, nid ydyw o angenrheidrwydd mewn cyferbyniad âg ef. Ereill a ddeonglant *y Seminith*, fel yr *wythfed;* ond nid oes un dystiolaeth fod yr hen Hebreaid yn gydnabyddus â'r *wythfed*, fel y deallir ef genym ni. Wrth gymmharu y dull yn mha un y mae y gair yn digwydd yn nheitlau y ddwy salm a grybwyllwyd eisoes, gyda sefyllfa y geiriau *Aijeleth Shahar, Gittith, Ionath-elem-rechokim*, &c., mewn salmau ereill, y rhai a ystyrir yn gyffredinol fel yn dynodi y felodeg oedd i gael ei defnyddio gan y cerddorion, y mae yn ymddangos yn dra thebygol fod Seminith o'r un natur, ac yn dynodi alaw neillduol adnabyddus fel yr wythfed, neu gywair neillduol yn mha un yr oedd y salm i gael ei chanu. Edrycha Maurer

Digitized by Google

ar Seminith fel offeryn o sain dwys fel y *violoncello*, tra y mae yn cymmharu Alamoth i'r *violin;* ac ymddengys mai y cyfryw ydyw golygiadau Junius a Tremellius. Y mae yn ammhossibl yn y cyfryw achos gwneyd mwy na chyfeirio at y dybiaeth sydd fwyaf tebygol o fod yn gywir.

1. SEMIRAMOTH: Lefiad o'r ail radd, a appwyntiwyd i chwareu gyda'r saltring "ar Alamoth," yn y côr a ffurfiwyd gan Dafydd. Yr oedd efe yn y dosbarth a arweinid gan Asaph gyda symbalau: 1 *Cron.* xv. 18, 20; xvi. 5.

2. SEMIRAMOTH: Lefiad yn nheyrnasiad Iehosaphat, yr hwn a anfonwyd gydag ereill trwy ddinasoedd Iudah i ddysgu llyfr y gyfraith i'r bobl: 2 *Cron.* xvii. 8.

SEMITAIDD, IEITHOEDD. Gwel IAITH.

SEN: lle, nad ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn 1 *Sam.* vii. 12, i nodi y llanerch yn mha un y gosododd Samuel y maen Ebenezer (sef maen cynnorthwy) i fyny er cof am y fuddugoliaeth fawr a roddasai yr Arglwydd iddynt ar y Philistiaid. Yr oedd yr ymlidiad wedi cyrhaedd "dan Beth-car," a gosodwyd y gareg i fyny "rhwng Mispah a Sen." Nid ydys yn gwybod dim yn ei gylch. Yr enw a roddir arno yn y "*Targum*" ydyw *Shinna.*

SENACHERIB: mab ac olynydd Sargon. Darllenir ei enw yn y gwreiddiol fel *Tsin-akki-irib*, yr hwn sydd yn arwyddo, 'Y mae Sin (neu y Lleuad) yn chwanegu at eu brodyr;' awgrymiad nad efe ydoedd cyntafanedig ei dad. Ni wyddom ond ychydig, neu ddim, am Senacherib yn ystod bywyd ei dad. Gallwn gasglu oddi wrth ei enw, ac oddi wrth amgylchiad a adroddir gan Polyhistor, nad efe oedd y mab hynaf, ac nad oedd yn etifedd i'r goron hyd y flwyddyn o flaen marwolaeth ei dad. Adroddodd Polyhistor (gan ddilyn Berosus) fod teyrnas deyrngedol Babilon yn cael ei dal gan frawd iddo—yr hwn, y mae yn ddiammheuol, oedd ei frawd hynaf—ychydig cyn i'r tywysog hwnw esgyn i'r orsedd. Dilynwyd brawd Senacherib gan Hagisa, yr hwn ni theyrnasodd ond yn unig am fis, gan iddo gael ei lofruddio gan Merodach-Baladan, yr hwn a gymmerodd yr orsedd y pryd hwn, ac a'i daliodd am chwe mis. Cymmerodd y digwyddiadau hyn le yn y flwyddyn 703 c. c.; yr hon, fel yr ymddengys, oedd y flwyddyn olaf i Sargon. Esgynodd Senacherib i'r orsedd yn y flwyddyn 702 c. c. Y gorchwyl cyntaf y ceisiodd efe ei wneyd oedd darostwng gwrthryfel Babilonia, ar yr hon yr ymosododd efe gyda byddin fawr. Anturiodd Merodach-Baladan i ymladd brwydr; ond gorchfygwyd ef, a gyrwyd ef o'r wlad. Yna gwnaeth Senacherib Belibus, un o swyddogion ei lys, yn rhaglaw; a chan adael Babilonia, anrheithiodd diroedd y llwythau Aramæaidd ar y Tigris a'r Euphrates, o ba le y cariodd efe ymaith 200,000 o garcharorion. Yn y flwyddyn ddilynol (701 c. c.) efe a ryfelodd yn erbyn y llwythau annibynol yn Mynydd Zagros, ac a dreiddiodd oddi yno i Media, lle y darostyngodd efe gyfran o'r genedl oedd wedi bod yn flaenorol yn annibynol. Yn ei drydedd flwyddyn (700 c. c.) efe a drodd ei arfau tua'r gorllewin: ceryddodd Sidon, cymmerodd deyrnged gan Syrus ac Aradus, a dinasoedd ereill yn Phœnicia, a chan Edom ac Asdod; gwarchauodd a chymmerodd Ascalon; rhyfelodd yn erbyn yr Aipht, yr hon oedd etto yn ddibynol ar Ethiopia; cymmerodd Libnah a Lachis ar derfyn yr Aipht, ac wedi gwneyd cyttundeb, y mae yn debygol, â'i brif elyn, o'r diwedd ymdeithiodd yn erbyn Hezeciah, brenin Iudah. Ymddengys fod Hezeciah nid yn unig wedi gwrthryfela ac wedi attal ei deyrnged, ond wedi ymyryd â materion dinasoedd Philistia, ac wedi rhoddi ei gefnogaeth i'r blaid wrthwynebol i ddylanwad Assyria. Y pryd hwn "y daeth Senacherib, brenin Assyria, i fyny yn erbyn holl ddinasoedd caerog Iudah, ac a'u hennillodd hwynt;" 2 *Bren.* xviii. 13. Nid oes un ammheuaeth nad y cofnodion a adawodd efe am ei ryfelgyrch yn erbyn "Hiskiah" yn ei drydedd flwyddyn, ydyw y rhyfel gyda Hezeciah, y gwneir crybwylliad mor fyr am dani yn y pedair adnod o'r bennod hon: *adn.* 13—16. Gorfodwyd y penadur Iuddewig i ymostwng yn dra gostyngedig. Cyttunodd i ddwyn pa beth bynag a osodai y 'brenin mawr' arno; a darfu i'r penadur hwnw, heb law cario ymaith ysbail cyfoethog, a thros 200,000 o garcharorion, ei rwymo i dalu teyrnged sefydlog o 300 o dalentau arian, a 30 o dalentau aur. Efe a gymmerodd oddi arno hefyd ranau helaeth o'i diriogaeth, y rhai a roddodd efe i fân frenhinoedd Asdod, Ecron, a Gaza. Wedi gwneuthur y trefniadau hyn efe a adawodd Palestina, ac a ddychwelodd i'w wlad ei hun.

Yn y flwyddyn ganlynol (699 c.c.) ymosododd Senacherib ar Babilonia yr ail waith. Yr oedd plaid yn y wlad hono yn parhau yn ffafriol i Merodach-Baladan, lle yr oedd ei frodyr etto yn byw; a gellir tybied fod y rhaglaw, Belibus, un ai yn dirgel gefnogi ei achos, neu beth bynag ni theimlai barodrwydd i'w wrthwynebu. Gan hyny, cymmerodd y penadur Assyriaidd y maes ei hun, gorchfygodd benaeth Caldeaidd, yr hwn oedd wedi cymmeryd arfau i fyny ar ran y brenin alltudiedig, a bwriodd allan frodyr y brenin; a chan ddiswyddo Belibus, rhoddodd un o'i feibion ar yr orsedd yn ei le.

Hwyrach mai yn y flwyddyn hon y gwnaeth Senacherib ei ail ymosodiad ar Palestina. Yr oedd Hezeciah wedi gwrthryfela drachefn, ac wedi hawlio amddiffyniad yr Aipht; yr hyn, fel yr ymddengys, a ystyrid gan Senacherib fel y gwir achos o helbulon Syria. Gan hyny, yn lle gwarchau Ierusalem, aeth brenin Assyria heibio iddi at derfyn yr Aipht, ac ymosododd unwaith yn rhagor ar Lachis a Libnah; ond ymddengys iddo fethu eu cymmeryd. Anfonodd genhadau o'r flaenaf at Hezeciah (2 *Bren.* xviii. 17); ac ar eu dychweliad heb ei ymostyngiad, ysgrifenodd ato lythyr bygythiol (2 *Bren.* xix. 14)—tra y parhäai etto i gario yn mlaen y rhyfel yn erbyn yr Aipht, yr hon oedd wedi gofyn am gymmhorth Tirhacah, brenin Ethiopia: 2 *Bren.* xix. 9. Yr oedd Tirhacah yn prysuro i gynnorthwyo yr Aiphtiaid: ond y mae yn debygol nad ydoedd wedi uno ei filwyr â'u milwyr hwy, pan y cymmerodd digwyddiad le a waredodd yr Aipht ac Iudea o'u perygl. Mewn un noson collodd yr Assyriaid, un ai trwy yr haint, neu trwy ryw amlygiad mwy dychrynllyd o'r gallu dwyfol, 185,000 o wŷr! Tybia Prideaux i'r dinystr hwn gael ei wneuthur trwy ddwyn arnynt y gwynt poeth sydd yn gyffredin yn y parthau hyny; yr hwn, pan y digwydd iddo daraw ar luoedd o bobl, a ladd lawer o honynt mewn eiliad. Cefnogir y golygiad hwn gan y geiriau sydd yn Esaiah:—"Wele fi yn gyru arno *wynt;*" *pen.* xxxvii. 7. Yn *Ier.* li. 1, gelwir y gwynt hwn

Digitized by Google

yn "wynt dinystriol." Yr enw a roddir arno yn gyffredin gan deithwyr dwyreiniol ydyw *simoon.* Nid oedd y wyrth yn ddim llai, er i'r angel wneuthur y dinystr drwy y gwynt poeth hwn. Torodd y gwersyll i fyny yn ddioed, a diangodd y brenin. Yr Aiphtiaid, yn eithaf naturiol, gan fod y dinystr wedi digwydd ar y terfynau, a'i priodolent i'w duwiau eu hunain, ac a wnaethant ymffrost o hono yn mhen canrifoedd ar ol hyny. Cyrhaeddodd Senacherib i'r brif ddinas yn ddiogel; ac nid attaliwyd ef gan y trychineb mawr oedd wedi digwydd i'w arfau rhag cario rhyfeloedd ereill yn mlaen, er ei fod yn ymddangos iddo, o hyny allan, ofalu am ochelyd Palestina. Yn ei bummed flwyddyn efe a arweiniodd ryfelgyrch i Armenia, a rhyfelodd yn erbyn Susiana a Babilonia.

Teyrnasodd Senacherib ddwy flynedd ar hugain. Dyddir ei esgyniad i'r orsedd gan canon Ptolemy yn y flwyddyn 702 c. c., y flwyddyn gyntaf i Belibus neu Elibus. Noda yr un ysgrif ddyddiad ei farwolaeth gan esgyniad Asaridanus (Esarhadon) i orsedd Babilon yn y flwyddyn 680 c. c. Y mae y cofadeiladau yn berffaith gysson â'r dyddiadau hyn, canys cafwyd yr eilfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Senacherib arnynt, tra na chafwyd arnynt un crybwylliad am flwyddyn ddiweddarach.

Y mae yn ammhossibl cyssoni yr amseriadau hyn âg amseryddiaeth teyrnasiad Hezeciah, yn ol ffigyrau y testyn Hebraeg presennol. Priodola y ffigyrau hyny i Hezeciah y tymmor rhwng 726 c. c. a 697 c. c. O ganlyniad, y mae ymosodiad cyntaf Senacherib yn disgyn ar *seithfed flwyddyn ar hugain* Hezeciah, yn lle ar ei bedwaredd flwyddyn ar ddeg, fel y dywedir yn 2 *Bren.* xviii. 13, ac *Esa.* xxxvi. 1. Cynnygiwyd amryw o esboniadau ar yr anhawsder hwn. Yn ol rhai, y mae y testyn wedi ei gamosod, yn gystal ag wedi ei newid. Yn wreiddiol, rhedai y geiriau, 'Yn awr digwyddodd yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg i'r brenin Hezeciah i frenin Assyria (Sargon) ddyfod i fyny yn erbyn dinasoedd caerog Iudah.' Yna dilynai *pen.* xx. (*Esa.* xxxviii.) —"Yn y dyddiau hyny y clafychodd Hezeciah hyd farw," &c. Yna yr adroddiad am ddau ymosodiad Senacherib. Awgrymiad arall yw, fod y flwyddyn wedi ei newid yn 2 *Bren.* xviii. 13, ac yn *Esa.* xxxvi. 1, gan ysgrifenydd; yr hwn, gan gyfeirio yr adroddiad yn *pen.* xx. (*Esa.* xxxviii.) at ddeg ymosodiad cyntaf Senacherib, a gasglai (oddi wrth *pen.* xx. 6) fod y cwbl wedi digwydd yn y bedwaredd flwyddyn ar hugain i Hezeciah. Felly, efe a newidiodd y "seithfed ar hugain" i'r "bedwaredd ar ddeg."

Yr oedd Senacherib yn un o'r brenhinoedd Assyriaidd mwyaf mawreddog a chlodfawr. Ymddengys mai efe oedd y cyntaf a sefydlodd eisteddle y llywodraeth yn barhaol yn Ninefeh; yr hon a adgyweiriodd ac a brydferthodd efe yn ofalus âg adeiladau ysblenydd. Ei waith mwyaf oedd y palas ardderchog yn Koyunjik, yr hwn oedd yn gorchuddio wyth erw o dir, ac wedi ei addurno drwyddo â phob math o gerfluniau hardd a chelfydd. Efe a adeiladodd hefyd, neu a adgyweiriodd, ail balas yn Ninefeh ar arglawdd Nebbi Yunus: cyfyngodd y Tigris i'w sianel trwy arglawdd o briddfeini: adferodd yr holl hen ddwfrgludyddion y rhai oeddynt wedi adfeilio, a rhoddodd i Ninefeh y gwychder hwnw a gadwodd hi o hyny allan hyd ddinystr yr ymherodraeth. Efe a adeiladodd gofgolofnau hefyd mewn gwledydd pell. Saif ei gofadail ef etto wrth enau y *Nahr-el-Kelb* ar lenydd Syria, ochr yn ochr âg arysgrifen Rameses Fawr, yr hon sydd yn gosod ei orchfygiadau chwe chant o flynyddoedd yn gynnarach.

Am farwolaeth Senacherib, nid ydym yn gwybod dim, heb law yr adroddiad byr a geir yn yr Ysgrythyr: "A bu, fel yr oedd efe yn addoli yn nhŷ Nisroch ei dduw i Adrammelech a Sareser ei feibion ei ladd ef â'r cleddyf; a hwy a ddiangasant i wlad Armenia;" 2 *Bren.* xix. 37; *Esa.* xxxvii. 38. Y mae yn hynod fod Moses o Chorene, ac Alexander Polyhistor hefyd, yn galw yr hynaf o'r ddau fab hyn wrth enw gwahanol; sef, *Ardumazanes* neu *Argamozanus;* ac y mae yn fwy rhyfedd fyth fod Abydenus wedi gosod y brenin Nergilus rhwng Senacherib ac Adrammelech, ac yn dyweyd fod yr olaf wedi ei ladd gan Esarhadon. Y mae Moses, i'r gwrthwyneb, yn cadarnhau yr adroddiad am ffoedigaeth y ddau frawd, ac yn crybwyll y rhanau o Armenia lle yr ymsefydlasant, a'r rhai wedi hyny a boblogwyd gan eu hiliogaeth.

SENECA, LUCIUS ANNÆUS: athronydd enwog, yr hwn a anwyd yn Corduba, yn Yspaen, ychydig flynyddoedd cyn y cyfnod Cristionogol, ac a ddygwyd i Rufain tra yn blentyn, er mwyn ei iechyd ac i dderbyn ei addysg. Mab ydoedd i Marcus Annæus Seneca, areithydd ac awdwr adnabyddus—cof yr hwn oedd mor gryf fel y gallai ail adrodd tua dwy fil o eiriau yn union yn yr un drefn ag y clywsai hwynt. Mynai ei dad alw sylw ei fab yn benaf at areithyddiaeth; ond yr oedd y diweddaf yn tueddu yn fwy i efrydu athronyddiaeth, ac astudiodd o dan gyfarwyddiadau Fabianus, Attalus, a Sotion. Teithiodd Seneca ieuangc trwy wlad Groeg a'r Aipht, a gwnaeth sylwadau craff a chywir ar yr Aipht a'r afon Nilus. Medrodd ei dad o'r diwedd ei berswadio nad oedd yn beth doeth iddo aberthu manteision bydol er mwyn athroniaeth, ac ymgymmerodd yntau â'r alwedigaeth o ddadleuydd. Llanwodd y swydd o ben trysorydd, ac ymgododd yn uchel yn ffafr yr ymherawdwr Claudius, pan y cyhuddwyd ef o odineb gyda Julia, merch Germanicus, gwraig Vinicius. Alltudiwyd ef i Corsica; a bu yno am wyth mlynedd, yn ymgysuro oreu gallai gyda'i efrydiau, ond yn cwyno o hyd o herwydd ei sefyllfa, ac yn appelio at yr ymherawdwr am faddeuant ac adferiad. Ar ol marwolaeth Messalinna, priododd Claudius Agrippina, yr hon a lwyddodd gydag ef i alw Seneca yn ol o'i alltudiaeth, a'i ddyrchafu i'r swydd o brif ynad; ac wedi hyny pennodwyd ef, ynghyd âg Africanus Burrus, yn athraw i'w mab, Nero. I ran Seneca y disgynodd y gwaith o addysgu y tywysog ieuangc yn egwyddorion athroniaeth, a'i gyfarwyddo mewn rhinwedd a doethineb; a gŵyr pawb gyda pha fath lwyddiant. Yn wir, y mae llawer yn barnu fod Seneca i ryw raddau yn dirgel gefnogi Nero yn ei yrfa lygredig; ac y mae y cyfoeth dirfawr y daeth i feddiant o hono yn tueddu i gryfhau y dybiaeth yma, gan nad yw yn debyg y buasai dyn o gymeriad Nero yn cyflwyno anrhegion mor fawr i un nad oedd ganddo un hawl arall arno, ond yn unig ei fod wedi bod yn addysgydd iddo mewn rhinwedd a moesoldeb. Yr oedd Seneca yn perchen palasau prydferth yn y wlad, a phalas ardderchog yn Rhufain, wedi eu dodrefnu yn ysblenydd; ac yr oedd yn werth mewn arian tua dwy filiwn a hanner o bunnau o'n harian ni.

Deallodd Seneca, pa fodd bynag, yn fuan fod

Digitized by Google

Nero yn edrych yn eiddigus ar y cyfoeth mawr oedd ganddo, a bu mor ddoeth a chynnyg dychwelyd iddo yr hyn a gawsai mewn anrhegion ganddo; ac erfyniai am genad i ymneillduo i fyw mewn neillduaeth. Ni fynai yr ymherawdwr dderbyn y cynnygiad hwn. Yna, o dan y gochl o fod yn afiach, ymgadwodd Seneca yn ei dŷ, ac ni wnaeth ei ymddangosiad yn gyhoeddus. Ceisiodd Nero, trwy gyfrwng Cleonicus, ei wenwyno ef; ond methodd. Yn fuan ar ol hyny, darfu i Antonius Natalis, pan yn sefyll ei brawf am fod yn gyfranog mewn cydfradwriaeth gyhuddo Seneca o fod â rhan ynddo hefyd. Y mae bywgraphwyr Seneca yn gwadu gwirionedd y cyhuddiad. Dywedir fod Natalis yn ceisio ffafr Nero trwy geisio dwyn Seneca i mewn i'r fradwriaeth. Dywed ereill mai Nero ei hun a awgrymodd y cyhuddiad. Ond myn rhai drachefn gredu fod gwir yn y cyhuddiad; yn gymmaint a bod gan Seneca achos i ofni Nero, ac o ganlyniad ei fod wedi ymuno mewn cydfradwriaeth i'w symmud ef o'r ffordd. Pa fodd bynag yr oedd pethau yn bod, yr oedd Nero yn ddigon parod i gredu unrhyw ddrwg a ddywedid am dano; a boddlonodd ei hun ei fod yn euog o deyrnfradwriaeth, a gorchymynodd iddo roddi ei hunan i farwolaeth. Amlygodd ei wraig, Paulina, ei phenderfyniad i farw gydag ef. Wynebodd Seneca ei dynged yn eithaf dewr. Agorodd wythïen yn ei ddwy fraich; ond yn gymmaint a'i fod mewn gwth o oedran, nid oedd ei waed yn llifo yn hwylus, a bu raid iddo agor gwythïenau ei goesau. Nid oedd hyn etto yn tycio: rhoddodd Statius Annæus iddo ddogn o wenwyn, ond ni ddarfu i hwn chwaith gynnyrchu ond ychydig o effaith arno. Yna efe a orchymynodd i'w weision ei gario i faddon cynnhes; ac ymdaflodd yntau iddo, a boddodd yn fuan, yn B. A. 63. Ni oddefai Nero i Paulina farw gydag ef; gan hyny efe a'i symmudodd oddi wrth ei gŵr.

Y mae yr ysgrifeniadau hyny o eiddo Seneca sydd wedi cyrhaedd i lawr i'n hoes ni yn benaf wedi eu hysgrifenu ar destynau moesol, yn cynnwys llythyrau a thraethodau ar "Ddigofaint," "Cysur," "Rhagluniaeth," "Tawelwch Meddwl," "Diysgogrwydd Athronyddol," "Addfwynder," "Byrder einioes," a "Bywyd dedwydd," &c. Tybir hefyd ei fod yn awdwr deg o dreisganau. Y mae dadl yn bod ar hyn, pa fodd bynag, gan y myn rhai mai cynnyrch rhyw Seneca arall ydyw y treisganau hyny. Ond y mae Quintilian, ar farn yr hwn, dybygid, y gellid pwyso, yn enwi Seneca, wrth ddyfynu darn o'r "*Medea.*" Ac heb law hyny, y mae y profion mewnol sydd ynddynt yn ddigon ond sylwi arnynt, i beri i'r rhai mwyaf ammheus gredu yn eu dilysrwydd. Y mae llawn cymmaint o amrywiaeth barn yn bod am deilyngdod y treisganau ag sydd am eu hawduriaeth. Y mae rhai beirniaid yn eu canmawl, ac ereill yn eu condemnio. Y mae yn ddiau na chawsant eu bwriadu erioed i gael eu gosod ar esgynlawr i'w chwareu, ond yn unig i'w darllen yn uchel. Y mae hyn yn gwneyd i ffordd â llawer o'r beirniadu sydd wedi bod arnynt. Cyfieithwyd y treisganau hyn i'r Saesneg gan bump o wahanol gyfieithwyr, ac ymddangosodd argraphiad cyflawn o honynt yn 1581. Am weithiau rhyddieithol Seneca, y mae yn deilwng o sylw, fod beirniaid diweddar yn gwahaniaethu o ran eu barn. Canmolir ef yn fawr gan rai am ei synwyr ymarferol; ac ereill a ddywedant ei fod yn ddiffygiol mewn cyrhaeddiadau damcaniaethol. Ffaith led arwyddocaol ydyw, ei fod yn cael ei edmygu yn fawr gan ysgolheigion Ffrengig, ond yn cael edrych yn is arno gan yr Almaeniaid. Yr argraphiad goreu o'i holl weithiau rhyddieithol oedd un Ripontine, yn 1809.

SENEDD *(Parliament):* prif ddeddfwrfa Teyrnas Gyfunol Prydain Fawr a'r Iwerddon. Y mae y gair *senedd* yn dyfod o'r Lladin *senatus*, ystyr yr hwn ydyw, "cyfarfod o henuriaid." Dyna y syniad a gyssylltai yr ysgrifenwyr Rhufeinaidd â'r senedd foreuaf a fu yn Rhufain. Yr oedd nifer y seneddwyr yn y gweriniaethau Groegaidd, yn gystal a'r weriniaeth Rufeinig, yn wastad yn dwyn perthynas â nifer y llwythau a gynnwysai y dalaeth. Y mae y gair Saesneg *parliament*, yn ol y dyb gyffredin, yn deilliaw o'r gair Ffrangcaeg *parler*, sef, *llefaru;* neu, yn ol rhai, o'r geiriau Cymraeg, '*llafar bid lafar,*' ac mai y gair gwreiddiol oedd *parlafar-mant*. Dywed yr un awdurdodau hefyd mai o'r un arwyddair eisteddfodol y deillia y gair Affricanaidd, *palaver*. Nid yw y gair *parliament* wedi cael ei gyfyngu i Brydain. Bu yn cael ei arfer am amser maith, dybygid, yn Ffraingc, i ddynodi rhestr o sefydliadau oedd yn meddu galluoedd gweinyddiadol; ond yn fwy priodol, y prif lysoedd cyfreithiol taleithiol oeddynt. Gelwid y corph hwnw a fu yn Ffraingc, oedd yn debyg, ar un adeg, o ddyfod i'r un enwogrwydd a senedd ein gwlad ni, yn *llwyrwys (states general)*. Bu llawer ymdrech galed rhwng y llwyrwys hwn a'r goron cyn iddo gael ei ddifodi o restr sefydliadau Ffrengig. Yn 1614, o dan Louis XIII., y cynnaliwyd y cyfarfod cyffredinol olaf o'r llwyrwys; ond yr oedd gan weithrediadau y sefydliad hwn ddylanwad mawr yn ffurfiad ac adgyfarfyddiad senedd gyffredinol y taleithiau cyn toriad allan y chwyldroad mawr yn y wlad hono. Yr oedd *cortes* Yspaen hefyd ar un adeg yn sefydliad rhydd a galluog, ac yn debyg o ddyfod i feddu dylanwad a gallu cyffelyb i'r eiddo y senedd Brydeinig. Ond nid oes a fynom yn awr ond â senedd y Deyrnas Gyfunol yn unig, yr hon sydd wedi cyrhaedd yr enwogrwydd uchaf yn mysg gwledydd y byd fel trysorfa fawr doethineb deddfwriaethol. Ni a gyfyngwn ein sylwadau yma at adroddiad cryno o hanes cyfodiad y senedd yn y tair teyrnas, ynghyd â'i chyfansoddiad, a dull ei dygiad yn mlaen.

Y mae yn anhawdd iawn olrhain dadblygiad unrhyw hen sefydliad, pan y mae wedi myned o dan gyfnewidiadau lliosog a phwysig yn nghwrs amser; ac ychydig o byngciau sydd wedi rhoddi i'n hynafiaethwyr fwy o waith, yn eu hymchwiliadau dysgedig a'u dyfaliadau cywrain, nag ydyw tyfiant a chynnydd y senedd i'r ffurf a gymmerodd yn yr adeg pan y mae cofnodion cywir i'w cael o'i bodolaeth a'i chyfansoddiad. Yr oedd cynghorau mawrion cenedlaethol yn cyfarfod o dan y Sacsoniaid a'r Normaniaid, ac ymddengys fod y cyfryw gynnulliadau yn bethau cyffredin hefyd yn mysg cenhedloedd gogleddol Ewrop. Gelwid y cynghorau hyn gan y Sacsoniaid *michel-synoth*, neu gynghor mawr; *michel-gemote*, neu gyfarfod mawr; a *wittena-gemote*, neu gyfarfod y doethion. Nis gellir gwybod, gydag unrhyw sicrwydd, pa fath oedd cyfansoddiad y cynghorau hyn; ac y mae llawer o ymddadleu wedi bod ar y pwngc, ac yn enwedig o berthynas i'r gyfran o awdurdod a feddiannai y bobl ynddynt. Y mae gwahanol

Digitized by Google

gyfnodau wedi cael eu henwi fel yr amser y goddefwyd iddynt gael cynnrychiolaeth yn y ddeddfwrfa. Y mae Coke, Spelman, Camden, a Prynne yn cytttuno fod y cyffredinwyr yn ffurfio rhan o'r cynghorau mawr cyn y goresgyniad gan Gwilym y Concwerwr; ond pa fodd y gelwid hwynt ynghyd, a pha raddau o allu a feddiennid ganddynt, sydd â llawer o dywyllwch ac ammheuaeth o'i gwmpas.

Gwyddys fod y brenhinoedd Normanaidd cyntaf yn gweithredu, nid yn unig yn ol cyfarwyddyd a chydsyniad personau o ddylanwad ac enwogrwydd yn mysg eu deiliaid; ond hysbysent fod y cyfryw bersonau yn cyttuno â hwynt yn y dadganiadau swyddol o'r ewyllys frenhinol a gyhoeddid; yr hyn a chwanegai at nerth eu hawdurdod gyfansoddiadol. Teimla hynafiaethwyr anhawsder i gael allan a disgrifio y cynghorau hyn—pa rai y dywedir yr ymgynghorai y brenhinoedd boreuol â hwynt. Nis gallant benderfynu a ydynt i olygu fod nifer o bersonau yn ymgynnull ynghyd fel hyn bob amser; neu ynte a olygir eu bod yn cyfarfod ac yn rhoddi cynghor neu gyfarwyddyd personol pan elwid hwynt. Beth bynag oedd cymmhwysderau y cynghorwyr a amgylchent y brenhinoedd Normanaidd, gellid meddwl eu bod yn lliosog; ac yn gynnifer o'r diwedd fel y cafodd Neuadd Westminster ei hadeiladu gan Rufus, er iddynt allu ymgynnull ynghyd ynddi. Yr oedd eu dyledswyddau yn gyfreithiol a gweinyddiadol lawn cymmaint ag oeddynt o ddeddfwriaethol. Ymganghenodd y prif lysoedd, y cyfringynghor, a sefydliadau ereill, yn raddol, o'r cynghor mawr hwn, a pherthynai iddynt eu galluoedd cyfreithiol a gweinyddiadol; ac y mae hawl Tŷ yr Arglwyddi i wrandaw yr appeliadau cyfreithiol diweddaf, ynghyd â'r syniad fod holl aelodau y tŷ hwnw yn mysg cynghorwyr y penadur, yn aros hyd heddyw fel gweddillion swyddau cyfreithiol a gweinyddiadol y seneddau boreuol hyny.

Dechreuwyd defnyddio yr enw *parliament* (senedd) ar y cynnulliadau hyn yn nheyrnasiad Harri III. Beth bynag oedd gradd neu sefyllfa y personau a ddeuent ynghyd i'r senedd, neu y cynghor mawr, yr oeddynt oll yn brif ddeiliaid *(tenants in chief)* y brenin—oll yn dal cyssylltiad uniongyrchol âg ef; ac nid o dan un penaeth arall, yn ol y drefn wriogaethol *(feudal system)*. Yn y freinlen fawr a ganiatawyd gan y brenin Ioan, gwnaed gwahaniaeth, yn ol graddau yr aelodau, yn y dull y gelwid am eu presennoldeb. Yr oedd y barwniaid mawr i gael eu galw trwy wŷs arbenig, wedi ei hanfon iddynt yn bersonol. Gelwid y prif ddeiliaid, nad oeddynt yn farwniaid trwy ddanfon allan wŷs gyffredinol—yr hyn oedd cystal ag arwyddo y gallasai y sawl a ewyllysiai o honynt, neu ynte a ddanfonid gan eu cyd-ddeiliaid, ymgynnull. Hwyrach mai yn y cyntaf y ceir eginyn Tŷ yr Arglwyddi, yr hwn sydd yn gynnwysedig o ddeddfwneuthurwyr yn eu hawl eu hunain; ac mai yn y diweddaf y ceir eginyn Tŷ y Cyffredin, yr hwn sydd gynnwysedig o gynnrychiolwyr dewisedig. Gellir canfod arwydd o wahaniaeth nodedig arall yn hanes yr adeg hon. Yr oedd y breinleni a roddid mor fynych y pryd hwnw yn gyttundebau a wnelid gan y penadur, oeddynt yn sicrhau, yn mysg pethau ereill, na byddai iddo godi mwy o drethi oddi ar ei ddeiliaid nag oedd ddyledus arnynt. Nid oedd yr addewid i beidio cymmeryd oddi arnynt, pa fodd bynag, yn cynnwys addewid i beidio gofyn am y cyfryw; o herwydd un o'r prif bethau oedd gan seneddau yr amseroedd hyny i'w hystyried oedd, yr appeliadau brenhinol am arian a ddelai o'u blaen. Yn ol y gyfraith wriogaethol, yr oedd trethi trymion oddi wrth y barwniaid yn nghyd â phrif ddeiliaid (neu denantiaid) y tiriogaethau brenhinol yn ddyledus i'r goron, ac nid oedd angen gofyn am danynt; ac yr ydym yn cael fod y brenin yn codi y rhai hyny, ac yn erfyn hefyd am chwaneg oddi arnynt, ac oddi ar y deiliaid hyny a ymgyfoethogent mewn rhyw ffordd arall, ac a ddeuent i feddiant o eiddo nad oedd y goron yn meddu awdurdod i'w drethu yn gyfreithlawn. Pan y cydsynient i ddwyn rhan o'r baich hwn, y mae yma ryw fath o gysgod o Dŷ y Cyffredin yn dyfod i'r golwg, yr hwn yn unig sydd yn meddu hawl hyd heddyw i ddelio â phob peth yn dwyn cyssylltiad â'r cyllid. Y mae peth arall hefyd yn ymddangos a dueddai tua'r un cyfeiriad. Eisteddai yr arglwyddi eglwysig, yr esgobion a'r abadau, fel yr arglwyddi tymmorol cyntaf, fel deiliaid neu denantiaid barwniaethau neu etifeddiaethau; ac edrycha llawer hyd heddyw ar waith yr esgobion yn eistedd yn y tŷ uchaf fel math o weddillion byw o'r drefn foreu hon o esgyn i'r bendefigaeth. Yr oedd y gwŷr eglwysig hyn yn rhwym o dalu teyrnged a threthi gwriogaethol fel y barwniaid mawr ereill, heb i appeliad neillduol gael ei wneyd atynt. Yn wreiddiol, fe wyddys fod dal tir seneddol yn wriogaethol o dan y brenin yn gwneuthur un yn farwn neu yn arglwydd. Ac yr oedd yr hwn a feddiannai etifeddiaeth o'r fath, yn rhinwedd hyny, yn arglwydd seneddol, ond heb feddu unrhyw deitl gwahaniaethol. Yn nghwrs amser, modd bynag, dechreuodd y penadur roddi teitlau newyddion, trwy ganiatâd arbenig o'i eiddo ei hun. Cymmerwyd y teitl o *dduc* oddi wrth arfer y Rhufeiniaid; y teitl o *ardalydd (marquis)* oddi wrth arfer yr ymherodraeth Rufeinig mewn amserau diweddarach; ac yn yr *iarll (earl)*, adnewyddwyd hen deitl Sacsonaidd. O'r diwedd, daeth y teitl o *farwn* hefyd i gael ei roddi yr un modd trwy freint-lythyr brenhinol; ac yn raddol daeth pendefigion Lloegr yn rhinweddol i fod yn bendefigion trwy freint-lythyrau, ac nid o herwydd eu bed yn dal tiroedd dan y goron.

O barthed i aelodau Tŷ y Cyffredin, y wŷs gyntaf a roddwyd allan i'w dwyn ynghyd a briodolir i'r brenin Ioan. Fel y canlyn y dywed Blackstone ar hyn:—

"Y mae prif gyfansoddiad y senedd, fel y saif yn bresennol, wedi ei nodi allan mor bell yn ol a'r eilfed flwyddyn ar bymtheg o deyrnasiad y brenin Ioan, B. A. 1215, yn y freinlen fawr a ganiatawyd gan y tywysog hwnw; yn yr hon yr addawai alw ynghyd yr holl archesgobion, esgobion, abadau, a'r ieirll, a'r barwniaid mwyaf, yn bersonol; a'r holl brif ddeiliaid *(tenants)* ereill o dan y goron drwy y sirydd a'r ceisbwliaid—i gyfarfod mewn lle penodedig, ar ol deugain niwrnod o rybudd, i osod trethi pan y byddai hyny yn angenrheidiol. Y mae y cyfansoddiad yma wedi hanfodi o leiaf o'r flwyddyn 1266, 49 Harri III.—ac y mae ysgrif-wŷsiau ar gael etto o'r dyddiad hwnw yn galw marchogion, dinaswyr, a bwrdeisiaid i'r senedd."

Y mae cyfraith hefyd a basiwyd yn nheyrnasiad Iorwerth II. (1322), yn dadgan fod "materion i gael eu penderfynu yn y senedd ynghylch meddiannau y brenin a'i etifeddion, ac ynghylch meddiannau y wladwriaeth a'r bobl, trwy gydsyniad y brenin, y preladiaid, yr ieirll, a'r barwniaid, a chyffredinwyr y wlad, *yn ol fel y byddys yn arferol o wneyd.*" Y mae Hallam yn

Digitized by Google

sylwi o barthed i'r ddeddf hon, ei bod, "nid yn unig yn sefydlu trwy ddadganiad deddfwriaethol gyfansoddiad presennol y senedd, ond hefyd yn cydnabod ei bod eisoes yn sefyll ar hen arferiad." Mewn trefn i ni allu gweled pa fodd y dadblygwyd cyfundrefn gynnrychioliadol ein gwlad, y mae yn rhaid troi at ffynnonell arall. Daeth y cynghorau trefol a gyfodasant trwy Loegr yn gyfran o'r drefn wriogaethol:—ystyrid hwynt yn mysg prif ddeiliaid y goron. Yr oedd gan y cynghorau hyn eu penaeth, yr hwn a gynnrychiolai eu gwahanol aelodau yn rheoleiddiad eu hachosion mewnol. Nid oedd ond eisieu eangu ychydig ar yr un meddylddrych, a gallai y penaeth hwnw, neu un arall a etholid, gynnrychioli y cynghor dinesig yn senedd y brenin. Y mae hyn yn dangos yn eglur nad ydyw ein trefn seneddol wedi tarddu yn hollol oddi wrth arferion Sacsonaidd a gwriogaethol; o blegid dyma un o'r awgrymiadau gwerthfawrocaf mewn cyssylltiad â hi wedi ei gymmeryd o sefydliad Rhufeinaidd o ran ei darddiad. Gwyddys yn dda fod cynnrychiolwyr y bwrdeisdrefi wedi eu galw i'r senedd gan yr enwog Simon de Montfort, yn 1264. Y mae y modd y cynnyddodd y senedd o'r pryd hwn mewn nerth ac effeithiolrwydd yn bwngc hanesyddol; ac eglurir ef i ryw fesur pan yr ymdrinir gyda gwaith a swyddogaeth y senedd yn yr erthygl hon. Dywed Hallam, ac ereill, mai yr adeg y sefydlwyd yr egwyddor fod cael cydsyniad y ddau dŷ yn angenrheidiol i bob cyfraith a basid oedd, yn nheyrnasiad Iorwerth IV. Yn fuan wedi hyny, dechreuodd y senedd hòni ei hawl i chwilio i mewn i gŵynion a osodid o'i blaen, a gofyn am ddiwygiad. Y mae gwendid y goron bob amser wedi bod yn fantais i'r senedd. Yn ystod teyrnasiad Richard II., yn Lloegr, yn gystal a thrwy Ewrop yn gyffredinol, torodd gwrthryfel allan yn mysg y caethweision amaethyddol *(serfs)*. Gwnaethant eu hunain yn adnabyddus yn Ffraingc o dan yr enw *Jacquerie*. Yr oedd yn Lloegr ddosbarth canol cryf i gadw trefn; ac etto nid oedd y dosbarth hwn yn ddiystyr o'r cyfleusderau a gaffent i chwanegu at eu nerth eu hunain; ond er y gorchfygwyd gwrthryfel Wat Tyler, cafwyd fod rhan o'r gallu oedd yn flaenorol yn nwylaw y brenin, yn y cyfamser wedi myned yn eiddo i'r senedd. Yn y teyrnasiad hwn y cafodd Tŷ y Cyffredin yr awdurdod bwysig, nid yn unig i ganiatau yr adgyflenwadau arianol, ond hefyd i benderfynu tuag at pa ddybenion y defnyddid hwynt. Yn fuan wedi hyny, ond nid heb wrthwynebiad cyndyn, hwy a ddygasant oddi amgylch gyfnewidiad pwysig yn y dull o gario yr achosion cyhoeddus yn mlaen. Arferent cyn hyny ddwyn eu cwynion yn mlaen, ac yna ganiatau yr adgyflenwad; ac ar derfyn yr eisteddiad seneddol, hwy a dderbynient ryw fath o wrandawiad i'w cwynion, ac ymwared oddi wrthynt, er na byddai hyny bob amser yn foddhaol. Ond o hyny allan mynent wrandawiad i'w cwynion yn gyntaf, a gwaredigaeth oddi wrthynt, cyn caniatau arian at draul y wladwriaeth.

Cryfhaodd gallu ac awdurdod y senedd yn raddol trwy deyrnasiadau y brenhinoedd Tuduraidd. Yr oedd y tywysogion hyny yn teimlo yn anfoddlawn i ddadleu llawer â'r senedd: ond yn wahanol y bu pan ddaeth teulu Stuart i feddiant o'r orsedd. Beth bynag oedd y ddadl a dorodd allan y pryd hwnw yn y cychwyniad, daeth yn y diwedd i fod yn ymdrechfa rhwng Siarl I. a'r senedd am uchafiaeth. I'r dyben o sicrhau yr uchafiaeth yma, prif amcan y naill a'r llall o'r pleidiau oedd, cael meddiant o allu milwraidd y wlad. Ammhenderfynol oedd cwestiwn yr uchafiaeth cyn hyny; ond yr oedd y ddwyblaid yn benderfynol na byddai iddo gael parhau felly yn hwy; a cheisiai pob plaid am yr holl awdurdod iddi ei hun. Nid oes angen yma i gyfeirio at y modd y terfynodd yr ymdrechfa: y mae hyny yn eithaf adnabyddus. Ond gellir adgofio y darllenydd mai llywodraeth a rheolaeth seneddol oedd llywodraeth yr Amddiffynydd Cromwell—ac nid un unbenaethol. Dengys y cofnodion sydd ar gael o hanes gweithrediadau y seneddau a eisteddent o dan Cromwell, wrth eu cymmharu â gweithrediadau seneddau ereill cyn ac ar ol hyny, fod y dadleuon a gymmerent le ynddynt, a thôn y siaradwyr, yn arwyddo fod llawer o annibyniaeth meddwl ynddynt. Ond cafwyd prawf, fe allai, y pryd hwnw fod llawer o anghyfleusderau ynglŷn â thaflu y fath gynnulliad a senedd, trwy foddion chwyldroadol, o'i ffordd arferol o weithredu. Trwy uno y ddau dŷ yn un, a diddymiad rhai llysoedd y teimlid gwrthwynebiad iddynt, megys y *Star Chamber* (er fod yn dda cael ymwared o rai o honynt), taflwyd cryn lawer o waith ar y senedd, nad oedd Tŷ y Cyffredin ar y pryd yn gymmhwys iawn i'w gyflawni. Ar adferiad Siarl II., cadwai y senedd at ei hen draddodiadau, ac ni bu ond ychydig o gyfnewidiadau yn ffurfiau y tŷ hyd y chwyldroad yn 1688. Y mae rhai gweithrediadau pwysig, yn dal cyssylltiad âg awdurdod a chyfansoddiad y senedd, yn rhan o hanes y cyfnod hwnw; yn mysg pa rai y gellir nodi y gyfraith a basiwyd yn 1641—yr hon a ddarparai fod i senedd newydd gael ei hethol o fewn tair blynedd ar ol ei thori i fyny, pa un bynag a alwai y brenin un, ai ni wnai. Nid peidio galw seneddau oedd bai y teyrnasiad hwnw, modd bynag; ond eu parhâd am amser mor faith ar ol eu galw. Parhaodd y senedd a alwyd ynghyd yn 1661 ddwy flynedd ar bymtheg—nes yr oedd wedi myned o'r braidd yn hollol ymostyngol i ewyllys y brenin.

Yr oedd y chwyldroad yn 1688, mewn ystyr, yn gynnyrch y gweithrediadau seneddol; ond perthyna er hyny yn hanfodol i hanesiaeth y wlad fel y cyfryw. Yn 1694, pasiwyd deddf yn cyfyngu parhâd y seneddau i dair blynedd.

Y mae yr undeb âg Ysgotland, a ddilynodd yn fuan, yn galw am i ni wneyd cyfeiriad at gynnydd llywodraeth gynnrychioliadol yn y deyrnas hono. Y mae hanes sefydliadau gwleidyddol Ysgotland wedi ei lyngcu i fyny megys gan hanes "rhyfel ei hannibyniaeth:" yn yr hon y darfu i'r wlad hono lwyddo i wrthwynebu ymdrechiadau penaduriaid Normanaidd Lloegr i estyn eu gorchfygiadau tua'r gogledd. Cyn y cyfnod hwn, ymddengys fod cryn debygolrwydd rhwng sefydliadau y ddwy wlad; ac y mae olion hanes seneddol boreuol y naill a'r llall yn debyg i'w gilydd o ran eu nodwedd. Ar ol marwolaeth Alexander III., gwnaed trefniadau i briodi Margaret, etifeddes gorsedd Ysgotland, â'r Tywysog Iorwerth, o Loegr. Cyttunwyd ar hyn gan senedd Ysgotaidd fechan, a ddaeth ynghyd heb i un wŷs frenhinol ei galw. Y lle y cyfarfuwyd oedd Brigham, ar ein hoehr ni o'r terfyn; ac yr oedd y cynnulliad "yn gynnwysedig o bedwar o warcheidwaid, dau o ba rai oeddynt esgobion, a deg o esgobion ereill, deuddeg o ieirll, tri ar hugain o abadau, un ar ddeg

Digitized by Google

o brioriaid, ac wyth a deugain o farwniaid." Attaliwyd y briodas trwy i'r dywysoges, yr hon oedd mor adnabyddus wrth yr enw "Gwyryf Norway," golli ei bywyd ar ei mordaith i Ysgotland trwy longddrylliad. Dewiswyd Baliol i'r orsedd. Mynegir i ni mai y senedd a gynnullodd John Baliol yn Scone, ar y 9fed o Chwefror, 1292, oedd y cyntaf, yn ol pob tebyg, o gynghorau cenedlaethol Ysgotland. Gwnaeth Baliol wedi hyny gyttundeb â Ffraingc; yr hwn a seliwyd gan nifer o esgobion, ieirll, a barwniaid, ynghyd â chwech o fwrdeisdrefi—yr hyn a ddangosai fod y trefi hyny yn cael eu cynnrychioli yn y senedd. Ar y 15fed dydd o Orphenaf, 1326, hawliodd Bruce dreth oddi ar y bobl yn senedd Cambuskenneth, i gyfarfod treuliau y rhyfel, a chaniatawyd iddo y ddegfed ran o'r holl drethi. O'r pryd hwnw canfyddir fod senedd Ysgotland, o ran ei ffurfiau a'i nodwedd, yn gwahaniaethu yn raddol oddi wrth un Lloegr. Tra yr oedd cynnrychiolwyr o'r trefydd, a'r barwniaid lleiaf, neu y rhydd-ddeiliaid, yn elfenau oedd, mewn rhan, yn cyfansoddi senedd Ysgotland, ni chafodd y corph hwnw erioed ei ranu yn ddau dŷ, fel y cafodd senedd Lloegr. Yr oedd yr eglwyswyr urddasol, a'r arglwyddi oedd yno trwy wŷs arbenig, a chynnrychiolwyr y rhydd-ddeiliaid a'r bwrdeisdrefi brenhinol, oll yn eistedd yn yr un neuadd. Yr oedd swyddogion y goron yn meddu lle amlwg yn y seneddau hyn yn rhinwedd y swyddau a weinyddid ganddynt, ond nid oedd ganddynt bleidlais os na byddent yn aelodau mewn rhyw ffordd arall. Yn gyffredin meddiannent eisteddleoedd fel arglwyddi tymmhorol neu eglwysig.

Daeth senedd Ysgotland i feddu yr un rhyddid mewn dadleuaeth ag a geid yn senedd Lloegr; ond heb y rheolau manwl a barent fod pob peth yn cael ei ddwyn yn mlaen mor reolaidd yn Lloegr tra yr oedd yr ymdriniaeth yn hollol rydd. Ymgododd amryw destynau a barasant ddadleuon poethion rhwng y ddwy wlad; ac yn mysg y pethau a achosodd fwyaf o hyn, gellir nodi gwaith senedd Lloegr yn gwneuthur ymchwiliad i achosion a ddigwyddasant yn Ysgotland. Gwrthodid i'r Ysgotiaid gael cyfranogi o fanteision llongwrol a threfedigaethol Lloegr; a phan yr ymdrechasant hwy sylfaenu trefedigaeth eu hunain, galwyd cynllunwyr yr anturiaeth ger bron y senedd Saesnig, i atteb am eu gwaith yn ceisio meddiannu breintiau oedd wedi eu caniatau i gwmnïau masnachol Saesnig. Rhwng pob peth, canfyddwyd nad oedd dim ond uno seneddau Lloegr ac Ysgotland a gadwai yr heddwch rhwng y ddwy wlad. Meddyliwyd llawer am ffurfio yr undeb hwn, a dadleuwyd y peth yn fynych; ac yr oedd ymdrech wedi ei wneuthur ddwywaith o'r blaen i'w ddwyn oddi amgylch; sef, yn 1667, ac yn 1703. Ond cyfodai rhyw anhawsderau ar ei ffordd. Trefnwyd telerau y cyttundeb cyntaf gan ddirprwywyr a appwyntiwyd gan y goron dros y naill wlad a'r llall. Wedi iddynt hwy orphen eu gwaith, y dechreuodd y rhan mwyaf anhawdd; sef, dwyn oddi amgylch yr undeb hwnw trwy basio cyfreithiau i'r perwyl—un yn senedd Ysgotland, a'r llall yn senedd Lloegr. Dadleuaeth frwd ac ystormus a fu yn senedd y flaenaf; ond cariwyd y mesur yn Lloegr yn rhwyddach, ac mewn llai o amser.

Ymgynnullodd senedd unedig Prydain Fawr ar y 23ain o Hydref, 1707. Digwyddodd dau amgylchiad nodedig mewn hanesiaeth seneddol yn fuan ar ol i'r undeb gael ei ffurfio. Yr oedd llywodraeth Doryaidd Harley a St. John yn lled egwan yn Nhŷ yr Arglwyddi, ond gwnaed pedwar ar bymtheg o arglwyddi newyddion yn 1710—11. Nid oedd yr effaith o hyn yn cael ei ragweled ar y pryd. Yn 1831, cofiwyd am hyn fel esampl; a chredir fod y bygythiad i weithredu yn yr un modd wedi cynnorthwyo yn fawr i gario yn mlaen yn llwyddiannus fesur mawr y diwygiad seneddol. Y llall ydoedd pasio mesur cyfansoddiadol mawr; sef, fod i senedd newydd gael ei galw ynghyd bob saith mlynedd. Dilynodd hyn yn ddioed y gwrthryfel yn 1715; a'r amcan cydnabyddedig oedd, cadw mewn awdurdod y blaid a'r senedd a gefnogent yn ffyddlawn deulu Hanover. Pan yr oedd seithfed senedd-dymmor y senedd hono yn agos i ben, gwnaed cais i barhau ei bodolaeth yn hwy; ond rhoddwyd yr ymgais hwnw i fyny. Yr ydym yn awr wedi dyfod at gyfnod pan y cyhuddir y ddeddfwriaeth Brydeinig gan haneswyr a hanesyddiaeth o lygredigaeth dwfn; ond, ar yr un pryd, dyma yr adeg y gwnaeth llywodraethiad seneddol y cynnydd mwyaf sefydlog. Fe allai nad ydyw Tŷ y Cyffredin yn ddyledus i neb yn fwy am y gallu mawr a feddiennir ganddo yn awr nag ydyw i Syr Robert Walpole. Ni chefnogai efe unrhyw ymgais i gael meddiant o alluoedd ac awdurdod na pherthynent iddo yn gyfansoddiadol. Perchid hawlfreintiau y goron, ac hefyd yr eiddo Tŷ yr Arglwyddi. Er hyny cryfhaodd y tŷ isaf o flwyddyn i flwyddyn dan ei weinyddiaeth faith ef. Yr oedd y cynnydd hwn mewn dylanwad yn naturiol yn demtasiwn i lygredigaeth. Yr oedd y goron a'r bendefigaeth yn gweled ei bod yn fwy manteisiol iddynt ymarfer dylanwad yn Nhŷ y Cyffredin nag i ymarfer yr hyn oedd yn aros o'u hawdurdod gyfreithlawn hwy eu hunain. Cadwai rhyw law gref afael ar bob lle bychan oedd yn meddu hawl i anfon cynnrychiolydd i'r senedd: ac yr oedd cynnrychiolaeth y lleoedd hyn yn ddiogel, megys, yn llogell rhyw ŵr mawr a dylanwadol. Yn mhell cyn diwedd y ganrif ddiweddaf, aeth y wlad yn bur naturiol i gondemnio hyn, ac i alw am ddiwygiad seneddol; ac nid oedd neb yn fwy selog am hyn nag amryw o wladweinyddion enwog—ac yn eu plith yr oedd William Pitt, mab y gwleidyddwr galluog a'r areithydd hyawdl, Iarll Chatham. Ond gwyddys pa fodd y darfu i'r chwyldroad Ffrengig eu dychrynu, a pheri i'r cwestiwn gael ei oedi.

Yn y cyfamser, yr oedd sefyllfa yr Iwerddon, fel gwlad ar wahân, ac oedd yn meddu deddfwriaeth wahaniaethol, yn creu anesmwythder. Nid oes angen olrhain cynnydd cyfansoddiadol senedd yr Iwerddon, gan ei bod wedi ei ffurfio ar gynllun un Lloegr. Wedi dangos pleidgarwch cryf i achos tŷ Caerefrog yn amser Rhyfel y Rhosynau, cafodd y senedd Wyddelig ei darostwng i sefyllfa o ymostyngiad, ar esgyniad Harri VII. i'r orsedd, gan yr hyn a elwid yn 'Gyfraith Drogheda.' Yn ol y ddeddf hon, nid oedd dim i gael ei gynnyg yn senedd yr Iwerddon heb iddo yn gyntaf gael ei gymmeradwyo gan y brenin a'i gynghor yn Lloegr. Ac ar yr un pryd, hònai senedd Lloegr yr awdurdod i ddeddfu i'r Iwerddon—a chariodd hyny allan. Ond mynodd y senedd Wyddelig ei hannibyniaeth ar ol hyn. Bu amryw o ddynion tra hyawdl yn aelodau o honi, ond nid oedd eu hathrylith gref yn fynych yn gwneuthur dim ond gwasanaethu i gynnhyrfu ymbleidiau; a byddai

Digitized by Google

dadleuon ystormus yr hwyr yn fynych yn cael eu dilyn gan ymladdau gornest yn y boreu canlynol. O'r diwedd, modd bynag, ar ol dadleuaeth fwy brwd ac ystormus na'r hon a unodd seneddau Lloegr ac Ysgotland yn 1707, unwyd y senedd Wyddelig â senedd Prydain Fawr yn y flwyddyn gyntaf o'r ganrif bresennol.

CYFRAITH Y DIWYGIAD *(Reform Act,* 1832*).*

Y cyfnod pwysig nesaf yn hanes senedd ein gwlad yw yr un a ganlynodd y mesur mawr o ddiwygiad seneddol. Ymdrinir â natur y mesur hwnw fel yr eir yn mlaen; ond y mae y diwygiadau cyssylltiedig â dyfodiad y mesur yn gyfraith yn perthyn gormod i hanes cyffredinol y deyrnas i'w cofnodi yma. Derbyniodd y gyfran bwysicaf o hono—yr ysgrif i wellhau cynnrychiolaeth Lloegr a Chymru—y cydsyniad brenhinol ar y 7fed o Fehefin, 1832. Erbyn hyn, y mae Cyfraith y Diwygiad *(Reform Act)* ar ddeddflyfrau y wlad; ac y mae pob plaid yn awr yn barod i gydnabod na wnaeth un mesur erioed fwy tuag at sicrhau llywodraeth dda, gonestrwydd swyddogol, rhyddid cyffredinol, a llwyddiant gwladwriaethol. Ond y mae yn rhaid addef fod un diffyg pwysig ynddo; sef, nad oedd yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i roddi yr etholfraint ar ammodau ereill i'r dosbarthiadau gweithiol. Yr oedd yn diddymu y drefn fwrdeisiol, &c., yn rhinwedd pa un yr oedd nifer fawr iawn o honynt yn meddu yr etholfraint yn y bwrdeisdrefi, ond heb drefnu dim yn ei lle.

Y CYFANSODDIAD GWLADOL.

Y mae senedd Teyrnas Gyfunol Prydain Fawr a'r Iwerddon yn gynnwysedig o benadur—brenin neu frenhines—Tŷ yr Arglwyddi, a Thŷ y Cyffredin. Y mae i'r tair gradd hyn o'n cyfansoddiad gwladol, fel y dylem sylwi, hawliau a galluoedd gwahaniaethol. Y mae i'r penadur ei hawlfreintiau; i Dŷ yr Arglwyddi ei alluoedd cyfreithiol; ac y mae gan Dŷ y Cyffredin—i'r hwn y perthyn lleiaf o awdurdod ar wahân oddi wrth ei undeb deddfwriaethol gyda'r lleill—fel y mae gan Dŷ yr Arglwyddi hefyd awdurdod i sefyll dros ei hawliau, ac i orfodi personau y dymuna eu chwilio i ymddangos o'i flaen, ac i fynu cael cymmaint o wybodaeth ag a fyddo yn angenrheidiol er dwyn yn mlaen achosion y wladwriaeth. Mewn achosion sydd yn hollol ddeddfwriaethol, modd bynag, gweithreda y tri gallu ynghyd. Dosberthir Tŷ yr Arglwyddi i arglwyddi ysbrydol a thymmorol:—ac y mae dan ddosbarth o'r diweddaf hefyd; sef arglwyddi yn eistedd yno trwy hawl bendant, ac arglwyddi a etholir. Y mae yr esgobion Saesnig, er yn cael eu galw yn arglwyddi ysbrydol, yn eistedd yno yn rhinwedd eu barwniaethau tymmorol; ond y mae un o honynt, sef esgob Sodor a Mann, esgobaeth yr hwn oedd y tu hwnt i derfynau yr hen farwniaethau Normanaidd, nad ydyw yn meddu sedd yn Nhŷ yr Arglwyddi. Yr oedd pedwar o esgobion yn cael eu dewis i gynnrychioli Eglwys yr Iwerddon, ar gylch, yn ol y telerau a sefydlwyd yn amser yr undeb: ond ar ol dadsefydliad yr Eglwys Wyddelig, yn y flwyddyn 1869, nid oes un o'r esgobion hyny yn eistedd yno yn awr. Yr arglwyddi tymmorol a eisteddant yno yn eu hawl eu hunain ydynt, pendefigion Lloegr, pendefigion Prydain Fawr, a wnaed ar ol yr undeb âg Ysgotland, a phendefigion y Deyrnas Gyfunol, y rhai a wnaed ar ol yr undeb â'r Iwerddon. Nid oes derfynau wedi eu gosod i hawl y goron i wneyd rhai yn bendefigion etifeddol o'r Deyrnas Gyfunol. Bu dadl gyda golwg ar hawl y goron i wneyd pendefig dros fywyd. Nid oedd pendefigion am oes yn cael eu gwneyd dan y cyfansoddiad mewn amseroedd boreuol; ond yn y flwyddyn 1856, gwnaeth ei mawrhydi James Parke yn 'farwn Wensleydale' am dymmor ei fywyd naturiol; ond ar annogaeth adroddiad pwyllgor y breintiau, penderfynodd Tŷ yr Arglwyddi nas gallasai gymmeryd ei eisteddle, na phleidleisio yn y tŷ. Ni chynnygiodd efe gymmeryd y llwon gofynol gan hyny; ac yn fuan gwnaed ef yn farwn etifeddol.

Cyfeiriwyd o'r blaen fod aelodau cyntaf Tŷ yr Arglwyddi yn eistedd yn rhinwedd eu daliad o'u tiroedd *(tenure of their lands).* Y mae y cwestiwn o eistedd yno trwy hawlddaliad yn unig, fodd bynag, yn aros yn ammhenderfynol etto. Y mae yn wir nad oes hawl i aelodaeth wedi ei ganiatau ar sail y daliad, er pan y mae y bendefigaeth wedi dyfod yn rhinweddol i fod yn gynnwysedig mewn teitlau yn cael eu rhoddi trwy orchymyn neu ysgrifwys. Ond y mae yr un mor wir, nad oes un gyfraith na dadganiad cyhoeddus wedi ei wneyd nad ydyw y daliad hwnw yn ffurfio hawl i'r teitl. Y mae llawer yn meddwl fod etifeddiaethau mawrion, megys yr eiddo Arundell a Berkeley, etto yn meddu yr hawl o roddi teitl i'r meddiannwyr. Y mae y cwestiwn wedi gorwedd yn llonydd, mewn llawer o enghreifftiau o bossibl, am y rheswm eglur hwn—fod y person a fuasai yn farwn yn rhinwedd y cyfryw ddaliad naill ai yn iarll, neu yn meddu teitl uwch, trwy ysgrifwys.

Y mae hen bendefigaeth Ysgotland yn cael ei chynnrychioli gan un ar bymtheg o'r corph hwnw, y rhai a ddewisir pan y gelwir y senedd. Y pendefigion sydd â chanddynt hawl i'w hethol ydynt y rhai, pa urddas arall bynag a fwynheir ganddynt, sydd mewn meddiant o deitlau a gydnabyddid yn "*Nghoflyfr yr Undeb,*" yr hwn a wnaed i fyny ar yr amser pan y ffurfiwyd yr Undeb â Lloegr.

Y mae y bendefigaeth Wyddelig yn anfon i'r tŷ wyth ar hugain o gynnrychiolwyr, y rhai a ddewisir am eu hoes.

Cynnwysa Tŷ y Cyffredin aelodau dros y siroedd ac aelodau dros y bwrdeisdrefi, ac hefyd gynnrychiolwyr dros y prifysgolion. Gelwir y blaenaf yn Lloegr, a Chymru, a'r Iwerddon yn farchogion y siroedd, a'r olaf yn fwrdeisiaid. Yn ol hen arfer yn Ysgotland, gelwid y ddau ddosbarth yn "ddirprwywyr;" ond y mae yr enw hwn wedi ei roddi heibio yn bresennol.

DEDDF CYNNRYCHIOLAETH Y BOBL.
*(Representation of the People Act,* 1867.*)*

Yr ydym yn cyfleu yma ddarpariadau y mesur o ddiwygiad seneddol a basiwyd yn 1867—1868, gyda golwg ar yr etholfraint. Darpariadau pwysicaf y ddeddf o berthynas i Loegr a Chymru ydynt adranau 3 a 4: y cyntaf yn sefydlu tŷ-etholfraint yn y bwrdeisdrefi, a'r ail yn ymwneyd âg etholfraint y siroedd. Y mae adran y 3ydd yn pennodi,

"Fod gan bob dyn hawl i gael ei gofrestru yn bleidleisiwr, ac wedi ei gofrestru, i bleidleisio dros dros aelod neu aelodau i wasanaethu yn y senedd dros fwrdeisdref fyddo yn meddu y cymmhwysderau canlynol:—1. Yr hwn fyddo wedi cyrhaedd llawn oedran gŵr, ac heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw anghymmhwysder cyfreithiol: 2. a fyddo ar y dydd olaf o Orphenaf, mewn unrhyw flwyddyn, wedi bod am yr oll o'r deuddeng mis blaenorol yn dal tŷ ac yn preswylio ynddo, neu ynte yn preswylio mewn tŷ o'i eiddo ei hun, mewn rhyw ran o'r



Digitized by Google

Nid ydyw y fyddin yn bod ond o flwyddyn i flwyddyn, trwy basio yn flynyddol deddf gwrthryfel, heb yr hon ni byddai grym mewn dysgyblaeth filwrol. Y mae yr arian a ddefnyddir i gynnal y fyddin, yn gystal ag i weinyddu cyfiawnder, ac at holl wasanaeth gwladol y wladwriaeth, yn cael eu caniatau yn flynyddol gan Dŷ y Cyffredin. Mewn gair, er parhâd ein cyfansoddiad â'n trefniadau gwladwriaethol, y mae cyfarfyddiad y senedd yn rhwym o gymmeryd lle yn flynyddol yn rheolaidd.

Y mae gan y ddau dŷ o senedd awdurdod mawr. Byddai yn anhawdd nodi allan unrhyw ddull o ymarfer gallu dros y deiliaid nad ydyw yn gyfrifol i'r senedd, yn enwedig i Dŷ y Cyffredin. Nid ydyw aelodau y weinyddiaeth er's amser maith wedi cael eu gwneyd i fyny o aelodau Tŷ yr Arglwyddi yn unig. Edrychir ar gyllid treftadol y goron yn awr fel meddiant cyhoeddus. Y mae y llechres wladol *(civil list)*, yr hon ar un adeg oedd yn swm mawr o arian a roddid yn llaw y penadur i dalu treuliau y sefydliadau gwladol, yn awr yn cael ei dosbarthu at ei gwahanol ddybenion gan Dŷ y Cyffredin; ond er ei fod yn meddu awdurdod ar fodolaeth y fyddin, fel corph sydd yn gofalu am dalu ei threuliau, etto ceidw y goron ei rheolaeth yn benaf yn ei llaw ei hun. Ymarferir y gallu hwn trwy brif gadlywydd; yr hwn nid ydyw yn aelod o'r weinyddiaeth, ac nid yw yn gyfrifol i'r senedd yn yr un ystyr ag y mae aelodau o'r weinyddiaeth felly. Ond yn raddol, y mae hyn hefyd yn dyfod yn fwy o dan awdurdod y senedd, yn enwedig ar ol pennodiad prif ysgrifenydd rhyfel, yn 1855; yr hwn sydd yn aelod o'r weinyddiaeth, gydag is-ysgrifenydd, yr hwn hefyd sydd yn meddu eisteddle yn y senedd. Y mae y llynges mewn enw yn hollol yn llaw y goron; ond y mae dygiad yn mlaen ei gweithrediadau modd bynag, wedi bod am amser maith o dan awdurdod y senedd, wedi ei drosglwyddo gan y goron i ddwylaw dirprwyaeth—y prif aelod o ba un, ac yn gyffredin aelodau ereill hefyd, ydynt yn aelodau seneddol.

Yn ystod yr hanner canrif, neu y trigain mlynedd diweddaf, y mae y chwanegiad mewn gallu ac awdurdod seneddol wedi disgyn yn mron yn gwbl i ran Tŷ y Cyffredin. Yno y mae gweinyddiaethau yn cael eu difodi neu eu cadarnhau, a'r holl fesurau mawrion yn mron yn cael eu hystyried. Nid yn fynych y cafodd mesurau mawrion a phoblogaidd eu genedigaeth yn Nhŷ yr Arglwyddi; ond gellir dyweyd am dano, ei fod yn raddol megys pe yn ymffurfio yn rhyw fath o bwyllgor i edrych dros a chyfnewid y mesurau a anfonir iddo o Dŷ y Cyffredin. Y mae yn fynych yn y modd hwn yn gwrthod amryw fesurau a gymmeradwyir gan Dŷ y Cyffredin.

RHEOLAU A THREFNIADAU Y DDAU DY.

Perthyna i'r ddau dŷ o senedd eu rheolau sefydlog *(standing orders)*, neu drefniadau, wedi eu mabwysiadu ar wahanol gyfnodau, yn dwyn perthynas mewn rhan â rheoleiddiad eu gweithrediadau, ac mewn rhan â'r dygiad i mewn o fesurau, a rhoddiad cyfreithiau mewn grym. Y mae pob rheol sefydlog yn aros mewn grym nes y caiff ei diddymu; ond y mae y ddau dŷ yn mabwysiadu rheolau neu benderfyniadau pennodol o barhâd ansicr, a ystyrir yn llai eu grym na'r rheolau sefydlog. Cyferfydd Tŷ yr Arglwyddi yn gyffredin am bump o'r gloch yn y prydnawn; a Thŷ y Cyffredin am chwarter i bedwar, oddi eithr ar ddydd Mercher, a rhyw ddyddiau ereill a nodir yn bendant, pan y mae amser yr eisteddiad o ddeuddeg o'r gloch hyd chwech. Yn Nhŷ yr Arglwyddi, y mae y canghellydd, fel llefarydd, yn eistedd ar y sach wlân. Y mae rheol sefydlog, er nad ydyw byth yn cael ei rhoddi mewn grym, yn gofyn am i'r arglwyddi gymmeryd eu lle yn ol eu gradd. Eistedda yr esgobion gyda'u gilydd ar ochr ddeheu yr orsedd; aelodau y weinyddiaeth ar y faingc flaenaf ar y ddeheu i'r sach wlân, yn ymyl yr esgobion; a'r pendefigion a bleidleisiant gyda hwy yn gyffredin ar y meingciau ereill ar yr ochr hono. Eistedda y pendefigion o'r wrthblaid ar yr ochr gyferbyniol; a'r rhai a ystyrir yn ganolog a eisteddant ar y meingciau croes, sydd rhwng y bwrdd a'r bar. Yn Nhŷ y Cyffredin, y mae y faingc flaenaf ar law ddeheu y llefarydd yn cael ei chadw i aelodau y weinyddiaeth, a gelwir hi yn faingc y trysorlys; ac ar y faingc flaenaf ar yr ochr arall yr eistedda blaenoriaid yr wrthblaid. Darllenir gweddïau cyn dechreu ar y gwaith yn Nhŷ yr Arglwyddi gan un o'r esgobion; ac yn Nhŷ y Cyffredin gan y caplan. Gall Tŷ yr Arglwyddi fyned â'i waith yn mlaen pan na byddo ond tri o'r aelodau yn bresennol; ond yn Nhŷ y Cyffredin y mae yn rhaid cael deugain. Cyfrifa y llefarydd y tŷ am bedwar o'r gloch; ac os na bydd y nifer hwnw yn bresennol, gohirir y tŷ.

Rhaid rhoddi rhybudd o gwestiynau neu gynnygion y bwriedir eu dwyn yn mlaen ar ddiwrnod blaenorol. Y mae y cyffredinwyr yn arfer neillduo y dyddiau Llun, Mercher, Iau, a Gwener, i ystyried materion yr oedd y tŷ eisoes wedi cyttuno i'w hystyried ar ddydd neillduol, a chedwir dydd Mawrth at gynnygiadau. Y mae gwaith y llywodraeth yn hawlio y flaenoriaeth ar bob gwaith arall ar bob dydd o'r wythnos, ond dydd Mercher, yr hwn yn gyffredin a roddir heibio at wasanaeth aelodau annibynol. Gellir dilyn cynnygiad âg araeth; a rhaid iddo yn y tŷ isaf gael ei gefnogi cyn y bydd yn rheolaidd o flaen y tŷ. Mewn cynnygion ffurfiol yn unig, nid ydyw y rheol hon yn cael ei chadw: gellir cynnyg myned at drefniadau y dydd heb un cefnogydd. Nid ydyw yn angenrheidiol cael cefnogydd yn Nhŷ yr Arglwyddi. Rhaid i gynnygydd yn Nhŷ y Cyffredin roddi ei gynnygiad mewn ysgrifen i'r llefarydd, yr hwn a'i rhydd o flaen y tŷ; ac nis gellir ei alw yn ol heb ganiatâd y tŷ. Yn Nhŷ yr Arglwyddi, pan y gwneir cynnygiad, gofynir cwestiwn, "A gyttunir â'r cynnygiad." Pan y cynnygir gwelliant ar gwestiwn, nis gellir tynu y cynnygiad gwreiddiol yn ol hyd nes y byddo y gwelliant naill ai wedi ei alw yn ol neu ei wrthod. Gellir osgoi cwestiwn mewn pedair ffordd:—1. Trwy ohiriad. Gall unrhyw aelod fydd yn anerch y tŷ gynnyg ar fod y tŷ yn cael ei ohirio. Gellir hefyd gohirio y tŷ, hyd yn oed pan y bydd aelod yn ei anerch, pan y sylwir fod llai na deugain o aelodau yn bresennol. Nid yw y cynnygiad fod "y ddadl yn awr yn cael ei gohirio," yn ddim amgen na thaflu penderfyniad y tŷ hyd adeg arall. 2. Trwy gynnyg ar fod i drefniadau y dydd gael eu darllen; yr hyn y gellir ei gario ar ddyddiau pan y byddo y rhybuddion o gynnygion yn meddu y flaenoriaeth. 3. Trwy gynnyg yr hyn a elwir y 'cwestiwn blaenorol' *(previous question)*; ac os llwyddir, nis gall y llefarydd roddi y prif gwestiwn ger bron, ond gellir ei ddwyn yn mlaen rywbryd drachefn. 4. Trwy

Digitized by Google

gynnyg gwelliant yn dwyn i mewn eiriau o ystyr hollol wahanol i'r rhai fydd yn y cynnygiad; ac felly bydd barn y tŷ yn cael ei gymmeryd ar gwestiwn arall.

Pan y rhoddir cwestiwn gan y cadeirydd yn Nhŷ yr Arglwyddi, atteba y pleidiau 'boddlawn' *(content)*, neu 'anfoddlawn' *(non-content)*. Yn Nhŷ y Cyffredin, y geiriau a ddefnyddir ydyw 'ie' *(aye)*, neu 'nage' *(no)*. Yna traetha y llefarydd ei farn o ba ochr y bydd y mwyafrif; ac os derbynia y tŷ ei farn, bydd y cwestiwn wedi ei benderfynu yn gadarnhaol, neu yn nacaol. Pan y gelwir ei benderfyniad i gwestiwn, rhaid cyfrif yr aelodau trwy ranu y Tŷ. Yna rhenir y ddau dŷ, trwy i'r rhai fydd dros y cwestiwn fyned i'r fynedfa ar y ddeheu, a'r rhai yn erbyn i'r un aswy; a chaiff pob un ei gyfrif gan adroddwyr a bennodir gan y llefarydd. Y mae dau ysgrifenydd yn Nhŷ y Cyffredin, gyda rhestrau argraphedig ganddynt o'r aelodau, yn rhoddi nôd wrth enw pob un fel y dychwela yn ol i'r tŷ, fel ag i sicrhau cywirdeb yn rhestrau yr ymraniad. Mae gan lefarydd Tŷ y Cyffredin, yr hwn nad ydyw, o dan amgylchiadau ereill, yn pleidleisio nac yn cymmeryd rhan mewn dadl, yn meddu pleidlais derfynol *(casting vote)* pan y bydd y pleidiau yn gyfartal. Yn Nhŷ yr Arglwyddi, ar y llaw arall, nid ystyrir fod y canghellydd yn anghymmhwys i gymmeryd rhan mewn dadl: y mae yn pleidleisio mewn ymraniadau, ond nid oes ganddo bleidlais derfynol; a phan y bydd y pleidiau yn gyfartal mewn rhif, yr anfoddlonwyr sydd yn cario. Y mae y drefn o bario yn cael ei harfer yn gyffredin; yr hon, er nad ydyw yn cael ei chydnabod yn uniongyrchol gan y tŷ, sydd yn galluogi aelodau o bleidiau gwrthwynebol i absennoli eu hunain am dymmor y cyttunir arno ganddynt, fel y bo pleidlais y naill yn mantoli y llall. Pan yn cyfarch y tŷ, y mae aelod o Dŷ y Cyffredin yn anerch y llefarydd; ac aelod o'r tŷ uchaf yn anerch eu harglwyddiaethau yn gyffredinol. Nis gall un aelod siarad ond pan y bydd cwestiwn o flaen y tŷ, neu gyda golwg ar gynnyg penderfyniad neu welliant: yr unig eithriadau ydynt, pan y rhoddir cwestiynau i weinidogion y goron, neu i ryw aelodau y bydd a wnelont â rhyw fater a fyddo o flaen y tŷ, ac i egluro rhyw achosion personol. Ni chaniateir i aelod siarad ddwywaith ar yr un cwestiwn oddi eithr mewn ffordd o eglurhâd; ond caiff y cynnygydd, mewn rhai achosion, mewn ffordd o attebiad. Nid yw y rheol hon yn cael ei chymmhwyso at y pwyllgorau. Yn ol y rheolau sydd wedi eu mabwysiadu gan y ddau dŷ er cadw trefn mewn dadleuaeth, ni chaniateir gwneyd cyfeiriad at ddadleuon yn yr un eisteddiad ar gwestiwn na byddo o dan sylw, nac at ddadleuon yn y tŷ arall o'r senedd. Ni chaniateir i aelod gyfeirio at un arall wrth ei enw, nac mewn un ffordd, ond trwy gyfeirio at ei sefyllfa, neu ei swydd, neu at y lle a gynnrychiolir ganddo.

Y mae y pwyllgorau seneddol naill ai yn cynnwys yr "holl dŷ," neu ynte y maent yn ddetholedig. Pwyllgor o'r holl dŷ ydyw y tŷ ei hun; ond fod cadeirydd yn lle y llefarydd yn llywyddu. Cymmerir y gadair yn Nhŷ yr Arglwyddi gan gadeirydd y pwyllgorau, yr hwn a etholir ar ddechreu pob senedd-dymmor: yn Nhŷ y Cyffredin, gan gadeirydd 'pwyllgor math a moddion' *('ways and means')*. Ymdrinir â materion yn dwyn perthynas â chrefydd, masnach, gosodiad trethi, neu âg arian y cyhoedd, yn gyffredin mewn pwyllgor o'r tŷ cyn deddfu arnynt. Dygir y gweithrediadau yn mlaen mor debyg ag y mae yn bossibl i fel y gwneir pan y bydd y tŷ yn eistedd:—anerchir yr arglwyddi yn y tŷ uchaf: ac yn yr isaf y cadeirydd, gan yr hwn y mae yr un awdurdod ag sydd gan y llefarydd; ac y mae ganddo bleidlais derfynol os bydd y pleidiau yn gyfartal. Y mae yn angenrheidiol fod deugain o aelodau Tŷ y Cyffredin yn bresennol mewn pwyllgor, fel yn nghyfarfyddiadau arferol y tŷ; ac os na bydd y nifer hwnw yn bresennol, bydd yn rhaid i'r llefarydd gymmeryd y gadair, a gohirio y tŷ. Ni raid i gynnygiad mewn pwyllgor gael ei gefnogi cyn yr ystyrir ef o flaen y pwyllgor; ac y mae mwy o ryddid yn cael ei ganiatau mewn dadl na phan y bydd y tŷ yn eistedd, gan fod yr aelodau at eu rhyddid i siarad fwy nag unwaith ar yr un cwestiwn. Pan na byddo yr ymdrafodaeth mewn llaw wedi ei gorphen ar ddiwrnod yr eisteddiad, cynnygia y cadeirydd fod i'r "tŷ ymffurfio yn bwyllgor etto ar ryw ddydd arall." Y mae pwyllgorau detholedig yn gynnwysedig o nifer pennodol o aelodau wedi eu happwyntio i wneyd ymchwiliad neu adroddiad ar ryw fater. Nis gall pwyllgorau yr un o'r ddau dŷ orfodi tyst i ymddangos: rhaid i hyny gael ei wneyd, pan y bydd hyny yn angenrheidiol, gan y tŷ ei hun. Y mae i Dŷ y Cyffredin amryw reolau sefydlog er sicrhau effeithiolrwydd ei bwyllgorau, ac ammhleidgarwch yn eu pennodiad. Nid oes un pwyllgor detholedig i gynnwys mwy na phymtheg. Rhaid i aelodau a gynnygiant bennodi pwyllgor feddu sicrwydd fod yr aelodau a gynnygir ganddynt yn foddlawn i ymgymmeryd â'r gwaith. Wrth bob cwestiwn a ofynir i dyst y mae enw yr aelod fydd yn ei ofyn yn cael ei osod yn yr adroddiad o'r gweithrediadau a osodir o flaen y tŷ; ac enwau yr aelodau a fyddant yn bresennol yn mhob eisteddiad, ynghyd â manylion ereill. Nid oes dim rheolau neillduol yn Nhŷ yr Arglwyddi yn nghylch pennodiad a chyfansoddiad pwyllgorau; ond y mae rhai penderfyniadau cyffelyb i osodiadau Tŷ y Cyffredin wedi eu mabwysiadu er y flwyddyn 1852. Y mae gan bwyllgorau detholedig hawl i ohirio o bryd i bryd, ac o le i le. Yn y pwyllgorau ar fesurau anghyhoedd *(private bills)*, yn Nhŷ y Cyffredin, y mae gan y cadeirydd bleidlais fel aelod, yn gystal a phleidlais derfynol fel cadeirydd.

Wrth gwrs, y prif waith sydd gan y ddau dŷ i'w gyflawni ydyw pasio mesurau. Yn yr hen amseroedd, yr oedd deddfau yn cael eu gwneyd mewn ffurf o ddeisebau oddi wrth y cyffredinwyr, ac yna eu cofrestru ar goflyfrau y senedd, gydag attebiad y brenin ynglŷn â hwynt; ac ar ddiwedd y senedd-dymmor, tynid hwynt allan ar ffurf deddf, a dodid hwynt yn y coflyfrau deddfwriaethol. Yn amser Harri VI. y dygwyd i mewn gyntaf fesurau ar ffurf deddfau cyflawn. Y mae yr holl fesurau naill ai yn 'gyhoedd' neu yn 'anghyhoedd.' Y mae y rhai blaenaf yn effeithio ar y wlad yn gyffredinol, a'r ail yn perthynu i achosion lleol. Dygir mesurau cyhoeddus i mewn gan aelodau yn uniongyrchol; a mesurau anghyhoedd mewn canlyniad i ddeisebau oddi wrth y pleidiau y byddo a wnelont â'r mater a gyflwynir gan yr aelodau hyny. Gall mesurau gael eu dwyn i mewn yn gyntaf i'r naill dŷ neu y llall:—nid oes wahaniaeth. Gall unrhyw aelod yn Nhŷ yr Arglwyddi ddwyn mesur cyhoeddus i mewn. Yn Nhŷ y

Digitized by Google

Cyffredin, gall unrhyw aelod ddwyn mesur i mewn, ond un a fyddo yn gosod treth: mewn amgylchiadau felly gofynir am ganiatâd y tŷ. Pan y cefnogir y cynnygiad, ac y ceir caniatâd i'w ddwyn i mewn, gorchymynir i'r cynnygydd a'r cefnogydd ei barotoi a'i ddwyn yn mlaen. Y mae y mesurau hyny sydd yn dal cyssylltiad â chrefydd, masnach, defnyddiad o'r cyllid cyhoeddus, neu drethiad, pa fodd bynag, i gael eu dwyn i mewn gan y tŷ ei hun, ar adroddiad pwyllgor o'r holl dŷ. Tynir y mesur allan ar bapur, gyda gwagle ynddo, lle y tybir fod unrhyw beth yn ammheus, neu ynte lle y bydd rhyw symiau o arian i'w rhoddi i lawr ynddo. Pan y bydd yn barod, cyflwynir ef o flaen y bàr gan un o'r aelodau a orchymynwyd i'w ddarparu; ac wedi hyny, ar archiad y llefarydd, dygir ef i fyny at y bwrdd. Rhoddir y cwestiwn, "Fod y mesur yn awr i gael ei ddarllen y tro cyntaf:" ac anfynych y gwrthwynebir hyn. Yna, pennodir diwrnod i ystyried y cwestiwn "fod y mesur i gael ei ddarllen yr ail waith;" a chaniateir digon o amser iddo gael ei argraphu a'i ledaenu. Os bydd egwyddor gyffredinol mesur yn cael ei gwrthwynebu, ar yr ail ddarlleniad yn gyffredin y gwrthwynebir ef. Y mae hyn yn cael ei wneyd trwy adael allan y gair "yn awr," a rhoddi i mewn yn ei le "yn mhen tri mis," neu "yn mhen chwe mis," neu rhyw amser arall y tu hwnt i'r amser y mae yr eisteddiad hwnw yn debyg o barhau. Os bydd i fesur gael ei gymmeradwyo ar yr ail ddarlleniad, trosglwyddir ef i bwyllgor detholedig, neu i bwyllgor o'r holl dŷ, i ystyried ei ddarpariaethau o un i un. Pan y terfynir gweithrediadau y pwyllgor, darllenir y mesur i'r tŷ gyda'r gwelliantau; a gellir naill ai cyttuno â hwynt, eu gwellhau, neu eu gwrthod. Yna gorchymynir ei ddarllen y drydedd waith, pan yr adolygir yr holl fesur. Nis gellir gwneyd gwelliantau, ond rhai geiriol, y pryd hwn; a rhoddir y cwestiwn i'r tŷ, "fod y mesur hwn i basio." Cyttunir ar enw y mesur yn olaf peth. Wedi i'r mesur fyned trwy Dŷ y Cyffredin yn y modd hwn, yna anfonir ef i Dŷ yr Arglwyddi, ac y mae yn myned trwy yr un ffurfiau yno. Os gwrthodir ef, ni chymmerir sylw pellach o hono: os cymmeradwyir ef, anfonir cenadwri i Dŷ y Cyffredin i hysbysu eu bod wedi cyttuno â g ef. Os gwneir gwelliantau, anfonir hwynt gyda'r mesur i'w hail ystyried yn Nhŷ y Cyffredin; ac os na byddant hwy yn foddlawn, hawlir cynnadledd gan y cyffredinwyr, i amlygu eu rhesymau dros wrthod cydsynio â'r gwelliantau. Yn y cynnadleddau hyn dygir y naill dŷ i gydgyfarfyddiad â'r llall, trwy gyfrwng dirprwyaeth o'u haelodau. Os na bydd yr arglwyddi yn foddlawn ar y rhesymau a ddygir yn mlaen, gofynir am ail gynnadledd; ar ol hyny, gellir hawlio yr hyn a elwir yn "gynnadledd rydd," yn yr hon y bydd gan y blaenoriaid fwy o ryddid, ac y gallant ddwyn yn mlaen unrhyw resymau a ewyllysiant. Ni chynnaliwyd un gynnadledd rydd er y flwyddyn 1740. Trwy benderfyniadau a wnaed gan y ddau dŷ yn 1851, gellir yn awr anfon cenadwri o'r naill dŷ i'r llall heb alw cynnadledd, os na bydd y tŷ yn dymuno cael cynnadledd. Os cyttuna y cyffredinwyr yn y diwedd â'r gwelliantau, anfonir y mesur yn ol i'r arglwyddi: os na wneir, fe'i rhoddir i fyny. Eir trwy yr un ffurfiau pan y bydd mesur wedi ei ddwyn yn mlaen a'i fabwysiadu yn gyntaf yn Nhŷ yr Arglwyddi.

Mewn perthynas i fesurau anghyhoedd, y mae gwaith y senedd yn cyfranogi o nodwedd gyfreithiol yn gystal a deddfwriaethol, ac y mae yr anhawsderau i wastattau manteision personol a chyhoeddus yn fynych yn rhoddi achlysur i ymchwiliadau rhy fawr i'r tŷ ymgymmeryd â hwynt: gan hyny, y mae yn rhoddi yr hawl i wneyd yr ymchwiliad i bwyllgorau. Y mae y rheolau sefydlog yn gofyn am i rybuddion pennodol i bleidiau y bydd rhywbeth a wnelont â'r achos gael eu hanfon a'u gwasanaethu arnynt yn bersonol, ac i'r cyhoedd drwy hysbysiadau. Dygir y mesurau hyn i mewn os byddant wedi boddloni yr ymchwilwyr neu y pwyllgorau. Rhaid i dri diwrnod fod rhwng y darlleniad cyntaf a'r ail. Ar yr ail ddarlleniad y mae yr egwyddor yn cael ei chymmeryd i ystyriaeth, fel yn achos mesurau cyhoeddus; ac os cerir y mesur, y mae yn cael ei gyflwyno i bwyllgor cynnwysedig o gadeirydd a phump o aelodau—gwaith y rhai ydyw dosbarthu y mesurau, enwi y pwyllgorau arnynt, a threfnu amser eu heisteddiad. Gosodir mesurau ffyrdd haiarn a chamlesydd o flaen pwyllgor cyffredinol ffyrdd haiarn a chamlesydd. Y mae bwrdd masnach, yr ysgrifenydd cartrefol, arglwyddi dirprwyol y môrlys, a dirprwywyr y coedwigoedd a'r fforestydd hefyd yn ymarfer awdurdod dros fesurau anghyhoedd o amrywiol fathau.

Y mae mesur yn dyfod yn gyfraith, neu yn ddeddf seneddol, pan y derbynia y cydsyniad brenhinol, yr hwn a roddir yn Nhŷ yr Arglwyddi —pan y bydd aelodau Tŷ y Cyffredin hefyd yn bresennol wrth y bàr. Rhoddir y cydsyniad brenhinol hwn mewn un o ddwy ffordd: naill ai trwy freintlythyrau o dan y sêl fawr, wedi eu llawnodi gan y penadur ei hun, a'u cyflwyno i'r ddau dŷ gan ddirprwywyr; neu gan y penadur yn bresennol yn bersonol yn Nhŷ yr Arglwyddi. Y tro diweddaf y gwrthodwyd rhoddi y cydsyniad brenhinol i fesur wedi pasio y senedd yn rheolaidd ydoedd dan y frenhines Anne, yn 1707, yn mherthynas i fesur oedd yn dal cyssylltiad â chartreflu Ysgotland. Nid yn fynych y mae y cydsyniad brenhinol yn cael ei roddi yn bersonol, oddi eithr ar ddiwedd y senedd-dymmor, pan y bydd y frenhines yn dyfod i ohirio y senedd: yna y mae hi yn arwyddo ei chydsyniad â'r cyfryw fesurau ag a basiwyd er pan yr awdurdododd y ddirprwyaeth ddiweddaf. Wedi i'r cydsyniad brenhinol gael ei roddi gan y penadur yn bersonol, darllena ysgrifenydd y goron deitlau y mesurau; yna ymgryma ysgrifenydd y senedd o flaen yr orsedd, gan gydnabod cydsyniad ei mawrhydi.

Yn flaenorol i 1688, yn chwanegol at drethi a godai y senedd, yr oedd trethi weithiau yn cael eu codi trwy ymarfer rhagorfraint y goron. Nid oes dim trethi wedi eu cyfodi er adeg y chwyldroad ond trwy awdurdod y senedd. Gan Dŷ y Cyffredin yn unig y mae yr hawl i godi trethi a chaniatau arian tuag at ddwyn yn mlaen y gwasanaeth cyhoeddus. Nid oes gan yr arglwyddi ddim oll a wnelont â hyn.

Yn mysg ei dyledswyddau ereill, y mae y senedd i dderbyn deisebau. Rhaid i ddeiseb gael ei chyflwyno gan un o aelodau y tŷ yr anfonir hi iddo. Y mae deisebau oddi wrth gorphoraeth Llundain, modd bynag, yn eithriaid i hyn—y rhai a gyflwynir gan y siryddion o flaen y bàr. Yr ydys hefyd wedi caniatau i arglwydd faer Dublin gyflwyno deiseb o flaen y bàr. Yn Nhŷ yr Arglwyddi, pan y gosodir deiseb ar y bwrdd,

Digitized by Google

a rhagfynegir ynddi ddinystr dinasoedd y Philistiaid, ac adferiad tŷ Iudah ar ol yr ymweliad: *adn.* 4—7. Bygythir gelynion ereill Iudah, sef Moab ac Ammon, â dinystr parhaol, Ethiopia â lladdfa fawr, a Ninefeh, prif ddinas Assyria, âg anrhaith: *adn.* 8—15. Yn y drydedd bennod, y mae y prophwyd yn cyfarch Ierusalem, yr hon a geryddir ganddo yn llym am ei drygioni a'i hanufudd-dod, creulondeb y tywysogion, a bradwriaeth yr offeiriaid, ac am eu diystyrwch cyffredinol o rybuddion ac ymweliadau: *adn.* 1—7. Yna y mae yn diweddu gyda chyfres o addewidion, bygythion o ddinystr yn erbyn gelynion pobl Dduw, adferiad Israel, a heddwch a gwynfydedigrwydd parhaol y gweddill o'r bobl druain dlodion a obeithient yn enw yr Arglwydd. Cymmysgir yr annogaethau hyn i lawenhau ac ymdrechu gyda hysbysiadau am amlygiad cyflawn o gyfiawnder a chariad Duw yn adferiad ei bobl: *adn.* 8—20.

Prif nodweddion y llyfr hwn ydyw undeb a chyssondeb ei gyfansoddiad, ei arddull urddasol a nerthol, a'i gymmysgedd nodedig o fygythion ac addewidion. Dangosir ei ystyr prophwydol yn benaf yn y rhagfynegiadau cywir am y dinystr a ddisgynodd ar bob un o'r gwledydd a gondemnir am eu pechodau. Ethiopia, yr hon a fygythir âg ymosodiad dychrynllyd, ydyw yr unig un sydd yn cael ei heithrio oddi wrth y dynged o ddinystr parhaol.

Rhoddir amseriad y llyfr i lawr yn ei ddechreu; sef, teyrnasiad Iosiah, o c. c. 642 i 611. Cyttuna yr amseriad hwn yn hollol â'r prawfion a geir yn y llyfr ei hun. Gosodir Ninefeh allan fel mewn sefyllfa o heddwch a llwyddiant, tra y mae y crybwyllion am Ierusalem yn cyffwrdd â'r un tueddiadau at eilunaddoliaeth a phechodau ag a gondemnir gan y prophwyd Ieremiah.

Yn mhellach, y mae yn dra thebygol fod y brophwydoliaeth wedi ei chyhoeddi cyn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Iosiah, pan y cariwyd allan y diwygiad, i ba un yr oedd yn parotoi y ffordd, ac o ddeutu yr amser pan y darfu y Scythiaid oresgyn ymherodraethau Asia Orllewinol, gan estyn eu difrodiadau mor bell a Phalestina. Gellir rhoddi eglurhâd boddlonol ar yr ymadroddion; y rhai, yn ol meddwl rhai beirniaid, sydd yn dynodi amseriad diweddarach. Nis gallai "plant y brenin," y rhai y lleferir am danynt yn *pen.* i. 8, fel rhai a lynent wrth arferion dyeithr, fod yn blant i Iosiah, yr hwn nid oedd ond wyth mlwydd oed ar ei esgyniad i'r orsedd; ond y mae yn debygol mai ei frodyr neu ei berthynasau agosaf ef oeddynt. Rhydd yr ymadrodd "gweddill Baal" (*pen.* i. 4), ar ddeall fod rhyw ddiwygiad hannerog wedi cymmeryd lle o'r blaen: ond y mae y crybwyllion am eilunaddoliaeth gyhoeddus yn anghysson â sefyllfa Iudah ar ol darganfyddiad Llyfr y Gyfraith.

2. SEPHANIAH: un o'r Lefiaid Cohathaidd, hynafiad Samuel a Heman: 1 *Cron.* vi. 36.

3. SEPHANIAH: mab Maaseiah (*Ier.* xxi. 1), ac ail offeiriad yn nheyrnasiad Sedeciah. Efe a ddilynodd Iehoiada (*Ier.* xxix. 25, 26), ac y mae yn debyg ei fod yn un o lywodraethwyr y deml; gwaith yr hwn, yn mysg pethau ereill, oedd cospi y rhai a ffughònent eu bod yn meddu y ddawn brophwydoliaethol. Yn y cymmeriad hwn yr appeliwyd ato gan Semaiah y Nehelamiad, mewn llythyr o Babilon, i gospi Ieremiah: *Ier.* xxix. 29. Anfonwyd ef ddwywaith gan Sedeciah i ofyn i Ieremiah beth a ddigwyddai o ryfel Nebuchodonosor yn erbyn Ierusalem (*Ier.* xxi. 1), ac i erfyn arno weddïo ar yr Arglwydd dros y bobl: *Ier.* xxxvii. 3. Pan orchfygwyd Ierusalem gan Nebusaradan, cymmerwyd ef gyda Seraiah yr archoffeiriad, ac ereill, a lladdwyd hwynt yn Riblah: *Ier.* lii. 24, 27; 2 *Bren.* xxv. 18, 21.

4. SEPHANIAH: tad Iosïah yr ail (*Zech.* vi. 10), a Hen: *Zech.* vi. 14.

SEPHAR. Ceir y gair hwn yn y Beibl ar ol rhifiad meibion Ioctan: "A'u preswylfa oedd o Mesa, ffordd yr elych i Sephar, mynydd y dwyrain;" *Gen.* x. 30. Y mae yn debygol mai o'r gorllewin i'r dwyrain yr ymfudodd yr Ioctaniaid, a'u bod wedi meddiannu y rhan dde-orllewinol o'r orynys. Nid oes un ammheuaeth nad yr hen dref borthladdol yn Arabia, a elwir Dhafári neu Zafari, ydyw Sephar Genesis. Saif ar lan y môr, yn nhalaeth Hadramäwt, ac yn agos i'r dosbarth cyssylltiol â'r dalaeth hono ar du y dwyrain, a elwir Esh-Shihr. Dywed Wellsted am dani, "Y mae Dofár yn gorwedd dan fynydd uchel." Yn y "*Marasid*," dywedir mai yn mynydd Dhafári yn unig y ceid thus (yn amser yr awdwr); a dywed Niebühr ei bod yn allforio y thus goreu. Sylfaenwyd eglwys Gristionogol ynddi yn B. A. 343, trwy ganiatâd y brenin Tubbáá. Theophilis, yr hwn a anfonwyd yno gan yr ymherawdwr Cystenyn i wneyd y gwaith, oedd yr esgob cyntaf.

SEPHARFAIM: enw a grybwyllir gan Senacherib, yn ei lythyr at Hezeciah, fel dinas, brenin yr hon oedd wedi bod yn analluog i wrthsefyll yr Assyriaid: 2 *Bren.* xix. 13; *Esa.* xxxvii. 13: gwel hefyd 2 *Bren.* xviii. 34. Cyssylltir hi â Hena ac Ifah, y rhai oeddynt drefydd ar yr Euphrates, uwch law Babilon. Drachefn, crybwyllir hi, yn 2 *Bren.* xvii. 24, fel un o'r lleoedd y symmudwyd trefedigion i boblogi Samaria anrheithiedig, wedi i'r Israeliaid gael eu cludo i gaethiwed, lle y mae etto yn cael ei chyssylltu âg Afa, ac hefyd â Cuthah a Babilon. Y mae y ffeithiau hyn yn ddigon i brofi mai yr un ydyw y llc â thref enwog Sippara, ar yr Euphrates, uwch law Babilon, yr hon oedd yn agos i safle y Mosaib ddiweddar. Crybwyllwyd Sippara gan Berosus fel y man lle, yn ol ei farn ef, y claddodd Xithrus (neu Noah) gofnodion y byd cyn y diluw, ac yn mha le y cafodd ei hiliogaeth hwynt drachefn. Dywed Abydenus fod Nebuchodonosor wedi gwneyd llyn mawr yn ei chymmydogaeth, i'r dyben o ddyfrhau y tir. Galwodd Berosus Sippara yn "ddinas yr haul;" a rhoddir yr un teitl iddi yn yr arysgrifeniadau, gan ei bod yn cael ei galw yn "Sippara yr haul"—am mai yr haul oedd y prif wrthddrych a addolid yno. O herwydd hyn, dywedir yn 2 *Bren.* xvii. 31, fod y Sepharfiaid "wedi llosgi eu meibion yn tân i Adrammelech ac Anammelech, duwiau Sepharfaim." Yr oedd y ddau dduw hyn yn cynnrychioli galluoedd yr haul—y naill ei alluoedd gwrywaidd, a'r llall ei alluoedd benywaidd, fel yr oedd Lunus a Luna yn cynnrychioli galluoedd gwrywaidd a benywaidd y lleuad yn mhlith y Rhufeiniaid.

SEPHARAD: enw sydd yn digwydd yn unig yn *Obadiah* 20, fel enw ar le yn yr hwn y cedwid Iuddewon Ierusalem ar y pryd hwnw mewn caethiwed, ac o ba le hefyd yr oeddynt i

Digitized by Google

ddychwelyd i feddiannu dinasoedd y deheu. Yr oedd gradd o ansicrwydd bob amser o barth i'w safle, ac nis gellir dyweyd ei fod yn awr wedi ei benderfynu. Mabwysiadwyd darlleniad y *Vulgate* (*Bosporus*) gan Jerome oddi wrth ei athraw Iuddewig, yr hwn a ystyriai ei fod yn "lle i ba un yr oedd Hadrian wedi trosglwyddo y carcharorion o Ierusalem." Ni dderbyniodd Jerome y deongliad hwn; ond edrychai ar Sepharad fel yn gyssylltiedig â gair Assyriaidd cyffelyb, yn arwyddo 'terfyn;' a barnai fod yr adnod yn dynodi gwasgariad yr Iuddewon i bob gwlad.

Nid oes genym un moddion i wybod at ba Bosphorus y cyfeiriai athraw Jerome—y Cimmeriaidd neu y Thraciaidd. Os y blaenaf (Culfor *Yenikale*), yr hwn oedd yn Iberia, nid ydyw yn ammhossibl fod y Rabbi hwn, fel un oedd yn anwybodus o ddaearyddiaeth y tu allan i Wlad Canaan, fel y rhan fwyaf o'i frodyr, yn ei chamgymmeryd am Iberia yn Yspaen; ac felly yn cyttuno â'r gweddill o'r Iuddewon ag y mae eu bopiniynau wedi dyfod i lawr atom ni. Os yr olaf (Culfor Caer Cystenyn), yna gellir ei gymmeryd fel yn cadarnhau y syniad mwyaf diweddar (y sylwir arno isod), mai Sepharad oedd Sardis yn Lydia.

Dywed "*Targum*" Jonathan, a'r "*Peshito-Syriaidd*," ac oddi wrthynt hwy yr Iuddewon diweddar, mai yr Yspaen ydyw Sepharad; ac y mae y syniad hwn wedi gwreiddio mor ddwfn fel y mae Iuddewon Yspaen yn y dyddiau hyn yn cael eu galw gan yr Iuddewon eu hunain yn *Sepharadiaid*.

Y mae yn anhawdd tybied y gall un o'r rhai hyn fod y gwir eglurhâd ar Sepharad. Yn ol pob tebygolrwydd, y mae prophwydoliaeth Obadiah yn cyfeirio at ddinystr Ierusalem gan Nebuchodonosor; ac nid oes un lle i gredu fod unrhyw Iuddewon yn yr adeg foreuol hono wedi eu trosglwyddo i Yspaen.

Y mae ereill wedi awgrymu mai yr un ydyw Sepharad a Sipphara yn Mesopotamia; ond y mae yn fwy tebygol mai SEPHARFAIM ydyw hono.

Fe allai fod yr enw wedi ei ddarganfod yn arysgrifeniadau *Naksh-i-Rustum* a *Behistun;* ac hefyd mewn rhestr o genhedloedd Asiaidd a roddwyd gan Niebühr. Yn yr olaf, y mae yn digwydd rhwng Ka Ta Pa TUK (Cappadocia) a Ta UNA (Ionia). De Sacy oedd y cyntaf a dybiodd mai yr un oedd hon a Sepharad; ac wedi hyny awgrymwyd gan Lassen mai yr un oedd S Pa Ra D a Sardis, hen brif ddinas Lydia. Cymmeradwyir y dybiaeth hon gan Winer, a mabwysiadwyd hi gan Dr. Pusey. I gefnogi hyn, dengys Fürst ei bod yn debygol y gallai Antigonus (c. c. 320) fod wedi cymmeryd rhai o'i garcharorion Iuddewig i Sardis; ond y mae yn fwy cysson âg amseriad ymddangosiadol prophwydoliaeth Obadïah i ni gredu ei fod yn cyfeirio at y digwyddiad a grybwyllwyd gan Ioel (*pen.* iii. 6), pan yr oedd "meibion Iudah a meibion Ierusalem" yn cael eu gwerthu i'r "Groegiaid" (Ioniaid), y rhai—fel y caethgludiad cyntaf oedd wedi digwydd i deyrnas Iudah, ac alltudiad i wlad ddyeithr, a hono tu hwnt i'r môr—nis gallent lai na gwneyd argraph barhaol ar y genedl.

Tybia Ewald fod cyssylltiad rhwng Sepharad a Sarephath yn yr adnod flaenorol; a thra yn gwrthod syniad y rhai sydd yn meddwl eu bod wedi darganfod yr enw mewn ar-ysgrifen, awgryma mai y darlleniad cywir yw *Sepharam*, a'i fod i'w gael o fewn taith awr i *Akka; h. y.*, y *Shefa 'Omar* ddiweddar—lle o gryn enwogrwydd a pharchusrwydd hynafol yn mysg Iuddewon Palestina; ond nid ydyw yn eglur pa fodd y gallesid siarad am breswylfod yn Ngwlad Canaan fel caethgludiad; ac y mae gwahaniaeth mawr yn ffurf y ddau enw.

SEPHATH: dinas yn y parth deheuol o Wlad Canaan: *Barn.* i. 17. Yn 2 *Cron.* xiv. 10, gelwir hi Sephathah. Wedi i'r Israeliaid ei chymmeryd a'i dinystrio, hwy a'i galwasant hi *Hormah*. Nid yn ddiweddar y rhoddwyd yr enw hwn iddi gyntaf. Ar eu taith foreuol tua Chanaan, yr oedd yr Israeliaid wedi gwneuthur ymgais i dreiddio i'r parth mynyddig, lle yr oedd Sephath yn gorwedd, a gyrwyd hwy yn ol (*Num.* xiv. 45); ond wedi cyrhaedd i Cades, hwy a'i gorchfygasant hi, ac a alwasant y lle Hormah. Ar eu hymadawiad o'r gymmydogaeth hono, cymmerodd y llwythau brodorol ail feddiant o honi; ac er i Iosuah wneuthur ymosodiad effeithiol ar y brenin (*Ios.* x. 40—42; xii. 14), ni lwyr ddarostyngwyd hi hyd ar ol ei farwolaeth, gan arfau cynghreiriol Iudah a Simeon; y rhai, yn unol âg adduned yr Israeliaid i'w thynghedu i ddinystr, a gladdasant yr hen enw Sephath yn yr enw Hormah; a dyma fu ei henw o hyny allan. Ni wyddys yn awr yn mha le y safai.

SEPHATHAH, DYFFRYN: y llanerch yn yr hwn yr aeth Asa i ryfela yn erbyn Zerah yr Ethiopiad: 2 *Cron.* xiv. 10. Yr oedd wrth, neu yn hytrach yn perthyn i Maresah.

1. SEPHATIAH: Beniaminiad, tad Mesullam: 1 *Cron.* ix. 8.

2. SEPHATIAH: teulu Sephatiah, 372 o nifer, a ddychwelasant gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 4; *Neh.* vii. 9. Daeth ail fintai o bedwar ugain, dan arweiniad Zebadïah, i fyny gydag Ezra: *Ezra* viii. 8.

3. SEPHATIAH: yr oedd teulu Sephatiah arall yn mysg plant gweision Solomon, y rhai a ddaethant i fyny gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 57; *Neh.* vii. 59.

4. SEPHATIAH: un o hiliogaeth Peres, neu Phares, mab Iudah, a hynafiad Athaiah: *Neh.* xi. 4.

5. SEPHATIAH: mab Mattan; un o dywysogion Iudah, yr hwn a gynghorodd Zedeciah i roddi Ieremiah yn ngharchar: *Ier.* xxxviii. 1.

6. SEPHATIAH: yr Haruphiad; un o'r rhyfelwyr Beniaminaidd a ymunasant â Dafydd yn ei enciliad yn Siclag: 1 *Cron.* xii. 5.

7. SEPHATIAH: mab Maachah, a phenaeth y Simeoniaid yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 16.

8. SEPHATIAH: mab Iehosophat: 2 *Cron.* xxi. 2.

SEPHO: mab Sobal: *Gen.* xxxvi. 23.

SEPHORAH: merch Reuel, neu Iethro, offeiriad Midian, gwraig Moses, a mam ei ddau fab, Gersom ac Eliezer: *Exod.* ii. 21; iv. 25; xviii. 2, 6. Yr unig ddigwyddiad a gofnodir yn ei bywyd ydyw enwaediad Gersom (*pen.* iv. 24—26), hanes yr hwn a roddwyd dan y gair MOSES.

Awgrymwyd mai Sephorah oedd y wraig o Cus (cyfieithiad Cymraeg, "o Ethiopia") a roddodd esgus i Miriam ac Aaron i ymosod ar Moses:

Digitized by Google

*Num.* xii. 1, &c. Ymddengys mai y brif sail i hyn ydyw y ffaith fod enwau Cuwsan a Midian yn cael eu crybwyll gyda'u gilydd gan Habacuc: *pen.* iii. 7. Ond yn yr amser maith oedd wedi myned heibio rhwng mynediad yr Israeliaid o'r Aipht (o leiaf saith gant o flynyddoedd), gallasai perthynasau Cus a Midian yn hawdd fod wedi newid gormod i oddef i unrhyw ymresymiad gael ei seilio ar yr adnod ddiweddaraf, hyd yn oed pe buasai yn sicr fod y ffaith eu bod yn cael eu henwi gyda'u gilydd yn cynnwys fod rhyw gyssylltiad pellach rhyngddynt na bod y ddau yn trigo mewn pebyll, ac yn elynion i Israel; ac os nad ellir profi fod y digwyddiadau yn *Num.* xii. allan o'u lle priodol yn yr adroddiad, y mae yn anhawdd credu y gallesid dwyn cyhuddiad yn erbyn Moses ar gyfrif ei briodas, ar ol tymmor mor faith, a phan y rhaid fod oed plant ei wraig yn amryw flwyddi. Ymddengys mai yr awgrymiad mwyaf credadwy ydyw eiddo Ewald; sef, mai ail wraig oedd y Cusiad, neu yr ordderchwraig, a gymmerwyd gan Moses yn ystod y daith trwy yr anialwch—pa un ai ar ol marwolaeth Sephorah (yr hyn ni chrybwyllir), neu o herwydd amgylchiadau ereill, sydd ansicr. Hwn yw y syniad tebycaf o fod yn gywir.

SEPHUPHAN: un o feibion Bela, cyntafanedig Beniamin: 1 *Cron.* viii. 5. Ysgrifenir ei enw hefyd yn SEPHUPHAM (*Num.* xxvi. 39); SUPPIM (1 *Cron.* vii. 12, 15); MUPPIM: *Gen.* xlvi. 21. Tybia Arglwydd A. Hervey y gall fod Sephuphan yn fab Beniamin, teulu yr hwn a gyfrifwyd gyda theulu Iri, mab Bela.

SER. Gwel SERYDDIAETH.

SER-DDEWINIAETH. Gwel DEWINIAETH.

SERAH: merch Aser: *Gen.* xlvi. 17; 1 *Cron.* vii. 30.

1. SERAIAH: ysgrifenydd y brenin yn nheyrnasiad Dafydd: 2 *Sam.* viii. 17.

2. SERAIAH: yr archoffeiriad yn nheyrnasiad Sedeciah. Caethgludwyd ef i Babilon gan Nebusaradan, cadben y gwylwyr, a lladdwyd ef, gydag ereill, yn Riblah: 2 *Bren.* xxv. 18; 1 *Cron.* vi. 14; *Ier.* lii. 24.

3. SERAIAH: mab Tanhumeth y Netophathiad, yr hwn a ddaeth gydag Ismael, ac Iohanan, ac Iezaniah at Gedaliah, a darbwyllwyd ef ganddo ef i ymostwng yn dawel i'r Caldeaid, ac ymsefydlu yn y wlad: *Ier.* xl. 8.

4. SERAIAH: mab Cenaz, brawd Othniel, a thad Ioab; tad neu sylfaenydd dyffryn Carasim: 1 *Cron.* iv. 13, 14.

5. SERAIAH: hynafiad Iehu, penaeth un o deuluoedd Simeon: 1 *Cron.* iv. 35.

6. SERAIAH: un o blant y dalaeth, y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 2. Yn *Neh.* vii. 7, gelwir ef Azariah.

7. SERAIAH: un o hynafiaid Ezra yr ysgrifenydd (*Ezra* vii. 1); ond pa un ai yr un ydoedd a Seraiah yr archoffeiriad ni wyddys yn sicr.

8. SERAIAH: offeiriad, neu deulu offeiriadol, y rhai a lawnodasant y cyfammod â Nehemiah: *Neh.* x. 2.

9. SERAIAH: offeiriad, mab Hilciah (*Neh.* xi. 11), yr hwn oedd yn llywodraethwr tŷ Dduw ar ol y dychweliad o Babilon. Yn 1 *Cron.* ix. 11, gelwir ef Azariah.

10. SERAIAH: penaeth teulu offeiriadol a aeth i fyny o Babilon gyda Zorobabel. Ei gynnrychiolydd yn nyddiau Ioiacim yr archoffeiriad oedd Meraiah: *Neh.* xii. 1, 12.

11. SERAIAH: mab Neriah, a brawd Baruch: *Ier.* li. 59, 61. Efe a aeth gyda Sedeciah i Babilon yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad. Yr oedd yn gweini ar Sedeciah, ac yn swyddog yn y llys Iuddewig. Dywed Hiller fod Seraiah yn dywysog Menuchah—lle ar derfynau Iudah a Dan. Awdurdodwyd Seraiah gan y prophwyd Ieremiah i gymmeryd gydag ef ar ei daith y rhôl yn mha un yr oedd efe wedi ysgrifenu tynged Babilon, a'i suddo yn nghanol yr Euphrates, fel arwydd y suddai Babilon, i beidio codi mwyach: *Ier.* li. 60—64.

SERAPHIAID: dosbarth o fodau nefol, yr hwn a welodd Esaiah mewn gweledigaeth yn sefyll uwch law Iehofah pan oedd efe yn eistedd ar ei orsedd: *Ezra* vi. 2. Disgrifir hwynt fel yn meddu bob un dri phâr adenydd: âg un o ba rai y cuddient eu hwynebau (fel arwydd o ostyngeiddrwydd (gwel *Exod.* iii. 6; 1 *Bren.* xix. 13); â'r ail y cuddient eu traed (fel arwydd o barch); tra yr ehedent gyda'r trydydd. Ymddengys eu bod yn dwyn tebygolrwydd cyffredinol i'r corph dynol; canys gosodir hwynt allan fel yn meddu wyneb, llais, traed, a dwylaw: *adn.* 6. Yr oedd eu swydd yn ddeublyg—clodfori sancteiddrwydd a gallu Iehofah (*adn.* 3), a gweithredu fel cyfrwng cymmundeb rhwng nefoedd a daear: *adn.* 6. Oddi wrth eu cân attebol ("llefodd y naill wrth y llall"), gallwn dybied eu bod wedi eu gosod yn rhesi gyferbyn â'u gilydd ar bob ochr i'r orsedd. Gan na chrybwyllir am seraphiaid mewn un lle arall yn y Beibl, rhaid i ni gyfyngu ein syniadau am eu hymddangosiad i'r manylion uchod. Gallwn sylwi nad ydyw y drychfeddwl o fod dynol asgellog yn neillduol i'r Hebreaid. Yn mhlith y cerfiadau a gafwyd yn *Mourghaub* yn Persia, cyfarfyddwn â darluniau o ddyn gyda dau bâr o adenydd, yn codi o'r ysgwyddau, ac yn ymestyn, un pâr tuag i fyny, a'r llall tuag i lawr, fel ag i orchuddio y pen a'r traed. Y mae yr adenydd yn yr amgylchiad hwn yn llenwi lle pwysig; canys y mae cyflymdra ac ysgogiad esmwyth yn sefyll, yn nychymmyg dyn, yn mhlith yr arwyddion amlycaf o ddwyfoldeb. Y mae ystyr y gair *seraph* yn dra ammheus: yr unig air tebyg iddo yn yr Hebraeg, ydyw *sâraph*, sef llosgi; oddi wrth yr hyn y cafwyd y drychfeddwl o ddisgleirdeb. Gwna y cyfryw ystyr gyttuno â disgrifiadau ereill o fodau nefol (er enghraifft, *Ezra* i. 13; *Mat.* xxviii. 3); ond dadleuir nad ydyw y gair Hebraeg byth yn cynnwys yr ystyr eilraddol hwn. Cyssylltir ef gan Gesenius â gair Arabaidd yn arwyddo *uchel* neu *ddyrchafedig;* a gellir edrych ar hyn fel yr ystyr o'r gair a dderbynir yn gyffredinol; ond y mae absennoldeb o unrhyw air Hebraeg cyfystyr yn sicr yn deilwng o sylw. Arweiniodd y tebygolrwydd rhwng y geiriau, *seraphiaid* a *sarapis,* Hitzig i dybied mai yr un oedd y ddau, ac i roddi i'r blaenaf y ffurf o sarph asgellog. Ond yr oedd *sarapis* yn anhysbys yn Pantheon yr Aipht hyd amser Ptolemy Soter; ac hyd yn oed pe buasai fel arall, o'r braidd y gallwn dybied y buasai yr Hebreaid yn benthyca eu cyffelybiaeth o'r cyfryw ffynnonell. Anhawsder arall ydyw y berthynas sydd rhwng y cerubiaid a'r seraphiaid. Y mae y "pethau byw" a ddisgrifir yn *Dad.* iv. 8, yn debyg i'r seraphiaid yn eu gwaith, a nifer eu

Digitized by Google

ammodau yn *Mat.* ii. 9. Fel y canlyn y mae yr amgylchiadau:—Ar y 4ydd o Ragfyr machludodd yr haul yn Ierusalem bump o'r gloch yn y prydnawn. A thybied fod y doethion y pryd hwnw wedi cychwyn eu taith i Ierusalem, gwelent yn gyntaf Iau, a'i gydymaith tywyll a lled bell, 1½ awr o bellder oddi wrth linell y canolddydd, mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol, ac yn hollol i'r dwyrain i Bethlehem. Erbyn y deuent hwy at fedd Rahel, byddai y planedau yn union i'r deheu iddynt, ar linell y canol-ddydd, ac nid mwyach uwch ben bryn Bethlehem. Yna y mae y ffordd yn troi i'r dwyrain, ac yn esgyn y bryn yn agos i'w gŵr gorllewinol pellaf; gan hyny, byddai y planedau yn awr ar eu deheulaw, ac ychydig *tu ol* iddynt: ac felly, o angenrheidrwydd, peidiai y "seren" hon yn hollol a myned "o'u blaen hwynt" fel eu harweinydd. Wedi cyrhaedd ar y bryn ac i'r pentref, byddai yn naturiol yn ammhossibl i'r seren sefyll uwch ben un tŷ agos atynt pa bynag, gan y byddai erbyn hyn i'w gweled yn mhell draw, tu hwnt i'r bryn, i'r gorllewin, ac yn mhell ymaith yn y ffurfafen, yn yr uchder o 57 o raddau. Fel yr elent yn mlaen, o angenrheidrwydd, ciliai y seren yn ol, ac ni ellid dan unrhyw amgylchiad ddyweyd ei bod yn "sefyll goruwch" unrhyw dŷ, oddi eithr yn y pellder o filldiroedd oddi wrth y man lle yr oeddynt. Fel hyn, y mae y ddau gorph nefol yn methu yn hollol a chyflawni un o'r ammodau a gynnwysir yn y geiriau hyn:—"a aeth o'u blaen hwy," neu "sefyll goruwch." Gallasai seren ymddangos, os yn union uwch ben, fel yn sefyll goruwch unrhyw dŷ neu wrthddrych y digwyddai i edrychydd fod yn agos iddo; ond nis gallai seren felly, yn yr uchder o 57 o raddau, byth ymddangos goruwch unrhyw dŷ neu wrthddrych fel i'w nodi allan i'r sylwedydd. O'r braidd y mae eisieu i ni chwanegu, pe buasai y doethion wedi gadael Porth Jaffa cyn machlud haul, na buasent yn gweled y planedau wrth gychwyn; a phe buasent wedi gadael Ierusalem yn ddiweddarach, buasai y "seren" yn arweinydd mwy diwerth nag o'r blaen. Yn ol hyn y mae dryehiolaeth brydferth Kepler ac Ideler, yr hon sydd wedi swyno cynnifer o ysgrifenwyr, yn diflanu o flaen goleuni mwy perffaith.

Barna ysgrifenydd diweddar o allu mawr (Dr. Wordsworth) mai i'r doethion yn unig yr ymddangosodd y seren. Gall hyny fod yn wir. Pa fodd bynag, yr oedd cân y "lliaws o lu nefol" a glywyd wedi ei chyhoeddi trwy Bethlehem a'r gymmydogaeth; ac nid peth a gedwid yn ddirgel oedd taith y doethion yno. Pa ham ynte y dylasai y goleuni nefol, yn sefyll fel arwydd o ogoniant goruwch y man lle yr oedd y mab bychan, fod yn guddiedig oddi wrth lygaid pawb ond yr eiddynt hwy, a pheidio ffurfio rhan yn y gyfres hono o ryfeddodau a gadwodd Mair ei fam ef, gan eu hystyried yn ei chalon?

SERFIAH: mam tri o brif wroniaid byddin Dafydd—Abisai, Ioab, ac Asahel—"meibion Serfiah." Enwir hi ac Abigail yn achau teulu Dafydd yn 1 *Cron.* ii. 13—17, fel "chwiorydd meibion Iesse;" *adn.* 16 [gw. Josephus "*Hyn.*" vii. 10 § 1]. Y mae yr ymadrodd ynddo ei hun yn ddigon i greu ammheuaeth mai nid merch Iesse oedd hi—ammheuaeth a gadarnheir gan yr adroddiad yn 2 *Sam.* xvii. 25, mai merch Nahas ydoedd Abigail. Gan ei fod yn ymddangos mai Abigail oedd yr ieuengaf o'r ddwy ferch, y mae yn debygol fod y ddwy yn ferched i Nahas: ond pa un a oedd y Nahas hwn, fel y tybia y Proffeswr Stanley, yn frenin yr Ammoniaid, ac yn ŵr blaenorol i wraig Iesse, neu i ryw berson arall anhysbys, nis gellir gwybod. Eglurir ei pherthynas âg Iesse (yn y gwreiddiol *Ishai*) yn enw ei mab Abisai.

Ni wneir un crybwylliad yn y Beibl am ŵr Serfiah. Dywed Josephus yn bendant mai ei enw oedd Souri; ond ni ddarganfyddwyd un adroddiad yn ei gadarnhau yn y traddodiadau Iuddewig, ac nid ydyw Josephus ei hun yn cyfeirio ato drachefn. Diau fod mam y cyfryw feibion nodedig yn ferch nodedig; a gall hyn roddi cyfrif am y ffaith anghyffredin fod y teulu bob amser yn cael eu galw ar ei hol hi, ac nad ystyriwyd enw ei gŵr yn deilwng o gael ei gadw yn y cofnodion cyssegredig.

SERGIUS PAULUS: enw rhaglaw Rhufeinaidd Cyprus, pan ymwelodd yr apostol Paul â'r ynys hono gyda Barnabas ar ei daith genhadol gyntaf: *Act.* xviii. 7, &c. Disgrifir ef fel dyn deallus, cywir, ac awyddus am wybodaeth o bob ffynnonell. Y nodwedd hwn yn ei gymmeriad a barodd iddo dderbyn Elymas y swynwr i'w gymdeithas, ac wedi hyny chwilio am y dyeithriaid cenhadol, a chymmeryd ei ddysgu ganddynt yn athrawiaethau Cristionogaeth. Tynid y meddyliau cryfaf y pryd hwnw gyda swyn neillduol at y pyngciau dirgel a astudid gan y dwyreinwyr; ac y mae yr uchafiaeth y dywed Luc fod y "swynwr" wedi ei gael ar Sergius yn egluro un o nodweddau yr amseroedd. Ond ni thwyllwyd Sergius yn hir trwy ddichellion y swynwr; canys wedi dyfod yn gydnabyddus â'r apostol, efe a wnaeth ymchwiliad ar unwaith i egwyddorion yr efengyl, ac argyhoeddwyd ef o'u gwirionedd. Nid yw yr Ysgrythyr yn rhoddi dim o'i hanes ar ol ei dröedigaeth. Y mae pob lle i gredu na ddarfu iddo roddi i fyny ei swydd fel llywodraethwr Cyprus; ond dywed traddodiad ei fod wedi gwneyd hyny, ac wedi dilyn Paul; a'i fod yn y diwedd wedi myned gyda'r apostol i Yspaen, ac wedi ei adael ganddo yn Narbonne, yn Ffraingc, ac wedi marw yno.

SERGIUS I.: Syriad o genedl, yr hwn a ddilynodd Conon yn esgobaeth Rhufain, B. A. 687. Yr oedd dau ymgeisydd am y swydd: offeiriad o'r enw Theodore, ac hefyd yr archddiacon Paschal; ac ymddengys fod gan y naill a'r llall lawer o bleidwyr, a'u bod yn mron wedi myned i ymladd â'u gilydd, pan y darfu i'r prif ddinasyddion a swyddogion y gwarchodlu milwrol, mewn trefn i ochelyd terfysg, gynnyg ethol Sergius, yr hwn a ystyrid yn ddyn crefyddol a dysgedig. Mabwysiadwyd y cynnygiad gan liaws o'r clerigwyr. Cymmerwyd Sergius i eglwys y Lateran, drysau yr hon a gurwyd i mewn; a danfonwyd allan o honi bleidwyr Theodore, y rhai a gymmerasent feddiant o'r adeilad. Cadeiriwyd Sergius, a Theodore oedd un o'r rhai blaenaf a'i llongyfarchodd fel pab. Gorfodwyd Paschal i wneyd yr un modd yn fuan wedi hyny. Cyn marwolaeth Conon, addawodd Paschal swm o arian i Ioan, llywodraethwr Ravenna, gan yr hwn, fel cynnrychiolydd yr ymherawdwr Byzantiaidd yn Italy, yr oedd hawl i gadarnhau neu i ddirymu yr etholiad; ac yr oedd yr arian i gael eu rhoddi i ddiogelu ei gydsyniad ef. Daeth y llywodraethwr Ioan i Rufain; a phan ddeallodd efe fod Sergius wedi ei ethol gan y mwyafrif, ceisiodd

ganddo dalu yr hyn a addawsai Paschal; a chan fod y diweddaf yn gommedd, efe a gymmerodd amryw o bethau gwerthfawr o Eglwys St. Pedr. Cyhuddwyd Paschal o ddewiniaeth: cafodd ei brofi, a chondemniwyd ef i'w ddiraddio a'i gadw mewn mynachlog, yn yr hon y bu farw.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Sergius oedd bedyddio Cedwalla, brenin y Sacsoniaid gorllewinol, yr hwn a ddaethai i Rufain i'r dyben hwnw. Anfonodd genadwri hefyd allan i Saxony, a manau ereill. Yn B. A. 691, galwodd yr ymherawdwr Justinian II. am gynghor cyffredinol yn Nghaer Cystenyn. Galwyd y cynghor hwn gyda'r amcan proffesedig o adgyflenwi a gwneyd i fyny ddiffygion y pummed a'r chweched cynghor cyffredinol, y rhai nad oeddynt wedi cyhoeddi unrhyw gyfreithiau ar ddysgyblaeth, nac ar seremonïau crefyddol. Yr oedd cant a hanner o esgobion yn bresennol yn y cynghor, a phasiwyd dros gant o reolau yn dwyn perthynas â dysgyblaeth a seremonïau—chwech o ba rai oeddynt yn erbyn arferion yr eglwys orllewinol; sef, Eglwys Rhufain. Nid ydoedd Sergius yn cymmeradwyo y cynghor, er fod ei genhadwr wedi cydsynio â'r gweithrediadau ynddo. Yn ol un o'r rheolau a fabwysiadwyd, yr oedd caniatâd yn cael ei roddi i ymgeiswyr am yr offeiriadaeth oedd yn wŷr priod i gadw eu gwragedd ar ol cael eu hordeinio; ac hefyd byngciau o athrawiaeth ynghylch y ddwy natur yn mherson Crist, ac ynghylch y Forwyn Fair—ynghylch pa rai nid oedd y cynghor a Sergius yn cydweled. Teimlai Justinian yn ddigofus o herwydd gwrthwynebrwydd Sergius, ac anfonodd Zacharias, ei brif gadfridog, i Rufain gyda gorchymyn i'w ddal ef a'i ddwyn yn gaeth i Gaer Cystenyn. Ond cymmerodd gwarchodlu y llywodraethwr yn Rhufain blaid y pab, a bu raid i Zacharias wneyd ei noddfa yn ystafelloedd y pab, ac oddi yno anfonwyd ef yn ddiogel yn ol i Groeg. Treuliodd Sergius y gweddill o'i oes i gyflawni dyledswyddau cyffredin ei swydd, ac i adgyweirio Eglwys St. Pedr, yr hon yn flaenorol i hyny oedd mewn sefyllfa adfeiliedig. Bu farw yn B. A. 701, a dilynwyd ef yn esgobaeth Rhufain gan Ioan VI.

SERIO: llosgi â haiarn poeth. "A'u cydwybod eu hunain wedi ei serio â haiarn poeth;" 1 Tim. iv. 2. Nid yn unig y mae y bobl y cyfeiria yr apostol atynt yn "dywedyd celwyddau" wrth ereill, ond y mae eu cydwybod eu hunain wedi ei serio. Yn ol Theodoret, y mae "serio" yn dynodi dideimladrwydd hollol; gan mai effaith seriad ydyw peri dideimladrwydd yn y fan a losgwyd. Modd bynag, ystyr cyntaf y Groeg ydyw hyn: 'gwarthnodi' â'r ymwybodolrwydd o droseddau wedi eu cyflawni yn erbyn gwybodaeth a chydwybod, fel cynnifer o greithiau wedi eu llosgi gan haiarn poeth. Fel y mae y gair "sêl" yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr dda (2 Tim. ii. 19), felly y defnyddir y gair "serio" mewn ystyr ddrwg. Cymmerwyd y gyffelybiaeth oddi wrth yr arferiad o losg-nodi troseddwyr.

SERTORIUS, QUINTUS: un o'r cadlywyddion Rhufeinig enwocaf yn oesoedd diweddaf y weriniaeth. Brodor oedd efe o Nursia, yn ngwlad y Sabiniaid. Collodd ei dad pan yn ieuangc, ond cymmerodd ei fam ofal am roddi iddo addysg dda. Ar derfyn tymmor ei addysgiaeth, aeth i Rufain i ymarfer fel areithydd, a daeth i feddu cryn ddylanwad trwy hyn. Ond trodd ei sylw yn fuan at achosion milwrol, a dechreuodd ei yrfa fel milwr yn Gaul. Yr oedd yn y frwydr aflwyddiannus a ymladdwyd ar y Rhone, c. c. 105, yn yr hon y gorchfygwyd y rhaglaw taleithiol Rhufeinaidd, Q. Servilius Cæpio, gan y Cimbriaid a'r Teutoniaid. Cymmerodd ran hefyd yn y fuddugoliaeth fawr a gafwyd yn Aquæ Sextiæ, c. c. 102, pryd y llwyr orchfygodd Marius yr un gelynion. Pan ddechreuodd yr ymdrechfa waedlyd rhwng y blaid bendefigaidd o dan Sylla a'r blaid boblogaidd, yr hon a flaenorid gan Marius (c. c. 88), cymmerodd Sertorius ran gyda'r blaid olaf:—nid yn gymmaint am ei fod yn cymmeradwyo holl weithrediadau y blaid, ond am ei fod yn fficiddio y llywodraeth bendefigaidd. Yr oedd Sertorius yn rhagori yn fawr o ran cymmeriad moesol ar anturiaethwyr milwrol yr oes hono; a'r argraph a wneir ar y meddwl wrth ddarllen ei fywgraphiad difyrus a darluniadol gan Plutarch ydyw, ei fod yn Rhufeinwr dewr, penderfynol, gonest, ac anhyblyg—yn debycach i un yn byw yn y drydedd ganrif o'r weriniaeth nag un yn byw yn y bummed. Ni ddaliodd neb o'r cadfridogion a bleidient Marius allan mor hir a llwyddiannus yn erbyn y blaid lywodraethol ag efe. Ymladdodd, mewn undeb â Cinna, frwydr Porth Colline, yr hon a ddygodd Rhufain a'i phreswylwyr yn ddarostyngedig i'r Mariusiaid; ond ni bu ganddo un llaw yn y gyflafan waedlyd a ddilynodd. Y mae yr hyn a fynegir am dano yn ei gyssylltiad â'r ymdrafodaeth hon yn glod iddo. Dygodd ei holl filwyr ynghyd, a mynodd roddi i farwolaeth bedair mil o'r caethweision creulawn y rhoddodd Marius genad iddynt i dreisio, ac i ysbeilio yr holl ddinas; a'i unig amcan yn gwneyd hyn oedd rhoddi attalfa ar yr anfadwaith.

Ar ddychweliad Sylla o'r dwyrain (c. c. 83), ymgiliodd Sertorius i Etruria; ond deallodd fod yn ammhossibl iddo weithredu mewn undeb âg arweinwyr milwrol ereill o'r un blaid ag ef; gan hyny efe a aeth i'r Yspaen, a pharhaodd i ddwyn yr ymdrechfa yn mlaen yn annibynol. Gwnaed ef yn rhaglaw y dalaeth hono o'r ymherodraeth, a disgwyliai allu parotoi noddfa yno i'w gyfeillion, os gorchfygid hwynt yn Italy. Dechreuodd ei yrfa filwrol yn Yspaen gyda llawer o ddewrder a doethineb: ar yr un pryd amlygai dynerwch a charedigrwydd. Hyd yn hyn, gydag ychydig iawn o eithriadau, yr oedd Yspaen wedi ei blino yn ddirfawr gan lywodraethwyr ariangar. Gwrandawodd Sertorius ar gŵynion y brodorion, ac ymdrechodd ei oreu i'w cael i ymgymmysgu â'r Rhufeiniaid. Ennillwyd serch y mawrion yn mysg yr Yspaeniaid trwy ei sirioldeb a'i gyfeillgarwch, a'r iselradd trwy ei waith yn gostwng y trethi. Pan y clywodd fod Sylla wedi meddiannu Rhufain, efe a anfonodd chwe mil o filwyr i gadw bylchau y Pyrenees; ond lladdwyd y cadfridog, Salinator, yn fradwrus, a gwasgarwyd ei fyddin; yr hyn a barodd i Sertorius a'i ddilynwyr fyned tuag Affrica—lle, gyda chynnorthwy tywysogion brodorol, y gorchfygodd efe Paccianus—un o gadfridogion Sylla. Teimlai awydd i ymneillduo i Ynysoedd y Canary, a threulio gweddill ei oes yno mewn llonyddwch: ond ar wahoddiad y Lusitaniaid, efe a ddychwelodd i'r Yspaen. Dadganodd y Rhufeiniaid oedd yn y wlad hono; yn gystal a'r Yspaeniaid, eu bod yn ffafriol iddo; a daeth yntau yn fuan, yn rhinweddol, yn benadur y

Digitized by Google

wlad, gan ei fod yn gorchfygu y cadfridogion Rhufeinig ereill, y naill ar ol y llall, nes y daeth senedd Rhufain i deimlo y dylesid anfon Pompey ieuangc (Pompey Fawr) yno gyda byddin gref, c. c. 76.

Ar ddyfodiad Pompey i'r Yspaen, amlygodd amryw drefydd eu parodrwydd i'w bleidio; ac yn mhlith ereill Lauron, er ei bod ar y pryd yn cael ei gwarchau gan Sertorius. Prysurodd Pompey i geisio estyn ymwared iddi, ond nis gallai wneuthur dim; a bu raid iddo edrych ar Sertorius yn dinystrio y dref. Ymladdodd Sertorius y frwydr fawr gyntaf yn erbyn Pompey ger llaw Sucro. Clwyfwyd y diweddaf, a gorfodwyd ef i encilio. Ymladdwyd yr ail frwydr ar wastadeddau Saguntum, pryd y gorchfygwyd Pompey eilwaith, ac y gorfodwyd ef i dynu yn ol tua'r Pyrenees. Yn haf y flwyddyn c. c. 74, anfonodd Mithridates genhadau at Sertorius, i gynnyg ymgynghreirio âg ef, a rhoddi iddo longau ac arian, ar yr ammod fod yr holl wledydd Asiaidd y gorfodwyd ef i'w rhoddi i fyny yn cael eu hadferu iddo yn ol. Cydsyniodd Sertorius â'r ammodau hyn; ond o herwydd digwyddiadau a gymmerasant le yn ddilynol i hyny, ni ddygodd y cynghrair hwn nemawr ddim o ffrwyth. Yn y cyfamser, adgyfnerthwyd Pompey â dwy leng o filwyr o Italy; ac aeth gyda Metellus o'r Pyrenees tua'r Iberus. Er fod lliaws o filwyr Sertorius wedi encilio oddi wrtho yn y rhyfelgyrch hwn, etto nid llawer o fantais a ennillodd Pompey arno. Gan fod Metellus yn anobeithio ennill buddugoliaeth ar Sertorius mewn ffordd anrhydeddus, cynnygiodd i unrhyw Rufeinwr a'i lladdai ef y swm o gan talent, ac ugain mil o erwau o dir. Ac os buasai y llofrudd yn alltud, addawai Metellus y cawsai ddychwelyd i Rufain. Aeth haf y fl. c. c. 73 heibio heb i un frwydr fawr gael ei hymladd, er yr ymddengys fod y blaid Rufeinig wedi ennill rhyw gymmaint o fanteision.

Gweithiodd ymddygiad dianrhydeddus y Rhufeiniaid, a'r enciliadau mynych a gymmerent le o fyddin Sertorius, ynghyd â chenfigen amlwg ereill oedd o gwmpas ei berson, i gyfnewidiad gymmeryd lle yn ymddygiadau Sertorius hefyd. Collodd ei ymddiried yn y rhai a'i hamgylchent, a chospai yn llym y rhai y tybiai fod ganddo le i'w drwgdybio. Pan yn y sefyllfa hon gwnaeth un weithred a ddygodd ystaen am byth ar ei gymmeriad rhagorol: rhoddwyd rhai o'r Yspaeniaid ieuaingc oedd yn ymgynnulledig yn Osca, ac mewn ystyr yn wystlon ganddo, i farwolaeth, a gwerthwyd y gweddill yn gaethweision. Y mae yr achos uniongyrchol o hyn yn anhysbys; ond y mae yn hawdd dychymygu beth fu yr effaith ar yr Yspaeniaid. Ffurfiodd Perperna fradwriaeth yn erbyn Sertorius, ac ymdrechodd gael cefnogwyr yn mhlith yr Yspaeniaid. Ciliodd llawer hefyd oddi wrth faner Sertorius. Yn ol Appian, darganfyddwyd amryw o'r cynllwynwyr, a rhoddwyd hwy i farwolaeth; ond nid ydyw Plutarch yn gwneyd un crybwylliad am hyn. O'r diwedd gwelodd Perperna nad oedd yn bossibl ymosod ar Sertorius yn y modd yma, gan fod corphlu milwraidd yn wastad yn ei ddilyn; gan hyny, efe a'i gwahoddodd ef i wledd, a gynnelid o dan yr esgus o anrhydeddu brwydr a ennillasai un o'i is-gadfridogion. Lladdwyd ef yn fradwrus yn y wledd hon (c. c. 72), a gwnaeth Perperna ei hun yn benaeth y fyddin.

Dyma a fu diwedd gwarthus dyn oedd yn meddu un o'r cymmeriadau anrhydeddusaf ar ddalenau hanesiaeth Rhufeinig yn y ganrif olaf o'r weriniaeth. Nid oedd y rhyfel a ddygwyd yn mlaen ganddo yn Yspaen yn erbyn ei wlad, fel y cyfryw; ond yn erbyn plaid a ewyllysient weled ei ddinystr ef. Canfyddir oddi wrth yr hyn a ddywedir am dano gan Plutarch nad oedd efe yn teimlo yn elynol i'r weriniaeth; o blegid ar ol buddugoliaeth a ennillodd, anfonodd at Metellus a Phompey, i gynnyg rhoddi ei arfau i lawr, os caniataent hwy iddo ddychwelyd i Rufain, a chael trigo yno mewn tawelwch a neillduaeth; a thystiolaethai mai gwell ganddo fod y person mwyaf dinôd gartref na bod yn frenin mewn alltudiaeth. Cyhyd ag y bu fyw ei fam, ewyllysiai yn benaf gael dychwelyd i Italy, i'r dyben i'w chysuro hi yn ei hen ddyddiau; ond bu ei fam farw ychydig flynyddoedd o flaen ei mab, er mawr alar iddo. Os edrych a wneir ar Sertorius fel cadfridog, nid gweniaeth yn ddiau oedd gwaith ei gydoeswyr yn ei osod yn ochr Hannibal. Ychydig a wyddys am fanylion y rhyfeloedd yn Yspaen. Nid ydyw yr hanes a rydd Appian ond prin a diffygiol; ac yr oedd gan Plutarch, wrth ysgrifenu hanes Sertorius, amcanion ereill mewn golwg heb law gosod ger bron ei ddarllenwyr ddisgrifiad manwl o'i weithrediadau milwraidd.

SERTHEDD: aflendid, bustledd, bryntni. "*Na serthedd*, nac ymadrodd ffôl" (*Eph.* v. 4); *h. y.*, aflendid mewn gweithred neu ymddiddan.

SERUG: mab Reu, a hen daid Abraham; *Gen.* xi. 20. Ei oed, yn ol y Beibl Hebraeg, oedd 230 o flynyddoedd—30 o flynyddoedd cyn iddo genhedlu Nachor, a 200 o flynyddoedd ar ol hyny. Ond yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, rhoddir 130 o flynyddoedd iddo cyn iddo genhedlu Nachor (yn gwneyd ei holl oed yn 330), yr hyn sydd yn un o'r amrywiadau rheolaidd hyny yn oedranau y patriarchiaid rhwng Sem a Terah, fel y rhoddir hwy gan y Deg a Thrigain, drwy yr hyn y mae y cyfwng rhwng y diluw ac Abraham yn cael ei hwyhau o 292 (fel yn y Beibl Hebraeg) i 1172 o flynyddoedd. Tybia Bochart fod tref *Seruj*, taith diwrnod o Charrae yn Mesopotamia, wedi cael ei henw oddi wrth y patriarch hwn. Y mae Suidas, ac ereill, yn dyweyd mai efe ddechreuodd ddwyfoli cymmwynaswyr meirwon dynolryw. Epiphanius, yr hwn a dybia fod ei enw yn arwyddo 'annogiad,' a ddywed, er fod eilunaddoliaeth wedi dechreu yn ei amser ef, etto ei bod yn cael ei chyfyngu i ddarluniau; ac mai ar ol hyny y cododd yr arferiad o wneuthur meirwon yn dduwiau, yn gystal a'r gwneuthuriad o ddelwau i'w haddoli. Disgrifia Epiphanius grefydd dynolryw hyd amser Serug fel crefydd Scythiaidd; ar ol Serug ac adeiladiad Tŵr Babel, dygwyd crefydd Groeg i mewn, a pharhaodd hyd amser yr ysgrifenydd. Yr hanes a roddir gan Ioan o Antiochia sydd fel y canlyn:—Serug, o hiliogaeth Iapheth, a ddysgodd y ddyledswydd o anrhydeddu dynion trangcedig enwog, un ai trwy ddelwau neu gofadeiladau, o'u haddoli hwynt ar ddyddiau gŵyl blynyddol fel pe buasent etto yn fyw, o gadw cofnodion o'u gweithredoedd yn llyfrau cyssegredig yr offeiriaid, ac o'u galw hwynt yn dduwiau, fel cymmwynaswyr dynolryw. Oddi wrth hyn y cododd amldduwiaeth ac eilunaddoliaeth. Hwyrach nad ydyw yr adroddiad hwn yn meddu ond ychydig neu ddim gwerth hanesiol.

Digitized by Google

**SERVETUS, MICHAEL,** neu yn ol yr Yspaenaeg, ei iaith gynnhenid, MIGUEL SERVEDE, a aned yn Villanueva, yn Aragon, yn y flwyddyn 1509. Yr oedd yn fab i gyfreithiwr, a thra nad oedd ond ieuangc anfonwyd ef i brifysgol Toulouse i astudio y gyfraith; ond yn lle gwneyd hyny, ymddengys ei fod wedi troi ei sylw yn benaf at dduwinyddiaeth am y tair blynedd a dreuliodd efe yn y ddinas hono. Ymadawodd o Toulouse pan yn yr unfed flwydd ar hugain o'i oedran, ac aeth i Italy yn un o'r cwmni oedd yn gwneuthur i fyny osgordd Quintana, cyffeswr Charles v.; ac yr oedd yn bresennol ar adeg coroniad y penadur hwnw yn Bologna, yn mis Chwefror, 1530. Bu farw Quintana yn fuan ar ol hyn, ac aeth Servetus i deithio i Switzerland a'r Almaen, lle y daeth i gydnabyddiaeth âg amryw o'r diwygwyr Protestanaidd. Yn ystod y flwyddyn 1530 gwnaeth ei drigfod yn Basle, yn Switzerland; a dechreuodd yno gyhoeddi y syniadau a fu wedi hyny yn achos o'r anghydwelediad rhwng Calvin ac yntau. Ni chyfarfu, dybygid, ond âg ychydig bersonau yn y ddinas hono a fabwysiadent ei olygiadau; o herwydd yn gynnar yn y flwyddyn 1531, efe a adawodd Basle ac a aeth i Strasburg. Ni bu ei arosiad yn y ddinas hono, modd bynag, ond byr; gan y ceir ei fod yn preswylio yn Haguenau, yn Alsace, pan argraphwyd ei draethawd ar Athrawiaeth y Drindod. Cyhoeddwyd y llyfr hwn, ei waith llenyddol cyntaf, gan lyfrwerthwr o Basle yn 1531; ond cynnwysai syniadau mor groes i'r rhai a dderbynid yn gyffredinol, fel yr ofnai y cyhoeddwr ei argraphu yn Basle; a gwnaeth drefniadau i'w gyhoeddi yn Haguenau —lle a enwir ar ei wyneb-ddalen. Ysgrifenodd Servetus ail draethawd yn y flwyddyn ddilynol. Yr oedd hwn ar ffurf ymddiddanol, ond ar yr un pwngc a'i draethawd cyntaf, yn yr hwn y cywirai rhai camgymmeriadau oedd yn ei waith blaenorol; ond nid oedd yn galw yn ol ddim o'r syniadau a gyhoeddasid ganddo.

Nid yw yn hysbys pa bryd y gadawodd Servetus Haguenau; ond ni a'i cawn ef yn nesaf yn Lyons, lle yr arosodd am dair blynedd, a'r hyn a wnelai yn benaf y pryd hwn oedd astudio physigwriaeth. Ymddengys yn debygol ei fod yn cynnal ei hun yr adeg hono trwy gywiro y wasg, a gorchwylion llenyddol ereill. Pan ymadawodd o Lyons, talodd ymweliad â Pharis; ac yno y cymmerodd ei radd o athraw yn y celfyddydau a doctor mewn physigwriaeth. Etholwyd ef yn athraw hefyd yn y brifysgol, a thraddododd ddarlithiau ar fesuroniaeth. Yr oedd yn Paris yn 1537, y flwyddyn y cyhoeddodd efe yr unig waith a gyfansoddwyd erioed ganddo ar physigwriaeth; ond yn gymmaint a'i fod yn ddyn o dymmherau a nwydau cryfion, aeth i ddadleu â'r meddygon—yr hyn a barodd iddo ymadael oddi yno. Mwy na thebyg ydyw ei fod wedi dychwelyd i Lyons; o blegid yn 1540 ceir crybwylliad am dano yn ymarfer fel meddyg yn nghymmydogaeth y ddinas hono, yn mhentref Charlieu. Ni bu yn llwyddiannus yn yr alwedigaeth feddygol, a chadwodd ei hun trwy gywiro y wasg i argraphwyr Lyons. Bu yn arolygu argraphiad newydd o'r Beibl, a gyhoeddwyd yn y fl. 1542; ac yr oedd y nodiadau a ysgrifenodd yn tueddu i gryfhau y cyhuddiad o heresi a ddygwyd yn ei erbyn. Yn 1543, cyfarfu Palmier, archesgob Vienne yn Dauphine, â Servetus yn Lyons, a pherswadiodd ef i fyned gydag ef i'w esgobaeth. Ymroddodd Servetus i ymarfer yr alwedigaeth feddygol yn y lle hwnw hyd nes y profwyd ef am heresi yn mhen deng mlynedd wedi hyny. Yr oedd duwinyddiaeth, pa fodd bynag, yn parhau yn hoff efrydiaeth ganddo, a bu am flynyddoedd yn dwyn yn mlaen ohebiaeth ddadleuol gyda Calvin; yn ystod yr hon yr anfonodd efe iddo ran o'r llawysgrif a gynnwysai lawer o'r opiniynau a gorphorwyd wedi hyny ganddo yn ei *"Christianismi Restitutio."* Yr oedd eu gohebiaeth ar y cyntaf yn dra chyfeillgar; ond yn raddol aeth y naill a'r llall i ysgrifenu yn llym a chwerw. O'r diwedd, mewn attebiad i lythyr miniog a dderbyniodd efe oddi wrth Calvin yn mherthynas i'w olygiadau duwinyddol, ysgrifenodd lythyr maith ato, yn yr hwn yr anfonodd restr o'r hyn a alwai yn gamsyniadau a ffolinebau oedd yn ei *"Institutes;"* a gwrthododd Calvin ohebu rhagor âg ef.

Yr oedd Servetus, mewn llythyr at un o'i gyfeillion, wedi dadgan ei grediniaeth y dioddefai farwolaeth o herwydd ei olygiadau duwinyddol; ac ni chyhoeddodd y *"Christianismi Restitutio"* heb gymmeryd pob gofal a allai i ddirgelu y ffaith mai efe oedd yr awdwr. Ymdrechodd gyhoeddi y gwaith yn Basle; ond nid oedd yno un llyfrwerthwr yn foddlawn i ymgymmeryd â'r anturiaeth beryglus; ac o'r diwedd efe a'i hargraphodd yn Vienne, yn 1553, ond heb enw yr argraphydd, nac hyd yn oed y dyddiad, nac enw y lle yr argraphwyd ef. Creodd y gwaith deimlad a chyffroad anarferol; ond y mae yn debyg y buasai yr awdwr yn parhau i fod yn anhysbys, oni bae fod Calvin wedi adnabod yr arddull, a deall oddi wrth yr ymosodiadau oedd ynddo arno ef ei hun mai Servetus a'i hysgrifenodd. Ond y mae Calvin yn gwadu nad oedd efe yn gyfrifol am ei garchariad ar y cyntaf. Mewn canlyniad i'r ammheuaeth a syrthiodd ar Servetus, mai efe oedd yr awdwr, daliwyd ef, a thaflwyd ef i garchar. Ond diangodd o'r carchar, Mehefin 17eg, 1553. Ffodd i Geneva; ond daliwyd ef yno, ar y dydd cyn yr un yr arfaethai fyned i Italy. Galwyd ef o flaen ei farnwyr ar y laf o Fedi yr un flwyddyn, i sefyll ei brawf am gabledd. Penderfynodd y cynghor yn Geneva yn ddirgel ei roddi i farwolaeth; ond yn gymmaint a bod hyn yn gam pwysig, hwy a wnaethant appeliad at farn ereill, a barnwyd yn ddoeth anfon copi o'i weithiau, a'r tystiolaethau yn ei erbyn, i weinidogion taleithiau Protestanaidd Zurich, Basle, Berne, a Schaffhausen, ac i ofyn am eu barnau o barthed i'w euogrwydd. Derbyniwyd attebion o Zurich ar yr 2il o Hydref; ac o Basle a Schaffhausen ar y 18fed o'r un mis. Ni fynegir dyddiad yr attebiad o Berne. Cydunent oll i gondemnio ysgrifeniadau Servetus; ond o'r braidd y cymmeradwyent ei roddi i farwolaeth. Ar ol derbyn yr attebion hyn, cyfarfu y cynghor ar y 27ain o Hydref, a chondemniwyd Servetus i ddioddef marwolaeth trwy gael ei losgi; a rhoddwyd y ddedfryd lem hon mewn grym arno yn ddioed.

Gweithred o benboethni hollol anesgusodol yn ddiammheuol oedd llosgi Servetus; a diau fod cymmeriad Calvin wedi gorfod dioddef yn fawr ar gyfrif y rhan amlwg a gymmerodd efe yn yr holl drafodaeth. Wrth gwrs, y mae ei elynion o blegid hyn wedi gwneyd yr oll a allent i warthruddo ei enw da ef; ond wedi y cwbl, er mai Calvin oedd, fe allai, wrth wraidd y gwaith o ddwyn Servetus ger bron yr awdurdodau, etto nid oedd i'w feio yn fwy na diwygwyr ereill, o herwydd y gospedigaeth lem a weinyddwyd

Digitized by Google

arno. Erbyn hyn, pa fodd bynag, y mae pawb, cyfeillion yn gystal a gelynion, yn cydnabod ammhriodoldeb ac annhegwch y gospedigaeth. Ond dadleua amddiffynwyr Calvin fod hyn yn cydfyned âg ysbryd yr oes, a chyfreithiau Geneva, ac hyd yn oed â syniadau llawer o ddynion mawr oedd yn byw yn y cyfnod hwnw; etto cydnabyddant eu bod yn gofidio o herwydd y rhan a gymmerodd Calvin yn y gwaith.

SESACH: gair nad ydyw yn digwydd ond yn unig yn Ieremiah (*pen.* xxv. 26; li. 41); yr hwn, y mae yn amlwg, sydd yn ei ddefnyddio fel gair cyfystyr am Babilon neu am Babilonia. Yn ol rhai esbonwyr, y mae yn dynodi 'Babel' ar egwyddor eithaf adnabyddus i'r Iuddewon diweddarach—gosod llythyrenau yn ol eu sefyllfa yn yr egwyddor, gan gyfrif yn ol oddi wrth y llythyrenau olaf, yn lle y rhai sydd yn dal yr un sefyllfa rifyddol, gan gyfrif yn y dull arferol. Modd bynag, y mae yn ammheus a ydyw yr arferiad dychymygol hwn mor hen ag Ieremiah. Beth bynag, nid ydyw yr eglurhâd hwn yn ymddangos mor foddhaol ag i wneyd pob un arall yn afreidiol. Yn awr, y mae Syr Henry Rawlinson wedi sylwi y gallesid darllen enw y lleuad-dduw, yr hwn oedd yr un, neu agos felly, ag enw dinas Abraham, *Ur* (neu *Hur*), yn un o hen briod-ieithoedd Babilon fel '*Shishaki;*' ac os felly, "y gellir fel hyn gael eglurhâd ar Sesach yr Ysgrythyr." Gall Sesach sefyll am Ur, trwy i Ur ei hun, yr hen brif ddinas, gael ei chymmeryd (fel yr oedd Babel, y brif ddinas newydd, bob amser) i ddynodi y wlad allan.

SESAI: un o dri mab Anac, yr hwn a drigai yn Hebron (*Num.* xiii. 22), ac a yrwyd oddi yno ac a laddwyd gan Caleb, yr hwn oedd arweinydd plant Iudah: *Ios.* xv. 14; *Barn.* i. 10.

SESAN: un o hiliogaeth Ierameel, mab Hezron, a chynnrychiolydd un o brif deuluoedd Iudah. Am nad oedd iddo fab, efe a roddes ei ferch yn wraig i Iarha ei was, a thrwy yr undeb hwn parhawyd ei linach: 1 *Cron.* ii. 31, 34, 35.

SESOSTRIS: enw Groegaidd penadur Aiphtaidd enwog, yr hwn y tybir iddo orchfygu holl Asia ac Ethiopia. Efe oedd y trydydd brenin o ddeuddegfed deyrnach Manetho; ac, yn ol Herodotus, olynydd i Moeris; ond y mae Diodorus yn tybied ei fod yn byw yn y seithfed genhedlaeth ar ol Moeris. Y mae yn anhawdd gwybod yn fanwl pa amser y blodeuai; ond y farn fwyaf gyffredin ydyw, ei fod yn byw yn rhywle tua'r flwyddyn c. c. 1500. Y mae yr hyn sydd wedi dyfod i lawr i ni o hanes Sesostris yn cynnwys cymmaint o ormodiaith am ei anturiaethau milwrol llwyddiannus, fel y mae o'r bron yn rhaid i ni dybied eu bod yn cynnwys anturiaethau amryw frenhinoedd oeddynt, fe allai, o'r un enw ag ef, a bod y rhai hyny yn cael eu priodoli i un. Nid oes sail i ammheu na bu y fath berson mewn bod; ac am fod ei hanes yn gwasanaethu i egluro llawer o weddillion celfyddyd ac archadeiladaeth yr Aipht, y mae yn angenrheidiol cyfeirio at rai o'r traddodiadau am dano.

Mynegir i dad Sesostris gymmeryd holl blant gwrywaidd yr Aipht, a anwyd yr un dydd a Sesostris, i'w haddysgu gydag ef; ac iddo roddi iddynt addysg filwraidd reolaidd dda, mewn trefn iddynt lynu wrth eu brenin, ac fel y gallugid hwynt i ddioddef gydag ef y caledi y gallent fod yn agored iddo yn ystod ei anturiaethau milwraidd ef. Y rhyfelgyrch cyntaf a wnaeth Sesostris yn nhymmor bywyd ei dad oedd i Arabia—gwlad a orchfygwyd ganddo. Wedi hyn, er nad oedd ond dyn ieuangc, anfonodd ei dad ef i'r gwledydd sydd i'r gorllewin o'r Aipht, a gwnaeth yntau ei hun yn feistr ar y rhan fwyaf o Libya. Ar ol marwolaeth ei dad, wedi iddo esgyn i'r orsedd, efe a benderfynodd mynu sylweddoli prophwydoliaeth am dano; sef, y byddai iddo orchfygu pob rhan o'r ddaear a breswylid gan ddynion. Ond cyn cychwyn allan, teimlai yn awyddus i feddiannu ewyllys da yr Aiphtiaid; o herwydd disgrifir ef fel brenin ar holl wlad yr Aipht. Efe a ranodd y wlad yn un ar bymtheg ar hugain o ddosbarthiadau—pob un o dan lywodraeth math o raglaw. Yna efe a gyfododd fyddin o 60,000 o wŷr traed, 24,000 o wŷr meirch, ac 20,000 o anifeiliaid i ddilyn y fyddin ac i wasanaethu arni; a rhoddodd reolaeth y gwahanol fân raniadau lliosog o'r fyddin i'r rhyfelwyr hyny a addysgwyd gydag ef, y rhai oeddynt 1,700 mewn nifer. Rhoddodd i'r rhai hyn hefyd y rhanau goreu o'r tir; o blegid dywedir iddo ddosbarthu y wlad yn rhanau cyfartal, a rhoi darn o dir i bob Aiphtwr. Cyfeiriodd ei ymosodiad cyntaf yn erbyn yr Ethiopiaid; y rhai a ddarostyngodd efe, gan eu gorfodi i dalu teyrnged flynyddol, yn cynnwys aur, ifori, &c. Yna efe a anfonodd allan 400 o longau hirion—y rhai cyntaf a adeiladwyd yn yr Aipht. Hwyliodd y llynges hon i lawr y Môr Coch, ac o amgylch arfordir Asia mor bell ag India, a gorchfygwyd yr holl genhedloedd oedd ar y gororau. Yn y cyfamser, aeth Sesostris yn mlaen i Asia gyda byddin mor bell a glanau dwyreiniol y Ganges, ïe, hyd lenydd y Môr Dwyreiniol. Wedi darostwng holl Asia fel hyn, dychwelodd trwy gyfeiriad gogledd-orllewinol, a chyrhaeddodd i Scythia ar lanau y Tanais. Gellir olrhain olion gorchfygiadau y brenhinoedd Aiphtaidd yn India hyd heddyw ar rai o'r cofadeiliau Aiphtaidd.—"*Egyptian Antiquities,*" cyf. i. td. 391. Aeth y brenin yn mlaen gyda'i gynllun: croesodd y Tanais, ac ymdeithiodd trwy Thrace; lle, modd bynag, y cyfarfu âg anhawsderau mawrion, mewn rhan o ddiffyg darpariaethau, ac mewn rhan o blegid natur y wlad; gan hyny, nid aeth yn mhellach yn mlaen gyda'i anturiaethau yn y ffordd hono. Arferai gyfodi colofnau yn yr holl wledydd a orchfygai, ar ba rai y cofnodid ei fuddugoliaethau; ac mewn rhai manau, codai gerflun o hono ei hun, yn mesur saith troedfedd—yr hyn oedd ei daldra naturiol. Mynega Herodotus iddo ef weled y colofnau a gyfododd efe yn Mhalestina, a dau gerflun o hono wedi eu cerfio yn y creigiau yn Ionia; ac ymddengys eu bod i'w gweled yn Ethiopia hefyd yn nyddiau Strabo.

Parhaodd y rhyfelgyrch anferth hwn am naw mlynedd; ac wedi iddo wneuthur trefn ar y trethi dyledus iddo, casglodd Sesostris ei garcharorion a'i ysbail ynghyd, a dychwelodd i'r Aipht. Wedi dyfod hyd Pelusium, bu agos iddo ef, ei wraig, a'i blant gael eu llosgi yn eu pabell, trwy fradwriaeth ei frawd; i'r hwn yr ymddiriedodd efe raglawiaeth yr Aipht yn ystod ei absennoldeb. Priodolid diangfa ffodus y brenin a phedwar o'i blant (canys fe losgwyd dau o honynt), i Hephæstus, duw Memphis; ac anrhegodd y brenin deml yr eilundduw yn y dref hono â cherfluniau o hono ei hun a'i wraig,

Digitized by Google

ongl yn y gwrthddrych. Er enghraifft, tuag at gael sail-linell â digon o hyd ynddi i ffurfio ongl yn yr haul, rhaid cael tryfesur y ddaear; *h. y.*, rhaid edrych arno o un ochr i'r ddaear, ac hefyd o'r ochr arall, cyn y gellir canfod unrhyw gyfnewidiad yn ei sefyllfa, fel ag i ffurfio ongl—neu yn iaith seryddiaeth, cyn y gellir cael *parallax*. Ond gan fod y ser yn gymmaint pellach drachefn na'r haul, ni byddai llinell o'r un mesur a thryfesur y ddaear yn agos ddigon mewn hyd i ffurfio ongl yn un o'r ser. O ba le, gan hyny, y gellir cael llinell â digon o hyd ynddi? Y mae cylchdroad y ddaear oddi amgylch yr haul yn abl i roddi y cyfryw i ni. Y mae y cylch, yn yr hwn y mae y troad hwn yn cymmeryd lle, yn mesur ar ei draws cant a phedwar ugain a deg o filiynau (190,000,000) o filldiroedd. Mae'r ddaear heddyw, dyweder, yn un ochr o'r cylch hwn, ond yn mhen chwe mis, bydd yn yr ochr arall iddo; *h. y.*, 190,000,000 o filldiroedd o bellder. Dyma sail-linell â digon o hyd ynddi, trwy edrych ar seren o'r naill ben iddi, ac wedi hyny o'r llall, i ffurfio ongl yn y seren, a thrwy hyny i fesur ei phellder oddi wrth y ddaear. Gwnaed y prawf gan Hook, Flamsteed, ac ereill; ond yn aflwyddiannus. Methasant a chanfod yr un ongl yn y seren Draco, ar yr hwn y gwnaed y prawf. Ond mewn blynyddoedd diweddarach, trwy gymmhorth offerynau rhagorach a chywirach, llwyddwyd i wneyd allan onglau rhai o'r ser sefydlog, ac felly i fesur eu pellder tebygol. Y mae ongl o un eiliad (*second*) yn arddangos pellder yn cyfatteb i hanner tryfesur cylchdro y ddaear 206,000 o weithiau; *h. y.*, 91,000,000 o filldiroedd 206,000 o weithiau. Y mae ongl yn cyfatteb yn lled agos i hyn wedi ei ganfod ynglŷn â'r seren a elwir ($\alpha$) Centauri. Gwnaed y darganfyddiad hwn gan y Proffeswr Henderson, seryddwr brenhinol yn Edinburgh. Pellder y seren yw 20 biliwn o filldiroedd. Y mae y pellder yn gyfryw fel y cymmerai i belydr o oleuni ddyfod o honi i'r ddaear dair blynedd a phedwar mis i deithio. Nid yw yn bossibl, gan hyny, i ni ei chanfod ar unrhyw foment neillduol, fel y mae ar y foment hono; ond fel yr oedd dair blynedd a phedwar mis cyn y foment yr edrychom arni! Pe diflanai o'r ffurfafen yn Ionawr, 1875, parhäai i fod yn weledig ar y ddaear hyd ddiwedd Ebrill, 1879. Mewn modd cyffelyb, yr ydys wedi cael onglau un ar ddeg o ser ereill, a thrwy hyny eu pellder. Y mae y daflen ganlynol yn crynhoi yr hysbysrwydd:—

| Enw y seren. | Parallax ongl. | Pellder yn ol nifer y blynyddau i'w goleuni gyrhaedd y ddaear. | Arsyllwr. |
|---|---|---|---|
| $\alpha$ Centauri ... | 0".9817 | 3.52 | Maclear. |
| 61 Cygni ... | 0.5638 | 5.77 | Auwers. |
| 21258 Lalande | 0.2709 | 12.01 | ,, |
| 17415 Veltzen | 0.247 | 13.09 | Krüger. |
| 1830 Groombridge | 0.226 | 14.31 | C. Peters. |
| 70 Ophinchi ... | 0.16 | 20.21 | Krüger. |
| $\alpha$ Lyræ ... | 0.155 | 20.86 | Struve. |
| Sirius ... | 0.150 | 21.56 | Hend'son |
| Misæ Majoris | 0.133 | 24.31 | Peters. |
| Arcturus ... | 0.127 | 25.46 | ,, |
| Polaris ... | 0.067 | 48.26 | ,, |
| Capella ... | 0.046 | 70.30 | ,. |

Ystyrir fel yn debygol, ar sail yr ymchwiliadau mwyaf manwl a dyrus, fod pellder canolfesurol seren o'r maintioli cyntaf yn gyfryw ag a gymmerai 15½ o flynyddoedd i belydr o oleuni ei deithio, 28ain o flynyddoedd o seren o'r ail maintioli, 43ain o flynyddoedd o seren o'r trydydd maintioli, a 3,500 o flynyddoedd o un o'r deuddegfed maintioli. Ond pa beth a ddywedwn am bellder y rhai nad ydynt yn weledig, oddigerth trwy gynnorthwy y gwydrau cryfaf. Yr ydym yn gweled y rhai hyny yn ngoleuni y pelydrau ydoedd yn tarddu o honynt lawer o filoedd o flynyddoedd yn ol! Y mae un ysgrifenydd yn cymmeryd mantais oddi wrth y pellderau mawrion hyn i ddychymygu y possiblrwydd fod creaduriaid yn preswylio y bydoedd pell hyny wedi eu cynnysgaeddu â gweledigaeth mor gryf fel ag i allu canfod y golygfeydd sydd ar y ddaear o'r pellder annhraethol y maent ynddo oddi wrthym; ac os tybir eu bod mewn pellder ag y cymmer i'r goleuni tua 6,000 o flynyddoedd i gyrhaedd hyd atynt, y maent yn awr yn dechreu canfod ein rhieni cyntaf fel yr oeddynt yn eu perthynas â ni 6,000 o flynyddoedd yn ol—yn dystion presennol o'u diniweidrwydd cyntefig, eu cwymp alaethus, a'u halltudiad torcalonus o Baradwys Eden. Y mae yr olygfa a ddarluniwyd gannoedd o flynyddoedd yn ol gan y bardd Milton yn cael eu lledu ger eu bron.

MAINTIOLI Y SER.

Wrth faintioli y ser sefydlog y deallir yn gyffredin graddau eu disgleirdeb. Y mae eu mesuriad gwirioneddol yn beth gwahanol. Gelwir y ser mwyaf disglaer yn rhai o'r maintioli cyntaf, a'r rhai nesaf o ran trefn mewn disgleirdeb yn rhai o'r ail maintioli, ac felly yn mlaen. Egwyddor y dosbarthiad hwn ar y ser ydyw y ffaith y cyfeiria Paul ati yn ei Epistol Cyntaf at y Corinthiaid; sef, fod "rhagor rhwng seren a seren mewn *gogoniant*." Os cymmerir y rhif *un* i ddynodi disgleirdeb seren o'r chweched maintioli, bydd disgleirdeb cymmhariaethol y rhai canlynol fel hyn:—

| | |
|---|---|
| Seren o'r 5ed maintioli ... | 2 |
| ,, 4ydd ,, ... | 6 |
| ,, 3ydd ,, ... | 12 |
| ,, 2il ,, ... | 25 |
| ,, 1af ,, ... | 100 |
| Sirius, y seren ddisgleiriaf... | 324 |
| Yr haul, y seren agosaf (chwe mil a phedwar cant a phedwar ugain o gannoedd o filiynau) ... ... | 6,480,000,000,000 |

Y mae yn amlwg am y ser hyn, a'u disgleirdeb, naill ai eu bod o'r un maintioli, ac mewn pellder gwahanol i'w gilydd, neu o'r un pellder ac o faintioli gwahanol, neu o faintioli gwahanol ac mewn pellder amrywiol. Lle y mae y pellder wedi ei wneuthur allan, gallwn fod yn sicr; ond oddi wrth ystyriaethau ereill, y mae yn debygol fod eu disgleirdeb gwahaniaethol i'w briodoli i wahaniaeth yn eu pellder. Yn ol fel y mae graddau eu disgleirdeb yn lleihau, wrth reswm y mae nifer y ser unigol a gynnwysir mewn maintioli neu ddosbarth yn chwanegu. Cyfrifir fod tua 22 yn y maintioli cyntaf, 65 yn yr ail, 200 yn y trydydd, 1,100 yn y pummed, 3,200 yn y chweched. Mae y chwe maintioli cyntaf yn cynnwys tua 5,000, sef tua mil llai na nifer yr holl ser sydd yn weledig â'r llygaid noeth. Ond *ar un waith*, nis gellir canfod â'r llygaid noeth chwaneg na thua tair mil. Dengys y drychau sydd mewn arferiad cyffredin ser i fyny hyd at yr unfed maintioli ar ddeg; tra y

Digitized by Google

teithio tuag atynt, tra y mae y rhai sydd o'n hol yn ymgau, fel yr ydym yn eu gadael ar ein hol. Y pwynt yn nghydser Hercules y mae y gyfundrefn heulog yn cyfeirio ato, yn ol barn Syr William Herschel, ydyw y seren λ *(l)* yn Hercules, neu yn agos iddi. O herwydd y symmudiad parhaus hwn, y mae sefyllfa y gyfundrefn heulog yn yr eangder yn graddol newid yn barhaus; ac yn nghwrs oesoedd ar ol oesoedd pâr i'r ser sydd yn bresennol yn eirianu gyda'r disgleirdeb mwyaf canaid fyned o'r golwg, neu lewyrchu yn dra gwanaidd; tra y pâr i ereill sydd yn bresennol yn anweledig ddyfod i'r golwg.

MAINTIOLI GWIRIONEDDOL Y SER.

Gan nad ydyw y gwydrau mwyaf nerthol yn alluog i ddangos y *wyneb* gwirioneddol i un o'r ser, ac nad ydynt oll ond yn rhoddi ymddangosiad o honynt, nis gellir trwy fesuriad gweithredol wneuthur allan faintioli gwirioneddol un o'r ser sefydlog. Yr unig ffordd y gellir cael hysbysrwydd yn ymylu ar debygolrwydd gyda golwg ar hyn ydyw, trwy gymmharu y swm o oleuni a dderbynir oddi wrth ryw seren neillduol, yr hon y mae ei phellder yn wybyddus i ni, â'r swm o oleuni a roddasid gan yr haul pe buasai yn gorwedd yn y pellder hwnw oddi wrth y ddaear; ac os cymmerir yn ganiataol fod y disgleirdeb arwynebol yn gyfartal, gallwn dynu casgliad gyda golwg ar arwyneb, a thrwy hyny ar faintioli y seren. Y mae *(a)* Centauri, er enghraifft, yn 230,000 o weithiau pellach oddi wrthym nag ydyw yr haul. Pe buasai yr haul yn y pellder hwnw, ni buasai ei ddisgleirdeb ond yn 52,900,000,000 rhan o'r hyn ydyw. Ond y mae *(a)* Centauri yn y pellder hwnw yn disgleirio gyda 16,950,000,000 rhan o ddisgleirdeb presennol yr haul. Felly, y mae y seren hono yn rhoddi allan dair gwaith mwy o oleuni na'r haul; a chan hyny y mae ei harwynebedd yn dair gwaith cymmaint, ei thryfesur yn $\sqrt{3}$ cymmaint, a'i swm yn $3\sqrt{3}$ cymmaint. Y mae Sirius, yn ol cyfrifiad tebyg, yn rhagori ar yr haul mewn maintioli 2,700 o weithiau.

SER DWBL, TREBL, A LLIAWSRIF.

Y mae amryw o'r ser sydd yn ymddangos i'r llygaid noeth fel rhai unigol yn ymddangos trwy y sylldrych yn ddwbl; *h.y.*, yn ddwy seren, ochr yn ochr â'u gilydd. O'r rhai hyn y mae dau ddosbarth; sef, yn gyntaf, y ser dwbl, &c., gwelediadol, neu ymddangosiadol—pan fyddo dwy seren yn digwydd gorwedd yn yr un linell i'n gwelediad, ond y naill yn gorwedd yn anhraethol bellach na'r llall, ac heb un cyssylltiad gwirioneddol rhyngddynt. Y mae digwyddiad y cyfryw gydgyfarfyddiad, dwy seren yn yr un linell gwelediad, yn beth tra anfynych; ac am hyny y mae y rhan fwyaf o'r ser dwbl yn perthyn i'r ail ddosbarth; sef, y ser dwbl gwirioneddol, y rhai y mae gwir gyssylltiad rhyngddynt a'u gilydd—yr hyn a ddangosir yn y ffaith o'u bod yn cylchdroi, y naill seren o amgylch y llall. Gelwir hwy yn ser dwbl gwirioneddol, neu anianyddol. Cymmer iddynt wneuthur eu cylchdro, mewn amryw enghreifftiau, lai na chan mlynedd; ond mewn enghreifftiau ereill cymmer filoedd o flynyddoedd i'r naill seren gylchdroi o amgylch y llall. Cyn i Syr William Herschel dalu sylw i hyn, nid oedd ond pedair o ser dwbl yn adnabyddus. Ond yn awr y mae 6,000 wedi eu canfod, o ba rai y mae tua 700 yn rhai gwirioneddol neu anianyddol. Fel rheol gyffredin, mae un o'r ser dwbl yn rhagori mewn disgleirdeb ar y llall, ac felly yn cyflawni yn llythyrenol yr hyn a ddywedir gan yr apostol Paul. Y mae llawer o honynt yn rhoddi enghreifftiau i ni o'r hyn a elwir yn lliwiau cydgyflawnol *(complementary colours)*. Mae y fwyaf o'r ddwy seren yn goch, neu o liw eur-afal *(orange)*, a'r un lai o liw glas neu wyrdd. Y mae y naill seren yn cyflawni diffyg y llall yn ei lliw. Y seren ddwbl fwyaf cyflym yn ei chylchdro adnabyddus hyd yma ydyw ξ Herculis. Gorphena ei throad mewn un-mlynedd-ar-bymtheg-ar-hugain. Cymmer i ereill lawer chwaneg; megys, er enghraifft, γ Coronæ Australis, can mlynedd; a γ Leonis, deuddeg can mlynedd. Un o'r rhai mwyaf nodedig ydyw *(ε)* Lyræ. I'r llygaid noeth hi a ymddengys fel un seren: trwy *opera-glass* ymddengys fel dwy: a thrwy sylldrych cryf canfyddir pedair. Y mae y ddwy seren berthynol i'r swp fel hyn yn ddwbl, ac am hyny gelwir hi yn seren ddwbl-ddwbl. Yma, gan hyny, ni a ganfyddwn bedwar o heuliau mawrion yn ddau o barau: un pâr yn cylchdroi o amgylch pwynt sydd yn gorwedd rhyngddynt, a'r pâr arall yn gwneuthur yr un modd; a thrachefn y ddau bâr yn cylchdroi o amgylch pwynt canolog rhwng y parau. Dyma enghraifft i ni o'r hyn a fu unwaith yn ffaith yn y gyfundrefn heulog. Yn lle bod y planedau fel y maent yn awr yn gyrph tywyll, ac yn cael eu goleuo gan yr haul, y mae yn rhaid eu bod hwythau unwaith wedi bod yn disgleirio fel y rhai uchod yn eu goleuni eu hunain.

SER LLIWIEDIG.

Y mae llawer o'r ser yn disgleirio gyda goleuni lliwiedig; megys, coch, glas, gwyrdd, melyn. Fel y dywedwyd uchod, gwelir lliwiau cydgyflawnol yn y ser dwbl, lle y mae un seren yn llawer llai disglaer na'r llall; yr hyn sydd i'w briodoli i effaith gwrthgyferbyniad yn unig: ond mewn llawer iawn o enghreifftiau y mae amryw liwiau gwirioneddol yn perthyn iddynt. Y mae yn y ffurfafen, gan hyny, nifer mawr o heuliau melynion, glas, gwyrdd, ac ysgarlad, y rhai y mae eu disgleirdeb yn cynnyrchu effeithiau tra phrydferth ar y planedau perthynol iddynt. Nid oes enghreifftiau o ser *unigol* gwyrdd neu las. Cyfyngir y lliwiau hyny i'r rhai lliaws-rif. O dan y cydser a elwir yn Orion, y mae seren o liw coch fel gwaed; yr hon sydd yn gwrthgyferbynu yn gryf âg un arall agos ati, yr hon sydd o liw gwyn tra disglaer. Y mae genym sicrwydd fod lliw rhai o'r ser wedi newid yn nhreigliad yr oesau. Enghraifft neillduol o hyn ydyw *Sirius;* yr hon, yn amser yr hynafiaid, ydoedd o liw coch, ond yr hon sydd yn bresennol, fel y mae yn hysbys ddigon, o liw gwyn canaid, disglaer. Y mae y gwahaniaeth lliwiau yma yn yr amrywiol ser i'w briodoli yn ddiau i wahaniaeth gwirioneddol yn natur y goleuni a roddir allan ganddynt. Os oes, fel y tybir ar dir tebygol gyda golwg ar yr haul, orchudd o nwy llosgedig yn daenedig dros arwyneb y ser, gallwn roddi cyfrif am yr amrywiaeth lliwiau trwy dybied gwahaniaeth yn nghyfansoddiad fferyllol y gorchudd hwnw yn y naill seren o'i chymmharu âg ereill, ac i wahaniaeth tymmheredd yn y nwyon amrywiol. Dywed Proctor fod lliw seren i'w briodoli i bresennoldeb tarth yn ei hawyrgylch, yr hwn sydd yn tori ymaith ryw ranau pennodol o'r goleuni. Y mae lliwiau rhai o'r prif ser fel y canlyn:—

Antares, Aldebaran, a Betelgeuse, coch; *(γ)* Andromedæ, gwyrdd, tebyg i'r môr; Arcturus,

Digitized by Google

Procyon, a Pollux, melyn; Vega ac Altair, glas gwanaidd; Capella a Sirius, gwyn. Yn y Groes Ddeheuol y mae swp o ser lliwiedig, y rhai ydynt yn fwy na chant mewn nifer, o bob lliwiau, ac yn rhoddi yr argraph ar y meddwl o gynnifer o berlau lliwiedig godidog yr olwg arnynt.

SER AMRYWIOL.

Y mae lliaws o ser y rhai sydd yn arddangos cyfnewidiadau cyfnodol mewn dirgleirdeb. Enghraifft neillduol o hyn ydyw y seren a elwir Mira o Ceti. Y mae i hon gyfnod o dri chant a phedwar-ar-ddeg-ar-hugain o ddyddiau. O fod yn seren o'r ail maintioli, y mae yn myned yn ystod y cyfnewidiad yn seren mor anamlwg fel mai prin y gellir ei chanfod trwy y syllddrychau mwyaf nerthol. Y mae β Persei yn disgleirio fel seren o'r ail maintioli am ddau ddiwrnod a thair awr ar ddeg a hanner; ac yna yn ddisymmwth yn colli ei goleuni, ac yn mhen tair awr a hanner yn syrthio i'r pedwerydd maintioli. Yna y mae yn ymddisgleirio drachefn; ac mewn cyfnod arall o dair awr a hanner y mae yn cyrhaedd eilwaith i'r disgleirdeb mwyaf. Y mae rhoddi cyfrif am yr amrywioldeb hwn yn un o'r cwestiynau mwyaf dyrus mewn seryddiaeth, ac amryw dybiaethau wedi eu cynnyg i geisio ei egluro. Y mae rhai yn priodoli y cyfnewidiad i darth cyfnodol sydd yn cyfodi oddi ar wyneb y ser. Tybiaeth arall, ac un a ystyrid gynt yn foddhaol, ydoedd, fod y ser yn troi ar eu hechelau, a bod rhanau gwahanol o gorph y seren yn llai a mwy disglaer na'u gilydd. Yr eglurhâd a ystyrir yn fwyaf tebygol yn bresennol, gyda golwg ar y cyfnodau meithion, a rhai o'r rhai sydd yn cyfnewid mewn byr amser, ydyw, eu bod yn ddyledus i derfysgoedd cyffelyb o ran eu natur i'r rhai sydd yn achosi cynnyrchiad brychau yn yr haul. Ond gyda golwg ar ser, fel Algol, sydd yn eiriann yn ddisglaer, a hyny yn gysson, am y rhan fwyaf o'r cyfnod, ond yn pylu am adeg fer, tebygol ydyw fod y cyfnewidiad i'w briodoli i drogylchiad planed o amgylch yr haul. Dylem grybwyll tybiaeth Balfour Stewart, yr hwn sydd yn barnu fod disgleirdeb chwanegol y ser hyn i'w briodoli i ddynesiad eu planedau atynt yn yr adeg hono. Y mae yr amrywiaeth yn nisgleirdeb rhai o'r ser yn gwbl afreolaidd, megys, er enghraifft, y seren P yn Corona Borealis:— seren o'r degfed maintioli, yr hon a ffaglodd allan yn ddisymmwth i un o'r ail maintioli. Priodolir y cyfnewidiad hwnw ar seiliau da i ymdoriad anferthol o'r elfen *hydrogen* eiriasboeth.


SER TYMMOROL, A SER COLLEDIG.

Wrth y teitlau uchod y gelwir y ser hyny y rhai a ymddangosant ar unwaith gyda disgleirdeb mwy neu lai, ac ar ol hyny a ddiflanant yn raddol. Yr enghreifftiau neillduol o'r cyfryw ydyw yr un a ymddangosodd yn 1572, a'r un a ddaeth i'r golwg yn 1866. Darlunir y cyfnewidiadau perthynol i'r gyntaf o'r ddwy gan Tycho Brahe. Ei sefyllfa ydoedd Cassiopeia. Yn ei hymddangosiadau cyntaf yr oedd yn disgleirio fel Sirius, neu y blaned Iau, neu Gwener, yn ei goreu, ac yr oedd yn weledig yn y dydd. Yn y nos yr oedd yn ganfyddadwy trwy gymmylau ag oeddynt yn cuddio gwrthddrychau ereill. Amrantai yn gryf, ac amrywiai mewn lliw: yr oedd yn wyn i ddechreu, yna yn felyn, ac yn ddiweddaf oll yn goch iawn. Diflanodd yn raddol, nes o'r diwedd y llwyr ddiflanodd yn Mawrth, 1574. Y mae yn ffaith tra dyddorol fod ymddangosiad cyffelyb wedi ei ganfod yn y blynyddoedd 945 a 1264; ac y mae rhyw sail i ddisgwyl ymddangosiad cyffelyb etto yn 1885. Torodd yr ail o'r ser a grybwyllwyd allan yn 1866. Flynyddoedd cyn hyny, cofrestrid hi fel un o'r nawfed maintioli: ond ffaglodd allan yn ddisymmwth yn Mai, 1866; ac ar y 12fed o'r mis hwnw cyrhaeddodd yr ail faintioli. Ac ar y 14eg disgynodd i'r trydydd. Y mae amryw dybiaethau wedi eu cynnyg i roddi cyfrif am yr ymddangosiadau hyn; ond, fel y nodwyd, yr un mwyaf tebygol, yn ol sefyllfa bresennol ein gwybodaeth, ydyw yr hon a dybia ymdoriad o *hydrogen* yn awyrgylch y seren. Tybiaethau ereill, na raid ond eu henwi, ydyw y rhai canlynol:—


1. Symmudiadau cyflym y ser yn yr eangder.
2. Terfysgoedd o natur gwefrol a magnetaidd. —*Humboldt.*
3. Cylchdroad ar eu hechelau, ynghyd âg amrywiaeth disgleirdeb gwahanol ranau o wynebau y ser.
4. Cymmylau ser-niwlog, yn gosod eu hunain rhyngom ni a hwynt.

SYPIAU NEILLDUOL O SER.

1. *Y saith seren yn yr Arth Fawr*, yn ffurfio y gynffon a'r rhanau ol o'r Arth. Y ddisgleiriaf yn yr hanner-gylch gogleddol. Y maent yn y gogledd tua hanner nos yn niwedd mis Medi, ac yn agos yn unionsyth uwch ben yn niwedd Mawrth. Nid ydynt byth yn disgyn is law; ac am hyny y maent yn wastad yn weledig yn yr hannergylch gogleddol. Gelwir y ddwy seren ddisgleiriaf, sef *α* a *β*, wrth yr enw "y pwyntyddion," am eu bod yn pwyntio at Seren y Gogledd, trwy dybied llinell yn pasio drwyddynt, ac yn ymestyn am ryw bellder tu draw.



2. *Cassiopeia.* Pump o ser yn ffurf y llythyren *W*.




Am 10 o'r gloch yn Ebrill, y maent yn y gogledd, rhwng Seren y Gogledd a'r terfyngylch. Am 10 o'r gloch yn Hydref, y maent agos yn unionsyth uwch ben.

3. *Orion.* Y maent yn y deheu am hanner nos yn mis Rhagfyr. Adnabyddir y swp yn hawdd wrth y tair seren sydd yn ffurfio y gwregys. Cynnwysa saith o ser i gyd, y rhai sydd yn dra eglur i'r llygad noeth. Y mae pedair o honynt yn ffurfio pedair-ongl, ac y mae y tair ereill yn rhes yn ei ganol, ac yn cael eu hadnabod wrth yr enw "gwregys Orion"—*the belt of Orion.* Mae y swp yn weledig yn mhob parth o'r byd. Darganfyddodd Huygens (1656) nifwl yn amgylchynu seren neillduol ynddo.


Digitized by Google

Ar y chwith, ac ychydig is law, y mae Sirius—y ddisgleiriaf o'r holl ser.



Ychydig yn is i lawr, ac ar y chwith i'r Pleiades, y mae cûn o ser a elwir yr Hyades—y ddisgleiriaf o ba rai ydyw Aldebaran.

4. *Y Groes Ddeheuol.*—Swp tra phrydferth, yn cynnwys pedair o ser disglaer, ac ereill yn llai. Yr oedd yn weledig yn Mhrydain 4000 o flynyddoedd yn ol; ond yn awr, y mae yn anweledig.



4. *Seren y Gogledd.*—Y seren $\alpha$ yn yr Arth fach. Yn amser Hipparchus, tad seryddiaeth, yr oedd y seren hon ddeuddeg o raddau oddi wrth y pegwn: ond yn awr, y mae o fewn gradd a hanner; ac ä yn nes etto nes cyrhaedd o fewn hanner gradd. Ar ol hyny, hi gilia yn ol oddi wrth y pegwn, nes, yn mhen oesoedd, y rhaid iddi roddi ei lle fel Seren y Gogledd i ryw seren arall. Tua 4,000 o flynyddoedd yn ol *(a)* Draconis oedd Seren y Gogledd. Yn mhen 12,000 o flynyddoedd etto, Vega, yn Lyra, fydd yn y sefyllfa briodol i fod yn gyfryw. Y mae Seren y Deheu yn llawer mwy gwanaidd. Yn y cydser Octans y ceir hi, yn agos i'r seren $\sigma$. Ynglŷn â'r mater hwn, crybwyllwn amgylchiad cywrain a ganfyddwyd mewn cyssylltiad â'r ymchwiliadau a wnaed flynyddoedd yn ol yn yr Aipht. Allan o'r naw pyramid sydd yn sefyll yn Gizeh y mae chwech o honynt yn meddu ar agorfeydd, yn arwain i fynedfeydd, pa rai sydd yn pwyntio oll tua'r gogledd. Y mae y mynedfeydd yn disgyn gyda'r gogwyddiad o 26 neu 27 o raddau. Pe y safai edrychydd, gan hyny, wrth waelod y mynedfeydd hyn, ac edrych i fyny iddynt, cyfeirid ei lygaid at bwynt yn gorwedd 26 neu 27 uwch law y terfyngylch; yr hyn yn union ydyw y pellder uwch law y terfyngylch y rhaid fod y seren y Draconis ynddo 4000 o flynyddoedd yn ol. Yn awr y mae amseriad y pyramidiau hyn, yn ol yr argraph ar y prif un o honynt, yn C. C. 2,123; yr hyn sydd yn cyfatteb yn agos yn union i'r cyfnod a enwyd.

VI. *Y Pleiades.*—Yn nghydser y Tarw. Pedwar ugain o ser; o ba rai y mae chwech yn weledig i'r llygaid noeth. Cyfrifai yr hynafiaid saith fel yn weledig yn y cydser hwn. Gall fod un wedi diflanu; ond hyd yn oed yn awr y mae rhai yn gallu gweled saith.

Y LLWYBR LLAETHOG.

Heb amcanu rhoddi disgrifiad manwl o [illegible] yllfa a ffurf y swp anferth ac ardderchog [illegible] o ser, ymfoddlonwn ar roddi darluniad byr o'i ymddangosiad cyffredinol. Cynnwys y gwregys hir gwyn-niwlog hwnw o ser a welir yn [illegible] estyn o'r naill derfyngylch yn mron i'r llall. [illegible] mae ei ffurf yn afreolaidd; ond ymrana ar [illegible] ei hanner yn mron i ddwy gaingc fforchog. [illegible] mae lled y llwybr yn amrywio yn ddirfawr. [illegible] llygaid noeth, ymddengys fel goleuni gwasgaredig, llaethog yr olwg; ond trwy y sylldrych gwelir ei fod yn cynnwys miliynau afrifed o ser, y rhai ydynt mor liosog fel nad ydym yn canfod eu goleuni ar wahân, ond yn gyfansawdd. Mewn rhai manau y mae y ser yn filoedd o [illegible] un gradd ysgwâr o'r nefoedd. Mewn ereill maent yn ychydig, ac yn mhell oddi wrth eu gilydd. Mewn rhai manau, y mae yn [illegible] ddisgleirdeb y bydoedd, mewn ereill y mae [illegible] ddu gan dywyllwch a gwagder; megys, er enghraifft, y gwagle nodedig a elwir yn [illegible] yr hwn sydd o ffurf gerllygen. [illegible] i un pan yn syllu arno fel pe yr edrychai [illegible] agorfa i ddyfnderoedd pellaf yr eangder. [illegible] rhai manau o'r llwybr y mae y ser wedi [illegible] gwneyd mor amlwg fel yr ymddangosant [illegible] safent allan oddi ar waelod tywyll; ond [illegible] rhanau ereill o hono ni welir ond megys [illegible] gwynaidd draw y tu hwnt i'r ser. Wrth [illegible] ar y wybr, canfyddir fod y ser yn lliosogi [illegible] rhifedi fel y maent yn dynesu o ran eu sefyllfa at y rhan hono o'r nefoedd lle y mae y Llwybr Llaethog. O'r 20,000,000 o ser a welir [illegible] ddrychau, y mae 18,000,000 yn gorwedd yn [illegible] yn agos i'r Llwybr Llaethog. Rhydd hyn [illegible] northwy i ni wybod pa beth ydyw ffurf y greadigaeth. Y mae yn amlwg ei bod yn [illegible] lle y mae y ser gwanaf a lliosocaf; o herwydd [illegible] maent yn wanaidd am eu bod yn mhell. [illegible] maent yn agos at eu gilydd i'r ymddangosiad herwydd eu bod yn gorwedd yn y cyfeiriad hwnw mewn pellder chwanegol cysson. Y [illegible] y Llwybr Llaethog, gan hyny, yn rhoddi [illegible] drychfeddwl i ni o'r cyfeiriad yn yr hwn y [illegible] y greadigaeth yn ymestyn fwyaf; a sefyllfa [illegible] ser ereill yn dangos i ni fod terfynau y greadigaeth yn llawer nes yn y cyfeiriad hwnw [illegible] debyg fel y gallem wneyd allan ffurf [illegible] trwy sylwi ar y lleoedd y mae y coed yn [illegible] agos at eu gilydd, a'r lleoedd y gellir [illegible] ein ffordd drwyddynt yn fuan a hawdd.

SER-GASGLIADAU.

Gwelir yma a thraw yn y ffurfafen gydgasgliad o ser, y rhai y mae genym bob [illegible] feddwl fod cyssylltiad a dibyniad [illegible] rhyngddynt a'u gilydd; megys, er enghraifft, Pleiades, yr Hyades, a'r Præsepe, y rhai [illegible] oll yn weledig i'r llygaid noeth. Un arall o'r dosbarth, ac un o'r golygfeydd mwyaf ardderchog yn yr holl nefoedd, ydyw y cydgasgliad [illegible] yn Perseus, rhwng y ser disglaer yn Cassiopeia a Perseus. Y mae y ser-gasgliadau, a welir [illegible] ffurfafen yn gyffredin yn grynion o ran ffurf, yn dra thebyg o ran eu hagwedd i [illegible]

Digitized by Google

uwch ben yn gyfryw ag y buasai cywreinrwydd, heb ddim arall, yn ddigonol i gynnhyrfu dynion yn yr oesoedd boreuaf i sylwi arnynt, ac i geisio eu hegluro: ac wedi canfod y gellid gwneuthur symmudiadau y cyrph wybrenol yn fanteisiol i anghenion a chysuron dynolryw, talwyd sylw chwanegol, a gwnaed ymdrech mwy llwyr a manwl i geisio eu deall a'u hegluro. Yn gysson a hyn yr ydym yn cael fod yn mysg pob cenedl wareiddiedig draddodiadau gyda golwg ar ddarganfyddiadau o ryw fath neu gilydd. Ond y cenhedloedd a wnaethant ymchwiliadau a darganfyddiadau o bwys ydynt y rhai canlynol:—y Caldeaid, yr Aiphtiaid, y Phœniciaid, y Chineaid, a'r Indiaid. Yr oedd gwlad Caldea yn hynod o ffafriol i ymchwiliadau o'r fath, o herwydd ei gwastadrwydd, a chlirder digwmmwl ei hawyrgylch. Cynnorthwyid y manteision hyn gan fywyd bugeiliol y trigolion, a chywreinrwydd dynion i geisio treiddio i gôl y dyfodol, trwy sylwi ar arwyddion y nefoedd. Prif ddarganfyddiad y Caldeaid ydoedd y cyfnod o 223 o leuad-fisoedd, neu 18 o flynyddoedd heulawl, yn ystod yr hwn y mae y lleuad yn dychwelyd i'r un sefyllfa yn mron yn ei pherthynas â'r haul, ei phellder mwyaf oddi wrth y ddaear, a'i nôdion (*nodes*). Gelwid y cyfnod hwn yn *Saros*. Y mae genym dystiolaethau cedyrn fod yr Aiphtiaid yr un modd yn gyfartal â'r Caldeaid yn eu cyrhaeddiadau seryddol; ond nid ydynt hwythau wedi gadael ar eu hol goffadwriaeth o fanylion eu darganfyddiadau. Y mae yr un peth yn wir am y Phœniciaid; ond y mae yn hawdd i ni gredu, pan ystyriwn eu henwogrwydd fel morwyr, eu bod wedi talu cryn sylw i ymddangosiadau y wybr. Yn China, ystyrid seryddiaeth er's oesoedd boreuol iawn fel yn hanfodol angenrheidiol i gyfansoddiad a diogelwch y wladwriaeth. Hònir gan y Chineaid eu bod yn feddiannol ar gofrestr o gyfres faith o ddiffygiadau, yn ymestyn dros gyfnod o 3,858 o flynyddoedd, y rhai hefyd a ragfynegwyd oll cyn iddynt gymmeryd lle. Tua c. c. 2608, yr oedd ymherawdwr o'r enw Hoang-Ti yn teyrnasu; yr hwn a archodd i arsyllfa fawr gael ei gwneuthur, er mwyn galluogi yr arsyllwyr i gael y fantais oreu tuag at gywiro y *calendar*. Sefydlodd hefyd fath o frawdle seryddol, er hyrwyddo seryddiaeth, ac yn enwedig er perffeithio y gallu i ragfynegu diffygiadau. Os cyfeiliornai un o'r seryddwyr yn eu rhagfynegiadau, rhoddid hwynt i farwolaeth yn ddiarbed. Yn amser Yao yr ymherawdwr, c. c. 2317, ffurfiwyd y Cydser Chineaidd, y rhai a elwir yn dai y lleuad, a rhanwyd y flwyddyn i 365¼ o ddyddiau. Rhanwyd y cylch i'r un nifer o ddosbarthiadau. Tuag 1100 o flynyddoedd c. c., yn nheyrnasiad Tcheon-Kong, darganfyddwyd gogwyddiad yr *Ecliptic*, a gwnaed ef yn 23° 54′ 3″.15, yr hyn sydd yn berffaith gysson â seryddiaeth ddiweddar. Tua yr un adeg gwnaed allan sefyllfa yr heul-orsaf gauafol gyda chywirdeb. O'r flwyddyn 747 c.c. hyd 400 c.c., y mae Confucius yn rhoi cyfres o un ar bymtheg ar hugain o ddiffygiadau—un ar ddeg ar hugain o ba rai sydd wedi eu cadarnhau gan seryddwyr diweddar. Daeth cyfnod o adfeiliad mawr ar seryddiaeth ar ol amser Confucius, a dywedir iddo gael ei achosi gan fesurau ffol a barbaraidd yr ymherawdwr Tsin-Chi-Hong-Ti; yr hwn, yn y flwyddyn 221 c.c., a orchymynodd i lyfrau seryddol y genedl gael eu distrywio.

Y mae genym gadarnhâd gwell i wybodaeth seryddol yr Indiaid, yn gymmaint a'u bod yn feddiannol ar eu hysgrifeniadau, yn cynnwys tablau o sefyllfaoedd y planedau, ac o ddiffygiadau yr haul a'r lleuad. Ond y mae cryn ansicrwydd gyda golwg ar y ffynnonell o'r hwn y cawsant eu gwybodaeth—pa un ai y Groegiaid ai yr Arabiaid, ai ynte a oeddynt yn hunan-addysgawl yn eu hymchwiliadau. Gosodwyd i lawr sylfaen seryddiaeth yn mhlith y Groegiaid gan Thales, yr hwn oedd yn oesi tua 640 c.c. Dysgai fod y lloer yn derbyn ei goleuni oddi wrth yr haul, a bod y ser yn gyfansoddedig o dân. Yr oedd hefyd yn abl i ragfynegu diffygiadau a ddigwyddent. Yr oedd ei ddysgybl Anaximander o'r un syniadau, a darganfyddodd y ffordd i wneyd mapiau daearyddol; a dywedir mai efe oedd dyfeisydd y deial. Canlynwyd ef gan Anaximenes, ac yntau gan Anaxagoras. Y mae enwogrwydd Pythagoras, yr hwn ydoedd yn byw yn Italy, yn gyssylltiedig â'i olygiad yn nghylch symmudiad a throgylchiad y ddaear a'r planedau ereill o amgylch yr haul. Yn hyn yr oedd yn rhagflaenu seryddiaeth ddiweddar; ond dylid cofio na ddarfu iddo ef, fel Copernicus, lwyddo i brofi hyn. Tybiaeth yn unig ydoedd yn ei ddwylaw ef. Dywedir hefyd iddo ddyfod yn gyfarwydd yn yr Aipht â gogwyddiad yr *Ecliptic*, ac â'r ffaith mai yr un rhai ydyw y ser boreuol a'r rhai hwyrol. Dilynwyd ef gan ei ddysgybl, Philolaus a Nicetas; yr hwn oedd y cyntaf i ddysgu yn gyhoeddus olygiadau Pythagoras. Dygwyd i mewn y cyfnod Metonaidd, fel ei gelwir, gan Meton ac Euctemon, amcan yr hwn ydoedd cyssoni symmudiadau yr haul â'r eiddo y lleuad, a nodi allan gyfnod o flynyddoedd yn niwedd yr hwn y deuai yr haul a'r lleuad eilwaith i'r un sefyllfaoedd yn eu perthynas â'r ser. Gwnaeth i'r cyfnod gynnwys 125 o fisoedd llawn, a 110 o rai diffygiol=6940 o ddyddiau, agos i 19 o flynyddoedd heulawl. Cyhoeddwyd y cyfnod gan y bobl gynnulledig yn y chwareuon Olympaidd, ac ysgrifenwyd ef mewn llythyrenau o aur ar dablau o bres, ac am hyny gelwir ef hyd heddyw yn rhif euraidd (*golden number*). Cyfrifid Eudoxus (c. c. 370) yn seryddwr o enwogrwydd mawr. Daeth â'r rhaniad o'r flwyddyn i 365¼ o ddyddiau i arferiad yn Groeg, a thaflodd allan y drychfeddwl am symmudiad y planedau ar egwyddorion gallofyddol (*mechanical*). Yr oedd Plato yn gyfarwydd â'r achos o ddiffygiadau, a thybiai fod y cyrph nefol yn symmud yn y dechreu mewn llinellau union, ond eu bod yn ddilynol wedi eu camu gan ddylanwad dysgyrchiant.

Y SERYDDWYR ALEXANDRIAIDD.

Yr enwau cyntaf yn mhlith y rhai hyn ydyw Aristillus a Timocharis, y rhai a lwyddasant i nodi allan sefyllfaoedd yr amrywiol ser, yn eu perthynas â'u gilydd, yn y ffurfafen. Llwyddodd Aristarchus o Samos i eangu syniadau ei oes yn fawr gyda golwg ar faintioli a phellder yr haul a'r lleuad, mewn cymmhariaeth i syniadau blaenorol. Y mae ei draethawd ar y mater hwnw ar gael hyd heddyw. Gwnaeth sylwadau tra chywrain hefyd gyda golwg ar faintioli tryfesur yr haul; ac nid ydyw ei fesuriad yn rhyw bell iawn oddi wrth y gwirionedd. Cyfrifir mai ei olynydd ef, Eratosthenes, a wnaeth yr ymgais cyntaf ar egwyddorion cywir i gael allan fesuredd y ddaear. Rhoddodd y mesuronydd enwog, Euclid, gyda Conon, ac Archimedes, eu cyfraniadau hwythau tuag at gynnyddu y gangen hon o wyddoniaeth. Ond tu hwnt i'r holl enwau blaenorol, y mae yr eiddo Hipparchus yn

Digitized by Google

iadau pwysig gan Bradley, y rhan fwyaf o ba rai a enwir yn ei "*Synopsis.*" Pan nad oedd ond pedair ar bymtheg oed, darganfyddodd lwybr i fesur anghyfartaledd cylchdro y planedau, a'u pellder mwyaf oddi wrth yr haul, trwy foddion mesuronol. Gwnaeth restr o 360 o ser yn yr hannergylch deheuol. Dangosodd fod y comedau yn perthyn i'r gyfundrefn heulog, a rhagfynegodd ail ymddangosiad comed 1681 yn 1759—y rhagfynegiad cyntaf a gafodd ei gyflawni. Gwnaed dau ddarganfyddiad mawr gan Bradley, y seryddwr brenhinol a ddilynodd Halley; sef, yn gyntaf, ymgrwydriad y ser *(aberration)*. Dangosodd i foddlonrwydd mai y gwir achos o'r symmudiad hwn ydyw symmudiad blynyddol y ddaear yn ei chylchdro. Yn ail, ymysgydwad echel y ddaear dan ddylanwad y lleuad ar ffurf y ddaear. Deuwn bellach at enw uchel iawn mewn seryddiaeth; sef, Syr William Herschel, darganfyddwr y blaned Uranus. Darganfyddodd hefyd ddwy o leuadau Sadwrn, a gwnaeth sylwadau o bwys ar eu modrwyau. Y mae ei sylwadau ar y ser dwbl a'r ser niwl yn rhagorol. Daeth, ar seiliau cedyrn, i'r casgliad fod yr holl gyfundrefn heulog yn teithio trwy yr eangder yn nghyfeiriad y cydser Hercules.

Terfynwn y bras grynodeb hwn trwy gyfeirio yn unig at ymchwiliadau Clariant, D'Alembert, La Place, Lagrange, a Dr. Young; trwy ba rai y cadarnhawyd ac y perffeithiwyd seryddiaeth anianyddol i raddau mor fawr, ac y goruwchadeiladwyd ar y sail a osodwyd gan yr anfarwol Newton.

SER GWIBIOL: neu, fel y maent yn cael eu galw yn aml iawn, os nad yn fynychaf yn bresennol, *Comedau.* Yn chwanegol at y planedau, y cyrph celyd, oerion, sydd yn cylchdroi o amgylch yr haul, y mae y comedau, neu y ser gwibiog, y rhai ydynt yn cylchdroi o amgylch yr haul mewn cylchoedd mor hirion, fel mai prin y gellir eu galw yn hir-gylchoedd. Y maent yn ol pob tebyg yn sylweddau gwyn-boeth, ac yn tywynu eu goleuni eu hunain. Y maent yn gyfansoddedig o dri o ranau; sef, 1af, Y cnewyllyn; 2il, y gwallt; 3ydd, y gynffon. Pan yr ymddengys comed ar y cyntaf, gwelir hi fel yspecyn gwan goleu; ond yn raddol, y mae yn cynnyddu mewn maintioli; ac yn raddol ymddengys ei chanolbwynt disgleiriaf, yr hwn sydd gyfran mwy dirwasgedig yn ei oleuni, weithiau o ffurf crwn, weithiau ŵy-grwn, ac weithiau pelydraidd *(radiated)*. Nid ydyw y cnewyllyn yn gymmhwys yn nghanol y pen, ond ychydig naill du. Wrth y gwallt *(coma)* y deallir yr ymddangosiad cymmylog o amgylch y cnewyllyn, yr hwn mewn amser sydd yn myned yn llai rheolaidd yn ei ffurf. Yn y man dechreua y gynffon ymffurfio, yr hon sydd yn myned yn fwy gwanaidd, fel y mae yn pellhau oddi wrth gorph y gomed; ac weithiau, cynnydda i'r fath raddau fel ag i orchuddio rhan fawr o'r ffurfafen. Weithiau, y mae yn amddifad o ben, weithiau o gynffon, ac weithiau drachefn y mae ganddi fwy nag un, megys yr un aml-gynffonog a ymddangosodd yn y flwyddyn 1744. Y maent yn gyffredin yn eu cylchdroadau yn croesi y rhan hono o'r nefoedd lle y mae yr haul yn y fath fodd fel ag i gael eu colli o'r golwg yn ei belydrau, ac yna yn dyfod allan ar yr ochr arall, a hyny yn aml gyda mwy o ddisgleirdeb, a'u cynffonau wedi eu hwyhau. Y maent o faintioli a disgleirdeb amrywiol. Nid oes dim neillduolrwydd maint a ffurf yn perthyn i un seren wib neillduol. Gall yr un un fod weithiau yn ddigynffon, neu yn gynffonog ar wahanol adegau. Weithiau, o herwydd rhyw achos anwybyddus etto, gwelir hwynt yn lleihau mewn disgleirdeb yn ystod y naill gylchdroad ar ol y llall. Y mae cyfnodau eu cylchdro, a'u pellder oddi wrth yr haul, yn amrywio yn ddirfawr. Y mae trogylch comed Eucke o fewn yr eiddo Iau, ac un comed Halley y tu hwnt i'r eiddo Neptune, tra y mae ereill yn disgrifio camlinell annychwel; ac am hyny nid ydynt yn dychwelyd at yr haul. Am y rhai hyn dywed un y gellir cymmhwyso y geiriau "Ni wyddom o ba le y maent yn dyfod, nac i ba le y maent yn myned." Y mae eu trwch a'u swm *(mass)* yn annhraethol fychan. Y mae eu cynffonau yn ddigon teneuon mewn trwch i weled y ser lleiaf drwyddynt. Yr athronydd Rhufeinaidd, Seneca, a ganfu hyn gyntaf. Y prawf mawr o fychander eu swm o fater ydyw eu bod weithiau wedi myned heibio yn bur agos i rai o'r planedau, heb aflonyddu eu symmudiadau; o leiaf, heb wneuthur hyny i'r graddau lleiaf canfyddadwy i ni. Bu comed Lexell yn crwydro ac yn ymbalfalu yn mhlith lleuadau Iau yn y fl. 1770; a pharhaodd yn eu cymmydogaeth am bedwar mis, ond heb effeithio dim ar eu heddwch yn ystod yr adeg. Y mae hyn yn ddigon i'n cysuro ninnau yn wyneb pob ofn i unrhyw berygl ddigwydd i'r ddaear o herwydd eu hagosrwydd atom. Yn hytrach, y mae mwy o sail i gredu fod y planedau yn effeithio ar y comedau. Y mae genym sail i gredu yn wir fod y ddaear wedi croesi trwy gynffon seren 1861, ar y 30ain o fis Mehefin. Y mae rhagor rhwng comed a chomed mewn gogoniant. Y mae rhai, megys y comedau a ymddangosasant yn 1843, 1847, ac 1853, yn amlwg weledig yn y dydd. Weithiau, gwelir hwynt yn ymwahanu yn ddwy. Crybwyllir am hyn gan Seneca. Gwnaeth comed Biela hyn yn 1845: yn niwedd mis Tachwedd, ymddangosai fel cwmmwl gwan, agos i grwn mewn ffurf, ond yn fwy trwchus tua'r canol. Yn nghanol mis Rhagfyr, yr oedd braidd yn hirffurf, ac yn niwedd y mis ymwahanodd yn ddwy. Cyd-deithiodd y ddwy am fwy na thri mis, ond yr oeddynt yn eu pellder hwyaf yn 157,240 o filldiroedd y naill oddi wrth y llall. Yn 1852, yr oeddynt yn parhau ar wahân yn y pellder oddi wrth eu gilydd o 1,250,000 o filldiroedd. Y mae ei hanfodiad presennol yn ammheus. Gyda golwg ar eu sylwedd, y farn fwyaf tebygol ydyw eu bod yn gynnwysedig o nwy *(gas)* eirias-boeth, ac y mae yn sicr eu bod yn hunan-oleuedig. Y mae cyfeiriad y gynffon yn gyffredin oddi wrth yr haul; ac weithiau, yr ydys wedi sylwi eu bod yn ymysgwyd o'r pen i'w heithafion pellaf. Gwnant hyn mewn ychydig o eiliadau. Priodolir hyn gan rai i effaith ein hawyrgylch ni. Y mae nifer y comedau sydd wedi eu cofrestru fel rhai a ymddangosodd o'r amseroedd boreuaf hyd ein hamser ni yn 800; ond dylid cofio fod y rhan fwyaf o'r rhai hyn wedi eu canfod yn ddiweddar trwy gyfrwng y sylldrych. Fel y mae y comedau yn agoshau at yr haul, y mae eu disgleirdeb a'u gwres yn cynnyddu, a'u symmudiadau yn cyflymu. Yn y man gwelir gweithrediad grymus ynddynt: y mae y nwy yn ymdori yn dafliadau *(jets)* o'r cnewyllyn tua'r haul, ac yn cael ei yru yn ol yn y fan, fel y gwelir agerbeiriant pan y mae yn myned rhagddo yn dra chyflym. Y mae y tafliadau hyn yn newid eu sefyllfa a'u cyfeiriad yn

hanfon i ragfynegu digwyddiadau pwysig—naill ai o natur lwyddiannus, neu rai o natur adfydus. Ystyrid hwynt yn arbenig fel rhagredegwyr rhyfeloedd a newyn, diorseddiad brenhinoedd, a dadgyfansoddiad ymherodraethau. Dywed y bardd Saesneg:—

* * * "The blazing star
Threatening the world with famine, plague, and war;
To princes, death; to kingdoms, many curses;
To all estates, inevitable losses;
To herdsmen, rot; to ploughmen, hapless seasons;
To sailors, storms; to cities, civil treasons."

Y mae un fantais wedi deilliaw i wyddoniaeth oddi wrth y syniadau hyn. O herwydd y pwysigrwydd tybiedig oedd ynglŷn â'u hymddangosiad, arferai dynion o'r dechreuad wneuthur sylwadau manwl arnynt, y rhai sydd wedi eu cadw a'u trosglwyddo i ni. Golygai y Rhufeiniaid y seren a ymddangosodd yn y fl. c. c. 43, ychydig ar ol marwolaeth Julius Cæsar, fel cerbyd tanllyd wedi ei anfon i'w gludo i'r nefoedd. Ystyrid yr un a ymddangosodd yn 1066 fel yn cadarnhau esgyniad William y Concwerwr i orsedd Lloegr. Ar ymddangosiad comed Halley yn 1456, darfu i'r pab ar y pryd, Calixtus III., orchymyn canu clychau yr eglwys bob dydd am ddeuddeg ar y gloch, a bod gweddïau ar y Forwyn i gael eu hamlhau. Y mae wedi bod yn gwestiwn dadl pa un a ydyw y Beibl yn cyfeirio at y cyrph hyn, ai nad ydyw. Yn *Lef.* xvii. 7, lle y gwaherddir aberthu, yn ol ein cyfieithiad ni, i "gythreuliaid," y gair Hebraeg ydyw *Seirim*, ystyr yr hwn air ydyw 'geifr.' Dywed Maimonides yr arferai y serddewinwyr addoli y Seirim hyn; a bernir mai y comedau gwalltog oedd y geifr hyny. Yn *Esa.* xiv. 12, sonir am Lucifer, mab y wawrddydd, yn syrthio o'r nefoedd. Ystyr y gair *Hillel*, meddir, ydyw disgleirdeb; a lle y dywedir fod *Hillel* yn syrthio o'r nefoedd, y gellir deall fod yno gyfeiriad at gyflymdra y comedau. Yn *Iudas* 13, diau fod cyfeiriad amlwg at y comedau; ac o bossibl yn *Dad.* xii. 3.

SESBASSAR: yr enw Caldeaidd neu Persiaidd a roddwyd i Zorobabel, yn *Ezra* i. 8, 11; ar ol yr esampl gyda golwg ar Mesach, Abednego, Belsassar, ac Esther. Yn yr un modd hefyd derbyniodd Ioseph hefyd yr enw o Saphnath-Paaneah; ac yr ydym yn deall oddi wrth Manetho, fel y dyfynir ef gan Josephus, mai enw Aiphtaidd Moses oedd *Osarsiph*. Gellir hefyd gymmharu y modd y newidiwyd enw Ioiacim a Sedeciah: 2 *Bren.* xxiii. 34; xxiv. 17. Fod *Sesbassar* yn arwyddo *Zorobabel*, a brofir gan y ffaith ei fod yn cael ei alw yn un o dywysogion Iudah, ac yn llywodraethwr: yr enw blaenaf yn ei nodi fel pen y llwyth yn yr ystyr Iuddewig (*Num.* vii. 2, 10, 11, &c.), a'r olaf fel y llywodraethwr Persiaidd a appwyntiwyd gan Cyrus; ac yr oedd Zorobabel y naill a'r llall: ac etto yn fwy pendant, trwy y mynegiad mai "Sesbassar a osododd sylfeini tŷ Dduw yn Ierusalem," wrth ei gymmharu â'r addewid i Zorobabel (*Zech.* iv. 9), "Dwylaw Zorobabel a sylfaenasant y tŷ hwn, a'i ddwylaw ef a'i gorphen." Gwelir hyn hefyd yn amlwg trwy gymmharu *Ezra* i. 11, â ii. 1, 2, â holl hanes yr alltudion a ddychwelasant. Nid oes un sail i'r traddodiad Iuddewig, mai Sesbassar ydyw Daniel.

SETH: trydydd mab Adda, a thad Enos: *Gen.* iv. 25; v. 3; 1 *Cron.* i. 1. Ystyr ei enw (fel y rhoddir ef yn *Gen.* iv. 25) ydyw "appwyntiedig," neu un wedi ei 'osod' yn lle Abel, yr hwn oedd wedi ei lofruddio; ac y mae Delitzch yn siarad am dano fel yr ail Abel. Ond meddylia Ewald fod ystyr arall, yr hwn a ystyrir ganddo yn well, yn cael ei ddynodi yn y testyn; sef, 'hâd-blanigyn,' neu 'flaguryn.' Y mae y frawddeg "meibion Seth" wedi cael ei deall fel yn gyfystyr â holl ddynolryw, neu fel yn dynodi llwyth rhyw benaeth Moabaidd anhysbys; ond y mae beirniaid diweddarach, yn mhlith y rhai y mae Rosenmüller a Gesenius, gan gadw mewn cof y frawddeg gyfochrog (*Ier.* xlviii. 45), yn cyfieithu yr ymadrodd fel hyn—"plant trwst, rhai terfysglyd," *h. y.*, byddinoedd gelynol.

SETHAR: un o saith tywysog Persia a Media, y rhai oeddynt yn cael dyfodiad i bresennoldeb y brenin, ac yn ddynion blaenaf y deyrnas, yn y drydedd flwyddyn i Xerxes: *Esther* i. 14. Cymmharer *Ezra* vii. 14, a "saith enwogion Persia" Ctesias, ac adroddiad Herodotus gyda golwg ar y saith pendefig Persiaidd hyny, y rhai a laddasant Smerdis—ei fod wedi ei ganiatau iddynt fel braint i gael dyfod i bresennoldeb y brenin bob amser, heb i'r brenin fod wedi anfon am danynt, oddi eithr pan y byddai efe gyda'r merched; ac nas gallai y brenin gymmeryd gwraig ond yn unig o blith un o'r saith teulu hyn.

SETHARBOZNAI: swyddog Persiaidd o radd uchel, yn meddu llywyddiaeth yn y dalaeth "o'r tu yma i'r afon," dan Tatnai y rhaglaw, yn nheyrnasiad Darius Hystaspis: *Ezra* v. 3, 6; vi. 6, 13. Efe a ymunodd â Tatnai a'r Apharsachiaid i geisio rhwystro adeiladu y deml yn amser Zorobabel, ac i ysgrifenu llythyr at Darius, copi o'r hwn sydd wedi ei gadw yn *Ezra* v., yn mha un yr adroddasant fod "tŷ y Duw mawr" yn Iudea yn cael ei adeiladu â meini mawr, a bod y gwaith yn myned yn ei flaen yn gyflym, ar sail hònedig gorchymyn oddi wrth Cyrus. Hwy a ddeisyfasant fod i ymchwiliad gael ei wneyd yn rholiau y llys pa un a roddwyd y cyfryw orchymyn erioed, ac a ofynasant beth oedd ewyllys y brenin yn y mater. Cafwyd y gorchymyn yn Egbatana, ac anfonwyd llythyr at Tatnai a Setharboznai oddi wrth Darius, yn gorchymyn iddynt beidio rhwystro mwy; ond i'r gwrthwyneb, i gynnorthwyo henuriaid yr Iuddewon i ail adeiladu y deml, drwy eu cyflenwi âg arian ac âg anifeiliaid, ŷd, halen, gwin, ac olew, i'r aberthau. Wedi derbyn y gorchymyn hwn, ni ddarfu i Setharboznai daflu rhwystrau pellach ar ffordd yr Iuddewon. Gellir casglu oddi wrth hanes llwyddiant yr Iuddewon yn *Ezra* vi. 14—22, fod y llywodraethwyr Persiaidd wedi gweithredu yn ol ysbryd y cyfarwyddiadau a dderbyniasant oddi wrth y brenin.

O barth i'r enw *Setharboznai*, ymddengys yn sicr mai gair Persiaidd ydyw. Yr elfen gyntaf ynddo ydyw yr enw *Sethar*—un o'r saith dywysog Persiaidd yn *Esth.* i. 14. Hwyrach hefyd ei fod yn cael ei gynnwys yn yr enw *Pharnazathres* [*Herod.* vii. 65]: ac nid ydyw yr holl enw yn annhebyg i *Sati-barzanes*—Persiad yn amser Artaxerxes Mnemon.

SETHIAID. Yn y bedwaredd ganrif yr oedd yn yr Aipht blaid a alwent eu hunain yn Sethiaid, y rhai a restrir gan Neander yn mhlith y sectau Gnosticaidd, a'r rhai, wrth wrthwyneb

Digitized by Google

Iuddewiaeth, a nesaent at baganiaeth. Dywed Irenæus a Theodoret, heb wahaniaethu rhyngddynt a'r Ophiaid, neu y sarph-addolwyr, fod Seth yn eu cyfundrefn hwy yn cael ei ystyried fel deilliad dwyfol neu rinwedd. Dywed Epiphanius eu bod yn ceisio gwneyd allan fod Seth yr un a'n Harglwydd.

SETHUR: mab Michael, yr ysbïwr dros lwyth Aser: *Num.* xiii. 13.

SETMIEL: mab Surisadai, tywysog meibion Simeon: *Num.* vii. 36.

SEVERUS, L. SEPTIMIUS: ymherawdwr Rhufeinig. Ganwyd ef B.A. 146, ger llaw Leptis Magna, ar ororau gogleddol Affrica. Yr oedd yn hanu o deulu o urdd marchogol; ac wedi derbyn addysg ragorol, efe a symmudodd i Rufain, lle y cyhoeddwyd ef yn bretor yn y fl. 178. Yn ddilynol i hyny bu yn llywyddu lleng o filwyr yn Gaul, ac yn llywodraethwr yn Gallia Lugdunensis, Pannonia, a thaleithiau ereill. Ar ol llofruddiad Pertinax, cyhoeddwyd ef gan y fyddin yn ymherawdwr, B.A. 193, yn Carnatum; ac aeth yntau yn ddioed tua Rhufain i sicrhau yr orsedd. Ceisiodd Julianus, yr hwn a brynodd y teitl ymherodrol, ei luddias yn mlaen, ond yn aflwyddiannus. Llofruddiwyd Julianus yn fuan ar ol hyny yn ei balas, ac aeth Severus i mewn i'r ddinas yn ddiwrthwynebiad, lle y cydnabyddwyd ef yn ymherawdwr. Ar ol dial ar lofruddion Pertinax, efe a wnaeth ei gydymgeisydd mwyaf peryglus, Clodius Albinus, yn gyngreirydd trwy ei anrhydeddu, a gwobrwyo y milwyr a wasanaethent dano; ac aeth yn erbyn Pescennius Niger, a gorchfygodd ef ger llaw Cyzicus, yn y fl. 195. Aeth Severus yn mhellach i'r dwyrain, a bu yn dra llwyddiannus; ond pan yn dychwelyd yn ol, deallodd fod Albinus wedi tori allan mewn gwrthryfel yn Gaul, a chyfeiriodd yntau ei gamrau tua'r dalaeth hono. Ar ol cario y rhyfel yn mlaen am dymmor, cyfarfu y ddwy fyddin yn Tinurtium, ger Lyons, ac ymladdwyd brwydr fawr, yn yr hon yr oedd 150,000 o wŷr o bob tu yn cymmeryd rhan; gorchfygwyd Albinus, a chollodd yntau ei fywyd. Gwarthruddodd Severus ei hun ar yr achlysur hwn trwy ddangos y creulondeb hwnw, yr hwn, yn anffodus, oedd un o nodweddau ei gymmeriad. Gorchymynodd dori pen Albinus cyn ei fod yn hollol farw, a gwnaeth i'w farch fathru ei gorph o dan ei garnau. Dywed rhai i wraig a phlant Albinus hefyd gael eu rhoi i farwolaeth, ac i'w cyrph gael eu taflu i'r afon Rhone. Dychwelodd Severus i Asia, a chymmerodd gydag ef ei feibion, Caracalla a Geta. Llwyddodd ei ryfelgyrch yn erbyn y Parthiaid yn 198; a chymmerodd ac ysbeiliodd Ctesiphon, cu prif ddinas. Dychwelodd o Parthia i Syria, ac aeth oddi yno trwy Palestina i Alexandria, yn yr Aipht; a gwnaeth amryw gyfnewidiadau yn sefydliadau y wlad hono.

Dychwelodd i Rufain yn 202. Gwrthododd groesawiad buddugwr, o herwydd ei fod yn analluog i sefyll yn ei gerbyd, gan y poenid ef gan y gymmalwst; ond er hyny gwnaed arddangosiadau digyffelyb yn mron o ran eu hardderchogrwydd, ac adeiladwyd bŵa buddugol coffadwriaethol, yr hwn sydd yn sefyll hyd heddyw, ac yn cael ei alw ar ei enw. Cododd gwrthryfel yn Mhrydain yn erbyn yr awdurdodau Rhufeinig yn 208, a daeth Severus, ynghyd â'i ddau fab a enwir uchod, drosodd i'r wlad hon. Ei amcan wrth ddyfod oedd darostwng y llwythau a breswylient barthau gogleddol yr ynys, y rhai a wrthryfelent yn erbyn awdurdod Rhufain. Gadawyd Geta gyda byddin yn mharthau deheuol yr ynys, ac aeth yr ymherawdwr a'i fab Caracalla i ddwyn yn mlaen ei ryfelgyrch yn y gogledd. Cyfarfu âg anhawsderau lawer wrth weithio ei ffordd trwy goedwigoedd a gwlad heb ffyrdd ynddi; ac er fod y brodorion yn ffoi o'i flaen, dioddefodd y fyddin Rufeinig yn fawr, a chollwyd lliaws dirfawr o fywydau:—dim llai, meddir, na hanner can mil. Ymdrechodd Severus i ddiogelu y lleoedd a orchfygasai trwy adeiladu mur, neu wrthglawdd mawr, a adwaenir wrth yr enw Mur Severus, ar draws y wlad.

Cafodd dyddiau olaf Severus eu chwerwi yn fawr gan anghyttundeb ei feibion, ac yn enwedig gan ymddygiadau anufudd Caracalla, yr hwn a gyhuddir o gynllwyn yn erbyn bywyd ei dad. Bu farw Severus yn Nghaerefrog, B. A. 211, yn y ddeunawfed flwydd o'i deyrnasiad. Cariwyd ei gorph i Rufain, a chladdwyd ef yn meddrod yr Antonini. Yr oedd Severus yn un o'r rhai enwocaf o'r ymherawdwyr Rhufeinig. Y mae rhai yn ei gymmharu i Julius Cæsar—i'r hwn yr ymdebygolai yn egni ei gymmeriad, ac yn ei hoffder a'i chwaeth at lenyddiaeth. Yr oedd yn gyfaill mawr ar hyd ei oes i'r rheithofyddwr enwog, Papinian, ac yn dra chyfarwydd â llenyddiaeth y Groegiaid a'r Lladiniaid, a gadawodd ar ei ol fywgraphiad o hono ei hun. Hoffai gyfiawnder, a gwobrwyai deilyngdod: ond cospai droseddwyr gyda llymder anarferol; ac nis gellir gwadu nad oedd ar brydiau yn ymddwyn yn greulawn i'r eithaf, ïe, mewn rhai amgylchiadau, i'r fath raddau fel nad oes modd ei esgusodi. Chwanegodd gryn lawer at weithiau cyhoeddus Rhufain. Yr oedd yn rheolwr galluog a chyfiawn, ar y cyfan, ac yn rhyfelwr medrus.

SEVERUS, MUR: gwrthglawdd wedi ei adeiladu o geryg, yr hwn a gyfodwyd gan yr ymherawdwr Severus, B. A. 208, rhwng y Clyde a'r Solway. Pan ddarostyngwyd Prydain gyntaf gan y Rhufeiniaid, adeiladwyd llinell o amddiffynfeydd gan Agricola, yn ymestyn o'r Forth yn Edinburgh i'r Clyde yn Dumbarton. Darfu i'r ymherawdwr Hadrian, ar ei ymweliad â Phrydain, B. A. 120, daflu i fyny fur o dywyrch ar draws lle culaf yr ynys, rhwng y Tyne a'r Solway. Ugain mlynedd yn ddiweddarach ymdrechodd Antoninus Pius i attal rhuthriadau y Caledoniaid trwy gyfodi gwarchglawdd arall o bridd, rhwng y Forth a'r Clyde, gan ei gyssylltu â llinell Agricola o amddiffynfeydd. Ond ar ol ymdrech ofer am drigain mlynedd, bu raid i'r Rhufeiniaid roddi i fyny yr holl diriogaeth oedd rhwng y muriau; ac adeiladodd Septimus Severus warchglawdd o geryg, yn union i'r gogledd oddi wrth warchglawdd Hadrian. Tua diwedd y bedwaredd ganrif, medrodd Theodosius sefydlu am ychydig amser awdurdod Rhufain dros y darn hwnw o'r wlad oedd rhwng muriau Antonius a Severus; yr hwn a alwyd, er anrhydeddu yr ymherawdwr Valens, o dan yr enw Valentia. Ond collwyd y dalaeth newydd hon yn fuan; ac nid hir wedi hyny y bu y Rhufeiniaid heb adael Prydain yn hollol. Y mae llawer o adfeilion y muriau hyn i'w canfod etto.

SEVIGNE, MADAME DE, MARIE DE RABUTIN CHANTAL: a aned, yn ol ei had-

Digitized by Google

roddiad hi ei hun, Chwefror 5ed, 1627, yn maenordy Boubilly, Burgundy: yn ol ereill, yn Paris. Lladdwyd ei thad, y Barwn de Chantal, tra yn amddiffyn Ynys Rhè yn erbyn y Prydeiniaid; ac yn fuan wedi hyny bu farw ei mam hefyd, gan ei gadael hi yn amddifad pan yn bur ieuangc—sef, tua chwech mlwydd oed. Yna disgynodd y gofal o'i haddysgu ar ei hewythr, brawd ei thad, yr abad de Coulange; yr hwn oedd ddyn hawddgar a synwyrol, ac a hoffid yn fawr ganddi—i'r hwn yr oedd yn ddyledus am lawer o garedigrwydd. Cyn ei bod yn ddeunaw mlwydd oed, hi a briododd, yn y fl. 1644, yr Ardalydd Henri de Sevigne—aelod o hen deulu pendefigaidd yn Llydaw. Ni phrofodd yr undeb priodasol hwn yn un dedwydd; a thorwyd ef yn 1651, trwy i'r ardalydd gael ei ladd mewn ymladdfa gornest; yr hyn a adawodd ei wraig, ei fab, a'i ferch mewn amgylchiadau lled wasgedig, gan ei fod, trwy fyw yn afradlawn, wedi gwastraffu ei eiddo ei hun ac eiddo ei wraig i raddau pell. Ond trwy ofal a chynnildeb, daeth hi i feddiant o'i heiddo yn ol; ac yn 1654, ymddangosodd drachefn yn Paris, lle y darfu i brydferthwch ei pherson a'i thalent roddi iddi ei lle yn y cylchoedd cymdeithasol uchaf. Ceisiai llawer o ddynion enwocaf yr oes hono ennill ei ffafr; ond wedi diangc unwaith o lyffetheiriau priodas a brofodd iddi hi yn un anhapus, ni themtiwyd hi byth i gymmeryd y cyfammod priodasol eilwaith, ac ni lychwinwyd ei chymmeriad chwaith gan foesau llygredig yr oes yr oedd hi yn byw ynddi. Prif wrthddrychau ei gofal ar hyd ei hoes oedd ei phlant, ac yn enwedig ei merch; i'w serch at yr hon y mae y byd yn ddyledus am y rhan fwyaf o'r casgliad digyffelyb o lythyrau, ar ba rai y mae enwogrwydd Madame de Sevigne yn sylfaenedig. Priododd ei merch, yn y fl. 1669, y Count de Grignan, yr hwn oedd lywodraethwr Provence. Yr oedd Madame de Grignan yn un o foneddigesau harddaf a mwyaf addysgwych yr oes, ac yn deilwng o'r hoffder mawr a deimlai ei mam tuag ati. Pan ar ymweliad â'i merch yn maenordy De Grignan, yn 1696, cafodd ei tharo i lawr gan y frech wen; a bu farw, yn 70ain mlwydd oed.

Fel ysgrifenydd llythyrau yr oedd Madame de Sevigne yn ddignro—fe allai, yn ddigymmar yn ei hoes. Er nad ydyw ei llythyrau yn wastad yn gywir o ran arddull, y maent yn llawn o hyawdledd naturiol, ac ystwythder a bywiogrwydd, sydd yn rhwym o fod yn elfenau swyn parhaus ynddynt. Dywed beirniaid Ffrengig fod rhagoriaethau ei harddull mor lednais fel mai o'r braidd y gall tramorwr eu canfod yn rhwydd: er hyny, y mae pawb a'u darlleno, i raddau mwy neu lai, yn rhwym o gydnabod fod swyn anarferol yn perthyn iddynt. Y mae ei llythyrau, y rhai a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn wahanol ranau gan wahanol bersonau, wedi eu casglu ynghyd, a'u cyhoeddi gyda'u gilydd; ac acthant trwy lawer o argraphiadau. Yr argraphiad cyflawnaf ydyw un M. de Monmerque, a gyhoeddwyd yn Paris yn 1818, mewn un ar ddeg o gyfrolau.

SEWARD, WILLIAM: gwladweinydd Americanaidd, a anwyd yn Florida, Efrog Newydd, Mai 16eg, 1801, o haniad Cymreig a Gwyddelig. Physygwr a masnachwr oedd ei dad; yr hwn, ar ol casglu ychydig o gyfoeth, a appwyntiwyd yn farnwr yn un o'r llysoedd isaf. Pan yn bymtheng mlwydd oed, fe aeth Seward i Goleg yr Undeb: yn 1819, aeth i'r taleithiau deheuol, a bu yn athraw mewn ysgol yn Georgia. Galwyd ef at y bàr yn 1822, ac ymsefydlodd yn Auburn, a daeth i bartneriaeth ac yn fab yn nghyfraith i'r barnwr Miller. Amlygwyd ei alluoedd gwleidyddol mewn araeth a draddododd yn Syracuse, yn 1825; ac yn y flwyddyn ddilynol, etholwyd ef yn llywydd cynnadledd y dalaeth. Yr oedd teimlad yn rhedeg yn uchel y pryd hwnw yn erbyn y Rhyddsaernïwyr; ac etholwyd Seward fel un oedd yn wrthwynebol iddynt, yn aelod o senedd y dalaeth. Talodd ymweliad âg Ewrop yn 1833, ac ysgrifenodd gyfres o lythyrau, y rhai a gyhoeddwyd yn yr "*Albany Evening Journal.*" Yr oedd yn ymgeisydd am y swydd o lywodraethwr Efrog Newydd yn 1834, ond gorchfygwyd ef gan yr ymgeisydd democrataidd. Pennodwyd ef tua'r pryd hwn yn oruchwyliwr Cwmni Tir Holland, yr hyn a ddygodd iddo gyfoeth a dylanwad. Etholwyd ef yn llywodraethwr Efrog Newydd yn 1838. Yn y sefyllfa hon, efe a gymmhellai ar fod mwy o addysg yn cael ei gyfranu, ac amryw welliantau yn cael eu mabwysiadu tuag at ymfudwyr tramor; a chymmerodd ei ochr dros ryddhâd y caethion yn y dadleuon oedd yn dechreu cynnhyrfu y wlad. Etholwyd ef yn aelod o senedd yr Unol Daleithiau yn 1847. Cydnabyddwyd ef yn arweinydd ei blaid; ac yn y ddadl ar dderbyniad California i'r undeb, efe a amddiffynai yr hyn a elwid athrawiaeth y "gyfraith oruchaf," pan y dywedai fod cyfraith uwch na'r cyfansoddiad gwladol yn rheoli awdurdod y gydgynghorfa dros y meddiannau gwladwriaethol; sef "cyfraith Duw a lles dynoliaeth." Mewn araeth a draddododd yn Rochester, Efrog Newydd, yn 1858, efe a ddywedodd fod ymdrech anocheladwy yn rhwym o fod rhwng galluoedd gwrthwynebol, a bod yn "rhaid i'r Unol Daleithiau, naill ai bod i gyd yn gaeth, neu i gyd yn rhydd." Ail ymwelodd âg Ewrop yn 1859, pryd yr aeth hefyd i'r Aipht a Phalestina; ac yn 1860 efe oedd ymgeisydd amlycaf y blaid werinol i'w enwi am yr arlywyddiaeth; ond darfu i fuddiannau personol a lleol yn y diwedd ddiogelu etholiad Abraham Lincoln, tra y derbyniodd Mr. Seward y swydd bwysig o ysgrifenydd y wladwriaeth—yn ngweinyddiad yr hon yr arolygai ddiplomyddiaeth y llywodraeth undebol trwy beryglon y rhyfel cartrefol ofnadwy a gymmerodd le yn amser arlywyddiaeth Lincoln, a gweinyddodd ei swydd gydag egni, diwydrwydd, a llwyddiant digyffelyb yn mron. Ar y 14eg o Ebrill, 1865, fel yr oedd y rhyfel yn tynu i'w derfyniad, a thra yr oedd Seward wedi ei gaethiwo i'w ystafell mewn canlyniad i godwm o'i gerbyd, bradlofruddiwyd yr arlywydd Lincoln gan John Wilkes Booth, chwareuydd (*actor*) o Washington. Ar yr un pryd aeth bradlofrudd arall o'r enw Paine i ystafell Mr. Seward, a chlwyfodd ei fab yn beryglus; a chyda phicell oedd ganddo, efe a ymosododd arno yntau, ac a'i clwyfodd mor ofnadwy nes y tybid ar y cyntaf y profai hyny yn farwol iddo. Ond efe a ymadferodd ychydig yn raddol; ond ni ddaeth byth yr un dyn drachefn, a bu farw yn gynnar yn y flwyddyn 1867.

Y mae ei weithiau llenyddol yn gynnwysedig yn benaf o areithiau, ac wedi eu cyhoeddi mewn amryw gyfrolau. Ysgrifenodd hefyd hanes bywydau John Quincy Adams, a De Witt Clinton. Cydnabyddir yn gyffredin fod Seward yn un o'r gwladweinyddion galluocaf a fu yn yr Unol Daleithiau.

Digitized by Google

1586, pan oedd Shakspeare tua dwy ar hugain oed, efe a adawodd gymmydogaeth Stratford, ac a aeth i fyny i Lundain. Y mae traddodiad yn dyweyd mai y rheswm iddo wneyd hyn oedd rhyw anhap a'i cyfarfu ef, ac annoethineb o'i du yntau mewn canlyniad i hyny. Mynegir fod y bardd ieuangc ar ymdaith nosawl o herwhela yn mharc dyn cyfoethog o'r gymmydogaeth, o'r enw Syr Thomas Lucy, o Charlecote; ac iddo gael ei ddal gan y ceidwad, a'i gadw y noson hono yn garcharor; ac yn y boreu, dygwyd ef o flaen Syr Thomas, yr hwn oedd ustus heddwch. Ni fynegir i ni beth a ddigwyddodd yn yr ymchwiliad; ond, fel y myn sibrwd iddi fod, beth bynag ydoedd, cynnhyrfodd ddigofaint Shakspeare, ac efe a ddialodd arno, fel y gallesid disgwyl i fardd wneyd, trwy gyhoeddi cân, yn yr hon yr oedd y marchog yn cael ei oganu. Mynid ei gospi ef yn mhellach am yr ammharch hwn, a dyma, meddir, a barodd iddo ddiangc i Lundain. Y mae yr hanesyn hwn wedi ei ledaenu yn gyffredinol am Shakspeare, a thebyg ydyw ei fod yn sylweddol gywir. Y mae y cyfeiriad amlwg sydd yn y "*Merry Wives of Windsor,*" lle yr adwaenir arfbais teulu y Lucies o Charlecote, fel y rhai a briodolir i'r ustus Shallow, ynddo ei hun yn myned yn lled bell i gadarnhau hyn. Yn mhellach hefyd, y mae Oldys, hynafiaethydd a fu farw yn 1761, ac a aeth i lawer o drafferth i gasglu defnyddiau tuag at ysgrifenu hanes bywyd y bardd, yn cadarnhau y chwedl ar rywbeth tebyg i dystiolaeth gywir, ac yn rhoddi i lawr y pennill blaenaf yn y gân a achosodd y digofaint, fel y cofid ef yn y dosbarth hwnw o'r wlad. Y mae rhai yn teimlo tuedd i ammheu gwirionedd y chwedl hon; ond ymddengys fod hyn yn gorphwys mewn rhan fawr ar yr anewyllysgarwch a deimlir i gydnabod, er ei fod yn bossibl, fod dim yn ymddygiad y bardd sydd yn ymddangos fel yn gwrthdaraw yn erbyn y parch cyffredinol a amlygir tuag at ei athrylith ef.

Nid yw yn hysbys pa un a oedd ei deulu yn dilyn Shakspeare ar ei daith i Lundain, ai nid oeddynt. Tybiaeth Mr. De Quincy ydyw, iddo gymmeryd y daith yno i ochel annedwyddwch teuluaidd; ond y mae Charles Knight yn ymwrthod yn hollol â'r syniad hwn. Y mae efe yn ystyried fod ei deulu gyda'r bardd yn Llundain, yn gystal ag yn y wlad; ond ymddengys ei fod yn wastad yn cadw i fyny gyssylltiad agos â'i dref enedigol. O barthed i'r gymmydogaeth yn Llundain y cymmerodd ei drigfod ynddi, yr ydys wedi cael allan ei fod yn preswylio mewn tŷ yn Southwark, ger llaw Bear Garden, yn 1596. Dywed amryw o'i fywgraphwyr iddo ddechreu ei fywyd yn y brif ddinas yn y gwasanaeth isel o ddal penau meirch y rhai a ddeuent i'r chwareudai. Y mae chwedl ar gael, yr hon a adroddwyd gan Syr William Davenant wrth Mr. Betterton, yr hwn a'i mynegodd i Mr. Rowe; a Rowe i Pope, a Pope drachefn i Dr. Newton, yr hwn a fu yn olygydd gweithiau Milton; ac yntau wedi hyny i ereill. Rhediad y chwedl hono sydd debyg i hyn:—"Yn mherthynas i ymddangosiad Shakspeare yn y chwareudy pan y daeth i Lundain, yr oedd heb arian na chyfeillion ar y pryd; a chan ei fod yn ddyeithr, ni wyddai at bwy i droi, na pha fodd i gael moddion bywoliaeth. Ar y pryd hwnw nid oedd cerbydau yn cael eu defnyddio yn gyffredin; a chan fod boneddwyr yn arfer marchogaeth i'r chwareudy, aeth Shakspeare yn ei gyfyngder at ddrws y chwareudy, a derbyniai ychydig arian wrth ddal penau meirch y boneddwyr a fynychent y lleoedd hyny. Daeth yn fuan yn enwog, hyd yn oed yn yr alwedigaeth hono, a chymmerwyd sylw o'i ddeheurwydd gyda hyn. Yr oedd ganddo fwy i'w wneyd nag y gallai efe ei hun ddyfod i ben âg ef; ac o'r diwedd efe a gyflogodd fechgyn, y rhai a elwid yn "fechgyn Shakspeare." Digwyddodd i rai o'r chwareuwyr yn ddamweiniol ymddiddan âg ef: gwelsant ei graffder, rhyfeddent at ei alluoedd ymddiddanol, a chymmeradwywyd ef i sylw llywodraethwyr y chwareudy, a chymmerwyd ef i mewn, i gyflawni swydd isel ar y cyntaf; ond ni bu felly am dymmor maith, o herwydd efe a enwogodd ei hun yn fuan, os nad fel chwareuwr nodedig, o leiaf fel ysgrifenydd rhagorol." O bossibl na ellir myned heibio i'r rhan sydd yn cyfeirio at ddal penau y meirch yn y chwedl uchod gyda gwên ac ammheuaeth. Gellid meddwl fod y ffaith i Shakspeare ddyfod i gyssylltiad â chwareudy Blackfriars yn cael ei hegluro wrth ystyried fod rheolwr y chwareudy hwnw, Richard Burbidge, fel y mynega Arglwydd Southampton, yn dyfod o'r un sir a Shakspeare, ac yn wir yn mron o'r un dref ag ef. O barthed i alluoedd chwareÿddol Shakspeare, dywed Aubrey ei fod yn "chwarenwr nodedig o dda;" ac y mae profion ereill i'w cael sydd yn cadarnhau y dystiolaeth, er nad ymddengys iddo gyrhaedd enwogrwydd mawr yn y cyfeiriad hwn. Y cyfeiriad diammheuol cyntaf a wnaed at Shakspeare gan ysgrifenydd oedd yn cydoesi ag ef, a briodolir gan Haliwell i bamphledyn bychan a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1592; yr awdwr o hono, yn ol barn Mr. Collier, oedd Henry Chettle; ac yr oedd y gŵr hwn yn tueddu i'w oganu, yn hytrach nag i'w ganmawl; ond gwnaeth ar ol hyny ymddiheurad. Y mae yr hyn a ddywed y gŵr hwn am dano yn arwyddo ei fod wedi bod yn ysgrifenu mor foreu a 1592.

Y mae Mr. Collier wedi cael allan fod Shakspeare, yn y flwyddyn 1589, pan nad oedd ond pump ar hugain mlwydd oed, yn gydfeddiannydd o chwareudy Blackfrlars, ac yr oedd amryw o'r meddiannwyr ereill islaw iddo ar y rhestr. Yr oedd ganddo y pryd hwn, yn ddiammheu, foddion cynnaliaeth gyfrifol i'w deulu. Ac yn ol pob peth y gellir ei gasglu yn deg, ennillodd y safle y daeth iddi trwy ei ysgrifeniadau digyffelyb. Nid peth annhebyg yw fod Shakspeare, cyn iddo erioed ymadael o Stratford, wedi ysgrifenu rhyw chwareuawd neu chwareuawdau a ddaeth yn hysbys i chwareuwyr y brif ddinas. Mynegir fod Thomas Green, yr hwn yn 1586 oedd y pedwerydd ar restr cyfranddalwyr chwareudy Blackfriars, yn gyd-drefwr a Shakspeare. Ond er y dichon i'r diweddaf gael Green yn gyfaill, cafodd gyfaill oedd yn gallu gwneyd mwy iddo, fel y cyfeiriwyd o'r blaen, yn Richard Burbidge, yr hwn a ystyrid yn ei ddydd yr enwocaf o'r chwareuwyr. Y mae yn eglur, gan hyny, y dichon fod Shakspeare wedi cael gwahoddiad gan y gwŷr hyn i ddyfod i Lundain, os oedd i ryw raddau wedi dangos fod ynddo allu i fod o wasanaeth iddynt hwy. Ac nid oes ammheuaeth, gan lawer, nad oedd efe wedi cynnyrchu rhai chwareuawdau, yn gystal a chymmeryd rhan yn y chwareuon, cyn cael ei dderbyn fel cyfrandalwr yn nghwmni y Blackfriars.

Mŷn ereill drachefn, ar y llaw arall, nad oedd efe wedi cynnyrchu unrhyw chwareuawdau, hyd nes i amryw flynyddoedd fyned heibio ar ol iddo ddyfod yn un o gyfranddalwyr chwareudy

iddo, ac hefyd i'r wlad a wasanaethid ganddo. Bu farw yn Paris, Mai 26ain, 1840.

SOLOMON, PARCH. GRIFFITH. Brodor oedd efe o sir Gaernarfon, a phregethwr yn nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd. Derbyniwyd ef yn aelod o'r gymdeithasfa yn 1798. Cyhoeddodd eglurhâd ar *Pregethwr* xii.; yr hwn a helaethodd, wedi hyny, i gynnwys yr holl lyfr. Casglodd hefyd, a chyhoeddodd lyfr yn cynnwys sylwedd amryw bregethau o eiddo y Parch. John Jones, Edeyrn. Ymddengys ei fod yn arfer cadw ysgol dros y rhan fwyaf o'i oes. Ystyrid ef yn un o'r darllenwyr goreu, yn mhob ystyr o'r gair, fyddai yn esgyn i bulpudau y wlad; ac yr oedd fel pregethwr yn hynod gymmeradwy gan y cynnulleidfaoedd.

SPARK, THOMAS, D.D. Mab ydoedd efe i'r Parch. Archibald Spark, ficer Llaneurgain, yn sir Flint, lle y ganwyd ef yn 1655. Wedi derbyn urddau Eglwysig, pennodwyd ef yn gaplan i Syr George Jeffreys; yr hwn, pan ddyrchafwyd ef yn arglwydd ganghellydd, a roddodd iddo amryw o ddyrchafiadau yn yr Eglwys. Yn 1687, cymmerodd y radd o D.D. Efe oedd awdwr *Notae in Libros sex Novae Historiae Lozini Comitis*, 1679. Cyflwynwyd y gwaith hwn ganddo i'w feistr, Dr. Richard Busby; a chyfieithwyd ef i'r Saesneg gan rywun yn y fl. 1684. Ei waith nesaf ydoedd *Lucii Coelii Lanctiantii Finniani opera quae extant ad fidem MSS. recognita, et commentariis illustrata*, 1684. Pan fu farw, Medi 7fed, 1692, yr oedd efe yn beriglor Ewehurst, yn Surrey, a Norton, yn swydd Leicester, ac yn brebend yn eglwysi cadeiriol Lichfield a Rochester.

SPEKE, JOHN HANNING. Archwiliwr Affricanaidd enwog, a anwyd Mai 4ydd, 1827, yn Ngwlad yr Haf. Ymunodd â'r fyddin Indiaidd pan yn 17eg mlwydd oed; gyda'r hon y bu yn ymladd cryn lawer yn y Punjab. Yn y fl. 1854, aeth gyda'r Cadben Burton, archwilydd enwog arall, ar daith ymchwiliadol i wlad Somali, pan y bu o fewn ychydig i golli ei fywyd. Yn mhen tair blynedd ar ol hyn, anfonwyd Burton, ac yntau, allan gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol i chwilio am lynau mawr y cyhydedd yn Affrica. Darganfyddodd Speke ei hun Lyn Victoria Nyanza, am yr hwn y teimlai yn argyhoeddedig mai hwn oedd ffynnonell yr afon Nilus. Yn 1860, dychwelodd, ac nid yn unig efe a wnaeth archwiliad trwyadl ar lanau gorllewinol a gogleddol y llyn anferthol hwn, ond dilynodd yr afon yn ddigon pell ar ei chwrs i allu profi mai yr un oedd hi ag afon fawr ac adnabyddus yr Aipht. Tueddai Burton, a theithwyr eraill, i anghredu hyn; a threfnwyd fod i Speke gymmeryd rhan gyda hwynt mewn ymdrafodaeth gyhoeddus ar y cwestiwn yn nghyfarfod y Gymdeithas Brydeinig yn Bath, ar Medi 15fed, 1864. Y boreu hwnw, modd bynag, saethodd Speke ei hun yn ddamweiniol tra allan yn saethu ger llaw y ddinas hono. Ysgrifenodd hanes ei deithiau a'i archwiliadau yn ei *Journal of the Discovery of the Source of the Nile* (1863), a *What led to the Discovery of the Source of the Nile* (1864).

SPENCER. Teulu pendefigaidd yn Lloegr, sydd wedi cynnysgaeddu y deyrnas hon â nifer fawr o wleidyddwyr, milwyr, a dynion enwog mewn gwahanol gyssylltiadau. Yr Anrhydeddus John Spencer, mab ieuangaf y trydydd Iarll Sunderland, ac Anne, merch ac etifeddes yr enwog Dduc o Marlborough, oedd aelodau cyntaf y teulu. Cafodd ef gryn lawer o eiddo ar ol ei nain, y Dduces o Marlborough, a gwnaed ei unig fab, John, yn Iarll Spencer yn 1765.

SPENCER, GEORGE JOHN. Ail iarll, yr hwn fu yn brif arglwydd y morlys yn ngweinyddiaeth Syr Robert Peel, yn ystod y cyfnod yr ymladdwyd môr-frwydrau gwaedlyd a bythgofiadwy Camperdown, Cape St. Vincent, a'r Nile.

SPENCER, JOHN CHARLES. Trydydd iarll; yr hwn a adnabyddir oreu wrth y teitl Arglwydd Althorp; yr hwn a anwyd yn 1782. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Oakhampton, yn 1804, a phennodwyd ef yn is-arglwydd y trysorlys pan, yn 1806, y darfu i'w dad gymmeryd swydd fel ysgrifenydd cartrefol yn ngweinyddiaeth Grenville a Fox. O'r pryd hwn, nes y pasiwyd y Mesur Diwygiadol, bu yn eistedd fel aelod dros Northampton; ac wedi hyny yn y senedd ddiwygiadol, cynnrychiolai ddeheubarth yr un sir. Aeth allan gyda'r Whigiaid yn 1807, a bu yn ddraen yn ystlys y weinyddiaeth Doriaidd a ddychwelwyd i awdurdod ar eu hol. Pan gwympodd gweinyddiaeth Wellington, yn 1830, pennodwyd ef yn ganghellydd y trysorlys, ac yn arweinydd tŷ y cyffredin yn ngweinyddiaeth ddiwygiadol Iarll Grey. Dygwyd Mesur Diwygiadol 1832 i mewn gan Arglwydd John Russell; ond disgynodd y gorchwyl o gario y mesur drwy y tŷ yn benaf ar Spencer. Yn 1833, dygodd i mewn Fesur y Llywodraeth er Diwygio yr Eglwys Wyddelig; a chariodd ef drwodd. Yn ystod y senedd-dymmor bythgofiadwy hwn, anerchodd Spencer y tŷ gynnifer a 1,026 o weithiau, a mesurai ei areithiau 387 o golofnau yn y *Mirror of Parliament*. Meddai Iarll Grey yr ymddiried llwyraf ynddo; ac heb ei gynnorthwy, teimlai yr iarll nas gallai efe ei hun gario yn mlaen waith y llywodraeth. Yn mis Gorphenaf, 1834, daeth gweinyddiaeth Is-iarll Melbourne i awdurdod, a chydsyniodd Spencer i ymgymmeryd â'r un swyddi ag a ddaliai dan Iarll Grey. Yn Tachwedd, modd bynag, codwyd ef i dŷ yr arglwyddi fel olynydd i'w dad. Bu farw ar Hydref 1af, 1845, yn ddi-blant; a'i frawd a gafodd y teitl.

SPINOLA, AMBROSIO, ARDALYDD. Un o gadbeniaid enwocaf ei oes. Ganwyd ef yn Genoa, yn yr Eidal, yn y fl. 1571. Bu farw yn Piedmont, Medi 25ain, 1630.

STANHOPE, YR ARGLWYDDES HESTER LUCY. Merch hynaf Siarl, trydydd Iarll Stanhope, a'i wraig, Hester, merch yr enwog Arglwydd Chatham. Ganwyd hi yn Chevening, yn swydd Caint, Mawrth 12fed, 1776, a thyfodd i fyny yn wraig o gymmeriad nodedig. Yn 1803, aeth i fyw i breswylfod ei hewythr, William Pitt, ac fel meistres ei dŷ ef, ac fel un a feddai ei ymddiried llwyr yn ystod ei fywyd gwleidyddol, ac o hyny hyd ei farwolaeth, daeth yn un o'r merched mwyaf adnabyddus a dylanwadol yn y wlad. Pan fu farw Pitt, yn 1806, caniatawyd blwydd-dâl o 1,200*p*. iddi gan y

Digitized by Google

brenin. Ar ol teithio llawer ar lanau Môr y Canoldir, bu fyw ar Fynydd Libanus; a bu farw yno, heb fod neb o'i theulu gyda hi.

STANHOPE, PHILIP HENRY, Iarll. Ganwyd ef Ionawr 31ain, 1805. Efe ydoedd unig fab y pedwerydd iarll. Cymmerodd ei sedd yn nhŷ y cyffredin yn 1830. Bu yn îs-ysgrifenydd tramor yn ngweinyddiaeth Peel (1834—35), ac yn ysgrifenydd i Fwrdd Llywodraethol India, dan yr un gweinidog, o 1845 hyd 1846. Ceidwadwr cymmedrol oedd efe fel gwleidyddwr, ac yr oedd yn meddu ymlyniad cryf wrth Syr Robert Peel. Saif Stanhope yn lled uchel yn rhestr haneswyr. Ysgrifenodd amryw lyfrau; ond y gwaith mwyaf o'i eiddo ydyw ei *History of England from the Peace of Utrecht to the Peace of Versailles* (1713—83), mewn saith gyfrol. Adnabyddid ef wrth y teitl Is-iarll Mahon hyd 1855, pan yr olynodd ei dad yn yr iarllaeth. Bu farw yn Bournemouth, Rhagfyr 22ain, 1875.

STANLEY, EDWARD, D. D. Ail fab oedd efe i Syr John Thomas Stanley, arglwydd cyntaf Stanley, a Margaret, merch ac etifeddes Hugh Owen, o Benrhos, yn Môn. Ganwyd ef Ionawr 1af, 1779. Wedi cymmeryd urddau eglwysig, a dal amryw fywoliaethau yn yr Eglwys, fe'i pennodwyd ef yn Esgob Norwich.

STANLEY, ARTHUR PENRHYN:—deon enwog Mynachlog Westminster. Ganwyd ef yn rheithordy Alderley, Rhagfyr 13eg, 1815, ac efe oedd ail fab y Parch. Edw. Stanley, rheithor Alderley, yn swydd Gaer. Bu am ddeuddeng mlynedd yn esgob Norwich. Addysgwyd ef yn Rugby, o dan Dr. Arnold, ac yn Ngholeg Balliol, yn Rhydychain. Cymmerodd raddau uchel, ac ennillodd amryw wobrwyon yn y Brifysgol; ac yn 1839, etholwyd ef yn gymmrawd o goleg y Brifysgol. Wedi cymmeryd urddau eglwysig, bu yn teithio am dymmor yn y dwyrain. Yna, ar ei ddychweliad, pennodwyd ef yn athraw yn ei goleg; a dyrchafwyd ef i fywoliaethau da yn yr Eglwys. Yn 1863, dyrchafwyd ef i ddeoniaeth Westminster, fel olynydd i Trench, yr hwn a bennodwyd i archesgobaeth Dublin. Yn y fl. 1874, etholwyd ef yn arglwydd reithor Prifysgol St. Andrews. Safai Stanley yn y radd flaenaf fel ysgolhaig a phregethwr; ac yr oedd yn un o lenorion galluocaf ei oes. Heb law ysgrifenu nifer afrifed o'r bron, o erthyglau i'r wasg gylchgronawl, efe ydoedd awdwr y cyfrolau adnabyddus a ganlyn:—*Life of Arnold* (1844); *Sermons and Essays on the Apostolic Age* (1847); *A Memoir of Bishop Stanley* (1851); *Commentary on the Epistles to the Corinthians* (1855); *Sinai and Palestine* (1856); *Lectures on the Eastern Church* (1861); *Lectures on the Jewish Church* (1863—65); *Essays on Church and State* (1870); *Addresses and Sermons delivered at St. Andrews* (1877); *Christian Institutions* (1881); ac amryw lyfrau eraill. Casglodd y defnyddiau ar gyfer ei *Sinai and Palestine* tra ar ei deithiau yn yr Aipht a Chanaan, yn 1852—53.

Fel dyn, fel pregethwr, ac fel ysgolhaig, ychydig o'i gydoeswyr oedd yn fwy adnabyddus nag ef, a phrin y ceid neb o fewn cylch yr Eglwys Sefydledig oedd i'w gymmharu âg ef mewn rhyddfrydigrwydd ysbryd, a gwresawgrwydd ei gydymdeimlad â phob amcanion daionus. O herwydd hyn, yr oedd yn wrthddrych adgasedd neillduol pob dyn rhagfarnllyd o fewn yr Eglwys Sefydledig; ac nis gallodd yr Uchel-Eglwyswyr culfarn byth faddeu iddo am dri pheth:—cymmeryd plaid yr Esgob Colenso; pregethu mewn pulpudau perthynol i Eglwys Bresbyteraidd Ysgotland; a gweinyddu y sacrament yn nghapel Harri VII. i adolygwyr y Cyfieithiad Awdurdodedig o'r Ysgrythyrau—un o ba rai oedd yn Undodwr, ac amryw yn Bresbyteriaid. Yr oedd hyn, modd bynag, yn cydgordio yn hollol â'r egwyddor fawr yn unol â'r hon y llywodraethai efe Fynachlog Westminster; yr hon adeilad a ystyriai efe bob amser fel un o sefydliadau cenedlaethol y wlad, ac un oedd i fod uwch law eiddigedd plaid a sect. Eglwyswr llydan, ëang ei syniadau a'i gydymdeimlad, oedd efe. Ystyriai yr Eglwyswyr culfarn, rhagfarnllyd, a defodol ef fel y 'prif Anghydffurfiwr yn Eglwys Loegr.' Nid oedd hyn yn blino dim ar y deon duwiolfrydig; a pharhaodd i gerdded yr un llwybr yn gysson tra y bu byw. Yr oedd ei ddylanwad fel pregethwr yn dra ëang. Pa bryd bynag y pregethai efe yn y Fynachlog, byddai yr adeilad yn orlawn gan gynnulleidfa gymmysgedig o Eglwyswyr ac Anghydffurfwyr. Yr oedd ei sefyllfa yn yr Eglwys yn un hollol eithriadol. Fel olynydd Mynachod Westminster, meddai safle hollol annibynol; ac ni byddai mewn unrhyw fodd yn ymostwng i awdurdod yr esgobion. O herwydd hyn, rhoddai wahoddiad mynych i rai o wŷr blaenaf yr Anghydffurfwyr i bregethu yn y Fynachlog; ac unwaith, aeth mor bell a gwahodd lleygwr dysgedig, yn mherson y Proffeswr Max-Müller, i anerch y gynnulleidfa yn y gwasanaeth hwyrol. Trwy hyn, dangosodd y mawr awydd a lanwai ei enaid am weled canolfur y gwahaniaeth mewn mater o grefydd yn cael ei dynu i'r llawr. Bu farw yn fawr ei barch, yn y Deondy, Westminster, Gorph. 18fed, 1881; a thrwy orchymyn y frenhines, cafodd ei gladdu wrth ochr ei briod yn nghapel Harri VII. Cyhoeddwyd hanes ei fywyd yn niwedd 1893, wedi ei ysgrifenu gan y Canon Protheroe, o Westminster.

STANLEY, THOMAS. Cyfieithydd yr *Æschylus*, ac un a ysgrifenodd gryn lawer o hanes athroniaeth yn ei sefydliad a'i dadblygiad. Mab oedd efe i Syr Thomas Stanley; a ganwyd ef yn 1625. Cafodd ran o'i addysg dan Fairfax, cyfieithydd *Tasso*. Daeth yn aelod o'r Middle Temple; a dilynodd y gyfraith tra y bu byw. Treuliodd y rhan fwyaf o'i amser, modd bynag, gyda llenyddiaeth, a chyhoeddodd gyfieithiadau o weithiau y prif feirdd Groegaidd, Lladinaidd, Ffrengig, Yspaenaidd, ac Italaidd. Bu farw yn Llundain, Ebrill 12fed, 1678.

STEIN, HEINRICH FRIEDRICH CARL, Barwn. Gwleidydd Prwssiaidd oedd efe, a anwyd yn Nassau, Hydref 26ain, 1757. Ymunodd â'r gwasanaeth gwladol yn 1780; ac yn mhen ychydig flynyddau, yr oedd wedi ennill safle o gryn ddylanwad yn llywodraeth y wlad. Yn 1804, pennodwyd ef yn ben ar y swyddfa a ofalai am gyllid, tollau, cynnyrch llaw-weithfäol, a masnach y wlad; a thrwy ei allu a'i benderfyniad, dygodd o amgylch ddiwygiadau pwysig ac angenrheidiol. Modd bynag, anghyttunodd y brenin ac yntau; ac yn Ionawr, 1807, ymddiswyddodd Stein. Wedi i Frederick-

Digitized by Google

William III. ddyfod i brofedigaeth, mewn canlyniad i'r dull annoeth a fabwysiadwyd ganddo mewn materion gwleidyddol, nid oedd ganddo ddim gwell i'w wneyd na galw yn ol y dyn yr ymddygodd efe ato mor annheilwng; ac yn enwedig felly gan fod y cwrs hwn yn cael ei awgrymu gan ei orchfygwr Napoleon. Mewn canlyniad, ail ymaflodd Stein yn awenau y llywodraeth; ac mewn llai na blwyddyn, dygodd o amgylch y fath ddiwygiadau fel y palmantwyd y ffordd i lwyddiant dyfodol yr ymherodraeth. Ei amcan mawr oedd gwreiddio y gallu a'r awdurdod gwladwriaethol yn nghalonau y bobl; a'u dwyn hwy i gymmeryd rhan weithredol yn symmudiadau politicaidd y wlad. Diddymodd bob mesur a deddf oedd yn tueddu i wasgu yn eithafol ar y bobl, a rhagorfreintiau rhwng dosbarth a dosbarth, gan eu gwneyd yn fwy cydstâd â'u gilydd; ynghyd â llawer o ddiwygiadau eraill a dueddent i wneyd trigolion y wlad yn fwy boddlawn ar eu rhan. Yr oedd effeithiau y diwygiadau hyn i'w canfod mor amlwg ar lwyddiant y wlad, fel y daeth Napoleon, o'r diwedd, i sylweddoli nerth cymmeriad y dyn a argymmhellwyd ganddo, ac i annog—yn wir, i hawlio—ei ddiswyddiad. Aeth mor bell hefyd ag attafaelu etifeddiaethau y teulu yn Westphalia. Rhoddodd Stein ei swydd i fyny yn Nhachwedd, 1808; ac ymneillduodd i Awstria, ond nid cyn cyhoeddi ei *Political Testament*—yn yr hwn y cyfeiriai at y cyfnewidiadau y dylesid eu gwneyd yn nghyfansoddiad gwladol Prwssia. Yn 1812, talodd ymweliad â St. Petersburg; ac er iddo, tra yno, wrthod ymuno â gwasanaeth ymherawdwr Rwssia, bu ganddo law flaenllaw yn annog awdurdodau y wlad hono i wrthwynebu Napoleon, ac i symbylu y Germaniaid hefyd yn ei erbyn. O adeg y frwydr yn Leipzig hyd y gyngres yn Vienna, efe oedd y blaenaf oll yn y gwrthwynebiad a ddangoswyd i Napoleon. Ar derfyniad y gyngres hono, ymneillduodd Stein o fywyd cyhoeddus, a bu farw yn Westphalia, Mehefin 29ain, 1831.

STEPHEN. Enw ar amryw o babau oedd hwn.

STEPHEN, EDWARD. Cymro, a ennillodd enwogrwydd fel swyddog yn y gwrthryfel Americanaidd. Daliai swydd brigadwr yn myddin Virginia. Bu farw yn y fl. 1820, pan tua 76ain mlwydd oed.

STEPNEY, GEORGE. Bardd Saesneg, a gwladweinydd o fri. Hânai o deulu parchus a ymsefydlodd yn Prendergast, yn sir Benfro—lle y ganwyd yntau, yn y fl. 1663. Ar derfyn y Chwyldroad, pennodwyd ef yn llysgenhadwr i amryw fanau; ac yn 1706, anfonwyd ef gan y frenhines Anne yn llysgenad i'r Talaethau Cyffredinol. Yr oedd efe yn genad hynod o lwyddiannus; yr hyn a barai ei fod yn cael ei bennodi yn barhaus gyda materion pwysig y deyrnas. Bu farw yn Chelsea, yn y fl. 1707, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster, lle y codwyd colofn hardd i'w goffadwriaeth. Cyhoeddwyd amryw ddarnau barddonol o'i waith, ac hefyd rhai o'i weithiau rhyddiaethol ar wladweiniaeth.

STERLING, JOHN. Ganwyd ef yn Kames Castle, yn Bute, Gorphenaf 20fed, 1806, lle yr oedd ei dad, y Cadben Edward Sterling, ar y pryd yn amaethu y tir. Addysgwyd John yn Mhrifysgolion Glasgow a Chaergrawnt; a thra yn yr olaf, ystyrid ef yn un o aelodau hyawdlaf a galluocaf y gymdeithas ddadleuol enwog, a elwid *The Union*—yn mysg aelodau yr hon yr oedd yr enwogion Maurice, John Kemble, Spedding, Venables, Charles Buller, a Richard Monckton Milnes. Yr oedd Mr. Sterling yn Rhyddfrydwr trwyadl o ran meddwl a chredo gwleidyddol; a daeth dan ddylanwad Coleridge. Yn mis Chwefror, 1835, efe a gyfarfyddodd y doethawr Carlyle. Yn y cyfnod hwn, ysgrifenai i wahanol gylchgronau, megys *Blackwood*, *Westminster*, &c., a chyfansoddodd rai chwareugerddi. Yn Awst, 1838, efe a ffurfiodd y clwb a elwid ar y cyntaf yr *Anonymous;* wedi hyny y *Sterling Club*, yn mysg aelodau yr hwn yr oedd Carlyle, Allan Cunningham, G. Cornwall Lewis, Malden, Stuart Mill, Monckton Milnes, Spedding, Tennyson, Thirlwall, W. H. Thompson, Venables, ac enwogion eraill. Bu farw yn Ventnor, yn Ynys Wyth, Medi 18fed, 1843.

STEVENSON, ROBERT. Peiriannydd, a anwyd yn Glasgow, Mehefin 8fed, 1772. Bu ei dad farw pan yr oedd efe yn ieuangc; a phriododd ei fam eilwaith â Thomas Smith, peiriannydd o dan Fwrdd y Goleudai. Gwnaeth Stevenson y fath gynnydd yn ei alwedigaeth, fel y darfu i Smith, yn 1791, ymddiried iddo y gorchwyl pwysig o adeiladu goleudy ar Little Cumbrae. Yn 1796, efe a'i dilynodd fel peiriannydd ac arolygydd goleudai; ac yn ystod y tymmor o saith mlynedd a deugain y bu yn y swydd, efe a gynlluniodd ac a adeiladodd gynnifer a 23ain o oleudai ar draethell Ysgotland. Yr hynotaf o'r goleuadau hyn ydyw yr hwn a godwyd ar y Bell Rock. Gelwid yn fynych am ei wasanaeth ynglŷn â gwneuthuriad ffyrdd, pontydd, porthladdoedd, camlesau, a ffyrdd haiarn. Bu farw yn Edinburgh, Gorph. 12fed, 1850, a gadawodd lawer o weithiau pwysig ar ei ol yn dwyn cyssylltiad â pheirianwaith.

STRADLING, SYR EDWARD. Mab hynaf Syr Thomas Stradling, o Catherine, merch Syr Thomas Gamage, o'r Coetty; ac yn ddisgynydd uniongyrchol o hen dylwyth y Stradlingiaid, o Gastell St. Donat, neu Dunawd, yn sir Forganwg—lle y ganwyd yntau yn 1529. Teithiodd gryn lawer ar y Cyfandir wedi gadael y brifysgol; a threuliodd beth amser yn Rhufain. Gwnaed ef yn farchog yn 1575. Ar ei draul ef yn gyfangwbl yr argraphwyd Geiriadur yr enwog Dr. John Dafydd Rhys yn 1592; o'r hwn yr argraphwyd 1,250 o gopïau. Yn ei ewyllys, cyfarwyddodd fod i'w etifedd, Syr John Stradling, roddi y copïau oedd yn weddill, heb eu dosbarthu, 'i foneddwyr, neu eraill, fel y gwelai oreu, er hyrwyddiad yr iaith Gymraeg.' Yr oedd efe, fel y gwelir oddi wrth hyn, yn noddwr gwerthfawr i lenyddiaeth Gymreig. Casglodd ynghyd nifer fawr o lawysgrifau Cymreig pwysig hefyd i'w lyfrfa yn St. Donat. Efe hefyd oedd awdwr *The Winning of the Lordship of Glamorgan, or Morganwg, out of the Welshmen's hands;* yr hwn a argraphwyd yn *Hanes Cymru* Dr. Powell yn 1584. Bu farw Mai 15fed, 1606, yn 80ain mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion y dydd canlynol yn nghapel Mair, a adeiladesid gan ei dad, yr hwn oedd mewn cyssylltiad âg Eglwys Dunawd Sant.

Digitized by Google

STRADLING, SYR GEORGE, D.D. Pedwerydd mab oedd efe i Syr John Stradling, o Gastell Dunawd, lle y ganwyd ef yn y fl. 1621. Yr oedd efe yn gerddor da; ac ystyrid ef yn un o oreuon ei oes am chwareu y *lute*. Ar ddychweliad Siarl II., gwnaed ef yn gaplan i Dr. Sheldon, Esgob Llundain; ac yn 1661, rhoddwyd iddo y gradd o D.D. Pennodwyd ef yn brebend Westminster yn 1663, ac yn gantor yn Eglwys Gadeiriol Chichester yn 1671. Bu farw Ebrill 19eg, 1688, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster.

STRADLING, SYR JOHN. Un arall o ddisgynyddion teulu St. Dunawd. Mab oedd efe i Francis, ac ŵyr i Harri Stradling, o'r lle hwnw. Ganwyd ef yn y fl. 1563. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol. Wedi bod yn ymdaith ar y Cyfandir, ymroddodd i efrydu y gyfraith; ac ysgrifenodd rhai llyfrau. Gwnaed ef yn farchog yn 1608; ac ar farwolaeth Syr Edward Stradling, ei gefnder, yn 1609, daeth i feddiant o etifeddiaeth y teulu, gan ymsefydlu yn Nghastell St. Dunawd. Gwnaed ef yn farwnig Mai 22ain, 1611. Yn 1625, etholwyd ef yn aelod seneddol dros swydd Forganwg. Bu farw Mai 11eg, 1637.

STRATFORD DE REDCLIFFE (SYR STRATFORD CANNING), IS-IARLL. Yr ydoedd efe yn llysgenhadwr enwog, ac adnabyddid ef wrth yr enw '*The Great Elchi.*' Ganwyd ef yn Llundain, Tach. 4ydd, 1786. Mab oedd efe i Stratford Canning, marsiandwr, ac yr oedd yn gefnder cyntaf i George Canning, y gwladweinydd. Dechreuodd ar ei yrfa gyhoeddus fel swyddog yn y swyddfa dramor; ac yn 1808, pennodwyd ef yn brif-ysgrifenydd Syr Robert Adair, llysgenhadwr Lloegr yn Nghaer Cystenyn; a dilynwyd ef ganddo fel trafnoddydd (*minister-plenipotentiary*), yn 1810. Un o'i brif ddyledswyddau yma ydoedd gwrthweithio dylanwad Ffraingc yn llys y Twrc; ac ar ei gyfrifoldeb ei hun, ac heb dderbyn y gymmeradwyaeth leiaf oddi wrth lywodraeth Prydain, llwyddodd i ddwyn oddi amgylch, yn 1812, Gyttundeb pwysig Bucharest rhwng Rwssia a Thwrci. Yr oedd y ddwy deyrnas hyn ar y pryd mewn rhyfel â'u gilydd; a sicrhawyd y cyttundeb a nodwyd mewn pryd i ryddhau y fyddin Rwssiaidd ar y Danube, ac i'w galluogi i ymosod ar Napoleon yn ei enciliad bythgofiadwy o Moscow. Cydnabyddwyd y weithred hon o'i eiddo gan lywodraeth Castlereagh trwy ei bennodi, yn 1814, yn weinidog y wlad hon yn Switzerland. Tra yno, efe a gynnorthwyodd i amlinellu cyfansoddiad y llywodraeth Swissaidd, ac a ymwelodd â Vienna yn ystod y gyngres fythgofiadwy a gynnaliwyd yn y ddinas hono yn 1815. Yn 1819, anfonwyd ef yn weinidog dros Brydain i'r Unol Dalaethau—a bu yno hyd 1823. Y flwyddyn ddilynol, anfonwyd ef ar neges arbenig i Vienna a St. Petersburg; ac yn y fl. 1825, aeth yn ol i Gaer Gystenyn gydag awdurdod llysgenhadwr llawn. Ar ol brwydr Navarino, galwyd ef yn ol o Gaer Cystenyn; ac mewn canlyniad i wahaniaeth barn a ffynai rhyngddo ef a llywodraeth Iarll Aberdeen, o berthynas i'r llwybr oedd i'w fabwysiadu tuag at Groeg, rhoddodd ei swydd i fyny yn 1828. Ond yn 1831, anfonwyd ef drachefn i Gaer Cystenyn ar neges arbenig; ac ar ei ddychweliad, anfonwyd ef fel ein llysgenhadwr i St. Petersburg. Ond gwrthododd yr ymherawdwr ei dderbyn, ac heb roddi unrhyw reswm dros hyny. Y mae yn debygol ei fod yn ofni presennoldeb y fath genhadwr craff a galluog mor agos i'w bencadlys ymherodrol. Yn 1833, aeth Syr Stratford i Madrid, ar neges neillduol oedd yn dal cyssylltiad â'r olyniaeth i orsedd Portugal; ond trodd y cyfryw allan yn aflwyddiannus, yn ol fel y rhagwelwyd. Pan heb fod yn dal swydd fel llysgenhadwr, bu yn eistedd yn y senedd fel Tori cymmedrol dros Old Sarum o 1828—30; Stockbridge, o 1831—32; a King's Lynn, o 1834—42; ond ni wnaeth enw iddo ei hun fel areithydd na dadleuydd. O 1842 hyd 1858, yr oedd efe drachefn yn Nghaer Cystenyn fel llysgenhadwr; ac yn y cyfwng hwn yr ennillodd efe y dylanwad mawr hwnw a sicrhaodd iddo y teitl a enwyd o'r blaen o '*Great Elchi.*' Llwyddodd i ddylanwadu ar y Sultan i ddwyn o amgylch gyfnewidiadau a diwygiadau pwysig yn y wlad; ac ennillodd i'r Cristionogion hyny oedd yn ddeiliaid i'w fawrhydi, y cyfryw ryddid na buont erioed o'r blaen yn ei fwynhau. Cafwyd prawf diammheuol hefyd o'i allu a'i fedr fel llysgenhadwr yn y fl. 1853 yn ei ymgyfrach â'r Tywysog Menschikoff, llysgenhadwr arbenig Rwssia, o berthynas i'r anghydfod oedd ar y pryd ynghylch y lleoedd sanctaidd, a hòniad Rwssia o'i hawl i feddu dylanwad uwchraddol ar achos Cristionogion Twrci. Modd bynag, bu ei ymdrechion egnïol i gadw yr heddwch yn aflwyddiannus, o herwydd cyndynrwydd yr ymherawdwr Nicholas ar y naill law, a gwendid diarebol gweinyddiaeth Argl. Aberdeen ar y llaw arall. Cymmerodd rhyfel le yn ddilynol i hyn rhwng Rwssia a Thwrci, a dygwyd Lloegr a Ffraingc i mewn i'r helynt. Y canlyniad o hyn oedd rhyfel y Crimea, a gwarchauad Sebastopol. Ar derfyn y rhyfel, wedi sicrhau cyhoeddiad yr hyn a elwir yn Siarter y Diwygiad (*Charter of Reform*), ymddiswyddodd Argl. Stratford—yr hwn a grëwyd yn îs-iarll yn y fl. 1852. Drwy hyn, dirwynodd ei yrfa lysgenhadol i'r pen; yr hon a barhaodd am hanner canrif, a'r hon a ystyrir bron yn ddi-gymmhar yn hanes llysgenhadaeth y wlad hon. Yn ddilynol i hyn, ymbleserai gyda llenyddiaeth—gan gyfansoddi barddoniaeth yn benaf. Bu farw Awst 14eg, 1880, yn 94ain mlwydd oed. Codwyd côfadail iddo yn Mynachlog Westminster.

STRATHNAIRN, ARGLWYDD. Ei enw priodol oedd HUGH ROSE; ac yr oedd yn fab i Syr George Rose. Ganwyd ef yn 1803, ac yn 1820 ymunodd â'r fyddin. Wedi dal amryw swyddau pwysig yn ngwahanol ddinasoedd y Cyfandir a'r Dwyrain, yr oedd yn dal swydd dirprwywr yn mhencadlys y Ffrangcod yn ystod rhyfel y Crimea. Yn 1857, anfonwyd ef i India i gymmeryd llywyddiaeth adran o'r fyddin—gyda'r hon y gwnaeth lawer tuag at ddarostwng canolbarth y wlad ëang hono. Cydnabyddid yn lled gyffredinol ar y pryd fod y rhan a gymmerodd yn mrwydrau y gwrthryfel yn India yn teilyngu mwy o glod nag eiddo Syr Colin Campbell ei hun. Ar farwolaeth Arglwydd Clyde, dyrchafwyd ef i fod yn brif faeslywydd y fyddin yn India; ac ar ei ddychweliad i Brydain, bu yn dal yr un swydd yn yr Iwerddon. Yn 1866, dyrchafwyd ef i dŷ yr arglwyddi gyda'r teitl o Arglwydd Strathnairn. Bu farw Hydref 16eg, 1885.

Digitized by Google

mewn awdurdod hyd esgyniad Iago II., a chynnyddodd ei ddylanwad yn y weinyddiaeth. Er fod rheswm dros gredu iddo roddi gradd o gefnogaeth i'r Duc o Fynwy yn ei wrthryfel yn erbyn y brenin, llwyddodd i ennill ymddiried llwyraf Iago; ac yn 1685, gwnaed ef yn brif weinidog. Efe yn unig a wyddai am fwriad y brenin i sefydlu Pabyddiaeth fel y grefydd wladol; ac yn 1687, efe a gymmeradwyodd, yn gyfrinachol, ei gynlluniau, gan ddadgan yn agored, wedi hyny, ei ddychweliad at yr Eglwys Babaidd. Dywedir fod ei ddylanwad y pryd hwn mor fawr, fel na chaniatäai Iago ffafr o unrhyw fath heb ofyn y cwestiwn, 'A fuwyd yn siarad â Sunderland?' Etto i gyd, yr oedd yn mhell o fod yn ddidwyll yn ei weithrediadau. Gyda medr dihafal, efe a lwyddodd i dwyllo Iago, a Barillon, llysgenad Ffraingc yn Loegr, ac i'w cadw mewn anwybod am y digwyddiadau oedd yn cymmeryd lle yn Holland. Yn ystod yr amser hwn, yr oedd Sunderland mewn gohebiaeth â William, Tywysog Orange, gwrth-ymgeisydd Iago am y frenhiniaeth. Pan gyrhaeddodd William i Loegr, gan gymmeryd yr orsedd, yr oedd Sunderland yn Amsterdam, o'r hwn le yr ysgrifenodd ato, i ofyn am ei nawdd a'i amddiffyniad, ar y sail iddo, trwy yr holl amser, hyrwyddo ei hawliau i'r orsedd. Yn 1691, caniatawyd iddo ddychwelyd i Loegr, a chusanu llaw y brenin; ac yn 1695, treuliodd William wythnos yn ei dŷ yn Althorp. Pennodwyd ef yn arglwydd ystafellydd; ac fel y cyfryw, cymmerai y sedd fwyaf anrhydeddus wrth fwrdd y cynghor. Wedi bod fel hyn yn cyfarwyddo amgylchiadau y deyrnas fel penaeth cydnabyddedig y llywodraeth, efe a ymddiswyddodd yn 1697, gan ymneillduo i Althorp—lle y bu farw Medi 28ain, 1702.

SUNDERLAND, CHARLES SPENCER. Y trydydd Iarll. Ganwyd ef yn 1675. Yr oedd yn ddyn ieuangc o obeithion disglaer, yn hynod ddysgedig, ac yn meddu ar dalent ddiammheuol. O 1706 hyd 1710, bu yn ysgrifenydd y wladwriaeth yn nheyrnasiad y frenhines Anne; ac yn ddilynol, o dan deyrnasiad Sior I. Daeth yn ŵr o ddylanwad ac awdurdod anarferol. Ond yn 1721, cyhuddwyd ef o dderbyn gwerth 50,000*p.* o'r ystoc dychymygol a roddwyd allan gan gyfarwyddwyr y *South Sea Scheme*, mewn trefn i lwgr-wobrwyo y llywodraeth. Rhyddhawyd ef, yn wyneb y cyhuddiad hwn, gan dŷ yr arglwyddi; ond gyda mwyafrif mor fychan, fel ag i wneyd ei ryddhâd, o'r braidd, yn ddianrhydeddus. Yr oedd digofaint y cyhoedd, hefyd, mor fawr yn ei erbyn, fel y bu raid iddo ymddiswyddo. Bu farw Ebrill 19eg, 1722; a thybir iddo, ar ol colli ei awdurdod swyddol, gynllwyn i osod yr Hawlydd *(Pretender)* Charles Stewart ar yr orsedd. Disgynodd ei deitl i'w ail fab, Charles; yr hwn, yn 1733, a ddaeth i feddiant o deitl ei daid, John Churchill —Duc o Marlborough.

SWEDEN YN 1893. Gwel cyf. viii., dg. NORWAY A SWEDEN, tudalen 64P.

SWEYN. Brenin Denmarc oedd efe. Yn y fl. 982, efe a ddaeth â'i luoedd i Loegr, ac a ddinystriodd Gaerlleon, Southampton, a Llundain. Cymmerodd hyn le pan yr oedd ei dad, Harold, yn frenin Denmarc; ond yn mhen amser ar ol hyn, esgynodd Sweyn i'r orsedd. Yn lled fuan ar ol ei esgyniad, daeth drachefn â'i luoedd i'r wlad hon, gyda'r bwriad o lwyr orchfygu y Saeson. Bu yr ymdaith yn llwyddiannus; ac yn y fl. 1013, yr oedd efe mewn pob peth, ond enw, yn llywodraethwr y wlad. Ond gan na choronwyd ef, gelwir ef yn y croniclau yn *Sweyn the Tyrant.* Bu farw yn 1014, gan osod yr orsedd yn agored i'w fab, Canute.

SWEYN. Mab hynaf Godwin oedd efe; yr hwn, yn 1043, a ddaeth i feddiant o iarllaeth, yn cynnwys siroedd Hereford, Gloucester, Rhydychain, Berks, a Gwlad yr Haf. Ceir hanes am ei ryfeloedd â'r Cymry. Yn 1046, tra yn dychwelyd o un o'i ymdeithiau rhyfelgar, ceir iddo gymmeryd, trwy drais, Eadgifu, yr hon oedd abades Leominster. Gwaharddwyd iddo ei phriodi; yr hyn a barodd iddo ymwrthod â'r iarllaeth, ac ymneillduo i Denmarc.

SWRDWAL HYWEL. Bardd a hanesydd enwog a flodeuodd rhwng 1430 a 1460. Preswyliai mewn lle o'r enw Cydewain, yn sir Drefaldwyn. Ysgrifenodd hanes Tywysogaeth Cymru yn Lladin, o Adda hyd amser ei brenin cyntaf. Ac o Adda hyd deyrnasiad Iorwerth I., ysgrifenodd *Frut*, neu Gronicl Gymru; yr hwn fu unwaith yn meddiant Owain Gwynedd, y bardd o Feirion. Yr oedd efe yn Feistr yn y Celfyddydau, ac wedi cyrhaedd gradd pencerdd mewn cerdd dafod.

SYMMONS, CAROLINE. Merch oedd hi i Dr. Symmons; a ganwyd hi yn y fl. 1788. Yr oedd yn foneddiges o athrylith ddisglaer. Bu farw yn 1812, yn yr oedran ieuangc o 24ain mlwydd. Ar ol ei marwolaeth, cyhoeddodd ei thad gasgliad o'i chaneuon.

SYMMONS, CHARLES, D.D., oedd y mab ieuangaf i John Symmons, o Lanstinan, yn sir Benfro, lle y ganwyd ef yn y fl. 1749. Wedi gorphen cwrs ei addysg yn Mhrifysgolion Glasgow, Caergrawnt, a Rhydychain, pennodwyd ef i fywoliaeth Llanbedr Felffre; ac wedi hyny, i Arberth, a phrebenduriaeth Clydai—yr oll yn sir Benfro, ac o fewn esgobaeth Tŷ Ddewi. Y gwaith cyntaf a gyhoeddwyd ganddo oedd cyfrol o bregethau. Yn 1789, cyhoeddodd *Sermons for the Benefit of the Decayed Clergymen of the Diocese of St. David's.* Yn 1797, cyhoeddwyd ei *Inex*; sef, barddoniaeth chwareuol. Yn y fl. 1800, un arall o'r enw *Constantia*. Daeth ei *Life of Milton* allan yn 1806; ac yn 1813, cyhoeddwyd cyfrol o farddoniaeth, yn cynnwys rhai o'i ganeuon ef, a rhai o waith ei ferch, Caroline, yr hon a fu farw cyn hyny. Efe oedd awdwr *Rhymed Translation of the Aeneis* (1817); ac ychydig amser cyn ei farwolaeth, ysgrifenodd a chyhoeddodd fywgraphiad byr o fywyd Shakespeare. Bu farw yn Nghaerbaddon, yn 1826, pan tua 80ain mlwydd oed.

SWITZERLAND, YN 1894. Gweriniaeth fechan yn nghanolbarth Ewrop, yn cael ei therfynu gan Ffraingc, yr Almaen, Awstria, a'r Eidal. Ei hyd mwyaf, o'r dwyrain i'r gorllewin, ydyw 216 milldir; o ogledd i ddeheu, 137 milldir; a'i harwynebedd, yn ol y mesuriad diweddaf, yw 15,981 mill. pet. Yn 1850, yr oedd y boblogaeth yn 2,392,740; yn 1870, yr oeddynt wedi cynnyddu i 2,669,147; ac yn y tabl canlynol, ceir arwynebedd pob un o'r talaethau

Digitized by Google

sydd yn y wlad, a'u poblogaeth, ar wahân, yn y fl. 1888—y cyfrifiad diweddaf a gafwyd:—

| Talaethau. | Milldir pet. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Aargau | 548 | 193,834 |
| Appenzell | 163 | 67,106 |
| Basel | 178 | 136,380 |
| Bern | 2,659 | 539,305 |
| Fribourg | 644 | 119,562 |
| Geneva | 108 | 106,738 |
| Glarus | 267 | 33,800 |
| Grubünden | 2,754 | 96,291 |
| Luzern | 579 | 135,780 |
| Neuchâtel | 312 | 109,037 |
| St. Gallen | 779 | 229,441 |
| Schaffhausen | 114 | 37,876 |
| Schwyz | 351 | 50,396 |
| Solothurn | 306 | 85,720 |
| Thurgau | 381 | 105,091 |
| Ticino | 1,089 | 127,148 |
| Unterwalden | 295 | 27,556 |
| Uri | 416 | 17,284 |
| Valais | 2,036 | 101,837 |
| Vaud | 1,244 | 251,296 |
| Zug | 92 | 23,120 |
| Zurich | 666 | 339,014 |
| Cyfanrif | 15,981 | 2,933,612 |

*Arwynebedd y Tir.*—O'r 15,981 milldiroedd petryal sydd yn cyfansoddi arwynebedd y weriniaeth, y mae 11,443 mill. pet. yn dir sydd yn cynnyrchu cnydau o ryw fath, tra y mae 4,538 o honynt yn dir diffaeth a digynnyrch. Gorchuddir 3,229 mill., o'r 4,538 a nodwyd, gan greigiau, &c., 711 gan lithr-rew (*glaciers*), 535 gan lynau, a 63 gan drefydd a phentrefydd. Y llynau mwyaf yn y wlad ydynt Llyn Geneva a Llyn Constance; ond y mae yno 15 o lynau sydd yn gorchuddio mwy na thair mill. pet. o arwynebedd bob un. Mae yno hefyd amryw o ddwfr-ddisgynfaoedd (*waterfalls*), ac y mae y mwyaf o'r rhai hyn—y Staubbach—yn disgyn cynnifer a 1,002 o droedfeddi.

*Hinsawdd.*—Gan fod uchder y wlad yn amrywio o 646 troedfedd i 15,217 troedfedd uwch law y môr, y mae yn naturiol fod yno hefyd amrywiaeth mawr yn yr hinsawdd. Ar y gwastadeddau isel, ceir y tymmheredd yn hynod o ddymunol: ac y mae hi mor gynnes fel ag i addfedu y pren almon, y ffigysbren, a'r olewydden yn yr awyr agored. Ar gopäau y mynyddoedd, y mae iâ oesol; a thybir ei bod hi yn oerach yno nag yn un man arall yn Ewrop.

*Y Trigolion, eu Hiaith, a'u Crefydd.*—Gwneir poblogaeth y wlad i fyny o bedair cenedl wahanol; ac y maent yn debyg fel y canlyn:—Germaniaid—2,092,479, neu 71.3 y cant o holl nifer y trigolion; Ffrangcod—637,710, neu 21.8 y cant; Italiaid—156,482, neu 5.3 y cant; Romansch, 46,491, neu 1.6 y cant. Mwynhâ y trigolion ryddid crefyddol llawn; ond disgwylir y bydd pob addoliad crefyddol yn drefnus ac yn weddus. Nis gellir sefydlu esgob yno ond trwy ganiatâd y senedd, a elwir *Confederation.* Nid oes yno eglwys genedlaethol gydnabyddedig; ac y mae pob talaeth yn feddiannol ar ei threfniant eglwysig ei hun, ar wahân i'r llall. Yn ol y cyfrifiad a wnaed yn 1888, rhifai y Protestaniaid 1,724,869, neu 58.8 y cant; Pabyddion, 1,189,662, neu 40.5 y cant; Iuddewon, 8,384; a 10,667 yn perthyn i enwadau eraill.

*Trefydd.*—Y prif drefydd, a'u poblogaeth, ydynt Zurich, 103,271. Gelwir hi yn Athen Switzerland. Geneva, 78,777—tref nodedig am oriaduron a blychau cerddorol (*musical boxes*), yr hon a grybwyllir yn fynych yn hanes Calvin, Beza, Knox, a Cranmer. Basle, 76,514—tref hynafol ac enwog, a'r nesaf i Zurich a Geneva o ran nifer ei thrigolion. Bern, 44,000. Ynddi hi y cyfarfydd y seneddau; ac o herwydd hyny, ystyrir mai hi yw prif dref y wlad. Y mae hi yn feddiannol ar brifysgol; ac y mae amryw o law-weithfeydd pwysig ynddi. Lausanne, 27,000—tref ar lan ogleddol Llyn Geneva, yn nghanol golygfeydd prydferth a swynol.

*Amaethyddiaeth, Cnydau, &c.*—Yn y dyffrynoedd a'r gwastattiroedd, amaethir ar raddfa ëang; a thyfir gwenith, ceirch, indrawn, haidd, llîn, cywarch, a thybaco, a phob mathau o ffrwythau sydd yn adnabyddus yn Lloegr. Yn 1889, allforiwyd gwerth 3,907,550*p.* o flawd allan o'r wlad. Telir sylw neillduol yno i fagwraeth anifeiliaid. Y mae ynddi wartheg rhagorol, ac y mae eu llaeth yn hynod o gyfaddas at wneyd caws ac ymenyn. Ceir cynnifer a 5,500 o sefydliadau at wneyd caws yn y wlad. Yr hyn a ganlyn yw gwerth yr allforion blynyddol mewn cyssylltiad â'r gangen hon o amaethyddiaeth:—I Ffraingc, yr Eidal, a'r Almaen, anfonwyd gwerth 1,561,191*p.* o gaws; llaeth wedi ei dewychu, 438,071*p.* i Brydain; ac ymenyn, 50,742*p.* i Ffraingc. Allforir gwerth tua 90,000*p.* yn flynyddol o dybaco, *cigars*, &c.; a chynnyrchir tua 31,266,400 o alwyni o win yno bob blwyddyn ar gyfartaledd. Yn Geneva a Neufchatel, gwneir rhai miloedd o oriaduron bob blwyddyn. Dyma brif foddion cynnaliaeth y trigolion yn y trefydd hyn.

*Masnach.*—O herwydd fod safle y wlad mor bell oddi wrth y môr, ac nad oes ganddi gamlesau nac afonydd mordwyol, y mae hi yn amddifad o gryn anfantais i ddadblygu ei masnach: er y dywedir fod ei masnach yn fwy o swm ar gyfer pob pen o'r boblogaeth nag un wlad arall yn Ewrop. Yn y fl. 1889, yr oedd gwerth ei dadforion yn 38,169,145*p.*, a'i hallforion yn 28,435,794*p.* Ond os cymmerir i mewn yr hyn a elwir yn *transit trade*, y ffigyrau oeddynt:—Dadforion, 61,302,925*p.*; allforion, 51,119,401*p.* Gwerth ei masnach, yn 1890, oedd fel y canlyn:

| | Dadforion. | Allforion. |
|---|---|---|
| Germany | *P.*10,800,075 | *P.*7,384,249 |
| Ffraingc | 10,492,092 | 5,691,241 |
| Yr Eidal | 5,632,130 | 2,057,434 |
| Awstria—Hungari | 4,259,629 | 1,541,362 |
| Prydain Fawr | 2,031,239 | 4,238,003 |

Allforiwyd gwerth 16,292,954*p.* o nwyddau gwëedig; megys cotwm, llïan, edafedd, &c., yn 1889; oriaduron, blychau cerddorol, &c., gwerth 3,949,728*p.*; a bernir fod gwerth 1,200,000*p.* o beiriannau ac o offerynau at wau, yn cael eu cynnyrchu yno bob blwyddyn.

*Cyllid, &c.*—Y mae y symiau fel y canlyn:—

| | |
|---|---|
| Derbyniadau yn 1892 | *P.*3,038,405 |
| Treuliadau yn 1892 | 3,449,794 |
| Y Ddyled Wladol yn 1893 | 2,306,120 |
| Dadforion yn 1892 | 36,526,558 |
| Allforion yn 1892 | 27,521,000 |

*Addysg.*—Y mae addysg elfenol yn orfodol, ac yn anenwadol. Y mae pob trenliau yn cael eu dwyn gan bob talaeth ar ei phen ei hun; ac arolygiaeth yr ysgolion yn nwylaw swyddogion pob talaeth. Gorfodir y plant i barhau ynddynt, rhwng chwech a phedair ar ddeg oed; ac mewn rhai amgylchiadau hyd un ar bymtheg. Y mae yn y wlad bump o brifysgolion ar gynllun prifysgolion Germany; sef yn Basel, Bern, Zurich, Geneva, a Lausanne; ac un arall, i Babyddion yn unig, yn Freiburg.

Digitized by Google

fyned ato, a dangosodd ei hun yn gyfiawn a thrugarog tuag atynt. Ar y llaw arall, ar amserau, medrai fod yn llym a chreulawn tuag at ei elynion a'i ddeiliaid gwrthryfelgar.

SIARL I.: brenin Lloegr, trydydd mab i Iago I., ac Anne, merch i Frederick II., o Denmarc. Ganwyd ef yn Dunfermline, yn swydd Fife, Ysgotland, ar y 19eg o Dachwedd, 1600. Wedi i'w ail fab, Robert, farw yn ei fabandod, a'r Tywysog Harri, ei fab hynaf, yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg o'i oedran, yn 1612, daeth Siarl yn etifedd agosaf y goron. Yr unig ymdrafodaeth y mae enw Siarl yn dyfod i sylw mewn cyssylltiad âg ef cyn ei esgyniad i'r orsedd, ydoedd ei daith nodedig i Yspaen; yr hon a wnaed ar awgrymiad ac yn nghwmni y Duc o Buckingham, yn 1623, i gwblhau yn bersonol yr ymdrafodaeth ynghylch ei briodas gyda'r Dywysoges Maria o Yspaen—gwaith yr oedd yn ei gylch am yn agos i saith mlynedd yn flaenorol; a digon tebyg mai y daith hon a fu y prif achos o'r attalfa fu ar y bwriad hwn. Wedi i'r ymdrafodaeth hon droi yn fethiant, trodd Siarl a'i dad eu golwg tua Ffraingc, a gwnaed cyttundeb fod priodas i gymmeryd lle rhwng Siarl a Henrietta Maria, merch ieuengaf Harri IV.; a chymmerodd y briodas le trwy ddirprwyaeth yn Paris, yr 11eg o fis Mai, 1625. Yr oedd Iago I. wedi marw yn y mis Mawrth blaenorol, a Siarl wedi esgyn i'r orsedd; ac ar ei esgyniad yr oedd amgylchiadau a meddyliau dynion yn addfed i adnewyddu yr ymdrechfa rhwng egwyddorion poblogaidd a rhyddfrydig ac egwyddorion unbenaethol neu frenhinol y cyfansoddiad, yr hon yr oedd ei ragflaenydd, gydag anhawsder, wedi llwyddo i'w chadw i lawr. Dechreuodd Siarl ei deyrnasiad trwy gadw yn ei wasanaeth fel ei brif gynghorwr hen anwylddyn ei dad—y diegwyddor a'r ammhoblogaidd Buckingham. Ar yr un pryd, darfu i'r rhyfel âg Yspaen chwanegu at yr anhawsderau, a rhoddi mantais dda i'r blaid boblogaidd i gario eu hamcanion yn mlaen.

Dechreuodd ymdrechfa bwysig, gan hyny, yn nechreu y teyrnasiad hwn, rhwng y brenin a'r senedd, trwy fod y diweddaf yn gommedd caniatau yr adgyflenwadau a ofynid gan ei fawrhydi, hyd nes y gwrandewid eu cwynion, ac y cyfyngid ar hawlfreintiau y goron. Dadleuai Siarl dros ei hawlfreintiau, a rhoddodd hwynt mewn grym. Yn ystod yr helyntion cyntaf hyn, galwyd ynghyd dair o seneddau, a thorwyd hwynt. Y gyntaf yn Mehefin, 1625, yr hon a dorwyd yn Awst yr un flwyddyn. Cyfarfu yr ail yn Chwefror, 1626, a thorwyd hithau, heb iddi basio un ddeddf, yn Mehefin yr un flwyddyn: a chyfarfu y drydedd yn Mawrth, 1628, yr hon a alwyd ynghyd i'r ail eisteddiad yn Ionawr, y flwyddyn ddilynol; ond torwyd hi yn y Mawrth canlynol. Yr oedd y brenin yn parhau i weithredu mewn dull meistrolgar yr holl amser hwn. Cesglid arian oddi ar y bobl trwy orfod; defnyddid dylanwad y goron yn y modd mwyaf dibetrus, i'r dyben o gynnyrchu ofn ar y barnwyr, mewn achosion pan yr oedd rhyddid y deiliaid yn y cwestiwn; troseddwyd braint flaenaf y senedd ei hun trwy daflu rhai o aelodau Tŷ y Cyffredin i garchar, am ymadroddion a ddefnyddiwyd ganddynt mewn dadleuon. Ymddwyn yn annheg a ddarfu i Siarl yn mherthynas i ddeiseb yr hawliau *(petition of rights)*, yr hon a basiwyd yn eisteddiad cyntaf ei drydedd senedd, ac i'r hwn y gorfodwyd ef i roddi ei gydsyniad. Dyma y fuddugoliaeth fwyaf, ac o'r braidd na ellir dyweyd yr unig un a ennillodd plaid y bobl yn ystod yr ymdrechfa hon; ond gwnaed hyn yn ddieffaith gan waith y brenin yn llywodraethu heb un senedd. Cyn mabwysiadu y dull hwn o lywodraethu, yr oedd wedi gwneuthur heddwch â Ffraingc yn mis Ebrill, 1629; ac yn mis Tachwedd y flwyddyn ddilynol gwnaeth heddwch âg Yspaen hefyd. Yn y cyfamser, yr oedd wedi cael ymwared o un cynghorwr annoeth, pan lofruddiwyd Buckingham ar y 23ain o Awst, 1628.

Ei brif gynghorwyr y pryd hyny oeddynt, y frenhines, yr Archesgob Laud, a Wentworth, yr hwn a ddyrchafwyd wedi hyny i fod yn Iarll Strafford. Parhaodd pethau yn y sefyllfa yr oeddynt—cyfansoddiad y wlad wedi ei gwbl ddarostwng i hawliau honiadol y goron—am wyth mlynedd. Hampden oedd yr unig un a wnaeth ymdrech egnïol i'w wrthsefyll; yr hwn a wrthododd dalu ei gyfran o'r llong-dreth *(ship money)*:—achos yr hwn a ddadleuwyd o flaen deuddeg o farnwyr, yn Ebrill, 1637, ac a derfynwyd yn ffafr y goron. Yn y cyfamser, fodd bynag, yr oedd gwrthwynebrwydd yr Ysgotiaid i'r ffurf esgobyddol o lywodraethiad eglwysig, oedd wedi ei sefydlu yn ddiweddar yn eu mysg, wedi tori allan yn fflam. Cymmerodd y cythrwfl cyntaf le yn Edinburgh, yn mis Gorphenaf, 1637; ac erbyn y flwyddyn ganlynol, yr oedd yr holl wlad mewn cyflwr o wrthryfel yn erbyn yr awdurdod frenhinol. O dan yr amgylchiadau hyn y galwodd Siarl ei bedwerydd senedd yn nghyd, yr hon a ymgyfarfu ar y 13eg o Ebrill, 1640. Ond o herwydd yr annibyniaeth meddwl a amlygwyd gan yr aelodau, efe a'i torodd ar y 5ed o Fai canlynol. Daeth y fyddin Ysgotaidd i Loegr ar yr 20fed o Awst; a bu raid i Siarl etto alw ynghyd gynnrychiolwyr y bobl. Gan hyny, ar y 3ydd o Dachwedd, yr un flwyddyn, cyfarfu y bummed senedd, yr hon a adwaenir yn gyffredin o dan yr enw 'y senedd hir.'

Y peth cyntaf a wnaeth y senedd hon oedd ffurfio cynghrair â'r gwrthryfelwyr Ysgotaidd. Gan fod y senedd yn awr yn pasio y naill fesur ar ol y llall, hi a gymmerodd oddi ar y brenin rai o'r prif ragorfreintiau a hawliai efe iddo ei hun. Penderfynodd Tŷ y Cyffredin hefyd nad oedd un esgob i feddu pleidlais yn y senedd ar achosion tymmorol, nac un clerigwr i fod yn ustus heddwch. Taflwyd Laud i garchar y Tŵr, a dienyddiwyd Strafford, mewn cydffurfiad â deddf y gwarthruddiad *(act of attainder)*; ond ystyria llawer fod gwaith y brenin yn cydsynio â hyn yn ysmotyn du ar ei gymmeriad. Dïenyddiwyd Laud hefyd ar ol bod yn y carchar yn y tŵr am fwy na phedair blynedd. Ar ol rhoddi ffordd mewn llawer o bethau i ofynion y senedd, fe wrthododd Siarl roddi ei gydsyniad â mesur y cartreflu, yr hwn a gyflwynwyd iddo yn Chwefror, 1642; amcan yr hwn oedd trosglwyddo holl allu milwrol y deyrnas i ddwylaw y senedd. Y gwaed cyntaf a dywalltwyd yn y rhyfel cartrefol a ddilynodd oedd yn mrwydr ammhenderfynol Edgehill, yr hon a ymladdwyd ar y Sabbath, Hydref 23ain, yn y flwyddyn hono. Wedi hyn, ymledodd y rhyfel dros yr holl deyrnas. Am beth amser, yn ol pob argoel, llwyddai plaid y brenin; ac erbyn dechreu y flwyddyn 1644, yr oedd pob gwrthwynebiad iddo braidd wedi ei lethu yn ngogledd a gorllewin Lloegr. Modd bynag, yn Chwefror y flwyddyn hono, croesodd

Digitized by Google

y ddau dywysog yn garcharorion. Yna rhoddodd Siarl etholyddiaeth Saxony i Maurice, câr i Frederick. Ymddygodd Maurice gyda medrusrwydd anghyffredin, fel ag i dwyllo, am amryw o flynyddoedd, Siarl ei hun gyda golwg ar ei wir amcanion. Ymddangosai ar du yr ymherawdwr, ac ymladdodd yn ddewr drosto, ond ar yr un pryd cymmerai ofal na chaffai achos y Protestaniaid ddioddef ond mor lleied ag oedd bossibl. Annogai Siarl i ryddhau tiriarll Hesse, yr hwn oedd dad-yn-nghyfraith iddo; ac ar waith y blaenaf yn parhau i wrthod, efe a wnaeth gyttundeb â thywysogion Protestanaidd ereill i gyfodi mewn gwrthryfel pan y rhoddid rhyw arwydd neillduol. O'r diwedd, yn 1552, taflodd Maurice ymaith yr hug, trwy gymmeryd y maes yn flaenor y cynghreirwyr Protestanaidd; a bu agos iddo ddal Siarl mewn diofalwch, yn Innsbruck, o'r lle y gorfodwyd yr ymherawdwr i ffoi mewn brys. Dychrynodd hefyd dadau cynghor Trent, fel y diangasant hwythau. Ar y pryd hwn, darfu i Harri II. o Ffraingc, yr hwn oedd olynydd i Francis I., gyhoeddi rhyfel yn erbyn yr ymherawdwr. O dan yr amgylchiadau hyn, gorfodwyd Siarl i lawnodi cyttundeb Passau gyda thywysogion Protestanaidd yr Almaen, yn Awst, 1552, yn ol ammodau yr hwn y caniatawyd i'r Protestaniaid ryddid i ymarfer eu crefydd yn eu tiriogaethau. Cadarnhawyd y cyttundeb hwn trwy ddadganiad difrifol yn llwyrwys Augsburg, yn 1555, yr hwn a alwyd yn "heddwch crefydd," gan mai dyma oedd sail rhyddid crefyddol yr Almaen.

Parhaodd rhyfeloedd Siarl gyda Ffraingc ar un llaw, a Thwrci ar y llall. Yn 1554, priododd Phylip, mab Siarl, gyda Mari, brenhines Lloegr; ac ar yr achlysur hwn cyflwynodd ei dad iddo goronau Naples a Sicily. Yn 1555, bu farw Joanna, o Yspaen, ar ol bod yn wallgof am hanner can mlynedd. Yr oedd Siarl yn awr mewn enw, yn gystal ag mewn gwirionedd, yn frenin ar holl Yspaen, a rhoddodd mewn grym benderfyniad oedd wedi ei ffurfio ganddo er's rhai blynyddoedd. Galwodd ynghyd senedd yr Iseldiroedd i Brussels, ar y 25ain o fis Hydref, 1555, ac ymddangosodd yntau yno. Eisteddai rhwng ei fab Phylip a'i chwaer, brenhines Hungary, a rhoddodd heibio goron yr Iseldiroedd, gan ei chyflwyno i Phylip. Yna efe a gyfododd i fyny, a chan bwyso ar fraich y tywysog Orange am gynnaliaeth, gan y blinid ef yn dost gan y droedwst, efe a anerchodd y cyfarfod fel y canlyn, gan fyned dros weithrediadau ei frenhiniaeth:—

"Er's pan oeddwn yn ddwy ar bymtheg oed," meddai, "yr wyf wedi cyflwyno fy holl feddyliau a'm holl ymdrechion at faterion cyhoeddus; ac anfynych y cadwn ddim o'm hamser tuag at fwynhau esmwythfyd neu bleser i mi fy hun. Ymwelais â'r Almaen naw gwaith, âg Yspaen chwe gwaith, â Ffraingc bedair, Italy saith, Flanders ddeng waith, a Lloegr ddwy waith, ac Affrica ddwy waith; a gwnaethum un ar ddeg o fordeithiau. Nid arbedais lafur, ac ni chwynais yn ngwyneb lludded y gwaith anhawdd o lywodraethu fy nhiriogaethau eang; ond yn awr y mae fy nghyfansoddiad corphorol yn rhoi ffordd, a'm gwendidau yn fy rhybuddio ei bod yn amser i mi ymneillduo oddi wrth y llyw. Nid wyf mor hoff o lywodraethu fel ag i ddymuno cadw y deyrnwialen mewn llaw ddinerth!"

Efe a chwanegodd, a dywedodd:—

"Os ydwyf, mewn cwrs teyrnasiad maith, wedi gwneyd camgymmeriadau; os, o dan ddirwasgiad achosion lliosog, y darfu i mi esgeuluso neu wneuthur cam âg un o'm deiliaid, yr wyf yn awr yn gofyn maddeuant y cyfryw, tra yr ydwyf o'm hochr i yn teimlo yn ddiolchgar am eu ffyddlondeb a'u hymlyniad hwynt, ac â'm hanadl ddiweddaf mi a weddiaf am eu llwyddiant."

Yna efe a drodd at Phylip, ac a roddodd iddo rai cynghorion da, yn enwedig ar fod iddo barchu y cyfreithiau, a rhyddid ei ddeiliaid; ac ar ol hyn, wedi llwyr ddiffygio a blino, efe a dynodd yr olygfa effeithiol i derfyniad. Yn mhen pythefnos ar ol hyn efe a wnaeth drosodd i Phylip, gyda'r un difrifwch a chyhoeddusrwydd, o flaen cynnulliad lliosog o dywysogion, pendefigion, a mawrion Yspaen a'r Almaen, goronau Yspaen a'r India Orllewinol. Yn y flwyddyn ddyfodol, Awst, 1556, efe a ddiosgodd y goron ymherodrol, ac a'i rhoddes i'w frawd, Ferdinand, yr hwn eisoes oedd wedi ei ethol yn frenin y Rhufeiniaid, fel olynydd iddo; ac wedi talu ymweliad â Ghent, ei le genedigol, efe a hwyliodd i Yspaen, gydag ychydig o osgordd yn ei ddilyn. Pan yn glanio yn Laredo, yn Biscay, efe a gusanodd y llawr, gan ddywedyd:—"Noeth y daethum o groth fy mam, a noeth y dychwelaf i'th fynwes di, tydi fam gyffredin dynolryw." Yn mis Chwefror, 1557, gydag un boneddwr yn gydymaith, a deuddeg o weision, efe a ymneillduodd i fynachdy St. Justo, o urdd yr Hieronymitiaid; yr hwn oedd mewn dyffryn neillduedig yn Estremadura, yn nhroed mynydd y Sierra de Gredos, lle yr oedd wedi gorchymyn i ystafelloedd gael eu parotoi iddo. Bu fyw yno am o ddeutu deunaw mis, gan ddefnyddio ei amser naill ai i arddu, neu ynte i gynllunio rhyw beiriannau cywrain—o'r hyn yr oedd yn hynod o hoff, ac yn yr hyn y cynnorthwyid ef gan Turriano, celfyddydwr cywrain yn ei amser ef. Yn ystod y chwe mis olaf y bu fyw, gwanychai ei gorph yn feunyddiol gan ymosodiadau mynych y droedwst; collodd ei feddwl ei fywiogrwydd a'i nerth, a blinid ef gan brudd-der ac iselder, ac yr oedd ei arferion mor llym fel yr oedd mewn gwirionedd yn poeni ei gorph. Yn mysg pethau ereill, un diwrnod, mynodd gael ei osod mewn arch, a'i lapio mewn amdo, a pharodd i wasanaeth y claddu gael ei ddarllen uwch ei ben yn nghapel y mynachdy. Dygodd lludded a chyffro y seremoni hon arno dwymyn, yr hon a'i cariodd ef ymaith ar yr 21ain o Fedi, 1558, yn y 59ain mlwydd o'i oedran.

SIARL XII., brenin Sweden. Ganwyd ef yn Stockholm, yn mis Mehefin, 1682. Pan yn bymtheng mlwydd oed, yn 1697, efe a esgynodd i'r orsedd, yn olynydd i'w dad, Siarl XI., tywysog brwnt a gorthrymus, yr hwn a ddiddymodd awdurdod y senedd, ac a wnaeth ei hun yn benadur unbenaethol. Dygwyd Siarl i fyny yn egwyddorion ei dad, a dangosodd o'i ieuengctid ei fod yn meddu ewyllys gref, a chryn ystyfnigrwydd, a hoffder anarferol o ymarferiadau milwraidd. Pan oedd tua deunaw mlwydd oed, ffurfiwyd cynghrair rhwng brenin Denmarc, etholwr Saxony, a brenin Poland, ac ymherawdwr Rwssia—amcan yr hwn oedd dinystrio Sweden. Hwyliodd Siarl yn ddioed gyda byddin i Copenhagen, gwarchauodd arni, a gorfododd y brenin i geisio heddwch. Yna efe a hwyliodd am ororau Livonia. Ar y 30ain o Dachwedd, 1700, efe a ymosododd, gyda byddin o 8,000 o wŷr, ar fyddin annhrefnus o Rwssiaid, oedd yn rhifo 80,000 o wŷr; a llwyr orchfygodd

Digitized by Google

Llundain, ac yr oedd ganddo yn mhlith ei wrandawyr, am y cyfnod y bu yn pregethu yma, lawer o'r dynion enwocaf yn y wlad. Pan appwyntiwyd ef, yr oedd Arglwydd Bacon yn meddu ystafelloedd yn Gray's Inn; ac ar ol ei gwymp, trigodd yno yn barhaus. Parhaodd Sibbes i lafurio yn y lle diweddaf o hyd, gyda'r eithriad y byddai yn traddodi ambell bregeth yn Nghaergrawnt, hyd y flwyddyn 1626, pryd y ceisiodd yr Archesgob Usher ei gael yn athraw Coleg y Drindod, yn Dublin; ac ar farwolaeth Dr. John Hills, etholwyd ef yn athraw St. Catherine's Hall, yn Nghaergrawnt. Dewisodd Sibbes y pennodiad diweddaf. Rhaid fod awdurdodau Gray's Inn wedi rhoddi caniatâd iddo i dderbyn y pennodiad, heb ymddiswyddo yn Gray's Inn. Yr oedd yn Nghaergrawnt ar y pryd dduwinydd Puritanaidd enwog iawn arall; sef Dr. Preston, athraw Coleg Emmanuel, yr hwn oedd yn nodedig am ei rym a'i hyawdledd areithyddol. Yr oedd cyfeillgarwch rhyfeddol rhwng Sibbes ac yntau, yn gyffelyb i'r eiddo Dafydd ac Ionathan yn yr amseroedd gynt, neu Luther a Melancthon mewn amseroedd diweddarach. Cydweithient yn mhob peth i ddwyn yn mlaen waith eu Harglwydd. Graddiwyd Sibbes yn ddoctor mewn duwinyddiaeth yn 1627, a gwnaed ef yn ficer Eglwys y Drindod, Caergrawnt. Parhaodd i bregethu Crist fel yr arferai wneuthur, er ei fod yn cael ei flino yn fawr gan y blaid uchel-eglwysig, a arweiniwyd gan Laud. Bu farw ar y 5ed o Orphenaf, 1635, yn y 57ain mlwydd o'i oedran. Y mae cofnodiad yn nghoflyfr eglwys St. Andrew, Holborn, sydd yn dangos iddo gael ei gladdu yno y dydd canlynol.

Yr oedd Sibbes yn ddyn oedd yn llenwi pob cylch y galwyd ef i droi ynddo yn rhagorol. Yr oedd yn nodedig ar gyfrif ei ddysgeidiaeth; ond fe ddywedir am dano fel pregethwr, ei fod weithiau âg "attal dyweyd arno, ond fod ei wrandawyr synwyrol y pryd hwnw yn disgwyl cael rhyw syniadau rhagorol a gwerthfawr ganddo;" a diau na siomwyd mo honynt. Pregethodd lawer ar ymgnawdoliad ac ymostyngiad ein Harglwydd; a chan ei fod yn ddyn oedd yn wastad â thuedd ynddo i feddwl yn fychan o hono ei hun, y mae rhywun wedi sylwi fel y canlyn:—"Nid wyf yn rhyfeddu yn awr at ei ostyngeiddrwydd nodedig, gan i mi gael allan fod ei feddyliau yn cartrefu mor fynych gydag ymostyngiad Crist." Cyhoeddodd yn ystod ei fywyd "*The Bruised Reed,*" a "*The Soul's Conflict;*" ac hefyd ei "*Divine Meditations and Holy Contemplations,*" ynghyd â rhai pregethau. Ond wedi ei farwolaeth, cyhoeddwyd llawer o'i weithiau: ac yn y flwyddyn 1862, cyhoeddodd Mr. James Nichol ei weithiau, mewn saith cyfrol brydferth, yn ei gyfres ragorol a elwir "*The Puritan Divines;*" ac o'r braidd y mae gweithiau neb a gyhoeddwyd yn y gyfres enwog hono yn fwy poblogaidd, nac yn cael eu gwerthfawrogi yn fwy, na'r eiddo Dr. Sibbes.

SICHAR. Gwel SECHEM.

SICHAR: lle nad ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn *Ioan* iv. 5. Disgrifir hi fel "dinas yn Samaria a elwid Sichar, ger llaw y rhandir a roddasai Iacob i'w fab Ioseph. Ac yno yr oedd ffynnon Iacob."

Yr oedd Sichar un ai yn enw a gymmhwysid at dref Sechem, neu yn lle annibynol. Y cyntaf o'r rhai hyn a dderbynir yn awr yn mron yn gyffredinol. Yn ngeiriau Dr. Robinson, "Mewn canlyniad i'r elyniaeth a ffynai rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid, ac mewn cyfeiriad at eu heilunaddoliaeth, derbyniodd tref Sichem, yn mhlith pobl gyffredin yr Iuddewon, y llysenw o Sichar." Dichon fod y dybiaeth hon yn gywir; ond yr unig gefnogaeth y gellir ei chael iddi yw yr un a geir yn *Esa.* xxviii. 1, 7, lle y mae y prophwyd yn condemnio yr Ephraimiaid fel "meddwon;" ac yn *Hab.* ii. 18, lle y tybir fod y geiriau "athro celwydd," yn cynnwys cyfeiriad at Moreh, enw gwreiddiol dosbarth Sechem, ac at y dref ei hun. Ond yn sicr dadleu mewn cylch ydyw hyn. A phe buasai y cyfryw lysenw wedi ei gymmhwyso at Sechem mor gyffredin ag yr ymddengys fod digwyddiad y gair yn Ioan yn rhoddi ar ddeall, buasai ryw olion o hono yn yr adnodau hyny yn y "*Talmud,*" ag sydd yn cyfeirio at y Samariaid, ac yn mha un y mae pob gair o waradwydd neu wawd y gellir ei ddyfynu neu ei ddyfeisio yn cael eu pentyru arnynt. Gellir haeru, modd bynag, gyda sicrwydd, nad oes un crybwylliad am y fath beth yn y "*Targum,*" na'r "*Talmud.*" Ni wyddai Lightfoot ddim am dano. Y mae y traethodau ar y Samariaid yn ddistaw yn ei gylch, ac y mae yr ymchwiliadau a wnaed yn ddiweddar wedi methu ei ddarganfod.

A chymmeryd yn ganiataol fod ffynnon Iacob y pryd hwnw, lle y dangosir hi yn awr, wrth y fynedfa i ddyffryn *Nabulus,* byddai Sechem yn rhy bell i atteb i eiriau Ioan, gan ei bod dros filldir oddi yno.

"Dinas yn Samaria a elwid Sichar, ger llaw y rhandir a roddasai Iacob i'w fab Ioseph:"—yn sicr o'r braidd y disgrifid y fath le a Sechem yn y geiriau hyn; canys er ei bod y pryd hwnw yn ei chyflwr gwaelaf, etto y mae ymlyniad lleoedd yn Syria wrth enw ac enwogrwydd yn mron yn ddiarebol.

Nid oes lawer o rym yn yr ymresymiad fod St. Stephan yn defnyddio yr enw *Sychem* wrth siarad am Sichem; canys ail adrodd hen hanesiaeth y mae efe, ac yr oedd yn naturiol iddo roddi enwau adroddiad yr Hen Destament (yn ffurf y Deg a Thrigain). Ond y mae y traddodiad Cristionogol boreuaf, yn mhersonau Eusebius a Phererin Bordeaux—yn gwahaniaethu Sichem oddi wrth Sichar. Dywed Eusebius fod Sichar o flaen wyneb Neapolis; a thrachefn, ei bod yn gorwedd wrth ochr Luza, yr hon oedd dair milldir o Neapolis. Ac y mae efe yn gosod Sichem ar y llaw arall, yn nghyffiniau Neapolis, wrth fedd Ioseph. Disgrifia Pererin Bordeaux Sichem fel wrth droed y mynydd, ac fel yn cynnwys cofadail Ioseph, a darn o dir. Ac yna y mae yn myned yn mlaen i ddyweyd fod lle a elwid Sichar fil o latheni oddi yno.

Ac er gwaethaf pob peth a ddywedwyd am duedd y dwyreinwyr at ddwfr ffynnonau neillduol, y mae yn ymddangos yn hynod, pan y cofiwn y nifer mawr o ffynnonau oedd yn Nabulus ei hun, fod gwraig wedi eu gadael hwynt ac wedi dyfod allan dros filldir o bellder i geisio dwfr. Ar y llaw arall, nid oes eisieu i ni dybied ei bod yn arfer gwneyd hyny; a dichon mai ymweliad achlysurol ydoedd.

Yn ffafr y dybiaeth fod Sichar yn lle annibynol, y mae y ffaith fod *'Askar* yn hanfodi etto wrth droed de-ddwyreiniol Mynydd Ebal, o du y gogledd-ddwyrain i Ffynnon Iacob, ac o ddeutu hanner milldir oddi wrthi. Pa un ai

Digitized by Google

Y mae y gwerth a osodid ar sidan gan y Rhufeiniaid, fel yr awgrymir yn *Dad.* xviii. 12, yn cael sylw gan Josephus ["*Rhyf. Iudd.*," vi. 5, *adr.* 4], yn gystal a chan amryw o ysgrifenwyr clasurol.

Yn China, y mae sidan yn cael ei gynnyrchu er yn foreu iawn; ac yn ol yr awdurdodau Chineaidd uchaf, dechreuwyd ei ddiwyllio gyntaf gan Si-ling, gwraig yr ymherawdwr Hoangti, 2,600 o flynyddoedd c. c., a dechreuwyd diwyllio y merwydd fel ymborth i'r pryfaid tua deugain mlynedd yn ddiweddarach.

Aristotle, fe ymddengys, ydoedd yr awdwr Groegaidd cyntaf a wnaeth grybwylliad am y pryf sidan; a dywed efe mai ar ynys Cos y nyddwyd sidan gyntaf, ond mai cynnyrch dwyreiniol oedd y defnydd cyn ei weithio. A Phliny, wrth egluro hyn, a ddywed i'r sidan ddyfod o Assyria, ond ei fod yn cael ei weithio gan ferched Groeg. Gellir sylwi, fodd bynag, fod y gair *Assyria*, fel yr oedd Media, yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr eang iawn gan yr hen ysgrifenwyr. Y tebygolrwydd ydyw fod sidan yn cael ei arfer yn Asia Orllewinol cyn iddo fod yn adnabyddus i'r Groegiaid; a'i ddefnyddio yn mysg y Groegiaid yn mhell cyn eu bod yn hysbys o'r sylwedd o ba un, neu pa fodd y gwneid ef. Tybiai Virgil fod y Seresiaid yn nyddu y sidan allan o ddail: a Dionysius Periegetes a dybiai hefyd mai cynnyrch llysieuol ydoedd. Rhydd Pausanias hysbysiad manylach mewn perthynas i'r defnydd o ba un y gwnelai y Seresiaid eu gwisgoedd. "Y mae ganddynt," medd efe, "drychfilyn a arfera nyddu, yr hwn a gedwir mewn ystafelloedd, ac a gynnyrcha edefyn wedi ei nyddu yn fain, ac wedi ymlapio o amgylch traed y trychfilyn." Ni chliriwyd i fyny y dirgelwch oedd o amgylch y mater hyd y chweched ganrif. Yr oedd sidan yn beth a wisgid yn gyffredin gan y Rhufeiniaid, ac yn cael ei weithio iddynt gan breswylwyr Tyrus a Bervtus yn Phœnicia. Arferai y Persiaid orfaelu y fasnach yn y defnydd cyn ei weithio; a chymmerent y fath ofal gyda'r fasnach, ar y môr a'r tir, fel na chaniateid i deithwyr i neu o China i ddyfod trwy y tiriogaethau Persiaidd. Ac yn amser Justinian, mewn canlyniad i ryw ymyriad a wnaed â'r fasnach, yr oeddynt wedi llwyr attal dyfodiad sidan i'r wlad. Yn y sefyllfa anfoddhaol hon yr oedd y fasnach pan y darfu i ddau o fynachod Nestoraidd o Persia, oeddynt wedi teithio yn China, roddi ar ddeall i Justinian y modd y cynnyrchid sidan; ac ymgymmerasant â'r gwaith o fyned i China, a dychwelyd yn ol, a dwyn gyda hwynt rai o wyau y pryf sidan. Buont yn hollol lwyddiannus yn eu neges, a dygasant gyda hwynt swm o wyau mewn corsen wâg i Gaer Cystenyn yn ddiogel. Deorwyd hwynt trwy gyfrwng gwres tomen, a phorthwyd y creaduriaid â dail y coed meryw. Dysgodd y mynachod hyn hefyd i ddeiliaid Justinian y gelfyddyd o weithio y sidan.

Bu y gwaith o gadw a magu y pryf sidan yn Ewrop yn cael ei gyfyngu am chwe chan mlynedd i Roegiaid yr Ymherodraeth Isaf. Yn y ddeuddegfed ganrif trawsfudwyd y gelfyddyd i Sicily; ac yn y drydedd ganrif ar ddeg, dechreuwyd magu y pryf sidan a gweu sidan hefyd yn Italy, ac oddi yno ymledodd y gelfyddyd i Yspaen a Ffraingc; ac yn y bymthegfed ganrif dechreuwyd gweithio sidan yn Mhrydain hefyd. Yr oedd Iago I. yn awyddus iawn am fagu y pryf sidan yn Lloegr; ac yn y flwyddyn 1608 efe a anfonodd allan gylchlythyrau at bersonau o ddylanwad trwy y wlad, yn cymmhell y peth i'w sylw, a gwnaed trefniadau i ddosbarthu y coed merwydd yn y gwahanol siroedd. Planwyd y rhan fwyaf o'r coed hyn, a geir o gwmpas hen balasau yn bresennol, yn yr adeg yma. Ni bu y prawf a wnaed yn llwyddiannus, o herwydd fod hinsawdd y wlad yn anghymmhwys i dyfiant a chynnydd y pryf. Cefnogodd Iago hefyd y gwaith o ddwyn pryfaid sidan i'r sefydliadau Saesnig yn yr America. Yn 1718, ffurfiwyd cwmni, yr hwn a gafodd brydles am chwech ugain a dwy o flynyddoedd ar Chelsea Park, lle y planwyd llawer o goed merwydd, ac y cyfodwyd adeiladau mawrion ar gyfer magu pryfaid sidan: ond troi yn fethiant a wnaeth y cynllun hwn hefyd. Yna gwnaed ymgais yn nesaf i'w magu yn nhaleithiau Georgia a Charolina; a chaniatawyd i ddefnydd sidan cyn iddo gael ei weithio gael ei ddwyn o'r trefedigaethau i'r wlad hon yn rhydd oddi wrth doll, a chefnogwyd y fasnach mewn amryw ffyrdd: ond nid oedd y sidan o ran ei ansawdd ond lled wael; ac wedi i'r fasnach fod yn dyhoeni am amser, rhoddwyd i fyny ddisgwyl am ddim cyflenwadau o bwys o'r cyfeiriad hwnw. Ynghylch y flwyddyn 1739, planwyd planigfeydd o goed merwydd yn amryw o daleithiau yr America; ac er nad yw yr hinsawdd yn anffafriol i fagu y pryfaid sidan, y rhai sydd i'w cael yn eu hystâd naturiol yn y coedwigoedd, y mae sefyllfa uchel cyflogau yn rhwystr ar ffordd y gwaith, yr hwn sydd yn fwy cyfaddas i sefyllfa gymdeithasol China, Italy, deheubarth Ffraingc, a Malta, lle y mae cyflogau yn isel. Cafodd hyn sylw drachefn yn yr Unol Daleithiau; ac yn 1831, anfonwyd allan oddi yno swm bychan o ddefnydd sidan. Y mae India Brydeinig erbyn hyn yn cynnyrchu llawer o'r defnydd; ac y mae o ran ei ansawdd yn gwellhau. Tybir y bydd i India mewn amser gynnyrchu digon ar gyfer y farchnad yn Mhrydain; nid yn unig am fod llafur yn rhatach yno nag yn unrhyw ran o Ewrop, ond am y gellir cael tri chnwd o hono yno yn y flwyddyn, tra nas gellir cael ond un yn y gwledydd sydd i'r gorllewin oddi yno, gan gynnwys Twrci. Mynegir yn y llyfr a ysgrifenodd Graham ar 'India' y gellir cymmeryd y dail oddi ar y pren merwydd chwe gwaith yn y flwyddyn, ac y gellir yn rhwydd gael chwe chnwd o'r pryfaid sidan yn yr un cyfnod o amser. Mabwysiadwyd dull y Chineaid o fagu pryfaid sidan, ac o ddiwyllio y merwydd, yn St. Helena, o dan arolygiaeth Cwmni yr India Ddwyreiniol; ond ar derfyn yr amser y daeth ei breinlen i ben, rhoddwyd y sefydliad i fyny. Credir fod peth o'r sidan a gynnyrchir yn Ffraingc cystal, os nad gwell, na dim a geir mewn un parth o'r byd. Rhoddir gwerth mawr hefyd ar y sidan Italaidd. Planodd Pedr Fawr amryw o blanigfeydd o ferwydd yn Rwssia, ac yr oedd yr ymherodres Catherine yn awyddus iawn am i bryfaid sidan gael eu magu yno; ac y mae y rhai sydd yn gwneyd hyn yn cael breintiau pennodol yn y wlad hono. Megir hwynt yn Bavaria, yn gystal a pharthau ereill o'r Almaen; ac hefyd yn Sweden, lle y mynegir fod y sidan o ansawdd rhagorol.

Parhaodd gwaith sidan, ar ol ei sefydlu yn Lloegr yn y bymthegfed ganrif, am amser maith yn un o ganghenau mwyaf diffrwyth masnach yn y wlad. Ar ol galw yn ol Gyfraith Nantes, pa fodd bynag, yn 1685, ffodd tua hanner can mil

Digitized by Google

Phœniciaidd gref yn y boblogaeth. Dichon fod yr enw yn tarddu o'r un gwreiddyn a Sidon, ac mai sefydliad Phœniciaidd ydoedd yn wreiddiol, ac mai rhywbeth dilynol ydoedd y drefedigaeth Cumæaidd. Yn yr amseroedd yn mha rai yr ymddengys Sidè mewn hanesiaeth yr oedd wedi dyfod yn lle lled bwysig. Hi oedd gorsaf llynges Antiochus ar fin y frwydr gyda'r llynges Rhodiaidd a ddisgrifir gan Livy: *pen.* xxxvii. 23, 24. Y mae ei gweddillion hefyd, y rhai sydd yn hanfodi yn awr, yn brawf o'i chyfoeth blaenorol.

SIDIM, DYFFRYN: lle nad ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn Genesis (*pen.* xiv. 3, 8, 10); cofnodiad a ystyrir gan Ewald, ac ysgolheigion Hebreaidd enwog ereill, yn un o'r rhai hynaf, os nad yr hynaf oll, o'r darnau hanesiol o ba rai y mae y rhan gyntaf o'r llyfr yn gyfansoddedig. Ni wyddys yn sicr beth ydyw ystyr yr enw. Yr oedd yn un o'r dosbarth hwnw o ddyffrynoedd a ddynodid gan yr Hebreaid trwy y gair *Emek.* Cymmhwysid y gair hwn at ddarn llydan, gwastad, o dir, yn cael ei gau ar bob ochr gan fryniau. Barna rhai mai yr un ydyw Dyffryn Sidim a Dyffryn Iezreel; sef, y gwastadedd sydd yn gorwedd rhwng Gilboa a Hermon Fychan. Ymddengys mai yma yr arosodd brenhinoedd y pum dinas gynghreiriol i ddisgwyl dyfodiad yr ymosodwyr. Gan hyny, y mae yn debygol ei fod yn nghymmydogaeth gwastadedd yr Iorddonen, yn mha un y safai y dinasoedd hyny; ac felly, yr oedd yn lle cyfaddas i ymladd brwydr.

SIDNEY, ALGERNON: ydoedd fab i Iarll Leicester. Ganwyd ef naill ai yn 1621 neu 1622. Cafodd ei addysgu yn y modd manylaf, ac aeth gyda'i dad i Denmarc a Ffraingc, lle yr anfonasid y diweddaf ar genadwri. Yn 1641, gwasanaethodd fel milwr yn erbyn y gwrthryfelwyr yn yr Iwerddon; lle yr oedd ei dad ar y pryd yn arglwydd raglaw o dan y brenin. Yn ddilynol i hyny, yn 1643, daeth efe a'i frawd hynaf, Is-iarll Lisle, drosodd i Loegr, gan gymmeryd arnynt ddyfod er gwasanaethu y brenin oedd ar y pryd wedi dechreu rhyfela yn erbyn y senedd. Ymunodd y ddau frawd, pa fodd bynag, ar eu dyfodiad, â byddin y senedd. Yn mrwydr Marston Moor, lle y clwyfwyd ef yn dost, daeth dewrder a medrusrwydd Algernon i'r golwg yn amlwg; ac fel prawf o'r syniad uchel a goleddid am dano, yr ydym yn ei gael yn is-gadfridog y gwŷr meirch yn yr Iwerddon, ac yn llywodraethwr yn Dublin yn 1646; ac yn 1647, derbyniodd ddiolchgarwch Tŷ y Cyffredin am ei wasanaeth, a phennodwyd ef yn llywodraethwr Dover. Yn y flwyddyn cyn hyny cafodd ei ddychwelyd yn aelod seneddol dros Caerdydd. Yn 1648, yr oedd yn un o'r barnwyr ar brawf y brenin; ac er, am ryw reswm nad yw yn hysbys, nad oedd efe yn bresennol pan y pasiwyd dedfryd arno, na phan y llawnodwyd awdurdodiad ei ddienyddiad, nid ydyw ei gymmeradwyaeth gyffredinol mewn un modd yn cael ei hammheu. Mynegir iddo ddywedyd wedi hyny, wrth son am y dienyddiad, fod hyny yn "un o'r gweithredoedd dewraf a wnaed erioed yn Mhrydain, nac yn unrhyw wlad arall." Mewn egwyddor yr oedd yn weriniaethwr manwl, ac yr oedd Cromwell yn cymmeryd gormod o awdurdod yn ei olwg ef; ac yn ystod ei lywodraeth ef bu Sidney mewn neillduaeth yn Penshurst, trigfan y teulu yn sir Caint. Ar ymgynnulliad y senedd yn 1659, yr oedd Sidney drachefn yn ei le. Enwyd ef yn un o gynghor y wladwriaeth, ac yn fuan wedi hyny anfonwyd ef i Denmarc ar neges wleidyddol. Ar ol adferiad Siarl II., bu fyw yn alltud ar y cyfandir, gan fyned o gwmpas o le i le; ond yn 1677, cafodd faddeuant gan Siarl II., a chaniatâd i ddychwelyd i'w wlad ei hun. Bu farw ei dad y flwyddyn hono; ac er nad oedd erioed wedi cymmeradwyo y cwrs a gymmerasai ei fab, gadawodd iddo gymmunrodd o 5,100*p*. Cyn hyn nid oedd wedi cael ond rhyw fân symiau oddi wrth ei dad, ac ymddengys y byddai weithiau mewn cryn gyfyngder am arian pan ar y cyfandir.

Parhau yn weriniaethwr mawr a wnai o ran ei opiniynau gwleidyddol, a chredir gan lawer ei fod yn arfer cynllwyn i ddymchwelyd y frenhiniaeth, ac i sefydlu gweriniaeth yn ei lle; a'i fod i'r dyben hwn wedi cael ei gynnorthwyo âg arian gan frenin Ffraingc, trwy gyfrwng Barillon, llysgenhadwr Ffraingc yn y wlad hon. Yr oedd yn wrthddrych ammheuaeth, modd bynag; a phan y cyhoeddwyd darganfyddiad yr hyn a elwir Brâd-gynllwyn Rye House, yn Mehefin, 1683, daliwyd Sidney yn ddioed, ynghyd â'i gyfaill, Arglwydd William Russell [gwel RUSSELL, ARGLWYDD WILLIAM], a chymmerwyd hwynt i'r Tŵr ar y cyhuddiad o uchel-fradwriaeth. Profwyd ef ar yr 21ain o Dachwedd, o flaen y prif farnwr Jefferies. Ychydig o'r nwyd anlywodraethus a direol a ddangoswyd gan Jefferies ar yr achlysur hwn; ond yr oedd er hyny yn hollol annhyblyg, ac yn troi heibio holl wrthddadleuon y carcharor gydag awdurdod nas gallasai dim ei siglo. Yr unig dyst a ddygwyd yn mlaen i gadarnhau prif ffeithiau y cyhuddiad oedd Arglwydd Howard o Escrick; yr hwn, yn ol ei adroddiad ef ei hun, a fu yn gyfranog o'r cynllwyn: ac yr oedd yn awr yn dyfod yn mlaen i ddwyn tystiolaeth i gymmeryd ymaith fywyd ei gymdeithion, er mwyn gwaredu yr eiddo ei hun. Ond yn gymmaint a bod cyfraith uchelfradwriaeth yn gofyn dau dyst i brofi y trosedd, cafwyd y llall trwy ddwyn yn mlaen ysgrif a gafwyd yn mysg papurau Sidney, yr hon a haerid oedd yn ei lawysgrif ei hun, a gynnwysai, fel yr honid, amddiffyniad i egwyddorion cyffelyb i'r rhai a ddadguddid yn y cydfradwriaeth. Cafwyd ef yn euog, a chondemniwyd ef i farw. Anfonodd Sidney ddwy ddeiseb at y brenin i erfyn ei faddeuant, ond yn ofer; ac ar y 7fed o Ragfyr torwyd ei ben ar Tower-hill. Efe a gyfarfu ei angeu gyda dewrder a diysgogrwydd anarferol, yn nghanol cydymdeimlad a digofaint yr edrychwyr. Ni ddarfu iddo anerch y bobl: pan y gofynwyd iddo siarad, efe a attebodd ei fod wedi gwneyd heddwch â Duw, ac nad oedd ganddo ddim i'w ddyweyd wrth ddyn. Cyflwynodd bapur i'r siryddd, a argraphwyd ar ol hyny, yr hwn a derfynai fel y canlyn:—"Bydded i'r Arglwydd sancteiddio y dioddefiadau hyn i mi; ac er fy mod yn syrthio yn aberth i eilunod, na chaffed yr eilunod hyn eu sefydlu yn y wlad...Caniatâ i mi farw dan dy ogoneddu am dy holl drugareddau, ac am dy fod yn y diwedd wedi fy nodi allan i fod yn dyst i'th wirionedd, ac i'r hen achos ag yr wyf o'm hieuengetid wedi ymroddi i'w wasanaethu, o blaid yr hwn yr ydwyt yn fynych wedi amlygu dy hun mewn modd rhyfeddol."

Ymddengys fod prawf a chondemniad Algernon Sidney wedi effeithio yn ddwys ar deimlad

lechwedd gogleddol y pentir a ffurfiwyd fel hyn y saif hen ddinas Sidon. Gorchuddir y bryn o'r tu ol ar y deheu gan yr amddiffynfa. Ymgododd yn fuan, trwy ei sefyllfa fanteisiol, a chymmeriad beiddgar ac anturiaethus ei thrigolion, i'r sefyllfa uchaf yn mhlith dinasoedd Phœnicia, fel y mae yr holl wlad weithiau yn cael ei galw wrth yr enw "Sidon Fawr," "y Brifddinas."

Mewn golygiad Beiblaidd, nid ydyw y ddinas hon mor ddyddorol a'i chymmydoges Tyrus, â pha un y cyssylltir ei henw mor fynych. Yn mhob man lle y crybwyllir y ddwy ddinas gyda eu gilydd, enwir Tyrus yn gyntaf—amgylchiad y gallesid ar unwaith ei ystyried yn ddamweiniol, neu yn unig y canlyniad o'r ffaith mai Tyrus oedd yr agosaf o'r ddwy ddinas at Palestina, oni buasai fod gradd o ammheuaeth ar y pwngc hwn wedi ei godi gan y ffaith fod y drefn wedi ei newid mewn dau waith a ysgrifenwyd ar adeg wedi i Sidon fwynhau rhagoriaeth am dymmor maith: *Ezra* iii. 7; 1 *Cron.* xxii. 4. Beth bynag am hyn, y mae yn sicr, o'r ddwy, mai Tyrus sydd yn cael y lle mwyaf pwysig yn ysgrifeniadau y prophwydi Hebreaidd: *Ezra* xxvi., xxvii., xxviii. 1—19; *Esa.* xxiii. Cyfyd prif ddyddordeb Tyrus oddi wrth y prophwydoliaethau yn mherthynas i'w thynged.

Yn ol Justin, yr oedd Sidon yn hynach na Tyrus, gan ei fod ef yn dywedyd fod trigolion Sidon, pan ddarostyngwyd eu dinas gan frenin Ascalon, wedi sylfaenu Tyrus y flwyddyn flaenorol i gwymp Troy. Modd bynag, y mae Justin yn awdurdod mor wan i benderfynu unrhyw bwngc hanesiol ag y mae dadl yn ei gylch, a'i adroddiad o hanes boreuol yr Iuddewon yn ymddangos mor debyg i ffugchwedl, fel nas gellir ei dderbyn ef fel awdurdod diammheuol gyda golwg ar hanes boreuol y Phœniciaid. Yn erbyn yr adroddiad hwn hefyd, dygwyd yn mlaen yn mhellach y ffaith fod y berthynas rhwng trefedigaeth a'r famddinas yn mhlith y Phœniciaid yn gyssegredig; a chan na ddarfu y Tyriaid erioed gydnabod y berthynas hon tuag at Sidon, y mae y cyssylltiad tybiedig rhwng Tyrus a Sidon yn dra ammheus. Y mae hwn yn rheswm cryf, ond hwyrach nad ydyw yn hollol benderfynol, gan nas gall neb brofi mai hyn oedd arferiad y Phœniciaid yn y tymmor pell hwnw yn mha un yr adeiladwyd Tyrus gan y Sidoniaid, os hwy a'i sylfaenasant hi o gwbl; neu yn mha un y gallesid ei gymmhwyso, nid yn unig at sylfaeniad pwyllog trefedigaeth, ond hefyd at y cyfryw sylfaeniad damweiniol yn mron o ddinas, fel y rhoddir ar ddeall gan Justin. Yn sicr, nid oes dim yn annhebygol mewn fod y Sidoniaid wedi sylfaenu Tyrus, gan fod y Tyriaid yn cael eu galw yn Sidoniaid; ond nid yw y Sidoniaid byth yn cael eu galw yn *Tyriaid.* Pa fodd bynag, fe ddengys yr amgylchiad hwn mai Sidon oedd y fwyaf dylanwadol o'r ddwy ddinas. Rhagfynegir hyn yn Llyfr Genesis, trwy yr adroddiad mai Sidon oedd cyntafanedig Canaan (*Gen.* x. 15); ac awgrymir yr un peth yn yr enw 'Sidon fawr,' neu 'Sidon y brifddinas,' yr hwn a roddir ddwywaith iddi yn Iosuah: *pen.* xi. 8; xix. 28. Cadarnheir ef hefyd gan y ffaith fod *Sidoniaid* yn cael ei ddefnyddio fel enw cyffredinol ar y Phœniciaid, neu y Canaaneaid (*Ios.* xiii. 6; *Barn.* xviii. 7); a chan y rheswm a roddir yno dros nad oedd un gwaredwr i Lais pan lofruddiwyd ei thrigolion heddychol; ei bod hi "yn mhell oddi wrth y Sidoniaid." Ond pe buasai Tyrus y pryd hwnw mor bwysig a hi, buasai yn fwy naturiol crybwyll Tyrus, yr hon oedd o ran sylwedd yn proffesu yr un grefydd, ac yn agosach o agos ugain milldir iddi: *Barn.* xviii. 28.

O amser Solomon hyd ymosodiad Nebuchodonosor, nid yw Sidon yn cael ei chrybwyll yn uniongyrchol yn y Beibl; ac ymddengys ei bod yn israddol i Tyrus. Pan y crybwyllir am y bobl a elwir Sidoniaid, ymddengys weithiau mai Phœniciaid gwastadedd Sidon a feddylir; fel, er enghraifft, pan ddywedodd Solomon wrth Hiram nad oedd neb yn mhlith yr Iuddewon "a fedrai gymmynu coed megys y Sidoniaid" (1 *Bren.* v. 6); ac hwyrach hefyd, pan y mae Ethbaal, tad Iezebel, yn cael ei alw yn "frenin y Sidoniaid" (1 *Bren.* xvi. 31), yr hwn, yn ol Menander yn Josephus, oedd frenin y Tyriaid. Dichon hefyd mai hyn ydyw yr ystyr pan y mae Astoreth yn cael ei galw yn dduwies neu ffieidd-dra y Sidoniaid (1 *Bren.* xi. 5, 33; 2 *Bren.* xxiii. 13), neu pan y crybwyllir am y Sidonesau fel y "gwragedd dyeithr" a garwyd gan Solomon "heb law merch Pharaoh;" 1 *Bren.* xi. 1. Ac ymddengys fod hyn yr un mor wir am y brawddegau "merch Sidon," a "marchnadyddion Sidon," ac hyd yn oed unwaith am "Sidon" ei hun (*Esa.* xxiii. 12, 2, 4), yn mhrophwydoliaeth Esaiah yn erbyn Tyrus. Nid oes un ammheuaeth, pa fodd bynag, nad Sidon ei hun, y ddinas a elwir yn briodol felly, a fygythid gan Ioel (*pen.* iii. 4) ac Ieremiah: *pen.* xxvii. 3. Etto, nid ydys yn gwybod ond ychydig iawn yn mherthynas iddi yn ystod y tymmor hwn, heb law mai un o ffynnonellau ei helw oedd masnach mewn caethion; fod y ddinas yn cael ei llywodraethu gan frenhinoedd (*Ier.* xxvii. 3; xxv. 22); ei bod, yn flaenorol i ymosodiad Nebuchodonosor, wedi rhoddi llongwyr i Tyrus (*Esa.* xxvii. 8); ei bod, ar un adeg, yn ddarostyngedig, mewn rhyw ystyr neu gilydd, i Tyrus; ac wedi i Salmaneser, brenin Assyria, ymosod ar Phœnicia, fod Sidon wedi cymmeryd y cyfleusdra i wrthryfela. Ymddengys yn rhyfedd clywed am ddarostyngiad un ddinas fawr i ddinas fawr arall dim ond ugain milldir oddi wrthi, yn cael ei phreswylio gan ddynion o'r un genedl, iaith, a chrefydd; ond ceir enghreifftiau o hyn yn hanes Athens yn ei pherthynas â'i chynghreiriaid ar ol y rhyfel Persiaidd, ac yn hanes gweriniaethau Italy yn y canoloesoedd. Nid ydyw yn annhebygol nad allai fod ei hymgystadleuaeth wedi darbwyllo Sidon, dros gan mlynedd ar ol hyny, i ymostwng yn ddiwrthwynebiad i Nebuchodonosor.

Ymddengys fod Sidon, yn ystod yr amser y bu hi dan lywodraeth Persia, wedi cyrhaedd i'w phwynt uchaf o lwyddiant; a dywedir ei bod, tua diwedd y tymmor hwnw, yn rhagori yn ddirfawr ar yr holl ddinasoedd Phœniciaidd mewn cyfoeth a phwysigrwydd. Y mae yn dra thebygol fod gwarchau maith Tyrus gan Nebuchodonosor wedi ei gwanhau a'i thlodi, ac hefyd wedi cyfoethogi Sidon ar ei thraul; fel mai doethineb pob masnachwr, crefftwr, a llongwr, a ystyriai mai annoeth neu ofer oedd dangos un gwrthwynebiad, oedd symmud i fyw i Sidon. Pa fodd bynag am hyn, yn rhyfelgyrch Xerxes yn erbyn Groeg, yr oedd y Sidoniaid yn ffurfio elfen bwysig yn ei allu llyngesol. Pan edrychai Xerxes, oddi ar fryn ger Abydos, ar redegfa gychod yn ei lynges, ennillwyd y wobr gan y Sidoniaid. Pan arolygai efe ei lynges, eisteddai dan neuben, mewn llong Sidonaidd; pan ewyll-

Digitized by Google

ysiodd archwilio geneuau yr afon Peneus, ymddiriedodd ei hun i long Sidonaidd, fel yr arferai wneyd ar achlysuron cyffelyb; a phan eisteddai y gormesdeyrniaid, a swyddogion cyffredinol ei ryfelgyrch mawr yn ol gradd eu hanrhydedd, brenin y Sidoniaid a eisteddai gyntaf. Drachefn, dywed Herodotus mai y llestri goreu o'r holl lynges oedd y rhai a roddwyd gan y Phœniciaid; a'r rhai goreu o longau Phœnicia oedd llongau y Sidoniaid. Ac yn olaf, megys y mae Homer yn rhoddi drychfeddwl bywiog am brydferthwch Achilles trwy ddyweyd mai Nireus oedd yr harddaf o'r holl Groegiaid a aethant i Troy ar ol mab Peleus, felly y mae Herodotus yn perffeithio buddugoliaeth y Sidoniaid, pan y mae efe yn canmawl llestri Artemisia (o herwydd beiddgarwch eu dwylaw, y mae yn debygol), trwy ddyweyd mai hwy oedd yr enwocaf o'r holl lynges, "ar ol y Sidoniaid."

Rhoddwyd terfyn disymmwth ar lwyddiant Sidon gan wrthryfel aflwyddiannus yn erbyn Persia, yr hwn a arweiniodd i un o'r trychinebau mwyaf dinystriol a gofnodwyd mewn hanesiaeth. Yn annhebyg i warchau a chymmeriad Tyrus gan Alexander Fawr, hanes pa rai a adroddir gan amryw ysgrifenwyr, a'r hwn sydd o ddyddordeb parhaol ar gyfrif ei berthynas â'r cyfryw orchfygwr enwog, nid ydyw hanes Sidon yn adnabyddus ond yn unig trwy hanes Diodorus; ac y mae yn benaf yn gyssylltiedig âg Artaxerxes Ochus, penadur yr edrychir arno yn gyfiawn gyda theimladau cymmysg o elyniaeth a dirmyg. O herwydd hyn, nid ydyw dymchweliad trychinebus Sidon, hwyrach, wedi tynu cymmaint o sylw ag a ddylasai. Y prif amgylchiadau oedd y rhai hyn:—Tra yr oedd y Persiaid yn gwneuthur parotoadau yn Phœnicia i ddarostwng y gwrthryfel yn yr Aipht, ymddygodd rhai o'r rhaglawiaid a'r cadfridogion Persiaidd yn orthrymus ac yn sarhaus at y Sidoniaid yn y rhan Sidonaidd o ddinas Tripolis. Ar hyn, ffurfiodd y Sidoniaid gynllun o wrthryfel; ac wedi cydlunio trefniadau gyda dinasoedd Phœniciaidd ereill, ac wedi gwneyd cyttundeb gyda Nectanebus, hwy a roddasant eu bwriadau mewn gweithrediad. Dechreuasant trwy gyflawni gweithredoedd treisiol yn mhalas a pharc brenin Persia; hwy a losgasant ystôr fawr o borthiant, yr hwn oedd wedi ei gasglu i'r gwŷr meirch Persiaidd; a rhoddasant y Persiaid oedd wedi sarhau y Sidoniaid i farwolaeth. Wedi hyny, dan eu brenin Tennes, gyda chymmhorth o'r Aipht o 4,000 o gyflogfilwyr Groegaidd dan Mentor, hwy a fwriasant y rhaglawiaid Persiaidd o Phœnicia; hwy a gyfnerthasant amddiffynfeydd eu dinas, hwy a daclasant lynges o 100 o longau teir-rhwyf, ac ymbarotoisant i ddangos gwrthwynebiad penderfynol. Ond profodd eu brenin, Tennes, yn fradwr i'w hachos; ac i gyflawni cyttundeb âg Ochus, efe a fradychodd i law y brenin gant o ddinasyddion enwocaf Sidon, y rhai a roddwyd oll i farwolaeth. Cyfranogodd pum cant o ddinasyddion ereill, y rhai a aethant allan at y brenin i erfyn am drugaredd, o'r un dynged; a thrwy gyttundeb rhwng Tennes a Mentor, gollyngwyd milwyr Persia i mewn trwy y pyrth, a meddiannasant y muriau. Yr oedd y Sidoniaid, cyn dyfodiad Ochus, wedi llosgi eu llestri i attal pob un rhag gadael y dref; a phan welsant eu hunain wedi eu hamgylchynu gan filwyr Persia, hwy a gauasant eu hunain i fyny gyda'u teuluoedd, a rhoddodd pob dyn ei dŷ ei hun ar dân (c.c. 351). Dywedir fod deugain mil o bersonau wedi trengu yn y fflamau. Ni ddarfu i Tennes ei hun achub ei fywyd, gan fod Ochus, er gwaethaf ei addewid i'r gwrthwyneb, wedi ei roddi ef i farwolaeth. Gwerthwyd y fraint o chwilio yr adfeilion am arian.

Ar ol y gyflafan erchyll hon, ymadferodd Sidon yn raddol oddi wrth y ddyrnod; ymsefydlodd ymfudwyr newyddion o ddinasoedd ereill ynddi; ac y mae yn debygol fod llawer o longwyr Sidon wedi cael byw trwy eu bod oddi cartref pan gymmerwyd y ddinas. Ymladdwyd brwydr Issus o ddeutu deunaw mlynedd ar ol hyny (c. c. 333), a'r pryd hwnw agorodd trigolion y ddinas adferedig eu pyrth i Alexander o honynt eu hunain, oddi ar elyniaeth, meddir, tuag at Darius a'r Persiaid. Daeth annoethineb, yn gystal a chreulondeb Ochus yn ei ddull o ymwneyd â gwrthryfel Sidon, yn awr yn amlwg; canys yr oedd llynges Sidon, trwy ymuno âg Alexander, yn elfen hanfodol yn ei lwyddiant yn erbyn Tyrus. Wedi cynnorthwyo i ddwyn ar Tyrus drychineb mor fawr a'r un oedd wedi difrodi eu dinas hwy eu hunain, buont yn drugarog, mor bell ag yr arbedasant fywydau llawer o Dyrciaid trwy eu cuddio yn eu llongau, ac yna eu trosglwyddo hwynt i Sidon. Gan fod Sidon, o'r amser yma, yn ddibynol ar dynged rhyfel yn yr ymrysonau rhwng olynwyr Alexander, ni chymmerodd mwyach un rhan boliticaidd bwysig mewn hanesiaeth. Modd bynag, daeth drachefn yn dref flodeuog—ac y mae Polybius yn ddamweiniol yn crybwyll fod Antiochus, yn ei ryfel gyda Ptolemy Philopater, wedi gwersyllu gyferbyn â Sidon (c. c. 218); ond na anturiodd ymosod arni, o herwydd helaethrwydd ei hadnoddau, a lliosawgrwydd ei thrigolion—un ai brodorion neu ymnoddwyr. Ar ol hyny, yn ol Josephus, ysgrifenodd Julius Cæsar lythyr yn mherthynas i Hyrcanus, yr hwn a gyfeiriodd efe at yr "ynadon, y cynghor, a phobl Sidon." Dengys hyn fod y Sidoniaid, i fyny hyd at yr amser hwnw, yn mwynhau ffurfiau rhyddid, er fod Dion Cassius yn dyweyd fod Augustus, ar ei ddyfodiad i'r dwyrain, wedi eu hamddifadu o honynt am ymddygiad gwrthryfelgar. Cyn hir ar ol hyny, dywed Strabo, yn hanes Phœnicia, am Tyrus a Sidon:—"Yr oedd y ddwy yn ddinasoedd ysblenydd a mawreddog gynt, *ac y maent felly yn awr;* ond pa un a ddylai gael ei galw yn brifddinas Phœnicia, sydd bwngc o ddadl rhwng y trigolion." Dywed yn mhellach, ei bod yn sefyll ar y cyfandir, ar borthladd naturiol ardderchog. Siarada am y trigolion fel yn meithrin y gwyddorion o rifyddiaeth a seryddiaeth; a dywed fod y cyfleusderau goreu yn cael eu rhoddi yn Sidon i gyrhaedd gwybodaeth o'r rhai hyn, a phob cangen arall o athroniaeth. Dywed yn mhellach, fod yn ei amser ef athronyddion enwog, brodorion Sidon, fel Boethus; gyda'r hwn yr astudiodd efe athroniaeth Aristotle, a'i frawd, Diodotus. Dylid sylwi mai Groeg oedd y ddau enw hyn; ac ymddengys mai Groeg, yn amser Strabo, oedd iaith y dosbarthiadau dysgedig o leiaf, yn Tyrus a Sidon. Dyma yn mron y cwbl a wyddys am sefyllfa Sidon pan ymwelodd Crist â hi. Saif o ddeutu deng milldir a deugain o Nazareth, a hi yw y ddinas fwyaf gogleddol a grybwyllir mewn cyssylltiad â'r doethion.

Gwyddys, oddi wrth hen awdurdodau, fod masnach Sidon yn fawr iawn. Yr oedd ei threfedigaethau yn ymestyn dros lenydd Asia Leiaf

Digitized by Google

a'r ynysoedd cyfagos, glenydd Thrace ac Eubæa, ac hyd yn oed rhanau o Sicily, a Sardinia, ac Yspaen, glenydd Cornwall, a'r Baltic, y rhanau gogleddol o Affrica, ac, mewn gwirionedd, yn mron yr oll o'r hen fyd. Yr oedd ei llawweithfeydd gwydr a llian, lliw porphor ac aroglau, yn ffynnonell o gyfoeth diderfyn iddi; a pha un ai gwneuthurwyr, ai allforwyr a masnachwyr yn unig yn y nwyddau aur ac arian, ifori a phres, oeddynt yn destynau syndod i'r Groegiaid a'r Hebreaid, ymddengys cymmaint a hyn yn sicr, pa fodd bynag, mai hwy a ystyrid y celfyddydwyr mwyaf medrus yn eu hamser. Dywedir fod ei thrigolion unwaith wedi bod yn rhifo dros ugain mil; ond nid ydyw eu nifer presennol ond o ddeutu pum mil. Gelwir hi yn awr Saida; ac y mae yn sefyll ar le ychydig i'r gorllewin o'r hen ddinas, ac yn perthyn i raglawiaeth Dyrcaidd Acre. Gwel PHŒNICIA.

SIFAN: y trydydd mis Hebreaidd, yn cyfatteb i ranau o Mai a Mehefin: *Esth.* viii. 9.

SIGAION: math neillduol o salm; nodwedd neillduol yr hon nid yw yn hysbys yn awr. Nid ydyw y gair yn digwydd yn y rhif unigol yn yr Hebraeg, oddi eithr yn unig yn nheitl y seithfed Salm; ac ymddengys nad oes dim neillduol yn y salm hono i'w gwahaniaethu oddi wrth lawer ereill. Y mae yr awdwr ynddi yn mynegu ei deimladau yn erbyn ei elynion, ac yn gofyn am gymmhorth yr Arglwydd yn eu herbyn hwynt; ac felly, nid ydyw cynnwysiad y salm yn rhoddi un fantais i ni wybod yn sicr pa beth ydyw ystyr y gair. Yn nheitl Cân y Prophwyd Habacuc (*pen.* iii. 1), y mae yn digwydd yn y rhif liosog; ond ymddengys fod beirniaid Hebraeg diweddar yn mron yn unfrydol o'r farn fod y frawddeg yn yr hon y saif "ar Sigionoth" yn arwyddo "yn ol dull Sigaion;" ac nad ydyw ond cyfarwyddyd yn unig gyda golwg ar y math o fesurau cerddorol gan ba rai yr oedd y gân i gael ei chanlyn. Barna Andrew A. Bonar fod y gair *Sigaion* yn dynodi natur y cyfansoddiad. Y mae yn trosglwyddo y drychfeddwl o rywbeth cyfeiliornus (oddi wrth wreiddyn Hebraeg yn arwyddo 'cyfeiliorni,' neu 'crwydro') yn yr arddull; rhywbeth heb fod mor dawel a salmau ereill; ac oddi wrth hyn awgryma Ewald y gellir cyfieithu y gair 'cân gymmysgedig,' 'ofergân.' Y mae y nodwedd cyffrous hwn yn yr arddull, a'r math o annhrefn yn yr ystyr, yn gyfaddas i *Habacuc* iii. 1—yr unig le arall lle y mae y gair yn digwydd.

SIGISMUND, yr hwn a gyfenwid y MAWR, brenin Poland, oedd fab ieuangaf i Casimir IV. Ganwyd ef yn Kozienice, yn 1467. Etholwyd ef yn uchel dduc Lithuania, yn 1506, a daeth i feddiant o goron Poland ar yr 8fed o Ragfyr, yr un flwyddyn. Digwyddai amgylchiadau Poland a Lithuania ar y pryd fod mewn sefyllfa ddifrifol, gan fod rhanau deheuol y wlad wedi eu gwneyd yn mron yn ddiffaethwch gan y Tartariaid, tra yr oedd y rhanau dwyreiniol yn parhaus ofni y Rwssiaid, oedd erbyn hyn yn genedl annibynol, unedig, a chref iawn. Goresgynwyd Lithuania gan y Rwssiaid, a gorchfygasant rai o'r taleithiau; ond ennillodd Sigismund fuddugoliaeth ysblenydd arnynt yn Orsza, ar y Dnieper, Gorphenaf 14eg, 1508. Tua'r pryd hwn, goresgynodd Bogdan, tywysog Moldavia a Wallachia, y talcithiau deheuol; ond gorchfygwyd ef mor llwyr ar lenydd y Dniester, fel y bu yn dda ganddo gael gwneyd cyttundeb i fod o dan warogaeth i Poland. Rhoddodd Sigismund wedi hyny wers effeithiol trwy ei gadfridog, Ostrogski, i'r Tartariaid, yn 1512, i beidio bod yn rhy feiddgar; yr hon a gostiodd iddynt 27,000 o wŷr, ac a sicrhaodd dawelwch ar y cyffiniau am amser maith. Darfu ei gynghrair gyda Stephen Zapoli, penadur Transylvania, merch yr hwn a briododd efe, beri dychryn i'r ymherawdwr Maximilian, yr hwn a annogai y Rwssiaid i ail gychwyn eu hymosodiadau, ac felly fu; ond bu raid iddynt dalu yn ddrud am eu trahâ, o herwydd cyfarfu Ostrosgski, Medi 8fed, 1514, â'r fyddin Rwssiaidd oedd wedi goresgyn Lithuania, ac yn 80,000 mewn rhifedi, tra nad oedd y Pwyliaid ond 32,000, yn Orsza, a gorchfygwyd y blaenaf gyda lladdfa fawr. Gadawyd dau gadfridog, dau ar bymtheg ar hugain o dywysogion, a chwe mil o garcharorion yn nwylaw y Pwyliaid, a deng mil ar hugain yn feirwon a chlwyfedigion ar y maes. Gwrthwynebwyd yn llwyddiannus ymosodiadau ereill o eiddo y Rwssiaid a'r Tartariaid, a gwrthryfel y Wallachiaid hefyd. Yn 1525, cydsyniodd Sigismund i roddi i'w nai, Albert, y teitl o Duc o Prwssia, ar yr ammod o'i fod yn talu gwarogaeth iddo ef, ac yn ffyddlawn. A bu duciaid Prwssia yn talu gwarogaeth i goron Poland hyd 1657. Yn 1527, Sigismund yn unig, o frenhinoedd gwledydd cred, a gynnorthwyodd Hungary yn erbyn lluoedd lliosog Solyman yr Ardderchog; ac ymladdodd y Pwyliaid yn ddewr ar faes gwaedlyd Mohacz, yn y fl. 1526. Yr unig ddigwyddiad pwysig arall yn mywyd Sigismund oedd dyfodiad a chylchdaeniad Lutheriaeth yn Poland, cyfnewidiad na wnaeth Sigismund ddim er ei attal: ond yn unig cymmerodd fesurau, a rhai llymion weithiau, rhag i hyny effeithio ar sefyllfa wleidyddol y wladwriaeth. Mynegir am dano, pan y darfu i John Eck ei gynghori i fabwysiadu mesurau caeth yn erbyn y Lutheriaid, y rhai a gymmharwyd ganddo i eifr yn mhlith y defaid, i Sigismund ei atteb trwy ddyweyd, ei fod ef yn awyddus am gael bod yn "frenin geifr yn gystal a defaid." Ar ol teyrnasiad maith a gogoneddus, bu farw Sigismund yn Cracow, ar y 1af o fis Ebrill, 1548, yn 81ain mlwydd oed. Gadawodd ar ei ol y cymmeriad o fod yn dywysog cyfiawn, doeth, a mawrfrydig; yr hwn a adferodd ei wlad i'w llwyddiant a'i mawredd cyntefig, ac a'i dyrchafodd oddi wrth draed ei gelynion i uchafiaeth drostynt.

SIHOR: yr enw Hebraeg priodol am y Nilus: *Ezra* xxiii. 3; *Ier.* ii. 18. Y mae y gair yn arwyddo 'du' neu 'leidiog,' a chymmhwyswyd enw cyfattebol (Μελας) gan y Groegiaid at yr un afon, ar gyfrif y llaid du a adewid ar ol ganddi wedi i'r llifddyfroedd gilio. Nid ydyw Sihor yn digwydd ond tair gwaith yn y Beibl, a dim ond unwaith am Sihor yr Aipht, neu Sihor-Mizraim. Siaredir am dani fel un o derfynau tiriogaeth oedd heb ei gorchfygu pan oedd Iosuah yn hen:—"Dyma'r wlad sydd etto yn ol: holl derfynau'r Philistiaid, a holl Gesuri, o Sihor, yr hon sydd o flaen yr Aipht, hyd derfyn Ecron tua'r gogledd, yr hwn a gyfrifir i'r Canaaneaid:" *Ios.* xiii. 2, 3. Yna rhifir y Philistiaid. Yma, gan hyny, dosbarth yn gorwedd rhwng yr Aipht a dinas fwyaf gogleddol y Philistiaid a feddylir. Dylid cymmharu yr adnodau hyn â'r adnod yn

Digitized by Google

yr hon y mae yr enw Sihor-Mizraim yn digwydd. Adroddir i Dafydd "gasglu holl Israel ynghyd, o Sihor yr Aipht hyd y ffordd i Hemath;" 1 *Cron.* xiii. 5. Nid oes brawf arall ddarfod i'r Israeliaid erioed ymledu tua'r gorllewin tu hwnt i Gaza: dichon yr ymddengys yn rhyfedd fod y diriogaeth a breswylid ganddynt yn amser Dafydd yn cael siarad am dani, mewn ymddangosiad, fel yn ymestyn mor bell a'r gangen fwyaf dwyreiniol o'r Nilus. Ond dylid cofio fod mwy nag un llwyth mewn amser diweddarach wedi ymledu tu hwnt i'w therfynau cyntaf; ac hefyd y dichon mai terfynau tiriogaeth Dafydd a olygir yn hytrach na therfynau y wlad a breswylid yn hollol gan yr Israeliaid. Felly, dichon mai y *Wadi-l-'Areesh* a feddylir. Fod yr afon a olygir wrth Sihor yn afon fordwyol sydd amlwg oddi wrth adnod yn Esaiah, lle y dywedir am Tyrus "Ac wrth ddyfroedd lawer, hâd Sihor, cynhauaf yr afon (*Yeôr*) yw ei chnwd hi:" *pen.* xxiii. 3. Yma y mae Sihor ac Yeôr yr un, neu ynte y mae yn cael ei chymmharu â hi; yr hon, fel y tybir yn gyffredinol, ydyw y Nilus. Yn Ieremiah rhoddir ar ddeall yn eglur mai yr un ydyw y Sihor a'r Nilus, lle y dywedir am Israel, "A'r awrhon, beth sydd i ti a wnelych yn ffordd yr Aipht, i yfed dwfr Nilus (Sihor)?" *pen.* ii. 18. Wrth astudio yr adnodau hyn y mae o bwys gwahaniaethu rhwng y "Sihor, yr hon sydd o flaen yr Aipht," a Sihor yr Aipht, ar un llaw, a Sihor ei hun, ar y llaw arall.

SIHOR-LIBNAH: lle a enwir yn unig yn *Ios.* xix. 26, fel un o dir-farciau terfyn Aser, is law Mynydd Carmel. Ni wyddys ddim yn ei gylch.

SILA: "tŷ Milo, wrth ddyfod i waered i Sila," oedd y man lle y llofruddiwyd y brenin Ioas: 2 *Bren.* xii. 20. Pa beth, neu pa le yr oedd Sila, ni wyddys yn sicr. Y mae yn dra thebygol mai amddiffynfa y dref oedd Milo, a'i bod yn gorwedd ar Fynydd Seion. Y mae yn rhaid fod Sila yn y dyffryn oddi tanodd, yn ymyl y rhan hono o'r amddiffynfa yr hon a ddefnyddid fel preswylfod.

SILAH: un o ddwy wraig Lamech y Cainiad, wrth ba rai yr adroddodd efe ei gân: *Gen.* iv. 19, 22, 23. Hi oedd mam Tubal-Cain a Naamah. Edrycha Dr. Kalisch ar enwau gwragedd a merch Lamech fel prawf o'r cyfnewidiad i'r tymmor celfyddydol, yr hyn a gymmerodd le yr amser hwnw, a'r cyfnewidiad cyfattebol yn sefyllfa merch. "Y mae Naamah yn arwyddo y ferch hawddgar, brydferth; tra nad oedd gwraig y dyn cyntaf ond yn unig Efa, y bywydroddydd....Yn oes Lamech ni edrychid mwy ar ferched yn unig fel eppilwyr y teulu dynol; dechreuodd prydferthwch a hawddgarwch ennill gwarogaeth....Y mae hyd yn oed enwau gwragedd Lamech yn amlygu y symmudiad i'r cyfnod hwn o brydferthwch; canys tra y mae enw un wraig, Silah, etto yn dynodi cymmhorth ac amddiffyniad ('cysgod'), y mae enw y llall, Adah, yn mron yn gyfystyr â Naamah, ac hefyd yn arwyddo addurn a hawddgarwch.

Yn llyfr apocryphaidd Iasar, dywedir fod Adah a Silah yn ferched Canaan. Dygodd Adah blant, ond yr oedd Silah yn ddiffrwyth hyd ei henaint, mewn canlyniad i ryw draflwngc niweidiol a roddodd ei gŵr iddi, i gadw ei phrydferthwch, ac i'w chadw rhag dwyn plant.

SILAS: aelod enwog o'r Eglwys Gristionogol foreuol, a ddisgrifir dan yr enw hwnw yn yr Actau, ond fel Silfanus yn epistolau Paul. Ymddengys yn gyntaf fel un o arweinyddion yr eglwys yn Ierusalem (*Act.* xv. 22), yn dal y swydd o brophwyd, neu athraw ysbrydoledig: *pen.* xv. 32. Y mae ei enw, yr hwn sydd yn tarddu o'r Lladin *silva* ('coed'), yn arwyddo Iuddew Hellenistaidd, ac ymddengys ei fod yn ddinesydd Rhufeinaidd: *Act.* xvi. 37. Pennodwyd ef fel dirprwywr i ganlyn Paul a Barnabas ar eu dychweliad i Antiocha gyda phenderfyniad cynghor Ierusalem: *Act.* xv. 22, 23. Wedi cyflawni y genhadaeth hon efe a ddychwelodd i Ierusalem: *Act.* xv. 33. Modd bynag, rhaid ei fod yn ddioed wedi ail ymweled âg Antiochia, canys yr ydym yn cael ei fod wedi ei ddewis gan Paul fel cydymaith yn ei ail daith genhadol: *Act.* xv. 40—xvii. 40. Yn Berea gadawyd ef ar ol gyda Thimotheus tra yr aeth Paul i Athen (*Act.* xvii. 14); ac nid ydym yn clywed mwy am ei symmudiadau hyd nes y darfu iddo ail ymuno â'r apostol yn Nghorinth: *Act.* xviii. 5. Pa un a oedd efe wedi myned gyda Phaul i Athen mewn ufudd-dod i'r gorchymyn i wneyd hyny (*Act.* xvii. 15), ac wedi ei anfon oddi yno gyda Thimotheus i Thessalonica (1 *Thes.* iii. 2), neu a ydoedd ei symmudiadau yn annibynol ar symmudiadau Timotheus, sydd ansicr. Crybwyllir am ei bresennoldeb yn Nghorinth amryw weithiau: 2 *Cor.* i. 19; 1 *Thes.* i. 1; 2 *Thes.* i. 1. Y mae yn debygol ddarfod iddo ddychwelyd i Ierusalem gyda'r apostol Paul; ac o'r amser hwnw ymddengys fod y cyssylltiad rhyngddynt wedi terfynu. Pa un ai efe oedd y Silfanus a gludodd Epistol Cyntaf Pedr i Asia Leiaf (1 *Pedr* v. 12), sydd ammheus; y mae y tebygolrwydd yn ffafriol i'r dybiaeth mai yr un oeddynt.

SILEM: mab Naphtali, a hynafiad teulu y Silemiaid: *Gen.* xlvi. 24; *Num.* xxvi. 49.

SILEMIAID: hiliogaeth Silem, mab Naphtali: *Naph.* xxvi. 49.

SILHI: tad Azubah, yr hon oedd yn fam i Iehosaphat: 1 *Bren.* xxii. 42; 2 *Cron.* xx. 31.

SILHIM: un o'r dinasoedd yn y rhan ddeheuol o randir llwyth Iudah. Ei lle yn y rhestr ydyw rhwng Lebaoth ac Ain, neu Ain-Rimmon (*Ios.* xv. 32), ac nid ydyw yn cael ei chrybwyll mewn un lle arall. Nid ydyw hyd yn oed yn cael ei henwi gan Eusebius a Jerome. Nid yw yn hysbys yn mha lanerch y safai.

SILOAH, DYFROEDD: ffrwd a redai yn esmwyth, a ddefnyddiwyd gan y prophwyd Esaiah (*pen.* viii. 6) fel cymmhariaeth i ddangos y gwahaniaeth rhwng yr ymddiried tawel yn yr Arglwydd a gymmhellid ganddo ef ar y bobl, a thrais gormesol brenin Assyria—am gynghrair â'r hwn yr oeddynt yn gwaeddi.

Nid oes un lle i ammheu nad yr un oedd y dyfroedd dan sylw a'r rhai a adwaenir yn well dan yr enw diweddarach o *Sîloam*—yr unig ffynnon yn Ierusalem sydd yn parhau i roddi dwfr trwy y flwyddyn.

SILOAH, PYSGODYN. Nid ydyw yr enw hwn yn cael ei osod allan yn gywir yn y cyfieithiad Cymraeg o *Neh.* iii. 15—yr unig adnod yn

Digitized by Google

yr hon y mae y ffurf neillduol hwn yn digwydd. *Shelach*, neu yn hytrach *has-Shelach*, a ddylai fod, gan ei fod yn cael ei roddi gyda'r fannod bennodol. Hwyrach mai ffurf llygredig oedd hwn o'r enw a roddir gyntaf fel Shiloach, yna fel Siloam—ac yn awr gelwir ef *Selwân*. Ystyr *Shelach*, a'i gymmeryd fel Hebraeg, yw 'picell.' Nis gall hwn fod yn enw wedi ei roddi i'r ffrwd ar gyfrif ei chyflymdra, o herwydd nid yw yn awr, ac nid oedd yn nyddiau Esaiah, yn ddim ond ffrwd araf ac esmwyth iawn: *Esa.* viii. 6. Y mae yn debygol mai gair ydyw wedi ei gymmhwyso at enau y llyn, o'r un natur ag a welir yn yr enw *Dart*, yr hwn sydd wedi ei roddi ar chwaneg nag un afon yn Lloegr. Nid oes dim a wnelo â chyflymdra: ond llygriad yn unig ydyw o'r hen air, yr hwn hefyd a ymddengys yn yr amrywiol ffurfiau o Derwent, Darent, a Trent. Gwel SILOAM.

SILOAM: y gair a ddefnyddir yn yr Hebraeg yn *Esa.* viii. 6, ydyw *Shiloach;* yn *Neh.* iii. 15, *Shelach.* Nid yw y cyfnewidiad yn y gwahannodiad Masoraidd yn dynodi dim, hwyrach, heb law cyfnewidiad yn y cynaniad, neu yn *sillebiad* y gair, a wnaed rywbryd yn ystod y tri chan mlynedd rhwng Esaiah a Nehemiah. Y mae ysgrifenwyr Rabbinaidd, a chan eu dilyn hwy, teithwyr Iuddewig, hen a diweddar, o Beniamin o Tudela i Schwarz, yn arfer yr enw boreuach *Shiloach*, yn hytrach na'r enw diweddarach *Shelach.* Rhydd y Deg a Thrigain *Siloam* yn Esaiah; ond yn Nehemiah, *llyn y crwyn defaid*, neu y "llyn cneifio;" o herwydd hwyrach ei fod yn eu hamser hwy i olchi cnu yr ebyrth. Y gair a ddefnyddir bob amser yn y "*Vulgate,*" yn yr Hen Destament a'r Newydd, ydyw *Siloe.* Y tadau Groegaidd, gan lynu wrth y Deg a Thrigain, a'i galwant yn *Siloam.* Nid ydyw y gair yn digwydd yn yr "*Apocrypha.*" Defnyddir *Siloam* a *Siloas*—yn gyffredin y blaenaf.

Siloam sydd un o'r ychydig leoedd yn nghymmydogaeth Ierusalem ag yr ydys yn gwybod yn sicr yn mha le y saif; gan ei bod hyd heddyw yn parhau i gadw ei hen enw (gyda chyfnewidiad Arabaidd, *Silwân*), tra y mae pob llyn arall wedi colli ei enw Beiblaidd. Y mae hyn yn fwy hynod, gan nad ydyw ond yn unig dyfrgist maesdrefol heb fod o faintioli mawr, a'i ddyfroedd am lawer oes heb fod yn neillduol o dda, nac yn helaeth, er fod Josephus yn dywedyd wrthym eu bod yn ei amser ef yn "beraidd ac yn helaeth." Ar wahân oddi wrth y ffaith ei fod o'r un enw, y mae cadwen o dystiolaethau allanol difwlch, yn ystod deunaw cant o flynyddoedd, yn cyssylltu y *Birket Silwân* presennol â *Shiloah* Esaiah, a *Siloam* Ioan. Ni theimlir un anhawsder i wybod pa un ydyw y llyn. Crybwylla Josephus am dano yn fynych yn "*Hanes Rhyfeloedd yr Iuddewon;*" a gellir casglu oddi wrth ei gyfeiriadau ef ato ei fod yn lle lled enwog, yn fath o farc terfyn y ddinas. Efe sydd yn rhoddi ar ddeall ei fod o'r tu allan i'r ddinas; mai wrth y llyn hwn yr oedd yr "hen fur" yn troi tua'r dwyrain; fod dyffryn *dano*, ac un wrth ei *ochr;* bryn yn union gyferbyn, mewn ymddangosiad ar yr ochr arall i'r Cedron, yn mron yn ymyl clogwyn neu graig a elwid Peristeron; ei fod wrth derfyniad neu enau y Tyropæon; fod yn ei ymyl, tua'r dwyrain, fel yr ymddengys, lyn arall, a elwid 'llyn Solomon,' at ba un y deuai yr "hen fur" ar ol gadael Siloam, ac heibio yr hwn yr elai yn mlaen at *Ophlas*, lle, gan droi tua'r gogledd, yr oedd yn ymuno â nenfwd y deml. Yn Nheithlyfr Antoninus (B. A. 333) gosodir ef i lawr yn yr un gymmydogaeth, ond dywedir ei fod yn "ymyl y mur," fel y rhydd Josephus ar ddeall; ond y mae yn awr yn lled bell (dros 1,200 o droedfeddi) oddi wrth gongl agosaf y mur presennol, ac agos i 1,900 o droedfeddi oddi wrth fur deheuol yr Haram. Y mae Jerome, tua dechreu y bummed ganrif, yn ei ddisgrifio fel "wrth waelod mynydd Moriah," ac yn dyweyd, er heb gadarnhau y ffugchwedl, fod y ceryg ar ba rai y tywalltwyd gwaed y prophwyd Zechariah yn cael eu dangos etto. Y mae efe yn siarad am dano fel yn Nyffryn mab Hinnom, fel y mae Josephus yn siarad am dano fel wrth enau y Tyropæon; ac y mae yn deilwng o sylw nad ydyw efe, fel y rabbiniaid, byth yn crybwyll am y Tyropæon; ond y mae efe, laweroedd o weithiau, yn siarad am Ddyffryn Hinnom. Y mae yn siarad am Hinnom, Tophet, gyda'u llwyni a'u gerddi fel yn cael eu dyfrhau gan Siloam. Dywed fod Siloam yn dibynu ar y gwlawogydd, ac mai hi oedd yr unig ffynnon a ddefnyddid yn ei amser ef. Er y dylai Jerome fod yn gwybod am ddwfr-gyflenwadau Ierusalem, gan ei fod wedi treulio y rhan fwyaf o'i oes o fewn chwe milldir iddi, etto yn ol awdurdodau ereill, a dwfr-ddarpariaeth ddiweddar y ddinas, nis gallai hi erioed fod yn hollol ddibynol ar ei llynau. Yr oedd ei dyfrgistiau preifat lliosog yn cadw cyflenwad i fyny bob amser; ac o herwydd hyn digwyddai yn fynych mai y gwarchauwyr, ac nid y gwarchauedigion, fyddai yn dioddef fwyaf: er fod Josephus yn rhoddi un enghraifft hynod i'r gwrthwyneb, pan—wrth adrodd araeth a draddodasai efe wrth yr Iuddewon a safent ar ran o'r mur de-ddwyreiniol, yr hwn yr oedd y Rhufeiniaid wedi ei gario—y mae yn siarad am Siloam fel yn gorlifo er pan oedd y Rhufeiniaid wedi cael meddiant o hono, tra o'r blaen, pan oedd yr Iuddewon yn ei ddal, yr oedd yn sych. A gallwn yma grybwyll, wrth fyned heibio, fod Ierusalem, oddi eithr yn mhoethder y flwyddyn, yn meddu digon o ddwfr. Dywed Dr. Barclay "nad oes dim llai nag o ddeg ar hugain i ddeugain o ffynnonau naturiol o fewn cylch saith i wyth milldir;" a dywed ereill fod eu nifer yn llawer iawn mwy na hyny.

Yn y seithfed ganrif, crybwylla Antoninus Ferthyr am Siloam fel ffynnon a llyn. Siarada Bernhard y mynach am dani yn y nawfed ganrif; ac y mae cofnodion Rhyfelwyr y Groes yn crybwyll am ei safle, yn fforch dan ddyffryn, fel yr ydym ni yn ei gael. Y mae Benjamin o Tudela (B. A. 1173) yn siarad am "ffynnon fawr Shiloach, yr hon sydd yn rhedeg i afon Cedron;" ac y mae yn crybwyll am "adeilad fawr arni," yr hon, medd efe, a adeiladwyd yn nyddiau ei dadau. Rhydd Felix Fabri ddisgrifiad lled helaeth o Siloam, ac ymddengys ei fod wedi gwneyd ymgais i fyned i mewn i'r rhanau tanddaearol; ond methodd, a chiliodd yn ol mewn dychryn, ar ol llenwi ei fflasgiau â'i dwfr llygad-feddyginiaethol. Y mae Arnold von Harff (B. A. 149) hefyd yn nodi y llanerch. Ar ol hyn y mae y cyfeiriadau at Siloam yn afrifed; ac nid ydynt, gydag un neu ddau o eithriadau, yn gwahaniaethu dim o barth i'r lle ar ba un y saif. O'r braidd yr oedd eisieu y tystiolaethau hyn i'w galluogi i benderfynu ei safle. Os nad ydyw yr Ysgrythyr yn dyweyd yn eglur ei fod yn gorwedd wrth enau y Tyropæon, fel y dywed Josephus, dywedir digon yn Nehemiah ac Ioan i'n

Digitized by Google

xxvii. 3); ac am Manasseh, ei fod wedi "amgylchu Ophel" (y tŵr: 2 *Cron.* xxxiii. 14); ac mewn cyssylltiad âg Ophel, crybwyllir am *dŵr oedd yn gogwyddo allan* (*Neh.* iii. 26); ac y mae yn dra thebygol mai yr un oedd y tŵr hwn oedd yn gogwyddo allan a'r tŵr yn Siloam, ac hwyrach mai ei ogwyddiad oedd yr achos o'i gwymp.

1. SILOH. Yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl, defnyddir Siloh unwaith fel enw person mewn ymadrodd hynod o dywyll: *Gen.* xlix. 10. A thybied fod y cyfieithiad yn gywir, ei ystyr yw *heddychol*, neu *tawel;* ac y mae yn cyfeirio un ai at Solomon, enw yr hwn sydd o'r un ystyr, neu at y Messïah disgwyliedig, yr hwn, yn *Esa.* ix. 6, a elwir yn bendant yn "Dywysog Tangnefedd." Hwn, unwaith, oedd cyfieithiad Gesenius, er darfod iddo ar ol hyny weled rheswm i ymwrthod âg ef; ac efe yn awr ydyw cyfieithiad Hengstenberg, a'r Grand Rabbin Wogue, yn eu cyfieithiad o Genesis. Edrychir gan y ddau awdwr hyn ar yr adnod fel prophwydoliaeth am y Messïah, ac y mae llawer o feirniaid enwog ereill o'r un farn a hwy.

Ond, ar y llaw arall, os ydyw y testyn Hebraeg gwreiddiol yn gywir fel y saif, y mae tair gwrthddadl yn erbyn y cyfieithiad hwn, y rhai, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, a ymddangosant yn ddinystriol iddo. Yn gyntaf, nid ydyw y gair *Siloh* yn digwydd mewn un lle arall yn yr Hebraeg fel enw person. Yn ail, ymddengys mai yr unig air Hebraeg arall o'r un ffurf ydyw *Giloh* (*Jos.* xv. 51; 2 *Sam.* xv. 12); ac enw dinas ydyw hwn, ac nid person. Yn drydydd, trwy gyfieithu y gair fel y mae yn cael ei gyfieithu yn mhob man arall yn y Beibl—sef, fel enw dinas yn Ephraim, lle yr arosodd arch y cyfammod am dymmor mor faith—ceir ystyr digon da i'r adnod heb wneyd un trais â'r iaith Hebraeg. Y cyfieithiad syml ydyw, "Nid ymedy y deyrnwialen o Iudah, na ffon llywodraethwr oddi rhwng ei draed ef, hyd nes yr el efe i Siloh." Ac felly, cyfeiriad sydd yma at flaenoriaeth Iudah mewn rhyfel (*Barn.* i. 1, 2; xx. 18; *Num.* ii. 3; x. 14), yr hyn oedd i barhau hyd nes y gorchfygid Gwlad yr Addewid, ac y gosodid arch y cyfammod yn Siloh. Yr oedd rhai ysgrifenwyr Iuddewig wedi haeru o'r blaen mai at Siloh, dinas Ephraim, y cyfeirir yn yr adnod hon; ac yr oedd Servetus wedi traethu yr un syniad mewn traethawd llawn o ddychymygion, yn yr hwn y priodolai ystyr dwbl i'r geiriau. Ond y cyntaf mewn oesoedd diweddar a awgrymodd y cyfieithiad a'r eglurhâd uchod, fel y cynnygir ac y diffynir ef ar seiliau o gywirdeb rhesymol, oedd Teller; ac y mae ar ol hyny, gyda rhai cyfnewidiadau, wedi cael ffafr gyda lliaws o ddysgedigion perthynol i amryw ysgolion o dduwinyddiaeth, megys Eichhorn, Hitzig, Tuch, Bleek, Ewald, Delitzsch, Rodiger, Kalisch, Luzzatto, a Davidson.

Rhydd Hengstenberg adroddiad manwl o'r rhesymau yn erbyn y deongliad hwn, a cheir crynodeb rhagorol o'r rhesymau drosto gan Davidson, yn ei "*Introduction to the Old Testament.*" A thybied bob amser fod y testyn presennol yn gywir, ymddengys y rhesymau o blaid deongliad Teller yn llawer iawn cryfach. Gellir sylwi ei bod yn ymddangos fod y prif rwystr ar ffordd deongli y gair *Siloh* yn ei ystyr syml a naturiol yn codi oddi wrth olygiad dychymygol ar y brophwydoliaeth yn ei pherthynas â'r deuddeg llwyth, yr hwn sydd yn golygu fod mwy ynddi nag a gyfiawnheir gan ymchwiliad pwyllog o honi. Fel hyn y dywed Hengstenberg:—"Byddai yr amser terfynol a roddir yma ar flaenoriaeth Iudah yn hollol wrthwynebol i adnodau 8 a 9, yn mha rai y mae Iudah, heb un cyfyngiad ar yr amser, yn cael ei godi i fod yn Llew Duw." Ond nid ydyw y cyfeiriad at lew yn ddim ond yr hyn a ganlyn:—"Cenaw llew wyt ti, Iudah; o'r ysglyfaeth y daethost i fyny, fy mab: ymgrymodd, gorweddodd fel llew, ac fel hen lew: pwy a'i cyfyd ef?" Yn awr, a chadw mewn cof nodwedd cyffredinol cyffelybiaethau barddonol yr Hebreaid, nid oes dim yn yr adnod hon sydd yn gwneuthur yn annhebygol fod ynddi gyfeiriad at ddinas Siloh. Drachefn, dywed Hengstenberg nad ydyw gweledigaethau Iacob byth yn trafod y neillduolion; ond bob amser yn edrych ar y dyfodol fel un cyfangorph, ac ar raddfa fawr. Os felly y maent, er hyny y maent yn gysson â'r adroddiad daearyddol canlynol yn mherthynas i Zabulon:—"Zabulon a breswylia yn mhorthladdoedd y môr; ac efe a fydd yn borthladd llongau, a'i derfyn fydd hyd Sidon. Y maent hefyd yn gysson â phrophwydoliaethau yn mherthynas i rai o'r llwythau ereill, y rhai i unrhyw un a wnaeth ymchwiliad manwl i felldith Iacob gyda disgwyliad uchel a deimlai yn siomedig. Fel hyn am Beniamin, o fewn tiriogaeth yr hwn yr adeiladwyd teml ogoneddus Solomon ar ol hyny, yr unig beth a ddywedir ydyw, "Beniamin a ysglyfaetha fel blaidd: y boreu y bwyty'r ysglyfaeth, a'r hwyr y rhan yr ysbail." Am Gad y dywedir, "Llu a'i gorfydd; ac yntau a orfydd o'r diwedd." Am Aser, "O Aser bras fydd ei fwyd ef, ac efe a rydd ddanteithion brenhinol." Ac am Naphtali, "Naphtali a fydd ewig wedi ei gollwng, yn rhoddi geiriau teg;" *adn.* 19—21, 27. Yn wir, hwyrach fod y gwahaniaeth (oddi eithr yn mendith Ioseph, yn nhiriogaeth yr hwn y safai Siloh) rhwng gwirionedd y prophwydoliaethau a gofynion meddwl darfelyddol, yn egluro adroddiad rhyfedd St. Isidore o Pelusium, a ddyfynir gan Teller; sef, pan yr oedd Iacob ar hysbysu i'w feibion ddirgelwch yr ymgnawdoliad, ei fod wedi cael ei attal gan fys Duw. Gorchymynwyd iddo fod yn ddistaw: a chollodd ei gof.

Hwyrach mai y cyfieithiad goreu nesaf o *Siloh* ydyw 'gorphwysdra.' Yna, darllena yr adnod fel hyn: "Nid ymedy y deyrnwialen o Iudah... ...hyd oni ddêl gorphwysdra, ac yr ufuddha y cenhedloedd iddo." Yn ol y cyfieithiad hwn, cyfeirir at y Messïah, yr hwn oedd i hanu o lwyth Iudah. Haedda y cyfieithiad hwn ystyriaeth barchus, fel un a fabwysiadwyd yn y diwedd gan Gesenius. Cymmeradwywyd ef gan Vater, ac amddiffynir ef gan Knöbel. Y mae un wrthddadl lai yn ei erbyn nag sydd yn erbyn yr arferiad o'r gair fel enw ar berson, ac nid yw heb beth tebygolrwydd. Etto, y mae yr wrthddadl yn aros yn ei erbyn, nad ydyw Siloh yn digwydd mewn un lle arall yn y Beibl oddi eithr fel enw dinas, ac y gellir, trwy gyfieithu y gair yma fel enw dinas, roddi ystyr da a rhesymol i'r adnod.

Trydydd eglurhâd ar Siloh, ar y dybiaeth mai nid enw person ydyw, sydd gyfieithiad gan amryw o Iuddewon dysgedig, ac a gefnogir, fe ymddengys, gan Targum Jonathan—nad ydyw *Shiloh* yn arwyddo dim ond 'ei fab;' *h. y.*, mab Iudah (yn yr ystyr o Fessïah), oddi wrth air

Digitized by Google

hanes teuluoedd Iudah, y rhai oedd yn byw yn Ierusalem yn yr amser at ba un y cyfeiria, ac, fel hwnw, y mae yn eu rhanu hwynt i deuluoedd mawrion Phares a Selah. Ymddengys fod y cyfnewidiad o *Selani* i *Siloni* yn debyg i'r un a ddigwyddodd yn enw *Siloam* *Shelach* ydyw (yn yr Hebraeg) yn Nehemiah, a *Shiloach* (yn yr Hebraeg) yn Esaiah.

SILONIAID, Y: un o frodorion neu breswylwyr Siloh:—teitl a roddwyd yn unig i Ahïah, y prophwyd a ragfynegodd i Ieroboam ymraniad y teyrnasoedd gogleddol a deheuol: 1 *Bren.* xi. 29; xii. 15; xv. 29; 2 *Cron.* ix. 29; x. 15. Profir ei fod yn dal cyssylltiad â Siloh yn 1 *Bren.* xiv. 2, 4, lle y dangosir fod y llanerch cyssegredig etto yn breswylfod i'r prophwyd. Gan hyny, y mae y gair yn hollol wahanol i'r un a eglurir yn yr erthygl ganlynol dan y gair SILONIAID.

SILONIAID, Y: a grybwyllir yn mhlith hiliogaeth Iudah, oedd yn preswylio yn Ierusalem mewn amser ag y mae yn anhawdd ei bennodi: 1 *Cron.* ix. 5. Y mae yn ddiammheu mai aelodau teulu Selah oeddynt; y rhai, yn y Pum Llyfr, a elwir yn fwy cywir *Selaniaid*. Cefnogir hyn gan ddarlleniad "*Targum*" Joseph ar y geiriau hyn—'llwyth Selah,' a chymmeradwyir ef gan Gesenius. Y mae y gair yn digwydd drachefn yn *Neh.* xi.—disgrifiad sydd mewn rhai pethau yn cyfatteb i 1 *Cron.* ix.

SILSAH: mab Sophah o lwyth Aser: 1 *Cron.* vii. 37.

1. SIMEA: mab Dafydd o Bathseba: 1 *Cron.* iii. 5. Gelwir ef hefyd SAMMUA a SAMMUAH.
2. SIMEA: Lefiad Meraraidd: 1 *Cron.* vi. 30.
3. SIMEA: Lefiad Gersonaidd—un o hynafiaid Asaph y cerddor: 1 *Cron.* vi. 39.
4. SIMEA: brawd Dafydd (1 *Cron.* xx. 7), a elwir hefyd SAMMAH, SIMMA, a SIMEAH.

1. SIMMEAH: brawd Dafydd, a thad Ionathan ac Ionadab: 2 *Sam.* xiii. 3, 32; xxi. 21.
2. SIMEAH: un o ddisgynyddion Iehiel, tad neu sylfaenydd Gibeon: 1 *Cron.* viii. 32.

SIMEATH: Ammonees, mam Zabad neu Iozachar—un o lofruddion y brenin Ioas: 2 *Bren.* xii. 21; 2 *Cron.* xxiv. 26.

SIMEAM: un o ddisgynyddion Iehiel—sylfaenydd neu dywysog Gibeon: 1 *Cron.* ix. 38. Gelwir ef Simeah yn 1 *Cron.* viii. 32.

1. SIMEI: mab Gerson, fab Lefi (*Num.* iii. 18; 1 *Cron.* vi. 17, 29; xxiii. 7, 9, 10; *Zech.* xii. 13); a elwir Simi yn *Exod.* vi. 17. Yn 1 *Cron.* vi. 29, gelwir ef yn fab Libni, a chyfrifir y ddau fel meibion Merari.

2. SIMEI: mab Gera, Beniaminiad o deulu Saul, yr hwn oedd yn byw yn Bahurim. Cyttuna ei breswyliad yno â'r crybwylliadau ereill am y lle, fel pe buasai yn lle nodedig ar y ffordd i ac o ddyffryn yr Iorddonen i Ierusalem, ac yn union o fewn terfyn Beniamin. Dichon ei fod wedi derbyn yr anffodus Phaltiel ar ol ei ysgariaeth oddi wrth Michal: 2 *Sam.* iii. 16.

Pan welwyd Dafydd a'i gymdeithion yn disgyn i lawr y bwlch hir, pan oedd efe yn ffoi oddi wrth Absalom (2 *Sam.* xvi. 5—13), ymdorodd holl deimlad tylwyth Beniamin allan yn ddisttal yn mherson Simei. Yr oedd ei dylwyth ef, mewn ymddangosiad, wedi eu hysgaru oddi wrth y ffordd gan ddyffryn dwfn; etto nid mor bell fel nas gellid clywed yn eglur yr hyn a wnelai neu a ddywedai. Rhedodd ar hyd y gefnen, gan fellditbio, a thaflu ceryg at y brenin a'i gymdeithion; a phan ddaeth at glwt o lwch ar ystlys sych y bryn, efe a gymmerth ddyrnaid o hono ac a'i bwriodd drosodd atynt. Cyffrodd Abisai mor fawr, fel oni buasai am wrthdystiad Dafydd, y buasai yn myned dros y ceunant (2 *Sam.* xvi. 9) ac yn tori ei ben ef. Y mae yr holl ymddiddan yn hynod, fel y mae yn dangos yr hyn y gellir yn mron ei alw yn iselwaith a ffynai yn y ddau lys gwrthwynebol. Yr enw isel am Dafydd yn ngenau Simei ydyw "gŵr gwaedlyd," yr hyn a adroddir ddwywaith gyda phwyslais arbenig:—"Tyred allan, tyred allan, ŵr gwaedlyd......gŵr gwaedlyd wyt ti:" 2 *Sam.* xvi. 7, 8. Ymddengys ei fod wedi tarddu oddi wrth lofruddiaeth meibion Saul (2 *Sam.* xxi.), neu yn gyffredinol hwyrach oddi wrth fywyd anrheithgar a rhyfelgar Dafydd; gwel 1 *Cron.* xxii. 8. Yr enw isel am Beniaminiad yn ngenau Abisai oedd "ci marw" (2 *Sam.* xvi. 9): gwel ymadrodd Abner, "Ai pen ci ydwyf fi;" 2 *Sam.* iii. 8. Ymddengys hefyd fod "gŵr i'r fall" yn ymadrodd hoff gan bob ochr:" 2 *Sam.* xvi. 7; xx. 1. Pasiodd y fintai frenhinol yn mlaen; a dilynodd Simei hwynt gyda'i geryg a'i felldithion tra yr oeddynt yn y golwg.

Yr oedd y cyfarfod nesaf yn bur wahanol. Yr oedd y brenin yn awr yn dychwelyd o'i ryfelgyrch llwyddiannus. Pan oedd efe yn croesi yr Iorddonen ar yr ysgraff (2 *Sam.* xix. 18), y person cyntaf a'i croesawodd ef ar du y gorllewin, neu hwyrach hyd yn oed ar du y dwyrain, oedd Simei; yr hwn, fe allai, a'i gwelodd ef yn nesau o'r bryniau uwchlaw. Efe a ymdaflodd wrth draed Dafydd mewn edifeirwch dwfn. "Efe oedd y cyntaf," meddai, "o holl dŷ *Ioseph;*" a thrwy hyny yr oedd yn dynodi y cynghrair politicaidd agos oedd rhwng Beniamin ac Ephraim. Cymmerodd ymrafael arall le rhwng Dafydd ac Abisai, yr hon a derfynodd trwy i Dafydd dyngu na roddid Simei i farwolaeth (2 *Sam.* xix. 18—23), o herwydd ei fod yn ewyllysio anrhydeddu ei ddychweliad trwy iwbili cyffredinol.

Ond ni ddarfu i'r ymostyngiad hwn symmud drwgdybiaeth y brenin; ac ar ei wely angeu dygodd yr holl olygfa ar gof i'w fab Solomon. Erbyn hyn yr oedd pen Simei yn wŷn gan henaint (1 *Bren.* ii. 9), ac yr oedd efe yn byw yn ffair y llys yn Ierusalem: 1 *Bren.* ii. 8. Rhoddodd Solomon rybudd iddo, fod yn rhaid iddo o hyny allan aros o fewn muriau Ierusalem dan boen marwolaeth. Nid oedd i groesi y Cedron, yr hon oedd yn ei ysgaru ef oddi wrth y ffordd i'w hen breswylfod yn Bahurim. Yr oedd efe i adeiladu tŷ yn Ierusalem; 1 *Bren.* ii. 36, 37. Efe a gadwodd ei ymrwymiad am dair blynedd. Yn niwedd yr amser hwnw, i'r dyben o gymmeryd dau gaethwas oedd wedi diangc i Gath, efe a aeth allan ar ei asyn, ac a wnaeth ei daith yn llwyddiannus: 1 *Bren.* ii. 40. Ar ei ddychweliad, cymmerodd y brenin ef ar ei air, a lladdwyd ef gan Benaiah: 1 *Bren.* ii. 41—46. Rhydd yr hanesydd sanctaidd, ac yn fwy fyth Josephus, bwys mawr ar y ffaith fod Simei wedi tori ei lw i aros adref; ac felly edrychir ar ei farwolaeth fel barn—nid am ei fradwriaeth flaenorol, ond am ei gyssegr-ysbeiliad diweddar.

Digitized by Google

3. SIMEI: un o ganlynwyr Solomon yn amser trawsfeddianniad Adoniah: 1 *Bren.* i. 8. Oddi eithr ei fod yr un a Simei mab Ela (1 *Bren.* iv. 18), un o swyddogion lluniaeth Solomon, neu Simmeah, neu Sammah, brawd Dafydd, fel yr awgryma Ewald, y mae yn ammhossibl gwybod pwy ydyw. Oddi wrth y crybwylliad a wneir am y "gwŷr cedyrn" yn yr adnod, gallai un dybied mai yr un ydyw a Sammah yr Harariad (2 *Sam.* xxiii. 11); canys nid ydyw y gwahaniaeth yn enwau Hebreig *Simei* a *Sammah* yn fwy na'r gwahaniaeth rhwng *Simeah* a *Sammah,* y rhai a gymmhwysir at frawd Dafydd.

4. SIMEI: un o swyddogion lluniaeth Solomon yn Beniamin (1 *Bren.* iv. 18); mab Ela.

5. SIMEI: mab Pedaiah, a brawd Zorobabel: 1 *Cron.* iii. 19.

6. SIMEI: un o'r Simeoniaid, mab Zacchur: 1 *Cron.* iv. 26, 27. Yr oedd ganddo un ar bymtheg o feibion, a chwech o ferched.

7. SIMEI: mab i Gog, un o'r Reubeniaid: 1 *Cron.* v. 4.

8. SIMEI: Lefiad Gersonaidd, fab Iohath: 1 *Cron.* vi. 42.

9. SIMEI: mab Ieduthun, a phenaeth y degfed dosbarth o'r cantorion: 1 *Cron.* xxv. 17. Y mae ei enw wedi ei adael allan o restr meibion Ieduthun yn *adn.* 3, ond y mae yn amlwg fod ei eisieu yno.

10. SIMEI: y Ramathiad, yr hwn oedd yn arolygwr dros winllanoedd Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 27.

11. SIMEI: Lefiad o feibion Heman, y rhai a gymmerasant ran yn mhuredigaeth y deml dan Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 14.

12. SIMEI: brawd Cononiah, y Lefiad, yn nheyrnasiad Hezeciah, yr hwn oedd yn gofalu am yr offrymau, y degymau, a'r pethau a gyflwynid at wasanaeth yr Arglwydd: 2 *Cron.* xxxi. 12, 13. Yr un, fe allai, a'r blaenorol.

13. SIMEI: Lefiad yn amser Ezra, yr hwn oedd wedi priodi gwraig ddyeithr: *Ezra* x. 33. Gelwir ef hefyd Semis.

14. SIMEI: un o deulu Hasum, yr hwn a roddodd ymaith ei wraig ddyeithr ar orchymyn Ezra: *Ezra* ix. 33. Gelwir ef *Semei* yn 1 *Esdr.* ix. 34.

15. SIMEI: mab Bani, yr hwn hefyd oedd wedi priodi gwraig ddyeithr, ac a'i rhoddodd hi ymaith: *Ezra* x. 38. Gelwir ef *Samis* yn 1 *Esdr.* ix. 34.

16. SIMEI: mab Cis, Beniaminiad, a hynafiad Esther: *Esth.* ii. 5.

1. SIMEON: yr ail o feibion Iacob a Leah. Cofnodir ei enedigaeth yn *Gen.* xxix. 33; ac yn yr eglurhâd a roddir yno ar yr enw, y mae yn tarddu o'r gwreiddyn *shâma'*, clywed—"Yr Arglwydd a glywodd (*shâma'*) mai cas ydwyf, ......a hi a alwodd ei enw ef Simeon." Nid ydyw y gyffelybiaeth hon, fel gyda golwg ar rai o'r enwau ereill, yn mendith Iacob; ac ni wneir un crybwylliad o gwbl am Simeon yn mendith Moses.

Y mae y rhestr gyntaf o blant yn gynnwysedig, heb law Simeon, o dri mab arall Leah—Reuben, Lefi, Iudah. "Ac yr awrhon, dy ddau fab, y rhai a anwyd i ti yn nhir yr Aipht," medd Iacob, "eiddof fi fyddant hwy: Ephraim a Manasseh fyddant eiddof fi, fel Reuben a Simeon;" *Gen.* xlviii. 5. Yr oedd Simeon yn gyfranog gyda Lefi o gyflafan y Sichemiaid (*Gen.* xxxiv. 25)—gweithred a dynodd arnynt gerydd eu tad (*adn.* 30), ac hwyrach hefyd ei felldith wrth farw: *Gen.* xlix. 5—7. Yr oedd cyssylltiad agosach fyth rhyngddo âg Iudah. Nid yn unig aeth ef a Simeon "i fyny" gyda'u gilydd, ochr yn ochr, o flaen wyneb y genedl, i orchfygu deheubarth Gwlad yr Addewid (*Barn.* i. 3, 17), ond yr oedd eu rhandiroedd yn gorwedd gyda'u gilydd mewn modd mwy arbenig na rhandiroedd y llwythau ereill—rhywbeth yn debyg yn yr un modd a Beniamin ac Ephraim. Heb law cyflafan Sechem—gweithred na ddylid ffurfio barn am dani wrth safon oes fwy gwareiddiedig a llai ffyrnig; a phan yr edrychir arni yn deg, nad ydyw yn hollol waradwyddus i'w ohyflawnwyr—yr unig ddigwyddiad personol a adroddir am Simeon ydyw, y ffaith ei fod wedi ei ddewis gan Ioseph, heb i un rheswm gael ei roddi neu ei awgrymu, fel gwystl am ymddangosiad Beniamin: gwel *Gen.* xlii. 19, 24, 36; xliii. 23.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at y cyssylltiad rhwng Simeon a Lefi, a ragfynegir yn mendith Iacob: *Gen.* xlix. 5—7. Rhydd geiriau y rhagfynegiad ar ddeall i ni y byddai undeb agosach rhyngddynt, ac y cyflawnent weithredoedd creulonach, na dim ag y mae genym ni yn awr hanes am danynt; ac o herwydd eu creulondeb y rhenid hwynt yn Iacob, ac y gwasgerid hwynt yn Israel. Ac felly y gwnaed. Ond mor wahanol! Cododd gwasgariad y Lefiaid oddi wrth y ffaith eu bod yn dal swydd anrhydeddus yn y genedl, ac i'r dyben o ledaenu addysg a chrefydd dros y wlad. Yn achos Simeon, ymddengys fod y gwasgariad wedi codi oddi wrth ryw elfen lygriadol yn y llwyth ei hun; yr hyn yn gyntaf a leihaodd ei nifer, ac yn y diwedd a'i gyrodd o'i randir pennodedig yn y wlad—nid, fel Dan, o herwydd nas gallai, ond o herwydd nad arosai—ac felly yn y diwedd, y parodd iddo leihau a diflanu yn hollol.

Gellir egluro y ffaith nad ydyw enw Simeon yn mendith Moses (*Deut.* xxxiii. 6) mewn dwy ffordd. Un ffordd ydyw—ar y dybiaeth fod y fendith wedi ei chyhoeddi yn weithredol yn ei ffurf bresennol gan Moses, y dichon ei bod wedi ei gadael allan o herwydd ei ddigofaint yn erbyn ymddygiad y llwyth yn Sittim. Y llall ydyw, fod y fendith, neu y rhan yma o honi, wedi ei chyfansoddi ar amser diweddarach; yna gall fod yn ddyledus i'r ffaith fod y llwyth wedi diflanu o'r Tir Sanctaidd. Yr olaf o'r rhai hyn ydyw yr eglurhâd a fabwysiedir yn gyffredin.

Crybwyllir prif deuluoedd y llwyth yn y rhestrau yn *Gen.* xlvi. (10), yn yr hwn y mae un o honynt, yn dwyn yr enw Saul, yn cael ei nodi fel "mab Canaanées"—yn *Num.* xxvi. 12—14, a 1 *Cron.* iv. 24—43. Yn yr adran olaf (*adn.* 27), crybwyllir nad oedd gan deulu un o benaethiaid y llwyth "nemawr o feibion; ac nad amlhasai eu holl deulu hwynt megys meibion Iudah." Ymddengys mai fel hyn yr oedd, nid yn unig gydag un teulu, ond gyda'r holl lwyth. Yn y cofrifiad wrth Sinai, yr oedd Simeon yn rhifo 59,300 o ryfelwyr: *Num.* i. 23. Yr oedd y pryd hwnw y lliosocaf, ond dau: Iudah a Dan yn unig oedd yn fwy nag ef. Ond pan gymmerwyd yr ail gofrifiad, yn Sittim, yr oedd y nifer wedi lleihau i 22,000; ac efe oedd y gwanaf o'r holl lwythau. Y mae yn ddiammheu fod hyn i'w briodoli mewn rhan i'r marwolaethau lliosog diweddar ar ol eilunaddoliaeth Peor, yn yr hwn yr ymddengys fod llwyth Simeon wedi cymmeryd rhan arbenig; ond rhaid

fod rhyw achosion ereill, y rhai nid ydynt yn cael eu crybwyll.

Yn ystod y daith trwy yr anialwch, yr oedd Simeon yn aelod o'r gwersyll a gerddai o du y deheu i'r babell sanctaidd. Ei gymdeithion oedd Reuben a Gad—nid ei frodyr cyflawn; ond meibion Zilpah, morwyn Leah. Penaeth y llwyth yn amser y mynediad allan o'r Aipht oedd Selumiel, mab Serusàdai (*Num.* i. 6), hynafiad ei unig arwres, Iudith ddewr. Yn mhlith yr ysbïwyr, cynnrychiolid Simeon gan Saphat, mab Hori, *h. y.*, Horiad—enw ag sydd, hwyrach, fel y "Canaanees" yn y rhestr flaenorol, yn dadguddio olion y tueddiadau llac, y rhai a wnaethant y Simeoniaid yn ysglyfaeth rwydd i ddefodau penrydd Peor, ac yn y diwedd a ddinystriasant fodolaeth y llwyth. Ei gynnrychiolydd, pan ranwyd y tir, oedd Semuel, mab Ammihud.

Ymddengys fod y cyssylltiad rhwng Iudah a Simeon, y crybwyllwyd am dano yn barod, wedi dechreu gyda'r gorchfygiad. I Iudah a "meibion Ioseph, Manasseh ac Ephraim," y rhoddwyd yn gyntaf y rhan eangaf o'r wlad; ac yna, wedi darostwng digon ar y Canaaneaid i oddef i'r babell sanctaidd gael ei sefydlu yn ddiberygl yn nghanol y wlad, aed yn mlaen gyda'r gwaith o ranu y gweddill rhwng y saith llwyth israddol: *Ios.* viii. 1—6. Beniamin a gafodd ei etifeddiaeth gyntaf, yna Simeon: *Ios.* xix. 1. Erbyn hyn, yr oedd Iudah wedi darganfod fod y rhandir a roddasid iddo ef yn "ormod iddynt" (*pen.* xix. 1), ac hefyd yn rhy agored ar du y dwyrain ac ar du y deheu, hyd yn oed i'w alluoedd mawrion ef. Am hyny, rhoddwyd i Simeon ddosbarth o'r tu allan i diriogaeth ei gâr, ar ei therfyn deheuol, yr hwn oedd yn cynnwys deunaw neu bedair ar bymtheg o ddinasoedd, a'u pentrefydd, y rhai a safent yn wasgaredig o amgylch ffynnon hybarch Beerseba: *Ios.* xix. 1—8; 1 *Cron.* iv. 28—33. Gyda help Iudah, fe gymmerodd y Simeoniaid feddiant o'r lleoedd hyn (*Barn.* i. 3, 17); ac yma y cafwyd hwynt, y mae yn ddiammheu, gan Ioab, yn preswylio yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* iv. 31. Y mae'n rhaid fod Dafydd, yn ystod ei fywyd crwydrol, wedi bod am gryn amser yn mhlith y Simeoniaid. Mewn gwirionedd, enwir tair o'u dinasoedd yn y rhestr o'r rhai yr anfonodd efe anrhegion o ysbail yr Amaleciaid iddynt; ac yr oedd un (Siclag) yn eiddo personol iddo. Gan hyny, y mae yn rhyfedd fod y rhifedi o Simeon ac Iudah, y rhai oeddynt yn bresennol ar yr achlysur o'i orseddiad fel brenin yn Hebron, yn gymmaint llai na'r niferi o'r llwythau ereill: 1 *Cron.* xii. 23—37. Y mae yn bossibl fod hyn i'w briodoli i'r ffaith fod y digwyddiad yn cymmeryd lle yn nghanol eu tiriogaeth hwy eu hunain—yn Hebron. Modd bynag, nid ydyw hyn yn ddigon i roddi cyfrif am y ffaith hynod fod rhyfelwyr Simeon (7,100) yn lliosocach na milwyr Iudah (6,800). Ar ol symmudiad Dafydd i Ierusalem, penaeth y llwyth oedd Sephatïah, mab Maachah: 1 *Cron.* xxvii. 16.

Pa ran a gymmerodd Simeon yn ymraniad y deyrnas, ni ddywedir. Y mae yn debygol nad ydoedd y llwyth mewn sefyllfa ddigon cref neu unedig i ddangos unrhyw dueddiadau gogleddol, hyd yn oed pe buasai yn eu coleddu hwynt. Yr unig beth y gellir edrych arno fel prawf ei fod wedi cymmeryd rhan gyda'r deyrnas ogleddol ydyw y ddau grybwylliad digwyddiadol yn 2 *Cron.* xv. 9, a xxxiv. 6; y rhai sydd yn rhoddi lle i ni dybied fod ynddi Simeoniaid yn nheyrnasiad Asa ac Iosïah. Ond dichon nad oedd hyn yn ddim ond amlygiad o'r ysbryd crwydraidd hwnw, yr hwn oedd yn achos neu yn ganlyniad o'r rhagfynegiad a briodolir i Iacob. Ac ar y llaw arall, y mae adroddiad pendant 1 *Cron.* iv. 41—43, yn profi fod y pryd hwnw rai o honynt yn aros etto yn eisteddle wreiddiol y llwyth, ac yn cael eu llywodraethu gan yr un ysbryd rhyfelgar a'u cyndad. Y mae y darn hwn o hen gronicl yn adrodd hanes dau ryfelgyrch i chwilio am diriogaeth fwy cyfaddas. Y cyntaf, dan dri ar ddeg o benaethiaid, yn arwain, y mae yn ddiammheu, gorph mawr o ganlynwyr, a wnaed yn erbyn yr Hamiaid a'r Mehuniaid, llwyth galluog o Bedwinaid, "wrth fynedfa Gedor, ar du y dwyrain i'r ceunant." Yr oedd yr ail yn llai, ond yn fwy anturiaethus. Dan arweiniad pedwar o benaethiaid, ymgymerodd mintai o 500 â rhyfelgyrch yn erbyn gweddill Amalec, y rhai oedd wedi cymmeryd noddfa rhag ymosodiadau Saul neu Dafydd, neu ryw ymlidwyr diweddarach, yn amddiffynfeydd pellenig Mynydd Seir. Bu y rhyfelgyrch yn llwyddiannus. Hwy a darawsant yr Amaleciaid, ac a gymmerasant feddiant o'u hamddiffynfeydd; ac yr oeddynt yn parhau i fyw yno ar ol dychweliad yr Iuddewon o'u caethiwed, neu pa bryd bynag y golygwyd Llyfr Cyntaf y Cronicl yn ei ffurf bresennol.

Enwir Simeon gan Ezeciel (*pen.* xlviii. 25), a chan awdwr Llyfr y Dadguddiad (*pen.* vii. 7) yn eu rhestrau o adferedigion Israel. Y mae y blaenaf yn symmud y llwyth o Iudah, ac yn ei osod wrth ochr Beniamin.

2. SIMEON: mab Iudah, a thad Lefi, yn achau ein Harglwydd: *Luc* iii. 30.

3. SIMEON: Simon Pedr: *Act.* xv. 14. Y mae y defnyddiad o ffurf Hebreaidd yr enw yn y lle hwn yn dra nodweddiadol o'r siaradwr, yn ngenau yr hwn y mae yn digwydd.

4. SIMEON: Iuddew crefyddol, wedi ei ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân, yr hwn a gyfarfyddodd â rhieni ein Harglwydd yn y deml, a'i cymmerodd ef yn ei freichiau, ac a ddiolchodd am yr hyn a welodd ac a wyddai am Iesu: *Luc* ii. 25—35.

SIMEON, CHARLES: gweinidog enwog perthynol i'r blaid efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig. Ganwyd ef yn Reading, yn swydd Berks, Medi 24ain, 1758. Ar ol derbyn ei addysg yn Eton a Chaergrawnt, ordeiniwyd ef yn offeiriad yn 1782. Teimlodd yr argraphiadau crefyddol cyntaf ar ei feddwl tra yn efrydydd yn y brifysgol, a gweithiodd yr argraphiadau hyn gyfnewidiad trwyadl a pharhaol ynddo. O fod yn foneddwr ieuangc lled goegfalch, a hoff o wisgoedd gwychion, efe a drodd yn bregethwr selog ar brif wirioneddau yr efengyl; a pharhaodd felly am bedair ar ddeg a deugain o flynyddoedd, sef parhâd tymmor ei weinidogaeth. Ni bu ei yrfa ddaearol yn ûn âg ynddi lawer o ddigwyddiadau cyffrous. Pennodwyd ef yn ficer Eglwys y Drindod, Caergrawnt, yn y flwyddyn yr ordeiniwyd ef, ac yn is athraw yn Ngholeg y Brenin, yn 1790; a pharhaodd i weinyddu y swyddau hyn hyd derfyn ei oes, yr hyn a gymmerodd le Tach. 13eg, 1836. Fel pregethwr, nodweddid ei bregethau gan ysbryd, syniad, ac iaith nodedig o efengylaidd; yn gymmaint felly fel y cyfodwyd gwrthwynebiad cryf iddo ar ddechreu ei weinidogaeth. Ond cyfarfu

Digitized by Google

ei onestrwydd a'i ddifrifwch â gwobr dda. Sicrhaodd iddo ei hun lawer o gyfeillion a dilynwyr; ac yn nghwrs amser, ymgasglodd cylch o ddylanwad efengylaidd o amgylch Simeon, a ymledodd dros ran fawr o faes yr Eglwys Sefydledig; ac a fu yn foddion, i raddau pell, i gyffroi ynddi ysbryd cenhadol. Hwyrach y gellir yn ddigon priodol edrych ar Simeon fel sylfaenydd y blaid *Isel-eglwysig*. Cyhoeddwyd ei bregethau o dan y teitl "*Horæ Homiletica*," yn 21ain o gyfrolau, 1832, ac y maent yn dra derbyniol a chymmeradwy gan ddynion o syniadau efengylaidd.

SIMEON NIGER: un o'r athrawon a'r prophwydi yn yr eglwys, yn Antiochia: *Act.* xiii. 1. Ni cheir un crybwylliad am ei enw mewn un lle arall. Yr oedd yr enw "Niger" yn un cyffredin yn mhlith y Rhufeiniaid; ac nid oes un sail i'r dybiaeth mai proselyt Affricanaidd ydoedd, a'i fod yn cael ei alw wrth yr enw ar gyfrif lliw ei groen. Dengys ei enw, Simeon, mai Iuddew ydoedd o genedl; ac fel mewn achosion cyffelyb (er enghraifft, Saul, Paul, Silas, Silvanus), fe allai ei fod wedi cymmeryd yr enw arall fel un mwy cyfleus yn ei ymdrafodaeth â dyeithriaid. Crybwyllir ei enw yn ail yn mhlith y pump oeddynt yn gweinyddu yn Antiochia; ac hwyrach y gallwn gasglu ei fod yn benaf o honynt o ran gweithgarwch a dylanwad. Y mae yn ammhossibl penderfynu pwy o honynt oedd yn brophwydi a phwy yn athrawon.

SIMMA: trydydd mab Iesse, a brawd Dafydd: 1 *Cron.* ii. 13.

SIMI: mab Gerson: *Exod.* vi. 17.

SIMIAID, Y: hiliogaeth Simi, mab Gerson: *Num.* iii. 21. Crybwyllir am danynt drachefn yn *Zech.* xii. 3.

SIMON: enw sydd yn digwydd yn fynych iawn yn hanes yr Iuddewon ar ol tymmor y caethgludiad Babilonaidd. Y mae yn ammheus pa un ai gan y Groegiaid y benthycwyd ef, yn mhlith pa rai nid oedd yn anghyffredin, neu ynte ai cwtogiad ydoedd o'r *Simeon* Hebraeg. Fod y ddau air yn cael eu hystyried yr un, a ymddengys oddi wrth 1 *Macc.* ii. 65. Hwyrach fod ychydig o gyfnewidiad wedi ei wneyd yn yr enw Hebraeg mewn trefn i'w wneyd yn un a'r enw Groeg.

1. SIMON: mab Mattathias.—*Macc.* § 4, p. 166 *b*.

2. SIMON: mab Onias yr archoffeiriad, molawd yr hwn sydd yn terfynu "clod y gwŷr enwog" yn *Llyfr Ecclesiasticus: pen.* xliv. Coleddir gwahanol syniadau o barth iddo. Y dyb gyffredin yw mai Simon II. ydoedd; ond barna Josephus mai Simon I. ydoedd; yr hwn, medd efe, oedd yr un a Simon y Cyfiawn.

3. SIMON: goruchwyliwr ar y deml yn amser Seleucus Philopator. Y wybodaeth a roddwyd ganddo am drysorau y deml a arweiniodd i ymgais cyssegr-ysbeilgar Heliodorus.—2 *Macc.* iii. 4, &c. Wedi i'r ymgais hwn fethu, trwy gyfryngiad yr archoffeiriad Onias, cyhuddodd Simon Onias o fradwriaeth (*pen.* iv. 1, 2), a chododd ymrysonfa waedlyd rhwng eu dwy blaid: *pen.* iv. 3. Appeliodd Onias at y brenin, ond ni wyddys beth fu y canlyniad, neu hanes diweddaf Simon. Coleddir cryn ammheuaeth o barth i natur y swydd a ddelid ganddo: 2 *Macc.* iii. 4. Rhoddir amrywiol ddeongliadau gan Grimm. Y mae y prif anhawsder yn gorwedd yn y ffaith fod yr hanesydd yn dweyd fod Simon o "lwyth Beniamin" (2 *Macc.* iii. 3), tra yr ymddengys fod "tywysog boreuaf tŷ Dduw" (1 *Cron.* ix. 11; 2 *Cron.* xxxi. 13; *Ier.* xxi. 1) bob amser yn offeiriad: a rhaid fod "cadben y deml" (*Luc* xxii. 4; *Act.* iv. 1; v. 24, 26), a "golygwr y trysorau" (1 *Cron.* xxvi. 24; 2 *Cron.* xxxi. 12), o leiaf yn Lefiaid. Tybia Herzfeld mai gwall ydyw *Beniamin* am *Miniamin*—penaeth teulu offeiriadol: *Neh.* xii. 5, 17. O blaid y golygiad hwn, gellir sylwi y dywedir fod Menelaus, yr archoffeiriad trawsfeddiannol, yn frawd i Simon [2 *Macc.* iv. 23], ac na hysbysir mewn un man nad oedd efe o haniad offeiriadol. Ar yr un pryd y mae y gwall, os ydyw yn hanfodi, wedi digwydd o flaen y testyn Groeg presennol, canys ni ellid defnyddio 'llwyth' (*phuli*) am 'deulu' (*oicos*). Bernir ei fod yn dal rhyw swydd mewn cyssylltiad â'r cyflenwad o aberthau; ac y mae yn debygol fod Simon wedi ei appwyntio i gario bwriad Seleucus allan, yr hwn, fel y dywedir yn y cyd-destyn, oedd wedi ymgymmeryd â thalu eu costau: 2 *Macc.* iii. 3. Yn yr amgylchiad hwn byddai llai o anhawsder i Beniaminiad weithredu fel goruchwyliwr brenin tramor, hyd yn oed mewn mater yn dal perthynas â gwasanaeth y deml.

4. SIMON, BRAWD YR IESU. Yr unig grybwylliad diammheuol am dano ef ydyw yr un sydd yn digwydd yn *Mat.* xiii. 55; *Marc* vi. 3; lle, mewn cyssylltiad âg Iago, Ioses, ac Iudas, yr enwir ef fel un o "frodyr" yr Iesu. Tybia rhai ysgrifenwyr mai yr un ydoedd a Simon y Canaanead; ac ereill, mai yr un ydoedd a Symeon, yr hwn a ddaeth yn esgob Ierusalem ar ol marwolaeth Iago, B. A. 62; a'r hwn a ddioddefodd ferthyrdod yn nheyrnasiad Trajan yn yr oedran mawr o 120 o flynyddoedd, yn y flwyddyn 107; neu, yn ol Burton, yn 104. Ni ellir cael un sail i'r cyntaf o'r ddau syniad, ac nid ydyw yr olaf heb ei anhawsderau. Canys yn mha ystyr bynag y derbynir y gair 'brawd,' y mae yn eglur nad oedd Eusebius, nac awdwr y llyfr a elwir "*Apostolical Constitutions*," yn deall fod Symeon yn frawd Iago, nac o ganlyniad yn "frawd yr Arglwydd." Y mae Eusebius bob amser yn disgrifio Iago fel "brawd" yr Iesu, ond Symeon fel mab Clopas, a chefnder yr Iesu; ac y mae yr un gwahaniaeth yn cael ei wneyd gan yr awdwr arall.

5. SIMON Y CANAANEAD: un o'r deuddeg apostol (*Mat.* x. 4; *Marc* iii. 18), a elwir hefyd Simon Zelotes, yn *Luc* vi. 15; *Act.* i. 13. Yr enw olaf (Zelotes), yr hwn sydd yn neillduol i Luc, ydyw y gair Groeg cyfystyr am y gair Caldaeg a gedwir gan Matthew a Marc (*Cananitis*, fel yn y testyn, neu *Cananaios*; a *Cananaeus* yn y "*Vulgate*," ac yn yr argraphiadau diweddar goreu). Y mae pob un o'r rhai hyn, fel eu gilydd, yn nodi Simon allan fel un oedd yn perthyn i blaid y Zelotiaid, y rhai oeddynt yn amlwg am eu hamddiffyniad ffyrnig i ddefodau Moses. Y mae wedi cael ei olygu yn fynych yr un a Simon brawd yr Iesu; ond y mae Eusebius yn gwahaniaethu yn eglur rhwng yr apostolion a pherthynasau yr Iesu. Y mae yn annhebycach fyth mai yr un ydoedd a Symeon, ail esgob Ierusalem, fel y dywedir gan Sophronius. Adroddir fod Simon y Canaanead, ar awdurdod ammheus y Pseudo Dorotheus a Nicephorus Callistus

Digitized by Google

wedi pregethu yn yr Aipht, Cyrene, a Mauritania, a'i fod ef hyd yn oed wedi myned i ynysoedd pellenig Prydain; ac ar awdurdod llawn mor ammheus, sef nodiad yn y copi gwreiddiol o'r "*Apostolical Constitutions*" [*pen.* viii. 27], ei fod ef wedi ei groeshoelio yn Iudea, yn nheyrnasiad Domitian.

6. SIMON O CYRENE: Iuddew Hellenistaidd, wedi ei eni yn Cyrene, ar lenydd gogleddol Affrica, yr hwn oedd yn bresennol yn Ierusalem yn amser croeshoeliad yr Iesu, un ai fel un oedd wedi dyfod i'r ŵyl (*Act.* ii. 10), neu fel un o'r lliaws ymsefydlwyr yn Ierusalem o'r lle hwnw: *Act.* vi. 9. Pan ddaeth efe wrth ddychwelyd o'r wlad i gyfarfod yr orymdaith oedd yn arwain yr Iesu i Golgotha, gwasgwyd ef i'r gwasanaeth i ddwyn y groes (*Mat.* xxvii. 32; *Marc* xv. 21; *Luc* xxiii. 26) pan yr oedd efe ei hun yn analluog i'w dwyn yn hwy: *Ioan* xix. 17. Y mae Marc yn ei ddisgrifio ef fel tad Alexander a Ruffus; o herwydd mai hwn oedd Ruffus oedd yn adnabyddus i Gristionogion Rhufain (*Rhuf.* xvi. 13), i ba rai yn fwy arbenig yr ysgrifenai efe. Y mae yn sicr fod ei ddau fab hyn yn ddysgyblion i Grist; ac hwyrach mai gwybodaeth o'r ffaith hon a barodd i'r Iuddewon annog y milwyr i roddi y groes iddo ef i'w chario. Ymddengys fod teulu Simon wedi preswylio ar ol hyny yn Rhufain; canys y mae Paul yn ei epistol at yr eglwys yno yn anerch gwraig Simon gyda thynerwch a pharch, gan ei galw yn 'fam' iddo, er nad ydyw yn ei henwi hi yn bendant: "Anerchwch Ruffus etholedig yn yr Arglwydd, a'i fam ef a minnau;" *Rhuf.* xvi. 13.

7. SIMON Y GWAHANGLWYFUS: un oedd yn preswylio yn Bethania, a wahaniaethid fel "y gwahanglwyfus"—nid o herwydd ei fod yn wahanglwyfus ar y pryd pan y crybwyllir am dano, ond ar ryw amser blaenorol. Nid ydyw yn annhebygol nad oedd efe wedi cael ei iachau yn wyrthiol gan Grist. Yn ei dŷ ef yr eneiniodd Mair yr Iesu erbyn ei farwolaeth a'i gladdedigaeth: *Mat.* xxvi. 6, &c.; *Marc* xiv. 3, &c.; *Ioan* xii. 1, &c. Yr oedd Lazarus hefyd yn bresennol fel un o'r gwahoddedigion, tra yr oedd Martha yn gwasanaethu (xii. 2). Y mae presennoldeb y brawd a'i ddwy chwaer, ynghyd â'r rhan weithredol a gymmerodd yr olaf yn y gweithrediadau, yn rhoddi lle i ni i gasglu fod Simon yn perthyn iddynt: ond nid oes un prawf o hyn, ac nis gallwn goelio yr adroddiad mai efe oedd eu tad, fel yr adroddir ar awdurdod apocryphaidd gan Nicephorus; a llai fyth y gallwn goelio yr adroddiad mai efe oedd gŵr Mair. Y mae yn rhaid peidio camgymmeryd Simon y gwahanglwyfus am Simon y Phariseaid a grybwyllir yn *Luc* vii. 40.

8. SIMON MAGUS: Samariad yn byw yn yr oes apostolaidd, a elwid wrth yr enw "swynwr" oddi wrth y ffaith ei fod yn arfer swynyddiaeth: *Act.* viii. 9. Y mae ei hanes yn un hynod. Ganed ef yn Gitton, pentref yn Samaria, ger *Nâbulus*; ei enw diweddar ydyw *Kuryet Jit*. Y mae yn debygol iddo dderbyn ei addysg yn Alexandria, ac yno daeth yn gydnabyddus âg egwyddorion y Gnosticiaid. Y pryd hwnw, neu wedi hyny, bu dan addysg Dositheus, yr hwn a'i blaenorodd ef fel athraw Gnosticiaeth yn Samaria, a'r hwn a wthiodd efe allan gyda chymmhorth Cleobius. Cyflwynir ef i'n sylw gyntaf yn y Beibl fel un yn arfer swynyddiaeth yn un o ddinasoedd Samaria—Sichar hwyrach (*Act.* viii. 5; gwel *Ioan* iv. 5)—a chyda'r fath lwyddiant fel y dywedwyd am dano, "Mawr allu Duw yw hwn;" *Act.* viii. 10. Gan fod pregethau a gwyrthiau Philip wedi tynu ei sylw, daeth yn un o'i ddysgyblion, a bedyddiwyd ef ganddo. Wedi hyny efe a welodd yr effaith a gynnyrchwyd gan arddodiad dwylaw, fel y dilynid ef gan yr apostolion Pedr ac Ioan; a chan ei fod yn awyddus i gael awdurdod tebyg iddo ei hun, efe a gynnygiodd swm o arian am dani. Y mae yn amlwg mai ei amcan oedd cymmhwyso yr awdurdod at ei alwedigaeth fel swynwr. Yr oedd ei ddyben a'r moddion yn ddrwg; a cheryddwyd ef yn llym gan Pedr—yr hyn a ddilynwyd gan erfyniad ar ran Simon, rhediad yr hwn sydd yn arddangos dychryn, ond nid edifeirwch: *Act.* viii. 9—24. Y mae y coffadwriaeth am ei euogrwydd neillduol wedi ei gadw hyd heddyw trwy y gair *Simoniaeth*, fel y cymmhwysir ef at y fasnach mewn bywoliaethau eglwysig. Y mae cryn anhawsderau ynglŷn â hanes Simon, wedi iddo gyfarfod Pedr. Disgrifir ef gan haneswyr eglwysig boreuol fel gelyn ffyrnig i'r apostol Pedr, symmudiadau yr hwn a ddilynodd efe i'r dyben o'i wrthwynebu—yn yr hyn y methodd yn hollol. Yn ei deithiau dilynid ef gan ferch o'r enw Helena; yr hon oedd wedi bod yn flaenorol yn butain yn Tyrus, ond a ddyrchafwyd yn awr i'r sefyllfa o hysbysydd dwyfol. Cymmerodd ei ddadl gyntaf â Phedr le yn Cesarea Stratonis, o ba le y canlynodd yr apostol i Rufain. Nid ydyw Eusebius yn gwneyd un crybwylliad am y ddadl gyntaf hon; ond dywed fod Simon wedi cymmeryd taith i Rufain yn ddioed ar ol y cyfarfod a gofnodir yn yr Ysgrythyr; ond y mae yn amlwg fod ei adroddiadau amseriadol yn gymmysglyd iawn; canys yn yr un bennod dywed fod y cyfarfod rhwng y ddau yn Rhufain wedi digwydd yn nheyrnasiad Claudius—deng mlynedd ar ol y digwyddiadau yn Samaria. Dywed Justin Ferthyr, gyda mwy o gyssondeb, fod Simon wedi ymweled â Rhufain yn nheyrnasiad Claudius; ond nid yw yn gwneyd un crybwylliad am ddadl gyda Phedr. Bu mor lwyddiannus yno fel y gwnaed ef yn dduw, a chodwyd cofadail er ei anrhydedd, gyda'r arysgrifen, "I Simon, y Duw sanctaidd." Nid ellir cyssoni yr adroddiadau uchod ond yn unig trwy gymmeryd yn ganiataol fod Simon wedi gwneyd dwy daith i Rufain—y gyntaf yn nheyrnasiad Claudius; a'r ail, yn yr hon y cymmerodd dadl le rhyngddo a Phedr, yn nheyrnasiad Nero, o ddeutu y flwyddyn 68: ac y mae hyd yn oed hyn yn cymmeryd yn ganiataol yr hyn sydd yn anghywir—i Pedr ymweled â Rhufain. Gwel PEDR. Cyssylltir ei farwolaeth â'r cyfarfod dan sylw. Yn ol Hippolytus, yr awdurdod boreuaf ar y pwngc, claddwyd Simon yn fyw ar ei gais ei hun, gan gredu yn sicr yr adgyfodai drachefn y trydydd dydd. Yn ol hanes arall, gwnaeth ymgais i ehedeg, fel prawf o'i allu goruwch-naturiol: mewn attebiad i weddïau Pedr, efe a syrthiodd ac a dorodd ei forddwyd, ac esgyrn ei ffêr; wedi ei lethu gan ofid, efe a gyflawnodd hunanladdiad. Yr oedd ei ganlynwyr yn lliosog, ac yn ymranedig i amryw sectau. Addolid Simon ei hun gan y Samariaid ar ol ei farwolaeth.

9. SIMON PEDR. Gwel PEDR.

10. SIMON: Pharisead, yn nhŷ yr hwn y darfu i ferch edifeiriol eneinio pen a thraed yr Iesu: *Luc* vii. 40.

11. SIMON Y BARCER: un o'r dychweledigion Cristionogol oedd yn byw yn Ioppa, yn nhŷ yr hwn yr oedd Pedr yn llettya: *Act.* ix. 43.

Digitized by Google

Edrychid ar yr alwedigaeth o farcer gyda chryn ddirmyg, ac hyd yn oed fel yn nesau at aflendid, gan yr Iuddewon manwl. Dengys y ffaith fod Pedr wedi dewis y fath breswylfod ei fod wedi llwyr golli ei ymlyniad wrth Iuddewiaeth. Yr oedd y tŷ wrth lan y môr (*Act.* x. 6, 32), er mwyn cael dwfr yn gyfleus.

12. SIMON: tad Iudas Iscariot: *Ioan* vi. 71; xiii. 2, 6.

SIMON MACCABEUS. Gwel o dan y gair MACCABEAID, Y.

SIMONIAETH: yn nghyfraith Lloegr, ydyw prynu a gwerthu urddau sanctaidd, neu unrhyw fywoliaeth, swydd, neu ddyrchafiad eglwysig. Y mae yr enw yn tarddu oddi wrth y tebygolrwydd sydd rhwng y trosedd a phechod Simon Magus. Yn y gyfraith ganonaidd, ystyrid ef yn drosedd gwarthus, ac yn fath o heresi. Modd bynag, gan nad ystyrid y gospedigaeth ganonaidd yn ddigon, pasiwyd cyfraith, yn amser Elizabeth, yn pennodi y gospedigaeth am dano. Cyhoeddwyd fod cyflwyniad Simonaidd i fywoliaeth yn hollol ddirym, a bod y person a roddai neu a dderbyniai y rhodd yn fforffetu cymmaint ddwywaith a gwerth y fywoliaeth am un flwyddyn; a bod y person a dderbyniai y fywoliaeth i gael ei anghymmhwyso am byth rhag dal yr unrhyw fywoliaeth. Modd bynag, nid ydyw ysgrifrwymau cyflwyniad wedi eu cymmeryd gan noddwr oddi ar y cyflwynedig i roddi y fywoliaeth i fyny mewn amser dyfodol yn ffafr rhywun a enwir gan y noddwr, yn anghyfreithlawn, os bydd y neb a enwir, un ai trwy waed neu briodas, yn ewythr, mab, ŵyr, brawd, nai, neu hen nai i'r noddwr, ac os bydd yr ysgrifrwym wedi ei chofrestru yn yr esgobaeth fel y gallo y cyhoedd wneyd ymchwiliad iddi. Y canlyniad o'r cyfreithiau yw hyn—nad ydyw yn Simoniaeth i lëygwr neu glerigwr, os na bydd yn prynu iddo ei hun, i brynu tra y bydd yr eglwys yn llawn, un ai bywoliaeth, neu y cyflwyniad nesaf i fywoliaeth, pa mor agos bynag fydd y rhagolwg am iddi fyned yn wâg—oddi eithr fod y gwagle hwnw i gael ei achlysuro gan ryw gyttundeb neu drefniant rhwng y pleidiau. Ac nid ydyw yn Simoniaeth i glerigwr brynu bywoliaeth iddo ei hun dan amgylchiadau cyffelyb. Modd bynag, y mae yn Simoniaeth i unrhyw berson brynu y cyflwyniad nesaf tra y bydd yr eglwys yn wâg; ac y mae yn Simoniaeth i glerigwr brynu iddo ei hun y cyflwyniad nesaf, er fod yr eglwys yn llawn.

SIMONIAID, neu ddilynwyr un o'r enw St. Simon. Sect anffyddol ei daliadau a ffurfiwyd yn Paris, egwyddor sylfaenol yr hon ydoedd, mai peth i berffeithio sefyllfa gymdeithasol dyn ydyw crefydd; gan hyny, dadleuent nad ydyw Cristionogaeth yn gymmhwys ar gyfer anghenion cymdeithas, o herwydd ei bod yn gwahanu Cristionogion oddi wrth bobl ereill, ac yn eu harwain i fyw ar gyfer byd arall. Y maent yn ymwrthod â pha beth bynag a dybir ganddynt sydd wedi deilliaw o athroniaeth ddwyreiniol; ac nid ydynt yn ystyried y Duwdod yn ysbryd na defnydd, ond fel yn cynnwys yr holl fydysawd; ac o ganlyniad, y mae yn eglur eu bod yn oll-dduwiaid (*Pantheists*). Nid ydynt yn edrych ar ddrwg ond fel arwydd o'r cynnydd y mae yn rhaid i ddynolryw ei wneuthur mewn trefn i fod yn rhydd oddi wrtho. Y maent yn dal nad ydyw drwg ynddo ei hun yn ddim. Y mae y rhai a goleddant y golygiadau hyn i'w cael yn benaf yn mysg dosbarthiadau o radd uchel. Buont ar un adeg yn cydgyfarfod yn rhai o'r neuaddau mwyaf ardderchog yn Paris, a deuai lliaws mawr o honynt ynghyd at eu gilydd. Yr hyn sydd yn hynod yn ei berthynas â'r Simoniaid yw, nad oeddynt ar y cyntaf yn ddim amgen nag athronwyr, ac nid sylfaenwyr crefydd. Sonient lawer am wyddoniaeth, a diwydrwydd, a llafur; ond dim yn mron am athrawiaethau crefyddol. Ond yn ddisymmwth troisant eu meddyliau at bethau crefyddol. Yna daeth eu hysgol yn fath o eglwys, a'u cymdeithas yn sect. Y mae yn amlwg nad oeddynt yn wreiddiol yn meddwl i grefydd fod yn amcan eu sefydliad, ond y mae wedi bod yn foddion i ddwyn llawer i wrando arnynt yn dadleu eu hegwyddorion.

SIMONIDES: bardd telynol Groegaidd enwog, brodor o Iulis, yn ynys Ceos. Ganwyd ef ynghylch y flwyddyn 556 c. c. Addysgwyd ef, dybygid, gyda'r amcan iddo wneyd barddoniaeth a cherddoriaeth yn alwedigaeth. Gadawodd ei ynys enedigol ar wahoddiad Hipparchus; yr hwn, trwy wobrwyon, a'i denodd ef i fyw i Athen—lle hefyd y trigai yr un pryd ag Anacreon a Lasus, er nad ymddengys fod cyfeillgarwch neillduol yn ffynu rhwng Simonides a'i gydymgeiswyr. Ar ol llofruddiad Hipparchus, aeth Simonides i Thessaly: pa hyd yr arosodd yno, ni wyddys. Ond ar ol brwydr Marathon (c. c. 499) yr ydym yn ei gael yn Athen eilwaith. Am y deng mlynedd dilynol ymddengys iddo drigo yn benaf yn Athen, a'i fod yn ddiwyd yn cyfansoddi barddoniaeth. Ar ol alltudio Themistocles a marw Pausanias, â'r rhai yr oedd yn dra chyfeillgar, efe a ymneillduodd i lys Hieron i Syracuse, lle y bu yntau hefyd farw, c. c. 467, yn y 90ain mlwydd o'i oedran.

Y mae y rhan fwyaf o ganeuon Simonides wedi myned ar goll; ond y mae digon wedi eu trosglwyddo i lawr i'n cynnorthwyo i ffurfio barn am dano fel bardd, ac i gyfiawnhau y ganmoliaeth a roddai yr hynafiaid iddo. Yr oedd yn un o'r beirdd mwyaf llwyddiannus yn ei farwnadau, ac yn rhagori yn y toddedig a'r teimladwy. Mynegir iddo ragori ar Æschylus yn y gân goffadwriaethol am y rhai a gwympasant yn mrwydr Marathon, yr hon a ysgrifenwyd ganddo pan oedd dros bedwar ugain mlwydd oed. Ond yr hyn y rhagorai yn benaf ynddo ydoedd mewn gwneyd pennillion (*epigrams*). Dygodd hyn i fwy o berffeithrwydd na neb o'i ragflaenoriaid. Nodweddau ei farddoniaeth ydyw melusder, teimlad gwirioneddol, a gallu mawr i amlygu ei feddwl. Yr oedd, fe allai, yn israddol i'w gydoesydd, Pindar, mewn gwreiddiolder.

SIMPSON, DAVID: awdwr poblogaidd y llyfr a elwir "*A Plea for Religion and the Sacred Writings*," o ba un y mae llawer o argraphiadau wedi dyfod allan o'r wasg yn yr iaith Saesnig. Ganwyd ef yn mhlwyf Ingleby Arncliffe, ger Northallerton, yn swydd Gaerefrog, Hydref 12fed, 1745. Amaethwr cyfrifol oedd ei dad; ac o blegid mai gwrthddrych y byr-gofiant hwn oedd ei unig fab, bwriadai iddo fod o'r un alwedigaeth ag ef ei hun. Derbyniodd ei addysg foreuol yn ysgol rammadegol Scorton, gan ŵr o'r enw Mr. Noble; ond gan ei fod wedi gwneyd ei feddwl i fyny i fyned i'r weinidogaeth, efe a

Digitized by Google

berswadiodd ei dad i'w ddanfon i brifysgol Caergrawnt, ac aeth i Goleg St. Ioan, a dilynodd ei efrydiau yno am dair blynedd. Tra y bu yn Nghaergrawnt, efe a ffurfiodd gyfeillgarwch gyda'r enwog Robert Robinson, gweinidog y Bedyddwyr yn y dref; dyn a gymmerai hyfrydwch mawr i'w wneyd ei hun yn ddefnyddiol i ddynion ieuaingc o dduwioldeb a thalent, oedd â'u golwg ar y weinidogaeth. Bu Simpson yn gurad yn olynol yn Ramsden, Buckingham, a Macclesfield; ond darfu i esgob Caer roddi gwaharddiad iddo i bregethu yn y lle diweddaf. Yr oedd Simpson, pa fodd bynag, wedi casglu llawer o gyfeillion calonog o'i amgylch; ac mewn ychydig amser adeiladwyd iddo eglwys hardd, yr hon a gyssegrwyd, ac yn yr hon y llafuriodd efe gyda sel ac ymroddiad, ac y bu yn dra defnyddiol. Yn y lle hwn y parhaodd efe i lafurio hyd derfyn ei oes, yr hon a ddaeth i ben Mawrth 20fed, 1799, pan oedd yn bedair ar ddeg a deugain mlwydd oed, a phan oedd yn mron ar ymadael â chymmundeb yr Eglwys Sefydledig.

Ei gynnyrchion llenyddol ydynt: "*Seven Sermons on different Subjects;*" "*Sacred Literature;*" "*Essay on the Authenticity of the New Testament;*" "*A Key to the Prophecies;*" "*A Plea for the Deity of Jesus Christ, and the Doctrine of the Trinity.*" Ond y mwyaf poblogaidd o'i holl weithiau ydyw ei "*Plea for Religion,*" &c. Y mae y gwaith hwn wedi ei gyfeirio at ddysgyblion Thomas Paine, a Christionogion anwadal a hannerog o bob plaid; ac y mae yn cynnwys llawer o wybodaeth ar byngciau tra phwysig a dyddorol.

SIMOOM: enw wedi tarddu oddi wrth y gair Arabaeg *Samma:* arwydda poeth, gwenwynig, neu yn gyffredinol yr hyn sydd yn annymunol neu beryglus, ac yn cael ei gymmhwyso at y gwyntoedd poethion taglyd, y rhai sydd yn neillduol i anialwch tywodlyd Affrica ac Asia Orllewinol. Yn yr Aipht, gelwir ef *chamsin* (Arabaeg, deg a deugain), o herwydd ei fod yn gyffredinol yn parhau i chwythu am ddeg diwrnod a deugain—o ddiwedd Ebrill hyd amser gorlifiad y Nilus.

O herwydd nerth mawr pelydrau yr haul, sychder anghyffredin yr awyr, a'r ffaith fod y tywod yn pentyru gwres ar y wyneb, y mae yr haenau o dywod sydd ar wyneb y ddaear yn anialdiroedd Affrica ac Arabia yn fynych yn poethi i 200° F. i ddyfnder o amryw droedfeddi. Y mae yr awyr sydd yn gorphwys ar y tywod poeth hyn yn poethi yn ddirfawr, ac felly yn peri i ffrydiau o awyr ymgodi; o ganlyniad, y mae awyr yn rhedeg tua'r lleoedd poeth hyny o bob ochr, ac wrth i'r gwahanol ffrydiau hyn ymgyfarfod, y mae trowynt yn cael ei ffurfio, yr hwn a ysgubir yn mlaen gan y gwynt fydd yn ffynu ar y pryd. Gan fod y tymmheredd, yn uchel yn wreiddiol, yn cael ei godi yn mhellach fyth gan y gronynau poeth o dywod â pha rai y mae yr awyr yn llwythog, y mae yn cynnyddu yn gyflym i radd annioddefol yn mron. Sylwyd gan Burckhardt yn 1813 ei fod wedi ymgodi i 122° yn y cysgod; a chan lysgenhadwr Prydain yn Abyssinia, yn 1841, ei fod wedi ymgodi i 126°. I sychder crasboeth y gwynt hwn, ei boethias (o ddeutu 200°), a'i lwch taglyd, ac nid i unrhyw ansoddau gwenwynig sydd ynddo, y mae ei effeithiau dinystriol ar fywyd anifeilaidd i'w priodoli.

Dynodir dynesiant y Simoom, yn gyntaf gan niwl teneu ar hyd y terfyngylch, yr hwn sydd yn cyflym fyned yn dewach, ac yn ymledu yn fuan dros yr holl ffurfafen. Y mae pyffiau ffyrnig o wynt yn dilyn, yn cael eu canlyn gan gymmylau o dywod coch a phoeth, y rhai yn fynych a ymddangosant fel colofnau aruthrol o lwch yn teithio yn mlaen; a throsglwyddir symiau mawr o dywod o le i le gan nerth arswydus y dymmestl. Mynych y dinystrir minteioedd mawrion o deithwyr gan y tywod hyn; ac y mae hyd yn oed byddinoedd mawrion wedi eu gorchuddio ganddynt, fel yn amgylchiad Cambyses, yr hwn a oddiweddwyd gan y Simoom ar ei daith trwy'r anialwch, i ysbeilio teml Jupiter Ammon, ac a drengodd gyda 50,000 o'i filwyr. Tybir mai gan Simoom y dinystriwyd byddin Senacherib. Y mae y Simoom yn gyffredin yn parhau o chwech i ddeuddeg awr, ond weithiau am dymmor hwy.

Teimlir effeithiau y gwynt hwn yn y parthau cymmydogaethol, lle yr adnabyddir ef dan wahanol enwau; ac y mae yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau pwysig mewn canlyniad i natur gwyneb y ddaear, dros yr hwn y mae yn pasio. Yn Italy, gelwir ef y *sirocco,* yr hwn sydd yn chwythu yn achlysurol dros Sicily, deheubarth Italy, a'r dosbarthiadau cyfagos. Gwynt poeth llaith ydyw, yn derbyn ei boethder o'r Sahara, ac yn cael ei leithder yn ei daith tua'r gogledd dros Fôr y Canoldir. Efe ydyw pla y ddwy Sicily; a thra y pery, tywyllir yr awyrgylch gan niwl; ac mor fawr yw y lludded a achlysurir ganddo, fel y bydd holl drigolion Palermo yn ffoi gyda'r brys mwyaf o'r heolydd i'w tai. Bydd y Sirocco weithiau yn ymestyn at lenydd y Môr Du a'r Môr Caspiaidd; ac o dan ei gyffyrddiad difaol bydd defaid a gwartheg yn meirw yn yr ucheldiroedd tu hwnt i'r Volga, a llysiau yn gwywo ac yn sychu i fyny. Gelwir ef *Samiel* yn Twrci,'oddi wrth ei ansoddau niweidiol. Y *Solano* o Yspaen sydd wynt de-ddwyrain, poeth iawn, a llwythog o fân lwch, yr hwn sydd yn ffynu ar rai tymmorau yn ngwastattiroedd Mancha ac Andalusia, yn enwedig yn Seville a Cadiz. Y mae yn cynnyrchu pensyfrdandod, ac yn poethi y gwaed i radd anarferol, gan achosi anesmwythder cyffredinol a chythrudd. Oddi wrth hyn y cododd y ddiareb Yspaenaidd: "Na ofynwch am un ffafr yn ystod y Solano." I'r un dosbarth o wyntoedd y perthyna yr *Harmattân* o Guinea a Senegambia.

SIMRATH: Beniaminiad, o feibion Simhi: 1 *Cron.* viii. 21.

1. SIMRI: Simeoniad, mab Semaiah: 1 *Cron.* iv. 37.

2. SIMRI: tad Iediael, un o wylwyr Dafydd: 1 *Cron.* xi. 45.

3. SIMRI: Lefiad Cohathaidd, yn nheyrnasiad Hezecïah, o feibion Elizaphan: 2 *Cron.* xxix. 13. Efe a gynnorthwyodd yn y gorchwyl o buro y deml.

4. SIMRI: mab Hosah, Lefiad Meraraidd, yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxvi. 10. Er nad efe oedd y cyntafanedig, gwnaeth ei dad ef yn ben teulu.

SIMRITH: Moabees, mam Iehozabad, un o lofruddion y brenin Ioas: 2 *Cron.* xxiv. 26. Yn 2 *Bren.* xii. 21, gelwir hi SOMER.

SIMRON: mab Issachar: 1 *Cron.* vii. 1.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

2. SIMRON: dinas yn rhandir Zabulon: *Ios.* xix. 15. Enwir hi yn flaenorol yn rhestr y lleoedd, brenhinoedd y rhai a alwyd gan Iabin, brenin Hazor, i'w gynnorthwyo ef yn erbyn Iosuah: *pen.* xi. 1. Tybir ei bod yn gorwedd ychydig filldiroedd i'r gorllewin o Nazareth.

SIMRONIAID, Y: teulu Simron, mab Issachar: *Num.* xxvi. 24.

SIMRON-MERON. Crybwyllir am frenin Simron-meron fel un o'r un brenin ar ddeg ar hugain a orchfygwyd gan Iosuah: *Ios.* xii. 20. Y mae yn debygol, er nad yn sicr, mai enw cyflawn y lle a elwir mewn lle arall yn SIMRON ydyw. Rhoddir ar ddeall fod y ddau yn agos i Achsaph: *Ios.* xi. 1; xii. 20. Dywed yr hen deithiwr Iuddewaidd, hap-Parchi, ei bod yn gorwedd ddwy awr o du y dwyrain i Engannim (*Jenin*), o du y deheu i fynyddoedd Gilboa, ac mai enw y pentref yn ei amser ef oedd *Dar Meron.* Dywed ereill mai yr un ydyw a phentref *Simuniyeh*, o du y gorllewin i Nazareth, yr hwn, medd y "*Talmud*," ydyw yr un a Simron. Nid ydyw yn ymddangos fod un teithiwr diweddar wedi archwilio y dosbarth hwnw; ac o ganlyniad y mae y lle yn wâg ar y mapiau.

SIMSAI: ysgrifenydd Rehum, yr hwn oedd yn fath o raglaw ar dalaeth orchfygedig Iudea, a threfedigaeth Samaria, a gefnogid gan lys Persia: *Ezra* iv. 8, 9, 17, 23. Ymddengys mai Aramead ydoedd; canys yr oedd y llythyr a ysgrifenodd efe at Artaxerxes yn Syriaeg (*Ezra* iv. 7), ac y mae ffurf ei enw yn ffafriol i'r dybiaeth hon. Yn 1 *Esdr.* ii., gelwir ef *Semelius*, a chan Josephus *Semelios.* Yr oedd y Samariaid yn eiddigus o ddychweliad yr Iuddewon; ac am amser maith ffurfiasant fradwriaeth yn eu herbyn hwynt, ond yn aflwyddiannus. Modd bynag, ymddengys ddarfod iddynt o'r diwedd greu rhagfarn yn meddyliau y swyddogion brenhinol yn eu herbyn; ac wedi llwyddo i'w darbwyllo i anfon llythyr at y brenin yn gosod allan gymmeriad terfysglyd yr Iuddewon a natur beryglus eu hanturiaeth, yr hyn a effeithiodd i beri i'r gwaith o ail adeiladu y deml gael ei attal dros amser.

SIN: un o ddinasoedd yr Aipht, a grybwyllir yn unig gan Ezeciel: *pen.* xxx. 15, 16. Hebraeg, neu o leiaf Semitaidd, ydyw yr enw hwn. Tybia Gesenius ei fod yn arwyddo 'clai.' Yn ol y "*Vulgate*," yr un ydyw a Pelusium—y dref gleiog, neu leidiog; ac y mae ystyr ei henw presennol yn cadarnhau ei gywirdeb. Nid ydym hyd yma yn gwybod yn sicr yn mha le y safai Pelusium. Ond pa le bynag y safai, yr oedd yn ddyledus am ei nerth, nid i unrhyw uchder, ond i'r ffaith ei bod yn gorwedd yn nghanol gwastadedd o dir corsiog a lleidiog, yr hwn nid ydyw byth yn hawdd i'w deithio. Nid ydyw safleoedd trefydd cyntefig yr Aipht yn y cyfryw leoedd yn gyffredin wedi eu dewis ond yn unig fel y byddent yn ddigon uchel rhag cael eu niweidio gan y llifddyfroedd.

Gellir casglu oddi wrth y crybwylliad am "anialwch Sin" yn nheithiau yr Israeliaid (*Exod.* xvi. 1; *Num.* xxxiii. 11) y rhaid fod tref Sin yn hen iawn. Y mae yn hynod, modd bynag, nad aeth yr Israeliaid yn ddioed i'r dosbarth hwn ar ol gadael y rhan ddiwylliedig o'r Aipht; ac felly tybir y gall fod o fewn gorynys Sinai; ac am hyny dichon ei fod wedi cymmeryd ei enw oddi wrth rhyw le neu wlad arall heb law Sin yr Aipht. Gwel SIN, ANIALWCH.

Crybwyllir am Pelusium gan Ezeciel, yn un o'r prophwydoliaethau perthynol i ymosodiad Nebuchodonosor ar yr Aipht, fel un o'r dinasoedd a ddioddefent drallodion y pryd hwnw, gyda chyfeiriad, y mae yn debygol, at eu hanesiaeth ddiweddarach. Y lleill y siaredir am danynt ydynt Noph (Memphis), Soan (Tanis), No (Thebes), Afen (Heliopolis), Pi-beseth (Bubastis), a Tehaphnehes (Daphnæ). Yr oedd y rhai hyn oll, oddi eithr y ddwy hen brifddinas, Thebes a Memphis, yn gorwedd ar neu yn agos i'r terfyn dwyreiniol; ac yn y fynedfa i Memphis, o'r braidd y gallai ymosodwr fyned yn mlaen, ar ol cymmeryd Pelusium a Daphnæ, heb gymmeryd Tanis, Bubastis, a Heliopolis. Yn yr hen amseroedd, ymddengys fod Tanis, fel Pelusium ar ol hyny, yn agoriad i'r Aipht o du y dwyrain. Yr oedd Bubastis yn sefyllfa bwysig o herwydd ei hargloddiau uchel, a Heliopolis o herwydd ei bod yn diogelu y fynedfa i Memphis. Y mae y prophwyd yn siarad am Sin fel "Sin, cryfder yr Aipht;" *adn.* 15. Cadwodd feddiant o'r lle o'r amser hwnw hyd dymmor y Rhufeiniaid. Dywed Herodotus fod Senacherib wedi myned yn mlaen yn erbyn Pelusium, ac mai yn agos i'r lle hwnw y gorchfygodd Cambyses Psammenitus. Yn yr un modd, yn agos i'r ddinas hon yr ymladdwyd y frwydr benderfynol yn mha un y darfu i Ochus orchfygu y brenin brodorol diweddaf, sef Nect-anebos, NECH-TNEBF. Y mae yn deilwng o sylw, hwyrach, fod y prophwyd Ezeciel wedi crybwyll Pelusium ddwywaith yn y brophwydoliaeth; yr hon sydd yn cynnwys y frawddeg a gyflawnwyd mor nodedig: "Ni bydd tywysog mwyach o dir yr Aipht;" *adn.* 13. Fel yr oedd efe yn rhagweled y gyfres hir o drallodion oeddynt i ddisgyn ar y wlad, gallasai Pelusium ymddangos iddo fel prif le ei helbulon olynol. Gall dau orchfygiad Persiaidd, a dau ymostyngiad i ddyeithriaid—yn gyntaf i Alexander, yna i Augustus—brofi y trueni arbenig a ragfynegwyd am y ddinas hon:—"Gan ofidio y gofidia Sin;" *adn.* 16.

SIN, ANIALWCH: enw darn o'r anialwch y cyrhaeddodd yr Israeliaid iddo ar ol gadael y gwersyll wrth y Môr Coch: *Num.* xxxiii. 11, 12. Eu gorphwysfa nesaf (*Exod.* xvi. 1; xvii. 1) oedd Rephidim—*Wady Feirân*, y mae yn debygol; ac os yw y dybiaeth hon yn gywir, rhaid fod Sin yn gorwedd rhwng y nant hono a glenydd Culfor Suez, ac wrth gwrs o du y gorllewin i Sinai. Gan eu bod erbyn hyn wedi myned dros fis o'r Aipht, rhaid fod y lle yn rhy bell tua'r de-ddwyrain i dderbyn ei enw oddi wrth y Sin Aiphtaidd: *Exod.* xxx. 15. Yn anialwch Sin y casglwyd y manna gyntaf.

SINAI: y mynydd ar yr hwn y rhoddodd Duw i Moses y deg gorchymyn a'r cyfreithiau ereill yr oedd yr Israeliaid yn rhwym o'u cadw. Y mae ei sefyllfa fanwl yn bwngc o ddadl yn mysg teithwyr; ond dylid chwilio am dano yn y twr mynyddoedd ithfeinig a myldaraidd sydd yn meddiannu y rhan fwyaf o orynys Arabia, yn gorwedd rhwng Morgaingc Suez ac Acabah, yn yn ymgodi i uchder o 8,000 neu 9,000 o droedfeddi uwch law y môr. Rhenir y twr mynyddig hwn yn dri swp: sef, swp y gogledd-orllewin, yn

Digitized by Google

cyrhaedd, yn Mynydd *Serbal*, i uchder o 6,340 o droedfeddi; y swp dwyreiniol a chanolbarthol yn cyrhaedd, yn *Jebel Catherin*, i uchder o 8,160 o droedfeddi; a'r swp de-ddwyreiniol, crib uchaf yr hwn, sef *Um Shaumer*, ydyw yr uchaf o holl res mynyddoedd Sinai, sef 9,000 o droedfeddi.

Cyn ystyried pa un o'r tri swp hyn ydyw Mynydd Sinai y Beibl, y mae yn angenrheidiol i ni sylwi ar y berthynas sydd rhwng yr enwau *Horeb* a *Sinai*. Y mae yr enw olaf yn digwydd gyntaf fel enw terfyn anialwch Sinai ar yr ochr bellaf o'r Aipht (*Exod.* xvi. 1); a thrachefn (*pen.* xix. 1, 2) fel "anialwch Sinai," cyn siarad am Fynydd Sinai, fel yr ydym yn cael yn *adn.* 11, yn fuan ar ol hyny. Ond y mae yr enw *Horeb*, yn y cerydd a roddwyd gan Dduw i'r bobl am eu pechod yn gwneyd y llo aur, yn cael ei ddwyn i mewn drachefn i'r adroddiad Sinaidd (*Exod.* xxxiii. 6), wedi iddo yn flaenorol gael ei ddefnyddio yn ddiweddar iawn yn hanes y grwgnach yn Rephidim (*Exod.* xvii. 6; "Mi a safaf o'th flaen yno ar y graig yn Horeb"), ac yn foreuach fel enw y man lle yr ymddangosodd Duw yn y "berth yn llosgi;" *Exod.* iii. 1. Yn awr, gan ei fod yn ymddangos mai anialwch o ddeutu un deithran o'r lle y gwersyllodd Israel ar gyfer y mynydd ("*Sinai*," *Exod.* xix. 2) oedd Rephidim, nid hawdd ydyw deall pa fodd yr ydym yn cael Horeb yn Rephidim, fel y llanerch bennodol y bu ymdrafodaeth â Duw ynddi (felly, mae y ddadl dros fod Horeb yn enw cyffredinol a Sinai yn enw neillduol, wedi ei dinystrio), a Horeb hefyd yn y dosbarth Sinaidd, gair ymddangosiadol cyfystyr â'r mynydd, yr hwn, gan y dywedir mai yno y digwyddodd yr olygfa a gofnodir yn yr hanes, oedd wedi ei alw yn Sinai. Y mae Lepsius yn cyfarfod yr anhawsder trwy ddywedyd mai *Serbâl* ydyw Sinai; ond y mae gwrthddadleuon cryfach yn erbyn hyn. Etto, gall enw priodol, wedi ei roddi o herwydd nodwedd naturiol, ail ddychwelyd i'r meddwl gyda'r nodwedd hwnw. Dyna ydyw Horeb, yr hwn yn briodol sydd yn arwyddo 'tir wedi ei adael yn sych trwy i'r dwfr sychu ymaith.' Yn awr dywedir yn bendant "nad oedd dim dwfr" yn Rephidim, nac yn Cades Meribah, lle yr oedd "ffynnon barn" (*Gen.* xiv. 7); a'r casgliad ydyw fod rhyw gyflenwad arferol, y disgwylid ei gael yno, wedi darfod, o herwydd sychder fe allai. "Y graig yn Horeb" (*Exod.* xvii. 6) oedd yr un a darawyd gan Moses. Y mae yn debygol ei bod yn sefyll ar y llanerch lle y disgwylid cael dwfr—ond na chafwyd. Yn awr, cafodd Lepsius yn y *Wady Feirân*, yr hon, yn ei farn ef, sydd yr un a Rephidim, fangciau marianol hynod o bridd, y rhai a allasent unwaith ffurfio gwaelod llyn a sychodd ar ol hyny. Os yn y lle hwn y cyflawnwyd y wyrth [gwel REPHIDIM], y mae priodoldeb yr enw, fel y cymmhwyswyd ef ato, yn dyfod yn eglur. Yn mhellach, yn yr holl lcoedd yn Deuteronomium lle y ceir Horeb [gw. HOREB], ymddengys ei fod yn cael ei arfer gyda golwg ar y bobl fel y lle ar ba un y safent i dderbyn, yn hytrach na'r lle yr ymddangosodd Duw i roddi y gyfraith—yr hwn yn ymddangosiadol sydd yn yr un llyfr (Deuteronomium) yn cael ei ddynodi trwy Sinai: *pen.* xxxiii. 2. Ac yn yr unig adnod arall, yn Exodus, lle y mae Horeb yn digwydd yn yr adroddiad o'r un digwyddiadau, arferir ef hefyd gyda golwg ar y bobl (*pen.* xxxiii. 6); ac y mae yn debygol ei fod yn cyfeirio at yr hyn yr oeddynt wedi ei wneyd yn flaenorol yn helynt y llo aur: *pen.* xxxiii. 2. Os derbynir hyn, nid oes yn aros yn y Pum Llyfr, ond yn unig *Exod.* iii. 1, lle y dywedir fod Moses wedi arwain praidd Iethro "o'r tu cefn i'r anialwch," ac wedi myned i "fynydd Duw, Horeb." Mewn ymddangosiad, y mae y gair hwn yn rhoddi ar ddeall mai yr un lle ydyw "Mynydd Duw" a "Horeb;" ond bernir mai dau le gwahanol oeddynt, ond mor agos at eu gilydd fel y mae yr ysgrifenydd yn eu cydnabod fel un. Felly, dichon nad oedd Horeb, a'i gymmeryd yn fanwl, yn ddim ond gwastadedd sych, dyffryn, neu wely afon yn agos i'r mynydd; ac etto gall Mynydd Horeb, ar wastadedd eang gwyrddlas yr hwn yr oedd porfa ragorol, arwyddo y mynydd, wrth edrych arno yn ei berthynas â hwnw, neu ei ochr, yr hwn oedd yn taraw arno. Ymddengys fod y crybwylliad am Horeb mewn llyfrau diweddarach (er enghraifft, 1 *Bren.* viii. 9; xix. 8) yn dangos ei fod wedi dyfod y pryd hwnw yn enw ar y mynydd, a'r dosbarth yn gyffredinol. Yr oedd yn naturiol i'r llanerch, lle y cymmerodd y bobl eu hunain ran yn y digwyddiad mwyaf yn eu hanes, ddyfod yn enw poblogaidd yn mysg enwau diweddarach ar y digwyddiad hwnw. Yr oedd "Tydi a sefaist ger bron yr Arglwydd dy Dduw *yn Horeb*" yn ffaith lythyrenol; a daeth yn sylfaen fawr i'r holl draddodiadau yn mherthynas iddo. Trwy hyn y cydnabyddent eu bod wedi eu dwyn i gyfammod â Duw. I'r gwrthwyneb, yn *Neh.* ix. 13, yr ydym yn darllen, "*Ti* a ddisgynaist hefyd ar *fynydd Sinai*."

Ond y cwestiwn pwysicaf ydyw, Yn mha le y saif Sinai? Rhoddir tri o attebion i'r cwestiwn hwn.

Y cyntaf ydyw eiddo Lepsius, a grybwyllir uchod, ac a gefnogir hefyd gan Burckhardt, mai *Serbâl* ydyw Sinai; rhyw ddeng milldir ar hugain o bellder i'r gorllewin o *Jebel Mûsa*, ond yn agos i'r *Wady Feirân* ac *El Hessue;* y rhai, yn ei farn ef, a'r rhan fwyaf o'r awdurdodau, ydynt yr un a Rephidim—milldir union o hen fynachdy *Faran*. Yn ol y golygiad hwn, buasai Israel yn cyrhaedd Sinai yr un diwrnod ag yr ymladdasant âg Amalec. "Cychwynasant ymaith yn ystod y frwydr"—digwyddiad tra annhebyg, gan ei fod yn amlwg fod yr ymdrechfa yn un ffyrnig iawn, ac wedi parhau hyd fachlud haul. Serbâl yw y mynydd mwyaf mawreddog ar yr orynys, yn ymgodi gyda choron o bum copa o'r gwastadedd arforawl ar un ochr, ac o'r *Wady Feirân* ar y llall, ac yn dangos ei uchder llawn ar unwaith i'r golwg; ac y mae Ritter wedi awgrymu y gallai ei fod, cyn y mynediad o'r Aipht, yn hysbys fel "mynydd Duw" i'r Arabiaid Amaleceaidd, ac hyd yn oed i'r Aiphtiaid. "Y mae yn ddiau ei fod (meddai) yn cael ei ystyried yr un a Sinai gan Eusebius, Jerome, a Cosmas; hyny yw, gan bob ysgrifenydd adnabyddus hyd amser Justinian," fel y cadarnheir ef gan sefyllfa "dinas esgobol Paran wrth ei droed."

Ond y mae dwy wrthddadl arbenig yn erbyn hyn:—1. Y mae yn eglur oddi wrth *Exod.* xix. 2 (gwel *pen.* xvii. 1), fod y pellder rhwng Rephidim a Sinai yn deithran reolaidd. Yr ymadroddion yn yr Hebraeg ydyw y rhai a ddefnyddir ynddi am ddadwersyllu a gwersyllu, yn llyfrau Exodus, Numeri, a Deuteronomium; ac fel hyn y mae y dywediad fod Sinai o fewn milldir i Rephidim yn anghywir. 2. Nid oes un gwastadedd na dyffryn digon mawr ger Serbâl i fod yn wersyllfa i dorf mor fawr, nac hwyrach y ddegfed ran o honynt. Dadleua Dr.

Digitized by Google

Babilon fawr. Dadforiwyd ef i Iudea gan y Phœniciaid, neu gan yr Arabiaid; a cheir ef yn awr yn Sumatra, Borneo, China, &c., ond yn benaf, ac o'r ansawdd goreu, yn y rhan ddeorllewinol o Ceylon, lle y mae y pridd yn ysgafn ac yn dywodlyd, a'r awyrgylch yn llaith gan wynt y deheu, yr hwn yw y mwyaf cyffredin yno. Amgylchir y bôn a'r canghenau gan ddau risglyn—yr allanol yn wyn neu lwyd, ac yn ddiflas; ond y mae y mewnol, yr hwn sydd yn' gynnwysedig yn briodol o ddau risglyn wedi eu cyssylltu yn agos â'u gilydd, yn rhoddi, ar ol eu sychu yn yr haul, y sinamon llwyd gwerthfawr hwnw a ddadforir i ni yn y ffurf o risgl teneu. Y rhisglyn mewnol hwn a elwir, yn *Exod.* xxx. 23, "sinamon peraidd." O'r darnau garwaf ceir olew sinamon, a cheir math gwell o olew hefyd trwy ferwi ffrwyth aeddfed y pren. Defnyddir yr olaf hwn i gyfansoddi arogldarth, ac y mae yn gwasgaru arogl peraidd pan y llosgir ef.

SINAR: hen enw y dosbarth marianol mawr trwy yr hwn y mae y Tigris a'r Euphrates yn pasio cyn cyrhaedd y môr—y dosbarth a adnabyddid mewn oesoedd diweddarach fel Caldea neu Babilonia. Gwlad wastad ydoedd, lle yr oedd yn rhaid defnyddio priddfeini yn lle ceryg, a llaid yn lle mortar: *Gen.* xi. 3. Yn mhlith ei dinasoedd yr oedd Babel (Babilon), Erech neu Orech (Orchoë), Calneh neu Calno (*Niffer*, y mae yn debygol), ac Accad, safle yr hon sydd yn anhysbys. Y mae y crybwyllion hyn yn llawn ddigon i nodi ei sefyllfa. Modd bynag, gellir sylwi yn mhellach fod y Deg a Thrigain yn cyfieithu y gair yn "Babilonia" mewn un lle (*Esa.* xi. 11), ac yn "dir Babilon" mewn lle arall: *Zec.* v. 11.

Nid ydyw y cerf-ysgrifeniadau brodorol yn cynnwys dim tebyg i'r enw; yr hwn, fel yr ymddengys, sydd yn hollol Iuddewig, ac yn anhysbys i bob cenedl arall. O leiaf, y mae yn dra ammheus a oes mewn gwirionedd un cyssylltiad rhwng Sinar a Singara, neu *Sinjar.* Singara oedd enw tref yn Nghanolbarth Mesopotamia, digon adnabyddus i'r Rhufeiniaid, ac sydd etto mewn bod. Oddi wrth y lle hwn y mae y mynyddoedd, y rhai sydd yn rhedeg ar draws Mesopotamia o Mosul i Racceh, yn derbyn eu teitl o 'rhes fynyddig Sinjar.' Gan mai yn *Nghanolbarth* Mesopotamia yr ymddengys yr enw hwn gyntaf, at ba un nid ydyw y gair *Sinar* byth yn cael ei gymmhwyso, y mae yn dra annhebyg ei fod yn gosod allan yr hen Sinar, yr hwn yn ymarferol a ddarfyddodd a bod yn enw daearyddol yn fuan ar ol amser Moses.

Gellir tybied mai Sinar oedd yr enw trwy ba un yr adnabyddai yr Hebreaid yn wreiddiol y rhan isaf o Mesopotamia, lle y trigasant mor hir, yr hwn a ddygodd Abraham gydag ef o Ur y Caldeaid. Mae yn bossibl ei fod yn arwyddo 'Gwlad y Ddwy Afon;' gan ei fod yn tarddu o wreiddair Hebraeg yn arwyddo 'dau,' ac *ar*, yr hwn a ddefnyddid yn Babilon, yn gystal a *nahr*, neu *nâhâr*, am 'afon.'

Yr oedd Amaphel, brenin Sinar, yn frenin lled allnog a phwysig yn amser Abraham: *Gen.* xiv. 1. Dygodd brenin Babilon lestri tŷ yr Arglwydd i dŷ ei dduw ef yn ngwlad Sinar: *Dan.* i. 2.

SINIAID: llwyth o'r Canaaneaid (*Gen.* x. 17; 1 *Cron.* i. 15), yr hwn a breswyliai yn y rhan ogleddol o ddosbarth Libanus. Y mae amryw leoedd yn y dosbarth hwnw yn dwyn gradd o debygolrwydd i'r enw; yn enwedig *Sinna*, amddiffynfa fynyddig a grybwyllir gan Strabo; *Sinum* neu *Sini*, adfeilion yr hon oedd mewn bod yn amser Jerome; *Syn*, pentref a grybwyllwyd yn y bymthegfed ganrif fel yn agos i'r afon Arca; a *Dunniyeh*, dosbarth ger Tripoli. Hysbysir yn Nhargumau Onkelos a Jonathan mai Orthosia ydyw; tref ar lan y môr, o du y gogledd-ddwyrain i Tripolis.

SINIM: pobl a grybwyllir yn *Esa.* xlix. 12, fel yn byw yn nghwr eithaf y byd adnabyddus, un ai yn y deheu neu y dwyrain. Tybia llawer o ddaearyddwyr Beiblaidd y gall hyn fod yn dynodi Sineaid, neu *Chineaid*—gwlad y rhai ydyw Sina, *China.* Yr oedd yr hen genedl hon yn adnabyddus i'r Arabiaid wrth yr enw *Sin*, ac i'r Syriaid wrth yr enw *Tsini;* a gallai ysgrifenydd Hebreaidd yn hawdd glywed am danynt, ac yn enwedig, os yn ymdeithio yn Babilon, yr hon a ystyrid yn mron fel prif ddinas Asia oll. Ymddengys fod yr enw hwn wedi ei roddi i'r Chineaid gan drigolion rhanau ereill Asia; o blegid nid yw y Chineaid eu hunain, er nad yn anghydnabyddus âg ef, yn ei ddefnyddio; ond mabwysiadant un ai enwau y teyrnachau oedd yn llywodraethu arnynt, neu cymmerant deitlau mawreddog; er enghraifft, yr "Ymherodraeth Ganolbarthol." Ond pa bryd y rhoddwyd yr enw fel hyn gan genhedloedd ereill, ac o ba le y tarddodd, sydd ansicr. Dichon fod syniad yr ysgrifenwyr hyny yn gywir, y rhai a dybiant fod yr enw *Sineaid* wedi dyfod oddi wrth y pedwerydd teyrnach, a elwid Tshin, yr hwn a ddaliodd yr orsedd o 249 i 206 c. c. Siaredir am bobl a elwir Tshinas yn nghyfreithiau Menu; a dichon fod enw y teyrnach hwn yn hysbys yn mhlith cenhedloedd tramor yn mhell cyn iddo gael awdurdod benadurol ar China oll. Nid ydyw y golygiad hwn yn hollol anhebgorol, ond gellir dwyn gwrthddadleuon pwysig yn mlaen yn ei erbyn. Am hyny, tybia rhai mai wrth y Sinim y golygir trigolion Pelusium (Sin), trwy gyforddwyn (*synecdoche*), am yr Aiphtiaid. Ond gan ei fod yn ymddangos fod y testyn yn cyfeirio at ryw wlad bellach, barna ereill mai pobl Syene, fel cynnrychiolwyr yr Ethiopiaid, a feddylir. Modd bynag, os enwyd "tir Sinim" un ai oddi wrth Sin neu Seyne, y mae yn rhyfedd fod y Deg a Thrigain, y rhai oeddynt yn adnabod yr Aipht yn dda, wedi myned tua'r dwyrain i chwilio am dano, hyd yn oed mor bell i'r dwyrain a Persia; ac os oeddynt yn meddwl ei fod yn gorwedd yn y rhanau mwyaf dwyreiniol o ymherodraeth Persia, yr hon oedd yn ymestyn at derfynau India, rhoddai y cam mawr a gymmerent fel hyny yn nghyfeiriad China gryn gefnogaeth i'r dybiaeth mai yr un oedd pobl Sinim a'r Chineaid.

1. SION: un o'r amryw enwau ar Fynydd Hermon, y rhai yn ffodus sydd wedi eu cadw; ond y mae yn debygol nad oes un o honynt yn hynach na 'Hermon' ei hun. Yn *Deut.* iv. 48 yn unig y mae yn digwydd, a dywedir mai ei ystyr ydyw 'uchel.' Tybia Fürst mai enwau cribau neu ranau gwahanol o'r mynydd oedd yr amryw enwau hyn.

2. SION: y ffurf Groegaidd o'r enw Hebraeg Seion (Tsion), Mynydd enwog y deml: 1 *Macc.* iv. 37, 60; v. 54; vi. 48, 62; vii. 33; x. 11; xiv. 27; a *Heb.* xii. 22; *Dad.* xiv. 1. Yn

Digitized by Google

faint o wybodaeth yn ei gylch fel sant a merthyr o'r blaen, canys yr oeddynt wedi darllen am dano yn y calenderau a'r merthyrdraethau; ond ar ol y nawdd y tybid iddo ei daflu drostynt yn amser y gwarchau ar Antiochia, y canlyniad a fu iddo gael ei fabwysiadu yn sant-noddwr y milwyr. Fel y cyfryw gwnaeth Iorwerth III. ef yn noddwr Urdd y Gardas; ac yn raddol daeth i gael ei ystyried yn noddwr marchofyddiaeth, ac yn sant gwarcheidiol Lloegr.

SIPPAI: un o feibion Rephaim, neu "y cewri," a laddwyd gan Sibbechai yr Husathiad yn Gezer: 1 *Cron.* xx. 4. Yn 2 *Sam.* xxi. 18, gelwir ef SAPH.

SIPHI: un o'r Simeoniaid, tad Zisa, un o dywysogion y llwyth yn amser Heseciah: 1 *Cron.* iv. 37.

SIPHMIAD: brodor, y mae yn debygol, ond nid yn sicr, o Sepham. Zabdi, y swyddog yn nheulu Dafydd a ofalai am wneyd y gwin (1 *Cron.* xxvii. 27), ydyw yr unig berson a elwir felly.

SIPHMOTH: un o'r lleoedd yn neheubarth Iudah, i ba un y mynych gyrchai Dafydd yn ystod ei fywyd crwydrol. Nid ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn 1 *Sam.* xxx. 28. Nid ydyw yn cael ei enwi gan Eusebius, na chan Jerome. Hyd yma, nid oes neb wedi llwyddo i ddarganfod yn mha le y safai.

SIPHTAN: tad Cemuel, un o dywysogion llwyth Ephraim: *Num.* xxxiv. 24.

SIPRAH: enw un o fydwragedd yr Hebreesau, y rhai a anufuddhasant i orchymyn Pharaoh, y gorthrymwr cyntaf, i ladd y plant gwryw, ac am hyny bendithiodd Duw hwynt: *Exod.* i. 15—21. Nid ydyw yn sicr mai Hebreaid oeddynt: ond os dyna oeddynt, arwyddai yr enw *Siphrah* 'disgleirdeb,' neu 'brydferthwch.' Y mae hefyd yn meddu sŵn Aiphtaidd —y sill olaf yn debyg i'r sill olaf yn Potiphar, Potiphra, a Hophra, yn mhob un o ba rai yr ydym yn cydnabod y gair PH-RA, P-RA, 'yr haul,' neu 'Pharaoh,' mewn cyfansoddiad, pan ysgrifenir ef ar ei ben ei hun yn Hebraeg. Yn yr achosion hyn, modd bynag, y mae yn y ffurf arferol, fel y gallasem ddisgwyl oddi wrth y sillebiaeth Aiphtaidd.

SIRAH: ffynnon yn agos i Hebron. Y llanerch o ba un y galwyd Abner yn ol gan Ioab i'w roddi i farwolaeth yn Hebron: 2 *Sam.* iii. 26. Ymddengys ei fod ar y ffordd ogleddol o Hebron—y ffordd ar hyd pa un yr oedd yn naturiol i Abner ddychwelyd trwy Bahurim (*adn.* 16) i Mahanaim. Y mae ffynnon a chronfa ddwfr ar yr ochr orllewinol i'r hen ffordd ogleddol, o ddeutu milldir o Hebron, yr hon a elwir *Ain Sara*, ac y mae yn rhoddi ei henw i'r dyffryn bychan yn mha un y saif. Dichon mai gweddillion ydyw hon o ffynnon Sirah. Crybwyllir am dani mor bell yn ol a'r ddeuddegfed ganrif gan Rabbi Petachia; ond ymddengys fod tebygolrwydd yr enw i Sirah wedi diangc yn ddisylw.

SIRION: un o'r amryw enwau ar Fynydd Hermon, yr hwn yr oedd yn adnabyddus wrtho i'r Sidoniaid: *Deut.* iii. 9.

SIRYDD: swyddog gwladol, dyledswyddau yr hwn ydynt yn hytrach yn weinyddiadol nag yn gyfreithiol. Y mae y swydd yn un o hynafiaeth mawr. Dewisid y sirydd gynt gan y trigolion, er, dybygid, fod yn rhaid cael cadarnhad y goron i'r dewisiad o hono. Ond collodd y trigolion y fraint hon o'i ethol felly i'r swydd yn nheyrnasiad Iorwerth II., pryd y pasiwyd cyfraith fod yn rhaid o hyny allan i'r sirydd gael ei bennodi gan y canghellydd, y trysorydd, a'r barnwyr. Byth oddi ar y pasiwyd y gyfraith yna y mae wedi bod yn arferiad, ac felly y mae yn awr, i holl farnwyr llysoedd y gyfraith gyffredin, ynghyd â'r arglwydd ganghellydd, a changhellydd y trysorlys, i gyfarfod yn y canghell-lys, yn Westminster, dranoeth ar ol Gŵyl yr holl Saint, a'r pryd hwnw ddewis a chynnyg i'r brenin neu y frenhines dri o bersonau o bob sir. Wedi hyn y mae y goron yn dewis un o bob tri, ac yn rhoddi y pennodiad iddynt i'r swydd. Un flwyddyn y mae y sirydd i fod yn ei swydd, ac nis gellir ei orfodi i'w gwasanaethu yr ail waith. Y mae y swydd nid yn unig i'w gweinyddu heb dâl, ond hefyd y mae yn orfodol; ac os gwrthoda y person a bennodir ei gweinyddu, gellir dwyn cyhuddgŵyn yn ei erbyn. Dynion o gyfoeth a bennodir iddi yn gyffredin. Y mae y siryddion yn ninas Llundain yn cael eu dewis gan y dinaswyr. Y mae dyledswyddau siryddion yn bwysig yn adeg etholiad seneddol, gan mai hwy ydynt y prif swyddogion yn etholiadau y siroedd. Ystyrir y sirydd fel y prif ddyn yn y sir; ac y mae yn uwch nag un pendefig tra y deil y swydd. Arno ef y gorphwys—os bydd angenrheidrwydd—o alw ynghyd holl bobl y sir i gadw heddwch y frenhines; ac os bydd i unrhyw berson uwch law pymtheg oed, ac yn israddol i bendefig o ran sefyllfa, wrthod gwrandaw ar y sirydd, ar ol cael rhybudd priodol, y mae yn agored i ddirwy neu garchariad. Y brif ddyledswydd gyfreithiol sydd gan y sirydd i'w chyflawni ydyw, cario allan holl orchymynion y llysoedd gwladol. Efe sydd yn ymaflyd yn eiddo neu yn mhersonau dyledwyr, ac yn eu carcharu. Ac i'r dyben hwn y mae ganddo geisbwliaid, y rhai a wnant y gwaith hwn yn ei le ef, ac a roddant ysgrifrwym i'r sirydd i'w amddiffyn ef rhag unrhyw afreoleidd-dra neu gamgymmeriad ar eu rhan hwynt. Y mae gan bob sirydd ei is-sirydd, ac y mae y diweddaf o'r bron yn wastad yn gyfreithiwr, yr hwn a gymmer ofal y rhan gyfreithiol o'r gwaith. Un o ddyledswyddau yr uch-sirydd ydyw derbyn a pharotoi gosgordd i'r barnwyr pan y cynnelir y brawdlysoedd yn ngwahanol barthau y wlad.

SISA: tad Elihoreph ac Ahïah, yr ysgrifenyddion brenhinol yn nheyrnasiad Solomon: 1 *Bren.* iv. 3.

SISAC: brenin yr Aipht, ac un o'r buddugoliaethwyr mwyaf yn yr hen amseroedd. Efe yw Sheshenk I. y cofgolofnau, y penadur cyntaf o'r eilfed teyrnach Bebastaidd ar hugain. Ceir yn hanes ei deyrnasiad ef gofnodion cydamserol o ddigwyddiadau ag sydd yn cadarnhau gwirionedd yr Ysgrythyrau. Yr oedd yn cydoesi â Solomon, Rehoboam, ac Ieroboam. Cyfrifir fod ei ymosodiad ar Iudah wedi cymmeryd lle yn yr ugeinfed flwyddyn o deyrnasiad Sisac. Fel hyn, yr oedd y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Sisac yn cyfatteb i o ddeutu y 26ain o deyrnasiad Solomon, a'r ugeinfed i'r 5ed o Rehoboam.

Digitized by Google

rhai a orchfygid ganddynt yn dra llym. Ond er y cyfrifir hwynt yn farbariaid, etto yr oeddynt ar brydiau yn meddu ar rinweddau cenedlaethol ardderchog, ac addfwynder na cheid mo hono yn fynych yn mysg cenhedloedd anwaraidd yr amser hwnw. Yn ol tystiolaeth yr ymherawdwr Mauritius, ymddygent tuag at eu carcharorion yn hynod o dyner a charedig; ac yn lle eu cadw mewn caethiwed fel cenhedloedd ereill, gosodent derfyn pennodol ar yr amser hwnw, a rhoddent eu dewis iddynt, naill ai i dalu iawn a dychwelyd i'w gwlad, neu ynte i aros gyda hwy fel cyfeillion a gwŷr rhyddion. Croesawid y dyeithr yn eu mysg yn lletygar, a byddai yr hwn na wnai amddiffyn ei ymwelydd rhag niwed yn sicr o dynu arno ei hun ddigofaint ei gymmydogion.

Eu prif alwedigaeth oedd amaethu y ddaear; ond ymddengys eu bod yn gwybod ychydig am y celfyddydau, a'u bod yn hynod o hoff o gerddoriaeth. Y prif offeryn cerddorol oedd mewn arferiad ganddynt oedd math o delyn, a elwid *gusla*.

Er fod y rhai hyny o honynt a ymddangosent ar gyffiniau yr ymherodraeth Roegaidd yn grwydrol ac anwaraidd, yr oedd gan y rhai a breswylient ar lenydd y Baltic drefydd, yn mha rai y dygid yn mlaen gryn fasnach. Eu prif ddinasoedd oedd Arcona, ar Ynys Rügen, a Vineta, yn ngenau yr afon Oder. Dywed Adam o Bremen, yr hwn a ysgrifenai yn 1067, a Helmold, fod yr holl Slafoniaid yn eilunaddolwyr, ond y buasai yn anhawdd cael un genedl yn fwy gonest a lletygar na hwynt; mai democrataidd oedd ffurf wreiddiol eu llywodraeth; a bod gan benau teuluoedd awdurdod fawr dros eu gwragedd a'u plant, a'u bod yn cyfarfod ynghyd yn achlysurol i ymgynghori ynghylch eu hachosion cyhoeddus. Yn raddol, pa fodd bynag, pennododd y Slafoniaid benaethiaid arosol a chydnabyddedig arnynt. Ffurfiwyd pendefigaeth yn eu mysg o'r arweinwyr milwraidd, neu ynte o'r dynion mwyaf cyfoethog yn eu mysg. Daeth llawer o'r cyfundebau Slafonaidd i gymmeryd eu rheoli gan benaethiaid a etholid dros eu hoes, tra yr oedd ereill yn cadw at eu ffurf wreiddiol o lywodraeth, ond wedi dwyn ryw ychydig o gyfnewidiadau i mewn iddi. Gelwid y penaethiaid Slafonaidd yn *Kral*, neu *Krol*, yr hyn sydd yn arwyddo 'brenin.'

Ymddengys fod crefydd y Slafoniaid yn gwahaniaethu oddi wrth grefydd y cenhedloedd Teutonaidd. Rhoddwyd hanes dyddorol am ddelwau a seremonïau paganaidd y Slafoniaid gan genhadon Almaenaidd a fu yn llafurio yn eu mysg ar lenydd y Baltic, y rhai a gawsant eu gwybodaeth o weithiau awduron Scandinafaidd. Yn ol yr awduron hyn, cydnabyddai Slafoniaid glanau y Baltic ddwy egwyddor—un yn dda, a'r llall yn ddrwg. Galwent y flaenaf yn *Biel Bog*, neu y 'duw gwyn,' oddi wrth yr hwn y deilliai pob daioni; a'r ail a alwent y *Cherni Bog*, neu y 'duw du,' yr hwn oedd yn achos o bob drwg. Cynnrychiolwyd y diweddaf gan y ffurf o lew. Y fwyaf enwog o'r delwau Slafonaidd oedd y Sviatovid, yn nheml Arcona. Telid parch mawr iddi, a dywedir fod hyd yn oed brenhinoedd Denmarc, y rhai oeddynt ar y pryd yn proffesu Cristionogaeth, yn anfon anrhegion iddi. Yr oedd yr eilun hwn ar lun dyn mawr, ac wedi ei wisgo mewn dillad amryliw. Yr oedd iddo ddwy fynwes, a phedwar o benau. Safai â'i draed ar y llawr, daliai saeth mewn un llaw, ac yn y llall gorn, yr hwn a lenwid unwaith yn y flwyddyn ar achlysur cyhoeddus gyda meth. Yn agos at yr eilun, yr oedd ffrwyn a chyfrwy wedi eu gosod, fel yn perthyn iddo, a chleddyf wedi ei addurno yn hardd âg arian. Cynnelid gŵyl flynyddol iddo ar ddiwrnod pennodol ar ol y cynhauaf, pan y dygai yr offeiriad allan i'r bobl ymgynnulledig y corn a ddaliai yr eilun yn ei law; ac oddi wrth leihâd y gwlybwr a dywalltesid iddo y flwyddyn o'r blaen rhagfynegid canlyniad y cynhauaf nesaf. Tywelltid meth y flwyddyn o'r blaen wrth draed yr eilun, a llenwid y corn eilwaith gyda llawer o seremonïau a gweddïau. Treulid y gweddill o'r dydd mewn gwledda. Talai y Slafoniaid dreth i deml yr eiluu, a rhoddent iddo y drydedd ran o'u hysbail. Yr oedd hefyd dri chant o wŷr meirch yn perthyn i'r eilun, y rhai a ddygent yr holl ysbail a gaffent i'w deml. Dinystriwyd teml Sviatovid yn y ddeuddegfed ganrif, gan Waldemar, brenin Denmarc. Addolid amryw eilun-dduwiau ereill hefyd gan y Slafoniaid.

Yn y nawfed ganrif yr oedd cyfran fawr o ddwyreinbarth Ewrop yn meddiant y Slafoniaid. Ymestynai eu tiriogaethau o'r Môr Du ar hyd ystlysau y Danube, ac yn orllewinol i'r afon hono ar hyd glenydd y Môr Adriataidd: ac yr oeddynt yn cynnwys taleithiau Rhufeinaidd Parnnonia, Dacia, Illyricum, a Dalmatia. Yr oedd eu sefydliadau yn cyrhaedd o ran gogleddol y Môr Adriataidd, sydd yn terfynu ar y Tyrol a Bavaria, i ran uchaf yr afon Elbe, a pherchenogent y wlad rhwng yr afon hono a'r Saal, yn gystal ag ochr ddeheuol yr Elbe, ar hyd glan deheuol y Baltic a Jutland i eneuau y Vistula. O'r Vistula, ymwasgarodd y Slafoniaid dros y wlad rhwng yr afon hono a'r Danube. Gwelir fel hyn eu bod yn meddiannu y rhan fwyaf o'r gwledydd sydd yn awr yn cyfansoddi rhan fawr o diriogaethau Awstria, Hungary, a'r taleithiau sydd yn terfynu ar Italy a'r Tyrol, Bohemia a Moravia, rhan fawr o Saxony, Brandenburg, Silesia, Pomerania, ac ynys Rügen; ac at hyn rhaid chwanegu y diriogaeth oedd yn gwneyd i fyny hen deyrnas Poland, a rhan fawr o ymherodraeth bresennol Rwssia.

Dinystriwyd poblogaeth Slafonaidd Pomerania, Mecklenburg, ynys Rügen, cyffindiroedd Brandenburg, a Saxony, ar ochr aswy yr Elbe, neu ynte trowyd hwynt yn Almaeniaid mor gyffredinol fel y cymmerwyd lle eu hiaith hwy eu hunain yn hollol gan yr Almaenaeg; ond gellir olrhain yn ysgrifeniadau swyddol y wladwriaeth y ffaith fod yr iaith Slafonaidd mewn arferiad yn y wlad o amgylch Leipzic mor ddiweddar a dechreuad y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y mae enwau amryw bentrefydd sydd yn y rhan hono o'r Almaen yn ddiammheuol o darddiad Slafonaidd. Y cenhedloedd Slafonaidd a ganlyn ydyw y rhai sydd ar gael yn bresennol:—1. Y Bohemiaid a'r Morafiaid, y rhai a drigant yn Bohemia a Moravia, ac sydd yn wasgaredig mewn parthau o Hungary a Silesia. 2. Y Pwyliaid, a breswyliant y tiriogaethau a berthynent i Poland yn yr hen amseroedd, Silesia, a Phrwssia. 3. Y Muscoviaid, neu y Rwssiaid Mawr, y rhai y mae cryn lawer o waed Finnaidd ynddynt, ac sydd erbyn hyn mewn llawer o bethau yn debyg iawn i bobl y dwyrain, mewn canlyniad i lywodraethiad y Tartariaid yn Rwssia. Y maent yn preswylio

Digitized by Google

hanner can mlynedd. Yn mhen dwy neu dair blynedd ar ol ei ymsefydliad yn Homerton, efe a dderbyniodd alwad i gymmeryd gofal yr eglwys a gyfarfyddai yn nghapel Gravel Pits, a pharhaodd i gyflawni ei ddyledswyddau gweinidogaethol i'r eglwys a'r gynnulleidfa hono am 47ain o flynyddoedd. Yr oedd Dr. Smith yn ddyn o feddwl cryf ac egniol anghyffredin. Nid oedd un rhan na maes mewn gwybodaeth nad oedd efe yn awyddus am ei chwilio. Yr oedd yn fanwl gydnabyddus âg ieithoedd hen a diweddar. O'r tadau boreuaf hyd yr awduron Saesnig, Almaenaidd, neu Americaidd diweddaraf, nid oedd yn eu hesgeuluso, os byddai yn bossibl rywfodd eu darllen. Heb law hyn, efe a astudiodd y gwyddorau manwl a phrawfiadol. Pan y daeth daeareg yn mlaen i gynnyg i sylw ei daddguddiedigaethau rhyfeddol, efe a'i cofleidiodd fel cyfran o'r hyn a ddeuai oddi wrth Awdwr natur a gwirionedd; a thrwy ei ymchwiliadau amyneddgar, efe a ddangosodd fod cofnodion gweledig creadigaeth mewn hollol gydgordiad â Gair Duw. Pan y cyhoeddodd efe ei waith gwerthfawr "*Scripture and Geology*," dewiswyd ef yn un o gymmrodorion y Gymdeithas Frenhinol. Bu Dr. Smith mewn dadl â Dr. Lee, o Gaergrawnt, ar y pwngc o undeb yr eglwys â'r wladwriaeth; ac â'r Parch. Thomas Belsham, ac Undodiaid ereill, ar ddwyfoldeb person Crist. Yn mhlith gweithiau ereill a ymddangosodd fel ffrwyth ei ysgrifell, yr oedd ei "*Four Discourses on Priesthood and Sacrifice*," a chyhoeddodd hefyd grynodeb galluog iawn o'r hyn a elwir ganddo "*Reasons of the Protestant Faith, with an Exposure of Popish Errors*," gwaith a ddygwyd allan ganddo drachefn, gyda rhagdraeth newydd, ychydig wythnosau cyn ei farw. Ond ei waith mwyaf a rhagoraf ydyw, "*The Scripture Testimony to the Messiah*:" gwaith ydyw hwn sydd wedi ei nodweddu gan y ddysgeidiaeth fanylaf a dyfnaf, a'r feirniadaeth onestaf; a'r hwn sydd wedi cael yr anrhydedd nodedig, er ei fod yn gyfansoddiad o waith Ymneillduwr, o gael ei gydnabod fel awdurdod yn mhrifysgolion Lloegr. Yr oedd Dr. Smith yn awyddus am weled cynnydd mewn gwleidyddiaeth gyffredinol; ac ni phetrusai ddyfod allan i roddi ei gefnogaeth gyhoeddus i ddiddymiad deddfau yr ŷd; ac yr oedd yn bleidiol hefyd i lawer o welliadau cymdeithasol; a pha beth bynag a wnelai neu y dadleuai drosto, yr oedd yn amlwg ei fod yn gydwybodol ac egwyddorol, ac yn cael ei lywodraethu gan y cymmhellion puraf. Rhoddodd i fyny ei swydd fel llywydd athrofa Homerton, yn 1850, mewn rhan am fod trefniadau yn cael eu gwneyd i sefydlu coleg newydd yn St. John's Wood, ac mewn rhan hefyd am fod ei iechyd yn pallu. Tanysgrifiwyd y swm o 3,000*p.* ar ei ymddiswyddiad, i'r dyben o bwrcasu blwydddâl iddo am y gweddill o'i oes. Bu farw y dyn da a dysgedig hwn yn Guildford, yn Surrey, ar y 5ed o Chwefror, 1851.

SMITH, JOSEPH. Gwel MORMONIAID.

SMITH, SIDNEY. Ganwyd ef yn Woodford, yn swydd Essex, yn 1771. Boneddwr gwledig oedd ei dad, yn byw ar ei eiddo, er nad oedd yn gyfoethog; ac yr oedd ei fam yn ŵyres i ymnoddwr o Ffraingc, a ddaethai i'r wlad hon. Addysgwyd ef yn ysgol Winchester, ac yn y Coleg Newydd, Rhydychain; ac wedi myned i'r eglwys, ordeiniwyd ef, a chafodd ei bennodi yn gurad Amesbury, swydd Wilts. Dywed ef ei hun fel y canlyn:—"Cymmerodd yswain y plwyf ataf, a gofynodd i mi fyned gyda'i fab ef i brifysgol Weimar: ond cyn i ni fyned yno, yr oedd yr Almaen wedi dyfod yn faes rhyfel; gan hyny ni a aethom i Edinburgh, lle yr arosais am bum mlynedd." Yn ystod y blynyddoedd hyn, efe a weinyddai yn y capel esgobaethol, a chyhoeddodd chwech o bregethau yn y flwyddyn 1800. Mewn cyssylltiad âg ychydig o gymdeithion llenyddol o fri—sef, Jeffrey, Horner, Brougham, Dr. Thomas Brown, Playfair, &c.—cychwynodd Smith yr "*Edinburgh Review*," yr hwn a ymddangosodd gyntaf yn mis Hydref, 1802, yr hyn a ddygodd oddi amgylch gyfnod newydd yn hanes llenyddiaeth gyfnodol a beirniadaeth deg ac annibynol yn y wlad hon. Symudodd Sidney Smith i Lundain yn 1803, a daeth yn fuan yn boblogaidd fel pregethwr, fel darlithydd ar athroniaeth foesol, ac fel un yn meddu galluoedd ymddiddanol o'r radd flaenaf; yr hyn a'i gwnelai yn syndod pob cymdeithas y byddai ynddi. Yn raddol, modd bynag, y cafodd efe ddyrchafiad yn yr eglwys. Yn 1806, appwyntiwyd ef i beriglorïaeth Foston-le-clay, yn swydd Gaerefrog; rhyw ddeunaw mlynedd wedi hyny, cyflwynodd y Duc o Devonshire iddo fywoliaeth Londesborough, gwerth 700*p.* yn y flwyddyn, i'w dal nes y deuai Mr. Howard, mab ieuangaf Iarll Carlisle, i'w gyflawn oedran. Cafodd gôr-beriglorïaeth yn eglwys gadeiriol Bristol, yn 1828. Appwyntiwyd ef gan Iarll Grey yn un o ganoniaid St. Paul, yn 1831. Yr oedd yn awyddus, meddir, am y mitr esgobol, ond ni chafodd ei ddymuniad yn hyn. Ysgrifenodd Smith gryn lawer i'r "*Edinburgh Review*," a chyhoeddwyd yr erthyglau hyny, yn ddwy gyfrol, yn y flwyddyn 1839. Ei ysgrifeniadau ereill oeddynt ei "*Peter Plymley's Letters*," y rhai a ysgrifenwyd ganddo gyda'r amcan o hyrwyddo yn mlaen y gwaith o ryddfreiniad y Pabyddion; ac y maent yn llawn o sylwadau ffraeth a brathog, teilwng o Swift: a "*Sermons*," mewn dwy gyfrol: ynghyd âg areithiau ar Hawliau Pabyddion, llythyrau ar y Ddirprwyaeth Eglwysig, pamphledyn ar y Balot, llythyr ar Fesurau Eglwysig, llythyrau ar Ffyrdd Haiarn, llythyrau ar Ddyledion Americanaidd, &c., &c. Er fod Smith yn llon, parod, a ffraeth hyd ddiwedd ei oes, dioddefai yn fynych gryn boenau oddi wrth y droedwst, ac anhwylderau ereill; a bu farw ar yr 22ain o Chwefror, 1845.

Yr oedd gweithiau Sidney Smith yn ymwneyd yn benaf â phyngciau ac â dadleuon a berthynent i'r dydd; ond y maent yn debyg o gymmeryd eu lle arosol mewn llenyddiaeth Saesnig fel enghreifftiau o ymresymiad clir a grymus, o ddigrifwch a ffraethineb digymmhar, ac o synwyr cryf. Yr oedd ei olygiadau ar gwestiynau gwleidyddol a chymdeithasol yn gymmedrol, doeth, ac ymarferol; a chafodd fyw i weled llawer o honynt wedi eu sylweddoli. Yr oedd yn fynych, y mae yn rhaid addef, i'w feio am ei waith yn ymdrin â chwestiynau cyssegredig gyda gormod o ysgafnder, ac o ammharch ymddangosiadol; ond yr oedd y diffyg hwn, dybygid, yn perthyn i'w dymmher naturiol, yn hytrach na'i fod yn gwreiddio mewn anffyddiaeth. Yr oedd yn ddyn caredig, ac yn wladgarwr pur.

SMOLLET, TOBIAS: nofelydd enwog, a anwyd yn y flwyddyn 1721, yn Cardross, yn

Digitized by Google

gyhoeddus, ac hefyd adeilad hardd, yn cael ei amgylchu gan rodfeydd colofnog, yr hwn a wasanaetha fel amgueddfa. Yr oedd wedi ei gyssegru fel cofadail i Homer, yr hwn a hawlid gan y Smyrniaid fel eu cydwladwr. Yr oedd yno hefyd neuadd gerddorol, a theml Olympaidd i Jupiter, âg addoliad yr hwn y cyssylltid addoliad ymherawdwyr Rhufain. Chwareuid y campau Olympaidd yno, a theimlai y boblogaeth ddyddordeb mawr ynddynt. Gall hyn, hwyrach, roddi cyfrif am y ffyrnigrwydd nodedig a ddangoswyd ganddynt tuag at yr hen esgob Polycarp. Ar y cyfryw achlysuron y daeth yr hyn a ystyrid gan y paganiaid fel ysbryd anwladgarol ac anghymdeithasol y Cristionogion boreuaf yn fwyaf amlwg; ac mewn ufudd-dod i erfyniadau taerion y bobl oedd wedi ymgynnull i'r rhedegfa y rhoddodd y rhaglaw Rhufeinaidd y merthyr i fyny. Y mae llythyr y Smyrniaid, yr hwn sydd yn cynnwys hanes ei ferthyrdod, yn gosod yr Iuddewon allan fel yn cymmeryd rhan gyda'r Cenhedloedd yn y gwaith o'i gyhuddo ef fel gelyn y grefydd wladol—ymddygiad a fuasai yn anesboniadwy mewn Iuddew diragrith, ond yr hwn oedd yn hollol naturiol yn y rhai hyny a ddisgrifir gan yr ysgrifenydd sanctaidd fel "synagog Satan:" *Dad.* ii. 9.

Wedi cryn lawer o gyfnewidiadau yn ystod y canoloesoedd, disgynodd Smyrna yn y diwedd i ddwylaw y Tyrciaid, yn meddiant pa rai y mae wedi aros byth er hyny—y ddinas fwyaf blodeuog yn y Levant. Saif dinas ddiweddar Smyrna (*Izmir*) ar safle Smyrna Newydd. Adeiladwyd hi mewn rhan ar y gwastadedd wrth ben y morgaingc, ac mewn rhan ar lechwedd bryn, yr hen Fynydd Pagus, ac y mae yn edrych yn swynol o'r môr. Y mae yno rai porthfeydd da, a rhai adeiladau heirdd o geryg; ond y mae y rhan fwyaf yn gynnwysedig o dai coed isel, o un uchder llofft; ac y mae yr heolydd, gydag ychydig eithriadau, yn gulion, ceimion, a budron. Modd bynag, y mae y ddinas, yn yr ystyriaethau hyn, yn well na'r rhan fwyaf o drefydd ereill Twrci, a gwnaed gwelliantau ynddi yn y blynyddau diweddaf. Cyfrifir fod ei phoblogaeth yn 160,000; o ba rai y mae 90,000 yn Dyrciaid, 40,000 yn Roegiaid, 15,000 yn Iuddewon, 10,000 yn Armeniaid, a 5,000 yn Frankiaid. Fel y mae yn arferol mewn trefydd Tyrcaidd, y mae gan bob cenedl barth neillduol o honi, i breswylio yno ar wahân. Nid oes ynddi ddim llai nag ugain o demlau Mahometaidd. Cyhoeddir ynddi chwech o gyfnodolion mewn pump o wahanol ieithoedd. Y mae amryw o ffyrdd haiarn yn rhedeg o honi i wahanol ddinasoedd ereill. Y mae ei masnach yn lled fawr, ac yn cynnyddu y naill flwyddyn ar ol y llall.

SO. Crybwyllir am "So brenin yr Aipht" unwaith yn y Beibl. Anfonodd Hosea, brenin olaf Israel, gan ei bod yn amlwg ei fod yn bwriadu dyfod dan deyrnged i'r Aipht, genhadon ato ef; ond ni roddodd un anrheg, fel yr arferai wneyd bob blwyddyn, i frenin Assyria: 2 *Bren.* xvii. 4. Y canlyniad o'r cam yma, yr hwn, fel yr ymddengys, a waharddwyd gan y prophwydi, y rhai, o ddeutu y tymmor hwn, oeddynt yn rhybuddio y bobl yn barhaus yn erbyn ymddiried yn yr Aipht, ac yn Ethiopia, oedd carchariad Hosea, cymmeriad dinas Samaria, a chaethgludiad y deg llwyth.

Nid ydyw yn hollol sicr pa un ai yr un oedd y So hwn a Sabaco, brenin cyntaf y teyrnach Ethiopaidd yn yr Aipht Uchaf, ai ei fab a'i olynwr Sevechus, yr ail frenin o'r un teyrnach, a rhagflaenor nesaf Tirhakah. Y mae Winer yn petruso rhyngddynt, ac y mae Gesenius dros yr olaf. Yn ol Manetho, teyrnasodd Sevechus ddeuddeng mlynedd; yn ol Syncellus, pedair blynedd ar ddeg.

SOAR: un o ddinasoedd hynaf Gwlad Canaan. Ei henw gwreiddiol oedd Bela, a gelwid hi felly yn amser preswyliad cyntaf Abraham yn Nghanaan: *Gen.* xiv. 2, 8. Yr oedd hi y pryd hwnw mewn cyssylltiad agos â dinasoedd "gwastadedd yr Iorddonen"—Sodom, Gomorrah, Admah, a Seboim (gwel hefyd *Gen.* xiii. 10); a chymmerodd ei brenin ran gyda brenhinoedd y trefydd hyny yn y frwydr gyda llu yr Assyriaid, yr hon a derfynodd yn eu gorchfygiad, a chymmeriad Lot. Yn ninystr cyffredinol dinasoedd y gwastadedd, arbedwyd Soar, i roddi noddfa i Lot; ac ar yr achlysur hwnw, yn ol yr hen hanes, y cymmerodd y cyfnewidiad le yn ei henw: *Gen.* xix. 22, 23, 30. Crybwyllir am dani yn yr adroddiad am farwolaeth Moses fel un o'r lleoedd oedd yn terfynu ei olwg oddi ar ben Pisgah (*Deut.* xxxiv. 3); ac ymddengys ei bod yn adnabyddus yn amser Esaiah (*pen.* xv. 5) ac Ieremiah: *pen.* xlviii. 34. Dyma yr holl grybwyllion am Soar a geir yn y Beibl.

Safai yn yr un dosbarth a'r pedair dinas a grybwyllwyd yn barod; sef, yn y *ciccar*, "gwastadedd" neu "gylch yr Iorddonen;" ac y mae yn amlwg fod yr adroddiad yn *Gen.* xix. yn rhoddi ar ddeall ei bod yn agos iawn i Sodom—yn ddigon agos i Lot a'i deulu i deithio y pellder yn yr amser rhwng ymddangosiad cyntaf y boreu a chodiad gwirioneddol yr haul: *Gen.* xix. 15, 23, 27. Y mae sefyllfa fanwl Sodom, yn ol pob tebygolrwydd, yn debyg o fod byth yn ddirgelwch; ond nid oes un ammheuaeth nad oedd gwastadedd yr Iorddonen wrth ben gogleddol y Môr Marw, ac am hyny y rhaid fod dinasoedd y gwastadedd yn sefyll yno, yn lle wrth ben deheuol y llyn, fel y cymmerir yn ganiataol yn gyffredinol eu bod. Gwel Sodom. Y mae yn dra thebygol fod Soar yn gorwedd i'r gogledd o'r Môr Marw, heb fod yn mhell oddi wrth ei ben gogleddol. Ei bod ar y tu dwyreiniol i'r dyffryn a ymddengys oddi wrth y ffaith fod hiliogaeth Lot, y Moabiaid a'r Ammoniaid, mewn meddiant o'r wlad hono fel eu cartref gwreiddiol pan y maent yn ymddangos gyntaf yn yr hanes ysgrythyrol. Ymddengys ei bod yn canlyn mai y "mynydd" yn mha un y trigai Lot a'i ferched pan aned Moab, "tad y Moabiaid," ac Ammon, "tad yr Ammoniaid," oedd y "mynydd" i ba un y cynghorwyd ef i ffoi gan yr angel; a rhwng yr hwn a Sodom y safai Soar: *Gen.* xix. 30, gwel 17, 19. Y mae hefyd yn ffafr ei sefyllfa o du y gogledd i'r Môr Marw, fod yr hysbysrwydd boreuaf yn mherthynas i'r Moabiaid yn gwneyd eu cartref gwreiddiol yn ngwastadedd Hesbon, ar y tu gogledd-ddwyreiniol i'r llyn; ac nid, fel ar ol hyny, yn y mynyddoedd ar y tu de-ddwyreiniol, i'r hwn y gyrwyd hwynt gan yr Amoriaid: *Num.* xxi. 26.

Nid ydyw yr adnodau yn Esaiah ac Ieremiah, yn mha rai y crybwyllir Soar, yn rhoi un fantais i ni i wybod ei sefyllfa. Y mae yn wir eu bod yn cynnwys amryw o enwau lleoedd yn ymddangos mewn cyssylltiad â hi; ond lleoedd

Digitized by Google

ydynt (gydag yn unig un eithriad neu ddau) nad ydys yn gwybod yn mha le y safent. Etto y mae yn hynod mai un o'r rhai hyn yw Elealeh; yr hwn, os efe yw yr *el-Alal* diweddar, sydd yn gyfochrog â phen gogleddol y Môr Marw; ac mai y llall ydyw Dyfroedd Nimrim, y rhai, hwyrach, oedd yr un a'r *Wady Nimrîn*, gyferbyn ag Ierieho. Y mae y *Wady Seir*, ychydig bellder i'r deheu i *Nimrin*, yn awgrymiadol o Soar.

Cymmaint a hyn yna am Soar y Beibl. Modd bynag, pan y chwiliwn y crybwyllion am y lle mewn ffynnonellau diweddarach na'r Beibl cawn gryn wahaniaeth. Yn y rhai hyn dynodir ei sefyllfa gyda graddau mwy neu lai o fanylrwydd, fel wrth y pen de-ddwyreiniol i'r Môr Marw. Fel hyn dywed Josephus ei bod wedi cadw ei henw (Σοώρ) hyd ei amser ef, a'i bod wrth ben pellaf y Llyn Heli, yn Arabia—wrth yr hyn y dealla efe y wlad sydd yn gorwedd i'r de-ddwyrain o'r llyn, prifddinas yr hon oedd Petra. Y mae crybwyllion Eusebius o'r un natur:—yr oedd y Môr Marw yn ymestyn o Iericho i Soar. Gorweddai Phæno rhwng Petro a Soar. Yr oedd etto yn cadw ei henw (Σωαρά); gorweddai yn agos i'r Môr Marw; yr oedd yn orlawn o drigolion, a chynnwysai warchodlu o filwyr Rhufeinig; yr oedd y balmwydden a'r balsam etto yn blodeuo, ac yn dwyn tystiolaeth i'w ffrwythlonrwydd cyntefig. Nid ydyw Jerome yn chwanegu ond ychydig neu ddim at grybwyllion Eusebius.

Mewn amseroedd diweddarach, crybwyllir am Soar gan haneswyr Rhyfeloedd y Groes. Dywed Fulcher, "Wedi i ni amgylchu y rhan ddeheuol o'r llyn, ar y ffordd o Hebron i Petra, cawsom yno bentref mawr, yr hwn, meddent, oedd Segor, mewn sefyllfa swynol, ac yn llawn o balmaeron. Yma y dechreuasom fyned i fynyddoedd Arabia." Crybwyllir am y palmwydd hefyd gan William o Tyrus, fel mor helaeth ag i beri i'r lle gael ei alw 'Pentref y Palmwydd.' Nid ydyw Abulfeda yn disgrifio ei sefyllfa yn nes na'i bod yn agos i'r llyn a'r glyn; ond y mae yn tystiolaethu ei bod y pryd hwn yn bwysig, trwy alw y llyn ar ei henw—Bahretzegor. Y casgliad naturiol oddi wrth ddisgrifiad Fulcher ydyw, fod Segor yn gorwedd yn Nant Kerak—y ffordd arferol, y pryd hwnw ac yn awr, o du y deheu i'r Môr Marw i'r ucheldiroedd dwyreiniol. Gan hyny, y mae yn debygol fod tybiaeth Irby a Mangles mai adfeilion Soar oedd yr adfeilion helaeth a welsant yn y rhan isaf o'r nant hon, yn gywir.

Perthynai Soar i dalaeth Palestina Tertia, yr hon hefyd oedd yn cynnwys Kerak ac Areopolis. Yr oedd yn esgobaeth, yn mhatriarchaeth Ierusalem ac archesgobaeth Petra. Yn Nghynghor Chalcedon (B. A. 451), cynnrychiolid hi gan ei hesgob Musonius, ac yn Nghymmanfa Caercystenyn (B. A. 536), gan Ioan.

SOBAH: enw rhan o Syria; yr hon oedd yn ffurfio teyrnas ar wahân yn amser y brenhinoedd Iuddewig, Saul, Dafydd, a Solomon. Y mae yn anhawdd nodi ei sefyllfa a'i therfynau yn fanwl; ond ymddengys fod seiliau i dybied ei bod yn gorwedd yn benaf tua'r dwyrain i Cœle-Syria, ac yn ymestyn oddi yno i'r gogledd-ddwyrain a'r dwyrain, tuag, os nad hyd yn ood at, yr Euphrates [gwel SYRIA]. Buasai fel hyn yn cynnwys ystlys ddwyreiniol y gadwen fynyddig, yr hon sydd yn cau Cœle-Syria i mewn ar yr ochr hono, y tir uchel o amgylch Aleppo, a'r rhan fwyaf gogleddol o anialwch Syria.

Yn mhlith dinasoedd Sobah, yr oedd dinas a elwid Hamath (2 *Cron.* viii. 3), yr hon ni ddylid ei chymmeryd am "Hamath Fawr" (HAMATH-SOBAH); lle a elwir Tibhath neu Betah (2 *Sam.* viii. 8; 1 *Cron.* xviii. 8), yr hwn, fe allai, ydyw *Taibeh*, rhwng Palmyra ac Aleppo; ac un arall a elwid Berothai; yr hwn, fel y tybir, ydyw Beyrût. Y mae y dybiaeth olaf yn dra annhebygol, canys y mae yn rhaid fod teyrnas Hamath yn gorwedd rhwng Sobah a'r glenydd.

Yn amser Saul yr ydym yn clywed gyntaf am Sobah, pan y crybwyllir am dani fel gwlad ar wahân, yn cael ei llywodraethu mewn ymddangosiad gan nifer o frenhinoedd, y rhai ni chydnabyddent neb fel pen arnynt: 1 *Sam.* xiv. 47. Bu rhyfel rhwng Saul a'r brenhinoedd hyn; ac efe a'u "poenodd hwynt," yr un modd ag y poenodd efe ei gymmydogion ereill. Rhyw ddeugain mlynedd yn ddiweddarach na hyn, yr ydym yn cael Sobah dan un llywodraethwr, Hadadezer, mab Rehob; yr hwn, fe ymddengys, oedd yn benadur galluog. Bu yn rhyfela gyda Toi, brenin Hamath (2 *Sam.* viii. 10), tra yr oedd efe yn byw mewn cyfeillgarwch agos â brenhinoedd Damascus, Istob, &c.; a chadwodd amryw o fân dywysogion Syria o dan deyrnged iddo: 2 *Sam.* x. 19. Yr oedd ganddo hyd yn oed gryn ddylanwad yn Mesopotamia, tu hwnt i'r Euphrates; ac ar un achlysur llwyddodd i gael gallu cynnorthwyol pwysig o'r parth hwnw: 2 *Sam.* x. 16; gwel teitl i *Salm* lx. Gan fod Dafydd wedi penderfynu cymmeryd meddiant llawn o'r diriogaeth a addawyd yn wreiddiol i hâd Abraham (2 *Sam.* viii. 3; gwel *Gen.* xv. 18), efe a ymosododd ar Hadadezer yn y rhan foreuol o'i deyrnasiad; gorchfygodd ei fyddin, a chymmerodd oddi arno fil o gerbydau, saith mil (yn ol 1 *Cron.* xviii. 4) o wŷr meirch, ac ugain mil o wŷr traed. Gan fod cynghreiriaid Hadadezer, y Syriaid o Damascus, wedi myned i'w gynnorthwyo, gorchfygodd Dafydd hwynt mewn brwydr fawr, yn yr hon y collasant ddwy fil ar hugain o wŷr. Y mae cyfoeth Sobah yn amlwg iawn yn hanes y rhyfelgyrch hwn. Yr oedd amryw o swyddogion byddin Hadadezer yn cario "tarianau aur" (2 *Sam.* viii. 7); wrth ba rai, y mae yn debygol, yr ydym i ddeall fframiau haiarn neu goed wedi eu gorchuddio â phlatiau o'r mettel gwerthfawr. Yn mhellach, yr oedd y dinasoedd a gymmerodd Dafydd, sef Betah (neu Tibhath) a Berothai, yn cynnyrchu iddo "lawer iawn o bres;" 2 *Sam.* viii. 8. Nid ydyw yn hollol eglur pa un a ddarfu i Syriaid Sobah ymostwng a dyfod dan deyrnged ar yr achlysur hwn, neu, er eu gorchfygu, a oeddynt yn alluog i gadw eu hannibyniaeth. Beth bynag, yn mhen ychydig flynyddau ar ol hyny, rhyfelasant drachefn yn erbyn Dafydd. Y tro hwn safai y brenin Iuddewig ar y diffynol. Cynnhyrfwyd y rhyfel gan yr Amoriaid, y rhai a gyflogasant wasanaeth Syriaid Sobah, yn mhlith ereill, i'w cynnorthwyo hwynt yn erbyn pobl Israel; ac yn y modd yma cafodd 33,000 o wŷr i'w gynnorthwyo. Gorchfygwyd y cynghreiriaid mewn brwydr fawr gan Ioab, yr hwn a ymladdodd â'r Syriaid ei hun gyda blodau ei filwyr: 2 *Sam.* x. 9. Ar hyn, gwnaeth Hadadezer un ymdrech olaf. Efe a anfonodd dros yr afon Euphrates i Mespotamia, ac a "ddygodd allan y Syriaid, y rhai oedd o'r tu hwnt i'r afon" (1 *Cron.* xix. 16), y rhai nid oeddynt hyd yma wedi cymmeryd un rhan yn y rhyfel. Gyda'r cynghreiriaid hyn, a'i filwyr ei hun, efe a ail ddechreuodd ymladd

Digitized by Google

Yr oedd Sobieski yn ysgolhaig gwych, ac yn dra hoff o ddysgeidiaeth; dysgodd yr Yspaenaeg wedi myned i gryn oed, ac yn nghanol gofalon llywodraethiad teyrnas. Cymmerwyd ef yn ddisymmwth yn glaf yn 1696, a bu farw ar yr 17eg o Orphenaf.

SOBRWYDD: llywodraeth hollol ar ein nwydau a'n dymuniadau, fel nad ydynt yn derbyn dim mwy o ryddid nag a ganiateir gan y ddeddf foesol a rheswm naturiol cywir. Yn ngeiriau Jeremy Taylor, "Gwregys rheswm, a ffrwyn nwyd ydyw sobrwydd." Pan y priodolir ef i'r corph, y mae yn arwyddo cymmedrolder o ran yfed, mewn cyferbyniad i feddwdod: 1 *Thes.* v. 6, 8; 1 *Pedr* v. 8. Pan y priodolir ef i'r meddwl, y mae yn arwyddo agwedd ddifrifol, wyliadwrus, a phwyllog: 1 *Tim.* iii. 2, 11.

"Sobrwydd," fel y sylwa un, "ydyw addurn a diffyniad Cristion. Y mae yn angenrheidiol yn mhob sefyllfa, ac yn mhob anturiaeth; yn wir, nis gellir gwneyd dim yn iawn hebddo. Gwelir a theimlir diffyg sobrwydd gan laweroedd yn wastad. Heb sobrwydd y mae dyn yn agored i gael ei luchio gan y tonau didrugaredd bob dydd, yn amddifad o angor. Y mae sobrwydd yn ddiogelwch yn erbyn dylanwad niweidiol nwydau terfysglyd; y mae yn hunanddiffyniad, yn gystal ag yn hunanfeddiant. Y mae yn angenrheidiol ar bob achlysur:—pan yn darllen, pan yn gwrandaw, pan yn gweddio, pan yn ymddiddan, pan yn ffurfio cynlluniau, pan yn eu cario hwynt allan, pan yn llwyddiannus, a phan yn aflwyddiannus. Y mae sobrwydd yn angenrheidiol i bob math o gymmeriad; y mae yn angenrheidiol i'r ieuangc ac i'r hen, i'r cyfoethog ac i'r tlawd, i'r doeth ac i'r anwybodus: dylent oll fod yn 'sobr.' Y mae yr angenrheidrwydd am sobrwydd yn amlwg:—1. Yn ein hymchwiliadau am y gwirionedd, fel yn gyferbyniol i ryfyg. 2. Yn ein llafur am bethau y byd hwn, fel yn gyferbyniol i gybydd-dod. 3. Yn y modd yr edrychwn ar, ac y defnyddiwn bethau y byd hwn, fel yn gyferbyniol i ormodedd. 4. Mewn trallodion a chystuddiau, fel yn gyferbyniol i anffyddlonrwydd. 5. Wrth ffurfio ein barn am ereill, fel yn gyferbyniol i feiddgarwch. 6. Wrth siarad am danom ein hunain, fel yn gyferbyniol i hunanoldeb. Gellir enwi llawer o gymhelliadau dros fod yn sobr, megys, 1. Iaith gyffredinol yr Ysgrythyr: 1 *Pedr* v. 8; *Phil.* iv. 5; *Tit.* ii. 12; 1 *Pedr* iv. 7. 2. Ein proffes fel Cristionogion. 3. Esampl Iesu Grist: ac 4. Agosrwydd marwolaeth a barn."

SOCINUS, FAUSTUS: nai i Lælius Socinus. Yr oedd efe yn fab i Alessandro Socinus, a ganwyd ef yn Sienna, ar y 5ed o Ragfyr, 1539. Yr oedd ei fam yn hanu o deulu o gyssylltiadau uchel; ond collodd ei rieni tra yr oedd yn bur ieuangc, ac felly cafodd ei addysg ei esgeuluso i raddau pell; ac yr oedd efe ei hun ar ol hyny yn gofidio o herwydd na buasai wedi cael gwell addysg yn y cyfnod hwn. Ond ymddengys na ddarfu i hyn ond ei wneyd yn fwy beiddgar yn ei ddamcaniaethau; canys yr oedd wedi mabwysiadu yr heresi wrth-Drindodaidd cyn bod yn ugain mlwydd oed; a barnodd mai doeth oedd iddo ffoi am nodded i Ffraingc, a thrigai yn Lyons pan y derbyniodd y newydd o farwolaeth ei ewythr. Aeth i Zurich yn ddioed, a chafodd feddiant o lawysgrifau ei berthynas, ac wedi hyny dychwelodd o Italy. Aeth i wasanaeth y Duc o Tuscany; ac yn nghanol gofalon swydd, a llygredigaeth y llys, ni bu yn ymyraeth am ysbaid deuddeng mlynedd â dadleuon duwinyddol. Ond ar derfyn y tymmor yna, efe a ymroddodd yn fwy nag erioed i wneuthur ymchwiliad i wirioneddau crefydd; ac er gwaethaf pob cais i geisio ei attal, aeth i'r Almaen, lle yr oedd pyngciau duwinyddol yn cael y sylw mwyaf. Aeth i Basel yn 1574 i ddilyn ei efrydiau yn fwy ymroddgar; ond mewn canlyniad i ddadl a fu rhyngddo a Francis Pucci, bu raid iddo adael Switzerland. Ar ddymuniad Blandrata, efe a aeth i Transylvania, lle yr oedd y gwrth-Drindodwyr yn lliosog, yn enwedig yn mysg y pendefigion, a gwnaeth ei oreu i broselytio ereill. Aeth oddi yno i Poland yn 1579, lle yr oedd y sawl a goleddent yr un golygiadau ag ef yn lliosocach nag yn Transylvania, a daeth Socinus yn fuan i feddu dylanwad mawr yno. Pregethai, dadleuai, ac ysgrifenai yn selog dros ei olygiadau. Ystyriai fod Luther a Chalvin wedi gwneuthur gwasanaeth mawr i achos crefydd, ond nad oeddynt wedi myned yn ddigon pell—mai unig sylfaen ddiogel Protestaniaeth oedd rheswm dynol, fod pob peth anghydnaws âg ef, neu na ellir cyfrif am dano ar dir rheswm, yn dwyllodrus, ac y dylid ymwrthod âg ef, ac na ddylid caniatau i athrawiaethau gael diangc rhag bod yn agored i feirniadaeth am fod eu hamddiffynwyr yn dyweyd fod "dirgelwch" yn perthynu iddynt. Bu raid iddo, o herwydd rhyw anghydweledia â'r awdurdodau gwladol, ymadael o Cracow; ond cafodd ei noddi gan Christopher Morsztyn, pendefig Pwylaidd, a phriododd wedi hyny ferch ei amddiffynwr. Bu iddo yn wraig serchus a ffyddlawn; a phan y collodd Socinus hi yn 1587, trwy farwolaeth, bu yn mron a thori ei galon o ofid. Attafaelwyd ei feddiannau yn Italy tua'r pryd hwn; ond ymddengys fod ganddo gyfeillion cyfoethog a dylanwadol yn Poland. Yn 1588, efe a gymmerodd ran yn synod Brest (ar derfynau Lithuania), a dadleuai yn erbyn prif athrawiaethau yr eglwys Gristionogol; megys Duwdod Crist, ei aberth iawnol, pechod gwreiddiol, llygredigaeth dynol, a chyfiawnhâd trwy ffydd, &c. Pan y cyhoeddodd ei "*De Jesu Christo Servatore*," ymgododd pobl Cracow yn ei erbyn; a thynwyd Socinus allan o wely cystudd ganddynt unwaith, a bu yn agos iddynt ei ladd. Efe a adawodd y ddinas ar ol hyn, a chafodd nodded gydag un o'i gyfeillion yn mhentref Luclavie, lle y bu farw ar y 3ydd o Fawrth, 1604, yn 64ain mlwydd oed. Nid oes nemawr o ddarllen ar ei weithiau yn bresennol, ond y mae llawer o amddiffynwyr i'w opiniynau.

SOCINUS, LÆLIUS, a anwyd yn Sienna, yn Tuscany, yn 1525. Hanai o deulu a fuasai yn enwog am ddiwyllio llenyddiaeth a gwyddoniaeth. Cyfreithiwr oedd ei dad, Marianus Socinus, a bwriadai efe i'w fab ei ddilyn yn yr un alwedigaeth. Ond amlygodd Lælius dueddiad cryf at dduwinyddiaeth; ac er mwyn gallu dilyn ei ymchwiliadau duwinyddol yn well, efe a astudiodd yr ieithoedd Groeg, Hebraeg, ac Arabaeg. Yr oedd egwyddorion y Diwygiad Protestanaidd yn raddol wedi gweithio eu ffordd i Italy y pryd hwnw; ac yn 1546, ffurfiwyd cymdeithas ddirgel yn Vicenza, i ymdrin â chwestiynau crefyddol. Rhif ei haelodau oedd deugain; ac yr oedd yn eu plith bobl nodedig ar gyfrif eu sefyllfa, eu galwedigaethau, a'u teitlau. Derbyniwyd Socinus yn aelod o honi. Daeth y frawdoliaeth hon i benderfyniad nad oedd athrawiaeth y Drindod ddim amgen na pheth wedi ei fenthyca oddi wrth yr athronwyr Groegaidd. Pan ddaeth amcan eu cyfarfyddiadau yn hysbys,

Digitized by Google

torwyd y gymdeithas i fyny. Daliwyd rhai o'r aelodau, a rhoddwyd hwynt i farwolaeth, tra y darfu i ereill ffoi o'r wlad er mwyn diogelwch. Yn mysg y rhai diweddaf yr oedd Socinus, yr hwn a deithiodd yn Ffraingc, Lloegr, Holland, yr Almaen, a Pholand; a thrwy hyny efe a ddaeth yn gydnabyddus â llawer o ddysgedigion, ac ymsefydlodd yn Zurich, lle y bu farw yn 1562, pan nad oedd ond 37ain mlwydd oed. Yr oedd Lælius yn ddyn tawel a doeth: ni siaradai lawer yn gyhoeddus, ond yr oedd yn ei ohebiaethau yn dangos ei fod yn ddadleuwr medrus a brwdfrydig, ac ymddengys iddo wneyd cryn lawer o broselytiaid i'w olygiadau ar y Drindod, a pherson Crist, &c.

SOCINIAETH: athrawiaeth a daliadau y Sociniaid. Faustus Socinus, yr hwn a nodir yn yr erthygl flaenorol, a ystyrir yn gyffredin fel sylfaenydd yr enwad; ac oddi wrtho ef y cawsant eu henw. Y mae y Sociniaid diweddar, modd bynag, yn galw eu hunain yn fynych yn *Undodiaid*:—gair sydd yn gosod allan yn fwy pennodol eu daliadau, yn gymmaint ag nad ydynt yn dal allan holl athrawiaethau Socinus. Anfynych y ceir unrhyw enwad o broffeswyr Cristionogol yn glynu wrth holl olygiadau eu sylfaenwyr. Ystyrir ei fod yn ddigon i atteb pob pwrpas sydd mewn golwg wrth roddi enw, eu bod yn glynu wrth athrawiaethau neillduol ac arweiniol rhywun arbenig y gelwir hwynt ar ol ei enw.

Cymmhwysir y gair *Sociniaid* yn gyffredin at y rhai sydd yn gwadu Duwdod Crist; ond diau ei fod yn perthynu yn fwy cywir i ddilynwyr Socinus. Ystyrir mai Martin Cellarius, brodor o Stuttgart, a ddadleuodd gyntaf dros Wrthdrindodaeth. Ganwyd ef yn 1499, ac addysgwyd ef yn mhrifysgol Wittemberg. Daeth o herwydd ei ddysg i gyfeillgarwch â Luther a Melancthon, a choflediodd eu hegwyddorion hwynt. Wedi hyny, modd bynag, efe a ymwrthododd âg athrawiaeth y Drindod. Bu farw yn Basle, yn 1564. Cydoesydd â Cellarius ydoedd Michael Servetus—un o'r meddylwyr mwyaf gwreiddiol a fabwysiadodd y golygiadau Gwrthdrindodaidd. Rhoddwyd ef i farwolaeth am heresi yn Geneva, 1553. [Gwel SERVETUS, MICHAEL.] Ymddengys mai rhai o'r Ailfedyddwyr, yn yr Almaen a Holland, oedd y rhai blaenaf o'r sawl a gofleidient Brotestaniaeth, yr aeth nifer o honynt i ammheu, neu wadu, athrawiaeth y Drindod; ond dangosodd yr ysbryd hwn ei hun mewn llawer ereill yn yr Almaen a Switzerland; ac aeth amryw drosodd i Poland, lle yr oedd yr athrawiaeth Wrthdrindodaidd wedi ei chyhoeddi a'i lledaenu gan un o'r enw Spiritus. Ynghylch yr un amser, ffurfiwyd cymdeithas yn Vicenza, aelodau yr hon a haerent nad oedd Crist ond dyn yn unig; ond chwalwyd hi yn fuan gan y chwilys Pabaidd. Daliwyd rhai o'r aelodau, a diangodd y lleill, ac yn eu plith Lælius Socinus. [Gwel SOCINUS, LÆLIUS.] Un arall a ymunodd â'r rhai a gofleidient y syniadau hyn oedd Gregory Paul—pregethwr perthynol i'r blaid ddiwygiadol yn nghymmydogaeth Cracow. Un o'r enw Peter Gonezius oedd y cyntaf a wrthwynebodd athrawiaeth y Drindod mewn cyfarfod cyhoeddus, a hyny mewn synod yn Seceminia, yn 1556. Yr oedd yr holl synodau a gynnelid yn Poland yn cael eu gwneyd i fyny o aelodau ac athrawon o'r holl gymdeithasau diwygiadol—Lutheriaid, Calviniaid, a Gwrthdrindodwyr, hyd y flwyddyn 1566; ac yr oedd anghydfod parhaus yn digwydd ynddynt o herwydd yr undeb anghydnaws hwn. Yn y flwyddyn uchod, fodd bynag, ni chaniateid i'r blaid hereticaidd ddyfod i'r cynnulliadau hyn; ac o'r pryd hwnw dechreuasant ymffurfio yn sect ar wahân yn y wlad. Haerent oll uchafiaeth y Tad; ond o barthed i Iesu Grist, meddyliai rhai am dano ei fod yn Dduw o natur israddol, yn ddeilliedig o'r Duwdod Mawr: ereill a ddalient athrawiaeth Arius [Gwel ARIAID]: ac yr oedd trydedd plaid, yn credu nad oedd efe ond dyn yn unig. Pwynt arall ar ba un yr oedd y personau hyn yn gwahaniaethu yn eu plith eu hunain oedd yr addoliad dyledus i'r Gwaredwr. Mynai rhai hyd yn oed o'r sawl a gredent nad oedd efe ond dyn yn unig, fod ganddo hawl i anrhydedd dwyfol; tra yr oedd ereill yn dal nad oedd addoliad dwyfol i gael ei gyflwyno ond i'r Tad yn unig. Gwadai yr holl bleidiau hyn bersonoliaeth yr Ysbryd Glân. Adeiladasant leoedd i addoli yn holl brif ddinasoedd Poland; a gelwid rhai o honynt y pryd hwnw yn Farnoviaid, ac ereill yn Budnæaniaid. Cyrhaeddodd Faustus Socinus i Poland yn 1579; a darfu i'w ysgrifeniadau ef ddwyn yr holl bleidiau hyn i feddu golygiadau tebyg i'r eiddo ef ei hun. [Gwel SOCINUS, FAUSTUS.] Yn 1638, cafodd yr achos Socinaidd ddyrnod marwol yn Poland. Darfu i ryw efrydwyr yn ngholeg Racow ddangos ammharch i groes oedd wedi ei gosod i fyny uwch ben un o byrth y ddinas; ac mewn canlyniad i'r weithred hon, darfu i lwyrwys Warsaw, yn yr un flwyddyn, basio penderfyniad yn gorchymyn can i fyny y lle addoli Socinaidd yn Racow, a thori y coleg i fyny; a bod yr argraphdy perthynol iddynt i gael ei dynu i lawr, a'r athrawon eu danfon ymaith. Goresgynwyd y wlad gan y Cossaciaid, y rhai a nodent allan y Sociniaid fel gwrthddrychau neillduol eu digofaint. Yn 1655, dygwyd cyhuddiad ffurfiol yn eu herbyn o gynnorthwyo brenin Sweden yn ei waith yn goresgyn y deyrnas, ychydig yn flaenorol i hyny; a phasiodd llwyrwys Warsaw gyfraith yn gwahardd lledaenu eu daliadau, o dan boen marwolaeth. Gwnaed y gyfraith yn llymach drachefn yn 1660; a'r canlyniad fu i nifer mawr o honynt ffoi o Poland, a chymmeryd noddfa—rhai yn Transylvania a Hungary; rhai yn Prwssia, Silesia, a Moravia; ereill yn Holland a'r Iseldiroedd, a rhai yn Lloegr.

Yr oedd Sociniaeth wedi gwneuthur cryn gynnydd yn Transylvania, cyn cael ei llethu fel hyn yn Poland. Yr hwn a ledaenodd opiniynau Socinaidd gyntaf yno oedd George Blandrata, brodor o Piedmont; yr hwn, yn 1563, a aethai i Transylvania yn physygwr i Sigismund II. Llwyddodd i berswadio Francis David, un o arweinwyr y blaid ddiwygiedig, i fabwysiadu yr un golygiadau ag yntau; ac i ymdrechiadau unedig y ddau hyn y gellir, mewn rhan fawr, briodoli llwyddiant yr egwyddorion yn Transylvania. Yn 1574, modd bynag, attaliwyd cynnydd y blaid yno gan yr anghydwelediad a gymmerodd le rhwng y ddau arweinydd. Y cwestiwn mewn dadl oedd—Crist fel gwrthddrych gweddi. Amddiffynai Blandrata y golygiad y dylai ein Ceidwad gael ei addoli; a David a ddadleuai yn wrthwynebol i hyny. Gwahoddwyd Socinus gan Blandrata, yn 1578, i ddyfod i wrthwynebu David, ac i geisio ei argyhoeddi; ond ni lwyddodd. Dygwyd David

Digitized by Google

o flaen y llwyrwys a ymgynnullodd yn Wiesenburg yn mis Mehefin, 1579, a chondemniwyd ef am gabledd. Bu farw yn nghastell Deva, yn y mis Tachwedd dilynol. Dechreuodd yr achos Socinaidd wanychu yn Transylvania ar ol hyn. Cyfrifai y Dr. Thomas Rees, yn 1818, fod y Sociniaid yn y wlad hono ynghylch 60,000 mewn nifer. Transylvania a Poland ydyw yr unig wledydd ar y Cyfandir lle y cafodd Sociniaeth ledaeniad a derbyniad helaeth.

Ymddengys fod rhai yn Lloegr yn bleidiol i Wrthdrindodaeth yn fuan ar ol y Diwygiad Protestanaidd. Cafodd Bartholomew Legatt ac Edward Wightman eu llosgi am gredu yr heresi hon—un yn West Smithfield, a'r llall yn Lichfield—yn y flwyddyn 1611; ond y mae yn debyg mai John Biddle, yr hwn a fu farw yn y carchar yn 1662, oedd y cyntaf a wnaeth arddeliad cyhoeddus o Sociniaeth. Ond sylfaenydd yr ysgol ddiweddar o Undodiaid yn Mhrydain yn ddiammheuol oedd Dr. Priestley. [Gwel PRIESTLEY, JOSEPH.] I'w ysgrifeniadau a'i ddylanwad ef yr oedd llwyddiant Sociniaeth yn ystod yr hanner olaf o'r ganrif ddiweddaf i'w briodoli yn benaf. Yn mhlith ei brif gynnorthwywyr gellir enwi y Parch. Theophilus Lindsey, periglor yn yr Eglwys Sefydledig; yr hwn, yn 1773, a roddodd i fyny ei fywoliaeth, ac wedi hyny a gasglodd ynghyd gymdeithas o bersonau o'r un golygiadau ag ef ei hun, yn heol Essex, Strand, Llundain. Darfu i amryw glerigwyr ereill goleddu yr un syniadau, megys y doctoriaid Chambers, Jebb, a Disney; a'r Meistri Evanson, Gilbert Wakefield, a Stone. Ond y cwbl a wnaeth holl ymdrechion Priestley, Lindsey, ac ereill, oedd troi y rhai oedd eisoes yn dysgu Ariaeth yn Sociniaid, yn enwedig yn mysg yr Ymneillduwyr; ond darfu iddynt hwy drachefn lwyddo i raddau pell i ledaenu eu hegwyddorion yn eu cynnulleidfaoedd. Y mae llawer o gynnulleidfaoedd y Sociniaid sydd yn awr yn Lloegr yn cael eu cynnal gan hen waddoliadau Presbyteraidd. Y mae ganddynt gynnulleidfaoedd yn yr Unol Daleithiau hefyd; ond y mae y rhan liosocaf o honynt yn nhalaeth Massachusetts.

Y mae y Sociniaid diweddar yn gwahaniaethu gryn lawer o ran athrawiaeth oddi wrth Socinus. Yr oedd efe yn dal allan mai dyn oedd ein Harglwydd Iesu Grist, ond a genhedlwyd trwy yr Ysbryd Glân, ac o herwydd hyny ei fod yn uniganedig Fab Duw; ac, heb law hyny, iddo gael ei wneuthur yn Fab Duw trwy yr adgyfodiad oddi wrth y meirw. Credai efe fod Crist yn haeddiannol o addoliad dwyfol; ac ar ol ei eni, a chyn ymaflyd yn y gwaith a osodwyd iddo gan y Tad, iddo fod yn y nefoedd am beth amser; ond nas gallai dim fod yn fwy anghysson na maddeuant rhad a boddlonrwydd iawnol; ac wrth faddeu ein pechodau trwy Iesu Grist nad oes un iawn yn sail y gweinyddiad o faddeuant; a bod Duw o'i ewyllys da ei hun yn amlygu ei hun mor drugarog tuag atom yn Nghrist fel nad yw yn ein cospi am ein pechodau, er y gall yn gyfiawn wneyd hyny. Cydnabyddai Socinus, modd bynag, fod marwolaeth Crist, a thywalltiad ei waed drosom, yn offrwm ac yn aberth i Dduw, a bod yr aberth wedi ei offrymu dros ein pechodau ni, fel y bo iddynt gael eu maddeu; ond fod yr aberth hwn, mor bell ag y mae yn iawnol, nid wedi ei offrymu ar y groes, ond yn y nefoedd ar ol ei adgyfodiad. Y mae y Sociniaid diweddar yn gwadu y beichiogiad gwyrthiol; a chyda hyny hefyd nid ydynt yn cydnabod fod addoliad yn ddyledus i Iesu Grist. Haerant nad oedd ein Harglwydd mewn bod nes ei eni o'r Forwyn Fair; ac mai dyn fel ninnau ydoedd, er ei fod wedi ei fendithio â mesur helaeth o ddoethineb dwyfol; ac mai unig amcanion ei genadwri oedd dysgu effeithiolrwydd edifeirwch heb iawn, fel cyfrwng ffafr Duw—gosod o'n blaen esampl i'w efelychu—selio ei athrawiaeth â'i waed; ac, yn ei adgyfodiad oddi wrth y meirw, i amlygu sicrwydd o'r adgyfodiad yn y dydd diweddaf. Y mae y Sociniaid hefyd yn gwadu yn hollol ysbrydoliaeth cyffredinol ysgrifenwyr yr Hen Destament a'r Newydd. Ystyriant fod yr Ysgrythyrau yn gofnodion cywir o amgylchiadau sydd wedi cymmeryd lle; ond nad oedd yr ysgrifenwyr sanctaidd wedi eu hysbrydoli, ond yn unig yn y manau hyny lle y maent yn hòni eu bod felly. Y maent yn diosg crefydd ddadguddiedig o bob dim nas gellir ei gyssoni â rheswm dynol. Dyma y rheswm pa ham y maent yn gwrthod rhai o athrawiaethau mwyaf hanfodol Cristionogaeth, fel y deallir hwynt gan Gristionogion uniongred. Y mae y Sociniaid yn gyffredin yn gwadu bodolaeth y diafol a'i weithrediadau, ac yn ystyried nad ydyw yn ddim amgen na ffolineb i gredu fod y fath berson mewn bodolaeth: haerant fod credu hyny yn ddiraddiad ar ddeall dyn. Y mae llawer o honynt hefyd yn gwadu ysbrydolrwydd yr enaid, a'i fodolaeth ar wahân oddi wrth y corph. Credant fod dyn yn cael ei wneyd i fyny o ddefnydd, a bod yr unig olwg sydd genym ar anfarwoldeb yn deilliaw o'r athrawiaeth Gristionogol am yr adgyfodiad. Wrth gwrs, y mae y syniad o sefyllfa o ymwybodolrwydd rhwng marw a'r adgyfodiad yn cael ei wrthod ganddynt, gan fod yr holl ddyn yn marw pan y bydd y corph farw. Felly y mae yr holl ddyn i gael ei alw etto i fywyd yn yr amser appwyntiedig yn yr adgyfodiad; a bydd yr amser cydrhwng y ddwy sefyllfa yn myned heibio tra y bydd y corph a'r enaid mewn sefyllfa o anwybodolrwydd. Yn ol eu golygiad hwy, nid ydyw cospedigaeth ddyfodol i fod yn dragwyddol, ond yn ddysgyblaethol; peth wedi ei fwriadu er lles y sawl a gospir, ac i'w weinyddu am amser terfynol; ac yn ol y golygiad hwn, y mae pawb yn y diwedd i gael eu hadferu a'u dwyn i fwynhâd o fywyd tragwyddol. Yn yr hyn a berthyn i addoliad a dysgyblaeth, y maent yn mabwysiadu y ffurf Annibynol o lywodraeth eglwysig, ac yn arfer yn gyffredin ffurfiau ysgrifenedig o weddïau, ac ystyriant mai Swper yr Arglwydd ydyw yr unig ordinhâd o dan yr efengyl.

Y prif ysgrifenwyr o blaid Sociniaeth ydynt Priestley, Lindsey, Belsham, Carpenter, Yates, Fox, Vance Smith, a Martineau. Y rhai a gymmerasant y rhan amlycaf ar yr ochr arall i'r ddadl, fel y cariwyd hi yn mlaen yn lled ddiweddar, ydynt Horsley, Magee, Fuller, Wardlaw, J. Pye Smith, a Robert Hall.

SOCRATES, yr hwn a ystyrir gan rai fel sylfaenydd athroniaeth Roegaidd, a anwyd yn Athen yn y flwyddyn c. c. 468. Cerflunydd wrth ei gelfyddyd oedd ei dad; a'i enw oedd Sophroniscus. Bu Socrates yn moreu ei oes yn dilyn yr un alwedigaeth, a dywedir ei fod wedi gwneyd cryn gynnydd ynddi. Enw ei fam oedd Phævarete: yr oedd hi yn fydwraig. Hanodd o deulu cyfrifol o ran disgyniad, er nad oeddynt ond lled isel o ran eu hamgylchiadau. Ni ddarfu i Socrates, pa fodd bynag, ddilyn ei

alwedigaeth ond mor bell ag y gallai gael bywoliaeth weddol gysurus, gan iddo ddyfod i feddiant o ychydig gyfoeth ar ol marwolaeth ei dad. Cyflwynodd y rhan fwyaf o'i amser a'i dalentau i astudio athroniaeth, at yr hyn yr oedd ynddo dueddiad naturiol cryf. Tra yn gweithio ei gelfyddyd fel cerflunydd, ac yn enwedig ar ol ei dodi heibio, efe a dreuliodd y rhan fwyaf o'i amser i ddarllen pob gweithiau athronyddol o eiddo ei gydoeswyr yn gystal a'i flaenafiaid. Yr oedd Crito yn rhoddi iddo arian i dalu i amryw athrawon am ei addysg. Arferai wrandaw ar ddarlithiau yr athronwyr a ymwelent âg Athen o wahanol barthau, ac yn enwedig ar Anaxagoras, yr hwn a alltudiwyd o'r ddinas pan yr oedd Socrates yn ddwy flwydd ar bymtheg ar hugain oed, ac ar ei olynydd Archelaus, ac ar Prodicus; ond fe allai mai yr athronwyr a wnaethant fwyaf i roddi cyfeiriad pennodol i'w feddwl oedd Parmenides a Zeno. Yr oedd ei gyfansoddiad corphorol yn nodedig o gryf, ac yn ei analluogi i fyned trwy lafur corphorol a meddyliol lawer uwch law y cyffredin. Gellir ystyried iddo gael yr addysg oreu a allasai Athen ei roddi iddo yn y cyfnod hwnw; yr hyn a gynnwysai, nid yn unig wybodaeth o iaith ei wlad, a darlleniadau o weithiau y beirdd Groegaidd, ond hefyd elfenau rhifyddiaeth, meintoniaeth, a seryddiaeth, fel yr oeddynt yn adnabyddus ar y pryd.

Nid oes ond ychydig o hanes ei fywyd yn adnabyddus, oddi gerth mewn cysylltiad â'i yrfa athronyddol. Ymddengys iddo wasanaethu ei wlad yn ffyddlawn fel milwr ar un adeg; yr hyn a ystyrid yn ddyledswydd ar bob dinesydd Athenaidd. Yn ystod y rhyfel Peloponnesaidd, bu mewn tri o ryfelgyrchoedd. Yn y cyntaf o'r rhai hyn efe a gymmerodd ran yn ngwarchauad hirfaith Petidæa, ac y mae Alcibiades, yn "*Symposium*" Plato, yn rhoddi hanes llawn, er fe allai ei fod braidd yn rhy ffafriol, am ei ddewrder, a'r gwasanaeth gwerthfawr a wnaeth yn ystod y gwarchau hwnw. Dioddefai newyn a syched, a gwres ac oerni, yn hollol ddiofal. Yn un o'r ysgarmesoedd a gymmerodd le, syrthiodd Alcibiades yn glwyfedig yn nghanol y gelynion; gwaredodd Socrates ef, a chariodd ef ymaith, a'i arfau gydag ef—gwrhydri am ba un y gwobrwywyd ef â choron ddinesig fel gwobr am ei ddewrder; ond ei rhoddi i Alcibiades a wnaeth y gwron. Yr ail ryfelgyrch y bu ynddo oedd un Bœotia, lle yr ymladdodd dros ei wlad yn mrwydr anffodus Delium. Gwaredodd fywyd un o'i ysgolheigion yn y frwydr hono, sef Xenophon, yr hwn a gariodd efe ar ei ysgwydd o'r maes, gan ymladd ei ffordd wrth fyned yn mlaen trwy rengau y gelynion. Yn ei drydydd rhyfelgyrch efe a wasanaethodd yn Amphipolis. Hwyrach ei fod yn fwy anhawdd ffurfio syniad cywir am deilyngdod y gwasanaeth a wnaeth efe i'r wladwriaeth fel gwladwr. Fel aelod o'r senedd ymgynghoriadol, efe a amlygodd ddiysgogrwydd mawr trwy bleidleisio yn erbyn y ddedfryd feius, drwy yr hon y condemniwyd y gorchfygwyr yn Arginussæ i farwolaeth. Ond fe allai fod rhyw le i gredu ei fod yn bleidiwr i Theramenes, yr hwn oedd y prif symmudydd yn y gweithrediadau hyny, yn gystal ag mewn rhai pethau anhapus ereill. Nis gadawodd Athen, pa fodd bynag, pan yr oedd gorthrwm y Deg ar hugain waethaf; a dichon iddo fod yn offeryn yn eu llaw, braidd yn ddiarwybod iddo ei hun, i'w cynnorthwyo i gyflawni rhai o'u gweithrediadau gwaethaf. Diammheu fod Socrates yn pleidio i raddau y blaid bendefigaidd yn Athen, neu o leiaf nad oedd yn ffafriol i gyfansoddiad democrataidd ei wlad. Profir hyn i raddau, dybygid, gan y ffaith i'r cyhuddiad ar ba un y condemniwyd ac y rhoddwyd ef i farwolaeth gael ei ddwyn yn mlaen gan Anytus, un o benaethiaid y dinasyddion hyny a gynnorthwyasant Thrasybulus i adferu pethau i'w hen drefn. Tybir gan lawer—ond y mae gwahanol farnau ar hyn—fod Socrates, er ei fod yn ddyn cywir a rhinweddol, yn medru llywodraethu ei hun, yn meddu ymsyniad dwfn o ddyledswydd, ac o ymddygiad hawddgar, ac yn wir yn feddiannol o'r bron ar yr ansoddau sydd yn ennill serch ac edmygedd ereill; ond ei fod er hyny yn ddiffygiol mewn rhinwedd gwleidyddol o'r radd uchaf; ac nad oedd mewn gwirionedd yn ddinesydd rhagorol, o herwydd, er ei fod yn ewyllysio ufuddhau i gyfreithiau y wlad, nis gallai ymattal rhag cyhoeddi ac amddiffyn damcaniaethau hollol wrthwynebus i egwyddorion blaenaf cyfansoddiad democrataidd a gydnabyddid gan y mwyafrif. Ni wna llais un dyn, na dosbarth bychan o ddynion, er y dichon iddynt fod yn athronwyr, byth gyfiawnhau y siaradwyr i droseddu y rheolau hyny, i'r rhai y maent fel aelodau o'r corph gwladol yn rhwym o ymostwng. Ac ar y tir hwn yr haerir gan rai fod yr Atheniaid, yn wyneb pob egwyddor o gyfraith a gydnabyddid yn yr amseroedd hyny, i'w cyfiawnhau am basio y ddedfryd a wnaethant ar Socrates, a'i fod i'w synu na buasai mwy o'i farnwyr dros ei gondemniad. Ymddengys yn debyg fod cryn wrthwynebiad iddo yn ffynu yn Athen er's peth amser: a'r hyn sydd yn cadarnhau y syniad hwn, i raddau, pa fodd bynag, yw, fod Aristophanes wedi dwyn Socrates i mewn yn un o'i gymmeriadau yn ei ddigrif-chwareuawd enwog, "*The Clouds*," fel damcaniaethwr beius mewn pethau crefyddol, ac un oedd yn llygru moesau Athen. Er nad oes un ammheuaeth nas gellir dywedyd na bu y digrif-chwareuawd rhag-grybwylledig mewn un modd yn foddion i ddwyn oddi amgylch gondemniad Socrates, etto y peth sydd yn hynod ydyw, fod y ddau brif gyhuddiad yn ei erbyn ar ei brawf yn cyfansoddi y prif bethau a achlysurodd sylwadau tuchanol Aristophanes.

Fel y canlyn y darfu i Meletus, Anytus, a Lycon, osod i lawr eu cyhuddiadau yn ei erbyn:—"Y mae Socrates yn euog o annuwioldeb, trwy beidio cydnabod y duwiau a gydnabyddir gan y wladwriaeth—ond i'r gwrthwyneb yn dwyn i mewn dduwiau newyddion; ac y mae hefyd yn gwneyd yn feius trwy lygru ieuengctyd y wladwriaeth. Y gosp ddyledus am hyn ydyw marwolaeth." Y mae Xenophon yn cyfiawnhau ei athraw yn wyneb y cyhuddiadau hyn; ond wrth ystyried yr holl amgylchiadau, nid rhyfedd fod mwyafrif bychan o'r barnwyr Athenaidd wedi ei gyhoeddi yn euog. Nid yw yn canlyn o angenrheidrwydd, modd bynag, y rhoddasid ef i farwolaeth, er ei fod wedi ei gondemnio. Ond pan y galwyd ef i fyny i wrando ei ddedfryd, ymddygodd yn ddiystyrllyd tuag at y llys; yr hyn oedd nid yn unig yn groes i gyfraith Attica, ond hefyd â thuedd ynddo i wneyd ei farnwyr yn ddigofus, y rhai oeddynt yn arferol a gweled y rhai a ddygid o'u blaen yn ymddwyn yn y modd mwyaf gwasaidd; ac nid oeddynt yn debyg o ddioddef llawer o wawdiaeth oddi wrth droseddwr condemniedig. Dedfrydwyd ef i farw gan lawer mwy o nifer nag a bleidleisiodd dros ei euogrwydd. Yn gymmaint a bod gŵyl Theora

a'i hamgylchent. Peth hynod arall perthynol i Socrates ydoedd, ei ymsyniad o'i fod yn meddu cenadwriaeth grefyddol arbenig. Arferai yn wastad ystyried a dywedyd ei fod yn clywed rhyw lefarydd dwyfol yn siarad âg ef ar hyd ei oes, neu arwydd goruwchnaturiol, yr hwn a ddeuai ato yn unig yn y ffurf o rybudd neu ocheliad, ac nid un amser fel cymmhellydd i weithredu. Mewn ufudd-dod iddo, ymgadwodd rhag arwain bywyd cyhoeddus, a pharodd hyn hefyd iddo ymattal rhag rhagfyfyrio yr amddiffyniad a wnaeth iddo ei hun ar ei brawf. Ac nid dyma'r cwbl:—ymddiriedai, fel ei gydwladwyr, fod awgrymiadau dwyfol i'w cael o freuddwydion, ac oddi wrth yr oraclau; a chredai fod ei genadwri yn cael ei nodi allan iddo gan y rhai hyn. Soniai yn ei amddiffyniad am un awgrym oraclaidd neillduol, a chyfeiria ato fel y pwynt ag yr oedd gogwyddiad ei fywyd wedi troi arno. Darfu i edmygydd a chyfaill iddo, sef Chærephon, ynghylch yr amser pan y dechreuodd ei glod fel dyn doeth ymledu, ymgynghori â'r oracl yn Delphi er cael gwybod a oedd dyn doethach na Socrates i'w gael. Attebodd yr offeiriades—"Nac oes un." Dywed fod yr atteb hwn wedi peri llawer o ddyryswch iddo; gan ei fod yn ymwybodol na feddai efe ddoethineb, o barthed i bethau bychain na mawr. O'r diwedd, penderfynodd ddwyn y peth i brawf trwy fesur doethineb personau ereill, a'i gymmharu â'r eiddo ei hun. Detholodd wleidyddwr adnabyddus, a dybiai ei hun yn ddoeth, ac y tybid ei fod felly gan ereill, a rhoddodd restr o gwestiynau iddo; ond deallodd nad oedd ei ddoethineb tybiedig yn ddoethineb o gwbl. Y peth nesaf a wnaeth oedd ceisio dangos i'r gwleidyddwr ei hun mor ddiffygiol yr oedd; ond canfu nad oedd modd ei argyhoeddi ar y pen hwn. Yn ganlynol gwelodd fod ystyr i'r hyn a ddywedai yr oracl; sef, nad oedd ei ragoriaeth ef ar ereill yn gynnwysedig yn ei ddoethineb, ond yn ei ymwybodolrwydd llawn o'i anwybodaeth. Gwnaeth yr un prawf ar wleidyddwyr ac areithwyr ereill, ac wedi hyny ar feirdd, ac yn olaf, ar arlunwyr a chelfyddydwyr—a'r un peth a fu y canlyniad. Ar hyny, efe a'i hystyriai yn ddyledswydd orphwysedig arno tuag at y duw Delphaidd i groesholi dynion o bob gradd o barthed i'w gwybodaeth, er eu gwneyd yn ymwybodol o'u hanwybodaeth, ac felly eu gosod ar y ffordd i ddyfod yn ddoeth.

Fel y gellir casglu oddi wrth yr hyn a ysgrifenwyd uchod, gwelir fod Socrates yn ystyried fod rhinwedd yn gynnwysedig mewn gwybodaeth. Gwneyd yr hyn sydd iawn ydyw yr unig ffordd i ddedwyddwch; a chan fod pob dyn yn ceisio bod yn ddedwydd, nis gall drwg godi ond yn unig oddi wrth anwybodaeth neu gamgymmeriad o barthed i'r moddion i'w harfer i gyrhaedd dedwyddwch; gan hyny, yr hyn sydd angenrheidiol ydyw dysgu beth yw canlyniadau y gweithredoedd a gyflawnir. Nis gellir, ar unrhyw ddeongliad teg a roddir ar wybodaeth, edrych ar hyn ond fel golygiad unochrog. Cymmerir golwg ar un ammod i rinwedd, gan nas gellir ymddwyn yn dda heb ddeall beth yw tueddiad gweithredoedd, neu, o leiaf, wybod ystyr rheolau; ond y mae yn gadael allan yr hyn hefyd sydd yn hanfodol, sef sefyllfa y teimladau a'r tueddiadau, y rhai y gellir eu cyfeirio at amcanion sydd yn hollol hunanol, neu ynte at amcanion â'u cyfeiriad tuag at wneuthur daioni i ereill. Y mae cyssylltiad amlwg rhwng yr athrawiaeth hon a'i olygiad ar berthynas rhinwedd â galwedigaethau; yn ol yr hon y mae rhinwedd y crefftwr bron yn hollol yn ei fedrusrwydd neu ei wybodaeth. Ond yr oedd ei ymarferiad yn eangach na'i ddamcaniaeth; o herwydd yr oedd ei sylwadau wedi eu cyfeirio at deimladau dynion, yn gystal ag at eu deall. Yr oedd ei syniadau gwleidyddol yn cael effeithio arnynt gan yr un gyfattebiaeth ynghylch galwedigaethau neillduol. Yn ol ei syniad ef, y brenin neu y llywodraethwr cyfreithlawn, yn unig ydoedd yr hwn a wyddai pa fodd i lywodraethu yn dda.

Rhywbeth yn debyg i hyn yna, mor bell ag y gellir cael allan i ryw gymmaint o sicrwydd, ydyw prif amlinellau athrawiaeth Socrates. Mae pwysigrwydd ei syniadau i'w gweled egluraf pan yr ystyrir hwynt fel y cawsant eu dadblygu a'u cymmhwyso at yr amrywiol ysgolion a'i cydnabyddent ef fel eu sylfaenydd; megys y Cyreniaid, y Megariaid, &c., ac yn enwedig fel y cariwyd hwynt allan gan Plato. Gwel d. g. Plato. Yn yr ysgolion hyn fe geir, ynghyd â'r elfen Socrataidd bur, ryw gymmysgedd yn dyfod oddi allan, a gyfansoddai wahaniaethau dynodiadol y gwahanol gyfundrefnau; ac nid ydyw yn un syndod na ddarfu i un ysgol o athroniaeth Socrataidd gyfyngu ei hunan at egwyddorion a threfn ei sylfaenydd mawr. Yr oedd dyn oedd yn hollol wreiddiol, fel Socrates, yn naturiol yn casglu o'i gwmpas bob dynion meddylgar a gwreiddiol a ddeuent yn ei ffordd; ac yr oedd ei waith yn cael ei wneyd yn well trwy eu dwyn oll i feddwl drostynt eu hunain, a gweithio allan wrthynt eu hunain y syniad gwyddonol a ddeffrodd efe yn eu meddyliau. Wedi i'r cyffroad Socrataidd unwaith gael ei deimlo, cymmerai gyfeiriad gwahanol yn ol cymmeriad a gogwyddiad naturiol y dyn ar yr hwn y dylanwadai; ac er y gellir edrych ar Socrates fel sylfaen yr holl oruwchadeiladaeth, etto nid yw yn meddu hawl i holl deilyngdod yr athroniaeth Blatonaidd, mwy nag y gellir ei feio am anghyssonder Alcibiades neu am wladlywiaeth hunanol Xenophon. "Nid oes ddadl," medd Mr. Grote, yr hanesydd, "na ddarfu i ddylanwad personol Socrates eangu y terfyngylch yn barhaol, gwellhau y drefn, a chwanegu dylanwad y Groegiaid dysgedig yn y byd damcaniaethol yn fwy nag erioed. Dichon fod athronwyr diweddarach wedi cyflwyno i'r byd syniadau mwy llafurfawr, a chael nifer mwy o ddysgyblion i fabwysiadu eu drychfeddyliau; ond ni ddarfu i un o honynt ddefnyddio moddion mwy cyffrous gyda'r un effeithiolrwydd; ni ddarfu i un o honynt daro allan o feddyliau ereill y tân hwnw sydd yn rhoddi goleuni i feddwl gwreiddiol; ni ddarfu i un o honynt gynnyrchu yn ereill y fath ffrwythlonrwydd deallawl."

O ran ei berson, nid oedd Socrates yn llai hynod nag yn ei wisg, a'i ddull o ymagweddu. Yr oedd ganddo lygaid mawr yn sefyll allan: ei drwyn yn wastad yn ei fôn, ond yn troi i fyny yn ei flaen, gyda ffroenau llydain; a'i gorph yn dew ac afrosgo. Yr oedd ei wisg yn erwin ac annhaclus, ac anfynych y gwisgai esgidiau. Os chwanegwn at hyn ei fod, pan yn cerdded yr heolydd, yn gwibio o amgylch gan ymddangos yn ffroen uchel a thrahausfalch, a syllu ar y dde ac ar yr aswy ar bawb a gyfarfyddai, gan sefyll weithiau yn ddisymwth yn hollol absennol o ran ei feddwl, wedi ymgolli mewn myfyrdod, ni raid i ni synu llawer fod Aristophanes wedi ei

Digitized by Google

wneyd yn wrthddrych ei ogan yn ei ddigrifchwareuawd.

SOCHO: 1 *Cron.* iv. 18. Tref Socho yn Iudah, y mae yn debygol; ond pa un o'r ddwy nis gellir sicrhau. Gellir casglu oddi wrth y ffaith ei bod yn cael ei chrybwyll yn y rhestr hon ei bod wedi ei phoblogi gan ddyn neu o le a elwid Heber. Y mae y "*Targum*" yn esbonio yr adnod fel yn cyfeirio at Moses, ac yn cymmeryd yr enwau Iered, Socho, ac Iecuthiel fel teitlau arno ef. Efe oedd "Raba Socho," o herwydd ei fod wedi noddi tŷ Israel â'i rinwedd.

1. SOCHOH. Gan fod yr enw yn digwydd yn nosbarthiadau lluniaeth y brenin Solomon (1 *Bren.* iv. 10), bernir mai tref yn nyffryn Elah ydoedd, gan mai hwnw oedd y dosbarth mawr lle y tyfid ŷd yn y wlad.

2. SOCHOH: enw tref yn nosbarth dyffryn Elah: Ios. xv. 35. Saif yn yr un dosbarth ag Iarmuth, Azecah, Saraim, &c. Yn Ephes-dammim, rhwng Sochoh ac Azecah (1 *Sam.* xvii. 1), y cymmerodd y Philistiaid eu sefyllfa i ymladd y frwydr nodedig yn mha un y lladdwyd eu gwron, ac y "syrthiodd y Philistiaid yn archolledig ar hyd ffordd Saaraim: *adn.* 52. Yr oedd Sochoh, Adulam, ac Azecah yn mhlith y dinasoedd yn Iudah y rhai a gadarnhaodd Rehoboam ar ol gwrthryfel y llwythau gogleddol (2 *Cron.* xi. 7), a chrybwyllir hi gydag ereill o'r rhestr wreiddiol fel rhai a gymmerwyd gan y Philistiaid yn nheyrnasiad Ahaz: 2 *Cron.* xxviii. 18.

Yn amser Eusebius a Jerome, yr oedd hi yn dwyn yr enw o Socchoth, ac yn gorwedd rhwng wyth a naw milldir Rhufeinig o Eleutheropolis, ar y ffordd i Ierusalem. Barna Robinson ei bod yn gorwedd yn y rhan orllewinol o fynyddoedd Iudah. Y mae yn gorwedd o ddeutu un filldir i'r gogledd i'r ffordd o *Beit Jibrin* i Ierusalem, rhwng saith ac wyth milldir oddi wrth y flaenaf. I'r gogledd iddi, o fewn dwy filldir, y mae *Yarmuk*—yr hen Iarmuth. Y mae *Damun*, Ephes-dammim hwyrach, o ddeutu yr un pellder i'r dwyrain; ac er nad ydys wedi cael sicrwydd ynghylch safleoedd Azecah a Saaraim, nid oes un ammheuaeth nad oeddynt yn y gymmydogaeth hon.

3. SOCHOH: tref arall yn Iudah, ond yn y mynydd-dir: *Ios.* xv. 48. Y mae hi yn un o'r dosbarth cyntaf, ac enwir hi mewn cyssylltiad âg Anab, Iattir, ac Astemoh, ac ereill. Darganfyddwyd hi gan Dr. Robinson yn *Wady-el-Khalil*, o ddeutu deng milldir i'r de-orllewin o Hebron.

SODI: tad Gadïel, yr ysbïwr a ddewiswyd gan lwyth Zabulon: *Num.* xiii. 10.

SODOM, AFALAU: enw a roddir i ffrwyth rhywogaeth o'r *solanum.* Ond gyda golwg ar wir afalau Sodom, neu afalau gwallgof glanau y Môr Marw, y rhai a grybwyllir gan Strabo, Tacitus, a Josephus, ac a ddisgrifir fel rhai prydferth i'r golwg, ond yn llenwi y genau â lludw chwerw os profir hwynt, ymddengys mai math o afalau derw ydynt, yn tyfu ar goed derw bychain, ac yn cael eu cynnyrchu gan drychfilod a elwir y *cynips insana.* Y mae yr afalau derw hyn o ddeutu dwy fodfedd o hyd, a modfedd a hanner o dryfesur, o liw porphoraidd cyfoethog a disglaer, ac yn llawn o sudd chwerw. Barna rhai teithwyr mai ffrwyth yr *'ösher* sydd yn meddu yr hawl oreu i'w hystyried yn afalau Sodom. Planhigyn Indiaidd yw, ac y mae yn ffynu yn nyffryn poeth *'Ain Jidy;* ond o'r braidd y ceir ef mewn un lle arall yn Mhalestina. Y mae y parodrwydd gyda pha un y mae ei ffrwyth, "yr hwn sydd yn deg i'r golwg," yn dryllio pan wesgir ef, yn cyttuno yn dda â hanes Josephus; ac y mae yn y gauaf yn cynnwys llwch melyn, o ymddangosiad tebyg i ffyngoedd *(fungi)*, ond o ansawdd llymsur i'r archwaeth.

SODOM, GWINWYDDEN. Nid ydyw yr enw yn digwydd ond yn unig yn *Deut.* xxxii. 32, lle y dywedir am y drygionus, "O winwydden Sodom, ac o feusydd Gomorrah, y mae eu gwinwydden hwynt." Tybir yn gyffredinol fod yr adnod hon yn cyfeirio at afalau enwog Sodom. Gwel SODOM, AFALAU.

SODOM, MOR: 2 *Esdr.* v. 7. Arwydda y Môr Marw. Dyma yr unig enghraifft yn llyfrau yr Hen Destament, y Testament Newydd, neu yr *Apocrypha*, o unrhyw agoshâd at yr opiniwn diweddar anghywir sydd yn cyssylltu y llyn heli â dinystr Sodom. Modd bynag, dichon fod yr enw yma yn codi yn unig oddi wrth y ffaith fod Sodom yn gorwedd yn agos i'r llyn.

SODOM—AH: un o ddinasoedd hynaf Syria. Crybwyllir hi yn gyffredin mewn cyssylltiad â Gomorrah, ond hefyd âg Admah a Seböim; ac ar un achlysur (*Gen.* xiv.) gyda Bela neu Soar. Y mae yn amlwg mai Sodom oedd y brif dref yn y sefydliad. Rhoddir y flaenoriaeth i'w brenin, ac y mae y ddinas bob amser yn cael ei henwi yn gyntaf yn y rhestr; ac ymddengys mai hi oedd y bwysicaf. Enwir y pedair gyntaf yn nghofnodion y cenedlaethau yn *Gen.* x. 19, fel yn perthyn i'r Canaaneaid; sef, "Terfyn y Canaaneaid oedd hefyd o Sodom, ffordd yr elych i Gerar, hyd Gazah; y ffordd yr elych i Sodom, a Gomorrah, ac Admah, a Seböim, hyd Lesah." Ystyr yr hyn, fel yr ymddengys, ydyw, fod y dosbarth oedd yn nwylaw y Canaaneaid yn ffurfio math o deirongl—y pen yn Sidon, y cwr de-orllewinol yn Gaza, a'r cwr de-ddwyreiniol yn Lesah. Gallwn sylwi, wrth fyned heibio, ei bod yn ymddangos yn debygol fod Lesah yn gorwedd yn y *Wady Zurka Main*, o ddeutu naw milldir oddi wrth ben gogleddol y Môr Marw.

Rhydd y crybwylliad nesaf am yr enw Sodom (*Gen.* xiii. 10—13) well mantais i ni i wybod sefyllfa y ddinas. Y mae Abram a Lot yn sefyll gyda'u gilydd rhwng Bethel ac Ai (*adn.* 3), gan gymmeryd golwg, fel y gall unrhyw edrychydd o'r llanerch hono wneyd etto, ar y wlad o'u hamgylch, ac is law iddynt. O du y dwyrain iddynt, ac wrth eu traed, gorweddai "gwastadedd yr Iorddonen." Yr oedd yn ei holl ogoniant gwyrddlasaidd—y gogoniant hwnw, olion yr hwn a welir hyd heddyw, a'r hwn sydd mor hynod o swynol i edrychydd oddi ar un o'r bryniau yn nghymmydogaeth Bethel—yn cael ei ddyfrhau gan gyflenwadau helaeth y *Wady Delt*, yr *Ain Sultân*, yr *Ain Dûk*, a ffrydiau ereill, y rhai sydd yn codi wrth droed y mynyddoedd. Y mae y ffrydiau helaeth hyn hyd yn oed yn awr yn dyfrhau toraeth o lysiau cyn iddynt ymgolli yn nhir ysgafn a thywodlyd y gymmydogaeth. Ond ar yr amser pan welodd

Ymddengys mai dyma gred Josephus a Jerome, a barnu wrth eu hadroddiadau ar bwngc Soar. Derbynid hi yn gyffredinol gan haneswyr a phererinion y canoloesoedd, a mabwysiedir hi yn mron yn ddieithriad gan y prif ddaearyddwyr. Yn ngeiriau un o'r teithwyr diweddar mwyaf galluog a gofalus, Dr. Robinson, "rhaid fod y dinasoedd a ddinystriwyd yn gorwedd ar ben deheuol y llyn, fel yr hanfodai y pryd hwnw." Dyma hefyd gred M. De Saulcy, oddi eithr gyda golwg ar Gomorrah; ac mewn gwirionedd derbynir hi yn gyffredinol. Y mae amryw seiliau dros y gred hon; ond y prif bwngc ar ba un y mae Dr. Robinson yn seilio ei ymresymiad ydyw sefyllfa Soar.

"Ffodd Lot," medd efe, wrth barhau y paragraph yr ydym newydd ei ddyfynu, "i Soar, yr hon oedd yn *agos* i Sodom; a gorweddai Soar yn mron wrth ben deheuol y môr presennol—y mae yn debygol yn ngenau y *Wady Kerak*, lle y mae yn ymagor ar wddfdir yr orynys. Gan hyny, yr oedd y gwastadedd ffrwythlawn, yr hwn a ddewisodd Lot iddo ei hun, lle y safai Sodom......yn gorwedd hefyd i'r deheu i'r llyn, 'y ffordd yr elych i Soar.'"

Dywedir gan Jerome mai Soar oedd "agoriad Moab." Yn sicr hi oedd agoriad y sefyllfa yr ydym yn awr yn ei chwilio. Gwneir ymchwiliad i'w sefyllfa yn fwy priodol dan y gair ei hun. Gw. SOAR. Dangosir yno fod seiliau dros gredu mai nid Soar Josephus, Jerome, a'r Croesgadwyr, yr hon, y mae yn debygol, a orweddai lle y mae Dr. Robinson yn ei gosod, oedd Soar Lot. Ar y cyfryw bwngc, modd bynag, lle y mae y tystiolaethau mor aneglur, y mae yn ammhossibl dyweyd dim yn benderfynol.

Yn y cyfamser, modd bynag, gellir sylwi mai o'r braidd y mae yr adroddiad yn *Gen.* xix. yn ceinogi y casgliad o barth i sefyllfa y ddau le hyn, yr hwn y ceisir ei dynu oddi wrthi. Canys, a chymmeryd yn ganiataol fod Sodom lle yr ymddengys fod yr holl ddaearyddwyr yn cyttuno i'w gosod, wrth graig halen *Usdum*, gwelir nad yw y pellder rhwng y llanerch hono a genau y *Wady Kerak*, lle y cynnygia Dr. Robinson osod Soar—pellder, yr hwn, yn ol yr adroddiad, a deithiwyd gan Lot a'i fintai yn nghyfddydd byr boreu dwyreiniol (*adn.* 15 a 23)—yn ddim llai nag un filldir ar bymtheg.

Ystyriaeth arall yn ffafr gosod y dinasoedd yn mhen deheuol y llyn ydyw bodolaeth enwau cyffelyb yn y cyfeiriad hwnw. Fel hyn, y mae yr enw *Usdum*, cyssylltiedig â'r graig halen nodedig, yr hon sydd yn gorwedd wrth ben deorllewinol y llyn, yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel cynnrychiolydd Sodom. Ond y mae gwahaniaeth mor fawr rhwng y gair *Usdum* a'r gair *Sodom* fel nad ellir rhoddi un pwys ar hyn. Y mae yr enw *'Amrah*, yr hwn a roddir i ddyffryn yn mhlith mynyddoedd i'r deheu o Masada, yn mron yn gyfystyr â'r gair Hebraeg *Gomorrah*. Y mae yr enw *Dra'a*, ac yn enwedig yr enw *Zoghal*, yn ein hadgofio am Soar.

Trydydd rheswm, ac hwyrach y trymaf o'r tri, ydyw bodolaeth mynydd o halen yn y pen deheuol i'r llyn, a'r duedd sydd ynddo i hollti ymaith yn golofnau, gan ddwyn rhyw fath o debygolrwydd i'r corph dynol. Ond gyda golwg ar hyn, gellir sylwi nad ydyw mewn un modd yn sicr nad oes halen i'w gael mewn lleoedd ereill o amgylch y llyn. Mewn gwirionedd, fel y dangoswyd dan y gair SOAR, dywed Thietmar (B. A. 1217) ei fod ef wedi gweled colofn gwraig Lot o du y dwyrain i'r Iorddonen, o ddeutu milldir oddi wrth y rhyd arferol: a lle bynag y mae y cyfryw halen yn hanfodi, gan ei fod yn sicr ei fod yn perthyn i'r un ffurfiad a'r *Khashm Usdum*, y mae yn meddu y duedd i ymhollti yn yr un ffurfiau a halen sydd yn ymhollti mewn lleoedd ereill.

Fel hyn, ymddengys nas gallwn ar hyn o bryd ddyfod i un penderfyniad boddhaol ynghylch sefyllfa Sodom. Ar un llaw, y mae yr adroddiad yn Genesis yn dyweyd yn bendant ei bod yn gorwedd wrth ben *gogleddol* y Môr Marw. Ar y llaw arall, y mae yr hen draddodiad ac enwau llanerchi presennol yn dyweyd yn mron yr un mor bendant ei bod wrth ei ben *deheuol*. Pa fath effaith a all ymresymiad daearegol ei gael ar y naill ochr neu y llall i'r ddadl ni ellir penderfynu yn sefyllfa bresennol ein gwybodaeth.

Yn ol pob tebygolrwydd, nis gallwn byth gyrhaedd gwybodaeth sicr am y trychineb a ddinystriodd ddinas a dosbarth Sodom. Y mae yn sicr fod rhyw drychineb wedi cymmeryd lle. Nid yn unig y mae yr adroddiad yn *Gen.* xix. yn dyweyd yn bendant fod y dinasoedd wedi eu dinystrio yn wyrthiol, ond y mae yr holl gyfeiriadau at y digwyddiad mewn rhanau ereill o'r Hen Destament a'r Newydd yn dwyn tystiolaeth i'r un ffaith. Ond pa offerynau eilraddol, heb law tân, a ddefnyddiwyd i weinyddu y gospedigaeth nis gellir penderfynu yn sicr yn absennoldeb hollol disgrifiad gwyddorol o nodweddau naturiol y tir o amgylch y llyn. Pan yr archwilir y tir yn drwyadl gan ddynion cymmhwys, hwyrach y darganfyddir rhywbeth a all daflu goleuni ar yr adroddiad. Hyd hyny, nid ydyw ond ofer dyfalu. Ond y mae hyd yn oed hyn yn fwy nag y gellir gobeithio am dano; o herwydd, fel y cawn weled yn fuan, nid oes un warant dros dybied mai trychineb daearegol ydoedd. Modd bynag, y mae yn rhaid fod pob olion o hono erbyn hyn wedi llwyr ddiflanu.

Tybid gynt fod dymchweliad Sodom wedi ei achosi gan y dirdyniad a ffurfiodd y Môr Marw. Adroddir y dybiaeth hon mewn iaith eglur a bywiog gan y Deon Milman, yn ei "*History of the Jews*:"—

"Yr oedd dyffryn yr Iorddonen, yn mha un y safai dinasoedd Sodom, Gomorrah, Admah, a Seboim, yn gyfoethog, ac yn cael ei amaethu yn dda. Y mae yn debygol fod yr afon y pryd hwnw yn rhedeg mewn sianel ddofn a dirwystr i lawr disgyniad rheolaidd, ac yn rhedeg i forgaingc dwyreiniol y Môr Coch. Safai y ddinas ar dir maluriedig, gyda gwythiennau o bŷg a brwmstan oddi dano. Achosodd y sylweddau fflamychadwy hyn, wedi eu tanio gan fellten, ddirdyniad aruthrol; ymddrylliodd glenydd y dyfrffosydd, yr afon a'r camlesydd trwy ba rai y dyfrheid y tir yn helaeth; llwyr lyngcwyd y dinasoedd, muriau y rhai, hwyrach, a adeiladwyd o ddefnyddiau llosgadwy y tir, i fyny gan y dylif tanllyd; a daeth yr holl ddyffryn, yr hwn oedd wedi ei gymmharu i Baradwys, ac i feusydd ŷd dyfradwy y Nilus, yn llyn marw a dryg-sawrus."

Ond nid oedd yn gwybod dim y pryd hwnw am y llyn; ac y mae y darganfyddiad diweddar o ostyngiad anghyffredin ei wyneb is law lefel y môr, a'i ddynfder mawr, wedi ei gwneyd yn ammhossibl i neb goleddu y fath dybiaeth yn hwy. Rhaid fod y cyfnewidiadau a ddigwyddasant pan holltwyd haenau ceryg calch Syria gan yr agen fawr hono, yr hon sydd yn ffurfio Dyffryn yr Iorddonen a phantle y Llyn Heli,

Digitized by Google

wedi cymmeryd lle nid yn unig yn mhell iawn cyn amser Abraham, ond rhaid eu bod o'r fath natur ac ar y fath raddfa ag i ddistrywio pob bywyd anifeilaidd yn mhell ac yn agos.

Er pan y mae gwybodaeth am y ffeithiau hyn wedi gwneyd yr hen dybiaeth yn anniffynadwy, y mae un newydd wedi ei dwyn yn mlaen gan Dr. Robinson. Fel hyn y dywed efe:—

"Rhaid fod llyn yn hanfodi lle y mae y Môr Marw yn gorwedd yn awr, i ba un y tywalltai yr Iorddonen ei dyfroedd, yn mhell cyn trychineb Sodom. Y mae gostyngiad mawr holl ddyffryn llydan yr Iorddonen, a'r rhan ogleddol o'r *Arabah*, a chyfeiriad ei dyffrynoedd cyfochrog, yn gystal a llechwedd y dosbarth uchel gorllewinol tua'r gogledd, oll yn dangos fod ffurfiad y dosbarth hwn, o ran ei brif nodweddau, yn gyfoed â sefyllfa bresennol wyneb y ddaear yn gyffredinol, ac nid yn effaith unrhyw drychineb lleol mewn tymmor canlynol......Yn ngwyneb y ffaith o fodolaeth angenrheidiol llyn cyn trychineb Sodom—y gwastadedd dyfradwy tua'r deheu, yn mha un yr oedd dinasoedd Sodom a Gomorrah, ac heb fod yn mhell oddi wrth ffynnonellau y pyg; fel hefyd cymmeriad neillduol y rhan hwn o'r llyn, lle yn unig y ceir pyglo yn y dyddiau hyn—yr wyf yn dyweyd, wrth ystyried yr holl ffeithiau hyn, nad oes ond cam at y dybiaeth amlwg fod y gwastadedd ffrwythlawn yn awr yn cael ei feddiannu mewn rhan gan y gilfach ddeheuol sydd yn gorwedd o du y deheu i'r orynys; ac naill ai fod wyneb y gwastadedd hwn wedi ei gafnu allan, neu fod gwaelod y llyn wedi ei godi i fyny yn y fath fodd trwy ryw ddirdyniad neu drychineb mewn natur cyssylltiedig â dinystr gwyrthiol y dinasoedd fel ag i beri i'r dyfroedd orlifo a gorchuddio yn barhaol ddarn mwy o dir nag yn flaenorol."

Gellir dwyn dwy wrthddadl yn mlaen yn erbyn y dybiaeth gywrain hon:—un yw, mai o'r braidd y gallasai "gwastadedd yr Iorddonen," yn mha un y safai y dinasoedd (fel y dywedwyd), fod wrth ben deheuol y llyn; a'r llall ydyw, nad ydyw y rhan ddaearegol o'r dybiaeth yn cyttuno â'r ffeithiau. Y mae yr oll o'r pen isaf i'r llyn, yn cynnwys y gwastadedd sydd yn terfynu arno o du y deheu, yn ymddangos, fel pe na byddai wedi ei ostwng er pan ffurfiwyd y dyffryn, ond fel pe byddai wedi ei raddol lenwi i fyny. Nid ydyw y dosbarth hwn mewn gwirionedd yn ddim amgen nag ynys yn y ffrydiau mawrion, ond afreolaidd, sydd yn rhedeg o'r ucheldiroedd ar ei du dwyreiniol, gorllewinol, a deheuol, ac a redasant o honynt byth er pan oedd y dyffryn yn ddyffryn. Ni cheir un adroddiad gan unrhyw sylwedydd galluog i ffurfio barn ar nodweddau daearegol y dosbarth sydd yn rhoddi cefnogaeth i'r syniad fod unrhyw derfysg wedi cymmeryd lle o fewn y tymmor hanesiol, neu fod unrhyw beth wedi digwydd yno er pan gymmerodd y wlad ei ffurf gyffredinol bresennol, heb law y cyfnewidiad tawel, graddol, a gynnyrchir gan weithrediad rheolaidd offerynau arferol natur; yr hwn sydd yn araf yn llenwi i fyny agen y dyffryn a'r llyn gyda'r pridd a'r ceryg a ddygir i lawr gan y ffrydiau o'r ucheldiroedd ar bob ochr. Y mae yr ymddangosiadau llosgfalus ac olion tân, a grybwyllwyd mor fynych, mor belled ag y mae genym ni sail deg i farnu, yn hollol dwyllodrus, ac i'w priodoli i achosion naturiol arferol.

Ond mewn gwirionedd, nid ydyw yr adroddiad yn *Gen.* xix. yn hysbysu nac yn awgrymu fod y ddaear wedi dioddef unrhyw ddirdyniad. Y gair *haphac*, a gyfieithir "dymchwelyd" yn Gymraeg, ydyw yr unig un sydd yn awgrymu y fath beth. Wrth ystyried nodwedd yr holl adroddiad, gellir casglu gyda sicrwydd yn mron, pe daeargryn neu ddirdyniad o natur ddaearegol oedd y prif weithredydd yn ninystr y dinasoedd, y buasai hyny yn cael ei hysbysu yn eglur yn yr hanes.

Y mae tynged arswydus Sodom a Gomorrah yn cael ei dal i fyny fel rhybudd mewn llawer o adnodau yn yr Hen Destament a'r Newydd. Cyhoeddir hi gan Pedr a chan Iudas fel "esampl i'r rhai a fyddent yn annuwiol," ac i'r rhai a "wadent yr unig Arglwydd Dduw, a'n Harglwydd Iesu Grist;" 2 *Pedr* ii. 6; *Iud.* 4—7. A'n Harglwydd ei hun, pan yn disgrifio y gospedigaeth ofnadwy a ddisgyna ar y rhai a wrthodant ei ddysgyblion ef, a ddywed "y bydd esmwythach i Sodom a Gomorrah yn nydd y farn nag i'r ddinas hono;" *Marc* vi. 11; gwel *Mat.* x. 15.

SODOMIAETH: trosedd annaturiol. Yn ol cyfraith Lloegr gellir ei gospi â phenyd-wasanaeth am oes, neu am unrhyw dymmor heb fod dan ddeng mlynedd, a gellir cospi yr ymgais i'w gyflawni â phenyd-wasanaeth o dair i ddeng mlynedd. Yn Ysgotland, y mae etto mewn enw yn drosedd angeuol; ond nid ydyw byth yn cael ei gospi oddi eithr trwy benyd-wasanaeth a charchariad.

SODOMIAID. Nid ydyw y gair hwn yn dynodi trigolion Sodom (oddi eithr yn unig yn 2 *Esdr.* vii. 36), na'u hiliogaeth; ond defnyddir ef yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Hen Destament am y rhai a gyflawnent fel defod grefyddol y pechod ffiaidd ac annaturiol ag sydd yn warth oesol ar gymmeriad Sodom a Gomorrah. Y mae yn digwydd yn *Deut.* xxiii. 17; 1 *Bren.* xiv. 24; xv. 12; xxii. 46; 2 *Bren.* xxiii. 7; *Iob* xxxvi. 14 (ymyl y ddal.). Dywedir fod y gair Hebraeg *cadesh* yn tarddu o wreiddair *cadash*, yr hwn (er mor rhyfedd yr ymddengys) sydd yn arwyddo "pur;" ac oddi wrth hyny, "sanctaidd." "Yr oedd y 'cyssegriad' dychrynllyd hwn, neu yn hytrach yr halogiad, wedi ymledu mewn gwahanol ffurfiau dros Phœnicia, Syria, Phrygia, Assyria, a Babilonia. Ei brif wrthddrych oedd duwies Astaroth Gwlad Groeg." Ymddengys hefyd ei fod wedi ei sefydlu yn Rhufain, lle y gelwid ei addolwyr yn Galiaid. Nid oddi wrth Galia, ond oddi wrth enw yr afon Galus, yn Bithynia.

Y mae gair benywaidd cyfystyr â *cadesh*, sef *cadeshah*. Ceir hwn yn *Gen.* xxxviii. 21, 22; *Deut.* xxiii. 17; a *Hos.* iv. 14. Yn mhob un o'r lleoedd hyn y mae cofio y ffaith mai offeiriadesau crefydd, ac nid offerynau i foddhau chwant y cnawd, oedd y merched hyn, yn taflu goleuni newydd ar yr adnod. Gelwir puteiniaid cyffredin wrth yr enw *zonah*. Tramoriad oedd "benyw estronaidd," *zaroth; Diar.* ii. 16, &c.

SOFLIAR, SOFLIEIR. Coleddir gwahanol syniadau gyda golwg ar natur yr ymborth a ddynodir trwy y soflieir, yr hwn ar ddau achlysur gwahanol a roddwyd i'r Israeliaid yn yr anialwch—un oedd pan oeddynt rhwng Sin a Sinai (*Exod.* xvi. 13); a'r llall, pan oeddynt yn yr orsaf a enwyd, mewn canlyniad i'r farn a ddisgynodd arnynt, Cibroth-Hattaafah: *Num.* xi. 31, 32. Gwnaeth Ludolf, awdwr o gymmeriad uchel, ymgais i brofi mai locustiaid oedd y soflieir. Amddiffynwyd a mabwysiadwyd ei

Digitized by Google

syniad gan Patrick. Y mae Iuddewon Arabia hefyd, fel yr ydym yn deall oddi wrth Niebuhr, "yn argyhoeddedig nad oedd yr adar y bwytaodd yr Israeliaid y fath nifer aruthrol o honynt yn ddim ond locustiaid; ac y maent yn chwerthin am ben y cyfieithwyr hyny, y rhai sydd yn tybied eu bod wedi cael soflieir lle ni welwyd soflieir erioed." Barna Rudbeck mai ystyr y gair gwreiddiol *selâv* ydyw 'hedbysg;' math o rywogaeth yr *exocetus*. Bu Michaelis ar un adeg yn coledd yr un syniad; ond ar ol hyny ymwrthododd âg ef. Credodd ysgrifenydd diweddarach, Ehrenberg, ar ol gweled nifer o 'hedbysg' yn gorwedd yn feirwon ar y lan ger Elim, mai y rhai hyn oedd ymborth yr Israeliaid yn yr anialwch. Tybiodd Hermann von der Hardt mai aderyn y llindys a olygid wrth *selâv;* ac yn ddiweddar, traethodd Mr. Forster syniad mai 'gwyddau cochion,' o rywogaeth y *casarca*, a ddeallir wrth yr enw Hebraeg; ac awgrymwyd eglurhâd cyffelyb gan Stanley, a mabwysiadwyd ef gan Tennent. Ymddengys fod hon yn hen dybiaeth, canys y mae Patrick yn cyfeirio at y cyfryw eglurhâd; ond pwy ydoedd ei hawdwr gwreiddiol, ni wyddys. Y mae rhai ysgrifenwyr, tra y maent yn dal fod y gair gwreiddiol yn dynodi 'soflieir,' o'r farn fod rhywogaeth o dywod-ieir *(pterocles alchata)*, y rhai a geir yn fynych yn ngwledydd y Beibl, yn cael eu cynnwys hefyd dan y gair. Arferir cyfeirio at Hasselquist fel awdurdod dros gredu mai y *cata* (tywod-ieir) a ddynodir. Modd bynag, yr oedd y teithiwr hwn yn tueddu yn hytrach i gredu, gyda rhai o'r ysgrifenwyr a enwyd uchod, mai 'locustiaid,' ac nid adar, a ddeallir; ac y mae yn anhawdd gwneyd allan beth a feddylia efe wrth *Tetrao Israelitarum*. Tybiodd Linnæus mai y sofliar gyffredin a feddylir wrtho. Mewn un paragraph, dywed fod yr Arabiaid yn galw aderyn "o liw llwyd, a llai na'n petris ni," wrth yr enw *catta*. Nis gall hwn fod y *pterocles alchata*.

Gellir troi heibio y golygiad a gymmerwyd gan Ludolf gydag ychydig eiriau. Y mae yn amlwg fod yr ymadrodd "adar asgellog," yn *Salm* lxxviii. 27, a ddefnyddir gyda golwg ar y *selâv*, yn dynodi rhyw aderyn ag y mae Ludolf yn methu profi y gall gynnwys trychfilod asgellog. Drachefn, nid oes un rhith o brawf i gefnogi y syniad y gall *selâv* byth arwyddo unrhyw 'locust,' gan fod y gair hwn yn cael ei ddefnyddio yn yr Arabaeg a'r ieithoedd cyttrasol i ddynodi 'sofliar.' Gyda golwg ar fod unrhyw rywogaeth o 'hedbysg,' pa un bynag ai yn perthyn i rywogaeth y *dactylopterus*, neu ynte i rywogaeth yr *exocetus*, yn cael ei olygu, digon fydd dywedyd fod 'hedbysg' yn hollol analluog i barhau i ehedeg uwch law ychydig gannoedd o latheni i'r eithaf; ac nis gellid byth gymmeryd nifer digonol o honynt yn y Môr Coch i ddiwallu anghenion yr holl genedl. Ni ellir cael un rhith o reswm dros gyfieithu *selâv* yn 'wyddau gwylltion,' nac yn 'aranod gwylltion,' nac unrhyw 'adar gwylltion.' Y *casarca*, yr hwn, yn ol barn Mr. Forster, ydyw y *selâv*, ydyw y *casarca rutila*—aderyn o ddeutu maint adiad *(millard)*, yr hwn nid ydyw yn atteb i'r disgrifiad o'r soflieir; sef, eu bod yn sefyll dair troedfedd oddi wrth y llawr. Y mae yn amlwg mai ciconiaid gwynion yw y "garanod mawrion gyda choesau cochion," am ba rai y mae y Proffeswr Stanley yn siarad, ac y maent yn atteb i'r disgrifiad o ran uchder; ond y mae y cig mor anhyfryd fel nas gallai un Israeliad byth wneuthur mwy na'i brofi. Gyda golwg ar y *pterocles alchata*, nis gallant hwy, nac yn wir unrhyw fath arall o'r rhywogaeth, ddyfod i fyny â'r hanes ysgrythyrol am y *selâv*. Adar yn meddu esgyll cryfion, ac yn ehedeg yn ddiflino, yw y tywodieir; ac nis gallai yr Israeliaid byth ddal llawer o honynt. Yn mhellach, yr ydym yn ammheu yn fawr a fuasai y bobl yn bwyta i ormodedd—canys y mae yr ymadrodd "llwyr ddiwallwyd hwynt" (*Salm* lxxviii. 29) yn awgrymu eu bod wedi gwneyd hyny—o gig yr aderyn hwn; canys yn ol tystiolaeth teithwyr, o Dr. Russell i lawr at sylwedyddion y dyddiau hyn, y mae cig y tywod-ieir yn galed ac yn ddi-flas. Y mae yn eglur, pa fodd bynag, fod *selâv* y Pum Llyfr, a *Salm* cv., yn dynodi y sofliar gyffredin. Yn y lle cyntaf y mae yn ddiammheu mai yr un yw y gair Hebraeg *selâv* a'r gair Arabaeg *salwâ*, 'sofliar.' Yn ol Schultens, y mae y cyntaf yn tarddu o wreiddair Arabaidd, yn arwyddo 'bod yn dew:' y mae ffurf gron lyfnwedd y sofliar yn dra chyfaddas i'r tarddiad hwn; y mae ei thewder yn ddiarebol. Y mae yn hawdd gwrthbrofi y gwrthddadleuon a ddygwyd yn mlaen gan Patrick, ac ereill, yn erbyn y syniad mai soflieir a olygir. Eglurir yr ymadrodd "ynghylch dau gufydd o uchder ar wyneb y ddaear" (*Num.* xi. 31) gan y Deg a Thrigain, gan y "*Vulgate*," a chan Josephus, trwy ddyweyd ei fod yn cyfeirio at yr uchder yn mha un yr ehedai soflieir uwch law y ddaear, yn eu sefyllfa luddedig ar ol eu ehedfa faith. Gyda golwg ar y symiau mawrion y dywedir fod yr Israeliaid lleiaf llwyddiannus wedi eu casglu, sef "deg omer," yn ystod noson a deuddydd, y mae pob lle i gredu nad ydyw yr "omerau" y cyfeirir atynt yma yn dynodi yn fanwl y mesur o'r enw hwnw—ond yn unig 'twr.' Dyma'r eglurhâd a roddir gan Onkelos a chyfieithiadau Arabaidd Saadias ac Erpenius, yn *Num.* xi. 31.

Y mae soflieir yn arfer ymfudo yn lluoedd. Dywed Pliny a Tournefort fod holl ynysoedd yr Ynysfor *(Archipelago)* ar dymmorau pennodol o'r flwyddyn yn cael eu gorchuddio â hwynt. Hysbysa y Milwriad Sykes fod y fath luoedd o honynt wedi eu dal unwaith yn Capri, ger Naples, ag i roddi i'r esgob gyfran nid bechan o'i gyllid, ac mewn canlyniad i hyn ei fod wedi cael ei alw yn 'esgob y soflieir.' Crybwylla yr un ysgrifenydd hefyd fod 160,000 o soflieir wedi eu rhwydo mewn un tymmor ar yr ynys fechan hono: ond, yn ol Temminck, casglwyd 100,000 ger Nettuno mewn diwrnod. Ni buasai yr Israeliaid yn cael ond ychydig o anhawsder i ddal nifer mawr o'r adar hyn, gan y gwyddys eu bod yn dyfod, weithiau, i leoedd mor luddedig trwy ehedeg, fel y gellid yn hawdd eu cymmeryd—nid mewn rhwydau yn unig, ond â'r llaw hefyd. Dywed Sykes eu bod yn cyrhaedd glenydd Provence yn y gwanwyn mor luddedig fel y gorddefant, am yr ychydig ddyddiau cyntaf, i'r bobl eu cymmeryd â'u dwylaw. Taenai yr Israeliaid y soflieir o "amgylch y gwersyll;" gwnelent hyn i'r dyben o'u sychu hwynt. Parotoai yr Aiphtiaid yr adar mewn dull cyffelyb. Ni ddylid cyfyngu yr ymadrodd "soflieir oddi wrth y môr" (*Num.* xi. 31), i ddynodi fod yr adar wedi dyfod oddi wrth y môr fel lle eu cychwyniad o hono; ond dylid ei gymmeryd fel yn dangos y cyfeiriad oddi wrth ba un yr oeddynt yn dyfod. Yr oedd y soflieir, ar amser y digwyddiad a gofnodir yn yr ysgrifeniadau sanctaidd, ar eu taith

Digitized by Google

ymfudol yn y gwanwyn tua'r gogledd:—prawf dyddorol, fel y sylwai y Milwriad Sykes, o barhâd greddf, trwy dymmor o 3,300 o filldiroedd. Gallai y soflieir a borthasant yr Israeliaid yn Cibroth-Hattaafah gychwyn o ddeheubarth yr Aipht a chroesi y Môr Coch ger Ras Mohammed, ac felly myned i fyny Culfor Acabah i Arabia Garegog. Y mae yn ddyddorol sylwi ar yr amser a nodir, "yn yr hwyr," y dechreuasant ddyfod; ac y mae yn ddiammheu eu bod wedi parhau i ddyfod trwy y nos. Dywed llawer o sylwedyddion mai yn y nos y mae y soflieir yn ymfudo; ond gwedir hyn gan y Milwriad Montagu. Haera rhai ysgrifenwyr fod cig soflieir, er ei fod o ansawdd blasus, yn poethi gwaed y rhai a'i bwytânt; a thybia rhai fod y marwolaethau a ddigwyddasant oddi wrth fwyta y cig yn yr anialwch yn codi mewn rhan oddi wrth y ffaith fod yr adar yn ymborthi ar hylif a phlanhigion gwenwynig ereill; ond y mae hyn yn dra annhebygol, er y gallai bwyta yn anghymmedrol o'r cyfryw gig am fis cyfan (*Num.* xi. 20), mewn hinsawdd boeth, ac yn sefyllfa pobl, y rhai ar amser eu crwydriadau yn yr anialwch ni byddent ond anaml iawn yn profi cig, fagu afiechyd peryglus. Ymddengys fod y pla wedi ei anfon yn uniongyrchol ar y bobl gan Dduw fel cospedigaeth am eu grwgnachrwydd, ac hwyrach nad ydyw hyd yn oed mewn ystyr israddol i'w briodoli i achosion naturiol.

Ceir y soflieir, yr unig ddosbarth o'r rhywogaeth y gwyddys eu bod yn ymfudo, yn China, India, Penrhyn Gobaith Da, Japan, a Lloegr.

Ni ddylid pasio *ortygometra* y Deg a Thrigain heb sylw byr. Nid hawdd ydyw penderfynu pa aderyn a olygir wrth yr enw hwn, fel y defnyddir ef gan Aristotle a Pliny. Yn ol yr hanes a roddir am yr aderyn hwn gan ysgrifenwyr Groeg a Rhufain, y mae yn blaenori y soflieir yn eu hymfudiadau, ac yn gweithredu fel math o arweinydd. Ond y syniad tebycaf o fod yn gywir yw, fod y gair yn cael ei ddefnyddio gan y Deg a Thrigain i ddynodi y cyflwr da yn yr hwn yr oedd yr adar, ac yn enwedig eu maintioli mawr.

SOFL—YN. Cyffelybir yr annuwiolion i sofl, am eu bod, mewn ystyr ysbrydol, yn greaduriaid crinion, diwerth, a hawdd i'w dyfetha gan dân digofaint Duw: *Esa.* xxxiii. 11, 12; *Mal.* iv. 1.

1. SOHAR: tad Ephron yr Hethiad: *Gen.* xxiii. 8; xxv. 9.

2. SOHAR: un o feibion Simeon: *Gen.* xlvi. 10; *Exod.* vi. 15. Gelwir ef wrth yr enw Zerah yn 1 *Cron.* iv. 24.

SOLDINIAID: sect a elwid felly ar ol eu blaenor, un o'r enw Soldin, offeiriad Groegaidd. Ymddangosasant tua chanol y bummed ganrif yn nheyrnasoedd Saba a Godolia. Gwnaethant gyfnewidiad yn y dull o weinyddu yr offeren: cyflwynai eu hoffeiriaid aur, eu diaconiaid arogldarth, a'u his-ddiaconiaid fyrr; a hyny er coffa am roddion cyffelyb a ddygwyd i'r Iesu gan y doethion a ddaethant o'r dwyrain. Ychydig iawn o awduron sydd yn gwneyd crybwylliad am y Soldiniaid, ac y mae yn dra thebyg nad ydynt ar gael er's llawer o amser.

SOLOMON, SALOMON (*Shelômôh:* *Σαλωμών;* LXX., *Σολομών;* T.N., a Josephus, *Salomo*).

AMGYLCHIADAU EI ENEDIGAETH, A'I ADDYSG.

Solomon oedd plentyn henaint Dafydd, yr olaf a aned o'i holl feibion; 1 *Cron.* iii. 5. Yr oedd ei fam wedi ennill dylanwad deublyg ar ei dad: yn gyntaf, fel gwrthddrych cariad nwydus, ond pechadurus; ac yn nesaf, fel yr unig berson i ba un y gallai efe, yn ei edifeirwch, wneyd rhywbeth tebyg i ad-daliad. Yr oedd y misoedd a flaenorasant ei enedigaeth i'r brenin euog yn amser o ymostyngiad a hunan-ffieiddiad. Diau ei fod yn edrych ar enedigaeth plentyn, yr hwn oedd i gymmeryd lle yr un oedd wedi marw, fel gwystl o faddeuant ac fel arwydd o obaith. Amlygodd y brenin a Nathan y prophwyd eu teimladau trwy yr enwau â pha rai y darfu iddynt ei groesawu. Parodd hiraeth y "rhyfelwr," yr hwn a "dywalltasai waed lawer" am heddwch—hiraeth oedd wedi dangos ei hun o'r blaen, pan y rhoddodd efe i'w drydydd mab yr enw Ab-salom (=tad heddwch), iddo yn awr roddi i'r baban newydd-anedig yr enw Solomon (Shêlômôh=yr un heddychol). Y mae Nathan gyda chyfeiriad amlwg at ystyr enw y brenin ei hun (=yr anwylyd, yr un anwyl), yn cymmeryd ffurf arall o'r un enw, ac yn ei gyssylltu, yn ol arfer gyffredin yr oes hono, â'r enw *Iehofah*. Yr oedd Dafydd wedi bod yn anwylyd ei bobl. Dylai Iedidïah (gwnaed yr enw i'r pwrpas) fod yn anwyl gan yr Arglwydd: 2 *Sam.* xii. 24, 25. Gwel IEDIDIAH.

Rhaid fod y dylanwadau nerthol i ba rai yr oedd mebyd Solomon yn agored wedi gwneyd llawer tuag at ffurfio ei gymmeriad dyfodol. Nis gall yr ymchwiliad beth oedd yr addysg a ddiweddodd yn y fath gyferbyniadau rhyfeddol—doethineb na welwyd ei chyffelyb erioed o'r blaen, ac hwyrach, na welir etto—a chnawdolrwydd digyffelyb, lai na bod yn dra addysgiadol. Y tri pherson a arferasant y dylanwad cryfaf yn ei addysg oedd ei dad, ei fam, a'r athraw dan ofal yr hwn y gosodwyd ef o'i febyd: 2 *Sam.* xii. 25.

Y mae y ffaith fod prophwyd-offeiriadol wedi ei wneyd yn athraw arbenig i Solomon yn brawf amlwg o ddymuniad cryf ei dad fod i'w blentyn gael ei gadw rhag y drygau, y rhai, y pryd hwnw ac wedi hyny a ymddadblygasant yn ei feibion hynaf, a bod yn deilwng o'r enw a ddygid ganddo. Ymddengys nad oedd ganddo, ar y cyntaf, un bwriad pendant i'w wneyd ef yn etifedd iddo. Yr oedd Absalom etto yn hoff fab y brenin (2 *Sam.* xiii. 37; xviii. 33)—yn cael edrych arno gan y bobl fel un a fwriedid i fod yn olynydd iddo: 2 *Sam.* xiv. 13; xv. 1—6. Gadawodd marwolaeth Absalom, pan oedd Solomon o ddeutu deng mlwydd oed, y lle yn wâg, a Dafydd, gan basio heibio hawliau ei holl feibion hynaf, yn cael ei arwain gan ddylanwad Nathan, neu gan ei ddeall ei hun am y doniau a'r grasau oeddynt yn arwyddion o gariad Duw, a addawodd yn ddirgelaidd wrth Bathseba, mai efe, ac nid neb arall, a fyddai yr etifedd: 1 *Bren.* i. 13. Y mae yn ddiammheu fod y geiriau canlynol, y rhai a lefarwyd ganddo yn ddiweddarach, yn amlygu y bwriad oedd yn ei arwain ef trwy y cwbl: "A thithau Solomon, fy mab, adnebydd Dduw dy dad, a gwasanaetha ef â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar; canys yr Arglwydd sydd yn chwilio yr holl galonau, ac yn deall pob dychymmyg meddyliau. O cheisi ef, ti a'i cai; ond os gwrthodi ef, efe a'th fwrw di ymaith yn dragywydd. Gwel yn awr mai yr Arglwydd a'th ddewisodd di i

Digitized by Google

y cynghoriaid cydymgeisiol y rhai oedd fwyaf yn ffafr y brenin; sef, Nathan, Sadoc, a Benaiah. Gan ddilyn camrau Absalom, efe a gymmerodd y rhwysg brenhinol o "gerbydau a gwŷr meirch, a dengwr a deugain i redeg o'i flaen;" a chan fod Dafydd yn fwy goddefgar nag erioed, efe a edrychodd arno yn ddistaw. O'r diwedd dewiswyd amser i'w gyhoeddi ef yn frenin. Yr oedd y brenin newydd i ddechreu ei deyrnasiad trwy gynnal gŵyl fawreddog yn En-rogel. Gwahoddwyd pawb iddi, ond y rhai y bwriedid eu taflu o'u swyddi. Yr oedd yn angenrheidiol i'r rhai yr oedd eu manteision yn cael eu peryglu, y rhai, y mae yn ymddangos, a gefnogid gan ddau frawd hynaf Dafydd oedd yn fyw (1 *Cron.* ii. 13, 14), i gymmeryd mesurau yn ddioed i amddiffyn eu hunain. Ymgynghorodd Bathseba a Nathan â'u gilydd. Dygwyd ei lŵ ar gof i'r brenin; a gwasgwyd arno mewn effaith i roddi ei orsedd i fyny fel yr unig lwybr trwy ba un y gellid sicrhau olyniaeth ei hoff fab. Cariwyd yr holl gynllun allan gyda chyflymdra rhyfeddol. Gan farchogaeth ar y fules, a adnabyddid gan bawb fel eiddo y brenin, yn cael ei ganlyn gan Nathan y prophwyd, a Sadoc yr offeiriad, a mwy pwysig fyth, gan ddeg ar hugain o weision y brenin, neu y "gwŷr cedyrn" (1 *Bren.* i. 10, 33), a gosgorddlu o'r Cerethiaid a'r Pelethiaid, dan lywyddiaeth Benaiah (yr oedd yntau, fel Nathan a Sadoc, o feibion Aaron), aeth Solomon i lawr i Gihon, a chyhoeddwyd ac eneiniwyd ef yn frenin. Disgynodd bloeddiadau ei ganlynwyr gyda braw ar glustiau y gwahoddedigion yn ngwledd Adoniah. Yn ffodus nid oeddynt hyd yma wedi cyflawni un weithred, ac ni anturiasant gyflawni un yn awr. Codasant y naill ar ol y llall, ac aethant ymaith; a throdd y bradwriaeth allan yn fethiant. Yr oedd cynllun gwrthwynebol Nathan a Bathseba wedi llwyddo i gyrhaedd ei amcan. Y mae digwyddiadau o'r fath yn ddigon cyffredin yn hanes brenhinoedd dwyreiniol. Fel rheol dilynir hwynt gan lofruddiad y blaid orchfygedig. Disgwyliai Adoniah y cyfryw ganlyniad, a chymmerodd noddfa wrth gyrn yr allor. Yn yr amgylchiad hwn, modd bynag, defnyddiodd y gorchfygwr ieuangc ei fuddugoliaeth yn haelfrydig. Arbedwyd bywyd Adoniah a'i gefnogwyr, o leiaf dros amser. Yr hyn oedd wedi ei wneyd yn frysiog a wnaed drachefn mewn ffurf mwy difrifol. Cyflwynwyd Solomon i gyfarfod mawr o holl bonaethiaid Israel, gydag araeth ragfyfyriedig, yn yr hon yr hysbysodd yr hen frenin pa beth a fyddai, yn ol ei feddwl ef, nodwedd y teyrnasiad newydd; sef, heddwch a llawnder, ac addoliad mawreddog ac ymlyniad ffyddlon wrth yr Arglwydd. Yn mhen ychydig fisoedd ar ol hyny cafodd Solomon ei hun, trwy farwolaeth ei dad, yn unig feddiannydd yr orsedd.

Yr oedd y sefyllfa y dyrchafwyd ef iddi yn neillduol. Ni ddarfu i deyrnas Israel erioed cyn hyny, na byth ar ol hyny, gymmeryd ei lle yn mysg brenhinoedd mawr y dwyrain—yn alluog i ymgynghreirio neu i ymdrechu ar delerau cyfartal gyda'r Aipht neu Assyria, gan ymestyn o'r Afon (Euphrates) at derfyn yr Aipht, o Fôr y Canoldir at Forgaingc Acaba, a chan dderbyn teyrngedau blynyddol gan lawer o dywysogion oeddynt yn ddarostyngedig iddi. Yr oedd trysorau mawrion a gasglwyd mewn llawer o flynyddau at ei wasanaeth. Yr oedd y bobl, gyda'r eithriad o'r addoliad goddefedig mewn uchelleoedd, yn ffyddlon i'r Arglwydd. Yr oedd gwybodaeth, celfyddyd, cerddoriaeth, a barddoniaeth, wedi derbyn symbyliad newydd, ac yn ymsymmud yn mlaen gyda chyflymdra mawr, at y cyfryw berffeithrwydd ag yr oedd yr oes a'r genedl yn alluog i'w gyrhaedd. Gallwn yn briodol ofyn—pa fath ddyn ydoedd efe, yn allanol ac yn fewnol, yr hwn, yn yr oed o bedwar ar bymtheg, neu ugain, a alwyd i'r benaduriaeth ogoneddus hon? Nid oes genym, y mae yn wir, un disgrifiad uniongyrchol yn yr achos hwn, fel sydd genym o'r brenhinoedd boreuaf. Modd bynag, y mae genym ddigon o ddefnyddiau i lenwi y gwagle i fyny. Nis gallwn ond casglu, oddi wrth yr argraph rhyfeddol a wnaed gan Solomon ar bawb a ddeuent yn agos ato, ei fod yn ddyn o ymddangosiad hardd, mawreddog, a swynol. Pa ystyr cyfriniol uwch bynag a all fod yn gorwedd yn *Salm* xlv., neu yn Nghân y Caniadau, tueddir ni i feddwl eu bod wedi eu sylfaenu ar ffaith hanesiol. Dywedant wrthym am un oedd yn ngolwg ei gydoeswyr yn "decach na meibion dynion;" ei wyneb "yn wyn a gwridog" fel wyneb ei dad (1 *Can.* v. 10; 1 *Sam.* xvii. 42), "ei wallt yn grych, yn ddu fel y frân," etto nid heb wrid euraidd, y llygaid yn sidanaidd fel "llygaid colommenod," y "wynebpryd fel Libanus, mor ddewisol a chedrwydd," "yn rhagori ar ddeng mil," ac "oll yn hawddgar:" *Can.* v. 9—16. Chwaneger at hyn oll y doniau o ddeall treiddgar, tymmher hynaws, meddwl siriol, enaid "enneiniedig" âg "olew llawenydd" (*Salm.* xlv.), a gallwn ffurfio rhyw syniad tebyg i beth oedd y brenin yn ei ogoniant cyntaf.

Fel yr ydym eisoes wedi cyfeirio, yn ol pob tebygolrwydd y mae cyssylltiad agos rhwng Cân y Caniadau a'r ffeithiau boreuaf yn hanes teyrnasiad Solomon. Ymddengys fod yr hanes fel yr adroddir ef yn 1 *Bren.* ii. yn lled ddyrys. Y mae Bathseba, yr hon oedd o'r blaen wedi cynnhyrfu Dafydd yn erbyn Adoniah, yn awr yn ymddangos fel eiriolydd drosto, gan erfyn ar i Abisag y Sunamees, gordderchwraig forwynol Dafydd, gael ei rhoddi yn wraig iddo ef. Pan glybu Solomon, yr hwn hyd y pryd hwnw a feddai y parch dyfnaf at ei fam, a pharodrwydd i roddi iddi unrhyw beth a ofynid ganddi, ei chais, efe a ffrommodd yn aruthr. Efe a ymddygodd at ei chais fel rhan o'r fradwriaeth o ba un yr oedd Ioab ac Abiathar yn gyfranog. Galwyd Benaiah i mewn unwaith etto. Rhoddwyd Adoniah i farwolaeth ar unwaith. Lladdwyd Ioab hyd o fewn terfynau y tabernacl, i ba un yr oedd efe wedi ffoi am noddfa. Diswyddwyd ac alltudiwyd Abiathar, ac anfonwyd ef i fywyd o dlodi a gwaradwydd (1 *Bren.* ii. 31—36), a throsglwyddwyd yr archoffeiriadaeth i deulu arall parotach nag yr oedd efe wedi bod i symmud oddi wrth yr hen drefn at y newydd, ac i dderbyn lleisiau y prophwydi fel yn fwy na'r oraclau a berthynent yn gwbl i'r offeiriadaeth. Modd bynag, gellir rhoddi eglurhâd ar y ffeithiau. Pa faint bynag o wirionedd sydd yn y dybiaeth sydd yn hòni mai yr un ydoedd Abisag a gwrones Cân y Caniadau [SULAMEES], y mae yn egluro yr hanes yma. Hawdd y gallai cariad cryf Solomon at y "decaf o'r gwragedd" beri i'r fam-frenhines, yr hon hyd yma oedd yn oruchaf, ofni dylanwad gwrthwynebol, ac ymuno mewn unrhyw gynllun er ei symmud. Yn yr un modd, rhoddir cyfrif am fyrbwylldra ffyrnig y brenin. Gwelai yn y cais ar unwaith ymgais i'w amddifadu ef o'r ferch yr oedd efe yn ei charu, a bradwriaeth i'w gadw ef etto dan

Digitized by Google

yn rhan o wladlywiaeth Dafydd o ddechreuad ei deyrnasiad. "Hoff oedd gan Hiram Dafydd bob amser." Yr oedd efe, neu ei daid, wedi ei gynnorthwyo trwy anfon defnyddiau a gweithwyr i wneyd ei balas. Mor fuan ag y clywodd am ddyrchafiad Solomon, efe a anfonodd lysgenhadon i'w gyfarch ef. Cymmerodd gohebiaeth le rhwng y ddau frenin, yr hon a derfynodd mewn cyttundeb masnachol. Yr oedd Israel i gael eu cyflenwi o Tyrus gyda'r defnyddiau, y rhai yr oedd eu heisieu i wneyd y deml oedd i fod yn ogoniant y teyrnasiad newydd:—aur o Ophir, cedrwydd o Libanus, copr y mae yn debygol hefyd o Cyprus, ac alcan o Yspaen neu Cornwall, i wneyd y pres a werthfawrogid mor fawr; porphor o Tyrus ei hun, a gweithwyr o blith y Sidoniaid. Yr oedd eisieu y rhai hyn oll, a rhoddwyd hwynt. Creodd agoriad Ioppa fel porthladd fasnach newydd ar y glenydd, a chariwyd y defnyddiau o Tyrus iddi ar "gludeiriau," ac oddi yno i Ierusalem: 2 *Cron*. ii. 16. Yr oedd archadeiladydd y deml, er yn Israeliad o du ei fam, yn perthyn i lwyth Dan neu Naphtali; etto, trwy enedigaeth, yn Tyriad—o'r un enw a'r brenin, sef Hiram. Mewn ad-daliad am yr allforion hyn, yr oedd yn dda gan y Phœniciaid dderbyn ŷd ac olew o diriogaeth Solomon. Nid oedd eu llain cul hwy o dir yn cynnyrchu digon i boblogaeth eu dinasoedd; a'r pryd hyny, fel mewn tymmor diweddarach, yr oedd "eu gwlad yn cael ei chynnaliaeth" o ddyffrynoedd llydain a gwastattiroedd Samaria a Galilea: *Act*. xii. 20.

Ni therfynodd y canlyniadau o'r cynghrair gyda hyn. Yn awr, am y waith gyntaf yn hanes Israel, hwy a ddechreuasant gario masnach yn mlaen. Hwy a ymunasant â'r Phœniciaid yn eu mordeithiau yn Môr y Canoldir at lenydd Yspaen. Gwel TARSIS. Galluogodd meddiant Solomon o lenydd Edom ef i agoryd i'w gynghreiriaid fyd masnachol newydd. Llenwid porthladdoedd Eloth ac Esion-gaber â llongau Tarsis, llongau masnachol; *h. y.*, i'r mordeithiau meithion a forid yn benaf gan Phœniciaid, ond a adeiladwyd ar draul Solomon, y rhai a hwylient ar hyd y Môr Coch, yn mlaen i'r Cefnfor Indiaidd, i wledydd, y rhai nid oeddynt o'r blaen braidd yn adnabyddus hyd yn oed wrth eu henwau—i Ophir a Seba, i Arabia Ddedwydd, neu India, neu Ceylon, a dygasant yn ol ar ol absennoldeb o agos i dair blynedd, drysorau yn mron neu yn hollol newydd, aur ac arian, a meini gwerthfawr, nard, aloes, sandalwydd, almugwydd, ac ifori; ac yn olaf, ond nid y lleiaf yn ngolwg yr hanesydd, ffurfiau newydd o fywyd anifeilaidd, ar ba rai y syllai trigolion Palestina gyda syndod—"eppaod a pheunod." Dangoswyd y dyddordeb a deimlid gan Solomon yn yr anturiaethau hyn gan ei waith yn gadael ei balasau yn Ierusalem, a lleoedd ereill, a theithio i Eloth ac Esion-gaber i arolygu gwneuthuriad y llongau 2 *Cron*. viii. 17); ac fe allai i Sidon hefyd i ddyben cyffelyb. I wybodaeth a gafwyd fel hyn, gallwn briodoli y syniadau eangach sydd yn ymddangos yn Salmau y tymmor hwn, a'r tymmorau canlynol, fel y syniadau am y rhai a wnant "eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion," ac a welant ryfeddodau yr Arglwydd "yn y dyfnder;" *Salm* cvii. 23—30.

Yn ol adroddiad yr ysgrifenwyr Phœniciaidd, yr hwn a ddyfynwyd gan Josephus, nodweddid ymgyfeillach y ddau frenin hyn hefyd gan radd o chwareugarwch a rhyddid cyfeillgar. Ymhyfrydent mewn poeni y naill y llall â chwestiynau caledion, a dalient gyngwystl gyda golwg ar eu gallu i'w hatteb hwynt. Hwyrach fod y darn nodedig o hanesiaeth a ddodwyd i mewn yn 1 *Bren*. ix. 11—14, sydd yn cofnodi gwaith Solomon yn "rhoddi i Hiram ugain dinas yn ngwlad Galilea," a'i anghymmeradwyaeth ef o honynt, yn dal perthynas â'r cyngwystlon ymherodrol hyn. Dialodd brenin Tyrus arno trwy ffraethair Phœniciaidd. Efe a gyflawnodd ei ran o'r cyttundeb, ac a dalodd y pris yn ol fel y cyttunasant.

Y rhai hyn oeddynt y ddau gynghrair pwysicaf. Gellir casglu oddi wrth absennoldeb pob cyfeiriad at Babilon ac Assyria, a'r ffaith fod yr Euphrates yn cael ei chydnabod fel terfyn teyrnas Solomon (2 *Cron*. ix. 26), fod y brenhiniaethau Mesopotamaidd, y pryd hwn, mewn cymmhariaeth, yn weiniaid. Yr oedd gwledydd cyfagos ereill yn foddlawn i dalu teyrnged flynyddol yn y ffurf o roddion: 2 *Cron*. ix. 24. Croesawodd brenhinoedd y Hethiaid a Syria agoriad llinell newydd o fasnach, yr hon a'i galluogodd hwy i gael marchnad yn Ierusalem yn yr hon y gallent gael cerbydau a meirch yr Aipht: 1 *Bren*. x. 29. Modd bynag, y mae yn eglur nad oedd hyn ond rhan fechan o'r fasnach a agorwyd gan Solomon. Yr oedd sylfaeniad dinasoedd fel Tadmor yn yr anialwch, a Tiphsah (Thapsacus) ar yr Euphrates; ac ereill ar y daith, a phob un gyda'i marchnad arbenig ei hun i gerbydau, neu feirch, neu ystorfeydd (2 *Cron*. viii. 3—6); a gwneuthuriad tyrau uchel ar Libanus (*Can*. vii. 4)—yr oedd y pethau hyn oll yn cyfeirio at fasnach fwy pellenig, yn agor adnoddau canolbarth Asia, yn cyrhaedd, fel y cyrhaeddodd masnach Tyrus ar ol hyny, gan gymmeryd mantais ar y llwybr hwn, at lwythau bugeiliol y Môr Caspiaidd a'r Môr Du, i Togarmah, a Mesech, a Tubal: *Exod*. xxvii. 13, 14.

Ni byddai trem ar y dylanwad a arferwyd gan Solomon ar y gwledydd cylchynol yn gyflawn pe yr elem heibio i'r dylanwad oedd yn fwy uniongyrchol; sef, dylanwad enwogrwydd ei ogoniant a'i ddoethineb personol. Y mae yn debygol nad crybwyllion byrion yr Hen Destament, wedi gwneyd chwanegiadau atynt, yn unig, ydyw y chwedlau sydd yn ffynu yn y dwyrain; ond (fel y crybwyllwyd uchod), y canlyniad o'r argraph a wnaed gan bresennoldeb personol un o fawrion y ddaear, fel y rhai sydd yn ymgasglu o amgylch enwau Nimrod ac Alexander Fawr. I ba le bynag yr elai llongau Tarsis, carient gyda hwynt adroddiadau dyddorol o'r pethau rhyfedd yr oedd eu dwylaw wedi eu weled a'i glywed. Nid taith brenhines Seba—er mai hi oedd yr hynotaf—oedd yr unig daith a gymmerwyd i'r un amcan. Syllai trigolion Ierusalem, a'r holl linell o wlad oedd yn gorwedd rhyngddi a Morgaingc Acaba, gyda syndod ar y fintai fawr—ar y dynion gyda'u gwynebau duon, y camelod yn dwyn perlysiau ac aur a gemau, a brenhines oedd wedi dyfod o'r de pell, o herwydd ei bod wedi clywed am ddoethineb Solomon, ac mewn cyssylltiad â hyny am "enw yr Arglwydd;" 1 *Bren*. x. 1. Hi a ddaeth gyda chwestiynau celyd i brofi y ddoethineb hono, a gall y geiriau yr ydym newydd eu dyfynu daflu goleuni ar eu natur. Nid dychymygion a dammegion yn unig, y cyfryw ag y mae y dwyreinwyr yn ymhyfrydu ynddynt; ond cwestiynau mawrion bywyd, y rhai sydd bob amser yn hen a phob amser yn newydd, y cyfryw ag

Digitized by Google

Yr oedd Solon yn cael ei ystyried yn un o saith doethwyr Groeg, ac un o'r deddfwneuthurwyr penaf a gynnyrchodd y wlad enwog hono.

SOLYMAN II., yr hwn a gyfenwir 'yr Ardderchog,' oedd y penaf o sultaniaid Twrci. Mab i Selim I. oedd efe. Ganwyd ef yn 1496; ac yn Medi, 1520, galwyd arno i fod yn olynydd i'w dad. A chan ei fod yn unig fab ni ddaeth neb yn mlaen i ymddadleu âg ef, ac i greu terfysg, fel y gwnaethpwyd yn amser ei dad a'i daid. Ei ymgyrch milwraidd cyntaf oedd yn erbyn Hungary, yn 1521, pan y cymmerwyd Belgrade ganddo, yr hon ydyw yr allwedd i'r deyrnas hono. Gwnaeth amryw o'i ragflaenoriaid geisiadau aflwyddiannus at hyn o'r blaen. Yn y flwyddyn ganlynol, cymmerodd Rhodes, yr hon a fuasai yn llwyddiannus i wrthwynebu holl ymosodiadau Mahommed II. Ar ol gwarchau maith a chaled y rhoddwyd y lle i fyny iddo gan farchogion St. Ioan. Gwaith y tair blynedd dilynol o oes Solyman oedd darostwng gwrthryfel yn yr Aipht, a therfysg yn mysg y Janissariaid; ond goresgynwyd Hungary drachefn yn 1526, pryd y lladdwyd Louis II., a'i holl fyddin o'r bron, yn mrwydr waedlyd Mohacz; ac ymdaenodd y Tyrciaid dros yr holl deyrnas. Rhoddodd Solyman goron Hungary i John Zapolya, yr hwn a'i derbyniodd ar yr ammod o'i fod i dalu gwarogaeth i'r Porte; ond yr oedd Ferdinand o Awstria yn ei hawlio, a dyma fu yr achlysur o ddechreu y rhyfeloedd meithion a fu rhwng ymherawdwyr Twrci ac Awstria. Yn 1529, gwarchauodd Solyman ar Vienna, ond yn aflwyddiannus. Dygwyd rhyfeloedd Twrci yn mlaen yn y blynyddoedd dilynol yn Persia, Arabia, Armenia, Guzerat, a Croatia; ac yr oedd eu harfau yn llwyddiannus yn mhob man—yr hyn a barodd i Francis I. o Ffraingc ffurfio cynghrair â'r Sultan. Achosodd marwolaeth John Zapolya, yn 1541, i gyfnewidiad gymmeryd lle yn achosion Hungary—rhan fawr o ba wlad a gymmerwyd gan y Tyrciaid. Parhaodd y rhyfel am gryn amser; ac yn 1547, cyttunodd Awstria i dalu teyrnged mewn arian am ei meddiannau yn Hungary. Torodd rhyfel arall allan rhwng Solyman ac Awstria, yn achos Hungary, yn 1552; a darostyngwyd Transylvania gan y Sultan. Ymosodwyd drachefn ar Persia, a chymmerwyd Erivan yn 1554; ond gwnaed heddwch â'r Shah yn y flwyddyn ddilynol.

Yn 1560, ennillwyd buddugoliaeth fawr ar lyngesoedd unedig y galluoedd Ewropaidd yn Djerbeh, ar lenydd Affrica, gan Piali, yr hwn a lywyddai llynges Twrci; a gwnaed cadoediad â'r ymherodraeth, yn ol yr hwn y gadawyd Hungary yn meddiant y Tyrciaid. Ond yr oedd gogoniant milwraidd Solyman yn cael ei gymmylu gan drafferthion ac ymraniadau teuluaidd. Rhoddwyd Mustapha, ei fab hynaf, i farwolaeth yn 1553, ar ddeisyfiad ei lysfam, Roxalana; yr hon oedd yn awyddus am sicrhau yr olyniaeth i un o'i phlant ei hun: a darfu i eiddigedd dau o'r tywysogion, sef Selim a Bayezid, derfynu yn ngwaith yr olaf yn gwrthryfela—ond cafodd ei orchfygu, a'i yru i Persia. Ar ddymuniad Solyman, rhoddodd y Shah ef i fyny i'w ddwylaw, a chafodd ef a'i blant eu rhoddi i farwolaeth yn 1561. Yr oedd llyngesoedd Solyman a Barbary wedi bod yn llywodraethu ar Fôr y Canoldir ar ol brwydr Djerbeh; ond cawsant eu gorchfygu gyda cholled fawr yn ngwarchauad ynys Malta, trwy ddewrder John de la Valette. Yn y cyfamser, parhaodd y rhyfel yn Hungary; ac yn 1566, aeth Solyman yn benllywydd ar ei fyddinoedd, i'w goresgyn; ond bu farw yn ei babell o flaen muriau Szigeth, Medi 5ed, 1566, un diwrnod cyn cymmeryd y dref, yn 72ain mlwydd oed.

Yr oedd Solyman 'yr Ardderchog' yn wleidyddwr yn gystal ag yn gadfridog; yn ddyn o egni meddwl anghyffredinol. Cadwai ei air yn fanwl; ac os byddai weithiau yn anurddo disglaerder ei fuddugoliaethau trwy weithredoedd o greulondeb, yr oedd, ar y llaw arall, y gallu mawr a feddai yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu cyfiawnder a threfn yn mysg ei ddeiliaid. Ymhyfrydai yn fawr mewn mesuroniaeth, ac yr oedd yn hoff iawn o hanesyddiaeth. Gofalai yn arbenig am gyllid y wladwriaeth, ac ymgadwai oddi wrth y ddwy graig ar ba rai, cyn ac ar ol hyny (ac hyd yn oed yn y flwyddyn hon, 1875), y mae trysorfa yr ymherodraeth Dyrcaidd wedi myned yn ddryllian; sef, treuliadau personol afradus, ac esgeulusdra i arolygu y cyfrifon cyhoeddus. Mewn oes pan yr oedd gorseddau Ewrop yn cael eu llenwi gan frenhinoedd o enwogrwydd, nid oedd ond ychydig o honynt yn gyfartal i Solyman yr Ardderchog yn nghydgyfarfyddiad eu rhagoriaethau tywysogaidd, a llwyddiant eu teyrnasiad.

SOMERS, JOHN, ARGLWYDD SOMERS, oedd fab i John Somers, cyfreithiwr. Ganwyd ef yn nhref Worcester, yn y flwyddyn 1650, fel y tybir. Dywedir iddo gael ei addysgu ar draul modryb gyfoethog, gwraig i fasnachwr yn Worcester; yr hon, gan nad oedd ganddi blant ei hun, a'i mabwysiadodd ef. Derbyniodd elfenau cyntaf ei addysg yn ei dref enedigol; wedi hyny bu mewn ysgol yn Walsall. Pan yn fachgen, dywedir ei fod yn hynod fel astudiwr caled. Aeth i Goleg y Drindod, Rhydychain, ac hefyd i'r Middle Temple. Galwyd ef at y bar yn 1676. Arosodd yn y brifysgol am rai blynyddoedd ar ol hyn. Yn y cyfamser, efe a ysgrifenodd ac a gyhoeddodd amryw o bamphledau, cyfreithiol a gwleidyddol yn benaf. Yr oedd galluoedd Somers yn eithaf hysbys i gylch helaeth o gydnabyddiaeth; ac o'r diwedd efe a ddaeth i Lundain yn 1682, ac a ddechreuodd ymarfer wrth y bar. Daeth yn mlaen yn llwyddiannus, ac ystyrid ef yn un o'r dadleuwyr mwyaf addawol yn Lloegr.

Ond y rhan a gymmerodd fel un o'r dadleuwyr yn mhrawf yr esgobion, yn Mehefin, 1688, a'i dygodd ef yn amlwg iawn o flaen y wlad. Nid ydyw araeth Somers ar yr achlysur hwn ond tua cholofn o hyd yn y "*State Trials;*" ond y mae yn dra thebygol fod y dadleuwyr ereill yn dra dyledus i'w ddysg a'i ymchwiliad ef am faterion eu hareithiau. O hyny allan, gellir edrych arno fel un o wleidyddwyr penaf ei oes. Ymunodd gyda'r blaid Whigaidd i gael William, y tywysog o Orange, drosodd; ac yr oedd y tywysog hwnw yn meddu ymddiriedaeth fawr ynddo. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Worcester yn 1789, a chymmerodd ran bwysig yn nadleuon Tŷ y Cyffredin. Dywedir mai efe yn benaf a dynodd allan y Dadganiad o Hawl (*Declaration of Rights*). Wedi i William III. esgyn i'r orsedd, ymgododd Somers mewn ffafr. Appwyntiwyd ef yn ddadleuydd cyffredinol yn 1689; yn Mai, 1692, dyrchafwyd ef yn gyfreithiwr cyffredinol; ac yn ddiweddarach yn yr un

flwyddyn yn arglwydd y gyfrin sêl. Yn 1697, gwnaed ef yn arglwydd ganghellydd, a dyrchafwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi o dan y teitl o Barwn Somers, o Evesham. Ystyrid ef yn awr yn un o benaethiaid y weinyddiaeth, ac yn un o gyfeillion penaf y brenin. Dygwyd dau gyhuddgŵyn yn ei erbyn gan Dŷ y Cyffredin yn 1700—un am ddiswyddo rhai ustusiaid heddwch yn anghyfreithlawn, meddid; a'r llall yn sylfaenedig ar achos y Cadben Kid, yr hwn a anfonasid allan i'r India Orllewinol i ymosod ar y môr-ladron yno—traul yr hwn a ddygid gan Somers a Shrewsbury, a rhai pendefigion ereill, ond a drodd yn fôr-leidr ei hun. Ond troi yn aflwyddiannus a wnaeth y ddau gyhuddgŵyn. Derbyniodd y brenin ei ymddiswyddiad fel arglwydd ganghellydd, modd bynag. Ond nid oedd hyn yn boddhau ei wrthwynebwyr gwleidyddol. Yn Ebrill, 1701, penderfynodd Tŷ y Cyffredin, trwy fwyafrif o 198 i 188, i roi cyhuddgŵyn arall yn ei erbyn, yn sylfaenedig yn benaf ar y rhan a gymmerodd efe mewn cyssylltiad â dau gynghrair a wnaed yn 1698—99, gan y brenin William, yn dwyn perthynas â brenhiniaeth Yspaen. Ond gwrthododd Tŷ y Cyffredin fyned â'r achos yn mlaen ar y dydd a appwyntiwyd gan yr arglwyddi i'w brofi.

Wedi ei ryddhau oddi wrth ofalon swydd, etholwyd Somers yn llywydd y Gymdeithas Frenhinol. Cymmerodd ran flaenllaw yn yr ymdriniaeth a'r trefniadau a gymmerasant le yn uniad Ysgotland â Lloegr; ac ar ddychweliad ei blaid i awdurdod yn 1708, gwnaed ef yn llywydd y cynghor, a daliodd y swydd hon hyd nes y daeth y Toryaid i awdurdod yn 1710. Ar ol hyny, nid llawer o ran a gymmerodd efe mewn achosion cyhoeddus; a bu farw Ebrill 26ain, 1716, yn 66ain mlwydd oed.

SOMERVILLE, MARY: boneddiges nodedig ar gyfrif ei gwybodaeth o'r gwyddorau. Merch ydoedd i'r is-lyngesydd Syr William George Fairfax. Ganwyd hi yn Ysgotland, yn mis Rhagfyr, 1780. Derbyniodd ei haddysg yn Musselburgh, ger llaw Edinburgh. Yn 1804, priododd Mr. Samuel Greig, cadben a dirprwywr yn y fyddin Rwssiaidd; yr hwn, gan ei fod yn hoff o efrydiau mesuronyddol a seryddol, a addysgodd ei wraig yn y pethau y daeth wedi hyny yn enwog ynddynt. Yn 1806, bu farw y Cadben Greig; ac yn 1812, hi a briododd yr ail waith gyda Dr. William Somerville; yr hwn a appwyntiwyd wedi hyny yn arolygwr bwrdd meddygol y fyddin, ac yn physygwr i feddygdy brenhinol Chelsea. Daeth Mrs. Somerville yn adnabyddus gyntaf i'r byd gwyddonol trwy ryw arbrawfiadau a wnaeth ar ddylanwad attynol pelydrau gwrthdoradwy *(refrangible)* yr haul. Cyhoeddwyd ei sylwadau yn y "*Philosophical Transactions;*" a bu hyn yn foddion i'w dwyn i gydnabyddiaeth âg Arglwydd Brougham, ar awgrymiad yr hwn y darfu iddi ymgymmeryd â gwneyd math o grynodeb o waith Laplace—"*Mécanique Céleste.*" Aeth y gwaith hwnw yn fwy nag yr amcanwyd iddo fod ar y cyntaf, a chyhoeddwyd ef dan y teitl, "*Mechanism of the Heavens;*" a chyflwynwyd ef i Arglwydd Brougham. Ennillodd y gwaith i'r awdures le uchel yn mysg y rhai a ddiwylliant wyddoniaeth anianyddol. Dilynwyd ef yn 1834 gan ei thraethawd, "*The Connection of the Physical Sciences,*" cyflwynedig i'r frenhines; ac yn fuan wedi hyny fe ymddangosodd adolygiad ffafriol iawn arno yn y "*Quarterly Review,*" yn yr hwn yr oedd yr awdures yn cael ei chymmharu i Hypatia a Madame Agnesi. Y mae y traethawd hwn wedi myned trwy lawer o argraphiadau yn Saesneg, ac wedi ei gyfieithu i'r Italaeg, a'i gyhoeddi yn Florence. Gwaith nesaf Mrs. Somerville oedd ei "*Physical Geography*"—yn cynnwys hanes y ddaear yn ei chyfansoddiad anianyddol. Ymddangosodd y gwaith hwn yn 1848, yn ddwy gyfrol, cyflwynedig i Syr John Hershell; ac y mae wedi myned trwy amryw argraphiadau, a'i gyfieithu i rai ieithoedd tramorol. Bu farw Mrs. Somerville, yr hon a dreuliodd ran fawr o'i hoes yn Italy, yn nghymmydogaeth Naples, ar y 29ain o Dachwedd, 1872, yn mron yn 92ain mlwydd oed.

SOUDAN, neu NIGRITIA. Gwel DAEARYDDIAETH.

SOPATER: mab Pyrrhus o Berœa, un o gymdeithion Paul ar ei ddychweliad o Groeg i Asia, pan y daeth efe yn ol o'i drydedd daith genhadol: *Act.* xx. 4. Pa un ai yr un ydyw a Sosipater a grybwyllir yn *Rhuf.* xvi. 21, ni ellir dywedyd.

SOPHAH: mab Helem, neu Hotham, mab Heber, un o lwyth Aser: 1 *Cron.* vii. 35, 36.

SOPHAI: Cohathiad Lefiaidd, mab Elcanah, a hynafiad Samuel: 1 *Cron.* vi. 26. Yn *adn.* 35 gelwir ef SUPH.

SOPHAR: un o dri chyfaill Iob: *Iob* ii. 11; xi. 1; xx. 1; xlii. 9. Gelwir ef yn yr Hebraeg, "y Naamathiad."

SOPHATHAH: y llanerch yn mha un yr aeth Asa i ryfel yn erbyn Zerah, yr Ethiopiad: 2 *Cron.* xiv. 10. Yr oedd hi wrth, neu yn hytrach yn perthyn i Maresah. Ymddengys fod hyn yn ei wneyd yn ammhossibl mai *Tell es-Sareh* ydyw, fel yr awgrymwyd gan Dr. Robinson, yr hon nid ydyw yn llai nag wyth milldir o *Marash;* yr hon, fel y tybir, sydd yr un a Maresah. Wrth ystyried nifer aruthrol yr ymladdwyr, rhaid fod y dyffryn yn un eang iawn.

SOPHERETH. "Meibion Sophereth" ydoedd deulu a ddychwelodd o Babilon gyda Zorobabel yn mhlith hiliogaeth gweision Solomon: *Ezra* ii. 55.

SOPHIM, MAES: llanerch ar, neu yn agos i ben Pisgah, oddi ar yr hwn y cafodd Balaam ail olwg ar wersyll Israel: *Num.* xxiii. 14. Os gellir cymmeryd y gair *sadeh* (yr hwn a gyfieithir 'maes') yn ei ystyr arferol, yna llanerch amaethedig i fyny ar ben Pisgah ydoedd "maes Sophim." Ond y gair hwnw ydyw y gair a ddefnyddir yn mron bob amser am gyfran o ddosbarth uchaf Moab; ac am hyny, fe allai fod iddo rhyw ystyr lleol ag sydd hyd yma wedi diangc sylw, ac yn mha un y defnyddir ef gyda golwg ar y llanerch dan sylw. Ni ddywedir wrthym yn mha le y safai maes Sophim: yr oll a ddywedir ydyw, fod rhan o wersyll Israel arno. Barna rhai mai yr un lle ydyw ag a grybwyllir yn ddiweddarach yn yr hanes fel Mispah-Moab. Dywed Mr. Porter, yr hwn sydd yn tybied mai yr un ydyw *Attârûs* a Pisgah, fod adfeilion *Maïn*, wrth droed y mynydd hwnw,



Digitized by Google

yn cael eu hamgylchu gan wastadedd ffrwythlawn ac amaethedig; yr hwn, yn ol ei farn ef, ydyw maes Sophim.

SOPHOCLES: treisganwr *(tragic poet)* enwog. Mab ydoedd efe i Sophilus. Ganwyd ef yn Colonus—pentref o ddeutu milldir o ddinas Athen, c.c. 495. Yr oedd efe yn 30ain mlwydd ieuangach nag Æschylus, ac yn 15eg mlwydd hynach nag Euripides. Cafodd gystal addysg ag a allasai yr oes hono ei chyfranu iddo. Addysgwyd ef mewn cerddoriaeth gan Lamprus; ac ymddengys ei fod, pan yn ieuangc, wedi rhagori yn y gelfyddyd hon, yn gystal ag mewn ymarferiadau corphorol. Pan nad oedd ond pymtheg mlwydd oed, wedi i'r Groegiaid orchfygu y Persiaid yn mrwydr Salamis (c. c. 480), dewiswyd Sophocles, o herwydd harddwch ei berson, yn gystal a'i fedrusrwydd mewn barddoniaeth a cherddoriaeth, yn arweinydd cydgan y gwŷr ieuaingc yn y ddawns a'r emyn a genid i ddathlu y fuddugoliaeth. Pan oedd yn 28ain oed y chwareuwyd ei dreisgan gyntaf. Æschylus ar y pryd oedd bardd mawr dramäyddol Athen; ond fe feiddiodd Sophocles ymgais âg ef am y wobr—ac ennillodd y fuddugoliaeth. Dywedir fod y blaenaf, mewn canlyniad i hyn, wedi gadael Athen, a myned i Sicily. Sophocles a gydnabyddid yn ben y beirdd am amser, heb fod neb yn tynu y dorch âg ef, nes y cododd cydymgeisydd galluog yn mherson Euripides, yr hwn a ennillodd y wobr flaenaf yn c. c. 441. Y mae yr hyn a ganlyn yn cael ei adrodd am ei helyntion teuluaidd, yr hyn a chwerwodd gryn lawer ar ei flynyddoedd olaf. Yr oedd ei deulu yn gynnwysedig o ddau fab, sef Iophon, o'i wraig Nicrostata, yr hon oedd wraig Athenaidd rydd, ac Ariston, ei fab o Theoris o Sicyon; ac yr oedd i Ariston fab o'r enw Sophocles, tuag at yr hwn yr amlygai ei daid yr hoffder mwyaf. Yr oedd Iophon, yr hwn, yn ol cyfreithiau Athen, oedd cyfiawn etifedd ei dad, yn teimlo eiddigedd o herwydd hoffder ei dad o Sophocles ieuangc, ac yn ofni ei fod yn bwriadu rhoddi i'w ŵyr ran helaeth o'i eiddo. Gan hyny, efe a wysiodd ei dad o flaen Phratores; yr hwn, dybygid, oedd yn meddu rhyw fath o awdurdod dros achosion teuluaidd, ar yr achwyniad fod ei feddwl yn gwanychu o herwydd henaint. Ymddengys na wnaeth Sophocles un attebiad i'r cyhuddgŵyn hwn; ond yn unig darllenodd ddernyn allan o'i "*Œdipus in Colonus,*" oedd newydd ei gyfansoddi ganddo. O herwydd hyn gadawyd iddo gael rheoli ei eiddo ei hun.

Bu farw Sophocles, yn llawn o ddyddiau ac anrhydedd, yn y flwyddyn c. c. 406, yn 90ain mlwydd oed. Nid ydyw yr adroddiadau am yr achos o'i farwolaeth yn gysson â'u gilydd. Dywed rhai iddo gael ei dagu wrth fwyta grawnwin; ereill a ddywedant iddo wneyd gormod o ymdrech wrth ddarllen ei "*Antigone*" yn uchel, fel y collodd ei lais ac y bu farw; ereill drachefn a ddywedent iddo farw o lawenydd pan glywodd am lwyddiant un o'i chwareuawdau. Claddwyd ef yn meddrod ei dadau, yn agos i Decelea.

Ni wyddys ond ychydig am fywyd cyffredin Sophocles, a'i ddull o fyw, heb law yn unig ei fod yn lled hoff o bleserau. Dywedir iddo gyfansoddi cant a deg ar hugain o chwareuawdau; ond dywed Aristophanes o Byzantium fod dwy ar bymtheg o houynt yn ffugiol. A'r chwareuawdau hyn yr ymgystadleuai efe am wobrau gyda phrif awdwyr dramäyddol yr oes, megys Æschylus, Euripides, Chœarilus, Aristias, Iophon, ac ereill; ac ennillodd y wobr flaenaf ugain o weithiau, a'r ail wobr amryw weithiau; ond ni bu erioed yn cael y drydedd. Nid oes ond saith ar gael hyd heddyw o'i holl chwareuawdau, a rhyw ddarnau o rai ereill. Ystyriai yr hynafiaid mai Sophocles oedd y perffeithiaf o'r holl feirdd dramäyddol; a galwent ef yn 'Homer y dreisgan.' Yr oedd yn eithaf teilwng o'u hedmygedd, o herwydd y mae treisganau Sophocles yn rhagori ar ddim cyffelyb a ymddangosodd yn ngwlad Groeg mewn unrhyw adeg o flaen nac ar ol hyny.

SORAH: un o'r trefydd yn rhandir llwyth Dan: *Ios.* xix. 41. Crybwyllir am dani yn flaenorol (*pen.* xv. 33) yn rheatr Iudah, yn mhlith y lleoedd yn nosbarth Soreah. Yn y ddwy restr y mae yn nesaf at Estaol, ac y mae y ddwy yn cael eu henwi gyda'u gilydd yn mron yn ddieithriad: *Barn.* xiii. 25; xvi. 31; xviii. 2, 8, 11: gwel hefyd 1 *Cron.* ii. 53. Sorah oedd preswylfod Manoah, a lle genedigol Samson. Enwir lle ei enedigaeth a'i gladdedigaeth gyda manylrwydd hynod, fel "rhwng Sorah ac Estaol;" "yn ngwersyll Dan;" *Barn.* xiii. 25; xvi. 31. Yn y cofnodion achyddol yn 1 *Cron.* ii. 53, a iv. 2, rhoddir y "Sareathiaid a'r Esthauliaid fel wedi disgyn o (*h. y.*, wedi eu poblogi gan) Ciriath-iearim.

Crybwyllir Sorah yn mhlith y dinasoedd cedyrn a adeiladwyd gan Rehoboam (2 *Cron.* xi. 10); ac ail breswyliwyd hi gan wŷr Iudah ar ol y dychweliad o'r caethiwed: *Neh.* xi. 29.

Yn yr "*Onomasticon,*" crybwyllir am dani fel yn gorwedd o ddeutu deng milldir i'r gogledd o Eleutheropolis, ar y ffordd i Nicopolis. Gan y teithiwr Iuddewig hap-Parchi, enwir hi fel taith tair awr i'r de-ddwyrain o Lydd. Y mae y crybwyllion hyn yn cyttuno yn mherthynas i'r cyfeiriad—er nad ydyw y pellder agos ddigon yn y naill na'r llall—â'r pentref diweddar *Sûr'ah*, a'r hwn yr ymwelodd Dr. Robinson. Y mae yn gorwedd yn union dan ael bryn pigfain, wrth ysgwydd y trum sydd yn ymgyfarfod yno, ac yn ffurfio yr ochr ogleddol i'r *Wady Ghurâb*—y fwyaf gogleddol o'r ddwy gangen, y rhai sydd yn ymuno yn union dan *Sur'ah*, ac yn ffurfio *Wady* fawr *Surar*. Ger llaw iddi gwelir adfeilion Zanoah, Bethsemes, Timnath, a lleoedd ereill a grybwyllir yn fwy neu lai mynych yn yr adroddiad. Modd bynag, nid ydys etto wedi darganfod Estaol. Y mae sefyllfa *Sur'ah* wrth enau y dyffryn, yr hwn sydd yn ffurfio un o'r mynedfeydd o'r gwastadedd mawr, yn egluro sefyllfa yr amddiffynfeydd a adeiladwyd gan Rehoboam. Saif y ffynnon ychydig is law y pentref, a "ffynnon ardderchog" ydyw, medd Dr. Robinson, "yn cynnwys cyflawnder o ddwfr rhagorol."

SORATHIAID: pobl Sorah; y rhai a grybwyllir, yn 1 *Cron.* iv. 2, fel wedi disgyn o Sobal, un o feibion Iudah, am yr hwn y dywedir, yn 1 *Cron.* ii. 52, mai efe a sylfaenodd Ciriath-iearim.

SORBONNE: athrofa enwog yn Ffraingc, a fu yn dra blodeuog am amryw ganrifoedd. Ei sylfaenydd oedd Robert de Sorbonne, gŵr eglwysig yn y drydedd ganrif ar ddeg; yr hwn a anwyd yn mhentref Sorbon, yn nhiriogaeth Rethel, o rieni tlodion a dinôd, yn y flwyddyn

Digitized by Google

1201. Ar gyfrif ei dalent, dygwyd ef i sylw Louis IX., brenin Ffraingc, yr hwn a'i gwahoddodd ef i'w lys fel cyffeswr a chaplan, ac a ymddygodd yn hynod o ffafriol tuag ato. Gwnaed ef yn ganon Cambray yn B. A. 1251: ac yn gymmaint a'i fod wedi cyfarfod âg anhawsderau lawer ei hun i gael addysg pan yn ieuangc, ffurfiodd gynllun i gynnorthwyo efrydwyr tlodion. Ei fwriad oedd sefydlu cymdeithas o offeiriaid bydol *(secular)*, a pharotoi cynnaliaeth iddynt; y rhai oedd i ymroddi yn gwbl ac yn rhad i'r gwaith o gyfranu addysg mewn duwinyddiaeth. Sefydlwyd cymdeithas ganddo ar y cynllun hwn, naill ai yn 1252 neu 1253; a chafodd gefnogaeth haelionus gan y brenin. Robert oedd penaeth cyntaf y sefydliad; ac ar ol iddo weinyddu y swydd hono am yr ysbaid o ddeunaw mlynedd y penderfynwyd ar gyfansoddiad a rheolau y coleg. Yn B. A. 1258, gwnaed Robert de Sorbon yn ganon eglwys gadeiriol Paris; a bu farw yn 1274, gan adael ei holl eiddo i'r coleg a sylfaenwyd ganddo. Yr oedd holl aelodau y coleg hwn naill ai yn ddoctoriaid neu yn wyryfaid mewn duwinyddiaeth. Y mae gwahaniaeth barn o barth i'r nifer oedd ynddo ar y cyntaf. Dywed Du Boulay mai un ar bymtheg oeddynt; ond y mae Ladvocat yn dadleu yn selog fod y nifer yn fwy. Cyfoethogwyd y coleg o bryd i bryd trwy roddion a chymmunroddion. Cymmerodd ei sylfaenydd drafferth fawr i sylfaenu llyfrgell, yr hon a ddaeth i fod yn un o'r rhai gwerthfawrocaf yn Ffraingc. Yn 1289—90, pan y gwnaed rhestr o'r llyfrau, yr oedd hi yn cynnwys dros fil o gyfrolau, y rhai oeddynt yn werth mwy na 15,000*p.*—swm mawr iawn yn y dyddiau hyny; ac yr oeddynt wedi lliosogi cymmaint yn 1292 fel yr oedd yn angenrheidiol tynu allan restr newydd. Yr oedd y llyfrau gwerthfawrocaf gynt wedi eu cadwyno yno wrth fyrddau bychain, a'u trefnu yn ol y gwahanol faterion yr ymdrinid â hwynt ynddynt.

Yr oedd adeiladau y coleg, yr hwn oedd yn y rhan ddeheuol o Paris, yn agos i balas y Luxembourg, wedi dadfeilio yn fawr, pan y darfu i'r cardinal Richelieu, yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, ei ail adeiladu. Yr oedd yr adeilad newydd, yn chwanegol at y neuadd fawr gyhoeddus, yn cynnwys lle i lettya un ar bymtheg ar hugain o ddoctoriaid. Heb law yr aelodau a lettyent yn y Sorbonne, yr oedd yn perthyn iddo aelodau a lettyent y tu allan, nad oedd ganddynt law yn llywodraethiad y sefydliad. Parhaodd y coleg hwn i fwynhau y breintiau a'r cyllid a berthynent iddo hyd y chwyldroad, pan y daeth i'w ran yntau hefyd y dinystr a oddiweddodd sefydliadau eglwysig ereill Ffraingc. Pan yr ad-drefnwyd ac yr adnewyddwyd y brifysgol gan Napoleon, yn 1808, adsefydlwyd y Sorbonne fel coleg duwinyddol perthynol iddi; ond ni ddaeth i feddu yr enwogrwydd a berthynai iddo unwaith, hyd yn oed gyda'r gwŷr eglwysig. Wedi gwneyd cyfnewidiadau drachefn yn ddiweddarach, yn nghyfansoddiad y brifysgol, nid oes un nodwedd arbenig yn perthynu i'r Sorbonne; ond y mae yr hen enw yn cael ei gymmhwyso ato.

SOREAH: ffurf arall o'r enw *Sorah.* Yr un ydyw yr Hebraeg yn mhob man. Nid ydyw Soreah yn digwydd ond yn unig yn *Ios.* xv. 33, yn mhlith trefydd Iudah. Modd bynag, ymddengys fod y lle wedi dyfod yn ddiweddarach i feddiant Dan. Gwel SORAH.

SOREC, DYFFRYN. Yn y dyffryn hwn y gorweddai preswylfod Dalilah: *Barn.* xvi. 4. Ymddengys mai lle perthynol i'r Philistiaid oedd, ac y mae yn agosach at Gaza nag un arall o brif ddinasoedd y Philistiaid, gan mai yno y dygwyd Samson wedi iddo gael ei gymmeryd yn nhŷ Dalilah. Heb law hyny, ni wneir un awgrymiad o barth i'w sefyllfa, ac ni chrybwyllir hi drachefn yn y Beibl. Dywed Eusebius a Jerome fod pentref o'r enw Capharsorech yn cael ei ddangos yn eu hamser hwy "o du y gogledd i Eleutheropolis, ger llaw tref Saar (neu Saraa); hyny yw, Sorah, lle genedigol Samson." Tybir yn awr fod Sorah yn llawn deng milldir i'r gogledd o *Beit-Jibrin*:—yr un lle, fel y credir, ag Eleutheropolis. Y mae y gair *Sorec* yn Hebraeg yn arwyddo math o win tra dewisol; yr hwn, meddir, sydd wedi cael ei enw oddi wrth liw tywyll ei rawnwin—ac hwyrach mai hyny ydyw ystyr y gwreiddair. Y mae yn digwydd mewn tair adnod yn yr Hen Destament; sef yn *Esa.* v. 2; *Ier.* ii. 21; a chydag ychydig o gyfnewidiad, yn *Gen.* xlix. 11. Ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio yn yr Arabaeg ddiweddar am rawnwin porphoraidd a dyfir yn Syria, ac a werthfawrogir yn fawr; yr hwn sydd yn enwog ar gyfrif ei fân-resin, ac yn cynnyrchu gwin coch. Gan mai fel hyn y mae yn bod, dichon fod dyffryn Sorec wedi cael ei enw oddi wrth y ffaith fod y cyfryw winwydd yn tyfu yno. Yr oedd Ascelon yn enwog yn mhlith yr hynafiaid am ei gwin; ac er nad oedd yn nghymmydogaeth Sorah, hi oedd y porthladd naturiol trwy ba un yr allforid cynnyrchion y dosbarth i'r gorllewin.

SORIANT: llidiawgrwydd, llid, digllonedd, anfoddlonrwydd. Gwel DIGOFAINT.

SOROD: mân demigau, rhanau, neu ddarnau; swrwd, sothach mettel, sinidr, gwaelodion, llorion: *Diar.* xxvi. 23; *Galar.* ii. 45; *Zeph.* i. 12. "Fel ysgubion y byd y gwnaethpwyd ni, a *sorod* pob dim hyd yn hyn" (1 *Cor.* iv. 13)—fel y pethau mwyaf gwael, diwerth, a dirmygus; fel ysgubion a sorod, a fwrid allan er glendid a glanweithdra.

SOSANNIM. "I'r Pencerdd ar Sosannim" sydd gyfarwyddyd cerddorol i arweinydd côr y deml, yr hwn sydd yn digwydd yn *Salmau* xlv. a lxix.; ac y mae yn dra thebygol ei fod yn dynodi y beroriaeth "yn ol" neu "yn null" pa un yr oedd y salmau i gael eu canu. Gan fod "Sosannim" yn llythyrenol yn arwyddo 'lili,' awgrymwyd fod y gair yn arwyddo offerynau cerdd ar ffurf lili—hwyrach y symbal; ac ymddengys fod y golygiad hwn wedi ei fabwysiadu gan De Wette. Rhydd Hengstenberg esboniad dychymygol arno, fel yn dynodi y "testyn neu y testynau yr ymdrinir â hwy, fel *lili* yn ffugrol am briodferch yn *Salm* xlv.; a'r cysuron a'r gwaredigaethau hyfryd a brofwyd yn *Salm* lxix.," &c.; yr hyn a ddisgrifir gan Dr. Davidson fel dychymyg tra annhebygol." Barna Ben Zeb mai offeryn cerdd a olygir wrtho; ac y mae Junius a Tremellius, ar ol Kimchi, yn ei gyfieithu *hexachorda*—offeryn gyda chwe llinyn, gan ei gyfeirio at y gwreiddair *shêsh*, 'chwech;' a chymmeradwyir hwn gan Eichorn yn ei argraphiad o Simonis.

SOSANNIM-EDUTH. Yn nheitl *Salm* lxxx.,

Digitized by Google

yr ydym yn cael y cyfarwyddyd "I'r Pencerdd ar Sosannim-Eduth," yr hwn, fel yr ymddengys oddi wrth y dybiaeth fwyaf tebygol, sydd yn dynodi y beroriaeth neu yr alaw 'yn ol' neu 'yn y dull' yn mha un yr oedd y salm i gael ei chanu. Fel y saif y geiriau yn awr, y maent yn arwyddo 'lili, tystiolaeth,' ac y mae y ddau yn cael eu hysgaru gan ddwy acen fawr wahaniaethol. Ynddynt eu hunain, nid oes iddynt un ystyr yn y testyn presennol; ac am hyny rhaid edrych arnynt fel darn o ddechreuad salm hynach, â'r hon yr oedd y côr yn gydnabyddus. Y mae Ewald yn rhoddi yr hyn a ystyrir ganddo ef fel y meddwl gwreiddiol—" 'lili,' hyny yw, pur, diniwed, ydyw y gyfraith;" ond ni oddef y geiriau y deongliad hwn, ac y mae yn ammhossibl rhoddi iddynt yn eu sefyllfa bresennol unrhyw ystyr boddhaol.

1. SOSIPATER: un o gadfridogion Judas Maccabæus, yr hwn, mewn cysylltiad â Dositheus, a orchfygodd Timotheus, ac a'i cymmerodd ef yn garcharor yn y flwyddyn c. c. 164. —1 *Macc.* xii. 19—24.

2. SOSIPATER: câr Paul, a grybwyllir yn yr anerchiadau yn niwedd yr Epistol at y Rhufeiniaid: *pen.* xvi. 21. Y mae yn debygol mai yr un person ydyw a Sopater o Berœa.

SOSTHENES: Iuddew yn Nghorinth, yr hwn a gymmerwyd ac a gurwyd yn mhresennoldeb Galio, pan y gwrthododd yr olaf wrandaw y cyhuddiad o heresi a roddwyd gan yr Iuddewon yn erbyn yr apostol Paul: gwel *Act.* xviii. 12—17. Pa gyssylltiad oedd rhyngddo a'r digwyddiad hwnw ni wyddys yn sicr. Tybia rhai ei fod yn Gristion, a'i fod wedi cael ei gamdrin fel hyn gan ei gydgenedl ei hun o herwydd ei fod yn adnabyddus fel cyfaill arbenig i Paul. Ond y mae yn annhebygol, os oedd Sosthenes yn gredadyn, y buasai Luc yn crybwyll am dano yn unig fel "yr archsynagogydd," heb un cyfeiriad at gyfnewidiad ei grefydd. Golygiad gwell ydyw—mai un o'r Iuddewon dallbleidiol ydoedd Sosthenes, ac mai Groegwyr ydoedd y dorf; y rhai, gan gymmeryd mantais ar ddiogelwch Galio, a phob amser yn barod i ddangos eu dirmyg ar yr Iuddewon, a droisant eu digofaint yn erbyn Sosthenes. Yn yr achos hwn, rhaid ei fod yn olynydd i Crispus (*Act.* xviii. 8) fel archsynagogydd (ac fe ddichon yn gydswyddog âg ef, yn ystyr rhyddaf y gair *archsynagogydd*, fel yn *Marc* v. 22); neu, fel y tybia Biscoe, fe allai ei fod yn perthyn i ryw synagog arall yn Nghorinth. Nid oes un sail i syniad Chrysostom, mai enwau yr un person oedd Crispus a Sosthenes.

Ysgrifenodd Paul yr Epistol at y Corinthiaid yn ei enw ei hun, ac yn enw rhyw Sosthenes, yr hwn a elwir ganddo yn "frawd:" 1 *Cor.* i. 1. Y mae y dull yr enwir ef yn dynodi ei fod yn adnabyddus i'r Corinthiaid; a barna rhai mai yr un ydyw a'r Sosthenes a enwir yn yr Actau. Os felly y mae, rhaid ei fod wedi ei ddychwelyd mewn tymmor diweddarach, a'i fod yn Ephesus, ac nid yn Nghorinth, pan ysgrifenodd Paul at y Corinthiaid. Yr oedd yr enw yn un cyffredin, ac ni ellir rhoddi ond ychydig o bwys ar y cyddarawiad hwnw. Dywed Eusebius fod y Sosthenes hwn (1 *Cor.* i. 1) yn un o'r deg dysgybl a thrigain; ac y mae traddodiad diweddarach yn chwanegu ei fod wedi dyfod yn esgob yr eglwys yn Colophon yn Ionia.

SOTAI. Plant Sotai oeddynt un o'r teuluoedd a hanasant o weision Solomon, y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 55; *Neh.* vii. 57.

SOTHACH: sorod, ysgarthion, ysbwrial, gwehilion, ammhuredd: *Salm* cxix. 119; *Esa.* i. 22, 25.

SOULT, NICOLAS-JEAN DE DIEU, DUC O DALMATIA, a maeslywydd Ffrengig, a anwyd yn St. Amans-la-Bastide, yn nosbarth y Tarn, Mawrth 29ain, 1769. Ymrestrodd yn filwr cyffredin yn y gatrawd frenhinol o wŷr traed, yn 1785; a hynododd ei hun gymmaint trwy ei ofal, ei ymostyngiad i ddysgyblaeth filwrol, a'i wybodaeth gyffredinol, fel, yn 1792, y pennodwyd ef yn is-gadben. Ymddygodd gyda'r fath ddewrder yn Fleurus fel y gwnaed ef yn is-gadfridog yn niwedd y flwyddyn 1794. O 1794 hyd 1799, bu yn gofalu am gyffiniau dwyreiniol y wlad; ac yn yr enciliad ar ol y gorchfygiad yn Stockach, ei fedrusrwydd a'i ofal ef o'r ol-warchodlu yn unig a attaliodd i fyddin Ffrainge gael ei llwyr ddinystrio yn ngwanwyn y fl. 1799. Appwyntiwyd ef i wasanaethu fel yr ail yn llywyddiaeth y fyddin o dan Massena, yn Switzerland ac Italy. Yr oedd Napoleon yn ddigon llygadog i weled ei dalentau milwraidd, ac anfynych yr oedd ei enw o hyny allan heb fod yn gyssylltiedig â phrif ddigwyddiadau milwraidd y cyfnod cyffrous hwnw. Er nad oedd Soult yn anwylddyn personol gan yr ymherawdwr, etto yr oedd yn mhlith y rhai a ddewiswyd ganddo yn faeslywyddion, yn 1804; a'r cyntaf o'r maeslywyddion a ddyrchafwyd i'r bendefigaeth. Ar faes Austerlitz, iddo ef yr ymddiriedwyd gofal yr ymosodiad a wnaed ar ganol y fyddin Rwssiaidd, yr hwn a benderfynodd dynged y dydd gwaedlyd hwnw. Gwnaeth iddo ei hun enw gogoneddus yn mrwydr Jena hefyd. Cymmerodd Soult fantais ar y llwyddiant hwnw, ac aeth yn mlaen gan gymmeryd Magdenburg, a gyrodd Blucher a Lestocq yn ol. Anfonwyd ef i Yspaen yn 1808, a gorchfygodd yr Yspaeniaid yn Reynosa; a phan roddodd Napoleon heibio ymlid ar ol Syr John Moore, ymddiriedwyd llywyddiaeth y corphlu oedd i ymlid y fyddin Brydeinig i'r môr i ofal Soult. Ar ol ymadawiad byddin Prydain, goresgynodd Soult Gallicia a gogleddbarth Portugal; rhuthrodd ar Oporto, a chymmerodd hi; a daeth llywodraeth y Ffrangcod mor gryf yno fel y teimlai y gorchfygwr awydd ymgyrhaedd at goron y wlad. Dygodd ei gynllwynion i ddwyn hyn oddi amgylch ef o dan anfoddlonrwydd yr ymherawdwr. Yn y cyfamser ymddangosodd Wellington a'i fyddin yn Portugal, a chroesodd y Douro, a bu raid i Soult a'i wŷr ffoi i Yspaen mewn cyflwr annhrefnus. Appwyntiwyd ef yn is-gadfridog y byddinoedd Ffrengig yn y wlad hono yn 1809; ac felly yr oedd yn rhinweddol yn brif gadlywydd ynddi: ac efe oedd ennillydd brwydr fawr Ocana, yr hon a barodd i Andalusia ymostwng iddo. Yn 1811, cymmerodd Soult Olivenza a Badajos; ond gwarchaeodd y fyddin Brydeinig ar y lle diweddaf, ac aeth Soult tuag ati gyda'r amcan o'i gwaredu: ymosododd ar luoedd Prydain, o dan Beresford, yn Albuera, ond gorchfygwyd ef ar ol brwydr waedlyd. Er hyny, efe a amddiffynodd yn ddewrfrydig ddeheubarth Yspaen. Ond yn 1812, dechreuodd Wellington ar ei symmudiadau ymosodol, a chymmerodd

Digitized by Google

Badajos o flaen ei lygaid ef. Ar ol brwydr fawr Salamanca, collodd y Ffrangcod eu gafael ar y wlad, a galwyd ar Soult i ddyfod i gynnorthwyo ei benaeth i'r Almaen, ar ol trychineb ofnadwy Moscow; a chymmerodd ran flaenllaw iawn yn mrwydrau Lutzen a Bautzen. Ar ol buddugoliaeth fawr Vittoria, cliriwyd Yspaen o'r goresgynwyr Ffrengig; ac yr oedd hyd yn oed Ffraingc ei hun yn agored i'r ymosodwr. Anfonwyd Soult i amddiffyn y cyffiniau rhag ymosodiadau y cynghreirwyr. Pan oresgynodd Wellington Ffraingc, amddiffynwyd hi yn y modd dewraf gan Soult; ond dioddefodd ei filwyr orchfygiadau pwysig ar y Nivelle, y Nive, ac yn Orthes. Pan yn gweled fod eu holl ymdrechion yn ofer, aeth Soult tua Toulouse, a chymmerodd i fyny safle gref; ond ymosododd Wellington arno, ac ymladdwyd brwydr ofnadwy. Ar ol gwrthsefyll yr ymosodiad yn y modd mwyaf egnïol, ymadawodd Soult o Toulouse, ond nid cyn peri colled i'r fyddin dan Wellington o 5,000 o wŷr.

Troes Soult yn frenhiniaethwr selog ar ol i Napoleon roddi i fyny ei goron, a rhoddodd Louis XVIII. iddo lywyddiaeth y 13eg adran o'r fyddin, a phennododd ef yn ysgrifenydd rhyfel, Rhagfyr 3ydd, 1814; ond ar ddychweliad Napoleon o Elba, ar yr 8fed o Fawrth, 1815, efe a adawodd wasanaeth y brenin, ac a ymunodd drachefn â'r fyddin ymherodrol. Ar ol brwydr Waterloo, lle yr ymladdodd yn egnïol, efe a gasglodd y fyddin ynghyd yn Laon; ac ar yr 31ain o Orphenaf, ar ol cynnal cynghor rhyfel, efe a gydsyniodd â Carnot mai ofer iddynt ddal allan yn hwy. Gan iddo ymuno â Napoleon, gwaherddid iddo aros yn Ffraingc, ac ymneillduodd yntau i Dusseldorf, ar lenydd y Rhine, hyd y flwyddyn 1819, pan y caniatawyd iddo ddychwelyd i'w wlad; ac yn fuan wedi hyny, adferwyd ef i'w safle a'i anrhydedd blaenorol, a chymmerodd ran weithredol mewn gwleidyddiaeth. Yn 1838, efe a anfonwyd yn llysgenhadwr dros Ffraingc i Loegr; ac fel gwrthymgeisydd dewr Wellington, cafodd dderbyniad brwdfrydig. Ymneillduodd yn llwyr oddi wrth wasanaeth cyhoeddus yn 1845, a phreswyliodd yn Soultberg—lle y bu farw, Tachwedd 26ain, 1852.

SOUTH, ROBERT, D.D., ydoedd fab i fasnachwr Llundeinig. Ganwyd ef yn Hackney, Middlesex, yn 1633. Yr oedd yn un o ysgolheigion y brenin yn Ngholeg Westminster yn 1848, pan yr oedd Dr. Busby yn athraw yno. Darllenai y gweddïau Lladin yn yr ysgol y boreu y dienyddiwyd Siarl I., a gweddïai dros ei fawrhydi wrth ei enw; yr hyn, fe allai, a arwyddai ei fod hyd yn oed y pryd hwnw yn teimlo ymlyniad wrth y ffurf sefydledig o lywodraeth mewn gwlad ac eglwys y bu yn amddiffynwr mor selog a galluog iddo drwy ystod ei fywyd. Yn 1651, derbyniwyd ef yn efrydydd i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain; graddiwyd ef yn G. C. yn 1655, ac A. C. yn 1657. Ordeiniwyd ef yn 1658, a chafodd ei appwyntio yn areithiwr i'r brifysgol yn 1660. Pennodwyd ef yn gaplan teuluaidd i Iarll Clarendon; ac yn 1663, gwnaed ef yn gôrberiglor Westminster, a chymmerodd ei radd o ddoctor mewn duwinyddiaeth; ac yn 1670, appwyntiwyd ef yn ganon Eglwys Crist, Rhydychain. Anfonwyd Lawrence Hyde, mab yr arglwydd ganghellwr Clarendon, yn llysgenhadwr i Poland, pan etholwyd John Sobieski yn frenin y wlad hono, ac aeth South allan gydag ef yn y swydd o gaplan. Yn fuan ar ol ei ddychweliad o Poland, cyflwynwyd iddo beriglориaeth Islip, yn swydd Rhydychain; ac ail adeiladodd yntau ganghell yr eglwys, ynghyd â'r periglordy. Pregethodd o flaen Siarl II. yn 1681, gan ei fod ar y pryd yn un o'r caplaniaid brenhinol, ar y geiriau hyny—"Y coelbren a fwrir i'r arffed: ond oddi wrth yr Arglwydd y mae ei holl lywodraethiad ef." Y mae y bregeth hon, yn yr hon y ceir enghraifft o arddull duchanol llym y pregethwr, yn cynnwys y frawddeg hynod a ganlyn. Nid yw yn llefaru yn uchel am chwaeth dda y pregethwr, yn enwedig wrth ystyried yr achlysur y llefarwyd hi arni:—"A phwy o'r rhai a welsant y fath gardotwas methdaliadol a Chromwell, yn dyfod gyntaf i dŷ y senedd mewn mantell wedi ei gwisgo i'r edef, a het seimlyd (heb fod un o honynt, fe allai, wedi talu am danynt), fuasai yn dychymygu y buasai efe, yn nghwrs ychydig o flynyddoedd, trwy lofruddio un brenin, ac alltudio y llall, yn esgyn i'r orsedd!" Ar hyn chwarddodd y brenin yn galonog, a throdd at Arglwydd Rochester, a dywedodd, "Yn sicr, y mae yn rhaid i'ch caplan gael ei wneyd yn esgob; cofiwch fi am dano ar y farwolaeth nesaf." Ond nid oedd y pregethwr yn pregethu er mwyn boddhau y sawl ydoedd mewn awdurdod, neu gyda'r dyben o gael dyrchafiad eglwysig. Ni chymmerai ei ddyrchafu o dan deyrnasiad Siarl nac Iago, nac ar ol chwyldroad 1688, er fod llawer o gymmhellion wedi bod arno i dderbyn y swyddau uchaf yn yr eglwys.

Yr oedd yn hollol anghymmeradwyo holl fesurau Iago II. tuag at adferu Pabyddiaeth, gan ei fod yn amddiffynwr cadarn i Brotestaniaeth. Ond yr oedd ganddo syniadau cryfion am ei ddyledswydd i fod yn deyrngarol i'w frenin; ac felly pan yr oedd archesgob Caergaint, a'r esgobion a lawnodasant y gwahoddiad i'r tywysog o Orange i ddyfod drosodd, yn ceisio ganddo yntau wneuthur yr un modd, efe a wrthododd. Wedi i William esgyn yr orsedd, pa fodd bynag, efe a ymostyngodd i'w awdurdod. Nid oedd South yn hoffi Deddf y Goddefiad. Parhaodd i bregethu yn erbyn Ymneillduaeth, gan geisio dangos fod pregethwyr Ymneillduol yn hollol ddiawdurdod; a thywalltodd arnynt ei wawdiaith gyda llymder hynod. Pregethwyd un o'i bregethau cryfaf yn y cyfeiriad hwn yn Mynachlog Westminster, yn 1692, oddi ar y testyn, "Ac y mae amryw ddoniau, eithr yr un ysbryd;" 1 *Cor.* xii. 4. Bu farw ar yr 8fed o Orphenaf, 1716; a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster, yn agos i feddrod ei hen athraw, Busby. Nid ydyw ei fywgraphwyr yn crybwyll fod ganddo na gwraig na phlant. Gadawodd lawer o'i eiddo ar ei farwolaeth at achosion elusenol, a dywedir ei fod yn rhoddwr haelionus drwy ei holl fywyd.

Er nad yw South yn adnabyddus ond trwy ei bregethau, rhaid edrych arno fel ysgrifenwr duwinyddol a gwleidyddol. Amddiffynai hawl ddwyfol brenhinoedd. Credai fod Eglwys Loegr yn ddelw berffaith o'r hyn oedd yr eglwys gyntefig. Y mae llawer o'i bregethau wedi eu cyfeirio yn erbyn y Puritaniaid. Ond fel awdwr, y mae yn amlwg ei fod yn meddu ar synwyr ymarferol cryf, adnabyddiaeth dwfn o'r natur ddynol, dychymyg bywiog, a ffraethineb nas gwyddai bob amser yn mha le yr oedd terfynau priodoldeb a gweddeidd-dra yn bod. Mewn

Digitized by Google

*Book,*" a gyhoeddwyd mewn pedair cyfrol ar ol ei farwolaeth. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd ef gan ei fab, y Parch. C. C. Southey, yr hwn a ymddangosodd mewn chwech o gyfrolau. Bu fyw gweddw Southey hyd Gorphenaf 20fed, 1854.

SOUTHWELL, ROBERT: bardd Saesneg, a hanai o deulu cyfrifol yn swydd Norfolk. Ganwyd ef ynghylch y flwyddyn 1560, yn Horsham, St. Faith, yn y sir uchod. Pan yn bymtheng mlwydd oed, anfonwyd ef i Paris i'w addysgu, a bu am ychydig ar ol hyny yn ngholeg Saesneg Douay. Yna aeth i Rufain yn 1578, ac yno efe a ymunodd â'r Iesuitiaid. Treuliodd beth o'i amser yn Tournay; ac ar ei ddychweliad i Rufain, dechreuodd astudio athroniaeth a duwinyddiaeth, a gwnaeth y fath enw iddo ei hun fel yr appwyntiwyd ef yn athraw yn y coleg Saesneg yno. Cafodd ei ordeinio yn offeiriad yn 1584. Anfonwyd ef yn nghwmni yr enwog Garnet, ar genhadaeth i Brydain yn 1586. Bu am flynyddoedd yn gyffeswr i Anne, yr iarlles Arundel, priod yr hon oedd yn garcharor yn y twr; ac yn ystod yr amser hwn y cyfansoddodd efe yn mron ei holl weithiau. O'r diwedd, yn 1592, cyflwynwyd ef i ddwylaw y swyddogion gwladol, y rhai a barasant iddo ddioddef poenau arteithiol. Ar ol bod yn garcharor caeth yn y Twr am yn agos i dair blynedd, efe a ddygwyd allan i sefyll ei brawf yn Westminster, Chwefror 21ain, 1595. Dywedai ei fod yn ddieuog oddi wrth y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth; ond addefodd ei fod yn offeiriad, a'i fod wedi dychwelyd i'w wlad ei hun yn unig er gweinyddu y sacramentau i'r sawl a ewyllysient gyfranogi o honynt, perthynol i'w grefydd ei hun, ac i gyflawni gwasanaeth arferol clerigwr perthynol i Eglwys Rhufain. Cafwyd ef yn euog, modd bynag; a thranoeth dygwyd ef allan i Tyburn, a chrogwyd ef, a darniwyd ei gorph. Ysgrifenodd Southwell amryw weithiau mewn barddoniaeth a rhyddiaith, ac y maent yn dangos chwaeth dda a dychymyg bywiog.

SPARTA: neu fel y gelwid hi weithiau, Lacedæmon, oedd ddinas benaf Laconica, a phrif ddinas y Peloponnesus. Safai ar lan ddeheuol neu orllewinol yr Eurotas, tuag ugain milldir oddi wrth y môr, ar wastadedd eang, o'r hwn yr ymgodai amryw o fân fryniau. Yr oedd y gwastadedd hwn yn cael ei derfynu gan yr Eurotas ar du y dwyrain, gan afonig o'r enw Oenus ar du y gogledd-orllewin, ac ar y de-ddwyrain gan yr afon fechan Tisia; a rhedai y ddwy ffrwd hyn i'r Eurotas. Fel y canlyn y mae Polybius yn darlunio nodweddion cyffredinol y dref:—"Y mae hi agos yn gron o ran ei ffurf, ac er ei bod yn sefyll ar wastadedd, cynnwysa o'i mewn amryw o fân fryniau. Ar du y dwyrain iddi y mae yr Eurotas, yr hon am y rhan fwyaf o'r flwyddyn sydd mor fawr fel nas gellir ei rhydio; ar y de-ddwyrain, ond yr ochr draw i'r Eurotas, y mae trum o fryniau, ar y rhai y saif y gymmydogaeth y gellir ei hystyried fel rhan o'r dref, a elwir Menelaium. Y mae yr afon yn rhedeg yn union yn ngodre y bryniau, ac nid oes ond ystâd a hanner (o ddeutu 940 o droedfeddi), yn cynnwys yr afon, rhyngddynt a Sparta." Yn ystod y tymmor mwyaf blodeuog ar annibyniaeth Groeg, nid oedd Sparta wedi ei hamgylchu gan gaerau, gan yr ystyrid fod dewrder ei dinasyddion, a'r anhawsder i ddyfod ati, yn ddigon o amddiffyniad iddi. Yr hwn a adeiladodd amddiffynfeydd gyntaf iddi oedd Nabis; ond y Rhufeiniaid a adeiladasant gaerau rheolaidd iddi. Nid oedd Sparta yn meddu castell (*acropolis*) fel y rhan liosocaf o'r dinasoedd Groegaidd, er y rhoddid yr enw hwn ar y bryn uchaf yn y dref, ar ben uchaf yr hwn y safai teml Athena Poliuchos.

Crybwyllir am bum rhan i'r ddinas: 1. *Pitane*, yr hon, fel yr ymddengys, oedd y rhan bwysicaf o honi—lle yr oedd yr Agora, yn cynnwys tŷ y cynghor a'r senedd, a swyddfeydd yr ynadon cyhoeddus. Yr oedd yma hefyd amryw o demlau ac adeiladau cyhoeddus ereill: o'r rhai hyn, y mwyaf ysblenydd oedd y cyntedd colofnog Persiaidd, yr hwn a adeiladwyd gyntaf gyda'r ysbail a gafwyd yn y rhyfel Persiaidd, ond a eangwyd ac a addurnwyd mewn amseroedd diweddarach. Yn y rhan yma o'r dref yr arferai ieuengctyd Sparta ddwyn yn mlaen eu dawnsfeydd er anrhydedd i Apollo. 2. *Limnæ:* oedd y gyfran hono o'r ddinas oedd ar lan yr Eurotas, yn ogledd-ddwyreiniol i Pitane; ac ymddengys ei fod yn wreiddiol yn lle cafnog, ac wedi ei orchuddio â dwfr. 3. *Mesoa:* yr oedd y rhan hon hefyd ar lan yr Eurotas, i'r de-ddwyrain oddi wrth y gymmydogaeth olaf a nodwyd. Cynnwysai y Dromus a'r Platanistas, yr hwn oedd lanerch wedi ei amgylchu yn mron yn gwbl â dwfr, ac a elwid felly o herwydd y coed palmwydd a dyfent yno. 4. *Cynosura:* y rhan dde-orllewinol o'r ddinas, ac i'r de o Pitane. 5. *Ægidæ:* y rhan ogledd-orllewinol, ac yn orllewinol i Pitane. Y gweddillion mwyaf nodedig a phwysig o'r hen Sparta ydyw olion y chwareudy, yr hwn oedd ger llaw yr Agora.

Mynegir mai sylfaenydd Sparta oedd Lacedæmon, mab i Zeus a Taygete; yr hwn a briododd Sparta, merch Eurotas, ac a alwodd y ddinas ar ol enw ei wraig. Dywedir mai ei fab, Amycas, oedd sylfaenydd Amyclæ—yr hon am amser maith oedd ddinas bwysicach na Sparta. Argos oedd prif ddinas y Peloponnesus yn yr amseroedd boreuaf, a mynegir fod Sparta y pryd hwnw yn ddarostyngedig iddi. Y gorchfygiad Doriaidd o'r Peloponnessus, yr hwn, yn ol traddodiad a gymmerodd le bedwar ugain mlynedd cyn rhyfel Caerdroia, a wnaeth Sparta yn brif ddinas y wlad. Amddiffynodd yr hen breswylwyr eu hunain yn Amyclæ; yr hon ni orchfygwyd am gryn amser. Ar ol llwyr orchfygiad y wlad, ceir fod y boblogaeth yn cael eu gwneyd i fyny o dri dosbarth:—y gorchfygwyr Doriaidd, y rhai a breswylient y brif ddinas, ac a elwid yn Spartiaid; y Periœci, neu yr hen breswylwyr Achæaidd, y rhai a dalent warogaeth i'r Spartiaid, ond na feddent unrhyw hawliau gwleidyddol; a'r Helotiaid, y rhai hefyd oeddynt gyfran o'r hen breswylwyr Achæaidd, ond a ddarostyngwyd i sefyllfa o gaethiwed. Yr oedd ymbleidiau beunyddiol, yn codi oddi ar amryw achosion, yn mysg y Spartiaid, hyd nes y dewiswyd Lycurgus, yr hwn oedd aelod o'r teulu brenhinol, gan bob plaid i ffurfio cyfansoddiad newydd i'r wladwriaeth. Efe, yn wir, a osododd i lawr sylfaen mawredd Sparta. Gwel LYCURGUS. Dechreuodd Sparta fod yn allu ymosodol yn fuan ar ol hyn; ac yn raddol hi a estynodd ei llywodraeth dros y rhan fwyaf o'r Peloponnesus. Ymosododd y Spartiaid ar Messenia, c. c. 743; ac ar ol rhyfel o ugain mlynedd, hwy a ddarostyngasant y wlad, c. c. 723. Yn y fl. c. c. 683, ymarfogodd y Messeniaid; ond ar ol

Digitized by Google

dwy flynedd ar bymtheg o ymladd, llwyr ddarostyngwyd hwy eilwaith. Ar ol terfyniad yr ail ryfel Messenaidd parhaodd y Spartiaid i gario yn mlaen eu gorchfygiadau yn y Peleponnesus. Gorchfygasant y Tegeaniaid, a chymmerasant Thyreæ oddi ar yr Argiviaid. Yn amser y goresgyniad Persiaidd, hwynthwy, yn addefedig, oedd y bobl flaenaf ac enwocaf yn ngwlad Groeg; ac iddynt hwy, trwy gydsyniad cyffredinol, y rhoddwyd yr arweinyddiaeth yn y rhyfel. Ond ar ol gorchfygiad y Persiaid, darfu i falchder a thrahâ Pausanias beri i breswylwyr taleithiau ereill Groeg, ac yn enwedig yr Ioniaid, eu ffieiddio; yr hyn a barodd iddynt edrych tuag at Athen am arweinyddion. Cryfhaodd awdurdod Athen o hyn allan yn barhaus; ac nid oedd gan Sparta ond ychydig o ddylanwad y tu allan i'r Peloponnesus. Gwnaeth y Spartiaid, pa fodd bynag, amryw geisiadau i roddi attalfeuon ar ffordd mawredd cynnyddol yr Atheniaid; a darfu i'w heiddigedd tuag atynt o'r diwedd arwain i ryfel y Peloponnesus. Terfynodd y rhyfel hwn yn nymchweliad Athen, ac adferiad yr uchafiaeth i Sparta dros y gweddill o wlad Groeg, yn y flwyddyn C. C. 404. Ond ni chadwodd y Spartiaid yr uchafiaeth am fwy na deng mlynedd ar hugain. Darfu i'r gorchfygiad a gawsant gan y Thebiaid, o dan Epaminondas yn mrwydr Leuctra (C. C. 371), roddi dyrnod i allu Sparta y teimlodd byth oddi wrth ei effeithiau; ac adferiad y Messeniaid i'w gwlad ddwy flynedd yn ddiweddarach roddi ergyd drymach drachefn iddi. Goresgynwyd tiriogaethau Sparta deirgwaith gan y Thebiaid; ac am y tro cyntaf gwelai merched Sparta dânau gwyliadwriaethol gwersyll eu gelynion yn cynneu ar eu bryniau. Collodd y Spartiaid yn awr eu huchafiaeth ar Groeg, ond ni ddarfu i un wladwriaeth Roegaidd eu dilyn mewn awdurdod; a deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, bu raid i'r rhan fwyaf o wlad Groeg ymostwng i Phylip o Macedonia. Ymgadwodd Sparta, pa fodd bynag, i ymddwyn yn oeraidd tuag at y gorchfygwr Macedonaidd, a gwrthododd gymmeryd rhan yn rhyfelgyrch Asiaidd Alexander Fawr.

Gwanhaodd gallu Sparta yn fwy drachefn o dan y brenhinoedd Macedonaidd:—esgeuluswyd cyfreithiau a gosodiadau Lycurgus, aeth y bobl i fyw yn foethus, lleihaodd nifer y dinasyddion, a daeth y tir i fod yn feddiant i ychydig o deuluoedd. Ymdrechodd Agis adferu hen gyfreithiau Lycurgus; ond trengodd yn yr ymgais i gario allan ei fwriad (C. C. 240), canys llofruddiwyd ef yn ngharchar gan yr Ephoriaid, y rhai oeddynt wedi cael pob awdurdod yn mron yn y wladwriaeth i'w gafael. Esgynodd Cleomenes III. i'r orsedd; a thrwy gyfrwysdra a gallu milwraidd efe a lwyddodd i raddau yn yr ymgais y methodd Agis ynddo; cymmerodd rhaniad cyffredinol ac ad-ddosbarthiad ar eiddo le; mabwysiadwyd rhai o'r Periœci i'w rhifo yn mysg dinasyddion Sparta; adnewyddwyd yr hen drefn gyda golwg ar gyfranu addysg; a rhoddwyd yr Ephoriaid i farwolaeth, a difodwyd eu swyddau. Gorchfygodd Cleomenes luoedd y cynghrair Achæaidd mewn amryw frwydrau, ynghyd â rhan fawr o'r Peloponnesus, pan y darfu i Aratus, cadfridog yr Achæaid, anfon at Antigonus Doson o Macedonia i geisio ganddo ddyfod i'w wrthwynebu. Cyfarfu y Macedoniaid a'r Spartiaid yn Sellasia, ar gyffiniau Laconia; ac wedi brwydr galed, ennillodd Antigonus y dydd. Yna efe a aeth yn mlaen i Sparta, ac a adferodd bethau i'w sefyllfa flaenorol. Ffodd Cleomenes i'r Aipht. Syrthiodd Sparta yn awr i ddinodedd, a llywodraethwyd hi gan olyniaeth o orthrymwyr brodorol, hyd nes y bu raid iddi o'r diwedd ddiddymu y sefydliadau oedd yn briodol iddi ei hun, ac ymuno â'r cynghrair Achæaidd. Yn fuan wedi hyny syrthiodd, gyda'r gweddill o wlad Groeg, o dan iau y Rhufeiniaid.

SPEED, JOHN: hanesydd Saesneg adnabyddus yn nheyrnasiadau Elizabeth ac Iago I. Ganwyd ef yn Farrington, swydd Gaerlleon, yn 1542; ond daeth i Lundain pan yn lled ieuangc, lle y treuliodd y gweddill o'i oes. Dygwyd ef i fyny yn ddilledydd wrth ei alwedigaeth, ac ymddengys ei fod wedi ymgynnal trwy ddilyn yr alwedigaeth hon am y rhan fwyaf o'i oes, o herwydd ni ddaeth allan fel awdwr hyd y fl. 1608, pan yn y chweched flwydd a thrigain o'i oedran. Yr oedd, pa fodd bynag, wedi bod yn ystod yr amser hwnw yn casglu trysorau o wybodaeth gywrain a hanesyddol, yr hyn a'i dygodd i gydnabyddiaeth â Syr Foulk Greville, yr hwn a'i tynodd allan yn fwy i'r golwg; a thybir iddo ei gynnorthwyo i gyhoeddi y gweithiau helaeth o ba rai yr oedd efe naill ai yn awdwr neu yn olygydd. Y blaenaf o'r gweithiau hyn oedd casgliad o fapiau o siroedd Lloegr a Chymru, gyda chynlluniau o ddinasoedd, a cherfluniau o amrywiol hynafiaethau, a ymddangosasant yn 1608; ond a gorphorwyd wedi hyny yn ei waith a elwir "*The Theatre of the Empire of Great Britain,*" a ddaeth allan yn 1611. Cyhoeddwyd amryw argraphiadau o'r gwaith hwn. Un arall o weithiau Speed oedd ei "*History of Great Britain under the Conquests of the Romans, Saxons, Danes, and Normans.*" Casglodd hefyd daflenau o achyddiaeth ysgrythyrol, yn cynnwys llawer o wybodaeth achyddol cynnwysedig yn llyfrau y Beibl. Bu farw ar yr 28ain o Orphenaf, 1629, a chladdwyd ef yn eglwys St. Giles, Cripplegate.

SPENCER, THOMAS: gweinidog ieuangc perthynol i'r Annibynwyr, a anwyd yn Deptford, Mehefin 5ed, 1791. Amlygai er yn blentyn alluoedd meddyliol anghyffredin, a'r tymmerau hawddgaraf; ond nid oedd ei ddifrifwch wedi cymmeryd ffurf grefyddol nes iddo fod yn un ar ddeg oed. Pan yn dair ar ddeg oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda menygwr (*glover*); ond tynodd ei dalentau ysblenydd sylw ei gyfeillion crefyddol, a rhoddwyd ef am dymmor o dan addysg y Parch. Mr. Hordle; ac wedi hyny derbyniwyd ef i athrofa Hoxton, yn Ionawr, 1807. Aeth yn mlaen gyda'i efrydiau yno, ac ar yr un pryd pregethai yn y trefydd cylchynol ac amryw o barthau o'r deyrnas; ac yr oedd ei boblogrwydd yn anarferol. Cyrchai y bobl yn dorfeydd i'w wrandaw yn mhob man. Pan y gadawodd y coleg, Mehefin 27ain, 1811, ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys Annibynol yn Liverpool—lle y bu y diweddar Dr. Raffles yn olynydd iddo. Yr oedd y fath liaws yn cyrchu i wrandaw arno, fel y gwelwyd yn angenrheidiol i adeiladu capel mawr iddo. Cynnorthwyodd Spencer i osod i lawr gareg sylfaen iddo, a thraddododd anerchiad ddyddorol ar yr achlysur; ond pan oedd disgwyliadau y cyhoedd yn fwyaf wrtho, efe a foddodd wrth ymdrochi yn yr afon Mersey. Yr oedd y teimlad o ofid a galar a gynnyrchwyd gan ei farwolaeth ddisymmwth yn ddwfn a chyffredinol; canys yr oedd y gobeithion am dano mor uchel, fel y tybid, pe

Digitized by Google

arbenig Morteira, y prif rabbi, yr hwn a fu yn addysgydd ac yn athraw iddo. Arweiniwyd ef yn ei efrydiau, modd bynag, i ffurfio damcaniaethau cywrain ar byngciau neillduol perthynol i'r grefydd Iuddewig. Er esampl, haerai nad oedd efe yn canfod fod anfarwoldeb yr enaid yn cael ei gadarnhau yn yr Hen Destament. Ni wnaeth Spinoza un ymgais i gadw hyn yn ddirgel; a darfu i ddau o'i gyfeillion ieuaingc yn fuan ledaenu ei syniadau. Galwyd ef o flaen y synagog am hyn, pryd y dadganodd ei farnwyr eu gofid fod un mor obeithiol wedi crwydro mor bell oddi ar yr iawn lwybr, a rhoddasant wŷs iddo i wneyd cyffesiad o'i ffydd. Cyhuddid ef o ymddwyn tuag at gyfraith Moses gyda dirmyg—yr hyn a wedid ganddo: ond amddiffynai ei olygiadau ei hun ar yr un pryd. Cymmerodd dadleuon meithion le, yn y rhai y darfu i Morteira, yr hwn oedd yn ddigofus iawn wrth ei ddysgybl, arfer pob ymdrech i'w esgymmuno; a llwyddodd i gael gwneyd hyny o'r diwedd.

Darfu i physygwr o'r enw Vanden Ende, yr hwn hefyd a gyhuddid o fod yn ammheuwr *(sceptic)*, addysgu Spinoza yn yr ieithoedd Lladin a Groeg. Yr oedd y Lladin yn dra manteisiol iddo yn ei efrydiau athronyddol newydd, canys yr oedd yn awr i raddau wedi rhoddi heibio astudio duwinyddiaeth; a daeth gweithiau Des Cartes i'w ddwylaw, ac fe'u darllenodd gyda blas mawr. Agorwyd byd newydd o'i flaen, ac addefai yn wastad ei fod yn ddyledus iddo ef am ei wybodaeth athronyddol. Ymryddhaodd yn hollol oddi wrth rwymau Iuddewiaeth, ac absennolodd ei hun o'r synagog. Haerid ei fod yn proffesu Cristionogaeth, ac yn arfer mynychu lleoedd o addoliad perthynol i'r Calviniaid a'r Lutheriaid. Darfu i'w ymosodiadau ar Iuddewiaeth beri y fath ddychryn i'r rabbiniaid fel y cynnygiasant iddo flwydd-dal o fil o ffloriniaid, neu tua 100*p*. o'n harian ni (gryn swm yn y wlad hono yn y dyddiau hyny), os cydsyniai yn allanol â'u seremonïau, a dyfod ar adegau i'r synagog. Attebodd Spinoza yn benderfynol—"Na wnawn, pe y rhoddid i mi flwydd-dal gymmaint ddeng waith." Nid oedd ond un peth i'w wneyd â'r fath un, sef ei esgymmuno; ond cyn gwneyd hyny, amcanwyd ei frad-lofruddio. Pan yn dyfod o'r chwareudy, ymosododd Iuddew arno, a thrywanodd ef yn ei wyneb. Yn ffodus, nid oedd yr archoll ond ysgafn; ond gwelai ei bod yn beryglus iddo aros yn Amsterdam, a phenderfynodd ymadael oddi yno. O'r diwedd, daeth yr amser i'w esgymmuno. Yr oedd y bobl wedi ymgasglu ynghyd yn y synagog i gynnorthwyo yn y gwaith rhyfeddol hwnw. Goleuwyd llawer o ganwyllau cŵyr duon, ac agorwyd y tabernacl, yn mha un y cedwid llyfrau cyfraith Moses. Oddi ar gadair uchel, corganai un dyn eiriau ofnadwy yr esgymmundod, tra y seiniai un arall mewn udgorn. Yna yr oedd y canwyllau yn cael eu dal uwch ben twb mawr wedi ei lenwi â gwaed, gan eu toddi iddo ddyferyn ar ol dyferyn; ac wrth edrych ar yr olygfa hon, llefai y bobl allan, "Amen."

Cafodd Spinoza, fodd bynag, nawdd o dan gronglwyd ei gyfaill, Vanden Ende; ac ymarferodd ei hun i wneuthur gwydrau i sylldrychau a mwyaduron, &c., a daeth i ragori yn hyn yn fuan, ac felly cafodd fodd i gynnal ei hun uwch law angen. Ond medrodd Morteira, yr hwn a drodd yn elyn mawr iddo, gael gan yr awdurdodau ei alltudio o Amsterdam; ac ymneillduodd i Rhynsburg, ger llaw Leyden, lle y dilynodd ei alwedigaeth, gan gyflwyno pob munyd hamddenol i'w efrydiau. Yn 1664, efe a gyhoeddodd ei "*Abridgment of the Meditations of Des Cartes,*" gydag attodiad iddo, yn yr hwn y dadganai syniadau hollol wrthwynebol i'r eiddo Des Cartes. Yna, efe a aeth i'r Hague, lle yr arosodd am y gweddill o'i fywyd. Yr oedd yn byw yn hollol feudwyaidd, ac yn ymarfer y cynnildeb mwyaf. Treuliai ei amser i astudio, neu i ohebu â dynion enwocaf yr oes. Byddai yn fynych heb adael ei ystafell am dri neu bedwar o ddyddiau yn olynol. Yr oedd yn ddyn o arferion sobr, tawel, a neillduedig. Gwaith mawr ei fywyd yn awr oedd astudio athroniaeth; a'i unig ddifyrwch oedd ei bibell a'i fyglys, ac ymddiddan â'r bobl yr oedd yn trigiannu gyda hwynt, neu wylio pryfed copyn yn ymladd â'u gilydd—difyrwch a barai i'r dagrau dreiglo dros ei ruddiau, gan fel y chwarddai. Cynnyrchai ei syniadau anfoddlonrwydd duwinyddion; ond yr oedd ei rinweddau personol yn peri i lawer ei barchu. Bu farw o'r darfodedigaeth, yn y bummed flwydd a deugain o'i oedran, yn 1677.

SPOHR, LUDWIG: crythor *(violinist)* Almaenaidd, a chyfansoddwr cerddorol enwog. Ganwyd ef yn Brunswick ar y 5ed o Ebrill, 1784. Physygwr oedd ei dad, yr hwn a welodd yn fuan fod gogwydd chwaeth ei fab yn gryf at gerddoriaeth, a rhoddwyd iddo addysg mor dda fel yr ennillodd iddo ei hun gymmeriad uchel fel crythor pan nad oedd ond tra ieuangc. Yn nghylch y flwyddyn 1804, appwyntiwyd ef yn feistr y gerddoriaeth yn nghapel Gotha; ac yn fuan ar ol hyn efe a briododd foneddiges a gyfrifid y delynores oreu yn yr Almaen. Pan ar daith gerddorol gyda'i wraig, perswadiwyd ef i dderbyn y swydd o gyfarwyddwr cerddorol un o chwareudai Vienna; ac i'r chwareudy hwn yr ysgrifenodd efe rai o'i ddarnau cerddorol dramäyddol rhagoraf. Yn 1822, pennodwyd ef yn feistr cerddorol capel llys Etholwr Hesse-Cassel—swydd a weinyddwyd ganddo hyd nes y gorfu iddo ymneillduo o honi gan hen ddyddiau. Bu farw yn Brunswick, Hydref 22ain, 1859. Ei brif weithiau cerddorol ydyw y chwareuganau *(operas)* canlynol:—"*The Mountain Spirit;*" "*The Alchemist;*" "*Jessonda;*" "*The Crusaders;*" "*Faust;*" "*Zemira and Azor;*" "*Pietro of Albano.*" Ei dreithganau *(oratorios)* ydynt, "*The Last Judgment;*" "*The Crucifixion,*" a'r "*Fall of Babylon.*" Y mae ei "*Last Judgment*" yn arbenig yn cael ei ystyried gan y beirniaid yn waith penigamp.

SPOTSWOOD, JOHN: archesgob St. Andrews, a anwyd yn 1565, yn mhlwyf Mid-Calder, yn swydd Edinburgh, lle yr oedd ei dad yn weinidog. Addysgwyd ef yn mhrifysgol Glasgow. Pan yn ddeunaw mlwydd oed, appwyntiwyd ef yn lle ei dad, yr hwn oedd wedi myned yn fethiant ac oedranus, yn weinidog y plwyf; ac am flynyddoedd cyfyngodd ei hun at y dyledswyddau gorphwysedig arno fel y cyfryw. Ymddengys ei fod yn y cyfnod hwn yn perthyn i'r dosbarth mwyaf eithafol o'r Presbyteriaid, ac yn wrthwynebwr selog i waith y llywodraeth yn ceisio adferu esgobyddiaeth. Ond yn raddol ymddangosodd tuedd ynddo i gilio oddi wrth y blaid hon. Yn y flwyddyn 1601, aeth i Paris yn gaplan i Iarll Lennox, llysgenhadwr y brenin

Digitized by Google

Iago o Ysgotland yn Ffraingc; a mynegir nad oedd Spotswood yn petruso ynghylch myned i'r offeren Babaidd yn awr ac eilwaith tra yn Paris. Ar ol ei ddychweliad i'w wlad ei hun, dygwyd ei achos o flaen y gymmanfa gyffredinol, a chyhuddwyd ef o fynychu yr offeren tra yn mhrifddinas Ffraingc, am yr hyn y ceryddwyd ef; a mynai rhai ei ddiswyddo. Pan gychwynodd Iago i Loegr, yn Ebrill, 1603, i gymmeryd meddiant o goron y wlad hon, yr oedd Spotswood yn un o'r pum clerigwr Ysgotaidd a appwyntiodd y brenin i fyned gydag ef. Tra yr arosai ei fawrhydi yn Burleigh House, ger Stamford, derbyniodd y newydd fod James Bethune, archesgob Glasgow, wedi marw; ac awodd Spotswood yn ddioed i lenwi ei le; a gwnaed ef hefyd yn aelod o'r cyfringynghor yn Ysgotland. Yr hyn sydd yn hynod yw, na chafodd efe ei neillduo yn gyhoeddus hyd y fl. 1610, pryd y gwysiwyd ef, ac esgobion Brechin a Galloway, i Lundain, ac yr aethpwyd trwy y seremoni hono yn y London House, ar yr 21ain o Hydref, gan esgobion Llundain, Ely, Bath a Wells, a Rochester. Fel y gallesid disgwyl, gwnaeth Spotswood ei oreu i gryfhau y gyfundrefn Eglwysig y gwnaethpwyd ef yn un o'r prif arolygwyr drosti. Ar farwolaeth yr Archesgob Gladstanes, pennodwyd ef i archesgobaeth St. Andrews. Dangoswyd yr un ffafr brenhinol i Spotswood gan Siarl I. ag a amlygwyd yn amser Iago, yr hwn a goronwyd ganddo yn eglwys palas Holyrood, ar y 18fed o Fehefin, 1633. Dwy flynedd yn ddiweddarach, ar farwolaeth Iarll Kinnoul, gwnaed yr archesgob yn arglwydd ganghellydd Ysgotland.

Nid oedd ond newydd gael y dyrchafiad, pan y tynodd arno ei hun ystorm o ddigofaint yn 1634, trwy ei waith yn cefnogi cospedigaeth Arglwydd Balmerino, ar y cyhuddiad o fod ganddo yn ei feddiant ddeiseb, a ystyrid yn annheyrngarol—pryd y dygwyd ef i brawf, y cafwyd ef yn euog gan reithwyr a weithredent o dan ddylanwad ofn, ac y condemniwyd ef i farw; ond cafodd faddeuant, ar ol bod am dymmor maith yn y carchar, er siomedigaeth fawr, meddir, i Spotswood, yn gystal ag esgobion ereill. Darfu i gospedigaeth Balmerino effeithio cymmaint, hwyrach, ag unrhyw beth i gynnyrchu yr anfoddlonrwydd cyffredinol yn Ysgotland a dorodd allan yn fflam gref wedi hyny. Pan y torodd y gwrthryfel allan yn Ysgotland, yn 1638, efe a ddiswyddwyd gan y gymmanfa a gyfarfu yn Glasgow; a diangodd yntau i Loegr, lle y bu farw ar y 26ain o Dachwedd, 1639. Claddwyd ef, yn ol gorchymyn y brenin, yn mynachlog Westminster; a dywed ei fywgraphydd fod llawer o alarwyr yn ei ddilyn i'r bedd, a chanddynt o leiaf wyth gant o fflam-dorchau, a bod holl bendefigion Lloegr ac Ysgotland, a ddigwyddent fod yn y llys ar y pryd, wedi dyfod allan o'u cerbydau, a cherdded ar ol y corph i'r drws gorllewinol.

Nid oes dadl nad oedd efe yn ddyn uchelgeisiol. Am ei ragoriaethau fel dyn o dalent a galluoedd, yr oedd ei lwyddiant yn y byd yn ddigon o brawf o hyny; ac am ei ddysg a'i gyrhaeddiadau llenyddol, y mae genym brawf o hönynt yn ei "*History of the Church of Scotland*," &c.

SPURZHEIM, JOHANN GASPAR: penofydd (*phrenologist*) enwog. Ganwyd ef yn 1776, yn Longwich, ger llaw Treves. Derbyniodd ei addysg yn mhrifysgol Treves, ac aeth i Vienna i astudio physygwriaeth yn 1799; ac yno y daeth i gydnabyddiaeth â Dr. Gaul—sylfaenydd y gyfundrefn benofyddol. Bu Spurzheim yn gwrandaw ei ddarlithiau am y pedair blynedd dyfodol, ac yna ymunodd âg ef yn ei ymchwiliadau. Gadawsant Vienna yn 1805, ac ymwelasant â llawer o fanau yn yr Almaen, Ffraingc, Prwssia, a Denmarc, er amddiffyn a lledaenu eu golygiadau. Ymsefydlasant yn Paris yn 1807, a thraddodasant ddarlithiau yno ar eu hoff destyn. Buont ynghyd hyd y flwyddyn 1813, pan yr ymwahanasant: daeth Spurzheim drosodd i'r wlad hon, ac arosodd yma dair blynedd, gan ddarlithio mewn amryw o'r prif drefydd, a chyhoeddi gweithiau ar benofyddiaeth, ac amddiffyn y gyfundrefn yn erbyn y beirniadu llym oedd arni. Bu yn preswylio ac yn darlithio yn Paris o 1817 hyd 1825, a dychwelodd i Brydain. Ar yr ymweliad hwn deallodd fod ei syniadau yn cael eu derbyn gyda mwy o ffafr na phan oedd yma yn flaenorol; a defnyddiai ei amser yn ddiwyd i ddarlithio ar ei hoff bwngc yn mron yn yr holl drefydd mawrion. Yn 1832, efe a aeth drosodd i America gyda'r un amcan; ond yn mhen ychydig ar ol glanio yno, efe a fu farw yn Boston.

Nid oedd Spurzheim, fel gwyddonydd, yn sefyll mor uchel a Gall. Ond yr oedd yn ddarlithydd poblogaidd, ac yn gydymaith difyr: yr oedd ei ddull o siarad ac ysgrifenu yn rhwydd, yn hyf, yn bendant, a dibetrus, a'i egluriadau yn wastad yn ddifyrus a chyfeiriol; ei resymau, er yn fynych yn groes i reolau manwl rhesymeg, yn hawdd iawn i'w deall; a'i gasgliadau yn gyffredinol a lled ammhenderfynol. Yr oedd bob amser yn ymdrin â'i bwngc mewn ysbryd brwdfrydig, fel un oedd yn argyhoeddedig o wirionedd yr hyn y dadleuai drosto. Efe, mewn rhan fawr, a fu yr offeryn i beri fod penofyddiaeth yn cael y graddau o sylw a delir iddo yn y dyddiau hyn. Y mae gweithiau llenyddol Spurzheim yn lliosog.

STACKHOUSE, THOMAS: duwinydd perthynol i Eglwys Loegr. Ganwyd ef yn 1681. Am ei enedigaeth, ei ddygiad i fyny, a'i addysg, nid oes dim yn wybyddus. Ceir y llythyrenau M. A. ar ol ei enw ar ei feddadail, ac ar wynebddalen rhai o'i lyfrau; ond ni cheir ei enw yn rhestr y graddedigion yn Rhydychain na Chaergrawnt. Gwyddys ar ei awdurdod ef ei hun ei fod pan yn ieuangc yn trigiannu yn Amsterdam, ac yn cyflawni dyledswyddau clerigol yno; a'r peth sydd yn hysbys am dano pan yn Lloegr ydyw, ei fod yn gurad yn Richmond, ac wedi hyny yn Ealing a Finchley; ac yr oedd yn fawr ei barch yn y lleoedd a enwyd. Curad fu efe am y rhan fwyaf o'i oes; a'r dyrchafiad uchaf a gafodd ydoedd ei appwyntio i ficeriaeth Benham, swydd Berks, yn 1733, lle y bu farw, ac y claddwyd ef yn y flwyddyn 1752.

Priodolir amryw o bamphledau di-enw i'w awduriaeth ef; ac y mae ereill, wrth y rhai y mae ei enw, y tybir mai ereill oedd eu hawdwyr. Yn 1723, daeth allan ei "*Memoirs of Bishop Atterbury;*" ac yn 1729, ymddangosodd ei "*Complete Body of Divinity.*" Bu mewn dadl gyda rhyddfeddylwyr y dyddiau hyny; yr hyn a chwanegodd at ei enwogrwydd. Yn 1732, cymmerodd anghydweledіad le rhyngddo a llyfrwerthwr, gyda'r hwn yr oedd wedi cyttuno i ysgrifenu gwaith oedd i'w ddwyn allan yn

Digitized by Google

rhanau, o dan yr enw "*History of the Bible*," a gynnhyrfodd deimladau chwerwon. Ymddangosodd y gwaith hwn mewn dwy gyfrol; y mae yn cynnwys yr hanes cyssegredig o'r dechreuad hyd sefydliad Cristionogaeth, gyda mapiau, darluniau, a thablau. Ystyrir hwn yn waith da mewn llawer ystyr, ac y mae wedi cael lledaeniad helaeth yn yr amser a aeth heibio. Bu Stackhouse fyw bywyd llafurus; ac o'r braidd na ellir dyweyd ei fod yn gymmharol dlawd o ran ei amgylchiadau; ac ychydig cyn ei farwolaeth dadganai iddo gyfarfod â siomedigaethau nid ychydig.

STACTE: enw ar un o'r perlysiau oedd yn cyfansoddi yr arogldarth sanctaidd: *Exod.* xxx. 34. Y mae y gair Hebraeg hwn yn digwydd unwaith etto (*Iob* xxxvi. 27), lle y defnyddir ef yn unig i ddynodi dyferyn o ddwfr. Dywed Dioscorides fod dau fath o stacte:—un ydyw glud ffres y pren myrr, wedi ei gymmysgu â dwfr, a'i wasgu allan gyda gwasg; y llall ydyw ystor *storacs* wedi ei gymmysgu â chŵyr a gwêr. Y mae stacte gwirioneddol yr ysgrifenwyr Groegaidd yn cyfeirio at y peth a ddistyllid o'r pren myrr; o'r hwn, yn ol Theophrastus, y ceid stacte naturiol a chelfyddydol. Dyma *môr derôr Exod.* xxx. 23. Hwyrach fod y *nâtâf* yn dynodi glud *storacs;* ond yr oll a wyddys yn sicr ydyw, ei fod yn arwyddo distylliad peraroglus o ryw blanhigyn.

STAEL, ANNE GERMAINE DE: a anwyd yn Paris yn 1768. Unig blentyn oedd i Necker, yr arianydd cyfoethog, a gweinidog cyllidol Louis XVI. Boneddiges o Switzerland oedd ei mam, ac wedi cael yr addysg oreu. Dechreuodd y fam roddi y ferch o dan gwrs caled o addysg pan yr oedd yn dra ieuangc; ond cynghorodd y meddygon hi i liniaru ychydig ar y rheolau manwl a osodasai i lawr. Gadawyd y ferch gan hyny i ddilyn ei chwaeth ei hun i raddau pell, a dangosodd yn fuan ei bod yn feddiannol ar dalentau anghyffredin. Yn 1786, priododd gyda'r Barwn de Stael, llysgenhadwr Sweden yn Paris, pendefig o alluoedd a chymmeriad uchel; ond yr oedd gryn lawer yn hynach na hi. Dechreuodd ei gyrfa lenyddol trwy gyhoeddi ei "*Letters on the Character and Writings of Rousseau,*" yn 1789; ac yn fuan wedi hyny daeth i deimlo dyddordeb mawr yn y chwyldroad. Ysgrifenodd amryw erthyglau ar ysbryd ymbleidiol y gwahanol bleidiau gwladol. Teimlai Madame de Stael yn fawr dros y gorthrymedigion; y rhai y pryd hwnw, yn ei thyb hi, oeddynt y pendefigion, yr offeiriaid, a'r teulu brenhinol. Cymmerai ddyddordeb arbenig yn y teulu brenhinol; ac aeth mor bell a chyhoeddi amddiffyniad i'r frenhines Marie Antoinette. Ond bu raid iddi ffoi ei hun rhag syrthio i ddwylaw y rhai oeddynt mewn awdurdod. Wedi i ddychrynfeydd y chwyldroad fyned heibio, hi a ddychwelodd yn ol i Paris, a rhoddodd ei chefnogaeth a'i dylanwad o blaid llywodraeth y llywgor *(directory)* oedd mewn awdurdod; ond yr oedd y llywodraeth, o ddiffyg egwyddor a gonestrwydd, yn dihoeni ac yn marw. Ac ar ei ddychweliad o'r Aipht, sefydlodd Napoleon Bonaparte benllywyddiaeth filwraidd yn ei lle. Ymddengys fod Madame de Stael o'r dechreu yn wrthwynebol i Bonaparte; ac yr oedd y rhai a gyfarfyddent yn ei thŷ yn ffurfio plaid wrthwynebol iddo. Anfonodd Bonaparte orchymyn iddi yn 1803 i ymadael o'r brifddinas, ac i beidio dyfod o fewn llai na chwech ugain milldir iddi. Gofidiai hi o herwydd y gorchymyn hwn, canys yn Paris yr ewyllysiai fod. Aeth yn gyntaf i Switzerland, ac wedi hyny teithiodd yn Italy, lle y casglodd ddefnyddiau gwaith a gyhoeddodd yn meddu y teitl, "*Corinne;*" yr hwn sydd ddisgrifiad barddonol o Italy, ar ddull ffugchwedl. Ac edrych arno fel ffugchwedl, egwan ydyw; ond fel gwaith disgrifiadol, cynnwys ddarnau nodedig am eu hyawdledd ar rai o'r pyngciau mwyaf dyddorol; megys, crefydd, barddoniaeth, prydferthion natur, a hanesiaeth; ac fel darluniad barddonol o wlad farddonol, y mae y gwaith yn meddu teilyngdod mawr a pharhaol.

Teithiodd drachefn yn yr Almaen, a chyhoeddodd lyfr yn disgrifio teimladau, llenyddiaeth, ac arferion yr Almaeniaid. Ond attaliwyd ei werthiant yn Ffraingc trwy orchymyn y llywodraeth. Yr oedd yr awdures yn aros ar y pryd yn Blois, ond cafodd orchymyn i ymadael o'r wlad; ac ymneillduodd hithau i Coppet, yn Switzerland. Yn annibynol ar wrthwynebrwydd Madame de Stael i ddull unbenaethol Napoleon o lywodraethu, yr oedd ei chwaeth lenyddol yn dra gwahanol i chwaeth lenyddol Ffraingc y pryd hwnw. Arferai y Ffrangcod edrych gyda diystyrwch ar lenyddiaeth gwledydd ereill fel pe yn hanner barbaraidd, ac yr ydoedd Napoleon yn cefnogi y teimlad hwn o wâg-ymffrost. Ond yr oedd Madame de Stael, trwy ganmawl cynnyrchion llenyddol yr Almaeniaid a'r Saeson, yn rhedeg yn erbyn y teimlad hwnw. Tra yn Coppet, daeth i gydnabyddiaeth gydag M. de Rocca, un a berthynai i deulu hynafol yn Geneva, a phriododd ef. Yr oedd yntau hefyd yn awdwr. Bu farw Gorph. 14eg, 1817. Claddwyd hi yn meddrod y teulu, yn Coppet. Cyhoeddwyd ei holl weithiau ar ol ei marwolaeth mewn un ar hugain o gyfrolau. Fel llenores, ystyrid ei bod y flaenaf a'r enwocaf yn ei hoes. Yr oedd yn agored i'r gwendid o fod yn uchelgeisiol; ond yr oedd yn wastad yn annibynol, yn onest, a diffuant.

STAFFORD, WILLIAM HOWARD, IS-IARLL: ail fab Thomas, yr ugeinfed iarll o Arundel. Ganwyd ef Tachwedd 30ain, 1612. Ar farwolaeth ei frawd-yn-nghyfraith, Henry, y pedwerydd Arglwydd Stafford, dyrchafwyd ef i'r teitl hwnw yn hawl ei wraig, yr hon a wnaed yn Arglwyddes Stafford. Yn 1640, gwnaed ef yn Is-iarll Stafford. Dygwyd Arglwydd Stafford i fyny yn Babydd manwl; ac yn ystod y rhyfeloedd cartrefol, glynodd wrth y blaid frenhinol. Nid ydyw yn ymddangos, pa fodd bynag, iddo wneuthur unrhyw argraph arbenig ar y senedd hyd nes y cafodd y pendefigion Pabaidd (deunaw mewn nifer), eu troi allan o'r tŷ trwy ddeddf a dderbyniodd y cydsyniad brenhinol ar y 30ain o Dachwedd, 1678. Nid ydyw Arglwydd Stafford yn cael ei gofio mewn hanesiaeth, ond fel yr olaf a'r penaf o'r rhai a gollasant eu bywyd o herwydd y Bradgynllwyn Pabaidd. Gwel OATES, TITUS. Yn yr ymchwiliad cyntaf a fu arno o flaen Tŷ y Cyffredin, Hydref 23ain, 1678, darfu i Oates nodi allan Stafford fel yr hwn a appwyntiwyd gan gadfridog yr Iesuitiaid i'r swydd o bentalwr y fyddin. Yn mhen deuddydd, cyfododd Stafford i fyny yn Nhŷ yr Arglwyddi, a dywedai iddo glywed fod gwŷs allan i'w ddal; a rhoddodd ei hun i fyny. Ar

Digitized by Google

mewn cyssylltiad âg Addison, efe a ddygodd allan y papur cyfnodol a elwid "*Tatler;*" ac ar ol dwyn hwnw i derfyniad efe a gychwynodd y "*Spectator,*" yr hwn a ddilynwyd gan y "*Guardian,*" a hwnw drachefn gan un arall a elwid "*Englishman.*" Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Stockbridge, yn 1713; ond difreiniwyd ef o'i aelodaeth am gabldraeth tybiedig a ymddangosodd yn yr "*Englishman.*" Ar esgyniad Sior I., gwnaed ef yn arolygwr yr ystablau brenhinol, yn llywodraethwr cwmni y brenin o ddigrif-chwareuwyr; a gwnaed ef yn farchog. Dychwelwyd ef hefyd yn aelod dros Boroughbridge i'r senedd gyntaf o deyrnasiad Sior; ac ar ol darostwng y gwrthryfel yn Ysgotland, pennodwyd Steele yn un o'r dirprwywyr i drefnu yr etifeddiaethau a attafaelwyd. Yr oedd yn awdwr amryw chwareuawdau llwyddiannus, heb law yr un a enwyd. Bu farw ar y 1af o Fedi, 1729, yn Llangunnor, sir Gaerfyrddin—palas a feddiennid ganddo trwy ei briodas â'i ail wraig. Heb law y gweithiau a enwyd, efe a gyhoeddodd ddau o gyfnodolion ereill, sef y "*Lover,*" a'r "*Reader,*" ac amryw ddarnau gwleidyddol. Yr oedd yn ysgrifenydd rhwydd a difyrus, ac yn un o'r traethodwyr goreu.

STELIO: math o lysard gwenwynig, sydd yn meddu gallu mawr i lynu wrth y ddaear. Nid ydyw y gair yn digwydd yn y Beibl ond yn unig yn *Lef.* xi. 30. Gwel LYSARD.

STEPHAN: y Merthyr Cyntaf. Dywedir i ni gan draddodiad mai ei enw Hebraeg (neu yn hytrach Syriaeg) ydoedd *Chelil* (coron).

Efe ydoedd y penaf o'r saith (a elwir yn gyffredin yn DDIACONIAID) a bennodwyd i ystyried y cwyn a wnaed yn eglwys foreuol Ierusalem, gan y Cristionogion Groegaidd yn erbyn y Cristionogion Hebreaidd. Wrth ei enw y mae yn ymddangos ei fod yn hanu o'r Groegiaid.

Dengys yr ymadroddion a ddefnyddir yn yr hanes ysgrythyrol i osod allan ei gymmeriad ei fod yn ddyn pwysig iawn:—"llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân" (*Act.* vi. 5); "llawn ffydd a nerth" (*adn.* 8); "doethineb ac ysbryd" anwrthwynebol (*adn.* 10); "cyflawn o'r Ysbryd Glân" (*pen.* vii. 55). Ni ddywedir dim yn yr hanes am ei weinidogaeth yn mhlith y tlodion. Ymddengys ei fod wedi myned yn mhell o flaen ei chwe chydymaith, ac yn mhell uwch law ei swydd ddiaconol. Yn gyntaf, tynodd sylw mawr trwy y "rhyfeddodau a'r arwyddion mawrion a wnaed ganddo." Yna, dechreuodd ddadleu â'r Iuddewon Groegaidd o ogleddbarth Affrica, Alexandria, ac Asia Leiaf—ei gymdeithion o ran cenedl a lle genedigaeth. Ni ddywedir wrthym yn bendant beth oedd pwngc y dadleuon hyn; ond y mae yn amlwg oddi wrth yr hyn a ganlyn ei fod wedi taraw ar wythïen newydd o addysg iddynt hwy, yr hon yn y diwedd a arweiniodd i'w ferthyrdod.

I lawr i'r amser yma yr oedd yr apostolion a'r Cristionogion boreuol wedi glynu wrth eu haddoliad lleol, nid yn unig wrth Wlad Canaan a'r Ddinas Sanctaidd, ond wrth y deml. Yn awr, efe a gondemniodd yr addoliad lleol hwn, gyda'r defodau Iuddewig perthynol iddo. Felly y mae yn rhaid casglu oddi wrth y cyhuddiadau a ddygwyd yn ei erbyn, gan eu bod yn cael eu cadarnhau gan rediad ei amddiffyniad. Diau fod geiriau y cyhuddiad yn anwiredd, gan ei fod yn sicr mai celwydd hollol oedd y bwriad drygionus a briodolent iddo ef. Ni ddarfu iddo ddywedyd "geiriau cablaidd," hyny yw, enllibus, "yn erbyn Moses a Duw;" *pen.* vi. 11. Ond nid oedd dinystr y deml, terfyniad defodau Moses, yn ddim mwy nag a bregethid yn gyhoeddus gan Paul, neu a gynnwysid yn araeth Stephan ei hun, fel y dengys y geiriau canlynol a ddefnyddiodd:—"yn erbyn y lle sanctaidd hwn a'r gyfraith"—"y distrywiai yr Iesu hwn o Nazareth y lle yma, ac y newidiai efe y defodau a draddododd Moses i ni;" *pen.* vi. 13, 14.

Am y dywediadau hyn y cymmerwyd ef i fyny ar ddymuniad yr Iuddewon Groegaidd, ac y dygwyd ef o flaen y Sanhedrim, yn mha le, fel yr ymddengys, yr oedd y blaid Phariseaidd ychydig cyn hyny (*pen.* v. 34; vii. 51) wedi ennill uchafiaeth.

Pan ddygwyd y cyhuddiad yn ffurfiol yn ei erbyn ef, newidiwyd gwedd ei wyneb fel pe buasai ar y pryd wedi cael rhyw olwg hynod o ddisymmwth ar ogoniant Crist, a llwyddiant a dedwyddwch dyfodol ei eglwys; a thrywanwyd hyd yn oed holl gorph y barnwyr oeddynt wedi ymgynnull ynghyd gan yr olygfa—"a hwy a welent ei wyneb ef fel gwyneb angel;" *pen.* vi. 15. Ymddengys fod barnwyr y Sanhedrim wedi eu dychrynu, am foment, gan ei bresenoldeb. Yna yr archoffeiriad oedd yn llywyddu a appeliodd ato ef (fel yr oedd Caiaphas yn yr un modd wedi appelio yn mhrawf Crist) i gael gwybod ganddo beth oedd ei syniadau ef ei hun ar y cyhuddiadau a ddygwyd yn ei erbyn ef. I hyn attebodd Stephan, gan ei amddiffyn ei hun mewn araeth ragorol, yn yr hon y rhoddodd grynodeb o hanes yr eglwys Iuddewig.

Yn y ffeithiau a adroddir ganddo o'r hanes hwn arweinir ef gan ddwy egwyddor, sydd ar y cyntaf yn guddiedig, ond yn dyfod yn raddol yn fwy amlwg wrth fyned yn mlaen. Y gyntaf ydyw yr ymdrech a wneir ganddo i brofi, oddi wrth hanes blaenorol, nad oedd presennoldeb a ffafr Duw wedi eu cyfyngu i'r Tir Sanctaidd neu i deml Ierusalem. Y mae yn egluro hyn gyda'r fath fanylrwydd nodedig ag sydd yn gwnèyd ei araeth yn mron yn gymmaint crynodeb o ddaearyddiaeth gyssegredig ag o hanesiaeth gyssegredig:—cyfeiria at ymddangosiad Duw i Abraham "*yn Mesopotamia cyn iddo drigo yn Charran*" (*pen.* vii. 2); at ei symmudiadau olynol *i Charran* ac i Canaan (*adn.* 4); ei amddifadrwydd hyd yn oed o *orphwysfa i'w droed* yn Nghanaan (*adn.* 5); preswyliad ei hâd mewn *gwlad ddyeithr* (*adn.* 6); manylion yr arosiad *yn yr Aipht* (*adn.* 8—13); addysg Moses *yn yr Aipht* (*adn.* 20—22); ei alltudiaeth *yn Midian* (*adn.* 29); yr ymddangosiad *yn Sinai*, gyda'r dadganiad fod yr anialwch yn dir sanctaidd (*adn.* 30—33); y deugain mlynedd *yn yr anialwch* (*pen.* vii. 36, 44); yr oediad maith cyn y parotoad i wneyd tabernacl Dafydd (*adn.* 45); a'r cyhoeddiad o addoliad ysbrydol hyd yn oed ar ol adeiladu y deml: *adn.* 47—50.

Y mae yr ail egwyddor wedi ei sylfaenu ar yr ymgais a wnaed ganddo i ddangos fod tuedd, o'r amserau boreuaf, at yr un ysbryd anniolchgar a chul ag oedd wedi ymddangos yn y gradd olaf hwn o'u bodolaeth wleidyddol. Ac y mae yn cyferbynu y duedd lem a chyfyng hon â rhyddid dwyfol ras ac ewyllys dyn, yr hwn a amlygwyd yn nyrchafiad Abraham (*pen.* vii. 4), yn Ioseph (*adn.* 10), yn Moses hefyd (*adn.* 20)—ac yn eiddigedd a gwrthryfel y genedl yn eu herbyn hwy, eu cymmwynaswyr penaf, fel y gwelir yn

Digitized by Google

neillduol yn yr elyniaeth yn erbyn Ioseph (*adn.* 9) a Moses (*adn.* 27), ac yn eu hesgeulusdra maith o'r gwir addoliad crefyddol yn yr anialwch: *adn.* 39—43.

Y mae y ddau ddetholiad yma yn cael eu gweithio allan ar yr hyn y gellir yn mron eu galw yn egwyddorion beirniadol. Nid ydyw y testyn yn cael ei osod allan trwy alegori, ac nid oes unrhyw esboniad annaturiol yn cael ei roddi arno. Y mae pob adnod a ddyfynir yn rhoddi yr ystyr a briodolir iddi yn deg.

Heb law y prawf uniongyrchol o ryddid oddi wrth attalfeydd lleol a geir yn yr ymresymiad cyffredinol, ceir hefyd eglurhâd anuniongyrchol ar yr un athrawiaeth yn ei ddull ef yn trafod manylion y pwngc. Nid oes dim llai na deuddeg o'i gyfeiriadau at hanesiaeth Moses yn gwahaniaethu oddi wrth y cyfryw hanesiaeth trwy amrywiad neu chwanegiad.

1. Galwad Abraham *cyn yr ymfudiaeth* i Charran (*pen.* vii. 2):—nid, fel yn ol *Gen.* xii. 1, yn Charran.

2. Marwolaeth ei dad *ar ol yr alwad* (*pen.* vii. 4):—nid, fel yn *Gen.* xi. 32, o'i blaen.

3. Pymtheg enaid a thrigain o ymfudwyr Iacob (*pen.* vii. 14):—nid (fel yn *Gen.* xlvi. 27), deg a thrigain.

4. Hawddgarwch *duwiol* Moses (*pen.* vii. 20): —nid, yn syml, fel yn *Exod.* ii. 2, yr adroddiad "mai tlws ydoedd efe."

5. Ei addysg yn yr Aipht (*pen.* vii. 22), mewn cyferbyniad i'r distawrwydd ar y pen yma yn *Exod.* iv. 10.

6. Yr un cyferbyniad gyda golwg ar ei fawredd bydol—"nerthol mewn geiriau ac mewn gweithredoedd;" *pen.* vii. 22. Cymmharer *Exod.* ii. 10.

7. Y crybwylliad pendant am y tri thymmor o ddeugain mlynedd (*adn.* 23, 30, 36):—yr olaf o ba rai yn unig a grybwyllir yn y Pum Llyfr.

8. Dychryn Moses wrth weled y berth (*adn.* 32):—yr hyn ni chrybwyllir yn *Exod.* iii. 3.

9. Y chwanegiad at adroddiad Moses trwy y cyfeiriadau yn Amos at esgeulusiad y gwir addoliad yn yr anialwch: *adn.* 42, 43.

10. Cyfryngiad yr angylion yn rhoddiad y ddeddf (*adn.* 53):—yr hyn ni chrybwyllir yn *Exod.* xix. 16.

11. Claddedigaeth y deuddeg patriarch yn Sichem (*adn.* 16):—yr hyn ni chrybwyllir yn *Exod.* xix. 16.

12. Gwaith Abraham yn prynu y bedd yn Sichem gan feibion Emmor (*adn.* 16):—nid, fel yn *Gen.* xxiii. 15, pryniant yr ogof yn Macpelah gan Ephron yr Hethiad.

At y rhai hyn, gellir chwanegu dygiad i mewn Remphan o'r Deg a Thrigain o *Amos* v. 26; yr hwn ni cheir yn yr Hebraeg.

Nid oes angenrheidrwydd i ni roddi yma eglurhâd ar yr amrywiadau hyn, gan y ceir hyny dan rai o'r enwau uchod.

Ymddengys fod Stephan, yn union ar derfyniad ei ymresymiad, wedi gweled cyfnewidiad yn agwedd ei farnwyr, fel pe buasent am y tro cyntaf wedi deall ei feddwl. Efe a beidiodd â'u hanerch hwynt mewn dull tawel; ac yn ddisymmwth efe a wnaeth ymosodiad llym arnynt, gan ddywedyd, "Chwi, rai gwargaled, a dienwaededig o galon ac o glustiau, yr ydych chwi yn wastad yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân: megys eich tadau, felly chwithau. Pa un o'r prophwydi ni ddarfu eich tadau chwi ei erlid?......y Cyfiawn, i'r hwn yr awrhon y buoch chwi fradwyr a llofruddion." Fel yr oedd efe yn llefaru, ymddangosai llid yn eu hwynebau: ac i arfer iaith gref yr adroddiad, "hwy a ffromasant yn eu calonau;" a hwy a barhasant i ysgyrnygu eu dannedd arno; ond etto, er gydag anhawsder, yn ymattal rhag ymosod arno. Yn y cyfwng olaf hwn ar ei dynged, efe a drodd ei wyneb tuag i fyny, at y ffurfafen agored; ac fel y syllai, ymddangosai y nefoedd yn ymagor, a gwelai ogoniant Duw trwy rwygiad y llen ddaearol—y presennoldeb dwyfol yn eistedd ar orseddfaingc, ac ar y ddeheulaw ffurf ddynol "Iesu;" nid, fel yr arferir ei osod ef allan, yn eistedd, yn gorphwys —ond yn sefyll i fyny, fel ag i gynnorthwyo ei was dioddefus. Siaradodd Stephan fel wrtho ei hun, gan ddisgrifio y weledigaeth ogoneddus; ac, wrth wneuthur hyny, efe yn unig, o'r holl siaradwyr a'r ysgrifenwyr yn y Testament Newydd, oddi eithr yn unig Crist ei hun, sydd yn defnyddio yr ymadrodd dynodiadol—"Mab y dyn." Pan glywodd ei farnwyr y geiriau, pa rai oedd yn gosod allan ddyrchafiad dwyfol y person, yr hwn yr oeddynt hwy wedi ei ladd mor ddiweddar, nis gallent ymattal yn hwy:—"Yna y gwaeddasant â llef uchel, ac a gauasant eu clustiau, ac a ruthrasant yn unfryd arno;" ac a'i llusgasant ef allan o'r ddinas i'r dïenyddle.

Ammheuwyd a oedd gan y Sanhedrim awdurdod i gyflawni y weithred hon heb gydsyniad llywodraeth Rhufain; ond digon yw atteb fod yr holl ymdrafodaeth wedi ei dwyn yn mlaen mewn cyffro ffyrnig. Ar un achlysur, hyd yn oed yn mywyd ein Hiachawdwr, bu agos i'r Iuddewon ei labyddio ef, hyd yn oed o fewn terfynau y deml: *Ioan* viii. 59. Cyfyngid eu dialedd mewn achosion ereill i'r cospedigaethau israddol hyny y rhai a adawsid dan eu hawdurdod hwy; sef, carchariad, ffiangelliad cyhoeddus yn y synagog, ac esgymmundod.

Ar yr achlysur hwn, modd bynag, hwy a benderfynasant am unwaith weinyddu y cospedigaethau yn llawn, a orchymynwyd gan gyfraith Moses.

Yr oedd pob troseddwr o'r gyfraith i'w gymmeryd o'r tu allan i'r pyrth; ac yno, er mwyn rhoddi i bob aelod o'r wladwriaeth deimlad o'i gyfrifoldeb yn yr ymdrafodaeth, yr oedd i gael ei ladd gan geryg, wedi eu taflu ato gan yr holl bobl.

Y rhai hyny, modd bynag, oeddynt i gymmeryd y flaenoriaeth yn y weithred wyllt a dychrynllyd hon, y rhai oeddynt wedi cymmeryd arnynt eu hunain y cyfrifoldeb o'i gondemnio ef: *Deut.* xvii. 17. Y rhai hyn, yn ol yr amgylchiad hwn, oeddynt y tystion; y rhai oeddynt wedi adrodd, neu wedi camadrodd geiriau Stephan. Er mwyn hwylusdod yn eu gorchwyl arswydus, hwy a dynasant eu dillad oddi am danynt, yn ol arfer y dwyreinwyr wrth ddechreu unrhyw waith pwysig; ac yn ol y ddefod, anfonwyd un o'r prif arweinyddion yn yr ymdrafodaeth fel dirprwywr i amlygu ei gydsyniad â'r weithred trwy gymmeryd y dillad dan ei ofal, a sefyll uwch eu pen tra yr oedd y gwaith gwaedlyd yn myned yn mlaen. Y person oedd yn gweinyddu ar yr achlysur hwn oedd dyn ieuangc o Tarsus—un o'r Groegwyr o Cilicia, y mae yn debygol, y rhai oeddynt wedi ymddadleu â Stephan:—a'i enw oedd Saul!

Yr oedd pob peth yn awr yn barod i'r dïenyddiad. Safai y dïenyddle o'r tu allan i byrth Ierusalem. Yn ol y traddodiad boreuaf, safai wrth yr hyn a elwir yn awr Porth Damascus.

Digitized by Google

Ond yn ol traddodiad diweddarach, yr hwn yw yr un presennol, safai wrth le a elwir oddi wrth hyny yn Borth Stephan, yn agoryd ar y disgyniad i Fynydd yr Olewydd: ac yn y rhesi cochion o greigiau calch gwynion ar lechwedd y bryn arferid dangos marciau ei waed; ac ar ochr Mynydd yr Olewydd, yr ochr gyferbyniol, dangosir y bryn ar ba un y dywedir y safai y Forwyn i'w gefnogi ef â'i gweddïau. Wrth gwrs, nid yw hyn ond hen draddodiad disail.

Nid ydyw yr adroddiad ysgrythyrol yn enwi ond yn unig dau berson; sef, Saul o Tarsus, a nodwyd yn barod, a Stephan ei hun.

Fel y disgynai y gawod gyntaf o geryg arno ef, efe a alwodd ar y Meistr, ffurf ddynol yr hwn yr oedd efe newydd ei weled yn y nefoedd; ac adroddodd yn mron yr un geiriau ag a adroddasid ganddo ef ei hun wrth farw, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd."

Dygodd cawod arall o geryg ef ar ei liniau. Pan ar drengu, rhoddodd un waedd uchel dreiddiol—yn atteb i'r waedd, neu'r udiad uchel a roddasai ei elynion arno ef. Drachefn, gan lynu wrth ysbryd geiriau ei Feistr, efe a lefodd, "Arglwydd, na ddod y pechod hwn yn eu herbyn;" ac yn ddisymmwth efe a drengodd ar y ddaear. Ac, yn iaith effeithiol yr hanesydd, yr hwn y pryd hwnw a ddefnyddiodd y gair gyntaf—yr hwn a gymmhwyswyd wedi hyny at ymadawiad pob Cristion â'r fuchedd hon, ond yma yn fwy nodedig ar gyfrif yr olygfa waedlyd yn nghanol pa un y cymmerodd y farwolaeth le—"efe a hunodd."

Y mae yr ymadrodd syml hwn wedi ei helaethu gan ysgrifenwyr y bummed ganrif yn adroddiad maith. Dywedant fod yr archoffeiriaid wedi bwriadu gadael y corph i gael ei ddifa gan greaduriaid ysglyfaethus. Gwaredwyd ef, meddant, gan Gamaliel: cymmerodd ef ymaith yn ei gerbyd yn y nos, a chladdwyd ef mewn bedd newydd yn ei dir ef ei hun yn Caphar Gamala (pentref y camel), pedair milldir ar hugain o Ierusalem. Parhaodd y galar angladdol am ddeugain niwrnod. Yr oedd yr holl apostolion yn bresennol yn ei gladdedigaeth. Ymgymmerodd Gamaliel â'r draul; ac ar ei farwolaeth, claddwyd ef mewn ogof ger llaw. Dyna yr hanes: ond mae'n debyg iddo gael ei ddyfeisio gyntaf ar achlysur y digwyddiad hynod a gymmerodd le yn y flwyddyn B. A. 415, dan yr enw 'Symmudiad Gweddillion St. Stephan.' Darfu i ymddangosiadau olynol Gamaliel i Lucian, offeiriad Caphar Gamala, meddant hwy, ar y 3ydd a'r 18fed o Ragfyr, y flwyddyn hono, ddadguddio y llanerch lle y ceid gweddillion y merthyr. Credwyd mai ei weddillion ef oeddynt, oddi wrth gof-lech yn dwyn ei enw, *Cheliel;* a chariwyd hwynt gyda rhwysg mawr i Ierusalem, yn nghanol amrywiol arwyddion, a chladdwyd hwynt yn yr eglwys, ar Fynydd Seion. Cedwir cof am y symmudiad yn Eglwys Rhufain ar y 3ydd o Awst.

Y mae yr ystori ei hun yn gyssylltiedig â ffugchwedl, ond crybwyllir am y digwyddiad gan amryw o ysgrifenwyr yr oes hono. Symmudwyd rhanau o'i weddillion wedi hyny i wahanol barthau o lenydd y gwledydd gorllewinol—i Minorca, Portugal, Gogleddbarth Affrica, Ancona, a Chaercystenyn, a lleoedd ereill. Dyna hen arfer Eglwys Rhufain gyda yr hyn a eilw 'gweddillion' *(relics)* saint, ar ba rai y gesyd hi gymmaint pwys, a thrwy ba rai, er fod y mwyafrif o honynt yn ffugiol hollol, ac heb feddu un berthynas o gwbl â chyrph y rhai y proffesa hi eu bod yn weddillion iddynt—etto, trwy y dyfeisiau annheilwng a thwyllodrus hyn y mae hi, er ei gwarth, yn twyllo miliynau o'i deiliaid. Yn 460, symmudwyd yr hyn oedd etto yn aros o'i weddillion yn Ierusalem gan yr Ymherodres Eudocia i eglwys ysblenydd a elwid ar ei enw, a adeiladwyd ar y man lle y tybir ddarfod iddo gael ei ferthyru.

Ni wyddys yn sicr pa bryd y bu Stephan farw. Ond dywed traddodiad eglwysig ei fod wedi marw yn yr un flwyddyn a'r croeshoeliad—dranoeth ar ol dydd Nadolig. Dywedir yn brydferth gan Awstin (wrth gyferbynu y ddwy ŵyl), na buasai dynion yn meddu gwroldeb i farw dros Dduw, oni buasai i Dduw ddyfod yn ddyn, i farw drostynt hwy yn gyntaf.

Stephan oedd y *merthyr* Cristionogol cyntaf. Ato ef y cymmhwysir y gair *merthyr* gyntaf: *Act.* xxii. 20. Efe hefyd oedd rhagredegydd Paul. Felly yr edrychid arno yn yr hen amseroedd. Bu ei ferthyrdod, yn ol pob tebygolrwydd, nid yn unig yn foddion i ddychwelyd Saul—nid yn unig attebwyd ei weddi dros ei lofruddion yn nhröedigaeth Saul—pangfeydd meddwl yr hwn am ei farwolaeth oeddynt yn mhlith y colynod cydwybod, yn erbyn pa rai y gwingai efe (*Act.* ix. 5); ond yr oedd efe hefyd yn ei athrawiaeth yn fath o ragflaenor—fel, pe y cawsai fyw, y buasai yn lledaenydd y wedd newydd ar Gristionogaeth, yr hon y daeth Paul i fod yn brif gefnogydd iddi.

STEPHANAS: person a ddychwelwyd at Gristionogaeth yn Nghorinth, teulu yr hwn a fedyddiwyd gan Paul fel "blaenffrwyth Achais;" 1 *Cor.* i. 16; xvi. 15. Yr oedd Stephanas yn bresennol gyda'r apostol yn Ephesus pan oedd efe yn ysgrifenu ei Epistol Cyntaf at y Corinthiaid. Yr oedd wedi myned yno i ymgynghori âg ef ynghylch materion o ddysgyblaeth cyssylltiedig â'r eglwys yn Nghorinth, neu ynte ar ryw neges elusengar yn codi oddi wrth "weinidogaeth y saint," i'r hyn yr oedd efe a'i deulu wedi ymgyssegru: 1 *Cor.* xvi. 16, 17.

STEPHANUS O BYZANTIUM: ieithydd Groegaidd, ac awdwr geirlyfr daearyddol a elwir "*Ethnica:*"—y cyntaf, dybygid, a ysgrifenwyd erioed; o'r hwn, yn anffodus, nid oes ond talfyriad ar gael yn awr. Nid oes nemawr ddim yn wybyddus ynghylch ei hanes personol, ac y mae hyd yn oed yr oes yr oedd efe yn byw ynddi yn ansicr; ond y mae Saxius yn tybied ei fod yn blodeuo yn niwedd y bummed ganrif. Hyn sydd sicr:—ei fod yn byw rywbryd ar ol amser yr ymherawdwyr Arcadius a Honorius, a chyn teyrnasiad Justinian II. Gwnaed talfyriad o'i waith gan yr ieithydd Hermolaus, yr hwn a gyflwynodd ei dalfyriad i'r ymherawdwr Justinian II. Yn ol y wyneb-ddalen, prif amcan y gwaith oedd nodi allan yr enwau cenhedlig deilliedig oddi wrth enwau lleoedd a gwledydd yn y cynfyd. Ond tra y mae hyn yn cael ei wneyd yn mhob erthygl, y mae y wybodaeth a gyfrenir ynddynt yn llawer mwy na hyny. Y mae agos bob erthygl sydd yn y talfyriad yn cynnwys cyfeiriad at ryw ysgrifenydd hynafol, fel awdurdod dros enw y lle; ond yn y gwreiddiol, fel y canfyddir oddi wrth ddarnau neillduol sydd ar gael, yr oedd yno lawer o ddyfyniadau o waith hen awduron, heb law manylion dyddorol ereill, parthedigol, hanesyddol, a chyfriniyddol, &c.

Digitized by Google

Yr oedd y gwaith, gan hyny, nid yn unig yn rhoddi esboniad ar ystyr a tharddiad geiriau, ond yn eirlyfr gwerthfawr ar ddaearyddiaeth. Gellir casglu pa mor werthfawr y buasai y gwaith i ni pe buasai wedi dyfod i lawr i ni yn gyfan, ond cymmharu y darnau sydd ar gael o'r gwreiddiol â'r erthyglau cyferbyniol yn y talfyriad. Nid ydyw y darnau hyn, yn anffodus, ond prinion iawn. Un o'r argraphiadau goreu a gyhoeddwyd o'r talfyriad ydyw yr hwn a gyhoeddwyd yn Berlin, 1849.

STEPHEN: brenin Lloegr, a thrydydd mab i Stephen, Iarll Blois, a'i wraig Adela, merch Gwilym y Concwerwr. Ganwyd ef yn Normandy. Daeth drosodd i Loegr at ei ewythr, Harri I., pan yn ieuangc, gyda'r hwn yr oedd yn ffafryn mawr. Ar ol colli ei fab, penderfynai Harri adael ei goron i'w ferch, yr ymherodres Matilda; a'r ddau y rhoddai fwyaf o ymddiried ynddynt am gefnogi y trefniad hwnw oedd ei fab ordderch, Robert, Iarll Gloucester, a'i nai, Stephen. Yn Nadolig 1125, cynnaliodd y brenin Harri ei lys yn Windsor, a chafodd gan y pendefigion a'r mawrion cynnulledig yno gydsynio âg ef i dderbyn Matilda fel ei olynydd, ac yn eu plith Stephen, a Robert, Iarll Gloucester. Ond yr oedd dadl rhwng y ddau diweddaf ynghylch y flaenoriaeth—pa un a ystyrid agosaf i'r orsedd. Penderfynwyd hyn yn ffafr Stephen, o herwydd mai gordderch oedd ei wrthwynebwr, a bu hyn o wasanaeth mawr iddo wedi hyny, hyd yn oed yn erbyn Matilda ei hun, gan ei fod wedi ei gydnabod yn dywysog blaenaf o'r gwaed brenhinol. Bu farw Harri yn Normandy ar yr 2il o Ragfyr, 1135, a daeth Stephen ac Arglwydd Gloucester oddi yno i Loegr yn ddioed. Glaniodd Stephen ar ororau Caint. Yr oedd ei frawd Harri, esgob Winchester, wedi llwyddo i gael lliaws mawr o'r awdurdodau eglwysig yn bleidiol i Stephen; ac yn eu plith Roger, esgob Salisbury, yr hwn oedd yn llywodraethu y wlad, yn rhinwedd ei swydd fel y prif farnwr, tra yr oedd yr orsedd yn wâg. Er fod preswylwyr Dover a Chaergaint yn gommedd derbyn Stephen, cafodd groesawiad cynnhes gan bobl Llundain a Winchester, a darfu i'r pendefigion a'r clerigwyr a ymgasglasant o'i gwmpas benderfynu ei goroni yn ddioed; a chymmerodd y seremoni hono le yn Westminster ar y 26ain o Ragfyr. Dechreuir cyfrif teyrnasiad Stephen o'r diwrnod hwnw. Yn Ionawr y flwyddyn 1136, galwodd Stephen gynghor mawr o'r esgobion a'r pendefigion yn Rhydychain, a llawnododd yno freinlen yn caniatau rhyddid gwladol ac eglwysig. Cafodd sêl-warant oddi wrth y pab yn cadarnhau ei etholiad i'r orsedd. Yn y cyfamser, gwnaed ymdrech egwan gan Matilda a'i gŵr, Harri V., i gymmeryd meddiant o Normandy, ond troi yn fethiant a wnaeth. Ni ddyrchafwyd llais na llaw yr adeg hono dros ferch y diweddar frenin yn Lloegr, a darfu i hyd yn oed Iarll Gloucester gymmeryd llŵ o ffyddlondeb i Stephen.

Yn mhen ychydig amser, pa fodd bynag, coddodd gwrthwynebiad i Stephen mewn amryw fanau. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1138, ymosododd Dafydd, brenin Ysgotland, ewythr i Matilda, ar siroedd gogleddol Lloegr, a gorfododd amryw o farwniaid y parthau hyny i dyngu llŵ o ffyddlondeb i Matilda; ond aeth Stephen i'w gyfarfod, a gwnaed heddwch rhyngddynt. Ond pan oedd y brenin yn y siroedd gogleddol, torodd gwrthryfel allan yn Nghymru yn ffafr Matilda, ac ni bu y brenin yn llwyddiannus i'w ddarostwng yn hollol: a bu raid boddloni ar geisio ei attal rhag ymledu yn mhell oddi yma. Cyfodwyd baner Matilda mewn rhai parthau hefyd gan Iarll Gloucester, a chymmerwyd amryw leoedd cedyrn yn ei henw; a thra yr oedd Stephen mewn llawn gwaith yn ceisio tawelu yr annhrefn a'r gwrthryfel yn y deheu, ymddangosodd brenin Ysgotland drachefn ar y cyffiniau gogleddol, a gwnaeth anrhaith mawr yn Northumberland. Ond ar ddynesiad brenin Lloegr, croesodd yr Ysgotiaid yn ol i'w gwlad. Erbyn hyn cafodd Stephen ei hun wyneb yn wyneb â gelyn cryfach a mwy penderfynol. Yr oedd wedi cweryla â'r Eglwys. Penderfynodd ddarostwng gallu ac awdurdod amryw o'r esgobion, a chyffrodd hyn yr holl gorph o wŷr Eglwysig yn ddirfawr; ac yn mysg ereill, brawd y brenin ei hun, sef esgob Winchester, yr hwn a wnaethid yn ddiweddar yn genad y pab, a'r hwn a wysiodd Stephen i ymddangos o flaen cymmanfa o esgobion yn Winchester. Anfonodd y brenin un o'i weinidigion yno yn ei le; a phenderfynodd appelio i Rufain ar ryw gwestiwn a ddygwyd yn mlaen. Ar y dydd olaf o Fedi, 1139, glaniodd Matilda ar lenydd Suffolk, a chyfododd Iarll Gloucester faner gwrthryfel yn y gorllewin. Ymdaenodd y gwrthryfel yn fuan dros yr holl deyrnas: ac o'r diwedd, gorchfygwyd Stephen o flaen Lincoln gan Iarll Gloucester, a chymmerwyd ef yn garcharor, a thrwy orchymyn Matilda, aed âg ef i gastell Bristol, a rhoddwyd ef mewn cadwynau. Ond yr oedd ynfydrwydd, rhaib, a thrahausdra Matilda y fath fel y teimlai pob plaid fod yn anhawdd ei dioddef. Cymmerodd Matilda, gwraig Stephen, yr hon oedd dan arfau ar ran ei gŵr, yn swydd Caint, fantais ar y teimlad hwn, a gwnaeth ei hymddangosiad o flaen Llundain, tra yr oedd yr ymherodres yn y ddinas hono yn aros cael ei choroni; ond bu raid iddi ffoi oddi yno i Rydychain. Ymunodd cenad y pab a'i chwaer-yn-nghyfraith â'r Llundeinwyr; a gwarchauwyd ar Winchester, lle yr oedd yr ymherodres, brenin yr Ysgotiaid, ac Iarll Gloucester, ac ereill o'i phrif bleidwyr. Ffodd y gwarchauedigion; ac yn yr ymlidiad ar eu holau, lladdwyd llawer o honynt, a chymmerwyd ereill yn garcharorion, ac yn eu plith Iarll Gloucester, a chyda llawer o anhawsder y diangodd Matilda i gastell Devises. Rhyddhawyd Gloucester ar yr ammod fod Stephen yn cael ei ryddhau hefyd. Yn y gymmanfa eglwysig a gynnaliwyd yn Westminster, traddododd Stephen araeth hyawdl a thoddedig, nes dwyn y rhai oedd yn bresennol i'w ochr ef. Dechreuodd y rhyfel drachefn, modd bynag, gyda grym adnewyddol; ac yn niwedd Medi, 1142, gwarchauodd Stephen ar gastell Rhydychain, lle yr oedd Matilda yn preswylio; ond llwyddodd hi i ddiangc oddi yno i Wallingford. Dygwyd yn mlaen warchauadau ereill, ac ymladdwyd brwydrau; ac yr oedd y siroedd dwyreiniol yn ddarostyngedig i Stephen, a'r rhai gorllewinol i Matilda, hyd nes y bu farw Iarll Gloucester, prif gynnorthwywr y ddiweddaf, yn 1146, pan yr ymneillduodd hi i Normandy. Ond er hyn ychydig o dawelwch a gafodd Stephen. Yr oedd y ddwy neu y tair blynedd dilynol o'i deyrnasiad yn cael eu cythryblu gan y barwniaid, o dan arweiniad Ranulf, Iarll Caerlleon, ar un llaw, a'r clerigwyr, o dan Theobald, archesgob Caergaint, ar y llall. Aeth yr anghydfod mor bell fel y darfu i Theobald gyhoeddi



Digitized by Google

dedfryd o waharddiad *(interdict)* yn erbyn tiriogaethau Stephen; yr hyn a barodd i'r bobl godi yn ei erbyn, a bu raid iddo roddi i fyny. Ond yn awr yr ymddangosodd gwrthwynebwr diweddaf a gwaethaf Stephen, yn mherson Harri, mab Matilda; yr hwn a laniodd yn Wareham gyda llu o dair mil o wŷr traed a saith ugain o farchogion, ac ymunodd llawer ereill âg ef. Aeth Harri yn mlaen i Malmesbury; ac wedi bod yno am dymmor, aeth yn mlaen tua Wallingford; ond pan oedd y ddwyblaid yn parotoi i frwydr, gwnaed cyttundeb rhwng Stephen a Harri. Yn ol y cyttundeb hwn, gwnaed yr olaf yn olynydd i'r blaenaf ar yr orsedd. Ni bu Stephen fyw ond prin flwyddyn ar ol hyn; bu farw yn ddisymwth mewn mynachdy yn Dover, ar y 25ain o Hydref, 1154, yn y 50ain mlwydd o'i oedran, ar ol teyrnasu ychydig dros bedair ar bymtheg o flynyddoedd.

Yr oedd Lloegr, yn ystod holl deyrnasiad Stephen, yn y sefyllfa fwyaf annhrefnus a thruenus y bu ynddo er pan ddaeth y Sacsoniaid gyntaf i'r ynys. Ymddengys i'r wlad fyned yn mhell yn ol tuag at farbariaeth. "Yn amser y brenin hwn," ebe un o'r croniclau Sacsonaidd, "yr oedd pob peth mewn annhrefn a thrueni......Gallesid teithio am ddiwrnod cyfan heb weled dyn yn eistedd mewn tref, nac erw o dir yn cael ei diwyllio! Yr oedd y tlodion yn marw o eisieu, a dynion a fuont mewn amgylchiadau da yn gorfod cardota eu bara. Erioed ni wnaed mwy o niweidiau ac anrhaith gan oresgynwyr paganaidd......Yr un peth oedd llafurio y tir ag a fuasai aredig tywod y môr. Parhaodd fel hyn am y pedair blynedd ar bymtheg y bu Stephen yn frenin; a myned waeth-waeth yr oedd." Etto perthynai i Stephen lawer o ragoriaethau a fuasent yn peri iddo addurno gorsedd o dan amgylchiadau mwy ffodus. Diau fod sêl bleidiol yr hen haneswyr wedi ei osod allan yn wahanol iawn i'w gilydd; ond y mae ei ymddygiadau cyffredinol, ynghyd a'r awdurdodau mwyaf ammhleidiol, yn cadarnhau yr hyn a ddywedir am dano gan Stow:—"Yr oedd yn ddyn urddasol a dewrfrydig, nodedig o hardd o ran ei berson; rhagorai mewn medrusrwydd milwrol, addfwynder, a haelfrydigrwydd tuag at bawb, yn enwedig yn nechreu ei deyrnasiad; ac, er ei fod mewn rhyfel yn feunyddiol, nid oedd byth yn poeni y cyffredinwyr am drethi trymion." Y mae ei ddewrfrydigrwydd a'i haelfrydedd, yn gystal a harddwch ei berson, yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, ac yn cael ei ddangos mewn llawer o amgylchiadau a'i cyfarfuant. Canmolir ef yn y modd gwresocaf gan un ysgrifenydd cydoesol yn arbenig, sef awdwr hanes bywyd Sant Cuthbert; ond o herwydd y rhyfeloedd gwastadol a ddygid yn mlaen, yr oedd y wlad yn hynod o annedwydd a thruenus yn ystod ei deyrnasiad ef.

STEPHEN BATHORY: un o ddynion hynotaf yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r mwyaf o holl frenhinoedd Poland. Ganwyd ef yn 1533, yn Shomlo, yn Hungary. Hanai o hen deulu pendefigaidd yn y wlad hono. Yr oedd sefyllfa gyffrous ei wlad enedigol yn yr unfed ganrif ar bymtheg—o herwydd blinid hi gan ymraniadau mewnol, a phoenid hi gan y Tyrciaid a'r Awstriaid—yn faes manteisiol i amlygu talent a gallu, yn unedig â dewrder o nodwedd anturiaethus. Ac ar ol llawer o dywydd chwerw, ymgododd Stephen Bathory i frenhiniaeth Transylvania, yn 1571. Etholwyd ef yn frenin Poland yn 1575; ac yr oedd yn ddyledus yn gwbl am hyn i'r syniadau uchel a goleddid am ei ddewrfrydigrwydd a'i ddoethineb. Cymmerodd feddiant o'r goron, a phriododd Anna Jaguellon, chwaer y diweddar frenin Sigismund Augustus; a thawelodd y wlad trwy ddefnyddio mesurau heddychol. Os gwneyd y nifer mwyaf o weithredoedd mawrion a rhyfeddol mewn amser mor fyr ag y byddo yn bossibl sydd yn brawf o wir fawredd, yna ychydig iawn o gymmeriadau a geir mewn hanesiaeth yn meddu gwell hawl i hyn na Stephen Bathory. Ar ol trefnu achosion mewnol y wladwriaeth, penderfynodd wneuthur ei pherthynasau tramor yn foddhaol, yn enwedig trwy sicrhau cyfeillgarwch Sultan Twrci. Yna troes ei sylw tua Muscovy. Gan fod y gallu hwnw wedi amlygu nerth anghyffredinol o dan yr enwog Ivan Basilovich, gwnaeth bob peth oedd yn ei allu er tori grym y teyrn peryglus hwnw. Wedi cwblhau ei holl ddarpariadau milwrol, efe a gymmerodd y maes gyda byddin liosog yn haf y flwyddyn 1579. Ar ddechreu yr ymgyrch, cyhoeddodd Bathory ddadganiad i bobl Muscovy, yn hysbysu ei fod yn gwneyd rhyfel yn erbyn eu penadur gorthrymus, ac nid yn eu herbyn hwynt; ac addawai amddiffyn eu bywydau a'u meddiannau. Y mae yr haneswyr Rwssiaidd yn dwyn tystiolaeth fod hyn wedi ei gadw yn gywir i'r llythyren, a bod y rhyfelgyrch hwnw yn rhydd oddi wrth y creulonderau a pha rai y nodweddid rhyfeloedd yr oes hono. Gorchfygwyd y Muscoviaid mewn amryw o frwydrau. Cymmerwyd Polotzk ar ol cael gwrthwynebiad egnïol, ac adferwyd y lle pwysig hwnw yn ol i Poland. Ennillodd Bathory amryw o fanteision ereill; ac yn y gauaf dychwelodd yn ol i Warsaw i fod yn bresennol yn y senedd, a chafodd dderbyniad brwdfrydig, ac addewid o arian i gario y rhyfel yn mlaen yn mhellach.

Ail gychwynodd Bathory y rhyfel gydag egni chwanegol yn haf 1580. Cymmerwyd amryw o drefydd pwysig; ac yn y flwyddyn ddilynol, cymmerwyd dinas Plescow gan Zamoyski—un o'r rhyfelwyr a'r gwladweinyddion penaf a gynyrchodd Poland. Ond attaliwyd cynnydd arfau Poland, a dinystriwyd cynnyrch llawer o fuddugoliaethau, trwy gynllwynion y Jesuit Possevinus; yr hwn, wedi ei dwyllo gan addewidion Ivan Basilovich i gydnabod uchafiaeth y pab, a berswadiodd Stephen Bathory i wneuthur heddwch gyda Muscovy ar y 6ed o Ionawr, 1582, trwy yr hwn y dychwelwyd y lleoedd a orchfygwyd yn ol i'r czar, oddi eithr Polotzk ac ychydig o drefydd a chestyll ereill. Defnyddiodd y brenin Pwylaidd yr adeg hon o heddwch i ddwyn yn mlaen amryw o welliantau, ac i wneyd darpariadau ar gyfer rhyfel arall â Muscovy. Twyllwyd y pab, Sixtus v., gan y czar; yr hwn, mor fuan ag yr oedd y perygl drosodd, ni feddyliodd mwy am ymostwng i Rufain; am hyny, anfonodd y pab gymmhorth arianol i'r brenin Pwylaidd. Tybir fod yn mryd Bathory, yn y rhyfel bwriadol hwn yn erbyn Muscovy, i gyfnewid ffurflywodraeth y wlad hono; ond bu farw ar ol cystudd byr yn Grodno, ar y 12fed o Ragfyr, 1586, yn 54ain mlwydd oed.

Ni ddarfu i'r rhyfeloedd y cymmerodd ran ynddynt attal y dyn nodedig hwn i dalu sylw priodol i achosion cartrefol. Dygodd yn mlaen lawer o welliantau yn ystod ei deyrnasiad. Perswadiwyd talaeth Mazovia i fabwysiadu

Digitized by Google

cyfreithiau cyffredinol Poland. Perffeithiwyd deddfau Lithuania. Ad-drefnwyd y cyfreithiau yn mherthynas i feddiannau y goron, a breintiau y pendefigion. Ond y gyfraith wladol yn benaf a basiwyd yn y teyrnasiad hwn oedd sefydlu prif lysoedd barn i Poland a Lithuania. Parhaodd y sefydliadau hyn—pa rai a roisant derfyn ar weinyddiad cyfiawnder gan y brenin, gan ei wneyd yn beth annibynol ar y goron—hyd nes y darniwyd teyrnas Poland. Yr oedd Stephen Bathory yn hoff iawn o ddysgeidiaeth, ac yn noddwr mawr i wŷr o ddysg. Carcharwyd ef pan oedd yn ieuangc am ddwy flynedd gan ymherawdwr Awstria; a threuliodd yntau yr amser hwn i astudio y gweithiau clasurol, ac yn enwedig "*Commentaries*" Cæsar. Tybir mai Protestant oedd efe yn nechreu ei oes, ond iddo gael ei berswadio gan ryw esgob Pabaidd i ymwrthod â'i gredo yn ddirgel, a myned yn Babydd pan y derbyniodd goron Poland: felly y mae llawer yn credu iddo fabwysiadu credo Eglwys Rhufain. Yr oedd, pa fodd bynag, yn wrthwynebwr pendant i bob erledigaeth grefyddol, a gwnaeth gyfiawnder a thegwch â'r gwahanol bleidiau crefyddol yn Poland. Yr oedd yn ddyn o dymmer faddeugar a haelfrydig; ac fel prawf o'i ysbryd rhyddfrydig, a'i feddwl goleuedig, gallwn ddyfynu ei hoff ddywediad:—"Y mae Duw wedi cadw tri pheth iddo ei hun; creu peth allan o ddim, gwybodaeth o'r dyfodol, a llywodraethiad y gydwybod."

STEPHEN, SYR JAMES: awdwr rhagorol; a mab i James Stephen, cyfreithiwr ac ysgrifenydd ar wleidyddiaeth. Ganwyd ef yn Llundain, yn 1789; ac wedi cael addysg golegawl yn Neuadd y Drindod, Caergrawnt, galwyd ef at y bar yn Lincoln's Inn, a chafodd gyflawnder o waith yn llys uniondeb. Pan yr ymneillduodd o'r bar, pennodwyd ef yn ddadleuydd y swyddfa drefedigaethol a bwrdd masnach. Cadwodd y ddwy swydd hyn hyd 1834; pan, yn ystod y weinyddiaeth Whigaidd a ddilynodd ar ol pasio y mesur o ddiwygiad seneddol, y pennodwyd ef yn is-ysgrifenydd y trefedigaethau. Bu wedi hyny yn is-ysgrifenydd parhaol, a chadwodd y ddwy swydd am bedair blynedd ar ddeg. Gwnaed ef yn farchog yn 1847, a dwy flynedd yn ddiweddarach cafodd ei ddewis yn broffeswr hanesyddiaeth ddiweddar yn Nghaergrawnt. Yr oedd Syr James Stephen yn ddyn o ddysg a diwylliant eang, ac ysgrifenodd lawer i'r "*Edinburgh Review*," ar destynau yn dwyn perthynas â hanes yr eglwys Gristionogol, a dadblygiad opiniynau crefyddol. Adgyhoeddwyd casgliad o'i erthyglau o dan y teitl "*Essays in Ecclesiastical Biography.*" Cyhoeddwyd hefyd ei ddarlithiau ar hanes Ffraingc. Bu farw yn Coblentz ar y 12fed o Fedi, 1859, yn 70ain mlwydd oed.

STEPHENS, THOMAS. Ganwyd y llenor enwog hwn Ebrill 21ain, 1821, yn mhentref bychan Pontnedd-fechan, yn Nghwm Nedd. Y mae lle ei enedigaeth yn un o'r manau mwyaf prydferth a rhamantus yn un o ddyffrynoedd tlysaf Cymru. Y mae amgylchoedd Pontneddfechan ac Aberpergwm wedi bod yn gyrchfa i rai o brif arlunwyr Lloegr; ac oddi yma sugnodd Mr. Penry Williams, brodor o Ferthyr, ran helaeth o'r ysbrydoliaeth foreu a'i graddol ddyrchafodd i'w safle uchel bresennol yn mhlith arlunwyr. Yr oedd i Mr. Stephens, fel i bawb o honom, linach faith o hynafiaid; ond pa enwogion a rifid ynddi, nis gwyddom. Enw ei dad oedd Evan Stephens. Yr oedd ei dadcu, tad ei fam, Mr. William Williams, yn weinidog parchus ar un o'r eglwysi Anghydffurfiol hynaf yn ein gwlad—Blaengwrach, yn agos i Aberpergwm; capel wedi pasio i lawr trwy dreigliadau olynol oddi wrth yr hen Bresbyteriaid, ac wedi hyny yr Ariaid, i Undodiaid yr oes bresennol. Derbyniodd ei addysg yn Nghastellnedd yn yr ysgol rammadegol ag oedd y pryd hwnw o dan ofal y Parch. John Davies, gweinidog yr Undodiaid yn y dref, a chanlyniedydd yr ysgolhaig rhagorol a'r ysgolfeistr enwog, y Parch. David Davis—mab yr hen fardd o Gastellhywel, Ceredigion, cyfieithydd Gray's "*Elegy*" i'r Gymraeg. Ystyrid y Parch. John Davies yn ysgolhaig dahyddysg yn y Groeg a'r Lladin, yn gystal a medrus mewn rhifyddiaeth. Bu Mr. Stephens yma am yn agos i dair blynedd, yn diwyd osod i lawr sylfeini ei ymdrechion dyfodol am wybodaeth. Cyrhaeddodd adnabyddiaeth elfenol o'r Lladin, ac yn neillduol rhagorai mewn rhifyddiaeth. Wrth adolygu y tymmhor hwn, dywedai ef ei hun wrth gyfaill nad ystyriai ei fod wedi gwneyd cynnydd neillduol mewn dim, oddi eithr rhifyddiaeth. Y gwir yw, yr oedd yn rhy ieuangc, ac wedi cael rhy fach o fanteision addysg elfenol i allu gwneyd llawer o gynnydd amlwg mewn unrhyw gangen yn ystod yr amser, a'r unig amser, y bu yn yr ysgol. Ond rhaid ei fod yn ddysgybl da, yn graffus ei sylw, gafaelus ei gof, hoff o farnu drosto ei hun, a diflino mewn darllen; o blegid cawn ef yn y dyfodol ar bob cam yn dangos y cyfryw rinweddau. Y plentyn wedi y cwbl yw tad y dyn. Nis gallesid creu Thomas Stephens allan o blentyn a bachgen dichwaeth at ddysg ac esgeulus o'i wersi. Ymedy â Chastellnedd, ac â'r ysgol, byth mwy i ddychwelyd iddi; ac yn ei bymthegfed flwydd, Hydref 16eg, 1835, dechreua gyfnod o bum mlynedd fel breintwas gyda Mr. Morgan, fferyllydd, yn Merthyr Tydfil; ac yn fuan wedi treulio yr amser hwn allan, pan yn ugain oed daw yn olynydd i'w feistr yn y fasnach. Pum mlynedd o ddiwydrwydd mawr fu y rhai hyn; mynodd ddyfod i ddeall ei alwedigaeth yn drwyadl; yr oedd yn ofalus am gadw ei amser, a gallodd ddarllen peth dirfawr. Cadwodd ei wybodaeth o'r Lladin yn loyw, gan chwanegu ati yn barhaus. Darllenai bob llyfr y gallai gael gafael arno, yn traethu ar hynafiaethau a thraddodiadau ei wlad; ac yr oedd gan hyd yn oed ofergoelion a chwedlau cenedlaethol eu swyn iddo—nid i'w credu, ond i'w gwybod er eu cymmharu â ffeithiau sier gwybodaeth hanesiol. O'r dechreu ni dderbyniai ef yn ddiymchwil yr hen gyfrifon traddodiadol am yr oesau cyntefig, ond gofynai am ryw awdurdod credadwy i ymddiried ynddo. Ni flinai i chwilio am y cyfryw awdurdod mewn cyfrolau hynafol a llawysgrifau aneglur. Gwelodd yn fuan fod yn rhaid iddo ammheu a gwrthod llawer o bethau ag oeddynt wedi cael eu coelio yn hir, tra nad oeddynt yn gorphwys ar un dystiolaeth safadwy—ond wedi codi o gamsynied, neu dwyll, neu anwybodaeth, neu ddychymmyg breuddwydiol yr hen haneswyr. Daeth fel hyn i fagu yr hyn y gellir yn briodol ei alw y wir reddf hanesiol—craffder a pharodrwydd i ddrwgdybio honiadau hanesiol disail, a synwyr llednais i ddarganfod y cyfrif cywir am wahanol ddigwyddiadau. Yr oedd cylch ei ddarllen yn helaeth iawn—yn wir, mor

Digitized by Google

2. Am "Fywgraphiadau o Gymry enwog o ser Harri VII." 3. Am "Grynodeb o Hanes am Cymru." Disgynai gwobrau a chlod yn gawodydd arno bellach. Ond nid ydyw hyn ond yn peri iddo lafurio yn galetach nag o'r blaen. Yn 1851, derbyniodd wobr o ddeg punt yn Eisteddfod Caerdydd, am "Hanes Caerdydd," ac yn y flwyddyn ddilynol, yn Mhorthmadog hefyd, am draethawd ar "Gymmeriad Gweithwyr Cymru mewn cymmhariaeth i'r eiddo Gweithwyr Lloegr, yr Iwerddon, a Scotland." Yn 1853, eisteddfod ddiweddaf y Fenni, bu yn anarferol o lwyddiannus. Cariodd dair o wobrau pwysig: un o drigain a deg o bunnau, ar destyn wedi ei gynnyg gan y *Chevalier* Bunsen, yr hwn ei hun oedd y beirniad; sef, traethawd ar "Ddechreuad a Chynnydd Prawf trwy Reithwyr yn Nhywysogaeth Cymru:" yr ail yn wobr o ugain punt am draethawd ar "Enwau Lleoedd wedi eu cymmeryd oddi wrth Ddigwyddiadau hynod:" a'r drydedd am "Hanes y Beirdd Cymreig"—gwobr o ddeg punt ar hugain. Cyflwynwyd gwobr o ddeg punt iddo yn 1856 gan Gymmrodorion Merthyr, am draethawd ar "Sefyllfa wareiddiol y Cymry;" ac yn 1858, yn Eisteddfod Ddirwestol Caerdydd, rhoddwyd iddo wobr o ddeg punt, a bathodyn, am draethawd ar "Lenyddiaeth, Moesoldeb, a Chrefydd y Cymry." Gellid meddwl fod yr anrhydeddau yn myned i gael eu gwlawio ar ei ben yn ddiattal; ac felly y buasent trwy hyd ei oes pe y dewisasai efe ymgystadlu ar destynau cenedlaethol o'r fath ag a enwyd yn flaenorol. Ond mewn cyssylltiad âg Eisteddfod Llangollen, yn Medi, 1858, digwyddodd amgylchiad, yr hwn, tra yr oedd yn llewyrchu anrhydedd ar Mr. Stephens, oedd yn ddiammheu yn ddarostyngiad ar synwyr cyffredin, tegwch, a chyfiawnder awdurdodau yr eisteddfod hono yn marn ereill. Ni wnawn ond crybwyll y ffeithiau yn y geiriau byraf. Cynnygiwyd gwobr o ugain punt, a seren arian, am y traethawd goreu ar "Ddarganfyddiad America yn y ddeuddegfed ganrif, gan Madoc ap Owen Gwynedd." Daeth chwech o gyfansoddiadau i law: un o ba rai, eiddo *Gwrnerth Ergydlym*, a fernid yn tra rhagori ar y lleill. Ceisio cadarnhau ystori y darganfyddiad a wnelai y pump; ond dwyn profion yn mlaen i'w gwrthbrofi a wnelai y goreu, sef Mr. Stephens. Profodd yr awdwr i foddlonrwydd ei feirniaid y tri gosodiad hwn:—1. Na adawodd Madoc erioed ei wlad ei hun:—iddo gael ei ladd yn ei wlad ei hun, a bod bardd o'r enw Llywarch ap Llewelyn wedi ei gyhuddo o'i lofruddio. 2. Nad oes un awgrym o ddarganfyddiad America yn hanesyddiaeth Cymru hyd ar ol amser Columbus. 3. Fod Cymro ieuangc o'r enw John Evans, yn 1798, wedi treulio gauaf yn mysg Indiaid y Missouri, ac iddo gael allan nad oeddynt, fel y dywedid, yn Indiaid Cymreig. Ond er fod y beirniaid yn cymmeradwyo y traethawd, gwelodd awdurdodau yr eisteddfod yn dda i attal y wobr rhag Mr. Stephens, o dan yr esgus nad oedd efe wedi ysgrifenu ar y pwngc; sef, a olygent, yr ochr gadarnhaol i'r pwngc. Etto, ni roddwyd y wobr i'r goreu o'r pump. Pa ham?—pwy a ŵyr? Ni ddeallasom fod Mr. Stephens wedi creu un twrf yn mherthynas i'r peth; gwnaeth wrthdystiad gwyneb-agored a boneddigaidd ar esgynlawr yr eisteddfod ar y pryd, a dyna'r oll. Yr oedd y tro yn siomedigaeth iddo, ac yn ddiau yn annheilwng; ond yr oedd efe yn rhy fawrfrydig i duchan a cheisio dial. Ar yr un pryd, ymddengys iddo golli ei ffydd i raddau pell yn uniondeb gweinyddiadol yr eisteddfodau, gan na chawn ef yn cymryd rhan ond am un wobr ar ol hyn. Medi 11eg, 1866, ymunodd mewn glân briodas â boneddiges gyfrifol a deallus iawn, Miss Margaret E. Davies, o Ferthyr; yr hon a fu iddo yn ymgeledd gymmhwys, ac a weinyddodd arno gyda thynerwch a ffyddlondeb di-ail yn ei lesgedd olaf; a'r hon, ni a obeithiwn, a wêl yn dda i ddwyn allan ger bron y cyhoedd ei weithiau anghyhoeddedig, y rhai yn ddiau ydynt yn rhy werthfawr i'w claddu mewn tywyllwch. Yr erthygl ddiweddaf o'i eiddo, y mae yn debyg, a welodd oleuni oedd, un ar "Goelbren y Beirdd," yn yr *Archæologia Cambrensis* am Gorphenaf, 1872.

Nid ydym etto wedi crybwyll maint ei lafur llenyddol. Heb son am fân gyfraniadau, y mae yr erthyglau galluog a phwysig canlynol yn ffrwyth ei athrylith. Yn y *Cambrian Journal*, cyhoeddedig gan Mr. R. Mason, Dinbych-y-Pysgod, ymddangosodd chwech o erthyglau galluog iawn yn eu beirniadaeth: tair ar Efrydiaethau mewn Bywgraphiaeth Brydeinig—Dyvynwal Moelmud, Cyfreithiau Dyvynwal Moelmud, a Prydain ap Aedd Mawr; un ar gân hynod yn dwyn yr enw "Mic Dinbych," i'w gweled yn y "*Myvyrian Archæology*;" a dwy yn adolygiad ar "*Hanes a Hynafiaethau Tyddewi*," gan esgob presennol Tyddewi, a'r hanesydd clodfawr, E. A. Freeman. Ymddangosodd ysgrifau o'i eiddo ar y Trioedd Cymreig yn yr "*Archæology Cambrensis*," a chyfnodolion ereill. Yr oedd yn ysgrifenydd cysson i'r "*Ymofynydd*," cyhoeddiad misol yr Undodiaid, am flynyddau lawer. Yma, ymddangosodd ganddo—"Gofiant Iolo Morganwg," yn saith o erthyglau; "Nodweddion Iolo Morganwg;" "Llenyddiaeth y Cymry yn y Canol Oesoedd;" "Menw ap Teirgwaedd;" "Y Nôd Cyfrin;" "Y Nôd Cyfrin a Myfyrddiaeth;" "Llyfr Genesis a Doethineb yr Aipht;" "Y Madogwys" [nid traethawd Llangollen, ond llythyrau gwreiddiol ar yr un testyn, ac o'r un defnyddiau]; "Golygiadau Crefyddol Syr Isaac Newton;" "Golygiadau Crefyddol John Milton;" "Madoc ap Owen Gwynedd."

Yr oedd Mr. Stephens yn ŵr cyfarwydd iawn yn yr Ysgrythyrau, medd un o'i gyfeillion oedd yn ei adnabod yn dda—"yn ysgolor ysgrythyrol mewn gwirionedd." Yr oedd yn athraw gweithgar hefyd yn yr Ysgol Sabbothol gyda'r enwad y perthynai iddo.

Efe, meddir, oedd prif sylfaenydd ac un o brif golofnau y Llyfrgell Gyhoeddus yn Merthyr—yr hon fe ddichon ydyw y llyfrgell gyhoeddus gyflawnaf yn Nghymru. Cychwynwyd y sefydliad ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ol, a bu ef yn ysgrifenydd am tua phum mlynedd ar hugain; ac am y pedair neu bum mlynedd diweddaf o'i oes, efe oedd y trysorydd. Yn 1857, appwyntiwyd ef yn *high constable* Merthyr—yr anrhydedd lleol uchaf.

Ar ol damwain ofnadwy pwll glô y Gethin, ger Merthyr, ffurfiwyd pwyllgor tuag at godi trysorfa i weddwon ac amddifaid y gweithwyr; a phennodwyd Mr. Stephens yn ysgrifenydd—swydd a lanwodd am lawer o flynyddau gyda llafur a hunanymwadiad mawr. O blegid ei fywyd tra diwyd, nid llawer o amser hamddenol oedd ganddo i deithio; ond cawn ef yn 1849 ar ymweliad â Ffraingc, Switzerland, a Belgium; a thrachefn, yn 1851, bu ar gerdded; ac yn 1856

addysg. Cymmerodd ofal peiriant yn Black Callerton yn gynnar yn y flwyddyn 1801, a llettyodd yn y tŷ lle y cafodd ei wraig o hono. Yr oedd ganddo y pryd hwn gryn lawer o amser ar ei law, ac yr oedd at ei ryddid i wneuthur a fynai âg ef. Defnyddiai yr amser hwn yn gyffredin i ddysgu ysgrifenu, rhifyddiaeth, a thrwsio esgidiau ei gydweithwyr. Ei gyflog tra yn gweithio oedd o 1*p.* 15*s.* i 2*p.* yn y pythefnos; ond yn raddol chwanegai ato trwy wneyd esgidiau newyddion, a thrwsio hen rai. Erbyn hyn ystyrid ef yn weithiwr medrus; pan wrth ei waith yr oedd yn ddyfal a gwyliadwrus, ac yn sobr a myfyrgar ar ol gorphen ei ddiwrnod gwaith. Tra yr oedd ei gydweithwyr yn camddefnyddio eu hamser hamddenol mewn chwareyddiaethau a diota, yr oedd efe yn eu defnyddio i'w wellhau ei hun mewn darllen ac ysgrifenu, ac i chwanegu at ei wybodaeth mewn peiriannyddiaeth.

Pan yn un ar hugain oed, priododd un o'r enw Fanny Henderson; ac yr oedd trwy ofal a diwydrwydd wedi casglu digon o arian i'w alluogi i gymmeryd tŷ bychan yn Willington Quay, a'i ddodrefnu yn gysurus i dderbyn ei briod iddo. Cymmerodd ei briodas le yn niwedd y flwyddyn 1802. Ymroddodd George Stephenson yn awr yn fwy dyfal nag erioed i astudio ar nosweithiau y gauaf bob peth perthynol i beiriannyddiaeth, ac i gynllunio mân beiriannau, a gwneyd prawfiadau arnynt. Nid oedd byth foment yn segur yn ei dŷ. Tra yr arosodd yn Willington y ganwyd ei unig fab, Robert Stephenson, yn Hydref, 1803; a daeth y plentyn yn fuan i fod yn anwyl iawn gan ei dad, ac i chwanegu llawer at ddedwyddwch oriau yr hwyr iddo. Symmudodd Stephenson i bentref Killingworth, yr hwn sydd tua saith milldir i'r gogledd o Newcastle, ynghylch dechreu y flwyddyn 1805. Nid hir y bu yn y lle hwn na bu ei wraig farw—yn 1806. Teimlai yn fawr oddi wrth golli ei briod, o herwydd yr oeddynt yn byw yn ddedwydd ynghyd. Yn fuan wedi hyn aeth i Montrose i arolygu un o beiriannau Boulton a Watt mewn llaw-weithfa fawr. Arosodd yno am flwyddyn, a llwyddodd yn ystod yr amser hwn i roddi o'r neilldu 28*p.* o'i gyflog, y rhai a gymmerodd efe gydag ef yn ol i Killingworth; a'r peth cyntaf a wnaeth ar ol dychwelyd, oedd talu dyled ei dad, yr hyn oedd tua 15*p.* Yn fuan wedi hyny efe a symmudodd ei rieni i Killingworth, lle y bu yr hen ŵr fyw am lawer o flynyddoedd, yn cael ei gynnal yn hollol gan ei fab.

Yr oedd Stephenson yn parhau yr arferiad o dynu ei beiriant yn ddarnau bob dydd Sadwrn, i'r dyben o ddyfod yn hollol gydnabyddus âg ef, yn gystal a'i gadw mewn cyflwr da i weithio. Trwy feistroli y manylion, galluogwyd ef, fel y digwyddai cyfleusdra, i arfer y wybodaeth a gasglai gyda'r fath ddiwydrwydd i ryw fantais ymarferol. Cafwyd cyfleusdra o'r fath yn y fl. 1810. Suddwyd pwll glô newydd yn Killingworth; a gosodwyd i fyny beiriant newydd i godi y dwfr; ond troi yn fethiant yr oedd, er cael deuddeng mis o brawf arno. Yr oedd Stephenson wedi ei weled yn cael ei osod yno; ond barnai y pryd hwnw fod diffyg ynddo, er nad oedd barn un fel efe yn cael ei ystyried o unrhyw bwys. Arferai fyned yn awr ac eilwaith i edrych pa fodd y gweithiai y peiriant; ac un prydnawn dydd Sadwrn, gofynai un o'r glöwyr iddo, beth a wnelai efe i'r peiriant? A oedd yn bossibl ei wellhau? Attebodd Stephenson y medrai efe wneuthur i'r peiriant weithio, ac y byddai y gweithwyr i lawr yn y pwll cyn pen wythnos. Adroddwyd yr ymddiddan i Ralph Dodds, y prif arolygwr; yr hwn a benderfynodd roddi prawf ar fedrusrwydd Stephenson. Aeth Dodds i chwilio am dano, a chyfarfu âg ef yn myned i gapel y Wesleyaid, lle yr arferai fyned i wrandaw. "Wel, George," ebe Dodds, "dywedir wrthyf eich bod yn meddwl y gellwch osod peiriant y pwll uchaf yn iawn." "Yr wyf yn credu y gallaf, syr," ebe George. "Wel, chwi gewch dreial teg, ac ewch at y gwaith yn ddioed. Yr ydym wedi ein boddi allan yn llwyr: nis gallwn fyned gam yn mlaen. Y mae wedi llwyr ddyrysu yr holl beiriannwyr; ac os llwyddwch chwi i wneyd yr hyn y methasant hwy, gellwch ddibynu y gwnaf fi chwi yn ddyn am eich oes." Dechreuodd Stephenson a'i gynnorthwywyr ar y gwaith yn foreu dranoeth, a gwnaeth y cyfnewidiadau a farnai efe yn angenrheidiol; a gosodwyd y peiriant i weithio, ac yn mhen tridiau cafwyd y dwfr i fyny—ac aeth y gweithwyr i lawr, fel yr addawsai Stephenson. Boddhawyd Dodds yn fawr gan y dull medrus y gwnaed y gwaith, a rhoddodd i Stephenson ddeg punt; yr hyn nad oedd ond swm bychan o'i gymmharu â'r gwaith a wnaed. Ond teimlai y diweddaf yn falch iawn o honynt. Gwnaeth Dodds fwy na hyn, modd bynag, trwy ei bennodi yn beiriannydd yno cyhyd ag y bu y pwll yn cael ei suddo, a chafodd gyflog da, ac addewid am ddyrchafiad. Gwnaeth amryw bethau ereill tua'r pryd hwn yn dangos ei fedrusrwydd peiriannyddol; ac yn 1812 yr oedd ei gyflog yn 100*p.* yn y flwyddyn mewn cyssylltiad â'r pwll uchaf yn Killingworth.

Yr oedd George Stephenson erbyn hyn wedi bod yn ddiwyd gyda'r gwaith o hunan-ddiwylliant, ac yn dechreu profi yn ymarferol y canlyniadau gwerthfawr o hyny mewn cynnydd mewn nerth meddyliol, gallu, a medrusrwydd. Mae yn wir na bu George Stephenson erioed yn ddysgedig iawn mewn llyfrau; ond trwy synwyr a chraffder naturiol, a sylwadaeth fanwl, yr oedd wedi dyfod i feddu gwybodaeth gywir o egwyddorion peiriannyddiaeth. Nis gellir, hwyrach, hòni ei fod yn ddyfeisiwr nac yn ddarganfyddwr mawr. Yr oedd ei fedrusrwydd ef yn gorwedd yn fwy mewn canfod pa mor bell y gellid gwneyd y defnydd goreu o egwyddorion oedd eisoes yn wybyddus a threfniadau oedd yn arferedig. Meddai yn arbenig y craffder hwnw ag y mae llawer o ddynion medrus yn ddiffygiol ynddo; sef, y gallu i gael allan yr hyn sydd yn wir werthfawr yn y cynlluniau peiriannyddol a osodid o'i flaen, ac i ddyfeisio ffordd i'w dwyn i weithrediad ymarferol. Hefyd, yr oedd yn meddu yr hyder hwnw yn ei farn ei hun sydd yn angenrheidiol er cario allan egwyddorion i'w canlyniadau teg, oddi wrth yr hyn y mae meddyliau gwanach a llai ymarferol na'r eiddo ef yn dueddol i gilio yn ol.

O'r amser y pennodwyd ef yn beiriannydd pwll Killingworth, yr oedd Stephenson i ryw fesur wedi ei ryddhau oddi wrth lafur arferol gweithiwr cyffredin, a'i ddyrchafu ychydig yn uwch. Ond ni pheidiodd a bod yn weithiwr, er ei fod yn gweithio mewn ffordd ychydig yn wahanol. Yr oedd yn ddiwyd iawn yn ei oriau hamddenol. Ni wneir yn bresennol ond prin grybwyll iddo, yn 1815, ymosod ar y gwaith o ddyfeisio lamp ddiogeliadol *(safety lamp)* at

Digitized by Google

gellir dyweyd chwaith fod hyn yn beth hollol newydd, o herwydd yr oedd Jessop wedi eu defnyddio yn 1789. Y mae pwysau y rheiliau a ddefnyddir yn bresennol yn llawer mwy na chynt. Nid oedd y rheiliau haiarn bwrw yn pwyso dros bymtheg pwys y llath, ond y mae y rheiliau a ddefnyddir yn awr yn gyffredinol yn pwyso tua phedwar ugain pwys y llath. Un o'r pethau blaenaf y gofalai Stephenson am dano oedd gwneyd ei ffyrdd haiarn yn gadarn a gwastad, ac attal ysgydwadau yn y cyssylltiadau rhwng penau y rheiliau a'u gilydd. Y mesuriad neu y lled rhwng y rheiliau a fabwysiadodd efe oedd 4 troedfedd 8½ modfedd; yr hyn ydyw y mesuriad cyffredin a arferir yn bresennol. Yr anhawsder mawr a deimlai oedd cael ei beiriannau wedi eu gwneyd yn briodol. Ond sefydlwyd gweithfa fawr yn Newcastle yn 1820; yr hon oedd yr unig un oedd yn y wlad, nes yr agorwyd ffordd haiarn Liverpool a Manchester yn 1831; ond hi a barhaodd yr oreu am amser maith wedi hyny.

Y mae dosbarth o'r wlad sydd i'r gorllewin o Darlington, yn Durham, yn un o'r meusydd mwnawl cyfoethocaf yn ngogleddbarth Lloegr. Y mae ystorfeydd dirfawr o lô yn gorwedd o dan ddyffryn Bishop Auckland; a theimlid er's talm fod angen ffyrdd newyddion a da i ryw farchnad. Yr oedd hyd hyny yn faes cauedig yn mron, a'r gôst o drosglwyddo y glô mewn pedrolfeini, neu ar feirch a mulod, yn cyfyngu y gwerthiant. Yr oeddid er's talm wedi bod yn ymgynghori â Brindley ynghylch gwneyd camlas; wedi hyny, yn 1812, mesurwyd tramffordd gan Rennie; ac yn 1817, meddyliwyd am gael ffordd haiarn o Darlington i Stockton-on-Tees. Edward Pease oedd yr hwn a feddyliodd yn benaf am hyn. Dyn meddylgar a synwyrol, parod ei adnoddau, ac o egni a dyfal-barhâd didroi yn ol oedd efe. Yr oedd gan Edward Pease anhawsderau mawrion i'w gorchfygu i ffurfio cwmni, a mesur y ffordd. Nid oedd pobl y gymmydogaeth yn credu dim yn yr anturiaeth. Ond yn mlaen yr aeth Mr. Pease; a pherswadiodd lawer o'i gyfeillion a'i berthynasau i danysgrifio y cyfalaf angenrheidiol. Rhoddwyd y cydsyniad brenhinol i ddeddf seneddol ffordd haiarn Stockton a Darlington ar y 19eg o Ebrill, 1821; ac yn fuan ar ol hyn daeth dau ddyn dyeithr at ddrws Mr. Pease yn Darlington. Y ddau hyn oeddynt George Stephenson, a'i gyfaill, Nicholas Wood. Amcan yr ymweliad hwn o eiddo Stephenson oedd cynnyg ei wasanaeth i gario y cynllun allan, a gwneyd y ffordd. Argyhoeddwyd Mr. Pease mai Stephenson oedd y dyn at y gwaith. Nid oedd y cynlluniau wedi eu gorphen; ac yn ngwrs yr ymddiddan cymmeradwyai Stephenson yn gryf y cynllun o wneyd ffordd haiarn, ac nid tramffordd, a bod agerbeiriant yn cael ei ddefnyddio, ac nid ceffylau. Addawodd Mr. Pease fyned i Killingworth i weled y peiriannau yn gweithio yno. Canlyniad yr ymddiddan a fu, i Mr. Pease ddyfod â chynnygiad Stephenson o'i wasanaeth o flaen y cyfarwyddwyr; a phenderfynwyd mabwysiadu cynllun Stephenson i wneyd ffordd haiarn, ac nid tramffordd. Aed yn mlaen gyda'r gwaith yn ddioed; ac fel y gellid meddwl, yr oedd Stephenson yn teimlo pryder mawr fel yr oedd y gwaith yn tynu tua'r terfyn. Mynegir iddo ef, a'i fab Robert, a John Dixon, fyned un diwrnod i arolygu y gwaith; cymmerasant eu ciniaw mewn gwestty yn Stockton. Ac ar ol ciniaw dywedodd Stephenson:—

"Yn awr, fechgyn, yr wyf yn meiddio dywedyd fy mod yn credu y cewch chwi fyw i weled y diwrnod pan y bydd ffyrdd haiarn wedi cymmeryd lle pob dull arall o gludo yn y wlad hon—pan yr â llythyr-gerbydau gyda'r ffordd haiarn, ac y daw ffyrdd haiarn yn ffordd fawr y brenin a'i holl ddeiliaid. Y mae yr amser yn dyfod pan y bydd yn rhatach i weithiwr deithio gyda'r ffordd haiarn na cherdded ar ei draed. Mi a wn fod anhawsderau yn mron anorfod i'w gorchfygu; ond fe ddaw yr hyn a ddywedais i ben mor sicr a'ch bod yn awr yn fyw. Yr wyf yn dymuno cael byw i weled y dydd, er nas gallaf o'r bron obeithio hyny, gan fy mod yn gwybod mor araf y mae pob peth dynol yn symmud yn mlaen, a chyda'r fath anhawsder yr wyf wedi bod yn alluog i gael gan neb o'r bron i fabwysiadu yr agerbeiriant hyd yn hyn, er bod fy mhrawf wedi bod yn llwyddiannus yn Killingworth er's mwy na deng mlynedd."

Agorwyd llinell Stockton a Darlington i fasnachu ar y 27ain o Fedi, 1825. Daeth tyrfaoedd dirfawr o bobl ynghyd o bob cwr o'r wlad i fod yn dystion o'r seremoni o agoriad y ffordd haiarn gyntaf; a phrofodd yr agoriad yn hollol lwyddiannus, er fod rhai yn prophwydo drwg. Stephenson ei hun oedd gyriedydd y peiriant. Cynnwysai y gerbydres chwech o wageni yn llwythog o flawd a glô; ar ol y rhai hyn yr oedd cerbyd i deithwyr, wedi ei lanw o'r cyfarwyddwyr a'u cyfeillion, ac yna un ar hugain o wageni wedi eu cyfaddasu i deithwyr eistedd ynddynt; ac yn olaf chwech o wageni llwythog o lô, yn gwneuthur cerbydres o ddeunaw ar hugain o bob math o gerbydau. Cychwynwyd o Brusselton, tua naw milldir uwch law Darlington. Fel hyn y dywedai un oedd yn croniclo yr hanes ar y pryd:—"Wedi i'r arwydd gael ei roddi," ebe fe, "cychwynodd y peiriant gyda'r gerbydres enfawr hon; ac yr oedd y cyflymder mewn rhai parthau o'r ffordd yn ol deuddeng milldir yr awr!" Erbyn cyrhaedd Stockton yr oedd tua chwe chant o bersonau yn y gerbydres, a theithiwyd yn ddiogel o Darlington i Stockton yn ol o bedair i chwe milldir yr awr. A chwanegir, fod y cyffro yn Stockton yn fawr pan y cyrhaeddwyd yno.

Yr oedd y drafnidiaeth fawr a gymmerai le yn sir Lancaster, ac yn enwedig rhwng Liverpool a Manchester, yn myned fwyfwy yn barhaus, a theimlid er's blynyddau angen ffordd haiarn i hwyluso masnach a theithio yn y parthau hyny. Bu llawer o siarad a llawer o fesur, nes o'r diwedd yr aed â mesur i wneyd ffordd haiarn rhwng y ddau le o flaen y senedd, ac y cariwyd y trydydd darlleniad o hono yn Nhŷ y Cyffredin trwy fwyafrif o 88 yn erbyn 41. Pasiodd y mesur Dŷ yr Arglwyddi yn mron yn unfrydol: ei unig wrthwynebwyr oeddynt yr Arglwyddi Derby a Wilton. Yr oedd penodiad peiriannydd at y gwaith mawr hwn yn bwysig. Edrychai y cyfarwyddwyr yn naturiol at Stephenson, gan iddo fod yn llwyddiannus gyda gwaith cyffelyb o'r blaen; a phennodwyd ef yn brif beiriannydd y cwmni am gyflog o fil o bunnau yn y flwyddyn. Symmudodd yntau i Liverpool i fyw, a gwnaeth y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cario allan y gwaith. Nis gallwn fyned i mewn i'r manylion yma i ddangos mor lwyddiannus y gorchfygodd Stephenson yr anhawsderau peiriannyddol cyssylltiedig â'r llinell, a phrofi nad oedd yn ammhossibl, fel y rhagdybiai llawer, i groesi Chat Moss; yr hwn sydd fath o gorsle mawnog ynghylch deuddeng milldir ysgwâr. Y tri pheiriannydd cynnorth-

Digitized by Google

wyol a ddewisodd Mr. Stephenson i arolygu y gwaith oeddynt Joseph Locke, William Allcard, a John Dixon. Yr olaf a bennodwyd i'r gyfran hono o'r llinell a elai ar draws Chat Moss; ac nid oedd y lleill yn cenfigenu o herwydd y pennodiad. Cyfarfyddwyd âg anhawsderau dirfawr i wneuthur ffordd ar draws y lle corsiog hwn, ac yn enwedig i wneuthur amglawdd yn y pen nesaf i Manchester. Yr oedd y gôst o herwydd yr anhawsderau yn ddirfawr; ac er cymmaint oedd y draul, ychydig iawn o gynnydd oedd i'w weled yn y gwaith; fel yr oedd y cyfarwyddwyr yn dechreu ofni y byddai i ragfynegiadau peirianwyr enwog gael eu profi yn gywir. Cyfododd y cwestiwn yn eu mysg, pa un oreu, myned yn mlaen gyda'r gwaith neu ynte ei adael. Fel y canlyn y cyfeiriai Stephenson at hyn flynyddoedd ar ol hyny:—

"Ond ar ol gweithio am wythnosau," meddai, "i lenwi y lle â defnyddiau i wneuthur ffordd, nid ymddangosai yr arwydd lleiaf y buasem yn alluog i godi yr amglawdd un fodfedd i fyny; mewn gair aethom yn mlaen i lenwi y lle heb ddim effeithiau gweledig. Yr oedd hyd yn oed fy nghynnorthwywyr yn dechreu teimlo yn anesmwyth, ac yn ammheu llwyddiant y cynllun. Siaradai y cyfarwyddwyr hefyd am dano fel gorchwyl anobeithiol: o'r diwedd yr oeddynt wedi ofni yn fawr, yn gymmaint yn wir, fel y galwyd cyfarfod o'r bwrdd yn Chat Moss i benderfynu pa beth a wnelid yn mhellach. Yr oeddynt yn flaenorol wedi cael barn peirianwyr ereill, y rhai a roddent adroddiad anffafriol. Nid oedd dim i'w wneyd, pa fodd bynag, ond myned yn mlaen. Aed i draul ddirfawr; a buasai colled fawr yn cael ei achlysuro pe y cawsai y cynllun ei adael, a'r llinell yn cymmeryd rhyw gyfeiriad arall. Gan hyny, bu raid i'r cyfarwyddwyr ganiatau i mi fyned yn mlaen gyda'm cynlluniau, ac ni bûm fy hun erioed am foment yn ammheu eu llwyddiant."

Gorphenwyd y ffordd ar draws Chat Moss ar y laf o Ionawr, 1830, ac aeth cerbydres o deithwyr drosti, yn cael ei thynu gan beiriant a elwid "*Rocket;*" ac wedi y cwbl, troes y darn hwn o'r ffordd allan, yn hytrach na bod yn un o'r parthau mwyaf treulfawr, yn un o'r parthau rhataf. Yr holl draul am ffurfio y llinell dros y Moss oedd 28,000*p.*, tra yr oedd Mr. Giles yn ei amcangyfrif yn barnu y costiai 270,000*p.*! A phrofodd hefyd yn un o'r darnau goreu ar y ffordd haiarn hon. Er fod y gwaith oedd arni yn hawddach ar y cyfan, na llawer o linellau a wnaed wedi hyny, ystyrid y pryd hwnw ei fod yn orchwyl mawr iawn. Yn wir, nid oedd dim cyffelyb wedi ei wneyd yn Lloegr o'r blaen. Yn ol bwriad gwreiddiol y peiriannydd yr oedd y ffordd haiarn i ddyfod i mewn i'r pen gogleddol o Liverpool, er ceisio gochelyd toriadau mawrion. Ond o herwydd gwrthwynebiad y tirfeddiannwyr, bu raid myned yn nes i'r deheu, a thori trwy y bryniau. O herwydd y cyfnewidiad hwn, bu raid cael tynel o dan dref Liverpool tua milldir a hanner o hyd, heb law toriad dwfn trwy y gareg nâdd goch yn Olive Mount. Erbyn diwedd y flwyddyn 1828, yr oedd y cyfarwyddwyr wedi gwario 460,000*p.* ar yr holl weithiau, ond yr oeddynt yn mhell o orphen. Gwelai y cyfarwyddwyr y gwaith yn hir yn dyfod i orpheniad; ac un diwrnod darfu i un o honynt, Mr. Cropper, ddyweyd wrth Stephenson, "Yn awr, George, y mae yn rhaid i ti fyned yn mlaen gyda'r ffordd haiarn, a'i gorphen heb oedi dim yn hwy. Rhaid i ti ei chael yn barod erbyn y dydd cyntaf o Ionawr nesaf." "Ystyriwch y gwaith mawr sydd i'w wneyd, syr," oedd yr atteb, "a chymmaint o oediadau sydd wedi bod, o ddiffyg arian, heb son am y tywydd gwlyb. Y mae y peth yn ammhossibl." "Ammhossibl!" meddai Cropper; "buaswn yn dymuno cael Napoleon atat. Dywedasai efe nad oes y fath air ag 'ammhossibl' yn y geirlyfr." "Twt," ebe Stephenson, yn lled dwymn; "peidiwch a siarad wrthyf am Napoleon! Rhowch i mi ddynion, arian, a defnyddiau, ac mi a wnaf yr hyn nas gallasai Napoleon ei wneyd—gyru ffordd haiarn o Liverpool i Manchester dros Chat Moss!"

Yr oedd y gwaith yn awr yn tynu at orpheniad. Ond nid oedd y cyfarwyddwyr etto wedi penderfynu pa beth oedd i fod y gallu symmudol; pa un ai ceffylau, peiriannau sefydlog (*fixed engines*), neu agerbeiriannau. Nid heb ymdrech fawr yr ennillodd Stephenson ei amcan. Hyd yn oed yn 1829 yr oedd rhagfarnau peiriannwyr proffesedig yn fawr yn erbyn yr agerbeiriant. Ac wrth ddarllen yr hyn a ysgrifenid y pryd hwnw, y mae yn syndod mor lleied o ymddiried a roddid ynddo. Ond trwy ddyfal-barhâd Stephenson a'i gyfeillion, llwyddwyd i benderfynu cael yr agerbeiriant i fod y gallu symmudol ar y ffordd hon. Ond yr oedd un peth i'w benderfynu etto gyda golwg ar hyn—dewis pa agerbeiriant a ddefnyddid. Penderfynwyd cael cystadleuaeth gyhoeddus rhwng yr agerbeiriannau. Appwyntiwyd y gystadleuaeth i fod ar ddarn gwastad o'r ffordd haiarn yn Rainhill, Hydref 6ed, 1829. Y peiriannau cystadleuol oeddynt y *Novelty*, y *Sanpareil*, y *Rocket*, a'r *Perseverance*. Teimlid dyddordeb cyffredinol yn y gystadleuaeth hon; a daeth peiriannwyr, gwyddonwyr, a chrefftwyr o bob cwr o'r wlad i fod yn dystion o honi. Ond er fod y lleill yn beiriannau rhagorol, y *Rocket*, peiriant a wnaed yn ngweithfa Stephenson yn Newcastle, a ennillodd y wobr; a rhagorodd yn fawr ar yr hyn a ddisgwyliwyd oddi wrthi. Pwysai bedair tynell a chwarter, a thynai lwyth o 17eg o dynelli, yn ol pymtheng milldir yr awr; ond teithiai yn mlaen heb un llwyth yn ol pymtheng milldir ar hugain yr awr.

Cwblhawyd un linell dros Chat Moss erbyn y laf o Ionawr, 1830; a'r diwrnod hwnw aeth y *Rocket* gyda cherbyd yn llawn o'r cyfarwyddwyr, y peiriannwyr, a'u cyfeillion, dros y rhan fwyaf o'r ffordd rhwng Liverpool a Manchester. O'r diwedd gorphenwyd y llinell, a gwnaed hi yn barod i'r seremoni gyhoeddus o agoriad ffurfiol, yr hyn a gymmerodd le ar y 15fed o Fedi, 1830, yn ngŵydd lliaws mawr o edrychwyr; ac yn eu plith yr oedd y Duc o Wellington, Syr Robert Peel, a Mr. Huskisson, un o'r aelodau seneddol dros Liverpool. Yr oedd gan y cwmni wyth o beiriannau wedi eu gwneyd yn ngweithdy Mr. Stephenson yn barod i weithio y llinell. Ar y diwrnod hwnw aeth tua chwe chant o bersonau o Liverpool i Manchester mewn amryw o gerbydresi; a llongyfarchwyd hwynt ar hyd y ffordd gan filoedd o edrychwyr. Safodd y peiriannau i gymmeryd dwfr yn Parkside, ynghylch dwy filldir ar bymtheg o Liverpool. Ac yma digwyddodd damwain ddifrifol, yr hon a achosodd ofid dwys bawb oedd a wnelynt â gweithrediadau y dydd. Fel yr oedd Mr. Huskisson yn ysgwyd llaw gyda'r Duc o Wellington, yr hwn oedd yn un o'r cerbydau, gwaeddai y bobl "Ewch i mewn, ewch i mewn!" Dyrysodd Mr. Huskisson, ac ymdrechodd fyned at ddrws agored y cerbyd, oedd yn ymestyn dros

Digitized by Google

y rheil cyferbyniol; ond wrth wneyd hyny, tarawyd ef i lawr gan y *Rocket*, ac aeth dros ei aelod nes ei falurio. Pan y cyfodwyd ef i fyny, y peth cyntaf a ddywedodd oedd, "Yr wyf wedi cyfarfod â'm marwolaeth;" yr hyn yn anffodus a brofodd yn wirionedd, canys bu farw y noson hono yn mharsondy Eccles. Taflodd y ddamwain hon brudd-der ar holl weithrediadau y dydd. Dranoeth agorwyd y ffordd haiarn i fasnach gyffredinol. Cynnwysai y gerbydres gyntaf a anfonwyd i Manchester 140ain o deithwyr, a chyrhaeddodd yno yn yr amser pennodedig o ddwy awr; ac o'r dydd hwnw hyd heddyw y mae y fasnach ar hyd-ddi yn cynnyddu yn feunyddiol.

Cynnyrchodd llwyddiant ffordd haiarn Liverpool a Manchester ddyddordeb mawr. Arferai pobl ddyfod i swydd Lancaster o bob cwr o'r wlad i weled y cerbydau yn cael eu llusgo ar ol y ceffyl tân, deirgwaith cyflymach na'r llythyrgerbyd cyffredin; a dychwelai y teithwyr i'w cartrefi wedi synu at y gwaith a gyflawnai yr agerbeiriant, yr hyn a ystyrient yn rhyfeddod penaf yr oes. Wedi cael prawf llwyddiannus ar y ffordd haiarn hon a'r agerbeiriant, a'r fantais fasnachol fawr ddeilliedig oddi wrthynt, nid oedd ymeangiad y ffyrdd hyn ond cwestiwn o amser, arian, a llafur yn unig. Er na ddarfu i'r senedd na'r llywodraeth wneyd dim, fel y cyfryw, i eangu ffyrdd haiarn, ymaflwyd yn y gwaith gan y bobl. Ymffurfiasant yn gwmnïau mewn amryw fanau; ac wrth gwrs yr oedd galw mawr am wasanaeth Stephenson, y peiriannydd llwyddiannus. Ac ar yr un pryd ymddangosodd llawer o beirianwyr ereill i gynllunio ac i gario allan wahanol ffyrdd mewn gwahanol barthau o'r wlad, megys Giles, Brunel, a Braithwaite, ac ereill.

Pan yn gwneyd ffordd haiarn y *Midland*, canfyddai George Stephenson eu bod yn myned trwy amryw wythïenau o lô wrth dori tynel Claycross; a thybiai ond i waith glô gael ei agor yno y buasai y ffordd haiarn yn fanteisiol i'w ddwyn i'r farchnad yn y siroedd canolbarthol, ac hyd yn oed i'r brif ddinas hefyd. Ymunodd rhai o'i gyfeillion yn Liverpool âg ef i agor gweithiau yn y cymmydogaethau hyn; ac ar yr un pryd adeiladodd weithiau calch mawr ger llaw gorsaf Ambergate, y rhai a allent droi allan tua 200 o dynelli o galch y dydd, pan mewn llawn waith. Gwnaeth Stephenson trwy ei ysbryd anturiaethus les mawr i'r rhan hono o'r wlad. Galwyd ar Stephenson hefyd i roddi ei farn ar amrywiol achlysuron i gyfarwyddwyr ffyrdd haiarn mewn gwledydd tramor. Un o'r teithiau mwyaf dymunol a gymmerodd oedd i Belgium, yn 1845. Yr oedd yn mwynhau yn fawr newydd-deb y daith, prydferthwch y golygfeydd, a diwydrwydd a gweithgarwch y boblogaeth. Cymmerodd peirianwyr Belgium fantais ar y cyfle hwn i roddi iddo wledd fawr yn Brussels; a derbyniwyd ef gan y brenin. Aeth Stephenson ar ail ymweliad â Belgium yn ystod yr un flwyddyn; ac yn fuan ar ol ei ddychweliad aeth i Yspaen, i wneuthur ymchwiliad ac adroddiad ar gynllun ffordd haiarn gogledd Yspaen. Ond yr oedd ei yrfa yn awr yn tynu tua'r terfyn, ac yntau yn ymryddhau yn raddol oddi wrth waith a gofalon. Dylesid crybwyll fod George Stephenson wedi mesur llinell o Gaerlleon i Gaergybi yn 1838; ac iddo hefyd wneyd adroddiad ar y llinell trwy Ogledd Cymru i Borthdinllaen. Ei gynghor ef oedd gwneyd y llinell i Gaergybi, fel y rataf, a'r un y ceid y graddfaoedd *(gradients)* goreu iddi; ond ei fab, Robert Stephenson, a gariodd allan y gwaith hwn. Tra y bu y llinell hon yn cael ei gwneyd, yr oedd yn naturiol iddo deimlo dyddordeb ynddi, a thalodd lawer o ymweliadau â Chonwy a Phorthaethwy tra yr oedd y pontydd haiarn yn cael eu hadeiladu. Yr oedd yn ei flynyddoedd diweddaf wedi rhoddi heibio yn mron yn hollol ei alwedigaeth fel peiriannydd, a rhoddai y rhan fwyaf o'i amser i arolygu ei weithydd glô a chalch mawrion.

Adref, yr oedd yn mwynhau bywyd boneddwr gwledig, ac yn dra hoff o'r ardd a'r prysglwyni o gwmpas ei balas; ac yn niwedd ei oes, yn enwedig, yr oedd yn hoff iawn o ddiwyllio ffrwythydd. Cariai yn mlaen amaethyddiaeth yn dra llwyddiannus. Gwnai brawfiadau ar wrtaith, a phesgai anifeiliaid yn ei drefn ei hun. Yn ei henaint, adfywiodd ei serch boreuol tuag at adar a chreaduriaid ereill. Nid oedd nyth aderyn ar ei dir nas gwyddai am dano; ac elai o gwmpas bob dydd i wylio y cynnydd a wnelai yr adar yn adeiladu eu nythod, a gofalai hyd y gallai na chaffent ddim cam. Anaml y cyfarfyddid â neb yn fwy cydnabyddus âg arferion adar Prydeinig nag efe, yr hyn oedd ffrwyth ei sylwadaeth faith a manwl. Ni ddarllenai Mr. Stephenson lawer: yr oedd llyfrau yn ei flino ac yn peri iddo gysgu. Y rheswm am hyny, o bossibl oedd, am nad oedd wedi arfer pan yn ieuangc. Yr oedd yn hoff iawn o groesawu ei gyfeillion yn ei breswylfod, Tapton House, ger llaw Chesterfield; ac ymhyfrydai yn fawr i adrodd iddynt galedfyd ac ymdrechion boreu ei oes. Gwahoddai yno yn fynych gymdeithion gwledig boreu ei oes, a chymmerai bleser i ymddiddan â hwynt am helyntion dyddiau ei ieuenctid; ac ymddygai yn wastad atynt fel pe buasent yn gydradd âg ef. Ac nid oedd hen gydnabod byth yn cael gofyn yn ofer am gymmwynas iddo.

Arferai yn ei flynyddoedd olaf dalu ymweliad â Llundain a Newcastle yn awr ac eilwaith; ac yr oedd ei ymweliad â'r lle diweddaf yn wastad yn dwyn pleser neillduol iddo. Ar yr achlysuron hyn elai heibio Killingworth, i gael golwg ar ei hen gyfeillion. Teimlai yn gynhes tuag at Newcastle a'r gymmydogaeth hyd ddiwedd ei oes. Gwahoddwyd George Stephenson gan Syr Robert Peel i Drayton Manor fwy nag unwaith, i gyfarfod y dynion enwocaf mewn celfyddyd, gwyddoniaeth, a gwleidyddiaeth. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1848, cyfarfu Stephenson âg Emerson, yr Americanwr, yn Whittington House, ger Chesterfield, a chawsant ymddiddan dyddorus â'u gilydd. Dywedai Emerson ar ol hyn ei "bod yn werth croesi y Werydd yn unig i gael gweled Stephenson. Yr oedd y fath rym yn ei gymmeriad a'r fath allu yn ei feddwl." Treuliodd Stephenson y gweddill o'i ddyddiau yn dawel yn Tapton House. Ond teimlai ei hun yn ddigon cryf i fyned i Birmingham i gyfarfod perthynol i sefydliad y peirianwyr, ar y 26ain o Orphenaf, 1848; a hwn oedd y tro diweddaf iddo fod gyda hwynt. Yn fuan ar ol dychwelyd i Tapton, tarawyd ef â thwymyn ddysbeidiol; ond i bob golwg yr oedd yn gwella, pan yn ddisymmwth y torodd llestr gwaed iddo, a bu farw ar y 12fed o Awst, 1848, yn 67ain mlwydd oed. Cafodd gladdedigaeth tywysogaidd yn mynwent Eglwys y Drindod, Chesterfield. Dilynwyd ei weddillion i'r bedd gan nifer liosog o'i weithwyr, a masnachwyr a boneddwyr

Digitized by Google

y dref a'r gymmydogaeth. Er fod amryw gerfluniau wedi eu cyfodi o hono er coffadwriaeth iddo, y gofadail berffeithiaf iddo ydyw y gweithiau mawrion a wnaeth.

STEPHENSON, ROBERT: mab i George Stephenson, yr hwn a enwir uchod—yr hwn oedd yntau, fel ei dad, yn beiriannydd dinesig tra enwog. Ganwyd ef yn Willington Quay, ger Newcastle-on-Tyne, ar yr 16eg o Ragfyr, 1803. Yr oedd ei dad wedi teimlo yr anfantais o fod heb addysg pan yn ieuangc, a phenderfynodd roddi i'w unig fab, Robert, bob manteision felly y gallai eu fforddio. Pan oedd y bachgen mewn oedran priodol, anfonwyd ef i ysgol yn Long Benton, a gedwid gan y clochydd. Anfonwyd ef, pan yn ddeuddeg oed, i ysgol Mr. Bruce, yn Newcastle; a marchogai yn ol ac yn mlaen yno bob dydd ar gefn mul, a roddwyd iddo gan ei dad. Er nad oedd Robert Stephenson ond bachgen gwylaidd o'r wlad, heb lawer o ol diwylliant arno, etto yr oedd ynddo ddigon o ddefnyddiau i weithio arnynt, a daeth hyny i'r golwg yn fuan. Ymroddodd yn galonog i ddysgu, a byddai ei athraw yn cyfeirio ato fel esampl i'w gydysgolheigion yn hyn. Tystiai Stephenson wedi hyn ei fod yn dra dyledus i'w athraw:—"I addysgiaeth Mr. Bruce," meddai, "yr wyf yn priodoli llawer o fy llwyddiant fel peiriannydd; o herwydd oddi wrtho ef y derbyniais fy chwaeth at ymchwiliadau mesuronyddol, a'r hawsder â'r hwn yr ydwyf yn gallu cymmhwyso y math hwn o wybodaeth i ddybenion ymarferol yn ol fel y bo amgylchiadau yn galw." Bu yn yr ysgol hon am o ddeutu pedair blynedd, pan y cafodd ei rwymo yn egwyddorwas gyda Mr. Nicholas Wood, y prif arolygwr yn nglofa Killingworth, i ddysgu bod yn lowr medrus. Gwasanaethodd fel hyn am tua thair blynedd, ac yn y cyfamser daeth yn gyfarwydd â'r gwaith yn ymarferol. Yr oedd yr amser a dreuliodd Robert Stephenson yn Killingworth y pryd hwn yn fanteisiol iddo ef ei hun, a'i dad. Yr oedd eu nosweithiau yn gyffredin yn cael eu defnyddio i ddarllen a myfyrio gyda'u gilydd; a mynych y cymmerai dadl frwd le rhyngddynt, yn enwedig yn mherthynas i'r agerbeiriant, a galluoedd ager.

Penderfynodd ei dad anfon Robert i brifysgol Edinburgh, gan nad oedd yn Lloegr y pryd hwnw un coleg y gallasai dyn o ychydig foddion ymberffeithio mewn addysg ynddo. Tra yno, arferai wrandaw darlithiau ar fferylliaeth, gan Dr. Hope; ar anianyddiaeth naturiol, gan Syr John Leslie; ac ar hanesiaeth naturiol, gan y Proffeswr Jameson; a rhai nosweithiau yn yr wythnos astudiai fferylliaeth, o dan gyfarwyddyd Dr. John Murray. Cymmerai Stephenson hefyd ddyddordeb mawr mewn daeareg, tra yn Edinburgh. Tua diwedd haf y fl. 1822 efe a ddychwelodd i Killingworth yn ol. Yn haf 1823 cynnorthwyodd ei dad i fesur llinell Stockton a Darlington; a chymmerodd hefyd ran yn y gweithiau peiriannyddol a sefydlwyd yn Newcastle. Yr oedd sefyllfa ei iechyd yn anfoddhaol ar y pryd: cynnygiwyd iddo ddirprwyaeth i fyned i archwilio ac i wneyd adroddiad ar fwngloddiau aur ac arian yn Neheubarth America. Yn ol cyfarwyddyd ei feddyg, efe a dderbyniodd y pennodiad; a glaniodd yn La Guayra, ar dueddau gogleddol Venezuela, ar y 23ain o Orphenaf, 1824. Arosodd yn y wlad hono am yn agos i dair blynedd. Ac ar ol taith fer trwy yr Unol Daleithiau a Canada, dychwelodd yn ol yn 1827. Nid oedd y weithfa yn Newcastle yn llwyddiannus yn absennoldeb Robert Stephenson; ond llwyddodd yn fuan i osod pethau ar well seiliau, a chynnorthwyodd ei dad gyda ffordd haiarn Liverpool a Manchester. O'r gwahanol gynlluniau a ffurfiwyd o ffyrdd haiarn ar ol agor un Liverpool a Manchester, y fwyaf pwysig oedd un Llundain a Birmingham. Ffurfiwyd dau bwyllgor, a chynnygiwyd dwy ffordd—un trwy Coventry, a'r llall trwy Rydychain; a phenderfynwyd galw am wasanaeth George Stephenson, i roddi ei farn. Penderfynodd yntau yn ffafr y ffordd heibio i Coventry, a dyma y llinell a fabwysiadwyd. Cafwyd gwrthwynebiad cryf oddi wrth y tirfeddianwyr, ond pasiodd y mesur i'w gwneyd trwy y senedd yn 1832. Pennodwyd Robert Stephenson yn beiriannydd.

Yr oedd y gwaith yn fawr, ac yn llawn o anhawsderau. Yr oedd yn rhaid gyru tynelau mawrion trwy haenau nas gwyddid beth oeddynt, a gwneuthur amgloddiau (*embankments*) uchel, a llawer o doriadau (*cuttings*) dyfnion, er cael y ffordd yn lefel o ddyffryn i ddyffryn. Ond profodd Robert Stephenson yn ddigon medrus i orchfygu yr anhawsderau mawrion oedd o'i flaen. Hyd y ffordd rhwng Llundain a Birmingham oedd cant a deuddeg (112) o filldiroedd. Yr oedd y draul a aeth i wneyd y llinell hon yn anferth, ac yn llawer mwy na'r amcangyfrif gwreiddiol. Costiodd y tir deirgwaith mwy nag y tybiwyd y gwnaethai ar y cyntaf; ac yr oedd y gofynion am iawn yn enfawr. Amcangyfrif y gôst i wneyd tynel Kilsby oedd 99,000*p.*; ond cyn ei orphen yr oedd wedi costio mwy na 100*p.* o hydfesur yn mlaen, neu yn y cwbl yn agos i 300,000*p.* Yr oedd yr holl draul yn fwy na dwbl yr amcangyfrif gwreiddiol.

Wedi gorphen y gwaith mawr hwn, pennodwyd Robert Stephenson yn beiriannydd llinellau ffyrdd haiarn yr *Eastern Counties*, a'r *Northern*, a'r *Eastern*, a'r *Blackwall*, heb law llawer ereill yn y dosbarthiadau canolbarthol a deheuol o'r wlad. Bu ei enw o flaen y senedd ar un adeg fel cynllunydd tair ar ddeg ar hugain o linellau. Yr oedd y gwaith a wnelai ar y pryd hwn yn ddirfawr. Gwaith mawr oedd ar linell Newcastle a Berwick. Nid oes lai na chant a deg (110) o bontydd o bob math ar y ffordd; ond y fwyaf ydyw yr un sydd yn croesi y Tweed i Ysgotland, gyferbyn a chastell Berwick. Costiodd hon 120,000*p.*, a gorphenodd hi mewn tair blynedd a phedwar mis. Robert Stephenson oedd ei chynllunydd, a chynnwysa wyth ar hugain o fwäau, a phob un yn mesur un a thrigain o droedfeddi a chwe modfedd; ei huchder mwyaf o wely yr afon ydyw cant a chwech ar hugain o droedfeddi. Ei hyd ydyw dwy fil, cant a thrigain o droedfeddi. Ond adeiladodd un arall o fwy o bwysigrwydd dros y Tyne, yn Newcastle, a elwir Pont y Lefel Uchaf (*The High Level Bridge*), yr hon a ddygodd fwy o enwogrwydd i'w chynllunydd.

Ond diammheuol mai un o'r gweithiau mwyaf y bu a fyno âg ef o gwbl oedd un a gychwynwyd gan George Stephenson, ond a gwblhawyd ganddo ef; sef, ffordd haiarn Caer a Chaergybi. Pasiwyd y mesur i wneyd y llinell hon drwy y senedd yn 1844. Y prif anhawsderau cyssylltiedig â'r ffordd hon ydoedd croesi y Conwy a'r Menai, ynghyd â'r gweithiau yn y tynel yn ac

Digitized by Google

o gwmpas Penmaenmawr. Y mae y lle hwn, Penmaenmawr, yn ffurfio pentir uchel a serth rhwng Conwy a Bangor, yn ngwaelod yr hwn y mae y môr yn curo gyda ffyrnigrwydd mawr ar dywydd tymmhestlog. Heb law gwneyd tynel trwyddo, bu raid codi morfur cadarn mewn manau ereill i wrthsefyll y rhuthriadau. Gorphenwyd y gwaith mawr hwn mewn tair blynedd; ond addefai Mr. Stephenson, pe buasai tynel mwy wedi ei gynllunio, a'i weithio ar y cyntaf, trwy y graig galed, yr arbedasid o 25,000*p*. i 30,000*p*. o'r draul; a dywedai ei fod yn argyhoeddedig y dylai peiriannwyr ffyrdd haiarn ymdrechu hyd y gallant i ymgadw rhag dyfod i wrthdarawiad â'r môr. Ond y pwngc mawr oedd gallu taflu y ffordd dros forgaingc Conwy a chulfor Menai. Yr oedd eisieu taflu pont ar draws afon lydan; a hono yn ddigon cref i ddal y pwysau trymaf i fyned drosti yn gyflym, ac i fod mor uchel hefyd fel nad ymyrai â morwriaeth y culfor. Yr oedd Stephenson wedi penderfynu ar y fan i groesi, lle yr oedd craig yn digwydd bod yn agos i ganol y sianel, a lled y dwfr o lan i lan ar y llanw mawr yn fil a chant (1,100) o droedfeddi. Meddylddrych cyntaf y peiriannydd oedd adeiladu pont, â'i bwäau o haiarn bwrw, a phob bŵa yn dri chant a hanner (350) o droedfeddi o led. Ond taflodd y syniad hwn heibio. Ystyriai hefyd nad oedd yn bossibl gwneyd pont grogedig yn ddigon cref. Awgrymwyd i'w feddwl amryw o gynlluniau ereill; ond nid oedd un o honynt, pe y gweithid ef allan, yn ddigon cadarn i ddal y pwysau dirfawr a osodid arni. Yr oedd raid dyfeisio rhyw gynllun newydd—a dyna oedd y gorchwyl mawr. Arweiniwyd Stephenson i ail ystyried cynllun a wnaethai o bont dros yr afon Lea, yn Ware, â rhychwant (*span*) o hanner can troedfedd. Nid oedd amgylchiadau yn caniatau iddo gael yno ond llawr (*platform*) o ddeunaw neu ugain modfedd o drwch. Ar gyfer hyn cynlluniodd yntau un o haiarn gŷr, er na ddarfu iddo gario y cynllun allan fel y bwriadai ar y cyntaf—ond gwnaeth gyfnewidiad ynddo. Wrth ail feddwl am y cynllun hwn, tybiodd Stephenson y gallasai gwaelod syth ac anhyblyg, gydag ochrau wedi eu gwregysu ynghyd â rhwydwaith o haiarn gŷr, a'u cydio a'u grymuso yn y top a'r gwaelod â llafnau o fettel o'r un defnydd, wedi eu rhybedio (*rivetted*) ynghyd, wneyd y tro i bont dros y Menai. Perffeithiodd y cynllun hwn yn ei feddwl; ac yn raddol llwyr argyhoeddwyd ef y gwnaethai chwibol (*tube*) haiarn atteb y dyben oedd mewn golwg, a gosododd ddynion profedig ar waith i wneuthur prawfiadau ar nerth y cyfryw gynllun, gyda rhai cyfnewidiadau ynddo, gwahanol i'r hyn yr ymffurfiodd yn ei feddwl ef ar y cyntaf. Costiodd y prawfiadau hyn lawer o filoedd o bunnau. Yn ystod y prawfiadau, y rhai a wnaed yn benaf gan Mr. Fairbairn, daeth ffeithiau newyddion a phwysig i'r golwg o werth ymarferol mawr. Yr oedd yn mryd Stephenson i ddefnyddio cadwyni cryfion yn y ddau ben, ac yr oedd Mr. Hodgkinson yn tueddu i fod o'r un feddwl ag ef gyda golwg ar hyn; ond dadleuai Mr. Fairbairn fod yn bossibl gwneyd chwibolau "digon cryfion i ddal, nid yn unig eu pwysau eu hunain, ond, yn chwanegol at hyny, ddwy fil o dynelli, wedi eu dosbarthu yn gyfartal dros eu holl waelod—llwyth deng waith mwy o bwysau nag y bydd byth eisieu iddynt i'w gynnal." Yr oedd Mr. Edwin Clark, yr hwn oedd yn gynnorthwywr galluog i Mr. Stephenson, yn edrych yn fanwl dros ganlyniadau pob prawf.

Ar y 10fed o Ebrill, 1846, y gosodwyd i lawr gareg sylfaen Pont Britannia; ac ar y 12fed o Fai dilynol y gosodwyd i lawr un pont Conwy. Yr oedd tua mil a phum cant (1,500) o bobl yn gweithio ar Bont Britannia yn unig. Dygid yr haiarn ati mewn llongau o Liverpool, marmor sir Fôn o'r Penmon, a'r dywodfaen goch o Runcorn. Wrth gyssylltu y chwibolau ynghyd, ni rybediwyd dim llai na dwy filiwn (2,000,000) o folltau heiyrn, yn pwyso dros naw cant (900) o dynelli. Perthyna i Bont Britannia ddau chwibol ochr yn ochr—pob un yn fil, pum cant ac un ar ddeg (1,511) o droedfeddi o hyd, ac yn pwyso pedair mil, chwe chant a phedwar ugain (4,680) o dynelli, a hyny yn annibynol ar yr ystramwaith o haiarn bwrw a roddwyd ar y gwaith maen sydd ar y tyrau, neu y colofnau, lle y gorphwysant. Gorphwysa y chwibolau anferth hyn ar ddau bentan ar y lan, ac ar dri o dyrau yn y dwfr, y canol o ba rai a elwir Tŵr Mawr Britannia, wedi ei adeiladu ar graig yn nghanol y culfor, tua dau cant a deg ar hugain (230) o droedfeddi o uchder. Y mae i'r bont bedwar rhychwant; mesura dau bedwar cant a thrigain (460) o droedfeddi bob un dros y dwfr, a'r ddau arall ddau cant a deg ar hugain (230) o droedfeddi dros y tir ar y lan. Y mae pwysau y rhychwantau mwyaf, yn y man lle y gorwedda y chwibolau ar y gwaith maen, yn fil pum cant a phedwar ugain a saith (1,587) o dynelli.

Cyffelyb ydyw pont Conwy i'r Britannia, yn cael ei gwneyd i fyny o ddau chwibol, wedi eu gosod ochr yn ochr, a phob un yn pwyso mil a chant a phedwar ugain o dynelli. Yr un egwyddor a fabwysiadwyd i'w gwneyd, a'r un moddion i'w codi i'w lle, ag a arferwyd gydag un y Britannia, er fod ychydig wahaniaeth yn nhrefniad cyffredinol y llafnau (*plates*) haiarn a ddefnyddiwyd.

Wrth gwrs, yr oedd codi y chwibolau i'w lleoedd yn orchwyl a barodd bryder dirfawr i feddwl Mr. Stephenson, ac ereill oedd yn cydweithredu âg ef. Ar y 6ed o Fawrth, 1848, yn mhresennoldeb Mr. Stephenson, Cadben Claxton, Mr. Brunel, ac amryw o beiriannwyr enwog ereill, a chyda y ddarpariaeth oedd ganddynt, llwyddasant i osod un pen i'r chwibol mawr cyntaf yn ei le rhwng y tyrau mewn ugain munyd o amser; 'ond yn anffodus, troes yn fethiant i roddi y pen nesaf i Gonwy yn ei le, o herwydd fod rhyw ddyryswch wedi cyfarfod y peiriannau a ddefnyddiwyd; ond llwyddwyd i adferu pethau i'w lle yn mhen pum niwrnod. Ac ar yr 16eg o Ebrill yr oedd y chwibol wedi ei godi i'w uchder, a rhoed y rheiliau arno; ac, ar y 18fed, aeth Mr. Stephenson â'r agerbeiriant drwyddo am y tro cyntaf. Wedi gosod y cyntaf yn ei le, yna aed yn mlaen at y gwaith o symmud a chyfodi yr ail, yr hyn a gwblhawyd mewn saith mis.

Yr oedd codi a gosod chwibolau y Britannia yn eu lleoedd yn anturiaeth llawer pwysicach, er fod y profiad a gafwyd yn Nghonwy yn gymhorth at hyny. Ni oddef ein gofod i ni ddisgrifio ac i fanylu ar y dull y dygwyd hyn oddi amgylch. Daeth miloedd o edrychwyr at lenydd culfor y Menai ar y 19eg o Fehefin, 1849. Llwyddwyd y pryd hwnw i symmud y chwibolau at waelod y pileri, ar ba rai y maent yn gorphwys yn awr, yr hyn a barai lawenydd dirfawr i feddwl Stephenson, ar ol ei holl bryder.

Digitized by Google

Disgrifiai ei deimlad ar ol hyn i'w gyfaill, Mr. Gooch, a dywedai:—"Yr oedd hon yn adeg bryderus iawn arnaf. Gorweddwn y nos, ond heb allu cysgu. Y chwibolau a lanwent fy mhen. Awn i'm gwely y nos, a chyfodwn y boreu, a dyna lle y byddent!" Pan nofiwyd y chwibol cyntaf, sylwai cyfaill wrtho:—"Y mae y gwaith mawr hwn wedi eich gwneyd ddeng mlynedd yn hynach." "Ni chysgais yn dda," atebai yntau, "er's tair wythnos." Y peth nesaf oedd codi y chwibol cyntaf i'w le; a gwaith oedd hwn a wnaed yn dra gochelgar ac araf. Peiriannau awellaidd *(hydraulic)* cryfion a ddefnyddiwyd at y gwaith hwn: neu, mewn geiriau ereill, peiriannau oedd yn codi y chwibol trwy nerth dwfr. Ni chyfodwyd ond ychydig droedfeddi arno ar unwaith, ac adeiledid yn ddiogelus dano cyn ei godi yn uwch. Pan y cyfodwyd ef i'r uchder o bedair troedfedd ar hugain yn y ffordd hon, cymmerodd damwain anghyffredin le. Torodd un o'r peiriannau, a disgynodd y chwibol i lawr; ac er nad oedd y cwymp hwn a gafodd ond naw modfedd, gwasgodd ddarnau o haiarn bwrw yn pwyso tynelli fel pe na buasent ond cynnifer o gnau. Plygodd y chwibol ei hunan ychydig, ond ni wnaed niwed yn y byd i'w wasanaethgarwch:—a rhyfeddod oedd iddo ddal cystal. Chwanegwyd trwy y ddamwain hon tua phum mil o bunnau at y draul. Yr oedd y cyfan, pa fodd bynag, i fyny erbyn y 5ed o Fawrth, 1850, pan y rhoddodd Stephenson ei hun yr hoel ddeupen *(rivet)* ddiweddaf yn y gwaith; ac aeth drwy y bont orphenedig, ac ynghylch mil o bobl gydag ef, yn cael eu tynu gan dri pheiriant. Agorwyd y gwaith i gario yn mlaen fasnach ar y 18fed o Fawrth. Yr holl draul yr aed iddi gyda'r bont yma oedd 234,450*p*. Y mae'n ddiau fod y bont hon yn un o'r gweithiau sydd yn amlygu mwyaf o fedrusrwydd ac anturiaeth o ddim a wnaed yn y ganrif hon; ac i Stephenson y perthyna yr anrhydedd o fod yn gynllunydd iddi, er fod ganddo gynnorthwywyr medrus a galluog yn cario allan y manylion. Ond efe ei hun oedd yn gyfrifol am fethiant neu lwyddiant y cynllun.

Pan ddaeth Robert Stephenson i feddiant o'r glofeydd mawrion, a'i ran yn ngweithfa beirianyddol Newcastle, ar farwolaeth ei dad, yr oedd yn gyfoethog iawn; er hyny, parhau i fyw yn dawel a hynod o ddirodres yr oedd; ac yr oedd ei gyfoeth yn chwanegu yn feunyddiol. Er ei fod yn awyddus i ymneillduo, etto teimlai fod yn anhawdd tori cyssylltiadau ag yr oedd pum mlynedd ar hugain o fywyd gweithgar iawn wedi ei ddwyn iddynt, ac nis gallai ymryddhau yn hollol. Gwnaeth wedi hyn ddwy o bontydd cyffelyb i rai Conwy a Britannia yn Canada, ac yn yr Aipht. Pont Victoria, dros yr afon St. Lawrence, yn Canada, o ba un yr oedd Robert Stephenson yn gynllunydd ac yn brif beiriannydd, ydyw y gwaith mwyaf o'r fath o fewn y byd. Hwyrach nad oes dim i'w gymmharu iddo mewn hyd a nerth wedi bod yn y byd, mewn amseroedd hen na diweddar. Y mae holl hyd y bont, o fewn trigain llath, yn ddwy filldir—neu bum waith yn hwy na Phont Britannia, dros gulfor y Menai. Y mae iddi bedair rhychwant ar hugain, o ddau cant a dwy a deugain (242) o droedfeddi bob un, ac un rhychwant mawr yn y canol yn mesur tri chant a deg ar hugain o droedfeddi. Y mae chwibolau y ffordd haiarn hon wedi eu gosod drigain troedfedd uwch law lefel yr afon St. Lawrence, yr hon a lifa oddi tani yn ol y cyflymder o ddeng milldir yr awr, ac a ddwg i lawr gyda hi yn y gauaf rew oddi ar lynau ac afonydd yn mesur dwy fil o filldiroedd ysgwâr. Pwysa yr haiarn sydd yn y chwibolau tua deng mil o dynelli, a gorphwysant ar golofnau cryfion o waith maen. Yr holl draul yr aed iddo i wneyd y gwaith anferth hwn oedd 1,300,000*p*. Y mae y bont hon ar ffordd haiarn y *Grand Trunk*, Canada, yr hon sydd dros fil a dau gant (1,200) o filldiroedd o hyd, ac yn cyrhaedd o lanau y Werydd i wastattiroedd ffrwythlawn y gorllewin. Ond gan fod yr afon yn rhewi drosti am chwe mis o'r flwyddyn, yr oedd y cymmundeb rhwng y naill gŵr o'r wlad a'r llall yn cael ei dori am yn agos yr ysbaid hwn o amser. Robert Stephenson oedd cynllunydd y bont fawreddog hon; ac yr oedd Mr. A. M. Ross yn gydbeiriannydd, ac yn arolygydd y gwaith yn ei ddygiad yn mlaen. Dechreuwyd y gweithiau mewn cyssylltiad â Phont Victoria ar yr 22ain o Orphenaf, 1854, pryd y gosodwyd i lawr y gareg gyntaf; a gorphenwyd y gwaith mewn pum mlynedd a hanner, sef ar yr 17eg o Ragfyr, 1859, pan y cymmerwyd y bont o ddwylaw yr adeiladwyr. Agorwyd hi yn ffurfiol i fasnach yn gynnar yn 1860; ond ni bu y cynllunydd fyw i weled ei gorpheniad. Adeiladodd Mr. Stephenson ddwy bont ar gynllun cyffelyb dros y Nilus hefyd, ger llaw Damietta, yn yr Aipht Isaf.

Yr oedd Stephenson, yn mlynyddoedd olaf ei oes, yn talu cryn sylw i achosion cyhoeddus, ac yn cymmeryd dyddordeb mewn ymchwiliadau gwyddonol. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Whitby, yn 1847; ond nid ymddengys iddo fod yn hynod ofalus am roddi ei bresennoldeb yno. Y tro diweddaf yr anerchodd y tŷ oedd ar gamlas Suez, a glanhâd yr afon Serpentine. Nid oedd efe yn meddwl fod gwneyd camlas trwy yddfdir Suez yn debyg o atteb y dyben, am nad oedd yn credu fod disgyniad rhwng y ddau fôr: ond hyd yn hyn (1875) y mae yn ymddangos ei fod wedi camgymmeryd, gan fod y gamlas wedi ei hagor er's blynyddoedd, a llongau yn morio yn ddiogel drwyddi. Gwel SUEZ. Bu brenhinoedd Belgium a Sweden yn ymgynghori gydag ef mewn perthynas i ffyrdd haiarn yn eu gwahanol wledydd hwy, ac anrhydeddwyd ef gan y blaenaf trwy ei wneuthur yn farchog o urdd Leopold; a chan yr olaf â chroes fawr urdd St. Olaf. Ymwelodd â Switzerland, Piedmont, a Denmarc, i ymgynghori â'r awdurdodau ynghylch trefniadau ffyrdd haiarn yn y gwledydd hyny. Yn arddangosfa Paris, yn 1855, anrhydeddwyd ef gan yr ymherawdwr Napoleon âg urdd y *Legion of Honour*. Gwnaed ef yn LL.D. gan brifysgol Rhydychain. Yn y fl. 1855, etholwyd ef yn llywydd sefydliad y Peirianwyr Dinesig. Yr oedd y pwys mwyaf yn cael ei osod ar ei farn ar bob peth yn dal cyssylltiad â ffyrdd haiarn, yn gystal o herwydd ei brofiad helaeth ag ar gyfrif cywirdeb ei gymmeriad. Yr oedd yn naturiol o dymmer garedig a chymmwynasgar; ac un diwrnod, ar wahoddiad ei gyfaill Mr. Brunell, aeth Stephenson i Blackwall, i ymgynghori, i arolygu, ac i gydweithredu gydag ef yn y gwaith o wthio y *Great Eastern* i'r môr; ac arosodd yno hyd yr hwyr. Tua chanol y dydd, tra yn arolygu y gwaith, llithrodd oddi ar ddarn o bren y safai arno, a suddodd at ei hanner i laid yr afon Tafwys. Nid oedd ganddo ond ei ddillad ysgeifn arferol am

Digitized by Google

dano, er fod y diwrnod yn oer y tu hwnt i'r cyffredin. Cymmhellwyd ef i adael y lle i newid ei wisg; ond nid aeth efe. A'r canlyniad a fu iddo gael ymosodiad o ennyniad yr ysgyfaint, yr hyn a'i cyfyngodd i'w wely am bythefnos. Yr oedd yn gyffredin yn rhy ddiofal am ei iechyd. Pan hwyliodd i Norway, yn nghynhauaf y flwyddyn 1859, modd bynag, er nad oedd ei iechyd yn gryf, efe a edrychai yn weddol dda. Ond pan ddaeth yr amser iddo ddychwelyd, yr oedd ei afiechyd marwol wedi ymaflyd ynddo. Dioddefodd oddi wrth afiechyd yr afu, yr hyn a droes yn gryd melyn, ac wedi hyny yn ddyfrglwyf, o'r hwn y bu farw ar y 12fed o Hydref, 1859, yn yr unfed flwydd ar bymtheg a deugain o'i oedran. Cafodd ei gladdu yn ochr Telford, y peiriannydd enwog, yn mynachlog Westminster; ac yr oedd lliaws o brif ddynion Prydain yn ei angladd.

Yr oedd Robert Stephenson yn hynod am ei garedigrwydd a'i ysbryd haelfrydig. Mewn cymdeithas, yr oedd yn syml, dirodres, a swynol; ac yn gallu ennill serch y rhai y deuai efe i gyffyrddiad â hwy i raddau pell. Yn gymmaint a'i fod yn berchen cyfoeth mawr, galluogid ef i wneuthur llawer o weithredoedd haelfrydig, ond yn wastad yn hynod o dawel a didrwst. Cynnygiwyd iddo ef, yn gystal a'i dad, gael ei wneyd yn farchog; ond gwrthododd y naill a'r llall yr anrhydedd.

STERNE, LAWRENCE, ydoedd orŵyr i Dr. Richard Sterne, archesgob Caerefrog, yr hwn a fu farw yn 1683. Ganwyd ef yn Clonmel, yn yr Iwerddon, ar y 24ain o Dachwedd, 1713. Yr oedd ei dad yn is-gadben yn y fyddin. Ar ol derbyn rhyw ychydig o addysg elfenol gartref, anfonwyd ef i'r ysgol i Halifax yn y fl. 1723. Er fod Sterne yn Sais o ran ei haniad, yr oedd wedi ei eni yn yr Iwerddon, a threuliodd ei fywyd yn y wlad hono nes bod yn ddeng mlwydd oed. Aeth i Goleg yr Iesu, Caergrawnt, yn 1733, a graddiodd yn A. C. yn 1740. Trwy ddylanwad ewythr iddo, cafodd fywoliaeth Sutton, a chôrberigloriaeth yn Eglwys Gadeiriol Caerefrog. Priododd yn 1741, ac yn fuan ar ol hyny cyflwynwyd iddo fywoliaeth Stillington, yn swydd Gaerefrog, o ddeutu milldir a hanner o bellder o Sutton; a dywed Sterne ei hun ei fod wedi cyflawni dyledswyddau ei swydd glerigol yn y ddau blwyf am flynyddoedd meithion. Cyhoeddodd ei gyfrolau cyntaf o "*Tristram Shandy*," yn 1759; ac er ei fod wedi ei gyhoeddi yn ddienw, yr oedd yn ddealledig o'r dechreu mai Sterne oedd ei awdwr; a chyfododd y gwaith hwn ef ar unwaith o ddinodedd, a gwnaeth ef yn enwog. Yn y blynyddoedd dilynol, efe a gyhoeddodd amryw gyfrolau o bregethau, a'r cyfrolau ereill o "*Tristram Shandy.*" Yn 1768, daeth allan ei "*Sentimental Journey;*" gwaith, dybygid, a ddygodd gryn lawer o elw iddo. Yr oedd ei iechyd yn gwaelu er's peth amser, ac ni chafodd fyw ond prin i weled y gwaith diweddaf o'r wasg; canys bu farw yn Llundain ar y 18fed o Fawrth, 1768, a chladdwyd ef yn y gladdfa newydd a berthynai i blwyf St. George, Hanover square. Yr oedd ei ffraethineb a'i ysmaldod, fel y daw i'r golwg yn ei ysgrifeniadau, yn gyffelyb i'r eiddo Rabelais, neu Cervantes, neu Swift. Ei waith penaf ydyw ei "*Tristram Shandy;*" er fod estroniaid a thramorwyr yn ystyried ei "*Sentimental Journey*" y rhagoraf o'r ddau.

STEWART, DUGALD: athronydd meddyliol enwog. Mab ydoedd i Dr. Matthew Stewart; a ganwyd ef yn Edinburgh, ar yr 22ain o Dachwedd, 1753. Addysgwyd ef yn yr ysgol fawr yn y ddinas hono; ac yr oedd y cynnydd a wnaeth mewn mesuroniaeth a dysgeidiaeth glasurol y fath ag i godi disgwyliadau ei gyfeillion yn uchel am ei enwogrwydd dyfodol. Gwrandawodd ar Dr. Reid yn traddodi cyfres o ddarlithiau yn Glasgow, yn 1772; yr hyn a ennynodd ynddo awyddfryd cryf i astudio uchanianaeth, neu athroniaeth feddyliol. Yr ydoedd y pryd hwnw yn 19eg oed. Ar ol gorphen ei efrydiau yn Glasgow, cymmerodd ofal y dosbarthiadau mesuronyddol a ddysgid hyd hyny gan ei dad yn mhrifysgol Edinburgh; a phan oedd yn un ar hugain oed, pennodwyd ef yn athraw mesuronyddol. Pan oedd Stewart yn 25ain, appwyntiwyd Dr. Ferguson yn ysgrifenydd i'r dirprwywyr a wnaent gyttundeb heddwch rhwng y wlad hon a Gogleddbarth America, a galwyd ar Stewart i lanw ei le ef, fel athraw athroniaeth foesol, yn ei absennoldeb. Ac yn ystod cwrs efrydiaeth 1778—9, heb law dysgu ei ddosbarthiadau mesuronyddol ei hun, a'r un ar serydd-iaeth, efe a ddarlithiai ar foesddysg yn lle Dr. Ferguson. Myfyriai ar destyn ei ddarlith bob boreu, ac anerchai ei ddysgyblion heb fwy na hyny o ragbarotoad. Rhoddodd ei ddarlithiau y fath foddlonrwydd, fel, ar ymddiswyddiad Dr. Ferguson, yn 1785, yr appwyntiwyd ef yn olynydd iddo. Yr oedd ar y pryd yn ddeuddeg mlwydd ar hugain oed, ac yn nodedig o boblogaidd fel athraw. Yr oedd yr ystafell y darlithiai ynddi yn cael ei gorlenwi, ac ymledodd ei glod trwy holl Brydain cyn iddo gyhoeddi dim erioed. Y gyfrol gyntaf o'i "*Elements of the Philosophy of the Human Mind*" oedd y gwaith cyntaf a gyhoeddodd, yn 1792. Ymdrinwyd â'r pwngc mewn iaith brydferth a hyawdl, a defnyddiwyd cyflawnder o egluriadau cyfoethog, oedd yn mwy na gwneyd iawn i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr am y diffygion oedd ynddo mewn treiddgarwch a dyfnder: yn wir, yr oedd ei ddiffygion yn gynnorthwyon i'w boblogrwydd, canys ni osodai efe dreth fawr ar alluoedd damcaniaethol y darllenydd.

Yn y flwyddyn ddilynol (1793) cyhoeddodd Stewart ei "*Outlines of Moral Philosophy,*" fel gwerslyfr i'w ysgolheigion; ac yn ddilynol i hyny efe a gyhoeddodd fywgraphiadau o Adam Smith, Dr. Robertson, a Dr. Reid. Ymddangosodd y rhai hyn gyntaf yn y "*Philosophical Transactions,*" ac argraphwyd hwynt wedi hyny ar wahân. Yr oedd yn ddiball yn ei weithgarwch; ac yn 1800, dechreuodd draddodi darlithiau ar drefniedydd gwladol, yn chwanegol at ei ddyledswyddau ereill; ond ni chanlynodd yn mlaen gyda'r rhai hyn. Ar amryw o achlysuron, pan y byddai ei gydathrawon yn glaf, traddododd ddarlithiau ar anianyddiaeth naturiol, a rhesymeg, a rheitheg. Yn ngauaf 1808—9, o alar am golli mab addawol, bu yn lled wael ei iechyd, a bu raid iddo gael un i wasanaethu yn ei le. Wrth weled nad oedd ond ychydig o olwg ar iddo gael adferiad, efe a ymddiswyddodd yn hollol; ac enwyd Dr. Thomas Brown i fod yn olynydd iddo yn Mai, 1810. Wedi ymryddhau fel hyn oddi wrth ofalon bywyd cyhoeddus, preswyliodd yn barhaus yn Kinneil House, ar lan yr afon Forth, ynghylch ugain milldir o Edinburgh, lle y dilynai yn mlaen gyda'i hoff efrydiau. Daeth ffrwyth yr ymneill-

Digitized by Google

dwad hwn yn fuan i'r golwg: ymddangosodd y gyfrol gyntaf o'i "*Philosophical Essays*" yn 1810. Nid oedd Stewart ei hun yn coleddu rhyw feddwl mawr am y gwaith hwnw; etto, ynddo ef, o bossibl, y darfu iddo brofi ei hawl i'r teitl o athronydd meddyliol egluraf. Yn ol barn Mackintosh a Cousin, dyma ei brif waith. "Mewn traethodau o'r natur yma," medd y blaenaf, "y mae wedi rhagori yn benaf ar ereill a ddiwylliasant athroniaeth feddyliol. Gellir nodi ei sylwadau ar gymdeithasiadau damweiniol fel enghreifftiau o'r syniadau mwyaf gwreiddiol a chywir, wedi eu cyfleu yn y modd goreu." Dygwyd allan dri argraphiad o'r gwaith hwn mewn saith mlynedd. Yn 1814, daeth allan yr ail gyfrol o'i "*Elements of the Philosophy of the Human Mind;*" ond ni chafodd cystal derbyniad a'r gyntaf. Yn 1815 yr ymddangosodd ei "*Preliminary Dissertation*" yn yr "*Encyclopædia Britannica,*" lle yr ymdrinia â chynnydd uchanianaeth a moesddysg er yr amser y bu adnewyddiad ar lenyddiaeth; yr hwn, er y diffygion sydd ynddo, a ystyrir gan Syr James Mackintosh y mwyaf ysblenydd o weithiau Stewart. Cafodd ergyd o'r parlys yn 1822; ond yn 1827, cyhoeddodd ei drydedd gyfrol o'i "*Elements.*" Yn 1828, ychydig o wythnosau cyn ei farwolaeth, cyhoeddodd ei "*View of the Active and Moral Powers*"—i'r hwn y gellir codi lleiaf o wrthwynebiadau, fe allai, o'i holl weithiau. Y mae yn fwy trefnus, a chynnwysa fwy o wirioneddau newydd nag un o'i weithiau ereill ar athroniaeth feddyliol. Nid ydyw yn waith dwfndreiddiol, ond y mae yn hynod o ddymunol a hyfryd i'w ddarllen. Bu farw Dugald Stewart ar yr 11eg o Fehefin, 1828, yn y 75ain mlwydd o'i oedran, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Canongate, Edinburgh.

Y mae edmygwyr Dugald Stewart yn ymhyfrydu i'w alw yn Plato yr ysgol Ysgotaidd; ac y mae ganddo yn ddiau gymmaint o hawl i'r teitl hwnw ag oedd gan Reid i gael ei alw yn Socrates. Er na ddarfu iddo ddarganfod unrhyw elfenau pwysig oedd wedi eu gadael yn ddisylw gan ereill, na gwneyd i fyny un gyfundrefn reolaidd o ddarganfyddiadau ei ragflaenoriaid yn yr un maes, etto yr oedd ei ddylanwad yn un iachusol, o herwydd darfu iddo. nid yn unig gryfhau y rhanau gweiniaid yn moesddysg Ferguson a Reid, ond hefyd gwnaeth syniadau arddansoddol Reid yn llai gwrthwynebus a chymmysglyd, a pharodd i athroniaeth feddyliol fod yn fwy deniadol trwy yr arddull swynol yn mha un yr ysgrifenai. Y mae diffyg o ddyfnder, ac, yn wir, o allu damcaniaethol cryf, yn amlwg yn ysgrifeniadau Stewart, ac y mae yr anghyssonderau amlycaf sydd yn ei egwyddorion yn profi ei fod i raddau yn ddiffygiol mewn galluoedd rhesymegol o'r radd uchaf; ond y mae ei arddull brydferth a'i ddifrifwch tawel yn wastad yn peri fod ei weithiau yn ddyddorol iawn i efrydwyr.

STILLINGFLEET, EDWARD, esgob dysgedig Worcester, ydoedd fab i Samuel Stillingfleet. Ganwyd ef yn Cranbourne, yn swydd Dorset, ar yr 17eg o Ebrill, 1635. Addysgwyd ef yn ysgolion grammadegol Cranbourne a Ringwood; ac yn 1648, aeth i goleg St. Ioan, Caergrawnt, a chafodd gymmrodoriaeth ynddo yn 1653. Ar ol cymmeryd ei radd o A. C., bu yn athraw yn nheuluoedd Syr Roger Burgoyne, o Wroxhall, a'r anrhyd. Francis Pierrepoint, o Nottingham. Yn y lle diweddaf yr oedd pan y dechreuodd ei "*Irenicum.*" Cyflwynwyd iddo berigloriaeth Sutton gan Syr R. Burgoyne, yn 1657. Dechreuodd Stillingfleet ei fywyd cyhoeddus fel pleidiwr golygiadau cymmedrol ar achosion eglwysig. Cyhoeddodd ei "*Irenicum*" yn 1659, yn yr hwn y dadleuai nad oes un ffurf neillduol o lywodraeth eglwysig yn cael ei happwyntio yn y Testament Newydd. Ystyriai y blaid uchel-Eglwysig yn Eglwys Loegr fod y llyfr hwn yn sawru gormod o Bresbyteriaeth; ac er eu mwyn hwy, galwodd yr awdwr ef yn ol wedi hyny. Dywedai, wrth wneyd hyny, fod "llawer o bethau ynddo, pe buasai efe yn eu hysgrifenu drachefn, na buasai yn eu dyweyd; rhai pethau yn dangos ei fod yn ieuangc, ac yn amlygu diffyg o ystyriaeth briodol; a phethau ereill yn y rhai y rhoddai ffordd yn ormodol, gyda'r gobaith o ddenu y pleidiau Ymneillduol yn ol i Eglwys Loegr." Y gwaith ar ba un y mae ei gymmeriad yn gorphwys yn benaf, fodd bynag, ydyw, ei "*Origines Sacræ, or Rational Account of the Christian Faith as to the Truth and Divine Authority of Scriptures,*" yr hwn a gyhoeddwyd yn 1662. Yr oedd yn ei fryd fyned yn mlaen yn mhellach gydag ef, ond bu farw cyn rhoddi y bwriad mewn grym. Ystyrir y gwaith hwn hyd heddyw yn un o'r amddiffyniadau gwerthfawrocaf o wirionedd yr Ysgrythyrau, er ei fod yn fwy cymmhwys i'r myfyriwr duwinyddol nag ydyw i'r darllenydd cyffredin.

Dadleuydd mawr a fu Stillingfleet yn ystod y rhan fwyaf o'i oes. Yr oedd ei ddwylaw yn llawn o hyd gyda'r Pabyddion ar un llaw, a'r Anghydffurfwyr ar y llall. Yn 1664, ymddangosodd ei "*Rational Account of the Protestant Religion,*" gwaith a dderbyniwyd yn ffafriol iawn gan y Protestaniaid. Rhoddwyd iddo berigloriaeth St. Andrews, Holborn, ac appwyntiwyd ef yn bregethwr yn Nghapel y Rholiau yn 1665; ac wedi hyny pennodwyd ef yn ddarlithydd yn eglwys y Temple, ac hefyd yn gaplan teuluaidd i Siarl II. Graddiwyd ef yn ddoctor mewn duwinyddiaeth yn 1668, ac appwyntiwyd ef yn ganon eglwys gadeiriol St. Paul yn 1670, ac yn ddeon yn yr un lle yn 1678. Traddododd bregeth ar *Phil.* iii. 16 o flaen arglwydd faer Llundain, yn 1680, yr hon a gyhoeddwyd ganddo o dan yr enw "*Mischief of Separation.*" Cynnwysai y bregeth hon ymosodiad tost ar yr Anghydffurfwyr, y fath na buasai neb yn ei ddisgwyl oddi wrth awdwr yr "*Irenicum.*" Fel hyn y sylwa Orme ar hyn yn ei "*Life of Baxter:*"—"Yr oedd periglor Sutton, yr hwn a ysgrifenodd yr '*Irenicum,*' pan nad oedd Eglwys Loegr ond sect yn mhlith sectau ereill, yn ddyn tra gwahanol i ddeon St. Paul, pan yn dadleu yr afresymoldeb o ysgaru oddi wrth eglwys a farnai efe yn apostolaidd. Mae yn y naill yn anadlu ysbryd cymmedrol, ac yn arfer iaith berswadiol; tra yn y llall yn llym, yn erwin, ac yn anghymmodlawn" [td. 632]. Attebwyd y bregeth hon gan Owen, Baxter, Howe, ac Anghydffurfwyr enwog ereill. Attebodd Stillingfleet ei wrthwynebwyr mewn cyfrol bedwar plyg, o dan y teitl "*The Unreasonableness of Separation;*" a chyhoeddodd Baxter attebiad galluog i'r gwaith hwn; a chymmerodd amryw ysgrifenwyr ereill y pwngc i fyny ar yr un ochr i'r cwestiwn.

Yn 1685, cyhoeddodd y deon ei "*Origines Britannicæ, or the Antiquities of the British*



Digitized by Google

*Churches,*" yn yr hwn y rhoddir adroddiad llawn o hanes eglwysig boreuol Prydain, o ddyfodiad cyntaf Cristionogaeth iddi hyd ddychweliad y Sacsoniaid. Y mae yn ymwrthod â llawer o'r traddodiadau a geir am yr eglwysi Prydeinig, ond yn tueddu i gredu fod yr apostol Paul wedi bod yma. Ar ol chwyldroad 1688, gwobrwywyd gwasanaeth Stillingfleet i'r achos Protestanaidd trwy ei ddyrchafu yn esgob Worcester. Ymosododd yntau yn ddioed i geisio diwygio yr annhrefn oedd yn yr esgobaeth, a chadwodd ei gymmeriad areithyddol yn Nhŷ yr Arglwyddi; ond medrai fforddio amser er hyny i ddwyn yn mlaen ei ddadleuon. Bu farw Stillingfleet o'r droedwst, yn Westminster, ar y 27ain o Fawrth, 1699. Claddwyd ef yn eglwys gadeiriol Worcester, lle y cyfododd ei fab gofadail brydferth iddo.

Yr oedd cymmeriad y gŵr hwn yn gyfryw ag a barai i'w wrthwynebwyr ei ganmawl; ac hwyrach y ceir mwy o eglurhâd gwirioneddol ar ei werth a'i ragoriaeth yn nhystiolaeth Howe nag a geir hyd yn oed yn y beddargraph a gyfansoddwyd gan Bentley iddo. Y mae ei weithiau yn profi ei ddiwydrwydd a'i ddysg. Heb law y gweithiau a grybwyllir uchod, efe a ysgrifenodd amryw o draethodau duwinyddol. Argraphwyd ei weithiau mewn chwech o gyfrolau mawr yn 1710, a chyhoeddwyd cyfrol arall o'i fân weithiau, gan ei fab, yn y flwyddyn 1735.

STOICIAID. Y mae y Stoiciaid a'r Epicureaid, y rhai a grybwyllir gyda'u gilydd yn *Act.* xvii. 18, yn gosod allan ddwy ysgol gyferbyniol o athroniaeth ymarferol, y rhai a oroesasant gwymp damcaniaethau uwch yn Ngwlad Groeg. Sylfaenwyd yr ysgol Stoicaidd gan Zeno o Citium, yn y flwyddyn c. c. 260, a derbyniodd ei enw oddi wrth yr ystafell golofnog baentiedig yn yr hon y byddai efe yn dysgu ei ddysgyblion. Dilynwyd Zeno gan Cleanthes (c. c. 260), a Cleanthes gan Chrysippus (c. c. 240), yr hwn a ystyrid fel sylfaenydd arbenig y gyfundrefn Stoicaidd. Yn fuan, cafodd Stoiciaeth fynediad i mewn i Rufain. Diogenus Babilonius, un o ysgolheigion Chrysippus, oedd ei chynnrychiolydd yn y genhadaeth enwog o athronyddion, yn y flwyddyn c. c. 161; a chyn hir ar ol hyny yr oedd Panætius yn gyfaill i Scipio Affricanus yr ieuangaf, a llawer ereill o'r prif ddynion yn Rhufain. Ei olynydd, Posidonius, a rifai Cicero a Pompey yn mhlith ei ysgolheigion; ac o dan yr ymherodraeth, cyssylltwyd Stoiciaeth â rhinwedd gwerinol. Gwnaeth Seneca (B. A. 56) a Musonius lawer tuag at wneyd addysg foesol yr ysgol yn boblogaidd trwy eu hysgrifeniadau; ond gwir ogoniant y Stoiciaid diweddar ydyw Epictetus (B. A. 115)—y cofnodion o athrawiaeth yr hwn sydd yn ffurfio y gofadail ardderchocaf o foesoldeb paganaidd. Mabwysiadwyd gorchymynion Epictetus gan Marcus Aurelius (B. A. 121—180), yr hwn a ymdrechodd i ffurfio ei fywyd cyhoeddus trwy eu harweiniad. Gyda'r ymdrech olaf cyrhaeddodd Stoiciaeth ei heithafnod a'i diwedd. Gwel ATHRONIAETH.

Tybiwyd gan lawer un fod cyssylltiad agos rhwng cyfundrefn foesol y Stoiciaid a moesoldeb Cristionogaeth; ac y mae yn rhaid cyfaddef fod cryn debygolrwydd allanol rhwng rhai o orchymynion y naill a'r llall. Ond y mae moesoldeb Stoiciaeth wedi ei sylfaenu yn hanfodol ar falchder—ond moesoldeb Cristionogaeth ar ostyngeiddrwydd. Y mae un yn dal annibyniaeth personol—y llall ffydd hollol mewn un arall; y mae un yn edrych am gysur mewn tynged—a'r llall mewn rhagluniaeth.

Ond er gwaethaf cyfeiliornad hanfodol Stoiciaeth, yr hwn sydd yn gorwedd mewn hunanoldeb, bu addysg yr ysgol hon yn foddion i roddi lledaeniad eang i'r athrawiaethau ardderchog am Dadolaeth Duw, brawdoliaeth cyffredin dynolryw, a phenaduriaeth yr enaid. Ac ni ddylid anghofio fod cyssylltiad agos rhwng y Stoiciaid boreuol â'r dwyrain, o ba le yr ymddengys fod llawer o ffurf, os nad hanfod eu hathrawiaethau wedi tarddu. Brodor o Citium, un o'r sefydliadau Phœniciaidd hynaf, oedd Zeno ei hun. O Soli, neu Tarsus, y daeth ei olynydd Chrysippus; a chrybwyllir am Tarsus fel lle genedigaeth ail Zeno ac Antipater. O Seleucia, yn Babilon, y daeth Diogenes; o Apamea, yn Syria, y daeth Posidonius; ac o Hierapolis, yn Phrygia, y daeth Epictetus.

STOW, JOHN: hynafiaethydd enwog. Ganwyd ef yn Llundain, tua'r fl. 1525. Perthynai Thomas Stow, ei dad, i gwmni y *Merchant Tailors;* ac ymddengys fod ei dad a'i daid yn fasnachwyr cefnog, canys yr oedd cofadeiliau o'r ddau yn eglwys St. Michael, Cornhill. Y mae yn sicr fod Stow, yn ei ddyddiau boreuol, wedi bod yn dilyn rhyw gelfyddyd; a gelwir ef mewn modd pendant yn ddilledydd yn un o ysgrifeniadau cofnodol yr oes hono. Tybiai ei gydoeswyr ei fod yn teimlo ymlyniad wrth y grefydd Babaidd; ond os felly, y mae yn sicr nad oedd yn Babydd penboeth—ac yn mhlith ei noddwyr a'i gyfeillion rhifai rhai o benaethiaid yr Eglwys Sefydledig, i'r hon y proffesai yntau ei fod yn perthyn. Ymroddodd yn egniol i astudio hynafiaethau ei wlad, a noddwyd ef gan yr archesgob Parker; a phan oedd tua deugain mlwydd oed, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, troes heibio ei alwedigaeth yn hollol, i'r dyben o ymroddi i ddilyn ei hoff efrydiau mewn hynafiaethau. Ei waith cyntaf oedd ei "*Summary of the Chronicles of England,*" yr hwn a helaethwyd ganddo yn 1600, ac a gyhoeddwyd o dan y teitl "*Flores Historiarum, or Annals of this Kingdom from the time of the Ancient Britons.*" Yn 1598 yr ymddangosodd yr argraphiad cyntaf o'i "*Survey of London,*" yr hwn a ail argraphwyd yn 1603. Costiodd y gweithiau hyn ymchwiliad a llafur dirfawr iddo. Dywed Dr. David Powel, yn ei "*History of Cambria,*" yr hwn a gyhoeddwyd yn 1584, iddo ef gael cynnorthwy pwysig gan Stow, yr hwn a fenthyciodd iddo lawer o ysgrifeniadau hanesyddol, a fuont yn dra gwasanaethgar iddo i ddwyn allan ei waith. Yr oedd Stow wedi dyfod i feddiant o lawer o lawysgrifau cywrain a gwerthfawr—rhai o honynt yn wreiddiol, a'r lleill wedi eu hysgrifenu ganddo ef ei hun; ac yn mhlith y rhai diweddaf, gellir enwi y chwe chyfrol sydd yn "*Collectanea*" Leland, y rhai a werthwyd ganddo i Camden am y swm o wyth bunt yn flynyddol tra y byddai efe byw.

Y mae y caledi yr oedd Stow ynddo yn ei hen ddyddiau yn adnabyddus. Gadawyd yr olrheiniwr craff a llafurus hwn i hynafiaethau ei wlad, a'r darluniwr cywir a ffyddlawn o ddefodau ac arferion ei oes ei hun, wedi iddo gyrhaedd ei bedwar ugain mlwydd oed, i gardota ei fara yn llythyrenol. Y mae Strype yn cyfeirio at lythyr breintiedig oddi wrth Iago I., o

Digitized by Google

fyny mewn hinsawdd dyner, ei fod yn alluog i wynebu rhwystrau a chaledi. Ar yr 16eg o Orphenaf, 1745, efe a laniodd ar ororau Lochaber, yn Ysgotland; ac wedi cyrhaedd i Perth, efe a gyhoeddodd yno ddadganiad, yn yr hwn yr arddelwai ac yr eglurai ei hawl i orsedd Prydain. Ymunodd ynghylch mil a phum cant (1,500) o bresylwyr yr ucheldiroedd o dan ei faner, ac aeth yn mlaen tuag Edinburgh; ond er iddo allu cymmeryd y ddinas, methodd a chymmeryd y castell, er ei holl ymdrechion. Syr John Cope oedd cadlywydd y byddinoedd yn Ysgotland ar y pryd, yr hwn a brysurodd yn erbyn yr ymhonwr ieuangc, a chyfarfu âg ef yn Preston Pans; ond gorchfygwyd ef gan yr olaf. Calonogodd hyn y gwrthryfelwyr, a chwanegwyd eu rhif i'r fath raddau fel yr aethant yn mlaen tua Lloegr, ac y gosodasant Carlisle o dan warchau, yr hon a ymostyngodd mewn llai na thri diwrnod. Aeth Charles Edward oddi yno i Penrith; ac wedi hyny aeth yn mlaen mor bell a Manchester, lle y sefydlodd efe ei benadlys, ac ymunodd tua dau gant o Saeson âg ef, o dan arweiniad y Milwriad Townley. Yna cymmerodd ei gwrs tua Derby, gyda'r amcan o fyned trwy Gaerlleon i Gymru, lle y disgwyliai gyfarfod â chryn nifer o'i bleidwyr. Ni chariwyd y bwriad hwn i weithrediad, pa fodd bynag: ac nid aeth yn mlaen tua Llundain chwaith, lle yr oedd llawer yn cydymdeimlo â'i achos ef, a chawsai ei groesawu ganddynt. Ond yn lle gwneyd y naill na'r llall, gwastraffu ei amser a wnaeth i ddim dyben; a phan glywodd fod y brenin yn parotoi i gymmeryd y maes yn ei erbyn, efe a enciliodd yn ol i Ysgotland, lle y gorchfygodd y fyddin Saesnig, o dan Hawley, yn Falkirk. Nid oedd y llawenydd a deimlwyd mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon ond o fyr barhâd, o herwydd yn y cyfamser yr oedd y Duc o Cumberland yn prysuro tuag Edinburgh, ac oddi yno i Aberdeen, a'r Ymhonwr yn encilio o'i flaen. O'r diwedd, cyfarfu y ddwy fyddin ar wastadedd Culloden, ger llaw Inverness. Dechreuodd y frwydr tua hanner dydd, Ebrill 16eg, 1746, pan y gwnaeth magnelau y Saeson anrhaith ofnadwy ar yr Ucheldirwyr, y rhai a ymladdasant gyda dewrder anghyffredinol; ond yn y diwedd byddin y brenin a orchfygodd, a ffodd yr Ysgotiaid, gan adael tair mil o laddedigion ar y maes. Cyhuddir y gorchfygwr o fod wedi cydsynio i'r Ysgotiaid i gael eu rhoddi i farwolaeth mewn gwaed oer, ac o arfer creulondeb mawr. Gydag anhawsder y medrodd Charles Edward ddiangc; ac ar ol crwydro o le i le, yn ynysoedd yr Hebrides yn benaf, medrodd ffoi i Ffraingc, ac fel hyn y darfu am holl obaith teulu Stuart i adfeddiannu coron eu hynafiaid. Pan y gwnaed heddwch rhwng y wlad hon a Ffraingc, bu raid iddo fyned i Rufain, lle y priododd gyda thywysoges o deulu Stolberg. Ni bu yr undeb priodasol hwn yn un hapus; ac yn niwedd ei oes yr oedd y tywysog yn dueddol i yfed diodydd meddwol i ormodedd. Mynegir iddo ymweled yn ddirgelaidd â Llundain yn y fl. 1759; ac er fod y gweinidogion a'r brenin yn hysbys o hyny, ni ddarfu iddynt wneuthur un sylw o'r peth. Bu farw yn Florence, ar yr 31ain o Ionawr, 1788, yn y seithfed flwydd a thrigain o'i oedran.

STURM, CHRISTOPHER CHRISTIAN: duwinydd Almaenaidd, a anwyd ar y 25ain o Ionawr, 1740, yn Augsburg. Astudiodd dduwinyddiaeth yn Jena ac yn Halle, ac wedi hyny pennodwyd ef yn bregethwr yn Magdeburg. Yn 1778, pennodwyd ef yn weinidog eglwys St. Pedr, Naumberg. Ennillodd ei dduwioldeb diffuant, ei sêl fel addysgydd crefyddol y bobl, yn gystal a'i ddysgeidiaeth dwfn, serch ac edmygedd mawr yr eglwys y gofalai am dani. Un o'r egwyddorion y gosodai fwyaf o bwys arni oedd, y dylai pregethwr wneyd ei wybodaeth o wir grefydd a moesoldeb yn amlwg yn ei weithredoedd a'i ymarferiadau ei hun cyn cymmhell yr unrhyw i ereill trwy eu dysgu; ac yr oedd ei holl fywyd wedi ei nodweddu gan ymdrech gonest i gario allan ei egwyddorion i ymarferiad. Bu farw ar y 26ain o Awst, 1786, yn 46ain mlwydd oed. Ysgrifenodd Sturm lawer o weithiau crefyddol, y rhai ydynt o ran eu tuedd a'u nodwedd yn fwy ymarferol na damcaniaethol. Ond y mwyaf o'i weithiau ydyw ei "*Reflections on the Works of God.*" Cyfieithwyd y gwaith hwn i'r rhan fwyaf o ieithoedd Ewrop, ac i'r Saesneg gan Clarke; ac y mae y nifer o argraphiadau yr aeth drwyddynt yn arwyddo ei fod yn boblogaidd iawn yn mysg y Saeson. Cyfansoddodd Sturm hefyd lawer o farddoniaeth ar byngciau crefyddol; ac y mae llawer o'i hymnau wedi eu corphori yn y llyfrau hymnau a arferir yn eglwysi Protestanaidd yr Almaen.

SUA: Canaanead o Adulam, tad gwraig Iudah (1 *Cron.* ii. 3), yr hwn oddi wrth hyn a alwyd yn Bath-sua.

1. SUAH: mab Abraham, o Ceturah: *Gen.* xxv. 2; 1 *Cron.* i. 32.

2. SUAH. Y mae yr enw *Suah* yn digwydd yn mhlith hiliogaeth Iudah fel enw brawd Chelub: 1 *Cron.* iv. 11. Am "Chelub brawd Suah," y mae y Deg a Thrigain yn darllen 'Caleb tad Achsah.'

3. SUAH: tad gwraig Iudah, un o ferched y Canaaneaid: *Gen.* xxxviii. 2, 12.

SUAL: un o feibion Sophah, un o'r Aseriaid: 1 *Cron.* vii. 36.

SUAL, GWLAD. Dosbarth nad ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn 1 *Sam.* xiii. 17, i ddynodi y cyfeiriad a gymmerwyd gan un o'r tair byddin o anrheithwyr a aethant o wersyll y Philistiaid yn Michmas. Y mae ei chyssylltiad âg Ophrah, a chyfeiriad y ddau lwybr arall a enwir yn y paragraph, yn ei gwneyd yn lled sicr fod gwlad Sual yn gorwedd o du y gogledd i Michmas.

1. SUBAEL: mab Gersom: 1 *Cron.* xxiv. 20.

2. SUBAEL: mab Heman y cerddor: 1 *Cron.* xxv. 20.

SUBLAPSARIAID, ydyw yr enw a roddwyd ar ddosbarth o Galviniaid a ddalient fod Duw wedi goddef i'r dyn cyntaf syrthio i bechod, ac nad oedd mewn un modd wedi arfaethu ei gwymp. Golygant fod arfaeth Duw yn ymwneyd â dyn fel creadur syrthiedig, mewn sefyllfa wrthgiliedig, yn yr hon y mae pawb yn agored i ddinystr anocheladwy, ac wedi trefnu ffordd i'w waredu. Dau bregethwr o Delft, sef Arnold Cornelius a Renier Dunteklok, a amddiffynodd yr athrawiaeth hon gyntaf, mewn gwaith a gyhoeddwyd ganddynt yn attebiad i Calvin a Beza. Gwel d. g. SUPLAPSARIAID.

Digitized by Google

SUCCIAID: cenedl a grybwyllir yn 2 *Cron.* xii. 3, gyda'r Lubbiaid a'r Ethiopiaid fel yn cyflenwi rhan o'r fyddin a ddaeth gyda Sisac allan o'r Aipht pan yr ymosododd efe ar Iudah. Awgryma Gesenius fod eu henw yn arwyddo 'preswylwyr mewn pebyll;' gan hyny, byddai yn well tybied, hwyrach, mai llwyth Arabaidd oeddynt, fel y Scenitiaid, nag Ethiopiaid. Os cedwir mewn cof fod Zerah mewn ymddangosiad mewn cynghrair gyda'r Arabiaid ar du y deheu i Palestina [gw. ZERAH], y rhai y gwyddom fod Sisac wedi eu darostwng [gwel SISAC], nid ydyw ein tybiaeth yn ymddangos yn annhebygol. Gall y Succiaid gyfatteb i un o'r llwythau bugeiliol neu grwydraidd a welir ar y cofgolofnau Aiphtaidd; ond ni chafwyd un enw mewn arwyddluniau yn debyg i'w henw yn y Beibl—ac y mae hyn yn ffafriol i'r syniad mai enw Semaidd ydyw.

1. SUCCOTH: hen dref yn Ngwlad Canaan, am yr hon y crybwyllir gyntaf yn hanes taith Iacob adref o Padan-aram: *Gen.* xxxiii. 17. Galwyd hi Succoth ('bythod') oddi wrth y ffaith fod Iacob wedi gwneyd bythod i'w anifeiliaid yno, yn gystal a thŷ iddo ei hun. Y mae y crybwylliad am dŷ a bythod mewn cyferbyniad i 'bebyll' bywyd crwydrol yn dynodi fod y patriarch wedi aros yno am amser maith—ffaith na chyfeirir ati mewn un lle arall.

Ymddengys oddi wrth hanes taith Iacob yn ol fod Succoth yn gorwedd rhwng Peniel, ger rhyd yr afon Iabboc a Sichem; gwel *Gen.* xxxii. 30, a xxxiii. 18. Yn unol â hyn crybwyllir am Succoth yn yr adroddiad am waith Gedeon yn ymlid Zebah a Salmunna: *Barn.* viii. 5—17. Cyfeiriodd tua'r dwyrain—yn groes i gyfeiriad Iacob—a daeth yn gyntaf i Succoth, ac yna i Penuel. Yr oedd yr olaf yn mhellach i fyny y mynydd na'r flaenaf:—*adn.* 8, "aeth i fyny oddi yno." Ei bod yn lle pwysig y pryd hwn, a ddangosir gan safle a nifer ei phrif ddynion; sef, dau ŵr ar bymtheg a thrigain—ei thywysogion a'i henuriaid—ac hefyd gan yr hèr a roddwyd ganddi i Gedeon ar ei gais cyntaf. Ymddengys oddi wrth yr adnod hon ei bod yn gorwedd o du y dwyrain i'r Iorddonen; yr hyn a gadarnheir gan y ffaith ei bod wedi ei rhoddi i lwyth Gad: *Ios.* xiii. 27. Ni wneir un crybwylliad am yr Iorddonen yn hanes taith Iacob.

Enwir Succoth unwaith etto ar ol hyn (yn 1 *Bren.* vii. 48; 2 *Cron.* iv. 17) i nodi y llanerch ar yr hwn y gwnaed y tawdd-dy pres i fwrw gwaith mettel y deml—"yn ngwastadedd yr Iorddonen, mewn cleidir, rhwng Succoth a Sarthan." Ond gan nad ydys etto yn gwybod sefyllfa Sarthau, nid oes un pwys daearyddol yn y sylw hwn, heb law y crybwylliad sydd ynddo am yr Iorddonen.

Ymddengys ei bod yn hysbys yn amser Jerome; yr hwn a ddywed fod y pryd hwnw dref o'r enw Sochoth tu hwnt i'r Iorddonen, yn nosbarth Scythopolis. Modd bynag, ni chlywyd dim mwy am dani hyd taith Burckhardt. Crybwylla ef am dani mewn sylw ar tu dalen 345. Y mae yn siarad am y lleoedd o amgylch yr Iorddonen; ac ar ol enwi tair tref adfeiliedig "ar du y gorllewin i'r afon i'r gogledd o Bysan," efe a ddywed, "yn agos i'r lle y croesasom i'r deheu y mae adfeilion Sukkot. Nid oes dim adfeilion ar yr ochr orllewinol i'r afon rhwng Ain Sultan (yr hon, medd efe, oedd y fwyaf deheuol o'r tri lle adfeiliedig i'r gogledd o Bysan) a Rieha neu Iericho." Nis gall fod un ammheuaeth nad oedd Sukkot Burckhardt o du y dwyrain i'r Iorddonen. Y mae efe eisoes wedi dyweyd fod y man lle y croesodd efe "ddwy awr o Bysan, yr hon a safai i'r G. G. O."

Y mae Dr. Robinson a Mr. Van de Velde wedi darganfod lle o'r enw *Sâkût*; yr hwn, y mae yn amlwg, sydd yn hollol wahanol o ran ei enw a'i sefyllfa i *Sukkot* Burckhardt. Yn hanesion a mapiau y teithwyr hyn gosodir hi ar yr ochr orllewinol i'r Iorddonen, llai na milldir o'r afon, ac o ddeutu deng milldir i'r deheu o *Beisân*. Y mae ffrwd gref o ddwfr yn codi o'r ochr ddwyreiniol i'r bryn isel ar yr hwn y saif yr adfeilion. Y mae pellder *Sâkût* o *Beisân* yn rhy fawr, hyd yn oed pe buasai ar yr ochr arall i'r Iorddonen, i ni dybied mai efe yw y lle y cyfeirir ato gan Jerome. Y mae *Sukkot* Burckhardt yn fwy cyfaddas. Ond y mae yn ammheus a all un o honynt fod yn Succoth yr Hen Destament. Nid ydyw yr olaf o'r ddwy yn anghyfaddas i'r digwyddiadau a grybwyllir yn hanes Gedeon. Y mae yn llinell y ffoedigaeth a'r ymlidiad y gellir tybied fod y Midianiaid a Gedeon wedi eu cymmeryd, ac y mae hefyd yn agos i ryd. Ymddengys *Sâkût*, ar y llaw arall, yn rhy bell i'r deheu; ac y mae ar yr ochr orllewinol i'r afon. Ond ymddengys fod y naill a'r llall yn rhy bell i'r gogledd i fod yn Succoth Iacob, gan fod hono yn gorwedd rhwng Iabboc a Sichem; yn enwedig os gosodwn ni y *Wady Zerka* (yr hwn y tybir yn gyffredin mai yr un ydyw a'r Iabboc) yn mhellach i'r deheu nag y gosodir hi yn map Van de Velde, fel y cynnygia Mr. Beke wneyd. Buasai ffordd uniongyrchol o'r *Wady Zerka* i Sichem yn ei arwain ef trwy *Wady Ferrah*, ar un llaw, neu trwy *Yanûn*, ar y llaw arall. Os aeth efe i'r gogledd mor bell a *Sâkût*, rhaid ei fod wedi esgyn trwy *Wady Maleh* i *Teyâsir*, ac felly trwy *Tubâs* a *Wady Bidân*. Hwyrach mai *cyfrwysdra* oedd ei fynediad i'r gogledd i ochel agosrwydd peryglus Esau; ac os arosodd efe am amser maith yn Succoth, fel yr awgrymwyd yn nechreu yr erthygl hon, ni buasai y troad o'r ffordd uniongyrchol i Sichem ond o ychydig bwys iddo.

Hyd nes y ceir gwybodaeth fanylach am sefyllfa Succoth, y mae yn ammhossibl dyweyd beth oedd Dyffryn Succoth a grybwyllir yn *Salm* lx. 6 a cviii. 7. Y gair a gyfieithir 'dyffryn' yn y ddau le ydyw *'Emek*. Defnyddir yr un gair (*Ios.* xiii. 27) i ddynodi sefyllfa y dosbarth o drefydd yn yr hwn y mae Succoth yn digwydd wrth ddisgrifio rhandir Gad. Ac felly y mae yn amlwg ei fod yn dynodi rhyw nodwedd nodedig o'r wlad. Nid ydyw yn debygol, modd bynag, mai prif ddyffryn yr Iorddonen, y *Ghôr*, a feddylir, gan mai wrth yr enw "Arabah" y mae hwnw i'w adnabod bob amser yn y Beibl.

2. SUCCOTH ('bythod' neu 'bebyll'); y lle cyntaf y gwersyllodd yr Israeliaid ynddo wedi iddynt adael yr Aipht: *Exod.* xii. 37; xiii. 20; *Num.* xxxiii. 5, 6. Ymddengys eu bod wedi cyrhaedd y lle hwn ar ddiwedd taith y diwrnod cyntaf. O'r braidd y gellir ammheu fod pob un o'r tair gorsaf gyntaf yn nodi diwedd un daith. Y mae yn debygol fod Rameses, y lle y cychwynasant o hono, yn agos i ben gorllewinol *Wady-t-Tumeylât*. Os teithiasant o ddeutu pymtheg milldir yn nhaith pob diwrnod, a chan nad oedd Succoth yn yr anialwch, gan fod yr orsaf nesaf, Etham, "yn nghwr yr anialwch" (*Exod.* xiii. 20; *Num.* xxxiii. 6), rhaid ei bod

Digitized by Google

yn y dyffryn, ac o ganlyniad yn mron yn hollol i'r dwyrain o Rameses, a phymtheng milldir o bellder mewn llinell union. Os gellir tybied fod Rameses yn agos i'r clawdd a elwir *El-'Abbaseyeh*, gellir yn hawdd benderfynu sefyllfa Succoth gyda gradd helaeth o sicrwydd. A barnu oddi wrth ei enw, y mae yn debygol mai gorphwysfa teithwyr, neu orphwysfa filwraidd, neu dref wedi ei henwi oddi wrth un o'r ddau ydoedd. Y mae yn amlwg, modd bynag, y byddai yn hawdd colli y cyfryw enw; ond os cedwid ef, byddai yn anhawdd ei adnabod, gan y gallai fod yn guddiedig dan enw o ystyr cyffelyb, er yn dra gwahanol o ran ei sŵn.

SUCCOTH-BENOTH. Nid yw y gair hwn yn digwydd yn y Beibl ond yn unig yn 2 *Bren.* xvii. 30, lle y dywedir fod yr ymsefydlwyr Babilonaidd yn Samaria wedi gosod i fyny addoliad Succoth-benoth wedi iddynt gyrhaedd i'r wlad hono. Tybiwyd yn gyffredinol mai Hebraeg pur ydyw y gair hwn, a'i fod yn arwyddo 'pebyll merched;' yr hwn a eglurir gan rai fel 'y bythod yn mha rai y byddai merched Babilon yn puteinio er anrhydedd eu heilun;' ereill, fel 'pebyll bychain, yn mha rai yr oedd delwau benywaidd.' Gwrthddadl gref yn erbyn y ddau eglurhâd yma ydyw, nad yw Succoth-benoth, yr hwn yn yr adnod yn y Brenhinoedd sydd yn digwydd yn yr un ystyr a Nergal, ac amryw o dduwiau ereill, yn dduw o gwbl; nac, a siarad yn fanwl, yn wrthddrych addoliad. Gan hyny, hwyrach fod awgrymiad Syr H. Rawlinson, yn erbyn yr hwn nid ellir dwyn yr wrthddadl hon yn mlaen, yn deilwng o sylw. Tybia yr ysgrifenydd hwn fod Succoth-benoth yn dynodi y dduwies Galdeaidd *Zir-banit*, gwraig Merodach; yr hon a addolid yn arbenig yn Babilon, mewn cyssylltiad â'i gŵr, yr hon a elwir yn "frenhines" y lle. Tybia fod *Succoth* un ai yn air Hamitaidd, cyfystyr â *Zir;* neu, y mae yn bossibl yn gamgyfieithiad Semitaidd o'r gair, *Zirat*, 'goruchaf,' mewn camgymmeriad am *Zarat*, 'pebyll.'

SUCHATHIAID: un o deuluoedd yr ysgrifenyddion yn Iabes: 1 *Cron.* ii. 55.

SUEZ, GYDDFDIR: llain o dir tua deuddeng milldir a thrigain o led yn ei fan culaf, yn ymestyn o Forgaingc Suez ar du y deheu i Fôr y Canoldir ar du y gogledd, ac yn cyssylltu ynghyd gyfandiroedd Asia ac Affrica. O fewn y terfynau hyn, yn ol y syniad cyffredin, yr oedd gwlad Gosen yr hynafiaid; ond lle annifyrllyd a diffrwyth ydyw yr ardal hon yn bresennol, yn gynnwysedig o dywodfaen a thywod, ac yn cael ei britho â llynau o ddwfr hallt a chorsleoedd lleidiog yma a thraw, ac o'r bron yn hollol amddifad o ddwfr croyw. Ond y mae y prif ddyddordeb sydd yn perthyn i'r ardal er's llawer o amser bellach, fodd bynag, o natur fasnachol a chelfyddydol. Yn gymmaint ag mai yr Aipht ydoedd y ffordd fawr i India a China, cyfodai cwestiwn ynghylch y possiblrwydd o dori camlas ar hyd y lleindir hwn, y gallasai llongau fyned drwyddo o'r naill fôr i'r llall. Nid ydyw yn destyn syndod fod llawer o ddynion meddylgar wedi bod yn ystyried y deilliai manteision pwysig o gael cymmundeb rhwng Môr y Canoldir a'r Môr Coch trwy gyfrwng a allai nofio llongau ar draws y gyddfdir hynod hwn. Nid oedd un rhan arall o'r byd—gyda'r eithriad, fe allai, o yddfdir Panama—mor fanteisiol i wneyd y gwaith hwn, yn gymmaint ag nad oedd ond megys edefyn yn cyssylltu cyfandir Affrica wrth gongl de-orllewinol cyfandir Asia. Y mae yn wir, fel y dywedwyd, ei fod yn ddeuddeng milldir a thrigain o led yn ei fan culaf, ond nid ydyw hyny ond y nesaf peth i ddim o'i gymmharu â maint Affrica—tua phum mil o filldiroedd o hyd, ac yn agos yr un faint o led, ac iddi linell arforawl o un fil ar bymtheg o filldiroedd. Pe buasai y Groegiaid neu y Rhufeiniaid, y Phœniciaid neu y Carthageniaid, yn ewyllysio morio i'r dwyrain gyfoethog—oedd yn enwog am ei haur, ei gemau, ei sidanau, a'i pherlysiau—buasai raid iddynt hwylio allan o Fôr y Canoldir i lawr arfordir gorllewinol Môr y Werydd, o amgylch Penrhyn Gobaith Da, ac wedi hyny fyned i fyny neu ar draws y Cefnfor Indiaidd; a gwyddent nad oedd ond llain cul o dir yn ysgaru Asia oddi wrth Affrica, ac yn gwahanu y Môr Coch oddi wrth Fôr y Canoldir. Ni a gyflëwn yma grynodeb byr o hanes y gwaith mawr sydd wedi ei wneyd i groesi gyddfdir Suez.

Y mae yn ddiammheuol fod camlas wedi ei wneyd ar draws y gyddfdir hwnw yn yr hen amseroedd; ond yn mha gyfnod y gwnaed ef nid yw yn sicr. Dywed Herodotus mai ei gynllunydd oedd Pharaoh Necho, ac mai efe mewn rhan a'i gwnaeth, ynghylch y fl. 600 C.C.; tra y mae Aristotle, Strabo, Pliny, ac ereill, yn dyweyd mai ei gynllunydd ydoedd Sesostris. Priodolir yr anrhydedd o'i orphen gan rai i Darius, brenin Persia, a chan ereill i'r Ptolemiaid. Cychwynai o ddeutu milldir a hanner o dref Suez, ac aed âg ef yn mlaen i gyfeiriad gogleddorllewinol tua Bubastis, ar y Pelusiac, neu gangen ddeheuol y Nilus. Ei hyd oedd 92ain o filldiroedd, o ba rai yr oedd 60ain wedi eu gwneyd gan lafur dynol; a'r gweddill drwy y llynau oedd ar ei ffordd. Yr oedd ei led o 108 i 165 o droedfeddi, a'i ddyfnder yn bymtheg (ond dywed Pliny ddeg ar hugain) o droedfeddi. Nis gellir dywedyd pa hyd y parhawyd i'w ddefnyddio; ond o'r diwedd cauodd i fyny â thywod. Adnewyddwyd ac adgyweiriwyd ef gan yr ymherawdwr Trajan yn yr ail ganrif o'r cyfnod Cristionogol. Yn mhen rhyw dymmor, pa fodd bynag, cauodd i fyny drachefn; a pharhaodd felly hyd nes y gorchfygwyd yr Aipht gan Amron, cadfridog Arabaidd y caliph Omar, yr hwn a barodd iddo gael ei ail agor, ac a'i galwodd wrth yr enw "Camlas Tywysog y Ffyddloniaid," a pharhawyd i'w ddefnyddio o dan yr enw hwn am fwy na chan mlynedd. Yn B. A. 767, gorchfygodd y tywod a'r llaid drachefn a chauwyd y camlas i fyny eilwaith; ac yn y sefyllfa hon y mae wedi bod ar ol hyny. Pan y goresgynwyd yr Aipht gan Napoleon Bonaparte, y galwyd sylw gyntaf ato mewn amser diweddar; canys parodd y gorchfygwr hwnw i'r gyddfdir gael ei chwilio a'i fesur gan beiriannwyr cyfarwydd, y rhai a ddaethant i'r penderfyniad fod lefel Môr y Canoldir ddeg troedfedd ar hugain yn is na'r Môr Coch yn Suez; ond profwyd wedi hyny fod y dyfaliad hwnw yn gyfeiliornus. O'r pryd hwnw allan, cyfodai y cwestiwn o wneyd camlas ar draws y gyddfdir i'r wyneb yn awr ac eilwaith, yn enwedig yn mysg y Ffrangcod, a chynnygiwyd amryw gynlluniau tuag at gario allan yr amcan hwn; ond ni wnaed dim yn bennodol hyd y flwyddyn 1847, pan yr anfonodd Ffraingc, a Lloegr, ac Awstria ddirprwyaeth

Digitized by Google

allan i fesur yn fanwl lefel y ddau fôr. Y dirprwywyr hyn oeddynt M. Talabot, Mr. Robert Stephenson, a'r Signor Nigrelli; a chawsant hwy allan, yn hytrach na bod gwahaniaeth o 30ain troedfedd ynddynt, fod y ddau yr un lefel a'u gilydd yn union; ac mai yr unig wahaniaeth oedd, fod yno lanw o chwe throedfedd a hanner yn y naill, a dim ond troedfedd a hanner yn y llall. Gwnaed ymchwiliad arall yn 1853, ac arweiniodd yr ymchwiliad hwn hefyd i'r un penderfyniad yn hollol. Amlygodd Mr. Stephenson wrthwynebiad cryf i'r cynllun o wneuthur camlas, gan y barnai efe fod y peth o'r bron yn annichonadwy; hyny yw, camlas o'r fath faint ag oedd yn angenrheidiol i gyfatteb i anghenion masnach yn yr oes hon: ac yn lle hyny efe a gynlluniodd ffordd haiarn o Cairo i Suez, yr hon a agorwyd yn 1858, a'r hon a fu ac sydd yn cludo y llythyrgod dros y tir i India ac Awstralia. Nid oedd y Ffrangcod, pa fodd bynag, yn foddlawn ar opiniwn Mr. Stephenson; ac ar eu dychweliad i Ewrop, darfu i M. Talabot gyhoeddi yn y "*Revue des Deux Mondes*" gynllun i gysylltu y ddau fôr, trwy wneyd camlas o Alexandria i Suez, neu yn hytrach i le oedd chwe milldir is law tref Suez; ond nis gallwn yma sylwi ar fanylion y cynllun hwn.

Yn 1854, daeth M. de Lesseps, aelod o wasanaeth diplomyddol Ffraingc yn yr Aipht, i'r golwg mewn cyssylltiad â'r mater hwn; ac yn 1856, cafodd y gŵr hwn awdurdod gan raglaw yr Aipht i wneyd camlas y gallai llongau fyned drwyddo o Tyneh (ger llaw adfeilion yr hen Pelusium) i Suez. Yr oedd neillduolrwydd cynllun M. de Lesseps yn gynnwysedig yn hyn: yn lle dilyn cwrs gŵyrgam, ac uno ei gamlas â'r Nilus, fel y gwnaethai yr hynafiaid, ac fel yr oedd y peiriannwyr diweddar oll wedi meddwl gwneyd, cynnygiai efe i dori camlas trwy ganol y gyddfdir yn llinell unionsyth i Suez. Yr oedd y camlas hwn i fod yn dri chant a deg ar hugain (330) o droedfeddi o led, a'r gwaelod i fod yn ugain troedfedd yn is na phan y byddai dwfr y môr isaf; ac yn y ddau ben yr oedd dwy argae gyda dau lifddor i gael eu gwneyd, a'r rhai hyny yn dri chant a deg ar hugain (330) o droedfeddi o hyd bob un, wrth ddeg a thrigain (70) o led. Trwy gymmeryd mantais ar y llanw yn Suez, yr oeddid yn gobeithio y gallesid cael dyfnder chwanegol o dair i bedair troedfedd. Ond y nodwedd fawr yn nghynllun M. de Lesseps oedd y porthladdoedd celfyddydol a fwriadai efe eu gwneuthur yn y ddau ben, sef yn Tyneh a Suez. Yr oedd yr un yn y pen nesaf i Fôr y Canoldir i gael ei gario allan i'r môr i'r pellder o bum milldir, mewn trefn i gael digon o ddyfnder o ddwfr i nofio llong yn gofyn tair troedfedd ar hugain o ddwfr, gan fod y fath swm dirfawr o dywod a llaid yn cael ei ddwyn i lawr gan y Nilus yn flynyddol—tua deg ar hugain o filiynau (30,000,000) o latheni ysgwâr, meddir—i Fôr y Canoldir. Y mae y llaid a'r tywod hwn yn cael ei ddwyn gan y rhedlifiadau yn ddwyreiniol nes dyfod i Tyneh. Cyfrifid fod y swm o geryg oedd yn angenrheidiol i adeiladu y porthladd hwn yn amrywio rhywle o dair i ddeuddeng miliwn o latheni ysgwâr, ac yr oedd y chwarelau ceryg agosaf a ellid gael yn mhell o Tyneh! Yr oedd y morfur yn Suez i gael ei gario yn mlaen am dair milldir i'r môr, a hyny o herwydd fod y Môr Coch yn fâs iawn am gryn ffordd oddi wrth y glanau. Er fod yr anhawsderau yn y pen yma mewn ystyron ereill yn fawr, etto nid yn gymmaint ag oeddynt ar ochr Môr y Canoldir, canys yr oeddynt yno o'r bron yn anorchfygol. Nid oedd y Saeson, o herwydd rhesymau gwleidyddol yn gystal a rhyw resymau ereill, yn edrych yn ffafriol mewn un modd ar gynllun M. de Lesseps; ond yn 1855, cymmerwyd y cwestiwn i fyny drachefn mewn ysbryd cydgenedlaethol, pennodwyd dirprwyaeth Ewropaidd newydd i wneyd ymchwiliad iddo, ac yr oedd adroddiad y ddirprwyaeth hon yn ffafriol i gynllun Lesseps, gydag ychydig o gyfnewidiadau; ac yr oeddid yn barnu ei fod yn un y gallesid ei gario allan yn llwyddiannus. Mewn canlyniad i adroddiad y ddirprwyaeth hon, ffurfiwyd cwmni, o dan yr enw Cwmni Cyffredinol Camlas Forwrol Suez; a dechreuodd M. de Lesseps ar ei waith mawr.

Yn gymmaint a bod Arglwydd Palmerston, fel gwleidyddwr, a Robert Stephenson, fel peiriannydd, yn wrthwynebol i'r cynllun, ni ddarfu i gyfoethogion y wlad hon ei gymmeradwyo na'i gefnogi ond i raddau bychain iawn. Cymmerwyd hanner cyfranau y cwmni yn Ffraingc, un ran o bedair yn yr Aipht, ac ychydig iawn yn Lloegr. Ond er fod Lesseps wedi gorfod ymladd llawer o frwydrau â'r cyfranddalwyr, o herwydd fod y treuliau yn chwyddo yn fwy na'r amcangyfrif, a'r gwaith yn hir yn dyfod i ben, darfu i'w egni diysgog, a'i ffydd gref yn llwyddiant ei gynllun, ei gario yn mlaen trwy ei holl anhawsderau. Penderfynwyd nad oedd pen y camlas ar ochr Môr y Canoldir i fod yn Tyneh, ond yn Port Said—amryw o filldiroedd i'r gorllewin oddi yno. Cymmerwyd mantais ar lynau Menzaleh, Ballah, Timsah, a'r Bitter, i fyned â'r camlas drwyddynt. Dechreuwyd ar y gwaith yn 1856, ac addawai Lesseps y byddai y camlas wedi ei orphen, ac yn llawn o ddwfr, yn y fl. 1864, ac na byddai y draul i gyd ond 6,000,000*p*. Yr oedd yr amcangyfrif hwn, pa fodd bynag, o ran yr amser a'r draul, yn llawer iawn rhy isel. Gellir dyweyd mai Lesseps a wnaeth Port Said, ac iddo ei alw felly mewn ffordd o warogaeth i ddiweddar raglaw yr Aipht, Said Pacha. Dewiswyd y rhan hwn o'r arfordir i fyned â'r camlas iddo, am fod dwfr dwfn i'w gael yn nes i'r lan yno nag yn Tyneh, ac o ganlyniad llawer o draul yn cael ei arbed. Hyd y camlas yn ei fan hwyaf ydyw pedair ar bymtheg a phedwar ugain (99) o filldiroedd, ac y mae ei led am bedair rhan o bump o'r ffordd yn dri chant a saith ar hugain (327) o droedfeddi ar wyneb y dwfr, ac yn ddeg a thrigain (70) o droedfeddi yn y gwaelod, a'i ddyfnder yn chwech ar hugain (26) o droedfeddi. Y mae rhan arall o'r camlas—tua'r bummed ran o hono—yn gant ac un ar bymtheg a phedwar ugain (196) o droedfeddi o led ar wyneb y dwfr, yn ddeuddeg a thrigain (72) o led yn y gwaelod, ac yn chwech ar hugain (26) o ddyfnder. Gall llestri gael eu llusgo â rhaffau, neu eu tynu âg ager, ar ei hyd, o Fôr y Canoldir i'r Môr Coch, mewn pymtheng awr neu lai. Gellir canfod cwrs y camlas ar draws y gyddfdir trwy edrych ar unrhyw fap priodol, yn myned trwy y gwahanol lynau a enwyd, ac heibio i Kantara, El Ferdane, El Cirsch, Serapeum, Schalluff, &c.

Yr oedd y gwaith mawr hwn—y penaf o bossibl o weithiau peiriannyddol yr oes—wedi ei gwblhau i'r fath raddau erbyn diwedd y fl. 1869, fel y penderfynwyd ei agor yn gyhoeddus trwy seremonïau ffurfiol ar yr 16eg o Dachwedd y flwyddyn hono. Daeth ynghyd yno gynnull-

Digitized by Google

iad lliosog ac urddasol o fawrion a phendefigion y byd, ac yn eu plith yr oedd rhaglaw yr Aipht a'i weinidogion, yr Ymherodres Eugenie o Ffraingc, ymherawdwr Awstria, tywysogion Prwssia, Holland, Hesse, cynnrychiolwyr diplomyddol yr holl genhedloedd, yn gystal a llu mawr o ymwelwyr enwog ereill. Felly, gwelir fod y camlas wedi ei agor yn ffurfiol yn mhen tair blynedd ar ddeg ar ol ffurfio y cwmni. Mynegwyd uchod mai amcangyfrif Lesseps a'i gynnorthwywyr o'r holl gôst ar y cyntaf oedd 6,000,000*p.*; ond fel yr oedd y gwaith yn myned yn mlaen, canfyddid fod y swm hwn yn llawer rhy fychan. Y gwirionedd ydyw, fod yr holl draul o wneyd y gwaith enfawr hwn yn 19,000,000*p.*, neu yn fwy deirgwaith nag y tybiwyd cyn ei gychwyn y buasai. Ystyrir y camlas erbyn hyn yn eiddo gwerthfawr, gan ei fod yn atteb y dyben i ba un y bwriadwyd ef mor ragorol. Yn anffodus, yr oedd Arglwydd Palmerston, a'r rhan fwyaf o wleidyddwyr Prydain, yn wrthwynebol i'r cynllun o gwbl ar y cyntaf, er fod y camlas yn gwneyd y fordaith i India yn llai o fwy na phum mil (5,000) o filldiroedd nag oedd yn ol yr hen drefn o fyned heibio Penrhyn Gobaith Da; ond erbyn hyn y mae gan lywodraeth y wlad hon liaws mawr o gyfranau yn y gwaith. Tybid, ar ol agor y camlas, y buasai masnach y dwyrain yn cael ei gorfaelu i raddau pell gan y gwledydd ar gyffiniau Môr y Canoldir, gan eu bod yn nes yno. Ond y mae hyny o brofiad sydd wedi ei gael eisoes yn dangos y camgymmeriad o hyn. O fil, dau gant a phedair a thrigain (1,264) o lestri, yn cynnwys dwy filiwn pedwar cant a phedwar ar hugain (2,424,000) o dynelli, a aeth drwyddo yn 1874, yr oedd 70 y cant o honynt yn llongau Prydeinig. Yn ol y tâl o 8*s.* 4*c.* y dynell, yr oedd llongau y wlad hon yn talu 800,000*p.* i gwmni y camlas, allan o'r ychydig dros 1,000,000*p.* a dderbyniwyd ganddynt. Fel anturiaeth fasnachol, y mae y gwaith yn talu yn dda eisoes, ac y mae pob golwg y gwna hyny yn llawer gwell etto. Yr oedd holl dderbyniadau y cwmni yn y flwyddyn 1874 yn 1,056,000*p.*; a'r holl draul a ddisgynai ar y cwmni i ofalu am y gwaith, a'i ddwyn yn mlaen, am yr un cyfnod o amser oedd 248,000*p.*, yn gadael y swm mawr o fwy na 800,000*p.* yn glir iddynt i dalu llôg y cyfranau. Nid oedd y swm hwn yn ddigon i dalu llôg o 5 y cant, er fod y swm hwnw wedi ei dalu i'r cyfranddalwyr yn llawn trwy ddefnyddio ychydig o'r drysorfa adgyflenwadol a berthyn i'r cwmni. Nid oes ammheuaeth nad oedd y derbyniadau yn 1875 yn ddigon i dalu yn llawn y llôg o 5 y cant, er nad yw hyny wedi ei wneyd yn hysbys, pan yr ydym yn ysgrifenu (dechreu Ionawr, 1876).

Yn mis Tachwedd, 1875, prynodd llywodraeth ein gwlad ni werth 4,000,000*p.* o gyfranau yn y gamlas hon, gan lywodraeth yr Aipht. Dylid dyweyd fod holl gyfranau y camlas yn derfynol; hyny yw, y mae yr holl waith i fod yn eiddo llywodraeth yr Aipht yn mhen pedair ar bymtheg a phedwar ugain o flynyddoedd; ond yn ol telerau y pryniad a wnaed gan y llywodraeth Brydeinig, y mae ei rhan hi i fod yn feddiant parhaol iddi, ac nid ydyw i ddychwelyd yn eiddo i'r Aipht pan y daw amser terfynol y cyfranau ereill i ben.

SUGNDRAETH: *Act.* xxvii. 17; y crigyll llydan a dwfn ar lenydd gogleddbarth Affrica, rhwng Carthage a Cyrene. Am ddau reswm yr oedd y parth hwn yn wrthddrych arswyd neillduol i hen fordwywyr Môr y Canoldir—mewn rhan o herwydd y tywod lluwchiedig a'r gwres sydd ar hyd y lan ei hun, ond yn benaf o herwydd y beisleoedd a'r ffrydiau dwfr ansicr yn y morgilfach. Cyfarfyddodd Josephus ei hun unwaith â llongddrylliad yn y rhan hon o Fôr y Canoldir. Yr oedd y peryglon mor hynod fel y daethant yn destyn caniadau yr hen feirdd clasurol, Horace, Virgil, &c. Yr oedd yn briodol ddau sugndraeth—y dwyreiniol neu y mwyaf, a elwir yn awr Morgaingc *Sidra*, a'r gorllewinol neu y lleiaf, yn awr Morgaingc *Cabes*. At y blaenaf y gelwir ein sylw yn yr adnod hon yn yr Actau. Daliwyd y llong gan wynt gogledddwyreiniol cryf ar lan deheuol Creta, ger mynydd Ida, a gyrwyd hi i ynys Clauda. Pe buasai y gwynt yn parhau i'w chwythu yn y cyfeiriad hwn, buasai yn taraw ar y sugndraeth mwyaf: ac oddi wrth hyn yn naturiol y codai ofn y llongwyr.

SUGR (*sugar*). Y mae sugr yn ddefnydd sydd yn mhob llysiau a archwaethant yn felus; ond ceir ef yn benaf o'r sugr-gorsen, o ba un y mae amryw fathau; ond fe'i tynir weithiau o wreiddiau melged (*beet-root*), ac o un math neu chwaneg o'r pren masarn; ac er fod y defnydd hwn i'w gael mewn llawer o lysiau a choed ereill, nid ydyw yn cael ei dynu a'i wneyd yn nwydd masnachol ond o'r rhai a nodir; ac yn benaf o lawer, fel y sylwyd, o'r sugr-gorsen, yr hon a gynnwysa fwy o swm o hono nag un planhigyn arall. Tybia rhai, er nad ydyw yn olygiad a goleddir yn gyffredinol, fod y gair Hebraeg a ddefnyddir mewn amryw o fanau o'r Hen Destament, ac a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg yn *calamus*, ond mewn rhai manau yn y cyfieithiad Saesneg yn "gorsen beraidd" (*sweet cane*), yn cyfeirio at y sugr-gorsen. Pa beth bynag oedd y gorsen beraidd y cyfeirir ati, y mae yn amlwg ei bod yn nwydd masnachol yn yr hen amseroedd; ac, am y sonir am dani fel peth yn dyfod o wlad bell, nid oedd, dybygid, yn un o gynnyrchion yr Aipht nac Iudea. Gwelir y cyfeiriadau yn *Exod.* xxx. 23; *Can.* iv. 14; *Esa.* xliii. 24; *Ier.* vi. 20; *Ezec.* xxvii. 19. Y mae Dr. Moseley wedi myned i gryn drafferth i wrthwynebu y dybiaeth hon. Os nad oes rywfodd neu gilydd gyfeiriad at sugr yn y Beibl, Herodotus, dybygid, oedd yr ysgrifenydd cyntaf a wna grybwylliad am dano. Nearchus, llyngesydd i Alexander Fawr, a ddywed fod "y cyrs (yn India) yn rhoddi mêl (sugr?) heb wenyn." Theophrastus, adroddiad yr hwn sydd mor hen a'r eiddo Nearchus, a ddisgrifia dri math o fêl i'w cael—o flodeu, o'r awyr (mêl-wlith, dybygid), ac o gorsenau: ac mewn lle arall, disgrifia gorsen a dyfai mewn lleoedd llaith yn yr Aipht, oedd yn beraidd hyd yn oed i'r gwreiddiau. Eratosthenes (c. c. 223), a soniai am bereidddra gwreiddiau planhigion India—yn enwedig corsenau. Varro (c. c. 68) a ddywed, "nad yw y gorsen Indiaidd yn tyfu yn bren mawr. O'i gwreiddiau fe wesgir gwlybwr, nad yw y mêl i'w gymmharu âg ef o ran ei felusder." Gellid cyfeirio at dystiolaethau ereill cyffelyb yn ngweithiau yr hynafiaid.

Dywedir mai Dioscorides, ynghylch amser teyrnasiad Nero, oedd yr ysgrifenydd cyntaf a wnaeth ddefnydd o'r gair *saccharum*, neu sugr; ond er ei fod yn rhoddi disgrifiad cywir o hono,

Digitized by Google

y mae yn amlwg ei fod yn anhysbys o'r dull o'i ddarparu. Seneca a sonia am sugr fel mêl a gafwyd ar ddail corsen. Pliny a gyfeiria at sugr a ddygid o Arabia, ac at beth gwell a geid o India. Galen, yn yr ail ganrif, a rydd ddisgrifiad o sugr bron yr un fath ag y gwnai Dioscorides. Paul Ægineta, yn y seithfed ganrif, a ddarlunia sugr, yn "debyg i halen Indiaidd." O ran lliw a ffurf, y mae fel halen, ond o ran archwaethiad a melusder, y mae fel mêl." Y mae yn cymmeradwyo cadw darn o hono yn y genau, er eu cadw yn llaith, yn ystod twymynau; oddi wrth yr hyn y gellid casglu fod sugr y pryd hyny ar ffurf crisgai (*candy*). Rhoddir yr un gymmeradwyaeth, gyda disgrifiad cyffelyb, o sugr gan Avicenna. Nid oes angen lliosogi tystiolaethau, yr hyn a fyddai yn eithaf hawdd, er profi fod sugr yn adnabyddus fel nwydd masnachol, o leiaf mor foreu a dechreuad y cyfnod Cristionogol; ac hefyd i ddangos nad oedd gwybodaeth awduron Groegaidd a Rhufeinaidd ond prin iawn am dano, o ran ei ddeilliad a'r modd i'w ddarpar. Y mae Dr. Moseley, yn ei "*Treatise on Sugar*," yn myned i mewn i'w hanes boreuol, ac y mae efe yn tueddu i feddwl mai o China ac India y deuai sugr gynt. Y mae Dr. Falconer, ar ol dyfynu o weithiau ysgrifenwyr Groeg, Rhufain, ac Arabia, hyd ddiwedd y ddegfed ganrif, yn dyfynu darnau o weithiau haneswyr y croesgadau, y rhai a ddisgrifiant y sugr-gorsenau a welodd y croesgadwyr yn Syria. Dywed Albertus Agnensis yn ei hanes o Baldwin yn 1110, i'r Ewropiaid gymmeryd un ar ddeg o gamelod yn llwythog o sugr. Jacobus de Vitriaco hefyd a ddywed yn y fl. 1124, fod yn Syria gorsenau yn tyfu yn llawn o fêl; wrth yr hyn y golygai hylif melus, yr hwn wedi ei wasgu allan, a'i weithio trwy dân, oedd yn gwneyd sugr. Dywed Dr. Falconer mai dyma y cyfeiriad cyntaf a geir am ddefnyddiad gwres neu dân i ddarparu sugr. Anhawdd ydyw olrhain y ffordd y daethpwyd â'r sugr-gorsen, a'r modd y ceid sugr allan o honi, i ynysoedd Môr y Canoldir, i Italy, ac i'r Yspaen; ond y mae y rhan fwyaf a wnaeth ymchwiliad yn barnu mai trwy gyfrwng yr Arabiaid y daeth hyn oddi amgylch, a'i fod i ryw raddau wedi deilliaw o'r cymmundeb a achlysurwyd rhwng y dwyrain a'r gorllewin mewn canlyniad i'r croesgadau. Ond tybia M'Culloch ei fod yn cael ei ddiwyllio yn Ewrop yn flaenorol i hyny; a dywedir ar awdurdod awdwr Ffrancaeg fod sugr yn cael ei ddwyn i Venice mor foreu a B. A. 991. Yn ol Lafitan, yr oedd sugr yn cael ei wneyd yn Sicily cyn y fl. 1166; a mynegir hefyd y gallasai y Venetiaid gael sugr yn rhatach o Sicily nag o'r Aipht. Y Mooriaid, dybygid, a ddygodd y gelfyddyd o wneyd sugr gyntaf i Yspaen, a thybir i'r gorsen gael ei phlanu yn gyntaf yn Valencia, ac wedi hyny yn Granada a Murcia. Yn 1420, cymmerodd y Portugeaid y sugr-gorsen o Sicily i Madeira, a chafodd ei throsglwyddo o Yspaen i Ynysoedd y Canary yn y bymthegfed ganrif. O'r dechreuad hwn yr ymledodd amaethiad y sugrgorsen, a'r gelfyddyd o wneuthur sugr, oddi wrth wahanol genhedloedd Ewrop i Ynysoedd yr India Orllewinol a Brazil.

Yr oedd gan yr Yspaeniaid, mor foreu a'r flwyddyn 1518, wyth ar hugain o weithiau sugr wedi eu sefydlu yn Hispaniola, neu St. Domingo. Gwna Peter Martyr, yr hwn sydd yn adrodd y ffaith hon, sylw hefyd ar dyfiant anghyffredinol y gorsen yn yr ynys hono, o'r hon, am amser maith, y deuai y cyflenwad mwyaf o sugr i Ewrop. Dygodd Hawkins sugr o Hispaniola drosodd i Loegr yn 1563. Pa bryd bynag y dechreuodd y Saeson wneyd sugr yn Barbadoes, dywed Anderson fod y Portugeaid yn 1627, ac am rai blynyddoedd wedi hyny, yn cyflenwi y rhan fwyaf o Ewrop â sugrau Brazil. Ymddengys fod planigwyr Prydeinig yn Barbadoes yn casglu arian yn gyflym wrth godi a gwneyd sugr yn nghylch y fl. 1627; canys yr oeddynt er's ychydig amser cyn hyny wedi cael gwybodaeth werthfawr o Brazil ynghylch y modd i'w ddiwyllio a'i wneuthur. Mewn cyfeiriad at fasnach y Portugeaid mewn sugr, dywed Syr Josiah Child, yn 1670, "Yr ydym wedi gyru rhai o'u sugrau allan o Loegr; ac wedi tynu y lleill i lawr yn eu prisiau, o saith ac wyth bunt y canpwys i ddeg swllt a deugain neu dair punt. Yr ydym hefyd wedi lleihau eu symiau; o blegid gynt yr oedd eu llongau o Brazil yn cludo o gant i chwech ugain mil o gistiau o sugr, ond y maent yn awr wedi lleihau i ddeng mil ar hugain o gistiau, er pan y mae y cynnydd mawr wedi bod yn Barbadoes." Dywed M'Culloch fod y fasnach mewn sugr yn Barbadoes wedi cyrhaedd ei phwynt uchaf yn 1676, gan fod yn ei gwasanaeth y pryd hwnw bedwar cant o lestri, yn cario ar gyfartaledd bob un gant a hanner o dynelli.

Y mae uchder y sugr-gorsenau, eu lliw, hyd eu cymmalau, a neillduolion ereill, yn amrywio yn ol eu gwahanol fathau, natur y tir, a'r moddion a ddefnyddir i'w diwyllio. Amrywia y paladrau mewn uchder o wyth i fyny hyd i ugain troedfedd. Y mae dail hirion a chulion yn tori allan o bob cymmal; ac fel yr addfeda y gorsen, bydd y dail yn syrthio ymaith o'r cymmalau isaf. Caled a brau ydyw gwisg allanol y gorsen, ond y mae y rhan fewnol o honi yn cael ei wneyd i fyny o fadruddyn meddal, yr hwn sydd yn cynnwys y sudd melus. Cedwir y sudd hwn yn mhob cymmal ar wahân, yn annibynol ar yr un sydd uwch law ac is law iddo. Y ffordd i'w magu ydyw tori darnau o frigau y corsenau, a dau neu dri o'r cymmalau uchaf, a thynu y dail ymaith. Plenir y rhai hyn mewn tyllau a wneir â llaw, neu mewn ffosydd a wneir âg aradr, o tuag wyth i ddeuddeng modfedd o ddyfnder, a gwrteithir y tir yn dda. Rhaid i'r pellder a fyddo rhwng y tyllau, neu y ffosydd, fod yn gyfryw fel y ceir cyflawnder o awyr at y planigion, a lle cyfleus i'r llafurwyr a ofalant am danynt i lanhau y tir oddi wrth chwyn. Yn mhen tua phythefnos ar ol rhoddi y planhigion yn y ddaear, ymddengys y blagur uwch law y tir, ac yna rhoddir chwaneg o bridd arnynt. Y mae yr adeg y daw y corsenau i addfedrwydd yn amrywio mewn gwahanol amgylchiadau. O Awst i Tachwedd a ystyrir yr adeg oreu i blanu yn yr India Orllewinol. Pan y bydd y gorsen yn addfed, y mae y croen yn sych, yn llyfn, a brau; a'r gorsen ei hun yn drom, a'r sudd yn felus a glydiog. Y mae y sugr-gorsenau, tra yn tyfu, yn ddarostyngedig i ymosodiadau oddi wrth drychfilod distrywgar.

Torir y corsenau yn ol fel y byddo y melinau sydd yn gwasgu y sudd allan yn gallu gweithio, gan ei fod yn fanteisiol iddynt gael eu gwasgu tra y maent yn hollol ffres. Defnyddir melinau lled ammherffaith ac anorphenedig yn yr India Ddwyreiniol—weithiau rhai o honynt yn debyg i forteri, wedi eu ffurfio o foncyffion coedydd, yn y rhai y gwesgir y sudd allan trwy wahanol ddyfeisiadau. Rhed y sudd allan trwy dwll

Digitized by Google

bychan yn ngwaelod y cafn i lestr a osodir i'w dderbyn. Mewn melinau o'r fath y mae yn rhaid tori y corsenau yn fân ddarnau. Nid yw y melinau hyn yn symmudol; ond y mae math arall yn symmudol, fel y gellir eu cymmeryd o'r naill fan i'r llall, a dilyn symmudiadau y sawl fyddo yn tori y corsenau. Ond y mae y melinau a arferir yn gyffredin yn awr i wasgu y sudd o'r corsenau yn rhai cryfion anarferol. Troir hwynt gan ddwfr, neu ager y rhan fynychaf; a gellir cael rhyw syniad am nerth rhai o honynt pan y mynegir fod un o'r rholiau a ddefnyddir yn pwyso tua phum tynell. Y mae yr echelau yn ddeuddeng modfedd o dryfesur; ac er eu bod yn cael eu gwneyd o'r haiarn gŷr goreu, nid ydynt yn sicr o beidio tori. Hwyrach mai yn Java, y Mauritius, a Cuba, y mae gwneuthuriad sugr wedi ei ddwyn i'r perffeithrwydd mwyaf yn yr holl fyd. Y mae y planigwyr yn Java yn arbenig, o herwydd helaethrwydd eu planigfeydd, yn alluog i osod i fyny beirianwaith o'r fath oreu yn y gweithfeydd sugr. Rhydd y sylwadau byr a ganlyn ryw syniad i ni o'r modd y gwneir sugr yno.

Wedi cael y dail oddi ar y corsenau, rhoddir y diweddaf rhwng rholiau, lle y dygir y pwysau trymaf yn bossibl i'w dirwasgu. Nid ydyw y rholiau yn troi ond o ddwy i bedair waith y munyd. O gan pwys o gorsenau, gwesgir allan o 65ain i 75ain o bwysi o sudd. Mae y sudd, yr hwn sydd yn archwaethu yn felus, ac o'r un lliw a dwfr budr, yn myned yn syth o'r felin i gronfa fechan, lle y teflir ychydig o galch cynnhes i'w gymmysgu âg ef; ac yn ddioed rhed i lestri mawrion o haiarn neu gopr, y rhai a dwymnir oddi tanynt, naill ai gan dân neu bibellau ager yn myned i'r hylif. Fel y bydd yn twymno, y mae ewyn tew yn dyfod i'r wyneb, yr hwn a symmudir naill ai trwy ei ddihufenu neu trwy ollwng yr hylif cynnhes oddi tan yr ewyn. Gwesgir y sudd at ei gilydd mewn padelli haiarn mawr ar ffurf hirgrwn, o chwech i wyth troedfedd o dryfesur, a gosodir chwech neu saith o honynt yn un rhes, gyda thân mawr o dan yr un a fo yn y pen. Y mae yr un tân yma sydd yn rhedeg o dan yr holl res o badelli yn ddigon i beri i ddwy neu dair ferwi yn chwyrn; ac yn chwanegol at hyn, y mae yn ddigon i gynnhesu y sudd yn y padelli pellaf oddi wrtho. Fel y byddo y sudd yn myned gyntaf i'r padelli pellaf oddi wrth y tân, y mae yn twymno yn raddol, ac yna y mae yr ammhuredd llysieuol yn cyfodi yn ewyn i'r wyneb, ac yn cael ei symmud ymaith yn ofalus. Fel y symmudir y sudd o'r naill badell i'r nesaf ati, y mae yn berwi gyda mwy o nerth fel yr agoshao at y tân, hyd nes y bydd yn trochioni ac yn ewynu drwyddo yn yr hon sydd uwch ben y tân; ac ymddengys fod hyn yn hanfodol i lwyddiant y gwaith o wneyd sugr. Gwyddys fod presennoldeb yr ammhuredd sydd yn gwneyd yr ewyn yn attal y sugr i ymgrisialu (*crystallize*); ac y mae yn eithaf hysbys fod gwres mawr yn dra dinystriol i'r sudd; hyny yw, y mae yn troi llawer o'r sugr ymgrisialedig yn driagl. Ond y mae yr hyn a ennillir trwy gael gwared o lawer o'r ammhuredd o sudd y gorsen, yn fwy na thalu am werth yr hyn a gollir. Wedi i'r gwaith gael ei ddwyn yn mlaen fel hyn i ryw bwynt neillduol, ac i'r holl ammhuredd gael ei gymmeryd ymaith, attelir y gwres mawr, a gollyngir yr hylif, sydd erbyn hyn yn gyffelyb o ran lliw i win coch cymmysglyd, ac yn dew fel olew, i badell wâg; ac yna tynir y gwres i lawr i 150° F. Y mae y badell hon mewn arferiad yn yr holl weithfeydd lle y purir sugr yn Ewrop, ac yn y planigfeydd goreu. Copr ydyw ei defnydd yn gyffredin, ac y mae yn hirgrwn o ran ffurf, ac o chwech i naw troedfedd o drawsfesur. Y mae y gwaelod yn ddwbl, yn gadael gwagle o fodfedd neu ddwy er mwyn cael lle i ager fyned rhwng y ddau waelod; ac y mae ynddi yn gyffredin bibell gopr dorchedig o dair i bedair modfedd o dryfesur ar y gwaelod oddi mewn, fel ag i chwanegu y gwres ar y wyneb. Ond y mae cryn waith ar y sugr wedi hyn cyn y bydd wedi ei gwbl orphen.

Y mae coethi sugr yn cael ei ddwyn yn mlaen ar raddfa eang yn y wlad hon. Llundain, Bristol, a Greenock ydyw y prif leoedd lle y gwneir hyny yma. Ychydig o sugr cri (*raw*) a ddefnyddir yn Mhrydain Fawr. Y mae o'r bron yr holl sugr melyn, ac o liw tywyll, a werthir wedi myned trwy ddwylaw y coethwyr; a sugr gwaelach yw, wedi ei wneyd o'r sudd sydd yn rhedeg oddi wrth sugr gwyn. Adeiledir y lleoedd y coethir sugr yn wyth neu naw uchder llofft. Y maent yn adeiladau anferthol, ac y mae lliaws mawr o bobl yn gweithio ynddynt.

Yr oedd sugr, cyn darganfyddiad America, yn cael ei ystyried yn mysg y danteithion prinaf, ac ni ddefnyddid ef ond ar achlysuron neillduol. O ddeutu 1459, ysgrifenai Margaret Paston at ei gŵr, yr hwn oedd foneddwr a thirfeddianwr yn Norfolk, i ddeisyf arno fel ffafr i brynu iddi bwys o sugr. Ond y mae y fasnach a wneir yn awr mewn sugr yn anferth, ac y mae yn ymhelaethu yn ddirfawr yn barhaus; ond y mae y defnydd a wneir o hono yn amrywio yn fawr mewn gwahanol wledydd. Yn ol y cyfrif a wnaed tua deng mlynedd yn ol, o chwech o'r prif wledydd, America oedd yn defnyddio mwyaf o sugr, a Rwssia ac Awstria leiaf. Fel y canlyn y safai y cyfartaledd:—Prydain Fawr, ar gyfer pob un, 30ain pwys; Ffrainge, 4; Belgium, 6; Rwssia, 1½; Awstria, 1½; Unol Daleithiau, 40ain. Y mae y cyfartaledd hwn, erbyn hyn, yn ddiammheu, wedi chwanegu yn fawr, ac yn enwedig felly yn Mhrydain; o herwydd er y pryd y gwnaed y cyfrif uchod, y mae y doll wedi ei thynu oddi ar sugr yn mron yn llwyr; ac nid oedd gwerth y sugr o bob math a ddygwyd i'r wlad hon yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 1864, ond 12,367,177*p.*, tra yr oedd y sugr cri yn unig yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 1874, yn werth 15,837,617*p.*

SUHAM: mab Dan, a hynafiad y Suhamiaid: *Num.* xxvi. 42. Yn *Gen.* xlvi. 23, gelwir ef Husim.

SUHAMIAID, Y: hiliogaeth Suham neu Husim, mab Dan: *Num.* xxvi. 42, 43. Yn y cofrifiad a gymmerwyd ar wastadedd Moab, yr oeddynt yn rhifo 4,460.

SUHIAD. Y mae yr enw Cenhedlig hwn, 'Suhiad,' yn digwydd yn fynych yn Llyfr Iob, ond yn unig fel enw un person. Y mae awgrymiadau lleol Llyfr Iob yn cyfeirio at wlad ar yr ochr orllewinol i Caldea, yn terfynu yn Arabia; ac yn y gymmydogaeth hon, uwch law Hit, ac ar bob ochr i'r Euphrates, ceir yn y cerfysgrifau Assyriaidd, y *Tsukhi*—cenedl alluog. Y mae'n debyg mai y Suhiaid oedd y rhai hyn, a'u bod ar ol cael eu gorchfygu gan frenhinoedd Babilon wedi eu cyfrif gan Ezeciel yn mhlith llwythau

Digitized by Google

y Caldeaid. Wedi colli eu hannibyniaeth ni chymmerwyd un sylw o honynt; ond y mae yn ddiammheu mai oddi wrthynt hwy y cafodd y wlad ar yr Euphrates uwch law Babilonia ei galw yn *Sohene*. Ymddengys mai hiliogaeth Abraham o Ceturah oedd y Suhiaid.

SUL. Gwel SABBATH.

SULAMEES, Y: un o'r personau yn Nghaniad Solomon, yr hon, er nad ydyw yn cael ei henwi ond yn unig mewn un adnod (*pen.* vi. 13), yn ol rhai esbonwyr, ydyw y cymmeriad pwysicaf o'r cwbl. Y mae yr enw—yn ol cyfattebiaeth y Sunamees—yn dynodi merch yn perthyn i le a elwir Sulam. Yr unig le sydd yn dwyn yr enw hwn ag yr ydym ni yn gwybod am dano ydyw Sunem ei hun; yr hon, mor bell yn ol a'r bedwaredd ganrif, a elwid felly. Mewn gwirionedd, y mae lle cryf i gredu mai yr un lle oedd y ddwy. Yna, gan fod Sulamees a Sunamees yn gyfystyr, yn sicr nid oes dim yn ammhriodol mewn tybied mai y Sunamees, yr hon oedd yn wrthddrych cariad angerddol Solomon, oedd Abisag—yr eneth brydferthaf yn ei dydd, ac ar amser marwolaeth Dafydd, un o'r personau amlycaf yn llys Ierusalem. Byddai hyn yn llawn mor briodol, pa un bynag ai Solomon ei hun oedd awdwr y gân, ai gan berson arall yr ysgrifenwyd hi, amcan yr hwn oedd ei bersonoli ef yn gywir.

SULGWYN. Gwel PENTECOST.

SULLY, MAXIMILIEN DE BETHUNE, DUC DE: gwladweinydd a rhyfelwr Ffrengig enwog, a anwyd yn nghastell Rosny, yn 1560, ac a addysgwyd yn y ffydd Brotestanaidd. Yn 1572, dygwyd ef i lys Harri, brenin ieuangc Navarre, wedi hyny Harri IV., yr hwn ar y pryd oedd yn yr ugeinfed flwydd o'i oedran. Tra yn Paris y pryd hwnw, diangfa gyfyng a gafodd efe rhag bod yn un o'r rhai a aberthwyd yn nghyflafan waedlyd dydd Bartholomeus. Cadwyd ef yn ddirgelaidd am dri diwrnod gan lywydd coleg Burgundy. Hynododd ei hun yn fawr yn ngwasanaeth brenin Navarre ar amryw achlysuron, trwy amlygu dewrder oedd braidd yn ymylu ar ryfyg. Ac nid oedd ei alluoedd fel diplomydd a chyllidydd yn llai nodedig. Yn 1586, efe a gwblhaodd gyttundeb gyda'r Swissiaid i gael ugain mil o wŷr arfog at wasanaeth ei feistr; ac yn y flwyddyn ddilynol dygodd yn mlaen ymdrafodaeth er dwyn oddi amgylch briodas rhwng Harri a Mary de Medici. Bu farw gwraig Sully; yr hyn a'i gwnaeth yn athrist iawn, ac a'i hanghymmhwysodd i wneuthur gwaith cyhoeddus am beth amser. Ond cyffrowyd ef gan lofruddiad brenin Ffraingc, yn Awst, 1589, ac esgyniad Harri o Navarre i'r orsedd, dan y teitl o Harri IV. Gwnaeth Sully wasanaeth mawr i'r diweddaf:—ymladdodd yn mrwydr Arque; a chlwyfwyd ef yn beryglus yn mrwydr Ivry. Darganfyddodd gynlluniau y Pabyddion yn erbyn Harri, ac argyhoeddwyd ef o'r ammhossiblrwydd i Brotestant lywodraethu yn Ffraingc. Am hyny, efe a gynghorodd Harri i ail ymuno â'r Eglwys Babaidd, er ei fod ef ei hun yn glynu wrth y ffydd Brotestanaidd; a rhaid addef nad oedd llawer o waith perswadio ar Harri i gydymffurfio â'r cynghor hwnw. Fel hyn y bu Sully yn un o'r prif offerynau i agor pyrth Paris i'w feistr, canys trwy newid ei grefydd y sicrhaodd Harri iddo ei hun orsedd Ffraingc.

Yr oedd sefyllfa gyllidol y wlad mewn sefyllfa ddrwg, ac un o'r pethau cyntaf yr ymosododd Harri arno oedd, cael y cyllid i drefn; ac ymddiriedodd y gwaith hwn i Sully, yn yr hwn yr oedd ganddo yr hyder llwyraf. Bu yn petruso gwneyd hyn, am ddau reswm; sef, y perygl o gyffroi eiddigedd trwy gyfodi Protestant i'r swydd, ac am fod cyllidwyr proffesedig yn anewyllysgar i un nad oedd yn un o honynt i ddyfod i mewn i ddirgelion y gwaith. Ond yn 1596, enwyd Sully yn ffurfiol i fod yn aelod o gynghor mawr y cyllid. Ymosododd yntau ar ei waith gydag egni ac ymroddiad neillduol, a chafodd bethau i drefn dda. Appwyntiwyd ef yn arolygwr y cyllid, a chyflawnodd ei waith gyda sêl anghyffredin. Pan yr ymgymmerodd â'r gwaith hwn, yn 1597, yr oedd y drysorfa wladol yn wâg, ac mewn dyled drom o fwy na phedair miliwn o bunnau; ond wedi marwolaeth Harri IV., yn 1610, yr oedd ynddi fwy na dwy filiwn o bunnau wrth gefn. Wrth weled ei lwyddiant yn y rhan yma, pennodwyd ef yn brif arolygwr y magnel-lu, yn gyfarwyddwr y llynges, yn feistr y gweithiau cyhoeddus, ac yn gyfarwyddwr y pontydd a'r ffyrdd cyhoeddus. Mewn gwirionedd, efe oedd prif ac unig weinidog Ffraingc. Cedwid cynghorau foreu a hwyr chwe diwrnod o'r wythnos. Yr oedd Sully yn arfer mynychu y cwbl, a llywyddu ynddynt oll pa bryd bynag y byddai y brenin yn absennol, yr hyn a ddigwyddai yn fynych.

Darfu i farwolaeth Harri IV., yn 1610, ddyfod â gyrfa Sully fel gweinidog gwladwriaethol i derfyniad. Yn fuan wedi hyny, rhoddodd ei swyddi o arolygwr y cyllid a llywodraethwr Bastile i fyny yn ffurfiol. Ac o'r pryd hwnw allan trigodd yn benaf yn mhalas Villebon. Cadwodd y swyddi o lywodraethwr Poitou, ac arolygwr y magnel-lu, yr amddiffynfeydd, a'r ffyrdd a'r pontydd. Bu mewn un o leiaf o gynnadleddau y Protestaniaid; ond gwrthodai ymuno â hwynt i ymarfogi. Ei ddifyrwch penaf yn niwedd ei oes oedd darparu ei "*Memoirs*" i'r wasg. Bu farw yn Villebon, ar yr 22ain o Ragfyr, 1641. Yr oedd Sully yn ddyn nodedig o weithgar, diofn, anturiaethus, a dyfal-barhaol, ac yn meddu syniad clir a chywir am wahanol gymmeriadau. O ran ei gredo am foesolrwydd, ymddengys ei fod yn dra thebyg i'r Puritaniaid oedd yn Lloegr. Y mae yn fwy anhawdd gwybod yn fanwl pa beth ydoedd ei syniadau crefyddol. Er iddo gael ei demtio yn fawr i ymadael â'r ffydd Brotestanaidd, efe a barhaodd i'w phroffesu hyd y diwedd; etto, efe a gynghorodd Harri IV. i ymheddychu ac ymuno âg Eglwys Rhufain. Yr oedd Sully, pa fodd bynag, yn ddyn a hawliai barch ac ymddiried fel gwladweinydd. Anfynych y cafodd un brenin y fath weinidog rhagorol ag a gafodd Harri IV. ynddo ef. Pennod ddyddorol a phwysig iawn yn hanes Ffraingc ydyw gweinyddiaeth Sully: ac nis gellir deall hanes y wlad hono yn dda ac yn drwyadl heb ei astudio.

SUMATHIAID, Y: un o'r pedwar teulu a hanasant o Ciriath-iearim: 1 *Cron.* ii. 53. Y mae yn debygol eu bod wedi adeiladu a phreswylio pentref o'r enw Sumah, yr hon oedd y pryd hwnw yn rhywle yn y gymmydogaeth hon. Ond ni ddarganfyddwyd olion o'r cyfryw enw o fewn y blynyddoedd diweddaf.

Digitized by Google

SUNAMEES, Y: brodores o Sunem, fel y mae yn amlwg oddi wrth 2 *Bren.* iv. 1. Cymmhwysir ef at ddau berson: Abisag, mammaeth y brenin Dafydd (1 *Bren.* i. 3, 15; ii. 17, 21, 22), a gwestyes Eliseus: 2 *Bren.* iv. 12, 25, 36. Tybia rhai (fel Gesenius) mai yr un ydyw y Sunamees a'r Sulamees: *Can.* vi. 13. Am hyn yr oll a ellir ei ddyweyd ydyw, ei fod yn dra thebygol mai yr un oeddynt.

SUNEM: un o'r dinasoedd a roddwyd i lwyth Issachar: *Jos.* xix. 18. Y mae i'w chael yn y rhestr rhwng Cesuloth a Hapharim. Crybwyllir am dani ar ddau achlysur. Yn gyntaf fel gwersyllfa gyntaf y Philistiaid o flaen brwydr Gilboa: 1 *Sam.* xxviii. 4. Yma y mae yn digwydd mewn cyssylltiad â Mynydd Gilboa ac Endor; ac hefyd, y mae yn debyg, âg Iezreel: xxix. 1. Yn ail, fel y lle y digwyddodd yr ymddiddan rhwng Eliseus, a'r Sunamees, a'i mab: 2 *Bren.* iv. 8. Yma y mae yn gyssylltiedig â meusydd ŷd cyfagos, ac â Mynydd Carmel.

SUNI: mab Gad, a sylfaenydd teulu y Suniaid: *Gen.* xlvi. 16; *Num.* xxvi. 15.

SUNIAID, Y: hiliogaeth Suni, mab Gad: *Num.* xxvi. 15.

SUPLAPSARIAID: personau sydd yn dal fod Duw, heb gymmeryd i ystyriaeth weithredoedd da na drwg dynion, wedi penderfynu, trwy arfaethiad tragwyddol *(supra lapsum)*, cyn i Adda gwympo, ac yn annibynol ar y cwymp, i achub rhai, a gwrthod y lleill; neu, mewn geiriau ereill, fod Duw wedi penderfynu gogoneddu ei gyfiawnder yn nghondemniad a cholledigaeth rhai, yn gystal a'i drugaredd yn iachawdwriaeth a chadwedigaeth ereill; ac, i'r dyben hwn, ei fod wedi ordeinio fod i Adda syrthio. Yn ol y syniad hwn, yr oedd creadigaeth a chwymp dyn wedi eu harfaethu fel eu gilydd. Nis gellir yn briodol dyweyd fod Duw yn arfaethu drwg. Goddef drwg y mae—nid ei arfaethu. Gwel SUBLAPSARIAID.

SUR: lle ychydig o'r tu allan i derfyn dwyreiniol yr Aipht. Y mae ei enw, os gair Hebraeg neu Arabaeg ydyw, yn arwyddo 'mur,' ac fe gasglir oddi wrth sefyllfa y lle ei fod o wreiddyn Semaidd. Y crybwylliad cyntaf a gawn am Sur ydyw yn yr hanes am ffoedigaeth Agar oddi wrth Sarah. Yr oedd Abraham y pryd hwnw yn y rhan fwyaf deheuol o Palestina; a phan ffodd Agar, cafwyd hi gan angel "wrth y ffynnon yn ffordd Sur;" *Gen.* xvi. 7. Y mae yn debygol ei bod hi yn ymdrechu dychwelyd i'r Aipht, gwlad ei genedigaeth—dichon nad oedd hi yn Aiphtes bur—ac wedi cyrhaedd ffynnon ar ffordd teithwyr yn y canolbarth. Wedi hyny "cyfanneddodd Abraham rhwng Cades a Sur, ac ymdeithiodd yn Gerar;" *Gen.* xx. 1. Oddi wrth hyn, ymddengys un ai fod Sur yn gorwedd yn nhiriogaeth Philistiaid Gerar, neu fod y llwyth bugeiliol hwn yn crwydro mewn dosbarth yn ymestyn o Cades i Sur. [Gwel d. g. GERAR.] Nis gallwn, yn y naill achos na'r llall, wybod yn sicr yn mha le y safai Sur. Y mae yr hysbysiad eglur cyntaf am hyn yn digwydd yn hanes hiliogaeth Ismael. "Preswyliasant hefyd o Hafilah hyd Sur, yr hon sydd o flaen yr Aipht, ffordd yr äi di i Assyria;" *Gen.* xxv. 18. A hyn dylid cymmharu y crybwylliad am faintioli tiriogaeth Amalec, a roddir yn yr adnod hon—"A Saul a darawodd yr Amaleciaid o Hafilah, ffordd y delech di i Sur, yr hon sydd ar gyfer yr Aipht;" 1 *Sam.* xv. 7. Y mae hefyd o bwys sylwi fod y Gesuriaid, y Gezriaid, a'r Amaleciaid, y rhai a darawodd Dafydd, yn cael eu disgrifio fel rhai oedd "gynt yn preswylio yn y wlad, ffordd yr elych i Sur, ie, hyd wlad yr Aipht;" 1 *Sam.* xxvii. 8. Aeth yr Israeliaid i anialwch Sur, wedi iddynt groesi y Môr Coch: *Exod.* xv. 22, 23. Gelwid ef hefyd yn anialwch Etham: *Num.* xxxiii. 8. Yn y crybwyllion am y dosbarth Amalecaidd ac Israelaidd, yn yr hon y dilynodd yr olaf y blaenaf, nid oes un ammheuaeth nad llain o ogleddbarth Arabia a olygir, yn ymestyn o Guldir Suez tua, ac y mae yn debygol at, Forgaingc Persia. Gall enw yr anialwch hwyrach ddynodi sefyllfa led ddeheuol. Fel hyn, gall Sin fod yn dref gaerog, yn gorwedd o du y dwyrain i hen ben y Môr Coch, ond yn nwylaw yr Arabiaid—neu ar un adeg y Philistiaid, ac nid yr Aiphtiaid. Oddi wrth ei bod yn cael siarad am dani fel terfyn, y mae yn debygol mai hi oedd y dref Arabaidd olaf cyn myned i mewn i derfynau yr Aipht.

SURDOES. Gwel LEFAIN.

SUSAN (Groeg, Σουσα: *Susa*): un o'r trefydd pwysicaf yn y dwyrain oll; yr hon, meddir, a gafodd ei henw oddi wrth yr helaethrwydd o lili oedd yn ei chymmydogaeth.

Susan yn wreiddiol oedd prif ddinas y wlad a elwid yn yr Ysgrythyr yn Elam. [Gwel ELAM.] Tybir iddi gael ei sylfaenu cyn amser Cedorlaomer, gan fod y gweddillion a gafwyd ar ei safle yn ymddangos yn hen iawn. Y crybwylliad pendant cyntaf am y dref a gafwyd hyd yma ydyw yn ysgrifau cerfiedig *Asshur-bani-pal*, mab ac olynydd Esar-Hadon, yr hwn sydd yn dywedyd ei fod wedi cymmeryd y lle, ac yn arddangos cynllun o honi ar ei gerfluniau. Dyddiad y gofadail hon ydyw o ddeutu y flwyddyn c. c. 660. Yn nesaf, yr ydym yn cael Susan yn meddiant y Babiloniaid; y rhai, y mae yn debygol, a gawsant Elam pan ranwyd ymherodraeth Assyria gan Cyaxares a Nabopolassar. Yn y flwyddyn olaf o deyrnasiad Belsassar (c. c. 538), bu Daniel yno, tra etto yn ddeiliad Babilonaidd, ar neges dros y brenin, ac yn "Susan y brenhinllys" y cafodd efe weledigaeth enwog yr "hwrdd a'r bwch;" *Dan.* viii. 2. Trosglwyddoddg orchfygiad Babilon gan Cyrus, Susan dan lywodraeth Persia; a chyn hir gwnaed hi gan y tywysogion Achæmeniaidd yn brif ddinas eu holl ymherodraeth, ac yn brif le eu preswylfod. Yn ol rhai ysgrifenwyr, gwnaed y cyfnewidiad gan Cyrus; yn ol ereill, yr oedd beth bynag wedi cymmeryd lle cyn marwolaeth Cambyses; ond, yn ol y prawfion a geir yn y lle ei hun, a'r cofadeiladau Achæmeniaidd ereill, ymddengys yn dra thebygol mai gan Darius Hystaspis—yr hwn, medd Pliny, a sylfaenodd y palas mawr yno, a ddisgrifir mor ragorol yn Llyfr Esther (*pen.* i. 5, 6)—y gwnaed y trosglwyddiad mewn gwirionedd. Y mae y rhesymau a barasant iddo wneyd y cyfnewidiad yn lled eglur. Ar ol gorchfygiad Babilonia a'r Aipht, taleithiau gorllewinol yr ymherodraeth oedd y rhai pwysicaf o lawer; ac nis gellid yn gyfleus sefydlu y llys yn hwy o du y dwyrain i Zagros—un ai yn Ecbatana *(Hamadan)* neu yn Pasargadæ *(Murgaub)*, y rhai oeddynt wedi eu tori oddi wrth

Digitized by Google

wastadedd Mesopotamia—gan yr anhawsder o fyned trwy y bylchau am lawn un hanner o'r flwyddyn. Yr oedd yn angenrheidiol cael prif ddinas o du y gorllewin i'r mynyddoedd; ac yr oedd Babilon a Susau, bob un, yn meddu ar eu manteision neillduol. Y mae yn debygol i Darius ddewis Susan, yn gyntaf, ar gyfrif ei hagosrwydd at Persia; yn ail, o herwydd ei bod yn oerach na Babilon, gan ei bod yn nes at y mynyddoedd; ac yn drydydd, o herwydd rhagoriaeth y dwfr yno. Am hyny, daeth Susa yn brif ddinas Persia, a chydnabyddir hi fel y cyfryw gan Æschylus, Herodotus, Ctesias, Strabo, a chan yn mron yr holl ysgrifenwyr goreu. Rhaid fod y llys yn cyfanneddu yno yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Ymadawai yn rheolaidd yn unig am Ecbatana, neu Persepolis, yn mhoethder yr haf, ac hwyrach symmudai weithiau am Babilon yn nyfnder y gauaf. Cadwodd Susan ei rhagoriaeth hyd at dymmor y gorchfygiad Macedoniaidd, pan y cafodd Alexander yno uwch law deuddeng miliwn o bunnau, a holl wisgoedd y 'Brenin Mawr.' Ar ol hyn adfeiliodd. Parodd y flaenoriaeth a roddid gan Alexander i Babilon i Susan gael ei hesgeuluso gan ei olynwyr, gan na ddarfu i un o honynt byth ei chymmeryd yn brif ddinas. Nid ydym yn clywed am dani ond unwaith yn unig yn hanes eu rhyfeloedd, pan y syrthiodd i ddwylaw Antigonus (c. c. 315), yr hwn a gafodd drysor yno o dair miliwn a hanner o bunnau o'n harian ni. Yn ddiweddarach o agos i gan mlynedd (c. c. 221) ymosodwyd ar Susan gan Molo yn ei wrthryfel yn erbyn Antiochus Fawr: efe a gymmerodd y dref, ond methodd yn ei gais i gymmeryd yr amddiffynfa. Yr ydym yn clywed am dani drachefn yn amser gorchfygiad Persia gan yr Arabiaid, pan yr amddiffynwyd hi yn ddewr gan Hormuzan.

Teimlwyd cryn anhawsder i gael gwybodaeth sicr yn mherthynas i sefyllfa Susan. Tra y mae y rhan fwyaf o'r haneswyr a'r dacaryddwyr yn tueddu i dybied mai yr un ydyw hi a *Sus*, neu *Shush*, yr hon sydd yn lled. 32° 10', hyd. 48° 26' dwyrain o Greenwich, rhwng y Shapur a'r afon Dizful. Barna rhai mai yr un yw a *Shuster*, yr hon sydd yn gorwedd ar lan aswy y Kuran, mwy na hanner gradd yn mhellach i'r dwyrain: ac ereill mai *Susan* ar yr ochr ddeheuol i'r un afon, 50 neu 60 o filldiroedd uwch law *Shuster*, yw Susan yr Ysgrythyr, os nad Susan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Ond y mae yr ymchwiliad manwl a wnaed i'r amrywiol lanerchi hyn wedi llwyr argyhoeddi y rhan fwyaf o'r dacaryddwyr mai *Sus* yn unig sydd yn meddu hawl i'r anrhydedd o gynnrychioli Susan yr Ysgrythyr a Susan yr ysgrifenwyr clasurol. Y mae yr anhawsderau a achoswyd gan adroddiadau cymmysglyd ymddangosiadol yr hen ysgrifenwyr, rhai o ba rai sydd yn gosod Susan ar y Choaspes, a rhai ar yr Eulæus, wedi eu symmud trwy yr archwiliad manwl a wnaed ar y tir; oddi wrth yr hwn yr ymddengys fod y Choaspes *(Kerkhah)* yn wreiddiol yn fforchogi yn *Pai Pul*, ugain milldir uwch law Susan—y fraich dde yn cadw ei chwrs presennol, tra y rhedai yr aswy ychydig i'r dwyrain i Sus, a chan lyngcu y Shapur o ddeutu deuddeng milldir is law yr adfeilion, yn rhedeg yn mlaen ychydig i'r dwyrain o du y deheu iddi, ac yn ymuno â'r *Karun* (Pasitigris) yn *Ahwaz*. Gelwid cangen aswy y Choaspes weithiau wrth yr enw hwnw; ond yn fwyaf priodol dygai yr enw Eulæus (sef, Ulai Daniel). Fel hyn, gorweddai Susan rhwng dwy ffrwd yr Eulæus a'r Shapur; yr olaf o ba rai, gan ei fod yn debygol ei bod yn cael ei chysylltu â'r Eulæus trwy gamlesydd, a ystyrid yn rhan o honi; ac o herwydd hyn y dywedodd Pliny fod yr Eulæus yn amgylchynu amddiffynfa Susan. Mewn pellder o ychydig filldiroedd i'r dwyrain a'r gorllewin o'r ddinas yr oedd dwy ffrwd arall—y Coprates, neu yr afon Dizful, a braich ddeheu y Choaspes *(Kerkhah)*. Fel hyn, yr oedd y wlad o amgylch Susan yn cael ei dyfrhau yn helaeth; ac oddi wrth hyn y cododd y ffrwythlonder y sylwyd arno gan awduron hen a diweddar. Yn mhellach, ystyrid dyfroedd y *Kerkhah* fel rhai tra rhagorol. Dyma yr unig ddwfr a yfid gan y 'Brenin Mawr,' a cherid ef gydag ef ar ei deithiau a'i ryfelgyrchoedd tramor. Y mae hyd yn oed y dydd heddyw yn enwog am ei bereidd-dra a'i burdeb, ac y mae y brodorion yn ei werthfawrogi yn mron uwch law pob dwfr arall.

Y mae adfeilion Susan yn gorchuddio arwynebedd o ddeutu chwe mil (6,000) o droedfeddi o hyd o'r dwyrain i'r gorllewin, wrth bedair mil a phum cant (4,500) o droedfeddi o led o'r gogledd i'r deheu. Amgylchedd y cwbl, a gadael allan y cloddiau dibwys, mewn cymmhariaeth, sydd yn gorwedd o'r tu allan, ydyw o ddeutu tair milldir. Yn ol Mr. Loftus, y mae y prif adfeilion presennol yn gynnwysedig o bedair esgynlawr eang—y rhai a wnaed gan ddynion, yn hollol ar wahân oddi wrth eu gilydd. O'r rhai hyn y gwarglawdd *(mound)* gorllewinol yw y lleiaf o ran maint ei arwynebedd, ond ystyrir ef yr uchaf a'r pwysicaf o lawer. Y mae ei bwynt uchaf yn gant a phedair ar bymtheg (119) o droedfeddi uwch law lefel y Shaour (Shapur). O ran ei ffurf, y mae yn driongl afreolaidd, a'i sylfaen yn wynebu y dwyrain. Ymddengys ei fod wedi ei wneyd o bridd, gro, a phriddfeini wedi eu sychu yn yr haul. Y mae ei ochrau mor unionsyth fel nas gall ceffyl fyned drosto, oddi eithr mewn tri lle yn unig. Ei fesur o amgylch ei ben ydyw o ddeutu dwy fil wyth cant a deg a deugain (2,850) o droedfeddi. Yn ei ganol y mae pant crwn dwfn—llys eang, hwyrach—yn cael ei amgylchynu gan bentwr o adeiladau uchel, cwymp y rhai sydd wedi rhoddi y ffurf bresennol i'w arwynebedd. Yma ac acw yn y ceunentydd, gwelir olion muriau priddfeini. Barna Mr. Loftus mai gweddillion amddiffynfa enwog Susan ydyw y clawdd hwn, am yr hon y crybwyllir mor fynych gan yr hen ysgrifenwyr. Wedi ei wahanu oddi wrth yr amddiffynfa ar du y gorllewin gan sianel, neu geunant, gwaelod yr hon sydd yn gydwastad â'r anialwch allanol, y mae yr esgynlawr canolbarthol mawr yn gorchuddio uwch law trigain o erwau. Ar y deheu, lle y mae yn ymgodi i'r uchder o ddeg a thrigain o droedfeddi, y mae y man uchaf; ar y dwyrain a'r gogledd, nid ydyw yn fwy na deugain neu hanner cant o droedfeddi. Y mae y wyneb ddwyreiniol yn mesur tua thair mil (3,000) o droedfeddi o hyd. Treiddia rhai ceunentydd aruthrol i galon y gwarglawdd. Y mae y trydydd esgynlawr tua'r gogledd, ac y mae yn bentwr mawr ysgwâr, o ddeutu mil (1,000) o droedfeddi bob ffordd. Y mae yn cyffinio ar yr esgynlawr canolbarthol yn ei gwr gogledd-orllewiuol eithaf; ond y mae yn cael ei ysgaru oddi wrtho gan waglo bychan; yr hwn, fe allai, oedd yr hen ffordd. Y mae y tri gwarglawdd

Digitized by Google

Oddi wrth yr hyn a wyddom am yr adeiladau yn Persepolis, gallwn haeru, yn mron gyda sicrwydd, mai wrth "borth y brenin," lle yr eisteddai Mordecai (*Esth.* ii. 21), a lle y cymmerodd cynnifer o ddygwyddiadau Llyfr Esther le, y golygir neuadd ysgwâr, yn mesur dros gan (100) troedfedd bob ffordd, â'i thô yn cael ei gynnal gan bedair colofn yn y canol, a bod hon yn sefyll mewn pellder o tua chant a hanner (150) neu ddau gant (200) o droedfeddi oddi wrth wyneb y cyntedd colofnog gogleddol. Gallwn hefyd fod yn lled sicr mai y cyntedd mewnol, lle yr ymddangosodd Esther i erfyn ffafr y brenin (*Esth.* v. 1), oedd y lle rhwng y cyntedd colofnog gogleddol a'r adeilad ysgwâr hon. Y cyntedd allanol oedd rhwng "Porth y Brenin" a mur gogleddol yr uchrodfa. Gallwn hefyd ddywedyd gyda chryn sicrwydd fod y "brenhindy" (*pen.* i. 9) a "thŷ'r gwragedd" (*pen.* ii. 10, 11) yn gorwedd o'r tu ol i'r neuadd fawr hon, i'r deheu, neu rhyngddi a'r amddiffynfa, ac yn meddu cymmundeb uniongyrchol â hi, naill ai trwy gyfrwng pont dros y geunant, neu ffordd orchuddiedig dan y ddaear:—y flaenaf yn fwyaf tebygol.

Y mae pob lle i gredu mai o flaen un o gynteddau colofnog cyfochrog yr adeilad hwn y "gwnaeth y brenin Ahasferus (Xerxes) i'r holl bobl oedd yn bresennol yn Susan y brenhinllys, o'r mwyaf hyd y lleiaf, wledd dros saith niwrnod, yn nghyntedd gardd palas y brenin; lle'r oedd lleni gwynion, gwyrddion, a rhuddgochion, wedi eu cylymu â llinynau sidan, ac â phorphor, wrth fodrwyau arian, a cholofnau marmor: y gwelyau oedd o aur ac arian, ar balmant o faen grisial, a marmor, ac alabaster, ac iasinct;" *Esth.* i. 5, 6. Oddi wrth hyn y mae yn amlwg fod y wledd wedi cymmeryd lle, nid o'r tu fewn i unrhyw neuadd, ond o'r tu allan, mewn pebyll wedi eu gwneuthur yn un o gynteddau y palas.

Yr oedd yr holl adeiladau mawrion hyn wedi eu codi ar warglawdd celfyddydol, o ffurf ysgwâr yn mron, yn mesur o ddeutu mil (1,000) o droedfeddi bob ffordd, ac yn ymgodi i uchder ymddangosiadol o hanner cant (50) neu drigain (60) o droedfeddi uwch law y gwastadedd. Gan y rhaid fod y brif adeilad, fel yr adeiladau yn Persepolis, yn meddu esgynlawr wedi ei godi uwch ben ei dô, nis gallai ei uchder fod yn llai na chant (100), neu gant ac ugain (120) o droedfeddi; ac o ganlyniad rhaid fod ei uchder uwch law y gwastadedd yn gant a thrigain a deg (170) neu ddau gant (200) o droedfeddi.

SUSAN-EDUTH. Y mae yn amlwg, beth bynag arall a all fod yn dywyll yn ei gylch, mai cyfarwyddyd cerddorol ydyw "Susan-eduth;" *Salm* lx. Yn *Salm* lxxx. cawn yr ymadrodd llawnach "Sosannim-eduth," talfyriad o ba un, yn ol barn Roediger, ydyw Susan-eduth. Fel y saif yn awr, y mae yn dynodi "lili y dystiolaeth," ac y mae yn bossibl ei fod yn cynnwys geiriau cyntaf rhyw salm, ar erddygan yr hon y cenid y geiriau yr oedd wedi ei dodi o'u blaen; ac felly yr oedd yr adroddiad "ar" "yn ol, yn y dull o," yn dynodi i arweinydd côr y deml y dôn yr oedd efe i'w dilyn.

SUSANCHIAID. Ni cheir y gair hwn ond unwaith yn unig—yn *Ezra* iv. 9, lle y mae yn digwydd yn mhlith rhestr y cenhedloedd a osododd yr Assyriaid yn Samaria, a hiliogaeth y rhai oeddynt etto yn meddiannu y wlad yn nheyrnasiad y Pseudo-Smerdis. Nid oes un ammheuaeth nad ydyw yn dynodi, naill ai trigolion dinas Susan, neu y wlad, Susis, neu Susiana—prif ddinas yr hon oedd Susan. Gan fod yr Elamiaid yn cael eu crybwyll yn yr un adnod, a chan ei bod yn ymddangos fod Daniel yn galw y wlad yn Elam, a'r ddinas yn Susan (neu Susa), hwyrach mai yr eglurhâd blaenaf ydyw y goreu. Gwel SUSAN.

1. SUSANNA (*h. y.*, "lili"): gwrones Barn DANIEL. Y mae yr enw hwn yn digwydd yn "*Diod. Sic.*" fel enw merch Ninus (*pen.* ii. 6), ac y mae Sesan (1 *Cron.* ii. 31, 34, 35) o'r un gwreiddyn.

2. SUSANNA: un o'r merched a weiniasant i'r Arglwydd: *Luc* viii. 3.

SUSI: tad Gadi, yr ysbïwr dros lwyth Manasseh: *Num.* xiii. 11.

SUTHELAH: penteulu Ephraimaidd, yr hwn a elwid ar ei ol yn Sutheliaid (*Num.* xxvi. 35), a hynafiad llinachol Iosuah, mab Nun: 1 *Cron.* vii. 20—27. Ymddengys oddi wrth yr adnod flaenaf fod Suthelah yn fab i Ephraim, ac yn dad i Eran—oddi wrth yr hwn y tarddodd teulu yr Eraniaid: *adn.* 36. Ymddengys hefyd fod ganddo ddau frawd, Becher, tad y Becheriaid, a Tahan, tad y Tahaniaid. Ond yn 1 *Cron.* vii. cawn grybwylliad pellach am Suthelah, lle yr ymddengys yn gyntaf oll fel mab Ephraim; ond yn *adn.* 21, gosodir ef yn ddiweddarach o chwe cenhedlaeth. Hefyd, yn lle Becher a Thahan, fel brodyr Suthelah, yr ydym yn cael Bered a Thahath, a'r olaf ddwywaith drosodd; ac yn lle Eran, ceir Eladah; ac y mae yr anghysondeb rhyfedd hwn i'w ganfod, ei fod yn ymddangos fod Ephraim yn fyw, ac yn galaru am ddinystr ei hiliogaeth yn yr wythfed genhedlaeth, a bod ganddo blant ereill wedi eu geni ar ol eu marwolaeth. Ac yna drachefn, yn *adn.* 25, y mae y llinach yn cael ei ail ddechreu gyda dau berson, Rephah a Reseph, ond ni ddywedir i ni yn bendant pwy oedd eu tadau; ac y mae yn cael ei chario yn mlaen trwy Thelah, a Thahan arall, a Laadan, at Iosuah fab Nun; yr hwn, fel hyn, a ymddengys wedi ei osod yn y ddeuddegfed genhedlaeth o Ioseph, neu, fel y mae rhai yn cyfrif, yn y ddeunawfed. Y mae yn amlwg, gan hyny, fod y testyn yn 1 *Cron.* vii. wedi ei lygru. Hwyrach y rhydd y sylwadau canlynol help i'w adferu:—1. Y mae yn debygol nad ydyw yr enwau sydd yn cael eu hailadrodd drosodd a throsodd drachefn, un ai yn yr un ffurfiau neu gyda chyfnewidiadau bychain, yn gosod allan ond yn unig UN person. O herwydd hyn, nid ydyw *Eladah* (*adn.* 20), *Elead* (*adn.* 21), a *Laadan* (*adn.* 26), ond enwau yr un a'r unrhyw berson. Ac os cymmharwn ni yr enw olaf â *Num.* xxvi. 36, "o Eran," gwelir yn mhellach mai yr un person hefyd ydyw Eran, pa un bynag ai Eran ai Laadan ydyw gwir ffurf yr enw. Felly drachefn, y ddau *Thahath* yn *adn.* 20, a *Thahan* yn *adn.* 25, ydynt yr un person a *Tahan* yn *Num.* xxvi. 35; a'r un ydyw *Suthelah* yn *adn.* 20 a 21, a Thelah yn *adn.* 25 a Suthelah yn *Num.* xxvi. 35, 36; a'r un ydyw *Bered* yn *adn.* 20, a Zabad yn *adn.* 21 a Becher yn *Num.* xxvi. 35. 2. Y mae y geiriau "ei fab" wedi eu chwanegu yn ammhriodol ar ol Bered a Thahath yn 1 *Cron.* vii. 20.

Digitized by Google

(40,000) o'r preswylwyr, o bob oedran a rhyw. Wedi cyhoeddi heddwch, cafodd ymherodres Rwssia hamdden i addfedu ei chynlluniau yn erbyn teyrnas anhapus Poland; a Suwarrow a ddewiswyd fel yr offeryn cymmhwysaf i'w cario allan. Cychwynodd, gan hyny, gyda byddin gref tua Warsaw, a lladdodd tuag ugain mil (20,000) o'r Pwyliaid ar ei ffordd, a therfynodd y rhyfelgyrch annheilwng hwn yn rhaniad teyrnas Poland. Gwobrwywyd ef yn awr trwy ei wneyd yn faeslywydd, a chafodd etifeddiaeth yn y wlad a orchfygwyd ganddo. Yr olaf, a'r mwyaf llwyddiannus o'i ryfelgyrchoedd oedd ei ryfelgyrch i Italy, yn 1790, pan y darfu i'w ddewrder a'i alluoedd am dymmor wneyd i fyny am yr anffodion a gyfarfuant y galluoedd cynghreiriol. Appwyntiwyd ef i gymmeryd llywyddiaeth y fyddin Rwssiaidd oedd wedi ei bwriadu i gydweithio â'r fyddin Awstriaidd yn Italy. Wedi ennill amryw o frwydrau ysblenydd, a gyru y Ffrangcod o holl drefydd ac amddiffynfeydd Italy Uchaf, gwnaed cyfnewidiad yn y dull o weithredu, ac ni chyrhaeddodd yr adgyfnerthion a ddisgwylid o Awstria. Medrodd y cadfridog Rwssiaidd, modd bynag, encilio yn gampus o Switzerland; ac aeth i'r Almaen, gan ddychwelyd i Rwssia, yn ol gorchymyn ei benadur. Anrhydeddwyd ef â'r teitl o Dywysog Italisky am ei wasanaeth yn y rhyfelgyrch hwnw. Ond ymddwyn yn anniolchgar tuag ato a wnaeth Paul ar ol hyn, ac effeithiodd hyny yn fawr arno i'w bruddhau; a mynegir ddo farw ar ol y cwbl o siomedigaeth a thrallod, yn y flwyddyn 1800.

SWCH, SYCHAU: cyllell aradr; cwlldwr. Yr oedd swch aradr yr Hebreaid yn debyg i gleddyf byr: 1 *Sam.* xiii. 20; *Esa.* ii. 4.

SWEDEN: gwlad fawr yn ngogleddbarth Ewrop, sydd yn cynnwys y rhan fwyaf o orynys Scandinavia. Y mae Sweden, a chymmeryd i mewn Lapland Swedaidd, yn ymestyn o 55.20 i 69 lledred gogleddol, ac o 11.10 hyd 23.20 hydred dwyreiniol, neu dros naw cant (900) o filldiroedd o hyd, ac o gant i gant a hanner o filldiroedd o led mewn rhai manau: mesura tua chant a deg a thrigain o filoedd (170,000) o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd. Terfynir hi ar du y gogledd gan forgaingc Bothnia a'r Baltic, ac ar y deheu a'r gorllewin gan ranau o'r Baltic a Norway. Cynnwysai yn wreiddiol dair teyrnas, sef Gothland, Sweden Briodol, a Norrland—yr olaf yn cynnwys Lapland Swedaidd. Y mae y rhaniad hwn yn awr wedi ei ddileu, ac y mae yr holl deyrnas wedi ei rhanu i'r dosbarthiadau canlynol:—Stockholm, Upsala, Westeras, Nyköping, Orebro, Linköping, Jonköping, Wexïo, Calmar, Wisby, Carlscrona, Christianstad, Malmö, Halmstads, Göteborg, Wenersborg, Mariestad, Carlstad, Falu, Gefle, Hernosand, Osterund, Umea, Pitea. Er fod Sweden wedi ei hamgau gan fynyddoedd ar y gorllewin a'r gogledd, y mae y wlad yn lled wastad yn gyffredinol; ac y mae yn bur hynod nad oes nemawr o ddim codiad tir ar hyd yr holl ffordd o Göteborg yn y gorllewin hyd Stockholm yn y dwyrain—nes y deuir o fewn ychydig filldiroedd i'r lle diweddaf. Y mae rhai o'r dyffrynoedd, neu y gwastadeddau, yn lled ffrwythlawn; ac un o'r rhai mwyaf toreithiog ydyw gwastadedd Linköping, yr hwn a fesura o lenydd y Baltic i lenydd y Wettern, sef o'r dwyrain i'r gorllewin, tua thrigain milldir; ac y mae ei led cyfartal tua deng milldir ar hugain. Un o nodweddion hynotaf Sweden ydyw rhif ac eangder ei llynau; o herwydd, yn ol Forsell, nid oes dim llai nag un ar hugain o filoedd, naw cant a chwech a deugain (21,946) o filldiroedd ysgwâr, neu yn agos i un rhan o wyth o'i holl arwynebedd, o dan y llynau hyn. Llyn Wenern ydyw y mwyaf o'r cwbl, yr hwn a fesura drigain milldir o hyd, ac yn ei fan lletaf tua deg ar hugain. Y rhai nesaf ato o ran maintioli ydynt llynau y Wettern a'r Hjelmar—y ddau ar du y deheu i'r brifddinas, a chryn bellder oddi wrthi. Y mae y Wettern yn bedwar ugain milldir o hyd, ac yn ddeg o led. Cylchynir y rhan fwyaf o hono gan greigiau a bryniau, oddi gerth ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol. Dywedir ei fod yn un man tua deg a thrigain gwrhyd o ddyfnder. Mesura y Hjelmar o'r dwyrain i'r gorllewin tua phymtheg ar hugain o filldiroedd, ac ynghylch dwy filldir o led yn ei ddau ben, ond y mae tuag wyth milldir o led yn ei ganol. O'r afonydd, y mae y Ljusna, y Dal, a'r Clara, yn codi yn y mynyddoedd sydd yn ymylu ar Norway, ac yn rhedeg, y gyntaf i forgaingc Bothnia, a'r olaf i'r llyn Weuern. Afonydd Lapland ydyw yr Angerman, yr Umea, y Skelleftea, y Pitea, y Lulea, a'r Torneo.

Y mae hinsawdd Sweden yn dynerach nag y gellid disgwyl mewn lledred mor uchel. Tardda y gwahaniaeth sydd rhwng yr hinsawdd mewn amrywiol fanau o'r wlad yn benaf o'r gwahaniaeth lledred, ac uchder y tir uwch law wyneb y môr. Wrth gymmharu hinsoddau Edinburgh a Llundain gyda phump o drefydd Sweden, ymddengys fod y gwres yn yr haf yn fwy mewn tair o honynt nag yn Llundain, ac yn y pump yn fwy nag yn Edinburgh. Ond y mae tymmeredd cyfartal y gauaf yn ffafr Edinburgh ddeg o raddau. Y mae tymmeredd cyfartal y flwyddyn yn Stockholm, y brifddinas, yn bedwar gradd uwch nag ydyw yn St. Petersburg. Nid ydyw yn hysbys pa faint o wlaw a ddisgyna ar y taleithiau gogleddol, nac yn nosbarthiadau mewnol y gorynys. Ond ar y tiroedd isel sydd yn ymylu ar y Baltic, y mae yn disgyn rywle o un ar hugain i ddwy ar hugain o fodfeddi yn y flwyddyn, yr hyn sydd lai na'r swm o wlaw a ddisgyna yn Llundain; ond nid yw yr eira, dybygid, yn cael ei gynnwys yn y cyfrif hwn. Y mae y planhigion a dyfant yn Sweden yn gyffelyb i rai Prydain Fawr, gyda rhai eithriadau; megys y fedwen, yr eithinen, a'r gollen ffreinig, y rhai nad oes ganddynt nerth i ddal oerfel parhaol gauaf Sweden. Ceir yno goed afalau, gellaig, a cheirios, ond bychain ydynt; tra y mae aeron a mwyar o wahanol fathau yn dra chynnyrchiol. Y mae fforestydd mawrion yn gorchuddio rhanau helaeth o'r wlad. O barthed i ŷd, nid yw gwenith yn tyfu ond yn y taleithiau deheuol; cyfodir ceirch yn fwy cyffredinol, a mwy o swm o hono; ond rhug a haidd ydyw y grawn a geir fynchaf. Gyda golwg ar anifeiliaid, o leiaf rhai dofion, nid oes ond ychydig o wahaniaeth rhwng rhai Sweden a Phrydain. Y mae helwriaeth yno, yn enwedig ysgyfarnogod a llwynogod, mor liosog ag ydynt yn y wlad hon; ac y mae yno greaduriaid gwylltion, megys y llostlydan *(beaver)*, a'r arth, yn nhaleithiau oerion y gogledd. Y mae mwy o debygolrwydd drachefn rhwng adar Sweden a rhai y wlad hon.

Nid ydyw yr hinsawdd a'r tir yn Sweden mor

Digitized by Google

ffafriol i dyfiant grawn ag ydyw yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Nid oeddid gynt yn codi digon yno at wasanaeth y preswylwyr; ond y maent yn awr yn gallu anfon llawer i wledydd ereill; ac y mae y wlad yn gyfoethog mewn mwnau. Cafwyd aur yn ucheldir Småland, a gweithiwyd ef yn nechreu y ganrif bresennol; ond yr oedd y cynnyrch mor fychan, a'r draul mor fawr, fel y bu raid rhoddi y gwaith i fyny. O'r braidd hefyd y mae y mwngloddiau arian yn talu am eu gweithio. Ceir yno fwy o gyflawnder o gopr. Y mae ceryg haiarn i'w cael yn mhob dosbarth o'r wlad yn mron; ac y mae gweithiau haiarn, bychain neu fawr, yn mhob rhan o honi. Ond y lleoedd y ceir mwyaf o haiarn ydyw Carlstad, Orebro, Gefle, Falu, a Westeras. Cyfodwyd o'r mwngloddiau yn y flwyddyn 1870, trwy yr holl deyrnas, bedair miliwn ar ddeg, pum cant ac wyth o filoedd, a dau gant a deunaw a thrigain (14,508,278) canpwys o fŵn haiarn. Y mae gwythïenau mawrion o lô mewn amryw fanau yn Sweden, er nad oes fawr o honynt wedi eu gweithio i fantais dda hyd yma. Y prif nwyddau a ddanfonir o Sweden i'r wlad hon ydyw coed, ceirch, a haiarn.

Y mae corph poblogaeth y wlad yn Swediaid —cenedl o darddiad Teutonaidd, ac yn debyg i'r Saeson, oddi eithr eu bod ychydig yn ysgafnach, ac o brydwedd mwy goleu, ar y cyfan. Hynodir y trigolion gan ysbryd ymchwiliadol ac anturiaethus. Ond heb law y Swediaid, y mae yno Ffiniaid a Laplandiaid. Y mae y Ffiniaid yn lliosog ar lenydd y Tornea Elf, yn agos i gyffiniau Rwssia, ac y maent yn hynod fel magwyr gwartheg; ac hefyd yn nodedig o ofalus am gadw eu hiaith a'u harferion. Poblogaeth wledig yn benaf ydyw un Sweden; ac nid oedd yn y deyrnas, yn ol cofrifiad 1872, ond dwy dref â'u poblogaeth dros hanner cant o filoedd (50,000); sef Stockholm, y brif ddinas, gyda chant a thri a deugain o filoedd, saith gant a phymtheg ar hugain (143,735) o breswylwyr, a Goteborg, gyda phedwar ar bymtheg a deugain o filoedd, tri chant a naw ar hugain (59,329). Y mae nifer y personau, ynghyd â'u teuluoedd, sydd yn amaethu y ddaear yn agos i dair miliwn (3,000,000) o rifedi. O'r rhai hyn, y mae chwarter miliwn (250,000) yn perchenogi eu hunain y tir a amaethir ganddynt. Poblogaeth yr holl deyrnas, yn ol y cyfrif a gymmerwyd ar yr 31ain o Ragfyr, 1872, oedd pedair miliwn, dau gant a hanner o filoedd, a phedwar cant a deuddeg (4,250,412). Cyfrenir addysg dda yn y wlad hon. Cyflwynir addysg gyhoeddus yn rhad, ac y mae y llywodraeth hefyd yn gwneyd addysg yn orfodol. Yn y flwyddyn 1871, yr oedd agos i ddau ar bymtheg a phedwar ugain y cant o'r holl blant rhwng wyth a phymtheg oed wedi bod yn yr ysgolion cyhoeddus. Y mae y mwyafrif mawr o'r bobl yn Brotestaniaid —yr hon ydyw crefydd sefydledig y wlad. Nid ydyw cyfrifiad 1872 yn dangos fod yno ond dwy fil pedwar cant a naw (2,409) yn ymneillduwyr —o ba rai yr oedd pum cant a thri ar ddeg a thrigain (573) yn Babyddion; a mil, wyth gant ac un ar bymtheg ar hugain (1,836) yn Iuddewon.

Fel cenhedloedd Scandinaviaidd ereill, y mae hanes boreuol Sweden i'w gael yn benaf mewn croniclau, y rhai ydynt yn llawn o chwedlau cymmysglyd. Y deyrnach gyntaf a fu yn llywodraethu Sweden ag y mae sicrwydd am dani ydoedd un Yngling, yr hon a sefydlwyd ryw bryd rhwng y blynyddoedd C. C. 50 a B. A. 250, ac a barhaodd hyd B. A. 630, pan y darfu i Ivar Vidfadme, brenin Denmarc, ddiorseddu Olaf Trætelia—yr olaf o'r deyrnach hono. Bu gorseddau Sweden a Denmarc yn unedig am beth amser o dan ddisgynyddion Ivar, nes y bu farw Ragnar, yn 794, pan y gwnaethpwyd Sweden yn deyrnach annibynol o dan ei ail fab ef, sef Biorn Ironside. O dan Biorn II., ŵyr i Biorn Ironside, y dygwyd Cristionogaeth gyntaf i Scandinavia; ond parhaodd y mwyafrif o'r bobl i ymlynu wrth baganiaeth; a lladdwyd Erik, yr hwn a deyrnasodd o 993 hyd 1001, mewn terfysg a gynnhyrfwyd gan ddinystr a wnaed ar y temlau paganaidd. Ond sefydlwyd Cristionogaeth yn ffurfiol gan Olaf, ei fab ef (1001—26); ac yn ystod teyrnasiad ei olynydd, Emund-Jacob, dychwelwyd y genedl yn lled gyffredinol at Gristionogaeth. Syrthiodd Emund Slemme, ei olynydd yntau, mewn brwydr â'r Gothiaid, yn 1056; ac felly, terfynodd disgynyddion gwrywaidd Biorn Ironside, a sefydlwyd teyrnach newydd gan Stenkill, o dan yr hwn yr unwyd y Swediaid â Gothiaid Gothland am y tro cyntaf. Yr hyn a hynodai dywysogion y linach hon (pedwar mewn nifer) oedd eu rhinweddau heddychol, a'u sêl i ddileu gweddillion paganiaeth. Ar farwolaeth Inge II., yr olaf o honynt, dyrchafodd y Swediaid un o'r enw Sverker i'r orsedd, tra yr oedd y Gothiaid yn cefnogi hawliau Erik; ond penderfynwyd ar fod i Erik fod yn olynydd i Sverker, a bod i gynnrychiolwyr y ddau deulu deyrnasu bob yn ail. Yn nheyrnasiad Erik y llwyr ddarostyngwyd ac y dychwelwyd y Ffiniaid at Gristionogaeth (1154), ac y casglwyd ynghyd restr o gyfreithiau rhagorol: ond wedi ei farwolaeth ef, fel y gallesid disgwyl, arweiniodd y trefniadau a wnaed gyda golwg ar lanw yr orsedd i anghydfod a rhyfel cartrefol. Parhaodd y trefniad, pa fodd bynag, hyd nes y terfynodd etifeddion gwrywaidd y ddwy linach yn marwolaeth Erik Erikson, yn 1250.

Ar hyn, etholwyd Waldemar, nai i'r brenin diweddaf, i lanw yr orsedd, ac ymddiriedwyd y llywodraeth, hyd nes y deuai i'w oed, (yn 1266) i'w dad, Birger Jarl, yr hwn a adeiladodd ac a sefydlodd Stockholm yn brif ddinas. Diorseddwyd Waldemar gan ei frawd Magnus Ladulæs, yr hwn oedd benadur doeth a synwyrol; ond diorseddwyd ei fab yntau, Birger, a gosodwyd ei nai ieuangc, Magnus Smek, yn ei le, yr hwn hefyd a ddaeth i feddiant o goron Norway yn hawl ei fam. Nodweddwyd teyrnasiad maith, ond egwan, y tywysog hwn â rhyfeloedd cartrefol a thramor; diorseddwyd ef gan y senedd, a gosodwyd ei fab, Erik XII., yn ei le; ac er iddo gael ei adferu ar farwolaeth Erik, yn 1359, diorseddwyd ef drachefn yn ffafr mab ei chwaer, Albert o Mecklenburg. Yr oedd llywodraeth Albert, pa fodd bynag, mor ammhoblogaidd ag eiddo ei ragflaenorydd: a dymchwelwyd ei orsedd, a gwnaed yntau yn garcharor, yn 1389, gan Margaret, yr hon a gyfenwid yn 'Semiramis y Gogledd,' brenhines Norway a Denmarc. Merch oedd y dywysoges nodedig hon i Waldemar Atterdag, yr olaf o hen frenhinoedd Denmarc, a gweddw Hakon, brenin Norway. Hi a unodd y tair teyrnas ogleddol â'u gilydd, sef Sweden, Norway, a Denmarc, yn 1397. Olynydd Margaret oedd Erik o Pomerania; ond darfu i'w orthrwm a'i drahâ gyffroi y Swediaid i wrthryfel; a gyrodd Engelbrekhtson y Daniaid allan o'r wlad yn 1433, ac etholwyd Charles Bonde i

lywyddu achosion y deyrnas. Ac ar ei ol ef bu ei nai, Stephen Sture, yn gweinyddu achosion y wladwriaeth (1471—1505), yn amser yr hwn y sylfaenwyd prifysgol Upsala, ac y dygwyd y gelfyddyd o argraphu gyntaf i'r wlad yn 1483. Yn ystod ei weinyddiaeth ef, a'i ddau olynydd, Svante Sture a Sten Sture, ymdrechai y brenhinoedd Danaidd adfeddiannu yr orsedd trwy ddichell a thrwy arfau; ac o'r diwedd lladdwyd Sten Sture II., yn Bogesund, a rhoddwyd pedwar ugain a phedwar o esgobion, seneddwyr, a pheudefigion o'r blaid wrthwynebol i farwolaeth yn Stockholm. Rhuthrodd y Swediaid i wisgo arfau ar hyn, o dan arweiniad Gustavus Vasa, a llwyddasant i yru y Daniaid allan o'r wlad, a chyhoeddwyd Gustavus yn unfrydol yn frenin y Swediaid a'r Gothiaid. A dyma y pryd y gellir dywedyd i Sweden gael ei sylfaenu yn deyrnas gyfrifol ac annibynol. Nodweddwyd y cyfnod newydd hwn hefyd gyda chyfnewidiad crefyddol. Yr oedd athrawiaethau Luther wedi eu dwyn ger bron yn Sweden yn 1522, gan Olaus Petri, dysgybl i'r diwygiwr mawr; ac yn 1528 mabwysiadwyd cyffes Augsburg yn gyhoeddus yn safon ffydd gan y brenin a'r bobl yn llwyrwys Westeras. Yn 1540, penderfynwyd fod yr olyniaeth i'r orsedd i fod yn etifeddion gwrywaidd y brenin: ac yn 1542, trwy gyttundeb Fontainebleau, ymgynghreiriodd Denmarc a Sweden yn erbyn Siarl v. Yn 1550, cwblhawyd cyttundebau masnachol rhwng Sweden a Lloegr a'r Iseldiroedd, yr hyn a roddodd adfywiad i fasnach a morwriaeth; a gwahoddwyd gwyddonwyr a chrefftwyr tramor i sefydlu yn y wlad. Llwyddodd Sweden, a daeth i feddu cyfoeth yn mhell y tu hwnt i'r peth yr arferai fod, a dyrchafwyd hi yn deyrnas o gryn fri ac urddas. Ond gorthrymydd pruddglwyfus a chreulawn oedd Erik XIV., mab ac olynydd Gustavus; ac mewn canlyniad i'w euogrwydd a deimlai o herwydd y gyflafan a wnaeth ar deulu Sture, a'n pleidwyr, yn 1567, efe a gollodd ei synwyrau; a phennodwyd ei frawd, John III., yn olynydd iddo. Yr oedd ei deyrnasiad ar y cyntaf yn llwyddiannus; ond collodd ei boblogrwydd trwy geisio adferu y grefydd Babaidd. Dilynwyd John i'r orsedd gan ei fab, Sigismund, yn 1592, yr hwn a etholasid yn frenin Poland yn 1587; ond darfu i'w broffes gyhoeddus o Babyddiaeth oeri y Swediaid tuag ato yn fuan; a dechreuwyd rhyfel cartrefol, yr hwn a barhaodd ar adegau hyd y fl. 1604; cefnogid y brenin gan filwyr Pwylaidd. O'r diwedd, appwyntiodd llwyrwys Norrköping ewythr Sigismund, y Duc o Sudermania, i'r orsedd, o dan y teitl o Siarl IX. Dyma a fu yn achos o ryfel yr olyniaeth a fu rhwng Sweden a Pholand, yn awr ac eilwaith, am drigain mlynedd. Olynydd Siarl IX. oedd ei fab, yr enwog Gustavus Adolphus, yr hwn a esgynodd yr orsedd, 1611. Y peth cyntaf a wnaeth efe oedd dwyn oddi amgylch welliantau yn y cyfreithiau, ac eangu masnach a chefnogi amaethyddiaeth. Cymmerodd Gustavus y maes yn erbyn y Pwyliaid yn 1621, a chymmerodd Riga, a darostyngodd Livonia. Yna trodd ei arfau yn erbyn yr Almaen, lle yr oedd rhyfel Awstriaidd y deng mlynedd ar hugain yn bygwth llethu Protestaniaeth; ac wedi ei ddewis yn gadlywydd cyffredinol y cynghrair Protestanaidd, glaniodd yn Pomerania, yn Mehefin, 1630, ac aeth yn llwyddiannus gyda'r rhyfelgyrch: ond cwympodd yn mrig y fuddugoliaeth yn mrwydr Lutzen, Tachwedd 6ed, 1632.

Chwe mlwydd oed oedd Christiana, merch Gustavus, pan y dechreuodd deyrnasu o dan raglawiaeth Oxenstiern, tra y darfu i amryw o gadfridogion Sweden osod yr anrhydedd mwyaf ar eu harfau yn yr Almaen; a phan y gwnaed heddwch cyffredinol, yn 1648, cafodd Sweden Pomerania, Rugen, a Bremen, &c. Dyrchafwyd hi yn allu o'r radd flaenaf. Ymddiswyddodd Christina, pa fodd bynag, yn 1654, yn ffafr ei chefnder, Siarl Gustavus; ac ymneillduodd i Ffraingc, ac wedi hyny i Rufain—lle y bu farw yn Babyddes, yn y fl. 1689. Adnewyddwyd y rhyfel â Pholand gan Siarl, yr hwn a oresgynodd y wlad hono, a chymmerodd Warsaw, a Cracow, &c.: yna efe a ymosododd ar Denmarc gyda graddau o lwyddiant; ond mewn ail ymosodiad a wnaeth arni, cafodd Denmarc gynorthwy Prwssia a Holland, a gyrwyd y Swediaid yn ol. Ond gwnaed heddwch o dan ei olynydd, Siarl XI., yn 1660: a daeth Sweden i feddiant o Esthonia, Livonia, ac Oesel, a rhoddwyd i fyny hawl brenhinoedd Poland i goron Sweden. Bu farw Siarl yn 1697, gan adael ei goron i'r enwog Siarl XII. [Am helyntion ei deyrnasiad ef, gwel Siarl XII.] Ar ei farwolaeth ef, yn 1718, etholwyd a chyhoeddwyd ei chwaer, Ulrica-Eleonora, yn frenhines gan y senedd, yr hon a ymddiswyddodd yn mhen dwy flynedd yn ffafr ei gŵr, Frederick o Hesse-Cassel. Yn ol cyttundeb a wnaed gyda Rwssia, yn 1721, cafodd y wlad heddwch: ond cymmerodd y Czar feddiant o daleithiau Ingria, Livonia, Esthonia, Carelia, ac Oesel; ac o hyny allan gallu ailraddol yr ystyrid Sweden. Am yr ugain mlynedd a ddilynodd, yr oedd dylanwadau Ffraingc a Rwssia yn ymgais am yr oruchafiaeth yn llys Sweden; ond er hyn oll, yr oedd amaethyddiaeth a masnach yn blodeuo, tra y darfu i Linnæus a'i ddysgyblion roddi cyffroad newydd i wyddoniaeth, a gwellhawyd y cyfreithiau trwy gyhoeddi deddfres newydd yn 1734. Yr oedd teyrnasiad Adolphus Frederick (1751—71) yn un heddychol o ran ei gyssylltiadau tramor, gyda'r eithriad o'r rhan a gymmerwyd ganddo yn erbyn Prwssia yn Rhyfel y Saith Mlynedd. Lled gythryblus oedd teyrnasiad ei olynydd, Gustavus III. (1771—92). Darfu i'r chwyldroad yn Ffraingc fod yn achlysur i ddwyn oddi amgylch gynghrair rhwng Sweden, ac Awstria, a Rwssia; a ffurfiwyd cynllun i oresgyn Ffraingc gyda byddin unedig o dan lywyddiaeth Gustavus: ond bradlofruddiwyd y brenin ar yr 16eg o Fawrth, yn y flwyddyn hono, gan Ankarstrom, yr hwn oedd oruchwyliwr i'r pendefigion anfoddog. Tynwyd yn ol o'r cynghrair, a chydnabyddodd llywodraeth Sweden y weriniaeth Ffrengig yn 1795. Yn 1805, gwnaeth Gustavus IV. a llywodraeth Sweden gynghrair gyda Rwssia a Phrydain yn erbyn Napoleon; ond ar ol cynnadleddau Tilsit, trodd Rwssia ei harfau yn erbyn Sweden, a chymmerodd Finland. Daeth amryw anffodion i gyfarfod byddin Sweden, yr hyn a briodolid gan lawer i anallu y brenin; ac am y tybid ei fod yn dangos arwyddion o wendid synwyr, diswyddwyd ef yn 1809, a dyrchafwyd ei ewythr, Siarl XIII., i'r orsedd yn ei le. Mewn canlyniad i farwolaeth tywysog Holstein-Augustenburg, yn 1810, yr oedd angen ethol tywysog coronog, a syrthiodd y dewisiad ar Bernadotte, un o gadfridogion Napoleon; ac ar farwolaeth Siarl XIII., efe a esgynodd yr orsedd, o dan y teitl o Siarl XIV. Yr oedd Norway wedi ei chyssylltu â Sweden yn 1814, ac y maent

Digitized by Google

yn parhau yn unedig. Talodd y brenin sylw neillduol i ddiwylliant a gwelliant adnoddau mewnol ei diriogaethau; ac ar ol ei farwolaeth ef, yn 1844, esgynodd ei fab, Oscar, yr orsedd, a dilynodd lwybrau ei dad, trwy deyrnasu yn heddychol, gydag amcan arbenig i ddwyn oddi amgylch lwyddiant a dedwyddwch ei ddeiliaid. Bu farw Oscar yn 1859, a dilynwyd ef gan ei fab, o dan y teitl o Siarl XV.; yr hwn, fel ei dad a'i daid, a lwyddodd i sicrhau i deulu Bernadotte serch ac ymlyniad pobl Sweden a Norway. Ar farwolaeth Siarl, ar Medi 18fed, 1872, esgynodd y brenin presennol yr orsedd, dan yr enw Oscar II.

SWEDENBORG, EMANUEL: oedd un o gymmeriadau hynotaf y ddeunawfed ganrif. Mab ydoedd i Jesper Swedberg, esgob Skara. Ganwyd ef yn Stockholm, prifddinas Sweden, ar yr 22ain o Ionawr, 1688. Nid oes nemawr o ddim yn wybyddus am ei ddyddiau boreuaf, ond yn unig ei fod er yn ieuangc iawn dan ddylanwad argraphiadau crefyddol. Ymddengys fod ei dad wedi cymmeryd y gofal mwyaf gydag addysg ei fab, a'r lle y cafodd fwyaf o'i addysg oedd prifysgol Ursula. Yr oedd yn astudiwr caled yn yr ieithoedd clasurol, yn gystal ag mewn mesuroniaeth, ac anianyddiaeth naturiol. Pan yn un mlwydd ar hugain oed, cymmerodd ei raddau o ddoctor mewn philosophi, a chyhoeddodd ei draethawd cyntaf. Yn 1710, efe a ddaeth i Lundain, pan oedd y pla yn gwneyd difrod mawr ar fywydau yn Sweden. Treuliodd beth amser yn Rhydychain, a bu fyw am dair blynedd mewn gwledydd dyeithr, yn Utrecht, Paris, a Griefswalde, gan ddychwelyd i Sweden yn 1714. Ei gynnyrchion nesaf oedd cyfrol fechan o chwedlau a dammegion mewn rhyddiaith Ladinaidd; ac un arall, yn cynnwys caneuon Lladinaidd. Yn 1716, efe a gyhoeddodd gyfnodolyn, yn cynnwys adroddiad o ddyfeisiau a phrawfiadau gan Polhem, ac ereill, a darganfyddiadau mesuronyddol ac anianyddol ganddo ef ei hun. Appwyntiodd y brenin Siarl XII. ef i swydd yn y Coleg Mettelaidd Brenhinol. Ac yn 1719, dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth gan y frenhines Ulrica Eleanora, o dan yr enw Swedenborg. Cymmerodd ei eisteddle o hyn allan yn mysg y pendefigion yn nghyfarfodydd y senedd. Nid oedd hyn yn rhoddi iddo, mewn ystyr manwl, un teitl, heb law newid ei enw, er y gelwir ef yn fynych y Barwn Swedenborg. Cyhoeddodd dri o weithiau gwyddonol yn y flwyddyn hon. Ymwelodd â Denmarc a Holland yn 1721, a chyhoeddodd chwech o draethodau, yn dal cyssylltiad yn benaf âg anianyddiaeth naturiol, yn Amsterdam. Aeth o'r lle diweddaf i Aix-la-Chapelle, a Cologne, ac ymwelodd â'r mwngloddiau a'r gweithiau toddi cyfagos i'r lleoedd hyn. Cyrhaeddodd i Leipzic yn 1722, a chyhoeddodd yno waith yn dal cyssylltiad â muriau. Amlygai y gwaith hwn, fel ei rai blaenorol, allu nodedig i gasglu ffeithiau, yn gystal ag i gymmhwyso egwyddorion. Wedi bod yn absennol am yn agos i ddwy flynedd, efe a ddychwelodd adref; ymddengys mai amcan penaf y daith hon oedd casglu mwy o wybodaeth ymarferol ynghylch mwnyddiaeth. Cynnygiwyd iddo y swydd o broffeswr mesuroniaeth yn mhrifysgol Upsala yn 1724; ond gwrthod yr anrhydedd hwn a wnaeth efe. Yn 1729, etholwyd ef yn aelod o athrofa frenhinol y gwyddorau yn Upsala. Teithiodd drachefn yn yr Almaen yn 1733; ac ymddengys iddo y pryd hwnw fod yn Berlin, Dresden, Prague, a Carlshad, ac iddo gyrhaedd i Leipzic yn niwedd y flwyddyn.

Cyhoeddodd Swedenborg ei "*Opera Philosophica et Minevalia*," yn dair cyfrol, yn Dresden, yn 1734. Ymdrinia yn y gyntaf âg egwyddorion anianyddiaeth naturiol, ac yn yr ail a'r drydedd â'r metteloedd haiarn, a phres, a chopr. Yn yr un flwyddyn hefyd, cyhoeddodd Swedenborg ei "*Introduction to the Philosophy of the Infinite*," &c. Erbyn hyn, yr oedd ei gymmeriad wedi ei sefydlu trwy holl Ewrop, a llawer o wŷr dysgedig yn awyddus i ddal gohebiaeth âg ef. Ymwelodd âg Italy yn 1738 a 1739, a bu am flwyddyn yn Venice a Rhufain. Yn 1740, cyhoeddodd ei "*Economy of the Animal Kingdom*" yn Amsterdam, a gwaith arall o nodwedd cyffelyb yn yr Hague, yn 1745. Nid oedd y gweithiau mawr hyn yn cael eu hystyried ganddo ef ond fel dechreuad gwaith, yr hwn y bwriadai iddo gynnwys holl gylch anianddysg ac eneid-ddysg *(physiology and psychology)*. Yn nechreu y flwyddyn 1745, cyhoeddodd ei draethawd a elwir "*The Worship and Love of God*," mewn dwy ran. Yr oedd Swedenborg yn y ddeunawfed flwydd a deugain o'i oedran y pryd hwnw; ac o hyn allan ni a'i cawn yn gwisgo cymmeriad newydd, ac fel y canlyn y mae efe ei hun yn cyfeirio at hyn:—"Yr wyf wedi cael fy ngalw i swydd sanctaidd gan yr Arglwydd, yr hwn yn rasol a eglurodd ei hun yn bersonol i mi, ei was, yn 1745, ac a agorodd fy ngolwg i weled i'r byd ysbrydol, gan fy nghynnysgaeddu â dawn i ymddiddan gydag ysbrydion ac angylion." Digwyddodd y peth y cyfeirir ato i Swedenborg yn nghanol mis Ebrill, 1745, mewn gwestty yn Llundain. Cofnodir y modd y cymmerodd hyn le gan M. Robsahm, cyfarwyddwr ariandy Stockholm, yr hwn oedd gyfaill mynwesol i Swedenborg, ac a gafodd yr hanes ganddo ef yn bersonol, yn y bywgraphiad a ysgrifenodd efe o'i gyfaill. Rhoddodd Swedenborg heibio yn hollol ei ymchwiliadau gwyddonol o hyn allan; ac nid yw unwaith, yn ei weithiau duwinyddol, yn cyfeirio dim at ei lafur gyda gwyddoniaeth yn flaenorol. Ymddengys, pa fodd bynag, ei fod yn cymmeryd rhan yn ngweithrediadau y senedd yn achlysurol ar ol hyn.

Dychwelodd o Lundain i Sweden yn Awst, 1745, ac ymroddodd yn uniongyrchol i astudio yr iaith Hebraeg, ac i chwilio yn fanwl yr Ysgrythyrau. Rhoddodd ei swydd ar fwrdd y mwnau i fyny yn 1747. O hyn allan, yr oedd Swedenborg yn gweithio yn galed ar ei weithiau duwinyddol, neu yn teithio gwledydd tramor i'w cyhoeddi. Pan y byddai gartref, yr oedd ganddo dŷ yn nghymmydogaeth Stockholm, gyda gardd fawr, yn yr hon yr oedd yn cael hyfrydwch mawr. Ymwelai yn fynych âg Amsterdam a Llundain. Tystia y boneddwyr mwyaf anrhydeddus yn Sweden i'r cyssondeb â pha un yr haerai ei fod yn dal cyfathrach â byd yr ysbrydoedd, neu âg ysbrydion. Y Barwn de Grimm, ar ol ei ddisgrifio fel "dyn hynod, nid yn unig am ei onestrwydd, ond hefyd am ei wybodaeth," a gyfeiria at un o'r digwyddiadau hyn, a dywed:—"Y mae y ffaith hon yn cael ei chadarnhau gan awdurdodau mor gyfrifol, fel y mae yn ammhossibl ei gwadu; ond y cwestiwn yw, pa fodd y gellir ei chredu." Sonia y barwn am hyn fel am un o wyrthiau y Testament Newydd.

Digitized by Google

Darfu i Kant hefyd wneyd ymchwiliad manwl i un o'r chwedlau a daenid am Swedenborg; a dywedai fod y "Proffeswr Schlegel wedi ei hysbysu ef nad ellid mewn un modd ei gwadu;" a chwanega, "Y mae yn cadarnhau yr haeriad o barthed i ddawn anghyffredinol Swedenborg y tu hwnt i ddadl." Nid oedd Swedenborg ei hun, pa fodd bynag, yn rhoddi pwys ar y fath brofion; "o herwydd," medd efe, "nid ydynt ond yn gorfodi crediniaeth allanol: nid ydynt yn argyhoeddi yn fewnol." Yn ystod ei flynyddoedd olaf dygodd yr esgob Filenius a Dr. Ekebon gyhuddiad yn ei erbyn yn llys eglwysig Götenburg; ond taflwyd ef oddi yno i'r senedd. Dywedai Ekebon am ei athrawiaeth ei bod "yn llawn o'r camsyniadau sylfaenol mwyaf annioddefol a hereticaidd;" a dywedai yn mhellach na wyddai efe beth oedd cyfundrefn grefyddol Swedenborg, ac na chymmerai efe drafferth i ddyfod i wybodaeth o honi. Daeth Swedenborg allan o'r prawfion hyn yn ddiogel, a chafodd amddiffyniad y brenin. Tua'r Nadolig, 1771, tra yr arosai yn Llundain, cafodd ergyd o'r parlys, ac ni chafodd byth adferiad hollol oddi wrth ei heffeithiau. Dywedodd rhai ei fod wedi galw yn ol ei honiadau yn ystod ei afiechyd diweddaf; ond ymddengys fod hyny yn gamgymmeriad. Fel y canlyn yr ysgrifenodd M. Ferelius, gweinidog yr eglwys Lutheraidd Swedaidd yn Llundain—yr hwn a ymwelodd âg ef pan oedd ar ei wely angeu, ac a weinyddodd iddo y cymmun—at y Proffeswr Trätgard o Greifswalde, ar yr 31ain o Fawrth, 1780:—

"Gofynais iddo (Swedenborg) a oedd efe yn meddwl ei fod yn myned i farw; ac attebodd yntau yn gadarnhaol. Ar hyny, gofynais iddo, yn gymmaint a bod llawer yn credu iddo ddyfeisio ei gyfundrefn dduwinyddol newydd yn unig er mwyn ennill iddo ei hun enw mawr, am iddo gymmeryd y cyfleusdra hwnw i ddadgan y gwirionedd yn gywir i'r byd, ac i alw yn ol yn gwbl, neu mewn rhan, yr hyn y dadleuai efe drostynt; yn enwedig gan nas gallai ei honiadau fod o un defnydd yn mhellach iddo. Ar hyn, cyfododd Swedenborg yn ei eistedd yn ei wely, a gosododd ei law ar ei fynwes, ac a ddywedodd gyda difrifwch, 'Y mae pob peth a ysgrifenais mor wir a'ch bod chwi yn fy ngweled. Gallaswn ddywedyd llawer mwy pe cawswn ganiatâd. Ar ol marw, chwi a welwch y cyfan, ac yna bydd genym lawer i'w ddyweyd y naill wrth y llall ar y mater.'"

Bu farw Swedenborg yn Llundain, ar y 29ain o Fawrth, 1772, yn y 85ain mlwydd o'i oedran; a chladdwyd ef yn yr eglwys Swedaidd, yn Radcliff Highway.

Ysgrifenodd Swedenborg lawer iawn ar dduwinyddiaeth: y mae y cyfieithiad o'r oll o honynt i'r iaith Saesnig yn gynnwysedig mewn tua deg ar hugain o gyfrolau. Ysgrifenwyd hwynt oll yn wreiddiol yn yr iaith Lladin. Fel enghraifft o'i waith yn esbonio yr Ysgrythyrau, gall y darllenydd ymgynghori â'i "*Apocalypse Revealed;*" am olwg gynnwysfawr am ei brofiadau tybiedig, gellir darllen ei "*Heaven and Hell;*" am ei syniad ar y rhan hono o'i gyfundrefn sydd yn dwyn perthynas â chreadigaeth a llywodraethiad y bydysawd, darllener ei "*Divine Love,*" a'i "*Divine Providence;*" ceir ei olygiadau am gyssylltiadau y rhywiau yn ei "*Conjugal Love,*" un o'r rhai mwyaf nodedig o'i weithiau; ond os mynir cael crynodeb o holl dduwinyddiaeth Eglwys yr Ierusalem Newydd, yn y "*True Christian Religion,*" yr olaf a'r goreu o weithiau Swedenborg, y ceir hyny lawnaf.

Nid oedd Swedenborg yn honi ei fod yn ysbrydoledig, ond haerai fod gweledigaeth ysbrydol wedi ei ganiatau iddo, fel y dywedai—"nid o herwydd dim teilyngdod ynddo," ond i'w alluogi i gyfranu i'r byd wybodaeth gywir am natur nefoedd, ac uffern, a sefyllfa ddyfodol dyn. Yn ol Swedenborg, nid ydyw y nefoedd ac uffern yn lleoedd pennodol; ond y maent yn gynnwysedig mewn sefyllfaoedd mewnol ac ysbrydol; ac nid yw y mynediad i'r byd ysbrydol ond yn unig ymagoriad i'r ymwybodolrwydd mewnol. Ymdebygola wyneb y byd ysbrydol i'r byd naturiol yn mhob peth, a chorph ysbrydol dyn i'w gorph naturiol; ond y gwahaniaeth ydyw, fod holl wrthddrychau y byd ysbrydol yn cyfnewid, yn ol sefyllfa ysbrydol ei breswylwyr. Oddi wrth ddynion eu hunain y mae nefoedd ac uffern yn dyfod, ac y mae yr holl angylion a'r cythreuliaid wedi bod unwaith yn ddynion, naill ai ar y ddaear hon neu mewn rhyw blaned arall—gan fod yr holl blanedau yn cael eu trigianu; canys yr hil ddynol, a ffurfiad y nefoedd o honynt, ydyw amcan eithaf creadigaeth. Nid ydyw Satan a Diafol y Beibl yn berson—ond enwau ar uffern: ac nid ydyw y farn ddiweddaf y cyfeirir ati yn yr Ysgrythyrau yn golygu dinystr y byd, yr hwn a barhâ byth; ond "barn y byd ysbrydol, yn gymmaint a bod y rhai meirw oll yn cael eu casglu ynghyd, ac am mai ysbryd dyn a fernir." Y mae y farn hon yn dechreu mor fuan ag y bydd dyn farw. Y rhai canlynol ydynt erthyglau ffydd Eglwys yr Ierusalem Newydd, yr hon a gychwynwyd gan Swedenborg:—

"1. Fod un Duw yn bod; fod un Trindod Dwyfol ynddo ef, mai efe yw yr Arglwydd Dduw a'r Iachawdwr Iesu Grist. 2. Fod ffydd gadwedigol yn gynnwysedig mewn credu ynddo ef. 3. Na ddylid gwneuthur gweithredoedd drygionus, am eu bod o'r diafol a thrwy y diafol. 4. Y dylid cyflawni gweithredoedd da, am eu bod o Dduw a thrwy Dduw. 5. Y dylent gael eu gwneuthur gan ddyn megys o hono ei hun; er hyny, o dan y grediniaeth eu bod oddi wrth yr Arglwydd, yn gweithredu ynddo a thrwyddo. Y mae y ddwy erthygl gyntaf yn dal perthynas â ffydd; y ddwy nesaf â chariad; a'r olaf, âg undeb ffydd a chariad, ac felly â Duw a dyn."

Yr oedd Swedenborg yn ddyn rheolaidd a threfnus, ac wedi gosod i lawr reolau neillduol i fyw wrthynt. Y maent i'w cael mewn amryw fanau yn ei lawysgrifau fel y canlyn:—"1. I ddarllen a myfyrio yn aml yn Ngair Duw. 2. I ymostwng yn mhob peth i ewyllys Duw yn ei ragluniaeth. 3. I ymddwyn yn briodol yn mhob peth, a chadw cydwybod dda yn wastadol. 4. I gyflawni yn ffyddlawn holl ddyledswyddau fy swydd, a gwneyd fy hun yn mhob peth yn ddefnyddiol i gymdeithas." Ar y rheolau hyn y ffurfiodd efe ei gymmeriad. Dywed Hopken, prifweinidog Sweden, fel y canlyn am dano:—"Yr wyf nid yn unig wedi adnabod Swedenborg er's dwy flynedd a deugain, ond yn cael ei gwmni er's peth amser bob dydd; ac nid wyf yn gwybod i mi erioed gyfarfod â dyn o gymmeriad mwy rhinweddol." Sandel a ddywed am dano:—"Yr oedd yn gyfaill diffuant i ddynolryw; ac yn ei ymchwiliad i gymmeriadau ereill, yr oedd efe yn hynod awyddus am ddarganfod y un rhinwedd ynddynt, yr hwn a ystyrid ganddo yn brawf anffaeledig o lawer o rinweddau ereill. Fel swyddog cyhoeddus, yr oedd yn gyfiawn a theg: cyflawnai ei ddyled-

Digitized by Google

Yn mherthynas i gyssylltiad dyn â'r byd arall, a'i amrywiol breswylwyr, y mae Swedenborg yn dysgu, nid yn unig yn ol ei olygiadau ef ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ond hefyd oddi wrth ei brofiad ei hun, fod pob dyn mewn cyssylltiad parhaus âg angylion ac ysbrydion—a phe heb hyn nas gallai feddwl na gweithredu. Ac yn mhellach, y bydd dyn, yn ol fel y treulia ei fywyd yn y byd, yn ymsefydlu yn ei gartref tragwyddol, naill ai gydag angylion y goleuni, neu gydag ysbrydion y tywyllwch:—gyda'r blaenaf, os bydd yn ddoeth i fyw yn ol cyfarwyddiadau sanctaidd Gair Duw; ond gyda'r olaf, os, trwy ynfydrwydd a drygioni, y gwrthoda gyfarwyddyd ac arweiniad y Goruchaf.

Gellid cyfeirio at rai golygiadau hynod ereill llai eu pwysigrwydd; megys y syniad am yr enaid dynol, ei fod ar ffurf ddynol; yn mherthynas i briodas y gwir a'r da, yn ol fel y mae i'w chanfod, medd efe, yn y gair sanctaidd, ac yn mhob peth mewn natur. Ond gellir sylwi yn gyffredinol, mai dau gamsyniad mawr a sylfaenol y gyfundrefn yw, y gwadiad o Dduwdod Crist, tra y mae yn ymddangos megys yn ei gydnabod; ac hefyd y gwadiad o athrawiaeth yr iawn. Dywedir llawer o bethau am nodwedd ffugrol a chysgodol Gair Duw; ond y mae y deongliad arno yn y golygiad hwn yn ddireol; hyny yw, nid ydyw yn cael ei reoli gan egwyddorion cywir; ond y cyfan yn cael ei wisgo mewn cyfriniaeth dywyll ar un llaw, a syniadau cnawdol ar bethau ysbrydol ar y llall. Y mae y sect hon yn cyttuno, y mae'n wir, ar lawer o bethau â Christionogion ereill, ac y mae llawer o bethau cywir yn eu cyfundrefn ryfeddol; ond y mae y pethau hyny yn anghyssylltiedig â gwirioneddau mawrion a phwysig ereill yr efengyl, ac wedi eu cymmysgu â chyfeiliornadau amlwg.

Y mae syniadau y Swedenborgiaid, fel y gellir casglu oddi wrth egwyddorion arweiniol eu blaenor, yn fath o gymmysgedd o egwyddorion Sabeliaeth, a Sociniaeth, a chyfrinyddiaeth. Y mae eu dull o esbonio yr Ysgrythyrau yn hollol groes i bob egwyddor gywir o ddeongliadaeth ac ieithyddiaeth, ac yn tueddu yn naturiol i wneuthur y meddwl yn ansefydlog, a'i ddwyn yn ddarostyngedig i'r mympwyon mwyaf aflywodraethus a ddichon ymaflyd yn nychymmyg dyn, a'i wneyd yn ysglyfaeth i'r drychfeddyliau gwylltaf.

SWIFT, JONATHAN, D.D.: awdwr enwog, a ddisgynodd o deulu hynafol oedd wedi ymsefydlu yn wreiddiol yn sir Gaerefrog. Priododd ei dad, yr hwn oedd gyfreithiwr wrth ei alwedigaeth, gydag Abigail Erick, boneddiges o deulu hynafol yn sir Leicester; ond bu efe farw yn 1667, gan adael ei weddw—cyn geni gwrthddrych y bywgraphiad hwn—mewn tlodi. Aeth y weddw i fyw at ei brawd-yn-nghyfraith, Godwin Swift, i Dublin, ac yno y ganwyd Jonathan Swift, Tachwedd 30ain, 1667. Dysgodd ei fammaeth lythyrenau y wyddor a sillebiaeth iddo pan oedd yn ieuangc iawn. Pan yn chwe mlwydd oed, anfonwyd ef i'r ysgol, i Kilkenny; ac aeth oddi yno i Goleg y Drindod, Dublin, lle y derbyniwyd ef yn flwydd-dalwr, yn 1682. Ei ewythr, Godwin, oedd yn gofalu am ei addysgiaeth ac am ei gynnaliaeth. Ond cyn ei fod wedi cwblhau ei addysg, bu farw ei noddwr. Ei ewythr William wedi hyny a gymmerai ofal ei addysgiaeth. Arosodd Swift yn Ngholeg y Drindod hyd y flwyddyn 1688, hyd nes y torodd y rhyfel allan yn yr Iwerddon; a daeth yntau drosodd i Loegr, a theithiodd ar ei draed i Leicester, lle yr oedd ei fam yn byw ar garedigrwydd cyfeillion er's peth amser. Derbyniwyd Swift i deulu Syr William Temple; ac o hyny allan bwriodd heibio ei arferion diofal a diwaith, ac ymroddodd i astudio yn galed am wyth awr yn y dydd, yn gystal a gweithredu fel ysgrifenydd cyfrinachol i'w noddwr. Daeth i gydnabyddiaeth â'r brenin William III. yn Moor Park, yr hwn a gynnygiodd iddo y swydd o gadben mewn catrawd o wŷr meirch; ond gwrthododd Swift y cynnygiad.

Aeth Swift i Rydychain yn 1692, i'r dyben o gymmeryd ei radd o A. C., a derbyniwyd ef i Hart Hall. Wedi gorphen ei efrydiau yno, efe a aeth drosodd i'r Iwerddon, gyda'r amcan o gael pennodiad, neu swydd, yn yr eglwys yno. Ymddengys fod ychydig o anghydwelediad rhyngddo â Syr William Temple y pryd hwn. Urddwyd ef yn ddiacon yn Eglwys yr Iwerddon yn Hydref, 1694, ac yn offeiriad yn Ionawr, 1695; ac appwyntiwyd ef i beriglориaeth yn Kilroot, gwerth 100*p.* yn flynyddol. Nid hir y bu Syr William Temple heb deimlo colled am ei wasanaeth, ac ysgrifenodd lythyr caredig ato i geisio ganddo ddychwelyd i Moor Park. Cydsyniodd Swift; ond rhoddodd ei beriglориaeth i fyny yn ffafr curad dysgedig, ond tlawd, oedd yn gymmydog iddo. Bu gyda Syr William hyd farwolaeth y diweddaf yn Ionawr, 1698. Yr oedd y diweddaf wedi cael addewid gan y brenin William y rhoddai efe i Swift gorbeRiglориaeth yn Nghaergaint, neu Westminster; a gadawodd iddo gymmunrodd, a deisyfodd arno olygu ei holl weithiau, ac addawodd y caffai pa elw bynag a ddeuai oddi wrth eu gwerthiant. Ysgrifenodd Swift lawer o farddoniaeth a rhyddiaith y pryd hwn, a thybir iddo yn awr orphen ei "*Tale of a Tub*"—aralleg *(allegory)* duchanol, i wawdio llygredigaethau Pabyddiaeth, a chyfeiliornadau Ymneillduaeth, ac i foliannu Eglwys Loegr, er ei fod yn cyffwrdd â rhai o ffaeleddau y ddiweddaf hefyd. Ystyrir y gwaith hwn yn un o'i rai mwyaf dwfndreiddiol a gorphenedig. Yn ystod ei arosiad yn Moor Park y tro hwn y daeth Swift i gydnabyddiaeth â Miss Esther Johnson, yr hon a adwaenir yn well wrth yr enw barddonol *Stella* a roddodd efe arni. Yna aeth i Lundain i arolygu cyhoeddiad gweithiau Syr W. Temple. Pennododd Iarll Berkeley, arglwydd raglaw yr Iwerddon, ef yn gaplan ac yn ysgrifenydd. Cafodd siomedigaeth ar ol myned i'r Iwerddon; o herwydd, yn lle cael ei bennodi yn ddeon Derry, fel y disgwyliai, ni chafodd ond bywoliaethau Laracor a Rathbeggan, yn esgobaeth Meath. Cymmerodd ei radd o D.D. yn 1701. Ar ddychweliad Berkeley i Loegr, aeth Swift i gymmeryd meddiant o'i fywoliaeth yn Laracor, a chyflawnodd ei ddyledswyddau gweinidogaethol yn ddiwyd, a threuliodd gryn lawer o arian i adgyweirio yr eglwys. Nid hir y bu yno na wnaed trefniadau i Miss Johnson ddyfod i breswylio yn y gymmydogaeth; a daeth Mrs. Dingley, yr hon oedd weddw, gyda hi yno; ac yr oedd y ddwy yn cydlettya yn nhref Trim, oddi eithr pan y byddai Swift yn absennol o'i blwyf, pryd yr elent i'r parsondy. Ymddengys y byddai Swift yn myned drosodd i Loegr am ddau neu dri o fisoedd unwaith yn y flwyddyn. Yn 1704 y cyhoeddodd efe ei "*Tale of a Tub,*" a'r "*Battle of the Books.*" Yr

Digitized by Google

dd yn y blynyddoedd hyn yn disgwyl am yrchafiadau yn yr eglwys, ac yn cael addewon teg, ond y cyfan yn troi yn siomedig iddo. hoeddodd yn 1708—9 amryw bamphledau, yn cyssylltiad yn benaf â materion crefyddol. th i Lundain yn 1710, ac yr oedd y ddwy leidyddol—sef, y Whigiaid a'r Toryaid wyddus am wneyd cyfaill o hono; ond yn ymuno â'r Toryaid a wnaeth. Yn u arosiad yn y brif ddinas y tro hwn, efe odd ddyddlyfr, cynnwysiad yr hwn a odd mewn cyfres o lythyrau at Miss a Mrs. Dingley. Ceir darluniad manwl yddiadau yr oedd ganddo law ynddynt, ddyliau a ymgodent yn ei feddwl allan ynt yn y llythyrau hyn. Ysgrifenodd i wythnosol a elwid "*Examiner*" am saith ymosododd yn chwerw a thrahauslyd ar hwynebwyr gwleidyddol, ac yn enwedig arton, Godolphin, Walpole, Sunderland, a Marlborough. Cynnygiodd Harley, dd Rhydychain, ei nodi yn gaplan iddo ; ond gwrthododd dderbyn y swydd hon, ystyriai fod y gwasanaeth a wnaeth yn esgobaeth. Talwyd y parch mwyaf n Harley a Bolingbroke cyhyd ag yr yn Lloegr. Efe a ysgrifenodd lawer n y rhan hon o'i oes; ond yr oedd y n mron yn dal cyssylltiad â gwleidydd-Ond tra yr oedd yn y modd hwn yn hwyo ei gyfeillion, ni chafodd iddo ei ond anrhydedd gwâg—ac nid llawer o ddai efe ar hyny. Yr oedd yn rhy falch ddyrchafiad, ond gwyddai Harley ei ddisgwyl. Nis gwyddai Swift, modd fod y frenhines Anne yn elynol iddo. sgobaeth Hereford yn wâg, a rhoddwyd arall; ac mor fuan ag y deallodd Swift a anfonodd rybudd i Arglwydd Rhyd-yn hysbysu ei fod yn penderfynu na ddim chwaneg dros y blaid a wasanaethmor ffyddlawn. Gwelodd y weinydd-awr, os na wneid rhywbeth iddo, y ynnorthwy galluog un oedd hyd hyny furio mor effeithiol er cynnal y weinydd-fyny. Yn Chwefror, 1713, gan hyny, wyd ef yn ddeon eglwys St. Padrig, yn yr Iwerddon.

aidd y cafodd efe ymsefydlu yn ei le na dderbyniodd efe y gwahoddiadau ddi wrth y weinyddiaeth Doryaidd i dyd yn ol i Loegr. Daeth yntau drosddioed. Cyhoeddodd bamphledyn polidan y teitl, "*The Public Spirit of the* yn cynnwys ymosodiad bustlaidd ar phlaid y Whigiaid; a gwnaed ynddo rai cas ar yr Ysgotiaid, ac yn enwedig o Argyle. Ar esgyniad Sior I. i'r orchwelodd Swift i'r Iwerddon. Ni bu ed hono yn hir, fodd bynag, na alwyd d i Lundain drachefn; a daeth i gydnaà â Miss Esther Vanhomrigh (Vanessa, wai efe hi); a chan ei bod yn meddu do, a chwaeth at lenyddiaeth, ymhyfft yn y gwaith o'i haddysgu. Syrthneddiges mewn cariad â'i hathraw, a odd ei briodi; ond efe a ymattaliodd ddi atteb penderfynol iddi. Yn ymo'i gamgymmeriad, ymdrechodd Swift ohebiaeth rhyngddo a Vanessa; ond i hi yn fynych, gan gwyno yn chwerw esgeuluso atteb ei llythyrau. Daeth yddiaeth oedd rhwng Swift a Vanessa yn hysbys yn raddol i Stella, yr hyn a'i gwnaeth yn anesmwyth ac eiddigus; a thybir fod Swift wedi cydsynio i'w phriodi, ac i'r seremoni gael ei gweinyddu yn 1716, yn ngardd y deondy, gan Esgob Clogher. Er na ddarfu i Swift erioed gydnabod y briodas, ac na chymmerodd un cyfnewidiad le yn eu dull o fyw, y mae y dystiolaeth dros hyn, er yn ddiffygiol, yn gyfryw nad oes nemawr o le i ammheu y ffaith. O'r diwedd, anfonodd Vanessa at Stella i ymofyn beth oedd natur y cyssylltiad oedd rhyngddi a Swift: amlygodd y ddiweddaf anfoddlonrwydd am hyn, ac effeithiodd hyny i'r fath raddau ar y foneddiges anffodus fel yr collodd ei hiechyd, a bu farw yn 1703. Mewn cywilydd a gofid, enciliodd Swift i rywle yn neheubarth yr Iwerddon; a bu yno am ddeufis—nas gwyddai neb yn mha le. Ar ei ddychweliad i Dublin, perswadiwyd Stella i faddeu iddo. Ar ol yr ymgymmodiad hwn, parhaodd Stella yn gyfeilles i Swift, yn gydymaith ei oriau hamddenol, yn weinyddes arno mewn afiechyd; ac eisteddai yn mhen ei fwrdd ar ryw achlysuron neillduol. Ond nid oeddynt un amser ynghyd heb bresennoldeb ereill; nid oedd eu perthynas fel gŵr a gwraig ond mewn enw yn unig.

O ddeutu y pryd hwn y gwnaeth efe ei ymdrech cyntaf mawr i wellhau sefyllfa yr Iwerddon. Cyhoeddodd bamphledyn o dan y teitl "*A Proposal for the Universal Use of Irish Manufactures;*" yr hyn a'i gwnaeth yn dra phoblogaidd. A phan yr ymddangosodd ei "*Drapier's Letters,*" yn dadguddio yr anghyfiawnder o ganiatau i William Wood freintlythyrau i fathu ffyrlingod a dimeiau, i'r swm o 108,000*p.*, yr oedd yn eilun y Gwyddelod. Dyma y pryd y gorphenodd ac y cyhoeddodd efe ei "*Gulliver's Travels;*" a'r fath oedd y dyddordeb a'r edmygedd a gynnyrchodd y gwaith hwn fel y bu raid cyfodi pris yr argraphiad cyntaf cyn y gallesid argraphu yr ail. Treuliodd gryn lawer o'i amser yn Llundain yn y blynyddoedd 1726—27, yn nghwmni Bolingbroke, Pope, Gay, Arbuthnot, ac Arglwydd Bathurst, &c. Treuliodd haf y flwyddyn olaf a nodir yn Llundain a'r amgylchoedd, a dioddefodd yn dost oddi wrth ddiffyg clyw, yr hyn a ddilynid yn fynych gan benysgafnder, pryd y derbyniodd hysbysrwydd fod Stella yn beryglus o glaf. Gadawodd Loegr yn ddisymmwth, a glaniodd yn Nublin yn mis Hydref, a chafodd hi megys ar geulan y bedd. Bu farw yn niwedd Ionawr, 1728. Yr oedd hyn yn ergyd drom i'w deimladau. Ysgrifenodd gryn lawer o fân ddarnau, mewn rhyddiaith a barddoniaeth, yn ystod y chwech neu y saith mlynedd dyfodol. Parhaodd i ohebu gyda Bolingbroke, Pope, Gay, y Dduces o Queensberry, a'r Arglwyddes Betty Germain; ond bu farw Gay yn 1732, ac Arbuthnot yn 1734, ac aeth Bolingbroke i Ffraingc. Ond parhaodd i ohebu gyda Pope cyhyd ag y bu yn alluog i amlygu ei feddwl mewn ysgrifen. Yr oedd ei synwyr yn gwanychu er's amryw flynyddoedd, ac nid oedd o'r braidd byth yn rhydd oddi wrth boen, nac un amser oddi wrth ofn poenau; fel yr arferai weddïo bob boreu na byddai fyw am ddiwrnod arall. Yn fynych, pan yn ymadael am y noson â'r cyfeillion oedd anwylaf ganddo, ar ol treulio rhai oriau mewn cymdeithas ddiddan yn y deondy, efe a ddywedai gydag ochenaid, "Yr wyf yn gobeithio na chaf byth eich gweled mwy." Erbyn y fl. 1741, yr oedd ei gof yn mron wedi llwyr ddarfod, a'i synwyr yn

lladdedigion yn y frwydr hono. Gwl. ZUINGLIUS. Darfu i'r fuddugoliaeth hon, i ryw raddau, benderfynu terfynau y ddwy blaid yn Switzerland ddwyreiniol. Yn 1536, llwyddodd Berne i gymmeryd y Pays de Vaud oddi ar dduciaid Savoy, a'i huno â'i thiriogaeth ei hun. Yr un flwyddyn yr ymsefydlodd Calvin yn Geneva, lle y pregethodd efe a Farel yn egnïol athrawiaethau y Diwygiad, ac ymdaenodd yr egwyddorion a gyhoeddid ganddynt yn gyflym trwy Switzerland Orllewinol. Gwel CALVIN. Yn ystod rhyfel y Deng Mlynedd ar Hugain, medrodd Berne—yr hon oedd, er amser gorchfygiad Vaud, y brif dalaeth—a Zürich, gadw Switzerland yn ammhleidiol, heb roddi ei dylanwad i'r naill ochr na'r llall; a phan y gwnaed cyttundeb Westphalia yn 1648, cafodd Switzerland gan y galluoedd mawrion ei hystyried fel gwladwriaeth annibynol. Yn y cyfnod hwn, yr oedd nifer dirfawr o'r Swissiaid yn filwyr yn ngwasanaeth galluoedd tramor, ac y mae y cofnodion sydd ar gael am danynt yn dwyn tystiolaeth gref i'w diysgogrwydd a'u dewrder. Rhyw sefyll yn yr un man yr oedd y wlad yn fewnol, heb nemawr o symmud yn mlaen gyda dim. Daeth cyfansoddiad y taleithiau mwyaf i fod yn fwy pendefigaidd; hyny yw, collodd y bobl eu dylanwad i raddau ar y cyrph llywodraethol. Etholid y cynghorau llywodraethol yn Zürich, Schaffhausen, a Basel, gan y corphoriaethau dinesig; ac yn Berne, Freiburg, Soleure, a Lucerne, yr oedd yr awdurdod wedi syrthio i ddwylaw ychydig deuluoedd. Erbyn diwedd y ganrif ddiweddaf yr oedd anfoddogrwydd mawr yn cael ei deimlo mewn canlyniad i fod pethau yn y sefyllfa hon; ond torodd chwyldroad Ffraingc allan, a bu rhyfeloedd mawr mewn canlyniad—yr hyn ni adawodd nac amser na chyfleusdra i wneyd y fath deimlad yn amlwg. Cymmerodd y Ffrangcod feddiant o Switzerland yn 1798. Ond pan y gwnaed heddwch yn 1815, adferwyd iddi drachefn ei hannibyniaeth. Dosbarthwyd yr undeb newydd i ddwy ar hugain o daleithiau, ac yr oedd pob un o honynt yn cael ei chynnrychioli mewn senedd, yr hon ydoedd i eistedd ac i ddwyn yn mlaen ei gweithrediadau yn Berne, Zürich, a Lucerne, bob yn ail. Adnewyddwyd y trais a'r gormes a ddaethai i mewn i gyfansoddiadau gwladol y taleithiau, a sefydlwyd y gynnrychiolaeth, yn y rhan fwyaf o honynt, ar gymmhwysder sylfaenedig ar eiddo. Ymunodd y swyddogion, y bendefigaeth, a'r clerigwyr i wrthwynebu cyfnewidiadau, a diwygiadau; a llwyddasant i wneuthur hyny hyd 1830, pan y torodd y chwyldroad allan yn Ffraingc. Cododd y bobl i hòni eu hawliau, a phasiwyd cyfraith yn caniatau yr etholfraint i bob dyn mewn oedran priodol. Daliodd tref Basel allan yn erbyn hyn; ond penderfynwyd yr anhawsder hwnw trwy ysgaru y dosbarthiadau trefol a gwledig oddi wrth eu gilydd—parhaodd y rhai blaenaf yn geidwadol, a'r diweddaf yn ddemocrataidd. Canlyniad y cyfnewidiadau hyn ydoedd—fod dwy ran o dair o'r holl boblogaeth yn meddu hawl i gymmeryd rhan mewn achosion cyhoeddus.

Ni ddygodd y cyfnewidiad y ffrwyth a ddisgwyliai y rhyddfrydwyr oddi wrtho: deallasant yn fuan nas gallent gryfhau a diogelu yr awdurdod llywodraethol. Digwyddodd cythrwfl yn Zürich yn 1839, yr hwn a fu yn achos i ddymchwelyd y llywodraeth. Cymmerodd ymdrechfa le rhwng y rhyddfrydwyr a'r Pabyddion eithafol yn Aargau, a benderfynwyd, ar ol dadl faith, trwy gyttundeb a droes allan yn ddigon anfoddhaol. Yn Valais, lle yr oedd etholfraint gyffredinol wedi taflu yr awdurdod i ddwylaw y ceidwadwyr, cymmerodd rhyfel le, yn yr hwn y bu y blaid ddiweddaf yn fuddugol. Llywodraethent â llaw uchel, a gwaharddasant i addoliad Protestanaidd gael ei ddwyn yn mlaen yn y dalaeth. Yn Lucerne, lle yr oedd prif eisteddle yr Iesuitiaid, ymddygodd y blaid eithafol Babyddol yn fwy afresymol drachefn; erlidiasant eu gwrthwynebwyr, fel y bu raid i'r diweddaf adael y dalaeth. Parodd hyn anfoddlonrwydd mawr. Dygwyd cynnygiad o flaen y senedd yn 1844 i yru yr Iesuitiaid allan o'r wlad; ond gwrthododd y senedd weithredu ar hyn. Yna penderfynodd y blaid radicalaidd ymarfogi, a goresgynasant y taleithiau Pabaidd; ond cawsant eu gorchfygu. Gwnaed cyfnewidiadau oedd yn ffafriol iddynt yn rhai o'r taleithiau. Yna ffurfiodd y taleithiau Pabaidd undeb, yr hwn a alwent y *Sonderbund*, er eu hamddiffyn eu hunain. Yr oedd dymuniad cyffredinol am i'r undeb hwn gael ei ddinystrio; ac nid oedd y senedd yn ffafriol iddo. Yr oedd y blaid lywodraethol yn Geneva gyda'r mwyafrif: ac arweiniodd hyn i chwyldroad yn y ddinas hono. Ennillwyd un bleidlais yn erbyn y *Sonderbund*. Chwanegodd St. Gaul un arall; a chafwyd mwyafrif yn y senedd, yn 1847, i ddadgan anghyfreithlondeb y *Sonderbund*, a phenderfynwyd gyru yr Iesuitiaid o'r wlad. Yn y rhyfel a ddilynodd, rhwng y fyddin unedig a galluoedd y *Sonderbund*, bu y flaenaf yn fuddugol yn Frieburg a Lucerne: alltudiwyd yr Iesuitiaid, a chauwyd y mynachdai. Ymdrechwyd trwy ddylanwadau tramor i ddychrynu llywodraeth Switzerland am hyn; ond torodd chwyldroad 1848 allan, ac fe attaliodd hyny ymdriniaeth bellach â'r pwngc. Yn yr un flwyddyn, mabwysiadwyd y cyfansoddiad yr ydys eisoes wedi cyfeirio ato. Er y pryd hwnw, y digwyddiad mwyaf pwysig a gymmerodd le yn Switzerland oedd, y gwrthryfel a ymgododd yn erbyn brenin Prwssia, fel tywysog Neufchatel. Cyhoeddwyd y dalaeth yn weriniaeth, gyda chyfansoddiad i'r taleithiau Swissaidd ereill. Gwrthdystiodd brenin Prwssia yn erbyn y cyfnewidiad—ond yn ofer; ac o'r diwedd efe a dynodd yn ol ei wrthwynebiad, ac a fu foddlawn ar y teitl gwâg o dywysog Neufchatel.

SWITHIN, SANT: gŵr eglwysig oedd yn byw yn y nawfed ganrif, oedd yn gaplan i'r brenin Egbert, ac yn athraw i'w fab ef, Ethelwulf; o dan yr hwn, wedi iddo esgyn i'r orsedd, y bu yn gweinyddu y swydd o ganghellydd. Iddo ef yr ymddiriedwyd y gwaith o gyfrann addysg i'r tywysog Alfred, gyda'r hwn yr aeth efe i Rufain. Yn y fl. 852, urddwyd ef yn esgob Winchester. Yn ol tystiolaeth William o Malmesbury, yr oedd Swithin yn "drysorfa oludog o bob rhinweddau; a'r rhai y cymmerai fwyaf o hyfrydwch ynddynt oedd gostyngeiddrwydd ac elusenau i'r tlodion." Efe a chwanega, a dywed iddo adeiladu amryw eglwysydd, a theithio gyda'i glerigwyr trwy ei esgobaeth ar ei draed, ac yn fynychaf yn y nos, er mwyn gochelyd pob peth cyffelyb i wâg ymhoniadau rhodresgar. Y mae dechreuad y dreth a elwir '*Ceiniogau Pedr*' yn cael ei briodoli yn fynych iddo ef; a dywedir mai efe a fu yn offeryn i ddwyn oddi amgylch y gyfraith a elwir Deddf y Wittenagemote, yn gorfodi pawb am y tro

Digitized by Google

cyntaf i dalu degwm. Bu farw Swithin ar yr 2il o Orphenaf, 862; a chladdwyd ef, yn ol ei ddymuniad ei hun, yn mynwent eglwys gadeiriol Winchester. Canonwyd ef yn sant yn mhen can mlynedd ar ol hyn. Ystyriai y mynachod nad oedd y fynwent yn lle cymmhwys i gorph y sant orwedd; a hwy a'u codasant ef, i'r dyben o'i gladdu oddi mewn i'r eglwys; ond gohiriwyd y gwaith hwn, oedd i gymmeryd lle ar y 15fed o Orphenaf, o herwydd ei bod yn digwydd bod yn wlaw trwm, yr hwn a barhaodd yn ddidor am ddeugain niwrnod. O'r amgylchiad hwn, meddir, y cyfododd y grediniaeth, neu y goel, os bydd i wlaw ddisgyn ar y 15fed o Orphenaf, y parhâ i wlawio am ddeugain niwrnod. Dengys profiad, yn ddiammheuol, pan y bydd tywydd gwlyb yn dechreu tua chanol yr haf, ei fod yn fynych yn parhau yn hir; a dyna'r unig sail sydd i'r goel a enwyd uchod. Y mae ofergoeledd cyffelyb yn mhlith y werin mewn gwahanol wledydd ereill yn Ewrop, ac yn cael ei gyssylltu â gwyliau gwahanol seintiau sydd yn digwydd tua'r un cyfnod o'r flwyddyn. Yn Ffraingc, y maint âg enwau pa rai y cyssylltir hyn ydynt, Sant Medard ar yr 8fed o Fehefin, a Sant Gervais a Sant Protais ar y 19eg o Fehefin. Yn Flanders, y mae yn gyssylltiedig âg enw Sant Godelieve: ac yn yr Almaen y mae tri o ddyddiau seintiau â pha rai y mae yr ofergoeledd hwn yn cael ei gyssylltu—ac yn y cwbl mor ddisail ag y gwneir â Swithin yn ein gwlad ni.

SWLLT: enw arian mewn arferiad mewn llawer o wledydd Ewrop—mewn rhan fel arian bathol, ac mewn rhan fel arian cyfrif. Yn ol pob tebygolrwydd, y mae yr enw, yn gystal a'r peth ei hun, yn deilliaw oddi wrth y *solidus*, yr hwn, gyda gweddillion Rhufeinig ereill, a fabwysiadwyd gan y Ffrangcod a'r cenhedloedd Germanaidd. Rhydd ereill darddiad mwy dychymmygol i'r gair, megys o *schellen*, modrwyo, o herwydd modrwy eglur y bathodyn, ac oddi wrth St. Kilian, llun yr hwn oedd wedi ei stampio ar sylltau Würzburg. Yn Lloegr, yr ugeinfed ran o bunt ydyw swllt; ond mewn gwledydd ereill yn Ewrop y mae ei werth yn amrywio.

SWM (sw-wm): y sefyllfa o fod gyda'i gilydd; nifer, cyfanrif sylwedd. "Swm y cwbl a glybuwyd yw;" *Preg.* xii. 13:—Heb., 'diwedd y gair, y cwbl a glybuwyd.' Y casgliad mawr oddi wrth yr holl lyfr ydyw mai holl ddyled dyn ydyw, "ofni Duw, a chadw ei orchymynion."

SWMBWL: irai, ierthi, picell, llymflaen. Yn *Barn.* iii. 31, arferir y gair *irai;* ac yn 1 *Sam.* xiii. 21, a *Preg.* xii. 11, y gair *symbylau.* Yr eglurhâd a roddir ar hyn gan Johan ydyw, fod y blaenaf yn dynodi y ffon, a'r olaf yr haiarn blaenllym oedd ar ei phen, i'r dyben o symbylu. Gyda golwg ar yr olaf, modd bynag, gall gyfeirio at unrhyw beth blaenllym; ac y mae *Preg.* xii. 11, yn dynodi yn hytrach yr ystyr o hoelen bren neu haiarn—mewn gair, unrhyw beth y gellir ei *sicrhau.* Yn 1 *Sam.* xiii. 21 y mae yn fwy tebyg mai blaen swch aradr a feddylir. Y mae yn debygol fod y blaenaf yn cyfeirio at yr ierthi, coes hir pa un y gellid ei ddefnyddio fel arf aruthrol—er fod hyd yn oed hyn yn cael ei ddeall gan y Deg a Thrigain fel yn dynodi swch aradr. Dylid sylwi fod y gair yn cynnwys yr ystyr o *arwain* (oddi wrth wreiddair Hebraeg yn dynodi *dysgu*). Ceir cyfeiriadau amlwg at y defnydd a wneid o'r swmbwl i yru ychain yn *Eccles.* xxxviii. 25, ac yn *Act.* xxvi. 14. Y mae yr offeryn, fel y defnyddir ef yn y dyddian hyn yn ngwledydd deheuol Ewrop, ac Asia orllewinol, yn gynnwysedig o ffon o ddeutu wyth troedfedd o hyd gyda blaen llym, ac weithiau gyda phen wedi ei orchuddio â haiarn. Defnyddid yr ymadrodd "gwingo yn erbyn y symbylau" (*Act.* ix. 5) fel diareb gan y Groegiaid am wrthwynebiad ofer i allu uwch. Am eglurhâd ar "swmbwl yn y cnawd," gwel d.g. PAUL.

SWMER (sw-wm): yr hyn sydd yn cynnal neu yn cadw ynghyd; trawst, paladr, tylath; megys, swmer tŷ, swmer càr—y rhan ol o gàr, sydd yn cynnal y llwyth.

SWN, ydyw yr argraph a wneir ar y glust gan gynnhyrfiad neu ysgydwad a wneir mewn cyfrwng hydwythol (*elastic*), megys dwfr neu awyr. O barthed i natur sŵn, mae ychydig o ystyriaeth yn ddigon i'n hargyhoeddi nad ydyw yn cael ei gynnyrchu gan weithrediad unrhyw sylwedd neu allu neillduol, megys gwres, goleuni, neu drydan; ond ei fod yn cyfodi yn unig o weithrediad gallofyddol, neu fath o ddirgryniad neu gynnhyrfiad yn y sylweddau hyny trwy ba rai y mae y sŵn yn cael ei drosglwyddo. Y mae pob sŵn y gwyddom am dano yn cael ei gynnyrchu neu ei ddilyn gan ryw weithrediad o'r natur yma. Y mae ergyd magnel, er eughraifft, yn cynnyrchu dirgryniad sydd yn ysgwyd y llawr oddi tano, ac am gryn bellder o'i gwmpas. Yr un modd y mae gyda rhuthriad dyfroedd, rhuad y môr, a chwibianiad y gwynt yn y coed, fel y cyferfydd â rhwystrau ar ei ffordd; troadau olwynion cerbydau, a llawer o seiniau ereill sydd yn cyfodi oddi ar wrthdarawiad y naill beth yn erbyn y llall. Y mae yr holl achosion hyn yn peri cyffroad dwfn yn y sylweddau oddi wrth ba rai y deillia y sŵn. Yr un modd hefyd mewn seiniau cerddorol, y rhai ydynt o natur fwynach a thynerach, y mae yno gynnhyrfiad, a hwnw yn fynych yn cyflwyno ei hun i bob peth sydd o'i gwmpas. Os sefyll a wneir yn agos i berdoneg pan y seinir hi, teimlir fod y llawr yn crynu dan draed. Os rhoddir y bys neu y llaw ar yr offeryn, neu ar ryw offeryn cerddorol arall, megys y crwth neu gloch, pan y seinir hi, teimlir fod yno fath o ddirgryniad yn mhob rhan o hono; ac y mae hyny i'w weled yn eglur iawn mewn llestri gwydr. Os tarewir gwydryn nes gwneuthur iddo seinio, ac os cyffyrddir â'i enau â'r bys, teimlir fod dirgryniad trwy y gwydryn; a phan yr attelir y cynnhyrfiad hwn, fel y gwneir yn gyffredin wrth gyffwrdd y bys âg ef, fe baid y sain hefyd. Os bydd dwfr yn y gwydryn, sylwir fod y dirgryniad i'w weled yn y dwfr hefyd, ac yn peri symmudiad drwy y cwbl. Pan y dygir y sain allan yn llawn, y mae cynnhyrfiad dwfn i'w ganfod yn y dwfr; ac fel y bo y sŵn yn darfod, y mae y cynnhyrfiad yn darfod gydag ef. Y cynnhyrfiad hwnw, gan hyny, yn y corph sydd yn cynnyrchu sŵn ydyw yr achos o hono, gan ei fod yn wastad yn dilyn sŵn, ac yn darfod pan y mae yntau yn darfod, ac yn ail ddechreu pan y gwna yntau. Ac y mae yn sicr mai hyn, mewn rhyw fodd neu gilydd, ydyw yr achos o sŵn.

Ond ymofyniad a ymgyfyd yn naturiol yw, pa fodd y gall rhyw gynnhyrfiad neu ddirgryniad



Digitized by Google

nodedig yma? Natur y sylwedd ei hun i raddau; a'r ffurf fydd arno, yn benaf, y mae yn debyg.

Rheoleidd-dra y sŵn-donau yn unig sydd yn peri fod nodyn cerddorol yn gwahaniaethu oddi wrth un angerddorol:—y rheoleidd-dra sydd yn ei wneyd yn gerddorol. Y mae y cyfryw nodyn yn dibynu am ei *gyweirsain (pitch)*, ei *nerth*, a'i *barhâd*, ar yr un amgylchiadau ag y mae rhyw sŵn arall. Eglurir hyn gan y toniadyr *(tuning fork)*. Dibyna y *cyweirsain* ar nifer yr ymsigliadau *(vibrations)*, neu y tònau a gynnyrchir yn yr awyr ganddo mewn eiliad; a pho fwyaf lliosog y bydd yr ymsigliadau uchaf y bydd y sain. Dibyna y *nerth* ar hyd y sain-dòn *(sound-wave)*:—po fwyaf y plygir y toniadyr, mwyaf y bydd nerth y sain a rydd allan. Y mae *parhâd* y sain yn dibynu ar barhâd y tònau:—po hwyaf y byddo y toniadyr mewn ysgogiad, mwyaf y bydd eu parhâd.

Yr ydym wedi egluro yn barod yn yr erthygl hon fod sŵn yn cael ei achosi gan ysgogiad sylweddau yn yr awyr; ac y mae yr hyn a ganlyn yn dangos yr effeithiau a ddilynant ysgogiadau llinynau y crwth *(violin)*. I gynnyrchu y nodyn *e*, er esampl, y mae y llinyn yn ysgwyd yn ol ac yn mlaen 640 o weithiau mewn eiliad; y nodyn *a*, 426 o weithiau; y nodyn *d*, 284 o weithiau; a'r nodyn *g*, 189 o weithiau mewn eiliad.

SWP, SYPIAU: crug, pentwr, dâs, mwdwl. "Swp o rawnwin," neu ffrwythau y gwinwydd: *Num.* xiii. 13; *Esa.* xxxviii. 21; lxv. 8.

SWPER: cwynos, nawn-fwyd, nawn-bryd. Nid ydyw yn ymddangos fod yr Hebreaid boreuol wedi rhoddi enwau arbenig ar eu hamrywiol brydiau; canys mewn gwirionedd ymadroddion cyffredinol yw y geiriau a gyfieithir 'ciniawa' a 'chiniaw,' yn y Beibl Cymraeg, y rhai y gellid gyda mwy o briodoldeb eu cyfieithu 'bwyta,' a 'phryd o fwyd.' Yn y Testament Newydd, cawn y geiriau Groeg *αριστον* a *δεῖπνον*, y rhai yn Gymraeg a gyfieithir 'ciniaw' a 'swper' (*Luc* xiv. 12; *Ioan* xxi. 12), ond y rhai yn fwy priodol ydynt 'boreubryd' a 'chiniaw.' Y mae graddau o ansicrwydd gyda golwg ar yr oriau ar ba rai y cymmerid y prydiau bwyd. Y mae yn ddiammheu mai canol dydd y byddai yr Aiphtiaid yn cymmeryd eu prif bryd (*Gen.* xliii. 16): cymmerai llafurwyr bryd ysgafn y pryd hwnw (*Ruth* ii. 14; cymmh. *adn.* 17); ac yn achlysurol defnyddid yr awr foreuol hono i wledda ac i feddwi: 1 *Bren.* xx. 16. Casglwyd oddi wrth yr adnodau hyn (yn rhy frysiog, yr ydym yn meddwl) mai canol dydd yn gyffredinol y cymmerid y prif bryd. Y mae yn wir fod yr Aiphtiaid etto yn cymmeryd pryd sylweddol yr amser hwnw; ond y mae lle i gredu fod yr Iuddewon yn hytrach yn dilyn yr arferiad a ffynai yn mhlith y Bedŵiniaid, ac yn cymmeryd eu prif bryd ar ol machlud haul, a phryd ysgafnach tua naw neu ddeg o'r gloch y boreu. Er enghraifft, parotôdd Lot wledd "yn yr hwyr" i'r ddau angel: *Gen.* xix. 1—3. Y mae yn eglur fod Boaz wedi cymmeryd ei bryd yn ddiweddar yn y prydnawn: *Ruth* iii. 7. Yr Israeliaid a fwytasant gig yn yr hwyr, a bara yn unig, neu fanna yn y boreu: *Exod.* xvi. 12. Rhydd y cyd-destyn ar ddeall mai yn yr hwyr y cymmerodd gwledd Iethro le: *Exod.* xviii. 12, 14. Ond, uwch law y cwbl, ymddengys fod sefydliad gwledd y Pasc yn yr hwyr yn dynodi mai yn yr hwyr yr arferent gymmeryd y prif bryd. Ymddengys yn dra annhebygol y buasai yr Iuddewon yn cael gorchymyn i fwyta cig ar amser ammhriodol. Yn y tymmor Beiblaidd diweddaf cawn grybwylliadau eglurach i'r un pwrpas:—cymmerai brecwest le yn y boreu (*Ioan* xxi. 4, 12), ar ddyddiau cyffredin nid cyn naw o'r gloch, yr hon oedd yr awr weddi gyntaf (*Act.* ii. 15); ac ar y Sabbath nid cyn deuddeg o'r gloch, pan y byddai y gwasanaeth yn y synagog yn darfod. Cymmerai y pryd helaethaf a mwyaf sylweddol le yn yr hwyr. Cymmerodd "y swper mawr" le ar oriau gweithio y diwrnod (*Luc* xiv. 15—24): ond y mae yn debyg mai rhan o ddelweddiaeth y ddammeg oedd hyn, ac nid disgrifiad o fywyd gwirioneddol.

SWPER YR ARGLWYDD.—Gwel t.d. 462.

SWYDDOG. Y mae yn amlwg fod y rhan fwyaf, os nad yr holl enwau Hebreig a gyfieithir 'swyddog,' naill ai o nodwedd ammhennodol, neu yn eiriau cyfystyr am swyddogion a adnabyddid dan eiriau ereill mwy pendant, megys 'ysgrifenydd,' 'eunuch,' &c.

Y mae y ddau air a gyfieithir felly yn y Testament Newydd bob un yn meddu ystyron arbenigol yn y Groeg. Gyda golwg ar ὑπηρέτης, arferir ef i ddynodi swyddog israddol llys barn—negesydd neu geisbwl. Y Πράκτορες yn Athen oeddynt swyddogion, dyledswydd y rhai oedd cofrestru a chasglu dirwyon a ddodid gan lysoedd barn; ac y mae "traddodi i'r swyddog" yn arwyddo rhoddi enw dyledwr i mewn i swyddog y llys.

Dywed Josephus fod dau Lefiad fel ysgrifenyddion yn perthyn i bob llys barn yn mhlith yr Iuddewon.

SWYN: diogelwch, amddiffyniad, cysur, neu fendith; meddyginiaeth, neu gyfaredd. 'Dwfr swyn,' sef dwfr sanctaidd; 'swyn ddrwg,' sef cysur gwan. "Duw o'r nef a'th swynas;" sef, a'th fendithiodd. Yr oedd swyno yn dra arferedig yn y gwledydd dwyreiniol. Tybiai yr anwybodus fod swyn, trwy gydsyniad rhyw allu uffernol, yn cael rhyw ddylanwad anorchfygol ar feddyliau, bywydau, a meddiannau y rhai a fyddent yn wrthddrychau iddi. "Dylai pawb," medd Dr. Doddridge, "ochelyd y seremoniau ofer a elwir swynion, y rhai nas gallant o gwbl gynnyrchu yr effeithiau a briodolir iddynt." Gwel CONSURIO; DEWINIAETH.

SWYNGYFAREDD (swyn—cyfaredd): yr arferiad o swyn neu hudoliaeth; gwneuthur lles neu niwed i un trwy swyn, neu gelfyddyd ddirgelaidd. Ymddengys fod y gair gwreiddiol am swyngyfaredd yn cael ei ddefnyddio yn *Exod.* vii. 11, 22, a viii. 7, i ddynodi yr amrywiol foddion (rhai o honynt, y mae yn ddiammheu o gymmeriad hanner celfyddydol) a arferid gan swynwyr yr Aipht i ddylanwadu ar hygoeledd Pharaoh. Y mae y gair Groeg, Φαρμακεῖαι a ddefnyddir gan y Deg a Thrigain, yn arwyddo meddyginiaethu neu niweidio un trwy ryw lysieuyn meddygol, gyda defodau swynyddol. Yr oedd y grediniaeth yn ngallu swynion neillduol yn gyffredinol yn yr hen fyd. Fel hyn yr oedd cyfferiau i yru y nawdd-dduwiau allan o ddinas, ereill i felldithio byddinoedd gelynol, ac ereill i godi y meirw, neu i rwymo y duwiau, &c. Defnyddiai y Groegiaid hwynt fel un o bum prif ffynnonell meddyginiaeth, yn enwedig

Digitized by Google

mewn afiechyd meddyliol. Crybwylla Homer am danynt fel pethau a ddefnyddid i attal rhediad gwaed, ac y mae Cato hyd yn oed yn arfer swyn i iachau aelod wedi myned o'i le. Y mae y grediniaeth mewn swynion etto yn gyffredinol mewn gwledydd anwareiddiedig; ac y mae cannoedd o'r cyfryw gyfferïau mewn bod etto, ac yn cael eu hystyried yn effeithiol gan yr anwybodus. Defnyddir ψιθυρισμός gan y Deg a Thrigain yn *Preg.* x. 11, i ddynodi swyno seirph: *Jer.* viii. 17 (cymmh. *Salm* lviii. 5; *Eccles.* xii. 13; *Luc* ix. 1—11). Y disgrifiad a roddir gan Maimonides o swyngyfareddwr ydyw "un yn defnyddio geiriau dyeithr a diystyr, trwy ba rai y mae efe yn twyllo pobl hygoelus." Dywedant, er enghraifft, os bydd i un adrodd y geiriau o flaen sarph neu scorpion na wnant un niwed. Rhoddir hanes y Marsiaid, y rhai a ragorent yn y gelfyddyd hon, gan Awstin; ac am y Psylliaid gan Arnobius; a chyfeirir atynt gan lu o awdurdodau ereill. Gelwid hwynt yn Ὀφιοδιῶκται. Deallir y dirgelwch etto yn y dwyrain. Gwaherddir pob math o swyn yn bendant yn yr Hen Destament (*Lef.* xix. 26; *Esa.* xlvii. 9, &c); ond y mae yn anhawdd iawn diwreiddio y duedd at hyn (2 *Bren.* xvii. 17; 2 *Cron.* xxxiii. 6); ac yr ydym yn cael ei bod yn parhau i flodeuo er hyny yn y cyfnod Cristionogol: *Act.* xiii. 6, 8; viii. 9, 11; *Gal.* v. 20; *Dad.* ix. 21.

Y prif offernau swynol oedd gwialen, cylch swynol, ŵyau dragon, llysiau neillduol, neu 'wreiddiau gorphwyllog,' fel llewyg yr iâr, &c. Gwel CONSURIO; DEWINIAETH.

SWYNOGLAU: addurniadau, gemau, rholiau o bapyr neu o femrwn, &c., y rhai a wisgid fel diogelwch rhag gallu swynion, ac ar y rhai yn gyffredin y byddai ffurfiau neu lythyrenau cyfriniol wedi eu hysgrifenu. Y mae yn amlwg fod y "clustdlysau" yn *Gen.* xxxv. 4, yn dal cyssylltiad âg eilunaddoliaeth; a thebygol yw mai swynoglau oeddynt a gymmerwyd oddi ar gyrph y Sichemiaid a laddesid. Crybwyllir am danynt ar ol hyny yn mhlith ysglyfaeth Midian (*Barn.* viii. 24); ac hwyrach mai eu nodwedd adgas a barodd i Gedeon ofyn am danynt. Drachefn, yn *Hos.* ii. 13, crybwyllir am "wisgo clustfodrwyau a thlysau" fel un o arwyddion "dyddiau Baalim."

Ond gwisgid swynoglau fynychaf o amgylch y gwddf. Weithiau, ceryg gwerthfawr fyddent, y tybid eu bod wedi eu cynnysgaeddu â rhinweddau neillduol. Yn gyffredin crogid hwynt fel y darn canol o'r gwddfdlws; ac yn mhlith yr Aiphtiaid byddent yn fynych yn gynnwysedig o arwyddluniau o amrywiol dduwiau, neu o arwyddlun o wirionedd a chyfiawnder. Gem o'r natur yma, wedi ei ffurfio o faen saphir, a wisgid gan brif farnwr yr Aipht; a dywedir fod un cyffelyb hefyd yn cael ei wisgo gan y duw ieuangc Harpocrates. Y mae yr Arabiaid yn crogi llun llaw agored o amgylch gyddfau y plant—defod, yr hon, yn ol Shaw, sydd yn dynodi ffawd. Canfyddir yr egwyddor hon yn y defnyddiad o swynoglau.

Y swynoglau cyffredin oeddynt eiriau cyssegredig neu frawddegau, wedi eu hysgrifenu mewn modd neillduol, neu oddi mewn i lun tebyg i darian Dafydd, a elwid hefyd Sêl Solomon. Cafwyd swynion "yn gynnwysedig o eiriau wedi eu hysgrifenu ar blygion o bapyr wedi eu rholio i fyny yn dŷn, a'u gwnïo mewn llian yn Thebes." Mae yn debyg mai y perygl i arferion eilunaddolgar ymgodi oddi wrth eu gwybodaeth am y ddefod hon a barodd i'r arferiad o phylacterau gael ei chymmeradwyo: *Deut.* vi. 8; ix. 18. Defnyddir darnau o'r *Coran* gan yr Arabiaid diweddar yn yr un dull.

Yr oedd gwerth dosbarth mawr o swynoglau yn dibynu ar eu bod wedi eu gwneyd dan ammodau seryddol neillduol. Defnyddid hwynt yn fwyaf cyffredinol i ochelyd anffawd, &c.; a thybid eu bod yn cadw ymaith ysbrydion drwg, y rhai a achosent afiechyd.

SYCAMORWYDDEN. Nid ydyw yr enw yn cael ei grybwyll ond unwaith yn unig; sef, yn *Luc* xvii. 6; "Pe byddai genych ffydd gymmaint a gronyn o hâd mwstard, chwi a ellych ddywedyd wrth y sycamorwydden hon, Ymddadwreiddia," &c. Nid oes un lle i ammheu nad ydyw y συκάμινος yn wahanol i συκόμωραια yr un efengylwr (*pen.* xix. 4), er fod yr enw hwn yn cael ei roddi weithiau i'r συκόμορος. Y sycamorwydden ydyw y ferwydden, fel y mae yn amlwg oddi wrth Dioscorides, Theophrastus, ac amryw o ysgrifenwyr Groegaidd ereill. Y mae ffurf o'r un gair, συκαμηνηα, etto yn un o enwau y ferwydden yn ngwlad Groeg. Y mae merwydd du a gwyn yn gyffredin yn Syria ac yn Mhalestina, ac y maent yn cael eu hamaethu yn helaeth iawn yno er mwyn cael cyflenwi ymborth i'r lindys sidan—nifer mawr o ba rai sydd yn cael eu magu. Y mae y ferwydden yn cyrhaedd i faint pren collen ffrengig, ei changhenau yn llydain, ac yn rhoddi cysgod hyfryd. Ar y cyfrif hwn, plenir hi yn fynych wrth ochrau y ffyrdd. Y mae ei dail ar ffurf calon, ac yn fânbluaidd oddi tanodd, ac yn aroglus. Nid ydyw y ffrwyth yn tyfu ar benau y canghenau, ond yn uniongyrchol ar gorph y pren ar frigau bychain, ac yn sypiau fel y grawnwin. Y mae y pren yn wastad yn wyrdd, ac yn dwyn ffrwyth amryw weithiau yn y flwyddyn, heb gael ei gyfyngu i dymmhorau pennodol; ac fel hyn, fel dygedydd ymborth parhaus, y mae'n werthfawr iawn i'r tlodion. Y mae coed y pren, er yn fândyllog iawn, yn hynod o barhaol. Nid ydyw yn dioddef oddi wrth wlybaniaeth na gwres. Y mae yr eirch a wnaed o hono yn yr hen oesoedd yn yr Aipht etto yn berffaith gyfan a dilwgr, er eu bod wedi cael eu cadw mewn beddrodau am filoedd o flynyddoedd. Defnyddid ef i wneyd drysau, a dodrefn mawr, megys byrddau a chadeiriau. Mor fawr oedd gwerth y coed hyn fel y darfu i Dafydd bennodi arolygwr arbenig arnynt yn ei deyrnas, fel y gwnaeth efe ar yr olewydd (1 *Cron.* xxvii. 28); a chrybwyllir fel un o drallodion mwyaf yr Aipht, fod ei sycamorwydd wedi eu dinystrio gan rew: *Salm* lxxviii. 47.

SYCYON: prif ddinas talaeth fechan, ond tra ffrwythlawn, yn ngwlad Groeg gyntefig (*Sicyonia*), yn gorwedd yn ngogleddbarth y Peloponnesus, yn cael ei therfynu ar du y gogledd gan Fôrgaingc Corinth, gan Achaia ar y gorllewin, Philus ar y deheu, a Chorinth ar y dwyrain. Crybwyllir am Sycyon gydag amryw ereill yn 1 *Macc.* xv. 23. Y mae ychydig o weddillion yr hen ddinas yn aros hyd heddyw.

SYENEH: yn briodol SEFENEH—tref yn yr Aipht ar derfyn Cus, neu Ethiopia. Y mae y prophwyd Ezeciel yn siarad am anrhaith yr Aipht "o dŵr Syeneh hyd yn nherfyn Ethiopia"

Digitized by Google

(*pen.* xxix. 10), ac am ddinystr ei phobl "o dŵr Syeneh;" *pen.* xxx. 6. Yr oedd y tŵr ar y terfyn dwyreiniol [gwel MIGDOL], ac felly yr un ydyw Sefeneh a thref Syeneh, yr hon bob amser oedd tref olaf yr Aipht ar du y deheu, er ei bod ar un amser yn cael ei chynnwys yn yr enw Nubia. Ei hen enw ydyw Sun. Y mae y dref ddiweddar ychydig i'r gogledd o'r hen safle, yr hwn a nodir gan gladdfa Arabaidd dra henafol a dyddorol.

SYLLA, LUCIUS CORNELIUS FELIX: Rhufeinwr enwog, a mab i Lucius Cornelius Sylla, am yr hwn nid oedd nemawr o ddim yn wybyddus, ond yn unig ei fod yn byw mewn dinodedd, ac na adawodd efe i'w unig fab ond ychydig iawn o eiddo. Ganwyd Sylla yn y fl. c.c. 138; ac er nad oedd gan ei dad ond ychydig o eiddo i'w adael i'r penrheolwr dyfodol, yr oedd ganddo ddigon o foddion i ddiogelu iddo yr addysg oreu. Efe a astudiodd lenyddiaeth Groegaidd a Rhufeinaidd gyda diwydrwydd a llwyddiant, ac ymddengys ei fod er yn foreu wedi coleddu yr hoffder hwnw at lenyddiaeth a chelfyddyd a'i nodweddai ar hyd ei oes. Ar yr un pryd, dilynai ei bleserau cnawdol gyda'r un ymroddiad; ac yr oedd tymmor ei ieuengctid, yn gystal a chanol oed, wedi ei warthruddo gan y gweithredoedd mwyaf nwyfus a llygredig. Nid oedd ei bleserau yn dwyn ymaith ei holl amser, ac nid effeithiasant chwaith yn gymmaint i wanychu ei feddwl; o herwydd o bossibl nad oedd un Rhufeinwr yn ystod blynyddoedd olaf y weriniaeth, gyda'r eithriad o Julius Cæsar, yn meddu barn gliriach, ac yn gallu darllen a deall nodweddion pobl ereill yn well, ac yn meddu ewyllys gryfach, nag efe. Chwanegwyd at gyfoeth Sylla trwy haelfrydedd ei lysfam, a dynes arall a fynychai y llys o'r enw Nicopolis, y rhai a adawsant iddo ar eu marwolaeth eu holl eiddo. Yr oedd erbyn hyn, er nad oedd fel pendefig Rhufeinaidd yn gyfoethog, etto yn meddu ar ddigon i'w alluogi i ymestyn at anrhydedd swyddogol yn y wladwriaeth. Yn c. c. 107, pennodwyd ef yn ben trysorydd, ac anfonwyd ef gyda llu o wŷr meirch i ymuno â byddin Marius, yr hwn a ddygai yn mlaen y rhyfel yn erbyn Jugurtha, yn Affrica. Yr oedd y rhyfelwr gerwin braidd yn ddigllawn fod y fath un wedi ei bennodi yn ben trysorydd mewn rhyfelgyrch mor bwysig; o herwydd nid oedd Sylla yn adnabyddus hyd yn hyn ond fel afradlonddyn, ac yr oedd yn hollol ddibrofiad mewn bywyd milwraidd; etto, efe a ddaeth yn fuan i fod y swyddog mwyaf medrus a gweithgar yn y fyddin Rufeinig, ac ennillodd hyder ac edmygedd Marius, a serch yr holl filwyr. Yr oedd ganddo allu nodedig i ennill serch ei filwyr. I Sylla y rhoddwyd Jugurtha i fyny gan Bocchus, ac yr oedd rhan o'r clod am ddyfod â'r rhyfel hwnw i derfyniad llwyddiannus yn ddyledus iddo ef, yn gystal ag i Marius. Teimlai Sylla mor falch o'i ran yn y llwyddiant hwnw fel y mynodd gael modrwy a sêl, ac yn gerfiedig arni ddarlun o ymostyngiad Jugurtha—yr hon a wisgid ganddo tra y bu byw.

Parhaodd Sylla i wasanaethu o dan Marius yn ei ymgyrchoedd yn erbyn y Cimbri a'r Teutoniaid. Dechreuodd y diweddaf fod yn eiddigus o hono; ac yn c.c. 102 efe a gymmerodd lywyddiaeth o dan gydswyddog Marius, sef Q. Catullus, yr hwn a ymddiriedodd i Sylla brif reolaeth y rhyfel. Dychwelodd Sylla yn awr i Rufain, lle yr ymddengys iddo fyw mewn tawelwch am rai blynyddau. Yr oedd yn rhaglaw yn c. c. 93, ac yn y flwyddyn ddilynol (c. c. 92) anfonwyd ef yn rhaglaw i Cilicia, gyda gorchymyn arbenig oddi wrth y senedd ar fod iddo adferu i Ariobarzanes deyrnas Cappadocia, o'r hon yr alltudiwyd ef gan Mithridates. Bu Sylla yn hollol lwyddiannus. Gorchfygodd Gordius, cadfridog Mithridates, yn Cappadocia, a gosododd Ariobarzanes ar yr orsedd. Cryfhaodd yr elyniaeth rhwng Marius a Sylla. Yr oedd galluoedd a chymmeriad Sylla eisoes wedi arwain y blaid bendefigaidd i edrych ato fel un o'u harweinwyr; ac yn y modd hwn chwanegodd gelyniaeth gwleidyddol yr anghydfod personol oedd rhyngddynt. Yn chwanegol at hyn yr oedd Marius a Sylla, y naill fel y llall, yn awyddus am gael llywyddiaeth yr ymgyrch yn erbyn Mithridates; ond yr oedd llwyddiant Sylla yn y dwyrain wedi chwanegu ei boblogrwydd, a'i nodi allan fel y cymmhwysaf i gael y llywyddiaeth bwysig hono. Tua'r pryd hwn, darfu i Bocchus godi cerfluniau goreuredig yn y brifddinas, yn gosod allan ymostyngiad Jugurtha i Sylla; yr hyn a gynnhyrfodd ddigllonrwydd Marius i'r fath raddau fel mai o'r braidd y gallesid ei attal rhag eu symmud trwy drais. Yr oedd gelyniaeth y ddwy blaid wedi myned mor gryf nes yr oeddynt bron ag ymarfogi yn erbyn eu gilydd; ond parodd toriad allan y rhyfel cartrefol iddynt gladdu eu cwerylon personol am beth amser. Cymmerodd Marius a Sylla ran flaenllaw yn y rhyfel yn erbyn y gelyn cyffredin. Yr oedd Marius yn awr yn dechreu heneiddio; a gwelai ei orchestion yn cael eu taflu i'r cysgod gan yr eiddo ei gydymgeisydd ieuangach. Ennillodd Sylla rai buddugoliaethau ysblenydd ar y gelyn, a chymmerodd Bevianum, prif dref y Samniaid. Etholwyd ef yn gonsul yn c. c. 88, a phennodwyd ef i lywyddu yn y rhyfel Mithridataidd. Cyfeirir at y digwyddiadau a ganlynasant—ei anfoniad o Rufain gan Marius, ei ddychweliad i'r ddinas gyda'i lengoedd, a chondemniad Marius a'i bleidwyr—yn yr erthygl d.g. MARIUS. Arosodd Sylla yn Rhufain hyd ddiwedd y flwyddyn; ac ar ddechreu c. c. 87 aeth tua Groeg, i ddwyn yn mlaen y rhyfel yn erbyn Mithridates. Wedi glanio yn Dyrrhachium, aeth yn mlaen yn ddioed tuag Athen, lle yr oedd pencadlys achos Mithridates yn ngwlad Groeg. Ar ol gwarchau maith, cymmerwyd Athen trwy ruthr ar y laf o Fawrth. c. c. 86, a rhoddwyd hi i fyny i anrhaith ac ysbail. Wedi hyn aeth Sylla yn mlaen yn erbyn Archelaus, cadfridog Mithridates, yr hwn a orchfygwyd ganddo yn Bœotia; ac yn y flwyddyn ddilynol efe a ennillodd fuddugoliaeth fawr arall oddi ar yr un cadfridog yn agos i Orchomenos.

Ond tra yr oedd Sylla yn cario yn mlaen ryfel lwyddiannus yn ngwlad Groeg, cafodd ei elynion y llaw uchaf yn Italy. Daeth y consul Cinna, yr hwn a yrasid allan o Italy gan ei gydswyddog Octavius yn fuan ar ol ymadawiad Sylla, yn ol drachefn gyda Marius yn niwedd y flwyddyn. Appwyntiwyd Cinna a Marius yn gonsuliaid yn c. c. 86, ac ysgubwyd ymaith holl drefniadau Sylla. Ni ddychwelai y diweddaf yn ol i Italy, modd bynag, nes dwyn y rhyfel Mithridataidd i derfyniad llwyddiannus. Wedi gyru cadfridogion Mithridates allan o Groeg, croesodd Sylla yr Hellespont; ac yn gynnar yn y fl. c. c. 84, gwnaeth gyttundeb heddwch gyda

Digitized by Google

326; ond ymddengys na bu yno yn hir, yn gymmaint ag nad oedd yn cael ei foddhau yn y derbyniad a roddwyd iddo gan y bobl. Y mae yr haneswyr Pabaidd yn son am lawer o eglwysydd a gyfodwyd ac a waddolwyd gan Gystenyn yn ac yn agos i Rufain. Bu farw Sylvester B. A. 335, a dilynwyd ef gan Marcus. Ystyrir yr epistolau a briodolir iddo yn awr yn ffugiol.

SYLWEDDIAETH—IAID (*Realism—ists*): Sylweddiaid sydd enw a roddir ar blaid o athronwyr ysgolheigaidd, a elwid felly o herwydd yr athrawiaethau yn neillduol a fabwysiadwyd ganddynt, mewn gwrthwynebiad i ysgol arall o athronwyr a elwid Enwolwyr (*Nominalists*). Y mae syniadau y naill a'r llall o'r pleidiau hyn wedi cael ymdriniaeth mor fanwl yn y gwaith hwn o dan y geiriau ENWOLWYR ac OCCAM, fel na raid i ni yma ond cyfeirio y darllenydd at yr erthyglau hyny.

SYMBAL: offeryn cerddorol tarawol, a elwid felly oddi wrth wreiddair Hebraeg yn arwyddo *tincian*. Y tri offeryn y rhai yr ymddengys eu bod mewn arferiad yn fwyaf cyffredin yn mhlith yr Hebreaid oedd y *Nabl*, y *Delyn*, a'r *Symbal*. Crybwyllir am ddau fath o symbalau yn *Salm* cl. 5, sef, "symbalau soniarus," a "symbalau llafar." Yr oedd y blaenaf yn gynnwysedig o bedwar plât bychan o bres, neu o ryw fettel caled arall. Yr oedd dau blât yn gydiol â phob un o ddwylaw y cyflawnydd, a tharewid hwynt wrth eu gilydd i gynnyrchu sŵn uchel. Yr oedd yr olaf yn gynnwysedig o ddau blât mwy, un yn cael ei ddal yn mhob llaw, ac yn cael eu taro wrth eu gilydd i ganlyn yr offerynau ereill. Y mae yn dra thebygol fod Asaph, Heman, ac Ieduthun, arweinyddion enwog cerddoriaeth y cyssegr, yn defnyddio "symbalau soniarus" i guro amser, ac i roddi yr arwydd i'r côr pa bryd yr oedd i gymmeryd rhan yn y gân gyssegredig. Dywed Lewis, ond nid ydyw yn cefnogi ei adroddiad trwy enwi ei awdurdod, "nad oedd ond un symbal i fod yn y côr ar unwaith." Nid oedd defnyddio symbalau o angenrheidrwydd yn cael ei gyfyngu i addoliad y deml, neu i achlysuron cyssegredig: defnyddid hwynt i ddybenion milwraidd hefyd, a chan y merched Hebreaidd i ganlyn y gerddoriaeth yn eu dawnsiau cenedlaethol. Y "symbalau llafar" oeddynt y rhai a ddefnyddid gan y seindorf oedd yn canlyn Dafydd pan ddygodd efe arch Duw i fyny o Ciriath-iearim: 1 *Cron.* xiii. 8. Y mae y ddau fath o symbal yn cael eu harfer etto yn gyffredin yn y dwyrain mewn cerddoriaeth filwraidd.

SYNAGOG. Y mae yn amlwg oddi wrth yr Hen Destament a'r Newydd fod y synagogau yn meddu lle pwysig iawn yn mhlith yr Iuddewon. Hwy oeddynt y sefydliad arbenig oedd yn hynodi gwedd ddiweddaf Iuddewiaeth. Yr oeddynt yn atteb yr un dyben yn eu plith hwy i raddau helaeth ag eglwysydd neu gapelydd yn ein plith ni. Ymddengys fod bywyd crefyddol y bobl yn yr amser am ba un y mae y Testament Newydd yn traethu am dano, yn dibynu mwy arnynt nag hyd yn oed ar y deml a'i gwasanaeth. Ynddynt hwy yr addolai ein Hiachawdwr—yn ei ieuengctid, ac wedi cyrhaedd i oedran gŵr. Ynddynt hwy y cyflawnodd efe lawer o'i wyrthiau hynotaf (*Marc* i. 23; *Mat.* xii. 9; *Luc* xiii. 11); ac y llefarodd efe rai o'r geiriau mwyaf gogoneddus a ddaethant erioed dros ei wefusau sanctaidd: *Luc* iv. 16. Yr oedd y synagog, yn nghyd â phob peth oedd yn perthyn iddi, yn dal perthynas â'r dyfodol yn gystal ag â'r amser a aeth heibio. Hi oedd y drefn o addoliad yr oedd y credinwyr Cristionogol cyntaf yn fwyaf cydnabyddus â hi; ac oddi wrthi hi yr oeddynt yn fwyaf tebyg o gymmeryd prif linellau eu haddoliad, a phrif linellau trefn a llywodraeth eu cymdeithas hefyd.

Ni a roddwn yma rai manylion am y prif bethau a berthynent iddi.

EI HENW.

*Synagog* (Συναγωγή): *Synagoga*, ydyw cynnulleidfa o Iuddewon; ac hefyd, lle cyfarfod y gynnulleidfa. Defnyddir y gair yn y Deg a Thrigain fel cyfieithiad o ddim llai nag un ar hugain o eiriau Hebraeg—yn cynnwys y drychfeddwl o gynnulliad o bobl; ond nid oes un angenrheidrwydd i ni yma sylwi ond ar ddau o honynt. Defnyddir ef gant a deg ar hugain o weithiau am air Hebraeg yn cynnwys yn benaf y drychfeddwl o gyfarfod *pennodedig*; a phump ar hugain o weithiau am air Hebraeg yn arwyddo cyfarfod *wedi ei alw* ynghyd, ac am hyny cyfieithir ef fynychaf yn y Deg a Thrigain yn εκκλησια=eglwys. Yn llyfrau yr *Apocrypha* y mae y gair, fel yn llyfrau yr Hen Destament, yn cadw ei ystyr cyffredinol; ac nid ydyw yn cael ei ddefnyddio yn arbenig am unrhyw le addefedig o addoliad. Ymddengys mai yr ymadrodd arferedig am hyn ydyw "lle gweddi." —1 *Macc.* iii. 46. Yn y Testament Newydd, modd bynag, yr ystyr lleol ydyw yr un mwyaf cyffredin. Weithiau cymmhwysir y gair at y llys oedd yn gyssylltiedig â neu yn eistedd yn y synagog yn yr ystyr cyfyngaf: *Mat.* x. 17; xxiii. 34; *Marc* xiii. 9; *Luc* xxi. 12; xii. 11. Hwyrach ei fod yn cael ei arfer o fewn terfynau yr Eglwys Iuddewig fel gair yn dynodi y *lle* y byddai y brodyr Cristionogol yn ymgyfarfod ynddo: *Iago* ii. 2. Ymddengys ei fod wedi ei hawlio hefyd gan rai o sectau ffug-Iuddewig a hanner Gnosticaidd eglwysi Asia fel enw ar y lleoedd y cynnalient eu cyfarfodydd ynddynt: *Dad.* ii. 9. Nid oedd wedi myned yn hollol o arferiad yn mhlith Cristionogion fel enw ar eu cyfarfodydd yn amser Ignatius.

EI HANES.

Haera ysgrifenwyr Iuddewig fod eu synagogau yn hen iawn. Yn mhob lle yn mron lle y mae yr ymadrodd "ger bron yr Arglwydd" yn digwydd, credant ei fod yn dynodi lle o addoliad, neu synagog. Rhydd "*Targum*" Onkelos ar ddeall i ni fod hyd yn oed yr ymadrodd fod Iacob "yn cyfanneddu mewn pebyll" (*Gen.* xxv. 27) yn dynodi ei bresennoldeb mewn synagog, neu dŷ gweddi. A thybia "*Targum*" Jonathan fod cyfeiriad at synagog yn *Barn.* v. 9, ac yn y geiriau "cyhoeddi cymmanfa" yn *Esa.* i. 13.

Ar wahân i'r esboniadau dirdynedig hyn, nid ydym yn gwybod digon am fywyd Israel, o flaen ac o dan y frenhiniaeth, i fod yn alluog i ddywedyd yn sicr a oedd rhyw adeilad o gwbl yn cyfatteb i synagogau oesoedd diweddarach. Ar un llaw, y mae yn debygol, os oedd y lleuadau newydd a'r Sabbathau yn cael eu cadw o gwbl, y rhaid fod y gwasanaeth ynglŷn â hwy yn bod mewn rhyw ddull ar wahân i, yn gystal ag yn y tabernacl, neu yn y deml: 1 *Sam.* xx. 5; 2 *Bren.* iv. 23. Ar y llaw arall, mor bell ag yr ydym yn canfod olion o'r cyfryw addoliad, ymddengys ei fod wedi adfeilio yn rhwydd i eilunaddoliaeth, i aberthau i ephodau a theraphim (*Barn.* viii. 27;

Digitized by Google

xvii. 5) mewn llwyni ac uchelfeydd—gwasanaeth hollol groes i'r "rhesymol wasanaeth," y gweddiau, y salmau, a'r addysg grefyddol a weinyddid yn y synagogau yn ddiweddarach. Dengys cenhadaeth arbenig yr offeiriaid a'r Lefiaid dan Iehosaphat (2 *Cron.* xvii. 7, 9) nad oedd un ddarpariaeth reolaidd i "ddarllen llyfr cyfraith yr Arglwydd" i'r bobl; ac y mae yn rhoi lle i ni dybied fod hyd yn oed y rheol oedd yn peri iddo gael ei ddarllen unwaith bob saith mlynedd ar ŵyl y Pebyll wedi myned allan o arferiad: *Deut.* xxxi. 10. Gyda chodiad yr urdd brophwydol yr ydym yn canfod rhywbeth tebyg i'r cyfryw ddarpariaeth. Pa le bynag yr oedd nifer o'r cyfryw brophwydi, rhaid eu bod yn dilyn bywyd tebyg mewn llawer o ystyriaethau i fywyd yr Esseniaid a'r Therapeutiaid diweddar. Yn sefyllfa anhrefnus Israel dan Samuel, ymddengys eu bod wedi amcanu at buro addoliad yr uchelfeydd oddi wrth gyssylltiadau eilunaddolgar, ac yn ymgyfarfod ar ddyddiau pennodol i aberthu a chanu salmau: 1 *Sam.* ix. 12; x. 5. Y mae yr hygfa yn 1 *Sam.* xix. 20—24, yn dynodi fod y cyfarfodydd yn agored i unrhyw addolwyr a allent ddewis ddyfod, yn gystal ag i "feibion y prophwydi." Yn mhellach yn mlaen, yn amser Eliseus, y mae cwestiwn gŵr y Sunamees (2 *Bren.* iv. 23)—"Pa ham yr ai di ato ef (y prophwyd) heddyw? Nid yw hi na newydd-loer, na Sabbath"—yn cynnwys fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal yn fynych, a sefydlwyd neu hwyrach a adfywiwyd gan Elias a'i olynwyr, fel moddion i feithrin bywyd crefyddol yn y deyrnas ogleddol, ac i wrthweithio yr eilunaddoliaeth a ffynai ynddi. Y mae dyddiad *Salm* lxxiv. yn rhy ansicr i ni dynu unrhyw gasgliad gyda golwg ar natur "synagogau Duw" (yn ol yr Hebraeg, 'lleoedd Duw' i ymgyfarfod), y rhai y dywedir fod yr ymosodwyr yn eu dinystrio: adn. 8. Dichon ei bod wedi ei chyfansoddi yn amser ymosodiad yr Assyriaid neu y Caldeaid. Tybia rhai iddi gael ei hysgrifenu yn amser y Maccabeaid, neu yn y tymmor pan y cymmerwyd Ierusalem ac yr anrheithiwyd y wlad gan fyddin Bagoses dan Artaxerxes II. Y mae "eisteddfod yr henuriaid," yn *Salm* cvii. 32, yn ein gadael mewn ansicrwydd cyffelyb.

Y mae yn debygol fod cyfarfodydd yr Iuddewon crefyddol yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd yn ystod y caethiwed; ac y mae yn ddiammheu eu bod wedi gwneuthur llawer tuag at ddwyn oddi amgylch y cyfnewidiad sydd yn ymddangos mor amlwg yn amser y dychweliad. Gellir casglu oddi wrth y crybwylliadau mynych am gynnulliadau henuriaid Israel, yn eistedd ger bron y prophwyd Ezeciel, ac yn gwrando ei eiriau (*Ezec.* viii. 1; xiv. 1; xx. 1; xxxiii. 31), fod y ddefod oedd wedi gwreiddio yn ysgolion y prophwydi wedi ei throsglwyddo i wlad y caethiwed. Dichon fod un adnod nodedig yn cynnwys cyfeiriad mwy pendant atynt. Y rhai a arosent etto yn Ierusalem a wawdient y prophwyd a'i gymdeithion o herwydd eu halltudiaeth, fel rhai wedi eu hamddifadu o fendithion y cyssegr:—"Ymbellhewch oddi wrth yr Arglwydd; i ni y rhodded y tir hwn yn etifeddiaeth." Attebiad y prophwyd ydyw, mai nid felly yr oedd. Yr oedd yr Arglwydd mor wirioneddol gyda hwynt yn eu "cyssegr bychan" ag yr oedd efe wedi bod yn y deml yn Ierusalem. Ei bresennoldeb—nid y gogoniant allanol—oedd y cyssegr ei hun: *Exod.* xi. 15, 16. Nid oes dim sydd yn amlycach na bod y genedl, yn amser Ezra, yn arfer cynnal eu cyfarfodydd crefyddol ar amserau pennodol: *Ezra* viii. 15; *Neh.* viii. 2; ix. 1; *Zech.* vii. 5. Gan hyny, i'r tymmor hwnw y priodolir adfywiad, os nad sefydliad cyntaf, synagogau. Dichon fod "yr hen amseroedd" am ba rai y mae Iago yn siarad (*Act.* xv. 21), yn myned yn ol, o leiaf mor bell a hyn. A chymmeryd yn ganiataol fod tybiaeth Ewald o barth i ddyddiad ac achlysur cyfansoddiad *Salm* lxxiv. yn gywir, rhaid fod nifer mawr o'r adeiladau hyn wedi eu dinystrio mewn rhyw dymmor dyfodol; ac felly fod y gwasanaeth crefyddol a gynnelid ynddynt wedi ei attal. Y mae yn hynod, beth bynag, nad ydynt mewn un modd yn amlwg yn hanes y Maccabeaid, naill ai fel gwrthddrychau yr ymosodid arnynt, neu fanau a amddiffynid, os nad ydym i edrych ar gynnulliad yr Iuddewon erlidiedig yn Maspha (Mizpah), lle y byddai Israel "o'r blaen" yn arfer ymgyfarfod "i weddïo" (1 *Macc.* iii. 46), nid yn unig fel adgof am ei ogoniant fel lle sanctaidd, ond hefyd fel parhâd o ddefod ddiweddarach. Wedi i'r ymdrechfa hono fyned drosodd, ymddengys fod yr hyn y gellir ei galw yn gyfundrefn blwyfol o synagogau wedi ei dadblygu yn rhyddach yn mhlith Iuddewon Palestina a gwledydd ereill. Yr oedd dylanwad John Hyrcanus, gallu cynnyddol y Phariseaid, awdurdod yr ysgrifenyddion, ac hwyrach esampl Iuddewon y "gwasgariad," oll yn tueddu yn yr un cyfeiriad. Yr oedd un synagog neu chwaneg yn mron yn mhob tref a phentref. Lle nid oedd digon o Iuddewon i adeiladu a llenwi adeilad, yr oedd ganddynt yr hyn a alwent προσευχή, neu 'le i weddïo,' weithiau heb ac weithiau wedi ei doi, yn gyffredin wrth lan afon neu lan y môr, yn yr hwn yr ymgyfarfyddai yr Iuddewon crefyddol a phroselytiaid i addoli, ac hwyrach i ddarllen: *Act.* xvi. 13. Weithiau, arferid y gair προσευχή hyd yn oed am synagog.


O'r braidd y mae yn bossibl gorbrisio dylanwad y gyfundrefn a ddadblygwyd fel hyn. Iddi hi, i raddau helaeth, y priodolir y ffaith fod yr Iuddewon, ar ol ymdrechfa y Maccabeaid, wed glynu yn ddiysgog wrth grefydd eu tadau, ac na ddarfu iddynt byth drachefn syrthio i eilunaddoliaeth. Nid oedd y bobl yn awr mewn un perygl o anghofio y gyfraith, a'r ordinhadau allanol a berthynent iddi. Os gwneid pererindodau etto i Ierusalem ar y gŵyliau mawrion, yr oedd crefydd arferol yr Iuddewon yn, ac yn enwedig allan o Palestina, yn llawer mwy cyssylltiedig â'r synagog nag â'r deml. Ennillai ei defosiwn syml, adeiladol, ac effeithiol, serch y proselytiaid paganaidd—y rhai a allasent gael eu gyru ymaith gan y gwrthwynebrwydd a deimlent i aberthau gwaedlyd y deml; neu a fuasent yn sicr o gael eu gyru oddi wrthi, oddi eithr iddynt allu gwneyd eu meddyliau i fyny i ymostwng i enwaediad: *Act.* xxi. 28. [Gwel PROSELYTIAID.] Yma hefyd, fel gyda'r ysgrifenyddion, yr oedd dylanwad oedd yn tueddu i leihau, ac yn y diwedd yn mron i ddinystrio awdurdod yr offeiriadaeth. Gellid cynnal gwasanaeth y synagog heb help un o feibion Aaron: nid oedd hi yn rhoddi blaenoriaeth iddynt hwy ond mewn ffordd o barch. [Gwel OFFEIRIAID: YSGRIFENYDDION.] Parotowyd y ffordd felly yn ddistaw i swyddogion a gwasanaeth newydd ac uwch, a godent yn "nghyflawnder yr amser" allan o adfeiliad a diddymiad yr hen. Yr oedd y synagogau hefyd yn mhob man yn parotoi y ffordd i'r sefyllfa newydd hon ar bethau. Darllenid, nid yn unig

Digitized by Google

"Moses" ond "y Prophwydi" hefyd ynddynt bob Sabbath; ac felly yr oedd gobaith Israel am y Messiah, a'r disgwyliad am deyrnas nefoedd, yn cael eu lledaenu yn gyffredinol.

EI CHYFANSODDIAD.

Yr oedd maintioli synagog, fel yr eiddo eglwys neu gapel, yn amrywio gyda'r boblogaeth. Nid oes genym un lle i gredu fod unrhyw ddeddfau neu reolau sefydlog wedi eu mabwysiadu gyda golwg ar ei maintioli, fel yr ydoedd gyda golwg ar faintioli y tabernacl a'r deml. Modd bynag, yr oedd natur ei safle wedi ei nodi. Adeiledid hi, mor bell ag y byddai yn bossibl, ar y tir uchaf, yn neu yn ymyl y ddinas i ba un y perthynai. Pan na ellid cael tir uchel, gosodid polyn uchel ar ei phen, i'w gwneyd yn amlwg. Ac yr oedd cyfeiriad hyd ei muriau wedi ei nodi —Ierusalem oedd canolbarth yr addoliad Iuddewig. Yr oedd y synagog wedi ei ffurfio yn y fath fodd fel y byddai yr addolwyr, pan elent i mewn iddi, a phan yn gweddïo, yn edrych tuag ati. Yn gyffredin gwneid yr adeilad ar draul y dosbarth. Weithiau, adeiledid hi gan Iuddew cyfoethog, neu hyd yn oed, fel yn *Luc* vii. 5, gan broselyt caredig. Yn nhymmorau diweddaraf Iuddewiaeth Ddwyreiniol, adeiledid hwy yn fynych, fel temlau y Mahometiaid, ger llaw beddau Rabbiniaid enwog, neu ddynion enwog mewn sancteiddrwydd. Pan orphenid yr adeilad neillduid ef, fel y gwnaed â'r deml, trwy weddi arbenig o gyssegriad. O'r amser hwnw byddai hi yn meddu cymmeriad cyssegredig. Yr oedd gweithredoedd cyffredin bywyd—bwyta, yfed, gwneyd cyfrifon i fyny—yn waharddedig ynddi. Nid oedd neb i basio drwyddi i fyrhau y ffordd. Hyd yn oed os peidid a'i defnyddio, nid oedd yr adeilad i'w ddefnyddio at un gorchwyl isel: er enghraifft, nid ellid ei droi yn faddon, yn dŷ golchi, neu yn faredy. Yr oedd crafell (*scraper*) o'r tu allan i'r drws, fel y gallai dynion, cyn iddynt fyned i mewn, ymlanhau oddi wrth bob peth halogedig a lynai wrth eu traed.



DAR. 390.—SYNAGOG IUDDEWIG YN AMSTERDAM.

Yn nhrefniant mewnol y synagog yr ydym yn canfod tebygolrwydd amlwg i'r tabernacl. Yn y pen uchaf, sef yr agosaf at Ierusalem, y safai yr arch, neu y coffr; yr hon, fel yr arch hynaf a mwy cyssegredig, a gynnwysai Lyfr y Gyfraith: a hi a roddodd i'r pen hwnw yr enw a'r cymmeriad o 'gyssegr.' Amlygid yr un meddylddrych weithiau trwy ei galw ar ol enw Aaron; a dadblygwyd ef yn mhellach fyth yn yr enw o *drugareddfa*, a roddwyd i'r cauad, neu ddrws y coffr, ac yn y gorchudd a grogai o'i blaen. Y rhan yma o'r synagog oedd y lle mwyaf anrhydeddus ynddi. Yma yr oedd y prif gadeiriau a hoffid mor fawr gan yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid (*Mat.* xxiii. 6), i eistedd yn mha rai y gwahoddid yr addolwr cyfoethog ac anrhydeddus: *Iago* ii. 2, 3. Yma hefyd, o flaen wyneb yr arch, fel yn y tabernacl, yr oedd y canwyllbren wyth-gaingc, yr hwn a oleuid yn unig ar y prif ŵyliau. Heb law hwn, yr oedd yno un ganwyllbren yn cael ei gadw i losgi yn barhaus. Goleuid ereill a ddygid gan addolwyr crefyddol, yn nechreu y Sabbath, *h.y.*, ar brydnawn dydd Gwener. Ychydig pellach, tua chanol yr adeilad, yr oedd esgynlawr wedi ei godi, ar ba un y gallai amryw bersonau sefyll ar unwaith; ac ar ganol hwn yr oedd pulpud, yn yr hwn y safai y darllenydd i ddarllen y wers, neu yr eisteddai i lawr i addysgu. Yr oedd y gynnulleidfa yn rhanedig—y meibion ar un ochr, a'r merched ar yr ochr arall; â therfyn isel, pump neu chwe throedfedd o uchder, yn rhedeg rhyngddynt. Y mae trefniadau synagogau diweddar, er's llawer o ganrifoedd, wedi gwneuthur yr ysgariaeth yn fwy llwyr trwy osod y merched mewn orielau isel wedi eu cau allan gan ddelltwaith. O fewn yr arch, fel y dywedwyd uchod, yr oedd rholiau y llyfrau cyssegredig. Byddai y rholiau, am ba rai y rholid hwynt, yn

Digitized by Google

fynych yn cael eu haddurno yn brydferth iawn, a chedwid hwynt mewn amwisgoedd emliwiedig ysblenydd, neu frodwaith, yn ol natur eu defnyddiau. Yn fynych, y cyfryw amwisgoedd oedd offrymau y cyfoethogion pan ddygent eu babanod ar ddydd gŵyl blynyddol cyntaf eu genedigaeth, i gael eu bendithio gan rabbi y synagog. Fel rhan o'r dodrefn, rhaid i ni hefyd nodi, yn laf, coffr arall i'r *Haphtaroth*, neu roliau y prophwydi: 2il, coffrau elusenau yn neu yn agos i'r drws, yn ol cynllun coffrau y deml—un i dlodion Ierusalem, y llall i elusenau lleol: 3ydd, byrddau rhybuddion, ar ba rai yr ysgrifenid enwau troseddwyr, y rhai oeddynt wedi eu "bwrw allan o'r synagog:" 4ydd, coffr i udgyrn ac offerynau cerddorol ereill a arferid y dydd cyntaf o'r flwyddyn, ac ar Sabbothau, a gŵyliau ereill.

EI SWYDDOGION.

Mewn trefydd bychain ni byddai yn gyffredin ond un rabbi; ond lle y gellid ffurfio trefniant cyflawnach, byddai coleg o henuriaid (πρεσβῦτεροι: *Luc* vii. 3) dan lywyddiaeth arch-synagogydd: *Luc* viii. 41, 49; xiii. 14; *Act.* xviii. 8, 17. Rhoddid amryw o enwau cyfystyr ar yr henuriaid hyn, a phob un yn meddu ystyr arbenig. Gelwid hwynt yn fugeiliaid (ποιμενες, *Eph.* iv. 11), yn gwylio eu praidd (προεστῶτες, ηγουμενοι), fel llywodraethwyr arnynt: 1 *Tim.* v. 17; *Heb.* xiii. 7. Yr oeddynt oll gyda'u gilydd yn ffurfio math o glwysgor: arolygent achosion y synagog, a meddent allu i esgymuno personau.

Y swyddog mwyaf amlwg mewn synagog fawr yn gyffredin oedd y *Shêlîach*, neu y swyddog gweinyddol, yr hwn a weithredai fel cynnrychiolydd y gynnulleidfa; ac am hyny efe oedd prif ddarllenydd y gweddïau, &c. Yr oedd i fod yn weithgar, o lawn oed, yn dad teulu, heb fod yn gyfoethog, nac mewn masnach, yn meddu llais da, ac yn alluog i ddysgu ereill.

Yr oedd y *Chazzan* (υπηρετής), neu weinidog y synagog (*Luc* iv. 20) yn cyflawni dyledswyddau is. Efe oedd i agoryd y drysau, i wneyd yr adeilad yn barod i'r gwasanaeth. Ni ofynid unrhyw gymmhwysderau arbenig ynddo ef, fel y gofynid yn y *Shêlîach*. Fel y *Shêlîach* a'r henuriaid, appwyntid ef trwy arddodiad dwylaw. Gweithredai yn fynych yn ystod yr wythnos fel ysgolfeistr y dref neu y pentref; ac yn y ffordd hono ennillai enwogrwydd ag oedd yn ei osod yn mron ar yr un tir a'r *Shêlîach*.

Heb law y rhai hyn, yr oedd deg o ddynion yn gyssylltiedig â phob synagog, dyledswyddau pa rai sydd wedi bod yn destyn llawer o ddadleu. Adnabyddid hwynt fel y *Batlaniaid*, neu *Otiosi*, ac nid oedd un synagog yn gyflawn hebddynt. Yr oeddynt i fod yn ddynion ag y byddai eu hamser at eu galwad hwy eu hunain, heb fod dan orfod i lafurio am eu bywoliaeth; ac am hyny yn alluog i roddi eu presennoldeb yn y gwasanaeth wythnosol, yn gystal a Sabbothol. Tybiwyd gan rai mai y swyddogion uchod oeddynt, ond chwanegu atynt nifer o 'gasglwyr elusenau.' Ond barna Rhenferd mai nifer o ddynion oeddynt, yn cyflawni eu dyledswyddau yn barhaus, er bod yn barod i wneyd i fyny gynnulleidfa (gan mai deg oedd y nifer lleiaf a ystyrient fel cynnulleidfa), fel na byddai un oediad mewn dechreu y gwasanaeth ar yr oriau priodol, ac fel na byddai i un addolwr orfod troi yn ol yn siomedig. Cefnogir y dybiaeth olaf gan y ffaith hon; fod nifer cyffelyb o ddynion wedi eu pennodi i weithredu fel cynnrychiolwyr gwastadol y gynnulleidfa yn ngwasanaeth y deml. Wrth gwrs, y mae yn bossibl fod yr un personau yn fynych yn uno y ddau gymmeriad—trwy fod yn *Otiosi*, ac yn gasglwyr elusenau.

EI HADDOLIAD.

Nid oedd addoliad y synagog ond addoliad cyffelyb i raddau helaeth i wasanaeth mwy mawreddog y deml. Y rhan benaf a phwysicaf o hono oedd gweddi. Rhoddid pwys ar weddi, ac ni ystyrid fod yr addoliad yn gyflawn hebddi. Pan yn gweddïo, codai yr holl gynnulleidfa ar eu traed: *Mat.* vi. 5; *Marc* xi. 25; *Luc* xviii. 11, 13. Nid oedd dim llai na phedair ar bymtheg o weddïau yn y gwasanaeth. Y rhan nesaf oedd darllen rhanau o'r gyfraith a'r prophwydi. Darllenid "Moses" "yn y synagogau bob Sabbath" (*Act.* xv. 21): darllenid yr holl gyfraith, y naill ran ar ol y llall, fel ag i ddarllen yr oll o honi mewn tair blynedd, yn ol un cynllun. Darllenid ysgrifeniadau y prophwydi fel ail wersi mewn trefn debyg. Dilynid hwynt gan y *Derash*, sef y "gair o gynghor," yr eglurhâd, yr esboniad, neu bregeth y synagog. Cyflawnid y rhan hon o'r gwasanaeth gan y swyddog gweinyddol yn ei eistedd; ond weithiau galwai y llywodraethwr ar ryw berson cyfrifol a deallus arall i gymmeryd ei le, yn enwedig os digwyddai i ddyeithrddyn enwog fod yn bresennol, fel y galwyd ar ein Hiachawdwr (*Luc* iv. 16—28), ac hefyd ar Paul a Barnabas (*Act.* xiii. 15). At hyn hefyd y cyfeirir pan y dywedir yn fynych fod ein Hiachawdwr yn "dysgu," yn "athrawiaethu," ac yn "pregethu," "yn y synagogau." Dichon fod y synagogau Cristionogol cyntaf wedi dilyn y drefn hon, ond gyda graddau neillduol o gyfnewidiad. Chwanegasant hwy "yr Ysgrythyrau ereill," y rhai yr oeddynt wedi dysgu eu cydnabod fel rhai gwerthfawrocach hyd yn oed na'r gyfraith; sef Ysgrythyrau y Testament Newydd; pa rai a ddaethant mor wirioneddol a llyfrau yr Hen Destament oddi wrth yr un Ysbryd. Hefyd, cenid neu *chantid* rhanau o'r Salmau yn y gwasanaeth. Fel rheol, dewisent y rhai mwyaf addas i'r amserau. Y drydedd, y chweched, a'r nawfed awr, oeddynt, yn amser y Testament Newydd (*Act.* iii. 1; x. 3, 9), ac wedi bod, y mae yn debygol, am beth amser cyn hyny (*Salm* lv. 17; *Dan.* vi. 10), yn oriau pennodedig gweddi—a adnabyddid y pryd hwnw, ac a adnabyddir etto, fel y *Shachârith*, y *Mincha*, a'r *Arâbith*. Yr oeddynt nid yn unig yn meddu ar ddylanwad traddodiad awdurdodedig, ond yr oedd pob un yn gyssylltiedig âg enwau Abraham, Isaac, ac Iacob; i'r rhai, fel eu cychwynwyr cyntaf, y priodolid eu sefydliad. Dilynid yr un oriau yn eglwys yr ail ganrif, ac y mae yn debygol yn eglwys y ganrif gyntaf hefyd. Dyddiau arbenig y synagog oedd yr ail, y pummed, a'r seithfed—yr olaf, neu y Sabbath, oedd terfyniad y cwbl. Aent i'r synagog dair gwaith ar y Sabbath—yr unig amser pan yr elent trwy yr holl wasanaeth priodol. Yn mha ffordd bynag y dygwyd y cyfnewidiad oddi amgylch, yr oedd trosglwyddiad cyssegredigrwydd y Sabbath i Ddydd yr Arglwydd yn cynnwys cyfnewidiad cyfattebol yn nhrefn yr wythnos; a daeth y cyntaf, y pedwerydd, a'r chweched dydd i'r Eglwys Gristionogol yr hyn yr oedd y dyddiau ereill wedi bod i'r Eglwys Iuddewig.

Credir fod yr awgrymiad canlynol gyda golwg ar y dull yn mha un y gwnaed y trosglwyddiad hwn yn cynnwys llai o dybiau disail nag un arall; ac y mae hefyd yn dal perthynas â defod ddyddorol arall, a gyflawnid yn yr eglwys a'r

Digitized by Google

synagog. Arferai yr Iuddewon ddiweddu y Sabbath gyda gwledd, drwy yr hon yr anrhydeddent ef fel brenin yn ymadael: a chynnelid y wledd yn y synagog. Anfonid cwpanaid o win, uwch ben yr hwn y cyhoëddasid bendith neillduol, o amgylch. Cyhyd ag y parhaodd yr apostolion a'u canlynwyr i ddefnyddio y dull Iuddewig o gyfrif—hyny yw, cyhyd ag yr ymgaredigasant â'u brodyr o gyff Abraham—y mae yn amlwg y byddai hyn yn cyd-daro o ran amser â'u gwledd hwy ar y dydd *cyntaf* o'r wythnos. Buasai swper ar yr hyn a alwem ni yn nos Sabbath iddynt hwy ar yr *ail*. Yn raddol, daeth yr amser yn ddiweddarach—pasiodd yn mlaen i ganol nos, ac i doriad y wawr dranoeth. Felly peidiodd Swper yr Arglwydd a bod yn swper mewn gwirionedd. Felly, fel yr ymgodai yr eglwys allan o Iuddewiaeth, rhoddodd y swper ei neillduolrwydd i'r diwrnod oedd yn dyfod, yn lle ei gael oddi wrth y diwrnod oedd yn ymadael: ac yn raddol peidiasant a chadw y Sabbath Iuddewig o gwbl. Yr oedd yr arferiad o gadw y ddau, fel y gwnaed yn Eglwys Rhufain hyd at y bummed ganrif, yn weddillion o dymmor y cyfnewidiad.

Yn olaf, oddi wrth y synagog daeth llawer o arferion llai amlwg, y rhai a ddilynid yn gyffredinol yn yr Eglwys Gristionogol yn ystod y tri chanrif cyntaf; megys, ymolchi, yn gyfan neu ynte mewn rhan, cyn myned i le o addoliad (*Heb.* x. 22; *Ioan* xiii. 1—15); sefyll, ac nid ymgrymu, fel agwedd wrth weddïo (*Luc* xviii. 11); estyniad y breichiau allan; a'r gynnulleidfa yn dywedyd 'Amen' fel attebiad, neu fel arwydd o'u hymuniad â'r henuriaid yn eu gweddïau a'u bendithion: 1 *Cor.* xiv. 6.

EI SWYDDOGAETHAU BARNOL.

Dengys iaith y Testament Newydd fod swyddogion y synagog, mewn achosion neillduol, yn gweithredu fel barnwyr. Yn y synagog ei hun y cynnelid y prawf (*Luc* xii. 11; xxi. 12); ac hyd yn oed, er mor ryfedd yr ymddengys, ynddi hi y gweinyddid y gospedigaeth o fflangellu: *Mat.* x. 17; *Marc* xiii. 9. Nid ydyw yn ymddangos eu bod yn meddu hawl i weinyddu unrhyw gospedigaeth drymach, os nad allwn gynnwys o dan y pen hwn y gospedigaeth o esgymmundod, neu "fwrw allan o'r synagog" (*Ioan* xii. 42; xvi. 2), gan osod y person dan anathema (1 *Cor.* xvi. 22; *Gal.* i. 8, 9), a'i "draddodi i Satan;" 1 *Cor.* v. 5; 1 *Tim.* i. 20. Mewn rhai amgylchiadau arferent yr hawl, hyd yn oed o'r tu allan i derfynau Palestina, o attafaelu personau y cyhuddedig, a'u hanfon hwynt mewn cadwyni i sefyll eu prawf o flaen y cynghor goruchel yn Ierusalem: *Act.* ix. 2; xxii. 5. Dywed y rabbiniaid fod tri gradd o esgymmundod yn bod yn mysg yr Iuddewon. Yn gyntaf, un a gauai ddyn allan o bob cymdeithas ddynol am ddeng niwrnod ar hugain. Caniateid iddo, y mae yn wir, ddyfod i'r synagog i addoli; ond ni chaniateid iddo ddyfod yn nes na phedwar cufydd at neb yno, nac hyd yn oed gartref yn mysg ei deulu ei hun. Yr oedd hyn hefyd yn ei gau ef allan o bob swydd a rhagorfraint grefyddol a gwladol; a phe y digwyddasai iddo farw, ni chaniatesid i neb alaru ar ei ol, na'i gladdu yn y claddfeydd cyffredin. Yn ail, gweinyddid esgymmundod trymach ar y neb a barhäai yn anedifeiriol yn niwedd y deng niwrnod ar hugain y byddai dan y cyntaf. Cynnwysai hwn y chwanegiad pwysig at y cyntaf o gyhoeddi amryw felldithion ar y person esgymmunedig; a "bwrid ef allan o'r synagog" yn hollol, ac ni oddefid iddo ddyfod yn agos i unrhyw gynnulliad crefyddol, gwladol, na chymdeithasol o un math, am ysbaid pennodedig drachefn: 1 *Cor.* v. 11. Yn drydydd, os parhäai er hyn oll yn yr un ysbryd anedifeiriol, cyfrifid ef "megys yr ethnig a'r publican;" a chyhoeddid ef yn hollol esgymmunedig am byth o bob cymdeithas ddynol, a thraddodid ef fel "anathema" neu "ddiofryd-beth," i felldith ddialeddol Duw ei hun: *Rhuf.* ix. 3; 1 *Cor.* xii. 3; xvi. 22; *Gal.* i. 8, 9. Cyhoeddid esgymmundod ar ddyn yn yr addoliad cyhoeddus yn y synagog.

Modd bynag, nid hawdd ydyw rhoddi disgrifiad manwl o natur llys barnol y synagog, na dyweyd yn sicr beth oedd terfynau ei awdurdod. Mewn dwy o'r adnodau y cyfeiriwyd atynt (*Mat.* x. 17; *Marc* xiii. 9) y maent yn cael eu gwahaniaethu yn fanwl oddi wrth y *συνέδρια*, neu y cynghorau; etto y mae y ddau yn ymddangos fel offerynau, y rhai y gellid eu defnyddio i weinyddu erledigaeth grefyddol. O'r braidd y mae yr eglurhâd a roddir yn gyffredin fod y cynghor yn eistedd yn y synagog, ac felly yn un ag ef, yn foddhaol. Ymddengys yn fwy tebygol mai y llys barn mwyaf oedd y *cynghor*, yr hwn oedd yn gyfansoddedig o dri ar hugain o bersonau, ac a eisteddai yn mhob dinas; a'r hwn a ddisgrifir gan Josephus fel yn gweithredu yn y trefydd bychain. Ac yr ydym i ddeall wrth y gair *synagog*, lys barn llai; sef, llys y deg barnwr, fe allai, a grybwyllir yn y "*Talmud*."

SYNAGOG FAWR, Y. Er nad ydyw y sefydliad a elwir wrth yr enw hwn yn Feiblaidd o herwydd fod y gair i'w gael yn yr Ysgrythyrau canonaidd, etto y mae yn dal cyssylltiad agos â nifer mawr o ffeithiau ac enwau Beiblaidd. Yn absennoldeb seiliau hanesiol uniongyrchol am dano, nid oes genym ond rhoddi traddodiadau neu dybiau yr ysgrifenwyr Rabbinaidd.

Ar ddychweliad yr Iuddewon o Babilon, yn ol y traddodiadau hyn, appwyntiwyd cynghor mawr, i ail ffurfio bywyd crefyddol y bobl. Yr oedd yn gynnwysedig o chwech ugain (120) o aelodau; ac yr oeddynt yn adnabyddus fel dynion y Synagog Fawr; a hwythau eu hunain, yn olynwyr y prophwydi yn eu tro, yn cael eu dilyn gan ysgrifenyddion oedd yn enwog fel athrawon. Cydnabyddid Ezra fel llywydd. Yn mhlith yr aelodau ereill, mewn rhan gyda'u gilydd, ac mewn rhan yn olynol, yr oedd Iosuah yr archoffeiriad, Zorobabel, a'u cymdeithion, a Daniel, a'r tri "llangc," y prophwydi Haggai, Zechariah, Malachi, a'r llywodraethwyr Nehemiah a Mordecai. Eu hamcan oedd adferu drachefn *goron*, neu *ogoniant* Israel; hyny yw, ail orseddu enw Duw yn ei fawrhydi fel un Mawr, Galluog, ac Ofnadwy: *Deut.* vii. 21; x. 17; *Neh.* i. 5; ix. 32; *Jer.* xxxii. 18; *Dan.* ix. 4. I'r dyben hwn hwy a gasglasant holl ysgrifeniadau cyssegredig yr oesoedd blaenorol a'u hysgrifeniadau cyssegredig hwy eu hunain, ac felly a gwblhasant ganon yr Hen Destament. Yr oedd eu gwaith yn cynnwys diwygio y testyn; a chyflawnwyd hyny trwy ddwyn i mewn nodau y llafariaid, y rhai a drosglwyddwyd i lawr i ni gan y golygwyr Masoretaidd. Hwy a sefydlasant ŵyl y Purim. Hwy a ffurfiasant hefyd ddefodlyfr y synagog, ac a roddasant eu nawdd i *Shemóneh Esréh*—y deunaw bendith ddifrifol ynddo. Dyfynid eu dedfrydau ar ol hyny fel dedfrydau yr henuriaid, y

Digitized by Google

finteioedd ysbeilgar. Weithiau, byddai y rhai hyn yn myned mor gryfion fel y byddai raid cael milwyr rheolaidd i'w darostwng; amgylchiad y gwnaeth Tiberius Gracchus ddefnydd o hono i ddangos yr angenrheidrwydd am ei fesur tir, yr hwn a fuasai yn ail ranu y wlad yn ffermydd bychain arddadwy i gael eu hamaethu gan rydd-freinwyr Rhufeinaidd.

Yn amser Paul, nid oedd dim ond pump o drefedigaethau Rhufeinig yn Sicily, o ba rai yr oedd Syracusa yn un. Y lleill oeddynt Catana, Tauromenium, Thermæ, a Tyndaris. Yr oedd Messana hefyd, er nad oedd yn drefedigaeth, wedi ei llenwi â phoblogaeth Rufeinig. Y mae yn debygol mai masnachwyr oedd ei thrigolion, mewn cyssylltiad â'r fasnach mewn gwin oedd yn cael ei chario yn mlaen yn y gymmydogaeth—porthladd pa un oedd Messana. Yr oedd Syracusa a Panormus yn bwysig fel sefyllfaoedd milwraidd tra manteisiol, a chedwid gallu milwraidd yn mhob un. Yr oedd Sicilaid, Sicaniaid, Morgetiaid, ac Iberiaid (trigolion gwreiddiol yr ynys), etto yn trigo yn y canolbarth. Pa beth oedd eu sefyllfa boliticaidd, ni wyddys yn sicr; ond y mae yn dra thebygol mai caethion oeddynt. Crybwyllir ychydig o drefydd gan Pliny fel yn meddu yr etholfraint Lladinaidd, a rhai fel yn talu teyrnged sefydlog; ond gyda'r eithriad o'r pum trefedigaeth, yr oedd prif berchenogion tir yr ynys yn byw allan o'r ynys, ac yr oedd yn mron ei holl gynnyrch yn cael ei ddwyn i Rufain.

SYRO-PHŒNICIAD. Nid yw y gair hwn yn digwydd ond unwaith yn y Beibl; sef, yn *Marc* vii. 26. Ymddengys mai gwaith y Rhufeiniaid oedd defnyddio y gair *Syro-Phœniciaid* gyntaf, er nad ydyw yn hawdd penderfynu pa beth a olygid ganddynt wrtho. Tybir yn gyffredinol eu bod yn ewyllysio gwahaniaethu Phœniciaid Syria oddi wrth rai Affrica (y Carthageniaid). Yn ol y syniad hwn y mae *Syro-Phœniciaid*, gan hyny, yn golygu cenedl gymmysg, hanner Phœniciaidd a hanner Syriaidd. Dyma, dybygid, ystyr y gair yn ngweithiau Lucilius a Juvenal. Mewn amseroedd diweddarach, darfu i ystyr ddaearyddol y gair gymmeryd lle yr ystyr Cenhedlig iddo. Dosbarthodd yr ymherawdwr Hadrian Syria i dair rhan; sef, Syria Briodol, Syro-Phœnicia, a Syria Palestina; ac o hyny allan yr oedd *Syro-Phœniciad* yn golygu brodor o'r is-dalaeth a adwaenid wrth yr enw hwnw, yr hon a gynnwysai Phœnicia Briodol, Damascus, a Palmyrène. Gan nad oedd yr ystyr ddaearyddol yn cael ei arfer yn amser Marc, hwyrach ei fod yn llawn mor debyg iddo ef ei ysgrifenu yn 'Syriad Phœniciaidd,' fel y ceir ef etto mewn rhai copiau. Gwna Matthew ddefnydd o'r gair "Canaan" yn lle "Syro-Phœniciad," neu "Syriad Phœniciaidd" Marc, ar yr un tir ag y mae y Deg a Thrigain yn cyfieithu *Canaan* yn *Phœnicia*. Y mae yr enwau *Canaan* a *Phœnicia* wedi dilyn y naill y llall fel enwau daearyddol am yr un wlad. Gelwid y Phœniciaid yn 'Ganaaneaid,' yn debyg fel y gelwir y Saeson yn 'Frythoniaid' weithiau. Nis gellir tynu casgliad mai yr un ydoedd y Canaaneaid a'r Phœniciaid oddi wrth yr arferiad sydd wedi cael ei wneuthur o'r ddau air.

SWPER YR ARGLWYDD: yr enw a roddir gan yr apostol Paul ar yr ordinhâd a sefydlodd yr Arglwydd Iesu yn goffadwriaeth gwastadol yn yr eglwys am ei farwolaeth: 1 *Cor.* xi. 20. Ni a edrychwn yn yr erthygl hon ar yr ordinhâd yn ei sefydliad a'i harwyddocâd, fel y gosodir hi allan yn y Testament Newydd; ac ar y golygiadau sydd wedi cael eu dysgu arni yn yr eglwys mewn gwahanol oesoedd.

I. Cawn hanes ei sefydliad yn *Mat.* xxvi., *Marc* xiv., *Luc* xxii., a 1 *Cor.* xi. Dygir hanes ei sefydliad i mewn yn y tair Efengyl mewn cyssylltiad â Swper y Pasc. Ac yr oedd mwy na pherthynas amser rhyngddynt a'u gilydd. Mae y swper sanctaidd yn llanw lle cyffelyb yn nefodau gwasanaeth yr Eglwys Gristionogol i'r hyn a lanwai y Pasc mewn Iuddewaeth. Ar ddefodau y Pasc, gwel yr erthygl dan y gair. Barna yr awdwyr mwyaf cyfarwydd â hynafiaethau Iuddewig mai yn debyg i'r drefn a ganlyn y gweithredai yr Iesu yn sefydliad y swper sanctaidd. Y cwmni a ymgynnullasent i fwyta a led-orweddent ar lythau, gan fod y dull hwn erbyn hyny wedi dyfod i arferiad cyffredinol, yn lle yr hen ddull o gyfranogi o'r wledd yn sefyll: *Mat.* xxvi. 20; *Luc* xxii. 14. Dechreuai y ddefod gyda gwaith y penteulu, neu y gweinyddwr, yn cyhoeddi bendith uwch ben y cwpan, yn yr hwn yr oedd gwin wedi ei gymmysgu â dwfr, ac o'r hyn yr yfai efe yn gyntaf, ac yna y cwmni oll. Yna, wedi iddynt oll olchi eu dwylaw, hulid y bwrdd â'r ddarpariaeth; yn cynnwys oen y pasc, bara croyw, dail surion, a'r *charoeth*—dysglaid o amryw ffrwythau yn gymmysg mewn finegr, wedi ei bwriadu i arwyddocau y clai a ddefnyddiai plant Israel yn yr Aipht i wneuthur priddfeini. Yn y ddysgl hon, fel y bernir, ar ddechreu y wledd, y gwlychodd Iudas y dail surion yr un pryd a'i athraw. Wedi hyny, symmudid y cwbl oddi ar y bwrdd, a dygid cwpan o win i mewn: amcan y ddefod hon oedd gwneuthur argraph ar y plant, y rhai y deffroid eu chwilfrydedd gan ei dyeithrwch; a'r rhai, yn ganlynol, a hyfforddid yn hanes ac yn arwyddocâd y Pasc. Yna, ar ol yfed ail gwpan, dygid y dysgleidiau drachefn i mewn; ac wedi i'r gweinyddwr adrodd y ffurf arferol, yn cynnwys hanes ac arwyddocâd y wledd, cyfranogai pawb o honi. Rhoddid diolch difrifol hefyd, a therfynid y rhan bwysicaf o'r ddefod trwy fawl. Y salmau a genid oedd cxiii. a cxiv. Heb law y pethau hyn, ymolchid, yfid o'r cwpan y drydedd a'r bedwaredd waith, a chyflwynid amryw o ddiolchiadau i'r Arglwydd. Y bara croyw a ddefnyddid yn ngwledd y Pasc a dorodd yr Iesu ac a roddodd i'r dysgyblion; a bernir mai y trydydd cwpan, yr hwn a yfid ar ddiwedd y wledd trwy dalu diolch, yr hwn a alwai yr Iuddewon yn "gwpan y fendith," yw yr un a roddodd Crist i'w ddysgyblion yn sefydliad y swper sanctaidd, pan ddywedodd y geiriau, "Cymmerwch hwn, a rhenwch yn eich plith;" *Luc* xxii. 17. Yn ganlynol, ar ol gorphen bwyta, cyfranogai y rhai oedd wrth y bwrdd o bedwerydd cwpan, yr hwn a elwid *Cwpan Hallel*, neu gwpan y gân—am y byddai *Salm* cxv. a cxviii. yn cael eu canu wrth ei hyfed. Y mae rhai o'r farn yr yfid cwpan ar ol hwn. Y mae yn dra thebygol mai y pedwerydd oedd yr un sacramentaidd, gyda yr hwn y dywedodd yr Iesu, "Hwn yw fy ngwaed o'r Testament Newydd," ar ol iddynt swpera. Ond os oedd cwpan arall yn cael ei gymmeryd ar y pasc hwn, hwnw yn ddiau oedd yr un sacramentaidd. Yr olaf, pa un bynag ai y pedwerydd ai y pummed, oedd yr un a neillduwyd gan yr Iesu i amcan uwch na

Digitized by Google

chwpanau y Pasc; o blegid yr oedd yr Iuddewon yn ystyried fod cyssegredigaeth arbenig yn y cwpan olaf yn mhob gwledd. Os y pedwerydd oedd yr un sacramentaidd, ni chymmerwyd yr un ar ei ol; ond terfynwyd yr eisteddiad trwy ganu hymn; sef, yr *Hallel Mawl.* Fe allai mai *Salmau* cxx. a cxxxvii.: *Mat.* xxvi. 30.

Y mae yn amlwg fod sefydliad y swper wedi gwneuthur yr argraph mwyaf dwfn ar feddyliau y dysgyblion. Yr oedd toriad y bara a thywalltiad y gwin wedi cael arwyddocâd newydd yn eu golwg; ac fel yr addawai y prophwydoliaethau y byddai y nefoedd newydd a'r ddaear newydd yn peri i'r eglwys anghofio y rhai cyntaf, felly yr oedd yr ystyr newydd a roddid i'r swper wedi taflu arwyddocâd y Pasc i ddinodedd yn nghyfrif y dysgyblion. Nid ydyw yr efengylwyr yn coffhau dim o ddefodau y Pasc, ond yr hyn oedd angenrheidiol i roddi adroddiad cyflawn o sefydliad y swper sanctaidd. "Yr hen bethau a aethant heibio; wele gwnaethpwyd pob peth yn newydd." Cyfranogent o'r blaen o'r bara a'r gwin er cof am y waredigaeth o gaethiwed yr Aipht:—yn awr, gorchymynid iddynt i gyfranogi o honynt er cof am farwolaeth eu Harglwydd. Unwaith yn y flwyddyn y cynnelid y Pasc. Ni roddwyd un rheol o barth mynychder y cyfranogiad o'r wledd newydd: yn ol natur y Testament Newydd, yr oedd hyny yn cael ei adael i deimlad a barn yr eglwys; etto yr oedd y geiriau "Cynnifer gwaith bynag yr yfoch," yn cynnwys awgrym o'r priodoldeb o gyfranogi yn amlach nag unwaith yn y flwyddyn. Yr oedd yr ymadrodd "Hwn yw fy nghorph," yn taflu ystyr hollol newydd i'r bara croyw oedd ger bron y dysgyblion. Cawsant eu parotoi i dderbyn yr ymadrodd rhyfedd yma gan eiriau eu Harglwydd ar adeg flaenorol (*Ioan* vi. 32—36); ac felly, wedi eu rhagddysgu, gwelent yn y bara a dorid arwyddion o undeb agos a dirgeledig â'u Harglwydd; a'r cwpan hefyd, yr hwn oedd "y Testament Newydd yn ei waed," a alwai i'w cof y brophwydoliaeth a ragfynegai am y cyfammod newydd (*Ier.* xxxi. 31, 34) yn yr hwn y byddai Duw yn maddeu eu holl anghyfiawnderau, ac yn peidio cofio eu pechodau. Yr oedd ei waed i ddwyn yr un berthynas â'r cyfammod hwn ag oedd gwaed y taenelliad gynt â'r hen gyfammod: *Exod.* xxiv. 8. Wedi i'r dysgyblion, yn y modd yma, ddyfod i ddirnadaeth o ystyr y sefydliad, nid yw yn syn fod eu cariad at eu Harglwydd yn eu harwain i ymarfer yn fynych â'r ordinhâd sydd mor gyfoethog mewn adeiladaeth ysbrydol. Felly, cawn yr arferiad o dori bara mewn bri mawr yn eglwys y Pentecost yn Ierusalem. Yr oedd y credinwyr "yn parhau yn athrawiaeth ac yn nghymdeithas yr apostolion, ac yn tori bara, ac mewn gweddïau;" ac yn "parhau beunydd yn y deml, ac yn tori bara o dŷ i dŷ;" *Act.* ii. 42, 46. Y mae y geiriau hyn yn dangos pa fath oedd eu bywyd crefyddol yn y cyhoedd ac o'r neilldu; ac wrth gofio fod pob peth ganddynt yn gyffredin, mae yn ddiammheu fod yr ymadrodd "tori bara o dŷ i dŷ" yn golygu eu bod yn gwmnïau bychain yn nhai eu brodyr yn cydgyfranogi beunydd o'r prif bryd o luniaeth, ac mewn cyssylltiad âg ef yn cydgofio marwolaeth eu Harglwydd. "Tori bara," ebe Lange, "oedd y gwleddoedd sanctaidd, y cariad-wleddoedd, y rhai a derfynid trwy Swper yr Arglwydd. Y mae y geiriau ereill, 'parhau yn athrawiaeth yr apostolion,' a 'gweddïau' yn dangos fod tori bara yn golygu defod grefyddol, yn hytrach na chyfranogiad cyffredin o ymborth mewn ysbryd crefyddol." Dywed Neander [*"History of the Planting,"* &c.], fod Cristionogion y Pentecost yn ymgynnull beunydd yn y deml, neu mewn tai annedd. Yn yr achos olaf, trwy fod eu rhifedi hwy mor fawr, ymgyfarfyddent yn gwmnïau bychain, pan y rhoddid iddynt addysg yn athrawiaeth yr efengyl, ac yr offrymid gweddïau. Yr oedd nerth yr ysbryd crefyddol o'u mewn yn dwyn y ddaearol o dan ei ddylanwad yn llwyr, ac yn ei newid i'w ansawdd ei hun; sancteiddiai y wledd feunyddiol. Gweinyddid y swper sanctaidd, yr hwn oedd yn goffadwriaeth o farwolaeth eu Harglwydd, ac yn arwyddlun o'u hundeb ysbrydol hwythau â'u gilydd. Ar derfyn y wledd feunyddiol, byddai y llywodraethwr, neu un o'r apostolion neu yr henuriaid, yn rhanu y bara a'r gwin yn mysg y dysgyblion. Yr oedd pob pryd cyhoeddus o fwyd yn cael ei sancteiddio i'r Arglwydd, ac yn wledd o frawdgarwch; ac am hyny y dewiswyd yr enwau "Swper yr Arglwydd" a "Cariad-wledd." Cyffelyb yw disgrifiad Plumptre yn yr erthygl ar y pwngc yn "*Smith's Dictionary of the Bible,*" o'r hon y rhoddwn yr adran ganlynol:—

"Trwy fod y credinwyr yn rhifo miloedd yn Ierusalem yn adeg y Pentecost, ac yn ymgynnull yn gwmnïau mewn tai annedd, daeth pob un o'r cwmnïau hyn yn naturiol i gael ei gydnabod fel 'yr eglwys yn nhŷ' y dysgybl hwn neu arall, fel y cawn yn aml yn epistolau Paul. Rhoddid y lle parchusaf yn y cynnulliadau hyn i'r apostolion; ac os na byddent yn bresennol, i'r henuriaid fel eu cynnrychiolwyr. Gwaith yr arolygwr neu y gweinyddwr fyddai bendithio a rhoddi diolch ar ddechreu a diwedd y wledd; yr hon y byddai ei defnyddiau wedi eu prynu o drysorfa gyffredin yr eglwys, neu yn ffrwyth haelioni rhyw ddysgybl cyfoethog. Y bara cyffredin fyddai y bara, a'r gwin fyddai y gwin coch wedi ei gymmysgu â dwfr. Tebygol yw y rhoddid cryn bwys ar y cyntaf ar y gorchwyl o dori a rhanu y bara, fel arwyddlun o berthynas dadol y bugail â'r praidd, ac o'i swydd fel gweinyddwr gair y bywyd i ddynion. Ar ddechreu neu ddiwedd y gariad-wledd, defnyddid geiriau neu ddefodau wrth roddi y bara a'r gwin, i osod allan yr arbenigrwydd sacramentaidd a berthynai i'r gwasanaeth hwnw. Fel y byddai y pen teulu wrth fwyta y Pasc yn egluro arwyddocâd y wledd i'w blant, felly hefyd y byddai yr apostol neu yr henuriad yn y gariad-wledd yn egluro gosodiad ac amcan y swper. Yn gyssylltiedig â hyn byddai gweddïau hefyd yn cael eu hoffrymu: *Act.* ii. 42. Amlygai y gwyddfodolion eu llawenydd mewn salmau ac odlau ysbrydol. Dichon hefyd fod adgofion y Pasc, yr arferion Iuddewig, gyda golchiadau a defodau yr Esseniaid, yn peri iddynt ymolchi yn llwyr, neu mewn rhan, fel parotoad i'r wledd. Rywbryd yn ystod y wledd cyfarchent eu gilydd â chusan sanctaidd."

Yr oedd y dull yma o gyssylltu y swper â'r gariad-wledd yn tueddu i lygru yr ordinhâd sanctaidd, a hyny yn arbenig ar ran y dychweledigion o fysg y Cenhedloedd. Gan fod y swper yn goffadwriaeth o farwolaeth aberthawl, yr oeddynt yn edrych arni yn rhy debyg i'w hen wleddoedd, y rhai a gynnelid mewn cyssylltiad â'u hoffrymau paganaidd. Fel yr oedd eu hoffrymau i'w duwiau yn amrywio mewn gwerth, yn ol sefyllfa fydol yr offrymydd, felly hefyd yr

Digitized by Google

trwy yr ordinhâd yn bwyta cnawd ac yn yfed gwaed Mab y dyn, fel y mae derbyniad credinwyr o'r Gair yn cael ei ddilyn gan brofiad o'i rinwedd bywiol a sancteiddiol. Fel yr oedd bwyta y peth a aberthid i eilunod yn dwyn dynion i gymmundeb â chythreuliaid, felly y mae cyfranogi o'r swper megys y dylid yn foddion cymmundeb â gwaed Crist; ac y mae y cymmundeb hwn yn cynnwys cyfranogiad o rinweddau ei waed, er maddeuant a glanhâd. Cawn wrth fyned yn mlaen, weled fel y mae gwahanol eglwysi yn gwahaniaethu ar ystyr y cyfranogiad o gnawd a gwaed Crist.

Y mae natur a dyben y swper yn dangos mai i gredinwyr yn unig y mae wedi ei fwriadu, ac felly y mae y rhai sydd yn dyfod at y bwrdd trwy hyny yn ymarddelwi fel dysgyblion i'r Arglwydd Iesu. Os ydyw eu proffes yn gywir, y maent yn derbyn budd ysbrydol yn yr ordinhâd; os nad yw, y maent yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth iddynt eu hunain. Y mae Paul yn ymresymu hyn oddi wrth arferion yr Iuddewon a'r paganiaid. Yr oedd y rhai oedd yn cyfranogi o'r allor trwy hyny yn dangos eu bod yn Iuddewon; yr oedd y rhai a fwytaent yr hyn a aberthid i eilunod yn dangos eu bod yn baganiaid; a'r un modd, y mae y rhai a eisteddant wrth fwrdd yr Arglwydd yn proffesu trwy eu hymddygiad eu bod yn Gristionogion. Ond i fod yn Gristion, dylai un feddu gwybodaeth am Grist a'i iachawdwriaeth; derbyn y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab; credu farw o Grist dros ein pechodau—fod ei gorph wedi ei ddryllio a'i waed wedi ei dywallt drosom. Y mae hyn oll yn cael ei gynnwys yn y gyffes a wneir gan un wrth eistedd wrth y bwrdd; ac y mae hyn, mai credinwyr yn unig sydd yn meddu hawl i gyfranogi, yn cynnwys pa fodd neu yn mha agwedd ysbryd y dylid cyfranogi. Yr hyn sydd deilwng o Gristion yw y teilyngdod i ymddangos yn y swper: fel mai ffydd yn Nghrist sydd yn gwneuthur dyn yn Gristion, felly ffydd yn Nghrist ydyw y cymmhwysder i gofio am ei farwolaeth; a'r cyfryw ydyw y gras o ffydd fel cymmhwysder, fel y mae ei phresennoldeb yn sicrhau presennoldeb pob gras a phob rhinwedd. Drachefn, fel nad ydyw ffydd yn Nghrist o angenrheidrwydd yn cynnwys sicrwydd yn meddwl ei pherchen ei fod ef yn bersonol wedi ei achub, felly nid yw yn gymmhwysder anhebgor i ddyfod i'r swper fod un yn gwbl sicr fod Crist wedi marw drosto ef yn bersonol. Y mae yn angenrheidiol hefyd meddu ffydd yn yr ordinhâd fel crediniaeth yn nwyfoldeb ei gosodiad fel yr ordeiniad mwyaf addas i adeiladu a chadarnhau y credinwyr yn y ffydd; fel moddion i arwyddocau, a selio, a throsglwyddo i'r enaid y bendithion sydd yn marwolaeth Crist. Dylai credinwyr ddisgwyl llawer yn yr ordinhâd hon: y cyfryw ydyw yn ei natur a'i dyben fel y mae yn gyfrwng neillduol cymmundeb â Duw yn Nghrist. "Y sacrament," ebe Dr. Owen, "ydyw gwledd fawr yr eglwys." Y mae y Cristion yn derbyn lluniaeth ysbrydol yn mhob un o'r ordinhadau dwyfol; ond y mae y swper wedi ei sefydlu fel gwledd nodedig, yn mha un y mae y credadyn yn cael ei loni a'i gryfhau yn fwy na thrwy un ymarferiad crefyddol arall.

II. Edrychwn yn awr ar hanes athrawiaeth y swper yn yr Eglwys Gristionogol. Rhoddid amryw o enwau ar yr ordinhâd yn y canrifoedd boreuaf. Gelwid hi *eucharistia*, ac *eulogia* (dodiad diolch, a bendith), oddi wrth eiriau yr efengylwyr a Paul. Y gair cyntaf ydyw *eucharist* yn y Saesneg. Rhoddwyd yr enwau 'offrwm' ac 'aberth' arni, ar y rhai y mae y Pabyddion a'r uchel-Eglwyswyr yn gosod pwys wrth geisio profi fod yr eglwys foreuol yn cefnogi golygiadau y Babaeth ar yr ordinhâd. Ond y mae yn bur amlwg mai cyfeirio y maent yn hytrach at yr arferiad o offrymu i'r tlodion ac i drysorfa yr eglwys mewn cyssylltiad â'r cymmun; ac nad oedd y gair aberth, wrth ei gymmhwyso at y swper, yn meddu ar ystyr gwahanol i'r un gair mewn cyssylltiad â moliant yn *Heb.* xiii. 15. Yr aberth yn y cymmun a olygai ar y cyntaf yr aberth o fawl a offrymid i Dduw am fendithion yr iachawdwriaeth; wedi hyny, gelwid ef yn aberth, am ei fod yn goffadwriaeth o aberth Crist; ac yn fwy diweddar, am y golygent yr offeren fel gwir aberth dyhuddol. Enw arall arno oedd dirgelwch, am fod gwirionedd ysbrydol yn cael ei arddangos ynddo, yr hyn hefyd yw ystyr y gair *sacrament*. Cadwyd yr olaf mewn arferiad yn yr enw 'sacrament yr allor,' ar ol i'r syniad o aberth iawnol gael ei wthio i mewn i'r ordinhâd. Enw arall oedd *missa*, neu *mass*, hoff enw y Pabyddion, yr hwn a ddeilliodd o'r geiriau a arferid wrth ollwng y gynnulleidfa—"*Ite, missa est;*" 'Ewch, y mae y gynnulleidfa yn cael ei gollwng.' Gollyngid y gwrandawyr anghrediniol (*missa infidelium*) gyntaf; yna yr ymgeiswyr dan addysg (*missa catechumenorum*); wedi hyny, ni byddai yn aros ond y ffyddloniaid i gyfranogi o'r swper, ar ol yr hyn y gollyngid hwythau ymaith (*missa fidelium*).

Y mae y ffaith fod cynnifer o enwau ar y swper yn yr eglwys foreuol yn awgrymu tuedd ynddi i ymadael â'r golygiadau syml arni sydd yn unol â dysgeidiaeth y Testament Newydd. Yr oedd syniadau Cristionogion am y sacramentau wedi ymlygru i ryw raddau mor foreu a'r drydedd ganrif. Dywed Dr. Cunningham ["*Historical Theology*"] fod arwyddion o lygriad i'w canfod yn yr eglwys foreuol yn y pethau hyn—yn gyntaf, yn nghynnydd preladiaeth; yn ail, yn athrawiaethau gras; yn drydydd, yn y syniad am rinwedd ac effeithiolrwydd y sacramentau. Trwy olygiadau cyfeiliornus ar yr olaf yn benaf yr oedd athrawiaethau sylfaenol yr efengyl yn cael eu gŵyrdroi; "ac y mae yn wirionedd am yr eglwys yn mhob oes, yn mysg ffurfiolwyr, y rhai sydd yn foddlawn ar gyflawniadau allanol, ac yn mysg dynion sydd yn ddifrifol ynghylch crefydd, ond sydd yn anwybodus o athrawiaethau neillduol Cristionogaeth neu yn elyniaethus iddynt—mae yn wir am y ddau ddosbarth mai y sacramentau, trwy gael eu camddeall, a osodir ganddynt yn lle pethau trymaf y gyfraith—yr arwydd, yn lle y peth a arwyddocoir." Gwelid tuedd at hyn yma, fel y crybwyllwyd, yn bur foreu, er nad oes un sail i haeriad y Pabyddion fod cymmaint ag un o athrawiaethau arbenig y Babaeth i'w chael yn yr eglwys yn y cyfnod hwn, er fod rhyw gymmaint o dueddiad at rai o honynt.

Gyda golwg ar y swper, yr oll a ganfyddwn yn y tadau yn y drydedd ganrif ydyw tuedd i'w olygu fel dirgelwch mawr, ac i lefaru am ei natur a'i rinwedd mewn geiriau ammhennodol ac annealladwy. Mewn amser daeth y dysgawdwyr eglwysig i raddau mwy neu lai i golli golwg ar y gwahaniaeth rhwng y ddefod a'i harwyddocâd Yn ddiweddarach, cyssylltwyd â'r swper ryw allu cynhenid, cyfriniol, i gynnyrchu y peth yr oedd wedi ei osod yn unig i'w arwyddocau.

Digitized by Google

Yn nisgrifiad Neander ["*History of Dogmas*"] o olygiadau y canrifoedd boreuaf, yr ydym yn cael llawer o gymmysgedd yn addysg y prif ddysgawdwyr. Y mae yn eglur y ceir ynddynt dueddiadau at y llygriadau alaethus a welir yn ddiweddarach mewn Pabyddiaeth. Canfyddir gogwydd mewn rhai mor foreu a dyddian Irenæus, yn yr ail ganrif, i dybied fod yr elfenau yn cael eu treiddio mewn modd goruwchnaturiol gan gorph a gwaed Crist, a bod cyfranogiad o honynt yn darparu cyrph y credinwyr erbyn yr adgyfodiad. Ond y mae yn deilwng o sylw yr ymgadwai y dysgawdwyr yma, er eu holl dywyllwch, at y syniad mai trwy ffydd yn unig yr oedd rhinwedd yr ordinhâd yn cael ei dderbyn. Rhoddai Tertullian, yn enwedigol, bwys mawr ar hyn. Yn fwy diweddar dysgai Origen fod yr elfenau arwyddol i'w cadw ar wahân oddi wrth yr arwyddocâd.

Ond heb aros yn hwy gyda syniadau yr eglwys foreuol, ni a edrychwn yn awr ar olygiadau y prif sefydliadau eglwysig yn yr oesoedd diweddaf, Pabaidd a Phrotestanaidd, ar y swper.

1. *Golygiadau yr Eglwys Babaidd.*—Y mae y Pabyddion yn edrych mewn dwy wedd ar Swper yr Arglwydd; sef, fel sacrament, ac fel aberth. Aberth yr offeren (*the sacrifice of the mass*) yw canolbwynt addoliad Eglwys Rhufain. Defnyddia yr enw *sacrament*, am ei bod yn arwyddocau, yn cynnwys, ac yn trosglwyddo gras ysbrydol. Cynnwysa ddau beth; sef, arwyddion allanol, a phethau yn cael eu harwyddocau. Y mae yr arwyddion yn cadw eu hen ffurf o fara a gwin, ar ol cael eu cyssegru gan yr offeiriad, er fod hyny yn peri cyfnewidiad yn eu sylwedd. Yr hyn a arwyddoceir ynddynt ydyw, dioddefaint ac angeu Crist; gras Duw yn cael ei weini trwy yr ordinhâd; a bywyd tragwyddol; ac y mae rhinwedd ynddynt i gynnyrchu gras; ond nid bywyd ysbrydol ydyw y gras a weinyddir, gan fod hwnw wedi ei gyfranu yn y bedydd, ac felly yn cael ei dybied yn meddiant yr hwn sydd yn cyfranogi o'r ordinhâd. Dywed Dr. Hodge ["*Systematic Theology*"] fod geiriau yr Holwyddoreg Pabaidd, ac awdurdodau ereill ar y mater hwn heb wahaniaethu nemawr oddi wrth athrawiaeth Protestaniaid efengylaidd. Dywedant fod y budd a dderbynir yn cyfatteb i'r hyn a dderbynia y corph trwy ymborth cyffredin. Megys y mae bara a gwin yn cryfhau y corph, felly y mae y cymmun yn cryfhau yr enaid; ac megys y mae yr ymborth cyffredin yn cael ei gyd-dymmheru â'r corph, felly y mae yr ymborth ysbrydol a dderbynir yn yr ordinhâd yn newid yr enaid i'w natur ei hun.

Yn nghredo Eglwys Rhufain, y mae rhinwedd yr ordinhâd, fel sacrament, ac fel aberth, yn gorphwys ar athrawiaeth traws-sylweddiad. Dysga yr athrawiaeth hon fod Crist yn bresennol yn y cymmun—nid mewn modd ysbrydol, fel y dysga Protestaniaid, na chwaith trwy wir bresennoldeb ei gorph a'i waed yn neu o dan y bara a'r gwin; ond trwy fod y bara a'r gwin yn cael eu trawsffurfio gan gyfryngiad gallu Duw, a'u troi yn gnawd a gwaed Crist. Fel y cafodd y dwfr ei droi yn win yn y briodas yn Nghana Galilea, felly y mae y bara a'r gwin yn cael eu troi yn gnawd a gwaed Crist, ac yn aros felly. Dyma sylwedd yr athrawiaeth fel y cafodd ei phenderfynu yn Nghynghor Trent. Y mae canonau y Cynghor yn cynnwys y gosodiadau canlynol:—Fod sylwedd yr elfenau yn cael ei newid trwy y cyssegriad offeiriadol, fel nad oes dim o'u hen sylwedd yn aros. Etto y mae yr holl briodoliaethau y mae y synwyrau yn gyfarwydd â hwynt, megys lliw, blâs, ac arogl, &c., yn aros yr un. Yr hyn sydd yn bresennol o dan y ffurfiau o fara a gwin ydyw corph a gwaed Crist—y corph fu yn hoeliedig ar y groes, a'r gwaed a lifodd o'i wythïenau, gyda'r hyn oll sydd yn perthyn i gorph cyflawn:—"Ossa, nervi, et quæcumque ad hominis perfectionem pertinent"= 'yr esgyrn, y giau, a pha bethau bynag sydd yn perthyn i ddyn cyflawn.' Ond gan fod corph Crist yn anwahanol gyssylltiedig â'i enaid, a'i gorph a'i enaid â'i Dduwdod, y mae yn canlyn fod Crist yn nghyflawnder ei berson fel Duwddyn yn cael ei dderbyn gan enau y cyfranogydd, yr hwn sydd yn ymborthi yn gorphorol arno mor wirioneddol ag ar ei ymborth cyffredin. Y mae Crist oll yn y bara, ac oll yn y gwin, ac yn mhob briwsionyn o'r naill, a phob dafn o'r llall. Y mae y traws-sylweddiad yma yn parhau yn yr elfenau, fel y gellir cadw y deisen gyssegredig fel yn cynnwys yr oll o Grist, ei dwyn i'r claf, ei chludo oddi amgylch mewn gorymdeithiau, a chyflwyno addoliad iddi. Gan mai Crist, mewn gwirionedd, yw y bara a'r gwin, y mae yr addoliad uchaf yn ddyledus iddynt:—nid yr addoliad isaf a roddir i'r seintiau, neu yr addoliad uwch a roddir i'r Forwyn; ond yr uchaf, yr hwn a roddir i Dduw. Os ydyw athrawiaeth trawssylweddiad yn wir, nis gall neb wrthod y casgliad hwn. Y mae y neb sydd yn ei chredu yn rhwym o roddi yr un parch i'r elfenau ag a rydd i Fab Duw. Ond os ydyw yn gyfeiliornus, y mae addoliad yr offeren yn esampl mor ysgeler o eilunaddoliaeth a dim a welwyd yn nhywyll leoedd y ddaear; a phriodol, yn sicr, y mae y Protestaniaid yn cyfrif y Pabyddion yn eilunaddolwyr o'r fath waethaf.

Cefnoga y Pabydd athrawiaeth traws-sylweddiad â'r Ysgrythyrau a thraddodiad. Allan o'r Beibl dygir yn mlaen y geiriau yn *Ioan* vi. 48—65, lle y mae yr Arglwydd Iesu yn llefaru am fwyta ei gnawd ac yfed ei waed. Amcenir profi mai am y cyfranogiad yn y swper y meddylir yma, ac mai bwyta â'r genau a olygir, nid defnyddiad ysbrydol. Gwneir appêl hefyd at eiriau Crist, "Hwn yw fy nghorph." Y modd y mae Protestaniaid yn cyfarfod â'r olaf ydyw trwy ddyweyd na chyflwynai y geiriau un syniad o'r fath i feddyliau diragfarn—na fyddai ynddynt un anhawsder—mwy nag sydd yn y geiriau "Myfi yw y drws," "Y graig oedd Crist," "Y saith ganwyllbren, y saith eglwys ydynt." Y mae synwyr cyffredin yn arwain dynion i ddeall ymadroddion o'r fath mewn ystyr ffugrol. Yn ngair arall y sefydliad, ceir enghraifft o drawsenwad dyblyg—"Y cwpan hwn yw y Testament Newydd yn fy ngwaed." Yma mae y cwpan yn sefyll am y gwin oedd ynddi, a'r gwin yn arwyddo gwaed Crist. Gyda golwg ar y geiriau yn Ioan, y mae yr esboniad a rydd rhai Pabyddion arnynt, nid yn unig yn groes i holl ysbryd y geiriau, a'r amgylchiadau yn y rhai y cawsant eu llefaru, ond yn myned tu hwnt i'r credo Pabaidd. Beth bynag a olygir wrth fwyta cnawd ac yfed gwaed Crist, y mae yn amlwg ei fod yn hanfodol er iachawdwriaeth: ond nid yw y credo Pabaidd yn dysgu fod cyfranogiad o'r cymmun felly; o blegid y mae yn dysgu fod holl fendithion achubol yr iachawdwriaeth yn cael eu derbyn yn y bedydd, a bod bywyd ysbrydol yn angenrheidiol i dderbyn budd oddi wrth y cymmun.

Digitized by Google

Gan nad oes un sail yn y Beibl i athrawiaeth traws-sylweddiad, y mae y Pabyddion yn gwneyd defnydd mawr o draddodiad tuag at ei brofi. Yn erbyn hyn dadleua y Protestaniaid, yn gyntaf, mai y Beibl ydyw gwir reol ffydd; ac, yn ail, pe caniateid fod awdurdod yn perthyn i draddodiad, etto nas gellir ei ddwyn yn mlaen dros yr athrawiaeth hon. Rheol Vincentius ar draddodiad, yr hon a gymmeradwyir ac a ddilynir gan y Babaeth ydyw, fod "yr hyn a gredir yn yr eglwys bob amser, yn mhob man, a chan bawb, yn rhwym o fod yn wir." Ond nid yw athrawiaeth traws-sylweddiad yn cyfatteb i'r rheol yma. Nis gall un Pabydd brofi ei bod yn cael ei derbyn yn yr eglwys foreuol, na'i bod mewn un modd yn athrawiaeth gyffredinol. Mae awdwyr Protestanaidd wedi llwyddo i'w holrhain yn ei chyfodiad a'i chynnydd trwy yr oesoedd. Nid oes dim yn fwy adnabyddus yn hanes Cristionogaeth na'r dadleuon a'r ymrysonfeydd oedd ynglŷn â'r ceisiadau cyntaf i'w sefydlu; ac y mae y ffaith fod ymryson o gwbl yn ei chylch yn ddigon o brawf nad ydoedd yn cael ei derbyn "bob amser, yn mhob man, a chan bawb," fel traddodiad apostolaidd. Os deuwn i lawr i'r bummed ganrif, ni a gawn y dysgawdwyr galluocaf yn dysgu golygiadau ysbrydol ar natur ac ystyr yr elfenau—golygiadau y gellid eu hystyried yn Brotestanaidd. Tra y ceir dynesâd at yr athrawiaeth Babaidd yn rhai o ymadroddion Gregory o Nyssa, y mae Athanasius yn dysgu, oddi wrth eiriau Crist am fwyta ei gnawd ac yfed ei waed, nad yw hyn i'w ddeall yn llythyrenol, ond yn ysbrydol; amcanai Crist arwain ei ddysgyblion at y maeth ysbrydol sydd i'w dderbyn trwy gymmundeb âg ef. Llefara Awstin yn gryfach fyth: dywed mai arwyddion yw y bara a'r gwin; fod Duw yn defnyddio arwyddion i osod allan wirioneddau; ac i arddangos gwirioneddau y mae y rhan allanol o'r swper wedi cael ei fwriadu. Gan fod yr arwyddion hyn wedi eu neillduo oddi wrth fywyd cyffredin, gallant gynnyrchu gwylder a pharch ynom ar gyfrif eu cyssylltiad â chrefydd; ond nid peri syndod, fel pe bae rhywbeth gwyrthiol yn perthyn iddynt. Dywed Neander na buasai yn bossibl i Awstin lefaru fel y gwna, pe buasai yn credu fod y naturiol yn y sacrament yn cael ei dreiddio gan y dwyfol, *h. y.*, fod yr elfenau yn wir gorph a gwaed Crist. Y mae yn sylwi fod amryw eiriau yn yr Hen Destament lle y mae yr arwydd yn drawsenwad am yr hyn a arwyddoceir; a bod Crist ar y swper yn dyweyd "Hwn yw fy nghorph," pan nad oedd ond yn rhoddi arwydd o'i gorph. Etto, er mai arwyddion yn unig y golygai yr elfenau, yr oedd yn cyssylltu rhinwedd goruwchnaturiol â hwynt; credai fod cymmundeb uwch â Christ i'w gael trwyddynt;—ond nid cymmundeb corphorol neu faterol; ac nid oedd y rhinwedd chwaith yn trigo yn yr elfenau eu hunain. Y rhinwedd sacramentaidd yn y cymmun ydoedd cymmundeb y credinwyr fel un corph â'r Pen, ac â'u gilydd ynddo ef. Rhoddes Crist arwydd o'i bresennoldeb i ddynion nad allent ei weled ef. "Yn unig bydded genyt ffydd, ac y mae efe yr hwn nid wyt yn ei weled yn bresennol gyda thi. Nid yw y llygad yn gweled ond y bara a'r gwin. Ffydd a ddichon weled y cnawd a'r gwaed." Dengys hyn mai golygiad Awstin ar gymmundeb â Christ yn y swper ydyw cymmundeb ysbrydol trwy ffydd; yr hyn sydd anghysson âg athrawiaeth traws-sylweddiad, yr hon sydd yn dysgu cyfranogiad o'i gorph a'i waed â'r genau. Y mae y ffaith fod y fath ddysgawdwyr ag Athanasius ac Awstin heb amlygu y gogwyddiad lleiaf at draws-sylweddiad yn ddigon i brofi nad oedd yn athrawiaeth gyffredinol, nac yn wir yn bod o gwbl yn yr eglwys mor ddiweddar a'r bummed ganrif; er, fel y crybwyllwyd o'r blaen, fod rhai o'r tadau nad oeddynt, fel hwynthwy, yn ffurfio athrawiaeth yr eglwys, yn amlygu rhywfaint o duedd ati.

Yn y nawfed ganrif y cafodd yr athrawiaeth ei dwyn i'r golwg fel athrawiaeth gyflawn ac addfed: ond er fod amgylchiadau pethau yn dra ffafriol i'w derbyniad, o herwydd fod cymmaint o lygredigaeth ac anwybodaeth yn ffynu yn yr eglwys, etto cyfarfu â gwrthwynebiadau cryfion, fel na chafodd ei derbyn fel athrawiaeth awdurdodedig am rai canrifoedd ar ol hyny. Y mae Gieseler, yn ei waith a elwir *"Ecclesiastical History,"* yn rhoddi y crynodeb canlynol o hanes yr athrawiaeth hon:—

"Paschasius Radbertius, yr hwn oedd fynach, ac o'r flwyddyn 844 B. A. hyd 851, yn abad Corbey, oedd y cyntaf i grynhoi yr ymadroddion gwasgarog mewn hir arferiad am gorph a gwaed Crist, mewn cyfundraeth reolaidd o draws-sylweddiad. Ond derbyniodd ei athrawiaeth wrthwynebiad cryf. Gwrthwynebid hi yn hollol gan Rabanus Maurus; darfu i Ratramnus, wrth roddi ei farn i'r ymherawdwr, lefaru yn benderfynol yn ei herbyn; ac yr oedd holl dduwinyddion mwyaf parchedig yr oes yn glynu wrth y golygiad mwyaf rhesymol. Etto yr oedd yr athrawiaeth gyfriniol hon, yr hon oedd yn bod er's amser, fe allai, yn mysg y werin, er heb ei dadblygu yn dduwinyddol, yn cael rhywrai i'w chefnogi, a hawdd oedd gweled mai yr hyn oedd eisieu i sicrhau ei llwyddiant oedd amser mwy tywyll ac anwybodus—yr hyn a ddaeth yn fuan."

Y mae Neander, yn ei *"History of Christian Dogmas,"* yn gwneyd sylwadau helaethach ar y cyfnod hwn, yn y rhai y dengys fod golygiad Radbertus ar yr elfenau yn y sacrament yn codi oddi ar natur ei gyfundraeth grefyddol. Ei hegwyddor sylfaenol oedd—fel mai ewyllys Duw ydyw achos yr holl greadigaeth, felly hefyd y parhâ i fod yn unig achos o'r holl gyfnewidiadau o'i mewn. Yn y goleuni yma y cyflwyna athrawiaeth y swper; dyma bwynt uchaf y gwyrthiau: nid yr enaid yn unig a faethir ynddi, nid ysbrydol yn unig ydyw y cymmundeb, ond y mae Crist yn dyfod i berthynas corphorol â'r corph a brynwyd ganddo. Trwy gyssegriad yr elfenau gan yr offeiriad, y mae Duw, trwy ei air hollalluog, yn creu gwir gorph a gwir waed Crist allan o sylweddau y bara a'r gwin. Yn ddirgelaidd y cymmer y cyfnewidiad le, mewn trefn i beidio ein brawychu; ac y mae lliw a blas yr elfenau yn awr yr un. Y mae y naturiol yn diflanu yn llwyr, am nad yw o un gwerth i'r teimlad crefyddol. Y syniad sydd yn gorwedd islaw hyn yn nghyfundraeth Radbertus, ydyw, fod y byd allanol, gweledig, yn cael ei dreiddio a'i ysbrydoli gan y byd mewnol neu anweledig. Y mae Ratramnus yn dwyn yn mlaen yn ei erbyn ysbrydolrwydd cymmundeb y credinwyr â Christ. Gwna ymchwiliad i ddau gwestiwn:—1af, Pa un ai rhywbeth ysbrydol yw y cyfranogiad o gorph a gwaed Crist, y rhai a ganfyddir gan lygad ffydd yn unig, ynte a ydyw y synwyrau corphorol yn gweled heb len yr hyn a wêl y llygad ysbrydol oddi mewn? 2il, Ai yr un corph yn yr hwn y ganwyd Crist, ac y dioddefodd, a dderbynir yn y swper? Er nad oedd Radbertus wedi dywedyd fod y

Digitized by Google

presennoldeb yn weledig i'r llygaid, etto haerai Ratramnus fod ei athrawiaeth o angenrheidrwydd yn cynnwys hyny. "Naill ai y mae yr arwyddion allanol yn cael eu cyflwyno yn unig i ffydd—yn ddarlun o gorph Crist; neu, os oes cyfnewidiad allanol yn cymmeryd lle, y mae yn rhaid i hyny fod yn weledig i'r synwyrau. Os ydyw corph Crist yn wirioneddol yn y swper, y mae yn rhaid iddo fod yn weledig. Os nad yw yn weledig, yna nid oes bresennoldeb corphorol yn y swper—dim ond presennoldeb ysbrydol; o ganlyniad, ysbrydol ydyw y cyfranogiad." Appelia at yr hen arferiad o gymmysgu y gwin â dwfr. Fel y golygid y dwfr yn arwyddlun o'r eglwys, a'r gwin yn arwyddlun o Grist, y mae yn ymresymu mai arwyddion yn unig yw yr elfenau. Y mae efe hefyd yn barnu mai defnyddiad ysbrydol o Grist a olygir yn y geiriau yn *Ioan* vi., ac mai ffydd ydyw yr unig allu i gyfranogi o'r ysbrydol a'r dwyfol. Os deuwn i lawr i'r ddeuddegfed ganrif, yr ydym yn cael athrawiaeth traws-sylweddiad yn ennill nerth, er fod rhai o'r dysgawdwyr enwocaf yn ei gwrthwynebu. Yr oedd Anselm, Lombard, Hugo, St. Victor, ac ereill, yn dyrchafu eu llef yn y cyfnod tywyll yma o blaid y gwirionedd. Dadleuent fod y bara yn cael ei alw yn gorph Crist yn yr un ystyr ag y gelwir Crist yn graig, ac mai ysbrydol yn unig ydyw ei bresennoldeb yn y swper. Yr oedd y Cathariaid hefyd, yn y ganrif hon a'r un ganlynol, yn dwyn eu tystiolaeth yn eofn o blaid y golygiad cywir, ac yn erbyn dysgeidiaeth yr eglwys, gan ddefnyddio yr un rhesymau a'r Diwygwyr Protestanaidd rai canrifoedd yn ddiweddarach. Appelient at ymadrodd Crist—"Y cnawd nid yw yn lleshau dim." Yr oedd ereill o'r dysgawdwyr yn cymmeryd llwybr canol, gan ddysgu fod yma rywbeth mwy nag arwydd yn yr elfenau; etto nad oedd y sylwedd yn cael ei newid, ond yn derbyn rhinwedd dirgelaidd trwy y cyssegriad. Y cyntaf i ddefnyddio y gair *transubstantatio*, oedd Hilderbart o Mans; ac yn nghynghor y Lateran, yr hwn a gynnaliwyd yn y flwyddyn 1215, cyhoeddwyd yr athrawiaeth yn un o erthyglau ffydd gan y pab Innocent III.

Y mae Eglwys Rhufain hefyd yn dysgu fod y swper yn wir aberth dyhuddol, ac felly yn rhinweddol i ddileu pechod y cymmunwr, a'i ddwyn i gymmod â Duw. Golyga fod offrwm yr offeren yr un ag aberth Crist ar y groes; ac nad ydyw ond parhâd a mynychiad o'r offrymiad hwnw—i Grist offrymu ei hun unwaith ar y groes, a'i fod yn gwneuthur hyny bob dydd yn ngwasanaeth y cymmun. Yn ol y golygiad hwn, Crist ei hun ydyw yr offeiriad yn y cymmun—nid y clerigwr Pabaidd. Nid oes gan y clerigwr un swydd yn yr ordinhâd; ac y mae yr enw *offeiriad* yn ammhriodol arno, hyd yn oed yn nghyfundraeth sacramentaidd Eglwys Rhufain. Y mae hyn yn enghraifft o anghyssonderau mewnol Pabyddiaeth. "Y mae y Pabyddion yn gosod eu gweinidogion allan fel offeiriaid gwirioneddol; fel cyfryngwyr rhwng Duw a'r bobl, heb wasanaeth y rhai nis gall neb gael dyfodfa at Dduw a maddeuant o'i bechodau. Y maent nid yn unig yn cael eu gwisgo âg awdurdod a hawlfreintiau offeiriadol, ond hefyd yn llawn o allu goruwchnaturiol. Y mae geiriau y cyssegriad allan o enau unrhyw ddyn, nad yw yn offeiriad, yn aneffeithiol. Nid yw y cymmun yn aberth iawnol os na chaiff ei weinyddu gan offeiriad. Y mae hyn oll yn tybied fod swydd yr offeiriad yn swydd wirioneddol a sylweddol—fod y clerigwyr yn wir offeiriaid; etto, yn ol yr athrawiaeth Babaidd, nid felly y mae: nid ydynt yn offeiriaid o gwbl." Dywed y "*Catechismus Romanus*" mai yr offeiriad a'r aberth yn y swper ydyw Iesu Grist.

Nodwedd arall ar yr ordinhâd hon yn Eglwys Rhufain ydyw attaliad y gwin oddi wrth y bobl. Addefir gan y Pabyddion eu hunain fod hyn yn groes i'r sefydliad, ac i arfer yr eglwys foreuol; etto y maent yn ceisio ei gyfreithloni oddi ar y syniad uchel am ystyr y gwin. Gan y byddai perygl wrth ddwyn y cwpan oddi amgylch, i beth o'i gynnwys gael ei golli; er mwyn gochelyd hyny, yr hyn fyddai yn halogiad erchyll ar y gwir waed, barnwyd mai gwell fyddai attal y cwpan o gwbl; yn enwedig am y tybient hwy nad oedd y cwpan yn anhebgorol angenrheidiol i gyfanrwydd y sacrament. Y mae y gwaed yn y corph; felly y mae yr hwn sydd yn derbyn yr olaf yn derbyn y cyntaf hefyd; a chan fod yr oll o Grist yn mhob briwsionyn o'r bara, y mae yr hwn a dderbynio y bara yn unig yn cyfranogi o holl fudd y cymmun.

Y mae Protestaniaid yn ymwrthod â'r golygiad fod y swper yn aberth, am nad oes dim yn y Beibl yn ei gefnogi—ond yn gwbl i'r gwrthwyneb: ni cheir un gair yn nghyfeiriad y golygiad yn un man y sonir am yr ordinhâd. Gwrthodir ef hefyd am ei fod yn sylfaenedig ar athrawiaeth traws-sylweddiad, yr hon sydd yn groes i reswm yn gystal ag Ysgrythyr; ac am nad oes un sail i'r syniad Pabaidd fod y clerigwyr yn offeiriaid. Y mae hefyd yn ddiraddiad ar aberth Crist, trwy ei fod yn dal allan fod angen iddo ei offrymu ei hun yn fynych; yr hyn sydd yn groes i lythyren yr un modd ag i ysbryd yr Ysgrythyrau; yr hwn sydd yn dangos fod ei waith yn ei offrymu ei hun ar y groes yn ddigon; mai ei offrymiad o hono ei hun unwaith ydyw y prif brawf o effeithiolrwydd ei offrymiad, yn gyferbyniol i offrymiad beunyddiol yr aberthau dan y gyfraith. Y mae yn wir fod y Pabyddion yn ceisio osgoi hyn trwy ddyweyd mai yr un aberth ag a offrymwyd ar y groes sydd yn cael ei offrymu yn y cymmun:—nad oes dau aberth yma, ond yn unig dau ddull gwahanol o offrymu. Ond gellid gofyn, Pa angen sydd am yr olaf o gwbl, os oedd y cyntaf yn ddigonol? Pa ham nad oedd yr un offrymiad yn effeithiol? A oes rhywbeth yn y Beibl yn cefnogi yr offrymiad yn y cymmun, neu a ydyw angen y credadyn yn gofyn am dano?

II. *Golygiadau yr eglwysi Protestanaidd.*—Y mae yr Eglwys Lutheraidd yn gwahaniaethu oddi wrth Eglwys Rhufain, trwy wadu athrawiaeth traws-sylweddiad, ac athrawiaeth yr offeren, a thrwy ddal fod y bobl i gyfranogi o'r cwpan fel o'r bara. Er hyny, y mae hi yn dysgu gwir bresennoldeb corph a gwaed Crist yn y cymmun; fod y geiriau "Hwn yw fy nghorph," i'w deall yn llythyrenol. Nid fod y bara yn arwyddo corph Crist, a'r gwin ei waed; ond trwy yr undeb sacramentaidd "fod y bara a'r gwin yn gorph a gwaed Crist mewn gwirionedd." Y mae ei gorph a'i waed yn cyd-ymsylweddu â'r elfenau; ond nad ydyw yr elfenau yn cael eu traws-sylweddu yn gorph a gwaed Crist. Dysga mai unig achos y presennoldeb hwn ydyw gallu anfeidrol yr Arglwydd Iesu; ac nad ydyw i'w briodoli yn y graddau lleiaf i waith dyn yn cyssegru yr elfenau. Yr egwyddorion a ddygir yn mlaen i gefnogi yr athrawiaeth hon ydynt, fod

Digitized by Google

Iesu Grist yn wir Dduw a gwir ddyn yn yr un person: mai deheulaw Duw yw pob lle; ac felly gan fod Crist yn ei ddynoliaeth ar ddeheulaw Duw, y mae yn ei ddynoliaeth yn bresennol yn mhob man: fod gair Duw yn wir—ac felly, pan y mae yn dywedyd "Hwn yw fy nghorph," y dylid ei gredu, pa mor wrthwyneb bynag y mae yn ymddangos i'n rheswm: ac y gall Duw fod yn bresennol mewn ffyrdd nas gallwn ni feddu dirnadaeth am danynt. Fel canlyniad yr athrawiaeth hon, y mae hefyd yn dysgu fod y cymmunwr yn cyfranogi yn gorphorol o Grist yn y bara a'r gwin, yn gystal ag yn ysbrydol trwy ffydd; etto mewn dull nefol a goruwchnaturiol, fel y mae yr elfenau mewn undeb sacramentaidd â chorph a gwaed Crist. Yn ol y golygiadau hyn y mae yr annheilwng a'r anghrediniol, fel y credadyn, yn derbyn corph a gwaed Crist.

Er mwyn cadw undeb, yr oedd yr Eglwys Ddiwygiedig yn gwneuthur cymmaint ag a allasai i gyfarfod â'r Lutheriaid, ac i dderbyn yr ymadroddion a ddefnyddiwyd ganddynt hwy; etto y mae yn amlwg fod y gwahaniaeth yn fawr rhyngddynt a'u gilydd. Addefai yr Eglwys Ddiwygiedig fod yn y cymmun wir bresennoldeb; ond gwahaniaethai yn hyn—trwy ddyweyd mai presennoldeb ysbrydol ydyw, ac nad oes neb ond perchen ffydd yn ymborthi ar gnawd a gwaed Crist. Yn y nefoedd y mae gwir gorph Crist—nid ar y ddaear; ac nid yw mewn un modd yn bresennol yn ei gorph yn y cymmun; nid yw y cyfranogydd yn derbyn dim i'w enau ond bara a gwin. Dyma y prif wahaniaeth rhwng y ddwy eglwys, a sail pob gwahaniaeth arall. Dysga eglwys y Lutheriaid fod gwir gorph Crist yn bresennol yn y sacrament, ac felly yn cael ei dderbyn gan yr holl gymmunwyr; ond y mae yr Eglwys Ddiwygiedig yn gwadu hyny—nad oes yno bresennoldeb corphorol o gwbl; ac nad oes neb yn derbyn i'w enau ond bara a gwin. Ysbrydol yn unig ydyw y presennoldeb, a thrwy ffydd y derbynir budd yr ordinhâd. Fel y ceir golygiadau y cyntaf yn ngeiriau Luther, felly y ceir golygiadau yr olaf yn ngeiriau Calvin; ac y mae efe yn dysgu mai yr hyn sydd bresennol yn y cymmun ydyw, nid corph a gwaed naturiol Crist, ond rhyw rinwedd goruwchnaturiol a bywiol yn deilliaw o'i gorph gogoneddus yn y nefoedd, ac yn cael ei drosglwyddo i'r credadyn trwy yr Ysbryd Glân. Golygiad Calvin ydyw, fod rhinweddau dynoliaeth y Cyfryngwr yn bresennol yn yr ordinhâd —nid y ddynoliaeth ei hun; ac yn hyn yr oedd yn gwahaniaethu yn hollol oddi wrth Luther a'i ganlynwyr, yn gystal ag oddi wrth Eglwys Rhufain. Fel y mae yr haul yn y ffurfafen, etto ei oleuni a'i wres ar y ddaear; felly y mae corph Crist yn y nefoedd, ond o'r corph gogoneddus hwnw y mae yn dyfod allan ryw ddylanwad neu rinwedd, a'r dylanwad hwnw yn wahanol i ddylanwad yr Ysbryd Glân, er yn cael ei weinyddu trwyddo. Y mae y credinwyr yn derbyn corph a gwaed Crist yn yr ystyr o dderbyn eu rhinweddau bywiol. Barna Dr. Hodge ei fod yn dal fod rhywbeth gwyrthiol yn perthyn i'r ordinhâd hon. "Yr ydym felly yn dyfod i'r penderfyniad," ebe Calvin, "fod ein heneidiau yn cael eu porthi â chnawd a gwaed Crist, fel y mae ein bywyd corphorol yn cael ei gynnal gan fara a gwin. O blegid ni byddai cyfattebiaeth yr arwyddion yn dal, pe na bae ein heneidiau yn cael maeth yn Nghrist; yr hyn nis gallai fod, oddi eithr fod Crist yn myned yn un mewn gwirionedd â ni, ac yn ein cynnal trwy ei gnawd a'i waed. Gall, yn wir, ymddangos yn anghredadwy fod cnawd Crist yn cyrhaedd atom o'r fath bellder fel ag i ddyfod yn ymborth i ni. Ond dylem ystyried pa mor bell y mae gallu yr Ysbryd Glân uwch law ein holl synwyrau, a pha mor ffol fyddai meddwl am ddwyn ei fawredd at ein mesurau ni. Bydded, gan hyny, i ffydd gofleidio yr hyn nas gall y deall ei amgyffred; sef, fod yr ysbryd yn gwir uno pethau sydd yn hollol ar wahân. Yn awr, y mae y cyfraniad cyssegredig yma o'i gnawd a'i waed, trwy yr hyn y pâr Crist i'w fywyd ein treiddio fel pe byddai efe ei hun yn treiddio ein hesgyrn a'n mêr, yn cael tystiolaethu am dano a'i selio yn y swper sanctaidd; nid trwy yr arddangosiad o arwydd gwâg, ond trwy roddi allan y cyfryw nerth o eiddo ei Ysbryd ag sydd yn cyflawni yr hyn a addewir ganddo." Y mae cyffesion yr Eglwys Ddiwygiedig yn arfer gofal i egluro y gair hwn—*presennoldeb*. Y mae gwrthddrychau allanol yn bresennol pan y maent yn gwneuthur effaith ar y synwyrau corphorol. Y mae gwrthddrych ysbrydol yn bresennol pan y mae y deall yn ymwneyd âg ef—pan y mae yn gweithredu ar y meddwl. Pan ddywedir fod Crist yn bresennol gyda ni, nid y cwbl a feddylir ydyw fod y Gair, tragywyddol Fab Duw, yr hwn sydd yn llanw nefoedd a daear, yn bresennol gyda'i bobl yn yr un ystyr ag y mae trwy yr holl greadigaeth; ac nid yn unig fod ei Ysbryd yn preswylio ac yn gweithio ynddynt. Y mae yn wahanol ar un llaw i'r presennoldeb dwyfol yn mhob man, ac ar y llaw arall i breswyliad yr Ysbryd Glân. Y mae Iesu Grist fel Duw-ddyn yn bresennol hefyd gyda hwynt; ond nid ydyw hyn yn golygu fod ei ddynoliaeth yn hollbresennol—ond fod y Duw-ddyn, yr hwn sydd yn meddu teimladau dynol, yn trigo yn a chyda'i bobl. Ac yn ol golygiad yr Eglwys Ddiwygiedig, y mae yn bresennol yn ei gorph a'i waed. Ond nid oes yma un agoshâd at gyfundraeth Eglwys Rhufain, er ei bod yn defnyddio y gair "gwir bresennoldeb," o blegid tra y mae y gair "gwir" (*real*) yn y naill yn golygu corphorol, y mae y llall yn ei ddefnyddio mewn cyferbyniad i ddychymygol. Y mae presennoldeb ysbrydol, yr hwn a ddadguddia ei hun i ffydd, yn 'wir' bresennoldeb; o blegid y mae yr ysbrydol yn llawn mor wirioneddol ag ydyw y materawl. Yn wir, y mae yn fwy gwirioneddol; o blegid y pethau ni welir, y rhai ydynt dragwyddol, yw y gwir bethau. Cyttuna dilynwyr Calvin a Zuinglius ar y pethau canlynol; 1af, Nad ydyw presennoldeb corph a gwaed Crist yn y cymmun yn lleol neu gorphorol. 2il, Nad ydyw yn bresennoldeb i'r synwyrau. 3ydd, Nad ydyw yn cael ei gyfyngu i'r swper. Y mae cyfranogiad o gorph a gwaed Crist, a'r budd ysbrydol trwy hyny, yn cael ei fwynhau gan y credadyn yn mhob ordinhâd yr un modd ag yn yr ordinhâd hon.

Y mae ereill yn ymwrthod â'r gwahaniaethau manwl y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol rhwng golygiadau y gwahanol bleidiau; ac yn edrych ar y swper mewn golygiad mwy syml—fel wedi ei ordeinio yn unig i gadw y ffaith fawr a phwysig o farwolaeth Crist yn nghof ei ddysgyblion, ac i gadarnhau eu meddyliau yn y grediniaeth o'i gwirionedd. Dywedant mai i "gofio marwolaeth yr Arglwydd," ac i "ddangos ei farwolaeth oni ddelo"—y ffaith o'i farwolaeth, a'r modd y bu farw, sef trwy ddrylliad ei gorph a

Digitized by Google

thywalltiad ei waed—ac i hyny yn unig, y gosodwyd yr ordinhâd; a bod y fendith a dderbynir yn tarddu o'r sicrwydd a welir ac a deimlir o wirionedd ei farwolaeth yn y cyfranogiad o hono, a'r sicrwydd llawn a ddyry hyny i feddwl y derbynydd ffyddiog o wirionedd a chadernid holl dystiolaethau ac addewidion yr efengyl, y rhai sydd yn dibynu yn gwbl ar "ufudd-dod hyd angeu" y Gwaredwr am eu bodolaeth a'u cyflawniad.

SYRIA (ארם: Συρία), ydyw y gair a ddefnyddir yn y Beibl Cymraeg am y gair Hebraeg *Aram*, yn gystal ag am y gair Groeg Συρία. Ystyriai y Groegiaid mai talfyriad neu lygriad o *Assyria* ydoedd. Ond y mae ei darddiad yn dra ammheus. Y mae yn dra thebyg, fodd bynag, fod Syria yn dyfod o'r gair *Tsyria*—y wlad o amgylch *Tsur* (צור), neu Tyrus, yr hon oedd y gyntaf o'r trefydd Syriaidd a adnabu y Groegiaid.

TERFYNAU DAEARYDDOL.

Y mae yn lled anhawdd penderfynu ar derfynau Syria. Ymddengys fod Aram yr Hebreaid yn cychwyn oddi wrth gyffiniau gogleddol Palestina, ac yn ymestyn oddi yno i'r gogledd hyd ymylon Taurus; yn orllewinol i Fôr y Canoldir; ac yn ddwyreiniol, dybygid, hyd at yr afon Khabour. Ei phrif raniadau ydoedd Syria Damascus, Syria Sobah, Aram-Naharaim, Mesopotamia, neu "Syria y ddwy afon," a Padan-aram, neu Wastadedd Syria. O'r rhai hyn, nis gellir camgymmeryd wrth gyssylltu y cyntaf â'r wlad gynnyrchiol a bras o amgylch Damascus, yr hon a orweddai rhwng Anti-Libanus a'r anialwch; a'r olaf â'r dosbarth o amgylch Haran ac Orfah, sef y gwastadedd a ymestyna o ben gorllewinol eithaf Mons Masius tua tharddellau y Khabour yn *Ras-el-Ain*. Y mae Aram-Naharaim, neu Mesopotamia, dybygid, yn enw a gynnwysai y dosbarth olaf a nodwyd, ac yn ymestyn y tu hwnt iddo, er nas gellir penderfynu pa faint y tu hwnt iddo. Wrth "y ddwy afon," y mae yn dra thebyg, y golygir y Tigris a'r Euphrates, y rhai a ddynesant yn lled agos at eu gilydd yn nghymmydogaeth Diarbekr; a dichon hefyd fod Aram-Naharaim yn enw a gymmhwysid yn wreiddiol yn arbenig at y gyfran fynyddig sydd yn eu gwahanu. Os felly, eangodd ei ystyr yn raddol; o herwydd, yn *Gen*. xxiv. 10, y mae yn eglur yn cynnwys y wlad o amgylch Haran—neu Padan-Aram, fel ei gelwir fynychaf. Nid oes sicrwydd a ydyw yr ystyr ysgrythyrol yn cynnwys mwy na hyn. Y mae yn fwy na thebyg, fel Mesopotamia y Groegiaid diweddaraf, fod Aram-Naharaim yr Hebreaid yn cael ei chyfyngu i'r rhan ogledd-orllewinol o'r wlad oedd rhwng y ddwy afon fawr. Gwel MESOPOTAMIA. Ymddengys fod Aram-Sobah yn cynnwys y dosbarth o'r wlad sydd rhwng yr Euphrates a Cœle-Syria; o herwydd, ar un llaw, ymestyna i lawr at yr Afon Fawr (2 *Sam*. viii. 3; x. 16); ac ar y llall, y mae yn cau allan Hamath (viii. 9, 10). Y mae dosbarthiadau ereill Aram, megys Aram-Maachah ac Aram-beth-Rechob, yn fwy anhawdd eu nodi allan. Rhanau oeddynt hwy, dybygid, o'r ardal oedd rhwng Anti-Libanus a'r anialwch. Arferai yr ysgrifenwyr Groegaidd y gair *Syria* yn fwy mwys nag y defnyddiai yr Hebreaid y gair *Aram*. Ar un llaw, yr oeddynt yn ei estyn hyd at y Môr Du, gan gynnwys ynddo Cappadocia, ac hyd yn oed Bithynia; ar y llaw arall, hwy a'i hestynent i gyffiniau yr Aipht, ac i gynnwys Philistia ac Edom. Drachefn, trwy eu bod yn cymmysgu y Syriaid a'r Assyriaid yn eu meddyliau, cynnwysent wlad yr Assyriaid, ac hyd yn oed Babilon, yn y gair *Syria*. Etto, yr oedd ganddynt syniad fod Syria Briodol yn gyfyngedig i derfynau llai. Tra yr oedd Herodotus yn galw y Cappadociaid a'r Assyriaid yn Syriaid, nid ydyw yn rhoddi yr enw Syria ond ar y dosbarth a orweddai ar lenydd Môr y Canoldir, rhwng Cilicia a'r Aipht. Sonia Dionysius am ddwy Syria, sef y ddwyreiniol a'r orllewinol; ond y mae yn rhoddi y lle blaenaf i'r ddiweddaf. Disgrifia Strabo Syria fel y dosbarth arforawl oedd rhwng yr Aipht a morgaingc Issus. Y mae y defnydd cyffredin a wneir o'r gair *Syria* gan y Deg a Thrigain ac ysgrifenwyr y Testament Newydd, yn fwy cyfyngedig na hyn. Gwahaniaethent hwy Syria oddi wrth Phœnicia, ar un llaw; ac oddi wrth Samaria, Iudea, ac Idumea, &c., ar y llall. Yn yr ystyr cyfyng hwn y cymmerir golwg ar Syria yn yr erthygl hon—yn cael ei therfynu gan yr Amanus a'r Taurus ar du y gogledd, yr Euphrates a'r Anialwch Arabaidd ar du y dwyrain, Palestina ar du y deheu, a chan Fôr y Canoldir a Phœnicia ar du y gorllewin. Y mae y darn hwn o wlad tua thri chant o filldiroedd o hyd o'r gogledd i'r deheu, ac o gant i gant a hanner o filldiroedd o led; a chynnwysa tua deng mil ar hugain (30,000) o filldiroedd ysgwâr.

EI NODWEDDAU ANIANYDDOL.

O ran ei nodwedd gyffredinol, y mae y wlad hon braidd yn fynyddig, fel y mae y gair Hebraeg *Aram* (yr hwn sydd yn golygu 'uchder') yn arwyddo. Ar du y gorllewin, y mae dwy gadwen o fynyddoedd yn rhedeg yn gyfochrog â'r arfordir heb fod yn mhell oddi wrth y naill na'r llall, ac yn ymestyn ar hyd dwy ran o dair o Syria ar ei hyd, o ledred Tyrus i Antiochia. Gelwir y mynyddoedd hyn yn Libanus ac Anti-Libanus; ac wedi cyrhaedd lledred 35° gelwir y gadwen orllewinol, sef Libanus, o hyny yn mlaen yn Bargylus; tra y mae yr un ddwyreiniol yn terfynu yn raddol, ac heb un enw neillduol yn cael ei roddi arni. Yn yr un lledred ag Antiochia cyfarfyddir â'r gadwen yma gan fynyddoedd yr Amanus. Oddi yma yn mlaen tua'r gogledd o'r Taurus, sydd yn terfynu Syria yma, ac yn ddwyreiniol tua'r Euphrates, y mae yr holl wlad yn orchuddiedig gan fynyddoedd uchel; is law pa rai, tua *Sajur* ac Aleppo, y mae rhai gwastadeddau uchel, yn cael eu gwahanu gan fryniau; tra yn ddeheuol i hyny yr eir i mewn i'r anialwch. Y parth mwyaf ffrwythlawn a gwerthfawr o Syria ydyw y dyffryn hir sydd rhwng Libanus ac Anti-Libanus, ac sydd yn ochri yn ddeheuol o le sydd ychydig i'r gogledd o Baalbec, lle y rhed yr afon *Litany* heibio iddo; ac o'r fan hono y mae yn ochri tua'r gogledd, ac y mae yr afonydd yno yn ffurfio yr Orontes—rhediad yr hon sydd yn y cyfeiriad hwnw. Y mae y parthau mynyddig hefyd yn lled gynnyrchiol; ond tir lled wael sydd yn y gwastadeddau o gwmpas Aleppo; ac y mae ochr ddwyreiniol yr Anti-Libanus, oddi eithr mewn un man yn mhen deheuol y mynydd, yn hynod o ddiffrwyth.

EI MYNYDDOEDD.

O holl fynyddoedd Syria, mynyddoedd Libanus, neu y Lebanon, yn ddiau sydd yn meddu y dyddordeb mwyaf. Y maent yn ymestyn o enau y *Litany* i'r *Arka*, pellder o yn agos i gan milldir, ac yn cael eu cyfansoddi yn benaf o

Digitized by Google

fath o gareg galch, gydag ychydig o dywodfaen a cholofgraig. Yn agos i'r pen gogleddol y mae brig uchaf y Lebanon, tua hanner y ffordd rhwng Tripoli a Beyrut. Mesura yn y fan hon o ddeutu deng mil (10,000) o droedfeddi o uchder. Yn yr hen amserau yr oedd llaweroedd o gypreswydd, cedrwydd, a ffynnidwydd yn tyfu ar ei lechweddau; ond nid oes erbyn hyn ond ychydig o honynt i'w cael yno. Gan fod disgrifiad o hono wedi ei roddi dan y gair LIBANUS, nid oes eisieu chwanegu yma. Y mae Anti-Libanus, fel yr arwydda yr enw, yn sefyll gyferbyn a Libanus, ac yn rhedeg yn gyfochrog, hyny yw, o'r gogledd i'r deheu, ac o'r braidd o'r un hyd. Y brig uchaf yn y gadwen hon ydyw Hermon, yn y pen deheuol, neu yn hytrach deddwyreiniol; o herwydd y mae Anti-Libanus yn ei ben yn fforchogi yn ddau drum, rhwng y rhai y llifa yr afon *Hasbeya*. Tybir fod Hermon dros naw mil (9,000) o droedfeddi o uchder. Y mae Mynydd Bargylus, yr hwn a elwir yn awr *Jebel Nosairi*, tua'r deheu, a *Jebel Kraad* tua'r gogledd, yn ymestyn o enau y *Nahr-el-Kebir* (Eleutherus), gyferbyn a Hems, i gymmydogaeth Antiochia—pellder o fwy na chan milldir. Ysgerir ef oddi wrth y Lebanon gan lain o dir gwastad, o bymtheg i ugain milldir o led, trwy yr hwn y llifa yr *El-kebir*. Y mae Mynydd Bargylus yn lletach na'r Lebanon; a thafla allan fwy o geingciau i'r dwyrain a'r gorllewin, at y môr, a thua dyffryn yr Orontes. Y mae un o'r ceingciau gorllewinol yn terfynu mewn pentir nodedig, a adwaenid gan yr hynafiaid wrth yr enw Mynydd Casius, ond a elwir yn awr yn *Jebel-el-Akra*, neu y 'Mynydd Moel,' yr hwn a ymgyfyd i'r uchder o bum mil (5,000) o droedfeddi yn sydyn oddi wrth y môr. Yn mhen gogleddol Bargylus yr oedd Daphne, ardal ddymunol yn nghymmydogaeth Antiochia—lle y byddai preswylwyr cyfoethog a moethus y ddinas yn arfer ei fynychu. Yn ogleddol o enau yr Orontes, rhyngddi hi a glan dwyreiniol môrgaingc Issus, y mae trum mynyddoedd yr Amanus, sydd yn ymestyn o ben de-orllewinol y morgaingc, mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, am yn agos i ddeg a phedwar ugain milldir. Ysgara yr Amanus rhwng Syria a Cilicia; ac y mae y mynyddoedd yma yn greigiog, a'r clogwyni yn noethlwm a garw. Yr uchder cyfartal ydyw pum mil (5,000) o droedfeddi; ac y maent yn terfynu yn sydyn yn *Ras-el-Khanzir*, mewn clogwyn uchel a serth yn crogi uwch ben y môr. Rhyw ddau neu dri o fylchau sydd trwy y rhai yr arferir eu croesi; ac nid oes ond un o'r rhai hyn y gellir myned drosto yn lled gysurus. Y mae yr Amanus, fel yr Anti-Libanus, yn fforchogi yn y pen de-orllewinol, a'i ystlysau yn cael eu gorchuddio gan goedwigoedd o binwydd, derw, a llawrydd; neu brysglwyni o fyrtwydd, rhoslawryf, coed mefus, a phrysgwydd ereill. Gelwid y gadwen hon o fynyddoedd gan yr Assyriaid yn *Khamana;* a thorent goed yma yn fynych, a chludent hwy i'w prifddinas.

EI HAFONYDD.

Prif afonydd Syria ydynt y Litany a'r Orontes. Tardda y Litany o lyn bychan yn nghanol dyffryn Cœle-Syria, ynghylch chwe milldir i'r de-orllewin o Baalbec. Yna disgyna i ddyffryn a elwir *El-Bukaa*, a llifa i'r de-orllewin, a llenwir o honi amryw gamlesydd, er dyfrhau y tir; a derbynia ffrydiau i mewn o fynyddau Libanus ac Anti-Libanus, sydd yn gwneyd i fyny am y dwfr a gymmerir o honi. Y mae y *Bukaa* yn culhau fel yr ymestyna yn mlaen i'r de, ac yn terfynu mewn ceunant, drwy yr hwn y llifa y Litany, gan redeg yn ddwfn rhwng y clogwyni, dros yr hon y mae pont un bŵa, a elwir y *Jisr Burghus*. Wedi dyfod allan o'r ceunant, llifa ar y cyntaf i'r de-orllewin, ac wedi hyny yn union i'r deheu, nes y cyrhaedda i'r un lledred a Thyrus, pan y cyferfydd â mynyddau Galilea Uchaf, pryd y gorfodir hi i droi i'r gorllewin; ac wedi ymddolenu llawer ar yr arfordir, ymarllwysa i'r môr tua phum milldir is law Tyrus. Holl gwrs ei rhediad ydyw pedwar ugain milldir. Nid ydyw tarddell yr Orontes ond pymtheng milldir oddi wrth ffynnonell y Litany. Ychydig i'r gogledd o Baalbec y ceir dwfr-arllwysfa (*water-shed*) uchaf dyffryn Cœle-Syria, a dechreua y tir ogwyddo tua'r gogledd. Y mae ffrwd fechan yn tarddu allan o droed yr Anti-Libanus; yr hon, ar ol rhedeg i'r gogledd am bymtheng milldir ar draws y gwastadedd, a gyferfydd â ffrwd fwy, a dardda allan o Libanus, yr hon a ystyrir yn awr y brif darddell. O'r pwynt hwn y mae yr Orontes yn rhedeg i lawr y dyffryn mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, ac yn myned trwy y *Bahr-el-Kades*—llyn o ddeutu chwe milldir o hyd a dwy o led—ac ä yn mlaen yn agos i *Hems*, neu Emesa, yr hon a adewir ganddi ar y llaw ddeheu. Yna llifa i'r gogledd am o ddeutu ugain milldir; ac ar ei dynesiad at *Hamah* (Hamatt), y mae hi yn troi ychydig i'r dwyrain o gwmpas godrau y *Jebel Erbayn;* ac ar ol llifo trwy ardal porfeydd breision yr *El-Ghab*, rhed yn ogledd-orllewinol i *Jisr Hadid*. Derbynia i mewn yn y parth hwn lawer o aberoedd ac afonydd—ond eu bod yn fychain. Ychydig is law Hamath yr ymuna y fwyaf o honynt â hi. Y mae cwrs yr Orontes yn newid yn sydyn yn *Jisr Hadid*. Attelir ei chwrs gogleddol gan fynyddoedd yr Amanus, a thry hithau i'r gorllewin, a derbynia i mewn ddyfroedd y *Kara-Su*—yn yr hon y mae mwy o ddwfr nag sydd ynddi hi ei hunan—ac yna ä i mewn i ddyffryn llydan Antiochia. Y mae Stanley yn cymmharu cwrs yr Orontes yn y parth hwn i'r afon Gwy, yn Neheudir Cymru. Holl gwrs ei rhediad ydyw tua dau can milldir. Yr afonydd Syriaidd ereill, sydd o bwys, heb law y Litany a'r Orontes, ydynt y *Barada*, neu afon Damascus; y *Koweik*, neu afon Aleppo; a'r *Sajur*, yr hon a ymarllwysa i'r Euphrates. Cyfeirir at Barada dan y gair DAMASCUS. Tardda y Koweik yn yr ucheldiroedd deheuol i *Ain Tab*, o ddwy ffynnonell. Ymddengys mai hi ydyw *Chalus* Xenophon. Rhed yn gyntaf i'r dwyrain; ac yn fuan wedi hyny try i'r deheu, neu yn hytrach i'r de-orllewin, ac ä tuag Aleppo, ac yna hi a ymddolena trwy y gwastadedd sydd i'r deheu o'r ddinas hono, nes ymgolli yn morfa corsiog *El-Matkh*. Cyfyd y Sajur ychydig pellach i'r gogledd, yn y mynyddoedd sydd yn ogleddol o *Ain-Tab*. Rhed am bump ar hugain o filldiroedd i'r de-ddwyrain, yna try i'r dwyrain am o bymtheg i ugain milldir; ac wedi hyny, adnewydda ei chyfeiriad cyntaf, a llifa heibio i dref Sajur i'r Euphrates. Y mae yn afon fwy na'r Koweik, er nad ydyw ei chwrs mor faith.

LLYNAU.

Prif lynau Syria ydynt Llyn Antiochia; y Llyn Halen, rhwng Aleppo a Balis; Llyn Bahr-el-Kades, ar yr Orontes Uchaf; a Llyn Damascus. Y mae Llyn Antiochia tua deng milldir o

Digitized by Google

hyd, a saith o led, ac yn gorwedd ar du y gogledd i'r Orontes. Ymarllwysa tair afon gref iddo, sydd yn derbyn eu dyfroedd o'r dosbarth mawr mynyddig a orwedda i'r gogledd-ddwyrain ac i'r dwyrain o Antiochia. Gan fod Strabo a Xenophon yn ddistaw, ac heb ddywedyd dim am fodolaeth y fath lyn, mŷn rhai nad oedd y llyn hwn yn bod yn yr hen amseroedd; ond y mae ymchwiliadau diweddar a wnaed ar y llanerch yn tueddu i wrthbrofi y dybiaeth hon. Ar du y dwyrain a'r gogledd y rhed y dwfr i'r llyn, a rhed allan o hono ar yr ochr dde-orllewinol yn afon lydan a dofn, yr hon a elwir *Kara-Su*, ac a ymarllwysa i'r Orontes ychydig filldiroedd uwch law Antiochia. Nid oes ond ychydig o afonydd bychain yn rhedeg i'r Llyn Halen—a dim yn rhedeg allan o hono! Gorwedda rhwng Balis ac Aleppo, ac y mae y ffordd fawr rhwng y ddau le yn myned ar hyd ei lan ogleddol. Y mae yn hwy na Llyn Antiochia, ond yn gulach; gan ei fod yn dair milldir ar ddeg o hyd o'r dwyrain i'r gorllewin, a dim ond pedair o led o'r gogledd i'r deheu, yn ei fan lletaf. Am y Bahr-el-Kades, y mae yn llai nag un o'r ddau lyn blaenorol. Dywed rhai ei fod yn wyth milldir o hyd a thair o led, tra y mŷn ereill nad ydyw ond chwech o hyd a dwy o led. Ymddengys na fesurwyd ef erioed yn fanwl. Tybia Pococke mai o ffurfiad diweddar y mae; ond ymddengys mai ei unig reswm dros y dybiaeth hon ydyw distawrwydd hen ysgrifenwyr; ond o'r braidd y mae hyny yn ddigon i brofi ei gywirdeb. O'r bron y mae yn briodol galw Llyn Damascus yn llyn o gwbl, gan nad ydyw nemawr amgen na chorsle lleidiog. Yn ol y Milwriad Chesney, y mae yn naw milldir o hyd, wrth ddwy o led; ond ymddengys fod ei faint yn amrywio yn fawr yn ol fel y bydd y tymmorau, ac yn ol fel y defnyddir y dwfr i ddyfrhau y tir ar hyd cwrs y Barada. Dywed y teithiwr diweddar, Porter, yr hwn a ddilynodd Barada i'w tharddiad, ei fod yn ei chael yn ymranu ychydig filldiroedd is law Damascus; a sylwa hefyd fod pob cangen yn terfynu mewn corsle gwahanol; tra y mae afon gymmydogaethol, sef yr *Awaadj*, yn ymgolli mewn trydydd corsle, gwahanol i'r ddau arall.

Y GWASTADEDD MAWR.

Diammheu mai y rhan fwyaf pwysig o Syria, ac, ar y cyfan, y gyfran sydd yn cyfansoddi nodwedd mwyaf tarawiadol y wlad, ydyw y dyffryn mawr sydd yn ymestyn o wastadedd *Umk*, ger llaw Antiochia, hyd y ceunant cul, i'r hwn y disgyna y Litany, yn lledred 33° 30′. Y mae y dyffryn hwn yn rhedeg yn agos yn gyfochrog â'r arfordir Syriaidd, ac yn mesur o ddeutu dau cant a deg ar hugain (230) o filldiroedd o hyd; ond y mae ei led yn amrywio o chwech neu wyth i bymtheg neu ugain milldir. Adnabyddid y gyfran fwyaf deheuol o hono gan yr hynafiaid wrth yr enw *Cœle-Syria*. Y mae y gyfran hon yn fwy na chan milldir o hyd, ac yn terfynu mewn cyfres o fryniau ychydig i'r deheu o Hems; ac yn y fan hono y mae cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol y dyffryn yn terfynu, ac y dechreua gymmeryd cyfeiriad i'r gogledd-orllewin. Y mae y dyffryn isaf, o Hems i lawr, yn lletach—ac yn fwy bras a chynnyrchiol, a siarad yn gyffredinol. Dyma lle yr oedd "Hamath Fwyaf" (*Amos* vi. 2)—yr *Hamah* bresennol; ac yma hefyd yr oedd Apameia—dinas nad oedd ond ychydig yn ol i Antiochia, wedi ei hamgylchu gan borfeydd breision, lle yr arferai Seleucus Nicator, yn ol Strabo, borthi nifer dirfawr o gawrfilod a meirch. Y mae yr oll o'r parthau hyn yn ffrwythlawn, gan eu bod yn cael eu dyfrhau, nid yn unig gan yr Orontes, ond hefyd gan lawer o fân afonydd ereill sydd yn rhedeg iddi o'r mynyddoedd sydd yn amgau y dyffryn o bob tu.

UCHELDIROEDD Y GOGLEDD.

Nid ydyw Syria Ogleddol, yn enwedig y dosbarth a elwir *Commagênê*, rhwng y Taurus a'r Euphrates, wedi ei harchwilio yn fanwl. Ymddengys mai ucheldir ydyw, yn gynnwysedig o ganghenau o Syria, mewn cyssylltiad â'r Taurus a'r Amanus, â dyffrynoedd culion rhyngddynt, a'r rhai hyny yn ymagor allan i wastadeddau diffrwyth a llwm. Nid ydyw y dyffrynoedd eu hunain yn hynod o ffrwythlawn. Dyfrheir hwynt gan afonydd bychain, yn y rhai y mae cyflawnder o bysgod; y rhai gan mwyaf a lifant i'r Orontes neu yr Euphrates. Ymuna nifer o'r rhai mwyaf canolig o honynt, fodd bynag; a gwnant i fyny afon Aleppo, yr hon, fel y rhoddwyd ar ddeall o'r blaen, sydd yn ffurfio llyn neu gorsle, lle y collir ei dyfroedd trwy fygdarthiad ac achosion ereill. Ar lenydd yr Euphrates y mae darn o dir bras lle y mae cyflawnder o bob llysieuaeth; ond y mae y wlad oddi yno i ddyffryn yr Orontes o nodwedd lom a digoed, oddi eithr yn nghymmydogaeth y trefydd, lle y diwyllir coed ffrwythlawn, ac y gwelir gerddi a pherllanoedd lawer. Nid ydyw y gyfran helaethaf o'r ardal hon ond lle i gadw defaid; ac y mae yr olwg arni yn fwy anrheithiedig fel yr eir yn mlaen i'r deheu, lle y mae yn graddol ymuno â'r anialwch. Y mae yr ucheldir yn y lle uchaf arno, rhwng y ddwy afon, yn fil a phum cant o droedfeddi o uchder; a deuir i'r uchder hwn yn fuan ar ol gadael yr Euphrates; ond y mae yn graddol iselhau tua'r gorllewin.

YR ANIALWCH DWYREINIOL.

I'r dwyrain oddi wrth y gadwen fewnol o fynyddoedd, ac i'r deheu oddi wrth y tir diwylliedig o amgylch Aleppo, y mae yr anialwch mawr Syriaidd, yr hwn sydd yn ucheldir sych, heb gynnyrchu fawr o ddim ond ychydig dwmpathau o wermod, a phlanhigion aroglus ereill a dyfant yn yr anialwch. Y mae rhyw fryniau caregog, yma a thraw, heb fod yn uchel iawn, yn croesi yr ardal lom a diffrwyth hon; ond ychydig o wlaw a ddisgyna yno, ac o ganlyniad nid oes afonydd yn y lle. Ceir yno ambell ffynnon o ddwfr halenaidd i gyflenwi angen y boblogaeth grwydrol. Gydag anhawsder y gellir teithio trwy y fro hon; ac nid oes mesuriad teg a manwl wedi ei wneuthur o'r lle erioed. Y llanerch mwyaf ffrwythlawn yn yr anialwch ydyw yr hwn sydd o gylch Palmyra, neu Tadmor, lle y mae cyflawnder o fân ffrydiau, a helaethrwydd o balmwydd yn tyfu. Gwel TADMOR. Tua'r rhan fwyaf gorllewinol o'r anialwch, ar hyd godrau y mynyddoedd sydd yn ei derfynu yno, y mae y tir yn lled gynnyrchiol, yn cael ei ddyfrhau gan afonydd a lifant yn ddwyreiniol o'r mynyddoedd; y rhai, ar ol rhedeg yn mlaen, rhai fwy ac ereill lai o ffordd, a ymgollant yn yr anialwch. Y mwyaf adnabyddus, a'r mwyaf ffrwythlawn o'r dosbarthiadau hyn, ydyw gwastadedd Damascus—*El-Ghutah* ac *El-Merj* yr Arabiaid. Nid oes dim yn debyg i'r ardal hon i'w chael yn yr holl barthau hyn, gan nad oes un afon yn rhedeg drwyddynt a ddeil gymmhariaeth â'r Barada; ond lle bynag y croesir y mynyddoedd hyn i'r ochr arall, fe

Digitized by Google

geir fod yno diriogaeth ddiwylliedig o amgylch eu godrau; tyfir ŷd yno mewn rhai manau, ac y mae yno ddigonedd o goed olewydd, yn ol tystiolaeth Burckhardt a Pococke. Yn mhellach o'r bryniau y mae pob peth yn noethlwm ac anrheithiedig—yn ddiffaethwch anial a sych, fel gorynys Sinai, a'r tir yn raianog a marlog, ac ambell ddarn o hono yn dywodlyd.

Y PRIF DDOSBARTHIADAU.

Yn ol Strabo, yr oedd Syria Briodol wedi ei rhanu i bump o ddosbarthiadau, fel y canlyn:—1. *Commagênê;* 2. *Cyrrhestica;* 3. *Seleucis;* 4. *Cœle-Syria;* 5. *Damascênê*. Ond os cymmerir ei therfynau, fel y cyfeiriwyd o'r blaen, y mae yn rhaid chwanegu at y dosbarthiadau hyn dri ereill: *Chalybonitis*, neu y wlad o amgylch Aleppo; *Chalcis*, ardal fechan i'r deheu oddi yno, o gwmpas y llyn yn mha un y terfyna afon Aleppo; a *Palmyrênê*, neu yr anialwch a ystyrir yn anialwch Syriaidd. Y mae Commagênê yn gorwedd yn y gogledd. Ei phrifddinas oedd Samosata. Yr oedd ei thiriogaeth yn weddol gynnyrchiol, ond yn fychan; a chesglir oddi wrth hyn nad oedd yn cyrhaedd is law *Ain-Tab*. Yn *Ain-Tab*, neu ychydig yn uwch i fyny o bossibl, y dechreuai Cyrrhestica; a derfynid ar du y gogledd gan Commagênê, ar y gogleddorllewin gan Amanus, y gorllewin a'r de-orllewin gan Seleucis, ac ar du y deheu gan Chalybonitis. Yr oedd y ddwy diriogaeth yma yn cyrhaedd hyd yr Euphrates. Cafodd Cyrrhestica ei henw oddi wrth ei phrifddinas, sef Cyrrhus; yr hon, fel yr ymddengys, ydyw y *Corus* ddiweddar. Ac yma yr oedd Hierapolis, Batnæ, a Gindarus. Ymunai Chalybonitis â Cyrrhestica yn y deheu, a gorweddai rhwng yr ardal hono a'r anialwch. Ymestynai, dybygid, o'r Euphrates hyd i fynydd St. Simeon. Cafodd ei henw, fel Cyrrhestica, oddi wrth ei phrifddinas, yr hon a elwid Chalybon—enw sydd yn awr wedi llithro i *Haleb*, neu Aleppo. Yr oedd Chalcidicé i'r deheu oddi wrth y parth mwyaf gorllewinol o Chalybonitis, ac enwyd hithau ar enw ei phrifddinas, sef Chalcis; ac yr oedd hi ychydig i'r deheu o'r llyn yn mha un y terfyna yr afon Aleppo. Gorweddai Seleucis rhwng Cyrrhestica, Chalybonitis, a Chalcis ar un llaw, a Môr y Canoldir ar y llall. Yr oedd hon yn dalaeth fawr, ac yn cynnwys pedair o is raniadau; sef, Seleucis Briodol, Antiochis, Laodicênê, ac Apamênê. Y mae Cœle-Syria i'r deheu o Apamea, yn fath o barhâd o'r dyffryn mawr, ac yn cyrhaedd o Hems i'r ceunant lle y terfyna y dyffryn. Prif dref y diriogaeth hon ydoedd Heliopolis (*Baalbec*). Cynnwysai Damascênê yr holl dir diwylliedig rhwng y mynyddoedd noethlym sydd yn myned oddi wrth Anti-Libanus yn lledred 33° 31′, a'r bryniau sydd yn cau i mewn ddyffryn yr Awaj ar du y deheu. Gorweddai yn ddwyreiniol o Cœle-Syria, ac i'r deorllewin o Palmyrênê. Cymmhwysid yr enw Palmyrênê at yr holl anialwch Syriaidd. Terfynid ef ar du y dwyrain gan yr Euphrates, ar y gogledd gan Chalybonitis a Chalcidicé, ar y gorllewin gan Apamênê a Cœle-Syria, ac ar du y deheu gan anialwch mawr Arabia.

EI HANES.

Ymddengys fod Syria wedi ei phoblogi ar y cyntaf gan ddisgynyddion Ham. Y mae y cenhedloedd Canaaneaidd—yr Hethiaid, yr Ieswliaid, a'r Amoriaid, &c.—yn cael eu cyssylltu yn yr Ysgrythyrau gyda'r Aipht ac Ethiopia, Cus, a Misraim (*Gen.* x. 6 a 15—18); ac hyd yn oed yn annibynnol ar y dystiolaeth hon, ymddengys fod digon o reswm dros gredu fod y cenhedloedd y cyfeirir atynt yn dal cyssylltiad agos â'r Cusiaid. Yr oedd y llwythau hyn, nid yn etifeddu Palestina yn unig, ond hefyd Syria Isaf, mewn adeg foreu iawn, fel y gellir casglu oddi wrth y ffaith fod Hamath wedi ei threfnu iddynt yn Genesis: *pen.* x. 18. Wedi hyny, ymddengys iddynt ddyfod i feddiant o Syria Uchaf hefyd; o herwydd pan y darfu i'r Assyriaid yru yn mlaen eu gorchfygiadau y tu hwnt i'r Euphrates, hwy a gawsant fod yr Hethiaid wedi ymsefydlu mewn nerth ar lan ddeheuol yr Afon Fawr. Wedi i beth amser fyned heibio, chwanegwyd at rifedi y dyfodiaid cyntaf, y rhai, i raddau pell, oeddynt yn bobl o arferion crwydrol, trwy i rai o'r hiliogaeth Semiaidd ymgymmysgu â hwynt; y rhai a ddaethant, dybygid, o'r de-ddwyrain. Gwasanaetha teulu Abraham, ag yr oedd eu preswylfod dechreuol yn Babilonia, fel enghraifft o duedd ymfudol a chrwydrol y cyfnod. Esampl arall ydyw Cedorlaomer a'r brenhinoedd cynghreiriol; o ba rai yr oedd un o leiaf, sef Amraphel, yn Semiad. Hwyrach fod y mudiad hwn wedi dechreu cyn dyddiau Abraham; ac o blegid hyny fod amryw o enwau Semiaidd ar lawer o breswylwyr a ddaethant gyntaf i'r wlad; megys Abimelech, Melchisedec, Eleazar, &c. Yr unig dref Syriaidd y cyfeirir yn bendant ati y pryd hwn oedd Damascus (*Gen.* xiv. 15; xv. 2); yr hon, fe ymddengys, oedd yn lle o ryw gymmaint o bwys mor foreu a hyny. Dywed un traddodiad fod Abraham wedi bod yn frenin Damascus am ryw gymmaint o amser; ond y mae hyn yn annheilwng o grediniaeth. Yn nesaf at Damascus y mae yn rhaid ystyried Hamath, yr hon a grybwyllir gan Moses fel lle hollol adnabyddus: *Num.* xiii. 21; xxxiv. 8. Yr oedd Syria y pryd hwn, ac am lawer o ganrifoedd ar ol hyny, dybygid, yn cael ei dosbarthu yn fân deyrnasoedd. Nodir amryw o honynt yn yr Ysgrythyrau, megys Damascus, Rehob, Maachah, Sobah, a Gesur, &c. Sonir yn achlysurol hefyd am "frenhinoedd yr Hethiaid" a "brenhinoedd Syria" (1 *Bren.* v. 29; 2 *Bren.* vii. 6)—geiriau sydd yn arwyddo fod y wlad hono wedi ei dosranu yn mysg lliaws o fân benaethiaid; yr hyn a gadarnheir yn dra eglur gan yr arysgrifau Assyriaidd. Ar amrywiol adegau, yr oedd gwahanol daleithiau yn meddu rhyw fath o uchafiaeth; ond nid yn ddigon cryf i sefydlu awdurdod dros y lleill.

O dan Dafydd y daeth yr Iuddewon i wrthdarawiad gyntaf â'r Syriaid wrth yr enw hwnw. Rhaid fod Iosuah, pa fodd bynag, wedi bod yn rhyfela gyda'r penaethiaid Syriaidd, â pha rai y bu yn ymryson ynghylch y meddiant o'r wlad o gwmpas Lebanon a Hermon: *Ios.* xi. 2—18. Yn ol pob arwyddion, ni aflonyddwyd ar y Syriaid ar ol hyn nes y dechreuodd Dafydd ei ryfeloedd ymosodol arnynt. Hawliai derfynau yr Euphrates, a addawsai Duw i Abraham (*Gen.* xv. 18); a gwnaeth Dafydd ryfel ar Hadadezer, brenin Sobah, yr hwn a orchfygwyd ganddo mewn brwydr fawr. Lladdodd ddeunaw mil (18,000) o'i wŷr, a chymmerodd oddi arno fil (1,000) o gerbydau, saith gant (700) o farchogion, ac ugain mil (20,000) o wŷr traed: 2 *Sam.* viii. 3, 4, 13. Ymdrechodd Syriaid Damascus i amddiffyn brenin Sobah, ond gorchfygwyd hwythau hefyd gyda cholled fawr (*adn.* 5); a darfu i'r dyrnod eu gwanychu i'r fath raddau

Digitized by Google

nes eu gorfodi i ymostwng yn fuan, a bod yn ddeiliaid i Dafydd: *adn.* 6. Nid oedd Sobah, pa fodd bynag, wedi ei chwbl ddarostwng etto. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, penderfynodd yr Ammoniaid fyned i ryfel â Dafydd, a gwnaethant appeliad at y Syriaid am gynnorthwy: anfonodd Sobah a Beth-Rehob allan ugain mil (20,000) o wŷr traed, a dwy deyrnas Syriaidd arall dair mil ar ddeg (13,000): 2 *Sam.* x. 6. Llwyr orchfygwyd y fyddin hon gan Ioab, ond cafodd Hadadezer gynnorthwy o Mesopotamia (*adn.* 16), ac anturiodd drydedd brwydr; yr hon hefyd a droes yn ei erbyn ef, ac a ddygodd oddi amgylch ymostyngiad holl Syria i'r penadur Iuddewig. Parhaodd yr ymostyngiad a ddechreuwyd yn y modd yma o dan deyrnasiad Solomon, yr hwn a "lywodraethodd ar yr holl deyrnasoedd, o'r afon (Euphrates) hyd wlad y Philistiaid, ac hyd derfyn yr Aipht. Yr oeddynt hwy yn dwyn anrhegion, ac yn gwasanaethu Solomon holl ddyddiau ei einioes ef;" 1 *Bren.* iv. 21. Ymddengys mai yr unig ran o Syria a gollodd Solomon oedd Damascus; lle y gosodwyd i fyny deyrnas annibynol gan Rezon, brodor o Sobah: 1 *Bren.* xi. 23—25. Ar ysgariaeth y ddwy deyrnas, yn fuan ar ol esgyniad Rehoboam i'r orsedd, ysgydwodd y gweddill o Syria yn ddiammheuol ymaith yr iau. Damascus yn awr oedd y dalaeth benaf; canys nid oedd Hamath ond ail iddi; a'r Hethiaid gogleddol, prifddinas pa rai oedd Charcemis, oedd y drydedd. Perthyna rhyfeloedd y cyfnod hwn yn fwy priodol i hanes Damascus, ac y maent wedi eu nodi yn hanes y ddinas hono. Gwel DAMASCUS. Y canlyniad o honynt oedd uno Syria gydag ymherodraeth Assyria, ac aeth wedi hyny yn eiddo i'r Babiloniaid, ar ol ymgais byr a wnaed gan yr Aiphtiaid i gael meddiant o honi, yr hwn a lesteiriwyd gan Nebuchodonosor. O fod yn meddiant y Babiloniaid pasiodd i ddwylaw y Persiaid, o dan y rhai y ffurfiai raglawiaeth mewn cyssylltiad âg Iudea, Phœnicia, a Cyprus. —"*Herod.*," iii. 91. Yr oedd ei hadnoddau yn fawr, a'i hyder ynddynt, dybygid, a gymmhellodd y rhaglaw Syriaidd, Megabazus, i gyfodi baner gwrthryfel yn erbyn Artaxerxes Longimanus, C. C. 447. Ar ol hyn nid oes nemawr o hanes Syria i'w gael hyd y flwyddyn yr ymladdwyd brwydr Issus (C. C. 333), pan y darfu i Syria ymostwng i Alexander Fawr heb ddangos un gwrthwynebiad.

Pan y bu farw Alexander, daeth Syria am y tro cyntaf yn ben ar deyrnas fawr; ac ar y dosbarthiad o'i daleithiau rhwng ei gadfridogion (C. C. 321), daeth Syria a Mesopotamia i feddiant Seleucus Nicator: ac er fod y wlad, yn yr ugain mlynedd cynnhyrfus a ddilynodd, wedi ei cholli a'i hennill amryw weithiau, gadawyd hi o'r diwedd, gyda'r eithriad o Cœle-Syria, yn nwylaw y tywysog y pennodwyd hi iddo ar y cyntaf. Yr oedd Seleucus, yr hwn yr oedd ei diriogaethau yn cyrhaedd o Fôr y Canoldir i'r Indus, ac o'r Oxus i'r Môr Deheuol, fel y credai efe, yn agored i beryglon mawrion o herwydd pellder ei brifddinas gyntaf, sef Babilon, o Wlad Groeg; gan hyny, yn ddioed ar ol brwydr Ipsus, yn C. C. 301, efe a benderfynodd sefydlu ei brifddinas yn y gorllewin; ac a sefydlodd ar Syria fel y lle mwyaf priodol a chyfaddas iddi. O Syria, o hyny allan, yr oedd yr holl deyrnas yn cael ei llywodraethu—gwlad a fuasai am amser maith yn ddarostyngedig i wledydd cryfach na hi ei hunan, ac a ddioddefasai yn drwm oddi wrth y trethoedd a godid oddi arni gan wledydd ereill, ond yn awr a ymgododd yn uchel mewn cyfoeth a llwyddiant. Yr oedd ardderchawgrwydd a moethusrwydd Antiochia yn nodedig. Yr oedd ei heolydd llydain, y rhesi o golofnau oedd ar eu hyd, ei themlau, ei cherfluniau, ei bwäau, ei phontydd, ei phalas brenhinol, a'i hamrywiol adeiladau cyhoeddus, yn gwneuthur prifddinas Syria y fwyaf ysblenydd o holl ddinasoedd y dwyrain. Ac ar yr un pryd yr oedd dinasoedd mawrion yn cael eu hadeiladu yn y taleithiau hefyd. Yr oedd Seleucia yn Pieria, ac Apameia, a'r ddwy Laodicea yn ddinasoedd a sylfaenwyd gan y Seleucidæ, fel y mae eu henwau yn arwyddo. Er mor egwan a dioglyd oedd amryw o benaduriaid y llinach hon, ymddengys fod ynddynt, fel teulu, chwaeth at adeiladu; a bod y naill ar ol y llall yn ceisio rhagori yn rhif, prydferthwch, ac ardderchawgrwydd eu hadeiladau. Yr ydys wedi cyfeirio eisoes at hanes Syria o dan y tywysogion Seleuciaidd, yn yr erthyglau ANTIOCHUS, DEMETRIUS, SELEUCUS, &c., fel nad oes angen gwneyd dim yma ond ei symio i fyny.

Y cyfnod mwyaf blodeuog oedd teyrnasiad Nicator, y sylfaenydd. Yr oedd yr ymherodraeth ar un adeg yn fawr iawn, o herwydd yr oedd yn cynnwys Asia Leiaf, ac yn cyrhaedd o'r Môr Ægeaidd hyd i India. Trefnwyd hi yn rhaglawiaethau; o ba rai yr oedd deuddeg a thrigain o nifer. Blodeuai masnach, agorwyd lleoedd masnachol, ac adnewyddwyd hen rai. Teyrnasiad mab Nicator, Antiochus I., a elwid Soter, oedd dechreuad y dadfeiliad—yr hwn a barhaodd yn mron yn ddidor o hyny allan. Ennillodd Pergamus diriogaeth oddi ar Soter, a methodd mewn ymgais a wnaed ganddo i ddarostwng Bithynia. Bu yn aflwyddiannus hefyd yn erbyn yr Aipht. O dan ei fab yntau, Antiochus II. (Callinicus), yr hwn a esgynodd yr orsedd C. C. 261, ymollyngodd yr ymherodraeth yn gyflymach. Dilynwyd gwrthryfel Parthia, C. C. 256, gan un Bactria yn C. C. 254, ac amddifadwyd y deyrnas Syriaidd o rai o'i thaleithiau goreu. Ar yr un pryd, dygwyd rhyfel yn mlaen yn erbyn yr Aipht, na chafodd Syria na mantais na chlod oddi wrtho. Cafwyd colledion ereill dan Seleucus II., olynydd Antiochus II. Tra yr ydoedd Seleucus yn yr Aipht yn ymladd yn erbyn Ptolemy Euergetes, cafodd Eumenes o Pergamus feddiant o'r rhan fwyaf o Asia Leiaf, C. C. 242; ac ynghylch yr un pryd gorchfygodd Arsaces II., brenin Parthia, Hyrcania, ac unodd hi â'i diriogaethau. Costiodd yr ymgais a wnaeth i adfeddiannu y dalaeth ddiweddaf a enwyd ei goron i Seleucus, gan iddo gael ei orchfygu a'i gymmeryd yn garcharor gan y Parthiaid, C. C. 226. Yn y teyrnasiad nesaf, o dan Seleucus III. (Ceraunus), ymddangosai pethau yn well. Adfeddiannwyd Asia Leiaf i Ceraunus gan Achæus, nai i'w wraig ef, C. C. 224; ac yr oedd yn darparu ar gyfer goresgyn Parthia, pan y gwenwynwyd ef, ac y bu farw. Am ei olynydd a'i frawd, Antiochus III., er iddo gael y cyfenw 'Mawr,' oddi wrth fawrwychedd ei anturiaethau, a llwyddiant rhai o honynt, o'r braidd y gellir dywedyd iddo wneuthur dim mewn gwirionedd i godi yr ymherodraeth o'i sefyllfa adfeiliedig, gan nad oedd ei llwyddiant yn yr Aipht, a Cœle-Syria, a Phœnicia, a Phalestina, yn ddigon o iawn am golli Asia Leiaf, yr hon y bu raid iddo ei rhoddi i fyny i Rufain er grymuso teyrnas Pergamus yn y fl.

Digitized by Google

c. c. 190. Hyd yn oed pe cawsai y fantol diriogaethol ei chadw yn fwy gwastad, yr oedd y wladlywiaeth ynfyd o wneuthur Rhufain yn elyn i'r deyrnas Syriaidd, yr hyn a briodolir i Antiochus Fawr, yn ddigon i'w restru yn mysg y tywysogion a brysurasant ddymchweliad y wlad. Y mae yn wir i'r tywysog hwn, ac iddo gael cyfiawnder, wneyd rhywbeth yn nghyfeiriad y dwyrain—os nad i yru yn ol y Parthiaid, o leiaf i amddiffyn yr ymherodraeth rhag eu hymosodiadau. Ond mewn canlyniad i'w ryfeloedd beunyddiol, a'r gorchfygiadau mynych y cyfarfu â hwynt, yn enwedig yn Raphia a Magnesia, efe a adawodd Syria yn wanach nag y cafodd hi, ac yn fwy dinerth nag y bu erioed er pan oedd yn ymherodraeth. Ychydig o ddim neillduol a ddigwyddodd yn nheyrnasiad Seleucus IV. (Philopator), ei fab a'i olynydd—yr hwn a deyrnasodd o c. c. 187 hyd 175.

Ar ol ugain mlynedd o seibiant a heddwch, hi a gryfhaodd yn ei phoblogaeth a'i chyfoeth; a darfu i Antiochus IV. (Epiphanes), brawd Philopater, anturio cyhoeddi rhyfel mawr (c. c. 171) yn erbyn yr Aipht. Ar y cyntaf, ymddangosai arwyddion y buasai yn llwyddo i orchfygu y wlad hono. Ond pan yr oedd ar roddi i fyny yr ymdrech, daeth Rhufain yn mlaen i ddefnyddio ei gallu a'i dylanwad yn erbyn Syria, ac felly amddifadwyd Epiphanes o holl ffrwyth ei fuddugoliaethau, c. c. 168. Ychydig wedi hyny gwnaed niwed mawr i Syria drwy ffolineb ac anfedrusrwydd Epiphanes ei hun. Ni bu yn foddlawn ar gyflenwi ei drysorfa trwy ysbeilio y deml yn Ierusalem; ond mewn dull rhyfygus a gwallgof efe a orchymynodd halogi y cyssegr sancteiddiolaf; ac yn y modd hwn parodd i'r Iuddewon godi mewn gwrthryfel—yr hyn a brofodd yn golled fawr i'r ymherodraeth, ac yn wanychiad pellach iddi. Ar ol marwolaeth Epiphanes, prysurodd cwymp yr ymherodraeth. Disgynodd y goron i blentyn, sef Antiochus V. (Eupator), mab Epiphanes, c. c. 164. Ymgystadlai y pendefigion am y rhaglawiaeth; ac ymddangosodd ymgeisydd arall am y goron yn mherson Demetrius, sef Seleucus IV. Dadleuai Rhufain ei hawl i weinyddu yn amgylchiadau y llywodraeth; ac yn nghanol y cythrwfl a achoswyd gan hyn, goresgynodd y Parthiaid, o dan Mithridates I., y taleithiau dwyreiniol; a gorchfygasant Media, Persia, Susiana, a Babilonia, &c., ac estynasant eu tiriogaethau yn mlaen hyd at lan yr Euphrates. Yn ofer y gwnaeth Demetrius II. (Nicator) ymgais i adfeddiannu y tiriogaethau a gollwyd yn y fl. c. c. 148. Collodd y tywysog hwn ei ryddid yn yr ymgais; tra y costiodd ymdrech cyffelyb ei fywyd i'w olynydd, Antiochus VII. (Sidetes), c. c. 128. Yn y cyfamser, cyfododd terfysgoedd mewn amryw ranau o'r deyrnas anffodus; gwrthryfelodd Compagêné, a sefydlodd ei hannibyniaeth; a dilynwyd hyn gan ryfeloedd cartrefol, llofruddiaethau, gwrthryfel yn y fyddin, &c. Ymgeisiai y gwahanol bleidiau am gynnorthwy yr Iuddewon, y rhai hyd yn hyn yr edrychid yn ddigon dirmygus arnynt. Mewn ysbaid pedwar ugain a deg o flynyddoedd, o c. c. 154 hyd c. c. 64, bu deg o benaduriaid yn teyrnasu ar y wlad. Erbyn hyn, yr oedd holl gyfoeth Syria wedi ei wastraffu; aeth llawer o hono i Rufain yn llwgrwobrwyaeth; a threuliwyd mwy, dybygid, mewn rhyfeloedd, a mwy na hyny drachefn gan y brenhinoedd mewn pob math o ddanteithion a gwastraff. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oedd Rhufain yn amlygu rhyw awydd mawr am feddiannu gwlad oedd wedi ei hanrheithio i'r fath raddau; a'r canlyniad a fu iddi gael ei meddiannu gan Tigranes, brenin Armenia, c. c. 83. Ond ni wnaed hi yn dalaeth o'r ymherodraeth Rufeinig hyd nes y llwyr orchfygwyd Mithridates, a'i gynghreirydd, Tigranes, gan Pompey, c. c. 64.

Gan fod i Syria le pwysig, nid yn unig yn yr Hen Destament, ond yn y Newydd hefyd, dylid cyfeirio at ei hanes o dan lywodraeth y Rhufeiniaid. Yr oedd rhyw bethau yn hynod yn ei sefyllfa. Tra yr oedd y wlad yn gyffredinol wedi ei ffurfio yn dalaeth Rufeinig, o dan lywodraethwyr oeddynt ar y cyntaf yn cael eu galw ar wahanol enwan, etto yr oedd ynddi ddinasoedd rhyddion, oedd yn gweinyddu eu hachosion eu hunain, yn ddarostyngedig i warogaeth a delid i'r egwyddorion ar ba rai yr oedd y Rhufeiniaid yn codi eu trethi: ac hefyd caniatawyd i amryw o fân dywysogion brodorol reoli rhanau o'r wlad, ar yr un teleran ag y goddefid i'r dinasoedd rhyddion. Y dinasoedd rhyddion hyn oeddynt Antiochia, Seleucia, Apameia, Epiphaneia, Tripolis, Sidon, a Thyrus. Y dosbarthiadau o'r wlad oeddynt Commagêné, Chalcis, Arethusa, Abilênè, Palmyra, a Damascus. Gelwid y dosbarthiadau hyn weithiau yn deyrnasoedd, a phryd arall yn daleithiau. Sefydlwyd hwy yn y parthau hyny lle y tybid fod y brodorion yn fwyaf anfoddog, ac yn ymlynu yn gryf wrth eu harferion eu hunain, ac o blegid hyny yn barotach i godi mewn gwrthryfel. Bernid fod yn angenrheidiol ymgynghori â theimladau y bobl, a gwenieithio ychydig i'w balchder cenedlaethol, a rhoddi iddynt hefyd ryw gysgod o ryddid yn y lleoedd hyny.

Yr oedd Commagêné yn deyrnas. Ymryddhaodd oddi wrth awdurdod Syria yn ystod yr helyntion diweddar a gymmerasant le yno, a daeth yn dalaeth wahaniaethol o dan lywodraeth cangen o deulu y Seleuciaid, y rhai a gymmerasant yr enwau Antiochus a Mithridates. Goddefodd y Rhufeiniaid i'r sefyllfa hon ar bethau barhau hyd y fl. B. A. 71; pan, ar farwolaeth Antiochus III., y gwnaethant Commagêné yn dalaeth; a pharhaodd i fod felly hyd B. A. 38, pryd y rhoddodd Caligula y goron i Antiochus IV. (Epiphanes), mab Antiochus III. —yr hwn a deyrnasodd hyd B. A. 72, pan y diorseddwyd ef gan Vespasian; ac o'r diwedd llyngcwyd Commagêné i fyny yn yr ymherodraeth. Yr oedd ganddo fab hefyd, a elwid Antiochus Epiphanes, yr hwn a ddyweddïwyd i Drusilla, chwaer y "brenin Agrippa," ac wedi hyny gwraig Felix, rhaglaw Iudea. O barthed i Chalcis "*ad Belum*," nid yr un ydoedd a'r ddinas a elwid ar yr enw hwnw ger Aleppo, a roddai ei enw i ddosbarth Chalcidice; ond tref lai ei phwysigrwydd yn agos i Heliopolis (Baalbec). Enwir hi yn y cyssylltiad hwn gan Strabo, a dywed Josephus ei bod yn ngodrau y Lebanon; o ganlyniad nid oes ammheuaeth am ei safle. Yr oedd yr ardal hon yn gyffredin, ac hwyrach ei bod bob amser, yn cael ei galw yn deyrnas. Yn amser Pompey, yr oedd un o'r enw Ptolemy, mab Mennæus, yn teyrnasu yno; a chaniatawyd iddo gadw meddiant o'r dref a'r wlad oddi amgylch iddi. Ei fab, Lysanias, fu ei olynydd, yr hwn a roddwyd i farwolaeth gan Antony, ar gais Cleopatra, B. A. 34; ac wedi hyny casglwyd y trethi gan Zenodorus, goruchwyliwr Lysanias.—"*Hynaf. Iudd.*," XV. 10,

Digitized by Google

*adr.* 4. Chwanegodd Augustus Chelcis at diriogaethau Herod Fawr, B. A. 22—ar farwolaeth yr hwn y disgynodd y lle, dybygid, i'w fab Phylip. Bu farw Phylip B. A. 34; yna collir golwg ar Chalcis, hyd y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Claudius (B. A. 41), pan y rhoddwyd hi i Herod, brawd Herod Agrippa I. Olynydd yr Herod hwn oedd ei nai, Herod Agrippa II., yn B. A. 49, yr hwn a'i daliodd am dair neu bedair blynedd, pan y dyrchafwyd ef i le uwch. Yna disgynodd Chalcis i ran Aristobulus, mab y brenin Herodiaidd cyntaf; a bu yn llywodraethu hyd y fl. B. A. 73. Tua'r pryd hwn peidiodd a bod yn llywodraeth wrthi ei hun; ac ymdoddodd yn y dalaeth Rufeinig Syriaidd. Bu Arethusa (y *Restun* bresennol) hefyd am beth amser yn ysgaredig oddi wrth Syria, ac yn cael ei llywodraethu gan benaethiaid y llwyth. Gorweddai y ddinas ar lan deheuol yr Orontes, rhwng Hamah a Hems, yn lled agos i'r flaenaf. Yr oedd pobl Hems (Emesa) o dan y llywodraeth hon. Nid oes ond dau o'r llywodraethwyr yn adnabyddus; sef Sampsiceramus, a Jamblichus, ei fab. Gellid meddwl fod y dywysogaeth hon yn un o'r rhai cyntaf a unwyd yn barhaol gyda'r ymherodraeth. Tetrarchaeth oedd Abilênè, a elwid felly oddi wrth Abila, ei phrifddinas. O ran ei sefyllfa, hi a orweddai i'r dwyrain o Anti-Libanus, ar y ffordd rhwng Baalbec a Damascus. Y mae yno heddyw adfeilion ac arysgrifau sydd yn nodi y fan lle y safai y brifddinas. Gelwir y pentref yn awr yn *El Suk*, ar lan yr afon Barada, yn agos i'r man lle y tardd allan o'r mynyddoedd. Nid ydyw terfynau y diriogaeth hon yn hysbys. Yn *Luc* iii. 1, y ceir y crybwylliad cyntaf am y detrarchaeth hon—lle y dywedir fod un Lysanias yn detrarch ar ddechreuad gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr. Nid oes dim mwy yn wybyddus am y Lysanias hwn; yn ddiau, nid efe oedd y Lysanias a lywodraethai yn Chalcis, o herwydd yr oedd y Lysanias hwnw wedi marw er's mwy na thrigain mlynedd cyn hyny. Yn B. A. 38, darfu i etifedd Caligula roddi tetrarchaeth Lysanias i Agrippa yr hynaf.—"*Hynaf. Iudd.*," xviii. 6, *adr.* 10. Pedair blynedd yn ddiweddarach, cadarnhawyd yr un tywysog yn y meddiant o "Abila Lysanias" gan Claudius. Yn B. A. 53, rhoddodd Claudius Abila i Agrippa yr ieuangaf; ond yn B. A. 69, darfu i Placidus, un o gadfridogion Vespasian, gymmeryd y ddinas; ac o hyny allan unwyd y lle gyda Syria. Ymddengys fod Palmyra yn meddu sefyllfa wahanol i'r taleithiau Syriaidd ereill. Nid oedd mewn un modd yn ddibynol ar Rhufain: cymmerai fantais ar ei safle, a hawliai ac ymarferai hunanlywodraethiad o'r amser yr ymddrylliodd y deyrnas Syriaidd hyd deyrnasiad Trajan. Gwnaeth Antony ymosodiad arni, c. c. 41; ond troi yn fethiant a wnaeth. Ar ol i Trajan lwyddo yn ei ymosodiadau ar y Parthiaid, rhwng y blynyddoedd 114 a 116, yr unwyd Palmyra â'r ymherodraeth. Damascus yw yr olaf o'r tywysogaethau y dylid gwneyd sylw arni yma. Ymddengys iddi gael ei gadael gan Pompey yn nwylaw tywysog Arabaidd o'r enw Aretas; yr hwn, pa fodd bynag, a dalai deyrnged am dani, ac a oddefai i'r Rhufeiniaid anfon gwarchodlu iddi pa bryd bynag yr ewyllysient wneyd hyny.—"*Hynaf. Iudd.*," xiv. 4, *adr.* 5; 11, *adr.* 7. Parhaodd pethau yn y sefyllfa hon, y mae yn dra thebygol, hyd nes y trefnwyd yr ymherodraeth gan Augustus, pan yr unwyd Damascus â thalaeth Syria. Am ysbaid y gweddill o deyrnasiad Augustus, a thrwy holl deyrnasiad Tiberius, yr oedd y trefniad hwn mewn grym; ond ymddengys yn debyg i Caligula, ar ei esgyniad i'r orsedd, ysgaru Damascus oddi wrth Syria, a'i rhoddi i ryw Aretas arall, yr hwn oedd frenin Petra, ac o'r un teulu a'r Aretas blaenorol. Y mae yr apostol Paul yn nodi y ffaith fod "Aretas y brenin" yn llywodraethu yn Damascus yn amser ei dröedigaeth ef: 2 *Cor.* xi. 32. Parhaodd yr annibyniaeth hannerog hwn, fel y tybir, yn eiddo i Damascus trwy dymmor teyrnasiadau Caligula a Claudius (o B. A. 37 hyd B. A. 54); ond daeth i derfyniad o dan Nero, pan yr unwyd y dosbarth hwn drachefn, dybygid, gyda Syria.

Gellir symio i fyny hanes Syria yn y cyfnod hwn i ychydig o eiriau. I lawr hyd frwydr Pharsalia (c. c. 48), yr oedd Syria yn lled dawel: yr Arabiaid yn unig a'i blinai, y rhai a ymosodent yn awr ac eilwaith ar ei chyffiniau. Ymdrechodd y llywodraethwyr Rhufeinig yn galed i ddyrchafu sefyllfa y dalaeth, gan gymmeryd poen i adferu y dinasoedd oedd wedi myned yn adfeiliedig o dan deyrnasiadau y Seleuciaid diweddaf. Bu y rhaglaw Gabinius, yn y blynyddoedd c. c. 56 a 55, yn hynod am ei ymdrech yn y cyfeiriad hwn. Ar ol brwydr Pharsalia, ail ddechreuodd gofidiau Syria. Rhoddodd Julius Cæsar y dalaeth i'w gâr, Sextus, c. c. 47; ond yr oedd plaid Pompey etto mor gref yn y dwyrain fel y darfu i un o honynt, Cæcilius Bassus, roddi Sextus i farwolaeth, a sefydlu ei hun yn y llywodraeth mor gadarn fel y bu yn alluog i wrthsefyll tri o raglawiaid a bennodasid gan y senedd i'w ddifeddiannu; ac nid ymostyngodd yn y diwedd ond ar delerau o'i ddewisiad ei hun. Pleidiwyd ef gan lawer o fân benaethiaid Syria, a chymmerodd rhai o'r Arabiaid crwydrol dâl ganddo am ei wasanaethu ac ymladd dan ei faner.—"*Strab.*," xvi. 2, *adr.* 10. Nid oedd Bassus ond newydd ymostwng pan y llofruddiwyd Cæsar, a phan y bu Cassius a Dolabella, cyfaill Antony, yn ymryson am Syria—ymrysonfa a derfynodd yn hunanladdiad Dolabella, c. c. 43. Gadawodd Cassius ei dalaeth, ac aeth i Philippi—lle, ar ol bod yn aflwyddiannus yn ei frwydr gyntaf, y cyflawnodd yntau hefyd hunanladdiad. Yna syrthiodd Syria i ddwylaw Antony, yr hwn a bennododd L. Decidius Saxa yn rhaglaw arni, c. c. 41. Parodd helyntion yr ymherodraeth o ddeutu y pryd hwn i'r Parthiaid wneyd ymdrech i helaethu eu tiriogaethau ar draul Rhufain; a goresgynasant Syria ac Asia Leiaf, gan orchfygu cadfridogion Antony, a bygwth cymmeryd oddi ar Rhufain ei meddiannau yn Asia. Yn c. c. 38, pa fodd bynag, gorchfygwyd y Parthiaid gan Ventidius; lladdwyd Pacorus, eu tywysog coronog, ac adfeddiannwyd i Rufain ei hen derfynau. Bu tymmor o dawelwch ar ol hyn. Llywodraethwyd Syria yn heddychol gan y swyddogion a bennodwyd gan Antony, o c. c. 38 hyd c. c. 31; ac ar ol ei orchfygiad ef yn Actium, a'i farwolaeth yn Alexandria, yn y flwyddyn olaf a nodir, gan y sawl a bennododd Augustus wedi hyny. Yn y flwyddyn c. c. 27, y cymmerodd y dosraniad ffurfiol o'r taleithiau le rhwng Augustus a'r senedd; ac o'r pryd hwnw y gellir dyddio dechreuad y gyfundrefn ymherodrol o lywodraethu. Parhaodd Syria i gael ei llywodraethu gan fath o raglawiaid. Yn ystod y cyfnod hwn ymeangid neu cyfyngid y terfynau, yn ol fel

Digitized by Google

yr ewyllysiai yr ymherawdwyr anrhegu y tywysogion brodorol â rhanau o'r wlad. Yr oedd Iudea, pan yn unedig yn y modd hwn gyda Syria, mewn sefyllfa neillduol. Mewn rhan o herwydd ei phellder oddi wrth y brifddinas Syriaidd, Antiochia—ac mewn rhan, yn ddiammheu, o herwydd nodwedd neillduol ei phobl—bernid mai gwell oedd ei gwneyd mewn rhyw ystyr yn dalaeth ar wahân. Pennodwyd rhaglaw arbenig i'w llywodraethu, yr hwn oedd i fod yn ddarostyngedig i lywodraethwr Syria; ond o fewn ei dalaeth ei hun yr oedd yn meddu ar gryn allu. Parhaodd Syria heb i un terfysg difrifol ddigwydd ynddi, o'r adeg y danfonwyd y Parthiaid oddi yno (C. C. 38) hyd doriad allan y rhyfel Iuddewig, yn B. A. 66. Ymwelwyd â Syria gan Augustus, C. C. 19; ac yn B. A. 18—19 gan Germanicus, yr hwn a fu farw yn Antiochia. Bu yn Syria newyn tost yn B. A. 44—47. Ychydig cyn hyny yr oedd Cristionogaeth wedi dechreu ymdaenu yno, mewn rhan trwy offerynoliaeth y "rhai a wasgarasid" yn amser erledigaeth a llabyddiad Stephan (*Act.* xi. 19), ac mewn rhan hefyd trwy ymdrechiadau Paul: *Gal.* i. 24. Daeth eglwysi Crist yn Syria yn fuan i'w rhestru yn mysg y rhai mwyaf blodeuog: *Act.* xiii. 1; xv. 23, 35, 41, &c. Yma y dechreuwyd galw dysgyblion Crist yn *Gristionogion*—mewn gwawd, y mae yn ddiau, ar y cyntaf; ond enw y daethant i ymfalchïo ac i ymffrostio ynddo. Cyhuddai rhai o'r hynafiaid eglwysi Syria o fod yn llac mewn ffydd a moesau; yno mae'n wir y magwyd Lucian a Paulus hefyd, ond y mae yn wir mai yno yr ymddangosodd ac y blodeuodd Ignatius, Ephraem, Theophilus, a Balylas. Dioddefodd Cristionogion Syria lawer o erledigaethau llymdost.

Parhaodd Syria yn dalaeth o'r ymherodraeth Rufeinig am y canrifoedd cyntaf o'r cyfnod Cristionogol. Ond yn niwedd y drydedd, ac yn nechreu y bedwaredd ganrif, dechreuodd y Saraceniaid, neu breswylwyr yr anialwch Arabaidd, wneuthur eu hymddangosiad—weithiau yn y llengoedd Rhufeinig, ac weithiau yn ymladd yn eu herbyn. Ond cyn i Syria syrthio i afael y bobl hyn, cafodd unwaith yn rhagor deimlo oddi wrth allu y Persiaid. Pan y daeth y wlad yn eiddo y Saraceniaid, ystyrid hi yn un o daleithiau cyfoethog ymherodraeth Twrci. Y mae o hyny allan wedi cael ei llywodraethu gan raglawiaid Tyrcaidd mewn dull llygredig a gorthrymus, fel taleithiau Tyrcaidd ereill. O ddeutu canol y ganrif ddiweddaf, gorfu i'r Tyrciaid ganiatau i Daher, penaeth Arabaidd galluog, brydles flynyddol ar eu tiriogaethau; ac yna sicrhawyd hyny i'w olynydd: ond ar ol hyny, modd bynag, ymosododd y Tyrciaid arno, a rhoddwyd ef i farwolaeth. Ei olynydd oedd yr enwog Djiezzar Pacha, yr hwn yn fuan a wnaeth Syria yn fath o dalaeth annibynol; ond yr oedd ei lywodraethiad yn ddiffygiol mewn amddiffyn hawliau a gwellhau sefyllfa ei ddeiliaid. Ymunodd gyda'r Saeson i wrthsefyll goresgyniad Napoleon I. Ar ol marwolaeth Djiezzar, pennodwyd Suleiman yn rhaglaw. Yn y fl. 1861, torodd yr hen gynnen allan sydd wedi arfer bod rhwng y Maroniaid a'r Drusiaid, rhai o breswylwyr y wlad; a'r canlyniad a fu i dywallt gwaed ofnadwy gymmeryd lle o bob tu.

Sidan ydyw y prif nwydd a weithir yn Syria yn bresennol; ond y mae cotwm a gwlân, gwydr, priddlestri, lledr, sebon, &c., yn cael eu gwneyd mewn amryw barthau o'r wlad. Diffyg ffyrdd yw un o'r prif anghyfleusderau yn nadblygiad ei hadnoddau masnachol. Nid oedd un ffordd i gerbyd fyned ar hyd-ddi yn holl wlad Syria hyd y flwyddyn 1863. Agorwyd un y pryd hwnw rhwng Beirût a Damascus. Nid oedd y ffyrdd ereill ond rhai cyfaddas i asynod a chamelod i'w teithio. Y mae y wlad yn gwellhau yn raddol yn yr ystyr hwn. Y mae sectau crefyddol yn lliosog yn Syria. Wrth gwrs, y mae y mwyafrif o'r boblogaeth yn Fahometiaid; ond y mae Cristionogion sydd yn perthyn i Eglwys Groeg yn rhifo tri chant a hanner o filoedd (350,000); y Maroniaid a'r Pabyddion, a rifant ddau gant a thrigain o filoedd (260,000); Iuddewon, cant a phymtheg a thrigain o filoedd (175,000); Drusiaid, wyth a deugain o filoedd (48,000); sectau llai, dwy ar bymtheg o filoedd (17,000). Y mae y boblogaeth yn un gymmysg; ond y mae y rhan fwyaf o honynt o darddiad Semitaidd—naill ai Phœniciaid, Arameaid, neu Arabaidd. Ond y mae y llywodraethwyr Tyrcaidd, pa fodd bynag, a'r Turcomaniaid a'r Kurdiaid, sydd wedi ymsefydlu yn ngogleddbarth Syria, yn perthyn i hiliogaeth y Turcaniaid. Yr Arabaeg a siaredir yn mhob man, a gellir ystyried mai hi ydyw yr iaith genedlaethol; o herwydd y mae yr hen Syriaeg, neu yr Aramaeg, wedi cwbl farw yno, oddi eithr yn mysg Nestoriaid Kurdistan. Rhifedi y boblogaeth ydyw o ddeutu saith miliwn a dau gant a hanner o filoedd (7,250,000).

Digitized by Google

# T.



TAANACH: dinas Ganaaneaidd henafol, yr enwir ei brenin yn mysg yr un brenin ar ddeg ar hugain a orchfygwyd gan Iosuah: *Ios.* xii. 21. Daeth i ddwylaw hanner llwyth Manasseh (*Ios.* xvii. 11; xxi. 25; 1 *Cron.* vii. 21), er ei bod, fel yr ymddengys, yn gorwedd y tu allan i'w derfynau, ac o fewn tiriogaeth Issachar neu Aser—y blaenaf dybygid: *Ios.* xvii. 11. Rhoddwyd hi i'r Lefiaid Cohathaidd: *Ios.* xxi. 25. Ymddengys fod Taanach yn lle cryf o ran ei safle, neu ynte fod y tir o gwmpas y ddinas yn fanteisiol i'w dull hwy o ymladd, o herwydd llwyddodd y brodorion i amddiffyn eu hunain yno (*Ios.* xvii. 12; *Barn.* i. 27); ac yn ymdrechfa fawr y Canaaneaid o dan Sisera hefyd yn erbyn Deborah a Barac, gwnaethant eu pencadlys yn Taanach: *Barn.* v. 19. Ar ol y gorchfygiad hwnw, y mae yn debyg i Ganaaneaid Taanach gael eu gorfodi, fel y gweddill o'u cydwladwyr, i dalu teyrnged (*Ios.* xvii. 13; *Barn.* i. 28); ond ymddengys iddynt aros yn y dref hyd y diwedd. Enwir Taanach yn mron yn wastad gyda Megido; a diau mai y ddwy hyn oedd prif drefi y dosbarth ffrwythlawn hwnw o'r wlad a ffurfiai y rhan orllewinol o wastadedd mawr yr Esdraelon: 1 *Bren.* iv. 12. Y mae y lle hwn ar gael etto. Nid oes mwy o sicrwydd am safle un man yn y rhanau hyny o'r wlad nag sydd o barthed i'w safle hi—mai yr un ydyw y *Ta' annuck* ddiweddar a'r Taanach gynt. Yr oedd y fan hon yn adnabyddus i Eusebius, yr hwn a wna grybwylliad am dani ddwywaith yn ei "*Onomasticon*" fel treflan fawr, yn sefyll ychydig filldiroedd o Legio—yr hen Megido. Gwyddai hap-Parchi, yr hen deithiwr Iuddewig, hefyd am dani; ac y mae yn sefyll etto ynghylch pedair milldir i'r de-ddwyrain o *Lejjûn*, ac yn parhau i gadw ei hen enw, heb fod ond ychydig iawn o gyfnewidiad ynddo. Sylfaenesid yr hen dref ar fryn ar derfyn penrhyn, a red yn ogleddol o fryniau Manasseh i'r gwastadedd. Y mae y pentref diweddar ar odrau de-orllewinol y bryn. Gwel "*Robinson,*" ii. 316, 329.

TAANATH-SILOH: lle na wneir crybwylliad am dano yn y Beibl ond yn unig yn *Ios.* xvi. 6. Enwir ef fel un o derfynau llwyth Ephraim—ond pa derfyn, nis gellir penderfynu gyda sicrwydd. Yr oll a ellir ei ddyweyd yw, yr enwir lleoedd yma yn mlaen o'r gorllewin tua y dwyrain, a bod Ianohah i'r dwyrain o Taanath-Siloh. Ac â hyn y mae adroddiad Eusebius yn cyttuno, yr hwn a ddywed fod Ianohah yn ddeuddeg, a Thenath, neu fel ei gelwid y pryd hwnw Thena, yn ddeg o filldiroedd Rhufeinig (y mae milldir Rufeinig yn llai o 142ain o latheni na milldir Saesnig) yn ddwyreiniol o Neapolis. Y mae yn dra thebyg mai yr un ydoedd Ianohah a *Yanûn*, yr hon sydd ar y ffordd o *Nablus* i ddyffryn yr Iorddonen. Ymddengys fod yno le o'r enw *Tâna* neu *Ain Tâna* hefyd yn y cyfeiriad hwnw. Gwna y teithwyr Robinson a Barth grybwylliad am le o'r enw. Yn y rhestr a roddir o enwau lleoedd yn y "*Talmud,*" y mae Taanath-Siloh yn cael ei chyfrif yr un a Siloh. Barna Kurtz hefyd mai yr un oeddynt. Ei farn ef yw, mai Taanath oedd ei enw Canaaneaidd, ac mai Siloh oedd ei enw Hebreaidd, yr hwn a roddwyd arno i arwyddo 'gorphwysfa,' neu y man lle y gorphwysodd y tabernacl ar ol cwblhau gorchfygiad y wlad. Er fod y dyfaliad braidd yn gywrain, nid ydyw ond tybiaeth. Nid oes un dystiolaeth bendant wedi ei dwyn yn mlaen i brofi ei gywirdeb; ac heb law hyny y mae yn groes i dystiolaeth Eusebius ynghylch safle Ianohah, ac mor bell ag y gellir casglu, safle Michmethah hefyd, a grybwyllir ynghyd â Taanath-Siloh yn *Ios.* xvi. 6.

TABBAOTH: teulu o'r Nethiniaid ydoedd meibion Tabbaoth, a ddychwelasant o Babilon gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 43; *Neh.* vii. 46.

TABBATH. Yn *Barn.* vii. 22 yn unig y sonir am y lle hwn, pan y disgrifir ffoedigaeth y Midianiaid ar ol ymosodiad nosawl Gedeon arnynt. Ffoisant "hyd Beth-sittah, yn Sererath, hyd fin Abel-meholah, hyd Tabbath." Fe allai mai yr un oedd Beth-sittah a *Shuttah*, yr hon a orweddai yn y gwastadedd agored rhwng *Jebel Fukûa* a *Jebel Duhy*, tua phedair milldir i'r dwyrain o *Ain Jalûd*—y lle, dybygid, yr ennillodd Gedeon ei fuddugoliaeth. Diammheu fod Abel-meholah yn nyffryn yr Iorddonen, er ei bod o bossibl o ddeutu wyth milldir i'r deheu o Beth-sean, lle y mynai Eusebius a Jerome ei bod. Ymddengys mai ychydig o ymdrech sydd wedi ei wneyd i gael hyd i Tabbath; ac nid oes un enw tebyg iddo i'w weled ar y mapiau. Y tebycaf ydyw *Tabukhat-Fahil;* yr hwn, yn ol Robinson, sydd fryn tua chwe chan troedfedd o uchder, yr hwn y gellir ei ganfod yn eglur o bob parth o'r rhan hono o dyffryn yr Iorddonen.

TABEAL. Un o lwyth Ephraim, fe allai, oedd mab Tabeal, yn myddin Phecah mab Remaliah; neu Syriad yn myddin Resin, pan aethant i fyny i warchau ar Ierusalem yn nheyrnasiad Ahaz: *Esa.* vii. 6. Y mae ffurf Aramaidd yr enw braidd yn ffafriol i'r dybiaeth ddiweddaf. Y mae Rashi yn troi yr enw yn *Rimla*—wrth yr hwn y deallai Remaliah.

TABEEL: swyddog perthynol i lywodraeth Persia yn Samaria yn nheyrnasiad Artaxerxes: *Ezra* iv. 7. Y mae ei enw yn rhyw arwydde

Digitized by Google

mai Syriad oedd efe; o herwydd y mae mewn gwirionedd yr un enw ag enw gwasanaethwr Resin, yr hwn a elwir yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrythyrau *Tabeal.* A'r hyn a ymddengys yn brawf chwanegol o hyn ydyw, fod y llythyr a anfonwyd ganddo ef a'i gymdeithion at y brenin wedi ei ysgrifenu yn yr Aramaeg.

TABERAH: enw ar le yn anialwch Paran, wedi ei roddi arno o herwydd y ffaith fod "tân yr Arglwydd" wedi ei gynneu yn mysg y bobl yn y lle hwn: *Num.* xi. 3; *Deut.* ix. 22. Crybwyllir am y lle yn mysg rhestr y gwersylloedd yn *Num.* xxxiii.

TABERNACL (אהל מועד: *σκηνή: tabernaclum, y babell*): Pabell y cyfarfod, yn deilliaw o'r gwreiddyn יעד, i sefydlu neu bennodi amser a lle cyfarfod. Y mae Kimchi yn esbonio y gair fel y canlyn:—"A alwyd אהל מועד, am fod yr Israeliaid yn ymgynnull ac yn cyfarfod ynghyd yno, ac hefyd am ddarfod i'r Arglwydd gyfarfod Moses yno." Gelwir y tabernacl hefyd yn "babell y dystiolaeth"—o עוד, *testari, i ddwyn tystiolaeth.*

GWNEUTHURIAD Y TABERNACL.

Yr awdurdodau ysgrifenedig am wneuthuriad y tabernacl ydynt yr hyn a geir yn *Exod.* xxvi., ac a ail adroddir, gydag ychydig bach o dalfyriad, yn *pen.* xxxvi. 8—38. Yr ail ydyw yr hanes a roddir gan Josephus ["*Hynaf. Iudd.,*" iii. 6], yr hwn sydd mor agos i fod yn ail adroddiad o'r hyn a geir yn y Beibl fel y gellir o'r braidd sicrhau nad oedd ganddo ef un awdurdod gredadwy dros yr hyn a ysgrifenai, yn amgen nag sydd o fewn ein cyrhaedd ninnau. Y mae y cyfeiriadau ereill a ganfyddir yn y "*Talmud,*" ac yn ngweithiau Philo, yn ychydig ac aneglur, ac heb law hyny, o awdurdod mor ammheuol, fel nad ydynt mewn gwirionedd yn chwanegu dim at ein gwybodaeth. Buasai disgrifiadau ysgrifenedig o'r fath, dybygid, heb ryw weddillion yn aros, yn annigonol i roddi amgyffrediad cywir am dano pe buasai yr adeilad o arddull dyrus; ond yr ydoedd trefniadau y tabernacl o arddull mor syml fel y gellir cael dirnadaeth led dda yn ei gylch oddi wrth y darluniad a geir yn y Beibl. Yr oedd pob mesuriad pwysig ynddo naill ai yn bum cufydd, neu yn bum cufydd wedi ei liosogi *(multiple)*, a holl drefniadau y cynllun naill ai yn betryal neu yn ddwbl petryal, fel nad oes un anhawsder i osod y cwbl ynghyd.

Yr oedd cynteddfa allanol y tabernacl yn cael ei amgylchu gan gysgodleni, pum cufydd o uchder, yn cael eu cynnal gan golofnau pres pum cufydd o bellder oddi wrth eu gilydd, wrth y rhai y cyssylltid y lleni â bachau a chylchau o arian: *Exod.* xxvii. 9, &c. Yr oedd y ddyfodfa yn ochr ddwyreiniol y gynteddfa, yn ugain cufydd ei lled, ac yn cael ei chau i fyny â lleni o lian main cyfrodedd, wedi ei weithio â gwaith edau a nodwydd, o'r lliwiau mwyaf ysblenydd; ac yr oedd y gwagle rhwng y cysgodleni hyn yn ddau betryal, o hanner can cufydd, neu bymtheg troedfedd a thrigain ar du y gogledd a'r deheu, a chan cufydd, neu gant a hanner o droedfeddi i'r dwyrain a'r gorllewin. Yn yr hanner allanol, neu ddwyreiniol, yr oedd allor y poethoffrwm, yr hon a ddisgrifir yn *Exod.* xxvii. 1—8; a rhyngddi hi a'r tabernacl yr oedd y noe bres, yn yr hon y golchai yr offeiriaid eu dwylaw ar eu mynediad i mewn.—"*Hyn. Iudd.,*" iii. 6, *adr.* 2. Yn y petryal ar du y gorllewin yr oedd y tabernacl ei hun. Y mae yn ddigon hawdd cael maintioli a chynllun y babell, neu y tabernacl. Dywed Josephus ["*Hynaf. Iudd.,*" iii. 6, *adr.* 3] mai deg cufydd ar hugain o hyd, a deg cufydd o led ydoedd, neu bum troedfedd a deugain o hyd, a phymtheg o led; ac y mae y Beibl hefyd yn traethu o'r bron yr un mor eglur, gan y dywedir fod muriau y deheu a'r gogledd i gael eu gwneuthur o ugain o ystyllod bob un (*Exod.* xxvi. 15, &c.), a phob ystyllen i fod yn gufydd a hanner o led; ac ar du y dwyrain a'r gorllewin, chwech o ystyllod yn cyfatteb i naw cufydd, pa rai, gyda'r colofnau yn y conglau, a'u gwnaent yn ddeg cufydd, yn ol Josephus. Yr oedd pob un o'r ystyllod i gael ei gweithio yn y gwaelod yn gymmhwys i'w rhoddi mewn morteisiau arian oedd wedi eu sicrhau yn y llawr. Yn y pen uchaf, cyssylltid hwy ynghyd â barau o goed Sittim yn rhedeg trwy fodrwyau o aur: *Exod.* xxvi. 26. Y mae Josephus a'r Beibl yn cyttuno fod pum bar o bob tu; ond y mae ychydig o anhawsder yn cyfodi, gan fod y Beibl (*adn.* 28) yn son am far canol yn cyrhaedd o'r naill ben i'r llall. Ond yr oedd i'r bar hwn bwrpas arall, dybygid.

Mor bell a hyn, gan hyny, ymddengys pob peth yn ddigon hawdd ei ddeall. Yr oedd y tabernacl yn adeilad hir-gul cyfonglog, deg cufydd ar hugain o hyd wrth ddeg o led, yn agor yn y pen dwyreiniol, ac wedi ei ranu oddi mewn i ddwy ystafell. Yr oedd y cyssegr sancteiddiolaf, i'r hwn nid äi neb i mewn—hyd yn oed yr offeiriad, oddi eithr ar amserau anghyffredinol—o ran cynllun yn ddeg cufydd ysgwâr, a deg cufydd o uchder i ben y mur. Yma yr oedd y drugareddfa, yn cael ei chysgodi gan y cerubiaid; ac yr oedd yr arch dani, yn cynnwys llechau y gyfraith. O flaen y sanctaidd sancteiddiolaf yr oedd ystafell arall, at wasanaeth yr offeiriaid, a elwid y cyssegr, yr hon oedd ugain cufydd o hyd wrth ddeg o led, a deg o uchder. Yma yr oedd y canwyllbrenau aur ar un tu, a'r bwrdd a'r bara gosod yn gyferbyniol iddynt, a rhyngddynt yn y canol allor yr arogldarth. Yr oedd nen y tabernacl yn cael ei wneyd o dair neu bedair cyfres o leni, ac y mae mesuriad dwy o honynt yn cael ei grybwyll gyda chryn fanylder yn y Beibl, a chan Josephus. Yr oedd y lleni oddi mewn o lian main cyfrodedd, ac yn ddeg mewn nifer, wedi eu gosod ynglŷn wrth eu gilydd i wneyd un llen, a phob un yn bedair cufydd o led ac yn wyth ar hugain o hyd. Yr oeddynt o amryw liwiau, ac wedi eu haddurno â "cherubiaid o gywreinwaith." Cyssylltwyd pump o honynt ynghyd trwy eu gwnïo, fel ag i ffurfio lleni mwy, pob un yn ugain wrth wyth ar hugain o gufyddau; ac unid y ddwy hyn drachefn ynghyd wrth eu defnyddio gan ddeg a deugain o ddolenau aur. Arnynt hwythau drachefn gosodid lleni o flew geifr, pob un yn bedair cufydd o led wrth ddeg ar hugain o hyd, ac yn un ar ddeg mewn nifer. Yr oeddynt hwythau hefyd wedi eu gwnïo ynghyd—chwech mewn un llen, a phump yn y llall; ac wrth eu defnyddio unid hwy ynghyd â deg a deugain o ddolenau aur. Dros y rhai hyn hefyd yr oedd lleni o grwyn hyrddod, ac yr oedd gwlân arnynt wedi ei liwio yn goch, "a thô o grwyn daearfoch yn uchaf."

Yr oedd y cyssegr sancteiddiolaf yn cael ei wahanu oddi wrth y cyssegr gan gysgodlen, a phedair colofn yn cynnal lleni—heibio i ba rai ni

Digitized by Google

oddefid i neb fyned. Ond y mae yn beth pur ryfedd fod pump o golofnau yn y fynedfa yn yr un faint o le. Nid ydyw yn debygol y buasai neb yn gosod colofn yn nghanol y fynedfa heb amcan neillduol; ac y mae yn amlwg mai yr amcan wrth osod y golofn ganol oedd i gynnal i fyny grib nen y tabernacl. Gellir cymmeryd yn ganiataol fod y pum colofn wedi eu gosod o fewn terfynau deg cufydd lled y tabernacl; sef, un yn y canol, a dau gyferbyn â dau ben y muriau, a'r ddau ereill rhyngddynt.

Y mae Josephus yn dyweyd ddwywaith [" *Hynaf. Iudd.*," iii. 6, *adr.* 4.] fod y tabernacl wedi ei ddosbarthu yn dair rhan, er nad yw yn nodi ond dwy; sef, yr *Adytum* a'r *Pronaos*. Y drydedd ydoedd y Porth, oedd yn ymestyn ar draws lled y tŷ. Wrth sôn am y pen gorllewinol, y mae y Beibl yn defnyddio y rhif liosog, fel pe buasai dwy ochr iddi. Y mae yr holl ddisgrifiad a roddir yn Llyfr Exodus mor hawdd i'w ddeall fel nad ydyw yn angenrheidiol aros yn mhellach ar hyn.

EI HANES.

Y mae hanes allanol y tabernacl yn dechreu yn *Exod.* xxv. Ceir yr hanes yn canlyn hanes rhoddiad y ddeddf (*pen.* xix.—xxiii.), ar ol gwneyd y cyfammod â'r bobl, a gweled gweledigaeth y gogoniant dwyfol: *pen.* xxiv. Bu Moses yn y mynydd am ddeugain niwrnod a deugain nos. Cyflwynwyd iddo bortread neu gynllun y tabernacl gan Dduw ei hun. Cyfarwyddwyd ef i ddewis y ddau brif gelfyddydwr i weithio allan y cynllun; sef, Bezaleel, o lwyth Iudah, ac Aholiab, o lwyth Dan: *pen.* xxxi. Ymddengys fod gwaith y bobl yn pechu gyda'r llo aur wedi peri oediad am dymmor yn nygiad y gwaith yn mlaen. Yr oeddynt megys pe wedi eu gadael am ychydig amser heb y presennoldeb dwyfol nac un arwydd gweledig o hono (*pen.* xxxiii. 3), ac mewn sefyllfa hynod o ansicr, a'r dyfodol yn dibynu ar edifeirwch y bobl. Cyfodwyd pabell i Moses ei hun, dybygid, y tu allan i'r gwersyll, yr hon oedd i fod yn y cyfamser yn "babell y cyfarfod." Yno daeth meddwl Moses i gymmundeb agosach â meddwl Duw, ac i'w adnabod yn well fel "Duw trugarog a graslawn;" (*pen.* xxxiv. 6. Ynglŷn â'r tabernacl rhagddarbodawl hwn, nid oedd ffurf arbenig o wasanaeth nac offeiriadaeth etto wedi eu cyssylltu. Elai y bobl allan ato megys at oracl: *pen.* xxxiii. 7. Yr oedd Iosuah, er ei fod o lwyth Ephraim, yn cael myned i mewn iddo: xxxiii. 11. Rhoddwyd amlinelliad drachefn o'r gyfraith, a bu Moses yn y mynydd gyda Duw eilwaith am yr un ysbaid o amser ag o'r blaen; sef, deugain niwrnod a deugain nos. Cafwyd digon o ddefnyddiau trwy gyfraniadau gwirfoddol y bobl, a mwy nag oedd angenrheidiol, tuag at gyfodi y tabernacl: *pen.* xxxvi. 5, 6. Cafwyd hefyd ddigon o weithwyr celfydd i'w gwblhau o dan arolygiaeth Bezaleel ac Aholiab. Gorphenwyd ei amrywiol ranau ar wahân; ac yna, ar y dydd cyntaf o'r ail flwyddyn ar ol y dyfodiad allan o'r Aipht, fe berffeithiwyd y tabernacl, a dygwyd yn mlaen y gwasanaeth appwyntiedig ynddo: *Exod.* xl. 2.

Yr oedd safle y tabernacl hwn yn nghanol y gwersyll; ac felly yn wahanol i'r cyntaf, yr hwn oedd y tu allan i'r gwersyll. Cyn pen mis ar ol ei osod i fyny cymmerodd y gwahanol lwythau eu lleoedd o'i gwmpas, yn ol y drefn bennodedig: *Num.* ii. 2: sef, yr offeiriaid ar du y dwyrain, a thri thylwyth ereill y Lefiaid ar yr ochrau ereill, ac yn agosaf ato. O'r tu ol iddynt, yr oedd llwythau Iudah, Zabulon, ac Isaachar, ar du y dwyrain; Ephraim, Manasseh, a Benjamin, ar du y gorllewin; Dan, Aser, a Naphtali, ar du y gogledd; a Reuben, Simeon, a Gad, ar du y deheu. Pan yr oedd y fintai fawr ar ei thaith, yr oedd safle y tabernacl, yr hwn a gludid gan y Lefiaid, yn parhau i fod yn y canol, â llwythau y dwyrain a'r deheu o'r tu blaen, a rhai y gorllewin a'r gogledd o'r tu ol: *Num.* ii. Ar y tabernacl y gorphwysai y cwmmwl arwyddluniol, yr hwn oedd yn dywyll y dydd, ac yn goch danllyd y nos: *Exod.* xl. 38. Pan godai y cwmmwl, gwyddai y llu ei fod yn arwydd iddynt i fyned rhagddynt: *Exod.* xl. 36, 37; *Num.* ix. 17. Cyhyd ag y safai y cwmmwl, pa un bynag ai am ddiwrnod, mis, neu flwyddyn, arosai meibion Israel lle yr oeddynt: *Num.* ix. 15—23. Pan symmudai y gwersyll, dylid cofio fod yr holl dabernacl yn cael ei dynu i lawr, a'i holl ranau yn cael eu cario ar fenni gan dri thylwyth y Lefiaid, sef y Cohathiaid, y Gersoniaid, a'r Merariaid; ac yr oedd "meibion Aaron" yn darparu ar gyfer symmud a gorchuddio pob peth a berthynai i'r cyssegr sancteiddiolaf â brethyn glâs: *Num.* iv. 6—15. Yn y ffeithiau neillduol cyssylltiedig â'r tabernacl, daw y prif syniad yn ei berthynas âg ef i'r golwg; sef, ei fod yn lle i ddyn gyfarfod â Duw. Yno y disgynodd yr Ysbryd ar y deg henuriad a thrigain, ac y prophwydasant: *Num.* xi. 24, 25. Oddi yno y galwyd Aaron a Miriam allan pan y gwrthryfelasant yn erbyn gwas yr Arglwydd: *Num.* xii. 4. Yno yr ymddangosodd "gogoniant yr Arglwydd" ar ol anffyddlondeb yr ysbïwyr (*Num.* xiv. 10), gwrthryfel Corah, Dathan, ac Abiram (*pen.* xvi. 19, 42), a'r pechod a gyflawnwyd yn Meribah: *pen.* xx. 6. Yno y daeth merched Salphaad â'u hachos "ger bron yr Arglwydd;" *pen.* xxvii. 2. Ac yno, pan y nesaodd Moses i mewn, y rhoddwyd y siars ddifrifol i'w olynydd: *Deut.* xxxi. 14.

Cyhyd ag y parhaodd Gwlad Canaan heb ei gorchfygu, a'r bobl mewn canlyniad yn parhau yn filwyr, symmudid y tabernacl, dybygid, o le i le, yn ol fel y digwyddai i luoedd Israel fod yn gwersyllu ar yr adeg:—yn Gilgal (*Ios.* iv. 19); yn y dyffryn, rhwng Ebal a Garizim (*pen.* viii. 30—35); wedi hyny, drachefn, yn y pencadlys yn Gilgal (*pen.* ix. 6; x. 15, 43); ac yn olaf yn Siloh: *pen.* xviii. 1. Nid ydyw y rheswm dros ddewis Siloh yn cael ei roddi. Fe allai i hyny gymmeryd lle mewn rhan o herwydd ei sefyllfa ganolbarthol, ac mewn rhan am y perthynai i lwyth galluog Ephraim. Yno y bu am ysbaid cyfnod y Barnwyr, lle yr ymgynnullai "penau tadau y llwythau" (*pen.* xix. 51), ac y deuai ynghyd y cynghorau ynghylch rhyfel neu heddwch (*Ios.* xxii. 12; *Barn.* xxi. 12), a'r dawnsiau blynyddol cyhoeddus, am yr hyn yr oedd merched Siloh yn enwog: *Barn.* xxi. 21. Yr oedd Siloh yn mhell o fod, pa fodd bynag, yr hyn y bwriedid iddi fod, sef cyssegrfa y genedl. Cadwodd yr hen grefydd yn yr uchelfeydd ei thir. Cyfodwyd allorau, er nad i aberthu ar y cyntaf (*Ios.* xxii. 26); ond wedi hyny, pa fodd bynag, defnyddid hwynt i hyny yn rhydd, ac heb betrusder: *Barn.* vi. 24; xiii. 19. Yr enwau mwyaf amlwg a roddid ar gyssegr arbenig yr Arglwydd y pryd hwn oedd 'tŷ' neu 'deml' yr Arglwydd: 1 *Sam.* i. 9, 24; iii. 3, 15. Yr oedd sefyllfa pethau yn gyfryw yn yr adeg yma fel yr oedd pob peth yn prysuro tuag at wneuthur



Digitized by Google

addoliad yr Arglwydd yn gyffelyb i addoliad Astaroth—a pha ryfedd i'r sefyllfa hon ddyfod i ben? Cymmerwyd arch yr Arglwydd, a chollodd y gyssegrfa ei ogoniant; ac ni ddarfu i'r tabernacl, er na ddinystriwyd ef, ail feddiannu ei ogoniant mwy: 1 *Sam.* iv. 22. Aeth Samuel, yr hwn a ddygasid i fyny yn y gyssegrfa, i aberthu i leoedd ereill:—yn Mispah (1 *Sam.* vii. 9); yn Ramah (*pen.* ix. 12; x. 3); ac yn Gilgal (*pen.* x. 8; xi. 15). Symmudodd y gyssegrfa, dybygid, unwaith yn rhagor. Ymddengys iddi fod am dymmor, yn nyddiau Saul, yn Nob (1 *Sam.* xxi. 1—6); yr hon a ddaeth, fel y bu yn flaenorol i hyny, yn ddinas offeiriadol. Rhaid fod lladd yr offeiriaid, a ffoedigaeth Abiathar, fodd bynag, wedi ei hysbeilio yn mhellach o'i gogoniant. Yr oedd cyn hyny wedi colli yr arch. Collodd yn awr bresennoldeb yr archoffeiriad, a chydag ef yr ephod oraclaidd, gyda'r Urim a'r Thummim: 1 *Sam.* xxii. 20; xxiii. 6. Pa beth a ddigwyddodd yn ganlynol i hyn, nis gwyddom. Ond y mae y ffaith i Israel fod yn gwersyllu, yn nyddiau olaf Saul, yn Gilboa; ac i Saul yno, er yn aflwyddiannus, ymgynghori â'r Arglwydd trwy gyfrwng yr Urim (1 *Sam.* xxviii. 4—6), yn peri i ni dybio fod y tabernacl, fel cynt, yn y gwersyll, a bod Abiathar wedi dychwelyd iddo. Aeth y tabernacl rywfodd i Gibeon: 1 *Cron.* xvi. 39. Tra yr oedd yr arch yn Ciriath-iearim, a'r tabernacl yn Gibeon, yr oedd gwasanaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen yn yr uchelfeydd: 1 *Bren.* iii. 4. Pan y cymmerwyd Ierusalem, ac y gwnaethpwyd tabernacl newydd, yn yr hwn y rhoddwyd yr arch, oedd wedi ei chymmeryd o'r hen dabernacl (2 *Sam.* vi. 17; 1 *Cron.* xv. 1), nid oedd ond ychydig o ogoniant y diweddaf yn aros. Ond yr oedd hen allor y poeth-offrwm yn cael ei chadw yn yr hen dabernacl yn Gibeon: 1 *Cron.* xxi. 29. Gweinyddai Sadoc yr archoffeiriad yn Gibeon (1 *Cron.* xvi. 39); ac yn y tabernacl diweddaf, dygid yn mlaen wasanaeth o salmau, hymnau, a cherddoriaeth, o dan arweiniad Asaph: 1 *Cron.* xvi. 4, 37. Parhaodd y ddau wasanaeth yma i gael eu cario yn mlaen ar wahân holl ddyddiau Dafydd; a chydnabyddodd Solomon gyfreithlondeb gwasanaeth y ddau le hyn ar ei esgyniad i'r orsedd: 1 *Bren.* iii. 15; 1 *Cron.* i. 3. Ond o'r diwedd, penderfynodd Dafydd yr adeiladai efe deml i'r Arglwydd; a chariwyd y penderfyniad allan gan Solomon ei fab; ac felly daeth dyddiau y tabernacl i ben.

Pa gyssylltiad bynag y gellir ei olrhain rhwng rhanau ereill ffurfwasanaeth yr Israeliaid a'r eiddo y cenhedloedd y daethant i gyffyrddiad â hwynt, yr oedd y syniad am dabernacl yn un hollol newydd. Colofn o faen oedd "tŷ Duw," sef Bethel y patriarchiaid (*Gen.* xxviii. 18, 19), neu ynte lwyn o goed: *Gen.* xxi. 33. Yr oedd temlau yr Aipht yn fawr a chywrain, wedi eu naddu allan o'r graig, neu eu hadeiladu â darnau anferth o ithfaen, mor annhebyg ag oedd yn bossib i dabernacl yr Israeliaid. Gan fod y genedl yn crwydro yn yr anialwch, ac yn symmud o'r naill le i'r llall, yr oedd angen am dŷ cyfleus i fod yn symmudol gyda hwynt.

Y mae y gair *tabernacl* weithiau yn cael ei arfer am y nef—trigle y gwynfydedigion: *Salm* xv. 1; lxi. 4; lxxxiv. 1. Dywedir yn yr Epistol at yr Hebreaid (viii. 2), fod Iesu Grist "yn weinidog y gyssegrfa, a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn;" a dywedir iddo "ddyfod yn archoffeiriad y daionus bethau a fyddent, trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hyny yw, nid o'r adeiladaeth yma;" *pen.* ix. 11, &c. Gwel hefyd *Dad.* xiii. 6; xxi. 3. Tabernacl Dafydd, yr hwn a gyfodai yr Arglwydd (*Amos* ix. 11; *Act.* xv. 16), ydyw eglwys Dduw, yr hon yw etifedd yr addewidion a wnaethpwyd i Dafydd.

TABERNACL, GWYL Y. Gwel PEBYLL, GWYL Y.

TABITHA (Ταβιθά, *ewig*), yr hon hefyd a elwir yn *Dorcas*. Dysgybles oedd hi yn Ioppa, "llawn o weithredoedd da;" yn mysg y rhai y gwneir crybwylliad neillduol am ei gwaith yn darparu dillad i'r tlodion. Tra yr oedd Pedr yn nghymmydogaeth tref Lyda, bu farw Tabitha; ac ar hyn anfonodd y dysgyblion genadwri daer ato, i ddeisyf ar yr apostol i ddyfod atynt yn ddioed. Nid yw yn hollol eglur oddi wrth yr hanes pa un a ddisgwylient hwy iddo gyflawni gwyrth ar yr achlysur, ai peidio; ai ynte disgwyl yr oeddynt am gael eu cysuro yn wyneb eu colled. Ond y mae y wyrth a gyflawnasid yn ddiweddar ar Æneas (*Act.* ix. 34), a'r ymadrodd a ddefnyddir yn *adn.* 38, braidd yn ein harwain i dybied y disgwylient iddo wneuthur gwyrth. Pan ddaeth yr apostol yno, efe a gafodd gorph y drangcedig wedi ei ddodi yn barod i'w gladdu, ac yn cael ei amgylchu gan y rhai a fuont yn derbyn caredigrwydd ac elusen ganddi. Yn ol esampl ein Harglwydd yn nhŷ Iairus (*Mat.* ix. 25; *Marc* v. 40), "Pedr, wedi eu bwrw hwy i gyd allan" a weddïodd am y cynnorthwyon dwyfol, ac a orchymynodd i Tabitha gyfodi. Hi a agorodd ei llygaid, ac a gododd yn ei heistedd; ac wedi i'r apostol afael yn ei llaw hi a adawodd ei gwely. Mynegir fod y wyrth fawr hon wedi cynnyrchu effaith anghyffredinol yn Ioppa, ac iddi fod yn foddion i ddwyn llawer i gredu yn Nghrist: *Act.* ix. 36—42.


TABOR: dinas y sonir am dani yn y rhestr sydd yn 1 *Cron* vi., fel un o ddinasoedd y Lefiaid Meraraidd, perthynol i lwyth Zabulon: *adn.* 77. Nid yw y rhestr o'r dinasoedd Lefiaidd yn *Ios.* xxi. yn cynnwys un enw yn cyfatteb i hwn. Ond yn mysg trefydd Zabulon yn *Ios.* xix. ceir yr enw Cisloth-Tabor: *adn.* 12. Y mae yn bossibl, gan hyny, ei fod un ai yn dalfyriad o Cisloth-Tabor, a wnaed gan y croniclydd, neu ynte fod y Merariaid wedi sefydlu eu hunain ar y mynydd yn yr amser y gwnaed yr ail restr, ac mai yr un ydyw y Tabor yma a Mynydd Tabor.

TABOR, GWASTADEDD. Yn 1 *Sam.* x. 3, yn unig y gwneir crybwylliad am dano, fel un o'r lleoedd y deuai Saul iddo ar ei daith adref ar ol cael ei eneinio gan Samuel. Y pwynt hwn oedd y nesaf yn y daith ar ol "bedd Rahel, yn nherfyn Beniamin, yn Selsah." Ond yn anffodus, fel llawer o leoedd ereill a enwir yn yr un gyfran ddyddorol o'r Ysgrythyrau, y mae ei sefyllfa yn anhysbys. Cyfieithiad anghywir yw y defnyddiad o'r gair *gwastadedd* yma. *Derwen Tabor* a ddylasai fod. Y mae Ewald yn ystyried nad ydyw Tabor a Deborah ond dulliau gwahanol o ynganu yr un enw: y mae efe, gan hyny, yn meddwl wrth 'dderwen Tabor' y pren dan yr hwn y claddwyd Deborah mammaeth Rebeccah (*Gen.* xxxv. 8), a bod hono drachefn yr un a'r balmwydden, o dan ba un y traddodai

Digitized by Google

y brophwydes Deborah ei chenadwri; a hono hefyd yr un â derwen yr hen brophwyd ger Bethel. Er fod y syniad yn gywrain, wrth gwrs, nis gellir ei dderbyn ond fel tybiaeth, ac y mae y safle yr elai â ni iddo—"rhwng Ramah a Bethel" (*Barn.* iv. 5)—yn rhy bell oddi wrth fedd Rahel i gydsefyll âg amgylchiadau hanes taith Saul; os tybiwn, yn ol y traddodiad cyffredin, fod y bedd hwnw yn agos i Bethlehem.

TABOR (תָּבוֹר: Γαιθβώρ; Θαβώρ): un o fynyddoedd mwyaf hynod gwlad Palestina. Saif yn unig ac ar ei ben ei hun. Y mae yn hen ddywediad rabbinaidd, y dylasai neu y buasai y deml yn cael ei hadeiladu ar y mynydd hwn, oni bae fod gorchymyn dwyfol wedi ei roddi i'w chyfodi ar Fynydd Moriah; yr hyn a ddengys y syniad uchel oedd gan yr Iuddewon am y gymmydogaeth. Y mae o ran ei safle y tu de-orllewinol i wastadedd yr Esdraelon, ac yn sefyll yn hollol wrtho ei hun, oddi gerth rhyw gefnen gul sydd yn ei gyssylltu â bryniau Nazareth. Ymddengys yn wrthddrych teg a phrydferth iawn i'r llygad wrth edrych arno o bellder, heb fod yn annhebyg o ran ffurf i dorth sugr. Mae ei ochrau wedi eu haddurno â llwyni o dderw, planwydd, a choed ereill, a phrysgwydd. Y mae y coedwigoedd hyn yn noddfeydd lle y llechai bleiddiaid, eirth, lyncsiaid, ac amryw greaduriaid ereill. Nid yw Tabor, o ran ei uchder ond tua deunaw cant o droedfeddi. Gelwir ef yn awr yn *Jebel et-Tur.* Gorwedda o ddeutu chwech neu wyth milldir yn union i'r dwyrain o Nazareth. Esgynir i fyny iddo yn fwyaf cyffredin o'r ochr orllewinol, yn agos i bentref bychan Debûrieh; yr hwn, dybygid, yw yr hen Ddaberath: *Ios.* xix. 12. Cymmer o dri chwarter awr i awr i gyrhaedd pen uchaf y mynydd. Y mae y llwybr yn amgylchog, ac weithiau yn serth; ond nid yn gymmaint felly fel nas gellir



DAR. 391.—MYNYDD TABOR.

marchogaeth yr holl ffordd. Y mae y coed a'r prysgwydd mor dewion arno fel y maent yn gyffredin yn rhwystr i weled dim pellder oddi amgylch; ond yn awr ac eilwaith y mae y teithiwr, fel yr esgyna i fyny, yn dyfod i lanerch agored sydd yn rhoddi iddo olwg ysblenydd ar y gwastadedd. Un o'r golygfeydd mwyaf dymunol oddi yno ydyw yr un a geir yn nechreu y cynhauaf, pan y mae y meusydd cynnyrchiol yn rhoddi y fath amrywiaeth i'r olygfa. Canfyddir amrywiol liwiau ar wyneb y meusydd, yn ol sefyllfa eu hamaethiad ar y pryd. Y mae rhai o honynt yn goch, lle y maent newydd eu haredig, o herwydd dyna liw naturiol y tir; ac ereill yn felyn a gwyn, lle y bydd y ffrwyth yn dechreu neu eisoes wedi addfedu; ac ereill yn wyrddlas, wedi eu gorchuddio â phorfa ragorol. Fel yr ymgymmysga y gwahanol liwiau hyn â'u gilydd ger bron y llygaid, y maent yn rhoi i'r holl olygfa brydferthwch tra arbenig. Ceir oddi ar ben Tabor olwg lawn ar yr holl wastadedd, o ben i ben. Disgyna cyflawnder o wlith yma yn ystod y misoedd cynnhes yn yr haf. Gwyddys fod teithwyr a godasant eu pabellau ar ei ben, ac a dreuliasant y nos ynddynt, wedi cael fod y pabellau yn y boreu mor wlyb a phe buasai wedi gwlawio yn drwm.

Yn ol barn gyffredin y rhai sydd wedi bod yn sefyll ar y llanerch yma, y mae yr olygfa oddi ar Tabor yn cynnwys y fath amrywiaeth o wrthddrychau o brydferthwch naturiol ac o ddyddordeb hanesyddol cyssegredig ag unrhyw olygfa y gellir ei chael yn un rhan o Wlad Canaan. Ar du y dwyrain gwelir dyfroedd Môr Tiberias, tua

Digitized by Google

phymtheng milldir o bellder, yn disgleirio trwy yr awyr glir o'r gwely dwfn y gorphwysa yn dawel ynddo. Er nas gellir gweled ond rhan fechan o arwynebedd y llyn, canfyddir y glanau o'i gwmpas. Yn yr un cyfeiriad gellir dilyn cwrs yr Iorddonen am lawer o filldiroedd; ac yn mhellach i'r dwyrain drachefn daw bryniau a dyffrynoedd yr Hauran diweddar i'r golwg, ac yn mhellach i'r deheu fynyddoedd Gilead a Basan. Ymestyna Môr y Canoldir yn llinell dywyll ar ymyl y gorwel ar du y gorllewin; ac oddi yma i'r môr y mae gwastadeddau breision Galilea. Cyfyd Carmel ei ben yn y gogledd-orllewin, er nad ydyw y rhan o hono sydd yn gorwedd agosaf i'r môr yn amlwg iawn. Ar du y gogledd a'r gogledd-ddwyrain y mae mynyddoedd Libanus, ac o'r tu hwnt iddynt dyrchafa Hermon ei ben yn uchel. Ar y deheu, gwelir brigau Gilboa, yr hwn a anfarwolwyd gan farwnad doddedig a mawreddog Dafydd ar ol Saul ac Ionathan; ac yn mhellach yn mlaen ymgolla yr olygfa yn y mynyddoedd a'r dyffrynoedd sydd yn nghanolbarth Palestina. Dros gribau Gilboa a Dûhy gwel yr edrychydd ddyffryn yr Iorddonen yn nghymmydogaeth Beisân—yr hen Bethsean; ar furiau yr hon y darfu i'r Philistiaid hoelio corph Saul ar ol tori ei ben, wedi iddynt ennill y fuddugoliaeth fawr ar Israel. Wrth edrych ar draws gwastadedd yr Esdraelon gwelir Endor, lle y trigai y ddewines yr ymgynghorai Saul â hi y noson cyn iddo ymladd ei frwydr olaf. Ar lethr un o'r bryniau, heb fod yn mhell, y mae pentref Nain, lle y cyffyrddodd yr Arglwydd Iesu â'r elor, ac yr adferodd fywyd mab y wraig weddw. Y mae yn sicr fod y Gwaredwr wedi myned heibio i droed y mynydd hwn yn ei deithiau trwy wahanol barthau Galilea. Nid rhyfedd fod yr Hebreaid yn edrych gyda'r fath edmygedd ar Fynydd Tabor.

Nid ydyw Tabor yn cael ei enwi o gwbl yn y Testament Newydd, ond y mae llawer o gyfeiriadau ato yn yr Hen Destament. Sonir am dano yn Iosuah (*pen.* xix. 22) fel y terfyn rhwng Issachar a Zabulon: *adn.* 12. Mewn ufudd-dod i orchymyn Duw trwy Deborah, casglodd Barac ei luoedd i Tabor; ac ar adeg gyfaddas, efe a "ddisgynodd o fynydd Tabor, â deng mil o wŷr ar ei ol;" *Barn.* iv. 6—15. Yn y frwydr a ddilynodd efe a orchfygodd Sisera yn y dyffryn, ar lan afon Cison. Yma y lladdwyd brodyr Gedeon, y rhai oeddynt "bob un o ddull meibion brenin" (*Barn.* viii. 18), gan Zebah a Salmunna. Tybia Herder ac ereill, mai Tabor a olygir pan y dywedir am Issachar a Zabulon (*Deut.* xxxiii. 19) y byddai iddynt alw y "bobloedd i'r mynydd; yna yr aberthant ebyrth cyfiawnder." Dywed Stanley ["*Syria and Palest,*" td. 351], yr hwn sydd yn ffafriol i'r golygiad hwn, i'r llanerchau agored dymunol ar ben y mynydd ei daro fel lle hynod o gymmhwys i gynnal cynnulliadau mawrion ar ŵyliau, ac y gallai efe yn hawdd gredu i'r lle fod mewn oesoedd boreuol yn gyssegrfa i'r llwythau gogleddol, os nad i'r holl genedl. Y mae y prophwyd, yn *Hos.* v. 1, yn ceryddu yr offeiriaid a'r teulu brenhinol am eu "bod yn fagl ar Mispah, ac yn rhwyd wedi ei lledu ar Tabor." Y cyhuddiad yn eu herbyn, dybygid, ydyw, eu bod yn gosod i fyny ddelwau ac yn ymarfer defodau y Cenhedloedd yn yr uchelfeydd a ddewisid i ddwyn yn mlaen y cyfryw wasanaeth arnynt. Yn y gymmhariaeth a ddefnyddir yn *Ier.* xlvi. 18, y mae "Tabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr:" yr hyn o bossibl a arwydda, fod y mynyddoedd hyn yn ddiarhebol am eu hamlygrwydd, eu prydferthwch, a'u cadernid. Fel y canlyn y mae Dr. Robinson yn disgrifio yr adfeilion a welir yn bresennol ar ben Tabor:—

"O amgylch ei ben uchaf y mae sylfeini mur trwchus wedi eu hadeiladu o geryg mawrion, rhan o ba rai sydd wedi eu gweithio ar osgo, yr hyn a ddengys o bossibl fod yr holl fur yn wreiddiol o'r nodwedd hwn. Ceir mewn amryw fanau weddillion tyrau a gwrthgloddiau. Ar ymyl craig ar ochr ddeheu y pantle bychan, ac yn enwedig tua'r pen dwyreiniol iddo, y mae yma furiau, bŵäau, a sylfeini tai hyd y gellir deall, yn gystal ag adeiladau ereill. Gellir olrhain muriau amddiffynfa yma; ac yn mhellach i'r gorllewin ar hyd ael y bryn, tua'r de, y mae un bŵa tal pigfain, a berthynai i borth Saracenaidd, yn sefyll etto. Perthynai yr amddiffynfeydd diweddar i amser y croesgadau; ond y mae y ceryg mawrion ag y mae osgo ynddynt yn amlygu arddull Rhufeinaidd o archadeiladaeth; ac yn wir yr oedd tref ac amddiffynfa ar Fynydd Tabor cyn amser y Rhufeiniaid. Yn nyddiau y croesgadwyr hefyd, ac yn foreuach, yr oedd eglwysydd a mynachlogydd wedi eu hadeiladu arno. Y mae ar ei ben lawer o ddyfrgistiau, sydd yn awr o'r bron yn weigion."—"*Researches,*" ii. td. 353.

Y mae gan y Cristionogion Lladinaidd, neu y Pabyddion, allor yno, wrth yr hon y mae eu harchoffeiriaid o Nazareth yn cyflawni gwasanaeth yr offeren unwaith yn y flwyddyn. Y mae yno gapel perthynol i Eglwys Groeg hefyd; ac ar ŵyliau neillduol ymgynnullant yno i gyflawni gwasanaeth crefyddol. Dywed teithwyr diweddar sydd wedi ymweled â Thabor, fod y lle heb neb dynol yn preswylio arno. Ond gellir cyfarfod yno weithiau â rhai yn ymneillduo i'r unigrwydd hwn er ymroddi i fyfyrdodau crefyddol. Yr oedd y syniad i weddnewidiad Crist gymmeryd lle ar y mynydd hwn yn cael ei fabwysiadu yn gyffredin gan y Cristionogion boreuol. Pe y cawsai un ddewis y lle y gallesid barnu i'r fath ddigwyddiad gogoneddus gymmeryd lle arno, buasai teimlad yn cyfeirio at fynydd talgryf, prydferth, a mawreddog Tabor. Ond y mae yn anhawdd, pa fodd bynag, gydsynio â chywirdeb y dyb hon. Gellir profi o'r Hen Destament, ac oddi wrth hanesiaeth ddiweddarach fod amddiffynfa neu dref ar Fynydd Tabor o'r amseroedd boreuol i lawr hyd c. c. 50 neu 53; a dywed Josephus ["*Rhyf. Iudd.,*" iv. i, *adr.* 8] iddo ef gadarnhau amddiffynfeydd y ddinas yno, o ddeutu B. A. 60: ac y mae genym o'r bron sicrwydd moesol fod Tabor yn cael ei drigiannu yn amser ein Gwaredwr. Yn wyneb yr ystyriaeth hon gan hyny y mae yn anhawdd credu mai Tabor oedd Mynydd y Gweddnewidiad; o herwydd dywedir ddarfod i'r Iesu gymmeryd ei ddysgyblion "i fynydd uchel o'r neilldu," lle "y gweddnewidiwyd ef ger eu bron hwy" (*Mat.* xvii. 1, 2):—ymadroddion sydd yn awgrymu ein bod i ddeall iddo eu dwyn i ben mynydd, lle y buasent wrthynt eu hunain mewn unigrwydd. Y mae yn ammhossibl penderfynu hyd sicrwydd yn mha le y cymmerodd y digwyddiad gogoneddus hwn le. Mewn cyssylltiad â hanes taith o eiddo ein Harglwydd i Cesarea Philippi, yn agos i darddellau yr Iorddonen, y mae yr efengylwyr yn nodi yr amgylchiad; a thybir gan rai i'r gweddnewidiad gymmeryd lle ar un o frigau Mynydd Hermon yn y gymmydogaeth hono.

**TABORIAID**: plaid grefyddol yn Bohemia,

Digitized by Google

yn y bymthegfed ganrif, a broffesent eu hunain yn ddilynwyr i John Huss. Gelwid hwynt yn *Taboriaid* oddi wrth eu gwaith yn gwersyllu ar fynydd yn nosbarth Bechin, Bohemia, lle yr arferai y diwygiwr enwog bregethu arno, ar yr hwn y rhoddwyd yr enw Tabor ganddynt. Diammheu na ddarfu i'r merthyr clodfawr hwn erioed ragweled, a llawer llai gymmeradwyo, y dial ofnadwy a wnaeth y dosbarth hwn o'i ddilynwyr Bohemiaidd ar yr ymherawdwr, yr ymherodraeth, a'r clerigwyr, yn un o'r rhyfeloedd mwyaf y gwyddys am danynt. Dechreuodd yr Hussiaid ddial trwy ddinystrio y mynachdai a'r eglwysydd; ac ar yr achlysuron hyn lladdwyd llawer o'r mynachod a'r offeiriaid. John Ziska, marchog Bohemiaidd, oedd eu harweinydd milwraidd, yr hwn a gasglodd ynghyd fyddin fawr, ac a'i dysgyblodd hi yn dda. Adeiladodd wersyll, neu ddinas, ar y mynydd a alwent Tabor, fel y mynegir uchod, ac a'i gwnaeth hi yn lle anorchfygol o'r bron. Gelwid ef yn 'Ziska y Gwpan,' am mai un pwngc mawr y dadleuai yr Hussiaid drosto oedd, hawl y bobl i gyfranogi o'r gwin yn gystal a'r bara yn y cymmun. Yr oedd y dyn nodedig hwn yn meddu athrylith filwrol o radd uchel, ac ennillodd amryw frwydrau pwysig ar fyddinoedd Sigismund, yr ymherawdwr, a byddinoedd yr eglwys. Ar ei farwolaeth ef, darfu i'r lliaws pobl a ddygasid ynghyd ganddo ymwasgaru; ond o dan Procopius, yr hwn a ddilynodd Ziska fel cadfridog, adgynnullodd yr Hussiaid drachefn, ac ennillasant fuddugoliaethau mawrion ar fyddinoedd yr ymherawdwr yn 1427 a 1431. Wedi hyn, gan fod y pleidiau yn awyddus am heddwch, cyfryngodd Cynghor Basle, a gwnaed cyttundeb; ond torodd rhyfel allan drachefn yn 1434, pan yr ennillodd y Taboriaid fuddugoliaeth gyflawn. Ond mewn canlyniad i fradwriaeth Sigismund, yr hwn a gynnorthwywyd ganddynt i gael meddiant o'r orsedd, gwanychwyd hwynt yn fawr. O hyny allan rhoddasant heibio ymladd, a dygent yn mlaen eu hachos trwy ei ddadleu â'r Pabyddion yn eu cymmanfaoedd a'u cynghorau, a thrwy gyfrwng ysgrifeniadau ar byngciau dadleuol duwinyddol: ac wrth ddarllen y rhai hyn canfyddir fod eu credo, mewn llawer o bethau, yn gyffelyb i'r eiddo Protestaniaid yr unfed ganrif ar bymtheg. Cyfyngid yn raddol ar eu rhyddid crefyddol, a pharhau i ddioddef yr oeddynt hyd nes y darfu iddynt ymuno â'r Brodyr Bohemiaidd.

Nid annyddorol a fyddai i ni gyfleu yma syniadau y mwyaf cymmedrol o honynt fel y canlyn:—1af, Ni ddylai y ffyddloniaid dderbyn na chredu fel gwirioneddau catholicaidd yr hyn y mae y tadau wedi ei ysgrifenu—ond yn unig yr hyn sydd yn cael ei gynnwys yn eglur yn llyfrau canonaidd y Beibl. 2il, Pwy bynag a efryda y celfyddydau breiniol, ac a gymmera y graddau o wyryf, athraw, neu ddoctor, y mae yn ddyn coegfalch, ac yn bagan, ac yn pechu yn erbyn efengyl Crist. 3ydd, Nid yw yn angenrheidiol cadw un o osodiadau y tadau, nac unrhyw ddefod neu draddodiad dynol. 4ydd, Dylid ymwrthod yn llwyr âg enaint, yr olew sanctaidd, yr eneiniad diweddaf, y gwisgoedd offeiriadol, a'r arferiad o gyssegru pob peth, &c. 5ed, Ni ddylid tynghedu plant cyn eu bedyddio; ac nid ydyw tadau a mamau bedydd yn angenrheidiol. 6ed, Dylid bwrw ymaith a llosgi yr holl lithlyfrau, y defod-lyfrau, a'r addurniadau crefyddol. 7fed, Ni ddylid cadw ymprydiau y grawys, nac unrhyw ymprydiau ereill, y rhai a osodwyd gan ddynion. 9fed, Nid ydyw y ffyddloniaid yn rhwymedig i gadw un ŵyl heb law Dydd yr Arglwydd. 10fed, Dylid edrych ar bob offeiriad a wasanaetho wedi eillio ei goryn, ac mewn gwenwisg, &c., ac a weinyddo yr offeren yn ol yr arfer gyffredin, gyda dirmyg—fel ar y butain y sonir am dani yn Llyfr y Datguddiad. 11eg, Ni chaniateir i offeiriaid efengylaidd fwynhau meddiannau tymmorol. 12fed, Nid oes un purdan yn bod: ac oferedd ydyw cyflawni gweithredoedd da er gwaredu y meirw. 13eg, Y mae gweddïo ar y seintiau ymadawedig yn arogli o heresi a delw-addoliaeth.

TABRIMON: tad Benhadad I., brenin Syria, yn amser teyrnasiad Asa: 1 *Bren.* xv. 18.

TACITUS, CAIUS CORNELIUS: hanesydd Rhufeinaidd enwog. Nid oes wybodaeth fanwl am le ei enedigaeth na'i deulu; ond y dybiaeth fwyaf cyffredin ydyw, ei fod yn fab i Cornelius Tacitus, prwyadur a llywodraethwr un o daleithiau Gaul, yr hwn a fu farw yn y fl. B.A. 79. Tybir yn gyffredin ei fod wedi ei eni yn y fl. 56. Yr ymherawdwr Vespasian oedd y cyntaf i gymmeryd sylw neillduol o hono, a chafodd ffafrau oddi ar ddwylaw ei feibion, Titus a Domitian. Yn B. A. 78, priododd gyda merch C. Julius Agricola. Yr oedd Tacitus yn brif ynad yn nheyrnasiad Domitian yn B. A. 88. Bu farw Agricola yn Rhufain yn B.A. 93, ond nid oedd Tacitus na'i wraig gydag ef ar y pryd; ac nid yw yn wybyddus yn mha le yr oedd efe yn adeg afiechyd Agricola. Yn nheyrnasiad Nerva, pennodwyd ef yn gonsul, ar ol marwolaeth Virginius Rufus. Gwyddys fod Tacitus wedi cyrhaedd safle uchel fel areithydd pan oedd Pliny, yr ieuangaf, yn dechreu ei fywyd cyhoeddus. Etholwyd y ddau hyn yn ddadleuwyr dros yr erlyniad yn achos Marius, rhaglaw Affrica; ac yr oeddynt yn gyfeillion mawr. O gasgliad llythyrau Pliny, y mae un ar ddeg wedi eu hysgrifenu at Tacitus. Y mae adeg ei farwolaeth yn anhysbys; ond ymddengys iddo oroesi Trajan, yr hwn a fu farw B.A. 117. Nid oes un cofnodiad i'w gael ynghylch fod ganddynt blant; ond yr oedd yr ymherawdwr, Tacitus, yn arfer dywedyd ei fod yn ddisgynydd o'r hanesydd.

Y rhai canlynol ydyw yr unig rai sydd ar gael o weithiau Tacitus:—1af, "*Vita Agricola,*" neu hanes bywyd Agricola; yr hwn a ysgrifenwyd ar ol marwolaeth Domitian, yn B. A. 98. Edmygir y gwaith hwn yn gyffredinol fel campwaith bywgraphyddol. 2il, "*Historiæ;*" a ysgrifenwyd wedi marwolaeth Nerva, yn B. A. 98, ac o flaen yr "*Annales.*" Cynnwysa hanes y cyfnod, o ail gonsuliaeth Galba, yn B. A. 68, hyd farwolaeth Domitian yn B. A. 96. Y pedwar llyfr cyntaf sydd wedi eu cadw hyd yr amser presennol; ond y mae yn rhaid fod llawer chwaneg o'r gwaith yn y gwreiddiol. 3ydd, "*Annales;*" yn dechreu gyda marwolaeth Augustus yn B. A. 14, ac yn terfynu gyda marwolaeth Nero yn B. A. 68. Nid oes ond un copi ammherffaith o'r gwaith hwn ar gael. 4ydd, "*De Moribus et Populis Germaniæ;*" traethawd yn disgrifio y cenhedloedd Almaenaidd. Nid oes nemawr o ymddiried, fodd bynag, i'w roddi yn y traethawd hwn, ond mor bell ag y mae yn ymwneyd â'r Almaeniaid oedd yn fwyaf hysbys i'r Rhufeiniaid o herwydd eu hagosrwydd at y Rhine. 5ed, "*Dialogus de Oratoribus.*"

Digitized by Google

Yn ol syniad beirniaid cymmhwys, os ydyw y gwaith hwn o awduriaeth Tacitus o gwbl, y mae yn rhaid mai ei waith blaenaf ydyw. Yr oedd Tacitus yn un o'r haneswyr penaf. Yr oedd ei hoffder o wirionedd, ac uniondeb ei amcanion, yn amlwg. Diau fod ei allu mawr yn gynnwysedig yn benaf yn ei adnabyddiaeth o'r meddwl dynol, ac yn ei fedrusrwydd i ddeall y cymmhellion hyny oddi ar ba rai y mae dynion yn gweithredu. Y mae ei arddull yn hynod, er ei fod mewn rhai pethau yn ymdebygoli i Sallust. Ei gampwaith, yn ol y farn fwyaf gyffredin, ydyw ei hanes o deyrnasiad Tiberius. Yr oedd y Lladin a ddefnyddiai efe yn bur a choethus; ac hwyrach fod ei nerth mwyaf fel ysgrifenydd yn gynnwysedig yn ei allu i bortrëadu cymmeriadau dynion.

TACHMONIAD, Y: un o gedyrn Dafydd, yr hwn "a eisteddai yn y gadair, yn benaeth y tywysogion" (2 *Sam.* xxiii. 8); lle y gelwir ef hefyd "Adino yr Esniad." Yn 1 *Cron.* xi. 11, yr enw a roddir arno yw Jasobeam mab Hachmoni, neu Hachmoniad, fel y mae ar ymyl y ddalen. Gwel JASOBEAM.

TAD. Y mae safle ac awdurdod y tad fel pen y teulu yn cael ei gymmeryd yn ganiataol a'i gadarnhau yn y Beibl, a'i gyffelybu i awdurdod y Goruchaf dros ei greaduriaid. Gorwedda hyn wrth wraidd y llywodraeth batriarchaidd (*Gen.* iii. 16; 1 *Cor.* xi. 3), oedd yn rhagflaenu trefn mwy pendant a ddilynodd, yr hon a aeth â'i lle i raddau pell, er nad yn hollol. Pan y rhoddwyd i Abraham, gan hyny, yr addewid y byddai "yn dad llawer o genhedloedd," yr oedd yn cael ei ddal allan nid yn unig fel tad, ond hefyd fel esampl i'r sawl a ddeuent ar ei ol: *Gen.* xviii. 18, 19; *Rhuf.* iv. 17. Ystyrid fod daioni arbenig yn deilliaw o fendith y tad; ond fod ei felldith yn disgyn yn drwm ac yn effeithio yn niweidiol (*Gen.* ix. 25, 27; xxvii. 27—40; xlviii. 15, 20; xlix.); felly hefyd ystyrid fod pechod y tad, mewn amgylchiadau neillduol, yn effeithio yn ddrwg ar y plant (2 *Bren.* v. 27), er fod y gyfraith yn gwahardd cospi y mab am bechod y tad: *Deut.* xxiv. 16; 2 *Bren.* xiv. 6; *Ezec.* xviii. 20. Y gorchymyn i anrhydeddu tad a mam a nodir gan Paul fel yr unig un o'r deg yr hwn y mae addewid wedi ei chyssylltu âg ef (*Exod.* xx. 12; *Ephes.* vi. 2); a chondemnia y gyfraith y gwaith o'u hammharchu fel un o'r troseddau gwaethaf: *Exod.* xxi. 15, 17; 1 *Tim.* i. 9. Ceir enghreifftiau o osodiadau cyfreithiol i gynnal i fyny awdurdod y rhieni yn *Exod.* xxii. 17; *Num.* xxx. 3, 5; xii. 14; *Deut.* xxi. 18, 21; *Lef.* xx. 9; xxi. 2; xxii. 12: a gellir canfod pa beth oedd ysbryd y ddeddf gyda golwg ar hyn yn *Diar.* xiii. 1; xv. 5; xvii. 25; xix. 13; xx. 20; *Esa.* xlv. 10; *Mal.* i. 6. Nid oedd gan y tad, pa fodd bynag, awdurdod i roddi ei blentyn i farwolaeth: *Deut.* xxi. 18—21. Ymddengys mai o'r ysbryd patriarchaidd hwn y deilliodd yr egwyddor o barch i oedran ac awdurdod yn gyffredinol. Yn y modd hwn y dywedir i Iacob fendithio Pharaoh: *Gen.* xlvii. 7, 10: cymmh. *Lef.* xix. 32; *Diar.* xvi. 31.

I'r ddamcaniaeth hon o awdurdod ac uchafiaeth deuluaidd y rhieni y mae y defnydd amrywiol a wneir o'r gair *tad* yn yr Ysgrythyrau i'w briodoli:—1af, Fel ffynnonell a dyfeisydd celfyddyd neu ymarferiad: *Gen.* iv. 20, 21; *Ioan* viii. 44; *Iob* iii. 14; xxxviii. 28; 2 *Cor.* i. 3. 2il, Fel gwrthddrych i'w barchu a'i anrhydeddu: *Ier.* ii. 27; 2 *Bren.* ii. 12; v. 13; vi. 21. 3ydd, Am yr un rheswm hefyd y gelwir ysgolheigion neu ddysgyblion ysgolion y prophwydi, neu ryw athraw arall, yn feibion: 2 *Bren.* ii. 3; iv. 1; 1 *Sam.* x. 12, 27; 1 *Bren.* xx. 25; *Heb.* xii. 9; 1 *Tim.* i. 2. 4ydd, Cymmhwysir yr enw *tad,* ac hefyd *mam,* at unrhyw hynafiad yn y llinach wrywaidd neu fenywaidd: *Esa.* li. 2; *Ier.* xxxv. 6, 18; *Dan.* v. 2; 2 *Sam.* ix. 7; 2 *Cron.* xv. 16. 5ed, Y mae y gair *tad* yn cael ei ddefnyddio yn y "*Talmud*" i osod allan y penaf; hyny yw, gelwir y rhai blaenaf gydag unrhyw waith yn dadau. 6ed, Gelwir gwarcheidwad neu amddiffynydd wrth yr enw hwn: *Iob* xxix. 16; *Salm* lxviii. 5; *Deut.* xviii. 6. Defnyddir y gair 'tadau' am rai hynach (*Act.* vii. 2; xxii. 1), ac am rieni yn gyffredinol, neu hynafiaid: *Dan.* v. 2; *Ier.* xxvii. 7; *Mat.* xxiii. 30, 32. Y mae awdurdod y rhieni yn fawr yn mysg y Mahometiaid tra y byddo y plant o dan oed. Ni oddefir i'r mab fwyta, ac o'r bron y caiff eistedd yn mhresennoldeb ei dad. Ystyrir anufudd-dod i rieni ganddynt yn un o'r troseddau mwyaf. Gwel d. g. RHIENI a PHLANT.

TADAU APOSTOLAIDD: enw a roddir yn gyffredin ar ysgrifenwyr y ganrif gyntaf, y rhai a ddefnyddiasant eu hysgrifell o blaid Cristionogaeth, ac a fuont yn cymdeithasu â'r apostolion neu â'u dysgyblion cyntaf. Y maent yn bump mewn nifer; sef, Clement, Ignatius, Polycarp, Barnabas, a Hermas. Nid oedd y tadau hyn yn hynod am eu dysg a'u hyawdledd: y maent yn traethu y syniadau mwyaf duwiolfrydig a rhagorol yn yr arddull mwyaf syml. Ond y mae hyn yn hytrach yn dwyn anrhydedd i achos Cristionogaeth na dim arall; o herwydd drwy hyn gwelir i gyfran fawr o ddynoliaeth gael eu dychwelyd at Gristionogaeth yn foreu trwy offerynoliaeth dynion heb fod yn nodedig am eu galluoedd a'u dysg. Nid oedd cynnydd crefydd i'w briodoli i foddion dynol—ond i allu a dylanwad dwyfol. O ran galluoedd meddyliol, yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng y tadau apostolaidd a'r apostolion eu hunain. Y mae eu hysgrifeniadau, er hyny, yn drysorfa werthfawr o bethau a berthynent i ffydd ac arferion yr Eglwys Gristionogol yn ystod yr oes gyntaf, a'r buraf, o'i bodolaeth. Y mae eu tystiolaeth i wiredd llyfrau y Testament Newydd yn werthfawr a phwysig hefyd: ac o blegid fod cyfeillion cydoesol unrhyw gorph o ddynion yn cael mantais i wybod syniadau y cyfryw ddynion yn fwy cywir a pherffaith na'r ymchwilwyr a flodeuant mewn oesoedd ar eu hol, gallesid disgwyl i ysgrifeniadau y tadau apostolaidd fod o werth dirfawr i'r Eglwys Gristionogol hyd ddiwedd amser. Ond y mae eu hysgrifeniadau yn aneglur yn fynych, ac yn anghyttunol â'u gilydd; ac weithiau fe geir fod yr un ysgrifenydd yn anghysson hyd yn oed âg ef ei hun. Gan hyny, mae yn rhaid i ni gymmeryd yr Ysgrythyrau fel yr unig reol anffaeledig. Gwel BARNABAS; CLEMENT; HERMAS; IGNATIUS; POLYCARP.

TADAU YR EGLWYS: enw a roddir ar ysgrifenwyr, athrawon, ac esbonwyr boreuol y grefydd Gristionogol, oedd yn oesi o ddechreu yr ail ganrif hyd ddiwedd y chweched—ysgrifeniadau y rhai yr edrycha llawer arnynt fel yn meddu cryn awdurdod mewn achosion o ffydd. Y mae gwahaniaeth barn gyda golwg ar y

Digitized by Google

graddau o barch y dylid ei dalu i'r tadau hyn hyd yn oed yn Eglwys Rhufain. O barthed i'w hawdurdod, y mae rhai, megys Fredegis, yn dal allan fod eu geiriau mor gyssegredig ag ydyw eiddo y prophwydi a'r ysgrifenwyr sanctaidd; tra y mae ereill, megys Alphonso di Castro, Meledius Cano, a'r Cardinal Cajetan, yn gwawdio y syniad fod Symmachus yn gyfartal i Paul, neu Didymus yn gyfartal i Ioan yr Efengylwr. Y mae ereill drachefn, megys y pab Gregory, a'r rhan fwyaf o ysgrifenwyr, yn cymmeryd tir canol, ac yn gwrthod edrych arnynt fel yn anffaeledig, llawer llai fel prophwydi ac apostolion; ond yn dal, pan y byddo perffaith gydgordiad yn ffynu rhyngddynt mewn materion o ffydd, mai dyna yr unig amser y gellir dywedyd fod yr Ysbryd Glân yn llefaru drwyddynt. Gwel TRADDODIAD. Ymddengys, pa fodd bynag, yn ddiddadl fod yn ysgrifeniadau y tadau cyntefig lawer o syniadau ardderchog a dyrchafedig, a phethau priodol iawn i ffurfio tymmer Gristionogol, ac i faethu teimladau duwiolfrydig a rhinweddol. Yr un pryd, mae'n rhaid addef, ar ol yr oesoedd boreuaf, eu bod yn ysgrifenu pethau rhyfedd a dyeithr, a chroes i ysbryd gorchymynion Crist, yn awr ac eilwaith. Er y dichon i syniadau yr hynafiaid mewn rhai amgylchiadau fod yn fanteisiol i ni, etto yn ddiammheuol ni ddylid edrych ar ysgrifeniadau y tadau hyn ond fel ysgrifeniadau dynion ffaeledig. Gallant fod ar lawer o achosion yn dystion; ond rhaid i ni beidio ymddiried yn ddibetrus i'w dyfarniad fel barnwyr. Fel beirniaid ysgrythyrol, y maent yn fynych yn ddychymmygol ac annoeth; ond un o'r prif bethau a gyfansodda eu gwerth yw, fod parhâd olynol eu gweithiau yn ein galluogi i brofi bodolaeth a gwiredd y llyfrau sanctaidd hyd at yr oes apostolaidd. Yn yr ystyr yma y maent yn ddiammheuol yn bwysig iawn; gan fod eu hysgrifeniadau yn ymestyn dros y cyfnod ag yr oedd ffydd yr hen fyd a'r diweddar mewn argyfwng pwysig. Y maent yn delweddu, a buont i ryw raddau yn offerynol i ddwyn y cyfnewidiad mawr o amgylch. Ac er eu diffygion, caiff yr hynafiaethydd, yr athronydd, a'r hanesydd fod yn eu hysgrifeniadau, ar y cyfan, drysorfa werthfawr o wybodaeth.

Y mae llawer o ddyddordeb ynglŷn â gweithiau y tadau yn eu perthynas â hwy eu hunain. Yr oeddynt yn trigo mewn gwahanol wledydd, yn mysg gwahanol genhedloedd, trwy yr holl fyd adnabyddus, ac y mae argraph eu cenedlaetholdeb a hynodion ereill yn nodweddu eu hysgrifeniadau. Ni a gymmerwn yn awr drem frysiog ar yr ysgrifenwyr hyn, gan gyfeirio y darllenydd am wybodaeth fanylach at yr erthyglau sydd yn y gwaith hwn ar yr enwocaf o honynt.

Y drefn arferedig gan mwyaf yn bresennol o ddyddio amser y tadau ydyw, fel y mynegwyd, o ddiwedd y ganrif gyntaf hyd ddechreu y seithfed. Dosberthir yr amser hwn i ddau gyfnod: y cyntaf yn dyfod i lawr hyd Gynghorfa Nicea, B. A. 325. Gelwir y rhai oedd yn byw yn y cyfnod hwn yn 'dadau cyn-Niceaidd,' a'r rhai ar ol y cynghor, yn 'dadau ol-Niceaidd.' Yr ydym wedi cyfeirio at y tadau apostolaidd—y rhai a elwid felly o herwydd eu cyssylltiad gwirioneddol neu dybiedig â Christ neu yr apostolion—yn yr erthygl ddiweddaf.

Yn nesaf atynt hwy, daw yr Amddiffynwyr (*Apologists*) fel eu gelwir; neu y tadau hyny, prif amcan pa rai ydoedd amddiffyn y ffydd Gristionogol yn erbyn ymosodiadau gwladwriaeth Rhufain, a'r awduron gwrth-Gristionogol a fuont flaenaf i wneyd eu diwylliant fel gwyddonwyr a llenorion, ac yn neillduol eu hathrawiaeth Blatonaidd, yn ddarostyngedig ac yn wasanaethgar i Gristionogaeth, gyda'r amcan o'i hamddiffyn:—Quadratus yr efengylwr, yr hwn oedd genhadwr teithiol; Aristides, athronydd Atheniaidd; Justin Ferthyr, awdwr enwog y ddau "*Apology,*" a'r "*Dialogue;*" Tatian o Assyria, yr hwn ar ol chwilio gwahanol ffurfiau o wasanaeth crefyddol, yn gystal a chyfundrefnau o athrawiaeth a flodeuent yn ei amser ef, a wnaeth ddewisiad o Gristionogaeth, gan ddyfod yn ddysgybl i Justin, ac yn amddiffynwr i'r grefydd newydd a fabwysiadodd; Athenagoras, yr hwn a wnaeth gyflwyniad o'i amddiffyniad i'r ymherawdwr Marcus Aurelius, a'i fab Commodus, ac a ysgrifenodd hefyd ar athrawiaeth yr adgyfodiad; Theophilus, esgob Antiochia; a Miltiades, &c., &c.

Yn nesaf, drachefn, gellir enwi tadau yr eglwys yn Asia Leiaf—dynion, ar y cyfan, o dueddfryd mwy ymarferol a thawel:—Hegesippus, yr hwn oedd yn Ebioniad; Irenæus, esgob Lyon a Vienne, yr hwn a ysgrifenodd yn erbyn y gyfundrefn Gnosticaidd; a'i ddysgybl, Hippolytus, na wyddys yn mha wlad y ganwyd ef, ond a gyrhaeddodd enwogrwydd mawr.

Yn eglwys gogledd Affrica, yr ydym yn cael Tertullian o Carthage, yr areithydd a'r dadleuydd, dyn o feddwl dwfn a dylanwad mawr; Cyprian, awdwr y "*Testimonies*" ffafriol i Iesu Grist; Commodian, awdwr y "*Rules of Living;*" ac Arnobius, athraw areithyddol yn Sicca.

Nid mor ffrwythlawn y bu yr eglwys Rufeinig yn ystod y cyfnod hwn mewn ysgrifenwyr rhagorol. Yr oedd meddwl y Rhufeinwr mor ymarferol fel yr edrychai yn fwy ar dyfiant allanol a llwyddiant yr eglwys nag ar ragoriaeth llenyddol; ac o ganlyniad nid oes ond dau awdwr clodfawr i'w nodi yma; sef, yr henadur Caius, gwrthwynebwr y Montaniaid; a'r henadur Novatian, yr hwn a ysgrifenodd draethawd ar y cyfreithiau Iuddewig yn mherthynas i fwydydd.

Yr eglwys a ymdrechodd yn fwyaf egniol i uno damcaniaeth â ffydd, ac a ddaeth yn raddol, trwy gyfrwng diwylliant a dysg, i fod y fwyaf ei dylanwad oedd yr un Alexandriaidd. Yma yr oedd Pantænus; Clement o Alexandria; Origen, a anwyd yn Alexandria, B.A. 185, un o'r ysgrifenwyr mwyaf dylanwadol yn yr Eglwys Gristionogol; Herculas, gyda'i ddysgybl Dionysius, dyn rhyddfrydig a chymmedrol; Gregory, i'r hwn y priodolid y gallu o wneyd gwyrthiau; Pamphilus; a Julius Africanus, y partharluniwr (*chorographer*) Cristionogol cyntaf.

Y rhai a enwyd uchod, yn benaf, ydyw y rhai a ystyrir yn dadau cyn-Niceaidd yr eglwys.

Y mae yr ail gyfnod yn cael ei ddyddio o adeg Cynghorfa Nicea hyd amser Gregory, B. A. 604. Gelwir y cyfnod hwn yn 'oes Augustaidd' llenyddiaeth eglwysig, o herwydd lliosawgrwydd a theilyngdod yr ysgrifeniadau a gynnyrchwyd ynddo. Dosberthir tadau y cyfnod hwn yn ddau ddosbarth:—y tadau Groegaidd, neu dadau yr Eglwys Ddwyreiniol, a thadau yr Eglwys Ladinaidd. Yn mhlith y rhai blaenaf, yr oedd Eusebius o Cesarea, a elwir 'Herodotus yr eglwys,' ac a fu farw B. A. 340; Athanasius, esgob Alexandria, a fu farw B. A. 371; Basil Fawr, esgob Cesarea yn Cappadocia, y mwyaf hyawdl o bossibl, o'r tadau Groegaidd—gweithiau yr hwn sydd wedi eu cyhoeddi lawer gwaith yn y Groeg

Digitized by Google

a'r Lladin; Gregory o Nazianzen, cyfaill Basil, a elwir 'y duwinydd' mewn ffordd o ragoriaeth; Gregory o Nyssa, brawd Basil, a enwogodd ei hun yn y ddadl Ariaidd; Cyril o Ierusalem, yr hwn a droes oddi wrth Ariaeth; Ioan Chrysostom, patriarch hyawdl Caer Cystenyn, yr hwn a fuasai mewn alltudiaeth B. A. 407; Diodorus, esgob Tarsus, un o sylfaenwyr ysgol Antiochia; Epiphanius o Salamis, gwrthwynebwr tanbaid Origen; Socrates yr ysgolor, yr hwn a barhaodd hanesiaeth eglwysig Eusebius; Cyril, esgob Alexandria, yr hwn oedd gwrthwynebwr mawr Nestorius ar bwngc yr ymgnawdoliad; Ephraem y Syriad, diacon Edessa, ynghyd â Philostorgius, Logomenus, Evagrius, Macarius yr hynaf, Procopius o Gaza, a Joanness yr ysgolor.

Yn mysg tadau yr Eglwys Ladinaidd, dylid enwi yn gyntaf y tadau Affricanaidd: Fabius Victorinus; Awstin o Hippo—y dysgawdwr mwyaf meistrolgar ac enwog yn yr eglwys orllewinol; Gelasius, yr hwn a orphenodd benderfynu y cwestiwn o ganon y Beibl i Eglwys Rhufain; a'r esgobion Fulgentius, Junilius, a Facundus. O'r Yspaeniaid—yr oedd Prudentius y bardd; a Paulus Orosius, yr hwn a ddanfonwyd gan Awstin fel ei genad i'r dwyrain, yn ei ddadleuon â Pelagius. O'r Gauliaid—Hilary, esgob Poictiers; Athanasius y gorllewin; Paulinus o Nola; Sulpitius Severus, cyfaill Martin o Tours; Vincent o Lerius, a fu unwaith yn filwr, ac a ysgrifenodd o dan yr enw Peregrinus; Sidonius, Apollinaris, Gennadius, Ennodius, a Gregorius Turonensis. O wledydd ereill hefyd—Sedulius, y Gwyddel; Joannes Cassianus, y Scythiad; a Mercator, na wyddys lle ei enedigaeth. Terfynwn gyda'r Italiaid:—Lactantius, a elwid y Cicero Cristionogol; Ambrose, esgob Milan, yr hwn, meddir, a ddygodd yr arferiad o ganu salmau i'r Eglwys Orllewinol; Rufinus o Aquileia, amddiffynwr Origen yn erbyn y cyhuddiad o heresi a ddygid yn ei erbyn yn y gorllewin; Jerome, a aned yn Pannonia, ond a aeth i Rufain i astudio pan yn ieuangc; Eusebius Hieronymus, yr hwn yn ddiau oedd y mwyaf dysgedig o'r holl dadau Lladinaidd; a'r pab Gregory I., yr hwn a fu farw B. A. 604.

Y mae astudio y tadau yn ddyddorol, nid yn unig i dduwinyddion, ond hefyd i'r rhai a wnant ymchwiliad gofalus i athrawiaeth a sefyllfa cymdeithas y pryd hwnw. Y mae gweithiau y tadau wedi cael llawer o sylw yn yr athrofaäu Protestanaidd fel gweithiau hen awduron o gryn allu.

TADAU Y FFYDD: urdd eglwysig a sylfaenwyd gan Paccanari, penboethyn crefyddol a breswyliai yn y Tyrol, yr hwn a fu yn nechreu ei oes yn filwr yn ngwasanaeth y pab, a'r hwn a gafodd nawdd yr archdduces Mariana. Yr oedd yr urdd yn cael ei wneyd i fyny yn benaf o Iesuitiaid. Ffurfiwyd y gymdeithas yn Rhufain; ac er yr edrychid arni fel cangen o'r un Iesuitaidd, etto ni chafodd ei haelodau erioed eu cydnabod gan swyddogion dirgelaidd yr hen Iesuitiaid fel brodyr.

TADMOR (תדמר: Θοεδμορ: *Palmira*). Fe elwir y ddinas hon "Tadmor yn yr anialwch;" 1 *Bren*. ix. 18; 2 *Cron*. viii. 4. Adeiladwyd hi gan y brenin Solomon. Y mae hen haneswyr yn ei galw hefyd wrth yr enw Tamar. Yr enw a roddwyd arni gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid oedd Palmyra, "dinas y palmwydd," yr hwn sydd yr un o ran ei ystyr a *Tamar*. O dan yr enw Tadmor y gelwid hi gan yr Arabiaid. Y mae y dystiolaeth mai yr un ydyw Tadmor a Phalmyra yn gref, nid yn unig am fod yr enwau yn golygu yr un peth, ond hefyd am fod Josephus yn ei chadarnhau yn y modd amlycaf. Y mae yno goed palmwydd yn tyfu yn y gerddi o amgylch y dref etto, ond nid i'r fath raddau ag y gallesid disgwyl iddynt roddi enw iddi. Saif Tadmor mewn llanerch ffrwythlawn yn anialwch Syria, tua hanner y ffordd rhwng yr Euphrates a'r Orontes. Fel y crybwyllwyd, adeiladwyd hi gan Solomon, gyda'r amcan, dybygid, o hyrwyddo masnach fanteisiol gyda'r India trwy gyfrwng yr Euphrates a Morgaingc Persia; ac y mae y lle yn cael ei nodi gan ysgrifenwyr hynafol fel yn cael ei boblogi yn benaf gan farsiandwyr oedd yn ddiarebol am eu cyfoeth a'u moethusrwydd. Y mae yn eithaf possibl fod Phœniciaid, y rhai a deimlent bob amser ddyddordeb neillduol yn masnach y dwyrain, wedi galw sylw y brenin Hebreaidd at y fantais fawr o gael tref yn y llanerch hono, er amddiffyn ei ddeiliaid masnachol yn y man lle yr oedd eu perygl yn fwyaf. Y fasnach hon âg India, yn ol barn llawer sydd wedi gwneyd hyn yn bwngc efrydiaeth, oedd un o'r achosion mwyaf ffrwythlawn o'r rhyfeloedd a'r chwyldroadau a gymmerasant le yn y dwyrain mewn amserau boreuol. Nid oes un cyfeiriad yn yr Ysgrythyrau at Tadmor heb law y rhai a nodwyd, ac nid ymddengys yn debyg i'r Hebreaid gadw meddiant llawn o honi yn hir ar ol amser Solomon. Ymddengys, pa fodd bynag, tra y bu Ierusalem a Thyrus yn blodeuo, nad oedd Tadmor yn meddu ond sefyllfa israddol; ac ni wneir crybwylliad am dani ynglŷn âg anturiaeth Cyrus yr ieuangaf, nac yn hanes rhyfelgyrchoedd Alexander. Darfu i ddadfeiliad dinasoedd Ierusalem a Thyrus, pa fodd bynag, o dan olynwyr Alexander, balmantu y ffordd i Tadmor ddyfod i enwogrwydd.

Pliny yr hynaf ydyw yr hen awdwr Rhufeinaidd cyntaf sydd yn gwneyd crybwylliad am Tadmor neu Palmyra, yr hwn a ddywed ei bod hi a'i thiriogaeth yn ffurfio gwladwriaeth annibynol rhwng ymherodraethau Rhufain a Parthia. Y mae yr hanesydd Appian yn cyfeirio at adeg foreuach, pan y caniataodd Marc Antony i'w feirchfilwyr ei hysbeilio. Mynegir i'r preswylwyr fyned o'r dref, a chymmeryd i fyny safle gref er amddiffyn eu hunain ar lan yr Euphrates; a phan yr ymosodwyd ar y ddinas, cafwyd ei bod wedi ei gwaghau a'i gadael. Ymostyngodd Tadmor i'r ymherawdwr Hadrian, B. A. 130; ac o'r pryd hwn allan cynnyddodd yn gyflym mewn cyfoeth a gallu. Er ei bod mewn enw yn ddarostyngedig i Rufain, perthynai iddi ei senedd ei hun, fel y canfyddir oddi wrth yr arysgrifau sydd ar yr hen weddillion yno. Yn nghanol y drydedd ganrif, pan oedd yr ymherodraeth yn nwylaw gweiniaid Gallienus a Valerian, y cododd Tadmor uchaf mewn awdurdod a nerth. Pan y gorchfygwyd ac y cymmerwyd Valerian yn garcharor gan y Persiaid, gwanychodd yr ymherodraeth i'r fath raddau fel y tybiai ei gelynion y gallesid dwyn oddi arni y taleithiau dwyreiniol. Cymmerodd Odenathus, pendefig o Tadmor, arfau yn erbyn Sapor, y brenin Persiaidd, a gorchfygodd ef, gan yru y Persiaid ymaith o Syria a Mesopotamia. Gwobrwywyd ef gan Gallienus am ei wasanaeth â'r teitl *Augustus*, a chydnabyddwyd ef hefyd ganddo yn gydymherawdwr. Ond ychydig o amser a gafodd Odenathus i fwynhau y dyrchafiad; o herwydd

Digitized by Google

llofruddiwyd ef gan ei nai yn y fl. 266, yr hwn a roddwyd i farwolaeth yn fuan ar ol hyny gan Zenobia, gwraig Odenathus. Nid oedd y fenyw enwog hon, yr hon a gymmerodd y teitl o Frenhines y Dwyrain yn fwy nodedig am ei hanturiaethau milwrol dewrfrydig nag am ei gallu-oedd deallawl, a'i nawddogaeth o lenyddiaeth, ac yn enwedig hefyd ei chefnogaeth i Longinus, athronydd penaf yr oes. Mewn cydymffurfiad â'i gynghor ef, hi a ysgrifenodd lythyr at yr ymherawdwr Aurelian, pan y dechreuodd wisgo y goron, i gyhoeddi ei hannibyniaeth—yr hyn a gyffrodd ddigofaint yr ymherawdwr hwnw. Gan hyny efe a aeth drosodd i Asia, a gorchfygodd fyddinoedd Zenobia, o dan lywyddiaeth Zabdas, mewn dwy frwydr a ymladdwyd—un yn agos i byrth Antiochia, a'r llall o dan furiau Emesa. Gan nas gallai Zenobia gyfodi byddin arall, disgynodd yn ol ar Tadmor, ei phrif ddinas, a phenderfynodd ei hamddiffyn ei hun yn egniol yno.

Mewn llythyr a ysgrifenodd Aurelian, efe a ddywed fel y canlyn:—"Y mae llawer o'r Rhufeiniaid yn edrych gyda dirmyg ar fy ngwaith yn rhyfela yn erbyn merch. Ond y maent yn anwybodus am gymmeriad a gallu Zenobia. Y mae yn ammhossibl cael allan mor gyflawn yw ei darpariadau rhyfelgar, mewn ceryg, saethau, a phob math o arfau ergydiol. Y mae pob rhan o furiau Tadmor wedi eu tyllu, mewn trefn i ergydio drwyddynt, ac y mae tânau celfyddydol yn cael eu taflu gan ei pheiriannau milwrol. Diau fod ofn cosp wedi peri iddi wneyd pob ymdrech i'w gochelyd. Etto yr wyf yn ymddiried yn nuwiau nawddogawl Rhufain, sydd hyd yma wedi bod yn ffafriol i fy anturiaethau." Cynnelid meddwl y frenhines i fyny gan obaith y cawsai gefnogaeth gan Sapor o Persia. Bu farw y penadur hwn, fodd bynag, tra yr oedd y ddinas o dan warchau, a phenderfynodd yr arwres ddewr ffoi gyda phob brys. Marchogodd ei chamel cyflymaf, ac aeth ar draws yr anialwch am drigain milldir; ond cafodd ei goddiweddyd a'i chymmeryd gan feirchfilwyr ysgeifn Aurelian ar lan yr Euphrates. Dygwyd hi yn gaeth at yr ymherawdwr, a bu raid i'w phrif ddinas ymostwng yn fuan wedi hyny.

Ar ol ymostyngiad Tadmor, dygwyd Zenobia yn garchares i Rufain, i addurno gorymdaith fuddugol y gorchfygwr, a rhoddwyd llawer o'i chynghorwyr, ac yn mysg ereill Longinus, i farwolaeth. Cyn ei fod braidd wedi cyrhaedd i Ewrop derbyniodd Aurelian y newydd fod y llywydd a'r gwarchodlu a adawodd efe yn Tadmor wedi eu lladd. Heb betruso moment, efe a drodd yn ol i'r dwyrain, a chafodd y ddinas anffodus deimlo pwys ei ddigofaint yn y modd trymaf. Distrywiwyd hi bron yn hollol, B. A. 273; ond o dosturi at y gweddillion a adawyd o'r preswylwyr, rhoddwyd caniatâd i'w hail adeiladu.—Gibbon's "*Decline and Fall,*" cyf. ii. pen. xi. Dadfeilio yn raddol, fodd bynag, a wnaeth y ddinas o'r pryd hwn allan. Helaethwyd hi, mae'n wir, gan Diocletian, a chryfhaodd Justinian ei hamddiffynfeydd; ond ymddengys fod adfeiliad yr ymherodraeth Rufeinig wedi bod yn achlysur i'r lle gael ei adael. Cymmerwyd y ddinas gan y Saraceniaid dan y caliph Abu Bekr, olynydd Mahomet; a bu yn lle o bwysigrwydd yn y rhyfeloedd a gymmerasant le rhwng gwahanol bleidiau o ddilynwyr y gau brophwyd. Ymwelwyd â Tadmor gan Benjamin o Tudela yn y ddeuddegfed ganrif, yr hwn a ddywed ei bod wedi ei hamgylchu â mur y pryd hwnw, ac yn cael ei phreswylio gan ddwy fil o Iuddewon. Yn y flwyddyn 1400, ysbeiliwyd hi gan Tamerlane:—ar ol hyn nid oes son mwy am Tadmor mewn hanesiaeth. Nid oedd adfeilion ardderchog y ddinas yn adnabyddus ond i'r Arabiaid hyd ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Ymwelodd ychydig o farsiandwyr Saesnig o Aleppo â'r lle yn 1691; ond nid oedd y disgrifiad a roddid ganddynt o'r adfeilion yn cael ei dderbyn fel peth credadwy. Cadarnhawyd yr adroddiad am hyny, fodd bynag, gan Wood a Dawkins, y rhai a ymwelsant â Tadmor yn 1751, ac a gyhoeddasant ddisgrifiad llawn o'r adfeilion a welsant yno. Ond ystyria Irby a Mangles, y rhai a archwiliasant y lle yn 1816, fod eu disgrifiadau wedi eu lliwio yn lled gryf. Y mae amryw deithwyr er y pryd hyny wedi talu ymweliad â'r llanerch, a darlunio y gweddillion sydd yno.

Saif adfeilion y ddinas yn nhroed rhes o fryniau sydd yn rhedeg o'r gogledd i'r deheu; ac ar yr olwg gyntaf, y mae yr olwg arnynt yn ardderchog. Y mae y pentref Arabaidd, *Tedmor,* yn gynnwysedig o ychydig fythynod clai wedi eu cyfodi yn nghyntedd teml fawr yr haul; ond am yr holl adfeilion ereill, nid oes adeiladau diweddar mewn cyssylltiad â hwynt. Y mae nifer y preswylwyr yn dra anwadal. Dywed Mr. Addison, yr hwn a dalodd ymweliad â'r lle yn 1835, nad oedd ond deuddeg neu bymtheg o deuluoedd yn trigo yn y pentref: ond yn 1851, pan y bu y Parch. J. L. Porter yno, yr oeddynt o ddeg a thrigain i bedwar ugain o deuluoedd: ond mynegir fod mwy na hanner y boblogaeth wedi ymadael ar ol hyny o herwydd cwerylon a gymmerasant le rhyngddynt a'u gilydd. Y maent yn cael eu bywoliaeth yn benaf trwy fasnachu â'r Bedwiniaid a phreswylwyr Damascus. Diwyllir ychydig o erddi bychain yno, lle y tyfir llysiau bwytadwy ac ŷd; ac y mae yn y gerddi hyn ychydig o balmwydd yn blodeuo, y rhai a roisant unwaith ei henw i'r dref. Gan fod yr adfeilion yn cael eu gorchuddio i ryw uchder gan dywod, yr hwn, o bossibl, sydd wedi dyfod i lawr o'r bryniau sydd ar y tu de-orllewinol i'r dref, y mae yn debyg fod cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn arwynebedd y gymmydogaeth; o herwydd o'r braidd y gellir meddwl y cawsai adeiladau a cholofnresi ysblenydd eu codi mewn lleoedd y buasai llafur parhaus yn angenrheidiol i'w cadw yn glir oddi wrth dywod. Er fod rhai teithwyr wedi dyweyd fod Tadmor wedi ei hadeiladu o farmor, y ffaith ydyw mai o gareg galch wen, yr hon a godwyd yn y bryniau cyfagos, yr adeiladwyd y dref o'r bron i gyd. Y mae amryw o'r colofnau wedi eu gwneyd o ithfaen Syene, un o ba rai sydd yn ddeg troedfedd ar hugain o hyd, a thair o drawsfesur; a rhaid ei bod wedi ei dwyn trwy draul a llafur mawr o'r Aipht Uchaf—pellder o tua dau cant o filldiroedd. Nis gellir yn briodol gymmharu adfeilion Tadmor âg adfeilion Baalbec; o herwydd, er fod rhai o honynt yn llai o faintioli, y maent yn llawer mwy helaeth ac amrywiol. Y mae yr hen furiau, a adeiladwyd, fel y tybir, gan Justinian, yn dair milldir o amgylchedd; ond y mae lle i gredu fod yr hen ddinas yn ymestyn cryn lawer dros y terfynau hyn—ac os ydym i gredu yr Arabiaid, gorchuddiai arwynebedd o ddeng milldir o amgylchedd. Y mae addurniadau y colofnau, a'r cerfiadau manaf sydd arnynt wedi eu hanafu yn fawr gan boethwynt yr anialwch;

Digitized by Google

ond y mae ar y rhanau hyny sydd wedi eu cysgodi oddi wrth ei ddylanwad difaol gerfiadau manwl a thra phrydferth.

Cynnwysai Tadmor, fel llawer ereill o hen ddinasoedd Syria, res o golofnau ardderchog (*grand colonnade*), yn ymestyn o'r de-ddwyrain; ac yn agos i'w chanol rhedai un arall yn gywirongl oddi wrthi. Yn y pen de-orllewinol iddi yr oedd porth ardderchog, yn cynnwys tri bŵa. Yr oedd yn y rhodfa bedair rhes o golofnau; a rhaid fod yno drwy y cyfan dros bymtheg cant o golofnau, o'r rhai y mae dros gant a hanner yn sefyll etto. Y maent yn ddwy ar bymtheg a deugain o droedfeddi o uchder, a chymmeryd i mewn y gwadn a'r pen. Y mae cerfluniau prydferth ar ben y colofnau; ac y mae yn rhaid eu bod yn ardderchog ac ysblenydd iawn pan oeddynt yn gyfan. Ymddengys mai un o'r lleoedd y gosodai y Tadmoriaid gofadeiliau i'w prif ddinasyddion oedd rhwng y colofnau hyn. Y mae arysgrif a geir ar un golofn yn bwysig, yn gymmaint a'i bod yn penderfynu, trwy y dyddiad sydd arni, y ffaith mai yr amsernod (*era*) Seleucaidd oedd mewn arferiad yno c. c. 312, Gellir casglu oddi wrth arysgrifau sydd ar y colofnau eu bod wedi eu codi yno cyn B. A. 328. Y mae yn ammhossibl rhoddi disgrifiad o'r holl amrywiol adeiladau y mae eu gweddillion i'w gweled yn ninas Zenobia—llawer o honynt yn hynod am eu teleidrwydd a'u prydferthwch. Yr ardderchocaf o honynt yn ddiau ydyw teml yr haul; ac y mae yn teilyngu sylw neillduol. Saif yr adeilad hon ar godiad tir yn agos i ben deddwyreiniol y dref; a rhaid fod yr olwg arni, pan yn gyfan, yn ysblenydd. Yr oedd y cyntedd allanol yn hollol ysgwâr, yn mesur saith gant a deugain o droedfeddi bob ffordd; ac yn cael ei gau allan gan fur lled uchel, ac yn y mur lawer o ffenestri wedi eu cerfio yn gywrain, rhwng pa rai y mae pileri Corinthaidd o bob tu. Ar du y gorllewin yr oedd y brif fynedfa, yr hon a gynnwysai rodfa hardd, yn meddu deg o golofnau o bob tu, ac yn gant a deunaw ar hugain o droedfeddi o hyd, i'r hon yr elid i fyny ar hyd grisiau ardderchog. Y mae hyn oll, pa fodd bynag, wedi ei anurddo gan y Saraceniaid, y rhai a ddefnyddiasant y deml fel amddiffynfa, trwy gyfodi tŵr uchel ysgwâr yno. Y mae y drws canol, ochrau a chapan yr hwn sydd wedi eu gwneyd o un darn cyfan o gareg, yn ddeuddeg troedfedd ar hugain o uchder a phymtheg o led, ac wedi ei amgylchu gan gerfiadau o ganghenau gwinwydd a sypiau o rawnwin. Y mae y ddau ddrws sydd o bob tu iddo yn hanner maintioli y canol. Yr oedd yr arwynebedd mewnol wedi ei lorio â cheryg mawr ysgwâr, ac wedi ei amgylchu ar bob tu, ond yr un gorllewinol, â dwy res o golofnau. Ar du y gorllewin nid oes ond un res. Yr oedd pob un o'r colofnau hyn yn ddwy ar bymtheg ar hugain o droedfeddi o uchder, ac ar ben pob un gerflun o ryw ddyn enwog. Nifer y colofnau hyn oedd tri chant a deg a phedwar ugain; ond nid oes ond trigain o honynt yn sefyll yn bresennol. Yn nghanol yr arwynebedd, ar lawr wedi ei godi i fyny ychydig, y safai y deml ei hun, yn ddyrchafedig goruwch yr adeiladau cylchynol. Y mae ei drws ar yr ochr gorllewinol, yn wynebu y brif fynedfa, ac yn cael ei amgylchu gan res o golofnau Corinthaidd, trigain a phedair o droedfeddi o uchder, a thaleithwrn (*cornice*) addurniadol wedi ei redeg o gwmpas. Y mae y drws hwn yn dair troedfedd ar ddeg ar hugain o uchder, a phymtheg o led, ac uwch ei ben gerflun o eryr â'i adenydd ar led, yn gyffelyb i'r deml sydd yn Baalbec. Y mae nen y deml wedi ei gymmeryd ymaith yn hollol, ac y mae oddi mewn wedi ei anrheithio gan y Mahometiaid penboeth, y rhai a ddefnyddiant y pen deheuol fel teml at eu gwasanaeth eu hunain. Yn y ddau ben i'r adeilad, yr hwn sydd yn 134ain o droedfeddi o hyd, yn annibynol ar y colofnresi, y mae ystafelloedd hanner crwn, ac iddynt nenfwd wedi ei gerflunio yn addurnedig. Y mae Mr. Porter yn ystyried y deml ardderchog hon, fel cyfanwaith, yn gyfryw nad oes o'r bron un yn y byd yn rhagori arni. "Y mae teml Minerva yn Athen," medd efe, "ac ychydig ereill sydd gyffelyb iddi—campweithiau Groeg—yn ddiammheuol yn brydferthach yn eu symledd mawreddog, ac yn eu colofnau marmor disglaer. Y mae teml Baalbec yn fwy na hi mewn maintioli, ac nid yw yn llai chwaethus yn ei cherfluniau; ond y mae y cynteddau unigol yn Tadmor, a'i llinell faith o gerfluniau, a'r deml ei hun yn ymddyrchafu i'r nen, yn ffurfio golygfa sydd ar ei phen ei hun, ac yn gyfryw nas gellir dyweyd fod y lleill yn gyfartal iddi."—"*Five Years in Damascus*," cyf. i. td. 238. Heb law y deml a'r colofnresi, y mae ger llaw Tadmor feddau lliosog, llawer o ba rai sydd yn gywrain a dyddorol. Y mae rhai o'r beddau wedi eu naddu allan o'r graig, ac y mae ereill yn fath o dyrau ac yn amryw ystafelloedd o uchder, a llawer o honynt wedi eu haddurno â cherfluniau. Yr oedd yno hefyd bontydd, dros ba rai y dygid dwfr i'r dref. Y mae yr arysgrifau ar y colofnau a'r amrywiol adeiladau yn lliosog, ac wedi eu harysgrifenu, rhai mewn llythyrenau Groegaidd, ac ereill yn llythyrenau y Tadmoraeg, y rhai ydynt yn lled debyg i lythyrenau yr Hebraeg. Y castell Saracenaidd ydyw yr unig adeilad o ddyddiad diweddar sydd yn tynu sylw yn Tadmor. Saif ar y bryniau sydd ar y tu gogledd-ddwyreiniol i'r dref, a cheir oddi arno olwg ardderchog ar holl adfeilion y ddinas.

Dyna sefyllfa bresennol dinas enwog Tadmor, yr hon oedd ar un adeg yn fangre cyfoeth a dysg—yn brif ddinas cenedl a fu yn cydymgais â gallu Rhufain—yn brif ystorfa ar y ffordd y dygid hen gyfoeth India i'r gorllewin—a'r hon, er nad ydyw yn awr yn cael ei mynychu ond gan y Bedŵiniaid crwydrol, neu deithwyr anturiaethus, sydd yn debyg o ddyfod etto yn ffordd fawr i'r dwyrain. Y mae y bythynod gwaelion sydd gan y preswylwyr presennol, o'u cyferbynu â'r hen adfeilion, yn eglur ddangos mor ddinystriol i Tadmor oedd eu gorchfygiad gan ddilynwyr Mahomet.

TAENELLIAD. Gwel BEDYDD.

TADOGAETH EGLWYSIG. Gwel BRYWOLIAETH EGLWYSIG; NAWDDOGAETH EGLWYSIG.

TAFARN, Y TAIR (Τρεῖς, Ταβέρναι: *Tres Tabernæ*): enw ar le bychan, gorsaf ar y ffordd Appiaidd, ar hyd yr hon y teithiodd Paul o Puteoli i Rufain: *Act.* xxviii. 15. Y mae y pellderau, a chyfrif yn ddeheuol o Rufain, yn cael eu rhoddi fel y canlyn yn yr "*Antonine Itinerary*:"—"i Avica, 16 o filldiroedd; i'r Tair Tafarn, dwy ar bymtheg o filldiroedd; i Appii Forum, deng milldir." O gymmharu hyn â'r golygfeydd ar hyd y ffordd, nid oes nemawr o anhawsder i benderfynu fod y Tair Tafarn yn

Digitized by Google

rhywle yn agos i'r man lle y saif y *Cisterna* ddiweddar. Yr oedd ffordd yn dyfod i mewn yma o Antium, ar yr ochr nesaf i'r môr. Yr ydys yn casglu hyny oddi wrth yr hyn a ddywed Cicero ynghylch taith o'r lle hwn i'w balas yn Formiæ. Nid oes un ammheuaeth nad oedd y Tair Tafarn yn lle y byddai teithwyr yn galw heibio iddo yn fynych. Y pwngc sydd yn gwneyd y fan yn ddyddorol, yn ei berthynas â Phaul, ydyw, fod cwmni o Gristionogion (fel ereill a ddaethant i Appii Forum) wedi dyfod o Rufain i'w gyfarfod. Hwyrach fod y lle, neu y pentref, wedi cael ei enw oddi wrth dri gwestty, neu dai bwyta, a allasent fod yno.

TAFOD—AU. Yr enw a roddir ar y peiriant ymadrodd sydd yn y corph dynol. Y mae ei sefyllfa yn y genau; ac y mae yn wasanaethgar, nid yn unig i lefaru, ond i archwaethu ac i lyngcu ymborth. Y mae yr aelod bychan hwn, fel y gweddill o aelodau y corph, yn dangos cywreinrwydd mawr y Creawdwr yn ei wneuthuriad a'i gyflead. Gwel DYN. Arferir y gair hefyd am iaith neu dafodiaith neillduol a siaredir gan ryw bobl neillduol, yn gystal ag am yr hyn a draethir gan y tafod, pa un bynag fyddo ai da ai drwg: *Diar.* xviii. 18; xxvii. 20. Y mae y gair yn cael ei arfer am ddarn o fôr yn ymestyn i'r tir, ac hefyd am lain o dir yn ymestyn i'r môr.

Rhai o ddyledswyddau y tafod ydynt—gogoneddu Duw trwy ddyrchafu ei enw; canu ei fawl, dadgan ei ddaioni, gweddïo arno am yr hyn sydd arnom ei eisieu, gwneyd proffes gyhoeddus o'n hymostyngiad iddo, cyhoeddi ei air, amddiffyn y gwirionedd, cynghori ein gilydd i gyflawni ein dyledswyddau, cyffesu ein pechodau wrth Dduw, deisyf am gyfarwyddyd gan ereill, canmawl yr hyn sydd ragorol a da mewn ereill, dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd, amddiffyn achos y cyfiawn a'r diniwed, a throsglwyddo i ereill, hyd y gallom, yr argraphiadau da a dderbyniasom ein hunain.

THAFODAU, LLEFARU A. Y ddawn a'r gallu a roddwyd gan yr Ysbryd Glân i'r apostolion, ac ereill, i siarad yn barod a dealladwy mewn amryw ieithoedd nad oeddynt wedi eu dysgu. Y prif leoedd y gellir tynu casgliad oddi wrthynt ynghylch natur a dyben y ddawn ryfeddol hon ydynt y rhai canlynol: *Marc* xvi. 17; *Act.* ii. 1—13; x. 46; xix. 6; 1 *Cor.* xii., xiv. Y mae yr addewid o ryw allu rhyfeddol oddi wrth yr Ysbryd Glân, nid yn unig er dwyn cysur i'r dysgyblion ac egluro y gwirionedd, ond hefyd er cyfranu gallu newydd o ryw natur i lefaru, yn cael cyfeirio ato gan ein Harglwydd yn ei weinidogaeth. Nid oedd yr apostolion i ragofalu pa beth a lefarent, gan fod Ysbryd eu Tad yn llefaru ynddynt: *Mat.* x. 19, 20; *Marc* xiii. 11. Yr oedd y Galileaid hyn i lefaru yn hyf o flaen brenhinoedd. Yr unig ammod oedd yn rhwymedig arnynt hwy oedd peidio rhagofalu; ond ymddiried eu hunain yn gwbl i'r hwn oedd yn gweithredu ynddynt. Ar y tir hwn yr oeddynt i gael eu bendithio â "genau ac â doethineb," nas gallasai eu gelynion penaf "na dywedyd yn eu herbyn, na'u gwrthsefyll." Dywedir yn fwy pendant yn *Marc* xvi. 17, y byddai iddynt lefaru "â thafodau newyddion." Ystyr amlwg yr addewid yma ydyw, y byddai i'r dysgyblion lefaru mewn ieithoedd newyddion, nad oeddynt wedi eu dysgu, fel y gwneir yn gyffredin, er dyfod yn gyfarwydd ynddynt.

Y mae rhyfeddodau dydd y Pentecost yn ddigon adnabyddus. Gwyddys fod y dyddiau ar ol esgyniad Crist wedi eu treulio gan ddysgyblion y Gwaredwr mewn addoliad a gweddi barhaus: *Luc* xxiv. 53. Yr oedd yr ugain a chant dysgyblion wedi ymgasglu ynghyd, ac yn disgwyl yn hiraethus am y dylanwad oddi fry—am yr Ysbryd, yr hwn yr oedd y Gwaredwr wedi rhoddi addewidion mor eglur am dano. Daeth dydd y Pentecost. "Ac yn ddisymmwth y daeth sŵn o'r nef, megys gwynt nerthol yn rhuthro," yn gyffelyb, dybygid, i'r hyn a glywodd Ezeciel yn y weledigaeth wrth afon Chebar (*Ezec.* i. 14)—yr hyn bob amser oedd yn arwyddlun o allu creadigol. Cymmharer *Ezec.* xxxvii. 1—14; *Gen.* i. 2; 1 *Bren.* xix. 11; 2 *Cron.* v. 14; *Salm* civ. 3, 4. Gyda hyn yr oedd yno ymddangosiad rhyfeddol arall ar ddydd y Pentecost, sef y "tafodau gwahanedig megys o dân," y rhai a wasgarwyd, "ac a eisteddodd ar bob un o honynt." Dilynwyd yr arwydd gweledig hwn â chyfnewidiad mewnol. Llanwyd hwynt â'r Ysbryd Glân; a hwy a "ddechreuasant lefaru â thafodau ereill, megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd." Y mae yn amlwg fod yr ysgrifenydd yn cyfleu y syniad fod y dysgyblion yn cael eu clywed yn llefaru mewn ieithoedd nad oeddynt yn meddu gwybodaeth o honynt yn flaenorol. Tystiolaethir yn bendant fod "pob un yn eu clywed hwy yn llefaru yn ei iaith ei hun;" ac y mae y rhestr o'r gwahanol genhedloedd a wrandawent arnynt yn faith. Pa olygiad sydd i'w gymmeryd ar beth mor hynod ac eithriadol? Y gred fwyaf gyffredin sydd wedi ei mabwysiadu yn yr eglwys ydyw, fod y dysgyblion wedi derbyn, ar ddydd y Pentecost, wybodaeth oruwchnaturiol o'r holl ieithoedd hyny oedd angenrheidiol iddynt er cyflawni eu gwaith fel efengylwyr; a bod y wybodaeth hono yn barhaol, ac y gallent eu defnyddio yn ol eu hewyllys, megys pe buasent wedi eu dysgu yn y drefn arferol. Wedi eu donio fel hyn, hwy a aethant allan i bregethu i'r Cenhedloedd. Y mae gwahaniaeth barn ynghylch rhai pethau neillduol mewn perthynas i hyn. Tybia Awstin fod pob dysgybl yn alluog i lefaru pob iaith. Chrysostom a dybiai fod pob un â rhyw iaith neillduol wedi cael ei gwneyd yn adnabyddus iddo, a bod hyn yn arwydd i ba wlad yr oedd i droi i draethu ei genadwri. Tybia rhai fod nifer yr ieithoedd a leferid yn ddeg a thrigain, neu bymtheg a thrigain, yn ol rhifedi meibion Noah (*Gen.* x.) neu feibion Iacob (*Gen.* xlvi.); neu yn chwech ugain, yn ol rhifedi y dysgyblion. Y mae ereill yn canfod anhawsderau ynglŷn â'r golygiadau uchod, ac wedi gweled eu ffordd yn glir i fabwysiadu y golygiad arall, trwy gyfnewid nodwedd y wyrth. Barnant nad oedd y wyrth yn gynnwysedig mewn unrhyw allu newydd oedd wedi ei gyfranu i'r llefarwyr, ond yn yr argraph a gynnyrchid ar y gwrandawyr: fod y geiriau a draethid gan y dysgyblion Galileaidd yn eu hiaith eu hunain yn cael eu clywed gan y gwrandawyr fel pe yn eu hiaith hwythau. Dyma y golygiad a gymmerai Gregory o Nyssa, ac y traethwyd arno, er heb ei dderbyn, gan Gregory o Nazianzus. Y mae yr un ddamcaniaeth, gydag ychydig o gyfnewidiad, yn cael ei choleddu gan Schneckenburger; ac y mae mewn rhan hefyd wedi ei mabwysiadu gan Olshausen a Neander. Y mae beirniaid o duedd resymolaidd, fel y gallesid disgwyl, yn gwrthod yr hanes fel y mae yn yr Actau, yn hollol neu mewn rhan.

Digitized by Google

Haerant nad ydyw yr adroddiad yn dyfod oddi wrth lygad-dyst, ac hwyrach y gall fod gormodiaith wedi ei arfer. Nid oes gan y cyfryw, wrth geisio rhoddi cyfrif am y "gwynt nerthol yn rhuthro," ond tybied ei hod yn dymmestl o fellt a tharanau ar y pryd; ac am y "tafodau gwahanedig megys o dân," y maent yn eu priodoli i fflachiadau yr hylif gweirol; ac am y "llefaru â thafodau," dywedant nad oeddynt yn ddim amgen na llefau dynion o blith gwahanol genhedloedd, o dan ddylanwad cyffroad crefyddol dwfn, yn siarad mewn iaith ffugrol a chyfriniol. Yn ol y safle a gymmerir gan yr ysgrifenwyr hyn, wrth gwrs, y mae y golygiad hwn, fe allai, yn ddigon naturiol. Nis gellid disgwyl dim yn amgen oddi wrthynt hwy.

Ond y mae y ffeithiau a ddygir ger ein bron yn dangos yn amlwg fod yma wyrth eglur wedi ei chyflawni, gan fod y dysgyblion annysgedig hyn yn gallu llefaru mewn ieithoedd ereill heb law Aramaeg Galilea; a bod y geiriau a arferid yn cael eu dewis, nid gan ewyllys y llefarwyr, ond gan yr Ysbryd, yr hwn "a roddes iddynt ymadrodd." Arwydd oedd y tafodau gweledig o dân o'r tân mewnol, yr hwn, fel yn achos y prophwydi gynt, nis gallesid ei attal: *Ier.* xx. 9. Nid oedd y ddawn o lefaru â thafodau wedi ei chyfyngu i un eglwys; ond yr ydym yn ei chael yn Ierusalem, Ephesus, a Chorinth; ac yn Thessalonica, dybygid, hefyd: 1 *Thes.* v. 19. Cyfeirir at yr amryw dafodau yn neillduol yn yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, ac y mae rhyw arwyddion o honi hefyd yn yr Epistolau at y Rhufeiniaid, y Galatiaid, a'r Ephesiaid.

TAHAN: disgynydd o Ephraim: *Num.* xxvi. 35. Ymddengys oddi wrth 1 *Cron.* vii. 25, ei fod yn fab i Telah.

TAHANIAID: disgynyddion y Tahan uchod —cangen o lwyth Ephraim: *Num.* xxvi. 35.

1. TAHATH: Lefiad Cohathaidd, ac un o hynafiaid Samuel a Hemam: 1 *Cron.* vi. 24, 37.
2. TAHATH: mab i Bered, a gorŵyr i Ephraim: 1 *Cron.* vii. 20.
3. TAHATH: mab Eladah, ac ŵyr i Tahath, o lwyth Ephraim: 1 *Cron.* vii. 20.

TAHATH: enw un o'r gorsafoedd lle y gwersyllodd yr Israeliaid yn yr anialwch, rhwng Maceloth a Tarah: *Num.* xxxiii. 26. Y mae yr enw yn Hebraeg yn golygu 'islaw,' ac fe allai ei fod yn gymmhwysiadol at lefel y tir. Nid ydys wedi cael allan y fan hyd yma.

TAHPENES: enw priodol un o frenhinesau yr Aipht. Gwraig ydoedd i'r Pharaoh hwnw a dderbyniodd Hadad yr Edomiad, a'r hwn a roddodd chwaer ei wraig iddo mewn priodas: 1 *Bren.* xi. 18—20. Yn yr amser y cyfeirir ato yn yr hanes, ymddengys fod dwy, os nad tair llinach llywodraethol yn yr Aipht; sef, y Taniaid o'r unfed deyrnach ar hugain, yn llywodraethu yn y wlad isaf; a'r archoffeiriaid, yn frenhinoedd yn Thebes. Ond yr oeddynt, dybygid, o'r un linach. I'r llinach hon o'r Taniaid—fel y gryfaf, fe allai, y pryd hwnw, a'r un oedd yn llywodraethu y tiriogaethau nesaf i Palestina—y perthynai, dybygid, y Pharaoh a enwir uchod, yn gystal a thad-yn-nghyfraith Solomon. Os ydyw rhestr Manetho yn gywir, gellid meddwl mai Psusennes oedd y person.

TAHTIM-HODSI, GWLAD: un o'r lleoedd yr ymwelodd Ioab â hwynt pan y cyfrifwyd y bobl yn ngwlad Israel. Enwir y lle rhwng Gilead a Dan-jaan yn 2 *Sam.* xxiv. 6. Y mae yr enw wedi peri dyryswch i esbonwyr. Nid ydyw yr hen gyfieithiadau yn taflu dim goleuni arno. Tybia Fürst y dylid ysgaru "gwlad y Tahtim" oddi wrth "Hodsi," a darllen am y diweddaf 'Harsi,' pobl 'Haroseth.' Cymmharer *Barn.* iv. 2. Meddylia Thenius fod y Deg a Thrigain yn gywir, lle y darllenir 'Gwlad Basan, yr hon yw Edrei.' Y mae hyn ynddo ei hun yn bossibl, ond y mae yn anhawdd ei gyssoni â'r Hebraeg. Tuedda Ewald i ddarllen "Hermon," yn lle "Hodsi."

TAITH DIWRNOD SABBATH. Gwel SABBATH, TAITH DIWRNOD.

TALAETH (*provincia, province*): tiriogaeth, tiriogaeth ddibynol, neu gyfran o frenhiniaeth neu ymherodraeth. Y mae yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio mewn cyssylltiad â'r rhyfeloedd a fu rhwng Ahab a Benhadad: 1 *Bren.* xx. 14, 15, 19. Y mae buddugoliaeth y blaenaf yn cael ei briodoli yn benaf i "wŷr ieuaingc tywysogion y taleithiau;" hyny yw, dybygid, penaethiaid llwythau gwlad Gilead, oedd yn cydnabod uchafiaeth Ahab: ac yr ydoedd mor fanteisiol iddynt hwy ag i'r Israeliaid i wrthsefyll yn llwyddiannus ymosodiadau Syria. Defnyddir y geiriau *talaeth*, neu *daleithiau*, yn fwyaf cyffredin am raniadau teyrnasoedd Caldea a Phersia: *Dan.* ii. 49; iii. 1, 30; *Ezra* ii. 1; *Neh.* vii. 6; *Esth.* i. 1, 22; ii. 3, &c. Y ffeithiau yn mherthynas i weinyddiad llywodraeth y taleithiau Persiaidd sydd yn cael eu hamlygu yn y lleoedd uchod, oeddynt y rhai canlynol:— Yr oedd pob talaeth yn meddu ei llywodraethwr ei hun, a'r rhai hyny yn dal cymmundeb yn awr ac eilwaith â'r prif awdurdodau yn Persia; o'r lle y derbynient gyfarwyddiadau pa fodd i ddwyn yn mlaen eu hachosion: *Ezra* iv. a'r v. Appeliai Tatnai, llywodraethwr y taleithiau ar du deheuol yr Euphrates, at Darius, er cael gwybod pa fodd i ymddwyn yn achos yr Apharsachiaid a'r Iuddewon: *Ezra* v. Yr oedd gan bob talaeth ei threfn ei hun o drethu, ond yn ddarostyngedig i gymmeradwyaeth y brenin.— "*Herodotus*," iii. 89. Holl nifer y taleithiau Persiaidd yn nheyrnasiad Ahasferus oedd cant a saith ar hugain: *Esth.* i. 1; viii. 9. Arferir y gair *talaeth* am raniadau llai na rhaglawiaethau; canys tra yr oedd y taleithiau yn gant a saith ar hugain o nifer, nid oedd y rhaglawiaethau ond ugain.—"*Herodotus*," iii. 89.

Yn y Testament Newydd, dygir ni i gydnabyddiaeth â gweinyddiad llywodraeth taleithiau yr ymherodraeth Rufeinig. Yr oedd Cyrenius yn rhaglaw Syria (*Luc* ii. 1), a Philat yn rhaglaw Iudea (*Luc* iii. 1); ac yr oedd yr un teitl yn cael ei roddi i'w holynwyr, Ffelix a Ffestus: *Act.* xxiii. 24; xxv. 1; xxvi. 30. Gelwir llywodraethwyr taleithiau seneddol Cyprus, Achaia, ac Asia, hefyd yn rhaglawiaid: *Act.* xiii. 7; xviii. 12; xix. 38. Y mae dyledswydd rhaglawiaid i wneuthur adroddiad o achosion arbenig i'r ymherawdwr yn cael ei gydnabod yn *Act.* xxv. 11. Cyfeiria Paul hefyd at yr hawl oedd gan bob dinesydd Rhufeinaidd i appelio oddi wrth ddyfarniad y llywodraethwyr taleithiol at yr ymherawdwr: *Act.* xxv. 11. Yn nesaf at astudio hanes trefniadau mewnol gweriniaeth ac ymher-

Digitized by Google

odraeth Rhufain gynt, y peth mwyaf dyddorol mewn cyssylltiad â hi ydyw astudio y cynlluniau a fabwysiadwyd ganddi i lywodraethu ei thaleithiau, trwy ba rai y sefydlid iaith a chyfreithiau Rhufain i raddau pell mewn gwledydd tramor. Y mae effeithiau y trefniadau a arferwyd gan y Rhufeiniaid i'w canfod etto yn nghyfundrefn gwleidyddol gwledydd Ewrop. Ond pe yr elid i roddi golwg gyflawn ar ddull y Rhufeiniaid o lywodraethu eu taleithiau, byddai raid ysgrifenu hanes Rhufain yn lled gyflawn.

TALAITH (*diadem*). Gwel Coron—au.

TALCEN: y rhan uchaf o'r wyneb. Sonir yn *Esec.* ix. 4, ac hefyd yn *Dad.* vii. 3, am nodau ar y talcenau i wahaniaethu y da oddi wrth y drwg. Gellir egluro y crybwyllion hyn trwy gyfeirio at arferion cenhedloedd. Sonia Maurice am ddefodau y mae yn rhaid myned drwyddynt cyn y gall yr Hindŵaid fyned i demlau mawr yr eilunod; a dywed "y rhaid i seremoni arbenig gymmeryd lle, nas gallesid ei chyflawni gan neb ond gan law Brahmin; trwy roddi ar y talcenau nôd neillduol o amrywiol liwiau, yn ol yr amrywiol sectau y perthynant iddynt. Os teml Veeshnu a fydd, nodir y talcen â llinell ar ei hyd, a'r lliw a ddefnyddir ydyw coch. Os teml Seeva a fydd, y mae y talcen yn cael ei nodi â llinell gyffelyb—ond lliw melyn a ddefnyddir. Y mae y ddwy sect fawr hyn hefyd wedi eu dosranu drachefn yn wahanol ddosbarthiadau, ac y mae y nôd yn gwahaniaethu yn ol eu graddau a'u sefyllfaoedd. Yr oedd hi yn hen arferiad yn Asia i nodi gwasanaethyddion. Cyfeirir at hyn yn ngeiriau Ezeciel, lle y mae yr Arglwydd yn gorchymyn i'r angel i fyned "trwy ganol y ddinas, trwy ganol Ierusalem, a nodi nôd ar dalcenau y dynion sydd yn ocheneidio ac yn gwaeddi am y ffieidd-dra oll a wneir yn ei chanol hi" (ix. 4). Y mae llawer o ddyfalu wedi bod o berthynas i'r nôd hwn. Syniad yr Iuddewon yw mai y llythyren ת ydoedd, o herwydd mai hi ydyw y llythyren flaenaf yn y gair Hebraeg תורה (y gyfraith), megys pe byddai wedi ei hamcanu i nodi allan y rhai a ufuddhaent i'r gyfraith; neu am ei bod y llythyren flaenaf yn y gair תחיה—"byw fyddi." Awgrymir i'r angel gael gorchymyn i ysgrifenu âg inc ar dalcenau y cyfiawnion, ac â gwaed ar dalcenau y rhai dryg-ionus—yn arwyddo yn achos y naill 'byw fyddwch,' ac yn achos y lleill, 'meirw fyddwch.' Mabwysiadwyd y syniad yn rhwydd gan yr esbonwyr Cristionogol boreuol mai y llythyren oedd y nôd; ond tybient ei bod yn cael ei gwneuthur yn ol ei ffurf yn y wyddor Samariaidd, yr hon a arferid yn amser Ezeciel. Yn wir, y mae Jerome ac Origen yn dywedyd mai y ffurf Samariaidd oedd ar y llythyren yn eu hamser hwythau. Wedi penderfynu fel hyn mai y nôd oedd y llythyren ת yn ei hen ffurf Samariaidd, hawdd oedd dyfod i'r penderfyniad fod y nôd yn y talcen yn dynodi iachawdwriaeth trwy groes Crist. Y mae hyn oll yn dra chywrain; ond nid oes un prawf penderfynol mai y llythyren y cyfeiriwyd ati oedd y nôd, nac yn wir pa beth ydoedd. Mae arferiad y merched dwyreiniol o'r dosbarthiadau uchaf o guddio y wyneb pan y byddant mewn lleoedd cyhoeddus, ac yn enwedig gwragedd priod, yn ddigon i gondemnio y wraig na orchuddia ei hwyneb fel un o gymmeriad isel: *Gen.* xxv. 65; *Ier.* iii. 3. Y mae hyn yn rhoddi grym neillduol yn yr ymadrodd "talcen fel adamant;" yr hyn a esyd allan haerllugrwydd a digywilydd-dra yn gyffredinol.

TALEITHIAU BARBARY. Gwel Daearyddiaeth.

TALENT (ככר: *talentum*): y pwysau mwyaf oedd gan yr Hebreaid. Y mae y gair Hebraeg yn arwyddo yn briodol 'cylch.' Yr oedd talent yn cyfatteb i dair mil o siclau. Os oedd sicl o arian yn cyfatteb i dri swllt o'n harian ni, yna yr oedd talent yn gyfartal i 450*p.*, a thalent o aur yn un waith ar bymtheg yn fwy, 7,200*p.* Ond os oedd y sicl yn llai o werth, fel y mae llawer yn barnu, sef yn cyfatteb i ddau swllt a thair ceiniog a thair ffyrling, yr oedd talent o arian yn gydwerth â 342*p.* 9*s.*, a thalent o aur â 5,495*p.*: *Exod.* xxxviii. 24, 27. Yr oedd talent yr Iuddewon a arferid i bwyso arian yn gant a thri ar ddeg o bwysi a deg ŵns; ond yr oedd eu talent, â'r hon y pwysid pob peth arall, fe allai bummed ran yn drymach. Yr oedd talent yr Aiphtiaid tua chwe phwys a thrigain a 9 ŵns, a thalent Antiochia yn pwyso ychydig dros dri chant a deg a phedwar ugain o bwysi. Gwel Pwysau a Mesurau.

Y mae y gallu a'r cyfleusderau a fedd dyn i wneuthur daioni, ac i fod yn ddefnyddiol dros Dduw, yn cael eu galw yn 'dalentau;' ac y mae y rhai hyn yn cael eu cyfranu yn llawer helaethach i rai nag i ereill; ond y mae yn ddyledswydd ar bob un ddefnyddio yn y modd goreu yr hyn a dderbynir ganddo, a bydd raid i bawb roddi cyfrif am danynt: *Mat.* xxv. 15.

TALFYRIADAU (*abbreviations*): byrhâd o air neu ymadrodd, a wneir trwy adael rhai o'r llythyrenau allan o hono, neu trwy roddi yn eu lle rhyw nodau arbenig. Yr mae yr arfer hwn yn un digon cyffredin yn mron yn mhob iaith; ond y rabbiniaid Iuddewig sydd yn fwyaf nodedig am ei ddefnyddio. Cyn y gellir deall eu hysgrifeniadau hwynt y mae yn rhaid cael eglurhâd manwl ar eu talfyriadau. Nid ydyw yr awduron a'r copïwyr Iuddewig yn boddloni ar dalfyru, fel y gwna y Groegiaid, a'r Lladinwyr, ac ereill, trwy gymmeryd ymaith rai llythyrenau neu sillau; canys yr oeddynt yn gadael allan yn fynych yr holl lythyrenau ond y gyntaf; a chymmerent hefyd hyd yn oed y rhai blaenaf o amryw eiriau dilynol, ac unent hwy ynghyd, a chwanegent lefariaid atynt, gan wneyd o honynt ryw fath o eiriau trwsgl, yn cynnrychioli y rhai talfyredig. Er enghraifft, yn eu talfyriadau y mae Rabbi Moses ben Maimon yn cael ei alw yn '*Rambam.*'

TALLEYRAND-PERIGORD, CHARLES MAURICE: tywysog Benevento, diplomyddwr Ffrengig enwog. Ganwyd ef yn Paris, Chwefror 13eg, 1754. Yr oedd yn hanu o hen deulu cyfrifol. Milwr oedd ei dad; ac yn ol pob tebyg cawsai yntau hefyd ei ddwyn i fyny i'r fyddin oni buasai iddo gyfarfod â damwain pan yn flwydd oed, yr hyn a'i gwnaeth yn gloff am y gweddill o'i oes. Dygwyd ef i fyny i'r eglwys, ac astudiodd yn Sulpice, y Sorbonne, a Rheims; ond nid oedd un amser yn dangos y duedd leiaf at fyw yn foesol, heb sôn am fyw yn grefyddol. Ond ni bu ei fywyd penrhydd yn attalfa ar ffordd ei ddyrchafiad yn yr Eglwys Babaidd. Cyflwynwyd iddo abadaeth St. Denis, yn 1775: a phenwyd ef yn oruchwyliwr cyffredinol y clerigwyr

Digitized by Google

yn 1780—swydd a'i dygodd i gyssylltiad agos iawn â swyddogion gwladol Ffraingc; ac ar gyfrif ei alluoedd gweinyddiadol (*administrative*), urddwyd ef yn esgob Autun yn 1788; a chyda hyny y gellir dywedyd i'w fywyd gwleidyddol ddechreu. Yr oedd yn aelod o'r llwyrwys gwladwriaethol a alwyd yn y flwyddyn ddilynol. Mabwysiadodd y pryd hwn yn mron yr holl egwyddorion chwyldroadol oedd yn boblogaidd yn Ffraingc. Cefnogai Mirabeau, a dadleuai dros werthu tiroedd yr eglwys; a rhoddodd i fyny ei esgobaeth, a thorodd bob cyssylltiad oedd rhyngddo a'r eglwys.

Yn 1792, pan oedd hen lywodraethau Ewrop, yn ol pob arwyddion, yn parotoi i lethu y weinyddiaeth ieuangc yn Ffraingc, anfonwyd Talleyrand i Lundain, i ddwyn yn mlaen ymdrafodaeth â'r llywodraeth Brydeinig. Nid ydyw yn ymddangos iddo wneuthur argraph ffafriol ar feddwl Sior III., nac ar y prif weinidog, Willliam Pitt. Gwnaeth ymgais deirgwaith yn ystod y flwyddyn hono i gael gan lywodraeth y wlad hon gydnabod y weriniaeth—ond yn ofer. Torwyd y cyssylltiad rhyngddo a blaenoriaid y chwyldroad yn mis Rhagfyr, 1792, fodd bynag, a dodwyd ei enw ar restr yr alltudion. Efe a arosodd yn Lloegr hyd nes y gorfodwyd ef i ymadael, pan y daeth mesur yr alltudion i rym; yna efe a hwyliodd i'r Unol Daleithiau, yn mis Chwefror, 1794, lle y bu yn preswylio am fwy na blwyddyn. Cafodd genad gan yr awdurdodau gwladol i ddychwelyd yn ol i'w wlad; ac yn mis Mawrth, 1796, aeth i Paris, wedi defnyddio y cyfrwysdra mwyaf i barotoi y ffordd er cael derbyniad ffafriol, pryd y nodwyd ef o dan y Llywgor (*Directory*) yn weinidog tramor yn lle C. Delacroix. Nis gallai gwleidyddwr craff fel Talleyrand lai na gweled fod Napoleon yn codi i enwogrwydd; gan hyny, gwnaeth yr oll a allai er sicrhau cyfeillgarwch y cadfridog ieuangc, a gofalai yn wastad am anfon iddo ddisgrifiad o sefyllfa pethau yn Paris ac amgylchiadau y gwahanol bleidiau; ac yr oedd efe yn hysbys o ac yn cydweithio â Napoleon yn y cynlluniau a ddygodd oddi amgylch gwymp y Llywgor yn 1799. Yr oedd yn medru dirnad syniadau Napoleon gyda chywirdeb mawr, ac yn gwneyd yr oll a allai i gadarnhau ei awdurdod. Tystiolaeth y diweddaf am dano unwaith oedd, "Un medrus yw Talleyrand:—y mae wedi gweled trwof fi." Bu ganddo law fawr yn rhoddi y Duc d'Enghien i farwolaeth. Gwnaeth ei oreu hefyd i ddarparu y ffordd i sefydlu yr ymherodraeth yn 1804; a gwnaeth wasanaeth diplomyddol pwysig i Napoleon mewn llawer o amgylchiadau; am yr hyn yr amlygai yr olaf ei ddiolchgarwch trwy roddi iddo lywyddiaeth tywysogaeth Benevento.

Ond yr oedd oerfelgarwch yn dechreu cyfodi rhwng Napoleon a Talleyrand. Cymmerwyd oddi ar y diweddaf y swydd o weinidog tramor, yn 1807; ac yn 1809, amlygodd Talleyrand ei anghymmeradwyaeth o waith Napoleon yn goresgyn Yspaen—am yr hyn y bu raid iddo ymddiswyddo o fod yn ystafellydd. Ymgadwodd yntau o'r llys ar ol hyn, a mynegir ei fod wedi rhagfynegu cwymp yr ymherodraeth. Pan y rhoddwyd Paris i fyny yn 1814, gwnaeth yr ymherawdwr Alexander o Rwssia ei drigfod yn nhŷ Talleyrand. A phan esgynodd Louis xviii. orsedd Ffraingc, pennodwyd ef yn weinidog tramor drachefn, a chafodd ei ddewis yn gynrychiolydd ei wlad yn nghynnadledd Vienna. Ond wedi hyny, efe a gollodd yn fuan ffafr y Bourboniaid; ac o adeg sefydliad heddwch yn 1815, hyd chwyldroad 1830, ystyrid ef yn arweinydd y blaid Ryddfrydig, ac yn wrthwynebwr pendant i'r gangen hynaf o deulu Bourbon. Pan y gwnaed Ffraingc yn frenhiniaeth gyfansoddiadol o dan Louis Philippe, pennodwyd Talleyrand yn llysgenhadwr i Brydain—swydd a lanwyd ganddo hyd 1835. Yn ystod yr amser hwn gwnaeth bob ymdrech a allai i ddwyn oddi amgylch gynghrair rhwng Ffraingc a Lloegr, fel llywodraethau cyfansoddiadol, yr hyn oedd un o ddymuniadau mawr ei fywyd. Llawnododd y cynghrair rhwng Prydain, Ffraingc, Yspaen, a Phortugal, a gwnaeth ei ran i sefydlu teyrnas Belgium. Rhoddodd heibio ei swydd o lysgenhadwr yn 1835, a bu fyw mewn neillduaeth o hyny allan. Bu farw yn Paris ar yr 17eg o Fai, 1838, yn 84ain mlwydd oed.

Mŷn rhai fod Talleyrand yn un o ddynion mwyaf ei oes, tra y dywed ereill nad oedd yn fawr, yn ddoeth, nac yn dda; ond ei fod yn dra nodedig am ei gyfrwysder, ei fedrusrwydd, a'i ystwythder. Yr oedd ei ffraethineb, pa fodd bynag, yn fawr ac yn effeithiol iawn; a'i alluoedd meddyliol yn nerthol ac yn glir hyd y diwedd. Beth bynag a ddywedir am dano, nid oes un ddadl yn meddyliau llawer nad efe oedd diplomyddwr penaf ei oes.

TALITHA CWMI: dau air Syriaidd a arferodd ein Harglwydd pan yn cyfodi merch Iairus o farw i fyw—yn arwyddo "Yr eneth, cyfod;" *Marc* v. 41.

1. TALMAI: un o'r tri a elwid "meibion Anac," a yrwyd o'u cartrefle yn Nghaer Arba, ac a laddwyd gan wŷr Iudah, o dan arweiniad Caleb: *Num.* xiii. 22; *Ios.* xv. 14; *Barn.* i. 10.

2. TALMAI: mab Ammihud, brenin Gezur: 2 *Sam.* iii. 3; xiii. 27; 1 *Cron.* iii. 2. Ei ferch, Maachah, oedd un o wragedd Dafydd, a mam Absalom. Penaeth israddol oedd efe, dybygid, yn ddarostyngedig i Dafydd; ac yr oedd ei gartref neillduedig yn Basan yn lle cymmhwys i noddi ei ŵyr ar ol i Amnon gael ei ladd.

TALMON: Penaeth teulu o borthorion y deml, neu flaenor yn rhai "o finteioedd meibion Lefi oedd borthorion;" 1 *Cron.* ix. 17, 18; *Neh.* xi. 19. Dychwelodd rhai o'i ddisgynyddion gyda Zorobabel (*Ezra* ii. 42; *Neh.* vii. 45), a gosodwyd hwynt yn eu swyddi treftadol yn nyddiau Nehemiah ac Ezra: *Neh.* xii. 25.

TALMUD (תלמוד: *athrawiaeth;* o למד, *dysgu*): Gwaith ydyw hwn sydd yn cynnwys cyfreithiau gwladol ac eglwysig yr Iuddewon. Y mae yn cynnwys y rheolau a'r gosodiadau hyny yn ol pa rai, yn chwanegol at yr hyn a geir yn yr Hen Destament, y mae ymddygiadau y genedl i gael ei rheoli. Pa beth bynag sydd yn orphwysedig arnynt i'w gyflawni, heb law sydd yn y gyfraith, y mae wedi ei gofnodi yn y gwaith hwn. Y mae ammheuon yn cael eu penderfynu ynddo, dyledswyddau yn cael eu hegluro, a'r pethau manylaf sydd yn dwyn cyssylltiad â bywyd ac ymarweddiad yn cael eu dwyn ger bron. O ganlyniad, y mae y "*Talmud*" o nodwedd tra amrywiol; ac yn ymwneyd, nid yn unig â chrefydd, ond âg athroniaeth, meddygiaeth, hanesyddiaeth, rheithofyddiaeth, yn gystal ag â gwahanol ganghenau o ddyledswyddau ymarferol. Y mae yr Iuddewon wedi rhanu eu cyfraith i'r

Digitized by Google

un ysgrifenedig a'r anysgrifenedig. Y mae y flaenaf yn gynnwysedig yn Mhum Llyfr Moses, a'r olaf wedi ei throsglwyddo i lawr yn llafaredig nes y darfu i amgylchiadau eu gorfodi i'w hysgrifenu i lawr. Ystyriant y gyfraith lafaredig yn esboniad ar yr un ysgrifenedig, a'r gyfraith hon sydd yn gwneyd i fyny destyn y "*Talmud.*" Priodolir yr un hynafiaeth i'r gyfraith lafaredig ag i'r un ysgrifenedig. Yn ol tystiolaeth yr Iuddewon, derbyniodd Moses y ddwy ar Fynydd Sinai. Derbyniodd Iosuah y flaenaf gan Moses; trosglwyddodd yntau hi drachefn i'r deg henuriad a thrigain, a hwythau i'r prophwydi; a throsglwyddodd y rhai hyny hi i wŷr y synagog fawr—yr olaf o ba rai oedd Simon y Cyfiawn. Oddi wrth wŷr y synagog y cafodd y rabbiniaid hi. Ar ol ail ddinystrio Ierusalem, o dan yr ymherawdwr Hadrian, ac i'r Iuddewon gael eu gwasgaru dros y byd mewn canlyniad i hyny, ofnid y buasai y traddodiadau llafaredig yr edrychid arnynt mor gyssegredig yn cael eu colli, yn enwedig gan fod eu rhifedi yn gyfryw fel yr oedd yn anghyfleus, os nad o'r bron yn amnhossibl eu cadw yn y cof. Oddi wrth hyn y cyfododd yr angenrheidrwydd i'w hysgrifenu, fel y caffent eu trosglwyddo i lawr yn drysor cenedlaethol gwerthfawr o'r naill oes i'r llall. Cyttunir yn gyffredin mai Rabbi Judah *Hackkadosh* (hyny yw, *y sanctaidd*) a wnaeth y cofnodion cyntaf o honynt, o ddeutu chwech ugain neu gant a hanner o flynyddoedd ar ol dinystr y deml, neu B.A. 190 neu 220. Y mae Morin, pa fodd bynag, yn priodoli i'r gwaith hwn ddyddiad llawer diweddarach, sef y chweched ganrif, gan bwyso yn benaf ar y ffaith nad ydyw Origen, Epiphanius, a Jerome, yn gwneyd un crybwylliad am waith o'r fath. Ond ar y cyfan, nid ydyw rhesymau yr ysgrifenydd hwn dros ei olygiad yn gedyrn. Dywedir fod Rabbi Judah yn byw yn nheyrnasiad Antoninus Pius. Dyna oedd dechreuad y "*Mishna,*" neu y *testyn*, fel ei gelwir. Nid ydys i dybied, pa fodd bynag, fod yr holl ddeongliadau traddodiadol yn gynnwysedig yn y "*Mishna*" awdurdodedig. Yr oedd llawer ereill yn bod na chawsant eu corphori yn y gwaith hwnw.

Y mae dau esboniad wedi eu chwanegu at y "*Mishna:*" gelwir un y "*Gemara Babilonaidd,*" a'r llall "*Gemara Ierusalem.*" Dechreuwyd y blaenaf gan Rabbi Asche, yr hwn a fu farw B.A. 427, a chafodd ei gwblhau yn B.A. 500. Y mae yn waith amryw o rabbiniaid, y rhai y mae eu henwau yn parhau yn dra pharchus hyd heddyw gan Iuddewon dysgedig. Tybia Morin na chwblhawyd ef hyd ddechreu yr wythfed ganrif; ond ychydig iawn sydd yn cydsynio âg ef yn y dyb hon. Y mae yr hyn a ysgrifenwyd ar ol y "*Mishna*" yn cael ei ystyried yn esboniad arno; a'r esboniad hwn, gyda'r "*Mishna*" sydd yn gwneyd i fyny y "*Talmud Babilonaidd.*" O'r athrofa yn Tiberias y daeth "*Gemara Ierusalem,*" a chynnwysa esboniad Iuddewon Palestina ar y "*Mishna.*" Casglwyd ac ysgrifenwyd hwn, yn benaf, gan Rabbi Jochanan, un o athrawon yr athrofa. Y mae gwahanol farnau am yr amser yr oedd efe yn byw; ond y mae y nifer liosocaf o'r awdurdodau yn nodi B.A. 230, ereill 270, ac y mae ereill drachefn yn enwi 370. Y mae yn "*Gemara Ierusalem*" brofion, dybygid, ei fod wedi ei gyfansoddi neu ei gasglu yn benaf tua diwedd y bedwaredd gaurif; yr hyn a gyttuna â golygiadau Maimonides. Os felly, rhaid mai nid Jochanan oedd y prif gasglydd, gan iddo ef farw yn B.A. 279. Priodola Morin, Vossius, a Pezronius i'r "*Gemara*" hwn ddyddiad diweddarach. Yn ol Vossius, dechreuwyd ef yn B.A. 655, a chafodd ei orphen yn 727. Dadleua Pezronius iddo gael ei gyfansoddi yn nechreu y seithfed ganrif. Ond o'r braidd y gall y dyddiadau diweddar hyn fod yn gywir, gan fod rhai o ddefnyddiau "*Talmud Ierusalem*" wedi eu dwyn i mewn i'r "*Talmud Babilonaidd;*" ac y mae yn hawdd olrhain arwyddion o hyny yn y diweddaf. Ond er fod "*Talmud Ierusalem*" yn foreuach o ran ei ddyddiad, y mae yr Iuddewon bob amser wedi rhoi y flaenoriaeth i'r "*Talmud Babilonaidd;*" a gelwir ef ganddynt mewn ffordd o ragoriaeth "*Y Talmud.*" Pan y cyfeiria y rabbiniaid yn eu hysgrifeniadau at "*Y Talmud,*" deallir ar unwaith eu bod yn llefaru am y "*Talmud Babilonaidd.*" Y mae y diweddaf yn llawer mwy cyflawn a helaeth yn ei eglurhadau. Er hyny, y mae Cristionogion yn gyffredin yn gwerthfawrogi "*Talmud Ierusalem*" yn fwy. Y mae yn fyrach ac yn fwy cryno, yr hyn sydd yn gymmeradwyol iddo; ac heb law hyny, y mae yn gyffredin yn rhydd oddi wrth chwedlau a ffolinebau y llall: ond y mae yn fwy anhawdd ei ddeall.

Y mae y "*Mishna*" wedi ei ysgrifenu yn yr Hebraeg, ond y "*Gemara*" yn Aramaeg. Am y blaenaf, y mae yn lled bur a rhydd oddi wrth eiriau dyeithr a chymmysg; ond cynnwysa yr olaf lawer o eiriau Persiaeg, Groeg, a Lladin—yr hyn sydd yn chwanegu at yr anhawsder i'w ddeall.

Dosberthir y "*Mishna,*" fel y mae yn y "*Talmud Babilonaidd,*" i'r chwe rhaniad a ganlyn; ac y mae y rhai hyn wedi eu dosranu i un a thrigain o draethodau, a phennodau liosog:—1af, "*Seder Zeraim,*" neu 'Trefn yr Hadau;" lle yr ymdrinir â hau ac â chasglu ynghyd ffrwyth y ddaear, gyda chyfeiriadau neillduol at amserau a dulliau gweddïau a diolchiadau, degymau, ac offrymau i Dduw. 2. "*Seder Moed,*" neu 'Trefn y Gŵyliau;" yn ymwneyd â'r amserau a'r dull y dylid cadw y Sabbath, y Pasc, Gŵyl y Pebyll, ac ymprydiau, a gwyliau Iuddewig ereill ordeiniedig iddynt. 3ydd, "*Seder Nashim,*" neu 'Trefn y Gwragedd;' lle y cyfeirir at briodas, ysgariaeth, dyweddïad, anffyddlondeb priodasol, puredigaeth, a phethau cyffelyb. 4ydd. "*Seder Nezikim,*" neu 'Trefn y Colledion;' yn ymwneyd â'r colledion a'r niweidiau a achosir gan y naill i'r llall, ymdrafodaethau masnachol, ac hefyd am y dull o ddwyn yn mlaen brawfion, a'r iawn oedd i gael ei roddi, a'r gosp a weinyddir. 5ed, "*Seder Kodashim,*" neu 'Trefn pethau cyssegredig;' lle yr ymdrinir â gwahanol fathau o aberthau oedd i'w hoffrymu i'r Arglwydd, a'r anifeiliaid glân ac aflan, y gallasai neu na allasai yr Iuddewon eu bwyta. 6ed, "*Seder Taharoth,*" neu 'Trefn y Puredigaethau;" lle yr ymdrinir â thai, llestri, a dodrefn, a phersonau, gwisgoedd, a ffrwythydd, y modd yr aethant yn aflan, a'r ffordd i'w puro. Gellir sylwi, modd bynag, nad ydoedd "*Talmud Ierusalem*" ar y cyntaf yn cynnwys yr olaf o'r trefniadau hyn; ac y mae y pummed hefyd wedi ei golli o hono yn awr.

Y mae yr Iuddewon yn gosod cymmaint o werth ar y "*Talmud*" ag ar y gyfraith ysbrydoledig; ac y mae hyn yn dangos priodoldeb a gwiredd cyhuddiad ein Gwaredwr. "Gan ddirymu gair Duw â'ch traddodiad eich hunain, yr hwn a draddodasoch chwi;" *Marc* vii. 13. Y

Digitized by Google

mae yn y "*Talmud*" lawer o bethau chwedleuog, ysgafn, a ffol. Ceir ynddo arwyddion o dueddiadau allegawl y dwyrain, a rhyw gywreinrwydd plentynaidd gyda rhyw fath o ymofyniadau. Gwelir fod rhai o'r cwestiynau hyn yn ynfyd, ac ereill bron o nodwedd anghrefyddol. Gwnaed talfyriad o'r "*Talmud Babilonaidd*" gan yr enwog Maimonides, yn y ddeuddegfed ganrif; yn yr hwn y mae llawer o'r ffol-bethau wedi eu gadael allan. Y mae y talfyriad rhagorol hwn yn ddigon cyflawn i foddlio y rhan fwyaf o ddarllenwyr, gan ei fod yn cynnwys yr oll sydd yn wir werthfawr yn yr holl waith.

Ymddengys fod rhai esbonwyr wedi gwneyd defnydd o'r "*Talmud*" tuag at esbonio y Testament Newydd, ac yn neillduol felly Lightfoot, Schöettgen, a Meuschen; ac mewn amryw o enghreifftiau, y mae wedi gwasanaethu i daflu goleuni ar y meddwl, yn enwedig pan yr oedd a wnelo hyny rywbeth âg arferion Iuddewaidd. Ond hwyrach fod y "*Talmud*" yn fwy manteisiol er beirniadu yr Hen Destament, ac yn enwedig os ceir cyfle i'w chwilio mewn llawysgrif, gan fod y copïau argraphedig wedi eu cyfnewid gryn lawer. Gwel MISHNA.

TAMAH. Yr oedd meibion Tamah, neu Thamah, yn mysg y Nethiniaid a ddychwelasant o Babilon gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 53; *Neh.* vii. 55.

1. TAMAR (תמר: *palmwydden*): un a fu yn wraig yn olynol i ddau o feibion Iudah; sef, Er ac Onan: *Gen.* xxxviii. 6—30. Y mae ei phwysigrwydd yn yr hanes ysgrythyrol yn cael ei achosi gan y pryder oedd yn bod am gadw i fyny linach Iudah. Yr oedd y teulu yn ymddangos fel pe buasai ar gael ei ddifodi. Bu farw Er ac Onan yn ddisymmwth, y naill ar ol y llall. Bu y ddau farw yn ddiblant; ac yr oedd Iudah yn petruso rhoddi ei drydydd mab iddi, yn ol y drefn batriarchaidd, rhag digwydd iddo yntau hefyd yr un dynged. Dyma barodd i Tamar ffurfio y ddyfais y mynegir am dani yn *Gen.* xxxviii.; a ffrwyth y trosedd a gyflawnwyd oedd i Tamar roddi genedigaeth i ddau fab i Iudah, sef Phares a Zarah.

2. TAMAR: merch i Dafydd a Maachah, y dywysoges Gesuriaidd; ac felly yr ydoedd yn chwaer gyflawn i Absalom: 2 *Sam.* xiii. 1—32; 1 *Cron.* iii. 9. Yr oedd hi a'i brawd yn hynod am eu harddwch personol anghyffredinol. Ei phrydferthwch a gynnhyrfodd nwyd annuwiol ei hanner brawd, Amnon, mab hynaf Dafydd o Ahinoam. Curiai y tywysog o dan ddylanwad y nwyd hon, gan ei fod yn ystyried ei fod yn ammhossibl iddo foddloni ei chwant—"canys gwyryf oedd hi." Cafodd ei gyfaill Ionadab allan beth oedd achos ei gystudd, ac awgrymodd iddo y ffordd oreu i gario allan ei amcan dryggionus. Yr oedd i gymmeryd arno fod yn glaf. Daeth y brenin i ymweled âg ef; a deisyfodd Amnon am gael Tamar i weini arno, o dan yr esgus mai hi a allasai barotoi ymborth iddo o'r fath a garai. Anfonwyd Tamar ato yn ol ei ddymuniad; ac wedi anfon ei weision ymaith, er ei holl resymau a'i holl wrthwynebiad hi, efe a gariodd ei amcan pechadurus allan:—"Ni fynai efe wrandaw ar ei llais hi; eithr efe a fu drech na hi, ac a'i treisiodd, ac a orweddodd gyda hi;" 2 *Sam.* xiii. 14. Ymddengys fod tywysogesau heb briodi yn gwisgo mentyll neillduol, wrth ba rai yr adwaenid hwynt; ac yr oedd Tamar wedi ymwisgo yn un o'r rhai hyn, a gosod pridd ar ei phen, a rhwygo y fantell symmudliw, gosod ei "llaw ar ei phen, a myned dan waeddi," pan gyfarfu ei brawd Absalom â hi; yr hwn a'i cymmerodd i'w dŷ ei hun, lle yr arosodd fel mewn ystâd o weddwdod. Naill ai yr oedd y brenin yn ofni, neu ynte yr oedd yn anewyllysgar i ymyraeth âg etifedd y goron, canys ni chospwyd ef; ond dïalwyd Tamar gan Absalom, fel y dïalwyd Dinah gan Simeon a Lefi; ac allan o'r dial hwn y deilliodd llawer o'r anffodion a gymmylodd ddiwedd teyrnasiad Dafydd.

3. TAMAR: merch Absalom, yr hon a elwid felly ar ol ei modryb brydweddol; ac yr oedd hithau hefyd yn etifeddu tegwch ei modryb a'i thad: 2 *Sam.* xiv. 27. Y hi oedd yr unig un a adawyd yn fyw o deulu Absalom; a thrwy ei phriodas gydag Uriah o Gibeah, daeth yn fam i Maachah, brenhines Iudah wedi hyny, gwraig Abïam: 1 *Bren.* xv. 2. Cafodd Maachah ei galw ar enw ei nain, fel y cafodd Tamar ei galw ar enw ei modryb.

TAMAR: llanerch ar gyffiniau de-ddwyreiniol Iudah, a enwir yn *Ezec.* xlvii. 19; xlviii. 28. Os nad yr un ydoedd â *Hazazon Tamar*, hen enw Engedi, hwyrach mai y lle a elwir Tamar yn yr "*Onomasticon*" ydyw—taith diwrnod i'r deheu o Hebron. Tybia Robinson mai yr un oedd a hen adfeilion amddiffynfa yn *Kurnub.* Ymdrecha De Stauley i ddangos fod cyssylltiad rhwng Tamar a Kalaat yn ngenau ceunant o'r un enw ar y tu de-orllewinol i'r Môr Marw. Ond y mae hyn o leiaf yn ammheus.

TAMMUZ (תמוז: Θαμμουζ, *y cuddiedig*): eilundduw Syriaidd. "Yn y chweched flwyddyn o gaethiwed Iehoiacin, yn y chweched mis, ar y pummed dydd o'r mis," eisteddai y prophwyd Ezeciel yn ei dŷ, yn nghwmni henuriaid Iudah, pan y cymmerwyd ef gan "yr ysbryd" i'r deml yn Ierusalem. Yr oedd llaw yr Arglwydd arno, ac arweiniodd ef "i ddrws tŷ yr Arglwydd, yr hwn oedd tua'r gogledd; ac wele yno wragedd yn wylo am Tammuz;" *Ezec.* viii. 14. Y mae deilliad y gair mor anhawdd ei olrhain ag ydyw ei ystyr. Yn y "*Vulgate,*" y gair *Adonis* a ddefnyddir am Tammuz; ond y mae yr holl gyfieithiadau ereill yn ei adael heb ei newid, a thrwy hyny yn cydnabod anwybodaeth gyda golwg arno. Y mae y golygiad a roddir gan y "*Vulgate*" wedi ei dderbyn yn lled gyffredin fel yr un tebycaf o fod yn gywir o berthynas i'r enw dyeithr hwn. Y mae yn golygu, dybygid, yr un a'r duw Phœniciaidd Adonis, prif deml a gwasanaeth yr hwn oedd yn Byblus; ond addolid ef hefyd yn Syria, Cyprus, a gwlad Groeg. Yr oedd gŵyliau y duw mewn rhan yn adegau o lawenydd, ac mewn rhan hefyd o alar. Yn y gŵyliau galarus yr oedd y merched yn ymroddi i alaru ar ol yr "Adonis colledig," yn eillio eu gwallt, ac yn aberthu eu diweirdeb yn ei demlau ef. Dygid dyddiau y galar i derfyniad trwy gladdu yn gyhoeddus ddelw o'r duw. Dilynid hyn gan ddyddiau llawen a gorfoleddus er anrhydeddu adgyfodiad Adonis neu Tammuz. Yr oedd yr afon Adonis, yr hon ar un adeg yn y flwyddyn a redai i'r môr o fynydd Lebanon, â'i lliw yn borphoraidd; a thybiai y bobl fod ei dyfroedd yn cael eu lliwio â gwaed yr eilun y cyfeirir ato yn yr erthygl hon. Dechreuid cadw gŵyl Tammuz gydag ymddangosiad y lleuad newydd yn Gorphenaf. Gwel ADONIS.

Digitized by Google

TAMERLANE, neu TIMUR: rhyfelwr mawr Asiaidd. Ganwyd ef ger llaw Kesh, yn nhiriogaeth yr hen Sogdiana, yn 1336. Yn ei le genedigol y treuliodd efe y pedair blynedd ar hugain cyntaf o'i oes, mewn neillduaeth tawel, gan ymroddi i ddilyn y difyrwch o farchogaeth a hela. Yn 1360 darostyngwyd Turkestan gan y Kalmuckiaid, a dygodd hyn i'r golwg alluoedd nad oedd efe erioed wedi eu hamlygu o'r blaen. Casglodd ynghyd ychydig o ddilynwyr dewrfrydig, ac aeth i gyfarfod y goresgynydd; ac efe a fu y prif offeryn i yru y Kalmuckiaid o'r wlad yn y flwyddyn ddilynol. Yn ganlynol i hyny, rhanwyd Turkestan rhwng Tamerlane ac Ameir Husseyne, a bu cyfeillgarwch yn ffynu rhyngddynt am beth amser; ond aethant i ryfel, a gorchfygwyd a lladdwyd Husseyne, a chyhoeddwyd Tamerlane yn brif arlywydd Turkestan. Yn y rhyfel â'r Kalmuckiaid clwyfwyd Tamerlane yn ei glun, yr hyn a'i cloffodd am y gweddill o'i oes. Ni chymmerodd y teitl o frenin; ond dyrchafodd un o'r llinach frenhinol i'r orsedd, gan gadw yr awdurdod yn wirioneddol iddo ei hun gyda'r teitl o *emir*. Yn mhen deng mlynedd, trwy rym talent a gallu, meddiannodd awdurdod unbenaethol dros bobl liosog a rhyfelgar, a phenderfynodd ddial y cam a gafwyd oddi ar ddwylaw Kalmuckiaid Iettah a Mogulistan; ac wedi gwneyd hyny, efe a drodd tua'r gorllewin i gospi llwythau ysbeilgar y Khaurezm.

Tua 1383, cododd pobl Herat mewn gwrthryfel yn erbyn Tamerlane, a lladdasant y cenhadau a anfonodd efe atynt; ond dialodd yn dost arnynt am hyn; ac wedi darostwng Seistan, dychwelodd Tamerlane, yn ol ei arfer, i dreulio y gauaf yn mynwes ei deulu, yn un o'i balasau lliosog ger Samarkand. Yn 1387, efe a ddarostyngodd yr holl wlad yn orllewinol i'r Tigris, o Tiflis i Shiraz; ac yn y blynyddoedd dilynol tawelodd y terfysgoedd a fu mewn amryw barthau o'i diriogaethau. Yna cychwynodd tua'r gorllewin yn 1392; croesodd y Tigris; darostyngodd y llwythau lliosog oedd i'r dwyrain o'r Euphrates; ac aeth yn mlaen yn ogleddol trwy byrth Derbend, tua'r Volga, a gorchfygodd y Toktemeshiaid drachefn, ar lenydd y Terek; yna trodd i'r gorllewin mor bell a'r Dnieper, a chadwodd i'r gogledd o Moscow, a dychwelodd trwy Astrakhan a'r Caucasus, gan adael pob peth o'i ol yn anrheithiedig. Yn 1398, dygodd yn mlaen ryfelgyrch yn Hindwstan, a gorchfygodd y byddinoedd lliosog a ddygid i'w gyfarfod, a chymmerodd nifer dirfawr yn garcharorion. Pedwar diwrnod cyn ymladd y frwydr fawr âg ymherawdwr yr India, o flaen Delhi, gorchymynodd Tamerlane, mewn gwaed oer, roddi yr holl garcharorion gwryw oedd ganddo i farwolaeth, ynghylch can mil (100,000) mewn nifer; ac ar ol llwyr orchfygu ei wrthwynebwyr, efe a gymmerodd eu prif ddinas. Yna dychwelodd i Samarkand, lle y gwariodd efe yr ysbail fawr a gafodd i addurno y brif ddinas.

Dychwelodd drachefn i Asia Orllewinol yn y flwyddyn ddilynol, ac ymosododd ar yr ymherodraeth Aiphtaidd yn Syria; a llwyddodd yno fel arfer. Gorchfygodd y Tyrciaid hefyd, o dan Bajazet I., yn mrwydr fawr Angora, Gorphenaf 2il, 1402, a chymmerwyd Bajazet yn garcharor. Llwyr ddarostyngodd yr oll o Asia Leiaf. Bu farw yr anffodus Bajazet yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei ddal, er ei fod yn derbyn pob caredigrwydd. Dychwelodd y gorchfygwr llwyddiannus adref, a chyrhaeddodd Samarkand yn 1404. Adnewyddodd ei barotoadau ar gyfer goresgyn China, a chychwynodd gyda byddin fawr tuag yno; ac aeth i lawr gyda glenydd yr afon Sihun i Otrar, lle y bu raid iddo aros o herwydd llymder y tywydd; ac yno tarawyd ef gan dwymyn y cryd poeth, a bu farw ar ol wythnos o selni, Chwefror 17eg, 1405, yn y 69ain flwydd o'i oedran.

Y mae i Tamerlane le uchel yn rhestr gorchfygwyr y ddaear. Yr oedd ei wrthwynebwyr gan mwyaf yn bobl ryfelgar, ac wedi cael dysgyblaeth filwraidd, ac yn aml heb fod yn llai o nifer na'i ganlynwyr yntau; ond bu raid iddynt ymostwng o flaen gwrhydri diarebol y gorchfygwr Mangolaidd hwn. Y mae y cyhuddiad o greulondeb a ddygir yn ei erbyn wedi ei brofi yn eithaf teg, yn enwedig gan ei waith yn cyflawni y gyflafan o roddi ei garcharorion rhyfel i farwolaeth yn India: ond y mae yn rhaid dywedyd y cafwyd rhai enghreifftiau nodedig o ysbryd maddeugar a charedig ynddo. Gwnaeth lawer i gefnogi y gwyddorau a'r celfyddydau yn ei diriogaethau; ond dadfeiliodd ei ymherodraeth yn gyflym ar ol ei farwolaeth ef, gan nad ymddangosodd neb o allu i gymmeryd ei le.

TAN. Gwel GWRES.

TANCWELINIAID (*Tanquelinians*): dilynwyr Tanquelianus, yr hwn oedd ŵr lleygol, a sylfaenydd sect yn nechreu y ddeuddegfed ganrif. Llafuriai yn yr Iseldiroedd, ac yr oedd yn hynod am ei wrthwynebiad i'r clerigwyr, ac i addoliad gweledig. Dywed Mosheim mai cyfriniwr (*mystic*) oedd efe. Cyhuddir ef o edrych yn isel ar addoliad cyhoeddus, ac ar y sacramentau; o gynnal cyfarfodydd dirgelaidd i ledaenu ei egwyddorion; ac uwch law y cwbl o wrthwynebu y clerigwyr. Ond y mae yn rhaid sylwi, mai gwasanaeth crefyddol a chlerigwyr Eglwys Rhufain oedd gwrthddrychau ei adgasedd. Lladdwyd ef gan offeiriad yn 1124, yn ngŵydd amryw o'i ganlynwyr.

TANHUMETH: tad Seraiah yn amser Gedaliah: 2 *Bren.* xxv. 23; *Ier.* xl. 8. Gelwir ef yn y lle blaenaf a nodir "y Netophathiad;" ond wrth edrych ar yr hanes yn Ieremiah gwelir fod y gair yna wedi ei adael allan o'r testyn.

TAPANHES, TEHAPHNEHES: dinas yn yr Aipht o gryn bwysigrwydd yn amser y prophwydi Ieremiah ac Ezeciel. Diammheu fod yr enw yn un Aiphtaidd, ac yn debyg iawn i enw y frenhines Aiphtaidd Tahpenes. Y mae yn amlwg fod Tapanhes yn un o drefydd yr Aipht Isaf, ac yn agos i'r cyffiniau dwyreiniol. Pan yr oedd Iohanan, a phenaethiaid ereill, yn myned i'r Aipht, hwy a "ddaethant i Tapanhes;" *Ier.* xliii. 7. Yno y prophwydodd Ieremiah am orchfygiad y wlad gan Nebuchodonosor: *pen.* xliii. 8—13. Rhagfynega Ezeciel am frwydr a ymladdwyd yno gan Nebuchodonosor, dybygid: *Ezec.* xxx. 18. Trigiannai yr Iuddewon yno yn amser Ieremiah: *Ier.* xliv. 1. Yr oedd yn dref bwysig, yn ddiau; o herwydd y mae yn cael ei chrybwyll dair gwaith gyda Noph neu Memphis gan y prophwyd diweddaf: *pen.* ii. 16; xliv. 1; xlvi. 14. Yno yr oedd palas Pharaoh Hophra, o flaen yr hwn y darfu i Ieremiah guddio ceryg mawrion mewn maes; ac ar y ceryg hyny (yn ol y brophwydoliaeth) y gosodid gorseddfainge,



Digitized by Google

ac y taenwyd pabell Nebuchodonosor: *Ier.* xliii. 8—10. Geilw Herodotus y lle hwn yn Daphnæ Pelusium; a dywedir fod gan Psammetichus I. warchodlu yn amddiffyn y lle yn erbyn yr Arabiaid a'r Syriaid, fel yr oedd ganddo yn Elephantine yn erbyn yr Ethiopiaid, ac yn Marea yn erbyn Libya; a chwanega fod gan y Persiaid yn ei ddyddiau ef warchodluoedd yn Daphnæ ac Elephantine: *pen.* ii. 30. Yn ol Stephanus, yr oedd Daphnæ, neu Tapanhes, yn agos i Pelusium.

TAPHATH: merch Solomon, a gwraig i fab Abinadab. Un o'r deuddeg swyddog ydoedd yn parotoi ar gyfer arlwyo bwrdd y brenin: 1 *Bren.* iv. 11.

TAPHON: un o ddinasoedd Iudah, yr hon a osodwyd mewn sefyllfa amddiffynol, trwy adeiladu caerau o'u hamgylch: 1 *Mac.* ix. 50. Yr un ydoedd hi, dybygid, a Beth-Tappuah yr Hen Destament, yr hon oedd gerllaw Hebron. Y mae y ffurf a roddir i'r gair gan Josephus yn awgrymu mai Tecoa oedd y fan.

1. TAPPUAH: dinas yn nhiriogaeth Iudah, yn yr iseldir: *Ios.* xv. 34. Y mae hi yn cael ei henwi yn yr un rhestr a Soreah, Zanoah, ac Iarmuth; a dangosir yn eglur ei bod yn sefyll ar lechweddau isaf mynyddoedd gogledd-orllewin Iudah, ynghylch deuddeng milldir i'r gorllewin o Ierusalem, lle y mae y gwahanol leoedd hyn wedi eu cael allan yn mron hyd sicrwydd. Y mae yn rhyfedd fod yr enw wedi ei adael allan yn y ddwy lawysgrif o'r Deg a Thrigain. Nid ydys, pa fodd bynag, wedi darganfod Tappuah hyd yn hyn. Dylid cofio nad ydyw y Tappuah yma yr un a Beth-Tappuah ger Hebron, nac a gwlad Tappuah yn nhiriogaeth Ephraim.

2. TAPPUAH: lle ar gyffiniau rhandir "meibion Ioseph;" *Ios.* xvi. 8; xvii. 8. Ei henw llawn, fe allai, oedd En-Tappuah (*pen.* xvii. 7), a pherthynai iddi randir a elwid Gwlad Tappuah: *pen.* xvii. 8. Nid ydys wedi llwyddo i gael allan y lle hwn; ond oddi wrth y cyssylltiad oedd rhwng Tappuah a'r afon Canah, y mae yn naturiol disgwyl ei gael yn rhywle i'r deorllewin o *Nâblus*, yn nghymmydogaeth y *Wady Falaik;* yr hon, fe allai, ydyw yr hen Canah. Rhaid aros am oleuni pellach ar yr ardal anadnabyddus hon cyn y gellir penderfynu dim yn ei chylch.

TAPPUAH: un o feibion Hebron, o lwyth Iudah: 1 *Cron.* ii. 43. Y mae o'r bron yn sicr mai Beth-Tappuah a olygir—y *Teffuh* bresennol, ger llaw Hebron; ac mai ystyr y cofnodiad yw fod Tappuah wedi ei phoblogi gan wŷr Hebron.

TAPPUAH, GWLAD: dosbarth o wlad a enwir wrth nodi allan y terfynau oedd rhwng Ephraim a Manasseh: *Ios.* xvii. 8. Gorweddai, y mae yn dra thebyg, yn agos i afon Canah; ond nid ydys hyd yn awr wedi cyfarfod â'r enw yn nosbarth canolbarthol Palestina.

TARAH: un o'r lleoedd y gwersyllodd yr Israeliaid ynddynt yn yr anialwch rhwng Tahath a Mithcah (*Num.* xxxiii. 27); ond y mae y fan yn anhysbys.

TARALAH: un o'r dinasoedd a ddisgynodd ran llwyth Beniamin. Ni wneir crybwylliad am dani ond yn *Ios.* xviii. 27, yn unig. Y mae hi yn cael ei henwi rhwng Ispeel a Selah; ond nid oes sicrwydd am safle un o'r lleoedd hyn, nac un lle âg iddo enw tebyg i Taralah wedi ei ddarganfod.

TARAN—AU. Gwel MELLT A THARANAU.

TAREA: yr un ydoedd efe a Tharea mab Michah: 1 *Cron.* viii. 35.

TARIAN—AU. Gwel ARF—AU—OGAETH.

TARPELIAID: hiliogaeth o drefedigaethwyr a sefydlwyd yn ninasoedd Samaria ar ol caethgludiad deiliaid teyrnas y deg llwyth: *Ezra* iv. 9. Nid ydys wedi cael allan gydag unrhyw sicrwydd pwy oeddynt.

TARGUM—AU. Y mae y gair *Targum* yn deilliaw o'r gair Caldeaidd *Tirgem*, yr hwn sydd o darddiad anhysbys, ond yn arwyddo cyfieithu, *egluro*, neu *esbonio*. Defnyddir ef i osod allan y cyfieithiadau Caldeaidd (neu yn fwy priodol Arameaidd) o'r Hen Destament. Y mae y gorchymyn i ddarllen y gyfraith "o flaen holl Israel ...y gwŷr, y gwragedd, a'r plant, a'r dyeithriddyn," ar Wyl y Pebyll bob blwyddyn Sabbothol, fel moddion cyffredin i gyfrannu addysg ac adeiladaeth, i'w gael y tro cyntaf yn *Deut.* xxxi. 10—13. Pa mor bell yr oedd y gorchymyn hwn yn cael ei gadw mewn amseroedd boreu nid oes genym fantais i wybod. Ymddengys, pa fodd bynag, fod y cyfryw ddarlleniadau yn cymmeryd lle yn amser y prophwyd Ieremiah. Y mae yn sicr hefyd mai un o'r pethau cyntaf a wnaeth Ezra tuag at adferu crefydd a gwasanaeth yr Arglwydd yn mhlith y rhai a ddychwelasant o gaethglud Babilon, oedd darllen i'r gynnulleidfa o wŷr a gwragedd...yn eglur yn y llyfr, yn nghyfraith Duw;" *Neh.* viii. 2, 8. [illegible] erbyn hyn, yr oedd yr iaith Hebraeg yn [illegible] ddarfod â bod yn iaith y wlad yn gyffredin, a'i lle yn cael ei chymmeryd gan y Galdaeg, neu yn hytrach yr Aramaeg. Y mae yn hawdd [illegible] cyfrif am hyn drwy y ffaith fod y genedl yn [illegible] Babilon, wedi ei gwasgaru drwy yr holl [illegible]odraeth fawr, ac yn cael llawn ryddid i [illegible] fod â'r brodorion; ac nid oedd un attalfa [illegible] i ymarfer y galwedigaethau a'r celfyddydau [illegible] oeddynt yn gyfarwydd ynddynt, ac hyd yn [illegible] i ymgodi i sefyllfaoedd a swyddau uchel yn [illegible] wladwriaeth. Pa beth oedd yn fwy naturiol [illegible] bod y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel, [illegible] yn enwedig gydag Ezra, yn dwyn gyda hwy yr Aramaeg fel yr iaith yr oeddynt yn [illegible] cyfarwydd â hi? Ac y mae yn debyg [illegible] barhau i'w harfer i raddau pell yn eu hymdrafodaethau cyffredin yn Mhalestina, fel yr [illegible] wneyd, dybygid, yn Babilon. Bu y dyeithrigion a ddaethant o wlad y gaethglud yn [illegible]weddarach, y mae yn ddiau, yn offerynol [illegible] aenu yr arferiad o honi i raddau mwy [illegible] yn enwedig gan fod holl orchymynion a [illegible]iadau swyddol y Persiaid yn cael eu [illegible] yn yr Aramaeg, a bod Iudea yn cael ei [illegible]ied yn rhan o raglawiaeth Syria. Ac [illegible] anghofio chwaith fod yr hen drefedigaethwyr yn Mhalestina (2 *Bren.* xvii. 24) yn Samaria [illegible] y rhai a ddaethant o "Aram a Babel," [illegible] arent y Galdaeg: a pheth cyffredin [illegible] genedl Iuddewig hefyd oedd priodi gwragedd [illegible] Asdod, ac Ammon, a Moab (*Neh.* xiii. 23[illegible]

Digitized by Google

Y mae y *Targum* hwn yn ddefnyddiol iawn i feirniadu hanes y testyn Hebraeg o'r Beibl.

*Targum Jonathan Ben-Uzziel ar Bum Llyfr Moses*, a ddaw yn nesaf o dan sylw. Y mae rhai wedi priodoli y cyfieithiad hwn i'r un Jonathan ag a gyfieithodd y prophwydi. Ond nid oes digon o sail i'r dybiaeth hon i ni allu rhoddi llawn ymddiried ynddi. Nid ydyw yr iaith mor bur: y mae wedi ei chymmysgu â llawer mwy o eiriau dyeithr—Persiaidd, Groeg, a Lladin. Cynnwysa lawer o ddammegion, chwedlau, ac ymddiddanion; yr hyn sydd yn gwneyd y gwaith yn un tra annhebyg i waith y Jonathan gwirioneddol. Y mae wedi ei ysgrifenu yn nhafodiaith Ierusalem; a lle y mae yr awdwr yn glynu wrth y testyn Hebraeg, y mae yn ddieithriad yn dilyn yr esboniad rabbinaidd. Oddi wrth amryw o amgylchiadau, ac yn enwedig wrth ystyried nodwedd yr arddull a'r crybwyllion a wneir am y *Talmud*, profir fod y gwaith wedi ei ysgrifenu ar ol y chweched ganrif o'r cyfnod Cristionogol:—a chyda llawer o debygolrwydd o'i fod yn gywir, y mae Zunz yn meddwl mai yn y rhan ddiweddaf o'r seithfed ganrif yr ysgrifenwyd ef; ac ymddengys ei fod mewn rhan wedi ei gasglu o esboniadau ereill.

*Targum Ierusalem ar Bum Llyfr Moses.*—Gelwir hwn wrth yr enw yma, naill ai am ei fod wedi ei ysgrifenu yn Ierusalem, neu am ei fod wedi ei gyfieithu yn nhafodiaith y lle. Nid yw yn cynnwys ond yn unig eglurhadau ar ymadroddion detholedig; ac yn gyffredin y mae yn cyttuno â *Targum Jonathan Ben-Uzziel.* Adroddir yr un chwedlau ynddo; ac y mae y geiriau Hebraeg yn cael eu dodi i mewn heb eglurhâd arnynt. Nid ydyw yn meddu yr un purdeb a choethder iaith; a gadewir pennodau cyfain allan weithiau. Mewn gwirionedd, nid yw yn ymddangos yn ddim amgen na darnau wedi eu casglu ynghyd. Ychydig o ddim a ellir ei gael yma mewn ffordd o eglurhâd beirniadol ar yr Hen Destament; er hyny, amlygant gyfundrefn athrawiaethol yr Iuddewon diweddar.

*Targumau ar Iob, y Salmau, a'r Diarhebion.*—Y mae y rhai hyn yn meddu yr un nodwedd a'u gilydd o ran arddull ac iaith a thybiwyd eu bod wedi dyfod o'r un wlad; a thybia Zunz mai Syria oedd y wlad hono. Y mae yr un ar y Diarhebion, pa fodd bynag, yn glynu yn agos at y testyn Hebraeg, ac yn rhoddi cyfieithiad mwy llythyrenol nag un o'r *Targumau* ereill, gyda'r eithriad o un Onkelos. Y mae y rhai ar *Iob* a'r *Salmau* yn fwy diofal a chwedleuol, ac yn cyfranogi i raddau pell o nodwedd yr amseroedd y gwnaed hwynt. Un o'r pethau hynotaf a berthyna i'r cyfieithiad o'r Diarhebion ydyw, y tebygolrwydd sydd rhyngddo a'r cyfieithiad Syriaidd; ac ymddengys y tebygolrwydd y fath fel y mae llawer wedi tybied i'r ysgrifenydd wneyd defnydd o'r cyfieithiad hwnw, yr hwn oedd yn hynach. Ond gellir meddwl mai camgymmeriad ydyw hyn; o herwydd os oes rhai manau lle y mae arwyddion o debygolrwydd rhyngddynt, y mae darnau ereill yn dangos yn amlwg fod y cyfieithydd wedi defnyddio y testyn Hebraeg gwreiddiol. Tybia ereill nad oes un o'r gweithiau hyn, fel y maent yn awr yn ein dwylaw ni, yn gymmhwys fel yr oeddynt ar y cyntaf. Yn mherthynas i'r *Targumau* ar *Iob* a'r *Salmau*, gellir sylwi mai casgliad ydynt o fân ddarnau. Bod arall-eiriad llawn o Iob ar gael mewn cyfnod lled gynnar sydd led eglur oddi wrth yr hyn a geir yn y *Talmud;* ond pa faint o'r hen gyfieithiad a geir yn yr un presennol sydd ammhossibl i benderfynu. Cymmaint a hyn, fodd bynag, sydd eithaf eglur, fod y *Targumau* ar *Iob* a'r *Salmau* yn eu ffurf bresennol yn cynnwys darnau o wahanol awdwyr oedd yn byw mewn gwahanol oesau:—rhai yn arall-eirwyr, a'r lleill yn gyfieithwyr manwl. Priodolir awduriaeth y *Targumau* hyn weithiau i'r Rabbi Joseph y Dall; ond y dyb gyffredinol ydyw, nad efe a'u hysgrifenodd.

*Targumau ar y Megilloth.*—Ni wneir crybwylliad yn un man am y rhai hyn hyd y ddeuddegfed ganrif. Cynnwysant lyfrau Ruth, y Galarnad, y Pregethwr, Esther, a Chaniad Solomon. Y cyfieithiad o Lyfr Ruth ydyw y rhagoraf; a Chaniad Solomon yw y mwyaf chwedleuol. Rhaid eu bod oll wedi eu hysgrifenu gryn lawer o amser ar ol y *Talmud.*

*Targum ar y Croniclau.*—Yr oedd hwn yn anadnabyddus hyd yn lled ddiweddar. Cafwyd llawysgrif o un, modd bynag, yn y llyfrgell yn Erfurt, yn 1680—lle y cyhoeddwyd ef, gyda nodiadau dysgedig gan M. F. Beck; ac yn 1715, cyhoeddwyd argraphiad o lawysgrif gyflawnach o hono a gafwyd yn Nghaergrawnt. Y mae enw Hungary yn digwydd ynddo; yr hyn, yn nghyd â'r defnydd mynych a wneir o *Targum Ierusalem ar Bum Llyfr Moses*, a ddengys yn eglur nad Jonathan Ben-Uzziel, na Joseph y Dall, fel y mae rhai wedi dyfalu, oedd yr awdwr. Y mae yr arddull a'r iaith yn cyfeirio at gyfnod diweddar, ac at Palestina fel y wlad yr ysgrifenwyd ef ynddi. Y mae ei ddefnyddioldeb yn gyfyngedig at yr hyn sydd yn dal cysylltiad âg ieithyddiaeth, hanesiaeth, a daearyddiaeth. Ychydig o gymmhorth a geir ynddo i ddeall yr Ysgrythyrau.

*Targum ar Daniel.* Y mae hwn yn awr wedi ei ddarganfod. Yr oedd llawer rheswm wedi ei ddwyn yn mlaen i geisio dangos pa ham na chyfieithiasid Llyfr Daniel i'r Galdaeg; ac yn mysg ereill, ei fod yn rhagfynegu adeg dyfodiad y Messiah mor eglur. Ond cafodd Munk afael arno—nid yn y Galdaeg wreiddiol, ond fel math o dalfyriad o hono wedi ei ysgrifenu yn y Bersiaeg. Y mae y llawysgrif yn cael ei galw yn "*Hanes Daniel;*" ond nid oes ond yr ymadroddion cyntaf wedi eu cadw yn yr iaith wreiddiol, y rhai a gyfieithir i'r Bersiaeg. Yna yr iaith ddiweddaf a gedwir ar hyd y gwaith. Wedi adrodd amryw chwedlau a geir mewn *Targumau* ereill, eir yn mlaen gyda phrophwydoliaeth faith o eiddo Daniel. Crybwyllir ynddo am Mahomet, a'i ddilynwyr. Yn ol barn Munk, ysgrifenwyd ef yn y ddeuddegfed ganrif, pan yr oedd brenhinoedd yn proffesu Cristionogaeth yn teyrnasu am dymmor byr ar Ierusalem.

Nid oes *Targumau* ar lyfrau Nehemiah ac Ezra ar gael. Y mae y *Targumau,* ar y cyfan, o gryn werth mewn ystyr beirniadol; a dangosant burdeb a chyfanrwydd y testyn Masoretaidd o'r Ysgrythyrau. Nis gellir gwadu nad ydynt yn cynnwys darlleniadau gwahanol i'r darlleniadau sydd yn awr yn cael eu harfer yn mhlith yr Iuddewon; a'u bod yn ymddangos, yn achlysurol, megys pe wedi eu cyfnewid mewn trefn i gydymffurfio â'r gwreiddiol: ac nad yw y llawysgrifau yn amrywio oddi wrth eu gilydd, nac oddi wrth y copïau argraphedig. Ond wedi cymmeryd pob peth i ystyriaeth, y mae ynddynt brofion cryfion o gyfanrwydd y testyn Hebraeg; ac, fel y dywedwyd o'r blaen, gellir gwneuthur defnydd mawr o honynt mewn argraphiad beirn-

Digitized by Google

iadol o'r Beibl, gan eu bod yn awgrymu darlleniadau sydd o werth a phwysigrwydd. *Targumau* Onkelos ar y gyfraith, a Jonathan ar y prophwydoliaethau, o herwydd eu bod yn fwy llythyrenol, ydyw y rhai mwyaf gwasanaethgar.

TARSIS (תַּרְשִׁישׁ: Θάρσεις): dinas ac ystorfa berthynol i'r Phœniciaid yn neheubarth Yspaen, yr hon hefyd a elwid Tartessus. Yn *Salm* lxxii. 10, ymddengys fod y gair yn cael ei gymmhwyso at ddosbarth mawr o wlad. Fe allai mai dyma y gyfran o'r Yspaen oedd yn adnabyddus i'r Hebreaid ar y pryd. Yn y lleoedd canlynol y sonir am Tarsis yn yr Hen Destament: *Gen.* x. 4; 1 *Bren.* x. 22; xxii. 48; 1 *Cron.* i. 7; 2 *Cron.* ix. 21; xx. 36; *Salm* xlviii. 8; lxvii. 10; *Esa.* ii. 16; xxiii. 1, 6, 10, 14; lx. 9; lxvi. 19; *Ier.* x. 9; *Ezec.* xxvii. 12, 25; xxxviii. 13; *Ionah* i. 3, iv. 2. Wrth sylwi ar y lleoedd hyn, canfyddir nad yw un o honynt yn brawf uniongyrchol a phendant mai yr un ydoedd Tarsis a Tartessus: er hyny y mae yn eglur fod amgylchiadau yn gwneyd hyny yn debygol. Yn un peth y mae yr enwau yn meddu llawer o debygrwydd i'w gilydd; ac nid ydyw Tartessus ond y ffurf Aramaidd o Tarsis. Y mae yn dra thebyg i'r Groegiaid fabwysiadu y gair *Tarsis* oddi wrth y Phœniciaid mewn rhan yn y ffurf Aramaidd. Hefyd, ymddengys fod rhyw berthynas rhwng Tarsis a Tyrus, fel yr oedd ar un adeg rhwng Tartessus a'r Phœniciaid. Y mae yn *Esa.* xxiii. appeliad at Tarsis ar iddi ddadgan ei hannibyniaeth. A dywed Arrian yn bendant fod Tartessus wedi ei sylfaenu neu ei phoblogi gan y Phœniciaid. Dylid cofio hefyd fod yn Hispania Bæatica afon a elwid Tartessus, a dinas hefyd o'r enw hwnw.—"*Strabo,*" iii. td. 148. Yn ol y prophwyd Ezeciel, yr oedd y nwyddau a ddygid o Tarsus i Tyrus yn gynnyrchion y gorynys Yspaenaidd. Y mae y prophwyd yn enwi arian, haiarn, alcan, a phlwm (*Ezec.* xxvii. 12); a dywed Diodorus a Pliny fod y metteloedd hyn i'w cael yn Yspaen. Ac y mae yn y wlad hono etto lawer o weithiau plwm rhagorol:—y rhai pwysicaf ydyw gweithiau Linares, lle y bernir fod un o'r meusydd mwnawl cyfoethocaf yn yr holl fyd. Ac am yr alcan, nid oes dadl nad oedd i'w gael yn helaeth yn Yspaen yn yr amseroedd gynt. Pan y collodd Tyrus ei hannibyniaeth, hwyrach i'r berthynas oedd rhyngddi a Tharsis gyfnewid. Dichon fod annibyniaeth Tarsis, gyda gallu cynnyddfawr y Carthageniaid, yn egluro pa ham, mewn amser diweddarach, nad ydoedd yr Iuddewon dysgedig yn gwybod yn mha le yr oedd Tarsis yn sefyll. Nid oedd Tartessus ar gael erbyn dyddiau Strabo, ac yr oedd hyd yn oed y man y safai hi arno gynt yn destyn yn dadl.

Gellid meddwl ar yr olwg gyntaf, oddi wrth Lyfr y Cronicl, fod rhyw Tarsis y gellid myned iddi o'r Môr Coch, heb law y Tarsis oedd yn neheubarth Yspaen. Yn mherthynas i longau Tarsis, a orchymynodd Iehosaphat eu hadeiladu yn Ezion-gaber, ar lan y Môr Coch (1 *Bren.* xxii. 48), dywedir, yn 2 *Cron.* xx. 36, eu bod wedi eu hadeiladu "i fyned i Tarsis:" a'r un modd am y llongau a wnaed yn flaenorol i hyny gan Solomon yn Ezion-gaber (1 *Bren.* ix. 26), fe ddywedir, yn 2 *Cron.* ix. 21, iddynt hwythau fyned i Tarsis i wasanaethu Hiram. Nid ydys yn ddiau i dybied fod yr awdwr yn y Cronicl yn golygu fod y llongau hyn wedi myned i Tarsis yn neheubarth Yspaen trwy forio heibio i Benrhyn Gobaith Da. Tybia Kiel fod y llongau a adeiladwyd yn Ezion-gaber wedi eu bwriadu i fasnachu â Tarsis yn Yspaen; ond y bwriedid eu cludo rywfodd ar draws gyddfdir Suez, a'u bod i gychwyn i'w mordaith o un o'r porthladdoedd perthynol i Palestina yn Môr y Canoldir. Ymddengys hyn braidd yn annhebyg; ac nid oes genym ond dewis un o ddau olygiad:—1af, Fod dau le a elwid Tarsis yn bod; sef, un yn neheubarth Yspaen, ac un arall ar lan y Cefnfor Indiaidd: neu, yn 2il, Fod y geiriau hyn, "llongau Tarsis," yn gosod allan longau mawr, wedi eu bwriadu i wneyd mordeithiau maith, fel y mae yr enw *East Indiaman* wedi bod yn enw cyffredinol ar longau yn ein gwlad ni, er na fwriadwyd rhai o honynt erioed ar gyfer myned i India. Y syniad blaenaf a fabwysiadwyd gan Bochart; a dyma, dybygid, y golygiad mwyaf cyffredin gan y rhai a ganfyddant anhawsder yn y Croniclau; ond yr ail, yr hwn a awgrymwyd gyntaf gan Vitringa, sydd wedi ei fabwysiadu gan lawer o'r beirniaid diweddar manylaf, megys De Wette, Winer, Gesenius, Ewald, Movers, a Hävernick.

Y mae y cyfeiriadau ysgrythyrol a wneir at Tarsis yn ein harwain i gredu ei bod yn ddinas fasnachol gyfoethog, a ddygai yn mlaen fasnach helaeth yn Môr y Canoldir, ac yn mhorthladdoedd Syria, yn enwedig rhwng Tyrus ac Ioppa; ac y mae digon o reswm dros dybied mai Tartessus y Phœniciaid yn Yspaen oedd y ddinas hono, er nas gellir penderfynu yn fanwl yn bresennol ar ei safle.

TARSUS (Ταρσός): prif ddinas Cilicia, a "dinas nid anenwog" ar amryw ystyriaethau ydoedd: ond yr hyn sydd wedi gosod bri oesol arni ydyw, ei bod yn lle genedigaeth a thrigle boreuol yr apostol Paul: *Act.* ix. 11; xx. 39; xxii. 3. Er rhoi ar ddeall hyn y gwnaed crybwylliad yn y tri lle a enwir uchod. Yr unig leoedd ereill y ceir yr enw ynddynt yw *Act.* ix. 30 a xi. 25, lle y nodir terfynau amser ei arosiad yn ei dref enedigol yn yr adeg a ddilynodd ei ymweliad cyntaf âg Ierusalem ar ol ei dröedigaeth, a chyn dechreu ar ei weinidogaeth yn Antiochia a manau ereill: cymmh. *Act.* xxii. 21, a *Gal.* i. 21. Er nad ydyw Tarsus yn cael ei henwi yn un lle arall yn y Testament Newydd, nid oes ammheuaeth na bu Paul yno yn nghychwyniad ei ail a'i drydedd daith genhadol: *Act.* xv. 41; xviii. 23. Pan oedd gwlad Groeg yn ei blodau, yr oedd Tarsus yn ddinas lled bwysig, fel y gellir casglu oddi wrth weithiau Xenophon. Ar ol i Alexander orchfygu y wlad, ac i Antiochia gael ei gwneyd yn brif ddinas y deyrnas Seleuciaidd, perthynai Tarsis i'r deyrnas hono, er iddi fod am ryw gymmaint o amser o dan y Ptolemiaid. Cymmerodd Tarsus blaid Cæsar yn y rhyfel cartrefol; a phan y talodd y gorchfygwr hwnw ymweliad â hi, efe a newidiodd ei henw i *Juliopolis.* Caniataodd Augustus iddi freintiau dinas Rufeinig.

Dylid sylwi ar yr amgylchiadau hyny yn sefyllfa gymdeithasol y dref, a fuont, neu a allasent fod, yn dylanwadu ar ddygiad i fyny a chymmeriad yr apostol. Yr oedd yn nodedig fel mangre lle y blodeuai dysgeidiaeth yn amser yr ymherawdwyr boreuaf. Y mae Strabo yn cymmharu Tarsus i Athen ac Alexandria yn yr ystyr yma; ac am eu sêl dros ddysg, dywed fod ei phreswylwyr yn rhagori ar drigolion y ddau le diweddaf. Preswyliai rhai Stoiciaid enwog

Digitized by Google

ynddi; ac yn eu mysg Athenodorus, athraw Augustus; a Nestor, athraw Tiberius. Yr oedd masnach Tarsus hefyd yn dra helaeth, a dywed Basil yr ymgynnullai iddi lawer o Syriaid, Ciliciaid, Isauriaid, a Chappadociaid.

O ran ei sefyllfa, yr oedd Tarsus wedi ei hadeiladu ar wastadedd eang a ffrwythlawn ar lan yr afon Cydnus—yr hon sydd yn hynod o herwydd y dwymyn beryglus y tallwyd Alexander iddi wrth ymdrochi ynddi, ac hefyd ar gyfrif cyfarfyddiad Antony a Cleopatra ar ei glenydd. Yr oedd yn y parth hwn o Cilicia ddwy ffordd rhagorol yn amser yr hen Rufeiniaid:—un yn enwedig, yn croesi y Taurus i'r gogledd, heibio i'r "Pyrth Ciliciaidd," i gymmydogaeth Lystra ac Iconium; a'r llall yn arwain o Tarsus i Antiochia, gan fyned heibio yn ddwyreiniol i'r "Pyrth Syriaidd." Nid oes yn y lle yn awr adfeilion o bwys neillduol.

TARTAC (תרתק : Θαρθάκ): duw yr Afiaid; sef, trefedigaethwyr a sefydlwyd yn ninasoedd Samaria ar ol symmudiad y llwythau gan Salmaneser: 2 *Bren.* xvii. 31. Yn ol traddodiad Rabbinaidd, yr oedd Tartac yn cael ei addoli o dan y ffurf o asyn. Yr ydys wedi tybio oddi wrth hyn mai yr un ydoedd yr eilundduw a Typho yr Aipht; ond er fod yr asyn yn yr arwyddluniau yn gosod allan Typho, yr oedd mor bell o gael ei ystyried yn wrthddrych addoliad fel yr edrychid arno yn greadur hollol aflan. Myn rhai mai tarddiad Persiaidd oedd i'r *Tartac*, yn ol yr hyn yr arwyddai 'tywyllwch mawr,' neu 'arwr y tywyllwch,' neu y byd isod. Yr oedd y Carmaniaid, cenedl ryfelgar ar gyffiniau morgainge Persia, yn addoli Iau yn unig o'r holl dduwiau, ac yn aberthu asyn er ei anrhydeddu. Hwyrach mai rhyw arwyddion o'r addoliad hwn a roddodd ddechreuad i'r traddodiad Iuddewaidd y cyfeiriwyd ato uchod.

TARTAN. Yn 2 *Bren.* xviii. 17, ac *Esa.* xx. 1, yn unig y gwneir crybwylliad o'r enw hwn, ac ystyrir yn gyffredin mai enw priodol ar ddyn ydyw. Y mae Winer, gan fod yr enw yr un, yn meddwl mai yr un person a olygir yn y ddau le. Kitto a dybia nad oes genym ddigon o sicrwydd i benderfynu hyn. Y mae darganfyddiadau diweddar yn awgrymu, dybygid, nad yw Tartan, mwy na Rabsaris a Rabsaceh, yn enw priodol o gwbl—ond enw swyddol yn unig, fel *Pharaoh* neu *Surena*. Yr oedd y *Tartan* Assyriaidd yn gadfridog, neu yn brif faeslywydd, dybygid. Os felly yr ydoedd, a'r gair *Tartan* i'w ddeall yn enw swyddol yn 2 *Bren.* xviii. 17, yna y meddwl yw, fod Senacherib wedi anfon cadfridog gyda'i brif eunuch a'i ben-trulliad fel negesydd at Hezeciah; ac yn *Esa.* xx. 1., fod cadfridog—person gwahanol, fe allai—wedi ei ddanfon gan Sargon yn erbyn Asdod, yr hwn a lwyddodd i gymmeryd y ddinas.

TASSO, TORQUATO; un o feirdd mwyaf Italy. Mab ydoedd i Bernardo Tasso, yr hwn oedd yntau hefyd yn fardd. Ganwyd Torquato yn Sorrento, ar yr 11eg o Fawrth, 1544. Gan yr Iesuitiaid y derbyniodd efe elfenau cyntaf ei addysg. Yn ystod ei febyd yr oedd ei dad yn alltudiedig, ond yr oedd gofal serchog ei fam i raddau mawr yn gwneyd i fyny am ei absennoldeb. Aeth i Rufain at ei dad yn 1554, a gadawodd ei fam (yr hon ni welodd efe byth mwy) mewn lleiandy yn Naples. Dilynodd ei efrydiau tra y bu yn Rhufain, ac wedi hyny yn Bergamo, Urbino, Pesaro, a Venice; a phrophwydai ei dad am dano y byddai yn ddyn mawr. Yr oedd wedi dechreu cyfansoddi pennillion cyn bod yn saith oed; a phan yn ddeunaw oed, efe a gyhoeddodd ei bryddest "*Rinaldo.*" Aeth Tasso yn awr i brifysgol Bologna i astudio athroniaeth, a dywedir ei fod yn hynod lwyddiannus. Wrth adael Bologna, efe a ddychwelodd i Padua ar ddymuniad ei gyfaill Gonzaga. Tra yr oedd yno y darfu iddo feddwl gyntaf am gyfansoddi ei waith mawr, "*Jerusalem Delivered;*" pryddest arwrol ar orchfygiad Ierusalem gan y croesgadwyr, o dan arweiniad Godfrey de Bouillon. Clywodd ei dad ei fod yn bwriadu cyfansoddi ar y testyn hwn, a bendithiai y nefoedd am fod Torquato yn meddu ar fwy o athrylith nag ef. Yn 1565, gwahoddwyd ef i lys Alfonso II., y duc Ferrara; ac yno, fel y dywed rhai, bu mor anffodus a syrthio mewn cariad â Leonora, chwaer y duc: ond y mae ereill yn gwadu hyn, ac yn haeru nad oes dim profion credadwy dros hyny, ac nad hyny oedd yr achos o'i wallgofrwydd. Wedi gorphen ei waith barddonol mawr yn 1575, efe a anfonodd gopi o hono i gymdeithas o ddysgedigion, beirniaid, a gwŷr eglwysig yn Rhufain, er cael eu barn hwy arno. Gwell fuasai iddo gyhoeddi y gân ar unwaith, heb ei gosod at drugaredd beirniaid a ymhyfrydent mewn cael cyfle i weled ei beiau cyn i'r cyhoedd ganfod ei rhagoriaethau a'i chanmawl, gan y buasai raid iddynt hwythau wedi hyny ymuno i'w ganmol. Poenwyd Tasso yn fawr gan eu beirniadaeth front, a'u sylwadau annheg. Yn raddol, syrthiodd yntau i brudd-der a orthrechodd ei reswm. Parhaodd hyn am ysbaid o amser, ond adferwyd ef o hono, ac felly cilwaith. Preswyliodd y rhan ddiweddaf o'i oes yn Naples; ac yn 1592 galwodd y pab Clement VIII., yr hwn oedd yn edmygydd mawr o'i dalentau disglaer, am dano i Rufain, lle y derbyniwyd ef gydag arwyddion o anrhydedd uchel; a gwnaed parotoadau mawrion ar gyfer ei goroni â llawryf (fel Petrarch) ar y Capitol fel tywysog y beirdd; ond ymaflodd afiechyd ynddo, o'r hwn y bu farw, Ebrill 25ain, 1595, sef y prydnawn cyn i'r seremoni fwriadedig gymmeryd lle. Cyfansoddodd Tasso amryw weithiau rhagorol mewn barddoniaeth a rhyddiaith; ond yr un sydd wedi ei anfarwoli, a rhoddi iddo enw uchel yn mysg prif feirdd y byd ydyw ei "*Jerusalem Delivered.*" Y mae y gân arwrol orchestol hon wedi ei chyfieithu i'r iaith Saesnig gan Fairfax, Hoole, Broadhead, Hunt, Wiffen, C. L. Smith, Robertson, a Bent.

TATIAN: un o amddiffynwyr boreuol Cristionogaeth yn erbyn yr athronwyr paganaidd; a sylfaenydd sect, yr hon a dynodd gryn sylw yn yr amseroedd hyny. Ganwyd ef yn Syria neu Assyria, B.A. 130. Wedi astudio rheitheg ac athroniaeth mewn amryw fanau, aeth i Rufain ynghylch y fl. 162; derbyniodd Gristionogaeth, a daeth yn ddysgybl a chyfaill i Justin Ferthyr. Gwyddys iddo ysgrifenu llyfrau lawer; ond un o'i weithiau yn unig sydd ar gael yn awr. Nid ydyw yn hysbys pa bryd y cyfansoddwyd y llyfr hwn; ond ymddengys yn debyg iddo wneyd hyny ychydig cyn marwolaeth Justin, B.A. 166. Nid yw opiniynau anuniongred Tatian yn dyfod i'r golwg yn ei "*Apology,*" ac awgryma Tertullian mai ar ol marw Justin y syrthiodd efe i'r cyfeiliornadau a briodolir iddo. Symmudodd i'r dwyrain, a mynegir iddo ymsefydlu yn Mesopo-

Digitized by Google

tamia. Heb fyned i mewn i fanylion daliadau neillduol Tatian, gellir dywedyd eu bod yn eu gwedd foesol yn ffurfio sylfaen i un o raniadau mawr Gnosticiaeth. Cychwynai trwy fabwysiadu yr egwyddor gyffredin o ddeuadduwiaeth (*dualism*), a tharddiad defnydd oddi wrth yr egwyddor ddrwg; ac yn groes i'r Gnosticiaid Aiphtaidd, dadleuai dros yr angenrheidrwydd o orchfygu natur lygredig dyn, a'i phuro trwy ymwrthod â phob math o anghymmedrolder mewn bywyd. Condemniai briodas, a'r arferiad o ddefnyddio gwin i'r fath raddau nes ei wahardd yn y cymmun sanctaidd, yn yr hwn yr arferai ei ganlynwyr ddwfr. Gwel GNOSTICIAETH; CYFRINIAETH.

TATNAI: rhaglaw y dalaeth oedd ar du gorllewinol yr Euphrates yn amser Darius Hystaspis a Zorobabel: *Ezra* v. 3, 6; vi. 6, 13. Tybir mai enw Persiaidd ydyw.

TAULER, JOHN: duwinydd a phregethwr Almaenaidd enwog. Ganwyd ef yn Strasburg yn 1290. Ynghylch y flwyddyn 1308, efe a ymwrthododd â chryn lawer o eiddo, ac a aeth yn fynach o urdd gardotawl y Dominiciaid; wedi hyny efe a astudiodd dduwinyddiaeth yn Paris, a dangosodd yn fuan fod ynddo duedd at ddamcaniaethau cywrain ac ysgrifeniadau cyfriniol, o herwydd nid oedd duwinyddiaeth y cyfnod hwn yn ei foddloni. Er hyn arweiniwyd ef gan ogwyddiad ymarferol ei feddwl, ar ei ddychweliad i Strasburg, at bregethu, ac i gyflawni dyledswyddau bugeiliol ac eglwysig; a pharhaodd gyda'r gwaith hwn yn ddiysgog a selog. Dioddefodd lawer oddi wrth y pab, a'r swyddogion eglwysig Pabaidd; ac ar ol oes lawn o lafur, hunanymwadiad, a charedigrwydd tuag at ereill, efe a fu farw yn Strasburg yn ddeng mlwydd a thrigain oed, a chladdwyd ef yn rhodfa yr eglwys yr arferai bregethu ynddi.

Os nad efe ydoedd pregethwr penaf y canoloesoedd ar y cyfan, y mae yn ddiammheuol ei fod ef yn brif bregethwr ei oes ei hun. Yr oedd arddull ei bregethau yn gystal a'i ysgrifeniadau yn fywiog, argraphiadol, a darluniadol, ac yn tueddu i ddylanwadu yn ymarferol ar ei wrandawyr a'i ddarllenwyr. Yn mysg ei ysgrifeniadau crefyddol y mae y flaenoriaeth yn cael ei roddi yn gyffredin i'w "*Nachfolge des armen Leben Christi.*" Y mae o'r braidd yn ammheus a ydoedd efe yn awdwr yr hymnau a briodolir iddo. Y mae ei bregethau a'i ysgrifeniadau oll yn yr Almaenaeg, ac y mae llawer o argraphiadau o honynt wedi eu cyhoeddi.

TAYLOR, ISAAC: athronydd Cristionogol, arlunydd, a dyfeisydd peirianyddol rhagorol. Ganwyd ef yn Lavenham, yn swydd Suffolk, yn y flwyddyn 1787. Mab ydoedd i Isaac Taylor, gweinidog yr eglwys Annibynol yn Colchester, yr hwn oedd lenor gwych, ac awdwr amryw o weithiau llenyddol. Gwrthddrych y byr-gofiant hwn oedd ei fab hynaf; ac yn ei "*Words and Places,*" rhoddodd brawf yn foreu y byddai iddo gadw i fyny enwogrwydd llenyddol ei deulu. Yr oedd Charles Taylor, golygydd "*Calmet's Dictionary,*" yn ewythr iddo; a Jane Taylor, awdures y "*Q. C. Papers,*" a chyd-awdures â'i chwaer Ann (Mrs. Gilbert, o Nottingham) o'r "*Hymns for Infant Minds,*" yn chwiorydd iddo. Parhaodd gyrfa lenyddol Isaac Taylor am yn agos i hanner canrif. Dechreuodd gyda'i ysgrifeniadau i'r "*Eclectic Review*" yn 1818—i'r hwn yr oedd yr enwogion Robert Hall, John Foster, a Josiah Conder ar y pryd yn ysgrifenu, a therfynodd gyda'i erthyglau yn y "*Good Words,*" yn 1865. Rhwng y blynyddoedd 1822 ac 1827, efe a gyhoeddodd ei "*Elements of Thought;*" "*Characters of Theophrastus,*" gyda darluniau wedi eu tynu ganddo ef ei hun; "*History of the Transmission of Ancient Books to Modern Times;*" "*The Process of Historical Proof;*" "*Memoirs and Correspondence of Jane Taylor,*" a chyfieithiad o weithiau Herodotus. Cyhoeddodd ei "*Natural History of Enthusiasm,*" yr hwn a aeth trwy amryw argraphiadau mewn ychydig amser, yn 1829. Dilynwyd y gwaith hwn gan ei "*Fanaticism;*" "*Spiritual Despotism;*" "*Saturday Evening;*" a "*The Physical Theory of Another Life.*" Ymddangosodd ei "*Home Education*" yn 1836. Yn ganlynol i hyny bu am gryn amser mewn cyssylltiad â'r Parch. Dr. Traill, yn cyfieithu gweithiau Josephus i'r Saesneg, gyda darluniau wedi eu tynu ganddo ef ei hun. Yn y tair blynedd ar ddeg olaf o'i oes yr ymddangosodd ei "*Loyola;*" "*Wesley;*" "*The Restoration of Belief;*" "*Logic of Theology;*" "*Ultimate Civilisation;*" a "*The Spirit of Hebrew Poetry.*" Heb law y gweithiau hyn, efe a ysgrifenodd lawer o erthyglau pwysig a dyddorol i'r cyhoeddiadau chwarterol Saesnig.

Yr oedd wedi cael ei addysgu yn y gelfyddyd o arlunio, ac y mae rhai o'i frasluniau, y rhai a dynwyd ganddo cyn iddo droi ei feddwl yn mron yn llwyr at lenyddiaeth, wedi ennill canmoliaeth uchel y beirniaid manylaf; y rhai a ryfeddent pa fodd y darfu i un oedd yn feddiannol ar y fath athrylith roddi heibio y gelfyddyd y gallasai ragori cymmaint ynddi. Nis gellir yma ddisgrifio ei ddyfeisiau peirianyddol lliosog; a rhaid ymfoddloni yn unig ar ddywedyd iddo, trwy ddwy o'i ddyfeisiau, greu chwyldroad yn y gelfyddyd o argraphu ar gotymwe (*cotton printing*), er mai ereill a fedodd o ffrwyth ei ddarganfyddiadau. Aeth Mr. Taylor i'r ystâd briodasol pan wedi cyrhaedd canol ei ddyddiau; a bu iddo deulu lliosog, a chymmerai ddyddordeb nid bychan yn y gwaith o gyfranu addysg i'w blant. Gellir crybwyll yma am ddau ddigwyddiad mewn cyssylltiad â'r prif waith a'i gwnaeth yn boblogaidd; sef, "*The Natural History of Enthusiasm.*" Ysgrifenodd Syr James Stephen erthygl alluog yn yr "*Edinburgh Review,*" sef bywgraphiad dychymygol o'r ysgrifenydd dïenw; ac yn mhen saith mlynedd ar ol ei gyhoeddi, galwodd Dr. Chalmers ar yr awdwr i wneuthur ei enw yn hysbys, a dyfod yn mlaen fel ymgeisydd am gadair rhesymeg yn Mhrifysgol Edinburgh. Achosodd hyn i Mr. Taylor ei amlygu ei hun fel awdwr y gwaith hwnw, a daeth yn ymgeisydd am y gadair, a bu agos iddo ei hennill. Gorchfygwyd ef gan yr athronydd Syr William Hamilton—dylanwad mawr yr hwn a ddiogelodd fwyafrif bychan o'r etholwyr yn ei fiafr. Bu farw y llenor enwog a llafurus hwn yn Stanford Rivers, swydd Essex, ar yr 28ain o Fehefin, 1865, yn y 78ain mlwydd o'i oedran.

TAYLOR, JEREMY: un o brif enwogion Eglwys Loegr. Ganwyd ef ar y 15fed o Awst, 1613, yn nhref Caergrawnt. Barfwr, wrth ei alwedigaeth, oedd ei dad; ond yn mysg ei hynafiaid gallai rifo y Dr. Rowland Taylor, un o addurniadau disglaer y Diwygiad, yr hwn a

Digitized by Google

ddioddefodd ferthyrdod yn Hadleigh, yn swydd Suffolk, yn amser y frenhines Mari. Pan yn dair blwydd oed, danfonwyd ef i ysgol rammadegol ei dref enedigol; a phan yn dair ar ddeg, derbyniwyd ef yn is-efrydydd (*sizar*) i Goleg Caius; yn ei ddeunawfed flwydd, cymmerodd ei radd o athraw yn y celfyddydau; ac yr ydoedd wedi astudio duwinyddiaeth mor ddyfal fel y barnwyd ei fod yn gymmhwys i dderbyn urddau eglwysig, fel yr Archesgob Usher, cyn iddo fod yn llawn un ar hugain oed. Ynghylch y pryd hwnw galwyd arno ef i ddarlithio yn Eglwys Gadeiriol St. Paul, yn Llundain; ac yno efe a dynodd sylw neillduol yr Archesgob Laud, yr hwn, er nad oedd yn ffafriol i ryddid, oedd yn noddwr dysg; a chyflwynodd gymmrodoriaeth i Taylor yn mhrifysgol Rhydychain. Pennodwyd ef hefyd yn gaplan i Laud, yn gaplan i'r brenin, ac yn beriglor Uppingham, pentref bychan yn swydd Rutland. Cyhuddwyd ef gan rai y pryd hwn o fod yn ffafriol i Eglwys Rhufain. Yr hyn a gododd yr ammheuaeth yma, dybygid, yn benaf oedd, nid yn unig ei gyfeillgarwch â Laud, a'r ffafrau a dderbyniodd ganddo, ond hefyd ei gyfeillgarwch gyda mynach Ffranciscaidd, a alwai ei hun yn Fra St. Clara. Ymddengys, pa fodd bynag, nad oedd dim sail i'r ddrwgdybiaeth hon; o herwydd dyna yr adeg y dywedodd efe, wrth siarad am y Pabyddion, eu bod "hwy yn gwasanaethu y pab yn mhob peth, ac Iesu Grist mewn rhai pethau." Tybiai Coleridge fod Taylor yn credu fod purdan yn bod mewn rhyw ffurf neu gilydd; ond ymddengys fod hyn yn gamgymmeriad, gan iddo wneyd sylw llawn o wawdiaith lem a miniog wrth gyfeirio at yr athrawiaeth hono, pan y dywedodd, "Gall Pabydd ddyfod allan o'r purdan ar delerau rhesymol, a golygu ei fod wedi gweled yn dda i fyned yno o gwbl." Priododd Taylor, ar ol bod ddwy flynedd yn Uppingham, un o'r enw Phœbe Langsdale. Nid oes dim yn wybyddus am ei wraig, nac am ei theulu. Yn fuan wedi hyny cyhuddwyd, profwyd, condemniwyd, a dienyddiwyd Laud, ei noddwr. Ffrwyth cyntaf meddwl cyfoethog Taylor oedd ei "*Plea for Episcopacy.*" Tua'r pryd hwn collodd ei wraig a'i blentyn trwy farwolaeth, ac aeth yntau i Nottingham, fel caplan Siarl I., i ymuno â byddin y brenin; ac yn ol penderfyniad y senedd, collodd ei fywoliaeth yn Uppingham. Ond yn y pum mlynedd y bu yno y dechreuodd ei athrylith ysblenydd ymddadblygu yn llawn, a diau fod ei neillduaeth mewn lle gwledig o'r fath wedi bod yn gymmhorth mawr iddo ddarparu ar gyfer y dyfodol.

Nis gallwn ddilyn nemawr ar lwybrau Taylor pan oedd gyda'r fyddin: credir iddo fod yn bresennol mewn llawer o frwydrau gwaedlyd a ymladdwyd rhwng plaid y senedd a'r blaid frenhinol. Dywedir ei fod yn llygad-dyst o'r frwydr yn Newbury, pan y collodd y brenin y dydd—colled a brofodd mor ddinystriol i'w achos ef. Ymdrechai gysuro y brenin yn ei adfyd chwerw; ac fel arwydd o'i serch, rhoddodd ei fawrhydi ei oriawr, ac ychydig berlau oedd yn addurno y gist fechan y cadwai ei Feibl ynddi, yn anrheg iddo. Y mae enciliad Jeremy Taylor i Gymru yn eithaf hysbys; a'i ail briodas yma gyda Joanna Bridges—boneddiges y daethai i gydnabyddiaeth â hi pan yr oedd gyda'r brenin yn Nghymru y flwyddyn o'r blaen. Dywed rhai fod y foneddiges yn ferch ordderch i Siarl I., a bod ei gwynebpryd yn dwyn llawer o ddelw y penadur hwnw. Tybir ei bod yn meddu cryn eiddo yn Llangadoc, swydd Gaerfyrddin. Enw ei hetifeddiaeth oedd Mandinnam, a diammheu fod harddwch golygfeydd y fro yn dwyn hyfrydwch mawr i Taylor, yr hwn oedd eisoes i raddau pell wedi ei ddarostwng i iselder gan amgylchiadau anffodus. Tebygol ydyw, fodd bynag, fod etifeddiaeth a chyfoeth ei briod wedi lleihau yn fawr mewn canlyniad i amgylchiadau cyffrous y dyddiau hyny. Oni buasai hyny, nid yw yn debygol y buasai Taylor yn ymdrafferthu i gadw ysgol ddyddiol, mewn cyssylltiad â William Wyatt, o Goleg St. Ioan, Rhydychain, a William Nicholson, wedi hyny esgob Gloucester, yn y blynyddoedd 1645—46. Ymddengys mai yn mhentref Llanfihangel Aberbythych, yr arferai ei ddoniau i ddysgu; ac yma, mewn iselder a gofidiau, heb lyfrau na llawer o hamdden, y derbyniodd efe garedigrwydd mawr oddi ar law Arglwydd Hatton, ac yr ysgrifenodd ei waith rhagorol, sef "*Plea for the Liberty of Prophesying.*" Wrth gyflwyno y gwaith hwn i'w gyfaill, Hatton, efe a ddywed fel y canlyn:—

"Fy Arglwydd,

Yn yr ystorm fawr hon sydd wedi curo llestr yr eglwys nes ei gwneyd yn ddarnau, yr wyf wedi fy nhaflu ar ororau Cymru, ac mewn bâd bychan yn tybied y gallaswn fwynhau y gorphwysdra a'r llonyddwch hwnw nas gallaswn ddisgwyl am dano yn Lloegr. Yma y teflais angor, gan dybied y buaswn yn ddiogel: ond dilynodd yr ystorm fi gyda'r fath lymder, fel y torodd y rhaff, a chollais fy angor; a thaflwyd fi drachefn ar drugaredd y môr, ac ar dynerwch elfen nas gallai amgyffred pethau na phersonau. Ac oni buasai i'r hwn sydd yn tawelu ymchwydd y môr, a thwrf ei donau, a chynddaredd y bobl, ddarparu astyllen i mi, buaswn wedi colli pob cyfleusdra i astudio. Ond nis gwn i bwy yr wyf yn fwyaf dyledus—pa un ai i garedigrwydd fy nghyfeillion, ynte i diriondeb gelyn urddasol."

Y mae yn anrhydedd i Eglwys Loegr i'r fath dystiolaeth ddyfod o'i chanol ag a geir yn y "*Liberty of Prophesying.*" Trueni na chlywsid y fath leferydd yn adeg ei llwyddiant ag a gafwyd yn nydd ei hadfyd. Ofnir, weithiau, pa fodd bynag, fod Taylor braidd yn barod i dynu yn ol rai o'r pethau a ysgrifenwyd ganddo yn y gwaith hwn—y penaf o'i weithiau llenyddol—yn ddiweddarach ar ei oes, wedi i'r cymmylau chwalu. Cafodd Taylor gyfaill a noddwr yn Iarll Carbery; yr hwn a breswyliai yn Golden Grove, yn sir Gaerfyrddin, a'r hwn a'i pennododd ef yn gaplan. Ac er fod llawer o bethau yn tueddu i chwerwi ei fywyd y pryd hwnw, gellir ystyried fod y blynyddoedd a dreuliodd efe yn Golden Grove o nifer rhai dedwyddaf ei oes. Dyna yr amser yr ymagorodd ei athrylith i'w llawn nerth a'i blodau. Tra yn Golden Grove y cyfansoddodd efe ei "*Holy Living and Dying,*" a'i "*Life of Christ;*" ac yn eglwys fechan Llanfihangel, neu yn mharlwr Arglwydd Carbery, y traddododd y pregethau rhyfeddol hyny—pa rai, yn eu ffordd eu hunain, sydd yn gymmhwys i'w gosod yn ochr rhai prif feistriaid hyawdledd pulpudau yr oesau. Trwy yr holl bregethau hyny—er gwaethaf ei ddyfyniadau diddiwedd o awduron Groegaidd a Lladinaidd, o'r Talmudau Iuddewig a diarhebion Yspaenaidd, ac arwyddion o bob math o ddysgeidiaeth fanwl a chywrain—y mae yn llifo yn ddiball ffrwd o fyfyrdodau duwiolfrydig a dyrchafedig o'r nodwedd uchaf. Yn 1650, bu farw yr Arglwyddes Carbery, yr hon a fuasai yn garedig nodedig i Taylor. Yn fuan ar ol hyny gwarchauwyd ar

Digitized by Google

Golden Grove gan gwmni o feirchfilwyr Cromwell. Llwyddodd Arglwydd Carbery, yr hwn yr amcenid ei ddal, i ddiangc i amaethdy yn y bryniau; ac yn ebrwydd wedi hyny yr ydym yn cael fod Jeremy Taylor yn ngharchar. Ymddengys ei fod yn ystod ei garchariad, rywfodd, wedi dyfod i gydnabyddiaeth â John Evelyn; a ffurfiwyd cyfeillgarwch cynnhes rhyngddynt, a barhaodd o hyny allan. Yn Say's Court, Deptford, palasdy prydferth Evelyn, arferai cwmni detholedig gydgyfarfod, megys Taylor, Wilkins, Berkeley, Boyle, ac ereill. Y mae yn debygol i Evelyn sicrhau blwydd-dal i Taylor, yr hyn a'i dyrchafai uwch law angen hyd nes y daeth y blaid frenhinol i awdurdod yn ol.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at ddau neu dri o'r gweithiau a gyfansoddodd Taylor yn ystod ei neillduaeth maith, am o dair i bedair ar ddeg o flynyddoedd, y rhai a dreuliwyd ganddo yn Nghymru yn benaf; a dyma y pryd yr ysgrifenwyd hefyd ei "*Discourse on Baptism, its Institution, and Efficacy upon all Believers;*" "*The Real Presence and Spiritual of Christ in the Blessed Sacrament;*" "*The Guide to Infant Devotion, or the Golden Grove,*" &c.; "*Collection of Polemical and Moral Discourses;*" a "*Discourse on Friendship,*" &c.; "*Ductor Dubitantium, or the Rule of Conscience in all her General Measures;*" ynghyd â chyfrol arall o bregethau, &c. Y mae ei "*Infant Devotion*" yn cynnwys rhai syniadau Pelagiaidd; a bu yr awdwr mewn cryn ddadleuon ar ol cyhoeddi y gwaith hwn. Ei "*Ductor Dubitantium*" yn ddiammheuol ydyw yr un sydd yn amlygu mwyaf o fanylrwydd, craffder, cywreinrwydd, a dysg o'i holl gyfansoddiadau, er nad oes yn awr ond ychydig o ddarllen arno mewn cymmhariaeth. Fel y sylwyd, yn 1647 y cyhoeddwyd ei "*Liberty of Prophesying,*" yr hwn a ysgrifenwyd ar ran ac yn bleidiol i'r rhai hyny o glerigwyr yr Eglwys Sefydledig a drowyd allan o'u bywoliaethau yn amser y werinlywodraeth; ond y mae y rhesymau a ddygir yn mlaen ynddo wedi eu sylfaenu ar egwyddorion eangach a mwy goddefol nag yr oedd yr oes hono yn barod i'w cydnabod.

Bywyd crwydrol a arweiniwyd gan Taylor am ran faith o'i oes. Yr ydym yn ei gael yn nesaf yn ddarlithiwr, neu bregethwr wythnosol i gynnulleidfa o Eglwyswyr yn Kilulta, ger Lisburn, Iwerddon. Ond wedi adferiad Siarl II. i'r orsedd, nid oedd yn bossibl myned heibio i'r fath frenhiniaethwr selog, ysgolhaig ysblenydd, llenor athrylithgar, a phregethwr hyawdl heb roddi iddo ddyrchafiad yn yr eglwys y bu mor ffyddlawn iddi. Am ryw reswm anhysbys —ac un pe byddai yn hysbys, na byddai o bossibl yn adlewyrchu dim anrhydedd ar Siarl II. —ni chafodd Taylor, er ei holl deilyngdod a'i ragoriaethau, ei alw i lanw un o'r esgobaethau Saesnig na Chymreig. Pennodwyd ef yn esgob Down a Connor, ac at hono chwanegwyd esgobaeth Dromore, yn yr Iwerddon. Gellir casglu fod ei wraig yn awr wedi adfeddiannu ei heiddo, gan y sonir fod Taylor yn gallu fforddio bod yn dra haelionus mewn gwahanol gylchoedd. Y mae yn hyfrydwch meddwl fod yr hwn a ysgrifenodd ei "*Holy Living*" yn oriau tywyllion adfyd, yn ymdrechu sylweddoli bywyd sanctaidd a haelfrydig yn nyddiau ei lwyddiant. "Y ffordd i farnu crefydd," medd efe, "sydd trwy i un wneyd ei ddyledswydd; bywyd duwiol, yn hytrach na gwybodaeth o bethau dwyfol, ydyw duwinyddiaeth." Hwyrach ei fod yn golygu wrth dduwinyddiaeth yma yr un peth ag a osodir allan yn gyffredin yn y gair *crefydd*, ac mai llawn mor briodol fuasai defnyddio y diweddaf. Wedi cyflawni ei ddyledswyddau esgobaethol am saith mlynedd, daeth ei fywyd gwerthfawr i derfyniad ar y 7fed o Awst, 1667, pan nad oedd ond 55ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn nghôrgell eglwys Dromore. Nid oedd un gofarwydd yn nodi allan lle beddrod y dyn mawr hwn am amser maith. Ond o'r diwedd darfu i'r Esgob Mant, a chlerigwyr yr esgobaeth, osod i fyny gofiech o farmor gwyn iddo yn eglwys gadeiriol Lisburn. Ni buasai cofadail hardd a chostus yn gweddu i un a ddywedai yn mysg ei eiriau olaf fel y canlyn:—"Nid wyf yn chwennychu beddrod mawreddog, ac arch ysblenydd, na bod fy enw a'm gweithredoedd yn cael eu cerfio mewn mynor."

Y mae enw Jeremy Taylor mor adnabyddus, a'i weithiau wedi eu gwasgaru mor gyffredinol, fel y mae yn mron yn ddiangenrhaid dyweyd nemawr ddim am ei athrylith. Yn arbenigol, efe oedd y penaf a'r blaenaf yn mysg y beirddbregethwyr. Y mae ei bregethau yn llawn o farddoniaeth oludog a dyrchafedig. Gelwir ef yn fynych y 'Chrysostom Saesnig;' ond o'r braidd y gellir dyweyd fod yr enw yn briodol iddo. Yr oedd Chrysostom yn areithiwr mawr; ond nid ydym yn edrych ar Jeremy Taylor fel areithydd. Y mae yn dra thebyg na chafodd ei bregethau eu traddodi i gynnulleidfaoedd mawr; ac o'r bron yr oeddynt yn gymmhwys i gyffroi y cyfryw—ac nid priodol dywedyd fod un nas gallai gyffroi ac effeithio ar dyrfaoedd mawrion yn areithiwr. Y mae yn bossibl i un nas gall wneyd hyn fod yn bregethwr dymunol gan gynnulleidfa ddetholedig—ond nid yn areithiwr. Nid oedd tuedd ei arddull i'w wneyd yn ddylanwadol ac yn ddefnyddiol yn mysg y lliaws; ond yr oedd yn hynod gymmhwys i gynnal, dyddanu, a gwresogi meddyliau diwylliedig. Nid edrychir ar Taylor fel duwinydd hollol gywir-farn ac iachusol. Yr oedd ei feddwl yn gynnyrchiol a thoreithiog; ond nid yn ddigon dysgybledig i godi adeilad ardderchog, y gallesid ei galw yn gyfanwaith ddigoll, fel cyfundrefn o dduwinyddiaeth. Nid yn y ffordd hon yr oedd ei allu; a diau ei fod i raddau hefyd yn tueddu i ŵyro wrth ddilyn gormod ar lwybrau Laud. Myfyrdodau duwiolfrydig ydyw ei ysgrifeniadau crefyddol, a'r dychymyg a'r teimlad yn mynu lle amlwg iawn ynddynt. Yr oedd ganddo fwy o allu i ddysgu fel prophwyd nag fel athronydd—i godi ar unwaith at yr ysbrydol yn hytrach na dadleu dros a dwyn yn mlaen resymau pwysig dros yr hyn a ddigwyddai fod dan sylw ganddo. Pan yr ymdrecha wneyd y diweddaf nid yw yn cynnyrchu boddlonrwydd; ond yn wastad pan yn ymgais at wneyd y blaenaf, y mae, fel y dywedai Paxton Hood, "megys pe byddai ei gyffyrddiad yn agor tabernacl y dystiolaeth yn y nefoedd." Ni raid petruso am foment roddi i Jeremy Taylor un o'r lleoedd uchaf yn rhestr flaenaf enwogion Eglwys Loegr.

TE *(thea; tea)*: deilen planigyn bythwyrdd sydd yn sefyll o dair i dair a hanner o droedfeddi o uchder. Cyffelyb ydyw i fyrtwydd, ac arno flodeuyn gwyn tebyg i rosyn gwyllt. Trwy fod y planigyn wedi ei ddiwyllio am lawer o ganrifoedd, y mae amryw fathau o blanhigion o hono wedi eu cynnyrchu yn China. Cyfyngir diwylliant tê yn y wlad hono yn benaf i'r ardaloedd

Digitized by Google

sydd rhwng lledred gogleddol 24° a 35° a hydred dwyreiniol 115° a 122°. Ond y mae tê at wasanaeth teuluaidd yn cael ei dyfu mewn parthau mwy deheuol a gogleddol na'r terfynau uchod. Er fod y planhigyn yn fwy cyfaddas i hinsawdd gynnes, y mae yn gallu dioddef rhew y gauaf yn nghymmydogaeth Llundain, heb ddim i'w gysgodi. Mewn ychydig iawn o'r gwledydd y mae y planhigyn wedi ei ddwyn iddynt, y mae ei ddail, ar ol eu sychu, yn meddu arogl mor bersawrus ag yn China. Y mae yn tyfu yn gynhenid yn China a Japan; ond dywedir mai yn ngorynys y Corea y dechreuwyd ei ddefnyddio at ddybenion teuluaidd; ac i'r arfer hon gael ei dwyn oddi yno i China yn y bedwaredd ganrif o'r cyfnod Cristionogol, ac i Japan yn y nawfed ganrif. Ar lechweddau deheuol eu bryniau, yn benaf, y mae y Chineaid yn ei ddiwyllio, mewn tir yn cael ei ddyfrhau yn dda. Gwneir planigfa newydd trwy roddi yr hâd mewn tyllau, a'r rhai hyny o fewn pellderau priodol:—dau neu dri o'r hadau a roddir er sicrhau planhigyn. Yn mhen tair blynedd y ceir y cnwd cyntaf; ond ni bydd y planhigyn wedi tyfu i'w lawn faintioli o lawer. Pan tua saith mlwydd oed, ni cheir ond cnwd ysgafn o ddail celyd arno; yna torir ef, a thyf blagur newydd allan o'r gwreiddiau, a cheir arnynt gyflawnder o ddail rhagorol. Fe wneir hyny o bryd i bryd, nes y bydd y planhigyn farw, yn rhywle tua deng mlwydd ar hugain oed.

Yr oll y gellir ei sicrhau o barthed i hanes boreuol tê ydyw, ei fod wedi ei ddefnyddio er's llawer oes gan y trigolion yn China, a chredir gan y brodorion ei fod yn blanhigyn cynhenid o'r wlad. Yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg y daeth yn hysbys gyntaf i Ewropiaid, er na wneir crybwylliad am dano ond gan ysgrifenydd Portugeaidd o'r enw Maffei, yn ei "*Historiæ Indicæ*," yr hwn y cyfeiria ato fel un o gynyrchion Japan ac India. Y cyfeiriad cyntaf a wneir ato gan frodor o Brydain sydd mewn llythyr dyddiedig Mehefin 27ain, 1615, a ysgrifenwyd gan Mr. Wickham, a'r hwn sydd wedi ei gadw yn mysg cofnodion Cwmni yr India Ddwyreiniol. Yr enw a ddyry Maffei arno yw *chia;* ond gelwir ef yn *chaw* gan Wickham. Yn raddol daeth tê yn adnabyddus i breswylwyr cyfoethog Llundain: anfonid ef mewn sypynau bychain yn anrhegion oddi wrth gyfeillion o India, lle y dygid ef o China, neu ynte dygid ef i'r farchnad o bryd i bryd, yn fân symiau; ond yr oedd yn ddrud iawn. Weithiau, gwerthid ef am ddeg punt y pwys; ac nid oedd i'w gael mewn un modd dan bum punt. Dygwyd swm lled fawr o hono drosodd, pa fodd bynag, yn 1657, a disgynodd i ddwylaw masnachwr Llundeinaidd ymdrechgar, o'r enw Thomas Garway; yr hwn a agorodd dŷ i werthu tê wedi ei ddarparu a'i wneyd yn barod i'w yfed; ac y mae y tŷ hwnw, o dan yr enw *Garraway's Coffee House*, yn hynod yn y ddinas hyd heddyw. Gosodwyd treth o wyth geiniog y galwyn ar y ddiod a wnelid o'r ddeilen dê o 1660 hyd 1689; ond o hyny allan gosodwyd treth o bum swllt y pwys arno, a chwanegwyd pump y cant hefyd yn ol ei werth. Er fod y dreth yn amrywio, parhaodd yn uchel am amser maith. Pan ddaeth breinlen Cwmni yr India Ddwyreiniol i ben yn 1833, y rhai oeddynt hyd hyny wedi gorfaelu iddynt eu hunain holl fasnach y tê, gwnaed cyfnewidiad. Rhoddwyd tollau o 1*s.* 6*c.*, 2*s.* 2*g.*, a 3*s.* 1*c.* y pwys arno, yn lle yr hen drefn; ond nid oedd y drefn newydd yn gweithio yn dda, a phenderfynwyd yn 1836 gosod un doll unffurf o 2*s.* y pwys, at yr hyn y chwanegwyd yn 1840 bump y cant. Y mae amryw gyfnewidiadau wedi bod ar ol hyny, a phob cyfnewidiad yn gostwng y dreth arno, fel nad yw yn awr ond 6*c.* y pwys. Y mae swm y tê a ddygir i'r wlad hon yn flynyddol yn cynnyddu o hyd. Yr oedd y swm a ddygwyd drosodd yn y flwyddyn oedd yn diweddu Mawrth, 1866, yn fwy na 33,000,000 o bwysi, ac yn werth yn agos i 7,000,000*p.*; ond y mae y swm a ddefnyddir erbyn hyn wedi cynnyddu i'r fath raddau yn y blynyddoedd diweddaf, fel yr oedd y tê a ddadforiwyd yn 1872 yn werth 12,933,143*p.*; yn 1873, yn 11,372,595*p.*; ac yn 1874, yn 11,532,896*p.*

Y mae cryn ddirgelwch a thywyllwch wedi bod ynghylch rhywogaethau y planhigion a gynnyrchant y tê a ddefnyddir mor helaeth. Dywed llawer fod y tê du, fel ei gelwir, i'w gael o'r rhywogaeth a eilw llysieuwyr yn *Thea Bohea*, â'r tê gwyrdd o'r *Thea Viridis*. Haera ereill drachefn nad oedd ond un rywogaeth yn cael ei ddefnyddio i wneyd y tê du a'r gwyrdd, a bod y gwahaniaeth yn cyfodi o'r amser a'r dull o'u darparu. Y mae y teithiwr llysieuol enwog, Mr. Robert Fortune, wedi penderfynu y cwestiwn trwy wneyd ymchwiliad manwl yn y lle priodol. Cafodd allan nad oedd ond y *Thea Bohea* yn tyfu yn nosbarth Canton, lle nad oes ond tê du yn unig yn cael ei wneyd; tra nad oes yn nhalaeth Che-Kiang ond y *Thea Viridis* yn tyfu, a thê gwyrdd yn cael ei wneyd. Ond y mae y planhigyn olaf yn cael ei ddiwyllio yn gyffredinol hefyd yn nosbarth Fokien, er nad ydyw y preswylwyr yn gwneyd ond tê du. Y mae ffermydd y tê yn benaf yn ngogleddbarth China, ac nid ydynt ond bychain yn gyffredin. Galwant am ofal arbenig; o herwydd ni wna y planhigyn ffrwytho yn dda ond mewn tir bras iawn, neu dir wedi ei wrteithio yn dda; ac y mae yn rhaid cadw y gwagle rhwng y planhigion —tua phedair troedfedd—mewn trefn dda. Y mae y ffermydd yn wastad ar lechweddau y bryniau, lle y mae tir dwfn. Er fod y planhigyn yn fythwyrdd, nis gellir casglu y dail ond ar dymmorau neillduol. Y tymmor cyntaf yw Ebrill, pan y bydd y dail newydd yn tori allan o'r blagur; ac y mae rhai o honynt yn cael eu casglu yn eu sefyllfa dyneraf—o ba rai y gwneir y tê gwyrdd o'r ansawdd goreu; yr hwn sydd mor ragorol fel nad yw ond anfynych yn cael ei ddwyn drosodd i Brydain, o herwydd dywedir ei fod yn colli ei bersawr ar y fordaith. Anfonir llawer o hono dros y tir i Rwssia, lle y ceir prisiau uchel iawn am dano. Adeg y cynhauaf cyffredin ydyw dechreu Mai, wedi i wlawogydd yr haf yno fyned heibio; ac yn ddiweddarach ar y tymmor, cesglir y dail y drydedd waith; ond y mae y cynnyrch y pryd hwn yn israddol o ran ei ansawdd—a'r hwn a ddefnyddir gan y dosbarthiad isaf o'r bobl. Heb law hyn, gellir darparu tê o wahanol ansoddau o'r un dail:—a chael tê gwyrdd neu ddu o honynt fel y dewisir.

Nis gellir yma roddi disgrifiad manwl o'r moddion a arferir i gael tê gwyrdd a du yn gyffredin. Ond gellir sylwi, yn mlaenaf, fod y dail wrth gael eu sychu, yn cael eu rhostio a'u llosgi yn y fath fodd fel ag i gynnyrchu llawer o gyfnewidiadau fferyllol ynddynt. Canlyniad y cyfnewidiadau hyn yw cynnyrchu amrywiaeth yn yr arogl a'r blâs sydd yn nodweddu y gwahanol fathau o dê a wneir; ac yn ail, fod y gwahanol liwiau o dê gwyrdd a du yn codi oddi ar

Digitized by Google

y dulliau y gweithir y dail. Er gwneuthur tê gwyrdd, rhostir y dail mewn padelli yn uniongyrchol ar ol eu casglu. Ar ol bod yn rhostio am bum munyd, y maent yn myned yn llaith ac yn lliprynaidd, a rhoddir hwynt ar fwrdd, a rholir hwy â'r dwylaw. Yna fe'u dychwelir i'r padelli eilwaith, a symmudir hwynt â'r dwylaw. Yn mhen tuag awr, neu ychydig rhagor, byddant wedi sychu yn dda, a'u lliw gwyrdd wedi ei sefydlu yn arosol. Wedi gorphen hyn y mae y prif waith wedi ei gyflawni. Er gwneyd tê du, y mae y dail yn cael eu taenu allan yn yr awyr am beth amser ar ol eu casglu; a chymmysgir a symmudir hwy nes y byddant yn ystwyth; yna rhostir hwy am ychydig funydau; yna byddant yn cael eu rholio i fyny; ac yn olaf, sychir hwynt yn raddol o flaen tân golosg (*charcoal*), hyd nes y bydd y lliw du wedi llwyr ymsefydlu. I'r dyben o roddi arogl persawrus i wahanol fathau o dê, y mae llawer o blanhigion peraidd wedi cael eu defnyddio mewn gwahanol barthau o China. Yr oedd tê yn cael ei lygru i raddau pell, dybygid, pan oedd y doll arno yn uchel iawn; ond y mae pob lle i gasglu ei fod yn lled rydd ar y cyfan oddi wrth hyny yn bresennol yn Mhrydain.

Bu y Chineaid yn defnyddio pethau a allesent fod yn niweidiol wrth barotoi eu tê gwyrdd ar gyfer marchnadoedd tramor ar un adeg; ac y maent yn gwerthu defnydd lled helaeth o indigo yn awr i'r dyben hwnw—yr hwn, dybygid, nid ydyw yn niweidiol.

Ymdrechwyd diwyllio tê ar raddeg helaeth yn India, yn 1836, o dan arolygiaeth alluog y llysieuwyr clodfawr, y doctoriaid Royle a Falconer; ac ar ol cyfarfod â pheth anhawsder, daethpwyd â chyflenwad da o'r planig i ardaloedd y Kumaon a Gurhwal; a'r un pryd yr oedd planigfeydd a wnaed cyn hyny yn Assam yn dra blodeuog. Y mae y cyflenwad o dê a ddygir drosodd i'r wlad hon o'r lleoedd hyn yn cynnyddu, ac y mae o ran ei ansawdd yn rhagori ar gyfran fawr o dê cyffredin China; ac yn wir, y mae lle i hyderu y bydd i India cyn hir gyflenwi rhan fawr o'r galwadau o'r wlad hon am y nwydd hwn. Yr unig wlad arall sydd wedi llwyddo i dyfu tê i fantais ydyw Brazil. Y mae tê o ansawdd ragorol yn cael ei godi yno ar yr ucheldiroedd, ac y mae y cynnyrch yn myned yn mhell i gyflenwi angen y wlad hono am dano.

Bernir ansawdd tê yn gyffredin oddi wrth yr arogl fydd arno, a'i liw wedi rhoddi dwfr arno; ond y mae prawf manylach yn cael ei roddi arno gan ddynion cyfarwydd; sef, chwilio pa faint o ddefnydd toddadwy (*soluble matter*) a ddaw allan o hono trwy dywallt dwfr berwedig arno. Dywed Miller fod y tê cyffredin yn cynnwys ynghylch pump a deugain y cant o ddefnydd toddadwy; ond yn ol yr ymchwiliadau a wnaed gan Davy a Peligot—a'r naill yn annibynol ar y llall—nid ydyw dwfr berwedig yn gyffredin yn cael allan ddim mwy nag un ran o dair o bwysau y tê: a dywed J. Lehmann mai tuag un ran o chwech a dynir allan.

Y mae llawer wedi ei ysgrifenu gyda golwg ar ansoddau ymborthol a meddygol tê. Tra y mae rhai physygwyr wedi ei organmol, y mae ereill yn ei ystyried yn ffynnonell o amryw fathau o afiechyd, ac yn enwedig afiechyd y gïau (*nerves*). Ystyria Dr. Parkes ef yn gymmhwys iawn i filwyr; a gwyddys fod tê oer yn awr yn cael ei ddefnyddio yn lle cwrw ac afalwy gan fedelwyr a llafurwyr ereill sydd yn gweithio yn galed ar dywydd gwresog. Fel rheol gyffredin, y mae tê yn niweidiol i blant ieuainge; ac nid yw yn gymmhwys iawn i'w gymmeryd hyd nes y bydd person wedi gorphen tyfu; ac hwyrach y bydd i bersonau o dymmerau cyffrous dderbyn niwed wrth ei arfer. Yn gyffredin iawn, i'r rhai nad yw yn cyttuno â'u cyfansoddiad, *cocoa*, fe allai, yw y peth goreu y gellir ei gymmeryd yn ei le. Y mae yr hen a'r methedig y rhan fynychaf yn cael mwy o les oddi wrth dê nag unrhyw ddiod gyffelyb. Mewn twymynau, y mae tê gwan o wasanaeth mawr i bersonau a fyddant yn dueddol i ddioddef oddi wrth y gymmalwst a'r droedwst; ac y mae tê gwan, heb sugr ynddo, gydag ychydig laeth, yn ddiod ragorol. Mewn rhai achosion o afiechyd y galon y mae tê yn profi yn dda, ond mewn achosion ereill y mae yn niweidiol iawn; ac y mae cwpanaid o dê gwyrdd, yn enwedig pan gymmerir ef heb sugr na llaeth, yn fynych wedi symmud cûr o'r pen. Y mae o'r bron yn wrthwenwyn mor gryf i opiwm ag ydyw coffi; ac y mae tê cryf wedi bod yn foddion i gadw bywyd, mewn achos o wenwyniad trwy gymmeryd *tartar emetic*. Y mae yn sicr mai y peth mwyaf annoeth a niweidiol i ddynion sydd yn efrydu yn galed ydyw yfed tê neu goffi cryf yn fynych i gadw cwsg naturiol draw. Y mae yr arferiad yn naturiol yn dinystrio yni a bywiogrwydd y corph a'r meddwl.

TEBAH: yr hynaf o feibion Nachor brawd i Abraham, o'i orddcrchwraig Reumah: *Gen.* xxii. 24.

TEBALIAH: y trydydd o feibion Hosah y Merariad: 1 *Cron.* xxvi. 11.

TEBETH. Gwel MISOEDD IUDDEWIG.

TECOA (תקוע: Θεκωέ): dinas yn nhiriogaeth llwyth Iudah, ar y bryniau ger llaw Hebron, a ymestynant yn ddwyreiniol tua'r Môr Marw: 2 *Cron.* xi. 6. Y mae y bryniau hyn yn terfynu yr olygfa fel yr edrychir tua'r deheu o ben Mynydd yr Olewydd. Dywed Jerome fod Tecoa yn chwech o filldiroedd Rhufeinig o Bethlehem, a bod pentref Tecoa o flaen ei lygaid bob dydd pan yr ysgrifenai. Yn ei "*Onomasticon*," dywed nad oedd Tecoa ond naw milldir o Ierusalem; ond mewn lle arall, y mae yn cyttuno âg Eusebius, pan y dywed fod y pellder yn ddeuddeng milldir. Yn yr enghraifft ddiweddaf, hwyrach y cyfrifid y milldiroedd wrth fyned yno drwy Bethlehem, y cwrs arferol o fyned o'r naill le i'r llall; ond dichon bod ffordd agosach i'w chael, at yr hon o bossibl y cyfeiriai efe yn ei adroddiad blaenorol. Yn 2 *Cron.* xx. 20, [gwel hefyd 1 *Macc.* ix. 33], crybwyllir am "anialwch Tecoa;" wrth yr hyn y deallir, dybygid, yr ardal gyfagos, ar du y dwyrain i'r dref, yr hon o ran ei nodwedd anianyddol sydd yn atteb i'r disgrifiad. Yr oedd y preswylwyr gan mwyaf yn nyddiau yn dilyn yr alwedigaeth fugeiliol; ac nid oedd Tecoa yn ei dyddiau goreu, fe allai, ond cydgasgliad o babellau gan mwyaf wedi eu gosod i fyny, lle y dychwelai y dynion yn awr ac eilwaith at eu teuluoedd o'r cymmydogaethau lle y gwylient eu praidd.

Nid ydyw y dyddordeb a berthyn i Tecoa yn y Beibl yn cyfodi yn gymmaint oddi wrth y digwyddiadau a gymmerasant le yno, ag ydyw oddi wrth gyssylltiad y lle âg amryw bersonau y sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau. Nid

Digitized by Google

ydyw yn cael ei henwi yn y rhestr Hebreaidd o drefydd Iudah yn *Jos.* xv. 49; ond y mae i'w chael yn y fan hon yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain. O Tecoa y daeth y "wraig ddoeth" a ddefnyddiodd Ioab i ddwyn o amgylch hedd-wch rhwng Dafydd ac Absalom: 2 *Sam.* xiv. 2. Yma hefyd y ganwyd Ira mab Icces, un o ddeg ar hugain "cedyrn Dafydd," yr hwn a alwyd ar y cyfrif hwnw "y Tecoiad;" 2 *Sam.* xxiii. 26. Tecoa oedd un o'r lleoedd a roddwyd mewn sef-yllfa o amddiffyniad gan Rehoboam, yn nechreu ei deyrnasiad, i'w amdddiffyn yn erbyn gores-gyniad o'r deheu: 2 *Cron.* xi. 6. Cymmerodd rhai o bobl Tecoa ran yn y gwaith o adeiladu muriau Ierusalem ar ol y dychweliad o Babilon: *Neh.* iii. 5, 27. Yn *Ier.* vi. 1, y mae y pro-phwyd yn dyweyd, "Ac yn Tecoa udgenwch udgorn; a chodwch ffagl yn Beth-maccerem:"—un o'r bryniau uchel a welid o Bethlehem, dy-bygid. Chwythid udgyrn y dydd, a chynneuid tânau y nos yn rhybudd o nesâd y gelyn. Ond yr hyn a esyd fwyaf o hynodrwydd ar Tecoa ydyw, ei fod yn lle genedigol y prophwyd Amos. Gwel Amos. Yn achau Iudah (1 *Cron.* ii. 24; a iv. 5), crybwyllir am Asur, mab Hesron, fel "tad Tecoa;" yr hyn sydd yn dangos mai efe oedd sylfaenydd, neu o leiaf meddiannydd y lle.

Y mae Tecoa yn adnabyddus yn awr wrth yr enw *Tekû'a;* ac, er fod y lle yn gorwedd braidd allan o'r ffordd gyffredin a gymmerir, y mae amryw o deithwyr wedi talu ymweliad âg ef, a'i ddisgrifio. Y mae y pellder o Bethlehem yn hollol yr hyn y mynegai yr ysgrifenwyr boreuol. Y mae hefyd yn ngolwg Mynydd Ffrank—lle yn ddiammheu yr oedd Herodium, neu gastell Herod; yr hwn, fel y dywed Josephus, oedd yn agos i Tecoa.—"*Rhyf. Iudd.*," iv. 9, *adr.* 5. Gorwedda Tecoa ar fryn lled uchel, neu ryw fath o ucheldir. Gan fod y lle o ran ei safle yn uchel, y mae yr olygfa yn eang oddi yno. Tua'r gogledd-ddwyrain, disgyna y tir yn raddol tua *Wady Khureitûn;* o bob tu arall, amgylchir y bryn gan ucheldir gwastad—y tu hwnt i'r hwn y mae dyffrynoedd, ac yn mhellach drachefn fryniau uwch. Tua'r deheu, y mae dyffryn dwfn yn ymestyn i'r deheu tua'r Môr Marw: ac yn y cyfeiriad hwn y mae yr olygfa yn cael ei therfynu gan fynyddoedd Moab. Y mae amryw adfeilion i'w cael yn Tecoa; megys muriau tai, dwfrgistiau, colofnau toredig, a charneddau o geryg adeiladu; ac y mae rhai o'r ceryg wedi eu naddu ar osgo, yn ol yr hen ddull Hebreaidd. Yr oedd yn y lle fynachdy yn nechreuad y chweched ganrif, a sefydliad o Gristionogion yn amser y Croesgadwyr. Ger llaw *Tekû'a*, yn y mynyddoedd, ar ddibyn clogwyn serth, y mae adfeilion *Khûreitûn*—enw sydd, dybygid, yn llygriad o *Ciriath* (*Jos.* xv. 25); ac felly efe, o bossibl, oedd lle genedigol Iudas y bradychwr, yr hwn a elwid o blegid hyny *Iscariot;* hyny ydyw, 'gŵr o Ciriath.' Ymddengys fod un o byrth Ierusalem mewn amseroedd diweddar yn dwyn yr enw Tecoa.

TECOIAD, Y. 'Ira y Tecoiad,' y gelwir Ira mab Icces, un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 26; 1 *Cron.* xi. 28; a xxvii. 9. Daeth y bobl gyffredin yn mysg y Tecoiaid allan i weithio yn egniol pan adgyweiriwyd muriau Ierusalem gan Nehemiah: *Neh.* iii. 5, 27. Mynegir, pa fodd bynag y ffaith hynod hon—nad oedd "eu gwŷr mawr" yn cymmeryd un rhan yn y gwaith o ail adeiladu y ddinas.

TEHINATH: tad neu sylfaenydd Ir-nahas, neu ddinas Nahas, a mab i Eston: 1 *Cron.* iv. 12.

TEITHIAU YR ISRAELIAID.—Y mae pwysigrwydd neillduol yn gyssylltiedig â'r *Exo-dus*, neu âg ymadawiad cenedl Israel o'r Aipht, a chymmeryd i ystyriaeth, nid yn unig yr ym-adawiad, ond y mynediad trwy y Môr Coch a'r anialwch, a thrwy yr Iorddonen i Ganaan. Y mae y pethau rhyfedd a gymmerasant le, a'r gwyrthiau a gyflawnwyd yn ystod y deugain mlynedd yn mha rai y dygwyd hyn oddi am-gylch, wedi rhoddi i'r ardaloedd hyny yn mha rai y digwyddasant ddyddordeb arbenigol, yn enwedig gan fod y cyfeiriadau a wneir yn y Testament Newydd at yr amgylchiadau a gym-merasant le ynddynt yn lliosog, ac yn llawn o addysg Gristionogol i'r holl oesau. O ganlyn-iad, y mae y parth hwn o'r byd sydd wedi arfer bod, ac yn parhau i fod, mewn ystyr anianydd-ol, yn ddim amgen na diffaethwch diffrwyth, a rhyw fawredd yn gyssylltiedig âg ef yn marn a theimlad pawb. Yn wir, y mae y Cristion, yr Iuddew, a'r Mahometan, yn edrych arno fel tiriogaeth âg y mae math o gyssegredigrwydd yn perthyn iddo; ac y mae y dirgelwch sydd ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r cymmydogaethau y cymmerodd y digwyddiadau mawr y sonir am danynt le ynddynt, yn chwanegu yn barhaus at y syched sydd am wybod rhywbeth yn ei gylch gan bob dosbarth. Y canlyniad o hyn yw, fod y wlad hono, er yr holl anhawsderau i deithio ynddi, wedi denu lliaws i ymweled â hi; megys Burckhardt, Niebühr, Seetzen, Laborde a Lin-ant, Rüppell, Raumer, Russegger, Lepsius, Hen-niker, Wellsted, Fazakerley, a Miss Martineau, &c., er dechreu y ganrif bresennol—heb law Moncoys yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, a Has-selquist a Pococke yn y ddeunawfed; ac y mae Wilson, Stewart, Bartlett, Bonar, Olin, Bertou, Robinson, a Stanley, wedi chwanegu llawer at ein gwybodaeth o'r pethau hyn. Ac yn awr, trwy ddefnyddio y wybodaeth a gyflwynwyd i ni gan deithwyr, y mae yn bossibl, trwy brofion mewnol, gael allan—nid yn fanwl, y mae'n wir; ond yn lled agos i gywir—y ffordd a gymmerodd yr Israeliaid ar eu teithiau. Ond er cydnabod fod llawer o ddefnyddiau wrth law i benderfynu y llwybr a gymmerwyd, etto y mae yn rhaid addef fod yn anhawdd penderfynu yr holl fanyl-ion hyd sicrwydd.

Y mae taith yr Israeliaid wedi ei holrhain o Gozen hyd y mynediad drwy y Môr Coch, yn yr erthygl ar Exodus. Pe cymmerid yn ganiataol fod eu mynediad drwy y môr wedi cymmeryd lle yn mhen gogleddol Morgaingc Suez, fe dybir iddynt fyned yehydig i'r dwyrain o Suez. Yr oeddynt yn Anialwch Sur; ac yno "hwy a gerddasant dri diwrnod yn yr anialwch, ac ni chawsant ddwfr." Y lle nesaf a grybwyllir yw Marah. Y mae y rhan liosocaf o deithwyr er amser Burckhardt yn ystyried mai yr un oedd Marah ag *Ain el-Hawâra*. Rhwng y lle hwnw ag *Ayûn Mûsa*, y mae y gwastadedd yn garegog a thywodlyd. Nid oes dwfr ar y ffordd hon. Dywed Seetzen fod dyfroedd *Hawâra* braidd yn hallt; ond chwanega fod y Bedwîniaid a'u ca-melod yn yfed o hono. Ymddengys fod llawer o ffynnonau heliaidd a chwerw yn y gymmydog-aeth; ac y mae nodwedd gyffredinol y gymmyd-ogaeth yn myned yn mhell i brofi mai yr un ydyw hi a Marah. Am bereidd-dra y dwfr, gwel Marah. Fel y canlyn y sylwir gan Dr. Stanley

ar yr adran gyntaf hon o'u teithiau yn yr anialwch:—'Nid oes ddadl o barthed i lwybr yr Israeliaid ar ol dyfod trwy y Môr Coch. Os oeddynt yn myned i'r mynyddoedd o gwbl, yr oedd raid iddynt ddilyn camrau teithwyr yn gyffredin, rhwng y môr ac ucheldir *Tîh*, nes myned i fryniau y *Ghŭrŭndel*. Yn ol y golygiad a gymmerir ar y daith, rhaid fod Marah ger llaw 'ffynnonau Moses, neu yn *Hawâra*, neu *Ghŭrŭndel*.' Y lle nesaf yr aed iddo oedd Elim. Y mae Dr. Kruse yn ystyried fod y geiriau sydd yn *Exod.* xv. 27, "A hwy a wersyllasant yno wrth y dyfroedd," yn golygu 'wrth y môr:' ond ymddengys, oddi wrth *Num.* xxxiii. 9, 10, na ddarfu iddynt gyrhaedd y môr nes iddynt fyned daith arall yn mlaen, er nad oedd eu pellder oddi wrtho yn fawr cyn hyn. Yna mynegir eu bod wedi dyfod at y Môr Coch. Y mae yn debyg iddynt wersyllu yn y rhan isaf o'r *Wady Tayibeh*. Nid oes yn yr hanes a geir yn *Exod.* xvi., sôn am y gwersyllu hwn "wrth y Môr Coch;" ond mynegir i'r gwersyll fyned o Elim, a dyfod "i anialwch Sin." Ond dylid sylwi mai dyben cyffredinol y cofnodion yno ydyw—nid rhoddi hanes y bobl, yn gymmaint a'r hyn a wnaeth Duw iddynt ac erddynt, a defnyddio y blaenaf er egluro yr olaf, ac yn is-wasanaethgar iddo. Y dyben amlwg yn *Num.* xxxiii. pa fodd bynag ydyw cofnodi hanes yr ymdeithiad; ac y mae y rhestr a roddir yno o'r lleoedd yn fwy manwl. Y mae "anialwch Sin," yn ddiau yn enw sydd yn gosod allan nodwedd anianyddol y gymmydogaeth, ac yn golygu, dybygid, y gwastadedd marianol a orweddai ar hyd ystlys y môr. Yr enw diweddar ar y lle hwn ydyw *el-kâa;* yr hwn, yn ol Seetzen, sydd yr un lle â'r anialwch. Yn is i lawr, y mae y gwastadedd hwn yn ymledu yn fwy; a diau mai yn y rhan ogleddol o hono yr oedd Dophcah ac Alus:—*Num.* xxxiii. 12—14.

Yn anialwch Sin y darfu i'r Israeliaid gwyno gyntaf am luniaeth, ac yno y disgynodd y manna am y waith gyntaf. Yn y rhanau boreuaf o'r daith y mae yn fwy pwysig i ni gael allan y ffordd a gymmerwyd na phenderfynu ar y gorsafoedd. A thybied mai y gwastadedd marianol, lle y dechreuai ymledu i gryn faintioli, ydoedd anialwch Sin, y mae pob ymofyniadau pellach, hyd nes y deuir i Sinai, yn troi ar y sefyllfa a roddir i Rephidim. Os oedd Rephidim, fel y mae yn dra thebygol, yr un a *Feirân* [gwel Rephidim], y mae o'r bron yn sicr fod llwybr y llu yn gorwedd i'r gogledd i *Serbâl*—mynydd ardderchog yr olwg, â phum clogwyn arno, yr hwn yn ol barn rhai yw mynydd Sinai. Gwel Sinai. Nid oedd y tabernacl wedi ei wneyd etto, na threfn y gwersyll yn y daith wedi ei benderfynu. Gwnaed hyn ar ol hyny: *Num.* x. 13. Cyfyd y ffordd yn raddol rhwng yr arfordir a *Feirân*—ardal sydd tua hanner uchder y clogwyn uchaf yn y trum hwnw o fynyddoedd. Rhaid oedd dyfod i *Feirân* trwy ffordd yn arwain yno oddi wrth lan y môr. Y mae y sawl a dybiant mai nid *Feirân* oedd Rephidim o dan orfod i ddyfeisio a nodi allan rhywle arall. Meddyliai rhai mai *Tûr* oedd Rephidim; ond os felly, yna nid oedd Sinai yn un o'r lleoedd y tybir ei fod. Y ffordd oreu, gan hyny, dybygid, ydyw cymmeryd *Feirân*, a'r dyffryn cyssylltiedig, sef *es-Sheykh*, am Rephidim. Awgryma Dr. Stanley y ffordd ar du y deheu i *Serbâl* trwy y *Wady Hebrân*, fel yr un a gymmerwyd i Sinai, ac y mae efe yn ei galw yn "ffordd ddeheuol." Heb law yr amrywiol awgrymiadau a roddwyd yn yr erthygl ar Sinai yn mherthynas i Horeb a Sinai, y mae Dr. Kruse yn gwneyd un arall sydd yn werth ei gofnodi. Dywed y doctor fod "Horeb yn gorwedd yn nyffryn Rephidim...taith diwrnod o Sinai, ar wastadedd sych, sydd yn ddigon helaeth i wersyllu ynddo, lle y mae ffynnon yn y graig, yr hon a darawyd â gwialen Moses. ... Bod y dyffryn hwn yn ddigon eang i fod yn faes yr ymladdfa y sonir am dani yn *Exod.* xxii. 9, sydd amlwg oddi wrth adroddiad a wneir gan Robinson am frwydr a gymmerodd le yno rhwng dau lwyth ychydig flynyddau cyn ei ymweliad ef. Cyrhaeddodd Robinson o glogwyn creigiog, yr hwn a gymmerwn ni am Horeb, mewn awr a hanner i ffynnon *Gurbeh;* yr hon, dybygid, ydoedd yr un a agorwyd gan Moses; ac oddi yno efe a ddaeth mewn awr i fwlch serth *Nûkb Hâwy;* ac mewn pedair awr a hanner efe a ddaeth i'r fynachlog wrth droed Sinai. Rhoddodd yr Arabiaid oedd gyda Seetzen yr enw *Orrîbe* ar fynydd yr aed i fyny iddo trwy y bwlch, yr hwn yn ddiau oedd yr un ag *el-Orf* Robinson a Horeb yr Ysgrythyrau."—*Reisen*, iii. td. 422. Ceisir cyssoni hyn âg *Exod.* xxxiii. 6, lle y disgrifir y bobl yn edifarhau ar ol eu trosedd yn achos y llô aur, yn "diosg eu harddwisg wrth fynydd Horeb," trwy dybied eu bod wedi eu harwain yn ol gan Moses o Sinai i Horeb yn nyffryn Rephidim, lle yr ymddangosai Duw iddo ef, ac o dan yr hwn y gwersyllasai yr Israeliaid. Ond buasai hyn yn daith diwrnod yn ol iddynt; ac nid oes grybwylliad am y fath beth yn *Num.* xxxiii. 14—16. I'r gwrthwyneb, dywedir, "a chychwynasant o anialwch Sinai, a gwersyllasant yn Cibroth-Hattaafah." Yn awr, er iddynt aros am flwyddyn yn Anialwch Sinai (*Exod.* xix. 1; *Num.* x. 11, 12), ac ni raid i ni dybied eu bod yn cael eu cyfyngu i un gwersyllfan yr holl amser hwn, er hyny y mae yn ymddangos yn lled eglur fod Rephidim o fewn terfynau yr anialwch hwnw (*Exod.* xvii. 1, xix. 1; *Num.* xxxiii. 15), ac y mae yn dra thebyg y buasai y dychweliad yno yn cael ei grybwyll yn rhywle, er nad ydyw, fe allai, holl symmudiadau y gwersyll yn anialwch Sinai wedi eu nodi yn hollol fanwl. Gwel Sinai.

Yr oedd blwyddyn arosiad yr Israeliaid yn nghymmydogaeth mynydd Sinai yn un nodedig am ei digwyddiadau rhyfeddol. Y mae adroddiadau yr Ysgrythyrau am dderbyniad y ddwy lech, y llô aur, gweledigaeth Moses o Dduw, ac ymweliad Iethro, yn rhy adnabyddus i alw am sylw yma: ac heb law hyn, y mae yn sicr oddi wrth *Num.* iii. 4, fod yr Israeliaid wedi eu taflu i alar mawr am farwolaeth Nadab ac Abihu, meibion Aaron, cyn eu bod wedi gadael anialwch Sinai. Cyfrifwyd y bobl hefyd yn yr anialwch hwn. Ac yma y derbyniwyd offrymau penaethiaid Israel. Y digwyddiad diweddaf a goffheir cyn iddynt adael anialwch Sinai am un Paran ydoedd ymadawiad bwriadol Hobab y Cenead—ond yr hwn, ar ddymuniad Moses, a roddodd y bwriad hwnw i fyny. Aethant o gymmydogaeth Sinai i ardal Paran, ac aethant yn mlaen dri diwrnod cyn cael lle i wersyllu ynddo yn barhaol, er eu bod wrth gwrs yn aros ar y daith bob dydd: *Num.* i.; ix. 15—23; x. 33; xi. 35; xii. 16. Gellid cael dewis o ddwy ffordd i fyned o Sinai i gyfeiriad Canaan. Perthynai Taberah a Cibroth-Hattaafah i'r un wersyllfa, dybygid, lle yr arosodd yr Israeliaid am o un-tu mis: *Num.* xi. 4. Enwau ydoedd y rhai hyn a

Digitized by Google

roddwyd arnynt ar gyfrif y ddau ddigwyddiad mawr a gymmerasant le yno. Gwel CIBROTH-HATTAAFAH: TABERAH. Ymddengys oddi wrth *Num.* x. 1—13, 33—35, fod y gorsafoedd hyn yn gorwedd yn anialwch Paran. Drachefn, y mae Hasceroth, yr orsaf nesaf ar ol y rhai hyn, yn cael ei chyplysu gyda Dizahab, ac ymddengys mai yr un ydoedd y diweddaf a *Dahab: Deut.* i. 1, a Robinson, ii. td. 187. Y mae hyn yn peri i ni dybied fod Hazeroth yn agos i'r môr. Ac am fod Taberah yn daith tri diwrnod, neu chwaneg, o anialwch Sinai, yr oeddynt, dybygid, wedi teithio y pellder hwnw tua'r gogledd-ddwyrain: gan hyny nis gallent fod yn mhell oddi wrth lan Morgainge Akabah. Os felly yr oedd, y mae Dr. Robinson yn sylwi ei fod yn ddigon o brawf fod y llwybr i Cades i fyny yr Arabah, ac nid ar draws ucheldir *et-Tih*. Arosodd y bobl yn Hasceroth saith niwrnod, os nad mwy (*Num.* xi. 35, xii.). Yn ystod yr amser hwn y cauwyd Miriam allan o'r gwersyll tra y bu yn wahanglwyfus. Dygodd y wersyllfau arosol nesaf hwynt i anialwch Paran:—ac yma y mae yr anhawsder mwyaf yn cael ei deimlo i nodi allan y cymmydogaethau lle yr arosodd y gwersyll.

Nid yn unig y mae gwyneb yr anialwch wedi cyfnewid mewn llawer o fanau erbyn hyn, a hen enwau wedi eu newid am rai ereill, ond y mae cryn dywyllwch o gwmpas yr hanes hefyd. Ond, heb law y cofnodion a geir yn llyfrau Exodus, Lefiticus, a Numeri, yr ydym yn cael yn *Num.* xxxiii. yr hyn sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn fraslun cyflawn o'r ffordd, mor bell ag y mae a fyno enwau y lleoedd y buont yn gwersyllu ynddynt; ac yr ydys yn cael yn mhellach yn Deuteronomium adolygiad ar rai o brif ddigwyddiadau y daith, heb ddilyn y drefn yn yr hon y cymmerasant le yn fanwl. Y mae yr awdurdod ar ba un yr ydys yn seilio ein barn gan hyny o natur driphlyg. Yn y prif hanes, y mae rhai blynyddoedd yn cael eu pasio fel rhai na chymmerodd dim neillduol le ynddynt: felly hefyd yn y cofnodion o'r daith a geir yn *Num.* xxxiii. Wrth sylwi yn fanwl, fe geir gweled fod cryn adwyau yn digwydd, a dylid rhoddi cyfrif am danynt rywfodd. Ond heb law hyn, y mae anhawsderau ereill yn ymddangos, megys gadael allan Dophcah ac Alus, a'r gwersyllu wrth y Môr Coch, o'r hanes yn Exodus; a'r hyn sydd yn bwysicach, yr ymweliad â Cades a gofnodir yn *Num.* xiii. 26, a thrachefn yn *pen.* xx. 1—tra nad ydyw Cades yn cael ei henwi ond unwaith yn hanes yr ymdaith a geir yn *Num.* xxxiii. Y mae yr anhawsderau hyn yn ymdoddi i ddau gwestiwn. Pa un ai unwaith, ynte dwywaith, yr ymwelodd yr Israeliaid â Cades? A pha le yr ydys yn awr i edrych am Cades? Yr ydym yn darllen yn *Num.* x. 11, 12, "A bu ar yr ail flwyddyn, ar yr ail fis, ar yr ugeinfed dydd o'r mis, gyfodi o'r cwmmwl oddi ar dabernacl y dystiolaeth. A meibion Israel a gychwynasant i'w taith o anialwch Sinai; a'r cwmmwl a arosodd yn anialwch Paran." Y mae yr adroddiad diweddaf yn cael ei wneyd, dybygid, mewn rhagddisgwyliad, gan ein bod yn cael, ar ol gadael Cibroth-Hattaafah a Hasceroth, fod y bobl wedi gwersyllu "yn anialwch Paran;" *Num.* xii. 16. Yma y bu yr arosiad mawr tra yr anfonwyd yr ysbïwyr i edrych ansawdd Gwlad Canaan. Dywedir wrthym iddynt gael eu danfon "o anialwch Paran" (*Num.* xiii. 3); ac ar ol chwilio y wlad "ddeugain niwrnod," iddynt ddychwelyd at "Moses ac Aaron, ac at holl gynnulleidfa meibion Israel, i Cades, yn anialwch Paran." Y crybwylliad cyntaf a wneir am Cades yn hanes y teithiau yw hwn: *adn.* 25, 26. Ymddengys fod Cades yn golygu yn mlaenaf ardal berthynol i anialwch Paran, ac weithiau i Sin (cymmharer *adn.* 21, 26); yn ail, dinas o fewn terfyn yr anialwch, ac y mae hanes ymadawiad a dychweliad yr ysbïwyr, a'r trallod a'r grwgnach a ddilynodd, yn ein harwain i dybied fod Cades yma yn golygu yr ardal yn yr anialwch yn unig. Gellir sylwi hefyd nad yw Cades yn cael ei henwi fel y lle yr ymadawyd o hono, ond yn unig y man lle y dychwelwyd iddo. O Paran yr oedd y cychwyniad; ond o Sin (dwy ardal yn yr anialwch) y dechreuwyd yr ymchwiliad. Y mae Moses yn gwneyd gwaith yr Israeliaid yn dyfod i Cades Barnea yr un peth a dyfod "i fynydd yr Amoriaid" (*Deut.* i. 19, 20)—o'r lle yr anfonwyd yr ysbïwyr (*adn.* 22, 23). Ond dywedir yn *Num.* xiii. 3, mai o *Paran* yr aethant. Tybier fod yr ysbïwyr wedi cychwyn o rywle o lechweddau yr *et-Tih*, yna y ffordd oreu fuasai heibio i'r *Wady el-Jerafeh*, i fyny yr Arabah. Buasai hyn yn gychwyniad o "anialwch Sin," fel y dywedir yn *Num.* xiii. 21. Yna, yn ol cyfarwyddyd Moses, dringwyd i'r mynydd (*Num.* xiii. 17), yn ol *Deut.* i. 24; "A hwy a droisant, ac a aethant i'r mynydd;" sef y lle uchaf ar yr ucheldir, dybygid—ardal Cades. Gan eu bod yn 'troi' er mwyn hyn, gellir casglu nad oeddynt yn cymmeryd llwybr union. Yn ystod deugain niwrnod eu habsennoldeb, gellid meddwl fod y llu wedi symmud i ardal Cades-Paran, ac na ddarfu iddynt y pryd hwn gyffwrdd â dinas Cades. Y mae hyn yn hollol gysson âg, os nad ydyw yn cael ei gadarnhau gan ymadroddion y grwgnachwyr yn *pen.* xiv. 2, 3; "O! na buasem feirw yn nhir yr Aipht! neu, O! na buasem feirw yn y diffaethwch hwn! A pha ham y mae yr Arglwydd yn ein dwyn ni i'r tir hwn?" Ac yn yr ymadroddion a ddilynant y mae y gair 'diffeithwch' a'r 'diffeithwch hwn,' yn digwydd yn fynych; ond o'r dechreu i'r diwedd ni cheir crybwylliad am ddinas.

Yn awr, yn ol *Deut.* i. 19, lle y mae y daith megys yn cael ei hadolygu gan Moses, a llefaru yn fanwl, nid oedd angenrhaid arno gyfeirio at Cades o gwbl, o herwydd yr oedd y bobl yr holl amser yn anialwch Paran. Ond y mae yr enw hwn yn cymmeryd i mewn ddosbarth mor fawr fel yr oedd Moses yn naturiol yn defnyddio rhyw enw mwy pendant er gosod allan y gyfran o'r wlad a olygid ganddo:—gan hyny, y mae yn ei osod allan fel yn agos i Cades. A mynegir i'r ysbïwyr ddychwelyd "i Cades yn anialwch Paran," yr hyn a olyga ar du dwyreiniol yr ucheldir, dybygid. Y mae yr ymadrodd "o Cades-Barnea hyd Gazah" yn penderfynu safle ddwyreiniol y lle blaenaf: *Jos.* x. 41. Yma, fel y mae yn eglur oddi wrth *Num.* xiv. 40—45, a *Deut.* i. 41—44, y gwnaeth y llu eu hymgais ffol i wneyd eu ffordd, er gwaethaf y gorchymyn i beidio, "i ben y mynydd," ac y trechwyd hwy gan yr Amaleciaid, a'r Canaaneaid, a'r Amoriaid. Gorchfygwyd hwynt pan yn ceisio cymmeryd bwlch Hormah, neu Sephath: *Barn.* i. 17. Gelwir yr ardal hono yn Seir, yn arwyddo fod y lle yn cael ei adnabod hefyd wrth ei enw Horiaidd: yma o bossibl y goddefodd yr Edomiaid i'r Horiaid drigo. Oddi wrth yr hyn a ddywedir yn *Num.* xiv. 25, fod yr "Amaleciaid a'r Canaaneaid yn trigo yn y dyffryn," gellid tybio eu bod yn aros yn y man lle y gallent gael porfa

Digitized by Google

i'w hanifeiliaid ar lenydd yr *el-Fikreh* ac aberoedd ereill a redent i'r *el-Jeib,* a'u bod yn cymmeryd eu safle yn y mynydd er attal mynediad yr Israeliaid yn mlaen. Yma, gan hyny, y dechreuodd crwydriadau cospawl y genedl; a cheir fod cyfnod maith o yn agos i ddeunaw mlynedd ar hugain wedi myned heibio rhwng y gorchfygiad y sonir am dano yn *Num.* xiv., a'r sylw a wneir o'r amrywiol ardaloedd yn *Num.* xx., lle y ceir yr enwau 'Sin' a 'Cades' yn mysg y rhai cyntaf a nodir.

Yr unig ddigwyddiadau a gofnodir yn ystod y cyfnod hwn (ond y mae y rhai hyn yn cael eu cymmysgu âg amryw o ddadganiadau y gyfraith seremoniol), ydyw rhoddi i farwolaeth trwy ei labyddio y dyn a gafwyd yn cynnutta coed ar y Sabbath (*Num.* xv. 32—36); gwrthryfel Corah (*pen.* xvi.), ac yn gyssylltiedig â hyny, dyrchafiad tŷ Aaron yn llwyth Lefi; yr hyn a gadarnhawyd yn gyhoeddus trwy wyrth y wialen a flodeuodd. Ymddengys i hyn gael ei ddilyn gan ysgariad cyflawnach llwyth Lefi oddi wrth y llwythau ereill, o ran agosrwydd ei sefyllfa i'r tabernacl, nag a wnaethid yn ymarferol cyn hyny: *pen.* xxvii., a xxviii. 22; cymmharer *pen.* xvi. 40. Yna yr ydym yn casglu oddi wrth *Deut.* i. 46, fod y rhan fwyaf, ac fe allai yr oll, o'r cyfnod hwn o ddeunaw mlynedd ar hugain, os gellir esbonio yr ymadrodd "dyddiau lawer" felly, wedi ei dreulio ganddynt yn ardal Cades —ond nid yn y dref a elwir felly; i'r hon y gallasai y gwersyll weithiau symmud er mwyn cyfleusdra. Yn y rhan yma o'r anialwch y buont yn crwydro am yr ysbaid maith uchod o flynyddoedd. Ond yn *Num.* xx. 1, yr ydym yn cael ein dwyn at eu hymadawiad oddi yno. Yr oedd yr holl gynnulleidfa "yn yr anialwch, yn y mis cyntaf," a'r "bobl a arosodd yn Cades: yno hefyd y bu farw Miriam, ac y claddwyd hi." Nodir y gymmydogaeth yn fwy manwl; ac y mae yr un peth yn cael ei gadarnhau gan air a ddanfonwyd ar ol hyny at frenin Edom:— "ac wele ni yn Cades, dinas ar gwr dy ardal di;" *adn.* 16. Gellir tybied fod hyn yn cydsefyll â'r gwersyllu fu "yn anialwch Sin, hwnw yw Cades;" *pen.* xxxiii. 36. Yr ydys yn gweled gan hyny pa fodd, yn y rhestr a roddwyd o'r lleoedd y buont yn gwersyllu ynddynt, nad oedd angenrheidrwydd am enwi Cades; o blegid yn y sylw blaenorol yn yr hanes, lle y mae yr enw yn digwydd, ni sonir am dano fel man y gwersyllodd yr Israeliaid yn bennodol, ond fel ardal yr oedd y gwersyll yn symmud ynddi yn ol ac yn mlaen yn barhaus am y rhan fwyaf o ddeunaw mlynedd ar hugain. Ni fynegir pa fodd y daeth yr Israeliaid i feddiant o ddinas Cades, na phwy oeddynt ei pherchenogion blaenorol. Y tebygolrwydd yw, mai gweddillion o'r Horiaid oeddynt; pa rai, ar ol cael eu gyru gan yr Edomiaid o fynydd Seir, a gadwasant eu gafael fe allai ar y diriogaeth oedd rhwng Edom ac Amoriaid Canaaneaidd y deheu. Dichon i Israel ei chymmeryd trwy rym arfau, ac mai hyn a barodd i "Arad y Canaanead" ymosod ar Israel:—am y buasai ei diriogaeth ei hun mewn perygl: *Num.* xxxiii. 40; cymmh. *pen.* xxi. 1. Yr ydys yn cael, oddi wrth *Num.* xxxiii. 36, fod yr Israeliaid wedi myned yn ddiymaros o Ezion-gaber i Cades; ac hwyrach fod hyn wedi dychrynu brenin Arad. Yn hanes y daith, dywedir eu bod wedi myned o Cades i fynydd Hor, ac yno y claddwyd Aaron. Mewn cyssylltiad uniongyrchol â'r digwyddiadau hyn y mae ymadroddion neillduol yn digwydd yn *Deut.* x. 6, 7, yn cynnwys rhestr fechan o enwau cymmydogaethau; ac wrth eu cymmharu â hanes yr ymdeithiad yn *Num.* xxxiii. yr ydys yn cael goleuni ar y llwybr a gymmerwyd o ardal Cades yn ddeheuol tuag Esion-gaber.

Yn *Num.* xx. 14, 16, 22—29, y mae yr hanes yn ein dwyn o ddinas Cades i fynydd Hor, lle y bu farw Aaron; a chyfran o hanes y daith hono a geir yn *Deut.* x. 6, 7. Y mae anhawsder mawr wedi ei deimlo gan ysgrifenwyr a theithwyr i benderfynu yn fanwl ar safle dinas Cades, ac y maent yn lled wahanol i'w gilydd. Ond er nas gellir, hwyrach, yn sefyllfa bresennol ein gwybodaeth o ddaearyddiaeth yr ardaloedd hyny, benderfynu hyn, etto y mae yn lled amlwg ei bod yn rhywle yn tynu ar gyffiniau gwlad Palestina. Diau fod y mynyddoedd oedd ar du y gorllewin i'r Arabah yn wastad yn mron yn ddiffygiol o ddwfr, ac o blegid hyny yn wahanol i'r ardal oedd ar ochr ddeheuol mynydd Seir, lle yr oedd llawer o ffrydiau dyfroedd. Gellir canfod mynydd Hor oddi ar grib mynydd Seir. O fynydd Hor aethpwyd, dybygid, tuag Akabah, a throwyd ar hyd llinell led union tua chyffiniau dwyreiniol Moab. Am orsafoedd y cyfeirir atynt yn y rhestr o Rithmah hyd Mithcah nid oes dim yn wybyddus. Perthynai y lle diweddaf, dybygid, ynghyd âg ereill a enwir o'i flaen, i anialwch Cades; ond nis gellir nodi allan y cyfeiriad a gymmerwyd yn yr anialwch hwnw. Pan y gommeddodd brenin Edom "roddi ffordd i Israel trwy ei fro," bu raid i'r bobl "amgylchu tir Edom" (*Num.* xxi. 4); ac yr oedd yn gyfyng arnynt o "herwydd y ffordd;" ac yno y grwgnachasant, ac yr anfonwyd seirph tanllyd i'w mysg: *adn.* 5, 6. Y mae yn agos i Elath bentir a elwir yn awr *Râs um Haye,* 'mam seirph;' a dywedir fod llawer o'r creaduriaid hyn yn y gymmydogaeth: a thybid mai yma y cymmerodd y farn le. Cyssylltir y trychineb â'r daith heibio i gyffiniau deheuol mynydd Seir, y cyfeirir ati yn *Deut.* ii. 8, fel "ffordd y rhos (*h. y.* Arabah) o Elath, ac o Esion-gaber;" yna iddynt droi "tua'r gogledd," ar ol "amgylchynu mynydd Seir ddyddiau lawer, a myned ar hyd ffordd anialwch Moab;" *adn.* 3, 8.

Ymddengys eu bod wedi gwersyllu, ac aros am beth amser yn rhyw fan; ac a barnu oddi wrth orchymynion pendant Moses i'r bobl yn *Deut.* ii. 13, fe allai mai yn y man a gynnrychiolir gan Salmonah yn y rhestr yn *Num.* xxxiii. 41, 42, y buont. "Cyfodwch yn awr, a thramwywch rhagoch dros afon Zared:" yr hon oedd yn nes i'r gogledd; a'r hon, dybygid, ydoedd yr un a'r *Wady el-Ahsy.* Gwel ZARED. Y tair gorsaf a enwir rhwng Salmonah a'r afon, neu ddyffryn Zared, ydyw Punon, ac Oboth, ac Ije-Abarim (*Num.* xxi. 10—12, cymmh. *pen.* xxxiii. 45, 46); ond nid ydyw Zared yn cael ei henwi yn rhestr y gorsafoedd, na chwaith "afonydd Arnon," Beer, Mattanah, Nahaliel, a Bamoth, y rhai a enwir oll yn *Num.* xxi. 14—20. Ond y mae y cyfwng rhwng Ije-Abarim a Nebo—y lle olaf, dybygid, yn cyfatteb (gwel *Deut.* xxxiv. 1) i Pisgah (*pen.* xxi. 20): yn cael ei lenwi gan ddwy orsaf yn unig, a elwir Dibon-gad ac Almon-diblathaim—oddi wrth yr hyn y gellir casglu mai yn y ddau le hyn yr aroswyd hwyaf. Y pryd hwn y cloddiwyd ffynnon gan y tywysogion, y cafwyd y buddugoliaethau olynol ar Sehon ac Og, ac hefyd y cymmerodd y digwyddiadau yn dwyn perthynas â Balaam a Phineas le, ac y

Digitized by Google

rhifwyd y bobl, yr hyn a ddilynwyd gan orthrechiad y Midianiaid: *Num.* xxi. 17, a xxii., a xxxvi., a xxxi. 12: cymmharer *Deut.* ii. 24—47; iii. 1—17.

Gall y daflen ganlynol o orsafoedd yr Israeliaid, a gymmerwyd o Robinson's "*Researches in Palestine*" (cyf. ii. td. 678, 679), fod yn wasanaethgar i'r darllenydd.

### 1. O'r Aipht i Sinai.

| *Exodus* xii.—xix. | *Numeri* xxxiii. |
|---|---|
| O Rameses, xii. 37. | O Rameses, *adn.* 3. |
| 1. Succoth, xii. 37. | Succoth, *adn.* 5. |
| 2. Etham, xiii. 20. | Etham, *adn.* 6. |
| 3. Pi-hahiroth, xiv. 2. | Pi-hahiroth, *adn.* 7. |
| 4. Y mynediad trwy y Môr Coch, xiv. 22; a thaith tri diwrnod yn anialwch Sur, xv. 22. | Y mynediad trwy y Môr Coch, a thaith tri diwrnod yn anialwch Etham *adn.* 8. |
| 5. Marah, xv. 23. | Marah, *adn.* 8. |
| 6. Elim, xv. 27. | Elim, *adn.* 9. |
| 7. | Gwersyllu wrth y Môr Coch, *adn.* 10. |
| 8. Anialwch Sin, xvi. 1. | Anialwch Sin, *adn.* 11. |
| 9. | Dophcah, *adn.* 12. |
| 10. | Alus, *adn.* 13. |
| 11. Rephidim, xvii. 1. | Rephidim, *adn.* 14. |
| 12. Anialwch Sinai, xix. 1. | Anialwch Sinai, *adn.* 15. |

### 2. O Sinai i Cades yr ail waith.

| *Numeri* x.—xx. | *Numeri* xxxiii. |
|---|---|
| Myned o anialwch Sinai, x. 12. | Myned o anialwch Sinai, *adn.* 16. |
| 13. Taberah, xi. 3; *Deut.* ix. 22. | |
| 14. Cibroth-hattaafah, xi. 34. | Cibroth-hattaafah, *adn.* 16. |
| 15. Haseroth, xi. 35. | Haseroth, *adn.* 17. |
| 16. Cades, yn anialwch Paran, xii. 16; xiii. 26; *Deut.* i. 2, 19. Oddi yma hwy a droisant yn ol, a buont yn crwydro am ddeunaw mlynedd ar hugain yno: *Num.* xiv. 25, &c. | |
| 17. | Rithmah, *adn.* 18. |
| 18. | Rimmon-Pares, *adn.* 19. |
| 19. | Libnah, *adn.* 20. |
| 20. | Rissah, *adn.* 21. |
| 21. | Cehelathah, *adn.* 22. |
| 22. | Mynydd Sapher, *adn.* 23. |
| 23. | Haradah, *adn.* 24. |
| 24. | Maceloth, *adn.* 25. |
| 25. | Tahath, *adn.* 26. |
| 26. | Tarah, *adn.* 27. |
| 27. | Mithcah, *adn.* 28. |
| 28. | Hasmonah, *adn.* 29. |
| 29. | Moseroth, *adn.* 30. |
| 30. | Bene-Iaacan, *adn.* 31. |
| 31. | Hor-hagidgad, *adn.* 32. |
| 32. | Iotbathah, *adn.* 33. |
| 33. | Ebronah, *adn.* 34. |
| 34. | Esion gaber, *adn.* 35. |
| 35. Dychwelyd i Cades, *Num.* xx. 1. | Cades, *adn.* 36. |

### 3. O Cades at yr Iorddonen.

| *Numeri* xx. xxi.; *Deut.* i., ii. x. | *Numeri* xxxiii. |
|---|---|
| Teithio o Cades, *Num.* xx. 22. | Teithio o Cades, *adn.* 37. |
| 36. Beeroth Bene-Iaacan, *Deut.* x. 6. | |
| 37. Mynydd Hor, *Num.* xx. 22; neu Moserah, *Deut.* x. 6, lle bu farw Aaron. | Mynydd Hor, *adn.* 37. |
| 38. Gudgodah, *Deut.* x. 7. | |
| 39. Iotbath, *Deut.* x. 7. | |
| 40. Ffordd y Môr Coch, *Num.* xxi. 4; heibio i Elath ac Esion-gaber, *Deut.* ii. 8. | |
| 41. | Salmonah, *adn.* 41. |
| 42. | Punon, *adn.* 42. |
| 43. Oboth, *Num.* xxi. 10. | Oboth, *adn.* 43. |
| 44. Ije-abarim, *Num.* xxi. | Ije-abarim, *adn.* 44, 45. |
| 45. Afon Zared, *Num.* xxi. 12; *Deut.* ii. 13, 14. | |
| 46. Afon Arnon, *Num.* xxi. 13; *Deut.* ii. 24. | |
| 47. | Dibon-Gad, *adn.* 45—yn awr Dhîbân. |
| 48. | Almon-diblathaim, *adn.* 46. |
| 49. Beer (ffynnon) yn yr anialwch, *Num.* xxi. 16, 18. | |
| 50. Mattanah, xxi. 18. | |
| 51. Nahaliel, xxi. 19. | |
| 52. Bamoth, xxi. 19. | Mynyddoedd Abarim, ger llaw Nebo, *adn.* 47. |
| 53. Pisgah, yr enw a roddir ar fynyddoedd Abarim, o ba rai yr oedd Pisgah yn rhan, xxi. 20. | |
| 54. Myned ar hyd ffordd Basan i rosydd Moab, "am yr Iorddonen âg Iericho;" *Num.* xxi. 33; xxii. 1. | Rhosydd Moab ger llaw yr Iorddonen, yn agos i Iericho, *adn.* 48. |

Fel hyn parhaodd taith a allasai, o ran pellder, gael ei gwneyd mewn ychydig fisoedd, am ddeugain mlynedd. Dygodd y genedl helbul a thrallod mawr arni ei hun, ac yn y diwedd angeu, fel cosp am ei gwrthnysigrwydd, ei gwrthryfel, a'i hanewyllysgarwch i ymostwng i ewyllys Duw: *Num.* xiv. 23; xxvi. 65. Bu hyn yn ddiammheuol yn fanteisiol i Iosuah; yn gymmaint ag iddo ef gael cenhedlaeth newydd i osod i lawr seiliau y sefydliadau gwladol a chrefyddol Moesenaidd yn ngwlad Palestina.

Ni byddai allan o le yma i wneyd sylw byr ar hanesiaeth naturiol yr anialwch yr aeth yr Israeliaid drwyddo. Y mae cyfeiriad wedi ei wneyd at rai o'r anifeiliaid sydd i'w cael yn ardal Sinai o dan y gair Sinai. Ceir yno, wrth gwrs, anifeiliaid dofion y Bedŵiniaid; ond y mae camelod yn fwy lliosog yn ardaloedd sychlyd yr *et-Tih*. Dywed Schubert nad ydyw bwystfilod rheibus mawrion yn mynychu ardal Sinai. Gwelir yno lew weithiau—ond yn anfynych iawn. Prin yw y llwynogod a'r udfilod (*hyenas*) yno. Ond dywed Burckhardt iddo ef gael croen llewpard ar Sinai, a dywed Mr. Tyrwhitt i rai o'i gwmni yntau weled llewpard pan oeddynt yn esgyn i fyny *Um Shaumer* yn 1862. Dywed Schubert fod deadelloedd o ddeugain neu hanner cant wedi eu gweled o greigafrau (*ibex*) yn y *Tufileh*. Gwelodd hefyd eryr mawr yn yr un gymmydogaeth—heb law y fronfraith, ac adar ereill a ganent yn soniarus yn y perthi. Gwelwyd cymmylau o adar ymfudol yn y *Wady Murrah*. Tua yr un parth ar yr anialwch, gwelodd Dr. Stanley yr awyr wedi ei duo gan finteioedd o adar mawrion. Y mae yno gyflawnder o frain yn yr ardal hon. Gwelodd Dr. Stewart y betrisen goes-goch ar y *Serbâl*. Y mae Seetzen, yn hanes ei daith o Hebron i Madara, yn enwi yn mysg ereill a geir yno y creaduriaid a ganlyn:—y blaidd, y ballasg, y gath wyllt, yr owns, y wâdd, â'r asen wyllt. Rhydd hefyd restr o ymlusgiaid, ac o adar. Mynegwyd iddo gan yr arweinwyr fod estrysod i'w gweled yn agos i *Bteidha*, ar y ffordd o Hebron i Sinai; a chanfu yntau eos, heb fod yn mhell i'r deheu o Hebron.

Digitized by Google

Ymddengys fod yno lawer o rywogaethau o seirph, ysgorpionau, madfilod (*lizards*), a locustiaid.

Yn mherthynas i lysieuaeth yr anialwch—y coed a geir liosocaf ydynt y tal-balmwydd, draenen yr anialwch, a'r grugwydd. Bychain ydyw y palmwydd yn wastad. Y maent i'w cael yn fynych yn sypiau o ddwsin, neu fwy, ynghyd. Draenen yr anialwch (*Mimosa Nilotica*) ydyw y pren a geir fynychaf yno. Ei enw Arabaidd yw *es-Seyâl*, a thybir yn gyffredin mai dyma oedd y "coed Sittim" a ddefnyddiwyd at waith y tabernacl. Y mae i'r pren hwn bigau blaenllym miniog anarferol. Ceir o hono y glud Arabaidd a elwir *gum arabic*. Y mae yno fwy nag un rhywogaeth o hono. Prin ydyw y borfa, ond y mae ei swm yn cyfnewid yn ol fel y bydd y tymmorau. Y mae coed terebinth i'w cael yn y ceunentydd o amgylch Beerseba; ond yn yr anialwch ei hun, o'r braidd y gellir gweled un. Am y fedwen—neu fel y cyfieithir y gair yn y Beibl Cymraeg 'y ferywen'—y mae hi yn un o blanhigion cynhenid yr anialwch: fe'i disgrifir gan Robinson fel prysgwydden fwyaf yr anialwch, a'i gwreiddiau yn hynod am eu chwerwder. Enwa Schubert lawer o blanigion a phrysgwydd a geir o fewn terfynau yr anialwch. Yn yr ardal dde-orllewinol i'r Môr Marw y tŷf y pren hynod a elwir 'pren afalau Sodom.' Gwel SODOM, AFALAU. Efe ydyw *'Asher* yr Arabiaid. Y mae Robinson, Stanley, Seetzen, ac ereill, yn cyfeirio at lawer o blanhigion a llysiau ereill sydd yn rhy liosog i'w henwi yma.

TEITL—AU: enwau y mae personau neillduol yn meddu hawl gyfreithiol iddynt, o herwydd rhyw urddas neu swydd a berthyna iddynt. Brenin neu ymherawdwr ydyw y teitlau anrhydeddus sydd yn perthyn i benaduriaid gwahanol wledydd. Mae meibion penaduriaid Prydain yn cael eu galw yn dywysogion, a'u merched yn dywysogesau: gelwir mab hynaf y penadur yn Dywysog Cymru. Rhoddir y teitl o 'uchelder brenhinol' i holl blant y penadur, a thrwy lythyrau breintiedig o dan y sêl fawr yn Chwefror, 1864, darfu i'r frenhines Victoria ddadgan ei hewyllys ar fod i blant meibion y penadur fwynhau yr un teitl. Dylid crybwyll yma hefyd fod deddf seneddol wedi ei phasio yn 1876, amcan yr hon ydyw chwanegu y teitl o Ymherodres India at deitlau blaenorol brenhines Prydain Fawr. Y mae gan amrywiol raddau y bendefigaeth yn y wlad hon wahanol deitlau; megys duc, ardalydd, iarll, is-iarll, a barwn. Yr oedd pob un o honynt ar y cyntaf yn enw ar swydd i'r hon y perthynai dyledswyddau pennodol. Er fod gan y rhan fwyaf o wledydd Ewrop eu duciaid, ardalyddion, ieirll, is-ieirll, a barwniaid, gwahaniaetha y rhai hyny yn aml mewn gradd oddi wrth deitlau cyffelyb yn Mhrydain, ac nid ydyw y rheolau a'r ymarferiadau Prydeinig perthynol i deitlau yn gymmhwysiadol at wledydd ereill.

TEL-ABIB: dinas oedd, fel y tybir yn gyffredin, naill ai yn Caldea neu yn Mesopotamia Uchaf. Ymddengys mai yn Caldea Briodol, ar lan yr afon Chebar, cangen o'r Euphrates, y gwelodd Ezeciel ei weledigaethau, ac y traddododd ei bregethau gan mwyaf. Y mae Ptolemy yn cyfeirio at Thel-bencane a Thal-atha oedd yn y parth hwn; ond nis gellir cyssylltu un o'r lleoedd hyn â Thel-abib, os na olygir fod yr enw wedi cyfnewid cryn lawer. Diammheuol mai yr hyn a olygir wrth *Tel* yn *Tel-abib* ydyw 'bryn.' Cymmhwysir y gair gan yr Arabiaid diweddar mewn modd neillduol at y mân fryniau, neu y pentyrau pridd, sydd yn nodi allan y manau lle y safai yr hen ddinasoedd adfeiliedig gynt, pa rai sydd erbyn hyn i'w canfod mor fynych ar wastadedd Mesopotamia.

TELAH: un o ddisgynyddion Ephraim, ac un o hynafiaid Iosuah: 1 *Cron.* vii. 25.

TELAIM: y man lle y casglodd ac y cyfrifodd Saul ei luoedd cyn ymosod ar Amalec, yr hwn a enwir yn 1 *Sam.* xv. 4 yn unig. Dichon ei fod yn gyfystyr â Telem, sefyllfa ddeheuol yr hon a fuasai yn ei chymmhwyso i fod yn lle manteisiol i wneuthur ymosodiad ar Amalec o hono. Yr enw a geir yn y Deg a Thrigain, ac yn Josephus, yr hwn nid ydyw yn dueddol i ddilyn y Deg a Thrigain yn mhob peth, ydyw Gilgal; a phan yr ystyrir cyssylltiad y gyssegrfa hono â hanes Saul, y mae o'r bron yn ddigon i'n perswadio mai y Deg a Thrigain a Josephus sydd yn iawn; ac yn lle Telaim, mai Gilgal yw y darlleniad cywir. Ond dylid sylwi, pa fodd bynag, fod yr holl gyfieithiadau ereill o'r gair yn cyttuno â'r testyn Hebraeg.

TELASSAR. Crybwyllir am Thelassar yn 2 *Bren.* xix. 12, ac yn *Esa.* xxxvii. 12, fel dinas wedi ei phoblogi gan "feibion Eden," yr hon a orchfygwyd, ac a feddiennid yn amser Senacherib gan yr Assyriaid. Yn y ddau le y mae yn gyssylltiedig â Gozan, Haran, a Reseph, y rhai oeddynt oll yn y mynydd-dir uwch law gwastadedd Mesopotamia Uchaf. Rhaid fod Thelassar, prif ddinas llwyth a adwaenid wrth yr enw "meibion Eden," yn rhywle yn Mesopotamia orllewinol, yn nghymmydogaeth Haran. Nis gellir penderfynu ei lle yn fanylach. Y mae yn debyg ei fod yn enw a roddid gan yr Assyriaid ar fan lle yr oedd teml i Assur wedi ei hadeiladu arno.

TEL-HARSA: un o'r trefydd neu y pentrefydd Babilonaidd, o ba un y daeth rhai Iuddewon na "fedrent ddangos tŷ eu tadau, na'u hiliogaeth, ai o Israel yr oeddynt," gyda Zorobabel i Iudea: *Ezra* ii. 59; *Neh.* vii. 61. Cyfieitha Gesenius yr enw "bryn y goedwig." Safai, dybygid, yn yr iseldir yn agos i'r môr yn nghymmydogaeth Tel-melah a Cherub; ond nis gellir yn awr nodi allan y llanerch.

TELEM: un o'r dinasoedd yn mhen deheuol eithaf Iudah: *Ios.* xv. 24. Y mae yr enw yn digwydd rhwng Ziph a Bealoth, ond nid ydys wedi cael allan y lle hyd yn hyn. Tybia rhai mai yr un ydyw Telem a Telaim, yr hwn a arferir yn 1 *Sam.* xv. 4; ond nid oes dim i'w ddywedyd dros nac yn erbyn y golygiad hwn.

TELENU: un o borthorion y deml yn amser Ezra, yr hwn a briodasai wraig ddyeithr: *Ezra* x. 24. Yr un ydyw efe, dybygid, a'r Talmon a enwir yn *Neh.* xii. 25; ac fe allai ei fod yn enw ar deulu, yn hytrach nag ar berson.

TELFORD, THOMAS: peiriannydd enwog; yr hwn a anwyd yn mhlwyf Westerkirk, yn Eskdale, swydd Dumfries, Ysgotland, ar y 9fed o Awst, 1757. Bugail defaid oedd ei dad wrth

ei alwedigaeth; a phan na byddai yn yr ysgol, yr oedd Telford ieuangc yn dilyn yr un gwaith. Ar yr un pryd, pob egwyl a gaffai darllenai yr holl lyfrau oedd yn ei gyrhaedd. Yn ysgol plwyf Westerkirk y bu efe nes bod yn bedair ar ddeg oed—pan yr aeth i ddysgu y gelfyddyd o saer maen. Ac yn mhen llawer o flynyddoedd, wedi iddo esgyn i safle uchaf ei alwedigaeth, efe a gyfaddefai y fantais a gawsai yn y cyfnod hwn pan yn gweithio yn galed â'i ddwylaw, gan iddo gael drwy hyny gyfleusdra i wneyd ei hun yn gydnabyddus â phob manylion ynghylch prynu, parotoi, a defnyddio pob math o ddefnyddiau at ei orchwyl, pa un bynag ai cynnyrch y goedwig, y chwarel, neu y tawdd-dy fyddent. Bu yn ddiwyd iawn yn y blynyddoedd hyn yn ei addysgu ei hun yn y Lladin, y Ffrangcaeg, yr Italaeg, a'r Almaenaeg. Dilynai ei alwedigaeth yn nghymmydogaeth ei gartref hyd y flwyddyn 1780, pan y symmudodd i Edinburgh. Nid arosodd yno ond prin dair blynedd; o herwydd yn 1783 efe a symmudodd i Lundain, a chafodd waith o dan Syr William Chambers, yr archadeiladydd, yr hwn ar y pryd oedd yn adeiladu ei brif waith, sef Somerset House. Tynwyd ei sylw at deilyngdod Telford, yr hwn a bennodwyd ganddo yn 1784 i arolygu y gwaith o adeiladu preswylfod dirprwywyr parhaol llongborth Portsmouth—gwaith a barhaodd fwy na thair blynedd, ac a roddes i Telford gyfleusdra i feistroli manylion gwneuthuriad llongbyrth, muriau glanfeydd, &c. Yn 1787, pennodwyd ef yn arolygwr y gweithiau cyhoeddus yn swydd Amwythig; a darfu i'r ddwy bont a wnaeth efe dros yr Hafren—un tua thair milldir o'r Amwythig, a'r llall yn Buildwas, tua milldir a hanner o Coalbrook Dale—a nifer fawr o bontydd llai, a gweithiau ereill perthynol i'r sir, ddangos yn amlwg athrylith ac egni y peiriannydd oedd yn awr ar ei ffordd i enwogrwydd.

Yr oedd cynllun ar droed y pryd hwn i wneyd Camlas Ellesmere. Nid oedd Telford, pa fodd bynag, yn ymgeisydd am y swydd o beiriannydd i'r gwaith mawr hwnw, nac wedi breuddwydio am gynnyg ei hun; o ganlyniad, pan gafodd y pennodiad, nid oedd neb yn rhyfeddu yn fwy nag efe. Mewn llythyr at gyfaill yn 1793, efe a ddywed, "Pennodwyd fi nos Lun diweddaf yn oruchwyliwr, archadeiladydd, a pheiriannydd y camlas sydd wedi ei fwriadu i uno yr afonydd Mersey, a'r Dyfrdwy, a'r Hafren. Credaf mai dyma y gwaith mwyaf o'r fath a ddygir yn mlaen yn bresennol yn y deyrnas hon, ac nis gellir ei gwblhau am lawer o flynyddoedd i ddyfod. Chwi a ryfeddwch am na buaswn wedi crybwyll wrthych am dano o'r blaen; ond y gwirionedd yw, nid oedd ynof un meddwl am gael fy mhennodi i'w wneyd, hyd nes y gwnaed appeliad ataf gan rai o'r boneddigion mwyaf blaenllaw cyssylltiedig âg ef. Bydd y gwaith yn gofyn llafur ac ymdrech mawr." Cychwyna y camlas hwn o'r afon Dyfrdwy, yn nyffryn Llangollen. Y mae un gangen o hono yn myned yn ogleddol heibio i drefydd Ellesmere, Whitchurch, Nantwich, a dinas Caer, i borthladd Ellesmere ar y Mersey; un arall mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol, yn myned trwy ganol sir Amwythig tua'r Amwythig ar yr Hafren; a'r drydedd mewn cyfeiriad de-orllewinol, heibio i Groesoswallt, i gamlas sir Drefaldwyn, ger Llanymynech. Ei holl hyd, a chymmeryd i mewn gamlas Caer, yr hwn sydd wedi ei uno âg ef, ydyw cant a deuddeg o filldiroedd. Y gwaith mwyaf a thrymaf yn yr anturiaeth fawr hon oedd cario y gamlas dros y wlad anwastad sydd rhwng yr afonydd Dyfrdwy a Cheiriog, yn nyffryn Llangollen a dyffryn Ceiriog. Aeth Telford dros yr anhawsderau hyn trwy gynllunio dwy bont (*aqueduct*) i gario y camlas drosodd—un ar draws dyffryn Ceiriog, ger pentref y Waen; a'r llall, yr hon a elwir Pont-cyssylltau, yn nyffryn Llangollen. Y mae pont y Waen yn gynnwysedig o ddeg bwa, a phob un yn mesur deugain troedfedd. Y mae lefel y dwfr yn y gamlas yn drigain a phump o droedfeddi yn uwch na'r tir, ac yn ddeg a thrigain yn uwch na gwely yr afon Ceiriog. Dyma y bont fwyaf o'i bath a wnaethpwyd erioed yn Mhrydain cyn hyny. Ond y mae Pont-cyssylltau lawer yn fwy, a'r olwg arni yn dra mawreddog. Dywedai Syr Walter Scott ei bod yn un o'r gweithiau celfyddydol rhagoraf a welodd efe erioed. Y mae gwaelod yr afon yn gant a saith ar hugain o latheni islaw dyfroedd lefel y gamlas. Y mae i'r bont hon bedwar ar bymtheg o fwäau, yn ymestyn i'r hyd o fil a saith o droedfeddi. Uchder y pileri uwch law dwfr yr afon ydyw cant ac un ar hugain o droedfeddi. Lled gwely y camlas yw saith troedfedd ac wyth modfedd. Costiodd ei hadeiladu 47,018*p.*, ac agorwyd hi yn 1805.

Yn y cyfamser, yr oedd gan Telford weithiau mawrion ereill o dan ei arolygiaeth. Yn 1790, pennodwyd ef gan Gymdeithas y Pysgodfeydd Prydeinig i arolygu eu porthladdoedd hwy mewn gwahanol orsafoedd; ac yn 1801, cafodd orchymyn gan y Llywodraeth i wneuthur adroddiad ar sefyllfa Ysgotland, a'r dymunoldeb o gael gweithiau cyhoeddus yn y wlad hono. Mewn canlyniad i hyn cynlluniwyd camlas o Inverness i Fort William, gan Telford; ac ymddiriedwyd iddo y gwaith o'i weithio allan. Yn ei swydd fel peiriannydd Dirprwyaeth Seneddol Ffyrdd a Phontydd yn Ysgotland, gwnaeth dros fil o filldiroedd o ffyrdd yn Ucheldiroedd y wlad hono, swyddi Lanark a Dumfries, ac adeiladodd o ddeutu deuddeg cant o bontydd, heb law eglwysydd, tai, a phorthladdoedd, &c. Galwyd am dano hefyd i Sweden yn y blynyddoedd 1808 a 1813, i wneyd adroddiad ar weithiau peiriannyddol pwysig. Ond ei waith mawr nesaf oedd gwneyd y ffordd fawr o Lundain i Gaergybi, yn cynnwys llawer o bontydd, ac yn eu plith pont grogedig y Menai. Cyn hyn yr oedd ffyrdd Gogledd Cymru, fel llawer o ranau ereill o'r deyrnas, mewn sefyllfa ddrwg iawn—yn anwastad, yn gulion, yn serth, a diamddiffyn, a'r rhan fwyaf heb gloddiau, ac yn y gauaf yn hollol anghymmhwys i'w teithio. Yr oedd holl nwyddau masnachol y drafnidiaeth oedd rhwng yr Amwythig a Bangor, yn cael eu cario mewn cert fechan, yr hon oedd yn teithio rhwng y ddau le unwaith yn yr wythnos yn yr haf. Penderfynodd awdurdodau y llythyrdy roddi llythyrgerbyd ar y ffordd rhwng yr Amwythig a Chaergybi yn 1808; ond yr oedd y ffyrdd mewn sefyllfa mor ddrwg a pheryglus fel yr ofnid nas gallesid cario allan y bwriad hwn. Cynnygiai Telford fod i'r hen ffordd rhwng yr Amwythig a Chaergybi gael ei chwttogi o bedair milltir, a'i gwneyd mor wastad ag oedd bossibl; a bod y linell newydd i fyned o'r Amwythig trwy Langollen, Corwen, Bettws-y-coed, Capel Curig, a Bangor, i Gaergybi. Er i ymchwiliad cyflawn gael ei wneuthur yn 1811, ni wnaed dim ar y gwaith am amryw flynyddoedd wedi hyny. Cymmerai un awr a deugain i lythyr-gerbyd yr

Digitized by Google

Iwerddon y pryd hwn i deithio o Lundain i Gaergybi:—yr hyn oedd yn ol chwe milldir a thri chwarter yr awr.

O'r diwedd dechreuwyd ar y gwaith. Yr oedd y disgyniad yn yr hen ffordd mewn rhai manau yn llathen yn mhob chwech a hanner, a hyny ar lechweddau peryglus; ond nid oedd y disgyniad i fod yn y newydd yn fwy na llathen yn mhob ugain, a hyny yn y lleoedd mwyaf serth arni; ac yr oedd i fod yn llydan, ac i gael ei hamddiffyn gan gloddiau da, a'i gwaelodi yn galed a rhagorol. Yr oedd y pontydd mwyaf arni i gael eu gwneyd o haiarn. Adeiladwyd yr un yn Bettws-y-coed, sydd dros y Gonwy, a elwir Pont Waterloo, yn 1815; ac y mae yn esampl ragorol o bontydd haiarn Telford. Gwnaed y rhanau hyny o'r ffordd oedd yn fwyaf peryglus yn gyntaf; ac erbyn y flwyddyn 1819, yr oedd yn gymmhwys a diogel i'w theithio. Erbyn hyn yr oedd rhagoroldeb y ffordd a wnaethai Telford yn Ngogledd Cymru yn destyn canmoliaeth cyffredinol; a'i rhagoriaeth, o'i chymmharu â'r ffyrdd yn mharthau gwastad a chyfoethog siroedd canolbarthol a gorllewinol Lloegr, yn cael ei gydnabod gan bawb; a chan hyny galwyd y peiriannydd enwog i wellhau y ffordd fawr o'r Amwythig trwy Coventry i'r brifddinas. Yr un cynllun a gymmerodd Mr. Telford gyda'r ffordd hon a chyda'r rhai a wnaeth efe yn Ysgotland a Chymru. Ar yr un amser efe a wellhaodd yn fawr y ffordd ar hyd glan y môr o Fangor, trwy Gonwy, Abergele, Llanelwy, a Threffynnon, i Gaer. Y ddau doriad newydd mwyaf ar y linell hon oedd, yr un o gwmpas godrau y Penmaen Bach i dref Conwy, a'r un rhwng Llanelwy a Threffynnon, i ysgafnhau goriwaered y Rhuallt. Ond yr hyn oedd yn fwy pwysig na'r cwbl, fel moddion i gwblhau llinell cymmundeb rhwng y wlad hon a'r Iwerddon, oedd adeiladu pontydd mawrion dros y Gonwy a chulfor y Menai. Yr oedd raid croesi yr afonydd hyn mewn badau agored—weithiau yn y nos, pan y byddai yn dra pheryglus. Ond yr oedd taflu pont dros y Menai wedi cael sylw peiriannwyr er's llawer o amser, a chynlluniau wedi eu tynu allan gan y Meistri Golborne, Nichols, a Rennie, ar wahanol adegau. O'r diwedd, ymddiriedwyd y gorchwyl o gynwyd y ddeddf seneddol angenrheidiol er myned llunio a gweithio allan ei gynllun i Telford. Cafâ'r gwaith yn mlaen yn 1819, a gosodwyd i lawr y gareg gyntaf yn y piler mwyaf o honi gan Mr. Provis, y peiriannydd cynnorthwyol, ar y 10fed o Awst, yr un flwyddyn; ond ni chymmerodd un math o seremoni le ar yr achlysur. Yna dechreuwyd ar y gwaith o ddarparu sylfaen i'r prif biler dwyreiniol ar ochr Bangor i'r Menai. Wedi cloddio saith troedfedd, cafwyd craig gadarn, a wasanaethai yn sylfaen ragorol iddo. Yr hwn a weithiodd y gwaith maen oedd gŵr o'r enw John Wilson. Gwnaed tri bŵa ar ochr sir Gaernarfon, a phedwar ar ochr sir Fôn; a chymmerwyd pedair blynedd o amser i'w cyfodi. Y mae y pileran hyn yn drigain a phump o droedfeddi o uchder o'r dwfr pan fydd y llanw uchaf, a phob bŵa yn ddeuddeg a deugain o droedfeddi a chwe modfedd o hyd. Yr un pryd hefyd yr oedd y ddau biler mawr yn cael eu gweithio yn gyflym, a phob un yn gant a thri ar ddeg a deugain o droedfeddi o uchder—ar ba rai yr oedd y cadwyni cryfaf i grogi. Adeiladwyd y pilerau hyn gyda'r gofal a'r arolygiaeth fanylaf. Yn agos i'r pen uchaf iddynt gwnaed agorfa fwäog i gario y ffordd drwyddynt, yn bymtheg troedfedd o uchder i ganol y bŵa, a naw troedfedd o led. Adeiladwyd y ddau biler hyn uwch ben y bwäau dair troedfedd ar ddeg a deugain uwch law lefel y ffordd. Gan fod y pilerau i ddal pwysau dirfawr y cadwyni wrth ba rai y crogai y bont, cymmerwyd gofal a thrafferth mawr iawn wrth eu hadeiladu. Sicrhawyd y ceryg ynghyd â phinau heiyrn, er eu hattal i ymwahanu oddi wrth eu gilydd, neu i symmud dan y pwysau mawr a orphwysai arnynt. Pennodwyd y 26ain o Ebrill, 1825, i godi y brif gadwen gyntaf i'w lle. Ymgasglodd lliaws mawr o bobl o'r ddau tu i'r afon i edrych ar yr hyn a gymmerai le; ac ar ol gwneuthur pob parotoadau ar gyfer y gwaith, yn nghanol pryder mawr, yn enwedig o du y peiriannydd, llwyddwyd i godi y gadwen i'w lle—yr hyn a dderbyniwyd â banllefau o gymmeradwyaeth gan y gwyddfodolion. Yr oedd y gweddill o'r gwaith yn llawer hawddach i'w gwblhau. Dywedodd Mr. Telford wrth gyfaill iddo, ychydig fisoedd cyn ei farw, ei fod am adeg, cyn agor y bont, mor fawr ei bryder fel y methai a chysgu; a phe buasai yn parhau yn hir felly, credai y buasai ei iechyd yn rhwym o adfeilio. Nid rhyfedd gan hyny, i'w gyfeillion, pan aethant i'w longyfarch, ei gael ar ei liniau mewn gweddi yn diolch i'r Arglwydd am i'r gwaith ddyfod i ben yn llwyddiannus. Ni theimlwyd dim anhawsder i hongian y pymtheg cadwen ereill. Cwblhawyd yr holl waith erbyn dechreu y flwyddyn 1826; ac aeth llythyrgerbyd Llundain a Chaergybi dros y bont ar y 30ain o Ionawr am y tro cyntaf, yn cael ei ddilyn gan ddirprwywyr ffordd Caergybi, y peiriannydd, ac amryw mewn cerbydau, a llawer iawn o bobl ereill ar draed.

Gellir chwanegu ychydig o ffeithiau o barthed i'r defnyddiau a aeth i adeiladu, a maintioli yr adeilad nodedig yma. Pwysau yr haiarn oedd dwy fil cant a phedwar ugain a saith o dynelli, yn dair mil ar ddeg ar hugain a dau cant a phump a thrigain o ddarnau. Holl hyd y bont ydyw dau cant ar bymtheg a deg o droedfeddi, neu yn agos i un ran o dair o filldir; y pellder rhwng y ddau biler mawr ydyw pum cant a thrigain a phedair ar bymtheg o droedfeddi. Y swm a wariwyd gan y llywodraeth i'w hadeiladu, yn cynnwys yr amglawdd ar ochr Arfon, ynghyd â'r tolldai, ydoedd chwech ugain mil o bunnau.

Yn fuan ar ol dechreu y bont hon dros y Menai, penderfynodd dirprwywyr ffordd Caergybi gael un gyffelyb dros yr afon Gonwy yn ymyl y dref. Dechreuwyd arni yn 1822, a gorphenwyd hi yn 1826. Ond gan ei bod yn gyffelyb i, ac wedi ei hadeiladu ar yr un cynllun a'r un dros y Menai, nid yw yn angenrheidiol ymdrin yma â'r manylion yn ei chylch. Yn y bont hon, y lled o ganol y naill o'r pileri mwyaf i ganol y llall ydyw tri chant a saith ar hugain o droedfeddi; ond nid yw uchder y ffordd uwch ben y llanw mawr ond pymtheg troedfedd yn unig. Gwaith mawr oedd gwneyd yr amglawdd sydd mewn cyssylltiad â hi ar yr ochr ddwyreiniol, yr hwn sydd dros ddwy fil o droedfeddi o hyd.

Cynlluniodd a chariodd y peiriannydd mawr hwn allan lawer o weithiau ereill—ffyrdd, pontydd, a phorthladdoedd. Defnyddiwyd ef gan y senedd i wneyd adroddiadau ar lawer iawn o weithiau peiriannyddol pwysig, ac ymgynghorid âg ef yn achlysurol gan lywodraeth Rwssia. Ymneillduodd oddi wrth lafur ei alwedigaeth yn yr ychydig flynyddoedd olaf o'i oes, a defnyddiodd ei amser i gasglu ynghyd, ac i drefnu defnyddiau hanes cyflawn o'i amrywiol weithiau; ac

Digitized by Google

yr oedd y rhan fwyaf o'r llawysgrif yn barod ganddo pan yr ymosodwyd arno gan afiechyd llym, o'r hwn y bu farw yn Westminster, ar yr ail o Fedi, 1834, yn 77ain mlwydd oed. Yr oedd Telford wedi dymuno cael ei gladdu yn y modd plaenaf yn eglwys St. Margaret, Westminster; ond darfu i aelodau Sefydliad y Peiriannwyr lwyddo i gael gan ei gymmunweinyddwyr ei gladdu yn Mynachlog Westminster; ac yno, yn agos i ganol yr eglwys, y mae ei weddillion yn gorwedd; ac ar y gareg o dan yr hon y gorphwysant y mae y cerfiad syml canlynol:—"Thomas Telford, 1834."

TELL, WILLIAM: gwladgarwr Swissaidd, yr hwn, yn ol traddodiad, oedd yn byw yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac a lwyddodd i waredu y dalaeth y preswyliai ynddi oddi wrth ormes teulu ymherodrol Awstria. Y mae ei hanes yn cael ei adrodd mewn amryw ffyrdd; ond yr adroddiad a gredir yn fwyaf cyffredin ydyw yr un canlynol. Yn nechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, ymdrechai Albert I. o Awstria uno y tair talaeth, Uri, Schwys, ac Unterwalden, âg etifeddiaethau ei deulu. Yr oedd Hermann Gessler, ei brif swyddog, yn trigo yn nghastell Küssnacht; ac yn gormesu ar bobl y dosbarth hwnw o'r wlad, ac yn arfer creulondeb dirfawr tuag atynt. Ffurfiwyd cynghrair gan ddynion penaf y taleithiau i wrthsefyll honiadau Awstria, a pherthynai Walter Fürst a William Tell, ei fab-yn-nghyfraith, i'r cynghrair hwn. Yn mysg gweithredoedd gormesol ereill, gosododd Gessler y benwisg dducaidd Awstriaidd ar ben pawl, wedi ei gyfodi yn marchnadfa Altorf, a rhoddodd orchymyn nad oedd neb i fyned heibio ond yn ben-noeth. Un diwrnod, aeth Tell a'i fachgen bach heibio heb gymmeryd un sylw o'r benwisg oedd ar y pawl, ac am hyny llusgwyd ef o flaen Gessler; yr hwn, wedi deall fod i Tell gymmeriad uchel fel saethydd â bŵa, a benderfynodd wneuthur ei fedrusrwydd yn y ffordd hono yn foddion i ddial arno. Gorchymynwyd iddo saethu afal oddi ar ben ei fab; a rhoddwyd ar ddeall iddo, os methai, y rhoddid ef i farwolaeth. Er syndod i bawb oedd yn bresennol, efe a saethodd yr afal, heb niweidio y plentyn. Ond nid oedd hyn yn boddloni Gessler. Trodd at Tell, a gofynodd pa beth a fwriadai efe ei wneyd â'r ail saeth oedd ganddo yn ei wregys. "Eich saethu chwi, pe buaswn â'r gyntaf wedi lladd fy mab," oedd yr atteb. Ar hyn daliwyd Tell, a thaflwyd ef i fâd oedd ar Lyn Lucerne, i'w gymmeryd, gyda Gessler a'i wŷr, i gastell Küssnacht. Yn ddisymmwth, cyfododd ystorm fawr; a Tell oedd yr unig un ar y bwrdd a wyddai am y glenydd hyny, ac a allai reoli bâd yn y fath dywydd. Caniatawyd iddo gymmeryd y llyw: yntau a'i rhedodd ef yn fuan at glogwyn creigiog; yna cymmerodd afael yn ei fŵa a'i saethau, a neidiodd i'r lan, a gwthiodd y llestr yn ol i'r dwfr. Tawelodd yr ystorm, fodd bynag, a glaniodd Gessler a'i gwmni yn ddiogel. Ymguddiodd Tell mewn agen yn y graig; ac fel yr oedd yr Awstriaid yn myned heibio, efe a saethodd Gessler trwy ei galon. Cymmerodd hyn le yn 1307; a dilynodd y rhyfel mawr Swissaidd yn erbyn Awstria, yr hwn ni therfynodd hyd y flwyddyn 1499. Ni fynegir fod Tell wedi cymmeryd unrhyw ran amlwg yn y rhyfel hwn. Marw trwy foddi a ddarfu iddo, yn 1350, wrth ymdrechu gwaredu cyfaill, pan oedd llifeiriant mawr yn yr afon Schächen. Yn gyffelyb i hyn yna y mae ystori bywyd Tell; ond y mae llawer yn ammheu ei gwirionedd.

Y mae prawf ar gael fod gwasanaeth crefyddol wedi ei sefydlu yn 1387, i gadw coffadwriaeth o weithredoedd Tell yn y man lle y trigai; ac, yn y flwyddyn ganlynol, i Gapel Tell gael ei adeiladu ar y llanerch lle y dywedir i'r cwch lanio. Adroddid ei hanes fel un gwirioneddol gan Russ ac Etterlin—croniclwyr a flodeuent tua diwedd y bymthegfed ganrif. Tschudi hefyd, yr hwn a ysgrifenai yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a'i hadrodda yn y ffurf y mae yn adnabyddus i ni. Dechreuwyd ammheu ei wirionedd, modd bynag mor foreu a diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Haerai Guilmann na bu y fath ddyn a Tell: a gofynai, Pa beth a ddaethai o'i deulu a'i berthynasau? Pa ham na buasai ei gydoeswyr yn sôn am dano. Grasser hefyd a ganfyddai yn Tell debygolrwydd mawr i Toke, yr arwr Scandinaviaidd. O'r pryd hwnw allan ymdaenodd ammheuaeth yn lled gyffredinol. Y mae yn wir nad ydyw enw Tell yn cael ei grybwyll gan haneswyr cydoesol; ond nid ydyw hyny yn brawf penderfynol na ddarfu i ryw wladwr syml saethu y prif oruchwyliwr Awstriaidd ar lan Llyn Lucerne, a thrwy y weithred hono fod yn foddion i gyffroi gwrthryfel, a cholli ei fywyd wrth ymdrechu gwaredu bywyd cyfaill iddo. Y mae llawer wedi ysgrifenu ar y naill ochr a'r llall i'r cwestiwn hwn.

TEL-MELAH. Y mae y lle hwn yn cael ei enwi gyda Tel-harsa a Cerub, yn *Ezra* ii. 59, a *Neh.* vii. 61. Hwyrach mai yr un ydoedd a'r Thelme y sonir am dani gan Ptolemy.

TEMA: nawfed mab Ismael (*Gen.* xxv. 15; 1 *Cron.* i. 30); a galwyd ei lwyth ar ei enw. Crybwyllir am danynt yn *Iob* vi. 19; "byddinoedd Tema a edrychasant, minteioedd Seba a ddisgwyliant am danynt:" a chan Ieremiah (*pen.* xxv. 23), "Dedan, Tema, a Buz." Hefyd sonir am y wlad a feddiennid gan y llwyth hwn: "Baich ar Arabia. Yn y coed yn Arabia y llettŷwch chwi, fforddolion Dedanim. Dygwch ddyfroedd i gyfarfod â'r sychedig, trigolion tir Tema, achubwch flaen y crwydrus â'i fara;" *pen.* xxi. 13, 14.

Y mae o'r bron yn sicr mai yr un oedd Tema a Teymâ—tref fechan ar gyffiniau Syria, ar y ffordd a gymmerir gan y minteioedd pereriniol i Damascus. Y mae hi yn nghymmydogaeth Doomat-el-Jeudel. Ymddengys fod tref a chymmydogaeth Teymâ yn eithaf adnabyddus; ac y mae yn cyfatteb i'r hyn y gellid tybied y byddai prif sefydliad Tema, mab Ismael. Ymddengys fod yr hen amddiffynfa yn un o'r lleoedd a fwriedid i amddiffyn y ffordd ar hyd cyffiniau gogleddol Arabia; ac y mae hi yn galw i'r meddwl yr hyn a ddywedir mewn cyfeiriad at feibion Ismael: "Dyma hwy meibion Ismael, a dyma eu henwau hwynt wrth eu trefydd, ac wrth eu cestyll; yn ddeuddeg o dywysogion yn ol eu cenhedloedd;" *Gen.* xxv. 16. Ystyr y gair Teymâ ydyw 'anialwch,' neu 'ranbarth anniwylliedig,' &c.

1. TEMAN: mab Eliphaz, mab Esau ac Adah (*Gen.* xxxvi. 11; 1 *Cron.* i. 36, 53)—un o dduciaid Edom. Crybwyllir hefyd am dano yn y rhestr arall (*Gen.* xxxvi. 40—43) yn mhlith "enwau y duciaid o Edom, wrth eu teuluoedd,

Digitized by Google

erbyn eu henwau...dyma y duciaid o Edom, yn ol eu preswylfeydd, yn ngwlad eu perchenogaeth; dyma Esau, tad yr Edomiaid."

2. TEMAN: gwlad, a thref hefyd o bossibl, wedi ei henwi ar enw y duc o Edom; neu oddi wrth yr hon y cymmerodd y duc ei enw, fel y gellir hwyrach gasglu oddi wrth *Gen.* xxxvi. Y mae yr enw yn Hebraeg yn arwyddo 'deheu;' a thebygol yw mai cyfran ddeheuol o wlad Edom ydoedd; neu, mewn ystyr eangach, gwlad meibion y dwyrain. Sonir am Teman gan y prophwydi bum waith; ac mewn pedwar o'r lleoedd hyny y mae mewn cyssylltiad âg Edom, yr hyn a ddengys mai yr un lle ydoedd ag a enwir yn rhestr y duciaid. Y mae yn cael ei henwi ddwy waith gyda Dedan:—"Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd am Edom, Onid oes doethineb mwy yn Teman? a fethodd cynghor gan y rhai deallgar? a fethodd eu doethineb hwynt? Ffowch, trowch eich cefnau, ewch yn isel i drigo, preswylwyr Dedan" (*Ier.* xlix. 7, 8): "A gwnaf hi yn anrhaith o Teman; a rhai o Ddedan a syrthiant gan y cleddyf;" *Ezec.* xxv. 13. Y mae y cyssylltiad hwn â llwyth Ceturaidd Dedan yn chwanegu at bwysigrwydd Teman, ac yn gymmhorth i benderfynu yn mha le yr oedd ei safle. Gellir cael hyn allan yn eglurach drwy yr hyn a grybwyllir yn *Ier.* xlix. 20, 21; lle y dywedir am Edom a Teman, "gan lef eu cwymp hwynt y cryn y ddaear: llais eu gwaedd hwynt a glybuwyd yn y Môr Coch." Dywedir yn ngweddi Habacuc, "Duw a ddaeth o Teman, a'r sanctaidd o fynydd Paran;" *pen.* iii. 3. Canfyddir fod Ieremiah yn son am ddoethineb Teman; ac y mae prophwydoliaeth Obadiah yn arwyddo yr un peth (*adn.* 8, 9): "Oni ddinystriaf y dydd hwnw, medd yr Arglwydd, y doethion allan o Teman, a'r deallus o fynydd Esau? Dy gedyrn di, Teman, a ofnant." Ymddengys fod hiliogaeth Esau, ac yn enwedig y Temaniaid, yn enwog yn mysg meibion y dwyrain; ond y mae yr enw Teman, fel enwau Edomaidd ereill, wedi ei golli. Parodd gwaith y Nabathiaid yn cymmeryd meddiant o'r wlad i bob olion o lwythau crwydrol yr anialwch golli. Nid ydyw yn debygol y llwydda ymchwiliadau pellach i daflu goleuni ar hanes boreuol y rhan yma o wlad y dwyrain. Sonia Eusebius a Jerome am Teman fel tref tua phymtheng milldir o Petra, a gwersyllfa Rufeinig; a myn rhai mai *Maan* ydyw y Teman hon. Un o ddoethion Teman oedd Eliphaz y Temaniad: *Iob* ii. 11; xxii. 1.

TEML. Nid oes o'r bron un o adeiladau yr hen amseroedd wedi tynu cymmaint o sylw, a chyffroi cymmaint o gywreingarwch, er adeg eu dinystr, a'r deml a adeiladwyd gan Solomon yn Ierusalem; a'r un ddilynol iddi, a adeiladwyd gan Herod. Uchelgais archadeiladol penaf Justinian oedd ceisio rhagori arni. Ymdrechai archadeiladwyr y canol oesoedd, hyd yr oedd hyny yn eu gallu, i'w hefelychu, mor bell ag y meddent syniad am dani. Ac er yr unfed ganrif ar bymtheg hefyd y mae hynafiaethwyr ac archadeiladwyr pob gwlad wedi gwneyd ymchwiliadau i'w threfniadau a'i chynllun; ac nid ydyw hyny i'w ryfeddu chwaith wrth ystyried ei holl gyssylltiadau.

Y mae teml Solomon, nid yn unig yn ddyddorawl i Gristionogion, ond y mae yr holl fyd Mahometaidd yn edrych arni fel ffynnonell fawr gwybodaeth archadeiladol; ac y mae yr Iuddewon yn parhau i adgofio ei gogoniant, ac i ofidio o herwydd ei dinystr. Gan fod yr holl ddyddordeb hwn yn cael ei deimlo ynddi, gallesid tybied fod pob ffynnonell o wybodaeth a berthyn iddi wedi ei dyhysbyddu; ond o'r braidd y gellir dyweyd mai felly y mae. Y gwaith pwysicaf a ymddangosodd ar y pwngc hwn ydyw yr un a ysgrifenwyd gan y brodyr Pradi, Iesuitiaid Yspaenaidd, y rhai a adwaenid yn well wrth yr enw Villalpandi. Cyhoeddwyd eu gwaith mewn cyfrol unplyg fawr yn ninas Rhufain, rhwng y blynyddoedd 1596 a 1604, yr hon sydd wedi ei haddurno yn ysblenydd â darluniau. Eu syniad hwy am deml Solomon oedd, fod ei ffurf, ei threfniadau, a'i maintioli yn debyg i balas yr Escurial yn Yspaen.

Pan wnaed y byd yn gydnabyddus â gweddillion archadeiladol yr Aipht, mewn canlyniad i ymgyrch y Ffrangcod i'r wlad hono yn nechreu y ganrif bresennol, tybiodd llawer fod teml Solomon wedi ei gwneyd ar gynllun Aiphtaidd. Ond nis gallai hyn fod; a llwyr anghofiodd y rhai hyny y ffeithiau canlynol:—mor gâs oedd gan yr Israeliaid "dŷ y caethiwed," mor hollol wrthwyneb oedd holl ordinhadau eu crefydd i'r ddelw-addoliaeth a welsant yn yr Aipht, a bod canrifoedd wedi myned heibio er pan y daeth y genedl allan o'r wlad hono cyn adeiladiad y deml, ac mai ychydig o gymmundeb a fu rhwng y ddwy wlad yn y cyfamser. Y mae darganfyddiadau Botta, Layard, ac ereill, yn Assyria, yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf, wedi rhoddi cyfeiriad gwahanol i ymchwiliadau y rhai a deimlent ddyddordeb yn y cwestiwn. Eisteddle wreiddiol hynafiaid yr hiliogaethau Iuddewaidd oedd Mesopotamia. Yr oedd eu hiaith yn ymarferol yr un ag a arferid ar lenydd y Tigris, ac yr oedd eu traddodiadau hanesyddol yn cydgordio; ac mor bell ag y gellir barnu, yr oedd arwyddluniau allanol eu crefydd yn gyffelyb. Yn anffodus, fodd bynag, nid ydys wrth gloddio wedi cael hyd i un deml Assyriaidd a dafla oleuni ar hyn; ac y mae yn rhaid myned at adeiladau diweddarach Persepolis, neu ddibynu ar gasgliadau cyffredinol a wneir oddi wrth arddull yr adeiladau anghyssegredig Ninefeaidd oeddynt yn gyfoesol â'r deml i daflu goleuni arno. Y mae y rhai hyn, yn ddiau, yn ddigon o'r bron i ddangos a phrofi yr oll sydd angenrheidiol mewn cyssylltiad â theml Solomon. Am fanylion archadeiladaeth teml Herod y mae yn rhaid edrych at gynlluniau y Rhufeiniaid. Ychydig a wyddom am deml Zorobabel, ond gan ei bod wedi ei hadeiladu o dan ddylanwad Persiaid oedd yn fyw pan adeiladwyd Persepolis, fe allai mai hi ydyw yr hawddaf i benderfynu ar y manylion perthynol iddi gyda dim tebyg i sicrwydd.

Wrth i ni ddechreu ein sylwadau ar drefniadau y deml, y mae yn angenrheidiol yn gyntaf i benderfynu yn ofalus drefniadau y tabernacl a adeiladodd Moses yn anialwch Sinai yn union ar ol rhoddiad y gyfraith ar y mynydd hwnw; o herwydd, fel y gwyddys, nid oedd teml Solomon yn ddim mwy na llai na'r tabernacl—ond ei bod wedi ei chyfodi o ddefnyddiau mwy parhaol, ac yn union gymmaint ddwywaith o ran maintioli a'r tabernacl. Yn mhob peth pwysig, yr oeddynt mor debyg i'w gilydd fel y mae gwybodaeth o'r naill yn fantais i feddu gwybodaeth am y llall. Gan hyny yr ydym yn cyfeirio y darllenydd at y disgrifiad o'r tabernacl a roddir o dan y gair TABERNACL. Ni a sylwn, gan hyny, yma yn mlaenaf ar—

Digitized by Google

DEML SOLOMON.

Yr oedd y tabernacl gyda yr Israeliaid yn eu holl deithiau, a'u lle sanctaidd neu eu teml oedd, nes y cafodd Dafydd feddiant o Ierusalem, a chyfodi allor yn llawrdyrnu Arafnah y Iebusiad—ar y llanerch lle ar ol hyny y safai allor y deml. Efe a ddygodd yr arch hefyd o Ciriath-iearim (2 *Sam.* vi. 2; 1 *Cron.* xiii. 6), a darparodd le iddi yn y ddinas newydd a alwodd efe ar ei enw ei hun. Dygwyd yr arch a'r tabernacl i fyny gan Solomon (2 *Cron.* v. 5), ac efe a osododd yr arch yn y cyssegr sancteiddiolaf; ond ymddengys i'r tabernacl gael ei osod o'r neilldu fel math o grair (*relic*): 1 *Cron.* xxiii. 32. Nid oes genym, fodd bynag, hanes symmudiad tabernacl gwreiddiol Moses a Gibeon, na dim a'n galluoga ni i'w gyssylltu â'r hwn a symmudodd Solomon o ddinas Dafydd (2 *Cron.* v. 5); ac mewn gwirionedd, o'r amser y cafodd y deml ei hadeiladu yr ydym yn colli golwg ar y tabernacl yn llwyr. Dafydd a gynnygiodd gyntaf i gyfodi adeilad barhaol ac arosol yn lle y tabernacl; ond gwaharddwyd ef i wneuthur hyny, am y rhesymau a ddefnyddir gan Nathan y prophwyd (2 *Sam.* vii. 5, &c.); ac er iddo gasglu defnyddiau a gwneyd parotoadau mawr ar gyfer hyny, ei fab Solomon a gyflawnodd y gwaith. Efe a ddechreuodd arno, gyda chynnorthwy Hiram, brenin Tyrus, yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad, a gorphenodd ef mewn saith mlynedd; sef, ynghylch 1005 C.C., yn ol cyfrif yr amseriad cyffredin.

Wrth gymmharu y deml, fel y disgrifir hi yn 1 *Bren.* vi., ac yn 2 *Cron.* ii., a chan Josephus yn ei "*Hynaf. Iuddewig,*" vii. 3, â'r tabernacl, y peth cyntaf a welwn yw, fod yr holl drefniadau yr un fath yn y ddau, a maintioli pob peth, fel y dywedasom yn barod, yn union yn ddwbl yn y deml. Yr oedd y cyssegr sancteiddiolaf yn y tabernacl yn ddeg cufydd bob ffordd: ond yn y deml yr oedd yn ugain cufydd. Yr oedd y cyntedd allanol yn ddeg o led, wrth ugain o hyd, a deg o uchder yn y tabernacl: yn y deml yr oedd yr holl fesurau hyn gymmaint arall. Yr oedd porth y tabernacl yn bum cufydd o ddyfnder: yn y deml yn ddeg; a'i led yn y naill a'r llall yr un lled a'r tŷ. Yr oedd y cynteddau o amgylch y tabernacl yn bum cufydd o led ar y llawr: ond yn y deml yn ddeg. Wrth gymmeryd yr holl ranau hyn ynghyd i ystyriaeth, yr ydys yn cael fod llawr-gynllun y tabernacl yn mesur deugain cufydd wrth ugain cufydd: ond y deml yn bedwar ugain o hyd wrth ddeugain o led. Uchder y tabernacl hefyd oedd pymtheg cufydd: ond yr oedd uchder y deml yn ddeg ar hugain. Y mae y trefniad hwn yn cael ei gario allan mor fanwl, fel y mae nid yn unig yn profi hyd sicrwydd fod y naill yn gynllun o'r llall, ond hefyd, yn dangos y manylder a nodweddai ysgrifenwyr Llyfrau Moses a'r Breuhinoedd a'r Croniclau yn eu disgrifiad o'r ddwy adeilad.

Y mae y prawf nad oedd y deml, fel yr adeiladwyd hi gan Solomon, ond ymeangiad o'r un cynllun a'r tabernacl, yn myned yn mhell i newid ffurf cwestiwn pwysig arall sydd wedi cael sylw mawr astudwyr hynafiaethau Iuddewig, gan fod yn rhaid cario yr ymofyniad yn mhellach yn ol; sef, O ba le y cafwyd cynllun y tabernacl? Ai o'r Aipht? Nid oes genym gysgod o brawf yn y darluniau sydd yn eu temlau nac yn unrhyw gofnodion hanesyddol, fod yr Aiphtiaid erioed wedi defnyddio teml babellawl neu symmudol; ac nid oes neb hyd yn hyn wedi anturio awgrymu mai o'r Aipht y cafwyd ei gynllun. Ai o Syria ynte? Yma hefyd yr ydys yr un mor amddifad o awdurdod pennodol. Gellir tybied y buasai yr Iuddewon yn mabwysiadu cynllun Assyriaidd, yn hytrach nag un wedi ei gymmeryd o'r wlad y buont mewn caethiwed ynddi; ond nid oes genym ddim oll i gadarnhau y dybiaeth hon. Nid o Arabia chwaith. Y mae yn bossibl fod yr Arabiaid yn defnyddio temlau pabellawl symmudol; ac yr oeddynt yn meddu perthynas â'r genedl Hebreaidd. Yr oedd tad-yn-nghyfraith Moses, er esampl, yn Arabiad; a gallasai rhywbeth a welodd efe awgrymu iddo y cynllun a fabwysiadodd. Ond nid yw hyn ar y goreu ond dychymyg, heb un sail boddhaol iddo. Ond yn yr Ysgrythyrau yr ydym yn cael fod y manylion perthynol iddi wedi eu rhoddi yn llawn i Moses gan Dduw, a'r gorchymyn i'w hadeiladu yn ol y portread a dderbyniodd ar y mynydd. Fel y dywedwyd, yr oedd ffurf neu gynllun y deml wedi ei gwneyd oddi wrth y tabernacl; ac yr oedd ei harchadeiliadaeth yn gyfryw ag a ddefnyddiwyd ar y pryd yn Mhalestina, ac yn enwedig yn Tyrus—o'r lle y cafwyd y crefftwyr goreu i'w hadeiladu. Ond y mae cwestiynau ereill perthynol iddi, er nad ydynt mor bwysig, y mae'n wir, sydd yn fwy anhawdd i'w penderfynu. Un ydyw

*Ei huchder.*—Y mae yr uchder a roddir yn 1 *Bren.* vi. 2, sef deg cufydd ar hugain, mor resymol wrth ystyried ei maintioli, fel y gallesid ei gadael heb un sylw pellach; ond dywedir yn 2 *Cron.* iii. 4, fod yr uchder, er mai y porth yn unig a ddygir i sylw dybygid, yn chwech ugain cufydd; sef cant a phedwar ugain o droedfeddi. Y mae hyn mor annhebyg i ddim y gwyddom am dano mewn hen archadeiladaeth, ac heb ddim yn atteb iddo yn y tabernacl, fel y gallesid o'r braidd dybied mai camgymmeriad ydyw, pe na ddywedid yn 2 *Cron.* iii. 9, fod Solomon wedi gwisgo y llofftydd âg aur; ac yn 2 *Bren.* xxiii. 12, crybwyllir, dybygid, am yr allorau yn yr ystafelloedd uchaf, sef y llofftydd. Heb law hyny, y mae Josephus a'r "*Talmud*" yn dyweyd fod darn uchaf y deml yn gyfartal mewn uchder i'r rhan isaf o honi; a mynegant hwy, fel y ceir yn y Croniclau hefyd, fod yr holl uchder yn chwech ugain cufydd, neu naw ugain o droedfeddi.—"*Hyn. Iudd.,*" viii. 3, *adr.* 2. Y mae yn amlwg, fodd bynag, ei fod yn cael y mesuriad hwn yn gyntaf trwy ddyblu uchder tŵr y deml isaf, gan ei wneyd yn drigain cufydd, yn lle yn ddeg ar hugain, ac fel hyn yn mwyhau yr holl fesuriadau ereill i wneyd i fyny y mesur hwn. Oni buasai am dystiolaeth yr awdurdodau hyn, gallesid cyfarfod â holl ofynion yr achos trwy dybied fod yr ystafell uchaf yn cymmeryd i fyny y lle rhwng nen y cyssegr a nen y deml. Yr oedd deg cufydd, neu bymtheg troedfedd, yn ddigon i ystafell o fath yr hon y mae hanesyddiaeth yn ein harwain i dybied oedd yno. Ond y mae y dystiolaeth fod yno rywbeth mwy na hyn yn rhy gref i'w gwrthod.

*Colofnau.*—Nid oes dim mewn cyssylltiad â theml Solomon wedi peri mwy o ddadleuon, nac yn fwy anhawdd i'w egluro, na ffurf y ddwy golofn bres oedd yn mhorth y tŷ. Tybia rhai mai nid colofnau oeddynt yn ystyr cyffredin y gair; ond cofgolofnau. Ond nid ymddengys fod un awdurdod dros y syniad hwn. Yr oedd y porth yn ddeg troedfedd ar hugain o led, a buasai tô o'r maintioli hwnw, er iddo orphwys ar drawst coed, yn edrych yn hynod o wan heb

Digitized by Google

rywbeth i'w gynnal: ac yn sefyllfa ammherffaith celfyddyd y pryd hwnw, buasai o'r bron yn ammhossibl i'w wneyd. Anhawsder arall ydyw, fod y Croniclau, fel y sylwasom yn barod, o'r bron yn dyblu y maintioli a roddir yn y Brenhinoedd; ond y mae hyn yn codi, dybygid, oddi ar y drefn o ddyblu yr uchder—yr hyn a gamarweiniodd Josephus. Os cymmerir yn ganiataol fod y deml yn drigain cufydd o uchder, buasai uchder y colofnau, yn ol y Croniclau, yn briodol i gynnal nen y porth, fel y buasai y rhai, yn ol y Brenhinoedd, yn yr uchder priodol i deml deg cufydd ar hugain o uchder; yr hyn fel y mae genym le cryf i gredu, oedd y gwir fesuriad. Yn ol 1 *Bren.* vii. 15, &c., yr oedd y colofnau yn ddeunaw cufydd o uchder, a deuddeg o amgylchedd, a dau gnap o bres ar eu penau, pum cufydd o uchder. Uwch law y rhai hyn (*adn.* 19), yr oedd cnap arall, ac arno gerfiad "o waith lili," yn bedwar cufydd o uchder. Gan fod y cyfan yn gwneyd i fyny saith ar hugain o gufyddau, y mae yn debyg fod y tri chufydd yn cael ei adael at y gogwyddiad yn y tô.

*Attegion mewnol.*—Y mae y colofnau hyn yn y porth yn awgrymu ymofyniad arall:—Ai nid oedd colofnau y tu fewn i'r deml hefyd? Wrth ystyried fod y nen ar draws yr ugain cufydd, y mae o'r bron yn sicr nas gallesid cael trawst o gedrwydd digon cryf i'w osod yno, heb iddo blygu yn y canol yn mron gan ei bwysau ei hun, os na chynnelid ef i fyny gan rywbeth o dano. Nis gellir tybied fod y Tyreaid, y pryd hwnw, yn gydnabyddus â'r dull cywrain o saernïaeth o ddefnyddio attegrwymau (*trusses*), fel y gwneir gan adeiladwyr yn awr; a phe buasent, buasai colofnau drwy y canol y tu fewn yn chwanegu at harddwch y lle. Yr unig adeilad yn Ierusalem y mae ei gwneuthuriad yn tueddu i daflu rhyw oleuni ar y mater oedd tŷ coedwig Libanus. Yr oedd yn hwn "bedair rhes o golofnau cedrwydd, y rhai oeddynt, dybygid, ddeg neu ddeuddeg o gufyddau oddi wrth eu gilydd. Yr oedd colofnau yn ddiau yn rhwystr yn y fath le; a phe buasai Solomon yn alluog i gael lle clir o ugain cufydd yn ystafelloedd y palas, buasai yn ei sicrhau. Ond nid oes un crybwylliad yn cael ei wneyd am gynnaliaeth mewnol i drawstiau y tô yn mherthynas i'r tabernacl na'r deml. Ond ymddengys fod cryn anhawsderau i godi adeiladau o'r fath hebddynt, a'u bod yn cael eu harfer yn gyffredin, ac nad oedd dim i'w ddywedyd yn wrthwynebol iddynt; felly, y mae yn dra thebygol eu bod wedi eu defnyddio.

*Ystafelloedd.*—Yr unig nodwedd arall i sylwi arno ydyw y tair rhes, y naill uwch ben y llall, o ystafelloedd bychain oedd oddi amgylch mur y deml, oddi eithr yn y fynedfa. Yr oedd y rhes isaf yn bum cufydd o led, y nesaf ati yn chwech, a'r uchaf yn saith. Er na fynegir yn bendant, y mae yn debygol fod yr ystafelloedd hyn yn gartrefi i'r offeiriaid a weinyddent yno yn wastadol, neu yn eu tro. Yr achos o'r gwahaniaeth hwn yn lled yr ystafelloedd oedd, fod muriau allanol y deml yn drwchus, ac yr oeddynt yn culhau wrth fyned i fyny, ond etto yn ddigon cryfion i'r trawstiau orphwys yn ddiogel arnynt. Yr oedd y trydydd uchder yn lletach drachefn, am y rheswm fod y muriau yn culhau yn fwy. Y mae y sylwadau hyn i raddau yn egluro y cyfeiriadau ysgrythyrol a ganlyn:—"Ac efe a adeiladodd wrth fur y tŷ ystafelloedd oddi amgylch mur y tŷ, ynghylch y deml, a'r gafell; ac a wnaeth gelloedd o amgylch. Yr ystafell isaf oedd bum cufydd ei lled, a'r ganol chwe chufydd ei lled, a'r drydedd yn saith cufydd ei lled: canys efe a roddasai attegion o'r tu allan i'r tŷ oddi amgylch, fel na rwymid y trawstiau yn mur y tŷ. A'r tŷ, pan adeiladwyd ef, a adeiladwyd o geryg wedi eu cwbl naddu cyn eu dwyn yno: fel na chlybuwyd na morthwylion, na bwyeill, nac un offeryn haiarn, yn y tŷ, wrth ei adeiladu. Drws y gell ganol oedd ar ystlys ddehcu y tŷ; ac ar hyd grisiau tröedig y dringid i'r ganol, ac o'r ganol i'r drydedd. Felly yr adeiladodd efe y tŷ, ac a'i gorphenodd; ac a fyrddiodd y tŷ â thrawstiau ac ystyllod o gedrwydd;" 1 *Bren.* vi. 5—9. Gwelir oddi wrth y disgrifiad hwn yr elid i mewn i'r ystafelloedd hyn oddi allan. Tybia rhai archadeiladwyr mai oddi mewn yr oedd y fynedfa; ond y mae y syniad yn milwrio, dybygid, yn erbyn yr amcan o osod yr argraph ar feddwl yr Israeliaid o gyssegredigrwydd y lle.

*Y cynteddau.*—Yr oedd y deml wedi ei hamgylchu gan gyntedd mewnol, yr hwn yn Llyfrau y Cronicl a elwir yn "gyntedd yr offeiriaid," ac yn Ieremiah y "cyntedd uchaf." Yr oedd hwn drachefn wedi ei amgylchu â mur yn cynnwys trawstiau o goed cedrwydd wedi eu gosod ar sylfaen o geryg:—"Ac efe a adeiladodd y cyntedd nesaf i mewn â thair rhes o geryg nâdd, ac â rhes o drawstiau cedrwydd;" 1 *Bren.* vi. 36. Heb law y cyntedd nesaf i mewn yma, sonir am y cyntedd mawr yn 2 *Cron.* iv. 9; "Ac efe a wnaeth gyntedd yr offeiriaid, a'r cyntedd mawr, a dorau i'r cynteddoedd; a'u dorau hwynt a wisgodd efe â phres." Ymddengys mai hwn a elwid y "cyntedd allanol:" cymh. *Ezec.* xiv. 17. Gelwid y cyntedd hwn hefyd yn "gyntedd tŷ yr Arglwydd;" *Ier.* xix. 12, xxvi. 2. Yr oedd y cynteddau hyn wedi eu hamgylchu gan adeiladau eang, a adeiladwyd gan mwyaf, yn ol Josephus ["*Hynaf. Iudd.*" viii. 3, 9], mewn cyfnod diweddarach na'r hwn yr oedd Solomon yn byw ynddo.

Yr ydym yn casglu oddi wrth y cwbl sydd i'w wybod nad oedd hynodrwydd teml Solomon i'w briodoli yn gymmaint i'w maintioli; ond fod ei rhagoriaeth mawr yn gynnwysedig yn nghymmwysder ei harchadeiladaeth, yn y gwaith prydferth ac addurniadol a wnaethpwyd arni, ac yn ngwerthfawredd ei defnyddiau.

Un peth hynod yn ei berthynas â'r deml hon ydyw hyn:—ar ol ei gorphen, iddi gael ei chyssegru, nid gan yr archoffeiriad, ond gan lëygwr, sef gan y brenin ei hun, trwy weddïau ac aberthau. Ni pharhaodd y deml yn ganolbwynt addoliad cyhoeddus i'r holl Israeliaid ond yn unig hyd farwolaeth Solomon. Ar ol hyny gadawodd y deg llwyth y gyssegrfa hon. Ac hyd yn oed yn nheyrnas Iudah, o bryd i bryd, halogwyd y lle âg allorau wedi eu cyfodi i eilunod. Er enghraifft dywedir am Manasseh, "Ac efe a adeiladodd allorau i holl lu y nefoedd yn nau gyntedd tŷ yr Arglwydd. Ac efe a dynodd ei fab trwy dân, ac a arferodd hudoliaeth, a brudiau, ac a fawrhaodd swynyddion a dewiniaid: ac a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, i'w ddigio ef. Ac efe a osododd ddelw gerfiedig y llwyn a wnelsai efe yn y tŷ," &c.: 2 *Bren.* xxi. 5, 6, 7. Yr ydym yn cael hefyd fod y brenin Iosiah wedi gorchymyn i Hilciah yr archoffeiriad, a'r offeiriaid o'r ail radd, i symmud ymaith ddelwau Baal ac Astoreth o dŷ yr Arglwydd:—"Yr allorau hefyd, y rhai oedd ar nen ystafell Ahaz, y rhai a wnelsai Manasseh yn nau gyntedd


Digitized by Google

edd yr Arglwydd, a ddistrywiodd y brenin, ac a'u bwriodd hwynt i lawr oddi yno, ac a daflodd eu llwch hwynt i afon Cidron;" 2 *Bren.* xxiii. 12. Mewn gwirionedd, er fod manteision gwasanaeth cyhoeddus y cyssegr yn cynnyddu, yr oedd moesau y bobl yn llygru, a'r genedl etholedig yn ymhyfrydu mewn eilunod: 2 *Bren.* xxi. 9. Ymddengys hefyd fod y deml yn cael ei hesgeuluso a'i gadael yn anadgyweiriedig pan oedd y llys a'r bobl yn plygu i Baal: 2 *Bren.* xii. 6, 7. Gwelir yn mhellach hefyd fod y draul o adgyweirio y deml yn cael ei ddwyn yn benaf trwy roddi aur gwirfoddol, offrymau, ac arian prynedigaeth: 2 *Bren.* xii. 4, 5.

Adeiladwyd hi, a thalwyd y draul o hyny o'r drysorfa frenhinol, ac i fesur mawr o'r trysorau a gasglwyd gan Dafydd i'r dyben hwnw. Perthynai trysorfa iddi, i'r hon y dygwyd llawer o drysorau gwerthfawr er dwyn yn mlaen wasanaeth crefyddol cyhoeddus. Defnyddid aur ac arian y deml, modd bynag, i ddybenion gwladol yn fynych: 1 *Bren.* xv. 18, &c.; 2 *Bren.* xii. 18; xvi. 8; xviii. 15. Ysbeiliwyd trysorfa y deml amryw weithiau gan oresgynwyr tramoraidd—gan Sisac (1 *Bren.* xiv. 26); gan Ioas, brenin Israel (2 *Bren.* xiv. 14); a chan Nebuchodonosor, yr hwn a symmudodd ymaith ei thrysorau gwerthfawr, ac a'i llosgodd: 2 *Bren.* xxiv. 13; 2 *Bren.* xxv. 9, &c. Safodd y deml ar ol ei chwblhâd am 417 neu 418 o flynyddoedd—ond yn ol Josephus, am 470 o flynyddoedd.

TEML ZOROBABEL.

Ychydig o fanylion sydd genym yn mherthynas i'r deml a adeiladodd yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o gaethglud Babilon, nac un disgrifiad o honi a'n cynnorthwya i allu sylweddoli pa fath ydoedd. Ond y mae mesuriadau yn cael eu crybwyll yn y Beibl, ac mewn manau ereill, sydd yn ddyddorol iawn, gan y gellir drwy hyny ei chymmharu â'r temlau ereill. Y cyntaf, a'r mwyaf cywir, ydyw yr adroddiad a geir yn *Ezra* vi. 3, 4; "Adeilader y tŷ, y fan lle yr aberthent aberthau, a gwnaer yn gadarn ei sylfeini; yn drigain cufydd ei uchder, ac yn drigain cufydd ei led; yn dair rhes o feini mawr, a rhes o goed newydd." Y mae Josephus yn dyfynu



DAR. 392.—Y DEML.

y geiriau hyn yn mron yn llythyrenol. Gellir sylwi fod yr uchder hwn o drigain cufydd yn cyttuno â'r araeth a roddir gan Josephus yn ngenau Herod ["*Hynaf. Iudd.*" xv. 11, *adr.* 1], yn yr hon y dywedir ei bod drigain cufydd yn is nag un Solomon. Yr oedd Josephus, fel y cyfeiriwyd uchod, wedi mabwysiadu y mesuriad a nodir yn y Croniclau am y deml hon, sef chwech ugain cufydd o uchder, tra nad oedd hon ond trigain cufydd. O ran ei lled, yr oedd y deml hon yn ugain cufydd yn fwy na theml Solomon; ond nid oes genym le i ammheu cywirdeb hyn, o herwydd canfyddir oddi wrth Josephus a'r *Talmud* mai dyna y mesuriad a fabwysiadwyd pan yr ail adeiladwyd hi, neu yn hytrach pan yr adgyweiriwyd hi gan Herod. Ar yr un pryd nid oes genym awdurdod i dybied fod unrhyw gyfnewidiad wedi ei wneyd yn maintioli y cyssegr na'r cyssegr sancteiddiolaf; gan ein bod yn cael mai yr un oedd eu maintioli yn nisgrifiad Ezeciel o'r deml a welwyd ganddo mewn gweledigaeth, ac hefyd yn nheml Herod. Ac yn gymmaint a bod y deml hon—un Zorobabel—yn sefyll yn nyddiau Herod, ac y gellir dyweyd, mewn ystyr manwl, mai ei hadgyweirio a gafodd ganddo ef, ac nid ei hail adeiladu, nid oes genym seiliau i gredu ei bod yn llai. Gellir ystyried gan hyny fod y porth, a'r ystafelloedd o amgylch, yn ugain cufydd o led—a chyfrif trwch y muriau—yn lle deg cufydd, fel yn yr adeilad gyntaf. Y mae hyn o bossibl yn cynnwys y fynedfa oedd rhwng y deml ac ystafelloedd yr offeiriad yn yr ail deml, nad oedd i'w chael yn y gyntaf. Yr unig ddisgrifiad arall sydd genym o'r deml ydyw yr un a roddir gan Hectæus yr Abderiad, yr hwn a ysgrifenodd yn fuan ar ol marwolaeth Alexander Fawr. Fel y dyfynir ef gan Josephus ["*against Apion,*" i. 22], dywed yr awdwr hwnw—"Y mae yn Ierusalem, tua chanol y ddinas, fur ceryg pum can troedfedd o hyd, a chan troedfedd o led, gyda phyrth dwbl:" ac o fewn y muriau hyn y dywed fod y deml.

Oddi wrth y mesurau hyn, yr ydym yn casglu os oedd "llawer o'r offeiriaid a'r Lefiaid, a'r penau cenedl, y rhai oedd hen, ac a welsant y tŷ cyntaf," wrth weled y tŷ hwn, yn wylo â llef uchel, ac yn dywedyd, "Pwy yn eich plith a adawyd yr hwn a welodd y tŷ hwn yn ei ogoniant cyntaf? a pha fodd y gwelwch chwi ef yr awr hon? onid yw wrth hwnw yn eich golwg

Digitized by Google

fel peth heb ddim?" (*Ezra* iii. 12; *Haggai* ii. 3) —nid am ei bod yn llai ei maintioli yr oeddynt yn gofidio, gan ei bod ar y cyfan yn fwy o yn agos y drydedd ran na'r gyntaf; ond o herwydd nad oedd o ran ei hadeiladwaith mor ysblenydd, na'i haddurniadau mor gostfawr; ond yn benaf am nad oedd arch y cyfammod ynddi, yr hon a losgwyd gyda theml Solomon. Yr oedd y deml hon yn cael ei chyssylltu â'r dref trwy gyfrwng pont. Yn ystod y rhyfeloedd, o c.c. 175 hyd c.c. 163, ysbeiliwyd a halogwyd hi gan Antiochus Epiphanes; a dygodd iddi ddefodau eilunaddolgar [2 *Macc.* vi. 2, 5], a chyssegrodd hi i Jupiter Olympus, a'r deml ar fynydd Garizim i Jupiter Ξενιός; ac aeth mor anrheithiedig fel yr oedd "y mân-wydd yn tyfu yn y neuaddau." —1 *Macc.* iv. 38; 2 *Macc.* vi. 4. Gyrodd Iudas Maccabeus y Syriaid ymaith, ac adgyweiriodd y cyssegr, c.c. 165; a dodrefnodd y lle â llestri newyddion, a chyfododd amddiffynfeydd yn erbyn ymosodiadau dyfodol.—1 *Macc.* iv. 43—60; vi. 7; xiii. 52; 2 *Macc.* i. 18, x. 3. Yn ystod anghydfod y Maccabeaid diweddaf, ymosododd Pompey ar yr ochr ogleddol iddi, a lladdodd lawer oedd yn ei chynteddoedd; ond ymattaliodd rhag ysbeilio ei thrysorau, er ei fod wedi myned i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf, c.c. 63. Gyda chynnorthwy y milwyr Rhufeinaidd, ymosododd Herod Fawr arni, c. c. 37; pryd y dinystriwyd rhywfaint o honi.

TEML HEROD.

Yr ydym yn ddyledus yn mron yn gwbl i weithiau Josephus am ein gwybodaeth am yr olaf a'r fwyaf o'r temlau Iuddewig, gydag ambell i awgrym a geir yn awr ac eilwaith yn y *Talmud.* Nid oes ond ychydig yn yr Ysgrythyrau i gynnorthwyo yr hynafiaethydd yn yr ymchwiliad hwn; ac nid ydyw ysgrifenwyr y Testament Newydd yn rhoddi un awgrym a'n galluoga i benderfynu ei sefyllfa na'i maintioli, nac un nodwedd o'i hadeiladaeth. Ond yr oedd Josephus yn meddu gwybodaeth bersonol o'r llanerch; ac y mae ei fesuriadau mor fanwl a chywir fel y gellir credu fod ganddo gynllun o'r llawr o'i flaen pan yn ysgrifenu am dani. Yr oedd y deml hon, o ran maintioli a threfniadau, yn hynod o debyg i un Solomon, neu yn hytrach i un Zorobabel. Amgylchid hi gan fur mewnol o nerth a harddwch mawr, yn mesur, mor agos ag y gellir barnu, gant a phedwar ugain o gufyddau wrth ddau gant a deugain, ac yr oedd yn cael ei haddurno â deg o byrth ardderchog; a thu hwnt i hon drachefn, yr oedd mur allanol yn mesur pedwar cant o gufyddau bob ffordd, yr hwn a addurnid â phyrth colofnog mwy ysblenydd nag a geid yn perthyn i un o demlau yr hen amseroedd.

Y mae agos i bawb, y gellir eu hystyried yn awdurdodau ar y cwestiwn, yn cyttuno yn awr ar y man lle y safai y deml; sef, o fewn terfynau y llanerch a elwir yn bresennol wrth yr enw *Haram;* ac y mae y rhan liosocaf yn barnu mai ar gongl dde-orllewinol y llanerch hono y safai. Dywed Josephus yn bendant ei bod yn sefyll ar y mur deheuol uwch ben y dyffryn ["*Hynaf. Iudd.*" xv. 16, *adr.* 5]: ac y mae darganfyddiad gweddillion bwa pont, yn cychwyn ddeugain troedfedd oddi wrth y gongl dde-orllewinol, yn atteb i'r disgrifiad a roddir ganddo ["*Hynaf. Iudd.*" xiv. 4, *adr.* 2; "*Rhyf. Iudd.*" i. 2, *adr.* 5, 2, ii. 16, *adr.* 3]—yr hyn ynddo ei hun sydd yn myned yn mhell i brofi y mater. Y mae maintioli y meini, a nodwedd cyffredinol y saerniaeth yn y mur gorllewinol, yn agos i'w phen deheuol, yn cael ei ystyried yn brawf fod y mur yn gwneyd i fyny ran o adeiladwaith y deml; ac hefyd, y mae darganfyddiad un o'r hen byrth y crybwyllir am danynt gan Josephus, oedd yn arwain o'r deml i Parbar, heb law llawer o arwyddion ereill, yn gwneuthur i fyny gadwen mor gref o brofion yn ffafr y llanerch yma fel nas gellir ei hammheu. Y mae maintioli y deml o'r fan hon yn gwestiwn y mae llai o unoliaeth barn yn ei gylch nag o barthed i leoliad y gongl ddeorllewinol; er fod y profion, ysgrifenedig a lleol, yn tueddu i gadarnhau y casgliad fod Josephus yn llythyrenol gywir pan y dywed efe fod y deml, neu fur y deml, yn mesur pedwar can cufydd petryal. Nid oes un ffaith a nodir yn amlach ganddo na hyn. Nid oes un awdurdod arall ar y mater hwn heb law y *Talmud*—yn yr hwn y dywedir fod petryal y deml yn bum can cufydd bob ffordd [*Mishna*, v. 334]. Ond y mae y Rabbiniaid, megys pe yn ymwybodol nad yw y mesuriad yn atteb i'r hyn y gellir ei gasglu am y gymmydogaeth, yn rhoddi ar ddeall mai cufydd o bymtheng modfedd a feddylir.

Pan adeiladwyd y deml gan Herod, efe a amgauodd i mewn "gymmaint ddwy waith" o le iddi ag oedd i'r deml flaenorol a'i chynteddau.—"*Rhyf. Iudd.*" i. 21, *adr.* 1. Dywediad ydyw hwn, dybygid, na ddylid ei gymmeryd yn rhy lythyrenol; o leiaf os ydys i ddibynu ar fesuriadau Hecatæus. Yn ol yr awdwr hwnw yr oedd yr holl arwyneb perthynol i deml Herod rhwng pedwar a phum gwaith yn fwy na'r un oedd o'i blaen. Y mae yn amlwg mai yr hyn a wnaeth efe oedd cymmeryd i mewn yr holl wagle oedd rhwng y deml a mur y ddinas ar yr ochr ddwyreiniol, a chwanegu hefyd cryn lawer ar du y gogledd a'r deheu. Gan mai y mur perthynol i'r deml oedd prif amddiffyniad y ddinas ar y tu dwyreiniol iddi, nid oedd pyrth nac agorfeydd ar y tu hwnw o gwbl; a chan ei bod yn sefyll ar fryn creigiog, ystyrid yn wastad nad ellid ymosod arni ar yr ochr hono. Gwnaed y tu gogleddol hefyd, sef y rhan nad oedd yn cael ei diddosi gan gaerfa Antonia, yn rhan o amddiffynfeydd y ddinas; ac nid oedd yn y rhan yma o'r mur chwaith byrth yn arwain allan. Ar y tu deheuol, yr hwn a gauid i mewn gan fur Ophel, yr oedd porth dwbl yn agos i'r canol.—"*Hyn. Iudd.*" xv. 11, *adr.* 5. Y mae y porth yma yno etto, ychydig gyda thri chant a hanner o droedfeddi oddi wrth y gongl dde-ddwyreiniol; ac hwyrach mai dyma yr unig un sydd yn aros i ddangos nodweddion adeiladol neillduol teml Herod. O'r porth hwn yr oedd mynedfa danddaearol ddwbl, yn agos i ddau can troedfedd o hyd, yn arwain at res o risiau a ymgodent i arwyneb cyntedd y deml, yn union ar gyfer porth mewnol y deml a arweiniai at yr allor; ac y mae yn un o'r pedwar porth ar y tu hwnw y buasai un wrth ddyfod o Ophel yn myned iddi drwyddo. Ymddengys mai rhoi cyfleusdra i'r rhai a ddeuent o gyfeiriad Ophel a barodd i'r porth allanol gael ei wneyd ychydig yn fwy i'r dwyrain na chanol y mur, lle y gallesid yn naturiol ddisgwyl ei gael. Yr ydym yn cael, yn ol y *Talmud* (*Mid.* ii. 6), mai porth mewnol y deml yr arweiniai y fynedfa hon iddo oedd "porth y dwfr;" ac y mae gallu adnabod llanerch a nodir mor amlwg yn y disgrifiad a roddir gan Nehemiah (xii. 37), yn creu cryn ddyddordeb. Y mae y cyfeiriadau at borth y dwfr yn amlach yn ngweithiau hen awduron nag at un o byrth ereill y deml, yn enwedig gan awdwyr Mahometaidd,

Digitized by Google

er ei fod yn fynych ganddynt hwy yn cael ei gymmeryd am y porth allanol oedd yn y pen arall i'r fynedfa hon. Tua'r gorllewin, yr oedd pedwar o byrth yn y mur allanol oedd o amgylch y deml ["*Hynaf. Iudd.*" xv. 11, *adr.* 5], a gellir gweled etto pa le y safai tri o'r pyrth hyn hyd sicrwydd. Yr oedd y porth cyntaf, a'r mwyaf deheuol, yn arwain dros bont, gweddillion yr hon a adnabyddwyd gan Dr. Robinson, ac elid drwyddo o'r palas brenhinol i'r deml. Yr ail a ddarganfyddwyd gan Dr. Barclay, tua dau gant a thrigain o droedfeddi o'r gongl dde-orllewinol. Y mae y trydydd wedi ei orchuddio gan adeiladau, fel nad ydys wedi ei ddarganfod etto; ond y mae i'w gael yn y pellder o 200 i 250 o droedfeddi oddi wrth gongl ogledd-orllewinol y mur allanol. Y pedwerydd oedd yr un a arweiniai dros y ffordd; ac y mae yno etto yn y pellder o chwe chan troedfedd o'r gongl dde-orllewinol. Yn amser Solomon, ac hyd nes yr eangwyd yr arwynebedd gan Herod, ymddengys fod yr esgynfa o'r dyffryn dwyreiniol i'r deml i fyny rhes o risiau (*Neh.* xii. 37; 1 *Bren.* x. 5, &c.), cyffelyb i'r rhai a geir yn Persepolis; ac fel hwythau, wedi eu gosod ystlys yn ystlys, ac yn ffurfio rhan o gynllun yr adeiladaeth. Pan y daethpwyd i wneyd y deml yn lle amgaeredig, taflwyd pont drosodd, a gwnaed ffordd felly er sefydlu cymmundeb â'r rhan uchaf o'r ddinas.

Ond ymddengys mai y rhan fwyaf ardderchog o'r deml, fel adeilad, oedd y rhodfeydd colofnog (*terraces*) a chwanegwyd at y cyntedd allanol pan yr eangwyd ef gan Herod. Nid oes sicrwydd nad oedd yno borth dwyreiniol cyn yr amser hwn; ac os felly, dichon ei fod ger llaw yr un a gyfodwyd ar ol hyny. Ond helaethwyd cymmaint ar y deml pan yr adeiladwyd hi ddiweddaf fel nad oes ddadl nad oedd rhanau helaeth o'r muriau a'r rhodfeydd yn perthyn i'r cyfnod hwn. Yr oedd y rhodfeydd ar du y gorllewin, y gogledd, a'r dwyrain, yn cael eu gwneyd i fyny o ddwy res o golofnau Corinthaidd, 25ain cufydd, neu 37ain troedfedd a chwe modfedd, o uchder ["*Rhyf. Iudd.*" v. 5, *adr.* 2], gyda nen gwastad, ac yn gorphwys yn erbyn mur allanol y deml. Rhagorodd y rhodfa frenhinol ardderchog (*Stoa Basilica*) oedd ar yr ochr ddeheuol yn anfesurol ar y rhai hyn. Y mae hon yn cael ei disgrifio mor fanwl gan Josephus ["*Hynaf. Iudd.*" xv. 11, *adr.* 5], fel nad oes un anhawsder i ddeall ei ffurfiad a'i maintioli. Cynnwysai mewn gwirionedd dair o rodfaoedd:—yr un agosaf i'r deml yn agored, a'r un tua'r wlad wedi ei chau i mewn gan fur. Lled y rhodfa ganol oedd pump ar hugain o droedfeddi; a lled y ddwy a redant yn gyfochrog oedd deg ar hugain o droedfeddi, o ganol y naill golofn i ganol y llall: eu huchder oedd hanner can troedfedd, ac uchder y rhodfa ganol oedd can troedfedd. Yr oedd ei holl hyd dros chwe chant o droedfeddi, neu tua chan troedfedd hwy nag eglwys gadeiriol Caerefrog—un o'r eglwysydd Gothaidd mwyaf ac ardderchocaf yn holl Ewrop. Cynnelid yr adeilad ardderchog hon gan gant a dwy a thrigain o golofnau Corinthaidd, wedi eu trefnu yn bedair rhes, deugain yn mhob rhes—a'r ddwy golofn dros ben, dybygid, yn ffurfio cysgodlen yn mhen y bont a arweiniai i'r palas, ac felly yn ffurfio y brif fynedfa o'r ddinas a'r palas i'r deml. O fewn ychydig, o flaen y rhodfeydd hyn, yr oedd cysgodlen farmor, tri chufydd o uchder, wedi ei haddurno â cherfiadau yn y modd prydferthaf, ac arnynt arysgrifau mewn llythyrenau Groeg a Lladin, yn gwahardd pob Cenedlddyn i fyned o'r tu fewn i'w terfynau. Ychydig oddi wrth hyn drachefn, yr oedd rhes o risiau yn cynnal y llawr, ar yr hwn yr oedd y deml ei hun yn sefyll. Yn ol Josephus, yr oedd wedi ei chyfodi fel hyn i'r uchder o bymtheg cufydd, neu dros ddwy droedfedd ar hugain; ac elid i fyny ati ar hyd pedair ar ddeg o risiau.

Yr oedd cyntedd y deml yn mron yn ysgwâr. Fe allai ei fod yn gwbl felly, ond nid oes genym fanylion i allu bod yn hollol sicr yn ei gylch. Yn ddwyreiniol iddo yr oedd cyntedd y gwragedd, ond nid yw Josephus yn rhoi ei fesuriad. Ymddengys mai prif addurniadau y cynteddau mewnol oedd eu pyrth, ac yn arbenig y tri oedd ar du y gogledd a'r deheu yn arwain i gyntedd y deml. Yn ol Josephus, yr oeddynt yn uchel iawn, wedi eu haddurno yn fawr, ac yn hynod o gedyrn. Ond y rhyfeddod penaf oedd y porth mawr dwyreiniol oedd yn arwain o gyntedd y gwragedd i'r cyntedd uchaf. Ymddengys mai dyma y peth prydferthaf o gwmpas y deml. Yr oedd wedi ei orchuddio â cherfiadau. Uwch ei ben yr oedd ystafelloedd, ac yr oedd yn debycach i borth teml Indiaidd na dim arall. Yn ol pob tebygolrwydd, dyma "borth prydferth" y deml, y sonir am dano yn y Testament Newydd. Yn union o'r tu mewn i'r porth hwn yr oedd allor y poeth-offrymau; yr hon, yn ol Josephus ["*Rhyf. Iudd.*" v. 5, *adr.* 6], oedd yn hanner can cufydd petryal, a phymtheg cufydd o uchder, gydag esgynfa ogwyddedig raddol i fyny ati. Dywedir yn y *Talmud* mai deuddeg ar hugain o gufyddau oedd ei maintioli (*Middoth*, iii. 1); a chwanegir manylion ereill yn ei chylch, oddi wrth ba rai y gellir casglu ei bod yn gynllun o'r temlau Babilonaidd neu Assyriaidd. Ar y tu gogleddol, yr oedd y modrwyau a'r polion, wrth ba rai y rhwymid y creaduriaid a fwriedid yn aberthau: ac ar du y deheu, yr oedd llwybr gogwyddedig, fel y cyfeiriwyd o'r blaen, yn arwain at borth y dwfr—a elwid felly o herwydd yn union gyferbyn âg ef yr oedd y ddyfrgist fawr, oedd wedi ei naddu allan o'r graig, a olrheiniwyd ac a ddisgrifiwyd gan Dr. Barclay ["*City of the Great King*," td. 526], o'r hon y ceid y cyflenwad angenrheidiol o ddwfr at gwasanaeth yr allor a'r deml. Ac ychydig o'r tu cefn, yn nghongl dde-ddwyreiniol yr allor, yr oedd ffos [*Middoth*, iii. 3], drwy yr hon y llifai gwaed yr ebyrth, yn orllewinol a deheuol, i ardd y brenin yn Siloam. Yr oedd yr allor a'r deml wedi eu hamgau gan furganllaw isel o un cufydd o uchder, wedi ei gwneyd yn y fath fodd fel ag i gadw y bobl ar wahân oddi wrth yr offeiriad tra y byddai y diweddaf yn cyflawni dyledswyddau ei swydd. I'r gorllewin oddi wrth yr allor y safai y deml ei hun. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, yr oedd ei mesurau oddi mewn yr un a mesurau teml Solomon, ac a'r un a welodd y prophwyd Ezeciel yn y weledigaeth; sef, ugain cufydd, neu ddeg troedfedd ar hugain, wrth drigain cufydd, neu bedwar ugain a deg o droedfeddi, wedi eu dosranu yn gyssegr, ac yn gyssegr sancteiddiolaf; ac nid oes dim lle i ammheu nad oedd y cyssegr yn sefyll yn fanwl yr yr un man ag y cyfodwyd ef gan Solomon fil o flynyddoedd cyn i'r deml gael ei hail adeiladu gan Herod.

Ond er fod y trefniadau oddi mewn yn aros yr un, ymddengys nad oes un sail i ammheu nad oedd y rhanau allanol o honi wedi eu ehangu, fel yr oedd y drydedd deml, fel yr ail, yn mesur tri ugain cufydd ar ei thraws, a chan cufydd o'r

Digitized by Google

dwyrain i'r gorllewin. Yr oedd lled yr adeilwyneb *(facade)* hefyd wedi ei chwanegu drwy roddi dwy aden iddo ["*Rhyf. Iudd.*" v. 5, *adr.* 4] yn ugain cufydd o bob tu, ac felly yn gwneyd yr holl led yn gan cufydd, neu yn gyfartal i'w hyd. Mor bell a hyn yna, y mae pob peth yn amlwg a sicr; ond pan yr ydys yn dyfod i ystyried yr uchder, y mae y mesurau yn ammheus. Y mae Josephus a'r *Talmud* fel pe yn ymhyfrydu yn y meddylddrych am adeilad can cufydd o hyd, can cufydd o led, a chan cufydd o uchder; ac ymddengys fod pob peth yn gorfod plygu ganddynt i'r mesurau hyn. Fe allai fod hyn yn cyfodi oddi ar yr anhawsder i fesur uchder, o'i gymmharu â mesuriad ar y llawr, a'r duedd sydd yn bod yn wastad i arfer gormodiaeth yn mherthynas i uchder; ond pa beth bynag oedd yr achos o hono, y mae o'r bron yn ammhossibl credu fod y deml, o ran uchder, yr hyn a haerir ei bod gan Josephus, ac a nodir mor fanwl yn y *Middoth*, vi. 6. Y gwirionedd ydyw, y mae yn anhawdd peidio credu fod Josephus yma wedi dyblu mesuriad uchder yr adeilad, fel y tybir iddo wneyd mewn rhai amgylchiadau ereill.

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu y deml yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Herod; hyny ydyw, o ddeutu ugain neu un ar hugain o flynyddoedd cyn y cyfnod Cristionogol. Dywed Josephus i'r offeiriaid a'r Lefiaid adeiladu y deml ei hun mewn deunaw mis: ond fod Herod wedi cymmeryd wyth mlynedd i gyflawni ei ran ef o'r gwaith; sef, yr adeiladau allanol a'r cynteddau. Yr oedd rhyw adeiladau yn myned yn mlaen o hyd gan olynwyr Herod; ac am y rheswm hwn y mynegir na orphenwyd y deml hyd ddyddiau Albinus, y rhaglaw olaf ond un—ychydig cyn i'r rhyfel Iuddewig diweddaf dori allan, yn ystod yr hwn y dinystriwyd y deml. Mewn cyfeiriad at hyn y dywedai yr Iuddewon wrth Iesu Grist, "Chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml hon;" *Ioan* ii. 20.

Pa beth bynag am deml Solomon, y mae o'r bron yn sicr fod arddull yr ail deml yn cyfranogi i raddau pell o arddull adeiladau Persopolis a Susan. Yr oedd cyfathrach agos rhwng yr Iuddewon, y Persiaid, a'r Babiloniaid yn y cyfnod hwn; ac mewn gwirionedd yr oedd y deml yn cael ei hadeiladu dan arolygiaeth rhai oedd yn arolygu adeiladau yn Persopolis a Susan. Pa beth bynag a ddywedir am ymddangosiad y manylion a berthynent iddi, yr oedd teml driphlyg (*triple*) Ierusalem—y cyntedd isaf, yr hwn a safai ar y rhodle ardderchog; y cyntedd mewnol, yr hwn sydd yn sefyll ar esgynlawr yn nghanol hwn; a'r deml ei hun, yn ymgodi yn goron ar y cyfan—wrth ystyried prydferthwch ei safle, yn un o'r adeiladau mwyaf ysblenydd a gyfodwyd yn yr hen amseroedd.

Yn adeg ymrysonfa fawr olaf yr Iuddewon â gallu Rhufain, yn B. A. 70, yn nghymmydogaeth y deml y bu y frwydr ddiweddaf. Rhuthrodd y Rhufeiniaid allan o dŵr Antonia i gyffiniau cyssegredig y deml, neuaddau yr hon a roddwyd ar dân gan yr Iuddewon eu hunain. Yn groes i ewyllys Titus hefyd, lluchiodd milwr Rhufeinaidd dân i adeiladau allanol gogleddol y deml; yr hyn a achosodd i'r holl adeilad gael ei llosgi, er i Titus ei hun geisio attal y tân. Dangoswyd ran o'i dodrefn cyssegredig—bwrdd aur y bara gosod, llyfr y gyfraith, a'r canwyllbren aur —yn gyhoeddus yn Rhufain; ac y mae darluniau o honynt i'w canfod yno etto yn gerfiedig ar rai o'r meini yn mwa Titus.

Ymddengys fod y man lle y safai y deml yn lle peryglus fel cyrchle i'r bobl wrthryfelgar hyd y flwyddyn B.A. 136, pryd y darfu i'r ymherawdwr Hadrian ffurfio trefedigaeth Rufeinig yno, o dan yr enw Ælia Capitolina, ar weddillion Ierusalem, a chyssegru teml i Jupiter Capitolinus ar adfeilion teml yr Arglwydd. O hyny allan, ni oddefid i un Iuddew fyned yn agos i'r fan lle y safai yr hen deml, er y gorfodid yr addolwyr i dalu treth tuag at gynnal teml Jupiter. Cospwyd rhai Iuddewon o dan deyrnasiad Cystenyn Fawr am geisio adferu y deml. Yn B.A. 363, ymgymmerodd Julian â'i hail adeiladu; ond ar ol gwneyd llawer o barotoadau, a myned i lawer o draul, gorfodwyd ef i roddi ei fwriad i fyny, gan fod fflamau yn tori allan, meddir, o'r sylfeini, ac yn attal y gweithwyr. Gwnaed amryw geisiadau i roddi cyfrif am hyn trwy achosion naturiol: yn mysg ereill, ffrwydrad nwyon oedd wedi eu cau i fyny am amser maith mewn lleoedd tanddaearol. Sonir am ddigwyddiad tebyg hefyd gan Josephus ["*Hyn. Iudd.*" xvi. 7, *adr.* 1], pryd y dywedir fod Herod, pan yn ysbeilio beddau Dafydd a Solomon, wedi ei ddychrynu yn ddisymmwth gan fflamau yn tori allan, y rhai a laddasant ddau o'i filwyr. Ond y mae yr esgob Warburton yn dadleu fod y digwyddiad yn un gwyrthiol.

Y mae mosc (*mosque*) Fahometaidd yn awr ar y llanerch lle y safai y deml gynt; yr hon a godwyd gan Omar ar ol gorchfygiad Ierusalem gan y Saraceniaid, yn y flwyddyn B. A. 636. Ymddengys fod Omar wedi troi eglwys Gristionogol oedd yn sefyll ar y llanerch, yn deml i Mahomet.

TEMPLE, HENRY JOHN, ARGLWYDD PALMERSTON: gwladweinydd enwog iawn, teulu yr hwn a ddisgynent o iarll Sacsonaidd oedd yn byw cyn amser Gwilym y Goresgynydd, er fod ei deitl yn perthynu i bendefigaeth yr Iwerddon. Syr William Temple, y diplomydd a'r gwladweinydd [gwel TEMPLE, SYR WILLIAM] oedd un o'r rhai enwocaf o'i hynafiaid ef. Ganwyd ef yn Park street, Westminster, Llundain, ar yr 20fed o Hydref, 1784. Ail fab oedd efe i'r Is-iarll Palmerston, a daeth i'r teitl ei hun yn 1802. Yr ysgol gyhoeddus gyntaf y bu ynddi oedd ysgol Harrow: wedi hyny aeth i brif ysgol Edinburgh: a gorphenodd ei addysg yn Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, lle y graddiwyd ef yn athraw yn y celfyddydau yn 1806. Yr un flwyddyn daeth allan yn ymgeisydd am gynnrychiolaeth prif ysgol Caergrawnt yn Nhŷ y Cyffredin; ond gorchfygwyd ef gan Arglwydd Henry Petty, wedi hyny Ardalydd Lansdowne. Yn y flwyddyn ddilynol gwnaeth ail ymdrech aflwyddiannus i gael cynnrychiolaeth y brif ysgol; ond dychwelwyd ef yn aelod y flwyddyn hono dros Newport, yn Ynys Gwyth; a pharhaodd i'w chynnrychioli hyd nes yr etholwyd ef dros Caergrawnt. Pan ffurfiwyd gweinyddiaeth y Duc o Portland, yn 1807, pennodwyd Palmerston, yr hwn a ddangosodd cyn hyny fod ynddo gryn allu a thalent, yn un o is-arglwyddi y morlys. Yn y flwyddyn ddilynol y traddododd efe ei araeth fawr gyntaf yn y senedd, mewn gwrthwynebiad i gynnygiad Mr. Ponsonby i gyhoeddi papurau yn dal cyssylltiad â rhyfelgyrch Arglwydd Cathcart i Copenhagen. Ar waith Arglwydd Castlereagh yn rhoddi i fyny ei swydd o is-ysgrifenydd rhyfel, pennodwyd Arglwydd Palmerston i gymmeryd ei le yn y swydd hono,

Digitized by Google

yr hon a ddaliwyd ganddo hyd y fl. 1828, o dan weinyddiaethau Toryaidd olynol Mr. Percival, Iarll Liverpool, Mr. Canning, Arglwydd Goderich, a'r Duc o Wellington. Dangosodd allu nodedig yn ngweinyddiad y swydd hon. Yn ystod yr holl amser hwn, cyfyngai ei hun yn benaf at yr achosion a berthynent i'w swydd, ac anfynych y cymmerai ran mewn dadleuon yn ymwneyd â materion ereill. Yn mysg yr eithriadau hyn, fodd bynag, yr oedd rhyddfreiniad y Pabyddion yn un, i'r hyn y rhoddai ei gefnogaeth galonog. Parodd anghydwelediad ynghylch difreiniad East Retford iddo ymneillduo o'r swydd, a pharhaodd i gefnogi yr wrthblaid, hyd nes y daeth Iarll Grey i awdurdod, yn mis Tachwedd, 1830, pan y derbyniodd efe y swydd o ysgrifenydd tramor yn y weinyddiaeth Whigaidd a ffurfiwyd y pryd hwnw; ac yr oedd o hyny allan yn un o arweinyddion mwyaf blaenllaw y blaid ryddfrydig. Efe a ymddiswyddodd pan y pennodwyd Syr Robert Peel yn brif weinidog yn 1834; ond ail ymaflodd yn ei hen swydd o dan Arglwydd Melbourne yn 1835. Efe a barhaodd mewn swydd o hyny hyd 1841; ac yn ystod y chwe blynedd hyny y cyrhaeddodd enw Palmerston ei bwynt uchaf o anrhydedd fel gweinidog tramor. Drwy yr holl gyfandir, o Yspaen i Twrci, yr oedd ei enw yn arwydd o allu a dylanwad Prydain—yn wrthddrych ofnadwyaeth a châs rhai llywodraethau, a chanmoliaeth ac edmygedd ereill. Yn 1841, daeth Syr Robert Peel eilwaith i awdurdod, ac aeth Argl. Palmerston gyda'i blaid allan o swydd. Tra y bu yn gwneyd i fyny un o'r wrthblaid efe a wrthwynebai y cynghrair Ashburnaidd gyda'r Unol Daleithiau; ac ar gwestiwn Deddfau yr Yd, dadganodd yn gyhoeddus ei fod wedi ei argyhoeddi o'r priodoldeb o ddileu y dreth oddi ar ŷd yn 1845: cyn hyny, yr oedd yn ffafriol i dreth sefydlog er mwyn adgyfnerthu cyllid y wladwriaeth. Pan ddaeth Syr Robert Peel o'r un feddwl, ac y penderfynodd ddiddymu deddfau yr ŷd, darfu i amryw o'i weinyddiaeth, gan eu bod yn ystyried y dylasai y gwaith gael ei adael i'r blaid ryddfrydig, ymddiswyddo; ac anfonodd y frenhines am Arglwydd John Russell i ffurfio gweinyddiaeth newydd. Appeliodd yntau at ei gydswyddogion blaenorol i'w gynnorthwyo, ac yn eu plith Arglwydd Grey ac Arglwydd Palmerston. Nid oedd y pendefig blaenaf yn cydsynio â gwladlywiaeth dramor y diweddaf; gan hyny gwrthododd roddi un cymmhorth i'r blaenor Whigaidd, os oedd Arglwydd Palmerston i gael swydd. Ar y llaw arall, amlygodd Arglwydd Palmerston ei barodrwydd i ymattal rhag cymmeryd swydd; ond addawai roddi pob cefnogaeth a allai i'r weinyddiaeth. Parodd y cweryl hwn, fodd bynag, ddyrysweh i'r blaenor Whigaidd: a chan hyny, galwyd Syr R. Peel yn ol at y llyw, a thrwy ei offerynoliaeth ef y diddymwyd y dreth ar ŷd. Yn fuan ar ol hyny, aeth gweinyddiaeth Peel yn ddrylliau mewn canlyniad i anghydwelediad yn mysg ei haelodau, ac yn mhlith y blaid yr oedd efe yn arweinydd iddi; a daeth Palmerston yn aelod o weinyddiaeth newydd Arglwydd John Russell, yn haf y flwyddyn 1846; ac ymaflodd eilwaith yn ei hen swydd o ysgrifenydd tramor. Parhaodd i gyfarwyddo diplomyddiaeth y wlad hon mewn cyssylltiad âg amryw o gwestiynau dyrus ac anhawdd a ymgododd y blynyddoedd hyny. Yn mhlith y rhai hyny gellir enwi yr helyntion yn Portugal, yr anhawsderau yn Switzerland, symmudiadau chwyldroadol y flwyddyn 1848; cwestiwn Groeg, yr hwn a ddechreuodd yn 1847, ac a ddygwyd i derfyniad yn 1850; a rhyfel Hungary, yr hwn a ddygid yn mlaen o dan nawdd y ffoaduriaid Hungaraidd. Parodd ei waith yn cydnabod gyda pharodrwydd a phrysurdeb y gwaith a wnaeth Louis Napoleon (y *coup d'etat*) yn y fl. 1851, i anghydfod difrifol gymmeryd lle rhyngddo ef a'i gydswyddogion; ac mewn canlyniad, efe a ymddiswyddodd. Ond darfu i'w enciliad ef o weinyddiaeth Russell brysuro ei chwymp; ac ar waith y weinyddiaeth unedig (*coalition ministry*), gydag Arglwydd Aberdeen yn brif weinidog, yn esgyn i awdurdod yn y flwyddyn ddilynol, efe a bennodwyd yn aelod o honi, ac a gymmerodd y swydd o ysgrifenydd cartrefol. Yn ganlynol i'r annhrefn a gymmerodd le mewn cyssylltiad â rhyfel y Crimea, cwympodd y weinyddiaeth unedig yn 1855; ac yn ddioed cyrhaeddodd Arglwydd Palmerston i ben pinacl gallu a dyrchafiad fel prif arglwydd y trysorlys, a phrif weinidog Prydain Fawr. Darfu i'w waith yn dangos gormod o duedd i blygu i ewyllysiau penadur tramor yn achos mesur y cydfradwriaeth (*conspiracy bill*), a ddygwyd i mewn i Dŷ y Cyffredin yn fuan ar ol i Felice Orsini wneyd ymgais i ddwyn ymaith fywyd Ymherawdwr y Ffrangcod, gyffroi teimladau dwfn yn y wlad yn gyffredinol yn erbyn ei weinyddiaeth; a bu raid iddo encilio ac ymneillduo o flaen y dadganiad hwn o'r farn gyhoeddus, a rhoddi lle i weinyddiaeth Geidwadol Arglwydd Derby. Yn Mehefin, 1859, daeth gweinyddiaeth y diweddaf i derfyniad, a dychwelodd Palmerston unwaith yn rhagor i awdurdod fel prif weinidog—swydd a weinyddwyd ganddo o'r pryd hwnw hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn Brockett Hall, swydd Hereford, ar y 18fed o Hydref, 1865. Pe buasai wedi byw ddeuddydd yn hwy buasai wedi cwblhau ei unfed flwydd a phedwar ugain.

Bu Arglwydd Palmerston, yn ddiammheuol, am lawer o flynyddoedd yn llenwi lle uwch yn meddwl y cyhoedd yn Ewrop nag unrhyw weinidog gwladol Prydeinig arall—hwyrach, mewn rhyw ystyr, nag un gwladweinydd Ewropaidd arall. Edrychid arno yn mron drwy yr holl wledydd tramor fel cynllun o gymmeriad cenhedlaethol preswylwyr y wlad hon: ac felly, i ryw raddau, yr edrychai cyfran o'i gydwladwyr arno hefyd. Yr oedd yn meddu y gallu i'w gymmhwyso ei hun i gyfarfod teimlad a thymmer ei gydwladwyr i raddau perffeithiach nag un o wladweinyddion ei oes. Ni ddarfu iddo erioed ofalu am, na phroffesu ei fod yn arweinydd ei oes. Ni ddymunai fod ei syniadau ar unrhyw bwngc o flaen barn y cyhoedd:—er ei fod bob amser yn ymddangos megys yn blaenori, etto nid oedd mewn gwirionedd ond dilyn yn unig. Llefarai mewn amser priodol, a chyda grym nodedig, yr hyn y gwyddai efe oedd syniadau a golygiadau y mwyafrif; ac o herwydd hyn edrychai llawer arno fel math o oracl, pan nad oedd mewn gwirionedd yn gwneyd dim ond traethu syniadau oeddynt yn addfedu yn y wlad. Ond ni ddylid prisio yn rhy isel allu gwladweinydd i wneyd hyn yn llwyddiannus. Yr oedd gallu Arglwydd Palmerston i fyned i mewn i deimlad y genedl yn nodedig. Nid oedd ei wladlywiaeth, pa fodd bynag, yn gorphwys ar egwyddorion mawrion a phwysig: nid oedd byth yn edrych yn mhell yn mlaen. Nid ydym yn cymmeryd arnom farnu pa fodd y

Digitized by Google

buasai yn llywodraethu y wlad mewn cyfnodau o beryglon ac anhawsderau mawrion; ond ni a wyddom ei fod wedi llwyddo i lywodraethu Tŷ y Cyffredin, ac i ryw raddau y genedl, mewn modd mwy deheuig nag y darfu i ereill oedd yn feddiannol ar lawer mwy o athrylith a gallu gwleidyddol na'r eiddo ef. Mynegir i ni mai ei uchelgais oedd cael marw yn brif weinidog Prydain—a chafodd ei ddymuniad yn y peth hwn. Fel siaradwr cyhoeddus, nis gellir dyweyd ei fod yn areithydd yn ystyr manwl y gair. Ni wnaeth erioed ymgais i fod yn gydymgeisydd â'r fath ddynion a Pitt a Fox, a Gladstone a Bright mewn hyawdledd. Er hyny, ychydig ddynion a fu erioed yn fwy llwyddiannus nag efe, drwy ei areithiau, i gyrhaedd yr amcanion mewn golwg ganddo. Yr oedd yn meddu y gelfyddyd hapus o wneyd yr hyn sydd gyffredin yn ddyddorol. Nid oedd byth yn siarad yn rhy faith, ac yn blino ei wrandawyr. Gallai atteb ei wrthwynebwr gyda grym a dylanwad mawr. Mewn gair, nid oedd ei areithiau un amser yn ddiflas, aneffeithiol, nac yn annyddorol.

TEMPLE, SYR WILLIAM: diplomydd enwog, ac awdwr poblogaidd, oedd fab hynaf Syr John Temple, meistr y rholiau yn yr Iwerddon. Ganwyd ef yn Llundain yn 1628: astudiodd am ddwy flynedd yn ngholeg Emmanuel, Caergrawnt, o dan yr enwog Ralph Cudworth: a phan yn bedair ar bymtheg oed, aeth i deithio ar y cyfandir. Dysgodd y Ffrangcaeg a'r Yspaenaeg, a diwylliodd ei chwaeth at gyfansoddi yn yr iaith Saesnig. Etholwyd ef yn aelod o senedd yr Iwerddon dros swydd Carlow yn 1661. Yn 1665, anfonwyd ef ar genadaeth ddirgelaidd i Munster; ac ar ei ddychweliad yn ol, gwnaed ef yn farwnig, a phennodwyd ef yn genadwr yn llys Brussels. Y gwaith diplomyddol pwysicaf a wnaeth oedd dwyn oddi amgylch y cyttundeb a elwir 'Y Cynghrair Triphlyg,' pryd y darfu i Holland, Sweden, a Phrydain ymrwymo i ymuno er rhoi attalfa ar uchelgais Ffraingc. Gwnaed y cyttundeb mewn pum niwrnod rhyngddo ef a'r gwladweinydd Isellmynaidd enwog, De Witt. Bu yn genadwr yn yr Hague; ac yr oedd ganddo law fawr yn yr ymdrafodaeth o ddwyn oddi amgylch briodas rhwng y Tywysog o Orange a'r Dywysoges Mary. Yn ofer y ceisiodd Siarl II. ganddo gymmeryd y swydd o ysgrifenydd y wladwriaeth: ond er ei fod yn ymwrthod â swyddau llafurus o'r fath, ymdrechai i ddiwygio y llywodraeth drwy sefydlu, gyda chydsyniad y brenin, cyfringynghor, cynnwysedig o ddeg ar hugain o bersonau, gan benderfyniadau yr hwn yr addawodd y brenin gymmeryd ei arwain mewn achosion cyhoeddus. Ond profi yn fethiant a wnaeth y cynghor hwn, fel y gallesid rhagweled y gwnelai ar y fath adeg o gydymgais rhwng gwahanol bleidiau. Trodd Temple ei gefn ar wleidyddiaeth, ac ymneillduodd i'r wlad. Wedi i William III. esgyn i'r orsedd, ar ol y chwyldroad yn 1688, cymmhellwyd Temple drachefn i gymmeryd y swydd o ysgrifenydd y wladwriaeth; ond gwrthododd y tro hwn etto fel o'r blaen. Am y deng mlynedd gweddill o'i oes, preswyliai gan mwyaf yn ei balas, yn Moor Park, yn Surrey, lle y cymmerai hyfrydwch mawr yn ei erddi a'i blanigfeydd. Yn y blynyddoedd hyn yr oedd Jonathan Swift yn ysgrifenydd iddo. Bu farw yn Moor Park, yn Ionawr 1699, yn 77ain mlwydd oed. Cyhoeddwyd ei weithiau llenyddol mewn pedair cyfrol.

TEMTASIWN—IO (*tentatio; temptation*): prawf, llithiad, profedigaeth. Mae yr ymadrodd yn cael ei arfer mewn ystyr da a drwg, yn ol y bwriad a fyddo mewn golwg. Temtiodd Duw Abram, trwy orchymyn iddo offrymu ei fab Isaac: *Gen.* xxii. 1. 'Temtio' ydyw y gair a ddefnyddir yn y Beibl Saesneg, ond 'profi' yn y Beibl Cymraeg. Amcan yr Arglwydd oedd profi ei ufudd-dod a'i ffydd ef, "i blymio dyfnder a mesur uchder ffydd ei was," ac i'w gadarnhau a'i nerthu drwy y prawf hwn, yn gystal ag i gael ynddo esampl o ufudd-dod ffydd i oesoedd dyfodol. Mewn ystyr gwahanol y dywedir yn *Iago* i. 13, "Na ddyweded neb pan demtier ef, Gan Dduw y'm temtir. Canys Duw nis gellir ei demtio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb. Canys yna y temtir pob un, pan y tyner ef, ac y llithier gan ei chwant ei hun." Yn yr ystyr yma y gelwir Satan *y temtiwr: Mat.* iv. 3. Dywed Paul na oddef yr Arglwydd i ni gael ein temtio uwch law yr hyn y gallwn ei ddwyn: 1 *Cor.* x. 13; gwel hefyd *Heb.* ii. 18. Dywedir fod dynion yn temtio Duw, pan y maent yn afresymol yn gofyn am brawflon o allu, presennoldeb, neu ddaioni yr Arglwydd. Caniateir i ni, yn ddiammheuol, i geisio cynnorthwyon dwyfol, ac i weddïo ar Dduw am yr hyn y byddo arnom ei angen; ond ni oddefir i ni ei demtio ef, nac i wneuthur ein hunain yn agored i beryglon na allem ddiangc rhagddynt, ond yn unig trwy gyfryngiad gwyrthiol ei hollalluawgrwydd ef: *Exod.* xvi. 2, 7, 17; *Num.* xx. 12; *Salm* lxxviii. 18, 41, &c.

Y mae dynion yn temtio, neu yn profi, y naill y llall pan y bydd arnynt eisieu gwybod a ydyw pethau mewn gwirionedd fel yr ymddangosant; a ydyw y rhai a brofir yr hyn y tybir, neu yr hyn y dymunir iddynt fod. Daeth brenhines Seba i brofi doethineb Solomon, trwy ofyn iddo gwestiynau celyd ac anhawdd eu hatteb: 1 *Bren.* xi. 1; 2 *Cron.* ix. 1. Wrth demtasiwn yn gyffredin y deallir deniad person i gyflawni pechod trwy gynnyg iddo ryw fantais ymddangosiadol. Dywed un fod pedwar o bethau mewn temtasiwn: yn 1af, Twyll. 2il, Llygriad. 3ydd, Llithiad. 4ydd, Distryw. Ffynnonellau temtasiwn ydynt y diafol, y cnawd, a'r byd. Yr ydys yn agored i demtasiynau yn mhob sefyllfa, yn mhob lle, ac ar bob adeg ar fywyd. Fe allai eu bod yn cael eu goddef mewn modd doeth er dangos ein gwendid, i brofi ein ffydd, i chwanegu ein gostyngeiddrwydd, ac i'n dysgu i roddi ein goglud a'n dibyniaeth ar allu dwyfol. Etto ni ddylem redeg i gyfarfod temtasiynau, ond yn hytrach gwylio a gweddïo; gochel cwmni pechadurus, a dychrynu rhag y canlyniadau ofnadwy o roddi ffordd i demtasiynau.

TERAH: tad Abram, Nachor, a Haran; a thrwyddynt hwy yr oedd yn dad i genhedloedd mawrion yr Israeliaid, yr Ismaeliaid, y Midianiaid, y Moabiaid, a'r Ammoniaid: *Gen.* xi. 24—32. Nid ydyw yr hanes a geir am dano yn yr Hen Destament ond byr. Yr ydym yn deall oddi wrtho mai eilunaddolwr ydoedd (*Ios.* xxiv. 2), a'i fod yn trigo y tu hwnt i'r Iorddonen, yn Ur y Caldeaid (*Gen.* xi. 28); a phan yr ymfudodd tua'r de-orllewin, yn ei hen ddyddiau, am ryw reswm nad yw yn cael ei wneuthur yn hysbys, efe a aeth gyda'i fab Abram, ei ferch-yn-nghyfraith Sarai, a'i ŵyr Lot, "i dir Canaan, ac a ddaethant hyd yn Haran, ac a drigasant yno;" *Gen.* xi. 32. Y mae anhawsder amseryddol yn

Digitized by Google

ymddangos mewn cyssylltiad â'r digwyddiad hwn. Yn araeth Stephan (*Act.* vii. 4) dywedir nad ymfudodd Abram mor bell a Haran hyd ar ol marwolaeth ei dad. Yn awr, gan fod Terah yn ddau cant a phum mlwydd oed pan fu farw, ac Abram yn bymtheg a thrigain pan y gadawodd Haran (*Gen.* xii. 4), y mae yn canlyn, os yw araeth Stephan yn gywir, fod Terah, pan anwyd Abram, yn gant a deg ar hugain oed; ac felly nad ydyw y drefn yn mha un y mae ei feibion—Abram, Nachor, a Haran—yn cael eu rhoddi, yn *Gen.* xi. 26, 27, yn eu nodi yn ol eu hoedran. Dywed Hervey, y "gellir yn rhwydd roddi cyfrif am yr anhawsder, trwy dybied nad Abram, er ei fod yn cael ei enwi gyntaf, o herwydd ei urddas, oedd y mab hynaf, ond yr ieuangaf o'r tri dybygid, ac wedi ei eni pan oedd ei dad yn gant a deg ar hugain oed—tybiaeth sydd yn hollol gysson â phriodas Nachor gyda Milcah, merch ei frawd hynaf, Haran, a'r agosrwydd oedd mewn oedran rhwng Abram a Lot, a'r tair cenhedlaeth o Nachor i Rebecca oedd yn cyfatteb i'r ddwy oedd o Abraham i Isaac." O ffeithiau syml bywyd Terah, fel y ceir hwynt yn yr Hen Destament, y mae holl amgylchiadau chwedleuol bywyd Abram wedi eu nyddu yn nhraddodiadau yr Iuddewon a'r Arabiaid. Y mae Terah, yr eilunaddolwr, yn cael ei droi yn wneuthurwr delwau, ac 'Ur y Caldeaid' yn cael ei ystyried yr un peth a'r 'ffwrnais' i'r hon y taflwyd Abram, yn ol y chwedl. Mewn sylw ar *Gen.* xi. 28, dywed Rashi fel y canlyn :—"'Yn mhresennoldeb Terah ei dad:'—yn nhymmor bywyd ei dad. A dywed y *Midrash Hagada* i Haran farw yn ochr ei dad, o herwydd fod Terah wedi cwyno o flaen Nimrod, ynghylch ei fab Abram, ei fod wedi tori ei ddelwau ef, ac i'r teyrn hwnw ei daflu ef i ffwrn o dân. Ac eisteddai Haran yno gan ddywedyd ynddo ei hun, Os gorthrechu a wna Abram, byddaf ar ei du ef; ac os gorthrechu a wna Nimrod, byddaf ar ei du yntau. A phan y gwaredwyd Abram, dywedasant wrth Haran, Ar du pwy yr wyt ti? Efe a ddywedodd, Yr wyf fi ar du Abram. Yna taflwyd yntau i'r ffwrn dân, a llosgwyd ef; a hyn a olygir wrth *Ur Casdim*—Ur y Caldeaid." Yn *Bereshith Rabba*, adroddir chwedl am Abram yn cael ei adael i werthu delwau yn lle ei dad. Nid oedd y chwedlau hyn yn hysbys i Josephus; ac nid yw efe yn dywedyd dim am Terah, ond yn unig mai gofid o herwydd marwolaeth ei fab Haran a'i cymmhellodd ef i adael Ur y Caldeaid.

TERES: un o'r ddau eunuch a gadwent ddrws palas Ahasferus, y darganfyddodd Mordecai eu bradfwriad i roddi y brenin i farwolaeth —*Esth.* ii. 21; vi. 2. Crogwyd y bradwr. Yr enw a rydd Josephus arno ydyw Theodestes ["*Hynaf. Iudd.*" xi. 6, *adr.* 4], a dywed i'r bradgynllwyn gael ei ddarganfod yn gyntaf gan Barnabazus, gwas un o'r eunuchiaid, yr hwn ydoedd Iuddew o genedl, a'r hwn a'i dadguddiodd i Mordecai. Yn ol Josephus, rhoddwyd y cynllwynwyr i farwolaeth drwy eu croeshoelio.

TERTIUS: yr hwn a ddefnyddiwyd gan Paul i ysgrifenu ei Epistol at y Rhufeiniaid: *Rhuf.* xvi. 22. Gan hyny, yr oedd yn bresennol yn Corinth, ac yn Cenchrea, porthladd Corinth, pan y cyfansoddodd yr apostol ei lythyr at eglwys Rhufain. Y mae yn beth hynod fod Tertius yn tori i mewn ar y genadwri a anfonai Paul at y Cristionogion Rhufeinaidd, ac yn anfon anerch atynt yn ei enw ei hun yn y person cyntaf. Y mae yr amgylchiad hwn, ynghyd â bod yr enw yn un cyffredin yn mysg y Rhufeiniaid, yn arwyddo mai Rhufeinwr oedd Tertius, a'i fod yn adnabyddus i'r bobl a gyferchid gan Paul yn niwedd ei lythyr. Y mae Secundus (*Act.* xx. 4), yn enghraifft arall o'r defnydd a wneid o'r drefn Ladinaidd o seinio enwau priodol. Nid oes dim yn wybyddus am Tertius ond yr hyn a fynegir yn yr Epistol at y Rhufeiniaid.

TERTULLIAN, QUINTUS SEPTIMIUS FLORENS: ysgrifenydd neu awdwr Cristionogol, ac un o dadau yr eglwys. Mab ydoedd i ganwriad yn y fyddin Rufeinig a weithredai o dan raglaw Affrica. Ganwyd ef yn Carthage. Dygwyd ef i fyny yn bagan; a phan yn ieuangc bu fyw yn benrhydd, gan ddangos hoffder mawr at bob math o arddangosiadau a chwareuon cyhoeddus. Ni wyddys mwy am ei fywyd a'i fuchedd pan oedd yn bagan. Yn ol disgrifiad Eusebius, yr oedd yn hynod am eangder ei wybodaeth o gyfreithiau Rhufain; ac yn wir y mae ei ysgrifeniadau yn arwyddo hyn. Oddi wrth yr amgylchiad hwn y mae rhai wedi tybied mai dadleuydd oedd efe; ond nid yw hyn ond tybiaeth. Nid oes dim yn wybyddus ynghylch ei dröedigaeth. Daeth yn henadur yn yr eglwys; ond pa un a weinyddodd y swydd hon yn Rhufain neu yn Carthage, sydd bwngc o ddadl. Nid ydyw yr hysbysrwydd a geir yn ei gylch yn ddigon i benderfynu y cwestiwn. Y mae yn eithaf sicr iddo dalu ymweliad â Rhufain, a'i fod yn gwybod yn dda am faterion yn dwyn perthynas â'r eglwys ynddi. Yr oedd hefyd yn ŵr priod; a chan fod ei wraig yn Gristion, tybir iddo briodi ar ol ei dröedigaeth. Wedi bod yn henadur nes cyrhaedd canol ei ddyddiau, efe a fabwysiadodd syniadau y Montaniaid. Priodola Jerome ei waith yn cofleidio Montaniaeth i'r modd cywilyddus yr ymddygwyd tuag ato gan glerigwyr Rhufain. Ond y mae yn debyg nad ydyw hyn o hanes yn hollol gywir. Yr oedd clerigwyr Rhufain wedi ymddwyn yn annheilwng tuag at Jerome ei hun; gan hyny yr oedd tuedd ynddo i'w beio hwynt. Ond y mae yn nghymmeriad a thuedd gyffredinol syniadau Tertullian ddigon o eglurhâd ar y ffaith ddarfod iddo fabwysiadu syniadau Montanaidd. [Gwel MONTANIAID.] Bu fyw i fyned yn hen, a pharhaodd yn Fontaniad hyd y diwedd. Nid oes genym wybodaeth fanwl am y dyddiadau yn mywyd Tertullian. Jerome a ddywed ei fod yn blodeuo o dan deyrnasiadau Severus ac Antoninus Caracalla. Dywed Allix iddo gael ei eni yn B.A. 145, neu 150, ac i'w farwolaeth gymmeryd lle yn B.A. 220; ond nid ydyw hyn ond tybiaeth.

Y mae pob peth yn arwyddo fod Tertullian yn ddyn o dymmherau poeth, a bron yn nwydwyllt. Medrai garu a chasau yn angerddol. Diammheuol ei fod yn ddyn o feddwl diwylliedig, a'i fod yn dra adnabyddus o'r cyfreithiau Rhufeinaidd, athroniaeth henafol, a hanesyddiaeth a barddoniaeth. Nid oedd yn ddiffygiol mewn gallu athronyddol; ond tueddai at fod yn gul, dallbleidiol, a rhagfarnllyd. Ychydig o gydymdeimlad oedd ganddo â damcaniaethau Groegaidd a rhyddid meddyliol, ac yr oedd yn tueddu i gymmeradwyo bywyd meudwyol a chaled. Ni raid rhyfeddu, gan hyny, ddarfod iddo gofleidio syniadau y Montaniaid, a dadgan fod priodi mwy

Digitized by Google

nag unwaith yn odineb, a'i fod yn anghyfreithlawn i ffoi yn amser erledigaeth, ac na ddylesid derbyn yn ol wrthgiliwr i gymmundeb yr eglwys. Y mae ei ysgrifeniadau yn lliosog. Y mae ymgais wedi ei wneyd i ysgaru y rhai a ysgrifenwyd cyn iddo fabwysiadu syniadau Montanaidd oddi wrth y rhai a ysgrifenwyd ganddo wedi hyny; ond troi yn fethiant a wnaeth yr ymgais hwn, o herwydd wrth ymdrin â llawer pwngc ni buasai angen am iddo ddywedyd dim am yr Ysbryd Glân, ail briodasau, nac erledigaeth. Y mae ei weithiau yn dra dyddorol, ac yn taflu goleuni mawr ar amgylchiadau mewnol yr eglwys ar y cwestiynau cymdeithasol oedd yn dyrysu Cristionogion, ar opiniynau hereticiaid, âc ar ddadblygiad syniadau. Cafodd ei ysgrifeniadau ddylanwad mawr ar oesau dilynol, ond yn enwedig ar Cyprian. Dywed Jerome, "Mi a welais yn Concordia, yn Italy, hen ŵr o'r enw Paulus. Efe a ddywedai ei fod ef, pan yn ieuangc, wedi cyfarfod yn Rhufain â hen ysgrifenydd i Cyprian, yr hwn a ddywedasai wrtho nad oedd un diwrnod yn myned heibio gyda Cyprian na ddarllenai efe ryw gyfran o weithiau Tertullian; ac arferai ddywedyd yn fynych "Estynwch i mi fy meistr," gan olygu Tertullian, pan yn myned i ddarllen.

TERTULUS: areithiwr neu ddadleuwr Rhufeinaidd, a gyflogwyd gan yr archoffeiriad neu y Sanhedrim i gyhuddo yr apostol Paul yn Cesarea o flaen y rhaglaw Ffelix: *Act.* xxiv. 1. Areithiwr, dybygid, oedd efe wrth ei alwedigaeth, o ba rai yr oedd lliaws i'w cael, nid yn unig yn Rhufain, ond mewn rhanau ereill o'r ymherodraeth, oeddynt bob amser yn barod i ddadleu achosion o flaen ynadon a rhaglawiaid talaethol. Gellir casglu oddi wrth ei enw, ac oddi wrth y tebygolrwydd mawr fod y gweithrediadau yn cael eu dwyn yn mlaen yn yr iaith Lladin, mai Rhufeinwr oedd Tertulus, neu o leiaf ei fod o haniad Italaidd. Hollol naturiol oedd i'r Sanhedrim fod yn awyddus am sicrhau ei wasanaeth ef, o herwydd eu hanwybodaeth hwy eu hunain o'r iaith Lladin ac arferion cyffredin llys Rhufeinaidd. Yr oedd rhagarweiniad ei araeth wedi ei fwriadu i ennill cymmeradwyaeth y rhaglaw, ac o ganlyniad y mae yn llawn gweniaith. Y mae yn anhawdd penderfynu a ddarfu i Luc gadw araeth Tertulus yn llawn. Ar un llaw y mae iddi ddechreu llafurfawr a godidog, yr hwn nas gall lai na bod yn adroddiad cywir o'r rhan hono o'r araeth; ac ar y llaw arall, ceir hanes mor fyr a sych, fel, os nad oedd yr araeth yn hwy na hyny, nas gellir gweled yn iawn i ba beth y galwyd am wasanaeth yr areithiwr o gwbl. Ar y cyfan, ymddengys ei fod yn fwy naturiol i dybied nad ydyw yr hanesydd, yr hwn yn ddiammheu oedd yn gwrando ac yn clywed, yn rhoddi dim ond crynodeb o'r araeth, gan roddi y darnau pwysicaf yn llawnaf.

TESTAMENT: llythyr cymmun, ewyllys diweddaf un. Y mae yn cael ei gymmeryd yn fynych yn yr Ysgrythyr i arwyddo cyfammod, y gyfraith, a'r addewidion. Gwel CYFAMMOD.

TESTAMENT, HEN A NEWYDD. Gwel BEIBL.

TETRARCH (τετράρχης). Mewn ystyr priodol, tetrarch ydyw penadur neu lywodraethwr ar y bedwaredd ran o wlad. Yn y Testament Newydd yr ydym yn cyfarfod â'r enw yn cael ei gymmhwyso at dri o bersonau:—

1. HEROD ANTIPAS (*Mat.* xiv. 1; *Luc* iii. 1, 19; ix. 7; *Act.* xiii. 1): yr hwn a elwir yn gyffredin 'Herod y tetrarch,' er fod y teitl o 'frenin' yn cael ei roddi arno gan Matthew (*pen.* xiv. 9), a chan Marc (*pen.* vi. 14). Y mae Luc yn rhoddi y teitl ffurfiol, yr hwn a adnabyddid gan ddarllenwyr yn mysg y cenhedloedd. Disgrifir Herod ganddo fel "tetrarch Galilea;" ond yr oedd ei diriogaeth, yn ol ewyllys ei dad, Herod Fawr, yn cynnwys dosbarth Peræa—y tu hwnt i'r Iorddonen ["*Hynaf. Iudd.*," xvii. 8, *adr.* 1]. Cydsyniodd Augustus â'r dymuniad hwn o eiddo Herod.—"*Rhyf. Iudd.*," ii. 6, *adr.* 3. Ar ol darostyngiad ac alltudiaeth Antipas, chwanegwyd ei detrarchaeth ef at deyrnas Herod Agrippa I. gan yr ymherawdwr Caligula.

2. HEROD PHYLIP (mab Herod Fawr a Cleopatra): am yr hwn y dywedir yn *Luc* iii. 1, ei fod yn "detrarch Iturea a gwlad Trachonitis." Dywed Josephus i'w dad adael iddo ef Gaulonitis, Trachonitis, a Paneas ["*Hynaf. Iudd.*" xvii. 8, *adr.* 1], a bod ewyllys ei dad wedi ei chadarnhau gan Augustus; yr hwn a roddodd iddo Batanæa, Trachonitis, ac Auranitis, gyda pharthau neillduol o amgylch Iamnia oedd yn perthyn i "dŷ Zenodorus."—"*Rhyf. Iudd.*," ii. 6, *adr.* 3. Gan hyny yr oedd tiriogaethau Phylip yn cyrhaedd yn ddwyreiniol o'r Iorddonen i'r anialwch, ac o gyffiniau Peræa yn ogleddol tua Lebanon a chymmydogaeth Damascus. Ar ol marwolaeth Phylip chwanegwyd ei detrarchaeth ef at dalaeth Syria gan Tiberius, ac wedi hyny rhoddwyd hi gan Caligula i Herod Agrippa I., gyda'r teitl o frenin.

3. LYSANIAS: yr hwn y dywedir am dano yn *Luc* iii. 1, ei fod yn "detrarch Abilene"—cyfran fechan o'r wlad o amgylch Abila, yn nyffryn ffrwythlawn Barada, rhwng Damascus a thrum mynyddoedd yr Anti-Libanus. Y mae ychydig o anhawsder i benderfynu terfynau ei detrarchaeth, ac i wybod pwy oedd y tetrarch hwn. Yr ydym yn cael, yn ol Josephus, pa fodd bynag, fod un o'r enw Lysanias wedi bod yn detrarch yn Abila cyn amser Caligula, yr hwn a chwanegodd y detrarchaeth hon at diriogaethau Herod Agrippa I.—yr hyn a gadarnhawyd gan Claudius.

Y mae yn gorphwys arnom ymofyn pa un a ydyw y teitl *tetrarch*, fel y cymmhwysir ef at y tywysogion hyn, yn dwyn perthynas â'r ystyr geiriol sydd iddo. Gwelsom ei fod yn cael ei gymmhwyso, dybygid, y pryd hwn, at fân dywysogion heb fod y fath ystyr manwl iddo. Ond ymddengys oddi wrth Josephus ["*Hyn. Iudd.*" xvii. 11, *adr.* 4; "*Rhyf. Iudd.*," ii. 6, *adr.* 3], fod tetrarchaeth Antipas a Phylip yn cael eu hystyried megys yn gwneyd i fyny y bedwaredd ran bob un o deyrnas eu tad. O herwydd mynegir i ni fod Augustus wedi rhoddi un hanner o deyrnas Herod i'w fab ef, Archelaus, gan ei alw yn *ethrarch*, gydag addewid o deitl brenhinol, a'i fod wedi rhanu y llall yn ddwy detrarchaeth. Heb law hyny, yr oedd cyllid Archelaus o'i diriogaethau, a gynnwysent Iudea, Samaria, ac Idumea, yn cyrhaedd yn y cwbl i bedwar cant o dalentau, a thetrarchaethau Phylip ac Antipas yn cynnyrchu dau can talent bob un. Yr ydym yn casglu yn y ddwy enghraifft hyn, o leiaf, fod y teitl yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr manwl a llythyrenol.

TETZEL, JOHN: dyn hynod o adnabyddus

Digitized by Google

mewn cyssylltiad â'r ddadl ynghylch maddeuant-lythyrau y pab, allan o'r hon, fel achlysur, y dygwyd oddi amgylch y Diwygiad mawr Protestanaidd, a anwyd yn Leipsic, rhwng y blynyddoedd 1450 a 1460. Gofaur yn y ddinas hono oedd ei dad ef. Ar ol gorphen yr amser arferol yn yr ysgolion cyhoeddus, efe a aeth yn fynach Dominicaidd i fynachdy St. Paul, yn 1489, ac a enillodd gryn sylw ac enwogrwydd yn fuan fel pregethwr poblogaidd. Y mae llawer o ddadleu wedi bod ynghylch ei gymmeriad personol; ond y mae y cwestiwn ynghylch addysgiaeth y gŵr hwn yn fwy pwysig. Parodd ei allu a'i lwyddiant fel pregethwr iddo gael ei bennodi i bregethu a gwerthu maddeuant-lythyrau, er cael arian i adeiladu Eglwys St. Pedr yn Rhufain. Cariodd hyn i eithafion nad oes neb a all ei gyfiawnhau; ond y mae y Pabyddion yn haeru nad oedd yn pregethu y maddeuantau hyn heb edifeirwch, nac yn cynnyg pardynau am bechodau cyn eu cyflawni. Teithiai gyda'r rhwysg mwyaf ar ei deithiau pan yn cyflawni y gwaith hwn. Yn erbyn pregethiad Tetzel y darfu i Martin Luther gyhoeddi ei osodiadau (*thesis*) enwog ar yr 31ain o Hydref, 1517. Gwel d. g. LUTHER. Attebodd Tetzel hwynt yn gyntaf trwy losgi gosodiadau Luther; ond wedi hyny efe a gyhoeddodd wrthosodiadau; ac yn Mai, 1518, attebodd bregeth enwog Luther ar y llythyrau. Ysgrifenodd Tetzel lythyr at Miltitz, cenad y pab, yn atteb cyhuddiadau ei wrthwynebwyr; ond wedi iddo amddiffyn ei hun felly, gwysiwyd ef i ymddangos o flaen Miltitz yn Leipsic y flwyddyn ddilynol, a derbyniodd gerydd llym am yr arfer a wnaethpwyd ganddo o iaith anghymmedrol ac eithafol; ac efe a'i cyhuddodd drwy hyny o ddwyn gwarth ar yr eglwys. Deisyfwyd arno fyned yn ol i'w fynachdy yn Leipsic; ac yno y bu farw, o ofid meddwl, meddir, yn mis Awst, 1519.

TETHOGION (*Mammalia*). Gair a gymmhwysir mewn hanesyddiaeth naturiol at y creaduriaid hyny sydd yn rhoddi llaeth i'w rhai bach; ac y mae o ganlyniad yn cynnwys, nid yn unig yr holl greaduriaid pedwar troediog, a elwir yn gyffredin felly, ond hefyd y rhai hyny o'r llwythau morfilaidd sydd yn gwneuthur hyny. Ffurfia y tethogion y dosbarth cyntaf o'r deyrnas anifeilaidd, a gellir eu disgrifio fel y canlyn:—Y maent yn esgor ar eu rhai bach yn fyw, ac yn eu maethu â'u llaeth eu hunain; y maent yn meddu calon â dwy boten (*ventricles*), ysgyfaint, gwaed cynnhes, ymenydd mawr, synwyrau cyflawn, a llengig (*diaphragm*) gewynol rhwng y fron a gwaelod y bol. Y mae hanesyddiaeth naturiol y pedwar troedogion yn ddiau yn ffurfio rhan ddyddorol a phwysig o filofyddiaeth. Y mae yr efrydiaeth o ffurfiad corphorol y creaduriaid hyn wedi bod yn dra manteisiol i daflu goleuni clir ar amryw bethau a fuasent yn dywyll am amser maith yn nghyfansoddiad y corph dynol. Ni raid dywedyd fod dyn, o ran ei gorph, er ei briodoleddau ysbrydol, ei natur ddeallol, a'i anfarwoldeb, mewn llawer o bethau yn ymdebygoli i'r anifeiliaid a ddyfethir. Am ddefnyddioldeb y pedwar troedogion, nid ydyw yn angenrheidiol i ni ddyweyd eu bod yn dra gwasanaethgar i ddyn. Heb y march, yr ych, y ddafad, a'r ci, mor wahanol fuasai sefyllfa gymdeithasol, fasnachol, a gwleidyddol cenedloedd mwyaf gwareiddiedig y byd i'r hyn ydyw! Mor dlawd fyddai y Laplandwr heb y carw, a'r Arabiad heb ei gamel yn anialdir Affrica. Diammheu fod y creadur mwyaf distadl a greodd y Creawdwr yn teilyngu sylw, nid yn unig yr athronydd anianyddol, ond pob meddwl diwylliedig; etto y mae yn rhaid addef mai y creaduriaid ag y mae mwyaf o gyssylltiad rhwng dynion a hwy sydd yn hawlio y sylw blaenaf.

Y mae yn ngweithiau awdwyr hynafol rai egwyddorion gwerthfawr yn cael eu nodi allan na welwyd eu pwysigrwydd hyd amseroedd diweddar; etto, ar y cyfan, nis gellir dyweyd fod un gwaith o hynafiaeth mawr yn rhoddi darluniad cywir a manwl o'r creaduriald hyn. Yn y gweithiau hyny y mae ffeithiau a chwedleuon yn gymmysgedig â'u gilydd. Yr hen awduron a ymdrinasant fwyaf ar eu natur a'u hanes ydyw Aristotle, Pliny, ac Ælian. Gelwir Aristotle yn 'dad hanesiaeth naturiol;' ac efe yn ddiau oedd y cywiraf o'r hynafiaid. Y mae ei lyfr cyntaf o "Hanes Anifeiliaid" yn cynnwys disgrifiad o wahanol ranau eu cyrph, a'r gwahaniaeth yn nulliau y creaduriaid o fyw. Haera mai dyn yn unig sydd yn meddu y gallu i gynllunio; ac er fod llawer o greaduriaid ereill wedi eu cynnysgaeddu â chof, a gallu i ddysgu rhai pethau, nad oes un yn meddu y gallu i adfeddwl ond dyn. Dywed fod y synwyr o deimlad yn gyffredin i'r holl anifeiliaid; bod yn mhob creadur bywydol irder a gwaed, a bod marwolaeth yn dilyn y golled o honynt bob amser; a bod pob rhywogaeth sydd yn meddu adenydd â chanddynt ddau droed. Yn yr ail lyfr, y mae efe yn myned yn mhellach i fanylion, ac y mae llawer o'i sylwadau yn nodedig o gywir, tra y mae ereill yn hynod o anghywir. Yn y trydydd llyfr, y mae yn ymdrin âg anianddysg y cwestiwn. Ac yn y pedwerydd, â'r mân greaduriaid hyny a ystyrid ganddo ef yn amddifaid o waed; ond y mae yn britho hwnw â sylwadau cywir a tharawiadol ar ddosbarthiadau uwch o greaduriaid. Cynnwysa y gwaith i gyd naw llyfr; ac ymdrina â'r pwngc yn nodedig o lwyr wrth ystyried yr amser yr ysgrifenwyd ef. Gwnaeth lawer o wasanaeth i ddifyniaeth a hanesiaeth naturiol—ïe, "gwnaeth fwy, fe allai," medd Dr. Barclay, "nag y gallasai un dyn arall ei wneyd, oddi gerth Haller neu Linnæus, mewn amgylchiadau cyffelyb."

Aeth yn agos i dri chant a hanner o flynyddoedd heibio ar ol marwolaeth Aristotle cyn genedigaeth Pliny; yr hwn a anwyd yn ystod teyrnasiad Tiberius, ac yn yr ugeinfed flwyddyn o'r cyfnod Cristionogol. Casglodd ynghyd yr oll oedd yn wybyddus ar y pryd ar y pwngc hwn; ac er nad oedd yn sylwedydd mor graff, nac yn meddu barn mor addfed a'i ragflaenor mawr, y mae ei weithiau yn hynod o gywrain a gwerthfawr. Ei "*Hanesiaeth Naturiol*" oedd ei waith diweddaf, ac yn anffodus yr unig un sydd wedi dyfod i lawr i'r amser presennol. Gwel PLINY YR HYNAF.

Yr unig ddau ereill o'r hen awduron a enwir genym ydyw Ælian ac Oppian. Cyfenwid y blaenaf o herwydd dymunoldeb ei arddull, y 'Mêl-dafod,' a blodeuodd yn y rhan ddiweddaf o'r ail ganrif, ac ysgrifenodd hanes anifeiliaid Groeg—gwaith, y mae yn rhaid addef, sydd yn llawn o chwedlau ynfyd. Bardd oedd yr olaf, yn byw yn y rhan gyntaf o'r drydedd ganrif, am yr hwn y mynegir iddo dderbyn gan yr ymherawdwr Caracalla ddarn coron o aur am bob llinell a ysgrifenodd.

Ychydig o sylw o gwbl a dalwyd i'r gangen

yma o wybodaeth yn y canol-oesoedd, ond yn y drydedd ganrif ar ddeg, ysgrifenodd Albertus Magnus waith ar hanes anifeiliaid, sydd yn gynnyrchl lenyddol rhyfeddol, wrth ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi. Yn y rhan fwyaf o'i waith, ymddengys mai esbonio Aristotle, neu ddyfynu o weithiau Arabiaid dysgedig yr oedd. I fyned heibio y ddau can mlynedd dyfodol, yr ydym yn cael enwau rhai ysgrifenwyr enwog yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd Conrad Gesner yn frodor o Zurich, yn Switzerland; yr hwn a ysgrifenodd waith ar hanes anifeiliaid, mewn pum llyfr, yn llenwi amryw o gyfrolau pedwarplyg. Y mae y casgliad enwog hwn yn cynnwys adolygiad beirniadol lled faith o'r hyn a ddarganfyddwyd yn flaenorol mewn milofyddiaeth, ond y mae yntau hefyd yn cael ei wneyd i fyny yn benaf o ddyfyniadau o hen awduron. Yn yr un ganrif y blodeuodd pedwar o naturiaethwyr, a phob un o'r pedwar, yn ei lwybr ei hun, yn deilwng i gael eu galw yn fawr; sef, Pierre Belon, Hippolito Salviani, Guillaume Rondelet, ac Ulysses Aldrovandi. Ond y mae yn rhaid addef, er cymmaint a ysgrifenwyd gan yr awduron hyn, na wnaed ond ychydig iawn o gynnydd mewn milofyddiaeth. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, modd bynag, gwnaed cryn gynnydd. Y naturiaethwr Prydeinig enwog, John Ray, oedd un o'r rhai penaf a ymddangosodd yn y cyfnod hwnw. Y mae yr awdwr hwn yn ei weithiau, yn dosbarthu y creaduriaid, yn disgrifio eu ffurf allanol a'u cyfansoddiad mewnol, ac yn egluro trwy lawer o engreifftiau dyddorol a phwysig eu harferion greddfol. Dywed Cuvier am dano, fod ei ysgrifeniadau "yn cynnwys trefn fanylach nag un a ddefnyddiwyd gan ei ragflaenoriaid, a'i fod yn ei chymmhwyso hefyd gyda mwy o gyssondeb a chywirdeb. Y mae y dosbarthiad a wnaeth rhwng y creaduriaid pedwar-troediog a'r adar wedi ei ddilyn gan y naturiaethwyr Saesnig yn gyffredin o'r bron hyd y dyddiau hyn." Y naturiaethwr penaf a fu rhwng Ray a Linnæus oedd y Ffrangcwr, Rèaumur. Y mae ei draethawd ar drychfilod yn hynod o werthfawr.

Yr ydym yn awr wedi dyfod at gyfnod newydd mewn hanesiaeth naturiol, pan y blodeuodd yr anfarwol Linnæus—bywyd a llafur yr hwn sydd mor adnabyddus. Gwel LINNÆUS. Yr oedd ysgrifeniadau Linnæus yn hynod liosog; ond nid oes a fynom yma ond â'i drefniad o'r llwythau tethogol o greaduriaid, yr hyn a ddygodd gynnifer o elfenau mor glir a phendant nad oeddynt yn flaenorol yn nemawr amgen na chymmysgfa o dywyllwch ac ansicrwydd, fel nad oes ond ychydig o welliantau, a'r rhai hyny yn gymmharol ddibwys, wedi eu gwneyd yn y gangen hono o filofyddiaeth hyd heddyw. Y deuddegfed argraphiad o'i weithiau a ystyrir y goreu, sef yr olaf a ddiwygiwyd gan yr awdwr ei hun. Cyhoeddwyd yr argraphiad yma yn Stockholm, yn 1766, ac o hono ef y mae y crynodeb a ganlyn o'i drefniad o ddosbarth y tethogion wedi ei gymmeryd.

*Trefniad* I.—PRIMATES.

*Homo*, Dyn.
*Simia*, Eppaod a mwnci'od: tair ar ddeg ar hugain o rywogaethau.
*Lemur*, Macauco: pum rhywogaeth.
*Vespertilio*, Ystlymod: chwe rhywogaeth.

*Trefniad* II.—BRUTA.

*Elephas*, Elephant: un rhywogaeth.



*Trichechus*, Môr-fuwch (*Walrus*): dwy rywogaeth.
*Bradypus*, Y Mewydyn (*Sloth*): dwy rywogaeth.
*Myrmecophaga*, Grug-arth (*Ant-eater*): pedair rhywogaeth.
*Manis*, Manis: dwy rywogaeth.
*Dasypus*, Armellog (*Armadillo*): chwe rhywogaeth.

*Trefniad* III.—FERÆ.

*Phoca*, Morlo (*Seal*): tair rhywogaeth.
*Canis*, Ci, blaidd, llwynog, &c.: naw rhywogaeth.
*Felis*, Llew, dywalgi, cath, &c.: saith rhywogaeth.
*Viverra*, Cathfwsg (*Civet*): saith rhywogaeth.
*Mustela*, Bele, ffwlbart, &c.: un ar ddeg o rywogaethau.
*Ursus*, Arth: pedair rhywogaeth.
*Didelphus*, Opossum: pum rhywogaeth.
*Talpa*, Gwâdd: dwy rywogaeth.
*Sorex*, Chwistlen (*Shrew*): pum rhywogaeth.
*Erinaceus*, Draenog: tair rhywogaeth.

*Trefniad* IV.—*Glires.*

*Hystrix*, Ballasg (*Porcupine*): pedair rhywogaeth.
*Lepus*, Ysgyfarnog: pedair rhywogaeth.
*Castor*, Llostlydan (*Beaver*): tair rhywogaeth.
*Mus*, Llygod, mân a mawr: un ar hugain o rywogaethau.
*Sciurus*, Wiwer: un ar ddeg o rywogaethau.
*Noctilio*, math o ystlym: un rhywogaeth.

*Trefniad* V.—*Pecora.*

*Camelus*, Camel, dromedar, &c.: pedair rhywogaeth.
*Moschus*, Carw mwsg: tair rhywogaeth.
*Cervus*, Carw: saith rhywogaeth.
*Capra*, Gafr: deuddeg rhywogaeth.
*Ovis*, Dafad: tair rhywogaeth.
*Bos*, Ych: chwe rhywogaeth.

*Trefniad* VI.—BELLUÆ.

*Equus*, March, asyn, asen wyllt: tair rhywogaeth.
*Hippopotamus*, Gwyfarch: un rhywogaeth.
*Sus*, Mochyn: pum rhywogaeth.
*Rhinoceros*, Rhyncorn: un rhywogaeth.

*Trefniad* VII.—CETE.

*Monodon*, Môr-uncorn (*Narwhal*): un rhywogaeth.
*Balæna*, Morfil: pedair rhywogaeth.
*Physeter*, Morfil gwyn: pedair rhywogaeth.
*Delphinus*, Dolffyn: tair rhywogaeth.

Y prif wrthwynebiad sydd wedi ei ddwyn yn mlaen yn erbyn y gyfundrefn uchod ydyw, ei bod yn ysgaru y trefniadau *Bruta, Pecora,* a *Belluæ* oddi wrth eu gilydd. Y mae cyfundrefn Illiger yn gwahaniaethu cryn lawer oddi wrth un Linnæus. Dosbartha efe yr holl dethogion i bedwar ar ddeg o ddosbarthiadau, yn cynnwys pedwar ar bymtheg ar hugain o deuluoedd, a chwech ugain a phump o rywogaethau. Y mae Illiger, yn ei ddisgrifiad o'r tethogion, yn eu gosod allan fel creaduriaid cefnesgyrnol, yn anadlu trwy gyfrwng ysgyfaint, yn meddu gwaed coch cynnhes, calon â dwy boten a dwy glusten, llengig, a bron, a chroen diflew neu flewog, yn esgor ar rai byw, ac yn rhoddi llaeth. Er fod gwaith Desmaret ar y tethogion yn un o werth i'r efrydydd, y mae ei gyfundrefn ef o drefniad mor debyg i'r eiddo y Barwn Cuvier fel nad yw yn angenrheidiol gwneuthur sylw neillduol arni. Cafodd ei chwblhau yn 1820—22; ac yn ddiammheuol cynnwysa y crynodeb mwyaf cywir a chyflawn o'r llwythau tethogol a wnaed hyd y pryd hwnw.

Yn ol cyfundrefn Cuvier, a phob ysgrifenydd arall o bwys, gosodir y dosbarth tethogol o greaduriaid yn mlaenaf yn y deyrnas anifeilaidd,

Digitized by Google

nid yn unig am y rheswm eu bod yn ffurfio y dosbarth i'r hwn y perthyna dyn, ond am eu bod yn feddiannol ar y cyfuniad uchaf o alluoedd, y synwyrau mwyaf craff, a'r ysgogiadau mwyaf amrywiol. Gwel MILOFYDDIAETH.

TEUTONIAID: enw a roddir ar amryw genhedloedd, yn llefaru amryw ieithoedd, sydd yn ffurfio rhan bwysig o'r teulu Aryanaidd. Y mae y cenhedloedd Teutonaidd, fel y dosberthir hwynt yn bresennol, yn ymranu i ddwy gangen fawr:—1af, Y Scandinavaidd: yn cynnwys y Daniaid, Swediaid, Norwegiaid, ac Icelandiaid. 2il, Yr Almaeniaid: yn cynnwys, heb law y sawl sydd yn llefaru yr iaith Almaenaidd drwy yr holl Almaen a Switzerland, poblogaeth yr Iseldiroedd (yr Isellmyn), Fflemingiaid Belgium, a disgynyddion yr Anglo-Sacsoniaid yn Mhrydain Fawr, ynghyd â'u hiliogaeth yn ngogleddbarth America, Awstralia, a threfedigaethau Prydeinig ereill. Mae yn angenrheidiol yn yr achos hwn, fel yn mhob achos cyffelyb, i ofalu i beidio gwneyd iaith yr unig brawf i ba hiliogaeth y perthynir. Mewn llawer o fanau yn yr Almaen, lle y mae yr Almaenaeg yn cael ei siarad, yr oedd tafodiaith Sclafonaidd yn cael ei harfer hyd yn lled ddiweddar; ac mewn rhai parthau nid ydynt wedi eu llwyr roddi heibio etto. Ac yn Mhrydain Fawr nid ydys i olygu yn ddiau fod y goresgynwyr Anglo-Sacsonaidd wedi difodi y boblogaeth Geltaidd wreiddiol, nac hyd yn oed yru ond cyfran o honynt i gyrau y wlad ac i fynyddoedd Cymru. Arosodd lliaws mawr o honynt yn ddiddadl yn y rhanau o'r wlad a oresgynwyd, gan ddysgu iaith ac arferion eu llywodraethwyr, ac ymdoddi yn raddol yn rhan o honynt; fel mewn rhyw ystyr, o ran gwaedoliaeth, gellir dywedyd fod y Saeson yn mron yn gymmaint o Geltiaid ag o Teutoniaid.

Am yr amrywiol lwythau a chenedloedd oedd yn preswylio gogleddbarth Ewrop yn yr hen amseroedd, y mae yn anhawdd penderfynu pa rai a berthynent i'r teulu Almaenaidd, a pha rai oeddynt yn Geltaidd ac yn Sclavonaidd. O'r cenhedloedd Almaenaidd a gymmerasant ran yn ninystr yr ymherodraeth Rufeinig, nad oes ammheuaeth yn eu cylch, y rhai penaf ydoedd y Gothiaid, y Lombardiaid, y Vandaliaid, a'r Ffranciaid. Y mae y gair *Teutoniaid* yn deillio o *Teutones*—enw cenedl neu lwyth a grybwyllir gyntaf gan Pytheas, yr hwn a ysgrifenodd tua 320 c.c., fel pobl yn trigo yn y gorynys Cimbriaidd, neu Jutland. Nid oes un crybwylliad yn cael ei wneyd am y *Teutones* am ddau can mlynedd ar ol hyn, hyny yw hyd y fl. c. c. 113, pan y ceir eu bod wedi goresgyn Gaul, ac mewn cysylltiad â'r Cimbriaid a'r Ambroniaid yn bygwth dinystrio y weriniaeth Rufeinig. Pan yr aeth y Cimbriaid i Yspaen, gorchfygwyd y *Teutones* a'r Ambroniaid gan y consul Marius mewn brwydr yn Aquæ Sextiæ, yn Gaul, c. c. 102, pryd y lladdwyd o 100,000 i 200,000 o honynt, ac y gwnaethpwyd llawer o filoedd yn garcharorion. Ennillodd Marius fuddugoliaeth gyffelyb ar y Cimbriaid yn y flwyddyn ddilynol yn nyffrynoedd Lombardy. Y mae dadl yn mysg ieithyddwyr a haneswyr, pa un ai o darddiad Celtaidd, ynte Teutonaidd, yr oedd y Cimbriaid hyn, ac y mae ammheuon wedi eu dadgan ar hawl y *Teutones* i'w hystyried yn Almaeniaid, er fod y dysgedigion Almaenaidd mwyaf yn awr yn caniatau yr hawl. Bydded hyny fel y bo, y mae ysgrifenwyr Rhufeinaidd, ar ol amser Cæsar a Tacitus, wedi dechreu defnyddio yr ansoddair *Teutonicus* yn gyfystyr â *Germanicus;* a mabwysiadwyd yr arferiad yma yn y canol-oesoedd gan Almaeniaid a ysgrifenent yn y Lladin.

TEYRNGADAIR. Gwel GORSEDDFAINGC.

TEYRNGED *(tribute)*: treth y mae y naill dywysog neu wlad yn cyttuno neu yn cael eu gorfodi i'w thalu i'r llall, mewn trefn i sicrhau heddwch, neu fel arwydd o ddibyniaeth, yn gyffredin a olygir wrth deyrnged. Cyfeirir at y prif ffeithiau ysgrythyrol mewn cyssylltiad â thalu teyrnged o dan y gair TRETH; ond gwnawn yma ychydig sylwadau mewn cyssylltiad â'r geiriau "arian y deyrnged" a welir yn *Mat.* xvii. 24. Er fod talu hanner sicl o deyrnged yn gorphwys ar orchymyn y gyfraith a hen arferiad (*Exod.* xxx. 12—15)—etto fel treth flynyddol sefydlog, yr oedd o darddiad lled ddiweddar. Defnyddid yr arian hyn i dalu treuliadau cyffredinol y deml; megys, yr aberth boreuol a hwyrol, y perarogl, y coed, y bara gosod, yr anneri cochion, a'r bwch diangol, &c.—"*Lightfoot*" ar *Mat.* xvii. 24. Ar ol dinystr Ierusalem, diddymwyd y deyrnged hon gan Vespasian a'i olynwyr, a chyfodwyd hi tuag at dreuliau teml Jupiter.

Gellir bod o'r bron yn sicr fod hwn yn eglurhâd cywir i'w roddi ar y gair "teyrnged" yn *Mat.* xvii. 24. Y mae tybied, gyda Chrysostom, Awstin, Maldonatus, ac ereill, mai yr un ydoedd a'r deyrnged a delid i Cæsar (*Mat.* xxii. 17), yn groes i ddadganiadau pendant Josephus a'r "*Mishna,*" ac yn ysbeilio ymadroddion ein Harglwydd o'u hystyr priodol. Fel y deallir hwynt gan y rhan fwyaf o esbonwyr, nid ydynt ond haeriad o'i eiddo ei fod yn Fab Duw, a chynnwysant gerydd i Pedr am anghofio gwirionedd y gwnaethai broffes o hono mor ddiweddar:—"gan hyny y mae y plant yn rhyddion." 'Yr wyt wedi fy nghydnabod yn Fab y Duw byw, Mab y Brenin Mawr, Arglwydd y deml, er anrhydeddu yr hwn y telid teyrnged y deml:—pa ham yr anghofiaist hyn, ac yr attebaist mor fryslog, fel pe buaswn estron neu ddyeithrddyn?' Er mor gywir ydyw yr eglurhâd hwn mewn rhan, nid yw yn cyfrif am rai ffeithiau neillduol. 1af, Y lliosog, ac nid yr unigol, a ddefnyddir—"gan hyny y mae y plant yn rhyddion." Arwydda y geiriau ddosbarth o blant o'u cymmharu â dosbarth o estroniaid. 2il, Rhaid esbonio geiriau Crist yma drwy ymadroddion o'i eiddo mewn manau ereill. "Plant y deyrnas" ydynt, megys yn iaith yr Hen Destament, y rhai a berthynant iddi. Yn iaith yr apostolion gelwir hwynt yn "etifeddion y deyrnas," "meibion Duw," "plant eich tad yr hwn sydd yn y nefoedd;" *Mat.* v. 45; viii. 12; xiii. 38; *Iago* ii. 5; *Rhuf.* viii. 17. 3ydd, Yr ymadroddion a ddilynant, "dyro iddynt drosof fi a thithau," a esyd y dysgybl, o leiaf i ryw raddau, i sefyll ar yr un tir a'i athraw. Y mae yr egwyddor a gydnabyddir yn y geiriau, "Y mae y plant yn rhyddion," yn gymmhwysiadol at y dysgybl hefyd. Telir dros y ddau ar yr un tir.

Y mae gwybodaeth lawnach o'r ffeithiau yn ein cynnorthwyo i ganfod gwirionedd mwy ac uwch yn nysgeidiaeth ein Harglwydd. Treth o osodiad diweddar, yn gymmharol, fel yr awgrymwyd, ydoedd treth y deml. Yr oedd y cwestiwn pa un a oedd treuliadau yr offrymau boreuol a hwyrol i gael eu talu o ryw dreth

Digitized by Google

sefydlog, neu ynte o roddion ewyllysgar y bobl, wedi bod yn bwngc o ddadl rhwng y Phariseaid a'r Saduceaid; a'r blaenaf a gariodd y dydd ar ol dadl faith, yr hon a barhaodd o'r cyntaf hyd yr wythfed o fis Nisan. Ystyriai y blaid Phariseaidd fod hyn yn fuddugoliaeth mor bwysig fel y cadwent fath o ŵyl flynyddol yn goffadwriaeth am dani. Ar lawer cwestiwn yr oedd dysgeidiaeth Crist yn myned yn uniongyrchol yn erbyn syniadau y Phariseaid. Fe allai fod casglwyr y dreth, gan eu bod yn bleidiol i'r Phariseaid, yn disgwyl gwrthwynebiad i'w thalu oddi wrtho. Awgryma eu geiriau nad oedd wedi ei thalu y flwyddyn hono: ac nis gwyddent a dalai efe, ai peidio. Ond attebodd Pedr yn ddibetrus yn gadarnhaol. Y mae geiriau Crist, modd bynag, wedi eu hamcanu i'w arwain at wirionedd ag yr oedd y Phariseaid yn colli yr olwg arno. Dylasai rhoddion plant y deyrnas fod yn rhydd, ac nid yn orfodol. Yr oedd y Sanhedrim, trwy wneyd teyrnged y deml yn dreth flynyddol sefydlog, a'i chasglu fel y cesglid y deyrnged i Cæsar, yn iselhau, ac nid yn dyrchafu cymmeriad y bobl. Yr oeddynt yn gosod pob Israeliad ar yr un tir ag 'estron,' ac nid 'mab.' Yr egwyddor gywir i gyflwyno y cyfryw offrymau ydoedd yr un y dadleuai Paul drosti wedi hyny, yr hwn a ddilynai gamrau ei athraw—"nid yn athrist, neu trwy gymmhell; canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu." Yn gyferbyniol i'r graddau y gallai un hawlio bod yn blentyn i Dduw, i'r graddau hyny yr oedd efe yn rhydd oddi wrth y deyrnged orfodol. Gwelir fod yr eglurhâd hwn yn ein harwain i ganfod yn y geiriau hyn gynghor mor eang a chyffredinol ag sydd yn y geiriau "Telwch chwithau yr eiddo Cæsar i Cæsar, a'r eiddo Duw i Dduw." Y maent yn condemnio, yn hytrach nag yn cymmeradwyo, neu yn caniatau, daliadau gorfodol, yn lle y rhoddion llawen hyny ag y mae Duw yn eu caru. Ond rhag creu cynnhwrf, a bwrw rhwystr, gwnaeth ein Harglwydd wyrth i dalu arian y deyrnged hon. Gwel TRETH.

TELYN *(Harp)*. O'r holl offerynau cerddorol a ddyfeisiwyd erioed, nid oes un wedi cael cymmeradwyaeth mor gyffredinol a'r delyn; yr hon, am oesoedd, a fu yn gydymaith gwastadol y prophwyd, y brenin, y bardd, a'r telynor.

O ddyddiau Tubal (y seithfed o Adda), "tad pob teimlydd telyn ac organ" (*Gen.* iv. 21), gellir olrhain ei bodolaeth drwy yr holl genhedlaethau yn mysg yr Israeliaid, fel y gwelir yn yr Ysgrythyrau sanctaidd. Fel y canlyn yr anerchwyd Iacob gan Laban, ei dad-yn-nghyfraith:—"Am ba beth y ffoaist yn ddirgel, ac y lladrateaist oddi wrthyf fi, ac ni fynegaist i mi, fel yr hebryngaswn dydi â llawenydd, ac â chaniadau, â thympan, ac â thelyn;" *Gen.* xxxi. 27.

Dywed Samuel, yn ei gyfarwyddiadau i Saul, ar ol ei eneinio yn ddirgel yn freniu:—"A phan ddelych yno i'r ddinas (Bethel), ti a gyfarfyddi â thyrfa o brophwydi yn disgyn o'r uchelfa, ac o'u blaen hwynt nabl a thympan, a phibell, a thelyn;" 1 *Sam.* x. 5.

Yn ddiweddarach, yr ydym yn cael fod y delyn mewn bri mwy drachefn yn amser y brenin Dafydd, â bywyd nodedig yr hwn y daliai gysylltiad agos o'i ddechreu i'w ddiwedd.

Y mae y cynghor a roddwyd i Saul gan ei weision, yn dangos y modd yr edrychid ar y delyn yn y dyddiau hyny, pan y byddai hi yn cael ei chwareu gan ddwylaw medrus:—"Wele yn awr, drwg ysbryd oddi wrth Dduw sydd yn dy flino di. Dyweded, attolwg, ein meistr ni wrth dy weision sydd ger dy fron, am iddynt geisio gŵr yn medru canu telyn: a bydd, pan ddelo drwg ysbryd oddi wrth Dduw arnat ti, yna iddo ef ganu â'i law; a da fydd i ti;" 1 *Sam.* xvi. 15, 16. Ar yr achlysur cyntaf y cafodd Dafydd ei gyflwyno i sylw Saul, yr ydym yn cael yr hanes canlynol am yr effaith a gynnyrchodd efe ar y penadur hwnw, trwy gyfrwng ei delyn:—"A phan fyddai y drwg ysbryd oddi wrth Dduw ar Saul, y cymmerai Dafydd delyn, ac y canai â'i ddwylaw: a byddai esmwythdra i Saul; a da oedd hyny iddo, a'r ysbryd drwg a giliai oddi wrtho;" 1 *Sam.* xvi. 23. Fel prawf pellach o'r lle uchel a roddai Dafydd i'r delyn, ni raid ond dyfynu ychydig o'r lliaws cyfeiriadau a wneir ati yn Llyfr y Salmau:—"Deffro, fy ngogoniant; deffro, nabl a thelyn; deffroaf yn foreu;' *Salm* lvii. 8. "Yna yr âf at allor Duw, at Dduw hyfrydwch fy ngorfoledd; a mi a'th foliannaf ar y delyn, O Dduw! fy Nuw;" *Salm* xliii. 4. "Cymmerwch salm, a moeswch dympan, y delyn fwyn a'r nabl;" *Salm* lxxxi. 2. "Da yw moliannu yr Arglwydd, a chanu mawl i'th enw di, y Goruchaf: a mynegu y boreu am dy drugaredd, a'th wirionedd y nosweithiau; ar ddegtant, ac ar y nabl; ac ar y delyn yn fyfyriol;" *Salm* xcii. 1, 2, 3. "Wrth afonydd Babilon, yno yr eisteddasom, ac wylasom, pan feddyliasom am Seion. Ar yr helyg o'u mewn y crogasom ein telynau. Canys yno y gofynodd y rhai a'n caethiwasent i ni gân; a'r rhai a'n hanrheithiasai, lawenydd, gan ddywedyd; Cenwch i ni rai o ganiadau Seion. Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddyeithr? Os anghofiaf di, Ierusalem, anghofied fy neheulaw ganu;" *Salm* cxxxvii. 1—5. Mae y frawddeg ddiweddaf yn ddiddadl yn cyfeirio at chwareu ar y delyn, &c., a'r holl salm yn dangos fod serch yr Israeliaid at yr offeryn hwn y fath fel yr oeddynt wedi ei ddwyn gyda hwynt hyd yn oed i dir y caethiwed, er nad oeddynt yn meddu calon i dynu allan ei seiniau melusion.

Y mae yn rhaid fod cerddoriaeth yn meddu lle pwysig iawn yn y gwasanaeth crefyddol yn nyddiau y brenin Dafydd, pan y pennododd efe Asaph, Heman, ac Ieduthun, a'u pedwar mab ar hugain, i arwain pedwar ar hugain o gylchoedd neu ddosbarthiadau o gerddorion; ac yr oedd gan bob un o'r rhai hyn un ar ddeg o swyddogion israddol dano yn addysgu y cantorion; ac ymddengys fod pob un o'r cwmnïau hyny yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd yn ol yr offerynau ar ba rai y chwareuent, a'u lleoedd pennodol yn y deml:—"A'u nifer hwynt, ynghyd â'u brodyr dysgedig yn nghaniadau yr Arglwydd, sef pob un cyfarwydd, oedd ddau cant pedwar ugain ac wyth;" 1 *Cron.* xxv. 7. Fel hyn y dywed Dafydd:—"A phedair mil yn borthorion a phedair mil yn moliannu yr Arglwydd â'r offer a wnelswn i, ebe Dafydd, i foliannu;" 1 *Cron.* xxiii. 5.

I lawr hyd yn oed at y cyfnod Cristionogol, edrychid ar y delyn gyda pharch neillduol; o herwydd yr ydym yn cael yr apostol Ioan yn gwneuthur crybwylliadau mynych am dani yn Llyfr y Dadguddiad, o'r hwn yr ydym yn rhoi y dyfyniad hynod a ganlyn:—"Ac mi a glywais lef o'r nef, fel llef dyfroedd lawer, ac fel llef taran fawr: ac mi a glywais lef telynorion yn canu ar eu telynau;" *Dad.* xiv. 2.

Digitized by Google

O barth i'r math o delyn a arferid gan yr Israeliaid, yr oedd cryn ansicrwydd yn ei chylch hyd o fewn ystod y can mlynedd diweddaf, pan y mae llawer o oleuni wedi ei daflu ar y mater gan Bruce, Denon, a Layard, a theithwyr ereill a ymwelsant â'r Aipht ac Assyria. Pan yr ystyrir fod yr Israeliaid, yr Aiphtiaid, a'r Assyriaid yn gymmydogion agos, y mae yn naturiol casglu y byddai i'r naill o honynt gymmeryd mantais ar unrhyw ragoriaeth a berthynai i'r lleill; yn enwedig mewn offerynau cerddorol oedd yn dal cyssylltiad agos â'u seremonïau crefyddol a'u gorymdeithiau buddugol—fel y gwelir ar yr hen gofadeiliau.

Bruce oedd y cyntaf i gael allan fod yr Aiphtiaid yn meddu amryw fathau gwahanol o delynau yn yr hen amseroedd; a'r rhai hyny mor ragorol yn eu dyfeisiad a'u gwneuthuriad fel ag i ddwyn o amgylch chwyldroad yn mron yn y farn a goleddid am y genedl hono hyd y pryd hwnw gyda golwg ar ei gwybodaeth am y celfyddydau a'r gwyddonau. Ar furiau hen feddrod yn Thebes, yr hwn, fel y tybir, oedd beddrod Ramases III. (c. c. 1250), darganfyddodd Bruce ddarlun o ddyn yn chwareu ar delyn, wedi ei baentio ar gymmrwd ir (*in fresco*), ac yn hollol gyfan. Yn 1774, efe a anfonodd adref lun y delyn hono (gan adael allan ddarlun y chwareuwr), gyda llythyr at Dr. Burney; a rhoddodd yntau y naill a'r llall yn y gyfrol gyntaf o'i "*History of Music.*" Y mae teithwyr ereill diweddarach wedi copïo yr un offeryn, gan wahaniaethu ychydig gyda golwg ar ei ffurf; ac y mae Bruce ei hun hefyd ar ol hyny wedi cyfnewid ryw gymmaint ar ei ddarlun cyntaf. Yr ydys yn cyfleu yma yr ail ddarlun (gan gynnwys y chwareuwr), fel yr ymddengys yn y gwaith a elwir "*Manners and Customs of the Ancient Egyptians,*" yr hwn a ysgrifenwyd gan Syr G. Wilkinson:—




Dar. 398.—Hen Delyn Aiphtaidd, a deg tant iddi. (c. c. 1250.)

Yn yr un gwaith y gellir gweled hefyd ail delyn (neu *Buni*), wedi ei thynu gan yr un llaw, a'i chael o'r un man; ond y mae hon yn gwahaniaethu oddi wrth y gyntaf, gan fod iddi dri ar ddeg o dannau.

Pe y meddyliem fod y chwareuwyr ynghylch pum troedfedd a deng modfedd o daldra, gallem farnu fod y telynau tua chwe throedfedd a hanner o uchder. Y mae hynodrwydd penaf y ddau offeryn hyn yn gynnwysedig yn y ffaith hon—nad ydyw y piler arferol sydd o flaen telynau cyffredin (*front pillar*) ar un o honynt; yr hyn mewn gwirionedd sydd un o'r nodweddau a hynodent holl delynau y gwledydd dwyreiniol hyd y dydd heddyw. Ymddengys fod y tannau wedi eu gwneyd o'r un defnyddiau ag y gwneir yn awr; sef, coluddion anifeiliaid. Gellir gweled hyn yn yr esampl sydd yn yr Amgueddfa Bryd-

einig; gyda yr hwn y mae offeryn bychan Aiphtaidd, a gafwyd yn Thebes—sydd yn gydiol wrthi. Er pan y gwnaeth Bruce ei ddarganfyddiadau yn yr Aipht, y mae darganfyddiadau ereill o bwysgrwydd cyfartal wedi eu gwneyd yn ddiweddarach gan Mr. Layard yn Assyria. Wrth gloddio a gwneyd ymchwiliadau yn Kouyunjik (lle y safai yr hen Ninefeh, fel y tybir), efe a gafodd yn adfeilion palas Senacherib, brenin Assyria (c. c. 700), faslun *(bas-relief)* yn gosod allan orymdaith o gerddorion yn myned i gyfarfod y gorchfygwyr ar eu dychweliad o frwydr, ar ol gorchfygu y Susianiaid. Y mae hon yn gynnwysedig o un ar ddeg o chwareuwyr ar offerynau, heb law cantorion i ymuno yn y cydgan. Y mae y cerddor blaenaf—yr hwn, dybygid, oedd arweinydd y seindorf, gan ei fod y cyntaf yn yr orymdaith—yn chwareu ar y delyn. Y tu ol iddo, y mae dau ereill:—gan un y mae y dwsmel, a chan y llall bibell ddwbl; yna y mae yn canlyn ddau ereill gyda thelynau. Yn nesaf y daw chwech o gerddorion benywaidd—pedair o ba rai a chwareuent ar delynau, tra y mae un yn chwythu mewn pibell ddwbl, a'r llall yn curo tabwrdd bychan wedi ei orchuddio ar y pen uchaf yn unig. Yn union o'r tu ol i'r chwareuwyr ar yr offerynau y mae y cantorion, yn gynnwysedig o ddeuddeg o ferched a phlant. Curant ddwylaw i gadw amser gyda'r gerddoriaeth, ac y mae rhai o'r cerddorion yn dawnsio gyda'r dôn. Mae un o'r cantorion benywaidd yn ymaflyd â'i llaw yn ei gwddf, yr un modd ag y mae gwragedd Syria, Arabia, a Phersia yn arfer gwneyd hyd heddyw, pan, ar ŵyliau neillduol, y maent yn cynnyrchu y seiniau treiddgar hyny o lawenydd ag y mae cymmaint o deithwyr dwyreiniol yn son am danynt. Y mae y baslun dyddorol yma, darlun o'r hwn a welir ar y ddalen hon, wedi ei gymmeryd allan o Layard's "*Ninefeh and Babilon*," yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig.



Dar. 394.—Gorymdaith o Gerddorion yn myned i gyfarfod y gorchfygwyr ar eu dychweliad o frwydr.

Y mae tebygrwydd y baslun hwn i'r disgrifiad a roddir o'r cyfryw orymdeithiau yn nyddiau yr Israeliaid yn dra nodedig:—"A bu (wrth ddyfod o honynt) pan ddychwelodd Dafydd o ladd y Philistiaid, ddyfod o'r gwragedd allan o holl ddinasoedd Israel, dan ganu a dawnsio, i gyfarfod â'r brenin Saul, â thympanau, â gorfoledd, ac âg offer cerdd dannau;" 1 *Sam.* xviii. 6. Os ydym i wneyd rhyw wahaniaeth rhwng yr ymadroddion canlynol yn y Salmau—"Cymmerwch Salm, a moeswch dympan, y delyn fwyn a'r nabl" (*Salm* lxxxi. 2): "A mynegi y boreu am dy drugaredd, a'th wirionedd y nosweithiau; ar ddegtant ac ar y nabl; ac ar y delyn yn fyfyriol" (*solemn sound; Salm* xcii. 2, 3)—tueddir ni i dybied mai y "delyn fwyn" neu "y degtant" oedd y delyn fechan Assyriaidd a ddefnyddid yn y gorymdeithiau, a'r dawnsiau, &c.; a bod "y delyn yn fyfyriol" (*with a solemn sound*), yn ol pob tebygolrwydd, yn un o faintioli mwy tebyg i'r delyn Aiphtaidd, a ddefnyddid mewn addoliadau crefyddol, ac ar achlysuron cyhoeddus ereill. Gan hyny, y mae genym bob lle i feddwl mai yr un offeryn a ddefnyddid gan y ddwy genedl yn eu gorymdeithiau; a bod y delyn (*kinnor, kithera*), a'r degtant, a chwareuai Dafydd o flaen yr arch, yr un offeryn ag y rhoddir darlun o hono uchod. Heb law hyny, pan y meddyliom fod Rebecca (mam Iacob), a Laban (ei brawd) yn Assyriaid, cadarnheir y dybiaeth fod offerynau cerddorol Assyriaidd wedi gwneyd eu ffordd yn rhwydd i blith yr Israeliaid mewn cyfnod boreu iawn. Yr oedd telynau, ac offerynau cerddorol ereill Dafydd, yn cael eu gwneyd o ffynnidwydd (1 *Sam.* vi. 5); ac y mae yr un math o goed yn cael eu defnyddio yn ngwneuthuriad offerynau cerddorol yn ein dyddiau ni, gan eu bod yn ysgeifn a soniarus; ond yn nyddiau Solomon, coed algummim (math o gedrwydd) a ddygid o Ophir, a ddefnyddid, "ac ni welwyd rhai cyffelyb o'r blaen yn ngwlad Iudah;" 2 *Cron.* ix. 11.

Ymhyfrydai y Groegiaid hynafol hefyd yn fawr yn y delyn, neu y *kinyra*, yn gystal a'r delan (*lyre*); ac yr oeddynt yn ei defnyddio fel cyfeiliant i'w caneuon arwrol. A ganlyn sydd ddarlun o delyn, a ddarganfyddwyd gyntaf gan Mr. John Thomas (*Pencerdd Gwalia*), yr hon sydd yn dig ar hen dlysgawg (*vase*) Roegaidd Amphora, sydd yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig. mae llun telyn arall, yr hon sydd yn gwahaniaethu ychydig mewn ffurf, i'w gweled ar wg cyffelyb yn Amgueddfa Munich. Y mae lluniau y naill a'r llall o'r gweddillion dyddorol edi dyfod i lawr i ni o amser Alexander Fawr (tua c. c. 350). Yr oedd yr offeryn bychan

hwn yn cael ei ddal ar y glin pan y chwareuid arno:—y llaw ddeheu yn chwareu yr uwchalaw, a'r aswy yr isalaw. Tybid fod y delyn Roegaidd wedi dyfod o Assyria, oddi wrth ei thebygolrwydd i'r delyn Assyriaidd; yn enwedig gan fod y seinfwrdd yn y rhan uchaf o'r ffrâm. Ond y mae Homer (c.c. 900) yn y pedwerydd llyfr ar bymtheg o'i "*Iliad*" yn dadgan mai o'r Aipht y daeth hi. Yn hanes y genhadaeth a ddanfonwyd gan Agamemnon at Achilles, yn ystod ei ymneillduaeth, wedi iddo adael y gwersyll Groegaidd mewn diflasdod, y mae Homer yn rhoddi y disgrifiad difyrus a phrydferth sydd yn canlyn:—

"Amus'd at ease, the godlike man they found,
Pleas'd with the solemn harp's harmonious sound,
(The well-wrought harp from conquered Thebæ came
Of polished silver was its costly frame)
With this he soothes his angry soul, and sings
Th' immortal deeds of heroes and of kings."—

*Cyfieithiad Pope.*

Oddi wrth y dyfyniad uchod, ymddengys fod yr Aiphtiaid yn gyfarwydd â'r delyn Assyriaidd hefyd, yn ogystal a'r offeryn mwy a ddisgrifiwyd yn barod, yr hon a genid gan y chwareuwr o'i sefyll.

Heb law hyn, y mae Bruce, yn ei lythyr at Dr. Burney, wrth ddarlunio y delyn Thebaidd,



Dar' 395.—Telyn Roegaidd.

yn cyfeirio at amgylchiad a ddichon arwain i ymchwiliad pellach. "Y mae y delyn sydd yn dyfod agosaf at hon mewn hynafiaeth," medd efe, "yn cael ei gosod allan mewn baslun yn Ptolemais, yn Cyrenaicum—dinas a adeiladwyd gan Ptolemy Philadelphus; a darlunir hi yno deirgwaith. Y mae iddi bymtheg o dannau, neu ddau wythawd cyflawn; ond y mae y chwanegiad o'r ddau nodyn hyn wedi achlysuro hefyd chwanegiad rhagddarn (*forepiece*) i ddal y croesfar (*cross-bar*) uwch law; a'r gwaelod wedi ei wneyd ar lun pen hwrdd—yr hyn a ymddengys fel yn cyfeirio at ei tharddiad Thebaidd; ac yr wyf fi yn dyfalu fod yr offeryn hwn hefyd yn un Aiphtaidd, o herwydd nad oes lun telyn â'r fath nifer o dannau, hyd y gwn i, erioed wedi ei ddarganfod mewn cerfwaith Groegaidd."

Arweinia hyn ni at y cwestiwn—O ba le y deilliodd y delyn Ewropaidd? Ar ol cael allan fod y Groegiaid wedi cael eu telynau o'r Aipht cyn amser Homer, a bod y Groegiaid a'r Phœniciaid yn masnachu â'r wlad hon o'r amseroedd

Digitized by Google

boreuaf, y mae yn naturiol i ni gasglu ein bod yn ddyledus i'r naill neu y llall o'r ddwy genedl hyn am ddwyn yma yr offeryn sydd wedi bod mor gyffredinol boblogaidd yn yr holl ynysoedd gorllewinol.

Cadarnheir y ddamcaniaeth hon gan Diodorus Siculus, yr hwn a ysgrifenai tua hanner canrif cyn y cyfnod Cristionogol, o herwydd efe a ddywed:—"Y mae ynys ar gyfer Gaul, tua maintioli Sicily, o dan y pegwn gogleddol, lle y trig Hyperboreaid [Brythoniaid neu Geltiaid], a elwir felly am eu bod yn gorwedd yn mhell i'r gogledd. Dywedant mai yno y ganwyd Latona; a chan hyny eu bod yn addoli Apollo fel y penaf o'r duwiau; ac, o blegid eu bod bob dydd yn canu caniadau o fawl i'r duw hwn, ac yn priodoli iddo yr anrhydedd uchaf, dywedir fod y preswylwyr yn ymddwyn fel pe byddent yn offeiriaid Apollo, gan yr hwn y mae llwyn ardderchog a theml glodfawr—cron o ran ei ffurf, ac wedi ei harddu â llawer o anrhegion gwerthfawr. Ceir yno hefyd ddinas wedi ei chyssegru i'r duw hwn—dinasyddion yr hon gan mwyaf ydynt yn delynorion; pa rai, wrth ei chwareu, a ganant gyda hi hymnau cyssegredig i Apollo yn y deml, gan ddarlunio ei weithredoedd gogoneddus. Y mae yr Hyperboreaid [y gogleddwyr] yn siarad eu hiaith gynhenid eu hunain, ac y maent er's amser maith yn teimlo yn hynod garedig tu ag at y Groegiaid; ond yn fwy neillduol tuag at yr Atheniaid a'r Deliaid. Aeth rhai o'r Groegwyr drosodd at yr Hyperboreaid, a gadawsant ar eu hol amryw anrhegion (neu bethau wedi eu cyflwyno i'r duwiau) ac yr oedd arnynt gerfiadau mewn llythyrenau Groegaidd; a theithiodd Abaris [y Derwydd a'r athronydd Brythonaidd] gynt oddi yno i wlad Groeg, yn amser Pythagoras (c.c. 500), ac adnewyddodd yr hen gyttundeb o gyfeillgarwch oedd yn bodoli rhyngddynt hwy a'r Deliaid."

Darganfyddwyd dolen gyssylltiol arall yn nghadwen y dystiolaeth sydd yn ffafrio y syniad fod y delyn yn offeryn o darddiad dwyreiniol, yn hen eglwys Ullard, yn swydd Kilkenny, yn yr Iwerddon. Cerflun ydyw o delyn, heb y piler sydd yn ei hwyneb, tebyg i delynau yr Aipht, Assyria, a Groeg; a dywedir fod y cerflun yn ddyddiedig o gyfnod pellach yn ol na'r flwyddyn B.A. 800, darlun o'r hwn a roddir yma, wedi ei gymmeryd allan o waith Bunting, ar yr "*Ancient Music of Ireland.*"

Bunting ydoedd y cyntaf a dynodd sylw at y darlun hwn; a dyma y disgrifiad a rydd efe o hono:—"Y mae y darlun wedi ei gymmeryd o un o ranau addurniadol croes gerfiedig, sydd yn hen eglwys Ullard. Oddi wrth arddull y gwaith sydd arno, yn gystal ag oddi wrth sefyllfa adfeiliedig y groes, y mae yn ymddangos yn hynach na'r cofadail adnabyddus sydd yn Monasterboice, yr hwn y gwyddys ei fod wedi ei osod i fyny cyn y flwyddyn B. A. 830. Y mae y cerfwaith heb ei orphen yn dda; nid yw ymyl y cylch crwn sydd yn cyssylltu breichiau y groes ynghyd wedi ei dyllu yn y pedwar-ranau (*quadrants*), ac y mae amryw o'r ffugyrau sydd mewn basluniau arno yn awr wedi eu treulio ymaith yn llwyr. Anhawdd ydyw penderfynu pa un ai chwech, ynte saith, ydyw nifer y pethau sydd yn cael eu darlunio arno; ond, fel y sylwyd yn barod, nis gellir disgwyl cywirdeb yn yr ystyr yma mewn cerfiadwaith, nac mewn llawer o ddarluniau disgrifiadol."



Dar. 396.—Cerflun yn yr Iwerddon.

Gall Cymru, Ysgotland, a'r Iwerddon ymffrostio mewn llinell faith o feirdd a thelynwyr, fel y mae eu hanes yn profi yn eglur; ac y mae y delyn wedi bod am oesoedd mewn sefyllfa uchel o ddiwylliant yn eu mysg. Ymddengys, modd bynag, ei bod wedi diflanu ymaith o Ysgotland rywbryd yn gynnar yn yr eilfed ganrif ar bymtheg; ac y mae dechreuad y dadfeiliad hwn i'w briodoli, dybygid, i gyfreithiau creulawn y trawsfeddiannydd, Macbeth, yn yr unfed ganrif ar ddeg; yr hwn, mewn trefn i ddial ar y beirdd am chwythu fflam o ddigllonrwydd gwladgarol yn erbyn ei drawsfeddianniad o'r wlad, a wnaeth gyfreithiau trwy ba rai yr oedd telynwyr yn ddarostyngedig i gael eu gosod wrth yr aradr yn lle ychain. Gorfodid hwynt hefyd i gymmeryd eu nodi â haiarn poeth ar eu gruddiau gan gyfraith fwy hynafol.—Barington's "*Observations on the Statutes.*"

Yn 1805, ar ol deall fod dwy hen delyn yn mhalas Lude, yn ucheldiroedd swydd Perth oedd wedi bod am amryw ganrifoedd yn y teulu hwnw, gwnaeth Cymdeithas Ucheldir Ysgotland appeliad am danynt at y cadfridog Robertson, y meddiannydd, a chafodd feddiant o honynt. Cyhoeddwyd disgrifiad manwl a ffyddlawn o'r ddwy gan Gunn, yn ei hanes o'r delyn yn Ucheldiroedd y wlad hono. Ymddengys nas gellir olrhain hanes un o honynt hyd i'w dechreuad; ond y mae hanes y llall yn gyflawn i fyny i'r dyddiad y cyfeirir ato. "Yr oedd y frenines Mary unwaith ar wibdaith helwriaethol yn ucheldiroedd swydd Perth, ac wedi cymmeryd gyda hi delyn, o'r hon y mae y cerfiad a ganlyn yn ddarlun cywir, a'r hon a roddwyd ganddi wedi hyny yn anrheg i Miss Beatrix Gardyn, merch i ŵr o'r enw Mr. Gardyn, o Banchory—teulu yr hwn a gynnrychiolir yn awr gan Mr. Garden, o Troup. Priododd y foneddiges hon hefyd âg un o deulu Lude, ac y mae y delyn wedi bod yn eu meddiant hyd y pryd hwn. Yr oedd ar ei braich uchaf ddarlun o'r frenhines, ac arfbais Ysgotland—y ddau yn aur. Ar y tu deheu, sef yr ochr a roddir yn y darlun uchod,

Digitized by Google

yn y gwagle crwn yn agos i'r rhagfraich *(fore-arm)* yr oedd gem o werth mawr, &c.; ac ar yr ochr gyferbyniol, mewn cylchle cyffelyb, yr oedd maen gwerthfawr arall; ond cafodd y delyn ei hysbeilio o'r pethau hyn yn adeg gwrthryfel 1745, naill ai gan y personau yr ymddiriedwyd ei gofal iddynt ar y pryd, neu, fel yr haerai y bobl hyny, gan y milwyr yn ystod yr amseroedd cynnhyrfus hyny."

Er fod telyn y frenines Mary yn fwy addurniadol na'i chydymaith, y mae y ddwy yn debyg i'w gilydd o ran eu gwneuthuriad. Amgylchiad nodedig arall teilwng o sylw ydyw, eu bod, gyda yr eithriad o ychydig addurniadau sydd arnynt, yn union yr un fath a'r delyn Wyddelig sydd yn Ngholeg y Drindod, yn Dublin; am yr hon y dywedir ei bod unwaith yn perthyn i Brian Boromb, brenin yr Iwerddon, yr hwn a laddwyd



Dar 397.—Telyn y Frenhines Mary.

mewn brwydr â'r Daniaid, yn Clontarf, yn agos i Dublin, B.A. 1014. A ganlyn ydyw yr hanes traddodiadol a gyflwynwyd i lawr i ni am yr offeryn hwn:—"Darfu i fab y brenin, Donagh, ar ol llofruddio ei frawd Teige, yn y flwyddyn 1023, a chael ei ddiorseddu gan ei nai, ymneillduo i Rufain; a chariodd gydag ef y goron, a'r delyn, a theyrndlysau ereill o eiddo ei dad, rhai a gyflwynwyd ganddo yn anrhegion i'r mewn trefn i sicrhau maddeuant am ei dr au. Defnyddiodd Adrian IV., yr hwn a el Breakspear, yn ei babarchiad, yr amgyl hwn fel un o'r prif bethau oedd yn rhoi hawl deyrnas hono, pan yn trosglwyddo yr Iwer

Digitized by Google

i Harri II. Cadwyd y teyrndlysau hyn yn y Vatican, hyd yr adeg yr anfonodd y pab y delyn uchod i Harri VIII., gyda'r teitl o "amddiffynydd y ffydd;" ond cadwodd feddiant o'r goron, yr hon oedd o aur dilyn. Rhoddodd Harri y delyn i'r iarll cyntaf o Glanricard, yn nheulu yr hwn y parhaodd hyd ddechreu y flwyddyn 1700, pan y daeth, trwy foneddiges o deulu De Burgh, i deulu Mac Mahon o Clenagh, yn swydd Clare; ac ar ol ei farwolaeth ef hi a ddaeth i feddiant y dirprwywr Mac Namara, o Limerick. Yn 1782, cyflwynwyd hi i'r gwir anrhydeddus William Conyngham, yr hwn a'i cyflwynodd i Goleg y Drindod, Dublin, lle y mae hi yn aros hyd heddyw."

Y mae Dr. Leftwich, ac ysgrifenwyr ereill, yn gwadu y possiblrwydd i'r delyn hon fod yn eiddo i Brian Boromb, o herwydd yr arfbais sydd arni. Dadleuai na chafodd arfbeisiau eu dwyn i'r Iwerddon o gwbl yn foreuach na dyddiau Edward y Cyffeswr; ac nid ydyw yr olwg arni yn ffafriol i'r grediniaeth ei bod yn meddu y fath hynafiaeth ag a briodolir iddi. Y mae telyn a wnaed gan ŵr o'r enw Cormack O'Kelly, o Ballynascreen, yn swydd Londonderry, tua'r flwyddyn 1700, mor debyg i'r delyn hon sydd yn Dublin yn mhob rhan o honi, fel nad ydyw yn anghyfiawnder â hi i feddwl fod telyn dybiedig y brenin Gwyddelig wedi ei gwneuthur mewn adeg ddiweddarach o lawer nag y dywedir ei bod. Hyd nes y ceir rhyw awdurdod i brofi fod y pab drachefn wedi ei rhoddi i'r iarll o Glanricard, y mae'n rhaid i ni lynu wrth y farn hon. Os ydyw y ffaith ei bod wedi ei gwneyd er's wyth gan mlynedd yn ol yn gorphwys yn hollol ar draddodiad, y mae y dystiolaeth yn rhy wan, tra nad oes yn y delyn ei hun un prawf mewnol o'r ffaith.

Y mae tebygolrwydd mawr y telynau Ysgotaidd a Gwyddelig i'w gilydd, fel y disgrifiwyd yn barod, a'r raddfa bumseiniol sydd mor nodweddiadol o gerddoriaeth genedlaethol y ddwy wlad, yn brawf penderfynol fod yn rhaid fod y naill wedi ei chael oddi wrth y llall—er nad oes brofion digonol i ddangos pa un o'r ddwy oedd y ffynnonell wreiddiol.

Am gerddoriaeth genedlaethol Cymru, y mae hi yn hollol rydd oddi wrth y nodweddau uchod. Cyfeiria Dr. Crotch, yn ei gyfrol gyntaf o'i "*Specimens of various Styles of Music,*" at hyn yn nghwrs ei ddarlithiau, ac ysgrifena fel y canlyn:—"Gellir ystyried y gerddoriaeth genedlaethol Frythonaidd a'r Gymreig fel un, yn gymmaint a bod y gerddoriaeth Brydeinig wreiddiol wedi ei gyru gyda'r trigolion i Gymru. Y mae yn rhaid addef fod y mesur rheolaidd ar y raddfa drydonol (*diatonic scale*), yr hwn sydd yn hynodi y gerddoriaeth Gymreig, yn fwy cydweddol â chwaeth y Saeson yn gyffredinol, ac yn ymddangos ar y cyntaf yn fwy naturiol i gerddorion profiadol na'r eiddo y Gwyddelod a'r Ysgotiaid. Y mae cerddoriaeth Gymreig, nid yn unig yn gofyn cyfeiliant; ond gan ei bod wedi ei chyfansoddi yn benaf ar gyfer y delyn, y mae yn feddiannol ar gyfeiliant yn y cyffredin: ac, yn wir, mewn tônau a gyfansoddwyd i'r delyn, y mae yn fynych unawdau i'r is-alaw, yn gystal ag i'r uchalaw. Y mae yn fynych yn tebygu i gerddoriaeth wyddonol (*scientific*) yr eilfed ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif; ac yr wyf yn credu nad oes un tebygolrwydd fod y graddau yma o goethder yn chwanegiad a wnaed mewn amseroedd diweddarach."

Ymddengys, nid yn unig fod y Cymry wedi cael y delyn o wlad Groeg gynt, ond hefyd eu bod yn cadw i fyny gystadleuaethau cyffelyb i'r chwarëyddiaethau Olympaidd yn y cystadleuon cerddorol a barddonol a gymmerent le yn yr eisteddfodau a gynnelid yn rheolaidd yn ein gwlad er cyn cof, a'r rhai a ddygir yn mlaen yn y dyddiau hyn. Tua chant a hanner o flynyddoedd cyn y cyfnod Cristionogol, dywedir fod Bleguryd ap Seisyllt, brenin Prydain, yn gerddor enwog, ac yn chwareuwr ar y delyn; ac o ganlyniad iddo gael ei alw yn 'dduw cerddoriaeth.' [Tysilio's "*British History.*"]—Yn ystod y canoloesoedd, yr oedd brenhinoedd yn hynod o hoff o amlygu eu gallu i chwareu y delyn; ac nid oedd hyn yn gyfyngedig i'r cenhedloedd Celtaidd, ond gellir dyweyd yr un modd am y Daniaid a'r Sacsoniaid hefyd, fel y dangosir yn eu gwaith yn ymddangos yn ngwisgoedd telynorion, ac yn myned yn llwyddiannus drwy y prawf o ymddwyn fel y cyfryw, pan y byddai yn angenrheidiol iddynt ymweled â gwersyll eu gelynion i ddybenion milwraidd.

Yn y bummed ganrif, pan y gwarchauwyd ar Colgrin yn ninas Caerefrog gan y brenin Arthur, ymwisgodd Badulph mewn gwisg telynor—a thrwy y ddichell hono cafodd gyfle i ymddiddan ac i ymgynghori â'i frawd.—[Tysilio's "*British History.*"] Gwnaeth y brenin Alfred hefyd yr un modd yn B. A. 878; yr hyn a roddodd iddo gyfleusdra i fyned trwy wersyll y Daniaid, ac i ddeall eu cyflwr, y rhai oedd ar y pryd yn Ngwlad yr Haf.—[Spelman's "*Life of Alfred.*"] Ychydig gyda thrigain mlynedd yn ddiweddarach, yn y ddegfed ganrif, darfu i Awlaff, brenin Danaidd Northumberland, dalu y pwyth yn ol, yn amser y brenin Athelstone, trwy ymwisgo yn nillad telynor, a myned i'w wersyll ef, gan ddifyru y brenin a'i bendefigion yn fawr â'i lais ac â'i offeryn. Yr ydym yn cael y ffaith hon o'r un ffynnonell ag y cafwyd y ddiweddaf a nodwyd. Canodd mor beraidd o flaen y babell frenhinol, ac ar yr un pryd chwareuodd ei delyn gyda'r fath fedrusrwydd, fel y cymmhellwyd ef i fyned i mewn; ac wedi difyru y brenin a'i bendefigion yn fawr â'i gerddoriaeth tra yr eisteddent i giniawa, gollyngwyd ef ymaith gydag anrhegion gwerthfawr.

Y mae y darlun dilynol o delyn wedi ei gymmeryd o lawysgrif Anglo-Sacsonaidd o'r unfed ganrif ar ddeg, sydd yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig; a thybir ei fod y math o offeryn a ddefnyddid yn eu mysg ar y pryd.

Dywed yr hybarch Bede, fod y delyn yn cael ei chwareu mor gyffredinol yn Mhrydain yn y seithfed ganrif, fel yr arferid ei phasio o'r naill i'r llall mewn gwleddoedd cyhoeddus; a chrybwylla am un oedd yn cywilyddio am na fedrai chwareu arni, ac yn ymgilio rhag dangos ei anfedrusrwydd. Cyssylltid y fath anrhydedd â'r delyn yn Nghymru fel na oddefid i gaethwas ymarfer â hi; ac ystyrid y gallu i'w chwareu yn un o gymmhwysderau hanfodol boneddwr; ac nis gellid ei chymmeryd hi am ddyled ei pherchenog.

Yr oedd athraw ar yr offeryn hwn, oedd mor anwyl gan yr hen Gymry, yn mwynhau llawer o freintiau:—yr oedd ei dir yn rhydd, a'i berson yn gyssegredig. Swydd y bardd gynt oedd canu i'w delyn, cyn ac ar ol brwydr, yr hen gân a elwir "*Unbenaeth Prydain,*" neu gân frenhinol Prydain; yr hon a gynnwysai goffhâd am orchest-gampau yr arwyr milwraidd mwyaf

teilwng ac enwog, a thrwy hyny i argymmhell ereill i ddilyn eu hesampl ogoneddus.

Diodorus Siculus a ddywed y byddai "y beirdd yn anturio myned rhwng byddinoedd gelynol, gan sefyll â'u cleddyfau wedi eu dadweinio, a'u picellau yn barod i waith—a thrwy eu hyawdledd, megys swyn anorchfygol, yn



DAR. 398.—TELYN ANGLO-SACSONAIDD.

attal tywalltiad gwaed, ac yn llwyddo i gael gan y pleidiau i weinio eu cleddyfau."

Yn 1040, cynnaliodd Gruffydd ap Cynan, brenin Gwynedd, gynnadledd i'r dyben o ddiwygio urdd y beirdd Cymreig; a gwahoddodd amryw o'r beirdd Gwyddelig i ddyfod drosodd i Gymru i'w cynnorthwyo i gario allan y diwygiadau oedd mewn bwriad ganddo. Y ddeddf bwysicaf a wnaed y pryd hwnw oedd gwneyd ysgariaeth yn y swyddi o fardd a thelynor, y rhai oedd hyd hyny yn unedig mewn un person. Ystyriwyd y buasai barddoniaeth a cherddoriaeth yn cael mantais fawr oddi wrth hyny; gan y tybid fod y naill neu y llall yn llawn ddigon i gymmeryd i fyny holl sylw ac ystyriaeth yr un person. Y nesaf oedd, diwygio y rheolau er cyfansoddi a dadganu cerddoriaeth. Cafodd y pedwar mesur ar hugain eu sefydlu yn arosol, yn gystal a nifer o gyweiriau a graddegau; a phenderfynwyd ar fod pob cyfansoddiad o hyny allan i gael ei ysgrifenu mewn cydymffurfiad â'r rheolau hyn; ac heb law hyny, nad oedd neb ond y sawl oedd yn gyfarwydd â'r rheolau i'w hystyried yn gerddorion trwyadl, neu yn alluog i ymgymmeryd âg addysgu ereill. Ysgrifenwyd yr holl ddiwygiadau hyn "i lawr mewn llyfrau," fel y gellir gweled oddi wrth lawysgrif sydd yn awr yn yr Amgueddfa Brydeinig, yr hon a gopiwyd yn y bymthegfed ganrif o lyfr arall, yr hwn a ysgrifenwyd ar yr amser y pasiwyd y diwygiadau uchod. Ceir yn y llawysgrif hon hefyd rai o ddarnau cerddorol mwyaf hynafol y Brythoniaid, y rhai a drosglwyddwyd i lawr, fel y tybir, gan yr hen feirdd. Y mae yr holl gerddoriaeth yn y llawysgrif hon wedi ei hysgrifenu yn ol cyfundrefn o nodiant cerddorol yn ol llythyrenau y wyddor—yr hon, fel y tybiai Mr. John Thomas (*Pencerdd Gwalia*), a ddygwyd i Brydain yn y chweched ganrif, pan y danfonwyd Awstin a nifer o gerddorion i'r wlad hon gan y pab Gregory, i ddiwygio y camsyniadau a'r llygriadau oedd wedi ymlusgo i mewn i wasanaeth crefyddol yr eglwysydd gorllewinol.

Y mae y ffaith fod enwau Gwyddelig ynglŷn â'r pedwar mesur ar hugain yn yr hen lawysgrif hon wedi arwain llawer o haneswyr i dynu y casgliad cyfeiliornus fod Cymru wedi derbyn yr oll o'i cherddoriaeth o'r Iwerddon, yn amser Gruffydd ap Cynan—yr adeg, fel y dywedir, pan y ffurfiwyd y mesurau. Y mae hyd yn oed y croniclwyr Cymreig, megys Giraldus Cambrensis, Caradoc, Powel, ac ereill, wedi dyweyd hyn yn eu gweithiau, ar bwys yr amgylchiad y cyfeirir ato. Gan hyny, nid rhyfedd fod ysgrifenwyr diweddarach, megys Walker, Gunn, Bunting, &c., wedi gwneuthur camgymmeriadau wrth ddibynu ar y fath awdurdodau, y rhai oeddynt yn ymddangosiadol uchel. Ond y mae yn digwydd fod rhanau ereill o'r un lawysgrif yn dwyn tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Yr oedd gan y Cymry eu pedwar mesur ar hugain mewn barddoniaeth, yn gystal a'u pedwar camp-chwareu ar hugain; a dengys y dystiolaeth ganlynol eu bod yn meddu eu pedwar mesur ar hugain cerddorol am ganrifoedd cyn y gynnadledd a gynnaliwyd gan Gruffydd ap Cynan. Yn mysg yr hen ddarnau a geir yn y llawysgrif, y mae un sydd yn dwyn yr enw canlynol, "*Gosteg yr Halen*" (*Prelude to the Salt*); ac ar ei ddiwedd y mae yr adroddiad dyddorawl canlynol:—"Yma y terfyna 'Gosteg yr Halen,' yr hon yr arferid ei chanu ger bron marchogion y brenin Arthur, pan osodid y salter halen ar y bwrdd."

Gan fod yn rhaid ystyried un rhan o'r lawysgrif mor wirioneddol a'r llall, y mae y cyfansoddiad uchod yn ein cario mor bell yn ol a chanol y chweched ganrif, pan yr oedd y brenin Arthur yn ei ogoniant; ac y mae y cyfansoddiad wedi ei ysgrifenu yn un o'r pedwar mesur ar hugain, sef *Mac-Mûn-Byr*, fel y gellir gweled yn y copi a ddeonglwyd gan Mr. John Thomas (*Pencerdd Gwalia*), a'r hwn sydd yn yr ail argraphiad o'r "*Myvyrian Archaiology of Wales*."[1]

Dernyn arall yn y lawysgrif ydyw "*Caniad Pibau Morvydd*" (*Song of Morvydd's Pipes*):—cyfansoddiad y dywedir am dano ei fod wedi cael ei chwareu ar y delyn mewn eisteddfod yn yr hon y llywyddai y brenin Cadwaladr yn y seithfed ganrif, am yr hon y rhoddir yr adroddiad a ganlyn gan y Dr. Shôn Dafydd Rhys, yn gystal a chan John Rhydderch:—"Eisteddodd y brenin Cadwaladr mewn eisteddfod, a ymgynnullodd i'r dyben o reoleiddio y beirdd, cymmeryd i ystyriaeth eu cynnyrchion a'u cyflawniadau, a sefydlu deddfau newyddion i gerddoriaeth a barddoniaeth. Chwareuodd un o'r beirdd ar y delyn yn mhresennoldeb y cynnulliad

[1] "*The Myvyrian Archaiology of Wales:*" sef Casgliad o Gofion Hanesyddol, allan o hen Lawysgrifau. Ail argraphiad cyflawn o'r gwaith mawr Cenedlaethol gan OWEN JONES (*Owain Myfyr*), EDWARD WILLIAMS (*Iolo Morganwg*), a William Owen (*Idrison*—y Dr. W. O. PUGHE), yr hwn a gyhoeddwyd mewn tair cyfrol fawr wythplyg. Yn chwanegol at yr hyn oedd yn yr argraphiad cyntaf, cynnwysa Nodiadau helaeth ar y "GODODIN;" cyfieithiad Saesoneg o DDEDDFAU HYWEL DDA, gydag eglurhâd ar y geiriau a arferir ynddynt; ac hefyd Bennod eglurhaol ar Hen Gerddoriaeth y Cymry, gan JOHN THOMAS (*Pencerdd Gwalia*). Argraphwyd yn 1870 gan gyhoeddwr y gwaith hwn.

Digitized by Google

urddasol hwn yn y cywair a elwir '*is-gywair, ar y bragod dannau;*' yr hyn a'u hanfoddlonodd hwynt yn fawr, a cheryddwyd ef o herwydd yr effaith anghydsain a gynnyrchai; o herwydd felly yr oedd sain '*Pibau Morvydd*' (hyny yw, '*Caniad Pibau Morvydd,*' sydd ar y bragod gywair); a gorchymynwyd iddo, o dan boen cosp drom, pa bryd bynag y deuai o flaen personau oedd yn fedrus yn y gelfyddyd, i fabwysiadu '*Mwynen Gwynedd*'—un o alawon peraidd Gogledd Cymru, a roddwyd allan gyntaf gan gymdeithion y brenin, ac i'r hon y rhoddent y flaenoriaeth. Aeth mor bell a chyhoeddi nas gallai neb ganu (neu chwareu) gyda gwir gydgord, ond y dôn '*Mwynen Gwynedd,*' o blegid ei bod hi mewn cywair oedd yn cynnwys y nodau a ffurfient gydseiniau perffaith, a bod y llall o natur gymmysg."

Haerir hefyd fod hyd yn oed y cyweiriau a ddefnyddir mewn cerddoriaeth Gymreig wedi eu cael o'r Iwerddon yr un amser ag y cafwyd y pedwar mesur ar hugain. Y mae pum cywair mewn cerddoriaeth Gymreig, ac un o honynt ydyw y *bragod gywair* (y cywair lleddf, neu y cymmysg), a grybwyllir uchod fel y cywair yr hwn yr ysgrifenwyd "*Pibau Morvydd*" ynddo. O herwydd hyn yr ydys yn gobeithio fod cyhoeddiad y sylw-nodiad hanesyddol uchod yn ddigon o attebiad i'r haeriad anghywir fod cerddoriaeth Cymru o darddiad Gwyddelig.

Y mae y Cyfreithiau Cymreig yn enwi tri o wahanol fathau o delynau; fel y canlyn:—"Y tair telyn gyfreithlawn: 1. Telyn y brenin; 2. Telyn y pencerdd; 3. Telyn y boneddwr." Ystyrid gwerth y ddwy gyntaf yn gant ac ugain o geiniogau bob un, a'r allwedd cyweirio (*tuning key*) yn bedair ceiniog ar hugain. Yr oedd telyn boneddwr yn cael ei chyfrif yn werth trigain ceiniog, a'r allwedd cyweirio yn werth deuddeg ceiniog.

Cyfeiria Dafydd ap Gwilym, yr hwn a flodeuodd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, gyda brwdfrydedd mawr yn un o'i ganeuon at y delyn oedd â'i thannau o wallt du gloew. Dyma yr offeryn ar yr hwn y gorfodid y rhai a geisient ddysgu ei chwareu i ymarfer hyd nes y cymmerent eu graddau. Efe a grybwylla hefyd am y delyn ledr Wyddelig a wnaeth ei ffordd i Gymru yn ei amser ef; a llefara yn isel a diraddiol am dani, o herwydd gwrthuni ei ffurf, a'i sain aflafar. Gwifr (*wire*) oedd ei thannau, a chwareuid hi âg ewinedd corniog o ffurf annymunol. Goddefid i'r ewinedd dyfu yn hirion, a thorid hwy yn fain fel blaen ysgrifell, i'r dyben o'u cymmhwyso at y gwaith.

Cymmerodd gwelliant mawr le tua'r pryd hwn, trwy ddyfeisiad telyn â dwy res o dannau iddi, yn cynnwys y raddfa drydonol (*diatonic scale*) ar y tu deheu, o'r rhan uchaf i lawr hyd ganol yr offeryn; a rhes arall o nodau damweiniol (*accidentals*) ar yr ochr gyferbyniol, i'w chwareu pa bryd bynag y byddai galw, trwy estyn y bys drwodd atynt; ac yr oedd y raddfa drydonol yn ymestyn ar yr ochr aswy o'r canol hyd gŵr isaf yr offeryn, â'r nodau damweiniol ar y rhes yn yr ochr gyferbyniol. Dengys y trefniad hwn fod yr uchalaw yn cael ei chwareu gan y llaw ddeheu, a'r isalaw gan y llaw aswy. Vincentio Galileo, yn ei "*Dissertation on Ancient and Modern Music,*" a gyhoeddid yn Florence, yn 1581, a ddywed fod y delyn ddwbl yn ddigon cyffredin yn Italy yn ei amser ef; a'u bod hwy wedi ei chael hi o'r Iwerddon. Y mae yn anhawdd iawn dychymygu pa fodd y gallasai y Gwyddelod erioed fod mewn meddiant o'r fath offeryn, yn gymmaint ag nad ydyw wedi gadael yr arwydd lleiaf o'i ol ar eu cerddoriaeth hwy. Y mae hynodrwydd eu graddfa hwy yn gynnwysedig mewn gadael allan yr holl nodau damweiniol, a'r holl nodau sydd yn gofyn y trosglwyddiad lleiaf o gyweirnod i gyweirnod; tra y buasai y fath nodau yn gyrhaeddadwy ar yr offeryn y cyfeirir ato. Y mae amgylchiad a ddaeth i'r goleu yn ddiweddar yn myned yn mhell i brofi mai yn Nghymru y dyfeisiwyd hi. Y mae baslun pres, o waith Donatello, yn ffurfio rhan o'r allor fawr yn Eglwys St. Antonio, yn Padua, yr hon a gyfodwyd tua y flwyddyn 1450. Un o'r ffugyrau ar hono yw angel yn chwareu ar y delyn, ac y mae yr offeryn yn gymmhwys o'r un ffurf a'r delyn deir-rhes Gymreig (*triple harp*), sydd yn adnabyddus yn ein gwlad y dyddiau hyn. Y mae darlun o'r baslun uchod i'w weled mewn plastr yn Amgueddfa Kensington.

Dilynodd dyfeisiad y delyn driphlyg Gymreig, gyda thair rhes o dannau iddi, yn naturiol; o herwydd, fel yr oedd cerddoriaeth yn cynnyddu mewn diwylliant, ac yn llwyddo, yr oedd yr anfantais o fod yn gyfyngedig o fewn terfynau cylch hanner y raddfa drydonol ar bob tu i'r offeryn yn sicr o gael ei deimlo; gan hyny, helaethwyd y raddfa drydonol ar y ddau du ar hyd yr offeryn, gyda rhes ganol o nodau damweiniol, y rhai y gellid eu cyrhaedd o'r ddwy ochr. Y mae yn deilwng o sylw mai y delyn deir-rhes Gymreig yw yr unig offeryn y gwyddys erioed am dano â'r tannau wedi eu gosod ar yr ochr ddeheu i'r cribell (*comb*): drwy yr hyn y mae yn angenrheidiol ei chyweirio â'r allwedd cyweirio yn y llaw aswy—yr hyn sydd braidd yn anhwylus, ond i'r hwn sydd lawchwith. Fe allai fod hyn hefyd yn egluro yr achos pa ham y cynnelir y delyn â'r ysgwydd aswy, ac y chwareuir yr uchalaw gan y llaw chwith, a'r isalaw gan y ddeheu, fel ag i gael llawn olwg ar y tannau; pe amgen, y byddai y cribell yn attalfa i'w gweled, fel y mae pan y ceisir chwareu yn ol dull y delyn Gymreig ar y delyn Saesnig, â'r tannau ar yr ochr aswy.

Y mae y manteision helaeth a ennillwyd trwy ddyfeisiad y delyn deir-rhes, fel un yn rhagori cymmaint ar bob offeryn arall o'r fath oedd yn adnabyddus cyn hyny, wedi rhoddi cynnhyrfiad grymus, a pheri cynnydd mewn medrusrwydd cerddorol yn y Dywysogaeth, ac yn myned yn mhell i roddi cyfrif am y prydferthwch mwy, mewn ystyr celfyddydol, sydd yn perthyn i gerddoriaeth Cymru ar eiddo pob gwlad arall.

Er hyny, yr oedd yr anfantais a'r anhawsder i chwareu nodau damweiniol ar y rhes ganol, neu fewnol, o'r tannau, mewn darnau cyflym, a'r ammhossiblrwydd i amrywio (*modulate*) allan o'r cywair yn yr hwn y cyweiriwyd yr offeryn yn parhau. Gan hyny, yn gymmaint a bod y gelfyddyd gerddorawl wedi cynnyddu mor gyflym yn y ganrif ddiweddaf, yr oedd yn hanfodol angenrheidiol i wneuthur gwelliantau pellach yn y delyn, er iddi allu cadw i fyny âg offerynau ereill, ac i'w chymmhwyso i chwareu cerddoriaeth ddiweddar arni.

Gwnaed y cynnyg cyntaf i gymmhwyso y pedawlau (*pedals*) at y delyn gan Almaenwr o'r enw Hochbrucher, brodor o Donauwörth, yn Bavaria, tua y flwyddyn 1720; yr hyn oedd yn gynnwysedig mewn peirianwaith oedd yn codi pob nodyn hanner tôn. Yr oedd y ddyfais, pa

Digitized by Google

fodd bynag, er ei bod yn hynod gywrain, yn meddu ei diffygion; ond diffyg mawr y peirianwaith hwn oedd, fod gweithrediad y pedawl, pan yn rhoddi i'r tant yr ail sain, yn ei dynu allan o'i sefyllfa unionsyth—yr hyn oedd yn chwanegu yn fawr at yr anhawsder i chwareu, gan ei fod yn peri gwahaniaeth rhwng pellder y tannau a'u gilydd; a thueddai hefyd i daflu yr offeryn allan o gywair.

Tua y flwyddyn 1740, daeth cerddor Almaenaidd enwog, o'r enw Stecht, â'r delyn bedawl hon drosodd i Ffraingc: ac yn y sefyllfa hon y bu hi nes y dygwyd athrylith Sebastian Erard i ymwneyd â hi. Ac yn 1794, efe a ddygodd y diwygiadau a wnaeth ynddi i sylw y byd, am yr hyn y cymmerodd allan freinteb (*patent*)—y cyntaf a ganiatawyd erioed yn Lloegr am ddim a wnaethpwyd mewn cyssylltiad â'r delyn. Y mwyaf cywrain a defnyddiol o'i welliantau cyntaf ef oedd, y trefniant a adwaenir yn gyffredin fel y fforch (*fork*). Cydnabyddid yn gyffredinol fod y ddyfais hon yn rhagori ar bob dyfeisiau ereill adnabyddus i'r dyben o fyrhau y tant, er rhoddi tôn arall iddo; a darfu i holl wneuthurwyr telynau y Deyrnas Gyfunol gymmeryd mantais arni. Y mae y fforch yn gynnwysedig yn unig o ddau bîg neu bin bychan, a'r rhai hyny wedi eu gosod ar ddarn o bres bychan crwn, canol yr hwn sydd wedi ei ysgriwio ar begwn neu echel, yr hwn sydd mewn cyssylltiad â'r peirianwaith sydd o'r tu fewn i wddf y delyn. Y mae y tannau yn hongian ar y pin cyffredin, ac yn croesi wyneb y darn pres a enwyd; a phan y gwesgir y pedawl, y mae y ddau bin ar y darn pres yn cael eu dwyn i daro yn y tant yn groes i'w gilydd, ac yn ei fyrhau fel y gwneir y sŵn hanner tôn yn uwch; ac, ar yr un pryd, y maent yn ei wasgu yn ddigon tỳn fel y mae y tant yn rhoddi sain mor glir a sefydlog a phan na byddant yn cyffwrdd âg ef. Cedwir y tant, pa fodd bynag, yn hollol gyfochrol i'r ddau dant agosaf ato, ac yn rhydd oddi wrth symmud nac i mewn nac allan o linell y tannau ereill.

Gwnaed cyfnewidiad mawr hefyd ganddo yn maintioli y tannau, fel y gellir dyweyd fod telyn Erard, o'i chymmharu â'r hon a ddygwyd o Ffraingc i Loegr, yn meddu y gwahaniaeth hynod hwnw, o ran sain, ag sydd rhwng y berdoneg fawr (*grand pianoforte*) a'r telgord (*harpsichord*). Y canlyniad o'r gwelliantau mawrion hyn ar y delyn oedd, iddi ymgodi gryn lawer yn syniad a barn y byd cerddorol. Yr oedd cerddorion proffesedig, ac ereill a ymarferent â cherddoriaeth fel difyrwch, yn y wlad hon a gwledydd ereill hefyd, yn awyddus am feddu telynau Erard; a'r canlyniad fu iddynt ddyfod i arferiad cyffredinol. Ac ynghylch y flwyddyn 1800, yr oedd y delyn un-nwyf (*single action*), wedi dyfod i sefyllfa mor foddhaol o berffeithrwydd fel nad oedd yn mron le i welliantau chwanegol yn ei gwneuthuriad peiriannyddol; etto, yr oedd hi yn ddiffygiol iawn gyda golwg ar ei galluoedd trawsgyweiriadol. Cyweirid hi yn nghywair E, tri *flat*. Defnyddiwyd y cywair hwn fel y goreu i ranu, mor bell ag yr oedd yn bossibl, ammherffeithrwydd yr offeryn, rhwng y lleddf-nodau a'r llon-nodau. Yr oedd gweithrediad pob pedawl yn cyfodi pob tant yn hanner tôn ar y delyn un-nwyf; a phe buasai wedi ei chyweirio yn nghyweiriad C, buasai raid i'r modd-symmudiadau (*modulations*) ymarferadwy gael eu cyfyngu i'r cyweiriau gyda llon-nodau: ond wrth ei chyweirio mewn cywair gyda lleddf-nodau, yr oedd nifer y cyweiriau ymarferadwy yn cael eu rhanu rhwng y lleddf a'r llon-nodau, er nad yn cael eu chwanegu; o herwydd pan ennillodd y fantais o gael y lleddf-nodau, yr oedd y llon-nodau yn colli, ac i'r gwrthwyneb.

Nis gallai yr ammherffeithrwydd hwn yn yr offeryn gyda golwg ar fodd-symmudiadau ddiangc sylw meddwl treiddgar Sebastian Erard: a gwnaeth ei ymgais cyntaf i ddiwygio a gwellhau hyn o ddeutu y flwyddyn 1801, pan y gorphenodd delyn a roddai dri sain gwahanol ar bob tant; sef, y lleddf, y naturiol, a'r llon. Y mae y freinteb ar y delyn hono wedi ei dyddio ar Mehefin 16eg, 1801. Y mae hon yn cynnwys y bwlch dwbl, neu y toriad yn ngwadn y delyn, drwy yr hyn y mae y pedawl, ar ol cael ei wasgu i'r orphwysfan cyntaf, fel yn y delyn un-nwyf, yn gyfryw ag y gellir ei wasgu i ail orphwysfan. Yr oedd egwyddor y peirianwaith i wneyd yr hanner tônau yn wahanol i'r hyn oedd yn ei delyn un-nwyf, a ddyfeisiwyd yn 1794; sef, byrhau y tannau trwy gyfrwng fforch. Yr oedd y pedawl, pan y gwesgid arno, yn peri i'r orphwys-bin ar ba un yr oedd y tant wedi ei lapio, droi o amgylch, a gwneuthur symmudiad pennodol felly, yr hwn oedd yn tynhau y tant fel ag i'w godi ddau hanner tôn yn olynol, yn yr un modd ag y gellir gwneyd gyda morthwyl cyweirio (*tuning hammer*). Yn gymmaint a bod ymddangosiad allanol y peirianwaith yr un fath, pa un bynag ai lleddf, ai naturiol, neu lon, fyddai y tant, dyfeisiodd Sebastian Erard fath o fynegai (*index*), i ddangos sefyllfa y pedawl:—math o nodwydd oedd yn gyssylltiedig â'r gorphwys-bin ei hun, a'r hon, trwy ddilyn symmudiad y gorphwys-bin, a gyfeiriai at y ffigiwr lleddf, naturiol, neu lon.

Yr oedd y modd hwn o wneyd yr hanner tônau ar y delyn yn meddu ei anghyfleusderau, gan ei fod yn cynnyddu tyndra y tant. Yr oedd Sebastian Erard yn canfod diffygion offeryn wedi ei wneuthur ar y fath gynllun, ac yn gwybod hefyd nas gallai byth fod o ddefnydd cyffredinol: gan hyny, yn hollol ddiystyr o'r draul a'r llafur dirfawr a gostiodd iddo, efe a'i cadwodd yn unig fel math o gywrein-waith.

O ddeutu y flwyddyn 1808 y dechreuodd efe ei delyn ddeu-nwyf (*double action*), yr hon a wnaed ar yr un egwyddor a'i delyn un-nwyf—yr hon a wnaethid ganddo yn 1794, yr hon oedd yn byrhau y tant trwy gyfrwng fforch. Yna efe a wnaeth gyfres o arbrawfiadau llafurus a manwl, yr oll o ba rai sydd yn gynnwysedig yn ei freinteb (*patents*) a gymmerodd allan yn 1808 a 1810. Ond nid hyd y flwyddyn 1811, ar ol gwario dim llai nag ugain mil o bunnau i osod yn ei weithfa y gwahanol beiriannau hyny ar ba rai y mae manylrwydd gwneuthuriad gwaith peiriannyddol yn dibynu i raddau mor arbenig, y dygodd efe allan ei delyn ddeu-nwyf bresennol. Y mae y delyn ddeu-nwyf yn meddu manteision mawr ar y delyn un-nwyf, mor bell ag y mae damcaniaeth gerddorol yn myned; o herwydd yn lle tair ar ddeg o ddring-raddau (*scales*), sef wyth yn y cywair mwyaf a phump yn y lleiaf, sydd yn ymarferadwy ar y delyn un-nwyf, y mae ar y delyn ddeu-nwyf saith ar hugain cyflawn—pymtheg yn y cywair mwyaf, a deuddeg yn y lleiaf, ac y mae'r tannau yr un fath i'r chwareuydd yn y cwbl. Y delyn ddeu-nwyf, o'r holl offerynau sydd yn meddu seiniau sefydlog, yw y berffeithiaf; ac am ei bod yn meddu un ar hugain o seiniau yn yr wythawd, yn lle deuddeg,

Digitized by Google

fel offerynau cerddorol âg allweddau iddynt (*keyed instruments*), y mae hi yn gallu arddangos mwy o arwyddion o deimlad a naws na hwy.

Y mae yn ddiangenrhaid dyweyd dim mewn ffordd o ganmoliaeth i'r delyn ardderchog hon. Y mae yn llefaru drosti ei hun, a hi a saif byth yn brawf amlwg o athrylith y dyn y mae y cyhoedd mor ddyledus iddo am y ddyfais odidog. Yn chwanegol at berffeithrwydd peiriannyddol y delyn ddeu-nwyf, y mae manteision nodedig ereill wedi eu cyrhaedd trwy y ddyfais; sef, lleihâd nifer y tannau i un res—yr hyn sydd, nid yn unig yn galluogi y chwareuwr i gadw yr offeryn mewn gwell cywair, ond i ddefnyddio tannau praffach, a thrwy hyny sicrhau sain o ansawdd rhagorach; yr hwn, o ran ei bereidd-dra a'i gyflawnder, a ddeil gymmhariaeth ffafriol â'r eiddo unrhyw offeryn arall sydd mewn bod.*

"Mae o leisiau melusion
Mil o hyd yn mola hon."

TEMTIAD CRIST. Y mae cyfeiriadau at yr amgylchiad hynod hwn i'w cael yn *Mat.* iv. 1—11; *Marc* i. 12, 13; *Luc* iv. 1—12. Y golygiad mwyaf cyffredin ar yr hanes ydyw, ei fod yn adroddiad o'r hyn a gymmerodd le yn weithredol a gwirioneddol; sef, i'n Gwaredwr gael ei arwain yn uniongyrchol ar ol ei fedydd i'r anialwch "gan yr Ysbryd, i'w demtio gan ddiafol." Wrth yr anialwch y golygir, naill ai yr ardal fynyddig a elwir *Quarantania* yn awr gan bobl Palestina, neu anialwch mawr Arabia, am yr hwn y crybwyllir yn *Deut.* viii. 15; xxxii. 10; *Hos.* xiii. 5; *Ier.* ii. 6, &c. Daeth y diafol yno yn bersonol i'w demtio, ymddangosodd iddo mewn ffurf weledig, llefarodd wrtho mewn llais clywadwy, a chymmerodd ef i "fynydd uchel," ac "i Ierusalem, ac a'i gosododd ar binacl y deml." Ond y mae llawer o esbonwyr dysgedig, hen a diweddar, yn barnu mai hanes gweledigaeth ydyw, ac nid hanes digwyddiad a gymmerodd le yn wirioneddol.

Y mae y rhai sydd yn esbonio yr hanes yn llythyrenol, yn ol y syniad mwyaf cyffredinol am dano, yn dadleu nad oes dim yn cael ei ddyweyd gan yr efengylwyr a awgryma y syniad o weledigaeth; nas gallai y teimlad o newyn fod mewn rhith yn unig; a bod gweledigaeth am ddeugain niwrnod yn beth anghredadwy; nad oedd Moses, yr hwn oedd gysgod o Grist, yn gweled gweledigaethau, ac y gellir felly gasglu nad oedd Crist chwaith; a'i fod yn beth tebygol y buasai ymdrechfa yn cymmeryd lle rhwng Crist a Satan, ar waith y blaenaf yn dechreu ar ei weinidogaeth. Gan fod Satan wedi llwyddo i gael pen yr Adda cyntaf i lawr, gobeithiai lwyddo i wneuthur yr un modd gyda'r ail:—a gofynir, Pa angen oedd am gymmeryd ein Harglwydd i weled gweledigaeth?

Y mae ereill yn dadleu fod yr efengylwyr yn disgrifio y temtiad fel gweledigaeth yn unig. Matthew a ddywed, "Yr Iesu a arweiniwyd i fyny i'r anialwch gan yr Ysbryd." Marc a ddywed, "Yn ebrwydd y gyrodd yr Ysbryd ef i'r anialwch." A Luc a ddywed, "A arweiniwyd gan yr Ysbryd i'r anialwch." Haerir nad ydyw yr ymadroddion hyn yn cynnwys dim mwy na'i fod wedi myned, o dan gynnhyrfiad neu arweiniad yr Ysbryd, i gymmydogaeth neillduol:—ac i Grist gael ei ddwyn i'r anialwch o dan ddylanwad mawr yr ysbryd prophwydol, yr hwn a wnaeth ddadguddiedigaethau iddo. Yn mherthynas i'r newyn, dywedir fod y prophwydi yn profi rhyw deimladau perthynol i'r corph yn eu gweledigaethau: *Ezec.* iii. 3; *Dad.* x. 10. Dadleuir hefyd na bu ymdrechfa bersonol rhwng yr Adda cyntaf a Satan; y gallasai holl ddybenion temtiad ein Harglwydd gael eu hatteb trwy weledigaeth; a pha beth bynag oedd y moddion, fod yr effaith a fwriedid gynnyrchu i fod ar ei feddwl a'i demladau moesol, fel gweledigaeth Pedr ynghylch Cornelius, &c. (*Act.* x. 11—17); fod esbonwyr, heb fod yn ddamcanwyr mawr, yn cydnabod i'r temtiad gael ei ddwyn yn mlaen yn feddyliol am y rhan fwyaf o'r deugain niwrnod, a bod y rhan weledig o'r temtiad wedi dechreu pan ddaeth y temtiwr ato (*Mat.* iv. 3; *Luc* iv. 3); ac o barthed i osod Crist ar "fynydd uchel," cyfeirir at Ezeciel:—dywed y prophwyd hwn (*pen.* x. 1, 2), "Yn ngweledigaethau Duw y dug efe fi i dir Israel, ac a'm gosododd ar fynydd uchel iawn;" a dywed Ioan hefyd, "Ac efe a'm dug i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangosodd i mi y ddinas fawr, Ierusalem sanctaidd." Dygir yn mlaen hefyd resymau uniongyrchol dros y golygiad hwn. Gofynir a ydyw yn gysson â chyfrwysdra yr ysbryd drwg i dybied ei fod wedi ymddangos yn ei berson ei hun i'n Harglwydd, gan ei gymmhell i wneyd yr hyn oedd ddrwg? Onid dyma y ffordd fwyaf uniongyrchol iddo i ddyrysu ei amcanion ei hun. Dywed yr archesgob Seckar—"Yn ddiau nid ymddangosai felly fel y diafol, o herwydd buasai hyny yn myned ar draws ei amcanion." Gwna Chandler hefyd sylw cyffelyb. Secker a dybia fod "Satan wedi trawsffurfio ei hun yn angel goleuni;" ond o'r braidd y gellir meddwl y buasai yn gwisgo y ffurf hwn i'r dyben o demtio ein Harglwydd i eilunaddoliaeth: *Mat.* iv. 9. Chandler a dybia ei fod "wedi ymddangos ar ffurf dyn da:" ond a fuasai hyny yn atteb ei ddyben gan ei fod yn addaw llywodraeth gyffredinol? Heb law hyn, yn *adn.* 10, dywedir fod Crist yn ei anerch fel "Satan."

Mewn gwirionedd, y mae amryw ddamcaniaethau wedi eu cynnyg i geisio esbonio y ffaith hynod o demtiad Crist. Rhai a dybiant, fel y sylwyd, i'r cyfan gymmeryd lle mewn gweledigaeth: ereill, fod y demtasiwn wedi ei hawgrymu yn fewnol—neu i feddwl ein Gwaredwr: ereill drachefn, mai dammeg ydyw o eiddo Iesu Grist, ac efe ei hun yn destyn iddi. Cydnabyddwn fod yr amgylchiad yn un anhawdd ei ddeall, ond y mae y golygiadau hyn yn tueddu i wanhau seiliau y dystiolaeth ar yr hwn y gorphwys y ffaith ei hun; ac heb law hyny, y maent, fe allai, yn hytrach yn mwyhau nag yn lleihau yr anhawsderau sydd ynglŷn â'r achos.

Y ffordd oreu, ar y cyfan, ydyw dilyn iaith yr Ysgrythyrau mor agos ag y mae yn bossibl, heb geisio ei hesbonio trwy unrhyw ddychymygion o'r eiddom ein hunain. Ac wedi'r cwbl, beth sydd yn yr hanes yn anghysson â rheswm? Fod gelyn mawr dynolryw, ar ymneilldued ein Harglwydd i'r anialwch, wedi ymddangos mewn rhyw ffurf neu gilydd (nid yw o gymmaint pwys yn mha ffurf), a chyflwyno o'i flaen y temtasiynau tebycaf o effeithio arno yn yr amgylchiadau profedigaethus yr oedd ynddynt, sydd yn eithaf naturiol, ac yn hollol gysson â'i gymmeriad drygionus ef. Ond gofynir, pa ham y godd-

* Y mae ysgrifenydd yr erthygl hon yn ddyledus am y disgrifiad uchod o delyn ddeu-nwyf Sebastian Erard i'w ddiweddar gyfaill, Pierre Erard, yr hwn a gyhoeddodd yn 1821 hanes llawn o wahanol ddyfeisiau ei ewythr enwog.

efwyd i Satan i sarhau a themtio Mab Duw? Pa ham y goddefodd y Gwaredwr i'w ymneillduaeth gael ei gynnhyrfu gan awgrymiadau bryntion yr un drwg? Gellir atteb yn 1af, Ei fod drwy hyn wedi rhoddi prawf o'i iselder a'i ymddarostyngiad ei hun. 2il, Profodd ei allu a'i awdurdod ar y temtiwr. 3ydd, Rhoddodd esampl o rinwedd a diysgogrwydd i'w ddilynwyr. 4ydd, Y mae yn dwyn cysur a diddanwch i'w bobl a fyddant yn dioddef ac mewn trallod, trwy ddangos, nid yn unig iddo ef ei hun gael ei demtio, ond hefyd ei fod yn abl i gynnorthwyo y rhai a demtir: *Heb.* ii. 13; iv. 15. Ymdrinir â'r amrywiol demtasiynau y bu yn ddarostyngedig iddynt yn yr erthygl IESU GRIST.

TEMTIWR: enw a roddir gan yr ysgrifenwyr sanctaidd ar Satan, gelyn a gwrthwynebwr mawr yr hil ddynol: *Mat.* iv. 3; 1 *Thes.* iii. 5. Gwel DIAFOL. Y mae genym enghreifftiau o'r modd y mae yn dwyn ei waith yn mlaen fel temtiwr yr hil ddynol, yn ei ymddygiad tuag at ein rhieni cyntaf (*Gen.* iii. 1—6); ac hefyd yn ei waith yn temtio ein Iachawdwr yn niffeithwch Iudea (*Mat.* iv. 1—11), ac yn ngardd Gethsemane. Nid ydyw y saint "heb wybod ei ddichellion ef;" 2 *Cor.* ii. 11.

TERAPHIM (תרפים). Y mae y gair *Teraphim* o bossibl, yn arwyddo gwrthddrych neu wrthddrychau eilunaddoliaeth, neu ddelwau; ond addefir fod tarddiad y gair yn anhawdd ei benderfynu hyd sicrwydd. Ymddengys nad oedd y *delwau*—y gair y cyfieithir *teraphim* iddo yn y Beibl Cymraeg—a ddygwyd gan Rahel oddi ar Laban yn rhai bychain iawn; ond yr oedd y ddelw a guddiwyd gan Michal yn ngwely Dafydd, i'r dyben o dwyllo cenhadon Saul, o'r un maintioli, dybygid, a dyn cyffredin; ac yn y pen a'r ysgwyddau, fe allai, os nad yn rhanau isaf y corph, ar ffurf dynol. Fe allai nad oedd ystafell wely Dafydd yn ddim amgen na chell heb un ffenestr arni, yn agor o ystafell fawr, yr hyn a barai nad oedd yn angenrheidiol gwneyd dim mwy na llenwi y gwely. Edrychai Laban ar ei deraphim fel duwiau; ac yn gymmaint ag nad oedd efe mewn anwybodaeth o'r gwir Dduw, y mae yn debyg y ddefnyddid delwau weithiau gan y rhai a ddygent arferion llygredig i mewn i wasanaeth crefydd yn amser y patriarchiaid. Yr oedd teraphim yn mysg delwau Micah —yr oeddynt yn wrthddrychau eilunaddolgar, yn dal cyssylltiad â heresiau llygredig, yn hytrach nag â gwasanaeth crefyddol paganaidd: *Barn.* xvii. 3—5; xviii. 17, 18, 20. Ymgynghorid â'r teraphim am attebion oraclaidd gan yr Israeliaid (*Zech.* x. 2; cymmh. *Barn.* xviii. 5, 6; 1 *Sam.* xv. 22, 23; xix. 13, 16; 2 *Bren.* xxiii. 24); 24), a chan y Babiloniaid yn achos Nebuchodonosor: *Ezec.* xxi. 19—22. Nid oes dystiolaeth bendant eu bod yn cael eu haddoli. Er nad ydynt yn cael eu henwi yn fynych, yr ydym yn gwybod eu bod yn cael eu defnyddio gan yr Israeliaid i ryw ddybenion yn amser y Barnwyr ac yn nyddiau Saul, ac hyd deyrnasiad Iosiah (yr hwn a'u bwriodd hwynt ymaith: 2 *Bren.* xxiii. 24), a thrachefn, y mae yn debygol, ar ol dyddiau y gaethglud: *Zech.* x. 2.

TEUTONAIDD, MARCHOGION: un o'r urddau milwrol a chrefyddol enwocaf a sefydlwyd yn amser y croesgadau. Darfu i ddiodd-efiadau y Cristionogion yn adeg y gwarchau ar Acre gyffroi cydymdeimlad y marsiandwyr yn Bremen a Lübeck, y rhai a wnaethant wasanaeth mor ragorol trwy sefydlu clafdai; a chyda chaniatâd y pab Clement III. a'r ymherawdwr Harri VI., ffurfiodd y duc Frederick o Swabia hwy yn urdd marchogol; sef, Marchogion Teutonaidd St. Mair o Ierusalem. Nid oedd caniatâd i neb ymuno â'r urdd ond Almaenwyr o waedoliaeth uchel, gan i'r sylfaenwyr gwreiddiol gael eu gwneyd yn bendefigion, dybygid, cyn eu derbyn i mewn. Ar y cyntaf yr oedd yr aelodau oll yn lleygwyr; ond yn raddol gollyngwyd offeiriaid i mewn fel caplaniaid. Gwisg yr urdd oedd mantell wen, â chroes ddu arni; a chymmerai y marchogion yr adduned o dlodi a diweirdeb, ond nid oeddid yn gofalu ond ychydig am danynt mewn amseroedd diweddar. Y lle cyntaf yr ymsefydlasant ynddo oedd Acre. Ar gwympiad teyrnas Ierusalem, symmudodd y prif swyddog i Venice; ac oddi yno, yn 1309, i Marienburg, ar lenydd y Vistula. Ymunodd yr urdd yma â Brodyr y Cleddyf yn Livonia, yn y fl. 1237. Gyda chaniatâd y pab, cariasant yn mlaen ryfel gwaedlyd ar lenydd deheuol Môr y Baltic, yn y drydedd ganrif ar ddeg, er cael gan y cenhedloedd a drigent yno dderbyn Cristionogaeth. Ymunodd rhyfelwyr o bob parth o Ewrop gyda hwynt yn y ganrif ddilynol—ac yn eu plith Harri IV. o Loegr, a thri chant o farchogion. Dechreuodd yr urdd adfeilio yn y bymthegfed ganrif; a chwympodd mewn rhan o herwydd ymraniadau mewnol, ac mewn rhan mewn canlyniad i ymosodiadau cenedloedd cylchynol. Cymmerwyd Prwssia Orllewinol gan Sigismund o Poland oddi ar y marchogion, a ffurfiwyd tiriogaethau yr urdd yn Prwssia Ddwyreiniol yn dalaeth dan Albert o Brandenburg, a'i olynwyr. Yna symmudodd y prif swyddog i Mergentheim yn Swabia, yr hwn a gydnabyddid fel tywysog o'r ymherodraeth. Pan wnaed heddwch Presburg, yn 1805, trosglwyddwyd i ymherawdwr Awstria hawliau a chyllid y prif feistr; ond yn 1809 diddymwyd yr urdd gan Napoleon, ac aeth y tiroedd perthynol iddo yn feddiant i benaduriaid y gwledydd lle y digwyddent fod. Y mae yr urdd Teutonaidd, modd bynag, yn bod mewn rhyw ffurf yn Awstria etto.

TIBERIAS (Τιβεριάς): dinas yn amser Crist, ar lan Môr Galilea, a grybwyllir gyntaf yn y Testament Newydd (*Ioan* vi. 1, 2, 3, xvi. 1), ac wedi hyny gan Josephus ["*Hyn. Iudd.*," xviii.; "*Rhyf. Iudd.*," ii. 9, *adr.* 1], yr hwn a fynegai iddi gael ei hadeiladu gan Herod Antipas, a'i henwi ganddo er anrhydeddu yr ymherawdwr Tiberius. Tref newydd ydoedd hi, dybygid, ac nid un wedi ei hadgyweirio a'i hadferu yn unig; o herwydd yr oedd Raccath (*Ios.* xix. 35), am yr hon y dywedir yn y "*Talmud*" ei bod yn sefyll ar y fan y safai Tiberias, yn gorwedd yn nhiriogaeth llwyth Naphtali, tra yr ymddengys fod Tiberias o fewn terfynau Zabulon: *Mat.* iv. 13. Gellir gwneuthur yr un sylw o berthynas i adroddiad Jerome, fod Tiberias wedi cyfodi yn lle Chinnereth flaenorol; o herwydd yr oedd y lle diweddaf yn mhellach i'r gogledd na Tiberias. Y mae y ffaith hefyd fod ei henw Rhufeinaidd wedi glynu wrthi yn dangos yr un peth; o herwydd, a siarad yn gyffredinol, yr oedd enwau tramorol, a roddid ar ddinasoedd a adwaenid o dan enwau ereill yn y dwyrain yn flaenorol, wedi i'r gallu tramorol golli ei awdurdod yn colli hefyd, a hwythau yn cael eu hadnabod eilwaith

Digitized by Google

wrth eu hen enwau gwreiddiol. Tiberias oedd prif ddinas Galilea o'r amser y sylfaenwyd hi hyd deyrnasiad Herod Agrippa II., yr hwn a ddygodd eisteddle y llywodraeth yn ol i Sepphoris, lle yr oedd cyn sylfaenu y ddinas newydd. Yr oedd llawer o'r preswylwyr yn Roegiaid a Rhufeiniaid, ac arferion dyeithr yn ffynu yn eu mysg i'r fath raddau nes rhoddi tramgwydd i'r Iuddewon manylaf. Yr oedd Herod, sylfaenydd Tiberias, wedi treulio y rhan fwyaf o foreu ei oes yn Italy, ac wedi magu chwaeth at adeiladau gorwych o'r fath ag oedd yn y wlad hono. Adeiladodd balas a addurnwyd ganddo â lluniau anifeiliaid, "yn groes," fel y dywed Josephus, "i gyfreithiau ein cydwladwyr." Yr oedd cymmaint a hyny llai o atdyniad yn y lle i Iuddewon; o herwydd, fel y dywed yr un awdurdod ["*Hyn. Iudd.*," xviii. 2, *adr.* 3], safai ar fan lle y bu hen gladdfa, ac edrychid arni o herwydd hyny gan y rhai manylaf o honynt fel cymmydogaeth wrthodedig. Y mae rhai arian bathol perthynol i ddinas Tiberias ar gael etto, wedi eu gwneyd yn amser Tiberius, Trajan, a Hadrian. Y mae yr hen enw wedi ei gadw etto yn yr enw diweddar *Tubarîeh*—tref a saif yn ddiammheuol ar yr un llanerch â'r hen Tiberias, ond ei bod yn llai o ran ei maint a'i therfynau na'r hen ddinas. Ger *Tubarîeh*, tua milldir i'r deheu gyda'r glanau, y mae baddonau cynnhes rhagorol, a ystyrid gan y naturiaethwr Rhufeinaidd Pliny yn un o ryfeddodau y byd. Y mae rhwng y baddonau hyn a'r dref lawer o hen weddillion adfeiliedig, megys sylfeini muriau, carneddau ceryg, darnau o ithfaen, a phethau cyffelyb. Nis gellir ammheu gan hyny nad oedd yr hen Tiberias unwaith yn gorchuddio y llanerchau hyny, ac yn llawer eangach na'i holynydd diweddar. Oddi wrth yr arwyddion hyn, ynghyd â thystiolaeth bendant Josephus, yr hwn a ddywed fod Tiberias yn agos i Ammaus, neu y baddonau cynnhes, nid oes dim ansicrwydd i fod ynghylch y man y safai y ddinas bwysig hon; sef, ar y lan orllewinol—o ddeutu dwy ran o dair o'r ffordd rhwng y pen gogleddol a deheuol o Fôr Galilea. Y mae yno lain o dir rhwng y dwfr a'r bryniau serth, tua dwy filldir o hyd, a chwarter milldir o led. Yn y pen gogleddol i'r darn tir hwn y mae y *Tubarîeh* ddiweddar, ac y mae y baddonau yn y pen deheuol; felly y mae yn rhaid fod yr hen ddinas Rufeinig yn gorchuddio yr holl ddarn tir hwn. Y mae *Tubarîeh* yn cael ei hamddiffyn gan fur cadarn ar ochr y tir, ond y mae yn hollol agored tua'r môr. Ceir yno ychydig balmwydd fel olion o'r llysieuaeth ffrwythlawn a addurnai gynt y gymmydogaeth hon o Wlad yr Addewid, ond y maent lawer llai o ran maintioli a harddwch na'r rhai a geir yn yr Aipht. Tŷf y rhoslawryf yma yn helaeth, fel y gwna yn nyffryn cyfagos Gennesaret. Y mae y bobl yn awr, fel cynt, yn byw i raddau pell ar gynnyrchion y llyn. Gwel yr edrychydd oddi yma yr holl fôr o'r bron, ond y rhan deheuol o hono, sydd yn cael ei gau o'r golwg gan glogwyn sydd yn taflu allan ar y tir. Ymddengys y clogwyni ar yr ochr gyferbyniol megys pe yn hongian uwch ben y dwfr; ond wrth agoshau atynt gwelir eu bod yn taflu yn ol ychydig, fel ag i alluogi y teithiwr i fyned yn mlaen rhyngddynt hwy a'r dwfr. Y mae Hermon uchelgrib, neu y *Jebel-esh-Sheikh* diweddar, yn ymddangos yn wrthddrych amlwg iawn yn nghyfeiriad y gogledd-ddwyrain. Ceir llawer o feddau creigiog yn ochrau y bryniau, y tu ol i'r dref—rhai o honynt yn ddiau o hynafiaeth mawr, ac wedi eu gwneyd yn rhagorol. Y mae yr hinsawdd yn y tymmor poeth yn gynnhes ac yn afiachus; ac y mae y rhan fwyaf o ffrwythau y trofanau, fel mewn rhanau ereill o ddyffryn yr Iorddonen, yn addfedu yn gynnar. Taith pedair awr a hanner o Nazareth, a thair awr ar ddeg o Cesarea Philippi, ydyw y lle hwn.

Peth hynod ydyw nad yw yr Efengylau yn rhoddi dim hysbysrwydd fod ein Ceidwad, er iddo dreulio cymmaint o'i fywyd cyhoeddus yn Galilea, wedi ymweled â Tiberias o gwbl. Ystyr cywiraf y geiriau "Aeth yr Iesu dros Fôr Galilea, hwnw yw Môr Tiberias" yn *Ioan* vi. 1, ydyw—nid fod yr Iesu wedi hwylio o Tiberias; ond, fel y sylwa Meyer, iddo groesi o ochr orllewinol *Môr Galileaidd Tiberias* i'r ochr gyferbyniol. Fe allai mai y rheswm am hyn ydoedd am fod Herod, llofrudd Ioan Fedyddiwr, yn trigiannu y rhan fwyaf o'i amser yn y ddinas hon; am hyny, fod yr Iesu yn cadw oddi yno o herwydd cymmeriad dichellgar a gwaedlyd y llywodraethwr: *Luc* xiii. 32. Y mae yn amlwg oddi wrth *Luc* xiii. 8, er fod Herod wedi clywed am enwogrwydd Crist, etto nad oedd efe wedi ei weled yn bersonol hyd nes y cyfarfuasant yn Ierusalem. Dichon fod nodwedd y lle—math o drefedigaeth Rufeinig—yn rheswm am fod yr hwn a anfonwyd at ddefaid colledig tŷ Israel yn gwneyd can lleied o waith yn y gymmydogaeth. Gwastadedd Gennesaret, lle yr oedd y boblogaeth yn llawnach ac yn fwy Iuddewig, oedd un o'r lleoedd y bu yr Arglwydd Iesu yn gweinidogaethu mwyaf o bob ardal yn Galilea. Yn ol pob tebygolrwydd, cynnaliwyd gwledd Herod a gwŷr ei lys, o flaen y rhai y dawnsiodd merch Herodias, yn mhrif ddinas y dalaeth. Os, fel y dywed Josephus ["*Hynaf. Iudd.*," xviii. 5, *adr.* 2], oedd y Bedyddiwr wedi ei garcharu er's peth amser yn nghastell Machaerus, y tu hwnt i'r Iorddonen, gellid meddwl i'r gorchymyn i'w ladd gael ei roddi mewn grym yno, ac i'w ben gael ei ddwyn oddi yno, a'i osod o flaen yr Herodias greulawn yn y palas.

Y mae i Tiberias hanes dyddorol, yn annibynol ar ei chyssylltiad â'r Ysgrythyrau. Cymmerodd y ddinas ran amlwg yn y rhyfeloedd a fu rhwng yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid. Yno, yn ganlynol i gwymp Ierusalem, ar ol bod am ychydig yn Iamnia a Sepphoris, yr ymgynnullai y Sanhedrim yn gysson tua chanol yr ail ganrif. Blodeuodd ysgolion Iuddewaidd yno am amryw ganrifoedd. Casglwyd y "*Mishna*" yn y lle hwn gan yr enwog Rabbi Iudah Hakkodesh, yn B. A. 190. O Tiberias hefyd, i fesur mawr, y deilliodd y *Masorah*, neu gorph y traddodiadau Iuddewig. Disgynodd y lle i ddwylaw Cristionogion yn nyddiau Cystenyn; ac yn yr ysbaid y parhaodd y croesgadau, ennillwyd a chollwyd y dref amryw weithiau gan y pleidiau gwrthwynebol. Er y pryd hwnw, y mae hi yn nwylaw y Persiaid, yr Arabiaid, a'r Tyrciaid; a chynnwysa yn awr, o dan lywodraeth Twrci, boblogaeth gymmysg o Fahometaniaid, Iuddewon, a Christionogion, a gyfrifir yn amrywio o ddwy i bedair mil o rifedi. Fe allai fod yr Iuddewon yn cyfansoddi y bedwaredd ran o honynt. Ystyriant hwy Tiberias yn un o'r pedwar lle cyssegredig (Ierusalem, Hebron, a Safed, ydyw y lleill), yn y rhai, meddynt, y mae yn rhaid offrymu gweddïau yn barhaus, neu y syrthiai y byd yn ddiattreg i'w gymmysgfa dechreuol. Un o'r syniadau hynod a fabwysiedir

Digitized by Google

gan drigolion y dref ydyw—pan yr ymddengys y Messïah y daw efe i fyny o ddyfroedd y llyn, y glania yn Tiberias, yr ä oddi yno i Safed, ac y cyfyd ei orsedd yno yn y lle uchaf a mwyaf dyrchafedig yn Galilea. Yn chwanegol at iaith y gwledydd neillduol, o ba rai y darfu iddynt hwy neu eu teuluoedd ymfudo, megys Poland, yr Almaen, Yspaen, &c., y mae y mwyafrif o'r Iuddewon yno yn siarad hefyd yr Hebraeg rabbinaidd ddiweddar, a'r Arabaeg ddiweddar. Preswyliant mewn cymmydogaeth yn nghanol y dref, yn agos i'r llyn; ac yn ogleddol i hyny y mae mynachdy ac eglwys Ladinaidd, ac ynddi un mynach Italaidd. Dioddefodd Tiberias yn ofnadwy oddi wrth y daeargryn mawr yn 1837, ac nid ydyw hyd heddyw wedi adferu oddi wrth effeithiau y trychineb hwnw. Tybir fod o leiaf saith gant o'r trigolion wedi colli eu bywydau ar y pryd. Teimlwyd oddi wrth effeithiau dinystriol y daeargryn hwnw mewn parthau ereill o Galilea. Y mae claddfa ger llaw Tiberias, lle y dywedir fod rabbi enwog wedi ei gladdu, a phedair mil ar ddeg o'i ddysgyblion o'i gwmpas. Dywed Burckhardt, fod bedd yr athronydd Arabaidd, Lokman, yn cael ei nodi allan yma yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Gan fod Tiberias ar y ffordd a gymmerir yn fwyaf cyffredin gan deithwyr, y mae yn cael ei chrybwyll yn aml yn y llyfrau a ysgrifenwyd gan ymwelwyr â Phalestina.

TIBERIAS, MOR. Yr unig fanau yn y Testament Newydd lle yr arferir yr enw hwn ydynt *Ioan* vi. 1, a xxi. 1. Y mae Ioan yn defnyddio yr enw, dybygid, fel un mwy adnabyddus i'r sawl nad oeddynt yn preswylio yn Mhalestina na'r enwau brodorol, 'Môr Galilea' neu 'Fôr Gennesaret,' ac yn cael ei gymmhell i wneyd hyny gan yr un ystyriaeth âg a barai iddo gyfieithu yr enwau Hebrëaidd a arferai; megys, Rabbi, Rabboni, Messias, Cephas, Siloam, &c., i iaith y Cenhedloedd. Gwel GENNESARET, MOR.

TIBERIUS CLAUDIUS NERO: yr ail o ymherawdwyr Rhufain, ac olynydd i Augustus, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu B. A. 14, ac a deyrnasodd hyd B. A. 37. Mab ydoedd i Tiberius Claudius Nero a Livia, ac felly yr oedd yn llysfab i Augustus. Ganwyd ef yn Rhufain, c. c. 42. Yn c. c. 38, ysgarwyd Livia oddi wrth ei gŵr, fel y gallai briodi Augustus. O hyn allan dygwyd Tiberius i fyny fel un o dylwyth yr ymherawdwr, addysgwyd ef yn ofalus, a chaniatawyd iddo yr un anrhydedd ag i nai ac ŵyrion Augustus; a bu efe, yn gystal a'i frawd Drusus, yn swyddogion yn y byddinoedd a wasanaethent ar gyffiniau eithaf yr ymherodraeth. Yr oedd Tiberius y pryd hwn mewn ffafr gan yr ymherawdwr a'r bobl, a hyny yn benaf am fod ei ddull neillduedig o fyw, a'i sefyllfa israddol yn attalfa arno i weithio allan ei dueddiadau drygionus; ac udgenid ei glod yn uchel fel arweinydd milwraidd. Ar orchymyn Augustus, efe a gafodd ysgariaeth oddi wrth ei wraig, Vipsania Agrippina, i'r dyben iddo briodi Julia, merch yr ymherawdwr, c. c. 11; ond poenid ef yn ddirfawr gan fywyd llygredig ei briod, a da oedd ganddo dderbyn swydd filwrol i weithredu ar gyffiniau yr Almaen; wedi hyny (c. c. 6) efe a ymneillduodd i Rhodes, lle y bu fyw am saith mlynedd; ond dychwelodd i Rufain wedi i Julia gael ei gyru ymaith i Pandataria. Mewn canlyniad i farwolaeth dau o ŵyrion Augustus, arloeswyd y ffordd i Tiberius, a'i drydydd ŵyr, Agrippa Postumus, i gael eu mabwysiadu gan yr ymherawdwr; ac appwyntiwyd Tiberius yn etifedd yr orsedd, gan fod Agrippa, ar wahân oddi wrth ei ieuengctid, yn hollol anghymmhwys at y gwaith o lywodraethu.

Esgynodd Tiberius yr orsedd yn B. A. 14, a thrwy ei ymddygiad gwrolwych a gweddaidd, ei gallineb a'i bwyll, rhoddai addewid o deyrnasiad dedwydd. Yr oedd ei lywodraethiad tirion a hynaws yn ddyledus mewn rhan yn ddiammheu i'r awydd oedd ynddo i ymgodi yn uwch yn ffafr y cyhoedd nag oedd ei nai poblogaidd Germanicus (yr hwn o du ei fam oedd o waedoliaeth Augustus); ond ar ol marwolaeth Germanicus (c. c. 19), a symmudiad oddi ar y ffordd bawb ereill y tybid fod perygl y gwnaent hòni hawl i'r orsedd, daeth gwir gymmeriad Tiberius yn fwy adnabyddus. Yr oedd yn wastad wedi dangos ei hun yn dawedog, eiddigus, ofnus, ac ammhenderfynol, er nad yn llwfrgalon, a braidd yn hollol amddifad o gydymdeimlad a serch; ac wedi cael yr awenau yn gadarn yn ei law, ymddadblygodd yr elfenau hyn yn ei gymmeriad, nes ei wneyd yn un o'r gorthrymwyr creulonaf a eisteddodd ar orsedd Rhufain. Yn ystod tymmor bywyd ei fam, yr hon a ofnid ganddo, nid oedd Tiberius, fodd bynag, yn cymmeryd ond ychydig o ran weithredol a chyhoeddus yn y llywodraeth. Arweiniai fywyd neillduedig, gan ragrithio efelychu rhinweddau na pherthynent iddo. Prif ddigwyddiadau y cyfnod hwn o'i deyrnasiad oedd cynnyddu nifer a swm y trethi, symmud pob gallu o afael y bobl a'r senedd, a chospi am deyrnfradwriaeth (*læsa majestas*); yr hyn nid oedd ddim yn amgen, mewn gwirionedd, na llwybr cyfleus i symmud o'r ffordd y sawl a dynent ei ŵg personol ef. Ar ol marwolaeth Livia, yn B. A. 29, efe a drosglwyddodd y rhan benaf yn y llywodraeth i law Ælius Sejanus—milwr llwyddiannus; ac a ymroddodd i fyw yn fwy llygredig, ac i foddio ei chwantau yn fwy nag o'r blaen. Nid oedd hyn yn golled i'r ymherodraeth fel y cyfryw, o herwydd yr oedd Sejanus yn ddyn galluog a phenderfynol. Yn y flwyddyn B. A. 27, ymsefydlodd Tiberius yn ynys Capri, er cael mwy o ryddid i ymdroi yn ei bleserau cnawdol, gan adael Sejanus, yr hwn a ddyrchafwyd ganddo yn gyfartal iddo ei hun mewn awdurdod, i ddwyn yn mlaen y llywodraeth; ac o'r pryd hwn nes y darganfyddwyd amcanion uchelgeisiol Sejanus, a'i gwymp (B. A. 31), y mae cofnodion Rhufain yn cynnwys enwau lliaws mawr o rai a alltudiwyd oddi yno, ac hefyd adroddiadau o'r afradlonedd, y gwastraff, a'r rhysedd a ffynai yn Capri. Yr oedd Macro, olynydd Sejanus, yn etifeddu ei holl feiau ef, ond nid yn feddiannol ar nemawr o'i dalentau, ac felly aeth sefyllfa pethau yn waeth nag erioed. Ymddengys yn rhyfedd fod y bobl wedi goddef y fath gamlywodraethiad. O'r diwedd, llwyr ddinystriwyd cyfansoddiad corphorol cadarn Tiberius trwy ei afradlonedd a'i annuwioldeb, a daeth ei fywyd gwaradwyddus i derfyniad yr 16eg o Fawrth, B. A. 37, yn 78ain mlwydd oed.

Cymmerodd dinas Tiberias ei henw oddi wrth yr ymherawdwr hwn. Gwelir fod bywyd cyhoeddus a marwolaeth ein Gwaredwr, a rhai o ddigwyddiadau pwysicaf yr oes apostolaidd, wedi cymmeryd lle yn ystod ei deyrnasiad ef. Merthyrwyd Stephan yn y flwyddyn olaf, neu yr olaf ond un, o'r teyrnasiad hwn. Gelwir ef yn Tiberius Cæsar yn *Luc* iii. 1; a mynegir yno i

Ioan Fedyddiwr ddechreu ei weinidogaeth yn y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Tiberius. Y mae y nodiad amseryddol hwn yn bwysig er penderfynu blwyddyn genedigaeth Crist, ac amser dechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus. Gwel Iesu Grist, Achau. Yr oedd Augustus wedi caniatau i Tiberius ran yn y llywodraeth ddwy neu dair blynedd cyn iddo ef farw; ac y mae yn gwestiwn, gan hyny, pa un a ydyw y bymthegfed flwyddyn y sonia Luc am dani, i gael ei chyfrif o'r pryd hwnw, neu ynte pan y dechreuodd Tiberius deyrnasu ei hun. Y cyfrifiad cyntaf a fabwysiedir fynychaf; ond gellir cysoni y naill â'r llall yn hawdd âg amseryddiaeth bywyd ein Harglwydd.

TIBHATH: un o ddinasoedd Hadarezer, brenin Sobah (1 *Cron.* xviii. 8), yr hon a elwir Betah yn 2 *Sam.* viii. 8; yr hyn a ddigwyddа, dybygid, trwy gamgyfleuad damweiniol y ddwy lythyren gyntaf. Y mae y man lle y safai arno yn anhysbys; ond os Aram-Sobah ydyw y wlad rhwng yr Euphrates a Cœle-Syria, rhaid ymofyn am Tibhath ar ymylau dwyreiniol yr Anti-Libanus, neu ynte oddi yno yn mlaen tua *Jebel Shahshabu.*

TIBNI. Wedi i Zimri ei losgi ei hun yn ei balas, bu ymraniad yn y deyrnas ogleddol: aeth hanner y bobl ar ol Tibni, mab Ginath, a'r hanner arall ar ol Omri: 1 *Bren.* xvi. 21, 22. Omri oedd gŵr dewisol y fyddin. Dygwyd Tibni yn mlaen, dybygid, gan bobl Tirsah; yr hon oedd ar y pryd yn cael ei gwarchau gan Omri a'i luoedd. Parhaodd yr ymrysonfa rhwng y pleidiau am bedair blynedd (1 *Bren.* xvi. 15, 23); ond yr unig gofnodiad am yr amgylchiad ydyw yr hyn a geir gan yr hanesydd yn yr ychydig eiriau a ganlyn:—"A'r bobl oedd ar ol Omri a orchfygodd y bobl oedd ar ol Tibni, mab Ginath: felly Tibni a fu farw, ac Omri a deyrnasodd;" *adn.* 22.

1. TICFAH: tad Sâlum, gŵr y brophwydes Hulda: 2 *Bren.* xxii. 14. Gelwir ef Ticfath yn y Beibl Cymraeg: 2 *Cron.* xxxiv. 22.
2. TICFAH: tad Iahasiah: *Ezra* x. 15. Yn *Esd.* ix. 14, gelwir ef yn Theocanus.

TIDAL: enw a grybwyllir yn unig yn *Gen.* xiv. 1. 9. Ymddengys ei enw yn mhlith y brenhinoedd cynghreiriol oedd yn ddarostyngedig i Cedorlaomer, brenin Elam, yr hwn a arweiniodd ddau ymgyrch milwrol o'r wlad oedd o ddeutu genau y Tigris i Syria. Mae yr enw Tidal, dybygid, yn cynnrychioli y gwreiddiol yn anghywir. Os derbynir y testyn Hebraeg, enw y brenin oedd *Thid'al;* ond, os y Deg a Thrigain sydd yn cynnrychioli y gwreiddiol oreu, ei enw oedd *Thargal,* neu fe allai *Thurgal.* Gelwir ef yn "frenin y Cenhedloedd;" wrth yr hyn y gellir yn rhesymol dybied ei fod yn benaeth ar amryw lwythau crwydrol nad oeddynt yn meddiannu yn sefydlog unrhyw gyfran bennodol o wlad, gan eu bod ar wahanol adegau o'r flwyddyn yn preswylio gwahanol ranau o Mesopotamia Isaf. Dyma fel y mae Arabiaid y parthau hyn yn byw hyd heddyw.

TIGLATH-PILESER (*Theglath-Phalasar*). Y mae enw y brenin hwn yn cael ei roddi yn 'Tiglath-pilneser' yn 1 *Cron.* v. 26, ac hefyd yn 2 *Cron.* xviii. 20; ond y ffurf arall arno yw y cywiraf yn ddiammheu. Efe oedd yr ail o frenhinoedd Assyria y sonir am danynt yn y Beibl, a ddaeth i wrthdarawiad â'r Israeliaid. Ymosododd ar Samaria yn nyddiau Pecah—am ba achos ni fynegir; ond y mae yn debyg mai y rheswm oedd, am fod Pecah yn gwrthod talu teyrnged iddo. Wedi myned i ddiriogaethau y diweddaf, efe "a ennillodd Ijon ac Abel-beth-maachah, ac Ianoah, Cedes hefyd, a Hazor a Gilead, a Galilea, holl wlad Naphtali, ac a'u caethgludodd hwynt i Assyria" (2 *Bren.* xv. 29): ac fel hyn "cyffyrddodd yn ysgafn â thir Zabulon a thir Naphtali"—y dosbarth mwyaf gogleddol. Nis gellir penderfynu amser y goresgyniad hwn yn awr; ond y mae yn amlwg mai yn mhen amryw flynyddoedd ar ol hyn y darfu i Tiglath-pileser wneuthur ail ymgyrch i'r parthau hyn, i'r hwn y bu canlyniadau pwysicach na'r cyntaf. Ymddengys i gynghrair gael ei ffurfio rhwng Resin, brenin Syria, a Phecah, brenin Israel, gyda'r amcan o ddarostwng Iudea, a chwanegu at nerth eu llywodraethau eu hunain. Ar y cyntaf bu Pecah a'i gynghreirydd yn llwyddiannus (2 *Bren.* xv. 37; 2 *Cron.* xxviii. 6—8); ond, ar eu gwaith yn ymosod ar Ierusalem ei hun, ac yn bygwth diorseddu Ahaz, yr hwn a deyrnasai yno, a dyrchafu 'mab Tabeal' yn ei le (*Esa.* vii. 6), appeliodd brenin Iudah at Assyria am gynnorthwy, ac ymddangosodd Tiglath-pileser drachefn yn y maes gyda'i luoedd. Aeth yn gyntaf yn erbyn Damascus, yr hon a gymmerodd efe (2 *Bren.* xvi. 9), ac a laddodd Resin y brenin. Aeth ar ol hyn, dybygid, i geryddu Pecah, gan fyned i'w wlad ef o du y gogledd-ddwyrain. Ymledodd dros yr holl wlad o'r tu hwnt i'r Iorddonen; ac nid "cyffwrdd yn ysgafn" â Samaria a wnaeth y tro hwn, ond "yn ddwysach y cystuddiodd hi wrth ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen; yn Galilea y Cenhedloedd" (*Esa.* ix. 1), gan ddwyn i gaethiwed "y Reubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh" (1 *Cron.* v. 26), a'u gosod yn Mesopotamia Uchaf, ac yn "Halah, a Habor, a Hara." Canlyniad yr ymgyrch hwn oedd llyngcu i fyny teyrnas Damascus, a chyfran fawr o Samaria, i'r ymherodraeth Assyriaidd; a gwnaed teyrnas Iudah hefyd yn warogaethol i'r penadur Assyriaidd.

Bu Tiglath-pileser yn ymddiddan âg Ahaz yn Damascus cyn dychwelyd i'w wlad ei hun: 2 *Bren.* xvi. 10. Yma, yn ddiau, y penderfynwyd ar y swm a delid yn flynyddol o deyrnged gan Iudah. Dyma yr oll a ddywed yr Ysgrythyr wrthym am Tiglath-pileser. Ymddengys ei fod yn olynydd i Pul, ac mai ei olynydd yntau oedd Salmaneser, a'i fod yn gyd-oesydd â Resin, Pecah, ac Ahaz; ac o ganlyniad, yr oedd yn llywodraethu Assyria yn ystod yr hanner diweddaf o'r wythfed ganrif c. c. Deallir oddi wrth ei arysgrifau ef ei hun fod ei deyrnasiad wedi parhau am ddwy flynedd ar bymtheg o leiaf; ac heb law ei ryfeloedd yn Syria a Samaria, iddo ymosod ar Babilonia, a Media, ac Armenia, a'r llwythau annibynol yn ardaloedd uchaf Mesopotamia; a'i fod, fel y penaduriaid Assyriaidd enwog ereill, wedi bod yn rhyfela â'r holl genhedloedd ar gyffiniau ei ymherodraeth; ac hefyd nad oedd, dybygid, yn dywysog cyfreithlawn, ond trawsfeddiannydd a sylfaenydd teyrnach newydd. Gellir casglu y ffaith ddiweddaf oddi wrth y ffaith hon—fod y penaduriaid Assyriaidd yn gyffredin yn ymogoneddu yn eu hynafiaid; ond y mae Tiglath-pileser yn ymattal rhag

dyweyd dim am yr eiddo ef: nid ydyw yn crybwyll hyd yn oed enw ei dad ar ei gofadeiliau. Y mae yn cydsefyll yn nodedig âg adroddiad Berosus a Herodotus, fod ynghylch y pryd hwn, hyny yw, yr hanner diweddaf o'r wythfed ganrif c. c., gyfnewidiad yn nheyrnach Assyria, trwy fod yr hen deulu, oedd wedi llywodraethu am 520 o flynyddoedd, wedi eu taflu o'r neilldu gan un arall ryw gymmaint cyn esgyniad Senacherib i'r orsedd. Y mae awdurdod y ddau awdwr yma, o'i gyssylltu â'r arwyddion ar y cofadeiliau, yn cyfreithloni y penderfyniad mai sylfaenydd y deyrnach isaf oedd Tiglath-pileser yr Ysgrythyr.

Nid ymddengys fod rhyfeloedd Tiglath-pileser yn gyffredinol o bwysigrwydd mawr. Cymmerodd Sepharfaim, ac amryw leoedd ereill llai eu pwys yn Babilonia. Yn Media, Armenia, a Mesopotamia Uchaf, bu yn lled lwyddiannus; ond ni chwanegodd yn barhaol at ei diriogaethau. Ar y cyffiniau gorllewinol yn unig y darfu i'w fuddugoliaethau estyn y terfynau. Darostwng Syria, a chryfhau dylanwad Assyria yn Iudah, oedd yn mysg prif ddigwyddiadau ei deyrnasiad. Ni wyddys am un palas nac adeilad mawr y gellir ei briodoli iddo. Ond y mae yr arysgrifau ar y cofadeiliau a adawodd ar ol yn dangos ei fod naill ai wedi adeiladu neu addurno palas yn Calah (*Nimroud*); ond nis gellir dywedyd dim yn mhellach am yr adeilad hwn.

TIGRIS (Τιγρις). Y mae ystyr gwahanol ffurfiau y gair wedi ei ystyried d. g. HIDECKEL. Yr oll sydd genym i'w wneyd yma ydyw, disgrifio cwrs a nodwedd yr afon. Y mae yn codi, fel yr Euphrates, o ddwy brif ffynnonell. Y bellaf, ac o ganlyniad y wir ffynnonell, ydyw y fwyaf gorllewinol; yr hon a dardda ychydig i'r dwyrain o'r mynydd uchel a elwir *Göljik*, yn y gorynys a ffurfir gan yr Euphrates lle y llifa heibio rhwng *Palou* a *Telek*. Y mae tarddle y Tigris yn agos i gongl dde-orllewinol y llyn, ac nis gall fod dros ddwy neu dair milldir oddi wrth wely yr Euphrates. Y mae ei chwrs ar y cyntaf yn troi braidd i'r gogledd-ddwyrain; ond ar ol dilyn y cyfeiriad hwn am tua phum milldir ar hugain y mae hi yn amgylchu tua'r deheu, ac yn myned yn mlaen yn nghyfeiriad Diarbekir. Y mae erbyn hyn yn afon o gryn faintioli, ac yn cael ei chroesi gan bont âg iddi ddeg o fwäau ychydig o Diarbekir. Yna y mae hi yn troi yn ddisymmwth i'r dwyrain, ac yn llifo yn y cyfeiriad hwn i *Til;* yna y mae yn newid ei chyfeiriad drachefn, a chymmera yr un de-ddwyreiniol, yr hwn a ddilynir ganddi, gydag ychydig o wyriadau yn awr ac eilwaith, hyd nes yr ymuna â'r Euphrates. Yn *Osman Kieui*, y mae yn derbyn i mewn yr ail, neu y Tigris ddwyreiniol, yr hon a ddisgyna o Niphates, sydd â'i chwrs yn mron yn uniongyrch tua'r deheu, ac i'r hon ar ei ffordd y rhed dyfroedd lawer o afonydd ereill. Ymuna yr afon hon â'r Tigris hanner y ffordd rhwng Diarbekir a *Til*. Cwrs rhediad y ddwy afon hyd at y fan yr ymunant ydyw—y naill yn gant a hanner, a'r llall yn gan milldir. Ychydig yn is i lawr na'r lle yr ymunant, y mae y Tigris yn gant a hanner o latheni o led, ac o dair i bedair troedfedd o ddyfnder. Ymarllwysa afon fawr iddi ger *Til*, sydd yn cynnwys agos gymmaint o ddyfroedd ag sydd ynddi hi ei hun yn flaenorol i hyn. Cyfyd y gangen hono yn agos i *Billi*, yn Kurdistan ogleddol. O *Til* y mae y Tigris yn rhedeg yn ddeheuol am ugain milldir trwy geunant hir, cul, a dwfn, ac yna daw allan i wlad gymmharol isel, ond etto bryniog, Mesopotamia. Rhed yma i'r de-ddwyrain i *Mosul*, yna ä yn mron yn uniongyrch i'r deheu i *Kileh-Sherghat*, ac yna i'r de-ddwyrain i *Samara*, lle y mae y bryniau yn terfynu, ac yr ä yr afon i'r marian mawr. Rhed yn awr yn fwy afreolaidd, ac ymuna â'r Euphrates yn *Kurnah*. Cyfrifir ei bod yn llifo, yn annibynol ar ei throadau, am 1,146 o filldiroedd. Gellir myned i lawr arni mewn carfadau (*rafts*) yn y tymmor y bydd mwyaf o ddwfr ynddi o Diarbekir, yr hon nad ydyw ond cant a hanner o filldiroedd oddi wrth ei tharddiad; ac y mae agerlongau bychain wedi bod yn ei nofio mor uchel a Mosul. Y mae ei mordwyo o Diarbekr i Samara yn waith anhawdd, o herwydd yr attalfeydd sydd ynddi; megys gwylltredion (*rapids*), creigiau, a thraethellau, yn ogystal a dyfrgloddiau ac argaeau celfyddydol, y rhai mewn amseroedd boreuol a daflwyd dros yr afon, i'r dyben, dybygid, o ddyfrhau y tir o amgylch y glenydd. Nid oes dim attalfeuon islaw Samara: y mae yr afon yno yn lled ddofn, a'i gwaelod yn lleidiog, y rhediad yn gymmedrol, a'r cwrs yn hynod o droellog. Lled cyfartal y Tigris yn y rhan yma o'i chwrs yw dau cant o latheni.

Heb law y tair prif afon a ddisgrifiwyd yn barod, nid ydyw y Tigris yn derbyn i mewn ar ei chwrs canol ac isaf ddim llai na phump o afonydd mawrion ereill: y Zakko, y Zab Fawr, y Zab Fechan, yr Adhem, a'r Diyaleh. Rhed y rhai hyn o fynyddoedd uchel y Zagros, sydd yn cau i mewn y dyffryn Mesopotamaidd ar du y dwyrain, ac yn alluog i gyflenwi y fath nifer o afonydd mawr o'u ffynnonellau anhysbydd â'u heira gwastadol. Nid ydyw y Tigris yn derbyn iddi un afon o bwys o du y gorllewin. Y mae yr afonydd mawr a enwir uchod, modd bynag, yn chwyddo ei dyfroedd yn ddirfawr; a dywedir fod ynddi fwy o ddwfr pan yr ymuna â'r Euphrates nag sydd yn yr Euphrates ei hun.—Chesney "*Euphrates Expedition*," i. tal. 62. Y mae i'r Tigris, megys i'r Euphrates, ei thymmor gorlifol. Yn gynnar yn mis Mawrth, mewn canlyniad i doddiad yr eira ar ystlysau deheuol y Niphates, cyfyd yr afon yn gyflym. Y mae ei lled yn eangu yn raddol yn Diarbekir o gant neu chwech ugain llath i ddau gant a hanner. Lleidiog yw ei dwfr, a rhed yn chwyrn. Ymgodi y mae y llifeiriant drwy fisoedd Mawrth ac Ebrill, ac y mae yn gyffredin yn cyrhaedd ei fan uchaf yr ail wythnos yn Mai. Ynghylch canol y mis hwnw, y mae dyfroedd y Tigris yn dechreu cilio, ac erbyn canol yr haf y maent wedi disgyn i'w lle naturiol. Yn Hydref a Thachwedd y mae cyfodiad a disgyniad arall yn cymmeryd lle mewn canlyniad i'r gwlawogydd hydrefol; ond o'i gymmharu â gorlifiad dechreu yr haf nid ydyw ond dibwys.

Diammheu fod y Tigris yn awr yn gymmhwysach i ddybenion masnachol na'r Euphrates; ond nid ymddengys ei bod gynt yn cael ei defnyddio ond i raddau bychain i'r amcan hwn. Y mae'n debyg fod yr Assyriaid yn nofio i lawr arni y coed a dafient yn yr Amanus a'r Lebanon, a ddefnyddient i adeiladu eu prif ddinas; ond llinell gyffredin masnach rhwng Môr y Canoldir a Morgainge Persia oedd yr Euphrates. Yn ol haneswyr dyddiau Alexander, cyfodai y Persiaid gyfres o wrthgloddiau i'r dyben o attal mordwyaeth y Tigris isaf; ond y mae yn debyg mewn gwirionedd eu bod wedi eu gwneuthur i

Digitized by Google

wasanaethu amcan arall; sef, i godi lefel y dwfr mewn trefn i ddyfrhau y tir: ond yn ddiau yr oeddynt yn attalfeuon ar ffordd mordwyaeth, ond yn adeg y gorlifiadau, pan y gallai badau fyned drostynt. Gellid meddwl fod rhyw gymmaint o fasnach yn cael ei ddwyn yn mlaen i lawr yr afon o hyd; ond i fyny iddi, o'r braidd y buasai hyny yn ymarferol ar unrhyw adeg yn uwch na Samara neu Tekrit, o herwydd yr anhawsderau naturiol, a nerth rhediad yr afon.

Ychydig o gyfeiriadau a wneir at Tigris yn y Beibl. Y mae sôn am dani, y mae yn wir, o dan yr enw Hiddecel, yn mysg afonydd Eden (*Gen.* ii. 14), a disgrifir hi yn gywir yno "yn myned o du y dwyrain i Assyria." Wedi hyn ni chlywir mwy am dani, os gadawn un eithriad ammheus yn Nahum (*pen.* ii. 6), hyd ddyddiau y gaethglud, pan y daeth yn dra adnabyddus i'r prophwyd Daniel, yr hwn a'i croesai yn ei deithiau i Susan, ac yn ol. "Yr afon fawr" y gelwir hi gan Daniel—enw a gymmhwysir yn gyffredin at yr Euphrates; ac ar ei glanau hi y cafodd efe rai o'i weledigaethau pwysicaf: *Dan.* x., xii. Nid oes un crybwylliad arall am y Tigris, oddi gerth yn yr *Apocrypha;* ac nid ydyw yr hyn a ddywedir yno yn ei chyssylltu âg unrhyw hanes sylweddol.

Yn y rhyfeloedd a fu rhwng y Rhufeiniaid a'r Parthiaid, yr ydys yn cael ei bod am fyr amser (o B.A. 114, hyd B.A. 117) yn ffurfio llinell derfyn rhwng y ddwy ymherodraeth. Heb law hyn, nid yw wedi bod o nemawr bwysigrwydd gwleidyddol. Cadwen fawr mynyddoedd y Zagros yw y terfyn naturiol rhwng Asia orllewinol a chanolbarthol. Y mae dyfroedd y Tigris, yn ei chwrs isaf, o liw melyn; ac ystyrir nad ydynt yn iachus. Y mae yn yr afon gyflawnder o bysgod o bob math, a dywedir fod llawer o honynt o faintioli mawr.

**TILON**: un o bedwar mab Simon, teulu yr hwn a gyfrifid yn y cofnodion a wneir o achau meibion Iudah: 1 *Cron.* iv. 20.

**TILLEMONT, SEBASTIAN LE NAIN DE**: hanesydd eglwysig tra adnabyddus, a anwyd yn ninas Paris, Tachwedd 30ain, 1837. Addysgwyd ef yn Port Royal, lle y darfu iddo fabwysiadu yn foreu olygiadau y gymdeithas enwog a ymgyfarfyddai yno. Yr oedd ei efrydiau duwinyddol o'r dechreu yn cael eu nodweddu yn arbenig gan ysbryd o ymchwiliad i ysgrifeniadau y tadau; a mynegir iddo ddechreu, pan oedd yn efrydydd, ar y gorchwyl o ddadansoddi gweithiau y tadau, yn enwedig y tadau apostolaidd, sydd yn ffurfio cyfran fawr o gyfrolau cyntaf ei hanesiaeth. Yr oedd yn naturiol o dymmer ofnus a hoff o neillduaeth, a bu yn petruso yn hir pa alwedigaeth a ddilynai; ond ar ol llawer o gyfnewidiadau mewn bywyd, efe a gymmerodd urddau is-ddiacon yn niwedd y fl. 1672, pan yn bymtheg ar hugain oed. Yn 1676 urddwyd ef yn offeiriad, a hyny yn benaf trwy annogaeth ei gyfaill De Sacy; yr hwn a fuasai yn gynghorwr crefyddol iddo—ac yr oedd efe yn cydymdeimlo i ryw raddau â syniadau Iansenistaidd De Sacy ei hun. Yn 1681, aeth Tillemont drosodd i Holland a'r Iseldiroedd i ymweled âg Arnauld, ac Iansenistiaid enwog ereill.

Yn ystod yr holl flynyddoedd hyn yr oedd yn parhau yn sefydlog i ddilyn ei efrydiau hanesyddol, ac wedi darparu i'r wasg y rhan gyntaf o'i hanesiaeth eglwysig. Ond pan ar ei gyflwyno i ddwylaw yr argraphydd, perswadiwyd ef i newid cynllun y gwaith. Mewn trefn i ochelyd gwrthwynebiad arolygwr y wasg—yr hwn, fel gwaith yn dal cyssylltiad â duwinyddiaeth, yr oedd yn hawlio ei weled, ac ammheuon yr hwn a gynnhyrfwyd gan gyfeillgarwch yr awdwr â'r blaid Iansenistaidd—ysgarodd Tillemont hanes yr ymherawdwyr oddi wrth ei hanesiaeth eglwysig, a chyhoeddodd y blaenaf yn chwe chyfrol, o dan y teitl, "*Histoire des Empereurs.*" Darfu i lwyddiant anarferol y gwaith hwn ddiarfogi gwrthwynebiadau awdurdodau y Babaeth; ac ymddangosodd y gyfrol gyntaf o'i "*Memoires Ecclesiastique,*" yr hwn a orphenwyd mewn un ar bymtheg o gyfrolau. Cyhoeddwyd pedair cyfrol yn ystod bywyd yr awdwr, a'r gweddill ar ol ei farwolaeth ef. Y mae y ddau waith mawr yma wedi cadw eu cymmeriad hyd heddyw am ddysg ac ammhleidgarwch; ac hyd yn oed yn nadleuon chwerwon yr eilfed ganrif ar bymtheg, nid oedd nemawr o ymosod ar hanes Tillemont fel un annheg. Bu farw yn Paris ar y 10fed o Ionawr, 1698, yn yr unfed flwyddyn a thrigain o'i oedran. Y mae helaethrwydd a manylrwydd ei ddysgeidiaeth yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, ac y mae ei weithiau wedi bod yn dra gwasanaethgar i ysgrifenwyr ddiweddarach ar hanesiaeth eglwysig.

**TILLOTSON, JOHN**: archesgob Caergaint, oedd fab i frethynwr. Ganwyd ef yn Sowerby, sir Gaerefrog, yn 1630. Yr oedd ei dad, Robert Tillotson, yn Buritan selog. Mewn amser priodol, efe a aeth i Goleg Clare Hall, Caergrawnt, lle y cymmerodd ei radd o wyryf yn y celfyddydau yn 1650, ac athraw yn y celfyddydau, yn 1654. Dywedir i ysgrifeniadau Chillingworth ddylanwadu yn rymus ar ei feddwl yn ystod ei arosiad yn y brifysgol; ac yn ddiammheuol fe ddarfu i'w gyfeillgarwch â'r fath ddynion a Cudworth, More, Rust, Smith, a Wilkins, ac ysgolheigion enwog ereill, effeithio i raddau mawr arno. Yn 1656, cymmerodd y swydd o athraw teuluaidd yn nheulu E. Prideaux, Ford Abbey, cyfreithiwr cyffredinol i Cromwell; ond darfu iddo ddychwelyd i Lundain yn fuan ar ol marwolaeth yr amddiffynydd. Nid yw yn wybyddus pa bryd, na phwy a'i hordeiniodd ef; ond yr oedd yn pregethu yn 1661, ac yn ffafrio, dybygid, y blaid Bresbyteraidd yn Eglwys Loegr; o herwydd yr oedd yn bresennol yn nghynnadledd Savoy ar yr ochr Bresbyteraidd; ond ymostyngodd i Ddeddf Unffurfiaeth 1662; a chynnygiwyd iddo beriglorіaeth Eglwys St. Mair, Aldermanbury, Llundain, a gymmerwyd oddi ar Edmund Calamy; ond gwrthododd ei chymmeryd. Pennodwyd ef yn beriglor Keddington, yn 1663; ac yn fuan wedi hyny cafodd ei ddewis yn bregethwr Lincoln's Inn. Yn 1664, efe a gyhoeddodd bregeth ragorol, "*The Wisdom of being Religious,*" ac yn 1666, "*The Rule of Faith,*" mewn attebiad i waith clerigwr Saesneg o'r enw Sargeant, a ymunasai yn ddiweddar âg Eglwys Rhufain. Tua'r un amser, cymmerodd ei radd o ddoctor mewn duwinyddiaeth; ac yn 1670, pennodwyd ef yn gôr-beriglor Caergaint. Dwy flynedd yn ddiweddarach, cafodd ei ddyrchafu i'r ddeoniaeth; ac yn 1680, cyhoeddodd bregeth nodedig o dan y teitl "*Protestant Religion vindicated from the charge of Singularity and Novelty,*" yn yr hon y dygodd yn mlaen y gosodiad, ag y mae yn hollol ammhossibl i un Protestant ei amddiffyn; sef, "nad oes gan

Digitized by Google

TAIT, ARCHIBALD CAMPBELL. Archesgob Caergaint. Ganwyd ef yn Edinburgh, Rhag. 22ain, 1811, a derbyniodd addysg athrofaol o'r radd flaenaf. Yn 1842, pennodwyd ef, fel olynydd i Dr. Arnold, yn brifathraw ysgol Rugby; yn 1849, dyrchafwyd ef i ddeoniaeth Carlisle; ac yn 1856, i esgobaeth Llundain, fel olynydd i'r Esgob Blomfield. Yn 1868, dyrchafwyd ef i archesgobaeth Caergaint—y swydd uchaf o fewn yr Eglwys. Yr oedd yn ŵr duwiolfrydig, yn ysgolhaig gwych, ac yn weithiwr dihafal. Bu farw Rhagfyr 3ydd, 1882; a dilynwyd ef gan Dr. Benson.

TALHAIARN BRYDYDD MAWR: bardd, a sant enwog a flodeuodd yn y chweched ganrif. Mab oedd efe i Garthwys ab Morydd ab Ceneu ab Coel Codebog. Yr oedd yn aelod o Goleg Catwg, a phreswyliai yn Nghaerlleon-ar-Wysg. Pan yr ymlidiwyd y Gwyddelod o Dir Gwŷr, Carnwyllion, Cantref Bychan, a Chantref Iscennen, Talhaiarn a lywyddai yn Nghadair Urien Rheged, yn Nghaer Gwyrosydd. Yn Nghaer Gwyrosydd, neu Ystum Llwynarth, y cynnaliai Urien Rheged ei lys brenhinol; ac efe a sefydlodd y gadair hono. Talhaiarn oedd caplan teuluaidd Emrys Wledig; a phan laddwyd y tywysog hwnw, efe a ymarweddodd fwyd meudwy, ac a drigiannodd mewn rhan o Rufoniog - lle y sefydlodd eglwys. Y mae yr eglwys hon yn dwyn ei enw hyd y dydd heddyw; sef, Llanfair Talhaiarn, yn sir Ddinbych. Efe oedd awdwr y ffurf weddi a arferir yn Ngorsedd Morganwg.

TANDY, JAMES NAPIER:—gwladgarwr Gwyddelig, a anwyd yn Dublin, yn 1740; ac a aeth yn farsiandwr llwyddiannus yno. Yn gynnar yn 1792, rhoddodd hèr (*challenge*) i'r Cyfreithiwr Cyffredinol Toler am iaith ddifrïol a ddefnyddiwyd ganddo; a chafodd ei fwrw i garchar hyd ddiwedd y senedd-dymmor, ar orchymyn Tŷ y Cyffredin. Cymmerodd ran flaenllaw mewn achosion Gwyddelig ar ei ryddhad; yn neillduol felly mewn cyssylltiad â'r gymdeithas a elwid *United Irishmen*, i'r hon y dewiswyd ef yn ysgrifenydd cyntaf. Cyn hir, aeth yn rhy boeth iddo yn yr Iwerddon; a bu raid iddo ffoi i'r America. Yn 1798, croesodd drosodd oddi yno i Ffrainge; ac yno, yn ol yr hanesydd Madden, y dyrchafwyd ef yn gadfridog yn y fyddin. Efe a ddilynodd yr hynt fethgar a ymwelodd â'r Iwerddon yn 1798, a diriodd ar Ynys Rutland, Medi 16eg; ond dychwelodd ar fwrdd ei long yr un noswaith. Aeth yn nesaf i Norway; wedi hyny, i Hamburg—senedd yr hwn le a'i trosglwyddodd ef i lywodraeth y llywodraeth Brydeinig. Ar y 12fed o Chwefror, 1800, rhoddwyd ef ar ei brawf yn Dublin; ond cafwyd ef yn ddieuog. Er hyny, cadwyd ef mewn dalfa; a rhoddwyd ef drachefn ar ei brawf, Ebrill 7fed, 1801, yn Lifford, sir Donegal:—y waith hon ar y cyhuddiad teyrn-fradwriaeth, trwy lanio yn ddirgelaidd ar Ynys Rutland. Euogfarnwyd ef, a dedfrydwyd ef i farwolaeth; ond yn hytrach na'i ddienyddio, caniatawyd iddo wneyd ei ffordd i Ffrainge. Treuliodd y gweddill o'i oes yn Bordeaux—lle y bu farw, yn 1803.

TANGWN:—mab i Caradog Freichfras, mab Llyr Merini, brenin y parth o'r wlad sydd rhwng yr Wy a'r Hafren. Yr oedd efe yn un o seintiau y chweched ganrif. Y mae eglwys Llangoed, yn Môn, wedi ei chyssegru iddo, neu i Cawrdaf, ei frawd.



TANGWN. Mab Talhaiarn ab Garthwys, o Gaerlleon-ar-Wysg, oedd sant a flodeuai yn y chweched ganrif. Sefydlodd eglwys yn Ngwlad yr Haf, a elwid oddi wrtho ef yn Tangynton, neu Taunton.

TANNER, THOMAS. Ganwyd ef yn rheithordy Market Lavington, swydd Wilts, Ionawr 25ain, 1674. Cymmerodd urddau eglwysig; ac yn olynol, bu yn dal y swyddau canlynol:—caplan i'w dad-yn-nghyfraith, yr Esgob Moore, o Norwich; canghellydd Norwich; prebend Ely; rheithor Thorpe; archddiacon Norwich; canon Eglwys Crist, Rhydychain; ac Esgob Llanelwy yn 1732. Bu farw yn Rhydychain, Rhagfyr 14eg, 1735. Ei brif weithiau ydynt *Notitia Monastica* (1695), a *Bibliotheca Britannico-Hibernica*, yr hwn a ddygwyd allan o dan olygiad Dr. Wilkins, yn 1748.

TARQUINIUS. Enw teuluaidd oedd hwn ar ddau frenin Rhufain. Dywedir i'r cyntaf, LUCIUS TARQUINIUS PRISCUS, fod yn teyrnasu o 616 hyd 578 cyn Crist. Enw yr ail oedd LUCIUS TARQUINIUS SUPERBUS, yr hwn a deyrnasodd o 534 hyd 510. Efe oedd seithfed brenin Rhufain. Yr oedd efe yn rheolwr medrus, ond yn anniodde fol o ran ei ysbryd tra-awdurdodol a chreulawn.

TATIUS, ACHILLES. Rhamantegydd Groegaidd, yr hwn a flodeuai rywbryd rhwng dechreu y drydedd a chanol y bedwaredd ganrif o'r cyfnod Cristionogol. Perthynai i dref Alexandria; a dywed Suidas ddarfod iddo, nid yn unig ddyfod yn Gristion, ond cael ei wneyd yn esgob. Ond tuedda nifer fawr o haneswyr i ammheu hyn. Yr oedd yn awdwr amryw o ramantau Groegaidd o deilyngdod uchel.

TAUCHNITZ, KARL CHRISTOPH TRAUGOTT. Argraphydd a llyfrwerthwr Ellmynig oedd efe, a anwyd yn Grosspardau, ger Leipzig, Hydref 29ain, 1761. Efe oedd y cyntaf i arfer y gelfyddyd o ystrydebu (*stereotyping*) yn Germany, yr hon gelfyddyd a gymmhwysswyd ganddo at gerddoriaeth. Bu farw Ionawr 14eg, 1836.

TAVERNIER, JEAN BAPTISTE, BARWN D'AUBONNE. Teithydd Ffrengig oedd, a mab i Brotestant o dref Antwerp, a ymsefydlodd yn Paris—yn yr hon ddinas y ganwyd ef yn 1605. Dechreuodd deithio pan yn bymtheng mlwydd oed; a chyn bod yn ugain, yr oedd efe wedi ymweled â Lloegr, yr Iseldiroedd, yr Almaen, a Switzerland, Poland, Hungary, a'r Eidal. Gwnaeth chwech o ymdeithiau archwiliadol yn y Dwyrain—gan ymweled â phob gwlad, rhanbarth, a thref o bwys yn Asia, a dwyreinbarth Ewrop. Teithiai, gan mwyaf, fel marsiandwr mewn perlau, ceryg gwerthfawr, &c.; a darfu i'r elw mawr a gafodd oddi wrth hyny ei argyhoeddi o'r angenrheidrwydd am sefydlu masnach gysson rhwng Ewrop a gwledydd y Dwyrain. Bu farw yn Moscow, yn 1689, tra ar ymweliad â'r ddinas. Cyhoeddwyd ei lyfr adnabyddus *Six Voyages* yn 1676, a'r *Recueil* yn 1679.

Digitized by Google

TAYLOR, NATHANIEL WILLIAM. Pregethwr a duwinydd enwog oedd efe, a anwyd yn New Milford, Connecticut, Mehefin 23ain, 1786. Yn 1812, daeth yn weinidog i'r Eglwys Gynnulleidfäol yn New Haven; ac yn 1822, cafodd ei bennodi yn athraw duwinyddol yn Ngholeg Yale—swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth, Mawrth 10fed, 1858.

TAYLOR, TOM:—newyddiadurwr, awdwr chwareu-gerddi, a bargyfreithiwr. Ganwyd ef yn Sunderland, yn 1817; ac wedi cael addysg athrofaol dda, bu am ddwy flynedd yn athraw Saesneg yn Mhrifysgol Llundain. Bu yn ysgrifenydd i'r Bwrdd Iechyd, ac yn dal swydd gyffelyb o dan Fwrdd y Llywodraeth Leol. Ysgrifenodd a chyfaddasodd amryw o chwareu-gerddi ar gyfer y llwyfan chwarëyddol; a bu yn golygu *Hunan-fywgraphiadau* Haydon a Leslie. Yn 1874, pennodwyd ef yn olygydd i *Punch*, fel olynydd i Shirley Brooks. Bu farw yn Wandsworth, Gorphenaf 12fed, 1880.

TAYLOR, ZACHARY. Cadfridog galluog oedd efe; a deuddegfed arlywydd y Talaethau Unedig. Ganwyd ef yn Orange County, Virginia, Medi 24ain, 1784; ond treuliodd ei febyd yn Kentucky. Tra yn y swydd hon, bu farw yn annisgwyliadwy, Gorphenaf 9fed, 1850.

TEGANWY, RHYS. Bardd o'r Creuddyn, a flodeuodd rhwng 1460 a 1490.

TEGAU EURFRON. Merch oedd hi i Nudd Hael, a gwraig i Caradawg Freichfras. Rhestrir hi mewn Triawd gyda Trywyl a Gwenfron, fel 'tair gwenrïan llys Arthur.' Mewn Triawd arall, dywedir fod tri pheth nas gwyddis eu lliw; sef, cynffon y paun ar led, mantell Tegau Eurfron, a phrês cybydd.' Yr oedd mantell Tegau, medd yr hanes, yn un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain; canys nis gallai gwraig a dorasai ammod ei phriodas, neu forwyn euog o anniweirdeb, ei gwisgo: ond gorchuddiai fenyw ddiwair hyd y llawr. Y mae beirdd y canoloesoedd yn cyfeirio yn fynych at fantell, cwpan aur, a chyllell Tegau Eurfron.

TEGID. Mab Baran ydoedd efe; ac yn ol y Brutiau Cymreig, dilynodd ei dad fel brenin Cymru, yn y ganrif gyntaf o oed Crist. Yr oedd yn frenin doeth, ac yn fardd lled dda. Trefnodd ddeddfau rhagorol i lenyddiaeth; adnewyddodd hen wybodau oedd bron myned ar ddifancoll; a sefydlodd feirdd a derwyddon fel cynt. Yr oedd yn brwydro yn barhaus â'i elynion; y rhai, yn y diwedd, a'i daliasant, ac a'i boddasant yn y llyn a elwid oddi wrth hyny yn Llyn Tegid, ger llaw y Bala, yn sir Feirionydd.

TEGID FOEL. Penaeth oedd efe a flodeuodd yn y bummed ganrif. Mab ydoedd efe i Gadell Deyrnllwg, ac Arglwydd Penllyn, yn Meirion. Ei briod oedd Ceridwen

TEGIWG. Merch oedd hi i Ynyr Gwent; a santes a flodeuodd yn nechreu y chweched ganrif. Enw ei mam oedd Madryn, merch Gwrthefyr Fendigaid.

TEGONWY. Mab ydoedd efe i Teon ab Gwineu da ei Freuddwyd; a sant a flodeuodd yn nechreu y chweched ganrif. Bu yn aelod o Goleg Illtyd; ac wedi hyny, cynnorthwyodd Gadfan a Deiniol i sefydlu côr Enlli, yn yr ynys hono.

TEGWEDD, oedd un o santesau y bummed ganrif. Merch ydoedd hi i Tegid Foel; a phriododd y tro cyntaf â Cedig ab Caredig ab Cunedda, o'r hwn y daeth yn fam i Afan Buallt. Priododd yr ail waith âg Enlleu ab Hydwn Dwn ab Caredig; i'r hwn y ganwyd o honi Teilo, Esgob Llandâf. Hi ydoedd sylfaenydd eglwys Llandegwedd, yn sir Fynwy, lle y lladdwyd hi gan y Sacsoniaid, mewn lle a elwir Merthyr Tegwedd.

TEGWY:—Sant oedd yn byw yn niwedd y chweched ganrif. Mab oedd efe i Dingad ab Nudd Hael. Efe a sylfaenodd eglwys Llandegwy, neu Llandygwydd, yn sir Aberteifi.

TEITHALL. Mab oedd efe i Amwn Ddu, a brenin Garthmadryn—lle sydd yn awr yn rhan o sir Frycheiniog. Daeth i feddiant o'r diriogaeth hon trwy ei briodas â Morfydd, merch ac unig etifeddes Gwraldeg, yn y fl. 260.

TEITHFALLT. Mab Nyniaw, yr hwn a elwir mewn rhai llawysgrifau yn TEITHFALCH. Bu yn frenin ar ran o'r Deheudir, ac yn byw yn y rhan olaf o'r bedwaredd ganrif. Dywedir mewn hanes ei fod yn frenin elusengar, doeth, crefyddol, a gwrol. Yn ei hen ddyddiau, rhoddodd y benaduriaeth i fyny i Tewdrig, ei fab, ac ymgyflwynodd yn gwbl i achos crefydd.

TENEUFAN. Mab Lludd oedd efe; a nai i Caswallon, neu Casfelyn. Yn ol y Brutiau Cymreig, gelwid ef wrth yr enw Iarll CERNYW. Yr oedd yn ddyn da a dewrgalon, a dilynodd ei ewythr fel brenin Prydain 38ain mlynedd cyn Crist. Bu yn teyrnasu am bymtheng mlynedd; ac ar ei farwolaeth, dilynwyd ef gan Cynfelyn, ei fab.

TENISON, THOMAS. Archesgob Caergaint. Ganwyd ef yn Cottenham, yn sir Caergrawnt, Medi 29ain, 1636. Yn 1691, gwnaed ef yn Esgob Lincoln gan William III., ac yn archesgob holl Loegr yn mhen tair blynedd ar ol hyny. Yr oedd yn ffafr-ddyn neillduol yn y llys brenhinol. Daliodd amryw swyddau pwysig yn y wladwriaeth; ac efe fu yn gweini ar William a Mary ar eu gwely angeu. Efe hefyd a goronodd y frenhines Anne, a Sior I. Bu farw Rhagfyr 14eg, 1715.

TENTERDEN, CHARLES ABBOTT, BARWN. Mab oedd efe i eillydd yn ninas Caergaint; lle y ganwyd ef Hyd. 7fed, 1762. Wedi ei ddwyn i fyny i'r gyfraith, pennodwyd ef, yn y fl. 1801, yn Gofiadur Rhydychain; a'r flwyddyn ddilynol, efe a gyhoeddodd waith galluog a dysgedig ar *The Law relative to Merchant Ships and Seamen.* Chwanegodd hyn yn fawr at ei ymarferiad fel bargyfreithiwr; ac yn 1807, ennillai dros 8,000*p*. yn y flwyddyn oddi wrth ei alwedigaeth. Pennodwyd ef yn farnwr yn 1816, gwnaed ef yn farchog yn 1818, a dewiswyd ef yn olynydd i Arglwydd Ellenborough, fel prif farnwr Llys Mainge y Brenin. Yn 1827, efe a godwyd i'r bendefigaeth, gan gymmeryd ei sêdd yn nhŷ yr arglwyddi gyda'r teitl uchod.

Digitized by Google

Cymmerwyd ef yn wael yn Bristol tra yn llywyddu yn mhrawf y maer, yr hwn a gyhuddid o gamymddygiad yn ystod yr hyn a elwir yn *Reform riots*; a bu farw yn ddioedi ar ol hyny —Tachwedd 4ydd, 1832.

TEULYDOG. Un o seintiau y chweched ganrif oedd efe; a'r hwn a sefydlodd eglwys a elwid unwaith Llanddeulydog, yn y rhan ddeheuol o sir Benfro; yr hon a ddyroddwyd gan Rhydderch ab Iestyn at esgobaeth Llandaf. Yr oedd Teulydog yn un o gymdeithion Teilo, wedi ei ddychweliad o Lydaw.

TEWDRIG. Yr oedd efe yn fab i Teithallt, ac yn freuin ar ran o Ddeheudir Cymru—yn cynnwys siroedd Brycheiniog, Morganwg, Mynwy, a rhan o sir Henffordd. Yr oedd efe, fel ei dad, yn frenin haelionus a rhyddfrydig, ac yn gefnogydd aiddgar i achos crefydd. Sylfaeuodd amryw eglwysi a cholegau, a rhoddodd waddol helaeth mewn tiroedd i eglwys Llandaf; yr hon hefyd a ail adeiladwyd ganddo. Rhestrir ef gyda Gwrthefyr a Chadwaladr fel 'tri brenin canonaidd' Prydain. Yr oedd efe yn blodeuo rhwng y blynyddoedd 410 a 470. Pan wedi cyrhaedd gwth o oedran, rhoddodd y frenhiniaeth i'w fab, Meurig; ac ymgyssegrodd i fyw i wasanaeth crefydd yn nghymmydogaeth Tintern, yn sir Fynwy. Daeth allan o'r unigedd hwn i amddiffyn ei wlad yn erbyn y Saesoniaid, a chafodd ei glwyfo yn angeuol mewn brwydr. Ar ei ddymuniad, codwyd eglwys ar y fan y bu farw; a galwyd hi yn Merthyr Tewdrig. Saif ar lan nant Pwll Meurig, yn agos i'r fan lle y mae yr afon Wy yn ymarllwys i'r Hafren; a gelwir hi yn awr Mathern.

TEWDWR. Un o feibion Emyr Llydaw, oedd yn byw yn nechreu y chweched ganrif.

TEWDWR MAWR. Mab ieuangaf Einion ab Owain ab Hywel Dda. Lladdwyd Tewdwr yn Llangwm, yn sir Ddinbych, pan yn ymladd gyda'i ewythr, Meredydd, Tywysog y Deheubarth, yn erbyn Idwal, brenin Gogledd Cymru, yn y flwyddyn 993. Gadawodd ar ei ol blentyn bychan; yr hwn, wedi hyny, a adnabyddid wrth yr enw Rhys ab Tewdwr Mawr. Y mae efe yn gymmeriad hysbys yn hanes Cymru.

THEOCRITUS. Bugeil-fardd Groeg, a anwyd yn Syracuse yn nechreu y drydedd ganrif cyn Crist. Nid ydyw dyddiad ei enedigaeth na'i farwolaeth yn hysbys; ac ychydig sydd yn wybyddus, hefyd, o hanes ei fywyd. Modd bynag, y mae bron yn sicr ddarfod i nifer fawr o'i fugeil-gerddi gael eu cyfansoddi rhwng 270 a 250 cyn Crist. Bu yn byw am amser maith yn llys Ptolemy Philadelphus, yn Alexandria; a thybir i amryw o'i gerddi mwyaf adnabyddus gael eu hysgrifenu ganddo yno. Cyhoeddwyd amryw argraphiadau o'i waith o dro i dro, ac y mae bron yr oll o honynt wedi eu cyfieithu i wahanol ieithoedd—ac yn eu mysg, i'r Saesneg.

THEODORE. Brenin Corsica; yr hwn, hefyd, a elwid y Barwn THEODORE DE NEUHOFF. Ganwyd ef yn Metz, yn 1686. Wedi treulio rhan o'i fywyd fel anturiaethwr, ymsefydlodd yn Florence yn 1732. Yn ei gymmeriad fel cynnrychiolydd yr ymherawdwr Siarl VI., annogwyd ef gan ei gyfeillion yn Corsica i arwain preswylwyr yr ynys hono yn erbyn trigolion Genoa; a chyda chynnorthwy Twrci, efe a laniodd ar yr ynys yn Mawrth, 1736, ac a goronwyd yn frenin, gyda'r teitl o Theodore I. Ond yn mhen ychydig fisoedd, gorfodwyd ef i ffoi. Ceisiodd adfeddiannu ei awdurdod yn yr ynys yn 1738 a 1743; ond bu raid iddo ddiangc drachefn. Wedi ymdaith mewn llawer o leoedd, sefydlodd yn Llundain, yn 1749. Tra yno, efe a fwriwyd i garchar am ddyled; ond rhyddhawyd ef trwy i danysgrifiadau gael eu casglu ar ei ran. Bu farw yn fuan wedi hyny, Rhagfyr 11eg, 1756.

THOMAS, ALBAN. Bardd enwog a flodeuodd ynghylch y blynyddoedd 1700 a 1710.

THOMAS, ANWYL. Bardd oedd yn byw yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg.

THOMAS, BEAVAN, o Dref bryn, yn sir Forganwg. Yr oedd efe yn fardd ac yn feirniad enwog. Blodeuodd yn y rhan olaf o'r ail ganrif ar bymtheg, a bu farw tua'r fl. 1700. Casglodd amryw gyfrolau mawrion o hen ysgrifeniadau Cymreig, nifer o ba rai sydd ar gael etto.

THOMAS, BRWYNLLYS. Bardd adnabyddus oedd yn byw rhwng y bl. 1590 a 1630. Y mae rhai o'i lawysgrifau ar gael etto.

THOMAS (DAFYDD AB) AB GRUFFYDD AB NICOLAS, yr hwn hefyd a elwid DAFYDD GEFFYL CWTTA. Trigiannodd yn Hermanston, yn sir Benfro. Yr oedd yn ŵyr i Gruffudd ab Nicolas, o'r Drefnewydd, ger Llandeilo Fawr, ac yn frawd i Rhys ab Thomas. Gelwid ef wrth yr enw Dafydd Geffyl Cwtta, o blegid yr amgylchiad a ganlyn:—Yr oedd ceffyl ieuangc gan gymmydog iddo; ac ymddengys fod Dafydd yn farnwr rhagorol ar geffylau. Yr oedd ei feddwl mor uchel am y march hwn fel y rhoddodd bedair ar hugain o wartheg, a'u porfa am flwyddyn, yn gyfnewid am dano. Tynodd y pris afresymol hwn ar Dafydd wawd ei gyfeillion. Mor gynted ag y cwblhawyd y fargen, torodd Dafydd glustiau y ceffyl, holltodd ei ffroenau, a chneifiodd ei gynffon. Wedi hyny, seriodd y croen drosto â haiarn poeth, gan nodi arno bob math o luniau hyllion a hynod. Difyrai gelynion Dafydd eu bunain yn fawr ar draul y march; ond nid hir y bu yntau cyn gallu dangos ei waith. Fel yr oedd Dafydd yn cael ei erlid ryw dro, ac yn nesâu at geunant dwfn, efe a ysbardunodd y march, yr hwn a lamodd yn ddiogel i'r ochr draw. Yna troes ei ben yn ol, a gwawdiodd ei ymlidwyr am farchogaeth y fath fuchod, gan na fedrent ei ddilyn. Ystyrid hon yn naid orchestol, ac heb ei bath; a disgrifiwyd hi gan feirdd y dyddiau hyny yn 'Naid ar farch na neidir fwy.'

THOMAS, DAVID, o Ystradyfodwg, oedd fardd yn byw yn ei anterth rhwng y bl. 1700 a 1730.

THOMAS, EVAN, oedd yn weinidog ffyddlawn gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef Hydref 17eg, 1822, mewn lle a elwir Blackalden, ger llaw Narberth. Dygwyd ef i fyny ar aelwyd grefyddol, a chariodd hyny effaith arno tra y bu byw. Addysgwyd ef yn Athrofa Caer-

Digitized by Google

fyrddin; ac ar derfyniad ei amser yno, symmudodd i gymmeryd gofal eglwysi Annibynol Tiers Cross a Rose Market, lle yr urddwyd ef Tachwedd 10fed, 1847. Llafuriodd yno dros weddill ei oes; ac ar yr un pryd, cadwodd ysgol rammadegol yn Aberdaugleddyf. Bu yn ysgrifenydd cyfundeb Saesneg sir Benfro am amser maith. Yr oedd tua 57ain mlwydd oed pan y bu farw.

THOMAS, EVAN:—gweinidog oedd gyda'r Bedyddwyr yn Nghasnewydd. Ganwyd ef yn Peterstone-Superely, Morganwg, Mehefin 13eg, 1818. Ymunodd â'r enwad uchod yn Nghroes-y-Parc, pan nad oedd ond 13eg oed. Yn 1842, anfonwyd ef i Athrofa Pont-y-pŵl, lle y bu yn gydefrydydd â'r Parch. N. Thomas, Caerdydd, a Dr. Todd, o Lundain. Yn mhen tua thair blynedd, cymmerodd ofal eglwys Nebo, Glyn Ebwy; o'r hwn le y symmudodd efe i Bethel, Bassaleg. Yn 1850, cafodd ei alw gan eglwys Bethania, Aberteifi; ac yn fuan wedi hyny, daeth yn adnabyddus trwy Ddc a Gogledd Cymru fel pregethwr galluog a dylanwadol. Bedair blynedd yn ddiweddarach, ymgymmerodd â gofal eglwys Siloh, Tredegar; ac yn y fl. 1851, trosglwyddodd ei wasanaeth i eglwys Heol Siarl, Casnewydd; yr hon, y pryd hwnw, oedd yn eglwys Gymreig. Cyn hir, ymranodd yr eglwys, trwy i achos Saesneg gael ei sefydlu yn y rhan isaf o'r dref; ac ymgymmerodd yntau â gofal yr achos bychan hwnw yn 1863. Bu y cynnydd yn gymmaint fel yr adeiladwyd capel ëang yn Commercial Road; ac yno y llafuriodd Mr. Thomas, nes yr ymddiswyddodd yn Ebrill, 1888. Bu farw Medi 5ed, 1893.

THOMAS, EZEKIEL:—o dref Abertawe. Ganwyd a dygwyd ef i fyny yn agos i Gapel y Cwm, Llansamlet, a dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd pan yn ieuangc. Urddwyd ef yn y fl. 1857; a llafuriodd yn ffyddlawn hyd ei farwolaeth, Mawrth 12fed, 1893. Cyfansoddodd amryw lyfrau gwerthfawr; sef, *Cyfiawnhâd trwy Ffydd—Human Harmony; Sylwadau ar yr Epistol at yr Hebreaid;* a *Daeareg parth Gorllewin Morganwg.* Yr oedd efe hefyd yn hynafiaethydd rhagorol.

THOMAS, HUGH EVAN, D.D., Pittsburg, America. Ganwyd ef yn y Bala, ar Mehefin 13eg, 1830; ac yr oedd yn frawd i'r Parch. W. Thomas, Beaumaris, gweinidog gyda'r Annibynwyr, a'r Parch. John Thomas, gweinidog gyda'r Methodistiaid yn y Bala. Annibynwr oedd Hugh o'i fachgendod; a phan yn 13eg oed, ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Brynmawr—yn yr hon dref yr arosai. Tra yno, annogwyd ef i ddechreu pregethu; â'r hyn y cydsyniodd, gan symmud i goleg ei enwad yn y Bala, yn 1850. Wedi treulio tair blynedd yno, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Birkenhead; yr hon a dderbyniwyd ganddo. Urddwyd ef ynglŷn â Chymmanfa Liverpool a Birkenhead yn Gorphenaf, 1853, er ei fod wedi dechreu ei lafur yno tua blwyddyn cyn hyny. Daeth yn fuan yn dra chyfeillgar â'i gydweinidog yn Liverpool—Dr. John Thomas; yr hwn, yn ei gyfrol o *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru,* a ddug y dystiolaeth uchaf i ddefnyddioldeb Mr. Hugh Thomas yn y cylch y llafuriai ynddo. Pan y cychwynwyd y *Tyst Cymreig,* yn 1867, cymmerodd Mr. Thomas ran neillduol yn y gwaith, a dywed Dr. John Thomas na wnaeth neb erioed fwy o aberth er cychwyn newyddiadur nag a wnaed gan weinidogion Cymreig Liverpool a'r dosbarth. Parhaodd Mr. Thomas i gymmeryd dyddordeb mawr ynddo hyd ei farwolaeth. Yn y fl. 1868, derbyniodd alwad unfrydol oddi wrth eglwys yr Annibynwyr yn Pittsburg, yn America; yr hon a dderbyniodd. Llafuriodd yno am gyfnod o ugain mlynedd gydag yni diflino, a llwyddiant nid bychan. Bu farw Rhag. 9fed, 1889, yn 59ain mlwydd oed; ac er na chafodd fyw i fyned yn hen mewn dyddiau, etto llanwodd y cyfnod hwnw â gwaith oedd yn glod iddo ei hun, ac yn ogoniant i'w Arglwydd.

THOMAS, JAMES STEWART. Ganwyd ef yn y Gelli, yn swydd Frycheiniog; ac wedi myned trwy y prawfiadau a'r parotoadau arferol, pennodwyd ef gan y Gymdeithas Wesleyaidd, yn 1838, yn genhadwr yn mhlith Caffrariaid Deheudir Affrica. Ennillodd ddylanwad mawr yn mhlith y bobl hyn; a daeth yn hyddysg yn eu hiaith hefyd. Bu ganddo law yn nghyfieithiad yr Hen Destament i'r iaith hono. Un tro, pan oedd dau lwyth yn ymryson â'u gilydd, ymosodwyd ar y sefydliad yn y nos, a chododd yntau i'r amcan o fyned allan i heddychu yr ymrysonwyr; ond cafodd ei wanu gan un o'r brodorion, a bu farw yn uniongyrchol, Mehefin 14eg, 1856, yn 42ain oed.

THOMAS, JENKYN, oedd fab i Thomas ab Morgan ab Rhydderch ab Dafydd ab Gruffydd, o Felin Trewen, plwyf Brongwyn, yn sir Aberteifi. Ganwyd ef rywbryd rhwng 1688 a 1690. Ar ol priodi, ymsefydlodd yn y Cwm du. Yr oedd ei dad, Morgan ab Rhydderch, yn frawd i Siôn Rhydderch, yr almanaciwr, &c. Ymddengys iddo deimlo yr awen yn ieuangc, canys yr oedd awenyddiaeth yn y teulu o hil gerdd; a gelwid hwy ar lafar gwlad yn 'Feirdd Cwm du.' Yr oedd y mwyafrif o'r teulu yn gryddion; ac i'r alwedigaeth hon y dygwyd Jenkyn Thomas i fyny. Yr oedd yn aelod a phregethwr gyda'r Ymneillduwyr Henaduriaethol yn Llechryd, ger Aberteifi; ac wedi hyny, sefydlodd gynnulleidfa yn y Drewen, ac ystyrid ef fel gweinidog yno. Yr oedd yn fardd rhwydd a naturiol, ac yn cyfansoddi bob amser ar destynau da. Bu farw yn y Cwm du, ger Castell-newydd-Emlyn, yn y flwyddyn 1765.

THOMAS, JOHN. Ysgolhaig enwog oedd efe, a mab i Thomas Rowland, o Du hwnt i'r Bwlch, yn sir Gaernarfon. Derbyniodd ran o'i addysg yn Llanystumdwy, yn Arfon, a Llanegryn, yn Meirion; ac yna aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, lle y graddiodd yn M.A. Wedi cymmeryd urddau eglwysig, pennodwyd ef yn is-beriglor Llandegai, ac yn is-athraw yn Ysgol Rammadegol Bangor. Ar ol hyny, bu yn isberiglor Llandegfan a Llansadwrn, yn Môn, ac yn brif athraw Ysgol Rammadegol Beaumaris. Yr oedd efe yn un o'r Cymry mwyaf dysgedig yn ei oes. Efe oedd awdwr *Hanes Pymtheg Llwyth Gwynedd,* ynghyd â nifer o gyfansoddiadau galluog eraill. Bu farw yn Nghastellior, Môn, ar Llun y Pasc, 1769, yn 33ain ml. oed, a chladdwyd ei weddillion dan yr allor yn eglwys Llandegfan. Cyfansoddwyd ei gywydd marwnad gan Hugh Hughes (*Bardd Coch*).

Digitized by Google

THOMAS, JOHN (*Siôn Wyn o Eifion*). Yr oedd efe yn fardd gorweiddiog. Ganwyd ef yn mhentref bychan Chwilog, yn mhlwyf Llanarmon, yn sir Gaernarfon. Yr oedd Siôn Lleyn yn ewythr iddo, frawd ei dad; ac un o deulu Llwyngwanadl, ger llaw Clynnog, oedd ei fam. Bu yn yr ysgol yn Llanarmon am rai blynyddoedd, ac yr oedd yr enwog Dewi Wyn yn un o'i gydysgolheigion. Pan tua naw mlwydd oed, cyfarfu â damwain ofidus, trwy gael ei wasgu rhwng trol a magwyr geryg; ac mae'n debyg mai'r ddamwain hon, i ryw raddau, fu yn ddechreuad yr afiechyd maith y dioddefodd oddi wrtho. Cafodd anwyd trwm yn y fl. 1800, a thwymyn ar ol hyny; a chyfyngwyd ef i'w wely bron am y gweddill o'i oes—cyfnod o 58ain mlynedd. Am y 25ain mlynedd cyntaf, ni bu gymmaint ag unwaith ar ei draed; ac am yr wyth mlynedd cyntaf, heb fwyta dim ond bwyd llaeth. Erbyn diwedd ei oes, gwellhaodd yn ddigonol i fyned allan ar brydiau; ac fe'i anrhegwyd ef gan ei gyfeillion â cherbyd bychan, a merlyn. Darllenodd lawer, yn ystod ei waeledd, o lyfrau da ar bob cangen o wybodaeth. Daeth yn hyddysg mewn amryw ieithoedd, a chyrhaeddodd safon led uchel fel bardd hefyd. Yn mysg ei gyfeillion agosaf, gallai restru Dewi Wyn, R. ab Gwilym Ddu, Eben Fardd; ac wrth ei draed ef y derbyniodd Eben ei addysg farddonol. Y mae ei farddoniaeth yn brydferth, naturiol, ac addysgiadol. Bu farw yn y tŷ y ganwyd ef, Gorph. 8fed, 1859, yn 72ain oed. Yn 1861, casglwyd ei weithiau barddonol ynghyd gan ei nai, William Jones (*Bleddyn*), a chyhoeddwyd hwynt yn un gyfrol, dan y teitl canlynol—*Gwaith Barddonol Siôn Wyn o Eifion.*

THOMAS, LEWIS. Brodor ydoedd efe o sir Forganwg. Wedi cymmeryd ei raddau yn Rhydychain, urddwyd ef yn yr Eglwys Sefydledig, a bu yn dal amryw fywoliaethau yn Nghymru. Ei waith llenyddol cyntaf ydoedd *Certain Lectures upon Sundry portions of Scripture* (1600), cyflwynedig i Syr Thomas Egerton, Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr. Yn nesaf, cyhoeddodd *Seven Sermons on the Exercises of Seven Sabbaths;* y rhai a ail argraphwyd amryw weithiau. Efe hefyd oedd awdwr *A Short Treatise on the Commandments* (1600), yr hwn a elwir weithiau *A Comment on the Decalogue.* Bu farw yn fuan ar ol hyn.

THOMAS, RICHARD. Efe oedd unig fab y Parch. Ellis Thomas, Bottwnog, yn sir Gaernarfon—ond wedi hyny o Lanllyfni. Ganwyd ef Hydref 13eg, 1758. Wedi gorphen ei gwrs athrofäol, a derbyn ei raddau, ymgymmerodd â gweinidogaeth yr Eglwys Sefydledig. Pennodwyd ef yn brifathraw Ysgol Rammadegol Beaumaris, a chafodd hefyd beriglorîaeth Llanfaes a Phenmon yn 1783. Dyrchafwyd ef i rectoriaeth Llanfairfechan, yn sir Gaernarfon, yn 1830; ac yno y bu farw Mehefin 5ed, 1834, ac y claddwyd ef. Gwnaeth lawer o ddaioni yn ystod ei drigias yn y plwyf, a chyfranai gan punt yn y flwyddyn, ar gyfartaledd, mewn elusenau. Cyhoeddodd dair cyfrol o bregethau Cymreig.

THOMAS, RICHARD, M.A. Yr oedd efe yn fab i Thomas a Jane Rowland, o Du hwnt i'r Bwlch, yn mhlwyf Ynys Cynhaiarn, yn sir Gaernarfon. Ganwyd ef Rhagfyr 10fed, 1753, a derbyniodd ei addysg yn Ysgol y Friars, yn Bangor, a Choleg yr Iesu, yn Rhydychain—lle y graddiodd. Wedi ei ordeiniad, pennodwyd ef i giwradiaeth Rhuthyn; a thra yno, treuliodd gryn lawer o'i amser hamddenol i ddarllen, a myfyrio, ac ysgrifenu. Mae casgliad o Achau o'i eiddo, o waith yr hen feirdd, yn awr ar gael. Casglodd hefyd fywyd Llywarch Hen, ac amryw eraill o Gymry enwog yr oesoedd o'r blaen. Dywedai y diweddar Hugh Maurice, nai i Owain Myfyr, yr hwn a barotodd ac a gasglodd lawer o ddefnyddiau y *Myvyrian Archaiology* i'w ewythr, a Dr. Owen Pughe, mai o ysgrifeniadau y ddau Thomas o Du hwnt i'r Bwlch y cafwyd y rhan fwyaf at y gwaith gwerthfawr hwnw. Bu farw yn Rhuthyn, yn 1780, yn 27ain mlwydd oed.

THOMAS, ROBERT D. Adnabyddid ef yn fwyaf cyffredin wrth ei enw llenyddol 'Iorthryn Gwynedd.' Ganwyd ef yn Llanrwst, Medi 17eg, 1817; ac yn y flwyddyn 1838, dechreuodd bregethu. Dangosodd yn fuan duedd lenyddol gref, a chryn hoffder hefyd at farddoniaeth. Yr oedd yn ddirwestwr pybyr, ac yn areithiwr doniol. Wedi bod am dymmor yn yr ysgol yn Rhydychain, gyda Mr. Eleazer Jones, mab Dr. Arthur Jones, Bangor, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Annibynol Penarth, a'i changhenau; ac urddwyd ef yno Mai 25ain, 1843. Yn 1851, aeth drosodd i America, i ymweled â'r sefydliadau yno, ac i gasglu at ddyled y capelau yn nghylch ei weinidogaeth. Dychwelodd gyda swm da o arian, ond yn fawr ei awydd am gartrefu yn ngwlad ëang y gorllewin. Wedi priodi Miss Sarah Roberts (*Sarah Maldwyn*), merch un o ddiaconiaid Penarth, hwyliasant, yn y fl. 1855, gyda thyrfa o ymfudwyr eraill, tuag yno. Dilynodd fywyd llafurus yno, yn llenyddol a gweinidogaethol, a chyhoeddodd amryw lyfrau gwerthfawr. Ymwelodd â Chymru yn 1872—3; ac ar ei ddychweliad yn ol, derbyniodd y newydd trist am farwolaeth ei anwyl briod. Bu farw yn Knoxville, Tennessee, Tach. 25ain, 1888, yn 72ain mlwydd oed.

THOMAS, ROBERT, o'r Plas du, yn Llanarmon, oedd yn ysgolhaig lled wych, a phrydydd o gryn allu. Ennillodd wobr am englyn i'r 'Afr' yn Eisteddfod Liverpool, yn 1840, ac ar y 'Wenynen' yn Eisteddfod Tremadog, yn y fl. 1851.

THOMAS, ROBERT:—gweinidog ydoedd, gyda'r Annibynwyr, a anwyd yn Rhosllanerchrugog, yn sir Ddinbych, yn y fl. 1809. Bu raid iddo, tra yn ieuangc, droi allan i ennill ei fywoliaeth; ac, o herwydd hyny, ni chafodd ond ychydig o fanteision addysg. Arferai wrandaw ar Mr. Williams, o'r Wern, yn pregethu; a chafodd y fraint o gael ei dderbyn yn aelod eglwysig gan y gŵr da yn y 'Capel Bychan' —yr enw wrth ba un y gelwir capel yr Annibynwyr yn y Rhos. Yn gymmaint ag iddo ddangos mawr awydd i bregethu, annogwyd ef i hyny gan yr eglwys a'r gweinidog; ac aeth i Athrofa y Drefnewydd i ymbarotoi ar gyfer y weinidogaeth. Tra yr oedd yno, darfu iddo, mewn cydweithrediad âg un o'r efrydwyr eraill, gyfieithu 'Y Fam gartref,' o waith Joseph Abbott; a chan i Mr. Williams, o'r Wern,

Digitized by Google

ysgrifenu rhagdraeth i'r llyfr, cafodd ledaeniad helaeth. Symmudodd Mr. Thomas o'r athrofa i gymmeryd gofal eglwys Siloh, Glandwr, ger Abertawe—un o eglwysi mwyaf blaenllaw yr enwad; ac urddwyd ef Ebrill 19eg, 1837. Aeth Mr. Williams, ei hen weinidog, yr holl ffordd o Liverpool i Glandwr i gymmeryd rhan yn y gwasanaeth. Efe a draddododd y siars; ac yr oedd hwnw yn un i'w gofio! Dywedodd Mr. Williams fod cryfder pregethwr yn ei gymdeithas â Duw:—ac mai y gweddiwr mawr oedd y pregethwr llwyddiannus. 'Y mae yma rywogaeth o gythreuliaid (meddai) tua Glandwr ac Abertawe yma, fy mrawd, nad ânt ddim allan ond trwy weddi ac ympryd. Mi chwarddant yn eu llewys wrth eich gwel'd yn troi y *Lexicons*, ac yn manylu ar ystyr geiriau; ond mi ddychrynant drwy eu calonau pan y gwelant hwy chwi ar eich deulin gyda Duw.' Ni bu arosiad Mr. Thomas yn Glandwr ond prin dwy flynedd; o blegid ar dderbyniad galwad o Raiadr-gwy, yn 1839, efe a symmudodd yno, yn benaf, fel y tybir, am nad oedd ardal Glandwr yn dygymmod âg iechyd Mrs. Thomas. Arosodd yn Rhaiadr-gwy hyd 1848, pan y trosglwyddodd ei wasanaeth i eglwys Hanover, lle y llafuriodd dros weddill tymmor ei weinidogaeth. Ni chyfrifid ef yn bregethwr galluog; ond yr oedd yn felus ac efengylaidd, ac yn Gristion yn llawn ystyr y gair. Rhoddodd 500*p*. er sefydlu ysgoloriaeth yn Athrofa Aberhonddu, fel cydnabyddiaeth o'r addysg a dderbyniodd ynddi pan yn y Drefnewydd. Yn 1884, pan ddeallodd fod ei iechyd yn gwanychu, a'i nerth yn pallu, rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fyny; a phenderfynodd fyned i Clifton, Bristol, i fyw. Hydref 12fed, 1884, bu farw, yn 74ain ml. oed, a chladdwyd ef yn mynwent Hanover. Mab iddo ef oedd y Parch. Robert Jermain Thomas, M.A., yr hwn a aeth allan i China yn genhadwr; a'r hwn, gan na chlywyd nemawr ddim oddi wrtho wedi hyny, a dybir ei fod wedi ei lofruddio.

THOMAS, ROBERT (*Ap Vychan*). Ganwyd ef yn Tŷ coch, Penantlliwbach, ger Llanuwchllyn, Awst 11eg, 1809. Efe a dyfodd i fyny yn fachgen deallus; ymroddodd i ddysgu darllen a chasglu gwybodaeth; astudiodd reolau barddoniaeth, ac ymunodd â Chymdeithas Gymreigyddol a sefydlasid yn Llanuwchllyn. Yn ystod yr amser yma, cyfansoddodd a chyhoeddodd rai darnau o farddoniaeth, dan y ffugenw 'R. ap Dewi, o Garn Dochan.' Bu am amser yn dysgu y gelfyddyd o ôf; ac yna, yn dilyn ei alwedigaeth mewn amryw fanau yn Ne a Gogledd Cymru. Yn 1830, tra yn gweithio yn Nghroesoswallt, efe a ymunodd âg eglwys y Methodistiaid, gydag un Mr. Edward Price, yr hwn oedd bregethwr gyda'r Methodistiaid; gan nad oedd yno, ar y pryd, eglwys berthynol i'r Annibynwyr. Annibynwr o egwyddor oedd efe, er hyny; a phan ddaeth yn ddigon hyddysg yn yr iaith Saesnig, efe a drodd at yr Annibynwyr Saesnig. Yn niwedd Ionawr, 1835, symmudodd i Gonwy; priododd yno âg Isabella, merch William Jones, ei feistr; a gwnaeth ei feddwl i fyny i gartrefu yn yr ardal. Traddododd ei bregeth gyntaf yn nghapel Henryd, yn mis Hydref, 1836; a chyn hir, daeth ei ddawn yn hysbys trwy yr holl enwad. Gelwid am ei wasanaeth yn barhaus fel pregethwr ac areithiwr ar ddirwest; ac er ei fod yn parhau i ddilyn ei alwedigaeth wrth yr eingion, gwnai ymdrech neillduol i lanw y cylch cyssegredig, i'r hwn y galwyd ef.

Yn 1840, symmudodd o Gonwy i Ddinas Mawddwy, lle yr urddwyd ef yn weinidog yr eglwys Mehefin 19eg; ac o'r hwn le, hefyd, yr ymledodd ei glod fel pregethwr drwy yr holl wlad oddi amgylch. Yn mhen dwy flynedd, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Salem, yn Brownlow Hill, Liverpool; a dechreuodd ei weinidogaeth yno yn Medi, 1842. Llafuriodd yno am tua chwe blynedd; ac yna, symmudodd i gymmeryd gofal eglwysi Rhosllanerchrugog, Rhiwabon, a Rhosymedre. Bu yn y cylch hwn etto am tua saith mlynedd; a symmudodd yn nesaf i Fangor, i fod yn olynydd i'r enwog Dr. Arthur Jones. Treuliodd ddeunaw mlynedd yn y ddinas hono; ac yn ddi-os ddiammheu, dyma oedd tymmor ei nerth mawr fel pregethwr. Efe a ddaeth yn un o brif bregethwyr y genedl, ac yn un a wasanaethai yn amlach na neb arall ond odid yn nghymmanfaoedd a chyfarfodydd y Gogledd a'r De. Yn 1873, dewiswyd ef i fod yn ddarlithydd duwinyddol yn Athrofa y Bala; a chyn diwedd yr un flwyddyn, derbyniodd alwad gan eglwysi y Bala a Thy'n-y-bont; ac er mwyn bod yn fwy cyfleus i gyflawni ei ddyledswyddau yn yr athrofa, efe a gydsyniodd. Tra yno, collodd ei ail wraig, gyda'r hon y buasai fyw yn hapus am dros ugain mlynedd. Bu yntau farw Ebrill 23ain, 1880, yn 70ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent plwyf Llanuwchllyn. Yr oedd efe yn fardd rhagorol hefyd. Ymgystadleuodd yn eisteddfodau y Rhyl a Chaerlleon, ac ennillodd eu cadeiriau; ac y mae ei enw hyd y dydd hwn yn un o'r enwau mwyaf parchus yn mysg rhestr beirdd ei wlad.

Fel y canlyn yr ysgrifena y diweddar Barch. John Thomas, D.D., Liverpool, am dano:—

'Nis gallwn yma gynnyg gwneyd unrhyw elfeniad ar ei gymmeriad, na theithi ei feddwl, na'i gymmeriad fel pregethwr. Yr oedd yn ddyn braf, siriol, a hapus, a nodedig o hawdd ei foddloni. Ni ddeuai i dŷ neb oedd yn fwy felly. Troai yr ymddiddan yn wastad at ryw bethau buddiol; ac nid oedd ganddo ddim blâs ar wrachaidd chwedlau. Ymlynai yn ffyddlawn yn ei gyfeillion; ac unwaith y credai mewn dyn nid yn fuan y gollyngai ei afael o hono. Nid yn ei graffder i adnabod dynion y rhagorai, ac nid oedd drwgdybiaeth mewn un modd yn brofedigaeth iddo; ac o blegid hyny, nid oedd yn ddiogel rhag cael ei gamarwain gan ddynion cyfrwysach. Duwinyddiaeth a barddoniaeth a gafodd fwyaf o'i sylw, ac yr oedd llawer o ddelw yr olaf ar y blaenaf yn ei ymwneyd â hi. Calfiniad iachus ydoedd, ac nid oedd byth yn celu ei olygiadau; ac weithiau, cyhoeddai hwynt, er gwybod y byddai hyny yn dramgwydd i rai o'i wrandawyr. Tynwyd ef fwy nag unwaith i ddadleuon ar y pyngciau yma. Ymdriniai lawer yn ei weinidogaeth â'r Ddeddf a Chyfiawnhâd, Arfaeth ac Iawn; ond berwai ei athrylith farddonol allan trwy y traethiad mwyaf athrawiaethol o'r materion. Ymgystadleuodd yn eisteddfodau Rhyl a Chaerlleon, ac ennillodd eu cadeiriau; ond deuai ei farddoniaeth i'r golwg yn ei bregethau yn llawn cymmaint a phan y cyfansoddai ar gynghanedd. Yn ei allu disgrifiadol, yr oedd yn nodedig; a chlywsom rai pregethau a brofai fod ganddo 'lygad i weled anian, calon i gydymdeimlo âg anian, a gwroldeb a faidd gydfyned âg anian.' Cyfarfyddai holl anhebgorion pregethwr ynddo. Yr oedd urddas yn ei bresennoldeb. Safai fel derwen braf ger bron tyrfa fawr, a chyrhaeddai ei lais y pellaf ynddi; a llifai oddi wrtho ffrwd gref, loew, risialaidd o ymadroddion coeth a chyfan,

Digitized by Google

a gariai yn esmwyth bawb a phob peth o'i blaen. Perthynai i dó o bregethwyr a wnaeth y pulpud y gallu cryfaf yn Nghymru, ac yr oedd nodwedd ei ddawn yn gyfaddas i angen ac amgylchiadau ei oes. Ac yr oedd ganddo hyder diderfyn yn yr efengyl, heb unrhyw attegion iddi ond ei dylanwad ysbrydol ei hun i ddarostwng pob cenedl, a phob gwlad, yn llwyr i ufudd-dod Crist; a gadewir ar ol wagleoedd nad hawdd eu llenwi, pan y cymmerir ymaith ddynion o'r fath argyhoeddiadau.'

THOMAS, TIMOTHY. Gweinidog gyda y Bedyddwyr yn Islington, Llundain, oedd efe. Ganwyd ef yn Llanllieni yn 1753, ac yr oedd efe yn fab i Hanesydd y Bedyddwyr. Aeth i Lundain pan tua 19eg oed, ac ymunodd âg eglwys yr awdwr a'r gweinidog poblogaidd, y Parch. John M'Gowan. Annogwyd ef i bregethu yn 1776, ac anfonwyd ef i Goleg Caerodor; yr hwn, ar y pryd, oedd dan ofal y Parchn. Hugh a Chaleb Evans. Yn y fl. 1780, derbyniodd Mr. Thomas wahoddiad oddi wrth eglwys Devonshire Square, Llundain, wedi ei lawnodi gan Mr. M'Gowan ei hun, i ddyfod i'w gwasanaethu am dri mis, yn ystod ei waeledd ef. Bu Mr. M'Gowan farw yn uniongyrchol ar ol hyny, a pharhaodd Mr. Thomas i bregethu yno hyd nes yr aeth yn rhy fethiantus. Treuliodd oes faith a defnyddiol; a bu farw yn fawr ei barch, Gorph. 12fed, 1824, yn 74ain oed—wedi bod yn y weinidogaeth am 47ain mlynedd.

THOMAS, WILLIAM. Cymro dysgedig. Nid oes gwybodaeth yn mha le, na pha bryd y ganwyd ef. Yn 1544, o blegid rhyw resymau, bu raid iddo adael gwlad ei enedigaeth; ac yn Chwefror, 1546, pan gyrhaeddodd y newydd i'r Eidal am farwolaeth Harri VIII., yr oedd efe yn Bologna. Bu wedi hyny yn aros yn Padua; lle y casglodd ddefnyddiau ei Eiriadur a'i Rammadeg Italaidd. Daeth yn ol i Lundain yn y fl. 1549; a thra yno, ysgrifenodd hanes byr a chryno am yr Eidal. O ddeutu'r adeg yna, yr oedd wedi dyfod yn enwog fel gŵr adnabyddus o Ffraingc a'r Eidal, ac un a feddai wybodaeth o amryw ieithoedd, a changhenau eraill o wybodaeth; ac am y rheswm hwn, mae'n debyg, y pennodwyd ef yn ysgrifenydd i gynghor y brenin Iorwerth VI. yn Ebrill, 1549. Anrhegwyd ef gan y brenin â phrebendiaeth Cantlerbury, yn Aula, a bywoliaeth Llanandras, yn sir Faesyfed. Ond pan esgynodd Mari i'r orsedd, collodd ei holl swyddau, a phob gobaith am unrhyw ffafrau pellach o'r llys brenhinol. Yn Chwefror, 1553, bwriwyd ef i garchar, ar y cyhuddiad o gynllwyn yn erbyn bywyd y frenhines; ac ar y 18fed o Fai, 1554, cafodd ei grogi yn Tyburn. Efe oedd awdwr *History of Italy* (1561), a gwaith arall o'r enw *Principal Rules of the Italian Grammar, with a Dictionary for the better understanding of Boccace, Petrarcha, and Dante* (1550, 1567).

THOMAS, WILLIAM. Mab ydoedd efe i Syr Rhys Thomas, neu Rhys ab Syr William Thomas, yr hwn oedd yn sirydd Caernarfon yn 1573. Bu yntau ei hun yn sirydd Caernarfon yn 1581, ac yn aelod seneddol dros yr un sir yn mhummed senedd y frenhines Elizabeth. Yr oedd efe yn gadben ar ddau cant o Gymry yn yr Iseldiroedd dan Iarll Leicester. Lladdwyd ef mewn ysgarmes yn Zutphen, yn 1586—tua'r adeg y cwympodd y milwr enwog, Syr Philip Sydney.

THOMSON, SYR CHARLES WYVILLE. Milofydd, a anwyd yn Bonsyde, Linlithgow, Mawrth 5ed, 1830. Llanwodd gadair hanesiaeth naturiol yn Ngholeg y Frenhines, Cork; a chadair mwnofyddiaeth a daeareg yn Ngholeg y Frenhines, Belfast; a chadair hanesiaeth naturiol yn Mhrifysgol Edinburgh. Efe oedd prif wyddonydd y llong *Challenger;* yr hon, yn 1872—76, a fordwyodd 68,900 o filldiroedd i wneyd archwiliadau gwyddonol yn y cefnforoedd. Ysgrifenodd ddau lyfr adnabyddus; sef, *The Depths of the Sea* (1872), a *The Voyage of the Challenger.* Bu farw yn Edinburgh, ar Mawrth 10fed, 1882.

THOMSON, GEORGE. Ganwyd ef yn Limekilns, swydd Fife, o ddeutu'r flwyddyn 1759, a bu yn dal swydd fel ysgrifenydd am drigain mlynedd dan fwrdd yr ymddiriedolwyr yn Edinburgh. Yn y fl. 1792, ffurfiodd y syniad o gasglu holl alawon Ysgotaidd yr oes hono, a'r oesoedd blaenorol. Y canlyniad oedd cyhoeddiad chwe chyfrol o alawon Gwyddelig, a thair cyfrol o alawon Cymreig. Cyfansoddwyd geiriau i'r alawon hyn gan y fath ddynion a Robert Burns, Syr Walter Scott, Thomas Campbell, Joanna Baillie, ac eraill. Bu Thomson farw yn Leith, yn 1851, yn 92ain ml. oed.

TISCHENDORF, LOBEGOTT FRIEDRICH CONTANTIN VON. Ysgolhaig Beiblaidd tra enwog oedd efe. Ganwyd ef yn Lengenfeld, yn Saxony, Ion. 18fed, 1815. Efrydodd dduwinyddiaeth ac ieitheg yn Leipzig; ac yn 1839, pennodwyd ef yn ddarlithydd yn y brifysgol. Llafuriodd yn galed am y llawysgrifau goreu a hynaf o'r Testament Newydd:—canlyniad yr hyn fu y darganfyddiad o'r 'Sinaitic Codex' yn Mynachlog Mynydd Sinai. Yn mysg ei weithiau lliosog, y pwysicaf ydyw ei argraphiad o'r llawysgrif uchod, a llawysgrifau eraill o'r Testament Newydd; *The Eighth Critical Edition of the New Testament* (1864—72); argraphiad o'r *Septuagint*, a'r *Monumenta Sacra Inedita* (1846—71). Cafodd ei bamphled *When were our Gospels Written?*—yn yr hwn yr amddiffyna ddilysrwydd y pedair Efengyl—ei gyfieithu i'r Saesneg yn 1866. Daliodd swyddau uchel ynglŷn âg addysg dduwinyddol yn Leipzig, ac anrhydeddwyd ef â graddau o amryw brifysgolion. Bu farw Rhagfyr 7fed, 1874.

TONE, THEOBALD WOLFE. Gwladgarwr Gwyddelig oedd efe; a anwyd o deulu cyffredin, Mehefin 20fed, 1763. Galwyd ef at y *bar* yn 1789; ond yn fuan ar ol hyny, esgeulusodd ei alwedigaeth fel bargyfreithiwr, gan dreulio ei amser i hyrwyddo cynllwynion politicaidd. Cymmerodd ran flaenllaw yn sefydliad y gymdeithas a elwid *The United Irishmen.* Yr oedd yr egni a ddangosodd i gario ei gynllwynion gwladgarol allan gymmaint, fel yr aeth y Deyrnas Gyfunol cyn hir yn rhy boeth iddo. Ffódd i America; ac ar ol hyny, cymmerodd nodded yn Ffraingc. Ei gred ddiysgog oedd, mai yr unig beth a ddeuai âg iachawdwriaeth i'r Iwerddon oedd ymweliad rhyfelgar rhyw allu tramor â hi. A phan yr oedd efe yn Ffraingc, ceisiodd gan y llywodraeth ymgymmeryd â'r anturiaeth. Yn 1798, hwyliodd allan gyda'r amcan hwn gydag ysgwadron Ffrengig; yr hon, wedi ymladdfa ffyrnig, a gymmerwyd. Dygwyd Tone i Dublin, lle y profwyd ef, ac y

Digitized by Google

condemniwyd ef i gael ei grogi fel teyrn-fradwr. Ond cyn i hyn gael ei gario allan, efe a dorodd ei wddf yn y carchar, Tachwedd 19eg, 1798.

TOURVILLE, ANNE HILARION DE COTENTIN, COUNT DE. Ganwyd ef Tach. 24ain, 1642; ac ymunodd, pan yn ieuangc, â'r llynges Ffrengig. Ennillodd enw iddo ei hun yn fuan am ei wroldeb a'i ysbryd anturiaethus —yn neillduol felly yn y rhyfeloedd yn erbyn y Tyrciaid a'r Algeriaid. Erbyn 1688, yr oedd wedi cyrhaedd un o'r safleoedd uchaf a mwyaf anrhydeddus yn llynges Ffraingc. Yn Mehefin, 1690, cyrhaeddodd y Sianel Brydeinig, â llynges nerthol dan ei awdurdod; a gorchfygodd llynges unedig y Saeson a'r Is-Ellmyniaid ger llaw Beachy Head. Ar yr 22ain o'r mis dilynol, angorodd ei ryfel-longau yn Torbay. Yn 1692, penderfynodd Louis XIV. geisio goresgyn a thrawsfeddiannu Lloegr, ar ran Iago II.; ac i'r amcan hwn, casglwyd llynges Ffrengig nerthol ger llaw Brest, o dan lywyddiaeth Tourville. Ar yr 16eg o Fai, yn yr un flwyddyn, gwelwyd y llynges hon yn nesau at Portland. Y boreu dilynol, trodd y llynges Saesnig ac Is-Ellmynig allan i ymladd â hi. Parhaodd y frwydr hon o foreu y 19eg hyd brydnawn y 24ain. Adnabyddir hi mewn hanesiaeth fel Brwydr Cape La Hogue; a chyfrifir hi yn un o'r ysgarmesoedd mwyaf ffyrnig a gwaedlyd y mae sôn am dani. Y diwedd fu llwyr orchfygiad y Ffrangcod; a dinystriwyd pedair-ar-bymtheg o'u rhyfel-longau. Er hyn oll, cafodd Tourville bob anrhydedd ar ol cyrhaedd i Versailles, a gwnaed ef yn *Marshal of France*. Bu farw yn Paris, Mai 28ain, 1701.

TOWERBRIDGE, ROBERT, o Gaerfallen, yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd efe yn fab i John Towerbridge, neu Tourbridge, o'r un lle. Priododd Anne, merch S. Mostyn, o Galcoed, yn sir Fflint. Yr oedd yn Farwn y Gyllidfa, ac yn Arolygydd Gwynedd. Bu farw Gorph. 20fed, 1679, yn 55ain oed.

TOWNSHEND, CHARLES, IS-IARLL. Yr oedd efe yn wladweinydd adnabyddus. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1674; a hanodd o deulu hynafol yn sir Norfolk. Cymmerodd ei dad, Horatio, ran flaenllaw yn adferiad y frenhiniaeth; ac yn 1661, gwnaed ef gan Siarl II. yn farwn; ac ar ol hyny, yn îs-iarll, yn y fl. 1682. Dechreuodd ei fab, Charles, ar ei yrfa gyhoeddus fel Tori; ond yn lled fuan, daeth allan fel canlynydd i Arglwydd Somers, a chydweithredodd â'r blaid Whigaidd. Pennodwyd ef yn un o'r dirprwywyr i drefnu yr undeb âg Ysgotland. Yr oedd yn gyd-drafnoddydd â Marlborough yn yr Hague; a thra yno, dygodd oddi amgylch yr hyn a elwir mewn hanes yn *Barrier Treaty*, am yr hyn yr edrychid arno gydag eiddigedd gelyniaethus gan y Toriaid. Difuddiwyd ef o'i swyddau uchel yn 1712; ond parhaodd i ddal cyfathrach â llys brenhinol Hanover. Llwyddodd i ennill ymddiried hollol Sior I.; yr hwn, tra ar ei ffordd i gymmeryd meddiant o orsedd Prydain, a'i pennododd yn ysgrifenydd yn y wladwriaeth. Gyda chynnorthwy Stanhope, efe a ffurfiodd weinyddiaeth o Whigiaid, yn yr hwn y llanwai Walpole—ei frawd-ynnghyfraith—y swydd o ganghellydd y trysorlys. Y prif ddeddf a basiwyd gan y weinyddiaeth hon oedd y Ddeddf Saith Mlwyddol, yn estyn tymmor parhâd y senedd hyd i saith mlynedd. Pasiwyd y ddeddf hon yn 1716; ac yn fuan, collodd Townshend ei awdurdod. Wedi marwolaeth Sunderland a Stanhope, daeth Townshend eilwaith (yn 1721) yn ysgrifenydd yn y wladwriaeth; ond nid oedd efe mwyach yn cael ei ystyried yn arweinydd y Whigiaid, o blegid disgynodd yr arweinyddiaeth yn naturiol i ddwylaw Walpole, yr hwn oedd un o wladweinwyr galluocaf ei ddydd. Achosodd hyn ddrwgdeimlad rhyngddo a'i gyfeillion gynt, a chynnyddodd y teimlad hwn yn fawr. Ymneillduodd Townshend o fywyd cyhoeddus; a bu farw Mehefin 21ain, 1738.

TOWNSHEND, CHARLES. Ffraethebwr, areithydd, a gwleidydd oedd efe; ac ail fab i'r trydydd is-Iarll Townshend, ac ŵyr i'r uchod. Ganwyd ef Awst 25ain, 1725; a dychwelwyd ef i dŷ y cyffredin, yn y fl. 1747, fel cefnogydd gweinyddiaeth Whigaidd Pelham. Bu yn dal swydd fel canghellydd y trysorlys ac arweinydd tŷ y cyffredin dan weinyddiaeth Iarll Chatham, yn 1766; a phan fu farw o'r dwymyn, ar y 4ydd o Fedi, 1767, yr oedd ar fedr derbyn awdurdod i ffurfio gweinyddiaeth, ar yr hon y byddai efe yn brif weinidog. Ystyriwyd ef yn gydradd â Pitt fel areithydd; a dywedai Burke am dano ei fod yn anrhydedd i dŷ y cyffredin. Telir gwarogaeth uchel i'w athrylith hefyd gan Argl. Macaulay ac Arglwydd Russell; ond yr oedd ei anwadalwch gwleidyddol yn gyfryw fel yr ennillodd iddo ei hun y teitl o 'ceiliog gwynt.'

TOWYN, SYR SION. Bardd ac offeiriad; yr hwn, fel y tybir, a fu farw tua'r flwyddyn 1580.

TOYNBEE, ARNOLD. Mab ydoedd efe i Joseph Toynbee, y meddyg enwog: a ganwyd ef yn Llundain, Awst 23ain, 1852. Tra yn Mhrifysgol Rhydychain, enwogodd ei hun yn mysg y myfyrwyr fel efrydydd mewn trefniedd gwladol, llenyddiaeth ddiweddar, ac athroniaeth. Wedi cymmeryd ei raddau, ymgymmerodd â'r gorchwyl o ddysgu nifer o ddynion ieuaingc a aethant yn llwyddiannus drwy yr arholiadau ynglŷn â'r gwasanaeth gwladol yn India. Gan ei fod yn hynod rwydd ei ymadrodd, dechreuodd anerch cynnulleidfaoedd o weithwyr; a chan ei fod yn argyhoeddedig nas gellid cynnorthwyo y tlodion yn briodol ond gan y sawl a breswyliai yn eu mysg, ac a deimlai eu hanghenion, efe a gymmerodd ei drigfa yn Commercial Road, Whitechapel—dosbarth isel a thlawd yn nwyreinbarth Llundain. Tra yno, llafuriodd yn galed i wella cyflwr cymdeithasol a chrefyddol y trigolion: ac o hyn y tarddodd y syniad am sefydlu Toynbee Hall. Sefydlwyd y neuadd hon yn y flwyddyn 1884, i'r amcan o ddwyn addysg a mwyniant i gyrhaedd preswylwyr tlotaf y brifddinas; ac y mae y cynllun yn gweithio yn rhagorol. Bu Arnold Toynbee farw yn 1883; ac y mae Neuadd Toynbee yn goffadwriaeth i'w enw, ac i'r gwaith da a wnaeth efe yn mysg tlodion a gweithwyr Whitechapel.

TREFOR, SYR DAFYDD. Bardd enwog ac adnabyddus oedd efe, a flodeuodd rhwng 1470 a 1500. Mae llawer o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen. Bu yn dal ciwradiaeth neu îs-berigloriaeth Llanallgo, yn Môn.

Digitized by Google

TIMNATH-SERAH: enw y ddinas a roddwyd i Iosuah ar ei ddymuniad ef ei hun ar ol cwblhau rhaniad y wlad (*Jos.* xix. 50); ac oddi mewn i'r hon y claddwyd ef: *pen.* xxiv. 30. Mynegir ei bod yn "Mynydd Ephraim, o du y gogledd i fynydd Gaas." Newidir yr enw, yn *Barn.* ii. 9, i Timnath-Heres. Y ffurf diweddaf sydd wedi ei fabwysiadu gan yr ysgrifenwyr Iuddewig. Dywedant mai yr un ydyw *Kefar cheres*, yr hon, fel y dywed y Rabbi Iacob, hap-Parchi, a theithwyr Iuddewaidd ereill, i lawr hyd Schwarz, sydd tua phum milldir o Sichem neu *Nablus.* Nid oes le o'r enw i'w ganfod ar y mapiau. Pa le bynag y mae, dywed yr Iuddewon fod beddau Iosuah, a Nun, a Chaleb i'w cael yno etto. Y mae Dr. Eli Smith yn mynegu iddo weled adfeilion tref ar fryn bychan ar du y deheu i'r ffordd wrth ddyfod o *Jifna* i *Mejdel-Yaba*, o fewn chwe milldir i'r blaenaf. Ar gyfer y dref, i'r deheu, yr oedd bryn uwch, yn ystlys ogleddol yr hwn yr oedd amryw feddau wedi eu naddu allan; pa rai, am nodwedd eu haddurniadau, a ddalient gymmhariaeth â "beddau y brenhinoedd" yn Ierusalem. Yr enw *Tibneh* a roddir ar y lle; ac er nas gellir, heb ymchwiliad pellach, haeru mai Timnath Iosuah ydyw, etto y mae y peth yn ymddangos yn debygol. Dangosid Timnath-Serah a bedd Iosuah yn amser Jerome, yr hwn a wna grybwylliad am danynt yn ei "*Epitaphium Paulæ.*" Heb law ei bod i'r deheu o Sichem, nid yw efe yn dyweyd dim yn mhellach am ei safle.

TIMOLEON: cadfridog Groegaidd, a rhyddhäwr Sicily oddi wrth lywodraeth y 'gorthrymwyr.' Perthynai i un o deuluoedd mwyaf urddasol Corinth. Ganwyd ef c. c. 394. Gosododd Timophanes, brawd Timoleon, ei hun yn llywodraethwr gorthrymus ei dref enedigol, ond ni oddefai y diweddaf hyn; gan hyny, naill efe a'i lladdodd â'i law ei hun, neu parodd iddo gael ei osod i farwolaeth gan rywun arall. Yr oedd gwahaniaeth barnau yn Corinth ynghylch teilyngdod y weithred hon: canmolai un blaid hi fel y weithred fwyaf gwladgarol, tra yr oedd y blaid arall yn galw yn uchel am roddi Timoleon i farwolaeth fel llofrudd. Aed dros yr anhawsder trwy ei bennodi ef yn flaenor ar lu bychan o filwyr a ddanfonwyd (c.c. 344) i Syracusa, yn erbyn y 'gorthrymydd' Dionysius a'r Carthageniaid. Yr oedd Hicetas, 'gorthrymydd' Leontini, yn ymdrechu difeddiannu Dionysius, a chael llywodraeth Syracusa iddo ei hun, ac wedi llwyddo i ennill yr holl ddinas, ond amddiffynfa yr ynys; ond gyda'r bummed ran o nifer ei filwyr ef, gorchfygwyd ef gan Timoleon yn Adrantum; yr hwn wedi hyny a aeth yn mlaen tua Syracusa, a gwnaeth ei hun yn feistr ar ddau chwarter o'r ddinas. O hyn allan yr oedd gyrfa Timoleon yn Sicily yn hollol lwyddiannus. Rhoddodd Dionysius yr Ieuengaf i fyny amddiffynfa Syracusa, c.c. 343, ac anfonwyd ef i Corinth. Wedi methu yn ei amcan i fradlofruddio Timoleon, galwodd Hicetas am gymmhorth hanner can mil o Carthageniaid; ond tynwyd y cynnorthwy hwn yn ol yn fuan gan Mago. O'r diwedd ffodd Hicetas i Leontini, gan adael Timoleon yn feistr ar Syracusa. Wedi adboblogi y ddinas oedd yn mron yn annrheithiedig, trwy alw yn ol alltudion, a gwahodd trefedigaethwyr newydd o Groeg, Italy, a gwahanol barthau o Sicily, efe a dreuliodd y ddwy flynedd ddilynol i ffurfio cyfreithiau ac i drefnu cyfansoddiad gwladol, yr hwn a luniwyd ganddo ar sail hollol ddemocrataidd. Wrth weled gallu Syracusa yn ymadnewyddu, anfonodd y Carthageniaid fyddin o bedwar ugain mil yno, o dan Hasdrubal a Hamilcar, i ddarostwng yr holl ynys. Cyfarfu Timoleon â hwy (c.c. 339) ar y Crimissus, gyda dim ond 12,000 o wŷr, a chafwyd un o'r buddugoliaethau mwyaf a ennillodd y Groegiaid erioed oddi ar farbariaid. Ar ol hyn efe a aeth yn mlaen i ddarostwng gorthrymwyr dinasoedd Groegaidd ereill, ond galwodd y rhai hyny drachefn am gymmhorth y Carthageniaid; er hyny yr oedd llwyddiant Timoleon y fath fel yr oedd yn dda ganddynt wneyd heddwch âg ef; ac yn y cyttundeb a wnaethpwyd, penderfynwyd i'r afon Halycus fod yn derfyn rhwng eu tiriogaethau hwy a'r Groegiaid. Daliwyd Hicetas, 'gorthrymydd' Leontini, a rhoddwyd ef, a'i wraig, a'i ferched, i farwolaeth. Yn fuan wedi hyny cyfarfu Mamercus o Catana â'r un dynged. Mewn ysbaid chwe blynedd o amser, rhyddhaodd Timoleon Sicily yn mron oddi wrth ei holl orthrymwyr, a rhoddodd i'r dinasoedd gyfansoddiad rhydd, ac ni chymmerodd efe ei hun un fantais annheg ar y dylanwad mawr oedd ganddo. Wedi gorphen ei waith mawr, bu fyw yn mysg y Syracusiaid fel dinesydd cyffredin, gan dderbyn ganddynt hwy, a chan holl Roegiaid y byd, y parch a'r anrhydedd mwyaf. Ymgynghorid âg ef gan holl ddinasoedd Sicily pan yr oedd rhyw gyfyngder arnynt. Bu farw c.c. 337 neu 335, wedi bod yn ddall am ryw gymmaint o amser cyn ei farwolaeth. Claddwyd ef yn marchnadfa Syracusa, lle y codwyd gorchestfa (*gymnasium*), a elwid *Timoleonteum*, uwch law ei fedd rywbryd wedi hyny. Diammheu ei fod yn un o'r cadfridogion enwocaf, ac yn un o'r cymmeriadau mwyaf dyrchafedig a gynnyrchodd gwlad Groeg erioed. Ymddengys ei fod yn hollol anhunangar, ac iddo osod o'i flaen, fel ei amcan a'i uchelgais penaf, ddinystr gorthrwm, a sefydliad rhyddid:—a pha ryfedd fod ei goffadwriaeth yn anrhydeddus!

TIMON: un o'r saith diacon a etholwyd yn Ierusalem, mewn canlyniad i gŵyn y Groegiaid, i ofalu am y tlodion: *Act.* vi. 1—6. Fel ei gyddiaconiaid, y mae arno enw Groegaidd; oddi wrth yr hyn, a chymmeryd i ystyriaeth achlysur eu pennodiad, y gellir casglu gyda llawer o debygolrwydd fod y saith yn Roegwyr. Saif enw Timon yn bummed ar y rhestr. Nid oes dim chwaneg yn wybyddus am dano gyda sicrwydd; ond dywed traddodiad ei fod yn un o'r Deg a Thrigain, ac iddo ddioddef merthyrdod trwy gael ei losgi.

1. TIMOTHEUS (Τιμόθεος): penaeth "plant Ammon" [1 *Macc.* v. 6], a orchfygwyd ar amryw achlysuron gan Judas Maccabeus, c.c. 164. —1 *Macc.* v. 6, 11, 34—44. Anturiaethwr Groegaidd, dybygid, oedd efe [cymmh. "*Hyn. Iudd.*," xii. 8, *adr.* 1], yr hwn a ennillasai arweinyddiaeth y llwyth.

2. TIMOTHEUS: crybwyllir yn 2 *Macc.* am arweinydd o'r enw Timotheus a gymmerodd ran gyda Nicanor yn ngoresgyniad y wlad, c.c. 166. —2 *Macc.* viii. 30; ix. 3. Yn ddiweddarach, efe a wnaeth ddarpariadau mawrion ar gyfer gwneyd ail ymosodiad ar Iudas; ond gyrwyd ef i amddiffynfa Gazara, ar yr hon y gwnaeth Iudas ruthr; ac yno y cymmerwyd ac y lladdwyd Timotheus.—2 *Macc.* x. 24—37. Tybir fod y

Digitized by Google

digwyddiadau yn y gyfran hon o'r hanes yr un ag a geir yn 1 *Macc.* v. 6—8, syniad sydd yn ymddangos yn debyeach, gan debygolrwydd yr enwau Iazar a Gazara. Ond yr oedd yr enw Timotheus yn un tra chyffredin; ac y mae yn eglur na chafodd Timotheus, yr arweinydd Ammoniaidd, ei ladd yn Iazer [1 *Macc.* v. 34]; ac heb law hyny yr oedd Iazer ar du dwyreiniol yr Iorddonen, ond y mae o'r bron yn sicr mai yr un oedd Gazara a Gezer. Gellir dyweyd yn mhellach mewn ffordd o gadarnhâd i'r syniad o gywirdeb 2 *Macc.*, fod hanes ail ryfelgyrch Iudas yn erbyn Timotheus [1 *Macc.* v. 27—44] yn cael ei roddi yn 2 *Macc.* xii. 2—24, ar ol cymmeriad Gazara, a marwolaeth Timotheus yno. Myn rhai mai camgymmeriad ydyw yr hanes yn 2 *Macc.*; ac y mae ereill yn tybied, os oes dibyniad i'w roddi arno, fod y cyfeiriad yno at le ac amgylchiadau gwahanol.

TIMOTHEUS: Cristion ieuangc, ac un o ddysgyblion enwocaf yr apostol Paul. Y mae enw ei dad yn anhysbys. Groegwr oedd efe; hyny yw, Cenedlddyn o ran ei haniad: *Act.* xvi. 1, 3. Os oedd yn rhyw fath o broselyt, y mae y ffaith nad oedd ei fab wedi derbyn arwydd y cyfammod yn lled arwyddo mai rhyw hanner proselyt ydoedd, neu un o broselytiaid y porth. Y mae absennoldeb pob cyfeiriad personol at ei dad yn Llyfr yr Actau a'r epistolau yn awgrymu y casgliad, ei fod wedi marw yn ystod tymmor babandod ei fab. Disgynodd y gwaith o'i ddwyn i fyny a'i addysgu, gan hyny, ar ei fam Eunice, a'i nain Lois: 2 *Tim.* i. 5:—a than eu gofal hwy cafodd addysgiaeth Iuddewig fanwl. "Er yn fachgen" yr oedd yn "gwybod yr Ysgrythyrau." Nis gellir penderfynu hyd sicrwydd oddi wrth yr iaith a arferir yn Llyfr yr Actau pa un ai Lystra ynte Derbe oedd lle preswylfod y teulu duwiolfrydig yma. Y mae rhai yn casglu oddi wrth *Act.* xx. 4, mai y lle diweddaf ydoedd; ond ereill, gyda mwy o debygolrwydd, a ddadleuant oddi wrth *Act.* xvi. 1, 2, mai y lle blaenaf oedd efe. Mewn canlyniad i ddyfodiad Paul a Barnabas i Lycaonia (xiv. 6), clywodd Timotheus a'i fam y newyddion da, a hwy a'u derbyniasant gyda "ffydd ddiffuant;" 2 *Tim.* i. 4. Os yn Lystra yr oeddynt, fel yr ymddengys yn debygol oddi wrth 2 *Tim.* iii. 11, hwyrach fod Timotheus yn dyst o labyddiad yr apostol: *Act.* xiv. 19. Y mae yn debyg i bregethiad yr apostol ar ei ddychweliad o'i daith fer barotoi Timotheus ar gyfer bywyd o ddioddef: *Act.* xiv. 22. O hyny allan bu ei fywyd a'i addysg o dan ofal henuriaid: *adn.* 23. Yn ystod y saith mlynedd a fu rhwng taith gyntaf ac ail yr apostol, tyfodd y bachgen i fyny yn ddyn; a daeth ei sêl yn hysbys yn Lystra ac Iconium. Y mae y crybwylliad am y ddwy eglwys fel yn uno i ddwyn tystiolaeth dda i'w gymmeriad (*Act.* xvi. 2), yn ein harwain i gredu fod ei waith boreuol yn rhagarwyddo ei waith diweddar—ei fod eisoes wedi bod yn gwneyd yr hyn a fu wedi hyny yn waith mawr ei oes, sef "cenad yr eglwysi," ac mai ei gymmhwysder i'r gwaith hwnw a benderfynodd ddewisiad yr apostol o hono i'w gyflawni. Yr oedd y rhai oedd yn gallu darllen cymmeriadau oreu, ac yn llefaru trwy brophwydoliaeth, yn cyfeirio ato (1 *Tim.* i. 18; iv. 14), fel y gwnaeth ereill at Paul a Barnabas (*Act.* xiii. 2), fel un nodedig o gymmhwys i gynnorthwyo yn y gwaith cenhadol mawr yr ymgymmerodd yr apostol âg ef. Hoffodd Paul ef hefyd (*Act.* xvi. 3), a chafodd ei neillduo yn gyhoeddus gyd âg arddodiad dwylaw yr henuriaid i wneyd y gwaith, ac o bossibl i ddwyn yr enw 'efengylwr:' 1 *Tim.* iv. 14; 2 *Tim.* i. 6; iv. 5.

Ond cododd attalfa ar y ffordd, fodd bynag. Er fod Timotheus, gan fod ei fam yn Iuddewes, yn cael ei ystyried yn un o hâd Abraham, etto goddefwyd iddo fyned i oedran gŵr heb gael enwaedu arno; ac ymddengys ei fod, o blegid hyn, megys pe yn cymmeryd ei gyfrif yn un o'r Cenhedloedd. Ond pe buasai hyny yn bod, ni buasai Paul, dybygid, yn cymmhell arno yr angenrheidrwydd o gymmeryd ei enwaedu: 1 *Cor.* vii. 18; *Gal.* ii. 3; v. 2. Fel yr ydoedd pethau yn sefyll, gellir edrych arno fel Iuddew gwrthgiliedig yn mron; ac er nad oedd "enwaediad ddim, na dienwaediad," yr oedd yn gwestiwn pwysig pa un a oddefid i'r sefyllfa hon attal ei lwyddiant fel efengylwr. Y mae y ffaith nad oedd un tramgwydd wedi ei amlygu hyd yn hyn yn cael ei esbonio gan yr ystyriaeth fod yr elfen Genhedlig yn gref yn eglwysi Lycaonia: *Act.* xvi. 3. Ond yr oedd ei waith yn myned i faes eangach yn ei ddwyn i gydgyfarfyddiad â'r Iuddewon. Gallasent hwy oddef Cenedlddyn fel y cyfryw, yn y synagog neu yn yr eglwys heb ei enwaedu; ond am Iuddew dienwaededig, nis gellid ei oddef. Gyda'r amcan arbenig o gyfarfod eu dymuniadau, a pheidio archolli eu teimladau hwy, gan nad oedd efe yn aberthu un egwyddor drwy hyny, goddefodd yr apostol—oedd wedi gwrthod caniatau i Titus gael ei enwaedu yn flaenorol—i Timotheus; "ac enwaedodd arno;" *Act.* xvi. 3. O hyny allan Timotheus oedd un o'i gymdeithion mwyaf rheolaidd. Ar ol ymwahanu oddi wrth Barnabas nid oedd wedi cyfarfod â neb yn cyd-daraw âg ef yn well. Os oedd Barnabas wedi bod yn gyfaill a brawd iddo yn ei ddyddiau boreuol, cafodd afael mewn un yn Timotheus wedi hyny y gallai ei hawlio fel ei fab yn y ffydd: 1 *Cor.* iv. 17; 1 *Tim.* i. 2; 2 *Tim.* i. 2. Darfu iddynt hwy, a Silfanus, a Luc hefyd, dybygid, deithio i Philippi (*Act.* xvi. 12); ac yno daeth yr efengylydd ieuangc i gyhoeddusrwydd mawr ar unwaith ar gyfrif ei ymroddiad a'i sêl: *Phil.* ii. 22. Nid oes son am ei enw mewn cyssylltiad â gwaith Paul yn Thessalonica; ac y mae yn bossibl iddo aros am beth amser yn Philippi, a gweithredu fel cenad yr eglwys, gyda'r hwn yr anfonodd yr aelodau yr hyn a allent tuag at gyfreidiau yr apostol: *Phil.* iv. 15. Ymddengys, fodd bynag, iddo fyned i Berea, ac iddo aros yno wedi i Paul a Silas orfod gadael y lle (*Act.* xvii. 14); ond aeth at yr apostol drachefn i Athen; 1 *Thes.* iii. 2. Anfonwyd ef yn ol o Athen i Thessalonica, fel un yn perchen doniau arbenig i gysuro ac addysgu. Dychwelodd o Thessalonica, nid i Athen, ond i Corinth; a cheir ei enw, mewn cyssylltiad â'r apostol, yn y ddau lythyr a ysgrifenwyd gan y diweddaf o'r ddinas hono at y Thessaloniaid: 1 *Thes.* i. 1; 2 *Thes.* i. 1. Ymddengys ei fod yma hefyd yn weithgar iawn fel efengylydd (2 *Cor.* i. 19); ac efe, dybygid, gyda rhai eithriadau, a fedyddiodd y dychweledigion newydd: 1 *Cor.* i. 14.

Am y pum mlynedd dilynol o'i oes nid oes genym gofnodion o'i hanes; ac nis gallwn gasglu dim yn ei gylch, ond yn unig ei fod yn parhau yn gydymaith i Paul yn ei waith. Pan welir ef nesaf, ni a'i cawn wedi cael ei anfon o flaen yr apostol pan oedd y diweddaf ar fedr myned i'w daith fawr i Macedonia, Achaia, Ierusalem,

Digitized by Google

a Rhufain, &c.: *Act.* xix. 22. Efe a ddanfonwyd i ddwyn ar gof i'r eglwysi ffydd yr apostol: 1 *Cor.* iv. 17. Yr ydys yn canfod yn ngeiriau Paul ddymuniad pryderus ar fod Timotheus yn ymgadw rhag y peryglon yr oedd yn fwyaf darostyngedig iddynt: 1 *Cor.* xvi. 10. Cymmerai y daith hon ef heibio yr eglwysi hyny y bu efe â llaw yn eu sylfaeniad. Y mae yn debygol, oddi wrth yr hyn a ddywedir yn y lleoedd y cyfeirir atynt uchod, iddo, ar ol cwblhau ei waith neillduol, ddychwelyd ar hyd yr un ffordd, a chyfarfod Paul yn ol rhagdrefniad blaenorol (1 *Cor.* xvi. 11), a'i fod gydag ef pan ysgrifenodd ei ail lythyr at eglwys Corinth: 2 *Cor.* i. 1. Dychwelodd gyda'r apostol i'r ddinas hono, ac ymunai yn y cyfarchiadau at y dysgyblion a adwaenai efe yn bersonol yn Corinth, oedd wedi ei gadael a myned i Rufain: *Rhuf.* xvi. 21. Yr oedd yn un o'r cwmni o gyfeillion a aeth gyda Phaul i Philippi, ac a hwyliasant oddi yno wrthynt eu hunain, gan ddisgwyl ei ddyfodiad ef gyda llong arall: *Act.* xx. 3—6. Pa un a aeth efe yn mlaen ar ei daith tuag Ierusalem, a pha beth a ddaeth o hono yn ysbaid dwy flynedd carchariad Paul, sydd ansicr. Y mae iaith yr apostol wrth henuriaid Ephesus (*Act.* xx. 17—35) yn peri i ni dybied ei fod yn annhebyg iddo gael ei adael yno. Y mae absennoldeb ei enw hefyd o *Act.* xxvii. yn ein harwain i feddwl nad oedd efe gyda Phaul ar ei fordaith beryglus i Italy. Ond y mae yn amlwg, fodd bynag, iddo ddyfod ato i Rufain yn fuan ar ol hyny, a'i fod gydag ef pan yr ysgrifenodd ei epistolau at y Philippiaid, y Colossiaid, a Philemon: *Phil.* i. 1; *Col.* i. 1; *Philem.* 1. Y mae holl arwyddion yr amseroedd hyn yn cyfeirio at gyfnod o lafur cenadol mawr iddo. Fel o'r blaen, anfonwyd ef o flaen yr apostol—i arolygu, i gynghori, ac i wneyd adroddiadau (*Phil.* ii. 19—23), ac i ofalu yn arbenig am eglwysi Macedonia. Y mae y cyfarchiadau neillduol a anfonid ato ar ol hyn (2 *Tim.* iv. 21) yn dangos ei fod, tra yn Rhufain, megys mewn lleoedd ereill, wedi ennill serch brwdfrydig y sawl y bu yn gweinidogaethu iddynt. Yn mysg y rhai parod ac awyddus i'w gyfarch, yr ydym yn cael enw Pudens, pendefig Rhufeinaidd; a Linus, yr hwn a fu wedi hyny yn esgob Rhufain; a Chlaudia, merch y brenin Prydeinaidd Caradog. [Gw. CLAUDIA.] I'r adeg hon yn ei fywyd, dybygid (er fod y lle a'r amser yn ansicr) yr ydym i briodoli y carchariad y sonir am dano yn *Heb.* xiii. 23: a'r prawf hwnw yn yr hwn y darfu iddo ddadgan "proffes dda ger bron llawer o dystion" a gyffelybir i broffes ein Harglwydd ger bron Pilat: 1 *Tim.* vi. 13.

Dylid gwneyd rhai cyfeiriadau at ranau olaf ei oes. Ymddengys, oddi wrth 1 *Tim.* i. 3, ei fod ef, a'i athraw Paul, ar ol rhyddhâd y diweddaf o garchar, wedi ail ymweled â rhaglawiaeth Asia; ac i'r athraw fyned yn mlaen i Macedonia, tra yr arosodd y dysgybl, er yn anfoddlawn, ac hyd yn oed dan wylo (2 *Tim.* i. 4), yn Ephesus, i attal, os yn bossibl, gynnydd heresi a phenrhyddid a wnaethai eu hymddangosiad yno. Nid ydyw amser ei arosiad yn Ephesus yn hysbys (1 *Tim.* iii. 14); ond y mae yn eithaf eglur fod ei sefyllfa tra yno yn un a barai iddo lawer o bryder; canys yr oedd mewn perygl o gael ei dynu i mewn i'r dadleuon a ddygid yn mlaen yn y ddinas, ac yr oedd blaenoriaid y sectau gwrthwynebol a ymddangosasant yno—Hymeneus, Philetus, ac Alexander—yn ddiau yn gwneyd eu rhan i'w wrthwynebu, ac i attal llwyddiant ei weinidogaeth hefyd: 1 *Tim.* i. 20; 2 *Tim.* ii. 17; iv. 14, 15. Yn nghymdeithas ychydig o gyfeillion ffyddlawn, megys Acwila, Priscila, Marc, ac ereill, y rhai oeddynt gydag ef, yr oedd yn ddiammheuol yn derbyn cydymdeimlad a chefnogaeth: 2 *Tim.* iv. 19. Gan fod Paul yn gwybod am ei brofedigaethau, a bod ynddo y fath allu ac ewyllysgarwch i gymmeryd beichiau ereill arno ei hun, nis gallwn ryfeddu ei fod yn llawn o bryder ynghylch diysgogrwydd ei ddysgybl; a bod cynghorion, appeliadau, a rhybuddion oddi wrtho yn dilyn eu gilydd: 1 *Tim.* i. 18; iii. 15; iv. 14; v. 21; vi. 11. Yn yr ail epistol ato y mae ei deimlad personol tuag ato yn amlygu ei hun yn llawnach. Ond yr oedd cyfeillgarwch pymtheng mlynedd erbyn hyn yn tynu tua'r terfyn, a phob peth oedd yn dal cyssylltiad â hyny yn rhuthro i feddwl yr apostol oedranus; ac nid rhyfedd ei fod yn teimlo awyddfryd am gael ei weled unwaith yn rhagor: 2 *Tim.* iv. 9, 21. Gorchymynai i Timotheus ddyfod ato cyn y gauaf, a dwyn gydag ef y gochl, yr hon a allai fod o wasanaeth iddo yn y gauaf: 2 *Tim.* iv. 13. Gallwn dybied iddo ei gyrhaedd mewn pryd, a bod dyddiau olaf yr athraw wedi eu sirioli gan bresennoldeb y dysgybl a garai mor ddiffuant. Y mae rhai ysgrifenwyr yn canfod yn *Heb.* xiii. 23, arwydd fod Timotheus yn y carchar ar yr un pryd a Phaul, a'i fod wedi ei ryddhau ar farwolaeth Nero.

Nid yw pob peth a ddywedir yn ei gylch y tu hwnt i hyn ond tybiedig ac ansicr. Yn ol hen draddodiadau bu Timotheus farw yn ferthyr, naill ai o dan deyrnasiad Domitian neu Nerva. Ar ŵyl fawr y dduwies Artemis, efe a wrthdystiodd yn erbyn yr afradlonedd a'r annuwioldeb a gymmerai le ar y pryd; yr hyn, meddir, a barodd i ddigllonrwydd y bobl ymgodi i'r fath raddau yn ei erbyn, nes y darfu iddynt ei roddi i farwolaeth drwy ei guro â phastynau. Y mae rhai o'r beirniaid diweddar, ac yn eu plith Schleiermacher a Mayerhoff, yn tybied mai efe ydoedd awdwr rhan fawr, os nad yr oll o Lyfr yr Actau.

TIMOTHEUS, YR EPISTOLAU AT: a ysgrifenwyd gan yr apostol Paul. Nid oedd y cwestiwn gyda golwg ar *awduriaeth* yr epistolau hyn—sef, eu bod wedi eu hysgrifenu gan Paul—yn un y buasai neb o'r bron yn meddwl am ei atteb ond yn gadarnhaol, hyd o fewn y trigain neu y deng mlynedd a thrigain diweddaf. Ystyrir hwynt yn mysg ysgrifeniadau Paul yn y canon Muratoraidd. Nid ydyw Eusebius, tra yn taflu allan ammheuon ynghylch Ail Epistol Pedr, yn ammheu dim am awduriaeth y rhai hyn. Dyfynir hwynt fel ysgrifeniadau o awdurdod gan Tertullian, a Clement o Alexandria, ac Irenæus. Y mae cyfeiriad hefyd at ddarnau o honynt yn ysgrifeniadau Clement o Rufain, Polycarp, Ignatius, Theophilus o Antiochia, ac Origen. Gwrthodid hwynt, mae yn wir, gan Marcion, Basilides, ac ysgrifenwyr Gnosticaidd ereill. Yr oedd Tatian hefyd, tra yn cydnabod gwiredd yr epistol bugeiliol at Titus, yn gwadu gwiredd y ddau at Timotheus. Ond yr ydys yn canfod yn yr enghreifftiau hyn resymau sectol, dybygid, dros ymwrthod â hwynt. Yr oedd syniadau y sectau a gynnrychiolid gan y gwŷr hyn yn cael eu condemnio yn yr epistolau bugeiliol. Crybwylla Origen am rai a fynent adael allan yr Ail Epistol at Timotheus o'r canon am resymau tra gwahanol; sef, am fod Iannes ac

Digitized by Google

gyfansoddi epistolau ffugiol yn debyg o'u cyfaddasu at ffeithiau adnabyddus bywyd yr hwn y mynai efe i'w gyfansoddiad fod ar ei enw.

III. Y mae y tri epistol, meddir, yn amlygu mwy o ddadblygiad, o drefn, ac athrawiaeth eglwysig, nag oedd wedi ei ddadblygu yn amser Paul. Dywed Baur am y rheol, fod yn rhaid i "esgob fod yn ŵr un wraig" (1 *Tim.* iii. 2, a *Tit.* i. 6) ei bod yn arwydd o'r gwrthwynebiad cryf i ail briodas a nodweddai yr ail ganrif. 2il, Nis gall "y gweddwon ieuaingc," yn 1 *Tim.* v. 11, fod yn llythyrenol weddwon. Os oeddynt, yr oedd Paul, wrth eu cynghori i briodi, yn eu cau allan, yn ol y rheol yn 1 *Tim.* v. 9, o bob hawl i fod yn gyfranog o haelfrydedd yr eglwys. Canlyna, gan hyny, fod y gair χῆραι yn cael ei arfer, megys yn yr ail ganrif, mewn ystyr eangach, ac yn golygu bywyd cyssegredig.—"*Baur,*" td. 42—49. 3ydd, Fod y rheolau am berthynas esgobion a henuriaid yn arwyddo dadblygiad yr elfen Bedraidd (*Petrine*), a ddaeth yn amlwg iawn yn yr eglwys yn Rhufain ar ol yr oes apostolaidd, ond un oedd yn hollol ddyeithr i'r epistolau a briodolir yn ddiammheuol i Paul. 4ydd, Fod y gair αἱρετικός yn cael ei arfer yn ei ystyr diweddaraf, a bod y gwaith o geryddu heretic yn ffurfiol yn cael ei gydnabod: yr hyn a berthynai i'r ail ganrif yn hytrach nag i'r gyntaf. 5ed, Fod cyfodi o'r swydd o ddiacon i'r swydd o henuriaid, fel yr awgrymir yn 1 *Tim.* iii. 13, yn perthyn i gyfnod diweddarach.

Nid peth anhawdd ydyw cyfarfod â gwrthwynebiadau yn cynnwys cymmaint o'r hyn nad ydynt yn amgen na haeriadau. 1af, Pe y caniateid fod esboniad Baur, ar 1 *Tim.* iii. 2, yn un cywir, y mae y rheol sydd yn gwneuthur un briodas yn un o delerau y swydd esgobol yn mhell iawn o fod yn cynnwys y ceryddon llym a weinyddid gan Athenagoras a Tertullian ar ail briodasau. 2il, Nid oes un cysgod o brawf nad oedd "y gweddwon ieuaingc" yn rhai llythyrenol felly. Y mae χῆραι y llythyrau bugeiliol, fel y mae yn *Act.* vi. 1, a ix. 39, yn golygu gwragedd yn derbyn o haelioni yr eglwys, nad oeddynt o angenrheidrwydd yn ddiaconesau, neu yn gwneuthur gwaith neillduol. Y mae y rheol oedd yn pennodi yr oed yn drigain mlwydd yn milwrio yn bendant yn erbyn tystiolaeth Baur. 3ydd, Y mae defnyddiad y geiriau ἐπίσκοποι a πρεσβύτεροι yn yr epistolau bugeiliol fel yn gyfystyr (*Tit.* i. 5, 7), yn hollol annhebyg i'r hyn a geir yn epistolau Ignatius ac ysgrifeniadau ereill yr ail ganrif. Y maent, fodd bynag, mewn perffaith gydsyniad âg iaith Paul: *Act.* xx. 17, 28; *Phil.* i. 1. Nid oes dim yn amlycach yn yr epistolau hyn nag absennoldeb pob math o lwysbenogaeth eglwysig. 4ydd, Y mae i'r gair αἱρετικός un sydd bron yn cyfatteb iddo, sef αἵρεσις, yr hwn a ddefnyddir yn 1 *Cor.* xi. 19. Cyhoeddwyd dedfryd gyffelyb i'r un a gyhoeddwyd ar Hymenëus ac Alexander (1 *Tim.* i. 20) o'r blaen: 1 *Cor.* v. 5. 5ed, Nid ydyw yr esbonwyr goreu yn gweled, yn 1 *Tim.* iii. 13, drawsfudiad o'r naill swydd i'r llall. A phe y byddai i'w gael yno, y mae cymmeryd yn ganiataol nad oedd y fath gyfnewidiad yn perthynu i'r oes apostolaidd yn beth nas gellir ei brofi hyd sicrwydd.

IV. Rhoddir mwy o bwys drachefn ar yr arwyddion sydd o ddyddiad diweddarach yn y disgrifiadau a roddir o'r gau athrawon yn yr epistolau bugeiliol. Y mae y rhai hyn, medd y gwrthddadleuwyr, yn cyfeirio yn uniongyrchol at Marcion a'i ddilynwyr. Tybir fod, yn 1 *Tim.* vi. 20, gyfeiriad pendant at draethawd a ysgrifenodd Marcion o dan y teitl, Ἀντιθέσεις, sydd yn amcanu gosod allan yr anghyssondeb sydd rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Ond er mor llafurfawr a gofalus ydyw ymosodiadau Baur ar yr epistolau ar y tir hwn, dyma wedi y cwbl yn un o'i ymosodiadau gwanaf. Mewn gwirionedd, yr oedd y gau athrawon y cyfeirir atynt yn yr epistolau bugeiliol yn rhai Iuddewaidd yn benaf (1 *Tim.* i. 7), yn perthyn i ysgol hollol wahanol i un Marcion, oedd yn dal ar "chwedlau Iuddewaidd" (*Tit.* i. 14), ac "ymrysonau ynghylch y ddeddf;" *Tit.* iii. 9.

Gan gredu fod y ddau epistol at Timotheus wedi eu hysgrifenu gan Paul, ni a ymofynwn yma i ba gyfnod o'i fywyd y dylid eu priodoli? Gellir ymdrin â'r cwestiwn, fel y mae a wnelo â'r naill a'r llall o honynt, ar wahân.

*Yr Epistol Cyntaf.*—Y mae defnyddiau parod yn brin i benderfynu amseriad y llythyr hwn. 1af, Yn *pen.* i. 3, awgrymir i Paul fyned ar daith o Ephesus i Macedonia, a bod Timotheus wedi aros ar ol. 2il, Disgrifir Timotheus yn *pen.* iv. 12, fel yn ddyn ieuangc. 3ydd, Y mae y tebygolrwydd sydd rhwng y ddau epistol yn rhyw led arwyddo eu bod wedi eu hysgrifenu ynghylch yr un amser. Cyfeirir at dair tybiaeth fel yn dyfod i fyny â'r telerau hyn:—(1.) Edrychir ar y daith hon fel un na chafodd ei chofnodi yn hanes ei deithiau, ond a gymmerodd le yn ysbaid y ddwy flynedd y bu yn gwasanaethu yn Ephesus: *Act.* xix. 10. (2.) Myn ereill mai yr un ydoedd a'r daith y sonir am dani yn *Act.* xx. 1, a gymmerodd le ar ol y terfysg yn Ephesus. Yn ol y naill neu y llall o'r tybiau hyn, gosodir dyddiad yr epistol mewn amrywiol gyfnodau ar ol dyfodiad Paul i Ephesus, cyn terfyniad ei garchariad cyntaf yn Rhufain. (3.) Ereill drachefn a dybiant i'r daith hon ddigwydd rhwng carchariad cyntaf ac ail yr apostol yn Rhufain.

O'r gwahanol dybiau hyn, y cyntaf a'r ail sydd yn meddu yr anrhydedd o ddwyn yr epistol o fewn terfynau cofnodion credadwy bywyd Paul; ond nid oes bron ddim mwy i'w ddweyd yn eu ffafr. Yn erbyn y cyntaf, gellir dadleu mai o'r braidd y buasai taith i Macedonia yn cael ei gadael yn ddi-sôn am dani gan Luc yn yr Actau, na chan Paul ei hun pan yr ysgrifenai at y Corinthiaid. Yn erbyn yr ail—fod Timotheus, yn lle aros yn Ephesus, pan y gadawodd yr apostol y ddinas hono, wedi myned i Macedonia o'i flaen ef: *Act.* xix. 22. Cyfarfyddir â'r dybiaeth o'r possiblrwydd o'u dychweliad gan y ffaith ei fod gyda Phaul yn Macedonia ar yr adeg pan ysgrifenwyd yr Ail Epistol at y Corinthiaid, ac yr anfonwyd ef ymaith. Yn ffafr y drydedd dybiaeth, o'i chymmharu â'r gyntaf neu yr ail, y mae cynnwysiad mewnol yr epistol ei hun. Yr oedd y cyfeiliornadau y rhybuddid Timotheus i'w gochelyd wedi ymddangos—yn beryglus, ac yn rhagarwyddo drygau dyfodol. Yn adeg ymweliad Paul â Miletus, yn ol yr hanes a geir yn *Act.* xx., hyny yw, fel y tybir, cyn iddo ysgrifenu yr epistol, yr oedd cyfeiliornadau megys i'w canfod yn y pellder—ond yn dyfod yn nes: *adn.* 30. Y mae yr holl amgylchiadau y cyfeirir atynt, heb law hyny, yn awgrymu absennoldeb maith Paul o Ephesus. Yr oedd dysgyblaeth wedi llacio, heresiau yn codi eu penau, a'r eglwys yn myned yn afreolaidd ac

yn ei gelfyddyd a hwynthwy. Er hyny, trwy ofal a diwydrwydd pan yn ieuangc efe a gafodd syniad rhagorol am ffurf y corph dynol mewn goleuni a chysgod, fel y canfyddir yn eglur yn ei weithiau. Yr oedd Tintoretto yn nodedig am ei gyflymder yn paentio. Dywed Sebastian del Piombo am dano y gallai wneyd cymmaint o waith mewn dau ddiwrnod ag y gallai efe ei gyflawni mewn dwy flynedd. Y mae ei ddarluniau yn lliosog iawn, ond nis gallwn yn awr enwi ond ychydig o honynt; sef "Gwledd Belsassar, a'r Ysgrifen ar galchiad y Pared," "Y Swper diweddaf, a golchi traed y dysgyblion," "Y Croeshoeliad," "Addoli y Llo Aur," "Y Farn ddiweddaf," "Adgyfodiad Crist," "Cyflafau plant Bethlehem," a "Paradwys." Y mae y darlun olaf yn mesur pedair troedfedd ar ddeg ar hugain wrth bedair ar ddeg a thrigain; a chynnwysa ddarluniau dros gant o bersonau. Y mae rhai o ddarluniau boreuaf Tintoretto wedi eu gorphen yn ysblenydd, ond brysiog y bu gyda llawer o'i rai diweddaf; ac y mae sylw Caracci am dano yn dra phriodol, yr hwn a ddywedai, os oedd weithiau yn gyfartal i Titian, ei fod yn fynych yn israddol i Tintoretto." Bu farw yn Venice yn 1594.

TIPPOO SAHIB: Sultan Mysore, oedd fab i Hyder Ali. Ganwyd ef yn 1749. Gwnaed ymgais i'w addysgu yn ofalus yn ngwahanol ganghenau y ddysgeidiaeth a ddiwyllir yn mysg Mahometiaid; ond yr oedd Tippoo yn rhoddi y flaenoriaeth i ymarferiadau corphorol; a'i hoff gymdeithion ydoedd y swyddogion milwraidd Ffrengig oedd yn ngwasanaeth ei dad, oddi wrth y rhai y dysgodd efe lawer o gadofyddiaeth Ewropaidd. Rhoddodd y wybodaeth hon mewn ymarferiad yn ystod yr amrywiol ryfeloedd a ddygwyd yn mlaen gan ei dad, ac yn enwedig pan orchfygodd efe y Milwriad Bailey yn 1780, a'r Milwriad Braithwaite yn Tanjore, yn 1782—yr unig frwydrau pwysig a ennillodd oddi ar y Prydeiniaid. Ar farwolaeth ei dad, coronwyd ef fel ei olynydd, ond heb lawer o seremoni; ac aeth yntau yn ddioed i arwain y fyddin oedd ar y pryd yn wynebu byddin Prydain yn agos i Arcot. Yn Ebrill, 1783, efe a gymmerodd amddiffynfa Bednore, ac a roddodd i farwolaeth y gwarchodlu. Ond gwnaed cyttundeb heddwch rhyngddo a'r awdurdodau Prydeinig yn mis Mawrth, 1784. Yn ystod parhâd yr heddwch hwn trodd ei sylw at y gwaith o drefnu a rheoleiddio achosion Mysore; ond yn 1790, efe a ymosododd ar y sefydliadau Prydeinig yn Travancore. Yn y rhyfel a ddilynodd, cynnorthwywyd y Prydeiniaid, o dan y Milwriad Stuart ac Arglwydd Cornwallis, gan y Mahrattiaid a'r Nizamiaid, y rhai a gasäent eu cymmydog galluog a gorthrymus; ac er fod y Sultan wedi llwyddo am beth amser i anrheithio holl wlad y Carnatic yn mron hyd byrth Madras, bu raid iddo roddi i fyny hanner ei diriogaethau ar yr 16eg o Fawrth, 1792, talu dirwy drom, rhoddi i fyny ei holl garcharorion, a chyflwyno ei ddau fab yn wystlon. Er hyn oll ni bu yn llonydd: dechreuodd gynllwyn drachefn yn erbyn y Prydeiniaid yn India, a cheisiai eu bradychu i ddwylaw y Ffrangcod; ond daeth ei gynllwynion yn hysbys i'r llywodraethwr cyffredinol, ac efe a benderfynodd gospi y Sultan twyllodrus. Torodd rhyfel allan yn Mawrth, 1799; ac yn mhen dau fis, gyrwyd Tippoo i Seringapatam, ei brif ddinas; ac ar ol gwrthsafiad dewr o'i du ef yno, cafodd ei ladd. Claddwyd ef yn meddrod ei dad, yn nghanol ystorm ofnadwy o fellt a tharanau, yr hon a achosodd farwolaeth amryw o'r Ewropiaid a'r brodorion. Yr oedd ei deyrnasiad yn Mysore, ar ol 1792, yn hynod o orthrymus; er hyny yr oedd yn parhau yn dra phoblogaidd: ac ar ol ei farwolaeth anrhydeddwyd coffadwriaeth Tippoo Sahib fel merthyr dros y grefydd Fahometaidd.

TIPHSAH: tref y sonir am dani yn 1 *Bren.* iv. 24, fel terfyn ymherodraeth Solomon tua'r Euphrates. Yn 2 *Bren.* xv. 16, mynegir i ymosodiad gael ei wneyd arni gan Menahem, brenin Israel, yr hwn "a darawodd Tiphsah, a'r rhai oll oedd ynddi, a'i therfynau." Addefir yn gyffredin mai y dref a feddylir yn y lle blaenaf, o leiaf, ydyw yr hon a adwaenid gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wrth yr enw Thapsacus, yn ngogleddbarth Syria, mewn lle y byddid yn arfer croesi yr Euphrates. Yr oedd Thapsacus yn dref o gryn bwysigrwydd yn yr amseroedd gynt. Dywed Xenophon am dani, yr hwn a'i gwelodd yn nyddiau Cyrus yr ieuangaf, ei bod yn ddinas "fawr a llwyddiannus." Rhaid ei bod yn lle â chryn fasnach yn cael ei ddwyn yn mlaen ynddi rhwng y dwyrain a'r gorllewin—yn un peth o herwydd y rhydau sydd yno yn yr Euphrates (yr isaf ar yr afon); ac yna o herwydd ei phont, yn gystal a'i bod yn lle i gymmeryd i mewn nwyddau i'w hanfon oddi yno i lawr yr afon, ac i ddadlwytho y badau a ddeuent i fyny oddi yno yn llwythog. Gellir casglu yn deg i Solomon feddiannu y lle mewn cyssylltiad â'i ymdrechiadau i sefydlu masnach mewn llian gydag Asia Ganolbarthol, yn unionsyth ar draws y cyfandir, a bod Tadmor i fod yn orphwysfa ar y daith i Thapsacus.

Yn Thapsacus yn gyffredin y byddai y byddinoedd mawr a deithient, naill ai i'r dwyrain neu ynte i'r gorllewin, yn croesi yr "afon fawr." Yno y deallodd y deng mil o Roegiaid am y tro cyntaf beth oedd bwriadau Cyrus, ac y cydsyniasant i'w gynnorthwyo yn ei anturiaeth, ac y croesasant yr afon. Yno hefyd yr aeth Darius Codomanus drosti pan yn diangc o Issus: ac yno y croesodd Alexander yr un modd. Cadwai y brenhinoedd Persiaidd bont o fadau yn gyffredin yn y lle; yr hon, wrth gwrs a ddinystrid ar ddynesiad perygl. Yr oedd yn bossibl, pa fodd bynag, rhydio yr afon, ond pan y byddai gorlifiadau ynddi. Y dybiaeth gyffredin yw, mai y man y safai Thapsacus oedd y llanerch lle y saif y *Deïr* ddiweddar. Ond yr ydys wedi cael allan nad oes un rhyd yn *Deïr*, ac yn wir mai yr unig un sydd ar yr Euphrates yn y parthau hyn ydyw yr hwn sydd yn *Suriyeh*—pum milltir a deugain islaw Balis, a chant a phump a thrigain yn uwch na *Deïr*.—Ainsworth's "*Travels in the Track of the Ten Thousand.*" Yno gan hyny, yn ol pob argoelion, yr oedd Thapsacus, neu Tiphsah. Y mae lled yr afon yma yr hyn y mynegir ei bod gan Herodotus: sef wyth gan llath. Ac yma am bedwar mis yn y gauaf, 1841—1842, nid oedd y dwfr dros ugain modfedd o ddyfnder.

Y mae golwg ardderchog ar yr Euphrates yn y llanerch yma. Y mae ei gwely yn llydan, a'i dyfroedd yn gyffredin yn loyw a glâs. Am ei cheulanau y maent yn fas a lefel ar yr aswy, ond yn ymgodi yn raddol ar yr ochr ddeheu. Cyn dyfod at y fan hon y mae yr afon yn rhedeg yn ddeheuol, ond yma try i'r dwyrain. Y mae sarn

Digitized by Google

balmantedig i'w gweled hyd heddyw o bob tu i'r Euphrates yn *Sariyeh*, a gellir olrhain yno linell hir o amgloddiau (*mounds*), rhywbeth yn debyg i'r hyn a geir yn Ninefeh. Dichon fod y rhai hyn yn nodi allan y man lle y safai yr hen ddinas arno.

TIR—OEDD (*Soil*). Yn mhob man lle nad ydyw y ddaear yn cael ei gorchuddio â dwfr, neu lle nad ydyw yn graig noeth, y mae arni haen o bridd, wedi ei gymmysgu mwy neu lai â gweddillion sylweddau anifeilaidd a llysieuol mewn sefyllfa o ddadgyssodiad. Y mae natur a chyfansoddiad y tir, neu y pridd, gyda golwg ar ei allu a'i gymmhwysder i ddwyn oddi amgylch dyfiant ac addfediad cynnyrchion llysieuol, yn dibynu yn benaf ar gyfartaledd yr amrywiol sylweddau a gynnwysa. Pan fyddo y tir yn gyfaddas i'r gweithrediad fferyllol drwy yr hwn y mae yr elfenau yn cydweithio i ffurfio sylweddau llysieuol, ac yn cymmeryd i mewn y swm o awyr a lleithder, heb yr hyn nis gall y gweithrediad fferyllol gymmeryd lle mewn unrhyw hinsawdd na thymmhoredd, y mae llysieuaeth yn cynnyddu yn gyflym, a'r planhigion mwyaf cyfaddas i'r hinsawdd yn tyfu i'r perffeithrwydd uchaf, ac yn dwyn ffrwyth toreithiog. Nid yn fynych, pa fodd bynag, y ceir tir yn meddu yr holl ansoddau sydd yn ofynol er cynnyrchu ffrwythlonrwydd mawr. Rhaid i lawer o amgylchiadau gydgyfarfod i wneuthur tir yn ffrwythlawn; ac ni ellir gwneyd tiroedd yn gynnyrchiol iawn, y rhan amlaf, ond trwy ddefnyddio celfyddyd i'w gwellhau yn eu hansoddau a'u cyfansoddiad. Dyma sydd wedi galw am yr ymarferiad o'r wyddor o amaethyddiaeth, yr hon sydd yn sylfaenedig ar brofiad, ac ar yr hon y mae gwyddoniaeth gyffredinol yn taflu goleuni chwanegol yn barhaus, ac y mae darganfyddiadau newyddion yn eangu gwybodaeth am dani.

Y mae amrywiol ffyrdd i wahaniaethu tiroedd, heb fyned i mewn yn fanwl i ddadansoddiad eu rhanau cyfansawdd. Y ffordd symlaf a mwyaf naturiol ydyw cymmharu y rhanau sydd yn eu gwneyd i fyny; megys, maintioli a ffurf y gronynau gweledig o ba rai y maent yn gyfansoddedig, a'u holrhain hefyd i'r ffynnonellau o ba rai y ffurfiwyd hwynt yn wreiddiol—hyny yw, i'r mwnau sydd o'u cwmpas, neu islaw iddynt, neu y creigiau o ba rai y cawsant eu malurio yn raddol gan weithrediadau yr elfenau. Y mae y wyddor o ddaeareg, sydd yn egluro sefyllfa berthynasol a natur y sylweddau o ba rai y mae crawen allanol y ddaear wedi ei ffurfio, o ganlyniad yn dra manteisiol i'n cynnorthwyo i gymmharu gwahanol diroedd a deall eu natur. Nid ydyw y wybodaeth a geir oddi wrthi, pa fodd bynag, yn ddigonol i wneyd y dosbarthiad manylaf ar diroedd; o herwydd yr ydys wedi cael allan trwy brofiad fod y priddoedd sydd yn gorwedd ar neu yn agos i'r gwahanol haenau, fel y deuant yn agosach i'r wyneb, yn amrywio yn fawr, er eu bod yn cadw rhyw nodweddau cyffredinol sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth ereill. Y mae yr afonydd a ddisgynant o'r bryniau, ac a lifant tua'r dyffrynoedd, ac oddi yno i'r môr, yn cario gyda hwy i bellder mawr ronynau manaf y sylweddau a geir yn nghwrs eu rhediad, tra y mae y rhai brasaf a thrymaf yn gwaddodi yn llawer cynt. Dyma yr achos o'r cymmysgedd amrywiol o geryg a phridd, a geir yn fynych yn yr haenau teneuon pan yr archwilir tir fyddo wedi cael aros yn llonydd, ac heb fod dan driniaeth. Y mae llifeiriaint a godant yn ddisymmwth yn cario ceryg a darnau o greigiau i'w canlyn; tra y mae dyfroedd mwy llonydd yn gwaddodi tywod, neu raian mân, neu glai drostynt, ac yn ffurfio pob amrywiaeth o dir tywodlyd, graianog, a chleiog.

Y mae eisieu gwneyd rhywbeth mwy na dosbarthu tiroedd yn ol y prif sylweddau a berthynant iddynt, fel y gwneir yn fynych—yn dywodlyd, graianog, marmiog (*chalky*), neu gleiog; canys ni cheir felly ond gwybodaeth led ammherffaith am eu natur a'u ffrwythlonrwydd; ac y mae yn angenrheidiol gwneyd mwy na'u dosbarthu yn ol rhyw ffurfiad daearegol pennodol. Rhaid chwilio yn fanylach i'w rhanau cyfansawdd. Etto, y mae ymchwiliad daearegol i'r gwahanol haenau yn gymmhorth mawr tuag at ddeall natur tiroedd. Y mae o gryn bwys i'r amaethwr i gael allan natur cyffredinol y creigiau a'r haenau ar ei fferm, yn gymmaint ag nas gall un elfeniad fferyllol benderfynu yn fanwl werth y tir, os na byddis yn gwybod am ei ffurfiad daearegol. Ond gellir trwy elfeniad (*analysis*) wahaniaethu y tiroedd, a nodi allan y llanerchi y gellir eu diwyllio gyda lleiaf o draul, neu eu gwellhau gyda'r moddion symlaf. Y tiroedd marianol, a ffurfir trwy i amryw fathau o bridd gael eu gwaddodi (*deposit*) yn gymmysg â chryn swm o ddefnydd cyfluniol (*organic matter*), yw y tiroedd mwyaf cynnyrchiol. Cynnyrchant gnwd ar ol cnwd heb ond ychydig neu ddim gwrtaith, ac ychydig iawn o amaethiad. Ceir y tiroedd hyn ar lenydd afonydd sydd yn rhedeg trwy wastad-diroedd eang. Mewn tiroedd marianol yn benaf y mae elfeniad cywir yn ddefnyddiol; o herwydd y mae cyfartaledd eu rhanau cyfansoddol yn amrywio i raddau mawr. Gellir ei gosod i lawr fel rheol gyffredinol, mai y rhai mwyaf cynnyrchiol o'r tiroedd hyn ydyw y rhai y mae y priddoedd cyntefig (*primitive*) yn fwyaf cyfartal ynddynt, a mwy o dân-faen (*silica*) na dim arall ynddynt, a thua deg y cant o ddefnydd cyfluniol. Parai cyfartaledd mwy o'r diweddaf i'r tir fod yn rhy rydd ac ysbyngol i gynnyrchu cnydau da o ŷd, ac yn enwedig o wenith. Diammheu fod defnydd cyfluniol yn hanfodol i ffrwythlonrwydd mawr tiroedd, ond y mae rhai tiroedd yn gofyn mwy o hono nag ereill. Y mae yn cadw tyllau y pridd yn agored, ac yn tynu awyr a lleithder at wreiddiau llysiau. Mewn priddoedd cynnyrchiol a bras, sydd wedi eu diwyllio am amser maith, yn enwedig mewn gerddi, ceir mân ddarnau llinynaidd o liw tywyll yn gymmysg â hwynt, y rhai a ymddangosant drwy chwŷddwydr fel darnau bychain o goed llosgedig. Ceidw y rhai hyn y tir yn agored, ac y maent yn ei gyflenwi â sur carbonig, pan y cyrhaedda yr awyr atynt; neu y maent yn raddol yn cael eu trawsffurfio i fath o bridd a elwir *humus*. Y mae hyn yn ddiau yn aml yn un o brif achosion ffrwythlonrwydd, er fe allai nad ydyw mor hanfodol i hyny ag y mae rhai wedi dychymygu.

Wrth geisio penderfynu gwerth tir i amcanion amaethyddol, y mae yn angenrheidiol cymmeryd sylw neillduol o ddau beth. Y cyntaf ydyw ei gymmhwysder i gymmeryd i mewn ddwfr; a'r ail, ei allu i sugno iddo ei hun leithder o'r awyrgylch. Er sierhau y cyntaf, yr hyn sydd ofynol yw rhoi pwysau cyfartal o briddoedd gwahanol mewn pibellau gwydr o drwch cyfartal, gan eu gwasgu fel y byddant yn cymmeryd yr un faint o

le, ond peidio llenwi y pibellau. Yna tywallter yr un swm o ddwfr ar y pridd i bob un o'r pibellau, a gosoder hwy yn syth, â chwpan danynt. Yna sylwer ar eu hwyneb—pa un a sych gyntaf, a pha faint o ddwfr a red trwy bob un mewn amser pennodol. Yr un ag y mae ei arwynebedd yn sych, tra y mae yn dal mwyaf o ddwfr yn y mân dyllau, dybygid, ydyw y goreu. Er cael allan allu cymmharol gwahanol fathau o bridd i dderbyn i mewn leithder, sycher hwy ar wahanol lafnau o fettel wedi eu poethi gan ager, neu wres o 212°, er cymmeryd y lleithder o honynt. Yna gosoder hwy mewn amrywiol gwppanau gwastad, neu ddysglau, i'w rhoddi mewn clorianau i'w pwyso. Wedi hyny, doder hwy allan mewn awyr agored laith, neu mewn cell: a'r trymaf, yn gyffredin, yw y mwyaf cynnyrchiol. Trwy y moddion syml hyn gall unrhyw berson, pa mor anwybodus bynag y dichon ei fod mewn fferylliaeth, neu pa mor anghyfarwydd bynag y byddo mewn gwneyd arbrawfiadau cywir, yn fuan foddloni ei hun ynghylch gwerth cymmharol gwahanol fathau o bridd sydd heb erioed ei amaethu; a gwybod pa fodd y gellir eu gwellhau, a pha gnydau sydd yn fwyaf cymmhwys iddynt—pethau o bwys mawr i rai yn myned i drefedigaethau pellenig mewn gobaith cael tir da am bris cymmedrol, a'i amaethu i fantais. Ond y mae llwybr arall i gael allan natur pridd; sef, trwy ei olchi â dwfr glân. I'r dyben hwn nid oes dim yn ofynol ond ychydig o blatiau gwastad a chwpanau mawrion. Y mae peth o'r pridd yn cael ei ffurfio yn llaid teneu trwy ei droi mewn cwpan a fyddo yn agos yn llawn o ddwfr; ac y mae y gronynau manaf felly yn ymdywallt allan wrth chwanegu dwfr ato yn barhaus, a'i droi: yna yn y diwedd, y tywod neu y graian yn unig fydd wedi aros yn y llestr, ac ni wna y dwfr a dywelltir arno wedi hyny droi ei liw. Ar ol i'r hyn fyddo yn y llestr sychu, a chael ei bwyso, ceir allan swm y graian. Gadawer y dwfr a'r pridd a dywalltwyd allan i ymlonyddu mewn llestr priodol; ac ar wyneb y pridd ceir yr holl sylwedd llysieuol nad ydyw wedi llwyr gymmysgu; a chydag ychydig o ofal, gellir ei gasglu, ei sychu, a'i bwyso. Â gellir symmud i ffordd y rhanau mân o'r pridd, trwy ei ysgwyd oll yn gymmedrol, hyd nes na bydd ond y tywod manaf yn unig yn aros. Erys yr allog (*alumina*) a'r tân-faen yn y dwfr heb waddodi, hyd nes yr elo yr ychydig o ronynau tywodlyd a allant fod yn parhau ynddo i'r gwaelod. Gellir ysgaru y defnyddiau trwy dywallt y dwfr i bibell wydr o ddeutu modfedd o dryfesur o'r tu mewn, gyda chorcyn wedi ei ffitio i'r pen isaf. Disgyna y pridd yn raddol i'r gwaelod yn y bibell hon, ac y mae unrhyw amrywiaeth yn maintioli y gronynau i'w ganfod yn llinell amlwg ar y gwydr. Yn y modd yma gellir cael syniad lled dda am gyfartaledd y gwahanol fathau o bridd, a'u gwerth cymmhariaethol.

Y mae yn dda yn aml allu cael allan mor agos ag y mae yn bossibl gyfansoddiad a natur y tir, pan nas gellir cael amser na chyfleusdra i wneuthur arbrawfiadau cywir a manwl. Yr oll sydd yn angenrheidiol ydyw pibell wydr fechan, yr hon y gellir ei chario mewn llogell, a llestr bychan yn cynnwys gwlybwr halsur (*muriatic acid*), wedi eu diogelu yn briodol rhag digwydd iddynt ddamwain. Cymmerer ychydig bridd, a gwneler ef yn llaith â dwfr; a thywallter ychydig ddyferynau o'r halsur arno; ac felly gellir dyfalu a oes ynddo ddefnydd calchaidd, a pha faint o'r defnydd hwnw sydd yn gymmharol ynddo. Wedi cymmysgu y pridd â dwfr, rhodder ef yn y bibell wydr, ac ysgydwer ef yn dda. Mewn ychydig funydau bydd y graian wedi disgyn i'r gwaelod; yn fuan wedi hyny gwaddoda y tywod manaf; ac yn olaf y clai, a sylweddau ereill ysgafnach. Canfyddir modrwyau amlwg yn y gwaddodion, a dengys y bibell gyfartaledd y sylweddau. Gall person fyddo yn gyfarwydd â'r dull hwn ddyfalu gyda chryn lawer o gywirdeb ansoddau cyffredinol y tir; a phan y byddo ffurfiad daearegol y gymmydogaeth a natur yr isweryd (*subsoil*) yn cael eu cymmeryd i ystyriaeth gellir dyfalu gwerth y tir i'w ddefnyddio fel tir porfa, neu i'w amaethu, heb fod mewn perygl o wneuthur camgymmeriadau pwysig. I fesurwyr a phriswyr, y mae hyn yn gymmhorth mawr, pryd nad oes foddion ereill manylach wrth law. Gwel AMAETHYDDIAETH.

TIR EGLWYS (*Glebe Land*): y cyfran o dir a berthyna i eglwys y plwyf, yn annibynol ar y degwm. Os bydd periglor, neu ficer, mewn plwyf, ni ofynir degwm o'r tir eglwys; hyny yw, os bydd yn cael ei amaethu a'i ddal ganddo ef ei hun: ond os bydd tenant yn ei ddal, rhaid iddo ef dalu degwm, neu arian y degwm, am dano. Os bydd periglor farw, a'i fod cyn hyny wedi gwrteithio, llafurio, a hau ei diroedd eglwysig ar ei draul ei hun, y mae ganddo hawl i wneyd ei ewyllys ar yr holl gynnyrch a ddaw o'r hâd a hauwyd ganddo i'r neb a ewyllysio. Y mae amryw gyfreithiau wedi eu pasio o bryd i bryd i rwyddhau y ffordd i gyfnewid tiroedd eglwysig, y rhai sydd weithiau ar wasgar yn fân ddarnau mewn gwahanol ranau o'r plwyf. Y mae yn ammheus a all y periglor agor mwngloddiau ar ei diroedd eglwysig, er y gall weithio rhai fydd yn agored eisoes.

TIRAS: mab hynaf Iapheth: *Gen.* x. 2. Yn gymmaint ag nad ydyw yr enw i'w gael ond yn y daflen genedlaethol, nid oes genym ddim, mor bell ag y mae a fyno y Beibl â'r mater, i'n harwain i gyssylltu yr enw âg unrhyw bobl neillduol. Y mae hen ysgrifenwyr yn gyffredin yn tybied mai y Thraciaid oeddynt, gan fod yr enwau yn meddu rhyw ychydig o debygolrwydd i'w gilydd. Ereill a dybiant mai yr amrywiol lwythau a breswylient fynyddoedd y Taurus oedd ei hiliogaeth ef.

TIRATHIAID, Y: un o dri thylwyth yr ysgrifenyddion a breswylient yn Iabes (1 *Cron.* ii. 55): y lleill oeddynt y Simeathiaid a'r Suchathiaid. Y mae yn anhawdd, os nad yn ammhossibl, cael allan o ba le y mae enwau y tri thylwyth yma yn deilliaw. Dywed yr esbonwyr Iuddewig, gan chwareu ar enwau yn ol y dull Semiaidd, yn eu hegluro fel hyn:—"Yr oeddynt yn cael eu galw yn Tirathiaid, am fod eu lleisiau, pan ganent, yn seinio yn uchel (תרע); Simeathiaid o herwydd eu bod yn gwneyd eu hunain yn glywadwy (שמע) wrth ddarllen y gyfraith."

TIRHACAH: brenin Ethiopia, neu Cus, a gwrthwynebydd Senacherib: 2 *Bren.* xix. 9; *Esa.* xxxvii. 9. Tra yr oedd brenin Assyria "yn ymladd yn erbyn Libnah," yn neheubarth Palestina, clywodd fod Tirhacah yn dyfod yn ei erbyn, ac anfonodd yr ail waith i hawlio ymostyngiad

Digitized by Google

Ierusalem. Digwyddodd hyn c. c. 713, os na chymmerodd y rhyfelgyrch le yn y bedwaredd flwydd ar hugain, yn lle y bedwaredd ar ddeg, o deyrnasiad Hezeciah, yr hyn a'i gwnelai c.c. 703. Os oedd yn ddiweddarach drachefn, rhaid mai c.c. 698 y digwyddodd, neu yr olaf o deyrnasiad Hezeciah. Yn ol Manetho, efe oedd trydydd frenin y bummed deyrnach ar hugain, a chydag ef y daeth y deyrnach hono i derfyniad. Dywed Strabo iddo weithio ei ffordd yn mlaen yn fuddugoliaethus mor bell a cholofnau Hercules. Yn ol Syncellus, efe a deyrnasodd am ddeunaw mlynedd, ond yn ol Eusebius am ugain. Y mae ei anturiaethau llwyddiannus yn erbyn Assyria wedi eu cofnodi ar furiau hen deml sydd yn Thebes; o herwydd y mae yn Medinet Habu gerflun o'r brenin hwn, a'r rhai a gymmerwyd yn garcharorion ganddo. Profa y chwanegiadau a wnaeth efe yn nhemlau Thebes, a'r cofadeiladau a gododd yn Ethiopia, fod Tirhacah wedi teyrnasu yn Napata—yn awr Gebel Berkel. Ei fod yn deyrn galluog sydd amlwg oddi wrth ei waith yn gorchfygu Senacherib, yn gystal ag oddi wrth y cofgolofnau a adeiladodd yn Ethiopia a'r Aipht, ac hefyd ei waith yn cadw meddiant o'i diriogaeth Aiphtaidd yn Asia; er, fe allai fod Strabo yn dyweyd gormod am ei allu pan y sicrhâ fod ei orchfygiadau, fel yr eiddo Sesostris, wedi ymestyn i Ewrop hefyd.

TIRHANAH: mab Caleb Ben-Hezron, o'i ordderchwraig, Maachah: 1 *Cron.* ii. 48.

TIRIA: mab i Iehaleleel, o lwyth Iudah: 1 *Cron.* iv. 16.

TIRSAH: yr ieuengaf o bum merch Salphaad. Efe a fu yn achlysur i sefydliad y gyfraith yn ordeinio os byddai dyn farw heb fod ganddo feibion bod ei feddiannau yn myned yn eiddo i'w ferched: *Num.* xxvi. 33; xxvii. 1; xxxvi. 11; *Jos.* xvii.

TIRSAH: hen ddinas Ganaaneaidd, brenin yr hon a enwir yn mysg yr un ar hugain a ddiorseddwyd pan y gorchfygwyd y wlad: *Jos.* xii. 24. Nid oes dim yn cael ei ddywedyd am dani wedi hyn hyd ar ol yr ysgariad a fu rhwng Israel ac Iudah. Y pryd hwnw yr ydys yn cael ei bod yn ddinas frenhinol—yn lle preswylfod i Ieroboam (1 *Bren.* xiv. 17), a'i olynwyr, Baasa (*pen.* xv. 21, 33), Elah (*pen.* xvi. 8, 9), a Zimri: *adn.* 15. Yno yr oedd beddrod un (*pen.* xvi. 6), a'r pedwar, dybygid, o frenhinoedd y deyrnas ogleddol. Gwarchauwyd ar Zimri ynddi gan Omri, a bu farw y blaenaf yn y fflamau a losgodd ei balas: *adn.* 18. Parhaodd y brenin newydd i drigo yno am beth amser; ond yn mhen chwe blynedd, efe a symmudodd i ddinas newydd a adeiladasai efe, yr hon a enwyd ganddo *Shomrôn* (Samaria); ac o hyny allan hi a barhaodd i fod yn brif ddinas y deyrnas ogleddol hyd nes y cwympodd y frenhiniaeth. Unwaith, ac unwaith yn unig, ar ol hyn y gwneir cyfeiriad at y ddinas hon; a hyny fel eisteddle bradwriaeth Menahem mab Gadi yn erbyn Salum (2 *Bren.* xv. 14, 16); ond mor fuan ag y profodd ei wrthryfel yn llwyddiannus, symmudodd Menahem eisteddle ei lywodraeth i Samaria, a chafodd Tirsah ei gadael mewn dinodedd. Ymddengys fod ei chymmeriad am brydferthwch yn uchel iawn trwy y wlad. Mewn cyfeiriad at hyny y sonir am dani yn Nghaniad Solomon; ac wrth ei chyssylltu âg Ierusalem, y mae yn eglur ei bod yn cael ei hanrhydeddu:—"Teg ydynt...megys Tirsah, gweddus megys Ierusalem." Sonia Eusebius am dani mewn cyssylltiad â Menahem, a thybia mai yr un ydoedd a "phentref y Samariaid yn Batanæa." Nid oes dim, pa fodd bynag, yn y Beibl yn arwain i'r casgliad fod Tirsah brenhinoedd yr Israeliaid ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen.

Nid ymddengys y gwneir un crybwylliad am dani gan ysgrifenwyr Iuddewig, na theithwyr Cristionogol y canol-oesoedd, oddi gerth Brocardus, yr hwn a ddywed fod "Thersa ar fynydd uchel, tua naw milldir i'r dwyrain o Samaria." Dyma yn fanwl y cyfeiriad, ac yn agos iawn bellder, *Tellûzah*, lle yn y mynyddoedd i'r gogledd o *Nablus*, yr hwn yr ymwelwyd âg ef gan Dr. Robinson a Mr. Van de Velde, yn 1852. Y mae y dref yn sefyll ar fryn, yr hwn o'r ochr ddwyreiniol sydd yn uchel iawn, ond y mae yn fwy hawdd myned i fyny iddi o'r gorllewin. Y mae yn fawr a chynnyddol, ond nid oes arwyddion neillduol o hynafiaeth ynddi. Llygriad ydyw yr enw, dybygid, o Tirsah; ond heb law y tebygolrwydd yna, a bod y lle yn cyfatteb yn gyffredinol i'r hanes, nid oes dim sydd yn ein cynnorthwyo i benderfynu gyda sicrwydd mai yr un ydyw *Tellûzah* a Tirsah.

TIRSATHA, Y (התרשׁתא: Ἀθερσασθά): teitl llywodraethwyr Iudea o dan y Persiaid, sydd yn ddeilliedig, medd Gesenius, o wraidd Persiaidd. yn arwyddo 'garw,' 'llym.' Y mae efe yn ei gymmharu i'r teitl "Gestrenger Herr," a roddid gynt i'r ynadon yn ninasoedd rhydd ac ymherodrol yr Almaen. Chwanegir ef fel teitl ar ol enw Nehemiah (*Neh.* viii. 9; x. 1); ac nid ydyw yn digwydd ond mewn tri o fanau ereill; sef, yn *Ezra* ii. 63, ac mewn ail adroddiad o'r un hanes yn *Neh.* vii. 65—70; lle, dybygid, yr arferir ef am Zorobabel, yr hwn a fu yn dal y swydd o flaen Nehemiah. Y mae ar ymyl y ddalen yn y Beibl Cymraeg (*Ezra* ii. 63; *Neh.* vii. 65) yn cael ei gyfieithu 'llywydd;' eglurhâd a gyfiawnheir gan yr hyn a ddywedir yn *Neh.* xii. 26, lle y defnyddir y gair "Nehemiah y tywysog," yn lle yr un mwy arferol "Nehemiah y Tirsatha." Y mae Nehemiah yn ei gymmhwyso ddwywaith ato ei hun (*pen.* v. 14, 18), a'r prophwyd Haggai (*pen.* i. 1; ii. 2, 21) at Zorobabel. Yn ol Gesenius, y mae yn dynodi llywodraethwr talaeth lai na rhaglawiaeth.

TISIAD, Y: y cyfenw a roddir ar Ioha, brawd Iediael, mab Zimri, un o gedyrn byddin Dafydd, a enwir yn y rhestr sydd yn 1 *Cron.* xi. 45. Nid yw yn digwydd yn un man arall; ac nid oes dim yn wybyddus am dano, nac am y teulu i ba un y perthynai.

TITIAN, neu TIZIANO, VECELLI: y penaf o arlunwyr yr ysgol Venetiaidd, ac un o brif baentwyr Ewrop. Hànai o deulu cyfrifol. Ganwyd ef yn y Capo del Cadore, yn yr Alpau Friuliaidd, yn y fl. 1477; neu, yn ol ereill, 1480. Parodd y duedd oedd ynddo er yn ieuangc iawn at dynu lluniau, i'w dad ei anfon ef i Venice pan nad oedd ond deng mlwydd oed, i ddysgu y gelfyddyd o arlunio. Ei addysgwyr oeddynt Sebastiano Zuccati a'r ddau Bellini; ond yr hwn a wnaeth fwyaf o argraph arno er ffurfio ei arddull oedd Giorgione. Y gwaith cyntaf a ddygodd Titian i sylw neillduol oedd ei orpheniad

Digitized by Google

o'r darlun "Frederick Barbarossa yn talu gwarogaeth i'r pab Alexander III." (1512), yr hwn a ddechreuwyd gan Giovanni Bellini, ond a adawyd yn anorphenol ganddo ar ei farwolaeth. Boddhawyd senedd Venice i'r fath raddau yn y gwaith hwn, fel y rhoddodd iddo swydd, a chyflog o dri chant o goronau yn y flwyddyn. Yn 1514, efe a baentiodd "Bacchus ac Ariadne," a gweithiau ereill cyffelyb, i'r Duc o Ferrara, a darlun o'r duc ei hun, ac o'r foneddiges a fu wedi hyny yn wraig iddo, heb law darlun o "Arian y Dreth." Tra y bu yn llys Ferrara, daeth yn gydnabyddus â'r bardd Ariosto, yr hwn a eisteddodd i gael ei ddarlun ganddo. Ar ei ddychweliad i Venice, paentiodd ei ddarlun o "Dyrchafiad y Forwyn:"—un o'i brif gampweithiau. Ymgododd yn gyflym mewn bri y pryd hwn. Gwahoddwyd ef i Rufain gan y pab Leo X. a Raphael, a chan Francis I. i Ffrainge; ond gwrthododd y gwahoddiadau hyny. Yn ystod y blynyddoedd o 1520 hyd 1530, y rhai enwocaf o'r darluniau lawer a dynodd oedd "St. Pedr Ferthyr," yr hwn sydd ddarlun prydferth odiaeth; "Buddugoliaeth y Venetiaid ar y Janizariaid," a "St. Sebastian." Yn 1530, darfu i Aretino y bardd ei gyflwyno i sylw Siarl V., ardeb o'r hwn a dynwyd ganddo, a gwnaeth amryw o ddarluniau ereill iddo hefyd. Aeth Titian o Bologna i Mantua. Ymddengys iddo fyned gyda Siarl i Yspaen yn 1532, a'i fod wedi aros yno am dair blynedd, a gwneyd amryw o'i gampweithiau sydd wedi eu cadw yn y wlad hono hyd heddyw. Paentiodd lawer o ddarluniau ysblenydd yn y blynyddoedd hyny. Edmygai Siarl ef yn fawr, a gwahoddodd ef i Augsburg yn 1547 a 1550. Yn mysg y darluniau a wnaeth i Phylip II. o Yspaen, gellir enwi "Y Swper diweddaf," "Crist yn yr Ardd, "St. Margaret a'r Ddraig," a "Merthyrdod San Lorenzo;" heb law llawer ereill ar destynau crefyddol a chlasurol. Nid oes restr gyflawn o weithiau Titian ar gael, ond y mae rhif y rhai sydd yn adnabyddus yn fawr iawn—dros chwe chant. Bu farw o'r pla yn 1576, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 99ain mlwydd oed.

Y lleoedd y ceir mwyaf o'i weithiau goreu yw Venice a Madrid; ond y mae amryw o rai ysblenydd i'w gweled yn y rhan fwyaf o brif orielau Ewrop. Ar y cyntaf yr oedd ynddo duedd a medrusrwydd nodedig i gopio gweithiau meistriaid ereill; ond ymryddhaodd ei athrylith yn fuan oddi wrth bob hualau, ac amlygodd fedrusrwydd a gwreiddiolder hynod. Gwyddai yn dda pa fodd i roddi goleuni yn ei ddarluniau. A dyma ydoedd ei brif ragoriaeth o bossibl. Nid oedd yn anghywir o ran cynllun, nac yn ddiffygiol mewn dyfais, nac yn anhapus yn eu gweithio allan; ond y mae y rhagoriaethau hyn yn cael eu taflu i'r cysgod gan ysblander, eofnder, a chywirdeb ei liwiau; yr hyn yn unig sydd wedi ennill iddo le yn ochr yr enwau penaf yn y gelfyddyd—Raphael, Leonardo da Vinci, a Michael Angelo.

TITUS FLAVIUS SABINUS VESPASIANUS: ymherawdwr Rhufain, oedd fab hynaf i Vespasian a'i wraig Flavia Domitilla. Ganwyd ef yn B.A. 40. Dygwyd ef i fyny yn llys Nero gyda Britannicus, mab yr ymherawdwr Claudius, a chafodd addysgiaeth dda yn gorphorol a meddyliol, a daeth yn enwog am ei ymarferiadau corphorol, a'i gyrhaeddiadau mewn dysgeidiaeth. Gwasanaethodd, pan yn ddyn ieuangc, fel tribun milwraidd yn Mhrydain, ac yn yr Almaen, ac ennillodd iddo ei hun glod uchel yn y swydd hon. Ar ol gwasanaethu y swydd o bentrysorydd, bu yn llywyddu lleng, ac yn gwasanaethu o dan ei dad yn y rhyfeloedd Iuddewig yn Iudea, lle y cafwyd prawf ar ei gymmhwysderau fel milwr a chadfridog. Dychwelodd Vespasian, ei dad, i Italy, ar ol cael ei gyhoeddi yn ymherawdwr ar y 1af o Orphenaf, B. A. 69; ond arosodd Titus yn Mhalestina i ddilyn yn mlaen y gwarchau ar Ierusalem. Terfynwyd y gwarchauad maith hwn trwy i'r ddinas gael ei chymmeryd gan y Rhufeiniaid, ar yr 8fed o Fedi, B. A. 70. Dychwelodd Titus i Italy yn y flwyddyn ddilynol, a rhoddwyd iddo ef a'i dad dderbyniad buddugoliaethus. Cafodd hefyd y teitl o Cæsar, ac phennodwyd ef yn gyd-ymherawdwr â'i dad, Vespasian. Nid oedd ei ymddygiadau y pryd hwn yn addawol, ac edrychai y bobl arno fel un oedd yn debyg o droi allan yn ail Nero. Cyhuddid ef o fod yn ddyn glwth wrth y bwrdd, o borthi ei nwydau llygredig mewn modd cywilyddus, ac o roddi personau oedd o dan ddrwgdybiaeth i farwolaeth yn ddiseremoni. Yr oedd ei gyssylltiad â Bernice, chwaer Agrippa II., yn ei wneyd yn hynod ammhoblogaidd gyda'r Rhufeiniaid. Daeth Titus i gydnabyddiaeth â hi pan yn Iudea; ac ar ol cymmeryd Ierusalem, darfu iddi hi, a'i brawd Agrippa, ei ddilyn i Rufain, a gwnaeth y ddau eu trigfod yn mhalas yr ymherawdwr. Mynegid fod Titus wedi addaw priodi Bernice; ond darfu i'r undeb bwriadedig hwn beri anfoddogrwydd mawr yn mysg y Rhufeiniaid, a'r canlyniad fu iddi gael ei danfon o Rufain.

Ar farwolaeth ei dad, B. A. 79, disgynodd yr holl lywodraeth i ddwylaw Titus; ac yn hytrach na gwneyd ei hun yn wrthddrych i'w ofni a'i arswydo fel ail Nero, arferodd ei awdurdod yn ddoeth a dyngarol. Cyhuddid ei frawd, Domitian, o gynllunio drwg yn ei erbyn; ond yn lle ei gospi ef, ymdrechodd Titus i ennill ei serch, a'i annog i beidio ymgeisio meddiannu, trwy foddion anghyfreithlawn, yr awdurdod a ddeuai yn eiddo cyfreithlawn iddo yn nghwrs amser. Dangosodd Titus o hyn allan awydd cryf am weled ei ddeiliaid yn llwyddiannus a dedwydd, a gwnaeth yr oll a allai i'w cynnorthwyo pan fyddent mewn cyfyngder. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth, ar ol cael yr holl lywodraeth i'w law ei hun, oedd attal yr holl erlyniadau am y trosedd o deyrnfradwriaeth *(laesa majestas)*, a chospai y cyhuddwyr yn llym. Bu blwyddyn gyntaf ei deyrnasiad yn hynod gan ffrwydrad mawr Vesuvius, yr hyn a anrheithiodd gyfran fawr o'r wlad gyfagos, ac a gladdodd mewn llosgwy a lludw drefydd Herculaneum a Pompeii. Ymdrechodd Titus ei oreu i ysgafnhau y gofid a gynnyrchwyd gan y dinystr mawr hwn: anfonodd ddau gonsul yno gydag arian i addrefnu, hyd y gallent, y dinasoedd adfeiliedig, a defnyddiodd eiddo y rhai a gollodd eu bywydau yn y distryw, nad oeddynt wedi gadael ar eu hol berthynasau i'w etifeddu, i'r un dyben. Yn nechreu y flwyddyn ddilynol (80), bu tân mawr yn Rhufain, yr hwn a barhaodd am dri diwrnod a thair noswaith, pryd y dinystriwyd y Capitol, llyfrgell Augustus, chwareudy Pompeiius, ac adeiladau cyhoeddus ereill, heb law llawer iawn o dai. Dadganai yr ymherawdwr yr edrychai efe ar y golled fel un o'i eiddo ei hun, ac aeth yn ddioed at y gwaith o adgyweirio y dinystr a wnaethpwyd: cymmerodd hyd yn oed addurn-

Digitized by Google

iadau y palas ymherodrol, a gwerthodd hwynt er mwyn cael arian. Dilynwyd ffrwydrad Vesuvius gan bla ofnadwy, yr hyn a alwodd am ymdrechion pellach oddi wrth yr ymherawdwr caredig a dyngarol. Yn yr un amser y gorphenodd efe y chwareudy a elwir Colosseum, yr hwn a gychwynwyd gan ei dad; ac hefyd y baddonau a elwir Baddonau Titus. Cynnaliwyd gwleddoedd a chwarëyddiaethau ar adeg agoriad y ddwy adeilad yma, am gan niwrnod; dywedir fod pum mil o fwystfilod gwylltion wedi eu dangos yr un diwrnod, yr hyn o bossibl sydd yn ormodiaeth. Bu farw Titus ar y 13eg o Fedi, B. A. 81, ar ol teyrnasu ei hun am ddwy flynedd a dau fis, ac ugain niwrnod. Yr oedd yn yr unfed flwydd a deugain o'i oedran. Drwgdybir Domitian o fod wedi ei wenwyno ef. Yn ol un chwedl, daeth Domitian i weled Titus cyn iddo farw, a gorchymynodd i bawb ei adael ef. Yn ol chwedl arall, parodd iddo gael ei daflu i lestr llawn o eira, o dan yr esgus o oeri y dwymyn oedd arno. Ei olynydd i'r orsedd oedd ei frawd Domitian. Dywedir fod Titus wedi ysgrifenu pryddestau a threisganau Groegaidd; a'i fod yn dra chyfarwydd yn yr iaith Roeg. Colled fawr i'r ymherodraeth oedd ei golli mor fuan wedi iddo droi allan yn llywodraethwr mor ragorol.

TITUS (*Tίτος*): athraw Cristionogol, a chydlafurwr â'r apostol Paul. Y mae y defnyddiau sydd genym o fywgraphiad iddo oll yn gynnwysedig yn yr Ail Epistol at y Corinthiaid, yr Epistol at y Galatiaid, a'r un at Titus ei hun, ynghyd â'r Ail Epistol at Timotheus. Ni wneir crybwylliad am ei enw yn Llyfr yr Actau. Y mae rhai beirniaid diweddar wedi ceisio profi mai yr un oedd Titus a Thimotheus.—King's "*Who was Titus?*" Dublin, 1853. Gan gymmeryd y cyfeiriadau ysgrythyrol yn nhrefn amseryddol y digwyddiadau a gofnodir, ni a drown yn gyntaf i *Gal.* ii. 1, 3; "Yna wedi pedair blynedd ar ddeg yr aethum drachefn i fyny i Ierusalem gyda Barnabas, gan gymmeryd Titus hefyd gyda mi...Eithr Titus, yr hwn oedd gyda mi, er ei fod yn Roegwr, ni chymmhellwyd chwaith i enwaedu arno." Gellid meddwl mai yr un ydyw y daith a nodir yma a'r un (a gofnodir yn *Act.* xv.) a wnaeth Paul a Barnabas o Antiochia i Ierusalem i'r gynnadledd oedd i benderfynu y cwestiwn o enwaediad y Cenhedloedd. Yma y gwelir fod Titus gyda Phaul a Barnabas yn Antiochia. Efe a aeth gyda hwy i Ierusalem. Yr oedd efe mewn gwirionedd, dybygid, yn un o'r "rhai ereill" a ddanfonwyd gyda hwynt o Antiochia: *Act.* xv. 2. Ni cheisiwyd enwaedu arno yn Ierusalem; neu, os gwnaed, efe a wrthwynebodd. Dywedir yn bendant mai Groegwr oedd efe: wrth yr hyn y golygir, y mae yn debyg, fod ei rieni i'w cyfrif yn mysg y Cenhedloedd. Yr oedd Timotheus, ar y llaw arall, nid yn unig wedi cael enwaedu arno yn ol cyfarwyddyd Paul, ond hefyd yr oedd ei fam yn Iuddewes o genedl: *Act.* xvi. 1, 3; 2 *Tim.* i. 5; iii. 15. Ymddengys fod Titus, ar adeg y cynghor, yn un o gynnrychiolwyr arbenig eglwys y dïenwaediad.

Gellir sylwi fod y crybwylliad a wneir am Titus yn rhyw led arwyddo ei fod yn adnabyddus i Gristionogion Galatia. Yr ydys yn cyssylltu hyn, etto, gyda dau amgylchiad arall, sef, fod yr Epistolau at y Galatiaid a'r Ail at y Corinthiaid wedi eu hysgrifenu, y mae'n debyg, o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd, a'r ddau yn ystod yr un daith. Yr ydym yn cael hysbysrwydd llawnach am Timotheus mewn cyssylltiad â Phaul yn yr olaf o'r epistolau hyn. Wedi gadael Galatia (*Act.* xviii. 23), a threulio amser maith yn Ephesus (*Act.* xix. 1—xx. 1), aeth yr apostol i Macedonia heibio i Troas. Disgwyliai am gyfarfod Titus yno (2 *Cor.* ii. 13), yr hwn a ddanfonasid ar genadwri i Corinth. Siomwyd ef yn hyn, ond yn Macedonia ymunodd Titus âg ef: 2 *Cor.* vii. 6, 7, 13—15. Canfyddir yn yr hanes, nid yn unig beth oedd y genadwri, ond hefyd y serch personol oedd rhyngddo ef a Phaul. Yr oedd a fyno y genadwri â'r anfoesoldeb oedd yn Corinth, a geryddir yn yr Epistol Cyntaf, ac â'r effeithiau a gynnyrchodd yr epistol hwnw ar yr eglwys dramgwyddedig. Yr ydys yn gweled hefyd fod ei neges, mor bell a hyny, wedi bod yn llwyddiannus a boddhaol (*pen.* vii. 7, 9, 15); a galluogir ni oddi wrth y bennod hon i dynu y casgliad teg, fod sêl Titus yn wresog a'i gydymdeimlad yn fawr, ei fod yn gofidio o blegid yr hyn oedd feius, yn gystal ag yn llawenychu am yr hyn oedd dda: *adn.* 7, 13, 15. Wrth fyned yn mlaen, ceir gweled beth oedd y rhan arall o'r genhadaeth a ymddiriedwyd iddo. Yr oedd hyny yn dwyn perthynas â'r casgliad oedd yn cael ei wneyd i'r brodyr tlodion yn Iudea (*pen.* viii. 6):—gwaith ag yr oedd Titus wedi rhagori ynddo, ond gyda'r hwn yr awgrymir fod y Corinthiaid yn mhell yn ol. Gellir casglu oddi wrth le arall fod cyssylltiad rhwng ei genhadaeth a'r gwaith yma, a'i fod wedi ei anfon i'w gyflawni gan Paul ei hun: *pen.* xii. 18. Yr ydym drwy hyn oll wedi ein parotoi ar gyfer yr hyn y mae yr apostol yn ei wneyd; sef, danfon Titus o Macedonia i Corinth yn nghwmni dau Gristion ffyddlawn ereill, Trophimus a Tychicus, gyda'r Ail Epistol; a chyda dymuniad diffuant ar iddo ofalu am gwblhâd y casgliad y bu mor sclog drosto yn ei ymweliad blaenorol, â'r hyn yr ymgymmerodd Titus yn llawen: *pen.* v. 6, 17. Wrth adolygu yr hyn a gyflëir ger ein bron yn yr Ysgrythyrau y cyfeirir atynt uchod, y rhai sydd yn egluro nodweddau y dyn, a'r dyledswyddau a gyflawnodd, a'i gydweithrediad ffyddlawn â Phaul, canfyddir ystyr ymadrodd byr, ond cryf, yr apostol am dano: "Os gofynir am Titus, fy nghydymaith yw, a chydweithydd tuag atoch chwi;" *pen.* viii. 23.

Y mae yr oll a gyflëwyd uchod wedi ei gasglu oddi wrth ymadroddion a ddefnyddir yn yr epistolau; ond gellir gwybod chwaneg ynghylch Titus trwy gasgliadau anuniongyrchol, ond teg, sydd yn cyssoni y cwbl, ac hefyd eglurhâd chwanegol ar gyssylltiad agos Titus a Phaul â'r eglwys yn Corinth. Tybir yn gyffredin nad oes sicrwydd pwy oedd y "brodyr" (1 *Cor.* xvi. 11, 12) a gymmerodd yr Epistol Cyntaf i Corinth. Nis gallasai Timotheus, yr hwn a anfonasid yn ddiweddar yno o Ephesus (*Act.* xix. 22), fod yn un o honynt (1 *Cor.* xvi. 10); a gwrthododd Apolos fyned â'r genadwri: *adn.* 12. Nid oedd ond ychydig o ammheuaeth nad Titus a'i gydymaith, pwy bynag oedd efe, oedd y cenhadon a gymmerasant yr Epistol Cyntaf, ac a grybwyllir ganddo yn ei ail epistol, "Mi a ddeisyfais ar Titus, a chydag ef mi a anfonais frawd;" 2 *Cor.* xii. 18. Dyma oedd golygiad Macknight, Stanley, a'r Proffeswr Lightfoot. Ynghylch cyssylltiad y ddwy genadwri, sef yr eiddo Titus a Thimotheus, gellir sylwi yma, y gall fod gwahaniaeth y ddwy genadwri i ryw



Digitized by Google

fesur yn dwyn perthynas â'r gwahaniaeth yn nodweddau y ddau genad. Os Titus oedd y cadarnaf, a'r mwyaf egnïol o'r ddau, yr oedd yn eithaf naturiol ymddiried iddo ef y gorchwyl o weinyddu ceryddon yr apostol, ac i gymmhell i sylw bwngc y casglu oedd wedi sefyll yno. Ar ol hyn, y mae cryn amser yn digwydd cyn y gwneir un crybwylliad am y dysgybl hwn. Yr oedd carchariad cyntaf Paul wedi dyfod i ben, a'i brawf diweddaf yn agoshau. Yn y cyfwng rhwng y ddau, yr oedd ef a Thitus gyda'u gilydd yn Creta: *Tit.* i. 5. Arosodd Titus yn yr ynys wedi i'r apostol ei gadael, a derbyniodd yno lythyr oddi wrth Paul. Gellir casglu oddi wrth y llythyr hwn y manylion canlynol am fywyd y blaenaf:—Yr ydym yn cael yn mlaenaf ei fod wedi ei ddychwelyd trwy offerynoliaeth Paul:—rhaid mai hyn ydyw ystyr y geiriau "fy mab naturiol yn y ffydd;" *Tit.* i. 4. Cyfeirir at yr amrywiol ddyledswyddau oedd yn orphwysedig arno i'w cyflawni yn Creta. Yr oedd i gwblhau y gwaith a adawsid yn anorphenol gan Paul, a gosod "henuriaid yn mhob dinas;" *pen.* i. 5. Rhoddir cyfarwyddiadau ynghylch cymmeriadau y cyfryw henuriaid: *adn.* 6—9. Yr oedd ganddo hefyd i lywodraethu a distewi yr aflonyddwyr a'r terfysgwyr a dueddent at Iuddewiaeth, ac i fod yn llym wrthynt: *adn.* 11, 13. Y mae cyfarwyddiadau o'r un natur yn cael eu rhoddi iddo drachefn yn *pen.* ii. 1, 5; iii. 8. Yr oedd yn orphwysedig arno i gymmhell dyledswyddau a threfnusrwydd bywyd Cristionogol ar y gwragedd (*pen.* ii. 3—5); i fod yn wyliadwrus dros ei ymddygiadau ei hun (*adn.* 7); ac i argraphu ar feddyliau gweision ddyledswyddau eu sefyllfa (*pen.* ii. 9, 10); i anghymmeradwyo pob terfysg cymdeithasol a gwleidyddol (*pen.* iii. 1), ac hefyd i wrthwynebu damcaniaethau duwinyddol direol (*pen.* iii. 9); ac i ddysgyblu hereticiaid (*pen.* iii. 10). Wrth ystyried yr holl ddyledswyddau neillduol hyn a osodwyd arno, ni a ganfyddwn, nid yn unig yr hyder oedd gan yr apostol ynddo, ond yr angen oedd am ei fod yn meddu ar ysbryd penderfynol ac ewyllys gref i gario hyn allan. Felly y tebygolrwydd yw, fod Titus yn meddu yr ansoddau hyn yn ei gymmeriad; ac y mae hyn oll yn cael ei gadarnhau pan yr ystyrir y fath oedd cymmeriad anfoesol y Cretiaid, fel y disgrifir ef gan eu hysgrifenwyr hwy eu hunain: *pen.* i. 12, 13.

Yn *pen.* iii. 12, y mae Paul yn gorchymyn i Titus fod yn ddyfal i ddyfod ato ef i Nicopolis; a chymmerir yn ganiataol iddo gyflawni ei ddymuniad, ac iddo wedi hyny ei ddilyn ef ar ei daith olaf i Rufain, o'r lle yr anfonwyd ef i Dalmatia: 2 *Tim.* iv. 10.

Y mae y gweddill a ellir ei ddweyd am fywyd Titus yn chwedleuol, er y dichon ei fod yn cynnwys elfenau o wirionedd. Cyssylltir Titus gan draddodiad â Dalmatia, a dywedir fod parch mawr yn cael ei deimlo tuag ato yn yr ardal hono. Fe allai, wedi y cwbl, nad ydyw hyn yn ddim amgen na chasgliad oddi wrth yr hyn a ddywedir yn 2 *Tim.* iv. 12. Y mae cyssylltiad Titus â Creta yn llawer mwy pendant a sefydlog, er nas gellir bod yn sicr o'r ffeithiau a ddywedir yn ei gylch. Yn ol traddodiad, bu farw yno mewn hen ddyddiau; ac y mae prif ddinas yr ynys, sef Candia, yn hawlio yr anrhydedd o fod y fan lle y claddwyd ef.

TITUS, YR EPISTOL AT. Nid oes un arbenigrwydd neillduol yn yr epistol sydd yn galw am ymdriniaeth fanwl, ar wahân oddi wrth epistolau bugeiliol ereill Paul. Gw. TIMOTHEUS, YR EPISTOL AT. Os nad yw yr epistolau hyny yn rhai gwirioneddol, byddai yn anhawdd sefyll yn hyderus dros ddilysrwydd yr epistol hwn. Ar y llaw arall, os derbynir yr epistolau at Timotheus fel yr eiddo Paul, nid oes un sail dros ammheu awduriaeth yr un at Titus. Er cymmaint o ammheuon sydd wedi eu taflu allan o berthynas i'r epistolau bugeiliol, nid oes neb sydd yn derbyn y ddau ereill yn gwrthod cydnabod hwn. Ac mor bell ag y mae yr ammheuon hyn yn werth eu hystyried o gwbl, y mae y fantol yn fwy yn ffafr hwn na'r ddau ereill, o bossibl. Cydnabyddai Tatian ddilysrwydd yr Epistol at Titus, tra yr ymwrthodai â'r ddau ereill. Soniai Origen am rai a wrthodent yr Ail Epistol at Timotheus, tra y cydnabyddent y Cyntaf, a'r un at Titus. Y mae Schleiermacher a Neander, tra yn ymwrthod â'r Epistol Cyntaf at Timotheus, yn derbyn yr ail, ac yn credu mai Paul a ysgrifenodd y llythyr at Titus. Creda Credner hefyd yn ei ddilysrwydd, er ei fod yn barnu fod y Cyntaf at Timotheus yn ffugiol, a'r Ail yn gymmysgedd o ddau epistol.

Ond i adael heibio opiniynau, a throi at brawfiadau allanol uniongyrchol, y mae yr epistol hwn yn sefyll ar dir llawn mor gadarn a'r epistolau bugeiliol ereill. Nis gall dim fod yn fwy eglur na'r dyfyniadau a wneir gan Irenæus, Clement o Alexandria, Clement o Rufain, Tertullian, Theophilus, Justin Ferthyr, ac ereill o'r tadau, y rhai a'i cydnabyddent fel cynnyrch ysgrifell yr apostol.

O berthynas i'w nodweddau mewnol, gellir nodi fod yr Epistol at Titus yn meddu tebygolrwydd mawr mewn syniadau ac iaith i'r epistolau bugeiliol ereill, yn enwedig y cyntaf at Timotheus. Y mae y tebygolrwydd y fath fel y tueddir ni i gredu fod yr apostol wedi eu hysgrifenu tua'r un amser, ac o dan gyffelyb amgylchiadau a'r ddau ereill; ond y mae yn yr epistol hwn hefyd arwyddion arddull, ac ieithwedd, sydd yn ei wneuthur yn debyg i gorph mawr epistolau Paul. Ar yr un pryd perthyna i hwn nodweddau o'i eiddo ei hun; ac yn enwedig rhyw dôn o lymder sydd yn codi, dybygid, mewn rhan allan o amgylchiadau pobl Creta, ac mewn rhan o gymmeriad Titus ei hun. Os gosodir yr holl bethau hyn ynghyd, y mae yn ymddangos yn annhebyg iawn fod yr epistol yn ffugiaeth; heb son dim am yr anhawsder anorfod sydd i ddychymmygu am rywun arall i fod yn awdwr yr epistolau bugeiliol heb law Paul ei hun.

Yn mherthynas i gynnwysiad yr epistol, y mae rhywbeth wedi ei ddyweyd o'r blaen yn yr erthygl ar TITUS. Y mae rywfodd yn anhawdd gwneyd dosraniadau manwl iddo. Ar ol yr arweiniad i mewn cyfarchiadol (*pen.* i. 1—4), y mae Titus yn cael ei gyfarwyddo i osod henuriaid cymmhwys yn eglwysi Creta, ac yn arbenig rai yn dal "athrawiaeth iachus," a galluog i geryddu y sawl a elent ar gyfeiliorn: *adn.* 5—9. Yna y mae yr apostol yn myned yn mlaen i ddisgrifio cymmeriad anhywaith y Cretiaid, fel y tystiai eu hysgrifenwyr hwy eu hunain am danynt, a'r drygau a achosid gan y sawl a ledaenent syniadau Iuddewaidd yn mysg y Cristionogion oedd yn yr ynys: *adn.* 10—16. Er gwrthwynebu hyn, annogwyd Titus i gymmhell Cristionogaeth bur ac ymarferol i sylw pob dosbarth (*pen.* ii. 1—10):—ar yr hynafgwyr (*pen.*

Digitized by Google

ii. 2), ac ar yr hynaf-wragedd, ac yn enwedig yn mhorthynas i'w dylanwad ar y gwragedd ieuainge (*adn.* 3—5), ar y gwŷr ieuainge (*adn.* 6—8), ac ar y gweision (*adn.* 9, 10), ac hefyd ar ei fod ef ei hun yn esampl yn mhob gweithred dda (*adn.* 7). Seiliau hyn oll ydyw y gras sydd yn dysgu y Cristion i ymwadu âg ef ei hun, ac i ymarfer duwioldeb (*adn.* 11, 12), y gobaith gwynfydedig am ail ddyfodiad Crist (*adn.* 13), ac iawn yr hwn a'n prynodd i fod yn bobl iddo ei hun: *adn.* 14. Cynghorir Titus i gymmhell y pethau hyn gyda phenderfyniad diofn: *adn.* 15. Yn nesaf, annogir i roddi ufudd-dod i lywodraethwyr, ac i ddangos addfwynder a thiriondeb tuag at bob dyn (*pen.* iii. 1, 2), a dywedir fod y dyledswyddau hyn drachefn yn gorphwys ar ein syniad o ddiffygion a phechodau blaenorol (*adn.* 3), ac ar y ddawn o fywyd ysbrydol newydd ac iachawdwriaeth rad: *adn.* 4—7. Cyferbynir y dyledswyddau ymarferol hyn â'r damcaniaethau gwâg y dylid ar bob cyfrif eu gochelyd (*adn.* 8—9); a rhoddir gorchymyn pendant yn mherthynas i'r dynion y gwyddid eu bod yn hereticiaid: *adn.* 10, 11. Yn dilyn hyn, y mae amryw o gyfeiriadau personol:—gellid disgwyl naill ai Artemas neu Tychicus i Creta; ac ar eu dyfodiad hwy yr oedd Titus i ddyfod at yr apostol i Nicopolis, lle y bwriadai efe auafu: yr oedd eisieu darparu ar gyfer angenrheidiau teithiol Zenas y cyfreithiwr hefyd, ac Apolos: *adn.* 12, 13. A chyn rhoddi y cyfarchiad olaf, cynghorir y Cristionogion oedd yn Creta i fod yn ffyddlawn yn nghyflawniad holl ddyledswyddau ymarferol crefydd: *adn.* 14, 15.

Gyda golwg ar amser, a lle, ac amgylchiadau ereill perthynol i awduriaeth y llythyr hwn, dichon y gellir cael goleuni ar hyny wrth geisio dilyn neu lenwi i fyny symmudiadau yr apostol ar ol ei garchariad cyntaf. Gallwn feddwl ei fod (ar ol o bossibl ei ymweliad âg Yspaen) wedi myned i Ephesus, a chymmeryd mordeithiau oddi yno—ar y cyntaf i Macedonia, ac yna i Creta; ac yn ystod y fordaith gyntaf iddo ysgrifenu ei Epistol Cyntaf at Timotheus, ac ar ol dychwelyd o'i ail fordaith iddo ysgrifenu yr Epistol at Titus, a phan ar ei ddanfon ymaith yr oedd ar gychwyn i Nicopolis, gan fyned heibio i Miletus a Chorinth ar ei ffordd. Gellid meddwl iddo gael ei ddal yn Nicopolis a'i gymmeryd yn garcharor i Rufain, o'r lle yr anfonodd efe yr Ail Epistol at Timotheus. Y mae o'r bron yn sicr mai camgymmeriad ydyw priodoli yr awduriaeth i unrhyw adeg yn y rhan hono o fywyd yr apostol ag y mae cofnodion am dano yn Llyfr yr Actau. Mae y gwahaniaeth sydd yn yr arddull, o'i gymmharu â'r epistolau boreuaf a ysgrifenodd Paul, y fath ag sydd yn arwyddo ei fod wedi ei ysgrifenu tua'r un amser a'r epistolau bugeiliol ereill, ac yn ei gyssylltu â chyfnod diweddaf ei fywyd ef; ac y mae yn ymddangos braidd yn chwithig na buasai dysgedigion rhagorol ac amserydd wyr manwl, megys Evans, Weiseler, ac ereill, y rhai a dybient i'r epistol gael ei ysgrifenu o Ephesus (rhwng amser yr Epistol Cyntaf a'r Ail at y Corinthiaid), yn gynnar ar ei dryddedd daith genhadol (*Act.* xix.) wedi talu mwy o sylw i hyn.

TOAH: Lefiad Cohathaidd, ac un o hynafiaid Samuel a Heman: 1 *Cron.* vi. 34.

TOB, GWLAD: y lle yr aeth Iephthah iddo am ddiogelwch pan y gyrwyd ef oddi cartref gan ei hanner brawd (*Barn.* xi. 3); ac yno yr arosodd, yn benaeth mintai o ysbeilwyr, hyd nes y cyrchwyd ef yn ol gan henuriaid Israel: *adn.* 5. Cesglir oddi wrth yr hanes nad oedd Gwlad Tob yn mhell o Gilead: ar yr un pryd, y mae yn rhaid ei bod yn rhywle tua'r anialwch dwyreiniol. Crybwyllir am dani drachefn yn 2 *Sam.* x. 6, 8, fel un o'r teyrnasoedd neu y taleithiau Aramaidd bychain a gynnorthwyent yr Ammoniaid yn eu hymdrechfa fawr gyda Dafydd. Yn y cyfieithiad Cymraeg, yr enw a roddir ydyw 'Istob,' hyny yw 'gŵr o Tob'—yn golygu mewn Hebraeg cyffredin, 'gwŷr Tob.' Ar ol i amser maith fyned heibio, gwneir crybwylliad am dani yn hanes y Maccabeaid.—1 *Macc.* v. 13. Yr oedd Tob, neu Tobie, y pryd hwnw yn cynnwys trefedigaeth gref o Iuddewon, yn rhifo o leiaf fil o feibion. Yn 2 *Macc.* xii. 17, y mae ei safle yn cael ei osod allan yn lled fanwl yn agos i Characa, saith gant a deg a deugain o stadiau o ddinas gref Caspis; ond yn gymmaint ag nad ydyw sefyllfa y naill na'r llall o'r lleoedd hyn yn hysbys, nid yw yn nemawr o gymmhorth i gael allan yn mha le yr oedd Tob. Nid oes neb wedi ceisio cyssylltu yr ardal hynafol hon âg unrhyw ran neillduol o'r wlad yn yr amseroedd diweddar.

TOB-ADONIAH: un o'r Lefiaid a anfonwyd gan Iehosaphat drwy ddinasoedd Iudah i ddysgu y gyfraith i'r bobl: 2 *Cron.* xvii. 8.

1. TOBIAH (*Tobias*): un o'r Lefiaid a anfonwyd gan Iehosaphat i ddysgu y gyfraith yn ninasoedd Iudah: 2 *Cron.* xvii. 8.

2. TOBIAH: un o feibion y gaethglud yn amser Zechariah, yn mhresennoldeb yr hwn y gorchymynwyd i'r prophwydi gymmeryd coronau o arian ac aur, a'u rhoddi ar ben Iosuah yr archoffeiriad: *Zech.* vi. 10. Tybia Rosenmüller ei fod yn un o aelodau y ddirprwyaeth a ddaeth i fyny i Ierusalem, oddi wrth yr Iuddewon oedd wedi aros yn Babilon, gyda chyfraniadau o aur ac arian at wasanaeth y deml. Ond Maurer a ystyria fod yr offrymau wedi eu cyflwyno gan Tobiah a'i gymdeithion, o herwydd y gorchymynid i'r coronau gael eu gosod yn y deml fel cofarwyddion o'u hymweliad a'u haelfrydedd.

3. TOBIAH: Samariad, yr hwn, wedi dyrchafu ei hun o'r sefyllfa isaf i ffafr Sanbalat y Moabiad, a wnaeth ei oreu i foddhau ei feistr, trwy geisio attal gweithrediadau Nehemiah i adeiladu muriau Ierusalem. Cafodd yr Ammoniaid a'r Moabiaid yn y ddau hyn gynnrychiolwyr cymmhwys i'r casineb etifeddol hwnw tuag at yr Israeliaid a ddechreuodd cyn dyfodiad y genedl ddiweddaf i Ganaan. Y mae hanes dechreuad y Moabiaid a'r Ammoniaid, fel y mynegid ef gan yr Hebreaid, yn ddangoseg o'r teimlad o gasineb oedd yn ffynu rhyngddynt. Cafodd y teimlad hwn ei ddadgan mewn ymadroddion urddasol gan Nehemiah:—"Nid oes i chwi ran, na chyfiawnder, na choffadwriaeth yn Ierusalem;" *pen.* ii. 20. Ond medrodd Tobiah, er nad oedd ond caethwas (*Neh.* ii. 10, 19), os nad ydyw yr enw yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd o ddarostyngiad, ac Ammoniad, trwy ryw foddion gael llwybr i gyssylltu ei hun â theulu offeiriadol. Priododd Iohanan, ei fab ef, un o ferched Mesulam, mab Berechiah: *Neh.* vi. 18. Yr oedd yntau hefyd yn fab-yn-nghyfraith i Sechaniah fab Arah (*adn.* 17, 18), ac yr oedd y cyssylltiadau teuluaidd hyny yn ennill iddo

Digitized by Google

bleidwyr yn mysg yr Iuddewon, ac fe allai fod rhyw berthynas rhwng hyn a'r mesurau llymion a arferodd Ezra i attal priodasau cymmysg. Yr oedd hyd yn oed ŵyr i Eliasib, yr archoffeiriad, wedi priodi merch i Sanbalat: *Neh.* xiii. 28. Yn *pen.* xiii. 4, dywedir fod rhyw gyssylltiad rhwng Eliasib a Thobiah, sydd yn arwyddo perthynas o ryw natur rhwng Tobiah a Sanbalat, er na wneir crybwylliad am ei natur. Yr oedd y drwg wedi gwasgar mor bell fel y gorfodwyd arweinwyr y bobl i gyffroi eu teimladau crefyddol trwy ddarllen allan o gyfraith Moses "na ddylai yr Ammoniaid na'r Moabiaid ddyfod i gynnulleidfa Duw yn dragywydd;" *Neh.* xiii. 1. Tybia Ewald i Tobiah fod yn was (caethwas) yn llys Persia, ac iddo gael ffafr yno, a'i ddyrchafu yn rhaglaw yr Ammoniaid. Ond y mae yn ymddangos fod teimlad cryfach o elyniaeth yn cael ei amlygu yn erbyn Tobiah nag yn erbyn Sanbalat. Tobiah oedd yn gwenwyno meddwl Sanbalat i raddau pell (*Neh.* iv. 3), ac efe a achlysurodd weddi gwynfanus, ddolefus, Nehemiah (*pen.* iv. 4, 5): Tobiah a gadwodd i fyny gyssylltiad â'r Iuddewon terfysglyd, ac a anfonodd lythyrau i ddychrynu Nehemiah (*pen.* vi. 17, 19): ond y weithred a goronodd ei holl weithredoedd ereill o ddirmyg oedd gwneyd ei drigfod yn y deml, yn yr ystafell a barotodd Eliasib iddo, yn groes i gyfraith Moses. Nis gallai amynedd Nehemiah ddal yn hwy, "am hyny," medd efe, "mi a fwriais holl ddodrefn tŷ Tobiah allan o'r ystafell;" a chyda hyn yr ydym yn colli yr olwg arno: *Neh.* xiii. 7, 8.

TOBIAS (y ffurf Groegaidd o'r enw Tobiah): tad Hyrcanus, yr hwn, yn ol pob tebyg, oedd ŵr o gyfoeth a chymmeriad yn Ierusalem yn amser Seleucus Philopater, o gylch c.c. 187. Yn y rhwygiad archoffeiriadol a gymmerodd le wedi hyny, cymmerodd meibion Tobias ran amlwg. —"*Hynaf. Iudd.*," xii. 4, *adr.* 2. Yr oedd gan Joseph, yr hwn a ddyrchafodd ei hun trwy ddichell yn llys yr Aipht, fab o'r enw Hyrcanus.—"*Hynaf. Iudd.*," xii. 4, *adr.* 2. Tybir mai hwn ydyw yr Hyrcanus y sonir am dano yn 2 *Macc.* iii. 11; ac ymddengys nad ydyw hyny yn ammhossibl; ac am ryw reswm anhysbys, i'r holl deulu gael eu galw ar enw y taid, yn lle ar enw y tad. Ar y llaw arall, y mae fod yr un enwau yn cael eu defnyddio yn fynych yn yr un teuluoedd dros amryw genedlaethau yn ei wneyd yn debyg y gall fod yr Hyrcanus a grybwyllir yn Josephus yn nai i'r Hyrcanus yn 2 *Macc.*

TOBIE, LLEOEDD: ardal a elwid felly yn amser y Maccabeaid, yn yr hon yr oedd trefedigaeth gref o Iuddewon.—1 *Macc.* v. 13. Yn ol pob tebyg, yr un ydoedd a gwlad Tob, y sonir am dani yn hanes Iephthah. Gwel TUBIENI.

TOBIT, LLYFR: un o lyfrau yr Apocrypha. Gelwir ef Tobit (Τωβὶτ, Τωβεὶτ) yn unig yn yr hen lawysgrif; a dyna y teitl a roddir arno yn y Beibl Cymraeg. Mewn amseroedd diweddarach cymmerwyd y geiriau cyntaf ynddo βίβλος λόγων Τωβὶτ (Llyfr Ymadroddion Tobit) yn enw arno. Y mae testyn y llyfr yn gynnwysedig yn bresennol yn yr ieithoedd Groeg, Lladin, Syriaeg, a Hebraeg, ac y maent yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd i raddau mwy neu lai mewn manylion; ond etto maent ar y cyfan mor debyg i'w gilydd fel y mae yn rhesymol meddwl fod y cwbl wedi deilliaw o un copi gwreiddiol, wedi ei gyfnewid wrth ei gyfieithu neu ei ysgrifenu. Y mae dau destyn Groegaidd o hono. Dyfynir un o honynt gan y mwyafrif o lawysgrifau o'r Deg a Thrigain, yn yr hwn y mae y testyn hynaf sydd ar gael. Nid ydyw y llall yn gyflawn, ac y mae yn amlwg ei fod wedi ei gasglu o'r blaenaf. Y mae dau fath o'r testyn Lladinaidd hefyd.

Y mae y testyn cyffredin, yr hwn a gyfieithwyd o'r *Vulgate*, i'w briodoli i Jerome, yr hwn a'i parotodd trwy arolygu yr hen gyfieithiad Lladin, gyda chynnorthwy copi Caldeaidd, yr hwn a gyfieithwyd i'r Hebraeg iddo gan un oedd yn feistr ar y ddwy iaith. Nid ydyw y cyfieithiadau Hebrëig yn bwysig iawn. Y mae y cyfieithiad a gyhoeddwyd yn 1542 wedi ei sylfaenu ar yr un Groeg, er nad ydyw yn gyfieithiad hollol lythyrenol. Am y cyfieithiad Syriaidd, y mae mewn rhan yn gyfieithiad manwl o'r testyn Groeg cyffredin; ond o *pen.* vii. 9, i'r diwedd, y mae yn dilyn testyn y cyfieithiad diwygiedig.

1. *Cynnwysiad.*—Fel y canlyn y mae cynnwysiad y llyfr. Cymmerwyd Tobit—yr hwn oedd Israeliad o lwyth Naphtali, a'r hwn a gadwai y gyfraith yn fanwl, ac a barhaodd yn ffyddlawn i wasanaeth teml yr Arglwydd yn Ierusalem [*Tobit* i. 4—8]—yn garcharor i Assyria, gan Salmaneser, yn adeg dinystriad Samaria, a chaethgludiad y deg llwyth [c. c. 734—678]. Tra yn y caethiwed, gan ei fod yn oruchwyliwr [i. 13], galluogwyd ef i wneyd ychydig er ysgafnhau beichiau ei gydwladwyr; a'r pryd hwn yr oedd ganddo ddigon o gyfoeth i roddi benthyg deg talent o arian i gydwladwr, sef Gabael yn Rages yn Media. Ond pan y daeth Senacherib i'r orsedd fel olynydd ei dad, effeithiwyd cyfnewidiad yn amgylchiadau Tobit. Cyhuddwyd ef o gladdu yr Iuddewon hyny a roddasai y brenin i farwolaeth; ac o'r braidd y llwyddodd i'w waredu ei hun, Anna ei wraig, a Thobias ei fab, drwy ffoi. Ar esgyniad Esarhadon, goddefwyd iddo ddychwelyd i Ninefeh, ar eiriolaeth ei nai, Achiacarus, yr hwn a lanwodd swydd uchel yn nhŷ y brenin [i. 22]; ond darfu i'w sêl dros ei gydwladwyr ddwyn arno anffawd ryfedd. Efe a gysgodd un noson wrth bared neuadd ei dŷ, ac yntau yn aflan wedi bod yn claddu corph Iuddew oedd wedi ei dagu yn yr heol, lle y cafwyd ef gan Tobias ei fab; ac fel y gorweddai, adar y tô a "fwriasant dail twymyn" i'w lygaid, a chollodd yntau ei olwg mewn canlyniad. Yn y cyflwr hwn cadwyd ef am ychydig gan Achiacarus, ac wedi hyny bu fyw ar lafur ei wraig: *pen.* ii. 10. Ar un achlysur efe a'i cyhuddai hi o ladrata mynn a chwanegwyd iddi at ei chyflog, a cheryddodd hithau ef trwy gyfeirio at ei sefyllfa druenus er ei holl weithredoedd da. Gofidiai yntau o herwydd ei hedliwiadau, a gweddïai ar Dduw am gymmhorth; ac ar yr un dydd digwyddodd fod un o'i geraint, sef Sara, merch Raguel [vi. 10, 11], hefyd yn ceisio cymmhorth gan yr Arglwydd yn erbyn ymosodiadau tŷ ei thad. Yr oedd saith o ddynion ieuaingc a'i priododd hi wedi marw ar noson y briodas trwy ddylanwad Asmodeus, yr ysbryd drwg; a thybiai y dygai hyn ei thad mewn henaint "i'r bedd mewn gorthrymder:"—*pen.* iii. 10. Gan hyny, anfonwyd Raphael i waredu y ddau o'u gofidiau. Yn y cyfamser, cofiodd Tobit am yr arian a fenthyciasai efe i Gabael, ac anfonodd Tobias ar daith i Media i geisio yr arian benthyg yn ol: —*pen.* iv. Ar hyn, daeth Raphael ato (ar ffurf câr iddo, sef Azarias), a chynnygiodd fod yn gydymaith i Tobias ar ei daith i Media; a hwy

Digitized by Google

a "aethant ymaith ill dau, a chi y llangc gyda hwynt," a chysurwyd Anna am absennoldeb ei mab:—*pen.* v. Pan y cyrhaeddasant y Tigris, gorchymynodd Raphael i Tobias "i gymmeryd calon, ac afu, a bustl" rhyw "bysgodyn a neidiodd o'r afon, ac a fynasai ei lyngcu ef," a chyfarwyddodd ef pa fodd i ddefnyddio y galon a'r afu yn erbyn Asmodeus, o herwydd, dywedai Raphael, fod Sara i fod yn wraig iddo:—*pen.* vi. Felly, pan y daethant i Ecbatane, croesawyd hwy yn nhŷ Raguel; ac yn ol rhagfynegiad yr angel, rhoddwyd Sara mewn priodas i Tobias y noson hono, ac Asmodeus a "ffodd i eithafoedd yr Aipht, a'r angel a'i rhwymodd ef:"—*pen.* vii., ac viii. Wedi hyn, cafodd Raphael y benthyg yn ol gan Gabael [ix.], ac yna dychwelodd Tobias gyda Sara i Ninefeh, â hanner da ei thad gyda hwy:—*pen.* x. Ar ol cael ei hysbysu gan Anna o ddynesiad ei mab, aeth Tobit i'w gyfarfod ef. Yn ol cyfarwyddyd yr angel cymmhwysodd Tobias y bustl at lygaid ei dad, ac adferwyd iddo ei olwg:—*pen.* xi. 'Wedi hyn, rhoddodd Raphael amryw gynghorion iddynt, a dadguddiodd ei hun, "ac ni welsant ef mwy:"—*pen.* xii. Ar hyn, dadganodd Tobit ei ddiolchgarwch mewn salm [xiii.]; a bu fyw i weled ei fab yn dra llwyddiannus:—*pen.* xiv. 1, 2. Ar ol ei farwolaeth ef, yn ol cyfarwyddyd a roddasai, dychwelodd Tobias i Ecbatane; "a chyn ei farw, efe a glybu ddinystrio Ninefeh:"—*pen.* xiv.

2. *Ei nodwedd hanesyddol.*—Nid llawer oedd yn ammheu gwirionedd llythyrenol yr hanes y rhoddir amlinelliad o hono uchod, hyd amser Luther a'r Diwygiad Protestanaidd. Yr oedd Luther, modd bynag, tra yn canmawl yr addysg foesol gyffredinol a gyfrenid yn y llyfr, yn dadgan ei ammheuon ynghylch ei wirionedd llythyrenol; ac yr oedd yr ammheuon hyn yn ymdaenu yn mysg ysgrifenwyr Protestanaidd. Y mae Bertholdt wedi rhoddi crynodeb o'r camsyniadau sydd ynddo; ond y mae y cwestiwn o'i ddilysrwydd yn troi ar nodwedd gyffredinol yr hanes, yn hytrach nag ar fân wrthddadleuon. Nis gellir tybied, modd bynag, fod y llyfr wedi ei ysgrifenu yn fuan ar ol cwymp Ninefeh. Y mae holl dôn yr hanes yn dynodi oes ddiweddarach; a mwy na'r cwbl, y mae yr athrawiaeth sydd yn cael ei dadblygu ynghylch ysbrydion da a drwg yn cael ei gosod mewn ffurf sydd yn perthyn i gyfnod cryn lawer yn ddiweddarach na'r gaethglud yn Mabilon:—*pen.* iii. 8; vi. 14; viii. 3; xii. 15. Y mae y digwyddiadau a adroddir hefyd yn hollol ddyeithr, ac nid oes un cyfeiriad atynt yn un rhan o'r Ysgrythyrau, nac yn ngweithiau Josephus, na Philo. Y mae nodwedd gyffredinol y digwyddiadau yn wahanol i'r hyn a geir yn llyfrau hanesyddol yr Ysgrythyrau. Y mae yr ystyriaethau hyn yn ein harwain i dybied nad ydyw yn cynnwys hanes gwirioneddol; ac anhawdd fyddai penderfynu pa mor bell y mae yn seiliedig ar ffeithiau. Diammheu fod yn bossibl i ryw ddigwyddiadau, a godwyd gan draddodiad, i ffurfio sylfaen i'r hanes; ond nid ydyw hyny mewn un modd yn dwyn sicrwydd fod y manylion yn gywir. Fel y mae y llyfr yn awr, y mae yn amlwg ei fod wedi ei amcanu i ddysgu gwersi yr ysgrifenydd. Ceir yn yr hanes ddarluniau bywiog o'r gwirionedd yr oedd efe yn ewyllysio ei ddysgu; ond y mae y gwersi yn annibynol ar yr hanes ei hun. Nis gellir rhoddi pwys mawr chwaith ar y manylrwydd â pha un y disgrifir pethau dibwys, fel yn profi i'r digwyddiadau gymmeryd lle yn weithredol, o herwydd yr oedd hyn yn un o nodweddau rhamant ddwyreiniol. Y mae yr awdwr, wrth gyfansoddi ei chwedl, o angenrheidrwydd yn talu sylw i ffurf arferol cyfansoddiad hanesyddol.

3. *Ei iaith a chyfieithiadau.*—Yn absennoldeb pob prawf pendant, y mae cryn ammheuaeth yn bod gyda golwg ar yr iaith yn yr hon yr ysgrifenwyd y llyfr yn wreiddiol. Y mae eglurder, symlder, a chywirdeb testyn y Deg a Thrigain, yn profi yn amlwg fod hwnw yn nes i'r gwreiddiol nag un testyn arall sydd yn adnabyddus; os nad efe, fel y tybia rhai, ydyw yr un gwreiddiol. O'r braidd y gellir dyweyd fod y rhesymau a ddygir yn mlaen i brofi mai cyfieithiad ydyw yn gryfion iawn. Er fod yr arddull yn lled glogyrnog mewn rhai manau, ac heb fod i fyny â'r safon glasurol, etto nid ydyw yn fwy felly na rhai gweithiau ereill a ysgrifenwyd yn yr iaith Roeg; ac ychydig sydd yn y llyfr ei hun, os dim, y gellir bod yn sicr yn ei gylch fod ol dylanwad testyn Aramaeg arno. Nid oedd Origen yn adnabyddus o un testyn Hebraeg gwreiddiol yn ei amser ef; ac yr oedd y copi Caldeaidd a ddefnyddiwyd gan Jerome, mor bell ag y gellir gwybod am ei nodwedd, yn gyfieithiad diweddarach o'r chwedl. Ar y llaw arall, nid oes un prawf mewnol yn bod, rhaid addef, yn erbyn y dybiaeth mai cyfieithiad ydyw y testyn Groegaidd. Y Deg a Thrigain a ddilynir yn y cyfieithiad Cymraeg.

4. *Ei ddyddiad, a'r lle y cyfansoddwyd ef.*—Prin iawn yw y defnyddiau a feddwn i benderfynu dyddiad y llyfr, a'r lle y cyfansoddwyd ef; a'r canlyniad yw fod gwahanol farnau yn mherthynas i hyn. Eichhorn a dybia fod yr awdwr yn byw yn amser Darius Hystaspis. Bertholdt a ystyria iddo gael ei ysgrifenu yn ddiweddarach nag amser Seleucus Nicator (o gylch c.c. 250—220), ac mai Galilead neu Iuddew Babilonaidd oedd yr awdwr: y mae yn casglu hyn oddi wrth y cyfeiriadau a wneir at y parthau hyny yn yr hanes. Nid yw De Wette yn ceisio penderfynu y dyddiad, ond golyga fod yr awdwr yn frodor o Palestina. Ewald a ddywed iddo gael ei gyfansoddi yn y dwyrain, tua diwedd y cyfnod Persiaidd, c.c. 350. Fe allai fod y golygiad diweddaf yn llawn mor debyg o fod yn gywir ag un. Ar un llaw y mae yr athrawiaeth ynghylch ysbrydion drwg yn cyfeirio yn eglur at ryw adeg ar ol y gaethglud Fabilonaidd, ac y mae y dyddiad hwn yn cael ei nodi allan yn neillduol gan y cyfeiriad a wneir at y deml newydd yn Ierusalem, "nid o fath y gyntaf."—*Tob.* xiv. 5; cym. *Ezra* iii. 12. Ar y llaw arall, nid oes dim yn dangos fod yr Iuddewon yn cael eu bygwth â pherygl neillduol pan ysgrifenwyd yr hanes; ac y mae y cyfeiriad a wneir at Media [*pen.* xiv. 4] yn arwyddo fod y frenhiniaeth Bersiaidd yn parhau yn gref. Gellir meddwl gan hyny ei fod wedi ei ysgrifenu rywbryd rhwng amser cwblhâd gwaith Nehemiah a goresgyniad Alexander (c.c. 440—334). Y mae cynnwysiad y llyfr yn rhoddi i ni ryw agoriad i'r man lle yr ysgrifenwyd ef. Nid yn unig yr oedd gan yr awdwr wybodaeth fanwl o'r golygfeydd a ddisgrifiai, ond y mae rhywbeth ynddo ag sydd yn ei gyssylltu â lleoedd neillduol. Nis gall y cyfeiriad mynych a wneir at elusenau a chladdu y meirw, a'r pwys a roddir ar addoli yn Ierusalem hyd yn oed i'r rhai oeddynt bell oddi yno [*pen.* i. 4], fod yn ddim amgen na phrofiad yr ysgrifenydd ei hun. Awgrymir drwy hyn ei fod yn

Digitized by Google

ef at y bàr yn Paris, yn y flwyddyn 1825. Dechreuodd astudio yn ddyfal sefyllfa gweinyddiad y gyfraith ac achosion cyhoeddus yn Ffraingc. Yn 1831, rhoddodd i fyny swydd oedd ganddo yn Versailles; a chyd âg M. De Beaumont, danfonwyd ef i'r Unol Daleithiau i wneyd adroddiad ar y modd yr oedd sefydliadau democrataidd yn gweithio yn y wlad hono. Bu y ddau ddirprwywr yno am flwyddyn a hanner; a chanlyniad eu hymchwiliadau oedd cyhoeddiad gwaith mawr Tocqueville, sef ei "*De la Démocratie en Amérique.*" Yn y gwaith hwn nid ydyw yn cynnyg ar fod cyfreithiau ac arferion yr America yn cael eu mabwysiadu gan genhedloedd ereill. Yr oll a wna ydyw, rhoddi darluniad ffyddlawn o wlad ddemocrataidd, er lleddfu yr ofnau a deimlid yn Ewrop wrth fod sefydliadau o'r fath yn dyfod i fri, a chymmhell swyddogion gwladol i gydnabod bodolaeth y llanw democrataidd, ac ymdrechu eu goreu i'w lywodraethu, a rhoddi iddo gyfeiriad priodol. Gwnaeth y gwaith hwn argraph dwfn ar unwaith, yn enwedig yn Ffraingc. Yr oedd beirniaid yn ei fawr ganmawl am gywirdeb ei adroddiadau, y medrusrwydd â'r hwn y gosodwyd y defnyddiau ynghyd, a phrydferthwch ei arddull. Yr oedd yr awdwr yn cael ei gymmharu i Montesquie, a'i ystyried yn un o ysgrifenwyr gwleidyddol enwocaf yr oes. Etholwyd ef yn aelod o Athrofa y Gwyddonau Moesol, ac o Athrofa Ffraingc. Talodd Tocqueville ymweliad â Phrydain yn 1835, lle y gwnaethpwyd ei waith yn hysbys, a chafodd dderbyniad croesawus gan arweinwyr plaid y Whigiaid. Yn y flwyddyn hono, priododd Saesnes o'r enw Miss Motley. Safodd yn ymgeisydd am aelodaeth yn senedd Ffraingc dros Valognes yn 1837; ond bu yn aflwyddiannus. Yn 1839, etholwyd ef gyda mwyafrif mawr gan ei gymmydogion—amaethwyr Normandy. Ni ragorodd Tocqueville fel areithydd, ond yr oedd ei ddylanwad yn fawr yn y senedd. Yn union ar ol chwyldroad 1848, efe a ymddangosodd fel un o brif wrthwynebwyr y Cymmrodolwyr (*Socialists*) a'r Gwerinwyr eithafol. Nodwyd ef yn is-lywydd y senedd yn 1849; ac o fis Mehefin hyd fis Hydref yr un flwyddyn bu yn weinidog tramor. Ar ol y *coup d' etat*, ymneillduodd i fyw ar ei etifeddiaeth i Tocqueville, lle yr ymroddodd i amaethu y ddaear. Yno yr ysgrifenodd efe ei "*L' ancien régime et la Révolution*"—gwaith teilwng o'i lwyddiant blaenorol. Yn 1858, torodd llestr gwaed ynddo, a gorfodwyd ef i adael gororau Normandy am hinsawdd gynhesach. Gwnaeth ei drigfod yn Cannes, lle y darfu i Arglwydd Brougham a Chevalier Bunsen wneyd eu goreu er ei gysuro yn wyneb ei lesgedd. Bu farw yno 16 Ebrill, 1859, yn 54ain mlwydd oed. Y mae ei weithiau wedi eu cyhoeddi yn Saesneg yn Llundain a New York.

TOCHEN: lle, y crybwyllir am dano yn 1 *Cron.* iv. 32 yn unig, yn mysg dinasoedd Simeon. Nid oes un enw tebyg iddo i'w gael yn y rhestr gyferbyniol yn *Jos.* xix. 7.

TOGARMAH: mab Gomer, a brawd i Asnas a Riphath: *Gen.* x. 4. Y mae Togarmah yn enw daearyddol yn dwyn cyssylltiad âg Armenia, ac y mae y defnydd a wneir o'r enw ar hyn (*Ezec.* xxvii. 14; xxxviii. 6) yn cyttuno â golygiad yma. Yr adroddiad mwyaf penodol a wneir am yr Armeniaid mewn llenyddiaeth hynafol ydyw yr hyn a ddywedir gan Herodotus; yr hwn a ddywed mai trefedigwyr Phrygiaidd oeddynt, eu bod yn defnyddio yr un arfau a'r Phrygiaid, ac yn cael eu harwain gan yr un llywydd. Y mae sylw a wnaed gan Eudoxus, sef fod y Phrygiaid yn debyg i'r Armeniaid, yn arwain i'r un casgliad. Hwyrach nad yw yr hyn a ddywed Herodotus yn golygu dim mwy na bod y ddwy genedl yn tarddu o'r un gwreiddyn; o herwydd, wrth sylwi ar fynediad hiliogaeth Iapheth tua'r gorllewin, a meddwl am sefyllfa ganolog Armenia yn mherthynas i'w symmudiadau, gellid casglu fod Phrygia wedi cael ei phoblogi o Armenia, yn hytrach na bod Armenia wedi ei phoblogi o Phrygia. Dywed Herodotus, y mae'n wir [vii. 73], mai yn Ewrop yr oedd cartref cyntaf y Phrygiaid, ac iddynt groesi oddi yno i Asia; ond diau nad oedd hyn yn ddim amgen na symmudiad yn ol yn nghyfeiriad eu hen drigfan gyntefig. Mynegir i'r symmudiad hwn gymmeryd lle cyn rhyfel Caerdroia.—Strabo, xiv. td. 680. Nid oes un ddadl nad oedd y Phrygiaid yn genedl alluog ar un adeg yn y gorynys, a'u bod wedi ymwasgaru i'r gorllewin o gyffiniau Armenia. Y mae yr Armeniaid eu hunain wedi cyssylltu yr enw Togarmah â'u hanes boreuol; ac y maent yn rhoddi ar ddeall mai un o'r enw Haik, mab Thorgom, oedd sylfaenydd y genedl.—Moses "*Choren.*" i. 4, *adr.* 9—11.

TOI: brenin Hamath ar yr Orontes; yr hwn, ar ol gorchfygiad ei elyn galluog, y brenin Syriaidd, Hadadezer, gan fyddin Dafydd, a anfonodd ei fab Ioram i longyfarch y buddugwr, ac i'w anrhegu â llestri aur, arian, a phres: 2 *Sam.* viii. 9, 10. "Canys gŵr rhyfelgar oedd Hadadezer yn erbyn Toi;" ac y mae Ewald yn tybio ei fod wedi ei ddarostwng ganddo i dalu iddo warogaeth. Fe allai fod Toi yn anrhegu Dafydd, fel y dywed Josephus ["*Hyn. Iudd.*" vii. 5, *adr.* 4], i'r dyben o geisio sicrhau cyfeillgarwch brenin Israel.

1. TOLA: cyntafanedig Isaachar, a thad y Tolaiaid (*Gen.* xlvi. 13; *Num.* xxvi. 23; 1 *Cron.* vii. 1, 2), y rhai yn amser Dafydd a rifent ddwy fil ar hugain a chwe chant o wŷr cedyrn.

2. TOLA: barnwr yn Israel ar ol Abimelech: *Barn.* x. 1, 2. Gosodir ef allan fel "mab Puah, mab Dodo, gŵr o Isaachar." Efe a farnodd Israel yn Samir yn mynydd Ephraim am dair blynedd ar hugain, ac yno y bu farw, ac y claddwyd ef.

TOLAD: un o ddinasoedd Simeon (1 *Cron.* iv. 29), yr hon oedd yn meddiant y llwyth hyd ddyddiau teyrnasiad Dafydd. Yr enw fel y ceir ef yn llawn yn rhestr Iosuah, yw Eltolad: *Jos.* xix. 4.

TOLAND, JOHN: awdwr deistaidd tra adnabyddus yn yr eilfed a'r drydedd ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef ger llaw pentref Redcastle, yn swydd Londonderry, yn yr Iwerddon, Tach. 30ain, 1669. Pabyddion oedd ei rieni, a dygwyd yntau i fyny yn Babydd. Ei enw oedd J. Junius; ond darfu i'r gwawd a wneid o'r enw pan oedd yn yr ysgol ei arwain i'w newid i John. Addysgwyd ef yn Redcastle; ond yn 1689, efe a symmudodd i brifysgol Glasgow, a symmudodd oddi yno i Edinburgh; a chymmerodd ei radd o athraw yn y celfyddydau yn 1690. Tra yn

Digitized by Google

Edinburgh, ymwrthododd â'r Babaeth, ac aeth i Leyden i astudio duwinyddiaeth, gyda'r amcan o fyned i'r weinidogaeth gyda'r Anghydffurfwyr. Tra yn aros yno, daeth i gydnabyddiaeth â'r athronydd Leibnitz, a gwŷr enwog ereill; ac ar ei ddychweliad, bu yn trigo am ryw gymmaint o amser yn Rhydychain, lle y tynodd ei fywyd penrhydd a llacrwydd ei opiniynau crefyddol gryn sylw. Gwnai ddefnydd mawr o'r llyfrgell Bodleianaidd, a darparodd i'r wasg ei waith hynod "*Christianity not Mysterious,*" a gyhoeddwyd yn 1766, yn yr hwn y mae yn cydnabod yn llawn ei egwyddorion anffyddol. Attebwyd y gwaith hwn gan Payne, Stillingfleet, ac ereill. Penderfynodd Toland fyned i'r Iwerddon, ond ni dderbyniwyd ei waith yno yn fwy ffafriol nag yn Lloegr; mewn gwirionedd, llosgwyd ei lyfr gan y dienyddwr cyffredin, yn ol pleidlais a roddwyd gan senedd yr Iwerddon. Dychwelodd Toland i Lundain, lle y cyhoeddodd efe amddiffyniad iddo ei hun. Yn fuan wedi hyny, troes ei sylw oddi wrth dduwinyddiaeth at faterion llenyddol a gwladol. Ysgrifenodd bamphledyn ffafriol i deulu Hanover, ac anfonwyd ef ar genadwri i'r llysoedd Almaenaidd. Yn ystod yr amser y bu ar y cyfandir, proffesodd ei hun yn oll-dduw. Dychwelodd i Loegr yn 1710; ac wedi anghydweled â Harley, y prifweinidog, ysgrifenodd yn erbyn y llywodraeth y bu yn ei gwasanaethu yn flaenorol. Y mae hanes y dyn hynod hwn yn gwneyd i fyny un o bennodau mwyaf cywrain a phoenus y "*Calamities of Authors,*" gan Isaac Disraeli. Gwnaeth ei breswylfa yn Putney, o'r flwyddyn 1718 hyd Mawrth 11eg, 1722, pan y bu farw yn 52ain mlwydd oed. Yr oedd ei weithiau yn lliosog iawn, ond ni chasglwyd hwynt erioed i'w cyhoeddi mewn argraphiad unffurf.

TOLL-BYRTH: taliad neillduol a godir o dan awdurdod frenhinol, neu awdurdod hen arferiad, neu trwy gyfraith arbenig, gan feddiannwyr llongbyrth am nwyddau a ddadforir neu a allforir, neu gan awdurdodau marchnad neu ffair am nwyddau a werthir, neu gan y rhai a ofalant am bontydd, ffyrdd, heolydd, am fynediad personau, neu nwyddau, neu anifeiliaid drostynt, &c. Y mae tollau, mewn amseroedd diweddar, yn wastad yn cael eu gosod trwy gyfraith; ac nid oes dim llai nag awdurdod cyfraith a all osod toll yn awr, o herwydd math o dreth ydyw. Y mae y cofnodiad cyntaf am awdurdod i godi tollau ar ffyrdd wedi ei ddyddio yn y flwyddyn 1346, pan y caniatawyd dirprwyaeth gan y brenin Iorwerth III. i godi toll ar gerbydau a elent o St. Giles i Temple Bar, ac hefyd ar gerbydau yn myned tua Portpool, neu Gray's Inn Lane, am fod y ffyrdd hyn yn myned i sefyllfa mor ddrwg o ddiffyg adgyweiriad fel nad oedd yn bossibl o'r bron eu teithio, ac nid oedd un ffynnonell arall yn agored i gael yr arian angenrheidiol i'w cadw mewn trefn briodol. O'r dechreuad bychan hwn y cychwynodd trefn y tollbyrth a ymdaenodd yn raddol dros Loegr a Chymru, ac yn ddiweddarach drwy holl Ysgotland a'r Iwerddon hefyd. Pasiwyd cyfraith y tollbyrth am y waith gyntaf yn Ysgotland yn y flwyddyn 1750. Cyn hyny, drwy rym cyfreithiau a basiwyd yn 1617, 1661, 1669, yr oedd prif-ffyrdd y wlad yn cael gofalu am danynt trwy roddi awdurdod i alw ar lafurwyr i weithio chwe diwrnod yn flynyddol ar ffyrdd y plwyf. Yr oedd y doll yma, naill ai yn y ffurf o lafur corphorol, neu ynte trwy dalu arian yn lle hyny, mewn grym ynglŷn â phob ffyrdd, ond ffyrdd tollbyrth, hyd 1845, pan y dilewyd y gyfraith hon, ac y gosodwyd treth i'r amcan yma ar diroedd. Dechreuodd ffyrdd tollbyrth ymhelaethu dros Ysgotland o'r flwyddyn 1750, a daethant yn fwy cyffredinol hefyd yn yr Iwerddon. Yn ol adroddiad seneddol a gyhoeddwyd yn 1840, yr oedd yn Lloegr a Chymru gant a phedair o filoedd a saith gant a deuddeg a thrigain o filldiroedd (104,772) o ffyrdd tollbyrth; ac yn ol adroddiad cyffelyb am Ysgotland a ymddangosodd yn 1859, mynegir fod yno bum mil saith gant ac wyth a thrigain o filldiroedd (5,768), a mil ac wyth a thrigain (1,068), o dollbyrth arnynt. Parodd gosodiad tollbyrth gynnhwrf a gwrthwynebiad nid bychan mewn amryw barthau o'r wlad, ac y mae eu cadwraeth wedi arwain yn fynych i derfysg; ac yn enwedig yn Neheubarth Cymru, yn 1843, lle bu 'teulu Rebecca' yn terfysgu ac yn taflu y tollbyrth a'r tai perthynol iddynt i lawr yma a thraw yn y nos, am yn agos i flwyddyn gyfan o amser—a llwyddasant yn rhyfedd i ymgadw o afael cyfraith. Yr oedd hyd yn oed y sawl a dybient fod ffyrdd da yn werth talu pris rhesymol am danynt yn wastad yn teimlo fod y drefn o dollbyrth yn anfanteisiol i lwyddiant masnach, o herwydd yr anhwylusdod a ddeilliai o golli amser i dalu neu i ddangos tocynau, a'r draul fawr oedd gyda hi. Diau ei bod yn un dra chostus. Yr oedd cryn draul i gael cyfreithiau seneddol lleol i ddechreu; ond yr oedd y gwastraff mwyaf yn ngweithiad allan y drefn wrth gasglu yr arian. Heb law codi tai a thollbyrth (un i bob chwech neu wyth milldir), yn ol cyfrif 1861, yr oedd tua chwe mil o bersonau yn Lloegr ac Ysgotland yn cael eu defnyddio fel casglwyr y tollau hyn, a golygu fod y rhai hyn yn benau teuluoedd, a phump yn mhob teulu. Yr oedd tua deng mil ar hugain yn derbyn eu cynnaliaeth, neu ran helaeth o'u cynnaliaeth, wrth eu cadw—yr hwn oedd yn swm lled fawr o'r derbyniadau.

Yr Iwerddon, lle yr oedd y tollbyrth yn lliosog iawn, a gymmerodd y flaenoriaeth i'w diddymu. Y ffyrdd yn neheubarth yr Iwerddon a gliriwyd gyntaf oddi wrth y tollbyrth: dilynwyd hyn yn amgylchoedd Dublin: a phasiwyd cyfraith yn 1857, yn diddymu yr holl dollbyrth oedd yn aros; ac ar y 5ed o Ebrill canlynol, gwnaed i ffordd â threfn y tollbyrth drwy yr holl wlad; a rhoddwyd y flaenoriaeth i'r drefn o gadw y ffyrdd trwy drethi ar yr hen drefn o dollbyrth yno. Y mae yn Ynys Manaw hefyd ffyrdd rhagorol, ond nid oes dollbyrth arnynt. Nid ydyw llywodraethiad cyllidol y ffyrdd yn Lloegr ac Ysgotland gan ymddiriedolwyr wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn gymmaint a bod amryw filiynau o bunnau o ddyled yn aros arnynt yn y naill a'r llall o'r gwledydd hyn. Yn 1875, pa fodd bynag, pasiwyd deddf seneddol yn diddymu tollbyrth yn Lloegr a Chymru, oddi ar y ffyrdd, fel y delont yn rhydd oddi wrth ddyled, ac yn taflu y draul o'u hadgyweirio ar y plwyfydd yn y gwahanol ddosbarthiadau. Ac mewn canlyniad i hyn y mae llawer o ffyrdd mawr y wlad wedi eu rhyddhau eisoes; ac y mae ereill, yn gymmaint ag nad ydyw eu dyledion wedi eu talu, yn aros etto o dan yr hen drefn.

TOM COLOMENOD. Y mae yr ymadrodd hwn yn digwydd yn 2 *Bren.* vi. 25, fel cyfieithiad llythyrenol o'r gair *chirionim.* Y mae llawer

Digitized by Google

yn ystyried ei fod yn llythyrenol yn golygu *tom colomenod* yn y lle hwn:—"Ac yr oedd newyn mawr yn Samaria; ac wele yr oeddynt hwy yn gwarchau arni hi, nes bod pen asyn er pedwar ugain sicl o arian, a phedwaredd ran cab o dom colomenod er pum sicl o arian." Ond y mae gwahanol farnau, pa fodd bynag, wedi eu coleddu yn mherthynas i ystyr y geiriau; sef, pa un a ydynt i'w cymmeryd yn llythyrenol, neu ynte fel ymadrodd ffugrol am ryw sylwedd llysieuol. Y peth cryfaf y gellir ei nodi yn ffafriol i'r golygiad cyntaf ydyw, fod yr hen ysgrifenwyr Iuddewig yn deall y geiriau yn llythyrenol: ac wrth gymmeryd y golygiad yma, y mae amryw esboniadau wedi eu cynnyg ar y defnydd a wnelid o hono. Tybia rhai o'r rabbiniaid ei fod yn cael ei ddefnyddio yn danwydd; a Josephus a ddywed y prynid ef o herwydd yr halen oedd ynddo. Awgryma ereill ei fod yn werthfawr fel gwrtaith i blanhigion bwytadwy, ac yn enwedig melonau; ac un rheswm dros hyny yw, am fod y Persiaid yn ymborthi llawer ar felonau, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, ac yn defnyddio tom colomenod i'w tyfu. Ond dywed teithiwr o'r enw Edwards nad oedd llawer o dir i'w drin yn erddi mewn tref mor boblog a Samaria; a thueddir ef i feddwl mai yr hyn a olygir yw, gwehilion neu weddillion pob math o rawn a roddid i golomenod. Sylwa Dr. Harris, modd bynag, y buasai llymder y newyn yn peri i'r rhai tlotaf yn mysg y gwarchauedigion fwyta hyd yn oed naill ai coluddion y creaduriaid, ar ol i'r cyfoethogion fwyta y rhanau ereill, neu y gwehilion grawn a roddid iddynt.

Dengys Bochart, fodd bynag, fod yr ymadrodd *tom colomen* yn cael ei gymmhwyso gan yr Arabiaid at wahanol sylweddau llysieuol. Oddi wrth yr hyn a allai gasglu yn ngweithiau amryw awduron Arabaidd, y mae efe yn tueddu i feddwl fod y planhigyn a elwir *kali* yn yr Hebraeg a'r Arabaeg yn un o'r rhai hyn; yr hwn ydoedd un o'r plisgrawn a ddefnyddid gynt, yn gystal ag yn bresennol, i'w fwyta. Dywedir am y grawn hwn fod symiau mawrion o hono yn cael ei grasu a'i sychu a'i gadw mewn ystordai yn Cairo a Damascus. Gwneir defnydd mawr o hono gan y pererinion pan ar eu taith i Mecca; a gellir tybied y buasai hwn yn mysg y pethau a ystorid mewn dinas warchauedig, ac y gwerthai am bris uchel o dan amgylchiadau o'r fath. Y mae awduron ereill yn awgrymu amryw blanhigion dwyreiniol ereill. A chan fod yr Arabiaid ar un adeg, ac o bossibl etto, yn cymmhwyso yr enw at wahanol lysiau, tueddir ni i ymwrthod âg ystyr llythyrenol yr ymadrodd, yn gymmaint a bod tom colomenod, gan ei fod yn amddifad o faethlonrwydd, yn annhebyg o gael ei ddefnyddio yn ymborth, hyd yn oed mewn amser o newyn, gan fod pen asyn i'w gael am bedwar ugain sicl o arian. Os oedd yn y ddinas asynod ar werth, neu lwythi asynod o ŷd, fel y deallir yr ymadroddion gan rai, diehon fod yno bethau ereill wedi eu hystorio i fyny yn ddirgel i'r rhai oedd yn meddu arian i brynu. Ond nid yw yn hawdd penderfynu at ba sylwedd llysieuol, a ddefnyddir i'w fwyta, y cyfeirir o dan yr enw 'tom colomenod.' Yr oedd plisgrawn mor debyg o gael ei ystorio mewn hen amserau ag ydyw mewn amserau diweddar; gan hyny, fel y mae Bochart wedi dangos, gall fod yn un o'r sylweddau y cymmhwysid yr enw ato gan yr Arabiaid, a'i fod yn adnabyddus i'r Hebreaid hefyd o dan enw cyffelyb.

TON—AU. Gwel MOR.

TONIC SOL-FFA. Wedi amryw gynnygion gan athrawon mewn cerddoriaeth i sefydlu cyfundrefn gerddorol hawddach na'r un ERWYDDOL (yr hon a elwir erbyn hyn yn 'Hen Nodiant'), llwyddodd y Parch. John Curwen, Plaistow, i sylfaenu cyfundrefn "hawdd, rad, a gwir" (*easy, cheap, and true*):—dyna ei harwyddair. Sylfaenodd Mr. Curwen ei gyfundrefn ar gyfundrefn Miss Glover. Un raddfa a gydnabyddir yn y Tonic Sol-Ffa; sef, y drydonol (*diatonic*). Enwau seiniau y raddfa ydynt *Doh, Ray, Me, Fah, Soh, Lah, Te.* Gosodir y rhai hyn y naill uwch ben y llall ar lun ysgol neu risiau, yr hwn a elwir *Modulator.* Ysgrifenir cerddoriaeth yn y nodiant hwn yn llinellau gwastad, ac ni ddefnyddir ond llythyren gyntaf y sillau, megys *d* am *doh*, ac *r* am *ray*, &c. Y *Doh* ydyw y cyweirnod yn mha saffe bynag y bydd ar y raddfa sefydlog; yr hon a enwir gyda'r llythyrenau C, D, E, F, G, A, B; a phan y bydd y seiniau yn myned i wythawd islaw y cyweirnod, chwanegir ffigiwr ar ol y sain, fel hyn **$d$ $t_1$ $l_1$**. Yr un modd gyda'r wythawd gyntaf uwch, law **$d^1$ $r^1$ $m^1$**, &c. Defnyddir (2) a (3) yn yr un modd pan y bydd angen. *Lah* yw cyweirnod y cywair lleiaf, a gelwir ei chweched a'i seithfed llon yn *bah* a *se.* Ysgrifenir llythyren cyweirnod y dôn yn ei dechreu; sef, 'CYW. A.' 'CYW. B♭.' &c. Y mae yr holl gyweirnodau yn cael eu dynodi yn y cywair mwyaf, ac os bydd y dôn yn y cywair lleiaf, chwanegir y geiriau '*Modd Lah*' at y cyweirnod fel hyn:—'CYW. C., *Modd Lah*,' neu 'CYW. C *L.* yw A.' Gwneir defnydd helaeth o'r *Modulator* gyda'r ymarferion cyntaf, yr hwn sydd yn dangos gwahaniaeth arbenig rhwng y tônau a'r hanner tônau. Dysgir yr efrydydd i adnabod y gwahanol seiniau yn ol eu nodwedd neu eu heffaith ar y meddwl. Cydnabyddir y DOH yn sain *gref* neu *gadarn*, y RAY yn sain *obeithiol* neu *ddisgwyliadol*, y ME yn sain *sefydlog* neu *dawel*, y FAH yn sain *frawychus* neu *gyffrous*, y SOH yn sain *fawreddog* neu *glir*, y LAH yn sain *wylofus* neu *alarus*, y TE yn sain *dreiddgar* neu *deimladol* (*sensitive*). Trwy gymmhorth yr ymarferion hyn ar y *Modulator*, y mae y dysgybl yn dyfod yn alluog i adnabod y seiniau oddi wrth eu heffeithiau ar y meddwl, ac yn gallu eu hysgrifenu neu ddyweyd pa rai ydynt pan y mae yr athraw yn eu canu heb eu henwau.

*Y Modulator.*

$f^1$
$m^1$
$r^1$
**DOH$^1$**
*TE*
ta
*LAH*
*se*
**SOH**
*ba* fe
*FAH*
**ME**
*RAY*
**DOH**
$t_1$
$l_1$
*se*
$s_1$
$f_1$
$m_1$

I ddynodi rhaniad yr amser neu fydr (*rhythm*) defnyddir llinell fel hon:— | yr hon sydd yn dynodi yr acen drom neu y gyntaf yn y mesur neu y bar, a (:) i ddynodi yr acen ysgafn: defnyddir

Digitized by Google

linell ferach ( | ) i ddangos yr acen ganolig, sef y trydydd curiad yn y mesur pedwar curiad. Cyn ysgrifenu y sein-nodau, gosoder yr acen-nodau mewn pellder cyfartal ar y tudalen fel hyn:—

*Pedwar curiad yn y mesur.*

| : | : | : | : }

*Tri churiad yn y mesur.*

| : : | : : }

*Dau guriad yn y mesur.*

| : | : | : }

*Chwe churiad yn y mesur.*

| : : | : : | : : | : : }

Ac ysgrifener y sein-nodau yn ymyl yr acen-nodau fel hyn:—

|d :r :m |r :m :f |m :— :— }

Dengys y llinellau gwastad sydd ar ol yr ail a'r drydedd acen-nod, yn y trydydd mesur o'r enghraifft flaenorol, fod y *me* i barhau nes llanw y mesur. Pan y bydd *dot* ar hanner y gwagle sydd rhwng yr acen-nodau, bydd hyny yn gwneyd y curiad hwnw yn ddau hanner, fel hyn:—

|d :m .r |d :— .t, |d :— }

Gwelir fod y pedwerydd nôd yn parhau am guriad a hanner yn yr enghraifft hon, a'r chweched nôd yn parhau dau guriad. I ranu curiad yn bedair rhan, neu yn chwarteri, defnyddir rhagwahannod (,), ac i ranu curiad yn dair rhan gyfartal, defnyddir sillgoll wedi ei droi (‘). Pan y bydd eisieu cyssylltu nodau ynghyd, i atteb i'r geiriau, rhoddir llinell oddi tan y nodau a gyssylltir; a phan y gadewir curiad neu ran o guriad heb ei lenwi, gwna hyny y tro yn lle gorphwysnod neu saib, ac erys y llais i orphwys am ysbaid y curiadau a adewir yn wâg. Gwelir yn yr esampl a ganlyn y pethau hyn yn eu gwaith:—

RULE BRITANNIA!



Cyw. G.

.s |d :d |d,r.m,f:s .d |r :— .m,f |m : .s |



D

|d,r .d,r :m,f .m,f |s .r :m .r |d .r,m :r .d |t, : .ᵈd |
(*a*)



|m .d :s .m |d' .t,l .s,f :m,r |d :m .,r |d : |

Gwelir wrth (*a*) fod y felodedd wedi newid ei chyweirnod. Y drefn dan amgylchiad o'r fath ydyw rhoi llythyren y cyweirnod uwch ben y lle y mae y trawsgyweiriad yn cymmeryd lle, a rhoddi nodyn y cyweirnod blaenorol yn fychan tu cefn i nodyn y cyweirnod newydd, fel y mae yn yr esampl uchod. Pan y bydd trawsgyweiriad yn parhau ond am ychydig guriadau, ni ddefnyddir y drefn hon o drawsgyweirio, ond defnyddir nodau damweiniol neu gromatig. Effeithir y *sharp* drwy newid llafariad y nôd o *a* i *e*, sef o *fah* i *fe* (neu ffi yn y Gymraeg), *doh* i *de*, *ray* i *re*, *soh* i *se*, a'r *lah* i *le*. Effeithir y *flat* wrth newid y llafariad i *aw* (neu ô Gymraeg); sef *te* i *ta*, *lah* i *la*, *me* i *ma*.

Tua diwedd 1870, chwanegodd Mr. Curwen at y gyfundrefn 'Enwau Amser' (*Langue des durees*) gan M. Paris, y rhai sydd wedi eu corphori yn nghyfundrefn "*Galin-Paris-Chevé*" yn Ffraingc. Dywed Mr. Curwen fod yn angenrheidiol i'r athraw gael enw ar bob peth y mŷn siarad yn ei gylch, a'i fod yn fanteisiol i'r dysgybl gael enwau cof-gynnorthwyol i ddysgu amser, fel y rhai a gaed i ddysgu y seiniau yn sillau y Tonic Sol-Ffa. Yr oedd ymarferion dosbarthiadau Wilhelm trwy enwi y nodau '*crotch*,' '*crotch*,' a '*quaver*,' '*quaver*,' &c., wedi gwneuthur gwasanaeth o gryn werth, er fod y gyfundrefn o enwau amser yn dra anorphenol. Y mae yr hen drefn o ddysgu y ffigyrau *one, two, three, four*, &c., mewn arferiad cyffredinol, ond y mae y cynllun yn fyr o gynnwys y manylion a ddylai fod mewn cyfundrefn gyflawn. Yn wir, nid ydym yn gwybod am un cynllun gwell na'r eiddo M. Paris, yr hon a fenthyceir gan Mr. Curwen i gwblhau ei *system* mewn dysgu a chadw amser. Enwir curiad yn *taa-ai*, hanner-au yn *taatai*, chwarterau yn *tafatefe*, trydeddau yn *taataitee*, chwechau gyda dwy acen yn *taratelerele*, chwechau gyda thair acen yn *tafatefetife*, wythau yn *tanafanatenefene*, nawiau yn *taralateleletirili*. Pan y mae curiad o orphwys, gelwir ef yn *shaa-ai*, a'r un modd gyda rhanau o guriadau fel hyn:—*safatefe, tafatese, tafasefe*, &c. Pan y bydd nodau yn parhau, gadewir y gydsain allan o'r sill fel hyn:—

|d :— |d : }
*Taa-ai* *-aa-ai* *Taa-ai* *Shaa-ai*


Y mae y drefn o ddysgu yn nodiant y Tonic Sol-Ffa, yn syml yn ei graddiad. Dysgir yn gyntaf nodau y *cord* tônyddol **d, m, s**, yna nodau y *cord* llywyddol **s, t, r**, ac yna nodau y *cord* islywyddol **f, l, d**, yr hyn 'sydd yn cymmeryd i mewn holl nodau y raddfa. Nid yw yr athraw yn canu gyda y dosbarth, nac yn arfer offeryn

Digitized by Google

i'w harwain. Y mae yn eu dysgu trwy ganu tra y byddont hwy yn gwrando. Fel hyn crëir ynddynt allu annibynol. Rhoddir iddynt ymarferion (*exercises*) i'w hysgrifenu wrth eu clywed, er dysgyblu y glust. Rhoddir cyfres o'r enwau amser iddynt, i'w dysgu ar wahân oddi wrth y seiniau. Y maent yn dysgu adnabod pob un o'r seiniau oddi wrth eu cymmeriad meddyliol; sef, fod DOH yn *gadarn*, a LAH yn *wylofus*, &c. Ystyrir hyn o werth mawr er cynnorthwyo y glust i gynnyrchu y seiniau mewn tônyddiaeth gywir. Arferir llaw-arwyddion hefyd wrth ddysgu y seiniau, pa rai sydd yn portreadu i'r llygad eu heffaith feddyliol.

Dysgir y trawsgyweiriadau oddi wrth y *Modulator* helaethedig, yr hwn sydd yn dangos yn eglur y ffordd oreu i symmud o'r naill gyweirnod i'r llall, fel y gwneir yn yr enghraifft hon:—

MODULATOR HELAETHEDIG.



| Cy. E♭. | B♭. | F. | C. | G. | D. | A. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| $r^1$ | s | $d^1$ | $f^1$ | | | |
| | | t | $m^1$ | l | $r^1$ | s |
| $d^1$ | f | | | | | |
| t | m | l | $r^1$ | s | $d^1$ | f |
| | | | | | t | m |
| l | r | s | $DOH^1$ | f | | |
| | | | *TE* | m | l | r |
| s | d | f | ta | | | |
| | $t_1$ | m | *LAH* | r | s | d |
| f | | | *se* | | | $t_1$ |
| m | $l_1$ | r | SOH | d | f | |
| | | | *ba* fe | $t_1$ | m | $l_1$ |
| r | $s_1$ | d | *FAH* | | | |
| | | $t_1$ | ME | $l_1$ | r | $s_1$ |
| d | $f_1$ | | ma re | | | |
| $t_1$ | $m_1$ | $l_1$ | *RAY* | $s_1$ | d | $f_1$ |
| | | | de | | $t_1$ | $m_1$ |
| $l_1$ | $r_1$ | $s_1$ | DOH | $f_1$ | | |
| | | | $t_1$ | $m_1$ | $l_1$ | $r_1$ |
| $s_1$ | $d_1$ | f | | | | |
| | $t_2$ | $m_1$ | $l_1$ | $r_1$ | $s_1$ | $d_1$ |
| $f_1$ | | | *se* | | | $t_2$ |
| $m_1$ | $l_2$ | $r_1$ | $s_1$ | $d_1$ | $f_1$ | |
| | | | | $t_2$ | $m_1$ | $l_2$ |
| $r_1$ | $s_2$ | $d_1$ | $f_1$ | | | |
| | | $t_2$ | $m_1$ | $l_2$ | $r_1$ | $s_2$ |

Y mae coleg yn perthyn i'r gyfundrefn yn Plaistow, yr hwn sydd â'i ddyben yn benaf er arholi yr efrydwyr. Y mae un ar bymtheg o dystebau (*certificates*) graddedig wedi eu ffurfio gan y coleg: pump mewn ymarferiad lleisiol a nodiant, tair ar yr egwyddor (*theory*), un i'r athrawon, pedair i wahanol offerynau, a'r gweddill mewn dadansoddiad, cynghanedd, cyfansoddiant, a'r nodiant erwyddol.

Ar y sail a osodwyd gan Miss Glover, y mae Mr. Curwen wedi adeiladu Cyfundrefn Gynghaneddol, yr hon sydd wedi ennill sylw torf o efrydwyr trwy bob parth o'r wlad, y rhai trwy gyfrwng 'dosbarthiadau gohebol,' a anfonant eu hymarferion i'r sefydliad i gael eu harchwilio a'u cywiro. Y mae y cynllun hwn wedi ennill sylw mawr, ac yn dyfod yn mlaen yn dra llwyddiannus. Yn Medi, 1861, cyhoeddodd Mr. Curwen ffrwyth ei ymchwilion gwreiddiol yn nghyfansoddiadau Handel, Haydn, a Mendelssohn, yr hwn a alwai yn "*How to observe Harmony.*" Nid oedd yr ymchwiliad hwn yn dwyn dim newydd mewn cynghanedd; ond dangosai yr angenrheidrwydd o arddangos arferion adnabyddus y prif gyfansoddwyr mewn goleu newydd, trwy ddamcaniaeth newydd, a chydag enwaduriaeth newydd. Yn ystod deng mlynedd, yr oedd 800 o efrydwyr wedi gweithio yr ymarferion, a mwy na hanner y cyfryw wedi cael crybwylliad anrhydeddus yn y "*Reporter*" am gywirdeb eu gwaith. Tynwyd sylw hyd yn oed efrydwyr yr hen nodiant nad oeddynt yn prisio yr hyfforddiadau mewn caniadaeth, a defnyddiad offerynau, at y dull hwn o sylwi ar gynghanedd. Yn y brif ysgol Andersonaidd yn Glasgow, darfu i tua 293, mewn pedair blynedd, weithio yr ymarferion yn y ddau nodiant. Y maent yn defnyddio y ddau nodiant, o herwydd, er fod y Tonic Sol-Ffa yn dangos natur a pherthynas y cordiau yn well, y mae yr erwydd-nodiant mewn cydlin byr yn gosod allan yn fwy eglur, i'r rhai sydd wedi ymgynnefino âg ef, ddosbarthiad a symmudiad perthynasol y rhanau. Mewn dadansoddiad cynghaneddol, gosodir prif lythyren gwreiddiau y cordiau oddi tan y gynghanedd, a defnyddir mân lythyrenau Italaidd i ddynodi y gwrthddulliau, fel hyn:—

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | f | s | t | r |
| s | d | m | r | s | t | d | f | l | r | s | t | r |
| m | s | d | t | r | s | e | d | f | t | f | s | t |
| d | m | s | s | t | r | f | l | d | s | t | r | f |
| D*a* | D*b* | D*c* | S*a* | S*b* | S*c* | F*a* | F*b* | F*c* | ⁷S*a* | ⁷S*r* | ⁷*Sc* | ⁷*Sd* |

Y mae trefn y gwersi ar gynghanedd yn ddwy ran, pa rai a elwir yn DEITHRANAU (*Stages*), a'r teithranau yn rhanedig i ddeuddeg GRIS; ac y mae y pethau hawddaf eu meistroli yn y deithran yn cael eu cyfleu yn y grisiäau cyntaf, fel y mae yr efrydiaeth yn cael ei dwyn yn mlaen yn esmwyth a difyrus.

Yn 1841, y dechreuodd Mr. Curwen ei waith trwy gyfrwng cyfres o wersi yn yr "*Independent Magazine.*" Cyhoeddwyd y gwersi hyn yn llyfr yn 1843, dan yr enw "*Singing for Schools and Congregations.*" Cyhoeddwyd ef gyda chwanegiad yn y fl. 1848, dan yr enw "*Grammar of Vocal Music.*" Yn Medi 10fed, 1850, y cafwyd y cyfarfod cyntaf o ddysgyblion a chyfeillion y Tonic Sol-Ffa, yr hwn a gynnaliwyd mewn ysgoldy yn Jewin Crescent, Aldersgate, Llundain. Yn 1851, ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r "*Tonic Sol-Fa Reporter;*" ac erbyn diwedd y flwyddyn yr oedd tri rhifyn wedi eu cyhoeddi, ond nid oedd ei gylchrediad ond saith gant o gopïau. Cyhoeddwyd ef yn achlysurol yn y flwyddyn 1852. Ymddangosodd naw rhifyn yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys gwersi cerddorol ac ymarferion, ynghyd â *Glees* gan Cooke, Webbe, a Mornington, ac *Oratorio Chorus* gan Handel. Rhoddodd y cyflenwad hwn o fiwsig fywyd yn y symmudiad. Yn mis Mawrth, dechreuwyd cyhoeddi gwersi Sol-Ffa yn Cassell's

Digitized by Google

"*Popular Educator.*" Trwy offerynoliaeth y rhai hyn ymledodd gwybodaeth o'r gyfundrefn dros Loegr, Ysgotland, a'r Iwerddon. Ar y 5ed o Fedi, 1852, cafwyd yr ail gyfarfod, yr hwn a alwyd yn 'Gynnadledd.' Disgwylid deg a thrigain o gyfeillion i'r cyfarfod, ond fe ddaeth dau gant; heb law hyny daeth amryw lythyrau o wahanol fanau yn dwyn newyddion da am lwyddiant y ddysgeidiaeth. Yr hyn a hynodai y gynnadledd oedd ymweliad gweinidog o Ysgotland—y Parch. A. Lowrie, o East Calder, cefnogwr gwresog i'r symmudiad. Yn y cyfarfod hwn tynwyd allan dysteb (*certificate*) am ragoriaeth gerddorol. Yn ngwanwyn 1853 sefydlwyd y *Tonic Sol-Fa Association* yn Llundain, a gwnaed meddiant o *certificate* yn ammod aelodaeth. Mr. Curwen oedd y llywydd. Yn yr adroddiad am y flwyddyn gyntaf, dywedir fod dau gyfarfod mawr wedi eu cynnal yn Finsbury Chapel, er diwyllio salmyddiaeth. Yn yr ail o'r cyfarfodydd hyn yr oedd tair mil yn bresennol, a chant a hanner o gantorion. Yr oedd dwy fil o bersonau dan addysg yn Llundain yn unig yn ystod y flwyddyn, ac yr oedd tua'r un nifer dan addysg yn wasgaredig drwy y wlad. Rhwng y flwyddyn hon a'r nesaf yr oedd y "*Reporter*" wedi cyrhaedd i'r pedwerydd rhifyn ar hugain, a gwnaeth ymweliad Dr. Lowell Mason â Lloegr wasanaeth arbenig i lenyddiaeth y symmudiad trwy gyflwyno i sylw rai o'r cyfansoddiadau hawdd a swynol hyny o'r America sydd erbyn hyn wedi gwneyd enwau Mason, Root, a Bradbury yn eiriau teuluaidd trwy y deyrnas.

Yn 1854, cynnaliodd Cymdeithas y Celfyddydau arddangosiad o ddarganfyddiadau addysgol yn St. Martin's Hall. Tynodd y *Modulator*, &c., gryn sylw a dyddordeb, a gwahoddwyd Mr. Curwen yno i roddi darlith ar y testyn; yr hyn a wnaeth gyda chynnorthwy Mr. Sarll, a chant o ddysgyblion detholedig, y rhai a aethant drwy amryw brawfion caledion mewn canu ar yr olwg gyntaf oddi wrth yr hen nodiant, yr hyn a wnaethant yn dda. Cafwyd dyddordeb mawr wrth weled mor gyflym a chywrain y dilynid Mr. Read yn pwyntio ar y *Modulator*. Cynnaliwyd deg o gyfarfodydd canolbarthol yn Finsbury Chapel yn ystod y flwyddyn. Gyda dechreu y flwyddyn 1855 y dechreuwyd cyhoeddi y "*Reporter*" yn fisol; a chwanegwyd at yr wyth tudalen cerddoriaeth wyth arall yn cynnwys erthyglau a newyddion. Galwyd cyfarfod i gael ei gynnal ar yr ugeinfed o Chwefror, yn Finsbury Chapel, gan y *Tonic Sol-Fa Association*, o'r holl rai oedd y pryd hwnw, ac a fu dan addysg Sol-Ffa yn y brif ddinas. Gwnaeth y pwyllgor ymchwiliad manwl, a phenderfynasant eu bod tua thair mil, a disgwylient tua hanner y nifer i fod yn bresennol. Yr oedd caniatâd i bob un ddyfod â chyfaill i'w ganlyn, a chafodd y pwyllgor weled fod eu disgwyliad yn rhy gyfyng o lawer. Pan ddaeth y diwrnod yr oedd y dyrfa mor liosog ac aiddgar am fyned i mewn fel y gwasgasant ar y drysau nes y rhoddasant y ffordd yn rhydd, a llanwyd y capel yn orlawn, hyd yn oed ar y ffenestri, grisiau yr areithfa, a'r festri. Yr oedd yr heol yn llawn drachefn, a gwnaeth rhai eu ffordd i gapel y Pabyddion oedd ger llaw, yn mha le yr oedd y canu i'w glywed yn dda. Yr oedd y canu gan y fath gynnulleidfa fawr yn ogoneddus. Wrth gymmharu y cyfarfod mawreddog hwn â'r gynnadledd fechan a gynnaliwyd bum mlynedd yn gynt yn ysgoldy Jewin Street, ysgrifenai Mr. Curwen fel hyn:—"Pa fodd y cynnyddodd y frawdoliaeth fechan, nad oedd un enw dylanwadol yn eu plith, i'r fath nifer? Nid yn unig am eu bod, fel y dywedwyd yn y cyfarfod, yn meddu cyfundrefn alluog i ddysgu canu yn hanner yr amser arferol, a nodiant a all hyfforddio cyhoeddi y miwsig am hanner y pris arferol; na chwaith am fod y tônau yn newydd a phoblogaidd, na safon ein caniadaeth wedi ei dyrchafu; nac am fod ein hathrawon wedi bod yn llafurus a hunanymwadol; ond o herwydd fod bendith oddi uchod yn gorphwys arnom, yn cadw ein hundeb, yn codi i ni lawer o gyfeillion hynaws a chalonog, ac yn llwyddo ein hymdrechiadau. Bydded i ni argraphu y gwirionedd hwn ar ein calonau, ac ymwroli i fyned yn mlaen yn ein gwaith gyda serch ac yni adnewyddol." Yr 20fed o Ebrill, gwnaed *soiree* i Miss Glover yn ysgoldy Jewin street, pan y cafodd amryw gyfeillion y pleser o ymddiddan â'r garuaidd a'r anrhydeddus foneddiges a fu yn offeryn i sylfaenu y gyfundrefn. Cylchynwyd hi gan gôr o blant yn canu eu hoff ganiadau. Darllenasant hefyd yn gywir a chywrain "*German Canon*" anhawdd a newydd iddynt hwy, yr hon a roddwyd yn eu dwylaw gan Miss Glover. Ysgrifenai y foneddiges ychydig ddyddiau ar ol hyny:—"Melus oedd y sain, a melus oedd yr olwg, a melus yw cofio am y prydnawn hwnw i mi." Yn 1855 y cyfieithwyd i'r Sol-Ffa gerddoriaeth anhawdd a dyrus Romberg i "*Song of the Bell*," Schiller. Yr oedd y cyfieithiad hwn yn brawf pwysig ar gymmhwysder y Sol-Ffa i symleiddio pethau anhawdd yr hen nodiant. Yn niwedd y flwyddyn hon aeth Mr. Curwen i Ysgotland, a thraddododd ddarlithiau i gynnulleidfaoedd brwdfrydig. Fel canlyniad i hyn, cyhoeddwyd argraphiad o "*Scottish Psalmody*" yr Eglwys Rydd yn nodiant y Sol-Ffa—felly hwn oedd y llyfr cyntaf a gyhoeddwyd gan neb heb law Mr. Curwen, yr hyn oedd yn arwydd sicr o gynnydd y symmudiad. Bu Mr. Curwen yn yr Almaen saith mis o'r flwyddyn hono; ond parhaodd y *Tonic Sol-Fa Association* i gynnal cyfarfodydd y plant, a chyfarfodydd corawl, a bu gwaith Mr. Read yn Edinburgh yn foddion i ledaenu y gyfundrefn yn Ysgotland. Ar ddiwedd y fl. 1856, golygid fod rhif y dysgyblion trwy'r deyrnas yn cyrhaedd ugain mil.

Ar y 24ain o Fehefin, 1857, cynnaliodd y gymdeithas gyfarfod yn Exeter Hall. Yn y cyfarfod hwn cynnygiwyd fod i'r Handel *orchestra* yn y Palas Gwydr gael ei llenwi gyda phlant, a chafwyd tair mil o'r cantorion ieuaingc yno ar yr 2il o Fedi. Trodd yr anturiaeth hon allan yn llwyddiant tu hwnt i ddisgwyliad. Ar ddiwedd y dydd, cafwyd fod deng mil ar hugain wedi ymweled â'r palas ar yr achlysur: a chyhoeddwyd hanes y cyfarfod llwyddiannus hwn a gweithrediadau y tair mil plant yn y newyddiaduron. Yr oedd Miss Glover yn bresennol yn mwynhau o ffrwyth ei dyfais a'i llafur boreuol. Yn 1858, cynnaliwyd cyngherdd clasurol yn Exeter Hall. Dygodd cyhoeddiad y "*Standard Course of Lessons*," gan Mr. Curwen y gyfundrefn i weithrediad mwy rheolaidd, trwyadl, a chyflawn nag o'r blaen. Ar wahoddiad y *Tonic Sol-Fa Association*, ymgasglodd athrawon ysgolion dyddiol y brif ddinas i gynnadledd a gynnaliwyd yn mis Hydref, pryd y daeth tua phum cant ynghyd, a phasiwyd amryw benderfyniadau yn ffafr y Sol-Ffa fel y gyfundrefn oreu i ddysgu plant yn yr ysgolion. Ffurfiwyd

Digitized by Google

dosbarth o bedwar ugain o athrawon ac athrawesau dan Mr. Young, i astudio y gyfundrefn, yr hon a gymmeradwywyd gan y gynnadledd. Erbyn canol y flwyddyn 1859, cyfrifid fod nifer dysgyblion cyfundrefn y Tonic Sol-Ffa yn cyrhaedd dros bum mil a thrigain (65,000).

Yn Chwefror, 1859, rhoddodd Mr. Curwen lywyddiaeth y *Tonic Sol-Fa Association* oddi ar ei law. Tua diwedd y flwyddyn tynwyd yr hen *certificate* yn ol, a gwnaed tri o rai newyddion yn ei le; sef, yr '*Elementary*,' yr '*Intermediate*,' a'r '*Advanced*.' Gorphenwyd graddiad y *certificates* yn 1868, trwy wneuthur y '*Member's Certificate*' i gymmeryd ei le, rhwng yr '*Intermediate*' a'r '*Advanced*.' Gan fod nifer y plant yn eu cyngherddau yn y Palas Gwydr yn cynnyddu, a'u canu yn gwellhau, a bod ysbryd yr ysgolion yn cael ei ddal i fyny trwy y gŵyliau blynyddol hyn, a chan nad oedd manteision cyffelyb er calonogi y dosbarthiadau mewn oedran, ymgymmerodd Mr. Curwen, ar ei gyfrifoldeb ei hun, i gynnal cyngherdd a chystadleuaeth gorawl agored i'r dosbarth hwn yn y dref a'r wlad. Treuliwyd yr haf mewn diwydrwydd yn parotoi at y gystadleuaeth, yr hon a gymmerodd le y 4ydd o Fedi. Y corau a ddaeth yn mlaen oeddynt côr Ysgotaidd o Edinburgh, dan Mr. James Heriot; côr o'r *Staffordshire Potteries*, dan Mr. J. W. Powell, a Mr. G. Howson; côr Finsbury, dan Mrs. Stapleton a Mr. J. Sarll; côr Brighton, dan Mr. Bentley; a chôr o'r West Riding, dan Mr. T. K. Longbottom. Ni chynnaliai yr ystafell yn mha un y dygid y gystadleuaeth yn mlaen ddegwm y rhai a ewyllysient wrandaw a gweled yr ymdrechfa. Y barnwyr oedd Mri. J. Goss, George Hogarth, Charles Lucas, T. Olifant, a James Turle. Yr oedd y côrau yn cynnwys tua thrigain o aelodau, pob un yn meddu yr *intermediate certificate*, a gelwid hwy yn mlaen yn eu tro o ran arall o'r adeilad. Y prawf ydoedd, canu ar yr olwg gyntaf ddarnau yn y ddau nodiant, sef "*Kyrie*" gan Sudovico de Vittore (1523), a *Madrigal* gan Cavendish, "*Come, gentle Swains*." Wedi hyn yr oedd pob côr i ganu tri darn o'u dewisiad eu hunain. Tra yr oedd y barnwyr wedi ymneillduo i barotoi eu beirniadaeth, yr oedd y *Transept* mawr yn prysur lenwi gydag ugain mil o bobl oedd wedi ymgynnull i'r palas i wrandaw ar y côr o bymtheg cant o nifer, oll yn meddu o leiaf yr *elementary certificate*, ac i weled y gwobrau yn cael eu cyflwyno. Safai y gystadleuaeth yn y drefn a ganlyn:—West Riding, Finsbury, Staffordshire, Brighton, ac Edinburgh. Cyflwynwyd baneran sidan wedi eu llythyrenu âg aur i'r tri chôr blaenaf, a chafodd côr Edinburgh ei gyflogi i ganu nifer o'u caniadau cenedlaethol yn y *Concert Room* am y ddau ddiwrnod dilynol. Ysgrifenai Mr. Curwen fel hyn: "Yr oedd hwn yn ddiwrnod mawr—y mwyaf mewn llawer ystyr a adnabyddwyd etto gan symmudiad y Tonic Sol-Ffa." Cynnaliwyd cystadleuaeth gyffelyb y flwyddyn ganlynol (1861), pryd y canwyd y "*12th Mass*," Mozart, a daeth côrau o Brighton, Gogledd Stafford, a Hull, i ymgystadlu; ond taflwyd rhwystr ar y ffordd trwy i lywodraethwyr y palas wrthod gweithredu gyda neb arall ond y *Sacred Harmonic Society*—yr hyn a fu yn golled drom i Mr. Curwen. Yn 1862, gorfuwyd Mr. Curwen i roddi llywodraethiad y drydedd o'r gyfres oddi ar ei law i dri o foneddigion a ymroddasant yn wirfoddol i'r gwaith; sef Mri. Ashcroft, Evans, a Goodchild. Ymgystadleuodd côrau St. Thomas (o Lundain), a'r *City Choral Union* (Llundain), y West Riding, a'r *Staffordshire Potteries*. Dewiswyd Exeter Hall yn lle i gynnal y gylchwyl yn lle y Palas Gwydr. Dadganwyd "*Israel in Egypt*," gan gôr o chwe chant —oll yn meddu yr *intermediate certificate*. Ar ol hyn rhoddodd Mr. Curwen i fyny y dasg o drefnu cyngherddau, gan deimlo fod ei wasanaeth yn fwy angenrheidiol i godi safon addysg, a chyfarwyddo athrawon. Rhoddodd Mr. Curwen yr enw "Ysgol y Tonic Sol-Ffa" i'w ymdrechion i ddwyn yn mlaen addysg drwyadl, a chynnyrchu gwybodaeth a chwaeth yn mysg yr athrawon.

Ar ŵyliau Nadolig, 1863, y cynnaliwyd y cyfarfod cyntaf i'r athrawon yn Llundain. Cynnelir y cyfarfod yn flynyddol o hyny allan; a chwanegwyd cyfarfodydd cyffelyb yn yr haf, pa rai a gynnelir yn Bristol, Edinburgh, Manchester, a Llundain. Y mae pob ysgol yn cynnwys cyfarfodydd hwyrol, ac yn parhau o dri diwrnod i bythefnos. Darllenir papurau ar wahanol faterion. Gellir dyweyd fod gwaith yr ysgol wedi dechreu yn 1862, gyda y cwrs cyntaf o ddadansoddi cynghaneddion clasurol: gweithid yr ymarferion gan efrydwyr drwy bob parth o'r wlad, ac anfonid hwy gyda y dyddiad (*date*) wedi ei ysgrifenu arnynt i Mr. Curwen i'w harchwilio a'u cywiro, ac i'w hanfon yn ol. Y mae pob cwrs yn parhau tua phedwar mis. Wedi i ddadansoddi ymgorphori yn y gyfundrefn, cychwynwyd y cwrs cyntaf o "ymarferion cyfosodiad," pa rai sydd yn parhau hyd yn hyn. Cychwynwyd ysgol gyffelyb yn yr America yn 1870. Yn y flwyddyn 1864, bu ymdrafodaeth fywiog yn nghylch caniadaeth gynnulleidfaol. Cynnaliwyd amryw gynnadleddau, a chyhoeddwyd rhifyn dwbl o'r "*Reporter*," yn cynnwys adolygiad ar yr ymdrafodaeth. Yn 1865, daeth Mr. Curwen yn argraphydd iddo ei hun, trwy sefydlu y "*Tonic Sol-Fa Press*" yn Plaistow. Rhoddodd hyn iddo lywodraethiad cyflawn ar ei weithiau.

Yr oedd y flwyddyn 1867 yn un o'r blynyddoedd mwyaf dyddorol yn hanes y symmudiad. Yn Mawrth, ysgrifenodd M. Laurent de Rille, ar ran awdurdodau yr Arddangosfa Gydgenedlaethol yn Paris, at Syr Sterndale Bennett, prif athraw yn y *Royal Academy of Music*, yn rhoi ar ddeall fod cystadleuaeth gerddorol i gymmeryd lle mewn cyssylltiad â'r arddangosfa, a'i bod yn rhydd i gôr o unrhyw genedl i ymgystadlu; ei bod i'w chynnal yr 8fed o Orphenaf, ac y byddai efe yn ddiolchgar i'r prif athraw, os gwyddai am ryw gymdeithas gorawl fyddai yn foddlawn i ymgystadlu, os gwnai ei hysbysu yn mha ddull y gallai efe anerch y cyfryw gymdeithas, ac anfon atynt wahoddiad swyddol. Cyhoeddwyd yn mhellach y rhoddid gwobr o 200*p.*, a choronbleth oreuredig, i'r côr goreu. Penderfynodd y *Tonic Sol-Fa Association* ar unwaith anfon côr. Pennodwyd Mr. J. Proudman yn arweinydd, yr hwn a wnaeth ymchwiliad dioed am gorph o gantorion yn cynnwys o 60ain i 70ain o leisiau, a'r rhai hyny y darllenwyr goreu y gallai daro arnynt. Cynnelid cyfarfodydd canu dair neu bedair gwaith yn yr wythnos—rhai o honynt am hanner awr wedi saith yn y boreu. Bu cyfran o'r côr yn bresennol hanner cant o weithiau, a'r arweinydd rhwng trigain a deg a thrigain o weithiau.

Yn y cyfamser, dechreuwyd gohebu, a deallwyd mai dau ddernyn o'u dewisiad eu hunain oeddynt i'w canu. Gan y gwyddid fod lleisiau

Digitized by Google

gwrywaidd yn cael y flaenoriaeth ar y cyfandir, cymmerwyd gofal i roddi ar ddeall mai boneddigesau oedd yn canu yr *alto* a'r *soprano*. Dewiswyd y ddau ddarn cerddorol o waith dau gyfansoddwr oedd yn fyw ar y pryd; sef "*Hunting Song*," Syr J. Benedict; a "*Shepherd's Farewell*," Mr. Henry Smart. Cynnaliodd y côr, dan arweiniad Mr. Curwen, gyfarfod i weddïo ar brydnawn eu hymadawiad. Cyrhaeddasant Paris y 6ed o Orphenaf. Er mawr syndod i'r Ffrangcod, gwrthodasant dderbyn gwahoddiad i gymmeryd rhan mewn cyngherdd gyda chorau undebol y gystadleuaeth ar y Sabbath. Dydd Llun, wedi bod yn gwrandaw ar y naill gôr ar ol y llall am bum awr, ac heb damaid na llymaid, daeth tro y Saeson i ganu. Ac ar eu hymddangosiad ar yr esgynlawr, cawsant fanllefau o gymmeradwyaeth nes yr oedd y lle yn tingcian; ac ar y tarawiad cyntaf o'r "*Hunting Song*," cododd yr holl dyrfa ar eu traed. Tynodd y pennill cyntaf daranau o gymmeradwyaeth; ac ar ddiwedd y darn argyhoeddwyd y Ffrangcod fod y Saeson yn *medru* canu, er yr arferent ammheu hyny. Yr oedd purdeb eu tônyddiaeth, melusder a lledneisrwydd eu mynegiant, a mwy na'r cwbl, lleisiau toddedig y boneddigesau, yn creu brwdfrydedd anorchfygol. Nis gall fod ammheuaeth nad côr y Tonic Sol-Ffa oedd yr un oedd wedi ennill ffafr y gwrandawyr. Yna canwyd y "*Shepherd's Farewell*." Yr oedd y gwrandawiad yn gyfryw nas gallesid ei ddisgwyl ond yn unig gan gynnulleidfa gerddorol; ac yr oedd y dadganiad yn berffaith. Galwyd y côr a Mr. Proudman drachefn a thrachefn; ond ni wnai hyny y tro i foddloni y gwrandawyr, neidient ar y meingciau, chwifient eu hetiau, a mynent gael clywed chwaneg drachefn. Yna canodd y côr "*Partant pour la Syrie*," gyda geiriau Saesnig. Creodd y dadganiad hwn fwy o frwdfrydedd, a llefwyd am yr Anthem Genedlaethol. Arosodd y dorf ar eu traed hyd y terfyniad. Llongyfarchid y côr Saesneg i ba le bynag yr elent â llefau croesawol digon i'w syfrdanu.

Dranoeth gwahoddwyd y côr i'r *Palais de l'Industrie*:—i ba ddyben, ni wyddid, ac arosodd rhai yn absennol. Ar ol cyrhaedd, er eu syndod, gosodwyd hwy yn nghanol cynnulleidfa o ugain mil o bobl, ac o flaen y sedd ymherodrol. Hysbysodd y barnwyr hwy, er eu bod wedi eu tynu allan o'r gystadleuaeth am fod eu côr yn cael ei wneyd i fyny o leisiau cymmysg, fod eu canu o radd mor uchel fel yr oeddynt yn teilyngu gwobr neillduol o 'gydraddoldeb' (*egalement*). Cyflwynodd yr ymherodres wobr y lleisiau gwrywaidd i'r *Lille Choir*. Yna daeth cenad at y côr Saesneg i beri i'r ieuengaf o'r boneddigesau ddyfod yn mlaen i dderbyn y goron o law yr ymherawdwr. Galwyd am yr "*Hunting Song*;" ac yn y *theatre* enfawr, ac yn mhresennoldeb yr ymherawdwr, canasant hi oddi ar eu cof. Cyflwynwyd aur-dlws a *certificate* i'r côr; a *diploma* ac aur-dlws, ac arwydd *Orpheonistes* Ffraingc i'r arweinydd. Ar y 12fed o Orphenaf dychwelasant i Loegr gyda'u llawryfon. Derbyniwyd hwy yn frwdfrydig mewn cyfarfod yn Aldersgate Street—Mr. Vernon Lushington, Q.C., yn y gadair. Derbyniwyd llythyrau llongyfarchiadol oddi wrth Syr J. Benedict, Mr. Henry Smart, a Mr. Henry Leslie; ac yr oedd Mr. G. A. Macfarren yn bresennol, a gwnaeth araeth. Rhoddasant ddau gyngherdd yn y Palas Gwydr, ac mewn amryw fanau ereill yn y brif ddinas.

Yn y flwyddyn hon y dechreuodd y Solffawyr fyned dan arholiadau y *Society of Arts*. Yr oedd y papurau yn yr hen nodiant, ac yn cael eu cario yn mlaen gan Mr. J. Hullah fel arholydd. Ennillodd y Solffawyr yn ol 54 y cant o'r *certificates*. Yr oedd deuddeg o honynt yn y dosbarth cyntaf, ac ennillodd efrydwyr y Sol-Ffa ddeg allan o'r deuddeg. Yn y pum mlynedd dilynol, ennillasant naw o'r deg gwobr a gynnygiwyd yn arholiad Mr. Hullah, a dau cant a dwy ar bymtheg allan o'r tri chant ac wyth ar hugain o dystebau—mwy na dwy ran o dair o'r cyfan. Yn 1869, gwnaed y ffordd yn glir i efrydwyr y Sol-Ffa gael myned i mewn i arholiadau blynyddol Mr. G. A. Macfarren mewn cyfansoddiant. Dan nawdd yr un gymdeithas, yr oedd yr ymgeiswyr i gael gweithio eu papurau yn un o'r ddau nodiant, felly gosodid y Solffawyr ar yr un tir a'r hen nodwyr. Rhoddwyd cant a thair a deugain o *certificates*, a phedair gwobr yn ystod y tair blynedd; o ba rai y cymmerwyd cant a phymtheg ar hugain o'r *certificates*, a thair o'r gwobrau, gan efrydwyr y Tonic Sol-Ffa. Yn yr un flwyddyn, 1867, rhoddwyd prawf ar gôr o bedair mil a phum cant mewn cyngherdd a gynnelid gan y *Tonic Sol-Fa Association*, trwy roddi anthem iddynt i'w chanu ar yr olwg gyntaf. Cyfansoddwyd yr anthem yn bwrpasol i'r amgylchiad gan Mr. G. A. Macfarren, ar y geiriau "*Hear me when I call.*" Ni welodd neb o'r cantorion yr anthem, ond yn unig Mr. Curwen; ac anfonwyd un copi ar foreu y diwrnod i'r arweinydd, Mr. J. Sarll, er mwyn iddo fod yn alluog i arwain oddi ar ei gof. Yr oedd yr anturiaeth yn feiddgar, ond yr oedd y llwyddiant yn gyflawn.

Gwnaed prawfion cyffelyb yn y ddwy flynedd ddilynol, pryd y canwyd darnau o waith Mr. Henry Smart yr un mor lwyddiannus. Yn y flwyddyn 1871, cynnaliodd y *Tonic Sol-fa Association* ei chyngherdd cyntaf o blant, a'r oll o honynt yn meddu yr *elementary certificate*, pan yr ysgrifenodd Mr. Henry Leslie, Ran-gân at y cyfryw amcan. Yr oedd y dadganiad yn gywir a chanmoladwy. Hydref 20fed, bu farw Miss Glover, yn Malvern, ar ol ychydig gystudd, yn yr oedran teg o 82ain mlwydd. Yn Nghynnadledd Nadolig, pasiwyd penderfyniad o adgof parchus a chydymdeimlad â'i chwaer, Miss Christiana Glover, yr hon oedd gydymaith iddi yn ei holl lafur. Yn 1869, sefydlwyd y *Tonic Sol-fa College*:—sylfaenwyd ef ar y *certificates*. Ystyrid y rhai a feddent y *member's certificate* yn aelodau, a dewisid y cynghor gan yr aelodau o fysg y rhai a ddalient yr *advanced certificates*. Pennodwyd Mr. Curwen yn llywydd am ei oes. Mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Exeter Hall, Rhagfyr 30ain, 1874, anrhegwyd Mr. Curwen â'i ddarlun, ynghyd â swm o arian yn cynnwys o 300*p*. i 400*p*. i'w gynnorthwyo i ddwyn y coleg yn mlaen. Y mae y coleg wedi ei restru dan y "*Companies Act*," yn 1875, ac erbyn Gorphenaf diweddaf (1876), yr oedd y coleg wedi dyblu ei werth ac yn parotoi i sefydlu dosbarthiadau a dewis athrawon i ofalu am y canghenau o addysg a gymmerir dan ystyriaeth.

Yn 1872, argymmhellodd Bwrdd Ysgol Llundain yr holl athrawon i dderbyn cyfundrefn y Tonic Sol-ffa, a phennodwyd Mr. J. Evans i arolygu yr addysg ynddi. Yn Ysgotland, yn yr holl brif drefi, y mae y gyfundrefn wedi ei mabwysiadu; ac y mae yr *Irish Commissioners of National Education* wedi penderfynu rhoddi *grant* arbenig am addysg gerddorol, a gadael y

Digitized by Google

ddau nodiant ar yr un tir. Yn Mai, 1875, yr oedd nifer y rhai a ddalient yr *elementary certificate* wedi cyrhaedd i 102,000, yr *intermediate* i 21,000; ac y mae yn awr 957 yn dal y *member's*, a 239 yn dal yr *advanced certificate.*

Y mae Cymru wedi mabwysiadu y gyfundrefn ac y mae ei lledaeniad drwy yr holl Dywysogaeth. Cyhoeddwyd crynodeb o'r hen *Standard Course*, dan yr enw "*Llawlyfr y Tonic Sol-Ffa,*" er's blynyddoedd yn ol; ac erbyn hyn y mae y *Standard Course* newydd wedi ei gyhoeddi yn yr iaith dan yr enw "*Y Gyfres Safonol,*" ac y mae "*How to observe Harmony*" ("*Pa fodd i sylwi ar Gynghanedd*") yn nwylaw y genedl. Hefyd, y mae yr holl lyfrau tônau cynnulleidfaol wedi eu hargraphu yn y nodiant newydd, a chyflenwad helaeth o dônau at wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol a'r côrau yn cael eu dwyn allan yn barhaus. Y mae y cantorion Cymreig wedi ennill eu rhan o'r *certificates*, ac y mae yn eu plith rai o brif athrawon y gyfundrefn.

Y mae y Tonic Sol-ffa ar gynnydd ar y meusydd cenhadol. Y mae chwech o genhadon yn ei dysgu yn Madagascar: argrephir tu dalen yn fisol yn y Cylchgrawn Cenhadol "*Teny Soa.*" Y mae Llyfr Tônau ac Anthemau, cwrs o wersi a *certificate card*, &c., wedi eu hargraphu; ac yn ddiweddar, derbyniwyd copi o'r "*Pilgrim's Progress Service of Song,*" wedi ei gyfieithu i'r Malagassi, â'i gerddoriaeth yn y Tonic Sol-ffa. Yn Cape Colony, y mae Llyfr Tônau wedi ei argraphu i'r Kaffiriaid. Y mae Llyfr Caniadau, ynghyd â rhagarweiniad i'r gelfyddyd wedi ei argraphu yn Hong Kong, o'r enw "*Ngok, Fat Kai Mung,*" yn nodiant Sol-ffa y Chineaid. Yn Beyrout, yn Syria, y mae Llyfr Tônau wedi ei argraphu mewn Tonic Sol-ffa Arabaidd, ac yn cael ei ddefnyddio yno, ac yn Mount Lebanon. Pan oedd Tywysog Coronog Prwsia yno, canodd côr Sol-ffa Arabaidd "Duw gadwo'r Frenhines" iddo. Yn Kurumann, Affrica Ddeheuol, y mae Llyfr Tônau, â'r geiriau yn iaith y brodorion. Y mae y Sol-ffa yn cael ei dysgu yn Calcutta, Travancore, Sharanpoor, Bombay, ac yn Secunderabad. Y mae trigolion Barbadoes yn arfer y Sol-ffa er's pymtheng mlynedd, neu ragor, a'r brodorion yn ei deall yn gyffredinol. Gallesid enwi llawer chwaneg o leoedd sydd yn ei harfer.

Fel y mae y gyfundrefn yn gweithio ei ffordd i blith pob sect a chredo yn y wlad hon, felly y mae yn y gwledydd pell. Y mae 3,000 o blant ysgolion rhydd yr Iuddewon yn Spitalfields, yn dysgu y Tonic Sol-ffa yn rheolaidd, ac y mae yn dra dyddorol i wrandaw ar y rhai hynaf o honynt yn canu yr "*Haleluiah Chorus*" o'r "*Messiah,*" ar eiriau Hebreaidd.

**TOOKE, JOHN HORNE**: ieithydd a gwleidyddwr, oedd fab i werthwr adar o'r enw John Horne. Ganwyd ef yn heol Newport, Westminster, yn 1736. Addysgwyd ef mewn rhan yn Westminster, ac mewn rhan yn Eton; ac wedi hyny aeth i Goleg St. Ioan, Caergrawnt, lle y cymmerodd ei radd o wyryf yn y celfyddydau yn 1758. Ar ol treulio peth amser yn is-athraw yn ysgol Blackheath, cymmerodd urddau eglwysig, er mwyn boddio ei dad, ond yn groes i'w ewyllys ei hun; o herwydd ymddengys nad oedd ganddo hoffder o gwbl at yr alwedigaeth glerigol. Pennodwyd ef yn gurad New Brentford yn 1760. Ond nid oedd ei chwaeth a'i ddull o fyw yn gweddu i glerigwr. Daeth yn bleidiwr selog i John Wilkes, ond cymmerodd anghydweledìad le rhyngddynt; ac yn 1770—71, buont yn ysgrifenu llythyrau chwerw yn erbyn eu gilydd, er mawr ddifyrwch i'w gwrthwynebwyr gwleidyddol. A thua yr un amser hefyd efe a wrthwynebodd yr ysgrifenydd nodedig a adwaenid wrth yr enw Junius; ac ni bu yn hollol aflwyddiannus yn yr ymgyrch hwn. Rhoddodd i fyny fywoliaeth New Brentford yn 1773, a dechreuodd astudio y gyfraith fel galwedigaeth. Tua'r adeg hon gwnaeth ryw wasanaeth pwysig i Mr. Tooke, o Purley, yn Surrey; am yr hyn y gwobrwywyd ef gan y boneddwr hwnw, rhwng pob peth, âg wyth mil o bunnau, a chwanegodd yntau Tooke at ei enw. Yn 1775, carcharwyd ef am gyhoeddi hysbysiadau yn y rhai y cyhuddai efe filwyr y brenin o lofruddio yn farbaraidd yr Americaniaid yn Lexington. Tra yn y carchar yr ysgrifenodd efe ei lythyr enwog at Mr. Dunning, yn yr hwn y ceir hadau ei "*Diversions of Purley.*" Pan yr adfeddiannodd ei ryddid, gwnaeth appeliad am gael ei dderbyn yn aelod o'r bâr; ond gwrthodwyd ef, ar y sail ei fod yn glerigwr. Efe a ymneillduodd yn awr i swydd Huntington, ac am beth amser dilynodd ei efrydiau llenyddol, a chyfansoddodd lyfr bychan o blaid diwygiad seneddol. Yn 1786, cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o "*Diversions of Purley.*" Yn 1794, cymmerwyd ef i fyny am deyrnfradwriaeth; ac ar ol prawf o chwe diwrnod, pryd y dangosodd lawer o ddiysgogrwydd, rhyddhawyd ef. Safodd yn ymgeisydd aflwyddiannus am gynnrychiolaeth Westminster yn y senedd ddwy waith, sef yn 1790 a 1796. Ond yn 1801, etholwyd ef yn aelod dros Old Sarum. Ni wnaeth, fodd bynag, fawr o enw iddo ei hun yn Nhŷ y Cyffredin; ac o'r braidd y cafodd amser i hyny, gan iddo golli ei eisteddle yn y flwyddyn ddilynol, o herwydd gwneuthuriad cyfraith yn gwahardd i rai wedi cymmeryd urddau eglwysig eistedd yn y senedd. Bu farw, wedi treulio bywyd cynnhyrfus, yn Wimbledon, Mawrth 19eg, 1812. Ei brif waith yn ddiau ydyw "*Diversions of Purley,*" yr hwn ar un adeg a fu yn dra phoblogaidd.

**TOPAS** (פִּטְדָה, *Pitdâh*: τοπάζιον): maen gwerthfawr; un o'r rhai oedd yn nwyfroneg yr archoffeiriad: *Exod.* xxviii. 17. Gelwir ef yn *Iob* xxviii. 19, "y topas o Ethiopia." Yn ol y cyfieithiadau hynaf, y mae y topas yr un a'r perl o liw melyn euraidd a ddisgrifir gan y rhan fwyaf o'r hen ysgrifenwyr Groegaidd; ond dywed Pliny mai gwyrdd oedd ei liw. Y mae amryw o feirniaid diweddar, wrth ddibynu ar awdurdod Pliny, yn casglu mai yr emfaen (*chrysolite*) presennol oedd y topas. Ond y mae Bellarmann yn gwrthwynebu y syniad yn gryf, ac yn dangos fod y lliwiau a briodolir gan yr hynafiaid i'r topas i'w canfod yn y gem ar ba un y rhoddir yr enw yn awr. Maen gwerthfawr yw hwn, disglaer fel gwydr. Y prif liw ynddo yw math o felyn prydferth symmudliw: wrth edrych o wahanol gyfeiriadau, y mae yn goleuo ac yn tywyllu. Y mae yn anhawdd penderfynu pa un ai topas melyn oedd y topas oedd yn nwyfroneg yr archoffeiriad, ai peidio; ond ychydig o ammheuaeth sydd, modd bynag, nad topas oedd efe. Mae yn amlwg fod y perl yn cael ei werthfawrogi gan yr Hebreaid. Dywed Iob fod doethineb yn werthfawrocach na'r topas o Ethiopia (*Iob* xxvii. 1, 19); ac am fod Ethiopia, neu Cus, yn cynnwys Arabia ddeheuol, a'r Morgaingc

Digitized by Google

Arabaidd, y mae hyny yn cydsefyll â'r hyn a ddywed Pliny, ac ereill; sef, fod y *topazes* oedd yn adnabyddus iddynt hwy yn dyfod o ynys Topas yn y Môr Coch, o ba le y dygid ef, dybygid, gan y Phœniciaid. Sonir am y topas yn *Ezec.* xxviii. 13, fel un o'r meini gwerthfawr a orchuddiai wisgoedd brenin Tyrus. Efe oedd y maen disglaer oedd yn harddu sail mur yr Ierusalem nefol: *Dad.* xxi. 20.

TOPLADY, AUGUSTUS MONTAGUE: duwinydd ac emynydd Saesneg, a anwyd yn Farnham, yn Surrey, Tachwedd 4ydd, 1740. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Westminster, ond gan fod yn angenrheidiol i'w fam fyned i'r Iwerddon yn achos rhyw eiddo oedd yn perthyn iddi yn y wlad hono, efe a aeth gyda hi; ac aeth i Goleg y Drindod, Dublin, lle y cymmerodd ei radd o athraw yn y celfyddydau. Daeth dan ddylanwad argraphiadau crefyddol, a dechreuodd astudio yn ddyfal ac ymroddgar ar gyfer y weinidogaeth. Yr oedd ganddo olwg uchel ar anrhydedd y swydd, a'r angenrheidrwydd am gymmhwysderau priodol i'w gweinyddu. Urddwyd ef ar y 6ed o Fehefin, 1762; ac yn mhen ychydig amser sefydlwyd ef yn mywoliaeth Blagdon, yn Ngwlad yr Haf; ac wedi hyny cafodd berigloriaeth Broad Henbury, yn swydd Devon. Yn y lleoedd neillduedig hyn efe a aeth yn mlaen yn ddiwyd gyda'i efrydiau, ac a gyfansoddodd y pryd hwn y rhan fwyaf o'i weithiau. Yr ydoedd efe er's rhai blynyddoedd yn arfer talu ymweliad yn achlysurol, a threulio rhai wythnosau yn Llundain; ond y flwyddyn 1775, wedi deall fod awyr laith swydd Devon yn niweidiol i'w nerth a'i iechyd, efe a symmudodd i Lundain gyda'r bwriad o aros yno. Ar gais cyfeillion, efe a gymmerodd gapel a berthynai i eglwys ddiwygiadol Ffrainge, ger Leicester Fields, lle y pregethai ddwywaith yn yr wythnos. Dechreuodd ei iechyd roddi y ffordd yn gyflym, canys yr oedd y darfodedigaeth wedi ymaflyd ynddo. Ond cyfarfu âg angeu wedi ei ddiosg o'i ddychrynfeydd; a chafodd ef yn angel trugaredd. Yr oedd ei holl ymddiddanion, fel yr oedd yn agoshau i'r bedd, yn ymddangos yn fwy dedwydd a nefol o ran eu hysbryd. Dywedai yn fynych mai efe oedd y dyn dedwyddaf ar y ddaear. Bu farw yn y flwyddyn 1778, yn 38ain mlwydd oed.

Cyhoeddwyd ei weithiau, y rhai oeddynt gan mwyaf yn ddadleuol, mewn chwech o gyfrolau. Cymmerai efe yr ochr Galvinaidd yn y dadleuon mawr a ddygid yn mlaen rhwng Arminiaid a Chalviniaid y dyddiau hyny. Efe oedd awdwr yr emyn fyd-glodus—

"Rock of Ages, cleft for me," &c.

yr hon a fernir yn gyffredin fel yr emyn oreu a gyfansoddwyd erioed yn yr iaith Saesnig. Y mae yr emyn ardderchog hwn yn eithaf adnabyddus i'r darllenydd Cymreig hefyd trwy gyfrwng cyfieithiad rhagorol Mr. Morris Davies, Bangor,

"Graig yr Oesoedd, ynot ti," &c.

TOPHEL: lle a enwir yn *Deut.* i. 1: yr un lle, o bossibl a *Turfileh* ar yr afon o'r un enw a red yn ogleddol o Bozra tua chongl dde-ddwyreiniol y Môr Marw.—Robinson's "*Researches,*" ii. td. 570. Y mae yr afon hon yn llifo drwy ardal ffrwythlawn a dyfradwy yn y fan hon, lle y mae planigfeydd mawrion o goed ffrwythydd, ac yn enwedig ffigyswydd.

TOPHET (תפת: Ταφέθ: *Topheth*): lle a orweddai yn rhywle i'r dwyrain a'r de-ddwyrain o Ierusalem, gan fod Ieremiah yn myned allan trwy borth yr haul, neu borth y dwyrain, i fyned iddo: *Ier.* xix. 2. Yr oedd yn "Nglyn mab Hinnom" (*pen.* vii. 31), yr hwn sydd wrth "ddrws porth y dwyrain;" *pen.* xix. 2. Gwelir oddi wrth hyn ei fod yn Nyffryn Hinnom, ac fe allai yn un o'i phrif lwyni neu erddi. Ymddengys ei fod ar un adeg yn rhan o erddi y brenin, ac yn cael ei ddyfrhau o Siloam, ac fe allai ychydig i'r deheu o'r man lle y mae y *Birket el Hanna* bresennol. Nid ydyw y gair *Tophet* yn cael ei ddefnyddio ond yn yr Hen Destament yn unig: 2 *Bren.* xxiii. 10; *Esa.* xxx. 32; *Ier.* vii. 31, 32; xix. 6, 11, 12, 13, 14. Nid oes gyfeiriad ato yn y Testament Newydd, ac ni cheir ef yn yr *Apocrypha* chwaith. Y mae Jerome yn gwneyd sylw o hono; ond yr oedd yr enw wedi peidio a bod ar y lle cyn ei amser ef, o herwydd y mae efe yn sylwi arno yn debyg fel y gwnaethai esboniwr diweddar, gan gyfeirio at ysmotyn gwyrddlas a ffrwythlawn, yn cael ei ddyfrhau gan Siloam, lle y mae yn cymmeryd yn ganiataol ei fod. Os oedd efe yn gywir yn ei ddyfaliad, yna y mae'n rhaid i ni dybied mai nid y dyffryn sydd ar du y deheu, ac yn myned yn gyffredin o dan yr enw *Hinnom*, ydyw *Ge-Ben-Hinnom* y Beibl. Yn wir hyd amser diweddar mewn cymmhariaeth, nid oedd y glyn hwnw eriocd wedi ei alw ar yr enw. Yr oedd yr hen ysgrifenwyr dwyreiniol a gorllewinol yn wastad yn ei osod ar y tu dwyreiniol i'r ddinas, ar hyd glenydd yr afon Cedron, yn rhywle rhwng Maes y Crochenydd a Llyn y Panwr.

Y mae gwahanol gyfieithiadau wedi eu cynnyg ar y gair *Tophet.* Rhai a'i cyfieithant *gordd;* ereill, *tabwrdd;* ereill, *lle i losgi neu i gladdu;* ac ereill, *ffieidd-dra.* Y mae yn llawn mor debyg ei fod yn wreiddiol yn golygu gardd, heb ddynodi dim oedd ddrwg neu adgas. Nid oes brawf, dybygid, ei fod wedi ei gymmeryd oddi wrth y tabyrddau oedd yn cael eu curo er boddi llefau y rhai a aberthid trwy dân i Moloch. Fe allai fod y lle ar y cyntaf yn rhan o'r ardd frenhinol, ac yn ysmotyn nodedig am ei brydferthwch, â phalas brenhinol yn ei chanol. Wedi hyny halogwyd y lle âg eilunod, a llygrwyd ef gan aberthau i Baal a thân Moloch; ac yna daeth yn fangre llygredigaeth, ac yn borth uffern. Bwriodd y brenhinoedd duwiol yr allorau a'r uchelfeydd i lawr, a thaflwyd yno ysgarthion y ddinas, nes y daeth y lle i fod yn ffieidddra Ierusalem. Yn *Ier.* vii. 32, a xix. 6, rhoddir ar ddeall fod Tophet a Glyn mab Hinnom i golli eu henwau cyntefig, ac i'w galw o hyny allan "dyffryn y lladdfa." Heb feiddio dyfalu fod y *Deroj* ddiweddar yn rhan o ddyffryn Hinnom, gellir dyweyd mai y rhan isaf o'r Cedron ydyw "dyffryn y lladdfa," pa un bynag a fu yn dwyn yr enw hwn, ai peidio. Nid yma, fel y mae rhai wedi tybied, y lladdwyd yr Assyriaid gan yr angel dinystriol. Ymddengys i hyny gymmeryd lle yr ochr orllewinol i'r dref, ar y llanerch a alwyd wedi hyny yn "ddyffryn y celanneddau;" *Ier.* xxxi. 40. Ar ol hyn y cymmerodd y lladdfa a roddodd yr enw newydd ar Tophet le. Mewn oesoedd dilynol, y mae gwaed wedi ei dywallt yno yn afonydd; y mae celanneddau, claddedig ac heb eu claddu, wedi llenwi i fyny y llanerch; ac fe allai fod nid yn unig ysbwrial a malurion y ddinas yn gorwedd o dan y gerddi diweddar, ond fod esgyrn a llwch cannoedd o

Digitized by Google

filoedd o ddynion—Rhufeiniaid, Persiaid, Iuddewon, Groegiaid, Croesgadwyr, a Mahometiaid. Pa beth a ddichon etto gymmeryd lle, nis gellir dywedyd. Fe allai nad ydyw cynnwys ymadroddion y prophwyd wedi ei ddyhysbyddu etto.

Y mae cyferbyniad nodedig rhwng y Tophet fel yr oedd gynt ac yn ddiweddarch. Unwaith, yr oedd Tophet y llwyn mwyaf dewisol yn nyffryn mwyaf dymunol Ierusalem; ond wedi hyny yn lle o halogrwydd, tân, a marwolaeth; a thrachefn yn "ddyffryn y lladdfa!" Unwaith, dyma lle yr ymgynnullai y cantorion a'r cerddorion brenhinol ynddo yn nyddiau Solomon, i ddifyru y brenin, y llys, a phobl y ddinas; wedi hyny, bu ynddo deml i Baal ac uchelfa i Moloch, a'r gymmydogaeth yn adseinio gan lefau babanod yn cael eu haberthu trwy dân; a thrachefn (yn arwyddluniol) yn lle o wylofain a rhincian dannedd. Unwaith, darparwyd ef i frenin Israel, yn fangre un o'i balasau mwyaf dewisol; yna llygrwyd a halogwyd ef nes y daeth yn lle a ddarparwyd i'r "brenin" yr oedd sŵn ei gwymp yn cynnhyrfu y cenhedloedd: *Ezec.* xxxi. 16.

Y mae llawer o'r hen deithwyr yn cyfeirio ato dan yr enw *Toph;* ond nid ydynt yn rhoi dim hysbysrwydd am y llanerch lle yr oedd. Y mae pob olion o hono—enw, a llwyn—wedi myned ar ddifancoll, ac nis gellir yn awr ond dyfalu gyda golwg ar y fan; etto y mae cyfeiriadau yr Ysgrythyrau at neillduolion presennol y gymmydogaeth yn ein galluogi i benderfynu ei le yn lled agos i gywir, fel yn achos Gethsemane. Gwel DYFFRYN HINNOM.

TORIADAU YN Y CNAWD. Y mae yn rhaid cymmeryd y gwaharddiad yn *Lef.* xix. 28 yn erbyn toriadau yn y cnawd dros y meirw mewn cyssylltiad âg ymadroddion ereill cyffelyb (*Lef.* xxi. 5; *Deut.* xiv. 1), yn y rhai y mae eillio y pen gyda'r un amcan yn cael ei wahardd hefyd. Ond y mae yn ymddangos oddi wrth yr hyn a ddywedir yn *Ier.* xvi. 6, 7, nad ydoedd pob math o amlygiad allanol o alar o'r natur yma yn cael ei lwyr wahardd; neu, o leiaf ei fod yn oddefol. Y mae yn rhaid, gan hyny, chwilio am seiliau y gwaharddiad yn rhywle arall; ac fe'i ceir, dybygir, yn yr arferion ofergoelus ac amrywiol a ffynent yn mysg y cenhedloedd paganaidd. Ymddengys fod syniad yn cael ei fabwysiadu ganddynt hwy fod ymfoeli a gwneyd toriadau yn y cnawd yn meddu rhyw effaith iawnol yn mherthynas i ysbrydion y meirw, a bod hyn hefyd yn dwyn rhyw gyssylltiad âg aberthau dynol neu anifeilaidd. Herodotus a ddisgrifia arfer y Scythiaid pan y byddai farw brenin, a dywed nad oedd dim llai na chwech o ddynion yn cael eu haberthu ar ei gladdedigaeth, heb law anifeiliaid ac offrymau ereill ["*Herod.*" iv. 71]. Cyfeirir yn yr "*Iliad*" [xxiii. 171, 176] at gladdedigaeth Patrocles, a dywedir fod dau farch, dau gi, a deuddeg o gaethion rhyfel wedi eu haberthu ar yr achlysur. Wedi i'r ddefod greulawn hon fyned allan o arferiad, parhawyd i wneyd toriadau yn y cnawd. —"*Iliad,*" xxiii. 141; "*Odyssey,*" iv. 197; a'r "*Æneid,*" iii. 67. Plutarch a ddywed hefyd fod rhai barbariaid yn tori ac yn archolli eu hunain; a chwanega fod Solon, trwy gynghor Epimenides, wedi llwyddo i leihau hyny yn mhlith yr Atheniaid.

Gan mai dyma oedd arferiad y cenhedloedd hynafol, nid rhyfedd ei fod yn cael ei wahardd yn y gyfraith yn wastad pan fyddai yn cael ei ddefnyddio gyda'r amcan o wneyd iawn:—"Na wnewch doriadau yn eich cnawd am un marw;" *Lef.* xix. 28. Ond y mae yr arferiad o wneyd toriadau yn y cnawd yn weithred o wasanaeth crefyddol a berthynai i seremoniau paganaidd, heb law mewn cyssylltiad â'r meirw. Yr oedd offeiriaid i Baal, yr hwn oedd eilun-dduw Assyriaidd a Syriaidd, yn tori eu hunain â chyllyll i ddyhuddo y duw, "yn ol eu harfer;" 1 *Bren.* xviii. 28. Dywed Herodotus am y Cariaid, y rhai a drigent yn Ewrop, y byddent yn tori eu talcenau â chyllyll ar adeg gŵyliau Isis; ond nid oedd yr Aiphtiaid ond yn curo eu hunain ar yr achlysuron hyn. Y mae hyn yn dangos nad oedd yr arferiad, y pryd hwnw o leiaf, yn un Aiphtaidd. Dywed Lucian y byddai gweinyddwyr ar yr offeiriaid Syriaidd yn tori eu breichiau a'u tafodau â chleddyfau. Y mae arferion cyffelyb mewn cyssylltiad âg addoliad Bellona yn cael ei grybwyll gan Lucan. Am y gwaharddiad, gan hyny, y mae yn fwy na thebyg ei fod yn gyfeiriedig yn erbyn arferiad a ffynai—nid yn mysg yr Aiphtiaid yr ymadawai yr Israeliaid oddi wrthynt, ond yn mhlith y Syriaid, i'r rhai y byddent yn fuan yn gymmydogion. Wrth gwrs, y mae anafu y person yn y modd hwn yn amlygu sefyllfa o gyffroad dwfn. Mewn claddedigaethau yn gyffredin yn Persia, y mae y merched yn tynu eu gwallt, ac yn tori eu hwynebau. Amlygai y Circassiaid eu gofid trwy rwygo y cnawd ar eu talcenau, eu breichiau, a'u bronau. Offrymai trigolion Mexico a Pheru aberthau dynol yn eu claddedigaethau a'u gŵyliau. Ymdrecha y Gosayeniaid, dosbarth o Frahminiaid mynachol, mewn rhai amgylchiadau, gael elusenau trwy dori eu haelodau â chyllyll. Ymddengys fod yr arferiad o aberthu dynion yn ffynu hefyd yn mysg negroaid Affrica ar yr achlysur o farwolaeth eu penaethiaid.

TORMAH: gair sydd ar ymyl dalenau rhai Beiblau yn unig yn *Barn.* ix. 31, fel cyfieithiad gwahanol o'r gair Hebraeg a gyfieithir 'dirgel' yn y testyn. Y mae rhai beirniaid yn golygu fod y gair yn wreiddiol yr un ag Arumah yn *adn.* 41—y naill neu y llall wedi cael cam gan y copïwyr. Kimchi oedd y cyntaf i ddadgan y dybiaeth hon. Mabwysiedir hi gan Junius a Tremellius: ond ychydig sydd i'w ddywedyd drosti, nac yn ei herbyn; ac am hyny hi a erys, dybygid, yn ddim amgen na thybiaeth.

TORTHAU. Gwel BARA.

TOSTUR—I—AETHAU. Yr anesmwythder a deimlir o blegid annedwyddwch ereill, yr hwn sydd yn cynnhell cydymdeimlad, ac yn peri tuedd i geisio eu gwaredu. Dywedir fod Duw yn tosturio wrth y rhai a'i hofnant ef, fel y tosturia tad wrth ei blant. Y mae y tad yn teimlo dros ei blant sydd yn fyr eu gwybodaeth, ac yn eu dysgu; yn tosturio dros y rhai sydd glaf, ac yn eu cysuro (*Esa.* lxvi. 13); dros y rhai a gwympant, yn eu cynnorthwyo, ac yn eu codi; pan y troseddant, y mae yn estyn maddeuant iddynt; a phan y gwneir cam â hwy, efe a uniona eu camwri. Fel hyn y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef: *Salm* ciii. 13. Y mae Duw yn llawn o dosturiaethau—yr hyn sydd yn arwyddo anfeidrol fawredd ei gariad a'i drugaredd, a'i barodrwydd i waredu a chysuro y rhai sydd mewn trallod: *Salm* lxxviii. 38; lxxxvi. 15; cxi. 4; cxlv. 8.



Digitized by Google

Dduw fel moddion i gyflwyno a dadgan parch ac ymostyngiad y galon. Mater y gwasanaeth ydyw y sefydliadau a'r defodau, yn yr ymarferiad â pha rai y mae i ni ei gyflawni. Er fod addoliad Duw yn mhob oes yn ysbrydol, gall defodau y gwasanaeth fod yn gnawdol. Felly yr oedd o dan yr hen oruchwyliaeth. Geilw yr apostol hwynt yn "ddefodau cnawdol," wedi eu gosod ar yr eglwys hyd amser y diwygiad.

Ond yr oedd yr iawn gyflawniad o wasanaeth Duw, er i'r defodau fod yn gnawdol, a'r ymarferiad allanol â hwynt yn gnawdol yr un modd, yn addoliad, ac felly yn ysbrydol; o herwydd yr oedd yn golygu *ufudd-dod*, yr hwn sydd o ran ei hanfod yn ymostyngiad ysbrydol i Dduw fel Bod ysbrydol. Ar y llaw arall, yr oedd y cyflawniad hwnw o wasanaeth Duw ag oedd yn amddifad o'r ufudd-dod hwn, yn ngolwg Duw, yn ffurfioldeb pechadurus. Hyn yn wir ydyw hanfod ffurfioldeb:—cyflawni gwasanaeth Duw, ac ymarfer â defodau ei wasanaeth, heb unrhyw weithrediad o eiddo yr ysbryd tuag at Dduw; ysgaru gwasanaeth Duw oddi wrth ei addoliad, a thrwy hyny beri iddo beidio a bod yn wir wasanaeth. Yn ganlynol i hyn, y mae dynion yn ceisio gwneuthur i fyny am absennoldeb yr addoliad ysbrydol drwy chwanegu at y gwasanaeth cnawdol, gan syrthio i'r cyfeiliornad ymarferol o dybied y gwna swm i fyny am ansawdd, *quantity* am *quality*, heb ystyried fod y gradd lleiaf o'r ysbrydol yn anfeidrol orbwyso mewn gwerth y gradd helaethaf o'r anianol a'r cnawdol. Y canlyniad naturiol o hyn yw llusgo i mewn yn anghyfreithlawn ddefodau anawdurdodedig i wasanaeth Duw—pentyru defodau ar ddefodau, seremoniau ar seremoniau, nes o'r diwedd y bydd yr hyn sydd ysbrydol wedi ei lethu ganddynt fel "mèn lawn o ysgubau." Dyma ydyw hanfod yr hyn a elwir yn Ddefodaeth. Y mae y berthynas agosaf, ni a welwn gan hyny, rhwng ffurfioldeb a Defodaeth. Ar yr un pryd, y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Y mae defodaeth yn tarddu oddi ar ffurfioldeb; ond y mae ynddi elfen chwanegol, sef trais ar awdurdod Duw fel gwrthddrych addoliad i sefydlu defodau gwasanaeth ei addoliad. Y mae ffurfioldeb yn golygu fod y defodau yr ymorphwysir ar y cyflawniad allanol o honynt yn rhai o osodiad Dwyfol, ac felly yn gyfreithlawn. Y mae Cristionogaeth mewn perygl oddi wrth y naill a'r llall yn mhob oes, ac y maent yn wastad yn arwyddion sicr o ddechreuad gwrthgiliad mewn personau ac eglwysi.

Yr ydym yn hen gynnefin bellach â defodaeth eglwysi Rhufain a Groeg, ac yr ydym wedi arfer edrych arno fel un o nodau eu gwrthgiliad. Ond yn y blynyddoedd diweddaf hyn, y mae y gair *defodaeth* wedi derbyn ystyr newydd a chyfyngach—yn gosod allan y symmudiad, fel y gelwir ef, sydd yn cael ei wneyd gan un blaid yn Eglwys Sefydledig ein gwlad i ddwyn i ymarferiad ynddi ddefodau sydd mor anghyfreithlawn ac ofergoelus a'r eiddo Eglwys Rhufain ei hun. Y maent eisoes wedi llwyddo i raddau helaeth, fel y gwyddom; ac yn ol pob arwyddion, nid ydynt etto ond wedi derbyn blaenffrwyth eu llafur. Y mae o'r pwys mwyaf, gan hyny, i swyddogion ac aelodau eglwys Crist i sefyll ar eu disgwylfa, ac ymsefydlu ar eu tŵr, i wylio, i weddio, ac i weithio yn erbyn y cyfeiliornad hwn, sydd yn debyg o droi addoliad a gwasanaeth Duw yn ein gwlad yn chwareufa i ofergoeledd, ac yn y diwedd i ddelwaddoliaeth ei hun. Gallwn fod yn sicr, os na bydd i bob gwir Brotestant roddi ei ddylanwad er daioni yn erbyn y cyfeiliorni hwn, y bydd i ni dderbyn dylanwad er drwg oddi wrtho, a hyny yn ddiarwybod, fe allai, i ni ein hunain, yn ol y graddau y deuwn i gyffyrddiad âg ef. Goddefer i ni gan hyny i gymmeryd y cyfle hwn i wneuthur y sylwadau canlynol, y rhai a allant fod yn foddion i alw sylw mwy difrifol at ein dyledswyddau yn wyneb yr ymosodiad hwn ar ein Protestaniaeth, yn enwedig mewn cyssylltiad â phurdeb ac ysbrydolrwydd gwasanaeth ac addoliad cyhoeddus eglwys Crist.

Yn unol â'r amcan hwn, cynnygir, yn gyntaf, roddi disgrifiad byr o'r defodau yr amcenir eu dwyn i mewn gan y blaid hon i'r addoliad cyhoeddus—y rhai y maent, i fesur mawr, wedi llwyddo i'w wneuthur. Yn ail, ni a geisiwn ddangos fod y defodau hyn yn anfri ar yr Arglwydd Iesu fel Pen yr Eglwys yn y gweinyddiad o'i swyddau cyfryngol fel Brenin, Offeiriad, a Phrophwyd. Ac yn olaf, ni a geisiwn enwi rhai o'r achosion sydd wedi bod yn cydweithio gydag achlysuron ac amgylchiadau ffafriol i beri i'r ddefodaeth beryglus hon darddu a ffynu i raddau mor helaeth yn yr Eglwys Wladol.

Ar y pen cyntaf, y mae yn rhaid i ni ymfoddloni yn bresennol ar roddi yn unig ddisgrifiad byr o'r defodau amrywiol a gyflawnir, ac o'u hystyr arwyddocaol.

Digon ydyw dywedyd mai planigyn ydyw Defodaeth a dyfodd yn naturiol ar wely Tractariaeth Eglwys Loegr. Dyma yw blaenffrwyth cynhauaf yr hadau gwenwynig a hauwyd yn Nhraethodau Rhydychain. Nid gwrthweithiad i Galviniaeth ydyw, fel y mŷn Ellicott; nac fel y dywed ereill, dyhead am ddyfod â chrefydd i iawn berthynas â'r celfyddydau; na chwaith, dylanwad ffasiynau balchder ein hoes; nac fel y mŷn J. C. Morison, yn y "*Fortnightly Review*," gwrthweithiad i Resymoliaeth (*Rationalism*): ond yn hytrach, fel y dywed Esgob Llundain, y gyfundraeth a dyfodd i fyny yn annisgwyliadwy yn ein teyrnas ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ol, ydyw gwir darddiad dynol yr hyn a elwir yn bresennol yn *Ddefodaeth*. Dadblygiad naturiol Tractariaeth ydyw Defodaeth. Un gyfundraeth ydyw y naill a'r llall. Os edrychwn ar y gyfundraeth ar du y deall, ni a'i canfyddwn yn y ffurf o Dractariaeth; ac os edrychwn arni ar du y serchiadau a'r dychymyg, ni a'i canfyddwn yn y ffurf o Ddefodaeth.

Athrawiaethau Newman a Pusey wedi dyfod i mewn i'r dychymyg a'r teimlad, trwy ddylanwad y bardd Keble, ac ereill, a osododd i lawr sail Defodaeth; ac oddi yno drachefn y mae erbyn hyn wedi cymmeryd gwedd newydd, ac wedi dyfod i gyffyrddiad â galluoedd ymarferol y natur drwy y teimladau; a'r ffrwyth naturiol ydyw, fod Defodaeth wedi dyfod yn ymdrech cenhadol grymus, fel y dengys awdwr erthygl hynod ar hyn yn y "*Church and the World.*" Y mae yr ymdrech hwn eisoes wedi cyfarfod â llwyddiant mawr.

Bellach, ni a gymmerwn olwg ar rai o'r ffurfiau a'r defodau yr amcenir eu dwyn i mewn i'r addoliad. Y maent yn gynnwysedig mewn gwisgoedd, addurniadau, ystumiau, agweddau â seremoniau arwyddocaol, arwyddluniol, a chysgodol o ffeithiau ac athrawiaethau. Dysgir y gwirionedd ganddynt drwy ei chwareu nes ei *actio*. Y mae addoliad Duw yn eu dwylaw hwy yn dyfod yn ymddangosiad neu yn gyflawniad

Digitized by Google

chwareÿddol, a Christ a'r efengyl yn cael eu gosod allan o flaen dynion fel mewn chwareufa.

Cymmerer ychydig allan o liaws mawr o enghreifftiau. Llenwir yr eglwys neu y ganghell â mwg yr arogldarth a offrymir gan yr offeiriaid, i arwyddocau gweddïau y saint ac eiriolaeth Crist. Yn lle darllen i roddi y synwyr, fel y dysgai Ezra yr offeiriad yn ei amser ef, adroddir y geiriau ar dôn. Addurnir rhanau o'r addoldy â blodau ac â baneran. Llosgir canwyllau ganol dydd goleu, a chludir croesau yma a thraw. Ffurfir gorymdeithiau wrth fyned i mewn ac allan o'r eglwys, gan *chantio* wrth gerdded. Gwneir hyn weithiau o'r parsondy i'r eglwys, ac weithiau ar hyd yr heolydd yn y trefydd.

Y mae enwau y gwisgoedd, ynghyd â'u lliwiau, â'u harwyddocâd, yn lleng yn mron; megys, er enghraifft, yr *Amice*, yr *Alb*, y Gwregys, y *Stole*, y *Maniple*, y *Chasuble*, y *Dalmatic*, a'r *Tunic*:—wedi eu gwneuthur, rhai o lian, ereill o sidan, ereill o gotwm; a rhanau yn wyn neu yn goch, neu yn borphor, neu yn wyrdd, neu yn ddu: a rhai o honynt wedi eu haddurno âg ymylwaith, brodwaith, a goleuwaith, o'r fath wychaf. Gwisgir y rhai uchod gan yr offeiriaid, y diaconiaid, a'r is-ddiaconiaid. I'r esgobion y perthyn drachefn y meitrau teg. Y mae tri math o honynt: yn gyntaf, y feitr blaen, yr hon a wneir o lian gwyn heb addurn, ond yn unig ymylwaith aur neu ysgarlad ar y llabedau. Arferir hon mewn gorymdeithiau. Yn ail, y feitr aur. Y mae hon wedi ei brodweithio âg aur, ac wedi ei gwneyd o sidan gwyn. Yn drydydd, y feitr werthfawr, yr hon sydd wedi ei haddurno â gemau. Yn chwanegol at y meitr, y mae y ffon fugeiliol, yr hon a ddelir yn llaw ddeheu yr esgob i gyfranu, trwy ei dyrchafu, o'r fendith esgobol; hefyd y fodrwy esgobol, yr hon sydd o aur pur, a thlws o saphir neu rubi wedi ei ddodi ynddi. Gwisgir hon ar y llaw ddeheu. Drachefn, y mae ganddynt y groes archesgobol; weithiau o arian, weithiau o aur, ac yn pelydru gan emau. Dyma rai o'r gwisgoedd a'r addurniadau ag sydd yn prysur ddyfod i arferiad yn eglwysydd ein gwlad y dyddiau hyn.

A chofier nad addurniadau diystyr ydynt. Pe na buasent ond addurniadau o'r fath hyny, gallasem edrych arnynt gyda diogelwch fel teganau plant, ac ar yr ymarferiad â hwynt fel chwareu plant; ond yn ol eu haddefiad eu hunain, y maent yn arwyddion o athrawiaethau. Y mae y canwyllau a losgir yn arwyddo y ddwy natur yn mherson y Gwaredwr, a'u llosgiad yn y dydd yn arwyddo yr angenrheidrwydd o oleuni ffydd i oleuo tywyllwch rheswm. Arwydda yr *alb* wisg ddiwnïad yr Arglwydd Iesu—y gwregys a'r *stole*, y rhwymau â pha rai y rhwymwyd ef gan ei elynion—a'r *maniple*, y llinyn a rwymai ei arddyrnau. Arwydda y *chasuble* y wisg borphor a roddwyd am dano gan y milwyr. Mewn rhai lleoedd yn ystod y gwasanaeth, newidir a throir y naill a'r llall o'r gwisgoedd y tu mewn allan, a'r tu allan i mewn, fel y mae yr offeiriaid yn ymddangos fel pe byddent yn myned trwy fath o drawsffurfiad; ac y mae y cyfan yn arwyddo rhywbeth neu gilydd yn eu hathrawiaethau. Y mae y defodau hyn oll yn derbyn eu hystyr, medd y Defodwyr eu hunain, oddi wrth yr athrawiaeth Gatholicaidd, yr hyn sydd yr un peth ag athrawiaeth Eglwys Rhufain. Ni byddai dim yn haws i ni na rhoddi profion cadarn a sicr o hyn. Offeiriadaeth, aberth, cyffesiad, a maddeuant, gyda'u gilydd, sydd yn cyfansoddi ysbryd y peth byw sydd yn ymsymmud yn olwynion Defodaeth Eglwys Loegr; ac yn naturiol oddi ar y rhai hyn y mae parch gormodol a dibyniad ar weddïau y saint, addoliad y Forwyn, rhinwedd gwyryfdod, mynachaeth, ynghyd âg ofergoelion cyffelyb, yn graddol darddu y naill ar ol y llall. Y mae y cyffelybrwydd i Eglwys Rhufain mor fawr fel y gellir dyweyd hyn gyda diogelwch—os, fel y bernir yn gyffredin, Paganiaeth ydyw y ddraig yn Llyfr y Dadguddiad, a Phabyddiaeth yw y bwystfil, diau mai Defodaeth Eglwys Loegr ydyw delw y bwystfil. Fel y mae athrawiaeth y naill yn wir lun athrawiaeth y llall, felly hefyd y mae defodau y naill yn wir ddelw defodau y llall.

Amddiffynir y defodau Pabyddol hyn mewn amryw ffyrdd gan wahanol bersonau. Un ddadl, a'r hon a ystyrir, fe allai, y fwyaf ymddangosiadol a dylanwadol, yw eu bod yn dyfod â chrefydd i iawn berthynas â chelfyddyd. Dadleuir, gan fod y dychymyg yn un o'r galluoedd â pha rai y cynnysgaeddwyd ni gan y Creawdwr, a chan fod ffrwyth y dychymyg, fel y gwelir ef mewn cerfwaith, arluniau, ac addurniadau amryfal ereill, yn ddadblygiad naturiol o'r gallu hwn, a chan mai dyrchafu a chyssegru pob gallu ynghyd â'i ffrwyth y mae crefydd Iesu Grist, ac nid ei attal a'i ddarostwng, y gallwn yn rhesymol gasglu, nad oes dim yn anianawd (neu fel y gelwir ef gan y Saeson weithiau, *genius*) Cristionogaeth yn milwrio yn erbyn cyssylltu cynnyrchion y celfyddydau breiniol ac addurniadau dychymygol ereill â gwasanaeth addoliad Duw. Yr ydym yn mhell iawn o deimlo, a dymunwn fod mor bell a hyny oddi wrth ddywedyd dim yn ddarostyngol gyda golwg ar gelfyddyd yn ei pherthynas â chrefydd; ond er addef y dylai celfyddyd gael ei chyssegru a'i dyrchafu gan grefydd ar y naill law, a thalu ei theyrnged i grefydd ar y llaw arall, yr ydym i gofio fod llinell derfyn yn bod, yr hon nas gall celfyddyd ei chroesi yn gyfreithlawn, ac heb droseddu un o orchymynion Gair Duw—sef, yr ail orchymyn. Y mae gwneuthur unrhyw gynnyrch celfyddydol, breiniol neu anfreiniol, pa un bynag a fyddo ai gwisg ai canwyll, cerfddelw neu arlun, croes neu ffon, yn gyfrwng i wasanaethu Duw drwyddo a'i addoli, yn wir eilunaddoliaeth; ac y mae defnyddio y cyfryw fel moddion addysg sacramentaidd drachefn yn drais ar awdurdod Crist fel Pen a Brenin ei eglwys; a than y naill neu y llall y mae yn rhaid i'r defodau y cyfeirir atynt ddyfod. Tu yma i'r llinell derfyn hon, fe ddylai doethineb a chymmedroldeb ddysgu ein heglwysi i ba raddau y mae yn ddiogel cyssylltu cynnyrchion celfyddyd â'u haddoldai, ac â rhanau anhanfodol gwasanaeth addoliad y cyssegr. Mewn rhai amgylchiadau, fe ddysgai doethineb a gwyliadwriaeth Gristionogol ni i ymwadu hyd yn oed â'r graddau hyny o addurn a gwychder ag a fuasent ar amserau ereill, ac mewn amgylchiadau ereill, yn eithaf diogel, yn gystal ag yn ddiniweid.

Dadl arall ydyw, fod y defodau ymddangosiadol hyn yn llwybr mwy effeithiol i ddenu dynion i'r eglwys, ac i ddysgu gwirioneddau mawr crefydd Crist, na phregethu yr efengyl. Mewn attebiad i'r ddadl hon, gallwn sylwi fod areithyddiaeth, hyd yn oed anghyssegredig, yn fwy ei dylanwad ar serchiadau y lliaws, na'r celfyddydau breiniol:—pa faint mwy areithyddiaeth gyssegredig, neu bregethu yr efengyl? Ond yn annibynol ar unrhyw ystyriaethau o'r

Digitized by Google

fath yna, gwyddom fod "ffolineb Duw yn ddoethach na dynion," ac mai "trwy ffolineb pregethu y mae Duw wedi gweled yn dda gadw y rhai sydd yn credu." "*Good preaching is among the rarest of good things,*" medd un defodwr; ac oddi wrth hyn sylfaena ddadl am gael addurniadau i ddenu synwyrau. Ardderchog! Am ein bod, y rhan fwyaf o honom, yn bregethwyr rhy sâl i ddenu dynion i'n gwrandaw, ni a awn i siop y *draper* a'r *milliner*, ac a geisiwn ac a ymwisgwn mewn dilladau gwych a drudfawr i swyno ac i at-dynu y lliaws, er gwneuthur i fyny am ein hamddifadrwydd o ddoniau ysbrydol! Pa ham nad ânt yn hytrach mewn edifeirwch at Ben Mawr yr eglwys, yr hwn a "ddyrchafodd i'r uchelder...a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion," i ofyn iddo ef am eu "gwisgo â nerth o'r uchelder," a'u haddurno â "doniau yr Ysbryd Glân yn ol ei ewyllys ei hun," fel y byddai i oleuni eu gweinidogaeth ddenu, a thân eu gweinidogaeth sugndynu y miloedd i lanw yr eglwysydd hyd yr ymylon, ac y byddai iddynt hwy, nid mewn enw yn unig, ond mewn gwirionedd, borthi praidd Duw?

Ceisir hefyd wneuthur amddiffyniad o'r arferiad o'r defodau hyn ar seiliau ysgrythyrol. Er enghraifft, cymmerir y gwisgoedd perthynol i'r offeiriadaeth gynt yn sail i'w hamddiffyn; yr hyn sydd yn hollol afresymol, gan fod yr offeiriadaeth hono, fel y dengys awdwr yr Epistol at yr Hebreaid, wedi "ei newidio," a chyda'r offeiriadaeth y gyfraith hefyd. Y mae rhai o honynt drachefn wedi ceisio dyfod o hyd i'w hawdurdod yn un o Epistolau Paul, sef yr Ail at Timotheus. Darllenwyd papur yn ddiweddar gan un i geisio profi, er hyny yn ddifrifol, mai wrth y gochl a adawodd Paul yn Troas y mae yn rhaid i ni ddeall y *chasuble*. Y mae yn ammhossibl i ni gredu, hyd yn oed pe buasai ganddo aur i'w gwastraffu, y buasai efe byth yn rhoddi 220*p.* am ddernyn o wisg, fel y mae rhai Defodwyr yn gwneuthur y dyddiau hyn. Buasai yn llawer gwell ganddo, pe y gallasai gael cymmaint a hyny o arian, eu rhoddi yn y casgl i'r saint tlodion yn Ierusalem, na'u gwastraffu am wisg o'r fath. Y mae y gwir esboniad yn llawer mwy Methodistaidd. Pregethwr teithiol oedd yr apostol, fel y dengys Llyfr yr Actau; ac am hyny yr oedd mawr angen arno, wrth deithio dros fynyddoedd oerion, am gochl i'w ddiogelu rhag yr oerfel.

Yn bresennol, ni a geisiwn ddangos fod Defodaeth yn ddarostyngiad ar yr Arglwydd Iesu fel Pen yr eglwys, ac yn ei holl swyddau cyfryngol fel Brenin, Offeiriad, a Phrophwyd.

Yn gyntaf, y mae y dygiad i mewn o ddefodau anorchymynedig yn anfri ar awdurdod Crist fel Brenin. Y mae holl rediad yr Ysgrythyrau yn dangos mai ganddo ef fel Pen a Brenin ei eglwys, a chanddo ef yn unig, y mae yr hawlfraint i osod defodau a gwasanaeth Duw. Efe ydoedd yn gwneuthur hyny dan yr hen oruchwyliaeth. Wrth Moses, fel gwas yn ei dŷ ef, pan yn ymddiried iddo y gwaith o drefnu a rhoddi mewn grym ei osodiadau, dywedodd, "Gwêl ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portread a ddangoswyd i ti yn y mynydd," &c. "A Moses yn wir a fu ffyddlawn yn ei holl dŷ megys gwas." Gofalodd am wneuthur, nid yn unig y pethau mwyaf, ond y pethau lleiaf yn ol y portread:—nid yn unig yr arch a'r drugareddfa, yr allor aur a bwrdd y bara gosod, ond hyd yn oed y cawgiau a'r rhawiau, a'r cigweiniau, a'r pebyll, a'r hoelion, a'r cnapiau, a'r psaltyrnau, &c. Saif y dystiolaeth hon fel cofgolofn ar faes yr Ysgrythyrau o'i ffyddlondeb manwl mewn ufudd-dod i orchymyn Duw, ac yn rhybudd ac yn ocheliad rhag ymyrwaith pechadurus defodwyr o bob math hyd ddiwedd amser. Y mae pob ymgais at osod defodau dynol yn gyssylltiedig â rhanau hanfodol gwasanaeth Duw yn anfri ar ei ddoethineb, ac yn ammharch ar ei sancteiddrwydd. Y mae chwanegu at ei osodiadau—yr hyn ydyw hanfod Defodaeth—yr un mor bechadurus ag ydyw chwanegu at ei eiriau—yr hyn yw hanfod traddodiad. Yn addoliad Duw, y mae yn llawn cymmaint o bechod gwneuthur yr hyn sydd heb ei orchymyn, ag ydyw esgeuluso gwneuthur yr hyn sydd wedi ei orchymyn. Y mae y naill yn anfri ar ddoethineb Duw, a'r llall ar ei sancteiddrwydd. Onid y chwanegiad anghyfreithlawn hwn ydyw nodwedd addoliad llygredig y byd paganaidd, a'r un modd drachefn addoliad dirywiedig plant Israel? Cawn yr Arglwydd yn beio y genedl, nid yn unig am esgeuluso gwneuthur yr hyn a orchymynasai, na chwaith yn unig am wneuthur yr hyn a waharddasai, ond hefyd am wneuthur yr hyn nis gorchymynasai: *Ier.* vii. 31; *Hos.* xiii. 2.

Gwyddom fod y Creawdwr yn y byd naturiol wedi rhoi sêl ei anghymmeradwyaeth mewn anffrwythlondeb ar bob cymmysgrywiaeth; ac y mae hanes eglwysi Groeg a Rhufain, a'r eglwysi Iuddewig yr un modd, yn profi ei fod wedi gosod ei sêl mor arbenig a hyny yn erbyn pob ymgais i gymmysgu a chwanegu y dynol at y Dwyfol yn ngosodiadau gwasanaeth ei dŷ.

Y mae yr apostol yn ei lythyr yn rhybuddio y Colossiaid (*pen.* ii. 20—23) rhag cymmeryd eu twyllo am eu gwobr, wrth ewyllys dynion oedd â'u hamcan at hyny; ac yna y mae yn egluro yn mha fodd yr oedd yn bossibl iddynt gael eu twyllo. Cyfeiria at dri math gwahanol o ddefodaeth, y rhai ydynt yn tarddu o dair ffynnonell wahanol. Yr oedd y gyntaf yn codi oddi ar ymlyniad cyndyn wrth yr hen ddefodau Iuddewig, y rhai oeddynt erbyn hyn wedi eu dileu, ac nad oeddynt mwy yn osodiadau Dwyfol:—"Pa ham yr ydych, megys pettych yn byw yn y byd, yn ymroddi i ordeiniadau?" Yr ail fath oedd y rhai oedd yn tarddu oddi wrth athrawiaethau philosophi gymmysgedig yr oes:—"Na chyffwrdd; ac na archwaetha; ac na theimla." Ac yr oedd yr olaf yn codi o ddyfais ofergoeledd pur:—"Yn ol gorchymynion ac athrawiaethau dynion." I'r olaf hwn y mae Defodaeth Eglwys Rhufain ac Eglwys Loegr yn cyfatteb yn fwy cywir. Gorchymynion ac athrawiaethau dynol ydyw gwir sail Defodaeth Eglwys Loegr. Gyda golwg ar y dosbarth olaf hwn, dywed yr apostol, "Yr hyn bethau sydd ganddynt *rith* doethineb:" yn gyntaf, mewn ewyllys-grefydd; yn ail, "mewn gostyngeiddrwydd;" ac, yn olaf, mewn cospi, neu yn nacaol, bod heb "arbed y corph," &c—rhith ufudd-dod yn yr ewyllys, rhith gostyngeiddrwydd yn yr ysbryd, a rhith sancteiddrwydd yn y galon. At y cyntaf y cyfeiriwn ni yma yn fwy arbenig; sef, rhith ufudd-dod yn yr ewyllys.

Hen esgus ewyllys-grefydd ydyw ceisio perswadio dynion fod gwasanaethu Duw trwy gyfrwng gosodiadau chwanegol, yn amlygiad o fwy o ewyllys, ac o ganlyniad o fwy o ufudd-dod; heb ystyried fod ymattaliad rhag chwanegu at osodiadau Duw yn amlygiad gwell o ufudd-dod

Digitized by Google

i'w ewyllys na cheisio chwanegu atynt. Ar yr un pryd, y mae o bwys i ni gadw mewn golwg fod gwahaniaeth hanfodol rhwng defodau a threfniadau; o herwydd nid oes dim yn fwy amlwg wrth ddarllen hanes yr Eglwys Apostolaidd yn Llyfr yr Actau, ac yn yr epistolau, na bod rhyddid wedi ei roddi i eglwys Crist gan ei Phen Mawr i appwyntio trefniadau cyfaddas i'w hamgylchiadau ar y pryd. Y mae y rhyddid hwn wedi ei roddi iddi o fewn terfynau amlwg. Un o'r terfynau hyny ydyw, gwedd-eidd-dra a threfn:—"Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn." Dylai yr holl drefniadau fod yn cydweddu â gweddeidd-dra natur a chymdeithas, ac hefyd a threfn yr eglwys ei hun. Yr ail derfyn yw, na ddylai yr eglwys sefydlu unrhyw osodiadau a fyddont yn rhanau hanfodol o wasanaeth Duw; ond yn hytrach y cyfryw yn unig ag a fyddont yn gweini ac yn gynnorthwyol i weddeidd-dra a threfn. Yn hyn y mae y gwahaniaeth hanfodol rhwng Trefnyddiaeth a Defodaeth. Y mae yr olaf yn euog o sefydlu, yn unig yn ol mympwy dynol, ranau anawdurdodedig yn ngwasanaeth ac addoliad Duw; tra y mae y cyntaf yn amcanu yn unig, yn ol y mesur o ddoethineb a gyfrenir i'r eglwys fel ffrwyth ymgynghoriad pwyllog a gweddi gyda hyny, i weinyddu y gwasanaeth a'r addoliad yn unol â chyfarwyddyd Duw.

Yn ail, y mae Defodaeth yn gwrthdaraw y gwirionedd mawr am berffeithrwydd offeiriadaeth ac aberth yr Arglwydd Iesu Grist. Y mae yn milwrio yn erbyn unigolrwydd ei offeiriadaeth, perffeithrwydd ei aberth, a pherffeithiad yr eglwys o ran ei sefyllfa yn ei pherthynas âg addoliad Duw. Cymmerwn olwg am foment ar y peth cyntaf. Yn ol yr addysg a gawn yn y Beibl, nid oes ond un Cyfryngwr rhwng Duw â dynion; ac o ganlyniad, nis gall fod ond un offeiriad yn ystyr swyddol a chyfryngol y gair. Nid oes ond un a all fyned i sefyll rhwng Duw a phechadur; a chabledd ofergoelus yw beiddio chwanegu at yr un Archoffeiriad Mawr. Y mae efe ei hun yn llanw y drychfeddwl hyd yr ymyl. Dan y gyfraith yr oedd llawer yn cael eu gwneuthur yn offeiriaid cysgodol o'r un Archoffeiriad Mawr. Yr oedd eu lliosogrwydd yn gyfaddefiad mewn gweithred o'u hannigonolrwydd; ond y mae Crist yn llanw drychfeddwl y swydd yn ei berson unigol ei hun. Nid oes neb gan hyny i'w ddilyn. O'r holl leoedd y defnyddir y gair ynddynt yn y Testament Newydd, nid oes gymmaint ag un yn yr hwn y cymmhwysir ef at weinidogion yr efengyl. Y mae y ffaith hon, o'i hystyried yn bwyllog, ac yn ei holl gyssylltiadau, yn ddyrnod marwol i honiadau beiddgar y Defodwyr—sef, fod gwir weinidogion y Testament Newydd yn offeiriaid yn ystyr swyddol a chyfryngol y gair.

Eilwaith, y mae yr ymgais hwn i barhau defodau arwyddocaol a chysgodol yn anfri ar berffeithrwydd aberth Crist. Y mae ymchwiliad diduedd i dystiolaethau y Beibl yn rhwym o ddangos i ni fod perffeithrwydd aberth Crist yn gyfryw ag i roddi terfyn bythol ar yr angenrheidrwydd am y defodau a'r cysgodau oedd wedi eu hordeinio gan Dduw i'w ragddangos:—megys, "Y rhai ydynt gysgod pethau i ddyfod, ond y corph sydd o Grist." O'r blaen, nid oedd genym ond cysgod y pethau, ac yr oedd y cysgod o Grist; ond yn awr, y mae y corph neu y sylwedd genym, a hwnw hefyd o Grist. O'r blaen yr oedd y Person mawr yn y cysgodau, ac efe ynddynt hwy oedd yn rhoddi iddynt eu holl fodolaeth, a'u holl ystyr a'u grym; ac efe drwyddynt oedd ffynnon fawr bywyd a rhinwedd ysbrydol drwy yr holl oesoedd. Ond yr oedd ynddynt mewn sefyllfa guddiedig, fel y planigyn yn yr eginyn, yn dyheu ac yn disgwyl am yr adeg i ymddadblygu ac ymwthio allan i awyr a goleuni. Fel y mae y llysieuyn bychan ar ol egino yn guddiedig am ysbaid yn nghól y *cotyledon*, fel y gelwir y ddeilen gyntaf, yr hon sydd fel amdo o'i hamgylch, yn rhoddi diogelwch a chysgod iddo, tra y mae yn cael ei "gywreinio yn ddirgel yn iselder y ddaear," ac o'r hwn y mae o'r diwedd yn ymwthio ac yn ymweithio i'r golwg—felly hefyd y bu Planigyn Dafydd a Blaguryn Iehofah am oesoedd yn llechu yn guddiedig yn mynwes yr hen seremonïau, nes o'r diwedd, trwy nerth bywyd annherfynol yn tarddu o angeu terfynol, yr ymwthiodd allan o honynt oll i sefyllfa uwch ac agosach: ac fel y mae y ddeilen farchawl, yr hon a roddes loches i'r eginyn gwan am dymmor, yn tawel ymfoddloni i raddol wywo a diflanu, megys o honi ei hun, gan roddi lle i'r planhigyn bywiol o hyny allan i ymddadblygu yn ei brydferthwch a'i ffrwythlondeb cynhenid ei hun, felly darfu i'r hen seremonïau hyn, er mor amrywiol a lliosog oeddynt, megys o honynt eu hunain raddol wywo a diflanu yn ymddangosiad Mab Duw i'w aberthu ei hun. Yr oedd "y bachgen" a welodd Esaiah trwy ddrych prophwydoliaeth cyn ei eni, fel ar ol ei eni, megys wedi ei rwymo mewn cadachau; a gellid meddwl ei fod yn anesmwyth am ymryddhau o dan eu pwysau. Llaciai a thaflai y naill ar ol y llall o honynt fel yr oedd dydd ei ymddangosiad yn y cnawd yn nesau. Yr oedd hen ddodrefn y cyssegr yn colli o un i un fel yr oedd yr adeg i roddi y dodrefn newydd ynddo yn agoshau. Ac fel y mae y naill arwydd o sêr ar ol y llall (arwydd yr hwrdd, neu arwydd y llew, neu arwydd y tarw, ac felly yn y blaen) a'r naill blaned ar ol y llall (Mercher, Iau, a Sadwrn, a Gwener ddisglaer ei hun) yn diflanu pan y mae yr haul yn ymbarotoi i ddyfod allan o'i ystafell, felly yr oedd arwyddion y cysgodau a sêr y seremonïau, y naill ar ol y llall, yn diflanu o'r golwg, ac yn iaith yr eglwys yn y Caniadau, yn "cilio" wrth ddynesiad yr haul mawr. Ciliodd yr Urim a'r Thummim, arwydd goleuni a pherffeithrwydd, i ddechreu, megys heb yn wybod i neb; ac ar eu hol hwy diflanodd yn ddistaw y crochan aur â'r manna ynddo; a phan aethpwyd ryw ddiwrnod i ymofyn am wialen Aaron i gadarnhau yr offeiriadaeth yn y llwyth, yr oedd hi wedi diangc ymaith, a'i blagur wedi tragwyddol wywo mwy; ac ar ol hyny o'r diwedd, cywilyddiodd yr arch a'r drugareddfa, ïe, a'r Shecinah disglaer ei hun, i roddi lle i oleuni disgleiriach. Pan gyrhaeddo yr haul y canolddydd, y mae y cysgodau yn cilio o'r golwg; felly yn ymddangosiad Mab Duw i'w aberthu ei hun, aeth yr holl ddefodau cysgodol o'r golwg am byth.

Ond pa beth ydyw ystyr hanfodol yr hyn y mae y defodwyr hyn yn ymgais am dano? Ceisiant roddi goleuni y nos yn lle goleuni y dydd, trwy ail sefydlu defodau cysgodol ac arwyddluniol. Ac fel y mae y chwareuwyr pan yn cyflawni eu chwareyddiaethau, fel y gwnant ar adegau neillduol yn y dydd yn lle y nos, yn ofalus i gau goleu y dydd allan o'r chwareudy, er mwyn gosod allan i well mantais yr addurniadau a'r *draperies* sydd ar ac o amgylch y chwareufa, felly y maent hwythau yn ceisio

Digitized by Google

dwyn i mewn athrawiaethau defodol, neu y defodau athrawiaethol hyn, i gysgodi y gau addurniadau a ddygir i mewn ganddynt i gyssylltiad âg addoliad Duw, i'w lygru a'i ddifwyno. Dywed seryddwyr wrthym y gallwn, os bydd arnom awydd am hyny, weled sêr ganol dydd, ond i ni fyned i waelod pydew dwfn. Pa beth ydyw defodaeth Eglwys Loegr y dyddiau hyn ond pydew dwfn a gloddiwyd yn Rhydychain i gau allan ddisgleirdeb goleu y dydd, ac i ddwyn i'r golwg etto oleuni gwanaidd y nos? Mor wahanol yr ymddygai yr eglwys yn y Caniadau! Ei hoff waith hi ydoedd—nid disgyn i bydewau, ond dringo i ben y mynyddoedd i wylio am y wawr, ac i edrych allan am arwyddion codiad haul o'r uchelder. "Tyred gyda mi o Libanus, fy nyweddi, gyda mi o Libanus; edrych o ben Amanah, o gopa Senir a Hermon, o lochesau y llewod, o fynyddoedd y llewpardiaid." "Hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau, af i fynydd y myrr, ac i fryn y thus." Ond ofer ydyw eu gwaith yn ceisio cyfanu yr hyn a ddilëodd Mab Duw yn ei angeu ar y groes—yr hwn a "ddilëodd yr ysgrifen-law," sef deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau. *Bill* y ddeddf foesol oedd y ddeddf seremoniol. Yn yr aberthau hyny y mae adgoffa pechodau bob blwyddyn; ond ar y groes fe dalodd y Gwaredwr y ddyled; ac wrth dalu y ddyled, fe ddrylliodd y *bill*, fe ddilëodd yr ysgrifen-law; ac am hyny ofer a fydd holl ymdrech defodwyr yr oesoedd i gasglu darnau a drylliau yr hen ysgrifen, yr hon oedd yn ein herbyn, ac yn wrthwyneb i ni.

Ceisiwn yn nesaf ddangos fod y sefyllfa o berffeithrwydd gogoneddus i'r hon y mae yr eglwys wedi ei dwyn o ran gwasanaeth ac addoliad Duw trwy aberth Crist yn gyfryw ag sydd yn hollol anghysson âg ymarferiad â "defodau cnawdol." Yr oedd Duw wedi cynllunio y perffeithrwydd hwn ar gyfer ei eglwys o'r dechreuad. Trefnodd i'w ddwyn i ben trwy ddadblygiad o'r hyn oedd ammherffaith; nid o herwydd diffyg gallu ynddo ef, ond o herwydd diffyg cyfaddasder ynom ni. Bu eglwys Dduw am oesoedd lawer mewn cyflwr o ammherffeithrwydd a chaethiwed yn ei holl berthynasau. Yr oedd ei dysgeidiaeth, ei haddoliad, a'i llywodraeth yn ammherffaith. Yr oedd, fel y dywed yr apostol, yn gaeth dan wyddorion y byd, ac yn analluog i sylweddoli y cynllun mawr a goruchel o berffeithrwydd ag oedd wedi ei fwriadu ar ei chyfer. Tuag at hyn, yr oedd yn rhaid cael rhywbeth uwch na'i hymdrech hi ei hunan, sef gallu a grym haeddiant un aberth perffaith. "Canys âg un offrwm y perffeithiodd efe yn dragwyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio." Mewn canlyniad i'r aberth hwn, cafodd yr eglwys ei dyrchafu ar unwaith i'w sefyllfa uchaf a therfynol o ran dysgeidiaeth, gwasanaeth, a llywodraeth. Awgrymodd Crist ei hun y gwirionedd yn y gair "Gorphenwyd" ar y groes. Y mae y gair yn arwyddo y drychfeddwl o berffeithrwydd. Yr un gair sydd gan yr apostol pan y dywed, "Ni pherffeithiodd y gyfraith ddim." Fel yr oedd yr aberthau gynt yn analluog i berffeithio yr addolydd o ran cydwybod, felly yr oedd y defodau yn analluog i'w berffeithio o ran serchiadau. Y mae yr ysbryd sydd mewn dyn, pan wedi ei lanw â'r Ysbryd Glân, yn alluog o ddyfodfa uwch, mwy rhydd, ac agosach at Dduw, na thrwy ddefodau cnawdol. Pe na buasai Duw wedi meddwl adnewyddu ein natur trwy ei Ysbryd ar ei ddelw ei hun, nid ydym yn gweled pa ham na buasai defodau cnawdol yn ddigonol fel gwasanaeth i barhau hyd ddiwedd y byd; ond gan ei fod, buasai yn rhesymol i ni ddisgwyl i'r eglwys gael ei rhyddhau oddi wrthynt i ryddid ysbrydolrwydd. Yn unol â hyn, dywed yr apostol eu bod wedi eu *gosod* ar yr eglwys "hyd amser y diwygiad." Arwydda y gair *gosod*, gorphwys megys baich trwm. Nid oedd y defodau hyn yn tueddu at ddyrchafu ysbryd dyn, ond yn hytrach yr oeddynt yn ei ddal i lawr. Yr oeddynt yn fwy o attalfeydd am dymmor rhag yr hyn oedd waeth nag o gynnorthwyon i ymgyrhaedd at yr hyn oedd uwch. Gelwir hwynt yn "iau drom," ac yn "iau caethiwed." Yr oedd eu hamledd o ran nifer, eu haneglurder o ran ystyr, a'r cospedigaethau cyssylltiedig â phob trosedd ac anufudd-dod iddynt, yn eu gwneuthur yn faich trwm ar wâr yr eglwys am oesoedd meithion. Trwy drugaredd, yr oedd terfyn wedi ei appwyntio i ddwyn y baich hwn—"hyd amser y *diwygiad*;" neu fe allai yn fwy cywir, "yr addrefniad." Y mae Dr. Owen yn dangos fod y gair *diwygiad* yn ammhriodol, gan ei fod yn golygu symmud ymaith arferion a defodau diawdurdod—yr hyn nid oedd wir am y rhai hyn. Arwydda y gair, *gosod pethau yn eu lle terfynol:* —gosod y sylwedd yn y lle yr oedd y cysgod, gosod y gras ysbrydol yn y lle yr oedd y defodau cnawdol, gosod aberth Crist yn lle yr hen aberthau gynt. Ond pa beth a wna Defodwyr y dyddiau diweddaf? Ceisiant ad-drefnu addrefniad, a diwygio diwygiad Crist ei hun. Y maent yn anturio dyfod ar ol y Brenin. Ac y maent yn rhyfygu ceisio gwella gwaith yr hwn sydd berffaith ei weithred.

Yn olaf ar hyn, y mae ceisio sefydlu cyfundraeth i ddysgu dynion yn mhethau yr efengyl, trwy ddefodau cnawdol, yn ddiystyrwch ar Iesu Grist fel Prophwyd ei eglwys. Trwy ei air yn allanol, a thrwy ei Ysbryd yn fewnol, yn unig y mae y Prophwyd mawr yn dysgu ei bobl. Gan fod yn rhaid addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd, y mae yntau wedi ymgymmeryd yn ei swydd brophwydol i'w dysgu mewn gwirionedd trwy ei air, ac mewn ysbryd trwy ei Ysbryd. Dysgai ei eglwys gynt yn y gwirionedd, yn enwedig yn yr addoliad cyhoeddus, trwy ddefodau a seremoniau. Trwy ffenestr y cysgodau, dangosai o hyd, o bryd i bryd, er yn dywyll ac aneglur, gyfoeth iachawdwriaeth trwy faddeuant pechodau. Ond yn awr, y mae yn ei dysgu trwy eiriau, yn hytrach na thrwy ddefodau. "Gwyddorion" y geilw yr apostol y defodau gynt. Yn y wyddor yr oedd yr eglwys cyn i Iesu Grist, y Prophwyd mawr, ymddangos; ond yn awr y mae wedi ei chodi ganddo ar unwaith o'r wyddor i'r llyfr—oddi wrth y defodau at y Gair—oddi wrth addysg y plentyn i addysg y dyn. Nid oedd yn gymmhwys i dderbyn yr addysg hwn cyn ei ymddangosiad ef; ond y mae erbyn hyn wedi cyrhaedd mesur oedran i gyfranogi o hono. Sefyllfa isel ar ddyn ydyw yr hon y mae ynddi pan yn gorfod dysgu a chael ei addysgu trwy arwyddluniau. Y mae arwyddluniau yn cuddio ac yn gorchuddio y gwirionedd i fesur. Dywed y bardd Tennyson fod hyd yn oed geiriau yn cuddio cymmaint ag y maent yn eu dadguddio —pa faint mwy arwyddluniau a defodau? Pan fyddo llawer o ddillad am y corph, y mae yn anhawdd canfod ei ffurf a'i lun; ond trwy wisg deneu a thryloew, canfyddir prydferthwch ei lun yn llawer mwy perffaith. Yr oedd y defodau gynt fel dillad, yn blygion ar blygion o

amgylch y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, fel yr oedd yn anhawdd ei ddirnad a'i adnabod; ond erbyn hyn, y mae y dillad wedi eu dodi heibio, ac yn eu lle y mae corph y gwirionedd genym, a ffurf yr ymadroddion iachus wedi eu dadguddio i ni yn y Gair sanctaidd. Yn oesoedd cyntaf y byd, ac yn ystâd babanaidd boreuol dynolryw, yr oedd drychfeddyliau arddansoddol yn cael eu dysgu trwy arwyddluniau, ac nid trwy eiriau. Yr un modd bu yr eglwys am oesau lawer mewn ystâd o fabandod moesol, yn yr hon nid oeddid yn ei dysgu ond trwy *hieroglyphics* cysgodau a defodau cnawdol. Cymmerodd oesau lawer iawn i barotoi geiriau cyfaddas i gyffroi drychfeddyliau mawrion trefn yr iachawdwriaeth. Gwaith araf iawn, a gwaith cyfnodau maith yn aml ydyw parotoi gair i gyfleu yn briodol ddrychfeddwl mawr. Y mae drychfeddyliau yr efengyl yn gyfryw mewn mawredd ac ardderchawgrwydd fel y cymmerodd oesoedd o hanes y byd i barotoi a chymmhwyso geiriau priodol a digonol i ddal a dangos y drychfeddyliau, a chymmerodd hefyd oesoedd lawer i barotoi y drychfeddyliau i'r pethau oedd i'w sylweddoli a'u llanw. Yn y cyfwng, gan hyny, yr oedd yn rhaid i'r eglwys gael ei dysgu yn benaf trwy arwyddion a chysgodau. Ond yn sylwedd mawr yr holl gysgodau gynt, yn ei Berson anfeidrol ef fel Iawn, daeth y pethau i fod ag oedd yn cyfatteb i'r drychfeddyliau. Llanwyd y drychfeddyliau yn y fan â'r pethau, a bywhawyd y geiriau gan y drychfeddyliau; a thrwy y geiriau bywiol hyn, a'r gwirionedd ynddynt, wedi eu cymmhwyso gan yr Ysbryd Glân fel Ysbryd y gwirionedd, y mae yr Athraw Mawr yn dysgu ei bobl, gan eu hyfforddi i ddeall dirgelwch Duw mewn doethineb. Yn unol â hyn, buasai yn hollol ofer, o ran dysgeidiaeth ei eglwys, i Iesu Grist ymddangos yn nechreu y byd; ac am hyny "yn niwedd y byd yr ymddangosodd" unwaith i'w aberthu ei hun. Yn ei aberth y gosododd i lawr sail perffeithrwydd dysgeidiaeth ei eglwys, ac y dyrchafodd ei eglwys am byth uwch law yr angenrheidrwydd am ddysgu y byd trwy ddefodau arwyddluniol.

Ni a ganfyddwn yma y gwir atteb i ddadl y Defodwyr—fod rhan fawr o ddynolryw etto, ac hyd yn oed llawer âg enw Cristionogion arnynt, mor fabanaidd o ran cyflwr eu meddyliau ag oedd y genedl Iuddewig gynt, ac am hyny nad ydynt uwch law yr angen am laeth Defodaeth, yn hytrach nag am fwyd cryf. Y mae y ddadl yn hollol ddirym, am y rheswm mawr fod y Gair genym, ac yn y Gair y geiriau. Y mae geiriau yr iachawdwriaeth wedi eu gwneuthur yn barod ar ein cyfer ni, a gallwn am hyny esgyn yn ol trwy y geiriau at y drychfeddyliau, a thrwy y drychfeddyliau at y pethau, a thrwy y pethau at y Person Mawr ei hun. Ac am hyny, pan fyddo eglwys Crist yn ei gwaith cenhadol yn anfon dynion allan i ddysgu tywyll leoedd y ddaear, nid oes angen am eu hyfforddi yn gyntaf trwy osod i fyny gyfundraeth o ddefodau—ond ar unwaith arwain eu meddyliau trwy eiriau at ddyfnion bethau Duw. Pan elo cenhadon allan i'r India, nid rhoddi y trigolion a wnant am gyfnod maith yn llaw y ddeddf, i'w harwain at Grist trwy ddefodau amrywiol; ond eu harwain eu hunain ato i gael eu dysgu ganddo: ac mewn ychydig flynyddoedd, gwelir ffrwyth toreithiog yno. Y mae yn y wlad bellenig hono heddyw liaws o fechgyn duon, y rhai ydynt yn gyfryw mewn gwybodaeth a dysgeidiaeth yr efengyl, fel y cywilyddient laweroedd o offeiriaid defodol Eglwys Loegr. Gellir dyweyd yr un modd am feusydd cenhadol ereill hefyd.

Ond pa beth a ddywedwn etto am y defodau hyn? Mynant ddwyn yr eglwys a'r byd yn ol i'w cyflwr babanaidd. Ceisiant ddodi y wyddor yn eu llaw, yn lle y Gair. Ant yn ol, ac nid yn mlaen. Ceisiant beri i eglwys Crist, fel y Galatiaid gynt, wedi iddynt ddechreu yn yr Ysbryd, gael eu perffeithio yn y cnawd.

Dadleuir yn awr gan y Defodwyr mai arwyddion ydyw geiriau eu hunain. Y mae yr wrthddadl hon yn sylfaenedig ar gamsyniad mawr yn nghylch gwir natur geiriau. Ar un llaw yn wir, ni a addefwn fod geiriau yn arwyddion, sef fel y maent yn dwyn perthynas â natur; ond y mae geiriau, ar y llaw arall, yn dwyn perthynas âg ysbryd. "A word," medd Coleridge, "is something between a thing and a thought." Nid arwyddluniau difywyd, gan hyny, ond arwyddion byw a bywiol ydyw geiriau, o natur annhraethol uwch na phob defodau meirwon a chnawdol.

Yn olaf, ceisiwn nodi yr achosion a'r achlysuron i ba rai y mae i ni briodoli cyfodiad a chynnydd Defodaeth. Ni chaniateir i ni yn yr erthygl hon ond yn unig grybwyll a sylwi yn fyr ar y rhai hyn.

Yn gyntaf ar hyn, gallwn nodi mai yr achos mawr a dwfn o Ddefodaeth, yn ystyr cyffredinol y gair, ydyw yr awydd a'r duedd sydd yn y meddwl dynol am geisio adnabod ac ymwneyd â'r anweledig trwy y gweledig, fel y mae wedi ei lygru trwy bechod. Ynddo ac o hono ei hun, tybygir nad yw y duedd hon yn bechadurus; ond yn hytrach rhaid i ni olygu yr awydd fel yn un cynhenid, wedi ei blanu ynom yn wreiddiol gan y Creawdwr. Yr oedd yr amlygiadau gweledig a roddes Duw o'i briodoliaethau goruchel yn y greadigaeth yn gyfaddas i ddigoni, os nad i lanw yr awydd hwn, pan a thra yr oedd dyn yn ei sefyllfa wreiddiol yn yr hon y crewyd ef. Ond mewn canlyniad i lwgr ei natur trwy y cwymp, daeth i gyffyrddiad â'r llwgr hwn, neu yn hytrach y llwgr i gyffyrddiad âg ef; ac mewn canlyniad, y mae yr awydd sydd yn meddwl dyn am gael amlygiadau gweledig o'r anweledig trwy ei synwyrau, ac am ymwneyd â'r anweledig trwy y gweledig, wedi ei lygru i fod yn gnawdolrwydd. Hanfod cnawdolrwydd ydyw synwyriaeth llygredig. Y mae synwyriaeth yn waith Duw—ond cnawdolrwydd yn waith dyn. Y cnawdolrwydd hwn ydyw ffynnonell holl eilunaddoliaeth y byd ar y naill law, a ffynnonell Defodaeth y byd ar y llaw arall. Y gwrthwenwyn mawr i'r naill ydyw yr ymgnawdoliad, a'r gwrthwenwyn mawr i'r llall ydyw gogoneddiad a dyrchafiad y Person Mawr yn ei ddynoliaeth weledig a'i swyddau goruchel.

Yn ail, os golygwn Ddefodaeth yn ystyr eglwysig y gair—neu mewn geiriau ereill, fel y mae yn bossibl iddo fod mewn eglwysi neillduol a gwirioneddol i Dduw, ond yn peryglu i'r cyfryw eglwysi syrthio i hollol wrthgiliad, a thrwy hyny beidio a bod yn wir eglwysi mwyach—gellir enwi ffurfioldeb a diffyg ysbrydolrwydd fel yr achos mwyaf ffrwythlawn. Gan ein bod eisoes wedi sylwi ar hyn yn y rhagarweiniad, nid oes angen ymhelaethu. Y mae o'r pwys mwyaf i ni gofio yn wastad mai addoliad ysbrydol sydd yn gymmeradwy gan Dduw, ac mai hanfod ysbrydolrwydd ydyw fod ysbryd dyn wedi ei lanw a'i drefnu gan Ysbryd Duw fel Ysbryd Crist.

Digitized by Google

Dyma ydyw gwir ystyr y gair *ysbrydol* yn y Testament Newydd. Y mae yn fwy na thebyg nad ydyw y gair *ysbryd* yn cael ei ddefnyddio ynddo oll heb ei fod o leiaf yn golygu Ysbryd Duw. Os collir Ysbryd Duw yn ei bresennoldeb a'i ddylanwadau ysbrydol o eglwys neu eglwysi, nid oes dim i'w ddisgwyl fel canlyniad ond ffurfioldeb a Defodaeth. Y mae Dr. Owen, yn ei bregethau ardderchog, a elwir "*The Chamber of Imagery*," wedi dangos yn eglur a chadarn iawn mai dyma ydyw hanfod Defodaeth Eglwys Rhufain:—rhith duwioldeb ar ol colli ei grym, yn gosod i fyny ddelweddau meirw o athrawiaethau mawrion a gwasanaeth gogoneddus yr efengyl, i lanw eu lle. Os collwn ninnau yn yr oes hon, trwy ddiffyg gweddi a gwyliadwriaeth, Ysbryd yr Arglwydd o'n plith, bydd y canlyniad yn gyffelyb. Byddwn ninnau yn rhwym o lithro yn raddol i ffurfioldeb, ac o ffurfioldeb i ddefodau cnawdol. Os colli a wnawn ninnau oleuni yr Ysbryd, bydd arnom ninnau eisieu canwyllau i wneyd i fyny am absennoldeb y goleuni uwch. Os collwn addurn-ddoniau a grasau yr Ysbryd Glân, byddwn yn rhwym o ymofyn am wisgoedd gwychion ac addurnfawr oddi allan, yn lle y gwir addurn oddi fewn. Os collwn bêrarogl presennoldeb Duw, bydd yn rhaid i ni gael rhyw arogldarth arall, cnawdol a defodol, yn ei le.

Yn drydydd, gallwn enwi bydolrwydd fel achos ffrwythlawn arall o Ddefodaeth eglwysig. Y mae rhai offeiriaid efengylaidd Eglwys Loegr yn priodoli cyfodiad Defodaeth yn eu heglwys hwy i fydolrwydd fel y prif achos. Barnwn eu bod yn camgymmeryd yn hyn; ond ar yr un pryd, y mae yn achos, er nad yn brif achos. Y mae y dynion mwyaf duwiol a sylwgar yn barnu mai bydolrwydd ydyw nodwedd mawr yr oes bresennol: ac nid oes dim ammheuaeth nad yw eglwys Crist yn mhlith y gwahanol enwadau yn cael ei nodweddu gan yr un pechod i raddau mawr iawn. Y mae yn amlwg hefyd mai y ffurf arbenig sydd iddo yn yr oes hon yw ymddangosiad—awydd i ddangos allan, mewn tai, gwisgoedd, ac arferion, &c. Nid ydyw gan hyny yn rhyfedd fod Defodaeth eglwysig y dyddiau hyn wedi cymmeryd y ffurf bennodol o ddilladaeth gorwych a drudfawr. Yr ydym yn cofio fod Neander yn sylwi, yn ei "*Hanesiaeth Eglwysig*," mai bydolrwydd yr eglwys fu yn achos ffrwythlawn o ddygiad defodau cnawdol i mewn iddi yn yr oesoedd cyntaf; a diau fod yr un achos yn cynnyrchu ffrwyth cyffelyb yn ein hoes ninnau. Nid oes ond cam rhwng ein bod ein hunain yn cydffurfio â'r byd hwn â'n bod yn ymdrechu i ddwyn crefydd ei hun, o ran ei gwasanaeth a'i defodau, i gydffurfio â'r byd hwn hefyd—i fod yn ymddangosiad yn lle gwirionedd, ac yn ffurf yn lle sylwedd.

Yn bedwerydd, y mae yn ddiammheuol fod Defodaeth Eglwys Loegr i fesur mawr yn ffrwyth a chynnyrch yr esgeulusdra o ddoniau ysbrydol, ac yn enwedig yn ganlyniad naturiol ei gwaith am oesoedd yn dyrchafu y sacramentau, ar draul darostwng gweinidogaeth yr efengyl. Iaith barhaus ei phroffes a'i hymddygiad ydoedd, yn wrthwyneb i'r apostol Paul—"Canys ni ddanfonodd Duw fi i efengylu, ond i fedyddio;" ac wele y ffrwyth toreithiog o'i diystyrwch o weinidogaeth yr efengyl. Dyma ddiwedd y pregethau dienaid, diafael, byr-wyntog—a dim pregethu oll yn fynych. Dyma hefyd ganlyniad naturiol esgeuluso doniau ysbrydol, ac ymfoddloni ar dalent naturiol; a phan na bydd hono, ymddibynu ar dalent un arall. Nid ydym yn meddwl hòni fod hyn yn beth dieithriad yn Eglwys Loegr. Gwyddom fod yr eithriadau yn lliosog, ac y gall restru llawer iawn o'i chlerigwyr yn mhlith y pregethwyr goreu a fu yn eglwys Crist mewn unrhyw oes; ac nid ydym ar y llaw arall yn meddwl hòni fod Ymneillduwyr mewn enghreifftiau lliosog yn rhydd oddi wrth yr un a'r unrhyw feiau. Ond yr ydym yn gorfod credu fod yr hyn a ddywedwn yn wirionedd i raddau mor fawr fel ag i fod yn ddigonol achos cynnorthwyol, o leiaf, i achosion ereill o'r Ddefodaeth beryglus y mae gweinidogion goreu ac esgobion mwyaf difrifol yr Eglwys Sefydledig yn dychrynu cymmaint rhagddi.

Yn bummed, yr ydym yn credu fod y cyssylltiad anachaidd sydd rhwng yr Eglwys Esgobol yn Lloegr a Chymru a'r Wladwriaeth wedi bod yn fantais a chynnorthwy cryf i ledaeniad, os nad i gyfodiad y symmudiad hwn. Y mae, a dyweyd y lleiaf, wedi bod yn attalfa ar ffordd yr eglwys i attal a gwrthweithio y cyfeiliornad, a bod yn achlysur i beri i bleidwyr y gwirionedd appelio at Cæsar, yn hytrach nag at "y gyfraith ac at y dystiolaeth." Yr ydym gan hyny yn rhwym o gredu y byddai dadgyssylltu yr Eglwys oddi wrth y Wladwriaeth, nid yn unig yn yr Iwerddon, ond hefyd yn Lloegr a Chymru, yn lle bod yn agoriad argae i Babyddiaeth ddyfod i mewn, yn gyfodiad gwrthglawdd rhag ei ymosodiad.

Yn olaf, gallem enwi ammherffeithrwydd y Diwygiad Protestanaidd fel y cymmerodd le yn Lloegr mewn cyssylltiad â'r Eglwys Wladwriaethol. Nid ydym yn meddwl ymhelaethu ar hyn, ond yn unig ddadgan ein cred ddiysgog fod trefn ac egwyddorion gwasanaeth yr eglwys uchod fel y ceir ef yn y *Llyfr Gweddi Cyffredin*, yn cynnwys hadau bywiol y cyfeiliornad hwn. Bu yr hadau hyn am oesoedd yn gorwedd yn farw; ond pan ddaeth amgylchiadau cyfleus oddi allan, gwelwyd hwy yn eglur yn tyfu, ac yn dwyn eu ffrwyth priodol eu hunain. Fel y dywedir fod gwenith wedi gorwedd am oesoedd yn mynwesau y *mummies* Aiphtaidd, ar ol cael ei ddwyn allan a'i hau, yn egino, ac yn dwyn ffrwyth, er bod am oesoedd yn gorwedd yn farw yn mhlith y meirw—felly y mae egin Defodaeth Eglwys Loegr, ar ol hir orwedd yn mhlith y meirw, yn blodeuo ac yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed; ac nid oes ond yr Hollwybodol a ŵyr yn sicr a ydyw y chwŷn gwenwynig hyn i gael eu goddef i ymledaenu i raddau mor helaeth fel y bydd yn ammhossibl eu tynu ymaith heb gyfnewidiadau mor lwyr a phwysig fel ag i beryglu hanfodiad yr Eglwys ei hun fel sefydliad Protestanaidd.

Terfynwn y sylwadau hyn gyda dyweyd y dylai pob eglwys neillduol edrych gyda gwylder crynedig, a chydymdeimlad dwfn, ar wrthgiliad eglwysi ereill, a chymdeithasu yn ddwfn â'r gwirioneddau â'r egwyddorion mawrion hyny ag sydd yn wrthwenwyn i gyfeiliornadau mewn barn ac ymarferiad; a bod yn ochelgar rhag yr achosion a fu yn weithredol a chynnorthwyol i beri yr ymadawiad mawr hwn oddi wrth y "symlrwydd sydd yn Nghrist." Ac yna gallwn ymgysuro yn yr ystyriaeth, gan nad pa beth a allo ddigwydd i eglwysi neillduol, fod "cadarn sail Duw yn sefyll." Gall, ac y mae eglwysi neillduol wedi dirywio, gwrthgilio, a chael eu tori ymaith; ond y mae y wir eglwys, yn weledig ac yn anweledig, yn ddiogel yn mhob oes,

Digitized by Google

dan gysgod presennoldeb ei Phen Mawr. Nid ydym yn darllen yn yr Efengylau am yr un llongddrylliad wedi cymmeryd lle ar fôr Galilea, o amgylch glanau yr hwn y bu yr Iesu yn dysgu y tyrfaoedd. Yr oedd cysgod ei berson ar ei donau yn dychrynu pob llongddrylliad ymaith. Ond yn Llyfr Actau yr Apostolion, yr ydym yn darllen am longddrylliadau mynych ar Fôr y Canoldir, o amgylch glanau yr hwn y bu apostolion Crist yn llafurio:—"Tair gwaith y torodd y llong danaf," medd Paul. Yr un modd y mae genym hanes am y naill eglwys neillduol ar ol y llall yn adfeilio, yn dirywio, ac yn syrthio i wrthgiliad hollol, ac yn gwneyd "llongddrylliad am y ffydd;" ond am y wir eglwys, yn weledig ac yn anweledig, y mae presennoldeb ei Phen, yn ol ei addewid fawr, "Ac wele yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd," yn ei chadw yn ddiogel yn wyneb yr holl ruthriadau a wna uffern arni:—"a phyrth uffern nis gorchfygant hi."

TRACHONITIS (Τραχωνῖτις). Unwaith yr enwir y lle hwn yn y Beibl. Yr ydym yn darllen yn *Luc* iii. 1, fod "Phylip yn detrarch Iturea a gwlad Trachonitis." Yn ol pob tebyg y mae *Trachonitis* yn air Groeg cyfystyr â'r gair Aramaeg *Argob*. Y mae yr holl ddosbarth a elwid wrth yr enw hwn yn cynnwys llawer o ogofeydd, a rhai o honynt yn fawrion iawn. Cyfeiria Strabo at yr ogofeydd oedd yn y mynyddoedd o'r tu hwnt i Trachon [*Geog.* xvi.], a dywed fod un o honynt mor fawr fel y cynnwysai tua phedair mil o bobl; ac y mae teithwyr diweddar wedi ymweled âg amryw o'r ogofeydd hyn yn Jebel Hauran, a Lejah. Y mae yn bossibl nodi terfynau Trachonitis yn lled gywir oddi wrth yr hyn a ddywedir gan Josephus, Strabo, ac ysgrifenwyr ereill. Yr ydym yn cael, yn ol Josephus, ei bod yn gorwedd i'r deheu o Damascus, ac i'r dwyrain o Gaulanitis, a'i bod yn terfynu ar Auranitis a Batanæa.—"*Rhyf. Iudd.*" iv. 1, *adr* 1, i. 20; *adr.* 4, iii. 10, *adr.* 7. Oddi wrth Ptolemy yr ydym yn casglu ei bod yn terfynu ar Batanæa, yn agos i dref Saccæa. Yn "*Gemara*" Ierusalem mynegir ei bod yn ymestyn mor bell i'r deheu a Bostra. Am Eusebius a Jerome, er eu bod yn camsynied wrth ei gwneyd yr un ag Iturea, etto y mae yr olaf yn gosod allan y fan y safai yn gywir, sef rhwng Bostra a Damascus. Dywed Jerome hefyd fod Cenath yn un o'i phrif ddinasoedd.

Oddi wrth y cyfeiriadau hyn nid ydyw yn anhawdd penderfynu ar safle Trachonitis. Cynnwysai yr holl dalaeth ddiweddar a elwir *el-Lejah*, gyda rhan o'r gwastadedd yn mhellach i'r deheu, ac hefyd ranau o lechweddau dwyreiniol y Jebel Haurân. Fe allai fod hyn yn rhoddi eglurhâd ar ddwy Trachon Strabo. Nid yw y ffaith mai yr un ydyw Lejah a Trachonitis yn gorphwys ar brawf tebygol yn unig. Ar derfyn gogleddol y dalaeth y mae adfeilion eang *Mus-meih*: lle, ar ddrws teml brydferth, y darganfu Burckhardt gerfiad, oddi wrth yr hwn yr ymddengys mai hon oedd hen ddinas *Phænos*, a phrif dref Trachonitis. Terfynir y Lejah ar du y dwyrain gan fynyddoedd Batanæa (yn awr Jebel Haurân), ar lechweddau yr hon y mae adfeilion Saccæa a Cenath; ar du y deheu, gan Auranitis (yn awr Haurân), lle y mae adfeilion Bostra; ar du y gorllewin, gan Gaulonitis (Jaulân); ac ar du y gogledd, gan Iturea (*Jedûr*) a Damascus. Pe bae pob prawf arall yn eisieu, y mae cymmhariaeth nodweddau anianyddol Lejah, a'r disgrifiad tarawgar a rydd Josephus o Trachonitis yn ddigon i brofi mai yr un ydynt. Efe a ddywed am y preswylwyr, "Nid oes ganddynt na threfydd na meusydd; ond trigant mewn ogofeydd, y rhai a wasanaethant yn noddfeydd iddynt hwy a'u deadellau. Mae ganddynt, heb law hyny, ddyfrgistiau llawn o ddwfr, ac ysguboriau llawnion o ŷd, ac y maent yn alluog i fod yn hir o'r golwg a herfeiddio eu gelynion. Y mae drysau eu hogofeydd mor gulion fel nas gall ond un dyn fyned i mewn ar unwaith; ond y maent oddi mewn yn eang iawn. Am y tir uwch ben, y mae o'r bron yn wastad, ond yn cael ei orchuddio gan greigiau geirwon, ac y mae yn anhawdd myned atynt heb gymmhorth arweinydd. Llwybrau troellog sydd yn arwain iddynt."—"*Hynaf. Iudd.*," xv. 10, *adr.* 1.

Ychydig o nodiadau byrion a geir mewn hanesyddiaeth ar Trachonitis. Dywed Josephus iddi gael ei phoblogi gan Uz, mab Aram.—"*Hynaf. Iudd.*," i. 6, *adr.* 4. Ei gyfeiriad nesaf ati ydyw yr hwn a geir pan oedd Zenadorus, y penaeth ysbeilgar, yn ei dal. Yr oedd ei phreswylwyr y pryd hwnw yn troi allan ar ymgyrchoedd ysbeilgar, ac y mae eu holynwyr yn gwneuthur yr un peth etto yn fynych ar diriogaethau Damascus.—"*Hyn. Iudd.*," xv. 10, *adr.* 1. Cymmerodd Augustus y dalaeth oddi ar Zenodorus, a rhoddodd hi i Herod Fawr, ar yr ammod fod iddo ddarostwng yr ysbeilwyr. Gadawodd Herod hi mewn cymmunrodd i'w fab Phylip, a chadarnhawyd hyn gan Cæsar.—"*Rhyf. Iudd.*," ii. 6, *adr.* 3. Mewn cyfnod diweddarach aeth i ddwylaw Herod Agrippa. Ar ol gorchfygiad y rhan yma o Syria gan Cornelius Palma, yn nechreu yr ail ganrif, nid ydym yn clywed dim mwy o sôn am Trachonitis.

TRACHWANT. Gwel CHWANT—AU.

TRADDODIAD (Gr.: Παράδοσις): rhywbeth wedi ei drosglwyddo i lawr o un genhedlaeth i'r llall. Yr oedd yr Iuddewon yn honi fod ganddynt hwy, heb law y gyfraith ysgrifenedig cynnwysedig yn yr Hen Destament, gyfraith lafaredig, a drosglwyddwyd i lawr o dad i fab, yr hon a gafwyd o enau Moses ei hun [gwel CABBALISTIAID: RHINDDYSG]; ac y mae y Pabyddion yn gwerthfawrogi athrawiaethau neillduol, y tybiant eu bod wedi dyfod trwy draddodiad i lawr o'r oes apostolaidd. Y mae y gair *traditio* a *paradôsis* yn cael eu defnyddio gan dadau yr eglwys, i ddynodi unrhyw addysg a gyfrenir gan y naill i'r llall, pa un bynag ai ysgrifenedig ai llafaredig fyddo. Yn y Testament Newydd, ac yn ngweithiau yr ysgrifenwyr clasurol, y mae *paradounai* a *tradere* yn arwyddo, yn gyffredinol, *hyfforddi*, *addysgu*. Yn yr ystyr eangaf hon, dosbarthwyd traddodiad yn *ysgrifenedig*, ac yn *llafaredig*. Gelwid yr olaf yn fynych, mewn trefn i'w wahaniaethu yn arbenigol, yn *draddodiad*. Y mae Irenæus, Clement o Alexandria, Tertullian, ac ereill o'r tadau, yn appelio at draddodiadau fel maen prawf syniadau athrawon yr oes, ac yn eu defnyddio er gwrthwynebu cyfeiliornadau yr hereticiaid. Disgrifir traddodiad ganddynt hwy fel addysg wedi ei dderbyn gan yr eglwysi Cristionogol cyntaf o enau yr apostolion, yr hwn a drosglwyddwyd o'r oes apostolaidd, ac a gadwyd yn ei burdeb hyd eu dyddiau hwynt.

Y mae Eglwys Rhufain yn parhau i ystyried

Digitized by Google

traddodiad yn rheol ffydd mewn duwinyddiaeth; ac y mae y Pabyddion yn ymdrechu cadarnhau eu damcaniaeth trwy appelio at y defnydd a wnelai y tadau o hono. Ond ymddengys hyn yn hollol ddiwerth, os telir sylw i'r gwahaniaeth sydd yn yr amseroedd. Yn nghyfnod cyntaf Cristionogaeth yr oedd awdurdod yr apostolion y fath fel yr oedd eu holl addysg a'u gosodiadau yn cael eu derbyn gan yr eglwysi a blanwyd ganddynt; ac yr oedd athrawiaeth a dysgyblaeth yr eglwysi apostolaidd, ar y pryd, yn cael eu hystyried gan ereill yn gyfryw ag a sefydlwyd gan yr apostolion eu hunain. Yr oedd yn fwy naturiol i hyn fod, yn gymmaint ag nad oedd llyfrau y Testament Newydd, hyd hyny, wedi dyfod i arferiad cyffredin yn mysg Cristionogion. Dyma y rheswm pa ham yr oedd athrawon Cristionogol yr ail a'r drydedd ganrif yn appelio mor fynych at draddodiadau llafaredig. Ond y mae yr amgylchiadau yn wahanol iawn mewn cyfnodau diweddarach ar yr eglwys. Ar ol dechreu y drydedd ganrif, pan oedd athrawon cyntaf Cristionogaeth, ynghyd â'r rhai a'u dilynodd, hwynt yn uniongyrchol, wedi ymadael â'r byd, a chenhedlaeth arall wedi ymddangos, dygwyd i mewn yn raddol athrawiaethau a ffurfiau ereill, y rhai, mewn llawer peth, a wahaniaethent oddi wrth syniadau yr apostolion. Ac appeliai y sawl a ddygent i mewn bethau newydd yn amlach nag erioed o'r blaen at draddodiad apostolaidd, i'r dyben o wneuthur eu syniadau a'u trefniadau eu hunain yn boblogaidd. Aethant mor bell, yn wir, ag appelio at draddodiad gyda golwg ar lawer o bethau oedd, nid yn unig yn groes i draddodiadau ereill, ond yn groes hefyd i ysgrifeniadau yr apostolion oedd yn eu dwylaw. O hyny allan, edrychid ar draddodiad fel peth mwy ansicr ac ammheus. Nid rhyfedd, gan hyny, i Awstin ddywedyd nad oedd traddodiadau i ddibynu arnynt, oddi eithr pan y byddent yn gyffredinol, ac yn berffaith gysson â hwy eu hunain.

Mewn gwirionedd, un o'r cwestiynau crefyddol pwysicaf a ddygwyd i sylw yn y canrifoedd diweddaf, ac sydd yn parhau i gael eu dwyn i sylw etto mewn amseroedd diweddar, ydyw hwn—Pa beth ydyw rheol y ffydd Gristionogol? Y mae Protestaniaid yn gosod yr egwyddor fawr hon i lawr, mai Gair Duw yn unig ydyw:—wrth yr hyn y golygir mai y Gair ysgrifenedig, neu yr Ysgrythyrau, sydd i'w ystyried fel unig reol ffydd. Pe y gellid derbyn y tadau o gwbl fel tystion, ni byddent ond tystion ffaeledig i esboniad yr hynafiaid ffaeledig hefyd ar yr Ysgrythyrau. Y mae y Pabyddion, i'r gwrthwyneb, tra yn caniatau mai Gair Duw yn unig yw rheol ffydd, er hyny yn dadleu nad ydyw yr Ysgrythyrau i'w hystyried fel yr unig fan lle y mae Duw wedi ymddiried ei air ynddo. Ni chafodd lawer o'r hyn a ddysgodd Iesu Grist i'w apostolion ei ysgrifenu, meddant; a chan fod dysgeidiaeth Crist, pa le bynag y ceir hi, yn Air Duw, yn gystal a'r hyn a ysgrifenwyd, y gellir ystyried y fath ddysgeidiaeth yn rhan o reol ein ffydd. Yn awr y maent yn dal fod traddodiadau yr eglwys, a gynnwysir yn ysgrifeniadau y tadau, yn ngosodiadau y cynghorfeydd, a dedfrydau y pabau, yn rhan o ddysgeidiaeth Crist. Addefant eu bod yn lled anhawdd i'w casglu ynghyd; ond pan y byddant yn unfrydol, haerant eu bod mor sicr a'r ysgrythyr ei hun; ac o'r sicrwydd hwn o unoliaeth barn, ystyriant yn wastad fod yr eglwys ei hun yn ddigon o awdurdod.

Y mae Protestaniaid yn cydnabod awdurdod dysgeidiaeth lafaredig Crist ei hun, a'i apostolion pan yn llefaru trwy ysbrydoliaeth; ond o ddiffyg cofnodion o awdurdod y gellir ymddiried ynddynt, y maent yn gwadu fod dysgeidiaeth draddodiadol, gan nad ydyw yn cael ei chofnodi yn y Beibl, o unrhyw werth. Am hawl yr eglwys, fel y cyfryw, i esbonio yr Ysgrythyrau gydag awdurdod, y maent yn ei wadu yn hollol.

TRAGYWYDD—OL—DEB: diddechreu, diddiwedd, anfarwol, annherfynol, byth. O berthynas i Dduw, y mae yn barhâd diddechreu a diddarfod. Fel y mae yn perthyn i angylion a dynion, y mae yn barhâd â dechreuad wedi bod iddo; ond nid oes diwedd byth i fod arno. Fel y canlyn y dywed un ysgrifenydd am dragwyddoldeb:—"Y mae yn barhâd ag sydd yn cau allan bob rhif a chyfrif. Y mae dyddiau, misoedd, a blynyddoedd, ie, y mae oesoedd yn cael eu colli ynddo fel dyferion yn y cefnfor! Nid ydyw miliynau ar filiynau o flynyddoedd—cynnifer o flynyddoedd ag sydd o dywod ar fin y môr, neu o demigau llwch yn y belen ddaearol, a'r rhai hyny wedi eu lliosogi i'r graddau eithaf sydd yn bossibl—oll yn ddim yn ymyl tragwyddoldeb. Nid ydyw hyn oll yn dal y cyferbyniad lleiaf âg ef, o herwydd daw y rhai hyn i'r pen mor sicr ag y daw diwrnod i'r pen; ond ni ddaw tragwyddoldeb byth, byth, byth, i ben! Llinell ydyw heb ben iddi! cefnfor heb draeth yn bod iddo! O! pa beth a ddywedaf am dano! Rhywbeth mawr anadnabyddus ydyw, nas gall meddwl dynol ei amgyffred, nac iaith ddynol ei ddarlunio!"

Y mae tragwyddoldeb Duw yn golygu parhâd ei fodolaeth—heb ddechreuad, heb ddiwedd, ac heb olyniaeth amser. Ei fod heb ddechreuad a brofir yn 1. Oddi wrth ei hunan-fodolaeth angenrheidiol: *Exod.* iii. 14. 2. Oddi wrth ei briodoliaethau—am amryw o ba rai y dywedir eu bod yn dragwyddol: *Rhuf.* i. 20; *Act.* xv. 18; *Salm* ciii. 17; *Ier.* xxxi. 3. 3. Oddi wrth ei arfaethau, am y rhai y dywedir hefyd eu bod yn dragwyddol: *Esa.* xxv. 1; *Eph.* iii. 11; *Rhuf.* ix. 11; *Eph.* i. 4. 4. Oddi wrth gyfammod ei ras, yr hwn sydd dragwyddol: 2 *Sam.* xxiii. 5; *Mic.* v. 2. Profir ei fod heb ddiwedd yn 1. Oddi wrth ei ysbrydolrwydd: *Rhuf.* i. 23. 2. Oddi wrth ei annibynolrwydd: *Rhuf.* ix. 5. 3. Oddi wrth ei anghyfnewidioldeb: 2 *Pedr* i. 25; *Mal.* iii. 6. 4. Oddi wrth ei arglwyddiaeth a'i lywodraeth, ar y rhai ni bydd diwedd: *Ier.* x. 10; *Salm* x. 16; *Dan.* iv. 3. Ei fod heb olyniaeth, neu nad oes yn perthyn iddo wahaniaethau mewn amser yn dilyn eu gilydd, megys eiliadau, munydau, &c., a brofir, 1. Gan ei fodolaeth cyn bod y cyfryw yn bod: *Esa.* lxiii. 13. 2. Mae y gwahaniaethau hyn mewn amser yn cael eu priodoli iddo ef, ond nid fel pethau yn dilyn eu gilydd; canys y mae efe yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd: *Heb.* xiii. 8; *Dad.* i. 4. 3. Pe bae ei barhâd yn olynol, neu yn dibynu ar eiliadau, dyddiau, a blynyddoedd, yna rhaid fod yr eiliad cyntaf, y dydd a'r flwyddyn, pan y dechreuodd hanfodi wedi bod—yr hyn sydd anghysson â'r meddylddrych am ei dragwyddoldeb; ac, heb law hyny, ni byddai un diwrnod ond un diwrnod gydag ef, ac nid mil, yr hyn sydd yn groes i iaith bendant yr Ysgrythyrau: 2 *Pedr* iii. 8. 4. Ni byddai yn anfeidrol, anghyfnewidiol, a pherffaith, pe felly y byddai; o herwydd byddai yn hynach un funyd nag yr oedd efe o'r

Digitized by Google

blaen—yr hyn nis gellir ei ddyweyd am dano. 5. Y mae ei wybodaeth yn profi ei fod heb olyniaeth parhád, o herwydd y mae yn gwybod pob peth a aeth heibio, a'r presennol, a'r dyfodol, fel y dywedodd un, "Y mae yn gweled y presennol heb gyfrwng, yr hyn a fu heb adgof, a'r dyfodol heb ragwelediad. Iddo ef nid ydyw pob gwirioneddau ond un meddylddrych, pob lle ond un man, a phob amseroedd ond un foment."

Yn ol barn Aristotle, ac ereill, y mae y byd yn dragywyddol. Ond fod dechreuad wedi bod i'r drefn bresennol sydd ar bethau sydd amlwg. Gallwn nid yn unig ddychymygu am gyfnewidiadau possibl lawer a ddichon fod yn ei ffurf, ond yr ydym hefyd yn ei weled yn cyfnewid yn barhaus: ond y mae bod tragywyddol, yn gymmaint a'i fod yn hunan-hanfodol, yn aros yr un yn wastad. A phe buasai y byd yn dragwyddol buasai yn anhawdd rhoddi cyfrif am y traddodiad o'i ddechreuad, sydd yn ffynu yn mron yn mhob man, er o dan wahanol ffurfiau, yn mysg cenhedloedd gwareiddiedig ac anwaraidd hefyd. Y mae genym ni hanes credadwy am ddechreuad y byd, sef yr hanes a roddir gan Moses yn nechreu Genesis. Gwel Duw: Creadigaeth.

TRAI. Gwel Llanw a Thrai y Mor; a Mor.

TRAIS: gorthrech, gormes, ysbail, trahâ; cymmeryd ymaith, neu ddifrodi ac anrheithio meddiannau ereill heb hawl i wneuthur hyny. Y mae dynion yn euog o drais pan yn gwneyd cam â chyrph, meddiannau, neu gydwybodau dynion ereill; pan y gorthrymir ereill fel y gwnelai yr Aiphtiaid â'r Hebreaid: *Exod.* iii. 9. Gwel Gorthrwm.

TRAJAN, MARCUS ULPIUS: ymherawdwr Rhufain. Ganwyd ef yn Italica, ger Seville, ar y 18fed o Fedi, B.A. 52. Disgynai o deulu Rhufeinaidd, dybygid, a dysgwyd ef yn gynnar yn y gelfyddyd filwraidd, a bu yn arweinydd llwyddiannus yn rhyfeloedd Parthia a'r Almaen yn ystod teyrnasiadau Titus a Domitian. Yr oedd yn gonsul yn B.A. 91; ac yn niwedd y fl. 97, mabwysiadwyd ef gan yr ymherawdwr Nerva, yr hwn a roddodd iddo, fel ei gydymaith a'i olynydd, y teitl o 'Cæsar.' Yn mis Ionawr, y flwyddyn ddilynol, disgynodd yr holl awdurdod i ddwylaw Trajan, a dathlwyd y digwyddiad trwy gyflwyno i'r milwyr yr anrhegion arferol, a derbyniodd dinaswyr Rhufain a'u plant hefyd anrhegion; a gwnaeth yr ymherawdwr ddarpariaeth o drysorfa yr ymherodraeth ar gyfer dwyn i fyny blant rhieni tlodion yn Rhufain, a threfydd Italaidd ereill, gyda'r amcan o gynnyddu y boblogaeth. Yn B.A. 101, gwelodd Rhufain, am y tro cyntaf, ei hymerawdwr ei hun yn bersonol yn arwain allan ei lengoedd rhyfelgar, pan yr aeth efe allan yn erbyn y Daciaid, y rhai oeddynt wedi mynu teyrnged flynyddol o Rufain er amser Domitian. Ymdrechfa faith a dinystriol a fu hon: yr oedd gwrthwynebwyr yr ymherawdwr yn ymladdwyr dewrfrydig ac egnïol, yn cael eu blaenori gan arweinydd galluog, sef eu brenin, Decebalus; ond o'r diwedd ennillodd y Rhufeiniaid y fuddugoliaeth: ac mewn rhyfelgyrch dilynol (yn 104—105) llwyr orchfygasant eu gwrthwynebwyr, a chyhoeddwyd Dacia yn dalaeth Rufeinig, a sefydlwyd trefedigaeth Rufeinig ynddi. Anrhydeddwyd y gorchfygiad trwy roddi i Trajan dderbyniad buddugol i mewn i ddinas Rhufain, a chwareyddiaethau, y rhai a barhasant am bedwar mis, ond a fuont yn ddinystriol iawn i fywydau dynion ac anifeiliaid. Parodd syched Trajan am goncwest iddo, mewn blynyddoedd dyfodol, fyned tua'r dwyrain. Glaniodd yn Syria, ac aeth yn mlaen i'r gogledd, a darostyngodd Armenia, a gwnaeth hi yn dalaeth Rhufeinig, a gwnaeth i lawer o frenhinoedd blygu i'w awdurdod. Ond y mae cofnodion ei anturiaethau am y saith mlynedd, o B.A. 107 i 114, yn hynod ddiffygiol. Yn 115 aeth yn erbyn ymherodraeth Parthia; a chymmerodd Ctesiphon yn mron yn ddiwrthwynebiad; a daeth i lawr glanau y Tigris, a darostyngodd y llwythau o bob tu iddi. Efe oedd y cadfridog Rhufeinaidd cyntaf a fordwyodd Morgaingc Persia. Wedi iddo dawelu terfysgoedd yn Mesopotamia, gogledd Syria, ac Arabia, cymmerwyd ef yn glaf. Blinid ef gan y dyfrglwyf a'r parlys; a chyn iddo allu cyrhaedd Italy, bu farw yn Selinus, yn Cilicia, yn Awst, B.A. 117, ar ol teyrnasu am yn agos i ugain mlynedd. Ni adawodd blant ar ei ol. Ei olynydd oedd Hadrian.

Er fod teyrnasiad Trajan wedi ei dreulio ganddo i raddau helaeth i foddio ei dueddiadau milwraidd, nid oedd gwaith cartrefol a mewnol y llywodraeth yn cael ei esgeuluso ganddo; gweinyddid cyfiawnder yn ammhartïol; gofelid hefyd am y cyllid, a chospid llywodraethwyr taleithiol anghyfiawn. Dygid yn mlaen y gwaith o wellhau a harddu Rhufain—hoff waith yr ymherawdwyr. Gwnaed ffyrdd milwraidd newydd, camlesydd, pontydd, a threfi mewn llawer o barthau o'r ymherodraeth. Rhoddodd Trajan lawer o brofion ei fod yn awyddus am chwanegu at gysur a dedwyddwch ei ddeiliaid hefyd; ond cafodd ei deyrnasiad yntau ei anurddo âg erledigaeth ar y Cristionogion, er nad oedd mor lym a rhai o'r erledigaethau a gymmerasant le o dan ymherawdwyr Rhufain.

TRALLOD—ION: blinfyd, cystudd, gofid; yr hyn sydd yn achosi poen a blinder; trychineb neu anffawd o ryw natur neu gilydd. Sonir am drallodion y saint yn Ngair Duw, a chyfeirir atynt fel pethau appwyntiedig, yn 1 *Thes.* iii. 3; *Iob* v. 7:—yn lliosog, *Salm* xxxiv. 19:—yn myned heibio, 2 *Cor.* iv. 17; *Heb.* x. 37:—a phan wedi eu sancteiddio eu bod yn foddion i wneyd daioni, 1 *Pedr* i. 6; *Salm* cxix. 67, 71. Y mae tuedd mewn trallodion i ddiddyfnu oddi wrth y byd, i weithio ysbryd ymostyngol, i gynnyrchu gostyngeiddrwydd, i gymmhell diwydrwydd, i gyffroi ysbryd gweddi, ac i gryfhau yr awyddfryd am fod yn debyg i Dduw. Mewn trefn i ymgynnal o dan drallodion, y mae yn angenrheidiol ystyried ein hanheilyngdod, dyben Duw yn eu hanfon neu yn eu goddef, yr addewidion am gynnaliaeth o danynt, a'r gwir les a gynnyrchir drwyddynt. Dywed un ysgrifenydd nad ydyw trallodion dyn yn dyfod i'w ran heb achos, nac yn cael eu hanfon ond ar negesau priodol. Ni oddefir i'r ystormydd hyn ymgodi ond er chwythu ymaith niwl a thawch afiach, ac i buro yr awyrgylch foesol. Nid ydyw y gauaf, a'i oerni a'i ystormydd, yn ddymunol; ond y mae yn angenrheidiol ac yn ddefnyddiol. Dyledswydd dyn, gan hyny, ydyw ymostwng yn dawel i ordinhadau Duw yn ei ragluniaeth; ac edrych ar y bywyd presennol fel gauaf ei fodolaeth; a disgwyl yn obeithiol am yr haf tragywyddol sydd i ddilyn.

Digitized by Google

TRAWDYBIAU (*dogma*) HANES: cangen o'r wyddor dduwinyddol, amcan proffesedig ac arbenig yr hon ydyw dangos yn hanesyddol ddechreuad a chyfnewidiadau amrywiol gyfundrefnau athrawiaethol Cristionogaeth, gan osod allan yr opiniynau a dderbynid gan yr amrywiol sectau mewn gwahanol oesau yn yr eglwys, ffynnonellau y gwahanol gredöau, a'r rhesymau â pha rai yr amddiffynid hwynt ac yr ymosodid arnynt, pa raddau o bwysigrwydd a roddid arnynt mewn gwahanol oesau, yr amgylchiadau a effeithient arnynt, ynghyd â'r modd y cyfunid hwynt yn gyfundrefnau. Ffynnonellau y gangen hon o hanesiaeth yw y credöau cyhoeddus, gosodiadau y cynghorfeydd, a chynnulliadau eglwysig creill, llythyrau a dedfrydau penaethiaid yr eglwysi, llyfrau yn cynnwys ffurfwasanaeth a chredöau, gweithiau y tadau, ac ysgrifenwyr eglwysig diweddarach, yn gystal a thystiolaethau haneswyr cydoesol. Canfyddir ar unwaith fod yr efrydiaeth yn tueddu i ddysgu gwyleidd-dra a goddefgarwch wrth amddiffyn rhyw syniadau neillduol; o herwydd y mae yn dangos yr amrywiaeth dirfawr o syniadau sydd wedi achosi dadleuon chwerwon ar adegau neillduol, ond sydd erbyn hyn wedi myned i ebargofiant; ac hefyd gymmaint o ddysg, diwydrwydd, a chraffder beirniadol sydd yn angenrheidiol er gwneuthur ymchwiliad manwl a llwyr i'r pyngciau dadleuol mewn duwinyddiaeth. Y mae'n amlwg fod gwahaniaeth rhwng hyn a hanesyddiaeth eglwysig, o blegid y mae hyn yn gyfyngedig at hanes athrawiaethau a golygiadau. Traddodir darlithiau arbenig ar y pwngc hwn yn yr athrofäau a'r prifysgolion, ac yn enwedig yn yr Almaen.

TRAWSENEIDIAD (*Metempsychosis: Transmigration of Souls*): gair sydd yn arwyddo trawsfudiad eneidiau, ac a gymmhwysir at syniad sydd o hynafiaeth mawr, yn mherthynas i dynged enaid dyn. Yn ol y syniad cyffredinol a gyflëir gan y gyfundrefn hon, tybir fod eneidiau dynion, ar ol marw, yn myned yn olynol i amrywiol gyrph. Y mae yr un mor anhawdd credu difodiant yr enaid ag ydyw i ni allu amgyffred am sefyllfa ddyfodol o fyw hollol wahanol i'r un bresennol, ac annibynol ar y synwyrau naturiol a deddfau bywyd tra yr ydys yma yn y corph. Gan hyny, yr oedd yn naturiol i'r meddwl ymofyn am foddion i gyssoni y ddau beth yma—rhyw gynllun, pa mor ddyrus bynag y gallai fod, i foddloni yr awyddfryd am anfarwoldeb, a'r gwrthwynebiad greddfol sydd mewn dyn yn erbyn syrthio i ddifodiant. Ac oddi yma y tarddodd y syniad am drawseneidiad. Ceir y ffurf iselaf o'r gredininiaeth hon, fe allai, yn mysg amrywiol lwythau Affrica ac America; y rhai a dybiant fod yr enaid, mor fuan ag yr elo allan o'r corph, yn gorfod edrych allan am feddiannydd newydd; ac os bydd raid, yr ä efe i mewn i gorph anifail. Yr oedd y syniad o drawseneidiad yn cael ei fabwysiadu gan yr Aiphtiaid, yr Hindŵaid, a'r Groegiaid. Dywed Herodotus [*ll.* ii. *adr.* 123], mai yr Aiphtiaid oedd y cyntaf i fabwysiadu yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid; ac iddynt hwy yn gyffredinol y priodolir dyfeisiad y syniad o drawseneidiad. Credent fod yr enaid dynol, ar ol marwolaeth, yn myned i mewn i ryw anifail a ddygid i fodolaeth ar y pryd; ac ar ol cymmeryd ffurfiau yr holl anifeiliaid sydd yn preswylio y tir, y dwfr, a'r awyr yn olynol, ei fod, ar ol bod felly am dair mil o flynyddoedd, yn dychwelyd i gorph dyn, i ail gychwyn pererindod diddarfod am byth.

Gyda'r Hindŵaid drachefn y mae y syniad o drawseneidiad yn fwy arddansoddol, ac yn fwy cyffredinol, na'r eiddo yr Aiphtiaid, ac yn dal perthynas â'r meddylddrych o ddeilliad (*emanation*) a goleddir gan y bobl hyny. Yn gymmaint ag mai defnydd a ddeilliodd ddiweddaf oddi wrth Brahma, tybiant ei fod yn canlyn fod bywyd, yr hyn ydyw undeb yr enaid â defnydd, yn hanfodol ddrwg; a chan mai felly y mae pethau yn bod, y rhaid i bob dadblygiad o fywyd, sef gweithredoedd, teimladau, pleser, poen, &c., o angenrheidrwydd fod yn gyfranog o'r un darostyngiad. O ganlyniad, gwaith priodol yr enaid ydyw marw i bob peth daearol, ac ymddyrchafu trwy fyfyrdod i ymorphwys yn mynwes y Duwdod—o ba le y daeth yn y dechreu. Rhaid i'r enaid wneuthur iawn yn y byd hwn am bechodau ei fywyd blaenorol; ac mewn trefn i'w buro, condemnir y drygionus ar adeg ei farwolaeth i fyned o'r naill gorph i'r llall yn ol fel y byddo tuedd ddyrchafedig neu isel ei natur. Rhywbeth yn debyg i hyn yna ydyw yr athrawiaeth a ddysgir gan athroniaeth y *Vaisechika*. Yn ol cyfundrefn y *Vedanta*, nid ydyw yr enaid yn ddeilliad o, ond yn rhan o Brahma ei hun—gwreichionen o dân sydd yn ennyn yn dragywyddol. Nid ydyw yn gwybod am enedigaeth na marwolaeth:—y mae yn ymwisgo mewn corph am dymmor, lle y gwneir ef yn ddarostyngedig i'r dioddefiadau sydd ynglŷn â'r hyn sydd ddrwg. Ymwêl âg amrywiol gyrph yn olynol, ac y mae cylch ei drawseneidiad yn ymestyn dros holl natur—o'r planigyn i fyny hyd at ddyn. Gwybodaeth o Dduw yn unig a ddichon ei ddwyn allan o gylch ei ofid a'i ddarostyngiad; ac nis gall enaid gyrhaedd y wybodaeth yma heb ymddiosg o bob personoliaeth o deimlad ac ewyllys, ac wedi hyny ymdaflu i fynwes y Duwdod, fel y mae afon yn ymarllwys i'r môr.

Y gred gyffredinol ydyw, fod y syniad am drawseneidiad wedi dyfod o'r Aipht i Groeg; ond nid oes i'r syniad hwn sail wirioneddol gref, dybygid. O herwydd nid yn unig y mae yn bossibl olrhain yr athrawiaeth hon yn y wlad ddiweddaf, fel y mae yr enw *Orpheus* yn awgrymu, yn mhell cyn i ymdrafodaeth agos fod rhwng y ddwy genedl hyny; ond y mae Herodotus ei hun yn gwahaniaethu rhwng pleidwyr hen a diweddar trawseneidiad yn ngwlad Groeg—rhwng yr athrawiaeth fel yr oedd yn cael ei derbyn cyn amser Pythagoras a'r ffurf yn mha un y dadleuid drosti gan yr athronydd hwnw, yr hwn oedd yr athronydd Groegaidd cyntaf a ddaeth yn hollol gyfarwydd â chyfriniaeth grefyddol yr offeiriaid Aiphtaidd. Ond pa un bynag ai gwreiddiol ai benthyg oedd i'r Groegiaid, yr oedd yr athrawiaeth yn un a gydgordiai yn hynod âg ysbryd a thueddiadau y genedl hono. Pythagoras a roddodd i'r athrawiaeth ei ffurf manylaf. Efe a osododd derfynau i drawseneidiad, ac a'i cyfyngodd i fywyd anifeilaidd; a dadleuai fod pob enaid yn myned i'r ffurf o fywyd oedd yn fwyaf cydrywiol â'i alluoedd a'i sefyllfa ei hun.

Y mae Plato, wrth fabwysiadu athrawiaeth Pythagoras yn ei "*Phædo*," yn ymdrechu ei holrhain yn ol i ddwy ffynnonell, ac felly ei dyrchafu i ddosbarth y drychfeddyliau athronyddol. Y mae efe yn sylfaenu ei brawf cyntaf ar drefn

Digitized by Google

gyffredinol natur, a'r llall ar ymwybodolrwydd dynol. Y mae natur, ebe Plato, yn cael ei llywodraethu gan ddeddfau gwrthgyferbyniol; y mae marwolaeth yn dilyn bywyd, a bywyd yn dilyn marwolaeth. Ond pa mor bell yr oedd efe yn credu yr athrawiaeth hon, y mae yn anhawdd penderfynu. Ceir fod y syniad o drawseneidiad yn ymddadblygu yn fwy yn ngwlad Groeg mewn amseroedd diweddarach. Gan nad ydyw yn ymddangos i hyn ddyfod yn grediniaeth gyffredinol y bobl, yr oedd yn gyfyngedig yn benaf i'r athronyddion.

O angenrheidrwydd nis gall yr athrawiaeth yma ffynu yn mysg Iuddewon a Christionogion; ond y mae yn deilwng o sylw fod rhai o'r cyfryw yn glynu wrthi mewn amseroedd hen a diweddar. Yn mysg yr Iuddewon, yr oedd yr athrawiaeth o drawseneidiad yn cael ei dysgu yn nghyfundrefn gyfriniol y *Cabbala*, lle y proffesir fod dirgelion creadigaeth a natur yr enaid dynol yn cael ei osod allan. Dywedir yn *Llyfr Sohar* fod yr "holl eneidiau yn ddarostyngedig i dreialon trawsfudiad, ac nad yw dynion yn deall ffyrdd y Goruchaf tuag atynt...Nis gwyddant pa faint o drawsfudiadau a threialon dirgelaidd sydd ganddynt i fyned drwyddynt: na pha gynnifer o eneidiau sydd yn dyfod i'r byd hwn, ond heb ddychwelyd i balas y Brenin Mawr." Y mae egwyddor y *Cabbala*, i raddau, yn debyg i'r un Frahminaidd. Ar sail yr athrawiaeth hon, a broffesid gan rai o'r rabbiniaid enwocaf, bernid fod enaid Adda wedi trawsfudo i Dafydd, ac y daw i'r Messiah; mai yr un oedd enaid Iapheth ag un Simeon, a bod enaid Terah wedi trawsfudo i Iob. Ystyrir os bydd enaid mab yn trawsfudo i ferch, fod hyny yn digwydd fel cospedigaeth am ryw ddrwg neu ddrygau a gyflawnwyd, megys peidio gwneyd elusenau, neu ymattal rhag cyfrannu gwybodaeth i ereill. Ac mewn ffordd o gospedigaeth hefyd, y goddefir i enaid Iuddew fyned i mewn i Genedl-ddyn, neu i anifail. Ceisir dwyn yn mlaen enghreifftiau ysgrythyrol o hyn—yn ol eu dull hwy o egluro y Beibl—yn ysgrifeniadau Rabbi Manasse ben Israel, Rabbi Naphtali, Rabbi Meyer ben Gabbai, a Rabbi Reuben, ac ereill.

Yn mhlith y Cristionogion boreuol, dywed Jerome fod yr athrawiaeth o drawsfudiad eneidiau yn cael ei dysgu fel un draddodiadol yn mysg rhyw ychydig: ac ystyriai Origen, fel y Cabbalistiaid, ei bod yr unig foddion i esbonio rhai digwyddiadau y sonir am danynt; megys yr ymrysonfa a fu rhwng Iacob ac Esau yn y groth, a dewisiad Ieremiah cyn ei eni, &c.; pa rai, meddent, a dailent anfri ar gyfiawnder dwyfol, oddi gerth eu bod yn cael eu cyfiawnhau gan weithredoedd da neu ddrwg a wnaethpwyd ganddynt mewn bywyd o'r blaen. Yn mhlith y sectau Cristionogol, yr oedd y Manicheaid yn ymlynu yn arbenig wrth yr athrawiaeth hon; ond y mae yr Eglwys Gristionogol yn gyffredinol wedi ymwrthod â hi fel heresi.

TRAWS-SYLWEDDIAD. Gwel Swper yr Arglwydd.

TREF. Gwel Dinas—oedd.

TREFNYDDION CALFINAIDD. Gwel Methodistiaeth Galfinaidd Gymreig.

TREFNYDDION WESLEYAETH. Gwel Wesleyaeth.

TREFOR, SYR JOHN: llefarydd Tŷ y Cyffredin, oedd ail fab i John Trefor, o Fryncinallt, ger y Waen, swydd Dinbych; ac yr oedd ei fam yn fodryb i'r Arglwydd Ganghellydd Jeffreys. Ganwyd ef yn Bryncinallt, yn y fl. 1633. Ymddengys na chafodd addysg o radd uchel yn ei ieuengctid; ond anfonwyd ef i Lundain at ei ewythr, Arthur Trefor, yr hwn oedd fargyfreithiwr enwog yn y ddinas hono; gyda'r hwn y dygwyd ef i fyny at y bar; a bu yn efrydydd caled, ac ennillodd iddo ei hun safle anrhydeddus yn y gyfraith. Etholwyd ef yn aelod o Dŷ y Cyffredin yn 1678, a dewiswyd ef yn llefarydd y tŷ hwnw yn 1685. Yn mis Hydref yr un flwyddyn, cafodd ei bennodi yn feistr y rhollyfrau; ac yn Ngorphenaf, 1688, tyngwyd ef yn aelod o'r cyfringynghor. Pan y diorseddwyd Iago II., ac yr esgynodd William a Mary i'r orsedd, collodd Trefor y swydd o feistr y rhollyfrau; ond eisteddodd yn y senedd ddilynol fel aelod dros Beraldstone, a gwrthwynebai yn egniol holl fesurau y llywodraeth. Daeth i ffafr y llys drachefn, a chafodd ei ail ethol hefyd yn ddiwrthwynebiad yn llefarydd Tŷ y Cyffredin; ac yn Mai, 1691, enwyd ef yn arglwydd ddirprwywr cyntaf y sêl fawr—swydd a ddaliwyd ganddo hyd y fl. 1693; ac adferwyd ef yn ol i'w swydd o feistr y rhol-lyfrau yn yr un flwyddyn. Yn 1695 dyrchefid llais yn gyffredinol yn erbyn llwgrwobrwyaeth, a phennododd Tŷ y Cyffredin bwyllgor er gwneyd ymchwiliad i'r cyhuddiadau a ddygid yn erbyn aelodau o hono; ac yn ol adroddiad y pwyllgor hwnw, yr oedd Syr John Trefor yn euog o dderbyn 1050*p.* o lwgr-wobr gan ddinas Llundain, am roddi ei gefnogaeth i fesur seneddol a elwid "*Orphan's Bill.*" Ac i'w ran ef y disgynodd y gorchwyl poenus o roddi y penderfyniad oedd yn ei gondemnio ef ei hun o flaen y tŷ, a chyhoeddi ei hun yn euog mewn canlyniad i bleidlais yr aelodau. Rhoddodd ei swydd fel llefarydd i fyny, a bwriwyd ef allan o'r senedd. Ymddengys, pa fodd bynag, nad oeddid yn ystyried ei drosedd yn un trwm; o herwydd caniatawyd iddo gadw ei swydd o feistr y rhol-lyfrau am y cyfnod maith o ddwy flynedd ar hugain ar ol ei fwriad allan o'r senedd; ac y mae llawer o'r dyfarniadau a gyhoeddwyd ganddo yn cael eu dyfynu hyd heddyw fel rhai o awdurdod uchel. Bu farw ar yr 20fed o Fai, 1717, a chladdwyd ef yn Nghapel y Rhol-lyfrau.

TREFTADAETH. Gwel Etifeddiaeth.

TREMYDDIAETH (*ὄπτομαι*: *Optics*), ydyw yr enw a roddir ar y gangen hono o anianyddiaeth naturiol sydd yn ymdrin â natur a phriodoleddau goleuni; y cyfnewidiadau yr êl drwyddynt yn ei ansoddau neu ei gwrs yn ei fynediad trwy gyrph, a phan yr adlewyrchir ef oddi ar eu harwyneb, neu pan yn myned heibio iddynt; a chyfansoddiad y llygad, a deddfau gwelediad (*vision*). Y mae hanes boreuol tremyddiaeth, fel yr holl wyddorau a ddiwyllid gan yr hynafiaid, yn amgylchynedig â llawer o dywyllwch. Yn mhlith y damcaniaethwyr cyntaf ar welediad (*vision*) gellir enwi Pythagoras a Plato. Yr oedd y blaenaf yn dal fod cyrph yn dyfod yn weledig trwy gyfrwng gronynau goleuni yn dyfod o'r arwyneb ac yn myned i'r llygad; ond yr oedd y diweddaf, mewn trefn i roddi i'r llygad ryw gyfran o'r gwaith, yn tybied fod rhywbeth a deflid allan o'r llygad yn cyfarfod rhywbeth arall a deflid o'r gwrthddrych yr edrychid arno,

Digitized by Google

ac yn dychwelyd drachefn i beiriant y gweled-iad. Yr oedd dilynwyr Plato yn gydnabyddus â dwy ffaith bwysig yn y wyddor. Dysgent fod goleuni yn symmud mewn llinellau unionsyth; a phan yr adlewyrchid ef yn rheolaidd oddi ar wyneb cyrph disglaer fod ongl y disgyniad (*angle of incidence*) yn gyfartal i ongl yr adlewyrchiad (*angle of reflection*). Yr ysgrifenydd cyntaf ar dremyddiaeth oedd Euclid, y meintonydd enwog, traethawd yr hwn ar y pwngc sydd i'w gael etto. Fel anianydd, gwnaeth Aristotle rai sylwadau tremyddol gwerthfawr. Disgrifiodd yr enfys gyda chryn fanylder. Ystyriai ei bod yn cael ei ffurfio gan adlewyrchiad pelydrau yr haul o'r dafnau gwlaw, y rhai a roddent ddelw ammherffaith o'r haul. Yr oedd damcaniaethau Seneca a Cleomedes yn ynfyd a chyfeiliornus.

Claudius Ptolemy, yr astronomydd enwog o Alexandria, a ystyrir fel sylfaenydd y wyddor o dremyddiaeth, yr hwn a flodeuodd tua diwedd yr ail ganrif. Yr oedd ei waith ef, sef y "*Ptolemæi Opticorum*," &c., yn adnabyddus yn amser Roger Bacon, ond yr oedd ei gynnwysiad gwerthfawr wedi diangc sylw athronwyr, i raddau mawr, hyd y flwyddyn 1816, pan y darfu i Delambre gyhoeddi elfeniad (*analysis*) o hono, o'r llawysgrif oedd yn Llyfrgell Frenhinol Paris. Ac yn ol yr elfeniad hwn, gwelir ei fod yn waith hynod o ddyddorol. Talodd Claudius Galen, y meddyg Groegaidd enwog, yn yr ail ganrif, yr hwn a ysgrifenodd ar lawer o destynau heb law meddygiaeth, sylw neillduol i'r gangen hon, a thaflodd oleuni ar rai pethau perthynol iddi. Ond am yn agos i fil o flynyddoedd ar ol marwolaeth Galen, ni wnaed ddim cynnydd mewn tremyddiaeth. Fel gwyddorau ereill, yr oedd wedi ei halltudio o Ewrop, a chael noddfa yn Arabia, lle y chwanegwyd cryn lawer at y wybodaeth o honi. Alhazen, yr hwn a flodeuai yn yr unfed ganrif ar ddeg, oedd yr hwn a roddodd gychwyniad newydd mewn tremyddiaeth. Cadarnhaodd efe farn Pythagoras, fod gwelediad yn cael ei gynnyrchu trwy fod y pelydrau yn dyfod oddi wrth y gwrthddrych i'r llygad; a dywed nad yw gwelediad yn cael ei berffeithio hyd nes y trosglwyddir drychfeddyliau am wrthddrychau allanol gan y giau tremyddol i'r ymenydd; ac ar ol rhoi disgrifiad o'r llygad a'i wahanol ranau, y mae yn nodi allan y swydd a weinyddir gan bob rhan mewn gwelediad. Y nesaf a dalodd sylw neillduol i dremyddiaeth oedd Vitello, yn niwedd y ddeuddegfed ganrif, gwaith yr hwn a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn Nuremberg, yn 1535. Efe a wnaeth gyfres o arbrawfiadau ar onglau gwrthdoriad (*refraction*) dwfr a gwydr, y rhai, dybygid, a ragorent ar yr eiddo Ptolemy mewn cywirdeb. Cyfansoddodd yr Archesgob Peckham hefyd draethodau ar y wyddor. Y mae hyn yn ein dwyn i lawr at amser Roger Bacon, yr hwn a anwyd yn 1214, a'r hwn, yn ol barn Dr. Plott, Dr. Friend, Dr. Henry, Wood, Muschenbroek, Jebb, a W. ac S. Molyneux, oedd dyfeisydd y pell-weladur (*telescope*); ond y mae Dr. Smith, o Gaergrawnt, yn credu yn wahanol. Y mae rhai o'r sylwadau a wneir ganddo ef, modd bynag, yn debyg iawn i arbrawfiadau wedi eu gwneyd gydag offeryn o'r fath. Ac ar awdurdod amryw ddarnau yn ngweithiau Roger Bacon, y mae Molyneux o'r farn fod yr athronydd hwnw yn gyfarwydd â defnyddiad gwydr-ddrychau (*spectacles*). Ond pa un bynag a oedd gwydr-ddrychau mewn arferiad yn amser Bacon, ai nid oeddynt, y mae yn ddiau y defnyddid hwynt tuag adeg ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn 1292.

Pan y dechreuodd dysgeidiaeth ymadnewyddu yn Ewrop, diwylliwyd rhai o'r gwyddorau gyda chryn lwyddiant. Enwogodd Maurolycus, dysgawdwr mesuroniaeth yn Messina, ei hun drwy ei ymchwiliadau tremyddol, a chyhoeddodd mewn traethawd ffrwyth ei ymchwiliadau. Gwnaeth amryw ddarganfyddiadau mewn cyssylltiad â gwelediad, a chyfansoddiad yr enfys, na chaniatâ ein gofod i ni fanylu arnynt. Tra yr oedd yr athronydd Siciliaidd yn gwneyd darganfyddiadau newyddion pwysig yn y gangen hon, yr oedd y clodfawr Porta, yn Naples, yn ymdrechu helaethu terfynau y wyddor, yn gystal ag yn gwneyd ymchwiliadau gwreiddiol i'w dirgelion hi. Cyhoeddodd y gŵr hwn amryw draethodau ar dremyddiaeth, yn gystal ag ar ganghenau ereill o anianddysg naturiol. Gwnaeth Antonio Dominus, Metius, Lippersheim, a Jansen hefyd eu rhan; y ddau ganol o ba rai a ddyfeisiasant ryw fath o bell-weladur, a'r olaf y chŵyddwydr (*microscope*). Pan yr oedd Galileo yn Venice, yn 1609, clywodd sibrwd fod offeryn wedi ei ddyfeisio gan ryw Isellmynwr, oedd yn tynu y pell ac yn ei wneyd megys yn agos. Cadarnhawyd hyn mewn llythyr a dderbyniodd oddi wrth Ffrangcwr o'r enw Badorere. Sicrhaodd Galileo nad oedd efe wedi gweled un o'r offerynau; ond penderfynodd gael allan ei egwyddor, ac ymdrechodd ddyfeisio offeryn cyffelyb; a llwyddodd i wneuthur un mewn ychydig amser at ei wasanaeth. Gwnaeth un arall yn fuan, yr hwn oedd yn mwyhau y gwrthddrych drigain o weithiau. Ac o'r diwedd gwnaeth offeryn yr ymddangosai gwrthddrychau drwyddo fil o weithiau yn fwy, ac un arall a wna i'r gwrthddrychau ymddangos ddeg ar hugain o weithiau yn nes na phan edrychid arnynt gyda'r llygad noeth. Dygwyd pellweladuron yn fuan drosodd i'r wlad hon, canys yr ydys yn cael fod Harriot yn eu defnyddio yn mis Hydref, 1610, ychydig gyda naw mis ar ol eu dyfeisiad gan Galileo. Y mae yn llawn mor anhawdd penderfynu hyd sicrwydd pwy oedd dyfeisydd gwreiddiol y chŵyddwydr; ond hwyrach, ar y cyfan, fod y Dr. Moll yn gywir wrth ddywedyd mai gan Zacharias Jansen y mae yr hawl decaf i'r anrhydedd. Ymddengys iddo ef wneyd un mor foreu a'r flwyddyn 1590, ac iddo gyflwyno un yn anrheg i'r Archddug Albert o Awstria. Ond y mae yn dra thebygol mai Galileo oedd dyfeisydd y chŵyddwydr cyfansawdd (*compound*). A dywed Viviani, ei fod wedi ei arwain i feddwl am y ddyfais hon gan ddyfeisiad y pellweladur.

Bydd enw Kepler, er ei fod yn dal cysylltiad agosach â seryddiaeth, yn barchus bob amser gan astudwyr tremyddiaeth. Yr oedd ei ymchwiliadau yn gyfyngedig yn benaf at welediad a gwrthdoriad; a'i ddarganfyddiadau ar weled-iad, er yn sylfaenedig i raddau ar olygiadau Maurolycus a Baptista Porta, yn wreiddiol hefyd i raddau. Efe a ddangosodd gyntaf fod delweddau gwrthdroadol (*inverted images*) a manwl o wrthddrychau allanol yn cael eu ffurfio ar rwydlen (*retina*) y llygad. Efe a eglurodd yr achos o welediad amlwg ac anamlwg, ac a gafodd allan y modd i symmud yr aneglurder gyda gwydrau cymmhwys. Anfoddhaol oedd ymdriniaeth Kepler â gwrthdoriad goleuni yn ei fynediad trwy wahanol wrthddrychau. Ond er iddo fethu yn ei geisiadau i ddarganfod deddf gwrthdoriad, etto bu yn llwyddiannus i osod i

Digitized by Google

lawr reolau a'i galluogodd i ddarganfod llawer o egwyddorion penaf cromleiniau argrwm a cheuol (*convex and concave lenses*). Diau i Kepler a Tycho wneyd llawer ymgais i gael allan ddeddf gwrthdoriad; ond i Willebrord Snellius, athraw mesuroniaeth yn Leyden, yr hwn a fu farw yn bymtheg ar hugain mlwydd oed, gan adael ar ei ol mewn llawysgrif waith ar y pwngc, y perthyn yr anrhydedd o'i darganfod. Yr oedd cael hyn allan wedi dyfod yn fwy pwysig ar ol dyfeisiad y pellweladur, ac ymroddodd Snellius i wneuthur yr ymchwiliad; ac "ar ol llawer o arbrawfion a cheisiadau trafferthus," efe a lwyddodd yn ei ymdrechiadau—yr hyn sydd yn dwyn anrhydedd mawr i'w enw. Yn 1637, ynghylch un mlynedd ar ddeg ar ol marwolaeth Snellius, y cyhoeddodd Descartes ei "*Dioptrics*," yn yr hwn, heb unwaith grybwyll enw, na chyfeirio at lafur Snellius, y mae yn gosod allan ddeddf wirioneddol gwrthdoriad, fel ffrwyth ei ymchwiliadau ef ei hun. Gan nad oedd gwaith Snellius ond mewn llawysgrif yn unig, y mae yn eithaf possibl na wyddai Descartes ddim am ei gynnwysiad; ond dywed Vossius fod etifeddion Hortensius wedi rhoi at wasanaeth Descartes lawysgrifau perthynol i'r athraw hwnw, ac yn eu plith yr oedd gwaith Snellius. Gan hyny nid yw taflu gwaith Snellius i'r cysgod yn ymddangos yn deg, fel y myn rhai wneyd; a phriodoli i Descartes yn hollol ddarganfyddiad "y briodoledd fawr hon mewn goleuni." Cynnwysa "*Dioptrics*" Descartes ddeg o bennodau. Ymdrina yn y gyntaf â goleuni; yn yr ail â gwrthdoriad; yn y drydedd â'r llygad; yn y bedwaredd â'r cromleiniau yn gyffredinol; yn y bummed â'r delweddau a wneir ar waelod y llygad; yn y chweched â gweledíad; yn y seithfed â'r modd i berffeithio y golwg; yn yr wythfed â phelydrau gwrthdoriadol, i'w cymmhwyso at bob math o weledíad; yn y nawfed â chŵyddwydrau; ac yn y ddegfed â'r dull i gaboli gwydrau.

Y mae tremyddiaeth o dan gryn rwymau hefyd i Christopher Scheiner, Iesuit, ac athraw mesuronyddol yn Ingolstadt. Efe a brofodd trwy arbrawfiadau teg fod darluniau gwrthddrychau allanol yn cael eu portreadu yn amlwg ar rwydlen y llygad. Efe a sylwodd hefyd fod canwyll y llygad yn ymeangu wrth edrych ar wrthddrychau pell, ac yn cyfyngu wrth edrych ar rai agos. Tua'r pryd hwn, yr oedd cangen newydd ddyddorol o dremyddiaeth yn cyffroi sylw athronwyr, sef gwrthdoriad dwbl goleuni. Erasmus Bartholinus, physygwr o Copenhagen, a wnaeth arbrawfion cywrain ar ryw ddefnydd a elwir crisfaen Iceland; a dangosodd fod y defnydd hwn yn meddu ar y briodoledd o wrthdoriad dwbl; hyny yw, o roddi dau ddarlun o'r holl wrthddrychau a ganfyddir drwyddo. Wedi gwneuthur y darganfyddiadau hyn yn hysbys i Gymdeithas Frenhinol Llundain, a'u hargraphu yn rhif 69 o'r "*Transactions*," tynasant sylw Christian Huygens, athronydd Isellmynaidd enwog o athrylith gref a chyrhaeddiadau uchel, yr hwn, ar ol priodoli i Bartholinus yr anrhydedd o ddarganfod rhai o'r prif ymddangosiadau mewn cyssylltiad â'r gwrthdoriad dwbl, a ä yn mlaen i egluro hyny yn mhellach. Ar ol i Huygens gwblhau ei ymchwiliadau ar y gwrthdoriad dwbl, efe a ddarganfu yr hyn a eilw ef yn "ymddangosiad rhyfeddol;" ac er yr addefa nas gall gyfrif am dano, etto barnai yn briodol i gyfeirio ato mewn trefn i ereill gario yr ymofyniad yn mhellach. Y darganfyddiad hwn oedd pegwnddueddiad (*polarization*) goleuni. Pe na buasai Huygens wedi anfarwoli ei enw mewn cyssylltiad â'r darganfyddiadau hyn, buasai ei draethodau ar "*Dioptrics*" a "*Halos*," a'i waith yn gwneyd pellweladuron o faintioli anferth, yn ei enwogi yn fawr. Yr oedd Syr Isaac Newton yn edmygydd o'i "*Dioptrics*." Yn mysg y rhai a roddasant gynnhyrfiad i'r wyddor o dremyddiaeth yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, y mae lle teilwng yn cael ei hawlio gan James Gregory; yr hwn, wrth gadarnhau arbrawfiadau Vitello a Kircher ar onglau gwrthdoriad, a ddarganfyddodd y ddeddf gywir a gafwyd allan yn flaenorol gan Snellius, ac a fu yn llwyddiannus hefyd i wneyd pellweladuron adlewyrchiadol rhagorol. Yn mysg darganfyddiadau yr eilfed ganrif ar bymtheg, y mae yr un ar ŵyrad (*inflection*) goleuni yn un o'r rhai pwysicaf. Gwnaed y chwanegiad hwn at wyddoniaeth dremyddol gan Francis Maria Grimaldi, Iesuit Italaidd, yr hwn a ollyngodd belydryn o oleuni yr haul trwy dwll bychan iawn i ystafell dywyll, ac a sylwodd ei fod yn ffurfio pigwrn (*cone*) o oleuni, ar ffurf torth sugr, yn yr hwn yr oedd cysgod pob corph yn fwy na phe yr elai y gronynau yn llinellau syth heibio i'w hymylau. O amgylch y cysgodiau hyn efe a welodd dri ymyl-gylch lliwiedig yn culhau fel y pellhaent oddi wrth y corph; ac yn y goleuni cryf efe a sylwodd ar ymyl-gylchoedd lliwiedig cyffelyb, yn amrywio o ddau i bedwar, yn ol pellder y cysgod oddi wrth y corph. O ganlyniad, daeth i'r penderfyniad fod goleuni yn gŵyro o'i lwybr unionlinellog wrth fyned at ymylon cyrph.

Dr. Hooke oedd un o ddynion mwyaf galluog a chywrain y ganrif hon; a gwnaeth ddarganfyddiad i'r un pwrpas a Grimaldi, heb wybod dim fod yr athronydd hwnw wedi ei wneyd o'r blaen; a gwnaeth arbrawfiadau pwysig mewn cyssylltiad â thremyddiaeth mewn cyfeiriadau ereill hefyd. Tua'r un pryd y darfu i Rœmer anfarwoli ei hun trwy ddangos yn y modd amlycaf fod goleuni yn teithio y pellder o gant a phedwar ugain a deg o filiynau (190,000,000) o filldiroedd mewn un munyd ar ddeg. Yn y blynyddoedd 1667—8, darfu i Syr Isaac Newton gwblhau ei ddarganfyddiad mawr o wrthdoradwyedd (*refrangibility*) gwahaniaethol goleuni, ac eglurwyd ef mewn papyr a ddarllenwyd o flaen y Gymdeithas Frenhinol yn 1672. Arweiniodd hyn i ddarganfyddiad arall, sef cael allan liwiau gwreiddiol yr eufys—yr hyn a fuasai yn achos o ddyryswch mawr i athronwyr. Y darganfyddiad tremyddol nesaf a wnaeth Syr Isaac Newton oedd o barthed i liwiau cyrph teneuon tryloew, megys bwrlymau sebon (*soap bubbles*). Yr oedd Dr. Hooke wedi myned yn mlaen rywfaint yn y cyfeiriad hwn, ond Newton a wnaeth eglurhad cyflawn ar y mater. Yn gynnar yn y flwyddyn 1676, darfu i Newton amlygu ei ddamcaniaeth ef gyda golwg ar liwiau cyrph naturiol, a phriodolai yr holl amrywiaethau o liwiau sydd mewn natur i hyn—"fod rhanau tryloew cyrph, yn ol eu hamrywiol faintioli, yn adlewyrchu gronynau o un lliw, ac yn trosglwyddo gronynau o un arall, fel y mae bwrlymau sebon yn adlewyrchu neu yn trosglwyddo y gronynau hyny." Y cam nesaf yn hanes darganfyddiadau tremyddol oedd dyfeisiad y pellweladuron afliwig (*achromatic*), neu weladuron rhydd oddi wrth liw. Mr. Hall, o Essex, a lwyddodd i wneuthur yr offeryn hwn; ond cadwodd ei ddyfais yn ddirgel, ac ni werthwyd un o'i offerynau, ac nid

Digitized by Google

yw yn ymddangos fod y sawl a ddaeth i feddiant o honynt wedi deall eu hegwyddor na'u gwerth. Ond heb ammheu teilyngdod Hall, y mae yn rhaid gwneyd cyfiawnder â John Dollond, yr hwn a ddyfeisiodd bellweladur afliwig yn ddiddadl, er ei fod yn anhysbys o offerynau Hall. Y mae y byd mesuronyddol yn dra dyledus i Euler, Clairant, D'Alembert, a Boscovich, am eu hymchwiliadau clodwiw i'r ddamcaniaeth o afliwiaeth (*achromatism*), er na phrofodd eu holrheiniadau o werth ymarferol mawr. Gan fyned heibio i lafur Lambert, Bouguer, Porterfield, Turner, Mazeas, Dutour, Buffon, Scheiffer, Darwin, Melville, Mitchell, ac ereill, yr ydym yn dyfod at gyfnod Syr William Herschell.

Er adeg darganfyddiad gwregysau a modrwyau agosaf Sadwrn, nid oedd un darganfyddiad o bwys mawr wedi ei wneyd yn mherthynas i hanesyddiaeth naturiol y nefoedd serenog. Treuliodd Syr William Herschell lawer o'i amser i wneyd pellweladuron—ac yn eu plith amryw o rai llawer mwy nag a wnaethpwyd o'r blaen; a gwnaeth ddarganfyddiadau pwysig mewn seryddiaeth gyda hwynt. Ac yn mysg ereill a wnaethant ddarganfyddiadau pwysig yn dal cyssylltiad â thremyddiaeth, yn ystod y ganrif sydd wedi myned heibio, gellir enwi Dr. Robert, Blair, Dr. Thomas Young, M. Ritter, Dr. Wollaston, M. Arago, M. Biot, Syr David Brewster, Syr John Herschell, M. Seebeck, Proffeswr Dr. Lloyd, Mr. Airy, a llawer ereill nas gellir eu henwi.

Yr oedd yr hynafiaid yn tybied, pan yr ydys yn gweled gwrthddrychau allanol fod rhywbeth yn treiddio drwy y llygaid i'r gwrthddrych; ond y mae goleuni yn bod yn annibynol ar welediad. Goleuni ydyw yr elfen trwy gyfrwng yr hon yr ydym yn gweled cyrph allanol. Gellir dosbarthu y cyrph hyn yn ddau ddosbarth; sef, cyrph hunan-oleuedig, a chyrph tywyll. Y mae y dosbarth blaenaf yn cynnwys yr haul, y sêr, fflamau o bob math, a chyrph a ddeuant yn oleu trwy ymrwbiad, gwres, a gweithrediad trydanol. Y mae y cyfryw gyrph yn weladwy trwy gyfrwng y goleuni a ddeillia o honynt hwy eu hunain—ac felly y ceir syniad am eu ffurf gweledig. Ymddengys yr haul, er enghraifft, yn grwn, a fflam y ganwyll ar ffurf hirgrwn. Nid ydyw yr ail ddosbarth o gyrph byth yn weledig ond pan y dodir hwynt yn ngoleuni cyrph hunan-oleuol. Cynnwysa y lleuad a'r holl blanedau—o ba rai nid ydym yn gweled ond y rhanau hyny y disgyna pelydrau yr haul yn uniongyrchol arnynt, a phob gwrthddrychau ereill ar wyneb y ddaear. Pan y dygir canwyll wedi ei goleuo i ystafell dywyll, disgyna ei goleuni ar bob peth a fyddo yn yr ystafell, a deuant yn weladwy. Y mae y cyrph hyn yn adlewyrchu neu yn taflu yn ol oleuni y ganwyll, a gwasgara ef yn mhob cyfeiriad. Ond y mae gwrthddrychau yn weledig hefyd trwy oleuni a deflir allan o gyrph tywyll. Pan y byddo y lleuad ar ffurf hanner crwn, yr ydys yn canfod y gyfran dywyll o'i gwyneb crwn trwy gyfrwng goleuni a ddisgyna arni o'r ddaear, yr hon a fydd ar y pryd yn cael ei goleuo gan yr haul. Yr un modd mewn ystafell a oleuir gan ganwyll—gwelir gwrthddrychau mewn conglau a lleoedd na bydd goleuni y ganwyll yn disgyn arnynt. Y mae y gwrthddrychau hyn yn cael eu goleuo â goleuni y ganwyll, trwy fod y nenfwd a muriau yr ystafell yn taflu goleu arnynt; a dyna y rheswm mawr pa ham y dylai nenfwd ystafell fod yn wyn, a'r muriau hefyd mor oleu ag y bydd yn bossibl, os byddwn yn ewyllysio cael y swm mwyaf o oleuni.

Y mae y goleuni a deflir allan o gyrph, pa un bynag ai hunan-oleuedig ai tywyll fyddant, os bydd wedi myned i mewn i'r cyrph, o'r un lliw a hwy eu hunain. Gwna darn o haiarn eiriasboeth, neu ddarn o gŵyr coch, i bapur gwyn ymddangos yn goch os delir ef yn agos atynt. Gwyn ydyw y goleuni a adlewyrchir o arwyneb cyrph lliwiedig. Ac er fod cyrph lliwiedig yn taflu allan oleuni o'r un lliw a hwy eu hunain, nid ydyw cyrph yn ymddangos o'r un lliw a'r goleuni a ddisgyn arnynt. Y mae cyrph sydd yn wyn mewn goleu gwyn, yn ymddangos o'r un lliw a'r goleuni a ddisgyn arnynt; ond y mae cyrph ereill, megys cŵyr coch, yn ymddangos yn goch hyd yn oed mewn goleu gwyn—priodoledd a feddiannant oddi wrth y ffaith fod eu cyfansoddiad neillduol yn gweithredu ar y gwahanol liwiau o ba rai y mae gwyn yn cael ei gyfansoddi. Y mae cyrph o'r natur yma, pan y goleuir hwynt â goleuni o wahanol liwiau, bob amser yn ymddangos yn ddisgleiriach mewn goleuni o'r un lliw na phan mewn goleu gwyn. Er enghraifft, y mae darn o gŵyr melyn yn ddisgleiriach na darn o gŵyr coch; ond bydd y cŵyr melyn yn llai disglaer na'r cŵyr coch, os goleuir y ddau a goleuni coch.

Dosberthir gwahanol gyrph, yn mherthynas i oleuni, yn ddau ddosbarth; sef, tywyll a thryloew. Corph tywyll ydyw yr un sydd yn attal y goleuni a ddisgyn arno, megys dernyn o lô, neu ddarn o arian: a chorph tryloew ydyw yr un sydd yn gollwng y goleuni drwyddo; megys gwydr, dwfr, neu awyr. Gellir gwneuthur y corph tywyllaf, modd bynag, yn dryloew, ond ei wneyd yn ddigon teneu, a gellir gwneyd y corph tryloewaf yn dywyll trwy ei wneuthur yn ddigon trwchus. Tywyllni cyrph, neu eu gallu i sefyll ar ffordd goleuni, sydd yn achosi cysgodion. Gan fod cysgodion cyrph o'r un ffurf a'r cyrph eu hunain, profir y ffaith fod goleuni yn symmud yn mlaen yn llinellau unionsyth. Y mae goleuni, modd bynag, yn ymwasgaru yn mhob cyfeiriad o arwyneb cyrph tryloew a gweladwy. Profir hyn gan y ffaith y gwelir y cyfryw gyrph i ba gyfeiriad bynag y byddwn yn edrych. Cynnwysa goleuni ranau gwahanol ac annibynol, y rhai wedi eu tynu i lawr i'r maintioli lleiaf, a elwir 'gronynau goleuni.' Gellir trosglwyddo pelydryn o oleuni i ystafell dywyll, a'i ddosbarthu yn ddarnau manach, mewn amryw ffyrdd. Teithia goleuni yn ol y cyflymder o 192,000 o filldiroedd yr eiliad. Y mae buander y goleuni yn teithio mor anamgyffredadwy fel y mae yn angenrheidiol ei egluro er ei ddeall. Teithia o'r haul i'r ddaear mewn saith munyd a hanner: ond byddai raid i sŵn magnel a danier ar y ddaear gael dwy flynedd ar bymtheg cyn y cyrhaeddai yr haul. Teithia goleuni rhagddo ynghylch pum mil ar hugain o filldiroedd—pellder cymmaint ag amgylchedd y ddaear—yn yr wythfed ran o eiliad. Cymmerai i'r aderyn sydd gyflymaf ar ei aden tua thair wythnos i gwblhau y daith hon. Cymmera bum mlynedd i oleuni gyrhaedd y ddaear o'r seren sefydlog agosaf; a miloedd o flynyddoedd oddi wrth y seren bellaf a ganfyddir drwy y pellweladur. O ganlyniad, gallai fod ser pell wedi eu creu tuag amser creadigaeth dyn, pa rai nad ydyw eu goleuni wedi cyrhaedd i'r ddaear etto. Gwel SERYDDIAETH.



Digitized by Google

Pan y disgyna goleuni ar unrhyw gorph, naill ai anwastad neu lyfn, lliwiedig neu anliwiedig, y mae cyfran o'r goleuni a syrthia arno yn treiddio i mewn iddo, ac naill ai yn cael ei golli ynddo neu ei drosglwyddo trwyddo; ac y mae cyfran o hono yn cael ei adlewyrchu oddi ar ei wyneb yn yr un cyfeiriad, neu mewn cyfeiriad gwahanol i'r un y daeth. Ond y mae y goleuni sydd yn myned i mewn i'r corph, ac yn cael ei golli ynddo, a'r goleuni a drosglwyddir drwy y corph, a'r goleuni a adlewyrchir oddi wrtho, yn cyfnewid yn ei gyfeiriad, ac yn ei briodoleddau anianyddol.

Y mae y llygad yn meddu gallu i'w gyfaddasu ei hun at wahanol raddau o oleuni; ac y mae amgylchiadau sydd yn gwneuthur yr ymarferiad yma yn angenrheidiol. Os deuir o ystafell dywyll, ar ol bod yno yn hir, i ystafell oleu, y mae y llygaid yn teimlo oddi wrth yr anghyfleusdra, ac yn gorfod dioddef ychydig o boen: yna cauir yr amrantau; ac y mae yn rhaid i beth amser fyned heibio cyn y deuant atynt eu hunain. Y mae yn hawdd esbonio hyn. Tra y mae yr edrychydd mewn ystafell dywyll, y mae canwyll y llygad yn eangu fel ag i ollwng i mewn gymmaint o oleuni ag y derbynia y llygad: ond pan yr él i ystafell oleu yn ddisymmwth, bydd y ffrwd o oleuni a dery ar y rhwydlen yn cynnyrchu poen; yr hyn o angenrheidrwydd a eilw am amddiffyniad i'r llygad. Trwy drefniad hynod a doeth y Creawdwr y mae canwyll y llygad yn myned yn llai mewn ystafell oleu fel ag i ollwng llai o oleuni i'r llygad; ac felly gellir ei agor heb deimlo unrhyw anghyfleusdra. Ar y llaw arall, pan eir o ystafell oleu i un dywyll, neu i'r awyr agored yn y nos, y mae yr effaith yn wahanol:—am beth amser, ni chanfyddir yn mron ddim, gan na bydd canwyll y llygad ond bechan, wedi ei chymmhwyso i dderbyn goleuni cryfach: felly rhaid i'r ganwyll gael amser i ymeangu i dderbyn mwy o oleuni cyn y gellir gweled.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at gyflymder goleuni, ei fod yn teithio trwy y gwagle tua 192,000 o filldiroedd yr eiliad. Rhaid ei fod yn cyrhaedd y llygaid oddi wrth bob gwrthddrych os na bydd y pellder yn fawr, bron yn ddiattreg. Y funyd, gan hyny, y gosodir gwrthddrych o flaen y llygad, y mae delw o hono yn cael ei ffurfio ar y rhwydlen, ac erys y ddelw hon yno hyd nes y symmudir y gwrthddrych. Y mae ffrwyth sylw manwl yn dangos fod y rhwydlen, ar ol unwaith dderbyn darlun o flaen y llygad, yn cadw yr argraph o hono, weithiau yn ddwfn a chryf, ac weithiau yn wan a diflanedig; ond y mae parhâd yr argraph ar y rhwydlen, ar ol symmud y gwrthddrych a'i cynnyrcha, yn amrywio yn ol graddau y goleuni a lliw y gwrthddrych. Po cryfaf y byddo y goleuni, a pho disgleiriaf y lliw, hwyaf yn y byd y cedwir yr effaith o honynt ar y rhwydlen. Er esampl, wrth droi darn o bren wedi ei oleuo mewn ystafell dywyll, bydd yr ymddangosiad i'r llygad yn un cylch crwn o oleuni: yn yr amgylchiad yma y mae yr argraph a wneir ar y rhwydlen gan y goleuni, pan y byddo y pren mewn rhyw fan neillduol o'r cylch, yn parhau nes y dychwela y pren i'r un man eilwaith. Yr un modd, pan yr ymddengys y fellten i'r llygad yn un llinell oleu, y mae y goleuni a deflir allan mewn un rhan o'r llinell yn aros ar y rhwydlen nes y cyrhaedda yr achos o'r goleuni i fan arall. Fel y sylwyd y mae parhâd yr argraph ar y rhwydlen, ar ol symmudiad y gwrthddrych a'i cynnyrcha, yn amrywio yn ol nerth y goleuni a disgleirdeb y darlun a dynir. Y mae yr argraph a gynnyrchir gan gorph goleu mewn ystafell dywyll yn fwy parhaol nag a gynnyrchir gan yr un gwrthddrych pan y gwelir ef mewn ystafell oleu.

Gofynir weithiau, gan fod gan ddyn ddau lygad, ar ba rai y gwneir argraph annibynol gan wrthddrychau allanol, ac y ffurfir darlun annibynol o wrthddrych gweledig, pa ham nad ydym yn gweled gwrthddrychau yn wahaniaethol, yn cyfatteb i'r gwrthddrych sydd yn gwneuthur argraph felly ar y llygaid? Y mae yn rhyfedd na byddai yr un cwestiwn yn cyflwyno ei hun i'r meddwl yn mherthynas i'r synwyr o glywed. Pa ham na byddai pob sain a seinir gan linyn neu gloch yn cael ei glywed yn ddau swn gwahaniaethol, gan eu bod yn gweithredu yn annibynol a gwahaniaethol ar ddau beiriant y clyw? Fel llawer o gwestiynau dadleuol, symmudir llawer o'i anhawsder trwy dalu sylw manwl i ystyr y geiriau a ddefnyddir yn y cwestiwn. Os wrth weled yn ddwbl y golygir fod y ddau lygad yn derbyn argraphiadau annibynol a gwahaniaethol oddi wrth wrthddrychau allanol, yna y mae yn wir fod dyn yn gweled yn ddwbl. Ond os golygir mai y meddwl sydd yn derbyn dau argraph gwahaniaethol ac annibynol o'r un gwrthddrych, yna nis gellir rhoddi yr un attebiad. Os ydyw y ddau lygad yn cyflwyno i'r meddwl yn union yr un argraph o'r gwrthddrych allanol, heb wahaniaethu mewn dim, yna hwy a gynnyrchant yn y meddwl yn union yr un syniad am y gwrthddrych; ac fel y mae yn ammhossibl dychymygu fod dau syniad yn y meddwl am yr un gwrthddrych allanol, sydd yr un yn mhob ystyr, byddai yn wrthddywediad i dybied ein bod, mewn amgylchiad o'r fath, yn gweled y gwrthddrych yn ddwbl. Canys os ydyw canfod y gwrthddrych yn ddwbl yn golygu rhywbeth, y mae yn golygu fod y meddwl yn meddu dau syniad am yr un gwrthddrych, pendant a gwahaniaethol oddi wrth eu gilydd mewn rhyw ystyr. Os ydyw y gwahaniaeth hwn yn bodoli yn y meddwl, y mae gwahaniaeth cyfattebol yn bod yn yr argraph a gynnyrchir o'r gwrthddrychau allanol ar y llygaid. Y mae gwrthddrych yn gadael argraph arosol ar y meddwl o ryw ffurf gweledig neillduol—maint, lliw, a lle. Yn awr, os bydd yr argraph a gynnyrchir gan yr un gwrthddrych ar y ddau lygad yn cyttuno yn mhob peth, y mae'n ammhossibl dychymygu fod y meddwl yn derbyn dau syniad gwahanol o'r gwrthddrych. Tybier fod y ddau lygad yn edrych ar y lleuad, a bod y gwrthddrych hwnw yn gosod ei ddelw arnynt—o'r un maint a ffurf yn union, yr un lliw a phrydweddau, yr un faint o oleuni, a'i bod yn hongian yn yr un cyfeiriad—gan fod yr argraph a drosglwyddir i'r meddwl gan y ddau lygad yn cyfatteb yn fanwl i'w gilydd yn mhob peth, y mae yn ammhossibl meddu syniad dwbl am dani.

Ond os bydd y ddau lygad, o herwydd rhyw ddiffyg yn eu ffurfiad, yn cynnyrchu darluniau gwahaniaethol ar y rhwydlen, yna bydd genym ddau syniad am yr un gwrthddrych—ac y mae yn bossibl gosod gwrthddrych mor agos i'r llygaid fel y cynnyrchir delweddau ar y rhwydlen a wahaniaethant mewn maint, goleuni, ac hyd yn oed mewn ffurf. Mewn amgylchiad o'r fath, y mae y ddau lygad yn trosglwyddo i'r meddwl argraph gwahanol o'r un gwrthddrych, ac felly yr ydym yn ei weled yn ddwbl. Os gwneir argraphiadau gwahanol ar y ddau lygad gan yr un

Digitized by Google

y lwysbenogaeth; priodi, a'r lliaws cwestiynau oedd yn gyssylltiedig â'r materion hyn. Parhaodd y pyngciau yma i gymmeryd i fyny yr eisteddiadau, o'r eilfed ar bymtheg hyd y pedwerydd ar hugain:—hyd Tachwedd 11eg, 1563. Amlygwyd pryder neillduol gan lawer o esgobion am weled y cynghor yn cael ei ddwyn i derfyniad, mewn trefn iddynt allu dychwelyd i'w hesgobaethau mewn amseroedd a ystyrid mor beryglus ganddynt. O ganlyniad, yn gymmaint a bod yr ymdriniaethau rhagarweiniol ar y rhan fwyaf o'r cwestiynau ereill oedd i'w trafod wedi cymmeryd lle eisoes, darparwyd gosodiadau ar yr holl byngciau oedd yn ngweddill o'r bron; megys y purdan, gweddïo ar y seintiau, delwau, creiriau, a maddeuant-lythyrau. Cyfeiriwyd amryw faterion ereill, oedd yn ymwneyd yn hytrach â manylion nag âg egwyddor ac athrawiaeth, at y pab ei hun, i gael eu chwilio a'u trefnu ganddo ef; ac ar y 3ydd a'r 4ydd o Ragfyr, 1563, darllenwyd y gosodiadau hyn, cymmeradwywyd, a llawnodwyd hwy gan aelodau y cynghor—yn cynnwys pedwar o genhadon cardinalaidd, dau o gardinaliaid ereill, pump ar hugain o archesgobion, cant ac wyth a thrigain o esgobion, saith o abadau, saith o gadfridogion urddau, a phedwar ar bymtheg ar hugain o esgobion, trwy eu dirprwywyr—oll yn rhifo dau cant a deuddeg a deugain.

Cadarnhawyd y gosodiadau hyn ar y 10fed o Ionawr, 1564, gan y pab Pius IV.; yr hwn a dynodd allan, wedi ei seilio arnynt, mewn cyssylltiad â'r credoau oedd yn flaenorol mewn arferiad, gyffes ffydd a elwir hyd heddyw ar ei enw ef. Derbyniwyd gosodiadau athrawiaethol y cynghor ar unwaith drwy yr holl eglwys orllewinol; a dylid sylwi ar y ffaith hon, gan fod y cwestiwn o barthed i dderbyniad y gosodiadau athrawiaethol weithiau yn cael ei gymmysgu â'r cwestiwn o dderbyniad y gosodiadau diwygiadol neu ddysgyblaethol. O barthed i'r diweddaf, cymmerodd cryn oediad le i'w dwyn oddi amgylch. Y wlad a wnaeth y derbyniad cyntaf o'r gosodiadau fel cyfangorph oedd gweriniaeth Venice. Ni dderbyniwyd y gosodiadau dysgyblaethol yn Ffraingc ond bob yn rhan—y naill ar ol y llall, ar wahanol adegau.

Y mae canonau a gosodiadau Cynghorfa Trent wedi eu cyhoeddi yn yr iaith Ladin, ac wedi eu hargraphu liaws mawr o weithiau. Ystyrir mai y cyfieithiad Saesneg goreu ydyw yr un a wnaed gan O'Donovan. Un o'r gweithiau adgyflenwadol a ymddiriedwyd i'r pab pan y torwyd i fyny y cynghor, oedd cwblhau catecism i'w ddefnyddio gan offeiriaid a phregethwyr. Er nad oedd y gwaith yn cael ei ystyried yn meddu ar holl awdurdod y cynghor, y mae yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol, ac wedi ei gyfieithu i lawer o ieithoedd. Gwaith arall o eiddo y cynghor oedd y cyhoeddiad o argraphiad cywir o gyfieithiad y *Vulgate* o'r Beibl, a llithlyfr (*Missal*). Gwnaed yr holl waith yma o'r diwedd; ac y mae yn Rhufain lys parhaol, neu ddirprwyaeth o gardinaliaid, a elwir *Congregatio Interpres Concilii Tridentini*, i'r hwn y perthyn y gwaith o ymdrin â chwestiynau y bydd rhyw betrusder yn codi yn eu cylch, a berthynant i ystyr, awdurdod, neu effeithiau canonau a gosodiadau y cynghor enwog hwn.

TRETH, TRETHIAD, TRETHOEDD. Y mae y geiriau hyn yn arwyddo arian yn cael eu codi oddi ar bersonau at wasanaeth unrhyw wladwriaeth; ac y mae trethi yn hysbys yn mhob gwlad sydd wedi ymgodi rhyw gymmaint uwch law sefyllfa o anwareidd-dra. Yn hanes cenedl Israel, yn gystal a chenhedloedd ereill, rhaid i'r hwn a ewyllysia ffurfio syniad cywir am sefyllfa gymdeithasol y bobl, gymmeryd i ystyriaeth y trethi oedd ganddynt i'w talu. Yn ol fel y bydd y rhai hyn yn ysgeifn neu yn drymion, yr amrywia hapusrwydd a llwyddiant cenedl i raddau pell. Ac er nad yw hanesyddiaeth, fel y cyfryw, yn cymmeryd sylw mawr o'r mater hwn, etto mae'n ddiammheu y gellir olrhain at bwngc y trethi yr achos o lawer o chwyldroadau gwleidyddol y byd.

O dan y barnwyr yn Israel, yn ol gofynion y llywodraeth ddwyflywiol, yr unig daliadau oedd y degymau, y blaenffrwyth, ac arian pryniad y cyntafanedig, ac offrymau ereill a berthynent i achlysuron arbenig. Ymddengys nad oedd y taliad gan bob Israeliad o hanner sicl o offrwm tu ag wasanaeth y tabernacl, ar adeg cyfrif y bobl (*Exod.* xxx. 13), yn meddu nodwedd treth barhaol; ond yn fath o adgyflenwad i'r rhoddion gwirfoddol a gyfrenid tuag at godi y tabernacl: *Exod.* xxv. 1—7. Mewn amseroedd diweddarach, ar ol y dychweliad o Babilon, yr oedd taliad blynyddol yn cael ei wneuthur tuag at adgyweiriad a chynnaliad gwasanaeth y deml; ond y mae y ffaith i hyn ddechreu trwy gyttundeb gwirfoddol i dalu un rhan o dair o sicl (*Neh.* x. 32) yn dangos nad oedd y fath daliad yn cael ei gydnabod yn angenrheidiol cyn hyny. Ychydig yn ddiweddarach daeth y drydedd ran yn hanner; ac o dan yr enw *didrachma* (*Mat.* xvii. 24), telid ef gan bob Iuddew, yn mha barth bynag o'r byd y digwyddai breswylio.—"*Hyn. Iudd.*," xviii. 9, *adr.* 1. Yn y modd yma ceglid yn Babilon, a dinasoedd dwyreiniol ereill, at yr amcan hwn, ac anfonid y casgliad i Ierusalem. Ysgeifn, gan hyny, oedd y trethi yn amser y barnwyr; ac nid rhyfedd fod y bobl mewn amseroedd diweddarach yn edrych yn ol yn hiraethus at yr amser pan yr oedd eu beichiau yn ysgafnach.

Pan yr ymffurfiodd hi yn deyrnas frenhinol, gyda llywodraeth ganolbarthol, ar raddeg arderchocach, wrth gwrs yr oedd y treuliadau yn fwy, ac o ganlyniad y trethi yn drymach. Ymddengys mai y prif feichiau oeddynt y rhai canlynol:—1. Degwm o gynnyrch y tir a'r da byw—yn gwneyd, gyd â'r degwm i'r offeiriaid a'r Lefiaid, ugain y cant o drethiad ar ffynnonellau cyfoeth o'r natur yma: 1 *Sam.* viii. 15, 17. 2. Gwasanaeth milwraidd gorfodol am un mis yn y flwyddyn: 1 *Sam.* viii. 12; 1 *Bren.* ix. 22; 1 *Cron.* xxvii. 1. 3. Rhoddion y brenin; y rhai, er nad oeddynt yn orfodol, a ddisgwylid ar ddechreuad y teyrnasiad (1 *Sam.* x. 27), neu yn amser rhyfel: 1 *Sam.* xvi. 20; xvii. 18. Y rhoddion a ddisgwylid oddi wrth benaethiaid o dan deyrnged oeddynt arfau, meirch, aur, arian, &c.: 1 *Bren.* x. 25; 2 *Cron.* ix. 24. Nis gellir bod yn sicr a ddisgwylid y pethau hyn oddi wrth ddeiliaid Israelaidd. 4. Tollau ar nwyddau a ddeuent o wledydd ereill; ac yn benaf o'r parthau hyny o Arabia lle y deuai y peraroglau: 1 *Bren.* x. 15. 5. Y gorfaeliaeth (*monopoly*) ar ganghenau neillduol o fasnach; er esampl, ar aur (1 *Bren.* ix. 28, xxii. 48), llian main (1 *Bren.* x. 28), a meirch (*adn.* 29). 6. Cynnyrch y gwair cynnar a gyflwynid at wasanaeth y brenin: *Amos* vii. 1. Y mae yn bossibl, pa fodd bynag, fod hyn yn gyfyngedig i'r deyrnas ogleddol, neu yn

Digitized by Google

cael ei achlysuro gan ryw amgylchiadau neillduol. Y mae yn ddiammheu fod beichiau o'r fath, pan yn disgyn ar bobl nad oeddynt wedi ymarfer â hwy, o'r braidd yn annioddefol. Hyd yn oed yn amser Saul edrychid ar ryddhâd oddi wrth drethi yn ddigon o wobr am wasanaeth milwraidd enwog: 1 *Sam.* xvii. 25. O dan orwychder allanol teyrnasiad Solomon, teimlid trethi trymion yn fawr, a bu hyn yn un o achlysuron y chwyldroad a ddilynodd. Nid oedd y bobl yn cwyno gymmaint o herwydd delwaddoliaeth Solomon ag o blegid y trethi: 1 *Bren.* xii. 4. O holl swyddogion y brenin, yr hwn yr edrychai y bobl gyda mwyaf o adgasrwydd arno oedd Adoram, "yr hwn oedd ar y dreth;" 1 *Bren.* xii. 18. Ar adegau neillduol yn hanes y ddwy deyrnas, yr oedd y beichiau yn drymion. Cyfodai Menahem dreth o hanner can sicl o arian bob un, sef "ar yr holl rai cedyrn o allu," i'w talu i frenin Assyria (2 *Bren.* xv. 20); ac o dan ei olynydd, Hosea, cymmerodd hyn y ffurf o deyrnged flynyddol: 2 *Bren.* xvii. 4. Yr un modd, ar ol gorchfygiad Iosiah gan Pharaoh Necho, cyfodwyd treth drom ar deyrnas Iudah i dalu y deyrnged a hawliai yr Aipht (2 *Bren.* xxiii. 35), ac ni ddarfu i'r cyfnewidiad o lywodraethwr mewn canlyniad i frwydr Charcemis beri un gwellhâd yn yr ystyr yma.

Yr oedd trethi yr Iuddewon, o dan yr ymherodraeth Bersiaidd, ar y cyfan, rywbeth yn debyg i'r trethi a gyfodid oddi ar genhedloedd ereill oedd yn ddarostyngedig i'r gallu hwnw. Yr oedd cyfundrefn gyllidol Darius Hystaspis yn rhwymo pob llywodraethwr i dalu swm pennodol fel y deyrnged ddyledus oddi wrth ei dalaeth, ac yn ei osod ef o ganlyniad yn fath o ben publican. Yn Iudea, fel mewn taleithiau ereill, yr oedd y bobl yn gorfod darparu bara a gwin, a nwyddau ereill, at wasanaeth tŷ y llywodraethwr, heb law talu deugain sicl o arian yn y dydd: *Neh.* v. 14, 15. Yn *Ezra* iv. 13, 20, a vii. 24, enwir yn ffurfiol tair cangen fawr y cyllid; sef, "toll, teyrnged, a threth." Fe allai fod y dreth yn golygu rhyw daliad pennodol—yn fath o drethiad uniongyrchol; y deyrnged, yn golygu yr hyn a gyfodid o dreth ar nwyddau; a'r doll, yn golygu yr hyn a delid am groesi pontydd, sarnau, a rhanau neillduol o'r prif-ffyrdd. Trwy ddylanwad Ezra, cafodd holl lwyth Lefi, o'r offeiriaid i lawr hyd y Nethiniaid, eu hesgusodi rhag talu y naill na'r llall (*Ezra* vii. 24); ond yr oedd y baich yn gwasgu ar gorph y bobl, nes peri iddynt gwyno yn dost o herwydd hyn, a'r gorthrwm yr oeddynt hwy a'u hanifeiliaid yn ddarostyngedig iddo: *Neh.* ix. 37. Gorfodid hwynt i wystlo eu gwinllanoedd a'u meusydd, ac i echwyno arian ar lôg: *pen.* v. 1—11. Arweiniodd trethiad yn Ierusalem yn union i'r un drygau ag a ymddangosasant mewn canlyniad i'r un achosion yn hanes boreuol Rhufain. Ond gwnaeth Nehemiah yr oll a allai er lleddfu y drwg; er hyny yr oedd y trethi yn parhau i gael eu codi, a'r gorthrwm a'r anghyfiawnder mewn canlyniad yn nodweddu llywodraethiad y dalaeth.

O dan y brenhinoedd Aiphtaidd a Syriaidd yr oedd y trethi yn drymach drachefn. Defnyddiwyd y drefn o osod casglwyr trethi yn ei ffurf waethaf. Yr oedd raid i'r llywodraethwyr Persiaidd dalu swm pennodol i drysorfa y wladwriaeth. Yn awr dechreuodd yr arfer o osod y trethi mewn arwerthiad cyhoeddus i'r uchaf ei gynnyg. Yr oedd y swm a ofynid am drethi Phœnicia, ac Iudea, a Samaria, yn wyth mil o dalentau. Ond buasai anturiaethwr dibetrus yn cynnyg agos gymmaint arall am danynt, ac yn arfer gormes a thrais, fel y trethwyr Hindwaidd a Thyrcaidd, i gael oddi ar y bobl elw da iddo ei hun drachefn. O dan y Syriaid hefyd yr ydym yn cael fod amryw ddulliau o drethu.

Yr oedd pwysau trethi y Rhufeiniaid, os nad yn drymach, yn fwy anhawdd eu dioddef, dybygid, am fod y trethi yn cael eu gosod ganddynt hwy yn fwy cyflawn a threfnus, ac yn dwyn arwydd amlycach o ddarostyngiad. Mor fuan ag y cymmerwyd Ierusalem gan Pompey, codwyd teyrnged yn ddioed; ac mewn amser byr yr oedd y swm a gymmerwyd felly o adnoddau y wlad yn cyrhaedd deng mil o dalentau.—"*Hyn. Iudd.*," xiv. 4, *adr.* 4, 5. Dengys cyfreithiau Julius Cæsar ei fod yn awyddus am ysgafnhau y beichiau a wasgent ar ddeiliaid Rhufain. Nid oedd y deyrnged i gael ei gosod i'r uchaf ei bris, nac i gael ei chodi o gwbl ar y flwyddyn Sabbothol: ac un rhan o bedair yn unig a ofynid y flwyddyn ddilynol.—"*Hynaf. Iudd.*," xiv. 10, *adr.* 5, 6. Fel hyn yr oedd y bobl, oedd yn parhau o dan lywodraeth Hyrcanus, yn cael eu hamddiffyn yn erbyn gormes eu llywodraethwyr eu hunain. Dygodd yr ymdrechfa a wnaed gan y blaid werinol, ar ol marwolaeth Julius Cæsar, feichiau newyddion ar yr oll o Syria, a chododd Cassius saith gant o dalentau o deyrnged oddi ar Iudea. Fel y gallesid disgwyl oddi wrth y gwastraff a'r difrod a wnelai ar arian mewn adeiladau cyhoeddus, daeth y trethi yn drymach. Hyd yn oed mewn blynyddoedd o newyn, cymmerwyd rhan o gynnyrch y tir i wneyd i fyny ddiffygion y cyllid brenhinol, ac ni ddarfu iddo leihau yn ymddangosiadol y drydedd ran nes yr oedd anfoddlonrwydd y bobl yn myned yn beryglus.—"*Hynaf. Iudd.*," xv. 10, *adr.* 4. Nid rhyfedd gan hyny pan yr ewyllysiai Herod sylfaenu dinas newydd Trachonitis, a denu pobl i breswylio ynddi, mai yr at-dyniad cryfaf i hyny oedd ei rhyddhad oddi wrth drethi; a bod y bobl ar ei farwolaeth ef wedi dyrchafu eu llef at Archelaus am eu rhyddhad o'u beichiau.

Pan y gwnaed Iudea yn dalaeth Rufeinig ffurfiol, daeth o angenrheidrwydd yn ddarostyngedig i gyfundrefn gyllidol yr ymherodraeth. Gosodwyd y trethi i'r uchaf ei gynnyg, ac ystyrid y publicanod yn bla chwanegol ar y wlad. Gwel PUBLICANOD. Cyfodid toll yn y porthladdoedd a phyrth y dinasoedd. Yn chwanegol hefyd, yr oedd yr hyn a elwid 'treth y penau' (*poll tax*) yn cael ei thalu gan bob Iuddew (*Marc* xii. 15); ac ystyrid hi yn arwydd amlwg o ddarostyngiad. Cwestiynai y rabbiniaid gyfreithlondeb y dreth hon, er eu bod yn lled foddlawn i dalu y tollau: *Mat.* xxii. 17; *Marc* xii. 13; *Luc* x. 20. Ymddengys mai yn erbyn y dreth hon y cododd Iudas o Galilea a'i ddilynwyr yn benaf. Yn ol pob tebygolrwydd yr oedd treth o ryw fath yn cael ei chodi ar eiddo hefyd. Ar ol marwolaeth Archelaus, anfonwyd Quirinus i Syria i gwblhau y gwaith o brisio a chofrestru eiddo; ac arweiniwyd y bobl yn lled gyffredinol i gydsynio â hyn trwy ddylanwad Ioazar yr archoffeiriad (Iudas a'i ddilynwyr oedd yr unig eithriadau), ac i wneuthur i fyny y cyfrifon angenrheidiol. Ond parhau yr oedd eu hanfoddlonrwydd; ac o dan Tiberius, hwy a wnaethant appeliad am gael ysgafnhau eu beichiau.—Tacitus, "*Annals*," ii. 42. Yn chwanegol at y trethi cyffredinol hyn, gwnaed preswylwyr Ierusalem

Digitized by Google

yn ddarostyngedig i dreth arbenig a osodwyd ar dai ynghylch y pryd hwn; ond gan fod Agrippa yn dymuno sicrhau ewyllys da y bobl, efe a'i gadawodd heb ei chasglu.—"*Hyn. Iudd.*," xix. 6, *adr.* 3. Nis gellir ammheu nad oedd treth gorthrymus yr Iuddewon, fel cenhedloedd ereill, yn effeithio yn niweidiol arnynt. Yr oedd amryw o ddiffygion amlycaf cymmeriad y genedl yn dal cyssylltiad â hyn. Am "drethu yr holl fyd," y sonir am dano yn *Luc* ii. 1, gwel d. g. IESU GRIST: ACHAU.

Cyfeiriwyd yn barod fod trethi yn cael eu codi yn fynych er dal i fyny anghyfiawnder gwleidyddol. Pa bryd bynag y mae cynnyrch trethi yn cael ei ddefnyddio i ryw amcan heb law gwasanaethu y rhai sydd yn eu talu, y mae y dreth yn anghyfiawn. Yn eu ffurf mwyaf gormesol, y mae trethi yn cael eu codi ar wledydd gorchfygedig, a'u cymmeryd i logellau neu at wasanaeth y gorchfygwyr—ac yn y ffurf hon fe'u gelwir yn deyrnged. Gwel TEYRNGED. Y mae pob ymdrech teg cyfansoddiadol a wneir i buro y trethiad oddi wrth anghyfiawnder yn sylfaenedig ar hawl y bobl i drethu eu hunain. Cael hyn oddi amgylch oedd y prif amcan yn yr ymdrechiadau mawrion sydd wedi diogelu i'r ymherodraeth Brydeinig gyfansoddiad rhydd. Yr oedd gynt hen drethi gwriogaethol, ag yr oedd y penaduriaid yn hawlio awdurdod i'w codi; ond pan y byddai y rhai hyny yn annigonol i gyfarfod eu bwriadau uchelgeisiol, yr oeddynt i ofyn i'r senedd am gyflenwad pellach, a chymmerai hithau fantais ar hyny i wneyd cyttundeb i symmud ymaith rai pethau y cwynid o'u plegid. Ac yn raddol yn y modd yma daethpwyd i ystyried ei bod yn egwyddor gyfansoddiadol sylfaenol—na ddylid codi un dreth heb gydsyniad cynnrychiolwyr y bobl y disgwylir iddynt ei thalu. Gweithredodd trefedigaethau yr America ar yr egwyddor hon a gydnabyddid yn un gyfiawn, pan yr ymdrechodd Mr. Grenville gyfodi tollau ar arfathau (*stamps*) a thê, ac y dadganasant eu barn fod "trethiad heb gynnrychioliad yn orthrwm." Un o'r adegau y bu rhyddid y wlad hon mewn mwyaf o berygl yn ddiau oedd ysbaid deuddeng mlynedd teyrnasiad Siarl I., pan yr oedd y penadur hwnw yn alluog i gario ei lywodraeth yn mlaen heb fyned at y senedd i geisio arian.

Pwngc mawr a dyrus ydyw y modd i wneyd y trethi yn ysgeifn. Arferai Turgot, un o'r cyllidwyr doethaf, ei galw yn 'gelfyddyd o bluo yr ŵydd heb beri iddi waeddi.' Ond y mae y dyfeisiau mwyaf cywrain er sicrhau yr amcan hwn, mewn ymarferiad yn cyfarfod â llawer o anhawsderau. Tybid y gallai trethi anuniongyrchol—hyny yw, trethi yn cael eu cyfodi ar nwyddau cyn iddynt gyrhaedd y prynwr—fod yn rhwym o fod, mewn gwlad wareiddiedig, o'r bron yn ddihysbydd. Mantais y drefn hon yw, nad ydyw baich y dreth yn disgyn mewn ymddangosiad ar y person sydd yn ei thalu. Y mae y dreth ar incwm, y dreth ar dai, treth y cŵn, a'r cyffelyb, yn cael eu codi yn uniongyrchol oddi ar y person ag y mae y baich yn disgyn arno; ac os na thâl efe hwynt, cymmerir y swm dyledus oddi arno trwy rym cyfraith. Nid yw y tollau ar dê, sugr, gwin, &c., yn cael eu codi yn uniongyrchol oddi ar yr hwn sydd yn eu defnyddio, er fod yn rhaid iddo ef eu talu yn y pen draw. Codir hwynt oddi ar yr hwn sydd yn eu dwyn i'r wlad; yr hwn nis gall deimlo cymmaint o wrthwynebiad yn erbyn y dreth, gan ei fod yn cyfodi y swm drachefn, ac yn ei gael yn ol, wrth werthu y nwyddau i'r prynwr. Ond y mae masnach yn gosod terfynau i'r ffurf yma o drethiad. Os bydd y dreth yn uchel, ni wna pobl brynu y nwydd a drethir; ac y mae llawer o brofion wedi eu cael fod gostyngiad y dreth yn chwanegu y cyllid. Y mae llawer i'w ddywedyd dros osod treth anuniongyrchol ar ddanteithion, ac yn enwedig y cyfryw a ddefnyddir i amcanion niweidiol. Ni byddai yn anffawd fawr pe y taflai y dreth sydd ar ambell nwydd ef allan o arferiad. Ond os codir treth ar angenrheidiau bywyd, megys bara, halen, &c., nis gellir ei hosgoi, fel y gellir gyda danteithion, trwy roddi heibio eu harfer; gan hyny y mae trethi ar gynnyrchion o'r fath yn hynod feichus. Yr oedd y dreth ar halen yn un o brif achosion chwyldroad mawr Ffraingc. Y prif drethi a gesglir yn awr yn Mhrydain ydynt:—1af, Y rhai ar wahanol bethau a gedwir gan y deiliaid, megys gweision tŷ, meirch, cŵn, ac arfbeisiau. 2il, Y dreth ar incwm ac ar eiddo; y rhai, ar ol cael eu gosod o'r neilldu am lawer o amser, a adnewyddwyd yn 1842, ac a gyfodir ac a ostyngir o bryd i bryd yn ol fel y bydd angenrheidiau y llywodraeth yn galw. 3ydd, Y tollau (*customs*). 4ydd, Y treul-gyllid (*excise*). 5ed, Yr arfathau a'r llythyrdy. 6ed, Y dreth ar dir.

TRIAGL: y sudd gludiog sydd yn dyferu o'r sugr pan y bydd y gwaith o'i buro a'i goethi yn cael ei ddwyn yn mlaen. Gwel SUGR. Feallai fod y gair Hebraeg צרי, a gyfieithir triagl yn *Ier.* viii. 22, a xlvi. 11, a li. 8, yn arwyddo sudd peraidd rhyw goed, oedd i'w cael mewn helaethrwydd yn Gilead ac yn Arabia Ffelix. Gwel BALM.

TRIBUN (*tribun: tribune*): swyddog pennodedig yn ngweriniaeth Rhufain gynt, i ofalu am ryddid y bobl. Yr oedd y bobl ar un adeg yn cael eu cau allan yn hollol oddi wrth yr hawl i weinyddu y gyfraith fel ynadon. Yr oeddynt yn meddu hawl i bleidleisio; hyny yw, yr oeddynt yn ymarfer hawliau dinaswyr i ddewis aelodau i lunio deddfau y wladwriaeth, ond nid oedd ganddynt un llaw yn eu gweinyddiad. Nid oedd neb ond y dosbarth pendefigaidd yn agored i gael eu hethol yn gonsuliaid, neu yn ben-trysorwyr, nac i gyflawni unrhyw swydd weinyddiadol arall. Yr oedd yr ymdrechfa gan hyny rhwng y bobl a'r mawrion yn myned yn mlaen gyda mwy o sêl yn barhaus am lawer o amser. Arweiniodd yr ymdrechfa hon o'r diwedd i derfysg a gwrthryfel yn mysg y bobl, tua'r fl. c. c. 494. Ar yr achlysur hwnw, darfu i'r milwyr perthynol i'r dosbarth gwledig, oeddynt newydd ddychwelyd o ymgyrch milwraidd yn erbyn y Volsciaid, droi allan o Rufain mewn trefn filwraidd, dan arweiniad eu swyddogion oeddynt o'r un gradd a hwy, ac aethant i fynydd ger llaw y fan lle yr ymuna yr Arno â'r Tiber, a bygythient sylfaenu dinas newydd yno, os gwrthodai y pendefigion ganiatau iddynt gael ynadon o'u gradd eu hunain; a'r canlyniad a fu sefydlu y swyddog enwog o dribun y bobl, i ofalu am eu bod yn cael eu hawliau, a'r hyn oedd gyfiawn iddynt. Gobeithiai y bobl drwy hyn gael eu gwaredu oddi wrth orthrwm ac anghyfiawnder y cyfoethogion. Tribuniaid milwraidd oedd rhai yn llywyddu lleng—chwech o honynt a berthynai i bob lleng; a byddent yn llywyddu ar gylch yn eu tro.

Digitized by Google

THELWALL, AMBROSE:—nawfed mab i John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn, ger Rhuthyn. Bu am dymmor yn ngwasanaeth Syr Francis Bacon—Arglwydd Verulam—Arglwydd Uchel Ganghellydd Lloegr; a chymmaint oedd edmygedd Bacon o hono fel y darfu iddo berswadio y brenin i greu holl feistriaid y *Chancery* yn farchogion; a bod Ambrose i gael can punt o amwobr ganddynt. Oddi wrth Syr Francis, aeth yn geidwad y gwisgoedd (*yeoman of the robes*) i'r brenhinoedd Iago I., Siarl I., a Siarl II., pan oedd yr olaf yn Dywysog Cymru. O'r diwedd, darfu i henaint, a therfysg yr amseroedd, ei orfodi i gilio i fro dawel ei encdigaeth—lle y bu farw Awst 5ed, 1652, yn 82ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llanrhydd, lle y mae beddargraph iddo.

THELWALL, SYR BEVIS, Marchog:—oedd wythfed mab i John Thelwall, a brawd i Ambrose Thelwall. Rhwymwyd ef fel egwyddorwas gyda Mr. Allen, sidanydd mwyaf Cheapside, a sidanydd i'r frenhines Elizabeth; yr hwn a roddodd ei ferch iddo yn wraig, ac a'i dygodd i undeb âg ef yn ei fasnach. Pan yr oedd y brenin Iago yn yr Alban, gohebai Bevis Thelwall âg ef yn aml; a phan ddyrchafwyd y brenin i orsedd Lloegr, gwnaeth Syr Bevis yn was ei ystafell-wely, ac yn wisgydd iddo.

THELWALL, SYR EUBULE:—trydydd mab John Thelwall, a brawd i Ambrose a Syr Bevis. Derbyniodd addysg athrofaol uchel; a graddiodd yn M.A. yn Ngholeg y Drindod, Caergrawnt. Wedi hyny, trodd i efrydu y gyfraith yn Gray's Inn. Daeth yn brif feistr Swyddfa yr Ymddëoliaid, ac yn un o feistriaid awdurdodol yr Uchel Ganghell-lys. Pan gododd ymryson o berthynas i bennodiad llywydd Coleg yr Iesu, yn Rhydychain, rhwng Dr. Williams a Dr. Mansell, daeth Syr Eubule allan yn ymgeisydd, ac etholwyd ef yn benaeth y coleg hwnw. Prynodd etifeddiaeth yn mhlwyf Llanychan, yn Nyffryn Clwyd; ac efe a adeiladodd Plas coch, yr hwn a roddwyd ganddo i John Thelwall, etifedd ei frawd hynaf. Yn ystod ei wyliau yn y brifysgol, deuai Syr Eubule i Blas coch yn fynych, lle y byddai prif foneddigion Gogledd Cymru yn talu ymweliadau âg ef. Bu farw yn ddibrïod yn Rhydchain, yn 68ain mlwydd oed.

THELWALL, JOHN. Hanai o deulu Bathafarn a Phlas-y-wern, yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd yn gynghorwr yn y gyfraith, ac yn feddyg enwog; ac yn un a feddai wybodaeth helaeth, hefyd, mewn gwyddorau eraill. Bu farw yn y fl. 1686; a chladdwyd ef yn Llanrhydd, ger Rhuthyn.

THELWALL, JOHN. Mab hynaf i John Thelwall, o Barc Bathafarn, yn Nyffryn Clwyd. Bu yn ngwasanaeth yr Arglwyddes Warwick, yr hon oedd yn foneddiges uchel yn ffafr y frenhines Elizabeth. Gadawodd ei gwasanaeth pan yn 22ain oed, gyda'r amcan o briodi Elizabeth, merch a chyd-etifeddes Robert ab Wyn, o Bacheirig a Brynceynric; o'r hon y ganwyd iddo lawer o blant. Gwnaed ef gan y brenin Iago yn oruchwyliwr Castell Rhuthyn am ei oes. Bu farw yn 1630, yn 97ain mlwydd oed.

THELWALL, RICHARD. Pedwerydd mab John Thelwall, o Barc Bathafarn. Priododd Margaret, merch ac etifeddes Mr. Lloyd, o Lanbedr, Dyffryn Clwyd; gyda'r hon y cafodd etifeddiaeth ëang. O hono ef y tarddodd y Thelwalliaid o Lanbedr. Rhoddodd y brenin Iago iddo yntau drwydded i fod yn llywydd Castell Rhuthyn am ei oes—yn gyfranog gyda'i frawd John, y mae'n debyg. Bu farw yn 1630, uwch law 80ain oed.

THELWALL, SIMON:—ail fab Richard Thelwall, o Lanbedr, Dyffryn Clwyd. Dygwyd ef i fyny yn fargyfreithiwr yn Gray's Inn; a bu yn dilyn yr alwedigaeth hono nes yn 80ain mlwydd oed. Yn ei ewyllys, gadawodd 20*p.* at gynnal pregeth Gymraeg yn eglwys Rhuthyn bob prydnawn Sabbath dros byth; 20*p.* yn y flwyddyn tuag at gael pregeth yn Llanbedr; 5*p.* yn y flwyddyn i blwyfydd Llanbedr a Rhuthyn, er rhanu bara gwyn i dlodion; a 100*p.* tuag at brentisio pymtheg o fechgyn o Ruthyn a Llanbedr.

THELWALL, SIMON. Seithfed mab John Thelwall, yr ail, o Barc Bathafarn, ydoedd efe. Dewiswyd ef, o herwydd ei ysgolheigdod, yn ysgrifenydd i Syr D. Dunne, LL.D., yn farnydd y llys benadur, ac yn un o Feistriaid y Deisyflys (*Requests*). Daeth yn enwog fel cyfreithiwr y llys Eglwysig a chofrestrydd Bangor. Priododd Mrs. Biggens, etifeddes fawr yn swydd Essex.

THEODORE. Gwel ABYSSINIA.

THOU, JACQUES-AUGUSTE DE. Un o haneswyr enwocaf ei oes. Ganwyd ef yn Paris, yn y fl. 1553; ac yr oedd ei dad, a'i daid, wedi bod yn llywyddion ar senedd y ddinas hono. Wedi myned trwy ei gwrs athrofaol, dychwelodd i Paris, mewn pryd i fod yn llygad-dyst o'r digwyddiad ofnadwy a elwir mewn hanesiaeth yn 'Gyflafan St. Bartholomew' (1572); yr hwn, wedi hyny, a gondemniwyd yn y modd llymaf ganddo. Ymgymmerodd â'r offeiriadaeth Babaidd, a phennodwyd ef yn un o ganoniaid yr eglwys enwog Notre Dame, yn Paris; ond ar gymmhelliad ei gyfeillion, efe a adawodd yr eglwys, ac a drodd i efrydu y gyfraith; ac efe a ddyrchafodd yn gyflym ynddi trwy nerth ei allu ei hun, a dylanwad ei deulu. Yn ystod y rhyfeloedd a elwid *The Wars of the League*, efe a safodd yn gyndyn o blaid Harri III. a'i achos; a safai yr un mor uchel yn marn a ffafr Harri IV., o dan yr hwn y gweithredai fel ceidwad y llyfrgell frenhinol—swydd a'i dygodd i gyssylltiad â phrif ysgolheigion yr oes. Yn mherthynas i faterion gwladol, y gwasanaeth mwyaf gwerthfawr o'i eiddo oedd mewn cyssylltiad â'r *Edict of Nantes* (1598—99). Ond yr hyn y gorphwys ei goffadwriaeth, yn benaf, arno yw ei waith hanesyddol yn yr iaith Lladin. Mae y gwaith hwn yn cynnwys hanes llawn am y cyfnod yr oedd yr awdwr yn byw ynddo, sef o 1543 hyd 1607, ac yn llanw cynnifer a 180 o lyfrau. Cyhoeddwyd y deunaw llyfr cyntaf yn y fl. 1604; a gwnaeth eu hymddangosiad gymmeriad yr awdwr yn adnabyddus, nid yn unig yn Ffraingc, ond trwy holl Ewrop. Edrychai yr awdurdodau Pabaidd yn Rhufain gyda graddau helaeth o eiddigedd ar ei waith, o herwydd y modd di-dderbyn-wyneb yr ymdriniai efe â'r hereticiaid; ac o herwydd hyn,



Digitized by Google

gosodwyd ei hanesiaeth digymmhar ar restr y llyfrau gwaharddedig. Yn ystod yr 17eg a'r 18fed ganrif, rhestrid De Thou yn mysg yr haneswyr blaenaf; ac yr oedd efe, yn ddïau, yn haeddu yr anrhydedd uchel hwn. Bu yn mryd Dr. Johnson unwaith gyfieithu ei waith i'r Saesneg; a thalwyd gwarogaeth uchel iddo yn nhŷ y cyffredin gan Pitt, y prifweinidog. Bu Thou farw yn Paris, yn 1617.

THURLOW, ARGLWYDD EDWARD. Mab oedd efe i glerigwr. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Bracon-Ash, yn Norfolk, yn y fl. 1732. Bachgen hynod o anhydrin fu efe yn yr ysgol ac yn y coleg, yr hyn a'i lluddiodd i ennill ei raddau. Yna trodd i efrydu y gyfraith; ac yn 1754, galwyd ef at y *bar*. Yr oedd ei ymddangosiad corphorol yn gyfryw ag a barai i bawb feddwl ei fod yn feddiannol ar alluoedd nad oedd efe yn eu meddu; a dywedodd Fox am dano—'Ni bu dyn erioed mor ddoeth ag yr edrychai Thurlow.' Yn 1761, gwnaed ef yn Q.C.; ac yn fuan ar ol hyn, ennillodd gymmeriad uchel fel dadleuydd trwy ei araeth yn yr achos a elwir *The Douglas Peerage Case.* Dyma ymdrech dadleuol penaf ei fywyd. Yn 1768, etholwyd ef i'r senedd dros Tamworth; yn Mawrth, 1770, gwnaed ef yn gyfreithiwr cyffredinol; a'r flwyddyn ganlynol, yn dwrnai cyffredinol. Ennillodd ffafr arbenig Sior III., o blegid y sêl eithafol a ddangosodd yn mhlaid gwladlywiaeth Americanaidd y teyrn hwnw; ac yn 1778, dyrchafwyd ef yn arglwydd ganghellydd, gyda'r teitl o Arglwydd Thurlow: ac yr oedd ei ddylanwad gymmaint gyda'r brenin, fel y caniatawyd iddo, a hyny yn groes i bob arferiad, ddal ei swydd yn ystod gweinyddiaeth Rockingham; a hynododd ei hun yn ddirfawr trwy ei wrthwynebiad i bron bob mesur a ddygwyd yn mlaen gan y weinyddiaeth hono. Pan y daeth gweinyddiaeth unol y Meistri Fox a North, bu raid iddo roddi ei swydd oruchel i fyny; ond adferwyd ef iddi drachefn, pan syrthiodd awenau y llywodraeth i ddwylaw Mr. Pitt. Am ychydig amser, rhoddodd ei gefnogaeth i'r llywodraeth; ond cyn hir, ceisiodd, yn gyntaf, ddadsylfaenu ei hawdurdod yn ddirgelaidd, ac yna yn gyhoeddus. Yr oedd Thurlow yn dibynu ar ei ddylanwad gyda'r brenin i gario ei amcanion allan; ond pan ddywedodd Pitt fod yn rhaid iddo ef neu Thurlow ymddiswyddo, ni bu Sior yn hir cyn rhoddi ar ddeall i'r canghellydd fod yn rhaid iddo gilio o'r neilldu. Bu hyn yn ddiwedd ar ei awdurdod a'i ddylanwad; a chwympodd yntau yn fuan megys i ebargofiant hollol. Bu farw yn Brighton, Medi 12fed, 1806.

TRAHAIARN AB CARADOG. Tywysog oedd efe a gafodd lywodraeth ar Ogledd Cymru yn 1072, ar farwolaeth ei ewythr, Bleddyn ab Cynfyn. Yr oedd i Bleddyn amryw blant; a thrwy gydsyniad y bobl, ac nid trwy hawl olynol, y cafodd Trahaiarn feddiant o'r orsedd. Modd bynag, yr oedd y ffaith ei fod yn benaeth enwog, ac yn fab-yn-nghyfraith i Gruffydd ab Llewelyn, trwy briodi ei ferch Nest, yn myned yn mhell i'w osod yn y swydd oruchel. Yn lled fuan ar ol ei esgyniad, glaniodd Gruffydd ab Cynan, gyda llu o Wyddelod, yn sir Fôn, gyda'r bwriad o geisio adfeddiannu gorsedd ei hynafiaid. Ond er iddo ennill rhai brwydrau, gorchfygwyd ef gan Trahaiarn mewn lle a elwir Bron yr erw, ger llaw Harlech, yn sir Feirionydd; a gorfu iddo gilio yn ol i Fôn. Yn 1080, ymosodwyd ar Trahaiarn gan fyddin unedig Gruffydd ab Cynan, yr hwn oedd wedi glanio cattrodau mawrion o Wyddelod, a Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheudir Cymru. Ac yn y frwydr waedlyd a gymmerodd le ger llaw Carno, cwympodd Trahaiarn; a dibenwyd ei deyrnasiad.

TRAHAIARN BRYDYDD MAWR. Bardd enwog a flodeuodd rhwng 1290 a 1350. Llywyddodd yn Ngorsedd Morganwg yn y fl. 1300 Ceir dwy awdl o'i waith yn argraphedig yn y *Myvyrian Archaiology.* Bernir, hefyd, mai yr un oedd efe a'r gŵr a enwogodd ei hun o dan yr enw mabwysiedig 'Casnodyn'—yr hwn enw hefyd a roddir i bump o bersonau eraill yn yr un gyfrol.

TRAHERNE, JOHN MONTGOMERY. Yr oedd efe yn fab i Llewelyn Traherne, o Goedriglan, ger Caerdydd, yn sir Forganwg: a ganwyd ef Hydref 6ed, 1788. Wedi cymmeryd ei raddau yn y brifysgol, derbyniodd urddau eglwysig gan Esgob Bath a Wells; ac heb law y bywoliaethau a ddelid ganddo, bu yn ganghellydd Llandaff o 1844 hyd 1851. Tueddai ei ddyhewyd yn benaf at hynafiaethau; ac yn neillduol felly hynafiaeth adeiladau eglwysig. Ystyrid ef yn awdurdod ar hyn—a'r awdurdod penaf, o bossibl, o fewn y Deheudir. O herwydd hyn, graddiwyd ef yn F. R. S. ac F.S.A.; a gwnaed ef yn aelod o'r Gymdeithas Ddaearegol, o Gymdeithas Hynafiaethol Castell Newydd ar Dain, a Chymdeithas Freiniol Copenhagen. Ei weithiau cyhoeddedig ydynt, *Historical Notices of Sir Mathew Cradock, Knight,* gyda sylw bywgraphyddol am Dr. Mansell fel attodiad; a *Stradling's Correspondences—a Series of Letters written in the Reign of Elizabeth, with Notes of St. Donat's Castle, Glamorganshire* (1840). Heb law yr uchod, ysgrifenodd erthyglau galluog a gwerthfawr ar faterion hynafiaethol i'r *Archaiologia Cambrensis;* i'r *Collectiana,* gan Nicholls; i'r *History of Neath,* gan Francis; ac amryw lyfrau eraill. Bu farw yn mhalas Coedriglan, Chwefror 2il, 1860, yn 71ain oed.

TREFNANT, LEWIS. Bardd a flodeuodd rhwng 1550 a 1580 oedd efe. Ceir rhai o'i gyfansoddiadau mewn llaw-ysgrifau.

TREFOR, JOHN, B.D. Efe oedd y canon cyntaf yn eglwysydd cadeiriol Bangor a Llanelwy. Yn 1352, dyrchafwyd ef i esgobaeth Llanelwy; a bu farw tua chanol y fl. 1357.

TREFOR, SION. Ysgrifenydd galluog ac enwog oedd efe, yn byw rhwng 1430 a 1470. Yn y fl. 1450, cyfieithiodd i'r Gymraeg, o'r Lladin, hanes bywyd Dr. Martin.

TREFOR, SYR THOMAS. Yr oedd efe yn gyfreithiwr enwog; ac yn fab i John Trefor, o Drefalyn, yn sir Ddinbych, lle y ganwyd ef Gorphenaf 6ed, 1586. Aeth i'r *Inner Temple,* lle y daeth yn ddarllenwr hydrefol. Yn 1620, rhoddwyd iddo urdd marchog; yna, gwnaed ef yn gyfreithiwr gyffredinol i'r Tywysog Siarl; ar ol hyny, galwyd ef i'r radd o ringyll yn y gyfraith; a gwnaed ef yn farnwr llys y dadleuon cyffredin; ac yn olaf, dyrchafwyd ef yn

Digitized by Google

arglwydd brif farwn y trysorlys. Daliodd y swydd oruchel hon hyd farwolaeth y brenin, pryd y darfu iddo, gyda phump eraill, wrthod gweithredu dan y ddirprwyaeth newydd. Yn y fl. 1641, yr hon oedd yn flwyddyn hynod o gythryblus yn y deyrnas, cyhuddwyd ef o feddu rhan yn nygiad oddi amgylch y cythrwfl hwnw. Disgynodd y gosp ar ysgwyddau ei gydoeswr Berkley; ond bu raid iddo yntau (Trefor) dalu deng mil o bunnau. Bu cyfnod ar ol hyn, heb fod neb ond efe yn eistedd fel barnwr ar faingc y trysorlys, pan y darfu i genhadon roddi gwŷs y brenin iddo ef, a'r barnwr Reve, i symmud y llys o Lundain i Rydychain. Parodd i'r gŵr a'i gwasanaethodd â'r wŷs gael ei gymmeryd i'r ddalfa; ac felly y gwnaeth ei gydfarnwr hefyd. Crogwyd un o'r dynion hyny fel ysbïwr. Priododd Syr Thomas, y waith gyntaf, Prudence, merch Henry Boteler; a'r ail waith, priododd Frances, merch ac etifeddes Daniel Blannerhasset. Bu farw Rhagfyr 21ain, 1656, yn 70ain mlwydd oed.

TREFOR, SYR THOMAS. Efe ydoedd yr Arglwydd Trefor cyntaf; ac yr oedd yn ail fab i Syr John Trefor, yr hwn a wnaed yn farchog Trefalyn, yn sir Ddinbych, yn 1619. Gwnaed ei dad yn farchog gan Siarl II.; ac hefyd, yn un o'i brif ysgrifenwyr yn y wladwriaeth. Ar ei ddychweliad o fod yn llysgenad yn Ffraingc, yn y fl. 1668, gwnaed ef yn aelod o'r cyfrin-gynghor —yr hon swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth, yn 1672, yn 47ain mlwydd oed. Cyrhaeddodd Thomas Trefor, gwrthddrych yr erthygl hon, enwogrwydd mawr yn y gyfraith:—gwnaed ef yn gyfreithiwr cyffredinol; yn farchog yn y fl. 1692; ac yn mhen tair blynedd, dyrchafwyd ef i fod yn dwrnai cyffredinol. Pan esgynodd y frenhines Anne i'r orsedd, pennodwyd ef yn arglwydd brif farnwr llys y dadleuon cyffredin; ac ar y dydd olaf o Ragfyr, 1711, codwyd ef i'r bendefigaeth, â'r teitl o Farwn Trefor, o Bromham, yn swydd Bedford. Yn 1725, gwnaed ef yn arglwydd y gyfrin-sêl; ac yn 1727, yn arglwydd brif farnwr Prydain Fawr. Yn 1730, rhoddwyd anrhydedd uwch drachefn iddo trwy ei wneyd yn arglwydd lywydd y cyfrin-gynghor. Dywed Onslow am dano ei fod yn ddyn cymmeradwy gan bob plaid yn y wladwriaeth; yn ŵr galluog a chyfiawn, ac o nodweddiad da fel prif farnwr. Bu farw Mehefin 19eg, 1730, yn 71ain ml. oed. Yr oedd yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol, ac yn llywodraethwr y Charter-house. Bu yn briod deirgwaith. Daeth tri o'i feibion yn olynol i feddiant o'r teitl o Arglwydd Trefor. Gwnaed mab arall yn Esgob Tŷ Ddewi; ac wedi hyny, yn Esgob Durham. Y mab hynaf o'i ail wraig, yr hwn hefyd a ddaliai farwniaeth Trefor, ydoedd yr Is-iarll Hampden cyntaf. Diflanodd y teitl yn 1824.

TREFOR, TUDUR. Pendefig o uchel fonedd oedd efe, a flodeuodd tua chanol y ddegfed ganrif. Efe oedd penaeth llwyth March, neu Maelor; ac yr oedd efe yn fab i Ynyr ab Cadfarch; a thrwyddo ef disgynai, o Cadell Deyrnllwg, brenin Powys. Gelwid ef Iarll Henffordd yn hawl ei fam, yr hon oedd yn ferch ac yn etifeddes i Lluddocca ab Caradawg Freichfras, Iarll Henffordd. Meddai Tudur Trefor feddiannau lawer yn swydd Henffordd; ac hefyd yn rhanbarth Ferlys—tiriogaeth a saif rhwng yr Wy a'r Hafren. Yr oedd, hefyd, trwy hawl ei dad, yn arglwydd y ddwy Faelor—y Waen, y Drewen, a Chroesoswallt; ac Ewyas ac Urchenfield. Ei brif breswylfa ydoedd Castell Whittington—yr hwn a barhaodd am oesau lawer yn berchenogaeth i'w olafiaid. Cydoesodd â Hywel Dda—merch yr hwn, Angharad, a briododd; ac o'r hon y ganwyd iddo dri mab a merch. Nid oes nemawr o sicrwydd pa bryd y bu farw; ond yr oedd yn fyw yn B.A. 924. Hòna amryw deuluoedd uchel eu hàniad o hono; ac yn eu mysg y Mostyniaid a'r Treforiaid.

TREGELLES, SAMUEL PRIDEAUX. Beirniad ysgrythyrol galluog oedd efe. Ganwyd ef yn Falmouth, Ionawr 30ain, 1813. Dechreuodd efrydu y Testament Newydd pan yn ieuangc; a chyn bod dros bump ar hugain oed, amlinellodd yn ei feddwl gynllun o Destament Newydd Groeg, ar egwyddorion y cariodd efe hwy allan. Ymwelodd dair gwaith â'r Cyfandir i chwilio am lawysgrifau; a threuliodd bum mis yn Rhufain, lle y gwelodd y *Codex Vaticanus.* Yr oedd yn ysgolhaig gwych; ac y mae yr amryw lyfrau a gyhoeddwyd ganddo yn weithiau o safon uchel iawn. Yn 1862, rhoddwyd iddo flwydd-dâl o 100*p.* fel cydnabyddiaeth am ei lafur yn mhlaid ymchwiliadau Beiblaidd; yr hwn swm a ddyblwyd yn 1870. Gwahoddwyd ef i ymuno â Phwyllgor Adolygiadol y Testament Newydd yn 1870; ond lluddiwyd ef gan sefyllfa anfoddhaol ei iechyd. Bu farw Ebrill 24ain, 1875.

TRELAWNY, EDWARD JOHN. Cymmeriad anturiaethus ydoedd efe, a anwyd yn Nghernyw, yn 1792, o hen deulu enwog. Ymunodd â'r llynges pan yn un-ar-ddeg oed, ond mewn canlyniad i ymddygiad eithafol ei uwchswyddogion, a'i natur ammhlygadwy yntau, diangodd o honi, gan fyw bywyd hynod o anturiaethus yn moroedd India, a'r Malay. Yn Ionawr, 1822, daeth i gydnabyddiaeth â'r bardd Saesneg Shelley yn Pisa; ac efe oedd yr hwn a gymmerodd y rhan mwyaf blaenllaw yn llosgiad corph y bardd ar draethell Via Reggio. Y flwyddyn ganlynol, aeth gydag Arglwydd Byron i wlad Groeg—lle yr arosodd am dymmor ar ol marwolaeth Byron. Tra yno, daeth i gyssylltiad â'r penaeth Odysseus; yr hwn oedd ar y pryd yn elyn i'r llywodraeth. Ar un achlysur, pan yn llochesu yn ogof Odysseus, drylliodd Sais bradwrus oedd yno ên Trelawny trwy ei saethu â bwled. Yn ad-daliad am hyn, efe a waredodd yr adyn rhag digofaint ei ddynion, ac a'i danfonodd ymaith mewn diogelwch. Ar ol hyn, bu yn teithio yn Ngogledd a Deheudir America. Bu hefyd yn byw am dymmor yn yr Eidal; ond treuliodd flynyddoedd olaf ei fywyd yn siroedd Mynwy a Sussex; a bu farw yn ei breswylfod, ger Worthing, ar Awst 13eg, 1881. Llosgwyd ei gorph, a chymmerwyd ei lwch i Rufain, i'w dodi ochr yn ochr â beddrodau y beirdd Shelley a Keats. Cyhoeddodd ddau lyfr, *The Adventures of a Younger Son* (1830), seiliedig ar hanes ei faboed ei hun; a *Recollections of the Last Days of Shelley and Byron* (1858). Ail gyhoeddwyd yr olaf yn 1878, gyda chryn gyfnewidiadau, dan y teitl *Records of Shelley, Byron, and the Author.*

TRELAWNY, SYR JONATHAN. Gŵr a wnaed yn esgob Bristol yn y fl. 1685, yn esgob Exeter yn 1688, a Winchester yn 1707. Y

Digitized by Google

oedd efe yn un o'r saith esgob a osodwyd ar brawf yn nheyrnasiad Iago II.; ac efe yw arwr y faled adnabyddus o waith R. S. Hawker—*And shall Trelawny die.* Bu farw yn 1721.

TREN, RHYS—ydoedd fardd y tybir iddo farw tua'r flwyddyn 1570. Y mae rhai o'i ganeuon mewn llawysgrifen etto.

TRENCH, RICHARD CHENEVIX. Archesgob Dublin, ac un o'r awduron mwyaf adnabyddus yn mysg ysgrifenwyr y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg. Disgynai o deulu y Trench o Woodlawn, yn swydd Galway, yn yr Iwerddon. Ganwyd ef yn Dublin, Medi 9fed, 1807. Wedi gorphen ei addysg yn Mhrifysgol Caergrawnt, ymwelodd âg Yspaen, gyda'r amcan o ymladd yn mhlaid rhyddid. Ar ei ddychweliad, bu yn dal ciwradiaeth Hadleigh; periglor-iaeth Curdridge, yn swydd Hamp; ac yna am bedair blynedd bu yn giwrad i'r enwog Samuel Wilberforce — wedi hyny esgob Winchester. Yn 1847, pennodwyd ef yn athraw duwinyddol yn Ngholeg y Brenin, Llundain. Cafodd ddeoniaeth Westminster yn y fl. 1856; ac yn 1864, dyrchafwyd ef i archesgobaeth Dublin:—o'r hon swydd yr ymneillduodd yn 1884. Bu farw Mawrth 29ain, a chladdwyd ef yn nghangell Mynachlog Westminster. Ei brif weithiau—a'r oll o honynt, o'r bron, yn weithiau duwinyddol—ydynt *Notes on the Miracles* (1846); *Notes on the Parables* (1841); *The Lessons in Proverbs* (1853); *Hulsean Lectures* (1845); *The Sermon on the Mount Illustrated from St. Augustine* (1844); *Sacred Latin Poetry* (1849); *St. Augustine as an Interpreter of Scripture* (1851); *Synonyms of the New Testament* (1854); *English Past and Present* (1855); *An Essay on the Life and Genius of Calderon* (1856); *Deficiences in our English Dictionaries, Select Glossary of English Words* (1859); *The Study of Words* (1851); *Studies on the Gospels* (1867); a *Lectures on Mediæval Church History.*

TROLLOPE, ANTHONY. Trydydd fab Mr. Thomas Anthony Trollope, a Frances, ei wraig, oedd efe; a ganwyd ef Ebrill 24ain, 1815. Yr oedd efe yn un o nofelwyr mwyaf adnabyddus a phoblogaidd y ganrif bresennol. Tra yn dal swydd o gryn gyfrifoldeb mewn cyssylltiad â llythyrdai, dechreuodd ysgrifenu ei ffug-chwedlau. Un o'r rhai cyntaf a gyfansoddodd oedd *The Kellys and the O'Kellys*, yn 1848; ac er ei bod yn cynnwys portrëad da o fywyd Gwyddelig ar y pryd, ychydig o gefnogaeth a dderbyniodd. Y gyntaf o'i nofelau i dynu sylw oedd *The Warden*, yr hon a ymddangosodd yn 1855. Math o barhâd o'r ddiweddaf ydyw ei *Barchester Towers*, yr hon sydd yn mhlith y goreuon o'i weithiau. Yna cyhoeddwyd ar ol eu gilydd—*Doctor Thorne; The Bertrams; The Three Clerks; Castle Richmond; Framley Parsonage; Orley Farm; The Small House at Allington; Rachel Ray; Miss Mackenzie; Can you Forgive Her? The Claverings; The Last Chronicle of Barset;* ac amryw eraill. Yn ystod yr amser yr ysgrifenodd y rhan fwyaf o'r ffugchwedlau uchod, parhaodd i ddal swydd, a gweinyddodd ei dyledswyddau yn ffyddlawn yn y llythyrdy cyffredinol yn Llundain; ond rhoddodd ei swydd i fyny yn 1867. Ysgrifenodd lawer i'r cylchgronau; ac efe oedd golygydd cyntaf *St. Paul.* Safodd unwaith fel ymgeisydd seneddol, ond gorchfygwyd ef. Yn mysg y nofelau a ysgrifenodd efe wedi ei ymddiswyddiad, y mae *Phineas Finn* (1869); *Ralph the Heir; The Golden Lion of Granpère; Phineas Redux; John Caldigate; Ayala's Angel; The Fixed Period;* ac *Old Man's Love* (1884). Gweithiau eraill o'i eiddo oedd braslun o hanes bywyd Thackeray; hanes bywyd Cicero; a bywgraphiad byr o Arglwydd Palmerston. Bu Trollope farw Rhagfyr 6ed, 1882; ac ymddangosodd ei Hunan-fywgraphiad yn 1883.

TROMP, MARTIN HARPERTZOON:—llyngesydd Is-Ellmynig *(Dutch)*, a anwyd yn Briel, yn 1597. Erbyn 1624, yr oedd wedi cyrhaedd mor uchel yn y llynges fel ag i lywyddu llestr ei hun; ac erbyn 1637, rhoddwyd iddo lywyddiaeth ysgwadron o un-ar-ddeg o longau, gyda pha rai yr ennillodd efe oruchafiaeth odidog ar lynges Yspaen, ger llaw Gravelines, Chwefror, 1639. Ennillodd rhai môr-frwydrau eraill o gryn bwysigrwydd; ond yr hyn a wnaeth ei enw yn anfarwol oedd ei ysgarmesoedd llyngesol â Phrydain. Ar y 19eg o Fai, 1652, gyda mwy na deugain o ryfel-longau dan ei lywyddiaeth, daeth i wrthdarawiad â llynges Prydain, o bymtheg o longau, dan yr enwog lyngesydd Blake. Gorchfygwyd Tromp, a chollodd ddwy o'i longau. Ar y 30ain o Dachwedd, gyda phedwar ugain o longau, a thri chant o longau masnachol fel nawdd-longau iddo, daethant i wrthdarawiad drachefn yn y Sianel Brydeinig. Y waith hon, yr oedd llwyddiant ar ochr yr Is-Ellmyniaid. Ond nid hir y bu llynges Brydain cyn dychwelyd i'r frwydr; ac ar y 18fed o Chwefror, 1653, daeth y ddau lyngesydd enwog eilwaith i wrthdarawiad â'u gilydd ger llaw Portland. Gyda Blake, fel îs-lyngeswyr, yr oedd Monk a Deane. Parhaodd yr ymladdfa am dri diwrnod; a dinystriwyd, a chymmerwyd meddiant o naw o ryfel-longau, ac o ddeg-ar-hugain o'r nawdd-longau oedd gan Blake. Ymladdai Tromp gyda gwroldeb mawr; a thrwy ei fedr a'i allu morwrol, llwyddodd i lithro ymaith gyda'r gweddill o'i lynges. Ar yr 2il a'r 3ydd o Fehefin, cymmerodd brwydr ffyrnig arall le rhwng Tromp a'r llyngesydd Deane, ger llaw y North Foreland; ac yn hon, cymmerwyd chwech o'r rhyfel-longau Is-Ellmynig, suddwyd un-ar-ddeg, ac ymlidiwyd y gweddil i gyfeiriad Calais. Yr ysgarmes derfynol yn y frwydr ofnadwy hon oedd yr un a gymmerodd le rhwng Tromp a Monk, ar draethell Holland, Gorph. 31ain, 1653. Collodd yr Is-Ellmyniaid ddeg-ar-hugain o ryfel-longau; ond eu colled fwyaf oedd cwymp y llyngesydd Tromp ei hun, yr hwn a fu farw wedi ei saethu trwy ei galon. Claddwyd ef yn Delft.

TRYSTAN AB TALLWG. Penaeth enwog oedd efe, yn byw tua chanol y chweched ganrif. Nodir ef yn fynych yn y Trioedd; a rhestrir ef yn un o honynt gyda Chreidiol a Gwgawn Gwron fel 'tri galofydd Ynys Prydain;' pa rai a feddent y fraint o fyned yn ddirwystr trwy bob rhan o'r ynys. Mewn Triad arall, gelwir Trystan, Gwair, a Cai, y 'tri tywysog coronog.' Rhestrir ef hefyd gyda Gwair ac Eiddig, fel 'y tri anhydyn,' y rhai na allesid eu troi oddi wrth eu hamcanion. Trystan, Caswallon ab Beli, a Cynon ab Clydno, a elwid hefyd yn dri 'charwyr angerddol.' Y rheswm am hyn ydoedd,

Digitized by Google

ymlyniad anffodus Trystan wrth Essyllt, gwraig ei ewythr, March ab Meirchion. Y mae Trystan, hefyd, yn 'gymmeriad' yn y ffug-chwedlau Cymreig; ac y mae ar gael ganeuon cywrain yn ei gylch.

TRYSTAN AIL MARCH. Tybir mai yr un yw efe a Trystan ab Tallwch, a gofnodir yn y Trioedd gyda Dalldaf, mab Cynin Cof, a Rhyod, mab Morgant, fel tri 'gogyfurddion' neu gyfeiswyr o lys Arthur.

TRYWYLL DIFEFL, merch Llyngesawl Law Hael. Enwir hi yn y Trioedd fel un o dair 'diweirferch' Ynys Prydain. Y ddwy eraill oeddynt Gwenfron a Tegau Eurfron.

TUCKER, THOMAS:—y llyngesydd, oedd drydydd mab John Tucker, o Sealyham, yn sir Benfro; a'i fam oedd ferch i Syr John Wogan, marchog. Dygwyd ef i fyny yn fôr-filwr; a chyrhaeddodd safle uchel ac anrhydeddus yn ei alwedigaeth. Yn 1741, lladdodd, yn yr India Orllewinol, yr herwr anturus Black Beard, gan ennill, drwy hyny, y wobr a gynnygiwyd gan y llywodraeth am ben y gŵr beiddgar hwnw. Yn flaenorol i hyn, tra yn gadben ar yr ysgafn-long *Towey*, daliodd a chymmerodd y llong Yspaenaidd *San Joseph*, yn yr hon yr oedd dirfawr gyfoeth; a chyda hwn, efe a bwrcasodd etifeddiaeth yn sir Benfro. Bu farw yn ddibriod, yn 1766.

TUDUR, SION. Bardd awenbêr oedd efe, a flodeuodd yn yr ail ganrif ar bymtheg. Yn y *Records of Denbigh*, gelwir ef yn '*John Tudur, one of the Choral of St. Asaph.*' Dywed hanes arall mai John Lloyd oedd ei enw. Yr oedd efe yn byw yn Wigfair, ger Llanelwy; a bernir ei fod yn dal cyssylltiad â swyddfa y cofrestrydd eglwysig yn y ddinas hono. Tybir mai brodor o Lansannan ydoedd:—ac efe oedd bardd teuluaidd John Conway, neu Conwy, o Fodryrhan (Bodrhyddan yn awr), ger Rhuddlan. Graddiwyd ef yn brif-fardd, neu 'ddysgybl pencerddaidd,' yn Eisteddfod Caerwys, yn y fl. 1568. Ei athraw barddonol oedd Gruffydd Hiraethog; ac yn gyd-ddysgyblion âg ef yr oedd Gwilym Cynwal, Simwnt Fychan, a Gwilym Lleyn. Pan ofynwyd i'r athraw galluog pa un o'r pedwar oedd y prydydd goreu, attebodd:—'Yr awenyddol ydyw Gwilym Cynwal — y gofalus ydyw Simwnt Fychan — y dysgedig ydyw Siôn Tudur—ac nid oes dim yn anwybodus i Gwilym Lleyn.' Bu Siôn Tudur farw yn y fl. 1602; a chladdwyd ef yn Llanelwy. Ceir marwnad iddo yn argraphedig yn y *Brython*, cyf. iv., td. 466, o waith Edward ab Ralph; ac y mae nifer fawr o'i gywyddau, &c., yn argraphedig yn y cylchgronau Cymreig. Yr oedd Siôn yn achyddwr campus, ac yn cael ei ystyried yn awdwr cerddi tuchan-gellweiriawl diguro, fel y prawf y cywydd o'i eiddo o berthynas i Rhys Grythor, yr hwn a welir yn y *Brython*, cyf. iii. td. 384.

TUDWAL BEFR, neu Y TEG, oedd esgob a flodeuodd yn nechreu y bummed ganrif. Mab oedd efe i Corinwr ab Cadfan ab Eudaf ab Caradog ab Bron ab Llyr Llediaeth. Y mae ynys ar oror sir Gaernarfon, a elwir Ynys Sant Tudwal, ar yr hon y mae adfeilion capel bychan, yr hwn a gyssegrwyd ar ei enw.

TUDWAL GLOFF. Un o feibion Rhodri Fawr ydoedd efe. Cymmerodd ran mewn brwydrau blinion o dan Anarawd, ei frawd; ac yn mysg eraill yn mrwydr Cymryd, ar lan y Gonwy, yn y fl. 880, yn erbyn y Sacsoniaid. Bu hefyd mewn ymgyrch personol âg Eadred, Iarll Mercia; yn yr hwn y clwyfwyd ef yn ei ben glin:—ar gyfrif yr hyn y rhoddwyd iddo gan ei frawd fynachlogydd Gogledd Cymru.

TULLOCK, JOHN. Duwinydd Ysgotaidd enwog oedd efe, a anwyd yn y Bridge of Earn, yn swydd Perth, Mehefin 1af, 1823. Yn y fl. 1854, pennodwyd ef yn athraw duwinyddol yn Ngholeg St. Mair, St. Andrews. Yn 1860, daeth yn brifathraw hynaf y coleg; yn 1862, yn îs-ysgrifenydd y gymmanfa gyffredinol; yn 1875, yn ysgrifenydd; ac yn 1878, yn gymmedrolwr y gymmanfa. Ysgrifenodd lawer o lyfrau duwinyddol, ynghyd âg erthyglau o'r un natur i'r prif gylchgronau.

TURNOR, CADBEN JOHN. Ganwyd ef yn Llangoedmor, yn sir Aberteifi, yn y fl. 1761. Yn 1778, aeth ar fwrdd y gâd-long *Fate*, yr hon a lywyddid gan Cadben Colby, o'r Ffynnonau, yn sir Benfro; a bu mewn brwydr boethlyd â'r Ffrangcod ar dueddau yr India Orllewinol, yn 1779. Yn 1781, ceir ei hanes ar fwrdd y llong *Preston*, mewn brwydr â'r Is-Ellmyniaid, yn yr hon y bu agos iddo golli ei fywyd. Bu mewn gwasanaeth llyngesol, yn benaf yn yr India Orllewinol, hyd heddwch 1783. Wedi bod am beth amser ar fwrdd y *Bombay Castle*, ar gais y tywysog William—wedi hyny, William IV.—cymmerodd swydd dano ar fwrdd y rhyfel-long *Pegasus*, yn 1785. Yn 1790, fe'i gwnaed ef yn gad-raglaw y *Camilla*; yn 1793, daliai yr un swydd ar fwrdd y *Robust*, o dan lywyddiaeth yr Arglwydd Keith. Pan gymmerwyd Toulon, yn y flwyddyn hono, dangosodd Turnor allu a gwroldeb anarferol; ac fel gwobr, pennodwyd ef yn gadben ar un o'r llongau a gymmerwyd gan y gelyn; a daeth 12,000*p*. iddo fel rhan o wobr yr ysbail. Wedi hyn, bu yn dal swydd cadben ar amryw longau eraill. Bu farw yn Ynys y Tywysog Edward, yn yr India Orllewinol, yn 1803, yn 42ain mlwydd oed.

TURPIN, DICK. Ganwyd ef yn Hampstead, yn swydd Sussex, yn mis Medi, 1705. Dechreuodd ar ei yrfa fel egwyddorwas gyda chigydd; ond nid hir y bu cyn troi i ffyrdd drygionus, a gwneyd enw iddo ei hun fel y lleidr penffordd mwyaf medrus yn y deyrnas. Crogwyd ef yn Nghaerefrog, Ebrill 10fed, 1739, am lofruddio ceidwad yn nghoedwig Epping.

TWRNOG, yr hwn hefyd a elwir TEYRNOG, oedd frawd i Tyfrydog Sant, a mab i Arwystli Gloff ab Seithenyn, o Twynwedd, merch Amlawdd Wledig. Efe oedd sylfaenydd eglwys Llandyrnog, ger Dinbych; ac oddi wrtho ef y cymmer y llan hwnw ei enw. Cedwid ei ŵylddydd Mehefin 26ain.

TYBIE. Blodeuai hi tua chanol y bummed ganrif. Merch ydoedd hi i'r enwog Brychan Brycheiniog; a chofnodir mewn hanesiaeth Gymreig iddi gael ei lladd gan y barbariaid yn sir Gaerfyrddin, mewn lle a elwir yn awr Llandybie. Y mae yno eglwys blwyfol wedi ei hadeiladu ar ei henw.

Digitized by Google

TWROG. Mab oedd efe i Ithel Hael; yr hwn oedd yn byw yn y chweched ganrif. Yr oedd Twrog yn un o'r nifer a ddaethant gyda Sant Cadfan o Lydaw i Gymru; ac efe a sylfaenodd eglwys Llandwrog, yr hon sydd yn sir Gaernarfon; a Maentwrog hefyd, yn sir Feirionydd.

TYBIAWN. Mab hynaf Cunedda Wledig; yr hwn, o herwydd ei gynlluniau doeth, a phwyllog, a lwyddodd, gyda chynnorthwy ei frodyr, i yru y Gwyddelod, neu yr Albaniaid Gwyddelig, ar ffô; pa rai, mewn amser boreuach, a ymsefydlasant yn Ngogledd Cymru. Cymmerodd hyn le rywbryd yn ystod y bedwaredd ganrif. Lladdwyd Tybiawn yn y frwydr; a thrwy gydsyniad boneddigion y wlad, cafwyd meddiant o benaduriaeth y gantref a adfeddianwyd gan Meirion, mab Tybiawn. Oddi wrth y Meirion hwn y tarddodd yr enw 'Meirionydd.'

TYDEYRN:—Mab Teithall, ab Amwn Ddu, o Morfydd, merch ac unig etifeddes Gwraldeg, brenin Garthmadryn; yr hon sydd yn awr yn gwneyd i fyny sir Frycheiniog. Priododd ei rieni tua'r flwyddyn 260 B.A.

THIERS, LOUIS ADOLPHE: un o wladweinyddion a haneswyr enwocaf Ffraingc mewn amseroedd diweddar. Ganwyd ef yn Marseilles ar Ebrill 16eg, 1797. Gôf cloion (*locksmith*) oedd ei dad wrth ei alwedigaeth. Bwriedid i Thiers ieuangc fyned i'r *Ecole Polytechnique*, yn Paris, i astudio ar gyfer bywyd milwrol; ond darfu i gwymp yr ymherodraeth, a'r heddwch a ddilynodd hyny, beri nad oedd ond golwg anobeithiol am lwyddiant i filwr ieuangc heb ddim dylanwad ganddo; o blegid hyny, efe a benderfynodd fabwysiadu yr alwedigaeth gyfreithiol, ac aeth i goleg Aix, a daeth yn adnabyddus yno yn fuan ar gyfrif ei dalentau a'i gyrhaeddiadau mewn gwybodaeth. Mewn amser priodol, gwnaeth ei ymddangosiad wrth y bâr; ond ni bu yn llwyddiannus, a pharodd hyny iddo droi ei sylw neillduol at lenyddiaeth; a chyda'r amcan o ymroddi yn fwy i hyn, efe a aeth i Paris. Daeth yn fuan yn gydnabyddus âg amryw o lenorion enwocaf y ddinas, a phennodwyd ef i ysgrifenu erthyglau gwleidyddol i'r "*Constitutionnel*," a newyddiaduron eraill: a gwnaeth enw iddo ei hun yn fuan fel ysgrifenydd yn y ffordd hon. Yn 1823, daeth allan y gyfrol gyntaf o'i "*History of the French Revolution.*" Dyrchafodd y gwaith hwn ef, yr hwn a gwblhawyd mewn deg o gyfrolau —yr olaf o ba rai a ymddangosodd yn 1832—i enwogrwydd mawr fel llenor a hanesydd gwych. Galwyd am dri argraphiad o'r gwaith yn fuan, ac yr oedd yr elw a dderbyniodd oddi wrtho, ynghyd â'r cyfranau oedd ganddo yn y "*Constitutionnel*," â pha rai yr anrhegwyd ef gan un o'i edmygwyr, yn ddigonol i'w godi o ran ei amgylchiadau yn gymmharol gysurus. Gadawodd y nenlofft (*garret*) y preswyliai ynddi yn heol fach Montesquieu, a daeth ei enw yn adnabyddus i'r wlad yn meusydd llenyddiaeth a gwleidyddiaeth. Yn mis Ionawr, 1830, efe a sefydlodd bapur newydd ar egwyddorion democrataidd, sef y "*National.*" Cynnorthwyid ef yn ei ddygiad yn mlaen gan Armand Carrel, a rhai o ddynion galluocaf y blaid ryddfrydig; ac yn y papur hwn efe a wrthwynebodd yn egniol weinyddiaeth Polignac, aelodau yr hon o'r diwedd, drwy gael eu colynu yn ddiarbed ganddo, a gymmerasant y mesur eithafol o gyhoeddi yr hyn a elwir yn "Osodiadau Gorphenaf." Ond chwyldroad 1830 a fu y canlyniad o hyny.

Ymroddodd Thiers yn awr i fywyd cyhoeddus, a phennodwyd ef yn ysgrifenydd cyffredinol i weinidog y cyllidfa, a dewiswyd ef yn aelod o Ystafell y Dirprwywyr (*Chamber of Deputies*) dros dref Aix. Ar ei ymddangosiad cyntaf yn yr ystafell, nid oedd neb yn meddwl wrth edrych arno yr ymgodai mor uchel yn y dyfodol. Yr oedd o ran ei berson yn fychan, ac heb fod yn olygus o ran ei ymddangosiad, a'i hyawdledd yn danllyd, megys pe yr ymdrechai gynnyrchu yr un effeithiau ag a briodolid i Mirabeau. Tynodd drwy yr ymgais hwn wawd y tŷ, yn hytrach na dim arall; ond yn fuan efe a adawodd yr arddull hwn, gan fabwysiadu ei ddull naturiol, syml, esmwyth, cyflym, hanesynol ei hun, ac yna daeth yn un o'r areithwyr seneddol penaf yn Ffraingc. O'r flwyddyn 1832, pan y ffurfiwyd gweinyddiaeth Soult, efe a fu yn aelod o'r weinyddiaeth—ond am dymmor byr unwaith—hyd y flwyddyn 1836. Yn ei dro bu yn weinidog cartrefol, yn weinidog masnach a gweithiau cyhoeddus, ac yn weinidog achosion tramor o dan amryw arweinwyr—Soult, Gerard, Mortier, a Broglie. Yn mis Chwefror, 1836, pennodwyd ef gan Louis Philippe yn llywydd y cynghor, ac yn weinidog yr achosion tramor. Ni ddaliodd efe y swyddau hyn ond hyd fis Awst, 1836, pan yr aeth drosodd at yr wrthblaid. Yn 1840, pennodwyd ef drachefn yn brif weinidog. Gwrthododd gydsynio â chynnygiad Arglwydd Palmerston i wneuthur cynghrair rhwng Lloegr, Awstria, a Phrwssia, i gadw yn gyfan yr ymherodraeth Ottomanaidd, o herwydd fod ynddo ryw ymlyniad wrth yr egwyddorion hyny a barodd i Napoleon I. oresgyn yr Aipht a Syria, a dymuniad hefyd i gyflawni, trwy ymdrafodaeth ddiplomyddol â Mehemet Ali, yr hyn yr ymdrechodd Napoleon ei ddwyn oddi amgylch trwy rym arfau—sef, sicrhau fod i ddylanwad Ffraingc gael ei deimlo yn llywodraethol mewn achosion Syriaidd ac Aiphtaidd. Ond gwnaeth Argl. Palmerston y cyttundeb heb Ffraingc; a chymmerwyd Acre yn fuan gan lynges Prydain, a danfonwyd Mehemet Ali allan o Syria. Yr oedd teimlad y werin yn Ffraingc yn rhedeg yn uchel o herwydd hyn, a chefnogwyd a meithrinwyd ef gan Thiers; ac nid oedd ond nodwedd heddychol teyrnasiad Louis Philippe a attaliodd y genedl Ffrengig rhag rhuthro i ryfel er gwaethaf holl alluoedd Ewrop. Parodd Thiers ddychryn i'r holl Gyfandir trwy fygwth rhoddi o'r neilldu gyttundebau 1815, ac estyn terfynau Ffraingc hyd at lan y Rhine. Cyfrifid ei fod wedi gwario tuag 8,000,000*p.* mewn arddangosiadau milwraidd a morwrol.

Daeth effaith y teimlad drwg hwn i'r golwg yn fuan yn ngwaith y Ffrangcod yn cymmeryd rhai o Ynysoedd Môr y Deheu, ac yn y gwrthdystiad a wnaethpwyd gan y llywodraeth Brydeinig i lywodraeth Ffraingc yn mherthynas i'r driniaeth annhêg a dderbyniai Mr. Pritchard, y trafnoddwr Prydeinaidd, yn Tahiti. Rhoddodd M. Thiers ei swydd o brif weinidog i fyny. Defnyddiodd ei amser yn y blynyddoedd canlynol mewn ymchwiliadau a llafur llenyddol. Dyna'r pryd yr ysgrifenodd ei waith mawr, sef ei "*History of the Consulate and the Empire,*" yr hwn y gellir ei ystyried fel parhâd o'i waith hanesyddol blaenorol. Ymddangosodd y gyfrol gyntaf o

Digitized by Google

hono yn 1845, a'r unfed ar bymtheg, a'r olaf, yn 1862. Diammheu y gellir edrych arno fel un o weithiau penaf yr oes. Y mae o ran ei gynllun yn eang a chyflawn. Yr oedd gan yr awdwr gyflawnder o ddefnyddiau digymmhar wrth ei law, ac ysgrifeniadau dilys oedd yn dal cyssylltiad uniongyrchol â'r cyfnod yr ysgrifenai am dano, a'i ddigwyddiadau pwysig. Ymdrinia â rhyfeloedd, gweinyddiadau y llywodraeth, cyllid, sefyllfa y pleidiau gartref, a chynllwynion diplomyddol oddi cartref. Y mae yr arddull yn rhwydd ac yn naturiol, yn glir ac yn esmwyth; ac ychydig o ol ymgais am gynnyrchu effaith a ganfyddir. Mŷn rhai fod gormod o fanylion milwrol yn y gwaith; ond yn gymmaint a'i fod yn cynnwys hanes rhyfelwr penaf yr oesoedd diweddar, yr oedd hyn yn ddymunol er galluogi y darllenydd annysgedig i amgyffred symmudiadau dibaid y byddinoedd, a manylion y trefniadau milwraidd, sydd yn taflu y fath oleuni ar athrylith, bywiogrwydd, a dyfal-barhâd diball Napoleon I. Y mae disgrifiad Thiers o frwydr Marengo, a rhai o frwydrau mawr eraill yr ymherodraeth, yn gampweithiau mewn hanesiaeth filwrol; ac y mae ei adroddiad am y trefniadau a'r cynlluniau mwyaf dyrus mor glir yn eu heglurhadau ag ydynt o gyflawn yn eu manylion. Ar y llaw arall, nid ydyw Prydain Fawr, a galluoedd Ewrop, a wnaethant eu rhan er dwyn oddi amgylch gwymp yr ymherodraeth, yn cael ond cyfiawnder digon prin oddi ar law yr hanesydd. Y mae M. Thiers yn analluog i ymddiosg oddi wrth ei deimladau a'i ragfarnau cenedlaethol, ac y mae yn fynych yn esgusodi ac yn edmygu ei arwr a'i wladweinyddiaeth pan y buasai ammheuaeth a gwirionedd hanesyddol yn rhoddi dedfryd wahanol. Y mae ei "*History of the Consulate and the Empire*" wedi ei gyfieithu i'r rhan fwyaf o ieithoedd Ewrop.

Ystyrid ef mewn gwleidyddiaeth yn un o arweinwyr yr wrthblaid i fesurau y brenin a'r prif weinidog, M. Guizot, hyd chwyldroad 1848. Ymostyngodd i'r weriniaeth ar ol chwyldroad 1848, er ei fod yn cael ei ystyried yn bleidiwr teulu Orleans; ac yn y fl. 1851, alltudiwyd ef o Ffraingc ar ol y *coup d' etat*. [Gwel NAPOLEON, LOUIS.] Preswyliodd am amser yn Brussels, ac wedi hyny yn Llundain; ond dychwelodd yn ol i brifddinas Ffraingc, ar ei waith yn dadgan ei ymostyngiad i'r ymherodraeth. Ond ymgladdu o'r golwg a wnaeth Thiers am dymmor maith, mor bell ag yr oedd a fyno âg achosion cyhoeddus y wladwriaeth; a'r pryd hwn rhoddai lawer o'i amser i astudio arluniaeth, a'r celfau cain, yn ogystal ag i barotoi ei waith hanesyddol mawr. Gofynid y cwestiwn yn fynych pa un ai Napoleon, ynte Thiers, oedd yn anfoddlawn i ffurfio cyfathrach â'u gilydd. Pa fodd bynag yr oedd, nid aeth efe yn aelod o'r senedd drachefn hyd y fl. 1863. Etholwyd ef yn ddiwrthwynebiad y flwyddyn hono dros ddosbarth y Seine gan yr wrthblaid ryddfrydig. Traddododd amryw areithiau galluog a hyawdl y blynyddoedd hyn ar gyllidaeth y wlad, ac ar wladwriaeth dramor y llywodraeth. Yn ystod y rhyfel mawr a gymmerodd le rhwng Ffraingc a Germany, daeth M. Thiers i'r golwg yn dra chyhoeddus. Traddododd araeth nodedig o rymus a hyawdl yn y senedd ar yr 17eg o Awst, 1870, yn yr hon y dadganai ei obaith y gwnai Paris, os byddai hyny yn angenrheidiol, wrthwynebu y gelyn hyd yr eithaf. Yn mhen deng niwrnod wedi hyny pennodwyd ef yn aelod o bwyllgor amddiffynol Paris; ac yn fuan wedi hyny bu yn genhadwr yn llysoedd Prydain, Rwssia, Awstria, ac Italy, yn erfyn am gynnorthwy i Ffraingc. Cyrhaeddodd i Lundain Medi 13eg, 1870; ac ar y 18fed, gadawodd am St. Petersburg, Vienna, a Florence. Aflwyddiannus a fu yn ei appeliadau: ac yn mis Hydref dychwelodd: ac yn ol cynghor y pedwar gallu, aeth i bencadlys brenin Prwssia yn Versailles, i agor ymdrafodaeth am heddwch. Ond er iddo fod yn aflwyddiannus y tro hwn, ennillodd yr ymdrechion a wnaed ganddo i sefydlu heddwch barch mawr iddo gan ei gydwladwyr; a phrofwyd hyny ar ol i Paris gael ei rhoddi i fyny, drwy iddo gael ei ethol i'r Gymmanfa Genedlaethol gan y drydedd ran o'r genedl. Yr oedd y poblogrwydd hwn yn naturiol yn ei nodi allan fel y prif weinidog yn y wladwriaeth. Wedi gwneyd heddwch â Germany, syrthiodd Paris i ddwylaw y Communistiaid, y rhai a ddinystriasant dŷ M. Thiers ar y 6ed o Ebrill, 1871; ac ar yr 22ain o Fai canlynol, adennillodd y llywodraeth y brifddinas. Ar yr 31ain o Awst, ail etholwyd M. Thiers trwy fwyafrif mawr, a gelwid ef yn Llywydd Gweriniaeth Ffraingc. Ar yr 21ain o Fai, 1873, gan fod y mwyafrif wedi pleidleisio yn ei erbyn yn y senedd y dydd o'r blaen, efe a ymddiswyddodd; a'i olynydd oedd y Maeslywydd MacMahon. Gyda hyn y darfu bywyd swyddol M. Thiers; ond am y gweddill o'i oes yr oedd yn gwylio gweithrediadau y llywodraeth yn fanwl, ac ystyrid ef yn arweinydd y blaid ryddfrydig. Yr oedd parch mawr yn cael ei dalu iddo ar gyfrif y gwasanaeth gwir werthfawr a wnaeth i'w wlad tra y bu yn llywydd y Weriniaeth, ar ol y rhyfel rhwng Ffraingc a Germany. Bu farw yn dra disymmwth, yn St. Germain, dydd Llun, Medi 3ydd, 1877, yn 80ain mlwydd oed, dan effeithiau y parlys mud. Dangoswyd parch mawr iawn i'w goffadwriaeth yn Paris ar ddydd ei angladd; o blegid teimlai pawb fod y gŵr mwyaf a galluocaf yn y wlad yn cael ei roddi yn ei fedd. Rhoddwyd ei weddillion i orphwys yn mysg mawrion Ffraingc yn yr *Invalides*.

THOLUCK, FRIEDRICH AUGUSTUS GOTTREU: duwinydd Protestanaidd enwog, yr hwn a anwyd yn Breslau, ar y 30ain o fis Mawrth, 1799. Ar ol treulio rhai blynyddoedd yn mhrifysgol ei ddinas ei hun, aeth i brifysgol Berlin, lle yr ymroddodd yn benaf i astudio ieithoedd a llenyddiaeth y dwyrain; ac yn 1821, cyhoeddodd ffrwyth ei astudiaeth mewn llyfr o'r enw "*Suffismus sive Theosophia Persarum Pantheistica.*" Cyfaddefodd mai y fath ydoedd ei syniadau crefyddol, pan adawodd Breslau, fel y meddyliai nad oedd Cristionogaeth yn rhagori fawr ar Fahometaniaeth. Darfu i ddylanwad Neander, pa fodd bynag, ac yn enwedig dylanwad y Barwn von Kottwitz, boneddwr dyngarol a Christionogol o Silesia, beri cyfnewidiad llwyr yn ei argyhoeddiadau a'i syniadau; ac mor gynnar a'r fl. 1823, ymddangosodd fel amddiffynydd athrawiaethau efengylaidd yn ei "*Wahre Weihe des Zweiflers*" (Gwir Gyssegriad yr Ammheuwr). Cyhoeddwyd y seithfed argraphiad o'r gwaith hwn yn Hamburg yn 1851, o dan yr enw "*Athrawiaeth Pechod a'r Dyhuddwr,*" a chyfieithwyd ef i'r ieithoedd Saesnig, Ffrengig, Danaidd, Swedaidd, ac Isellmynaidd. Yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd ei "*Auslegung des Briefs an die Römer*" (Esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid, Berlin, 1824; pedwerydd

Digitized by Google

argraphiad 1842, yr hwn a gyfieithwyd i'r Saesneg, ac i ieithoedd eraill). Tua'r pryd hwnw pennodwyd ef yn athraw duwinyddol neillduol (*extraordinary*) yn Berlin; ac yn 1825, ymwelodd â Lloegr. Pan ddychwelodd adref, gwnaed ef yn athraw duwinyddol rheolaidd (*ordinary*) yn Halle yn lle Knapp, ac yno yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd sefyllfa Tholuck yn Halle yn lled annymunol ar y cyntaf, canys yr oedd y rhan fwyaf o'r athrawon duwinyddol yn rhesymolwyr penderfynol, a cheisiasant â'u holl egni wneuthur bywyd yr athraw newydd yn druenus; ond parhaodd Tholuck i ymdrech yn mhlaid "y ffydd a rodded unwaith i'r saint," er gwaethaf pob gwrthwynebiad; a chyn hir coronwyd ei ymdrech efengylaidd â llwyddiant. Y mae prif athrofa Halle bellach mor Gristionogol, er nad, hwyrach, yn hollol mor uniongred, ag ydoedd yn nyddiau Francke. Y mae ei garedigrwydd ef, a'i wraig, at efrydwyr, yn enwedig efrydwyr tlodion, yn ddiarebol; a diammheu fod hyny wedi chwanegu cryn lawer at ei glod mewn gwledydd estronol.

Yn 1843, gwnaed ef yn aelod o lys eglwysig (*consistory*) Magdeburg. Yr oedd Tholuck yn awdwr ffrwythlawn. Heb law y llyfrau y crybwyllwyd am danynt eisoes, gellir enwi, allan o'i weithoedd deongliadol, y rhai canlynol:—"*Praktische Commentar zu den Psalmen*" (Esboniad Ymarferol ar y Salmau: Hamburg, 1843); "*Commentar zum Evengelium Johannis*" (Esboniad ar Efengyl Ioan: chweched argraphiad, Hamburg, 1844); "*Commentar zum Briefe an die Hebräer*" (Esboniad ar y Llythyr at yr Hebreaid: trydydd argraphiad, Hamburg, 1850); a "*Philosophisch-theologische Auslegung der Bergpredigt*" (Esboniad duwinyddol-athronyddol ar y Bregeth ar y Mynydd: trydydd argraphiad, Hamburg, 1845). Y mae y rhai mwyaf nodedig o'i ysgrifeniadau athrawiaethol (*dogmatic*) mewn cyfnodur o'r enw "*Literarische Anzeiger für Christliche Theologie und Wissenchaft,*" ac yn ei "*Glaubwurdigkeit der Evang. Geschichte*" (Dilysrwydd Hanesiaeth yr Efengylau: Hamburg, 1837)—traethawd wedi ei gyfeirio yn erbyn "*Leben Iesu,*" gan Strauss. Yn mysg y pethau a ysgrifenodd ar hanes duwinyddiaeth, y mae ei "*Vermischte Schriften grösstentheils apologetischen Inhalts:*" Hamburgh, 1839; "*Der Geist der Luth. Theologen Wittenbergs im* 17 *Jahr*" (Ysbryd Duwinyddion Lutheraidd Wittenberg yn yr 17eg ganrif: Halle, 1853—1854); a'i "*Geschichte des Rationalismus*" (Hanes Rhesymoliaeth, 1855). Ysgrifenodd amryw gyfrolau o bregethau hefyd ar brif athrawiaethau y grefydd Gristionogol. Bu farw yn Hallé, ar y 10fed o fis Mehefin, 1877.

THOMAS, DAVID, B. A.: gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr yn Nghaerodor (Bristol). Ganwyd ef yn Merthyr Tydfil, Awst 16eg, 1811. Yr oedd ei dad yn ddyn crefyddol iawn, ac yn perthyn i'r Bedyddwyr; ond bu farw cyn bod ei fab David, yr ieuangaf o bedwar o blant, ond chwe mis oed. Yr oedd ei fam yn wraig ragorol, ac yn aelod gyda'r Methodistiaid Calvinaidd —ac yn eu plith hwy y dygwyd gwrthddrych yr erthygl hon i fyny yn ei ieuengctid. Ac arferai ei fam ei gymmeryd ef, yn gystal a'r plant ereill, gyda hi i'r cyfarfodydd crefyddol ar nosweithiau yr wythnos, yn ogystal ag ar y Sabbothau. Yr oedd David Thomas bob amser yn nghyfarfod egwyddori y plant, ac ystyrid ef yn wastad yn fachgen rhyfeddol; a thra yn adrodd pennodau o'r Beibl allan yn y gwasanaeth cyhoeddus—arferiad lled gyffredin mewn rhai ardaloedd—yr oedd rhywbeth yn neillduol o ddeniadol yn ei ddull a'i adroddiad, fel y swynai yr holl gynnulleidfa. Addysgwyd ef yn ysgol Mr. Taliesyn Williams, yr hwn oedd yn athraw rhagorol, ac yn ddysgyblwr manwl. Pan yn 16eg oed, efe a adawodd yr ysgol, ac a aeth i Lundain, a chafodd le fel ysgrifenydd yn ariandy Barclay, yn heol Lombard. Parhaodd yn aelod mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid Calfinaidd ar ol dyfod i'r brifddinas; ac yr oedd am y rhan fwyaf o'r amser y bu yno, os nad am y cwbl, yn llettya yn nhŷ capel Jewin Crescent, lle yr arferai y pregethwyr a ddeuent o Gymru i wasanaethu yr achos Cymreig yn y lle lettya hefyd. Defnyddiodd bob cyfleusdra o fewn ei gyrhaedd i ddiwyllio ei feddwl ac i gasglu gwybodaeth. Ymunodd â'r sefydliad llenyddol a gwyddonol a gynnelid yn heol Aldersgate, yr hwn oedd y pryd hwnw mewn sefyllfa dra blodeuog, ac yn rhifo tua saith neu wyth gant o aelodau; ac er nad ydym yn deall iddo gymmeryd un rhan gyhoeddus yn nghyfarfodydd dadleuol y sefydliad hwnw, y mae yn ddiau iddynt gario cryn ddylanwad arno. Yr oedd ynddo awydd cryf i bregethu, a rhyw fodd neu gilydd daeth i gyffyrddiad â Mr. Thomas Wilson, trysorydd Coleg Highbury, yr hwn a roddodd bob annogaeth iddo fyned yn mlaen; ac anfonwyd ef am dymmor byr, fel y byddid yn arfer gwneyd, er cael addysg ragbarotoawl, at y Parch. Walter Scott, wedi hyny o Goleg Airdale, ond yr hwn oedd y pryd hwnw yn preswylio yn Rowell, swydd Northampton. Arosodd yntau yno o chwech i naw mis; ac yn mis Awst, 1830, efe a ddychwelodd i Lundain er myned dan arholiad am dderbyniad i mewn i Goleg Highbury.

Tua'r adeg yma daeth Mr. Henry Richard, A.S., i Lundain: ac yr oedd yr un amcan ganddo yntau hefyd; sef, derbyn addysg athrofaol, i fyned i'r weinidogaeth. Llettyent eu dau yn yr un tŷ, a dechreuodd cyfeillgarwch cynnes rhyngddynt, yr hwn a barhaodd tra y bu y diweddaf fyw. Yna aeth y ddau gyda'u gilydd yn gydefrydwyr i Goleg Highbury. Yn nosbarth rhesymeg a rheitheg y disgleiriodd Mr. D. Thomas yn benaf. Yr oedd y dosbarth hwnw o dan ofal Mr. Henry Rogers, yr hwn oedd yn meddu llygad craff i ganfod arwydd o ragoriaeth neillduol yn mysg yr efrydwyr; ac arferai efe siarad yn uchel am rai o draethodau Mr. D. Thomas, ac edmygid hwynt gan bawb yn y dosbarth. Ymarferiad arall yr oedd efe yn rhagori ynddo oedd gwneyd pregethau, yn ol yr arfer a ffynai yn y coleg yn mysg yr efrydwyr; sef, cyfansoddi pregethau, a'u darllen yn eu tro, yn mhresennoldeb yr athraw; sef, Dr. Henderson. Ystyriwyd fod yr eiddo David Thomas yn bregethau o nodwedd uwchraddol. I gapel Cymraeg Jewin Crescent yr elai y rhan fynychaf yn ystod y flwyddyn neu ddwy cyntaf o'i efrydiaeth yn Highbury, er y byddai yn achlysurol yn myned i wrandaw rhai o bregethwyr enwog y brifddinas o'r gwahanol bleidiau. Nid rhyfedd ei fod yn gwneyd ei gartref yn Jewin Crescent; o herwydd yr oedd y pulpud yno yn cael ei lenwi yn fynych gan rai o bregethwyr mwyaf poblogaidd y Dywysogaeth —megys Ebenezer Richards, John Elias, Henry Rees, &c. Nid ydym wedi clywed iddo bregethu ond unwaith erioed yn yr iaith Gymraeg, a hyny yn nghapel Pontmorlais, Merthyr—y capel yr arferai efe ei fynychu pan yn blentyn. Ym-

ddengys na ddarfu iddo ar y pryd ei foddloni ei hun; ac nis gellid cael ganddo bregethu Cymraeg drachefn, er ei fod yn gallu siarad yr iaith yn lled rwydd, a'i fod yn darllen llyfrau Cymreig gyda phleser hyd y diwedd.

Wedi bod am ddwy neu dair blynedd yn Ngholeg Highbury, aeth Mr. Thomas i brifysgol Glasgow; o herwydd mewn arholiad cystadleuol iddo ennill un o ysgoloriaethau Dr. Williams. Arosodd yno am ddwy flynedd; ac yn y cyfamser ennillodd y wobr gyntaf am resymeg, ac un arall yn nosbarth athroniaeth foesol, a chymmerodd hefyd ei radd o B. A. Tra yn aros yn Glasgow, elai Mr. Thomas i gapel yr enwog Dr. Wardlaw, ac yn achlysurol pregethai yn ei le. Ar ddiwedd yr cilfed flwyddyn, efe a ddaeth allan; a bu yn pregethu mewn amryw leoedd ag yr oedd eu pulpudau yn wâg: ac yn mhlith manau ereill, daeth i bregethu i Gapel Seion, Bedminster, Bristol. Derbyniodd alwad o'r lle hwnw i fod yn weinidog, a chydsyniodd â hi. Neillduwyd ef i'r weinidogaeth yno yn mis Ionawr, 1836. Bu yno am chwe blynedd. Yn 1842, dechreuodd ei iechyd waelu; a chan fod arwyddion yn ymddangos ynddo fel pe buasai yn tueddu at y darfodedigaeth, cynghorwyd ef gan ei feddygon i fyned yn gyntaf i Madeira, lle yr arosodd y gauaf, ac oddi yno drachefn i Rio Janeiro, yn nheubarth America. Daeth adref yn mhen tua blwyddyn wedi gwella cryn lawer, er nad oedd ei iechyd wedi ei hollol adsefydlu.

Tra yn Bedminster, daeth Mr. Thomas i gydnabyddiaeth â'r enwog John Foster, gan yr hwn yr oedd meddyliau uchel am dano; ac yr oedd cyfeillgarwch mawr rhyngddynt a'u gilydd. Yn Torquay y treuliodd efe y gauaf cyntaf ar ol ei ddychweliad i Loegr, gan fod yr hinsawdd yno yn dynerach. Yn 1844, gwahoddwyd ef i fod yn weinidog cyntaf capel newydd Highbury, Clifton, Bristol; ac ymsefydlodd yntau yno yn Ngorphenaf y flwyddyn hono. Ac yno y bu efe am ddeng mlynedd ar hugain—y gweddill o'i oes, yn nodedig o lwyddiannus a dedwydd; a'i boblogrwydd a'i ddylanwad yn cynnyddu y naill flwyddyn ar ol y llall hyd y diwedd. Cafodd ei ddewis yn gadeirydd yr Undeb Cynnulleidfaol yn 1865, ac yr oedd hwn yn gyfnod pwysig yn ei hanes. Traddododd ddwy o anerchiadau rhagorol, yn nghyfarfodydd Mai a chyfarfodydd Hydrefol yr Undeb. Dygodd hyny ef yn amlycach i sylw ei frodyr a'r wlad, a dadguddiwyd ei alluoedd mawrion; canys er ei fod yn anadnabyddus o'r blaen mewn cylchoedd neillduol, fel un o ddynion blaenaf yr enwad y perthynai iddo, etto yr oedd ei oleuni i raddau megys dan lestr, gan ei fod wedi arfer bod yn hynod neillduedig a chartrefol. Rhyfeddai yn fawr pan y cafodd dderbyniad mor galonog a brwdfrydig ar ei ymddangosiad cyntaf o flaen yr Undeb, a bu hyny yn foddion, i raddau pell, iddo gael ymwared o'r diffyg hunan-hyder oedd yn chwannog i'w feddiannu. Yn y flwyddyn 1867, efe a draddododd bregeth genhadol yn Nghapel Surrey, Llundain; ac nid yn fynych y dilynwyd un o'r pregethau cenhadol blynyddol â dylanwad mor rymus ac effeithiol. O hyny allan gellir dywedyd iddo gymmeryd ei le naturiol ynglŷn â phrif symmudiadau y dydd, fel un o ddynion mwyaf galluog a phoblogaidd yr enwad y perthynai iddo. Pan y llwyddid i'w gael o Bristol, yn ei flynyddoedd olaf yn enwedig, yr oedd ei ymddangosiad a'i bregethau yn tynu sylw arbenig yn mhob man, ac yn cael eu dilyn âg effeithiau ysbrydol bendithiol.

Er's peth amser cyn ei farwolaeth yr oedd yn ddarostyngedig i ymosodiadau o afiechyd a barai cryn bryder i'w gyfeillion. Ac i'r dyben o'i gynnorthwyo yn ei waith bugeiliol, fel na byddai yn angenrheidiol iddo bregethu ond unwaith y Sabbath, penderfynwyd gwahodd gweinidog arall yno. Ei gynnorthwywyr fuont y Parchn. E. Armitage, ac H. E. Bottomby—gyda pha rai y cydweithredodd yn y modd serchocaf. Yn mis Ebrill, bu farw ei unig ŵyr—bachgen bychan oedd yn hynod anwyl ganddo. Wythnos wedi hyny bu farw ei ferch hynaf, Mrs. Robinson, yr hon a fuasai am dymmor maith yn dihoeni dan y darfodedigaeth. Pythefnos neu dair wythnos wedi hyny, bu farw merch arall iddo, yr hon oedd hefyd wedi bod yn dioddef am flynyddoedd oddi wrth yr un afiechyd, a'r hon oedd yn nodedig am ei thynerwch a'i serch tuag at ei thad. Effeithiodd y dyrnodiau hyn yn ddirfawr arno, a gwnaethant ei galon yn friwedig iawn. Treuliodd wythnosau yn ystod yr haf yn ngogledd Lloegr, a dychwelodd yn ol wedi cael ychydig o les oddi wrth yr ymweliad. Ond wedi ail ymaflyd yn ei waith, rhoddodd ei iechyd y ffordd drachefn, er nad i'r fath raddau fel ag i achosi pryder neillduol i'w gyfeillion. Bwriadai bregethu y Sabbath olaf y bu fyw; ond prydnawn y dydd Sadwrn blaenorol cymmerwyd ef yn bur wael; ac yr oedd ei ddioddefiadau nos Sadwrn mor fawr fel nad oedd yn alluog i siarad ond ychydig. "Fy Nuw a ŵyr yr hyn a ddioddefir genyf," ebai efe unwaith; a thrachefn dywedai, "Fy Nuw a ŵyr fy holl anghenion." Dymunai i'w gofion serchog gael eu rhoddi i'w blant oedd yn absennol, a'r eglwys y gweinyddai iddi. Wedi hyny, pan gofynodd y meddyg pa fodd yr oedd yn teimlo, dywedai, "Yn marw! marw! marw!" mewn llais oedd yn gwanhau gyda phob gair; ac felly y bu farw yn dawel tua phump o'r gloch boreu Sabbath, Tachwedd 7fed, 1875, yn 64ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn barchus yn nghladdfa Bristol, yn nghanol arwyddion o alar cyffredinol. Yn ol ei ddymuniad ef ei hun, gorphwysa ei lwch mewn llanerch heb fod yn mhell oddi wrth y man lle y gorwedd gweddillion yr enwog Robert Hall.

Yr oedd Mr. Thomas yn ddyn o ddeall cryf a diwylliedig, ac yn meddu gwybodaeth helaeth a chwaeth bur. Yr oedd ei ymddiddanion am ddynion cyhoeddus, ac am achosion cyffredinol a gwladwriaethol, yn dangos ei fod yn meddu gwybodaeth helaeth a barn addfed, yn gystal a llawer o ddigrifwch ac ysmaldod diniwed. Dymunol iawn oedd cael mwynhau ei gymdeithas pan y dadlenai ei feddwl mewn modd syml a dirodres; a bydd côf am ei gyfeillach ddifyrus yn hir yn meddyliau ei gyfeillion anwylaf.

Y mae y sylwadau canlynol o eiddo Dr. Stoughton, yn ei anerchiad ar ddydd ei angladd, yn rhoddi i ni olwg gywir arno:—

"Yr oedd gan David Thomas ffordd wreiddiol o fyned at natur ysbrydol dyn. Nis gellir ei efelychu, a dyrysa bob ymgais i'w ddadansoddi. Yr oedd ei ymddangosiad, ei ddull, mynegiant ei wynebpryd, ei lygad, ei gorph, a'i law, llawer o ba rai oeddynt hynod a dyeithr—yr eiddo ei hun oeddynt, heb erioed eu hastudio na bod yn ymwybodol o honynt ar y foment—yn chwanegu, yn ddiammheuol, at yr effaith a gynnyrchai; er, ar y cyntaf, i ryw rai, fe allai, fod hyn yn ymddangos fel yn tynu oddi wrth yr effaith. Ond nid oedd y dull ond peth bychan

Digitized by Google

mewn cymmhariaeth i'r mater—y meddyliau, a'r geiriau—y geiriau a dyfent allan o'r meddyliau, ag oeddynt megys yn rhan o honynt. Yr oedd meddyliau a geiriau yr ymadawedig yn cymmeryd gafael gref ac anorchfygol ynoch. Mynent feistrolaeth arnoch, cymmerent chwi yn gaeth, a theimlech yn barod i ddywedyd, 'Mor wir yw dy eiriau, mor deg ydynt. Y maent yn treiddio i'm cydwybod, yn trywanu fy nghalon, ac yn peri i mi gywilyddio o honwyf fy hun—yn fy ngwneyd yn deimladwy o'm hannheilyngdod a'm pechadurusrwydd, ac yn cynnyrchu ynof ddymuniad am fwy o burdeb, o ostyngeiddrwydd, o onestrwydd, ac o haelfrydigrwydd, o gariad, a hunan-aberthiad, ac o ysbryd Cristionogol yr efengyl.' Yr oedd gan Mr. Thomas fedrusrwydd mawr i suddo i ddyfnderoedd calonau dynion, a dwyn i'r golwg swm mawr o gymmhellion. Y mae eraill yn feddiannol ar allu o'r fath yma, nas gallant yn y pulpud wneuthur yr hyn a wnai efe. Gorweddai rhywbeth y tu cefn i hyn oll i roddi cyfrif am dano. Ac ar ol y cwbl, y dirgelwch o hyn oedd, nid dim a gafwyd ganddo ydoedd; ond rhywbeth a ddeuai iddo oddi uchod—math o ysbrydoliaeth. Y mae gallu ysbrydoledig mewn dysgu, mewn pregethu, mewn siarad, yn beth hynod iawn, ac yn beth anghyffredin iawn. Y mae llawer o ddynion yn gallu goleuo, argyhoeddi, a pherswadio; ond nis gallant ysbrydoli. Medrai David Thomas wneuthur hyny. Profai chwi, taniai chwi, a chynneuai o'ch mewn oleuni a gwres a fflamient ac a losgent. Nid yn unig yr oedd yn meddwl ac yn teimlo drosoch, ond yr oedd yn gwneyd i chwi feddwl a theimlo drosoch eich hun. Nid ydyw pethau eraill i'w gadael allan o'r cyfrif. Ond ar ol y cwbl, pa beth bynag oedd dirgelwch ffurf, a dull cyfansoddiad ei bregethau, dyma oedd yn gorwedd yn y gwaelod, fel haen cryf a chadarn—byddai yn cyhoeddi gwirionedd Duw yn ngoleuni Ysbryd Duw. Yr oedd efe yn ddyn oedd yn llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân; ac o ganlyniad, fel y gallesid disgwyl, yr oedd awdurdod a nerth yn ei eiriau."

THOMAS, WILLIAM *(Islwyn)*: bardd, a phregethwr rhagorol perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd. Ganwyd ef ar y 3ydd o Ebrill, yn y fl. 1832, yn y Babell, Pontllanfraith, sir Fynwy. Yr oedd ei dad, Morgan Thomas, o ran ei amgylchiadau yn lled gysurus, ac yn gweithredu fel goruchwyliwr i deulu Llanarth, ac yn ddyn hynod grefyddol; a mawr oedd ei ofal am William, canys efe oedd plentyn ei henaint. Cafodd lawn mwy, fe allai, o fanteision addysg na phlant cyffredin y gymmydogaeth; ac nid mantais fechan iddo oedd cael nawdd a chynnorthwy ei ewythr, y Parch. Daniel Jenkins—yr hwn oedd yn preswylio yn yr un gymmydogaeth. Rhoddwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu y gelfyddyd o faendöwr. Yr oedd Islwyn â'i olwg ar y pulpud, pa fodd bynag, er yn ieuangc; ac yr oedd yn ei fryd gael chwaneg o addysg, er darparu ei hun yn well ar gyfer gyrfa bregethwrol. Ond er colled fawr iddo, bu farw ei dad yn yr adeg hon. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid yn y fl. 1853, pan o ddeutu un ar hugain oed; ac wedi pregethu gyda chymmeradwyaeth gyffredinol yn yr ardaloedd o gwmpas ei gartref, ac yn mhell oddi yno hefyd, 'ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth,' fel y dywedir, pan yn saith ar hugain oed, yn 1859. Yr oedd sefyllfa ei iechyd yn gyfryw fel nad ydoedd efe yn gallu myned ar deithiau pell o gartref yn fynych; ac os addawai fyned, byddai raid iddo siomi yn aml. Yr oedd yn ei bregethau lawer o wreiddiolder, ac arwyddion o athrylith gref; ac hefyd nodweddid hwynt gan feddyliau tlws, tarawiadol, a barddonol. Nid oedd yn meddu ar nerth corph i floeddio yn y pulpud: ymddiddanol yn hytrach, o ran nodwedd, ydoedd ei areithyddiaeth. Nid oedd un amser yn ymdrechu cyffroi ei wrandawyr, trwy ymgais am yr hen hwyl Gymreig; a phe buasai yn ymdrechu gwneyd hyny, nid ydyw yn ymddangos y buasai yn llwyddo. Yr oedd ei bregethau yn ymresymiadol yn hytrach, ac wedi eu haddurno âg eglurhadau barddonol hynod o dlws.

Ond er fod ei ragoriaethau fel pregethwr yn dra adnabyddus mewn cylchoedd neillduol, diau mai fel bardd yr oedd efe yn fwyaf adnabyddus trwy y wlad yn gyffredinol—a'i gysylltiad â barddoniaeth Gymreig a drosglwydda ei enw yn mlaen i'r dyfodol. Fel bardd, yr oedd ei adnabyddiaeth, ei hoffder, a'i gydymdeimlad â natur yn fawr—ac yn enwedig o'i hystyried yn arwyddlun o'r ysbrydol. Dechreuodd gyfansoddi barddoniaeth pan yn ieuangc; a phan yn dair ar hugain oed, cyhoeddodd lyfryn bychan ar farddoniaeth. Pan yn lled ieuangc, cyfansoddodd bryddest faith i'r "Ystorm;" ond ni chyhoeddwyd ond darnau o honi. Cyfansoddodd bryddest arall ar "Gymru," ynghyd â chywydd ar y "Gweddnewidiad," ar gyfer Eisteddfod Llangollen, er na bu y diweddaf yn y gystadleuaeth. Ennillodd bedair cadair; a bu yn ymgeisydd am naw neu ddeg, neu chwaneg. Yn y mesurau rhyddion y rhagorai fwyaf, er y gallai gyfansoddi yn rhagorol yn y mesurau caethion. Ymddangosodd cryn lawer o'i ddarnau barddonol yn y *"Traethodydd,"* a chyhoeddiadau cyfnodol eraill. Gwaelodd ei iechyd yn niwedd haf 1878, ac yr oedd yn amlwg er's rhai wythnosau fod dadfeiliad pwysig yn cymmeryd lle yn ei natur; a nos Fercher, yr 20fed o Dachwedd, yn yr un flwyddyn, bu farw yn ei gartrefle, Ynys ddu, yn 46ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn barchus y dydd Mercher canlynol, yn nghladdfa capel y Babell, pan y daeth llu mawr ynghyd i dalu y gymmwynas olaf i weddillion un oedd yn hoff ac yn anwyl iawn ganddynt.

THOMAS, NATHANIEL. Yr oedd efe yn enedigol o Gaerdydd—yn y fl. 1730. Efe oedd golygydd *An Abridgment of Ainsworth's Latin Dictionary*, ac amryw lyfrau eraill at wasanaeth ysgolion. Bu wedi hyny yn olygydd a pherchenog y *St. James' Chronicle*, yn Llundain.

TYFRYDOG. Un o feibion Arwystli Gloff ydoedd efe, o Tywynwedd, merch Amlawdd Wledig. Yr oedd efe yn aelod o Goleg Enlli, ac yn sylfaenydd eglwys Llandyfrydog, yn sir Fôn.

TYLER, JOHN. Degfed arlywydd yr Unol Dalaethau. Ganwyd ef yn sir Charles City, yn nhalaeth Virginia, Mawrth 29ain, 1790. Wedi ei alw yn fargyfreithiwr, bu yn eistedd yn neddfwrfa y dalaeth o 1811 hyd 1816, pan ei dewiswyd yn aelod o'r gyngres. Yn 1825–26, etholwyd ef yn llywodraethwr ar Virginia, ac yn Rhagfyr, 1826, yn aelod o senedd y Talaethau. Yn 1840, etholwyd ef yn is-arlywydd yr Unol Dalaethau; a phan fu farw yr Arlywydd Harrison, Ebrill 4ydd, 1841, cafodd Tyler yr arlywyddiaeth. Dau brif ddigwyddiad ei swyddogaeth ydoedd, pasio yr hyn a elwir yr *Ashburton Treaty*, a chyssylltu Texas â'r talaethau eraill yn Mawrth, 1845. Ar ddiwedd tymmor ei arlywyddiaeth, efe a ymneillduodd i Virginia; a bu farw yn Richmond, Ionawr 18fed, 1862.

Digitized by Google

TYDIO. Un o feibion Arwystli Gloff, a brawd Tyfrydog, Twrnog, a Marchell. Blodeuodd tua diwedd y chweched ganrif; ac efe oedd sylfaenydd eglwys Derwen, sir Ddinbych.

TYRNOG GAWR. Tywysog yn Mhrydain oedd efe, pan oresgynid y wlad gan y Rhufeiniaid. Pair Tyrnog oedd un o Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain, am yr hwn y dywedid—'O rhoddai llwfrddyn ei fwyd ynddo, nis berwai; eithr bwyd gŵr dewr a ferwai yn ddiattreg.'

TYFODWG. Yn *Achau y Saint*, dywedir ei fod yn fab i Gwylfan ab Marchan ab Bran ab Pyll ab Cerfyn ab Meilir Meilirion ab Gwron, ab Coel Godebog. Daeth i Gymru gyda Garmon a Chadfan, a daeth yn aelod o Goleg Illtyd. Efe oedd sefydlydd eglwysydd Llandyfodwg, ac Ystrad Dyfodwg, yn Morganwg; ac efe, hefyd, gyda dau eraill, oedd sylfaenydd Llantrisant, yn y sir hono. Blodeuai tua diwedd y bummed ganrif.

TYFRIOG:—mab Dingad ab Nudd Hael; a sylfaenydd eglwys Llandyfriog, yn Ngheredigion. Yr oedd yn byw rywbryd tua diwedd y chweched ganrif.

TLODI, TLODION, a DEDDFAU Y TLODION. Wrth y gair *tlodi (pauperism)*, yn y cyssylltiad hwn, y meddylir ystâd y rhai hyny y mae yn rhaid iddynt wrth gynnorthwy o'r plwyf. Y mae y gair *tlodion* (*paupers*) yn cynnwys hefyd plant amddifaid, plant gordderch, a phlant fydd wedi eu gadael, yn gystal a rhai sydd o herwydd henaint, afiechyd, neu wendid, yn analluog i ennill eu bywoliaeth, ac felly dan orfod i dderbyn cymmhorth plwyfol.

Y mae pob plwyf yn y deyrnas hon yn rhwym i gynnal ei dlodion ei hun. Y mae gan bob dyn anghenus, pa un bynag a fyddo ai brodor ai estron, hawl i dderbyn cymmhorth angenrheidiol o gronfa y dalaeth y bydd efe yn aros ynddi. Er mwyn cyfarfod â hyn, gorchymynir pennodi arolygwyr y tlodion yn mhob plwyf, bob blwyddyn, ar y 25ain o fis Mawrth, neu o fewn pythefnos ar ol hyny; a hwynthwy, ynghyd â'r gwarcheidwaid eglwysig, sydd i godi yr arian angenrheidiol. Gwnsir hyn trwy dreth, yr hon y gall yr arolygwyr ei gofyn gan bawb fydd yn dal eiddo yn y plwyf, wedi y cadarnhaer y dreth hono gan yr ynadon. Treth leol ydyw hon gan hyny ar y deiliad, ac nid ar y perchenogion, os na byddant hwy yn ddeiliaid hefyd. I'r arolygwyr y perthyn y gwaith o godi arian; ond nid hwynthwy sydd yn gwneyd hyn yn uniongyrchol ac yn wastadol. Er mwyn gochel y niwed a berid gan waith swyddogion pob plwyf yn cyfranu yr arian wrth eu mympwy, sefydlwyd gallu canolog a llywodraethol yn 1834, a elwir Cyfeisteddfod Deddf y Tlodion (*Poor Law Board*); a rhoddwyd awdurdod i gyfuno amryw blwyfydd yn undeb, er mwyn chwaneg o unffurfiaeth a chynnildeb, ac i adeiladu tlotty. Gweinyddir achosion pob undeb gan nifer o bersonau a elwir yn warcheidwaid, y rhai a etholir gan y plwyfydd, ynghyd â'r ynadon sirol fydd yn preswylio o fewn yr undeb, y rhai a elwir yn 'warcheidwaid wrth eu swydd.' Y mae y tlotty undebol, a'r treuliau sydd ynglŷn âg ef, o dan lywodraeth y gwarcheidwaid. Disgwylir iddynt, wrth weinyddu cymmhorth, wylio rhag rhoddi cefnogaeth i ddiogi a thwyll; a'u dyledswydd ydyw cynnorthwyo y rhai fydd mewn angen ar y pryd, ac nid eu galluogi i ochel angen yn y dyfodol. Nid ydynt felly yn rhoddi i neb ond yr hyn sydd anhebgorol i'w gynnaliaeth.

Perthyna i Ddeddf y Tlodion reolau manwl ynghylch dosbarthiad y tlodion yn y tlotty, y dull o'u derbyn i mewn, yr ymborth, y ddysgyblaeth, a'r cynnorthwy oddi allan (*out-door*). Yn gyffredin, personau sydd yn byw yn rhywle o fewn yr undeb a gynnorthwyir, oddi eithr mewn amgylchiadau neillduol. Pa bryd bynag y rhoddir cymmhorth i ddyn iach, y tu allan i'r tlotty, y mae yr hanner o hono i fod yn ymborth neu yn danwydd. Yn wythnosol y rhoddir cymmhorth i'r tlodion y tu allan i'r tlotty. Y mae pob gwryw iach a dderbynia gymmhorth yn cael ei osod ar waith gan y gwarcheidwaid, ac yn cael ei gadw i weithio tra y bydd efe yn derbyn y cyfryw gymmhorth. Os bydd gan berson tlawd a ofyno am gymmhorth dad neu daid, fam neu nain, neu blentyn, a ddichon ei gynnal, gall swyddogion yr undeb appelio at yr ynadon am orchymyn (*order*) i orfodi y cyfryw berthynas i gyfranu at ei gynnaliaeth yr hyn a farnont hwy y bydd efe yn alluog i'w dalu.

Tlodion y plwyf, mewn un ystyr, ydyw yr holl rai hyny a ddigwyddant fod yn y plwyf pan y bydd yn gyfyng arnynt; o herwydd y mae y plwyf y byddont ynddo yn rhwymedig i roddi i'r tlodion hyny gymmhorth yn ddioedi. Ond pe byddai pob plwyf yn rhwymedig i roddi cymmhorth neu gynnaliaeth barhaus i bob dyn anghenog a allai ddigwydd fod ynddo ar y pryd, byddai trethi y tlodion yn rhwym o fod yn fwy, gan y byddai tlodion felly yn rhydd—un ai oddi ar fympwy, neu ar annogaeth eraill—i bwyso yn ddiddiwedd ar ryw blwyfi neillduol, neu i grwydro wrth eu hewyllys o'r naill blwyf i'r llall. Pasiwyd mesur yn nheyrnasiad Siarl yr Ail i attal hyn. Y mesur hwn ydyw sail y gyfraith sydd yn awr yn penderfynu y plwyf y mae dyn tlawd dibynol yn perthyn iddo, ac yn rhoddi hawl i'r ynadon i'w symmud ef iddo; deddf sefydliad (*law of settlement*) y gelwir y ddeddf hon. Pan y ceisir symmud dyn tlawd (*pauper*), y mae yn angenrheidiol ei gymmeryd o flaen dau ustus heddwch i gael ei holi; ac wedi cael prawf o'i sefydliad (*settlement*), rhydd yr ustusiaid awdurdod i arolygwyr y tlodion i'w anfon ef at arolygwyr plwyf ei sefydliad. Ond os bydd y dyn tlawd yn rhy glaf i'w symmud, gall yr ynadon oedi y gorchymyn hyd nes y gwellhao. Y mae y plwyf fydd yn anfon ymaith y cyfryw ddyn tlawd i blwyf arall yn rhwymedig i roddi rhybudd i'r plwyf hwnw. Ond y mae y gyfraith o barth i 'sefydliad' y tlodion mor ddyrys, fel y mae y plwyf yr anfonir hwynt iddo yn fynych yn appelio at y brawdlys chwarterol yn erbyn y plwyf fydd yn eu hanfon: ac weithiau, bydd yr achosion hyn yn cael eu hanfon o'r brawdlys chwarterol i fyny i Lys y Frenhines. Y mae rhai tlodion, fodd bynag, nas gellir mo'u symmud; ac am hyny, fe'u gelwir yn 'dlodion ansymmudadwy.' Tlodion o'r fath yma yw y rhai hyny sydd wedi bod yn preswylio am ddwy flynedd, neu chwaneg, yn y plwyf neu yr undeb hwnw yr aethant yn dlawd ynddo. Nis gellir symmud tlodion rhwng Lloegr, yr Alban, a'r Iwerddon, ond ar yr ammodau a nodir mewn gweithredoedd seneddol neillduol.

Yr oedd cenhedloedd cyntefig y byd yn ystyried elusengarwch fel dyledswydd grefyddol, ac o blegid y rheswm hwn yr annogent eu gilydd

Digitized by Google

i roddi elusen. Dywedir y byddai cenhedloedd Ewrop, yn yr hen amser, yn darparu ar gyfer y tlodion fel mater o ddoethineb gwladol. Ymffrostiai Athen unwaith na feddai hi un dinesydd mewn angen, ac nad oedd neb yn gwaradwyddo y genedl trwy gardota. Ond o'r diwedd, dygodd rhyfel dlodi i'w ganlyn, a gwnaethant hwy gyfraith i gynnal y rhai a anafid mewn rhyfel; ac yn ddiweddarach, i blant y rhai a leddid. Yr oedd hefyd yn nhaleithiau democrataidd Groeg fath o gymdeithasau cyfeillgar er cynnorthwyo aelodau anghenus; ond disgwylid iddynt ddychwelyd yr arian pan y deuent i sefyllfa well. Gwnaed cyfreithiau tiriogaethol gan y Rhufeiniaid yn y blynyddoedd 486 a 376 C.C., er mwyn attal eithafion cyfoeth a thlodi o fewn y wladwriaeth. Penderfynasant faint yr eiddo a ddylasai fod gan bob dinesydd, a gorchymynasant fod i bawb oedd yn meddu mwy na'r gyfran bennodedig roddi yr hyn oedd dros ben i'r rhai nad oedd ganddynt ddim. Dygodd Caius Gracchus i mewn yr arfer o werthu grawn am brisiau isel; ac yn mhen ysbaid o amser wedi hyny dechreuwyd ei ranu yn rhad. Ceisiodd Augustus attal hyn—ond yn gwbl ofer. Yn ei amser ef porthid dau can mil yn y modd hwn. Dywed Cicero fod y ddarpariaeth hon mewn mawr gymmeriad gyda phobl Rhufain, gan ei bod yn eu diwallu hwynt â bara, heb iddynt lafurio am dano; ond y mae ysgrifenwyr Rhufeinaidd eraill yn tystiolaethu ei bod yn niweidiol i amaethyddiaeth ac i foesau.

Yn y canol-oesoedd, yr oedd y rhan fwyaf o'r llafurwyr mewn cyflwr o gaethiwed, a dibynent ar eu harglwyddi gwriogaethol am eu bywoliaethau. Cydnabyddai yr arglwyddi eu rhwymedigaeth i ddarbod dros eu caethweision, fel yr oedd llawer, ar ol cael eu rhyddhau, yn myned yn ol i gaethiwed er mwyn ymgadw rhag angen. Yn amser y Sacsoniaid llafuriai y taiogion (*villeins*) y ddaear, a derbynient gyfran o dir tuag at eu cynnaliaeth eu hunain a'u teuluoedd. Ond Eglwys Rhufain yn benaf a gymmerodd arni ei hun y gwaith o dderbyn a chyfranu elusenau. Dywed Fuller, yn ei "*Church History*," mai "yr elusenau hyn oedd yn creu ac yn cynnal y tlodion;" a dywed Hallam hefyd yn ei "*Church History*" mai "achos o drueni, ac nid meddyginiaeth rhagddo, oedd dull yr eglwys o roddi elusenau." Y mae Eglwys Rufain, yn arbenig, yn parhau etto i gyfranu elusenau yn gyhoeddus ac yn ddirgel.

Yn yr YSPAEN, y mae'r wladwriaeth yn cadw amryw o noddfeydd i loerigion, deillion, mudion, a byddariaid. Y mae hi hefyd yn cyfranu swm mawr o arian yn flynyddol i'r taleithiau tuag at gynnorthwyo y tlodion sydd ynddynt, ac y mae pob talaeth yn rhwym i gasglu cymmaint ddwywaith o arian a'r hyn a dderbynia gan y llywodraeth. Y mae y llywodraeth yn dyfod yn mlaen hefyd i gynnorthwyo y deiliaid pan fyddant mewn adfyd, neu pan ddelo rhyw drychineb arnynt; ac y mae hefyd yn rhoddi rhyw gymmaint yn flynyddol at gynnorthwyo Yspaenwyr anffodus mewn gwledydd estronol.

Yn AWSTRIA, gorfyddir i bob cwmmwd (*commune*) gynnal ei dlodion ei hun. Mewn llawer o'r taleithiau, chwanegir elusenau neillduol at y cynnorthwy cyffredin, y rhai a gyfrenir gan yr offeiriad (*curé*), ac ychydig o drigolion dewisedig a elwir "Tadau y Tlodion," ynghyd â swyddog cyfrifol o'r cwmmwd. Holir yr erfynwyr yn fanwl ynghylch achos eu tlodi; ac os bydd eu hattebion yn foddhaol, rhoddir iddynt ddogn yn wythnosol yn ol eu hoed a'u hangen. Am y tlodion methedig, nad oes ganddynt berthynasau i drigo gyda hwynt, cymmerir hwy i'r elusendai cymmydol, lle y cânt, ynghyd â lletty, dân a goleu, dillad, gofal meddygol, a swm bach o arian i brynu bara, ac angenrheidiau eraill. Darperir ar gyfer plant yn nghartrefi eu rhieni, neu rhoddir hwynt mewn elusendai, neu ynte gosodir hwynt dan warchodaeth dynion da eu gair, y rhai a dderbyniant dâl bob mis, fel yn yr Alban. Arolygir y plant hyn gan yr offeiriaid, y maerod, a swyddogion iechydol y cwmmwd. Gofelir am 'blant cael,' neu blant a geir heb rieni (*foundlings*), lloerigion, deillion, mudion, a byddariaid, gan y llywodraeth. Cospir crwydriaid; ac y mae pob rhieni a adawant i blant o dan bedair-ar-ddeg oed gardota yn agored i gael eu carcharu am dri mis. Anfonir crwydriaid iach a chryfion i'r cyweirdai (*houses of correction*) i weithio.

Yn FFRAINGC, nid yw cynnorthwyo y tlodion yn beth gorfodol, yn gymmaint a bod gan y cyfranwyr hawl, ar ol gwneyd ymchwiliad, i wrthod cynnorthwy i bawb, oddi eithr i loerigion a 'phlant cael.' Y mae gweinyddiad cynnorthwy cyhoeddus i dlodion yn Ffraingc o dan oruwchreolaeth y gweinidog cartrefol. Yn Ffraingc hefyd rhoddir cynnorthwy i gryn lawer o sefydliadau elusenol neillduol. Y cwmmwd yn benaf sydd yn gofalu am ddiwallu anghenion y tlodion fydd ynddo. Ei ddyledswydd ydyw edrych na byddo neb fydd mewn gwir angen yn cael ei adael yn ddiymgeledd, ac i ofalu ar fod natur y cynnorthwy yn gyfryw ag y gellir peidio a'i roddi pan y paid yr angen. Y mae'r cwmmwd yn cefnogi elusenau gwirfoddol a fwriedir i gynnorthwyo y tlodion. Gwaherddir cardotta, a chospir ef hefyd, yn mha le bynag y bydd sefydliadau er cynnorthwyo y tlodion.

Yn yr IS-ALMAEN, y mae trefedigaethau i'r tlodion wedi eu rhoddi gan y llywodraeth er's hanner cant o flynyddoedd. Bydd crwydriaid, ar ol iddynt gael eu carcharu am ennyd, yn cael eu hanfon i un o'r rhai hyn, lle y cedwir hwynt dan ddysgyblaeth gaeth. Anfonir y tlodion goreu eu cymmeriad i'w cynnal eu hunain a'u teuluoedd trwy lafurio y ddaear mewn trefedigaethau rhyddion. Ond dywedir na bu y cynllun hwn yn llwyddiannus hyd yn hyn.

Yn yr AMERICA, y mae y cynllun yn debyg i gynllun y wlad hon. Y mae gan bob dyn yno hawl gyfreithiol i gael cynnorthwy gan y dref y bydd efe yn byw ynddi, gan fod y trethi yno yn cael eu gosod ar drefydd, ac nid ar blwyfydd. Y mae pob Americanwr a elo i ddibynu ar gynnorthwy yn colli ei freintiau gwladol. Gellir traddodi crwydriaid a dïogwyr i'r gweithdy, a'u gwneyd i lafurio megys mewn cyweirdy (*house of correction*). Y mae y gweinyddiad yno yn nwylaw arolygwyr, y rhai sydd yn arfer eu doethineb gyda golwg ar y dull o gynnorthwyo.

Yn LLOEGR, yr oedd y tlodion yn byw yn gyfangwbl, hyd amser Harri VIII., ar elusengarwch personol, ac felly yr oedd tlodion yr Iwerddon yn byw hefyd hyd 1838. Yn ol cyfraith a wnaed yn 1349, yn nheyrnasiad Edward III., gwaharddwyd rhoddi elusen i gardotyn galluog i weithio. Yn ol y gyfraith gyffredin, yr oedd y tlodion i gael eu hymgeleddu gan yr offeiriaid a'r plwyfolion, fel na threngai neb o eisieu ymgeledd; ac yn ol deddf a wnaed yn nheyrnasiad Richard II., gorchymynid i bob gŵr lleyg a berchenogai dir

Digitized by Google

eglwys neu fywoliaeth eglwysig, i gyfranu swm blynyddol i'r tlodion; ond ni wnaed un gyfraith orfodol hyd amser Harri VIII. (1535). Gorchymynwyd bob plwyf i dderbyn ac i ymgeleddu y rhai methedig, ac i orfodi y rhai iach a chryfion i weithio. Gorchymynwyd gwneuthur cronfa gyffredinol o'r elusenau, a dirwyid pwy bynag a roddai elusen mewn ffordd wahanol. Yr oedd y cardotyn iach i gael ei fflangellu am y trosedd cyntaf—i gael tocio ei glust am yr ail drosedd—ac i ddioddef marwolaeth am y trydydd trosedd fel drwgweithredwr, ac fel gelyn i les y cyffredin. Diddymwyd y gyfraith hon gan Edward VI., "am fod dynion, o herwydd tosturi ffol, yn ei gwneuthur hi yn ddirym." Ond nid llawer tynerach oedd y gyfraith a wnaed yn ei lle. Yn ol hono, yr oddid i argraphu y llythyren *V* â haiarn poeth ar ysgwydd y troseddwr, a'i gondemnio i fod yn gaethwas am ddwy flynedd i unrhyw ddyn a ofynai am dano. Os diangai efe yn nghorph yr amser hwnw, yr oedd i gael ei losg-nodi â'r llythyren *S* ar ei foch, ac i gael ei ddyfarnu yn gaethwas am ei fywyd. Os diangai drachefn, yr oedd i ddioddef marwolaeth fel drwgweithredwr. Os na byddai undyn yn hawlio y fath gardotyn, yr oedd yn rhaid i'r lle y cafodd ei eni ynddo ei gadw fel caethwas; ac os na wneid hyny, rhoddid dirwy drom ar y trigolion. Yn nheyrnasiad Elizabeth, ffurfiwyd deddf llawer mwy tyner a mwy rhesymol. A hon, yn wir, ydyw sylfaen y deddfau sydd mewn grym yn bresennol. Yr oedd yn rhaid i'r holl blwyfolion dalu treth i gynnorthwyo y tlodion, a chyfarwyddid barnwyr,y sir i bennodi dau neu dri o oruchwylwyr i gydweithredu â'r wardeniaid. Gorchymynid cynnal y methedig a'r anafus, a phrentisio y plant, a darparu gwaith i'r rhai a fedrent weithio. Yr oedd gan y barnwyr hawl i draddodi i'r cyweirdy neu i'r carchar cyffredin bob un na fynai weithio, ac hefyd i drethu pob dyn o foddion i gynnal neu i gynnorthwyo ei blant, ei ŵyrion, a'i rieni. Yn araf y daeth mesur mawr Elizabeth i weithrediad. Hyd deyrnasiad Siarl I., yr oedd llawer o blwyfydd a yrent eu tlodion ymaith, ac na chasglent ddim treth; ond yr oedd y drygau mwyaf wedi eu symmud ymaith—ac ychydig o ddeddfu a fu ar y mater am y can mlynedd dilynol. Mewn mesur a basiwyd yn 1691, yn nheyrnasiad Gwilym a Mari, penderfynwyd fod i bawb a dderbynient gynnorthwy plwyfol gael eu cofrestru a'u harchwilio gan gyfarfod y plwyf (*vestry*), am fod y wardeniaid yn camddefnyddio yr awdurdod diderfyn oedd ganddynt, gan roddi cynnorthwy "er eu budd neillduol eu hunain," drwy yr hyn beth y trymhëid baich y plwyf. Rhoddai y mesur hwn awdurdod i'r barnwyr i orchymyn cynnorthwyo pawb a syrthient i angen neillduol a disyfyd—darpariaeth a drodd allan wedi hyny yn achos o anhawsder a dyryswch mawr. Y drygau y cwynid o'u plegid o hyny allan oedd, fod llawer yn pwyso ar y trethi a ddylasent fod yn cynnal eu hunain yn gyfangwbl; fod llafur tlodion dibynol yn ymyraeth yn niweidiol â llafur gweithwyr diwyd; fod y goruchwylwyr yn gweithredu yn anonest, a hyny yn ddigerydd; a bod y barnwyr, gyda gormod o haelfrydedd, yn gorchymyn i'r doeth a'r diwyd roddi ei ennillion i gynnal y diofal a'r dioglyd. Gwnaed ymdrech yn ystod teyrnasiad y tri Sior cyntaf i ddiwygio y camarferion hyn, trwy wneuthur i'r barnwyr gydweithredu â'r goruchwylwyr, a gwneuthur y goruchwylwyr yn gyfrifol i'r plwyfolion. Yn lle rhoddi cymmhorth i'r tlodion yn eu tai eu hunain, dechreuwyd yn amser Sior I. i'w hannog i fyned i'r gweithdy. Amlhaodd y gweithdai gryn lawer mewn canlyniad i hyn. Sefydlwyd undebau hefyd trwy fesur a elwid Mesur Gilbert (1782), a phasiwyd rhês o fesurau i noddi prentisiaid plwyfol. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif dechreuwyd lliniaru llawer ar gyfreithiau y tlodion. Yn ol mesur a basiwyd yn 1796 mwyhawyd swm y cymmhorth, a chaniatawyd i lawer chwaneg gael derbyn o hono. Diddymwyd y ddeddf oedd yn gwahardd cymmhorth i'r rhai a wrthodent fyned i'r tlotty, a rhoddwyd ychydig o gymmhorth hefyd fel chwanegiad at gyflogau annigonol. O hyny allan, aeth rhoddiad cymmhorth mewn rhyw fodd neu gilydd o'r tu allan i'r tlotty yn rheol; ond aethpwyd i gwyno eu bod wedi troi deddfau y tlodion yn ffordd i dalu cyflogau. Yn 1801, yr oedd swm y trethi yn 4,000,000*p*. Yn 1820, yr oeddynt wedi cyrhaedd 7,330,254*p*. Yn 1817, mynegodd dirprwyaeth o Dŷ y Cyffredin eu bod yn barnu y llyngcai y trethi hyn holl faeliannau y wlad i fyny, os na roid attalfa arnynt. Er fod rhyw gymmaint o ddaioni wedi dyfod o'r ddirprwyaeth hon, etto yr oedd cymmaint o gamwri yn aros fel y barnwyd yn angenrheidiol bennodi dirprwyaeth arall yn nechreu y flwyddyn 1832. Gwaith y dirprwywyr oedd chwilio allan ddiffygion y trefniadau oedd yn bodoli y pryd hwnw, ac awgrymu gwelliantau—ac yn nechreu 1834, cyflwynasant eu hadroddiad. Dangosai hwnw fod annibyniaeth, uniondeb, a diwydrwydd y gweithwyr wedi darfod. Dywedid mai gwreiddyn y drwg oedd y chwanegiad a wneid at gyflog gweithiwr er ei gynnal ei hun a'i deulu. Arferid talu iddo yn ol ei angenrheidiau, ac nid yn ol ei ddiwydrwydd. Arferai amaethwyr droi eu gweithwyr ymaith, a gwrthodent eu cyflogi am gyflog teg; a'r canlyniad oedd, fod llawer o honynt allan o waith. Yna cymmerai yr amaethwyr hwynt yn eu hol oddi ar y plwyf am gyflogau isel, y rhai a delid allan o'r trethi. Mewn llawer o blwyfydd yr oedd pob llafurwr yn derbyn cynnorthwy plwyfol, a thelid mwy iddo am ddiogi nag am weithio. Telid chwaneg iddo os cymmerai wraig dlawd, a chwaneg drachefn pan y genid plant iddo. Byddai tlodion yn priodi yn ddwyar-bymtheg neu ddeunaw mlwydd oed, ac yn hawlio y cymmhorth arferol y diwrnod ar ol eu priodas. Nis gallai dyn tlawd gynnilo dim yn y plwyfydd hyny: os gwyddid ei fod trwy ddiwydrwydd wedi casglu ychydig o arian, gwrthodid rhoddi gwaith iddo hyd nes y byddai ei gynnilion wedi eu gwario, ac yntau wedi ei ddwyn i lawr yn gydwastad â thlodion (*paupers*) eraill. Heb law hyny, profwyd fod camwri mawr ynglŷn â'r gweinyddiad o gymmhorth a geid yn y tlottai; o herwydd yr oedd yr ymborth a'r lletty a ddarperid i dlodion diog mor ragorol fel nad oedd gan yr holl weithwyr—nac hyd yn oed llawer o'r trethdalwyr eu hunain—fodd i'w gyrhaedd. Barn y dirprwywyr oedd fod y dull oedd yn bod y pryd hwnw o weinyddu cymmhorth "yn wrthwyneb i lythyren ac ysbryd y gyfraith, ac yn ddinystriol i lwyddiant y wladwriaeth." Dadganent eu barn yn gryf, y dylai cyflwr y tlawd dibynol (*pauper*) fod is-law cyflwr isaf dyn tlawd annibynol, gan fod pob ceiniog a gyfrenir tuag at wneuthur cyflwr y blaenaf yn fwy dymunol na chyflwr yr olaf yn gefnogaeth i ddiogi a drygioni. Cynnygiasant yr

Digitized by Google

chynneu tân; ac wrth oleuni hwnw y darllenai. Mynegir iddo ddarllen "*Hanes y Merthyron*" drwyddo oll pan yn blentyn yn y modd hwn. Ymddengys i'w duedd i geisio barddoni ymaflyd ynddo yn foreu, a dysgodd ddeall y mesurau a'r cynghaneddau caethion yn weddol dda erbyn ei fod yn ddeg oed:—gorchest led fawr. Daeth ei enw yn hysbys fel prydydd yn Hedfuan yn nghymmydogaeth ei gartref—yr hyn a'i gosododd ef yn agored i demtasiynau yn awr ac eilwaith. Yn gymmaint a bod ei rieni yn aelodau crefyddol, a'i frawd William, yr hwn oedd yn ddeuddeng mlwydd hynach nag efe, yn flaenor yn mhlith y Methodistiaid, arferai Robert Tomos pan yn blentyn fynychu y cyfarfodydd crefyddol; ac ymddengys ei fod wedi ei dderbyn yn gyflawn aelod cyn bod yn bymtheg oed. Yr oedd yn meddu ar gôf da, ac yn hoff y pryd hwnw o gofio ac adrodd y pregethau a glywai. Ar ol oedfa y boreu unwaith, yr oedd Dafydd Cadwaladr ac yntau yn nhŷ y capel, pan y gofynai y pregethwr i'r gwrandäwr ieuangc adrodd yr hyn a gofiai o'r bregeth a wrandawsai. Adroddodd yntau hi yn lled gyflawn; yr hyn a ryfeddai yr hen bregethwr yn fawr. Ac ebe fe, "Wel, da machgen i:—hwyrach yr äi di yn bregethwr rhyw dro. Dal ati hi."

Dygwyd Robert Tomos i fyny yn saer maen; sef, yr un gelfyddyd a'i dad, a'i frawd. Pan y gwnaed ffordd fawr Caergybi drwy y Bettws a Phentrefoelas, yr oedd Robert Tomos a William, ei frawd, yn gweithio ar y gwelydd a'r pontydd arni. Pan yn adeiladu Pont Waterloo dros y Gonwy, ger y Bettws, cynnygiodd cymmerwyr y bont hanner gini o wobr am wneyd y campwaith canlynol:—Gosodwyd cant o geryg y naill ar y llall, ar ddôl ger llaw y bont, a thorwyd cant o dyllau yn y ddaear tua llathen oddi wrth eu gilydd, ac yr oedd un gareg i'w chymmeryd ar y tro, a'i rhoddi yn un o'r tyllau, a'r gwaith i gyd i'w wneyd dan awr, cyn yr ennillid y wobr. Gorchwyl lled galed, gan fod raid myned dros diroedd yn mesur chwe milldir a hanner cyn y gallesid ei gwblhau. Methodd amryw: yna daeth Robert Tomos yn mlaen, a gwnaeth y gwaith mewn ychydig funydau dan awr, a chafodd y wobr. Aed â'i achos o flaen yr eglwys, ac yr oedd y rhan fwyaf yno am weinyddu rhyw gerydd tyner arno; ond yr oedd William, ei frawd, a rhyw rai ereill, am fod yn fwy llym, a daeth yntau ei hun i gydnabod y dylesid ei ddiarddel; ac felly fu. Diarddelwyd ef; a bu allan o'r eglwys am o ddeutu chwarter blwyddyn. Yn mhen tri mis dychwelodd i'r eglwys yn dra edifeiriol. Daeth i gydnabyddiaeth âg Ieuan Glan Geirionydd yn y fl. 1816, a ffurfiwyd cyfeillgarwch maith rhyngddynt.

Dechreuodd bregethu yn niwedd y flwyddyn 1819, neu yn nechreu 1820. Wedi iddo ddechreu pregethu, teimlai angen am addysg chwanegol. Nid oedd amgylchiadau ei rieni wedi caniatau iddo gael ond ychydig o ysgol pan yn ieuangc; ond yr oedd efe ei hun wedi gwneyd ymdrechion i gasglu gwybodaeth. Prynai lyfrau â'r arian y gallai eu hebgor, a darllenai hwynt. Fel llawer mewn amgylchiadau cyffelyb, gweithiai yn galed y dydd, a darllenai a myfyriai yn galed y nos. Tua'r adeg y dechreuodd efe bregethu, bu yn yr ysgol yn Llanrwst, gyda'r Parch. William Jones, o Ruddlan. Bu wedi hyny am dymmor yn yr ysgol gyda'r Parch. John Hughes, yn Ngwrecsam. Yr oedd yno yn y fl. 1823. Wedi dyfod o Wrecsam, ni arosodd yn hir yn nghymmydogaeth y Bettws; ond symmudodd i Bodffari, yn Nyffryn Clwyd, i gadw ysgol. Nid hir y bu ei arosiad yno, ond symmudodd drachefn i Drelogan, yn swydd Fflint. Yr oeddid ynghylch adeiladu capel yn y gymmydogaeth hono ar y pryd, a gosodwyd y gwaith i Robert Tomos; yr hwn, meddir, a'i gwnaeth yn onest a didwyll. Tra y bu yn aros yn Nhrelogan y derbyniwyd ef yn aelod o'r Gymdeithasfa, yn y fl. 1826. Y mae un o'r cwestiynau a roddwyd iddo y pryd hwnw gan y Parch. Thomas Richards, o Abergwaun, ar gael etto, ynghyd â'r attebiad a roddwyd iddo gan Robert Tomos. Y cwestiwn oedd, "A oeddych chwi yn barnu y gwnaech chwi rywbeth o honi hi wrth bregethu, pan yr aethoch chwi ati?" Yr atteb oedd, "Yr oeddwn wedi meddwl y gwnaethwn lawer mwy nag a wnaethum hyd yn hyn, beth bynag." Parodd yr attebiad hwn i'r cwestiynwr newid ei wedd a'i dôn o hyny i'r diwedd.

Tua gŵyliau y Nadolig, 1826, priodwyd Robert Tomos, yn eglwys Llanycil, gyda Sarah Roberts, merch i Shôn Rhobert, a Sarai ei wraig, o Cae'rlion, yn y plwyf hwnw; a hon, fel y dywedir yn y bywgraphiad a gyhoeddwyd am dano, ydoedd un o'r digwyddiadau mwyaf ffodus a gymmerasant le yn mywyd helbulus Robert Tomos. Wedi iddo briodi, aeth i breswylio i'r Bala, lle y bu yn cadw ysgol tua chwarter blwyddyn. Yn haf y fl. 1827, pa fodd bynag, aeth am daith i'r Deheudir, fel cyfaill i'r diweddar Barch. Cadwaladr Owen. Yna efe a symmudodd o'r Bala yn 1828, i Tŷ Nant—fferm ar yr ochr ddeheuol i fynydd Nedol, ger llaw capel Llidiardau. Bu yno am chwe blynedd. Ymddengys ei fod yn fwy o saer maen nag o ffermwr. Yr oedd yn awr yn parhau i bregethu, ac yn myned i ambell daith fer yn awr ac eilwaith. Yn 1829, aeth William a John, ei frodyr, a thair o'i chwiorydd oeddynt yn briod, drosodd i America—yr hyn a effeithiodd yn drwm ar ei feddwl; a chan fod tuedd ynddo o'r blaen i fod yn bruddglwyfus, nid rhyfedd i'r amgylchiad hwn effeithio arno i'w wneyd yn fwy felly. Teimlodd awydd i fyned gyda hwy, ond yr oedd ei briod yn anfoddlawn i hyny. Mewn canlyniad i waeledd iechyd ei dad-yn-nghyfraith, symmudodd o'r Tŷ Nant yn 1834, i fyw i Cae'r-lion. Yr oedd efe yn fwy darostyngedig i'r pruddglwyf yn y cyfnod y bu yn preswylio yma nag y bu o'r bron mewn un adeg ar ei oes. Hoffai grwydro ar hyd y meusydd ac ar lan yr afon Tryweryn, ac anhawdd oedd ei gael at ei ymborth, ac anhawddach drachefn ei gael i'w wely. Ffermwr anghelfydd a gwael hefyd oedd efe; ac nid rhyfedd, gan hyny, ei fod yn aflwyddiannus, a bod ei amgylchiadau yn gwaethygu. Methai gyfarfod â'i ofynion, ac aeth ei feddwl yn isel iawn; ond cafodd yn y diweddar Barch. Dafydd Rolant gyfaill gwirioneddol yn yr adeg hon, fel ar lawer un arall. Ymadawodd o Cae'r-lion. Digwyddodd hyn yn 1840. I bentref bychan a elwir Pant-llwyd, ger Ffestiniog, y symmudodd y tro hwn; ac yno efe a ail ymaflodd yn ei alwedigaeth o saer maen, a gwnaeth ei oreu i gael ei amgylchiadau i well trefn; ond yr oedd ei feddwl ar brydiau yn hynod o isel a phruddglwyfus. Yn 1844, symmudodd i dŷ capel Peniel, Ffestiniog. Tra y bu yno efe a gyhoeddodd lyfr o'i farddoniaeth, dan yr enw "*Lloffion o Faes Boaz.*" Yr oedd wedi cael llawer o enwau ato cyn ei argraphu; ac ar ol ei gyhoeddi, aeth o gwmpas y wlad i amryw fanau i'w werthu. Ni byddai efe yn cyfyngu

Digitized by Google

ei lafur gweinidogaethol i'r cymmydogaethau yr oedd efe yn preswylio ynddynt, a'r ardaloedd cylchynol; ond yr oedd yn adnabyddus trwy Ogledd a Deheudir Cymru, gan iddo fod ar wahanol adegau ar daith drwyddynt, yn nghwmni y Parchn. Lewis Morris, Daniel Evans, Cadwaladr Owen, Richard Humphreys, ac eraill; ac y mae llawer o hanesion ysmala ar gael o amryw ddigwyddiadau a gymmerasant le mewn cyssylltiad âg ef ar y teithiau hyny.

Wedi bod am dair blynedd ar ddeg yn y Pant-llwyd a Ffestiniog, efe a symmudodd i Waen y Bala, lle y dilynodd yr alwedigaeth o saer maen, a chadwai ei wraig hefyd siop fechan. Nid hir y bu yma. Yn Nghalanmai, 1853, efe a symmudodd i dŷ y capel, Llidiardau; a dilynodd yno ei hen alwedigaeth, a chadwai y wraig siop fechan, fel yr hon a gadwodd hi yn y lle o'r blaen. Yr oedd Robert Tomos ar brydiau, pa fodd bynag, yn cadw ysgol yn yr hen gapel, a phryd arall yn myned ar daith bregethwrol fer i wahanol siroedd y Gogledd, ac yn achlysurol i drefydd mawrion Lloegr. Anffodus y troes ei amgylchiadau etto yn y lle hwn; ac yr oedd iselder ei feddwl yn awr yn llawer mwy nag y bu ar unrhyw adeg o'r blaen. Tua diwedd ei oes, troes yn ddarlithiwr. Testyn ei ddarlith gyntaf oedd "Abram Jones, o'r Ceunant;" a thestyn yr ail oedd "Dafydd Rolant;" ac eiddo y drydedd oedd "Y gwahaniaeth rhwng y ganrif ddiweddaf a'r ganrif bresennol yn Nghymru." Yr oedd ar fedr hefyd gyfansoddi darlith ar "Dafydd Cadwaladr;" ond ni chwblhaodd ei fwriad gyda golwg ar hyny, ac yr oedd efe erbyn hyn yn rhy lesg i fyned oddi amgylch i'w thraddodi pe buasai wedi ei gorphen.

Ysgrifenodd gryn lawer i'r cyfnodolion Cymreig, ond barddoniaeth yn benaf. Ysgrifenodd "Hanes Dafydd Rolant," ynghyd âg amryw bethau eraill mewn rhyddiaeth. Ond yr oedd oes y dyn hynod hwn yn dirwyn tua'r pen. Yn haf y flwyddyn 1863, bu dan law meddyg, fel y bu yn gorfod cadw ei wely am beth amser; ond gwellhaodd ychydig wedi hyny, a bu yn pregethu yma a thraw. Cafodd ei gyfyngu i'w wely drachefn. Blinid ef yn fawr gan afiechyd yr afu, a methai fwyta nemawr ddim, ond yr oedd yn yfed llawer. Ar yr adeg hon yr oedd yn meddu profiad dymunol a gorfoleddus ar adegau. Bu farw Sabbath, Rhagfyr 16eg, 1866, yn 70ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llidiardau, a daeth llawer ynghyd ar ddydd ei angladd i ddangos eu parch i'w goffadwriaeth.

TROY (Ll., *Troja;* Gr., *Ilion*). Am y rhandir lle yr oedd y ddinas uchod, gwel o dan y gair TROAS. Nid oes angen yn mron i ni ddyweyd mai y ddinas y cyfeiria Homer ati yn ei "*Iliad*," a sefyllfan ei arwr-gerdd anfarwol, ydoedd y lle hwn. Y mae ei lleoliad manwl wedi bod yn fater o ddadl faith a brwd rhwng dysgedigion; ond gellir dywedyd erbyn hyn ei bod wedi, neu yn mhell ar y ffordd i gael, ei phenderfynu—yn enwedig, fel canlyniad i ddarganfyddiadau pwysig Dr. Schliemann. Y mae dau gwestiwn wedi bod yn cael ei ddadleu gyda golwg arni. Yn gyntaf, A fu y cyfryw ddinas yn bod mewn gwirionedd? Yn ail, Ai y ddinas o'r enw, yr hon yr ymwelwyd â hi gan Alexander a Xerxes ydoedd hi! Dywed Dr. Smith, mai y golygiad mwyaf tebygol ydyw, mai yn y rhan uchaf o'r gwastadedd [Troas] yr oedd hi wedi ei hadeiladu, ar ychydig o godiad tir wrth droed mynydd Ida; a bod ei hamddiffynfa, a elwid Pergama, ar le uwch i fyny, ac yn wahanedig oddi wrth y ddinas gan geunant, a'r ddwy yn amgylchedig gan yr afon Scamander. Ymddengys na chafodd y ddinas hon ei hadferu ar ol ei dinystrio gan y Groegiaid. Adeiladwyd dinas newydd gan yr Eoliaid, ar yr hen sefyllfa, fel y tybient hwy; ond mewn gwirionedd, yr oedd hon yn is i lawr yn y dyffryn, a gelwid hi yr Hen Ddinas. Adfeiliodd hono ar ol amser Alexander, ac adeiladwyd un arall yn mhellach fyth i lawr, is law cydgyfarfyddiad y Simois a'r Scamander, ac yn agos i'r Hellespont, yr hon a alwyd yn *Troy Newydd*. Yn ol y golygiad uchod, yr oedd Troy briodol yn gorwedd tua dwy a deugain o ystadau o'r Hellespont. Y tu cefn iddi i'r de-orllewin yr oedd Mynydd Ida. Perthynai iddi amryw byrth, ond un yn unig a enwir, sef y "Scaiai pulai"—y porth chwith, yr hwn a arweiniai i wersyll y gelyn; sef, y Groegiaid. Yr oedd ei muriau yn uchel a chedyrn, ac yn cael eu cryfhau â thyrau wedi eu hadeiladu gan y duwiau, Apollo a Poseidon. Dinystriwyd hi, yn ol y cyfrif cyffredin, gan y Groegiaid, yn y flwyddyn c.c. 1184. Y mae darganfyddiadau Dr. Schliemann, y rhai a nodir yn ei waith, a elwir "*Troy, and its Remains*," yn dra phwysig a dyddorol; ond ni chaniatâ lle i ni fanylu arnynt. Dengys fod y lle [Hissarlik] yn gorwedd ar y ffurfiad a elwir Muschelkalk, ar yr hon y mae olion pedair o ddinasoedd—a'r naill adfail yn gorwedd ar y llall. Rhyngddynt y mae trwch yr adfeilion o 40ain i 46ain troedfedd. Y mae yr isaf o 13eg i 20ain troedfedd:—a hwn oedd y cyfnod hwyaf. Yn yr ail, ceir olion gwres a thân mawr yn y lludw coch oddi wrth goed a welir ynddo. Y mae yr un Troiaidd priodol o 23 i 33 troedfedd. Darganfyddodd Schliemann yma y 'Scaian Gate' y cyfeiria Homer ati, a rhydd ddarlun o honi. Oddi wrth hwnw, gwelir ei bod yn ddwbl, ac felly yn gysson â ffurf ei henw, "y *pyrth* Scaiaidd." Y mae y trysor anferth a ddarganfyddodd Schliemann yn profi gwareiddiad mawr, a chwaeth gelfyddydol uchel. Llwyddodd y darganfyddwr hwn i ddadorchuddio 'twr mawr' y ddinas. Yr oedd yn 20ain troedfedd o uchder, a dim ond hyny. Hefyd, daeth o hyd i balas Priam, ynghyd â'r trysor cuddiedig ynddo—yn werth tua 10,000*p*. Y tebygolrwydd yw, nad ydyw y rhan a ddarganfyddwyd ond y gyfran frenhinol o'r ddinas, lle yr oedd y prif adeiladau a'r palasau; a bod cyfanswm y ddinas yn ymestyn yn mhellach o lawer ar y gwastadedd. Fel y gallesid disgwyl, y mae y diweddaf wedi diflanu yn gwbl, ond ceir adfeilion o'r rhan arall. Felly y mae gyda dinasoedd eraill—megys, er enghraifft, Ninifeh. A diau fod Homer yn ei disgrifio yn fwy nag ydoedd mewn gwirionedd. Ar benau y tyrau, canfyddwyd ffosydd cywrain a dyeithrol, i'r rhai a saethent â bwäau i ymlechu ynddynt. Ar y llethr gogleddol, cafwyd hen fur. Ar yr ochr deheuol y darganfyddwyd y 'twr mawr;' a deuwyd o hyd i heol o'i fewn. Cafwyd y gist lle yr oedd y trysor, ac hefyd yr agoriad, ar lawr mewn lle arall. Ystyr yr enw *Ilios* ydyw 'amddiffynfa yr haul:' o *Ilios*=haul.

TRYDANOL, GOLEUNI (*Electric Light*). Y mae olrheinwyr gwyddonol er's llawer o flynyddoedd wedi arfer edrych ar drydan fel elfen ag y gallesid cael goleuni o honi. Ac y mae hyny eisoes wedi ei brofi yn wirionedd. A barnu oddi wrth yr arbrawfion diweddaf hefyd, daw i fwy o

Digitized by Google

ddefnyddioldeb yn fuan. Fel ffynnonell goleuni celfyddydol, y mae hwn yn un o'r enghreifftiau pwysicaf o wyddoniaeth yn cael ei chymmhwyso at y celfyddydau. Yn awr, yr ydys wedi cael profion mor amlwg o'i effeithiolrwydd, yr hawsder â pha un y gellir ei reoli, a'r draul i'w gynnyrchu, fel y gwelir ei fod yn rhagori ar nwy glô tuag at lawer o ddybenion. Ar y llaw arall, er ei fod mewn rhai achosion yn cystadlu yn llwyddiannus â nwy, y mae yn dra thebygol fod dau faes gwahanol i'r ddau ffynnonell yma o oleuni. Dywed M. Fontaine fod "i'r goleuni trydanol ei le, a bod hwnw wedi ei nodi allan iddo dan lawer o amgylchiadau; ond yn hytrach na lleihau treuliad goleuadau eraill, yr arweinia i wneyd mwy o ddefnydd o honynt drwy ddangos manteision goleuni cryfach a chyflawnach." Ond gellir gofyn, Pwy a all ddywedyd pa mor fuan y bydd trydan yn cymmeryd lle pob ffynnonell arall o oleuni, at ba amcan bynag y cymmhwysir ef? Gynt, nis gellid ei gynnyrchu mor rad; mewn gwirionedd tybiai rhai gwyddonwyr nas gallesid cael goleuni trydanol heb draul fawr. Yr amcanion i ba rai, hyd yma, y mae trydan wedi cymmeryd lle nwy ac olew ydynt, i oleuo goleudai, ac i oleuo gweithfaoedd mawr agored, ac i oleuo llaw-weithfeydd sidan, a llaw-weithfeydd eraill, lle y mae o bwys iddynt allu gwahaniaethu lliwiau yn y nos, ac mewn gweithfeydd lliwio, a darlun-orielau, &c. Y mae yn bwysig hefyd mewn amddiffynfeydd, ac i atteb dybenion rhyfelgyrchol: o herwydd hyn, y mae y rhan fwyaf o'r llywodraethau yn awr yn parotoi peiriannau i wneyd goleuni trydanol at wasanaeth eu byddinoedd a'u llyngesoedd.

Y mae y goleuni hwn o'r un lliw a goleuni yr haul ei hun, fel y mae gweithio gyda'r goleuni trydanol fel gweithio yn ngoleu y dydd. Canfyddir pob cysgod o liw yn y goleu yma fel wrth liw dydd. Ac y mae ei ddisgleirdeb y fath fel y gellir drwy ei offerynoliaeth ddwyn yn mlaen weithiau eang. Nis gellir hyd yr adeg bresennol ddosranu y goleuni trydanol mor rwydd ag y gellir dosranu goleuni nwy at wasanaeth preswylfeydd a heolydd; ond y mae M. Jablochkoff a M. Werdermann wedi cael allan mewn rhan y modd i wneyd hyny; a phe na bae eu cyfundrefn hwy mor ddrudfawr, a phe gweithiai yn well, ni byddai angen am wneyd nemawr yn chwaneg yn y cyfeiriad hwn. Y mae Dr. C. W. Siemens hefyd wedi cynllunio peiriant i ddosranu y ffrwd drydanol, fel y gallo amryw lampau oleuo gydag ond un ffrwd o drydan yn dyfod allan o un peiriant. Dyfeisiodd Leutin drachefn beiriant, yr hwn, o un ffrydlif barhaol o drydan, a oleua wahanol lampau; ac y mae Gramme hefyd wedi cynllunio peiriant cyffelyb. Mynegwyd yn y *Times*, Hydref yr 8fed, 1878, fod Edison wedi llwyddo i gael mil o oleuadau o un ffrwd drydanol. Yn ol hyn, gwelir fod yr anhawsder i ddosranu y ffrwd mewn rhan wedi cael ei orchfygu. Cyfeiria M. Jamin at nwy fel y mân-werthydd, a'r trydan fel y marsiandwr cyfanwerthol; a Dr. Siemens a ddywed ei fod yn credu y bydd, mewn amser, orsafoedd goleuni trydanol wedi eu sefydlu yn mhob man lle y mae llawer o dai; a bod peiriant o allu can ceffyl yn ddigon i adgyflenwi cludyddion i nifer mawr o oleuadau, ac y gellir eu lliosogi yn mron yn ddiderfyn. Syr William Thompson hefyd a gyfeiria at y possiblrwydd i orsaf ganolog gael ei sefydlu, ac iddi bedwar cant o lampau, pob un mewn pellder o filldir o'r orsaf—a chyda'r un celfi gweithio, y gellid trefnu i gael yr un faint o oleuni yn y pellder o bedwar cau milldir.

Ymddengys, er y syniadau uchod, nad oes ond ychydig o ammheuaeth na bydd nwy yn parhau i gael ei ddefnyddio fel y mae yn bresennol am gryn dymmor etto, yn gymmaint ag nad yw y cwestiwn o ddosraniad y ffrwd o drydan etto wedi ei benderfynu yn foddhaol, a bod llawer etto yn ofynol i'w wneyd yn ddigon rhad. Gan nad yw y goleuni trydanol yn dyfetha ond ychydig iawn o'r ufelai (*oxygen*), nid oes ond ychydig, os dim, nwy gwenwynig yn cael ei geuhedlu; ac ychydig o wres sydd yn cael ei wasgaru. Y mae, gan hyny, yn llawer iachach na nwy glô: a chan fod yr hyn a elwir yn *ozone* yn cael ei ffurfio ganddo wrth iddo oleuo, y mae yr awyr, meddir, i ryw raddau yn cael ei buro. Peth arall sydd yn ffafriol i'r goleuni trydanol ydyw, diogelwch rhag tân. Goleuir, a rhoddir y goleuni allan, trwy droi *tap* yn y peiriant; ac nid oes un fflam yn angenrheidiol er ei ail oleuo. Ni raid ofni ffrwydrad oddi wrth bibellau agenog chwaith; ac y mae y gwifrau cludol yn hollol ddiberygl. Y mae cwmniau yswirio yn barod i yswirio gweithfeydd yn cael eu goleuo â thrydan am lai na rhai a oleuir â nwy.

Yn y fl. 1878, y mae y goleuni trydanol wedi cael ei ddangos mewn llawer o fanau yn Mhrydain, a thynodd sylw mawr; ond y mae yn cael ei ddefnyddio yn llawer amlach yn Ffrainge.

Gellir casglu traul goleuni trydanol oddi wrth y ffeithiau canlynol:—Yn ol M. Fontaine, y mae M. M. Heilman, gwneuthurwyr offerynau, wedi bod yn defnyddio goleuni trydanol am y pedair blynedd diweddaf, ac y maent hwy yn cyfrif, pe buasai eu peirianfa hwy wedi ei oleuo â nwy glô cyfartal i'r goleu a roddai peiriant y goleuni trydanol, y buasai y draul gymmaint arall iddynt. M. Manchon, ar ol ei ddefnyddio mewn llaw-weithfa frethyn, a ystyria ei fod yn cael ei oleuni yn rhatach o fwy na dau ar hugain y cant, heb law fod y gweithwyr yn gallu gweled yr holl wahanol liwiau, fel ag i allu gweithio yn llawer rhwyddach, a gwell. Y mae gweithdai y Meistri Siemens, yn Woolwich, wedi cael eu goleuo â'r goleuni hwn er's dros dair blynedd, ar o ddeutu hanner y draul. Diau fod llawer o wyddonwyr yn bresennol (1879) ar waith yn gwneyd arbrawfiadau mewn trefn i gael allan gynllun i lywodraethu dosraniad y goleuni, er gwneyd ei ddefnyddioldeb yn fwy cyffredinol; ac yn mysg ereill, gellir enwi Mr. Edison, y darganfyddwr Americanaidd enwog—yr hwn, meddir, sydd ar gwblhau ei ddarganfyddiadau o berthynas i hyn, yr hwn a gyrhaedda yr amcan.

Y mae arbrawfiadau yn cael eu gwneuthur yn awr (sef, dechreu y fl. 1879), ar y goleuni mewn llawer o fanau cyhoeddus; ac yn mhlith manau eraill, y mae yr Holborn Viaduct, ac Amglawdd y Tafwys, wedi eu goleuo âg ef yn y brifddinas, i'r dyben o roddi prawf arno i oleuo yr heolydd. Addefir yn gyffredinol erbyn hyn fod y goleuni trydanol yn meddu cryn fanteision i oleuo lleoedd ar raddeg fawr ac eang. Rhoddwyd prawf arno yn yr Albert Hall, Llundain, y neuadd eangaf yn y deyrnas, yr hon sydd yn alluog i gynnal o ddeutu wyth mil o bobl, nos Lun, Chwefror 14eg, 1879, mewn cyngherdd a gynnaliwyd yno i ganu treithgân; "*St. Paul*," gan Mendelssohn. Crogwyd pump o oleuadau o ben uchaf yr adeilad, trwy gyfrwng gwifrau pwrpasol. Cynnwysid y goleuni mewn lampau oedd heb fod yn fwy na lampau nwy cyffredin, ond yn



Digitized by Google

wahanol o ran ffurf. Amgeuid y goleuni mewn cawgiau gwydr dwl, y rhai a agorent yn llydan yn y pen uchaf, ac yr oedd adlewyrchydd uwch eu penau. Y mae y ffaith nad oes nemawr ddim gwres yn dyfod oddi wrth y goleuni hwn yn ffafr ei ddefnyddio mewn adeiladau mawrion, y rhai yn fynych sydd yn annymunol o gynnhes, hyd yn oed yn y gauaf, pan wedi eu goleuo â nwy cyffredin, a'u llenwi â chynnulleidfa liosog. O dan y drefn arferol o oleuo yr Albert Hall â nwy, y mae nerth cymmaint o oleuni ag a lewyrchir oddi wrth 43,000 o ganwyllau yn angenrheidiol i'r pwrpas hwnw. Ond nid oedd y gallu goleuawl a gafwyd o'r goleuni trydanol yn cael ei gyfrif ond yn gyfarfal i 39,000 o ganwyllau yn unig—pob lamp yn gyfartal i 6,000 o ganwyllau. Ond o herwydd ansawdd ansefydlog nwy cyffredin, ac o ddiffyg safon gywir i gymmharu, cred rhai yw, y ceir fod y dull newydd o oleuo yn rhagori ar yr hen mewn gallu yn gystal ag mewn ansawdd. Ynghylch y cwestiwn o radlonrwydd, y mae Dr. Siemens, offerynau yr hwn a ddefnyddiwyd yn yr Albert Hall i gynnyrchu y goleuni, yn dweyd yn hyderus y bydd ei oleuni trydanol ef yn rhatach na nwy. Ond dylem hysbysu fod llawer o ddynion galluog i farnu yn tybied nas gellir ei ddefnyddio yn awr, o leiaf, yn lle nwy mewn tai cyffredin, nac ystafelloedd bychain, gan ei fod yn rhy gostus.

TUGEL, TUGELU. Yr hyn a olygir wrth y geiriau hyn yw yr arferiad o roddi pleidlais yn ddirgel. Y mae hon yn hen arferiad; canys y mae yn wybyddus fod y barnwyr Groegaidd yn rhoddi eu dedfrydau yn ddirgel trwy belenau neu geryg lliwiedig, neu gregyn â nodau arnynt. Yr oedd ganddynt ddwy ffordd i bleidebu gyda phelenau, megys trwy ddodi un o ddwy belen yn yr un llestr, neu ynte trwy ddodi un belen mewn un o ddau lestr; ac yn wir, y mae y ddau ddull yma yn cael eu harfer yn y dyddiau hyn. *Tabella*, sef tocyn, a arferai y Rhufeiniaid i'r perwyl hwn. Os newid rhyw gyfraith fyddai ei eisieu, rhoddid i'r etholwr ddau docyn—un yn mhlaid y newidiad, a'r llall yn ei erbyn. Pan y byddid yn ethol swyddogion gwladol, rhoddid i'r etholwr un tocyn âg arno enwau yr ymgeiswyr; a byddai yntau yn gwneyd toriad gyferbyn âg enw yr ymgeisydd fyddai wrth ei fodd. Dywed Mr. Grote fod i'r hawl oedd gan y Groegiaid i bleidebu yn ddirgel effeithiau ddaionus; ond dywed Gibbon mai pan ddaeth hyn i arferiad y dechreuodd y weriniaeth ddirywio. Yr ydym yn cael fod y tugel mewn arferiad yn senedd Venice hefyd; ac mai wrth bleidebu yn y senedd, ac nid mewn etholiadau, yr arferid ef yn Mhrydain ar y cyntaf. Nid oes neb yn awr a ewyllysiai weled y dull hwn yn cael ei arfer yn y senedd, am fod pawb yno yn cynnrychioli eraill—a dylent gael gwybodaeth pa fodd y pleidleisiant. Yn ddirgel y pleidleisient, fodd bynag, yn Nhŷ y Cynnrychiolwyr yn Ffraingc o'r fl. 1840 hyd 1845; ond rhoddwyd y dull hwnw heibio yn y flwyddyn a nodwyd, o herwydd ei fod yn achlysuro llawer o gamwri. Arferai Mr. Grote a Mr. Henry Berkeley, pan yr oeddynt yn aelodau o Dŷ y Cyffredin, ddwyn mesur y tugel o flaen y tŷ bob blwyddyn. Cymmeradwywyd y tugel yn araeth y frenhines yn nechreu y fl. 1871, a chymmeradwywyd mesur arno gan Dŷ y Cyffredin; ond gwrthodwyd ef gan Dŷ yr Arglwyddi. Y flwyddyn ganlynol, cariwyd ef trwy y ddau dŷ, a gwnaed ef yn ddeddf Gorph. 13eg, 1872.

Mewn trefn i roddi mantais i'n darllenwyr i ddeall Cyfraith y Tugel, nyni a roddwn eglurhad mor ddealladwy ag y gallwn ar ei darpariaethau, gan ddechreu gyda

*Swyddog yr etholiad.*—Yn mhob cynnrychiolaeth, y mae un person yn cael ei wneuthur yn gyfrifol am gario allan waith yr etholiad, yr hwn a elwir yn y gyfraith yn *returning officer*. Mewn bwrdeisdrefi, y maer yw y prif swyddog hwn; ac os bydd amryw o fwrdeisdrefi yn cael eu cysylltu â'u gilydd i gyfansoddi un gynnrychiolaeth, megys y mae hi yn digwydd yn fynych iawn yn mwrdeisdrefi Cymru, maer prif dref y sir ydyw y prif swyddog; ac y mae holl faerod y bwrdeisdrefi eraill yn gweithredu dano ef yn eu bwrdeisdrefi hwy. Ni a gymmerwn sir Ddinbych er esampl:—Y mae yn hon bedair o drefydd yn gwneyd i fyny y gynnrychiolaeth; sef, Dinbych, Rhuthyn, Holt, a Gwrecsam. Ond maer Dinbych ydyw y prif swyddog: ato ef y denfyn y goron ei gwŷs (*writ*), gan orchymyn iddo ofalu am fod cynnrychiolydd yn cael ei ethol; ac efe fydd yn gweithredu dan y goron yn holl waith yr etholiad, ac yn hysbysu y goron pwy fydd y person a etholir.

Yn y siroedd, yr uchel-siryd (*high sheriff*) am y flwyddyn ydyw prif swyddog y gynnrychiolaeth; a bydd pob prif swyddog fydd yn mhob etholfa neu ystafell bôlio drwy y sir yn gweithredu dano. Ato ef y denfyn y goron ei gwŷs (*writ*); ac yntau fydd yn anfon dros y sir at y goron i hysbysu pwy fydd wedi ei ethol.

*Dyledswyddau prif swyddog yr etholiad.*—Y mae ei ddyledswyddau o natur llawer pwysicach nag oeddynt o dan yr hen gyfraith; ac o ganlyniad, y mae ei gyfrifoldeb yn llawer mwy. A ganlyn yw ei ddyledswyddau:—Yn y siroedd, y mae etholfeydd neu ystafelloedd pôlio i fod mor aml fel na ddisgwylir i etholwyr fyned yn mhellach nag o ddeutu pedair milldir o'u cartrefi i roddi eu pleidleisiau: ac y mae y siroedd dan y gyfraith hon wedi eu hail drefnu yn ddosbarthiadau manach er sicrhau y cyfleusderau hyn i'r etholwyr. Rhaid i brif swyddog etholiad y sir bennodi dirprwywyr i weithredu dano yn mhob dosbarth etholiadol fel prif swyddog yr etholiad yn y dosbarth hwnw. Rhaid i'r prif swyddog hefyd yn mhob sir roddi rhybudd priodol ynghylch yr etholiad o fewn dau ddiwrnod wedi iddo dderbyn yr wŷs. Yn y bwrdeisdrefi, rhaid rhoddi rhybudd ar yr un diwrnod; neu, y fan bellaf, ar y diwrnod canlynol—ac, yn mhob amgylchiad, rhwng naw o'r gloch y boreu a phedwar o'r gloch yn y prydnawn. Rhaid i'r holl rybuddion a ofynir gan y gyfraith gael eu rhoi trwy hysbysiadau (*advertisements*), a phapurau argraphedig wedi eu gosod ar y muriau mewn lleoedd cyhoeddus, neu trwy ryw ddull o'r fath a fyddo yn fwyaf cyfleus. Dyledswydd prif swyddog yr etholiad hefyd ydyw pennodi y lle a'r amser i enwi ymgeiswyr, y lle a'r amser y gellir cael papurau ganddo i enwi ymgeiswyr, a'r diwrnod yr hwn y cymmer yr etholiad le arno. Gellir anfon y rhybuddion uchod gyda golwg ar etholiadau yn y siroedd drwy y llythyrdy.

*Enwi yr ymgeiswyr.*—O dan y gyfraith hon, y mae y drefn o enwi ymgeiswyr wedi ei newid yn hollol. Nid mewn cyfarfod cyhoeddus, a thrwy areithio, yr enwir hwynt yn awr; ond trwy bapurau, a hyny yn y dull canlynol:—Defnyddir rhyw ystafell gyfleus at y pwrpas, yn y dref lle yr arferid enwi ymgeiswyr o'r blaen, neu mewn rhyw dref a bennodir gan brif swyddog

Digitized by Google

gwrth-bapur; a rhaid i'r swyddog roddi rhif ar ei gefn yn cyfatteb i'r rhif ar wyneb y gwrth-bapur. Amcan y trefniad hwn ydyw ei wneyd yn bossibl i wybod pa fodd y rhoddwyd y pleidleisiau, os digwydd rhyw amgylchiad a fyddo yn galw am i ymchwiliad gael ei wneyd iddynt; dylid rhifo holl bapurau y tugel mewn unrhyw etholiad. Bydd yn gyfleus, gan hyny, i bapurau y tugel a'r gwrth-bapurau fod wedi eu rhwymo i fyny yn llyfrau, fel llyfrau *cheques* cyffredin. Dealler:—tra y bydd papurau y pleidleisiad yn y wlad, ni bydd yn bossibl gwybod pa fodd y rhoddodd neb ei bleidlais; ac wedi eu hanfon i Lundain, byddant mor ddiogel yno fel na all neb agor y bwndeli ond trwy orchymyn pennodol oddi wrth Dŷ y Cyffredin, neu orchymyn o un o lysoedd uchaf y deyrnas. A phan y gwneir hyny, dealler etto—ni chaiff neb wneyd ymchwiliad i'r holl bleidleisiau, ond yn unig i'r rhai y bydd ammheuaeth yn mherthynas iddynt—a bydd yn angenrheidiol profi dau beth cyn y gellir gweled unrhyw bapur; sef, fod y bleidlais hono wedi cael ei rhoddi, ac hefyd ei bod wedi cael ei rhoddi gan ryw berson arall, ac nid gan y gwir etholwr. Rhaid profi hyn i foddlonrwydd barnwyr un o'r llysoedd cyfreithiol uchaf, a chael gorchymyn oddi wrth y llys hwnw, neu oddi wrth Dŷ y Cyffredin, cyn y gellir cael golwg ar unrhyw bapur; a'r papur hwnw, neu y papurau hyny y bydd gorchymyn wedi ei roddi i'w dwyn i sylw y llys yn unig fydd yn cael eu dwyn i oleuni. Bydd yr holl bapurau eraill yn berffaith ddirgel; ac yn mhen y flwyddyn, fe'u llosgir hwynt oll. Oddi wrth hyn, fe welir mai papurau twyllodrus yn unig y gellir eu dwyn i sylw; ond am y papurau a roddir i mewn gan y gwir etholwyr, byddant hwy yn berffaith ddirgel am byth.

*Oriau pôlio.*—Ni wnaeth Cyfraith y Tugel un cyfnewidiad yn yr oriau pôlio. Yn y bwrdeisdrefi, dechreuir am wyth o'r gloch yn y boreu, a diweddir am wyth ar y gloch yn y prydnawn. Yn y siroedd, dechreuir am wyth o'r gloch yn y boreu, a diweddir am wyth o'r gloch yn y prydnawn. Pasiwyd cyfraith yn yr eisteddiad seneddol diweddaf i ganiatau i etholwyr Llundain bleidleisio hyd wyth o'r gloch y nos, mewn trefn i roddi pob mantais i'r dosbarthiadau gweithiol.

*Y modd i bôlio.*—Rhaid i'r swyddog llywyddol, sef yr un fydd yn cynnrychioli prif swyddog yr etholiad yn mhob gorsaf pôlio, ychydig cyn dechreu, agor cist y tugel, sef y gist yn yr hon y rhoddir y papurau pleidleisiol yn ngŵydd y rhai fydd yn yr ystafell, a dangos ei bod yn wag, ac yna cauir hi i fyny, a selir hi. Y mae y swyddog llywyddol yn meddu awdurdod i orchymyn fod i unrhyw berson gael ei ddal am droseddu, neu i wrthod caniatâd i unrhyw berson i ddyfod i mewn i'r ystafell bôlio, ac i fwrw unrhyw berson allan o'r ystafell. Dyledswydd y swyddog llywyddol ydyw edrych ar fod pob peth yn cael ei wneuthur sydd yn eisieu i sicrhau fod pob pleidlais fydd yn cael ei rhoddi yn berffaith ddirgel; na byddo i un person diawdurdod gael ei oddef i ddyfod i mewn i'r orsaf; cyfarwyddo yr heddgeidwaid i beidio gadael ond nifer pennodol o bersonau yn unig fod i mewn ar yr un pryd; ac y mae y swyddog llywyddol i ofalu fod pob etholwr yn pleidleisio heb oediad afreidiol, a'i fod yn myned allan o'r orsaf yn ddioed ar ol rhoddi ei bleidlais. Y mae yn hawdd i bawb weled ar unwaith fod y trefniadau hyn yn rhai hollol angenrheidiol hefyd. Unig waith y goruchwylwyr a appwyntir gan yr ymgeiswyr fydd gwylio yn fanwl rhag bod un person yn dyfod i bleidleisio yn enw person arall, a gwylio swyddog yr etholiad ei fod yn marcio papurau etholwyr anllythyrenog yn gywir yn ol eu dymuniad. Rhaid i bob swyddog yn yr orsaf bôlio wneuthur dadganiad, yn ymrwymo i gadw dirgelwch yr etholiad yn hollol a chwbl; a gwaherddir hwynt yn bendant rhag ymyryd â'r etholwyr, a rhag gwneyd un ymgais i edrych ar bapurau y tugel, a rhag gofyn am unrhyw hysbysrwydd pa fodd y rhoddwyd unrhyw bleidlais, a rhag rhoddi unrhyw hysbysrwydd ynghylch unrhyw bleidlais, dan boen chwe mis o garchariad gyda llafur caled. Gan fod egwyddor fawr y tugel yn dibynu i raddau helaeth ar hyn, dyledswydd arbenig y swyddog llywyddol fydd gofalu yn fanwl ar fod y goruchwylwyr yn cydymffurfio yn berffaith â rheolau a chyfarwyddiadau y gyfraith, a'u troi ymaith os camymddygant mewn dim. Dylai yr holl bersonau, gan hyny, a bennodir gan brif swyddog yr etholiad i'w cynnrychioli yn y gorsafoedd pôlio, fod yn ddynion o'r cymmeriad goreu.

Pan ddelo etholwr i fyny i bleidleisio, bydd i'r swyddog llywyddol, neu ei ysgrifenydd, ar ol sicrhau ei fod yn meddu hawl i bleidleisio yn yr orsaf neillduol hono, farcio ei bapur tugel â'r marc swyddol, fel ag y bydd yn weledig ar bob ochr. Yna efe a eilw allan rif, enw, a disgrifiad yr etholwr, fel y ceir hwynt yn yr etholrestr; ac yna rhydd y ffigyrau sydd gyferbyn â'i enw ar yr etholrestr i lawr ar wrth-bapur y tugel. Gesyd hefyd gyferbyn â rhif yr etholwr yn y rhestr farc, yr hwn a ddengys fod yr etholwr wedi derbyn papur y tugel i bleidleisio; ond ni ddynoda pa bapur tugel a dderbyniodd efe. Yna rhydd bapur y tugel yn llaw yr etholwr. Wedi iddo ei dderbyn, rhaid iddo fyned yn uniongyrchol at un o'r desciau bychain fydd yn yr ystafell, y rhai sydd i gael eu gwneuthur a'u trefnu fel nas gall un etholwr weled o un ddesc pa beth y mae ei gyd-etholwr yn ei wneyd yn y ddesc arall. Wrth ei ddesc, rhaid iddo farcio ei bapur yn ddirgelaidd, a'i blygu i fyny fel ag i guddio y marc neu y marciau a wnaed ganddo; ond dylai y marc swyddol ar ei gefn fod i'w weled. Yna cymmer ef wedi ei blygu felly—ond heb ddangos wyneb y papur i neb—at y swyddog llywyddol ei hun, a dengys iddo y marc swyddol fydd ar ei gefn; yna efe a rydd ei bapur yn nghist y tugel fydd yn ymyl y swyddog llywyddol, ac ä ymaith yn ddioed o'r ystafell—a dyna'r cyfan drosodd. Y mae y swyddog llywyddol i ofalu na byddo i neb ymyryd â'r etholwr tra y bydd yn llenwi ei bapur, ac yn rhoddi ei bleidlais, na gwneyd dim mewn un modd i droseddu darpariaethau y gyfraith: ac hefyd, na byddo i neb roddi papur heb fod y marc swyddol arno i mewn yn nghist y tugel; ac na byddo i un etholwr a ddêl i'r ystafell gymmeryd un o bapurau y tugel oddi yno. Os cynnygia rhyw un droseddu yn y pethau hyn, gall y swyddog llywyddol orchymyn ei gymmeryd ef i fyny, a chospir ef yn llym.

Y mae darpariadau wedi eu gwneyd i gyfarfod â bod papur y tugel wedi ei gamlenwi gan etholwr, ond iddo ofalu dyweyd wrth y swyddog llywyddol cyn rhoddi ei bapur i mewn yn y gist:—er esampl, os bydd etholwr yn gweled ei fod wedi rhoddi croes gyferbyn âg enw nad oedd yn bwriadu iddo fod, neu gyferbyn â mwy o enwau nag sydd o eisteddleoedd i'w llenwi, neu i bleidleisio mewn amgylchiadau eithriadol.

Digitized by Google

Gyda golwg ar y cyntaf, os bydd i etholwr gamlenwi ei bapur, &c., gall ei roddi i'r swyddog i'w ddiddymu, a rhoddir un arall iddo yn ei le.

Mewn tri o amgylchiadau, ac mewn tri yn unig, y caniateir i bapur y tugel gael ei farcio gan unrhyw berson ond gan yr etholwr ei hun. Y rhai hyn ydynt:—1. Personau wedi eu hanalluogi gan ddallineb, neu ryw achos naturiol arall. 2. Iuddewon, os bydd etholiad ar ddydd Sadwrn; yr hwn, fel y gwyddys, yw eu dydd Sabbath hwy: am hyny, teimlant wrthwynebrwydd cydwybodol i ysgrifenu ar y diwrnod hwnw. 3. Personau anllythyrenog. Gyda golwg ar y dosbarth hwn, os dywed etholwr ei fod yn analluog i ddarllen, yna bydd yn rhaid i'r swyddog llywyddol, nid yn unig ei ddarllen iddo, ond gwneyd iddo ef ei adrodd allan hefyd, a rhoddi ei farc arno. Llawnodir a chedwir y dadganiad hwn gan y swyddog llywyddol; ac yn mhob un o'r tri amgylchiad hyn, rhaid i'r swyddog llywyddol, neu un o'i ysgrifenyddion, yn mhresennoldeb cynnrychiolwyr yr ymgeiswyr fydd yn yr ystafell, os byddant yn bresennol, farcio papur y tugel yn y ffordd y gorchymynir iddo gan yr etholwr, ei ddodi i mewn yn nghist y tugel, a rhoi enw yr etholwr ar restr y bydd yn rhaid ei chadw, a elwir "rhestr o bleidleisiau wedi eu marcio gan y swyddog llywyddol," gan grybwyll ar y rhestr y rheswm pa ham y marciwyd y bleidlais felly. Ac y mae unrhyw berson a hysbysa pa fodd y pleidleisiodd un o'r tri dosbarth hyn yn agored i garchar am ddwy flynedd gyda, neu heb, lafur caled.

*Terfyn y pôlio.*—Ni oddefir i swyddog llywyddol agor cist y tugel dan unrhyw amgylchiadau; ond y mae ar derfyniad y pôl i gael ei selio i fyny yn y fath fodd fel nas gellir rhoddi chwaneg o bapurau i mewn ynddo. Yn ddioed wedi darfod polio, y mae y swyddog llywyddol, yn mhresennoldeb goruchwylwyr yr ymgeiswyr, os bydd y cyfryw yn bresennol, i wneyd cist y tugel i fyny, yn gystal a'r amrywiol bapurau fydd ganddo ef, yn sypynau gwahanol. Yna y mae i selio y papurau â'i sêl ei hun, ac i oddef i'r goruchwylwyr, os ewyllysiant, i roddi eu seliau hwythau arnynt. Yna (oddi eithr mai efe yw prif swyddog yr etholiad) y mae i anfon yr amrywiol sypynau i brif swyddog yr etholiad. Ond os na bydd ond un orsaf pôlio, ni bydd eisieu symmud cist y tugel o gwbl, gan fod y gyfraith yn awdurdodi y prif swyddog i gyfrif y pleidleisiau yn ddioed ar ol diwedd y polio.

*Cyfrif y pleidleisiau.*—Caniateir i ymgeiswyr bennodi goruchwylwyr i fod yn bresennol ar yr achlysur o gyfrif y pleidleisiau; ond rhaid iddynt hysbysu enw a lle preswyliad pob goruchwyliwr i brif swyddog yr etholiad un diwrnod llawn cyn agoriad y pôl, a bydd yn rhaid i'r prif swyddog, o'i du yntau, hysbysu y goruchwylwyr pa le a pha bryd y cyfrifir y pleidleisiau. Gall prif swyddog yr etholiad bennodi personau i'w gynnorthwyo i gyfrif y pleidleisiau. Bydd yn rhaid arfer yr un manylrwydd wrth gyfrif ag wrth gofrestru pleidleisiau; ac ni bydd neb ond swyddog yr etholiad, ei gynnorthwywyr, ei ysgrifenyddion, yr ymgeiswyr, a goruchwylwyr pennodedig yr ymgeiswyr, yn meddu hawl i fod yn bresennol. Cyfrifir hwynt mewn dull hynod o syml. Cyn dechreu ar y gwaith, agorir cistiau y tugel gan brif swyddog yr etholiad: yna efe a gyfrifa ac a geidw gyfrif o'r nifer o bapurau fydd yn mhob cist, fel ag i attal pob ymgais i dwyllo. Wedi hyn, y mae yr holl bapurau i'w cymmysgu â'u gilydd yn y fath fodd fel nas gellir gwybod pa rai a ddaeth o unrhyw gist neillduol. Y mae hon yn ddarpariaeth ragorol, gan y gallai, mewn rhai dosbarthiadau sirol, fod yr holl ffermydd yn eiddo i un neu ddau o berchenogion: a gallent hwy, pe y gallent wybod pa fodd yr oedd y pleidleisiau yn sefyll mewn dosbarth, gael allan pa nifer o'u tenantiaid a bleidleisiasant fel hyn, neu fel arall; a chanlynid hyny gan ryw ddyfeisiau i gael allan pwy oedd y personau a ryfygasant bleidleisio yn groes i'w hewyllys hwy—ac wrth gwrs, deuai y gospedigaeth i'w ganlyn! Ond dan y ddarpariaeth hon, y mae cael hyny allan yn berffaith ammhossibl, gan fod papurau yr holl sir i'w cymmysgu â'u gilydd cyn dechreu edrych i'w cynnwysiad, a'u cyfrif. Wedi agor y gist, gosodir y papur yn gyntaf â'i gefn i fyny, a'i wyneb i lawr; drwy hyn, ceir gweled fod y marc swyddol arnynt i gyd. Yna troir eu hwynebau i fyny, a dechreuir eu cyfrif gan brif swyddog yr etholiad. Bydd yn rhaid attal pob person rhag gweled ond un tu i'r papurau pleidleisio ar yr un pryd; ac felly, cedwir pleidlais pawb yn gwbl ddirgel. Gosodir hwynt oll, fel yr eglurwyd, â'u hwynebau i lawr i ddechreu, yn sypyn neu yn sypynau; yna troir y sypynau â'u hwynebau i fyny, a chymmerir cyfrif o'r pleidleisiau. Ac wedi darfod gyda phob papur, gosodir ef o'i law gan y swyddog mewn ffordd nas gall neb weled y ffigyrau fydd ar ei gefn. Os bydd papur tugel yn y gist heb fod y marc swyddol arno—neu ar yr hwn y rhoddir pleidleisiau i fwy o ymgeiswyr nag y mae yr etholwr yn meddu hawl i bleidleisio drostynt—neu os bydd dim yn ysgrifenedig ar bapur, neu wedi ei farcio arno, drwy yr hyn y gellir adnabod yr etholwr—y mae i fod yn ofer, ac nid ydyw i'w gyfrif. Swyddog yr etholiad yn unig fydd yn meddu hawl i benderfynu a ydyw pleidlais i'w derbyn neu i'w gwrthod; ac nis gall efe bennodi neb arall yn ei le.

*Dadganiad prif swyddog yr etholiad.*—Mor gynted ag y ceir allan pa beth fydd y canlyniad o'r pôl, y mae prif swyddog yr etholiad i gyhoeddi fod yr ymgeisydd, neu yr ymgeiswyr, fydd wedi cael y mwyafrif o bleidleisiau, wedi eu hethol, ac i anfon eu henwau i ysgrifenydd y goron. Y mae i gyhoeddi hefyd pa nifer o bleidleisiau a dderbyniodd pob ymgeisydd.

*Pa beth a wneir â'r papurau pleidleisiol.*—Wedi cyfrif y pleidleisiau, y mae prif swyddog yr etholiad i selio i fyny yr holl bapurau fydd ganddo yngl ŷn â'r etholiad yn mhresennoldeb goruchwylwyr yr ymgeiswyr. Yna y mae i anfon ei adroddiad a'r papyrau i ysgrifenydd y goron, gan ofalu am ysgrifenu oddi allan ar bob sypyn pa beth fydd ei gynnwysiad, dyddiad yr etholiad i ba un y perthyna, ac enw y sir neu y fwrdeisdref y perthyn yr etholiad iddi. Telir holl gostau angenrheidiol yr etholiad gan yr ymgeiswyr.

*Etholiadau y cynghorau trefol.*—Ni theimlir un anhawsder i gymmhwyso Cyfraith y Tugel at etholiadau y cynghorau trefol. Llywyddir yr etholiad gan y maer, fel o dan yr hen gyfraith. Nid oes un cyfnewidiad wedi ei wneyd yn y diwrnod pôlio. Dyledswydd y maer ydyw darparu pob peth ar ei gyfer; ond nid all, fel mewn etholiadau seneddol, gymmeryd un ystafell drwy orfodaeth. Y mae ganddo bleidlais derfynol, os bydd y pleidleisiau yn gyfartal. Ni raid anfon adroddiad i ysgrifenydd y goron am yr etholiadau hyn. Y mae cyfnewidiadau mynych yn sicr o gymmeryd lle yn y deddfau a berthynant i gofrestriad yr etholwyr a phleidleisiau.

Digitized by Google

THOMAS, EVAN. Adnabyddid ef wrth yr enw 'Evan Thomas, y meddyg esgyrn;' ac wrth yr enw hwn yr oedd ei glod yn hysbys trwy yr holl wlad. Disgynodd o deulu oedd yn enwog fel meddygon esgyrn. Y cyntaf o'r teulu hwn i'w hynodi ei hun oedd Evan Thomas, o Faes y Brethyn Brith, yn mhlwyf Llanfair-yn-Nghornwy, ger Cemmaes, yn sir Fôn.

Yn ol hen chwedl, llangciau wedi eu hachub oddi ar fwrdd llestr a aeth yn ddrylliau yn agos i Cemlyn oedd Evan Thomas, a'i frawd. Pa un bynag, amlygwyd dyddordeb mawr yn Evan Thomas gan Dr. Lloyd, Mynachen, o herwydd y dalent law-feddygol a ddangosodd efe er yn fachgen; a chymmerodd ef i'w feddygfa. Ar ol ei farwolaeth, bu Evan Thomas yn is-oruchwyliwr i Syr R. Bulkeley, yn Nhŷ Wyau, yn Llanfair-yn-Nghornwy. Wedi priodi, aeth i fyw i Maes y Brethyn Brith—yr hwn a elwir yn awr Maes Merddyn Frych. Yn y *Camera Depicta*, rhoddir ychydig o'i hanes; ac yn mysg pethau eraill, hysbysir iddo dderbyn 300*p.* am weini ar foneddiges yn swydd yr Amwythig. Bu yn flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; ac yr oedd yn gyfeillgar iawn â'r Parch. John Elias. Yn yr eglwys yn Llanfair-yn-Nghornwy, y mae y geiriau canlynol, yn Saesneg, wedi eu cerfio ar gareg hardd i'w goffadwriaeth:—

'Er côf am Evan Thomas, Maes, o'r plwyf hwn; yr hwn, yn ei sefyllfa gyffredin, ac heb gymmhorth addysg, nac unrhyw fantais arall, ond trwy dalent naturiol anghyffredin, a ennillodd y fath wybodaeth am y corph dynol fel ag i ddyfod yn feddyg esgyrn hynod o fedrus, a hyny trwy fod yn dra defnyddiol i'w gydgreaduriaid.

Bu farw ar y 24ain o Chwefror, 1814, yn 79ain mlwydd oed.

Fel arwydd o barch at aelod mor werthfawr o gymdeithas, y codwyd y gareg hon gan y Gwir Anrhyd. Thomas Warren Bulkeley, Iarll Bulkeley.'

THOMAS, EVAN. Wyr i'r Evan Thomas uchod ydyw gwrthddrych y sylwadau hyn; ac efe a ddaeth yn enwog hynod yn ei gelfyddyd. Ganwyd ef yn Cilmaenen, plwyf Llanfaethlu, yn sir Fôn, yn y flwyddyn 1804. Enw ei dad oedd Richard Evans; yr hwn a fu am 46ain mlwydd yn flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y lle hwnw; ac yr oedd yntau hefyd, fel eraill o'r teulu, yn feddyg esgyrn o gryn enwogrwydd. Merch oedd ei fam o deulu oedd yn byw yn Bodfarddan wen, Llanfaethlu.

Wedi bod yn arfer ei dalent fel '*bone-setter*' yn Môn gyda llawer o lwyddiant, symmudodd Evan Thomas i Liverpool ar y 29ain o Fawrth, 1831; ac aeth i lettya gyda'r hon a alwai efe ei hun yn ei ddyddiadur yn 'Mali bach,' yr hon oedd yn byw yn Fazakerley street. Bu yn gyfyng arno ar ei sefydliad yn Liverpool; ond nid ysgrifenai adref am gymmhorth, gan fod ei dad yn wrthwynebol iddo ymadael o'i gartref. Llongwr oedd gŵr Mali, a chododd awydd yn Evan Thomas i fyned i'r môr. Cafodd le ar un o'r llongau; ond cyn iddo hwylio allan, cafodd gyfleusdra i arddangos ei allu a'i fedrusrwydd fel meddyg. Dygwyd plentyn ato oedd wedi taflu ei benelin o'i le. Gwnaeth yr anaf yn dda, am yr hyn y derbyniodd 3*s.* 6*c.* Yna, daethpwyd âg un arall ato i dderbyn triniaeth gyffelyb. Bu y ddau achos hyn, yn ol ei dystiolaeth ef, yn foddion i'w attal rhag myned yn llongwr; ac yn chwanegol at hyny, fe'i gwnaed yn fwy calonog a gobeithiol, trwy ei fod yn dechreu ennill ychydig tuag at ei gynnaliaeth.

Yn 1830 neu 1831, priododd Jane, merch Hugh Owen, o Dy'n-llan, Bodedern, Môn; ac aethant i fyw i 82, Crosshall street—yn ymyl capel y diweddar Dr. William Rees—yn Liverpool, lle hefyd yr oedd ei feddygfa ef. Ganwyd iddynt wyth o blant—pump o feibion, a thair merch. Bu un ferch farw pan yn ieuangc; ac y mae dwy yn fyw yn awr—Mrs. Hughes, Tan-y-bryn, Conwy; a Miss Thomas, Bryn Eglwys, Llanfwrog, Môn. Y mae ei fab ieuangaf, John—yn awr, Dr. John Thomas—yn byw yn Southampton, ac yn enwog yn ei alwedigaeth. Y mae ei drydydd mab—Dr. Evan Thomas—yn byw, ac yn dilyn ei alwedigaeth yn awr yn 72, Great Crosshall street—y drws nesaf i hen feddygfa a phreswylfod ei dad. Y mae dau eraill o'i feibion; sef, Dr. Thomas, o Fangor, a Dr. Owen Thomas, o Twickenham, wedi marw.

Bu Mrs. Evan Thomas, ei briod, farw yn y fl. 1848, yn 32ain mlwydd oed. Yr oedd hi yn wraig ddoeth, dduwiol, hynaws, a charedig. Cymmerodd ei marwolaeth le yn Seacombe—lle yr oedd ei phriod a hithau wedi symmud i fyw, er mai yn Liverpool yr oedd ei feddygfa ef.

Tra yn Seacombe, bu Mr. Evan Thomas yn aelod yn addoldy Old Chapel street—yr achos cyntaf a fu yno, a bu o gymmhorth i'r achos crefyddol yno. Wedi ymneillduo o'i alwedigaeth, bu fyw yn Llynnon hall, yn mhlwyf Llanddeusant; lle y mae y Cadfridog Hughes yn preswylio yn awr. Wedi byw yno am tua naw mlynedd, prynodd ddarn o dir yn Bryn eglwys, Llanfwrog, ac adeiladodd dŷ arno. Bu yn byw yn y tŷ hwn hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le Mehefin 21ain, 1884, pan yn 80ain mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion yn Wallasey, yn sir Gaerlleon—lle yr oedd ei wraig, a'i fab Richard, a'i ferch ieuengaf, wedi eu claddu o'i flaen.

Yn chwanegol at ei dalentau fel meddyg, yr oedd Mr. Evan Thomas yn ddatganwr rhagorol, ac yn hynod o hoff o gerddoriaeth. Yn ystod blynyddoedd diweddaf ei oes, ymhyfrydodd gryn lawer mewn pysgota yn y môr; a chadwai gwch at ei wasanaeth. Yr oedd efe yn hynod o hoff o'r môr.

Yn ystod yr amser y bu yn dilyn ei alwedigaeth fel meddyg esgyrn, cyfarfyddodd â llawer o wyntoedd croesion. Fel y gallesid disgwyl gyda gŵr o allu a medr naturiol, lawer tu hwnt i feddygon oedd yn meddu sefyllfa uchel, yn ei driniaeth o glwyfau ac esgyrn yn mhob ffurf, a achoswyd trwy ddamweiniau, &c., &c., yr oedd efe yn wrthddrych cenfigen gan lawer o'r meddygon trwyddedig. Dygwyd amryw gynghawsion i'w erbyn yn y llysoedd cyfreithiol, yn benaf gyda'r amcan o'i rwystro i weithredu, am nad oedd wedi myned trwy yr arholiadau meddygol arferol, a derbyn y drwydded a ganiateir i feddygon. Ond yn ddieithriad, efe a ddaeth allan o'r cyfan yn fuddugoliaethus.

Un o'r cynghawsiau pwysicaf oedd yr un a ddygwyd yn ei erbyn gan ddyn o'r enw Crowley, ac a wrandawyd yn y *Liverpool Court of Passage*, ger bron Mr. Edward James (*assessor*), a rheithwyr arbenig, ar yr 8fed o Chwefror, 1854. Ymddengys i Crowley, yr hwn a ddilynai yr alwedigaeth o gigydd a masnachydd moch yn Liverpool, deimlo poen anniodddefol yn ei goes. Bu am beth amser dan driniaeth a gofal Dr. Thorburn — un o feddygon y dref hono. Gan nad oedd yn gwellhau, annogwyd ef gan ei gyfeillion i ymgynghori â Mr. Evan Thomas—

Digitized by Google

clod yr hwn, bellach, oedd wedi ymledu trwy yr holl ddinas. Gwnaed hyny; a thrinodd yntau yr aelod yn ei ddull arferol gydag achosion cyffelyb. Yn mhen amser, modd bynag, aeth coes Crowley yn waeth—ac mor ddrwg, o'r diwedd, fel y bu raid ei thori ymaith. Ceisiai Crowley ddal Mr. Thomas yn gyfrifol am hyn, yn gymmaint a'i fod yn barnu iddo arfer triniaeth ammhriodol at ei aelod. Y canlyniad ydoedd i'r cynghaws a nodwyd gael ei ddwyn yn erbyn Mr. Thomas am iawn. Ymddangosai amryw o fargyfreithwyr o'i blaid ac yn ei erbyn. Wedi gwrandaw y tystiolaethau, a'r anerchiadau, o'r naill ochr a'r llall, dychwelodd y rheithwyr ddedfryd o blaid Mr. Thomas, heb fod angen i'r *assessor* draethu ei olygiadau ar yr achos.

Yr oedd nifer fawr o brif feddygon Liverpool yn rhoi tystiolaethau yn ei erbyn; ond dangosodd y Sergeant Wilkins nad oedd hyny ond peth hollol naturiol, gan fod yr alwedigaeth feddygol yn y ddinas yn hynod eiddigeddus o herwydd llwyddiant Mr. Thomas.

Yn yr achos hwn, ac yn mhob un arall a ddygwyd i'w erbyn, yr oedd y tystiolaethau yn dangos fod ei allu a'i fedr yn mhell tu hwnt i'r eiddo y meddygon cyffredin yn y gelfyddyd hon o drin esgyrn:—a mwy na hyn, ni phroffesai yntau. Ar ol hyn, cyflwynodd trigolion Liverpool nifer o lestri arian ardderchog iddo, a darlun o hono ei hun, fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth gwerthfawr i'w gyd-ddynion; ac yn ddiau, dangosasant drwy hyn 'barch i'r hwn yr oedd parch yn ddyledus'!

THOMAS, HUGH OWEN. Mab hynaf y Mr. Evan Thomas uchod oedd efe. Cyrhaeddodd enwogrwydd mawr fel yntau. Ganwyd ef yn Ty'n-llan, Bodedern, yn Môn, Mehefin 4ydd, 1836; ond ymsefydlodd yn Liverpool yn fuan ar ol gorphen ei addysg athrofaol; ac yr oedd er's llawer o flynyddoedd wedi dringo i ben yr ysgol feddygol, fel gŵr cyfarwydd â briwiau, toriad esgyrn, anffurfiaeth corphorol o wahanol fathau, a chloffni, &c.; ac adnabyddid ef yn mhell ac yn agos fel y 'meddyg esgyrn' enwocaf o fewn yr holl wlad. Yr oedd ei feddygfa ef yn Nelson street, Liverpool; i'r hon y cyrchai cannoedd bob wythnos, o bell ac agos, i ymgynghori âg ef ar wahanol fathau o niweidiau. Bu farw yn y fl. 1890. Cydnabyddwyd ei allu a'i fedr mor ddiweddar a'r flwyddyn 1889, pan yr anrhydeddwyd ef gan Brifysgol St. Louis â'r gradd o ddoethawr mewn meddyginiaeth. I ddau berson y rhoddir yr anrhydedd hwn mewn un flwyddyn. Y llall a'i derbyniodd oedd y Proffeswr Bergmann, o Berlin; yr hwn, gyda'r Dr. Morel Mackenzie, ydoedd yn gweini ar yr ymherawdwr Frederick o Germany yn ystod yr afiechyd a drodd yn angeuol iddo. Ymwelai elofiion a gwywedigion â phreswylfod Dr. Thomas o bob rhan o Gymru, a rhanau eraill o'r deyrnas; ac yr oedd ei enw yn air teuluaidd trwy yr holl dir. Cyfansoddodd lyfrau galluog ar feddyginiaeth anhwylderau perthynol i esgyrn, &c., ac ystyrir hwy yn weithiau safonol. Dyfeisiodd hefyd offeryn neillduol o gymmhwys i ddynion y bydd esgyrn eu cluniau wedi eu hanafu; yr hwn a adwaenir yn mysg meddygon fel *Dr. Thomas' Splint*. Dyn bychan, teneu, gwael yr olwg arno, oedd efe, o ran ei berson, a hynod ddirodres o ran ei ddull. Bu farw Ionawr 3ydd, 1891, yn 56ain mlwydd oed; ond y mae ei weddw yn fyw yn awr—1893.

TWRCI, YN 1893. Y mae Ymherodraeth Twrci yn ymranu i ddwy brif ran; sef, Twrci yn Ewrop, a Thwrci yn Asia. Oddi wrth y daflen ganlynol, gellir cael dirnadaeth gweddol gywir am faintioli a phoblogaeth yr ymherodraeth yn y flwyddyn 1893:—

*Meddiannau Uniongyrchol.*

| | Mill. pet. | | Poblogaeth |
|---|---|---|---|
| Yn Ewrop ... ... | 66,500 | ... | 4,668,000 |
| Yn Asia ... ... | 680,000 | ... | 16.333,000 |
| Yn Affrica (Tripoli) ... | 399,000 | ... | 1,010,000 |
| | 1,145,500 | ... | 22,011,000 |

*Talaethau Teyrngedol.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bulgaria a Roumelia Ddwyreiniol ... | 38,000 | ... | 3,010,000 |
| Bosnia a Herzegovina dan Awstria) ... | 24.000 | ... | 1,510,000 |
| Cyprus (dan Loegr) ... | 3,700 | ... | 215,000 |
| Yr Aipht ... ... | 400,000 | ... | 6,910,000 |
| | 465.700 | ... | 11,645.000 |
| Y cyfan | 1,611,200 | ... | 33,656,000 |

TWRCI YN EWROP.—Erbyn diwedd 1893, cyfrifir fod poblogaeth y rhan hon o'r ymherodraeth wedi codi i tua 4,668,000—yn cynnwys 70,000 o Dyrciaid, 1,500,000 o Albaniaid, a 1,300,000 o Roegiaid, Bulgariaid, a Wallachiaid. Y mae o ddeutu dwy filiwn (2,000,000) o'r boblogaeth yn Fahometiaid. Yn mhlith dinasoedd Twrci yn Ewrop, y mae poblogaeth Adrianople yn rhifo 100,000, a Salonica, 60,000. Gorchuddir rhan helaeth o arwynebedd y wlad gan fynyddoedd o faintioli cyffredin. Bu adeg pan yr oedd Mynyddoedd y Balkan yn gorwedd yn Nhwrci Briodol; ond nid ydynt felly yn awr, er fod gan y llywodraeth hawl i wneyd defnydd o'u tramwyfeydd (*passes*) mewn adeg o ryfel. Y pigau uchaf ydynt y Rhodope neu Despoto Dagh yn y dwyrain (7,464 troedfedd), a'r Skhar Dagh (10,007 troedfedd)—yr hwn a berthyna i gadwyni o fynyddoedd sydd yn Albania. Y mae afonydd y wlad yn lliosog. Y prif rai ydynt y Vardar, Struma, a'r Maritza. Y mae y tir, ar y cyfan, yn dda ac yn ffrwythlawn; ond o herwydd achosion neillduol, megys trethiant eithafol, ychydig o gynnydd sydd wedi ei wneyd yno mewn amaethyddiaeth. Telir cryn sylw i fagwraeth defaid; a masnachir, ar radd ëang, mewn gwlân. Ymdrinir yn helaeth ar gynnyrchion y wlad yn yr erthygl gyntaf ar Twrci (gwel td. 621). Y mae ffyrdd haiarn y rhan hon o'r deyrnas yn mesur tua 768 milldir.

TWRCI YN ASIA.—Y mae y rhan hon gryn lawer yn fwy na Thwrci yn Ewrop, ac y mae hi hefyd yn fwy mynyddig. Cynnwysa Asia Leiaf, Syria, ynghyd â Phalestina, a rhanau helaeth o Armenia, Kurdistan, Mesopotamia (dyffryn yr Euphrates a'r Tigris), a'r rhanau gorllewinol o Arabia, &c. Cyfrifir fod y boblogaeth, erbyn hyn, yn 16,333,000.

TWRCI YN AFFRICA.—Fel rheol, cynnwysir Tripoli, Tunis, a'r Aipht, o fewn Twrci yn Affrica; ond nis gellir galw ond y cyntaf yn unig yn feddiant uniongyrchol i'r llywodraeth Dyrcaidd. Modd bynag, gosodir yr Aipht ganddi gan deyrnged drom.

*Masnach.*—Yn ol y cyfrifon diweddaraf, y rhai a gyhoeddwyd gan yr *Ottoman Custom House*, yr oedd holl fasnach Twrci, yn 1887—88 yn cyrhaedd y swm o 28.030,000*p.* yn cael eu rhanu fel y canlyn:—Allforion, 10,080,000*p.*; dadforion, 17,950,000*p.* Talwyd 1,501,940*p.* o dollau ar yr allforion a'r dadforion yn y flwyddyn. Yn ol yr un cyfrifon, anfonwyd gan Loegr

Digitized by Google

i Twrci, yn y blynyddoedd a nodir, werth 7,605,462*p.* o nwyddau; gan dderbyn oddi yno, yn yr un cyfnod, werth 3,191,465*p.*

*Llywodraeth, Addysg, a Chrefydd.*—Llywodraeth o natur unbenaethol sydd yn Twrci. Cynnrychiolir yr ymherawdwr mewn materion ysbrydol gan y *Grand Mufti*, fel ei gelwir; ac mewn materion gwladol, gan y *Grand Vizier*—o dan yr hwn y mae penaethiaid pob adran arall yn y wladwriaeth. Crefydd sefydledig y wlad yw Islamiaeth, neu Mahometiaeth; ond goddefir i amryw grefyddau neu gredöau eraill gael blodeuo ynddi; ac er y flwyddyn 1844, trwy ymdrechiadau egniol Arglwydd Stratford de Redcliffe, y mae pob Mahometiad yn rhydd i newid ei grefydd, heb osod ei hun yn agored i ddienyddiad. Yn y fl. 1845 y cydnabyddwyd y grefydd Brotestanaidd yn y wlad hono gyntaf. Esgeuluswyd addysg, i raddau mawr, yno; ond cymmerodd diwygiad le yn 1847; ac er y pryd hwnw, cafodd ysgolion elfenol a chanolraddol eu sefydlu trwy yr holl wlad.

*Y Fyddin a'r Llynges.*—Rhifa y fyddin reolaidd, mewn adeg o heddwch, 10,000 o swyddogion, ynghyd â 160,000 o is-swyddogion a milwyr. Mewn adeg o ryfel, modd bynag, cyfrifir y gellid galw 1,000,000 o wŷr o bob gradd i'r maes. Yn amser y rhyfel â Rwssia, rhifai yr holl filwyr 752,000. Cynnwysa y llynges 97 o ager-longau—18 o ba rai sydd yn rhyfel-longau o'r dosbarth mwyaf nerthol a dinystriol, a 23 o lestri *torpedo*. Mewn adeg o heddwch, cedwir tua 12,000 o fôr-filwyr yn y llynges.

*Cyllid.*—Nid ydyw sefyllfa gyllidol y wlad mewn cyflwr boddhaol iawn. Yn y fl. 1876, cyhoeddodd yr ymherodraeth ei hun yn 'fethdalwr;' ond trwy drefniadau arbenig a wnaed â'i gofynwyr, daeth allan rywfodd o'r dyryswch hwnw. Modd bynag, darfu i'r rhyfel â Rwssia, a'r draul aruthrol a achoswyd ganddi, wneyd pethau yn llawer gwaeth nag oeddynt cyn hyny. Tua'r flwyddyn 1874, yr oedd dyled dramor y wlad yn 184,981,783*p.*; ond erbyn y fl. 1882, llwyddwyd i dynu y swm i lawr i 106,000,000*p.*; ond erbyn 1893, y mae hi wedi codi etto i 180.000,000*p.* Hawliai y Rwssiaid 32,000,000*p.* i'w digolledu hwy am y draul yr aethant iddi gyda'r rhyfel; ond nid oedd ond tua 1,500,000*p.* o'r swm hwn wedi ei dalu i fyny hyd i fis Hydref, 1889.

Gwelir yn y tabl canlynol swm cyllid y wlad, a gwerth ei masnach, yn 1889—90, ac 1892:—

| | |
|---|---|
| Derbyniadau cyllidol, 1889—90 .. | *P.*16,836,363 |
| Treuliadau ... ... ... | 19,454,545 |
| Dyled (o ddeutu) ... ... | 180,000,000 |
| Dadforion o'r Deyrnas Gyfunol, 1892 | 3,427,974 |
| Etto o Dwrci yn Asia, 1892 ... | 3,252,671 |
| Allforion i'r Deyrnas Gyfunol, 1892 . | 1,296,383 |
| Etto o Dwrci yn Ewrop, 1892 ... | 4,255,415 |

Prif ddinas yr ymherodraeth ydyw Caer Cystenyn—poblogaeth yr hon, yn y fl. 1885, ydoedd 871,561. Yr ymherawdwr presennol—neu y *Sultan*, fel ei gelwir—ydyw Abdul Hamid II., a anwyd Medi 21ain, 1842; ac a gyhoeddwyd yn ymherawdwr Awst 31ain, 1876. Cynnrychiolir Prydain yno gan Syr Philip Currie—cyflog yr hwn sydd yn 8,000*p.* yn y flwyddyn.

TYFEI. Mab ydoedd efe i Bredic, o Arianwedd, chwaer Teilo Sant; a blodeuodd yn y chweched ganrif. Pan nad oedd efe etto ond plentyn, lladdwyd ef yn ddamweiniol gan ddyn o'r enw Tyrtuc, a chladdwyd ef yn Penaly, yn sir Benfro. Efe yw nawdd-sant Llandefei, neu Lamphey, yn y sir hono; a Llandefeisant, yn agos i Landeilo fawr, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd Tyfei yn frawd i Ismael, Esgob cynnorthwyol neu Rag-esgob Tŷ Ddewi.

TYNDALL, JOHN. Un o'r gwyddonwyr enwocaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef ar Awst 21ain, 1820, yn Leighlin Bridge, yn swydd Carlow, yn yr Iwerddon. Derbyniodd ei addysg yn un o ysgolion elfenol yr ynys hono. Yn 1837, gadawodd yr ysgol, i ymuno â'r *Irish Ordnance Survey.* Yn 1847, pennodwyd ef yn athraw anianyddiaeth yn Ngholeg Queenwood, yn swydd Hamp, lle y dechreuodd ar yr ymchwiliadau anianyddol a wnaeth ei enw yn hysbys yn mysg gwyddonwyr penaf y byd. Yn 1851, aeth i Berlin, a pharhaodd ei ymchwiliadau dan y Proffeswr Magnus. Dychwelodd i Brydain yn fuan; ac etholwyd ef yn Gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol yn 1852. Yn 1853, pennodwyd ef yn broffeswr yn y *Royal Institution*—i'r hwn sefydliad, yn y fl. 1867, y daeth yn llywydd. Rhoddodd y swydd hon i fyny yn 1888. Yn 1849 yr ymwelodd â'r Alpau am y tro cyntaf. Math o daith bleserus oedd hon. Ond yn 1856, aeth y Proffeswr Huxley ac yntau gyda'u gilydd ar daith i'r Alpau, ac ysgrifenasant waith galluog ar gyfansoddiad a symmudiadau y meusydd rhew. Tyndall oedd y dyn cyntaf a ddringodd y darn hwnw o'r Alpau, a elwir Weisshorn.

Yn 1866, cymmerodd le y Proffeswr Faraday yn Trinity House; ac ar ei farwolaeth, dilynodd ef fel arolygydd y *Royal Institution.* Yn 1874, llanwodd y swydd o lywydd y Gymdeithas Frytanaidd yn Belfast; a chreodd yr anerchiad agoriadol a draddododd o'r gadair y pryd hwnw sylw anghyffredin trwy yr oll o Ewrop. Bu am rai blynyddoedd yn gynghorydd gwyddonol i'r bwrdd masnach ac awdurdodau y goleudai. Yn 1883, rhoddodd amryw o'i swyddi i fyny, ac ymsefydlodd yn swydd Sussex. Gwnaeth enw uchel iddo ei hun fel darlithydd effeithiol ac eglur ar gwestiynau dyrus anianeg. Ei brif weithiau ydynt *The Glaciers of the Alps* (1860); *Mountaineering* (1861); *Heat as a Mode of Motion* (1863); *On Radiation* (1865); *Hours of Exercise in the Alps* (1873); *Fragments of Science* (1876); *The Floating Matter of the Air* (1881); *New Fragments* (1892), ynghyd â chyfrolau ar Oleuni, Sŵn, Trydan, Afonydd, Ffurf Dwfr yn y Cymmylau, a Rhew, &c. Bu farw Rhagfyr 7fed, 1893.

TYWALLT. Mab i Tydeyrn ab Teithall, brenin Garthmadryn, neu sir Frycheiniog, hyd tua chanol y bedwaredd ganrif. Yn *Bonedd y Saint*, gelwir ef yn 'fab Seithenyn;' ond yn *Achau y Saint*, gelwir ef yn 'ŵyr Seithenyn, a mab i Arwystli Gloff.' Efe oedd sylfaenydd eglwys Dyneio, neu Pwllheli, yn swydd Gaernarfon.

TYWYNWEDD. Merch oedd hi i Amlawdd Wledig; a gwraig, ar y cyntaf, i Llyr Merini. O'r briodas hon y ganwyd Caradawg Freichfras: ac yn ol *Achau y Saint*, meibion iddi hefyd oedd Gwyn ab Nudd, a Gwallawg ab Llenawg. Ar ol hyn, bu Tywynwedd yn wraig i Arwystli Gloff; ac o'r briodas hon, ganwyd iddi Dyfrydog, Twrnog, Twrog, a Diheufyr.

Digitized by Google

**TRIGFA.** Gwel Ty.

**TRINDOD—IAETH.** Athrawiaeth y Drindod ydyw yr athrawiaeth â mwyaf o ddirgelwch yn perthyn iddi o holl athrawiaethau y Beibl. Y mae yn golygu fod tri pherson yn yr hanfod Ddwyfol—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd; a bod y tri hyn yn un Duw tragwyddol—yn un o ran sylwedd, yn gyfartal a'u gilydd mewn gogoniant, er yn wahaniaethol yn eu personoliaeth. Fel y canlyn y mae credo Athanasius yn gosod allan yr athrawiaeth hon:—"A'r ffydd Gatholig yw hon—bod i ni addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod. Nid cymmysgu o honom y personau; na gwahanu y sylwedd. Canys un person sydd i'r Tad, arall i'r Mab, ac arall i'r Ysbryd Glân. Eithr Duwdod y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, sydd unrhyw. Gogoniant gogyfuwch, mawrhydi go-gyd-dragwyddol."

Myn llawer nad ydyw yr athrawiaeth yn cael ei dadguddio yn amlwg yn yr Hen Destament; ond ei bod yn cael ei dadguddio yn eglur o ran ei helfenau yn y Testament Newydd, ac hefyd yn cael ei harwyddo yn yr hyn a ddywedir ac a ddadguddir yn yr Hen Destament. Y mae ffurf yr ymadrodd yn yr Hen Destament—y lliosog, *Elohim*—wrth son am Dduw, yn cael ei gyplysu â berf unigol; y gwahaniaeth amlwg a gydnabyddir yn y dadguddiedigaethau i'r patriarchiaid a Moses rhwng yr Iehofah ac "Angel yr Iehofah;" y dull yn mha un y mae 'yr Ysbryd,' a 'Gair' Duw, a 'Doethineb' (*Diar.* viii.) yn cael llefaru am danynt; a dadblygiad graddol yr athrawiaeth am y 'Messiah'—oll yn cael eu hystyried yn arwyddion o'r amseroedd boreuaf o wirionedd yr athrawiaeth o dri pherson yn y Drindod. Ac yn y Testament Newydd, dysgir ac eglurir yr athrawiaeth yn null gweinyddiad yr ordinhâd o fedydd; gan nodwedd gyffredinol hawliau ac awdurdod Iesu Grist, ac yn enwedig gan yr enw 'Mab Duw' a roddir arno; ac yn y swyddau a'r gwaith a briodolir i'r Ysbryd Glân. Y mae y prawf yn cael ei ystyried yn benderfynol fod y natur ddwyfol yn ogyfuwch, ond etto yn wahaniaethol, yn mhersonau y Mab, a'r Ysbryd Glân ag ydyw yn Nuw y Tad. Ymddengys fod Cristionogion yr ail a'r drydedd ganrif, pa fodd bynag, yn defnyddio iaith y Beibl yn uniongyrchol wrth son am y Tad, y Mab, a'r Ysbryd, heb ymofyn na cheisio egluro nemawr ar natur eu perthynas â'u gilydd. Pan yr ymddangosodd yr heresiau a amcanent, ar un llaw, ddarostwng dwyfoliaeth ac urddas person Crist, megys yr oedd Ebioniaeth yn ei gwahanol ffurfiau, ac Ariaeth; neu, ar y llaw arall, a geisient wneuthur person Crist yr un a'r eiddo y Tad [heresi a adwaenid yn ei ffurf neillduol o dan yr enw Patripassiaeth—gwel PATRIPASSIAID]; y darfu i'r eglwys, yn nghredo Nicea, egluro perthynas y Tad â'r Mab; a pherthynas yr Ysbryd â'r Tad yn Nghynghor Caer Cystenyn rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Cyfansoddwyd credo yn erbyn heresiau Arius: a chwanegwyd adran arall ato, yn nodi allan ddeilliad yr Ysbryd o'r Mab a'r Tad:—ond ni dderbyniwyd yr adran erioed gan yr Eglwys Ddwyreiniol. Y mae athrawiaeth y Drindod yn cael ei chredu fel gwirionedd gan Babyddion a Phrotestaniaid. Yr eithriadau yn mysg Protestaniaid ydynt y Sosiniaid neu yr Undodiaid, y rhai ydynt mewn amseroedd diweddar yn debyg i'r hyn yr oedd yr Ebioniaid gynt. Y maent yn ymwrthod â'r athrawiaeth fel peth anghredadwy—ond ystyriant fod Iesu Grist yn brophwyd o radd uwch na'r prophwydi ereill.

Tuedda llawer i ymwrthod âg athrawiaeth y Drindod fel peth nas gellir ei amgyffred; ond fel y sylwa Dr. Scott, os ydyw personoliaeth wahaniaethol, gwaith, a pherffeithderau dwyfol, yn cael eu priodoli i'r Tad, i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân, nid oes geiriau i'w cael a all osod hyn allan yn well na'r rhai a arferir yn gyffredin er gwneyd hyny; sef, fod tri pherson gwahaniaethol mewn Undod yn y Duwdod. Y mae yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn ddiammheuol yn ein dysgu ni fod y gwir a'r bywiol Dduw, mewn rhyw fodd anamgyffredadwy, yn Drindod; o herwydd sonir am dano fel *un* mewn rhyw ystyron, ac fel *tri* yn y lleill: *Gen.* i. 26; ii. 6, 7; *Esa.* xxxiv. 16; xlviii. 16; 2 *Cor.* xiii. 14; *Mat.* xxviii. 19; *Ioan* xiv. 23; *Act.* v. 3, 4; 2 *Thes.* iii. 3, &c., &c. Nid ydyw y Trindodiaid yn ymgymmeryd âg egluro y modd y mae hyn yn bod, ond ystyriant y rhai a ymgeisiant at hyny yn hytrach i'w beio nag i'w cymmeradwyo; yn gymmaint a bod hyd yn oed gwir ddirgelwch bodolaeth creadur yn ddirgelwch i'r athronydd mwyaf dyfnddysg, ac yn debyg o barhau i fod felly. Ac os ydyw gweithredoedd cyffredin yr Anfeidrol, â pha rai yr ydym yn eithaf cyfarwydd, yn anamgyffredadwy i ni, pa fodd y gall dyn feddwl y gall efe esgyn yn ddigon uchel i amgyffred dirgelwch a rhyfeddodau anfeidrol a thragwyddol bodolaeth Duw. Digon i ni ydyw tystiolaeth ei Air. Gwel DUW: MAB DUW: YSBRYD GLAN.

**TRINDODIAID**: y rhai sydd yn credu fod Duw yn Drindod o bersonau, yn wrthgyferbyniol i Undodiaid. Gwel TRINDOD.

**TRIDUWIAID** (*Tritheists*): sect a ymddangosodd yn y chweched ganrif. Ei sylfaenydd oedd un o'r enw Ioan Ascunage, athronydd Syriaidd, ac un o'r Monophysiaid. Tybiai y gŵr hwn fod yn Nuw dair natur, neu dri sylwedd gwahanol, oll yn berffaith fel eu gilydd, yn hollol gyfartal i'w gilydd, ac yn cael eu cyssylltu gan rwymyn cyffredin o hanfod. Rhoddodd ei wrthwynebwyr yr enw uchod arno ef a'i ddilynwyr.

Un o brif amddiffynwyr y syniadau hyn oedd Ioan Philoponus, athronydd Alexandriaidd clodfawr: ac y mae llawer yn edrych arno ef fel sylfaenydd y sect, ac y mae yr aelodau hefyd wedi cael eu galw yn Philoponiaid. Fel yr oeddynt yn lliosogi, ymranasant yn ddwy blaid; sef, y Philoponiaid a'r Cononiaid—y ddiweddaf yn cael ei galw ar enw ei harweinydd, Conon, esgob Tarsus. Cyttunai y pleidiau hyn ynghylch fod tri pherson yn y Drindod; ond yr oeddynt yn anghyttuno ynghylch yr athrawiaeth o adgyfodiad y corph. Yr oedd Philoponus yn dal allan fod defnydd a ffurf pob corph yn ddadfeiliedig ac yn llygredig; hyny yw, y byddai y defnydd a'r ffurf yn cael eu hadgynnyrchu yn yr adgyfodiad; ond yr oedd Conon yn dysgu mai defnydd yn unig, ac nid ffurf, oedd yn llygredig ac yn cael ei adgynnyrchu.

**TRIPOLIS**: enw Groeg ar ddinas o bwysigrwydd masnachol mawr; yn yr hon, ar un adeg, yr oedd masnach Aradus, Tyrus, a Sidon, yn cydgyfarfod. Nid ydyw yn hysbys i ni o dan ba enw Phœniciaidd yr oedd hi yn adnabyddus; ond ymddengys yn debyg mai *Kadytis* oedd, ac mai dyma y lle a gymmerwyd gan Neco, fel yr hysbysir gan Herodotus.—ii. 159; a iii. 5. Yn

Digitized by Google

Tripolis, c.c. 351, y dyfeisiwyd y cynllun hwn, fod holl ddinasoedd Phœnicia i gydgodi mewn gwrthryfel, a dinasoedd Cyprus hefyd, yn erbyn Ochus, brenin Persia. Ond er eu bod mewn cynghrair â Nectanebus brenin yr Aipht, troi yn fethiant a wnaeth yr ymgais hwn; a'r canlyniad fu i gyfran o Sidon gael ei rhoddi ar dân, ac i bobl penaf y lle gael eu rhoddi i farwolaeth. Fe allai i'r anffawd yma i Sidon chwanegu at bwysigrwydd Tripolis, canys yr ydym yn cael ei bod, yn amser Alexander, yn borthladd o'r dosbarth blaenaf. Enciliodd rhai o'r swyddogion Groegaidd oedd yn ngwasanaeth Darius yno ar ol brwydr Issus; a chawsant ynddi, nid yn unig ddigon o longau i'w cario hwy ac wyth mil o wŷr hefyd, ond llawer mwy na hyny, y rhai a losgwyd ganddynt mewn trefn i attal y buddugwr rhag ymlid ar eu hol. Yr oedd dinystr Tyrus gan Alexander, fel dinystr Sidon gan Ochus, yn tueddu yn naturiol i gryfhau, yn hytrach na gwanhau Tripolis fel porthladd masnachol. Pan lwyddodd Demetrius Soter, mab Seleucus, i gymmeryd Syria oddi ar fab Antiochus (c.c. 161), efe a laniodd yno, ac a wnaeth y lle yn sylfaen ei weithrediadau milwrol (*base of operations*). Dyma yr unig amgylchiad sydd yn dwyn enw Tripolis i sylw yn 2 *Macc.* xiv. 1. Ymddengys fod y ddinas wedi parhau yn lled flodeuog hyd ganol y chweched ganrif o'r cyfnod Cristionogol. Yn ol taflen Peutinger, yr hon a wnaed yn amser yr ymherawdwr Theodosius, ymddengys ei bod o ran ei safle ar y ffordd fawr ar arfordir Phœnicia. Yn Orthosia, ychydig i'r gogledd oddi wrthi, yr oedd y ffyrdd a arweinient i Mesopotamia a Cilicia yn ymwahanu oddi wrth eu gilydd. Porthladd da mewn lle mor bwysig i fasnach, ynghyd â ffrwythlondeb y mynyddoedd a'r wlad oddi amgylch, yn ddiau a barodd i'r ddinas gael ei hadeiladu yno. Dinystriwyd hi gan ddaeargryn yn B. A. 543, yn nechreu Gorphenaf y flwyddyn hono; yr hyn hefyd a fu yn ddinystr i Sidon, Tyrus, Byretus, a Byblus. Gwnaeth hyn lawer o gyfnewidiad yn ymddangosiad yr arfordir. Cwympodd rhan fawr o bentir Theuprosopon i'r môr; yr hwn a ffurfiodd forfur naturiol, a thrwy hyny gwnaed porthladd newydd, cymmhwys i ddal cryn nifer o lestri mawrion. Llwyr ddinystriwyd yr hen Tripolis gan y Sultan El Mansour, yn y flwyddyn B.A. 1289; ac y mae y *Tarablous* ryw ddwy filldir i'r dwyrain, ond nid oes yno borthladd mwyach. Pentref pysgota bychan yw *El Myna*, yr hwn, fe allai, a saif ar y fan lle yr oedd yr hen Tripolis. Y mae Tarablous yn cynnwys tua phymtheg neu un fil ar bymtheg o breswylwyr, ac yn lle yn yr hwn y gwneir cryn fasnach mewn sidan, myglys, ac olew.

TROAS (Τρωάς): tref o'r hon yr hwyliodd Paul gyntaf, mewn canlyniad i'r awgrymiad a gafodd oddi wrth yr Arglwydd i fyned â'r efengyl o Asia i Ewrop (*Act.* xvi. 8, 11)—lle y gorphwysodd efe am ychydig amser ar y ffordd ogleddol o Ephesus, yn ystod y daith genhadol nesaf, mewn disgwyliad am gyfarfod Titus yno (2 *Cor.* ii. 12, 13). Yno, ar ei ddychweliad tua'r deheu, yn ystod yr un daith genhadol, y cyfarfu efe â'r rhai a aethant o'i flaen o Philippi (*Act.* xx. 5, 6), ac yr arosodd am wythnos, pryd y darfu iddo gyfodi Eutychus o farw; ac yno hefyd, ar ol i lawer o flynyddoedd fyned heibio, y gadawodd efe, ar ryw daith arall, y fantell, a'r llyfrau, a'r memrwn yn nhŷ Carpus: 2 *Tim.* iv. 13. Y mae y lle hwn yn teilyngu rhyw gymmaint o sylw efrydwyr y Testament Newydd. Enw y dref yn llawn oedd Alexandreia Troas, yn ol Livy; ac weithiau gelwid hi yn Alexandreia yn unig, fel y gwneir gan Pliny a Strabo; a phryd arall dim ond Troas yn unig. Arwydda rhan gyntaf yr enw y cyfnod yn mha un y sylfaenwyd hi. Cafodd ei hadeiladu ar y cyntaf gan Antigonus, dan yr enw Antigoneia Troas, a phoblogwyd hi gan rai o drigolion y dinasoedd cyfagos. Wedi hyny harddwyd y dref gan Lysimachus, a galwyd hi yn Alexandreia Troas. Safai ar arfordir Mysia, gyferbyn â chwr deheuol eithaf ynys Tenedos.

Ystyriwyd ei bod, pan o dan y Rhufeiniaid, yn un o'r dinasoedd pwysicaf yn nhalaeth Asia. Oddi yno yr oedd mwyaf o fyned a dyfod gyda'r môr rhwng Macedonia a dosbarthiadau gorllewinol Asia; ac yr oedd wedi ei chyssylltu gan ffyrdd da â manau ereill ar yr arfordir, ac â pharthau mewnol y wlad. Nis gellir egluro y cyntaf yn well nag y gwneir gan ddwy fordaith Paul rhwng Troas a Philippi (*Act.* xvi. 11, 12; xx. 6), un o ba rai a gwblhawyd mewn deuddydd, a'r llall mewn pum niwrnod. Yr oedd ar y pryd yn drefedigaeth gyda'r *Jus Italicum.* Gellir darllen eglurhâd ar y cyssylltiad hwn â Rhufain ar ei harian bathol. Teimlai y Rhufeiniaid ddyddordeb yn y lle o herwydd y cyssylltiad oedd rhyngddo yn y dechreu â phreswylwyr Caerdroia. Dywed Seutonius fod gan Julius Cæsar gynllun i wneyd Troas yn eisteddle ymherodraeth: a gellir casglu, fe allai, oddi wrth ymadroddion Horace fod rhywbeth tebyg yn mryd Augustus hefyd. Ac y mae hyd yn oed ei henw diweddar, *Eski Stamboul*, yn rhyw led arwyddo i'r un syniad fod unwaith yn meddwl Cystenyn; yr hwn, i ddefnyddio iaith Gibbon, "cyn ei fod wedi penderfynu rhoddi y flaenoriaeth i Byzantium, a fwriadai gyfodi eisteddle ymherodrol ar yr ysmotyn enwog hwn—lle y cafodd y Rhufeiniaid eu tarddiad chwedleuol." Y mae cryn adfeilion i'w canfod etto yn *Eski-Stamboul.* Y penaf, modd bynag, ydyw adfeilion pont Herodes Atticus, dros yr hon y dygid dwfr i'r dref—yr hon nid oedd ar gael pan oedd Paul yno. Y mae y muriau, y rhai, fe allai, sydd yn awgrymu maintioli y ddinas yn amser yr apostol, yn ymestyn am filldir o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yn agos i filldir o'r gogledd i'r deheu. Y peth mwyaf dyddorol a berthyna iddi ydyw ei hen borthladd, yr hwn y gellir yn hawdd ei olrhain yn awr—yr hwn oedd yn bedwar cant o latheni o hyd, a dau cant o led. Rhoddir disgrifiadau lled fanwl o'r lle hwn gan Pococke, Chandler, Hunt, Clarke, Prokesch, a Fellows.

TROCHI. Gwel BEDYDD.

TROCHWYR (*Dunkers*): plaid grefyddol o Fedyddwyr y seithfed dydd, a ddechreuodd yn y flwyddyn 1724. Sylfaenwyd y sect hon gan Conrad Beissel, Almaenwr; yr hwn a dderbyniodd addysg ragorol yn Halle, ac a neillduwyd i'r weinidogaeth efengylaidd: ond yn gymmaint ag iddo ddioddef erledigaeth ysgafn o herwydd opiniynau crefyddol a amddiffynid ganddo, gadawodd Ewrop, ac aeth i America; a thrigodd yno mewn lle neillduedig, o ddeutu hanner can milldir o ddinas Philadelphia, er cael tawelwch gyda'i fyfyrdodau crefyddol. Tynodd cywreingarwch lawer o ddilynwyr ar ei ol, a bu ei arferion

Digitized by Google

syml a charedig yntau yn foddion i'w gwneyd yn broselytiaid. Sefydlodd trefedigaeth fechan yno yn fuan, a elwid *Euphrate*, mewn coffadwriaeth am yr Hebreaid, y rhai a arferent ganu salmau ar lenydd yr Euphrates. Ymddengys i'r sect hon dderbyn ei henw o herwydd eu bod yn bedyddio trwy drochi. Y mae eu dull o wisgo yn briodol iddynt eu hunain, ac yn gynnwysedig o hugan neu gob hir yn cyrhaedd hyd at eu sodlau, gydag ystrap am y canol, a chap neu benwisg yn hongian dros yr ysgwyddau—yn debyg i wisg mynach Dominicaidd. Nid ydyw y meibion yn eillio eu penau na'u barfau. Y mae gan y merched drigleoedd ar wahân, a rheolau perthynol iddynt. I'r dybenion hyn hwy a adeiladasant ddwy adeilad fawr o goed—un o ba rai a ddefnyddid gan y brodyr, a'r llall gan y chwiorydd; a pherthynai i'r naill a'r llall ystafelloedd i fwyta, ac i ddwyn yn mlaen eu gwasanaeth crefyddol hefyd; o blegid ni chydgyferfydd y brodyr a'r chwiorydd hyd yn oed yn eu haddoliadau cyhoeddus. Hwy a ymborthant yn benaf ar lysiau a gwreiddlysiau, yn gymmaint ag nad yw eu rheolau yn caniatau iddynt fwyta cigfwyd, oddi eithr ar achlysuron neillduol, pan y cynnelir yr hyn a elwir ganddynt yn gariad-wledd. Y prydiau hyny ciniawa y brodyr a'r chwiorydd gyda'u gilydd, a bwytant gig defaid—ond nid un math arall o gig. Yn eu gwahanol gelloedd bychain, y mae ganddynt faingc fechan i wasanaethu fel gwely, a darn bychan o bren fel gobenydd. Y maent yn caniatau i'w haelodau briodi, ac yn cynnorthwyo y rhai tlotaf i fyned i'r ystâd briodasol; ond ar yr un pryd y maent yn ystyried fod byw yn ddibriod yn rhinwedd. Ymddengys mai eu prif syniadau neillduol hwy ydynt y rhai canlynol:—nad yw dedwyddwch dyfodol i'w gael ond yn unig trwy benyd a phoenydio y corph yn y byd hwn; ac yn gymmaint a bod yr Arglwydd Iesu Grist, trwy ei ddioddefiadau iawnol, wedi dyfod yn Waredwr dynolryw yn gyffredinol, y gall pob un o'r hil ddynol, trwy fywyd o hunanymwadiad, weithio allan ei iachawdwriaeth ei hun. Y maent yn myned mor bell a chydnabod y gellir hefyd gyflawni mwy o weithredoedd da nag sydd wedi eu gorchymyn, a dadganant fod yn bossibl gwneyd mwy nag y mae cyfiawnder ac uniondeb yn ei ofyn, ac y gellir gan hyny ddefnyddio yr hyn sydd dros ben tuag at iachawdwriaeth ereill. Y mae y blaid hon yn gwadu cospedigaeth dragywyddol, ac yn credu y pregethir yr efengyl i'r meirw gan ein Gwaredwr, a bod eneidiau y saint ymadawedig yn cael eu defnyddio i bregethu i rai na chawsant ddadguddiad dwyfol yn y bywyd hwn. Tybiant fod y Sabbath Iuddewig, y flwyddyn Sabbothol, a blwyddyn yr Iwbili, yn gosod allan yn arwyddluniol gyfnodau neillduol, ar ol dydd y farn, pryd y bydd eneidiau y sawl na byddant mewn dedwyddwch yn cael eu puro oddi wrth eu llygredd. Os yn ystod y cyfnodau byraf y bydd i rai ymostwng a chydnabod perffeithiau Duw, a chydnabod Crist fel eu hunig Iachawdwr, derbynir hwynt i'r nefoedd; ond caiff y sawl a barhânt yn gyndyn a gwrthnysig eu cadw mewn poen hyd nes y delo y cyfnod mawr a arwyddir yn yr Iwbili—pryd y gwneir pawb yn ddedwydd. Y maent hefyd yn credu nad yw pechod Adda yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth. Nid ydynt yn caniatau i ddyn arfer trais, hyd yn oed mewn hunan-amddiffyniad; a chymmerant eu twyllo a'u hysbeilio yn hytrach na myned i gyfraith.

O ran eu dysgyblaeth a'u trefniadau eglwysig y maent yr un a'r Bedyddwyr yn gyffredin, oddi eithr fod pob brawd yn meddu awdurdod i siarad yn y gynnulleidfa; a'u llefarwr goreu yn gyffredin a ordeinir yn weinidog. Y mae ganddynt ddiaconiaid a diaconesau, a ddewisir o fysg eu gweddwon hynafol a'u cynghorwyr, a thrwyddedir hwynt i arfer eu doniau yn rheolaidd. Y mae aelodau y blaid erbyn hyn wedi eu gwasgaru yn fawr; ac nid yw yr aelodau mewn cymmydogaethau ac ardaloedd ereill, heb law yn eu trefedigaeth eu hunain, yn gwahaniaethu mewn un modd oddi wrth eu cymmydogion o ran eu gwisgoedd a'u harferion: ond y maent yn cadw ffydd eu tadau, ac yn nodedig am eu hymarweddiad a'u bywyd dichlynaidd a diargyhoedd.

TROED, TRAED: un o aelodau y corph. Gwel DYN. Yr oedd yn hen arferiad gynt yn y dwyrain i olchi traed dyeithriaid pan y dychwelent o daith, o herwydd eu bod yn gyffredin yn teithio yn droednoeth, neu yn gwisgo dim ond sandalau yn unig, y rhai nid oeddynt yn eu diogelu rhag y llwch a'r llaid. Golchodd Crist draed ei ddysgyblion, a thrwy hyny efe a'u dysgodd i wneyd y gwasanaeth isaf y naill i'r llall. Y mae traed yn fynych yn y Beibl yn cael eu defnyddio i osod allan dueddiadau, serchiadau, gweithredoedd, a chymmhellion. Sonir am "gyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd:" "symmud dy droed oddi wrth ddrygoni:" "ei thraed hi a ddisgynant i angeu:" "o throi dy droed oddi wrth y Sabbath, heb wneuthur dy ewyllys dy hun." Y mae bod 'wrth draed' un, yn golygu ufuddhau iddo, gwrando ar ei addysg, ac ymostwng i'w awdurdod a'i orchymynion. Dywed Moses am yr Arglwydd—"Caru y mae efe y bobl: ei holl saint ydynt yn dy law: a hwy a ymlynasant wrth dy draed;" *Deut.* xxxiii. 3. Dygwyd Paul i fyny wrth draed Gamaliel. Eisteddodd Mair wrth draed y Gwaredwr, a gwrandawodd ar ei eiriau ef: *Luc* x. 39. Y mae bod 'dan draed,' neu fod yn 'droedfaingc i'r traed' yn golygu ymostyngiad hollol gelynion; ond nid yw yn cynnwys eu ymheddychiad na'u hufudd-dod ewyllysgar. Rhoddai gorchfygwyr eu traed ar yddfau neu ar gyrph y penaethiaid a orchfygid ganddynt, fel arwydd o fuddugoliaeth. Y mae yr arferiad yn cael cyfeirio ati yn hanes pum brenin Canaan: *Jos.* x. 24, a chymmharer â *Salm* cx. 1.

Dywedir nad yw Gwlad Canaan fel Gwlad yr Aipht, am yr hon y dywedir "Lle yr hauaist dy hâd, ac y dyfrheaist â'th droed;" *Deut.* xi. 10. Yr oedd Palestina yn wlad lle yr oedd gwlaw, cyflawnder o wlith, ffynnonau, ffrydiau, afonydd, &c., i ddyfrhau y tir, a'r lleithder angenrheidiol er ei ffrwythloni. Ond i'r gwrthwyneb—nid oes gan yr Aipht afon, oddi gerth y Nilus; ac yno nid yw yn gwlawio ond yn anaml, ac y mae y tir sydd allan o gyrhaedd ei gorlifiad yn parhau yn sych a diffrwyth. Er gwneyd i fyny y diffyg hwn, y mae ffosydd yn cael eu tori o'r afon, a dwfr yn cael ei wasgaru drwyddynt i'r amrywiol bentrefydd a chymmydogaethau; a bydd ymryson mawr yn fynych pwy a gaiff y dwfr gyntaf. Er hyn oll, y mae llawer o leoedd âg ynddynt brinder dwfr; ac yn ystod blwyddyn, y mae y lleoedd agosaf i'r Nilus yn gofyn cael eu dyfrhau eilwaith trwy gyfrwng celfyddyd a llafur. Gwnelid hyn gynt trwy ddefnyddio peiriannau—un o ba rai a ddisgrifir gan Philo. Olwyn ydoedd, a hono yn cael ei throi gan y

Digitized by Google

troed. Hyn a olygai Moses yn y lle uchod pan y dywedodd, eu bod yn dyfrhau y tir â'r troed. Codir y dwfr yn y modd yma i ddyfrgistiau; a phan y bydd ar y gerddi eisieu eu dyfrhau, trosglwyddir y dwfr yn fân ffrydiau o ffos fawr, ac y mae y troed yn gwasanaethu i droi y dwfr iddynt, neu i'w attal.

Yr oedd noethder y troed yn golygu galar: *Ezec.* xxiv. 17. Y mae yn rhaid fod hyn yn golygu ymddangos yn gyhoeddus yn droednoeth, gan fod genym le i gredu nad oedd yr Iuddewon yn defnyddio sandalau nac esgidiau yn eu preswylfeydd. Ystyriai y dwyreinwr fod myned i mewn i ystafell heb dynu gorchudd uchaf y traed yn arwydd o ammharch. Y mae hyny yr un peth gyda hwynt ag ydyw diosg penwisg yn mhlith yr Ewropiaid. Yr oedd diosg esgidiau hefyd yn arwydd o addoliad. Diosgodd Moses ei esgidiau i nesau at y berth yn llosgi, lle yr amlygwyd presennoldeb Duw: *Exod.* iii. 5. Yn mysg dwyreinwyr diweddar, ystyrir fod myned i le o addoliad heb ddiosg esgidiau yn halogi y fan. Gweinyddai yr offeiriaid Aiphtaidd yn droednoeth; ac y mae y rhan liosocaf o esbonwyr o'r farn fod yr offeiriaid Iuddewig yn gwasanaethu yr un modd yn y tabernacl a'r deml, fel y mae y gorchymyn i olchi y traed yn fynych yn lled arwyddo.

TROGYLIUM: tref a phentir ar arfordir gorllewinol Asia Leiaf, gyferbyn ag Ynys Sames, yn nhroed mynydd Mycale. Sonir am dani yn *Act.* xx. 15, a chan Ptolemy a Strabo. Y mae y sianel yno yn gul iawn. Dywed Strabo mai ei lled oedd milldir, ac y mae hyn yn cael ei gadarnhau gan forleni llynges Prydain. Mordwyodd Paul drwy y culfor hwn ar ei ffordd i Ierusalem, pan yn gorphen ei drydedd daith genhadol. Gwaith anhawdd ydyw morio y cyrau hyn; a gellir casglu oddi wrth *Act.* xx. 6, a'r sylwadau a wneir wedi hyny am y dyddiau y buwyd ar y fordaith, ei bod y pryd hwnw yn adeg pan nad oedd y lloer yn ymddangos. Gan hyny, treuliwyd y nos yn Trogylium. Ychydig i'r dwyrain o'r pwynt pellaf, y mae angorfa, a elwir hyd heddyw yn *Borthladd Paul.*

TROPHIMUS (Τρόφιμος). Mewn tri lle y mae y cydymaith hwn o eiddo Paul yn cael ei enwi. Cyssylltir ef yn y cyntaf o honynt gyda Tychicus (*Act.* xx. 4); ac y mae yn yr olaf, i ryw raddau, yn ymddangos megys pe yn adnewyddu y gyfeillach, ac yn cyfeirio at ryw ddosbarth neillduol o wlad (2 *Tim.* iv. 20). Ond yn y canol, y mae yn cael ei ysgaru yn hollol oddi wrth y cyssylltiad hwn: *Act.* xxi. 29. Yr ydym yn casglu oddi wrth yr ymadroddion a arferir yn y lle cyntaf a enwyd, fod Tychicus, fel Trophimus, yn frodor o Asia; a'r ddau yn mysg y cymdeithion hyny a deithiasant gyda'r apostol ar ei drydedd daith genhadol, ac am ran o'r ffordd a gymmerodd efe wrth ddychwelyd o Macedonia tua Syria. Oddi wrth yr hyn a wyddys am y casgliad oedd yn cael ei wneyd ar y pryd i'r Cristionogion tlodion yn Iudea, tueddir ni i gyssylltu y ddau hyn â'r gwaith hwnw. Yr ydym yn cael ei fod ef a Tychicus wedi myned gyda'r apostol o Macedonia mor bell ag Asia; ond ymddengys i Tychicus aros yno, ac i Trophimus fyned yn mlaen gyda Phaul i Ierusalem. Ac efe a fu yr achlysur diniwed i Paul gael ei ddal, o'r hyn y tarddodd ei fordaith ddilynol i Rufain. Gwelodd rhyw Iuddewon yn y lle y ddau genhadwr Cristionogol gyda'u gilydd, a thybiasant i Paul gymmeryd Trophimus i'r deml: *Act.* xxi. 27—29. Oddi ar yr amgylchiadau hyn yr ydym yn dysgu dwy ffaith; sef, fod Trophimus yn Genedl-ddyn, ac hefyd ei fod yn frodor o Ephesus.

Dilynodd cyfwng maith o amser ar ol hyn, yn ystod yr hwn yr ydym yn colli yr olwg ar Trophimus; ond yn y llythyr diweddaf a ysgrifenwyd gan Paul, ychydig cyn ei ferthyrdod yn Rhufain, gwna grybwylliad am y ddau, sef Tychicus a Trophimus: 2 *Tim.* iv. 12, 20. Oddi wrth yr hyn a ddywedir yn yr adnod olaf o'r ddwy, yr ydys yn casglu i'r apostol fod ychydig cyn hyny yn y dwyrain, a bod Trophimus gydag ef, a'i fod wedi ei adael ganddo yn Miletum yn glaf. Nid oes genym wybodaeth am unrhyw fanylion pellach. Y mae yn debygol mai Trophimus oedd un o'r ddau frawd gyda pha rai, ynghyd â Thitus, yr anfonwyd yr Ail Epistol at y Corinthiaid: 2 *Cor.* viii. 16—24. Fel hyn y dywed Dr. Stanley, yn ei "*Lectures on the Epistles to the Corinthians*:"—"Yr oedd Trophimus, fel Titus, yn un o'r ychydig Genedl-ddynion hyny a fuont yn gymdeithion i'r apostol:—yn Ephesiad, ac felly yn debyg o gael ei ddanfon o Ephesus gyda'r Epistol Cyntaf, neu i fyned gydag ef o Ephesus y pryd hwn. Yr oedd efe, fel yr awgrymir am y 'brawd hwn,' â'i glod yn yr holl eglwysi, yn eithaf adnabyddus; mor adnabyddus fel y darfu i Iuddewon Asia (Leiaf) yn Ierusalem ei adnabod yn ddioedi. Yr oedd hefyd mewn cyssylltiad neillduol â'r apostol pan ar ei daith yn casglu tuag at gynnorthwyo y tlodion yn Iudea. Ymddengys hyn oddi wrth y disgrifiad a geir o hono yn *Act.* xxi. 29. Gwelir hefyd, oddi wrth *Act.* xx. 4, ei fod gyda Phaul ar ei ddychweliad o dalu ei ymweliad â Chorinth" [td. 492]. Y mae y chwedl ei fod yn un o'r deg dysgybl a thrigain, dybygid, yn anghywir; ond y mae yn bossibl fod y chwedl iddo ddioddef merthyrdod o dan deyrnasiad Nero yn wirionedd.

TROWYNT. Gwel d. g. CORWYNT—OEDD; GWYNT—OEDD.

TRUGAREDDFA (כפרת: ἱλαστήριον: *Propitiatorium*). Y mae y gair Hebraeg yn golygu yn llythyrenol *gorchudd;* ac mewn gwirionedd, yn enw ar y cauad oedd ar arch y cyfammod, â'r cerubiaid arno, uwch ben yr hwn yr ymddangosai "gogoniant yr Arglwydd;" *Exod.* xxvi. 17, &c.; xxxi. 7. Yn 1 *Cron.* xxviii. 11, y mae y cyssegr sancteiddiolaf yn cael ei alw yn "dŷ y drugareddfa." Ymddengys fod y syniad sydd yn gynnwysedig yn y cyfieithiadau yn sylfaenedig ar gynnwysiad arwyddluniol y gair כפר, *copher*, yn gwneyd "cuddio pechod" yr un peth a'i faddeu, neu wneuthur iawn drosto. Dichon y gallesid ammheu ai hyn ydoedd cymmhwysiad llythyrenol y gair at gauad yr arch, neu a oedd rhyw gyfeiriad at yr arwydd cyffelybiaethol yma, oni bae fod y Testament Newydd (*Heb.* ix. 5) yn dilyn y Deg a Thrigain, ac yn cyfleu y syniad hwn: gan hyny y mae yr holl gyfieithwyr yn rhwym o'i ddilyn. Y mae y gair a ddefnyddir yn y Deg a Thrigain ac yn y Testament Newydd yn gyfieithiad o'r gair sydd yn yr iaith Hebraeg yn golygu 'gorchudd,' sef ἱλαστήριον, ac arwydda 'iawn,' neu 'cymmod,' mewn cyfeiriad at y cymmhwysiad oedd yn cael ei wneuthur o'r gair gan yr Hebreaid; yr hyn a eglurir gan waith yr

Digitized by Google

archoffeiriad yn myned i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf unwaith yn y flwyddyn, ac yn taenellu cauad yr arch â gwaed aberth y cymmod, drwy yr hyn yr oedd "yn gwneuthur cymmod dros bechodau y bobl." Yn gymmaint ag mai dyma y weithred fwyaf difrifol a phwysig yn holl wasanaeth crefyddol y genedl, yr oedd yn ddigon naturiol fod rhywbeth yn enw cauad yr arch yn meddu cyfeiriad ato.

Yr oedd clawr neu gauad yr arch wedi ei wneyd o aur coeth; ac uwch ben y drugareddfa yr oedd dau gerub o aur—y ddau â'u hadenydd yn estynedig tuag i fyny, a'u hwynebau tuag at eu gilydd, ac yn gogwyddo tuag at y drugareddfa: *Exod.* xxv. 18—20. Rhwng y cerubiaid, goruwch y drugareddfa, yr oedd gorseddfa gogoniant yr Iehofah—yr arwydd o'r presennoldeb dwyfol: *Num.* vii. 89; 2 *Bren.* xix. 15; *Salm* xcix. 1; *Esa.* xxxvii. 16. O flaen, ac ar y drugareddfa, yr oedd yr archoffeiriad i daenellu gwaed yr aberth ar ddydd mawr y cymmod; ac yno yr addawodd yr Arglwydd gyfarfod ei bobl: *Exod.* xxv. 17, 22, 29, 42; xxx. 36; *Lef.* xvi. 2, 14. Y mae yr apostol Paul, wrth gymmhwyso yr enw trugareddfa (ἱλαστήριον), yr hwn a gyfieithir yn y Beibl *iawn*, neu ar ymyl y ddalen *cymmod*, at Iesu Grist, yn ein sicrhau mai efe yw y wir drugareddfa, o'r hwn yr oedd y drugareddfa gynt yn gysgod. Y mae efe yn cuddio pechodau a'i iawn a'i aberth ei hun; a thrwyddo ef y mae Duw yn dal cymmundeb â dynion. Yn aberth ac iawn Mab Duw y gallwn ninnau agoshau "at orseddfainge y gras," i geisio trugaredd. Gwel Arch y Cyfammod: Cerubiaid: Gorseddfaingc.

TRUGAREDD. Daioni a chymmwynasgarwch yn cael ei amlygu tuag at wrthddrychau mewn amgylchiadau o drallod a thrueni, ydyw trugaredd; ac y mae yn gynnwysedig mewn tosturio wrthynt a theimlo drostynt yn eu dioddefiadau, ac estyn ymwared iddynt, mor bell ag y bydd yn unol â sefyllfa berthynasol yr un fydd yn tosturio felly. Trugaredd ddwyfol ydyw y briodoledd hono sydd yn teimlo dros ddynoliaeth syrthiedig, yn yr euogrwydd a'r trueni a ddygodd arni ei hun trwy droseddu yn erbyn y Creawdwr; ond a ymarferir yn gysson â phurdeb ac uniondeb ei lywodraeth foesol. Nid gweithred syml o dosturi, y fath ag a amlygir gan y naill berson tuag at y llall mewn bywyd cyffredin, neu at ryw nifer o bersonau ydyw: ond y mae yn dosturi, er ei fod yn anfeidrol yn ei ffynnonell ac yn annherfynol yn ei natur, er hyny sydd yn cael ei ymarfer gan gadw golwg ar bob cyssylltiad arall sydd yn perthyn i safle yr Anfeidrol fel llywodraethwr ei greaduriaid rhesymol—lles cyffredinol pa rai nis gellir ar dir cyfiawn ei adael o'r neilldu pan yn delio âg unigolion. Fod daioni cyffredinol y cyfan yn mhob peth i gael ei ystyried yn yr hyn a wneir er lles rhyw gyfran, sydd egwyddor a gydnabyddir yn wastad fel un deg a chyfiawn. Ni byddai trugaredd yn yr ystyr yr edrychir arni yn rhy gyffredin, a fyddo yn cael ei hymarfer heb unrhyw amcan rhesymol, heb law yn unig oddi ar gyffroad y serchiadau tuag at ryw wrthddrych neillduol ar wahân oddi wrth y cyfan; ac o ganlyniad heb fod o dan arweiniad a chyfarwyddyd meddwl a gymmerai i ystyriaeth yr holl ganlyniadau, yn un prawf o ragoriaeth moesol; ond gweithred ddiamcan, yr hon mewn llawer o amgylchiadau a gynnyrchai, fe allai, fwy o drueni nag a leddfid drwyddi—ac ni theilyngai yr enw *trugaredd*. Y mae trugaredd yn Nuw yn gweithredu yn unol â'i holl berffeithiau, ac yn cael ei gweinyddu yn gysson ac yn unol â'i burdeb dwyfol. Ac y mae y gweinyddiad o'i drugaredd, ar yr un pryd ag y mae yn sicrhau gwaredigaeth a dedwyddwch ei gwrthddrychau, yn amddiffyn hawliau ei lywodraeth foesol, a diogeliad a mawrygiad ei ogoniant dwyfol. Daioni yr Arglwydd yw yr achos fod trugaredd yn cael ei hestyn o gwbl i greaduriaid euog; a chyfrwng gweinyddiad trugaredd Duw ydyw iawn ac aberth ein Harglwydd Iesu Grist. Gwel Cyfiawnder: Duw: Iawn.

TRWYN: un o ranau pwysig y corph, yn yr hwn y mae eisteddiad y synwyr o arogliad. Gwel Arogliad: Dyn. Yr oedd yr Hebreaid yn gyffredin yn cyssylltu yr amlygiad cryfaf o ddigofaint â'r trwyn: "Dyrchafodd mŵg ei ffroenau ef;" 2 *Sam.* xxii. 9; *Salm* xviii. 8; *Deut.* xxix. 20; *Iob* xli. 21. Y mae yr hen awdwyr Groegaidd a Lladinaidd yn llefaru am dano yn yr un modd. Cyfeiria Solomon at arferiad oedd yn mhlith y gwragedd o wisgo modrwyau yn eu ffroenau, pan y dywed efe, "Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, yw benyw lân heb synwyr;" *Diar.* xi. 22. Ezeciel hefyd a ddywed: "Rhoddais hefyd dlws ar dy dalcen (Heb., trwyn), a thlysau wrth dy glustiau, a choron hardd am dy ben;" *pen.* xvi. 12. Yr oedd addurn y trwyn yn gyffredin o aur neu arian, ac weithiau wedi ei addurno â gemau: *Gen.* xxiv. 47; *Esa.* iii. 21. Arferent hefyd roddi modrwyau yn ffroenau ychain a chamelod mewn trefn i'w harwain a'u tywys: "Am hyny y gosodaf fy mach yn dy ffroen, a'm ffrwyn yn dy wefLau, ac a'th ddychwelaf di ar hyd y ffordd y daethost;" 2 *Bren.* xix. 28; gwel hefyd *Iob* xli. 2.

TRYDAN (*Electricity*): enw a ddefnyddir ar allu cryf mewn natur, yr hwn a ddynodai y gallu hwnw ei hun, neu y wyddor sydd yn ymdrin âg ef. Y mae darganfyddiad yr elfen hon yn natur yn un o'r chwanegiadau pwysicaf a wnaed at wyddoniaeth anianyddol er dyddiau Syr Isaac Newton. Y mae Thales, yr hwn oedd yn byw tua 600 c. c., yn cyfeirio yn ei ysgrifeniadau at y ffaith fod y gwefrain (*amber*), pan y rhwbid ef, yn at-dynu cyrph ysgeifn a sych. Dyma yr unig ffaith am y trydan oedd yn adnabyddus i'r hynafiaid. O'r flwyddyn B. A. 1600 y gellir yn briodol ddywedyd fod trydaniaeth fel gwyddor yn adnabyddus, pan y darfu i Gilbert o Colchester gyhoeddi llyfr a elwir "*De Arte Magnetica;*" yn yr hwn y mae efe yn rhoddi rhestr o sylweddau y cafodd efe allan eu bod yn meddu yr un priodoledd a'r gwefrain, ac yn traethu ei syniadau ar alluoedd tynfaenol a thrydanol (*magnetic and electric forces*). Efe oedd dyfeisydd y gair *electricity*—yr hwn sydd yn deilliaw o'r gair Groeg *electron*, tynfaen. Disgrifia Otto von Guericke, maer Magdeburg, yn ei waith "*Experimenta Nova Magdeburdica*" (yn 1672), yn mysg ei ddyfeisiau ereill, y peiriant trydanol cyntaf a wnaed erioed; yr hwn oedd yn gynnwysedig o belen o losgfaen (*sulphur*) yn cael ei throi gan lofell (*handle*), a'i rhwbio gan frethyn yn cael ei wasgu arni gan y llaw. Yn 1709, darfu i Hawksbee wneyd peiriant, yn yr hwn yr oedd rhol o wydr yn cael ei rwbio â llaw sech, yr hwn a gymmerodd le un Guericke. Grey a Wehler, yn 1729, oedd y rhai cyntaf i ddangos pa fodd i drosglwyddo trydan o'r naill le i'r llall,

Digitized by Google

ac i ddosbarthu cyrph i arweinyddion (*conductors*) ac an-arweinyddion (*non-conductors*). Dufay (yn 1733—1745) oedd y cyntaf i ddarganfod y ddau fath o drydan—y cadarnhaol a'r goddefol (*positive and negative*)—a'r egwyddor sylfaenol sydd yn rheoleiddio eu gweithrediad.

Rhwng y blynyddoedd 1733 a 1744, talwyd llawer o sylw yn yr Almaen i wneuthuriad peiriannau trydan. Hyd yn hyn, er fod dyfeisiau Guericke a Hawksbee wedi eu gwneyd yn hysbys, y bibell wydr yn cael ei rhwbio â darn o frethyn, a arferwyd gyntaf gan Gilbert, a ddefnyddiwyd yn yr arbrawfiadau yn gyffredin. Cymmerodd Boze, athraw dysgedig yn Wittenberg, yr awgrym oddi wrth beiriant Hawksbee, a defnyddiodd belen o wydr yn y peiriant a wnaeth efe ei hun. Winkler o Leipsic oedd y cyntaf i ddefnyddio gobenydd (*cushion*) yn gysylltiedig â'r peiriant. Darganfyddwyd y gostrel drydanol (*Leyden jar*) yn ddamweiniol yn y flwyddyn 1456, yn ninas Leyden, gan ŵr o'r enw Muschenbroek, fel y tybir yn fwyaf cyffredin; ond y mae dadl wedi ei dwyn yn mlaen ar y cwestiwn, i bwy y mae yr anrhydedd o'r darganfyddiad yn ddyledus, gan y mŷn rhai ei briodoli i Cuneus, un o fwrdeisiaid Leyden; ac ereill i Kleist, canon yr eglwys gadeiriol yn Camin, yn Pomerania. Yn y fl. 1747, dangosodd yr enwog Benjamin Franklin ansawdd trydanol y gostrel drydanol; ac yn 1752, profodd trwy ei arbrawfiadau hynod gyda'r barcutan bapur mai trydan ydyw y fellten. Gwnaed prawf tebyg hefyd, a chyda'r un amcan, ac ynghylch yr un amser, ond yn hollol annibynol ar un Franklin, gan Romas, yn ninas Nerac, yn Ffraingc. Yn 1760 y gwnaeth Franklin y mellt-arweinydd (*lightning-conductor*). Yn y blynyddoedd o 1753 hyd 1759, gwnaeth Canton, Wilke, ac Æpinus ymchwiliadau i natur arweiniad (*induction*). Fe wnaeth Ramsden yn 1768, a Nairn yn 1780, beiriannau ar gynlluniau ychydig yn wahanol i'r rhai arferedig. Dyfeisiwyd y drydanell (*electrophorus*) gan Volta yn 1775, a'r tewychyr (*condensor*) gan yr un anianydd yn 1782. Yn 1786, gwnaeth Galvani ddarganfyddiad a arweiniodd i chwanegiad cangen newydd i'r wyddor, a elwir ar ei enw ef yn *Galfaniaeth*. Yn 1787, olrheiniodd Coulomb ddeddfau at-dyniad a gwrthyriad mewn trydaniaeth. Yn 1837, y cyhoeddodd Faraday ei ymchwiliadau trydanol gyntaf. Cynlluniodd Armstrong ei beiriant trydanol yn 1840.

Y ffordd fwyaf arferol a syml i gynnyrchu trydan sydd trwy ymrwbiad (*friction*). Torer papur yn fân ddarnau, a rhodder hwynt ar fwrdd; yna cymmerer ddarn o gŵyr selio coch, a rhwbier ef yn chwyrn â darn o wlanen, neu rhwbier ef yn erbyn llawes côb frethyn, ac yna yn ddioed dalier ef yn agos i'r darnau papyr. Ymddengys cynnhwrf yn eu mysg:—neidia y rhai lleiaf gyda chyflymder at y cŵyr, a glynant wrtho am beth amser; yna naid rhai o honynt ymaith yn sydyn; ond y mae ereill ag y bydd ystlys y papur wedi cyffwrdd â'r cŵyr yn glynu yno yn hwy; ar ol hyny, syrthiant wrth eu pwysau, wedi i'r grym trydanol leihau. Y mae yr un effaith yn union yn cael ei gynnyrchu gan bibell wydr wedi ei rhwbio â darn o sidan; ond ceir nad yw y ddau allu at-dyniadol yr un. Os tynir ychydig ddarnau o bapyr gan y cŵyr, ac os rhoddir y bibell wydr wedi ei rhwbio yn agos atynt, hwy a neidiant oddi wrth y cŵyr at y gwydr; ac os rhwbir y cŵyr wedi hyny, fe'u hattynir yn ol, canys pan y mae un o'r galluoedd yn wan, y mae y llall yn gryf. Y mae y priodoleddau hyn sydd yn dyfod i'r golwg trwy ymrwbiad, yn cael eu galw *trydanau*—yr un a geir o'r bibell wydr yn *drydan gwydrol* (*vitreous*); yr un a geir o'r darn cŵyr yn *drydan ystoraidd* (*resinous*). Gellir cynnyrchu y trydanau a geir trwy ymrwbiad mewn amryw ffyrdd, yn beiriannyddol a fferyllol; ond pa fodd bynag y ceir hwynt, y mae eu nodweddion yr un. Y mae y gair *cadarnhaol* yn cael ei ddefnyddio yn awr yn mron yn gyffredinol am y gwydrol, a *nacaol* am yr ystoraidd. Dysgir ni gan yr arbrawf uchod fod cyrph a fyddont yn cynnwys trydan, naill ai cadarnhaol neu nacaol, yn tynu cyrph heb drydan ynddynt, a chyrph y byddo trydan a elwir ar enw gwahanol i'r eiddynt hwy; ond yn gwrthdaro cyrph ag y byddo trydan o'r un math wedi effeithio arnynt; ac hefyd y gellir cyflwyno trydan o'r naill gorph i'r llall trwy gydgyfarfyddiad. Nid cydgyfarfyddiad yw yr unig ffordd trwy ba un y gellir cyflwyno trydan. Weithiau, y mae gwreichionen o drydan yn myned o'r naill i'r llall pan na bydd dau gorph yn dyfod i gyffyrddiad â'u gilydd. Fel y crybwyllwyd eisoes, gelwir y trydan a geir wrth rwbio y bibell wydr yn drydan gwydrol, tra y gelwir yr hwn a geir wrth rwbio y cŵyr yn drydan ystoraidd; neu, y mae gwydr yn rhoi trydan cadarnhaol, a chŵyr drydan nacaol. Ond y mae yn hawdd cael trydan ystoraidd o'r gwydr, ac un gwydrol o'r cŵyr, trwy ddefnyddio rhyw bethau ereill heb law y sidan a'r wlanen a ddefnyddir yn gyffredin. Os rhwbir y gwydr â gwlanen neu groen cath, trydan nacaol a geir o hono; ond os rhwbir ef â sidan, neu â'r llaw, y cadarnhaol a geir. Sidan a ddefnyddir yn gyffredin at y gwydr, a gwlanen at y cŵyr; o herwydd eu bod y pethau goreu at y gwaith y gellir eu cael yn rhwydd. Os rhwbir gwydr llyfn yn erbyn un garw, effeithir ar y llyfn gan y cadarnhaol, ac ar y garw gan y nacaol. Gan hyny, y mae yn dibynu ar natur y ddau gorph pa un ai cadarnhaol ai nacaol fydd y trydan.

Un ddamcaniaeth a gynnygir ar hyn ydyw, fod dau hylif yn bod, na ellir eu gwahaniaethu ond trwy eu heffeithiau, a'u bod yn treiddio trwy bob sylwedd; a phan yn unedig mewn symiau cyfartal, yr achosant fantoliad trydanol; ond y mae pob un wrtho ei hun yn at-dynu y llall lle bynag y ceir ef. Fel hyn, tybier fod darn o gŵyr yn ei ystad naturiol yn cynnwys y ddau hylif; etto, pan y rhwbir ef, nid oes ganddo ond un, gan fod y llall wedi ei symmud ymaith trwy yr ymrwbiad. Felly hefyd gyda'r bibell wydr. Y mae y ddamcaniaeth hon yn tybied fod yr hylif symmudol i'w gael ar wyneb y defnydd â pha un y rhwbir y cŵyr neu y gwydr; o herwydd yr ydys yn wastad yn cael pan fyddo pibell wydr trwy ymrwbiad wedi ei gwneyd i gynnwys y cadarnhaol, fod y rhwbiedydd yn cynnwys y nacaol, neu fod y wlanen sydd wedi ennyn yn y cŵyr drydan nacaol, ei hunan yn cynnwys y cadarnhaol. A chymmeryd yn ganiataol, gan hyny, fod y ddamcaniaeth yn gywir, fod pob corph yn cynnwys yn naturiol y ddau hylif hyn mewn symiau cyfartal, a hyny yn peri eu bod yn llonydd mewn ystyr trydanol, y mae ymrwbiad yn symmud un o honynt o'r gwydr, a'r llall o'r cŵyr, ac y mae yr un a symmudir i'w gael ar y rhwbiedydd. Ond yn ol damcaniaeth arall, nid oes ond un hylif; a dywedir fod corph yn meddu trydan cadarnhaol pan gynnwysa fwy

Digitized by Google

na'i swm arferol, ac yn meddu trydan nacaol pan y cynnwysa lai. Wrth rwbio cŵyr â darn o wlanen, tybir fod cyfran o'r hylif trydanol naturiol sydd yn y cŵyr yn cael ei drosglwyddo o hono i'r rhwbiedydd, fel y mae y cŵyr yn cynwys llai, a'r rhwbiedydd fwy, na'i swm arferol. Yna y mae y cŵyr yn cynnwys y nacaol, a'r rhwbiedydd y cadarnhaol. Yr un modd, wrth rwbio y bibell wydr â darn o sidan, y mae swm y trydan yn y gwydr yn cynnyddu, ac yn y sidan yn lleihau: yna, y mae y gwydr yn gadarnhaol, a'r sidan yn nacaol. Y mae y trydan gwydrol, neu y cadarnhaol, yn attynu y trydan nacaol, neu yr ystoraidd; ond yn gwrthyru y trydan o'r un natur ag ef ei hun. Y mae yr un peth yn gywir am drydan nacaol; hyny yw, y mae un math yn attynu y llall. Os yw y ddamcaniaeth fod dau hylif yn gywir, yna rhaid cymmeryd yn ganiataol fod y ddau hylif yn wrthwynebol ac yn gyttunol; hyny yw, y maent yn amlygu ansoddau gwrthwynebol, ac etto yn attynu eu gilydd. Ond am ddamcaniaeth yr un hylif, yr oll y mae yn ei ofyn ydyw fod corph yn cynnwys trydan cadarnhaol (hyny yw, mwy na'i swm arferol o drydan) yn attynu unrhyw sylwedd fyddo yn meddu trydan nacaol (hyny ydyw, yn cynnwys llai na'r swm arferol), i'r hwn y gall gyfranu yr hyn fydd yn weddill ganddo; ac hefyd y gall corph yn cynnwys y nacaol attynu o sylwedd yn cynnwys y cadarnhaol yr hyn sydd yn angen arno. Gan hyny, yn ol y ddamcaniaeth hon y mae tueddiad beunyddiol tuag at adferu y cydbwysedd fydd wedi ei golli; ond os bydd dau gorph yn cynnwys llai, neu ddau yn cynnwys mwy, na'u swm arferol o drydan, y maent yn naturiol yn gwrthyru eu gilydd, ac yn tueddu i gynnyddu yr annhrefn, yn hytrach nag i adferu y cydbwysedd.

Ymddengys fod trydan yn gofyn ryw sylwedd fel arweinydd i'w drosglwyddo, ac na all fyned dros wagle. Po ysgafnaf y bydd yr awyr, goreu oll ydyw fel arweinydd; o herwydd gellir cael o beiriant da wreichionen o bedair i bum troedfedd o hyd trwy bibell o awyr wedi ei ysgafnhau; ond trwy awyr gyffredin, o'r un peiriant, gwreichionen o un ar bymtheg neu ddeunaw modfedd ydyw yr un hwyaf ag y mae yn bossibl ei chael. Ymddengys fod hyd y wreichionen yn cynnyddu fel y mae pwysau yr awyr yn lleihau; ond os tynir yr holl awyr o'r bibell, ymddengys fod yn ammhossibl cael un wreichionen o gwbl. Gellir dywedyd y gwna unrhyw sylweddau, trwy ymrwbiad, gynnyrchu trydan; ond nid pob sylwedd a all ei arwain. Y mae pob sylweddau mewn natur yn cael eu dosbarthu i arweinyddion neu i anarweinyddion; neu yn hytrach i arweinyddion da, a gwael. Y mae gwreichionen drydanol yn teithio gyda chyflymder annirnadwy yn mron. Mewn dull o siarad, nid yw yn cymmeryd dim amser i fyned o'r naill le i'r llall. Yr ydys wedi cael allan trwy brawf boddhaol fod y wreichionen drydanol yn teithio 280,000 o filldiroedd yr eiliad; hyny yw, fe ä wyth waith o amgylch y ddaear mewn eiliad. Dyma ydyw y cyflymder rheolaidd gyda pha un y teithia ar hyd sylwedd arweiniol da. Os na bydd yr arweinydd yn dda y mae symmudiad y trydan yn cael ei arafu, a gwres yn cael ei gynnyrchu. Os anfonir ffrwd o drydan ar hyd cadwen haiarn, ni bydd yr arweinyddiaeth mor berffaith ag ar hyd gwifren haiarn. Lle y bydd y gwrthwynebiad lleiaf i'r ffrwd, efe a naid yn groes yn y ffurf o wreichionen. Pan y cyffyrddwn â pheiriant trydanol, teimlir ysgydwad trwy yr holl gorph. Y mae y trydan yn myned i gorph dyn, a theimlir yr effaith yn benaf yn yr ysgwyddau, a'r penelinoedd, &c.: hyny yw, yn nghymmalau y corph. Rhoddir cyfrif am hyn trwy yr un ddamcaniaeth ag sydd yn egluro y dinystr a wneir ar adeiladau yn fynych pan y tarewir hwynt gan fellt—at yr hyn y cyfeirir etto. Dywedir, pe bae yr esgyrn oll yn cyffwrdd â'u gilydd yn y corph, yr elai y wreichionen drydanol ar unwaith i'r ddaear heb roddi un ergyd; ond y mae trydan yn gorfod neidio o'r naill asgwrn i'r llall yn y cymmalau, a'r neidiad hwn ydyw yr achos o'r gwrthdarawiad a deimlir. Cymmerir yn ganiataol fel hyn mai yr esgyrn ydyw y sylweddau arweiniol, ac nid y cnawd. Pe amgen, teimlid yr ergyd yn y fan y deuai i'r corph, ac yn y fan yr elai allan o hono, gan y byddai yn myned drwy y cnawd i'r esgyrn, ac o'r esgyrn drwy y cnawd i'r ddaear.

Y mae yn eglur fod cyssylltiad agos rhwng trydan a gwres. Cynnyrchir gwres gan drydan a lesteirir. Y mae cynnyrchiad gwres a goleuni gan drydan i'w weled yn amlwg yn y fellten; yr hon y gellir ei hystyried yn fflachiad mawr o drydan ar ei ffordd o'r cymmylau i'r ddaear. Mewn trefn i hyn ddigwydd y mae yn angenrhaid i'r cwmmwl a'r ddaear fod yn yr un berthynas â'u gilydd ag y mae y gostrel drydanol (*Leyden jar*) âg arweinydd y peiriant trydanol. Rhwng y ddaear a'r cwmmwl y mae swm mawr o awyr, drwy yr hwn y mae y ffrwd drydanol yn ymsaethu, fel y mae rhwng y peiriant a'r gostrel ar ffurf gwreichionen. Fel y gellir galluogi y ffrwd i fyned i'r gostrel heb i oleuni ymddangos, ac heb un arwydd o bresennoldeb trydan, felly gellir gwneyd llawer er attal y niweidiau mawr a wneir i adeiladau pan y tarewir hwy gan fellt. Os cyssylltir yr arweinydd a'r gostrel â gwifren fain, y mae yr holl rym yn cael ei drosglwyddo ar hyd-ddi, a dim trwy yr awyr. Yr un modd pe y cyssylltid y cwmmwl â'r ddaear â gwialen fferf o fettel, ni byddai mellt; hyny ydyw, ni byddai fflachiadau i'w gweled. Ond nis gellir gyru gwiail felly i fyny hyd y cymmylau pan yr ymddengys cymmylau llawn o drydan. Yn chwanegol at yr ammhossiblrwydd o gyrhaedd y cymmylau, y mae yn beryglus bod yn agos at, a llawer mwy i ymwneyd âg unrhyw sylweddau ag y mae yn hawdd i'r elfen drydanol redeg ar hyd-ddynt. Pa beth gan hyny a ellir ei wneyd er lleihau y perygl o niweidiau oddi wrth fellt? Os bydd unrhyw sylwedd arweiniol rhwng yr arweinydd a'r gostrel drydanol, y mae yn gwasanaethu fel ffordd o'r naill i'r llall. Felly, os bydd i unrhyw sylwedd arweiniol gyfryngu rhwng cwmmwl trydanol a'r ddaear, bydd yn foddion i'w cyssylltu â'u gilydd, a bydd i'r trydan redeg ar hyd-ddo. Y mae corph dyn yn arweinydd lled dda, ac o ganlyniad y mae mewn perygl. Nid ydyw coed yn gystal arweinyddion, ond y maent yn uwch; gan hyny, gallesid meddwl mai doeth fyddai sefyll yn agos at goeden fel rhagocheliad, am y byddai i'r trydan ei chyrhaedd hi yn gyntaf, a chael ei arwain ganddi i'r ddaear. Y mae y goeden, mae'n wir, gan ei bod yn uwch, yn nes i'r trydan; ond gallai wrth redeg i lawr y pren, neidio o'r rhan isaf o hono i gorph dyn, a phasio drwyddo i'r ddaear —gan ddewis y corph fel y trosglwyddydd goreu o'r ddau sylwedd. Felly yn lle bod pren yn amddiffyniad, y mae yn ffynnonell o berygl.

Digitized by Google

Y mae rhai coed, megys ffawydd, sydd yn cynnwys llawer o ystor, yn arweinyddion gwaelach nag ereill, megys y llwyfanod, ac felly y maent yn fwy peryglus i fod yn agos iddynt.

Pan y tarewir dyn â mellten, y mae y trydan yn myned dros ei gorph, a'r canlyniad yn gyffredin ydyw marwolaeth ddiattreg. Dywed y Proffeswr Tyndal, yr hwn a dderbyniodd unwaith, yn anfwriadol, yn helaeth o gynnwysiad cluder (*battery*) trydanol, mai yr effaith arno oedd ei daflu i'r dideimladrwydd llwyraf dros ychydig eiliadau. Ac y mae y ffaith na theimlodd unrhyw boen, yn ei dyb ef, yn ei gyfiawnhau i dynu y casgliad nad yw yr ergydion hyny sydd yn achosi marwolaeth yn cynnyrchu dim poen, o herwydd yr annheimladrwydd llwyr a hollol a enwyd. Pan y tarewir pren yn y ffordd hon, yr effaith yn gyffredin ydyw ei fod yn cael ei ddryllio yn ysgyrion. Felly, yn fynych, y mae simneiau, clochdai eglwysydd, tyrau, ac adeiladau uchel ereill, yn cael eu distrywio gan y grym trydanol. Y mae y cyfryw adeiladau yn gyffredin mewn mwy o berygl o herwydd eu huchder—yr hyn sydd yn eu dwyn yn nes i'r cymmylau. Y moddion a arferir i amddiffyn y cyfryw adeiladau ydyw defnyddio gwialen o haiarn neu gopr, a gyrhaeddo yn uwch na phen uchaf yr adeilad, ac a red oddi yno i'r llawr; ac felly gwneir ffordd rydd i'r elfen ddifaol. Ystyrir y gwna gwialen gopr o lai na modfedd o ffyrfdra gario ymaith yn ddiogel y fellten gryfaf. Defnyddir y ddyfais hon yn gyffredin er diogelwch adeiladau uchel a mawr. Ond rhaid cadw yn y meddwl mai nid tramwyad y grym trydanol, fel y cyfryw, sydd yn achosi y dinystr, ond y dadblygiad o wres a gymmer le pan y bydd yn cael ei attal. Rhed i lawr y wialen gopr yn ddiogel, heb roddi un arwydd o'i bresennoldeb; ond yn ei fynediad trwy fur o briddfeini y mae yn gyffredin yn gwneyd dinystr. Gellir priodoli hyn, dybygid, i'r ffaith fod y priddfeini, y ceryg, a'r morter yn ei wrthwynebu, yn gymmaint ag nad ydynt yn arweinyddion da. Y mae y gwres mawr a gynnyrchir gan wrthwynebiad i'r grym trydanol yn gyfryw ag a dry unrhyw hylif yn ager ar unwaith.

Y mae y trydan sydd yn yr awyr yn gyffredin, os nad yn wastad, yn gadarnhaol o'i gymmharu a'r ddaear, ac y mae hefyd yn gryfach po uchaf yr esgynir. Y mae gwreichion trydanol yn ymsaethu weithiau o gwmmwl i gwmmwl ar draws yr awyr fyddo rhyngddynt. Yn yr amgylchiadau hyn nid ydyw y grym trydanol yn cyrhaedd y ddaear. Ond pan y symmuda trydan o'r cwmmwl i'r ddaear, ar draws yr awyr fyddo rhyngddynt, y mae yr hyn a elwir yn fflachiad y fellten, yn dyfod o'r cwmmwl i'r ddaear, yn ymddangos, ac yn dangos fod gwrthsafiad yr awyr wedi cynnyrchu o'r trydan swm mawr o wres a goleuni. Yn yr amgylchiadau hyn y mae trydan yn cyrhaedd y ddaear, trwy ddefnyddio yn ei ffordd unrhyw sylweddau a'i trosglwyddafydd yn agos ato; ac y mae hyd yn oed yn troi o'i ffordd er cael gafael ynddynt. Dangoswyd gan Franklin nad oes mewn gwirionedd ddim gwahaniaeth rhwng y fellten a'r trydan a geir trwy ymrwbiad.

Gelwir unrhyw beiriant a ddefnyddir er profi presennoldeb trydan yn drydansyllydd (*electroscope*); ond os, yn chwanegol at hyn hefyd y bydd yn mesur swm neu allu y trydan, yna gelwir ef yn drydan-fesurydd (*electrometer*).

Costrel wydr ydyw y gostrel drydanol, wedi ei hamwisgo oddi mewn ac oddi allan â dalen o alcan (*tinfoil*). Cyssylltir trosglwyddydd neu arweinydd peiriant gyda'r ddalen oddi mewn trwy gyfrwng cadwen fettelaidd, tra y mae y tu allan yn cyffwrdd â'r llaw. Y mae y trydan cadarnhaol a nacaol yn ymgasglu ar yr ochrau mewnol ac allanol; yna cynnyrchir fflachiad ac ysgytiad cryf pan yr ymuna y ddau hylif, trwy gyffyrddiad â'r ddalen allanol âg un llaw, ac â'r arweinydd neu y gadwen sydd yn gyssylltiol â'r tu mewn i'r gostrel â'r llaw arall. Gwel MELLT A THARANAU.

**TRYPHENA A THRYPHOSA**: dwy o wragedd Cristionogol yn Rhufain, o nifer y rhai y mae Paul yn eu hanerch yn neillduol ar ddiwedd ei epistol at yr eglwys oedd yn y ddinas hono, ac yn arbenig am eu bod yn mysg y rhai "a gymmerasant boen yn yr Arglwydd;" *Rhuf.* xvi. 12. Fe allai eu bod yn ddwy chwaer; ond y mae yn fwy tebygol mai cyd-ddiaconesau oeddynt, a'u bod yn mysg y rhai blaenaf o'r gwragedd swyddogol a fuont yn gweinyddu yn yr eglwys hon y pryd hwn, ac yn ddiweddarach [Euseb. "*Hist. Eccl.*" vi. 43]; o blegid sonir am danynt fel rhai yn gwasanaethu (τάσκοπιώσας). Nis gwyddom chwaneg am y chwiorydd hyn; ond y mae enw un o honynt, gydag enwau ereill sydd wedi eu gwneyd yn adnabyddus i ni yn epistolau Paul, yn y gwaith anghanonaidd a elwir "*Acts of Paul and Thecla.*" Yno disgrifir Tryphena fel gweddw Gristionogol gyfoethog o Antiochia, yr hon a roddodd nawdd yn ei thŷ i Thecla, ac a anfonodd arian i Paul i'w cyfrannu i'r tlodion. Y mae yn anhawdd cael dim tebyg i gywirdeb yn y rhan yma o'r chwedl. Y mae yn ffaith ddyddorol fod y rhestr o "dylwyth Cæsar" yn y *Vigna Codini*, yn agos i'r *Porta S. Sebastiana*, yn cynnwys enw Tryphena, yn gystal ag enwau ereill a grybwyllir yn yr un bennod; sef, Philologus, ac Iulia, ac Amplias.

**TRYPHON**: trawsfeddiannydd gorsedd Syria. Ei enw priodol oedd Diodotus, ond rhoddwyd arno y cyfenw Tryphon; ac yn ol Appian, efe a'i mabwysiadodd ef ei hun, ar ol esgyn i anrhydedd ac awdurdod. Brodor oedd efe o Cariana, lle amddiffynedig yn nosbarth Apamea, lle hefyd y dygwyd ef i fyny. Perthynai i lys Alexander Balas [1 *Macc.* xi. 39]; ond tua diwedd ei deyrnasiad ef ymddengys iddo ymuno yn y cydfradwriaeth a roddwyd ar droed gyda'r amcan o drosglwyddo coron Syria i Ptolemy Philometor. —1 *Macc.* xi. 13. Ar ol marwolaeth Alexander Balas, efe a gymmerodd fantais ar ammhoblogrwydd Demetrius II. i bleidio hawliau Antiochus VI., mab Alexander.—1 *Macc.* xi. 39; C.C. 145. Yn mhen ychydig amser, cafodd gefnogaeth Ionathan Maccabeus, yr hwn a deimlai yn anfoddlawn o herwydd anniolchgarwch Demetrius; a choronwyd y brenin ieuangc, C.C. 144. Dadguddiodd Tryphon yn fuan ei wir amcanion gyda golwg ar y deyrnas; ac yn gymmaint a'i fod yn ofni gwrthwynebiad Ionathan, cafodd afael ar y diweddaf trwy frâd [1 *Macc.* xii. 23], a rhoddwyd ef i farwolaeth yn fuan.—1 *Macc.* xiii. 34. Gan fod y ffordd yn ymddangos yn rhydd iddo yn awr, efe a lofruddiodd Antiochus, a chymmerodd feddiant o'r llywodraeth (1 *Macc.* xiii. 31, 32), ac arferodd ei awdurdod, hyd yr oedd yn bossibl iddo, gyda llaw uchel.—1 *Macc.* xiii. 34. Am ei fod yn llywodraethu yn orthrymus, coleddai Demetrius obeithion y gallai ei ddior-

Digitized by Google

seddu, a gwnaeth barotoadau tuag at wneuthur ymgyrch yn ei erbyn (c.c. 141), pan y cymmerodd ef yn garcharor [1 *Macc.* xiv. 1—3], a chadwodd Tryphon feddiant o'r orsedd hyd nes y darfu i Antiochus VII., brawd Demetrius, ei yru i Dora; o ba le y diangodd efe i Antiochus, yn Phœnicia.—1 *Macc.* xv. 10—14, 37—39; c.c. 139. Pan oedd Antiochus yn pwyso yn galed arno, yn fuan ar ol hyn, efe a roddes derfyn ar ei einioes; neu yn ol adroddiadau ereill, rhoddwyd ef i farwolaeth gan Antiochus. Nid oedd yr awdurdod a fu yn eiddo Tryphon yn fawr, fel y mae yn amlwg oddi wrth gynnydd annibyniaeth Iuddewig o dan Iudas Maccabeus. A darlunir ef gan Strabo fel un o brif gefnogwyr morladradaeth Cilicia. Ymddengys ei enw ar arian bathol Antiochus VI., a gwnaeth arian bathol yn ei enw ei hun hefyd.

**TRYSORFA**, a arwydda drysor wedi ei grynhoi a'i gadw. Mae y drysorfa, neu y trysorlys, mewn ystyr gwladol, yn arwyddo y rhan hono o lywodraeth weinyddiadol Prydain sydd yn meddu rheolaeth ar dderbyniadau a threuliadau y wlad. Gelwid swyddog uchaf y drysorfa gynt yn Arglwydd Brif Drysorydd; ond y mae ei swydd ef er esgyniad Sior I. wedi cael ei chyflawni gan arglwyddi dirprwyol. Cynnwysa bwrdd y drysorfa yn awr y prif weinidog (yr hwn a elwir yn gyffredin yn brif arglwydd y trysorlys), canghellydd y trysorlys, a thri o is-arglwyddi y trysorlys, y rhai yn gyffredin a eisteddant yn y senedd, ynghyd â dau ysgrifenydd y trysorlys. Y prif arglwydd ydyw penaeth y weinyddiaeth: nid ydyw ei ddyledswyddau yn gyfyngedig i'r drysorfa, yr hon a reolir yn benaf gan aelodau ereill y bwrdd. Canghellydd y trysorlys ydyw gwir benaeth y drysorfa, ac efe sydd yn ymarfer mwyaf o reolaeth dros dreuliadau gwahanol ganghenau y gwasanaeth gwladol, yn gystal a'r gwasanaeth milwraidd a llyngesol, adref ac yn y trefedigaethau. Y mae yn darparu amcangyfrif o dreuliadau y wladwriaeth, a'r modd yr ymdrechir eu cyfarfod; ac y mae yr adroddiad a wneir ganddo yn flynyddol yn cael ei adnabod wrth yr enw 'cyllideb' (*budget*), ac yn cael ei gosod o flaen Tŷ y Cyffredin. Ar rai achlysuron, pan y bydd y prif weinidog yn aelod o Dŷ y Cyffredin, y mae wedi bod yn dal y swydd o Ganghellydd y Trysorlys; ond nid yw hyn yn beth cyffredin. Mewn enw, i fesur mawr, y mae dyledswyddau yr is-arglwyddi yn gynnwysedig: disgyna y rhan drymaf o waith y trysorlys ar ysgwyddau yr ysgrifenyddion.

TUBAL (תּוּבַל: Θοβέλ). Enwir Tubal gydag Iafan a Mesech, yn y taflenau achyddol sydd yn Genesis a'r Cronicl, yn mysg meibion Iapheth: *Gen.* x. 2; 1 *Cron.* i. 5. Enwir y tri gyda'u gilydd drachefn pan y sonir am ffynnonellau cyfoeth trigolion Tyrus, fel rhai yn masnachu mewn caethion a llestri pres yn y marchnadoedd Phœniciaidd: *Ezec.* xxvii. 13. Sonir am danynt fel cenhedloedd yn dyfod o'r gogledd: *Ezec.* xxxviii. 15, xxxix. 2. Tybia Josephus ["*Hyn. Iudd.*," i. 6, *adr.* 1], mai yr Iberiaid oedd disgynyddion Tubal; sef, preswylwyr dosbarth o wlad rhwng y Môr Du a'r Môr Caspiaidd, yn cyfatteb yn agos i'r Georgia ddiweddar. Y mae hyn yn debyg i olygiad Bochart, yr hwn a dybia fod y Moschi a'r Tibareni yn cynnrychioli Mesech a Thubal. Crybwyllir y ddau lwyth yma ynghyd gan Herodotus ar ddau achlysur; yn gyntaf, fel yn gwneyd i fyny un o raglawiaethau Persia, ac wedi hyny fel rhai oedd yn myddin Xerxes, o dan lywyddiaeth Ariomardus, mab Darius. Yn yr arysgrifau Assyriaidd y mae yr enwau *Moschi* a *Tibareni* yn cael eu cyssylltu yn wastad, o dan yr enwau *Muskai* a *Tuplai*, medd Rawlinson. Dywed rhai mai llwyth Scythiaidd oedd y Tibareni, a'u bod hwy, ynghyd â'r Moschi, i'w hadnabod fel y bobl Turanaidd hyny a ymwasgarasant yn foreu iawn dros y gwledydd rhwng Môr y Canoldir ac India, a Môrgaingc Persia a'r Caucasus. Yn amser Sargon, yn ol yr arysgrifau, Ambris, mab Khuliya, oedd penaeth etifeddol Tubal (llechweddau deheuol y Taurus). Mewn amseroedd boreuach, yr oedd y Tibareni, a Mesech, a Thubal, fe allai, yn enwau ar fintëioedd mawrion o'r Scythiaid oedd yn adnabyddus i'r Hebreaid. Ond nid oes mewn hanesyddiaeth i'w gael am danynt ond yn unig sicrwydd eu bod wedi eu gyru i ben pellaf eu sefydliadau, a'u bod yn perchenogi darn cul o wlad ar lan y Môr Du. Yr oedd eu cymmydogion, y Caldeaid, yn yr un sefyllfa. Yn amser Herodotus, yr oedd y Moschi a'r Tibareni mewn undeb agosach â'u gilydd nag mewn cyfnod diweddarach. Y mae yn anhawdd iawn nodi allan derfynau y Tibareni gydag un gradd o sicrwydd.

Yr oedd y Tibareni yn llwyth annibynol yn amser Xenophon. Am amser maith cyn hyn, yr oeddynt wedi bod yn ddarostyngedig i nifer o fân benaethiaid; yr hyn oedd un o brif elfenau eu gwendid, ac a'u gwnelai yn llawer hawddach i Assyria eu darostwng. Y mae eu masnach mewn caethion a llestri pres, fel yr oedd pobl Tubal yn marchnadoedd Tyrus (*Ezec.* xxvii. 13), yn eu cyssylltu yn amlycach â Thubal. Gwyddys fod y fasnach mewn caethion yn flodeuog iawn yn mysg y Cappadociaid. Yn ol y cyfieithiad Arabaidd o *Gen.* x. 2, y mae Chorasan a China yn cael eu rhoddi i Mesech a Thubal. Dywed y Talmudiaid, medd Bochart, mai cartref yr *Uniaci* oedd Tubal; wrth y rhai, yn ol ei farn ef, y golygir yr Hunniaid. Ond y mae y darlleniad hwn, ynghyd â Thargumau Ierusalem a Jonathan ar *Gen.* x., yn rhy ammheus i'w dilyn, hyd yn oed fel traddodiad o ddim pwys.

**TUBAL-CAIN**: mab Lamech, o'i wraig Silah: *Gen.* iv. 22. Gelwir ef yn "weithydd pob cywreinwaith pres a haiarn." Y mae chwedl Iuddewig ddiweddarach yn ei gyssylltu ef â chân ei dad. "Yr oedd Lamech yn ddall," medd y chwedl a adroddir gan Rashi, "a Thubal-Cain yn ei arwain ef; ac efe a ganfu Cain, yr hwn a ymddangosai iddo ef fel bwystfil gwyllt: gan hyny efe a archodd ar ei dad i saethu â'i fwa, ac efe a'i lladdodd ef. A phan y gwybu efe mai Cain, ei hynafiad, a laddwyd, efe a gurodd ei ddwylaw ynghyd, ac a darawodd ei fab rhyngddynt. Felly y lladdodd efe ef, ac y ciliodd ei wragedd oddi wrtho; ond efe a ymheddychodd â hwynt." Yn ol y chwedl hon, Tubal-Cain ydyw y llangc yn y gân. Yn ol Josephus ["*Hynaf. Iudd.*" i. 2, *adr.* 2], yr oedd Tubal-Cain yn hynod am ei nerth dirfawr, a'i lwyddiant mewn rhyfel. Y mae y llwyth Scythiaidd, Tubal, y rhai oeddynt yn weithwyr mewn pres (*Ezec.* xxvii. 13), yn awgrymu yn naturiol i'n meddyliau fod cyssylltiad rhyngddynt â Thubal-Cain.

**TUDUR ALED**: bardd Cymraeg enwog yn

Digitized by Google

ei oes. Efe ydoedd bardd cadeiriol Eisteddfod Caerwys, yr hon a gynnaliwyd yn nheyrnasiad Harri VIII., yn y flwyddyn 1525. Efe, mewn gwirionedd, ar ol marwolaeth Dafydd ab Edmwnd, a ystyrid yn brif fardd ei oes yn mysg y Cymry, o leiaf yn Ngwynedd a Phowys. Yn Garth Geri Chwibren, ger Llansannan, ar lan afon Aled, yr oedd trigfod y bardd, ac oddi wrth yr afon hono y cymmerodd ei ffugenw barddol. Ymddengys mai yr adeg y blodeuai oedd, o 1480 hyd 1625. Yn ei ddyddiau ef Pabyddiaeth oedd yn ffynu yn Nghymru yn gyffredinol, ac yr oedd Tudur yn fynach o urdd St. Francis. Cymmerodd Syr Rhys ab Thomas ran bwysig yn yr ymdrechfa a ddygwyd yn mlaen i osod Harri Tudur, Iarll Richmond, ar orsedd Lloegr, ac yr oedd Tudur Aled yn un o bleidwyr gwresog Syr Rhys a Harri Tudur; a defnyddiodd Tudur ei awen i glodfori Syr Rhys fel milwr dewrfrydig Yr oedd Dafydd ab Edmwnd yn ewythr i'r bardd, ac wedi bod yn addysgwr iddo, dybygid, mewn llenyddiaeth a barddoniaeth Gymreig; ac y mae ei gyssylltiadau eglwysig yn ddigon o brawf nad oedd efe yn ddiffygiol mewn gwybodaeth eglwysig. Yn y ddwy eisteddfod fawr a gynnaliwyd yn Nghaerfyrddin, un yn 1451, a'r llall yn 1461, cadarnhawyd y pedwar mesur ar hugain yn ol trefniad Dafydd ab Edmwnd; ond y mae yn ymddangos mai i ran Tudur Aled y disgynodd yr un gorchwyl yn Ngwynedd a Phowys. Trwy ei offerynoliaeth ef cadarnhawyd rheolau Dafydd ab Edmwnd yn Eisteddfod Caerwys, sef yr hon y cyfeiriwyd ati uchod. Y mae dillynder, coethder, ac arabedd yn nodweddu gweithiau Tudur Aled i raddau mawr. Nid ydyw yr amser na'r lle y bu farw yn hollol hysbys; ond mynegir iddo gael ei gladdu yn Nhre'r brodyr, yn Nghehredigion.

†TUDUR, OWAIN: pendefig Cymreig, hiliogaeth yr hwn a fu yn eistedd ar orsedd Lloegr o'r flwyddyn 1485 hyd 1603. Y mae yr enw *Tudur* yn gyfystyr a *Theodore*. Mab ydoedd Owain Tudur i Meredydd ap Tudur, o Benmynydd, yn Môn. Disgynai yn y chweched genhedlaeth o Ednyfed Fychan, yr hwn oedd swyddog milwraidd o radd uchel yn myddin Llewelyn Fawr, a Gwenllian, merch i Rhys, tywysog y Deheubarth. Ganwyd gwrthddrych y sylwadau hyn yn 1385. Ymddengys iddo fyned i Lundain i astudio y gyfraith; ond gadawodd yr alwedigaeth hono, ac aeth ymaith i'r cyfandir, a mynegir ei fod yn ymladd yn mrwydr Agincourt. Yna dychwelodd yn ol i Lundain; a chan ei fod yn ddyn glân o bryd, a lluniaidd o gorph, bu yn llwyddiannus i ennill serch y frenhines Catherine o Ffraingc, gweddw Harri v. o Loegr, a phriodwyd hwynt yn ddirgelaidd yn 1428; a bu iddynt dri o feibion ac un ferch. Enwau y meibion oeddynt Edmwnt, Jasper, ac Owain. Bu farw y ferch yn ei mabandod. Dewisodd Owain fywyd mynach yn mynachdy Westminster, ond bu yntau farw yn ieuangc. Ni bu y frenhines fyw ond hyd 1437; ac wedi ei marw, yn ngofal Catherine de la Pole, merch iarll Suffolk, ac abades Berking, y rhoddwyd Edmwnt a Jasper. Nid yw yn ymddangos i sylw neillduol gael ei dalu i'r briodas hon yn ystod tymmor bywyd y frenhines; ond ar ol marwolaeth y frenhines waddolog pasiwyd cyfraith yn pennodi dirwy drom ar bwy bynag a briodai frenhines waddolog, heb ganiatâd neillduol y brenin. Daliwyd a charcharwyd Owain Tudur wedi hyn, ond llwyddodd i ddiangc oddi yno: a daliwyd a charcharwyd ef eilwaith, ond medrodd ddiangc drachefn. Cafodd amddiffyniad y brenin ieuangc, Harri VI., yr hwn a'i pennododd ef yn llywydd coedwigoedd Dinbych, ac a roddodd iddo barciau yn yr un arglwyddiaeth. Gwnaeth y brenin hefyd Edmwnd, ei fab hynaf, yn iarll Richmond; a'i fab ieuangaf, Jasper, yn iarll Penfro.

Dywed Pennant fod Jasper, iarll Penfro, wedi cymmeryd meddiant o dref Dinbych yn 1459, ynghyd âg amryw o leoedd ereill yn Nghymru, ar ran ei hanner brawd, Harri VI.; ond iddynt gael eu dwyn oddi arno y flwyddyn ddilynol. Yn 1461, aeth Owain Tudur, gyda'i fab Jasper, a llu o Gymry, a lluoedd o Wyddelod o dan arweiniad pendefig arall, yn erbyn Iorwerth, y duc o York (ar ol hyny Iorwerth IV.), ac ymladdwyd brwydr waedlyd rhyngddynt mewn lle a elwir Croes Mortimer, yn swydd Henffordd, pryd y gorthrechwyd hwynt gan Iorwerth. Ffodd Jasper, a llwyddodd i ddiangc; ond cymmerwyd Owain, ynghyd âg amryw o foneddwyr Cymreig ereill, yn garcharorion. Dienyddiwyd Owain yn mysg ereill yn Henffordd, a chladdwyd ef yn Eglwys y Grey Friars, o fewn y ddinas hono. Priododd ei fab Harri, yr iarll Richmond, Margaret, unig ferch ac etifeddes John Beaufort, y duc o Somerset, tad yr hwn oedd fab anghyfreithlawn i John o Gaunt a Catherine Swynford. Unig blentyn Richmond ac etifeddes Somerset, oedd Harri, y duc o Richmond; a gwahoddwyd ef o'r cyfandir i waredu Lloegr oddi wrth lywodraeth Richard III.; ac efe a esgynodd yr orsedd ar ol marwolaeth Richard ar faes Bosworth, fel Harri VII. Daeth pleidwyr tŷ Lancaster i'w gefnogi pan ddarfyddodd disgynyddion cyfreithlawn John o Gaunt; a thrwy ei briodas âg Elizabeth, merch hynaf Iorwerth IV., cynnrychiolydd tŷ Caerefrog, ystyriwyd ei fod yn uno yn ei berson ei hun hawliau y Rhosyn Gwyn a'r Rhosyn Coch. Bu pump o benaduriaid o dŷ Tudur yn meddiannu yr orsedd yn olynol; sef Harri VII., Harri VIII., Iorwerth VI., Mari, ac Elizabeth. Aeth y goron, ar ol Elizabeth, i Iago VI. o Ysgotland, o deulu Stuart, yn rhinwedd ei ddisgyniad o Margaret Tudur, merch Harri VII., a gwraig i Iago IV. o Ysgotland. Ac y mae gwaed Owain Tudur o Benmynydd Môn yn rhedeg yn ngwythïenau teulu brenhinol Prydain byth hyd heddyw.

TURENNE, HENRI DE LA TOUR D'AUVERGNE: un o wroniaid milwrol enwocaf Ffraingc. Ail fab ydoedd i Henri, yr ail dduc o Bouillon, ac Elizabeth o Nassau, merch William I. o Nassau-Orange. Ganwyd ef yn Sedan, yn nosbarth yr Ardennes, ar yr 11eg o Fedi, 1611. Dygwyd ef i fyny yn y grefydd ddiwygiedig, neu yr un Brotestanaidd; ac ar farwolaeth ei dad yn 1623, cafodd ei anfon i Holland, lle yr ymunodd â'r fyddin oedd dan lywyddiaeth ei ewythr —yr enwog Maurice. Dychwelodd i Ffraingc yn 1630, a chafodd swydd yn y fyddin. Yr oedd allan gyda byddin Bernard, o Weimar, yn Lorraine, yn y flwyddyn 1637, ac ennillodd glod uchel. Chwanegodd at ei enwogrwydd yn y rhyfelgyrch Italaidd, yn y flwyddyn ddilynol; ac yn 1641, cafodd brif lywyddiaeth y fyddin. Yr oedd ennill Roussillon, oddi ar yr Yspaeniaid, yn brawf amlwg o'i athrylith filwraidd anghyffredin; ac yn 1643, enwyd ef yn un o

Digitized by Google

faeslywyddion Ffraingc, ac yn gadlywydd y fyddin ar y Rhine, ac ennillodd amryw frwydrau yn yr Almaen; ond gorchfygwyd ef gan Mercy yn Marienthal y 5ed o Fai, 1645. Yn fuan wedi hyny adferwyd y golled ganddo ef a Conde yn mrwydr Nordlingen, pryd y lladdwyd Mercy. Mewn undeb â byddin Sweden efe a orfododd y duc o Bavaria i wneuthur heddwch yn 1647. Torodd y tywysog hwnw y cyttundeb, ond gorchfygwyd ef gan Turenne yn mrwydr Zumulhausen. Yn rhyfeloedd cartrefol Ffraingc efe a wrthwynebai y brenin ar y cyntaf; ond yn 1651, cymmodwyd ef â'r llys, a chafodd ei bennodi yn gadlywydd y fyddin frenhinol, ac felly yr oedd yn wrthwynebwr i'r tywysog Conde, yr hwn a arferai gydweithredu âg ef. Llwyddodd Turenne i orchfygu Conde, a'i yru allan o Ffraingc; ac ar ol hyny efe a ddarostyngodd y dinasoedd gwrthryfelgar, ac a gymmerodd amryw leoedd a berthynent i Yspaen yn yr Iseldiroedd, yr hyn a ddygodd heddwch oddi amgylch rhwng Ffraingc ac Yspaen. Adnewyddwyd y rhyfel rhwng Ffraingc a Holland yn y fl. 1667, a phennodwyd Turenne yn gadlywydd ar yr holl fyddinoedd, ac yn ddysgawdwr i Louis XIV. yn y gelfyddyd o ryfela; a chawsai hefyd ei bennodi yn benceidwad Ffraingc oni buasai ei fod yn Brotestant. Ond yn fuan ar ol hyn, mewn canlyniad i gymmhellion taer y brenin, a Bossuet, ac ereill, bu yn ddigon gwan i newid ei grefydd a throi yn Babydd. Yn 1674, gorchfygodd Franche-Comté; yr hyn fu yn achlysur i gynghrair gael ei ffurfio rhwng y taleithiau Almaenaidd i wrthwynebu Ffraingc. Er attal eu hymuniad â'u gilydd, ymosododd Turenne ar y fyddin a lywyddid gan y duc o Lorraine, ac ennillodd fuddugoliaeth hollol arni. Wedi hyny gorchfygodd y fyddin Almaenaidd yn Mulhausen, a thrachefn yn Turkheim. Yna pennodwyd Montecuculi i gymmeryd y maes yn ei erbyn; a thra yr oedd y ddwy fyddin yn ngolwg eu gilydd, ac yn darparu at frwydr, lladdwyd Turenne â phelen o fagnel a daniwyd o wersyll y gelyn yn Salzbach, yn 1675. Yr oedd coffadwriaeth y milwr glew a llwyddiannus hwn yn barchus iawn gan ei fyddin. Gadawodd ar ei ol hanes ei ryfelgyrchoedd, o 1643 hyd 1658, yr hwn sydd o gryn ddyddordeb i astudiwr hanesyddiaeth. Cyhoeddwyd amryw fywgraphiadau o'r rhyfelwr enwog hwn gan Raguenet, Ramsay, Buisson, D'Arvigny, ac ereill.

TURKESTAN: 'gwlad y Tyrciaid:' a elwir hefyd *Jagatai*, a chan y Persiaid *Turan*, sydd wlad eang yn nghanolbarth Asia, yn ymestyn o'r Môr Caspiaidd yn ddwyreiniol draw i Lobnor, ac o Siberia i Dzungaria, ac yn ddeheuol i Persia, Afghanistan, a Tibet. Y mae cadwen o fynyddoedd mawr yn rhedeg ar ei thraws o'r gogledd i'r deheu, a elwir y Bolor-tag, ac yn ei gwahanu i ddwy ran, heb fod yn gyfartal o ran maint. Y mae y gyfran orllewinol a adwaenir yn gyffredin fel Turkestan Orllewinol, neu Turan, yn ol yr amcangyfrif a wneir, tua 900,000 o filldiroedd ysgwâr, yn meddu poblogaeth o tua 7,000,000, ac yn gynnwysedig o wastadedd mawr yn terfynu ar y Môr Caspiaidd a'r Aral, ac y mae y parthau bryniog yn cael eu dyfrhau yn dda o fynyddau y Bolor-tag a'r Thian-shan. Anialdir tywodlyd ydyw y gwastadedd hwn gan mwyaf, âg ambell i lanerch gwyrddlas a ffrwythlawn yma a thraw. Y mae yn y parthau dwyreiniol ddyffrynoedd nodedig o gynnyrchiol, yn cael eu dyfrhau yn helaeth gan lawer o afonydd sydd yn ymuno â'u gilydd i ffurfio yr Amu-Daria a'r Sir-Daria—afonydd mawrion y wlad. Amrywia yr hinsawdd ar y gwastadeddau, o eithafion oerni i wres mawr; ac er fod yr oerni yn y gauaf yn mron gymmaint yn yr ucheldiroedd dwyreiniol, y mae y gwres yn yr haf yno yn llawer llai. Prif afonydd Turkestan ydynt y Sir-Daria a'r Amu-Daria, sydd yn llifo yn araf tua Môr yr Aral—un trwy y gogledd, a'r llall drwy ganol y wlad: y Zer-Afshan, yr hon a gyfoda ar du y deheu i fynyddoedd yr Asfera-tag, ac a lifa yn orllewinol am bedwar can milldir, gan ymdywallt i lyn halenaidd ger Bokhara: a'r Murghab, yr hon y mae ei tharddiad yn mynyddoedd y Ghur, ac ar ol llifo am bedwar cant a hanner o filldiroedd, sydd yn ymgolli yn y morfa y tu hwnt i Merv.

Y mae cynnyrch llysieuol y wlad yn ffrwythydd o ragoriaeth digymmhar—yn benaf afalau, *peatus*, pomgranadau, bricyll (*apricots*), grawnwin, a melonau. Ceir yno rawn o bob math; cotwm, llin, cywarch, a myglys; a chryn swm o sidan. O'r braidd y gellir dywedyd fod fforestydd yn yr ardaloedd eang hyn. Ceir rhywfaint o lwch aur yn Turkestan, a haiarn, copr, plwm, asurfaen, a glasfaen, &c. Y mae halen mewn cyflawnder mewn rhai parthau o honi. Amaethu y tir a magu anifeiliaid ydyw gwaith mawr y preswylwyr; er fod cryn lawer o lawweithfaoedd yn cael eu dwyn yn mlaen yn benaf yn Urgendji, Bokhara, Karshi, Khokan, a Namenghan. Y mae y cynnyrchion yn cynnwys cotwm, sidan, llian, gwlân, lledr, llawrleni, &c. Defnyddir y rhan fwyaf o'r cynnyrchion hyn yn y wlad ei hun; ond y mae cryn lawer yn cael eu hanfon allan i Rwssia, Persia, Afghanistan, Hindwstan, a China. Dygir amryw nwyddau yno o Rwssia, China, Afghanistan, ac India. Y mae chwe mil o gamelod yn cael eu defnyddio yn y fasnach a ddygir yn mlaen ar draws y wlad, o ba rai y mae dros bedair mil yn gweithio yn y fasnach gyda Rwssia yn unig. Dosberthir Turkestan i amryw o daleithiau annibynol; sef, Khokan, yn y gogledd-ddwyrain; Khiva, yn y gorllewin; Bokhara yn y dwyrain a'r canolbarth; a Kundus neu Badakshan yn y de-ddwyrain. O'r rhai hyn, Khokan ydyw yr eangaf, y fwyaf ffrwythlawn, a'r fwyaf poblog; er fod Bokhara a Khiva lawer gwaith wedi profi eu hunain yn fwy galluog a rhyfelgar. Y mae y trigolion yn perthyn i amryw genhedloedd; ond y Sarts neu y Tajikiaid, preswylwyr gwreiddiol y dinasoedd, y rhai sydd o ddeilliad Persiaidd, ynghyd â'r Uzbekiaid, yr Hindwaid, a'r Iuddewon, sydd yn ffurfio y boblogaeth sefydlog. Y grefydd a broffesir yn gyffredinol yno ydyw Mahometiaeth. Un o nodweddau amlycaf llywodraeth canolbarth Asia ydyw yr eiddigedd a ddangosir ganddynt tuag at ddyeithriaid; yr hyn sydd yn cadw teithwyr Ewropaidd o'r bron yn hollol allan o'r wlad: ac o blith yr ychydig ddynion dewr a feiddiasant fyned yno, ni ddychwelodd y rhan fwyaf o honynt byth oddi yno; sef Conolly, Stoddart, Moorcroft, Guthrie, Schlagentweit, ac ereill.

Cymmerodd Turkestan ran bwysig yn hanes Asia o'r amseroedd boreuaf. Y mae yr ymrysonau a gymmerasant le rhwng yr Iraniaid a'r Turaniaid yn cael lle amlwg yn nhraddodiadau Persia; ac yn ol y goleuni cyntaf y mae hanesyddiaeth yn ei daflu ar y wlad, gwelir fod Balkh a Bokhara yn wledydd diwylliedig a phoblog y pryd hwnw—wedi eu poblogi gan y Persiaid, ac



Digitized by Google

yn gyffredin yn perthyn i'r ymherodraeth hono hefyd. Syrthiodd Turkestan, ynghyd â Phersia, i ddwylaw y Macedoniaid; y rhai a wnaethant Bactria yn deyrnas Roegaidd annibynol, tra yr oedd y gweddill yn meddiant y Parthiaid. O dan y Sassaniaid, eangwyd y terfynau Persiaidd drachefn hyd y Jaxartes; ond parodd dyfodiad graddol y llwythau Tyrcaidd o'r gogledd-ddwyrain ar du y deheu i'r afon hono, i derfysgoedd gymmeryd lle yn feunyddiol ar y terfynau, nes o'r diwedd y meddiannodd y goresgynwyr ran fawr o'r wlad. Yn yr wythfed ganrif o'r cyfnod Cristionogol, cymmerodd yr Arabiaid feddiant o Turkestan; ac wedi myned trwy lawer o gyfnewidiadau, cyfododd Tamerlane i awdurdod yn Turkestan; ac am ysbaid pymtheg mlynedd ar hugain, gwnaeth hi yn ganolbwynt ymherodraeth eang, a ymestynai o'r Hellespont i gyffiniau China, ac o Moscow i'r Ganges. Y cyfnod hwn oedd oes aur Turkestan. Nid oedd ei phenadur galluog yn blino ar y gwaith o addurno ei dinasoedd âg ysbail ei fuddugoliaethau; dygai iddi ddynion dysgedig, a chrefftwyr cywrain o wahanol wledydd; ac o dano ef a'i olynwyr uniongyrchol, daeth Samarkand i fod yn ganolbwynt dysg a gwybodaeth. Ond ar ol marwolaeth Shah Rokh, mab ieuangaf Tamerlane, dosbarthwyd yr ymherodraeth yn fân ddarnau; ac yn mhen ysbaid, cymmerwyd Persia oddi ar deulu Tamerlane, tra y darfu i'r Usbekiaid hefyd eu gyru o'r wlad oedd i'r gogledd i'r Amu-Daria. Wedi hyny, un o'r tywysogion alltudiedig, sef Mirza Baber, a sylfaenodd ymherodraeth y 'Mogul Mawr' yn Hindwstan. Gorchfygwyd Khiva gan Nadir Shah yn 1740, a chyfyngwyd Bokhara i lan ddeheuol yr Amu-Daria; ond adfeddiannodd y Kirghis annibyniaeth Khiva, yr hon a lywodraethwyd ganddynt hyd 1792, pan y cafodd y deyrnach Usbekaidd a lywodraetha yno yn bresennol feddiant o'r orsedd. Nid yw hanes diweddar Turkestan ond cyfres o ryfeloedd rhwng Bokhara a Khokan, a Bokhara a Khiva; yn y rhai yr oedd y Bokhariaid yn gyffredin yn llwyddiannus, gan eu bod yn cael cynnorthwy Turkomaniaid yr anialwch deheuol. Yn 1862, llwyr orchfygwyd Khokan gan Emir Bokhara; ond yn 1864, darfu i'r Rwssiaid, y rhai am lawer o flynyddoedd sydd wedi bod yn araf weithio eu hunain yn mlaen tua'r Sir-Daria, ac er 1854 yn meddu cryn ddylanwad yn Khiva, oresgyn Khokan, gan gymmeryd Tashkend a Khokan. Mewn ffordd o ddial am hyn, darfu i Emir Bokara garcharu y llysgenhadwyr Rwssiaidd oedd yn ei lys, a chodi byddin i yru ymaith y goresgynwyr; ond ar y maes, Rwssia a orchfygai y rhan fynychaf; ac yn 1866, gorfodwyd yr Emir i wneuthur heddwch. Ac erbyn hyn y mae Rwssia wedi gweithio yn mlaen yn mhellach yn yr un cyfeiriad.

TURKESTAN DWYREINIOL, a elwir Tartary Uchaf, a'r Turkestan Chineaidd, sydd, yn ol yr amcangyfrif a geir, o 500,000 i 800,000 o filldiroedd ysgwâr, ac yn cynnwys poblogaeth o un i dair miliwn. Terfynir hi ar du y gogledd gan diriogaethau Rwssia, ar du y dwyrain gan Mongolia, ar du y deheu gan Tibet a Cashmere, ac ar du y gorllewin gan fynyddoedd y Bolor-tag. Dosberthir hi gan y Chineaid i ddwy dalaeth, *Thian-shan pe-lû* yn y gogledd, a *Thian-shan nan-lû* yn y deheu. Ucheldir ydyw y dalaeth ogleddol, yr hon sydd yn llawer llai na'r ddeheuol; yn cael ei gorchuddio â mynyddoedd mawrion a bychain yn mhob cyfeiriad. Yr afonydd pwysicaf ydynt yr Ili, a ymarllwysa i Lyn Balkash, a'r Irtish; ond y mae ynddi lawer o rai llai. Y mae y dalaeth ddeheuol yn hollol wahanol o ran ei nodwedd: er fod ynddi fynyddoedd mawrion a lliosog, y mae ynddi hefyd lawer o ddyffrynoedd dyfnion. Y mae rhanau helaeth o honi yn anghymmhwys i'w hamaethu; ond y mae llanerchau ffrwythlawn yn y dyffrynoedd lle y rhed yr afonydd drwyddynt, yn y gogledd, yn cynnyrchu porfeydd da i ddeadelloedd a minteioedd lliosog o anifeiliaid; ac yn y deheu, o dan haul poeth yr haf, yn cynnyrchu ŷd o wahanol fathau, a ffrwythydd o ansawdd rhagorol. Ceir yn Turkestan ddwyreiniol aur, haiarn, copr, neitr, brwmstan, a meini gwerthfawr. Y mae y preswylwyr yno gan mwyaf yn arosol a sefydlog, ac yn amaethwyr, a'r rhan fwyaf yn proffesu bod yn Usbekiaid; ond wrth eu cymmharu âg Usbekiaid gwirioneddol y Turan y mae yn hawdd canfod anghywirdeb hyn. Tra thebygol ydyw mai hiliogaeth gymmysg ydynt, o ddeilliad Iranaidd, Khirghisaidd, a Kalmuckaidd. Yn nesaf mewn pwysigrwydd atynt y gellir ystyried Kalmuckiaid y gogledd, a'r Chineaid sydd yn y prif drefydd. Yn olaf, gellir nodi y Tungani, y rhai ydynt o darddiad Chineaidd, yn rhifo tua miliwn o nifer, ac wedi troi i gofleidio Mahometiaeth ynghylch y flwyddyn 1400; ac y maent yn hynod am eu sêl dros y grefydd hono. Ychydig wyddys am hanes boreuol yr ardal hon cyn ei gorchfygiad gan Genghis Khan: ond ar ol adfeiliad ei ymherodraeth ef, ymddrylliodd yn fân daleithiau; ac yr oeddynt yn parhaus ymryson â'u gilydd, hyd nes y darfu i amryw o'r arweinwyr wahodd y Chineaid i gymmeryd meddiant o'r wlad; ac o'r diwedd penderfynasant wneuthur hyny yn 1758. O'r pryd hwnw y mae yn cael ei chyfrif yn un o'r pum dosbarth mawr, i ba rai y mae ymherodraeth China wedi ei rhanu. Gweinyddir y cyfreithiau yno gan y Chineaid yn hynod o dyner; cospir pob ymgais a wneir i broselytio; codir trethi yn unffurf; gweinyddir cyfiawnder yn y llysoedd yn hollol ammhleidiol; ac ymestrir yn wirfoddol i'r fyddin. Y dinasoedd mwyaf blodeuog yn y Turkestan Chineaidd ydyw Khoten ac Yarkand: y rhai mwyaf o ran maintioli yw Tûrfan, Ili, a Komul: a'r rhai a anrhydeddir fwyaf ydyw Aksu a Kashgar.

TURLUPIAID: enwad crefyddol a ymddangosodd ynghylch y flwyddyn 1372, yn benaf yn Savoy a Dauphiny. Dysgent fod dyn, pan wedi cyrhaedd i sefyllfa bennodol o berffeithrwydd, yn cael ei ryddhau o bob rhwymedigaeth i fod yn ddarostyngedig i'r gyfraith ddwyfol. Mynegir y byddent yn fynych i'w gweled yn noeth; ac nid oeddynt yn caniatau gweddio ar Dduw ond yn y meddwl yn unig. Adroddiadau gwrthwynebwyr am danynt ydyw y rhai hyn, rhaid addef. Galwent eu hunain yn 'Frawdoliaeth y Tlodion."

TURNER, JOSEPH MALLARD WILLIAM: un o'r penaf o barthluniedyddion (*landscape painters*) Prydain. Ganwyd ef yn Maiden Lane, Covent Garden, Llundain. Nid yw dydd ei enedigaeth yn hysbys; ond gwyddys iddo gael ei fedyddio ar y 14eg o Fai, yn 1775. Mab i eilliwr ydoedd efe, a diffygiol iawn oedd yr addysg foreuol a dderbyniodd. Amlygodd fod ynddo duedd gref at y gelfyddyd o arlunio yn gynnar iawn; ac yr oedd yn wrthddrych sylw

Digitized by Google

o blegid hyny. Bu Dr. Munro yn gymmhorth neillduol iddo, trwy ei gefnogi mewn amryw ffyrdd. Aeth yn efrydydd i'r Athrofa Frenhinol yn 1789, lle yn ddiau y dysgodd ryw gymmaint; ond y mae yn ymddangos ei fod yn fwy dyledus i'w athrylith ac i'w ymdrechion ei hun am ei ragoriaeth nag i'r manteision a gafodd yno. Pan nad oedd ond deuddeng mlwydd oed, yn 1787, dangosodd ddau ddarlun yn yr Athrofa Frenhinol. Drachefn, yn 1790, dangosodd yno ddarluniau ereill; a pharhaodd i ddangos ei weithiau yno hyd ei farwolaeth, heb fethu oddi eithr am flwyddyn neu ddwy. Y mae ei lwyddiant yn ei gelfyddyd yn cael ei brofi yn amlwg gan y ffaith ddarfod iddo gael ei ethol yn gydymaith o'r Athrofa Frenhinol yn 1799, ac yn aelod llawn o'r Athrofa dair blynedd yn ddiweddarach. Yr oedd yn hollol haeddiannol o'r anrhydedd, canys cydnabyddid ef eisoes y parthlunied ydd penaf yn ei oes; ond camgymmeriad oedd ei bennodi, yn 1807, i'r swydd o ddarlithiwr mewn cyssylltiad â'i gelfyddyd. Troi yn fethiant a wnaeth yn y cynnygiad hwn; ac nid hir y daliodd y swydd. Nid oedd yn feddiannol ar y ddawn o gyfranu ei wybodaeth eang ei hun i ereill.

Teithiodd lawer yn Ysgotland, Ffraingc, a Switzerland, a gwledydd y Rhine; ac yn 1819, 1829, ac 1840, talodd ymweliadau âg Italy. Yr oedd ei ddiwydrwydd, fel ei athrylith, o'r bron yn ddigyffelyb. Drwy y cwbl, efe a ddangosodd ddau cant a phedwar ar bymtheg a deugain o ddarluniau yn yr Athrofa Frenhinol; ond nid yw llawer o'i weithiau mwyaf rhagorol yn gynnwysedig ynddynt. Yn 1808, efe a ddechreuodd gyhoeddi ei "*Liber Studiorum;*" sef, cyfres o gerfluniau a darluniau gwreiddiol, yr hyn a ystyrir yn un o'i anturiaethau pwysicaf; ac at hwn efe a chwanegodd "*Scenery of the Southern Coast, England and Wales, Rivers of England, Rivers of France,*" &c.

Ar ol ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le ar y 19eg o Ragfyr, 1851, yn Chelsea, lle y treuliodd efe y blynyddoedd olaf o'i oes mewn tŷ bychan ar lan yr afon, cafwyd ei fod wedi gadael y casgliad ardderchog o'i weithiau yn gymmunrodd i'r genedl; ac y mae y darluniau hyny yn awr mewn ystafell yn yr Oriel Genedlaethol, ac yn gofgolofnau o nerth ac ysblander ei athrylith fel arlunydd o'r radd flaenaf. Gadawodd ar ei ol gyfoeth mawr—dim llai na 200,000*p.*—a gasglwyd ynghyd ganddo trwy ddiwydrwydd ac ymroddiad mawr. Yn ei ewyllys diweddaf, efe a'u gadawodd i sylfaenu nawdd-dy i arlunwyr methedig ac afiach; ond o herwydd rhyw anffurfioldeb yn yr ewyllys, nis gellid cario allan yr amcan hwn.

Y mae Ruskin, yn ei "*Modern Painters,*" wedi ymdrin yn helaeth âg athrylith a rhagoriaethau celfyddydol Turner: a rhai blynyddoedd yn ol, cyhoeddwyd "*The Life of Turner,*" gan Walter Thornbury. Y mae y darlun a dynir ganddo braidd yn dywyll a phoenus. Nid oedd bywyd yr hwn a greodd gymmaint o'r hyn sydd brydferth yn ei ddarluniau yn amlygu nemawr o ledneisrwydd. Yr oedd Turner yn erwin, yn grintachlyd, a chybyddlyd yn ei arferion. Yn nghylch ei awyddfryd cryf am arian, y mae llawer o enghreifftiau yn cael eu hadrodd; ond y mae yn deg dywedyd, fod yr ychydig gyfeillion a'i hadwaenent yn dda, yn tystio ei fod yn ddyn o natur garedig, os nad haelfrydig. Gorwedda ei weddillion yn nghelgafell Eglwys St. Paul, yn ochr Syr Joshua Reynolds.

TURTUR—OD (תּוֹר: *Tur* neu *Thor; Colomen fair*). Ceir y crybwylliad cyntaf am y durtur yn *Gen.* xv. 9, lle y gorchymynir i Abraham ei hoffrymu gydag aberthau ereill. Yn y gyfraith Lefiticaidd, gorchymynid i'r rhai oeddynt yn rhy dlawd i aberthu oen, neu fynn, i offrymu dwy ddurtur, neu ddau gyw colomen. Mewn un amgylchiad, sef yn achos Nazareaid wedi eu halogi trwy gyffyrddiad damweiniol â chorph marw, yr oedd pâr o ddurturod, neu ddau gyw colomen, i'w darparu yn offrwm pennodol: *Num.* vi. 10. Nid oes genym brawf yn nghofnodau boreuol yr Hebreaid am un aderyn wedi ei wneyd yn aderyn teuluaidd ond y golomen; ac hyd amser Solomon, yr hwn a ddaeth â'r paun, ac adar ereill o India, fe allai mai y golomen yn unig o'r dôf-adar oedd yn adnabyddus yn Israel. Y mae hi yn arferiad etto i gadw nifer fawr o golomenod gan drigolion trefydd a phentrefydd Palestina; ac y mae amryw o'r hiliogaethau mwyaf dewisol o honynt sydd yn y wlad wedi cael eu holrhain yn ol i darddiad Syriaidd. Rhaid fod offrwm o ddau gyw colomen o fewn cyrhaedd y tlotaf; ac yr oedd offrwm pob un yn cael ei gymmeradwyo yn ol yr hyn oedd ganddo yn ei feddiant. Yr oedd offrwm o bâr o ddurturod, fe allai, yn arwyddo mwy o dlodi; o herwydd yr oedd tuedd grwydrol ac ofnus yr aderyn yn peri nad oedd erioed wedi ei gadw yn aderyn teuluaidd fel y golomen; ond yn gymmaint a'u bod yn hynod liosog, ac yn mynychu y gerddi i nythu, yr oedd yn hawdd i'r sawl nad oedd ganddynt golomenod ddal dau ddurtur ieuangc.

Y mae yn eithaf tebygol mai durturod y palmwydd oedd i'w cael fynychaf yn yr anialwch yn offrwm, o herwydd y mae y cyfryw i'w cael mewn lliosawgrwydd anarferol yn mhob man lle y ceir palmwydd. Yn mhob llanerch ffrwythlawn a geir yn ngogleddbarth Affrica ac Arabia, y mae pob palmwydden yn gartref i ddau neu dri o barau o'r adar prydferth hyn. Yn mhen uchaf llawer o'r tal-balmwydd canfyddir pump neu chwech o nythod gyda'u gilydd. Mewn gwersyllfa fel Elim, diau y gallesid cael cyflawnder o'r adar hyn. Oddi wrth arfer yr adar o gymmharu â'u gilydd, a'u ffyddlondeb y naill i'r llall dros fywyd, yr oeddynt yn arwydd o burdeb, ac yn offrwm priodol. Cymmh. Plin. "*Nat. Hist.*" x. 52. Cyfeirir at ymfudiad rheolaidd y durtur, a'i dychweliad yn y gwanwyn, yn *Ier.* viii. 7; "Y durtur hefyd, a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad:" ac yn *Can.* ii. 11, 12; "Canys wele y gauaf a aeth heibio... clywyd llais y durtur yn ein gwlad." A dywed Pliny fod y durturod yn treulio yr haf mewn gwledydd oer, a'r gauaf yn y rhai cynnes. Nid oes arwydd mwy derbyniol o ddyfodiad yr haf yn y gwledydd ar lenydd Môr y Canoldir na llais y durtur. Tra y mae adar ereill yn canu yn benaf yn y boreu, neu yn awr ac eilwaith yn ystod y dydd, y mae y durtur, mor fuan ag yr ymddengys yn y wlad, yn tywallt allan ei chathl bruddaidd, ond dymunol, o bob gardd, llwyn, a choedwig, o'r boreu hyd yr hwyr yn barhaus. Wrth feddwl am ei nodau cwynfanus yn ddiau y darfu i Dafydd yn *Salm* lxxiv. 19, dywallt allan ei gŵyn ger bron yr Arglwydd, a chymmharu ei hun i'r durtur.

O blegid lliosawgrwydd llwythau y golomen, a'u pwysigrwydd fel defnydd ymborth, yr oedd yr hynafiaid yn disgrifio rhywogaeth y *Columbidæ*, yn fanylach na'r lleill. Nodai Aristotle

Digitized by Google

bum rhywogaeth; ond nid oes yn awr ond pedair rhywogaeth yn adnabyddus yn ngwlad Groeg. Y mae y rhywogaethau yn Mhalestina, dybygid, yn lliosocach; a dywedir fod yr adar hyn yn dra lliosog yn nyffryn yr Iorddonen.

TWNG, TYNGU. Gwel LLW—ON.

TWR. Sonir am dyrau gwyliadwriaethol yn yr Ysgrythyrau, a adeiledid ar gyffiniau gwahanol wledydd, megys, tŵr Edar, &c. (*Gen.* xxxv. 21; *Can.* vii. 4; *Esa.* xxi. 5, 8, 11; *Ier.* vi. 27; *Mic.* iv. 8; *Hab.* ii. 1): tŵr Libanus, yr hwn o bossibl, oedd un o amddiffynfeydd Dafydd: 2 *Sam.* viii. 6. Adeiladwyd tyrau tebyg hefyd er amddiffyn y ffynnonau a'r pydewau, ac er noddi deadelloedd a masnach, gan y brenin Uzziah, yn y gwastadeddau a'r dyffryndir lle y porai yr anifeiliaid; a chan ei fab ef, Iotham, yn y coedwigoedd: 2 *Cron.* xxvi. 10; xxvii. 4. Gellir canfod olion o'r cyfryw dyrau ac amddiffynfeydd hyd heddyw; pa rai, er nad ydynt eu hunain, fe allai, o hynafiaeth mawr, etto y mae yn dra thebyg eu bod wedi eu codi yn y manau lle yr oedd rhai ereill cyffelyb yn flaenorol.—Robinson, ii. 81, 180. Heb law yr adeiladau milwrol hyn, yr ydym yn darllen yn yr Ysgrythyrau am dyrau ereill, wedi eu hadeiladu mewn gwinllanoedd, fel pethau a ystyrid yn angenrheidiol iddynt:—"Ac efe a'i cloddiodd hi (y winllan), ac a'i digaregodd, ac a'i planodd o'r winwydden oreu, ac a adeiladodd dŵr yn ei chanol;" *Esa.* v. 2; *Mat.* xxi. 33; *Marc* xii. 1. Y mae tyrau o'r fath yn cael eu defnyddio hyd heddyw yn Mhalestina, yn enwedig yn agos i Hebron, ac ynddynt y mae ceidwaid y gwinllanoedd yn cysgu.—Robinson, i. 213; ii. 81.

TWR LLUNDAIN. Yn yr amseroedd gwriogaethol, yr oedd Tŵr Llundain yn amddiffynfa gadarn; wedi hyny, bu am amser maith yn cael ei ddefnyddio yn garchardy i gadw troseddwyr gwleidyddol; ac yn awr y mae yn ystordy arfau y llywodraeth, ac i ryw raddau etto yn fath o amddiffynfa. Casgliad o adeiladau pedwarochrog afreolaidd ar godiad tir ar lan y Tafwys ydyw y Tŵr, ac yn sefyll yn union i'r dwyrain o ddinas Llundain. Saif ar o ddeuddeg i dair erw ar ddeg o dir, ac y mae y cyfan yn cael ei amgylchu gan ffos o gryn led, ond lled fâs. Y mae y ffos hon yn gyffredin yn sych, ond y mae y gwarchodlu yn gallu ei llenwi â dwfr. Wrth edrych arni oddi allan, y mae ar ymyl fewnol y ffos fur uchel, a thyrau yma a thraw arni; a thu mewn i'r mur hwn y mae un arall uwch, o wneuthuriad cyffelyb, ond ei fod yn uwch; a thu mewn i'r mur yma drachefn y mae yr arfdai a'r lluestai milwraidd, &c.; ac yn y canol y mae yr adeilad mawr a adwaenir wrth yr enw Tŵr Gwyn. Adeiladwyd y tŵr hwn gan Gundulph, esgob Rochester, yn amser Gwilym y Goresgynydd, ac y mae yn tebygu i Gastell Rochester; a dyma ydyw y mwyaf dyddorol a hynafol o'r cyfan. Y mae ei furiau mewn rhai manau yn un droedfedd ar bymtheg o drwch, ac yn waith maen trwyadl drwyddo. Y tŵr hwn oedd llys y brenhinoedd Plantagenaidd. Yr hyn sydd yn gwneyd hanes y tyrau ereill yn ddyddorol ydyw y carcharorion pendefigaidd a fuont yn nychu ynddynt, ac a arweiniwyd o honynt i'r dienyddle. Yn y gongl dde-ddwyreiniol y mae Capel St. Pedr, yr hwn a ddefnyddir yn awr yn eglwys i'r gwarchodlu. Mewn cwr arall, y mae tŷ y gemau, lle y cedwir gemau y goron, yn cynnwys amryw goronau, teyrnwialenod, a gemau o ddirfawr werth. Yn agos i'r adeilad hwn y mae arfdy y meirchfilwyr, ac ynddo gasgliad mawr o hen arfau a rhyfelwisgoedd. Y mae yn rhaid i ymwelwyr dalu rhyw gymmaint am weled gemau y goron a'r arfdy hwn.

Dywed ysgrifenwyr boreuol mai Julius Cæsar a adeiladodd Dŵr Llundain gyntaf yn gaerfa Rhufeinaidd; ond nid un dystiolaeth ysgrifenedig ar gael yn dangos fod un gaerfa ar yr ysmotyn hwnw hyd nes yr adeiladwyd y Tŵr Gwyn gan yr esgob Gundulph, yn 1078. Ymddengys fod yno ryw adeilad Sacsonaidd o'r blaen, fel y gellir casglu oddi wrth y sylfeini cryfion a ddarganfyddwyd yno wrth adeiladu yn ddiweddarach; ond ni wyddys ddim am y cyfryw adeiladau. Yn ystod teyrnasiad y ddau frenin Normanaidd cyntaf, y mae yn ymddangos nad oedd y Tŵr ond amddiffynfa yn unig. Yn amser Harri I., yr oedd yn garchardy gwladwriaethol. Darfu i'r penadur hwnw, a'i olynwyr, chwanegu ato nes ei wneyd yn gaerfa o'r radd flaenaf yn yr amseroedd gwriogaethol. Trigai y brenhinoedd yn fynych ynddo, a chadwent eu llysoedd yno; a buont fwy nag unwaith yn amddiffyn eu hunain o'i fewn yn erbyn ymosodiadau eu deiliaid. Y rhai diweddaf o'r rhestr faith o bersonau a ddienyddiwyd am droseddau gwladol oeddynt Arglwyddi Kilmarnock, Balmerino, a Lovat, ar ol gwrthryfel 1745. Carcharwyd Wilkes a Horne Tooke, ac ereill, yno ar ol hyny. Y mae amryw gofebau dyddorol wedi eu tori mewn llythyrenau gan y carcharorion anhapus ar furiau eu celloedd.


Torodd tân difrifol allan yn Nhŵr Bowyer, yn y flwyddyn 1841, ac a ymdaenodd hyd yr arfdai, ac a ddinystriodd amryw o adeiladau diweddar a llawer o filoedd o arfau rhyfel. Y mae y Tŵr yn awr yn ystordy arfau mawr, o dan ofal swyddfa y rhyfel, ac y mae yn cynnwys digon o arfau i arfogi byddin liosog. Yma yr oedd y bathdy a'r cofnodion cyhoeddus yn cael eu cadw gynt; ond y maent yn bresennol wedi eu symmud i adeiladau mwy cymmhwys. Pan bennodwyd Flamsteed yn arolygwr seryddol, efe a wnaeth ei sylwadau ar ben y Tŵr Gwyn; ond ar ol hyny, symmudodd ei arsyllfa i Greenwich. Nis gellir dyweyd, wrth edrych ar y Tŵr fel amddiffynfa, ei fod yn gymmhwys i sefyll yn wyneb ymosodiadau arfau diweddar. Y mae llywodraeth y Tŵr yn cael ei ymddiried i gwnstabl; yr hwn sydd yn meddu cryn freintiau, ac sydd yn gyffredin yn hen swyddog milwraidd o gymmeriad uchel, ac y mae ganddo ychydig o swyddogion dano yn gofalu am y lle.

TY (בית: *οἶκος*: *domus*: *house*): trigfod, yn gyffredinol, pa un bynag ai yn llythyrenol fel tŷ, pabell, palas, caerfa, neu fedd. Er mewn iaith ddwyreiniol, fod pob pabell yn cael ei hystyried yn dŷ, etto y mae y gwahaniaeth rhwng tŷ arosol a phabell yn ddigon amlwg o'r amser yr ymranodd dynion i fod yn breswylwyr pebyll ac yn adeiladwyr dinasoedd; hyny yw, preswylfeydd arosol: *Gen.* iv. 17, 20; *Esa.* xxxviii. 12. Nid oedd yr Hebreaid yn aros mewn dinasoedd hyd nes y daethant i ymdeithio i'r Aipht, ac ar ol gorchfygu Canaan (*Gen.* xlvii. 3; *Exod.* xii. 27; *Heb.* xi. 9): ond yr oedd y Canaaneaid, yn gystal a'r Assyriaid, yn adeiladwyr a phreswylwyr dinasoedd o'r amseroedd boreuaf; ac i ddinasoedd a adeiladwyd gan y blaenaf yr aeth yr Israeliaid

Digitized by Google

ar ol gorchfygu y wlad: *Gen.* x. 11, 19; xix. 1; xxiii. 10, xxxiv. 20; *Num.* xi. 27; *Deut.* vi. 10, 11. Y mae tai yr Assyriaid a'r Babiloniaid wedi malurio; ond y mae defnyddiau parhaol a chedyrn y tai yn Syria, ar y dwyrain i'r Iorddonen, yn gyfryw, fe allai, fel y gellir tybied fod ambell un o honynt a adeiladwyd yn yr hen amseroedd, yn aros hyd y dydd hwn. Wrth ddyfalu pa fath oedd cynllun a threfniadau yr hen dai Iuddewig neu ddwyreiniol y cyfeirir atynt yn yr Ysgrythyrau, oddi wrth adeiladau sydd yn awr yn sefyll yn Syria, yr Aipht, a'r dwyrain yn gyffredinol, dylid cofio fod gwahaniaeth mewn hinsawdd rhwng yr Aipht, Persia, a Palestina, a bod hyn yn peri fod gwahaniaeth yn nefnyddiau a gwneuthuriad tai, yn gystal ag mewn trefniadau teuluaidd.

Y mae tai y tlodion yn mharthau gwledig yr Aipht, yn gystal ag yn y rhan fwyaf o Syria, Arabia, a Phersia, yn fythynod wedi eu gwneyd o laid, neu briddfeini wedi eu llosgi gan yr haul. Mewn rhai parthau o Palestina ac Arabia, defnyddir ceryg; ac mewn manau ereill, defnyddir ogofäau yn y creigiau yn breswylfeydd: *Amos* v. 11. Un uchder yn gyffredin ydyw y tai, ac weithiau nid oes ynddynt ond un ystafell. Weithiau, y mae cyntedd i'r anifeiliaid ynglŷn âg ef; ac mewn rhai amgylchiadau cedwir hwy yn yr un adeilad; neu, y mae y bobl yn preswylio ar esgynlawr wedi ei chyfodi, a'r anifeiliaid ar y llawr islaw: 1 *Sam.* xxviii. 24. Yn yr Aipht Isaf, cedwir yr ychain yn y pen pellaf oddi wrth ddrws yr ystafell. Nid yw y ffenestri ond tyllau bychain—yn uchel yn y muriau, ac weithiau wedi eu delltio â choed. Y mae nen y tŷ yn gyffredin yn wastad, ond nid felly yn mhob enghraifft; ac yn gyffredin y mae wedi ei blastro â llaid a gwellt ar dylathau; ac ar y nenau gwastad cyfodir pabellau yn fynych i gysgu ynddynt yn yr haf. Wrth sylwi ar y cerfiadau a geir ar y cofadeiliau Aiphtaidd, gwelir fod tai hynafol yr Aipht ac Assyria yn atteb i'r disgrifiad uchod i fesur mawr. Nid yw tai gwaelaf y trefydd yn gwahaniaethu llawer oddi wrth y disgrifiad hwn, ond y maent weithiau yn fwy nag un uchder, a'r nenau wedi eu



Dar. 399.—Tai Dwyreiniol.

gwneuthur yn well ac yn fwy gofalus. Y mae tai fel hyn yn Palestina yn fynych wedi eu gwneyd o geryg.

Y mae y gwahaniaeth sydd rhwng y tai gwaelaf a'r rhai o'r dosbarth nesaf atynt yn fwy na rhwng y rhai hyny a'r tai o'r radd flaenaf. Cynllun cyffredin y tai dwyreiniol o'r dosbarth yma yw, fod mur y ffrynt yn blaen—heb ddim yn tori ar ei blaender ond drws, ac ychydig o ffenestri dellt. Oddi mewn y mae cyntedd, neu gynteddau, ac ystafelloedd yn agor iddynt. Y mae i'r tai goreu a geir yn Damascus chwech neu saith o'r cynteddau hyn. Lle nad oes ond dau, y mewnol ydyw y man lle y mae y gwragedd a'r plant yn preswylio; ac nid oes un dyn i fyned i mewn yno heb law gŵr y tŷ. Uwch ben y drws y mae ffenestr yn taflu allan, wedi ei gwneyd o ddellt; yr hon, ond ar adeg y gŵyliau cyhoeddus, sydd yn gyffredin yn nghauad: 2 *Bren.* ix. 30. Y mae uwch ben y drws ryw argraph wedi ei gerfio, fel yr arferai yr hen Aiphtiaid ei roddi, ac y cyfarwyddwyd yr Israeliaid i'w roddi uwch ben eu pyrth: *Deut.* vi. 9. Yn y fynedfa y mae maingc gareg, i'r porthor ac ereill o'r gwasanaethyddion eistedd arni. Y tu hwnt i'r fynedfa hon y mae cyntedd agored, a hwnw yn aml wedi ei balmantu â marmor. I hwn y mae y prif ystafelloedd yn agor yn gyffredin. Teflir cysgodlen weithiau dros y cyntedd, a rhoddir gorchuddlen ar y llawr yn adeg y gwyliau. Y mae ar y llawr yn gyffredin ystafell i dderbyn ymwelwyr gwrywaidd. Ceir fod hon yn aml wedi ei llorio â marmor neu geryg lliwiedig, a bod ffynnon yn ei chanol. Y mae y gweddill o'r ystafell yn llwyfan esgynedig, a elwir *leewan;* ac ynddi fath o esmwythfaingc i eistedd arni. Gelwir yr eisteddle hon yn *deewan.* Y mae pob un ar ei ddyfodiad i mewn yn diosg ei esgidiau cyn myned ar y *leewan.* Mae y nen uwch ben yr ystafell hon yn fynych yn dra addurniadol. Yn nghongl y cyntedd yn Syria, y rhan amlaf, y mae y grisiau a arweiniant i'r ystafelloedd uchaf. Pan nad oes llofftydd y mae yr ystafelloedd ar lawr yn gyffredin yn uwch. Yn Persia y maent yn agored o'r gwaelod i'r pen uchaf, ac yn cael eu gwahanu oddi wrth y cyntedd gan ryw balis isel. O amgylch rhan, os nad yr oll o'r cyntedd, y mae osgoriel (*verandah*). Wrth gadw mewn côf fod yr ystafell lle y derbynir ymwelwyr yn uwch na lefel y cyntedd, gellir, wrth egluro amgylchiadau y wyrth a wnaed ar y gŵr oedd yn glaf o'r parlys (*Marc* v. 3; *Luc* x. 18), dybied, 1. Fod ein Harglwydd yn sefyll o dan yr osgoriel, a'r bobl o flaen y cyntedd; a bod y rhai oedd yn dwyn y claf ar nen y tŷ, wedi symmud ymaith ran o'r ystyllod oedd yn gorchuddio yr osgoriel, neu yr orchuddlen oedd ar y cyntedd, a gollwng y

Digitized by Google

gwely i lawr. 2. Eglurhâd arall sydd yn cymmhell ei hun wrth ystyried fod yr ystafell lle yr oedd y cwmni wedi cyfarfod yn uchaf yn y tŷ, yw, ei fod yn cael ei ollwng drwy y tô oddi allan. 3. A cheir eglurhâd arall mwy syml wrth edrych ar y tŷ fel un o'r rhai cyffredin sydd i'w canfod yn awr yn agos i Fôr Galilea, a'r ystafell yn ddim mwy na deg neu ddeuddeg o droedfeddi o hyd a lled, a thua'r un faint o uchder, heb un lle i fyned i mewn iddo ond trwy y drws. Defnyddir y nen fel lle i gysgu, ac esgynir i fyny iddi ar hyd ysgol oddi allan. Yr oedd y rhai a ddygent y claf yn methu myned at y drws; yna hwy a esgynasant i'r nen, ac wedi didoi y tô, gollyngasant y claf i lawr.

Cysgodir y grisiau sydd yn arwain i'r ystafelloedd uchaf, neu i'r nen, yn aml â gwinwydd neu blanigion ereill, ac y mae coed yn cael eu planu yn y cynteddau, yn enwedig y rhai mewnol. Y mae ffynnon neu ddyfrgist yn fynych i'w chael yn y cynteddau: *Salm* cxxviii. 3; 2 *Sam.* xvii. 18. Arferai Iuddewon a chenhedloedd fyned ar nenau y tai i alaru: *Esa.* xv. 3, xxii. 1; *Ier.* xlviii. 38. Gorchymynid yn y gyfraith i ddiogelu y nen â chanllawiau: *Deut.* xxii. 8. Nid oes le i gynneu tân yn y tai dwyreiniol, ond yn y gegin. Mewn tai mawr y mae rhai ystafelloedd wedi eu darparu ar gyfer bod ynddynt yr haf, a'r lleill ar gyfer y gauaf hefyd: *Ier.* xxxvi. 22; *Amos* iii. 15.

Ychydig o wybodaeth sydd genym am dai y Groegiaid; ond am breswylfeydd y Rhufeiniaid, y mae yn ein meddiant ddigon o gyfleusderau i wybod am eu trefniadau, hyd yn oed mewn manylion, a hyny yn benaf oddi wrth y lliaws o dai a gloddiwyd ac a ddygwyd i oleuni yn Pompeii. Y mae yno dai a berthynent i'r tlawd a'r cyfoethog. Gwael oedd anneddau y tlodion, ond yr oedd anneddau y cyfoethogion yn eang mewn cymmhariaeth, ac yn fynych wedi eu haddurno yn orwych â cholofnau, darluniau, a cherfiadau. Cymmerai ormod o le i sylwi ar fanylion a neillduolion tai y Rhufeiniaid.

Yr oedd y tai a adeiledid yn Mhrydain dri chan mlynedd yn ol, ar y cyfan, yn dra gwahanol i'r rhai a adeiledir yma yn y ganrif hon. Y prif ddefnyddiau oeddynt goed a phlastr, ac un o'u nodweddion hynotaf oedd, fod y llofftydd wedi eu gwneyd i daflu drosodd. Oddi mewn yr oeddynt wedi eu gwneyd ar gyfer angenrheidiau y dydd, ac yr oedd yr archadeiladwaith y tu allan yn fynych yn rhoi iddynt olwg brydferth a tharawgar. Ar ol y tân mawr yn Llundain, yn 1666, daeth y fantais o adeiladu dinasoedd â cheryg a phriddfeini mor amlwg, yn gystal a'r priodoldeb o fabwysiadu rhyw drefniadau pennodedig, fel y cymmerodd cyfnewidiad mawr le yn y dull o adeiladu yn y brif ddinas, yr hyn yn raddol a ddylanwadodd ar yr holl wlad. Yn ystod y ganrif olaf, pasiwyd deddf seneddol i wellhau y tai a gyfodid yn y brif ddinas o hyny allan, o ran eu cryfder, a'u hamddiffyniad rhag tân, &c., a diammheu i hyn arwain i welliant yn ngwneuthuriad tai yn mhob rhan o'r wlad. Y mae pob peth y gall dyfais ddynol feddwl am dano yn cael ei roddi ar waith i wneuthur trigfeydd y dosbarthiadau canol ac uchaf yn gysurus a manteisiol; a diau fod tai y dosbarth gweithiol hefyd yn tra ragori yn awr ar yr hyn fuont unwaith. Nid ydyw y Ffrangcod a'r Italiaid, o'r dosbarth canol, yn byw mewn tai gwahanol fel y mae y Prydeinwyr; ond ceir ynddynt wahanol loriau yn cynnwys nifer o ystafelloedd; a'r canlyniad yw, fod eu trefniadau yn gwahaniaethu oddi wrth rai y wlad hon. Y mae yr un grisiau, fel mewn adeiladau cyhoeddus, yn gwasanaethu yn gyffredin i bawb. Peth anghyffredin ydyw lleoedd tân yno, gan mai twymngistiau (*stoves*) a ddefnyddir yn gyffredin i wresogi yr ystafelloedd. Y mae tai yr Yspaeniaid yn dra helaeth; ond y mae cynteddau mawrion yn eu canol, ac y maent wedi eu ffurfio gydag orielau pedair onglog o amgylch y cyntedd; ac y mae gwahanol deuluoedd yn preswylio eu gwahanol ystafelloedd, megys y ceir yn Ffraingc ac Italy. Yn neheubarth Yspaen, y mae y tai, fel rheol, heb ddim simneiau. Yn Switzerland, y maent yn llai eu maintioli nag yn Italy, Ffraingc, ac Yspaen; ac y mae y bobl, megys yn Mhrydain, yn trigo mewn tai ar wahân. Yn yr Almaen, y mae y tai yn debycach i eiddo y wlad hon yn eu trefniadau na'r tai yn Ffraingc ac Italy. Y dull o dwymno tai yn yr Almaen a Switzerland sydd gan mwyaf gyda thwymngistiau. Y mae tai yn mhob gwlad, i raddau mwy neu lai, fodd bynag, yn cael eu hadeiladu i gyfatteb i'w hinsoddau. Y mae y tai mewn hinsoddau cynnes yn fawrion, yr ystafelloedd yn uchel, ac wedi eu hawyro yn dda; ond y mae y rhai sydd mewn hinsoddau oerion yn cael eu hadeiladu yn neillduol er amddiffyn y trigianwyr rhag oerni.

TYCHICUS (Τύχικος): cydymaith i'r apostol Paul ar rai o'i deithiau, ac un o'i gydweithwyr hefyd yn mhlaid ffydd yr efengyl. Crybwyllir am ei enw mewn pump o wahanol lyfrau yn y Testament Newydd:—mewn pedwar yn bendant, ac yn y pummed y mae yn dra thebygol ei fod yn cael ei gyssylltu â chyfran neillduol o Asia. Oddi wrth *Act.* xx. 4, ymddengys ei fod yn un o'r rhai oedd gyda'r apostol ar ryw gyfran o'r ffordd pan y dychwelai o'i drydedd daith genhadol. Gelwir ef yn un "o'r Asiaid;" ond tra yr aeth Trophimus gyda Phaul i Ierusalem (*Act.* xxi. 29), gadawyd Tychicus ar ol yn Asia —yn Miletus, dybygid: *Act.* xx. 15, 28. Nid ydys yn gwybod pa fodd y treuliai Tychicus ei amser o hyny hyd garchariad cyntaf Paul; ond yn y carchariad hwnw yr oedd gyda'r apostol eilwaith, fel y canfyddir oddi wrth *Col.* ix. 7, 8. Sonir am dano yma, nid yn unig fel "y brawd anwyl;" ond fel y "gweinidog ffyddlawn, a'r cyd-was yn yr Arglwydd;" ac yr oedd efe i wneyd yn hysbys i'r Colossiaid yr amgylchiadau yr oedd yr apostol ynddynt, ac i gysuro y Colossiaid eu hunain. Yr ydym yn casglu oddi wrth hyn fod gwasanaeth diwyd a gwres cydymdeimlad a chariad Cristionogol dwfn yn nodweddu bywyd a chymmeriad Tychicus. Yr oedd Colossa yn Asia; ond oddi wrth y ffaith fod Onesimus, yr hwn a enwir yn union ar ol hyny, yn cael ei alw "yn un o honoch chwi," tra nad yw Tychicus yn cael ei enwi felly, yr ydys yn casglu yn naturiol nad oedd y diweddaf yn frodor o'r ddinas hono. Y ddau hyn yn ddiau oedd yn cario yr epistol hwn, a'r un canlynol iddo, yn gystal a'r Epistol at Philemon. Y mae yr iaith a ddefnyddir yn mherthynas i Tychicus yn *Eph.* vi. 21, 22, yn bur debyg, er nad yn hollol yn yr un geiriau. Ac y mae yn bwysicach dal arni yn fanwl, o herwydd mai dyna ydyw yr unig gyfeiriad personol a wneir yn y llythyr, a'i fod o gryn werth fel un rheswm am ei ddilysrwydd. Os cylchlythyr oedd hwn, yr oedd Tychicus, yr hwn oedd ar genhadaeth yn Colossa, yn un cymmhwys iawn i ofalu am ei fod yn

Digitized by Google

cael ei gyflwyno i'w ddarllen, gan ei fod yn dra adnabyddus yn nhalaeth Asia. Y cyfeiriadau nesaf a wneir ato sydd yn yr epistolau bugeiliol; a'r cyntaf mewn trefn amseryddol ydyw yr un yn *Tit.* iii. 12. Yma y mae Paul, yr hwn, dybygid, a ysgrifenai o Ephesus, yn dyweyd ei fod ar fedr anfon Tychicus i Creta, ynghylch yr un pryd ag yr elai efe ei hun i Nicopolis. Yn 2 *Tim.* iv. 12 (a ysgrifenwyd o Rufain yn ystod ei ail garchariad), efe a ddywed, "Tychicus hefyd a ddanfonais i Ephesus;" yr hyn a arwydda fod y dysgybl hwn yn niwedd, yn gystal ag yn nechreu ei hanes, yn dal cyssylltiad âg Asia pan yn cydweithio â'r apostol Paul. Nid oes genym ddim o hanes gwirioneddol Tychicus o flaen, nac ar ol y cyfnod y sonir am dano yn y pum cyfeiriad ysgrythyrol uchod. Y mae yn ddiammheu nad oes un ymddiried i'w roddi yn y traddodiad ddarfod iddo wedi hyny fod yn esgob Chalcedon, yn Bithynia. Ond y mae llawer o debygolrwydd yn y dybiaeth mai efe oedd un o'r ddau frawd (Trophimus y llall) oedd gyda Titus (2 *Cor.* viii. 16—24), yn casglu i'r Cristionogion tlodion yn Iudea. Fel rhesymau dros y golygiad hwn, gallem grybwyll ei gyssylltiad â Trophimus, y tebygrwydd fod y ddau yn Ephesiaid, fod enw y ddau yn digwydd yn yr Epistol at Timotheus (2 *Tim.* iv. 20), y cyssondeb amseryddol a daearyddol a geir rhwng amgylchiadau y drydedd daith genhadol, a'r iaith gyffredinol a ddefnyddir ynghylch Tychicus yn yr epistolau at y Colossiaid a'r Ephesiaid. Gwel TROPHIMUS.

TY DDEWI, ESGOBAETH. Gwel BANGOR DEWI.

TYMMHESTL—OEDD. Gwel GWYNT—OEDD; YSTORM—YDD.

TYMMORAU (*seasons*). Y mae symmudiadau y ddaear yn cael eu hegluro yn yr erthygl DAEARYDDIAETH—ar yr hyn y mae cyfnewidiadau y tymmorau yn benaf yn dibynu. Y prif achos fod mwy o wres yn yr haf, ac oerni yn y gauaf, yw, fod pelydrau yr haul yn disgyn yn fwy ar osgo ar y ddaear yn y tymmor diweddaf nag yn y blaenaf. Gwel HINSAWDD. Achos arall ydyw hyd y dydd yn yr haf, a'r nos yn y gauaf. Y mae pelydrau yr haul yn disgyn i lawr mor unionsyth, yr haf a'r gauaf, o fewn y cylch trofanol, fel nad yw y naill ran o'r flwyddyn yn y parthau hyny nemawr oerach na'r llall. Nid oes gan hyny wahaniaeth mawr yn y tymmorau yno, ac y mae i'r gwahaniaeth sydd achosion ereill yn hollol; ac adnabyddir hwy fel y tymmorau gwlyb a sych. Ond yn y parthau cymmedrol o'r ddaear, y mae y flwyddyn yn ymranu yn naturiol i bedwar tymmor—Gwanwyn, Haf, Hydref, a Gauaf. Y mae y Gwanwyn a'r Hydref yn yr ardaloedd pegynol—y deheu a'r gogledd—yn fyr iawn; ac y mae y flwyddyn yn ymranu i haf a gauaf. Y mae y gauaf yno yn hir a'r haf yn fyr; ac felly i raddau pell yn yr ardaloedd agosaf i'r pegynau deheuol a gogleddol yn y cylchoedd cymmedrol. Yn yr ardaloedd trofanol hefyd, y mae y gwahaniaeth rhwng y pedwar tymmor yn ychydig iawn. Nid yw yr haf yn ei fan poethaf hyd ar ol troad y rhôd, pan ddisgyna pelydrau yr haul yn fwyaf unionsyth, ac y mae y dydd hwyaf: ac nid yw oerni mwyaf y gauaf yn digwydd hyd ar ol troad y rhôd yn y gauaf, pan y mae y dydd fyraf, a phelydr yr haul ar fwyaf o osgo. Y rheswm am hyn yn yr enghraifft gyntaf yw—fel yr elo yn mhellach i'r haf y mae y ddaear yn cynnhesu mwy oddi wrth ddylanwad parhaus pelydrau yr haul. Yn yr olaf, y mae yn cadw meddiant o ran o'r gwres y mae wedi ei dderbyn yn ystod yr haf, yn debyg fel y mae y gyfran boethaf o'r diwrnod rywbryd ar ol canol dydd, a rhan oeraf y nos tua'r boreu. Y mae pedwar tymmor y cylchoedd cymmedrol yn cael eu nodweddu gan yr effeithiau a wneir ganddynt ar natur, ac y maent o'r pwys mwyaf yn mherthynas i lafur ac anghenion dyn. Ond nid yw adnewyddiad bywyd a thyfiant llysieuol y gwanwyn i'w briodoli yn hollol i gynnesrwydd cynnyddol pelydrau yr haul. Ond y mae planhigion wedi eu cyfansoddi fel y mae cyfnod o orphwys yn cael ei ddilyn gan un o fywyd newydd; ac y mae y bywyd newydd hwn yn gyffredin yn dechreu yn nghylchrediad newydd y sudd ac eangiad y blagur, a hyny tra y mae oerder y gauaf yn aros yn ddileihâd, neu fe allai cyn iddo gyrhaedd ei uchder mwyaf.

TYMPAN—AU (*tôph: tympanum: timbrel: tabret*): Y mae y gair Hebraeg *tôph*, a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg *tympan*, yn ddiau yn golygu yr offeryn cerddorol a elwir *duff* neu *diff* gan yr Arabiaid. Defnyddid ef yn foreu iawn gan Syriaid Padan-Aram, ar adegau eu gŵyliau llawen: *Gen.* xxxi. 27. Benywod gan mwyaf a'i chwareuai (*Exod.* xv. 20; *Barn.* xi. 34; 1 *Sam.* xviii. 6; *Salm.* lxviii. 26), fel cyfeiliant i'r gân a'r ddawns; ac ymddengys hefyd y gwisgid ef fel addurn: *Ier.* xxxi. 4. Yr oedd yn un o'r offerynau a chwareuai y prophwydi ieuaingc a gyfarfuasant â Saul ar ei ddychweliad oddi wrth Samuel (1 *Sam.* x. 5), a chan y Lefiaid yn seindorf y deml: 2 *Sam.* vi. 5; 1 *Cron.* xiii. 8. Arferid y dympan ar y gŵyliau llawen (*Esa.* v. 12, xxiv. 8), ac yn adeg croesawiad dychweliad buddugwyr (*Barn.* xi. 34; 1 *Sam.* xviii. 6), pan yr elai y merched i'w cyfarfod; ac ystyrid ef yn wastad yn arwydd o lawnder a dedwyddwch: *Iob* xxi. 12; *Esa.* xxx. 32; *Ier.* xxxi. 4. Yr un modd pan yr aeth Duw i mewn i'w deml, yr hyn a ddisgrifir â ffugrau cryfion yn *Salm* lxviii., yr oedd y cantorion yn yr orymdaith, y rhai a gymmerent y blaen, a'r cerddorion a'r offerynau llinynol ar ol, ac "yn eu mysg yr oedd y llangcesau yn canu tympanau;" *Salm* lxviii. 25.

Disgrifir *diff* yr Arabiaid gan Russell, fel "math o fodrwy neu gylch (weithiau â darnau o bres wedi eu rhoddi ynddo i beri iddynt dincian), dros yr hon y mae darn o groen ar un wyneb. Curir ef â'r bysedd, a dyma dympan wirioneddol yr hynafiaid, fel yr ymddengys oddi wrth y lluniau a geir mewn basluniau hynafol, sydd yn gosod allan wleddoedd Bacchus, a defodau Cybele." Y mae hwn yn cyfatteb i'r *tamborine* a ddefnyddir yn fynych yn y wlad hon yn bresennol. Defnyddid yr un offeryn gan y dawns-wragedd Aiphtaidd a welodd Hasselquist—"*Travels*," td. 59. Dywedir mai Dionysius a Rhea oedd ei ddyfeiswyr. Chwareuid ef yn gyffredin gan wragedd, y rhai a'i curent â'u migyrnau a chledrau eu dwylaw. Dywed Juvenal mai offeryn o darddiad Syriaidd yw.

TYNGHEDU: gweithred ddifrifol o appeliad, drwy yr hon y mae un dyn, a fyddo wedi ei wisgo âg awdurdod naturiol neu swyddol, yn gosod rhwymedigaeth ar un arall i lefaru neu weithredu megys pe o dan lŵ. Defnyddir y gair

Digitized by Google

yn yr ystyr yma yn *Can.* ii. 7, iii. 5, &c. Yn y Testament Newydd, y mae pwys mawr yn cael ei osod ar y weithred o dynghedu, megys pan y darfu i'r archoffeiriad anerch Crist fel y canlyn:—"Yr ydwyf yn dy dynghedu di trwy y Duw byw, ddywedyd o honot i ni, ai tydi yw y Crist, Mab Duw?" *Mat.* xxvi. 63. Y gair a arferir yma ydyw yr un a ddefnyddia y Deg a Thrigain yn eu cyficithiad o'r Hebraeg, sef Ἐξορκίζω. Gwel hefyd *Marc* v. 7; *Act.* xix. 13; 1 *Thes.* v. 27. Yr oedd llŵ—er ei roddi fel hyn ar un heb ei gydsyniad, nid yn unig yn rhwymedig, ond yn ddifrifol i'r graddau eithaf; ac yr oedd yn rhaid ei atteb. A chan fod y person a attebai felly ar ei lŵ, pe y torasid ef, cawsai ei ystyried yn anudoniaeth. Fel hyn, er nad ydoedd ein Harglwydd wedi atteb y cyhuddiadau blaenorol a ddygwyd yn ei erbyn, teimlai ei hun yn awr yn rhwym o atteb y cwestiwn a roddwyd iddo. Y mae yn dra ammheus a oes gan un dyn hawl wirioneddol i roddi y fath rwymedigaeth ddifrifol ar ddyn arall heb ei gydsyniad—nid o herwydd ei fod yn ei orfodi i roddi attebiad gwirioneddol, gan y rhoddid hyny gan ddyn cywir o dan bob amgylchiadau; ond am ei fod yn rhoddi gorfodaeth ar un i draethu gwirionedd y byddai ganddo resymau digonol, fe allai, dros beidio ei ddywedyd.

TYRANNUS (Τύραννος): enw gŵr, yn ysgol, neu yn lle cyfarfyddiad dysgyblion yr hwn y bu Paul yn arfer pregethu yr efengyl am ddwy flynedd, yn ystod ei arosiad yn Ephesus: *Act.* xix. 9. Gelwid neuaddau neu ystafelloedd yr athronwyr yn ysgoldai yn mysg y Groegiaid; ac yn gymmaint a bod Luc yn defnyddio y gair hwn am y fan hon, y casgliad ydyw mai un o'r Groegwyr oedd Tyrannus, a'i fod yn ddysgawdwr cyhoeddus mewn rhesymeg neu reitheg. Yr oedd efe a Phaul yn defnyddio yr ystafell mewn oriau gwahanol; ond pa un ai ei gosod o dan ardreth, ai ei chaniatau yn rhad yr oedd efe i'r Cristionogion, nid yw yn hysbys; ond pa un bynag, dengys ei fod yn coleddu teimladau cyfeillgar tuag atynt. Tueddir Meyer i gredu mai Rabbi Iuddewig oedd Tyrannus, a pherchenog synagog, yn yr hon y dysgai efe y bobl. Ond yn y lle cyntaf, yr oedd ei enw Groeg, a'r ffaith nad ydyw yn cael son am dano fel Iuddew neu broselyt, yn anghysson â'r syniad hwn; ac yn yr ail le, gan fod Paul wedi myned i ysgol y gŵr hwn ar ol cael ei orfodi i fyned allan o'r synagog Iuddewig (*Act.* xix. 9), y mae yn amlwg iddo gymmeryd y cwrs hwn fel cyfleusdra i fyned yn nes at y Cenhedloedd—amcan y buasai yn debyg iawn o geisio ei gyrhaedd trwy gyfrwng un o honynt hwy eu hunain, ac nid trwy ymuno âg Iuddew neu Genedl-ddyn yn proffesu y grefydd Iuddewig. Wrth son am dano fel "un Tyrannus," y mae Luc megys yn lled awgrymu nad oedd efe yn gredadyn ar y cyntaf; er y gall fod yn ddigon tebyg iddo ddyfod i'r tir hwnw yn ganlynol i'w gyfathrach gyda'r apostol. Tybia Hemsen y gall y neuadd fod yn perthyn i awdurdodau y ddinas, ac wedi cael ei henw oddi wrth ei meddiannydd gwreiddiol.

TYRUS (צור, צר; *Tzôr:* Τύρος): dinas fasnachol enwog gynt, yn Phœnicia, ar oror dwyreiniol Môr y Canoldir. Y mae ei henw Hebreig, *Tzôr*, yn arwyddo *craig;* yr hyn sydd yn cyfatteb yn dra phriodol i *Sûr*, y dref ddiweddar, yr hon a saif ar orynys creigiog, oedd gynt yn ynys. O'r enw *Tzôr* y deilliodd dau enw i'r ddinas, yn y rhai y mae y llythyrenau cyntaf yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd:—1af, Y gair Arameaidd *Tura*, o'r hwn y deillia y gair *Tures*—a seinir, dybygid, yn *Tyros;* yr hwn a arferwyd gan y Lladinwyr, ac sydd wedi dyfod i arferiad, gyda chyfnewidiadau dibwys, yn ieithoedd diweddar y gorllewin. 2il, *Sara* neu *Sarra:* enw a roddir arni yn ngweithiau Plautus, Virgil, Silius Italicus, a Juvenal. Y ffurf yma sydd yn ddiammheu yn cyfatteb oreu i'r enw Arabaidd diweddar, *Sûr*.

Cyn i Alexander Fawr warchau ar y ddinas, y mae yn ddiammheuol fod Tyrus yn sefyll ar ynys; ond yn ol traddodiad y trigolion, os gellir credu Justin, yr oedd dinas ar y cyfandir cyn bod un ar yr ynys; ac y mae yn lled debygol fod y traddodiad hwn yn gywir, oddi wrth yr enw Palætyrus, neu yr Hen Dyrus—enw dinas ar y cyfandir, deg ar hugain o ystadiau i'r deheu. Ond y mae anhawsder yn cyfodi i'r dybiaeth fod Palætyrus wedi ei hadeiladu o flaen Tyrus, gan fod Tyrus yn ddiau yn golygu craig; ac ychydig bersonau a dalodd ymweliad â safle Palætyrus a gredant fod unrhyw graig sydd ar y wyneb yno wedi rhoddi bodolaeth i'r enw. Er gochelyd yr anhawsder hwn, awgryma Hengstenberg fod Palætyrus yn golygu y Tyrus oedd yn bod o'r blaen; a'i fod wedi ei ddefnyddio ar ol dinystrio y rhan fwyaf o honi gan Nebuchodonosor, i'w gwahaniaethu oddi wrth y gyfran hono o Tyrus oedd yn sefyll heb ei distrywio. Y mae o bwys, pa fodd bynag, i sylwi nad ydyw y cwestiwn o barthed i Palætyrus ond un yn dwyn cyssylltiad â hynafiaethau yn unig, ac nad yw yn effeithio ar ddim a ddywedir mewn hanesiaeth Feiblaidd. O angenrheidrwydd gwarchauodd Nebuchodonosor y rhan oedd ar y cyfandir o'r ddinas, gan nad oedd ganddo longau i ymosod ar yr ynys; ond y mae yn eithaf rhesymol tybied fod y rhan bwysicaf o'r ddinas yn amser Esaiah ac Ezeciel ar yr ynys. Cyssegrwyd dinas Tyrus i'r eilunddaw Hercules, yr hwn ydoedd prif wrthddrych addoliad y preswylwyr; a dywed Arrian mai ei deml ef ar yr ynys oedd yr hynaf o holl demlau y byd. Nis gellir ammheu, gan hyny, nad ydoedd yr ynys wedi cael ei phoblogi er's amser maith. Ac â hyn y cyttuna yr hyn a ddywedir am Tyrus—ei bod "yn nghanol y moroedd" (*Ezec.* xxvii. 25, 26); ac hyd yr oedd y bygythiad yn ei herbyn, y gwnelid hi fel talgraig i daenu rhwyd arni. Gan nad oedd yr ynys ond bechan, y mae yn dra thebygol, modd bynag, fod y boblogaeth ar y cyfandir yn fwy nag ar yr ynys.

Pa un bynag ai o flaen ynte ar ol Palætyrus, yr adeiladwyd dinas enwog Tyrus, er ei bod yn hawlio bod yn dra hen (*Esa.* xxiii. 7; *Herod.*, ii. 14), nid oes grybwylliad yn cael ei wneuthur am dani yn yr "*Iliad*" na'r "*Odyssey;*" ond nis gellir tynu casgliad oddi wrth hyn, pa un a oedd y ddinas mewn bod, ai nid oedd, pan gyfansoddwyd y caneuon hyny. Adwaenid y llwyth Canaaneaidd oedd yn preswylio y darn bychan o wlad y gellir ei alw Phœnicia Briodol gan yr enw Cenhedlig *Sidoniaid* (*Barn.* xviii. 17; *Esa.* xxiii. 2, 4, 12; *Ios.* xiii. 6; *Exod.* xxxii. 30); a diammheu fod yr enw yn cynnwys y Tyreaid, gan eu bod o'r un hiliogaeth, a'r ddwy ddinas o fewn llai nag ugain milldir o bellder oddi wrth eu gilydd. Gan hyny, pan anfonodd Solomon at Hiram, brenin Tyrus, am gedrwydd o Libanus i gael eu tori gan ddeiliaid Hiram,

Digitized by Google

efe a adgofia i Hiram nad oedd neb a fedrai "gymmynu coed megys y Sidoniaid;" 1 *Bren.* v. 6. Y mae Virgil, yn y crybwylliad cyntaf a wneir ganddo am Carthage, yn mynegu yn bendant iddi gael ei sylfaenu gan drefedigaeth o Tyrus, ac wedi hyny efe a'i geilw yn ddinas Sidonaidd. A'r un modd pan y sonir am Sidoniaid yn mhryddestau Homer, dichon eu bod yn cynnwys y Tyreaid; a bod enwi Sidon, a gadael allan Tyrus, i'w briodoli i'r rheswm fod Sidon yn yr amseroedd boreuaf yn fwy blodeuog na Thyrus. Y mae yn deilwng o sylw na wneir crybwylliad am Tyrus yn llyfrau Moses; ond yma etto, er y gellir tynu casgliad nad oedd y lle yn bwysig ar y pryd, nis gellir yn deg gasglu nad oedd Tyrus yn bod yn yr amser yr ysgrifenwyd y llyfrau hyny. Yn Llyfr Iosuah y sonir gyntaf am Tyrus yn y Beibl (*Ios.* xix. 29), lle y cyfeirir ati wrth nodi terfynau llwyth Aser, o dan yr enw *Sor*, fel "dinas gadarn." Nid oes dim yn hanesyddol yn dal cyssylltiad â'r crybwylliad hwn am dani; o herwydd y mae yn ddiddadl na bu llwyth Aser yn meddu dim o diriogaeth Tyrus. Yn ol y gorchymynion a roddwyd yn llyfrau Moses, dylesid dinystrio yr holl genedloedd Canaaneaidd; ond yn lle hyny, trigodd yr Israeliaid yn mysg y Sidoniaid neu y Phœniciaid, y rhai a breswylient yn y wlad (*Barn.* i. 31, 32), ac nid ymddengys iddynt fod erioed mewn rhyfel â hwynt. Ar ol hyn, mynegir i'r rhai a gymmerent y cofrifiad yn amser Dafydd fyned i Tyrus, yn mysg dinasoedd ereill; yr hyn a arwyddai, nid fod Tyrus yn ddarostyngedig i awdurdod Dafydd, ond yn unig y ffaith fod yr Iuddewon oedd yno yn cael eu cyfrif. Ond y crybwylliad cyntaf yn ysgrifeniadau hanesiol yr Hebreaid, neu mewn hen hanesiaeth gyffredinol, sydd yn taflu goleuni ar sefyllfa wirioneddol Tyrus, a geir yn Llyfr Samuel (2 *Sam.* v. 11), mewn cyssylltiad â Hiram, brenin Tyrus, yn anfon cedrwydd a gweithwyr i Dafydd, i adeiladu iddo balas; ac wedi hyny yn mhellach yn Llyfr y Brenhinoedd mewn cyssylltiad âg adeiladu teml Solomon. Y mae un peth yn y cyfnod hwn yn deilwng iawn o sylw. Mewn gwrthgyferbyniad i'r holl ddinasoedd annibynol masnachol enwocaf oedd y tu allan i Phœnicia, yn yr hen amseroedd ac mewn amseroedd diweddar, brenhiniaeth, ac nid gweriniaeth, oedd yn Tyrus. Ac er fod ynddi farsiandwyr tywysogaidd, y gallesid tybied y buasent yn ffafriol i weriniaeth bendefigaidd, cadwodd ei ffurf frenhinol o lywodraeth hyd nes y collodd ei hannibyniaeth. Peth arall ydyw y gradd o fedrusrwydd mewn celfyddydau peiriannyddol a gyrhaeddasant. Nid ydys yma yn cyfeirio at ragoriaeth y Tyreaid fel cymmynwyr coed, o herwydd yr oedd eu hagosrwydd i goedwigoedd Libanus yn ddigon o reswm dros hyny. Ond yr hyn sydd yn hynod ydyw, fod y Tyreaid wedi dyfod yn weithwyr mewn copr neu bres i raddau ag sydd yn arwyddo cryn gynnydd mewn celfyddyd. Wrth gyfeirio at yr amrywiol weithiau pres a wnaeth y celfyddydwyr Tyreaidd yr anfonodd Solomon am danynt, enwir y lili a'r palmwydd, ac ychain, llewod, a cherubiaid: 1 *Bren.* vii. 13—45. Y mae y modd y cludid y cedrwydd a'r ffynnidwydd i Ierusalem hefyd yn ddyddorol, o herwydd y dengys debygolrwydd y fordaith gyda'r môr i'r dull a welir ar y Rhine hyd heddyw; ac hefyd, rhydd syniad mai byr oedd y pellder rhwng Tyrus ac Ierusalem. Dygid hwynt mewn cludeiriau ar hyd y môr i Ioppa (2 *Cron.* ii. 16; a 1 *Bren.* v. 9)—pellder o lai na 74ain o filldiroedd daearyddol. O Ioppa i Ierusalem y pellder oedd 32ain o filldiroedd; ac y mae yn sicr nad oedd y pellder rhwng y ddwy ddinas enwog, Tyrus ac Ierusalem, yn fwy na 106 o filldiroedd daearyddol, neu ynghylch 122 o filldiroedd Seisnig. Mewn can lleied o bellder yr oedd yn hawdd i'r ddau frenin gynnal i fyny gyfathrach bersonol â'u gilydd; a hyny yn benaf am mai terfyn gogleddol teyrnas Solomon, mewn un cyfeiriad, oedd terfyn deheuol Phœnicia. Dichon fod Solomon a Hiram wedi cyfarfod â'u gilydd yn aml, ac felly wedi gosod i lawr sylfaen cynghrair gwleidyddol mewn cyfeillgarwch personol.

Pa fodd bynag am hyn, y mae yn amlwg fod cyfathrach agos rhwng y Tyreaid a'r Hebreaid yn nheyrnasiad Solomon. Rhoddodd Hiram i Solomon gedrwydd, meini gwerthfawr, a gweithwyr, a rhoddodd iddo forwyr i fyned i Ophir ac India; tra yr oedd Solomon, ar y llaw arall, yn rhoddi i Hiram ŷd, ac olew, a dinasoedd, ac yn caniatau iddo ddefnyddio rhai o borthladdoedd y Môr Coch: 1 *Bren.* ix. 11—14, 26, 28; x. 22. Parhaodd y perthynasau cyfeillgar hyn am beth amser ar ol encilio y deg llwyth; a chan mlynedd yn ddiweddarach, priododd Ahab ferch Ethbaal, brenin y Sidoniaid: 1 *Bren.* xvi. 31. Gan ei bod yn selog dros grefydd ei gwlad, ymddengys ei bod yn dra gwrthodedig yn ngolwg addolwyr y gwir Dduw; ond ni ddarfu i hyn arwain i un bygythiad yn erbyn Tyrus. Newidiodd sefyllfa pethau, pa fodd bynag, pan y darfu i raib y marsiandwyr Tyreaidd eu cymmhell i brynu caethion Hebreaidd oddi ar eu gelynion, a'u gwerthu drachefn yn gaethweision i'r Groegiaid a'r Edomiaid. O'r pryd hwn y dechreuodd anghydweledi ad, ac y bygythiwyd ad-daliad (*Ioel* iii. 4—8; *Amos* i. 9, 10); ac er y dichon fod heddwch i raddau yn ffynu, etto nis gallai fod cyfeillgarwch rhwng y ddwy genedl. Yr arwydd cyntaf y cawsai y bygythiad ei sylweddoli oedd cynnydd gorchfygiadau brenhinoedd Assyria. Peth annhebyg oedd y gallasai cymmydog cryf, buddugoliaethus, ac uchelgeisiol, wrthsefyll y demtasiwn o ymdrechu darostwng rhyw ddarn o dir rhwng y Lebanon a'r môr, oedd mor fychan o ran maintioli, ond yn meddu y fath gyfoeth—yr hwn a alwyd gan y Groegiaid yn Phœnicia. Gwel d. g. O ganlyniad wedi i Salmaneser, brenin Assyria, gymmeryd dinas Samaria, a gorchfygu teyrnas Israel, a dwyn y preswylwyr i gaethiwed, efe a droes ei arfau yn erbyn dinasoedd Phœnicia. Yr oedd Tyrus erbyn hyn wedi cyrhaedd pinacl uchaf ei mawredd a'i llwyddiant. Er amser Hiram yr oedd hi wedi planu trefedigaeth Carthage; yn meddiannu ynys Cyprus, â'i mwnglodiau pres cyfoethog; a thybygid fod dinas Sidon hefyd yn ddarostyngedig i'w hawdurdod. Ond ymddengys i Salmaneser gymmeryd mantais ar wrthryfel y Cypriaid, ac ymosod ar Phœnicia, a llwyddo i'w darostwng, yn gymmaint ag i Sidon ac Ace (Acre) droi gydag ef yn erbyn y Tyreaid. Ond nid ymostyngai y diweddaf, ac aeth Salmaneser yn erbyn Tyrus gyda llynges o drigain o longau ac wyth gant o rwyfwyr, a gawsai efe gan y Phœniciaid. Aeth y Tyreaid allan yn ei erbyn gyda deuddeg o longau, a gwasgarasant y gelyn, gan gymmeryd pum cant yn garcharorion. Dyrchafwyd cymmeriad dinaswyr Tyrus drwy hyn oll. Symmudodd brenin Assyria ei fyddin oddi yno, ond gosododd warcheidwaid ar yr afon a'r gwy-ffosydd (*aqueducts*) er attal y

Digitized by Google

ymuno mewn ymgyrch yn erbyn Carthage, gwrthodasant gydsynio, ac ni ddefnyddiodd Cambyses ei awdurdod i'w gorfodi i wneyd ei gais. Wedi hyny hwy a ymladdasant gyda Phersia yn erbyn Groeg, a rhoddasant longau rhyfel iddi yn adeg ymgyrch Xerxes yn erbyn gwlad Groeg. Ymddengys yn debyg fod Tyrus yn allu israddol i Sidon y pryd hwn. Nid oedd y ddwy ddinas hyny dros ugain milldir o bellder oddi wrth eu gilydd; ac yn nghwrs amser y mae yn eithaf possibl y gallasai eu pwysigrwydd cymmharol gyfnewid. Y mae yn bossibl hefyd fod Tyrus wedi ei gwanychu mewn canlyniad i'r ymdrechfa faith a fu rhyngddi a Nebuchodonosor. Pan yr oedd o dan lywodraeth y Persiaid, cafwyd cedrwydd o Tyrus a Sidon tuag at adeiladu yr ail deml; ac anfonid y coed hyn i Ioppa gyda'r môr, ac oddi yno i Ierusalem, fel yr anfonwyd defnyddiau y deml gyntaf yn amser Solomon: *Ezra* iii. 7. Pan yr oedd Tyrus o dan y Persiaid hefyd yr ymwelodd Herodotus â hi. Ond nid ydyw yr hysbysiadau a rydd efe am dani ond prin iawn; ac ymddengys mai unig amcan ei daith yno oedd ymweled â theml Melkarth, yr hon a berchid yn fawr. Nid yw yn rhoddi dim manylion am y ddinas, ac nid ydyw ond prin yn enwi dwy golofn a welodd efe yn y deml—un o aur, a'r llall o smaragdus, neu, fel y tybia Wilkinson, o fath o wydr gwyrdd. Tua rhan ddiweddaf y ganrif ddilynol (c. c. 332), ymosodwyd ar Tyrus am y drydedd waith gan y gorchfygwr mawr; ac os oes ansicrwydd yn bod gyda golwg ar warchauad Nebuchodonosor, y mae canlyniadau gwarchauad Alexander yn amlwg a diymwad. Yr oedd yn hanfodol i lwyddiant ei gynlluniau milwrol fod i'r llynges Phœniciaidd fod wrth ei alwad, rhag iddi fod yn rhydd i dori ei gyssylltiad ef â Groeg ar y môr; gan hyny, efe a wysiodd holl Phœnicia i ymostwng i'w awdurdod. Ymostyngodd yr holl wlad, yn cynnwys Aradus, Byblus, a Sidon; a dygodd morwyr y lleoedd hyn, oedd yn y llynges Bersiaidd, eu llongau gyda hwy i ymuno âg ef. Tyrus yn unig a wrthododd ei dderbyn o fewn ei muriau. Mewn canlyniad i hyn y dechreuodd y gwarchau mawr, yr hwn a barhaodd am saith mis; a llwyddo i'w darostwng oedd yr anturiaeth fwyaf yr ymgymmerasai Alexander â hi hyd hyny. Ni roddir yma fanylion am y gwarchauad: ond gellir dywedyd fod Tyrus ar y pryd yn sefyll ar ynys tua milldir oddi wrth y cyfandir, ac yn cael ei hamgylchu gan furiau cryfion, a dywedir eu bod ar yr ochr agosaf i'r tir yn gant a hanner o droedfeddi o uchder.

Effeithiodd darostyngiad Tyrus gan Alexander yn dra dinystriol arni, gan i'w hamddiffynwyr dewr gael eu rhoddi i farwolaeth; ac, yn ol arfer barbaraidd creulawn yr hen amseroedd, tua deng mil ar hugain o drigolion y dref, yn cynnwys caethion, a benywod, a phlant rhyddion, a werthwyd i gaethiwed. Hi a adfeddiannodd yn raddol, pa fodd bynag, ei llwyddiant blaenorol, trwy i ymsefydlwyr newydd ymfudo yno, er y dywedir i'w masnach ddioddef mewn canlyniad i gydymgais Alexandria. O dan ganlynwyr Macedonaidd Alexander, hi a ddisgynodd i ran y Seleucidæ. O dan y Rhufeiniaid, ar y cyntaf, hi a barhaodd i fwynhau rhyw fath o ryddid; o herwydd y mae Josephus yn crybwyll, pan y gwasgodd Cleopatra ar Antony i gynnwys Tyrus a Sidon mewn rhodd o diriogaethau Phœniciaidd ac Iuddewig a gyflwynai efe yn anrheg iddi, ei fod wedi gwrthod yn bendant, gan y gwyddai eu bod yn "ddinasoedd rhyddion."—"*Hynaf. Iudd.*," xv. 4, *adr.* 1. Wedi hyny, pa fodd bynag, ar ddyfodiad Augustus i'r dwyrain, mynegir iddo gymmeryd eu rhyddid oddi ar y dinasoedd hyn yn gosp am eu hymddygiad gwrthryfelgar. Etto y mae yn ddiammheuol fod Tyrus mewn sefyllfa flodeuog yn amser Augustus. Croniclir ei hanes yn yr amser hwn gan Strabo, a chyfeirir at amryw o ffynnonellau ei chyfoeth. Dywed fod y tai yn cael eu hadeiladu yn amryw o uchder lloftydd, a'u bod yn uwch hyd yn oed na thai Rhufain—yr hyn y gellid yn ddigon naturiol ei ddisgwyl mewn dinas amddiffynedig lwyddiannus wedi ei chyfyngu i le bychan, a lle y buasai y tir i adeiladu arno yn myned i bris uchel. Rhydd Pliny yr Hynaf ddisgrifiad lled fanwl pellach o'r ddinas; ac wrth ei darlunio efe a ddywed mai amgylchedd y ddinas briodol (sef, y ddinas ar y gorynys), oedd dwy ar hugain o ystadiau; tra yr oedd yr holl ddinas, gan gynnwys Palætyrus, yn bedair ar bymtheg o filldiroedd Rhufeinig.—"*Natural Hist.*," v. 17. Y mae i hanesion Strabo a Pliny ddyddordeb neillduol yn yr ystyr yma, yn gymmaint a'u bod yn tueddu i roddi i ni syniad o'r hyn oedd Tyrus pan y darfu i Iesu Grist ymweled â hi: *Mat.* xv. 21; *Marc* vii. 24. Fe allai ei bod yn lliosocach ei phreswylwyr nag Ierusalem; ac os felly, hi oedd y ddinas fwyaf y gwyddys iddo dalu ymweliad â hi. Nid oedd rhyw lawer dros ddeng milldir ar hugain o bellder o Nazareth, lle y bu Crist fyw y rhan fwyaf o'i oes fel "mab y saer:" *Mat.* ii. 23; iv. 12, 13, 18; *Marc* vi. 3. Gellir yn hawdd ddychymygu iddo ymweled â Thyrus tra yr oedd efe etto yn anhysbys i'r byd; a pha ansicrwydd bynag a ddichon fod gyda golwg ar y cwestiwn, pa mor bell yr oedd yr iaith Roeg yn cael ei siarad yn Nazareth, gallasai gael cyfle rhagorol i siarad yr iaith hono yn Tyrus a'i chyffiniau, â'r hon y mae yn amlwg yr oedd efe yn gydnabyddus: *Marc* vii. 26.

O amser Crist hyd ddechreu y bummed ganrif, nid oes sail i ammheu, mor bell ag yr oedd hyny yn gyttunol â'r golled o'i hannibyniaeth, nad oedd Tyrus yn parhau yn flodeuog a llwyddiannus; ac ynghylch y pryd hwnw y mae Jerome yn dwyn tystiolaeth dra nodedig ar y mater, yr hon sydd wedi cael ei dyfynu yn aml. Yn ei esboniad ar Lyfr Ezeciel, wrth sylwi ar y fan lle y mae y prophwyd yn bygwth Tyrus â dynesiad Nebuchodonosor, brenin Babilon (*Ezec.* xxvi. 7), yn mhlith pethau ereill, cyfeiria at yr adnod yn yr hon y rhagfynega y prophwyd am Tyrus, "Ni'th adeiledir mwy;" a dywed fod hyn yn cyfodi y cwestiwn yn mha ystyr y gellir dywedyd nas adeiledir dinas oedd y pryd hwnw y fwyaf ardderchog a phrydferth o ddinasoedd Phœnicia. Wedi hyny, yn ei sylwadau ar *pen.* xxvii. 3, lle y gelwir Tyrus yn "farchnadyddes y bobloedd i ynysoedd lawer," efe a ddywed fod hyn yn parhau yn wirionedd am dani hyd ei ddyddiau ef, a'i bod y pryd hwnw yn gwneyd masnach yn mron â'r holl genhedloedd. Tybir fod esboniad Jerome wedi ei ysgrifenu tua B.A. 411—414, fel y mae ei dystiolaeth am sefyllfa lwyddiannus Tyrus yn union fil o flynyddoedd yn ddiweddarach na chymmeriad Ierusalem gan Nebuchodonosor, c. c. 588. Gyda golwg ar ddywediad Ezeciel am Tyrus, "Ni'th adeiledir mwy," dywed Jerome mai y meddwl ydyw, 'Ni bydd Tyrus mwy yn frenhines y cenhedloedd'—yn meddu ei brenin, fel yr oedd o dan

Digitized by Google

Hiram a brenhinoedd ereill, gan ei bod yn wastad i fod yn ddarostyngedig, naill ai i'r Caldeaid, neu i'r Macedoniaid, neu i'r Ptolemiaid, neu ynte i'r Rhufeiniaid.

Pan y soniai Jerome am ymostyngiad Tyrus i'r Rhufeiniaid er's mwy na phedwar can mlynedd, o'r braidd y gallasai ddisgwyl y cawsai ei darostwng gan allu arall yn dyfod o'r deheu. Yn y seithfed ganrif y cyfododd y gallu mawr Mahometaidd o dan Mahomet. Yn y blynyddoedd B. A. 733—738, gorchfygwyd holl Syria a Phalestina, o'r Môr Marw i Antiochia, gan y caliph Omar; ac yr oedd y gorchfygiad mor llwyr, fel y darfu i iaith Mahomet gymmeryd lle yr iaith a siaredid yno yn flaenorol. Mewn tri o bentrefydd yn Syria y mae yr Aramaeg yn cael ei siarad. Yn Mhalestina nid oes un o'r brodorion yn ei siarad yn awr; ac yn Ierusalem gelwir yn ddyddiol ar y Mahometiaid at eu gweddïau yn iaith Arabaidd Mahomet, i'r ysmotyn ar yr hwn unwaith y safai y deml sanctaidd. Ond ni ddarfu i'r gorchfygiad hwn ddymchwelyd Tyrus. Y prif ammodau ar ba rai y caniatawyd heddwch iddi, a dinasoedd Syriaidd ereill, oedd, fod iddynt dalu treth y penau (*poll-tax*), rhoddi ymborth a lletty am dridiau i bob teithiwr Mahometaidd, gwisgo dillad neillduol, caniatau i Fahometiaid fyned i'r eglwysydd, gwneyd i ffordd â phob croesau a sain clychau, gochelyd ymadroddion diraddiol am y grefydd Fahometaidd, a gwahardd marchogaeth ar feirch ac adeiladu eglwysydd newyddion.—Weil's "*Geschichte der Chalifer,*" i. 81, 82. Yr oedd rhai o'r telerau hyn yn dra diraddiol; ond os ymostyngid iddynt, arbedid bywyd a meddiannau y preswylwyr. O ganlyniad, yn amser y croesgadau, yr oedd Tyrus yn parhau mewn sefyllfa flodeuog, ac ymostyngodd i'r Cristionogion ar y 27ain o Fehefin, 1124. Yr oedd ynddi esgob Cristionogol yn lled foreu; a sonir hefyd am Cassius, esgob Tyrus, fel un oedd yn bresennol yn Nghynghor Cesarea yn niwedd yr ail ganrif; ac yn y flwyddyn ddilynol i'r gorchfygiad gan y croesgadwyr, pennodwyd Ffrangcwr o'r enw William, yn archesgob ynddi. Gadawodd yr archesgob hwn ar ei ol hanes y ddinas, yn yr hwn y ceir golwg dda ar ei chyfoeth a'i nerth milwraidd. Ac y mae ei adroddiad ef yn cael ei gadarnhau gan Benjamin o Tudela, yr hwn a ymwelodd â'r lle yn yr un ganrif. Dywed yr ysgrifenydd olaf, yr hwn a fu farw yn 1173:—"Nid wyf yn meddwl fod un porthladd yn y byd fel hwn. Y mae y ddinas ei hun, fel y dywedais, yn un hardd; ac y mae ynddi tua phedwar cant o Iuddewon, ac yn eu mysg rai medrus iawn fel darllenwyr; ac yn enwedig Ephraim y barnwr Aiphtaidd, a Mair, a Charchesona, ac Abraham, penaeth y brif ysgol. Y mae gan rai o'r Iuddewon longau ar y môr, a gedwir ganddynt er mwyn elw. Ceir ynddi weithwyr cywrain mewn gwydr: y maent yn gwneyd y gwydr a elwir 'gwydr Tyrus,' yr hwn a brisir yn fawr yn mhob gwlad. Yma hefyd y ceir y sugr goreu." Yr oedd Tyrus yn fam i drefedigaethau, a fuont yn flodeuog am amser maith, ond a ddiflanasant; etto yr oedd hi ei hun yn parhau i flodeuo, wedi i Carthage, Thebes, a Babilon gwympo. Gwelodd gyfodiad a chwymp dinasoedd Groegaidd hefyd. Yr oedd Rhufain, mae yn wir, mewn bod yn y drydedd ganrif ar ddeg; ond nid oedd yn gallu dyddio adeg ei sylfaeniad o gyfnod mor bell yn ol a Thyrus. Yr oedd yr olaf yn ddinas gref a chyfoethog pan nad oedd y flaenaf am gannoedd o flynyddoedd ond noddfa i fugeiliaid ac ysbeilwyr. O'r diwedd daeth y 'dydd drwg' ar warthaf Tyrus. Yr oedd wedi bod am fwy na chant a hanner o flynyddoedd yn nwylaw y Cristionogion, pan y darfu i Sultan yr Aipht a Damascus, a adwaenid y pryd hwnw wrth yr enw Ptolemais, osod gwarchau ar Acre yn mis Mawrth, 1291; ac yn mhen deufis cymmerodd hi trwy ruthr. Ac fel hyn y mae Venetiad o'r enw Marinus Sanutus, yn adrodd y canlyniad o hyn yn nechreu y ganrif ddilynol:—"Ar y dydd y cymmerwyd hi gan Ptolemais, aeth y Tyreaid allan o honi yn mrig yr hwyr, gan adael y ddinas yn wag. Aethant oll ar fyrddau eu llestri, gan adael y ddinas i'w gorchfygwyr. Dranoeth, aeth y Saraceniaid i mewn heb i neb geisio eu hattal, ac yr oeddynt yn gwneyd â hi fel yr ewyllysient."

Dyma yr argyfwng pwysicaf yn hanes Tyrus, yr hyn a ddigwyddodd dros ddeunaw cant o flynyddoedd ar ol cymmeriad Ierusalem gan Nebuchodonosor; ac nid ydyw hi hyd heddyw wedi ymadnewyddu ar ol y dyrnod hwn. Ymwelwyd â hi yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg gan Syr John Maundeville; yr hwn a ddywed, wrth sôn am Tyrus, a elwid y pryd hwnw yn Sur: "Yma unwaith y bu dinas fawr a hardd gan y Cristionogion; ond y mae y Saraceniaid wedi ei dinystrio mewn rhan fawr; ac y maent yn gwylio y porthladd yn ofalus rhag ofn y Cristionogion." Ymwelodd Sandys â hi ynghylch B. A. 1610—11, yr hwn a ddywed am dani:—"Nid yw Tyrus, a fu yn enwog gynt, yn ddim amgen na phentwr o adfeilion; ond y mae golwg fawreddus arnynt, ac y maent yn adgofio i'r edrychydd pruddaidd ei waeledd ei hun. Y mae iddi ddau borthladd:—yr un sydd ar y tu gogleddol yw yr harddaf a'r goreu yn y parthau hyn o'r dwyreindir; ond y mae y llall wedi ei lenwi âg adfeilion ac ysbwrial y ddinas." Tua diwedd yr un ganrif, dywed Maundrell am dani: "Y mae hen gastell Tyrcaidd ar y tu gogleddol iddi; ond heb law hyn nid oes yma ond Babel o furiau, colofnau, a bwäau toredig a chwympedig, heb gymmaint ag un tŷ cyfan wedi ei adael. Nid ydyw ei phreswylwyr presennol ond ychydig o drueiniaid yn trigo mewn daeargelloedd, ac yn byw ar bysgota." Pococke, yr hwn, yn 1737—40, a ddywed nad oedd yno, oddi gerth rhai Janisariaid, ond ychydig o drigolion ereill yn y ddinas heb law dau neu dri o deuluoedd Cristionogol; a Hasselquist, y naturiaethwr Swedaidd, oedd yno yn Mai, 1751, a ddywed am ei ymweliad:—"Dilynasom y traeth...a daethom i Tyrus, a elwir yn awr yn Sur, ac yno y gorweddasom ar hyd y nos. Nid oes un o'r dinasoedd hyny, oeddynt unwaith mor enwog, wedi eu dinystrio mor lwyr a hi, oddigerth Caerdroia. O'r braidd y gellir ei galw yn awr yn bentref gwael, er ei bod gynt yn ddinas fawr, ac yn frenhines y moroedd. Deg o breswylwyr sydd yma, rhwng Mahometiaid a Christionogion, y rhai sydd yn byw ar bysgota."—Gwel "*Voyages and Travels in the Levant.*" Cymmerodd cyfnewidiad bychan er gwell le yn fuan ar ol hyn. Dywed Volney fod y Metâwileh wedi cymmeryd meddiant o'r lle yn B. A. 1766, ac adeiladu mur o ugain troedfedd o uchder o amgylch, yr hwn oedd yno pan yr ymwelodd efe â'r llanerch ugain mlynedd yn ddiweddarach. Cyfrifai Volney fod yno o hanner cant i drigain o deuluoedd tlodion yn trigo y pryd hwnw. Er dechreu y ganrif bresennol y mae y lle wedi

Digitized by Google

adfywio ychydig. Ac y mae amryw ddysgedigion ysgrythyrol a theithwyr wedi ymweled âg ef yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf, ac yn eu plith Robinson, Stanley, a Renan, ac y maent yn cyttuno yn eu darluniadau o'r olygfa anrheithiedig sydd ar y lle. Y mae Mr. Porter, yr hwn a fu yn preswylio am dymmor yn Damascus, ac oedd mewn sefyllfa i gael gwybodaeth gywir, yn dywedyd yn y flwyddyn 1858, fod y "dref ddiweddar, neu yn hytrach y dreflan, yn cynnwys o dair i bedair mil o breswylwyr—y Metâwileh yn gwneyd i fyny y naill hanner, a'r hanner arall yn Gristionogion proffesedig." Y mae rhagoriaeth Beyrout fel lle cymmhwys i dderbyn llongau priodol i ddwyn yn mlaen fasnach ddiweddar yn sicr o fod o hyn allan yn attalfa i Tyrus i fod y ddinas fasnachol bwysicaf ar y gororau Syriaidd. Y dyfodol yn unig a ddengys pa un, gyda llywodraeth dda, a heddwch yn ardaloedd y Lebanon, a gynnydda ei phoblogaeth, ac a ddaw Tyrus etto yn lle cymmharol gyfoethog, ai ni ddaw.

TWRCI. Y mae ymherodraeth Twrci yn cynnwys rhanau helaeth o gyfandiroedd Ewrop, Asia, ac Affrica, ac yn cynnwys Twrci Briodol. Y mae o dan reolaeth y Sultan; gydag amryw daleithiau ereill sydd o dan warogaeth iddo, ond a lywodraethir gan eu tywysogion eu hunain. Y mae y taleithiau sydd yn ddibynol arni naill ai yn ddeiliaid i benaethiaid treftadol, megys yr Aipht, Servia, a Montenegro; neu i lywodraethwyr dewisedig, neu i raglawiaid yn cael eu pennodi gan y Sultan: ac y mae y penaethiaid hyn, pa fodd bynag y cânt eu pennodi, ar eu gwaith yn ymaflyd yn eu swydd, yn gorfod derbyn ei gymmeradwyaeth ef, a chydnabod ei uchafiaeth ef, a thalu teyrnged iddo. Yn mhob ystyr arall y maent yn llywodraethwyr annibynol.

Y mae Twrci Briodol, fel y gelwir y parthau hyny sydd o dan lywodraeth uniongyrchol y Sultan, yn cael ei therfynu gan ymherodraeth Awstria, a Roumania, a'r Môr Du, ar du y gogledd; gan Persia, a Morgaingc Persia, ac Arabia Ddeheuol, ar du y dwyrain; a chan y Môr Coch, yr Aipht, Môr y Canoldir, Groeg, y Môr Adriaidd, a'r ymherodraeth Awstriaidd ar du y deheu a'r gorllewin.

Twrci yn Ewrop ydyw y lleiaf o'r ddwy ran a berthyn i Twrci Briodol. Y mae hi yn gyffredinol yn fryniog ac anwastad; ac ynddi restr o fynyddoedd sydd yn cychwyn yn yr Alpau, ac yn rhedeg o'r gongl ogledd-orllewinol iddi mewn cyfeiriad de-orllewinol, o dan yr enw Alpau Dinaric, gan gadw yn gyfochrog â'r arfordir, ac ymestyn tuag Albania; ac yno yr enw sydd arnynt yw Mynyddoedd Pindus, a chymmerant gyfeiriad deheuol nes y cyrhaeddant gyffiniau Groeg. Y mae y gadwen hon o fynyddoedd, lle y mae ffynonellau y gwlaw a'r gwlybaniaeth sydd yn dyfrhau y tir rhwng y moroedd Adriaidd ac Ægeaidd, yn cyrhaedd i'w huchder mwyaf yn Mynydd Dinara; yr hwn sydd saith mil a phedwar cant a hanner o droedfeddi o uchder, ac yn anfon allan amryw ganghenau dros Montenegro ac Albania. Y gangen fawr o hono, mewn cyfeiriad dwyreiniol, ydyw Mynyddoedd yr Hæmus, neu y Balkan; sydd yn ymestyn yn mlaen i'r gogledd-ddwyrain yn Albania, ac yn rhedeg tua'r Môr Du—yn agos at yr hwn y terfyna mewn penrhyn uchel. O'r trum yma y mae canghenau ereill yn ymestyn trwy Servia, Rumili, a Macedonia. Afon fawr Twrci ydyw y Danube; yr hon, gydag un arall sydd yn rhedeg iddi, sef y Save, a ffurfia ei therfyn gogleddol; a derbynia i mewn iddi yn Twrci y Bosna a'r Drin o Bosnia, y Morava o Servia, a'r Isker a'r Osma o Bulgaria. Y mae y Maritza, yr hon a gychwyn o'r Balkan Fawr, a'r Strumo a'r Vardar hefyd, yn Macedonia, yn afonydd o gryn faintioli; ond nid yw yr afonydd sydd ar du dwyreiniol Mynyddoedd y Pindus ond cymmharol fychain: y rhai penaf o honynt ydynt y Narenta, y Drin, a'r Voyutza. Y mae yr oerni mawr yn yr ucheldir yn y gauaf yn cael ei achosi gan y gwyntoedd gogledd-orllewinol sydd yn chwythu oddi ar fynyddoedd noethlwm a rhewllyd deheubarth Rwssia; ac y mae y gwres yn yr haf yn annioddefol yn mron yn y dyffrynoedd gorllewinol. Cyfnewidiadau hinsoddawl eithafol a gymmer le yn Twrci yn Ewrop ar y cyfan; ond y mae y lleoedd cysgodol sydd ynddi, megys y dyffrynoedd Albanaidd, yn mwynhau hinsawdd cymmharol gymmedrol. Y mae y tir gan mwyaf yn dra ffrwythlawn a chynnyrchiol; ond o herwydd fod can lleied o gefnogaeth wedi ei roddi i amaethyddiaeth, a bod y trethi wedi bod yn drymion am dymmor maith, nid oes ond ychydig o gynnydd wedi ei wneuthur yn y gelfyddyd hono; a'r offerynau mwyaf syml sydd mewn arferiad yno i drin y ddaear. Codir llawer o indrawn yn y deheubarth; reis, cotwm, rhug, a haidd yn y canolbarth; a *milet* yn y gogleddbarth. Y cynnyrchion naturiol mewn coed ydynt y pinwydd, ffawydd, derw, pisgwydd, ac yn, ynghyd â choed afalau, gerllyg, ceirios, a'r bricyll (*apricot*) ger llaw glenydd y Danube: y palmwydd, y masarn, yr almonwydd, y sycamorwydd, y castanwydd, y cyll, y bocs, y myrtwydd, a'r llawryf, &c., yn nhaleithiau y Balkan. Y mae fforestydd mawr o ffawydd a phinwydd yn y gogledd orllewin; ac olewydd, eurafalau, gwinwydd, cirinwydd, peatwydd, gyda choed ffrwythydd ereill yn Albania: a chyflawnder o rosynau yn nyffryn y Maritza. Y cynnyrchion mwnawl ydynt haiarn mewn cyflawnder, plwm, copr, llosgfaen, halen, alwm, ac ychydig o aur, ond dim glô. Yr anifeiliaid gwylltion a geir yno ydynt y baedd gwyllt, yr arth, y blaidd, y ci gwyllt, y milfwsg, y greigafr, yr ych gwyllt, ac ereill sydd i'w cael yn wasgaredig yn ngwledydd Ewrop. Yr oedd y llew ar un adeg gynt i'w ganfod yn mynyddoedd Thessaly.

Twrci yn Asia.—Y mae y gyfran hon o'r ymherodraeth yn fwy mynyddig na'r rhan arall; ac y mae y ddwy gadwen fawr o fynyddoedd sydd yn rhedeg o'r bron yn gyfochrog â'u gilydd, sef y Taurus a'r Anti-Taurus, ynghyd â'r canghenau sydd yn rhedeg oddi wrthynt, yn gorchuddio agos yr oll o orynys Asia Leiaf neu Anatolia, ac yn ei ffurfio yn ucheldir dyrchafedig, a dyffrynoedd amgauedig. O gadwen y Taurus, y mae cadwen y Lebanon yn rhedeg yn gyfochrog i Syria, yn gostwng o ran uchder yn Mhalestina, ac yn terfynu ar dueddau y Môr Coch yn Sinai. Heb law yr Euphrates, y Tigris, a'r Orontes, yr unig afonydd o bwys sydd yn Twrci yn Asia ydyw y Kizil-Ermak; yr hon sydd yn codi ar gyffiniau Cilicia, ac wedi llifo yn gwmpasog ar draws y gorynys, yn disgyn i'r Môr Du, ger Samsoun; y Mæander a'r Sarabat, a lifant i Fôr Ægea; ac y mae y Sakaria, yn ymarllwys ei hun i'r Môr Du. Ar y cyfan, prin ydyw dwfr yn Twrci yn Asia; ac er fod ar lechweddau y mynyddoedd gyflawnder o borfeydd rhagorol, y mae y gwastadeddau, a llawer

Digitized by Google

arddiad, i weinyddu y swyddau uchaf yn y wladwriaeth. Nid ydyw gwaedoliaeth, fel y cyfryw, yn sicrhau unrhyw ragorfraint, gan fod yr holl 'wir gredinwyr' yn gyfartal yn ngolwg y gyfraith. Y mae gweinidogion crefydd yn ddarostyngedig i'r awdurdodau gwladol drwy yr holl wlad. Gall ynadon gwladol ddiswyddo a symmud gweinidog crefyddol, os bydd iddo gamymddwyn, neu os bydd yn analluog i gyflawni dyledswyddau ei swydd. Os barnant yn briodol hefyd, y mae gan yr ynadon gwladol hawl i gyflawni dyledswyddau offeiriadol. Crefydd sefydledig y wlad ydyw Mahometiaeth, ond y mae pob crefyddau yn cael eu cydnabod a'u goddef (mewn enw); ac er y fl. 1856, y mae Mahometiad yn rhydd i newid ei grefydd, os dewisa, heb fod yn ddarostyngedig i'w roddi i farwolaeth fel cynt; ond er fod goddefiad mewn enw i grefyddau ereill, y mae ysbryd erledigaethus yn amlygu ei hun yn aml, a hyny mewn ffurf greulawn, yn mysg y Tyrciaid Mahometaidd. Y mae y "*Coran*" a'r "*Multeka*" yn cefnogi addysg gyhoeddus; ac, o ganlyniad, y mae ysgolion cyhoeddus wedi eu sefydlu er's llawer o amser yn y rhan fwyaf o brif drefydd Twrci; ac y mae colegau, gyda llyfrgelloedd cyhoeddus, mewn cyssylltiad â'r prif demlau (*mosques*). Ond y mae yr addysg a gyfrenir yn hynod o gyfyngedig. Addysgir yr ysgolheigion yn benaf yn elfenau cyntaf yr iaith Dyrcaidd: a'r gwersi a ddysgir ydynt bigion o'r "*Coran*," a sylwadau eglurhaol arnynt. Addysgir y sawl sydd yn y colegau yn yr Arabaeg a'r Bersiaeg, ac hefyd i ysgrifenu y gwahanol fathau o lythyrenau yn yr iaith Dyrcaidd. Cynnwysa yr addysg hefyd philosophi, rhesymeg, rheitheg, a moeseg, yn sylfaenedig ar y "*Coran;*" a hyn gyda duwinyddiaeth, cyfraith y wlad, ac ychydig o wersi mewn hanesiaeth a daearyddiaeth, sydd yn gwneyd i fyny y cwrs o efrydiaeth. Yr oedd yn Nghaer Cystenyn yn 1870 dros bedwar cant o ysgolion cyhoeddus, ac ynddynt yn agos i bum mil ar hugain o ysgolheigion.

*Cyllid, byddin, a llynges.*—Amcangyfrif y gyllideb am y flwyddyn yn dechreu Chwef. 18fed, 1874, ac yn terfynu Chwef. 6ed, 1875, o'r holl dderbyniadau oedd 22,552,300*p.*, a'r holl dreuliadau, 22,849,610*p.*, yn gadael diffyg o 297,410*p.* Ond y gwirionedd yw, fod diffygion mawrion bob blwyddyn yn y cyllid i gyfarfod y treuliau, a bod y wlad mewn canlyniad yn suddo yn brysur i ddyled. Ac y mae y diffyg blynyddol hwn yn y cyllid yn dyddio yn ol o'r flwyddyn 1850; ac oddi ar hyny, dechreuwyd benthyca gartref, ac wedi hyny oddi ar wledydd tramor ar ol rhyfel y Crimea, nes y mae dyledion tramor yr ymherodraeth yn awr, hyd ddiwedd y flwyddyn 1875, yn cyrhaedd y swm dirfawr o 184,981,783*p.* Y mae y fyddin yn cael ei gwneyd i fyny o'r fyddin reolaidd, yr ol-fyddin, yr adgyfnerthion a geir o'r taleithiau sydd o dan deyrnged, a'r fyddin afreolaidd. Yn ol cyfrifiad a wnaed yn 1875, rhifai y fyddin reolaidd 148,680 o wŷr; yr ol-fyddin, 148,680; yr adgyfnerthion, 75,000; a'r fyddin afreolaidd, 87,000; y cyfan yn 459,360. Cyfodir cyfran o'r milwyr trwy goelbrenau, a'r lleill trwy ymrestriadau, ac y mae llawer yn ymuno yn wirfoddol, gan fod y tâl a roddir yn y fyddin yn dda. Yr oedd llynges Twrci, yn niwedd y flwyddyn 1875, yn gynnwysedig o ugain o lestri haiarn, a deg a thrigain o agerlestri ereill. Perthynai iddi ar yr un pryd 34,000 o wŷr. Ceir y dwylaw fel y ceir milwyr i'r fyddin, mewn rhan trwy goelbren, ac mewn rhan trwy ymrestriad gwirfoddol. Amser y gwasanaeth a ofynir yn y llynges ydyw wyth mlynedd.

*Hanes.*—Rhoddwn fraslinelliad o ddechreuad, cynnydd, a sefyllfa bresennol yr ymherodraeth Ottomanaidd neu Dyrcaidd. Y mae yr Ottomaniaid neu yr *Osmanlis*, i'r rhai y rhoir yn awr yr enw *Tyrciaid* yn gyffredin, yn ddisgynyddion o'r Tyrciaid Oguziaidd—llwyth o'r genedl fawr Dyrcaidd, yr hwn yn y drydedd ganrif ar ddeg a breswyliai y gwastad-diroedd sydd i'r dwyrain o'r Môr Caspiaidd. Darfu i'r llanw goresgyniadol Mongolaidd oedd ar y pryd yn dyfod o'r gogledd-ddwyrain, yru yr Oguziaid o'i flaen; ac aethant hwythau, yn rhifo tua hanner can mil, o dan eu penaeth, Suliman, yn mlaen yn orllewinol i ardaloedd mynyddoedd uchelgribog Armenia. Ar ol marwolaeth eu penaeth, ymwasgarodd y rhan fwyaf o'r llwyth dros Mesopotamia; ond aeth ychydig filoedd o honynt, dan Orthoguel, ei fab ieuangaf, tua'r gorllewin i gynnorthwyo Sultan Seljuk o Konieh yn erbyn y Khaurezmiaid a'r Mongoliaid, a chafodd yn gyfnewid am ei garedigrwydd gan y penadur hwnw ran o Phrygia yn rhodd. A'i fab ef, Othman, a osododd i lawr sylfaen gallu annibynol y Tyrciaid. Olynydd Othman oedd ei fab Orkhan (1326—1359), yr hwn a ddilynodd yr un wladlywiaeth ymosodol; a chafodd safle yn Ewrop trwy gymmeryd Gallipoli, Koiridicastron, ac amddiffynfeydd ereill oedd ar y cyffiniau. Edrychai y Groegiaid yn ddibwys ar y colledion hyn, gan ddiystyru y gallu barbaraidd. Yn raddol, daeth Orkhan i weled y fantais o gael llu o ddynion wedi eu haddysgu yn arbenig a phwrpasol i ryfela, a neillduodd gorph o ddynion i'r dyben hwnw, a elwid y Janisariaid, ac at y rhai hyn chwanegodd ei olynwyr y Spahis a'r Zanis. Olynydd Orkhan oedd Amurath I., yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn 1359; ac yn fuan efe a gyfyngodd yr ymherodraeth Byzantiaidd o fewn terfynau Caer Cystenyn a rhai o ardaloedd cyfagos Thracia a Bulgaria. Ffurfiwyd cynghrair cryf o'r llwythau Slafonaidd ar y Danube Uchaf yn ei erbyn, a chynnorthwywyd hwynt gan liaws o ryfelwyr o Hungary ac Italy, ac aethant yn mlaen i Servia i frwydro âg ef; ond cafodd eu byddin, yr hon, meddir, oedd yn gynnwysedig o bum can mil o wŷr, ei llwyr orchfygu yn Kossova, yn 1390; ac er i'r sultan gael ei fradlofruddio ar ddechreu y frwydr darfu i'w fab, Bajazet I., ar ol y fuddugoliaeth, anrheithio Servia a Wallachia. Goresgynwyd Moldavia, a gorchfygwyd byddin o dan frenin Hungary yn Nicopolis, yn 1396; ond darfu i orchfygiad y sultan gan Tamerlane gadw Caer Cystenyn o feddiant y Tyrciaid ychydig yn hwy, trwy gyfodi i fyny amryw ymgeiswyr am orsedd Twrci; ac yn 1413 y sefydlodd Mohammed I., mab ieuangaf Bajazet, ei hawl iddi. Torodd rhyfel allan rhwng y Tyrciaid a gweriniaeth Venetia y pryd hwn, ac effeithiodd hyn yn niweidiol iawn ar fuddiannau masnachol a morwrol y Tyrciaid; ac mewn canlyniad i ymraniadau mewnol, nis gallent wneuthur ymosodiadau ar eu cymmydogion. Esgynodd Amurath II. i'r orsedd yn 1422, yr hwn oedd dywysog o gryn alluoedd, a chwblhaodd orchfygiad yr ymherodraeth Roegaidd trwy ddarostwng Macedonia a Groeg Briodol; a phan y deallodd efe fod yr Hungariaid wedi cynghreirio â sultan Caramania yn ei erbyn, efe a ymosododd ar y blaenaf;

Digitized by Google

hwn, trwy ddoethineb ei wraig, Catherine I., a ffoledd prif weinidog Twrci yn caniatau iddo i encilio ar delerau mor esmwyth—telerau na ddarfu i Pedr wneuthur un ymdrech i'w cadw. Adfeddiannwyd y Morea oddi ar y Venetiaid, a chollwyd Belgrade, a rhanau o Servia, a Wallachia, yn ystod teyrnasiad Achmet—ond adferwyd hwynt yn adeg teyrnasiad Mahmud I., yr hwn a esgynodd yr orsedd yn 1730, ac a ddechreuodd ryfel maith â Phersia. Yn 1736, dechreuwyd gyrfa o wladlywiaeth ymosodol gan Rwssia, trwy gymmeryd Azof, Oczakof, ac amddiffynfeydd pwysig ereill; ond attaliwyd y dygiad oddi amgylch o gynllun i ddarnio Twrci rhwng Awstria a Rwssia, trwy fod byddinoedd Awstria yn cael eu gorchfygu yn barhaus gan y Tyrciaid. Yr oedd y Rwssiaid, o'r tu arall, yn llwyddo yn barhaus; ond am fod ymherodres Rwssia yn dymuno heddwch, hi a lawnododd gyttundeb heddwch Belgrade. Yn mysg y daioni a wnaeth y sultan Mahmud i'w ddeiliaid, nid y lleiaf oedd dwyn i'w mysg y gelfyddyd o argraphu, a'r gefnogaeth a roddai i wyddoniaeth a llenyddiaeth. Ei olynydd ef oedd Othman III., yr hwn a deyrnasodd am dair blynedd; ac a ddilynwyd gan Mustafa III., yn 1757, o dan yr hwn, neu dan ei brif weinidog Raghib Köprili, y gwladweinydd galluocaf, yn nesaf at Achmet, a fu yn mhlith y Tyrciaid erioed, y mwynhaodd yr ymherodraeth dawelwch hollol; ond ar ol ei farwolaeth goresgynwyd Moldavia gan y Rwssiaid, ar draws cyttundeb Belgrade; a'r flwyddyn ddilynol dinystriodd eu llynges yr eiddo y Tyrciaid ger Chios. Y nesaf a syrthiodd oedd Bender, a'r wlad tua genau y Danube, ac ymosodwyd hefyd ar daleithiau Asia Leiaf; ac i goroni yr anffodion, gwrthryfelodd yr Aipht. Parhaodd y rhyfel â Rwssia am deyrnasiad dyfodol Abdul-Hamid (1774—1789); a syrthiodd yr amddiffynfeydd ar y Danube i ddwylaw Romanzoff, Suwaroff, a Kamniski, y cadfridogion Rwssiaidd; a gorchfygwyd prif fyddin y Tyrciaid yn Shumla. Terfynwyd y rhyfelgyrch ar y 10fed o Orphenaf, 1774, pan wnaed cyttundeb heddwch Kutshouk-kainardji. Ond o'r braidd y cafodd ei gwblhau na ddarfu i ymherodres Rwssia ei dori; a thrwy gynllwyn â'r trigolion hi a gymmerodd feddiant o'r Crimea, a'r holl wlad oedd yn ddwyreiniol i'r Môr Caspiaidd; a gorfodwyd y sultan i gyttuno â hyn yn 1784. Dilynwyd y llwyddiant hwn o du y Rwssiaid âg ymddygiadau hynod o sarhaus tuag at y Tyrciaid, a dueddent i gyffroi pobl feilchion, oedd eisoes yn teimlo yn ofidus o herwydd eu bod yn wrthddrychau ymosodiadau di-achos, a'u hymosodwyr yn dorwyr ammodau difrifol. Gorfodwyd y sultan gan ei ddeiliaid i fyned i ryfel drachefn yn 1787; a gwnaeth Awstria ymgais unwaith yn rhagor i gyttuno â Rwssia gyda golwg ar ddarnio Twrci; ond fel o'r blaen, gorchfygwyd byddinoedd Awstria, a gorfodwyd hi i gydsynio â chyttundeb Sistow. Yr oedd y Rwssiaid, pa fodd bynag, wedi goresgyn y taleithiau gogleddol, wedi cymmeryd yr holl brif amddiffynfeydd, a chymmeryd neu ddinystrio y llynges Dyrcaidd.

Nodweddwyd esgyniad Selim III. i'r orsedd, yn 1789, â dygiad yn mlaen y rhyfel gyda mwy o egni; ond yr oedd yr Awstriaid wedi ymuno drachefn â'r Rwssiaid, a byddinoedd y ddau allu yn gorlifo i'r ymherodraeth Dyrcaidd. Ymostyngodd Belgrade i Awstria; ac fe ddarfu i'r Rwssiaid gymmeryd Bucharest, Bender, Akerman, ac Ismail. Ond yr oedd amgylchiadau peryglus gorllewin Ewrop yn peri i'r Rwssiaid deimlo yn awyddus am ddwyn y rhyfel i derfyniad; ac o ganlyniad, llawnodwyd cyttundeb heddwch yn Jassy, ar y 9fed o Ionawr, 1792. Pan y cafwyd tawelwch, cynnygiwyd llawer o welliantau er dwyn yn mlaen yn fwy llwyddiannus achosion cyhoeddus yr ymherodraeth. Ond o'r braidd yr ydoedd deiliaid Twrci yn barod i wneuthur cymmaint o gyfnewidiadau; a chostiodd hyn i'r sultan ei orsedd a'i fywyd. Pan feddiannwyd yr Aipht gan y Ffrangcod, achosodd ryfel rhwng y Tyrciaid a hwynt, yn yr hwn y bu y gallu hwnw, gyda chynnorthwy Prydain Fawr, yn alluog i adfeddiannu y tiriogaethau a gollasid. Er dial am hyn, medrodd Napoleon ddwyn oddi amgylch ryfel rhwng y sultan, a Rwssia, a Phrydain, yr hwn a gyfyngwyd i ymrysonfa yn yr Aipht—pryd y gorchfygwyd y Prydeiniaid. Ar ol teyrnasiad byr gan Mustafa III. o flwyddyn, esgynodd y galluog a'r egnïol Mahmud II. i'r orsedd yn 1808; ac er i'w diriogaethau gael eu lleihau trwy golli Groeg, yr hon a sefydlodd ei hannibyniaeth, a'r wlad rhwng y Dniester a'r Pruth, yr hon, yn ol cyttundeb Bucharest yn 1812, a feddiannwyd gan Rwssia, darfu i'r diwygiadau a effeithiwyd ganddo yn mhob rhan o weinyddiadau y llywodraeth roddi attalfa ar ddadfeiliad yr ymherodraeth, a dwyn bywyd newydd i raddau iddi. Yn ei deyrnasiad ef y darfu i'r Aipht daflu ymaith awdurdod y sultan, fel nad yw yn awr yn ddibynol ar Twrci ond mewn enw yn mron. Daeth Abdul Medjid, mab Mahmud, i'r orsedd yn 1839, yr hwn a ystyrid yn dywysog llariaidd a haelfrydig, a pharhaodd i gario yn mlaen ddiwygiadau y teyrnasiad blaenorol; ond yr oedd ymherawdwr Rwssia yn tybied, o herwydd y golled mewn tiriogaethau a gafodd Twrci yn ddiweddar, fod ymddrylliad yr ymherodraeth ger llaw; ac yr oedd efe yn parhaus ymyryd â'i hachosion mewnol, ac yn ceisio dadleu ei hawl i hyny ar sail ryw hen gyttundebau. Ymgais o'r natur yma i gael amddiffyniad hollol aelodau Eglwys Groeg yn Twrci i'w law a ddygodd o amgylch Ryfel y Crimea yn 1853—55, pan y cymmerodd Prydain, Ffraingc, a Sardinia blaid y Tyrciaid. Adferwyd heddwch ar ol cwymp Sebastopol yn Medi, 1855. [Gwel dan y gair RWSSIA.] Yn ol cyttundeb Paris, adfeddiannodd Twrci ran o diriogaeth yr ochr ogleddol i'r Danube, rhwng Moldavia a'r Môr Du; ac i raddau rhyddhawyd hi oddi wrth rwymedigaethau yr oedd cyttundebau blaenorol wedi ei gosod danynt i Rwssia. Bu farw Abdul Medjid yn 1861, ac esgynodd Abdul Aziz i'r orsedd. Ar y cyntaf, addawai fod yn llywodraethwr rhyddfrydig ac egnïol, ond ymollyngodd i fyw yn foethus a diofal; ac yr oedd achosion y wladwriaeth yn cael eu hesgeuluso, nes o'r diwedd iddo, ar y 29ain o Fai, 1876, gael ei orfodi i ymneillduo o'r orsedd; ac yn mhen pum niwrnod, rhoddodd derfyn ar ei einioes, trwy agor gwythïen yn ei fraich. Yr hwn a'i dilynodd oedd Murad V., mab hynaf Abdul Medjid.

Parhau mewn sefyllfa anfoddhaol, a lled gynnhyrfus weithiau, y mae pethau wedi bod yn Twrci, i raddau mwy neu lai, drwy y blynyddoedd; ond yn 1875 a 1876, torodd gwrthryfel allan mewn amryw o'i thaleithiau. Yr oedd Herzegovina a Bosnia hefyd mewn gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth er y flwyddyn 1875: ac yr oedd amryw o daleithiau ereill, a phoblogaeth



Digitized by Google

Servia yn neillduol, yn cydymdeimlo yn ddwys â'r gwrthryfelwyr, gan y teimlant fod deiliaid Cristionogol y taleithiau yn gyffredinol yn dioddef yn ddirfawr oddi wrth orthrwm y Tyrciaid. Y mae Servia, fel Roumania, yn meddu ei llywodraeth ei hun; ond y mae dan deyrnged i Twrci. Ar yr 2il o Orphenaf, cyhoeddodd y Tywysog Milan o Servia ryfel yn erbyn Twrci, gyda'r dealltwriaeth y byddai i dalaeth Montenegro gydweithredu âg ef. Yn y cyfamser yr oedd terfysg wedi tori allan yn rhai o bentrefydd Bulgaria, un o'r taleithiau Tyrcaidd, yn ganlynol i'r ormes dirfawr yr oedd Cristionogion yn ddarostyngedig iddo oddi ar ddwylaw y Mahometiaid. Wrth ddarostwng y terfysgoedd hyn cymmerodd y milwyr Tyrcaidd, yn enwedig y dosbarth hwnw o honynt a elwir wrth yr enw y *Bashi-Bazouks*, ryddid i gyflawni y creulonderau mwyaf ysgeler ac ofnadwy. O'r braidd y ceir ar ddalenau hanesyddiaeth ddim a ddeil gymmhariaeth â'r gweithredoedd anfad ac annynol a gofnodir. Cynnhyrfodd yr adroddiadau am y creulonderau y teimlad dyfnaf o adgasrwydd at y rhai fu yn euog o honynt, ac at y llywodraeth oedd, i raddau mwy neu lai, yn gyfrifol am danynt, a'r cydymdeimlad llwyraf â'r dioddefwyr drwy holl Ewrop, ac yn enwedig drwy y wlad hon, fel y cynnaliwyd cyfarfodydd o'r naill ben i'r llall iddi i wrthdystio yn erbyn y fath anfadwaith, ac i fynu i'r taleithiau gorthrymedig, sef Servia, Montenegro a Roumania, yr hawl i'w llywodraethu eu hunain.

Ar ol teyrnasiad byr o dri mis symmudwyd Murad v. o orsedd Twrci, a chyhoeddwyd Abdul Hamid, ei frawd, yn sultan yn ei le. Yr achos o ddiorseddiad Murad oedd, fod ei synwyr yn gwanhau, ac yntau yn analluog i ymdrin âg achosion y wladwriaeth. O herwydd fod y gwrthryfel yn parhau; y mae chwe gallu mawr Ewrop, sef Rwssia, Awstria, Germany, Ffrainge, Italy, a Lloegr, wedi ymohebu llawer â'u gilydd yn ystod y flwyddyn hon (1876), gyda'r amcan o osod i lawr sylfeini heddwch parhaol rhwng Twrci a'r taleithiau, drwy yr hyn y sicrheir cyfiawnder i Gristionogion y taleithiau, ac amddiffyniad rhag deddfau gorthrymus rhag llaw. Y cynnygiad a wnaed gan y chwe gallu iddi yn mis Medi, oedd fel y canlyn:—Fod Servia a Montenegro i fod yn yr un sefyllfa ag yr oeddynt cyn dechreu y rhyfel: nad oedd dim o gostau y rhyfel yr aeth Twrci iddynt i'w talu gan Servia: a bod llywodraeth leol ddiwygiedig hefyd i fod yn Bosnia, Herzegovina, a Bulgaria.

Yr attebiad a roddwyd gan Twrci i gynnygion y galluoedd oedd, ei bod yn barod i wneyd heddwch yn seiliedig ar y chwe pheth canlynol:—1. Fod Tywysog Servia i dalu ei warogaeth yn Nghaer Cystenyn. 2. Fod Twrci i feddiannu y pedair caerfa oedd yn cael eu dal gan filwyr Twrci cyn y flwyddyn 1857. 3. Fod cartreflu Servia yn cael ei ddiddymu; ac nad yw y gallu milwrol yno er cadw heddwch mewnol i fod yn fwy na 10,000 o wŷr, a dwy fagnelfa. 4. Fod y caerfaoedd a adeiladwyd yn Servia er y flwyddyn 1857 i gael eu dinystrio. 5. Os bydd Servia yn analluog i dalu costau y rhyfel, y penderfynir arnynt etto, fod y deyrnged bresennol i gael ei chodi yn gyfattebol i'r llôg a delir ar y costau. 6. Fod y Porte yn cadw iddo ei hun yr hawl i wneuthur ffordd haiarn i gyssylltu Belgrade â ffordd haiarn Nissa: y cyfryw linell i'w gweithio gan oruchwylwyr Tyrcaidd, neu gwmni detholedig gan y Porte.

Ystyriwyd yr uchod yn anfoddhaol, gan nad oedd un o'r gwledydd yn gallu ymddiried i addewidion Twrci o gwbl, o herwydd ei bod wedi gwneyd cynnifer o addewidion ar adegau ereill, ond wedi eu tori; ac o'r diwedd anfonodd Rwssia ei phenderfyniad i lywodraeth Twrci, yn ei hysbysu ei bod yn hawlio am i'r Porte wneyd cadymbaid anammodol am chwech wythnos, a chaniatau annibyniaeth weinyddiadol i Bosnia, Bulgaria, a Herzegovina, a chario allan hefyd ddiwygiadau o dan arolygiaeth dirprwywyr i'w henwi gan y galluoedd mawrion, y rhai oedd i gael eu hamddiffyn gan allu milwraidd tramor rhag penboethni y Mahometiaid.

Y mae llywodraeth y wlad hon wedi bod yn ochri at Twrci, gan eu bod yn hen gynghreiriaid, ac am y tybiai y gallai Twrci, pe y mynai, beri cryn drafferth i ni yn India. Ond o herwydd fod teimladau y deiliaid wedi eu cyffroi gan greulonderau y Tyrciaid, a'r gorthrwm parhaus y mae y Cristionogion dano, y mae ein llywodraeth wedi gorfod cydweithredu yn mhellach nag y mynasent â'r galluoedd ereill. Y mae pamphledau ac areithiau Mr. Gladstone wedi gwneuthur llawer er arwain barn y cyhoedd i'r cyfeiriad yma; ac y mae yn eglur ar yr adeg yr ydym yn ysgrifenu yr erthygl hon na faidd y llywodraeth Doryaidd bresennol, o'r hon y mae Mr. Disraeli yn brif weinidog, ymgymmeryd âg amddiffyn Twrci, fel y gwnaed yn adeg rhyfel y Crimea yn 1853. Y mae llawer o filwyr Rwssia wedi ymuno yn wirfoddol â byddin Servia: ond er fod y Serviaid wedi dal eu tir yn dda yn wyneb ymosodiadau y Tyrciaid, tua diwedd Hydref, 1876, fe ennillodd y Tyrciaid amryw frwydrau a sefyllfaoedd pwysig oddi arnynt, a chymmerasant Deligrad ac Alexinatz. O herwydd hyn, meddir, anfonodd Rwssia ei chais diweddaf at y Porte am gadymbaid (*armistice*) am chwech wythnos neu ddeufis, gan hawlio attebiad o fewn dau ddiwrnod. Y mae Twrci wedi cydsynio â chais Rwssia, ac y mae yr ymladd wedi peidio erbyn hyn (dechreu Tachwedd, 1876). Disgwylir y gellir, o fewn yr ysbaid hwn, gyttuno ar ammodau heddwch fydd yn foddhaol i'r pleidiau, ac i'r galluoedd tramor. Ond os na lwyddir, ofnir y cymmer un o'r rhyfeloedd mwyaf ofnadwy le rhwng galluoedd Ewrop—yr hwn a all barhau am flynyddoedd.

Ymgasgla byddinoedd Rwssia yn awr ar derfynau y wlad; ac y mae llynges Prydain hefyd yn moroedd Twrci, i amddiffyn ein hiawnderau presennol, ac i wylio na ddigwyddo dim i attal rhyddid ein masnach â'r gwledydd hyny, nac i beri rhwystr ar ein ffordd i fordwyo i India ac i ranau ereill y dwyrain.

Yr ydym yn cyfleu yma ychydig o hanes amryw o'r taleithiau sydd o dan lywodraeth Twrci yn Ewrop, naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol:—

BOSNIA.

Talaeth ydyw hon sydd yn neheubarth Ewrop. Yr oedd gynt yn gwneyd i fyny gyfran o Pannonia. Y mae yn cael ei hysgaru o du y gogledd oddi wrth Slafonia gan y Save, oddi wrth Servia ar du y dwyrain gan y Drin, oddi wrth Dalmatia ar du y deheu gan gadwen o fynyddoedd, a chan y Verba o du y gorllewin oddi wrth Croatia. Gwlad fynyddig yw; ond cynnwysa lawer o ddyffrynoedd ffrwythlawn a gwinllanoedd toreithiog, ac yn enwedig yn y parthau gogleddol. Y Save, y Bosnia, y Verba, y Drin, a'r Narenta, ydyw ei phrif afonydd. Fel y

Digitized by Google

crybwyllwyd uchod, yr oedd hi gynt yn ffurfio rhan o Pannonia; ond yn y canoloesoedd, yr oedd weithiau yn deyrngedol i Hungary ac weithiau i Servia. Yn 1463 y darostyngwyd hi i dalu teyrnged i Twrci; ac yn 1522, unwyd hi â'r ymherodraeth. Y mae y Bosniaid wedi ymgodi yn fynych yn erbyn eu llywodraethwyr, ac ymdrechu yn ddewr am adfeddiannu eu hannibyniaeth; ac yn 1850—51, ennillodd Omar Pasha gryn glod am ei wasanaeth yn darostwng gwrthryfel oedd wedi ymgodi yn eu mysg yn erbyn cyfansoddiad diwygiedig Twrci. Arwynebedd y dalaeth ydyw 18,500 o filldiroedd ysgwâr; ac y mae y boblogaeth rywfaint dros 1,100,000.

BULGARIA.

Y mae y dalaeth hon yn ymestyn o'r Môr Du hyd at Servia—oddi wrth yr hon y gwahanir hi gan fynyddoedd uchel. Y mae y Danube, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Môr Du ar y cwr gogleddol eithaf, yn ei gwahanu oddi wrth Bessarabia, Moldavia, a Wallachia; ac y mae mynyddoedd y Balkan yn ei gwahanu ar du y deheu oddi wrth Macedonia a Roumelia Briodol. Cyfrifir ei bod yn mesur tua 34,000 o filldiroedd ysgwâr. Yn y parthau deheuol, y mae yn gyffredin yn hynod goediog, ac yn gyfoethog o borfeydd rhagorol; ond y mae y parthau gogleddol yn dra mynyddig. Ei phrif afonydd ydynt y Danube, yr Isker, y Vid, y Jantra, yr Osma, y Pravadi, a'r Kamtchik. Y mae ei phoblogaeth tua 3,000,000. Yn 1392 y gorchfygwyd y wlad gyntaf gan y Tyrciaid.

HERZEGOVINA.

Y mae y dalaeth hon yn gyssylltiedig â Bosnia, ac yn ymestyn i'r dwyrain at Albania a Montenegro. Ei phrif ddinas ydyw Mostar. Yr oedd yn wreiddiol yn rhan o Croatia, ond unwyd hi â Bosnia yn 1326, a gwnaed hi yn dduciaeth St. Saba gan yr ymherawdwr Frederick III. yn y ganrif ddilynol. Cymmerodd Twrci feddiant o honi ar ol heddwch Carlowitz yn 1699. Yn 1861, torodd gwrthryfel allan yn erbyn y Tyrciaid, yn cael ei gefnogi gan dywysog Montenegro: ond darostyngwyd ef; ac yn mis Medi 1862, ymostyngodd Vucalovitch, penaeth y gwrthryfelwyr, ar ran ei gydwladwyr i Kurschid Pasha, a chawsant faddeuant. Y mae gwrthryfel yn ffynu yn y dalaeth etto er y flwyddyn 1875; ac er pob ymdrech, nid ydyw y Tyrciaid hyd yma wedi llwyddo i'w ddarostwng.

MONTENEGRO.

Talaeth ar derfyn gorllewinol Twrci yn Ewrop ydyw Montenegro. Ar du y deheu iddi y mae Albania, ac ar du y gogledd y mae talaeth fawr Herzegovina. O ddeutu 450 o filldiroedd ysgwâr ydyw ei harwynebedd. Gwlad fynyddig ydyw, a'r rhan fwyaf o'i mynyddoedd yn cael eu gorchuddio â choed. Ei phrif gynnyrchion ydyw indrawn, cloron, a myglys. Tŷf llawer o lysiau ynddi; ac y mae ei gwartheg, ei moch, ei defaid, a'i geifr yn lliosog. Prif waith y trigolion ydyw llafurio y ddaear, a physgota. Y mae yn y wlad tua thri chant o bentrefydd, ac eglwys yn mhob pentref. O ddeutu 130,000 yw y boblogaeth. Y mae y wlad mewn enw dan lywodraeth Dyrcaidd Scutari; ond y mae y bobl yn hollol annibynol ar y Tyrciaid. Gweriniaeth yw y llywodraeth, o dan amddiffyniad ymherawdwr Rwssia.

SERVIA.

Y mae Servia yn dywysogaeth sydd yn cael ei chynnwys o fewn terfynau Twrci yn Ewrop; ond y mae yn mron yn hollol annibynol ar y gallu hwnw. Terfynir hi ar du y gogledd gan Hungary, ar du y dwyrain gan Wallachia a Bulgaria, ar du y deheu gan Rumili a Bosnia, ac ar du y gorllewin gan Bosnia. Tua 12,600 o filldiroedd ysgwâr ydyw ei harwynebedd, a chyfrifir fod ei phoblogaeth dros 1,300,000. Y mae y wlad yn fynyddig ac anwastad, ac ynddi goedwigoedd mawrion. Ymestyna un o'r coedwigoedd hyn am drigain milldir i'r deheu o Belgrade, y brifddinas. Y prif afonydd sydd yn ei dyfrhau ydynt y Save a'r Danube ar du y gogledd, y Morava a'r Timok yn y dwyrain, a'r Drina ar y terfyn gorllewinol. Y mae ei hinsawdd yn gymmedrol ac iachusol, ond braidd yn oer yn yr ardaloedd uchaf. Y mae y tir yn y dyffrynoedd a'r gwastadedd yn ffrwythlawn, ac yn gymmhwys i fagu anifeiliaid, yr hyn yw hoff waith y bobl, ac i dyfu ŷd a gwin. Credir fod y mynyddoedd yn gyfoethog o gopr ac arian, ond ychydig o fŵn a godir yn y wlad. Y mae yn nodedig am brydferthwch ei golygfeydd. Am y Serviaid, gellir dywedyd eu bod yn hynod am eu nerth corphorol, eu cariad at ryddid, a'u tueddfryd a'u hysbryd barddonol. Ystyrir hwynt yn mysg y dosbarthiadau mwyaf deallus o'r Slafoniaid.

Yn yr amseroedd boreuaf, ymddengys fod Servia yn cael ei phreswylio gan Thraciaid neu Illyriaid. Ychydig cyn Crist, darostyngwyd y wlad gan y Rhufeiniaid; a hi a ffurfiai danynt hwy ran o dalaeth Illyricum. Goresgynwyd hi yn olynol gan yr Huniaid, yr Ostrogothiaid, a'r Longobardiaid, &c.; ac yn nghanol y chweched ganrif ymostyngodd i'r llywodraethwyr Byzantiaidd, ond cymmerwyd hi oddi arnynt gan yr Avariaid yn y seithfed ganrif. Trwy gynnorthwy yr ymherawdwr Heraclius, pa fodd bynag, llwyddwyd i yru yr Avariaid o'r wlad yn mhen dwy flynedd. Tua chanol y nawfed ganrif, hwy a ddaethant i gofleidio Cristionogaeth; ond ni ddarfu i hyn liniaru fawr ar eu tueddfryd rhyfelgar, a buont am yn agos i ddau cant o flynyddoedd mewn rhyfel beunyddiol â'u cymmydogion Bulgaraidd. Yn 1043, pa fodd bynag, llwyddodd Stephen Bogislav i ymlid ymaith y llywodraethwyr ymherodrol; a darfu i'w fab Michael fabwysiadu y teitl o frenin Servia, a chael gan y pab Gregory VII. ei gydnabod felly. Ymladdodd y Serviaid yn ddewr am y can mlynedd dyfodol er cadw eu hannibyniaeth, a therfynodd yr ymdrech yn ffafriol iddynt; a sefydlodd Stephen Nemanja deyrnach newydd yn 1165, yr hon a fu yn llywodraethu am ddau can mlynedd; ac yn ystod yr amser hwn, o bossibl, y bu Servia fwyaf llwyddiannus. Yn nheyrnasiad Stephen Dushan (1336—1356), yr enwocaf o'r deyrnach hon, yr oedd y frenhiniaeth yn cynnwys Macedonia, Albania, Thessaly, Groeg Ogleddol, a Bulgaria. Ond bu llwyddiant arfau Twrci yn ddinystriol iddi. Cwympodd y brenin Lazar yn mrwydr anffodus Kussovopolje. Dosbarthodd y Sultan Bajazet y wlad rhwng Stephen, mab Lazar, a Vuk Brankovitch, ei fab-yn-nghyfraith ef; ond gorfodwyd hwynt i dalu teyrnged iddo, ac i'w ddilyn ef yn ei ryfeloedd. Syrthiodd y Serviaid yn raddol yn fwy o dan lywodraeth y Tyrciaid, hyd nes y llwyr ddarostyngwyd y wlad, yn 1459, gan y sultan Mahmud. O hyn allan yr oedd yn fynych yn faes rhyfel gwaedlyd rhwng Hungary a Thwrci, ac yn gorfod dioddef yn ddirfawr oddi wrth hyn. Parodd llwyddiant mawr y tywysog

Digitized by Google

Eugene i belydryn o obaith dywynu ar y Serviaid; ac yn 1718, trwy gyttundeb Passarowitz, gwnaed rhan o'r wlad drosodd i Awstria; ond yn 1739, cafodd Twrci hi yn ol, ac am y trigain mlynedd dilynol yr oedd trahâ a chreulondeb y Janizariaid a'r rhaglawiaid Tyrcaidd tu hwnt i bob disgrifiad. O'r diwedd methodd y bobl anffodus ddal y gorthrwm yn hwy, a thorodd gwrthryfel allan yn y fl. 1801, o dan arweiniad George Czerny; a chyda chynnorthwy Rwssia, terfynodd yn llwyddiant y gwladgarwr, ac etholwyd Czerny yn dywysog Servia. Ond pan y goresgynwyd Rwssia gan y Ffrangcod, gadawyd y Serviaid i drugaredd eu llywodraethwyr blaenorol, a thorodd rhyfel allan drachefn. Gorfodwyd Czerny i ffoi; ac yr oedd eu gorthrwm y pryd hwn yn waeth nag erioed. Ymarfogodd y bobl drachefn o dan arweiniad Milosch Obrenovitch, a llwyddasant i adennill eu rhyddid. Dewiswyd Milosch yn dywysog Servia yn 1815. Cydnabyddwyd ef yn dywysog treftadol gan y sultan; ond trodd yntau allan yn orthrymwr, a gorfodwyd ef i ymddiswyddo. Dewiswyd Alexander, mab George Czerny, yn olynydd iddo. Ond yn gymmaint a'i fod yntau wedi myned yn ammhoblogaidd, ail etholwyd Milosch yn 1858, ond efe a fu farw yn 1860; ac enwyd ei fab ef, Michael III., yn olynydd iddo. Cychwynwyd symmudiad yn Servia i'w chael yn hollol annibynol ar Twrci yn 1861—yr hwn a arweiniodd i dywallt gwaed, a thânbeleniad a darostyngiad Belgrade yn 1862. Ond cydsyniodd y sultan a thywysog Servia â thelerau cynnadledd o gynnrychiolwyr y galluoedd mawr yn Nghaer Cystenyn; ac yn 1866, ymadawodd y Tyrciaid o amddiffynfa Belgrade, ac amddiffynfeydd ereill Servia. Bradlofruddiwyd y tywysog Michael yn Belgrade ar y 10fed o Fehefin, 1868. Dewiswyd ei nai, y tywysog Milan, yn olynydd iddo; a rhoddwyd pedwar ar ddeg o'r bradlofruddion i farwolaeth: a'r tywysog sydd yn parhau i lywodraethu. Yn awr y mae Servia wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn Twrci, fel y gwelir uchod.

Am hanes Roumania, un o daleithiau mawr ereill Twrci, gwel MOLDAVIA a WALLACHIA.

TWYMYN—AU: ffurf o afiechyd a nodweddir yn benaf gan gynnydd gwres yn nhymmeredd y corph, yr hyn; pa fodd bynag, sydd i'w benderfynu yn ol sefyllfa rhanau mewnol y corph, yn hytrach na'r rhai allanol; gan fod ei arwynebedd, yn enwedig y traed a'r dwylaw, yn fynych, pan yn dioddef oddi wrth dwymyn, yn hytrach yn oer nag yn gynnhes. Yn ol yr arwyddion ar arwynebedd y corph yn unig, y mae twymyn, i raddau mwy neu lai, yn gyffredin i'w ystyried yn myned trwy dair gradd neu yrfa gwahanol:—y gyntaf ydyw yr un ocr a chrynedig; yr ail, yr un boeth; a'r drydedd yr un chwyslyd. Y mae y disgrifiad hwn yn un hollol gywir yn y rhan fwyaf o enghreifftiau; ond dylid sylwi hefyd, y gwyddys yn awr hyd sicrwydd fod y gwaed, a rhanau mewnol y corph, o dymmeredd uchel, hyd yn oed pan y bydd yn ngyrfa oer y twymyn. Gan hyny yn ngyrfa oer y dwymyn, ac hyd yn oed yn y cryndod mwyaf, pan y bydd y dannedd yn curo yn erbyn eu gilydd, a'r holl gorph yn ymddangos yn welw a thoesludd (*clammy*), y mae Virchow (un o'r meddygon enwocaf diweddar sydd wedi talu mwyaf o sylw i'r dosbarth yma o afiechyd) gyda llawer o gywirdeb yn dywedyd, fod "y rhanau allanol, mewn effaith, yn rhewi, tra y mae y rhai mewnol yn llosgi." Y mae cynnydd gwres yn y corph, gan hyny, yn un o arwyddion mwyaf hanfodol twymyn. Yr arwyddion ereill ydynt, colli archwaeth at ymborth, syched, anesmwythder, ac aflonyddwch, cûr yn y pen, a phoen yn y cefn a'r aelodau; curiad y gwaed yn gyflym, ac weithiau yn llawn a thrwm; y tafod yn flewgroenog (*furred*), ac yn fynych â'i ymylon yn goch; y gwyneb yn wridog, a'r llygaid yn wlybyrog; annhrefn cyffredinol yn ngweithrediadau y corph, a gwendid mawr yn yr aelodau. Dechreua yr afiechyd yn fynych trwy daro y dioddefydd gyda chryndod. Y mae hyn yn arwain o'r yrfa oer i'r un frwd, yr hon a ddilyna y flaenaf yn gyffredin yn lled fuan, ac yna daw yr holl arwyddion twymynol i'r golwg i'r graddau amlycaf: bydd y croen yn aml, wrth ei deimlo â'r llaw, yn boeth, sych, a garw; a'r afiechyd y pryd hwnw ynghylch pasio i'r drydedd yrfa, sef yr un chwyslyd—yr hon sydd yn prysuro ac yn rhagargoeli adferiad iechyd.

Heb law fod twymyn yn brif arwydd mewn nifer o anhwylderau pennodol, y mae hefyd yn dwyn perthynas eilraddol â llawer ffurf arall o anhwylderau, cyssylltiedig âg ennyniad, neu afiechyd arall a all fod yn gyfyngedig i ryw ran neillduol o'r corph (*local disease*). Yn ennynfa yr ysgyfaint, neu ennynfa yr ymysgaroedd, y mae poethder twymynol yn arwydd mor sicr o hyny ag ydyw poen, neu ryw arwydd arall; ac hyd yn oed mewn afiechyd hirbarhaol, megys y darfodedigaeth, gwna twymyn isel ac araf ei ymddangosiad yn gyffredin iawn. Y mae yn aml hefyd yn dilyn niweidiau corphorol, neu pan y byddys wedi bod o dan weithrediadau meddygol (*surgical operations*): a gellir dyweyd ei fod yn hynod o beryglus o dan y cyfryw amgylchiadau. Y mae twymynau yn ymranu yn naturiol i ddau ddosbarth mawr:—yn un o honynt y twymyn ydyw y peth mawr ac amlwg sydd yn penderfynu nodwedd pennodol yr afiechyd: bydd yr anhwylder a fyddo yn un rhan o'r corph yn gwbl ddarostyngedig ac ailraddol iddo. Yn y llall, y mae yn wahanol; a gellir dywedyd mai y twymyn yn yr amgylchiad hwn sydd yn ailraddol. Dosberthir twymynau hefyd yn ol y dull y maent yn arfer ymledu:—sef yn heintiau ymdaenol (*epidemics*) a lleol (*endemics*): ac hefyd yn ol eu hachosion tybiedig—yn heintus, ymlynol, mallawyraidd (*malarious*), ac ysgyfeiniol (*pneumonic*), &c.; ac yn ol eu harwyddion damweiniol a'u neillduolion yn eu cwrs a'u terfyniad—yn frechol, neu anfrechol, yn geriol, yn gylläol, ac yn adwythig, &c.

Yn mysg yr amrywiaethau sydd yn amlyga eu hunain, a'r rhai hyny yn seiliedig ar gwrs y twymyn, y mae un yn galw am sylw arbenig, gan ei fod yn cynnwys deddf bwysig sydd yn gyssylltiol â'r anhwylderau hyn yn gyffredinol, ac yn enwedig twymynau sydd yn ffynu mewn hinsoddau poethion. Cyfnodau o gynnydd a lleihâd, cyrch glefydau yn parhau am fwy neu lai o amser, ac ysbeidiau yn mha rai y ceir gwaredigaeth rhanol neu hollol oddi wrth yr holl arwyddion o honynt, ydynt nodweddau y rhan fwyaf o anhwylderau o'r fath yma; ac yn neillduol y rhai a godant o awyr ddrwg (*malaria*): hyny ydyw, awyr afiach yn codi o dir corsiog, o dan ddylanwad gwres yr haul. Y mae parhâd y clefyd, a'r cyfnodau dysbeidiol yn y cyfryw amgylchiadau, yn ffeithiau nodweddiadol yn natur y twymyn; y rhai a elwir, er dangos eu gwahaniaeth, naill ai yn ddysbeidiol, neu yn

Digitized by Google

barhaol. Y mae heintofyddiaeth (*pathology*) gywir, neu wir natur yr ystâd dwymynol, yn parhau hyd yn hyn yn gwestiwn agored; ac yn ol dysgeidiaeth aniandddysg ddiweddar, edrychir ar dwymyn yn dal cyssylltiad â rhyw annhrefn ac afreoleiddiwch yn y peiriannau corphorol, ar y rhai y gwyddys fod y gwres anifeilaidd yn dibynu; megys maethloniad y cyfansoddiad, neu gyfnewidiadau pwysig beunyddiol sydd mewn gweithrediad rhwng y gwaed, ar un llaw, a gronynau celyd y corph ar y llall. Os ydyw ffrwyth sylwadaeth ddiweddar ar hyn yn gywir, dengys, dybygid, fod yr achos o dwymynau i'w gael yn nadgyssodiad cynnyddol gronynau y cyfansoddiad, trwy gyfrwng yr ufelai (*oxygen*) a gymmerir i mewn i'r ysgyfaint, ac a ledaenir trwy y gwaed—a hyny o dan ddylanwad anhwyldeb y giau; yr hyn, fel y gwyddys, sydd yn meddu llywodraeth neillduol ar genhedliad y gwres anifeilaidd. Y mae yn ddiammheuol fod twymynau, dysbeidiol a pharhaol, yn cael eu hachosi weithiau gan wenwyn llysieuol neu anifeilaidd a gymmerir i mewn i'r cyfansoddiad yn y naill ffordd neu y llall.

Wrth geisio rhoddi cyfrif am y ffaith pa ham yr oedd Cairo yn yr Aipht yn lle genedigaeth a magwraeth y pla, y mae Mead yn mynegu fod y ddinas hono wedi ei gorlenwi â nifer mawr o drigolion, yn byw nid yn unig mewn tlodi ond mewn budreddi; fod yr heolydd yn gulion a chyfyng; a'r ddinas yn sefyll ar wastadedd tywodlyd, yn nhroed mynydd sydd yn cadw draw y gwyntoedd a allent buro yr awyr, a'r gwres o ganlyniad yn fawr; fod camlas mawr yn myned trwy ganol y dref, yr hwn yn adeg gorlifiad yr afon sydd yn llawn o ddwfr; ar ostyngiad y dwfr fod y camlas hwn yn graddol sychu i fyny, a'r bobl yn taflu iddo bob math o aflendid ac ysgarthion; fod yr arogl sydd yn cyfodi oddi wrth hyn, ynghyd â'r llaid, yn annioddefol yn mron. O'r ffynnonell hon, meddir, yr oedd y pla yn tori allan bob blwyddyn, yr hwn a flinai gymmaint ar y trigolion, a'r hwn ni cheid gwaredigaeth oddi wrtho nes y dychwelai y Nilus, ac y golchai ei dyfroedd y budreddi ymaith. Dywed hefyd fod yr heidiau o loeustiaid sydd yn Ethiopia mor fawr fel y byddant weithiau yn achosi newyn trwy ddifa cynnyrch y tir; a phan y byddant feirw, y cynnyrchir haint gan eu cyrph braenedig; ac y mae y pydriad yn cael ei chwanegu yn fawr gan leithder yr hinsawdd, yr hwn, yn ystod tymmor cynnhes Gorphenaf ac Awst, sydd yn fynych yn hynod laith; ac y mae y drygsawr sydd yn codi o'r swm anferth hwnw o sylweddau anifeilaidd pydredig, yn gymmysg â'r fath leithder a gwres, yn achos parhaus o'r pla yn ei ffurf waethaf. Yr oedd yr Aiphtiaid gynt yn ymwybodol gymmaint yr oedd y pydriad hwn oddi wrth gyrph creaduriaid meirw yn effeithio i genhedlu y pla, fel y byddent yn addoli yr aderyn Ibis, am ei wasanaeth yn bwyta nifer fawr o seirph; y rhai y tybient fod eu drygsawr, pan yn feirw, yn llawn mor niweidiol iddynt a brathiad y rhai byw. Gwel CLEFYD—AU.

**TYNDAL** (neu **TYNDALE**), **WILLIAM**: un o'r diwygwyr mawr Seisnig yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ganwyd ef yn neu o ddeutu y flwyddyn 1500, yn rhywle ar derfynau deheubarth Cymru. Ond nid oes sicrwydd penderfynol ynghylch ei rieni, na lle ei enedigaeth. Gwyddys fod athrawiaethau Wickliffe wedi eu lledaenu yn ddirgelaidd yn lled helaeth yn neheubarth Cymru, a bod Syr John Oldcastle wedi bod yn trigiannu ar y cyffiniau am ryw gymmaint o amser, ac yn diwyd ledaenu syniadau y diwygiwr enwog. Ymddengys yn dra thebygol i Tyndal, pan yn ieuangc, yfed o ysbryd y Diwygiad Protestanaidd; o herwydd ceir, mor fuan ag yr aeth i'r coleg, ei fod wedi amlygu tuedd i gofleidio athrawiaethau Luther. Y lle cyntaf yr aeth oedd Coleg Magdalen, Rhydychain; a dywedir ei fod yn fuan yn darllen darlithiau duwinyddol yn ddirgel i'w gyd-efrydwyr. Wedi hyn symmudodd i goleg newydd Wolsey, a elwir yn awr Eglwys Crist. Aeth yn eofnach nag o'r blaen, a beiddiai broffesu ac amddiffyn egwyddorion y Diwygiad yn gyhoeddus. Dywedir ei fod y pryd hwn yn nodedig am ei alluoedd a'i ddysg. Ond nis gellid goddef ei wrthwynebrwydd i gamarferion yr eglwys yn Rhydychain; o ganlyniad, bwriwyd ef ymaith oddi yno cyn cymmeryd un gradd. Symmudodd yn nesaf i Gaergrawnt, lle y goddefwyd iddo aros, a chymmeryd gradd. Oddi yno efe a aeth, naill ai i swydd Gaerloew, neu swydd Caerwrangon, fel athraw yn nheulu Syr John Welsh. Ei waith llenyddol cyntaf yno—mor bell ag y gwyddys—sydd wedi dyfod i lawr i'r oes hon, oedd cyfieithiad o "*Enchiridion Militis Christiani*," Erasmus. Bwriadwyd ef er adeiladaeth grefyddol y teulu y cyfanneddai gyda hwynt.

Ymddengys ei fod, yn ystod y cyfnod hwn ar ei oes, wedi cael llawer o gyfleusderau i bregethu yr efengyl, ac yn enwedig yn Nghaerodor. Dywedir ei fod yn sefyll yn uchel yn nghyfrif Syr John Welsh, a llawer ereill oedd yn byw yn yr un gymmydogaeth ag ef. Y mae yn hawdd dyfalu y buasai diwygiwr mor ddysgedig a selog yn arganmawl y gwirionedd mewn oes mor dywyll a llygredig; ond nid yw yn llai eglur ei fod drwy hyny yn gwneyd ei hun yn agored i falais a llidiawgrwydd y rhai yr oedd eu helw yn gyssylltiedig â chamsyniadau a llygredigaeth yr amseroedd. Yr ydym yn cael gan hyny fod Tyndal wedi gwneuthur ei hun yn adgas yn ngolwg rhai gŵyr eglwysig a ymwelent â Syr John Welsh, trwy feiddio dadleu yn eofn â hwy ar byngciau duwinyddol. Y canlyniad oedd, i ragfarn gyfodi yn ei erbyn fel heretic: ac o'r diwedd, dygwyd cyhuddgwyn yn ei erbyn gan ganghellydd yr esgobaeth. Daeth Tyndal yn mlaen yn wrol i atteb amrywiol benau y cyhuddgwyn, ac amddiffynodd ei hun gyda'r fath yni a gallu fel yr oedd ei elynion wedi eu dyrysu; a gorfu iddynt ei ollwng yn rhydd. Ni wnaeth hyn ond cryfhau penderfyniad ei erlidwyr i ddial mwy. Nid oedd yr amser i'w lethu ond yn cael ei oedi am dymmor; a llwyddasant, drwy eu hymddygiadau cas a gorthrymus, i beri iddo adael y rhan hono o'r wlad, a myned i Lundain. Yn y brifddinas, cafodd ddigon o gyfleusderau i ddyfod yn gydnabyddus â llygredigaethau annioddefol yr Eglwys, yn gystal ac âg anwybodaeth ac anghymmhwysder hollol ei chlerigwyr. Yn ystod yr amser hwn, pregethai yn achlysurol yn eglwys St. Dunstan yn y gorllewin, ac yr oedd yn fynych yn ymddadleu âg amddiffynwyr Pabyddiaeth. Gwyddys ei fod yn aml iawn yn herio arweinyddion dall y bobl i amddiffyn eu cyfundrefn halogedig, ac yn dadgan fod y cyfnod yn dynesu pan y byddai y gwladwr symlaf, â'r Beibl yn ei law, yn rhagori arnynt yn y wybodaeth hono sydd yn arwain i fywyd tragywyddol. Yr oedd Tyndal erbyn

Digitized by Google

hyn wedi casglu gwybodaeth helaeth o'r Ysgrythyrau, ac yr oedd ei wybodaeth nid yn unig yn eang, ond yn fanwl. Ychydig oedd ar y pryd yn fwy dysgedig nag ef; ac yr oedd ei ddysg yn rhoddi iddo fantais ryfeddol yn ei holl ddadleuon â'r offeiriaid—llawer o ba rai nid oeddynt erioed wedi gweled copi cyflawn o'r Ysgrythyrau.

Tra y bu Tyndal yn aros yn Llundain y darfu iddo ffurfio y penderfyniad i gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Saesneg; ac efe ddechreuodd ar y gwaith da yno. Gwyddai am y perygl yr oedd ynddo wrth ymgymmeryd â'r fath anturiaeth; gwyddai am y gwrthwynebiad a gafodd Wickliffe, yn agos i gan mlynedd yn flaenorol, a'i aflwyddiant yn y diwedd, er ei holl lafur, yn yr un amcan, o herwydd malais a gwrthwynebiad yr esgobion a'r offeiriaid. Ond nid oedd efe yn un a ddychrynid yn hawdd â bygythion, nac a orthrechid gan anhawsderau nad oeddynt yn anorfod. Dechreuodd gasglu ynghyd ei ddefnyddiau gyda gofal a barn; ac ymaflodd yn y gorchwyl gyda'r brwdfrydedd mwyaf, ac aeth yn mlaen gyda'i gyfieithiad o'r Beibl. Ymdrechai gael pennodiad o dan yr esgob Tunstall, yr hwn a ganmolai Erasmus fel ysgolhaig enwog; ac wrth appelio at y prelad am gael y swydd o gaplan iddo, fel prawf o'i gymmhwysder, efe a ddangosodd gyfieithiad i'r Saesneg o un o areithiau Isocrates. Ond yn yr ymgais hwn bu yn aflwyddiannus; ac ar ol methu, efe a ymneillduodd i ryw ystafell ddirgel am tua blwyddyn, i gwblhau ei gyfieithiad o'r Testament Newydd. Arferodd y diwydrwydd mwyaf i gyflawni y gwaith mawr hwnw, yn yr hwn y gellir yn rhwydd gredu na chafodd efe ond ychydig o gynnorthwy gan ddysgeidiaeth yr oes, nac o'r braidd gyfaill a feiddiai ei gynnorthwyo, na chymmeradwyo yr amcan chwaith.

Ar ol cwblhau y gwaith ei hun, dechreuodd edrych o'i gwmpas am ryw foddion i'w gyhoeddi; ond nid oedd yn gallu llwyddo i hyny; ac wrth weled y buasai yr ymgais yn ei osod yn agored i beryglon dirfawr yn ei wlad ei hun, efe a benderfynodd geisio nodded yn mysg Diwygwyr y Cyfandir. Er ei gynnorthwyo i gario allan ei amcan, darparodd Rhagluniaeth gyfaill iddo yn mherson Harri o Fynwy, yr hwn a roddodd iddo arian a'i galluogodd i adael Llundain. Pan ar y Cyfandir, ffurfiodd gydnabyddiaeth gyda Luther, a dynion dysgedig ereill; y rhai a'u cymmhellent i bregethu i'w gydgenedl yn Antwerp a'i chymmydogaethau. Yn 1526, ffurfiodd gyfeillgarwch â John Frith, Sais dysgedig, trwy gynnorthwy yr hwn y cynnorthwywyd ef i gyhoeddi yr argraphiad cyntaf o'r Testament Newydd. Ymddangosodd mewn cyfrol wythplyg fechan, heb enw y cyfieithydd. Pymtheg cant a gyhoeddwyd o hono yn yr argraphiad hwnw. Dygwyd y copïau hyn drosodd i Loegr, a lledaenwyd hwynt yn ddirgelaidd. Anfoddlonwyd y clerigwyr yn fawr drwy hyn; a gosodwyd pob ystryw ar waith, a defnyddiwyd pob ymdrech er cael gafael yn y copïau, i'w dinystrio. Ond po fwyaf a gondemniwyd arno, mwyaf oedd yr awydd am ei weled, a'i ddarllen; o herwydd fe ddarfu i'r llyfrwerthwyr Is-ellmynaidd argraphu a gwerthu pedwar argraphiad o hono heb gydsyniad Tyndal. Yr oedd yntau y pryd hwnw yn prysur fyned yn mlaen gyda'r gwaith o gyfieithu Pum Llyfr Moses, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi.

Ar ol cwymp y Cardinal Wolsey, yr hwn ni oddefai i neb gael ei gospi am heresi tra yr oedd efe mewn awdurdod, perswadiodd Syr Thomas More y brenin i roddi y cyfreithiau yn erbyn heresi mewn grym, ac i roddi attalfa ar ffordd dyfod â llyfrau drosodd o'r Cyfandir. Casglodd Tunstall, esgob Llundain, hefyd gymmaint o Destament Tyndal ag a allai gael, a gwnaeth i'r dïenyddwr cyffredin eu llosgi yn Cheapside, yn Llundain. Y mae un amgylchiad cywrain a dyddorol yn cael ei adrodd mewn cyssylltiad â Tunstall yn mherthynas i lafur Tyndal, yr hwn, yn mysg yr ychydig ffeithiau a geir o hanes Tyndal, y dylid ei gofnodi. Yr oedd yr esgob yn digwydd bod yn Antwerp yn 1529, ac efe a anfonodd am farsiandwr o Sais, o'r enw Packington, ac a ymofynodd âg ef pa faint o gopïau o Destament Newydd Tyndal a allai efe brynu. Gwnaeth y marsiandwr gynnygiad yr esgob yn hysbys i Tyndal yn ddioed; ac yn gymmaint a'i fod yn dlawd, ac mewn angen am arian i gyhoeddi argraphiad newydd a diwygiedig, cyttunodd ar unwaith ar werthiant y gweddill o'r copïau oedd ganddo. Derbyniodd am danynt arian parod; dygwyd y llyfrau drosodd i Loegr a distrywiwyd hwynt; ond yr oedd argraphiad newydd a diwygiedig allan o'r wasg ac ar werth yn fuan. Rhoddodd hyn achlysur i lawer o ddifyrwch ar gôst yr esgob. Ymholai Syr Thomas More pwy a gynnorthwyodd ac a gefnogodd Tyndal i ddwyn allan yr argraphiad hwn—ac attebwyd ef mai esgob Llundain. Mewn trefn i atteb pob ymdrechiadau cyffelyb, ac i lwfrhau Tyndal rhag llaw, gwawdiai Syr Thomas y cyfieithiad, mewn cydymddiddan (*dialogue*) a gyhoeddwyd ganddo yn 1529. I hyn rhoddodd Tyndal attebiad maith a galluog; ond ychydig oedd yr effaith a wnaeth ar feddyliau ei elynion gartref; o herwydd yn Ystafell y Gafell (*Star Chamber*), darfu i'r brenin, gyda chydsyniad y prifysgolion, y clerigwyr a'r esgobion, gondemnio a gwahardd ei gyfieithiad fel llyfr hereticaidd.

Er pob ymgais o'r fath i'w ddigaloni yn ei waith, aeth Tyndal yn mlaen yn ddiwyd gyda chyfieithu yr Hen Destament; ond ynghylch y pryd hwn, ar fordaith i Hamburgh, llongddrylliwyd ef, a chollodd ei holl lyfrau, ei lawysgrifau, a'i arian. Yn nghanol yr anhawsderau hyn, pa fodd bynag, efe a wnaeth ei ffordd i Hamburgh: ac yno efe a gyfarfu â Miles Coverdale, yr hwn hefyd ar y pryd oedd wedi ymosod ar y gwaith o gyfieithu yr Ysgrythyrau. Ffurfiwyd cyfeillgarwch mynwesol rhyngddynt; ac aethant yn nghyd at y gwaith o gyfieithu Pum Llyfr Moses, y rhai a gyhoeddasant yn Marburgh o ddeutu 1630. Y mae yn ammheus pa un ai o'r *Vulgate* Lladinaidd, ynte o'r Hebraeg, y cyfieithasant. Os cymmerasant y *Vulgate* fel eu testyn, y mae yn debyg eu bod yn edrych i'r testyn Hebraeg mewn anhawsderau; ond y mae o'r braidd yn ammheus a oeddynt yn ddigon o feistriaid ar yr iaith hono i wneyd eu cyfieithiad o honi yn uniongyrchol, heb fod trwy gyfrwng iaith arall. Yr oedd y llafur hwn, ynghyd â diwygio ei Destament Newydd yn achlysurol, yn ddigon o orchwyl i Tyndal hyd 1534. Daeth y pedwerydd o'r argraphiadau o'i Destament Newydd, nad oeddynt wedi eu hawdurdodi ganddo ef, allan o dan arolygiaeth un o'r enw George Joy, dyn o swydd Bedford, yr hwn a wnaeth ynddo rai cyfnewidiadau, cyn i'w argraphiad ef ei hun ymddangos. Daeth yr argraphiad yma allan yn Antwerp, yn Awst, 1534. Yr oedd Tyndal erbyn hyn wedi myned yn mlaen gyda'r Hen

Digitized by Google

Destament mor bell a Llyfr Nehemiah. Ond tra yn symmud yn mlaen gyda'i waith clodfawr, daliwyd ei gyfaill a'i gydweithiwr gynt, John Frith, yn Lloegr, a thaflwyd ef i Dŵr Llundain; ac yn mhen rhyw gymmaint o amser, ffurfiwyd dyfais ddirgelaidd i ddwyn oddi amgylch ddinystr Tyndal.

Wedi iddo symmud drachefn o Hamburgh i Antwerp, ffurfiodd Tyndal gydnabyddiaeth âg un o'r enw Henry Phillips; yr hwn a ddefnyddid, meddir, gan yr esgobion Saesnig i'r dyben o arwain Tyndal i'w ddinystr. Ar ol i Phillips fod yn byw gydag ef am amryw o fisoedd, efe a aeth yn ddirgelaidd i Brussels, a chafodd gydsyniad a chynnorthwy yr awdurdod ymherodrol i'w alluogi i gario allan ei amcanion bradwrus. Yna dychwelodd yn ol i Antwerp, a chyfreithiwr yr ymherawdwr, a swyddogion ereill, gydag ef. Wedi hyny efe a wahoddodd Tyndal allan i giniawa, ac aeth ei hun yn bersonol i ymofyn ei gyfaill i fod yn gydymaith iddo. Derbyniodd Tyndal y gwahoddiad hwn, er mai gyda pheth petrusder; a gadawodd y gŵr da ei dŷ yn nghwmni Phillips, yr hwn, wrth groesi y trothwy, a roddodd arwydd i'r swyddogion; ac ar hyn hwy a ruthrasant ar y diwygiwr ac a'i dygasant ef ymaith yn ddioed. Yr un dydd cymmerodd cyfreithiwr yr ymherawdwr afael yn ei holl ysgrifeniadau, a'i eiddo. Cymmerwyd ef o Antwerp i gastell Milford yn Holland, lle y bu yn garcharor am flwyddyn a hanner llawn. Yn ystod yr amser hwn gwnaed pob ymdrech gan y marsiandwyr Saesnig yn Antwerp, gan berson o'r enw Poyntz, gyda'r hwn y llettyai, a chan amryw ereill, i'w gael yn rhydd. Ysgrifenodd Arglwydd Cromwell hefyd at yr ymherawdwr i'r un perwyl; ond y cyfan i ddim dyben. Nid oedd ffyddlondeb na diysgogrwydd Tyndal yn cael eu siglo i'r graddau lleiaf gan hyn oll. Aeth yn mlaen gyda'i waith fel diwygiwr hyd yn oed o fewn muriau y carchardy, a gwnaeth broselytiaid o geidwad y carchar, ynghyd âg amryw o'i deulu. O'r diwedd dygwyd ef allan i sefyll ei brawf yn Augsburg, a chondemniwyd ef i'w roddi i farwolaeth, trwy gael ei dagu a'i losgi:—dedfryd a gariwyd allan arno yn Milford ar y 6ed o Hydref, 1536, pan oedd yn 36ain mlwydd oed. Y geiriau diweddaf a ddaethant dros ei wefus oeddynt, "Arglwydd, agor lygaid brenin Lloegr!"

Treuliodd Tyndal ei oes fer i leshau dynolryw, a bu farw hefyd er gogoniant i Dduw. Am ei gymmeriad, y mae ei elynion wedi gadael tystiolaeth y gall ei edmygwyr fod yn foddlawn arni, trwy ddyweyd ei fod yn "*homo doctus, pius, et bonus*"—yn ddyn dysgedig, crefyddol, a rhinweddol. Yr oedd o ran ei fywyd a'i arferion yn bur a diargyhoedd; etto rhoddwyd ef i farwolaeth gan rai a broffesent eu hunain yn Gristionogion, am geisio eangu cylchrediad a defnyddioldeb y llyfr sydd yn cynnwys gwirioneddau y grefydd Gristionogol! Yn ei ragymadrodd i'r Testament Newydd, ysgrifena fel hyn:—"Yr wyf yn galw Duw yn dyst, pan yr ymddangosaf ger bron brawdle Crist, i roddi cyfrif o'm holl weithredoedd, nad wyf wedi newid un sill o Air Duw, hyd eithaf fy ngwybodaeth; ac ni wnaethwn hyny am holl anrhydedd y byd hwn, pe y rhoddasid ef wrth fy nhraed." Diammheuol fod y cyfieithiad Saesneg presennol o'r Ysgrythyrau i'w olrhain yn ol i'r eiddo Tyndal. Ymddengys na bu cyfieithiad hollol newydd o'r Beibl er dyddiau Coverdale a Tyndal. Y mae gwahanol argraphiadau o bryd i bryd wedi eu danfon allan, gyda rhai cyfnewidiadau, a wnaed o dan awdurdod; ond am sylfaen y testyn, yr ydys yn ddyledus hyd y dydd hwn i'r ddau ddyn hynod hyn, ac yn benaf i Tyndal—dyn oedd mor awyddus i drosglwyddo i'w gydwladwyr wybodaeth o Air Duw, fel yr oedd yn barhaus â'i fywyd a'i holl gysuron daearol mewn perygl, er gallu dwyn hyn oddi amgylch; ac o'r diwedd a wynebodd ferthyrdod ei hun er mwyn hyny. Y gweithiau ereill a gyhoeddodd efe, ac a ddarllenid gyda phleser mawr, oeddynt:—"*The Obedience of a Christian Man;*" "*The Wicked Mammon;*" "*The Practice of Prelates;*" "*An Answer to Sir Thomas More;*" "*Expositions of Important Passages of Scripture,*" a rhai gweithiau ereill llai. Casglwyd ei holl weithiau, ac argraphwyd hwynt gyda'r eiddo Frith a Barnes, mewn un gyfrol ddeublyg fawr, yn 1572. Llefara Dr. Geddes yn uchel am gyfieithiad Tyndal, a meddylia na ragorwyd erioed arno am eglurder a symlder arddunol. Y mae ei holl weithiau, yn cynnwys ei ragarweiniad i lyfrau y Beibl, wedi eu cyhoeddi hefyd yn rhestr yr "*English and Scottish Reformers.*"

TYNEL (*Tunnel*). Tynelau ydynt geuffyrdd, neu ffyrdd tanddaearol, yn mha rai y gosodir ffyrdd haiarn, a ffyrdd cyffredin hefyd; a thrwy ba rai y rhed camlesydd, ac afonydd. Y mae tynelau, sydd wedi arfer cael eu defnyddio yn unig at wasanaeth ffyrdd, ac i drosglwyddo dwfr, yn awr wedi dyfod i fwy o arferiad nag erioed ynglŷn â ffyrdd haiarn. Credir fod erbyn hyn tua deg a phedwar ugain o filoedd o dynelau ffyrdd haiarn yn Mhrydain Fawr, a bod y draul o'u gwneyd ar gyfartaledd yn rhywle o bump i ddeg a deugain o bunnau y llath:—y cyfan yn agos i wyth miliwn o bunnau. Mewn tynelau o gryn hyd, wrth weithio o'r ddau ben yn unig, nid yw y gwaith yn myned yn mlaen ond yn araf, a thybir mai gwell ydyw dechreu y gwaith mewn amryw fanau ar yr un pryd; ac i'r dyben hyny, torir tyllau o'r wyneb i lawr hyd at lefel y tynel a weithir. Ni bydd rhai o'r tyllau hyn ond yn cael eu cadw yn agored yn unig tra y dygir y gwaith yn mlaen; ond y mae ereill i barhau, ac yn cael eu defnyddio i awyro y tynel tra y byddo mewn arferiad. Y mae yn angenrheidiol i'r tyllau fod yn ddigon o maint i'r celyrnau yn cynnwys yr hyn a godir o honynt i fyned heibio eu gilydd yn ol ac yn mlaen wrth esgyn a disgyn. I dyllau nad ydynt i barhau, hirgylch ydyw y ffurf sydd yn caniatau mwyaf o le i'r pwrpas hwn ar leiaf o draul. Gochelir tyllau ysgwâr, o herwydd yr anhawsder i dori y conglau mewn haenau creigiog. Amddiffynir y tyllau bob amser. Y mae y tyllau parhaol, os na bydd y rhanau y tyllir drwyddynt yn greigiau digon celyd, yn cael eu hadeiladu â phriddfeini, neu geryg, fel y byddys yn tori tuag i wared. Yn grwn yn gyffredin y gwneir y tyllau parhaol hyn; ac yr ydys wedi cael allan mai gwell ydyw eu gwneuthur dair neu bedair llath oddi wrth ystlys y tynel—a chyssylltir hwynt â'u gilydd gan fynedfeydd bychain. Y mae hyn yn gyfleus wrth wneyd y gwaith, ac y mae hefyd yn ddefnyddiol fel lle i weithwyr i ymlochesu ynddynt pan y byddo y cerbydresi yn myned drwodd. Gwneir y tyllau hyn yn gyffredin o ddeutu deg troedfedd o dryfesur; ac fe'u suddir ychydig o droedfeddi yn is na llawr y tynel, er ffurfio pydew i ddal y dwfr fydd yn

Digitized by Google

dyfod o'r tynel wrth ei weithio, yr hwn a gymmerir i fyny mewn celyrnau. Arferir offerynau priodol i gael y dwfr, y defnyddiau adeiladu, a'r gweithwyr, &c., i fyny ac i lawr. Wedi gorphen y twll, dechreuir ar y tynel yn y ddau gyfeiriad o'r gwaelod; a lle y ceir craig, y mae yn gyfleus i ddechreu yn gyffredin trwy wneyd math o fynedfa o'r naill dwll i'r llall, tua chwech neu saith troedfedd o uchder, a'r pen uchaf ar yr un lefel a phen uchaf y tynel. Pan y cwblheir hyn, y mae canol y tynel yn cael ei nodi allan yn gywir: yna y mae y fynedfa i mewn yn cael ei eangu i ffurf a maintioli bŵa y tynel, yr hwn a adeiledir o'r tu mewn; ac eir yn mlaen fel hyn gyda'r gwaith o'i gloddio, ac adeiledir muriau yr ystlysau er cynnal i fyny y bŵa.

Gwneir tynelau y rhan fynychaf yn syth, ond y maent weithiau yn ŵyrog. Y mae hyn yn digwydd er mwyn myned o dan y gyfran isaf o'r bryniau mewn trefn i'r tyllau fod mor fyr ag sydd bossibl. Gwneir hwy yn fynych ar raddosgo (*gradient*) lled serth; ond yn gymmaint a bod cerbydresi yn cyfarfod â pheth gwrthsafiad oddi wrth yr awyr pan yn myned drwyddynt, nid ydyw yn ddoeth gwneyd gradd-osgo mor serth ag yn yr awyr agored. Y tynel mwyaf nodedig sydd yn y byd ydyw tynel Mont Cenis. Y mae y tynel hwn yn cyssylltu ffyrdd haiarn Ffraingc ac Italy, ar y ffordd sydd yn arwain yn uniongyrchol o Paris i Turin. Hyd y tynel hwn ydyw ychydig dros saith milldir a hanner. Y mae un pen iddo yn Modane yn Ffraingc, a'r pen arall yn Bardonneche yn Italy. Mae wedi ei walio oddi mewn â cheryg, oddi eithr yn y pen nesaf i Bardonneche, lle y mae y bŵa wedi ei wneyd o briddfeini. Dechreuwyd y gwaith yn 1857, ac ar y cyntaf yr oedd yn cael ei weithio yn ol yr hen ddull; ond yn 1861, darfu i'r peiriannwyr, sef y Meistri. Sommeiller, Grattoni, a Grandis, ddefnyddio peiriannau yn cael eu gweithio gan ager ac awyr ar yr ochr Italaidd, a defnyddiwyd rhai cyffelyb hefyd ar yr ochr nesaf i Ffraingc yn 1863. Ar y 30ain o Fehefin, 1863, yr oedd dwy fil ac wyth gant o latheni o'r tynel wedi ei dori trwodd, neu yn ol tua naw troedfedd a hanner y dydd. Ond disgwyliai y peiriannwyr trwy welliantau yn y peiriannau y gallesid myned yn mlaen yn gyflymach. Ni lwyddasant, pa fodd bynag; o herwydd erbyn Hydref, 1866, nid oeddynt wedi cwblhau ond o ddeutu yr hanner, neu tua chwe mil chwe chant a phedwar ugain o latheni. Yn ol y cynnydd hwn gyda'r gwaith ni buasai yn cael ei gwblhau hyd 1872. Yn ystod y pedair blynedd olaf y buwyd yn gweithio arno hwy a llwyddasant i fyned yn mlaen yn llawer cyflymach; a gorphenwyd ef y 25ain o Ragfyr, 1870. Yr holl draul oedd tua 2,600,000*p*. Ac am fod yr Italiaid wedi gorphen y gwaith o fewn yr amser gosodedig, yr oedd y draul fŵyaf yn disgyn ar deyrnas Ffraingc. Aeth y gerbydres gyntaf, oedd i roddi prawf teg arno, drwyddo ar y 13eg o Fedi, 1871, mewn deugain munyd; ac agorwyd ef yn ffurfiol trwy i ddwy ar hugain o gerbydau fyned drwyddo mewn ugain munyd, ar yr 17eg o'r un mis; ac y mae cerbydresi rheolaidd yn rhedeg drwyddo er Hydref 16eg 1871.

TYST—IO—ION—IOLAETH: un sydd yn dwyn tystiolaeth i unrhyw beth, neu ardystiwr, ydyw tyst. Y mae tystiolaeth mewn rheithofyddiaeth yn dynodi y moddion trwy ba rai y mae ffeithiau yn cael eu sicrhau a'u cadarnhau er atteb dybenion cyfreithiol. Y mae'n amlwg yn ol y deffiniad hwn, fod pwys ymarferol yn hyny; ac o ganlyniad y mae ysgrifenwyr cyfreithiol galluog wedi talu llawer o sylw iddo. Y mae hefyd yn ffurfio rhan bwysig o reithofyddiaeth y gwledydd mwyaf gwareiddiedig. Y mae y rheolau neillduol a berthynant i dystiolaeth yn gwahaniaethu yn ol cyfansoddiad y llys yn yr hwn y profir achos cyfreithiol. Ni chynnwysai y gyfraith Rufeinig, yn ol yr hon yr olrheinid ffeithiau i ddybenion cyfreithiol gan farnwyr wrth eu swydd, ond ychydig o reolau yn mherthynas i dystiolaeth. Yn ol cyfraith gyffredinol Prydain, lle y penderfynir ffeithiau gan reithwyr, y mae corph y rheolau a elwir yn 'ddeddfau tystiolaeth' (*laws of evidence*) wedi eu sefydlu yn raddol yn ystod y dau can mlynedd diweddaf. Y mae hanes boreuaf ein llysoedd cyfreithiol yn cynnwys nifer o brawfion oedd yn dal cyssylltiad âg achosion gwladwriaethol sydd yn dangos y byddai yn arferiad gynt i wrando yn ddibetrus ar bob math o dystiolaethau; ond y mae y deddfau presennol yn cadw tystiolaethau yn fanwl o fewn terfynau pennodol. Wrth roddi crynodeb byr o egwyddorion deddfau tystiolaeth yn Mhrydain, sydd yr un yn y gwahanol lysoedd barn, amcenir—1. Nodi y terfynau o fewn pa rai y gellir derbyn tystiolaeth tystion. 2. Rhoddir crynodeb byr o'r prif reolau sydd yn llywodraethu y derbyniad o dystiolaethau llafaredig. 3. Nodir y prif reolau a berthynant i dystiolaethau ysgrifenedig.

1. *Cymmhwysder tystion.*—Rheol gyffredinol Prydain ar y mater hwn ydyw—y gall pawb fod yn dyst yn llys cyfiawnder, sydd yn meddu deall digonol i amgyffred yr hyn y bydd efe yn tystiolaethu am dano, a digon o egwyddor grefyddol i feddu syniad priodol am rwymedigaeth llŵ i draethu y gwirionedd. O ganlyniad, y mae plant ieuaingc yn cael eu derbyn fel tystion, os bydd ganddynt wybodaeth ddigonol o natur llŵ, ac arswyd rhag y canlyniadau a ddilynant dwyll a chelwydd. Rhaid i bob tystiolaeth, yn ol y gyfraith, gael ei rhoi ar lŵ: ond nid ydyw ffurf y llŵ o gymmaint pwys; ac nid oes dim yn angenrheidiol yn mhellach nag argyhoeddiad yn meddwl y tyst, wrth dyngu i wirionedd yr hyn a ddywedir, ei fod yn appelio at Fod Dwyfol, yr hwn sydd alluog i gospi twyll a chelwydd. Ond i'r rheol eang hon o gymmhwysder pawb sydd yn meddu synwyr digonol a chredo grefyddol, y mae amryw o eithriadau pwysig. Yn y lle cyntaf, nis gall gŵr fod yn dyst dros, nac yn erbyn, ei wraig; na gwraig dros, nac yn erbyn, ei gŵr:—rheol sydd yn cyfodi o'r berthynas agos sydd rhwng y naill a'r llall. Mewn erlyniadau cospawl, sylfaenedig ar ymosodiadau a wneir gan y naill ar y llall o'r pleidiau hyn, pa fodd bynag, derbynir y fath dystiolaeth ar sail angenrheidrwydd. Yn ail, mewn achosion a drinir gan y gyfraith gyffredin, nis gall y diffynydd mewn cynghaws gael ei holi fel tyst; ond yn llysoedd uniondeb (*equity*), gall diffynwyr mewn cynghaws fod yn dystion yndde, ond gwneyd appeliad arbenig i'r pwrpas hwnw. Yn drydydd, nis gall person fydd wedi cael ei gospi am deyrnfradwriaeth, neu ladrad, neu anudoniaeth, neu a fyddo yn euog o unrhyw drosedd cospadwy gan y gyfraith, fod yn dyst. Nid yw yr egwyddor hon, a gaed oddi wrth y Rhufeiniaid, ond o ychydig bwysigrwydd ymarferol yn awr; gan fod maddeuant i droseddwyr, neu

Digitized by Google

ddioddef cospedigaeth, oddi eithr yn achos anudoniaeth, yn ol cyfreithiau diweddar, yn adferu cymmhwysder y cyfryw i fod yn dystion. Yn bedwerydd, y mae cyfraith Prydain yn cau allan y rhai y mae ganddynt ryw gyssylltiad uniongyrchol â chanlyniad y gweithrediadau y gelwir arnynt i dystio ynddynt.

II. *Y prif reolau cyffredinol trwy ba rai y derbynir tystiolaeth lafaredig.*—Y rheol gyffredinol flaenaf (yr hon a gymmhwysir at dystiolaeth lafaredig ac ysgrifenedig) ydyw, y rhaid i bob tystiolaeth fod yn dwyn perthynas â'r achos mewn dadl rhwng y pleidiau. Amcan dadleuaeth arbenig (*special pleading*) mewn cyfraith gyffredin ydyw cyfyngu y mater mewn dadl rhwng y pleidiau i ryw derfynau neillduol; neu nodi allan y ffeithiau a haerir gan y naill, ac a wedir gan y llall—yr hyn sydd i'w benderfynu gan y rheithwyr; ac y mae rheolau tystiolaeth yn gofyn fod y profion yn yr achos yn cael eu cyfyngu yn hollol at y peth mewn dadl, yn sylfaenedig ar resymau o gyfiawnder yn gystal a chyfleusdra. Yn ail, Y mae yr ochr gadarnhaol i bob achos i gael ei brofi; hyny ydyw, y mae y blaid sydd yn haeru cywirdeb y cyhuddiad i ddwyn baich y prawf. Yn drydydd, Wrth brofi ffaith, y mae yn rhaid rhoddi y dystiolaeth oreu am dani ag y mae ei natur yn ei oddef. Yn ol hyn, ni oddefir i neb brofi cynnwysiad gweithred (*deed*) trwy gopi o honi; a llai drachefn â thystiolaeth lafaredig, os gellir dwyn yn mlaen y weithred ei hun; na phrofi gwneuthuriad ewyllys gan un person arall, ond gan y tyst fydd wedi ysgrifenu ei enw wrthi, pan y byddo y cyfryw un yn fyw, ac mewn sefyllfa y gellir ei ddwyn yn mlaen. Nid ydyw y rheol hon, fodd bynag, yn gofyn fod yr holl dystiolaethau y gellir eu dwyn yn mlaen ar ffaith mewn dadl i gael eu rhoi: er enghraifft, os bydd enw amryw o dystion ysgrifenedig wrth weithred neu gyttundeb, nid yw yn angenrheidiol galw yn mlaen fwy nag un. Yn bedwerydd, Y mae tystiolaeth o'r hyn a fyddys wedi ei glywed gan un arall, neu dystiolaeth ar lŵ o'r hyn a ddywedodd person absennol ynghylch y ffaith fydd i'w phrofi, yn gyffredin yn cael ei chau allan—yn un peth, o herwydd y rheswm nad yw y tyst o'r ffaith ei hun yn dadgan ei wybodaeth ar ei lŵ, ac hefyd o herwydd ei fod yn rhydd oddi wrth y rhwymedigaeth i gael ei groesholi gan y neb y bydd y ffaith a adroddir yn effeithio yn ddrwg arno. Ond y mae i'r rheol hon yr eithriadau canlynol:—1. Dadganiadau personau mewn perygl mawr, ac i bob golwg yn agos i angeu, y rhai yr ystyrir eu bod yn llefaru o dan gymmhellion mor gryfion i dystiolaethu y gwir a phe buasent ar eu llŵ. 2. Dadganiadau personau fydd wedi meirw, y rhai fydd wedi eu gwneyd yn erbyn eu manteision hwy eu hunain; megys, er enghraifft, pan yn rhoddi ar ddeall iddynt dderbyn arian ar ran trydydd person, neu yn cydnabod derbyniad arian oedd yn ddyledus iddynt hwy eu hunain. 3. Dadganiadau rhai wedi meirw yn mherthynas i hawliau o natur gyhoeddus; megys, terfynau neu arferion cyffredinol maenor neu gymmydogaeth. 4. Dadganiadau rhai wedi meirw ar gwestiynau o haniad; neu hen ddigwyddiadau teuluaidd cyn cof tystion byw, megys genedigaethau, marwolaethau, neu briodasau. O berthynas i'r ddau eithriad diweddaf, pa fodd bynag, y mae tystiolaeth dadganiadau o'r fath yn wrthodedig, os na wneir hwynt cyn i'r achos fod yn destyn ymchwiliad cyfreithiol.

III. *Y mae tystiolaeth ysgrifenedig yn gynnwysedig o gofnodion, ysgrifeniadau dan sêl, breinleni, a gweithredoedd ac ysgrifeniadau heb eu selio.* Ystyrir deddfau seneddol yn gofnodion o'r radd flaenaf, gan eu bod yn goffadwriaeth o weithrediadau y ddeddfwriaeth; ond y mae gwahaniaeth yn bod rhwng tystiolaethau yn mherthynas i ddeddfau cyhoeddus a deddfau i bersonau. Nid ydyw yn angenrheidiol cael prawf pendant o ddeddf gyhoeddus yn llysoedd cyfiawnder: cymmerir yn ganiataol fod pawb yn gwybod y cyfreithiau y maent yn rhwym o ufuddhau iddynt. Yn mherthynas iddynt hwy gan hyny, y mae enwi y ddeddf yn ddigonol yn mhob achos. Ond y mae deddfau seneddol preifat yn cael eu hystyried yn bethau a berthynant i bersonau; a rhaid eu profi gyda chopïau wedi eu cymmharu â rhôl wreiddiol y senedd, ar yr hon yr ysgrifenwyd hwynt. Profir breinleni a gweithredoedd trwy ddwyn yn mlaen brawf o'u gwneuthuriad, gan y rhai a gymmerent ofal yr ysgrifau; ond os bydd yr ysgrif yn fwy na deg ar hugain oed, ni raid profi y gwneuthuriad. Y rheol gyffredin ydyw, fod y weithred wreiddiol i gael ei dwyn yn mlaen, o herwydd mai hi ydyw y prawf goreu. Ond y mae hyn yn ddarostyngedig i'r eithriadau canlynol:—1. Lle y byddo wedi ei cholli, neu ei distrywio trwy ddamwain. 2. Pan y bydd yn meddiant plaid mewn cynghaws, yn erbyn yr hwn yr ymdrechir ei chael yn mlaen fel tystiolaeth, a wrthoda ei chynnyrchu. Yn y naill neu y llall o'r achosion hyn gellir profi fod yr ysgrif (*document*) yn bod trwy gopi o honi; ac os na bydd copi mewn bod, trwy dystiolaeth lafaredig. Rhaid cadarnhau a phrofi gweithredoedd yn gyffredinol gan un neu fwy o'r rhai a fyddant wedi eu llawnodi fel tystion; ond os bydd y tystion wedi meirw, neu mewn amgylchiadau nas gellir dyfod o hyd iddynt ar ol ymofyniad manwl, neu os byddant am ryw reswm yn anghymmhwys i roi eu tystiolaeth, gellir profi gwneuthuriad y weithred trwy lawysgrif yr hwn a'i gwnaeth. Y cwrs a gymmerir i brofi llawysgrifau, yn ol cyfraith Prydain, ydyw, galw yn mlaen un a fyddo yn gydnabyddus â llawysgrifen y person fydd wedi llawnodi y weithred, a'r hwn a'i gwelodd ef yn ysgrifenu; neu un a fu yn dwyn yn mlaen ohebiaeth ysgrifenedig âg ef—pa rai a dystiant eu bod yn credu fod yr ysgrif sydd i'w phrofi yn llawysgrif y person yr ymdrechir profi ei bod.

Oddi wrth y crynodeb uchod o'r prif reolau a berthynant i dystiolaeth, fel y cydnabyddir hwynt yn nghyfraith Prydain, ymddengys y gyfundrefn yn un fanwl. Ar y pwngc o dystion i chanddynt ryw fântais yn y cwestiwn, y mae y gyfraith nid yn unig yn ofalus a gochelgar, ac yn cyfyngu y terfynau o fewn pa rai y dylid rhoi crediniaeth ynddynt; ond yn eu cau allan rhag cael eu gwrando yn hollol pa bryd bynag y bydd rhyw fudd yn deilliaw iddynt o'r achos, pa mor fach bynag y byddo. Yr un modd hefyd gyda golwg ar dderbyniad tystiolaeth ail law, neu yr hyn y byddys wedi ei glywed gan arall, ond nid yw yn cael ei dderbyn mewn un achos yn yr amgylchiadau a nodwyd o'r blaen. Bod adroddiad person y byddo ei fanteision mewn cyssylltiad â'r achos yn wastad i'w dderbyn yn ochelgar, os nad gydag ammheuaeth, ac yn fynych gydag anghrediniaeth, gellir yn hawdd gydnabod; ond ar y llaw arall y mae yn ammheus a fyddai yn ddoeth ac yn briodol wrthod gwrandaw ar y cyfryw o dan bob amgylchiadau.

Digitized by Google

Drachefn, y mae yn wir na ddylid cyssylltu cymmaint o bwys â thystiolaeth wedi ei chael gan arall ag â thystiolaeth uniongyrchol: o herwydd y mae yn ddiddadl fod y tebygolrwydd o gael gafael yn y gwirionedd yn lleihau, ac y mae cyfryngau ac achosion camsyniadau yn lliosogi, yn ol fel yr ydys yn pellhau oddi wrth y sylwedydd gwirioneddol ac yn chwanegu dolenau at gadwen y dystiolaeth. "Gyda golwg ar unrhyw dystiolaeth," ebe Locke, "po bellaf yr ä oddi wrth fodolaeth y peth ei hun, lleiaf yn y byd o rym sydd yn y prawf sydd ganddi. Y mae dyn credadwy yn tystio i'r hyn a welodd yn brawf da; ond os bydd tyst arall, yr un mor gredadwy, yn dwyn tystiolaeth i'r hyn a glywodd gan arall, y mae ei dystiolaeth yn wanach; ac y mae y trydydd, pan yn tystio i'r hyn a glywodd gan un a glywodd o'i flaen yntau, yn llai credadwy drachefn. O ganlyniad, mewn gwirioneddau traddodiadol, y mae pob symmudiad pellhaol yn gwanhau y prawf; a pho mwyaf o bersonau yr ä traddodiadau drwyddynt, lleiaf yn y byd o rym fyddant fel tystiolaethau."

Ond a chaniatau cywirdeb y gwrthwynebiad hwn i effeithiau tystiolaeth o'r fath, y mae yn lled ammheus a ddylid ei gwrthod yn hollol a diammodol mewn achosion cyfreithiol. Felly hefyd gyda golwg ar y dull o brofi llawysgrifau:—gall fod yn gwbl anniogel i orphwys yn hollol ar y dystiolaeth a geir wrth gymmharu llawysgrifau gan bersonau o brofiad yn y gwaith hwnw; ond o'r braidd y gellir dyweyd na ddylid caniatau y cyfryw brawf er cynnorthwyo y dull presennol o roddi crediniaeth i eiriau tyst fydd yn proffesu adnabod y llawysgrif.

Y rheswm cryfaf a ddefnyddir dros fod cyfraith Prydain mor fauwl a gochelgar ar y mater hwn yw yr un a geir o natur prawf ger bron rheithwyr; yn mherthynas i'r hyn y dadleuir ei fod yn fwy diogel cadw tystiolaeth ammheus yn hollol oddi wrthynt, na'i chyflwyno i bersonau nad ydynt bob amser yn ddysgedig iawn, nac o'r braidd yn alluog i dynu llinell gywir o wahaniaeth ar y cwestiwn o dystiolaeth fel ag i ffurfio barn gywir am dani. Ond y mae y rheswm yma yn sylfaenedig ar yr hyn nad oes sail gref iddo; sef, fod y moddion cyfreithiol a fabwysiedir yn arwain yn anffaeledig at y gwirionedd; ond yn lle hyny, y ffaith yw fod llawer o honynt yn ddarostyngedig i arwain i gamgasgliadau, yr un modd a'r rhai a wrthodir. Yn y sefyllfa hon ar bethau, gan hyny, o'r braidd y gellir dwyn yn mlaen reswm cryf pa ham na ddylid defnyddio pob moddion ymarferol i gael gafael ar y gwirionedd, pa mor amrywiol bynag y byddont yn ngraddau eu heffeithiolrwydd. Ac y mae ein llysoedd cyfiawnder, er's llawer o flynyddoedd bellach, am gael cymmaint o oleuni ar achosion fydd ger eu bron ag y mae yn bossibl; ac y maent yn edrych ar wrthwynebiadau a godir yn erbyn tystiolaethau, am y rheswm nas gellir rhoi crediniaeth ynddynt, yn hytrach fel mater i'r rheithwyr i arfer eu barn arnynt, nag o herwydd eu hanghymmhwysder, ac i gael eu gwrthod o herwydd hyny yn hollol.

Yn mysg pobl lle nad ydyw ysgrifen yn beth cyffredin, y mae y prawf neu y dystiolaeth am unrhyw beth a gymmer le yn cael ei roddi trwy gyfodi rhywbeth a fyddo yn goffadwriaeth amlwg o'r amgylchiad, neu trwy ryw seremoni nodedig. Rhoddodd Abraham "saith o hespinod o'r praidd" i Abimelech, yn dystiolaeth mai efe a gloddiodd y pydewau yr oedd dadl rhyngddynt yn ei gylch: *Gen.* xxi. 30. Cyfododd Iacob garnedd geryg—'carnedd y dystiolaeth,' ar ymyl y ddalen—i fod yn derfyn rhyngddo ef a Laban: *Gen.* xxxi. 47, 52. Cyfododd llwythau Reuben a Gad 'allor:' nid wedi ei bwriadu yn bennodol i aberthu arni, ond yn dyst o gyfammod rhyngddynt hwy a'r gweddill o'r genedl. Gosododd Iosuah i fyny "faen mawr," i fod yn dystiolaeth o'r ffyddlondeb â'r hon yr addawai Israel wasanaethu Duw:—"Wele," medd efe, "y maen hwn fydd yn dystiolaeth i ni; canys efe a glywodd holl eiriau yr Arglwydd;" *Ios.* xxii. 10, 26, 34; xxiv. 26, 27. Sonir am "golofn" gan Esaiah "yn arwydd hefyd, ac yn dystiolaeth y bydd i Arglwydd y lluoedd yn nhir yr Aipht;" *pen.* xix. 19, 20. Gelwir arch Duw yn "arch y dystiolaeth;" *Exod.* xvi. 33, 34; xxv. 16; xxxviii. 21; *Num.* i. 50, 53; ix. 11; xvii. 7, 8; xviii. 2; *Heb.* ix. 4. Yr un modd hefyd yr oedd arferion arwyddocaol yn cael eu dwyn yn mlaen i gadarnhau cyttundebau, neu i gwblhau trefniadau; megys, y seremoni o ddattod carai esgid (*Deut.* xxv. 9, 10; *Ruth* iv. 7, 8), a'r prawf a ordeiniwyd yn achos gwraig a ddrwg-dybid.

Er hyny nid oedd tystiolaethau ysgrifenedig mewn un modd yn anhysbys yn mysg yr Iuddewon. Yr oedd ysgariaeth priodasol i gael ei brofi trwy ysgrifen (*Deut.* xxiv. 1, 3), ac yr oedd dedfryd a gyhoeddid ar hyny yn ddigon i atteb y dyben. Am gyttundebau gwladol, o leiaf mewn amserau diweddarach, yr oedd yn angenrheidiol eu cael mewn ysgrifen er mwyn eu cadw yn ofalus: *Esa.* viii. 16; *Ier.* xxxii. 10—16. Ar y cyfan, yr oedd y gyfraith yn mysg yr Iuddewon yn dra gofalus i ddarparu a chadarnhau tystiolaeth ynghylch pob peth oedd yn dwyn perthynas âg anufudd-dod iddi, neu droseddiad o honi, a phob peth yn dal cyssylltiad â hi; megys y ceryg coffadwriaethol yn yr Iorddonen ac yn Mynydd Ebal (*Deut.* xxvii. 2—4; *Ios.* iv. 9; viii. 30): y rhidens ar ymylau y gwisgoedd (*Num.* xv. 39, 40): ceryg terfynau meddiannau (*Deut.* xix. 14; xxvii. 17; *Diar.* xxii. 28): y "dalenau llydain" a wnaethpwyd o thuserau y Cohathiaid (*Num.* xvi. 38): ac uwch law y cwbl, arch y cyfammod ei hun. Y mae yr holl bethau hyn yn brawf o ofal y Deddfroddwr am gadw y profion o'r ffeithiau ar ba rai yr oedd y gyfraith wedi ei sylfaenu, ac yn cael ei chadarnhau: *Deut.* vi. 20—25. Gwneir appeliad at yr un egwyddor yn fynych mewn cyssylltiad â phrophwydoliaethau, fel prawf o'u gwiredd: *Deut.* xviii. 22; *Ier.* xxviii. 9, 16, 17; *Ioan* iii. 11; v. 36; x. 38; xiv. 11; *Act.* i. 3; ii. 22; iii. 15, &c.

Yn mysg darpariadau neillduol y gyfraith yn nghylch tystiolaethau, gellir nodi y rhai hyn:—1. Yr oedd dau dyst, o leiaf, yn angenrheidiol i brofi unrhyw gyhuddiad (*Num.* xxxv. 30; *Deut.* xvii. 6; xix. 15; 1 *Bren.* xxi. 13; *Ioan* viii. 17; 2 *Cor.* xiii. 1; *Heb.* x. 28); ac y mae egwyddor gyffelyb yn cael ei gosod i lawr gan Paul i fod yn rheol yn yr eglwys Gristionogol: 1 *Tim.* v. 19. 2. Mewn achos o anffyddlondeb gwraig i'w gŵr, yr oedd tyst arall heb law y gŵr yn ddymunol, er nad oedd yn cael ei hawlio: *Num.* v. 13. 3. Ceryddid yr hwn a gelai dystiolaeth: *Lef.* v. 1. 4. Yr oedd tystion twyllodrus yn cael eu cospi â'r gosp ddyledus am y trosedd yr ymdrechent ei gadarnhau. 5. Ceryddid adroddiadau enllibus a thystion ymyrgar: *Exod.* xx. 16; xxiii. 1; *Lef.* xix. 16, 18; *Deut.* xix. 16—21; *Diar.* xxiv. 28. 6. Y tystion oedd y rhai cyntaf i roddi y troseddwyr i farwolaeth, trwy daflu

Digitized by Google

ceryg atynt: *Deut.* xiii. 9; xvi. 7; *Act.* vii. 58. 7. Os rhoddid anifail i'w gadw i un arall, ac ysglyfaethu o fwystfilod gwylltion y cyfryw un, yr oedd raid iddo ddwyn yr ysgerbwd yn mlaen er tystio i'r ffaith nad oedd efe ei hun yn euog o'i ddyfetha: *Exod.* xii. 13. 8. Yn ol Josephus, ni chaniateid i wragedd a chaethweision roddi eu tystiolaeth.—"*Hyn. Iudd.*," iv. 8, *adr.* 15. At yr eithriadau hyn y mae y "*Mishna*" yn chwanegu ynfydion (*idiots*), mudion, deillion, a byddariaid, a phersonau o gymmeriadau isel—yn gwneyd deg dosbarth yn y cwbl. Nid oedd yr archoffeiriad yn rhwymedig i roddi tystiolaeth mewn unrhyw achos, oddi eithr un yn dal cyssylltiad â'r brenin. Mewn achosion troseddiadol (*criminal*), yr oedd raid i'r dystiolaeth fod yn un lafaredig; ond mewn achosion arianol gwnaethai tystiolaeth ysgrifenedig y tro.

Yn y Testament Newydd, y mae y syniad o dyst yn cael ei ddangos yn arbenig yn y ffurf o un yn tystio ei grediniaeth yn yr efengyl trwy ddioddefiadau personol. Felly y dywedir am Stephan gan Paul (*Act.* xxii. 20), ac am Antipas yn *Dad.* ii. 13. Sonia Ioan hefyd am dano ei hun, ac ereill, fel tystion yn yr ystyr yma: *Dad.* i. 9; vi. 9; xi. 3; xx. 4. Gweler hefyd *Heb.* xi. a xii. 1, lle y crybwyllir am nifer o bersonau y sonir am danynt yn yr Hen Destament a'r Newydd, y rhai a ddygasant eu tystiolaeth i'r gwirionedd trwy ddioddef drosto; a chymmerir yr un olwg ar y gair 'tyst' yn *Dan.* iii. 21; vi. 19; 1 *Macc.* i. 60, 63; 2 *Macc.* vi. 18, 19:—ac o hyny y cyfododd y gair eglwysig *merthyr.*

TYWYDD (*Weather*), sydd air a ddefnyddir er gosod allan sefyllfa yr awyrgylch o barthed i wres neu oerni, sychder neu leithder, gwynt a gwlaw, &c. Y mae cyfnewidiadau yr awyrgylch yn digwydd mewn rhai gwledydd mewn trefn sydd yn debyg yr un fath yn wastad; ac yn yr ardaloedd hyny, gellir gwneyd rhagfynegiadau am y tywydd am amryw ddyddiau, ac hyd yn oed am fisoedd i ddyfod, o'r bron gyda sicrwydd y cymmer le yn union yn ol y rhagfynegiad Ar ochrau cyferbyniol cadwen mynyddoedd y Ghauts, sydd yn ymestyn ar hyd gorynys gorllewinol India, yn agos o ogledd i ddeheu, y mae y naill hanner o'r flwyddyn ar y naill ochr yn wahanol i'r hyn ydyw ar y llall. Ar ororau Malabar, y mae awyr glir o Fedi hyd yr Ebrill canlynol: ar oror Coromandel, y mae y tymmor teg yn parhau o Ebrill hyd Medi: ond y mae y gwlaw yn disgyn o'r bron yn barhaus yn y ddwy ardal, am y chwe mis sydd yn canlyn y rhai sychion. Y mae cyfnewidiadau o dywydd teg i wlawog yn cymmeryd lle hefyd yn rheolaidd yn y rhanau mewnol o Affrica; ac yn ol Humboldt, y mae hi yn gwlawio yn barhaus am tua phump neu chwe mis o'r flwyddyn, o ororau Guiana hyd i'r Andes. Ond mewn ynysoedd yn gyffredinol, ac yn Ewrop a gogleddbarth America yn arbenig, nid yw y gwyntoedd yn amrywio mewn cyfeiriad a nerth yn ol unrhyw ddeddf reolaidd; ond yn cydgymmysgu mewn ysbeidiau afreolaidd o amser â'r awyr llawn o darth sydd yn cyfodi o'r môr; a thrwy hyny achosir i gymmylau orchuddio y ffurfafen, ac i gawodydd o wlaw, cenllysg, neu eira ddisgyn. Y mae y gwynt sydd yn chwythu fwyaf o ryw bwynt neillduol, yn gyffredin, pan y dechreua chwythu, yn rhoddi rhyw arwydd pa dywydd y gellir ei ddisgwyl; ond yn fynych, nid oes un amgylchiad yn digwydd drwy yr hwn y gellir rhagfynegu cyfnewidiad o awyr gymmylog i un glir, neu i'r gwrthwyneb, ond am ychydig oriau, neu ddyddiau o bellaf, cyn i hyny ddigwydd.

Y mae cyfnewidiadau y lleuad a chyfnewidiadau yr awyrgylch yn aml yn cydfyned â'u gilydd, a naturiol i lawer dybied fod yr olaf yn dibynu i ryw raddau ar y blaenaf: a chryfheir y syniad gan y ffaith hysbys, fod llanw y môr, a'r awyr, yn cael eu heffeithio gan yr ad-dyniadau a arferir gan y lleuad a'r haul ar ronynau y dwfr a'r awyr. Gwyddys, pa fodd bynag, nad yw y lleuad yn effeithio ar sefyllfa yr awyrgylch ond am ysbaid byr, a bod hyn yn digwydd yn raddol yn ol deddfau sefydlog; gan hyny, nid ydyw yn ddigon i gynnyrchu y cyfnewidiadau disymwth ac afreolaidd y mae yr awyrgylch yn ddarostyngedig iddynt. Y mae ereill yn ffurfio tafleni, yn mha rai y mae sefyllfa debygol y tywydd yn cael ei ragfynegu yn ol yr awr o'r dydd neu y nos y bydd y lleuad yn llawn, neu yn newid arno. Digon ydyw dyweyd yma, y rhagarwyddir gwlaw pan y bydd y lleuad yn newid neu yn llawn rhwng deuddeg a dau o'r gloch yn y prydnawn; a thywydd teg pan y bydd yn newid neu yn llawn rhwng pedwar a chwech y prydnawn, neu rhwng deg y nos a dau o'r gloch y boreu. Y mae ymdrechion wedi eu gwneyd i gael allan lwybr i ragfynegu y tywydd bob dydd yn y flwyddyn, ond yn aflwyddiannus. Ffyna crediniaeth fod tymmorau o nodwedd gyffelyb yn dychwelyd yn yr un drefn ar ol pob cylchdro trawsglwm (*nodes*) o eiddo y lleuad; hyny yw, yn niwedd pob deunaw neu bedair ar bymtheg o flynyddoedd, pan y mae y ddaear a'r lleuad yn ymddangos agos yn yr un sefyllfaoedd tuag at eu gilydd. Ond er fod sylw wedi ei wneyd fod rhai tymmorau yn cael eu nodweddu gan fwy neu lai o symiau o wlaw yn dychwelyd mewn ysbeidiau neillduol, ymddengys nad oes sail deg i'w cyssylltu â'r cyfnod astromyddol hwnw.

Y mae Syr Humphry Davy, yn ei "*Salmonia,*" yn cyfeirio at ac yn egluro amryw o arwyddion cyfnewidiad y tywydd. Cyfeiria at yr arwydd fod cymmylau yr hwyr, pan yn goch neu yn lasgoch yn y gorllewin, yn argoeli tywydd teg; a bod yr awyr, pan yn sych, yn gwrthdori mwy o'r pelydrau coch na phan y byddo yn llaith; ac yn gymmaint ag nad ydyw yr awyr yn hollol dryloew, y mae y pelydrau yn cael eu hadlewyrchu ar y gorwel. Chwanega fod lliw melyn a phresaidd ar yr awyr yn argoel o wlaw; ond nad oes dim yn arwyddo tywydd gwlawog agoshaol yn sicrach na bod cylch am y lleuad; a pho mwyaf y byddo y cylch, agosaf yn y byd ydyw y cymmylau, ac o ganlyniad parotaf yn y byd ydynt i wlawio. Wrth egluro pa ham y mae enfys y boreu yn arwyddo gwlaw, ac un y prydnawn dywydd teg, dywed nas gellir gweled y bŵa ond pan fyddo y cymmylau ar gyfer yr haul. Yn y boreu y mae y bŵa yn y gorllewin, ond yn yr hwyr y mae yn y dwyrain; a chan fod y gwlaw yn y wlad hon yn dyfod yn aml gyda gwynt y gorllewin, y mae bŵa yn y gorllewin yn arwydd fod y gwlaw yn dyfod at yr edrychydd; tra y mae bŵa yn y dwyrain yn arwyddo fod y gwlaw yn myned oddi wrtho. Y mae yr arwyddion am dywydd teg a geir oddi wrth waith y gwenoliaid yn ehedeg yn uchel yn cael ei esbonio trwy fod y trychfilod ar y rhai yr ymbortha yr adar hyn yn ehedeg mewn haen gynnes o awyr; ac y mae awyr cynnes, gan ei fod yn ysgafnach nag un llaith, yn uwch yn yr awyrgylch; gan hyny, y mae yr adar yn cael eu

Digitized by Google

hysglyfaeth] mewn uchder mwy. I'r gwrthwyneb, pan y bydd yr awyr cynnes yn agos i arwyneb y ddaear, y mae yr adar a'r trychfilod yno hefyd; ac yna, fel y disgyna yr awyr oer oddi uchod iddo hefyd, y mae gwlaw yn cymmeryd lle. Mŷn rhai fod yr hen syniad o ddyfodiad adar y môr i'r tir ar ddynesiad ystorm yn gamgymmeriad; a phriodolir yr achos o hyny i fod y pysgod y mae yr adar yn ymborthi arnynt yn disgyn yn ddwfn i'r dwfr yn ystod ystormydd, a'u bod hwythau yn dyfod i'r tir yn unig am fod mwy o sicrwydd y gallant gael eu hymborth yno nag yn y môr. Gwel HINSAWDD.

TYWYSOGAETH CYMRU. Y mae *Y Dywysogaeth* yn hen enw ar Gymru. Tywysogaeth yr ystyrid hi drwy y canoloesoedd, pan oedd o dan reolaeth ei thywysogion brodorol. Ac ar ol trosglwyddo yr awdurdod i goron Prydain, gelwir hi wrth yr un enw. Pan yn meddu ei hannibyniaeth, gelwid ei phenaethiaid yn dywysogion; ac y mae mab hynaf y penadur, neu etifedd coron Prydain, yn cael ei deitl o'r Dywysogaeth:—gelwir ef Tywysog Cymru. Y cyntaf o feibion brenhinoedd Lloegr a wisgodd y teitl hwn oedd mab Iorwerth I., yr hwn a anwyd yn Nghastell Caernarfon yn y drydedd ganrif ar ddeg. Am hanes y Dywysogaeth, yr ydym yn cyfeirio y darllenydd at yr erthygl CYMRY: EU DECHREUAD A'U HELYNTION. Ond ni a roddwn yma restr o rai o'r prif ddigwyddiadau hanesyddol cyssylltiedig â'r Dywysogaeth a'i phreswylwyr; ynghyd â rhestr hefyd o'i thywysogion brodorol:—

| | |
|---|---|
| | C. C. |
| Goresgyniad cyntaf Prydain gan y Rhufeiniaid, o dan Julius Cæsar ... ... | 55 |
| Yr ymherawdwr Claudius Cæsar yn anfon ail fyddin i Brydain o dan lywyddiaeth Aulus Plautius ... ... ... | 40 |
| Llundain yn cael ei hadeiladu gan y Rhufeiniaid ... ... ... ... | B.A. 49 |
| Dwyn Caradog mewn cadwynau i Rufain .. | 51 |
| Yr awdurdod uchaf yn *Britannia Secunda* yn cael ei ymddiried i Suetonius Paulinus ... | 58 |
| Dyfodiad yr efengyl i Brydain ... ... | 58 |
| Buddug yn gorchfygu y Rhufeiniaid, yn lladd deng mil a thrigain o honynt, ac yn llosgi Llundain ... ... ... | 61 |
| Byddin liosog o Frythoniaid yn cael eu gorchfygu gan Suetonius, a phedwar ugain mil yn cael eu lladd ... ... ... | 61 |
| Gorchfygiadau gan Julius Frontinus ... | 70 |
| Y Siluriaid yn cael eu llwyr orchfygu ... | 70 |
| Y Rhufeinwr, Julius Agricola, yn llywyddu yn Mhrydain ... ... ... | 78 |
| Marw Bran ab Llyr, yr hwn a gyfenwid 'y Bendigaid' ... ... ... | 80 |
| Teyrnasiad Lles ap Coel (*Lucius*), y brenin Cristionogol cyntaf yn Mhrydain a'r byd ... | 179 |
| Severus yr ymherawdwr yn cadw ei lys yn Nghaerefrog, a elwid y pryd hwnw *Eboracum* ... ... ... ... | 207 |
| Carausius, gorthrymydd, yn trawsfeddiannu gorsedd Prydain ... ... | 286 |
| Yn cael ei ladd gan Alectus, yr hwn a barhaodd y trawsfeddianniad ... ... | 293 |
| Constantius yn adfeddiannu Prydain, trwy orchfygu Alectus ... ... ... | 296 |
| Constantius, ymherawdwr Rhufain, yn marw yn Nghaerefrog ... ... ... | 306 |
| Y byddinoedd Rhufeinig yn cael eu galw yn ol yn derfynol o Brydain ... | 420 i 426 |
| Teyrnasiad Caswallon... ... ... | 443 |
| Galw am y Sacsoniaid a'r Angliaid i gynnorthwyo y brodorion yn erbyn eu cymmydogion gogleddol, y Pictiaid a'r Scotiaid ... | 449 |
| | B.A. |
| Wedi gyru ymaith y gelynion hyn, yr Anglo-Sacsoniaid yn ymosod ar y brodorion, ac yn gyru llawer o honynt i Gymru ... ... | 455 |
| Llawer o'r brodorion yn ymsefydlu yn Armorica, yr hon a elwid wedi hyny yn Brydain Fechan, a Llydaw ... ... | 457 |
| Sefydlu y seithbenaeth Sacsonaidd: dosbarthiad Lloegr i saith teyrnas ... ... | 457 |
| Teyrnasiad y clodfawr frenin Arthur ... | 506 |
| Dyfodiad Awstin i'r wlad fel cenhadwr Cristionogol o Rufain ... ... ... | 596 |
| Cadwaladr, brenin y Brythoniaid, yn dechreu teyrnasu ... ... ... ... | 678 |
| Terfyniad y seithbenaeth Sacsonaidd ... | 828 |
| Teyrnasiad Rhodri Mawr ... ... | 843 |
| [Y brenin hwn a unodd holl fân daleithiau Cymru i un dywysogaeth.] | |
| Marwolaeth Rhodri Mawr ... ... | 877 |
| Dosbarthiad Cymru ... ... ... | 877 |
| Y Daniaid yn glanio yn Ynys Môn ... | 900 |
| Y Gwyddelod yn goresgyn y wlad ... | 913 |
| Anrheithio Gwynedd gan y penaethiaid Iefaf ac Iago ... ... ... ... | 949 |
| Brwydr fawr rhwng meibion Hywel Dda a meibion Idwal Foel, yn yr hon y bu y diweddaf yn llwyddiannus ... ... | 952 |
| Mintai o Wyddelod ysbeilgar yn goresgyn Ynys Môn eilwaith ... ... ... | 966 |
| Y Daniaid yn goresgyn Cymru ... ... | 969 |
| Ac yn anrheithio Ynys Môn ... ... | 979 |
| Alfred yn goresgyn Cymru ... ... | 982 |
| Goresgyniad arall gan y Daniaid ... ... | 987 |
| Edwin, ab Einion, yn anrheithio y wlad ... | 990 |
| Y wlad yn cael ei darostwng gan Aedan, tywysog Gwynedd ... ... ... | 1000 |
| Aedan, y trawsfeddiannydd, yn cael ei ladd mewn brwydr gan Llewelyn ... ... | 1015 |
| Gorchfygu Rhun, yr Ysgotyn creulawn, ger llaw Caerfyrddin ... ... ... | 1020 |
| Lluoedd unedig y Gwyddelod a'r Ysgotiaid yn cael eu gorchfygu gyda lladdfa fawr ... | 1021 |
| Iestin yn cael ei orchfygu a'i ladd ... | 1031 |
| Rhan o Gymru yn cael ei hanrheithio gan fyddinoedd Harold... ... ... | 1055 |
| Rhys yn cael ei orchfygu, a'i ladd ... | 1056 |
| Lladd Rhys ab Owain ... ... | 1074 |
| Goresgyniad Cymru gan Iarll Caerlleon ... | 1079 |
| Ei goresgyniad gan y Gwyddelod a'r Ysgotiaid ... ... ... ... | 1080 |
| Brwydr Llechryd ... ... ... | 1087 |
| [Yn y frwydr hon lladdwyd meibion Bleddyn ab Cynfyn gan Rhys ab Tewdwr, y tywysog llywodraethol.] | |
| Lladd Rhys ab Tewdwr ... ... | 1087 |
| Y Saeson yn goresgyn y wlad o dan yr Ieirll Caerlleon ac Amwythig ... ... | 1096 |
| Trefedigaeth Ffleminigaidd yn cael ei sefydlu yn Nghymru .. ... ... | 1106 |
| Owain ab Cadwgan ab Bleddyn, trwy drais, yn cymmeryd Nest, gwraig Gerald de Windsor ... ... ... | 1107 |
| [Dygodd y camwri hwn ddialedd ofnadwy ar deulu Cadwgan.] | |
| Cadwgan yn cael ei fradlofruddio ... | 1110 |
| Gruffydd ab Rhys yn hawlio y benaduriaeth | 1113 |
| Mintai arall o Ffleminigiaid yn ymsefydlu yn Mhenfro ... ... ... | 1113 |
| Gwrthryfel y Cymry ar farwolaeth Harri I. | 1135 |
| Rhan o Ddeheubarth Cymru yn cael ei hanrheithio gan Owain Gwynedd a Chadwaladr | 1135 |
| Strongbow, Iarll Penfro, yn cael ei bennodi yn brif arglwydd Penfro ... ... | 1138 |
| Harri II. yn goresgyn Cymru, ac yn y diwedd yn ei darostwng ... ... ... | 1157 |
| Llwyr orchfygiad llynges y Saeson ar gyfer Ynys Môn ... ... ... | 1157 |
| Y tywysogion Cymreig yn ymgynghreirio i adfeddiannu eu hawliau a'u hannibyniaeth | 1164 |
| Anrheithio Ynys Môn .. .. .. | 1173 |

Digitized by Google

| | B.A. |
|---|---|
| Baldwyn, archesgob Caergaint, yn pregethu y Croesgadau yn Nghymru ... ... | 1188 |
| Gwarchau ar Gastell Powys ... ... | 1191 |
| Iarll Caerlleon yn gwneuthur difrod mewn rhanau o Wynedd ... ... ... | 1210 |
| Y brenin John o Loegr yn goresgyn Gwynedd | 1211 |
| Y brenin John yn ail oresgyn Cymru, ac yn gwneuthur difrod mawr mewn amryw leoedd yn y Dywysogaeth ... ... | 1215 |
| Gwrthryfel y Ffleminglaid ... ... | 1220 |
| Llewelyn, tywysog Gwynedd, yn gwneuthur anrhaith mawr ... ... ... | 1220 |
| Marwolaeth Maelgwyn ab Rhys... ... | 1230 |
| Lluoedd Llewelyn ab Iorwerth yn cymmeryd Castell Powys ... ... ... | 1233 |
| Lladd Gwilym, Iarll Penfro ... ... | 1234 |
| Goresgyniad y Dywysogaeth gan Harri III. | 1245 |
| Anrheithio Ynys Môn etto ... ... | 1245 |
| Gorchfygu byddin y Saeson, o dan Harri, gan y Cymry ... ... ... | 1254 |
| Ymuniad y pendefigion Cymreig yn erbyn y Saeson ... ... ... ... | 1258 |
| Cymmeryd Cestyll y Gelli a Brycheiniog gan y Tywysog Iorwerth ... ... | 1265 |
| Goresgyniad Cymru gan Iorwerth I. .. | 1277 |
| Iorwerth yn gwersyllu gyda byddin liosog ar Forfa Caer ... ... ... | 1277 |
| Dau o feibion y Tywysog Gruffydd yn cael eu boddi yn fradwrus yn yr afon Dyfrdwy gan Iarll Warren a Roger Mortimer | 1281 |
| Cymmeryd Castell Penarlâg yn annisgwyliadwy gan Llewelyn ... ... | 1282 |
| Brwydr fawr rhwng Llewelyn ab Gruffydd, tywysog brodorol olaf Cymru, a'r Saeson; a lladd Llewelyn, ar ol y frwydr, gan De Francton ... ... ... | 1282 |
| Llwyr ddarostyngiad Cymru gan Iorwerth I. | 1282 |
| Genedigaeth y cyntaf o dywysogion Seisnig Cymru, sef mab i Iorwerth I., yn Nghastell Caernarfon ... ... ... | 1284 |
| Gwrthryfel Madog, yr hwn a ddarostyngwyd gan Iorwerth I. ... ... ... | 1294 |
| Gwrthryfel pwysig wedi ei gyffroi gan Llewelyn Bren .. ... ... | 1315 |
| Gwrthryfel Owain Glyndwr yn dechreu ... | 1400 |
| Maesyfed, a lleoedd ereill, yn cael eu cymmeryd gan Owain Glyndwr ... ... | 1401 |
| Yn gwarchau ar Gaernarfon ... ... | 1402 |
| Yn cymmeryd Castell Harlech ... ... | 1404 |
| Ail gymmeryd Castell Harlech gan luoedd y Saeson ... ... ... ... | 1408 |
| Marwolaeth Owain Glyndwr ... ... | 1416 |
| Margaret o Anjou, gwraig Harri VI., yn gwneyd ei noddfa yn Nghastell Harlech... | 1459 |
| Llosgiad tref Dinbych ... ... | 1460 |
| Iarll Richmond (Harri VII. wedi hyny) yn glanio yn Mhenfro, ac yn cael ei gynnorthwyo gan y Cymry ... ... ... | 1485 |
| Awdurdod breiniarllaeth yn cael ei ddiddymu yn Nghymru gan Harri VIII. ... | 1535 |
| Gwneyd swydd Fynwy yn un Saesnig gan yr un brenin ... ... ... | 1535 |
| Ffurfio siroedd Brycheiniog, Dinbych, a Maesyfed ... ... ... | 1535 |
| Gwneuthuriad deddf ar fod i'r cyfreithiau gael eu gweinyddu yr un modd yn Nghymru ag yn Lloegr ... ... ... | 1535 |
| Merthyrdod Dr. Ferrar, esgob Tŷ Ddewi ... | 1555 |
| Llofruddiaeth y Barwn Owen pan ar ei daith fel barnwr trwy Gymru... ... | 1555 |
| Gosod gwarchodlu yn Nghastell Beaumaris, i'w gadw i'r brenin Siarl I. ... ... | 1642 |
| Cymmeryd Castell Powys gan Syr Thomas Myddelton, cadfridog y senedd ... | 1644 |
| Castell Penarlâg yn ymostwng i'r Cadfridog Mytton, yr hwn oedd yn llywyddu byddin y senedd ... ... ... | 1645 |
| Siarl I. yn cymmeryd noddfa yn Nghastell Dinbych—yr unig lanerch a feddai y pryd hwnw o fewn ei deyrnas ... ... | 1645 |
| Castell Rhuddlan yn ymostwng i blaid y senedd ... ... ... ... | 1645 |
| Castell Harlech yn cael ei roddi i fyny i fyddin y senedd o dan y Cadfridog Mytton | 1647 |
| Brwydr St. Fagan, lle y llwyr orchfygwyd y Cymry gan Horton, cadfridog Cromwell | 1648 |
| Castell Beaumaris yn cael ei roddi i fyny i un o gadfridogion Cromwell ... ... | 1648 |

PENADURIAID CYMRU.

B.A.
688. Ifor ap Alaw.
720. Rhodri Molwynawc.
755. Cynan Tindaethwy.
815. Merfyn Frych.
843. Rhodri Mawr.

TYWYSOGION GWYNEDD.

877. Anarawd.
913. Idwal Foel.
940. Hywel Dda.
948. Iefaf ac Iago.
978. Hywel ap Iefaf.
984. Cadwallawn ap Iefaf.
985. Meredydd ap Owain.
993. Edwal ap Meyric.
1000. Aedan ap Blegored, trawsfeddiannydd.
1015. Llewelyn ap Sisyllt, ac Angharad ei wraig.
1021. Iago ap Idwal.
1037. Gruffydd ap Llewelyn.
1064. Bleddyn ap Cynfyn, a Rhiwallon ei frawd.
1072. Trahaearn ap Caradawc.
1080. Gruffydd ap Cynan.
1130. Owain Cyfeiliawg.
1137. Owain Gwynedd.
1169. Hywel ap Owain.
1170. Dafydd ap Owain.
1194. Llewelyn ap Iorwerth.
1240. Dafydd ap Llewelyn.
1246. Owain Goch.
1254. Llewelyn ap Gruffydd, yr hwn a laddwyd ar ol brwydr, yn 1282.
1282. Dafydd ap Gruffydd.

TYWYSOGION DEHEUDIR CYMRU.

877. Cadeth, neu Cadell.
907. Hywel Dda.
948. Owain ap Hywel Dda.
987. Meredydd ap Owain, tywysog holl Gymru.
993. Llewelyn ap Sisyllt, ac Angharad ei wraig.
1021. Rhydderch ap Iestyn; trawsfeddiannydd.
1031. Hywel a Meredydd.
1042. Rhydderch a Rhys, meibion y trawsfeddiannydd.
1061. Meredydd ap Owain.
1073. Rhys ap Owain, a Rhydderch ap Caradawc.
1077. Rhys ap Tewdwr Mawr.
1092. Cadwgan ap Bleddyn.
1115. Gruffydd ap Rhys.
1137. Rhys ap Gruffydd.
1196. Gruffydd ap Rhys.
1202. Rhys ap Gruffydd.
1222. Owain ap Gruffydd.
1235. Meredydd ap Owain; bu efe farw yn 1267.

TYWYSOGION AC ARGLWYDDI TIR POWYS.

877. Merfyn.
900. Cadeth, neu Cadell; tywysog y Deheubarth hefyd.
927. Hywel Dda.

* * *

985. Meredydd ap Owain.

* * *

1061. Bleddyn ap Cynfyn.
1073. Meredydd ap Bleddyn.
1087. Cadwgan ap Bleddyn.
1132. Madog ap Meredydd.
1160. Gruffydd ap Meredydd.

* * *

1256. Gwenwynwyn.
1256. Owain ap Gruffydd.

Digitized by Google

TELEGRAPH TRYDANOL (*Electric Telegraph*). Tardda y gair *telegraph* o'r Groeg *tele*, pell o ffordd, a *graphô*, ysgrifenu. Y mae *telegraph* yn enw cyffredinol ar unrhyw foddion i anfon hysbysrwydd buan mewn rhyw fodd heb law â llais neu trwy ysgrifen. Cyfleir y syniad o gyflymder ganddo hefyd. Cynneuid tânau, adeiledid tyrau, a gwneid arwyddion, gynt, er trosglwyddo hysbysrwydd buan o'r naill ardal i'r llall; ond y mae pob moddion ereill yn awr wedi eu taflu i'r cysgod gan y telegraph trydanol, neu y pellebyr. Y mae telegraphau trydanol o ddau fath; sef, y rhai a ddefnyddir i roddi arwyddion yn unig; ac ereill sydd yn argraphu eu harwyddion ar bapyr, neu ryw sylwadau cyffelyb ereill. Gellir galw y blaenaf yn delegraphau yr arwyddion, a'r olaf yn delegraphau y cofnodion; ac nid oes braidd gyfrif ar y dyfeisiau a wnaed mewn cyssylltiad â hwynt. Ond y rhai a ddefnyddir amlaf ydynt telegraph Morse, a telegraph nydwyddol Cooke a Wheatstone.

Gwyddys fod nydwydd tynfeinig (*magnetic*) fechan yn cael ei gŵyro a'i symmud gan ffrwd galfanaidd yn myned trwy wifren yn agos ati; hefyd, y gall y ffrwd gael ei attal a'i adnewyddu lawer gwaith hyd yn oed mewn eiliad. Y mae hyn yn hollol annibynol ar hyd y wifren, neu bellder y nydwydd oddi wrth y cluder (*battery*), sydd yn ffynnonell y grym, oddi eithr fod grym y ffrwd yn diangc rywfodd ar ei daith hyd y wifren. Yn gymmaint ag y gellir symmud nydwydd o fewn pob bellder oddi wrth y cluder—os bydd y wifren yn myned o'r cluder ar hyd yr holl ffordd, ac heb fod un cyssylltiad rhyngddi a'r ddaear, na dim arall, drwy yr hyn y gall y ffrwd ddiangc oddi arni cyn cyrhaedd pen y daith—nid oes dim yn aros ond yr anhawsderau ymarferol o sefydlu rhyw gynllun o arwyddion trwy ba rai y gall person yn agos i'r cluder ddanfon negesau at, a derbyn cenadwriaethau oddi wrth, berson fydd yn y pen arall i'r wifren; neu, a siarad yn fwy cyffredinol, drwy yr hyn y gall unrhyw ddau berson mewn rhyw ddau le, pell neu agos, newid arwyddion â'u gilydd. Gellir gwneyd y gyfundrefn bellebrol fwyaf, yn gystal a'r gyfundrefn leiaf, yn ddarostyngedig i hyn, yn ei ffurf elfenol hanfodol—ei bod yn gynnwysedig o gluder neu dynfeinig (*magnet*) i ddardarparu ffrwd drydanol, gwifr i'w throsglwyddo, moddion i'w hattal neu i'w hadferu fel yr ewyllysir, a nydwydd galfanaidd i ddynodi presennoldeb yr elfen. Dyma'r pethau mawr sydd yn angenrheidiol mewn cyssylltiad â'r telegraph—cluder neu dynfeinig, gwifr, nydwydd, a chyfnewidydd (*commutator*). Enw ydyw y gair diweddaf ar beiriant bychan sydd yn galluogi un, trwy symmud llofell (*handle*) bychan un o ddwy ffordd, i attal neu i ail gychwyn cylchdaith (*circuit*) y ffrwd, fel y dengys y darlun yn mlaen.

Yn fynych, cist ydyw y cluder, neu ffynnonell y gallu, yn yr hon y rhoddir swm o ddwfr, at yr hwn y rhoddir o ddeutu y chweched ran o sur ufelig (*sulphuric acid*), a'r bummed ran o sur blorig (*nitric acid*). Yna cyssylltir un ochr o nifer o lafnau bychain ysgwar o sinc a chopr â'u gilydd gan osod ychydig o bellder rhyngddynt. Gosodir hwynt â'r ochr arall i lawr yn y gymmysgfa uchod. Drwy hyn, y mae y gymmysgfa a'r llafnau o sinc a chopr yn effeithio ar eu gilydd nes cynnyrchu trydan, yr hwn a ddefnyddir at waith y telegraph. Yn un pen i'r cluder y mae yr hyn a elwir yn drydan cadarnhaol (*positive electricity*), ac yn y llall drydan nacaol (*negative electricity*). Pa ham—ni ellir ei egluro i lawn foddlonrwydd. Y mae y ddeddf hon yn cael ei hamlygu hefyd yn y tynfeinig, fel y gwelwyd, wrth osod nydwydd ysgafn (un o'r rhai a arferir i bwytho) i orwedd ar wyneb dwfr mewn llestr. Pan y rhoddir un pen i'r dynfeinig wrth ochr y llestr o'r tu allan, fe dyn y nydwydd ati; ond pan roddir y pen arall wrth ochr y llestr, y mae y pen o'r nydwydd oedd yn cyffwrdd âg ochr y llestr yn cael ei wthio yn y fan oddi wrth yr ochr, ac y mae y nydwydd yn rhoi tro, nes y mae y pen arall o honi yn cyffwrdd â'r llestr. A dyna fydd yr effeithiau yn barhaus pa mor aml bynag y newidir penau y tynfeinig—ac nid oes modd cymmodi y penau gwrthgyferbyniol â'u gilydd. Yn mherthynas i'r wifrau a ddefnyddir yn y telegraph, y maent weithiau yn cael eu gwneyd o gopr, am ei fod yn arweinydd neu yn drosglwyddydd (*conductor*) da; ac weithiau o haiarn, o herwydd ei fod yn llawer rhatach. Os defnyddir haiarn, y mae yn rhaid ei galfaneiddio; hyny ydyw, rhaid ei amwisgo â sinc, er ei attal i rydu; hefyd rhaid i'r wifren fod yn ffyrfach nag un gopr, am fod ei gallu arweinyddol yn llai. Rhaid cymmeryd gofal neillduol wrth ei gosod, i'w chadw rhag cyffwrdd â'r ddaear, nac âg un sylwedd arall sydd yn arweinydd, a all gludo y ffrwd i'r ddaear, onid ê fe'i tynir o'i llwybr priodol, ac ni chyrhaedda ben ei thaith. O herwydd hyn, y mae y gwifrau yn gyffredin wedi eu codi oddi wrth y llawr fel y gallont fod yn glir oddi wrth y cyfryw, a chynnelir hwy ar bolion. Er attal i'r polion hyn drachefn wasanaethu fel arweinyddion, y mae y gwifrau yn pasio trwy bibellau meinbridd (*porcelain*), sydd wedi eu cyssylltu â'r polion, i'w cario—y rhai nid ydynt yn meddu y gallu i drosglwyddo y trydan. Ond os bydd y gwifrau yn myned dan ddwfr, neu trwy y ddaear, nis gellir, wrth gwrs, ddefnyddio y polion. Ond er gwylio yn yr achosion hyn rhag dyfod i gyffyrddiad â sylwedd arweinyddol, y mae yn beth arferol i wisgo y gwifrau yn llwyr â rhyw sylwedd nad ydyw yn arweinydd, megys gludledr (*gutta percha*). Gorchuddir pob un o'r gwifrau a arferir â gludledr, neu âg edafedd wlân; ac yna rhoddir y cyfan mewn amwisg dewach o gludledr, a rhwymir y cwbl weithiau er mwyn diogelwch rhag niweidiau â gwifren haiarn gref. Ond pa beth bynag fydd yr amwisg allanol, y gwifrau mewnol yn unig sydd yn trosglwyddo y ffrwd: nid yw yr holl ranau ereill ond yn unig i'w hamddiffyn rhag niwed, ac i attal y trydan rhag ymwasgaru. Y mae amrywiol ffyrdd trwy ba rai y gellir gwneuthur i'r ffrwd amlygu ei phresennoldeb. Gellir naill ai peri i nydwydd ŵyro i'r ddeheu, neu i'r aswy; neu beri i gloch ganu; neu gwneyd marciau ar bapur; neu gellir cyfuno yr holl arwyddion hyn, ac ereill. Ond yn mhob enghraifft, y ffrwd yn rhedeg ar hyd y wifren ydyw yr achos o'r arwydd a roddir. Yn un o'r tudalenau nesaf y gwelir darlun sydd yn dangos pa fodd y cyfeirir y ffrwd hon yn y ddwy ffordd, fel ag i ŵyro y nydwydd ar y ddeheu, neu ar yr aswy, a'r modd y mae gŵyriad y nydwydd yn gwneyd llythyrenau a geiriau. Ni chymmerir y llythyrenau yn ol rheol yr egwyddor, ond cymmerir y rhai y gwneir mwyaf o arferiad o honynt mewn geiriau, gan benderfynu fod y rhai hyny i'w hadnabod wrth yr arwyddion symlaf. Wedi cyttuno ar yr arwyddion hyn, gellir eu hamlygu trwy i'r nydwydd ŵyro i'r ddeheu, neu i'r aswy, fel yr ewyllysier.

Digitized by Google

Gall unrhyw nifer o orsafoedd fod ar y ffordd mewn cylchdaith bennodol; ond ni ellir danfon ond un neges ar unwaith ar yr un wifren yn yr un cyfeiriad. Ond hysbyswyd ni yn ddiweddar fod dyfais wedi ei chael allan drwy yr hon y gellir anfon cenadwriaethau yn ol a blaen ar yr un wifren ar yr un pryd—ond nis gellir fwy nag un yn yr un cyfeiriad. Gellir danfon yr un genadwri o un orsaf i bob gorsaf ar y llinell ar yr un pryd, a gwneir hyny yn fynych. Tybier fod rhyw nifer o orsafoedd ar yr un gylchdaith (*circuit*)—os bydd yn mhob un gluder a galfanfesur (*galvanometer*), gall y naill ddal cymmundeb â'r llall, drwy yr holl orsafoedd fydd yn gyssylltiedig â'r wifren hono. Wrth galfanfesur yr ydym yn deall y peth tebyg i gloc sydd ar y bwrdd yn mron yn holl orsafoedd y ffyrdd haiarn, wrth yr hwn y gwelir y neb fydd yn gofalu am y telegraph. Y mae darlun o hwn hefyd i'w gaufod yn mhellach yn mlaen. Dyweder fod gan A genadwri i'w hanfon i B—y mae yn cyssylltu ac yn trefnu ei gluder, ac yn anfon ffrwd o hylif drwy yr holl gylchdaith. Y mae drwy hyn yn rhoddi rhyw arwydd—a'r arwydd yn gyffredin ydyw canu cloch yn yr holl orsafoedd; ac yn y modd yma yr hysbysir fod cenadwri ynghylch cael ei hanfon. Trwy arwyddion a ddeallir yn flaenorol, hysbysir hefyd o ba le y mae y genadwri yn dyfod, ac i ba orsaf neillduol y bwriedir iddi fyned. Y mae yr hwn sydd yn gofalu am y telegraph yn B, yr orsaf i'r hon yr anfonir y genadwri, yn gwneyd y trefniadau angenrheidiol er danfon y ffrwd trwy ei galfanfesur ef, fel y gallo ysgogiadau ei nydwydd wneyd y genadwri yn hysbys iddo. Nid oes dim i'w wneyd yn y cyfamser yn y gorsafoedd, rhwng yr hon yr anfonir y genadwri o honi a'r un lle y derbynir hi, ond dadgyssylltu y galfanfesurau, fel ag i attal gwasgariad nerth yr hylif fydd yn gweithredu arnynt i ddim dyben. Os byddys yn dymuno danfon attebiad i'r genadwri o B, y mae yn rhaid cyssylltu y cluder a'r wifren, tra y byddo A yn darparu ar gyfer derbyn y genadwri; ond ni bydd y gorsafoedd rhyngddynt yn gwneyd dim.

Ond y mae yn eithaf naturiol gofyn pa fodd y cenir y gloch fydd yn gwasanaethu i alw sylw y neb fydd yn gofalu am y telegraph yn y gorsafoedd? Gellir sylwi fod yr arwyddion trwy ba rai y trosglwyddir cenadwriaethau yn dibynu ar y gallu a feddiennir gan y ffrwd galfanaidd i beri ysgogiad mewn nydwyddau ehedfeinig. Y mae canu clychau, yn ogystal a chanlyniadau ereill hefyd, yn dibynu ar allu arall perthynol i ffrwd drydanol; sef gallu i ehedfaenu (*magnetize*) haiarn meddal. Tybier fod eisieu canu cloch fel arwydd fod ffrwd yn myned heibio trwy y gylchdaith bellebrol. Doder cylch crwn bychan cyffredin o fettel mewn lle pennodol, yr hwn ond ei daro a seinia fel cloch, a dalier y morthwyl yn ol â rhyw ddaliad bychan, a doder yn ymyl y daliad fâr o haiarn meddal, yr hwn, pe y gwnelid ef fel ehedfaen (*magnet*) a dynai y daliad ato, gan adael i'r morthwyl ddisgyn ar y gloch:—yn awr, os plygir y wifren fydd yn cario y ffrwd amryw weithiau o gylch y bâr hwn o haiarn meddal, a gollwng y ffrwd i redeg ar hyd y wifren, tröir yr haiarn i weithredu fel ehedfaen; ac yn ddiattreg, gweithreda felly ar y daliad sydd yn attal y morthwyl, a thŷn ef o'r neilldu; yna fe ddisgyna y morthwyl, a'r gloch a gân. Yn y modd yma y mae y ffrwd, pan yn myned ar hyd gwifren, yn amlygu ei phresennoldeb mewn modd sydd yn galw sylw drwy appelio at y synwyr o glywed; ac o blegid hyn nid yw y peiriant ei hun yn galw am sylw mor ddyfal a phe yr unig arwydd fuasai ysgogiad y nydwydd; yr hon, gan nad yw yn appelio ond at y llygad yn unig, a fuasai yn gofyn gwyliadwriaeth barhaus. Fel hyn, a sylwi yn gyffredinol, y mae yn rhaid i bob gorsaf ar gylchdaith bellebrol gael cluder i ddanfon y ffrwd, nydwydd ehedfeinig (neu galfanfesur) i ddadgan yr arwyddion—ac os dewisir, cloch. Y mae y tri offeryn yma yn cynnrychioli tri phrif ddarganfyddiad y gwyddonau trydanol a galfanaidd: cynnyrchiad y ffrwd yn cael ei chynnrychioli gan y cluder; gweithrediad y ffrwd ar y nydwydd ehedfeinig yn cael ei gynnrychioli gan yr ysgogiadau ar y galfanfesur; a dylanwad galfanaidd y ffrwd ar yr haiarn meddal yn cael ei gynnrychioli gan y peirianwaith i ganu y gloch. Yn debyg fel y mae y ffordd fawr i dramwywyr cyffredin—pob un yn myned iddi ac yn dyfod o honi mewn rhyw fan pennodol—felly gellir ystyried gwifren y telegraph yn ffordd fawr: ä pob cenadwri i mewn iddi ac allan o honi mewn rhyw fanau pennodol; ond ffordd ydyw nas gall ond un ei theithio ar yr un pryd yn yr un cyfeiriad.

Y mae yn ofynol i'r person fyddo yn anfon cenadwri gael y cluder o dan ei reolaeth, gan fod yn angenrheidiol iddo wrthdroi cyfeiriad y ffrwd; o ganlyniad, rhaid i bob gorsaf feddu cluder, wrth yr hwn y gellir cyssylltu y gwifrau. Y mae yn ofynol i'r person fyddo yn derbyn y genadwri hefyd wybod yn mha gyfeiriad y mae hi yn pasio, pa bryd y mae y cyfeiriad yn newid, a pha sawl gwaith yr anfonir y ffrwd, ac yr attelir hi. I'r dyben hwn, rhaid cael galfanfesur, sydd yn hysbysu trwy ei ysgogiadau fod y ffrwd ar ei thaith, a'i chyfeiriad trwy ei ddull yn ysgogi, a'i hattaliad yn ei waith yn gorphwys.

Un o ryfeddodau y ffrwd drydanol ydyw fod yn rhaid ffurfio cylch cyn y symmuda o gwbl. Yn y cluder, fel y sylwyd yn barod, y mae dau fath o drydan yn cael ei ffurfio, sef y cadarnhaol a'r nacaol—un yn mhob pen iddo. Ond ni symmuda y ffrwd o un o'r ddau os na bydd ganddi fodd i ddyfod yn ol i'r pen arall o'r cluder. Trefnid hyn gynt drwy fod cylch o wifrau yn cael eu ffurfio, pan y byddai y gorsafoedd yn gyfleus. Gellir ei wneuthur trwy gymmeryd y gwifr i'r dref bellaf, ac yna ei droi yn ol ac yn mlaen ar ei daith, a'i symmud fel y myner; a chyhyd ag na byddo dim yn tori cyssylltiad y gwifrau rhwng y ddau ben, fe ä y ffrwd ar hyd y troadau. Ond yr ydys yn cael yn fynych nas gellir ffurfio cylch â'r wifr; a byddai hyny yn chwanegiad mawr at y draul. Un wifren yn unig sydd yn myned o ben i ben yn y telegraph tanforawl, rhwng yr Iwerddon ac America; neu, gellir gweled un wifren yn ein gwlad ni, yn ymestyn o un dref i'r llall. Ond pa fodd, mewn amgylchiadau o'r fath, y gellir ffurfio cylch? Y modd y gwneir y cylch sydd fel y canlyn:—y mae pob pen o'r wifr fydd yn trosglwyddo y ffrwd yn cael ei gyssylltu â'r ddaear, naill ai trwy gael ei rwymo wrth ryw bibell fettelaidd, megys y pibellau nwy neu ddwfr mewn tref; neu, trwy ei gyssylltu wrth lafn o gopr o gryn faintioli, mewn daear laith, neu lyn bychan, neu aberig, neu mewn ffynnon o ddwfr. Yr ydys wedi cael allan yn ymarferol yr ä y ffrwd mor rwydd ar hyd un wifren yn terfynu yn y ddaear yn y modd a enwyd, ag ar hyd gwifren ddwbl. Yr eglurhâd cyffredin a roddir ar hyn

Digitized by Google

ydyw, mai y ddaear ei hun sydd yn gwneyd i fyny y rhan arall o'r cylch; a bod y gwreichion o drydan yn dyfod yn ol i'r pen arall o'r cluder trwy greigiau y ddaear, ac unrhyw sylweddau ereill fydd ar eu ffordd. Gwir mai arweinydd gwael ydyw y ddaear; ond y mae gwifrau ffyrf-ion o arweinyddion gwael yn meddu gallu i dros-glwyddo y trydan lawn cystal a rhai teneuon o arweinyddion da. Dyma yr achos pa ham y mae darnau mawr o gopr yn cael eu cyssylltu wrth y ddau ben, a'u claddu yn y ddaear, fel y gellir ffurfio y ddaear megys yn wifren gref yn terfynu yn mhob pen mewn llafnau copr, ac felly yn ffurfio gyda'r wifren fettelaidd gylch parhaol i'r ffrwd drydanol i ymsaethu drwyddo.

Yr oedd yn naturiol i'r tebygolrwydd rhwng hyn a llafnau y cluder—hyny yw, y llafnau sinc a chopr o ba rai y mae y cluder wedi ei ffurfio —awgrymu ei hun i'r meddwl. Ond y mae rhai yn ystyried, pa fodd bynag, nad yw y ddaear yn gweithredu yn union fel hyn; ond yn hytrach ei bod yn gweithredu fel cronfa gyffredinol o dry-dan. Os bydd un person yn tywallt llonaid llestr mewn un ochr i lyn, ac un arall yn codi llonaid llestr o hono yr ochr arall, gellir dyweyd fod y blaenaf wedi pasio llestraid o ddwfr dros-odd i'r ail—ac yn ymarferol felly y gwneir. Os bydd dyn yn talu can punt i ariandy yn Llun-dain, a'r rhai hyny yn cael eu tynu allan yn Liverpool, yn ymarferol y mae y can punt wedi eu danfon o Lundain i Liverpool—er nad felly yn wirioneddol. Fe allai mai yr un modd y mae y ddaear yn gweithredu fel cronfa gyffredinol o drydan. Y mae felly gyda'r trydan a geir drwy ymrwbiad. Ond y ddamcaniaeth a dderbynir yn fwyaf cyffredin ydyw, fod y ddaear ei hun yn cwblhau y gylchdaith.

Wedi rhoddi amlinelliad elfenol mor gywir ag y gallwn o'r egwyddorion ar ba rai y mae y gyf-undrefn bellebrol wedi ei seilio, ni a roddwn yma ychydig o'i hanes. Yr oedd Ampère, er y fl. 1820, wedi awgrymu y gellid defnyddio galfan-fesur, llinell o wifr, a chluder, fel moddion i atteb dybenion pellebrol. Yr achlysur cyntaf ar ba un y cariwyd allan yr awgrymiad hwn i ryw ddefnydd ymarferol ydoedd yn y flwyddyn 1833, pan y darfu i Gauss a Weber, yn Gottin-gen, mewn trefn i gynnorthwyo eu sylwadau ar yr ehedfaen, uno ynghyd ddau adeilad cyfleus, tua milldir oddi wrth eu gilydd, â dwy wifren wedi eu crogi yn yr awyr. Nid oedd eu hoffer-ynau a'u peiriannau hwy ond lled anmherffaith, ac edrychid arnynt yn benaf fel cywreinwaith gwyddonol. Ond yn y flwyddyn 1837, addawai y telegraph trydanol ddyfod yn beth o bwys-igrwydd ymarferol a chyffredinol. Y flwyddyn hono, rhoddwyd prawf ar dair o gyfundrefnau pellebrol yn hollol annibynol ar eu gilydd, ac mor agos i'w gilydd o ran amser fel yr oedd y tair yn hawlio yr anrhydedd o fod y gyntaf. Yn Mehefin y flwyddyn hono y cymmerodd Cooke a Wheatstone allan freintlythyr *(patent)* am y telegraph pum nydwydd, a rhoddwyd y cynllun y cafwyd y freinteb arno mewn gweithred-iad yn fuan wedi hyny ar ffordd haiarn y *Great Western*. Gan y dyfeiswyr uchod, yn ddiam-mheu, y mae yr hawl o gael eu hystyried y rhai cyntaf a wnaeth linell o delegraph at wasanaeth cyffredinol. Yr oedd eu llinellau yn gynnwys-edig o wifrau tanddaearol wedi eu gosod wrth-ynt eu hunain—hyny yw, heb fod y ddaear yn cyffwrdd â hwy. Cafodd Cooke ei ddrychfedd-yliau cyntaf mewn darlith a wrandawodd yn Heidelberg, yr hon a draddodwyd gan y pro-ffeswr Munke; yn yr hon y disgrifid telegraph nydwyddol llorweddol *(horizontal)* y Barwn Von Schilling—am yr hwn y mynegir ei fod wedi ei wneuthur mor gynnar a'r flwyddyn 1832, neu yr un ganlynol.

Yn mis Gorphenaf, 1837, darfu i Steinheil, yn Munich, osod gwifrau pellebrol dros rai o dai y dref, o amgueddfa anianyddol yr athrofa i arsyllfa y Bogenhausen, o ddeutu tair milldir o ffordd. Yr oedd yn anfon ei genadwriaethau pellebrol mewn tair ffordd—trwy symmudiadau y nydwydd, trwy seinio dwy gloch â sain gwa-hanol, a thrwy argraphu ar ddarn o bapur. Yn mis Hydref, 1837, darfu i'r proffeswr Morse am-lygu ei gynllun ar linell hanner milldir o hyd: a chynllun Morse sydd yn benaf mewn arferiad yn bresennol. Ond y mae cynllun argraphyddol Steinheil hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o fanau, yn enwedig ar gyfandir Ewrop. Gwahaniaetha cynllun Steinheil o argraphu oddi wrth un Morse: y mae ei ffrydiau cadarnhaol a nacaol yn argraphu gwahanol farc bob un. Yn nghynllun Morse y mae y naill ffrwd yn argraphu heb wahaniaeth fel y llall. Y mae llythyrenau yr egwyddor *(alphabet)* gan Steinheil yn cael eu dangos trwy ddotiau mân, yn cael eu gwneyd yn ddwy linell gyfochrog ar ddarn o bapur. Tybir y gellir telegraphio trwy ddodi y dotiau fel hyn yn well na phe byddai iddynt gael eu gosod yn un rhes unionsyth. Steinheil, yn y fl. 1838, oedd y cyntaf a ddarganfyddodd y gellid gwneuthur y cylch trydanol trwy osod y ddau ben o linell bellebrol yn y ddaear, a thrwy gys-sylltu llafnau o gopr â phenau y gwifrau; ac o herwydd hyny nad oedd ond un wifren yn angen-rheidiol. I Steinheil y perthyn yr anrhydedd o fod y cyntaf i fyned â gwifrau drwy yr awyr, wedi eu gosod i orphwys ar bolion, fel y gwneir yn awr, ac o ddangos y gellid defnyddio trydan ehedfeinig tuag at ddybenion pellebrol. Cafodd Cooke a Wheatstone, a Bain hefyd, freintlyth-yrau am ddyfeisiau mewn cyssylltiad â'r gyfun-drefn bellebrol, na ddaethant i arferiad cyffred-inol. Ni ddaeth telegraph Morse i ddefnydd ymarferol hyd y flwyddyn 1844, pan y defnydd-iwyd ef ar linell y ffordd haiarn Americanaidd gyntaf a agorwyd; sef, yr un rhwng Washing-ton a Baltimore. Y rhaff bellebrol danforawl gyntaf y llwyddwyd i'w gosod i lawr oedd yr un rhwng Dover a Calais yn 1851. Cwblhawyd y telegraph drwy y Morgaingc Persiaidd i India yn 1865. Methodd tri chais a wnaed i sefydlu cymmundeb pellebrol rhwng y wlad hon ac America ar draws Môr y Werydd. Gwnaed y cyntaf yn 1857, yr ail yn 1858, a'r trydydd yn 1865. Yn y ceisiadau cyntaf ac olaf, torodd y rhaff, a chollwyd rhan o honi; yn yr ail, llwydd-wyd i roddi y rhaff i lawr, ond aeth yn ddi-ddefnydd yn fuan iawn. Gwnaed pedwerydd cais yn mis Gorphenaf, 1866; a chyda'r gofal mwyaf cymmerwyd mantais ar y gwersi a aw-grymwyd gan y ceisiadau aflwyddiannus blaen-orol, a throdd yr ymgais allan yn hollol fodd-haol. Yr agerlong a ddefnyddiwyd i gyflawni y gwaith hwn oedd y "*Great Eastern*," yn cael ei chynnorthwyo gan ddwy ereill; a mawr oedd y llawenydd a amlygwyd y ddwy ochr i'r Wer-ydd pan gwblhawyd y gorchwyl, ac yr unwyd drwy hyn Ewrop a chyfandir America.

Y mae cyfandir Ewrop yn un rhwydwaith o linellau pellebrol o'r naill ben i'r llall; a'r un modd y gellir dyweyd i raddau pell am yr Unol

Digitized by Google

Daleithiau, a llawer o wledydd ereill; ac am y wlad hon y mae yn wybyddus fod llinell bellebrol yn dyfod i bob llythyrdy sydd o ddim pwys. Y mae y telegraph wedi ei gymmeryd yn awr o dan nawdd y llywodraeth, ac yn cael ei weithio o dan ei harolygiaeth mewn cyssylltiad â'r llythyrdai. Yn 1875, danfonwyd dros ugain miliwn (20,000,000) o negesau, neu ar gyfartaledd dwy neges ar gyfer pob tri pherson o bob oed o fewn y deyrnas, gyda'r telegraph. Nifer swyddfeydd y telegraph yn y Deyrnas Gyfunol yn 1875 oedd 3,730. Heblaw y rhai hyn yr oedd 1,872 o orsafoedd ffyrdd haiarn y gallai y cyhoedd eu defnyddio i anfon negesau.

Y mae Ewrop ac Affrica wedi eu cyssylltu ynghyd gyda rhaff bellebrol, yn myned trwy Corsica, Sardinia, a Sicily, yr hon sydd yn myned gyda glanau Algiers; ac un arall sydd yn cyffwrdd â Malta, ac yn ei chyssylltu âg Alexandria. Y mae cyfundrefn bellebrol Ewrop yn ymestyn i Asia trwy St. Petersburgh mor bell ag Irkutsk, yn Siberia, a thrwy Caer Cystenyn a Morgaingc Persia i Calcutta. Y mae llinell bellebrol rhwng New York a Califfornia hefyd, ar draws y cyfandir mawr, ac yn cyssylltu glenydd y Werydd a'r Tawelfor â'u gilydd. Mewn gair, yn mhob man lle y mae gwareiddiad wedi cyrhaedd, y mae y gyfundrefn bellebrol yn cael ei mabwysiadu a'i dwyn i weithrediad.


Y mae dau ddosbarth o beiriannau trwy ba rai y gellir trosglwyddo negesau â'r telegraph, fel yr ydym wedi hysbysu yn barod:—un a ddarganfyddwyd gan y Meistri. Cooke a Wheatstone, yr hwn y ceisiwn ei egluro yn mhellach yn mlaen; a'r llall, yr hwn a ddarganfyddwyd gan y Proffeswr Morse, ac a wellhawyd gan Mr. Bain a Mr. Allan, yr hwn y ceisiwn ddisgrifio ei weithrediadau trwy y sylwadau canlynol.

Gelwir y cyntaf yn 'Beiriant Argraphyddol' *(Recording Instrument)*, am ei fod mewn gwahanol ffyrdd yn argraphu y negesau ar ddarnau o bapur. Gelwir y llall y 'Peiriant Nydwyddol' *(Needle Instrument)* am ei fod yn trosglwyddo y negesau trwy symmud nydwydd ar y dde, neu ar yr aswy, fel y gwelir yn mhob un o orsafoedd y ffyrdd haiarn o'r bron.

Ni a roddwn y manylion canlynol am y


PEIRIANT NYDWYDDOL.

Y mae y darlun canlynol yn dangos wyneb un o'r peiriannau hyn. Ni a ddechreuwn ein desgrifiad o'r modd y mae yn gweithredu trwy geisio egluro pa fodd y mae y nydwydd yn symmud i'r dde neu i'r aswy. Cyn gwneyd hyny y mae yn angenrheidiol i ni sylwi ar un ddeddf mewn trydaniaeth, yr hon nad ydym wedi ei hegluro yn y sylwadau blaenorol. Os gosodir nydwydd ehedfeinig, debyg i'r hon a welir ar gwmpawd y morwr, yn rhydd, fel y gallo symmud y naill ffordd neu y llall, yn agos i wifren drwy yr hon y bydd ffrwd o drydaniaeth yn cael ei anfon, fe dry un o benau y nydwydd at y wifren y foment y bydd y ffrwd yn pasio heibio ar hyd-ddi; ac ar amrantiad, pan yr attelir y ffrwd, fe ddychwel y nydwydd i'w sefyllfa flaenorol. Gosodir hi ar ei hunion tuag i fyny, fel y sefyllfa fwyaf manteisiol iddi hi chwareu ynddi. Gwaith y dyn, gan hyny, yr hwn fydd yn arfer sefyll o flaen y peiriant, wrth symmud y llofell *(handle)* sydd yn ei waelod, ydyw cyfeirio y ffrwd y naill ochr neu y llall i nydwydd sydd y tu cefn; ac y mae symmudiadau hono yn peri symmudiadau yn y nydwydd sydd o flaen ei lygad. Er esampl, os bydd y llofell yn cael ei symmud tua'r dde, y mae y ffrwd o drydaniaeth yn symmud y nydwydd hefyd tua'r dde, a gwna hyny unrhyw nifer o weithiau y bydd efe yn gweled yn dda i symmud y llofell felly; a symmudir y nydwydd tua'r aswy yr un modd, pan y symmuda efe y llofell i'r cyfeiriad hwnw.




DAR. 400.—Y PEIRIANT NYDWYDDOL.

Y mae y darlun uchod yn dangos hefyd pa fodd y gwneir y llythyrenau. Dylem hysbysu yma nad yr un symmudiadau ar y nydwydd sydd yn arwyddo y llythyrenau yn mhob math o beiriannau. Ond yn ol y darlun uchod trosglwyddir hwynt fel y canlyn:—*a*, un symmudiad o'r nydwydd i'r chwith, ac un i'r dde; *b*, un i'r dde, a thri i'r chwith; *c*, un i'r dde, un i'r chwith, un i'r dde, ac un i'r chwith; ac felly yn y blaen. Gan fod y marciau ar y darlun uchod yn lled fychain, ni a'u rhoddwn yma yn fwy eglur. Y maent fel y canlyn:—





Y mae y marciau uchod yn atteb i'r marciau ar y tudalen 643; sef, un i'r chwith am *y byr*, ac un i'r dde am *yr hir*. Ni a ddisgrifiwn y peiriannwaith sydd y tu cefn i'r uchod, ond yn gyssylltiedig âg ef, fel y canlyn:—ac er ein



Digitized by Google

cynnorthwyo i wneyd hyny bydd yn angenrheidiol i ni gael cymmhorth y darlun canlynol:—




Dar. 401.—Y CLUDER, A'I GYSSYLLTIADAU.

Y mae y llythyren A yn dangos yr echel ar yr hon y mae y llofell yn y darlun blaenorol; yr hwn, fel yr eglurwyd, a symmudir tua'r de neu yr aswy, fel y dewisir. Pan y bydd y llofell i lawr bydd y wialen *b c* sydd ar yr un echel yn unionsyth, yn y sefyllfa a ddangosir gan y llythyrenau *g h;* a bydd y nydwydd felly hefyd ar wyneb y peiriant. Ond gan fod y llofell wedi ei symmud i'r dde, y mae y darn croes sydd ar ben y wialen *b c* yn cael ei ddwyn i gyffwrdd â'r wifren D yn y fan lle y gwelir y llythyren *d.* Y mae y pen arall yn cyffwrdd â'r wifren E yn y fan lle y ceir y llythyren *e.* Yn awr, gan fod y wialen *c b,* am ei bod mewn cyssylltiad â'r wifrenau F ac *f* wedi ei chyssylltu â'r cluder *(battery)* B., a chan fod y wifrenau I ac *i* yn gyssylltiedig a'r galfanfesurydd C K—ar echel yr hwn y mae y nydwydd ehedfeinig ei hunan yn gweithio—y mae yn eglur fod y rhanau oedd heb fod yn gyssylltiol o'r blaen drwy hyn wedi eu dwyn i gyssylltiad â'u gilydd trwy symmud y wifren *b c* i'r sefyllfa a eglurwyd uchod. Y canlyniad o'r cwbl yw, fod y cylch ehedfeinig drwy hyn wedi ei berffeithio.* Yr un effeithiau a ddilynent pe y tröid y llofell i'r ochr ddeheu, ond yn unig y byddai i'r ffrwd ehedfeinig gael ei chyfeirio i'r ochr arall.

Y mae yn gweithredu yn y dull canlynol:—Yn y gwaelod fe welir cist fechan, B, yr hon ydyw y cluder; yn yr hon, fel yr eglurasom o'r blaen, y mae darnau o sinc a chopr bob yn ail, ac yn yr hon y mae y dwfr a'r sur ufelig a'r sur blorig y soniasom am danynt o'r blaen—trwy weithrediad pa rai ar eu gilydd y mae y ffrwd o drydan yn cael ei chenhedlu. Y mae y ffrwd hon yn cychwyn o'r cluder ar hyd y wifren F; ac oddi yno, yn ol fel y saif y wialen *b c* yn y darlun uchod, ar hyd y wifren W. yn nghyfeiriad y saeth, drwy y ddaear i'r orsaf bellaf, lle y mae hi yn symmud y nydwydd ar wyneb y galfanfesurydd yn union yn yr un cyfeiriad ag yr oedd y wialen *b c* yn yr orsaf lle y cychwynwyd y ffrwd o honi. O'r orsaf bellaf y mae hi yn dychwelyd yn ol ar hyd y wifren *i,* fel y gosodir allan gan y saeth i'r galfan-fesurydd, yn yr hwn y mae dau gylch hirgrwn o wifrau, C a K: a phan y dêl y ffrwd i'r cylch S. C., y mae hi yn tynu y nydwydd i'r cyfeiriad S. N., ac yn dychwelyd yn ol i'r pen arall i'r cluder trwy I, D ac *f.* Y mae hyn yn cymmeryd cryn amser i'w ddisgrifio; ond y mae y cwbl yn cymmeryd lle mewn amrantiad.

Y mae y ffrwd yn cael ei chyfeirio yr ochr arall i'r nydwydd trwy symmud y llofell i'r chwith. Drwy hyn cyssylltir y wialen *b c* fel y canlyn:—daw pen croes *b* i gyffyrddiad âg E, a'r pen *c* i gyffwrdd â gwaelod y wifren D; ac felly fe red y ffrwd ymaith ar hyd y wifrau, a dychwel i'r cluder trwy y ddaear, a W, E, *b,* ac *f.*

Er esampl, i anfon y gair *dyn,* dylai y symmudiadau fod fel y canlyn:—am y llythyren *d,* un symmudiad i'r dde, a dau i'r chwith; *y,* un i'r dde, un i'r chwith, a dau i'r dde; *n,* un i'r dde, ac un i'r chwith. Os bydd y llofell yn cael ei symmud fel hyn yn Llundain, a'r pen arall i'r wifrau yn Nghaergybi, neu yn unrhyw le arall, y mae y nydwydd hono yn symmud yn union yn yr un cyfeiriad.

Y mae hi bron yn ammhossibl i ffurfio syniad am gyflymdra symmudiadau y ffrwd o drydan, ond trwy y ffeithiau hyn:—Oddi wrth sylwadau a wnaed gyda'r *cable* sydd o dan Fôr y Werydd, y mae wedi ei brofi ei bod yn teithio chwe mil ac ugain (6,020) o filldiroedd mewn eiliad (*second*) o amser; ond ar y tir y mae ei chyflymder yn llawer mwy. Cafwyd allan, ar ol gwneuthur llawer o brawfiadau, ei bod yn gallu teithio ar dir tuag un mil ar bymtheg (16,000) o filldiroedd ar gyfartaledd mewn eiliad. Yn ol y cyflymder diweddaf hwn, hi a deithiai o amgylch y byd dros ddeunaw ar hugain o weithiau mewn munyd. Y mae nifer y geiriau y gellir eu hanfon mewn munyd yn dibynu ar gyflymder y neb fydd yn eu hanfon, ac hefyd ar gyfansoddiad y peiriant—pa un a ellir ei weithio yn rhwydd, ai peidio. Dywedir fod Syr Charles Wheatstone wedi perffeithio peiriant drwy yr hwn y gallai anfon o drigain i ddeg a thrigain o eiriau mewn-munyd; a dywedodd hefyd fod tua chwech ugain wedi eu hanfon drwyddo mewn munyd. Ond y mae o ugain i ddeg ar hugain o eiriau yn llawn cymmaint ag y gellir eu hanfon gyda chywirdeb. Yn fynych fe welir dau yn derbyn cenadwriaethau:—un yn edrych ar symmudiadau y nydwydd, ac yn dywedyd y geiriau fel y byddent yn cael eu gorphen wrth un arall fydd yn ysgrifenu gerllaw iddo. Ond y mae llawer sydd wedi cynnefino â'r peiriant yn gallu ysgrifenu eu hunain, gan ddibynu ar eu clust, pa un a fydd y nydwydd yn symmud i'r dde, neu i'r aswy. Y mae llawer o ymarferiad yn angenrheidiol cyn y gellir cyflawni hyn.


Ni a symmudwn yn nesaf i egluro pa fodd y mae y peiriant arall yn gweithredu, yr hwn a elwir

### Y PEIRIANT ARGRAPHYDDOL.

Y mae y darluniau canlynol yn fanteisiol i egluro gweithrediadau y peiriant. Y cyntaf

* Y mae amryw o beiriannau ereill yn cael eu gwneyd trwy ba rai y perffeithir y cylch ehedfeinig, heb law yr uchod; ond y mae yr egwyddor yr un yn y cwbl.

ydyw y peiriant a ddefnyddir i anfon y negeseuon ymaith, yr hwn a elwir yn 'anfonydd' neu 'agoriad' (*communicator*, neu *key*).




Dar. 402.—Yr Anfonydd.


Darn o fahogani yw y gwaelod yn gyffredin, gwaith yr hwn yn unig yw cynnal y darnau a welir wedi eu sicrhau wrtho. Pres yn gyffredin ydyw yr offerynau sydd yn gorwedd arno; ac fel y gwelir, y mae y darn *a b* â'r ddau ben yn symmud i fyny ac i lawr, drwy fod yr echel fechan yn rhedeg drwyddo i'r ochrau sydd o bob tu iddo. O dan y pen deheuol iddo, gwelir botwm, â'r llythyren *x* wrtho. Ar y darn mahogani, gwelir tair ysgriw fechan:—un ar y dde wedi ei chyssylltu trwy y darn pres â'r botwm ar un tu, ac â'r wifren sydd yn rhedeg at y llythyren P ar y tu arall:—yr un sydd yn y canol wedi ei chyssylltu â'r peiriant ei hun, ac o'r tu arall â'r wifren sydd â'r llythyren L wrthi: a'r drydedd, ar y llaw chwith, wedi ei chyssylltu â'r peiriant dan y llythyren *b*, ac â'r wifren sydd wrth y lythyren A ar y chwith. Y mae y wifren â'r llythyren P wrthi wedi ei chyssylltu â'r pen deheuol i'r cluder, ar hyd yr hon y mae y ffrwd yn dyfod at y peiriant. Y mae yr ail, sef y llythyren L, wedi ei chyssylltu â'r wifren sydd yn ffurfio y llinell fydd yn cario y ffrwd i'r orsaf neu i'r gorsafoedd ereill; a thrwyddynt hwy yr anfonir negeseuon o'r naill i'r llall. Y mae y pen arall wedi ei fwriadu i dderbyn negeseuon, a chyssylltir ef â gwifren sydd yn amgylchu A yn dar. 403.

Ni a ddisgrifiwn, i ddechreu, y modd yr anfonir cenadwri gyda'r peiriant uchod. Pan y mae neges yn cael ei hanfon, y mae y pen, â'r llythyren B wrtho, yn cael ei wasgu i lawr, nes y bydd y cnopyn sydd dano yn cyffwrdd â'r botwm *x*. Drwy hyn y mae y ffrwd sydd yn dyfod o'r cluder ar hyd y wifren P yn rhedeg ar hyd y peiriant, gan mai pres ydyw, ac i gyfeiriad y llythyren *m*, ac i'r wifren L, gan nad oes un ffordd arall iddi ddiangc; ac ar hyd y wifren L cyrhaedda yr orsaf y bwriedir i'r neges fyned iddi. Ond bydd rhywun yn gofyn pa fodd y mae y llythyrenau yn cael eu gwneyd yn hysbys, gan, yn ol y peiriant hwn, nad oes ond un cyfeiriad i'r ffrwd fyned, na nydwydd chwaith i fynegu y llythyrenau. Yn y ffordd ganlynol:—O dan y pen B y mae *spring* fydd yn ei godi i fyny pan na bydd pwysau y llaw arno:—a'r holl farciau a wneir gyda'r peiriant ydyw naill ai *llinell fer*, fel hon –, neu *un hir*, fel hon ——. Os gwasgir y pen B i lawr yn frysiog, gan godi y llaw yn ddiattreg, ni wneir ond y *llinell fer;* ond os delir ef i lawr ychydig yn hwy, fe wneir y *llinell hir*. Gyda y peiriant nydwyddol, fel y cofir, *troad y nydwydd i'r dde*, neu *i'r aswy*, sydd yn nodi y llythyrenau; ond gyda hwn y *llinellau byrion*, neu *hirion* sydd yn gwneuthur hyny. Yn y fan yma ni a roddwn y modd y mae llythyrenau y wyddor yn cael eu hanfon o'r naill orsaf i'r llall, yn ol un cynllun sydd mewn arferiad. Gall pob gwneuthurwr peiriant, fel y gwel y darllenydd craff, ddewis ei farciau ei hun—ond yr un yw yr egwyddor bob amser.

| | | | |
|---|---|---|---|
| *a* - — | *b* — - - - | *c* — - — - | *d* — - - |
| *e* - | *f* - - — - | *g* — — - | *h* - - - - |
| *i* - - | *j* - — — — | *k* — - — | *l* - — - - |
| *m* — — | *n* — - | *o* — — — | *p* - — — - |
| *q* — — - — | *r* - — - | *s* - - - | *t* — |
| *u* - - — | *v* - - - — | *w* - — — | |
| *x* — - - — | *y* — - — — | *z* — — - - | |

Pan dderbynir neges o orsaf arall, argrephir hi gan beiriant tebyg i'r un canlynol. O dan un pen gwelir darn praff crwn, tebyg i waelod potel, ar yr hwn y mae y llythyren A. Haiarn meddal ydyw hwn, gyda wifren bres wedi ei dirwyn am dano. Dyma yr ehedfaen (*magnet*) y soniasom am dani amryw weithiau o'r blaen. Y mae y wialen *b d* yn symmud i fyny ac i lawr ar yr echel *c*. Ar ben y wialen, yn ymyl *d*, y mae cnopyn bychan, a dano y mae *spring* fechan, *f*. Darn o bapur cul, tua thri chwarter modfedd o led, ydyw *e e*, yn cael ei ddirwyn yn araf heibio i flaen y wialen *d*.

Yn awr, ni dybiwn fod *b* yn y darlun hwn




Dar. 403.—Y Peiriant Argraphu.

yn cael ei dynu i lawr at A. Am fod A wedi ei gyssylltu â'r wifren L yn darlun 402, y mae y ffrwd yn peri i A dynu *b* ato, ac felly y mae y pen *d* yn cael ei godi, nes y mae yn gwneyd marc ar y papyr sydd yn symmud heibio. Os gwasgiad byr fydd ar B (dar. 402) marc bychan a wneir ar y papyr; ond os gwesgir yn hwy, bydd y marc yn fwy; o herwydd y funyd y mae y ffrwd yn peidio y mae *b* yn cael ei ollwng gan A, ac y mae y *spring f* yn tynu y pen *d*, i lawr. Ni a dybiwn fod y gair *dyn* yn cael ei anfon gyda y peiriant hwn. Y mae y person fydd yn ei anfon yn gwasgu B i lawr i wneyd un marc hir, a dau farc byr—y tri marc yn gwneyd y llythyren *d*. I wneyd *y*, y mae un hir, un byr, a dau hir: ac i wneyd *n*, y mae un hir, ac un byr. Ond fe allai y gofyna rhywun, pa fodd y mae y lle gwâg yn digwydd rhwng pob un o'r llythyrenau a'u gilydd. Yn y pen y danfonir y neges o hono, y mae y person yn gadael i eiliad o amser ddigwydd rhwng pob llythyren; ac yn y pen lle yr argrephir y neges y mae y darn papyr yn cael ei ddirwyn yn barhaus, pa un bynag a argrephir arno, ai peidio.

Digitized by Google

Felly y mae y llythyrenau yn cael eu cadw ar wahân: ond bydd y cwbl yn ddigon eglur i'r rhai sydd yn gynnefin a'u darllen.

Y mae y marciau hyn weithiau yn cael eu hargraphu ar bapur, fel pe buasent wedi eu gwneyd âg inc glâs. Y mae hyny yn cael ei wneyd trwy drwytho y papyr â'r hyn a elwir yn *cyanide of potassium*, ar yr hwn y mae y ffrwd yn effeithio nes i'r marciau ymddangos fel pe baent wedi eu gwneyd âg inc o'r lliw hwnw.

Gyda hyn o sylwadau ar ddyfeisiau rhyfedd y Proffeswr Morse a'r Meistri. Cooke a Wheatstone, y mae yn rhaid i ni derfynu yr erthygl hon, gan obeithio y bydd yn ddealladwy.

TALHAIARN (JOHN JONES): ydoedd fab i John a Gwen Jones, yr *Harp*, Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych; y rhai hefyd a ddalient dyddyn o dir mewn cyssylltiad â'r dafarn. Ganwyd Talhaiarn ar y 19eg o Ionawr, 1810. Dodwyd ef ar y cyntaf dan addysg un Evan Jones, yn ysgol y Llan; yna symmudwyd ef i Abergele, at ŵr o'r enw Louis; ac wedi hyny i Ruddlan, dan addysg un John Evans. Ar ol iddo orphen ei ysgol, rhwymwyd ef yn brentis o adeiladydd gyda gŵr o'r enw Ward, yr hwn oedd arolygwr a goruchwyliwr adeilad Parc y Pysgodlyn ar y pryd; sef, palas Arglwydd Bagot, ger llaw Rhuthyn. Cynnyddodd yn gyflym a boddhaol fel adeiladydd a chynlluniwr gyda Ward; a'r fath oedd ei allu a'i athrylith fel y pennodwyd ef cyn hir yn gynnorthwywr i Ward yn arolygiad y gwaith.

O gylch y pryd hyn y dechreuodd droi ei feddwl at brydyddiaeth, am yr hyn y ceir hanes nwyfus yn y drydedd gyfrol o'i waith. Pan oedd tuag un mlwydd ar hugain oed, aeth i wasanaeth Mr. Penson, adeiladydd a mesuronydd i siroedd Dinbych a Threfaldwyn, gyda'r hwn y bu dros hir flynyddau; ac yn y cyfamser cafodd ofal adeiladu pontydd, ac amryw weithfeydd cyhoeddus ereill. Yn y flwyddyn 1843, ac efe yn dair ar hugain oed, symmudodd i Lundain; a bu yn ngwasanaeth Meistri. Scott a Moffat, adeiladwyr eglwysydd enwog.

Yn mhen wyth mlynedd wedi hyny, sef yn 1851, aeth i wasanaeth Syr Joseph Paxton, a'i fab-yn-nghyfraith, Mr. Stokes, gyda'r rhai y bu nes yr aeth yn analluog i ddilyn ei alwedigaeth. Y gorchwyl cyntaf a roddasant hwy iddo oedd arolygu adeiladu palas godidog y Barwn Meyer de Rothschild, yn Mentmore, sir Buckingham: gorchwyl a barhaodd iddo dros bum mlynedd. Yn y cyfamser rhoddid ef ar waith hefyd i arolygu adeilad y Palas Grisial yn Sydenham. Anfonwyd ef wedi hyny i Ffraingc, i arolygu adeilad palas y Barwn James de Rothschild, lle y bu dros dair blynedd, pan y bu raid iddo ddychwel i'r wlad hon o herwydd yr afiechyd a ddygwyd arno gan y gymmalwst. Dysgodd y Ffrangcaeg yn ystod yr amser y bu yn Ffraingc; a mwynhâai ddifyrwch mawr dros weddill ei oes wrth ddarllen gwaith gwladgarol ac awenyddol y beirdd Ffrengig—yn enwedig Beranger. Wedi i'w iechyd wellhau ychydig yn ystod y seibiant a gafodd, dodwyd arno arolygu adeilad palas newydd i'r Arglwydd Russell, sef Parc Battlesden, yn sir Bedford. Rhoddes ei fedr celfyddgar, a'i ymddygiad gonest a dihoced, lawn foddlonrwydd yn y swydd bwysig hono, fel arfer; ond o blegid fod ei iechyd yn prysur adfeilio, a'i nerth yn cyflym ballu, nid ymgymmerodd mwyach âg unrhyw wasanaeth o bwys.

O gylch diwedd y flwyddyn 1865, ymneillduodd i drenlio y gweddill o'i oes yn ardal dawel neillduedig ei enedigaeth, yn Llanfair Talhaiarn, lle yr oedd yn dra chymmeradwy gan ei holl gymmydogion a'i gydnabod. Yn fuan ar ol ei ymneillduad, llwyddodd Gwrgant a Chadfan, yn benaf, i gael gan ei gydwladwyr ei anrhegu â blwydd-dâl o ddwy bunt a deugain. Pa fodd bynag, cynnyddodd ei hen ddoluriau, y gymmalwst a'r droedwst, ac anhwylderau mewnol yn tarddu oddi wrth y rhai hyny, a'r cyffelyb, i'r fath raddau, fel na chafodd efe odid ddim mwyniant oddi wrth garedigrwydd ei wladwyr a'i gymmydogion. Byddai ei ofidiau mor llym weithiau nes dyrysu ei synwyrau; a phan dan effaith y gloesion hyny unwaith, niweidiodd ei hun i'r fath raddau fel nad adferodd mwyach; ac ar yr 17eg o Hydref, 1869, bu farw yn ddibriod, yn y tŷ y ganesid ef, yn 59ain mlwydd oed. Fel dyn, yr oedd Talhaiarn yn foneddigaidd a difalais; fel crefftwr, yr oedd yn alluog a gonest; fel cyfaill, yr oedd yn bur a chymmwynasgar dros ben; ac fel bardd a llenor, yr oedd yn wir dalentog, os nad yn athrylithgar.

Yn y cymmeriad olaf, ymgeisiodd ddwywaith am gadair yr eisteddfod, sef awdl ar y "Greadigaeth," yn Aberffraw, 1849; yr hon awdl a restrodd Eben Fardd yn ail yn yr ail ddosbarth; ac awdl-farwnad i'r Tywysog Albert, yn eisteddfod Abertawe, 1863, yr hon a ystyrid yn oreu gan un o'r beirniaid. Cyhoeddodd dair cyfrol 12 plyg lled drwchus o'i waith llenyddol; a dengys y rhai hyny yn bur amlwg nad yn y gynghanedd yr hoffai ei awen ef chwareu. Ugain o "Englynion i dalu yr echwyn adref i Barnum y *'Puns Cymraeg'* am ei ymosodiad ysgymmun ar brif-feirdd Cymru," a gyfansoddwyd ganddo yn Ffraingc, 1858, ac a anfonwyd i awdwr yr erthygl hon o Battlesden, Woburn, Beds., Mai 18fed, 1865, ydyw y cyfansoddiad mwyaf barddonol a welsom ni o'i brydyddiaeth gynghaneddol. Duchan lemdost, mewn iaith arw a lled aflednais, ydyw yr englynion hyny, am y rhai y dywedai efe ei hun, mewn llythyr atom gyda hwy, fel hyn:—"Yr wyf yn cofio i ti, yn Eisteddfod Llandudno, yngan gair neu ddau am y *lampoon* a gyfansoddais yn fy nwydwylltedd pan yn byw yn Ffraingc, gan ddyweyd na ddylid gadael i'r englynion fyned i ogof ebargofiant. Wel, dyma i ti gopi; ond cofia na ddylid eu dangos i ynfydion; a dylid bod yn gynnil, hyd yn oed wrth eu dangos i'r brodyr yn nghyfrinach Ceridwen. Yr wyf yn meddwl yn siwr nad ydyw awdl duchan Dafydd ap Gwilym, yr hon a laddodd Rhys Meigen, ond chwareu plant wrth yr englynion O'Conneleiddiawl hyn:—ond barned ereill."

Heb law bod y dyfyniad yna yn dangos ei farn am deilyngdod ac annheilyngdod yr englynion dan sylw, y mae yn esampl teg hefyd o'i ddull rhydd a dirodres o ysgrifenu at ei gyfeillion llenyddol. Ond, fel yr awgrymwyd eisoes, dengys ei gyfrolau yn eglur mai yn y mesurau rhyddion yr ymhoffai ei awen chwareu, a hyny mewn caniadau byrion a difyrus. Y mae rhai o'r cyfryw yn dlysion dros ben, y sawl y byddai yn anhawdd canfod eu rhagorach mewn unrhyw iaith; megys, "Y Ddeilen ar yr afon," "Molawd Cymru," "Pictiwr fy Mam," a'r cyffelyb. Y mae amryw o'i gyfieithiadau hefyd yn bur ddestlus, yn enwedig *"Tom o' Shanter,"* a'r *"Ingoldsby Legends;"* ac y mae yn ei ganiadau Saesnig lawer o feddyliau tlysion, mewn

Digitized by Google

iaith goeth. Ar y cyfan, credwn y gellid casglu un gyfrol fechan ddestlus a chymmeradwy, o'r tair a gyhoeddwyd gan y bardd ei hunan.—"*Enwogion Cymru*," &c.

TALIESIN BEN BEIRDD. Nid oes dim o wir hanes y prydydd yma ar gof a chadw, er mor hysbys yw ei enw yn Nghymru. Lluniwyd llawer o chwedlau am dano, a phriodolwyd lliaws o ffug-ganeuon iddo; a diau mai oddi wrth y rhai hyny y mae y traddodiadau poblogaidd wedi tarddu. Dangosir ei fedd yn Mhensarn, ger llaw pentref Taliesin, uwch law Cors Fochno, yn Ngheredigion. Cymmerth y pentref ei enw oddi wrth y bedd dychymmygol. Pe buasai gwir yn y traddodiad yma, nis gallasai fod yn fab i Henwg Sant, ac yn "Fardd Bedydd," fel yr haera y "*Trioedd*:" o blegid pe buasai yn gyfryw fardd, claddesid ef mewn llan, ac nid fel pagan, dan garnedd geryg. Crybwylliad am ei enw fel bardd yn unig, ac awgrym o'r amser yr oedd yn prydyddu, sydd genym mewn hanesiaeth; sef, yn Nennius, yr hwn a ddywed fel hyn:—"Yna ymladdodd Dutigirn yn ddewr yn erbyn cenedl yr Angliaid. Yr oedd Talhaiarn Catagwen [*Tatagwen*, sef *Tad Awen*, sydd mewn rhai copïau] yn enwog y pryd hyny mewn barddoniaeth; ac yr oedd Neirin, a Taliesin, a Bluchbard, a Cïan, yr hwn a elwir Gwenith Guaut, oll yn enwog yr un pryd mewn barddoniaeth Frytanaidd." "Y pryd hyny" oedd yr amser pan "y meddiannai Ida y gwledydd sydd ar yr ochr chwith i Brydain, sef ar hyd glan môr Humbria, ac y teyrnasodd ddeuddeg mlynedd [o B. A. 547 hyd 559], ac yr unodd Dunguayth Gwarth-Berneich;" sef, y gwledydd a alwai yr hen Gymry yn Deifr (a elwir yn awr Northumberland) a Bryneich, sef y gwledydd ar hyd glan y môr o Newcastle, ger llaw aber y Shields, hyd Falkirk, wrth aber y Forth. Dyna y cwbl a wyddom yn hanesyddol am Taliesin; ac nid yw y chwedlau a draethwyd arno mewn gwahanol amserau yn werth eu cofnodi. Am hyny prysurwn at y caniadau a briodolwyd iddo.

Y mae y caniadau a briodolir etto i Taliesin yn gwahaniaethu oddi wrth y rhai a briodolir i Aneurin ar lawer cyfrif. Lled fyrion yw caniadau Taliesin yn gyffredin, ond y maent yn dra lliosog; ac y maent oll gyda'u gilydd yn gwneuthur corph mawr o farddoniaeth. Y maent at eu gilydd yn fwy crefyddol a Christionogol na rhai Aneurin. Nid yn unig cynnwysant appeliadau at y Drindod a Christ, ond hefyd y mae llawer o honynt ar destynau ysgrythyrol. Er hyny y mae rhai o honynt yn llawn ofergoeledd, swyngyfaredd, a chwedloniaeth. Yn y "*Myvyrian Archaiology*," priodolir dwy ar bymtheg a thrigain o ganiadau iddo. Y mae T. Stephens yn cyfrif yr un nifer iddo; ond yr hyn sydd yn rhyfedd, nad yw efe yn nodi ond tair ar ddeg a thrigain.—"*Lit. Kymry*," td. 282. Ymddengys i Skene gymmeryd yn ganiataol fod Stephens wedi cymmeryd ei restr o'r "*Myvyrian Archaiology*," ac wedi rhifo yn gywir; canys dywed i Stephens ddosbarthu dwy ar bymtheg a thrigain o ganeuon Taliesin.—Skene's "*Four Ancient Books of Wales*," cyf. i., td. 187. Nifer y caneuon yn "*Llyfr Taliesin*" yw un ar bymtheg a deugain; ond y mae amryw ar ei enw yn y llyfrau ereill. Enwa Skene [cyf. i. td. 194] y pum cerdd ganlynol fel rhai ar enw Taliesin, ond heb fod yn ei lyfr:—1. "Hanes Taliesin," yn dechreu, "Prif-fardd Cyffredin." 2. "Bustl y Beirdd," yn dechreu, "Cler o gam arfer." 3. "Dyhuddiant Elphin," yn dechreu, "Gograwd gyrra." 4. "Difregwawd Taliessin," yn dechreu, "Goruchel Dduw." 5. Yr "Awdl Fraith," yn dechreu, "Ef a wnaeth Panthon." Ond ystyria Stephens y rhai hyn oll yn ffugiadau diweddar.

Megys y mae llawer mwy o ddarnau ar enw Taliesin nag ar enw Aneurin, felly hefyd y mae llawer mwy o rai ffugiol wedi eu tadogi arno. Trefna Stephens ["*Literature of the Kymry*," td. 282] ei holl gyfansoddiadau yn chwe dosbarth:—1. Hanesyddol, ac mor hen a'r chweched ganrif, yn cynnwys deuddeg o ganeuon. 2. Ammheus, yn cynnwys wyth o ganeuon. 3. Rhamantau perthynol i'r ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg, yn cynnwys pump ar hugain o gyfansoddiadau. 4. Darnau perthynol i "*Fabinogi Taliesin*," a gyfansoddwyd, fel y dywedir, gan Tomas ap Einion offeiriad, yn naw o rifedi. 5. Canau rhagfynegiadol o'r ddeuddegfed ganrif, a'r canrifoedd dilynol. 6. Canau duwinyddol o'r un cyfnod. Gwelir wrth y dosbarthiad hwn nad oes, yn ol barn Stephens, ond ychydig ganiadau yn perthyn yn ddiammheuol i Taliesin.

Pa wedd bynag, rhaid cofio, i ddechreu, nad yw "*Llyfr Taliesin*" yn cynnwys ond 56ain o ddarnau; a rhai o honynt yn wahanol i ddim sydd yn rhestr Stephens, ac yn y "*Myvyrian Archaiology*." Yn mhlith y rhai nad oes iddynt awdurdod yr hen ysgriflyfr, cynnwysir y caniadau mwyaf poblogaidd a briodolir i'r "Pen Beirdd," gyda'r sawl y gwnaeth y beirniaid fwyaf o ystŵr ynghylch eu ffuantrwydd. Gan nad yw y caniadau hyn yn hen "*Lyfr Taliesin*," nac mewn un o'r tri ysgriflyfr hynafol eraill, sef "*Llyfr Du Caerfyrddin*," "*Llyfr Aneurin*," a'r "*Llyfr Coch o Hergest*," nac mewn unrhyw ysgriflyfr hynafol sydd ar gael, y mae hyny ei hunan, heb son am y profion mewnol sydd yn y caniadau, yn profi nad ystyrid hwy gan yr hynafiaid yn waith Taliesin, ac nad oeddynt wedi eu cyfansoddi pan adysgrifenwyd yr hen lyfrau. Priodolid hwy er yn foreu i Jonas Athraw, o Fynwy; am yr hwn ni wyddys odid ddim, heb law y tybir ei fod yn byw yn y ddeuddegfed ganrif. Priodolir "*Mabinogi Taliesin*" i Tomas ap Einion, offeiriad ["*Iolo MSS.*," td. 72], yn y drydedd ganrif ar ddeg; ond dywed y Dr. Pughe mai Hopkin Tomas Phylip a'i cyfansoddodd yn yr unfed ganrif ar bymtheg; tra yr awgryma Skene [i. td. 193] mai Iolo Morganwg a'r doethawr ei hun a'i saernïasant; ac y mae yn dra thebyg mai yr un awdwr sydd i rai o'r darnau barddonol sydd yn y chwedl ei hun.

Heb law hyny, amlygodd Stephens, er's cryn amser yn ol, iddo gael ei argyhoeddi fod tri dernyn o'r ail ddosbarth, a dau o'r pummed, yn perthyn i'r dosbarth cyntaf a dilys [Skene, i. td. 209]. Yn ei gydfeirniadaeth â ni, sydd mewn ysgrifen yn ein meddiant, ar draethawd un a ymgyfenwai yn "Gwrnerth Llwyd," i Eisteddfod Aberdar, 1861, ar "Hanes Llenyddol y Cymry, o'r oesoedd boreuaf hyd y cyfnod presennol," dywed Stephens fel hyn:—"Yn 1848, pan yr ysgrifenwyd '*Literature of the Kymry*,' priodolais ddeuddeg o ganiadau i Taliesin, a nodais wyth âg ammheuaeth. Tybia Gwrnerth pe traethwn yn awr am dano, na adawn iddo 'gymmaint ag un faled.' Yma hefyd bu yn bur anffodus. Wedi hyny cyhoeddais res o erthyglau dan yr enw '*The Poems of Taliesin;*' ac yr wyf yn awr o'r farn fod un ar hugain o ganiadau, naill ai yn wir eiddo ef, neu cyn hyned a'r 6ed

a'r 7fed ganrif. Nid enw ffugiol chwaith yw yr enw *Taliesin*, neu yn ei ffurf hynaf, *Taleessin*. Gellir ei olrhain i oesoedd cyn Crist; a gellir nodi amryw bersonau o'r enw yn mhell cyn oes y bardd hwn." Ymddengys bod yr ysbryd dinystriol yn cryfhau yn Nash, a'i fod erbyn hyn yn barod i gyhoeddi gwaith y cynfeirdd oll yn ffugiol.—"*Westminster Review*," lxxi. td. 78. O'r tu arall, y mae Skene yn dadleu fod y rhan fwyaf o "*Llyfr Taliesin*," er dim a ddangoswyd etto i'r gwrthwyneb, yn waith dilys y cynfardd hwnw; ac y mae yn atteb gwrthddadleuon ei ragflaenwyr mewn modd medrus a llwyddiannus.

Dewisodd Taliesin ac Aneurin destynau cyffelyb i amryw o'u caneuon. Y mae yn "Ngorchan Maelderw" Taliesin lawer o gyfeiriadau at frwydr fawr Catraeth, ac am y gwroniaid oedd yn byw yn yr oes hono. Un o arwyr penaf Prydyn, neu y Gogledd (Ysgotland), oedd Urien Rheged; ac yr oedd ei fab Owain yn dra chymmeradwy gan y beirdd. Dywedir i Taliesin dreulio rhan fawr o'i oes yn llys Urien, er mai Elphin oedd ei brif noddwr. Cyfansoddodd Taliesin farwnad i Owain, yr hon a ddyry Stephens yn ei ddosbarth cyntaf. Dywed Nennius y bu Owain yn ymladd â Theodric, brenin Anglaidd Bryneich, yr hwn a deyrnasai o 580 hyd 587; a thybia Skene mai y Theodoric hwn oedd y "Fflamddwyn" a laddodd Owain [i. td. 232]. Gan nad yw y farwnad hono ond bèr, ni a'i dodwn ger bron yn llythyraeth hen "*Llyfr Taliesin*," ynghyd âg aralleiriad o honi:—

"Marwnat Owein.

Eneit Owein ap Vryen. gobwyllit y ren oe reit.
Reget ud ae cud tromlas. nyt oed vas y gywydeit.
Iscell kerdglyt clodwawr escyll gawr gwayawawr llifeit.
Can ny cheffir cystedlyd. y vd llewenyd lladreit.
Medel galon gevelat. essillut y tat ae teit.
Pan ladawd Owein fflamdwyn. nyt oet nwy noc ef kysceit.
Kysceit lloegyr llydan nifer a leuuer yn eu llygeit.
A rei ny ffoynt hayach. a oedynt ach no reit.
Owein ae cospes yn drut mal cnut. yn dylut deueit.
Gwr gwiw uch y amliw seirch. a rodei veirch y eircheit.
Kyt as cronyei mal calet. ny rannet rac y eneit.
Eneit o ap Vryen" (*Skene*, ii. td. 199).

*Marwnad Owain.*

"Diwalled Duw enaid mawr Owain ap Urien,
Teyrn Rheged, gwybodus sydd dan y dywarchen.
Nawdd beirdd sy'n ei feddrod, er gloywed ei waywffyn,
Ni cheir byth gystedlydd i deyrn y gorllewin.
Gelynion a fedai, fel mab ei gyndadau,
Pan Fflamddwyn a'i lladdodd, bu farw prif urddau.
Lloegr lydan a gysgodd â llygaid agored,
A'r truain na ffoent, bu greulawn eu tynged.
Ceryddai hwynt Owain fel blaidd ar ol defaid;
Ond gwych ei drwsiad, a hael oedd i'w ddeiliaid.
Er cymmaint oedd ei gyfoeth, â'i ddillad yn gymmen,
Byth noethlwm fydd enaid eu Owain ap Urien!"

Y mae cydberthynas y Wyddelaeg â'r Gymraeg yn profi bod y Cymry a'r Gwyddelod, y ddwy brif gangen o'r cyff Celtaidd, wedi bod unwaith, yn y cynamseroedd, yn un genedl; ac y mae hanes yn dyst fod cyfathrach agos wedi bod rhyngddynt mewn amseroedd cymmharol ddiweddar, a bod cyniwair mawr rhwng y ddwy wlad; gan hyny, gallesid disgwyl bod llenyddiaeth y naill genedl wedi gadael ei hargraph ar lenyddiaeth y llall. Y mae cofnodau hynach o'r Wyddelaeg na dim sydd yn y Gymraeg; ond nid oes gan y Gwyddelod ddim llenyddiaeth foreu, mwy na diweddar, i'w chystadlu â'r eiddom ni. Y farn ddiweddar ydyw, bod barddoniaeth Ossianaidd pur hen yn hanfod yn yr Iwerddon ac yn Ysgotland. Casglodd Macpherson, yn ddiau, lawer o ganau hynafol a thraddodiadol yn yr Ucheldiroedd; ond y mae yr un mor sicr, ysywaeth, iddo gyfansoddi darnau ei hunan ar enw Ossian, a chyssylltu darnau gwahanol i ffurfio arwrgerddi Ossianaidd, fel nad yw ddichonadwy gwybod pa ran o'i waith sydd ddilys, na pha ranau sydd ffugiol ["*The Dean of Lismore's Book, Introd.*," td. xlviii.—lvii.]. Ond os ydyw y Gwyddelod eu hunain yn brin o brawf o hynafiaeth eu llenyddiaeth Ossianaidd, y mae llenyddiaeth Cymru yn amddiffyn eu hanrhydedd; o blegid y mae yn "*Llyfr Taliesin*" un gân fer yn cyfeirio at wroniaid a helyntion Ossianaidd: a'r hyn sydd ryfedd ydyw, mai dyma yr unig ddernyn trwy holl gyfangorph ein cynfarddoniaeth sydd yn cyfeirio o gwbl at byngciau Gwyddelig. Penawd y gân yw "Marwnad Corroi M. Dayry;" ac y mae yn yr un llythyraeth a dull o eirio a "Marwnad Owain," ac ar y tudalen nesaf ati yn yr hen lyfr [Skene, ii. 198]. Parodd y gân fer hon gryn drafferth i Stephens, am nad oedd, pan yn ysgrifenu ei brif waith, yn gyfarwydd yn llenyddiaeth y Gwyddelod. Gosododd hi yn nosbarth y caniadau prophwydol o'r ddeuddegfed ganrif; ond symmudodd hi yn fuan oddi yno i'r seithfed ganrif; ond dengys Skene [i. td. 210] yn eglur ei fod wedi camsynied drachefn. Gan fod y ganig hon wedi tynu cymmaint o sylw hynafiaethwyr, dodwn yma aralleiriad o honi, fel esampl arall o waith Taliesin:—

"Marwnad Corroi M. Dayry.

Dy ffynnon o ruddwaed a leinw yr afon,
Y gelyn digroesaw drywanodd dy galon,
O Corroi! dy farwnad drist a'm cythryblodd.
Rhyfelwr llofruddiog; gŵr gwaedlyd a'th laddodd,
Ei ddrwg oedd helaethach na chlod ei orchestion,
Pan ddaliai fab Dayry, hyfrydwch fy nghalon;
A llywydd yr eang Ddeheufor; a'i lofrudd,
Cyn tori ymddiried, oedd uchel ei glodydd.

Dy ffynnon fyrlymiol ddyleinw y ffrydiau,
Ac araf y peri gyfrwyo ceffylau:
Mae marwnad Corroi yn llanw fy nghalon,
Trwy dwyll y rhyfelwr llofruddiwyd y gwron.

Dy ffynnon lifeiriol ddylanwa yr eigion;
Dy saethau ehedant dros draethau yn union,
Goresgyn rhyfelwr â'i liaws Catrodau;
Meddianna ddinasoedd trwy lydain adwyau.
A phurir y dyfroedd a gwŷnir yr afon,
Buddugre y boreu bentyra y meirwon.
Adroddir im' chwedlau o wybren a daear,
Am gynnen Cocholyn a Chorroi ymladdgar.
Bu hir eu hymryson am derfyn tiriogaeth,
A llamai dros ddolydd a chelli y penaeth:
Mae'r ddinas yn gadarn, heddychol, digyffro,
A gwyn fyd yr enaid a'i llwyr amddiffyno!"

Y mae yn eglur y cyfeiria y ganig uchod at ryw hanes neu chwedl eithaf adnabyddus i'r bardd a'i amser; ond nis gellir ei deall yn drwyadl heb wybod yr hanes. Ceir hanes lled fanwl am y pleidiau ymrysongar y cyfeirir atynt yn y gân o waith Macpherson yn "*Fingal*," trydydd argraph., td. 3, 202; ac yn y "*Dean's Book*," td. 141; ond y maent yn rhy faith i'w dyfynu yma. Y mae rhai yn barnu y bu y Gwyddelod yn meddiannu holl Ynys Brydain cyn dyfodiad y Cymry yma ["*Vestiges of the Gael in Gwynedd*,"

**td.** 49]; ond tyb ydyw hyny, yn hytrach na hanesyddiaeth; cithr y mae profion hanesyddol a chasgliadol y bu y Gwyddelod yn trigo mewn rhanau o Gymru o gylch cyfnod yr ormes Rufeinig [*"Vestiges," passim*]. Barna rhai awduron yn lled gadarn nad ymsefydlodd trefedigaeth o Gymry erioed yn yr Iwerddon [Prichard's *"Physical History of Man,"* iii., td. 148], tra y dengys Macpherson a *"Llyfr Deon Lismore,"* fod y traddodiadau Gwyddelig yn awgrymu yn wahanol. Pwy bynag oedd y Belgiaid, y mae yn amlwg y buont yn meddiannu rhan o ddeheubarth Lloegr, a threfedigaethau yn yr Iwerddon hefyd. Y tebygolrwydd yw, fod cydberthynas led agos rhyngddynt a'r Cymry; yr hyn a awgryma pa fodd y daeth ein cenedl ni yn adnabyddus â'r traddodiadau Gwyddelig, a'n beirdd i ganu i'w gwroniaid.

Ychydig o hynafiaethwyr a llenorion sydd wedi hòni bod yr holl ganeuon sydd yn *"Llyfr Taliesin,"* neu a briodolir iddo gan yr hen adysgrifenwyr, wedi cael eu cyfansoddi mewn gwirionedd gan y "Pen Beirdd." Cydnabyddai Iolo Morganwg fod amryw yn ffugiadau diweddar [*"Cambr. Journal,"* 1855, td. 168]; a thrinodd Carnhuanawc hwynt fel beirniad craffus. Ond Stephens oedd y cyntaf i ddyfod allan yn gyhoeddus a diammwys i geisio gwahaniaethu rhwng y gwir a'r gau; ond, fel y gwelsom, y mae lle i wellhau a chyfnewid llawer ar ei ddosbarthiad yntau o ganiadau Taliesin. Fel un esampl o'r caniadau ffugiol a briodolwyd i Taliesin, a'r hon sydd yn yr hen 'Lyfr' [Skene, ii. td. 158]; ac un y gosododd y 'Celtig Ddavies' bwys mawr arni fel darn o Feibl y Derwyddon [*"Myth. of the Brit. Druids,"* td. 260, &c.], dodwn yma aralleiriad o honi:—

"Cadair Ceridwen.

Brenin nerthol yr wybrenau,
A maddeuwr fy mhechodau:
Amser gosper, hwyr, a phlygain,
Llusg fy nghanwyll wen oleufain.
Mwyn yw bywyd Miniawg olau,
Yr hwn a welais yma gynnau.
Llechwedd Llen fu pen ei deithiau;
Chwyrn mewn câd oedd ei ruthriadau.
Ac Afagddu, fy mab innau,
Duw a'i gwnaeth y campwr gorau.
Mewn ymryson cerddi diddan,
Gwell ei synwyr na fy hunan.
Ni chlybuwyd am un prydydd
Gwych, erioed mwy doeth a chelfydd.
Gwydion hen ab Don, trwy riniau,
Luniodd wraig o ddail a blodau;
A gorphenodd hi o ddehau,
Gan ei fod mewn dysg y gorau.
Dïed a rhyfedd y plethiadau,
A ymrithient o'i wybodau
Ar ebillion mân ei blagawd,
Megys cangau irwydd arawd.
Pan y barner y cadeiriau,
Fy eiddof fi a fydd yr orau.
Mae fy mhair a'm cadair gannaid
I'm hathrylith yn gymheiriaid.
Doeth y'm gelwir yn llys Gwydion,
Doeth Euronwy a doeth Euron.
Gwelais ymladd yn Nant Ffrancon,
Boreu Sul, cydrhwng dau wron.

Rhwng Wytheint a Gwydion brysur,
  Dyfiau croesent draw i Fôn,
Dïau ceisient borth hudolwyr;
  Porth Arianrod mawr y son.

Gwarth anaele i'r Brythoniaid
Ymgynghori â dewiniaid.
Uwch y llys ymledai enfys,
Yr hon ymlidiai drais o'r ynys.
Gwenwyn cynfyd ymadawa,
Gwir a ddywed llyfrau Beda:
Sedd y Ceidwad yma erys
Hyd ddydd brawd o fewn yr ynys.
Mawr drugaredd rhodded Trindawd.
Yn nydd barn i ddyn yn gardawd."

Gwelir nad oes yn y ganig hon air o son am Dderwyddon, na dim cyfeiriad mewn un modd at Dderwyddiaeth, fel y dychymygai Davies. Pabyddiaeth amlwg a ganfyddir yma, wedi ei chymmysgu, yn ol yr arfer, â chwedlau. Y crybwylliad am Gwydion yn gwneyd gwraig o flodau, a gyfeiria at chwedl yn un o'r Mabinogion. Nant Ffrancon sydd ddyffryn dwfn yn mynyddoedd Eryri. Y mae y cyfeiriad at "Lyfr Beda" yn profi y rhaid fod y gân wedi ei chyfansoddi ar ol yr hanesydd mynachaidd hwnw, yr hwn a fu farw yn B. A. 735.

Cyn belled ag y cyrhaedd ein hymchwiliadau ni i hanes Taliesin a'i waith, canfyddwn y cydnebydd pob beirniaid fod llawer o ffug-gyfansoddiadau wedi eu tadogi arno; ond addefa pawb, oddi gerth Nash, bod llawer o'i wir ganiadau ar gael. Y mae yr adysgrifau o'i waith sydd wedi eu cadw mewn cyflwr pur ddirywiedig; neu, mewn geiriau ereill, y mae y testyn yn dra llygredig. Pa fodd bynag am hyny, yr ydym yn deall digon ar y copïau i allu penderfynu fod llawer o'r cyfansoddiadau yn cyfatteb i'r oes, a'r lle, a'r amgylchiadau yr oedd Taliesin ynddynt; ac nad oes yn ei holl waith ddim un cyfeiriad at hen Dderwyddon na Derwyddiaeth Brydain; ond fod amryw o'i ganiadau, yn enwedig y rhai ffugiol a briodolir iddo, yn dwyn ynddynt arwyddion amlwg o Babyddiaeth a chwedloniaeth. Pe nas llwyddai dysgedigion byth i gael allan feddwl a rhediad y caniadau hyn yn well nag y maent wedi llwyddo eisoes, er hyny byddent yn dra gwerthfawr a dyddorol fel y lleuyddiaeth hynaf yn Ewrop a ysgrifenwyd mewn iaith, amrywiaeth o'r hon, o leiaf, sydd etto yn cael ei llefaru a'i hysgrifenu, a chan genedl sydd byth yn fyw ac yn cynnyddu.—*"Hanes y Brytaniaid a'r Cymry,"* &c.

**TEGAI, HUW (HUGH HUGHES)**, a anwyd yn y fl. 1814, yn Nghilgeraint, Llandegai, yn sir Gaernarfon. Enw ei dad oedd Thomas Hughes, chwarelwr yn chwarel Cae-Braich-y-Cafn, neu Chwarel y Penrhyn. Symmudodd ei rieni yn lled fuan ar ol geni Hugh i Dregarth, yn yr un plwyf: dewiswyd ei dad yn ddiacon yn eglwys fechan yr Annibynwyr yn Ngororion; ac efe ydoedd prif weithredydd y Gymdeithas Feiblaidd yn yr ardal; yr hyn a arwydda ei fod yn ddyn lled wybodus a darllengar. Huw oedd yr hynaf o saith o blant; ac fel amryw ereill o enwogion Llandegai a Llanberis, ni chafodd ddiwrnod o ysgol ddyddiol yn ei oes; ond yr oedd yn aelod diwyd a meddylgar o Ysgol Sabbothol y capel lle yr oedd ei dad yn ddiacon ynddo mor foreu ag y gallodd gerdded yno. Cymmerwyd capel yr Annibynwyr yn Ngororion oddi ar y gynnulleidfa pan oedd Huw yn bur ieuangc; wedi hyny elai efe i Ysgol Sabbothol y diwygwyr Wesleyaidd, am nad oedd un capel arall yn y gymmydogaeth. Rhoddwyd enw Huw ar lyfrau y chwarel pan yn blentyn, yn ol yr arfer hyd yn ddiweddar (clywsom fod enwau rhai ar y llyfrau fel prentisiaid cyn bod yn flwydd oed!); a diau y bu raid iddo fyned yno i rwbela, pan o wyth i ddeuddeg oed,

Digitized by Google

Yn mhen rhyw ysbaid o amser ar ol hyn, ymunodd Huw â'r gyfeillach yn nghapel y Diwygwyr Wesleyaidd oedd yn ei ardal; ac yn lled fuan wedi hyny, dechreuodd bregethu yn eu plith. Yna galwyd ef yn 'Hugh Hughes' gan ei gyfeillion crefyddol. Dywedir iddo wrthod cymmeryd ei urddo i gyflawn waith y weinidogaeth yn eu plith, am nad ystyriai ei fod etto yn gymmhwys i'r gwaith. Heb law hyny, ieithyddiaeth Gymraeg, barddoniaeth, ac athroniaeth oedd ei brif hyfrydwch ef y pryd hyn, fel ei gyfaill athrylithgar, Arfonwyson, yr hwn a gydfagwyd âg ef yn yr un ardal, cyfeillach fynwesol y rhai a barhaodd yn ddifwlch hyd y bedd. Athraw barddonol y ddau oedd Gutyn Peris; canys angenrhaid yn yr oes hono oedd cyssylltu pob cangen o wybodaeth yn y gororau hyny â phrydyddiaeth.

Pan ymunodd eglwys y Diwygwyr Wesleyaidd y perthynai Tegai (canys dyma yr enw llenyddol a arferai bellach) â'r gynnadledd, ymneillduodd ef oddi wrthynt, ac ymunodd â'r Annibynwyr; a dechreuodd bregethu yn eu plith hwythau yn bur fuan. Ar ol iddo briodi, trodd yn amaethwr; ond gan fod galwadau mynych am dano i bregethu, barnai nas gallai dalu sylw priodol i'r naill a'r llall, a rhoddodd ei dyddyn i fyny. Yn mis Mai, 1848, derbyniodd alwad gan eglwysi bychain Rhoslan, Tabor, a Llanystumdwy, sir Gaernarfon, i fod yn weinidog sefydlog iddynt; ac yn mhen tua blwyddyn, cafodd alwad gan eglwys Annibynol Jackson street, Manchester; â'r hon y cydsyniodd. Bu yn pregethu ac yn llafurio yno yn llwyddiannus dros o gylch dwy flynedd, hyd oni ddechreuodd iechyd ei wraig adfeilio; o herwydd pa ham, dychwelodd i Gymru, ac aeth i fyw i dyddyn bychan o eiddo ei wraig, yn Llanrug, ger llaw Caernarfon. Yn y cyfamser, cafodd alwadau mynych gan wahanol eglwysi Annibynol; ac o'r diwedd, cydsyniodd â chais eglwysi bychain capel Helyg, Chwilog, ac Abererch, yn sir Gaernarfon.

Tra yr ydoedd yma, o gylch 1855, prynodd swyddfa argraphu William Edwards, yn Mhwllheli; a dechreuodd gyhoeddi newyddiadur Cymraeg, dimai y rhifyn, wythnosol, o'r enw "*Eifion.*" Rhoddes hwnw i fyny yn Mai, 1856, a chyhoeddodd bapur wythnosol ceiniog, wrth yr enw "*Arweinydd.*" Yr oedd hwn yn bapur galluog; ac yr oedd amryw lenorion gwych, heb law ei olygydd doniol, yn ysgrifenu iddo; ond yr oedd yn debycach i gylchgrawn na phapur newydd; ac o herwydd hyny, yr oedd uwch law chwaeth y werin bobl. Bu hyny, ynghyd â'r wisg dlodaidd yn yr hon yr ymddangosai, yn achos o'i fethiant; ac wedi iddo fod yn dihoeni dros o gylch tair blynedd a hanner, bu raid i'r cyhoeddwr gwladgar a thalentog ei roddi i fyny, wedi bod yn golledwr dirfawr yn yr anturiaeth.

Yn lled fuan ar ol hyn, o gylch diwedd 1859, neu ddechreu 1860, cafodd alwad i fyned yn weinidog sefydlog i eglwys Annibynol fechan Bethel, Aberdar, sir Forganwg; â'r hon y cydsyniodd. Bu yn dra llwyddiannus mewn undeb â'r eglwys hono; ond pan oedd haul llwyddiant megys yn dechreu tywynu ar ei babell, machludodd yn ddisymmwth; canys tra yr oedd yn pregethu i'w gynnulleidfa ei hun, nos Sabbath, Rhagfyr 4ydd, 1864, ar y geiriau, "Gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd," tarawyd ef yn y pulpud gan y parlys. Cludwyd ef i'w dŷ mewn sefyllfa o ddideimladrwydd; a'r dydd Iau canlynol, bu farw yn 50ain mlwydd oed. Dodwyd ei gorph i orphwys yn nghladdfa newydd Aberdar, gan dyrfa dra lliosog a galarus.

Ymddengys mai trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig y cyrhaeddodd Tegai ei holl wybodaeth; canys cawsom brawf digonol, pan yr oedd yn Abererch, ac efe o gylch deugain mlwydd oed, nad oedd yn deall cymmaint ag un ymadrodd o'r iaith Saesnig. Wrth ystyried hyn, ynghyd â'i anfanteision ereill, y mae yn dra rhyfedd iddo lwyddo i gyrhaedd gwybodaeth mor helaeth, manwl, a beirniadol o ieithyddiaeth, barddoniaeth, a duwinyddiaeth. Y mae hyn yn brawf diammheuol ei fod yn meddu cynneddfau cryfion, bywiog, a threiddgar—cystal a'i fod wedi llafurio yn ddiwyd a diorphwys ar hyd ei oes.

Dechreuodd ymgystadlu am wobrau llenyddol yn ieuangc. Y gyntaf a ennillodd efe, hyd y gwyddys, oedd am bryddest ar y "March Gwyn," testyn a roddwyd gan arolygydd y "*Gwladgarwr*" erbyn Mehefin, 1833, pan nad oedd efe ond pedwar-ar-bymtheg oed. Pan yn ugain mlwydd oed, ennillodd gadair, ac amryw wobrau ereill, yn eisteddfod leol Bethesda, Arfon, 1834. Ennillodd wobrau hefyd yn yr eisteddfodau canlynol:—Rhuddlan, 1850; Porthmadog, 1851; Llanfachraeth, Môn, 1855; a Llundain, 1856. Cynnygiodd am gadair eisteddfod Llandudno yn 1864; ond trechwyd ef gan Rhisiart Ddu o Wynedd. Cyhoeddwyd yr awdl hono ychydig amser cyn ei farwolaeth; ac fe allai mai dyma y darn barddonol goreu a gyfansoddwyd ganddo. Ymddengys mai fel ysgrifenydd rhyddiaith yr oedd efe yn rhagori fwyaf. Y mae ei ysgrifeniadau ar Arfonwyson yn "*Seren Gomer,*" 1849; ac ar Gutyn Peris a John Jones, Tal-y-sarn, yn yr "*Arweinydd,*" yn gampus. Ysgrifenodd lawer o lythyrau ac erthyglau gwych hefyd i'r "*Seren Gomer,*" "*Y Dysgedydd,*" "*Yr Amserau,*" "*Y Traethodydd,*" "*Yr Adolygydd,*" "*Baner ac Amserau Cymru,*" "*Y Beirniaid,*" "*Golud yr Oes,*" &c. Cyhoeddodd Tegai lawer o fân lyfrau: megys, "*Grammadeg Cymraeg.*" Chwanegodd amryw bethau at hwn, a chyhoeddodd ef dan yr enw "*Grammadeg Cymraeg; sef, Ieithadur Athronyddol.*" Buasai yn ddoethach gadael y ddau air yma allan, gan y cyfodant ddisgwyliadau yn y darllenydd meddylgar, y rhai a siomir. "*Grammadeg Barddoniaeth,*" "*Ysgrifell Gymreig,*" "*Agoriad Gwybodaeth,*" "*Adolygiad ar Draethawd Eliseus Cole ar Benarglwyddiaeth Duw,*" "*Traethawd ar Lywodraeth Foesol,*" "*Y Bedydd Cristionogol,*" "*Annibyniaeth a Wesleyaeth,*" "*Moses a Colenso*" (antur ddoniol yn Tegai oedd dadleu âg awdwr nas cyfieithwyd ond ambell frawddeg o'i waith i'r Gymraeg), "*Yr Olyniaeth Apostolaidd,*" "*Yr Esboniadau,*" "*Bwrdd y Bardd*" (casgliad o'i ganiadau boreuaf), "*Telyn y Saint*" (llyfryn bychan o hymnau), "*Cofiant y Parch. John Jones, Tal-y-sarn,*" ac amryw bregethau a mân draethodau ereill.

Lled anfynych y gelwid arno i feirniadu; ond canfyddwn ei fod yn y swydd hono yn eisteddfodau lleol Rhuthyn a Threffynnon, ac yn eisteddfod Llangollen, ac un Conwy. Dengys hanes llenyddol Huw Tegai, nid yn unig ei fod yn wir alluog a llafurus; ond hefyd, fod ganddo hyder mawr ynddo ei hun—ansoddau nas gall neb ragori llawer hebddynt. Yr oedd ei gyfeillion yn Aberdar wedi penderfynu cyflwyno tysteb iddo; a gwahoddasant ewyllyswyr da ereill i

Digitized by Google

gydweithio â hwynt, a dywedir iddynt gasglu swm anrhydeddus; ond cyn i'r cyflwyniad ddigwydd, yr oedd ysbryd galluog a llafurus Huw Tegai wedi "dychwel at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef."

TEGID, IOAN, enw priodol yr hwn ydoedd JOHN JONES. Ganwyd ef y 10fed o Chwefror, 1792, yn y Bala, sir Feirionydd; ac oddi wrth Lyn Tegid, ger llaw Bala, y cymmerodd ei enw llenyddol. Bu mewn amryw fân ysgolion pan yn ieuangc; ond ni ddysgodd nemawr heb law ychydig rifyddiaeth, hyd oni yrwyd ef yn 1812, pan oedd yn ugain oed, i ysgol y Parch. D. Peter, Caerfyrddin, lle y dechreuodd ddysgu Groeg a Lladin. Symmudodd oddi yno, yn y flwyddyn ganlynol, i ysgol y Parch. D. Price, yn yr un dref; ac wedi bod yno dros ddeunaw mis, dychwelodd i'r Bala. Yn y flwyddyn 1814, ac efe yn ddwy ar hugain oed, aeth i Goleg Iesu, yn Rhydychain. Penaeth y coleg ar y pryd oedd y Dr. D. Hughes, o Lanrwst; yr hwn a'i noddodd yn garedig o blegid ei wybodaeth o'r Gymraeg, a'i fawr gariad at iaith a hynafiaethau ei wlad. Y mae amryw hen ysgriflyfrau Cymreig yn llyfrgell y coleg hwnw, y penaf o ba rai yw y "*Llyfr Coch o Hergest*," y sawl a ddarllenid ac a adysgrifenid yn ddiwyd gan Tegid. Yr oedd Daniel Ddu o Geredigion yn y coleg hwnw yr un pryd ag ef; a ffurfiwyd cyfeillach gynhes, a barhaodd yn ddiball hyd ddiwedd eu hoes. Yn 1818, graddiwyd Tegid yn B.A.; a'r flwyddyn ganlynol, cafodd gaplaniaeth Eglwys Crist, Rhydychain, gan y Deon Hall, ac urddwyd ef hefyd yn 'ddiacon' ac yn 'offeiriad.'

Bwriadai Tegid fyned i'r India Ddwyreiniol yn haf y flwyddyn 1819, ac efe yn 27 oed, fel athraw yn ngholeg newydd Calcutta; ond cyfansoddodd ei gyfaill, Daniel Ddu, gân swynol wrth yr enw "Gwlad fy Ngenedigaeth," er mwyn ei attal i'r antur, a llwyddodd yn yr amcan. Yn 1823, pennodwyd ef yn brif gantor Eglwys Crist, Rhydychain; ac o gylch yr un amser cafodd guradiaeth barhaus St. Thomas, yn yr un ddinas. Llwyddodd i helaethu yr eglwys hono, ac i adeiladu rhan o honi o newydd; a bu yn offeryn hefyd i adeiladu dau ysgoldy eang a chyfleus. Bu yn gwasanaethu yn St. Thomas dros ddeunaw mlynedd, er mawr foddhâd a chymmeradwyaeth trigolion y plwyf. Er mor gymmeradwy oedd yn Lloegr, yn Nghymru yr oedd ei galon ef, fel Goronwy Owen, ar hyd yr amser; ac o'r diwedd, yn 1841, pan oedd yn naw a deugain oed, llwyddodd yr Arglwyddes Llanofer i gael gan yr Arglwydd Ganghellydd Cottenham i'w bennodi i ficeriaeth Nanhyfer (*Nevern*), yn sir Benfro. Er na chafodd ei ddymuniad yn llawn, canys mewn rhyw gwr o Feirion yr hoffasai efe gael byw a bod; etto, yr oedd yn well ganddo

"Ryw lan o Gymru lonydd,"

na'r llanerch oreu o wlad y Saeson; am hyny parodd y dyrchafiad crybwylledig iddo lawenydd mawr. Yn 1848, dyrchafwyd ef gan y Dr. Thirlwall, esgob Tŷ Ddewi, yr hwn a goleddai farn uchel bob amser am dano, yn gôr-beriglor (*prebendary*) yn ei eglwys gadeiriol.

Am ei athrawon barddonol, dywed Tegid ei hun, mewn llythyr at Cynddelw, a gyhoeddwyd yn y "*Brython*," iii., td. 71, fel hyn:—"Cefais fy nysgu, pan oeddwn o gylch deuddeg oed, yn rheolau barddoniaeth gan Robert Williams, sef Robert ab Gwilym, o'r Pandy, Trerhiwedog; a dysgybl oedd yntau i Rolant Huw. Ymgyfeillais wedi hyny â Bardd Nantglyn, Gwallter Mechain, ac ereill feirdd." Er mwyn dangos fod yr awen yn y teulu, dywed fod Rolant Huw yn frawd i'w nain o du ei fam; Rhys Jones o'r Blaenau, yn gefnder i'w nain o du ei dad; a fod Caerfallwch yn gyfyrder iddo, gan fod ei fam ef yn gyfnither i dad y geiriadurwr.

Yr oedd Tegid yn goleddwr gwresog i'r eisteddfodau ar hyd ei oes, er nad ennillodd lawer o wobrau ynddynt, od ystyrir ei alluoedd a'i fanteision. Ystyrid ef yn gwbl hyddysg yn nirgelion y gynghanedd; ond ni ragorodd efe nemawr fel bardd y mesurau caethion; eithr y mae rhai o'i ganeuon rhyddion yn dra phrydferth a swynol, yn enwedig "Ymweliad y Bardd," a'r "Ferch o'r Ddôl." Yr oedd yn cael ei ystyried yn feirniad craff a choeth; a chafodd ei alw i'r swydd o feirniadu yn lled fynych. Efe oedd un o feirniaid testyn cadair eisteddfod Rhuddlan, sef "Yr Adgyfodiad," yn 1850, pan y goddefwyd i'r ymgeiswyr ddewis eu mesur, caeth neu rydd, oddi eithr y dïodl. Tynodd ef a'i gydfeirniaid arnynt eu hunain gryn ŵg prif lenorion Cymru y pryd hwnw, o blegid iddynt fyned heibio i'r prif gyfansoddiad oedd yn y gystadleuaeth yn gwbl ddisylw; sef, pryddest fawr Eben Fardd ar "Yr Adgyfodiad."

Ysgrifenodd Tegid lawer i'r gwahanol gylchgronau Cymreig, yn enwedig i'r "*Seren Gomer*," a'r "*Haul*." Hefyd, cyhoeddwyd amryw o'i draethodau yn llyfrynau, o'r sawl y tybir fod y rhestr ganlynol yn lled gywir:—"*Traethawd ar gadwedigaeth yr Iaith Gymraeg*," 1820; "*Traethawd ar iawn Lythyreniad, neu Lythyraeth yr Iaith Gymraeg*—a ennillodd y tlws aur yn yr eisteddfod a gynnelid gan Gymreigyddion Caerfyrddin yn y flwyddyn 1829." Cyhoeddwyd hwn yn llyfryn; ac hefyd yn "*Seren Gomer*," Tachwedd, 1830. "*A Defence of the Reformed System of Welsh Orthography*," 1829; "*A Reply to the Rev. W. B. Knight's Remarks on Welsh Orthography*," 1831. Cefnogwr gor-selog i lythyraeth y Dr. Pughe, a'i ysgol, oedd Tegid. "*The Book of the Prophet Isaiah, translated from the Hebrew Text of Vander Hooght*," 1830. Cyfieithodd Esaiah hefyd i'r Gymraeg, wedi ei drefnu fel prydyddiaeth, yn ol dull yr iaith wreiddiol, yn debyg i gyfieithiad Cymraeg y Parch. T. Briscoe, a gyhoeddwyd yn 1853; ond y mae cyfieithiad Tegid heb ei gyhoeddi hyd yn hyn (1876). Yr oedd efe yn gydolygydd â Gwallter Mechain ar "*Waith Lewis Glyn Cothi*," a gyhoeddwyd yn 1837; a gwaith Tegid yw yr "*Historical Sketch of the Wars between the Rival Roses*" (38 td. wythplyg), sydd o flaen "*Gwaith Lewis Glyn Cothi*;" ac y mae hwnw yn un o'r traethodau goreu a ysgrifenodd Tegid, os nad y goreu oll. Cyfieithiad o "*Adroddiadau Dirprwyaduron Ymholiad i gyflwr Addysgiad yn Nghymru*," 1848. Adroddiad ar y siroedd canlynol yn unig a gyfieithwyd gan Tegid; sef, Brycheiniog, Aberteifi, a Maesyfed. "*Gwaith Barddonawl Tegid*;" yn yr hwn y mae bywgraphiad yr awdwr, gan y Parch. Henry Roberts, M.A., nai o fab chwaer i Tegid, 1859. Yn 1828, cyhoeddwyd argraphiad o'r Testament Newydd dan olygiad Tegid, yn argraphdy Prifysgol Rhydychain; ac o blegid iddo ef newid y llythyraeth, gwrthwynebwyd ef yn egnïol, yn benaf gan y Parch. John Roberts, periglor Tremeirchion, golygydd y 10,000 copïau o'r Beibl a argraphwyd yn Rhydychain yn 1799; a'r Parch.

Digitized by Google

W. Bruce Knight, canghellydd Llandaf ar y pryd, a deon yr esgobaeth hono wedi hyny. Y canlyniad fu, attal lledaeniad argraphiad Tegid o'r Testament Newydd; ac os oedd llythyraeth hwnw mor anystwyth a mympwyol a llythyraeth ei draethodau, yr oedd attal ei ledaeniad yn fwy o gymmwynas i'r genedl nag o golled. Rhag i'r darllenydd dybied ein bod yn ceisio codi rhagfarn yn erbyn llythyreniaeth y gŵr enwog hwn yn ddiachos, dodwn ychydig o ymadroddion, fel esampl o'i brif draethawd, ger bron; sef, o *"Iawn Lythyreniad neu Lythyraeth yr Iaith Gymraeg:"*—

"Prysurwn weithion at ein gorchwyl; gàn ddechreu ar yr enwau cedeirn. Y rheol à roddwn mewn perthynas iddynt yw hon; sef, ar ol cael allan a phenderfynu pa yw tadogaeth neu ddefnydd y gair, gwrthoder pob llythyren nad priawd iddo, a safed hefyd yn ei burdeb cysefin pan fyddo cyfansawdd. Canys 'harddwch yr iaith yw bod ei geiriau yn dangaws eu defnydd cysefin; a chàn hyny iawn yw ysgrifenu pob gair yn null ei ddefnydd heb na mwy na llai o lythyrenau nog a fyddo yn ei ranau cysefin àr wahân, rhag cuddiaw ei ddechreuad neu ei darddiad.'—Sylwer yma nad yw *dd* bob amser yn hanfodawl i sail neu ddefnydd gair; ond gwasanaetha yn fynych i lenwi gwagle, neu er amgenach sain; megys, 'Awn idd y tŷ,' yn lle 'i y tŷ,' neu 'i'r tŷ.' Hefyd, *iddei* yn lle 'i ei,'" &c.

Yn ol y mympwy yma, byddai raid i ni fwrw ymaith, nid yn unig *i'r* ac *i'w*, ond talfyriadau persain ereill yn ogystal; megys *a'r*, *o'r*—ac ysgrifenu *ac yr*, *oc yr* neu *odd yr*, a'r cyffelyb. Ond er i Tegid, fel y rhan fwyaf o lenorion Cymreig ereill ei oes, roddi ei gymmeradwyaeth i syniadau hynod y diweddar Dr. W. Owen Pughe, yr oedd efe yn wladgarwr cywir ac eiddigus, yn ysgolhaig godidog, ac yn brydydd gwych a melus—yn enwedig, fel y crybwyllwyd, yn y mesurau rhyddion.

Ei glefyd olaf oedd y dyfrglwyf, yr hwn a roddes derfyn ar ei fywyd llafurus ar y Sabbath, Mai 2il, 1852, ac efe yn drigain mlwydd a thri mis oed, er galar cyffredinol i'w blwyfolion, a lliaws ereill a'i hadwaenent. Pan fynegwyd y newydd trist i'r Dr. Thirlwall, dywedodd yntau mewn cyffro, "I cannot sufficiently express the concern I feel, whether I consider the qualities of his heart or of his head, his private worth, his usefulness in the Church, or his literary undertakings."—*"Gwaith Barddonawl Tegid;"* *"Enwogion Cymru,"* &c.

TEILO SANT: ail esgob Llandaf. Yr oedd yn fab, fel y dywedir, i Enlleu ap Hydwn Dwn ap Ceredig ap Cunedda, o Tegwedd, merch Tegid Foel o Benllyn. Ganwyd ef mewn lle a elwid unwaith Eglwys Gunnian, neu Gunniau, yn ardal Dinbych y Pysgod, sir Benfro. Dywedir y bu yn myfyrio yn gyntaf dan Dyfrig; trwy gymmhorth yr hwn y cyrhaeddodd radd helaeth o wybodaeth ysgrythyrol. Ei athraw nesaf oedd Pawl Hen; ac yr oedd Dewi Sant yn gydfyfyriwr âg ef dano. Sefydlodd gôr neu goleg yn Llandaf, dan nawdd Dyfrig, a alwyd Bangor Deilo; a gall ei ymsefydliad yno fod yn achos o'i appwyntiad i lenwi esgobaeth Llandaf pan ymneillduodd ei noddwr, Dyfrig, i Ynys Enlli; yr hyn a ddigwyddodd, fel y dywedir, yn B.A. 512. Y mae y syniad iddo gael ei wneyd yn esgob Llandaf pan ddyrchafwyd Dyfrig i archesgobaeth Caerlleon-ar-Wysg yn anghysson âg amseryddiaeth; ac y mae haeru ei fod wedi dilyn Dyfrig fel archesgob, heb i Dewi Sant fod rhyngddynt, yn groes i bob hanes cymmeradwy, os na thybir bod Llandaf yn archesgobaeth annibynol ar Gaerlleon—yr hyn yn ddiau nis gellir ei brofi. Pa hyd y parhaodd i esgobyddu yn Llandaf sydd ansicr; ond yn amser teyrnasiad Maelgwn Gwynedd, anrheithiwyd Cymru gan bla angeuol, a elwid, "y fad felen," neu yn hytrach, "y fall felen" (*flava pestis*); ac encilodd Teilo, ac amryw ereill, i Lydaw, lle yr arfollwyd hwy yn anrhydeddus gan Samson, esgob Dole. Dychwelodd ef, ac amryw o'i ddysgyblion gydag ef, yn mhen saith mlynedd a saith mis, i wlad eu genedigaeth; a gwnaed ef yn archesgob Mynyw (Tŷ Ddewi), yr hon oedd yn wâg ar y pryd trwy farwolaeth Cynog. Gan fod ei duedd ef at safle ei esgobaeth gyntaf, efe a appwyntiodd Ismael yn esgob Mynyw, ac a symmudodd yr archesgobaeth, o gylch B.A. 559 neu 560, i Landaf; ac felly y parhaodd y drefn hyd ei farwolaeth ef—yr hyn a ddigwyddodd, fel y dywedir, o gylch B.A. 566, ac efe mewn gwth o oedran.

Yr eglwysydd y dywedir iddo eu seilio, neu y rhai a gyflwynwyd iddo, fel eu 'nawdd sant,' yw y rhai canlynol:—yn sir Gaerfyrddin, Llandeilo Fawr, a thri chapel, Capel y Drindod (Taliaris), Capel yr Ywen, a Llandyfaen; Brechfa; Llandeilo Abercywyn; Trelech a'r Bettws, a Chapel y Bettws; Llanddowror; Cilrhedyn, a Chapel Ifan: yn sir Benfro, Llandeilo, yn gyssylltiedig â Maenclochog; Llandeloi, a Chapel Llanhywel: yn sir Faesyfed, Llandeilo Graban: yn sir Frycheiniog, Llandeilo y Fan, a chapel yn adfeilion: yn sir Forganwg, Llandeilo Tal y bont; Trefesgob, neu Landeilo Ferwallt, a Chapel Caswel; Eglwys Gadeiriol Llandaf, a Chapel yr Eglwys Wen; Merthyr Dyfan; Merthyr Mawr, a Chapel Rocwi Sant: yn sir Fynwy, Llandeilo Cressenny, a Chapel Penrhos; Llanarth; a Llandeilo Bertholau.—*Liber Land.*; Rees' *"Welsh Saints,"* &c.

Y mae holl hanes y *sant* hwn, cystal a'r *saint* ereill, megys yr urdd-enw, *sant*, *esgob* (taleithiol), *archesgob*, galw lle yn *esgobaeth*, neu yn *archesgobaeth*, ac ymgiliad Dyfrig i Fynachlog Ynys Enlli, a'r cyffelyb arferion anysgrythyrol, yn profi tu hwnt i bob dadl mai egwyddorion llygredig yr Anghrist Pabaidd, ac nid egwyddorion syml y Testament Newydd, oedd yn eu llawn rwysg yn Nghymru yn amser y Teilo ap Enlleu yma.

THOMAS (Θωμᾶς): yr hwn a gyfenwid Didymus—un o'r apostolion. Yn ol traddodiad, ganwyd ef yn Antiochia. Yn rhestr yr apostolion, enwir ef gyda Mathew yn *Mat.* x. 3; *Marc* iii. 18; *Luc* vi. 15, a chyda Phylip yn *Act.* i. 13. Yn ol Gesenius, ei enw gwirioneddol oedd Iudas: ac y mae yn myned o dan yr enw hwnw yn yr *"Acta Thomæ."* Y mae yr oll a wyddys am yr apostol Thomas yn ddeilliedig o Efengyl Ioan; ac y mae yno dri amgylchiad yn cael eu nodi sydd yn gosod ei gymmeriad ger ein bron yn fanylach nag un arall o'r apostolion, gyda'r eithriad o Pedr, Ioan, ac Iudas Iscariot. Ymddengys ei fod o ran ei gymmeriad yn un hwyrfrydig i gredu, yn gweled holl anhawsderau achos a ddygid o'i flaen, yn tueddu i fod yn isel a phrudd o ran ei feddwl, yn edrych ar yr ochr dywyll i bethau, ac etto yr oedd yn llawn o gariad brwdfrydig at ei Arglwydd.

Digitized by Google

Y mae y llinell gyntaf yn ei gymmeriad i'w chanfod yn ei araeth pan yr oedd ei Arglwydd yn penderfynu wynebu y peryglon oedd yn ei aros ar ei daith i Bethania: "Yna y dywedodd Thomas, yr hwn a elwir Didymus, wrth ei gyd-ddysgyblion, Awn ninnau hefyd, fel y byddwn feirw gydag ef;" *Ioan* xi. 16. Nid oedd yn coleddu y gobaith lleiaf y cawsai ddiangc—edrychai ar y daith fel un yn arwain i ddinystr hollol; ond penderfynai fod yn gyfranog o'r perygl. Fel Iob, yr oedd yn barod i ddyweyd, "Pe lladdai efe fi, etto mi a obeithiaf ynddo ef." Daw yr ail linell yn ei gymmeriad i'r golwg yn yr hyn a ddywedodd ar adeg y Swper diweddaf, "Dywedodd Thomas wrtho, Arglwydd, ni wyddom ni i ba le yr wyt ti yn myned; a pha fodd y gallwn wybod y ffordd?" *Ioan* xiv. 5. Amlygiad sydd yn y geiriau o ammheuaeth anghrediniol i symmud yn mlaen i'r dyfodol tywyll—ac etto ymofyniad awyddus pa fodd yr oedd y cam hwn i'w gymmeryd. Y drydedd linell yn ei gymmeriad a ganfyddir ar ol adgyfodiad Crist. Yr oedd efe yn absennol—o bossibl yn ddamweiniol—o gyfarfod cyntaf y dysgyblion ar ol yr adgyfodiad, pan yr ymddangosodd yr Iesu iddynt. Mynegodd y lleill iddo yr hyn a welsant. Torodd yntau allan i lefaru, mewn ymadroddion a ddengys ar unwaith frwdfrydedd ei ammheuon, ac ar yr un pryd fywiogrwydd y darlun oedd ar ei feddwl o gorph marw ei Arglwydd ar y groes—"Oni chaf weled yn ei ddwylaw ef ôl yr hoelion, a dodi fy mys yn ôl yr hoelion, a dodi fy llaw yn ei ystlys, ni chredaf fi;" *Ioan* xx. 25.

Ar yr wythfed dydd, ar ol yr ymddangosiad cyntaf o eiddo Crist, daeth y dysgyblion ynghyd, ac yr oedd Thomas gyda hwynt—yn disgwyl, dybygid, am ymweliad cyffelyb i'r un a gafwyd yr wythnos flaenorol; a daeth yr Iesu ac a safodd yn eu canol hwynt. Dywedodd yr un geiriau "Tangnefedd i chwi!" ac yna efe a drodd at Thomas, fel pe hyny a fuasai amcan mawr ei ymddangosiad, a dywedodd eiriau yn cyfleu y syniad o anghymmeradwyaeth yn gystal a cherydd tyner, gan fod ymadroddion Thomas yn dangos petrusder ac ammheuaeth:—"Moes yma dy fys, a gwêl fy nwylaw, ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys: ac na fydd anghredadyn, ond credadyn;" *Ioan* xx. 27. Yr oedd yr effeithiau a gynnyrchasant arno yn uniongyrchol. Daeth yr argyhoeddiad a ddygwyd o amgylch gan symmudiad ei ammheuon yn ddyfnach ac yn gryfach na'r eiddo un o'r apostolion. Y mae yr ymadroddion a ddefnyddiwyd ganddo i amlygu ei grediniaeth yn cynnwys tystiolaeth gliriach i natur ddwyfol ei Arglwydd nag odid un arall o'r apostolion—"Fy Arglwydd a'm Duw!" Y mae attebiad Iesu Grist yn symio i fyny y wers fawr ganlynol oddi wrth yr holl hanes: "Am i ti fy ngweled, Thomas, y credaist: bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant;" *Ioan* xx. 29. Dyma y linell yn ei gymmeriad ag y mae oesoedd dilynol wedi dal arni yn fwyaf pennodol. Yn y cerflun enwog a wnaeth Thornaldsen o Thomas, yr hwn sydd yn eglwys Copenhagen, y mae efe yn sefyll fel ammheuwr, meddylgar a myfyriol, gyda llinellor (*rule*) yn ei law, fel pe buasai am fesur yn briodol pob tystiolaeth ac ymresymiad.

Ni cheir gair am Thomas ond ar ddau achlysur yn y Testament Newydd ar ol hyn: unwaith pan ar Fôr Galilea gyda'r saith dysgybl, lle yr enwir ef yn nesaf i Pedr (*Ioan* xxi. 2); a thrachefn, pan ddaeth yr apostolion ynghyd ar esgyniad Crist: *Act.* i. 13. Y mae llawer o draddodiadau a chwedlau yn cael eu hadrodd am y rhan olaf o'i oes; pa rai, yn gymmaint ag nad ydynt yn gorphwys ar seiliau ysgrythyrol, na ddylid rhoddi nemawr o bwys arnynt. Yn ol y traddodiadau boreuaf, fel y derbynid hwynt yn y bedwaredd ganrif, treuliodd ei fywyd yn benaf i bregethu yn Parthia neu Persia, a chladdwyd ef yn Edessa. Sonia Chrysostom am ei feddrod yn Edessa fel un o'r pedwar bedd gwirioneddol o eiddo yr apostolion y gwyddid am danynt; y lleill oeddynt yr eiddo Pedr, Paul, ac Ioan. Gyda'r adroddiad fod ei fedd ef yn Edessa y cyttuna y chwedl am anfoniad Thadeus i Abgarus gyda llythyr ein Harglwydd. —"*Eus.* H. E.," i. 13. Y mae traddodiadau diweddarach yn myned âg ef yn mhellach i'r dwyrain, ac yn priodoli iddo ef sylfaeniad yr eglwys Gristionogol yn Malabar, aelodau yr hon sydd yn parhau i gael eu galw yn "Gristionogion Sant Thomas;" a phroffesir dangos ei fedd yn y gymmydogaeth. Ystyrir yn awr, pa fodd bynag, mai y rheswm am hyny ydyw, ei fod yn cael ei gymmeryd yn lle rhyw Thomas diweddarach—cenhadwr oddi wrth y Nestoriaid. Dywedir iddo gael ei ferthyru, naill ai yn Persia neu yn India, trwy gael ei drywanu â phicell.

THOMAS AQUINAS: hyny yw, Thomas o Aquino, yn Naples. Yr oedd y duwinydd enwog hwn yn hanu o deulu pendefigaidd: yr oedd yn fab ieuangaf i Landulf, Count o Aquino, ac Argl. Loretto a Belcastro, yr hwn oedd nai i'r ymherawdwr Frederick I. Ganwyd ef yn 1227, yn ol rhai awdurdodau, yn Nghastell Aquino; ond yn ol ereill, yn Nghastell Rocca Secca, palas y teulu, ger llaw mynachdy Monte Casino. Pan yn bum mlwydd oed, danfonwyd ef i'r mynachdy ger llaw i dderbyn elfenau addysg; a phan yn dair ar ddeg oed, symmudodd i brif ysgol Naples, yr hon a sylfaenwyd yn 1230 gan ei gâr, yr ymherawdwr Frederick II. Yr oedd wedi amlygu cariad mawr at fywyd efrydgar er yn ieuangc, ac yr oedd amgylchiadau yr amseroedd, ar amryw ystyriaethau, y fath ag a'i tueddai yn naturiol i arwain bywyd tawel, myfyrgar, ac ymroddgar i ymchwiliadau dysgedig. Yr oedd ei wlad enedigol yn cael ei chynnhyrfu gan anghydfod gwladol, fel, os oedd am ymgymmysgu â'r byd, mai y gelfyddyd filwraidd oedd yr unig un y gallai ddisgwyl cyrhaedd enwogrwydd ynddi. Ar y llaw arall, yr oedd cyffroad gwresog wedi ei ddeffro yn ddiweddar yn mysg pob dosbarth gan adnewyddiad dysg ac athroniaeth; yr hyn a ddaeth â'r byd yn mlaen gam pwysig mewn gwareiddiad. Ynghylch y fl. 1217, yr oedd urdd y mynachod pregethwrol a elwir ar ei enw wedi ei sylfaenu gan Dominic; ac â'r corph hwn, oedd eisoes yn boblogaidd, y penderfynodd y pendefig ieuangc ymuno. Ar ei ddymuniad taer y darfu i benaeth eu mynachdy yn Naples ganiatau iddo ddyfodiad i mewn fel newyddian (*novice*). Yr oedd yn y bymthegfed flwydd o'i oedran; ac yr oedd y cam pwysig yma wedi ei gymmeryd ganddo yn ddiarwybod i'w rieni. Mor fuan ag y daethant i wybod hyn, prysurodd ei fam i Naples, gan obeithio y gallasai ei berswadio i newid ei benderfyniad. Pan y deallodd Thomas hyny, mewn trefn i'w gochelyd, efe a ffodd i Rufain: aeth hithau ar ei ol i'r ddinas hono, ond yno deallodd ei fod ef eisoes ar ei ffordd i Paris. Goddiweddwyd ef,

Digitized by Google

pa fodd bynag, ar y ffordd gan ddau o'i frodyr oedd yn hynach nag ef, ac yn swyddogion yn myddin ymherawdwr Tuscany, a dygwyd ef yn ol i Rocca Secca. Ond nid oedd annogaethau na bygythion yn llwyddiannus i beri iddo newid ei benderfyniad; ac o'r diwedd, yn mhen tua blwyddyn, cafodd y mynachod gan yr ymherawdwr a'r pab, Innocent VI., i ymyraeth yn yr achos; ac yn ol eu gorchymyn hwy caniatawyd iddo ddychwelyd yn ol i'r mynachdy. Yn fuan ar ol hyny (1243), er rhoddi attalfa ar bob ymdrech i'w attal i gario allan ei fwriadau, gwnaeth broffes gyhoeddus o'i berthynas â'r Dominiciaid; ac wedi hyny efe a aeth i Cologne i wrando ar y darlithiau athronyddol a duwinyddol a draddodai Albertus Magnus yn y mynachdy Dominicaidd yno. Yma, o herwydd ei ddistawrwydd myfyriol, rhoddwyd arno yr enw, 'Ych Mud,' gan ei gydefrydwyr. Canfu ei athraw, pa fodd bynag, yr athrylith oedd wedi ei lapio i fyny yn y distawrwydd tawedog; a sylwai, os byddai i'r ych hwnw ddechreu rhuo unwaith, y llenwid y byd â'i sŵn. Ar ol aros am ychydig flynyddoedd yn Cologne, efe a aeth gydag Albertus ar ymweliad â Pharis, a dychwelasant yn ol ynghyd yn 1248. Ordeiniwyd Aquinas yn awr yn offeiriad. Dychwelodd i Paris drachefn yn 1263. Yn fuan ar ol hyn efe a gyhoeddodd y gwaith cyntaf a ddaeth âg enwogrwydd iddo fel ysgrifenydd ac awdwr; sef, traethawd mewn amddiffyniad i fywyd mynachaidd, mewn attebiad i un o ddoctoriaid y Sorbonne; yr hwn a ymosododd ar freintiau yr urddau cardotol newyddion. Wedi hyny efe a amddiffynodd y tir a gymmerodd i fyny mewn dadl rhyngddo a'i wrthwynebwr, yn mhresennoldeb y pab Alexander IV. Dygodd hyn, a dadleuon ereill cyffelyb y cymmerodd ran ynddynt, iddo enwogrwydd mawr. Yn 1255, derbyniodd Aquinas ei radd o ddoctor mewn duwinyddiaeth o brif ysgol Paris; ac wedi hyny treuliodd amryw flynyddoedd yn y ddinas hono, gan ddarlithio gyda chymmeradwyaeth mawr. Yn 1272, modd bynag, efe a ddychwelodd i Italy, a dysgodd dduwinyddiaeth am ddwy flynedd yn Naples. Erfyniai y pab Gregory X. am ei bresennoldeb mewn cynghor cyffredinol i gyfarfod yn Lyons, gyda'r amcan o ddwyn oddi amgylch undeb rhwng eglwysi y dwyrain a'r gorllewin, a pharotodd yntau ar gyfer y daith; ond cyn cychwyn efe a dalodd ymweliad â'i nith, Frances o Aquino, gwraig y Count Annibal de Ceccano. Wedi cyrhaedd eu trigfod hwy, yn nghastell Magenza, tarawyd ef i lawr yn ddisymmwth gan dwymyn, a dymunodd gael ei symmud i fynachdy Fossi-Novi; ac yno y bu farw ar y 7fed o Fawrth, 1274, yn yr wythfed flwydd a deugain o'i oedran.

Yr oedd yr anrhydedd a dalwyd i Thomas Aquinas yn ystod ei fywyd, ac ar ol ei farwolaeth, yn gyfryw ag a delir i ddynion hynod am eu mawredd meddyliol. Yr oedd pabau, brenhinoedd, ymherawdwyr, cymdeithasau o ddysgedigion, a dinasoedd mawrion yn ymawyddu am gael ei bresennoldeb yn ystod ei fywyd; ac mor fuan ag y bu farw, yr oedd yr urdd y perthynai iddi, brodyr y mynachdy yn yr hwn y bu farw, a mynachod Prifysgol Paris, lle y bu yn efrydydd, yn dadleu eu hawliau i gael ei gorph. Ni therfynodd y ddadl hon am yn agos i gan mlynedd, trwy symmudiad ei weddillion ar yr 28ain o Ionawr, 1369, i fynachlog Dominicaidd Toulouse, lle y codwyd cofadail ardderchog uwch ben ei weddillion, ac y mae i'w gweled yno etto. Canoneiddiwyd ef gan y pab Ioan XXII. yn 1323; a chyhoeddwyd ef yn un o ddoctoriaid yr eglwys gan y pab Pius V. yn 1567.

Canmolwyd ysbryd crefyddol a rhinweddau moesol Aquinas yn fawr gan ei gydoeswyr. Ymddengys fod ei wres a'i ddiffuantrwydd crefyddol yn cael eu dilyn gan ostyngeiddrwydd a llarieidd-dra tymmer nodedig. Yr oedd ei weithiau yn dra phoblogaidd mewn amseroedd a aethant heibio. Yr argraphiad goreu o honynt yw yr un a gyhoeddwyd yn Rhufain, yn 1570, mewn dwy ar bymtheg o gyfrolau unplyg. Y mae amryw o'i draethodau wedi myned trwy lawer o argraphiadau. Y mwyaf enwog o honynt yw ei "*Summa Theologiæ*," yr hwn sydd yn parhau yn awdurdod yn yr Eglwys Babaidd. Ammheuir yn awr nad ydyw llawer o'r gweithiau a briodolir i Aquinas yn eiddo iddo ef. O'r opiniynau duwinyddol a goleddid ganddo, y mwyaf cofiadwy ydyw ei ddadganiad o effeithiolrwydd mawr ac anwrthwynebol dwyfol ras. Gwrthwynebwyd yr athrawiaeth hon wedi hyny gan Dins Scotus; a bu yn bwnge o ddadl frwd am oesau rhwng y Thomistiaid a'r Scotiaid, fel y gelwid dilynwyr y ddau ddoctor. Diammheuol fod Aquinas yn ddyn ag oedd yn feddiannol ar athrylith gref:—ysgrifenai farddoniaeth yn gystal a rhyddiaith; ac y mae rhai o'r hymnau Lladinaidd a ddefnyddir yn Eglwys Rhufain hyd heddyw yn gyfansoddiadau o'i eiddo ef. Ymddengys ei fod yn enwog hefyd am ei ddywediadau ffraethbert. Y mae un o'r rhai hyn ar gael, sef ei attebiad i Innocent IV., pan y darfu i'r pab hwnw, wrth weled arian yn dyfod i mewn iddo pan oeddynt gyda'u gilydd, sylwi "Chwi a welwch fod yr amser hwnw wedi myned heibio ar yr eglwys pan y dywedid, 'Arian ac aur nid oes genyf.'" "Ydyw, sanctaidd dad," attebai Aquinas; "ac y mae y dydd wedi myned heibio hefyd pan y gallasai ddywedyd wrth y parlysedig 'Cyfod, a chymmer i fyny dy wely, a rhodia.'" Y teitlau a roddir i Aquinas yn rhestr y doctoriaid ysgolheigaidd, ydynt, 'y doctor angylaidd,' ac 'angel yr ysgolion.'

THOMAS A BECKET: yr hwn a elwir yn nghalendar Eglwys Rhufain ST. THOMAS o GAERGAINT. Ganwyd ef o rieni Seisnig yn Llundain, yn 1117, lle yr oedd ei dad, Gilbert, yn farsiandwr. Ar y cyntaf addysgwyd ef yn mynachdy Merton, yn Surrey; ac wedi hyny yn Llundain, Rhydychain, a Pharis. Cymmerwyd sylw o hono gan Theobald, archesgob Caergaint, yr hwn oedd yn gydnabyddus â'i dad. Anfonodd yr archesgob ef i astudio y gyfraith yn Bologna, ac wedi hyny i Auxerre. Ar ei ddychweliad yn ol, rhoddodd ei noddwr iddo fywoliaethau St. Martin's-le-Grand, ac Otteford, yn Nghaint; ac anfonodd ef i reoli gwaith archesgobaeth Caergaint yn llys Rhufain; a chyflawnodd ei waith yno gyda'r fath ddeheurwydd fel y boddhawyd yr archesgob a'r brenin Harri II. yn fawr. Pennododd Theobald ef yn archddiacon Caergaint, ac yn gorberiglor Lincoln a St. Paul; a gwnaeth Harri ef yn ganghellydd yn 1158. Becket oedd y Sais cyntaf a bennodwyd i unrhyw swydd o bwys ar ol y gorchfygiad Normanaidd. Tra yn gweinyddu y swydd hon, cydffurfiai Becket â gwisgoedd, arferion, a rhwysg y llys. Yr oedd ei fwrdd yn cael ei arlwyo o'r bron yn wastraffus; a'i osgordd a'i

Digitized by Google

weision wedi eu gwisgo yn ysblenydd. Er boddio chwaeth filwraidd y brenin, aeth gydag ef ar ei gadymgyrch i Ffraingc—yn flaenor ar ddeuddeg cant o feirchfilwyr, a saith gant o farchogion (*knights*); ac efe oedd eu harweinydd mewn amryw o warchaeadau, a chyda'i waywffon ei hun taflodd farchog Ffrengig, enwog am ei fedrusrwydd a'i ddewrder, oddi ar ei farch. Tua'r pryd hwn, pennododd y brenin ef yn athraw i'w fab. Yn 1160, bu yn llwyddiannus i gario yn mlaen ymdrafodaeth briodasol rhwng y tywysog Harri a Margaret, merch brenin Ffraingc.

Ar ol bod am o ddeutu pedair blynedd yn ganghellydd, bu farw archesgob Caergaint; a chymmerodd y brenin, yr hwn oedd ar y pryd yn Normandy, fesurau oedd o'r bron yn gorfodi y mynachod a'r clerigwyr i ethol Becket i'r archesgobaeth wâg. Foliot, esgob Llundain, oedd yr unig un a'i gwrthwynebodd ef yn gyhoeddus: dychrynwyd y lleill gan fygythion y brenin. Gan nad oedd wedi cael ond urddau diacon, ordeiniwyd ef yn offeiriad y diwrnod cyn ei neillduo yn archesgob yn 1162, yn mhresennoldeb y tywysog Harri, a llawer o'r pendefigion. Y cam cyntaf a gymmerodd efe ar ol derbyn ei fantell esgobol oddi wrth y pab Alexander III., oedd anfon ei ymddiswyddiad fel canghellydd i'r brenin; am yr hyn yr amlygodd Harri ei anfoddlonrwydd, ar ei ddychweliad i Loegr, trwy roddi iddo dderbyniad oeraidd, a'i orfodi i roddi i fyny ei archddeoniaeth, yr hon yr ewyllysiai ei chadw.

Newidiodd Becket ei ddull o fyw. Trodd yn fynach yn ei arferion; cystuddiai ei gorph; cyfranai lawer o roddion mewn elusenau, a golchai draed y tlodion. Cafodd dderbyniad gwresog yn nghynghorfa Rheims; ac yno efe a dystiai fod y llëygwyr yn cyfyngu ar hawliau a meddiannau yr eglwys yn Lloegr. Ar ei ddychweliad cospai y troseddwyr, hawliai warchodaeth Castell Rochester, a mynai warogaeth gan iarll Clair am faenoriaeth Tunbridge, ac esgymmunodd William, arglwydd maenor Aynsford yn Nghaint, am droi ymaith offeiriad a bennodwyd i'r berigloriaeth yn y maenor hwnw gan yr archesgob. Nid hir y parhaodd y brenin ac yntau ar delerau cyfeillgar. Ewyllysiai Harri wneyd yr urdd glerigol yn ddarostyngedig i'r llysoedd gwladol am lofruddiaeth, lladrad, a throseddau cyffelyb; ac ymdrechodd, yn 1164 i gael cydsyniad yr archesgob â "Gosodiadau (*Constitutions*) Clarendon." Gwrthododd Becket, a gwnaeth lŵ difrifol na chydsyniai â hwynt byth. Ond o'r diwedd, darfu i waith amryw o'r esgobion ereill yn cydsynio, bygythion y pendefigion, ac ymyriad y pab, ei orfodi i dori ei lŵ, a gosod ei sêl ar y Gosodiadau. Ond yr oedd y brenin wedi ei anfoddloni, a gwysiodd y senedd i Northampton yn 1165, a chyhuddodd yr archesgob o fod yn annheyrngarol, a dirwywyd ef i 500*p*. Dranoeth; gorchymynwyd iddo droi yn ol 300*p*. o'r ardrethoedd a dderbyniodd fel warden Eye a Berkhamstead, a 500*p*. a gafodd gan y brenin o flaen muriau tref Toulouse; a gwnaed gofynion ereill cyffelyb. Yn ofer yr appeliai Becket at y pab—ac yr oedd ei frodyr esgobol yn cefnu arno. Pan yr oedd pob peth fel yn myned yn ei erbyn, efe a ddiangodd o Northampton yn y nos, ac a aeth i Ffraingc; a bu fyw am yn agos i ddwy flynedd yn Pontigny yn y wlad hono; ac wedi hyny aeth i Sens, lle yr arosodd mewn neillduaeth.

O'r diwedd, ar ol llawer o ymdrafodaeth, yn 1170, gwnaed cymmod rhwng Becket a'r brenin yn Freitville. Dychwelodd y blaenaf i Gaergaint, ac amlygodd y preswylwyr lawenydd mawr. Ond ar ol ei holl helyntion, bu yn ddigon ynfyd i geisio attal archesgob Caerefrog, a'r holl esgobion a gynnorthwyasant yn nghoroniad y tywysog Harri, rhag gweinyddu eu swydd; a mynegir fod y brenin, yr hwn oedd ar y pryd yn Normandy, wedi dadgan ei ofid nad oedd neb wedi dial arno am y trahâ hwn. Penderfynodd Reginald Fitzurse, William de Tracy, Hugh de Moreville, a Richard Brito, pedwar o farwniaid, naill ai i orfodi yr archesgob i ymostwng, neu i'w roddi i farwolaeth; a chyfarfuant â'u gilydd ar yr 28ain o Ragfyr, 1170, yn Nghastell Ranulp de Broe, chwe milldir o bellder o ddinas Caergaint, lle y ffurfiasant eu cynllun. Aethant i mewn i Gaergaint yn foreu dranoeth gyda llu o wŷr, y rhai a osodwyd mewn amryw gyrau o'r ddinas, gyda'r amcan o gadw y dinasyddion i lawr. Buont yn ymddiddan â'r archesgob yn ei balas yn y boreu, ond nis gallent gydweled a chyttuno â'u gilydd. Yn yr hwyr, hwy a aethant tua'r eglwys gadeiriol, lle yr oedd Becket a rhai o'r clerigwyr yn dwyn yn mlaen y gwasanaeth hwyrol. Pan ddeallwyd eu bod yn dyfod, mynai rhai o'r clerigwyr gau y drysau; ond ni oddefai yr archesgob iddynt "droi yr eglwys yn gastell." Efe a wynebodd y bradlofruddion yn eofn; ac yn wyneb eu bygythion, rhoddodd ar ddeall ei fod yn foddlawn i farw, ond erfyniodd yn daer ar iddynt beidio cyffwrdd â neb arall. Ceisiodd y brâdlofruddion ei lusgo allan o'r eglwys; ond efe a ymaflodd yn un o'r colofnau yn agos i'r brif allor. Ceisiodd Fitzurse daro yr archesgob yn ei ben; ond rhoddodd rhyw glerigwr o'r enw Grines ei fraich rhyngddo a'r ddyrnod, ac aeth y cleddyf trwy ei fraich, ac archollodd hefyd yn ysgafn ben Becket. Yna disgynodd yr archesgob ar ei liniau, mewn ystum gweddïwr; ac yn yr agwedd hon y lladdwyd ef, pan yn 53ain mlwydd oed. Ar ol y llofruddiaeth ymneillduodd y llofruddion i Knaresborough, a deallasant yn fuan fod pawb yn eu hosgoi ac yn cilio rhagddynt. Gorphenasant eu dyddiau fel rhai yn dwyn penyd yn Ierusalem, a gosodwyd ar eu bedd yr arysgrifen a ganlyn yn Lladin:—"Yma y gorwedd y dyhirod a lofruddiasant St. Thomas o Gaergaint." Yn ol gorchymyn y pab, ni chynnaliwyd gwasanaeth crefyddol yn yr eglwys gadeiriol am flwyddyn. Yn mhen dwy flynedd wedi hyny canonwyd Becket.

THOMAS, CRISTIONOGION ST. Cyfundeb crefyddol hynod oedd hwn, a ymsefydlodd yn lled foreu ar ororau Malabar, yn y gorynys Indiaidd. Cymmerant eu henwau oddi wrth yr apostol Thomas; yr hwn, yn ol hen draddodiad—ond traddodiad, fodd bynag, nad oes un awdurdod bennodol neu foddhaol drosto—a bregethodd yn India, ac a ystyrir gan rai yn apostol y wlad hono. Mor foreu a'r chweched ganrif, sonia y morwr adnabyddus, Casmas Indicopleustes, am gyfundebau Cristionogol lliosog yn India, o dan ofal bugeiliol esgobion a anfonasid yno o Persia. I'r amgylchiad hwn y gellir priodoli dirywiad y Cristionogion Indiaidd, fel y rhai Persiaidd, a'u gwaith yn mabwysiadu heresi y Nestoriaid; y rhai, ar ol penderfyniadau cynghorau Ephesus a Chaledon, a erlidiwyd, yn ol cyfreithiau gwladol yr ymherodraeth

Digitized by Google

Rufeinig, y tu hwnt i derfynau ei hawdurdod, ac a gawsant noddfa yn mysg trigolion Persia. Ar ol iddynt unwaith gael eu sefydlu yn mysg y bobl, parhaodd yr opiniynau hyn i gael eu proffesu gan Gristionogion yr ardaloedd hyny trwy holl gyfnewidiadau a chwyldroadau yr oesoedd dilynol. Yr oeddynt yn gyfyngedig i ororau Malabar yn mron yn hollol—yn ymestyn o benrhyn dehcuol Comorin, mor bell a Calicut; ac y maent i'w cael etto yn wasgaredig ar hyd y parthau hyny, o lechweddau gorllewinol y Ghauts i'r môr. O'r amser y cofleidiasant Nestoriaeth, urddid eu hesgobion gan batriarch Nestoraidd Babilon; ac yr oeddynt yn meddu breintiau gwladol neillduol o dan y teyrnachau olynol a deyrnasent yn neheubarth India. Ar y cyfan, pa fodd bynag, dioddefent gryn lawer o ormes; a phan yr ymddangosodd y Portugeaid yno, yn y fl. 1598, edrychai Cristionogion Sant Thomas—er eu bod yn Nestoriaid—arnynt fel eu gwaredwyr. Ond canfyddodd y cenhadon gorllewinol y gwahaniaeth oedd yn eu credo, a gwnaed ceisiadau parhaus gan genhadon olynol —y Ffrancisciaid, y Dominiciaid, a'r Jesuitiaid —i'w dwyn i gymmod â'r Eglwys Babaidd. Gwnaed rhyw fath o undeb rhyngddynt â hi gan synod a gynnaliwyd yn Diamper yn 1599; a phennodwyd Roz, un o'r tadau Iesuitaidd, yn esgob yn y fl. 1601. Ni bu yr undeb hwn, fodd bynag, yn barhaol. Tynodd y Nestoriaid yn ol o gymmundeb yr Eglwys Babaidd; a phan y gyrwyd y Portugeaid o Cochin China gan yr Isellmyniaid, cwblhawyd y rhwyg. Ymunodd cryn nifer o honynt drachefn â'r Pabyddion trwy offorynoliaeth cenhadon o urdd y Carmeliaid; a thua diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg, cafodd yr ymherawdwr Leopold I. genad gan yr Isellmyniaid i anfon esgob, a deuddeg o offeiriaid, o'r urdd hono i ororau Malabar. Un o'r gwrthwynebiadau mwyaf pendant i ddylanwad y cenhadon hyn, gyda dysgyblion Sant Thomas yn gystal a'r paganiaid, ydoedd cynllwynion ac eiddigedd y Portugeaid. Mewn amseroedd diweddar, y maent wedi ymgymmysgu gan mwyaf gyda Christionogion ereill. O ran eu daliadau, yr oeddynt yn debyg i'r eiddo Nestoriaid Caldea a Mesopotamia; y rhai y mae llawer o ymddadleu wedi bod gyda golwg ar y manylion yn eu cylch, a llawer o adroddiadau gwahanol i'w gilydd wedi eu taenu gan wahanol deithwyr a chenhadon sydd wedi ymweled â hwynt. Gwel NESTORIAID.

THOMAS AP IEUAN AP RHYS, a elwid hefyd, fel prydydd, *Twm Ifan Prys*, yr hwn a elwid gan ei elynion a'r werin afledneis yn 'Twm Gelwydd Teg.' Mab oedd efe i Ieuan ap Rhys Brydydd. Ganwyd ef yn Mlaen Cynllan, plwyf Llanharan, sir Forganwg, yn mis 'Ionor,' 1474, os gwir y pennill canlynol a briodolir iddo:—

"Un mil chwech chant yn gywrain,
A phedair blwydd yn gyfain,
Ddechrau Ionor, cyfrif teg,
Wyf gant a deg ar hugain,"

Dywedir ei fod yn brydydd da o deuluwr a chwndidwr (carolwr), ac yn brophwyd. Symmudodd ei dad yn lled fuan ar ol ei enedigaeth ef i Ben Hydd, plwyf Margam, lle y preswyliodd dros lawer o flynyddoedd. Yr oedd Pabyddiaeth eilunaddolgar yn ei llawn rwysg yn Nghymru yn amser Thomas; a bu yntau dros ryw encyd yn Mynachlog Margam; ond bwriwyd ef allan oddi yno, am ei fod yn coleddu syniadau Lolardaidd, neu Brotestanaidd; sef, syniadau Wycliff, a'r Diwygwyr a'i dilynasant ef. Wedi ei droi allan o'r fynachlog, dodwyd ef yn ngharchar Castell Cynffig, gan Syr Matthew Cradoc, fel heretic; lle y cyfansoddodd efe gân ddoniol i ddeisyf am ei ryddid gan y boneddwr hwnw, yr hwn a wrandawodd ar ei gais, ac a ymddygodd yn garedig tuag ato. Ar ol cael ei ryddid, aeth at ei dad, yr hwn oedd weithian yn Merthyr Gynog, sir Frycheiniog; a bu yn byw wedi hyny dros rai blynyddau ar dyddyn bychan yn mhlwyf Llangynwyd. Pa un bynag ai rhydd ai yn ngharchar y byddai, efe a ymlynai yn ddiysgog wrth ei gredo Protestanaidd; yr hyn a dynai ŵg Pabyddion erledigaethus ei oes arno yn barhaus. Dodwyd ef yn ngharchar eilwaith gan Syr George Herbert; ond rhyddhawyd ef drachefn; eithr ni fynegir y rhesymau dros hyny. Ymroddodd wedi hyny i fyfyrdodau crefyddol, i gyfansoddi 'cwndidau' duwiol, gan 'brophwydo' pethau hynod ar hyd y wlad, fel crwydryn; a chynnal ei hun, gan mwyaf, wrth ddyrnu ŷd. Yr oedd gweled hen ddyrnwr di-urddau yn tramwy y wlad, gan draddodi pethau ysgrythyrol, cwbl wahanol i'r ffregod a draddodid gan yr offeiriaid Pabaidd ofergoelus, a'r mynachod llygredig, yn peri i'r werin anwybodus feddwl mai "prophwydo llawer o bethau" yr ydoedd; a bod y cyfryw bethau yn ei yrn yn ynfyd. Am hyny, yn lle ei erlid a'i garcharu fel cynt, troisant i dosturio wrtho yn ei hen ddyddiau.

Sion Bradford—oedd yn ei flodau yn 1760—a ddywed y "dywedir iddo weled mewn llyfr bychan ysgrifen, y geiriau hyn:—'Ymgais o dy Dduw â'th holl allu, â'th holl fwriad, ac â'th holl ddeall; a châr ef â'th holl serch, ac â'th holl ewyllys, ac a'th holl galon. Câr dy gymmydog fel y cerit dy hunan; a dioddef drosto fel a ddioddefit dros dy Dduw, a thros dy gâr anwylgu, a thros dy hunan. Câr bob daionus, a phob hardd, a phob gwir, a phob iawn, fel y cerit dy Dduw a'th hunan. Glŷn wrthynt oni bôt gymmaint yn un âg wynt ag y mae Duw; ac o wneuthur felly, ti a fyddi mor wahanedig oddi wrth bob drwg a drygionus, ac oddi wrth bob anhardd ac anweddus, a phob anwiredd, a phob anghyfiawn, a phob twyll, a phob hud, ag y mae Duw ei hun. Nac ofna na chosp, na phoen, nac un eisieu neu ddiffyg, nac un dioddef, pe i angeu; ac na'th rwystrer ganddynt. Na chwanta ddim o ddaoedd a welot, nac a glywot am danynt, nac a ddeallot, namyn daoedd o Dduw, a'i rad o'i Ysbryd Glân; a gadael i dy Dduw drosot ac erddot. Ac o gaffaeliad ar hyn o gampau a chynneddfau, y cefi ddeall cyfiawn ar bob peth o'r byd; ac o ddeall cyfiawn, gwybod oll a fu, y sydd, ac a fydd; ac o hyny awen o Dduw, a medr ar brophwydoliaeth; yna y gwybyddi ac y dangosi oll a ddaw ar y byd hyd ddydd brawd; canys golwg Duw a fydd ynot.' Wedi darllen hyn, efe a ymroes yn ŵr duwiol iawn, ac a ddywedodd lawer o brophwydoliaethau; ac ni fynai yn y byd o dda, namyn a roddid o fodd iddo am waith a wnelai—a hyny dyrnu ŷd gan mwyaf."

Y mae yn amlwg mai syniadau ysgrythyrol a gynnwys y dywediadau uchod bron yn gyfangwbl; y rhai, yn ol pob hanes sydd ar gael am Twm Ifan Prys, a draddodai efe pan ar ei deithiau pregethwrol, ac y dywedai iddo eu cael o hen lyfr ysgrifen, sef y Beibl, yr hwn ydoedd weithian yn gwbl anhysbys i'r Cymry; am hyny,

Digitized by Google

edrychent hwy ar ei ddywediadau ef fel prophwydoliaethau, os nad oeddynt felly mewn gwirionedd. Y mae yn amlwg ei fod wedi coleddu syniadau Protestanaidd Wycliff pan oedd yn y fynachlog, o gylch 20ain oed, mor foreu ag 1494, pan y bwriwyd ef allan o honi, a hyny dair blynedd ar hugain cyn i Luther hoelio ei 95ain gosodiad Protestanaidd ar ddôr eglwys Wittenberg, yn 1517. Gellir penderfynu gan hyny mai Thomas ap Ieuan ap Rhys oedd y Protestant cyntaf erioed a fu yn Nghymru; a pharhaodd i goleddu a chyhoeddi ei egwyddorion hyd angeu—yr hyn a ddigwyddodd, fel y dywedir, yn 1617, ac efe yn yr oedran anhygoel o 143ain mlynedd. Am hyny, y mae ei goffadwriaeth yn sicr o fod yn fendigedig yn meddwl pob Protestant Cymreig a ddarllena ei hanes. —"*Iolo MSS.*;" "*Cambrian Quarterly Magazine*," &c.

THOMAS, DAVID: yr hwn a adnabyddir yn well wrth ei enw llenyddol, DAFYDD DDU ERYRI, ydoedd fab ieuangaf i Thomas a Mary Gruffydd, Pen-y-Bont, Creunant, yn y Waun Fawr, yn mhlwyf Llanbeblig, sir Gaernarfon. Yr oedd y Cymry yn gyffredin yn oes Dafydd Ddu, megys yn yr oesau gynt, yn cymmeryd eu cyfenw oddi wrth enw blaenaf y tad, yr hyn a barai iddo yntau gael ei alw yn Dafydd Thomas, yn lle Dafydd Gruffydd. Pe y ganesid ef gan mlynedd yn gynt, galwasid ef yn Dafydd ap Tomas ab Gruffydd, &c.

Gwehydd oedd Thomas Gruffydd wrth ei alwedigaeth fydol; a dywed bywgraphwyr ei fab, Dafydd Ddu, yn gyffredin, ar ol golygydd y "*Cambro Briton*," yr hynaf o honynt, bod T. Gruffydd "yn lled isel ei amgylchiadau yn y byd:"—"a weaver in poor circumstances," yw y gwreiddiol. Ond yr ydym yn credu yn wahanol; sef, mai gwehydd mewn sefyllfa gysurus oedd Thomas Gruffydd, a bod ei dad o'i flaen (taid ein bardd) mewn sefyllfa gyffelyb; canys dywedir y medrai T. Gruffydd ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg a Saesneg, a'i fod yn deall rheolau barddoniaeth, sef rheolau y mesurau caethion, yn dda. Hefyd, yr oedd ei fab, Humphrey Thomas, brawd hynaf ein bardd, yn swyddog yn Nholldy (*Custom-house*) Caernarfon, ac yn ysgolfeistr; yr hyn sydd arwydd ddiffael ei fod wedi cael llawer gwell dygiad i fyny na'r rhan fwyaf o ieuengctyd yr oes hono. Yr oedd H. Thomas yn ŵr rhagorol yn ei ddydd; canys dywed R. Davies am dano, ar ol iddo farw yn 60ain mlwydd oed, yn 1805:—

Torwyd teg athraw'n tiroedd—perl addysg
Pur oleu-ddoeth ydoedd;
I ugeiniau, i gannoedd,
Dyn o les a doniol oedd.

Bu mab arall i T. Gruffydd, John Thomas, ail frawd ein bardd, yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd dros ddwy a thrigain o flynyddoedd, sef hyd ei farwôlaeth yn 1831, pan yr oedd yn ddwy a phedwar ugain mlwydd oed.

Yr oedd Thomas Gruffydd ei hun hefyd, tad y teulu athrylithgar hyn, yn un o bregethwyr cyntaf y Trefnyddion Calfinaidd yn Ngogledd Cymru; ac y mae genym dystiolaeth ei gydoeswyr, Robert Jones, Rhos-y-lan, awdwr "*Drych yr Amseroedd*," a Sion Lleyn, ei fod yn bregethwr cymmeradwy, yn ŵr o feddwl eryf, yn meddu craffder helaeth yn athrawiaeth yr efengyl, ac yn fardd gwych. Ymddengys, oddi wrth farwnad Sion Lleyn i Thomas Gruffydd, o'r hon y dyfynwn ychydig, fod ei ddylanwad fel blaenor a phregethwr yn fawr yn mhysg ei frodyr; a'i fod yn dra ffyddlawn i gyrchu pregethwyr o bell ac agos i'w gymmydogaeth—yr hyn oedd yn draul a thrafferth yn ei ddyddiau ef. Bu farw Thomas Gruffydd yn hen ac yn llawn o ddyddiau (ni ddywedir pa faint), ar y 5ed o Orphenaf, 1781; a chladdwyd ef yn mynwent Bettws Garmon. Dyma ychydig o'r hyn a ddywed Sion Lleyn am dano:—

Thomas bu graffwas ab Gruffydd—ple'r aeth,
Wr ethol o'r Gweunydd?
Mewn monwent yn min mynydd,
Llwch y sant yn llechu sydd.

Angau oer syn, fy ngwers yw,
Oll a droedia, lleidr ydyw:
Dwyn yr hael a'r gwael gwelaf,
Dwyn cawr o dano caf;
A dwyn o'r Waun, dyner wedd,
Wr enwog i'w oer annedd.
Y Waun sy lom am Domas,
Llai yw ei ched grêd a grâs,
Ni bu 'n ddoeth neb yn ei ddydd
Graffach na Thomas Gruffydd.
Ei ofal oedd ddyfal ddwys,
Mawr wiwglwm am yr eglwys:
Hi oedd ei fam hoywaidd fwyn,
Wych ryddfodd, a'i chwaer addfwyn.
Dibaid i'w rhaid bu'n rhydd,
A chwannog am ei chynnydd.
Er maeth helaeth i hon
Dygodd wir weinidogion,
Trwy lafur, mewn traul hefyd,
Bu ffyddlon i hon o hyd.
Ymgeleddodd hoffodd hi,
Ei wres addysg roes iddi,
Aeth un dwys i'r gwys o'r gwŷr,
Daearwyd llygaid eryr.

Ymddengys i ni, mewn gwirionedd, fod holl deulu Dafydd Ddu—ei dad, a'i ddau frawd, ac fe allai y fam hefyd—yn llawn mor deilwng o goffadwriaeth yn y gwaith hwn, ag ydyw efe ei hun; yr hyn yw ein hunig esgusawd dros ddodi cymmaint ag a wyddom o'u hanes ger bron y darllenydd.

Wrth daflu trem dros amryw o brif ddynion Cymru, tueddir ni i feddwl fod rhyw swyn yn y gelfyddyd wehyddol i dynu doniau o athrylith allan. Gwehydd oedd tad y Dr. Davies o Fallwyd; ac yntau hefyd, yn ol pob tebygrwydd, yn ei ddyddiau boreuaf. Gwehydd oedd John Evans, y Bala; John Elias, o Fôn, a'i frawd Dafydd Elias; John Hughes, Pont Robert; Gwilym Caledfryn; a dyma Dafydd Ddu Eryri, a'i dad enwog, T. Gruffydd, yn wehyddion.

Ganwyd Dafydd Ddu yn mis Ebrill (pa ddiwrnod, ni fynegir), yn y fl. 1760, yn hen gartref ei rieni, Pen-y-Bont, Creunant; ac yno y magwyd ac y meithrinwyd ef hyd yn un ar hugain oed, pan fu farw ei dad, os nad hyd ychydig yn ddiweddarach. Yr oedd cael ei ddwyn i fyny mewn teulu duwiol ac athrylithgar, fel teulu Pen y Bont—dan ofal tad mor grefyddol, craffus, a galluog—yn fwy o wir fantais i'r bardd na phe dygasid ef i fyny mewn palas gorwych, yn mhlith teulu o dueddiadau a moesau gwahanol. Ymddengys na wisgodd yr argraphiadau a gafodd ar ei feddwl yn mhlith ei deulu godidog byth ymaith yn llwyr; er, ond odid, na weithiodd efe hwy allan yn gwbl yn ol meddwl ei dad, a'i frodyr; canys nid ymunodd Dafydd Thomas byth â'r Methodistiaid Calfinaidd, nac âg unrhyw blaid Ymneillduol arall o Gristionogion; ond dywedir ei fod yn aelod cysson o'r Eglwys Sefydledig. Pa fodd bynag, ymddengys

Digitized by Google

fod symledd a difrifwch Puritanaidd yr hen Fethodistiaid cyntaf, yn mhlith y rhai y magwyd ef mor ofalus, yn ei ddilyn ar hyd ei oes; canys yn y rhyfel bapur a fu rhyngddo ag amryw o aelodau penrhydd Cymdeithas Cymreigyddion Llundain, gwelir eu bod hwy yn dannod iddo ef ei fod yn rhy Fethodistaidd, tra y dannodai yntau Ddeistiaeth iddynt hwythau. Heb law yr edliwiadau a nodwyd, a'u cyffelyb, sy'n dangos nad oedd Dafydd Ddu rydd i redeg i'r unrhyw ormod rhysedd â rhai o'i gydoeswyr, y mae'r naws crefyddol a dywalltwyd i'w feddwl ieuangc gan ei dad rhinweddol a galluog, i'w weled yn rhedeg fel gwythïen euraidd trwy ei holl gyfansoddiadau, yn enwedig ei ganiadau moesol a chrefyddol.

Lled wanaidd a thyner ydoedd cyfansoddiad corphorol Dafydd Ddu, o'i febyd hyd ei fedd. Byddai yn cael ei flino yn fynych, er yn fachgen, gan boen yn ei ochr, a gwendidau ereill; a byddai oerfel yn chwanegu ei boenau yn ddirfawr. Credwn mai ei wendid corphorol oedd y prif, os nad yr unig achos na chafodd efe yr un manteision ysgolaidd ag a gafodd ei ddau frawd arall. Pa wedd bynag, gwnaed y diffyg yma i fyny i raddau helaeth, os nad yn gyflawn, gan ei dad gofalus a thalentog; yr hwn a ddysgodd iddo ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg a Saesneg, cyn iddo gael diwrnod o ysgol ddyddiol yn ei fywyd. Hefyd, dysgodd ei dad ef i weu edafedd ar y gwehydd, ac i weu geiriau yn ol Rheolau Barddoniaeth Dafydd ap Edmwnt; canys yr oedd yr hen ŵr yn deall cynghanedd yn bur wych. Fel hyn, cafodd meddwl Dafydd Ddu ei ogwyddo at farddoniaeth pan yr oedd yn ieuangc a hyblyg.

Pan oedd tua phedair ar ddeg oed, dododd ei dad ef yn yr ysgol gydag un John Morgan, parson Llanberis; eithr o blegid rhywbeth sydd yn anhysbys yn awr (gwendid iechyd fel yr ydym yn dyfalu), ni bu yn yr ysgol hono ond wyth mis. Gan fod oerfel yn effeithio mor niweidiol ar ei iechyd, y mae yn dra thebyg iddo fyned i'r ysgol tua dechreu Mai, a dyfod oddi yno tua dechreu Ionawr, wedi i'r tymmor oer ddyfod i mewn. Beth bynag am hyny, dyna'r holl ysgol ddyddiol a gafodd, oddi gerth tri mis y bu rywbryd drachefn yn yr ysgol gydag un Mr. Lewis, parson Bettws Garmon. Tra yr oedd efe yn yr ysgol yn Llanberis, daeth yn gydnabyddus âg un Abraham Williams, o'r Cwm Glas, Llanberis —gŵr ieuangc tuag ugain oed, oedd yn yr ysgol ar unwaith ag ef, yr hwn oedd yn deall Rheolau Barddoniaeth D. ap Edmwnt yn wych, ac yn barod iawn i hyfforddi ereill ynddynt. Ymddengys mai yr Abraham Williams hwn oedd athraw barddonol Gutyn Peris a Gwilym Peris; canys yn ei Gywydd Anerch i Gwilym Peris, dywed Gutyn fel hyn:—

Dau oeddym un dueddiad
At gân fwyn teg awen fâd;
Ein hathraw, hylaw helynt,
Fu'r dewrwas o Gwmglas gynt.

Y mae yn ddiau i gyfeillach y gŵr ieuangc hwnw ail ennyn y ddawn brydyddol a blanesid gan natur yn Dafydd Ddu, yr hon y dechreuwyd ei meithrin a'i choleddu gan ei dad gofalus.

Ar ol dychwelyd o'r ysgol, dilynodd Dafydd Ddu y gelfyddyd o wehyddiaeth hyd farwolaeth ei dad; tra ar yr un pryd y parhäai i wellhau ei addysg hyd eithaf ei allu yn y ddwy iaith, mewn rhifyddiaeth, ac yn rheolau y gynghanedd. O gylch y pryd hyn, dychwelodd Robert Hughes o Geint Bach, ger llaw Llangefni, Môn, yr hwn a elwid 'Robin Ddu o Fôn,' adref o Lundain, o herwydd afiechyd. Ystyrid Robin Ddu yn un o feirdd cynghaneddol goreu ei oes; a chan yr arferai gyrchu yn bur fynych i Gaernarfon, cafodd Dafydd Ddu ieuangc gyfleusdra i ennill ei gyfeillach, yr hyn a fu yn foddion i helaethu gwybodaeth Dafydd yn y gynghanedd i'r fath raddau fel y cydnabyddai ar hyd ei oes mai Robin Ddu o Fôn oedd ei brif athraw barddonol.

Yn lled fuan ar ol marwolaeth ei dad, ac efe o gylch un ar hugain oed, fel y crybwyllwyd, dechreuodd Dafydd Thomas, ar ol bod, fel y dywed ef ei hun—

Yn dwys barhau i ganu a *gwau*,
Tra daliai oriau 'r dydd,

ddiflasu ar ei hen grefft wehyddol, gan chwennych cael rhyw alwedigaeth a roddai iddo fwy o gyfleusderau i farddoni a llenyddu; ac ar annogaeth ei gyfeillion, aeth i gadw ysgol i Landdeiniolen; ac wedi hyny i'r Bettws Garmon; ac oddi yno, yn mhen rhyw ennyd, i Lanystumdwy. Tra yn y gororau hyn, daeth yn gydnabyddus âg amryw o feirdd Arfon; sef, Robert ab Gwilym Ddu; R. Williams, Llys Padrig; Ieuan Lleyn; a Sion Lleyn. O gylch yr un amser hefyd, gan mai athraw ysgolion Eglwysig ydoedd, daeth yn adnabyddus i amryw o wŷr Eglwysig o ddylanwad—yn enwedig y Parch. Richard Davies, Bangor; a'r Parch. J. Williams, o Dreffos, yn Môn; a thrwy gael caniatâd a chroesaw i fyned i'w llyfrgelloedd hwy ac ereill, cyfoethogodd lawer ar ei feddwl, a chyrhaeddodd raddau o wybodaeth o'r Groeg, a'r Lladin, ac amryw wybodaethau buddiol ereill.

Nid yw yn hysbys dros ba hyd y bu yn cadw ysgolion yn ardaloedd Arfon; ond erbyn 1793, pan tua thair ar hugain oed, ymddengys ei fod yn dilyn yr un alwedigaeth yn Mhentraeth, Môn; canys y mae un o'i lythyrau sydd yn y "*Cylchgrawn Cymraeg*" (Awst, 1793), wedi ei amseru fel hyn:—"Llanfair Bettws Geraint, ym Môn, Gorphenaf 15ed, 1793." Bernir mai Paul Panton, Ysw., o Blas Gwyn, Pentraeth, a'i cyrchodd yno; ac yn y cyfamser, yr oedd yn cael bwyd a lletty yn y Plas Gwyn, am drefnu y llyfrau a'r hen ysgrifau Cymreig a gesglid mor awyddus gan y boneddwr gwladgarol hwnw. Cafodd Dafydd Ddu fantais odidog y pryd hyn i ddyfod yn hysbys yn hen ysgrifeniadau y Cymry; megys Cyfreithiau Hywel Dda, yr hen ganiadau Cymreig, 'y Mabinogion, a chwedlau ereill, a'r Trioedd, o'r sawl yr oedd gan Paul Panton ugeiniau o gopïau hynafol tra gwerthfawr, y rhai sydd weithian yn pydru mewn hen gistiau candryll yn nhai allan lleithiog y Gareg Lwyd, Caergybi.

Yn lled fuan ar ol i Dafydd Ddu ymsefydlu yn Mhentraeth, cafodd yr un boneddwr, Paul Panton, le iddo dan y llywodraeth, fel Mesurydd glô (*Coal-met r*), yn mhlwyf Amlwch, Môn. Ymddengys nad oedd y sefyllfa neu y lle yma yn dygymmod dim â thueddiadau Dafydd Ddu; canys yn ei "Englynion Duchan i Amlwch," yn mhlith llawer o bethau ereill, efe a ddywed—

Amlwch, Ow! synwch wrth son—ffei honi!
Ffau hynod drwg ddynion;
Lle ofer, O'ch! o'r llyfon,
Lle bendith—lle melldith Môn!

Amserwyd yr "Englynion Duchan" yn 1796, ynghylch yr amser y dychwelodd efe yn ol i'w

anwyl-fro Arfon, lle yr ail ymafiodd yn ei hen orchwyl o gadw ysgol; ac wrth hwnw y glynodd mwyach hyd yn agos i derfyn ei oes.

Yr oedd Dafydd Ddu wedi cyfansoddi amryw o'i brif ganiadau cyn yr amser yma. Bu fuddugol ar ddau o destynau Cymdeithas Gwyneddigion, Llundain; un yn 1778, a'r llall yn 1779—pan oedd yn 18ain a 19eg oed, pryd yr oedd gartref gyda'i dad, yn gwau yn Mhen-y-Bont, Creunant. Yn fuan ar ol y buddugoliaethau crybwylledig, dewiswyd Dafydd Ddu yn un o aelodau mygedol Cymdeithas y Gwyneddigion. Nid yw yn hysbys pa sawl buddugoliaeth Eisteddfodol a ennillodd; ond heb law y rhai a nodwyd, y mae cofnodau am un yn y Bala yn 1789; yn Llanelwy, yn 1790; ac yn Llanrwst, yn 1791. Ymddengys y digwyddodd hyn pan oedd yn cadw ysgol yn y manau a nodwyd, yn Arfon, cyn iddo fyned i Bentraeth.

Yn 1799, daeth Iolo Morganwg drwy Wynedd i gasglu defnyddiau at y "*Myfyrian Archaiology*," pan yr urddodd Dafydd Ddu, Gutyn Peris, ac ereill, yn Feirdd Cadair Dinorwig; ac y mae yn debyg eu bod hwy yn mhlith aelodau cyntaf Barddas newydd Iolo—graddau yr hon yw Bardd, Ofydd, a Derwydd. Hen raddau y beirdd, o amser D. ap Edmwnt hyd Iolo Morganwg, oedd Dysgybl Yspas, Dysgybl Dysgybl-aidd, Dysgybl Pencerddaidd, a Phencerdd. Yr oedd Pencerdd a Dysgyblion yn raddau mor foreu ag amser Hywel Dda, fel y dengys ei gyfreithiau.

Yn 1803, priododd Dafydd Ddu un Eleanor Thomas, pan yr oedd o gylch 43ain oed, ac yr oedd hithau mewn gwth o oedran. Bu y wraig hon yn ymgeledd gymmhwys i'r bardd, ac yn gynnorthwy mawr iddo i gael bywoliaeth gysurus. Aethant i fyw i le a elwid Pen-y-domen, ond a alwodd efe "Bwthyn y Bardd," yn mhentref y Waun fawr. Dechreuodd y wraig gadw siop yno; ac agorodd yntau ysgol yn yr un pentref, gan gyfnewid rhwng yno a Bettws Garmon bob yn ail hanner blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ol i Dafydd Ddu briodi, cyfansoddodd Dewi Wyn o Eifion Awdl ar destyn Cymdeithas y Gwyneddigion, sef "Coffadwriaeth Goronwy Owain;" ac yr oedd Dewi erbyn hyn, fel holl brif feirdd Arfon, yn un o hoff gyfeillion Dafydd Ddu. Pa wedd bynag, Gutyn Peris a gafodd y wobr ar Goffadwriaeth Goronwy; ac er mwyn rhagflaenu dadl a theimlad drwg, ysgrifenodd Dafydd Ddu at Dewi Wyn fel hyn:—

BETTWS GARMON, *Awst* 24*ain*, 1803.

BARDD GWYN EIFION.—Derbyniodd y Gwyneddigion dair Awdl a Chywydd ar destyn Coffadwriaeth Goronwy Owain, pob un yn haeddu parch a chlod; ond yn fwyaf enwedigol gwaith *Y Cyw* ac *Eliwlod*. Nis gwn pwy ydyw y *Cyw*. Y mae yn debyg mai Gutyn Peris......Os ydwyt yn ail, nid oes achos i ti gwyno, o herwydd mai y cynnyg cyntaf i ti ydoedd. Y mae hyn yn galondid i ti fyned yn y blaen: y diwyd a'r myfyrgar sydd debygol o flodeuo.

Meddyliai Cynddelw i gynghor call Dafydd Ddu ragflaenu llawer o ddig a siomiant y tro hwnw, beth bynag; ac nid oes hanes i'r gwrthwyneb.

Wedi i Dafydd Ddu fod yn cadw ysgol dros ryw ysbaid, bob yn ail hanner blwyddyn yn y Waun Fawr a Bettws Garmon, dechreuodd yr ysgol deneuo; ond yn y cyfamser llwyddodd y Parch. P. B. Williams, periglor Llanrug, i gael 25*p*. yn y flwyddyn iddo o'r arian a adawsid yn y Deheudir at addysgu plant tlodion. Yna agorodd Dafydd Ddu ysgol yn mhlwyf Llanrug ac yn mhlwyf Llanberis, gan eu cadw yn gylchynol bob yn ail hanner blwyddyn. Cartrefai y pryd hyn mewn lle o'r enw Lleiniau, yn mhlwyf Llanrug; a rhwng y 25*p*. hyny, a'r hyn a ennillai ei wraig oddi wrth y siop, yr oeddynt mewn sefyllfa ddigon cysurus.

Ymddengys mai yn y sefyllfa yma yr ydoedd pan ddug allan ei lyfr prydyddol a elwir "*Corph y Gainge*," yr hwn a gyflwynwyd i Paul Panton, Plas Gwyn, Môn; ac a argraphwyd yn Nolgellau, 1810; a dengys rhestr hirfaith y tanysgrifwyr iddo gael cefnogaeth bur deilwng gan lengarwyr y genedl. Tra yr oedd y bardd yn diwygio y wasg yn Nolgellau, daeth i gydnabyddiaeth gyfeillgar â'r prydydd gwych David Richards, a elwid Dafydd Ionawr; yr hon gyfeillach, pa wedd bynag, ni pharhaodd hyd ddiwedd oes y ddau brydydd. Cyhoeddwyd ail argraphiad destlus o "*Gorph y Gainge*," gyda "Buchedd-draith yr Awdwr," gan Ellis Jones, yn Nghaernarfon, yn 1833; sef, yn mhen un mlynedd ar ddeg ar ol i'r awdwr farw.

Gan fod yr hinsawdd yn Llanberis mor ddrycinog ac oerllyd, bu yn achlysur i feithrin yr afiechyd a flinai Dafydd Ddu o'i febyd, sef poen yn ei ystlys; yr hwn a gynnyddodd mor enbyd, fel y gorfu arno roi yr ysgol i fyny; a bu rhagddarbod am ei einioes. Digwyddodd hyn, fel y dengys yr englynion a gyfansoddodd ar achlysur gofidus, yn 1811. Wele esampl fer o'i gŵyn a'i ddymuniad yn y cystudd crybwylledig:—

Aml groes i'm heinioes o hyd—trwy alar
  Treuliais ran o'm bywyd;
Myfi 'n ymboeni mewn byd
Sy lwch, mewn isel iechyd.

Gan oerfel yn ymgynhyrfu—gauaf
  Mal gwewyr i'm gwasgu;
Gwael iechyd herwydd gwlychu,
Nos a dydd i Ddafydd Ddu.

I'm hoes mae chwerw-loes uwch oer-lawr—boenus,
  Maith bennyd sydd ddirfawr;
Methais, mewn aml drom wythawr,
Huno yr un hanner awr.

Rhag awr derfyn dyn a'i daith—nos dywyll,
  Nis diangc am unwaith;
Y diras drwy un dewr-waith,
Na'r grasol, bucheddol chwaith!

Gan hyny,

Gwir ddyfn-ddwys cymmhwys i'm co'—ei ddala,
  A'i ddilys ddefnyddio;
Fy swydd er blin dramgwydd dro,
Mal ereill yw milwrio.

Pan dderfydd poen-ddydd pob pall—byd amhur
  Boed imi 'n llwyr ddiball:
Mewn byd o wynfyd di-wall,
Uwch y sêr, iach oes arall.

Wedi i'r bardd ymadfer o'r cystudd crybwylledig yn ngwanwyn a dechreu haf yr un flwyddyn (1811), dechreuodd yr ysgol drachefn; ond gan nad oedd trefn yr elusen yn caniatau bod yn hir yn yr un man, bu yn rhaid i'r bardd symmud, yn erbyn ei ewyllys, o Lanrug i Landwrog, ar ddymuniad parson y plwyf olaf; a chymmerodd y bardd dŷ yno â'i enw Yr Hen Efail. Yn fuan wedi hyny attaliwyd yr elusen o'r Deheudir, a bu raid i'r bardd gymmeryd a gaffai oddi wrth rieni plant a dalent eu hunain am eu hysgol. Cafodd lu o ysgolheigion, fel yr ymddengys oddi wrth yr englyn canlynol a gânt ar yr achlysur:—



Digitized by Google

Gweini yn mysg eginau mân—yr ydwyf,
Yn greadur egwan:
Deg wyth, dim diogi weithian,
Dim eilio, dim ceincio cân.

Bu yn y lle hwn am rai blynyddoedd; ac er gwaned ei iechyd, ymddengys iddo gymmeryd rhan bwysig yn y cyfamser yn llenyddiaeth ei wlad. Ar yr 17eg o Fedi, 1811, yn lled fuan ar ol i Dafydd Ddu wellhau o'r afiechyd a grybwyllwyd uchod, cynnaliwyd eisteddfod yn Mhorthmadog—prif destyn yr hon oedd "Awdl ar Amaethyddiaeth," am yr hon y cynnygiasid ariandlws yn wobr gan W. A. Madocks, Ysw., yr hwn a wnaethai y Morglawdd ar draws y Traeth Mawr. Nid oedd dim a wnelai Gwyneddigion Llundain â'r eisteddfod hon. Dafydd Ddu oedd y beirniad; ac i awdl Dewi Wyn y barnodd efe y wobr. Yr oedd y Dryw (Hughes, periglor Bodfary), Gwallter Mechain, ac ereill yn cystadlu; ar awdlau aflwyddiannus y rhai y gwnaeth Dafydd Ddu sylwadau pur lymion. Ond er i Dewi ennill, ni chafodd y wobr; ac y mae yn debyg fod rhai o'r Gwyneddigion wrth wraidd y drwg; canys y mae Twm Pedrog yn ysgrifenu at Dewi yn 1812, gan ddywedyd, "Y mae'n ddrwg genyf dy gyffroi na'th dristau, o herwydd cabledd gwŷr Llundain; ac i'r pendefig attal dy deilwng wobr." Ar ol hyn yr ysgrifenodd Dewi Wyn y llinellau duchan canlynol:—

Gwyn fyd na chawn gan Fadawg,
Am fy nghân gwpan neu gawg;
Pan yro gwpan arian,
I mi am ragori 'r gân,
Dysgl fawr 'r wy'n disgwyl fydd,
Neu badell i drin bwydydd.

Ysgrifenodd Dafydd Ddu ei hun awdl ragorol ar y Morglawdd, yr hon a ddarllenodd efe ger bron yr un eisteddfod.

Yn mhen tua saith mlynedd ar ol hyn, teimlai y bardd ei iechyd yn prysur adfeilio, o herwydd yr hyn y cwynai mewn llythyr at y Parch. R. Davies, Bangor, fel y canlyn:—

"Hen Efail, Llandwrog, *Rhag.* 12*fed*, 1818.
—— Ni allaf ddywedyd fy mod yn iach, na llawen chwaith. Y mae yn anhawdd i ddyn sy'n llafurio dan wendid iechyd er's mwy na blwyddyn fod yn llawen. Os digwydd i mi gael rhew tyner, fe allai y deuaf cyn belled a Bangor yn y gwyliau. Ni allaf oddef gwlychu nac oeri."

Cynnhyrfodd hyn amryw Eglwyswyr, a boneddigion ereill, i gyfroddi ychydig at ei gynnaliaeth, er arbed iddo yr helbul o gadw ysgol yn hwy. Darparwyd tŷ cysurus iddo yn Llanrug, i'r hwn y symmudodd yn 1821—wedi bod yn Llandwrog tua saith mlynedd. Er mor foddhaol iddo oedd y cyfnewidiad hwn; etto, nid hir y parhaodd ei fwynhâd; canys ar y 30ain o Fawrth 1822, yn mhen tua blwyddyn wedi iddo ymsefydlu yn Llanrug, fel yr oedd yn dychwelyd adref, ar ol bod yn ymweled â rhai o'i gyfeillion yn Mangor, pan oedd y tywydd yn dymmestlog a gwlawog, nes dirfawr gynnyddu y dwfr yn y nentydd oedd ganddo i'w croesi, pan ddaeth at yr afon Cegin, yn mhlwyf Llanberis, lle nad oedd pont, ond llamau i'w chroesi, bernir i'w draed lithro, ac iddo syrthio a syfrdanu yn y codwm. Ereill a farnent nad anturiasai lamu y sarn, ond cymmeryd y rhyd rhag ei flaen; a chan fod y tywydd yn oer, a'r dwfr yn iasaidd, ac yntau yn egwan ei iechyd ar y pryd, iddo gael llewyg tra yn yr afon, a boddi cyn ymadfer o honi; ac yr oedd yr olwg ddiymadferth oedd ar ei gorph, pan gafwyd ef ar ei gefn yn yr afon dranoeth, heb ddim ond rhyw fodfedd o ddwfr ar ei wyneb, heb law ei fod tua dwy lath y tu uchaf i'r llamau ceryg, yn tueddu i gadarnhau y dyb olaf.

Dodwyd ei gorph i orphwys, ar yr ail ddydd o Ebrill, 1822, yn mynwent Llanrug, yn agos i'r clawdd o'r tu dwyrain i'r eglwys, yn y fan a nodasai efe ei hun yn ei fywyd. Ar annogaeth y Parch. P. B. Williams, periglor Llanrug, a thrwy gydweithrediad amryw o'i gyfeillion, cyfodwyd iddo fedd-goffadwriaeth hardd, âg arni y darlleniad isod:—

BEDD
Dafydd Thomas, y godidog Gadeirfardd, a'r Hynafiaethydd Clodfawr,
a gyfenwid
*Dafydd Ddu o Eryri.*
Bu farw ar y degfed ar hugain o Fawrth, MDCCCXXII.,
*Yn ei dair a thrigain oed.*

Dyma'r bedd, annedd unig—gorweddfa
Gŵr addfwyn dysgedig;
Ammod trwm, yma y trig
Ddwys awdwr urddasedig.
R. Williams, neu *R. ab Gwilym Ddu.*

O! fedd oer ein Dafydd Ddu!—henadur
A hynododd Gymru;
Ewythr i feirdd, athro fu,
Cefn wrthynt i'w cyfnerthu.
D. Owen, neu *Dewi Wyn o Eifion.*

Darfu ein bardd diweirfoes—fu gadarn
Fegidydd ei gyfoes;
Rhoed lamp penigamp ein hoes,
I'r pridd-fedd, ŵr pereiddfoes.
Rich. Jones, neu *Gwyndaf Eryri.*

Gorweddfa gwiw arwydd-fardd—Eryri,
Yr eirian gadeirfardd;
Un a brofwyd yn brif-fardd,
Unig fwth yr enwog fardd.
G. Williams, neu *Gutyn Peris.*

Dyma gell dywell Dewi—fardd clodfawr
O orawr Eryri;
Tristwch mawr sy'n awr i ni,
O'i ddwyn, ddyn addwyn, iddi.
W. Edwards, neu *Gwilym Padarn.*

Gwae dirfing dir ing, Ow! drengu—prif-fardd,
Profwyd trwy Gymru:
Ow ludded! Ow! ow gladdu!
(Brudded ym) y Bardd Du!
O. Williams, neu *Owain Gwyrfai.*

Dengys hyn, a llawer o bethau ereill, y fath barch mawr oedd gan feirdd Arfon i Dafydd Ddu! Yn wir, dywedir bod ei enwogrwydd y fath yn eu golwg fel y byddai holl feirdd ieuaingc ei fro yn deisyf ei gyfarwyddiadau; ac mai prin yr anturient un amser i ddim o'u cyfansoddiadau fyned ar led heb gael barn eu hathraw arnynt yn gyntaf. O herwydd hyn, cymmerth un o feirdd y Deheubarth achlysur i alw prydyddion Arfon yn "gywion Dafydd Ddu." "Yn gysson â hyn," dywed Cynddelw, "bu marwolaeth D. Ddu yn gryn ddigalondid i feirdd Arfon; canys efe oedd eu tad a'u hathraw oll. Ni thybiai llawer y gallai neb o honynt gannu yn ddiwall ar ol ei golli." Dywedai Gwyndaf Eryri, mewn llythyr at Dewi Wyn—"Y mae llawer o ddeutu Caernarfon yn dywedyd nad ennillaf eisteddfod byth mwy ar ol marw Dafydd."

Yr oedd prydyddiaeth Gymraeg wedi myned yn bur isel cyn cyfodiad Dafydd Ddu. Taenid llawer o ganeuon anfoesol ac isel eu chwaeth ar hyd y wlad, yn enwedig duchangerddi cableddus ar wŷr Eglwysig. Ni byddai odid na ffair na

Digitized by Google

marchnad yn cael ei chynnal na byddai rhyw beriglor neu barson yn cael ei ddodi yn rhagawd (*pillory*) y coeg-brydyddion; a thrinid ef yn greulawn hefyd, gan ei wneyd yn destyn gwawd i'r holl ardaloedd. Ond yn fuan ar ol i Dafydd Ddu ddyfod i fri cyhoeddus, rhoddwyd terfyn ar y cyfryw sorod. Dichon i hyn gael ei ddwyn oddi amgylch trwy eu bod hwy yn noddi mwy ar feirdd a barddoniaeth, ac yn diwygio llawer mewn pethau ereill hefyd.

Ond nid sylwedd y caniadau yn unig a ddiwygiwyd trwy offerynoliaeth Dafydd Ddu—ond eu gwisg hefyd. Yr oedd efe yn gymmaint o gaeth-fesurwr ag ydoedd o dduwinydd a moesolwr; ac yr oedd troseddu rheolau Dafydd ap Edmwnt yn drosedd pur atgas yn ei olwg, a'r hwn a geryddid ganddo yn chwerw-dost. Yr oedd mor bell yn hyn fel y mae ei ganiadau yn hynotach o ran cywirdeb cynghanedd, destlusrwydd iaith, a gweddusder moesol a chrefyddol y syniadau, nag am ffrwyth crebwyll a darfelydd; sef, meddyliau uchel, hedegog, a gwir farddonol; a dyma'r prif achos fod cyn lleied o'i ganiadau tlysion ar lafar gwlad.

Yr oedd y tô o brydyddion a gyfododd ar ol Goronwy Owain, Gwilym Wyn, a Lewis Morris, megys Thomas Edwards (*Twm o'r Nant*), Jonathan Hughes, John Thomas (Pen-y-ffordd-wen), Ellis Roberts (*Elis Gowper*), ac ereill, wedi myned mor ddifater am y gynghanedd ag oeddynt am sylwedd eu caniadau: ond pan ddaeth Dafydd Ddu i fri, mynodd gyfnewidiad yn y naill beth, cystal a diwygiad yn y llall; canys trinai droseddau cynghaneddol, fel yr awgrymwyd eisoes, yn bur ddiarbed. O herwydd hyn, tynodd lu o brydyddion diofal am gynghanedd, cystal a rhai anfoesol eu syniadau, yn ei ben fel cacwn, megys y mae yn hawdd canfod yn ei "Gywydd Adgyfodiad Awen," o'r hwn y cymmerwn y dyfyniad isod:—

Diau o fardd od wyf fi,
Wr o oror Eryri:
Gwenwyn sy gan oganwr,
O'm canfod fel gormod gŵr.
Da fyddai i ddifai ddyn
Gloi barddas ffol gleberddyn.
Pond ffol yw ei globffol glebr,
A'i ynfyd goeglyd geuglebr:
Cobleriaid cabl a yrant
Bob dydd fel y cenfydd cant:
Ni feddant dyciant i'w dawn,
Byr o ddysg yw beirdd ysgawn.
Diystyr yw bardd distadl,
Rhy fâs yw ei ddiflas ddadl:
Ni haedd ei gân, druan a drwg,
Sylwad nac un dwys olwg:
Anafodd, heb iawn ofeg,
Rheolaeth prydyddiaeth deg;
Ac anaddas y gwneddyw,
Gam â'r iaith digymmar yw.

Dengys hyn, cystal a'i ddadleuon prydyddol rhyddieithol â Twm o'r Nant, Dafydd Ionawr, ac Iolo Morganwg, y medrai yntau frathu yn dra llym pan ei cythruddid.

Y mae nifer lliosog caniadau Dafydd Ddu yn dangos iddo lafurio yn ddyfal gyda barddoniaeth dros ddeugain mlynedd, er eiddiled oedd ei iechyd. Cyfansoddodd wyth o Awdlau, ac amryw o honynt yn fuddugol; pedwar Cywydd; lliaws dirfawr o Englynion; deuddeg o Garolau; deuddeg a deugain o "Ganiadau Duwiol;" a deuddeg ar hugain o "Ganiadau Moesol a Difyr." Ond er ei holl lafur barddonol, ac er iddo wneuthur lles dirfawr i'r brydyddiaeth gyfyng Gymreig yn ei amser, ni chynnyrchodd ei awen, er tlysed oedd ei gwisg, gymmaint ag un gân a drosglwyddai ei enw, fel prif-fardd, i oesau dyfodol, pe'i cyfieithid i ieithoedd estronol. Bydd ein calon yn gwaedu o eiddigedd dros ein prydyddion, ar amserau, wrth feddwl am syniadau rhai beirniaid ar eu cynnyrchion, wedi yr holl lafur, a'r holl arian a wariwyd er amser Dafydd ap Edmwnt hyd yn awr, yn ein heisteddfodau, ein cyfarfodydd llenyddol, a'r cyffelyb, ar brydyddiaeth. Dywed rhai o honynt na feddwn etto gymmaint ag un ganig a ddaliai ei chyfieithu i ieithoedd estronol, cystal hyd yn oed a "Llan Anghyfannedd," Goldsmith, heb son am waith Homer, Virgil, Milton, Dante, a Shakespeare. Ymdoimlwn yn dra hwyrfrydig i gredu hyn: ond os ydyw yn wir, nis gellir ei briodoli i ddiffyg athrylith genhedlaethol ein prydyddion, ond i ddiffyg doethineb ac ymgais; a dichon y gellir ei briodoli hefyd mewn rhan i ddiffyg cefnogaeth ein heisteddfodau, a chyfoethogion ein gwlad. Ond y mae y ffaith alarus hon yn ddigon amlwg—fod ein beirdd ieuaingc, fel rheol, yn lle treulio eu hamser goreu i astudio meddylddrychau mawreddog a goruchel, gwerth i'r byd eu cael, yn myfyrio mwy ar y wisg y mae ein barddoniaeth wedi ymddangos ynddi, a elwir Cynghanedd, a Mesurau Caethion; ac y mae ein heisteddfodau, fel rheol, yn eu cefnogi. Yn lle cynnyg gwobr deilwng am yr arwrgerdd oreu ar unrhyw destyn i'n beirdd yn fynych, y maent yn mron yn ddieithriad yn cynnyg o bum punt i ddeg punt ar hugain o wobr am yr awdl oreu ar ryw destyn rhoddedig, "heb fod dros hyn a hyn o linellau."

Yr oedd yn ddrwg genym, pan yn chwilio am ddefnyddiau at yr erthygl hon, ddarllen y fath feirniadaeth a hon ar "*Gorph y Gaingc:*" —"Wrth edrych dros '*Gorph y Gaingc*' yn fanwl, ni synodd nemawr ddim fwy arnom na chanfod gwallau yn ngwaith Dafydd Ddu! Os edrycha y darllenydd yn graff, gwel y gwallau canlynol:—'Dynu'*r* gŵr dan y gweryd;' coll *r*. 'A chael peth toreth o'r tir;' toreth yn lle toraeth. '*Ar* diroedd y wlad arall;' coll *r*. Y mae ganddo 'gyrdeddwyr,' yn lle 'cyfrodeddwyr,' mewn englynion a wnaeth i anerch Cymreigyddion Bangor. '*Dd*oeth reol athrawiaeth,' yn englynion y Parch. G. Evans, sef coll *dd*, a'r cyffelyb." Nis gellir ystyried y fath sylwadau yn deilwng o'r enw 'beirniadaeth.'

Dymunwn hysbysu, cyn terfynu, nad i farddoniaeth Gymreig yn unig y bu Dafydd Ddu yn gefnogydd ac ymgeleddwr: eithr ymdrechodd hefyd dros ryddiaith ei genedl. Bu yn olygydd cyhoeddiad cylchgronol â'i enw "*Eurgrawn Cymraeg*," yr hwn a argrephid yn Nghaernarfon. Cyhoeddwyd y rhan gyntaf o hono yn Ebrill, 1807. Ar y wyneb-ddalen, dywedid yr amcenid iddo "gael ei gyhoeddi yn rhanau bedair gwaith yn y flwyddyn;" ond ni ddaeth yr ail hyd fis Mawrth, 1808; ac y mae yn debyg mai hyny a fu y cwbl a gyhoeddwyd o'r "*Eurgrawn*" hwnw, o ddiffyg cefnogaeth.

Dafydd Ddu hefyd a gasglodd y "Cofion hanesol am Feirdd Môn," sydd yn argraphiad Caernarfon, 1817, o'r "*Diddanwch Teuluaidd, neu Waith Beirdd Môn.*" Dyna'r cwbl o ymdriniaeth uniongyrchol a fu rhwng Dafydd Ddu a'r argraphwasg, hyd y gwyddom ni, heb law cyhoeddi "*Corph y Gaingc,*" a grybwyllwyd eisoes. Ond y mae yn ddiammheu iddo gyfranu amryw o ddarnau barddonol a rhyddieithol i

Digitized by Google

wahanol gyhoeddiadau ereill: yn wir, y mae cryn lawer o'i gyfansoddiadau i'w gweled, dan enwau lledgudd, yn y cyhoeddiadau cylchynol, a elwid "*Cylchgrawn*," a "*Geirgrawn*," a argrephid yn Nghaerfyrddin a Threfecca, o gylch y blynyddoedd 1793—96. Ar y cyfan, y mae Dafydd Ddu yn wir deilwng o barch pob llengarwr Cymreig, ac o goffadwriaeth barhaol ei genedl.—"*Cambro-Briton;*" "*Corph y Gaingc,*" argraphiad 1834; "*Y Gwladgarwr,*" 1836; "*Y Traethodydd,*" 1852; "*Blodau Arfon,*" 1869.

THOMAS, EBENEZER (*Eben Fardd**). Dywedodd Edmund Burke, un o'r dynion mwyaf a welodd Prydain erioed, fod ei fywyd ef yn gynnwysedig mewn tair o iasau (*fits*) mawrion. Y gyntaf oedd yr *iâs farddonol.* Pan oedd dan ddylanwad yr iâs yma, darllenai yr holl feirdd, hen a diweddar, o Homer hyd ei gydoesydd ei hun, Pope; a phenderfynai wneyd gwell pryddiaeth nag un o honynt. Yr ail oedd yr *iâs athronyddol.* Darllen a myfyrio gwaith philosophyddion, hen a diweddar, o Thales a Solon hyd Bacon a Locke, a cheisio llunio cyfundrefn ragorach na hwy oll, oedd yn myned â'i holl fryd, pan dan effeithiau yr iâs athronyddol. Y drydedd oedd yr *iâs areithyddol.* Darllen ac astudio gwaith yr areithwyr penaf, o Plato a Cicero i waered, a gwneuthur areithiau gwell na neb arall yn y senedd, oedd yn llenwi ei holl feddylfryd yn ystod yr iâs yma:—a llwyddodd yn ei ymgais tu hwnt i'w holl gydoeswyr; a dichon na ragorodd neb a fu ar ei ol nac o'i flaen arno fel areithiwr.

Am Eben Fardd, ymddengys nad oedd ei holl fywyd ef, o'i febyd i'w fedd, nemawr amgen nag un gadwen o iâs farddonol; ac enwogodd ei hun yn y gangen hon o lenyddiaeth tu hwnt braidd i'w holl gyfoedion. Ni ddylid casglu oddi wrth hyn nad ymenwogodd Eben Fardd mewn un gangen o lenyddiaeth ond barddoniaeth. O na: yr oedd yn ieithydd da, yn rhifyddwr gwych, ac yn draethodwr godidog. Ond etto ni symmudodd un o'r gwybodau hyny mo'r iâs farddonol oddi arno ef, megys y symmudwyd hi i raddau pell oddi ar Burke gan athroniaeth ac areithyddiaeth: ond parhaodd Eben Fardd i ganu ar hyd ei oes, yn glaf ac yn iach—mewn trallodion cystal ag mewn llawenydd.

Y mae gan amgylchiadau rhieni plentyn, golygfeydd bywyd o'i amgylch, a'r gyfeillach a gaffo, y fath ddylanwad ar ei safle, ei ragolygon, a'i gynnydd, fel y mae yn eithaf teg i fywgraphydd gymmeryd y pethau hyny fel seiliau casgliad gyda golwg ar debygolrwydd gyrfa ddyfodol gwrthddrych ei gofiant. Yn wir, y mae amgylchiadau rhieni yn achosion tebygol llawer o helbulon neu egnïon meddyliol eu plant; ac nis gellir cael golwg gyflawn ar egwyddorion cynhenid bywyd dyn heb wybod rhywfaint am yr amgylchiadau a'i hamgylchai yn ei flynyddoedd boreuaf.

Heb law hyny, y mae gan y golygfeydd naturiol, cystal a chymdeithasol, a fyddont o amgylch plentyn ddylanwad cryf ar ei athrylith a'i gynneddfau. Nid yw bywgraphwyr Eben Fardd yn cyffwrdd dim â hyn; ond y mae ganddo ef ei hun gân sy'n taflu mwy o oleuni ar ei wir hanes foreuol na dim arall a welsom ni hyd yma, sef "Afaon:—y bardd ieuangc, o Balas Anian." Y mae ychydig o englynion sydd yn y gân hono yn profi yn ddiammheuol mai cân ar yr awdwr ei hun ydyw. Yn y gân dan sylw priodolir yr englynion hyny i Pabo ac Afaon; ond yn ei gofiant, sydd o flaen ei "Weithiau Barddonol," priodolir hwy i un Richard Charles ac Eben ei hun. Yn y cofiant dywedir, pan oedd yn ysgol Tydweiliog, y llettyai mewn tŷ cyfagos o'r enw Porthysgadan (Porth Ysgadan = Porth y Penwaig). Pan oedd yn myned yno o'r ysgol i'w ginio un diwrnod, anerchodd Richard Charles ef fel hyn:—

"Eban, y lleban llwyd—mewn oedran,
Mae'n edrych fel breuddwyd,
Yn waela' un a welwyd:
A oes i'w ben eisieu bwyd?"

Attebodd Eben ef mewn pedwar o englynion lled chwerw; y cyntaf o ba rai sydd fel hyn:—

"Diau rhanwyd i'r henwr—anaddfwyn
Gynneddfau enllibiwr:
Enbyd yw y tanbaid ŵr
A'i gynnen, y goganwr!"

Attebodd R. Charles ef mewn dau englyn arall, am y rhai y cafodd bedwar englyn yn wrth-atteb; ac felly y terfynodd yr ymrysongerdd ddiniwed. Y mae yr englynion oll yn nghân Afaon, bron yn gwbl ddinewidiad. Dygir yr ymryson i mewn i'r gân fel hyn:—

"Coffawn am un ffug frwydr gadd,
Tra'n ieuangc mewn trin awen:
Daeth hen bastynfardd mawr i'w ladd
Ag englyn yn ei dalcen;
A gallai roddi, i ryw radd,
Ddifyrwch wrth ei ddarllen:
Cyfenw'r pastynfardd oedd Pabo, dyn pybyr,
Ond hanner pan ydoedd am gyngan a mesur."

*Pabo.*

"Ai Afa'n yw'r lleban llwyd?—mewn oedran,
Mae'n edrych fel breuddwyd,
Yn waelaf un a welwyd:
A oes i'w ben eisieu bwyd?"

*Afaon.*

"Diau rhanwyd i'r henwr—anaddfwyn," &c.

Y mae hyn yn ddigon o brawf, i'n tyb ni, mai y bardd ei hun yw *Afaon.* Terfynir y ddadl yn y gân fel hyn:—

"Nid da dull isel y ddadl hon—
Afaon sydd i'w feio:
Fel pob rhyw brydydd ieuangc bron
Medd duedd at ddifrïo,
A chadw ffair a chodi ffon,
Rhoi enwau drwg a drelio;
Ond addurn y frigog urdd enwog farddonaidd,
Yw byw yn ddiogan, fel dyn boneddigaidd."

Nid oes amseriad wrth y gân hon; ond y mae ei godidawgrwydd barddonol yn peri i ni gasglu iddo ei chyfansoddi wedi i'w awen ddyfod i lawn addfedrwydd. Gellir gweled oddi wrth y gân dan sylw bod mangre mebyd y bardd, yn enwedig y pryd hyny, tua 70ain mlynedd yn ol, yn lle unigol, anghysbell, yn ngolwg môr a mynydd, yn nghanol perthi, ac ambell lwyn o goed yn gyfagos, a bryniau serth Eryri yn ei amgylchynu. Dyma sail ein casgliad:—

"Yn bum mlwydd oed dechreuai aidd
Ei deimlad ymddadblygu;
Dyrchafai'r rhin oedd yn ei wraidd
Yn araf at i fyny;

* *F* a ddefnyddiai EBEN yn FARDD, pan ddechreuodd arfer yr enw; ond tua'r flwyddyn 1851, mewn canlyniad i ryw amgylchiad a ddigwyddodd, mewn cysylltiad â'i waith yn ysgrifenu ei enw, defnyddiodd y *V* yn lle yr *F* o hyny allan. Yr ydym yn yr erthygl hon, pa fodd bynag, wedi sillebu ei enw yn ol fel y gwnai ef ei hun yn y rhan gyntaf o'i oes yn EBEN FARDD.

Digitized by Google

A naws ei awen welid braidd
Fel blodyn yn blaendarddu:
O! mal y swynid ef yn mhalas anian
Yn wir erbyn hyny, pan ar ben ei hunan!

Pan safai fry, ar ben y bryn,
Môr-gilfach Aberteifi
Edrychai fel rhyw eang lyn
Yn mhelydr haul goleuni,
A'r llongau dan eu lliain gwyn
Yn dawnsio arno 'n heini':
Afaon a swynid ar wiw fynwes anian
Yn wir erbyn hyny, pan ar ben ei hunan.

Bryd arall treiglai tonau'r bau[1]
Fel myrdd o wyllt afonydd,
Gan dori tros bob creigiog gae,
A galw ar eu gilydd,
Yn boer i gyd i beri gwae,
Ar Glânau[2] fel siglenydd:
O! mor ofnadwy oedd cyffrawd y tonau,
Ewynent a rhuent fel mil o raiadrau.

Afaon a lechai dan ryw berth,
A thua'r môr edrychai;
Naill du i Gricieth, a'i thŵr serth,
Tòn ar ol tòn ymlidiai;
Y môr ymdreiglai â'i holl nerth,
A'i ganol a frigwynai;
A lluwchfa wastadol o forlan Meirionydd
A wnelai'r olygfa'n grynodeb o 'stormydd.

Ond i Afaon sŵn y gwynt
Yn sïo yn y berthen
Oedd wir fwynhâd, y ddedwydd hynt,
Fel un yn nghysgod cawnen;
A lle o'i fath ddewisai'n gynt
Na thŷ a theulu llawen:
O! mal y swynid ef yn mhalas anian
Pan fyddai'r elfenau o'i amgylch yn clecian."

Yr oedd golygfeydd fel hyn yn ddigon braidd i ddeffro a chynnhyrfu meddwl plentyn cyffredin; ond pa faint mwy un o gynneddfau cryfion, a thuedd neillduedig Eben Fardd? yr hwn a ddywed am dano ei hun mewn cân arall:—

"Dan bren tewfrig yn y goedwig,
Neillduedig, unig wyf;
O glyw hudol dwrf daearol,
Maswedd ac anianol nwyd:
Dadwrdd pobloedd trwy'r dinasoedd,
Uchel floedd ni chlywaf fi;
Ni raid achwyn rhag eu gwenwyn
Yn mol llwyn yn ymyl lli."

Peth arall a effeithia yn ddwfn a pharhaus ar feddwl gŵr, ydyw y gyfeillach a ddewisa, neu a ddisgyn i'w ran, yn moreu ei oes; a cheir gweled rhag llaw mai prif gyfeillion Eben Fardd o'i febyd i'w fedd oedd gwir feibion athrylith.

Nis gwyddom fod dim o hanes hynafiaid Eben Fardd, heb law ei dad a'i fam, nac odid ddim ond eu henwau hwythau, a chrefft ei dad, ar gof a chadw. Enw ei dad oedd Thomas Williams; ac enw ei fam oedd Catherine Prys neu Pyrs—dau gyfenw wedi deilliaw o'r un gwreiddyn, sef Rhys. Ac y mae'n debyg mai merch rhyw Rys oedd hi; canys enw cyntaf y tad a ddefnyddiai y Cymry hyd yn ddiweddar yn gyfenw, megys y gwelir y gwnaeth Eben Fardd ei hunan. Pe amgen, Ebenezer Williams a fuasai efe, ac nid Ebenezer Thomas. Gwehydd oedd tad ein bardd, megys tad Dafydd Ddu Eryri, a John Elias, y Dr. Davies o Fallwyd, ac amryw enwogion ereill. "Er nad oedd ei rieni ond isel eu hamgylchiadau," medd Eben Fardd ei hun yn y "*Critic*," Hydref 15fed, 1853, "etto trefnasant i'w gadw ef dros amser lled faith yn yr ysgolion plwyfol oedd yn y gymmydogaeth ar y pryd; a chan ei fod o duedd fyfyrgar, cyrhaeddodd wybodaeth gymmedrol o'r iaith Saesnig, rhyw grap ar ieithoedd ereill, ynghyd â mesuroniaeth a gwybodaeth gyffredinol."

[1] Bay. [2] Enw lle.

Enw eu cartref oedd Tan-lan, ar dir Gelligron, yn mhlwyf Llanarmon, o fewn tua milldir i bentref Llangybi, yn nghantref Eifionydd, sir Gaernarfon. Yn y bwthyn diaddurn, ond dedwydd a breintiedig hwnw, y ganwyd ein prif-fardd cadeiriog, Eben Fardd, yn mis Awst (ni hysbysir pa ddiwrnod), 1802; a bedyddiwyd ef yn yr un mis yn eglwys blwyfol Llangybi, dan yr enw Ebenezer, o barch i goffadwriaeth y Parch. Ebenezer Morris, pregethwr efengylaidd a thra enwog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Deheudir. Awgryma hyn y gobeithiai ei rieni y byddai eu mab hwn yn rhywun mawr mewn amser dyfodol; ac ni chawsant eu siomi yn hyny; canys efe a ddaeth yn wir fawr. Ond gellir casglu bod ei fawredd yn lled wahanol i'w disgwyliad; o blegid yn lle bod yn bregethwr mawr a hyawdl, fel y gŵr enwog y galwyd ef ar ei enw, prydydd a llenor mawr y trodd yr Ebenezer yma allan; ond llefarwr lled anhyawdl ydoedd.

Dysgodd ei fam iddo ddarllen Cymraeg pan oedd o gylch pump oed; a hi a'i dododd gyntaf ar ben ffordd moes a rhinwedd, cystal a llwybr gwybodaeth a dysg. Nid rhyfedd, gan hyny, i'r craffus Napoleon Fawr ddywedyd, "Rhowch i mi famau galluog, a byddaf yn sicr o gael dynion talentog a defnyddiol." Y mae y pennill cyntaf a ddyfynwyd uchod yn tueddu i gadarnhau fod ei alluoedd yn dechreu ymagor pan oedd tua phump oed, yn yr hwn y dywed y bardd am dano ei hun, dan yr enw *Afaon*:—

"Yn bum mlwydd oed dechreuai aidd
Ei deimlad ymddadblygu," &c.

Nis gellir gwybod yn fanwl pa bryd y dodwyd ef yn yr ysgol y tro cyntaf; ond yr ydym yn casglu y digwyddodd hyny pan oedd o ddeutu yr oedran crybwylledig; canys dywed yn ebrwydd ar ol y pennillion a ddyfynwyd fel hyn—

"Afaon bach ar hyn o bryd
A roddwyd yn yr ysgol;
A'i flodeu 'n agor peth o hyd,
A'i bethau 'n bur obeithiol:
Braidd nad oedd dysgu'n llenwi ei fryd
Yn fwy na'r gamp chwareuol;
Ond rhwng y ddau bleser, sef dysgu a chwarau
Dyferai dafn chwerw i'w gwpan ef weithiau."

Y "dafn chwerw" a ddyferodd i'w gwpan plentynaidd y pryd hyn, oedd rhedeg ar ol glöyn byw, a methu ei ddal, a thynu gŵg ei athraw arno yn y fargen—yr hyn a ddarlunia yn odidog o farddonol; a therfyna yn y geiriau canlynol:—

"Ond wedi rhedeg, gyda brys,
Ar ol y pryf yn ofer,
Nes ydoedd drosto'n llawn o chwys,
Ac wedi colli ei amser,
Heb ddala'r un rhwng bawd a bys,
A'r ysgol ar ei hanner,
Mawr fu'r siomedigaeth, a'r braw a'i cyfarfu—
Y llafur yn ofer, a'r athraw yn gwgu!

Afaon deimlai lawer loes,
Ond trwy yr amgylchiadau
Ca'dd wers i'w chofio trwy ei oes;
Mai dilyn dyledswyddau,
Heb segur redeg gyrfa groes,
I ddal ar wâg gysgodau,
A lanwai ei gwpan â'r puraf fwynderau
Heb gynnwys rhyw waddod o siomedigaethau."

Digitized by Google

Y mae adroddiadau bywgraphwyr ein bardd ynghylch ei ysgol yn bur wahanol; a braidd nad ydynt yn groes i'w gilydd. Y casgliad goreu a allwn ni dynu ynghylch ei ysgol oddi wrth y gân uchod, a'i dri bywgraphydd, ydyw hwn:—Dengys y gân iddo gael ei roddi yn yr ysgol pan oedd o bump i chwech oed; a chan fod pentref Llangybi o fewn tua milldir i'w gartref, ac nad oedd ysgol nes ato, y mae bron yn sicr mai yno y bu mewn ysgol am y tro cyntaf. A dynwyd ef o'r ysgol cyn iddo fod yn ddeuddeg oed nis gallwn benderfynu, ond ymddengys yn sicr ei fod yn yr ysgol yn Llangybi pan rhwng deuddeg a phedair ar ddeg oed "dan Mr. Isaac Morris, wedi hyny o Bentyrch Isaf." Am ei lwyddiant yn yr ysgol yn yr adeg foreuol hon, y mae genym ei dystiolaeth ef ei hun yn y pennill prydferth a ganlyn:—

"Tra yn yr ysgol yfai'n rhwydd
Wybodaeth yn danbeidiol;
A'r llyfrau roddid ger ei wydd
Bu'n ddigon doeth i'w dethol;
A phawb a synent ar ei lwydd
Yn dringo rhiwiau rheol:
Prophwydid y byddai 'r peth hyn a'r peth arall,
Wrth agor mor forau adwyau y deall."

Dywedir y dechreuodd geisio prydyddu pan oedd yn saith mlwydd oed; ac y mae Dewi Wyn o Eifion, wrth ysgrifenu at Gwallter Mechain, Hydref 25ain, 1824, ynghylch awdl ein bardd ar "Ddinystr Ierusalem," yn dangos mai wrth ddarllen ei waith ef y cynnhyrfwyd ei awen. Dyma fel y dywed Dewi:—"Dichon eich bod chwi, ac y bydd ereill, yn gweled rhyw bethau yn yr awdl yn tebygu i'm gwaith i. Yr atteb i hyn ydyw, bod awen y bachgen o'r un rhywogaeth a'r eiddof finnau; o herwydd wrth ddarllen fy marddoniaeth i yr ymhoffodd yn y gelfyddyd." Cadarnheir hyn gan y bardd ei hun yn y "*Critic*," ac yn y pennillion canlynol o'r gân grybwylledig; a dangosir hefyd mai tra yr oedd yn yr ysgol y cynnhyrfwyd ei awen, trwy ddarllen prydyddiaeth danllyd a hedegog y Bardd Gwyn o Eifion:—

"Un nawn ar ddamwain daeth i'w law
Rhyw lyfr a wnaethai prydydd,
Yn cynnwys ynddo wyth neu naw
O awdlau cywrain, celfydd;
Oddi wrth ba rai ni throai draw
Hyd dranoeth, os nad drenydd;
A hoffodd ef gymmaint, nes o hyny allan
Y tyngodd y byddai yn brydydd ei hunan.

Aml waith y bu, o'i lawn hyd gyd,
Yn cyrhaedd gwrhyd cywrain,
I gasglu coflaid fawr ynghyd
O'r pedwar mydr ar hugain;
Er hyn, o'i raff, ar lawer pryd,
Fe lithrai ambell gydsain:
O'r diwedd crafangodd bob cysswllt ewinog
Y traws-gynghaneddion, a'r dosbarth croesrywiog.

Ac ar ol hyn, wrth fyn'd a dod
A'i dasg i wasg yr ysgol,
Gwneyd ambell englyn fyddai'r nôd;
A manion pur emynol,
Oddi wrth ryw destyn allai fod
Ar ddyri yn ddyddorol:
Yn fuan cynnyddoddmewn dysg a barddoniaeth
Ni roddai air llanw, ni wyrai ddarlleniaeth."

Dengys y pennill olaf mai "gwneyd ambell englyn fyddai'r nôd" y cyrchai y bardd plentynaidd ato, pan ar ei deithiau yn ol a blaen i'r ysgol; ond nid oes gymmaint ag un englyn o'i gynnyrchion prydyddol bachgenaidd ar gael, hyd y gwyddys: yn wir, dywed ei hun, fel y ceir gweled rhag llaw, fod hyd yn oed y darn cyntaf a ddangosodd i'w gyfeillion wedi colli. Y mae yn debyg mai fel ymarferion yn unig, yn "y gelfyddyd fawr," yr edrychai yr awdwr ar y cynnyrchion prydyddol boreuol hyny; o herwydd pa ham yr esgeulusodd eu hysgrifenu.

Pan oedd y bardd ieuangc tua phedair ar ddeg oed, tynwyd ef adref o'r ysgol, gan ei dad, i ddysgu y gelfyddyd wehyddol. Ni wyddys dros ba hyd y bu efe, fel Dafydd Ddu Eryri,

"Yn dwys barhau, i ganu a gwau,
Tra daliai oriau'r dydd:"

ond y mae yn amlwg nad ymlynodd efe yn hir "wrth y wenol a'r garfan." A thra y bu wrthynt, llyfrau, a dysg, a barddoniaeth, oedd yn myned â holl feddylfryd ei galon. Pa wedd bynag, ymddengys i ni yn bur eglur mai tra yr oedd gartref yn awr yn gweu y daeth i gyffyrddiad â'r prydydd—gwaith yr hwn a roddes gynnhyrfiad gyntaf, fel y gwelsom, i'w awen ddisgleirwych. Yr ydym yn seilio y casgliad yma ar y pennillion canlynol:—"Cyn hir," sef cyn hir ar ol bod yn "gwneyd ambell englyn, wrth fyned a dyfod â'i dasg i wasg yr ysgol:"—

"Cyn hir, mewn torf gynnullai 'nghyd,
Yn rhywle yn ei ardal;
Fe welai'r bardd o ryfedd bryd,[1]
Chwareusai'r awen cystal,
I wneyd y llyfr fu'n gân ei gryd,
I'w süo 'n brydydd dyfal:
Nesaodd i'w ymyl, mewn ofn coelgrefyddol
I gyffwrdd â'i berson, er derbyn rhin barddol.

Er na bu gair cydrhwng y ddau,
Am ddyddiau, o ymddiddan;
Afaon dybiai iddo'n glau
Rwydd ddeillio rhinwedd allan,
A'i fod byth wed'yn yn cryfhau
Yn noniau awen anian:
Yr ydoedd mor fywiog a chwim ei ddychymyg,
I weithio'n ei obaith rai pethau annhebyg!"

Yn mhen rhyw nifer o ddyddiau ar ol y cyffyrddiad cyfriniol crybwylledig, cafodd y bachgen prydyddol y fraint fawr o ymddiddan â'r prydydd rhyfedd—gwaith yr hwn a wnaethai iddo dyngu y byddai yn brydydd ei hunan; ac y mae ymadroddion ynglŷn â'r llinellau a ddyfynwyd eisoes o lythyr Dewi Wyn at Gwallter Mechain yn profi i Dewi gymmeryd y bachgen barddonol o hyny allan yn ddysgybl prydyddol. Dyma fel y dywed y Bardd Gwyn:—"O herwydd wrth ddarllen fy marddoniaeth i ymhoffodd yn y gelfyddyd; a myfi, yn ganlynol, a fu ei athraw: a'r ffordd a gymmerais i'w gyfarwyddo oedd ei gynghori i ddarllen "*Gorchestion Beirdd Cymru*" [casgliad Rhys Jones], a phethau ereill, rhag iddo lithro ac ymlynu yn ormodol wrth fy null i; yr hwn, os yw yn ardderchog mewn rhywbeth, nid yw dda yn mhob peth." Yn yr adeg yma, pan dan ddysgeidiaeth farddonol Dewi Wyn, daeth yn gydnabyddus â Robert ab Gwilym Ddu, o'r Bettws Fawr, a Siôn Wyn o Eifion (John Thomas, Chwilog, y bardd gorweiddiog). Ond nis gallwn ni gael prawf mewn un man mai Siôn Wyn oedd ei athraw barddol, fel y dywed un o'i fywgraphwyr; canys Dewi Wyn, yn ddiau, yn ol ei dystiolaeth ei hun, a thystiolaeth y bardd, a gafodd yr anrhydedd hono yn benaf o leiaf.

Ar ol bod gartref dros ryw ennyd yn dysgu gweu dan gyfarwyddyd ei dad, ac yn dysgu

[1] Pryd rhyfedd dros ben oedd i Dewi Wyn, fel y gwelir wrth ei bortread.

Digitized by Google

prydyddu dan arweiniad ei athraw Gwyn, o'r Gaerwen, canodd yn iach am byth i'r wenol, pan oedd o bymtheg i un ar bymtheg oed, fel y casglwn; ac aeth i ysgol Abererch, ger llaw Pwllheli, yr hon a gedwid ar y pryd gan Mr. William Owen (*Gwilym Ddu Glan Hafren*), yr hwn, yntau, fel Eben Fardd, ydoedd frodor o Eifionydd, sef mab Owen Williams, o'r Wern Dwn, Llangybi. Yr oedd Gwilym Ddu yn fardd gwych, yn gerddor enwog, ac yn meddu gwybodaeth gyffredinol eang; a bu yn pregethu dros dymmor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Canfu Mr. Owen yn fuan fod ei ddysgybl ieuangc, Ebenezer, yn meddu athrylith gref, a'i fod yn sychedu yn orawyddus am wybodaeth; ac fe wnaeth ei oreu at ei ddiwallu. Bychan a wyddai yr athraw y pryd hwnw mai y dysgybl syml, tawel, a diymhongar yma a safai rhyngddo ef a chadair farddol ei wlad mewn amser dyfodol; ond felly fu, a hyny mor ddiarwybod i'r naill a'r llall, yn ddilys ddiammheu; canys Gwilym Ddu oedd yr ail oreu ar "Ddinystr Ierusalem," yn Eisteddfod Trallwm, 1824; a'i ddysgybl disyml, Ebenezer, a gafodd y gadair farddol.

Yn mhen rhyw ennyd lled fyr ar ol i Ebenezer fyned i ysgol Abererch, symmudodd Mr. W. Owen i'r Drefnewydd; ac ymddengys mai ar yr achlysur hwnw y cyfansoddodd ein bardd ieuangc y darn barddonol cyntaf a ddangosodd i'w gyfeillion y crybwyllir am dano yn y pennill canlynol:—

"Y cyntaf ddarn erioed a wnaeth
I'w ddangos i'w gyfeillion,
Oedd 'Cŵyn Ysgolor,' llawn o aeth,
Am golli athraw tirion;
Yr hwn o'u gŵydd a droai'n gaeth,
I arall le yr awrhon;
Ond 'Cŵyn yr Ysgolor' a gollodd trwy'i ddwylaw;
Modd bynag, fel hyn yr oedd 'Atteb yr Athraw.'"

Dengys hyn y bu y bardd ieuangc yn fwy gofalus am "Atteb yr Athraw" nag am ei "Gŵyn" ei hun; a gresyn oedd hyny. Y mae "Atteb yr Athraw" sydd yn y gân dan sylw—"Afaon, y Bardd Ieuangc," cofier—yn bum pennill, pedair llinell; y cyntaf o ba rai sydd fel hyn:—

"Ffarwel, Afaon! dyma'r dydd,
Y dydd sydd wedi dod,
Caru ac ewyllysio eich lles,
Yn gynnhes gwn fy mod."

Go debyg yw y pedwar pennill arall. Wedi i Mr. Owen ymadael o Abererch, aeth y bardd ieuangc i ysgol blwyfol Tydweiliog yn Lleyn, lle y preswyliai rhai o'i berthynasau. Bu yn yr ysgol yma hyd onid oedd yn 19eg oed, o leiaf. Enw athraw yr ysgol hon y pryd hyny oedd John Jones, o'r Mynachdy. Yr oedd y bardd ieuangc yn ysgolhaig lled wych erbyn hyn—yn enwedig mewn rhifyddiaeth, ei hoff gelfyddyd, heb law barddoniaeth.

Y gân gyntaf a gadwyd gan y bardd ieuangc mewn ysgrifen yw yr un a eilw efe yn "Gathl y Greadigaeth," yr hon sydd yn nghân Afaon. Y mae y gân yma yn saith o bennillion wyth linell, ac yn terfynu gyda dwy linell o gywydd, ac un englyn unodl union; yr hon a wnaed ganddo "yn fuan iawn," eb efe ar ol "Cŵyn yr Ysgolor;" sef yn ebrwydd, fel yr ymddengys, wedi iddo fyned i ysgol Tydweiliog, pan y tybir nad oedd dros un ar bymtheg oed. Yr arweiniad i'r gân hon, a'r pennill cyntaf o honi, sydd fel y canlyn:—

"Yn mhalas anian, mal y soniwyd
O yngan llesg ieuengyn llwyd:
Dyma'r gân sych; nid gwych oedd gwên
Dechreuad awch yr awen:—

Cre'digaeth wych helaeth a chwiliaf,
A hon a olrheiniaf yn rhwydd;
Rhyfedd a chofiaf ei chyfoeth
Yr adail sy'n llawn-ddoeth ei llwydd:
Rhyw drwch o dywyllwch du ollawl
Yn cuddio'r daearawl dŷ oedd;
Ond 'Bydded goleuni' a'i rhwygai,
Dug bobpeth a guddiai ar g'oedd."

Dangosodd y gân hon i'w athraw barddol, Dewi Wyn, yr hwn a'i beiai am fod ynddi rai sillgollau anghyfreithlawn, a "rhy ac cisiau" mewn rhai manau o honi:—

"Er hyn, ar y cyfan, canmolai y cynnyg,
A'i lwydd, pan addfedai, a dybiai yn debyg."

Y mae wyth o ganiadau byrion ereill yn ei "*Weithiau Barddonol*," âg amseriad wrthynt, yn profi iddo eu cyfansoddi pan yn ysgol Tydweiliog; ac y mae enw Tydweiliog wrth rai o honynt; sef, "Gwagedd y byd yn angeu" (pedwar englyn), Tachwedd 1af, 1819, pan nad oedd ond 17eg oed. Y saith ereill a wnaed ganddo yn ystod y flwyddyn ddiweddaf y bu yn ysgol Tydweiliog, sef 1821, pan oedd yn 19eg oed. Yr hwyaf o'r caniadau hyn yw "Cywydd i ofyn bwyall gan Sion Parri y gôf, i William Robert Hughes, saer coed:"—40ain llinell. Dengys terfyniad y cywydd prydferth yma, megys rhyw ranau o holl ganiadau Eben Fardd, fod ei ysbryd, mor foreu a hyny, o duedd grefyddol a hynaws dros ben. "Cybi" oedd y ffugenw a ddefnyddiai y pryd hyn. Dyma'r llinellau y cyfeiriwn atynt:—

"Diolchgar fydd ef, Sion Parri,
Diolch hael a dâl i chwi;
A mynych y dymuna,
Heb dòr, i'ch enaid bob da,
A'ch corph, nes myn'd i orphwys
I salw gell is law y gŵys,
Hyd farn; yna dod o fedd
Yn wrol heb anwiredd
I lewyrch nef oleuwen:
Yno mawl fo'ch cân. Amen."

Dywed un o fywgraphwyr ein bardd i ryw anghydfod pur ofidus a gododd rhwng ei dad ac un o'r brodyr crefyddol, o gylch y pryd hyn, beri i Ebenezer ieuangc oeri yn ei deimladau crefyddol, ac ymgadw ymaith o'r capel; a darfod i ryw rai o'i gymmydogion gwammal, oedd dueddol i ddiota, gymmeryd mantais arno, tra yn y brofedigaeth, i'w lithio yntau i'w cyfeillach fasweddol. Pa wedd bynag, nid oes dim arwydd o hyn mewn un o'i gyfansoddiadau; ac os digwyddodd, y mae yn sicr iddo gael ei lwyr wared o'r amryfusedd yn bur fuan. Ond ni ddechreuodd broffesu crefydd dros hir amser ar ol hyn; eithr y mae yn amlwg wrth ei gyfansoddiadau, cystal a'i holl hanes, bod ei feddwl a'i syniadau yn grefyddol ar hyd ei oes.

Yn ystod y flwyddyn 1821, tua'r diwedd, ond odid, galwyd ef gan y Parch. Thomas Roberts, periglor Llangybi a Llanarmon, i fod yn ysgolfeistr yn Llangybi, pan yr oedd tua 19eg oed; a bu yno am o gylch chwe blynedd, sef hyd 1827. Cynnwysa ei "*Weithiau Barddonol*" bedair ar ddeg o gyfansoddiadau, o wahanol hyd, âg amseriad wrthynt, a wnaed gan y bardd ieuangc yn ystod y chwe blynedd hyn:—tri yn 1822; saith yn 1823; dau yn 1824; un yn 1826; ac un yn 1827: ac y mae yn dra sicr iddo gyfansoddi amryw o'i ganiadau diamseriad yn ysbaid yr un

Digitized by Google

cyfnod; yn mhlith y rhai y credwn yn ddiysgog y gellir rhestru ei alarnad Saesnig i'w fam; a'i "Ymson Cwynfanus" ar ol marwolaeth ei dad:—y ddau gyfansoddiad sydd yn nghân Afaon. Credwn i hyn ddigwydd o gylch 1826, pan gyfansoddodd "Gân yr Unig."

Prif ganiadau y bardd yn y cyfnod yma yw y rhai canlynol:—"Myfyrdod yn mysg y Beddau," saith pennill wyth linell; ac "O'r Byd i'r Bedd," naw pennill pedair llinell—y ddwy yn 1822; "Awdl ar Werth Rhyddid," 254ain o linellau, 1823; "Awdl Dinystr Ierusalem," 476ain o linellau, tua diwedd 1823 neu ddechreu 1824; "Cywydd Boddlondeb," 100 llinell, 1824; "Cân yr Unig," deg pennill wyth llinell, ac englyn; a'i alarnadau i'w fam a'i dad, 1826; "Cywydd y Cryd neu y Crynu," deugain llinell, 1827. Y mae yr holl ganiadau hyn yn brydferth dros ben. Nis gellir darllen un o honynt heb ganfod ar unwaith eu bod yn gynnyrch athrylith o'r radd uchaf. Y mae yr "Awdl ar Werth Rhyddid," yr hon a gyfansoddodd yn Medi, 1823, yn mhen tua mis ar ol iddo gyrhaedd ei 21ain oed, yn flaenffrwyth ardderchog o'r awdlau tra godidog a gyfansoddodd efe wedi hyny. Dichon iddo gael ei symbylu i gyfansoddi yr awdl hon gan draethawd rhagorol Gwallter Mechain ar Ryddid, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1791; canys y mae yn amlwg wrth amryw bennillion o'r awdl, fod yr awdwr ieuangc wedi darllen y traethawd gwych hwnw yn ofalus a myfyrgar.

Ond coron y cyfnod yma o fywyd barddonol ein bardd ydyw yr "Awdl Dinystr Ierusalem," am yr hon y barnodd Gwallter Mechain, prif feirniad yr oes, ef yn deilwng o Gadair Powys, yn Eisteddfod Trallwm, a gynnaliwyd yn nechreu Hydref, 1824, yn mhen tua deufis ar ol iddo gyrhaedd ei 22ain oed. Gan y gwyddai y byddai amryw o brif feirdd Cymru yn ymgais am y gadair hon, ymddengys nad oedd efe yn disgwyl ennill; am hyny nid aeth i'r eisteddfod: ond cynnrychiolwyd ef yno gan y Milwriad Syr Love Jones-Parry, o Fadryn. Yn ebrwydd ar ol yr eisteddfod, gwahoddwyd ef i Fadryn i dderbyn ei wobr, ac i fwynhau croesaw a hawddamor y milwriad haelfrydig. Yr oedd Dewi Wyn mor falch o glywed am lwyddiant annisgwyliadwy ei ddysgybl ieuangc diymhongar a gwylaidd, fel y rhoddodd ollyngiad i'w deimlad brwdfrydig trwy gyfrwng yr englyn godidog yma:—

"Ebenezer, o bu'n isel—godwyd
I gadair aruchel:
Uwch, uwch ei rwysg, uchach 'r êl,
Dringed i gadair angel."

Yr ydoedd "Awdl Dinystr Ierusalem" mor odidog fel yr haerai amryw o'r ymgeiswyr aflwyddiannus mai Dewi Wyn oedd ei hawdwr; ond Dewi, gair yr hwn oedd yn ddeddf, a ddywed yn y llythyr at Gwallter Mechain, o'r hwn y dyfynwyd o'r blaen, fel y canlyn:—"Fe allai fod y chwedlau gweinion wedi peri i chwi led dybied bod rhyw gydweithrediad rhyngwyf a'r bachgen [Ebenezer]; ond gwybyddwch mai dyfais gelwyddog oedd y cwbl. Y mae yn wir i'r bachgen ymddiddan â mi o berthynas i'r gwaith, a dangos peth o hono i mi cyn ei anfon; ond ni welais erioed mo'r gwaith i gyd. Addawsai ddyfod âg ef i mi i'w olygu cyn ei yru ymaith, ond brys a wnaeth iddo ffrystio ei anfon heb i mi gael golwg arno. Y ffordd fyraf am hyn yw dywedyd nad oes yn yr awdl gymmaint ag un llinell o'm gwaith i; ac yr wyf bron yn sicr, o waith neb arall chwaith." Dyrchafodd yr awdl ardderchog yma "Ebenezer, o bu'n isel," ar unwaith i'r safle uchaf yn mhlith beirdd ei wlad—ac nid heb achos; canys y mae yn ddiau mai hon oedd yr awdl odidocaf yn yr iaith ar y pryd, o ran nerth crebwyll, beiddgarwch darfelydd neu ddychymmyg, ac arucheledd syniadau; am yr hon y dywed ei beirniad, Gwallter Mechain, fel y canlyn:—

"Deuwn yn nesaf at yr awdl sydd wedi rhoddi hawl i'w hawdwr i eistedd yn Nghadair Powys. Y mae yn agor ei destyn gyda dolefiad byrbwyll—

'Ah! dinystr! dinystr yn donau—chwalodd
Uchelion ragfuriau—'

Yna y mae yn dychymygu ei hun yn eistedd ar uchelfan, ac yn golygu Caersalem, a'r bryniau a'r dolydd a'i hamgylchynai, gyda gwresogrwydd mawrygus. Y mae ei ddoniau darluniadol yn nodedig: prin y gallasai Hiram ddisgrifio adeiladaeth arddunawl y deml gyda mwy o briodoldeb. Wedi arfer ei awen am dro yn y darluniadau prydferthaf, y mae yn attal yn fyrbwyll, megys pe byddai wedi ei daro gan ddychryn, wrth fyfyrio ar y trychineb aneisor [digyffelyb] a ragdybiai fyddai canlyniad ymddygiad gwrthnysig y genedl Iuddewig, a 'gair sicrach y prophwydi.' Yn y dyspeidiad pwysig rhwng nwydau gwrthwynebol y meddwl, sef llawenydd a galar, y mae yn deisyf ar wrthddrychau penaf anian i ymddistewi, ac fel i gyfranogi yn ei deimladau pruddaidd. Y mae y canolfor, yr Iorddonen, a hyd yn oed cór chwibanog gwigoedd Carmel, yn cael eu gosod dan waharddiad, tra byddai efe yn darlunio erchylldod dialedd dynesol y nef ar ddinas a phobl oedd wedi eu diofrydu i ddinystr. Y mae yn darlunio nesâd y fyddin Rufeinig gyda chryfder Polybius, a thân Homer. Nid ydyw yn aros cyhyd ar ddychrynfeydd y pla, y rhyfel a'r newyn, a rhai o'i gydymgeiswyr, nac yn dilyn Josephus mor gaethiwus a llawer o honynt; ac nid ydyw, fel hwy, yn rhoddi diweddglo, trwy son am adferiad yr Iuddewon, yr Ierusalem newydd, a'r mil blynyddoedd. Wedi dilyn ei destyn hyd oni welodd ddinas y Brenin Mawr, a mynydd ei sancteiddrwydd yn garnedd, a'r bwystfilod a'r adar ysglyfaethus yn ymgynnull at eu gwledd, y mae yn awr yn diweddu ei awdl mor fyrbwyll ag y dechreuodd hi. Nid ydym yn ystyried y byrbwylldra hwn yn fai, ond yn hytrach yn ardderchawgrwydd. Ei destyn oedd 'Dinystr Ierusalem'—a dim yn chwaneg."

Pan gafodd Gwallter Mechain wybod mai y bachgen ieuangc Ebenezer Thomas oedd awdwr yr awdl odidog yma, ysgrifenodd at ei athraw barddonol, Dewi Wyn, yn ei annog i gynghori ei ddysgybl i ddiwygio rhyw saith neu wyth o fân golliadau a ystyriai efe oedd yn yr awdl. O blegid hyn, tybiodd rhai fod llythyr y beirniad at Dewi Wyn yn groes i'w feirniadaeth. Ond y mae yn eglur mai y pethau a elwir 'beiau cerdd dafod' ydyw y cwbl braidd a noda y beirniad; megys "proest i'r awdl," "crych a llyfn," "ymsathr odlau," a'r cyffelyb. Y mae yn amlwg nad ystyriai y beirniad teg y pethau hyn, er hoffed ydoedd yn nechreu ei yrfa lenyddol o'r gynghanedd, yn ddim amgen na brychau ar ddisgleirdeb yr awdl odidog. Bu ereill yn ceisio pigo gwallau mwy pwysig yn yr awdl hon; megys "geiriau llanw," "cyssylltu pethau ammherthynasol," "gwallau ieithyddol," a'r cyffelyb; tra y beia dosbarth arall yr awdwr am ddilyn Josephus yn rhy agos. Y mae yn wir y dichon fod amryw wallau o'r fath yn yr awdl, a mwy, o bossibl, nag a nodir gan yr adolygwyr crybwylledig; ond pa waith dynol sydd heb ei wallau? Y mae yn wir hefyd fod cynseiliau yr awdl wedi eu cymmeryd, yn benaf, o Josephus:

Digitized by Google

—ac o ba le mwy cyfadd[illegible] y cymmerid hwy? Ond y mae ei harddull cyfansoddiadol mor annhebyg i waith Josephus, ag ydyw arddull "*Coll Gwynfa*" Milton i'r Beibl sanctaidd—o'r hwn, yn benaf, y cymmerodd y bardd mawr hwnw ei gynseiliau. O'r tu arall, y mae rhai yn barnu mai "Awdl Dinystr Ierusalem" ydyw prif gyfansoddiad Eben Fardd; ac mai arni hi, yn benaf, y mae ei enwogrwydd barddonol yn ymddibynu. Yr ydym ni yn credu, fel y crybwyllwyd, ei bod yn odidocach nag un awdl a gyfansoddwyd o'r blaen, o ran arucheledd a nerth darluniadol, ac hyd yn oed "Awdl Elusengarwch" Dewi Wyn: er hyny, credwn nad yw amgen na phorth mawreddog i deml farddonol a llenyddol Eben Fardd.

Rhaid crybwyll un peth arall hynod, a phur bwysig, ynglŷn âg "Awdl Dinystr Ierusalem." Pan oedd Eben yn darlithio ar "Addysg" yn Liverpool, dywedodd Hiraethog yn ei araeth agoriadol fel llywydd y cyfarfod, mai awdl Eben Fardd ar "Ddinystr Ierusalem" fu yn foddion i ysgogi ei feddwl ef gyntaf erioed i geisio barddoni. Cyn iddo ddarllen yr awdl hono, dywedai nad oedd yn gwybod rhagor rhwng buwch ac englyn! Ond effeithiodd barddoniaeth danllyd yr awdl hono gymmaint ar ei feddwl nes y penderfynodd efe geisio cyfansoddi rhywbeth tebyg i'r bardd ieuangc oedd yn digwydd bod o gylch yr un oedran ag yntau. Yn mhen tua blwyddyn wedi hyny, digwyddodd weled rhestr o destynau eisteddfod oedd i gael ei chynnal yn Aberhonddu yn 1826; a disgynodd ei lygad ar wobr a gynnygid am y cywydd goreu ar "Frwydr Trafalgar, a marwolaeth y penllyngesydd, Arglwydd Nelson." Heb law godidawgrwydd mewnol "Awdl Dinystr Ierusalem," fel y dangoswyd, bydd yn sicr o fod yn anwyl yn meddwl pob Cymro gwladgarol, nid yn unig am iddi fod yn achlysur cyfansoddiad un o'r cywyddau goreu yn yr iaith, ond hefyd am iddi roddi cychwyniad i yrfa farddonol ddisglaer ein prifardd, Gwilym Hiraethog.

Ymddengys oddi wrth "Gân yr Unig" a gyfansoddodd Eben Fardd yn Mehefin, 1826, a'i "*Alarnad*" i'w fam, a'i "Ymson Cwynfanus" ar ol ei dad, sydd yn nghân Afaon, y bu rhieni y bardd feirw ryw bryd rhwng 1824 ac 1826. Y mae y caniadau byrion hyn yn hynod dyner a thoddedig; ac yn brofion diymwad y gallai awdwr aruchel "Dinystr Ierusalem" ddisgyn yn effeithiol i ddyffryn teimlad a galar. Yn ei arweiniad Cymraeg i'w Alarnad Saesnig am ei fam, efe a ddywed:—

"Ond druan oedd! ca'dd wybod pam
Y gelwir oes yn flinder:
Yn nghanol hyn bu farw ei fam,
A thaflwyd ef i bryder;
Ac ofnai'r ffordd yn awr bob cam,
Rhag cwrdd â rhyw orthrymder;
A'r disglaer ragolwg a welai'n flaenorol,
A droes yn dywyllwch i'w lygaid ieuangol!"

Ac yn "Nghân yr Unig," efe a ddywed:—

"Wrth fyfyrio, cyfyd wylo,
Os eir i gofio'r amser gynt
Pan yn faban eiddil, egwan,
Nid awn fy hunan ar fy hyn
Gofal mamawl, llaw serchiadawl,
Geiriau denawl, hawddgar, doeth,
Oedd fy nodded a'm hymddiried
Rhag pob caled niwed noeth."

Am yr achlysur iddo wneyd yr alarnad i'w fam yn Saesneg, efe a ddywed:—

"Fe allai fod y peth fel hyn,
I'r gân ymddangos allan,
Mewn gwisg Seisnigaidd o'r braidd, cyn
Ei ddod yn ieithydd cyfan,
Sef, am fod ei astudiaeth syn,
Oll yn yr iaith hon weithian; [hall
Ond dyma y farwnad yn siampl i feirdd ang-
I ochel iaith ddyeithr nes dod i'w llawn ddeall."

Arwydda y pennill cyntaf o'r farwnad dan sylw mai yn Mehefin, 1825 neu 1826, y bu ei fam farw, pan oedd y bardd yn dair neu bedair ar hugain oed. Dyma'r pennill:—

"Ye woody glens, ye leaves of every tree, [me!
Ye mountains, hills and rocks, pray mourn with
Thou gloomy sky, thy waters don't confine,
But let thy tears be intermix'd with mine!
Ye winged choir, sing some elegiac tune;
Pray, let my loss make sad your merriest June!"

Yn ebrwydd ar ol gorphen yr alarnad hon am ei fam, efe a ddywed:—

"Cyn pen ychydig wedi hyn
Bu farw tad Afaon:
Gadawyd ef yn brudd a syn,
Heb dad na mam yr awr'on;
A gwedd ei wyneb droai 'n wyn,
Gan rym tufewnol loesion:
Ah! helbul a swniai yn awr trwy b'las anian,
Dych'mygai fod pob peth o'i amgylch yn griddfan!"

Yn mhen blwyddyn neu ddwy ar ol y profedigaethau llymion hyn, sef yn 1827, cafodd alwad i fyned o Lanarmon yn Eifionydd, i Glynnog Fawr yn Arfon, i fod yn athraw yr Ysgol Wladwriaethol yno, yr hon a gedwid mewn hen adeilad oedd gyfochr a'r eglwys, a elwid "Eglwys y Bedd," a "Chapel Beuno"—lle a ddefnyddid hefyd i gadw Ysgol Sabbothol. Bu yn athraw yn yr ysgol yma dros bymtheng mlynedd, sef hyd 1843. Yr oedd yn dra llwyddiannus fel athraw, yn enwedig gyda bechgyn wedi tyfu i fyny i oedran cymmedrol; canys ystyriai ef a hwythau eu gilydd fel cyfeillion, yn hytrach nag fel athraw ac ysgolheigion. Bu amryw o'r gwŷr ieuaingc hyn yn llenwi swyddi pwysig ar ol bod dan ei ddysgyblaeth ef; a chyrhaeddodd rhai o honynt enwogrwydd mewn byd ac eglwys.

Ar ei fynediad i Glynnog, aeth i lettya at Thomas ac Elin Williams, Caer Pwsant—lle heb fod neppell oddi wrth ei ysgoldy, sef hen gapel Beuno. Ymddengys na bu yno yn hir cyn dechreu hoffi Mary, ail ferch Thomas Williams, Cae'r Pwsant. Ganwyd y ferch rinweddol hono yn Hydref, 1807; ac felly yr oedd hi yn bum mlynedd ieuangach nag Ebenezer Thomas; ac yr oedd hi yn nodedig am ei diwydrwydd, ei distawrwydd, ei challineb, a'i duwioldeb, fel yr oedd yntau; am hyny yr oeddynt yn bâr ieuangc pur gymmharus. Priodwyd hwy ar y 23ain o Dachwedd, 1830, pan oedd efe yn 28ain oed a hithau yn 23ain oed. Bu iddynt dair o ferched, ac un mab. Ganwyd Elin Rhagfyr 13eg, 1831; Catherine, Mawrth 18fed, 1834; Elizabeth, Hydref 8fed, 1839; a James-Ebenezer, Ionawr 26ain, 1843; ac yr oedd y plant yn wir deilwng o'u rhieni rhinweddol a thalentog. Yr oedd James yn fachgen pur obeithiol, ac yn meddu llawer o gynneddfau treiddiol ei dad. Cyfansoddodd lawer o hymnau da, ac yr oedd yn ysgolhaig rhagorol. Ar fyr, ni bu deulu erioed dedwyddach cyn i angeu ddechreu ei rwygo. Yr oedd undeb a serch teuluaidd fel math ar grefydd yn y teulu.

Yn mhen rhyw ennyd ar ol priodi, adeiladodd

Digitized by Google

y bardd dŷ newydd, gyferbyn â'r fynwent, yn yr hwn y preswyliodd hyd ei farwolaeth. Yn uan ar ol adeiladu y tŷ hwnw dechreuodd gadw maelfa (*shop*) fechan, am yr hon y gofelid yn benaf gan ei wraig ddiwyd a darbodus. Yn mhen amser wedi hyny, llwyddodd cyfeillion y bardd i gael llythyrfa (*post-office*) iddo; a Mrs. Thomas a ofalai yn benaf am hono hefyd. Yn y cyfamser, yr oedd yntau yn cadw yr ysgol, yn gweinyddu fel ysgrifenydd y plwyf, ac yn rhwymwr llyfrau. Heb law hyny, byddai yn ysgrifenu llythyrau yn dra mynych dros ei gymmydogion; a thra yn magu y plant, gwnai lawer o fân orchwylion er cynnorthwyo ei briod; canys nid arferent gadw morwyn yn oes Mrs. Thomas. Hefyd, gan fod Clynnog ar fin y brif ffordd rhwng Caernarfon a Phwllheli, byddai rhywrai yn galw gydag ef braidd bob dydd er mwyn cael ei weled, neu fwynhau ychydig o'i gymdeithas; a pha un bynag ai darllen, cyfansoddi, ai beirniadu y byddai, gadawai bob peth er mwyn boddhau ei ymwelwyr.

Wrth ystyried y pethau a nodwyd, y mae nifer y cyfansoddiadau barddonol a rhyddieithol a ysgrifenodd yn ystod y cyfnod olaf o'i fywyd, o 1827, pan y symmudodd i Glynnog, hyd ei farwolaeth, yn ddigon o syndod i'r holl wlad. Yr ydym yn casglu fod y llyfr a elwir "*Gweithiau Barddonol*," &c., Eben Fardd yn cynnwys o gylch 258 o ganiadau, hirion a byrion, a gyfansoddodd ar ol symmud i Glynnog; ac awgrymir yn ei gofiant sydd yn y llyfr hwnw, fod amryw o'i gyfansoddiadau heb eu cyhoeddi etto. Gresyn na chawsid casgliad cyflawn o'i holl waith, rhyddieithol cystal a phrydyddol; canys nid ysgrifenodd Eben Fardd odid ddim nad ydyw yn werth ei gadw. Pa wedd bynag, ni oddef ein terfynau i ni sylwi yma ond yn fyr ar ei brif gyfansoddiadau, a digwyddiadau penaf ei fywyd, yn ystod y cyfnod toreithiog hwn.

Ymddengys i'n bardd fod yn rhy brysur wrth ymsefydlu yn y byd, dros y tair blynedd cyntaf ar ol myned i Glynnog, i gyfansoddi dim ond ychydig o fân ganiadau. Gellir casglu oddi wrth gân Afaon y bu y bardd dros gryn ennyd yn cyfeillachu â'i Fari,

"A eilw efe 'n Olwen;"

canys dywed y bardd i'w Olwen, ar ol bod yn cyfeillachu yn ddifyr âg ef dros ennyd,

"Ei gadw o'i rhandir yn gywir un gauaf,"

o blegid digwyddiad diniwed, nad oedd ganddo ef ddim bwriad drwg ynglŷn âg ef; ac wedi hir ddadleu ei ddiniweidrwydd, gwelodd hithau ei chamsyniad mor eglur o'r diwedd,

"Nes llwyr roddi iddo ei hun, law a chalon."

Y mae ei ddarlun o'r amgylchiad yma mor naturiol a destlus fel nas gallwn lai na dodi talfyriad o hono ger bron.

"Fel yr oedd anian, a'i holl swyn,
 Yn myn'd â'i serch yn blentyn;
Llenyddiaeth, eilwaith, hithau'n dwyn
 Ei fryd, ar agwedd hogyn:
Yr un modd tegwch benyw fwyn
 A'i denai pan yn llengcyn:
Anghofiodd ei alar, dechreuodd garwriaeth:
Mae'n drwm d'wcyd, ei grefydd a droes ar ddirywiaeth!

Sefydlai 'i serch ar fenyw brid,
 Yr hon a elwid Olwen;
Ei gwedd oedd brydferth oll gan wrid,
 Fel lliwiad y flod-ddeilen,
A'i swynol wên yn lleddfu llid;
 Ni welwyd mwynach meinwen—
Un ddiwair ei thuedd, yn meddu callineb,
Un, tybiai, â'i henaid yn atteb i'w hwyneb.

Rhyw bryd yn fuan wedi hyn,
 Yn ystod y garwriaeth,
Tra syllai Olwen ar y llyn,
 Ei hunan, mewn dwfn syniaeth,
O'r graig ger llaw, fe lamai myn,
 Terfysgai ei neillduaeth:
Hi droes, a phwy welai o bell ond Afaon,
Yn arwain rhyw eneth o'r llwyni gwyrdd-leision.

Yr eneth hon oedd gares hardd
 A ddaethai at Afaon,
Ar hoff ymweliad diwahardd,
 Ar rai o'r dyddiau gwylion,
A chyda hi cymmerai 'r bardd
 Hynt fer i'r coedydd tirion:
Cyfeiriai o honynt at gyrchfan hoff Olwen,
Gan ddisgwyl ei gweled yn lliwus a llawen.

Anfonodd ato linell lwys,
 Ar ganiad fel y canlyn,
I edliw anwadalwch dwys,
 A'i alw, braidd yn elyn,
Gan fwrw 'i frig yn ormod pwys,
 I raddau gwael ei wreiddyn:
Bu'n fyrbwyll, neu ynte defnyddiai'r achlysur
O b'ai ddiniweitiach, i wybod ei natur:—

Afaon bach! mor fwyn y bu
 Dy wên a'th garu gynt;
Ond diffodd wnaeth fel canwyll frwyn,
 Y gwanwyn, yn y gwynt!
Ti anghofiaist fam a thad
 I'm cael yn gariad gynt;
Ond chwythwyd pob adduned dda,
 Fel manus gyda'r gwynt!
 * * *

Mi gredaf bellach, er fy lles,
 Hen gynghor ge's i gynt,
Na ro'wn ar fab a'i haeriad moel,
 Ddim mwy o goel na gwynt!

Tarawodd llymder y saeth hon
 Afaon hyd ei fywyd:
Ymbiliai'n fynych ger ei bron
 I'w choledd a'i dychwelyd;
Ac adnewyddu'r llygaid llon
 A'i gwnelai'n gu anwylyd;
Ond nid oedd yn tycio i wneyd un dylanwad:
Fe'i llyngcwyd gan brudd-der, a dyma'i gwynfaniad:—

"'Tyr'd Olwen, feinwen fwynaidd—i 'ngwyneb,
 Fy ngeneth reolaidd!
Pa fympwy, drwy fy mron draidd!
O! gwna olwg anwylaidd!
 * * *

Na ddigia 'n dragywydd, O! bydd yn dy bwyll,
Mi dyngaf, mŷn f'einioes! nad oes ynof dwyll,
Ac na wnaethum achos it' ddangos yn ddu;
Os gwnaed camgymmeriad, difwriad a fu.'

Ond heb ei ddilyn trwy y drain
 A ga'dd yn llwybrau cariad;
Mae'n ddigon d'weyd i'r eneth gain,
 Trwy dyner gydymdeimlad,
Mewn amser, ddod yn syml ei sain,
 A siriol i gydsyniad;
A chael ei boddloni am burdeb Afaon,
Nes llwyr roddi iddo ei hun, law a chalon."

Yn mhen tua blwyddyn wedi ymsefydlu yn gysurus yn ei dŷ ei hun, gyda'i anwyl briod ddarbodus, ymroddodd y bardd i ganu etto o ddifrif; canys tua diwedd 1831, neu ddechreu 1832, cyfansoddodd ar ddau o destynau Eisteddfod Frenhinol Beaumaris; sef, awdl ar destyn y gadair, "Drylliad y *Rothsay Castle*;" ac "Englynion Pont Menai." Ennillodd ar yr olaf, ond ni chafodd y gadair y waith hon; ac o

Digitized by Google

herwydd hyny, aiff y beirniaid heibio i'r awdl hon yn bur ddisylw. Ond i'n tyb ni, y mae yn gyfansoddiad gwir ardderchog o ran crebwyll, darfelydd, arucheledd, a nerth darluniadol; ac y mae yn sicr o fod yn lanach oddi wrth adeiriad nag awdl y bardd a gafodd y gadair: ac y mae yn gwbl deilwng o awdwr hedegog "Dinystr Ierusalem," "Iob," ac ereill.

Ni chyfansoddodd ein bardd unrhyw waith mawr rhwng Eisteddfod Beaumaris ac Eisteddfod y Gordofigion yn Liverpool. Gyrodd ddeuddeg englyn i gystadleuaeth ar "Arch Noah," yn Eisteddfod y Fenni, lle y barnwyd ef yn ail oreu. Dichon i hyn fod yn foddion i ddeffro ei awen erbyn y flwyddyn nesaf.

Dywed un o'i gofianwyr mai yn ystod y flwyddyn hon, 1839, ac efe yn 37ain mlwydd oed, yr aeth ein bardd yn aelod yn Nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd; ond dywed un arall i hyn ddigwydd o gylch 1840, wedi gwrando o hono ŵr ieuangc o gyfaill iddo yn pregethu ar *Act.* xx. 6; "Pa ham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?" Dywedir iddo, yn lled fuan ar ol hyny, ymuno â'r Methodistiaid yn nghapel Seion, oedd tua milldir o'r pentref, lle y bu yn aelod hard.l dros un mlynedd ar ddeg; sef, hyd onid adeiladwyd capel newydd yn y pentref.

Y mae yn lled anhawdd gwybod beth oedd yr achos i'n bardd oedi cyhyd heb ymuno â rhyw gyfundeb crefyddol. Dywed ei gofianwyr iddo fod yn petruso, pan tua 30ain oed, ynghylch gwirioneddau yr efengyl; ond y gwaredwyd ef rhag hyny trwy gael ei gyfarwyddo i ddarllen "*Paley's Evidences of Christianity,*" "*Butler's Analogy,*" "*Hall on Modern Infidelity,*" a "*Scott's Force of Truth.*" Eithr nis gwelwn ni ddim argoel yn ei waith, mewn un cyfnod o'i oes, o'r fath ammheuaeth, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Yn wir, nid oes gymmaint ag un pennill o waith Eben Fardd y byddai raid i'r Cristion gloywaf a mwyaf penderfynol wrido am fod yn awdwr o hono. Heb law hyny, nid yw yn cyfeirio dim at ei ammheuaeth yn nghân Afaon; yr hon, yn ddilys ddiammheu, sydd grynodeb o'i hunangofiant. Y mae yn cyfaddef yn y gân odidog hono, fel y gwelsom, bod yn drwm dyweyd ddarfod i'w "grefydd," ar ddechreu ei garwriaeth, droi ar ddirywiaeth; ond ebai efe:—

"Ni nodir nemawr, y waith hon,
O'i fuchedd yn ddilynol;
Ond adnewyddwyd dan ei fron,
Y teimlad coeth crefyddol;
A hwyliai 'n ffodus frig y don,
Yn môr yr awen farddol;
Gan dalog fyn'd heibio, heb ostwng ei faner,
Yn nhân herw-longau llenyddol ei amser."

Gwelir yn amlwg yma fod Eben Fardd yn ystyried, pan yn cyfansoddi y gân hon, yn lled hwyr ar ei fywyd, fel y tybir, fod ganddo "grefydd" cyn dechreu cyfeillachu â'i anwylyd; ei bod wedi troi ar ddirywiaeth ar ddechreu ei garwriaeth; ond yn fuan wedi hyny yr adnewyddwyd dan ei fron y teimlad coeth crefyddol, yr hyn a'i cadwodd "heb ostwng ei faner yn nhân herwlongau llenyddol ei amser." Wrth y "tân" yma, yn ddiau, y golyga y bardd y dadleuon crefyddol tanbaid a ffynent yn y wlad yn moreu ei oes ef, rhwng y gwahanol gyfundebau. Y mae yn amlwg wrth waith ein bardd ei fod ef yn ddarllenwr manwl a myfyrgar o'r Testament Newydd er pan yn ieuangc; a chan nad oedd ganddo odid ddim ymddiried mewn esboniadau, am y credai mai synwyr cyffredin a barn bersonol oedd y moddion goreu i ddeall y Beibl, crëwyd petrusder dwfn yn ei feddwl ynghylch clerigiaeth o bob math—y gweinidog sefydlog fel y ceir ef yn mysg yr Ymneillduwyr, cystal a pharson sefydlog yr Eglwys Sefydledig, am nas gallai efe ganfod y naill mwy na'r llall yn llyfr cyfraith yr Eglwys Gristionogol. Yr oedd ynddo hefyd wrthwynebiad cydwybodol i bob math o gyrph duwinyddiaeth, a chyffesion, neu erthyglau ffydd. Y mae yn sicr mai y pethau hyn, a'u cyffelyb, a barodd iddo wrthod myned yn barson, pan gymmhellwyd ef i hyny gan ei gyfeillion Eglwysig; a phetruso mor hir cyn ymuno â'r Methodistiaid. Cadarnheir y casgliad yma gan yr ymadroddion canlynol sydd mewn llythyr Saesneg a ysgrifenodd at gyfaill, Mawrth 23ain, 1840, yn fuan ar ol iddo ymuno â'r Methodistiaid:—

"Yr wyf wedi hir benderfynu i beidio ymlynu *yn fanwl* wrth unrhyw *gyrph o dduwinyddiaeth, cyffesffydd, neu gredöau, neu erthyglau,* yn hòni trefnu yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn adeilad o opiniynau ofer, i'w galw yn *gyfundrefn* (*system*), a'i gwthio ar ddynolryw fel deddflyfr o'r Beibl cyssegr-lân. Y cwbl sydd genyf fi i'w ddal ydyw—'*nad oes gan bechadur condemniedig un ffordd i gael ei gymmodi â Duw'dod wedi ei ddigio, ond trwy haeddiant Iesu Grist;*' ac os credir hyn yn drwyadl, y canlyniad wrth reswm a fydd cofleidio yr Iesu, a chyflwyno ein heneidiau a'n cyrph i'w wasanaeth a'i gadwraeth ef."

Y mae yn amlwg weithian mai y prif feini tramgwydd ar ffordd Eben Fardd i ymuno â'r Eglwys Sefydledig oedd ei 'hoffeiriadaeth' a'i herthyglau ffydd; ac mai "*Cyffes Ffydd*" y Methodistiaid a barai iddo betruso cyhyd cyn ymuno â hwythau. Pa wedd bynag, gan mai cenhadon teithiol, fel y gwyddys, oedd pregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd o gylch y pryd hyn, bron yn ddieithriad; a chan yr ymddengys y teimlai ein bardd ei rwymedigaeth fwyfwy i gyflwyno ei enaid a'i gorph i wasanaeth a chadwraeth ei Waredwr yn gyhoeddus, ymunodd yn awr â'r Methodistiaid, fel y cyfundeb agosaf, yn ol ei farn ef, i gynllun y Testament Newydd o'r ddau oedd yn ei ardal ar y pryd; sef, y Methodistiaid a'r Eglwys Sefydledig.

Yr oedd ein bardd o deimladau pur dyner, ac hefyd o duedd hynod o wylaidd a charedig wrth natur; ac fel Cristion didwyll, yr oedd yn coleddu y meddyliau goreu am bawb a broffesent eu bod yn caru ein Harglwydd Iesu; a rhyw feddwl bychan oedd ganddo am y mân bethau sydd yn dosbarthu corph y credinwyr yn wahanol bleidiau, a dadleuai fod yn mhob un o honynt lawer o Gristionogaeth. Rhyw syniadau fel hyn, y mae yn debyg, a'i tueddai ef i fyned i addoliad cyhoeddus yr Eglwys a'r Methodistiaid, hyd nes y daeth hyny yn ammhossibl, pan y symmudodd yr Eglwys ei gwasanaeth i'r un amser a'r Methodistiaid. Yna ni phetrusodd efe ddewis yr olaf yn gyfangwbl, fel y crybwyllwyd.

Blwyddyn bwysig iawn yn mywyd Eben Fardd oedd y flwyddyn hon, 1840; canys heb law mai yn ystod y flwyddyn hon y bwriodd ei goelbren o ddifrif yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, yn nechreu hon, neu yn niwedd y flaenorol, y cyfansoddodd ei awdl odidog ar "Gystuddiau, Amynedd, ac Adferiad Iob," sef testyn Cadair y Gordofigion yn Liverpool; yr hon a gynnaliwyd yn mis Mehefin, 1874, dan

Digitized by Google

Eben Fardd gasgliad bychan o'i gyfansoddiadau barddonol, wrth yr enw syml "*Caniadau*," yn cynnwys "Awdl Dinystr Ierusalem," yr "Awdl ar Gystuddiau, Amynedd, ac Adferiad Iob," y toddeidiau ar "Esgyniad Elias," yr englynion ar "Bont Menai," yr Alarnad odidog ar "Y Parch. John Elias, o Fôn," ac amryw o fân ganiadau ereill; a dywed yn ei ragymadrodd, "Ni roddais, hwyrach, yr hanner o'm cyfansoddiadau i mewn yma."

Dywed ysgrifenydd yn y Faner, Chwefror 25ain, 1853, y "bu Eben Fardd yn cadw ysgol yn Nghlynnog Fawr am hir flynyddoedd heb un gwrthwynebiad; ac mewn rhan o hen Eglwys Gadeiriol Clynnog y bu yn ei chadw dros amser maith. Ond tua naw neu ddeng mlynedd yn ol, meddyliodd yr Eglwyswyr fod yr Ymneillduwyr wedi cael eu rhwysg yn ddigon o hyd yn Nghlynnog i ddysgu y plant, a bod yn bryd iddynt hwythau bellach ddechreu meddwl am ysgol, i wneyd dysgyblion pendant i'r Eglwys o'r plant; ac yn gysson â'r syniad yma, adeiladasant ysgoldy dirfawr ei faint yn ymyl tŷ y bardd, i gadw ysgol Eglwysig ynddo." "Deng mlynedd yn ol" o 1853, pan adeiladwyd yr ysgoldy crybwylledig, oedd 1843; a'r "amser maith" y bu y bardd yn cadw ysgol mewn rhan o hen Eglwys Gadeiriol Clynnog, oedd un mlynedd ar bymtheg; sef o'r amser y symmudodd o Tydweiliog i Glynnog, yn 1827, hyd 1843. Bu adeilad yr ysgoldy crybwylledig yn brofedigaeth lem i'r bardd: end rhoddodd brawf i fyd ac eglwys, er mor wylaidd yr ydoedd efe, ac er mor dyner y gallai edrych ar syniadau crefyddol rhai ereill, etto, er hyny ei fod yn gwbl benderfynol a chydwybodol gyda golwg ar ei syniadau crefyddol ei hun, ac nas gallai efe gellwair ac anwadalu dim ynglŷn â chrefydd. Ceir prawf hynod a thra boddhaol o hyn yn y dyfyniad canlynol o'r un ysgrifenydd:—"Dylid sylwi yma fod yr ysgol a gadwai y bardd [mewn rhan o hen Eglwys Gadeiriol Clynnog] yn hollol rydd o ran ei hegwyddorion crefyddol:—rhoddi addysg dda i'r ieuengctyd oedd dan ei ofal oedd pwngc y bardd rhyddfrydig, gan adael rhwng eu cydwybodau hwy a'u rhieni am eu crefydd. Gwyddai yr Eglwyswyr fod dylanwad Eben Fardd, fel dyn, fel athraw, fel bardd, ac fel Cristion, bron yn ddiderfyn yn ei gymmydogaeth; ac y buasai yn gofyn dyn nad oedd yn hawdd ei gael yn Nghymru i fod yn athraw yn ymyl Eben Fardd. O'r tu arall, yr oedd yn edrych yn ddigon tywyll ar y bardd ei hun; canys er ei fod yn cadw tipyn o siop, a'i fod yn swyddog llythyrfa yn y lle; etto, ar yr ysgol yr oedd ei fywoliaeth ef yn ymddibynu yn benaf. Yn y cyfamser, cynnygiodd y gwŷr Eglwysig i'r bardd gael dyfod yn athraw i'w hysgol hwy. Gwyddai yr Eglwyswyr fod y bardd yn Ymneillduwr cadarn a chydwybodol, er mor ddidwrf oedd gyda'i egwyddorion; canys yr oeddynt wedi cael prawf o hyny o'r blaen, pan y gwrthododd, fwy nag unwaith, gynnygion llawer mwy manteisiol ynglŷn â'r Eglwys Sefydledig na bod yn athraw ysgol. Gwyddent ei fod yn ddiacon ffyddlawn a defnyddiol er's blynyddoedd meithion[1] gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nghlynnog Fawr; ac yr oedd ganddynt barch mawr iddo fel dyn, ysgolhaig, a bardd; a diau hefyd fod amryw o honynt yn parchu ei sefydlogrwydd fel Cristion. Yn ngwyneb hyn, rhoddent y telerau esmwythaf o'i flaen er iddo ddyfod yn athraw yr ysgol Eglwysig; sef, dim ond cymmeryd y cymmun unwaith yn y mis yn unig yn yr Eglwys Sefydledig. Ymddengys na bu y bardd [y Cristion cywir a fyddai y gair mwyaf priodol yma] ddim munyd yn penderfynu pa fodd yr ymddygai. Pa fodd bynag, meddyliodd y byddai yn gymmhwys iddo osod y pwngc o flaen ei frodyr yn eglwys y Methodistiaid yn Nghlynnog [yn Seion?] cyn dadgan ei benderfyniad wrth ei gyfeillion o'r Eglwys Sefydledig. Pan ddeallodd ei frodyr fod y telerau mor esmwyth, a chan eu bod hefyd dan ddylanwad ofn colli eu prif arweinydd o'r gymmydogaeth, penderfynasant yn unfryd mai doeth, yn ngwyneb yr amgylchiadau, a fyddai i'r bardd dderbyn y cynnygiad. Ar hyn, cyfododd yntau i fyny, yn nghanol ei frodyr, a'i lygaid fel tân byw yn tanio yn ei ben (canys er nad oedd ganddo dafod llithrig, yr oedd yn meddu llygad eryr), a dywedodd gyda phwyslais nad anghofir gan neb a'i clywodd yn eu hoes:—'Na: ni chymmeraf fi byth mo gymmun fy Ngwaredwr er mwyn arian!' Gwyddai pawb yn y lle fod y peth wedi ei benderfynu am byth yn awr, canys yr oedd gair Eben Fardd yn llŵ."

Ymddengys, gan hyny, mai o gylch y pryd hyn, 1843, y dechreuodd Eben Fardd gadw ysgol yn annibynol ar yr Eglwys Sefydledig; a daeth ei ysgol i'r fath fri yn y wlad fel y byddai teuluoedd parchus yn anfon eu meibion yno o bellder mawr. Parhaodd clod ysgol ac ysgolheigion Eben Fardd i ymddyrchafu yn ngolwg y genedl a'i frodyr, nes o'r diwedd y penderfynodd y Methodistiaid Calfinaidd roddi ugain punt yn y flwyddyn i'r athraw, fel y gallent hwythau anfon pregethwyr ieuaingc yno i dderbyn addysg ragbarotoawl cyn myned i Athrofa y Bala; ac y mae yr ysgol ragbarotoawl a ddechreuwyd dan arweiniad ein prif-fardd godidog yn parhau yn ei bri a'i defnyddioldeb yn Nghlynnog Fawr hyd y dydd hwn—diwedd 1876.

O gylch 1844—8, yr oedd y bardd wedi troi ei feddwl i gryn raddau at brophwydoliaethau y Beibl; ac mewn cyssylltiad â hyny yn cyfansoddi awdl ar "Adferiad Ierusalem," fel math ar gyferbyniad, fel y tybir, i'w awdl gyntaf ar "Ddinystr Ierusalem;" ond oedodd roddi ei fwriad mewn grym, hyd nes yr ymddangosodd testynau Eisteddfod Rhuddlan, pan y llyngcwyd ei fryd i fyny yn llwyr gan destyn mawreddog y gadair, sef "Yr Adgyfodiad;" testyn oedd yn dwyn perthynas agos â'r pwngc a ddewisasai efe ei hun.

Yn 1846, cyhoeddodd ein bardd "*Gofiant Robert Williams* (*Robert Ab Gwilym Ddu o Eifion*)." O gylch yr un amser hefyd, cyfieithodd y rhan fwyaf o'r gyfrol gyntaf o "*Chambers' Information for the People*" (Addysg Chambers i'r Bobl), yr hon a gyhoeddwyd yn Mhwllheli; a dywedir iddo gyfieithu llawer o'r ail gyfrol hefyd, a gyhoeddwyd yn Nghaernarfon. Heb law hyn, ysgrifenodd lawer o ryddiaith ar wahanol amserau, i amrywiol gyhoeddiadau ei wlad. Ysgrifenai yn achlysurol, yn y rhan foreuaf o'i oes, i "*Seren Gomer*," "*Y Dysgedydd*," a'r "*Gwyliedydd*:" wedi hyny i'r "*North Wales Chronicle*," a'r "*Gwladgarwr*;" ac yn ddiweddarach etto, i'r "*Carnarvon Herald*," "*Y Cymro*," "*Yr Amserau*," "*Yr Athraw*," "*Y Drysorfa*," "*Y Geiniog-*

[1] Y mae yma gam adroddiad, os ydyw ein hamseriadau ni yn gywir. Dywed cofiannwyr y bardd yn unfryd mai o gylch 1839 neu 1840 yr aeth efe yn aelod gyda'r Methodistiaid; ac na wnaed ef yn flaenor, neu ddiacon, hyd oni adeiladwyd y capel newydd yn Nghlynnog yn 1851, ar ol iddo fod yn aelod ffyddlawn gyda'r Methodistiaid yn Seion dros un mlynedd ar ddeg. O ganlyniad, nid oedd y bardd ond aelod tair oed yn 1843, pan adeiladwyd ysgoldy yr Eglwyswyr, ddeng mlynedd cyn 1853.

Digitized by Google

*werth,*" "*Y Traethodydd,*" "*Yr Archaiologia Cambrensis,*" "*Yr Herald Cymraeg,*" "*Baner ac Amserau Cymru,*" "*Golud yr Oes,*" "*Y Brython,*" a'r gwaith hwn. Efe hefyd a ysgrifenodd ran helaeth o Gofiant Dewi Wyn sydd yn nechreu "*Blodau Arfon,*" ac ysgrifenodd lawer o Gofiant Saesneg y Parch. John Elias, a gyhoeddwyd gan y Parch. E. Morgan, Syston; ac o Fywgraphiad Cymraeg Elias, gan y Parch. J. Roberts, Liverpool; a'i waith ef yw y rhan fwyaf o lawer o "*Gyff Beuno,*" a gyhoeddwyd yn ebrwydd ar ol ei farwolaeth, dan olygiad ei gyfaill Ioan Ap Hu Feddyg, Aberdyfi.

Gresyn na chyhoeddid cyfrol o'i ryddiaeth i atteb i'r un a gyhoeddwyd o'i farddoniaeth; canys y mae ei ddau draethawd sydd yn y gwaith olaf, sef "Robert Roberts, o Glynnog," a'i feirniadaeth yn Eisteddfod Llundain, 1855, ynghyd â'r hyn o'i ryddiaeth sydd yn "*Nghyff Beuno,*" yn profi fod ei athrylith ef yr un mor alluog i gynnyrchu gwaith rhydd'gorchestol ag ydoedd i gynnyrchu gwaith prydyddol godidog. Yr ydym wedi crybwyll y pethau uchod yn olynol, am nas gallem gael eu hamseriadau yn fanwl.

Yn 1849, pennodwyd Eben Fardd yn un o feirniaid y farddoniaeth yn Eisteddfod Frenhinol Aberffraw; ac efe oedd yr unig fardd oedd ar y cyfansoddiadau barddonol; canys J. Richards, Ysw., Tre Iorwerth, a Joseph Jones, Ysw., Caernarfon, oedd y ddau gyd-feirniaid. Testyn y gadair oedd "Y Greadigaeth." Profodd Eben Fardd tu hwnt i ddadl, mewn beirniadaeth Saesnig a Chymraeg helaeth a galluog, a gyhoeddwyd yn nechreu "*Transactions of the Aberffraw Royal Eisteddfod,*" mai awdl "Addolwr" (*Emrys*) oedd yr oreu o ddigon ar "Y Greadigaeth," o'r deuddeg a dderbyniwyd ar y testyn; ond rhoddes y ddau feirniad ereill y wobr i "Nicander" (y Parch. Morris Williams), heb ddim beirniadaeth—yr hwn a farnai Eben Fardd yn drydydd. Amddiffynodd y bardd ei feirniadaeth, ynghyd â'r awdl oreu, ond anwobredig, yn dra nerthol ac argyhoeddiadol, yn ebrwydd ar ol yr eisteddfod, yn y "*Carnarvon and Denbigh Herald;*" ac y mae holl feirniaid barddonol y wlad hyd heddyw yn cydfarnu âg ef "yn unfryd unfarn."

Tua diwedd y fl. 1849, neu ddechreu 1850, cyhoeddwyd testynau Eisteddfod Frenhinol Rhuddlan, oedd i gael ei chynnal yn y flwyddyn olaf a nodwyd, dan lywyddiaeth Arglwydd Mostyn. Testyn y gadair oedd, "Yr Adgyfodiad." Yr oedd y beirdd i gael defnyddio y mesur a ddewisent (fel y dylent gael ar bob testyn), ond yr un di-odl. Y beirniaid oedd yr Archddiacon Williams, Ioan Tegid, a Gwrgant. Yr oedd y tri yn wŷr dysgedig ac anrhydeddus yn eu galwedigaethau neillduol; ond nid oedd un o honynt yn fardd o'r dosbarth cyntaf, nac ail chwaith. Tegid oedd y penaf yn y rhestr farddonol. Gwyddai Eben Fardd hyn cystal a neb; er hyny yr oedd y testyn mawreddog wrth ei fodd i'r fath raddau, ac yn dyfod mor agos o ran ansawdd i'r syniad blaenorol am "Adferiad Ierusalem," a fuasai yn troi gyhyd yn ei feddwl, fel y penderfynodd ar unwaith ganu ar "Yr Adgyfodiad" er ei fwyn ei hun, yn gwbl annibynol ar ei syniad am allu y beirniaid i fawrygu gwir farddoniaeth; ac efe a ganodd arno—a chan ragori, efe a ragorodd hyd yn oed arno ei hun, heb sôn am ei gyd-ymgeiswyr; canys er mor odidog, fel y sylwyd, yw "Awdl Dinystr Ierusalem," ac "Awdl Cystuddiau Iob," sydd odidocach fyth, nid ydynt ddim yn agos i gyfartal i bryddest fawr "Yr Adgyfodiad," yn ol barn y beirniaid prydyddol goreu a fedd y genedl. Wedi i'r bardd orphen ei bryddest orchestol a phenigamp, efe a'i hanfonodd i ymgystadlu am gadair Rhuddlan; ond, fel y dywed un o fywgraphwyr Eben Fardd yn eithaf priodol, "Ymddengys ei bod is law, neu ynte uwch law, sylw y beirniaid dysgedig a pharchus; canys ni soniwyd gair am dani o gwbl yn y feirniadaeth!" Rhoddwyd y brif wobr am bryddest ragorol, o waith Ieuan Glan Geirionydd; a'r ail wobr am awdl o'r ail radd: a mawr y cynnhwrf a wnaed ar y pryd, o blegid na roddasid y brif wobr am yr awdl, am ei bod yn awdl, ac nid am ei bod y farddoniaeth oreu!

Y mae yn rhyfedd i ddau brif-fardd Cymru ar y pryd—Eben Fardd ac Ieuan Glan Geirionydd—ddewis mesur rhydd, a'r un mesur hefyd, sef y gyhydedd hir ddeuddeg-sill, yn y corfan cyrch ddisgynedig, mor gynted ag y cawsant ganiatâd eisteddfod i wneuthur hyny; a'r un mor rhyfedd ydyw, mai yn y mesur rhydd, ac nid yn y llyffetheiriau cynghaneddol, y cyfansoddodd y ddau eu prif orchestwaith. Yr oedd y ddau fardd enwog yn deall y mesurau caethion yn drwyadl; a diau fod Eben, yn enwedig, y meistr penaf ynddynt a welodd Cymru, ar ol ei athraw, Dewi Wyn. Y mae hyn yn llefaru yn uchel o blaid y mesurau rhyddion, ac yn erbyn y mesurau caethion, fel y cyfrwng addasaf i drosglwyddo barddoniaeth o'r radd uchaf; ac y mae yn rhyfedd na wrandawai beirdd Cymru bellach ar y llef. Prif anfantais y ddwy bryddest odidog dan sylw ydyw, eu hundoniaeth, o ddiffyg gwahanol gyhydeddau a mesurau, o'r sawl y mae cyflawnder yn y Gymraeg, fel y prawf gwaith y "cynfeirdd" a'r "gogynfeirdd," pan yr oedd barddoniaeth Gymraeg mewn bri brenhinol, heb sôn am waith beirdd diweddar.

Pan gyhoeddodd Eben Fardd ei bryddest orchestol yn "*Y Traethodydd,*" yn 1850, a phan ddechreuodd beirdd a llenorion y wlad synu, nid yn unig o blegid na chrybwyllwyd dim am dani yn meirniadaeth hynod Rhuddlan, ond hefyd am na chawsai ei hawdwr enwog y brif wobr a'r gadair, ceisiodd rhywrai liniaru dygasedd y genedl, trwy haeru mai cyfieithiad oedd y bryddest o "*Pollock's Course of Time!*" Od ydyw cymmeryd cynllun bardd arall, i raddau, yn gwneyd y bardd a wnelo hyny yn gyfieithydd o hono, yr oedd Milton yn llawn cymmaint cyfieithydd o Homer ag ydoedd Eben Fardd o Pollock! Ni oddef lle i ni ddangos, trwy esamplau, y gwahaniaeth hanfodol sydd rhwng "Adgyfodiad" Eben Fardd, a "Rhawd amser" Pollock; ond y gwir ydyw fod pryddest Eben Fardd yn llawn mor wreiddiol ag unrhyw gân ar a feddwn yn Gymraeg; a'i bod yn rhagori o ran arucheledd, tanbeidrwydd teimlad, a geirluniad (*word painting*) ar odid un cyfansoddiad prydyddol sydd yn yr iaith. Mor brydferth, er esampl, yw'r llinellau canlynol:—

"A'r môr a anfonai yr eiddo i'r wyneb,
Gan dawel ymorwedd dan newydd-ddynoldeb,
Ysbrydol ddamsangiad pa un allai gynnal,
Mor berffaith ddiymsawdd a phalmant o risial."

Y mae'r gallu geirluniol cywrain a phrydferth yma i'w ganfod yn "Ninystr Ierusalem," "Iob," ac amryw o gyfansoddiadau ereill ein bardd; ond yn "Yr Adgyfodiad" y mae wedi cyrhaedd anterth ei ddisgleirdeb. Heb helaethu, nis gellir dyrchafu y bryddest odidog yma yn uwch, na dyweyd ar fyr eiriau mai hon yw prif gampwaith

Digitized by Google

prydyddol Eben Fardd—yr hyn sydd wirionedd nas gellir ei wrthbrofi.

Blwyddyn dra phwysig yn mywyd Eben Fardd oedd 1851. Yn ystod y flwyddyn hon yr adeiladodd y Methodistiaid Calfinaidd gapel yn mhentref Clynnog; a dewiswyd Ebenezer Thomas yn flaenor yno; a bu yn addurn i'r swydd hyd ei fedd. Nis gallwn roddi darluniad gwell o hono yn y swydd hon nag yn ngeiriau y Parch. R. Hughes, Uwch-law'r Ffynnon, sydd yn "*Y Drysorfa*," am Ebrill, 1863:—

"Nid oedd derfyn ar ei ofal gyda'r capel. Nid yn unig yr oedd yn gofalu am ei gyfrifon, yr hyn a gedwid ganddo yn y modd mwyaf rheolaidd a destlus, ond gofalai am bob peth a berthynai iddo. Nid oedd dim yn ormod ganddo i'w wneyd, na dim yn rhy fychan. Yr ydym yn cofio iddo unwaith fyned adref ar brydnawn Llun o gyfarfod misol, rhag ofn na byddai yr un o'r blaenoriaid ereill yno i ofalu am y cyfarfod gweddi, ac 'i'r achos trwy hyny,' fel y dywedai, 'gael ei iselu yn ngolwg y gymmydogaeth.' Efe a fyddai yn myned â'r allwedd i agor drws y capel; ac nid gormod na rhy fychan ganddo oedd ysgubo'r llawr, a goleuo'r canwyllau—eithr yr oedd gwneyd hyn yn bleser calon ganddo."

Yn ystod y flwyddyn hon, dewiswyd Eben Fardd i feirniadu ar y prif gyfansoddiadau barddonol, ynghyd â Chaledfryn a Nicander, yn "Eisteddfod Freiniol Madog," pan y dyfarnasant y brif wobr a'r gadair i Gwilym Hiraethog, am ei awdl ardderchog ar "Heddwch." Yn yr eisteddfod hono hefyd y cyflwynwyd darlun godidog o hono ei hun i Eben Fardd, fel arwydd o barch calon ei gydwladwyr iddo, fel bardd a llenor.

O gylch 1853 neu 1854, hyd y cofiwn, bwriedid cynnal eisteddfod yn Nolgellau; a chyhoeddwyd mai testyn y gadair a fyddai "Y Croeshoeliad." Yr oedd hwn yn destyn wrth fodd calon Eben Fardd, a chyfansoddodd awdl odidog arno; ond gan na chynnaliwyd yr eisteddfod hono, cyhoeddodd y bardd ei awdl yn "*Y Traethodydd*," dan yr enw "Calfaria." Y mae yn debyg mai o gylch yr un amser y cyfansoddodd efe yr awdl dra phrydferth a eilw efe "Y Cleopiaid"—ar ymddangosiad Crist i'r dysgyblion oedd yn myned i Emmaus, ar ol "Brwydr Calfaria."

Yn 1855, etholwyd Eben Fardd yn feirniad ar gyfansoddiadau barddonol eisteddfod Llundain; ac y mae ei feirniadaeth ar destynau yr eisteddfod hono, a gyhoeddwyd yn ei "Weithiau Barddonol," yn enwedig y feirniadaeth ar destyn y gadair, sef "Awdl ar Wladgarwch," yn gynllun prydferth o feirniadaeth fanwl, ofalus, hynaws, a nodedig o ddidramgwydd. Cynllun Eben Fardd o feirniadu oedd dangos rhagorion yr ymgeiswyr aflwyddiannus, er eu calonogi i fyned rhagddynt, a nodi eu gwallau yn dirion, er mwyn iddynt ddiwygio; ac nid eu dirmygu a'u sarhau fel y gwelwyd rhai beirniaid na buasent ddigon o hyd i rwymo gardys Eben Fardd. Dangosai ragoriaethau y buddugol mor eglur a hynaws fel yr ymdeimlai hyd yn oed yr anfuddugol yn ammhossibl iddo braidd beidio ymfoddloni i'w dynged!

Yn ystod y flwyddyn hon, dechreuodd awyrgylch deuluaidd hyfryd ein bardd gymmylu, ac aeth yn dywyllach dywyllach, nes o'r diwedd yr aeth yn rhy bygddu a thawchlyd i'r bardd tyner-galon allu anadlu ynddi. "Bu ei undeb priodasol," ebe Ap Hu Feddyg, "yn un dedwydd iawn. Er nad oedd yn naturiol iddo ymollwng i fod yn rhyw lawen-gymdeithasgar gyda'i deulu, etto yr oedd rhyw fôr o serch yn ei fynwes tuag at ei wraig a'i blant, ac yn eu mynwesau hwythau tuag ato yntau. Yn wir, yr oedd serch teuluaidd yn fath o grefydd yn eu plith:—y bardd a'r tad fel rhyw *demi-god* (hanner duw) yn eu canol, yn preswylio yn nirgelwch y daran; a hwythau megys addolwyr yn gweinyddu mewn gostyngedig barch o'i flaen, gan fawrhau eu braint, ac ymfalchïo ynddi." Yr oedd colli un o'i anwyliaid, i ŵr o'r darlun uchod, yn archoll na chynnygiwn ni ei darlunio; ond felly fu:—canys ar yr 28ain o Fai, 1855, bu farw Catherine, ail ferch y bardd, yn 21ain mlwydd oed. Yn mhen tua thair wythnos ar ol y digwyddiad galarus yma y canodd y bardd y cywydd toddedig a elwir "Fy mhlant," yn Mehefin 23ain, 1855. Pa wedd bynag, fel y dywed y bardd ei hun ar achos arall:—

"Er caethed y gwnai hyn wahardd
Myfyrio cân, a darllen,
Ni roddai i fyny fod yn fardd,
Ond troai at yr awen."

Y mae yn debygol mai ar ol y digwyddiad galarus crybwylledig y cyfansoddodd y ganig dlws sydd yn cynnwys y llinellau uchod, a elwir "Afaon, y Bardd Ieuangc," a'r cyfansoddiad prydferth a elwir "Awdl Barddas." Beth bynag am hyny, yn 1857, hysbyswyd y cynnelid eisteddfod yn Llangollen yn 1858, ac mai testyn y gadair a fyddai "Brwydr Maes Bosworth;" ac etholwyd Gwilym Hiraethog, Nicander, a Chaledfryn i fod yn feirniaid ar y cynnyrch prydyddol. Daeth saith o ymgeiswyr i'r maes yn Llangollen i ymryson am y gamp; ac yn eu plith Eben Fardd, dan yr enw "Rhys Pennardd." "Nerth braich ac ysgwydd," medd Hiraethog, "yn tynu y bŵa, yn trafod y fwyell, y cledd, a'r ffonwayw, oedd mewn ymarferiad ar faes Bosworth gynt; ond nerth meddwl ac awen yn trin peiriannau iaith, a mesurau gwarantedig cerdd dafod, wrth fraint a defod beirdd Ynys Brydain, sydd mewn ymarferiad ar faes yr ymdrech hon yn Llangollen." Dywed un beirniad "nad yw yr awdl gadeiriol ar 'Frwydr Maes Bosworth' yn deilwng i'w chymmharu hyd yn oed â 'Dinystr Ierusalem;' er bod ei chynghaneddion yn nodedig o rymus a chywrain, ac er ei bod yn cynnwys darnau teilwng o'i hawdwr yn ei ddyddiau goreu." Un arall a ddywed—"fel geirluniad nerthol, fe allai bod hon yn rhagori ar holl gynnyrchion y bardd awenddrud." Ond wele farn Hiraethog arni, ar ol myned trwy waith y chwech ereill:—

"Rhys Pennardd: Yr ydym fel yn anadlu yn awyr rhyw fyd newydd gyda'n bod yn nghymdeithas Rhys. Ei awdl ef ydyw y feraf o'r cwbl, oddigerth yr eiddo 'Dydd Weithiwr'—yn cynnwys ychydig gyda mil o linellau. Dechreua gyda gair byr at yr awen:—'Llunier i gall hanner gair.' Yr oedd hanner gair yn llawn ddigon i awen Rhys:—deffry, a daw allan yn union fel 'cadarn yn bloeddio wedi gwin.' Ymeifl yn ei gwaith o ddo; ac y mae yn bleser calon edrych arni yn gweithio. Rhydd y bardd gynnwysiad byr, destlus, cryno, o'r awdl ar y dechreu; wedi hyny gedy i'r awen weithio ei hefenau allan yn ei nerth ac yn ei fl'ordd ei hun, heb gynnyg ei chynnorthwyo â nodiad, na sylw, nac eglurhâd ar odrau y dail; ac nid oes naws angen o hyny chwaith. Wedi bwrw golwg gyffredinol, i gychwyn, ar nodweddion rhagoriaeth Brwydr Maes Bosworth (yn ei pherthynas â Harri a'i gynghreirwyr) ar frwydrau dinôd gormes-deyrniaid trawsion, mewn dernyn tra urddunol, teifl olwg yn ol ar

Digitized by Google

gystudd Prydain; gormes y Caisariaid, y Saeson, a'r Normaniaid; darostyngiad y Cymry dan Iorwerth, &c., a daw yn ol yn fuan at ei destyn. Y mae swn troediad cawr yn holl symmudiadau y bardd hwn. Y mae ei gynghaneddion, lawer o honynt, yn newydd grai: nydda eiriau cedyrn ei hen iaith doreithiog, megys â nerth braich Eidiol, nes yr ymddangosant mor ystwythion a mêr-helyg dyffryn rhwng ei fysedd. Damddyrcha ei feddyliau a'i gynghaneddion weithiau fel tonau y môr pan ei cynnhyrfir gan wynt mawr."

Wedi dyfynu rhai darnau gorchestol i brofi ei honiadau; ac ychydig linellau, yn ol yr arfer, i ddangos bod rhai "brychau ar wyneb yr haul;" terfyna'r beirniad manylgraff a gonest, fel hyn:

"Y mae yr awdl hon yn sicr o hawlio ei gorsaf yn nosbarth awdlau goreu ein hiaith; a theilynga i'w hawdwr yr anrhydedd o eistedd yn Nghadair Powys yn Llangollen.

"Hir oes a fo i Rhys Fardd—eneinier
E'n enwog gadeirfardd;
Yn Llangollen yn ben bardd,
Pwy yw hwnw? Rhys Pennardd!
GWILYM HIRAETHOG."

Haerai Caledfryn yn lled gyrch, yn ol ei arfer ef, mai un arall oedd deilwng o'r gadair; ond gan fod Nicander yn gwbl unfarn âg Hiraethog, Rhys Pennardd a'i cafodd.

O gylch yr un amser ag y mwynhaodd y bardd y dyrchafiad teilwng yma o eistedd y drydedd waith yn nghadair farddol ei wlad, anrhydedd nad oedd neb o'i gydoeswyr wedi ei chyrhaedd, daeth yr ail gwmmwl cadduglyd i hoff deulu y prif-fardd cadeiriog, yr athraw defnyddiol, y blaenor duwiolfrydig, y gŵr ffyddlawn, a'r tad caruaidd; canys ar y 10fed o Fedi, 1858, bu farw Elizabeth, ei drydedd ferch anwylaidd, yn 19eg mlwydd oed. Ar yr achlysur galarus yma y canodd y bardd duwiol y tri englyn ar ddeg ardderchog, a elwir "Cwynfan y bardd yn amser cystudd yn ei deulu;" ac er bod ein herthygl wedi rhedeg yn lled faith, braidd heb yn wybod i ni, rhag mor anhawdd ymadael o gymdeithas y dyn rhyfedd yma, etto dymunwn ddodi ychydig o'r englynion godidog hyn ger bron, fel y gweler ysbryd addfwyn ac ymroddgar eu hawdwr, yn nghanol ei brofedigaethau chwerwon, ac y cymmerer esampl oddi wrtho:—

"Tŷ salwch hyd at ei seiliau—yw'm tŷ,
O! mae twrf cystuddiau
Garw o'i fewn yn ymgryfhau
Yn foriog rhwng ei furiau.

Ar ei daith ddwywaith yn ddiau—i mewn
Fe ymwanodd angeu!
Ac o'm hannedd i'w beddau
Y brenin haerllug a ddug ddau.

Mawr ei chur yw'm merch arall,
Iechyd a bywyd ar ball!

O Dduw! gwared fardd gwirion—a'i dylwyth,
O'u diluw trallodion;
O! maddeu—maddeu im', Iôn,
Y trin garw tro yn goron!

Dan y wialen Duw wnelo—na ffromwyf,
Offrymer mawl iddo;
Trwy 'r drefn daw etto, ryw dro
Gyfle i od gofleidio.

Cyst addef y cystuddiau—annifyr
Yn nefol gusanau,
Na ŵyr anian ei rhiniau,
Nos ei chwymp, nes ei hiachau.

Gwna o honof, gan hyny—a fynech,
Fy anwyl Dad, felly;
Hyn fydd fraint, cael nefoedd fry,
O chwerwder y carchardy!

Er crwydro, suddo is âr,
Cymmysgu, ac ymwasgar:
Undeb tragwyddoldeb ddaw,
Anwahanol i'n hunaw."

Tua diwedd y flwyddyn dymmhestlog hon, cynnygiodd Cymreigyddion Merthyr Tydfil wobr helaeth am yr "Arwrgerdd" oreu ar ryw destyn a ddewisai y beirdd eu hunain, erbyn eisteddfod a gynnelid yn Merthyr yn Medi, 1859; ac Eben Fardd a ddewiswyd yn unig feirniad ar y cyfansoddiadau. Anfonwyd pedair o gerddi i'r gystadleuaeth; "ond methodd Eben . phenderfynu pa un o ddwy oedd yr oreu;" ac yn lle rhanu y wobr rhwng awduron y ddwy hyny, hysbysodd y pwyllgor y penderfynai alw dau arall i farnu rhwng y ddwy erbyn y Nadolig canlynol. Yn wyneb hyny, ysgrifenodd 'Un o'r cystadleuwyr" at y pwyllgor, yn "MANER AC AMSERAU CYMRU," Hydref 12fed, 1859, fel hyn:—

"FONEDDIGION,—Yr wyf yn anfon hyn atoch i ofyn i chwi ystyried yr hyn a benderfynasoch yn ynghylch yr arwrgerdd Nid dim byd ydyw i chwi roddi ein cyfansoddiadau yn nwylaw beirniaid nas gwyddom ddim am danynt, ac o herwydd hyny nad oes genym yr ymddiried lleiaf ynddynt; a ninnau, pan yn eu hysgrifenu, yn cymmeryd yn ganiataol mai Eben Fardd, dyn y mae genym fwy o ymddiried ynddo na neb arall yn Nghymru fel beirniad, oedd i benderfynu ein tynged yn Merthyr. Nis dichon Eben Fardd fod yn un o'r rhai a fwriadwch i'n beirniadu erbyn y Nadolig; o blegid, gan nas gall efe benderfynu rhwng y ddwy gân oreu, ni bydd ei dystiolaeth ef o du y naill na'r llall o honynt. O herwydd pa ham, gan mai beirniadaeth Eben Fardd a brisiwn ni, pwy bynag a fydd y beirniaid a ddewiswch yn ei le, yr wyf fi, fel un o'r ymgeiswyr, yn erfyn arnoch hysbysu yn un o'r newyddiaduron, neu mewn amryw o honynt, ffug enwau y ddau a farnai Eben Fardd yn gyfartal ac yn oreu; neu, yn wir, gyhoeddi y feirniadaeth yn gyflawn. Nid yw hyn yn ormod i'w ddisgwyl oddi wrthych yn ddiammheu; o blegid y mae rhoddi ein cyfansoddiad, heb gymmaint a son am ofyn ein cydsyniad, o ddwylaw ein hoff feirniad, yn nwylaw rhai newydd a dyeithr, yn beth lled annymunol genym ni, ac yn ddiddadl, yn anghyfreithlawn. Dylech ystyried bod yr ymgeiswyr, cystal a'r pwyllgor, yn dewis eu beirniaid; o blegid ni buaswn i, yn un, yn ysgrifenu dim erbyn Eisteddfod Merthyr, pe rhywun heb law Eben Fardd, neu un neu ddau arall, a fuasai i feirniadu yno."

Dengys hyn y fath ymddiried oedd gan brif-feirdd Cymru yn ngallu a gonestrwydd Eben Fardd fel dyn a beirniad; canys cafwyd allan yn fuan ar ol ymddangosiad y llinellau uchod mai eu hysgrifenydd oedd un o'r ddau fardd cyfartal.

Yn 1860, neu yn hytrach, yn y flwyddyn flaenorol, dewiswyd Eben Fardd, ynghyd âg Emrys a Dewi Wyn o Essyllt, yn feirniaid ar brif gyfansoddiadau barddonol Eisteddfod Dinbych, oedd i gael ei chynnal yn ystod y flwyddyn hon; ond ymddengys na wnaeth efe nemawr fwy, gyda golwg ar yr eisteddfod hon, na chydsynio â beirniadaeth y ddau arall; canys yr oedd efe weithian yn nyfnder profedigaeth deuluaidd; o blegid yn mis Mawrth y flwyddyn hon, bu farw ei anwyl wraig, yn 53ain mlwydd oed, ar ol bod yn briod ffyddlawn, duwiol, a gofalus iddo dros ddeng mlynedd ar hugain.

Yr oedd ein hanwyl fardd weithian—ac yn wir, hyd ddiwedd ei oes—yn debyg iawn i Iob, ar gystuddiau yr hwn y canodd efe mor ardderchog ac effeithiol—o'r naill dôn i'r llall, nes

Digitized by Google

o'r diwedd y tawel ymollyngodd efe i suddo danynt. Yn Ionawr, 1861, daeth yr ergyd olaf a welodd efe i'w deulu hoffusol, pan fu farw "ei unig fab, ei hoff eilun, James Ebenezer, oedd mor anwyl iddo a rhuddwaed ei galon," yn ddeunaw mlwydd oed, yn mhen llai na blwyddyn i farwolaeth ei anwyl fam. Nis gallai corph ein prif-fardd enwog ddal heb adfeilio dan y dyrnodiau olynol hyn; canys er ei fod ef yn dawel, a llwyr ymroddgar i drefn ei Dad nefol, fel y tystia yn yr englynion treiddgar a ddyfynwyd eisoes; etto yr oedd dirdyniadau ei deimlad yn ddyfnion dychrynllyd; ac ymddangosodd arwyddion amlwg ynddo yn fuan ar ol hyn o'r darfodedigaeth.

Yr oedd pwyllgor eisteddfod genedlaethol Aberdar wedi ei ddewis yn feirniad ar y prif gyfansoddiadau barddonol erbyn yr eisteddfod a fyddai yno yn 1861; a dywedir i bwyllgor eisteddfod Caernarfon ei ethol i feirniadu yno yn 1862; ond ni wyddom pa beth a wnaeth efe yn y naill na'r llall fel beirniad. Y mae yn sicr nad oedd yn barnu ar destyn y gadair yn eisteddfod Caernarfon, canys Nicander, Caledfryn, a Gwalchmai oedd y beirniaid ar y testyn hwnw. Er fod ein bardd weithian yn drigain mlwydd oed, ac wedi ei adael yn nghanol digalondid unigol, heb neb o'i anwyliaid yn ei amgylchynu; er hyn oll, yr oedd yr awen fyth yn ei ddilyn yn ffyddlawn; ac yr oedd yn dra bywiog a nerthol, canys cawn ef yn ymgeisio yn egnïol, y chweched waith, am gadair farddol ei wlad yn eisteddfod Caernarfon. Y testyn oedd "Awdl ar y Flwyddyn;" a barn Nicander oedd mai Bardd Clynnog a ddylasai gael y gadair; ac yn wir, y mae ei awdl odidog yn ddigon o ryfeddod i holl feirdd y wlad, ac ystyried yr amgylchiadau torcalonus yr oedd ynddynt pan yn ei chyfansoddi. Pa wedd bynag, barnodd Caledfryn a Gwalchmai mai Hwfa Môn oedd y buddugwr; am hyny, efe a gadeiriwyd. Dywedodd rhai i'r siomedigaeth yma brysuro ei farwolaeth, o herwydd i'r amgylchiad galarus ddigwydd mor fuan ar ol eisteddfod Caernarfon; ond tystiai y bardd amyneddgar ei hun na niweidiodd hyny ddim ar ei iechyd. Dywedai nad ennill y gadair oedd ei brif amcan ef wrth ei chyfansoddi, ond yn hytrach ceisio difyru ei hun yn nhrymder gauaf, yn nghanol ei unigedd trist; canys bu dros amser lled faith heb neb yn y tŷ gydag ef, am fod ei forwyn yn dioddef dan glefyd trwm ar y pryd. Ac yn wir, nis gallai dyn yn y fath gyflwr unigol ac athrist gael dim mwy effeithiol i'w ddifyru na'r awdl ardderchog hon, ond Salmau Dafydd, a hymnau y prophwydi, yn unig.

Tybir mai ar ol cyfansoddi "Awdl y Flwyddyn," tua diwedd 1862, y canodd efe yr awdl brydferth sydd yn "*Nghyff Beuno,*" ar "Adgyweiriad Eglwys Clynnog Fawr;" yr hon awdl, fel y dyfalir, yw yr olaf o'i gynnyrchion barddonol; a dichon mai o gylch yr un amser yr ysgrifenodd efe y "Nodiadau hynafol, Achyddiaeth, Daearegaeth y Plwyf, Rhestr o'r Beirdd a'r Llenorion," &c., sydd yn yr un llyfr.

Yr oedd ein prif-fardd godidog yn prysur, ond tawel, ymlithro weithian i "lyn cysgod angeu." Y Parch. Robert Hughes, Uwchlaw'r-Ffynnon, a ddywed:—"Sabbath, y 23ain o fis Tachwedd, 1862, oedd y tro cyntaf iddo fethu myned i'r capel gan ei waeledd; ac yr oedd yn teimlo yn bur anfoddlawn i aros adref, am fod Swper yr Arglwydd i gael ei weinyddu y noson hono. Yr oedd yr olwg adfeiliedig a gaem arno yn peri i ni feddwl bod amser ei ymddattodiad yn agos. ..................Ionawr 6ed, yr oedd yn llesg ac yn nychlyd yr olwg arno..................Tuag wythnos cyn iddo farw, pan yr ymwelodd cyfaill âg ef, wylai yn hidl am ei fod yn rhy wan i ymddiddan. Pan ddaeth ato ei hun, sylwai, 'Oes o ryfel galed a gefais i yn y byd. Yr wyf yn meddwl bod rhyw fwy o dueddiadau drwg ynof fi na neb; onid ê na buasai eisieu cymmaint o ymdrech i'w darostwng am gymmaint o flynyddoedd. Bydd yn bur chwith i mi fy lle wedi myned i'r nefoedd, i gael llonyddwch.' Dywedai wrth gyfaill, ychydig ddyddiau cyn marw, 'Y mae yn gysur i'm calon heddyw na ddefnyddiais yr awen i lygru neb trwy ganiadau masweddol.' Cymmered beirdd ieuaingc Cymru Eben Fardd yn esampl yn ei burdeb hwn. Yr oedd fel y Salmydd, âg ofn angeu wedi syrthio arno o'r dechreu, sef ofn ei ddirdyniadau; ond nid ydym yn gwybod iddo gymmaint ag unwaith ammheu diogelwch ei gyflwr. Yr oedd ei ffydd yn Nghrist yn ddiysgog. Tystiai yn fynych nad oedd waeth ganddo pa un ai byw ai marw a wnai, oni bae am loesion angeu. Tybygem fod yn ammhossibl i neb, yn ol trefn natur, gael ei waredu yn llwyrach oddi wrth yr hyn a ofnai nag efe. Bu farw mor dawel a difraw ag y cysgodd erioed ar fron ei fam. Do! gwybu Eben Fardd trwy brofiad beth yw 'huno yn yr Iesu.' Ychydig cyn ei ymadawiad, dywedai mewn cynghanedd y geiriau canlynol—addfed brofiad Cristion:—

'Y nefoedd fydd<br>Yn berffaith ddydd<br>O bob goleuni i'w ddisgwyl sydd.'

'Y mae yr awen yn eich canlyn o hyd, nhad bach,' ebai ei ferch. 'Ydyw, hyd angeu,' ebe yntau, gyda gwên:—

'Yn y nef y cana' 'i 'n iawn!'"

Cofnodir yr "ymadawiad" bendigedig yma ar gareg ei fedd ac yn "*Nghyff Beuno,*" fel y canlyn:—

"Er parchus goffadwriaeth am Eben Fardd, yr hwn a fu farw Chwefror 17eg, 1863, yn 60ain mlwydd oed; wedi gwasanaethu ei genedl yn ffyddlawn fel athraw diwyd, bardd galluog, llenor coethedig, beirniad craffus, a ffyddlawn, Cristion didwyll, a blaenor doeth yn eglwys Dduw.

'Mawr yw y boen marw bardd,<br>Mwy'r profiad marw prif-fardd.'

Claddwyd ef y dydd Llun canlynol, yn mynwent Clynnog Fawr."

Y ferch y crybwyllir am dani uchod, yr hon a wyliai wely angeu ei thad athrylithgar ac ardderchog, oedd Ellin, merch hynaf y bardd, a'i unig blentyn oedd weithian ar dir y byw; yr hon a briodasai Mr. William Davies, Plas Clynnog, Ionawr 1af, 1856, ac a fu farw yn fuan ar ol ei thad athrylithgar, yn 32ain mlwydd oed, gan adael tri phlentyn amddifaid i ofal ei gŵr galarus.

Wedi dilyn ein prif-fardd fel hyn o'i gryd i'w fedd, gan fanylu yn benaf ar ei waith a'i athrylith farddonol, credwn y bydd y nodiadau canlynol, o eiddo y Parch. David Jones, Treborth, yn dra chymmeradwy:—

"Gallai darllenydd ei weithiau, yn mhen dau can mlynedd, a mwy, ymdeimlo yn awyddus am wybod pa fath ddyn oedd Eben Fardd yn ei ymddangosiad corphorol, yn ei dymmerau, ac yn ei

gymmeriad moesol; yr hyn nis gallai neb ei wybod ond ei adnabyddion, y rhai oedd yn gyfoeswyr âg ef, ac yn arferol o fwynhau ei gyfeillach. Yr oedd o ran ei gorph yn ddyn o daldra cyffredin, yn lluniaidd ac yn hardd, o dymmer fwynaidd a serchiadol gyda'i adnabyddion, ond o ymddangosiad gwylaidd a lled ochelgar gyda dyeithriaid, o agwedd ostyngedig, ac yn hynod barchus o'i frodyr, yn mhell iawn oddi wrth absenu ereill. Yr oedd yn dyfod i fyny â'r darluniad a roddir yn *Salm* xv., o'r hwn a breswylia yn mynydd sancteiddrwydd Duw:—'Heb absenu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymmydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog.' Nid oedd yn meddu nemawr ddawn areithyddol, er y cyfrifid yr hyn a ddywedai yn wir synhwyrol. Y troion y bu yn cyfarch cynnulleidfa gyhoeddus, yr oedd ei wrandawyr yn teimlo yn siomedig, gan nas gallai ddangos ei hun..............................Yr oedd yn cashau ymgecraeth, ac nid oedd y duedd leiaf ynddo at ymddadleu. Safai yn wrol dros wirioneddau hanfodol yr efengyl; ond wrth ymddiddan âg un o farn wahanol am bethau dibwys, ni fynai ei wrthwynebu. Carai ef ddioddef yn hytrach nag ymddadleu. Oddi ar hyn, gallasai y dadleuwyr gymmeryd mantais i dybied ei fod yr un farn a hwy eu hunain, ac yna ei gyhuddo wrth ereill nad oedd yn credu yr hyn y proffesai ei fod, ac felly wneuthur ei broffes yn rhagrith. Ond gŵyr ei adnabyddion o'r un syniad crefyddol ag ef ei hun, pa fath oedd ei syniadau crefyddol yn eithaf da. Clywsant ef yn adrodd lawer gwaith syniadau dyfnaf ei fynwes; a gallant dystiolaethu ei fod yn gwbl yr hyn y proffesai ei fod.

Nid oedd yr un dyn mwy parchus yn ei ardal nag Eben Fardd. Ystyrid ef yn dywysog, a chymmerid ef yn esampl i'w ddilyn; a'r rhai mwyaf cydnabyddus âg ef oedd â'r meddwl uchaf am dano. Yr oedd ei holl adnabyddion yn ei gydnabod yn ddyn duwiol, yn ŵr duwiol iawn, yn wir ostyngedig, ac yn dra gwyliadwrus ar ei eiriau, yn hynod o ofalus am draethu'r gwirionedd. Yn nghyfarfodydd neillduol yr eglwys yr oedd yn ddiacon iddi, ymollyngai yn rhwydd i ymddiddan am bethau ysbrydol, gan arddangos ei fod yn teimlo yn rymus: a llawer gwaith y cynnhesodd galonau ei frodyr a'i chwiorydd yn yr Arglwydd."

Dichon y tybia rhai ein bod yn yr erthygl hon yn dyrchafu gormod ar farddoniaeth:—y nwydd y masnachid ynddo mor helaeth gan Eben Fardd. Yr ydym ninnau, o'r tu arall, yn credu yr edrychir yn gyffredin yn rhy arwynebol ar farddoniaeth, megys peth gormodol; megys peth dibwys i ddynol ryw; ac megys moethusder, y byddai yn ddigon priodol annelu cyfreithiau traul gymmesurol (*sumptuary laws*) yn ei erbyn. Dyma syniad dynion o ddealltwriaeth faterol neu lythyrenol, y rhai a dystiant yn erbyn barddoniaeth, ac na welant werth ynddi, am ei bod yn gwahaniaethu oddi wrth wyddor, ac yn esgeuluso ei rhesymeg, yr hon y mae hi yn ei hamguddio yn hytrach nag yn ei hegluro. A dyma, yn fwyaf arbenig, ydyw tyb yr oes bresennol—oes, yr hon y mae'r byd sylweddol wedi cael ei chwilio a'i chwalu ganddi er mwyn rhoddi galluoedd a moethau newyddion i ddyn; ac yn yr hon y mae'r byd moesol yn cael ei esgeuluso yn ormodol. Nid ydym yn cefnogi y bardd fel y dylem; ond yr ydym yn cefnogi y fferyllydd a'r mwnwr, yr ariansoddydd a'r llawweithiwr. Yr ydym yn cefnogi teithwyr, y rhai sydd yn treiddio i goedwigoedd Mexico, gwastat-tiroedd Deheudir America, a diffeithleoedd Affrica, tu hwnt i Fynyddoedd y Lloer. Dywed y gwŷr hyn wrthym am lwybrau newyddion i fasnach, a dygant i ni hanesion am diroedd anadnabyddus. Ond y fath fyd sydd yn gorwedd o'n hamgylch heb ei chwilio! Y fath diriogaeth sydd tu hwnt i olrheiniad unrhyw deithiwr, tu hwnt i nerth yr agerbeiriant; ïe, tu hwnt i allu goleuni naturiol ei hun i'w dreiddio, sydd i'w gael yn unig yn ardal yr ymenydd! Cloddiodd y beirdd, o amser bwygilydd, lawer o'r dyfnder mawr hwnw. Cynnysgaeddodd Moses a'r prophwydi, oeddynt oll yn feirdd, yr Israeliaid a'r byd â thrysorau ammhrisiadwy barddoniaeth ddwyfol:—barddoniaeth yw yr Hen Destament bron i gyd, o Iob hyd Malachi. Anrhegodd Homer y Groegiaid; Virgil, y Rhufeiniaid; Dante, yr Italiaid; a Milton, y Saeson, â darganfyddiadau barddoniaeth; ond beiddiwn dystio na chynnysgaeddodd un bardd brodorol y Cymry â'r fath amrywiaeth toreithiog o'i thrysorau cuddiedig ag a wnaeth Eben Fardd. Y maent yr un yn awr, ac mor werthfawr heddyw, a'r diwrnod y cloddiodd efe hwynt allan o weithfeydd cyfoethog ei feddwl toreithlawn. Y mae pob peth daearol yn newid fyth a hefyd. Y mae y teithiwr yn ymweled â gwlad gyfagos, neu bellenig; y mae yn gweled olion gallu dynol, megys temlau neu gofadeiladau; ond y mae digwyddiadau anweledig, daeargrynfâau neu dymmhestloedd, wedi eu distrywio; neu, tyf y goedwig oesol, neu y berth anhydraidd, o'u hamgylch nes eu cuddio; neu, gedy y trigolion iddynt ddifianu o ddiffyg gweled eu gwerth. Felly y mae newidiad a diddymiad yn myned rhagddynt yn barhaus. Ar fyr, y mae pob peth yn newid ond gwirionedd, a gwerth gwirionedd, a barddoniaeth, yr hon yw iaith anghyfnewidiol gwirionedd. Os ystyria y darllenydd hyn yn bwyllog a meddylgar, hyderwn y gwel y fraint o fod cyhyd yn nghymdeithas y treiddgar, yr aml-feddylgar, yr hynaws, a'r dihalog Eben Fardd!

THOMAS, JOHN, D.D., a anwyd yn Nolgellau, sir Feirionydd, yn 1681. Mab ydoedd i gludydd (*porter*) yn ngwasanaeth darllawydd yn y dref hono. Cafodd ei ddysg boreuol yn ysgol y *Merchant Tailors* yn Llundain; o ba le y danfonwyd ef ar draul meistr ei dad i Neuadd Catherine, Caergrawnt, lle y derbyniodd y radd o D.D. Ar ol cael urddau eglwysig, aeth yn gaplan i weithfa Saesnig yn Hamburg; ac arosodd yno dros lawer o flynyddoedd. Yn y cyfamser, dysgodd yr iaith Germanaidd yn drwyadl; a bu yn olygydd cymmeradwy i gylchgrawn yn yr iaith hono, o'r enw "*Patriot*" (Gwladgarwr). O gylch y pryd hyn, daeth yn adnabyddus i'r brenin George II.; ac o blegid ei fedr yn y Germanaeg, dewisodd y brenin ef yn gydymaith yn y rhan fwyaf o'i ymweliadau i'w Etholfa yn y wlad hono. Priododd y tro cyntaf â boneddiges Danaidd yn Copenhagen, lle yr ennillodd sylw brenin Denmarc; a bu yn gohebu âg ef ar ol hyny. Yn 1736, pennodwyd ef i berigloriaeth St. Vedast, Foster Lane, Llundain; ac yn 1740, gwnaed ef yn ddeon Peterborough. Priododd yr ail waith yn 1742, â Miss Sherlock, nith esgob Salisbury; ac yn ystod yr un flwyddyn, gwnaed ef yn gôr-beriglor Westminster, ac yn ganon trigiannol St. Paul. Yn 1743, dyrchafwyd ef i esgobaeth Llanelwy; ond cyn iddo gael ei gyssegru, fe'i symmudwyd ef i esgobaeth Lincoln, a chyssegrwyd ef y laf o Ebrill, 1744. Bu iddo ddwy o wragedd ar ol Miss Sherlock, rhwng 1743 ac 1757; canys yn y flwyddyn olaf bu farw ei bedwaredd wraig, yr hon oedd ŵyres i'r esgob Patrick. Dywedir y mynodd yr esgob gerfio y geiriau hyn yn modrwy briodas ei bedwaredd

Digitized by Google

wraig—"*If I survive, I will have five;*" a chafodd, meddir, gyfleusdra i wirio ei air, gan iddi hi farw yn 1757. Dywed un, Cole, cydoesydd yr esgob Thomas, iddo gael ei daro â syndod pan yn ciniawa gyda'r esgob yn 1753, wrth weled mor groesion oedd llygaid y tri a eisteddent wrth y bwrdd gydag ef; sef llygaid yr esgob, y croesaf a'r a welsai erioed; llygaid ei wraig, y bedwaredd; a llygaid brawd Danaidd gwraig gyntaf yr esgob, yr hwn oedd mor gibddall fel nas gwyddai yn iawn a oedd bwyd o'i flaen, ai peidio. Yn 1761, symmudwyd ef o esgobaeth Lincoln i esgobaeth Salisbury, lle y bu hyd ei farwolaeth; yr hyn a ddigwyddodd ar yr 20fed o Orphenaf, 1766, ac efe yn 85ain mlwydd oed. Ymddengys mai prif hynodrwydd yr esgob yma oedd ei ysgolheigdod Germanaidd, ei aml ddyrchafiadau, lliosawgrwydd ei wragedd, a chroesineb ei lygaid!

THOMAS, JOHN WILLIAM (*Arfonwyson*). —Mab ydoedd y Cymro enwog ac athrylithgar yma i William Thomas, a Dorothy, ei wraig, y rhai a breswylient mewn bwthyn â'i enw Yr Allt Isaf, ger llaw Pentir, heb fod yn mhell oddi wrth odrau Moel y Ci, plwyf Llandegai, yn sir Gaernarfon; lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1805. Llafurwr oedd ei dad, mewn amgylchiadau cyffredin, yn ol ei ddosbarth; ond llwyddodd i anfon John i Ysgol Genhedlaethol Pentir am o ddeutu tair blynedd; yr hon oedd dan nawdd y diweddar ddeon Cotton, Bangor; ac yn cael ei chadw gan un William Thomas—un o'r athrawon truenusaf oedd yn bod, hyd yn oed yn yr oes hono.

Pan oedd John rhwng dau ar bymtheg a deunaw, aeth i weithio ar ben osglawr (*incline*) Cilgeraint, fel bachwr gwageni (*waggons*) oedd yn cludo llechi o chwarel Cae-Braich-Cafn (chwarel y Penrhyn), i Fangor, at y llongau. Ar ol cadw noswyl, wedi gorphen ei waith ar yr osglawr, elai i ysgol nos, yn agos i Bentir, rhwng dwy a thair milldir o Gilgeraint, at un John Williams, melinydd, yr hwn a fu unwaith yn glerigwr; ac yr oedd efe yn ysgolhaig lled wych. Dysgodd lawer mwy yn yr ysgol hono nag a ddysgasai yn yr ysgol ddyddiol dros y tair blynedd y bu ynddi.

Wedi llwyddo i gadw peth o'i gyflog fel bachwr gwageni, aeth i Gaergybi i'r ysgol at Robert Roberts, 'yr Almanaciwr,' awdwr y "*Daearyddiaeth*," lle y bu am o ddeutu tri mis. Wedi dychwel oddi yno, sefydlodd ysgol ddyddiol ar ei gyfrifoldeb ei hun, fel yr ymddengys, yn Nhregarth, yn bur agos i'w hen gartref, yr Allt Isaf, lle yr oedd ei dad a'i fam yn byw. Ei brif ymgais ar ol bod yn yr ysgolion a nodwyd, a chyda R. Roberts, Caergybi, oedd ymloywi yn yr iaith Saesnig; ac yn enwedig, cynnyddu mewn gwybodaeth o rif a mesur, a seryddiaeth; a dengys y gweddill o'i oes fer iddo ragori yn y gwybodau olaf hyn tu hwnt braidd i neb o'i gydoeswyr.

Tra yr oedd yn cadw ysgol Tregarth, a thuag un ar hugain oed, priododd ferch Tai Teilwriaid—tyddyn bychan agos i'w gartref; ac yna symmudodd i Fangor. Nid oedd ei sefyllfa hyd yn hyn wedi caniatau iddo weled a darllen ond ychydig o lyfrau, heb law llyfrau ysgol, ac ambel un a fenthycid iddo gan ei gyfeillion; am hyny, yn mhen tua blwyddyn ar ol iddo briodi, aeth at Enoch Jones, argraphydd a llyfrwerthwr, Beaumaris, gynt o Lanerchymedd, Môn, a chyttunodd âg ef i werthu llyfrau drosto ar hyd y wlad. Yr oedd hwn yn waith wrth fodd 'John William Thomas, Arfon,' fel y galwai ei hun y pryd hyny; o blegid y cai gyfleusdra i weled llawer o lyfrau nas gallai efe eu prynu, ac adeg i'w darllen ar hyd y ffyrdd wrth deithio i'w gwerthu.

Ar ol bod gyda'r gorchwyl yma dros ysbaid blwyddyn, cafodd le i gadw Ysgol Genedlaethol yn Ffestiniog, dan nawdd y deon Cotton. Er bod J. W. Thomas yn cael rhai ffafrau gan Eglwyswyr, etto, diwygiwr trwyadl oedd efe o ran ei egwyddorion; ac nis gallai aros camymddygiad yn neb, yn enwedig rhai o broffes uchel. Yn lled fuan ar ol myned i Ffestiniog, ysgrifenodd rywbeth yn erbyn rhyw glerigwr, a chollodd yr ysgol o'r herwydd; a dychwelodd yntau i Fangor; a dechreuodd gadw ysgol yn Nglan yr Afon, yn y dref hono. Digwyddodd hyn o gylch 1830.

Tua diwedd y flwyddyn hon, dechreuodd gyhoeddi llyfr tra phwysig; ac fel un esampl o'i archwaeth lenyddol, a'i ddull o Gymreigio y pryd hyn, dodwn enwad-ddalen (*title-page*) y rhifyn cyntaf ger bron yn gyflawn a dinewidiad, fel y mae ar yr amlen:—

"*Entered at Stationer's Hall.*—Rhifyn I. (Pris chwech cheiniog). Gwedi ei gyhoeddi o Draethawd newydd ar Ddwy o'r Saith Gelfyddyd Freiniol, y sawl a gyfenwir, 'ELFENAU RHIFYDDIAETH;' yr hwn a gynnwys drefnau gwahanol i gyfrif a rhifo yn arbenig, trefniadol, rhifyddol, trefnrifiadol, cofodiadol, a chyfddodiadol, ac addysg iddeu cymhwyso at rifiad pethau neillduol; llythyrenau rhifol Rhufeinaidd yn eu hamryw foddion a'u gwerth; nodiant o amryw fath, ac egwyddor rifol newydd i ysgrifio, a rhifnodau yn arddangos holl dreigliadau y cydseiniaid, a newidiadau a sain wahanol y llafariaid, gydag eglurhâd helaeth ar Rifiaeth (*Vulgar Arithmetic*)—Swlliadau (*Fractions*)—Degiadau (*Decimals*) — Ad-ddegiadau (*Circulating Decimals*) — Deuarddegiadau (*Duodecimals*) — Dirprwynion (*Logarithms*)—Mesuriaeth (*Mensuration*) —Mesureg (*Geometry*)—Triongliaeth (*Trigonometry*) —Cynghrynaeth (*Spheric*)—Mordwyaeth (*Navigation*)—ac Alsoddeg (*Algebra*); ac ar yr ar-raniadau yna wedi eu gwneuthur yn ddosbarthiadau, a phob dosbarth yn adraniadau bychain, yn reolau a threfnau. Cynnwysa amryw daflenau newydd, a thaflen o ddirprwyrion hyd yn 10,000. Amryw ddarlenau (*plates*) i arddangos mesuriad gwaith crefftwyr, a phethau yn gyffredin, ac o ffurf neu lun bynag. Amryw drefnau i gael llanw a thrai y môr, yn ol y rheolau manylaf, ac nid yn ol symmudiad canolig y lleuad; olrhain pellder unrhyw ddau le oddi wrth eu gilydd, ac i wybod eu lledred, a'r awr o'r dydd; y modd i wneuthur *Almanac*, a thrin y *Calendar;* a channoedd o bethau ereill, rheidiol, a gynnwysir yn yr ar-raniadau uchod, nas crybwyllir yma gan brinder lle; a'r cyfan mewn iaith rwydd, a mor eglur, fel ag y geill yr hwn a fedro ddarllen yn ddeallus, pe byddai heb weled rhifyddiaeth erioed o'r blaen, ei ddysgu heb gymmhorth neb, gydag awydd a hyfrydwch. Gan JOHN WILLIAM THOMAS, Arfon."

Dyna ddigon o enwad-ddalen, gellid tybio, hyd yn oed i'r llyfr mwyaf a gyhoeddwyd erioed. Ond beth bynag a feddylir am archwaeth lenyddol yr awdwr, dylid sylwi y rhoddodd efe brawf digonol ar ol hyn nad oedd yn hòni dim yn y mynegiad uchod nad oedd yn gwbl alluog, o ran gwybodaeth, i'w gyflawni yn llawn.

Yr oedd efe wedi dechreu ysgrifenu yr "*Elfenau*" uchod pan yn cadw ysgol yn Nhregarth, a pharhaodd i'w hysgrifenu hwy, a dau o lyfrau ereill a nodir rhag llaw, hyd nes y symmudodd i Lundain. Yn y flwyddyn 1831, cyhoeddodd

Digitized by Google

yr ail rifyn o "*Elfenau Rhifyddiaeth;*" ac yn y flwyddyn nesaf (1832), cyhoeddodd y trydydd rhifyn, a'r olaf, o'r gwaith gorchestol hwn a ddaeth allan. Pris y rhifynau hyn oedd chwe cheiniog yr un. Yr oedd y gwaith, yn ol yr ammodau oedd ar yr amlen, i gynnwys o gylch deg ar hugain o rifynau chwe cheiniog yr un, "neu yr hanner o rifynau swllt," 8plyg. Ar amlen olaf y trydydd rhifyn o'r "*Elfenau,*" y mae yr hysbysiadau am y llyfrau canlynol gan yr un awdwr:—"*Dwned Cymreig* (*A Welsh Grammar*);" a "*Geiriadur Cymreig, Gwyddonol a Chelfyddydol.*"

Nid ydym yn gwybod iddo ysgrifenu dim o'r ddau lyfr hyn; ond y mae yn ddiau y bwriadai wneuthur, pe y cawsai fywyd, iechyd, a chefnogaeth. Yn yr un flwyddyn etto, sef 1832, cyhoeddodd y rhifyn cyntaf, a'r unig un a gyhoeddwyd, o lyfr, â'i enw "*Ffordd Anffaeledig i Gymro uniaith ddarllen Saesneg yn gywir.*"

Yn mis Mai, y flwyddyn hon (1832), dygwyd y rhifyn cyntaf allan o gyhoeddiad misol, 4c. y rhifyn, a'i enw "*Tywysog Cymru,*" yr hwn a gyhoeddid yn Nghaernarfon; a gwnaed J. W. Thomas yn olygydd iddo yn mhen rhyw ennyd ar ol ei gychwyn. Ni pharhaodd hwn ond hyd fis Gorphenaf, 1833. Ymddengys mai ar ol i hwn derfynu yr ysgrifenodd yr awdwr y "*Geiriadur Cymreig a Seisonig, a Chydymaith yr Ysgol Sabbathol,*" &c.; canys Medi, 1833, sydd ar ddiwedd y rhagfynegiad. Llyfryn bychan o blyg ydyw hwn, yn cynnwys 88 o dudalenau, heb law y rhagfynegiad, yr hwn sydd bedair tudalen. Y mae y gwaith hwn yn dri dosbarth: "I. Tarddiad geiriau dyrys. II. Geiriau o gyffelyb sain. III. Geiriau o'r Ysgrythyr." Cynllun y Dr. Pughe, wedi ei yru i eithafion, yw y dosbarth cyntaf, sef "Tarddiad geiriau," fel y gwel y darllenydd ar unwaith oddi wrth yr esampl byr a ganlyn:—

Abred, *s. g.*—*t. ll.* au, (a—py—rhe—ed) drwg, niwaid; cyflwr gwael:—*evil.*

Abrwysg, *a.* (a—by—rhy—gw—ys—g) afrëolus, anhawdd ei drin:—*unwieldy.*

Ac, *s. g.*—*t. ll.* oedd (a—c) tueddiad i gydiaw neu ddal, cyssylltiad:—*a conjunction.*

Acatfydd, *g. a.*] (ac—ad—bo—od) hwyrach, fe allai, osyd:—*a peradventure.*

Wele yr ymadrodd cyntaf yn ei ragfynegiad i'r geiriadur dan sylw:—

"Y Geiriaduryn a gynnygir idd eich sylw, a achlysurid gan gwynion trymfrydig y diwydfryd angenawg yn rheidiau teleidion a chywreinbleth iaith ystwythgamp barabldrefn a boddgar gymhenddull ei hamrywiogsain drwy awyr Gwalia."

Bu agos i'r mympwy ieithyddol a ddangosir yn y dyfyniad uchod lwyr ddinystrio J. W. Thomas; canys nis gallai y werin bobl ddeall ei lyfrau, ac am hyny nis prynent hwy—yr hyn a barodd iddo golled anaele, ac ar fin andwyol. Yn y cyfyngder yma, bu ei gyfeillion yn ymdrechu yn Ngorphenaf, 1834, gyda boneddigion y wlad, ar iddo gael myned yn gyllidwr (*exciseofficer*); ond er pob ymdrech, ni lwyddwyd. Yn wyneb y methiant yma, symmudodd yntau ei deulu, oedd weithian yn lled lliosog, o Fangor i'r Allt Isaf, cartref ei dad a'i fam; ac yn Awst yr un flwyddyn, efe a aeth ei hun i Lundain i ymgais am ryw swydd, fel y gallai "fwyta tamaid o fara."

Cafodd dderbyniad tra chroesawgar gan Gymreigyddion Llundain. Er hyny bu dros gryn ennyd cyn llwyddo i gael unrhyw alwedigaeth sefydlog. Ymddengys mai yn lled fuan ar ol iddo fyned i Lundain y dechreuodd efe arfer y cyfenw *Arfonwyson.* Wrth lythyr byr wedi ei amseru, Tachwedd 13eg, 1834, a ymddangosodd yn "*Seren Gomer,*" Ionawr 1835, tudal. 14, yn atteb i un William Jones ynghylch "Geiriau Cymraeg ac Elfenau Rhifyddiaeth," y canfyddasom yr enw *Arfonwyson* gyntaf. Wedi iddo fod yn Llundain dros ryw ysbaid, llwyddodd i gael lle fel ysgrifenydd personol i William Cobbett, A. S. dros Oldham. Pa wedd bynag, yr oedd ei hen elyn, aflwyddiant, heb gefnu arno etto; canys bu farw Cobbett mewn dyled yn mhen ychydig fisoedd ar ol iddo fyned i'w wasanaeth; a gorfodwyd yntau i ddychwelyd i Lundain heb ei gyflog. Dywedir mai yn yr adeg yma, pan allan o le a galwedigaeth y cyfansoddodd efe "*Drysorfa yr Athrawon;*" ond yr oedd y gwaith wedi ei gynllunio cyn iddo gychwyn i Lundain.

Mewn llythyr a ysgrifenodd oddi yno, yn Awst 1835, y mae yn cyfeirio at blaned oedd yn destyn siarad cyffredinol ar y pryd; ac fel hyn y dywed am dani:—

"Y mae yn debyg fod gryn sôn am y blaned (*Planed Halley*) yn eich ardal yn bresennol. Yr wyf yn anfon i chwi daflen o'r amser y byddwch debycaf o allu ei gweled, os bydd yr awyr yn eglur. Gellwch wybod yn lled agos i ba le i edrych am dani. Dyma i chwi hefyd, ar y tu arall i'r daflen, grybwyllion am y diffyg sydd i fod ar yr haul y flwyddyn nesaf (1836). Nid llawer sy'n gwybod am dano yn bresennol yn eich sir chwi."

Wele gopi o'r daflen:—

PLANED HALLEY.

| 1835. | a. m. | |
|---|---|---|
| Medi 15 | 7 3 boreu | Dyma yr amser y gellwch weled y blaned â llygaid noeth, ond i chwi edrych ar yr amserau cyferbyniol i'r fan y bydd yr haul yn ymddangos ar hanner dydd y diwrnodau hyny; a chewch weled y blaned gryn dipyn i'r gogledd o'r fan hono, hyd yr 22ain o Hydref, ac wedi hyny i'r de. Y mae yr amser wedi ei wneyd i gyfatteb i gloc cywir yn eich sir chwi. |
| ... 16 | 6 57 boreu | |
| ... 20 | 6 54 boreu | |
| ... 24 | 6 58 boreu | |
| ... 28 | 7 27 boreu | |
| Hyd. 2 | 8 59 boreu | |
| ... 6 | 12 6 pryd. | |
| ... 10 | 2 6 pryd. | |
| ... 14 | 2 51 pryd. | |
| ... 18 | 3 1 pryd. | |
| ... 22 | 2 58 pryd. | |
| ... 26 | 2 48 pryd. | |
| ... 30 | 2 31 pryd. | *Awst 18fed,* 1835. |

Yn y fan yma, oddi tan y daflen uchod, y mae llun yr haul, a'r sêr mewn cylch hanner crwn o'i amgylch; a llun cylch hirgrwn diderfyn y blaned, a'i llun hithau yn gynffonog arno, yn cychwyn ar hyd-ddo o'r eithafoedd anweledig, yn myned trwy'r ser, yn amgylchynu yr haul, ac yn myned ar ei rhawd i'r gwagle maith nas gellir gweled iddo; a'r cwbl o waith pin ysgrifenu cywrain a galluog Arfonwyson. O'r tu arall i'r daflen uchod y mae yr hyn a ganlyn:—

DIFFYG YR HAUL YN 1836.

| | a. m. | |
|---|---|---|
| "Mai y 15fed am ... | 10 46 | boreu, dechreu; |
| | 3 35 | prydnawn, diweddu. |
| | 5 49 | parhâd. |

Y tywyllwch mwyaf 22ain munyd cyn 2, ac yn parhau am o ddeutu tri munyd a hanner. Ni ellwch weled yr haul fel modrwy gyflawn, o herwydd eich bod yn rhy bell o'r gogledd, neu yn ormod i'r gorllewin—yr un a fynoch chwi.

Bydd y diffyg hwn etto yn y fl. 1854, Mai 26ain, 6a. 49m. prydnawn, yn un bychan, ac o ddeutu awr a hanner cyn machlud haul."

Digitized by Google

Bydd yr un diffyg etto yn 1872, Mehefin 7fed, 2a. 32m. y boreu, yn anweledig i ni; ac ni allwn ni ei ddisgwyl am lawer o filoedd o flynyddau mwy.
J. W. THOMAS, Arfon."

Weithian, ar ol hir a mynych siomedigaethau, digon i lethu enaid dyn cyffredin, wele y wawr o'r diwedd ar dori ar Arfonwyson; ïe, cyfyd yr haul arno yn ebrwydd bellach, ac nis machlud arno mwy hyd derfyn ei oes. Digwyddodd iddo anfon y nodiadau uchod, a'r daflen flaenorol, mewn llythyr i gyfaill oedd ganddo yn Llundain; a dangosodd hwnw hwy i'r proffeswr Airey, y seryddwr brenhinol (*astronomer royal*); yr hwn, gan synu at wybodaeth seryddol mor ddofn a chywir mewn dyn anadnabyddus, a anfonodd yn ebrwydd am dano; ac wedi cael llwyr foddlonrwydd yn ei holl attebion, rhoddodd y proffeswr rhyddfrydig swydd iddo yn y *Royal Observatory*, Greenwich:—"Tremle Breiniol y Parc Glas," ys dywed Arfonwyson ei hun. Yr oedd ei ymchwiliadau diwyd a dyfnion blaenorol i egwyddorion mesuroniaeth, athroniaeth, a seryddiaeth, bellach yn gynnorthwyon anhebgorol iddo yn ei waith a'i sefyllfa bwysig; ac yr oedd efe yn cael ei ddyrchafu mor gyflym yn y sefydliad mawreddog, gan adael y rhai oedd yno o'i flaen mor rwydd ar ei ol, nes creu eiddigedd a chenfigen mewn amryw o honynt tuag ato, oedd wedi cael dysg clasurol yn mhrifysgolion y deyrnas, tra nad oedd yntau etto ond siaradwr Saesneg digon carbwl. Dywed un o'i fywgraphwyr ei fod wedi ei appwyntio yn arolygwr (*superintendent*) yr Arsyllfa Freiniol; ond yr ydym wedi methu cael sicrwydd o hyny, ac y mae yn annhebyg hefyd.

Er fod "*Trysorfa yr Athrawon*," fel y gwelsom, yn llaw yr argraphydd mor gynnar ag Awst 18fed, 1835, etto ni chyhoeddwyd hi hyd Alban Hefin, 1837, fel y dengys ar ddiwedd ei ragymadrodd iddi; ac yn lle bod tua phymtheg pennod, fel y tybiai, y mae yn cynnwys tair pennod ar hugain.

Heb law y "*Drysorfa*," ysgrifenodd Arfonwyson Almanac bob blwyddyn yn ystod ei arosiad yn yr Arsyllfa, oedd yn tra rhagori ar bob un a gyhoeddasid o'r blaen, yn mhob ystyr. Ysgrifenodd lawer hefyd i wahanol gylchgronau ei amser, yn enwedig i'r "*Seren Gomer*." Y mae amryw lythyrau nerthol o'i waith, dan yr enw "Cymro Cadarn," yn y "*Seren*," 1835, ar yr iaith Gymraeg, yn erbyn un Dr. Morgan, Caerludd, a'i amddiffynwyr; a dengys y llythyrau hyny fod ei arddull Cymraeg wedi newid yn ddirfawr er gwell, ar ol iddo symmud i Lundain. Pe y cawsai estyniad oes, y mae yn ddiammheu y daethai yn ysgrifenydd Cymraeg da; ond goddiweddwyd ef yn gynnar ar ei oes gan yr hen afiechyd anfeddyginiaethol, y darfodedigaeth; yr hwn, yn ol pob tebyg, a ddygwyd arno gan ormod myfyrdod, pryder, a llafur, ac a roddes derfyn ar ei einioes werthfawr, egnïol, a defnyddiol, ar y 12fed o Fawrth, 1840, pan nad oedd ond 35ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Alphege, yn Greenwich.

THOMAS, JOHN (*Siôn Pen-ffordd-wen*). Nid oes dim o hanes personol y bardd a'r llenor yma ar gof a chadw, hyd y gwyddom ni; ond yr ydym yn casglu wrth amseriadau ei ddau brif gyfansoddiad ei fod yn bucheddu tua diwedd y ganrif olaf, sef y ddeunawfed. Yr unig gyfansoddiadau o'i waith a gyhoeddwyd yw y rhai canlynol:—"Drych Ysbrydol; sef ychydig o ystyriaethau ar ystâd y meirw, a nef, ac uffern, ac ysbrydion da a drwg, ac achosion naturiol a goruwch-naturiol o freuddwydion a gweledigaethau cwsg," &c., 1790. "Urbania, neu Grefyddol Ddadleuon," 1793. Math ar ysmaldodeg (*interlude*) ydyw y gwaith hwn. Cyhoeddwyd "Englynion ymdaith y Bardd" o'i waith yn y "*Brython*," iii., tudal. 383; a dywedir fod amryw hymnau o'i waith ar arfer gan ein cyfundebau crefyddol hyd y dydd hwn.

THOMAS, JOSHUA. Y gŵr enwog a llafurus hwn ydoedd fab hynaf y duwiol Thomas Morgan Thomas, Tŷ Hen, plwyf Caio, sir Gaerfyrddin, yr hwn a symmudodd wedi hyny i Esgair Ithri—tyddyn heb fod yn mhell oddi wrth ei breswylfod cyntaf. Yn y Tŷ Hen y ganwyd Joshua, ar yr 22ain o Chwefror, 1718. Dygwyd ef i fyny yn ofalus gan ei rieni duwiol, y rhai a ddysgasant iddo ddarllen ei Feibl yn iaith ei wlad yn foreu, ac a'i maethasant ef yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Gan fod yr Annibynwyr y pryd hyny, â'r rhai yr ymunodd rhieni Joshua Thomas ar y cyntaf, yr un modd a'r Bedyddwyr, â pha rai yr ymunasant wedi hyny, yn gadael eu plant allan o'r cyfeillachau crefyddol neillduol hyd oni chynnygient eu hunain yn aelodau, felly y gadawyd yntau; er hyny, dywedir fod ei fuchedd yn ystod ei flynyddoedd boreuol yn hardd a thra moesol, fel y gellid disgwyl i'r eiddo mab i rieni mor dduwiol a gofalus fod.

Nid oes genym ddim o hanes addysg ysgolaidd Joshua Thomas; ond y mae y gwirionedd iddo gael ei brentisio yn sidanydd (*mercer*) yn Henffordd (Hereford), tref hollol Saesnig, pan oedd o gylch ugain oed, yn 1738, yn arwydd sicr ei fod wedi dysgu Saesneg, a pheth rhifyddiaeth, cyn hyny. Yr oedd ei rieni wedi ymuno â'r Bedyddwyr er's tua blwyddyn cyn iddo fyned i Henffordd; o herwydd pa ham, at y cyfundeb crefyddol hwnw yr oedd ei feddwl yn cryf dueddu. Ymddengys fod Henffordd ar y pryd yn lle gwyllt a thra anghrefyddol, ac nad oedd un gynnulleidfa o Fedyddwyr yn y gororau; ond o blegid nad oedd efe wedi arfer treulio y Sabbathau mewn gwibdeithiau a digrifwch, fel ei gyd-ieuengctyd yn y dref, arferai fyned i wrando pregethu i addoldy yr Annibynwyr.

Ar ol bod yn Henffordd dros o gylch blwyddyn, cyfarfu yn ddamweiniol â gwraig dduwiol oedd yn byw yn agos i Lanllieni (Leominster), ac aelod gyda'r Bedyddwyr yn y dref hono; a chafwyd llawer o hanes achos y cyfundeb yno ganddi: ac yn Rhagfyr, 1739, aeth i Lanllieni, er ei bod tua thair milldir ar ddeg o Henffordd, i gael clywed y Bedyddwyr yn pregethu. Wedi hyny, cyrchodd i'r dref hono ar y Sabbathau mor fynych ag y gallai; ac yn Mai, 1740, bedyddiwyd ef trwy drochiad, a derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yno, pan yn ddwy ar hugain oed.

Wedi iddo orphen ei brentisiaeth yn Henffordd, tua diwedd 1743, dychwelodd i Gymru, lle yr oedd ei galon ar hyd yr amser; a llwyr fwriadai aros yno hyd ddydd ei farwolaeth—ond nid ein meddyliau ni ydyw meddyliau Penllywydd y greadigaeth. Wedi cyrhaedd anwyl wlad ei enedigaeth, arosodd gyda'i rieni dros ddwy flynedd. Yn ystod yr amser hwnw, cymmhellwyd ef gan ei frodyr crefyddol i bregethu; a chan fod ei gymmhwysderau yn dra chymmeradwy gan ei gyfeillion, taer annogwyd

Digitized by Google

ef i lwyr ymroddi at y gwaith; ond o blegid ei fod wrth natur yn wylaidd, ac yn meddwl, fel y cyffredin o Gristionogion yr oesau hyn, bod pregethu yn fwy cyssegredig nag un ddyledswydd arall a berthyn i gredinwyr, gwrthodai bregethu ond yn anfynych dros rai blynyddau.

Yn 1746, priododd ferch ieuangc dduwiol, ac ymsefydlodd yn ebrwydd mewn masnach yn y Gelli (Hay), yn sir Frycheiniog. Yna ymunodd âg eglwys y Bedyddwyr yn Maes y Berllan; ac yn 1749, neillduwyd ef; neu, fel y dywedir gan rai, urddwyd ef i fod yn gynnorthwywr i hen weinidog yr eglwys hono, a'i changhenau. Yr oedd eglwys y Bedyddwyr yn Llanllieni, â'r hon yr ymunasai efe gyntaf, wedi myned yn bur isel ac anghysurus yn eu plith eu hunain erbyn hyn; ac yr oeddynt heb weinidog er's pum mlynedd, a mynych y methent gael pregethwr achlysurol. Am hyny, anfonasant yn aml at Joshua Thomas i erfyn arno ddychwelyd. Teimlai yntau yn ddwys yn eu hachos, yn enwedig gan yr ystyriai mai hono oedd ei fam ysbrydol; ond am nad oedd wedi arfer pregethu yn Saesneg, efe a deimlai yn anewyllysgar i fyned yno i bregethu, hyd yn oed am unwaith. Pa wedd bynag, gan eu bod hwy yn parhau i daer erfyn arno, ofnodd o'r diwedd y gallai ddigio Duw drwy eu nacau; ac aeth yno yn Hydref, 1753. Ymddengys iddo gael golygfa dra anghysurus ar yr achos yno ar y pryd, canys dywed yn ei amserlyfr:—"Yr oedd yn agos i ddeng mlynedd er pan adewais i Lanllieni. Yr oedd llawer wedi myned i'r byd arall, ac heb un enaid wedi ei chwanegu at yr eglwys yn yr holl amser hyny. Yr olygfa yn ddilys ddiammheu yn druenus." Bu yr ymweliad crybwylledig yn dra chymmeradwy gan y brodyr yn Llanllieni; a chydsyniodd yntau â'u cais taer i ymweled â hwynt mor fynych ag y gallai, er fod o gylch ugain milldir rhwng y Gelli a Llanllieni. O'r diwedd, cydsyniodd â thaerni ei ychydig frodyr yn y dref hono, ac wrth ystyried iselder yr achos yno hefyd, i symmud, ynghyd â'i deulu i'w plith; canys ar y 19eg o Ragfyr, 1754, efe a ysgrifena yn ei goflyfr fel hyn:—"Derbyniais ofal gweinidogaethol yr eglwys fechan hon; a hyny, fel y gobeithiaf, yn ofn a phresennoldeb yr Arglwydd. Nid oedd neb dyeithr yn cynnorthwyo;" *h.y.*, y mae yn debyg, yn y seremoni o'i sefydliad fel gweinidog yn y lle. Tri-ar-ddeg oedd o aclodau yn yr eglwys y pryd hyny; ond trwy fendith, a llafur Joshua Thomas, cynnyddodd yn raddodd, fel yr oedd erbyn diwedd ei oes yn dra blodeuog.

Nid oedd yn meddu dawn naturiol hyawdl, ac nid ymgeisiodd erioed at ffraethineb hedegog fel areithiwr; ond yr oedd ei wybodaeth ddofn yn yr Ysgrythyrau, a'i adnabyddiaeth craffus o ddynolryw, ac o hono ei hun, y fath fel yr oedd ei bregethau, a fyfyriai efe yn dda, yn cael eu traethu gyda gwres ac eneiniad, er boddhâd ac adeiladaeth mawr i wrandawyr difrifol a synwyrol. Cafodd aml alwadau i symmud o Lanllieni; a bu eglwys Pont-y-gogledd (Bridgenorth) yn sir Amwythig, yn daer arno i fyned yno; eithr ni fynai efe ymadael â'i frodyr yn Llanllieni yn erbyn eu hewyllys, er y buasai hyny yn fantais fawr iddo mewn ystyr fydol. Am hyny, yno yr arosodd dros y tair blynedd a deugain olaf o'i oes--yn fawr ei barch a'i gymmeradwyaeth. Gan nad oedd yr hyn a dderbyniai am bregethu yn ddigon i gynnal ei deulu cynnyddol yn gysurus, sefydlodd ysgol ddyddiol yn y dref, yr hon a gadwodd dros hir flynyddoedd yn gymmeradwy a llwyddiannus; a chafodd liaws o blant a phobl ieuaingc addysg dda yn mhob ystyr o'r gair ganddo.

Yr oedd yn hynod ofalus am ranu a defnyddio ei amser. Dywedir na bu dros yn agos i drigain mlynedd yn ei wely, na haf na gauaf, ar ol pump o'r gloch y boreu. Wrth ystyried ei fod yn athraw ysgol ddyddiol dros gyhyd o amser; fod ganddo y fath waith i ddarpar pregethau erbyn pob Sabbath i'w gynnulleidfa ei hun; ei fod yn ymweled yn rheolaidd â'i frodyr ac â'i wrandawyr yn y dref; a'i fod wedi teithio cymmaint i gymmanfaoedd ei frodyr yn Neheu a Gogledd Cymru yn gysson, bron bob blwyddyn ar hyd ei oes (yr oedd ei gariad at wlad ei enedigaeth yn angerddol, er iddo dreulio y rhan oreu o'i oes yn mhlith y Saeson)—wrth ystyried y pethau hyn oll, y mae llafur llenyddol Joshua Thomas yn ddigon o ryfeddod i'r mwyaf diwyd a chyflym ei ysgrifell. Cyhoeddwyd ei "*Hanes y Bedyddwyr*" pan oedd yn drigain mlwydd oed un, yr hwn sydd yn waith rhagorol ar Anghydffurfiaeth yn Nghymru; eithr gan nad ydyw yn proffesu bod yn hanes ond un cyfundeb, nid ydyw ei gyfeiriadau at gyfundebau ereill ond damweiniol yn unig. Er fod y gwaith yma yn wir werthfawr ar lawer ystyriaeth, etto y mae yn cynnwys amryw gam-fynegiadau lled bwysig; megys, fod eglwys o Fedyddwyr wedi ei sefydlu yn Olchon yn 1633; fod un, William Thomas (Bedyddiwr), yn gyd-fugail â William Wroth; mai Bedyddiwr oedd Vavasor Powell o ddechreuad ei weinidogaeth; a bod John Penry, William Erbery, Jenkin Jones, a Henry Maurice yn perthyn i'r un cyfundeb. Pe buasai yr awdwr llafurus mewn cyfleusdra i wybod yn amgen, diammheu na buasai yn cyhoeddi y fath fynegiadau anghywir.

Er mai "*Hanes y Bedyddwyr*" ydyw prif waith Joshua Thomas, ar yr hwn y dibyna ei glod yn benaf; etto, efe a ysgrifenodd amryw gyfansoddiadau buddiol ereill. Yn ystod y blynyddau, rhwng 1791 ac 1795, cyfranodd yr ysgrifenydd diwyd amryw erthyglau gwerthfawr i'r "*Baptist Register*" ar hanes cymmanfaol y Bedyddwyr yn Nghymru, o 1650 hyd 1790. Cyhoeddwyd y rhai hyn yn llyfryn ar wahân.

Yr oedd yr awdwr hefyd, pan yn ysgrifenu yr erthyglau diweddaf o'r rhai crybwylledig i'r "*Register*," yn 1795, yn 77ain mlwydd oed. Bu yn iach, bywiog, a gweithgar wedi hyny, hyd y 19eg o Awst, 1798, pan y teimlai rhyw boen yn ei ymysgaroedd; ond pregethodd dair gwaith ar y Sabbath canlynol, yr 20fed o'r un mis, eithr ymdeimlai yn fwy llesg nag arferol. Parhaodd i waethygu o hyny allan; ac ar y 25ain o Awst, 1798, ymadawodd â'r fuchedd hon, "mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragwyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist;" ac efe, yn ol ein cyfrif ni, yn 80ain a chwe mis oed.

Y mae peth dyryswch ynghylch y flwyddyn y ganwyd ein hawdwr clodfawr. J. M. Thomas, ei nai, a ddyry amser ei enedigaeth yn "*Seren Gomer*," 1822, tudal. 65, fel hyn:—"Chwefror 22ain, 1718—9;" yr hwn a ddilynir gan David Jones, awdwr "*Hanes y Bedyddwyr yn Neheudir Cymru;*" ond R. Williams, yn ei "*Eminent Welshmen*," a ddyry 1719, yr hwn a ddilynir gan y Dr. T. Rees, yn ei "*History of Protestant Nonconformity in Wales.*" Dewisasom ni y flwyddyn gyntaf a nodir yn y "*Seren*," sef 1718, fel amser tebycaf ei enedigaeth.

Digitized by Google

Heb law y llyfrau argraphedig a nodwyd, dywedir iddo adael ar ei ol mewn ysgrifen "*Hanes Eglwysaidd o Gymru,*" digon, fe allai, i wneuthur dau lyfr pedwar-plyg; ac un arall, cyfartal i un llyfr, o "*Eglwysi y Bedyddwyr yn y Dywysogaeth.*" Yr oedd y rhai hyn yn y flwyddyn 1822 yn y llyfrgell berthynol i Athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor. Ond dywed Dr. T. Rees iddo wneuthur ymofyniadau dyfal amryw weithiau yn Llundain a Chaerodor am yr ysgriflyfrau crybwylledig, ond na lwyddodd i daraw wrth neb a wyddai ddim am danynt. Gresyn os ydynt wedi colli yn anadferadwy—er ei bod yn debygol mai felly y mae.

Am Joshua Thomas, fel dyn, cyfaill, duwinydd, Cristion, pregethwr, a hanesydd, nis gallwn wneyd yn well na dyfynu y dernyn canlynol o lythyr a anfonwyd gan Richard Jones, o Ramoth, at awdwr "*Hanesiaeth y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru:*"—

"Yn fyr, gallaf ddyweyd yn ddiweniaith ei fod yn bregethwr tra dwys a synwyrlym, er nad yn areithiwr hyawdl; ond yr oedd ei ymddygiad a'i ymddangosiad yn yr areithfa yn dra difrifol a difregaidd; ei bregethau yn dra threfnus, ac wedi eu myfyrio yn dda: a'i gasgliadau yn gyfaddas a dwys. Yr oedd yn hanesydd mawreddog, ac yn feirniad galluog yn iaith ei fam. Ac mor bell ag yr adnabûm ef, yr oedd ei ymddygiad a'i ymarweddiad yn anghreifftiol (yn esampl?) o bob rhinwedd Gristionogol yn mhlith ei deulu, ei gyfeillion, a'r byd. Mal cydymaith, yr oedd yn siriol a boddus. Yr oedd ei gof mor gynnwysgar, ei wybodaeth mor sylweddol, a'i gasgliadau mor briodol a pherthynasol, fel y gallai foddhau ac adeiladu ei gyfaill trwy gydol y dydd, trwy adrodd hanesion a mân gofion hynodawl, addasedig i osod allan ddaioni Duw tuag at ei bobl mewn amryfal ffyrdd. Ac fel cyfaill a gohebydd, yr oedd y mwyaf manwl, ffyddlawn, ac addfwyn (hynaws) ag a gwrddais yn y byd drwg presennol. Treuliais o ddeutu wythnos yn ei gyfeillach yn Llanllieni yn Mai, 1794; a chefais yr hyfrydwch o gyd-deithio gydag ef oddi yno, heibio i Henffordd, i'r gymmanfa, yr hon oedd y flwyddyn hono yn yr Olchon. A dyna y tro diweddaf y cefais y dedwyddwch o'i weled ef. Y mae genyf ddwy a deugain o'i lythyrau, wedi eu nodi o'r fl. 1790 hyd 1797—yr hon oedd y flwyddyn olaf o'i fywyd dillynwiw. Heddwch fyddo i'w lwch, i aros adgyfodiad y cyfiawn! Bydd ei goffadwriaeth yn werthfawr genyf fi tra byddo genyf anadl i'w thynu."

Er fod geiriad y dyfyniad yna dipyn yn fympwyol, y mae yn ddarlun pur wych, a hyny gan gydoeswr, o wrthddrych godidog ein herthygl. Yr oedd gan Joshua Thomas un mab oedd yn bregethwr cymmeradwy gyda'r Bedyddwyr yn Islington, Llundain.

THOMAS, SAMSON, yn ol Nefydd, awdwr "*Crefydd yr Oesoedd Tywyll, neu Mari Lwyd;*" ond SIMON THOMAS, yn ol Gwilym Lleyn, awdwr "*Llyfryddiaeth y Cymry.*" S. T. yn unig sydd wrth ei lyfrau argraphedig. Ganwyd ef, medd G. Lleyn, ger llaw y Cilgwyn, yn sir Aberteifi. Dywed golygydd y "*Llyfryddiaeth*" bod dau Gilgwyn yn Ngheredigion, sef sir Aberteifi; un yn agos i Gastell Newydd Emlyn, a'r llall nid neppell o Lanbedr. Ymddengys mai yn y lle olaf y ganwyd S. Thomas. Cafodd addysg i'w gymmhwyso i'r weinidogaeth yn mhlith yr Ymneillduwyr. Wedi bod dan addysg yn Lloegr dros dymmor, dychwelodd ac arosodd dros beth amser yn Nghymru, gan bregethu yn Nghaeronen, Cilgwyn, a lleoedd ereill yn nghwr uchaf sir Aberteifi. Dywed Nefydd mai un o weinidogion y Presbyteriaid oedd S. Thomas; a golygydd y "*Llyfryddiaeth*" a ddywed fod, neu o leiaf y bu, addoldy gan yr Henaduriaid yn y Cilgwyn sydd ger llaw Llanbedr; ac mai yn yr un ardal y mae Caeronen. Wedi hyny, symmudodd i ryw le yn sir Henffordd; ac yno y bu farw, o gylch 1743. Dywed y Dr. T. Rees ["*Hist. Prot. Noncon. in Wales,*" td. 299], mai gweinidog eglwys Annibynol yn sir Henffordd ydoedd, yn 1735. Dyna'r cwbl a allwn ni ei gasglu o hanes boreuol y gŵr enwog yma; eithr nid ar gyfrif yr hanes hwn yr ydym yn galw sylw ato yma, ond fel awdwr galluog dau o lyfrau Cymraeg a ysgrifenodd efe, y rhai sydd weithian yn dra anadnabyddus i lawer o ddarllenwyr Cymreig. Enw y cyntaf sydd fel hyn:—"*Hanes y Byd a'r Amseroedd; er hyfforddi rhai o'r Cymry, o waith S. T.* Argraphwyd yn Llundain gan J. Batby, dros David Lloyd, yn y flwyddyn 1721, 16plyg." Dichon mai rhyw lyfrwerthwr teithiol oedd David Lloyd, y cyhoeddwr; canys ceir ei enw fel cyhoeddwr llyfr Cymraeg arall, â'i enw "*Defosiwnau Priod,* o gyfieithiad W. L. M. D.; a argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch, tros Dafydd Lloyd, yn 1716."

Am "*Hanes y Byd a'r Amseroedd,*" dywed Nefydd ei fod yn "un o'r llyfrau goreu, yn ol ei faint, sydd yn yr iaith Gymraeg;" ac yn sicr, y mae rhyw athrylith wreiddiol a gwirioneddol yn rhedeg fel gwythïen euraidd trwy bob paragraph o hono, sydd yn ei wneyd mor ddifyr i'w ddarllen ag ydyw o fuddiol i'w wybod. Y mae yn amrywiol a difyr, yn ysgrythyrol ac yn adeiladol. Y mae yn llym ac argyhoeddiadol dros ben tua'i derfyn, yn erbyn y "gwyliau anysgrythyrol," y "seremonïau gweigion," yr "*Apocrypha* ffug-ysgrythyrol," y "gweddiau gwneuthur Pabaidd," y "gwisgoedd Iuddewig a phaganaidd," a lusgwyd o'r defod-lyfrau Pabaidd i Eglwys Loegr. Nid ydym yn rhyfeddu fod hen dadau Puritanaidd y cyfundebau Cymreig, a ddarllenent y llyfr hwn, a'i gyffelyb, mor syml, mor dduwiolfrydig, mor ochelgar rhag pob math o wâg seremonïau a choeg-ddysgeidiaeth, ac mor ofalus am ddilyn cyfarwyddiadau eglur y Testament Newydd, ag y gosodir hwy allan yn ein hanesion eglwysig.

Cyhoeddwyd ail argraphiad—un cyflawnach na'r argraphiad cyntaf—yn yr Amwythig, gan J. Rogers, yn 1724, o "*Hanes y Byd a'r Amseroedd,*" dan yr enw "*Llyfr Gwybodaeth y Cymro,* o waith S. T." Ac yn 1728, cyhoeddwyd y trydydd argraphiad o hono, yn Llundain, wrth ei enw cyntefig, "*Hanes y Byd a'r Amseroedd,* er hyfforddiad i rai o'r Cymry, o waith S. T." Felly, dygwyd tri argraphiad o'r llyfr buddiol a difyrus hwn trwy y wasg yn ystod saith mlynedd o amser; yr hyn a ddengys mor dderbyniol ydoedd gan ein hynafiaid.

Yn y flwyddyn 1735, argraphwyd llyfr arall o waith yr awdwr galluog, â'i enw "*Histori yr heretic Pelagius:*—yn yr hwn y rhoddir cyflawn hanes o'i heresi ef. Dangosir y modd y torodd yr heresi hono allan yn ddiweddar yn mysg y Protestaniaid. Y modd yr ydys yn gŵyrdroi yr Ysgrythyrau tuag at ei hamddiffyn. Hefyd, y modd y cafodd ei dwyn i mewn (yn yr oes ddiwaetha a aeth heibio) i'r deyrnas hon. O waith S. T."

Y mae hwn yn llyfryn bychan prydferth, yn cynnwys 256 o dudalenau 24plyg. Y mae tua

Digitized by Google

ei hanner yn cynnwys "Histori Arminius." Fe ddengys yr awdwr yr un craffder ac eangder gwybodaeth yn hwn a "*Hanes y Byd a'r Amseroedd.*" Y mae y gwaith yma mor brin a'r llall, ac ond odid prinach, gan nas gwyddom i ddim ond un argraphiad o hwn gael ei gyhoeddi.

THOMAS, TIMOTHY: ail fab Thomas Morgan Thomas, a brawd Joshua Thomas, a anwyd yn y Tŷ Hen, cartref cyntaf ei rieni, yn mhlwyf Caio, sir Gaerfyrddin, ar yr 2il o Fawrth, 1720. Cafodd ef, fel ei frawd Joshua, â'r hwn yn wir y cydfagwyd ef, ei ddysgu yn foreu i ddarllen ei Feibl Cymraeg gan ei rieni gofalus a duwiol, ac yr oedd yntau o dueddfryd crefyddol er yn fachgen. Cynnygiodd ei hun yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Mhen-y-coed, ger llaw Llanbedr, Ceredigion, pan yn ddeunaw mlwydd oed, a bedyddiwyd ef yn ebrwydd.

Cymmhellwyd ef i ddechreu pregethu ar y 4ydd o Chwefror, 1739—yr un diwrnod, ebe ei frawd, Joshua Thomas, ag y bu yr enwog Enoch Francis farw. Yn 1743, galwyd ef i fugeilio eglwys Aberduar, a'i changhenau, mewn cyssylltiad â gŵr ieuangc arall o'r enw John Thomas; ac yr oedd yn bregethwr tra diwyd a chymmeradwy. Yn fuan ar ol hyn, priododd ferch ieuangc rinweddol; ond bu hi farw yn mhen tua blwyddyn ar ol priodi; ac yn 1753, priododd yntau eilwaith â merch Mr. Williams, Tre Bŵl; ac yn mhen ennyd, aeth i fyw gyda hi i dyddyn o'r enw Maes—hen gartref hynafiaid ei briod; ac yno y bu efe hyd ei farwolaeth.

Er cymmaint fu ei lafur fel pregethwr yn mysg ei frodyr yn ardal fynyddig Aberduar, a'i deithiau pregethwrol trwy Dde a Gogledd Cymru, ac er mor egwan ei iechyd trwy ei holl oes, trefnodd i gael hamdden i ysgrifenu amryw lyfrau gwerthfawr yn yr iaith Gymraeg, y rhai a fuont yn boblogaidd yn Nghymru dros hir amser, ac a ddylent fod felly etto. Y cyntaf a gyhoeddodd ydoedd bregeth ar 2 *Pedr* i. 10, yr hon a alwodd efe, "Y Gareg Wen," yn ol *Dat.* ii. 17. Argraphwyd hon yn 1757, mewn cyssylltiad â llyfr bychan o waith ei frawd, Joshua Thomas, a alwodd efe "Tystiolaeth y Credadyn am y Nefoedd." Y mae dau o fywgraphwyr Timothy Thomas wedi camsynied am y llyfryn olaf hwn, trwy ei briodoli iddo ef; ond gwaith ei frawd Joshua ydyw hwn, ac nid Timothy.—"*Llyfryddiaeth y Cymry,*" tudal. 445, 446; "*Seren Gomer,*" 1823, tudal. 3. Ymddengys i Timothy Thomas helaethu pregeth y "Gareg Wen" i draethawd; yr hon a gyhoeddwyd yn 1759, wrth yr enw "*Y Gareg Wen:* neu draethawd bychan yn mherthynas i Sicrwydd, yn mha un yr amlygir:—1. Fod sicrwydd yn gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn. 2. Sicrwydd o ba beth sydd gyrhaeddadwy. 3. Yr angenrheidrwydd i ymofyn am dano, a'r budd o'i gael. 4. Pa fodd i'w gael?" Yn yr un flwyddyn etto, 1759, cyhoeddodd draethawd 18plyg, yn cynnwys 380 o dudalenau, o'r enw "*Traethiad am y Wisg Wen Ddisglaer, gymmhwys i fyned i Lys y Brenin Nefol,*" &c., yn helaeth. Y mae llythyr o flaen y traethawd hwn, "At eglwys Iesu Grist, yr hon sydd yn cyfarfod ynghyd ar brydiau yn Aberduar, Pen-y-coed, Bethel, a Bwlch y Rhiw Maes, yn Mhencareg, Ionawr 1af, 1756." Yn 1764, cyhoeddodd Timothy Thomas dri o lyfrau —sef y rhai canlynol: "*Moliant i Dduw, neu ychydig nifer o Hymnau.*" Cynnwysa y llyfryn hwn 126 o hymnau, neu yn hytrach ganiadau, mewn 108 o dudalenau, heb law 12 o ragymadrodd, &c. "*Cariad Brawdol.*" Nis gwyddom chwaneg am y llyfr yma. "*Amlygiad byr ar arddodiad dwylaw; ar dderbyniad o'r Ysbryd Glân: ar y dull o ymddiddan rhwng Ymofynwr a Ffyddlawn.* Ac a wnaethpwyd yn gyhoeddus ar ddymuniad cymmanfa o weinidogion, a gyfarfuant yn Rhydwilym, Hydref 24ain, 1764." "Yr oedd eglwysi y Bedyddwyr yn Nghymru," medd Gwilym Lleyn, "yn selog iawn dros arddodiad dwylaw ar y bedyddiedig, o'r flwyddyn 1689 hyd 1737, heb nemawr o ddadl. Yn y flwyddyn olaf a enwyd, yr oedd dyn ieuangc yn ymgeisydd am gymmundeb; ac wrth ei holi, dywedodd nad oedd ei feddwl ef yn glir ar y pwngc hwnw. Achlysurodd hyny i'r pwngc gael ei chwilio; ac achlysurodd ddadleuon blinion rhwng gweinidogion ac aelodau arno:—rhai drosto, ac ereill yn ei erbyn. Bu dadl frwd arno yn eu heglwys yn Aberduar yn 1743. Yr oedd Timothy Thomas, gweinidog Aberduar, yn selog dros yr arddodiad. Fel yr oedd y ddadl yn lledaenu, efe a roddodd ynghyd ychydig feddyliau arno; ac mewn cyfarfod chwarterol yn y gymmydogaeth, efe a'u darllenodd i'r gweinidogion oedd yn bresennol; ac ar gais rhai o honynt efe a'u cyhoeddodd, fel uchod, gyda rhai hymnau o'i gyfansoddiad ei hun." Attebwyd y llyfr dan sylw gan rywun, yn 1765, mewn llyfryn o'r enw, "*Atteb i Lyfr Mr. Thomas ar Arddodiad Dwylaw.*" Yn 1766, gwrthattebwyd yr olaf gan ysgrifenydd anadnabyddus etto, mewn traethodyn a elwid, "*Amddiffyniad i lyfr cyntaf Mr. Thomas ar Arddodiad Dwylaw.*" Yn yr un flwyddyn, drachefn, ysgrifenodd Timothy Thomas lyfr yn cynnwys 112 o dudalenau, dan yr enw, "*Rhwymyn Perffeithrwydd, neu Frawdgarwch Parhaus:* wedi cael ei drin yn ffyddlawn gan Timothy Thomas, gweinidog yr efengyl yn Aberduar, swydd Gaerfyrddin, awdwr y *Wisg Wen.*"

Y mae dau o fywgraphwyr Timothy Thomas yn priodoli iddo ef "*Gyfieithiad o draethawd Ever* [Ewer?] *ar Fedydd,*" a gyhoeddwyd yn 1767. Ond gwaith ei frawd, Joshua Thomas, ydyw y cyfieithiad hwnw ["*Llyfryddiaeth y Cymry,*" tudal. 494]. Ymddengys i ni mai y "*Rhwymyn Perffeithrwydd*" uchod oedd yr olaf o waith y gweinidog diwyd ac ymroddgar hwn. Bu farw y 12fed o Dachwedd, 1768, yn 48ain oed, gan adael gwraig ac amryw blant i alaru ar ei ol yn eu hen gartref—y Maes. Cafodd y fam a'r plant aros yn eu cartref hyd 1816, pan y trowyd hwy allan o'u tyddyn o herwydd cenfigen, yn y 83ain flwyddyn o oedran Mrs. Thomas. Chwe blynedd y bu hi fyw ar ol cael ei throi o'i hen gartref; canys ar yr 20fed o Ebrill, 1822, bu farw mewn tangnefedd, yn 89ain mlwydd oed.

THOMAS, WILLIAM, D. D. Dywedir fod y clerigwr enwog hwn wedi deilliaw o deulu hynafol a pharchus yn sir Gaerfyrddin. Enw ei dad oedd John Thomas; yr hwn a ymsefydlodd yn Bristol fel gwerthwr llieiniau; ac yno y ganwyd ei fab William, ar yr 2il o Hydref, 1613. Ei daid, William Thomas, oedd gofiadur Caerfyrddin; ac yr oedd iddo enw da a pharch mawr gan ei gymmydogion. Dywedodd Iarll Northumberland, yr hwn oedd raglaw Cymru ar y pryd, "mai efe oedd y gŵr doethaf a mwyaf deallus a adnabu efe erioed fel aelod o gorphoraeth." Cymmerodd y boneddwr yma ei ŵyr, ar farwolaeth ei fab, dan ei ofal, ac ymddygodd

Digitized by Google

ato yn y modd mwyaf anrhydeddus, gan ei roddi dan addysg Morgan Owen, athraw ysgol gyhoeddus yn Nghaerfyrddin, yr hwn a wnaed wedi hyny yn esgob Llandaf. Bu yn yr ysgol hon hyd onid aeth i Goleg St. Ioan, Rhydychain, pan yn un ar bymtheg oed, yn 1629. Yna symmudodd i Goleg yr Iesu, lle y cymmerodd y radd o B. A., yn 1632; ac yn fuan wedi hyny dewiswyd ef yn gymmrawd ei goleg, a phennodwyd ef yn athraw. Yn ol arfer yr oes, myfyriodd athroniaeth a duwinyddiaeth yr ysgolion yn ddiwyd, gan dalfyru holl waith Aristotle â'i law ei hun. Yn 1634, cymmerodd y radd o M. A. Yn 1637, ordeiniwyd ef yn ddiacon, ac yn y flwyddyn ganlynol gwnaed ef yn 'offeiriad.' Pennodwyd ef yn fuan wedi hyny i fod yn ficer Penbryn yn sir Aberteifi, a chaplan Iarll Northumberland, yr hwn a gyflwynodd iddo ficeriaeth Llacharn mewn cyssylltiad â pheriglorïaeth Llansadwrnen. Yna efe a briododd Blanch, merch un Peter Samyne, masnachwr Isdirol (*Dutch*), yn Lyme street, Llundain; a bu iddynt wyth o blant, un o ba rai a fu farw yn ieuangc.

Mwynhaodd y bywoliaethau crybwylledig hyd oni amddifadwyd ef o honynt gan bwyllgor y senedd, o gylch 1644. Dioddefodd W. Thomas galedi mawr o'r pryd hwnw hyd oni adferwyd Charles II. i'r orsedd; canys colledwyd ef o gryn bymtheg cant o bunnau; a bu raid iddo gadw ysgol ddirgel yn y wlad er cynnal ei deulu. Ac er y mynych anrhegid ef yn haelionus gan ei gyfeillion, etto bu ei wraig a'i deulu lliosog yn aml mewn angen am angenrheidiau bywyd.

Ar adferiad y frenhiniaeth, ail osodwyd ef yn ei fywoliaethau, a gwnaed ef yn gantor Tŷ Ddewi trwy fraint-lythyrau y brenin. Yn yr un flwyddyn cymmerodd y radd o D. D.; ac yn 1661, cyflwynwyd iddo beriglorïaeth Llanbedr Felfre, yn sir Benfro, gan yr arglwydd gangellydd Hyde; a gwnaed ef yn gapelwr i Dduc Caerefrog, gyda'r hwn y bu mewn un o'i frwydrau ar y môr yn erbyn yr Isdirwyr. Yn 1665, gwnaed ef yn ddeon Caerwrangon (*Worcester*); a chyflwynwyd periglorïaeth Hampton Lovet iddo gan Syr John Packington, yn 1670. Yn wyneb hyn, gadawodd ei fywoliaeth yn Llacharn, a symmudodd ei deulu i Hampton, lle y bu hyd 1677; pan y dyrchafwyd ef i esgobaeth Tŷ Ddewi, gyda'r hon y daliai ddeoniaeth Caerwrangon dan ymddiried. Dywedir ei fod yn dra chymmeradwy gan foneddigion o chlerigwyr yr esgobaeth hono, am ei fod wedi ei ddwyn i fyny yn eu plith, yn llefaru eu hiaith, ac yn gydddioddefydd â llawer o honynt yn y blinderau diweddar. Yr oedd ei ymddygiad yn atteb i'w holl ddisgwyliadau. Yr oedd ei dymmer ryddgarol yn cyttuno â'r eiddynt hwythau; ond nid ei brif amcan oedd boddhau eu tueddiadau hwy: namyn yn hytrach gwella eu moesau, ac achub eu heneidiau; dyrchafu gwir dduwioldeb a daioni, a hau hadau sancteiddrwydd yn eu plith. Dechreuodd adgyweirio y palasau (esgobol, y mae yn debyg) yn Aberhonddu ac Abergili; a phregethai yn fynych mewn amryw barthau o'i esgobaeth yn iaith y wlad. Dywed ei fywgraphydd Saesneg, yn yr "*Imperial Dictionary of Universal Biography,*" iddo, yn ystod yr amser y bu yn Nhŷ Ddewi, o 1677 hyd 1683, wneuthur llawer er cyfieithu y Beibl i'r iaith Gymraeg. Ond nid yw hyn yn gywir; gan fod cyfieithiad y Dr. Morgan o'r Beibl wedi ei argraphu er's 89ain mlynedd cyn iddo ef gael esgobaeth Tŷ Ddewi—sef er y fl. 1588. Dywed y Parch. R. Williams, yn ei "*Enwogion Cymru,*" mai bod yn offerynol a fu i ddwyn argraphiad newydd o'r Beibl Cymraeg. Yr unig argraphiad o'r Beibl a ddygwyd allan yn ystod arosiad Dr. Thomas yn Nhŷ Ddewi oedd yr argraphiad wythplyg, yn cynnwys 8,000 o gopiau, a argraphwyd yn Llundain, yn 1678 [gwel y gwaith hwn, cyf. i. td. 639]. Pa beth a wnaeth efe er cyhoeddi yr argraphiad gwerthfawr yma, os gwnaeth rywbeth, nid ydyw yn hysbys.

Wedi bod yn esgob Tŷ Ddewi dros chwe blynedd, symmudwyd ef i esgobaeth Caerwrangon, yn 1683; ac arweiniwyd ef i'w balas mewn rhwysg mawr gan foneddigion a chlerigwyr ei esgobaeth. Credai mai y cam cyntaf at ddiwygio moesau pobl oedd ennill eu cydnabyddiaeth a'u serchiadau; ac yn unol â'r egwyddor hono, yr oedd yn gefnogwr mawr i lettygarwch ac elusen, a phorthid tlodion ei gymmydogaeth beunydd wrth ei ddrws, ac anfonai luniaeth ddwywaith yn yr wythnos i'r carchar cyffredin, heb law y symiau mawrion a roddai lle y gwelai achos yn galw. Tybiai rhai ei fod yn gyru ei haelioni i bellafoedd; canys er y dywedai ei fod "yn ofni dyled, fel pechod;" etto, dygodd ei elusengarwch helaeth, a gofynion teulu lliosog, ef yn fynych at fin dyled; a phan y cyhuddid ef yn fynych o beidio darbod ar gyfer ei deulu, ei atteb yn wastad a fyddai, "Ni ddylai esgob neu offeiriad ymgyfoethogi, na dyrchafu ei deulu ar waddolion yr eglwys, gan fod y canonau cyssegredig yn gwahardd hyny. Ac o'm rhan i, yr wyf yn penderfynu na bydd yr un o honynt yn gyfoethocach o'u plegid: a chan nad wyf ond gorchwyliwr Duw yn unig, yr wyf yn rhwym o'u defnyddio er ei ogoniant ef, trwy weithredoedd o elusen a duwioldeb." Bu farw ar y 25ain o Fehefin, 1689; a chladdwyd ef, yn ol ei ddewisiad ei hun, yn nghlasordy eglwys gadeiriol Caerwrangon.

Nid ydym yn gwybod iddo ysgrifenu dim yn Gymraeg, na bod dim o'i waith wedi ei gyfieithu i iaith ei wlad; ond cyhoeddodd y cyfansoddiadau canlynol yn yr iaith Saesnig yn ystod ei fywyd:—"*Amddiffyniad i'Eglwys Loegr,*" 8plyg; "*Pregeth a draddodwyd yn Mrawdlys Caerfyrddin;*" "*Y Mammon Anghyfiawn,*" pregeth a draddododd yn Eglwys Gadeiriol Caerwrangon. Ar ol ei farwolaeth cyhoeddwyd ei "*Llythyr at y Clerigwyr;*" a gwaith anorphenol o'r enw "*Oraclau Rhufain yn cael eu dystewi.*"

THOMAS, ZECHARIAH, mab ieuangaf Thomas Morgan Thomas, a brawd i Joshua a Timothy Thomas, a anwyd yn 1726, yn Esgair Ithri, Caio, sir Gaerfyrddin. Dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr yn 1757; galwyd ef i gynnorthwyo ei frawd Timothy yn Aberduar, o gylch 1762; a neillduwyd ef i 'gyflawn waith y weinidogaeth,' fel y dywedir, yn 1771. Yr oedd yntau, fel ei frodyr, yn bregethwr doniol a chymmeradwy; ond nid ydym yn gwybod iddo ef ysgrifenu dim ond dwy farwnad—un ar ol ei frawd, Timothy Thomas, yr hon a argraphwyd yn Nghaerfyrddin yn 1769; a'r llall ar farwolaeth Josiah Evans, yr hon a argraphwyd yn Nhrefecca, yn 1793. Bu yn weinidog ffyddlawn ac ymdrechgar yn Aberduar hyd ddydd ei farwolaeth, sef Ionawr 16eg, 1816, ac efe yn 89ain mlwydd oed; wedi bod yn pregethu dros 59ain o flynyddoedd.

Heb law y tri brawd galluog hyn, Joshua, Timothy, a Zechariah, deallwn wrth farwnad

Digitized by Google

eu tad, T. Morgan Thomas, y bu wyth ereill o'r teulu, meibion ac ŵyrion y tri brawd, yn bregethwyr ffyddlawn a defnyddiol gyda'r Bedyddwyr.

THOMSON, JAMES: bardd Saesneg enwog, awdwr "*The Seasons.*" Ganwyd ef ar yr 11eg o Fedi, 1700, yn Ednam, swydd Roxburgh, Ysgotland, lle yr oedd ei dad yn weinidog yr efengyl. Rhoddwyd ef mewn ysgol yn Jedburgh, ac anfonwyd ef i orphen ei addysg i Edinburgh. Bwriadai yntau fyned yn weinidog yn Eglwys Ysgotland, ac aeth trwy gwrs o efrydiau gyda'r amcan hwn mewn golwg; ond efe a newidiodd ei feddwl. Arferai ysgrifenu barddoniaeth er yn ieuangc; ac yn 1725, aeth i Lundain gyda'r bwriad o gyflwyno ei holl amser i'r gwaith; ac yr oedd ei gyfansoddiad, "*Winter,*" mewn llawysgrif yn ei logell. Ar ol peth amser, a chyda chryn anhawsder, efe a'i gwerthodd i gyhoeddwr am dri gini:—ac yn gymmaint ag na bu llwyddiant y bryddest ond araf, nid ymddangosai ei ragolygon yn obeithiol. Yn raddol, fodd bynag, daeth ei rhagoriaethau i'r golwg, a galwyd am argraphiad arall o honi; pan y cafodd yr awdwr ieuangc ddigon o gyfeillion a noddwyr. Dilynwyd ei "*Winter*" gan ei "*Summer*" yn 1727; cyhoeddwyd ei "*Spring*" yn y flwyddyn ddilynol; ac ymddangosodd yr "*Autumn,*" yr hwn oedd yn cwblhau y "*Seasons,*" yn 1730. Yn 1729 yr ymddangosodd ei dreisgan "*Sophonisba;*" ac er fod disgwyliadau mawr wrthi, ni lwyddodd ar y chwareufwrdd. Bu Thomson yn teithio ar y Cyfandir o 1730 hyd 1733, yn nghymdeithas mab y canghellydd, Syr Charles Talbot; ac ar ei ddychweliad, pan y bu farw ei ddysgybl, cafodd ryw swydd hawdd i'w chyflawni o dan y llywodraeth. Ond collodd hi ar farwolaeth y canghellydd yn 1737; a gadawyd ef unwaith yn rhagor mewn cryn gyfyngder o ran ei amgylchiadau; ond rhoddodd Tywysog Cymru iddo bension o gan punt yn y flwyddyn. Nid da y cymmerodd ei dreisgan, "*Agamemnon,*" chwaith yn 1738; ac am ei bryddest, "*Liberty,*" yr hon a ystyriai efe ei hun y goreu o'i weithiau, nid oedd y cyhoedd yn canfod llawer o ragoriaethau ynddi. "*Tancred*" oedd y fwyaf lwyddiannus o'i dreisganau. Bu farw Thomson yn Awst, 1748, a chladdwyd ef yn Eglwys Richmond, ac ni osodwyd careg ar ei fedd; ond cyfodwyd cofadail iddo wedi hyny yn Mynachlog Westminster. Yn y gwanwyn cyn ei farw y cyhoeddodd ei bryddest ragoraf, sef "*The Castle of Indolence.*" Y mae y dernyn hwn yn amlygu yr un gallu disgrifiadol a dychymyg ffrwythlawn ag a geir yn y "*Seasons*"—y mwyaf poblogaidd o'i weithiau; ac y mae yr iaith yn fwy pur a pheroriaethus. Y maent ynghyd yn sicrhau i'w hawdwr safle uchel yn mhlith y beirdd Saesnig. Am ei weithiau ereill, gyda'r eithriad o'r gân "*Rule Britannia,*" nid oes ond eu henwau erbyn hyn yn cael eu cadw mewn cof. Fel dyn, yr oedd Thomson yn nodedig am ei garedigrwydd a'i hawddgarwch; ac yr oedd ei dueddiadau haelfrydig yn ei anwylo i bawb a'i hadwaenent.

TREFOR, JOHN. Ni wyddys ddim o hanes boreuol a theuluaidd y gŵr hwn; ond ymddengys ei fod ef yn un o Dreforiaid enwog Neuadd Trefor, Llangollen. Gwnaed ef yn esgob Llanelwy yn 1395, yn amser gwrthryfel Owen Glyndwr, a phan yr oedd Pabyddiaeth yn ei llawn rwysg yn Nghymru. Heb law hyny, cafodd ganiatâd, fel rhai o'i ragflaenoriaid, i ddal ei fywoliaethau blaenorol yn y Trallwm, a Guildsfield, a Meifod. Er yr holl fanteision hyn a gafodd trwy ganiatâd Richard II., efe a ymddygodd ato yn anniolchgar a bradwrus; canys yn 1399, pan yr oedd y brenin hwnw yn garcharor yn ei esgobaeth yn Nghastell Fflint, yn nwylaw Harri, iarll Henffordd, llwyddodd y trawsfeddiannwr hwnw i gael gan Trefor gyhoeddi dedfryd o ddiswyddiad ar y brenin, yn ffafr yr ymhònwr. Wedi i'r iarll lwyddo i drawsfeddiannu y goron, dan yr enw Harri IV., danfonodd Trefor yn llysgenhadwr drosto i Yspaen, i gyfiawnhau ei ymddygiadau yno wrth y llys. Pan ddychwelodd adref yn 1402, canfu ei gydwladwyr dan arfau o blaid Owen Glyndwr, yn erbyn traws-ymhoniad Harri; ac o blegid sêl yr esgob dros yr ymhònwr, llosgodd Owen ei eglwys gadeiriol a'i balas esgobol, ynghyd â thai y canoniaid, am eu bod yn anfoddlawn i'w achos. Daeth yr esgob wedi hyny yn un o bleidwyr mwyaf egniol Owen—o herwydd pa ham, amddifadwyd ef o'i esgobaeth. O gylch y pryd hwn, deddfwyd cyfreithiau gormesol ac ynfyd Harri IV. yn erbyn y Cymry, y rhai a wrthwynebwyd yn egnïol gan yr esgob Trefor; ac aeth i Paris i ymdrechu cael cymmhorth y Ffrangcod o blaid Glyndwr, yn erbyn y gormesdeyrn Harri. Yn Paris, y pryd hyny, y bu farw; ac yno y claddwyd ef, yn Abatty Victor Sant. Dywedir mai efe a adeiladodd bont Llangollen, yr hon a ystyrid yn un o saith ryfeddodau Gogledd Cymru; ac y mae Treforiaid, Neuadd Trefor (*Trevor Hall*) yn y plwyf hwnw yn olrhain eu hachau i'r esgob hwn.—Willis' "*Survey of St. Asaph.*"

TUCKER, JOSIAH, D.D., a anwyd yn Llacharn, sir Gaerfyrddin, yn 1712. Amaethwr oedd ei dad; yr hwn, pan ddaeth i feddiant o etifeddiaeth fechan yn sir Aberteifi, a benderfynodd roddi i'w fab yr ysgolion goreu. I Ysgol Ramadegol enwog Rhuthyn yr anfonodd ef ar y cyntaf—yn yr hon y cynnyddodd mor odidog, fel y cafodd wobr yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain. Graddiwyd ef yn B.A. yn 1736, ac yn M.A. yn 1739. Yna cymmerodd urddau eglwysig, a chafodd guradiaeth yn sir Gaerloyw; Wedi hyny, cafodd All Saints, yn Nghaerodor (Bristol); a gwnaed ef hefyd yn un o ganoniaid lleiaf yr eglwys gadeiriol. Yr oedd ei sefyllfa mewn dinas fasnachol fawr yn dra manteisiol i'w fyfyrdodau gwleidyddol a masnachol, yn y rhai yr ymhyfrydai i raddau mawr; a dygodd ei ymddygiad gwych, fel clerigwr, ef i sylw y Dr. Buttler, yr hwn a'i pennododd yn gaplan iddo ei hun, ac a lwyddodd wedi hyny i'w ddyrchafu i eisteddfa gorawl (*prebendal stall*). Appwyntiwyd ef hefyd yn beriglor Stephan Sant yn y ddinas hono. O gylch y pryd hyn, dechreuodd gyfansoddi llyfrau—yn yr iaith Saesneg, wrth reswm. Yn 1747, cyhoeddodd "*Draethawd Byr ar y Manteision a'r Anfanteision sydd i Ffraingc a Phrydain Fawr ynglŷn â Masnachdiaeth.*" Yn mhen ychydig flynyddoedd efe a gyhoeddodd "*Adfyfyrdodau ar y Buddioldeb o gael Cyfraith ammhleidiol i Brotestaniaid estronol:*"—pwngc a gymmhellai â'i holl egni; ac mewn llythyr at gyfaill, dadleuai dros estyn y cyffelyb freintiau i'r Iuddewon. Argraphwyd y llythyr hwnw yn 1753, yr hwn a gynnhyrfodd y fath deimladau digofus yn ei erbyn fel y

Digitized by Google

llosgwyd eilun gwellt o hono gan werin anwybodus a rhagfarnllyd Caerodor. Yn yr un flwyddyn etto, cyhoeddodd lyfryn ar ein marsiandïaeth â Thwrci, yn yr hwn yr ymresymai yn gadarn yn erbyn cwmnïau breintiedig. Yn 1755, cymmerodd y graddau o B.D. a D.D.; ac yn 1758, dyrchafwyd ef i ddeoniaeth Caerloyw, trwy ddylanwad Mr. Nugent, sef yr Arglwydd Clare wedi hyny—i bleidleisio o du yr hwn y perswadiodd efe lawer o'i blwyfolion wedi hyny yn etholiad seneddol dinas Caerodor. Ar gais y Dr. Hayter, a wnaed wedi hyny yn esgob Llundain, yr hwn oedd ar y pryd yn athraw y brenin Siôr IV., cyfansoddodd draethawd ar farsiandïaeth, at wasanaeth y dysgybl brenhinol. Rhoddes y gwaith hwnw lawn foddlonrwydd, ac argraphwyd ef; ond ni chyhoeddwyd ef byth. Yn 1772, cyhoeddodd "*Amddiffyniad i Eglwys bresennol Lloegr,*" a chyfrol o bregethau ar destynau pwysig. Yn y flwyddyn ganlynol, ymddangosodd ei lythyrau at Dr. Kippis; yn y y rhai, er y dadleuai am fwy o ryddid i Ymneillduwyr nag a roddid y pryd hyny, etto, gwrthwynebai ddilëad y Deddfau Prawf a Bwrdeisiol. Amryw draethodau oedd ei gyhoeddiadau nesaf, perthynol i'r rhyfel Americanaidd; yn y rhai, er y condemniai wrthymgais y trefedigaethau, etto dadleuai fod ysgariad, bellach, yn llwyr angenrheidiol. Yn 1777, cyhoeddodd ei "*Olygiad ar Anhawsderau y credöau Trindodaidd, Ariaidd, ac Undodaidd.*" Yn 1781, ymddangosodd ei "*Draethawd ar Lywodraeth Wladol:*"—yn nechreu yr hwn yr ymdrechai ddadymchwel rhesymau Locke ar y pwngc pwysig hwnw. Yn 1782, cyhoeddodd draethodyn dan yr enw "*Cui Bono?* neu, ymofyniad gyda golwg ar ba leshâd a ddeillia oddi wrth fuddugoliaethau a llwyddiant mwyaf y rhyfel bresennol." Hefyd, cyfansoddodd amryw draethodau ar byngciau duwinyddol, a gwleidyddol, a masnachol. Er na lwyddodd i ennill ond ychydig nifer i gydolygu âg ef yn ei wahanol syniadau, etto ystyrid ef yn gyfansoddwr eglur a galluog, ac yn traethu ei feddwl mewn dull ffraeth, difyr, a deniadol. Bu farw yn ddiblant, yn 1799.

TYDAIN TAD AWEN. Y drydedd gyfres o "*Drioedd Ynys Prydain,*" a ysgrifenwyd yn yr 16eg ganrif, a osodant Tydain yn nghyfeillach tri o hanfodau ffugiol a chwedlonol; sef, Hu Gadarn, Dyfnwal Moel Mud, a Gwyddon Ganhebon, fel hyn: "Tri Chynofydd Cenedl y Cymry:—Hu Gadarn, a wnaeth Glud a Gosgordd gyntaf ar genedl y Cymry; a Dyfnwal Moel Mud, a wnaeth ddosbarth gyntaf ar gyfreithiau, a breiniau, a defodau gwlad a chenedl; a Thydain Tad Awen, a wnaeth drefn a dosbarth gyntaf ar gof a chadw cerdd dafawd a'i pherthynasau; ac o'r drefn hono y dychymygwyd breiniau a defodau dosbarthus ar feirdd a barddoniaeth Ynys Prydain gyntaf" ["*Myv. Arch.*" Argraphiad Dinbych: *Tri.* 57, td. 406]. "Tri Deifnogion (darganfyddwyr) cenedl y Cymry: Gwyddon Ganhebon, a wnaeth gerdd dafawd gyntaf o'r byd; a Hu Gadarn, a ddodes gyntaf ar gerdd dafawd gynnal cof a cheudawd; a Thydain Tad Awen, a ddodes gelfyddyd gyntaf ar gerdd dafawd, a dosbarth ar geudawd; ac o'r a wnaethant y triwyr hyny y cafad beirdd a barddoniaeth; a dodi yn nosbarth braint a defawd y pethau hyny y gan y tri beirdd cyntefigion, nid amgen Plenydd, Arawn, a Gwron." Yr un gwaith [*Tri.* 92, td. 409]. Ystyr enwau y tri hanfod chwedlonol olaf hyn, yn ol y Dr. Pughe, ydyw goleuni, cynghanedd, ac egni. Yn y triad nesaf (93), dywedir fel hyn: "Tri chynfebydd Ynys Prydain: Tydain Tad Awen, Menyw Hen, a Gwrhir bardd Teilaw yn Llan Dâf: a thri meib beirdd oeddynt." Dyna y cwbl a ddywedir am dano yn y "*Trioedd.*" Go debyg yw yr hyn a ddywed Llywelyn Siôn am dano, ond ei fod ef yn ei gyssylltu â hanfod ffugiol arall, sef Prydain ap Aedd Mawr [*Iolo MSS.*, td. 47, 48].

Dywed Davies, y Celtig, mai yr un oedd Tydain a Titan y Groegiaid:—"tad yr awen ysbrydol, neu Apòlo, enw hysbys yr haul" ["*Myth. Brit. Druids,*" td. 115, 193]. Dywed T. Stephens nad ydyw y teitl, *Tad Awen*, yn perthyn yn deg i Tydain; o herwydd iddo gael ei gymmhwyso yn llawer boreuach at Talhaiarn, yr hwn a eilw Nennius, mor foreu a'r nawfed ganrif, yn "Talhaern Catagwen neu Tatagwen" (Talhaiarn Tadawen), yr hwn yw y crybwylliad hanesyddol hynaf a'r a feddwn am y cynfeirdd Cymreig. Yn "*Llyfr Du Caerfyrddin*" [*Skene* I., td. 28], a ysgrifenwyd yn y ddeuddegfed ganrif, ceir y crybwylliad canlynol:—

"Bet Tedei tad awen, yg godir brin Aren."

Hyny yw,

Bedd Tedei tad awen
Yng ngodir Bryn Aren.

Yn llyfr Thomas Williams y Physygwr (B.A. 1570—1620), awdwr y geiriadur Lladin a Chymraeg a dalfyrwyd gan y Dr. Davies, o Fallwyd, ceir y llinellau fel hyn:—

"Bed Tedel Tydawen
Yng guarthaf brynn Arien."

Mewn cywydd o waith William Llŷn ["*Gor. Beirdd Cymru,*" td. 295], a gyfansoddwyd tua y flwyddyn 1560, y ceir yr enw gyntaf yn ei ddull presennol fel hyn:—

"Tydain ail Tad Awen oedd,
Taliesin teulu oesoedd."

A diau mai hwn a ddilynwyd gan awdwr y "*Trioedd,*" a chan Llewelyn Siôn. Dywed Stephens, yn dra phriodol, fod llawer iawn o haeriadau camsyniol wedi cael eu dyweyd a'u hysgrifenu ynghylch Tydain; ac mai y gwir yw mai Tathan Sant, wedi cael ei drosglwyddo gan ein chwedlonwyr, yn ol eu harfer, o'r chweched ganrif i'r cyfnod chwedlonol anhanesiol, ydyw y person a elwir Tydain. Gŵr o haniad Gwyddelig oedd Tathan; ac ysgrifenid ei enw *Tathei*, cystal a *Tathan*. Nid yw *th* yn y Wyddelaeg, yn cael ei seinio yr un modd a chenym ni:—yn lle *thick*, dywedir *tick;* ac yn lle *thin*, *tin*. Arferant hwy *th* hefyd i ddynodi sain *d;* felly, y mae eu *cathair* hwy yn atteb i'n *cadair* ni. Yr un enw, gan hyny, yw *Tedei* a *Tethei;* Tydain a *Tathan*. Am *Tedel*, dichon fod yr *l* wedi ei chamysgrifenu am *i;* neu fod enw ei dad, *Tethelius-Tadel*, wedi ei ddwyn i mewn yn gamsyniol. Cymmerodd Tedei, neu Tathan, ei drigfan yn Ngwent, yn amser Caradoc ac Ynyr, yn y chweched ganrif. Dangosodd chwaeth farddonol ar amryw achlysuron; a phennodwyd ef yn benathraw yn mynachlog Caer-Went, sef "Cair guent" (*Winchester*) Nennius. Y mae hanes ei fywyd yn helaeth yn y "*Cambr. Brit. Saints*" (td. 255—266, 580—591), yn Lladin a Saesneg, yn yr hwn y priodolir iddo wyrthiau "enrhyfeddawl," yn ol arfer awduron "*Bucheddau y Saint.*" Dengys y chwedl yma am dano yr

Digitized by Google

hoffid ef yn fawr gan drigolion y wlad hono; am hyny rhoddwyd iddo yr enw "Tad Gwent;" a dichon mai rhyw gamsyniad ynghylch yr enw yma a barodd iddo gael ei alw "Tad Awen." Beth bynag am hyny, y mae geiriau Nennius ["*Six Engl. Chron.*," td. 414], fel yr awgrymwyd eisoes, yn profi bod Talhaiarn wedi cael yr enw hwnw o'i flaen ef.

Dywedir mewn rhai achau mai mab i Amwn Ddu o Lydaw oedd Tathan; ac mai Anna, merch Meurig ap Tewdrig, brenin Morganwg, oedd ei fam. Ond dywed Buchedd Tathan ["*Cambr. Brit. Saints*," td. 255], mai mab ydoedd i Tathalius, brenin Gwyddelig; ac y mae "*Llyfr Llandaf*" [td. 287] yn gwneuthur Amwn Ddu hefyd yn Wyddel. Y mae y mynegiad am drefn a dosbarth Tydain, Tydei, neu Tathan, yn perthyn i grug o chwedlau a bentyrwyd ynghyd gan feirdd Gwent a Morganwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ac am y ffughanfodau ereill a gyssylltir âg ef yn y "*Trioedd*," ac yn ysgrifau Llewelyn Siôn, nid oes iddynt, hyd y gwyddom ni, unrhyw sail hanesyddol boddhaol.

TYDECHO: sant Pabaidd a fucheddai yn gynnar yn y chweched ganrif. Mab ydoedd, fel y dywedir, i Amwn Ddu Ap Emyr Llydaw, a chefnder i Cadfan, gyda'r hwn y daeth efe i'r wlad hon o Lydaw. Os cywir rhai o'r achau, yr oedd Tydecho yn frawd i Tathan, neu Tydain, yr hwn a gamenwyd yn "Dad Awen." Dywedir fod Tydecho wedi sefydlu, yn nghymdeithas ei chwaer, Tegwedd, yn rhandir Mawddwy, yn sir Feirionydd, lle yr adeiladodd efe eglwys Llanymawddwy, i'r hon yr oedd eglwysydd cyfagos Mallwyd a Garthbeibio gynt, y rhai a gyssegrwyd iddo ef, yn ddarostyngedig. Y mae y ddwy eglwys a grybwyllwyd olaf weithian yn fywoliaethau gwahanol; ond yn nhrethiad y pab Nicholas, darlunir hwynt fel capelydd Llanymawddwy. Efe hefyd oedd sylfaenydd a mabsant Cemmaes, yn sir Drefaldwyn; ac yr oedd eglwysan gynt, o'r enw Capel Tydecho, yn mhlwyf Llandegfan, Môn. Dywedir iddo ddioddef llawer oddi wrth drawsder a gormes Maelgwn, tywysog Gwynedd; ond yr ad-dalodd y sant iddo trwy y fath res o wyrthiau enrhyfeddol, fel y bu dda gan y tywysog rhyfygus ymheddychu âg ef, trwy roddi anrhegion lawer, a gwneuthur ei eglwys yn nawddle i droseddwyr i ffoi iddi. Y mae yn hollol sicr nad oedd y gwyrthiau crybwylledig ddim amgen na bygythion o esgymmundod a damnedigaeth, sef gwyrthiau arferol y mynachod Pabaidd, er mwyn gochel y rhai nid oedd unrhyw anrhegion yn ormod i'w rhoi gan y deiliaid ofergoelus. Yr anrhegion yn gyffredin, yn amser rhwysg Pabyddiaeth yn y wlad hon, oedd "tir a daear"—er mwyn cael y rhai nid oedd unrhyw drosedd ac anufudd-dod yn rhy ysgeler yn ngolwg y mynachod twyllodrus i'w maddeu!

Yn lled fuan ar ol hyn, dywedir y trawsgymmerwyd Tegwedd, chwaer y sant, ymaith trwy drais a gorthrech gan benaeth o'r enw Cynon; ond gorfodwyd ef yn fuan gan wyrthiau Tydecho i'w dychwelyd yn bur a dianaf, a dodi tir a daear Garthbeibio i'r sant yn iawn am ei drachwant. Cyfansoddodd Dafydd Llwyd ap Llewelyn ab Griffith, o Mathafarn, gywydd, o gylch 1459, yn darlunio rhestr o ffug wyrthiau Tydecho ["*Cambr. Register*," ii. td. 375]. Darlunia draisgipiad Tegwedd ymaith yn y geiriau canlynol:—

"Pan ddygwyd Tegwedd, meddynt,
Dirasa' gwaith, o drais gynt,
Yn iawn rhoes Cynon a'i wŷr
Iddo Garthbeibio yn bybyr;
A'i chwaer deg, bu chwerw ei dwyn,
O drin fawr, adre 'n forwyn."

Rees' "*Welsh Saints;*" "*Cambr. Brit. Saints*," &c.

TYSSILIO AB BROCHWEL YSGYTHROG, ap Cadell Deyrnllwg, ac Arddu, merch Pabo Post Prydain, meddynt, a fu esgob Llanelwy; ac yn ol ei sefyllfa yn yr achau, rhaid mai efe a ddilynodd Asaph, i'r hwn yr oedd efe yn gefnder o waed coch cyfan. Tybir ei fod yn ei flodau tua chanol y seithfed ganrif. Ei dad, Brochwel, oedd dywysog llywodraethol Powys; ac y mae Cynddelw Brydydd Mawr, bardd o'r ddeuddegfed ganrif ["*Myv. Arch.*" td. 177], yn cyfeirio yn rhwysgfawr at uchel achau y sant, gan ddywedyd,

"Mad ganed o genedl fonedd."

Dywedir ei fod yn fardd; a phriodolir un gân iddo yn y "*Myv. Arch.*" [td. 123], a elwir "Ymatreg [ymaros] Llywelyn a Gwrnerth;" ond y mae yn debycach i gyfansoddiad o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, neu y bymthegfed, nag i un o'r seithfed ganrif.

Dywedir hefyd iddo ysgrifenu Hanes Eglwysig Prydain, a fu ar ddifancoll dros hir amser; ond dywed Malkin, ar awdurdod Iolo Morganwg, fel y tybir, y darganfyddwyd y gwaith yn ddiweddar, ac mai ffug ydyw, a ysgrifenwyd rhwng 1480 ac 1490. Priodolir un o'r "*Brutiau Cymreig*" hefyd i Tyssilio, yr hwn sydd yn y "*Myv. Arch.*" [td. 434—475]. Y mae y "*Brut*" hwn mewn llythyraeth a geiriadaeth llawer mwy diweddar na "*Brut. G. Arthur*" ["*Myv. Arch.*" td. 475—554]; ac y mae yn debycach o lawer i adysgrif led ddiweddar o'r *Brut* olaf, na bod dim o hono wedi ei ysgrifenu na'i gyfansoddi yn y seithfed ganrif. Ystyrir Tyssilio fel sylfaenydd a mabsant nawdd yr eglwysydd canlynol:—Meifod, Llandyssilio, a chapel Llandrinio, yn sir Drefaldwyn; Llandyssilio, a Bryn Eglwys, yn sir Ddinbych; Llandyssilio, a Chapel Llanfair-pwll-gwyngyll, yn Môn; Llandyssilio yn Nyfed, sir Gaerfyrddin; Llandyssilio Gogof, a Chapel Cynon, yn sir Aberteifi; Sâlac (yn esgobaeth Henffordd), a thri chapel, sef Capel y Brenin, Capel Marstow, a Chapel Pencoed, yn sir Henffordd.

Dylid chwanegu Llansilio ger llaw Hirdref (*Longtown*), yn sir Henffordd, at y rhestr uchod, fel yr arwydda ystyr yr enw yn amlwg; er y dywedir yn gyffredin i'r eglwys gael ei chyflwyno i Pedr Sant. Ond dywedir mai un esampl o lawer yw hon, pan y dyry y saint Cymreig le i ereill a gymmeradwyid gan y Sacsoniaid neu y Normaniaid. Y mae Cynddelw Brydydd Mawr yn nodi yr eglwysydd a seiliwyd gan Tyssilio fel hyn (yn ein llythyraeth ni):—

"Llan a wnaeth â'i lawfaeth loflen,
Llan Llugyrn, llogawd offeren;
Llan Trallyr, tra lliant wydrlen;
Llan Drallanw, dra llys Dinorben;
Llan Llydaw gan llydwedd wohen;
Llan Bengwern, benaf daearen;
Llan Bowys, baradwys burwen;
Llan Gamarch, llaw barch ei berchen."

Yna aiff y bardd rhagddo i glodfori Meifod, ynghylch yr hon y mae yn fwy gwasgarog, ond yn llawn mor aneglur. Un o'r darluniadau a

Digitized by Google

ddyry o Meifod ydyw, ei bod yn "drefred tri-saint;" ac y mae yn hynod y cynnwysai ei mynwent unwaith dair eglwys—oll yn sefyll ar yr un pryd. Gelwid yr hynaf ar enw Gwydd Sant; y nesaf ar enw Tyssilio Sant; a'r drydedd, yr hon a gyssegrwyd yn 1155, a gyflwynwyd i Mair. Llan Llugyrn sydd yr un, ond odid, a Llanllugan, yn sir Drefaldwyn. Am Lan Llydaw, y mae yn anhysbys. Hen enw yr Amwythig yw Pengwern, lle y dywedir y preswyliai Brochwel, tad y sant; ac ystyrid y dref hono, yn mhen hir amser wedi hyny, yn brif ddinas Powys. Llan, neu eglwys Camarch, yw Llangamarch, yn sir Frycheiniog; i'r hon y dichon fod Tyssilio yn ail noddwr, neu yn seiliwr cynnorthwyol, gan y cydnabyddir ei bod eisoes yn dwyn enw Camarch. Am yr eglwysydd ereill y cyfeiria y bardd yn aneglur atynt, heb eu henwi, dichon eu bod yn rhai o'r sawl sydd yn y rhestr o Browne Willis.—Rees' "*Welsh Saints;*" Malkin's "*South Wales;*" yr "*Iolo MSS.;*" a Yorke's "*Royal Tribes,*" &c.

Digitized by Google

# TH.



THABAS: mab Nachor, brawd Abraham, o'i orddercliwraig Reumah: *Gen.* xxii. 24.

THACKERAY, WILLIAM MAKEPEACE: nofelydd a duchanwr (*satirist*) enwog, a anwyd yn Calcutta, yn y flwyddyn 1811. Yr oedd yn hanu o hen deulu Saesneg cyfrifol. Yn ngwasanaeth gwladol Cwmni yr India Ddwyreiniol yr oedd ei dad; a bu farw pan yn lled ieuangc, gan adael i'w fab William ugain mil o bunnau o waddol. Pan yn saith mlwydd oed, anfonwyd Thackeray i Loegr, a rhoddwyd ef yn ysgol y Charterhouse. Wedi hyny aeth i Gaergrawnt; ond gadawodd y brifysgol heb gymmeryd gradd. Yr oedd yn Weimar yn 1831, a gwelodd Gœthe yno. Ei uchelgais mawr ar y pryd oedd bod yn arluniedydd (*artist*); ac efe a deithiodd y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, ac a astudiodd ar gyfer hyny yn Rhufain a Pharis. Nid oedd ei ddarluniau yn amddifad o deilyngdod; er hyny nis gellid eu hystyried yn weithiau meistr yn y gelfyddyd. Trodd ei sylw at lenyddiaeth. Ysgrifenai ar y cyntaf o dan y ffugenw, 'Michael Angelo Titmarsh;' ac ymddangosodd ei gyfansoddiadau yn "*Fraser's Magazine.*" Cyhoeddodd ei "*Paris Sketch-Book,*" yn 1840; "*The Second Funeral of Napoleon,*" yn 1841; a'r "*Irish Sketch-book,*" yn 1843. Gwariodd Thackeray y rhan fwyaf o'i waddol wrth deithio gwledydd tramor, ac mewn anturiaethau aflwyddiannus gartref, a pharhaodd i ddilyn ei alwedigaeth lenyddol. Pan y daeth "*Punch*" allan, sydd erbyn hyn yn bapur wythnosol digrifol tra adnabyddus, cyhoeddodd Thackeray ynddo ei "*Snob Papers,*" a'i "*Jeames's Diary;*" a mwynhawyd hwy yn fawr gan gylch lliosog o ddarllenwyr. Ond pan ymddangosodd ei "*Vanity Fair,*" a gwblhawyd yn 1848, y cyrhaeddodd efe ei enwogrwydd penaf; yr hwn a gadwyd i fyny ganddo yn nghyhoeddiad ei "*Pendennis,*" "*The Newcomes,*" "*Esmond,*" "*The Virginians,*" "*Lectures on the Four Georges,*" "*English Humorists of the Eighteenth Century,*" a llawer o weithiau ereill. Bu yn olygydd ar y "*Cornhill Magazine*" am beth amser; ac ysgrifenodd i'r misolyn hwnw ei "*Round-about Papers;*" ac yr oedd wedi dechreu nofel arall, "*Denis Duval,*" a addawai fod yn un o'r rhai rhagoraf o'i weithiau. Yr oedd yn ei fryd hefyd ddwyn allan "*Memoirs of the Reign of Queen Anne,*" er gwasanaethu yn adgyflenwadol i "*History*" Argl. Macaulay. Yr oedd wedi astudio hanes y cyfnod hwnw yn dda ar gyfer cyfansoddi ei "*Esmond,*" ac yn feistr trwyadl ar yr iaith Saesnig. Ond dyryswyd ei holl gynlluniau, torwyd ef i lawr yn nghanol ei nerth meddyliol yn y 52ain mlwydd o'i oedran. Bu farw cyn dydd yn ei ystafell, heb i neb ei weled, sef boreu y 24ain o Ragfyr, 1863. Yn ol tystiolaeth eif eddygon, yr achos o'i farwolaeth oedd gorlifiad gwaed ar yr ymenydd. Yr oedd ei ymenydd yn un o'r rhai mwyaf:—pwysai 58½ain wns.

Wrth ddarlunio cymmeriad ac athrylith Fielding, y mae Thackeray wedi tynu ei ddarlun ei hun yn lled gywir. Yr oedd llawer o bethau yn cydgyfarfod yn y ddau i'w gwneyd yn debyg i'w gilydd. Ond yr oedd un peth yn wahanol iawn ynddynt:—yr oedd Fielding yn hollol ddiofal pa un ai cymmeradwyo ai condemnio ei weithiau a wnelai beirniaid; ond yr oedd Thackeray yn hollol i'r gwrthwyneb:—clwyfid ef i'r byw gan yr ymosodiad lleiaf. Dioddefodd lawer oddi wrth afiechyd corphorol a gofidiau teuluaidd; ac y mae ei weithiau boreuaf, ac yn enwedig ei "*Vanity Fair,*" wedi eu nodweddu â sarugrwydd (*cynicism*) sydd yn ymddangos fel yn rhoddi math o sail i gyhuddiadau ei feirniaid anffafriol—ei fod yn ymhyfrydu darlunio yr ochr waelaf i'r natur ddynol, a'i fod braidd yn ammheus am fodolaeth y fath beth a gwir rinwedd yn y byd. Yr oedd ei nerth mwyaf fel awdwr yn gynnwysedig yn ei allu i bortreadu cymmeriad, yn hytrach nag yn ei fedrusrwydd i ddyfeisio digwyddiadau; ac o'r braidd y mae unrhyw nofelydd diweddar wedi rhagoir ar ei ddarluniadau o Becky Sharp, Milwriad Newcome, Harry Foker, Laura Pendennis, a Paul de Koch, ac amryw ereill. Yn ei weithiau olaf, yr oedd amser wedi gwneyd y duchanwr didrugaredd yn ffraethbert ac ysmala, yn gystal ag yn sylwedydd athronyddol dwfn.

THALES: athronydd Groegaidd, sylfaenydd yr ysgol Ioniaidd o athroniaeth, ac un o saith doethwyr Groeg. Brodor ydoedd o Miletus, yn Asia Leiaf, a blodeuodd tua diwedd y seithfed ganrif c. c. Ychydig iawn a wyddys am amgylchiadau ei fywyd. Mynegir ei fod wedi cynghori yr Ioniaid, y rhai a fygythid gan y Persiaid i ffurfio cynghrair yn erbyn eu gelyn grymus, ac i wneyd Teos yn brif ddinas. Mewn cyfnod diweddarach, dywedir ei fod wedi perswadio y Milesiaid i dynu yn ol o gynghrair oedd rhyngddynt â Crœsus i wrthwynebu Cyrus. Mynegir hefyd iddo ragfynegu y diffyg a fu ar yr haul yn nheyrnasiad Alyattes. Yr hyn a roddodd iddo hawl i'r teitl o 'ddoethawr' oedd ei ddoethineb anarferol, yn hytrach nag unrhyw orchestion damcaniaethol. Er hyny, y mae iddo enw uchel yn hanes athroniaeth damcaniaethol. Ystyria rhai ef fel y Groegwr cyntaf a ffurfiodd ddamcaniaeth ar gyfansoddiad y greadigaeth. Yn ol ei ddamcaniaeth, yr egwyddor wreiddiol o bob peth ydyw dwfr—o'r hwn y deilliai pob peth, a dychwelai pob peth yn ddwfr eilwaith. Y mae yn dra thebygol mai ffurf o ollddnwiaeth

Digitized by Google

o ryw fath oedd ei athroniaeth ef. Nid ysgrifenodd ei ddamcaniaethau, ac nis gellir cael un syniad am nodwedd ei athrawiaeth, ond a ellir ei gasglu oddi wrth yr hyn a ddywedir am dano gan Roegwyr diweddarach, megys Herodotus, ac Aristotle, &c.

THAMAH. Yr oedd "meibion Thamah" yn un o deuluoedd y Nethiniaid: *Ezra* ii. 53. Ymddengys yr enw mewn rhai lleoedd yn y Beibl yn Tamah.

THAMNATHAH: un o ddinasoedd Iudah, a gadarnhawyd gan Bacchides wedi iddo ymlid y Maccabeaid dros yr Iorddonen.—1 *Macc.* ix. 50. Y mae o'r bron yn sicr mai yr un oedd a'r hen Timnath, ac o bossibl yr un a'r *Tibneh* bresennol, yr hon sydd tua hanner y ffordd o Ierusalem i Fôr y Canoldir.

THEBEZ: lle y bu farw yr hur-lofrudd Abimelech: *Barn.* ix. 50. Ar ol llosgi—neu yn hytrach eu mygu trwy losgi cangau ir—mil o'r Sichemiaid yn "amddiffynfa tŷ duw Berith," aeth efe a'i gaulynwyr i Thebez. Cymmerwyd y dref oll yn fuan ond un tŵr, i'r hwn y cyrchodd pobl y lle; ac yr oedd yn ddigon cadarn i'w hamddiffyn. Ond gweithiodd Abimelech ei ffordd ato; ac yr oedd ar fedr defnyddio yr un cynllun barbaraidd ag a lwyddasai yn Sichem yno hefyd, pan y disgynodd darn o faen melin ar ei ben, yr hyn a roddodd derfyn ar ei fywyd. Yr oedd yr hanes yn adnabyddus yn ngwersylloedd Israel: 1 *Sam.* xi. 21. Ni wneir ond y crybwylliad hwn yn unig am Thebez yn y Beibl. Ond yr oedd y lle yn adnabyddus i Eusebius a Jerome. Adwaenid y pentref wrth ei hen enw yn eu hamser hwy. Safai yn "nosbarth Neapolis," ychydig gyda deuddeng milldir oddi wrth Neapolis, ar y ffordd i Scythopolis. Y mae yno etto; yr enw presennol arno ydyw *Tubâs*. Saif y pentref ar godiad tir ar yr ochr aswy i'r ffordd, ac ymddengys yn lle bywiog a chadarn, wedi ei amgylchu â choed olewydd, ac y mae o'i amgylch y tir a ddiwyllir oreu yn Mhalestina. Yr oedd y lle yn adnabyddus i hap-Parchi yn y drydedd ganrif ar ddeg, a chrybwyllir am dano yn achlysurol gan deithwyr diweddarach. Ond ymddengys mai Dr. Robinson oedd y cyntaf i'w adnabod fel y Thebez gynt.—"*Bib. Res.*," iii. 305.

THEBES: dinas fawr yn yr Aipht hynafol, yr hon fu am dymmor maith yn brif ddinas y dosbarth uchaf o'r wlad, ac yn eisteddle y deyrnach Diospolitaidd, yr hon a fu yn llywodraethu ar yr holl Aipht yn amser ei gogoniant mwyaf. Enw cyssegredig Thebes oedd *P-amen*, 'trigfod Ammon;' yr hwn a gyfieithid gan y Groegiaid yn *Diospolis*, a galwent hi 'Diospolis fawr,' er dynodi mai yma yr oedd prif gartref Iau-Ammon, ac hefyd i'w gwahaniaethu oddi wrth Diospolis leiaf. "*No-Ammon*" yw yr enw sydd arni yn yr Ysgrythyrau Hebreaidd—a gelwir hi yn "No" yn y Beibl Cymraeg: *Jer.* xlvi. 25; *Nah.* iii. 8. Defnyddia Ezeciel No yn unig i ddynodi eisteddle Aiphtaidd Ammon, ac enwir hi gan y Deg a Thrigain yn 'Diospolis;' *Ezec.* xxx. 14, 16. Dywed Gesenius fod yr enw yn golygu 'cyfran Ammon;' hyny yw, meddiant yr eilunddu Ammon, prif eisteddle ei addoliad. Y mae dechreuad y ddinas wedi ei golli mewn hynafiaeth. Barna Niebühr fod Thebes yn llawer mwy hynafol na Memphis, a bod "Memphis wedi dyrchafu i enwogrwydd mewn canlyniad i ddadfeiliad Thebes."—"*Lectures on Ancient History*," dar. vii. Y mae awdurdodau ereill yn rhoddi y flaenoriaeth i Memphis. Y mae y ddinas, pa fodd bynag, yn dyddio ei hanes o'r amser boreuaf, pan y daeth hanes yr Aipht yn gyfryw ag y gellir ei ystyried yn gredadwy. Y cyfeiriad cyntaf a wneir at Thebes mewn llenyddiaeth glasurol ydyw yr un a geir yn yr "*Iliad*," lle y dywedir fod "trysorau dirfawr wedi eu cadw yn nhai Thebes yr Aipht; fod iddi gant o byrth, a dau gant o wŷr gyda meirch a cherbydau, yn myned allan o bob un o honynt." Llefarai Homer yn ddiau gyda'r rhyddid a ganiateir i fardd, ac nid gyda chywirdeb yr ystadegydd, a chorphorai yn ei linellau barddonol yr hanes blodeuog oedd i'w gael am y brif ddinas Aiphtaidd yn ei amser ef. Y mae Wilkinson yn ystyried fod prawf pendant i'w gael yn erbyn deall Homer yn llythyrenol yn y ffaith nad oes dim o olion mur dinas wedi ei gael yn Thebes; a thybia, gyda Diodorus Siculus, mai wrth y 'pyrth' yn yr '*Iliad*' y golygir y pyrth i gynteddau y temlau. Os bu yno furiau o amgylch y ddinas yr oeddynt wedi myned o'r golwg yn amser Diodorus, ac ammheuid a oedd yno rai yn amser Homer. Ond, ar y llaw arall, os oedd Homer yn golygu pyrth y temlau, rhaid fod y temlau yn lluesttai i'r fyddin; o herwydd drwy y pyrth hyn yr elai y marchogion a'r cerbydau allan i ryfel. Y mae arferiad cyffredinol yn mron yr oesoedd boreuol i adeiladu muriau o amgylch dinasoedd, a chyfeiriad at y milwyr yn dyfod allan drwy y pyrth, modd bynag, yn myned yn mhell i gadarnhau y dyb fod Thebes wedi ei hamgylchu â mur yn yr hon yr ydoedd llawer o byrth.

Y mae y cyfeiriad a wneir gan Homer at ei thrysorau hefyd, a nerth ei byddin sefydlog, yn rhifo ugain mil o gerbydau, yn dangos beth oedd cymmeriad Thebes gynt am ei nerth a'i chyfoeth. Yr oedd ei henwogrwydd fel prif ddinas flodeuog yn uchel pan nad oedd Groeg fel gwlad ond yn ei babandod. Ammheuir a fu Herodotus yn yr Aipht Uchaf; ond y mae efe ei hun yn dywedyd, "Aethum i Heliopolis a Thebes, o bwrpas er cael gweled a allai offeiriaid y lleoedd hyny gyttuno âg offeiriaid Memphis."—*Herod.* ii. 3. Wedi hyny, disgrifia nodweddau dyffryn y Nilus, mewn modd nad oedd neb ond llygaddyst yn debyg o wneyd. Efe a ddywed iddo "hwylio i fyny yr afon mewn naw niwrnod o Heliopolis i Thebes, y pellder o 4,800 o ystadiau ...a'r pellder o'r môr i Thebes ydyw 6,120 o ystadiau."—*Herod.* ii. 8, 9. Yn yr un llyfr efe a ddywed iddo esgyn i fyny y Nilus mor uchel ag Elephantinè. Nid yw Herodotus, fodd bynag, yn rhoddi hanes neillduol am y ddinas—yr hon yn ei amser ef oedd wedi colli llawer o'i mawredd blaenorol. Efe a gyfeiria at deml Iau, a'r ddelw fawr ynddi, ac at y ffaith fod geifr, ond nad oedd defaid un amser, yn cael eu haberthu yno. Yn y ganrif gyntaf cyn Crist y talodd Diodorus ymweliad â Thebes, ac y mae yn traethu yn helaeth yn ei waith ar ei hanes a'i hymddangosiad. Er fod y ddinas wedi disgyn llawer mewn pwysigrwydd pan y gwelodd efe hi, y mae yn cadw i fyny y traddodiad am ei harddderchawgrwydd blaenorol—megys ei hamgylchedd o 1,400 o ystadiau, maintioli mawr ei hadeiladau cyhoeddus, godidawgrwydd ei themlau, rhifedi ei chofadeiliau, ac uchder a maint

Digitized by Google

ei thai, rhai o honynt yn bedwar a phum uchder—oll yn cyfleu y syniad o ardderchawgrwydd a phrydferthwch oedd yn rhagori, nid yn unig ar holl ddinasoedd ereill yr Aipht, ond y byd. Cwyna Diodorus o herwydd gwaith Cambyses yn distrywio ei chofadeiliau a'i hadeiladau.—*Diod.* i. 45. Strabo, yr hwn a ymwelodd â'r Aipht ychydig yn ddiweddarach—tua dechreu y cyfnod Cristionogol—a ddisgrifia y ddinas, o dan yr enw Diospolis, fel y canlyn:—"Y mae olion o'i maintioli mawr yn aros etto, a ddengys ei bod yn bedwar ugain o ystadiau o hyd. Y mae yno nifer fawr o demlau—llawer o ba rai a anafwyd gan Cambyses. Pentrefydd sydd yn awr ar y llanerch. Y mae un rhan o honi, yr hon a elwir 'y ddinas,' yn gorwedd yn Arabia; y rhan arall ydyw y wlad sydd yr ochr arall i'r afon, lle y mae y Memnonium."—*Strabo*, xvii. 816. Gwelir fod Strabo yma yn gwneuthur y Nilus yn llinell derfyn rhwng Libya ac Arabia. Y mae temlau Karnak a Luxor ar du dwyreiniol yr afon, lle, dybygid, yr oedd y rhan fwyaf o'r ddinas. Fel y canlyn y mae Strabo yn disgrifio y ddau gerflun mawr sydd yn sefyll etto ar y gwastadedd gorllewinol:—"Yma y mae dau gerflun enfawr yn agos i'w gilydd: y naill a'r llall wedi eu gwneyd o un darn o gareg. Y mae un yn gyfan; y mae y rhan uchaf, sef o'r gadair i fyny, o'r llall wedi cwympo—mewn canlyniad i ddaeargryn, fel y dywedir. Credir fod rhyw fath o sŵn ar un adeg, fel effaith tarawiad ysgafn, yn dyfod oddi wrth y rhan hono o'r cerflun sydd ar y gadair. Pan oeddwn i yno, gydag Ælius Gallus, a chanddo liaws o gyfeillion a milwyr o'i amgylch, mi a glywais sŵn ar awr gyntaf y dydd: ond pa un ai peth yn cael ei wneyd yn bwrpasol gan y rhai a safent ger llaw, ai o'r cerflun y deuai, nis gallaf ddywedyd yn bendant. O herwydd, oddi wrth ansicrwydd yr achos o hyn, tueddir fi i gredu unrhyw beth, yn hytrach na bod y ceryg, fel yr oeddynt wedi eu gosod, yn anfon allan y fath sŵn."—*Strabo*, xvii. *adr.* 46. Tybia Wilkinson, yr hwn oedd un o'r rhai cyntaf i ddisgrifio y maen soniarus hwn, fod gan yr offeiriaid ystafell fechan ddirgel yn nghorph y cerflun, o'r hon y gallasent daro y ddelw ar gyfodiad yr haul heb i neb eu gweled: ac yn y modd hwn eu bod yn cynnyrchu yn meddyliau y boblogaeth hygoelus y syniad o ryw weithrediad goruwchnaturiol.

Sonia Pliny am Thebes fel yr hon a elwid 'y ddinas grogedig;' hyny yw, dinas wedi ei hadeiladu yn fwâau, fel y gallesid arwain byddin allan o dan y ddinas, a'r preswylwyr uwch ben yn hollol anymwybodol o hyny. Dywed hefyd fod yr afon yn llifo trwy ganol y dref. Ond y mae efe yn ammheu chwedl y bwâau; o blegid "pe buasai hyny yn bod, diammheu y buasai Homer yn crybwyll am y peth, gan iddo gyfeirio at 'gan porth' Thebes." Onid ydyw y ddwy chwedl yn egluro eu gilydd? Onid all fod yno adeiladau mawrion bwâog yn agos i'r afon, yn cael eu defnyddio fel lluesttai milwrol, o byrth pa rai y deuai allan ugain mil o gerbydau rhyfel?

Ond o blegid ansicrwydd y cyfeiriadau hanesyddol hyn, cofadeiliau Thebes ydynt y tystion mwyaf credadwy i ardderchawgrwydd hynafol y ddinas. Ceir lawn cymmaint yn y naill ochr i'r afon a'r llall. Yr oedd cynllun y ddinas, fel y gellir casglu oddi wrth y prif gofadeiliau, yn mron yn bedair onglog, yn mesur dwy filldir o'r gogledd i'r deheu, a phedair o'r dwyrain i'r gorllewin. Y pedwar terfyn mawr ydynt, y Karnak a'r Luxor ar yr ochr Arabaidd, a'r Qoornah a'r Medeenet Haboo ar yr ochr orllewinol, neu yr un Libyaidd. Ar lan orllewinol yr afon yr oedd un linell ddidor yn mron o demlau ac adeiladau cyhoeddus am yn agos i ddwy filldir—o'r Qoornah i'r Medeenet Haboo: a thybia Wilkinson fod yr heol frenhinol yn rhedeg o rywle yn agos i'r lle diweddaf i lawr hyd at yr afon. Nis gellir o fewn terfynau yr erthygl hon ddisgrifio yn fanwl y cofadeiliau mawrion. Ceir disgrifiadau helaeth yn ngweithiau Wilkinson, Kenrick, Lepsius, ac ysgrifenwyr ereill ar yr Aipht. I ddechreu yn y pen gogleddol ar y lan orllewinol, yr adfeilion mwyaf amlwg ydyw palasdeml y bedwaredd deyrnach ar bymtheg, ac felly perthynai i'r arddull ganol o archadeiladaeth Aiphtaidd. Yr enw sydd arno ydyw *Menephtheion*, ar ol enw y sylfaenydd Menephthah, er ei fod wedi ei adeiladu yn benaf gan ei fab ef; sef, yr enwog Rameses. Y mae cynllun yr adeilad yn cael ei guddio gan yr ysbwrial sydd wedi ymgasglu o'i gwmpas; ond y mae rhai o'r bas-luniau mewn sefyllfa dda o gadwraeth. Ceir yno ddarnau o 'sphincsiaid' yma a thraw. Safai yr adeilad ar ychydig godiad tir, yn agos i filldir oddi wrth yr afon, yn mhentref anrheithiedig yr hen Qoornah.

O ddeutu milldir i'r deheu o'r Menephtheion, y mae gweddillion y palas-deml a adwaenir, er dyddiau Strabo, fel y Memnonium. Ond wrth sylwi ar ei gerfiadau yr ydys wedi cael allan yn ddiweddar nad yw hyn yn gywir, gan ei fod yn amlwg fod yr adeilad wedi ei godi gan Rameses II. Ffurf gyffredinol y Memnonium ydyw pedryfal hir-gul (*parallelogram*), yn dri phrif adran, a'r arwynebedd mewnol yn myned yn gulach na'r cyntedd cyntaf; y cyfan yn terfynu mewn rhestr o ystafelloedd cyssegredig wedi eu haddurno â cherfluniau ardderchog. Y mae cymmesuredd yr adeilad yn nodedig o dda, ac y mae mewn sefyllfa o gadwraeth a'n galluoga i ddeall ei gynllun. O'r cyntedd cyntaf, yr hwn sydd tua naw ugain o droedfeddi ysgwâr, y mae esgynfa o risiau i'r ail gyntedd—yr hwn sydd yn mesur saith ugain, wrth wyth ugain a deg, o droedfeddi. Ar ddwy ochr a thalcen y cyntedd hwn y mae dwy res o golofnau. Y mae grisiau ereill yn arwain i'r neuadd, sydd yn gant, wrth gant a thair ar ddeg ar hugain, o droedfeddi, lle yr oedd gynt wyth a deugain o golofnau mawrion yn cynnal y nen cryf a thrwm. Y tu hwnt i'r neuadd y mae yr ystafelloedd cyssegredig. Y mae y cerfiadau hanesyddol ar furiau a cholofnau y Memnonium yn mhlith y rhai rhagoraf o'r cofadeiliau Aiphtaidd. Ond y peth mwyaf nodedig yn mysg yr adfeilion hyn ydyw cerflun enfawr Rameses II.—oedd unwaith yn un darn o faen Syenaidd, yn cynnrychioli y brenin ar ei orsedd; ond sydd yn awr wedi ei wasgaru yn ddarnau ar lawr y neuadd gyntaf. Cyfrifir fod pwysau y cerflun hwn yn wyth gant a phedwar ugain a saith o dynelli, a'i uchder yn bymtheg troedfedd a thrigain. Wrth fesur y darnau, cafodd Dr. Thompson fod y ddelw o amgylch yr ysgwyddau yn un ar ddeg a deugain o droedfeddi, y fraich yn un droedfedd ar ddeg a chwe modfedd, o'r ysgwydd i'r penelin, a'r troed yn ddeg troedfedd a deng modfedd o hyd, a phedair troedfedd ac wyth modfedd o led. Rhaid fod y gwaith unfaen (*monolith*) anferth hwn wedi ei gludo o leiaf gan milldir o ffordd o chwarelau Assouan. Pa fodd y gallesid ei gludo y fath bellder o ffordd sydd yn syndod i'r byd

yn y dyddiau hyn. O ddeutu un ran o dair o filldir yn mhellach i'r deheu y mae y ddau gerflun y cyfeiriwyd atynt eisoes—un o ba rai a adwaenid wrth yr enw "y Memnon lleisiol." Uchder pob un o'r ddau hyn ydyw tair troedfedd ar ddeg a deugain oddi ar y gwastadedd.

Wrth fyned o ddeutu yr un faint o bellder tua'r deheu, ceir yn Medeenet Haboo hen adfeilion ar raddfa helaethach nag yn un man arall ar lan orllewinol y Thebes. Y mae yr adfeilion hyn yn gynnwysedig o deml a sylfaenwyd gan Thothmes I.; ond gwelir ynddi hefyd olion o archadeiladaeth Ptolemaidd yn y tyrau brigfain, y pyrth, y colofnresi, a'r cynteddau, âg arnynt arysgrifau coffadwriaethol perthynol i'r cyfnod yr oedd y Rhufeiniaid yn llywodraethu yn yr Aipht. Nid ydyw y deml hon, er yr holl chwanegiadau ati, ond bechan mewn cymmhariaeth i demlau yr Aipht; ond ger llaw y mae adfeilion ardderchog palas-deml deheuol Rameses III. Y mae cynllun cyffredinol yr adeilad hon yn gyffelyb i'r rhai a ddisgrifiwyd uchod. Cynnwysa gyfres o gynteddau hardd, wedi eu haddurno â cholofnau, yn arwain i babell fewnol y brenin, neu gyssegrfa yr eilunddaw. Y mae yr ail gyntedd yn un o'r rhai hynotaf yn yr Aipht am faintioli enfawr ei golofnau—y rhai a fesurant bedair troedfedd ar hugain o uchder, ac agos i dair ar hugain o amgylchedd. Yn yr adfeilion hyn canfyddir colofnau eglwys, a neillduwyd yn ystod y cyfnod Cristionogol i addoli y gwir Dduw, yn nheml yr eilunod ac yn nghanol eu delwau a'u harwyddluniau cerfluniol. Diau fod y deml hon yn cyfleu syniad rhagorol o ardderchawgrwydd hen archadeiladaeth yr Aipht; ac y mae y cerfiadau arni o frwydrau a ymladdwyd yn chwanegiad gwerthfawr at hanes teyrnasiad Rameses III.

Y tu cefn i'r rhestr faith hon o demlau a phalasau y mae y bryniau Libyaidd; y rhai, am y pellder o bum milldir, sydd wedi eu tyllu am amryw gannoedd o droedfeddi er cael ystafelloedd i wneyd beddrodau i'r meirw. Y mae rhai o honynt o eangder mawr—un beddrod, er enghraifft, yn mesur o gwbl tua 22,217 o droedfeddi ysgwâr. Ymddengys mai mewn dyffryn neillduedig yn y mynyddoedd, a adwaenir yn awr wrth yr enw Beelan-el-Melook, yr oedd beddau y brenhinoedd. Y mae rhai o honynt, o ran rhif ac amrywiaeth eu hystafelloedd, cywreinrwydd y cerfluniau, a phrydferthwch y darluniau sydd arnynt, yn mysg y cofadeiladau mwyaf nodedig sydd ar gael o fedrusrwydd dihafal yr hen Aiphtiaid. Oddi wrth y cerfiadau a'r arysgrifau sydd ar y beddau, yr ydym yn dysgu beth oedd arferion bywyd teuluaidd yn yr Aipht, fel y dysgir yn y temlau gofnodau y teyrnachau a hanes y rhyfeloedd. I sychder yr hinsawdd yn benaf y gellir priodoli yr achos fod y cerfiadau a'r darluniau mewn cadwraeth mor dda. Yr oedd y cyssegredigrwydd â pha un yr edrychai yr Aiphtiaid ar eu meirw yn cadw y beddrodau yn y mynyddoedd hyn rhag cael eu niweidio yn ystod y rhyfeloedd. Y mae yr addurniadau sydd ar y beddau tanddaearol hyn, sydd yn fynych mor newydd eu hymddangosiad a phan y daethant gyntaf o dan law y celfyddydwr, yn rhoddi i ni y wybodaeth gywiraf y gellir ei gael am arferion yr Aiphtiaid. Nid yw Herodotus ei hun yn fwy manwl a disgrifiadol na'r muriau distaw, ond darluniadol, hyn. Y mae Hengstenberg, Osborn, Poole, ac ereill, wedi cyfeirio yn helaeth at yr eglurhâd a'r cadarnhâd a geir ynddynt o'r hanesiaeth ysgrythyrol; ond y mae llawer etto yn aros heb ei gael allan. Y mae pob digwyddiad yn mywyd bugeiliol ac amaethyddol yr Israeliaid yn yr Aipht yn amser y caethiwed, pob celfyddyd a ddefnyddiwyd i weithio y tabernacl yn yr anialwch, pob cyfeiriad at ddefodau, arferion, a chyfreithiau yr Aiphtiaid, yn cael eu hegluro yn yr hanes darluniadol hwn o'r Aipht; a pha bryd bynag yr olrheinir claddfa Thebes yn llwyr, ac y deallir ei harwyddluniau yn llawn, ceir esboniad annhraethol werthfawr o honynt ar lyfrau Exodus a Lefiticus, yn gystal a llyfrau hanesyddol diweddaf yr Hen Destament.

Ar du y dwyrain i'r afon y mae adfeilion y temlau Luxor a Karnak; a gelwir y ddiweddaf yn 'ddinas o demlau.' Gwel AIPHT. Y mae prif golofnres (*colonnade*) Luxor yn wynebu yr afon, ond y brif fynedfa yn wynebu yn ogleddol tua Karnak; â pha un yr oedd yn cael ei chysylltu unwaith â math o rodfa chwe mil o droedfeddi o hyd, a sphincsiaid (*sphinxes*) wedi eu gosod yma a thraw o bob tu iddi. Yn y fynedfa hon y mae dwy ddelw fawr o Rameses II., un o bob tu i'r porth mawr; ac o flaen y rhai hyn y safai gynt ddwy o golofnau o ithfaen coch, un o ba rai sydd yn awr yn addurno y Place de la Concorde yn Paris. Mae rhes o byrth a thyrau ardderchog i'w canfod fel y deuir at Karnak o'r deheu, a adeiladwyd mewn amseroedd cymmharol ddiweddar. Wyneba y deml yr afon; hyny yw, wyneba tua'r gogledd-orllewin. Y mae y cynteddau a'r neuaddau sydd yn gyssylltiedig â'r adeilad yn mesur yn agos i ddeunaw cant o droedfeddi ysgwâr; a'r adeiladau yn cynnrychioli yn mron bob teyrnach yn yr Aipht, o Sesortasen I. hyd Ptolemy Euergetes I. Gellir dywedyd fod y cynteddau, y cofgolofnau, y cerfluniau, y pilerau, ïe, pob peth yn dwyn perthynas â Karnak, ar y raddeg eangaf. Yn agos i'r afon y mae llanerch â'i arwynebedd yn 275 wrth 329 o droedfeddi, lle yr oedd unwaith rodfa orchuddiedig ar bob tu, â dwy res o golofnau drwy y canol, yn arwain i fynedfa y neuadd golofnog—y fwyaf hynod a rhyfeddol o holl gofadeiliau archadeiladol yr Aiphtiaid. Y mae y neuadd ardderchog yn un goedwig o golofnau cerfiedig. Yn y rhodle ganol y mae deuddeg colofn, a phob un yn mesur chwech a thrigain o droedfeddi o uchder, ac yn ddeuddeg troedfedd o dryfesur, y rhai a gynnalient gynt y nen uchaf. Ar bob tu iddynt, y mae saith rhes o golofnau, a phob un yn agos i ddwy droedfedd a deugain o uchder a naw o drawsfesur:—yn gwneyd yr holl golofnau yn gant a phedair ar ddeg ar hugain mewn rhif, mewn lle yn mesur cant a deg a thrigain wrth dri chant a deg ar hugain o droedfeddi. Y mae y rhan liosocaf o'r colofnau hyn yn sefyll etto yn y man lle y gosodwyd hwynt, er fod y nen wedi syrthio i mewn mewn amryw leoedd. Y mae edrych ar y neuadd hon yn ngoleuni y lloer yn un o'r golygfeydd mwyaf swynol ac argraphiadol a geir yn mysg holl adfeilion adeiladol hynafol y byd, heb eithrio y Colosseum yn Rhufain. Oddi wrth ammherffeithrwydd ein gwybodaeth am y celfyddydau gallofyddol yn mysg yr Aiphtiaid, y mae yn ammhossibl gwybod pa fodd yr adeiladwyd mur allanol Karnak; yr hon oedd yn ddeugain troedfedd o drwch yn ei sylfaen, ac yn agos i gan troedfedd o uchder—pa fodd y codwyd meini yn pwyso can tynell i'w lle yn y mur, ac y naddwyd hwynt yn golofnau neu gerfluniau i addurno ei phyrth. Pa fodd y

cyfodwyd o'r chwarel, y cerfiwyd, ac y rhoddwyd i fyny yn rheolaidd golofnau godidog y neuadd fawr; ac y cwblhawyd y cyfan fel amddiffynfa fawr i herio anrhaith rhyfel, a'r dinystr a wneir gan amser. Y mae mawredd yr Aipht i'w weled yma yn ei harchadeiladaeth; ac y mae pob colofn, a philer, a chareg, o'r bron yn adrodd rhyw chwedl am ei phrif benaduriaid.

Cyfeiriwyd yn nechreu yr erthygl hon at y cwestiwn dadleuol, pa un ai Memphis ai Thebes a adeiladwyd gyntaf. Hyd yn hyn y mae yn anhawdd penderfynu hyd sicrwydd; ac y mae y rhai a ystyrir yn ddysgedig mewn hynafiaethau Aiphtaidd yn methu cyttuno. Ar y cyfan, fe allai y gellir casglu fod llywodraeth leol y Thebiaid yn bod cyn amser Menes; ond y mae hanesiaeth cenedlaethol yr Aipht yn dechreu o'r adeg y sylfaenwyd Memphis. Fel y canlyn y dywed Kenrick:—"Y mae yn debygol fod offeiriaid Memphis a Thebes yn gwahaniaethu yn eu darluniadau o hanesyddiaeth foreuol, a bod pob un yn ceisio dyrchafu gogoniant ei ddinas ei hun. Y mae hanes Herodotus yn troi o gwmpas Memphis fel y canolbwynt:—nid ydyw yn enwi Thebes ond yn ddamweiniol, ac nid yw yn desgrifio nac yn cyfeirio at un o'i chofadeiliau. Ar y llaw arall, y mae Diodorus yn disgrifio Thebes yn llawn a manwl; ac nid yw yn dywedyd ond ychydig am Memphis. Ond y mae y gwahaniaeth yn bod rhwng yr Aipht Uchaf ac Isaf mewn cyfansoddiad daearegol, mewn iaith, mewn crefydd, ac mewn traddodiadau hanesiol." Gellir, oddi wrth yr awdurdodau Aiphtaidd a Groegaidd, ac oddi wrth yr hyn a fynegir ar goflechau Abydos a Karnak, gasglu yr amlinelliad a ganlyn o hanes boreuol yr Aipht:—Cyn adeiladu Memphis, fod y genedl gan mwyaf yn gyfyngedig yn benaf i ddyffryn y Nilus, ac yn cael ei dosbarthu yn wleidyddol i amryw o benaduriaethau,·a bod Thebes yn eisteddle un o honynt: fod Menes, yr hwn oedd frodor o *This*, yn Thebiad, wedi crynhoi y brif lywodraeth yn Memphis, ac wedi uno y gwledydd uchaf ac isaf: fod Memphis wedi cadw ei huchafiaeth, hyd yn oed yn olyniaeth dreftadol ei phenaduriaid, hyd y ddeuddegfed a'r drydedd ar ddeg o deyrnachau Manetho, pan yr ymddangosodd y brenhinoedd Diospolitaidd ar ei rhestr; y rhai a ddygasant Thebes i amlygrwydd mawr fel dinas frenhinol; yna y darfu i'r Bugeiliaid (neu yr Hyskos—cenedl grwydrol o'r dwyrain) oresgyn yr Aipht, a sefydlu eu prif ddinas yn Memphis: yna daliwyd i fyny a chadarnhawyd teyrnach Aiphtaidd frodorol yn Thebes, yr hon oedd ar adegau yn talu teyrnged i'r Hyskos, ac ar adegau hefyd mewn cynghrair milwraidd âg Ethiopia yn erbyn y goresgynwyr; nes o'r diwedd, trwy gyfodiad cyffredinol y Thebiaid, yr alltudiwyd yr Hyskos ymaith, ac y daeth Thebes i fod yn brif ddinas yr holl Aipht, dan y ddeunawfed deyrnach. Y cyfnod hwn oedd oes aur y ddinas, fel y gwelir ar ei chofadeiliau. Y mae enwau a gweithredoedd y Thothmes a'r Rameses i'w canfod ar furiau ei themlau a'i phalasau, lle y gosodir allan ei chyfoeth a'i hen ardderchawgrwydd mewn arfau. Dyna'r pryd yr estynodd Thebes ei theyrnwialen dros Libya ac Ethiopia ar un llaw, ac ar y llall dros Syria, Media, a Phersia; ac y mae muriau ei phalasau a'i themlau yn orchuddiedig â lluniau brwydrau, yn y rhai y mae cenedloedd cylchynol yn ymddangos fel caethion neu fel yn deisyf am gymmwynasau. Parhaodd yr uchafiaeth yma hyd derfyn y bedwaredd deyrnach ar bymtheg, neu am gyfnod o fwy na phum cant o flynyddoedd; ond dan yr ugeinfed deyrnach—tylwyth Diospolitaidd o Rameses, yn rhifo deg o frenhinoedd o'r enw hwnw—dechreuodd gogoniant y Thebiaid ddadfeilio; ac wedi terfyniad y deyrnach hono ni cheir ei hanes mwy yn rhestr y brenhinoedd. Etto cadwyd hi fel prif ddinas, yn gyfangwbl neu mewn rhan; ac y mae gorchestgampau Shishonk y Bubastiad, a Thirhacah yr Ethiopiad, a phenaduriaid enwog ereill, yn cael eu cofnodi ar y muriau. Y mae goresgyniad Palestina gan Shishonk yn cael ei osod allan yn darawiadol ar fur allanol neuadd fawr Karnak; ac y mae enwau amryw dreiydd yn Mhalestina, yn ogystal a'r enw cyffredinol "gwlad brenin Iudah" wedi eu cerfio yno. Pan y goresgynwyd Iudah yn ddiweddarach gan Senacherib, yr ydym yn cael fod Tirhacah, penadur Ethiopiaidd y Thebiaid, yn gynghreirydd galluog i frenin Iudah. Ond can mlynedd yn ddiweddarach, cyhoedda Ezeciel ddinystr Thebes gan Babilon:—"A gwnaf farnedigaethau yn No (Thebes). A thywalltaf fy llid ar Sin, cryfder yr Aipht; ac a doraf ymaith liaws No. A mi a roddaf dân yn yr Aipht; gan ofidio y gofidia Sin, a No a rwygir, a bydd ar Noph (Memphis) gyfyngderau beunydd;" *Ezec.* xxx. 14—16. Rhagfynega Ieremiah hefyd yr un dinystr, a dywed—"Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, sydd yn dywedyd, Wele, myfi a ymwelaf â lliaws No, ac â Pharaoh, ac â'r Aipht, ac â'i duwiau hi, ac â'i brenhinoedd;" *Ier.* xlvi. 25. Cwblhaodd y goresgynydd Persiaidd y dinystr a ddechreuwyd gan y Babiloniaid; curwyd i lawr gerflun balch Rameses gan forthwyl Cambyses, ac anrheithiwyd temlau a phalasau dinas y can porth. Collodd No-Ammon, cyssegrfan yr Iupiter Aiphtaidd—"yr hon," fel y dywed y prophwyd, "a osodir rhwng yr afonydd, ac a amgylchir â dyfroedd, i'r hon y mae y môr yn rhagfur, a'i mur o'r môr" (*Nah.* iii. 9)—ei gogoniant a'i nerth, a darostyngwyd hi i sefyllfa tref gyffredin; ac er holl ymdrechiadau y Ptolemiaid i adsefydlu ei hardderchawgrwydd blaenorol, anrheithiedig y cafodd fyned! Y mae erbyn heddyw yn nythle i fythynod Arabaidd gwael, yn nghanol colofnau cwympedig ac adfeilion dinystr!

THEBES: prif ddinas Bœotia, yn Groeg gynt. Safai yn y rhan ddeheu o'r wlad, ar lechweddau Mynydd Teumessus, a rhwng y ddwy afon—y Dirce a'r Ismenus. Yn ol y traddodiad cyffredin, sylfaenwyd Thebes gan drefedigaethwyr Phœniciaidd o dan Cadmus, ar ol enw yr hwn y galwyd y ddinas yn Cadmeia—enw a gyfyngwyd wedi hyny i'r amddiffynfa. Bu y preswylwyr yn rhyfela â'r Atheniaid yn niwedd y chweched ganrif c.c. O hyny allan, gelynion i'w gilydd oedd y ddwy ddinas; ac er cywilydd i Thebes, yn y rhyfel Persiaidd, cymmerodd ochr y gelyn; ac o ganlyniad aeth ei dylanwad a'i chymmeriad i lawr i raddau mawr. Yn y rhyfel Peloponnesiaidd, cymmerodd Thebes blaid y Spartiaid; ac ar ei derfyniad yr oedd awydd arni am ddinystrio Athen. Ond yn mhen ychydig, cyfododd gelyniaeth rhwng Thebes a Sparta, yr hyn a ddiweddodd mewn ymdrechfa filwraidd galed (379—362 c. c.); pan y darfu i'r ddinas flaenaf, o dan arweiniad arwrol Epaminondas, ennill goruchafiaeth ysblenydd; ac am beth amser bu llywodraeth Thebes yn cael ei hystyried y gallu cryfaf yn ngwlad Groeg. Cymmerwyd y ddinas

Digitized by Google

gan Alexander Fawr, yr hwn a'i dinystriodd hyd y llawr, ac a werthodd yr holl boblogaeth—y gwŷr, y gwragedd, a'r plant—i gaethiwed. Parhaodd yn hollol anrheithiedig am ugain mlynedd; ond ail adeiladwyd hi yn 315 c. c., gan Cassander, yr hwn a gasglodd ynghyd iddi yr holl Thebiaid oedd i'w cael yn ngwlad Groeg. Dinystriwyd hi gan y Rhufeiniaid, ac ni chafodd ei hadferu nes i'r ymherodraeth fod ar ei gogwydd. Yr oedd ynddi boblogaeth led liosog yn yr unfed ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif, a chryn lawer o sidan yn cael ei wneyd ynddi; ond dadfeiliodd o dan y Tyrciaid. Y mae ynddi etto boblogaeth o tua naw mil. O'r braidd y mae ynddi ddim adfeilion ag sydd yn dwyn i gof ei mawredd cyntefig.

THEMISTOCLES: cadfridog a gwladweinydd Athenaidd enwog. Mab oedd i ddinesydd dinôd o Athen. Ganwyd ef ynghylch y flwyddyn c. c. 514. Dangosai, pan yn ieuangc, ei fod yn feddiannol ar ddealltwriaeth cryf, ynghyd âg uchelgais ac awyddfryd mawr am gyrhaedd enwogrwydd gwleidyddol. Dechreuodd ei yrfa gyhoeddus trwy wrthwynebu y blaid ydoedd mewn awdurdod; yn mysg y rhai oedd Aristides yn cael ei ystyried y penaf. Gwnaeth yr enwogrwydd a ennillodd Miltiades drwy ei fedrusrwydd ar faes Marathon argraph ddofn ar feddwl Themistocles, a thaniodd ei uchelgais yn fwy. Cafodd ei gydymgeisydd mawr, Aristides, ei alltudio yn 483—digwyddiad y gwnaeth Themistocles ei ran i'w ddwyn oddi amgylch; ac o hyny allan efe oedd arweinydd gwleidyddol Athen. Gwnaed ef yn ben swyddog (*archon eponymus*) yn 481 c. c. Mewn trefn i adfeddiannu i Athen arglwyddiaeth y môr yn mysg taleithiau Groeg, ac fel y byddai yn barod ar gyfer goresgyniad disgwyliedig y Persiaid, efe a berswadiodd yr Atheniaid i ddefnyddio cynnyrch y mŵnau arian yn Laurium i adeiladu llynges, gan ei fod yn rhagweled mai unig obaith ei wlad am orchfygu y gelyn oedd ar y môr. Pan y goresgynwyd gwlad Groeg gan Xerxes, pennodwyd Themistocles yn swyddog llywyddol y llynges Athenaidd; ac i ymröad, pwyll, rhagwelediad, a'i ddewrder ef yn benaf yr oedd y Groegiaid yn ddyledus am eu gwaredigaeth oddi wrth ormes y Persiaid. Ar ddynesiad Xerxes, darfu i'r Atheniaid, yn ol cyfarwyddyd Themistocles, adael eu dinas, a symmud ymaith o honi y gwragedd a'r plant, a'r hen a'r methedig, i Salamis, Ægina, a Troezen. Ond mor fuan ag y cymmerodd y Persiaid feddiant o Athen, yr oedd y Peloponnesiaid yn awyddus am syrthio yn ol ar yddfdir Corinth. Arferodd Themistocles ei holl ddylanwad i berswadio y Groegiaid i aros ac ymladd â'r Persiaid yn Salamis; ond gydag anhawsder mawr y llwyddodd i berswadio yr arweinydd Spartaidd, Eurybiades, i aros yn Salamis. Mor fuan ag yr ymddangosodd llynges Xerxes, yr oedd y Peloponnesiaid yn awyddus am hwylio ymaith drachefn; a phan y gwelodd Themistocles ei fod yn analluog i'w perswadio i aros, efe a anfonodd gaethwas ffyddlawn at yr arweinyddion Persiaidd, yn eu hysbysu fod y Groegiaid yn arfaethu diangc, a bod yn nwylaw y Persiaid yn awr gyfleusdra rhagorol i'w hattal, ac i ennill buddugoliaeth ardderchog. Credodd y Persiaid hyn; ac yn ystod y nos, hwy a feddiannasant y sianel oedd rhwng Salamis a'r cyfandir. Yn y modd hwn gorfodwyd y Groegiaid i ymladd; a'r canlyniad a fu iddynt ddistrywio y rhan fwyaf o lynges Xerxes, ac ennill buddugoliaeth ysblenydd. Gellir priodoli y fuddugoliaeth hon yn benaf i Themistocles; a sefydlodd hyn ei gymmeriad yn mysg y Groegiaid.

Ar ei ymweliad â Sparta, derbyniwyd ef gydag arwyddion anghyffredinol o anrhydedd gan y Spartiaid; y rhai a roddent i Eurybiades y llawryf am ddewrder, ond i Themistocles am ddoethineb a medrusrwydd; a chyflwynwyd iddo goron o olewydd, a'r cerbyd goreu oedd yn Sparta. Cynghorodd Themistocles yr Atheniaid i ail adeiladu muriau y ddinas, a'u gwneyd yn gadarnach nag erioed. Mewn canlyniad i'w gynghor ef hefyd y cadarnhaodd yr Atheniaid borthladd y Piræus. Ymddengys, fodd bynag, na pharhaodd dylanwad Themistocles yn hir ar ol anfon y Persiaid ymaith, a chadarnhau yr amddiffynfeydd. Cyhuddid ef, a hyny yn gyfiawn, dybygid, o ymgyfoethogi trwy foddion annheg; o herwydd nid oedd efe yn un a betrusai lawer gyda golwg ar y ffordd i gyrhaedd ei amcanion. Alltudiwyd ef o Athen yn y flwyddyn c.c. 471, ac ymneillduodd i Argos. Ar ol darganfod gohebiaeth fradwrus Pausanias gyda'r brenin Persiaidd, anfonodd y Lacedæmoniaid i Athen i'w gyhuddo o fod yn hysbys o fwriadau Pausanias. Anfonodd yr Atheniaid amryw bersonau gyda'r Lacedæmoniaid i ddal Themistocles, yn y fl. 466. Wedi clywed am hyn, ffodd Themistocles o Argos i Corcyra, ac yna i Epirus; a chymmerodd noddfa yn mhalas Admetus, brenin y Molossi, yr hwn a ddigwyddai fod oddi cartref. Gwrthododd y brenin ei roddi i fyny i'r Atheniaid a'r Lacedæmoniaid. O'r diwedd cyrhaeddodd hyd i dueddau Asia yn ddiogel. Yr oedd Xerxes erbyn hyn wedi marw (c. c. 465), ac Artaxerxes ar yr orsedd. Aeth Themistocles i dalu ymweliad â'r brenin yn ei balas; ac ar ei fynediad yno, efe a anfonodd lythyr at y brenin, yn yr hwn yr addawai wneyd gwasanaeth da iddo; ac erfyniai gael aros yno am flwyddyn, ac yna yr eglurai yn bersonol yr hyn a'i dygodd ef yno. Llwyddodd i ddysgu yr iaith Bersiaeg ac i ddeall arferion y Persiaid mewn blwyddyn; a dygwyd ef at y brenin, a daeth yn fuan i feddu dylanwad mawr arno—mewn rhan o herwydd ei gymmeriad uchel, ac hefyd am ei fod yn creu gobaith ynddo y byddai iddo orchfygu Groeg. Yn ol arfer y Persiaid, rhoddodd Artaxerxes orchymyn i dref Magnesia ddarparu bara i Themistocles, a Lampascus i ddarparu gwin, a Myus bethau ereill. Bu fyw mewn diogelwch yn Magnesia hyd ddydd ei farwolaeth; yr hyn a ddigwyddodd c. c. 449, yn 65ain mlwydd oed. Dywed rhai awdurdodau iddo wenwyno ei hun. Cyfodwyd cofadail iddo yn y farchnadfa yn Magnesia. Mynegir fod ei esgyrn wedi eu cymmeryd yn ddirgelaidd i Attica, a chael eu llosgi yno. Yr oedd Themistocles yn ddiammheuol yn meddu talentau mawrion fel gwladweinydd, doethineb gwleidyddol, a synwyr cryf, a barn addfed: ond nid ydoedd yn ddyn gonest. Yr oedd yn amddifad o egwyddor dda. Ei uchelgais penaf, mae yn ymddangos, oedd dyrchafu ei hun, trwy foddion teg neu annheg, i'r sefyllfa uchaf yn ngwlad Groeg.

THEODORE: o Mopsuestia, awdwr adnabyddus yn yr eglwys Syriaidd, a aned o deulu cyfoethog ac enwog yn Antiochia, yn yr hanner cyntaf o'r bedwaredd ganrif. Yr oedd efe yn gydysgolhaig â'i gyfaill Ioan Chrysostom, a than addysg yr athronydd a'r rheithegwr Libanius;

Digitized by Google

ac ar daer gymmhelliad Chrysostom, efe a ymunodd âg ef i ddilyn bywyd mynachaidd. Astudiodd yr Ysgrythyrau a duwinyddiaeth o dan gyfarwyddyd Flavian o Antiochia, a Diodorus o Tarsus; ac ar ol derbyn urddau eglwysig, efe a drigodd am beth amser yn Antiochia o dan ei hen athraw, Diodorus. Dewiswyd ef yn esgob Mopsuestia yn Cilicia tua'r flwyddyn 390, neu ychydig yn ddiweddarach. Yn y fl. 394, efe a bregethodd yn mhresennoldeb yr ymherawdwr Theodosius, yn Nghaer Cystenyn, pan y cynnelid y cynghor yn y ddinas hono. Am ei hanes ar ol hyn ni wyddys ond ychydig; ond y mae yn ddiammheuol fod ei lafur llenyddol yn fawr, os ydym i farnu oddi wrth dystiolaeth rhai oedd yn cydoesi âg ef, a nifer y gweithiau a briodolir iddo, er nad oes erbyn hyn ond ychydig ddarnau o honynt yn aros. Y mwyaf pwysig ydyw ei esboniad ar holl lyfrau y Beibl o'r bron, ac amryw o weithiau dadleuol. Tybid ei fod yn tueddu at goleddu syniadau Pelagiaidd a Nestoriaidd. Darfu i'r cardinal Mai gyhoeddi amryw ddarnau o esboniadau Theodore yn ei "*Spicilegium Romanum*," ac y mae rhai o'i weithiau i'w cael yn y Syriaeg etto; ond y mae y rhan fwyaf o lawer wedi eu colli.

THEODORET: hanesydd eglwysig ac ysgrifenydd duwinyddol enwog, yr hwn a anwyd yn Antiochia, ynghylch y flwyddyn B. A. 393. Addysgwyd ef o'i febyd mewn mynachdy; ac yn mhlith ei gydysgolheigion yr oedd Nestorius ac Ioan o Antiochia—dau a ddaeth i enwogrwydd wedi hyny yn y ddadl a gymmerodd ei henw oddi wrth y blaenaf o'r ddau. Pennodwyd Theodoret yn un o glerigwyr Antiochia; ac appwyntiwyd ef yn esgob Cyrus, dinas yn Syria, tra nad oedd ond lled ieuangc. Yr oedd ei sêl a'i hyawdledd yn destyn edmygedd cyffredinol, ac yr oedd ei lwyddiant i ddwyn anghredinwyr a hereticiaid i'r eglwys bron yn ddi-ail. Cymmerodd ddyddordeb mawr yn y dadleuon Nestoraidd am dymmor. Nid oedd Theodoret am amser yn cydsynio â chondemniad Nestorius; ac nid yn unig amlygodd hyny mewn llythyr at Nestorius ei hun, ond efe a ysgrifenodd yn ffurfiol yn erbyn yr anathemau a gyhoeddwyd gan Cyril yn erbyn Nestoriaeth. Ond wedi hyny daeth i weled yr angenrheidrwydd am newid ei farn, a chydsyniodd i ddiswyddo yr esgobion oedd yn parhau i wrthod ymostwng i Gynghor Ephesus. Er hyny, nid oedd efe yn mhob peth yn derbyn golygiadau Cyril. Cyhuddwyd Theodoret gan Dioscorus, olynydd Cyril, o bleidio golygiadau y Nestoriaid; a chan ei fod wedi llwyddo i gael y llys ymherodrol o'i ochr, gorchymynodd yr ymherawdwr, Theodosius II., i Theodoret gadw o fewn terfynau ei esgobaeth ei hun. Yn y cyfamser, cyrhaeddodd y ddadl Eutychaidd ei phoethder mwyaf. Pan eisteddodd Cynghor Ephesus, o dan lywyddiaeth Dioscorus, B. A. 449, nid yn unig cauwyd Theodoret allan o hono, ond diswyddwyd ef yn ffurfiol; ac ymneillduodd yntau i'r mynachdy yn yr hwn y derbyniodd efe ei addysg boreuol. Galwyd y cyfan yn ol, pa fodd bynag, gan Gynghor Chalcedon, yn 451. Ni bu Theodoret fyw yn hir ar ol ei adferiad. Bu farw ynghylch y flwyddyn 457. Cynnwysa ei weithiau ddeg o gyfrolau unplyg; ac y maent yn gynnwysedig o esboniad ar lawer o lyfrau yr Hen Destament, ac ar yr oll o epistolau Paul; hanes yr eglwys o B. A. 325 hyd 429; hanes bywyd y rhai a elwir yn Dadau yr Anialwch; ymddiddan yn erbyn Eutychaniaeth; a hanes heresiau. Hanes yr eglwys o'i eiddo ydyw y mwyaf hysbys o'i holl weithiau, yn gystal a'r mwyaf pwysig a dyddorol.

THEODORIC, a gyfenwir Y MAWR: sylfaenydd brenhiniaeth yr Ostrogothiaid, yr hon a gynnwysai Italy, Sicily, de-ddwyrain Gaul, Rhætia, Noricum, Pannonia, a Dalmatia. Ganwyd ef ar lenydd y Neusiedler See, i'r deheu o Vienna, B. A. 455. Yr oedd ei dad, Theodomir, yn un o'r tri brawd, y rhai, ar ol marwolaeth Attila, a wnaethant y genedl yn rhydd oddi wrth iau ormesol yr Huniaid. Rhoddwyd ef fel gwystl i Leo I. yn B. A. 461. Gwnaeth wasanaeth rhagorol i'r ymherawdwr Zeno, yr hwn a'i hanrhydeddodd drwy ei ddyrchafu i'r gonsuliaeth yn 483. Anfonwyd ef yn erbyn Odoacer i Italy yn 488; ac wedi gweithio yn mlaen trwy rengoedd y Gepidæ, ac ereill a ymdrechent i attal ei fynediad, a chasglu adgyfnerthion ar y ffordd, efe a gyrhaeddodd i derfynau Italy yn haf 489. Yr oedd Odoacer wedi ei ragrybuddio o'r ymosodiad, ac yn parotoi ar ei gyfer; a chymmerodd brwydr ofnadwy le rhwng y ddwy fyddin ger llaw Aquileia (Awst, 489), yr hon a droes yn ffafriol i'r Ostrogothiaid. Cafodd Odoacer ei orchfygu yn llwyrach mewn ail frwydr, yr hon a ymladdwyd ar y 27ain o Fedi canlynol, yn agos i Verona, a chymmerodd yntau noddfa yn Ravenna, tra y darostyngwyd holl Italy; ac wedi iddo ymostwng yn ffurfiol yn Mawrth, 493, rhoddwyd ef i farwolaeth yn fradwrus. Cymmerodd Theodoric y teitl o frenin Italy, a chan eithrio y ryfelgyrch llwyddiannus â'r Frankiaid, a dwy neu dair o ryfeloedd ereill heb fod yn bwysig, efe a dreuliodd ei deyrnasiad maith i gryfhau a dadblygu adnoddau ei deyrnas newydd. Gwnaeth Ravenna yn brif ddinas; ond yn achlysurol symmudai i Verona. Bu farw yn B. A. 526.

Y mae Theodoric yn dal y safle uchaf yn mysg penaduriaid. Er mai anwariad diddysg oedd efe, a'i fod yn meddu gallu nas gallai y cryfaf o'i gymmydogion ei wrthsefyll, nid amlygodd duedd i ddefnyddio ei allu i orchfygu ac ennill tiriogaethau newyddion. Yr oedd yn awyddus i sicrhau cyfeillgarwch cenhedloedd cylchynol, yn teyrnasu yn gyfiawn, ac yn selog yn ei gefnogaeth i amaethyddiaeth a masnach yn Italy, nes yr ennillodd ei hen safle o fod y wlad fwyaf llwyddiannus yn Ewrop. Yr ysmotyn du ar ei gymmeriad ydyw ei waith yn rhoi Boëthius a Symmachus i farwolaeth, am gynllwyn tybiedig gyda'r seneddwr Albinus i adferu awdurdod yr ymherawdwr dwyreiniol yn ol yn Italy. Ni adawodd Theodoric un mab ar ei ol; ond dilynwyd ef i'r orsedd gan ei drydedd merch fel rhaglaw dros ei mab, Athalaric.

THEODOSIUS I., yr hwn a gyfenwir 'Y MAWR,' ymherawdwr y dwyrain. Ganwyd ef, naill ai yn Italica, neu yn fwy tebygol yn Cauca, ger Segovia, o ddeutu y flwyddyn B. A. 346. Mab oedd efe i'r cadfridog Theodosius, yr hwn a wnaeth wasanaeth mawr i'r ymherodraeth Rufeinig yn Mhrydain, ac a ddarostyngodd y gwrthryfel yn y taleithiau Affricanaidd; ond cynllwynwyd yn ei erbyn gan elynion maleisus, a thorwyd ei ben yn Carthage, B. A. 376. Cafodd Theodosius addysg dda; dysgodd y gelfyddyd o ryfela gan ei dad, â'r hwn y bu yn ei ymgyrchoedd rhyfelgar yn Mhrydain. Gwnaed

Digitized by Google

i lawer o drafferth i geisio eu gwrthbrofi. Nid ydyw y seiliau ar ba rai yr adeiladodd Heumann ei dybiaeth, nad ydoedd Theophilus yn Gristion, i roddi unrhyw ddibyniad arnynt. O herwydd, yn y lle blaenaf, nid ydyw mewn un modd yn sicr fod Theophilus yn llywodraethwr Rhufeinaidd:—yn yr ail le, hyd yn oed pe cymmerid yn ganiataol na oddefid i Gristion fod yn llywodraethwr y pryd hwnw (o'r braidd y gellir bod yn sicr o hyn hefyd), nid ydyw yn canlyn o angenrheidrwydd na allasai person a weinyddai y swydd hono ddyfod yn Gristion. Mewn gwirionedd, y mae genym enghraifft o droedigaeth un felly yn mherson Sergius Paulus: *Act.* xiii. 12. Yn yr erthygl ar LUC YR EFENGYLYDD, rhoddir rhesymau dros gredu nad oedd Theophilus "yn un o breswylwyr Palestina... nac yn Facedoniad, nac yn Atheniad, nac yn Gretiad:—ond ei fod yn frodor o Italy, ac yn un o breswylwyr Rhufain, fe allai." Y mae yr oll a ellir ei ddyfalu am dano gyda graddau o sicrwydd yn dyfod i hyn—ei fod yn Genedlddyn o safle a pharch, ac iddo ddyfod dan ddylanwad Luc, neu Paul, yn Rhufain, ac iddo gael ei ddychwelyd i'r ffydd Gristionogol.

2. THEOPHILUS: archoffeiriad Iuddewig, mab Annas neu Ananus, brawd-yn-nghyfraith Caiaphas, a brawd ac olynydd nesaf Ionathan. Daeth y rhaglaw Rhufeinaidd Vitellius i Ierusalem yn adeg Pasc B. A. 37, a diswyddodd Caiaphas, gan osod Ionathan yn ei le. Yn yr un flwyddyn, ar ŵyl y Pentecost, efe a ddaeth i Ierusalem drachefn, ac a gymmerodd oddi ar Ionathan y swydd archoffeiriadol, gan ei rhoi i Theophilus.—"*Hynaf. Iudd.*," xviii. 4, *adr.* 3, xviii. 5, *adr.* 3. Symmudwyd Theophilus o'i swydd gan Herod Agrippa I., ar ol i'r tywysog hwnw gael llywodraeth Iudea yn B. A. 41; ac felly bu yn gweinyddu y swydd am ysbaid o bedair i bum mlynedd.—"*Hynaf. Iudd.*" xix. 6, *adr.* 2. Nid ydyw Theophilus yn cael ei alw wrth ei enw yn y Testament Newydd; ond y mae yn dra thebygol mai efe oedd yr archoffeiriad a roddodd hawl i Paul fyned i Damascus, ac i gymmeryd yn gaeth ac i garchar bawb a broffesent eu hunain yn ddilynwyr i Iesu Grist.

THEOPHRASTUS: athronydd Groegaidd. Brodor o Eresus yn Lesbos oedd, ac astudiodd athroniaeth yn Athen—ar y cyntaf dan Plato, ac wedi hyny dan Aristotle. Cymmerodd yr olaf ddyddordeb neillduol ynddo; a dywedir mai efe a newidiodd ei enw o Tyrtanus i Theophrastus (neu y siaradwr dwyfol), i arwyddo ei ragoriaeth fel areithydd: ond o'r braidd y mae y chwedl yn gredadwy. Enwodd Aristotle ef i fod yn olynydd iddo fel llywydd yr athrofa (*Lyceum*), a gadawodd iddo yn ei gymmunrodd ei lyfrgell a llawysgrifau ei weithiau. Profodd Theophrastus ei fod yn olynydd teilwng i'w hen athraw, a chadwodd i fyny gymmeriad yr ysgol yn rhagorol. Dywedir fod ganddo tua dwy fil o ddysgyblion. Edmygid ef yn fawr gan y brenhinoedd Phylip, Cassander, a Ptolemy; a'r fath oedd edmygedd pobl Athen o hono, fel pan y cyhuddwyd ef o fod yn anghrefyddol, ac y cafodd ei ryddhau, y buasent wedi rhoddi ei gyhuddwr i farwolaeth, oni buasai ei fod ef wedi eiriol ar ei ran. Mewn cydsyniad, pa fodd bynag, â chyfraith Sophocles, yn ol yr hon yr oedd raid i bob athronydd adael Athen, gadawodd Theophrastus y ddinas c. c. 305; a bu yn absennol hyd nes y diddymwyd y gyfraith gan Philo yn y flwyddyn ddilynol. Parhaodd Theophrastus i ddarlithio hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le c. c. 287—ar ol bod yn llywydd yr athrofa am bymtheng mlynedd ar hugain. Gan na wyddys yn fanwl amser ei enedigaeth, nid yw ei oedran pan fu farw yn hysbys. Yn ol rhai adroddiadau, bu farw yn 85ain—ond yn ol ereill yr oedd yn gant a saith o flwyddi oed. Dywedir ei fod yn cwyno ychydig cyn marw o herwydd byrder ei einioes, a'i fod yn terfynu pan oedd ar gael allan rai o ddirgelion bywyd. Yr oedd holl bobl Athen yn ei gladdedigaeth. Gadawodd ei lyfrgell i Neleus o Scepsis. Amcan mawr ei lafur athronyddol oedd dadblygu cyfundrefn Aristotle, egluro yr hyn oedd dywyll ynddi, a llenwi i fyny ei diffygion. Yn anffodus, y mae y rhan fwyaf o'r gweithiau a ysgrifenodd efe wedi myned ar goll.

THERMOPYLÆ (yn llythyrenol 'y pyrth poethion'): bwlch enwog yn y mynyddoedd oedd yn arwain o Thessaly i Locris—yr unig ffordd ar hyd yr hon y gallesid arwain byddin oresgynol o ogleddbarth i ddeheubarth Groeg. Gorwedda rhwng Mynydd Œta a'r hyn ydoedd gynt yn gorsle nas gallesid ei chroesi, yn ymylu ar Forgainge Malic. Y mae amryw ffrydiau o ddwfr cynnhes yn y bwlch hwn; oddi wrth y rhai, dybygid, y cafodd Thermopylæ, y rhan gyntaf o'i enw. Yn un pen i'r bwlch, ger llaw Anthela, yr oedd y mynydd mor agos i'r gorsle fawnog fel nad oedd prin le i un cerbyd fyned rhyngddynt. Ffurfiai y fynedfa gul hon borth gorllewinol Thermopylæ. Tua milldir i'r dwyrain yr oedd y mynydd yn nesau drachefn at y môr, ger llaw tref Alpeni—gan ffurfio y porth dwyreiniol. Yr oedd y fynedfa rhwng y ddau borth hyn yn lletach ac yn fwy agored, ac yn hynod ar gyfrif yr amrywiol ffrydiau cynnhes oedd yno yn gyssegredig i Herculus. Y mae y bwlch hwn wedi ei anfarwoli gan y gwrthsafiad dewrfrydig a wnaethpwyd gan Leonidas a thri chant o Spartiaid (c. c. 480) yn erbyn lluoedd aneirif Xerxes, brenin Persia; a buasent wedi llwyddo oni bae i'r Persiaid ddarganfod ffordd dros y mynyddoedd—yr hyn a'u galluogodd hwynt i wneyd ymosodiad ar y Groegiaid o'r tu cefn. Drachefn, yn y flwyddyn c. c. 279, darfu i Brennus, cadfridog y Gauliaid, drwy yr un ddichell lwyddo i yru galluoedd unedig Groeg oddi yno.

THESSALONIAID, YR EPISTOL CYNTAF AT Y. I. Ceir allan yr amser y tybir i'r llythyr gael ei ysgrifenu yn y modd canlynol. Yn nghwrs ei ail daith genhadol, yn y flwyddyn B. A. 52, y sylfaenodd Paul eglwys Thessalonica. Gadawodd Thessalonica gan fyned i Berea. O Berea efe a aeth i Athen, ac o Athen i Corinth: *Act.* xvii. 1—xviii. 18. Gyda'r ymweliad hwn â Chorinth, yr hwn a barhaodd am ddwy flynedd y terfynodd ail daith yr apostol; o herwydd efe a ddychwelodd o Corinth i Ierusalem heb wneyd dim ond talu ymweliad byr âg Ephesus ar ei ffordd: *Act.* xviii. 20, 21. Ymddengys, pan ysgrifenwyd yr epistol hwn, fod Silfanus a Thimotheus yn nghwmni yr apostol (1 *Thes.* i. 1; cymmh. 2 *Thes.* i. 1)—amgylchiad sydd yn cyfyngu dyddiad yr ail daith genhadol; o blegid er i Timotheus fod gydag ef wedi hyny ar amryw achlysuron, ymddengys enw Silfanus mewn cyssylltiad â Phaul am y tro diweddaf yn ystod yr ymweliad hwn â Chorinth: *Act.* xviii. 5;

Digitized by Google

2 *Cor.* i. 19. Rhaid, gan hyny, fod yr epistol wedi ei ysgrifenu rhwng yr amser y gadawodd Paul Thessalonica a therfyn ei arosiad yn Corinth; hyny yw, yn ol yr amseriad cyffredin, o fewn y blynyddoedd B. A. 52—54. Y mae yr ystyriaethau canlynol yn cyfyngu yr amser yn fwy drachefn. 1. Pan yr ysgrifenodd Paul, yr oedd eisoes wedi ymweled âg Athen, ac fe allai wedi ei gadael: 1 *Thes.* iii. 1. 2. Ar ol gwneuthur dau ymgais aflwyddiannus i ail ymweled â Thessalonica, efe a anfonodd Timotheus i ymofyn am hanes y dysgyblion yno. Yr oedd Timotheus wedi dychwelyd cyn i'r apostol ysgrifenu: *pen.* iii. 2, 6. 3. Cyfeiria Paul at y Thessaloniaid fel "esamplau i'r rhai oll sydd yn credu yn Macedonia ac yn Achaia;" a chwanega hefyd, "yn mhob man hefyd eich ffydd chwi ar Dduw a aeth ar led" (*pen.* i. 7, 8)—iaith sydd yn deilliaw o galon lawn o ddiolchgarwch. 4. Nodir amryw bethau yn amgylchiadau a sefyllfa yr eglwys Thessaloniaidd a arwyddai gynnydd. Yr oedd cwestiynau wedi cyfodi o barthed i'r rhai a hunasent yn yr Iesu; ac felly rhaid fod un, neu fwy, o'r dychweledigion yn Thessalonica wedi marw yn y cyfamser: *pen.* iv. 13—18. Yr oedd yr erledigaeth a ragwelid gan yr apostol wedi tori allan ar Gristionogion Thessalonica (*pen.* iii. 4, 7); ac afreoleidd-dra wedi llithro i mewn, a llychwino purdeb yr eglwys: *pen.* iv. 4; v. 14. Gallasai y pethau hyn ddigwydd, modd bynag, mewn ychydig fisoedd—ac nis gallai fod llawer mwy na hyny o amser. 5. Y mae yn amlwg i'r llythyr gael ei ysgrifenu gan Paul yn uniongyrchol ar ol dychweliad Timotheus: *pen.* iii. 6. 6. Heb law hyny, ysgrifenwyd yr Ail Epistol hefyd cyn iddo adael Corinth; a rhaid fod digon o amser wedi digwydd rhwng y ddau i anhawsderau newyddion ymddangos. Nis gallwn fod yn mhell o'n lle gan hyny wrth ddyfalu i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu yn fuan ar ol i Paul ddyfod i Corinth, ac yn mhen ychydig fisoedd ar ol iddo sylfaenu yr eglwys yn Thessalonica, yn niwedd y flwyddyn 52, neu ddechreu 53. Nid ydyw y mynegiad sydd ar ddiwedd y llythyr mewn rhai cyfieithiadau, iddo gael ei ysgrifenu "o Athen," ond casgliad oddi wrth 1 *Thes.* iii. 1; o blegid nis gall hyny fod, fel y gwelir oddi wrth y lleoedd canlynol yn yr epistol ei hun:—*pen.* i. 7, 8; ii. 8; iii. 6. Y mae Michaelis, ac ereill, yn dadleu, mae'n wir, ei fod o ddyddiad diweddarach; ond, nid ydyw y rhesymau dros hyn ond ysgeifn a diwerth.

II. Yr Epistolau at y Thessaloniaid (o herwydd dilynodd yr ail y cyntaf yn fuan) oedd y rhai cyntaf o ysgrifeniadau Paul. Y maent yn disgrifio y dysgyblion yn ngwres eu cariad cyntaf—yn hiraethu am ddydd eu gwaredigaeth, ac yn edrych yn mlaen at yr adeg y disgynai yr Arglwydd o'r nef ar y cymmylau. Yr oedd tua phum mlynedd o amser o'r pryd hwn hyd yr amser yr ysgrifenodd efe yr ail gyfres o'i lythyrau; sef, ei Epistolau at y Corinthiaid, y Galatiaid a'r Rhufeiniaid—ac ynghylch cymmaint ddwywaith o amser hyd y pryd yr ysgrifenodd yr epistolau a gyfansoddodd efe pan yn y carchar yn Rhufain. Gwaith dyddorol fyddai cymmharu yr epistolau at y Thessaloniaid â'r llythyrau a ysgrifenwyd ganddo yn ddiweddarach, gan nodi allan y gwahaniaethau—y rhai ydynt yn driphlyg. 1. Y mae arddull cyffredinol yr epistolau boreuaf yn fwy syml, ac y mae llai o addurn a llawnder ieithyddol yn perthyn iddynt. Y mae byrder yr anerchiad agoriadol yn enghraifft o hyn: "Paul ..at eglwys y Thessaloniaid, yn Nuw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist. Gras i chwi a thangnefedd;" 1 *Thes.* i. 1; cymh. 2 *Thes.* i. 1. Y mae y bendithiad yn y diwedd yr un mor fyr:—"Gras ein Harglwydd Iesu Grist fyddo gyda chwi;" 1 *Thes.* v. 28; cymh. 2 *Thes.* iii. 18. A thrwy yr epistolau y mae yr arddull yn fwy cyfartal. 2. Nid oedd y gwrthwynebiad oedd i'r apostol yr un. Yr oedd cyfeiriad yr ymosodiad wedi newid erbyn y cyfnod yr ysgrifenwyd yr epistolau diweddarach. Oddi wrth yr Iuddewon y deuai yr ymosodiad mwyaf yn awr. Yr oedd gwneyd y Cenhedloedd yn ddeiliaid gobeithion a rhagorfreintiau teyrnas y Messïah ar unrhyw amnodau yn anghymmeradwy gan yr Iuddewon. Gwarafunent i Paul a'i gydlafurwyr "lefaru wrth y Cenhedloedd, fel yr iachëid hwynt;" *pen.* ii. 16. Gwnaeth cyfnod o bum mlynedd gyfnewidiad mawr yn agwedd y ddadl. Nid Iuddewon bellach oedd gwrthwynebwyr yr apostol, yn gymmaint a Christionogion Iuddewaidd. Dadleuid os oedd y Cenhedloedd i gael etifeddu breintiau Cristionogol, mai yr unig ddrws i mewn i'r eglwys oedd yr enwaediad. Y mae iaith Paul, wrth son am y Cristionogion Iuddewig yn yr epistol hwn, yn dangos nad oedd y gwrthwynebiad i'w ddysgeidiaeth y pryd hwnw wedi cyrhaedd y ffurf diweddaf a nodwyd. Nid oedd efe yn eu hystyried hwy etto fel rhai yn tori ar heddwch yr eglwys. Y gau athrawon a fynent ddwyn i mewn seremoni gaeth er bod yn attalfa ar ras Duw. Gallasai gyfeirio atynt etto fel esamplau o'r rhai a ddychwelwyd trwyddo yn Thessalonica: *pen.* ii. 14. Yr oedd y cyfnewidiad yn ymyl, ac arwyddion fod ystorm yn agoshau (*Gal.* ii. 11); ond o'r braidd yr oedd y cymmylau etto wedi tywyllu awyrgylch yr eglwysi oedd yn mysg y Cenhedloedd. 3. Nid ydyw yn rhyfedd nad yw addysg athrawiaethol yr apostol yn cymmeryd yr un olygwedd yn hollol yn y llythyrau hyn ag yn y rhai diweddarach. Yr oedd anghenion yr eglwys yn dwyn i eglurder athrawiaethau neillduol mewn amseroedd diweddarach. Y mae sylw wedi ei wneuthur, er enghraifft, nad oes yn yr epistolau at y Thessaloniaid gyferbyniad rhwng "ffydd a gweithredoedd;" nad yw y gair *cyfiawnhâd* yn digwydd ynddynt o gwbl; fod y syniad o farw gyda Christ, a byw gyda Christ, sydd mor gyffredin yn epistolau diweddarach Paul, yn absennol o honynt. Y safle a gymmerwyd gan y Cristionogion Iuddewaidd yn ddiau a fu yn achlysur i arwain yr apostol i ddal mor bendant a helaeth ar yr athrawiaeth o ffydd gadwedigol, a'r gwir syniad am fywyd duwiol. Yn yr epistolau at y Thessaloniaid, ail ddyfodiad Crist ydyw y pwngc mawr yr ymdrinir âg ef; a diau fod gan yr apostol resymau dros roddi amlygrwydd arbenig i'r athrawiaeth hon ar y pryd. Dyma un o'r athrawiaethau mwyaf cysurus i gynnal a diddanu yr eglwys yn ei mabandod yn ngwyneb ei herledigaethau.

III. Yr hyn a ganlyn oedd yr achlysur a barodd i'r apostol ysgrifenu y llythyr hwn:—Yr oedd wedi ymdrechu ymweled â Thessalonica ddwywaith, ond wedi methu y ddau dro. Gan iddo gael ei luddias fel hyn i'w gweled yn bersonol, yr oedd wedi anfon Timotheus i ymholi am danynt, a gwneyd adroddiad iddo o'u holl helynt: *pen.* iii. 1—5. Dychwelodd Timotheus gyda newyddion ffafriol, gan fynegu, nid yn unig am eu cynnydd mewn ffydd ac ymarferiadau

Digitized by Google

crefyddol, ond hefyd am eu hymlyniad wrth eu hen ddysgawdwr: *pen.* iii. 6—10. Y mae yr Epistol Cyntaf yn cynnwys teimlad calon Paul ar ol derbyn y newydd cysurus hwn. Yr un pryd nid oedd y newyddion a ddygodd Timotheus yn foddhaol. Yr oedd rhyw nodweddau yn sefyllfa yr eglwys yn Thessalonica yn galw am ymyriad Paul, at yr hyn y cyfeiria efe yn ei lythyr:—1. Yr oedd gwresogrwydd eu ffydd Gristionogol, yn dal yn rhy neillduol ar ail ddyfodiad yr Arglwydd, wedi achlysuro canlyniadau niweidiol. Ar un llaw, yr oedd anghyfleusdra ymarferol wedi cyfodi. Yn eu disgwyliad pryderus am yr adeg bwysig, yr oedd rhai wedi esgeuluso eu galwedigaethau tymmorol, fel pe na buasai pethau yn dal cyssylltiad â'r byd hwn yn haeddu sylw o gwbl wrth feddwl am y fath gyfnewidiad: *pen.* iv. 11; cymmh. 2 *Thes.* ii. 1; iii. 6—11, 12. Ar y llaw arall, yr oedd anhawsder damcaniaethol yn cael ei deimlo. Yr oedd rhai o aelodau yr eglwys wedi marw; a phryder mawr yn cael ei deimlo rhag y buasent yn cael eu cau allan o bob rhan yn ngogoniant ail ddyfodiad Crist: *pen.* iv. 13—18. Cerydda Paul afreoleidd-dra y blaenaf, a chwâl ymaith ofnau yr olaf. 2. Yr oedd fflam erledigaeth wedi tori allan, a'r Thessaloniaid o ganlyniad mewn angen cynnaliaeth a chysur o dan eu treialon chwerwon: *pen.* ii. 14; iii. 2—4. 3. Yr oedd teimlad afiachus yn amlygu ei hun yn sefyllfa y bobl yn mherthynas i ddoniau ysbrydol. Fel y Corinthiaid, mewn amser diweddarach, yr oedd arnynt eisieu eu hadgofio o werth mwy 'prophwydoliaeth,' o'i gymmharu â doniau ereill yr Ysbryd a ddyrchefid ganddynt hwy ar draul hwn: *pen.* v. 19, 20. 4. Yr oeddynt hwy, fel cenhedloedd proffesedig ereill, mewn perygl o syrthio yn ol i'w hen arferion llygredig. Yn erbyn hyn hefyd y mae yr apostol yn rhoddi gair yn ei bryd: *pen.* iv. 4—8. Nid ydym i dybied, pa fodd bynag, fod Thessalonica yn waeth yn yr ystyr yma na dinasoedd Groegaidd ereill.

IV. Er hyn oll, yr oedd sefyllfa Thessalonica yn hynod foddhaol ar y cyfan, a'r teimladau goreu yn ffynu rhwng Paul a'r dysgyblion yno. Yr oedd yn gyffelyb yn hyn i eglwys Philippi. Bob amser, ac yn mhob cyfnewidiad yn ei amgylchiadau, at yr eglwysi Macedoniaidd yr oedd yr apostol yn troi am gynnaliaeth a chysur. Y mae cyfnod o ddeng mlynedd rhwng awduriaeth yr Epistol Cyntaf at y Thessaloniaid a'r Epistol at y Philippiaid; etto, nid oes dim dau o'i lythyrau mor debyg i'w gilydd yn yr ystyr yma. Y mae yn gadael heibio ei deitl apostolaidd yn yr anerchiad agoriadol yn y naill a'r llall, ac yn appelio at eu serch hwynt, yn hytrach nag at ei awdurdod ei hun. Yn y naill a'r llall y mae yn dechreu ar gorph y llythyr trwy gymmeradwyo a chanmawl yn galonog y rhai y mae yn ysgrifenu atynt; ac y mae yr un ysbryd hyderus a charedig yn anadlu trwy y ddau.

V. Y mae cymmharu yr hanes a geir yn yr Actau â'r cyfeiriadau a geir yn hwn, ac yn yr Ail Epistol at y Thessaloniaid, yn addysgiadol. Gyda rhai cyd-ddigwyddiadau nodedig, y mae rhyngddynt gymmaint o wahaniaeth ag a ellid ei ddisgwyl rhwng ysgrifenydd a gymmerodd y rhan fwyaf blaenllaw yn yr hyn y cyfeirir ato, a hanesydd oedd wedi cael ei wybodaeth trwy gyfrwng rhai ereill. I fyned heibio i amryw o gyd-ddigwyddiadau amlwg, gallwn gyfeirio at un nad ydyw mor eglur ar yr olwg gyntaf. Y mae yn codi o ffurf y cyhuddiad a ddygwyd yn erbyn Paul a'i gymdeithion yn Thessalonica yn yr Actau: "Ac y mae y rhai hyn oll yn gwneuthur yn erbyn ordeiniadau Cæsar, gan ddywedyd fod brenin arall, sef Iesu;" *pen.* xvii. 7. Y mae y cyfeiriadau yn yr epistolau at y Thessaloniaid yn ein cynnorthwyo i ddeall sail y cyhuddiad hwn. Ymddengys ei fod, pan yn llefaru yn y ddinas hono, yn sôn llawer am deyrnas Crist, fel y gwnelai yn yr epistolau eu hunain. Rhoddai siars i'r dychweledigion newydd i ddisgwyl am ddyfodiad Mab Duw o'r nef, fel eu Gwaredwr: *pen.* i. 10. Cyfeiriai yn ddifrifol at ddychryndeydd y farn, a oddiweddent y rhai drygionus: *pen.* iv. 6. Yr oedd wedi egluro yn helaeth yr arwyddion a ymddangosent cyn y dydd mawr: 2 *Thes.* ii. 5. Naill ai oddi ar falais, neu ynte anwybodaeth, camddarluniwyd yr iaith a arferai, a chyhuddwyd ef o osod i fyny benadur fel cydymgeisydd âg ymherawdwr Rhufain.

Ar y llaw arall, y mae yr iaith yn yr epistolau hyn yn gwahaniaethu oddi wrth hanesiaeth Luc ar ddau neu dri o bethau yn y fath fodd fel ag i ddangos annibyniaeth y ddau adroddiad, ac hyd yn oed i'r fath raddau fel y mae yn galw am ryw eglurhâd. 1. Y mae y cyntaf o'r rhai hyn yn cyfeirio at gyfansoddiad yr eglwys yn Thessalonica. Yn yr Epistol Cyntaf y mae Paul yn anerch ei ddarllenwyr yn bennodol fel cenedl o ddynion oeddynt wedi eu troi oddi wrth eilunaddoliaeth at yr efengyl: 1 *Thes.* i. 9, 10. Yn yr Actau, mynegir hyn:—"Rhai o honynt (Iuddewon) a gredasant...ac o'r Groegiaid crefyddol (hyny yw, y proselytiaid) liaws mawr, ac o'r gwragedd penaf nid ychydig;" *pen.* xvii. 4. Ond nid yw hyn yn cau allan y syniad fod llawer wedi eu dychwelyd yn uniongyrchol oddi wrth baganiaeth. Yn wir, os gellir ymresymu oddi wrth achos cyffelyb yn Berea (*pen.* xvii. 13), yr oedd y gwragedd yn benaf o'r dosbarth yma: ac, os oes rhyw wahaniaeth yn bod, nid yw yn fwy nag y gallesid ei ddisgwyl gan ddau ysgrifenydd annibynol—ac un o honynt, am nad oedd yn llygad-dyst, heb feddu ond gwybodaeth ranol ac anuniongyrchol. Y mae y ddau adroddiad yn gadael yr argraph ar y meddwl na lwyddodd yr efengyl ond ychydig yn mysg yr Iuddewon eu hunain. 2. Y mae erlidwyr y Cristionogion yn Thessalonica yn cael eu darlunio fel eu cydgenedl, *h.y.* fel Cenhedloedd (*pen.* ii. 14); ond sonir yn yr Actau am yr Iuddewon fel gelynion gwaethaf y ffydd: *pen.* xvii. 5. Cyfarfyddir â hyn yn deg gan Paley ["*Horæ Paul.*" ix. rhif 5]; yr hwn a noda mai yr Iuddewon oedd y sawl a gynnhyrfent yr erledigaeth, ond eu bod yn analluog i'w chario allan heb gynnorthwy y Cenhedloedd, fel y gellir casglu oddi wrth yr hanes a rydd Luc. 3. Ymddengys oddi wrth yr hanes a geir ganddo ef, nad arosodd Paul yn Thessalonica ond tair wythnos (*pen.* xvii. 2); ond yn yr Epistol, er nad oes grybwylliad pendant yn cael ei wneyd am hyd yr amser y bu gyda hwy, y mae yr iaith a ddefnyddir (*pen.* i. 4; ii. 4—11) yn arwyddo cyfnod meithach. Ymddengys fod yr hyn a arwyddir yn yr Epistol yn gywir. Yn yr Actau, dywedir yn unig i Paul fod am dri Sabbath (tair wythnos) yn dysgu yn y synagog. Nid ydyw distawrwydd yr ysgrifenydd yn cau allan lafur wedi hyny yn mysg y boblogaeth Genhedlig; ac yn wir y mae hyny megys yn cael ei arwyddo gan lwyddiant ei bregethiad, yr hyn a gyffrodd yr Iuddewon yn ei erbyn ef. 4. Nid ydyw y cofnodion a wneir am symmudiadau Silas a

Digitized by Google

Thimotheus yn y ddau le yn cyttuno ar yr olwg gyntaf. Yn yr Actau, mynegir i Paul gael ei gymmeryd yn ddirgel o Berea, rhag ofn yr Iuddewon. Cyrhaeddodd i Athen, anfonodd orchymyn at Silas a Thimotheus, y rhai a adawsai efe yn Berea, am iddynt ddyfod ato mor fuan ag y gallent: *pen.* xvii. 14—16. Y mae yn eglur, oddi wrth yr hyn a ddywed Luc, fod yr apostol yn disgwyl iddynt ddyfod ato i Athen. Etto ni chlywir dim am eu helynt am beth amser; ac o'r diwedd, wedi i Paul fyned i Corinth, ac i amryw bethau ddigwydd, mynegir i ni fod Silas a Thimotheus wedi dyfod o Maccdonia: *pen.* xviii. 5. O'r Epistol Cyntaf, ar y llaw arall, yr ydym yn casglu y ffeithiau a ganlyn. Dywed Paul nad oeddynt hwy (hyny yw, efe ei hun a Silas, dybygid) yn alluog i ddioddef y pryder yn hwy wedi gweled yn dda eu "gadael yn Athen," a danfon Timotheus i Thessalonica: *pen.* iii. 1, 2. Dychwelodd Timotheus gyda newyddion da, (ond pa un ai i Athen, ynte i Corinth, nid yw yn sicr); a phan yr ysgrifenwyd y ddau lythyr at y Thessaloniaid, yr oedd Timotheus a Silas gyda Phaul: 1 *Thes.* i. 1; 2 *Thes.* i. 1: a chymh. 2 *Cor.* i. 19. Gellir trefnu y digwyddiadau hyn mewn dwy ffordd wahanol; a thrwy y naill neu y llall dygir yr hanes yn yr Actau gyssondeb â'r cyfeiriadau sydd yn yr Epistol. Anfonwyd Timotheus i Thessalonica—nid o Athen, ond o Berea; yr hyn sydd yn hollol gysson â dywediad yr apostol—"Ni a welsom yn dda ein gadael ein hunain yn Athen." Yn yr amgylchiad hwn, cyfarfyddai Timotheus ar ei ddychweliad â Silas yn rhywle yn Macedonia, ac ymunai y ddau â Phaul—nid yn Athen, fodd bynag, lle yr oedd yn eu disgwyl, ond rywbryd yn ddiweddarach, yn Corinth. Y mae yr eglurhâd hwn yn tybied fod y lliosog, "ni a welsom yn dda," yn cyfeirio at Paul ei hun. Y dull arall o gyssoni yr adroddiadau sydd fel y canlyn:—Ymunodd Timotheus a Silas gyda Phaul yn Athen, lle yr ydym yn casglu oddi wrth yr Actau y disgwyliwyd hwynt. O Athen, efe a anfonodd Timotheus i Thessalonica: felly, yr oedd efe a Silas i gael eu hamddifadu o wasanaeth eu cydlafurwr am ryw dymmor. Crybwyllir am y genhadaeth yn yr Epistol, ond nid yn yr Actau. Wedi hyny anfonwyd Silas ar genhadaeth arall—nid ydyw yn cael ei chofnodi yn yr hanes nac yn yr Epistol—at ryw eglwys Facedoniaidd, dybygid [Philippi, fe allai], o'r lle y gwyddys iddo dderbyn cyfraniadau tua'r pryd hwn, â'r hon gan hyny yr oedd yn cadw i fyny ymdrafodaeth: 2 *Cor.* xi. 9: cymmh. *Phil.* iv. 14—16. Dychwelodd Silas a Thimotheus ynghyd o Macedonia, gan ymuno â'r apostol yn Nghorinth. Y mae yr eglurhâd diweddaf, os ydyw yn cymmeryd yn ganiataol fwy o bethau na'r blaenaf, yn meddu y fantais o fod yn rhoddi ystyr priodol i'r rhif liosog yn y frawddeg, "ni a welsom yn dda, ac a ddanfonasom;" o herwydd y mae o leiaf yn ammheus a ddarfu i Paul erioed gymmhwyso y rhif liosog ato ei hun yn unig. Gellir esbonio distawrwydd Luc yn yr achos hwn, naill ai am nad oedd yn meddu gwybodaeth ammherffaith o'r amgylchiadau, neu ynte am ei fod yn myned dros ddigwyddiadau y gwyddai efe am danynt, ond a ymddangosent iddo yn ddibwys.

VI. Am ei gynnwysiad, gellir dywedyd fod yr epistol hwn yn hytrach yn ymarferol nag yn athrawiaethol. Awgrymwyd ef yn hytrach gan deimlad personol, na chan unrhyw angen mawr am dano ar y pryd, a roddasai nodwedd arbenig i'r cyfan. O dan yr amgylchiadau hyn, nid ydys i ddisgwyl am unoliaeth amlwg yn yr amcan, nac am un gadwen ddidôr o ymresymiad. Gellir yn gyfleus, pa fodd bynag, ei ddosbarthu i ddwy ran:—y flaenaf yn cymmeryd i mewn y tair pennod gyntaf, yn cynnwys yn benaf adolygiad ar berthynas yr apostol â'r dychweledigion Thessaloniaidd, ynghyd âg eglurhâd ar ei amgylchiadau a'i deimladau ar y pryd; tra y mae y gyfran ddiweddaf, sef y bedwaredd a'r bummed bennod, yn llawn o gyfarwyddiadau a chynghorion amserol. Yn niwedd y ddwy ran yma y ceir gweddi—sydd yn gyffelyb o ran mater ac iaith. A ganlyn ydyw cynnwysiad yr epistol:—Cyfarchiad: *pen.* i. 1. I. Y rhan hanesiol: *pen.* i. 2—iii. 13. (1.) *Pen.* i. 2—10:—Yr apostol yn cofnodi gyda diolchgarwch eu dychweliad at Gristionogaeth, a'u cynnydd mewn ffydd:—(2.) *Pen.* ii. 1—12. Adgofia iddynt mor ddiargyhoedd a phur y bu ei fywyd a'i weinidogaeth yn eu mysg. (3.) *Pen.* ii. 13—16:—Y mae yn ail adrodd ei ddiolchgarwch am eu dychweliad, gan sefyll yn arbenig ar yr erledigaethau y buont yn eu dioddef. (4.) *Pen.* ii. 17—iii. 10:—Disgrifia ei betrusder a'i bryder yn eu cylch, yr hyn a barodd iddo ddanfon Timotheus i Thessalonica; ac hefyd, yr adroddiad cysurlawn a ddygwyd yn ol gan y diweddaf. (5.) *Pen.* iii. 11—13:—Gweddi yr apostol dros y Thessaloniaid. II. Y rhan annogaethol: *pen.* iv. 1—v. 24. (1.) *Pen.* iv. 1—8:—Rhybuddion yn erbyn halogrwydd. (2.) *Pen.* iv. 9—12:—Annogaeth i gariad brawdol, gweddeidd-dra, a difrifwch mewn ymddygiad. (3.) *Pen.* iv. 13—v. 11:—Yn mherthynas i ail ddyfodiad Crist. (*a.*) Y caiff y meirw eu lle yn yr adgyfodiad: *pen.* iv. 13—18. (*b.*) Fod yr amser yn ansicr: *pen.* v. 1—3. (*c*). Gan hyny rhaid i bawb fod ar eu gwyliadwriaeth: *pen.* v. 4, 11. (4.) *Pen.* v. 12—15:—Annogaeth i fywyd rheolaidd, ac ar iddynt gyflawni eu dyledswyddau cymdeithasol. (5.) *Pen.* v. 16—22:—Cymmhelliad yn mherthynas i weddi, a dyledswyddau ysbrydol yn gyffredin. (6.) *Pen.* v. 23, 24:—Gweddi yr apostol dros y Thessaloniaid.

VII. Y mae y profion allanol dros ddilysrwydd yr Epistol Cyntaf at y Thessaloniaid yn benaf yn nacaol, ond y maent er hyny yn bwysig. Nid oes dim arwydd ei fod erioed wedi cael ei ammheu mewn unrhyw oes, na chan unrhyw gyfran o'r eglwys, nac hyd yn oed gan bersonau unigol, hyd y ganrif bresennol. Ar y llaw arall, rhaid addef fod y cyfeiriadau ato gan ysgrifenwyr cyn diwedd yr ail ganrif yn ychydig ac yn ammheus—amgylchiad y gellir yn hawdd ei esbonio, pan yr ystyriwn nodwedd yr epistol ei hun, symlder cymmharol ei iaith, ei ddistawrwydd ar y cwestiynau athrawiaethol pwysicaf, ac, a siarad yn gyffredinol, absennoldeb pethau amlwg a dueddant i gyffroi sylw ac i gyfeirio yn bennodol atynt. Y mae yn ysgrifeniadau Clement o Rufain rai pethau yn cael eu gosod allan mewn iaith gyffelyb i'r hon a geir yn yr epistol hwn. Felly hefyd y mae yn ngweithiau Ignatius. Tybia rhai fod gan Polycarp gyfeiriad at 1 *Thes.* v. 17, a 22; ond y mae hyn braidd yn ammheus. Y mae yn fwy pwysig i dalu sylw i'r ffaith fod yr Epistol yn cael ei gynnwys yn yr hen gyfieithiadau Lladinaidd a Syriaidd, a'i fod yn y canon Muratoraidd, ac hefyd yn un Marcion. O ddiwedd yr ail ganrif, sef o amser Irenæus i lawr, y mae yr Epistol yn cael ei ddyfynu yn aml, a'i awduriaeth yn cael ei briodoli i Paul.

Digitized by Google

Am y prawf a geir yn nodwedd yr epistol ei hun, y mae hwnw mor gryf fel y gellir yn deg ei ystyried yn anwrthwynebol. Nis gellir myned i mewn i'r cwestiwn o arddull yma; ond y mae amryw awduron wedi ymdrin âg ef yn helaeth a llawn, ac yn enwedig Jowett. Gellir cael ymresymiad yr un mor gryf oddi wrth ddefnyddiau yr epistolau. Cyfeiriwn at ddwy enghraifft yn unig o hyn. Yn y lle cyntaf, y mae tynerwch ac anwyldeb y perthynasau oedd rhwng yr apostol a'r dychweledigion Thessaloniaidd—ei awyddfryd am eu gweled, ei bryder yn ystod absennoldeb Timotheus, a'i lawenydd mawr pan y clywodd newyddion da am danynt—yn rhy naturiol a chalonog iddo fod yn ffugiaeth o eiddo rhywun yn yr eglwys foreuol. Yn yr ail le, defnyddia yr ysgrifenydd iaith, pa fodd bynag yr esbonir hi, sydd yn ymddangos fel yn arwyddo dyfodiad buan yr Arglwydd—iaith digon naturiol ar wefusau yr apostol ei hun; ond o'r braidd y gellir dychymygu am y possiblrwydd yr arferasid hi gan ffugiwr a ysgrifenai ar ol ei farwolaeth, pan yr oedd amser wedi peri siomedigaeth i'r disgwyliadau hyn, a phan nad oedd ei grybwyll yn gwasanaethu un dyben. Ni chymmerasai un a ysgrifenai yn yr ail ganrif y tir hwn i fyny. Schrader oedd y cyntaf i ammheu dilysrwydd yr epistol hwn; a dilynwyd ef gan Baur—yr hwn a aeth i drafferth fawr i ymosod arno. Ond attebwyd ef gan Lünemann, a chan Jowett—yr hwn a ysgrifenodd yn llawn ac yn deg ar y mater, yn y rhagarweiniad a ysgrifenwyd ganddo i'r epistol hwn.

THESSALONIAID, YR AIL EPISTOL AT Y. I. Y mae yn ymddangos i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu o Corinth yn lled fuan ar ol y cyntaf, o herwydd yr oedd Silfanus a Thimotheus etto gyda Paul: *pen.* i. 1. Yn y cyntaf, canfyddir mai un o'i nodweddau mawr ydyw, ymddadblygiad o deimlad a serch personol cryf, yn cael ei achlysuro gan adnewyddiad cyfathrach yr apostol gyda'r Thessaloniaid; ac y mae y rhanau athrawiaethol ac annogaethol ynddo yn ymddangos yn llai amlwg. Yn yr ail epistol, ar y llaw arall, ymddengys mai prif amcan yr ysgrifenydd ydoedd cywiro cyfeiliornadau yr eglwys yn Thessalonica. Gellir sylwi ar ddau beth yn neillduol oedd yn galw am gerydd yr apostol. Yn mlaenaf, ymddengys fod y disgwyliad pryderus oedd am ddyfodiad yr Arglwydd, wedi cynnyddu ac ennill tir, yn hytrach na'i fod wedi lleihau, er pan yr ysgrifenodd ei Epistol Cyntaf. Edrychai y Thessaloniaid ar yr argyfwng pwysig hwn fel peth oedd ger llaw; ac mewn canlyniad, yr oeddynt yn esgeuluso eu dyledswyddau beunyddiol. Yr oedd rhai ymadroddion yn y llythyr cyntaf, o'u cymmeryd wrthynt eu hunain, a ymddangosent megys yn ffafrio y syniad hwn:—pa fodd bynag, dyna y defnydd cyfeiliornus a wnaethpwyd o eiriau yr apostol. Ysgrifenai yntau ei Ail Epistol i dawelu yr ysbryd anesmwyth hwn, a darostwng eu hofnau, trwy ddangos fod yn rhaid i lawer o bethau gymmeryd lle cyn y digwyddai hyny, ac na ddaethai y diwedd etto; a chyfeiriai at ei ddysgeidiaeth lafaredig yn Thessalonica er cadarnhau hyny: *pen.* ii. 1—12; iii. 6—12. Yn ail, yr oedd gan yr apostol hefyd achos personol i gwyno. Nid oedd ei awdurdod yn cael ei wadu gan neb; ond er hyny, yr oedd defnydd anawdurdodedig yn cael ei wneyd o'i enw. Y mae yn anhawdd cael allan i sicrwydd llawn amgylchiadau yr achos oddi wrth gyfeiriadau achlysurol ac ammhennodol; ac yn wir, fe ellir casglu oddi wrth iaith yr apostol ei hun nad oedd yntau chwaith yn meddu hysbysrwydd cyflawn—ond y mae yn amlwg fod ammheuon wedi eu cyffroi. Gallasai dynion cyfrwysddrwg gamddarlunio ei ddysgeidiaeth ef mewn dwy ffordd:—naill ai trwy gelu yr hyn yr oedd efe wedi ei ysgrifenu neu ei lefaru, neu trwy ffugio llythyrau, ac mewn amryw ffyrdd ei osod allan fel yn dysgu yr hyn nad oedd yn ei ddysgu. Y mae iaith Paul mewn gwahanol fanau yn awgrymu y ddwy ffordd yma o gamddarlunio. Ymddengys ei fod yn coleddu ammheuaeth o'r anonestrwydd hwn hyd yn oed pan yn ysgrifenu ei Epistol Cyntaf. Yn niwedd yr epistol hwnw y mae yn rhwymo y Thessaloniaid trwy lw difrifol "yn yr Arglwydd," ar eu bod yn edrych ar fod i'r llythyr gael ei ddarllen "i'r holl frodyr sanctaidd" (*pen.* v. 27)—siars nas gellid ei deall wrthi ei hun, ac nas gellir ei hesbonio ond ar y dybiaeth fod rhyw ammheuon yn meddwl yr apostol gyda golwg ar eu tegwch yn hyn o beth. Ymddengys fod yr anymddiried hwn wedi ei gadarnhau, cyn iddo ysgrifenu ei Ail Epistol; o herwydd y mae mewn dau fan yn cyfeirio at y camddarluniadau hyn a roddwyd o'i ddysgeidiaeth. Yn y cyntaf o honynt, efe a ddywed wrth y Thessaloniaid mewn iaith lled ammwys, a ddichon fod yn cyfeirio at yr eglurhâd twyllodrus a roddwyd ar ei ymadroddion yn yr Epistol Cyntaf, neu at ryw lythyr arall wrth yr hwn y ffugwyd ei enw, am iddynt beidio cymmeryd eu cynnhyrfu, "na chan ysbryd, na chan air, na chan lythyr, megys oddi wrthym ni, fel pe bae dydd Crist yn gyfagos." Efe a chwanega nad oeddynt i gymmeryd eu twyllo gan neb, pa foddion bynag a arferid: *pen.* ii. 2, 3. Mewn man arall, yn agos i ddiwedd yr epistol, efe a ddywed, "Yr anerch â'm llaw i Paul fy hun; yr hyn sydd arwydd yn mhob epistol: fel hyn yr ydwyf yn ysgrifenu;" (*pen.* iii. 17)—yr hyn y mae yn amlwg oedd ragocheliad yn erbyn ffugiaeth. Gellir cyssylltu y ddau ymadrodd uchod â'r hyn a ddywedir yn *pen.* iii. 14, lle y gellir casglu nad oedd efe yn coleddu ofn y cawsai un gwrthwynebiad uniongyrchol:—"Ond od oes neb heb ufuddhau i'r gair trwy y llythyr yma, hysbyswch hwnw; ac na fydded i chwi gymdeithas âg ef, megys y cywilyddio efe."

Canfyddir fod dysgeidiaeth yr Ail Epistol yn barhâd o, neu yn hytrach yn adgyflenwad i'r Epistol Ccyntaf, ac felly yn ei ragdybied. Heb law hyny, y mae yn amlwg ar wyneb yr Epistol Cyntaf fod yr apostol ynddo yn tywallt allan deimladau ei galon mewn dymuniadau serchog tuag at y dychweledigion ar ol ei ymadawiad o Thessalonica; ac o'r tu arall, fod yr ail yn cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at lythyr blaenorol, yr hwn y gellir ei gymmhwyso at yr Epistol Cyntaf:—"Sefwch, a deliwch y traddodiadau a ddysgasoch, pa un bynag ai trwy ymadrodd, ai trwy ein hepistol ni;" *pen.* ii. 15. O'r braidd y gellir camgymmeryd, gan hyny, trwy ddal allan fod y drefn yn mha un y mae yr epistolau wedi eu gosod yn un gywir; er fod beirniaid mor enwog a Grotius ac Ewald yn gosod yr ail yn gyntaf o ran amseriad.

II. Y mae yr epistol hwn, yn eangder ei faterion yn gystal ag o ran ei arddull a'i nodwedd cyffredinol, yn ymdebygoli yn fawr i'r cyntaf; ac y mae y sylwadau a wnaed ar y cyntaf, gan mwyaf, yn dal i'w cymmhwyso yr un mor briodol

Digitized by Google

at yr ail. O ran cynllun hefyd, y mae yn gyffelyb. Y mae corph yr epistol wedi ei ddosbarthu yn ddwy ran, yr un modd a'r cyntaf, a phob un yn diweddu gyda gweddi: *pen.* ii. 16, 17; iii. 16. Fel y canlyn y mae ei gynnwysiad:—Yr anerchiad agoriadol: *pen.* i. 1, 2. 1. Dadganiad cyffredinol o ddiolchgarwch, ac amlygiad o ddyddordeb, ac arweiniad i mewn i'r pwngc o ddyfodiad yr Arglwydd: *pen.* i. 3—ii. 17. 1af, Dadgana yr apostol ei ddiolchgarwch am eu cynnydd yn y ffydd; a chynghora hwynt i fod yn amyneddgar o dan erledigaeth, gan eu hadgofio o'r farn sydd i ddyfod; a gweddia ar eu bod yn barod i'w chyfarfod: *pen.* i. 3—12. 2il, Arweinir ef drwy hyn i gywiro y syniad cyfeiliornus fod y farn gyffredinol yn ymyl, a chyfeiria at y pethau sydd i gymmeryd lle yn gyntaf: *pen.* ii. 1—12. 3ydd, Y mae yn ail adrodd ei ddiolchgarwch a'i gynghor, ac yn terfynu y rhan yma gyda gweddi: *pen.* ii. 13—17. 2. Annogaethau pennodol: *pen.* iii. 1—16. 1af, Cymmhellai hwynt i weddio drosto ef, a disgwylia yn hyderus y byddai iddynt gynnyddu yn y ffydd: *pen.* iii. 1—5. 2il, Cerydda y diog, yr afreolus, a'r anufudd; a chyfarwydda y ffyddloniaid i ymneillduo oddi wrth y cyfryw: *pen.* iii. 6—15. Diwedda y gyfran hon hefyd gyda gweddi: *pen.* iii. 16. Terfynir yr epistol gyda chyfarwyddyd a bendith: *pen.* iii. 17, 18.

III. Y mae y profion allanol dros ddilysrwydd yr epistol hwn yn gryfach na'r rhai a ddygir yn mlaen dros y cyntaf. Ymddengys fod cyfeiriad ato mewn dau neu dri o fanau yn ngweithiau Polycarp; ac y mae yr iaith a ddefnyddir gan Justin Ferthyr hefyd am y "dyn pechod" mor debyg fel nas gellir tybied ei fod yn ysgrifenu yn annibynol ar yr epistol hwn. Ceir yr Ail Epistol, fel y Cyntaf, yn nghanonau yr hen gyfieithiadau Syriaidd a Lladinaidd, ac yn yr un Muratoraidd, yn gystal ag yn nghanon yr heretic Marcion. Dyfynir o hono yn bendant wrth ei enw yn ysgrifeniadau Irenæus, ac ereill, yn niwedd yr ail ganrif; a rhoddid derbyniad iddo yn gyffredinol gan yr eglwys. Y mae nodwedd fewnol yr epistol ei hun hefyd, fel y ceir fod y cyntaf, yn dwyn tystiolaeth sicr i'w awduriaeth gan Paul. Mewn gwirionedd, nid ammheuwyd ei ddilysrwydd erioed hyd ddechreu y ganrif bresennol. Schmidt oedd y cyntaf i godi gwrthwynebiadau iddo. Dilynwyd ef gan Schrader a Baur. Ar y cyntaf, condemniai De Wette yr epistol hwn; ond wedi hyny efe a alwodd yn ol yr hyn a ddywedodd, gan ei dderbyn fel un gwirioneddol.

THESSALONICA. Enw cyntefig y ddinas hon oedd Therona; a chadwodd y gyfran hono o ororau Macedonia lle y safai Thessalonica yr enw Morgaingc Thermaic ar hyd teyrnasiad y Rhufeiniaid. Ni chyrhaeddodd y ddinas i nemawr o enwogrwydd o dan ei henw cyntaf. Pan oedd gwlad Groeg yn adfeilio yr ymgododd hi i'w henwogrwydd mwyaf. Ail adeiladwyd ac eangwyd hi gan Cassander, mab Antipater, ac enwodd hi yn Thessalonica, ar ol enw ei wraig, yr hon oedd yn chwaer i Alexander Fawr. Polybius ydyw yr awdwr cyntaf a gyfeiria ati o dan ei henw newydd. Y mae yr enw, gydag ychydig o wahaniaeth ynddo, wedi parhau arni hyd heddyw, sef Salonica: ac y mae y ddinas yn parhau yn enwog. Salonica (er, o bossibl, fod Adrianople yn fwy) yn bresennol ydyw y dref bwysicaf sydd yn Twrci yn Ewrop, yn nesaf at Caer Cystenyn. O dan y Rhufeiniaid, pan oedd Macedonia wedi ei rhanu i bedair o lywodraethau, gwnaed Thessalonica yn brif ddinas yr ail o honynt. Wedi hyny, pan y crynhowyd y cyfan yn un dalaeth, y ddinas hon yn ymarferol oedd y ddinas benaf. Yr oedd llawer o sylw yn cael ei wneuthur o honi. Bu Cicero ynddi mewn alltudiaeth; ac ysgrifenwyd rhai o'i lythyrau o honi yn ystod ei deithiau yn ol ac yn mlaen i'w dalaeth ei hun, Cilicia. Yn ystod rhyfel cartrefol cyntaf Rhufain yno yr oedd pencadlys plaid Pompey a'r senedd. Yn ystod yr ail ryfel, cymmerodd y ddinas blaid Octavius—am yr hyn, dybygid, y cafodd fedi yr anrhydedd o fod yn "ddinas rydd," yr hyn a gadwyd mewn coffadwriaeth ar rai o'i harian bathol. Sonia Strabo yn y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol am Thessalonica, fel y ddinas fwyaf poblog yn Macedonia, a defnyddir iaith gyffelyb hefyd gan Lucian yn yr ail ganrif.

Y mae hyn yn ein dwyn hyd at adeg ymweliad Paul â'r lle (ynghyd â Silas a Thimotheus) yn ystod ei ail daith genhadol, a phlaniad Cristionogaeth yn Thessalonica. Rhaid crybwyll tri amgylchiad yma, sydd yn egluro mewn modd pwysig yr ymweliad hwn, ynghyd â'r daith hon, yn gystal â'r ddau Epistol at y Thessaloniaid, a ysgrifenwyd gan yr apostol o Corinth yn fuan iawn ar ol ei ymadawiad oddi wrth y dychweledigion Macedonaidd newydd. 1af, Dyma y brif orsaf ar y ffordd Rufeinaidd, a elwid y *Via Egnatia*, oedd yn uno Rhufain gyda'r holl ardaloedd oedd yn ogleddol i Fôr Ægea. Yr oedd Paul ar y ffordd hon pan yn Neapolis (*Act.* xvi. 11), a Philippi (xvi. 12—40). 2il, Gan ei bod ar y ffordd fawr hon, ac mewn cyssylltiad â ffyrdd Rhufeinig ereill, yr oedd Thessalonica yn ganolbwynt rhagorol i ledaenu yr efengyl o hono. A rhaid cofio hefyd, heb law y cyssylltiad oedd rhyngddi a gwastadeddau ffrwythlawn Macedonia a pharthau mwy pellenig, fod ei sefyllfa hefyd ar lan y môr yn ei gwneyd yn ganolbwynt masnach forawl. Mewn gwirionedd, yr oedd hi o'r bron, os nad yn hollol, ar yr un tir a Chorinth ac Ephesus ar gyfrif y fasnach oedd rhyngddi a'r dwyreindir. Gan hyny yr ydym yn canfod grym yr hyn a ddywed yr apostol yn ei epistol cyntaf yn fuan ar ol gadael Thessalonica:—"Canys oddi wrthych chwi y seiniodd gair yr Arglwydd, nid yn unig yn Macedonia ac yn Achaia, ond yn mhob man hefyd eich ffydd chwi ar Dduw a aeth ar led, fel nad rhaid i ni ddywedyd dim;" 1 *Thes.* i. 8. 3ydd, Yr oedd gan yr amgylchiad a nodir yn *Act.* xvii. 1—sef, mai yma yr oedd synagog yr Iuddewon yn Macedonia—y mae yn amlwg lawer a wnelai â chynlluniau yr apostol, ac yn ddiammheu â'i lwyddiant. Diau y dygai masnach eang y ddinas Iuddewon iddi; ac y mae yn ffaith hynod eu bod hwy er y pryd hwnw yn meddu lle amlwg yn hanes y ddinas. Crybwyllir am danynt yn y seithfed ganrif yn ystod y rhyfeloedd Sclafonaidd; a thrachefn yn y ddeuddegfed, gan Eustathius a Benjamin o Tudela. Yn y bymthegfed ganrif aeth lliaws mawr o Iuddewon o Yspaen yno. Cyfrifir fod yno yn awr yn y rhan Iuddewig (y gyfran dde-ddwyreiniol o'r dref) o ddeg i ugain mil o Iuddewon, allan o boblogaeth o drigain neu drigain a deg o filoedd.

Yn y synagog y dywedir fod maes cyntaf llafur yr apostol yn Thessalonica. Yn ol ei arfer, efe a ddechreuodd yno, gan ymresymu o Ysgrythyrau yr Hen Destament (*Act.* xvii. 2, 3):

Digitized by Google

a dilynodd yr un effeithiau ei lafur mawr yn y lle hwn ag mewn manau ereill. Credodd rhai, Iuddewon a phroselytiaid; a mynegir yn neillduol fod yn eu plith wragedd parchus (*adn.* 4); ac ar hyn darfu i gorph yr Iuddewon, wedi eu cyffroi gan eiddigedd, gynnhyrfu ac annog y Cenhedloedd i erlid Paul a Silas: *adn.* 5.—10. Dywedir fod llafur Paul yn mhlith yr Iuddewon wedi parhau am dair wythnos: *adn.* 2. Ond nid ydym i gyfyngu holl arosiad yr apostolion yn Thessalonica i'r cylch hwn o amser. Diau i eglwys flodeuog gael ei sylfaenu yno; ac y mae yr epistolau yn profi ei bod o ran ei helfenau yn fwy Cenhedlig nag Iuddewig. Sonia Paul am y Thessaloniaid fel rhai wedi troi "oddi wrth eilunod;" ac nid ydyw yma, fel y gwna mewn epistolau ereill, yn dyfynu o'r Ysgrythyrau. Ar bob tir y mae yn bwysig i gymmharu y ddau Epistol at y Thessaloniaid â'r hanes yn yr Actau. Y mae yr ymadroddion "gorthrymder mawr" (1 *Thes.* i. 6), a "chael ammharch" (*pen.* ii. 2), yn synio i fyny yr helbulon a'r dioddefiadau yr aeth Paul a'r dychweledigion at Gristionogaeth drwyddynt yn Thessalonica. Gwel hefyd 1 *Thes.* ii. 14, 15; iii. 2, 4; a 2 *Thes.* i. 4—7. Cymmerodd yr erledigaeth le trwy offerynoliaeth "rhyw ddynion drwg o grwydriaid" (*Act.* xvii. 5); pa rai, yn cael eu hannog gan yr Iuddewon, a gyfodasant derfysg. Ymosodwyd ar dŷ Iason—lle, fel yr ymddengys, yr arosai yr apostolion. Ni chafwyd gafael ynddynt hwy eu hunain; ond dygwyd Iason o flaen yr awdurdodau ar y cyhuddiad o fod y Cristionogion yn ceisio gosod i fyny frenin newydd mewn gwrthwynebiad i'r ymherawdwr; a chafwyd "sicrwydd gan Iason a'r lleill" y cedwid yr heddwch; ac anfonwyd Paul a Silas ymaith o hyd nos i Berea: *Act.* xvii. 5—10. Y mae y cyhuddiad neillduol a ddygid yn erbyn yr apostolion yn cael ei egluro i raddau yn yr epistolau, lle y crybwyllir yn bendant am deyrnas Crist: 1 *Thes.* ii. 12; 2 *Thes.* i. 5. Felly hefyd y mae athrawiaeth yr adgyfodiad yn cael ei dwyn i amlygrwydd mawr yn yr hanes a roddir gan Luc (*Act.* xvii. 3), ac yn yr Epistol Cyntaf: *pen.* i. 10; iv. 14, 16. Os awn oddi wrth bethau cyffredinol at yr hyn sydd bersonol, galluogir ni, oddi wrth yr epistolau, i bortfeithio y disgrifiad o ymddygiad Paul yn Thessalonica gyda golwg ar ei dynerwch, ei gariad, a'i sêl, ynghyd a'i hunanymwadiad a'i ofal dros eneidiau: 1 *Thes.* i. 5; ii. 1—10.

Y Cristionogion cyntaf oedd yno yr ydym yn alluog i gael eu henwau, ydynt—yr Iason a grybwyllir uchod (yr hwn a all fod yr un a châr yr apostol, y crybwyllir am dano yn *Rhuf.* xvi. 21); Demas (2 *Tim.* iv. 10); Gaius, yr hwn a fu yn cyfranogi o beryglon yr apostol Paul yn Ephesus (*Act.* xix. 29); Secundus, yr hwn a aeth gydag ef o Macedonia i Asia, i gyfeiriad y dwyrain ar ei drydedd daith genhadol, ac a gymmerasai ran, dybygid, yn achos y casgliad (*Act.* xx. 4); ac yn enwedig Aristarchus, yr hwn, heb law ei fod yn cael ei grybwyll yma gyda Secundus, a aeth gyda Phaul ar ei fordaith i Rufain—yr hwn y cyfeirir ato yn fynych yn y ddau epistol a ysgrifenodd yr apostol yn ystod ei garchariad cyntaf yn y ddinas hono.

Dylid dywedyd gair am hanesiaeth eglwysig diweddarach Thessalonica—neu Salonica, fel y gelwir hi yn bresennol. Am amryw ganrifoedd bu y ddinas hon yn rhagfur ac yn ddiogelfa, nid yn unig i ymherodraeth Groeg, ond i Gristionogaeth yn y dwyrain; a bu yn dra gwasanaethgar gyda'r gwaith o ddychwelyd y Sclafoniaid a'r Bulgariaid. Dyma barodd iddi gael ei galw "y ddinas uniongred;" ac y mae ymdrechion ei phreswylwyr gyda hyn yn cael llawer o sylw gan yr haneswyr Byzantiaidd. Ymosodwyd arni, a chymmerwyd hi, deirgwaith yn y canoloesoedd—gan y Saraceniaid yn B. A. 904; gan y Croesgadwyr yn 1185; a chan y Tyrciaid, o dan Amurath II., yn 1430. Y mae poblogaeth y ddinas yn bresennol tua deng mil a thrigain, fel y crybwyllwyd; o ba rai y mae deng mil ar hugain yn Dyrciaid, ugain mil yn Roegiaid, ac ugain mil yn Iuddewon.

THEUDAS: enw terfysgwr a grybwyllir yn araeth Gamaliel o flaen cynghor Iuddewig, pan yr oedd yr apostolion o flaen y cynghor: *Act.* v. 35—39. Ymddengys ei fod, yn ol yr hanes a geir gan Luc, yn flaenor ar bedwar cant o wŷr; ac yr ymdrechai, nid yn unig gamarwain y bobl trwy dwyll, ond hefyd ddwyn i ben ei amcanion trwy drais. Coleddai syniadau uchel am dano ei hun; ond lladdwyd ef, a gwasgarwyd ei bleidwyr. Sonia Josephus ["*Hynaf. Iudd.*," xx. 5, *adr.* 1], am un Theudas a chwareuodd ran gyffelyb yn amser Claudius, o ddeutu B. A. 44: hyny yw, o ddeg i ddeuddeng mlynedd o leiaf ar ol i Gamaliel draddodi ei araeth; a chan fod Luc yn gosod y Theudas y sonia efe am dano, o ran trefn amser, o flaen Iudas y Galilead, yr hwn a wnaeth ei ymddangosiad yn fuan ar ol diorseddiad Archelaus (hyny yw, B. A. 6 neu 7), y mae ysgrifenydd yr Actau wedi cael ei gyhuddo, naill ai o ffugio araeth i'w rhoddi yn ngenau Gamaliel, neu o ddwyn i mewn iddi drafodaeth a gymmerasai le ddeng mlynedd ar hugain, neu chwaneg, ar ol yr amser y mynegir iddo ddigwydd. Ond y mae yn amlwg mai anghyfiawnder â Luc ydyw priodoli iddo gamsyniad mor fawr: o herwydd wedi sefydlu ei gymmeriad mewn cynnifer o enghreifftiau pendant yn y cyfeiriadau a wneir ganddo at bersonau, lleoedd, arferion, a digwyddiadau mewn hanesyddiaeth gyffredinol a chyssegredig, y mae yn meddu hawl i gael ei ystyried yn gywir yn mherthynas i'r ffeithiau sydd yn dal cyssylltiad â'r mater hwn. Y mae pob egwyddor o feirniadaeth deg yn hawlio ein bod, yn lle colli ein hymddiried ynddo mor fuan ag yr elo y tu hwnt i'n gallu i ddwyn geirwiredd yr hyn a hysbysir ganddo i amlygrwydd, yn ymdrechu i amddiffyn ei gywirdeb a'i ddilysrwydd.

Y mae amryw geisiadau wedi eu gwneuthur i symmud yr anhawsder. Gellir enwi y ddau awgrymiad a ganlyn yn arbenig, y rhai a wneir gan ddynion dysgedig a synwyrol:—1af. Gan fod Luc yn gosod allan fod Theudas yn blaenori Iudas y Galilead, y mae yn sicr nas gallasai fod yn ddiweddarach na'r rhan olaf o deyrnasiad Herod Fawr. Yr oedd y flwyddyn y bu y penadur hwnw farw yn hynod am ei therfysgoedd: yr oedd pleidiau gelynol wedi goresgyn y wlad, o dan arweiniad penaethiaid gwrthryfelgar neu benboethiaid. Nid ydyw Josephus yn crybwyll ond am dri o'r terfysgwyr hyn wrth eu henwau: y mae yn myned heibio y gweddill heb wneyd dim ond cyfeiriad cyffredinol atynt. Yn mysg y rhai y gadawodd yr hanesydd Iuddewig allan eu henwau, fe allai fod y Theudas a enwir gan Gamaliel yn un. Nid oedd yr enw yn un anghyffredin; ac nid yw yn syndod fod un Theudas yr hwn oedd derfysgwr, wedi ymddangos yn amser Augustus; ac un arall, hanner can mlynedd

Digitized by Google

yn ddiweddarach, yn amser Claudius. Yn cyfatteb i'r dybiaeth hon y mae y ffaith fod Josephus yn adrodd am bedwar o ddynion o'r enw Simon, a ddilynasant eu gilydd o fewn cylch deugain mlynedd; a thri o'r enw Iudas o fewn deng mlynedd, y rhai a gynnhyrfent wrthryfel. Y mae y dull hwn o gyssoni Luc â Josephus yn cael ei gymmeradwyo gan Lardner, Bengel, Kuinoel, Olshausen, Anger, Winer, ac ereill.

Y mae eglurhâd arall, sydd yn hanfodol wahanol, yn cael ei gynnyg; sef, fod y Theudas y cyfeiria Luc ato yn un o'r tri therfysgwr y crybwyllir eu henwau gan Josephus mewn cyssylltiad â'r terfysgoedd a gymmerasant le tuag adeg marwolaeth Herod. Dyma y golygiad a gymmera Sontag; ac y mae yn ei amddiffyn gyda dysg a medrusrwydd neillduol. Ymresyma efe mai yr un ydyw y Theudas y cyfeiria Gamaliel ato a'r un a grybwyllir gan Josephus o dan yr enw Simon—un o weision Herod, yr hwn a ymdrechodd wneyd ei hun yn frenin trwy gymmeryd mantais ar farwolaeth y penadur hwnw. Y rhesymau canlynol a roddir ganddo er cadarnhau y golygiad hwn:—yn gyntaf, buasai y Simon hwn, y mwyaf hynod o'r rhai a aflonyddent ar yr heddwch, yn debyg iawn o ymgynnyg i feddwl Gamaliel er egluro y mater oedd ganddo mewn llaw: ac yn ail, disgrifir ef fel dyn yn gwneyd yr un honiadau uchel: yn drydydd, rhoddwyd ef i farwolaeth, ac nid yw Josephus yn dywedyd fod hyny wedi digwydd i'r ddau derfysgwr arall: ac, yn olaf, gan ei fod ar y cyntaf yn gaethwas, yr oedd hyny yn cyfrif am y ddau enw; o herwydd ei fod yn beth cyffredin yn mysg yr Iuddewon i gymmeryd enwau gwahanol pan yn newid eu galwedigaethau, neu eu dull o fyw. Y mae yn eithaf possibl, gan hyny, fod Gamaliel yn son am dano fel Theudas; o herwydd, gan y gelwid ef wrth yr enw hwnw am dymmor mor faith yn Ierusalem, wrth yr enw hwn yr oedd yn fwyaf adnabyddus i aelodau y Sanhedrim; a bod Josephus, oedd yn ysgrifenu i Rufeiniaid a Groegiaid, yn son am dano wrth yr enw Simon, am mai wrth yr enw hwnw y ceisiai osod ei hun i fyny fel brenin, ac y daeth yn adnabyddus i ddyeithriaid.

Ymddengys y naill a'r llall o'r tybiau hyn yn rhesymol; ac y mae yn rhaid eu gwrthbrofi cyn y gellir yn deg gyhuddo Luc o gamamseriad yn y gyfran dan sylw. Y mae tyst mor ammhleidiol a Jost, hanesydd yr Iuddewon, yn cydnabod eu rhesymoldeb; a dywed fod Luc a Josephus i'w credu. Priodol, gan hyny, y gallasai Lardner ddyweyd, "Yn wir yr wyf yn rhyfeddu fod un dyn o ddysg yn ei theimlo yn anhawdd i gredu fod dau dwyllwr o'r enw Theudas mewn cyfnod o ddeugain mlynedd o amser."—"*Credibility,*" i. td. 433. Yn gymmaint ag nad ydoedd Josephus mewn un modd yn anffaeledig, y mae yn sicr, wedi'r cwbl, mai efe, ac nid Luc, sydd wedi camgyfleu amser Theudas. Y mae amryw ysgrifenwyr dysgedig ereill heb law y rhai a nodwyd wedi talu sylw i'r mater hwn.

THIRLWALL, CONNOP, D. D., esgob Tŷ Ddewi. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1797. Yr oedd ei dad yn weinidog yn Nghapel Tavistock, Long Acre, Llundain, ar un adeg. Addysgwyd Connop yn ysgol y Charter-house; a phan yn ieuangc, dangosodd ei fod yn ddysgwr gwych. Peth teilwng o sylw yn ei hanes ydyw yr amlygiad boreu a roddodd o'i fod yn meddu gallu i gyfansoddi. Mor gynnar a'r flwyddyn 1809, pan nad oedd efe ond ychydig gydag un ar ddeg oed, daeth allan o'r wasg gyfrol fechan o'i gyfansoddiad ef, gyda chymmeradwyaeth Esgob Dromore. Ei deitl oedd, "*Primitiæ; or Essays and Poems on various subjects—Religious, Moral, and Entertaining, by Connop Thirlwall.*" Ar gyfer y wyneb-ddalen, y mae ei ddarlun yn ngwisg ysgolor y dyddiau hyny; ac o dano, ei oedran. Yn y rhagymadrodd gan Mr. Thomas Thirlwall, hysbysir y darllenydd fod awdwr y llyfr yn alluog i ddarllen Lladin pan yn dair blwydd oed, yn gallu darllen Groeg pan yn bedair, ac wedi amlygu talent at gyfansoddi pan yn saith oed. Y mae y rhan fwyaf o'r llyfr yn gynnwysedig o bregethau; ac y mae yn ddiammheuol fod pregethau gwaelach wedi eu pregethu gan hen bobl na phregethau y bachgen hwn, pan nad oedd ond un ar ddeg oed. Yn eu dilyn y mae traethodau a barddoniaeth; a diau fod y llyfryn bychan yn deilwng o'i ystyried yn un o bethau hynod llenyddiaeth. O'r Charter-house, symmudodd i Goleg y Drindod, Caergrawnt, ac ennillodd yno anrhydedd mawr. Llwyddodd i ennill ysgoloriaeth Bell, ysgoloriaeth Craven, bathodyn y Canghellydd, a chymmrodoriaeth. Ar ol bod yn Nghaergrawnt am rai blynyddoedd, dewisodd yr alwedigaeth gyfreithiol, a galwyd ef at y bâr yn 1825; ond newidiodd ei feddwl yn fuan, a chymmerodd urddau eglwysig; ac yn 1828 pennodwyd ef yn athraw Coleg y Drindod.

Tua'r pryd hwn ymunodd Thirlwall gyda Julius Charles Hare i gyfieithu "*Roman History*" Niebühr, yr hwn a gyhoeddwyd ganddynt yn 1831. Bu y ddau ysgolhaig rhagorol hyn hefyd yn golygu y "*Philological Museum;*" ac ymddangosodd ynddo ar y pryd lawer o bapurau gwerthfawr ar wahanol faterion yn dal perthynas â llenyddiaeth hynafol. Yn 1835, y daeth allan y gyfrol gyntaf o "*History of Greece,*" Thirlwall, fel cyfran o "*Cabinet Cyclopædia*" Larduer. Cydnabyddwyd teilyngdod y gwaith ar unwaith, a chwanegodd yr awdwr ato mewn argraphiad dilynol. Yr oedd mawr angen am waith o'r fath pan yr ymgymmerodd yr awdwr â'i gyfansoddi. Cyhoeddwyd ef ar ol hyny ar wahân. Dyma brif waith yr awdwr; ac er fod Grote wedi ysgrifenu yn helaeth ac yn rhagorol ar yr un testyn, y mae cyfansoddiad Thirlwall yn dal ei dir. Symmudwyd ef o fod yn ddarlithydd yn Ngholeg y Drindod yn 1833; a hyny, meddir, am iddo gyhoeddi pamphled yn yr hwn y dadleuai dros estyn breintiau neillduol perthynol i'r brif ysgol i Ymneillduwyr. Y flwyddyn ddilynol, cyflwynwyd iddo berigloriaeth Kirby Underdale, yn swydd Caerefrog, gan Arglwydd Brougham, yr hon oedd yn llaw yr Arglwydd Ganghellydd i'w rhoddi. Yno y bu yn gweinidogaethu nes y bu farw Dr. Jenkinson, yn 1840; yr hyn a adawodd esgobaeth Tŷ Ddewi yn wâg. Cynnygiwyd yr esgobaeth hono i Dr. Thirlwall, a derbyniodd yntau hi. Y bleidlais gyntaf a roddodd efe yn Nhŷ yr Arglwyddi oedd o blaid estyn breintiau gwladol chwanegol i'r Iuddewon. Traddododd araeth ar y pryd, yn yr hon y rhoddodd efe ddadganiad o'i egwyddorion, a phrawf o'i alluoedd rhesymegol cryfion, y rhai oeddynt bob amser yn mynu parch a sylw y tŷ.

Un cwestiwn pwysig a gyfododd y pryd hwn oedd y priodoldeb o uno esgobaethau Llanelwy a Bangor. Dyna oedd cynnygiad y llywodraeth; a bwriadwyd ef i rwyddhau y ffordd i sefydlu

Digitized by Google

esgobaeth yn Manchester; a chefnogid y cynnygiad gan y Duc o Wellington ac Archesgob Caergaint. Dygodd Arglwydd Powys fesur i mewn yn gwrthwynebu yr uniad, yr hwn a gefnogwyd yn wresog gan esgob Tŷ Ddewi. Yna tynwyd mesur y llywodraeth yn ol; a dygwyd un arall i mewn gyda'r un amcan yn 1844—ond gwrthodwyd ef. Yn 1845, cyflwynodd Syr Robert Peel ei gynnygiad i waddoli Coleg Maynooth ger bron Tŷ y Cyffredin am y tro cyntaf. Pleidiodd Thirlwall y mesur pan y daeth ger bron Tŷ yr Arglwyddi mewn areithiau galluog ac ymresymiadol; y rhai a wnaethant gymmaint a dim a ysgrifenwyd neu a ddywedwyd ar y pryd dros ei lwyddiant. Cefnogodd hefyd y symmudiad mawr oedd yn cynnhyrfu y wlad ar y pryd, sef y Cynghrair dros ddiddymu Deddfau yr Yd. Yr oedd efe bob amser yn wrthwynebol i'r symmudiad dros gyfreithloni priodas gyda chwaer gwraig drangcedig. Ymunodd hefyd i gondemnio archiad (*bull*) y pab yn 1851; yr hyn a arweiniodd i basio Ysgrif y Teitlau Eglwysig. Yn mhlith mesurau ereill oedd yn dal perthynas â'r Eglwys Sefydledig yr oedd efe yn ffafriol iddynt, yr oedd diwygiad Deddf Unffurfiaeth. A gellir dywedyd fod ei araeth fawr, yr hon a draddodwyd ganddo yn Nhŷ yr Arglwyddi ar y cwestiwn o ddadsefydliad yr eglwys yn yr Iwerddon, yn un o'r rhai goreu a draddodwyd o gwbl ar y mater hwnw. Yr oedd efe yn un o gefnogwyr mwyaf diysgog rhyddid crefyddol, ac yr oedd yn Brotestant di-ildio. Condemniai Babyddiaeth yn ddiarbed; ac yn ei archiadau diweddaf, rhybuddiai wladweinyddion Prydain yn y modd mwyaf difrifol, wrth ffurfio cyfundrefn o addysg, i gadw gwyliadwriaeth ddyfal ac eiddigus ar y blaid Babaidd.

Yn ei archiadau (*charges*) a'i bregethau, ceir dadganiad o'i olygiadau ar brif gwestiynau y dydd sydd wedi eu dadleu mewn amseroedd diweddar. Ymdrinodd â "*Theory of Development*" Newman mewn siars a draddododd yn 1848. Tair blynedd yn ddiweddarach y cyfododd dadl Gorham, ac yr oedd golygiadau Thirlwall yn hollol gyttunol â dedfryd y Cyfringynghor. Yr oedd efe yn bleidiol hefyd i adnewyddiad y gymmanfa eglwysig, ac yn cymmeryd rhan yn awr ac eilwaith yn ei gweithrediadau. Mewn anerchiad a draddododd efe i glerigwyr ei esgobaeth yn 1863, ymdrinodd hefyd â'r holl gwestiwn a gyfodai oddi ar gyhoeddiad yr "*Essays and Reviews*," a gweithiau yr esgob Colenso. Wedi gweinyddu ei swydd yn Nhŷ Ddewi am bedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd, efe a ymddiswyddodd yn Mehefin, 1874. Yr oedd ei iechyd eisoes yn gwaelu, a hen ddyddiau wedi ei ddal; ac ar y 27ain o Orphenaf, 1875, efe a fu farw yn ei dŷ ei hun yn heol Pulteney, yn ninas Bath, yn 78ain mlwydd oed.

Nid dyn cyffredin mewn un modd oedd Dr. Thirlwall, fel y gellir casglu oddi wrth yr amlinelliad uchod o hanes ei fywyd. Mewn oes oedd yn glodfawr am ei hysgolheigion gwych, yr oedd efe i'w restru yn mysg y rhai blaenaf. Fel hanesydd, nid oes ond ychydig a ragorant arno; ac fel meddyliwr a beirniad, y mae yn ddiammheu y gellir ei ystyried yn y dosbarth blaenaf. Fel esgob hefyd, amlygodd lawer o allu gweinyddiadol. Gwnaeth lawer trwy ei esampl a'i gynghorion i roddi adnewyddiad a bywyd mewn amryw symmudiadau a dueddent i ddyrchafu yr eglwys yr oedd efe yn swyddog uchel ynddi. Bu yn ffyddlawn iawn yn ceisio gwellhau tai y clerigwyr a'r eglwysydd yn ei esgobaeth, yn gystal ag yn cefnogi addysg. Nid yn fuan yr anghofia y rhai a gawsant y cyfle i wrandaw ei archiadau esgobol y syniadau eang a gynnwysant, eglurder a nerth ei arddull, ei ymdriniaeth gyflawn â'r pwngc mewn llaw, a'r ysbryd rhyddfrydig oedd yn anadlu drwyddynt. Dylid crybwyll, fel prawf o'i awyddfryd i gymmhwyso ei hun at ddefnyddioldeb yn nghyflawniad ei swydd iddo ddysgu yr iaith Gymraeg ar ol derbyn y pennodiad iddi, fel ag i'w alluogi i bregethu i'r trigolion yn eu hiaith eu hunain.

THORNWALDSEN, BERTEL: un o'r cerflunwyr enwocaf mewn amseroedd diweddar. Ganwyd ef, fel y tybir, yn Copenhagen, ar y 19eg o Dachwedd, 1770; ond nis gellir penderfynu hyd sicrwydd lle nac amser ei enedigaeth. A phan y gofynwyd iddo ef ei hun, ei atteb brysiog fyddai:—"Nis gwn i: ond daethum i Rufain yr 8fed o Fawrth, 1797;" fel pe buasai am ddyddio ei enedigaeth o ddechreuad ei yrfa fel cerflunydd. Mab i saer llongau, digon isel ei amgylchiadau, oedd efe, a'i weithiau celfyddydol cyntaf oedd cerfluniau i'w gosod ar ben blaen llongau yn y man lle y gweithiai ei dad. Esgeuluswyd ei addysg yn fawr, fel nad oedd yn gallu ysgrifenu na sillebu ond yn wael ar hyd ei oes. Yr oedd ei athrylith wedi dyfod gydag ef i'r byd:—yr oedd wedi ei eni yn gerflunydd. Yn 1793, ennillodd y bathodyn aur am dynu cynllun a braslinellu yn athrofa Copenhagen; a chyda hyny cafodd y fantais o gael byw mewn gwledydd tramor am dair blynedd i astudio ei gelfyddyd. Gan hyny, yn 1796, efe a hwyliodd am Rufain, a chyrhaeddodd y ddinas hono fel y mynegwyd uchod. Ar ol llafurio yn galed ac yn hir mewn dinodedd, daeth ei dalent o'r diwedd i'r amlwg. Darfu i'r enwog Canova wneuthur sylw neillduol o hono; ac ennillodd ei gynllun o'i waith mawr, 'Jason,' edmygedd cyffredinol. Ond nis gallai gael neb i'w brynu hyd 1803. Yr oedd ar y pryd ar ddychwelyd yn ol i Copenhagen, pan gafodd orchymyn gan Thomas Hope i wneyd cerfddelw o hono mewn marmor, am yr hwn y cafodd bris da. O hyny allan tywynodd haul llwyddiant arno. Yn 1819, talodd ymweliad â Denmarc; ac yr oedd arwyddion o barch yn cael eu dangos iddo yn mhob man. Cafodd groesaw ardderchog yn Copenhagen, a darparwyd ystafelloedd iddo yn mhalas Charlottenburg. Arosodd yn Denmarc am tua blwyddyn, yna dychwelodd i Rufain, ac ymroddodd i ddilyn ei alwedigaeth gyda'r diwydrwydd mwyaf, hyd y flwyddyn 1838—pan y rhoddodd y cwbl heibio, ac y dychwelodd i'w wlad ei hun, gan fwriadu treulio y gweddill o'i oes mewn tawelwch. Nid oedd ei hinsawdd, pa fodd bynag, yn dygymmod â'i iechyd; ac yn 1841, yr ydym yn ei gael ef unwaith etto yn Rhufain. Yn 1844, wedi ymweled eilwaith â Chopenhagen, efe a fu farw yn ddisymmwth o glefyd y galon, ar y 24ain o Fawrth.

Gadawodd gymmaint o'i gerfluniau ag oedd yn ei feddiant yn gymmunrodd i'w wlad, i'w cadw mewn amgueddfa, i gael ei galw ar ei enw; a gadawodd y rhan fwyaf o'i eiddo i'w chynnal. Y mae y casgliad nodedig ac ardderchog hwn yn awr yn un o brif addurniadau prif ddinas ei wlad enedigol. Cedwir coffadwriaeth Thornwaldsen mewn parch mawr gan ei gydgenedl; y rhai a ymffrostiant mai efe oedd y

cerflunydd enwocaf er amser Michael Angelo; yr hyn a gydnabyddir yn lled gyffredinol, os na wneir Canova yn eithriad. Mewn testynau clasurol a chwedlofyddol yr ymhyfrydai fwyaf. Ond y mae ei weithiau mawr yn eglwys gadeiriol Copenhagen—"Crist a'r deuddeg apostol," "Ioan yn pregethu yn y diffaethwch," a'r "Orymdaith i Golgotha"—yn ddigon o brawf ei fod yn gallu gweithio allan ddrychfeddyliau Cristionogol yn ardderchog. O'i gerfluniau o'i gydoeswyr, fe allai mai rhai Byron ac Œhlenschläger yw y rhai rhagoraf a wnaeth efe.

THRACIA *(Thrace)*. Gwneir crybwylliad megys yn ddamweiniol am farchogwr o Thracia yn 2 *Macc.* xii. 35; yr hwn, dybygid, oedd un o warchodlu personol Georgias, llywodraethwr Idumea o dan Antiochus Epiphanes. Yr oedd Thracia y pryd hwn yn cymmeryd i mewn yr holl wlad o fewn terfynau y Strymon, y'Danube, a gororau y Môr Ægeaidd, Môr Marmora, a'r Môr Du; sef, yr holl ardaloedd hyny sydd yn awr yn gwneyd i fyny Roumelia a Bulgaria. Mewn amseroedd boreuol preswylid hi gan nifer o lwythau, pob un o dan ei benaeth ei hun, ac yn dwyn eu henwau ac yn cadw eu harferion eu hunain, er fod yr un duedd gyffredinol i fod yn greulawn ac ysbeilgar yn ymddangos ynddynt oll. Y mae Thucydides yn darlunio terfynau y wlad yn amser y rhyfel Peloponnesiaidd, pan yr oedd Sitalces, brenin yr Odrysæ, yr hwn a breswyliai ddyffryn yr Hebrus (*Maritza*), wedi cael goruchafiaeth arni, ac yn codi trethi mawrion oddi arni. Yr oedd y cyllid, pa fodd bynag, yn ddeilliedig yn benaf o'i berthynasau masnachol â'r Groegiaid masnachol oedd wedi ymsefydlu mewn gwahanol fanau ar y glenydd. Yr oedd rhai o'r llwythau, hyd yn oed o fewn terfynau ei lywodraeth ef, yn cadw ei hannibyniaeth; ond ar ol sefydliad teyrnach Facedoniaidd o dan Lysimachus, daeth y gallu llywodraethol canolog yn fwy grymus; ac yn y rhyfeloedd mawr a gwaedlyd a gymmerasant le ar ol marwolaeth Alexander Fawr, cafodd y Thraciaid ddigon o fantais i foddio eu tueddiadau rhyfelgar; canys yr oedd gwledydd ereill yn galw am danynt fel milwyr cyflogedig. Meirchfilwyr yn benaf ydoedd y bobl hyn, gan fod yn mhorfeydd toreithiog Roumelia gyflawnder o feirch. Oddi yno y daeth y rhan fwyaf o feirchfilwyr Sitalces, oedd yn agos i hanner can mil o rifedi. Ond ar gwymp y deyrnas Facedoniaidd (c. c. 168) disgynodd Thracia i ddwylaw y Rhufeiniaid, a bu o hyny allan yn gyfranog o gyfnewidiadau a helyntion yr ymherodraeth Rufeinig. Yn B. A. 354, sefydlwyd trefedigaeth o Sarmatiaid ynddi gan Cystenyn Fawr; ac yn 376, trefedigaeth o Gothiaid, trwy ganiatâd yr ymherawdwr Valens. Yn 395, goresgynwyd hi gan Alaric, ac yn 447 gan Attila. Yn 1353, cafodd Amurath feddiant o'i holl amddiffynfeydd, oddi gerth Caer Cystenyn; ac y mae hi byth wedi hyny wedi aros yn nwylaw y Tyrciaid.

Yr unig le yn y Beibl a gynnwysa gyfeiriad at Thracia, os yw yn cyfeirio ati hefyd, ydyw *Gen.* x. 2:—lle, ar y dybiaeth fod meibion Iapheth, a enwir yno, i'w hystyried fel cynnrychiolwyr gwahanol ganghenau o'r tylwyth Iaphethaidd—fel y tybia amryw, y mae *Tiras* yn golygu Thracia. Yr unig sail i'r dybiaeth hon ydyw y tebygolrwydd sydd rhwng y ddau enw. Ond gellir dyweyd fod mwy o debygolrwydd rhwng yr enw *Tiras* a'r *Tyrsi*, neu y *Tyrseni*, sef hynafiaid yr Italiaid Etruscanaidd; pa rai, yn ol tystiolaeth Herodotus, yr hon a seiliwyd ganddo ar draddodiad lleol, a gartrefent ar y cyntaf yn Lydia. Y mae Strabo yn dwyn yn mlaen ffeithiau i ddangos fod y Thraciaid, yn yr oesoedd boreuol, i'w cael ar ororau Asia, yn gystal ag Ewrop; ond ychydig y mae hyn yn ei daflu o oleuni ar y cwestiwn.

THRON—AU (כסא: *thronus: throne*). Y mae y gair Hebraeg *cisse*, a gyfieithir *thrónau*, yn cynnwys y syniad am eisteddle uchel, yn cael ei meddiannu gan berson o awdurdod, megys archoffeiriad (1 *Sam.* i. 9), barnwr (*Salm* cxxii. 5), neu benaeth milwraidd (*Ier.* i. 15). Yr oedd defnyddio cadair mewn gwlad, lle yr arferid yn gyffredin pan yn eistedd ogwyddo a lledorwedd, bob amser yn cael ei ystyried yn arwydd o urddas: 2 *Bren.* iv. 10; *Diar.* ix. 14. Ar deyrngadair yr eisteddai brenhinoedd ar achlysuron pwysig pan yn cyfarfod â'u deiliaid (1 *Bren.* ii. 19; xxii. 10; *Esth.* v. 1), neu pan yn derbyn gwarogaeth (2 *Bren.* xi. 19), neu pan yn gweinyddu cyfiawnder (*Diar.* xx. 8). Ar adegau o'r fath ymddangosai y brenhinoedd yn eu gwisgoedd brenhinol: 1 *Bren.* xxii. 10; *Ionah* iii. 6; *Act.* xii. 21. Gwel GORSEDDFAINGC.

THUCYDIDES: hanesydd Athenaidd enwog. Mab ydoedd i Olorus a Hegesipyle. Tybir ei fod yn dal rhyw gyssylltiad â theulu Cimon; a gwyddys fod Miltiades, gorchfygwr Marathon, wedi priodi Hegesipyle, merch i frenin Thraciaidd o'r enw Olorus, yr hon oedd mam Cimon; a thybir hefyd, gyda llawer o debygolrwydd, fod mam Thucydides yn ŵyres i Miltiades a Hegesipyle. Yn ol tystiolaeth Pamphila, yr oedd Thucydides yn ddeugain mlwydd oed pan y dechreuodd rhyfel y Peloponnesus, c. c. 431; ac o ganlyniad ganwyd ef yn 471. Adrodda Lucian chwedl am Herodotus, sef ei fod wedi darllen ei waith hanesiol ei hun yn y campau Olympaidd i'r torfeydd Groegaidd oedd yn bresennol; a chwanega Suidas fod Thucydides, yr hwn nad oedd y pryd hwnw ond bachgenyn, yn bresennol, ac yn tywallt dagrau gan faint ei awydd am allu gwneyd rhywbeth yn debyg; yr hyn a ystyrid yn rhagarwydd o'i enwogrwydd dyfodol. Hwyrach nad ydyw hon ond chwedl ddisail. Mynegir mai Antiphon oedd addysgydd Thucydides mewn areithyddiaeth, ac Anaxagoras mewn athroniaeth; ond y mae yn anhawdd penderfynu cywirdeb yr adroddiadau hyn. Y mae yn sicr, gan ei fod yn Atheniad, ac yn perthyn i deulu cyfrifol, ac yn trigiannu mewn dinasoedd oedd yn ganolbwyntiau gwareiddiad, ei fod wedi cael yr addysg oreu oedd yn bossibl: ac y mae ei weithiau yn profi yn eglur ei fod yn meddu ar alluoedd mawrion a meddwl diwylliedig. Efe a'n hysbysa ei fod yn perchen mwngloddiau aur yn y rhan hono o Thracia sydd gyferbyn a Thasos, a bod ei ddylanwad yn fawr yn y parthau hyny. Gadawodd fab ar ei ol, o'r enw Timotheus; a sonir am ferch iddo hefyd, yr hon, fel y myn rhai, a ysgrifenodd yr wythfed llyfr o'i *"Hanes."* Yr oedd Thucydides yn un o'r rhai a ddioddefodd oddi wrth bla Athen, ac yn un o'r ychydig a adferwyd o hono. Nid oes genym dystiolaethau credadwy iddo ragori fel areithiwr, er nad ydyw hyny yn annhebyg; o herwydd dangosir talent areithyddol yn yr anerchiadau sydd yn ei *"Hanes."*

Bu Thucydides yn gweithredu fel milwr, ac

Digitized by Google

hefyd yn llywyddu ysgwadron o longau Atheniaidd yn Thasos, c.c. 324, pan y darfu i Euclus, yr hwn a lywyddai yn Amphipolis, anfon am ei gynnorthwy yn erbyn Brasidas; yr hwn, ynghyd â'i fyddin, oedd o flaen y dref hono. Ond cynnygiodd Brasidas delerau ffafriol i Amphipolis, a gwnaed heddwch; ond er ei fod yn rhy ddiweddar i'w gwaredu, efe a lwyddodd i gadw Eion rhag syrthio i ddwylaw y gelyn. O herwydd ei fethiant yn hyn, dewisodd Thucydides ymalltudio, er mwyn gochelyd cosp drymach, fe allai; o blegid yr oedd Cleon, yr hwn oedd mewn ffafr gan yr Atheniaid y pryd hwn, wedi cyffroi teimladau y cyhoedd yn ei erbyn. Ceir amryw adroddiadau nas gellir rhoddi nemawr o ymddiried ynddynt am leoedd ei alltudiaeth; ond nid yw yn debyg y buasai yn ddiogel mewn un man oedd o dan awdurdod Athen; a chan ei fod yn cadw ei olwg ar ddigwyddiadau y rhyfel, gellir meddwl ei fod yn y rhanau hyny o'r wlad oedd mewn cynghrair â Sparta. Y mae ei eiriau ef ei hun yn ddiau yn awgrymu ei fod, yn ystod tymmor ei alltudiaeth, wedi treulio llawer o'i amser yn y Peloponnesus, neu ryw leoedd agos; ac y mae yn amlwg fod ei weithiau hefyd yn ffrwyth ei brofiad a'i sylw ei hun. Y mae ei ddisgrifiad manwl o Syracusa a'r gymmydogaeth yn peri i ni gasglu ei fod yn bersonol gydnabyddus â'r ardaloedd oddi amgylch; ac os ymwelodd efe â Sicily, y mae yn debygol iddo weled rhai parthau o ddeheubarth Italy hefyd. Efe a ddywed ei hun ei fod wedi byw am ugain mlynedd mewn alltudiaeth; a chan i amser ei alltudiaeth ddechreu yn y flwyddyn c. c. 423, dichon ei fod wedi dychwelyd yn ol i Athen yn nechreu y flwyddyn c. c. 403—tua'r adeg y rhyddhawyd Athen gan Thrasybulus. Dywedir i Thucydides gael ei fradlofruddio yn fuan ar ol ei ddychweliad i Athen; ond dywed ereill iddo farw yn Thracia; ond yn ol barn yr hynafiaid y cyntaf sydd yn gywir. Nis gellir gosod amser ei farwolaeth yn ddiweddarach na c. c. 401.

Y mae dadl yn bod am yr adeg y cyfansoddodd efe ei hanes. Dywed ei hun ei fod yn brysur yn casglu defnyddiau ato ar hyd ystod y rhyfel, o'r dechreu i'r diwedd. Dywed Plutarch iddo ei gyfansoddi yn Thracia; ond ni orphenwyd y gwaith yn ddiammheuol, fel y mae yn bresennol, nes y terfynwyd y rhyfel; ac y mae yn debygol ei fod yn gweithio arno pan y bu farw. Y mae ammheuaeth yn bod ynghylch awduriaeth, y llyfr olaf o honynt, yr wythfed — sydd yn gorphen gydag unfed flwydd ar hugain y rhyfel. Gwahaniaetha oddi wrth y llyfrau ereill, yn gymmaint ag nad ydyw yn cynnwys nac areithiau nac anerchiadau; a thybir hefyd nad ydyw yn dyfod i fyny â safon eu cyfansoddiad. Gan hyny, y mae amryw o hen feirniaid yn tybied nad Thucydides ydyw awdwr yr wythfed llyfr. Priodola rhai ef i'w ferch: ereill i Xenophon, neu Theopompus; o herwydd fod y naill a'r llall o honynt wedi dilyn ei hanes yn mlaen. Ond y mae arddull yr wythfed llyfr, a'r holl ymdriniaeth sydd ynddo, yn wahanol i'r eiddo Xenophon: ac y mae arddull blodeuog ac areithyddol Theopompus, oedd yn nodwedd mor amlwg o'i ysgrifeniadau ef, yn ein harwain i dybied nad oedd ganddo yntau chwaith law yn awduriaeth yr wythfed llyfr. Ond wedi y cwbl, y dybiaeth naturiol sydd debycaf o fod yn gywir; sef, mai Thucydides ei hun oedd awdwr y llyfr hwn; o herwydd ei fod yn ei enwi ei hun fel ei awdwr ddwywaith: *pen.* viii. 6, 60. Ond os felly yr oedd, y mae yn amlwg na chafodd efe gyfleusdra i'w ddiwygio gyda'r un gofal a'r saith llyfr cyntaf. O ddechreu yr ail lyfr, y mae gwaith Thucydides yn cael ei ddosbarthu yn amseryddol, i haf a gauaf—ac un haf ac un gauaf yn gwneyd i fyny blwyddyn. Yr oedd ei haf yn cynnwys o Alban Eilir (*Vernal Equinox*) hyd Alban Elfed (*Autumnal Equinox*), a'i auaf o Alban Elfed hyd Alban Eilir. Tybir yn gyffredin i'r gwaith gael ei ddosbarthu yn llyfrau a phennodau gan y beirniaid Alexandriaidd. Yn yr ail lyfr y dechreuir hanes y rhyfel Peloponnesaidd. Nid yw y cyntaf ond arweiniad i mewn i'r hanes. Dechreua ei lyfr cyntaf trwy sylwi mai y rhyfel hwnw oedd y digwyddiad pwysicaf yn hanes Groeg. Wedi hyny ä yn mlaen i egluro achosion y rhyfel: a dywed mai y gwir achos oedd eiddigedd Sparta tuag at Athen. Yna sylwa ar yr ymdrafodaethau a'i rhagflaenent; ac wedi cyfeirio at alltudiaeth Themistocles, a'r achos o hyny, terfyna y llyfr gydag araeth Pericles, yr hwn a gynghorai yr Atheniaid i wrthod gofynion y Peloponnesiaid; ac fel y cyfeiriwyd, y mae yn dechreu yr hanes yn yr ail lyfr. Y mae ei holl waith yn arwyddo y gofal a'r diwydrwydd manylaf i benderfynu sicrwydd ffeithiau, ac i gael allan eu hamseriad; ac y mae y pwysigrwydd a gyssylltir ganddo â hyn yn brawf pellach o'i gywirdeb hanesyddol. Y mae ei "*Hanes*" yn fyr a chryno; ac ni chynnwysa yn gyffredin ond ffeithiau noeth, yn cael eu gosod allan mewn mor lleied o eiriau ag sydd bossibl. A phan y cymmerir i ystyriaeth y drafferth a'r llafur mawr oedd yn angenrheidiol i gasglu y ffeithiau hyn, rhaid edmygu ei hunanymwadiad—yn enwedig gan ei fod yn foddlawn i'w cyfleu ger bron yn eu symledd cynhenid, heb addurn, nac arddangosiad chwaith o'i bwysigrwydd personol ei hun, a'r drafferth a gafodd efe wrth gasglu y defnyddiau iddo.

Y mae "*Hanes*" Thucydides yn gynnwysedig mewn un gyfrol wythplyg o faintioli cyffredin. Buasai llawer o ysgrifenwyr diweddar wedi ei chwyddo allan i ddwsin o gyfrolau; ond buasai hyny yn ei handwyo, gan fod yn rhaid i waith sydd i fod yn anfarwol fod yn gryno a chynwysfawr. Anfynych y gwna yr awdwr unrhyw sylwadau adfyfyriol yn nghwrs ei hanes. Y mae ganddo bennod yn achlysurol, yr hon a wneir i fyny o sylwadau gwleidyddol a moesol, sydd yn dangos ei allu i ddarllen cymmeriadau yn dda, ac i ddeall y cymmhellion oddi ar ba rai y mae dynion yn gweithredu. Am lawer o'r anerchiadau sydd yn yr hanes, gellir dywedyd eu bod yn draethodau gwleidyddol, neu yn cynnwys defnyddiau traethodau o'r fath. Nid ffrwyth ei ddychymyg ei hun, wedi eu dyfeisio er cynnyrchu effaith ydynt; ond cynnwysant swm yr hyn a draddodwyd, mor bell ag y gallai ei gael allan; ac yn dra mynych yr oedd wedi clywed ei hun rai o'r areithiau yn cael eu traddodi. Yr oedd ei gyfleusderau, ei dalentau, a'i gymmeriad, oll yn cyduno i gynnyrchu gwaith sydd yn sefyll ar ei ben ei hun; ac nid oes fe allai, un yn gyfartal iddo. Y mae ei ddarluniadau weithiau yn darawiadol ac effeithiol dros ben. Felly y gellir dywedyd yn arbenigol am y disgrifiad a rydd efe o'r pla yn Athen; ac hefyd hanes digymmhar yr ymgyrch i Sicily, a'r terfyniad galarus a fu iddo. Y mae ei arddull drwyddo yn gryno, grymus, ac eofn. Teimlir fod ystyr i bob ymadrodd; ac na ddefnyddia efe un gair diangenrhaid. Er hyny, y mae ei arddull

Digitized by Google

weithiau yn gras a thywyll; a rhai o'i frawddegau yn anhawdd i ddeall eu cyssylltiadau. Ond y mae yr hyn sydd wedi digwydd i hen haneswyr ereill yn arwyddo, pe buasai ei waith ef yn llai perffaith fel cyfansoddiad, na buasai ei enwogrwydd wedi parhau cyhyd. Cynnyrchodd waith a saif ar ei ben ei hun, ac nid oes ar rai ystyriaethau braidd ei gyffelyb yn bod.

THUMMIM. Gwel d.g. URIM A THUMMIM.

THUS (לבנה: λίβανος: *frankincense*): ystor llysieuol, brau, disglaer, ac yn archwaethu yn chwerw. Defnyddid ef yn arogldarth wrth aberthu: *Exod.* xxx. 34—36. Cyfeirir ato hefyd yn 1 *Cron.* ix. 29; *Mat.* ii. 11. Y mae i'w gael yn awr trwy wneyd toriadau yn rhusgl y pren, a elwir yn *arbor thuris.* O'r toriadau cyntaf y ceir y thus goreu a gwynaf; ac y mae yr hyn a geir o'r toriadau dilynol âg ysmotiau melynion ynddo, a chyll ei wynder yn hollol fel yr heneiddia. O Arabia yr oedd yr Hebreaid yn cael y thus a ddefnyddient hwy (*Esa.* ix. 6; *Ier.* vi. 20), a rhan fawr, dybygid, hefyd, o Seba; ond yr hyn sydd yn hynod yw, fod y thus Arabaidd yn awr o natur wael, a bod y puraf sydd yn cael ei ddwyn i Twrci yn dyfod o Ynysfor India. Y mae y planhigyn Arabaidd, dybygid, wedi gwaethygu: neu, fe allai mai o India yr oedd y thus goreu i'w gael gynt. Felly yn ddiammheu yr oedd yn nyddiau Dioscorides. Galwai yr Arabiaid y thus goreu yn *cundur.* Y mae yr ystor ei hun yn eithaf adnabyddus; ond nis gellir bod yn sicr a phenderfynol o ba bren y ceid ef gynt. Amrywia awdwyr hen a diweddar yn eu disgrifiadau i'r fath raddau, fel y mae yn anhawdd eu cyssoni, a bod yn sicr o'r planhigyn. Dywed Theophrastus ei fod yn tyfu i'r uchder o bum llath, âg iddo lawer o ganghenau a dail cyffelyb i'r berwydden (*pear tree*), a rhusgl fel y llawryf. Ar yr un pryd, y mae yn crybwyll am fath arall; ac oddi wrth y disgrifiad hwnw, gellir tybied mai y pren a elwir *mastick* ydyw, yr hwn y mae ei ddail â gwawr goch arnynt. Yn ol Dioscorides, pren bychan ydyw, tebyg i ddraenen yr Aipht, â'i ddail yn felynion. Dywed Chardin drachefn fod y pren thus a dyfai ar fynyddoedd Caramania yn debyg i berwydden, ac o faintioli mawr. Ni chrybwyllir am dano gan Forskal, ac nis gallai Niebühr gael dim o'i hanes.—*Travels*, td. 356.

Y mae yr *olibanum*, neu thus India, yn cael ei ddwyn mewn cistiau o Bombay, fel nwydd masnachol. Defnyddir ef yn benaf yn nygiad yn mlaen ddefodau a seremoniau Eglwysi Groeg a Rhufain, a defnyddia yr Uchel Eglwyswyr ef hefyd yn ein dyddiau ni. Yr holl ddefnydd a wneir âg ef mewn meddyginiaeth yn awr ydyw fel arogldarth mewn ystafelloedd y byddo cleifion ynddynt. Oddi wrth yr hyn a ddywedir yn *Can.* iv. 14, yr ydys yn casglu fod y pren thus yn tyfu yn Mhalestiua—yn enwedig ar fynydd Libanus.

THUSER—AU (*censer*): llestr, yn yr hwn y byddai tân ac arogldarth yn cael ei gario o amgylch mewn rhanau o'r gwasanaeth crefyddol yn mysg yr Hebreaid: *Lef.* xvi. 12; 2 *Cron.* xxvi. 19; *Ezec.* viii. 11. Cafodd Aaron ei gyfarwyddo i gymmeryd llonaid thuser o farwor tanllyd oddi ar yr allor, oddi ger bron yr Arglwydd, a llonaid ei ddwylaw o arogldarth peraidd mân, a'i ddwyn o fewn y wahanlen. Yna yr oedd i roddi "yr arogldarth ar y tân, ger bron yr Arglwydd, fel y cuddiai mŵg yr arogldarth y drugareddfa, yr hon oedd ar y dystiolaeth;" *Lef.* xvi. 12, 13. Sonia yr awdwr yn yr Epistol at yr Hebreaid am y thuser aur fel dodrefnyn yn perthyn i'r tabernacl: *Heb.* ix. 4. Y mae rhai yn sylwi fod y gair gwreiddiol θυμιατήριον, yr hwn a gyfieithir 'thuser' yn y lle diweddaf, yn gyfryw ag y gellir ei gyfieithu fel hyn 'allor yr arogldarth,' a'i fod wedi ei orchuddio âg aur; ac ystyrid ef yn un o lestri mwyaf pwysig y tabernacl. Ni chaniateid i'r archoffeiriad fyned i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf, nac i weinyddu ynddo, heb yn gyntaf gymmeryd arogldarth gydag ef, yr hwn yr oedd raid iddo ei gario mewn thuser wedi ei gymmeryd o'r allor hon. Fel y canlyn y mae Dr. Owen yn disgrifio hyn:—"Yr oedd y dull y dygid yn mlaen wasanaeth yr allorau," medd efe, "fel hyn:—Yr oedd yr archoffeiriad, unwaith yn y flwyddyn, sef ar ddydd mawr y cymmod, yn cymmeryd thuser aur oddi ar allor yr arogldarth. Wedi hyny, elai allan o'r cyssegr, a rhoddai dân ynddi, wedi ei gymmeryd oddi ar allor y poeth offrymau, y tu allan i'r tabernacl, yn y cyntedd lle y cedwid y tân parhaus. Yna dychwelai i'r cyssegr, a llanwai ei ddwylaw âg arogldarth oddi ar yr allor hon, lle y cedwid y peraroglau. Rhoddai yr arogldarth ar y tân yn y thuser, ac elai i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf yn nghanol cwmmwl o fŵg yr arogldarth."—"*Exposition on Heb.*," ix. 4.

Ychydig sydd yn wybyddus am ffurf a natur yr hen thuser Hebreaidd. Y mae y thuserau sydd wedi eu cael oddi wrth yr hynafiaid Cenhedlig, a'r rhai a ddefnyddir mewn addoliadau Pabaidd, yn hongian wrth gadwyni, ac yn cyfleu syniad cyfeiliornus am y llestr cyssegredig a ddefnyddid yn mhlith yr Iuddewon. Yr oedd gan yr Hebreaid ddau air, y rhai a gyfieithir *thuser* yn y Beibl Cymraeg. Y cyntaf, מקטרת, o מקטר, 'arogldarth,' yr hwn oedd yn cael ei ddefnyddio bob dydd; a'r ail, מחתה, neu 'tânbadell,' yr hon a ddefnyddid ar ddydd y cymmod yn unig. Dywedir i ni fod y thuserau a ddefnyddid bob dydd wedi eu gwneyd o bres (*Num.* xvi. 39); ond yr oedd yr un a ddefnyddid yn flynyddol wedi ei gwneyd o aur.—"*Hynaf. Iudd.*," xvi. 4, *adr.* 4. Dywedir hefyd fod llofell (*handle*) yn perthyn i'r olaf ["*Mishna, Yoma,*" iv. 4); a chan fod yr archoffeiriad yn dal y thuser yn ei law tra y llosgai yr arogldarth, yr oedd llofell felly yn angenrheidiol. Y mae yr awgrymiadau hyn yn peri i ni gasglu nad oedd y thuserau Iuddewig yn hollol fel y rhai y mae eu lluniau i'w cael ar gerfluniau Groeg a Rhufain, nac yn debyg, chwaith, i'r rhai a arferir gan Eglwys Rhufain.

THYATIRA (Θυάτειρα τὰ): dinas ar y Lycus, yr hon a sylfaenwyd gan Seleucus Nicator. Yr oedd yn un o'r amryw drefedigaethau Macedonaidd a sefydlwyd yn Asia Leiaf, ar ol dinystriad yr ymherodraeth Bersiaidd gan Alexander. Gorweddai ar yr ochr aswy i'r ffordd a arweiniai o Pergamus i Sardis, ar lechwedd deheuol y bryniau a ysgarent ddyffryn y Caicus oddi wrth ddyffryn yr Hermus, ar gyffiniau Mysia ac Ionia; fel y cyfrifid weithiau ei bod o fewn terfynau y naill, ac weithiau yn y llall. Mewn amseroedd boreuach, gelwid hi wrth yr enwau *Pelopia, Semiramis*, ac *Euhippia.* Yr oedd yr elfen Facedonaidd yn gorbwyso yno fel yr oedd hi yn



Digitized by Google

nechreu y cyfnod Cristionogol yn rhoddi nodwedd bennodol i'r boblogaeth; a geilw Strabo hi yn drefedigaeth Facedonaidd. Trigai y preswylwyr gwreiddiol, dybygid, mewn pentrefi o amgylch, pan y sylfaenwyd Thyatira. Y mae enw dau o'r rhai hyn i'w cael mewn arysgrifen er amser y Rhufeiniaid. Gellir casglu pa fath oedd adnoddau y gymmydogaeth oddi wrth yr enw *Euhippia*, ac oddi wrth helaethrwydd yr ysbail a ddygwyd ymaith mewn ymgyrch a wnaethpwyd gan Eumenes o Pergamus, yn ystod y rhyfel yn erbyn Antiochus. Yn adeg yr ymgyrch rhyfelgar, c.c. 190, yr oedd sylfaen neu ganolbwynt gweithrediadau milwraidd y brenin yn Thyatira; ac ar ol ei orchfygiad ef, yr hyn a gymmerodd le ychydig o filldiroedd i'r deheu o'r dref, cyflwynodd y ddinas ei hymostyngiad i'r Rhufeiniaid.

Tra y bu y teyrnach Attaliaidd yn llywodraethu, o'r braidd y mae enw Thyatira yn ymddangos mewn hanesyddiaeth; ac yn mhlith yr amryw arysgrifau sydd wedi eu darganfod yn y fan a elwir yn awr yn *Ak-Hissar*, nid oes un y gellir dyweyd yn ddibetrus am dani ei bod yn perthyn i gyfnod boreuach na thymmor yr ymherodraeth Rufeinig. Ymddengys i'r ddinas flodeuo yn fwy yn nheyrnasiad Vespasian—cydnabyddiaeth yr hwn â'r dwyrain, cyn esgyn i'r orsedd ymherodrol, o bossibl a gyfarwyddodd ei sylw at ddadblygiad adnoddau y dinasoedd dwyreiniol. Y mae arysgrifen dwyieithog, sef yn y Groeg a'r Lladin, yn perthyn i'r rhan olaf o'i deyrnasiad, ac yn dangos iddo adgyweirio y ffyrdd yn nhiriogaeth y ddinas hon. Oddi wrth arysgrifau ereill, rhwng yr amser hwn ac amser Caracalla, ceir prawf fod amryw o gymdeithasau corphoredig yn y ddinas; megys pobyddion, gwneuthurwyr priddlestri, barceriaid, gwehyddion, dilladwyr, a lliwiedyddion. Gwneir cyfeiriad at y rhai diweddaf mewn tair o'r arysgrifau; oddi wrth yr hyn y mae yn dra thebygol fod lliwio yn rhan bwysig o'r gwaith a ddygid yn mlaen ynddi, fel yr oedd yn Colossa a Laodicea. Y mae yn debygol hefyd fod Lydia, yr hon oedd yn gwerthu porphor, gan yr hon y cafodd Paul dderbyniad mor groesawus yn Philippi (*Act.* xvi. 14), yn dal cyssylltiad â'r cymdeithasau hyn.

Y prif-eilundduw a addolid yn y ddinas oedd Apollo, yr hwn a addolid fel duw yr haul, o dan y cyfenw *Tyrimnas*. Dygwyd ef yno, yn ddiammheuol, gan y trefedigion Macedonaidd; o herwydd duw Macedonaidd oedd efe. Wrth yr enw hwn y gelwir un o dri brenin ffugchwedlog y Macedoniaid, yr hwn a gyfleïr gan achyddwyr o flaen Perdiccas; y ddau ereill oedd *Caranus* a *Coenus*, y rhai yn ddiau a gynnrychiolent benaethiaid y llwyth. Y mae y dref yn awr yn cynnwys tua dwy fil o dai, am y rhai y telir trethi i'r llywodraeth Dyrcaidd, heb law dau neu dri o gannoedd o fythynod bychain. O'r rhai blaenaf y mae o ddeutu tri chant yn cael eu preswylio gan Roegiaid, deg ar hugain gan Armeniaid, a'r gweddill gan y Tyrciaid. Iaith gyssefin pob dosbarth yno ydyw yr un Dyrcaidd: ond wrth ysgrifenu, y mae y Groegiaid yn arfer yr iaith Roeg, a'r Armeniaid yr Armenaeg. Y mae naw o demlau Mahometaidd yn y dref, ac un eglwys Roegaidd.

THYNON, COED (ξύλον θύϊνον): y rhai y crybwyllir am danynt unwaith yn y Beibl; sef, yn *Dad.* xviii. 12. Ar ymyl y ddalen, *peraidd* ydyw y gair a ddefnyddir, yn lle *thynon*. Sonir am y coed hyn fel rhai o'r nwyddau marsiandïol gwerthfawr nad oeddynt i'w cael mwyach yn Mabilon (Rhufain), cwymp yr hon a ragfynegir gan Ioan. Yr oeddynt mewn bri ac o gryn werth yn ngolwg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid ar gyfrif eu prydferthwch a'u cymmhwysder yn ngwneuthuriad dodrefn eu tai, a llestri o wahanol fathau. Gelwid y pren hwn yn *citrus* neu *citrum*, gan y Rhufeiniaid. Yn Barbary, y mae y pren hwn yn tyfu yn naturiol; ac y mae yn tyfu i'r uchder o bymtheg i bum troedfedd ar hugain. Dywed Pliny fod cyflawnder o hono yn tyfu yn Mauretania. Dywed Pliny hefyd fod yn mysg ei gydwladwyr awydd mawr am gael byrddau wedi eu gwneuthur o hono; a bod prisiau hynod o uchel arnynt, ac ar ddodrefn addurniadol ereill wedi eu gwneyd o hono. Cyfeiria ysgrifenwyr Groeg a Rhufain yn fynych at y coed hyn. Gwel amryw gyfeiriadau atynt yn Celsius, "*Hierob.*" ii. 25. Y mae pen, neu nenfwd teml Fahometaidd Cordona, a adeiladwyd yn y nawfed ganrif, wedi ei wneuthur o goed thynon.

Digitized by Google

# U.



UBICUITARIAID (o *ubique*, 'pob man'): sect a gyfododd yn mysg y Lutheriaid, ac a ymdaenodd drwy yr Almaen; athrawiaeth fawr arbenig yr hon oedd, fod corph Iesu Grist yn mhob man, neu yn mhob lle ar unwaith. Dywedir mai Brentius, un o'r Diwygwyr boreuaf, oedd y cyntaf i gyhoeddi ac amddiffyn yr athrawiaeth hon, yn y fl. 1570. Yr oedd Luther ei hun, yn ei ddadl gyda Zuinglius, wedi taflu allan rai ymadroddion lled ddiofal, a ymddangosent fel yn tueddu at y syniad o hollbresennoldeb corph Crist. Ond wedi hyny daeth i deimlo fod anhawsderau mawr yngl ŷn â'r golygiad; ac yn enwedig na ddylid gwneyd defnydd o hono fel prawf o bresennoldeb corphorol Crist yn y cymmun. Pa fodd bynag, ar ol marwolaeth Luther, adnewyddwyd y ddamcaniaeth gyfeiliornus hon, a dadleuid yn wresog drosti gan Brentius, Chemnitius, Flacius Illyricus, Osiander, Musculus, ac Andræas, y rhai a ddalient fod priodoliaethau dwyfol Crist yn cael cyfranogi o honynt gan ei natur ddynol. Priodolai rhai hollbresennoldeb i'r Iesu yn wastad; ond ereill a briodolent hyn iddo ar ol ei esgyniad yn unig.

UCAL. Yn ol y testyn awdurdodedig yn *Diar.* xxx. 1, dylid ystyried Ithiel ac Ucal fel enwau priodol; ac os felly, rhaid mai enwau dysgyblion neu feibion Agur mab Iaceh ydynt.

UCCEWALIAID (*Uckewalists*): sect grefyddol a gymmerodd ei henw oddi wrth Ucke Walles, brodor o Friesland, yr hwn a gyhoeddodd ei syniadau yn y fl. 1637. Mabwysiadai efe farn ffafriol am sefyllfa dragwyddol Iudas, a'r gweddill o lofruddion y Gwaredwr. Ei ymresymiad oedd fel hyn:—fod y cyfnod o amser, o enedigaeth Crist hyd pan ddisgynodd yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, yn dymmor o ddygn a dwfn anwybodaeth, yn ystod yr hwn yr oedd yr Iuddewon yn amddifaid o oleuni dwyfol; ac o ganlyniad, fod y pechodau a'r ysgelerderau a gyflawnwyd y pryd hwnw i fesur mawr yn esgusodol; ac nad oeddynt yn haeddu cospedigaeth lem. Ymgadwai y sect hon yn fanwl at athrawiaethau y Mennoniaid. Gwel MENNONIAID.

UCHAFIAETH: gair yn cael ei ddefnyddio i osod allan yr awdurdod eglwysig uchaf, naill ai Pabaidd neu freninol. Uchafiaeth Pabaidd, neu uchafiaeth y pab, ydoedd yr awdurdod deddfwriaethol, cyfreithiol, a gweinyddol, a arferid gan y pab, hyd yn agos i ganol yr unfed ganrif ar bymtheg, dros eglwysi Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon, fel canghenau perthynol i'r eglwys orllewinol neu Ladinaidd; a'r hon sydd yn parhau i gael ei arfer dros y gyfran hono o breswylwyr y gwledydd hyny sydd yn parhau mewn undeb âg Eglwys Rhufain. Ni chafodd eangder terfynau awdurdod y pab, fe allai, erioed ei nodi allan yn fanwl. Tra yr ystyrid ei fod o'r bron yn annherfynol yn Rhufain a Madrid, yr oedd yn Venice, ac yn Paris yn enwedig, yn cael ei gyfyngu yn llawer mwy.

Diddymwyd awdurdod y pab gan ddeddfwriaethau y tair teyrnas hyn yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Mewn trefn i ddiogelu cydsyniad cyffredinol â hyn, yn neillduol yn mhlith y rhai oedd yn dal swyddau yn Lloegr a'r Iwerddon, gofynid ar fod i lŵ gael ei gymmeryd, yr hwn a elwir yn gyffredin 'llŵ yr uchafiaeth'—enw sydd braidd yn tueddu i gamarwain; o blegid mewn gwirionedd llŵ o ymwrthodiad â'r uchafiaeth ydyw yn hytrach; o herwydd, er ei fod yn yr ail adran o hono yn ymwrthod âg uchafiaeth y pab, y mae yn ddistaw gyda golwg ar unrhyw uchafiaeth yn y brenin neu y frenhines. Yr oedd y llŵ hwn, gan hyny, yn cael ei gymmeryd yn eithaf rhwydd gan y rhai nad oeddynt yn Babyddion, pa un bynag fyddent yn aelodau o Eglwys Loegr, ai peidio. Ffurf y llŵ, fel y sefydlwyd ef yn Lloegr yn amser y brenin William III. a Mary, oedd fel y canlyn:—"Yr wyf fi, A. B., yn cymmeryd fy llŵ fy mod o'm calon yn dirmygu, yn ffieiddio, ac yn ymwrthod fel peth heresiaidd ac annuwiol, â'r athrawiaeth a'r dybiaeth ddamniol hono, y gall y deiliaid, neu rywun arall, ddiswyddo neu lofruddio y tywysogion a esgymunir gan y pab, neu gan unrhyw awdurdod o esgobaeth Rhufain. Ac yr wyf yn dadgan nad oes gan un tywysog, person, esgob, na gwladwriaeth dramorol unrhyw lywodraeth, gallu, uchafiaeth, neu awdurdod, eglwysig neu ysbrydol, o fewn y deyrnas hon. Felly cynnorthwyed Duw fi." O dan y gyfraith hon, ac amryw ereill a basiwyd yn flaenorol i deyrnasiad William, yr oedd pawb o'r deiliaid yn rhwym o gymmeryd y llŵ pan y gelwid arnynt i wneuthur hyny: ond er y flwyddyn 1791, nid oedd neb yn ddarostyngedig i'w gwysio i gymmeryd llŵ yr uchafiaeth, nac i gael eu cospi am anufuddhau i'r cyfryw wŷs. Ac yr oedd Pabyddion, wrth gymmeryd y llŵ a bennodwyd gan gyfraith a basiwyd y flwyddyn hono, yn yr hon yr ymwrthodid âg awdurdod wladol a thymmorol y pab, yn gallu dal swyddau heb gymmeryd llŵ yr uchafiaeth; yr hwn, erbyn hyny, nid oedd yn ddim amgen na ffurf heb ystyr iddo.

Nid ydyw uchafiaeth brenhinol yn ddeddfwriaethol—ond cyfreithiol a gweinyddol yn unig. Cydnabyddwyd Harri VIII. yn ben yr eglwys gan y clerigwyr am y tro cyntaf yn 1528. Cadarnhawyd yr uchafiaeth hwn gan y senedd yn 1534, pan y pasiwyd cyfraith i'r perwyl "fod y

brenin, ein goruchaf arglwydd, ei etifeddion a'i olynwyr, brenhinoedd y deyrnas hon, i'w cymmeryd, eu derbyn, a'u hystyried yr unig oruchaf ben ar y ddaear i Eglwys Loegr," &c. Ac y mae Dr. Burn yn sylwi fel y canlyn: "Ar ol diddymu y gallu Pabaidd, nid oedd un gangen o uchafiaeth oedd yn boddhau penaduriaid y wlad hon yn fwy, am gan mlynedd ar ol y Diwygiad Protestanaidd, na bod yn ben ar yr eglwys." Yn y flwyddyn 1866, gwnaed cyfraith i gadarnhau ffurf newydd a byrach o lŵ, yn lle y llwon a gymmerid yn flaenorol i hyn, i aelodau y ddau dŷ o seneddd, yn yr hwn nid ydyw uchafiaeth y penadur, mewn achosion eglwysig, yn cael ei grybwyll mewn geiriau pennodol.

UCHANIANAETH. Gwel y gair YMWYBYDDIAETH.

UCHELFANAU, UCHELFEYDD. Yr oedd yn arferiad o'r amserau boreuaf yn mhlith pob cenedl i adeiladu allorau a lleoedd addoliad ar lanerchi uchel ac amlwg. Yr ydym yn cael fod y Troyaid wedi aberthu i Jupiter ar Fynydd Ida; a dywedir wrthym yn fynych mai dyna oedd arferiad y Persiaid, Groegiaid, Germaniaid, &c., o herwydd eu bod yn dychymygu fod penau y bryniau yn nes i'r nefoedd—ac am hyny y lleoedd mwyaf ffafriol i weddïo ac i arogldarthu. Yr ydym yn cael cyfeiriadau mynych at yr arferiad gyffredinol hon yn y Beibl (*Esa.* lxv. 7; *Ier.* iii. 6; *Ezec.* vi. 13; xviii. 6; *Hos.* iv. 13), ac y mae hi yn cael ei phriodoli yn arbenig i'r Moabiaid: *Esa.* xv. 2; xvi. 12; *Ier.* xlviii. 35. Adeiladodd Abraham allor i'r Arglwydd ar fynydd yn ymyl Bethel (*Gen.* xii. 7, 8: gwel hefyd *Gen.* xxii. 2—4, a xxxi. 54); yr hyn sydd yn dangos fod yr arferiad y pryd hwnw mor ddiniwed ag ydoedd o naturiol; ac er ei bod ar ol hyny wedi cael ei chymmysgu â defodau eilunaddolgar (*Num.* xxiii. 3), yr oedd ynddi ei hun yn llawer llai tebygol o gael ei chamddefnyddio nag oedd cyssegriad llwyni: *Hos.* iv. 13. Yr oedd crefydd allanol y patriarchiaid, mewn rhai defodau allanol, yn wahanol i'r un a sefydlwyd wedi hyny gan gyfraith Moses; ac am hyny ni ddylid eu condemnio am weithredoedd a ddaethant ar ol hyny yn bechadurus, yn unig o herwydd eu bod wedi eu gwahardd.

Modd bynag, y mae yn eglur, pe goddefasid i bob llwyn a bryn ddyfod yn lle o addoliad cyfreithlawn, yn enwedig mewn gwlad lle yr oeddynt eisoes wedi eu halogi â phechodau amldduwiaeth, y buasai addoliad yr unig wir Dduw yn y perygl mwyaf. Buasai yn sicr o arwain y genedl i fabwysiadu duwiesau natur, a "duwiau y mynyddoedd;" 1 *Bren.* xx. 23. Gan hyny, gwaharddwyd ef yn bendant gan gyfraith Moses (*Deut.* xii. 11—14), yr hon hefyd a roddodd orchymyn caeth iddynt ddinystrio y cofadeiladau hyn o eilunaddoliaeth y Canaaneaid (*Lef.* xxvi. 30; *Num.* xxxiii. 52; *Deut.* xxxiii. 29), heb roddi un rheswm cyffredinol dros y gorchymyn hwn, heb law y ffaith eu bod wedi bod yn gyssylltiedig â'r cyfryw arferion. Modd bynag, ymddengys y cymmerid yn ganiataol y deallai pob Israeliad yn berffaith pa ham y gwaherddid llwyni ac uchelfeydd; ac am hyny nid ydynt yn cael eu condemnio ond yn unig trwy rinwedd y gorchymyn i beidio defnyddio dim ond un allor i ddybenion aberthol: *Lef.* xvii. 3, 4; *Deut.* xvi. 21; *Ioan* iv. 20.

Yr oedd y gorchymyn yn perthyn i'r dyfodol, ac nid oedd i gael ei roddi mewn grym hyd nes y byddai y llwythau wedi ymsefydlu yn y wlad addawedig, ac wedi cael "llonydd oddi wrth eu holl elynion o amgylch." Fel hyn yr ydym yn cael fod Gedeon a Manoah wedi adeiladu allorau ar uchelfeydd trwy orchymyn Duw (*Barn.* vi. 25, 26; xiii. 16—23); ac y mae yn hollol eglur oddi wrth dôn Llyfr y Barnwyr fod y gyfraith ar y pwngc un ai wedi ei llwyr anghofio neu yn ymarferol yn ddirym. Ac nis gellid dadleu seiyllfa ansefydlog y wlad fel esgus, gan ei bod yn ymddangos eu bod yn deall yn drwyadl, hyd yn oed yn ystod bywyd Iosuah, nad ellid yn gyfreithlawn offrymu poethoffrymau, ond yn unig ar un allor: *Ios.* xxii. 29. Y mae yn fwy rhyfedd canfod eu bod wedi llwyr ymwrthod â'r gyfraith hon, ac wedi ei llwyr ddiddymu mewn tymmor diweddarach, pan nad oedd dim yn galw am iddynt ei throseddu—fel gan Samuel yn Mispah (1 *Sam.* vii. 10), ac yn Bethlehem (1 *Sam.* xvi. 5); gan Saul yn Gilgal (1 *Sam.* xiii. 9), ac yn Aialon (1 *Sam.* xiv. 35); gan Dafydd (1 *Cron.* xxi. 26); gan Elias ar Fynydd Carmel (1 *Bren.* xviii. 30); a chan brophwydi ereill (1 *Sam.* x. 5). Ni wyddys yn sicr pa beth oedd yr achos o'u hymwrthodiad â'r gyfraith. Dywed y Rabbiniaid Iuddewig, fod uchelfeydd yn oddefedig nes yr adeiladwyd y tabernacl; eu bod y pryd hwnw yn anghyfreithlawn hyd y dyfodiad i Gilgal, ac wedi hyny yn ystod yr adeg pan yr oedd y tabernacl yn Siloh; a'u bod, unwaith yn rhagor, wedi cael eu goddef, tra yr oeddynt yn Nob a Gibeon (gwel 2 *Cron.* i. 3), hyd nes i wneuthuriad y deml yn Ierusalem yn y diwedd eu gwneyd hwynt yn anghyfreithlawn. Boddlona ereill eu hunain trwy ddywedyd fod Palestina oll, hyd amser Solomon, yn cael ei hystyried yn dir sanctaidd; neu fod eithriad addefedig yn hanfodi yn ffafr uchelfeydd i offrymu aberthau preifat a gwirfoddol, er nad i offrymu aberthau sefydlog a chyhoeddus.

Y mae y cyfryw eglurhâd yn mhell iawn oddi wrth fod yn foddhaol; ond y mae yn sicr, beth bynag oedd yr achos o hono, fod addoliad ar uchelfeydd yn cael ei gynnal yn lled gyffredinol trwy Iudea, nid yn unig yn ystod amser Solomon (1 *Bren.* iii. 2—4), ond hyd yn oed ar ol ei amser ef. Yr oedd eu cyfleusdra yn amlwg: o herwydd, fel lleoedd canolog o addoliad crefyddol, yr oeddynt yn gwneyd i ffwrdd â'r angenrheidrwydd annymunol a pheryglus o ymweled âg Ierusalem i gynnal y gwyliau blynyddol: 2 *Bren.* xxiii. 9. Yr oedd y tueddiad atynt wedi gwreiddio yn ddwfn yn meddyliau y genedl; ac er ei bod wedi ei cheryddu yn llym gan haneswyr diweddarach, nid oes genym un prawf y gwyddid ei bod yn bechadurus yn ystod tymmorau boreuach y frenhiniaeth—oddi eithr wrth gwrs lle yr oedd yn dal perthynas â ffieidd-dra eilunaddoliaeth: 1 *Bren.* xi. 7; 2 *Bren.* xxiii. 13. Mewn gwirionedd, ymddengys fod uchelfeydd yn gwneyd y tro i raddau yn lle synagogau (*Salm* lxxiv. 8), ac yn lleoedd cyfleus i'r boblogaeth ymgynnull i addoli. Fel hyn, yr ydym yn cael fod Rehoboam wedi sefydlu addoliad rheolaidd yn yr uchelfeydd, gydag offeiriadaeth neillduol a gwahanedig yn perthyn iddo (2 *Cron.* xi. 15; 2 *Bren.* xxiii. 9)—aelodau yr hon oeddynt etto yn cael eu hystyried yn offeiriaid yr Arglwydd. Gan hyny, nid oedd yn rhyfedd fod Ieroboam yn ei chael mor hawdd i ddenu y bobl i'w addoliad arwyddluniol yn uchelfeydd Dan a Bethel, yn mhob un o'r rhai yr

Digitized by Google

Y mae amryw ystyron wedi eu rhoddi i ŵyl yr udgyrn. Ystyriai Maimonides mai ei hamcan ydoedd deffro y bobl o'u cwsg ysbrydol, i'w parotoi ar gyfer ymostyngiad difrifol ar ddydd y cymmod, yr hwn a'i dilynai o fewn deng niwrnod. Cefnogir y syniad hwn i ryw raddau gan *Joel* ii. 15; "Cenwch udgorn yn Seion, cyssegrwch ympryd, gelwch gymmanfa." Y mae rhai wedi tybied ei bod wedi ei bwriadu i ddwyn i mewn y seithfed mis, neu y mis Sabbothol o'r flwyddyn; yr hwn oedd yn arbenig yn sanctaidd o herwydd ei fod yn seithfed, ac o herwydd ei fod yn cynnwys dydd y cymmod a gŵyl y pebyll. Edrychai Philo, a rhai ysgrifenwyr Cristionogol boreuol arno, fel coffadwriaeth am rodddiad y gyfraith ar Sinai. Ond ymddengys nad oes un rheswm digonol dros ammheu cywirdeb syniad cyffredin Iuddewon a Christionogion; sef, mai gŵyl dydd blwyddyn newydd y flwyddyn wladol ydoedd—y cyntaf o Tisri, y mis oedd yn dechreu y flwyddyn Sabbothol a blwyddyn yr Iwbili. Os cymmerid gŵyl y lloer newydd fel cyssegriad rhaniad naturiol o amser, gellid yn briodol edrych ar y mis yn yr hwn y cynnyrchai y ddaear ffrwyth aeddfed olaf y tymmor, ac y dechreuai drachefn i feithrin had i ddiwallu y dyfodol, fel mis cyntaf y flwyddyn. Fel hyn, gallai y ffaith mai Tizri oedd y mis mawr i hau yn hawdd awgrymu y drychfeddwl o gadw coffadwriaeth ar y dydd hwn am orpheniad gwaith y greadigaeth, pan y "gorfoleddodd holl feibion Duw;" *Iob* xxxviii. 7. Fel hyn, daeth gŵyl yr udgyrn i gael ei hystyried fel dydd gŵyl genedigaeth y byd.

UEL: un o deulu Bani, yr hwn yn ystod y caethiwed a briododd wraig ddyeithr: *Ezra* x. 34.

UFUDD-DOD: cydnabyddiaeth gweithredol, gwirfoddol, o awdurdod un arall, trwy wneuthur yr hyn a orchymyna. Gellir dyweyd fod dau fath o ufudd-dod; sef, ufudd-dod i Dduw, ac ufudd-dod i ddyn. Sail y naill a'r llall ydyw awdurdod a pherthynas; a rheol y ddau ydyw Gair Duw. Y mae ufudd-dod i Dduw i godi, nid yn unig oddi ar deimlad o'n rhwymedigaeth iddo, ond yn benaf oddi ar gariad ato. "Duw, cariad yw;" a'r hyn sydd yn tarddu oddi ar gariad ato yn unig sydd gymmeradwy ganddo. Nid oes un weithred yn dderbyniol ganddo ef yn annibynol ar ei hegwyddor. Pe cyflawnai dyn y weithred fwyaf ag y mae yn bossibl gyda chrefydd, hyd yn oed pe y rhoddai ei gorph i gael ei losgi dros achos Crist, ni byddai hyny yn gymmeradwy, heb ei fod yn codi oddi ar gariad ato; ni wnai efe ei hystyried yn ufudd-dod neu yn wasanaeth iddo ef, ac ni wnai ei gwobrwyo. O'r tu arall, pe gwnai dyn weithred mor ddistadl a rhoddi "cwpanaid o ddwfr" i un o ddysgyblion Crist oddi ar gariad ato—hyny yw, "am ei fod yn perthyn i Grist"—cymmeradwyid a gwobrwyid y weithred hono. Gan hyny, nid yw Duw yn ystyried dim yn ufudd-dod iddo heb ei fod yn codi oddi ar gariad ato; a'r mwyaf ei gariad yw y parotaf ei ufudd-dod.

Y mae ein rhwymedigaeth i ufuddhau i Dduw yn codi—1. Oddi wrth y berthynas yr ydym yn sefyll ynddi â Duw fel ei greaduriaid: *Salm* xcv. 6. 2. Oddi wrth y gyfraith y mae efe wedi ei dadguddio i ni yn ei air: *Salm* cxix. 3; 2 *Pedr* i. 5, 7. 3. Oddi wrth fendithion ei ragluniaeth, y rhai yr ydym yn eu derbyn yn barhaus: *Act.* xiv. 17. 4. Oddi wrth gariad a daioni Duw yn ngwaith y prynedigaeth: 1 *Cor.* vi. 20.

Gyda golwg ar natur yr ufudd-dod hwn, rhaid iddo fod, yn 1af, Yn weithredol: nid yn unig gochel yr hyn a waharddir, ond cyflawni yr hyn a orchymynir: *Col.* iii. 8, 10. 2il, Personol: canys er fod Crist wedi ufuddhau i'r ddeddf, ac wedi dioddef ei melldith yn ein lle ni, etto nid ydyw wedi ei diddymu fel rheol bywyd: *Rhuf.* vii. 22; iii. 31. 3ydd, Yn ddiragrith: *Salm* li. 6; 1 *Tim.* i. 5. 4ydd, Yn serchog: yn codi oddi ar gariad, nid oddi ar ofn: 1 *Ioan* v. 19; ii. 5; 2 *Cor.* v. 14. 5ed, Yn ddiwyd: nid yn ddiog: *Gal.* i. 16; *Salm* xviii. 44; *Rhuf.* xii. 11. 6ed, Yn amlwg a chyhoeddus: *Phil.* ii. 15; *Mat.* v. 16. 7fed, Yn gyffredinol: rhaid cyflawni, nid un ddyledswydd yn unig, ond pob dyledswydd: 1 *Pedr* i. 5, 10. 8fed, Yn barhaus, bob amser, yn mhob man, ac ar bob achlysur: *Rhuf.* ii. 7; *Gal.* vi. 9.

Manteision ufudd-dod ydynt y rhai hyn: 1af, Y mae yn addurn i'r efengyl: *Tit.* ii. 10. 2il, Y mae yn brawf o ras yn y galon: 2 *Cor.* v. 17. 3ydd, Y mae yn llawenychu calonau pobl Dduw: 3 *Ioan* 2; 2 *Thes.* i. 19, 20. 4ydd, Y mae yn gostegu gwrthwynebwyr: 2 *Pedr* i. 11, 12. 5ed, Y mae yn calonogi y saint ar eu gyrfa; ac y mae yn ceryddu y claiar a'r diofal: *Mat.* v. 16. 6ed, Y mae yn rhoddi heddwch i'r hwn sydd yn ei feddu: *Salm* xxv. 12, 13; *Act.* xxiv. 16. 7fed, Y mae yn ganmoliaeth uchel i grefydd fel un y gellir ei hymarfer, a llawn o hyfrydwch: *Col.* i. 10. 8fed, Y mae yn rhagflaenu, ac yn brawf o ogoniant tragwyddol: *Rhuf.* v. 22; *Dad.* xxii. 14.

UFFERN. Y mae pedwar o eiriau yn y testynau Hebreaidd a Groegaidd o'r Ysgrythyrau, sef *Sheol*, *Hades*, *Tartarus*, a *Gehenna*, yn cael eu cyfieithu yn *uffern* yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl. Y mae y ddau flaenaf yn arwyddo—fel *Padalon* neu *Patola* yr Hindwaid, *Amenti* yr Aiphtiaid, a *Pluto*, *Orcus*, ac *Inferno* y Lladiniaid—y byd lle y mae ysbrydoedd y rhai ymadawedig yn myned iddo yn gyffredinol; heb fod un gwahaniaethiad, yn gyffredin, yn cael ei wneuthur rhwng y da a'r drwg—y rhai sydd yn mwynhau dedwyddwch a'r rhai nad ydynt. [Gwel HADES.] Ond y mae y ddau olaf yn fwy pennodol o ran eu nodwedd, ac yn arwyddo yn fanwl, fel y gwna y gair *uffern* yn awr mewn iaith dduwinyddol, y man lle y cospir yr annuwiol ynddo gan Dduw ar ol marw. Gan fod pob crefydd yn mron a broffesir yn mhlith dynion yn cymmeryd yn ganiataol fod sefyllfa arall yn aros dyn ar ol iddo ddarfod â'r bywyd hwn, felly y mae gan bob un ei huffern, neu y fan lle y cospir y rhai drwg. Credai y paganiaid, hen a diweddar, i raddau pell mewn cospedigaeth ddyfodol, yn gystal a'r Iuddewon a'r Mahometaniaid. Nid syniad ydyw hwn, gan hyny, sydd yn unig yn briodol i Gristionogaeth fel y cyfryw.

Yr ydys wedi dangos o dan y gair HADES nad ydyw y geiriau *Sheol* neu *Hades* yn gyffredin yn arwyddo uffern yn ystyr manwl y gair; er fod rhai ysgrifenwyr wedi eu defnyddio fel yn meddu ystyr cyffelyb i'r hwn a gyssylltir â'r gair *uffern* yn awr. Ond cyfeiriant at drigfanau y meirw yn gyffredinol; yn cynnwys paradwys a Gehenna—mangre dedwyddwch, a mangre trueni. Er dynodi y lle diweddaf, y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn gwneyd defnydd o'r gair Groeg *Gehenna*; yr hwn sydd air cyfansawdd, yn cael ei wneyd i fyny o'r geiriau Hebraeg *Ge*

Digitized by Google

a *Hinnom;* hyny ydyw, 'dyffryn Hinnom:'—lle oedd ger llaw Ierusalem, lle y byddai plant yn cael eu haberthu mewn modd creulawn trwy dân i Moloch, eilundduw yr Ammoniaid: 2 *Cron.* xxxiii. 6. [Gwel DYFFRYN HINNOM.] Arferid galw y lle hwn ar enw arall hefyd, sef *Tophet* (2 *Bren.* xxiii. 10)—yn ol barn rhai, oddi wrth y tabyrddau a chwareuid i'r dyben o foddi gwaeddiadau y plant a aberthid felly; er, fe allai, nad oes brawf penderfynol mai dyna wraidd yr enw. [Gwel TOPHET.] Yn nghwrs amser, daeth y lle hwn i gael ei ystyried fel arwyddlun o uffern, neu y man lle y cospir y rhai drygionus yn y byd a ddaw; a daeth yr enw oedd arno, sef Tophet, i'w ddefnyddio yn raddol yn yr ystyr yma; ac o'r diwedd, cafodd ei gyfyngu at hyn. Yn yr ystyr hwn hefyd y mae y gair *Gehenna* yn cael ei arfer yn y Testament Newydd, lle y ceir ef ddeuddeg o weithiau—a phob amser wrth anerch Iuddewon—i'r rhai yr oedd yr ystyr cyfattebol yn hawdd ei ddeall: *Mat.* v. 22, 29, 30; x. 28; xviii. 9; xxiii. 15, 33; *Marc* ix. 43, 45, 47; *Luc* xii. 5; *Iago* iii. 6. Dadleua rhai yn wresog dros roddi heibio yr ystyr a dderbynir yn gyffredin i'r gair *Gehenna.* Dadleua Balfour yn gryf, nad ydyw yn golygu y lle y gweinyddir cospedigaeth ddyfodol ynddo. Y mae mwy o eofndra yn cael ei amlygu ganddo drwy hyn, dybygid, nag o ddoethineb; yn gymmaint a bod y rhesymau a'r egluriadau a ddygir yn mlaen i gefnogi yr hòniad wedi eu selio ar gamddealltwriaeth hollol o'r cyd-destynau yn y Testament Newydd, ac o athroniaeth deddfau iaith, ac yn cynnwys hefyd ŵyrdroad amlwg o ystyr yr Ysgrythyrau.

Y mae llawer o ddyfaliadau cywrain wedi eu ffurfio am uffern fel lle. Ac y mae un dosbarth yn gwadu bodolaeth uffern fel lle o gwbl; ac yn haeru mai gosod allan sefyllfa neillduol y mae y gair, ac nid lle. Ond, fel y dywed y Dr. Doddridge, y mae yn rhaid i ni gyffesu ein hanwybodaeth o lawer o bethau perthynol iddo; a diau mai llawer mwy buddiol a diogel i ni ydyw ystyried pa fodd y gallwn ymgadw o'r lle poenus hwnw, na threulio amser gyda llawer o ymofyniadau ofer yn ei gylch.

Gellir ffurfio rhyw ddirnadaeth am natur y gospedigaeth a ddioddefir yn y lle poenus hwn oddi wrth yr ymadroddion a ddefnyddir yn yr Ysgrythyrau. Y mae yr oll a ddywedir yn rhoddi ar ddeall y bydd y gosp yn ofnadwy. Gelwir ef "y lle poenus hwn" (*Luc* xvi. 21), y "pwll diwaelod" (*Dad.* xx. 3—6), yn "garchar" (1 *Pedr* iii. 19), y "tywyllwch" (*Mat.* viii. 12; *Jud.* 13), "tân" (*Mat.* xiii. 42, 50), "lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd" (*Marc* ix. 44, 48), "yr ail farwolaeth" (*Dad.* xxi. 8), a "digofaint Duw" (*Rhuf.* ii. 5). Y mae llawer o ddadleu wedi bod gyda golwg ar y cwestiwn, a oes tân sylweddol yn uffern. Ar yr ochr gadarnhaol, dadleuir fod "tân a brwmstan" yn cael eu gosod allan fel defnyddiau yn mhoenau yr annuwiol: *Dad.* xiv. 10, 11; xx. 10. Gan fod y corph i gael ei adgyfodi, a'r holl ddyn yn cael ei gondemnio a'i gollfarnu, rhesymol, meddir, ydyw credu fod yn rhaid dioddef rhyw gospedigaeth gorphorol yno; ac o ganlyniad, y gallai y bydd hyny yn cael ei effeithio trwy weithrediad tân naturiol. Ar yr ochr nacaol i'r cwestiwn, dadleuir mai ymadroddion ffugrol ydyw y rhai a grybwyllir; ac mai golygu y maent arteithiau cydwybod wedi ei deffro, dymuniadau angerddol nad oes modd eu diwallu, a phoenau dirdynol yn ysbrydoedd yr annuwiolion na feddwn ni ond syniad gwan am eu mawredd yn awr. Dadleuir hefyd, i attegu y syniadau hyn, fod yn bossibl i Dduw gospi y rhai drygionus yn ofnadwy trwy weithredu yn y modd hwn yn uniongyrchol ar eu meddyliau, a thrwy eu rhoddi i fyny i'w nwydau pechadurus, ac arteithiau cydwybod euog ac anobaith. Y mae pob peth, pa fodd bynag, yn arwyddo y bydd y gosp yn drom, y tu hwnt i ddisgrifiad; ac y bydd y drygionus, nid yn unig wedi eu hamddifadu o bob peth sydd yn meddu elfenau daioni a dedwyddwch, ond hefyd wedi eu dedfrydu i ddioddef yr hyn oll sydd boenus ac annedwydd.

Gellir casglu oddi wrth amryw ranau o'r Testament Newydd y bydd gwahanol raddau o gospedigaeth hefyd yn cael eu gweinyddu ar yr annuwiolion yno; megys y gwelir yn *Luc* xii. 47; *Rhuf.* ii. 12; *Mat.* x. 20, 21; xii. 25, 32; a *Heb.* x. 28, 29:—ac mai yn ol ysgelerder eu gweithredoedd y bydd y gosp.

Yn mherthynas i barhâd y gospedigaeth yn uffern, y mae gwahanol syniadau yn bod. Y mae Cristionogion, a'u cymmeryd yn gyffredinol, yn unfarn:—fod geiriau ein Gwaredwr wrth gyfeirio at hyn yn golygu yn amlwg gospedigaeth ddiddiwedd:—"Y rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol," a'u cyffelyb. Ond y mae llawer, ac yn enwedig mewn amseroedd diweddar, yn barnu yn wahanol. Haera rhai na bydd cosp o gwbl. Creda ereill mewn cosp ddyfodol; ond dadleuant na bydd yn "dragywyddol;" yn ystyr cryfaf y gair, ond y bydd yn derfynol o ran ei pharhâd. Y mae un dosbarth yn credu y bydd cospedigaeth yr anedifeiriol yn gynnwysedig, nid mewn byw byth mewn poen a thrueni, ond mewn difodiad (*annihilation*)—dilëad o fodolaeth; ac y bydd i'r ddedfryd o ddifodiad gael ei rhoddi mewn grym gyda graddau mwy neu lai o boen, cyn i'r difodiad neu y dinystr gymmeryd lle yn wirioneddol, yn ol graddau pechadurusrwydd y troseddwr. Dadl y rhai sydd yn coleddu y syniad hwn ydyw—gan nad ydyw yr enaid ynddo ei hun yn anfarwol, ond fod ei barhâd neu ei ddifodiad yn dibynu ar ewyllys Duw, mai undeb â Christ sydd yn sicrhau bywyd tragywyddol o ddedwyddwch; ac y gweinyddir y ddedfryd o farwolaeth dragywyddol, neu ddifodiad, yn weithredol, ar y rhai nad ydynt yn credu ynddo. Gwel DINYSTRIAID.

Y mae dosbarth arall yn bod hefyd; sef, y rhai sydd yn credu yr adferir holl ddynolryw i sancteiddrwydd a dedwyddwch yn y diwedd. Credant nad yw Duw wedi creu dim, ond gyda'r amcan o wneyd ei greaduriaid yn wynfydedig; ac i'r dyben hwnw ei fod wedi danfon ei Fab i'r byd i "fod yn iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear." Y mae y rhai sydd yn dal y syniadau hyn yn credu nad ydyw gobaith na chyfrifoldeb dyn yn wyneb yr efengyl yn terfynu yn angeu, nac yn y farn, ond yn gymmaint ag i Grist farw dros bawb, y bydd iddo, cyn "rhoddi y deyrnas i Dduw a'r Tad," ddwyn pawb i gyfranogi o fendithion ei Gyfryngdod—pa rai sydd yn rhyddhau oddi wrth bechod, a'i holl ganlyniadau. Dyma syniadau yr Undodiaid yn gyffredinol; ac y mae llawer o Gristionogion uniawngred yn Lloegr, yr Almaen, ac America yn mabwysiadu yr un golygiadau. Y mae dwy sect yn America yn gwneyd hyn yn erthygl eu credo; y rhai a elwir wrth yr enwau Adferiaid a Chyffredinolwyr (*Restorationists* ac *Universalists*). Cred y blaid ddiweddaf hyd yn oed fod pob cospedigaeth am bechod yn cael ei gweinyddu yn y byd hwn, ac

Digitized by Google

y bydd dyn ar ol marw yn berffaith ddedwydd. Ond y mae yr Adferiaid yn gwahaniaethu oddi wrthynt. Haerant hwy y cospir yr annuwiol yn y byd a ddaw am dymmor pennodol; sef, am yr ysbaid fydd yn rhagflaenu yr adferiad cyffredinol. Gwel ADFERIAID: CYFFREDINOLWYR.

Y mae dosbarth arall yn credu, fel y crybwyllwyd eisoes, y bydd i bob pechadur anedifeiriol ac anghrediniol ddioddef mewn sefyllfa ddyfodol gospedigaeth dragywyddol, yn ystyr eithaf y gair. Addefant fod yr athrawiaeth yn un ddifrifol ac ofnadwy; ond dadleuant fod yr Ysgrythyrau yn amlwg yn hysbysu mai dyna fydd sefyllfa yr annuwiolion. Y mae y mwyafrif mawr o Gristionogion Protestanaidd er y Diwygiad yn ei chredu, ynhyd â'r Waldensiaid; a dyna oedd syniadau pleidwyr mwyaf selog y gwirionedd yn y canoloesoedd hefyd. Yr oedd Cristionogion y tri chanrif cyntaf hefyd yn ei chredu, fel y canfyddir oddi wrth weithiau Justin Ferthyr, Irenæus, Tertullian, Cyprian, a Minutius Felix. Nid ydym wrth ddywedyd hyn yn ei olygu fel prawf digonol o wirionedd yr athrawiaeth; ond yn ei hystyried yn ffaith nad ydyw yn rhesymol nac yn deg i edrych drosti. Ond y mae hwn yn gwestiwn, fel y mae yn rhaid i bawb addef, nas gellir ei benderfynu ond trwy dystiolaethau yr Ysgrythyr. Gan hyny, ni a roddwn grynodeb o'r hyn a ddygir yn mlaen fel profion ysgrythyrol dros y golygiad diweddaf a enwyd; sef, y bydd cospedigaeth yr annuwiol yn dragywyddol ei barhâd; ac a ddechreuwn trwy nodi,

1. Y rhanau hyny o'r Ysgrythyr sydd yn dadgan na chaiff pechaduriaid anedifeiriol fyned i mewn i deyrnas nefoedd: *Mat.* v. 20; xviii. 3; *Marc* x. 23—27; *Luc* xiii. 24, 26; *Ioan* iii. 3—5; 1 *Cor.* vi. 9, 10; *Gal.* v. 19—21; *Eph.* v. 5; *Heb.* iii. 19; iv. 1, 13. Os ydyw pechaduriaid anedifeiriol a gwrthryfelgar, yn ol iaith yr Ysgrythyrau hyn, yn cael eu cau allan o'r nefoedd, y maent o angenrheidrwydd yn disgyn i uffern; o herwydd nid ydyw y Beibl yn rhoddi un awgrym fod sefyllfa ganol yn bod Nid ydyw purdan ond dyfais oesoedd diweddarach i wasanaethu amcanion personol yr offeiriaid Pabaidd, ac amcanion yr eglwys y perthynant iddi.

2. Y mae y rhanau hyn o'r Ysgrythyr yn desgrifio sefyllfa ddyfodol a thragywyddol dynion mewn cyferbyniad i'w gilydd: *Salm* xvii. 14, 15; *Diar.* x. 28; xiv. 35; *Dan.* xii. 2; *Mat.* iii. 12; vii. 13, 14, 21; viii. 11, 12; xxiv. 46—51; xxv. 23—46; *Marc* xvi. 16; *Luc* vi. 23, 24, 47—49; *Ioan* iii. 16; v. 29; *Rhuf.* ix. 21—23; 2 *Tim.* ii. 19, 20; *Heb.* vi. 8, 9; 1 *Pedr* iv. 18. Ystyrir fod yr Ysgrythyrau uchod yn cyfeirio at sefyllfa dragywyddol dyn, am y rhesymau canlynol:—1af, O herwydd fod y gair '*diwedd*' yn cael ei ddefnyddio yn bennodol yn amryw o honynt. 2il, O herwydd fod sefyllfaoedd y cyfiawn a'r drygionus yn cael eu gosod yn wrthgyferbyniol i'w gilydd. 3ydd, Nad oes dim yn cael ei ddyweyd am un sefyllfa arall ar ol yr un y sonir am dani yn yr adnodau uchod. 4ydd, Am nad yw rhai o'r ymadroddion yn goddef un eglurhâd arall.

3. Y rhanau o'r Ysgrythyr sydd yn cymmhwyso y geiriau 'tragwyddol,' 'byth,' ac 'yn oes oesoedd,' at y sefyllfa ddyfodol hono, ydynt y rhai canlynol:—*Dan.* xii. 2; *Mat.* xviii. 8; xxv. 41—46; *Marc* iii. 29; 2 *Cor.* iv. 18; 2 *Thes.* i. 9; 2 *Pedr* ii. 19; *Iudas* 7; *Dad.* xiv. 10—12; xix. 3; xx. 10. Sylwir yn 1af, Fod yr ymadroddion mor gryf a dim y gellir eu harfer yn yr iaith Roeg i osod allan barhâd diddarfod. 2il, Er fod y geiriau hyn yn cael eu defnyddio weithiau yn ammhriodol am amser terfynol, nad oes dim yn yr achos yma yn galw am eu cyfyngu. Y rheol ddiogel i gael allan feddwl geiriau yw, rhoddi bob amser i air ei ystyr priodol ac arferol, os na bydd rhywbeth yn y cyd-destyn, neu yn natur y peth ei hun, yn arwyddo ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr arall. 3ydd, Y mae y gwrthgyferbyniad sydd yn ymddangos mewn amryw o'r rhanau uchod yn penderfynu yr ystyr tu hwnt i ammheuaeth rhesymol. Os ydyw Ysbryd yr Arglwydd wedi dewis yr un ymadroddion i osod allan barhâd cospedigaeth ddyfodol un dosbarth, ag a ddefnyddir ganddo i ddynodi parhâd dedwyddwch dyfodol dosbarth arall, mynai, yn ddiau, i ni ddeall fod hyd eu parhâd yn y naill fel yn y llall.

4. Y mae y rhanau canlynol o'r Ysgrythyr yn gosod allan fod cospedigaeth ddyfodol mewn ymadroddion sydd yn arwyddocau ei bod yn dragwyddol:—*Mat.* x. 28; xii. 31, 32; *Marc* iii. 39; ix. 43—48; *Luc* ix. 25; xiv. 26; *Ioan* iii. 36; *Phil.* iii. 9; *Heb.* vi. 6; *Iago* ii. 13; a 1 *Ioan* iii. 16. Y mae yr ymadroddion a ddefnyddir yn y lleoedd uchod yn arwyddo fod y rhai y mae Crist yn peidio eiriol drostynt—y rhai na faddeuir iddynt—y rhai y mae yn ammhossibl iddynt ymadnewyddu i edifeirwch—y rhai sydd yn tynu yn ol i golledigaeth, ac sydd yn colli eu heneidiau—y rhai y buasai yn dda iddynt pe nas ganesid—fod y rhai hyn yn gorfod dioddef cospedigaeth dragwyddol.

5. Y mae y rhanau hyn yn dadgan fod y cyfnewidiad calon a'r parotoad sydd yn angenrheidiol i'r nefoedd yn gyfyngedig i'r bywyd hwn:—*Diar.* i. 24—28; *Esa.* lv. 6, 7; *Mat.* xxv. 5—13; *Luc* xiii. 24—29; *Ioan* xii. 36; 2 *Cor.* vi. 1, 2; *Heb.* iii. 1—10, xiii. 15—22; *Dad.* xii. 11. Os dyma ydyw terfynau "yr amser cymmeradwy"—os ydyw "dydd iachawdwriaeth" i gael ei ddilyn gan nos, yn yr hon ni ddichon neb weithio—os oes cyfnod yn nesau, ar ol yr hwn nis gellir cyfnewid cymmeriad moesol—yna y mae yn canlyn y bydd i'r neb na chyfnewidir, ac a gamddefnyddia "yr amser cymmeradwy," ddioddef cosp dragwyddol. Y mae un wrthddadl wedi ei defnyddio mewn attebiad i'r rhesymau hyn, sydd yn haeddu sylw. Dywedir mai lleferydd y gyfraith ydyw yr holl fygythion hyn, yr hon sydd yn cyhoeddi yr hyn y dylai pechaduriaid ei ddioddef; ond er hyny, fod yr efengyl yn diogelu iachawdwriaeth pawb. I hyn yr attebwn, nad yw yr efengyl yn addaw iachawdwriaeth i neb ond ar ei thelerau ei hun, ac i gredinwyr yn unig (*Rhuf.* i 16); ac y mae yn eglur nad ydyw pawb yn ufuddhau iddi. Y mae yn rhaid iddynt gan hyny ddioddef y canlyniad o'u hymddygiadau, yr hyn a welir yn y dosbarth nesaf.

6. Y rhanau o'r Ysgrythyr sydd yn rhagfynegu y canlyniadau o wrthod yr efengyl ydyw y rhai canlynol:—*Salm* ii. 12; *Diar.* xxix. 1; *Act.* xiii. 40—46; xx. 26; xxviii. 26, 27; *Rhuf.* x. 12; 1 *Cor.* i. 18; xvi. 22; 2 *Cor.* ii. 15, 16; iv. 3; 1 *Thes.* v. 3; 2 *Thes.* i. 8; ii. 10—12; *Heb.* ii. 1—3; iv. 1—11; x. 26—31, 38, 39; *Iago* ii. 14; 1 *Pedr* iv. 17, 18; 2 *Pedr* ii. 1—21; a iii. 7.

7. Yr ydym yn deall mai yr efengyl yn unig sydd yn cynnyg iachawdwriaeth i ddyn (*Act.* iv. 12), a bod y gwrthodiad o honi hi yn wrthodiad o'r unig foddion ordeiniedig i achub a

Digitized by Google

gwaredu pechadur. Y mae yn rhaid, gan hyny, i'r rhai a'i gwrthodant ddioddef y canlyniadau; ac yn y rhanau uchod, mynegir yn bendant fod rhai yn ei gwrthod, ac yn trengu; a bod gweinidogaeth yr efengyl iddynt yn "arogl marwolaeth i farwolaeth." Yn mhellach, gan mai yr efengyl ydyw yr amlygiad mwyaf nodedig o ddoethineb a thrugaredd Duw, y mae yn rhaid fod dyn, drwy ei gwrthod, yn syrthio dan gondemniad a chospedigaeth fwy nag y gallasai eu dioddef pe na buasai am hyny. Oddi wrth yr adnodau uchod, gan hyny, y mae yn ymddangos i ni yn eglur y bydd tynged yr anghredadyn yn cael ei benderfynu am byth, yn ystyr helaethaf y gair, ar ei ymadawiad â'r fuchedd hon, ac na wawria y gobaith lleiaf am waredigaeth arno yn oes oesoedd.

ULA: o lwyth Aser, penteulu yn ei lwyth; "gŵr o nerth," a phen cadben: ond pa fodd y disgynodd, ni ddywedir: 1 *Cron.* vii. 39. Fe allai, fel yr awgrymir gan Junius, ei fod yn fab Ithran neu Iether.

ULAI: afon a grybwyllir gan Daniel (*pen.* viii. 2, 16) yn agos i Susan, lle y cafodd efe weledigaeth yr hwrdd a'r bwch. Tybir yn gyffredin mai yr un ydyw ag Eulæus daearyddwyr Groeg a Rhufain—ffrwd fawr yn ymyl y ddinas hono.

1. ULAM: un o ddisgynyddion Gilead, ŵyr Manasseh, a thad Bedan: 1 *Cron.* vii. 17.
2. ULAM: cyntafanedig Esec, brawd Asel, un o ddisgynyddion teulu Saul. Yr oedd ei feibion yn mhlith saethyddion Beniamin, a chyda'u meibion a'u hwyrion yn gwneyd i fyny deulu o gant a hanner: 1 *Cron.* viii. 39, 40.

ULLMANN, KARL: duwinydd Almaenaidd a anwyd yn Epfenbach, yn Baden, Mawrth 15, 1796. Derbyniodd ei addysg yn Morbach a Heidelberg hyd y flwyddyn 1812. Pennodwyd ef yn athraw duwinyddol yn mhrifysgol Heidelberg yn 1821, ac yn athraw yn mhrif ysgol Halle yn 1829. Rhoddodd ei swydd o athraw yn Halle i fyny yn 1836, a dychwelodd i Heidelberg, lle y bu yn dysgu duwinyddiaeth, ac yn ysgrifenu; ac yn mhlith pethau ereill, yn 1838, ysgrifenodd waith llenyddol yn erbyn damcaniaethau a dysgeidiaeth Straus. Yn 1853, pennodwyd ef yn brelad efengylaidd ac yn aelod o Gynghorfa yr Eglwys yn Heidelberg. Y mae ei weithiau duwinyddol, y rhai ydynt liosog, wedi myned trwy lawer o argraphiadau; a rhai o honynt wedi eu cyfieithu i'r Isellmynaeg, y Saesneg, y Danaeg, a'r Ffrangcaeg. Ar ol 1853, cymmerodd Ullmann ran flaenllaw yn y symmudiad i sefydlu undeb Cristionogol rhwng y gwahanol enwadau efengylaidd yn Baden, ac yn y ceisiadau a wnaed i wellhau sefyllfa gymdeithasol rhai oedd yn y weinidogaeth Gristionogol. Bu farw Ionawr 12fed, 1865, yn y 69ain mlwydd o'i oedran.

ULYSSES (y ffurf Lladinaidd am y Groeg *Odysseus;* sef *digofus*): enw un o wroniaid penaf rhyfel Caerdroia (*Troy*). Ceir gwahanol adroddiadau am ei wehelyth; ond yn ol y chwedl hynaf, sef yr un Homeraidd, yr oedd yn fab i Laertes, tywysog Ithaca (un o'r ynysoedd Ioniaidd), ac Anticlea, merch Autolycus. Yn ol adroddiadau diweddarach, mab ydoedd i Lisyphus gyfrwysgall. Priododd Penelope; a mab iddo ef a hithau oedd Telemachus. Ennillodd Ulysses enw mawr am ei ddewrder a'i hyawdledd pan yn ieuangc. Pan y penderfynwyd ar ymgyrch yn erbyn Caerdroia, ymwelodd Agamemnon âg Ithaca, a pherswadiodd Ulysses i gymmeryd rhan yn y gwaith. Cyn i'r rhyfel ddechreu, anfonwyd Ulysses, Menelaus, a Palamedes i Caerdroia, er ceisio perswadio y preswylwyr i roddi i fyny Helen, a'i thrysorau; ond troi yn fethiant a wnaeth hyn; a hwyliodd llynges y Groegiaid o Aulis am Caerdroia, a chymmerodd Ulysses gydag ef ddeuddeg o longau. Efe a wnaeth wasanaeth pwysig i'r Groegiaid yn ystod y gwarchau. Mewn doethineb a ffrwythlonrwydd adnoddau, yr oedd yn un o'r rhai enwocaf o'r penaethiaid Helenaidd; ac nid oedd yn ol i neb am ei ddewrder. Ar ol cwymp Caerdroia, pa fodd bynag, y dechreuodd cyfnod mwyaf dyddorol ei fywyd, a'r hwn a ffurfia destyn yr "*Odyssey;*" sef, pryddest yr anfarwol Homer. Y mae yn eglur fod llawer o'i anturiaethau o darddiad dwyreiniol. Hwyliodd am gartref o Caerdroia, pan y gyrwyd ei longau gan dymmhestl i ororau Thracia, lle yr ysbeiliodd efe ddinas Ismarus; ond collodd yno rai o'i gymdeithion. Wedi ail hwylio, chwythodd y gogleddwynt ar draws Môr Ægea a'r gwledydd dwyreiniol, a gyrwyd hwy i wlad y Lotophagi, ar dueddau Libya, lle y dywedir fod cymdeithion Ulysses wedi bwyta o ryw ffrwythydd rhyfedd, nes yr ewyllysient gael gorphwys am byth. Ond gorfododd eu harweinydd hwynt i adael y wlad, a hwyliodd tua'r gogledd drachefn, ac aethpwyd i "Ynys y Geifr," lle y gadawodd Ulysses ei holl longau, ond un. Oddi yno hwyliasant tua'r gorllewin, a chyrhaeddasant "Ynys yr Anwariaid" (Sicily). Tybir nad oedd "Ynys Ælus," a "dinas Laestrygones," y lle nesaf yr arweiniwyd y penaeth iddo, ond enwau ar leoedd neillduol yn Sicily. Yna hwyliodd tua'r gorllewin drachefn i Ægea, lle y cyfanneddai yr hudoles Circe—yn ol cyfarwyddyd yr hon, yn ol yr hen chwedl, y dywedir iddo ddisgyn i Hades; ac yno yr ymgynghorodd â Teiresias am y ffordd i ddychwelyd i'w wlad ei hun. Wedi cyrhaedd y ddaear drachefn, aeth ar hyd gororau gwlad yr hudolesau (*sirens*), yn ol cyfarwyddyd Circe, heb dderbyn un niwed. A'r un modd hefyd efe a ddiangodd rhag peryglon trobyllau a thraethellau Scylla a Charybdis. Ar dueddau Sicily, dinystriwyd ei longau gan Apollo; a boddwyd pawb, oddi gerth Ulysses ei hun, yr hwn a nofiodd i Ynys Ogygia, preswylfod y dduwies Calypso, gyda'r hon y trigodd wyth mlynedd. Ymadawodd oddi yno; ond suddodd y llong yr oedd ynddi, a thaflwyd yntau mewn sefyllfa druenus ar ynys y Phæaciaid, lle y cafodd nawdd y brenin Alcinous. Adroddodd hanes ei anffodion i'r brenin hwnw, a chafodd long i'w gario adref, ar ol bod yn absennol am ugain mlynedd. Yr oedd Ulysses yn cysgu pan agoshaodd y llestr at dueddau Ithaca; a gadawodd y milwyr y gwron yn anymwybodol ar y traeth. Pan ddeffrodd efe, nis gwyddai ar y cyntaf yn mha le yr oedd; ond ymddangosodd Athene iddo, a dywedodd wrtho yr oll a ddigwyddodd i Penelope, ei wraig, yn ei absennoldeb. Ffugwisgodd yntau ei hun mewn diwyg cardotyn, ac aeth i'w lys, lle yr adnabyddwyd ef gan ei hen fammaeth; ac, fel y desgrifir ef yn effeithiol gan Homer, gan ei hen gi, Argus. Yn cael ei gynnorthwyo gan ei fab Telemachus, a'r bugail Cumæus, efe a ddialodd ar y rhai hyny a

ymddygasant yn ddianrhydeddus at ei wraig, a rhoddwyd hwynt i farwolaeth ganddo. Nid ydyw Homer yn cofnodi dim o hanes Ulysses; ond| y mae efe, yn *Il.* xii., yn gosod yn ngenau Teiresias brophwydoliaeth, y byddai i'r gwron gyfarfod â marwolaeth dawel a dedwydd mewn henaint teg. Yn ol traddodiad arall, lladdwyd ef gan Telegonous, ei fab. Y mae beirdd diweddarach, megys Virgil ac Ovid, yn gosod ei gymmeriad allan yn llai anrhydeddus a dewrfrydig nag yr ymddengys ei fod oddi wrth weithiau Homer. Yno, y mae ei synwyr a'i ddoethineb yn cael eu hystyried yn gyfrwysdra a thwyll; ac yn hytrach na'i fod wedi amlygu dewrder diysgog, ymddengys fel un o ysbryd llwfr a gwangalon.

ULPHILAS: esgob Gothaidd enwog. Ganwyd ef ynghylch B. A. 318, o rieni Marcomanaidd, a breswylient ar du y gogledd i'r Danube, yn mysg poblogaeth yn cael ei gwneyd i fyny o Gothiaid. Neillduwyd ef yn esgob, B. A. 348, ac alltudiwyd ef gan ei gydgenedl o'i le genedigol. Aeth yntau i geisio nawdd dychweledigion Cristionogol yn Mœsia Isaf, yn nhroed yr Hæmus, lle yr arosodd am ddeng mlynedd ar hugain. Aeth i Gaer Cystenyn yn y fl. 388 (lle y bu efe unwaith o'r blaen mewn cynghor yn 360), a bu farw yn fuan ar ol cyrhaedd i'r ddinas. Yr oedd yn un o'r Ariaid enwocaf, a gwnaeth ei oreu i ledaenu y golygiadau hyny. Teimlid hefyd ei ddylanwad gwleidyddol yn fuan yn mysg ei gydgenedl, y Gothiaid; ac y mae haneswyr y cyfnod yn tystio mai ganddo ef yr oedd y dylanwad crefyddol mwyaf ar y Gothiaid o bawb yn yr oes hono. Ei waith penaf, pa fodd bynag, ac un a wna ei enw yn glodfawr trwy yr oesau, ydyw ei gyfieithiad o'r Beibl i iaith y Gothiaid—gwaith drwy yr hwn y darfu iddo sefydlu yr iaith hono, ac y bu yn foddion i barhau Cristionogaeth yn eu mysg. Yr oedd yn gyfarwydd â'r ieithoedd Lladin, a Groeg, a Gothaidd; ac arferai hefyd ysgrifenu ynddynt. Ymgymmerodd â chyfieithu yr holl Feibl, gyda'r eithriad o lyfrau Samuel a'r Brenhinoedd, i iaith nad oeddynt wedi ei chyfieithu iddi o'r blaen; ac yn yr hon, hyd y mae yn wybyddus, nid oedd un gwaith llenyddol o ddim pwysigrwydd wedi ei gyfansoddi. Hyd y nawfed ganrif, cymmerai y Gothiaid y llyfr cyssegredig gyda hwynt i'w holl grwydriadau. Ond o'r cyfnod hwnw allan, nid oes dim yn wybyddus am dano ond sydd yn cael ei gyflwyno i ni mewn hanesiaeth eglwysig. Darganfu Arnold Mercator y pedair efengyl o gyfieithiad Ulphilas yn mynachlog Werden, yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Dygwyd ef oddi yno i Prague, lle y bu hyd 1648, pan y cymmerodd y Swediaid hwy fel ysbail i Upsal; ac yno y maent yn llyfrgell y brifysgol, o dan yr enw *Codex Argenteus*. Yn 1818, darganfyddwyd darnau ereill, sef rhanau helaeth o Epistolau Paul, gan A. Mai a Castiglioni, wedi eu hysgrifenu ar femrwn, mewn mynachlog Lombardaidd; yr hyn, ynghyd âg ychydig o ddarnau ereill, a wna y Testament Newydd yn mron yn gyflawn. Ond nid oes ond ychydig ddarnau o Ezra a Nehemiah ar gael yn yr iaith hono o'r Hen Destament. Y mae yn anhawdd rhoi gormod o bwysigrwydd ar yr unig ddernyn Gothaidd hwn o ieithyddiaeth Teutonaidd. Trwy y cyfrwng yma yn benaf y mae un o'r tafod-ieithoedd Almaenaidd cyfoethocaf a phuraf wedi ei gwneyd yn hysbys.

ULRIC: esgob Augsburg, yr hwn a ystyrir yn un o dadau yr Eglwys Almaenaidd. Ganwyd ef yn Augsburg tua'r flwyddyn 890. Mab ydoedd i Hupald, Count Dillingen; a diau fod rhyw gymmaint o'r dylanwad a feddai i'w briodoli i'w gyssylltiad â'r teulu parchus a phendefigaidd hwn. Addysgwyd ef yn mynachlog Benedictaidd St. Gaul, yn Switzerland; ond ymddengys fod ei fywyd dilynol, a nodwedd ei feddwl, yn gystal a gogwyddiad ei olygiadau crefyddol, wedi eu ffurfio yn fwy gan gynghorion a chyfarwyddiadau benyw feudwyaidd o'r enw Wiborada—cell yr hon oedd yn nghymmydogaeth St. Gaul, ac â'r hon y cymdeithasai efe lawer—na chan ei addysgwyr mynachaidd. Dilyn ei chyfarwyddyd hi a wnaeth trwy beidio myned yn fynach Benedictaidd yn St. Gaul; a dychwelodd i'w dref enedigol, lle y derbyniodd urddau eglwysig. Mewn cydymffurfiad âg arfer yr amseroedd, aeth ar bererindod i Rufain; ac yn fuan ar ol ei ddychweliad, neillduwyd ef yn esgob Augsburg, ar farwolaeth Hiltine, yn 923. Nis gellir myned i mewn i'w hanes mewn cyssylltiad â'i esgobaeth a'i eglwys, yr hon oedd wedi dioddef cryn lawer ar y pryd oddi wrth oresgyniadau y Magyariaid, a rhyfeloedd ereill: ond gellir dyweyd eu bod yn taflu cryn oleuni ar bethau allanol bywyd crefyddol, ac ar gymmeriad moesol ac ysbrydol y bobl—y lleygwyr a'r clerigwyr; a haeddа ystyriaeth pob un sydd am astudio hanes y canol-oesoedd. Cymmerodd Ulric ran bwysig yn nygiad yn mlaen achosion cyhoeddus yr ymherodraeth yn ystod teyrnasiad Harri I., a'i fab Otho; ac efe oedd yr ysbryd arweiniol mewn amryw o gynghorau yr Almaen, a ymdrechent [i ddwyn oddi amgylch ddiwygiad. Bu farw yn y flwyddyn 973. Y mae rhai pregethau a llythyrau ar gael etto a briodolir iddo; ond tybir gan feirniaid craff nad efe oedd eu hawdwr.

UMAH: un o ddinasoedd rhandir Aser: *Jos.* xix. 30. Y mae yn cael ei henwi gydag Aphec a Rehob; ond ni wyddys yn mha le y safai.

UNBENAETH (*sovereignty*): y gallu uchaf; uchafiaeth, meddianniad yr awdurdod uchaf. I Dduw ei hun yn unig y perthyn gallu unbenaethol hollol. Yn mhob gwlad wareiddiedig, na byddo mewn sefyllfa o wrthryfel ac annhrefn aflywodraethol, y mae rhyw berson neu bersonau yn meddu y gallu mwyaf ac uchaf. Y nodau drwy ba rai y gellir gweled meddianniad y gallu llywodraethol ydynt ddau yn benaf: un yn gadarnhaol, a'r llall yn nacaol; sef, 1. Trwy yr arferiad o ymostwng i ryw berson neu bersonau, gan gyfundeb o bobl a lywodraethir ganddynt. 2. Absennoldeb yr arferiad o ufuddhau, ar ran yr un person neu bersonau hyny, i unrhyw berson neu lywodraeth. Pa bryd bynag y bydd i'r ddau nôd yma gyfarfod yn yr un person, neu gorph o bersonau, y mae y cyfryw berson neu gorph o bersonau yn meddu yr awdurdod uchaf. Ar y llaw arall, os bydd un o'r ddau nôd hwn yn ddiffygiol, nid ydyw y person neu y corph hwnw yn benadurol. Er enghraifft, nid ydyw llywodraeth leol Jamaica, neu Sydney, gan eu bod yn arfer ufuddhau i senedd Prydain, yn llywodraeth oruchaf neu benadurol. Drachefn, nid yw corph o bobl yn galw eu hunain yn llywodraeth, fydd yn analluog, o herwydd eu gwendid, i sicrhau ufudd-dod ac ymostyngiad y bobl, yn unbenaethol neu yn benadurol—ac ni

Digitized by Google

chydnabyddir y cyfryw chwaith fel llywodraeth benadurol gan wledydd ereill.

Yn gymmaint a'i fod yn ammhossibl i nodi yn fanwl y funyd y mae yr arferiad o ufuddhau i lywodraeth dramorol yn terfynu, y mae yn anhawdd, o ganlyniad, i wledydd tramor benderfynu pa bryd y dylent gydnabod penaduriaeth tiriogaeth, a fu unwaith yn ddibynol, a fyddo wedi ennill annibyniaeth. Y mae y gallu unbenaethol yn golygu yr holl alluoedd y gellir eu hymarfer gan lywodraeth. Cynnwysa y gallu deddfwriaethol, y gallu gweinyddol, a'r gallu i ganiatau breintiau, y gallu i gyhoeddi heddwch a rhyfel, y gallu i wneuthur cyttundebau gyda gwledydd tramor, a'r awdurdod i bennodi ymchwiliadau i wahanol bethau perthynol i'r wladwriaeth. Y mae y gallu unbenaethol yn annherfynol o ran unrhyw attalfa gyfreithiol sydd arno. Ac y mae y diogelwch a geir y caiff ei weinyddu er daioni yn deilliaw yn hollol oddi wrth fantoliad buddiannau a dylanwad y farn gyhoeddus. Dosberthir llywodraethau unbenaethol a phenadurol yn freniniaethau a gweriniaethau; ac y mae gweriniaethau drachefn yn cael eu rhanu i rai pendefigol a democrataidd.

Tybir yn gyffredin, ond y mae y dyb yn gyfeiliornus, fod y benaduriaeth yn gorphwys yn mhob person sydd yn dwyn yr enw o frenin; mewn geiriau ereill, fod pob brenin yn unben, neu yn benadur. Gan hyny, gelwir y gwledydd hyny lle nad yw y brenhinoedd yn unben mewn ystyr manwl yn 'frenhiniaethau cyfyngedig.' Y mae y brenin yn benadur, ond y mae ei awdurdod yn cael ei reoli, neu ei lywodraethu gan ryw gyfundebau neu gyrph pennodol, wedi eu dewis gan y bobl; ac felly, mewn gwirionedd, y mae y benaduriaeth yn cael ei rhanu rhwng y brenin a'r cyrph a etholir gan y bobl, ac nid ydyw y blaenaf yn meddu yr holl benaduriaeth. O ganlyniad, nid ydyw brenin o angenrheidrwydd yn meddu yr holl allu penadurol; neu, mewn geiriau ereill, nid yw o angenrheidrwydd yn unben. Y mae y brenin, weithiau, yn rhanu y gallu gyda dosbarth o bendefigion, megys yn y taleithiau Groegaidd cyntefig; neu gyda chyrph wedi eu hethol gan y bobl, megys yn nheyrnasoedd gwriogaethol y canol-oesoedd, a Phrydain, Holland, Belgium, a gwledydd ereill yn y dyddiau hyn. Y mae yn bossibl i lywodraeth beidio bod felly trwy ddyfod yn llywodraeth israddol; megys, er enghraifft, llywodraethau ynysoedd y Môr Ægeaidd, a orchfygwyd gan Athen, a llywodraethau y tiriogaethau a ddaethant yn gyfran o'r taleithiau Rhufeinig; neu trwy ymollyngiad mewnol, yn ganlynol i wrthryfel llwyddiannus yn mysg ei deiliaid ei hun, neu unrhyw achos arall.

UNDODIAETH. Gwel SOCINIAETH.

UNDUWIAETH (*Monotheism*): crediniaeth mai un Duw sydd, yr hwn yn unig y dylid ei addoli: yn wrthgyferbyniol i'r dybiaeth fod lliosawgrwydd o dduwiau—yr hyn a elwir yn Amldduwiaeth (*Polytheism*). Er fod y syniad hwn wedi poblogi y nefoedd a'r ddaear â duwiau dirifedi, y mae y rhai sydd yn ei goleddu yn ystyried fod un Duw mawr a goruchaf yn bodoli, ar wahân oddi wrth y lleill. Ac yn hanes y gwahanol wledydd lle y bu amldduwiaeth yn ffynu, gellir canfod llinellau sydd yn arwain i'r casgliad hwn. Y mae y traddodiadau mwyaf hynafol yn cyttuno â thystiolaeth yr Ysgrythyrau i osod hyn allan fel crefydd dynoliaeth.

UNFFURFIAETH, DEDDFAU. Y mae deddf Unffurfiaeth Edward VI., yr hon a basiwyd Ionawr 15fed, 1549, yn ordeinio mai trefn y gwasanaeth crefyddol, a dynwyd allan gan Cranmer ac ereill, "trwy gynnorthwy yr Ysbryd Glân," fel y dywedir, oedd yr unig un y gellid ei defnyddio ar ol yr 20fed o fis Mai y flwyddyn hono. Y gospedigaeth am wrthod ei defnyddio oedd dirwy a charchariad. Cadarnhawyd y ddeddf hon yn 1552; diddymwyd hi gan y frenhines Mari, yn 1554; ac adnewyddwyd hi gan y frenhines Elizabeth, yn 1559. Pasiwyd deddf Unffurfiaeth 14 Siarl II., *pen.* 4, yn y flwyddyn 1662. Gorchymynai unffurfiaeth mewn materion crefyddol, a rhwymai y clerigwyr i lawnodi y deugain erthygl namyn un, ac i ddefnyddio yr un ffurf o wasanaeth ag sydd yn y "Llyfr Gweddi Gyffredin." Y diwrnod y daeth y ddeddf hon i rym oedd y 24ain o Awst, 1662, yr hwn a elwid yn "ddydd du St. Bartholomeus." Parodd hyn i ddwy fil o weinidogion adael Eglwys Loegr ar unwaith; sef, y rhai nad oeddynt yn foddlawn i ymostwng i'r oll a geisiai y gyfraith ganddynt. Pe buasai y llywodraeth y pryd hwnw yn foddlawn ar ofyn i'r cyfryw ag a ewyllysient aros yn weinidogion yn yr Eglwys Sefydledig gydymffurfio, heb fyned yn mlaen i lunio mesurau erlidgar yn erbyn y sawl na oddefai eu cydwybodau iddynt gydsynio â holl ofynion y ddeddf hono, y mae yn dra thebyg na buasai Ymneillduaeth wedi gwreiddio mor ddwfn yn meddyliau y bobl ar y pryd. Ond myned yn mlaen a wnaed i wneyd cyfreithiau mwy llym. Nid aeth ond dwy flynedd heibio ar ol pasio y ddeddf a enwyd na ddygwyd ger bron y senedd Ddeddf y Tai Cyrddau (*Conventicle Act*); a phasiwyd hi, a derbyniodd gydsyniad y brenin. Gellir edrych ar hyn fel un o ffrwythau Deddf Unffurfiaeth. Yn ol y ddeddf hon, nis gallai ond pump o bersonau uwch law un ar bymtheg oed, heb law y teulu, gyfarfod â'u gilydd i addoli, yn deuluaidd na chymdeithasol. Yr oedd y gallu i bennodi cospau am droseddu y ddeddf hon, y rhai oeddynt yn llym iawn, wedi ei ymddiried i un ynad heddwch; gan yr hwn yr oedd awdurdod i weithredu ar lŵ hysbyswr (*informer*), heb wasanaeth rheithwyr. Y gosp ar yr hwn a weinyddai mewn gwasanaeth crefyddol oedd—am y trosedd cyntaf, dirwy o bum punt, neu dri mis o garchariad; am yr ail, dirwy o ddeg punt, neu chwe mis o garchariad; ac am y trydydd, dirwy o gan punt, neu alltudiaeth dros ei fywyd. Yn y flwyddyn ganlynol (1665) daeth Deddf y Pum Milldir i rym. Gorfodai Anghydffurfwyr i gymmeryd llŵ i beidio ceisio gwneuthur un cyfnewidiad yn yr Eglwys na'r Wladwriaeth; ac os gwrthodent, yr oedd y pleidiau i gael eu gyru allan o holl drefydd, bwrdeisdrefi, a dinasoedd y deyrnas, ac ni oddefid iddynt ddyfod o fewn pum milldir i un o honynt! Cynnaliodd Ymneillduwyr y deyrnas goffadwriaeth ddau can mlwyddol o'r dydd y troes y ddwy fil allan yn 1862. Pasiwyd mesur gwelliant Deddf Unffurfiaeth ar y 18fed o Orphenaf, 1872, a chafodd yr Eglwys drwy hyny awdurdod i fyrhau y gwasanaeth plwyfol, &c. Gwel ANGHYDFFURFIAETH.

UNIAWNGREDEDD (*Orthodoxy*): o *orthos*, union, a *doxa*, opiniwn): iawn farn mewn materion crefyddol. Yr athrawiaethau hyny a olygir yn uniawngred ydynt y rhai sydd mewn cydsyniad a chyssondeb â Gair Duw; megys

Digitized by Google

cwymp dyn, adenedigaeth, yr iawn, edifeirwch, cyfiawnhâd trwy ras, &c.—y rhai a fabwysiadwyd yn gyffredinol yn adeg y Diwygiad Protestanaidd. Y mae yr esgob Beveridge yn gosod allan bwysigrwydd uniawngrededd yn yr ymadroddion crytion a ganlyn:—"Yr wyf yn addef nas gall ffydd uniawngred byth ein dwyn i'r nefoedd, heb fywyd sanctaidd; felly hefyd nis gall bywyd sanctaidd wneuthur hyny heb ffydd uniawngred; o herwydd y mae heresiau'yn ddinystriol, yn ogystal a phechodau." Nid yr un ydyw safon genedlaethol uniawngrededd yn mhob gwlad; o herwydd yr opiniynau a'r gwasanaeth crefyddol a dderbynir gan y mwyafrif o unrhyw genedl, neu a nodir gan y galluoedd llywodraethol, a gydnabyddir fel safonau uniawngrededd. O ganlyniad, Eglwys Groeg ydyw yr un a ystyrir yn uniawngred yn Rwssia; yr Eglwys Babaidd yn Yspaen, Portugal, a Ffraingc, &c.; yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr; a'r Eglwys Henaduriaethol yn Ysgotland. Ond yn yr Iwerddon, am lawer o amser, er fod y mwyafrif yn proffesu Pabyddiaeth, bu yr Eglwys Saesnig yn waddoledig. Y mae, gan hyny, yn yn bwngc o ddadl gan rai pa opiniynau ac arferion crefyddol sydd i'w cydnabod yn uniawngred. Etto: yn Nghanada Uchaf, y ffydd uniawngred ydyw yr un Brotestanaidd esgobawl; ond y mae Pabyddiaeth yn grefydd sefydledig yn Canada Isaf. Ond safon wirioneddol uniawngrededd, pa fodd bynag, ydyw y llyfr hwnw at ba un y mae yn rhaid i ni oll appelio, sef y Beibl; gan ei fod yn cynnwys pob peth sydd yn angenrheidiol er iachawdwriaeth.

Tybia rhai, er mwyn cadw cyfeiliornad o'r eglwys, y dylid tynu allan ffurf neillduol fel safon uniawngrededd, drwy yr hyn y gellir cadarnhau rhyw athrawiaethau y mae dadleu yn eu cylch mewn ymadroddion mor benderfynol fel y galler eu defnyddio yn uniongyrchol yn erbyn y cyfeiliornadau a gyfodant o bryd i bryd; ac y dylid galw ar y sawl fyddont yn addysgwyr cyhoeddus yn yr eglwys i lawnodi neu i ddadgan eu bod yn cydsynio â'r cyfryw ffurfiau. Tybia ereill, pe buasai hyn yn angenrheidiol y cawsid yn yr Ysgrythyrau ryw ffurfiau o'r fath, neu gyfarwyddiadau gyda golwg ar y modd yr oeddynt i'w tynu allan, a'u cynnyg, a'u derbyn. Gwrthwynebiad arall a deimlir i hyn ydyw, fod yr arfer o dynu allan ffurfiau o gredo wedi bod yn achos o anghydfod a dadleuaeth yn yr Eglwys Gristionogol, ac wedi arwain i rwygiadau ynddi; ac nad ydynt, wedi y cwbl, yn debyg o atteb y dyben a fwriedir iddynt, sef cadw unoliaeth barn; yn gymmaint ag y gall rhyw fath o bersonau foddloni eu cydwybodau trwy gydsynio yn broffesedig â'r hyn nad ydynt yn ei gredu mewn gwirionedd, neu ynte roddi yr esboniad mwyaf annaturiol ar yr ymadroddion a ddefnyddir yn y ffurfiau. Ond mewn attebiad i hyn, dadleuir fod y fath ffurfiau yn angenrheidiol er cadw yr eglwys oddi wrth heresiau; ac mai gwell ydyw fod rhai yn rhagrithwyr o dan y cyfryw ffurfiau uniawngred, na bod rhyddid yn cael ei ganiatau i'r holl addysgwyr i ddadgan eu barn heb fod dim rhwymau arnynt.

UNICORN [*un—corn*]. Y mae mwy, hwyrach, wedi ei ysgrifenu ynghylch unicorn yr hynafiaid nag am unrhyw anifail arall; a choleddir amryw o syniadau gyda golwg ar y creadur a feddylir wrtho. Modd bynag, nid oes dim a wnelo *reem* y Beibl Hebraeg â'r anifail uncorn a grybwyllir gan Ctesias, Ælian, Aristotle, Pliny, ac ysgrifenwyr Groegaidd a Rhufeinaidd ereill, fel y mae yn amlwg oddi wrth *Deut.* xxxiii. 17, lle, yn mendith Ioseph y dywedir, "Ei brydferthwch sydd debyg i gyntafanedig ei ych, a'i gyrn ef sydd gyrn unicorn." Dau gorn y *reem* ydyw "myrddiwn Ephraim" a "miloedd Manasseh"—y ddau lwyth a godasant o *un; h. y.*, o Ioseph, fel dau gorn o un pen. Y mae y testyn uchod, yr hwn y cyfeirir ato yn dra phriodol gan Schultens (*Esbon. ar Iob* xxxix. 9), yn rhoi anifail uncorn yn llwyr allan o'r cwestiwn, ac o ganlyniad yn dinystrio y syniad a goleddid gan Bruce, ac ereill, mai rhyw fath o ryncorn (*rhinoceros*) a feddylir; neu yr un a amddiffynwyd gan rai ysgrifenwyr, mai yr un ydyw y *reem* a rhyw anifail uncorn a welwyd, meddir, gan deithwyr yn Neheubarth Affrica ac yn Thibet, a'r un ag unicorn yr ysgrifenwyr Groegaidd a Lladinaidd. Dadleua Bochart mai yr un ydyw y *reem* a chrychgorn gwyn (*antelope*) gogleddbarth Affrica, yr hwn a fu unwaith yn trigo yn Mhalestina. Dilynir Bochart gan Rosenmuller, Winer, ac ereill. Ond tybia Arnold Boot, gyda llawer gwell rheswm, mai rhyw fath o ych gwyllt ydyw *reem* yr Ysgrythyrau Hebreaidd. Y mae Schultens o'r un farn. Creda Robinson a Gesenius mai y bual (*buffalo*) yw *reem* y Beibl.


Cyn i ni fyned i'ystyried hawliau yr amrywiol greaduriaid a enwyd i gynnrychioli y *reem*, dylid sylwi ar y cyfeiriadau ysgrythyrol ar yr adnodau lle y mae y gair yn digwydd. Crybwyllir am nerth mawr y *reem* yn *Num.* xxiii. 22; *Iob* xxxix. 11: fod ganddo ddau gorn yn *Deut.* xxxiii. 17: ei natur ffyrnig yn *Salm* xxii. 21: ei fod yn annofadwy yn *Iob* xxxix. 9—11: ac at arferion bywiog a chwareus yr anifail ieuangc yn *Salm* xxix. 6. Ond yn *Esa.* xxxiv. 6, 7, lle y dywedir fod yr Arglwydd yn parotoi aberth yn Bozrah, chwanegir—"a disgyn yr unicorniaid gyda hwynt, a'r bustych gyda'r teirw."

Y mae hawl unrhyw anifail uncorn i fod yn *reem* yn barod wedi ei benderfynu; canys y mae yn amlwg ei fod yn ormod cymmeryd yn ganiataol, fel y mae rhai ysgrifenwyr wedi gwneyd, nad ydyw yr enw Hebraeg bob amser yn dynodi yr un anifail. Nis gellir dyweyd ond ychydig iawn yn ffafr y rhyncorn; canys hyd yn oed pe y caniateid fod rhywogaeth deugorn Abyssinia yn breswylydd y dosbarthiadau coediog yn agos i'r Iorddonen mewn amserau Beiblaidd, rhaid fod y creadur hwn allan o'r cwestiwn, fel un a fuasai yn waharddedig i'w aberthu dan gyfraith Moses; ond y mae y *reem* yn cael ei grybwyll fel yn dyfod i lawr gyda'r bustych a'r hyrddod i aberth yr Arglwydd. Drachefn, o'r braidd y mae llamiad y *reem* ieuangc (*Salm* xxix. 6) yn unol âg arferion y rhyncorn. Yn mhellach, nid ydyw yr anifail hwn, y gadewir llonydd iddo yn gyffredinol, yn wrthddrych llawer o ofn; ac nis gallwn gredu iddo erioed hanfodi mor helaeth yn ngwledydd y dwyrain, nac hyd yn oed ymddangos mor aml ag i fod yn wrthddrych sylw mynych, gan mai anifail o arferion neillduedig ydyw y rhyncorn.

Gyda golwg ar hawliau y crychgorn gwyn o ogleddbarth Affrica, dylid sylwi fod y creadur hwn, fel y gweddill o'i rywogaeth, yn ddiniwed; oddi eithr iddo gael ei glwyfo neu ei wasgu yn galed gan yr heliwr; ac nid ydyw yn nodedig fel un sydd yn meddu nerth anghyffredin. Gwelir darluniau o hono yn fynych ar gerfiadau yr Aipht, gan ei fod yn mhlith yr anifeiliaid a

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

# YR UNOL DALAETHAU.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | |
|---|---|
| B., *neu* Bay ... | Machwy. |
| Bank, Banks ... | Bryn, Bryniau. |
| C., *neu* Cape ... | Penrhyn. |
| Castle ... ... | Castell. |
| Coast ... ... | Arfordir. |
| Ch., *neu* Channel ... | Sianel. |
| East, Eastern ... | Dwyrain, Dwyreiniol. |
| English Miles ... | Milldiroedd Saesnig. |
| Equator ... ... | Cyhydedd. |
| Firth, *neu* Frith ... | Morgaingc. |
| Ft., *neu* Fort ... | Caerfa, Amddiffynfa. |
| G. of, *neu* Gulf of ... | Llyngclyn. |
| H., Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Machwy |
| Hd., *neu* Head ... | Penrhyn, Pentir. |
| Hill, *neu* Hills ... | Bryn, Bryniau. |
| I., Isle, *neu* Island ... | Ynys. |
| Is., Isles, *neu* Islands . | Ynysoedd. |
| L., *neu* Lake ... | Llyn. |
| Land ... ... | Tir. |
| Loch, *neu* Lough ... | Llwch:—llyn agored i'r môr. |
| Mt., *neu* Mountain ... | Mynydd. |
| Mts., *neu* Mountains... | Mynyddoedd. |
| New ... ... | Newydd. |
| North, Northern ... | Gogledd, Gogleddol. |
| Ocean ... ... | Cefnfor. |
| P., *neu* Port ... | Porth. |
| Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| Plateau ... ... | Gwastadedd uchel. |
| Pt., *neu* Point ... | Pwynt. |
| R. *neu* River ... | Afon. |
| Ruins of ... ... | Adfeilion. |
| S., *neu* Sound ... | Culfor. |
| St., *neu* Saint ... | Sant. |
| Sea, *neu* Sea of ... | Môr. |
| Shoal, Shoals ... | Bâs-le, Bâs-leoedd. |
| South, Southern ... | Deheu, Deheuol. |
| Str., *neu* Strs., Straits. | Culfor, Culforoedd. |
| Town ... ... | Tref. |
| Tropic ... ... | Trofan. |
| West, Western ... | Gorllewin, Gorllewinol. |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

| | |
|---|---|
| Atlantic Ocean ... | Môr y Werydd. |
| Black Hills ... | Bryniau Duon |
| British Columbia ... | Columbia Brydeinig. |
| Buckland Rapids ... | Gwylltredion Buckland |
| Cascade Mounts. ... | Mynyddoedd y Rhaiadrau. |
| Coast Range ... | Cadwen yr Arfordir o Fynyddoedd. |
| Columbiau City ... | Dinas Columbia. |
| Dominion of Canada... | Arglwyddiaeth Canada |
| Florida Keys ... | Agoriadau Florida |
| Fork of Platte R. .. | Fforch yr Afon Platte |
| Grand Fork of Rio Colorado ... ... | Prif ffforch y Rio Colorado. |
| Great Salt Lake City . | Dinas y Llyn Halen. |
| Great Salt Lake (4,200) | Y Llyn Halen Mawr—4,200 o droedfeddi uwchlaw y môr. |
| Indian Territory ... | Tiriogaeth yr Indiaid. |
| Isle Royal ... | Ynys Freiniol. |
| Jefferson City ... | Dinas Jefferson. |
| L. Itasca, 1490—Source of the Mississippi ... | Llyn Itaska, 1490 trd. uwch y môr.—Tarddiad y Mississippi. |
| L. of the Woods ... | Llyn y Goedwig. |
| L. Superior, 596 ... | Llyn Superior, 596 trd. uwchlaw y môr. |
| Little Rock ... | Y Graig Fechan. |
| Lower California ... | Califfornia Isaf. |
| Martha's Vineyard ... | Gwinllan Martha. |
| Marias Pass ... | Bwlch Marias. |
| Mississippi City ... | Dinas y Mississippi. |
| Mouths of the Mississippi ... ... | Geneuau yr afon Mississippi. |
| New Brunswick ... | Brunswick Newydd. |
| New Hampshire ... | Hampshire Newydd. |
| New Jersey ... | Jersey Newydd. |
| New Orleans ... | Orleans Newydd. |
| New York ... | Caerefrog Newydd. |
| Niagara Falls ... | Rhaiadrau y Niagara. |
| North Carolina ... | Carolina Ogleddol. |
| Pacific Ocean ... | Cefnfor Tawelog. |
| Pacific and Atlantic Railway ... | Ffordd Haiarn Môr y Werydd a'r Cefnfor Tawelog. |
| Red R. ... ... | Yr Afon Goch. |
| Republic Fork .. | Fforch y Weriniaeth. |
| River St. Lawrence ... | Afon St. Lawrence. |
| Rocky Mountains ... | Mynyddoedd Creigiog. |
| South Carolina ... | Carolina Ddeheuol. |
| Three Rivers ... | Tair Afon. |
| Twelve Apostles ... | Y Deuddeg Apostol. |
| West Virginia or Kenawha ... ... | Virginia Orllewinol neu Kenawha. |
| Yellow Stone R. ... | Afon y Gareg Felen. |
| Deer Lodge Valley ... | Nant Lloches y Ceirw. |

Ni bu y gyfran o gyfandir mawr America, a elwir yn *Unol Dalaethau*, yn faes i ymfudiaeth am yn agos i gan mlynedd ar ol i ymfudiaeth o Ewrop lifo tua'r trefedigaethau Yspaenaidd yn America. Ond y mae y cynnydd cyflym a rhyfeddol sydd wedi bod yn yr ystyr hwn tua'r Unol Dalaethau yn eglur ddangos fod llwyddiant cenhedloedd yn dibynu yn fwy ar eu rhagoriaethau moesol nag ar y manteision anianyddol a feddiennir ganddynt. Nid oedd gan breswylwyr Gogledd America gynt fwngloddiau aur, na thiriogaeth nodedig am ei ffrwythlonrwydd; ac heb law hyny, yr oedd y tir wedi ei orchuddio mewn rhan fawr iawn â choedwigoedd mor dewion, fel nas gallesid o'r bron dreiddio drwyddynt. Ond yr oeddynt yn feddiannol ar wybodaeth, diwydrwydd, cariad at ryddid, arferion da, ac ymarweddiad moesol diargyhoedd; a chan eu bod yn feddiannol ar y cymmhwysderau hyn, hwy a lwyddasant i droi yr anialwch yn dir cynnyrchiol, a gwneuthur i'r wlad wenu gan ddigonolrwydd. Y mae eu trefniadau cymdeithasol hefyd y fath fel y maent yn tueddu i chwanegu at ddedwyddwch a llwyddiant y ddynoliaeth, ac i fod yn wrthddrychau o edmygedd cenhedloedd eraill.

Yr ydym wedi helaethu cymmaint ar yr Unol Dalaethau yn eu gwahanol gyssylltiadau yn yr erthygl ar y wlad hono, fel nad ydyw yn angenrheidiol i ni yma ond gwneuthur ychydig nodiadau ar y pethau canlynol:—

Y mae Mynyddoedd yr Alleghany yn rhedeg trwy diriogaeth yr Unol Dalaethau, am tua 900 o filldiroedd—yn mron o enau y St. Lawrence hyd gyffiniau Georgia, ac y maent o ddeutu 200 o

Digitized by Google

filldiroedd o led. Rhedant agos yn gyfochrog â glenydd Cefnfor y Werydd, mewn pellder yn amrywio o 30 i 200 o filldiroedd oddi wrtho. Ar du y gorllewin i gadwen yr Alleghany, y mae y wlad yn ymestyn yn un gwastadedd mawr hyd at draed y Mynyddoedd Creigiog yn y gorllewin, yr hwn sydd o 1,200 i 1,500 o filldiroedd ar ei draws. Y Mississippi, yr hon sydd yn llifo, fel rheol, mewn cyfeiriad o'r gogledd i'r deheu, ac yn ymarllwys i Forgaingc Mexico, ydyw y sianel fawr drwy yr hon y mae holl ddyfroedd y dyffryn enfawr hwnw yn mron yn ymdywallt i'r môr. Am o ddeutu 250 o filldiroedd o enau y Mississippi, y mae y wlad o'r braidd yn hollol wastad; ond y mae hi wedi hyny yn codi yn raddol. O herwydd hyn, y mae llestri yn gallu myned i fyny, ar hyd cwrs y tair afon—Mississippi, Ohio, a'r Alleghany—drwy y gwastadedd am tua 2,400 o filldiroedd; a chan fod disgyniad yr afon mor raddol, y maent yn gallu morio i fyny ar hyd-ddi yn y pellder hwn ar godiad o 1,200 neu 1,400 o droedfeddi, heb gynnorthwy argaeon na chamlesydd.

O berthynas i natur y tir yn yr Unol Dalaethau, gellir ei ranu dan bump o ddosbarthiadau mawrion:—1. Y mae tir Talaethau Lloegr Newydd, lle y mae Mynyddoedd yr Alleghany yn ymestyn allan ac yn ymffurfio i wlad fryniog ac anwastad, yn fynych yn garegog; ac nid oes ond ychydig o ddyfnder daear ynddynt. Y mae y wlad yn lled ddigynnyrch mewn llawer o leoedd, ac yn fwy cyfaddas i dyfu porfa nag i'w lafurio. 2. Priddyn tywodlyd sydd ar yr arfordir sydd yn dechreu yn Long Island, ac yn ymestyn i'r Mississippi, gan amrywio mewn lled o 30 i 100 o filldiroedd. Y mae y darn hwn o'r wlad, yn ddeheuol i'r Potomac, yn wastadedd nad ydyw yn codi ond ychydig iawn uwch law y mor; ac y mae dyfroedd y llanw yn ngeneuau yr afonydd mawrion yn fynych yn ei orchuddio ar ei draws. O'r braidd y gellir amaethu ei arwyneb, gan ei fod yn cael ei orchuddio â thywod y mor. Nid ydyw yn cynnyrchu ond pinwydd, oddi eithr ar lan yr afonydd, ac mewn lleoedd corsiog—a lle y cyfodir reis. 3. Y tir sydd o gyffiniau uchaf yr ardal dywodlyd olaf hyd droed y mynyddoedd—yr hwn sydd yn mesur o 10 i 200 o filldiroedd o led. Y mae y dosbarth hwn yn ffrwythlawn, ac yn gyffredin yn hollol gyfaddas i'w lafurio. 4. Y dyffrynoedd sydd rhwng trumiau Mynyddoedd yr Alleghany. Y mae y priddyn yma yn amrywio, ac yn hytrach yn frasach na'r eiddo y dosbarth olaf a nodwyd. 5. Yr ardaloedd eang sydd i'r gorllewin o'r mynyddoedd uchod. Y maent wedi eu gwaelodi ar y gareg galch, yn cael eu dyfrhau yn dda, ac yn gynnyrchiol ddihysbydd. Y mae y dosbarth yn cynnwys, fe allai, gymmaint ar gyfartaledd o dir o'r math goreu ag a geir mewn unrhyw wlad arall ar wyneb y ddaear.

Y mae y trefedigaethau Ewropaidd a ymsefydlasant yn America wedi glynu wrth y ffurf gynnrychioliadol o lywodraeth. Dygasant gyda hwy, a chadwasant gydag ond ychydig o gyfnewidiadau, gyfreithiau, ieithoedd, ac arferion y gwledydd y daethant allan o honynt. Y mae yr Unol Dalaethau yn y gogledd, a phoblogaeth Yspaenig Mexico a Deheudir America, wedi sefydlu llywodraethau gwerinol cynnrychioliadol, lle y cydnabyddir y bobl fel ffynnonell pob gallu; ac amcan mawr eu holl beirianwaith ydyw rhoddi mewn grym eu barn aeddfed hwy. Dyna ydyw amcan llywodraeth yr Undeb ei hun, a llywodraeth pob talaeth hefyd yn yr Unol Dalaethau. Y mae llywodraeth Brazil wedi diwygio rhyw gymmaint ar gyfansoddiad brenhiniaeth Portugal, a mabwysiadu hwnw. Y mae Canada, a threfedigaethau Prydeinig eraill, wedi glynu wrth frenhiniaeth yr hen wlad; ac y maent wedi cael llywodraeth gynnrychioliadol a senedd-dai:—a than arolygiaeth llywodraethwr cyffredinol a enwir gan goron Prydain, trefnir a gweinyddir cyfreithiau lleol y trefedigaethau. Y mae deddfwrfa pob talaeth yn yr Unol Dalaethau yn gynnwysedig o Dŷ y Cynnrychiolwyr a Senedd—y naill fel y llall yn cael eu hethol gan y bobl; ond etholir y senedd undebol gan aelodau deddfwriaethol yr holl dalaethau.

Y mae yr arlywydd yn dal ei swydd yno am bedair blynedd, ac y mae yn agored i gael ei ail ethol am bedair blynedd eraill. Bu gwleidyddwyr Ewrop, y rhai a ddygwyd i fyny yn mysg sefydliadau brenhinol a phendefigol, yn rhagfynegu mai annhrefn a distryw a ddigwyddai fel canlyniad sefydliad y gweriniaethau hyn; ond y mae y brophwydoliaeth hono wedi troi allan yn hollol dwyllodrus--gan fod trefn, diogelwch, boddlonrwydd, rhyddid, a chynnildeb yn nhrenliadau holl swyddfeydd y llywodraeth, a llwyddiant, yn ffynu yn gyffredinol i raddau helaeth iawn drwy holl derfynau yr Undeb.

Digitized by Google

ddofid gan yr Aiphtiaid, ac a gedwid yn lluoedd yn eu coedwigoedd. Yn sicr nid hwn ydyw y *reem* ffyrnig ac annofadwy sydd yn cael ei grybwyll yn Llyfr Iob.

Gan hyny, wrth ystyried fod y creadur hwn yn cael siarad am dano fel anifail deugorn o nerth a ffyrnigrwydd mawr, a'i fod yn amlwg ei fod yn adnabyddus ac yn cael ei weled yn fynych gan yr Iuddewon, ei fod yn cael ei grybwyll fel anifail cymmhwys i ddybenion aberthawl, a'i fod yn fynych yn cael ei gyssylltu â theirw ac ychain, yr ydym yn meddwl nad oes un ammheuaeth nad rhyw fath o ych gwyllt a feddylir. Ymddengys fod y cyfeiriad yn *Salm* xcii. 10, "Ond fy nghorn i a ddyrchefir fel unicorn," yn dynodi y dull yn yr hwn y mae ychain yn defnyddio eu cyrn, gan ostwng eu penau, ac yna eu dyrchafu i fyny. Ond y mae yn ammhossibl penderfynu pa rywogaeth neillduol o ych gwyllt a olygir, a breswyliai gynt yn Asia Orllewinol, ac yn enwedig yn Mhalestina.

1. UNNI: un o'r porthorion Lefiaidd a appwyntiwyd i ganu nablau "ar Alamath" yn ngwasanaeth y babell gyssegredig, fel y trefnwyd gan Dafydd: 1 *Cron.* xv. 18, 20.

2. UNNI: ail Lefiad (os na olygir teulu y person blaenorol) oedd yn cyflawni y swydd gyssegredig ar ol y dychweliad o Babilon: *Neh.* xii. 9.

UCHEL-EGLWYSWYR: enw a roddwyd ar y cyntaf i'r sawl nad oeddynt yn foddlawn i gymmeryd llŵ o uchafiaeth y brenin, ac i gydnabod William III. yn benadur cyfreithlawn. Rhoddir yr enw hefyd yn ein dyddiau ni i'r blaid sydd yn yr Eglwys Wladol a goleddant syniadau uchel am ei hawdurdod, ac am allu ac awdurdod y clerigwyr mewn ystyr 'offeiriadol,' trwy rinwedd eu holyniaeth apostolaidd. Yr Isel-Eglwyswyr ydyw y blaid wrthwynebol; sef, y rhai nad ydynt yn cydnabod yr olyniaeth apostolaidd, na bod gan y clerigwyr unrhyw awdurdod yn tarddu o hyny, na dylanwad ar yr ordinhadau; ond ymlynant wrth athrawiaethau yr efengyl yn ol y golygiadau Protestanaidd arnynt. Gwel Lloegr a'r Iwerddon, Eglwys Unedig; Tractariaeth.

UNOL DALEITHIAU, AMERICA. Gweriniaeth unedig yn cael ei gwneyd i fyny o ddwy ar bymtheg ar hugain o daleithiau (*states*), a deg o diriogaethau (*territories*). Cynnwysa ganolbarth Gogledd America, ac y mae yn ymestyn o ledred 24° 30′ hyd 49° gogl., hydred 66° 50′ hyd 124° 30′ gorllewinol. Terfynir y taleithiau hyn ar du y gogledd gan y meddiannau Prydeinig yn Ngogleddbarth America, oddi wrth ba rai y maent yn cael eu hysgaru mewn rhan gan lynau Superior, Huron, St. Clair, Erie, ac Ontario, a chan yr afonydd St. Clair, Detroit, Niagara, a St. Lawrence; ar du y dwyrain gan Brunswick Newydd, Môr y Werydd, a Morgaingc Mexico; ar du y gorllewin, gan y Tawelfor; ac ar du y deheu gan Forgaingc Mexico. Hyd mwyaf y wlad, o Fôr y Werydd i'r Môr Tawelog, ydyw dwy fil a saith gant (2,700) o filldiroedd; a'i lled mwyaf, o Maine i Florida, yw mil a chwe chant (1,600) o filldiroedd; ei hyd cyfartal yw dwy fil pedwar cant (2,400) o filldiroedd; a'i lled cyfartal, mil tri chant (1,300). Y mae y terfyn gogleddol sydd yn ymylu ar y tiriogaethau Prydeinig yn dair mil tri chant a thair (3,303) o filldiroedd; y terfyn ar du Mexico, yn fil pedwar cant ac un ar bymtheg a deugain (1456); a'r arfordir, yn cynnwys yr ymylon sydd yn rhedeg i mewn i'r môr, ac yn cilio oddi wrtho yn ddeuddeng mil chwe chant a chwech (12,606) o filldiroedd—o ba rai y mae chwe mil wyth gant trigain a phedair (6,864) ar lan y Werydd, tair mil pedwar cant trigain ac un (3,461), ar lan Mor Mexico, a dwy fil dau gant a phedwar ugain ac un (2,281) ar lan y Tawelfor. Y mae arwynebedd yr holl wlad yn dair miliwn chwe chant a thair o filoedd ac wyth gant pedair a deugain (3,603,844) o filldiroedd ysgwâr, a chymmeryd i mewn y diriogaeth a adwaenir wrth yr enw *America Rwssiaidd*, y cyttunwyd â llywodraeth Rwssia am dano, Mehefin 20fed, 1867, o dan yr enw *Alaska*.

Y mae gan bob un o'r taleithiau sydd yn gwneyd i fyny y Weriniaeth fawr hon ei chyfansoddiad, ei deddfwrfa, a'i llywodraeth gyfreithiol a gweinyddiadol ei hun, a chynnrychiolir hwynt yn Nghydgynghorfa yr Undeb gan ddau seneddwr, ac o un i bedwar ar ddeg ar hugain o gynnrychiolwyr—yn ol rhifedi y boblogaeth. Enwau y taleithiau sydd fel y canlyn:—y chwech dwyreiniol, neu Loegr Newydd, ydynt Maine, Hampshire Newydd, Vermont, Massachusetts, Rhode Island, a Connecticut:—y pedair canolbarthol ydynt Efrog Newydd, Jersey Newydd, Pennsylvania, a Delaware:—yr un ar ddeg deheuol ydynt Maryland, Virginia, Virginia Orllewinol, Carolina Ogleddol, Carolina Ddeheuol, Georgia, Florida, Alabama, Mississippi, Louisiana, a Texas:—a'r un ar bymtheg gorllewinol ydynt Arkansas, Tennessee, Kentucky, Ohio, Indiana, Illinois, Missouri, Michigan, Wisconsin, Iowa, Missouri, Minnesota, Kansas, California, Oregon, Nebraska, a Nevada. Y deg tiriogaeth sydd yn cael eu llywodraethu gan Gydgynghorfa yr Undeb, a'u llywodraethwyr yn cael eu pennodi gan arlywydd yr Unol Daleithiau, ond yn meddu deddfwrfa leol, ac yn anfon cenad, ond heb fod pleidlais ganddo, i'r Gydgynghorfa, ydynt Arizona, Colorado, Dosbarth Columbia, Dakota, Idaho, Montana, Mexico Newydd, Utah, Washington, a Wyoming.

Y mae y daflen ganlynol yn dangos nifer holl boblogaeth yr Unol Daleithiau, yn y blynyddoedd a nodir, o 1790 hyd 1870:—

| Blynedd. | Y bobl wynion. | Negroaid Rhyddion. | Caethion. | Cyfanswm. |
|---|---|---|---|---|
| 1790 | 3,231,631 | — | 697,697 | 3,929,328 |
| 1800 | 4,304,489 | 108,395 | 893,041 | 5,305,925 |
| 1810 | 5,862,004 | 186,446 | 1,191,364 | 7,239,814 |
| 1820 | 7,861,937 | 233,524 | 1,538,038 | 9,638,131 |
| 1830 | 10,537,378 | 319,599 | 2,009,043 | 12,866,020 |
| 1840 | 14,195,695 | 386,303 | 2,487,455 | 17,069,453 |
| 1850 | 19,553,114 | 434,449 | 3,204,313 | 23,191,876 |
| 1860 | 26,975,575 | 488,005 | 3,979,741 | 31,443,321 |
| 1870 | 33,589,377 | 4,968,994 | — | 38,558,371 |

Yn y daflen a ganlyn rhoddir poblogaeth amrywiol daleithiau a thiriogaethau yr Undeb yn ol dau gofrifiad:—y cyntaf o ba rai a gymmerwyd yn Mehefin, 1860, a'r olaf yn Mehefin, 1870. Ond cynnwysa yr olaf y ffigyrau ar ol i'r cofrifiad diwygiedig gael ei gyhoeddi gan y llywodraeth yn 1872. Yn mherthynas i gofrifiad 1870, mynegir "nad ydyw yr Indiaid yn gynnwysedig yn y cyfrif." Dengys y golofn olaf o'r daflen radd pob un o'r ddwy dalaeth ar bymtheg ar hugain, a phob un o'r deg tiriogaeth

Digitized by Google

oedd yn gwneyd i fyny yr Undeb yn 1870, yn ol rhifedi y boblogaeth yn y flwyddyn hono:—

| Nawfed Cofrifiad yr Unol Daleithiau, 1870. | Poblogaeth yn 1860. | Poblogaeth yn 1870. | Gradd yn 1870. |
|---|---|---|---|
| TALEITHIAU:— | | | |
| Alabama... ... | 964,201 | 996,992 | 16 |
| Arkansas... ... | 435,450 | 484,471 | 26 |
| Califfornia ... | 379,994 | 560,247 | 24 |
| Carolina Ddeheuol | 703,708 | 705,606 | 22 |
| Carolina Ogleddol . | 992,622 | 1,071,361 | 14 |
| Connecticut ... | 460,147 | 537,454 | 25 |
| Delaware ... | 112,216 | 125,015 | 34 |
| Efrog Newydd ... | 3,880,735 | 4,382,759 | 1 |
| Florida ... ... | 140,424 | 187,748 | 33 |
| Georgia ... ... | 1,057,286 | 1,184.109 | 12 |
| Hampshire Newydd | 326,073 | 318,300 | 31 |
| Illinois ... ... | 1,711,951 | 2,539,891 | 4 |
| Indiana ... ... | 1,350,428 | 1,680,637 | 6 |
| Iowa ... ... | 674,913 | 1,194,020 | 11 |
| Jersey Newydd ... | 672,035 | 906,096 | 17 |
| Kansas ... ... | 107,206 | 364,399 | 29 |
| Kentucky ... | 1,155,684 | 1,321,011 | 8 |
| Louisiana ... | 708,002 | 726,915 | 21 |
| Maine ... ... | 628,279 | 626,915 | 23 |
| Maryland ... | 687,049 | 780,894 | 20 |
| Massachusetts ... | 1,231,066 | 1,457,351 | 7 |
| Michigan ... | 749,113 | 1,184,059 | 13 |
| Minnesota ... | 172,023 | 439,706 | 28 |
| Mississippi ... | 791,305 | 827,922 | 18 |
| Missouri ... ... | 1,182,012 | 1,721,295 | 5 |
| Nebraska ... | 28,841 | 122,993 | 35 |
| Nevada ... ... | 6,857 | 42,491 | 37 |
| Ohio ... ... | 2,339,511 | 2,665,260 | 3 |
| Oregon ... ... | 52,465 | 90,923 | 36 |
| Pennsylvania ... | 2,906,215 | 3,521,951 | 2 |
| Rhode Island ... | 174,620 | 217,353 | 32 |
| Tennessee ... | 1,109,801 | 1,258,520 | 9 |
| Texas ... ... | 604,215 | 818,579 | 19 |
| Vermont .. ... | 315,098 | 330,551 | 30 |
| Virginia ... ... | 1,596,318 | 1,225,163 | 10 |
| Virginia Orllewinol | — | 442,014 | 27 |
| Wisconsin ... | 775,881 | 1,054,670 | 15 |
| Cyfanswm | 31,183,744 | 38,115,641 | |

Ni a roddwn yma y manylion canlynol am y Tiriogaethau nad ydynt yn Daleithiau:—

| Nawfed Cofrifiad yr Unol Daleithiau, 1870. | Poblogaeth yn 1860. | Poblogaeth yn 1870. | Gradd yn 1870. |
|---|---|---|---|
| TIRIOGAETHAU:— | | | |
| Arizona ... | — | 9,658 | 9 |
| Colorado ... | 34,277 | 39,864 | 4 |
| Dakota ... | 4,837 | 14,181 | 8 |
| Dosbarth Columbia | 75,080 | 131,700 | 1 |
| Idaho ... ... | — | 14,999 | 7 |
| Mexico Newydd ... | 93,516 | 91,874 | 2 |
| Montana ... | — | 20,595 | 6 |
| Utah ... ... | 40,273 | 86,786 | 3 |
| Washington ... | 11,594 | 23,955 | 5 |
| Wyoming ... | — | 9,118 | 10 |
| Cyfanswm | 259,577 | 442,730 | |

Y mae y cyfrifon uchod yn dangos fod holl boblogaeth Taleithiau a Thiriogaethau yr Undeb yn y flwyddyn 1860 yn 31,443,321; ond yn 1870, yr oeddynt yn 38,558,371:—yn dangos cynnydd o 7,115,050 mewn deng mlynedd.

EI NODWEDDAU ANIANYDDOL.

Er fod yr Unol Daleithiau yn ffurfio canolbarth cyfandir mawr, y mae mwy na dwy ran o dair o'r cyffiniau yn terfynu ar lynau, moroedd, morgilfachau, afonydd, &c. Y prif *lynau*, ac heb law y rhai sydd yn gwahanu y wlad oddi wrth y tiriogaethau Prydeinig, ydynt llynau Champlain, Michigan, y Llyn Halen, y Pyramid, Llyn Mono, a Llyn Tulare; a llawer ereill o rai llai, sydd yn Maine, Efrog Newydd, Minnesota, &c. Gellir rhestru *afonydd* yr Unol Daleithiau yn bedwar dosbarth:—1. Y Mississippi, a'i changhenau. 2. Yr afonydd sydd yn arllwys i'r Werydd, ei forgilfachau a'i feisforoedd—y St. Croix, Penobscot, Kennebec, Merrimac, Connecticut, Hudson, Delaware, Susquehanna, Potomac, James, Roanoke, Neuse, Pedee, Santee, Savannah, Altemaha, St. Johns, &c. 3. Y rhai sydd yn ymarllwys i Forgainge Mexico, heb law y Mississippi, ydynt y Chattahoochee, Alabama, Tombigbee, Pearl, Sabine, Trinity, Brazos, Colorado, Nueces, a Rio Grande. 4. Y rhai sydd yn rhedeg i'r Tawelfor:—yr Oregon, Sacramento, San Joaquin, Colorado, &c. Heb law y rhai hyn, y mae llawer o afonydd llai yn ymarllwys i'r llynau mawrion. Y prif *fynyddoedd* ydynt y rhai a berthynant i'r gadwen ddwyreiniol o'r Alleghany a'r Mynyddoedd Creigiog. Mae y *tir* yn cynnwys amrywiaeth mawr—o ddiffaethfanau diffrwyth gwastadeddau gorllewinol Utah, hyd waelodion ffrwythlawn digymmhar Dyffryn y Mississippi, lle y mae cnydau trymion o indrawn wedi bod yn tyfu am hanner can mlynedd yn olynol, ac heb fod dim gwrtaith yn cael ei roddi i'r tir. Y mae y wlad y llifa y St. Lawrence drwyddi yn wastadedd uchel, ffrwythlawn, a choediog. Y mae y llechweddau, o Maine i Florida, yn ddwyreiniol i'r Hudson, yn fryniog, ac yn fwy cyfaddas yn dir porfa. Yn fwy i'r deheu, y mae ardaloedd y glenydd yn isel a thywodlyd, ac mewn rhai lleoedd yn gorsog; ond y mae y parthau mewnol yn ffrwythlawn, ac i'w hystyried yn mysg yr ardaloedd mwyaf cynnyrchiol yn yr holl wlad. Y mae Dyffryn y Mississippi gan mwyaf o lawer yn wastad, ac yn nodedig am ei ffrwythlonrwydd. Priddyn bras ydyw; ac mewn rhai manau y mae yn bum troedfedd ar hugain o ddyfnder! I'r gogledd-orllewin, y mae y wlad yn codi yn ucheldir diffrwyth, yn ymestyn o ddau i bedwar cant o filldiroedd oddi wrth droed y Mynyddoedd Creigiog. Y mae yn llechweddau Texas diroedd breision, ac ar yr arfordir wlad ragorol; ond y mae yn ymgodi yn ucheldir sych a diffaeth, oddi eithr ar lenydd yr afonydd. Lled ddiffrwyth ydyw gororau y Tawelfor yn gyffredin—oddi eithr y dyffrynoedd mawrion sydd rhwng y mynyddoedd, a chyffiniau yr afonydd, y rhai ydynt yn dra chynnyrchiol. Lle anial a digoed ydyw Utah, oddi gerth ychydig lanerchau cynnyrchiol a geir yma a thraw. Yr oedd y wlad i'r dwyrain o'r Mississippi, oddi eithr gwastadiroedd Illinois ac Indiana, pan yr ymsefydlwyd ynddynt gyntaf, yn hynod o goediog; ac y mae yno etto fforestydd anferth o goed nodedig o werthfawr:—yn cynnwys ffawydd, bedw, masarn, derw, pinwydd, pefrwydd, cyll ffreinig, ynn, a llwyfanod, &c.; ac yn y deheu, y mae derw, derw y dwfr, palmwydd, cypreswydd, coed cotwm, coed tiwlip, &c. Yn orllewinol i'r Mississippi, y mae ardaloedd eang o wastad-diroedd (*prairies*) di-goed, ar ba rai y tyf math o hirwellt. Ond ceir fforestydd mawrion yn ardaloedd y Mynyddoedd Creigiog a Califfornia, Oregon, a Thiriogaeth Washington; yn y rhai, dybygid, y mae y coed mwyaf yn y byd.

EI HINSAWDD.

Y mae yr hinsawdd yn hynod am ei gyfnewidiadau o oerni a gwres, gwlawogydd a sychder; oddi gerth yn ngorynys Florida, lle nad ydyw y tymmheredd yn amrywio ond deuddeg

Digitized by Google

gradd *Fahrenheit.* Yn Oregon Orllewinol ac yn Nhiriogaeth Washington, y mae yr hinsawdd yn debyg i'r hyn ydyw yn Mhrydain. Gydag ychydig o eithriadau, y mae yr haf yn hynod o boeth yn y gogledd a'r deheu; a chyfyd y gwresfesurydd weithiau i gant a deg o raddau *Fahrenheit;* ac ar hyd y taleithiau gogleddol disgyna ugain gradd, ac weithiau ddeugain gradd islaw *zero.* Y mae i arfordir y Werydd dymmheredd gauafol is o ddeg o raddau nag a geir yn Ewrop Orllewinol yn yr un lledredau. Yn Efrog Newydd, yr hon sydd yn yr un lledred a Madrid, y mae yr afon Hudson yn rhewi drosti, a'r porthladd ar adegau yn llawn o ddarnau mawrion o rew nofiadwy. Diau fod yr achosion sydd yn peri fod gwahaniaeth hinsoddau mewn gwahanol barthau o'r taleithiau yn codi yn benaf oddi ar nodweddau anianyddol y wlad; ac y mae a fyno y Mynyddoedd Creigiog, Morgaingc Mexico, y Werydd, a'r llynau gogleddol gryn lawer â hyny. Ar du y gorllewin, o lenydd y Tawelfor i Fynyddoedd y Rhaiadr, y mae yr hinsawdd yn tebygu mwy i hinsawdd Prydain Fawr nag i unrhyw wlad arall—yn dyner ond yn llaith; a cheir yno gawodydd o wlaw ar bob adeg ar y flwyddyn. Ond y mae y dyffryn mawr sydd yn gorwedd rhwng y mynyddoedd hyn a'r Mynyddoedd Creigiog yn lle nad oes nemawr o ddim gwlaw yn disgyn arno, o herwydd fod y gwyntoedd gorllewinol yn cael eu dyhysbyddu o'u lleithder wrth groesi Mynyddoedd y Rhaiadr cyn cyrhaedd yno. Yn y gauaf y mae y dyffryn wedi ei orchuddio âg eira; ond yn yr haf y mae yn sych a chras. Yn gymmaint a bod yno afonydd llawnion yn dyfod i lawr o'r mynyddoedd mewn canlyniad i doddiad yr eira, y mae yn eithaf hawdd ei ddyfrhau; ac felly y mae ei adnoddau yn fawrion, pe y caent eu dadblygu yn deg. Dibyna y wlad sydd i'r dwyrain i'r Mynyddoedd Creigiog am wlaw o Forgaingc Mexico; a disgyna mwy o wlaw ar y gwastadeddau nag ar yr ucheldiroedd a'r mynyddoedd. Gan hyny, y mae gwynt y deheu yn yr ardaloedd cang hyn yn gynnhes a llaith, a gwynt y gogledd a'r gorllewin yn sych ac oer. Y canlyniad o hyn ydyw, fod cyfnewidiadau disymmwth yn cymmeryd lle yn y tymmheredd—y fath nad ydys yn gwybod am danynt yn ngorllewinbarth Ewrop, gan fod y tymmheredd yn fynych yn amrywio mewn diwrnod tua hanner cant neu drigain o raddau. Yn nhaleithiau Lloegr Newydd, y mae y gwyntoedd gogleddol a dwyreiniol yn oer a llaith, ac yn cael eu dilyn gan lawer o darth:—ond eithrio hyn, y mae yr hinsawdd yno yn debyg i'r hyn ydyw yn y wlad hon. Y mae hinsawdd y taleithiau sydd o amgylch y llynau mawrion yn y gogledd yn dyner a llaith yn yr haf, o'i gymmharu â'r taleithiau gogleddol ereill; ond yn y gauaf, pan y bydd y llynau wedi rhewi drostynt, y mae yr oerni, fe allai, yn fwy nag ydyw o fewn un rhan arall o'r taleithiau. Achosir yr oerni mawr hwn, mewn rhan, trwy fod y wlad yn agored i lifeiriant llawn y gwynt o'r gogledd; ond gellir ei briodoli yn fwy neillduol i'w sefyllfa isel, mewn pant, a'r oerni yn ymdywallt i lawr arni o bob cyfeiriad. Y mae iachusrwydd yr Unol Daleithiau yn amrywio gyda'r hinsawdd, ac uchder y tir, &c. Y mae corsleoedd a glanau yr afonydd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig y rhai mwyaf cynnyrchiol, yn afiach. Y mae y corsdiroedd lle y cyfodir reis yn Georgia a Carolina Ddeheuol, yn dra dinystriol i fywydau pobl wynion, er nad ydyw felly i'r negroaid. Ffyna anhwylderau yr ysgyfaint yn y taleithiau gogleddol a chanol; a thwymynau geriol (*bilious*) yn y rhai deheuol. Ac yn y gorllewin, y mae twymynau geriol dysbeidiol a pharhaol. Dichon nad oes un rhan o'r byd yn iachach na Vermont, a llechweddau dwyreiniol yr Alleghany, Florida, a'r ucheldiroedd o amgylch Morgaingc Mexico.

EI MWNYDDIAETH.

Y mae yr Unol Daleithiau yn oludog iawn mewn cynnyrchion mwnawl. Ceir glô yn mhob un o'r taleithiau, oddigerth y rhai canlynol:—Maine, Hampshire Newydd, Vermont, Jersey Newydd, Delaware, Carolina Ddeheuol, Mississippi, a Wisconsin. A chyfrifir fod meusydd glô y taleithiau yn mesur tua dau can mil o filldiroedd ysgwâr. Dosberthir hwynt i bedwar maes mawr; sef, maes mawr canolbarthol yr Alleghany, yn ymestyn o Tuscaloosa yn Alabama, trwy Tennessee, Kentucky, Virginia Orllewinol, Maryland, Ohio, Pennsylvania, a'r hwn sydd yn ymddangos drachefn yn Brunswick Newydd a Nova Scotia. Cyfrifir fod y maes hwn o fewn yr Unol Daleithiau yn mesur o tua hanner cant i drigain mil o filldiroedd ysgwâr. Gorwedda yr ail faes o dan y rhan fwyaf o Indiana ac Illinois; ac o ran maint y mae o'r bron yn gyfartal i'r cyntaf. Y mae y trydydd maes yn gorwedd o dan y rhan fwyaf o Missouri; a'r pedwerydd yn cymmeryd i mewn y gyfran helaethaf o dalaeth Michigan. Mewn cyssylltiad â meusydd y glô, y mae y ffynnonau *petroleum,* y rhai sydd yn dwyn cyfoeth mawr i lawer o ardaloedd. Ceir y defnydd hwn yn mron yn mhob talaeth, yn enwedig yn agos i'r ardaloedd y ceir glo ynddynt. Y mae gwely cyfoethog o haiarn yn Pennsylvania. Y mae gwelyau cyfoethog o blwm hefyd yn Missouri, Arkansas, Illinois, ac Iowa; a cheir copr hefyd mewn amryw o'r taleithiau. Y mae swm helaeth o sinc (*zinc*) yn Jersey Newydd a Pennsylvania. Ceir arian mewn plwm a chopr, yn gystal ag mewn mwngloddiau goludog o arian, yn Mexico Newydd, Arizona, a Chaliffornia. Ac y mae symiau bychain o aur i'w cael yn y taleithiau dwyreiniol; a mwy yn Virginia, Carolina Ddeheuol a Gogleddol, a Georgia; a symiau helaeth iawn yn Califfornia, Oregon, Colorado, Washington, Nevada, Arizona, Mexico Newydd, a Montana. Ac y mae mwnau ereill i'w cael yma ac acw ar hyd a lled y wlad.

EI HAMAETHYDDIAETH.

Gyda'r fath gyflawnder o dir ffrwythlawn, y mae amaethyddiaeth yn blodeuo yn fawr yno. Y prif gynnyrchion, heb law porfa a gwair i'r anifeiliaid, ydynt indrawn, gwenith, ceirch, haidd, cotwm, rhyg, pys a ffa, cloron, myglys, sugr, reis, cywarch, llin, ynghyd â chynnyrchion gerddi a pherllanoedd. Yn ol adroddiad swyddol y wlad yn 1870, yr oedd ynddi 8,690,219 o geffylau, 28,004,582 o wartheg, 28,477,951 o ddefaid, a 25,184,540 o foch. Yn adroddiad y llywodraeth ar amaethyddiaeth, ceir y crynodeb cyffredinol canlynol o nifer yr erwau a hauwyd neu a blanwyd, ynghyd â'r symiau o'r prif gynnyrchion a godwyd yno yn y flwyddyn 1871:—Indrawn, 34,091,137 o erwau, yn cynnyrchu 991,898,000 o fwseli. Gwenith, 19,943,893 o erwau, yn cynnyrchu 230,732,400 o fwseli. Ceirch, 8,365,800 o erwau, yn cynnyrchu 255,743,000 o fwseli. Cloron, 1,220,912 o erwau, yn cynnyrchu 120,461,700 o fwseli. Haidd, 1,177,666 o erwau, yn cynnyrchu 26,718,500 o

Digitized by Google

fwseli. Rhug, 1,069,531 o erwau, yn cynnyrchu 15,355,500 o fwseli. Gwenith yr hydd, 413,015 o erwau, yn cynnyrchu 8,328,700 o fwseli. Yr holl erwau o dan y saith cnwd uchod ydoedd 66,282,863: y cyfan yn cynnyrchu 1,642,237,800 (mil chwe chant a dau a deugain o filiynau, dau cant a dau ar bymtheg ar hugain o filoedd, ac wyth gant) o fwseli. Yr oedd 356,762 erw o dan y planhigyn o'r hwn y gwneir myglys (*tobacco*); a'u cynnyrch oedd 263,196,100 o bwysi. Torwyd cnwd o wair oddi ar 10,009,052 o erwau, yn cynnyrchu 22,239,400 o dynelli. Yr oedd y cnwd cotwm yn i 3,100,000 o sypynau (*bales*), a phob un yn pwyso ar gyfartaledd o bedwar i bum can pwys. Yn ystod y flwyddyn 1871—2, anfonwyd i Ewrop, a lleoedd ereill, 1,957,314 o sypynau o gotwm o gynnyrch y taleithiau, a defnyddiwyd 1,097,540 o sypynau yn melinau America.

EI LLAW-WEITHFEYDD A'I MASNACH.

Yn ol cofrifiad 1870, yr oedd 956 o sefydliadau llaw-weithfaol cotwm yn yr Unol Daleithiau. Y taleithiau lle y mae mwyaf o honynt y lynt Massachusetts, Rhode Island, Pennsylvania, Connecticut, ac Efrog Newydd. Nifer y personau oedd yn gweithio ynddynt oedd, 47,790 o feibion uwch law un ar bymtheg oed, 69.637 o ferched uwch law pymtheg oed, a 22,942 o blant. Yn ol cofrifiad 1870, yr oedd 2,891 o weithfaoedd gwlân yn y wlad. Y taleithiau lle y mae mwyaf ydynt, Pennsylvania, Efrog Newydd, Ohio, Massachusetts, Indiana, Missouri, Delaware, a Kentucky. Nifer y dwylaw oedd yn cael eu defnyddio yn y gweithfaoedd hyn oedd, 427,728 o feibion uwch law un ar bymtheg oed, a 27,681 o ferched uwch law pymtheg, a 9,643 o blant.

Y mae masnach gartrefol a thramor yr Unol Daleithiau yn gyfartal i'w hamaethyddiaeth a'i gweithfeydd. Y mae y daflen ganlynol yn dangos holl werth dadforion ac allforion ei marsiandiaeth yn mhob blwyddyn yn diweddu yn mis Mehefin, o 1870 hyd 1875:—

| Blynyddoedd yn diweddu Mehefin 30. | Dadforion. | Allforion. |
|---|---|---|
| | P. | P. |
| 1870 | 92,475,517 | 105,903,860 |
| 1871 | 108,298,755 | 118,195,710 |
| 1872 | 114,592,161 | 112,361,676 |
| 1873 | 128,406,108 | 125,319,015 |
| 1874 | 113,481,268 | 117,256,608 |
| 1875 | 110,778,905 | 128,616,286 |

Y mae allforion y wlad hono yn gynnwysedig yn benaf yn ei chynnyrchion amaethyddol: ac yn mlaenaf yn mysg y cynnyrchion hyn, o ran gwerth, y saif gwenith a blawd. Yna y mae yn canlyn cotwm, myglys, cig moch wedi ei halltu, ynghyd âg ymenyn a chaws. Dygir y rhan fwyaf o'r allforion i Brydain a'r Iwerddon, ac anfonir y gweddill yn benaf i Canada, yr India Orllewinol Brydeinig, a'r Almaen, &c. Dangosir beth ydyw ymdrafodaeth masnachol yr Unol Daleithiau â Phrydain a'r Iwerddon yn y daflen ganlynol, yr hon sydd yn dangos holl werth yr allforion masnachol—heb law aur ac arian, bathol ac anfathol—o'r Unol Daleithiau i Brydain Fawr a'r Iwerddon, ac hefyd y nwyddau Prydeinig a Gwyddelig a ddanfonwyd i'r Unol Daleithiau bob blwyddyn, o 1865 hyd 1874. Wedi gwneuthur llawer o brawfiadau aflwyddiannus, llwyddwyd o'r diwedd yn y flwyddyn 1876 i gael allan ffordd i ddwyn cig ffres drosodd o'r wlad hono i Brydain; ac y mae y nwydd hwn yn debyg o barhau yn rhan bwysig o'u dadforion o'r Unol Daleithiau.

| Blynyddoedd. | Yr holl allforion o'r Unol Daleithiau i Brydain Fawr. | Dadforion o gynnyrchion Prydeinig i'r Unol Daleithiau. |
|---|---|---|
| | P. | P. |
| 1865 | 21,624,291 | 21,227,956 |
| 1866 | 46,854,518 | 28,499,514 |
| 1867 | 41,046,034 | 21,825,703 |
| 1868 | 43,062,383 | 21,431,632 |
| 1869 | 42,573,047 | 24,624,311 |
| 1870 | 49,804,835 | 28,335,394 |
| 1871 | 61,134,463 | 34,227,701 |
| 1872 | 54,663,918 | 40,736,597 |
| 1873 | 71,471,493 | 33,574,664 |
| 1874 | 73,897,400 | 28,241,809 |

EI CHREFYDD A'I HADDYSG.

Yn ol cyfansoddiad yr Unol Daleithiau, y mae pob crefydd a chredo yn sefyll ar dir o berffaith gydraddoldeb yn wyneb y gyfraith, a phob un yn dibynu yn hollol ar gyfraniadau gwirfoddol y bobl. Y mae yr holl sectau crefyddol o'r bron sydd yn Ewrop i'w cael yn yr Unol Daleithiau. Y rhai mwyaf lliosog yn mysg yr enwadau Protestanaidd ydynt y Wesleyaid, y Bedyddwyr, y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, a'r Esgobaethwyr. Yn ol y cofrifiad a wnaed, Mehefin 1af, 1870, yr oedd y pryd hwnw 72,459 o gynnulleidfaoedd yn y wlad, a chanddynt 63,082 o addeiladau i ddwyn yn mlaen wasanaeth crefyddol; a lleoedd i eistedd ynddynt i 21,665,062—neu bedair eisteddle ar gyfer pob saith person o'r holl boblogaeth. Yn ol y cyfrifon swyddol yn 1870, yr oedd yr enwadau lliosocaf yn darparu fel y canlyn o'r eisteddleoedd uchod:—y Wesleyaid, 6,528,209; y Bedyddwyr, 4,360,135; y Presbyteriaid, 2,698,244; yr Annibynwyr, 1,117,212; a'r Esgobaethwyr, 991,051. Yr oedd y Pabyddion hefyd yn darparu 1,990,514 o'r eisteddleoedd uchod.

Y mae addysg yn cael ei roddi yn bur gyffredinol yn yr Unol Daleithiau; a gwneir pob ymdrech gan y llywodraeth, a chan bersonau neillduol hefyd, i'w bleidio. Er hyny, mewn rhan, o herwydd fod caethwasiaeth wedi bod yn ffynu yn yr amser a aeth heibio, ac mewn rhan o herwydd fod nifer mawr o'r ymfudwyr a aethant yno heb fwynhau manteision addysg yn eu hieuengctid, y mae yn y wlad nifer liosog heb fedru darllen. Yn ol cofrifiad 1870, ceir fod y pryd hwnw 4,528,084 o bersonau dros ddeng mlwydd oed yn analluog i ddarllen, a 5,658,114 dros ddeg oed yn analluog i ysgrifenu. Ar yr un adeg, yr oedd yno 6,596,466 o blant yn myned i'r ysgolion, neu dros un ran o chwech o'r holl boblogaeth. Ond o'r nifer hwn, yr oedd 6,361,422 yn blant i frodorion o'r taleithiau, a dim ond 235,044 yn blant i dramorwyr; yr hyn sydd yn dangos anghyfartaledd dirfawr rhwng plant rhieni brodorol a phlant rhieni wedi eu geni mewn gwledydd ereill, o ba rai y mae lliaws mawr yn y wlad. Y mae yno ddigon o ysgolion rhydd wedi eu sefydlu yn mron er gwneyd i fyny yr holl angen, y rhai a gynnelir o'r trethi a thrysorfeydd yr ysgolion, &c.; fel y gellir dywedyd fod addysg yn cynnyddu yn gyflym drwy yr holl Daleithiau.

EI CHYFANSODDIAD A'I LLYWODRAETH.

Y mae ffurflywodraeth yr Unol Daleithiau yn sylfaenedig ar y cyfansoddiad a dynwyd allan ar

Digitized by Google

yr 17eg o Fedi, 1787, at yr hwn y chwanegwyd deg o welliantau, Rhagfyr 15fed, 1791; yr unfed gwelliant ar ddeg, Ionawr 8fed, 1798; y deuddegfed, Medi 25ain, 1804; y trydydd ar ddeg, Rhagfyr 18fed, 1865; y pedwerydd ar ddeg, Gorphenaf 28ain, 1868; a'r pymthegfed, Mawrth 30ain, 1870. Yn ol y cyfansoddiad, y mae llywodraeth y wlad wedi ei ymddiried i dri gallu gwahaniaethol; sef y gweinyddiadol, y deddfwriaethol, a'r cyfreithiol.

Y mae yr awdurdod gweinyddiadol yn mherson yr arlywydd (*president*). Yn ol trefn y cyfansoddiad, y mae yr arlywydd i gadw ei swydd am bedair blynedd, ac i gael ei ethol, ynghyd â'r is-lywydd, yr hwn sydd i barhau yn ei swydd am yr un faint o amser, yn y dull a ganlyn:—"Y mae pob talaeth i bennodi, yn y modd y gwelo y ddeddfwriaeth oreu, nifer o etholwyr, cyfartal i holl nifer y seneddwyr neu y cynnrychiolwyr y byddo gan y dalaeth hawl i'w danfon i'r Gydgynghorfa: ond 'ni ellir pennodi un seneddwr neu gynnrychiolydd, neu berson yn dal swydd o ymddiried o dan y llywodraeth yn yr Unol Daleithiau, yn etholwr." Y mae yn rhaid i'r hwn a ddewisir yn arlywydd fod yn ddinesydd wedi ei eni yn yr Unol Daleithiau; ac nid oes neb yn gymmhwys i'w ethol nes y bydd yn bymtheg ar hugain mlwydd oed. Yr arlywydd ydyw cadlywydd y fyddin, y llynges, a'r cartrefllu. Y mae efe yn meddu awdurdod i wrthod cydsynio â'r cyfreithiau a wneir gan y Gydgynghorfa; ond ar yr un pryd, gall unrhyw fesur ddyfod yn gyfraith wedi hyny, os bydd iddo gael ei gymmeradwyo gan ddwy ran o dair o'r aelodau yn nau dŷ y Gydgynghorfa. Y mae yr is-lywydd, yn rhinwedd ei swydd, yn llywydd y senedd; ac os bydd i'r arlywydd farw, neu ynte os bydd iddo ymddiswyddo, cymmerir ei le gan yr is-lywydd. Cynnelir etholiadau yr arlywydd a'r is-lywydd yn yr holl daleithiau ar y dydd Mawrth cyntaf yn Tachwedd, bob pedair blynedd; ac ar y 4ydd o'r mis Mawrth canlynol bydd yr arlywydd yn ymaflyd yn ei swydd.

Y mae yr holl allu deddfwriaethol, yn ol y cyfansoddiad, yn cydgyfarfod yn y Gydgynghorfa, yn gynnwysedig o senedd a Thŷ y Cynnrychiolwyr. Cynnwysa y senedd, neu y tŷ uchaf, ddau aelod o bob talaeth, wedi eu dewis gan ddeddfwriaethau y taleithiau, ac y maent i barhau yn aelodau am chwe blynedd. Nid yw y seneddwyr i fod islaw deg ar hugain oed, a rhaid iddynt fod yn ddinasyddion o'r Unol Daleithiau am naw mlynedd cyn eu hetholiad; ac hefyd yn breswylwyr o'r dalaeth yr hon y dewisir hwynt i'w chynnrychioli. Heb law ei galluoedd deddfwriaethol, y mae yn perthyn i'r senedd swyddau cyfreithiol pennodol; ac y mae ei haelodau yn ffurfio uchel-lys o gyhuddgŵyn (*impeachment*). Nis gall dyfarniad y senedd, modd bynag, yn achos neb fyned ddim yn mhellach na'i symmud o swydd, neu ddadgan ei fod yn anghymmhwys i'w gweinyddu. Gan Dŷ y Cynnrychiolwyr yn unig y mae yr hawl i ddwyn yn mlaen gyhuddgŵyn cospawl.

Gwneir i fyny Dŷ y Cynnrychiolwyr, neu y tŷ isaf, o aelodau a etholir bob dwy flynedd gan bleidlais yr holl ddinasyddion gwrywaidd, dros un mlwydd ar hugain oed, fydd yn amrywiol daleithiau yr Undeb. Penderfynir nifer yr aelodau y mae gan bob talaeth hawl i'w hethol gan y cofrifiad a wneir bob deng mlynedd. Nifer yr holl aelodau ydyw dau cant a deuddeg a phedwar ugain. Y dalaeth sydd â hawl ganddi i ddewis y nifer mwyaf ydyw Efrog Newydd, sef tri ar ddeg ar hugain; a'r taleithiau hefyd sydd yn dewis leiaf ydynt Delaware, Oregon, Nevada, a Nebraska. Nid oes ganddynt hwy hawl i ddewis ond un bob un. Y mae yn rhaid i bob cynnrychiolydd fod dros bump ar hugain oed, yn ddinesydd o'r Taleithiau am saith mlynedd, ac yn breswylydd yn y dalaeth lle y dewisir ef.



Yn ol deddf a basiwyd yn Ionawr, 1874, y cyflog a delir i seneddwr, cynnrychiolydd, neu i genad yn y Gydgynghorfa, ydyw pum mil o ddoleri yn flynyddol, neu o ddeutu mil o bunnau, ynghyd â chostau teithio. Yn ol deddf a basiwyd yn 1873, cyflog blynyddol yr arlywydd ydyw 10,000*p.*, a'r is-lywydd 2,000*p.*

Y mae cyfansoddiad y taleithiau yn cyttuno yn eu prif linellau; ac yn y dull o ddwyn yn mlaen weinyddiadau cyfreithiol y maent yn rhinweddol yr un fath. Yr un ffurf sydd i'r cwbl, ac y mae yr un egwyddorion yn sylfaen iddynt oll. Yn mherson llywodraethwr pob talaeth y mae y gallu gweinyddiadol. Y mae ei ddyledswyddau o fewn ei dalaeth yn gyffredinol yn gyffelyb i eiddo arlywydd yr Undeb.

Diddymwyd caethwasiaeth drwy yr holl Daleithiau Unedig, drwy y trydydd gwelliant ar ddeg a wnaed yn y cyfansoddiad, ar y 18fed o Ragfyr, 1865; a chwblhawyd y cyfnewidiad gan welliantau y pedwerydd ar ddeg a'r pymthegfed, yn 1868 ac 1870; drwy yr hyn yr estynwyd i'r rhai a fuont yn gaethion holl hawliau a rhagorfreintiau y dinasyddion ereill.

EI CHYLLID A'I THREULIADAU.

Y mae ei chyllid yn deilliaw yn benaf o ddwy ffynnonell; sef, tollau, a threthi anuniongyrchol ar eiddo, nwyddau llaw-weithfaol, a chynnyrchion y tir:—yr oll o honynt yn cael eu rhestru o dan yr enw "cyllid mewnol." Y mae arian y wladwriaeth yn cael eu gwario yn benaf ar ddau beth; sef, i gynnal gallu milwraidd ar dir a môr, ac i dalu llôg a chorph y ddyled yr aed iddi yn y rhyfel cartrefol a gymmerodd le yn y blynyddoedd, o 1861 hyd 1866. A siarad yn gyffredinol, y mae cynnyrch y tollau yn ddigon i dalu traul y gwasanaeth gwladol, y fyddin, a'r llynges; ac y mae y cyllid mewnol yn ddigon i dalu llôg a chorph y ddyled gyhoeddus, ynghyd â phob treuliadau ereill. Y gangen fwyaf o'r treuliadau ydyw y llôg sydd ar y ddyled wladol. Nid ydyw treuliau 'rhestr wladol' (*civil list*) y llywodraeth ond cymmharol fychan; sef, tuag un rhan o bedair o'r holl draul. Dengys y daflen ganlynol holl gyllid a holl dreuliadau yr Unol Daleithiau yn mhob un o'r chwe blynedd, yn diweddu Mehefin 30ain, o 1870 hyd 1875:—

| Blynyddoedd. | Cyllid. | Treuliadau. |
|---|---|---|
| | P. | P. |
| 1870 | 82,255,095 | 61,930,712 |
| 1871 | 67,820,246 | 58,012,584 |
| 1872 | 74,821,373 | 55,503,592 |
| 1873 | 66,747,640 | 58,069,049 |
| 1874 | 57,895,751 | 57,426,775 |
| 1875 | 57,600,010 | 54,924,678 |

Er y flwyddyn 1865—66, y mae cyllid y Taleithiau bob blwyddyn yn llawer mwy na'r holl dreuliadau o bob natur; ac o ganlyniad, y mae y ddyled yn cael ei lleihau yn raddol, a'r trethi hefyd yr un modd. Fel y canlyn yr oedd holl swm y ddyled ar y 1af o Orphenaf yn mhob un o'r blynyddoedd a nodir isod:—Yn 1862, 107,127,369*p.*; yn 1866, 579,880,391*p.*; yn 1869,

Digitized by Google

499,214,041p.; yn 1871, 458,406,167p.; yn 1873, 446,896,598p.; ac yn 1875, 447,562,609p. Y mae y gydgynghorfa wedi gorchymyn i gronfa neu drysorfa soddedig gael ei ffurfio er talu corph y ddyled ymaith.

EI BYDDIN A'I LLYNGES.

Nid oedd holl fyddin y wlad yn y fl. 1790, ond yn gynnwysedig o 1,260 o wŷr. Yn 1861, yr oedd ei rhifedi yn 14,000; a darfu i'r rhai a bleidiodd y cynghreirwyr, ac a ddiarfogwyd yn y Taleithiau Cynghreiriol, eu dwyn i lawr i 5,000 o wŷr; ond galwyd allan 75,000 o wirfoddolwyr yn Ebrill, 1861; yn Mai, 64,000 drachefn; ac yn Ngorphenaf a Rhagfyr yr un flwyddyn, 500,000. Yn Ngorphenaf, 1862, galwyd allan 300,000 yn rhagor; ac yn Awst, 300,000. Yn Chwefror, 1864, codwyd 500,000 chwanegol; y cyfan yn rhifo 2,039,748 o wŷr. Cafwyd y fyddin anferth hon oll ynghyd trwy wirfoddoliaeth, trwy ymrestriad yn y fyddin reolaidd, a thrwy dynu coelbrenau; ond y rhan fwyaf trwy gynnyg gwobr o dri chant i fyny hyd fil o ddoleri i bob gwirfoddolwr. Yr achos o liosawgrwydd dirfawr y fyddin oedd y rhyfel gartrefol gwaedlyd a ddygwyd yn mlaen yn y blynyddoedd 1861—65 rhwng taleithiau y Deheu a thaleithiau y Gogledd; ond mor fuan ag y dygwyd y rhyfel i derfyniad, lleihawyd y fyddin reolaidd i nifer pennodol; ac yn ol y gyfraith a wnaed ddiweddaf ar hyn, nid yw y fyddin ar ol y flwyddyn 1875 i gynnwys mwy na 25,000 o wŷr. Y mae y fyddin wedi ei gwasgaru yn adranau yma a thraw; ond y mae ei safle yn benaf ar y cyffiniau hyny o'r wlad lle y preswylia yr Indiaid Americanaidd. Am bum mlynedd yr ymrestrir i'r fyddin yno.

Yr oedd llongau rhyfel yr Unol Daleithiau, ar yr 22ain o Orphenaf, 1875, yn gynnwysedig o saith ar hugain o lestri haiarnwisg; deg a thrigain o agerlongau ereill, a phump ar hugain o hwyl-longau:—y cwbl yn cael eu gweithio gan y nifer gofynol o swyddogion a môrfilwyr.

EI HANES.

Yr oedd y tiriogaethau sydd yn awr yn eiddo i'r Unol Daleithiau—er ei fod yn beth possibl fod morwyr Norwegiaidd, yn y ddegfed ganrif, ac yn ol barn rhai, Madog ab Owain Gwynedd, yn y ddeuddegfed, wedi ymweled â'r wlad—yn parhau yn feddiant i lwythau lliosog o Indiaid, nes y darganfyddwyd America gan Columbus, yn y fl. 1492. Yn y flwyddyn 1498, aeth y Sais, Sebastian Cabot, a nifer o Saeson ereill gydag ef, i archwilio gororau dwyreiniol America, o Labrador i Virginia, ac fe allai mor bell a Florida. Yn 1513, glaniodd Juan Ponce de Leon ger llaw St. Augustine yn Florida, ac archwiliodd efe yr ardaloedd hyny. Chwythwyd llestri Yspaenaidd o St. Domingo ar ororau Carolina yn 1520. Mewn canlyniad i orchfygiadau Cortes, a'i ddilynwyr, gwnaed Mexico, yr hon a gynnwysai Mexico newydd, a Chaliffornia, yn dalaeth Yspaenaidd. Yn 1541, darganfyddwyd afon fawr y Mississippi gan Ferdinand de Soto. Yn 1584—85, ymdrechodd Syr Walter Raleigh i ffurfio sefydliad ar Ynys Roanoke, ar dueddau Carolina. Gwnaed sefydliad Yspaenaidd yn St. Augustine, Florida, yn 1565. Ymsefydlwyd yn Jamestown, Virginia, yn 1607; yn Efrog Newydd, yn 1613; a Plymouth, Massachusetts, yn 1620. Archwiliwyd cyfran fawr o'r wlad yn nghyinmydogaeth y llynau mawrion a'r Mississippi gan La Salle yn 1682; a ffurfiwyd sefydliadau gan y Ffrangcod yn Kaskaskia ac Arkansas yn 1685; ac yn Mobile a Vincennes yn 1702. Yr ymgais cyntaf a wnaed at uno y trefedigaethau oedd yn 1643, pan y darfu i Mussachusetts, Hampshire Newydd, Rhode Island, a Connecticut ffurfio undeb er amddiffyn eu hunain yn erbyn y Ffrangcod, yr Isellmyn, a'r Indiaid, o dan yr enw "Trefedigaethau Undebol Lloegr Newydd." Cawsant brawf o'r fantais o ffurfio undeb yn 1754, pan y darfu i waith Lloegr yn rhoddi tir i gwmni Ohio ddwyn oddi amgylch y rhyfel â Ffraingc ac India. Anfonwyd George Washington ar ei ymgyrch cyntaf, i geisio ymresymu âg awdurdodau Ffraingc; a chynghorwyd y trefedigaethau i ymuno er gwneyd amddiffyniad cyffredinol; a thynwyd allan gynllun o lywodraethiad y trefedigaethau Saesnig gan Benjamin Franklin; ond gwrthodwyd ef gan y trefedigaethau a chan goron Lloegr. Cymmerodd y trefedigaethau, pa fodd bynag, ran yn y rhyfel; ac o dan yr uch-gadben Washington, hwy a ymunasant â'r cadfridog Bradock yn ei gadymgyrch anffodus yn erbyn caerfa Du Quesne—Pittsburg yn awr. Cynnorthwyasant hefyd i ddarostwng Louisburg, Ticonderoga, Crown Point, a Niagara; ac yr oeddynt yn llawenychu hefyd yn ngorchfygiad Quebec—drwy yr hyn y daeth gwledydd eang gogleddbarth America yn eiddo i Brydain Fawr.

Aeth egwyddorion llywodraeth gynnrychioliadol gyda'r trefedigaethwyr cyntaf i America. Sylfaenwyd y trefedigaethau gan ddynion anturiaethus, ar eu cyfrifoldeb eu hunain: ac ni chawsant ond ychydig gynnaliaeth gan unrhyw lywodraeth. Y pryd hwn, yr oedd teimlad cyffredinol o deyrngarwch tuag at Brydain—y fam-wlad—yn ffynu. Addysgid meibion y trefedigaethwyr cyfoethocaf, yn enwedig o'r taleithiau deheuol, yn Lloegr; yr oedd llenyddiaeth Saesnig yn cael ei darllen; a gorsedd Prydain yn cael edrych ati gyda pharch; ond yr oedd y trefedigaethwyr, er yn gwahaniaethu o ran eu dechreuad a'u nodwedd, gan eu bod yn Buritaniaid yn y dwyrain, yn Isellmyn Diwygiedig yn Efrog Newydd, yn Grynwyr yn Mhennsylvania, yn Babyddion yn Maryland, ac yn aelodau o Eglwys Loegr yn Virginia—er hyny, yr oeddynt yn un o ran iaith, gobeithion, ofnau, a manteision bydol. Yn 1761, rhoddwyd mewn grym gyfreithiau morwriaeth yn erbyn masnachwyr anghyfreithlawn; yr hyn a barodd deimlad cryf yn erbyn y llywodraeth, yn enwedig yn Boston. Rhoddodd y môrlys y gyfraith mewn grym:—cymmerwyd llawer o lestri; a dinystriwyd y fasnach oedd rhwng y trefedigaethau a'r India Orllewinol. Yn 1765, pasiwyd deddf seneddol i gasglu cyllid y trefedigaethau trwy dollnodau (*stamps*); yr hyn a gynnyrchodd ddigofaint cyffredinol, ac a arweiniodd i derfysgoedd. Cododd Patrick Henry i fyny, yn nghymmanfa Virginia, i wadu hawl y senedd yn Mhrydain i drethu America; ac mewn araeth hyawdl, haerai nad ydyw "trethiad heb gynnrychioliad" yn sefydledig ar egwyddor gywir, nac i'w oddef. Y syniad cyntaf a'u meddiannai oedd yr angenrheidrwydd i ymuno i amddiffyn eu gilydd; a darfu i'r Gydgynghorfa gyntaf, oedd yn gynnwysedig o wyth ar hugain o genhadon, ac yn cynnrychioli naw o drefedigaethau, wneyd adroddiad o'r pethau y cwynent o'u plegid, ynghyd â dadganiad o'u hawliau. Dinystriwyd y tollnodau, neu anfonwyd hwynt yn ol i Loegr, a ffurfiwyd cymdeithasau poblogaidd yn amryw o'r prif drefydd, o dan yr enw "Meibion Rhyddid:" Diddymwyd deddf y tollnodau yn y fl. 1766, er

Digitized by Google

mawr lawenydd i'r trefedigaethwyr; ond parhawyd i geisio trethu y trefedigaethau; ac yn 1767, codwyd trethi ar wydr, papur, lliwiau argraphu, a thê. Arweiniodd hyn i derfysg yn Boston yn 1768, ac anfonwyd saith gant o wŷr i adgyfnerthu y llywodraethwr Gage, er ei gynnorthwyo i gadw trefn a mynu ufudd-dod i'r cyfreithiau. Diddymwyd y trethi hyn yn 1773; ond y dreth o dair ceiniog y pwys ar dê. Daeth ymwrthod â thalu y dreth hon yn awr i fod yn bwngc o egwyddor yno:—o'r gogledd i'r deheu, penderfynasant na thalent mo honi. Yr oedd llawer o dê mewn ystordai llaith, ac aeth yn rhy ddrwg i'w ddefnyddio. Anfonwyd peth yn ol; a darfu i rai yn Boston ymwisgo fel Indiaid, a thaflu y gweddill i'r porthladd. Er dial ar y trahâ hwn, pasiwyd mesur i gau porthladd Boston yn 1774, ac aed â masnach oddi yno i Salem. Darostyngwyd pobl y dref drwy hyn i gyfyngder mawr; ond yr oeddynt yn derbyn cydymdeimlad yr holl drefedigaethau; ac anfonwyd iddynt anrhegion haelionus o wenith o Virginia, a reis o Charleston ac o Carolina Ddeheuol.

O dan yr amgylchiadau hyn, penderfynwyd cadarnhau llywodraeth y goron a'r senedd Brydeinig dros y trefedigaethau; ac anfonwyd llynges i'r America, yn cynnwys amryw o longau rhyfel mawr, ac arnynt ddeng mil o filwyr; ac yr oedd y trefedigion, er yn parhau i ddadleu eu teyrngarwch, ac heb un meddwl am ymwahanu oddi wrth y fam wlad, yn parotoi i wrthsefyll yr hyn a ystyrient yn orthrwm a thrais. Yr oedd gwirfoddolwyr yn dysgu arferion milwraidd yn mhob cyfeiriad, ac yn casglu ynghyd, ac yn ystorio darpariaethau rhyfel. Llu bychan o filwyr a anfonwyd o Boston i gymmeryd un o'r ystorfeydd hyn, oedd yn Concord, Massachusetts, a arweiniodd i frwydr Lexington; ac yno y dechreuwyd rhyfel y chwyldroad ar y 19eg o Ebrill, 1775. Ymosodwyd ar filwyr Prydain, a gorfodwyd hwynt i encilio. Darfu i'r newydd am y digwyddiad hwn ddwyn 20,000 o wŷr i gymmydogaeth Boston. Cymmerwyd meddiant o'r amddiffynfeydd a'r arfdai yn y trefedigaethau, ynghyd â'r arfau a'r darpariaethau oedd ynddynt. Ymgynnullodd cydgynghorfa o'r trefedigaethau yn Philadelphia; ac yno penderfynwyd codi 20,000 o wŷr yn rhagor, a phennodwyd George Washington yn gadlywydd y fyddin. Mehefin 17eg, cymmerwyd Bunker's Hill, yn Charleston, ger Boston, lle yr oedd 1,500 o Americaniaid wedi ymgadarnhau, trwy ruthr gan filwyr Prydain; ond costiodd y frwydr yn ddrud iddynt. Ar ol goddef gauaf caled, gorfodwyd y Prydeiniaid i ymadael o Boston; a chymmerasant gyda hwynt o ddeutu cant a hanner o deuluoedd teyrngarol i Halifax.

Gwnaeth y llywodraeth Brydeinig y pryd hwn ymdrech egnïol i ddarostwng y trefedigaethau. Anfonwyd byddin o 50,000 o wŷr, yn cynnwys 17,000 o Almaeniaid cyflogedig, drosodd, o dan arweiniad Syr William Howe, er eu darostwng. Dadganodd y Gydgynghorfa daleithiol y pryd hwnw fod awdurdod brenhinol Prydain arnynt wedi dyfod i derfyniad; a mabwysiadodd y tair talaeth gyfansoddiadau gwladol fel taleithiau annibynol. Ar y 7fed o Fehefin, 1776, gwnaeth Lee gynnygiad yn y Gydgynghorfa, i'r perwyl fod i'r trefedigaethau unedig fod yn daleithiau rhydd ac annibynol; a bod pob cyssylltiad rhyngddynt hwy a Phrydain i gael ei dori: yr hyn a gariwyd. Pennodwyd Thomas Jefferson, John Adams, Benjamin Franklin, Roger Sherman, a Robert Livingston, i ddarparu dadganiad wedi ei seilio ar y penderfyniad uchod; a derbyniodd y Dadganiad o Annibyniaeth, yr hwn a ysgrifenwyd gan Jefferson, gymmeradwyaeth y cynnrychiolwyr, ar y 4ydd o Orphenaf, 1776, yn yr hwn y cyhoeddid fod y taleithiau canlynol yn rhydd ac annibynol, o dan yr enw "UNOL DALEITHIAU YR AMERICA:"—Hampshire Newydd, Massachusetts, Rhode Island, Connecticut, Efrog Newydd (*New York*), Jersey Newydd, Pennsylvania, Delaware, Carolina Ogleddol, Carolina Ddeheuol, a Georgia. Yr oedd eu poblogaeth ar y pryd tua 2,500,000. Ar ol gadael Boston, prysurodd y cadfridog Washington a'r gweddill o'i fyddin i Efrog Newydd. Ar y 27ain o Awst, 1776, gorchfygodd y cadfridog Howe yr Americaniaid yn Long Island, a gorfodwyd hwynt i adael Efrog Newydd, a chymmerodd feddiant o'i phorthladd cyfleus ar yr afon Hudson. Gwnaeth Washington ymosodiad llwyddiannus ar lu o Almaeniaid yn Trenton; yr hyn a roddodd ychydig galondid i'r Americaniaid, a hwy a lwyddasant i beri cryn helbul i'w gwrthwynebwyr mewn cadymgyrch gauafol.

Yn y cyfamser, yr oedd Silas Deane a Benjamin Franklin wedi dyfod i Ffraingc, i ymofyn cydnabyddiaeth a chynnorthwy y wlad hono. Oedwyd eu cydnabod, ond estynwyd iddynt gynnorthwy mewn arian a darpariaethau, a gwirfoddolwyr Ewropaidd; a gwnaeth Lafayette, Steuben, de Kalb, Kosciusko, a Pulaski wasanaeth pwysig iddynt. Ymdrechwyd cael trefedigaethau Prydeinig Canada a Nova Scotia i ymuno yn yr un ymgais am annibyniaeth, ac anfonwyd milwyr i Montreal a Quebec, o dan arweiniad Montgomery ac Arnold; ond gwrthododd y Canadiaid roddi eu cynnorthwy. Lladdwyd Montgomery, a chlwyfwyd Arnold, a dychwelodd y gweddill yn ol wedi dioddef llawer o galedi. Ar ol ymladd amryw frwydrau yn Jersey Newydd, y rhai oeddynt yn anffafriol i'r Americaniaid, cymmerodd y Prydeiniaid feddiant o Philadephia. Tra yr oedd Washington yn ymdrechu yn aflwyddiannus yn erbyn byddin ddysgybledig a lliosocach mewn nifer na'r eiddo ef yn Jersey Newydd, yr oedd y cadfridog Burgoyne yn arwain byddin o 7,000 o Brydeiniaid ac Almaeniaid, ynghyd â lliaws mawr o Ganadiaid ac Indiaid i Efrog Newydd. Attaliwyd ef yn dra effeithiol ar ei ymdaith gan goed cwympedig, a ffyrdd wedi eu dinystrio; a chan ei fod yn fyr o ddarpariaethau, bu raid iddo roddi ei hun a'i fyddin i fyny ar yr 17eg o Hydref. Yn nghanol eu buddugoliaethau disgynodd y newydd hwn yn ofidus ar deimladau pobl Prydain. Daeth yr Americaniaid drwy hyn i feddiant o 5,000 o ddrylliau, heb law amryw fagnelau.

Anfonwyd Arglwydd Carlisle i America gan y llywodraeth Brydeinig i gynnyg heddwch, yn 1778; ond daeth y cynnygiad yn rhy ddiweddar. Cydnabyddodd Ffraingc ar yr un pryd annibyniaeth America, ac anfonwyd llwythi llongau o ddillad, arfau, a chad-ddarpariadau i'r Unol Daleithiau; a chan fod y cadfridog Clinton yn gweled ei ddarpariaethau yn Philadelphia yn cael eu peryglu, efe a enciliodd i Efrog Newydd, a gorchfygodd yr Americaniaid yn Monmouth ar ei ffordd yno. Er fod byddinoedd Prydain yn ennill buddugoliaethau, ac er fod llawer o'r Americaniaid yn ffafriol iddynt, a bod amryw lwythau o Indiaid mewn cynghrair â hwynt, etto ychydig oedd yn cael ei wneuthur er darostwng y wlad. Tua'r pryd hwn ymunodd yr

Digitized by Google

Yspaen, ac yna Holland, yn y rhyfel yn erbyn Prydain; a chynnorthwyasant yr Americaniaid. Ymladdodd gŵr o'r enw Paul Jones frwydrau gwaedlyd mewn llestri wedi eu hanfon allan o Ffraingc, o dan y faner Americanaidd, ar duedd-au Prydain. Ond yr oedd y brenin a'r senedd yn penderfynu dal i fyny anrhydedd y goron, ac amddiffyn cyfanrwydd yr ymherodraeth. Cyfodwyd 85,000 o forwyr, ac anfonwyd 35,000 mwy o filwyr i America, a gwnaed ymdrechion neillduol i ddarostwng y ddwy Carolina. Aeth Arglwydd Cornwallis, gyda byddin liosog o Charleston trwy Carolina Ogleddol, gan ymlid ar ol, ac weithiau gorchfygu y cadfridog Gates. Ac o'r diwedd, yn lluddedig, er ei fuddugoliaethau, efe a gyrhaeddodd i Virginia, lle yr oedd y cadfridog Lafayette yn ei wynebu. Yn y cyfamser, yr oedd y llyngesydd De Terney wedi dyfod i'r gororau gyda llynges Ffrengig gref, a 6,000 o filwyr goreu eu byddin, o dan y Count de Rochambean. Gorfodwyd Cornwallis i ymgadarnhau yn Yorktown, lle yr oedd yn cael ei wylio gan lynges y Count de Grasse, a'i warchau gan fyddinoedd unedig y Ffrangcod a'r Americaniaid; ac yno y disgwyliai am adgyfnerthion oddi wrth Syr Henry Clinton o Efrog Newydd. Ond gwasgwyd ef o'r diwedd i'r fath gyfyngder fel y bu raid iddo ef, a'i fyddin, yr hon oedd yn gynnwysedig o 7,000 o wŷr, ymostwng ar y 19eg o Hydref, 1781; yr hyn a barodd i Syr Guy Carleton gael ei ddanfon i Efrog Newydd i gynnyg ammodau heddwch. Llawnodwyd a chwblhawyd yr heddwch rhwng Prydain a Ffraingc, a Holland, ac America, ar y 3ydd dydd o Fedi, 1783. Cydnabyddwyd annibyniaeth pob un o'r taleithiau, a phennodwyd cyffiniau y tiriogaethau. Ar y 25ain o Dachwedd, gadawodd y Prydeiniaid Efrog Newydd, yr hon oedd yn eu meddiant hwy ar hyd ysbaid y rhyfel; ac ar y 23ain o Ragfyr, canodd y cadfridog Washington yn iach i'w gymdeithion milwraidd, a rhoddodd i fyny i'r Gydgynghorfa ei swydd fel cadlywydd y fyddin.

O adeg enciliad Lexington, yn Ebrill, 1775, hyd roddiad i fyny Yorktown, yn Hydref, 1781, mewn pedair ar hugain o frwydrau, bu colledion y Prydeiniaid ar y maes yn 25,000 o wŷr; ond nid oedd colledion yr Americaniaid ond 8,000. Yr oedd y Taleithiau yn rhydd, ond yn dlodion; a'u dyled yn agos i ddeugain miliwn o ddoleri; y fyddin yn anfoddog, ac heb ei thalu yn ol y cyttundeb; a'r drysorfa wladwriaethol yn wâg. Galwyd ar y Taleithiau i dalu eu rhan o'r treuliadau angenrheidiol, ond yr oeddynt hwythau hefyd mewn dyled; ac nid oedd un awdurdod i'w gorfodi i dalu, neu i godi arian trwy drethiad i'r pwrpas. Gwysiwyd Cydgynghorfa yn nghyd yn 1787, i ddiwygio erthyglau yr Undeb. Yr oedd y gwaith mor anhawdd, fel y penderfynwyd cynnyg cyfansoddiad hollol newydd, yn caniatau mwy o awdurdod i Gydgynghorfa Undebol a Gweinyddiadol. Mewn canlyniad i hyn, ffurfiwyd y cyfansoddiad y cyfeiriwyd ato eisoes, yr hwn sydd hyd heddyw yn sylfaen i'r llywodraeth. Mabwysiadwyd ef yn 1788, gyda mwyafrif bychan mewn rhai enghreifftiau, gan un ar ddeg o'r cynnadleddau hyn; ac yn y diwedd, gan y tair talaeth ar ddeg. Yr oedd y wlad y pryd hwn, yn cael ei rhanu yn ddwy blaid:—yr Undebwyr, sef y rhai oedd yn ffafriol i lywodraeth ganolog gref; a'r Gwrth-undebwyr, y rhai a ddadleuent dros uchafiaeth a hawliau pob talaeth o fewn ei therfynau ei hun. Etholwyd George Washington a John Adams, arweinwyr y blaid undebol—un yn arlywydd, a'r llall yn is-lywydd yr Unol Daleithiau. Cymmerodd yr arlywydd lŵ o flaen Neuadd y Ddinas yn Efrog Newydd y byddai iddo ddal i fyny y cyfansoddiad; a phennodwyd Thomas Jefferson yn ysgrifenydd y wladwriaeth; Alexander Hamilton yn ysgrifenydd y drysorfa: y cadfridog Knox yn ysgrifenydd rhyfel; a John Jay yn brif ynad y llys uchaf. Cymmerodd y Gydgynghorfa ddyledion rhyfel y gwahanol daleithiau arni ei hun, a chaniatawyd breinlen ariandy yr Unol Daleithiau. Ail etholwyd Washington yn arlywydd yn 1793; ond cynnyddodd ysbryd plaid, yr hyn a gyffrowyd gan ddigwyddiadau y chwyldroad Ffrengig. Darfu i'r dinesydd Genet, yr hwn oedd cynnrychiolydd gweriniaeth Ffraingc yn America, ddarparu gwiblongau i droi allan yn erbyn Lloegr; a galwodd yr arlywydd am i Ffraingc ei alw adref. Yr oedd yr Undebwyr yn ffafriol i Brydain yn yr ymdrechfa Ewropaidd fawr, ond yr oedd y Gwerinwyr yn cydymdeimlo â Ffraingc. Cyfododd anghydwelediad rhwng llywodraethau Prydain a'r Unol Daleithiau, ond llwyddwyd trwy offerynoliaeth Mr. Jay i'w derfynu yn foddhaol.

Yn 1796, gwrthododd Washington gymmeryd ei ethol y drydedd waith i'r arlywyddiaeth; ac yn ei anerchiad ymadawol i bobl yr Unol Daleithiau, efe a'u rhybuddiodd o beryglon ysbryd plaid, a diffyg undeb; gan roddi iddynt gynghorion teilwng o un y dywedwyd am dano, ei fod "y blaenaf mewn rhyfel, y blaenaf mewn heddwch, a'r blaenaf yn nghalonau ei gydwladwyr." Etholwyd John Adams yn arlywydd, a Thomas Jefferson yn islywydd. Yn 1798, bu agos i drefniadau masnachol Ffraingc, a'i dadganiad o'i hawl i archwilio a dal llestri Americanaidd, arwain i ryfel rhwng y ddwy weriniaeth. Bu farw Washington yn 1799:—ac yr oedd yr holl genedl, yn annibynol ar blaid, yn galaru am dano ef â galar diffuant a dwys. Yn y flwyddyn ddilynol, symmudwyd eisteddle y llywodraeth i'r ddinas oedd wedi ei bwriadu ganddo i fod yn brif ddinas, a'r hon a elwir ar ei enw. Achosodd pleidgarwch Mr. Adams i Brydain, sefydliad byddin Undebol, a gwaith y Gydgynghorfa yn pasio cyfreithiau yn dwyn perthynas âg alltudion a therfysgwyr, gryn gyffro yn y Taleithiau, a chwanegiad at liosogrwydd y blaid Werinol neu 'Ddemocrataidd,' fel y gelwid hi ar ol hyny; a methwyd sicrhau ail etholiad yr arlywydd yn 1801. Ac am nad oedd etholiad yn nwylaw y bobl, darfu i Dŷ y Cynnrychiolwyr, ar ol cymmeryd y balot bymtheg ar hugain o weithiau, ddewis Thomas Jefferson, yr ymgeisydd Gwerinol, yn arlywydd, ac Aaron Burr yn islywydd. Dilëwyd y tollau oedd wedi arwain i derfysg yn Mhennsylvania, a diddymwyd cyfreithiau yr alltudion.

Yr oedd Tennessee, Maine, Vermont, ac Ohio wedi eu trefnu yn daleithiau erbyn hyn; a derbyniwyd hwynt i'r Undeb. Yn 1803, dyblwyd arwynebedd y wlad trwy bryniad Louisiana—yr holl wlad fawr rhwng y Mississippi a'r Mynyddoedd Creigiog—oddi ar Ffraingc, am y swm o 15,000,000 o ddoleri. Etholwyd Jefferson yr ail waith i'r arlywyddiaeth yn 1805. Yr oedd masnach yr America yn awr yn hynod lwyddiannus, a'r llongau yn cario llawer o fasnach yn mlaen âg Ewrop; ond yn Mai, 18[illegible]6, cyhoeddodd Prydain fod y porthladdoedd o Brest i'r Elbe dan warchau, a chyhoeddodd Bonaparte, yn y

Digitized by Google

mis Tachwedd dilynol, fod gwarchau ar ororau y Deyrnas Gyfunol. Yr oedd y ddwy blaid yn archwilio ac yn dal llongau yr Unol Daleithiau. Cyfarfu y gadlong *Leopard* â'r gadlong Americanaidd *Chesapeake*, a hawliai bedwar o'r dynion oedd ar ei bwrdd fel deiliaid Prydeinig; ac ar waith yr olaf yn gwrthod eu rhoddi i fyny, taniwyd arni. Ar ol hyn gwaharddwyd i longau Prydain fyned i borthladdoedd yr Unol Daleithiau.

Gwrthododd Jefferson, fel Washington, sefyll yn ymgeisydd y drydedd waith am yr arlywyddiaeth; ac yn 1809, etholwyd James Maddison i'r swydd. Parhaodd yr anghydwelediad rhwng Prydain ac America; a dyfnhawyd y teimlad annymunol mewn canlyniad i ymladdfa a gymmerodd le yn y nos rhwng y gadlong Americanaidd *President* a'r gadlong Brydeinig *Little Belt*, ar yr 16eg o fis Mai, 1811. Ar y 19eg o Orphenaf, 1812, cyhoeddodd yr Unol Daleithiau ryfel yn erbyn Prydain, a phenderfynodd y Gydgynghorfa godi 25,000 o filwyr rhestredig, 50,000 o wirfoddolwyr, a 100,000 o gartreflu. Goresgynwyd Canada gan y cadfridog Hall, gyda 2,000 o wŷr; ond pan gyfarfu llu bychan o Brydeiniaid ac Indiaid, o dan y cadfridog Brock, croesodd yr afon yn ol, a gwnaeth ymostyngiad dianrhydeddus; ond dedfrydwyd ef i farwolaeth am ei lwfrdra; ond cafodd faddeuant gan yr arlywydd. Ail oresgynwyd Canada yn agos i Raiadr Niagara gan y cadfridog Van Renssalaer; a chymmerwyd bryniau Queenstown trwy ruthr gan fil o'r cartreflu Americanaidd, a lladdwyd y cadfridog Prydeinig Brock; ond derbyniwyd adgyfnerthion mewn pryd, ac ailfeddiannwyd y bryniau, a lladdwyd yn mron yr holl Americaniaid, neu gyrwyd hwy i'r Niagara, er fod y cadfridog Americanaidd yn erfyn yn daer, ond yn ofer, ar lu mawr o gartreflu y taleithiau oedd ar y lan gyferbyniol i groesi er cynnorthwyo eu cymdeithion milwraidd. Gwrthodasant, ar y sail nad oedd gan y llywodraeth un awdurdod gyfreithlawn i ddanfon y cartreflu dros y cyffiniau. Cefnogid y syniad hwn gan y gyfran o'r blaid Undebol oedd yn wrthwynebol i'r rhyfel, ac ymddiswyddodd y cadfridog Van Renssalaer. Yr oedd aflwyddiant yr Americaniaid ar y tir, pa fodd bynag, yn cael ei fantoli gan eu buddugoliaethau ar y môr. Cymmerodd eu gwiblongau tua thri chant o lestri Prydeinig, a thair mil o garcharorion. Yn 1813, croesodd y cadfridog Proctor yr afon Detroit gyda byddin led gref o Brydeiniaid ac Indiaid, a gorchfygodd y cadfridog Winchester. Yn Ebrill, cymmerwyd York (Toronto yn awr) gan fyddin Americanaidd o 1,700; ond ynghylch yr un pryd, gorchfygwyd llu o 800 o Americaniaid gan yr Indiaid o dan arweiniad Tecumseh. Yr oedd y gweddill o'r rhyfelgyrch hwn yn mron yn hollol ffafriol i'r Unol Daleithiau.

Yn 1814, croesodd y cadfridogion Scott a Ripley y Niagara, ac ymladdwyd dwy frwydr ammhenderfynol yn Chippewa a Mundy's Lane. Goresgynodd y cadfridog Wilkinson hefyd Canada; ond gyrwyd ef yn ol. Ymdrechodd y cadfridog Prevost, gyda 14,000 o wŷr, i oresgyn yr Unol Daleithiau, ond yn aflwyddiannus; a bu raid iddo encilio gyda cholled drom. Yn Awst, aeth llynges Brydeinig i fyny Machwy Chesapeake; cymmerwyd Washington heb gyfarfod â nemawr o wrthwynebiad, a llosgwyd adeiladau y llywodraeth. Ond bu ymosodiad cyffelyb yn ddilynol i hyn ar Baltimore yn aflwyddiannus. Gwarchauwyd ar borthladdoedd Efrog Newydd, Boston, ac amryw ereill, ac anfonwyd byddin gref i weithredu yn erbyn Mobile, a New Orleans. Ar yr 8fed o Ionawr, 1815, ymosododd y cadfridog Pakenham, gyda 12,000 o wŷr, ar y lle diweddaf, a amddiffynid gan y cadfridog Jackson, gyda 6,000 o'r cartreflu, ac ychydig o fagnelwyr. Ond yr oedd yr Americaniaid wedi ymgadarnhau mor gryf o'r tu ol i'w gweithiau, fel y collodd y cadfridog ynghylch 700 o wŷr, heb law fod 1,000 yn rhagor wedi eu clwyfo. Ymladdwyd y frwydr anffodus hon yn mhen mis ar ol i heddwch gael ei gwblhau rhwng Prydain ac America. Yn yr ymdrechfa hon, yr oedd yr Americaniaid ar y cyntaf yn llwyddiannus ar y môr; ond o Mehefin, 1813, trodd y fuddugoliaeth yn hollol i'r ochr arall—yr hyn oedd i raddau yn mantoli colledion Prydain ar y tir. Yn mis Rhagfyr, 1814, cadwodd Undebwyr Lloegr Newydd gynnadledd yn Hartford, oedd yn wrthwynebol i'r rhyfel; a bygythient gilio o'r Undeb, os parheid i ymladd. Ond wedi i'r blaid Werinol Ddemocrataidd ddwyn y rhyfel i derfyniad boddhaol, darfu gwrthwynebiad yr Undebwyr; ac yn 1817, etholwyd James Monroe i'r arlywyddiaeth, o'r bron heb wrthwynebiad. Chwanegodd ymfudiad cyflym o Ewrop, ac o daleithiau y Werydd, i diroedd bras y gorllewin chwech o daleithiau newyddion at yr Undeb. Torodd anghydfod allan rhwng y llwythau Indiaidd deheuol rhyfelgar—tiroedd hela pa rai oedd wedi eu goresgyn; ond gorchfygwyd hwynt gan y cadfridog Jackson, yr hwn hefyd a gymmerodd Pensacola, ac a yrodd ymaith y milwyr a'r awdurdodau Yspaenaidd oddi yno. Cefnogwyd ef yn y gweithrediadau hyn gan yr arlywydd; ac yn 1819, rhoddodd Yspaen Florida i fyny i'r Unol Daleithiau. Yn 1820, chwanegwyd Alabama a Maine—un yn dalaeth gaeth, a'r llall yn rhydd—at yr Undeb, a daeth y cwestiwn o ollwng Missouri i'r Undeb i fyny yn y Gydgynghorfa. Y cwestiwn oedd, pa fodd y derbynid hi—ai fel talaeth gaeth, ynte fel un rydd. Pan gymmerodd y chwyldroad le, yr oedd caethwasiaeth yn ffynu yn yr holl daleithiau, oddi eithr Massachusetts; ond yn raddol diddymwyd hi yn y taleithiau gogleddol a chanolbarthol, gyda'r eithriad o Delaware, a chauwyd hi allan o'r taleithiau newyddion rhwng yr Ohio a'r Mississippi ar delerau pennodol. O dan y cyfansoddiad, nid oedd y caethion yn cael eu cyfrif o gwbl fel poblogaeth oedd yn meddu llais yn y gynnrychiolaeth; ond trwy gyttundeb, chwanegwyd tair rhan o bump o'u nifer at y bobl wynion. Yr oedd y taleithiau caeth o'r bron yn hollol amaethyddol, ac yn ffafriol i fasnach rydd. Ond yr oedd y taleithiau rhydd yn ceisio cefnogi llaw-weithfeydd (*manufactures*) cartrefol y taleithiau trwy bleidio yr egwyddor o amddiffyniad (*protection*), ac felly gau allan, hyd y gallent hwy, gynnyrchion celfyddyd gwledydd tramor. Yr oedd pob plaid yn ymdrechu drosti ei hunan yn egniol, ac yn gwylio rhag i'r blaid arall fyned yn gryfach na hi. Ar ol ymdrechfa galed, gollyngwyd Missouri i'r Undeb, ar yr ammod nad oedd un dalaeth gaeth i gael ei sylfaenu o hyny allan yn ogleddol i'r llinell 36° 30′ lledred gogleddol; sef, terfyn gogleddol Arkansas.

Yn yr etholiad am yr arlywyddiaeth yn 1824, yr oedd pedwar o ymgeiswyr; sef, John Quincy Adams, Andrew Jackson, Henry Clay, a William H. Crawford: ond Mr. Adams a etholwyd; a John C. Calhoun yn islywydd. Cryfhaodd

Digitized by Google

yr ysbryd pleidiol mewn canlyniad i'r etholiad hwn. Ymunodd Adams a Clay—y rhai a fuont o'r blaen yn cydweithredu â phlaid Jefferson a Maddison—o hyn allan gyda'r hon a elwid yn blaid Werinol Genedlaethol; ac yn ddiweddarach â'r blaid Wrthgaethwasiol, neu yr un Werinol. Bu farw dau o sylfaenwyr y Weriniaeth yn 1826, sef John Adams a Thomas Jefferson, a hyny ar y 4ydd o Orphenaf, sef blwydd-ddydd y Dadganiad o Annibyniaeth; yr hyn a wnaeth argraph ddofn ar y wlad. Y nesaf a etholwyd i'r arlywyddiaeth oedd Andrew Jackson; a John Calhoun yn islywydd. Daeth nodwedd hyf, penderfynol, a brwdfrydig y cadfridog Jackson i'r golwg yn ei waith yn newid holl swyddogion y wladwriaeth, i lawr hyd y llythyrwr mwyaf dibwys, gan bennodi rhai o'i bleidwyr ei hun yn eu lle. Gwrthododd hefyd ganiatau ail freinlen i Ariandy yr Unol Daleithiau, gan ddadgan fod hyny yn anghyfansoddiadol a pheryglus. Yn 1832, torodd rhyfel â'r Indiaid allan yn Wisconsin; ac achoswyd cryn gyffro trwy waith y Gydgynghorfa yn cymmeradwyo mesur i osod tollau uchel ar nwyddau tramor (*protective tariff*) er amddiffyn llaw-weithfeydd y taleithiau. Dadganai Carolina Ddeheuol fod y mesur yn anghyfansoddiadol, ac o ganlyniad yn ddirym; a bygythiai gilio o'r Undeb os gwneid cais i godi toll o idi ar nwyddau tramor. Parotodd yr arlywydd ar gyfer rhoi y gyfraith hon mewn grym trwy orfodaeth. Ymddiswyddodd Mr. Calhoun, yr islywydd; a dadleuai yn y senedd dros hawliau y taleithiau. Ond pan yr oedd gwrthdarawiad yn mron cymmeryd lle, daeth Henry Clay â mesur yn mlaen, yn darparu ar gyfer lleihau y tollau hyd y flwyddyn 1843—pan nad oeddynt i fod dros ugain y cant ar werth y nwyddau.

Y fath oedd poblogrwydd y cadfridog Jackson fel yr etholwyd ef i'r arlywyddiaeth yr ail waith gyda mwyafrif mawr ar Henry Clay; ac etholwyd Martin Van Buren yn islywydd. Appeliodd Indiaid Cherokee, yn Georgia, y rhai oeddynt wedi cyrhaedd gradd o wareiddiad, at yr arlywydd am amddiffyniad yn ngwyneb fod eu tiroedd yn cael eu cymmeryd oddi arnynt gan y dalaeth hono; ond yr attebiad a gawsant oedd, nad oedd ganddo ef awdurdod i wrthwynebu unrhyw dalaeth i ymarfer ei hawdurdod ar bob peth o fewn ei therfynau; a bu raid i'r Indiaid symmud i'r diriogaeth a bennodwyd iddynt ar du gorllewinol y Mississippi. Torodd rhyfel y Seminole allan yn Florida yn 1835; a chostiodd y rhyfel Indiaidd hwn amryw filoedd o fywydau a thua 50,000,000 o ddoleri i'r Unol Daleithiau. Van Buren a ddilynodd Jackson i'r arlywyddiaeth yn 1837, a phedair blynedd cyffrous oedd y rhai y bu efe yn llywydd—ar ol y cyfyngder arianol mawr a fu yn y flwyddyn 1837. Attaliodd yr ariandai eu taliadau, a bygythiai y dinasoedd godi mewn gwrthryfel. Glynodd Van Buren yn gadarn wrth ei fwriad i gasglu cyllid y llywodraeth mewn arian, a'i chadw ar wahân oddi wrth bob cyssylltiad â'r ariandai. Darfu i'w ddiysgogrwydd yn gweithredu yn erbyn cydymdeimlad y taleithiau gogleddol a gorllewinol, a'r gwrthryfel yn Canada yn 1837—38, hefyd effeithio ar ei boblogrwydd; ac yn 1840, etholwyd y cadfridog Harrison yn arlywydd, a John Tyler yn islywydd. Cafodd y Whigiaid oruchafiaeth yn mhob talaeth o'r bron ar y pryd; ac ymaflodd Harrison yn ei swydd ar y 4ydd o Fawrth, 1841; ac yr oedd y rhuthr a wnaed gan laweroedd o'i bleidwyr i Washington i ymofyn am swyddi mor nodedig ag ydoedd yr etholiad o gyffrous. Wedi ammharu ei iechyd trwy lafur yr etholiad, a'i flino gan daerineb rhai awyddus am swyddi, bu farw y cadfridog yn mhen mis ar ol ymaflyd yn ei swydd, a daeth John Tyler yn olynydd iddo —yr hwn oedd wedi bod yn ddemocrat o'r blaen. Ail gofleidiodd yr un egwyddorion gwleidyddol drachefn, a hyny mor fuan ag yr ymaflodd yn awenau y llywodraeth. Gwrthododd roddi ei sêl wrth fesur i sefydlu ariandy cenhedlaethol, a mesurau ereill oedd wedi eu mabwysiadu a'u cario gan y blaid a'i hetholodd. Rhoddodd y gweinidogion, o herwydd hyn, eu swyddi i fyny, gyda'r eithriad o Daniel Webster, ysgrifenydd y wladwriaeth; a phennodwyd ereill yn eu lle. Yn ystod tymmor arlywyddiaeth Tyler, penderfynwyd cwestiwn terfyn y gogledd-ddwyrain, yr hwn a fu o'r bron yn achos o ryfel â Phrydain, gan Mr. Webster ac Arglwydd Ashburton; a phenderfynwyd cwestiwn anhawdd arall mewn cyssylltiad â Rhode Island. Ond y cwestiwn pwysicaf oedd yr un ynghylch dyfodiad Texas i mewn i'r Undeb. Yr oedd y Deheu yn pleidio ei derbyniad, am y buasai yn chwanegiad mawr at y tiriogaethau caethwasiol yn y deheu; ac am yr un rheswm, yr oedd y Whigiaid, a'r pleidiau oedd yn erbyn caethwasiaeth, yn ei gwrthwynebu. Yr oedd derbyniad Iowa a Florida i mewn i'r Undeb wedi cadw y glorian yn wastad rhwng y gogledd a'r deheu; ond buasai Texas yn troi y fantol yn ffafr y ddiweddaf. Cyssylltwyd hi â'r Unol Daleithiau, pa fodd bynag, yn 1845; ac etholwyd James K. Polk, o Tennessee, i fod yn olynydd i Mr. Tyler yn yr arlywyddiaeth.

Gwrthdystiodd M. Almonte, cenadwr Mexico yn Washington, yn erbyn uniad Texas; ac i wylio rhag i'r dalaeth gael ei goresgyn, anfonwyd y cadfridog Zachary Taylor, gyda byddin fechan o filwyr i wylio y terfynau deheuol. Croesodd y Mexiciaid y Rio Grande, a dechreuasant y rhyfel yn Ebrill, 1845. Symmudodd Taylor yn mlaen yn ddioed, ac ennillodd frwydrau Palo Alto, Resaca de la Palma, Monterey, Saltillo, a Buena Vista. Yn y cyfamser yr oedd y cadfridogion Wool yn gweithredu yn Chihuahana, yn Mexico Ogleddol; a Kearney yn Mexico Newydd; a Freemont yn Califfornia. Glaniodd y cadfridog Scott a'i wŷr yn Vera Cruz ar y 9fed o Fawrth, 1847, a chymmerodd y lle hwnw ar y 29ain o'r un mis. Yna aeth yn mlaen i'r tir gyda 9,000 o wŷr, a gorchfygodd Santa Anna yn Cerro Gordo; ac wedi ennill amryw fuddugoliaethau ereill ar y Mexiciaid, ar ol brwydrau Contreras a Churubusco, cyttunwyd ar gadoediad byr. Ond ail ddechreuwyd ymladd ar y 7fed o Fedi; ac ar ol cyfres o frwydrau gwaedlyd, aeth y fyddin Americaidd o dan y cadfridog Scott i mewn i ddinas Mexico—yr hyn a roddodd derfyn ar y rhyfel. Yn ol cyttundeb Guadalupe, cafodd yr Unol Daleithiau feddiant o Califfornia Uchaf a Mexico Newydd; ond yr oedd y flaenaf yn talu i'r olaf 15,000,000 o ddoleri am danynt. Hawliai y blaid Ogleddol nad oedd caethwasiaeth i gael ei sefydlu mewn tiriogaethau newyddion, os nad oedd hi ynddynt hwy o'r blaen; tra yr oedd y blaid Ddeheuol yn hòni hawl ei phobl i ymfudo i diriogaethau newyddion, a chymmeryd gyda hwynt eu sefydliadau a'u harferion teuluaidd eu hunain.

Yn y flwyddyn 1849, ymaflodd y cadfridog Taylor yn yr arlywyddiaeth, a Millard Fillmore yn yr islywyddiaeth. Ar y 1af o Fedi, 1849,

Digitized by Google

mabwysiadodd talaeth Califfornia gyfansoddiad yn gwahardd caethwasiaeth. Cymmerodd dadleuon le yn y Gydgynghorfa mewn canlyniad i hyn; bygythiai y blaid Ddeheuol gilio o'r Undeb a gwnaethant wrthdystiadau yn erbyn gwaith y llywodraeth yn ymyraeth â chaethwasiaeth. Bu farw yr arlywydd Taylor Gorphenaf 9fed, 1850, a chymmerwyd ei le gan Mr. Fillmore. Yr oedd etholiad Franklin Pierce yn arlywydd, yn 1852, yn cael ei ystyried yn oruchafiaeth i'r Democratiaid, sef pleidwyr hawliau annibynol y taleithiau—y blaid Ddeheuol. Pennodwyd Jefferson Davis yn ysgrifenydd rhyfel. Cynnyddu yn feunyddiol yr oedd y cyffro yn mysg y gwahanol bleidiau yn mherthynas i gaethwasiaeth; a darfu i ymosodiad a wnaed ar berson Mr. Sumner, seneddwr o Massachusetts, gan Ddeheuwr o'r enw Preston Brooks, wedi i Sumner draddodi araeth finiog yn erbyn caethwasiaeth, gynnyddu cyffroad a brwdfrydedd y gwahanol bleidiau. Yn 1856, dewiswyd John C. Fremont yn ymgeisydd Gwerinol am yr arlywyddiaeth, tra y dygwyd James Buchanan yn mlaen gan y Democratiaid a phleidwyr hawliau y taleithiau. Ymgeisydd y blaid a elwid y "*Know-nothings*," neu y gwrth-dramorwyr a'r gwrth-Babyddion, oedd y cyn-arlywydd Fillmore. Safai y bleidlais boblogaidd yn yr etholiad fel y canlyn:—Buchanan, 1,838,169; Fremont, 1,341,264; Fillmore, 874,534. Ymaflodd J. Buchanan yn ei swydd Mawrth 4ydd, 1857, a John C. Breckenridge yn islywydd. Cadwodd gwaith y llywodraeth yn ceisio rhoddi mewn grym Gyfraith y Caethion Ffoedig deimladau cyffrous yn fyw. Yr oedd anghydfod ac ymladdau parhaus hefyd yn cymmeryd lle rhwng y pleidiau deheuol a'r rhai gogleddol yn Kansas, ac hefyd ar gyffiniau gorllewinol Missouri. Yn mis Hydref, 1859, darfu i John Brown, yr hwn, ynghyd â'i feibion, oedd wedi cymmeryd rhan yn yr helyntion yn Kansas, gynllunio ac arwain ymgyrch gyda'r amcan o ryddhau y negroaid yn Virginia. Fe wnaed yr ymgais yn Harper's Ferry, ar y Potomac; lle, ar ol ceisio yn ofer gan y negroaid i ymuno âg ef, y cymmerodd efe a'i ychydig ganlynwyr feddiant o un o weithdai y llywodraeth. Ond cymmerwyd ef yn garcharor gan nifer o filwyr yr Unol Daleithiau, a rhoddwyd ef i fyny i awdurdodau Virginia—gan y rhai y profwyd, y collfarnwyd, ac y dienyddiwyd ef, ar yr 2il o Ragfyr, 1859. Cymmerwyd ei gorph i'w gartref yn Efrog Newydd i'w gladdu; ac edrychai y blaid oedd dros ddiddymiad caethwasiaeth arno fel merthyr.

Yn 1860, ymunodd y blaid Ddemocrataidd, yr hon, gydag ychydig ysbeidiau yn awr ac eilwaith, oedd wedi meddu llywodraeth yr Undeb o amser etholiad Jefferson yn 1800. Ymgiliodd y cenhadon Deheuol o gynnadledd Charleston, ac enwyd dau o ymgeiswyr Democrataidd am yr arlywyddiaeth; sef, Stephen A. Douglas, o Illinois, a John C. Breckenridge, o Kentucky. Ymunodd y Gwerinwyr hefyd, neu y Whigiaid, a phleidwyr diddymiad caethwasiaeth, i gefnogi Abraham Lincoln o Illinois. Ac enwyd John Bell, o Tennessee, yn ymgeisydd dros y blaid frodorol, neu yr Americaidd. Mabwysiadodd y Werinol egwyddorion cymmedrol, ac hyd yn oed Ceidwadol:—condemnient y rhuthr a wnaed gan John Brown, yr hwn y cyfeiriwyd ato uchod, a phleidient yr egwyddor "o gadw yn ddilwgr hawliau y taleithiau—ac yn enwedig hawl pob talaeth i reoli a llywodraethu ei sefydliadau teuluaidd yn ol ei barn ei hun yn unig. Etto, yr oedd y wlad wedi ymranu, ac yr oedd pawb oedd yn awyddus am gyfyngu a distrywio y sefydliad caethwasiol yn cydweithredu â'r blaid Werinol. Yn etholiad Tachwedd, 1860, cafodd Mr. Lincoln bob pleidlais ogleddol yn y coleg etholiadol, oddi gerth y tair o Jersey Newydd, y rhai a roddwyd i Mr. Douglas, sef 180 o bleidleisiau o gwbl; ac ni chafodd Mr. Breckenridge ond 72 o bleidleisiau y Deheu. Yr oedd y Gogledd a'r Deheu yn yr etholiad hwn yn amlwg yn erbyn eu gilydd, a gorchfygwyd y Deheu. O bleidlais y bobl, cafodd Mr. Lincoln 1,857,610; Mr. Douglas, 1,364,976; Mr. C. Breckenridge, 847,941; a Mr. Bell, 590,631. Gan hyny, er fod gan Mr. Lincoln fwyafrif mawr o'r pleidleisiau etholiadol a roddwyd gan bob talaeth, yr oedd y pleidleisiau Democrataidd, a'u cyfrif oll gyda'u gilydd, yn lliosocach o 356,317 na'r eiddo ef; ac yr oedd holl bleidleisiau y bobl yn ei erbyn yn lliosocach o 946,948 na'r rhai a dderbyniodd efe. Yr oedd mwyafrif bychan yn y taleithiau gogleddol, gan hyny, yn ddigonol i'w ethol.

Ni chollwyd dim amser gan blaid y Deheu i roddi mewn grym yr hyn a ddadganodd a fuasai yn arwydd o'u henciliad o'r Undeb. Y 10fed o Dachwedd, mor fuan ag y gwnaed canlyniad yr etholiad yn hysbys, gorchymynodd deddfwriaeth Carolina Ddeheuol i gynnadledd daleithiol gael ei galw ynghyd; yr hon a gyfarfu yr 17eg o Ragfyr; ac ar yr 20fed, dadganwyd yn unfrydol fod "yr undeb oedd yn bodoli rhwng Carolina Ddeheuol a thaleithiau ereill, o dan yr enw 'Unol Daleithiau,' yn cael ei dori." Yr hyn a roddwyd fel rheswm dros hyny oedd, fod pedair ar ddeg o'r taleithiau hyny am flynyddoedd wedi gwrthod cyflawni eu rhwymedigaethau cyfansoddiadol. Dilynwyd esampl Carolina Ddeheuol gan Mississippi, Ionawr 8fed, 1861; gan Florida ar y 10fed; gan Alabama ar yr 11eg; gan Georgia ar y 19eg; ac hefyd gan Louisiana a Texas; ac yn mhen ychydig gan Carolina Ogleddol, Virginia, Tennessee, ac Arkansas. Yr oedd Kentucky a Missouri yn rhanedig, a chanddynt gynnrychiolwyr gyda llywodraethau a byddinoedd y ddwy blaid. Ar y 4ydd o Chwefror, 1861, cyfarfu cenhadau saith o'r taleithiau enciliedig yn Montgomery, yn Alabama, a ffurfiwyd llywodraeth ddarbodol, o dan yr enw "Taleithiau Cynghreiriol yr America" (*Confederate States of America*). Mabwysiadwyd cyfansoddiad cyffelyb i'r eiddo yr Unol Daleithiau, a phennodwyd swyddogion y llywodraeth ar y 18fed o Chwefror, 1861. Yr arlywydd oedd Jefferson Davis, Mississippi; a'r islywydd oedd Alexander H. Stevens, o Georgia; a Mai 24ain, pennodwyd fod eisteddle y llywodraeth i fod yn Richmond, Virginia.

Ymddengys fod y symmudiad enciliadol hwn yn mron yn unfrydol yn y taleithiau mwyaf Deheuol, ac yn cael ei gymmeradwyo yn yr oll o honynt gyda mwyafrif penderfynol. Fel yr oedd talaeth ar ol talaeth yn encilio o'r Undeb, yr oedd eu seneddwyr a'u cynnrychiolwyr yn Nghydgynghorfa Washington yn ymddiswyddo; a darfu yn mron i holl swyddogion y fyddin a'r llynges, oedd yn enedigol o'r taleithiau Deheuol, gan eu bod yn credu fod eu teyrngarwch i'w taleithiau eu hunain yn galw arnynt, wneyd yr un modd; a chynnygient eu gwasanaeth i'r Taleithiau Cynghreiriol. Yr oedd yr arlywydd, Mr. Buchanan, o'r braidd yn ammheu ei allu cyfansoddiadol i orfodi y taleithiau enciliedig i

Digitized by Google

ddychwelyd i'r Undeb. Gwnaeth ymdrech gwan, ond aneffeithiol, er hyny, i waredu gwarchodlu Caerfa Sumter yn mhorthladd Charleston; yr hwn a warchauwyd gan luoedd Carolina Ddeheuol. Danfonwyd dirprwywyr i Washington i geisio gwneuthur cyttundeb, ond methwyd a chydweled yn mherthynas iddo.

Ar y 4ydd o Fawrth, 1861, y dechreuodd yr arlywydd Lincoln ar ei ddyledswyddau swyddol. Ac yn fuan wedi hyny dechreuodd y rhyfel mawr cartrefol a gymmerodd le yn America o ddifrif; ond gan ein bod wedi rhoddi hanes y wlad a'r rhyfel am y pedair blynedd dilynol mor fanwl mewn erthygl arall [gwel LINCOLN, ABRAHAM], nid oes angen i ni yn y fan yma ond cyfeirio y darllenydd ati. Yn yr etholiad a gymmerodd le yn 1864, ail etholwyd Lincoln yn anrhydeddus i'w swydd, a dewiswyd Andrew Johnson yn islywydd. Ar y 14eg o Ebrill, pa fodd bynag, pan yr oedd y Gogledd yn llawenhau o herwydd cymmeriad Richmond, a darostyngiad y byddinoedd Cynghreiriol, llofruddiwyd yr arlywydd mewn chwareudy yn Washington, gan chwareuydd, nad ydyw yn teilyngu yr anrhydedd o gael ei enwi. Ymosododd cydymaith iddo ar yr un pryd hefyd ar Mr. Seward, ysgrifenydd y wladwriaeth; ac o'r braidd y diangodd efe gyda'i fywyd. Ymlidiwyd ar ol y llofrudd a lladdwyd ef, a dygwyd amryw o'i gymdeithion bradlofruddiog i brawf, a rhoddwyd hwythau i farwolaeth. Ar farwolaeth Mr. Lincoln, cymmerodd Andrew Johnson y swydd o arlywydd. Ac mor fuan ag y darfu y rhyfel, talwyd eu cyflogau i 800,000 o filwyr, a gollyngwyd hwy yn rhydd o'r gwasanaeth milwraidd. Dadganwyd fod y gwelliant ar y cyfansoddiad, yr hwn oedd yn diddymu caethwasanaeth am byth yn nhaleithiau a thiriogaethau yr Undeb, yn cael ei gadarnhau gan ddwy ran o dair o'r taleithiau, Rhagfyr 18fed, 1865; ac yn 1866, cyhoeddodd yr arlywydd, yr hwn oedd wedi cyhoeddi maddeuant i'r rhan fwyaf a gymmerasant ran amlwg yn y gwrthryfel mawr, adferiad yr holl daleithiau enciliedig i'r Undeb; ond ni oddefwyd i'w seneddwyr a'u cynnrychiolwyr gymmeryd eu lleoedd yn y Gydgynghorfa am beth amser ar ol hyn.

Y nifer o ddynion a alwyd allan dan arfau gan y llywodraeth Undebol yn ystod y rhyfel oedd 2,656,553. Nifer y negroaid dan arfau oedd 186,097. Cyfrifir fod colled yr Undebwyr yn mhob modd yn ystod y rhyfel yn 275,000. Y mae ystadegau byddinoedd y Cynghreirwyr yn ammherffaith. Yn 1864, yr oedd y fyddin yn gynnwysedig o 20,000 o fagnelwyr, 128,000 o feirchfilwyr, a 400,951 o wŷr traed: cyfanswm 549,226—a 200 o brif swyddogion.

Wedi i dymmor gweinyddiaeth Andrew Johnson ddyfod i ben, etholwyd y cadfridog Ulysses S. Grant i'r arlywyddiaeth, a Mr. Colfax yn islywydd, ar y 3ydd o Dachwedd, 1868. Ac wedi i'r pedair blynedd, sef tymmor yr arlywyddiaeth, ddyfod i ben, ail etholwyd y cadfridog Grant ar y 5ed o Dachwedd, 1872. Cafodd dri chant o bleidleisiau yn yr etholiad, yn erbyn deunaw a thrigain oedd dros Mr. Horace Greeley. Etholwyd Henry Wilson yn is-lywydd. Bu farw Greeley, yr ymgeisydd aflwyddiannus, cyn pen pedair wythnos ar ol yr etholiad. Ar y cyfan, ystyrir fod Grant wedi gwneyd arlywydd da yn nhymmor ei weinyddiaeth; ac yr oedd llawer o aelodau y blaid Werinol yn dymuno ei enwi yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth y drydedd waith; ond yn gymmaint ag na ddigwyddodd hyny gydag un o'r arlywyddion blaenorol, tybiai ereill nad oedd hyny yn ddoeth nac yn briodol; a phenderfynwyd dwyn y peth o flaen y Gydgynghorfa, pan gafwyd fod y mwyafrif yn erbyn trydydd dewisiad yn anwrthwynebol. Yna enwyd Mr. Tilden yn ymgeisydd Democrataidd, a Mr. Hayes yn ymgeisydd Gwerinol. Cymmerodd yr etholiad le ar y 4ydd o Dachwedd, 1876: ac wrth gyfrif y pleidleisiau, tybid fod Tilden, yr ymgeisydd Democrataidd wedi ei ethol; ond meddyliai y blaid Werinol mai Hayes fyddai yn llwyddiannus. Erbyn gwneyd ymchwiliad, cafwyd allan, fodd bynag, fod afreoleidd-dra wedi bod mewn cyssylltiad â chyfrif y pleidleisiau etholiadol mewn pedair o'r taleithiau; sef, Carolina Ddeheuol, Florida, Louisiana, ac Oregon. Yn y taleithiau ereill y mae y pleidleisiau yn gyfartal rhwng y ddau ymgeisydd. Achosodd yr annhrefn hwn lawer o gyffro: ond o'r diwedd y mae y Gydgynghorfa wedi pennodi dirprwyaeth etholiadol, cynnwysedig o'r ddwy blaid, i ail gyfrif pleidleisiau etholiadol y taleithiau hyn. Tra yr ydym yn ysgrifenu (Chwefror, 1877), nid ydyw y ddirprwyaeth hon wedi cyhoeddi ffrwyth yr ymchwiliad ond gyda golwg ar Florida a Carolina Ddeheuol; a dadgenir fod pleidleisiau etholiadol y taleithiau hyny yn ffafriol i Mr. Hayes. Mor fuan ag y cwblheir yr ymchwiliad, cyhoeddir y ffeithiau am y taleithiau ereill.

Er mwyn cyfleusdra i'r darllenydd, yr ydym yn cyfleu yn y daflen ganlynol rai o'r prif ddigwyddiadau a gymmerasant le mewn cyssylltiad â'r Unol Daleithiau o'r flwyddyn 1764:—

| | | B.A |
|---|---|---|
| Senedd Prydain yn gosod trethi trymion ar ddadforion. | Mawrth 11eg, | 1764 |
| Pasio Cyfraith yr Arfathau (*Stamp Act*), gan senedd Prydain | Mawrth 22ain, | 1765 |
| Y Gydgynghorfa gyntaf yn cyfarfod yn Efrog Newydd, Mehefin: gwrthwynebu Cyfraith yr Arfathau | Tachwedd 1af, | ,, |
| Diddymu Cyfraith yr Arfathau, | Mawrth 18fed, | 1766 |
| Deddf Brydeinig yn gosod trethi ar dê, papyr, gwydr lliwiedig, &c. | Mehefin 14eg, | 1767 |
| Anfon y cadfridog Bates i Boston, | Hydref, | 1868 |
| Distrywio 840 o gistiau tê gan y bobl yn Boston, a 17 o gistiau yn Efrog Newydd, | Rhag., | 1773 |
| Mesur Porthladd Boston, yn diddymu hawliau y porthladd, yn cael ei basio, | Mawrth 25ain, | 1774 |
| Cenhadau o'r taleithiau yn cyfarfod yn Philadelphia, Medi 5ed; ac yn cyhoeddi Dadganiad o'u Hiawnderau (*Declaration of Rights*) | Tachwedd 4ydd, | ,, |
| Y frwydr gyntaf rhwng y Prydeiniaid a'r Americaniaid yn Lexington | Ebrill 19eg, | 1775 |
| Ffurfio undeb parhaol rhwng y Taleithiau a'u gilydd | Mai 20fed, | ,, |
| Pennodi George Washington yn gadlywydd, yn Mai: brwydr Bunker's hill, yr Americaniaid yn encilio ar ol brwydr galed, | Mehefin 17eg, | ,, |
| Dadgan America "yn rhydd, yn benadurol, ac yn annibynol" | Gorphenaf 4ydd, | 1776 |
| Y Cadfridog Howe yn cymmeryd Long Island Awst 27ain: Efrog Newydd, Medi 15fed: yn fuddugol yn White Plains, Hydref 20fed, ac yn cymmeryd Rhode Island | Rhagfyr 8fed, | ,, |
| Yr Hessiaid yn ymostwng yn ninas Washington | Rhagfyr 25ain, | ,, |
| La Fayette, a swyddogion milwraidd Ffrengig ereill yn ymuno â'r Americaniaid | | 1777 |
| Washington yn cael ei orchfygu yn Brandywine | Medi 11eg, | ,, |
| Arglwydd Cornwallis yn cymmeryd Philadelphia | Medi, | ,, |
| Burgoyne yn gorchfygu Germantown, Hydref | | |

Digitized by Google

B.A.

Mr. Fox, y llysgenhadwr Prydeinig, yn gofyn am ryddhád Mr. Macleod Mawrth 12fed, 1841
Mr. John Tyler, y degfed arlywydd Ebrill, „
Achos Mr. Macleod yn cael ei godi i'r llys uchaf yn Efrog Newydd Mai 6ed, „
Yr holl weinidogion yn rhoddi eu swyddau i fyny, ond Mr. Webster Medi 11eg, „
Proclamasiwn yr arlywydd yn erbyn ceisiadau anghyfreithlawn o eiddo dinasyddion yr Unol Daleithiau i oresgyn tiriogaethau Prydeinig Medi 25ain, „
Mr. Macleod yn cael ei ryddhau, ar ol sefyll ei brawf yn Utica Hydref 12fed, „
Codi cerflun mawr o Washington yn ninas Washington Rhagfyr 1af, „
Pennodi Arglwydd Ashburton i fyned ar genadwriaeth i'r Unol Daleithiau, Ionawr 1af:—yn cyrhaedd yno Ebrill 1af, 1842
Cyttundeb Washington yn nodi allan y terfynau rhwng yr Unol Daleithiau a'r meddiannau Prydeinig yn ngogleddbarth America, ac i ddarostwng y gaethfasnach, a rhoddiad i fyny droseddwyr ffoadurol; yr hwn a lawnodwyd yn Washington gan Arglwydd Ashburton a Mr. Webster Awst 9fed, „
James Knox Polk, yr unfed ar ddeg o'r arlywyddion Mawrth 4ydd, 1845
Mexico yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Unol Daleithiau, o herwydd fod y diweddaf yn chwanegu Texas at ei thiriogaethau Mehefin 4ydd, „
Uno Mexico Newydd â'r Unol Daleithiau, ar ol rhyfel gwaedlyd Awst 23ain, 1846
Cyttundeb yn pennodi terfynau gogledd orllewinol yr Unol Daleithiau, yn rhoddi i'r Pryleiniaid feddiant o ynys Vancouver, a mordwyaeth rydd ar yr afon Columbia Mehefin 12fed, „
Gorchfygu y Mexiciaid gan y cadfridog Taylor, yn Bueno Vista, Chwefror 22ain, 1847
Cymmeryd Vera Cruz trwy ruthr, Mawrth 29ain; gorchfygu y Mexiciaid yn mhob cyfeiriad. Brwydr fawr yn Sierra Gorda; a llwyr orchfygiad y Mexiciaid gan y cadfridog Scott Ebrill 18fed, „
Cadarnhau y cyttundeb rhwng yr Unol Daleithiau a Mexico Mai 19eg, 1848
Zachary Taylor, y deuddegfed arlywydd Mawrth 4ydd, 1849
Yr arlywydd yn cyhoeddi proclamasiwn yn erbyn yr ymgyrch ysbeilgar i Cuba, Awst 11eg, „
Danfoniad llysgenhadwr Ffrainge ymaith o Washington Medi 14eg, „
Cyttundeb â Phrydain i gael tramwyfa ar draws Gyddfdir Panama, Ebrill 19eg: yn cael ei gadarnhau Gorphenaf 4ydd, 1850
Marwolaeth yr arlywydd Zachary Taylor Mawrth 31ain, „
Millard Fillmore, y trydydd arlywydd ar ddeg Mawrth, „
Califfornia yn cael ei chydnabod yn dalaeth Awst 15fed, „
Pasio mesur y caethion ffoedig Awst, „
Yr arlywydd Fillmore yn cyhoeddi ail broclamasiwn yn erbyn cefnogwyr yr ail ymgyrch ysbeilgar i Cuba Ebrill 25ain, 1851
Gwneyd cofrifiad o breswylwyr yr Unol Daleithiau:—a'r boblogaeth yn 23,347,884 trwy yr holl Undeb Mehefin 16eg, „
Marw y gwladweinydd Americaidd, Henry Clay Mehefin 29ain, „
Yr ail ymgyrch yn erbyn Cuba gan Lopez a'i ganlynwyr yn troi yn fethiant; oll yn cael eu gorchfygu a'u cymmeryd; un ar ddeg a deugain yn cael eu rhoddi i farwolaeth gan awdurdodau Cuba, Lopez yn cael ei hanner dagu, a'r gweddill eu hanfon yn garcharorion i Yspaen; ond ar ol peth ymdrafodaeth, fe'u rhyddhawyd hwynt Awst a Medi, „
Yr arlywydd yn cyhoeddi proclamasiwn yn erbyn y rhai a gydymdeimlent a'r symmudiad chwyldroadol yn Mexico Hydref 22ain, 1851
Rhan o'r Capitol yn Washington, a holl lyfrau Cydgynghorfa yr Unol Daleithiau yn cael eu dinystrio gan dân Rhagfyr 24ain, „
Kossuth, y penaeth Hungaraidd, yn cyrhaedd i Washington, ar wahoddiad deddfwriaeth yr Unol Daleithiau Rhagfyr 30ain, „
Cyhoeddiad "*Uncle Tom's Cabin*," gan Mrs. Stowe Mawrth 20fed, 1852
Y ddadl rhwng Prydain a'r Unol Daleithiau ynghylch y pysgodfeydd yn digwydd y pryd hwn; a nodyn Mr. Webster ar y mater Gorphenaf 14eg, „
Marw y gwladweinydd enwog, Daniel Webster Hydref 24ain, „
Ymgyrch i Japan „
Anerchiad i ferched America ar gaethwasiaeth yn cael ei pharotoi gan y Dduces o Sutherland, a boneddigesau ereill (a'i llawnodi gan 576,000 o ferched Prydain) Tach. 26ain, „
Y cadfridog Franklin Pierce, y pedwerydd arlywydd ar ddeg Mawrth 4ydd, 1853
Agor Palas Grisial yn Efrog Newydd Gorphenaf 14eg, „
Tân mawr yn Efrog Newydd:—yr agerlong *Great Republic* yn cael ei distrywio Rhagfyr 26ain, „
Agor llyfrgell Astor yn Efrog Newydd Ionawr 9fed, 1854
Cymmeryd yr agerlong *Black Warrior*, yn Cuba Chwefror 28ain, „
Cwblhau cyttundeb masnachol rhwng Japan a'r Unol Daleithiau gan y llyngesydd Perry Mawrth 23ain, „
Cwblhau cyttundeb rhwng Prydain a'r Unol Daleithiau, yn mherthynas i bysgodfeydd Newfoundland, a masnach gydgenedlaethol, &c. Mehefin 7fed, „
Ymdrafodaeth ynghylch uniad ynysoedd Sandwich Hydref, „
Terfysgoedd etholiadol ofnadwy yn Kansas Mawrth ac Ebrill, 1855
Rhyfel Indiaidd; a'r Indiaid yn cael eu gorchfygu Ebrill 25ain, 29ain, „
Y seneddwr Preston Brookes yn ymosod yn greulawn ar y seneddwr Charles Sumner yn y senedd-dy, am i'r diweddaf siarad yn erbyn caethwasiaeth ... „
Danfon ymaith Mr. Crampton, y llysgenhadwr Prydeinig Mai 28ain, 1856
Brwydr yn Kansas; pleidwyr caethwasiaeth yn gorchfygu John Brown a'i ddilynwyr Awst 30ain, „
Ethol James Buchanan yn bymthegfed arlywydd Tachwedd 4ydd, „
Arglwydd Napier, llysgenhadwr Prydain, yn cael derbyniad gwresog yn yr Unol Daleithiau Ionawr 16eg, 1857
Penderfynu cwestiwn canolbarth America Mawrth, „
Barn yn cael ei chyhoeddi yn achos "Dred Scott" yn y llys uchaf. (Hawlid ef fel caethwas mewn talaeth rydd; cyhoeddodd dau farnwr ef yn rhydd, ac yr oedd pump yn erbyn ei ryddhau, yr hyn a barodd anfoddogrwydd mawr trwy yr holl daleithiau rhydd) Mawrth, „
Talaeth Utah mewn annhrefn; a milwyr yn cael eu danfon yno i gefnogi y llywodraethwr newydd Mai a Mehefin, „
Terfysgoedd yn Washington yn erbyn yr etholwyr Gwyddelig; ac yn Efrog Newydd o herwydd y trefniadau newyddion o barthed i'r heddgeidwaid Mehefin, „
Darostwng terfysg yn Kansas Gorphenaf, „
Argyfwng masnachol yn Efrog Newydd, Awst, „
Llawenydd mawr drwy y Taleithiau a Phrydain ar orpheniad y gwaith o osod i lawr linell pellebrol tanforawl y Werydd Awst, 1858

Digitized by Google

B.A.

Yr isgadben Moffat yn cymmeryd y gaethlong *Echo*, ac yn ei dwyn i Charleston Medi, 1858
Y llyngesydd Tatnall yn cynnorthwyo y Prydeiniaid yn y frwydr yn erbyn y Chineaid ar yr afon Peiho Mehefin 25ain, 1859
Terfysg yn Harper's Ferry, o dan arweiniad John Brown Hydref 16eg, ,,
Dal, profi, a dienyddio John Brown, Rhag. 2il, ,,
Cyffro mawr yn y Gydgynghorfa, Tachwedd 1859. Ni chafodd yr un Llefarydd ei ethol hyd Chwefror 1af, 1860
Yr arlywydd Buchanan yn gwrthdystio yn erbyn gwneyd ymchwiliad i'w wladlywiaeth Mawrth 28ain, ,,
Dïenyddio cymdeithion John Brown, Mawrth, ,,
Dewis Abraham Lincoln yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth gan gynnadledd genedlaethol y Gweriniwyr yn Chicago Mai 16eg, ,,
Dewis Stephen Douglas yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth gan gynnadledd genedlaethol y Democratiaid yn Baltimore: dosbarth o'r un gynnadledd yn dewis John Breckenridge yn ymgeisydd Mehefin 18fed, ,,
Tywysog Cymru yn cyrhaedd i Detroit ar ei ymweliad â'r Taleithiau, Medi 20ain; yn ymweled â Washington, Hydref 3ydd; â Philadelphia, Hydref 9fed; Efrog Newydd, Hydref 11eg; Boston, Hydref 7fed; ac yn hwylio o Portland Hydref 20fed, ,,
Ethol Abraham Lincoln, yr ymgeisydd gwerinol, yn unfed arlywydd ar bymtheg Tachwedd 6ed, ,,
Cyffroadau mawr o'r herwydd yn Charleston, Carolina Ddeheuol, ac mewn taleithiau deheuol ereill Tachwedd, ,,
Carolina Ddeheuol yn tynu yn ol o'r Undeb o herwydd hyny Rhagfyr 20fed, ,,
Yr uchgadben Anderson yn cymmeryd meddiant o gaerfa Sumter yn Carolina, Rhagfyr 26ain, ,,
Yr arlywydd yn gwrthod derbyniad i genhadau o Carolina Ddeheuol Rhagfyr 30ain, ,,
Gwladlywiaeth anwadal ac ansefydlog yr arlywydd Buchanan. Cass, Cobb, Floyd, a Thompson, yn ymddiswyddo o'r weinyddiaeth Rhagfyr, 1860—Ionawr, 1861
Talaeth Efrog Newydd, a thaleithiau ereill yn gwrthdystio yn erbyn yr enciliad; cyhoeddi ympryd cyffredinol, a'i gadw Ionawr 4ydd, ,,
Enciliad Mississippi, Ionawr 8fed; Alabama, a Florida, Ionawr 11eg; Georgia, Ionawr 19eg; Louisiana, Ionawr 26ain; a Texas, Chw. 1af, ,,
Dewis Jefferson Davis gan chwech o daleithiau enciliedig yn arlywydd y Gynghreiriaeth Ddeheuol Chwefror 18fed, ,,
Yr arlywydd Davis yn parotoi i ryfel, yn galw allan 100,000 o wŷr Mawrth, ,,
Abraham Lincoln yn ymaflyd yn y swydd arlywyddol Mawrth 4ydd, ,,
Yr arlywydd yn gwrthod derbyn dirprwywyr y Deheu Mawrth 12fed, ,,
Y rhyfel yn tori allan; yr uchgadben Anderson yn gwrthod rhoddi i fyny gaerfa Sumter, Charleston, Ebrill 11eg; a'i chymmeryd gan yr encilwyr Ebrill 13eg, ,,
Lincoln yn gwysio y gydgynghorfa i gyfarfod ar y 4ydd o Orphenaf; yn cyhoeddi proclamasiwn yn galw allan 75,000 o wŷr Ebr. 15fed, ,,
Y bobl yn Baltimore a Maryland yn ymosod ar gatrodau o Massachusetts, oedd ar eu ffordd i Washington, ac amryw yn cael eu lladd Ebrill 19eg, ,,
Yr arlywydd Davis yn cyhoeddi llythyrau attrais (*letters of marque*), Ebrill 17eg; yr arlywydd Lincoln yn cyhoeddi fod porthladdoedd y taleithiau enciliedig dan warchauad Ebrill 19eg, ,,
Tanio arfdy Harper's Ferry, Virginia, a distrywio llawer o arfau, er eu hattal i syrthio i ddwylaw yr encilwyr Ebrill 18fed, ,,
Virginia (oddi eithr Virginia Orllewinol) yn encilio o'r Undeb Ebrill 25ain, 1861
Lincoln yn galw allan 42,034 o wirfoddolwyr am dair blynedd, Mai 3ydd, ac yn hysbysu y galluoedd tramor o'i fwriad i amddiffyn yr Undeb drwy rym arfau Mai 4ydd, ,,
Brenhines Prydain yn gorchymyn ei deiliaid i fod yn ammhleidiol yn ystod y rhyfel oedd ar dori allan Mai 13eg, ,,
Yr Undebwyr yn myned i Virginia, a'r cadfridog Beauregard yn galw ar y Virginiaid i gyfodi, a'u gyru yn ol Mehefin 1af, ,,
Enciliad Arkansas, Mai 6ed; Carolina Ogleddol, Mai 20fed; a Tennessee, Mehefin 8fed, ,,
Amryw lestri Prydeinig yn cael eu cymmeryd tra yn ymdrechu rhedeg y gwarchau, Mehefin ,,
Dydd ympryd yn cael ei gynnal yn y Taleithiau Cynghreiriol, Mehefin 13eg, ,,
Y cadfridog Lyon yn codi byddin Undebol yn Missouri, ac yn gorchfygu milwyr y dalaeth, Mehefin 17eg; Fremont yn cyhoeddi cyfraith rhyfel, a rhyddid i'r caethion neu i wrthryfelwyr, Awst 31ain; Lexington yn cael ei rhoddi i fyny i'r cynghreiriaid, Medi 20fed; Fremont yn cael ei feio, ac yn ymneillduo, a Hunter o herwydd hyny yn cael ei bennodi yn olynydd iddo, Tachwedd 2il, ,,
Y cadfridog Mc'Clellan yn gorchfygu y Cynghreirwyr yn Rich Mountain, Gorphenaf 11eg; Johnston a Beauregard yn ymuno ger Manassas Gorphenaf 15fed, ,,
Brwydr Bull's Run neu Manassas, Virginia; pan yr ymaflodd dychryn yn y fyddin Undebol, ac y ffodd mewn annhrefn Gor. 21ain, ,,
Brwydr Wilson's Creek, lle y gorchfygwyd y Cynghreiriaid Awst 10fed, ,,
Mc'Clellan yn cymmeryd llywyddiaeth byddin y Potomac Awst 10fed, ,,
Dydd ympryd yn cael ei gynnal yn y Taleithiau Undebol Medi 26ain, ,,
Gorchfygiad yr Undebwyr yn mrwydr Ball's Bluff, Virginia Hydref 21ain ,,
Ymddiswyddiad y cadfridog Scott, ar Hydref 31ain; pennodi y cadfridog Mc'Clellan yn brif gadlywydd y fyddin Undebol, Tachwedd 1af, ,,
Y cadben Wilkes, o'r *San Jacinto*, yn myned ar fwrdd y llythyrlong Freiniol Brydeinig *Trent*, ac yn cymmeryd oddi arni y Meistri Mason a Slidell, y dirprwywyr Cynghreiriol, a'u hysgrifenyddion, Tachwedd 8fed; ac yn eu cymmeryd i Boston Tachwedd 19eg ,,
Yr anghydwelediad rhwng y Gwerinwyr a'r Democratiaid yn Efrog Newydd, &c., yn cynnyddu Tachwedd ,,
Etholiad Jefferson Davis yn arlywydd y Taleithiau Cynghreiriol am chwe blynedd yn cymmeryd lle Tachwedd 30ain, ,,
Yr arlywydd Lincoln yn mynegu fod rhif y byddinoedd Undebol yn cyrhaedd 660,971 o wŷr, Rhagfyr 2il, ,,
Ariandai Efrog Newydd yn attal eu taliadau mewn arian Rhagfyr 30ain ,,
Cenadwri oddi wrth lywodraeth Prydain yn achos Mason a Slidell, Rhagfyr 18fed 1861. Hwythau yn cael eu rhyddhau, ac yn hwylio am Ewrop Ionawr 1af, 1862
Y cadfridog Grant yn cymmeryd Caerfa Henry, Chwefror 6ed; Caerfa Donnelson, gyda 15,000 o garcharorion, Chwefror 16eg; a Nashville, Chwef. 23ain; oll yn Tennessee ,,
Mc'Clellan a'i fyddin (100,000 o wŷr) yn croesi y Potomac Mawrth 10fed ,,
Mc'Clellan yn rhoddi i fyny ei swydd fel cadlywydd cyffredinol, ac yn cymmeryd llywyddiaeth byddin y Potomac yn unig; Fremont fyddin y dosbarth mynyddig, a Halleck fyddin y Mississippi Mawrth 11eg ,,
Y Cynghreiriaid yn cael eu gorchfygu yn Winchester, Mawrth 23ain ,,

Digitized by Google

B.A.

Diddymu caethwasiaeth yn nosbarth Columbia Ebrill 4ydd, 1862
McClellan yn gwarchau ar Yorktown, yn Virginia, Ebrill 5ed, ,,
Brwydrau mawrion Shiloh a Pittsburg Landing; yn mha rai yr oedd y Cynghreiriaid yn fuddugol Ebrill 6ed a'r 7fed, ,,
Cyttundeb rhwng Prydain Fawr a'r Unol Daleithiau yn cael ei wneyd i ddarostwng caethwasiaeth Ebrill 7fed, ,,
Gorchfygiad byddin y Cynghreiriaid yn Williamsburg Mai 5ed, ,,
Stonewall Jackson yn gorchfygu y cadfridog Banks yn Winchester Mai 18fed, ,,
Brwydrau tost, ond ammhenderfynol, yn Fair Oaks, o flaen Richmond, Mai 31ain, Meh. 1af, ,,
Beauregard, a'r Cynghreiriaid, yn encilio o Corinth, Tennessee Mai 30ain, ,,
Gorchfygiad yr Undebwyr ger Charleston gan y Cynghreiriaid Mehefin 16eg, ,,
Yr Undebwyr yn dioddef o herwydd amryw frwydrau tost yn mha rai y gorchfygwyd hwynt yn Virginia Mehefin 25ain—30ain, ,,
Dyled wladol yr Unol Daleithiau yn cael ei chyfrif yn 100,000,000*p.* Mehefin, ,,
Brwydr am saith niwrnod ar y Chickahominy, o flaen Richmond; y cadfridog Lee yn gorfodi McClellan i roddi i fyny y gwarchau, ac encilio dwy filldir ar bymtheg i Harrison's Landing Mehefin 25ain hyd Gorph. 1af, ,,
Y llywydd Lincoln yn talu ymweliad â byddin McClellan, ac yn galw am 300,000 o wŷr yn chwanegol ati Gorphenaf, ,,
Lincoln yn llawnodi mesur yn attafaelu meddiannau, ac yn rhyddhau caethweision pob gwrthryfelwr a geid dan arfau ar ol trigain niwrnod Gorphenaf 17eg, ,,
Halleck yn cael ei bennodi yn llywydd y fyddin yn lle McClellan Gorphenaf 26ain, ,,
Proclamasiwn Lincoln yn attafaelu meddiannau y gwrthryfelwyr Gorphenaf 26ain, ,,
Byddinoedd Pope yn anrheithio Virginia; Banks yn cael ei orchfygu gan y cadfridog Thomas "Stonewall" (fel y gelwid ef) Jackson, yn Cedar Mountain Awst 9ed, ,,
McClellan yn encilio o Harrison's Landing, ar ol dioddef colledion trymion Awst 16eg, ,,
Jackson yn gorchfygu Pope yn Bull's Run, Awst 30ain; Pope yn cilio i Centreville, Medi 1af, ,,
Pennodi McClellan yn gadlywydd; yn gwaredu Washington, ac yn myned yn erbyn y Cynghreiriaid, y rhai oedd dan lywyddiaeth y cadfridog Lee, yr hwn oedd wedi croesi y Potomac i Maryland Medi 5ed a'r 6ed, ,,
Brwydrau tost yn Middletown, Medi 16eg a'r 17eg; y Cynghreiriaid, ar ol brwydr fawr yn Antietam Creek, yn encilio Medi 17eg, ,,
Harper's Ferry yn ymostwng i Jackson, Medi 15fed; yntau yn croesi y Potomac, ac yn ymuno â Lee Medi 17eg, ,,
Achos yr Undebwyr yn gwanhau yn y gorllewin; yn colli Lexington, Awst; a Munsfordville Medi, ,,
Diwrnod o ddiolchgarwch yn cael ei gynnal yn Nhaleithiau y Deheu Medi 18fed, ,,
Rosencrans yn gorchfygu y Cynghreiriaid yn Inka Medi 19eg, ,,
Y Cyngbreiriaid yn ail fyned i Virginia, yn llwythog o bob darpariaethau Medi 22ain, ,,
Lincoln yn cyhoeddi rhyddid i'r caethweision yn y Taleithiau Cynghreiriol, ar y 1af o Ionawr. 1863, os na byddai i'r Taleithiau ddychwelyd i'r Undeb Medi 22ain, ,,
Brwydrau gwaedlyd, ond ammhenderfynol, yn cael eu hymladd ger llaw Corinth, Tennessee, Hydref 3ydd—5ed; ac yn Penrysville, Kentucky Hydref 8fed a'r 9fed, ,,
Cyfarfod democrataidd mawr yn Efrog Newydd yn condemnio gwladlywiaeth yr arlywydd Hydref 12fed, ,,
M. Drouyn de Lhuys, ar ran llywodraeth Ffraingc, yn cynnyg cydgyfrwngwriaeth yn achos America i sylw Prydain Fawr a Rwssia, Hydref 30ain; a hyny yn cael ei wrthod gan y tywysog Gortschakoff, Tach. 8fed; a chan Iarll Russell Tach. 13eg, 1862
Yr agerlong Gynghreiriol, *Alabama*, cadben Semmes, yn cymmeryd llawer o lestri yr Unol Daleithiau, ac yn achosi cyffro mawr yn Efrog Newydd Hydref—Rhagfyr, ,,
Burnside yn cymmeryd lle McClellan yn llywydd y fyddin a elai tua Richmond, Tach. 5ed, ,,
Tua 100,000 o'r fyddin Undebol yn dioddef gan afiechyd Tachwedd, ,,
Eisteddiad blynyddol y Gydgynghorfa; yr arlywydd yn cynnyg prynu rhyddid yr holl gaethion yn y taleithiau teyrngarol cyn y flwyddyn 1900 Rhagfyr 1af, ,,
Brwydr Fredericksburg; Burnside yn croesi y Rappahannock; yn tânbelenu Fredericksburg, Rhagfyr 11eg; cyfres o ymosodiadau tost ar y Cynghreiriaid; llwyr orchfygiad Burnside, Rhagfyr 13eg; yn ail groesi yr afon Rhagfyr 15fed, ,,
Brwydrau ger Murfreesboro' rhwng Rosencrans a Bragg; a'r diweddaf yn encilio Ion. 2il, 1863
(Mynegai yr "*American Almanack*" fod tua dwy fil o frwydrau ac ysgarmesoedd wedi eu hymladd er dechreuad y rhyfel.)
Yr arlywydd Lincoln yn cyhoeddi rhyddhâd y caethion yn y taleithiau gwrthryfelgar, ond yn y lleoedd hyny a ddelid gan filwyr yr Unol Daleithiau Ionawr 2il, ,,
Cynnygiad y llywodraeth Ffrengig i gyfryngu rhwng y pleidiau oedd mewn rhyfel yn cael ei wrthod Ionawr 9fed, ,,
Y *George Griswold*, llong yn cynnwys darpariaethau ar gyfer angen y gweithwyr cotwm yn swydd Lancaster, yn cyrhaedd i'r wlad hon Chwefror 9fed, ,,
Brwydr Chancellorsville; yr Undebwyr o dan Hooper yn croesi y Rappahannock, Ebrill 28ain; ac yn cael eu gorchfygu (y cadfridog Stonewall Jackson yn cael ei glwyfo yn farwol), Mai 2il—4ydd; Hooper yn croesi y Rappahannock yn ol Mai 5ed, ,,
Stonewall Jackson yn marw Mai 10fed, ,,
Rhyfelgyrch llwyddiannus Grant yn Tennessee, a'r gwarchau ar Vicksburg Mai, ,,
Lee yn cymmeryd amryw drefydd yn Maryland a Pennsylvania Mehefin, ,,
Y cadfridog Meade yn myned yn erbyn Lee; brwydr fawr Gettysburg yn ammhenderfynol; ond y Cynghreirwyr yn gadael Pennsylvania a Maryland Gorphenaf 1af—3ydd, ,,
Terfysgoedd yn Efrog Newydd yn erbyn ymrestriad gorfodol; llawer o negroaid yn cael eu lladd, a llawer o feddiannau yn cael eu distrywio ,,
Y gwarchau ar Charleston yn cael ei amddiffyn gan Beauregard Awst, ,,
Derbyniad croesawus i'r ysgwadron Rwssiaidd yn Efrog Newydd Medi a Hydref, ,,
Brwydrau Chickamauga, Tennessee; Rosencrans yn cael ei orchfygu gan y cadfridog Bragg Medi 19eg a'r 20fed, ,,
Lincoln yn galw am 300,000 o wirfoddolwyr allan Hydref 17eg, ,,
Gollwng y consuliaid Prydeinig o'r Taleithiau Deheuol Hydref, ,,
Meade yn cymmeryd rhan o fyddin Lee, ar yr ochr ogleddol i'r Rappahannock Tach. 7fed, ,,
Longstreet yn gorchfygu Burnside, ac yn ei orfodi i encilio i Knoxville Tach. 14eg—17eg, ,,
Ymosodiad Longstreet ar Knoxville yn troi yn fethiant, ac yntau yn encilio yn ol i Virginia Tachwedd 30ain a Rhagfyr 1af, ,,
Sherman a Thomas yn gorchfygu Bragg yn Chattanooga Tachwedd 23ain a'r 24ain, ,,
Cenadwri Mr. Lincoln i'r Gydgynghorfa ar y

Digitized by Google

B A.

rhyfel; yn cynnyg maddeuant i bawb heb law yr arweinwyr yn y gwrthryfel, Rhagfyr 4ydd; cenadwri Jefferson Davis yn eofn, ond yn cydnabod eu bod wedi cyfarfod â chollediou Rhagfyr 7fed, 1863

Yr arlywydd Lincoln yn gorchymyn codi 500,000 o wŷr yn chwaneg i'r fyddin mewn tair blynedd Chwefror 1af, 1864

Ulysses Grant yn cael ei bennodi yn gadlywydd, fel olynydd i Halleck Mawrth 12fed, ,,

Rhyfelgyrch yn Virginia: byddin y Potomac yn croesi y Rapidan: brwydr ammhenderfynol yn cael ei hymladd yn Wilderness (ger Chancellorsville), Mai 5ed a'r 6ed; brwydr Spottsylvania; a'r Undebwyr yn aros ar y maes. Y dinystr a fu ar y ddwy fyddin yn ofnadwy Mai 10fed—12fed, ,,

Ar ol rhestr o ymosodiadau o'r ddwy ochr, gorfododd Grant i Lee i ymgilio yn raddol; a thrwy symmudiad cyfystlysol, taflodd ei fyddin yr ochr arall i Richmond, Mehefin 13eg: ond gorchfygwyd ef yno gyda chryn golled Mehefin 18fed, ,,

Suddo yr agerlong *Alabama*, cadben Semmes, gan y llestr Undebol *Kearsage*, Cadben Winslow, ger llaw Cherbourg, un o borthladdoedd Ffrainge Mehefin 19eg, ,,

Brwydrau Sherman yn Atlanta, Georgia, Gorphenaf 20ain a'r 21ain: y fuddugoliaeth yn eiddo i'r Undebwyr Gorphenaf 28ain, ,,

Grant yn cael ei guro yn ol yn ei ymosodiad ar Petersburg Gorphenaf 30ain, ,,

Brwydrau gwaedlyd yn nyffryn y Shenaudoah; yr Undebwyr yn fuddugol Awst, ,,

Cynnadledd ddemocrataidd Chicago yn enwi McClellan yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth Medi 1af, ,,

Sherman yn meddiannu Atlanta Medi 1af, ,,

Sheridan yn gorchfygu Early yn Winchester, yn nyffryn y Shenandoah, ond nid heb golledion mawr Medi 19eg, ,,

Longstreet yn cymmeryd llywyddiaeth byddin Early Hydref,

Ail ethol Lincoln yn arlywydd; McClellan yn rhoddi ei swydd i fyny yn myddin yr Unol Daleithiau Tachwedd 8fed, ,,

Sherman yn dinystrio Atlanta, ac yn cychwyn oddi yno ar ol hyny ar ei daith trwy Georgia tua Savannah Tachwedd 13eg, ,,

Gorchfygiad Hood gan y cadfridog Undebol Thomas, ger Nashville, Rhagfyr 14eg—16eg, ,,

Sherman yn cymmeryd Caerfa McAllister, Rhagfyr 13eg; ac yn myned i mewn i Savannah Rhagfyr 21ain, ,,

Y Gydgynghorfa yn diddymu caethwasiaeth drwy yr holl Unol Daleithiau, Chwefror 1af, 1865

Cyfarfyddiad yr arlywydd Lincoln, a'r ysgrifenydd Seward, a'r ysgrifenydd Cynghreiriol Stephens, â dau ddirprwywr, i gyttuno ar ammodau heddwch rhwng y taleithiau a'u gilydd yn Nghaerfa Monroe, yn troi allan yn aflwyddiannus Chwefror 2il, a'r 3ydd, ,,

Lee yn cymmeryd llywyddiaeth gyffredinol y byddinoedd Cynghreiriol; ac yn cymmeradwyo ymrestriad negroaid i'r fyddin Chwefror 18fed, ,,

Tri diwrnod o frwydrau gwaedlyd yn Five Forks; Sheridan yn llwyr orchfygu Lee, Ebrill 1af; Lee yn encilio Ebrill 2il, ,,

Y Cynghreiriaid yn gadael Richmond a Petersburg, a Grant yn myned i mewn i'r dinasoedd hyny Ebrill 2il, a'r 3ydd, ,,

Sheridan yn goddiweddyd ac yn gorchfygu Lee yn Sailor's Creek, Ebrill 6ed; Lee, a byddin gogleddbarth Virginia oedd dano, yn ymostwng i Grant yn yr Appomatox Courthouse Ebrill 9fed, ,,

Baner yr Undeb yn cael ei hail osod ar Gaerfa Sumter, Charleston Ebrill 14eg, ,,

Saethu yr arlywydd Lincoln pan yr oedd efe mewn chwareudy yn Washington, Ebrill 14eg; Lincoln yn marw, Ebrill 15fed; Andrew Johnson, yr islywydd, yn cael ei dyngu i'r arlywyddiaeth, fel yr eilfed ar bymtheg o'r arlywyddion Ebrill 15fed, 1865

Johnson a'i fyddin yn ymostwng ar yr un telerau a Lee Ebrill 26ain, ,,

Saethu y llofrudd a saethodd Lincoln, a dal ei gydymaith Ebrill 26ain, ,,

Dal Jefferson Davis yn Irwinsville, Georgia, a'i roddi yn ngharchar Mai 10fed, ,,

Y cadfridog Cynghreiriol, Kirby Smith, yn rhoddi ei hun a'i fyddin i fyny yn Texas; a'r rhyfel yn terfynu Mai 26ain, ,,

Yr arlywydd Johnson yn cyhoeddi maddeuant ammodol Mai 26ain, ,,

Y byddinoedd o bob ochr yn tori i fyny; terfysgoedd pwysig yn Efrog Newydd rhwng y bobl wynion a'r negroaid Mehefin, ,,

Gwladlywiaeth heddychol yr arlywydd Johnson; yn dadgan ei fod yn erbyn casglu awdurdod i un lle, a thros hawliau taleithiol; ond yn cael ei wrthwynebu yn gryf gan y Gwerinwyr Medi, ,,

Gohebiaeth Iarll Russell â Mr. Adams yn ynghylch yr *Alabama;* cynnyg dirprwyaeth i ystyried y gofynion a wneid gan yr Unol Daleithiau am iawn, Ebr. 7fed—Medi 18fed, ,,

Y ddyled yn 600,000,000*p*. Hydref, ,,

Y cadfridog Robert Lee yn cael ei bennodi yn llywydd ar goleg milwraidd Washington, yn Virginia Hydref 2il, ,,

Diolchgarwch cenedlaethol am adsefydliad heddwch Tachwedd 2il, ,,

Y cyn-arlywydd Buchanan yn cyhoeddi ei amddiffyniad Tachwedd, ,,

Agoriad y Gydgynghorfa, cenadwri yr arlywydd yn heddychol Rhagfyr 4ydd, ,,

Y blaid radicalaidd yn wrthwynebol i'r arlywydd, ac yn ei ystyried yn rhy dyner yn ei fesurau tuag at y deheu Rhagfyr, ,,

Pedwar ugain a phump o aelodau o'r taleithiau deheuol yn cael eu cau allan o'r Gydgynghorfa; y blaid Geidwadol yn cefnogi gwladlywiaeth yr arlywydd i ad-drefnu yr Undeb, y Radicaliaid yn gwrthwynebu ei wladlywiaeth fel un rhy dyner tuag at y deheu Rhagfyr, ,,

Y Gwerinwyr yn hawlio i'r negroaid iawnderau personol a gwladol, cyfartal i'r bobl wynion Chwefror, 1866

Yr arlywydd yn cyhoeddi fod y gwrthryfel ar ben Ebrill 3ydd, ,,

Yr anghydweledigd rhwng yr arlywydd a'r Gydgynghorfa yn parhau Gorphenaf, ,,

Cwblhad llinell bellebrol tanforawl y Werydd gan y Prydeiniaid Gorphenaf 27ain, ,,

Cyfarfod mawr yn Philadelphia, yn cynnwys cenhadon o bob parth o'r wlad, amcan yr hwn oedd sefydlu undeb cenedlaethol, adferad i'r deheu o'i hawliau, ac amddiffyniad gwladlywiaeth yr arlywydd Awst 14eg, ,,

Yr etholiad i'r Gydgynghorfa yn troi yn ffafriol i'r Gwerinwyr Hydref, ,,

Gohirio prawf Jefferson Davis hyd y gwanwyn dilynol Hydref, ,,

Yr etholiadau yn yr holl daleithiau, oddi eithr Delaware a Maryland, yn ffafriol i'r Gwerinwyr: dau gynnrychiolydd negroaidd yn cael eu hethol dros Massachusetts, Hyd.—Tach., ,,

Cyfarfyddiad y Gydgynghorfa: yr arlywydd yn dadgan ei ymlyniad wrth ei wladlywiaeth blaenorol Rhagfyr 3ydd, ,,

Mesur yn rhoddi yr etholfraint i negroaid yn nosbarth Columbia yn pasio Rhagfyr 13eg, ,,

Y llys uchaf yn penderfynu nad oedd gan y Gydgynghorfa hawl i bennodi llysoedd milwraidd Ionawr, 1867

Derbyniad Nebraska, fel yr eilfed ar bymtheg ar hugain o daleithiau, i'r Undeb, Chw. 9fed, ,,

Digitized by Google

B.A.

Prynu yr America Rwssiaidd am 7,000,000 o ddoleri: y cyttundeb yn cael ei gadarnhau gan y senedd Ebrill 9fed, 1867
Jefferson Davis yn cael ei ryddhau o dan feichiafon Mai 20fed, „
Maddeuant cyffredinol yn cael ei gyhoeddi gan yr arlywydd Medi 9fed, „
Cenadwri yr arlywydd yn amddiffyn ei egwyddorion ar ad-drefniad Rhagfyr 3ydd, „
Y cyllid yn lleihau; y ddyled gyhoeddus yn nghylch 520,000,000p. Rhagfyr, „
Anghymmeradwyo yr arlywydd Johnson, a diolchgarwch yn cael ei gyflwyno i'r cadfridog Sheridan gan Dŷ y Cynnrychiolwyr am ei wasanaeth Ionawr 4ydd, 1868
Cyfyngder masnachol mawr: Mr. Wells, dirprwywr cyllidol, yn cymmeradwyo "heddwch, cynnildeb, a diwygiad" Ionawr, „
Gohebiaeth ddigofus rhwng yr arlywydd a'r cadfridog Grant Ion. 28ain, Chwefr. 14eg, „
Yr arlywydd Johnson yn gorchymyn diswyddiad Stanton, ac yn pennodi y cadfridog Thomas yn ysgrifenydd rhyfel: a hyny yn cael ei gyhoeddi yn anghyfreithlawn gan y senedd Chwefror 22ain, „
Tŷ y Cynnrychiolwyr yn pleidleisio dros ddwyn cyhuddgwyn yn erbyn yr arlywydd Johnson Chwefror 24ain, „
Mesur y cyhuddgwyn yn erbyn Johnson yn cael ei ddanfon i'r senedd gan Dŷ y Cynnrychiolwyr Mawrth 4ydd, „
Prawf yr arlywydd Johnson yn dyfod o flaen y senedd Mawrth 23ain, „
Y cyhuddgwyn yn cael ei agor gan y cadfridog Butler Mawrth 30ain, „
Cynnadledd genedlaethol y Gweriniwyr yn Chicago yn dewis y cadfridog Ulysses Grant yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth, a Mr. Colfax am yr is-lywyddiaeth Mai 21ain, „
Y senedd yn gwrthod amryw o erthyglau y cyhuddgwyn, ac yn gohirio yr achos yn erbyn Johnson Mai 26ain, „
Mesur i ganiatau i Carolina Ddeheuol a Gogleddol, Georgia, Louisiana, Florida, ac Alabama, gael anfon eu cynnrychiolwyr i'r Gydgynghorfa, yn cael ei basio gan y senedd Mehefin 11eg, „
Y gynnadledd Ddemocrataidd yn dewis Horatio Seymour yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth a Francis P. Blair hefyd am yr is-lywyddiaeth Gorphenaf 4ydd—7fed, „
Maddeuant cyffredinol (gyda rhai eithriadau) yn cael ei gyhoeddi Gorphenaf 4ydd, „
Ulysses Grant yn cael ei ethol yn ddeunawfed arlywydd Tachwedd 3ydd, „
Y cadfridog Sheridan yn ennill buddugoliaeth ar yr Indiaid gwrthryfelgar Tach. 27ain, „
Y bwriad i gospi Jefferson Davis yn cael ei roddi i fyny Chwefror 6ed, 1869
Llosgiad yr agerlong *Stonewall* ar y Mississippi: pryd y darfu i oddeutu dau gant o bersonau drengu Hydref 27ain, „
Gohebiaeth ynghylch gofynion neu hawliau yr *Alabama*, &c., rhwng Arglwydd Clarendon a Mr. Hamilton Fish Mehefin—Hydref, „
Y Gydgynghorfa yn cymmeradwyo cynllun Camlas Darian, Ionawr: a'r cyttundeb yn cael ei lawnodi Ionawr 26ain, 1870
Y Tywysog Arthur yn cael ei gyflwyno i'r arlywydd Grant, Ionawr 24ain: ac yntau yn bresennol yn nghladdedigaeth y gŵr haelionus, Mr. Peabody Chwefror 8fed, „
Virginia a Mississippi yn cael eu derbyn i'r Gydgynghorfa Chwefror 3ydd, „
Trwy welliantau yn y cyfansoddiad, y mae y Negroaid yn cael hawliau cyfartal i'r bobl wynion Ebrill, „
Galw adref J. L. Motley, y llysgenhadwr yn Mhrydain Gorphenaf, „
Colliant mawr ar fywydau a meddiannau trwy lifogydd mawrion a ddigwyddasant yn Virginia a Maryland Medi a Hydref, 1870
Gwrthwynebu y Mormoniaid o herwydd eu hamlwreiciaeth Hydref 1af, „
Marw y cadfridog enwog Robert Lee: ei oedran oedd 62ain Hydref 12fed, „
Yr arlywydd Grant yn cyhoeddi dadganiad yn erbyn Ffeniaeth, a'r ymosodiadau ar Cuba Hydref 13eg, „
Dirprwyaeth i benderfynu y dadleuon â Phrydain Fawr ynghylch yr *Alabama*, &c., cwestiwn y pysgodfeydd, ac achosion San Juan. Dros y Prydeiniaid, Iarll de Grey, Syr Stafford Northcote, ac ereill: dros yr Americaniaid, yr ysgrifenydd Fish, y cadfridog Schenk, ac ereill. Yn cyfarfod yn Washington, Chwefror 27ain; cyttundeb yn cael ei lawnodi yn pennodi cylafareddiad yn Geneva, &c., Mai 8fed; a'r cyttundeb yn cael ei gadarnhau Mai 26ain, „
Dinystrio Chicago trwy dân: ymdrechiadau mawr yn cael eu gwneyd i gynnorthwyo y dioddefwyr. Tua dwy fil o fywydau wedi eu colli trwy danau yn fforestydd y gogleddorllewin Hydref 8fed—11eg, 1871
Agor y Gydgynghorfa: yr arlywydd yn ei genadwri yn cyfeirio at heddwch tramor ac at lwyddiant cartrefol Rhagfyr 4ydd, „
Cyfarfod ffurfiol o'r ddirprwyaeth gylafareddol yn achos yr *Alabama* yn Geneva (yn cael ei ohirio hyd y 15fed o Fehefin) Rhag. 18fed, „
Llawer o Werinwyr yn enwi Horace Greeley, golygydd y "*New York Tribune*," yn ymgeisydd am yr arlywyddiaeth Mai 4ydd, 1872
Enwi y cadfridog Grant fel ymgeisydd am ail etholiad i'r arlywyddiaeth gan y Gweriniwyr yn Pennsylvania Mehefin 4ydd, „
Ymdrafodaeth barhaus yn achos yr *Alabama*, yn Mai: ond dim yn cael ei benderfynu yn ei chylch: y Gydgynghorfa yn gohirio hyd Rhagfyr Mehefin 10fed, „
Gwneyd dyfarniad cylafareddiad Geneva yn achos yr *Alabama*, &c. ynghylch y 3,229,166p. oedd i'w talu gan Brydain Fawr i'r Taleithiau yn hysbys Medi, „
Ymherawdwr yr Almaen, y cylafareddwr yn achos y San Juan, yn dyfarnu yr ynys i'r Unol Daleithiau Hydref 23ain, „
Ethol y cadfridog Grant yn arlywydd yr ail waith Tachwedd 5ed, „
Marw Horace Greeley, oed 62ain, Tach. 29ain, „
Y cadfridog Grant yn ei genadwri yn hysbysu fod canlyniadau y cylafareddiad diweddar a gynnaliwyd wedi gadael Prydain a'r Unol Daleithiau heb un cwmmwl ar eu perthynasau cyfeillgar Rhagfyr 2il, „
Yr Indiaid Madocaidd yn gorchfygu milwyr yr Unol Daleithiau mewn brwydr a gymmerodd le ger llaw Oregon Ionawr 17eg, 1873
Rhyfel cartrefol yn Louisiana, brwydro yn New Orleans Chwefror, „
Y cadfridog Camby, ac ereill, yn cael eu rhoddi i farwolaeth gan y Madociaid, Ebrill 13eg: y Cadben Jack, ac ereill, yn cael eu dal: y rhyfel yn terfynu Mehefin 1af, „
Tweed, penaeth y *Tammany Ring*, yn cael ei ddedfrydu i ddeuddeng mlynedd o garchariad Tachwedd 22ain, „
Cenadwri yr Arlywydd Grant, yn yr hon y cyhoeddai fod cwestiwn y *Virginius* yn debyg o gael ei derfynu yn foddhaol Rhagfyr 2il, „
Y dyfarniad nad oedd y *Virginius* yn meddu hawl i amddiffyniad y faner Americanaidd yn cael ei ddadgan yn Washington, Rhagfyr 22ain, „
Pennodi Caleb Cushing yn brif farnwr yr Unol Daleithiau Ionawr 8fed, 1874
Colli tri chant o fywydau, a dinystrio llawer o eiddo, trwy i ddyfrgronfeydd (*reservoirs*) mawr dori yn Massachusetts, Mai 16eg, „

Digitized by Google

B.A.

Tân mawr yn Chicago, trwy yr hyn y distrywiwyd gwerth 5,000,000 o ddoleri o eiddo o bob natur Gorphenaf 14eg, 1874
Terfysg yn Neddfwriaeth Louisiana, yn New Orleans; y Democratiaid yn gadael yr adeilad, a'r Gweriniwyr yn ymffurfio yn dŷ er iddynt ymadael Ionawr 4ydd, 1875
Dadgan fod yr etholiadau yn ffafriol i'r blaid Werinol, Tachwedd 2il, „
W. M. Tweed yn diangc o'r carchar, Rhag. 5ed, „
Tŷ y Cynnrychiolwyr yn dadgan, trwy bleidlais o 332 yn erbyn 18, yn erbyn enwi un arlywydd yn ymgeisydd am y trydydd tymmhor Rhagfyr 15fed, „
Dal William M. Tweed, yn Vigo, Medi 8fed, 1876
Agor Arddangosfa fawr Philadelphia, gan yr arlywydd Grant Mai 10fed, „
Cau yr arddangosfa fawr uchod gan yr arlywydd Grant, Tachwedd 10fed, „
Damwain arswydus ar ffordd haiarn y Tawelfor i gerbydres arbenig oedd yn croesi pont yn Ashtabula, yn Ohio, pan y cwympodd drwodd i'r dwfr—codwm o tua 75ain o droedfeddi. Cymmerodd y trên dân, ac o'r 175ain teithwyr, lladdwyd dros gant yn y fan, a derbyniodd agos i drigain niweidiau trymion o wahanol fathau Rhagfyr 29ain, „

UNDEB. Gwel CYNGHRAIR EFENGYLAIDD.

UNDEB EFENGYLAIDD. Y mae aelodau yr enwad, neu y sect hon, yn cael eu galw yn fynych yn Morrisoniaid, ar ol enw y sylfaenydd, er eu bod yn ymwrthod â'r enw hwn. Cododd y sect hon yn Ysgotland, o dan yr amgylchiadau canlynol. Darfu i Mr. James Morrison, mab i weinidog perthynol i Eglwys Enciliedig Unedig Ysgotland, pan wedi ei drwyddedu i bregethu yn yr eglwys hono, daenu athrawiaethau nad oeddynt dderbyniol, a grynhowyd ganddo wedi hyny i draethawd o dan y teitl, "*The Question, What must I do to be saved? answered by Philanthropos*," yr hwn a gafodd ledaeniad helaeth. Derbyniodd yr awdwr alwad i fyned yn weinidog ar eglwys yn Kilmarnock; ond darfu i amryw o aelodau yr henaduriaeth, cyn ei ordeiniad yn 1840, amlygu eu hanghymmeradwyaeth o rai o'r syniadau a gyhoeddwyd yn y pamphled uchod. Ar ei waith yn egluro rhai ymadroddion a ddefnyddiwyd ganddo, a'i addewid i beidio ei ledaenu drachefn, efe a ordeiniwyd i gymmeryd gofal bugeiliol yr eglwys yn Kilmarock. Ond ymddengys iddo ganiatau cyhoeddi y pamphledyn wedi hyn, a rhoddi cyhoeddusrwydd hefyd yn ei weinidogaeth reolaidd i rai ffurfiau o athrawiaeth nad oedd yr henaduriaeth yn eu cymmeradwyo; a gwysiwyd ef o flaen henaduriaeth Kilmarnock, i atteb y cyhuddiadau o heresi a ddygid yn ei erbyn. Y canlyniad a fu iddo gael ei attal i weinyddu ei swydd yn 1841. Appeliodd yntau at y synod. Dadleuwŷd yr achos o flaen y synod yn Glasgow am un niwrnod ar ddeg; ac ar y diwedd, ar gynnygiad Dr. Heugh, cadarnhawyd dyfarniad yr henaduriaeth. Y cyhuddiadau ar ba rai y cafwyd Mr. Morrison yn euog o ŵyro mewn athrawiaeth oeddynt:— 1. "Ei fod yn dysgu mai gwrthddrych ffydd gadwedigol unrhyw berson oedd, fod Iesu Grist wedi gwneyd iawn am bechodau y person hwnw, fel y gwnaeth iawn dros bechodau yr holl fyd; a bod credu y gwirionedd hwn ynddo ei hun yn ffydd gadwedigol. 2. Fod dyn o hono ei hun yn alluog i gredu yr efengyl. 3. Na ddylid cyfarwyddo neb i weddïo am ras i'w gynnorthwyo i gredu. 4. Nad ydyw edifeirwch, yn ol yr Ysgrythyr, yn golygu dim ond cyfnewidiad y meddwl—ac nid gofid duwiol am bechod. 5. Nad yw cyfiawnhâd yn faddeuant, ond ei fod yn cael ei arwyddo mewn maddeuant. 6. Fod yr etholedigaeth yn dyfod yn ol trefn natur, yn ol amcan yr iawn. 7. Fod yn yr ysgrifeniadau a gyhoeddodd lawer o ddywediadau nas gellid eu cyfiawnhau yn mherthynas i'r iawn. 8. Ei fod yn dysgu nad oedd dynion yn haeddu marwolaeth dragwyddol o herwydd pechod Adda. Parodd y ddadl a'r anghydwelediad hwn gyffro mawr trwy y wlad, ac argraphwyd llawer o draethodau a llythyrau ar y mater. Ymddangosodd syniadau Morrison yn mysg aelodau amryw o'r eglwysi Annibynol ger Glasgow, a darfu i bump o honynt ddadgan yn gyhoeddus eu hymlyniad wrth ei olygiadau, ac ymunwyd â hwynt gan bedair ereill yn ngogleddbarth Ysgotland; ac hefyd gan un neu ddau o weinidogion amryw o gyfundebau crefyddol ereill y wlad hono. O'r diwedd, darfu i'r holl weinidogion a'r eglwysi hyn ymuno â'u gilydd yn un cyfundeb, o dan yr enw *Undeb Efengylaidd*. O ran eu ffurflywodraeth eglwysig, y maent wedi mabwysiadu yr un gynnulleidfaol, yn benaf; er fod ganddynt gorph o henuriaid, y gall eglwys appelio atynt ar unrhyw achos, os bydd yn dewis gwneyd hyny. Y mae cryn nifer o eglwysi yn perthyn iddynt yn Ysgotland, ac y mae ganddynt neuadd dduwinyddol mewn cyssylltiad â Phrifysgol Glasgow.

UNRHYWIAETH, UNRHYWDEB (*Identity*). Y mae y gair hwn mewn iaith athronyddol yn dynodi fod sylwedd yn parhau yr un o dan bob amgylchiadau. Yn yr ystyr yma y defnyddir ef pan y sonir am unrhywdeb neu hunaniaeth person—pryd y golygir unrhywiaeth parhaus yr hyn sydd yn meddwl—y rhan feddylgar o ddyn, neu *yr wyf fi*. Mewn ystyr ailraddol dynoda unrhywiaeth perthynasol yn unig. Mewn rhesymeg, y mae pa bethau bynag sydd yn meddu yr un casgliad o briodoleddau yn cael eu hystyried yr un; *h.y.*, y mae llew a chi yr un yn berthynasol, mewn cyssylltiad â'r syniad cyffredin o'u bod yn perthyn i'r pedwar-troedogion; ac o dan yr enw hwn cynnwysir y ddau. Drachefn, mewn anianaeth, gellir haeru fod pren yr un yn mherthynas i holl hawliau perchenogaeth, er y cyfnewidiadau anianyddol y mae yn ddarostyngedig iddynt oddi wrth ddidoliad hen ronynau a chasgliad rhai newyddion. Yn olaf, trwy ddefnyddio y gair fel hyn yn unig y gellir dyweyd ein bod ein hunain, trwy adgof, yn ymwybodol o unrhywiaeth yr hyn a adgynyrchir o'r syniad gwreiddiol a gafwyd am dano.

Yn ol barn Butler y mae yn ammhossibl deffinio y syniad o hunaniaeth personol; ond yn ol ereill, y mae hyny yn ddigon hawdd; o herwydd, pan y mae dyn yn cymmharu ei hun âg efe ei hun mewn dwy adeg o'i fodolaeth awgrymir iddo yn uniongyrchol y meddylddrych o hunaniaeth. Fel y canlyn y tractha Reid ei olygiad ar hyn:— "Nis gallaf gofio peth a gymmerodd le flwyddyn ol, heb fod ynof argyhoeddiad, mor gryf ag y gall cof ei roddi i mi, mai yr un person yn union ag sydd yn awr yn cofio y digwyddiad oedd yn bodoli y pryd hwnw." I'r wrthddadl, na all ymwybodolrwydd—gan ei fod yn olynol—fod yr un mewn unrhyw ddwy adeg, ac o ganlyniad, gan fod ymwybodolrwydd yn cyfansoddi personoliaeth, nas gall hunaniaeth personol fod, y mae Butler yn atteb, fod ymwybodolrwydd yn gall

Digitized by Google

rhagdybied, ac o blegid hyny nas gall gyfansoddi hunaniaeth personol, ac y dichon i'r gwrthddrych a ganfyddir fod yr un, ac i'r galluoedd â pha rai y canfyddir ef fod yn wahaniaethol a gwahanol. Ymddengys fod barn Locke ar y mater hwn yn ammhenderfynol. "Nid ydyw hunaniaeth corph un dyn yn gynnwysedig," medd efe, "mewn dim, ond yn y cyfranogiad o'r un bywyd gan undeb bywiol gronynau olynol o fater diflanedig yn yr un corph cyflunedig." A dywed efe mai yr hyn a olygir wrth ei hunaniaeth personol ydyw unrhywdeb bod rhesymol.

UPAS (y gair Malayaidd am *wenwyn*): enw a roddir ar wenwyn llysieuol a geir yn yr Ynysfor Dwyreiniol a'r Ynysoedd Philippaidd. Ceir y gwenwyn hynotaf o'r math yma allan o'r *Antjar*—pren sydd yn tyfu yn y Sunda a'r Ynysoedd Philippaidd. Y mae y pren hwn yn tyfu i'r uchder o gan troedfedd, ac yn perthyn i dylwyth naturiol yr *Artocarpaceæ*—yr un tylwyth a'r pren bara. Y mae ei ddail yn hir-gulion, a'i flodau ar ffurf gwydr oriawr. Math o gneuen ydyw y ffrwyth a geir arno. O sudd llaethog y pren hwn (a elwir y *Pohon-upas* yn rhai o'r ynysoedd, yr *Antjar* yn Java, a'r *Ipo* yn yr Ynysoedd Philippaidd), wedi ei gymmysgu â phupyr du, a sudd gwraidd y *galanga*, a sinsur, y darperir gan y Malayaid y gwenwyn a osodant ar flaenau eu saethau, yr hwn a dry yn farwol yn fuan i ddyn ac anifail. Yr unig obaith am waredigaeth oddi wrth ei effeithiau ydyw taflu i fyny holl gynnwysiad yr ystumog, a chwysu nes y bydd y corph yn dyferu.

Er fod sudd newydd y pren hwn, os dygir ef i gyffyrddiad â'r croen, yn gweithredu fel gwenwyn, nid ydyw y chwedl nas gall bywyd anifeilaidd na llysieuol fyw yn nyffryn y gwenwyn yn Java yn ffaith brofedig. Yr hen chwedl ydyw fod yr awyr lle y mae y coed gwenwynig hyn yn lliosog yn dinystrio pob bywyd anifeilaidd, a hyd yn oed pob bywyd llysieuol; ond nid ydyw hyn ond chwedl ddisail. Y mae yn wir fod dyffryn cul yn Java lle nas gall bywyd anifeilaidd na llysieuol hanfodi; ond yr achos o hyny ydyw yr ulyfsur (*carbonic acid*) sydd yn ymgodi o'r tir, ac yn ymgymmysgu â'r awyr, megys yn y Grotto del Cane, ger llaw Naples; ac y mae yr un mor anhawdd i bren yr upas fyw yno ag ydyw i ryw bren arall. Y mae yn ffaith fod y pren hwn i'w gael mewn coedwigoedd, ac heb fod yn effeithio yn niweidiol ar y coed sydd o'i gwmpas. Cedwir y gwenwyn a ddarperir o'r upas, neu yr *Antjar*, mewn pibellau bambŵ amgauedig. Gellir bwyta cig anifeiliaid a leddir â'r gwenwyn yn eithaf diberygl; er fod angerddolrwydd y gwenwyn i'w weled yn y cyflymder â pha un y mae yn effeithio arnynt. Nid yw yn gwbl hysbys beth yw y sylwedd sydd yn rhoddi i sudd y pren upas ei deithi gwenwynig; ond y mae yn debyg mai y llyshal (*alkaloid*) yw. Weithiau, gwneir brethyn o linionen (*fibre*) ei rusgl; ond os na lanheir y llinionen yn drwyadl, bydd y wisg a wneir o hono yn sicr o gynnyrchu rhyw ysfa boenus i'r gwisgwr. Gwenwyn arall, cryfach nag un yr *Upas Antjar*, a ddefnyddir hefyd yn yr un cwr o'r byd, ydyw yr hyn a geir o'r *Upas Tjettek*, neu yr *Upas Tieute*, yr hwn a ddarperir mewn modd cyffelyb o wraidd y *Strychnos Tieute*. Y mae hwn yn llawn o'r gwenwyn marwol a elwir *Strychnine*.

UPHAZ: gwlad o'r hon y cafwyd aur: *Ier.* x. 9; *Dan.* x. 5. Tybir yn gyffredinol mai yr un ydyw ag Ophir. Gwel OPHIR.

UPHARSIN (*a rhanwyd*). "Rhanwyd dy frenhiniaeth, a rhoddwyd hi i'r Mediaid a'r Persiaid;" *Dan.* v. 25:—rhan o'r ysgrifen a welodd Belsassar ar galchiad pared llys y brenin, yr hon ni fedrai y dewiniaid ei deongli, ond a ddeonglwyd gan Daniel. Ei hamcan oedd rhagfynegu y farn drom a ddisgynai arno am ei falchder a'i ddelwaddoliaeth, ac yn enwedig am ddefnyddio y llestri aur ac arian a ddygasai Nebuchodonosor, ei dad ef, o'r deml i yfed gwin yn ei wledd annuwiol.

UR. Nid ydyw Ur yn digwydd ond yn unig yn Llyfr Genesis, a chrybwyllir am dano fel gwlad genedigaeth Haran (*Gen.* xi. 28)—y lle o'r hwn y cychwynodd Terah ac Abraham "i fyned i dir Canaan;" *Gen.* xi. 31. Gelwir ef yn Genesis "Ur y Caldeaid," tra y rhydd Stephan ar ddeall mai yn Mesopotamia yr oedd: *Act.* vii. 2, 4. Dyma yr holl gyfeiriadau a geir yn yr Ysgrythyrau gyda golwg ar ei sefyllfa. Gan ei fod yn amlwg nad ydynt yn ddigon i'n galluogi i benderfynu yn mha le y safai, ni a ystyriwn yn gyntaf y prif draddodiadau a'r tybiau a goleddir ar y pwngc; ac yna gwnawn ymgais, trwy gymmhorth y crybwylliadau ysgrythyrol, i benderfynu rhyngddynt.

Dywed un traddodiad mai yr un ydyw Ur a'r *Orfah* ddiweddar. Y mae peth sail dros gredu fod y ddinas hon, a elwid gan y Groegiaid yn Edessa, yn cael ei galw hefyd yn Orrha mor foreu ag amser Isidore (o ddeutu y fl. 150 C.C.); ac hwyrach nad ydyw y traddodiad sydd yn ei chyssylltu âg Abraham yn ddiweddarach na St. Ephraem (B. A. 330—370), yr hwn sydd yn gwneuthur Nimrod yn frenin Edessa, yn mblith lleoedd ereill. Yn ol Pocock, mai Ur ydyw Edessa, neu Orfah, ydyw syniad cyffredinol yr Iuddewon; a dyma hefyd y dyb a goleddir yn y lle, fel y rhoddir ar ddeall gan y teitl "Teml Abraham" a roddwyd i brif adeilad grefyddol y lle, a'r dynodiad, "Llyn Abraham yr Anwylyd" a gyssylltir â'r llyn, yn yr hwn y cedwir pysgod cyssegredig.

Y mae traddodiad arall, yr hwn a ymddengys yn y *Talmud*, ac mewn rhai o'r ysgrifenwyr Arabaidd boreuol, yn rhoddi ar ddeall mai Ur ydyw *Warka*, 'Ορχόη y Groegiaid, ac hwyrach Erech y Beibl. Y mae y lle hwn yn dwyn yr *Huruk* yn yr enw arysgrifeniadau brodorol; ac yr oedd yn y wlad oedd yn hysbys i'r Iuddewon fel "tir y Caldeaid."

Y mae trydydd traddodiad, llai eglur nag un o'r rhai hyn, ond yn meddu hawl i o leiaf gymmaint o sylw, yn gwahaniaethu Ur oddi wrth Warka, er ei fod yn ei osod yn yr un parth. Nid oes un ammheuaeth nad y ddinas at yr hon y mae y traddodiad hwn yn cyfeirio ydyw yr un a alwyd yn *Hur* gan y brodorion, a'r hon sydd yn awr yn cael ei dynodi gan y gweddillion yn *Mugheir*, neu *Umgheir*, ar lan ddeheuol yr Euphrates, yn agos gyferbyn â'i chyssylltiad â'r *Shat-el-Hie*. Gellir dywedyd, ar dir teg, fod y traddodiad Iuddewig hynaf sydd genym, yr un a ddyfynwyd gan Eusebius o Eupolemus, yr hwn oedd yn byw o ddeutu 150 C.C., yn meddwl y lle hwn; canys trwy dybied mai yr un oedd Ur (Uria) a'r ddinas Fabilonaidd a adnabyddir hefyd wrth yr enwau Camarina a Chaldaepolis, y mae yn cyfeirio at Ddinas y Lleuad, yr hon

Digitized by Google

oedd *Hur*—gan mai *kamar* ydyw y gair a arferir am y lleuad yn yr Arabaeg, a *khaldi* yn yr hen Armenaeg.

Y mae un syniad arall y dylid ei grybwyll, er nad ydyw yn cael ei gefnogi gan un traddodiad. Barna Bochart, Calmet, Bunsen, ac ereill, mai yr un ydyw Ur y Caldeaid a lle o'r un enw a grybwyllir gan ysgrifenydd diweddar o'r enw Ammimus Marcellinus, fel castell oedd mewn bod yn ei amser ef yn nwyreinbarth Mesopotamia, rhwng Hatra (*El Hadhr*) a Nisibis. Ymddengys mai y prif resymau yn ffafr y safle hon ydyw unoliaeth yr enw, a sefyllfa y lle, rhwng Arrapachitis (yr hwn, fel y tybir, oedd preswylfod hynafiaid Abraham yn amser Arphaxad) a Haran, i ba le yr aeth efe o Ur.

O'r pedwar lle y tybir eu bod yn meddu hawl i gael eu hystyried fel dinas Abraham, gwelir fod dau yn gorwedd yn Mesopotamia Uchaf, rhwng Mynydd Masius a Mynyddoedd Sinjar, tra y mae y ddau ereill yn y mariandir yn agos i'r môr, o leiaf 400 o filldiroedd yn mhellach i'r deheu. Gadawer i ni yn gyntaf geisio penderfynu yn mha un o'r ddau y dylid chwilio am Ur.

Mai Caldea, a siarad yn briodol, ydoedd y rhan ddeheuol o Babilonia, sef y wlad sydd yn terfynu ar y morgaingc, a addefir gan bawb. Dadleua y rhai a haerant fod Ur yn y gogledd fod yr enw wedi teithio tua'r gogledd gydag ymeangiad y gallu Caldeaidd, ac wedi dyfod mor eang a Mesopotamia. Ond yn y lle cyntaf, nid oes un prawf ddarfod i'r enw *Caldea* erioed gael ei gymmhwyso at y wlad uwch law y Sinjar; ac yn ail, os cafodd, cymmhwysir ef, beth bynag gan yr Iuddewon, yn unig at y wlad isaf; a galwant yr uchaf yn *Mesopotamia* neu *Padan-Aram*: *Iob* i. 17; *Esa*. xiii. 19; xliii. 14, &c. Drachefn, nid oes un lle i gredu fod y gallu Babilonaidd wedi ei sefydlu tu hwnt i fynyddoedd y Sinjar yn yr amseroedd boreuol hyny. I'r gwrthwyneb, ymddengys ei fod wedi ei gyfyngu i Babilonia Briodol, neu y mariandir islaw Hit a Tekrit, hyd ryfelgyrch Cedorlaomer, yr hyn oedd yn fwy diweddar nag ymfudiaeth Abraham. Nid ydyw tybiau Ephraem Syrus a Jerome, y rhai a gredent mai yr un ydyw dinasoedd Nimrod a lleoedd yn y rhan uchaf o Mesopotamia, yn haeddu un grediniaeth. Y mae yr enwau oll, mewn gwirionedd, yn perthyn i Caldea Briodol. Yn mhellach, y mae yr awdurdodau Iuddewig goreu a boreuaf yn gosod Ur yn y rhan isaf o honi. Y mae Eupolemus wedi ei ddyfynu yn barod i'r pwrpas hwn. Ymddengys fod Josephus, er ei fod yn llai eglur ar y pwngc, yn coleddu yr un golygiad. Y mae y Talmudiaid hefyd ar yr ochr yma i'r cwestiwn; ac y mae traddodiadau lleol, y rhai y gellir eu holrhain yn ol yn mron at yr Hegira, yn rhoddi ar ddeall mai y rhan isaf oedd gwlad genedigaeth a bywyd boreuol Abraham. Os oes yn *Araf* deml o'r enw *Teml Abraham*, a llyn o'r enw *Llyn Abraham*, y mae Cutha, ger llaw Babilon, yn myned wrth enw Abraham, fel y maes yn yr hwn y cyflawnodd efe yr holl wyrthiau dychymmygol a briodolir iddo gan yr hen draddodiadau. Drachefn, yn y wlad isaf yn unig y ceir enw yn cyfatteb yn hollol i'r enw *Ur*.

Nid oes un pwys yn yr ymresymiad y dylid chwilio am Ur yn nghymmydogaeth Arrapachitis a Seruj, o herwydd fod yr enwau Arphaxad a Serug yn digwydd yn llinach Abraham, hyd nes y profir fod yr enwau dan sylw yn dal cysylltiad gwirioneddol â'r lleoedd; yr hyn sydd hyd yma heb ei wneyd. Y mae yn debygol fod Arrapachitis yn dyfod oddi wrth *Arapkha;* sef hen dref Assyriaidd, heb fod o un pwys mawr, ar ochr aswy y Tigris, uwch law Ninifeh—yr hon nid ydyw yn cynnwys ond tair yn unig o'r llythyrenau sydd yn *Arphaxad*. Ac y mae Seruj yn enw nad ydyw yn ymddangos yn Mesopotamia hyd yn mhen amser maith ar ol y cyfnod Cristionogol. Anfynych iawn, os byth, y gallwn gael gwybodaeth ddaearyddol oddi wrth yr enwau mewn llinach hanesiol; ac yn sicr yn yr achos presennol, ymddengys nad oes dim wedi ei ennill trwy yr ymgais.

Gan hyny, gallwn ystyried ei fod yn lled sicr, ar y cyfan, mai lle oedd 'Ur y Caldeaid' yn gorwedd yn Caldea wirioneddol—y wlad isaf, ger y Morgaingc Persiaidd. Yr unig gwestiwn sydd mewn unrhyw radd yn ammheus ydyw, pa un ai Warka ai Mugheir ydyw y wir gymmydogaeth. Nid ydyw y lleoedd hyn yn mhell iawn oddi wrth eu gilydd; ac y mae un o'r ddwy yn ddigon cyfaddas. Hen ddinasoedd ydyw y naill a'r llall, y rhai oeddynt mewn bod, yn ol pob tebygolrwydd, yn mhell cyn amser Abraham. Priodolir hi i'r ddwy gan draddodiadau, ond hwyrach yn fwy eglur i Warka. Ar y llaw arall, ymddengys yn sicr fod Warka, enw brodorol yr hon oedd *Huruk*, yn sefyll yn yr un llanerch a'r Erech y sonir am dani yn Genesis; yr hon nis gall fod yr un ag Ur yn yr un llyfr. Gan hyny, Mugheir, yr hon oedd yn dwyn yr enw cywir *Ur* neu *Hur*, sydd yn meddu yr hawl gryfaf i gael ei hystyried fel dinas Abraham.

Os gellir ystyried Mugheir, ar y seiliau a nodwyd uchod, fel gwir 'Ur y Caldeaid,' o'r hon y cychwynodd Abraham a'i deulu i'w taith, ymddengys na byddai ychydig o'i hanes yn ammhriodol yma. Chwiliwyd ei gweddillion yn fanwl gan Mr. Loftus a Mr. Taylor, ac y mae ei harysgrifeniadau wedi eu hegluro a'u cyfieithu gan Syr Henry Rawlinson.

Un o hen safleoedd dinasoedd hynaf Caldea, os nad yr hynaf oll a ddarganfyddwyd hyd yn awr, ydyw *Ur* neu *Hur*, neu *Mugheir*, neu *Um-Mugheir*. Y mae hi yn gorwedd ar lan ddeheuol yr Euphrates, yn y pellder o tua chwe milldir oddi wrth ei chwrs presennol—yn mron gyferbyn â'r man lle y mae yr afon hono yn derbyn y *Shat-el-Hie* o'r Tigris. Nid ydyw yn awr ddim llai na 125 o filldiroedd o'r môr; ond y mae lle i gredu ei bod gynt yn dref arforawl, a bod ei sefyllfa bresennol—yn y tir—wedi ei achosi gan gynnydd cyflym y marian. Y mae gweddillion yr adeiladau yn gyffredinol o'r cymmeriad mwyaf hynafol. Y maent yn gorchuddio arwynebedd hirgrwn, mil o latheni o hyd wrth wyth gant o led, ac yn gynnwysedig yn benaf o nifer o gladdiau isel oddi mewn i amgaerau—y rhai, ar y rhan fwyaf o'r ochrau, sydd yn mron yn berffaith. Saif yr adeilad hynotaf yn agos i ben gogleddol yr adfeilion. Teml ydyw o'r cynllun gwir Galdeaidd, wedi ei hadeiladu o briddfeini. Y mae priddfeini yr adeilad hwn yn dwyn yr enw o un *Urukh*, yr hwn a ystyrir fel y boreuaf o'r brenhinoedd y crybwyllir am dano ar gofadeiladau y Caldeaid; a dichon mai yr un ydyw yr enw ag *Orchamus*, sydd yn Ovid. Ei ddyddiad tybiedig ydyw dwy fil o flynyddoedd cyn Crist, neu ychydig yn gynt. 'Ur oedd prifddinas y penadur hwn; ac yr oedd yn meddu tiriogaeth yn ymestyn o leiaf mor bell i'r gogledd a Niffer; ac, fel y profir gan wychder ei adeiladau, yr oedd efe yn hen dywysog o gyfoeth a gallu. Ymddengys



Digitized by Google

fod y deml fawr wedi ei sylfaenu gan y brenin hwn, yr hwn a'i cyssegrodd i'r Lleuad-dduw, *Hurki;* oddi wrth yr hwn yr ymddengys fod y dref ei hun wedi derbyn ei henw. Ilgi, mab Urukh, a orphenodd y deml, yn gystal a rhai o adeiladau ereill ei dad; a pharhaodd y brenhinoedd a ddilynasant y rhai hyn am amryw genedlaethau i addurno a phrydferthu y ddinas. Cadwodd 'Ur ei chymmeriad prifddinasol am 200 o flynyddoedd; ac hyd yn oed wedi iddi ddyfod yn ail o ran ei maint i Babilon, yr oedd yn ddinas fawr, gyda chymmeriad hynod o gyssegredig. Parodd y syniadau a goleddwyd am ragoriaeth ei chyssegredigrwydd iddi gael ei defnyddio fel dinas gladdu, nid yn unig yn ystod amser uchafiaeth boreuol y Caldeaid, ond trwy yr holl dymmor Assyriaidd, ac hyd yn oed yn y tymmor Babilonaidd diweddarach. Ar y cyfan, dinas y beddau ydyw. Y mae y rhan fwyaf o lawer o'r tir oddi mewn i'r caerau yn cael ei feddiannu gan feddau o ryw fath neu gilydd; ac y mae y tir o'r tu allan hefyd am bellder o gannoedd o latheni wedi ei feddiannu yn mron yn hollol gan feddau. Credir fod 'Ur am 1800 o flynyddoedd yn lle i'r hwn y dygid y meirwon o bellderau; ac felly tebygai i'r cyfryw leoedd a *Kerbela* a *Nedjif*, neu *Meshed Ali*, yn y dyddiau hyn. Y crybwylliad diweddaf a gawn ni am 'Ur fel lle yn hanfodi ydyw yn y frawddeg o eiddo Eupolemus a ddyfynwyd yn barod, lle yr ydym yn deall ei bod wedi newid ei henw, ac yn cael ei galw yn *Camarina.* Y mae yn debyg ei bod wedi syrthio i adfeiliad dan y Persiaid, a'i bod yn garnedd yn adeg gorchfygiadau Alexander, pan y dywedasant wrtho ef fod beddrodau yr hen frenhinoedd Assyriaidd yn benaf yn nghorsydd mawrion y wlad isaf.

URBANUS: dysgybl Cristionogol, yr hwn sydd yn rhestr faith y rhai a anerchir gan Paul yn niwedd yr Epistol at y Rhufeiniaid: *Rhuf.* xvi. 9. Nid ydym yn gwybod mwy ynghylch Urbanus na'i fod, fel y gellir casglu oddi wrth y geiriau sydd yn canlyn, wedi bod rywbryd yn gydlafurwr crefyddol â'r apostol.

URDD—AU CREFYDDOL, ydynt gynnulleidfaoedd neu gymdeithasau, yn byw o dan yr un rheolwr neu benaeth, a chan mwyaf yn arfer yr un wisg. Y mae amryw o honynt yn yr Eglwys Babaidd; megys mynachod, canoniaid, cardotwyr, &c. Gwel AWSTINIAID; BENEDICTIAID; IESUITIAID; MARCHOGION; a MYNACHOD.

URDDAU EGLWYSIG. Gwel ORDEINIAD.

1. URI: tad Bezaleel, un o gynllunwyr y tabernacl: *Exod.* xxxi. 2; xxxv. 30; xxxviii. 22; 1 *Cron.* ii. 20; 2 *Cron.* i. 5. Yr oedd efe o lwyth Iudah, ac yn ŵyr i Caleb fab Hezron. Ei dad oedd Hur; yr hwn, medd rhai, oedd ŵr Miriam.

2. URI: tad Geber, swyddog lluniaeth Solomon yn Gilead: 1 *Bren.* iv. 19.

3. URI: un o borthorion y deml, yr hwn oedd wedi priodi gwraig ddyeithr yn amser Ezra: *Ezra* x. 24.

1. URIAH: archoffeiriad yn nheyrnasiad Ahaz: *Esa.* viii. 2; 2 *Bren.* xvi. 10—16. Yr ydym yn clywed gyntaf am dano ef fel tyst i brophwydoliaeth Esaiah yn mherthynas i Maher-shalal-has-baz, gyda Zechariah fab Ieberechiah. Mae yn debyg mai yr un yw ag Uriah yr offeiriad; yr hwn a adeiladodd allor i Ahaz: 2 *Bren.* xvi. 10. Os felly, gwysiodd y prophwyd ef fel tyst; hwyrach, ar gyfrif ei sefyllfa fel archoffeiriad, ac nid ar gyfrif ei rinweddau personol: er y dichon nad oedd gwaseidd-dra anghrefyddol Uriah etto wedi amlygu ei hun, gan fod y digwyddiad wedi cymmeryd lle yn nechreu teyrnasiad Ahaz. Pan aeth Ahaz, ar ol ei waredigaeth oddi wrth Resin a Pecah gan Tiglath-Pileser, i weini ar ei feistr newydd yn Damascus, efe a welodd yno allor a'i boddhaodd ef, ac efe a anfonodd gynllun o honi i Uriah yn Ierusalem; gyda gorchymyn i un tebyg iddi gael ei gwneyd erbyn dychweliad y brenin. Cyflawnodd Uriah y gorchymyn eilunaddolgar yn selog; a phan ddychwelodd Ahaz, nid yn unig goddefodd iddo offrymu aberthau arni, ond cydffurfiodd yn wasaidd â'i holl orchymynion annuwiol. Gan hyny, gosodwyd yr allor newydd yn nghyntedd y deml, i'r dwyrain o'r man lle yr arferai yr allor bres sefyll: ac offrymwyd aberthau dyddiol, a phoeth-offrymau y brenin a'r bobl, arni; tra y cadwyd yr allor bres, gan ei bod wedi ei symmud o'i lle, ac wedi ei gosod i'r gogledd i'r allor Syriaidd, fel allor breifat i'r brenin. Y mae yn debyg hefyd na ddarfu i ymostyngiad gwasaidd Uriah ddibenu yma; ond ei fod wedi cydsynio â gweithredoedd eilunaddolgar a chyssegr-ysbeilgar ereill Ahaz: 2 *Bren.* xvi. 17, 18; xxiii. 5, 11, 12; 1 *Cron.* xxviii. 23—25.

Am rieni Uriah nid ydym yn gwybod dim. Y mae yn debygol iddo ddilyn Azariah, yr hwn oedd yn archoffeiriad yn nheyrnasiad Uzziah; a dilynwyd ef gan yr Azariah hwnw, yr hwn oedd yn archoffeiriad yn nheyrnasiad Hezeciah. O herwydd hyn, y mae yn debygol ei fod yn fab i'r blaenaf, ac yn dad i'r olaf, gan nad ydyw mewn un modd yn beth anghyffredin yn mhlith yr Hebreaid, fel yn mhlith y Groegiaid, i'r ŵyr gael enw y taid. Y mae yn debygol, hefyd, y dichon ei fod wedi disgyn oddi wrth yr Azariah hwnw oedd yn archoffeiriad yn nheyrnasiad Asa. Ond nid oes ganddo un lle yn y llinach offeiriadol (1 *Cron.* vi. 4—15), yn yr hon y mae bwlch mawr rhwng Amariah yn *adn.* 11, a Salum tad Hilciah yn *adn.* 13. Hwyrach ei fod yn gasgliad rhesymol fod llinach Uriah wedi terfynu yn ei olynydd, Azariah; a bod Hilciah yn disgyn trwy gangen arall oddi wrth Amariah, yr hwn oedd yn offeiriad yn nheyrnasiad Iehosaphat.

2. URIAH: offeiriad o deulu Haccos, penaeth y seithfed dosbarth o offeiriaid (gwel 1 *Cron.* xxiv. 10). Nid ydyw yn ymddangos pa bryd yr oedd yr Uriah hwn yn byw, gan nad ydyw ond yn unig yn cael ei enwi fel tad neu hynafiad Meremoth, yn nyddiau Ezra a Nehemiah: *Ezra* viii. 33; *Neh.* iii. 4, 21.

3. URIAH: un o'r offeiriaid a safent ar ddeheulaw Ezra pan yr oedd efe yn darllen y gyfraith i'r bobl: *Neh.* viii. 4.

4. URIAH: mab Semaiah o Ciriath-Iearim. Prophwydai yn nyddiau Iehoiacim yn mherthynas i'r tir a'r ddinas, yn union fel yr oedd Ieremiah wedi gwneyd, a gwnaeth y brenin ymgais i'w roddi ef i farwolaeth; ond efe a ddiangodd, ac a ffodd i'r Aipht. Darganfyddwyd ei encilfa yn fuan: dygodd Elnathan a'i wŷr ef allan o'r Aipht, a lladdodd Iehoiacim ef â'r cleddyf, a bwriodd ei gorph allan yn mhlith beddau y bobl gyffredin: *Ier.* xxvi. 20—23. Ymddengys fod adroddiad Semaiah wedi ei ddyfynu gan elynion Ieremiah fel rheswm dros ei roddi ef i farwolaeth; ac fel attebiad i'r enghraifft am Micah y

Digitized by Google

Morasthiad, yr hon a roddodd cyfeillion Ieremiah fel rheswm pa ham y dylid gwrandaw ar ei eiriau ac arbed ei fywyd.

URIAS [goleuni yr Arglwydd]: un o'r deg penaeth ar hugain oedd ar y deg mintai ar hugain, i ba rai yr oedd byddin Israelaidd Dafydd wedi ei rhanu: 1 *Cron.* xi. 41; 2 *Sam.* xxiii. 39. Fel ereill o swyddogion Dafydd (Ittai o Gath; Isboseth y Canaaneaid, 2 *Sam.* xxiii. 8; Selec yr Ammoniad, 2 *Sam.* xxiii. 37) dyeithr-ddyn oedd efe—sef Hethiad. Modd bynag, dengys ei enw, a'i iaith (2 *Sam.* xi. 11) ei fod wedi mabwysiadu y grefydd Iuddewig. Efe a briododd Bathseba, "gwraig deg iawn yr olwg," merch Eliam—yr un, hwyrach, a mab Ahitophel, ac un o'i gydswyddogion (2 *Sam.* xxiii. 24); a thrwy hyn, fe allai, y daeth Urias yn gydnabyddus gyntaf â Bathseba. Gellir casglu oddi wrth ddammeg Nathan (2 *Sam.* xii. 3) ei fod yn teimlo serch cryf at ei wraig, a bod eu hundeb wedi ei anrhydeddu yn Ierusalem fel un nodedig o ddymunol. Yr oedd ganddo dŷ yn Ierusalem islaw palas y brenin: 2 *Sam.* xi. 2. Yn y rhyfel cyntaf âg Ammon, efe a ganlynodd Ioab i'r gwarchau, ac a arosodd gydag ef yn y gwersyll yn y maes agored: 2 *Sam* xi. 11. Am y manylion o'i hanes, ac ymddygiadau Dafydd at Bathseba, ei wraig, a'r llaw oedd gan Dafydd yn ei farwolaeth, gwel 2 *Sam.* xi. 2—25. Un o'r rhanau mwyaf effeithiol o'r hanes yw, fod Urias wedi cwympo heb wybod dim am ddianrhydedd ei wraig. Clywodd hi am farwolaeth ei gŵr; ond nid ydyw yr adroddiad yn rhoddi un awgrymiad gyda golwg ar ei theimlad yn ngwyneb y digwyddiad. Hi a "alarodd" gyda'r arwyddion arferol o ofid, fel gwraig weddw; ac yna daeth yn wraig i Dafydd: 2 *Sam.* xi. 27.

1. URIEL: Lefiad Cohathaidd, mab Tahath: 1 *Cron.* vi. 24.
2. URIEL: penaeth y Cohathiaid yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xv. 5, 11. Yn y cymmeriad hwn efe a gynnorthwyodd, gyda 120 o'i frodyr, i ddwyn yr arch i fyny o dŷ Obed-edom.
3. URIEL: tad Maachah, neu Michaiah, hoff wraig Rehoboam, a mam 'Abiah. Gelwir ef yn "Uriel o Gibeah:" 2 *Cron.* xiii. 2. Yn 2 *Cron.* xi. 20, gelwir hi "Maachah merch Absalom;" ac y mae Josephus yn egluro hyn trwy ddyweyd mai ei mam oedd Tamar, merch Absalom.

URIEN RHEGED. Mab ydoedd y pendefig hwn i Cynfarch ap Gul, Ap Gwrwst Ledlwm, Ap Ceneu, Ap Coel Codebog. Ymddengys ei fod yn blodeuo tua chanol, neu y rhan olaf, o'r chweched ganrif. Nid ydys yn gwybod pa le yr oedd ei diriogaeth yn gorwedd, sef Rheged. Diammheu ei fod yn byw yr un amser a Thaliesyn Ben-beirdd; o herwydd dywed y bardd hwnw iddo ef ei hun fod yn llygad-dyst o'i ddewrder a'i fedrusrwydd fel rhyfelwr; ac ymddengys hefyd i'w farwolaeth gymmeryd lle yn amser Llywarch Hen; o herwydd ceir yn mysg ei ddarnau barddonol "*Farwnad Urien Rheged.*" Mynegir yn y farwnad hon iddo gael ei ladd yn Aber Llew; ond nid oes neb a ŵyr yn mha le yr oedd y llanerch hono. Ei lofruddio a gafodd efe gan Llofan Llawdifo; ac y mae y weithred fradwrus hon yn cael ei galw yn y *Trioedd* yn un o'r "tair anfad gyflafan." Nid oes dim o hanes yr hwn a roddes yr ergyd farwol, ond yn unig cyfeiriad at ei fedd, yn y farwnad. Dywed un hen ysgrif i Urien ddyfo i Ddeheubarth Cymru er cynnorthwyo i anfon ymaith y Gwyddelod, y rhai oeddynt wedi ymsefydlu yn y wlad. Haera ereill yn wir mai yn y Deheubarth yr oedd talaeth Rheged; ond nid ydyw hyny yn debygol, er fod Urien yn cael ei gyfrif yn ben-cenedl i amryw dylwythau Cymru hyd heddyw. Mawrygir ef yn fawr gan Taliesyn am ei ddewrder a'i wychder fel llywydd, ac fel un oedd yn peri arswyd mawr i'r Saeson. Canmolir ef, nid yn unig o herwydd ei fod yn arweinydd medrus, ond hefyd yn ymladdwr dewrwych, pan yn ymdrechu law-law mewn brwydr. Yn y *Trioedd* gelwir ef yn un o'r "Tri tharw cad ynys Prydain." Yn y ffug-draethodau Ffrengig, sonir am dano fel un o enwogion marchogol llys Arthur; ac ynddynt hwy, fe'i gelwir ef "y brenin Urien;" ac hefyd *Yrience* a *Rience.* Aeth i ogleddbarth Prydain yn niwedd ei oes, ac adennillodd, ar ol aml a blin frwydrau, diriogaeth ei hynafiaid yno. Cofnodir enw Urien Rheged yn mhlith seintiau Ynys Prydain yn nghôr Cattwg, yn Llancarfan: ond nid yw hyn yn ymddangos yn gysson â'r hyn a fynegir; sef, iddo gyfarfod â'i farwolaeth tra yn arwain ei fyddin yn ngogleddbarth Prydain. Y tebygolrwydd ydyw, iddo ef, yn ogystal ag amryw flaenoriaid naturiol ereill oedd yn byw yn yr oesoedd hyny, gael ei ystyried yn un o'r seintiau —nid o herwydd ei fod yn arwain buchedd grefyddol, ond yn hytrach ar gyfrif ei ymdrechiadau yn erbyn ymosodiadau a thrahâ y Saeson paganaidd.

URIM A THUMMIM (אורים תמים: *δήλωσις καὶ ἀλήθεια: doctrina et veritas*). Y mae ysgolheigion Hebreaidd, bron yn ddieithriad, yn ystyried mai y lliosog o אור (*goleuni* neu *dân*) yw yr *Urim.* Y mae y gair *Thummim* yn deilliaw o תם (*perffeithrwydd, cyfanrwydd*). "Goleuni a pherffeithrwydd," dybygid, ydynt y cyfieithiad Cymraeg goreu a ellir ei roddi o'r geiriau. Y tro cyntaf y defnyddir yr ymadroddion hyn yn y Beibl sydd mewn cyssylltiad â'r disgrifiad a roddir o wisgoedd yr archoffeiriad Iuddewig. Ar yr ephod yr oedd "dwyfroneg barnedigaeth" i fod, o waith cywraint o aur, sidan glâs, porphor, ac ysgarlad, a llian main cyfrodedd, yn bedairongl ac yn ddau ddyblyg, ac yn rhychwant o hyd a lled. Ar y ddwyfroneg, yr oedd pedair rhes o feini gwerthfawr, ac ar bob un o'r meini enw un o lwythau Israel wedi ei gerfio, fel y byddai i Aaron eu dwyn "ar ei galon pan ddelo i'r cyssegr, yn goffadwriaeth ger bron yr Arglwydd yn wastadol." Wedi hyny ceir gorchymyn pellach. Yn y ddwyfroneg, fel yr oedd llechau y cyfammod yn yr arch (*Exod.* xxv. 16), y gosodid "yr Urim a'r Thummim," y goleuni a'r perffeithrwydd; ac yr oeddynt hefyd i'w gosod ar galon Aaron, pan elai "i mewn ger bron yr Arglwydd;" *Exod.* xxviii. 15—30. Nid oes un gair yn cael ei ddefnyddio er rhoddi disgrifiad o honynt. Crybwyllir am danynt fel pethau oeddynt eisoes yn eithaf cyfarwydd i Moses ac i feibion Israel, ac yn naturiol yn gyssylltiedig â swyddogaeth yr archoffeiriad fel un yn cyfryngu rhwng yr Arglwydd a'i bobl. Cyflawnwyd y gorchymyn: *Lef.* viii. 8. Trosglwyddwyd hwynt gan Aaron, ynghyd â'r ephod a'r gwisgoedd ereill, i Eleazar: *Num.* xx. 28. Pan bennodwyd Iosuah i fod yn olynydd i Moses, gorchymynwyd iddo ef sefyll ger bron Eleazar, yr offeiriad, "yr hwn a ofyn gynghor drosto

Digitized by Google

ef, yn ol barn Urim;" a'r cynghor hwnw oedd i benderfynu symmudiadau lluoedd Israel: *Num.* xxvii. 21. Pan y mae Moses yn bendithio y llwythau, y mae yn gwneyd cyfeiriad atynt fel prif ogoniant llwyth Lefi:—"Bydded dy Thummim a'th Urim i'th ŵr sanctaidd," fel gwobr am ei sêl; yr hon a'i harweiniodd i gau ei lygaid ar bob peth, ond cadw "geiriau" a "chynnal cyfammod" yr Arglwydd: *Deut.* xxxiii. 8, 9. Unwaith, ac unwaith yn unig, y mae yr Urim a'r Thummim yn cael eu crybwyll wrth eu henwau yn amser y barnwyr a'r brenhinoedd. Pan y gadawyd Saul yn ei dywyllwch, dywedir, "Nid attebodd yr Arglwydd iddo, na thrwy freuddwydion, na thrwy Urim, na thrwy brophwyd;" 1 *Sam.* xxviii. 6. Nid oedd mwyach offeiriad gydag Urim a Thummim i atteb cwestiynau dyrus: *Ezra* ii. 63; *Neh.* vii. 65.

Heb law y cyfeiriadau pendant ac uniongyrchol hyn, y mae mewn lleoedd ereill gyfeiriadau y gellir, heb wneyd cam â hwynt, eu hystyried yn dal cyssylltiad, os nad â'r ddau, o leiaf â'r Urim. Pan y gofynid cwestiynau yn union o'r un natur a'r rhai a ddisgrifir yn *Num.* xxvii. 21 gan arweinydd y bobl, ac yr attebid hwynt gan yr Arglwydd (*Barn.* i. 1; xx. 18)—pan ofynwyd cwestiynau cyffelyb gan Saul i Ahiah yr archoffeiriad, "oedd yn gwisgo ephod" (1 *Sam.* xiv. 3, 18)—gan Dafydd, mor fuan ag y daeth i bresennoldeb archoffeiriad gyda'i ephod (1 *Sam.* xxiii. 2, 12; xxx. 7, 8)—gellir yn gyfreithlawn gasglu mai y trysorau a gynnwysai yr ephod oedd telerau a chyfrwng ei attebion. Y mae y cwestiynau yn mron yn mhob un o'r achosion hyn yn dal perthynas â myned i ryfel:—"Pwy a ä i fyny drosom ni yn erbyn y Canaaneaid yn flaenaf, i ymladd â hwynt?" *Barn.* i. 1:—felly hefyd yn *Barn.* xx. 18. "A ddyry arglwyddi Ceilah fyfi a'm gwŷr yn llaw Saul?" 1 *Sam.* xxiii. 12. Weithiau â rhywbeth cenedlaethol: 2 *Sam.* xxi. 1. Y mae yr attebion, yn mhob enghraifft, yn fyrion iawn; ond y maent ychydig yn fwy ffurfiol nag *ie* neu *nage*. Un cwestiwn a attebid ar yr un pryd. Y mae yn deilwng o sylw yma, cyn myned yn mhellach, mewn rhai achosion, pan yr ydys yn gweled gogwyddiad oddi wrth y drefn grefyddol oedd wedi ei sefydlu, fod yr ephod yn cael ei chyssylltu, nid â'r Urim, ond â'r Teraphim; yr hwn, er dyddiau Laban, os nad yn foreuach, y sonid am dano mewn gwasanaeth crefyddol Aramaidd. Darfu i Micah, ar ol cyssegru un o'i feibion, a chael Lefiad yn offeiriad, wneyd iddo "ephod a theraphim;" *Barn.* xvii. 5; xviii. 14, 20. Yr oedd presennoldeb yr ephod a'r teraphim yn Dan trwy holl ystod hanes y deyrnas ogleddol yn gwneyd y lle hwnw yn un cyssegredig (*Barn.* xviii. 30); a hyn, y mae yn amlwg, a barodd i Ieroboam ddewis y lle yn gyssegrfa. Pan y rhagfynegodd y prophwyd Hosea y byddai i'r gyfundrefn a basiwyd gan y deg llwyth gael ei llwyr ysgubo ymaith, y peth pwysicaf yn yr anrhaith a ddisgynai arnynt oedd, y byddent am lawer o ddyddiau "heb ephod, a heb teraphim" (*Hos.* iii. 4)—wedi eu hamddifadu o bob oraclau ffugiol, fel y dychwelent i geisio "yr Arglwydd eu Duw." Ymddengys fod yn eithaf naturiol casglu fod y teraphim, yn yr enghreifftiau hyn, ond heb un awdurdod dros hyny, wedi ei osod yn lle yr Urim. Y mae yr un casgliad yn cael ei gadarnhau gan y ffaith fod y Deg a Thrigain yn defnyddio yma, yn lle teraphim, yr un gair ag a roddir ganddynt am Urim, sef δήλων. Gellir casglu fod y teraphim yn cael ei arfer ganddynt oddi wrth y ffaith fod son mynych am dano mewn cyssylltiad â ffurfiau ereill o ddewiniaeth. Fel hyn yr ydym yn cael, yn 1 *Sam.* xv. 23, 'dewiniaeth' a 'teraphim' (yn y cyfieithiad Cymraeg, 'delw-addoliaeth'): yn 2 *Bren.* xxiii. 24, 'swynyddion,' 'dewiniaid a'r teraphim' (cyfieithiad Cymraeg, 'delwau'). Yr oedd brenin Babilon, pan yn defnyddio dewiniaeth, yn ymgynghori â hwynt: *Ezec.* xxi. 21. Dywedir am danynt eu bod yn traethu gwagedd: *Zech.* x. 2.

Wrth ymdrin â'r Urim a'r Thummim, y mae genym i ymwneyd llawer â dyfaliadau, yn ogystal a'r hyn a ellir ei gasglu oddi wrth y ffeithiau a'r tystiolaethau ysgrythyrol a ddygir yn mlaen uchod. Tybia rhai, yn gymmaint ag nad ydyw Moses yn cael ei gyfarwyddo i *wneyd* yr Urim a'r Thummim, y rhaid eu bod o ddeilliad goruwchnaturiol, wedi eu creu yn bennodol, ac felly yn annhebyg i bob peth arall ar y ddaear. Ond ffolineb fyddai myned ar ol ac ymdrin â thyb mor hynod a dyeithr. Golygiad arall sydd wedi ei dderbyn gan lawer o ysgrifenwyr Iuddewig, a rhai ysgrifenwyr Cristionogol hefyd, ydyw, mai yr un peth oedd yr Urim a Thummim a'r deuddeg maen ar y rhai yr oedd enwau deuddeg llwyth Israel wedi eu cerfio; ac mai dull yr orad o lefaru oedd trwy oleuo, naill ai gyda'u gilydd neu yn olynol, y llythyrenau oedd i wneyd i fyny yr attebiad. Y mae Josephus yn mabwysiadu ffurf arall o'r un golygiad, ac yn tybied mai yr un oedd yr Urim a'r Thummim â'r sardonyx ar ysgwyddau yr ephod; a dywed eu bod yn disgleirio o flaen buddugoliaeth, neu pan fyddai yr aberth yn dderbyniol, ond yn dywyll pan yr oedd anffawd neu ddinystr ar ddyfod arnynt.—"*Hyn. Iudd.*," iii. 7, *adr.* 5. Y mae Epiphanius, ac ysgrifenydd arall a ddyfynir gan Suidas, yn cyflwyno yr un meddwl mewn ffurf arall. Dywedant fod un darn o adamant (*diamond*) wedi ei ddodi yn y ddwyfroneg, a'i fod yn rhagfynegu heddwch pan y byddai yn disglaer, rhyfel pan yn goch, a marwolaeth pan yn dywyll. Ond y mae y golygiad hwn mor anghywir a llawer ereill.

Damcaniaeth a gymmera lai o bethau yn ganiataol ydyw—fod yn nghanol yr ephod, neu yn mysg ei dyblygion, ddarn o faen, neu lafn o aur, ar yr hwn yr oedd yn gerfiedig enw cyssegredig Iehofah—*Shem-hammephorash* y Cabbalistiaid Iuddewig—a thrwy rinwedd hwn, wrth sefydlu ei olwg arno, neu ddarllen ryw gyfarchiad oedd hefyd wedi ei gerfio gyda'r enw, neu sefyll yn ei ephod o flaen y drugareddfa, neu o leiaf o flaen llen y gyssegrfa, fod yr archoffeiriad yn dyfod yn alluog i brophwydo, yn clywed y llais dwyfol o'i fewn, neu ynte yn gwrandaw arno yn dyfod mewn seiniau clywadwy o'r Shecinah.—Buxtorf, l. c. 7; Lightfoot, vi. 378. Ffurf arall ar yr un meddylddrych a geir yn yr hyn a ddywed ysgrifenwyr Iuddewig; sef, fod yr Ysbryd Glân yn llefaru weithiau trwy yr Urim, weithiau trwy brophwydoliaeth, ac weithiau trwy y Bath-kol.—"*Seder Olam*, c. xiv. yn *Braunius*, l. c." Y mae damcaniaeth Spencer drachefn yn hynod o herwydd ei bod yn uno craffder ac ynfydrwydd. Y mae efe yn eithaf iawn wrth gydnabod bodolaeth dau beth a wneir yn un gan ereill. Beth bynag oedd yr Urim a'r Thummim, nid y deuddeg maen oeddynt; ac yr oedd y naill yn wahaniaethol oddi wrth y llall. Yr oeddynt wedi eu gosod yn nyblygion yr ephod. Gorphwysa efe gan hyny ar y ffeithiau hyn, a dadleua mai

Digitized by Google

yr un oedd yr Urim a'r teraphim. A dywed fod hyn yn enghraifft arall o ddoethineb ddwyfol yn cyfaddasu ei hun at wendidau dyn, ac yn caniatau i'r Israeliaid coelgrefyddol i gadw rhyw gyfran o gyfundrefn eilunaddolgar eu tadau, gyda'r amcan o'u diddyfnu yn llwyr yn raddol oddi wrth y gyfundrefn hono yn yr oll o honi. Rhoddwyd heibio yr enw gwrthodedig, *teraphim* —ond cadwyd y peth ei hun; a haera efe fod y gair *Urim* o'r un ystyr a *theraphim*. Tybia, gan hyny, mai delw fechan oedd, ar ffurf ddynol. Llefarai y ddelw pan yr ymofynai yr archoffeiriad â hi, trwy gyfrwng angel, â llais cyffelyb i lais dynol, yn debyg fel yr oedd y Teraphim yn llefaru trwy gyfrwng ysbryd drwg! Wrth ymdrin â'r Thummim, yr hwn a ddidolir ganddo yn hollol oddi wrth swyddogaeth yr Urim, mor bell ag yr oedd a fyno llefaru neu siarad â'r cwestiwn, y mae Spencer yn mabwysiadu y syniad o'i fod ar ryw gynllun Aitphaidd.

Dywed Syr George Wilkinson mai delw gwirionedd a wisgid gan yr archfarnwr Aiphtaidd am ei wddf, neu ddarlun o'r dduwies, enw yr hon oedd Thmei (y gair Aiphtaidd am gyfiawnder neu wirionedd), yr hon a addolid yn ei nodwedd ddeublyg o wirionedd a chyfiawnder, yn ei farn ef a roddodd ddechreuad i Thummim yr Hebreaid. A dywed fod y gair yn golygu gwirionedd yn y Deg a Thrigain. Sylwa hefyd fod y gair *Thummim*, gan ei fod yn un dwbl, yn cyfatteb i'r syniad Aiphtaidd am swyddogaeth ddeublyg y dduwies hon. "Y mae y dduwies hon," medd efe, "i'w gweled yn fynych yn y cerfluniau yn cynnrychioli y nodwedd deublyg yma; ac y mae yn cael ei gosod allan trwy ddau ddarlun sydd yn atteb yn hollol i'w gilydd, megys yn y cerfluniau hyn."




Dar. 404.—Duwies Gwirionedd a Chyfiawnder.

Chwanega hefyd: "Y mae yn deilwng o sylw mai archoffeiriad yr Iuddewon, yr hwn, cyn etholiad brenin, oedd hefyd yn farnwr y genedl, yn unig oedd yn meddu hawl i wisgo yr arwydd anrhydeddus hwn. A ydyw cyffyrddiad yr ymgyfreithiwr llwyddiannus â'r ddelw oedd gan yr archfarnwr Aiphtaidd yn taflu rhyw eglurhâd ar ymadroddion o'r fath a geir yn *Esa.* vi. 7, a *Ier.* i. 9, ac *Esth.* v. 2? neu ar y lliaws enghreifftiau yn mha rai y mae cyffyrddiad yn cael ei osod allan yn arwyddlun neu gyfrwng o rinwedd gwyrthiol?" Y mae yr un awdurdod dros yr hynafiaethau Aiphtaidd hyn yn chwanegu yn mhellach, fod yr Urim a'r Thummim yn golygu 'goleuni a pherffeithrwydd,' neu 'goleuni a gwirionedd,' a



Dar. 405.—Duwies Gwirionedd a Chyfiawnder.

bod yr olaf yn cyflwyno cyfattebiaeth tarawiadol i'r ddwy ddelw, sef *Re*, yr *haul*, a Thmei, *gwirionedd*, yn y ddwyfroneg a wisgai yr Aiphtiaid.



Dar. 406.—Dwyfroneg.

Yma darlunir Thmei fel un ddelw, yn gwisgo dwy o blu yr estrys.

Y mae Michaelis yn dadgan ei farn ei hun, ac yn dywedyd mai tri maen gwerthfawr oedd yr Urim a'r Thummim, a bod yn ysgrifenedig ar un *Ië*, ac ar y llall *Nage*, tra yr oedd y trydydd heb fod dim yn gerfiedig arno. Defnyddid y tri fel coelbrenau, a phenderfynai yr archoffeiriad yn ol fel y tynid y naill neu y llall allan. Nid ydyw efe yn cymmeryd arno ddwyn yn mlaen un prawf dros y golygiad hwn; ac nid oedd y syniad, dybygid, yn un yr oedd efe ei hun yn gosod pwys mawr arno. Ond y mae hyn yn amlwg, nad yw yn atteb i'r disgrifiadau Beiblaidd. Yr oedd coelbrenau yn bethau digon cyffredin yn mysg yr Israeliaid (*Num.* xxvi. 55; *Ios.* xiii. 6; 1 *Sam.* xiv. 41; *Diar.* xvi. 32); ond yr oedd yr Urim yn rhywbeth nodedig ac anghyffredin. Yn yr achosion pan yr ymgynghorid â'r Urim, yr oedd yr attebion bob amser yn rhywbeth mwy nag attebion nacaol neu gadarnhaol. Y mae dyfaliad Züllig yn lled debyg i'r uchod, ac yn llawn mor anfoddhaol, er ei fod wedi ei fabwysiadu gan Winer.

Y mae un o'r esbonwyr Iuddewig diweddaraf [Kalisch ar *Ezec.* xxviii. 31], gan gyfuno ynghyd rai o'r golygiadau uchod, yn tybied mai yr un peth oedd yr Urim a'r Thummim a meini y deuddeg llwyth; a bod yr archoffeiriad, trwy grynhoi ei feddyliau ar y priodoleddau a gynnrychiolent, yn ymddiosg o bob hunanoldeb a rhagfarn, ac yn myned i ystâd brophwydol wirioneddol.

Wedi cyfeirio at gynnifer o ddamcaniaethau gwyllt a disail, yr ydym yn canfod yn eglur mai y ffordd oreu, wrth geisio ffurfio syniad priodol am yr Urim a'r Thummim, ydyw cadw, hyd y gellir, at y casgliadau mwyaf syml y mae yr hyn a ddywedir yn yr Ysgrythyrau yn ein harwain

Digitized by Google

iddynt. Ymddengys i ni, wrth geisio dilyn y tystiolaethau a geir yn y Beibl, nad yr un oedd yr Urim a'r Thummim; ac nad yr un oeddynt chwaith a meini y llwythau. Ac yn gymmaint a'u bod yn cael eu crybwyll heb i un disgrifiad gael ei roddi o honynt, rhaid i ni gasglu fod eu dyben yn ddigon adnabyddus, o leiaf i Moses, os nad i Israeliaid ereill. Wrth edrych i'r maes hwn, y mae y ffordd yn rhydd i ni wneuthur ychydig o sylwadau pellach. A oes genym ryw seiliau dros benderfynu pa beth oedd defnydd yr Urim? Y mae y pethau canlynol o leiaf yn ein cynnorthwyo i ddyfod i ryw benderfyniad yn ei gylch:—1af, Gan fod y maen yn cynnrychioli goleuni, y mae yn debygol ei fod yn gyfryw ag y buasai goleuni wedi ei gorphori ynddo megys yn ei ffurf puraf—yn dryloew, ac yn glir, megys adamant neu greigrisial. 2il, Y mae y traddodiadau a ddyfynir uchod o Suidas ac Epiphanius yn cadarnhau y casgliad hwn. 3ydd, Fe'i derbynir fel rhan o ddamcaniaeth Züllig, gan yr archesgob Trench.—"*Epistles to the Seven Churches*," td. 125. Yr oedd y "gareg wen" yn *Dad.* ii. 17, fel gwobrwyon ereill y rhai "sydd yn gorchfygu," yn dadgan gwirionedd yr offeiriadaeth gyffredinol; sef, fod yr hyn a fuasai unwaith yn feddiant neillduol perthynol i dŷ Aaron i gael ei roddi yn rhad a rhydd i'r holl gredinwyr. Y mae y ffaith arall gyssylltiedig â'r arwyddlun yn ein galluogi i gymmeryd i mewn un o'r dyfaliadau Iuddewaidd a gymmeradwyir fwyaf. Fel ei gwelid ar wisgoedd yr offeiriaid Aiphtaidd ac ereill, yr oedd ar y meini o'r bron bob amser arysgrifen, megys enw y duw yr oedd yr offeiriaid yn ei wasanaethu; neu, yn fwy cyffredin, ymbiliad allan o Lyfr y Meirw, neu o ryw ffurf-wasanaeth Aiphtaidd arall. Y mae yma gyfattebiaeth. Ar yr hen arwyddlun, er nad oedd o'r un ffurf, yr oedd "enw newydd" wedi ei ysgrifenu, sef y *Tetragrammaton*, neu *Shemhammephorash* Iuddewiaeth ddiweddarach, er cyfarwyddo meddwl yr offeiriad at wir Arglwydd bywyd a goleuni, o'r hwn nid oedd na llun na ffurf i'w gael, nac i fod—fel i arglwydd bywyd yr Aiphtiaid yn eu temlau hwy—a'r hwn oedd yn ysbryd, ac i'w "addoli mewn ysbryd a gwirionedd."

Yn awr, deuwn yn fwy uniongyrchol at y cwestiwn, "Pa fodd yr ydoedd yr Urim yn offerynol i alluogi yr offeiriaid i roddi attebion gwirioneddol a chywir?" Ond yn ddiau, fel y gellir casglu oddi wrth y sylwadau a welir uchod, y mae yn gwestiwn nad oes nemawr o obaith y gellir ei atteb hyd sicrwydd, ac y mae yn gyfryw y bydd gwahanol farnau yn cael eu coleddu am dano bob amser. Ni byddai allan o le i ni roddi crynodeb o'r prif olygiadau ar hyn yma, er ein bod wedi cyfeirio at amryw o honynt o'r blaen, Haera Spencer, Dr. Prideaux, ac ereill, fod yr attebion dwyfol yn cael eu rhoddi mewn llais clywadwy i'r archoffeiriaid pan wedi ymwisgo yn eu gwisgoedd swyddol, ac yn sefyll gyferbyn â'r arch [Prideaux's "*Connection*" i. 123, &c.]. Ond pan yr oedd Dafydd yn ymgynghori â'r oracl trwy Abiathar (1 *Sam.* xxiii. 9, 11; xxx. 7, 8), yr oedd yr arch yn Ciriath-iearim, a Dafydd yn nghoed Hareth pan y cymmerodd un ymgynghoriad le, ac yn Siclag pan y digwyddodd y llall. Michaelis, Jahn, ac ereill, a dybiant fod yr attebion yn cael eu rhoddi yn y geiriau *Ië* neu *Nage* wedi eu hysgrifenu ar ddau faen a ddygid gan yr archoffeiriad ar y ddwyfroneg; ac, fel y crybwyllwyd o'r blaen, y trydydd yn cael ei adael heb ddim arno, ac yn arwyddo nad oedd un atteb i fod; ac o ganlyniad mai yr Urim a'r Thummim oedd y goelbren gyssegredig y cyfeirir ati yn *Diar.* xxi. 33. Ac, fel y crybwyllwyd, y mae Braunius yn maentumio syniad Josephus ar ddull yr attebion; sef, fod y sardonyx ar ysgwyddau yr ephod yn ddisglaer pan fyddai yr atteb yn ffafriol, ond yn dywyll pan i'r gwrthwyneb. Ereill a dybiant mai y ffordd y ceid attebion drwy yr Urim oedd, trwy i'r archoffeiriad fyned i sefyllfa gyffelyb i'r un yr oedd y prophwydi diweddaraf ynddi pan y prophwydent, a'i fod yntau drwy hyny yn alluog i dderbyn goleuni ysbrydol newydd; a bod rhyw ddylanwad ynglŷn âg edrych yn sefydlog ar ddisgleirdeb yr Urim a'r Thummim oedd yn ei ddwyn i'r sefyllfa hon o ran ei feddwl. Mewn llais isel, mewn sibrwd yn mron, yr ymofynid; ac un cwestiwn a roddid ar unwaith.—"*Gem. Bab. Joma, in Mede*," *l. c.* Sefydlai yr archoffeiriad ei olygon ar y "gemau oraclaidd" a orphwysent ar ei fynwes, gan sefydlu ei feddyliau ar yr un pryd ar y Goleuni a'r Perffeithrwydd yr oeddynt yn arwyddion o hono, a'r Enw sanctaidd oedd yn gerfiedig arnynt. Yr oedd y weithred ynddi ei hun yn weddi; ac fel gweddïau ereill, yn cael ei hatteb. Wedi hyny, syrthiai i sefyllfa newydd ac ysbrydoledig, a derbyniai yr hyn yr ymofynai am dano:—canfyddai y gwirionedd, a chredai y genedl yn yr hyn a ddywedai fel gwirionedd sicr.

Y mae cwestiwn arall yn ymgodi yn mherthynas i'r Urim a'r Thummim, sef o berthynas i'w parhâd, a'r rhesymau dros eu hymadawiad. Nid ydyw adroddiad Josephus ["*Hynaf. Iudd.*," iii. 7, *adr.* 5—7], iddynt barhau i lewyrchu gyda disgleirdeb goruwchnaturiol hyd o fewn dau gant o flynyddoedd i'r amser yr oedd efe yn ysgrifenu, dybygid, yn ddim amgen na chwedl Iuddewig. Y mae yn hollol groes i'r addefiad uniongyrchol a wneir o'u habsennoldeb ar ol y dychweliad o Babilon (*Ezra* ii. 63), ac yn amser y Maccabeaid [1 *Macc.* iv. 46; xiv. 41]. Ac nis gellir, y mae'n debyg, roddi dim mwy o ddibyniad ar yr hyn a haerir gan ysgrifenwyr Iuddewig ereill; sef, eu bod wedi parhau hyd amser y gaethglud yn Mabilon. Y mae yn anhawdd meddwl pa fodd, os felly yr oedd, nad oes genym un enghraifft o neb yn ymgynghori â'r Urim yn ystod yr amser y bu brenhiniaeth Iudah yn blodeuo. Ychydig ydyw y ffeithiau a feddwn i seilio un ddamcaniaeth arnynt; ond y maent yn dra eglur. Ar ol dyddiau Dafydd, nid oes grybwylliad am yr ephod, a'r pethau uchod oedd ynglŷn â hi. Abiathar ydoedd yr offeiriad diweddaf a'i harferai yn feunyddiol i'r amcan a enwyd: 1 *Sam.* xxiii. 6, 9; xxviii. 6; 2 *Sam.* xxi. 1. Ac y mae ei enw ef yn gyssylltiedig â thraddodiad hynod sydd wedi ei gofnodi yn y "*Talmud*" ynghylch ymadawiad gogoniant yr Urim a'r Thummim.—"*Sanhedrim*, f. 19, 1, *in Lightfoot*," xi. 386. Ni raid i ni fyned yn mhell er mwyn cael eglurhâd ar y ffeithiau hyn. Yr oedd lleferydd y prophwydi a lefarent eiriau Duw yn ddiammheuol i gymmeryd lle yr Urim:—"Canys y prophwyd heddyw a elwid gynt yn weledydd;" 1 *Sam.* ix. 9.

1. US: mab Aram (*Gen.* x. 23), ac o ganlyniad ŵyr Sem, at yr hwn y cyfeirir yn llinach mwy cryno y Croniclau, gan fod yr enw Aram yn cael ei adael allan yno: 1 *Cron.* i. 17.

2. US: mab Nahor o Milcah: *Gen.* xxiii. 21.

Digitized by Google

3. US: mab i Disan, ac ŵyr i Seir: *Gen.* xxxvi. 28.

4. US: y wlad yn yr hon yr ydoedd Iob yn byw: *Iob* i. 1. Mor bell ag y gallwn ni gasglu, yr oedd hi yn gorwedd o du y dwyrain neu y de-ddwyrain i Palestina; yn agos i wledydd y Sabeaid a'r Caldeaid (*Iob* i. 15, 17)—o ganlyniad o du y gogledd i ddeheubarth Arabia; ac o du y gorllewin i'r Euphrates: ac yn olaf, yn gyfagos i Edomiaid mynydd Seir, y rhai ar un tymmor a fuont yn ei meddiannu, y mae yn debygol, fel gorchfygwyr (*Galar.* iv. 21); ac arferion y rhai fel preswylwyr ogofeydd y mae yn debygol a ddisgrifir yn *Iob* xxx. 6, 7. Gellir casglu, yn mhellach, yn mha le y safai y wlad oddi wrth wledydd brodorol cyfeillion Iob. Edomiad oedd Eliphaz y Temaniad. Y mae yn debygol fod Elihu y Buziad yn gymmydog i'r Caldeaid, canys yr oedd Buz a Chesed yn frodyr (*Gen.* xxii. 21, 22). Ac yr oedd Bildad y Suhiad yn un o "feibion y dwyrain." A ydyw Sophar y Naamathiad i'w gyssylltu â Naamah yn llwyth Iudah, (*Ios.* xv. 41) sydd ammheus. Oddi ar y seiliau uchod yr ydym yn casglu fod gwlad Us yn cyfatteb i *Arabia Deserta* a ddisgrifir mewn daearyddiaeth glasurol—beth bynag i gymmaint o honi ag sydd yn gorwedd i'r gogledd o'r 30ain cyflinell o ledred. Y mae y dosbarth hwnw yn mhob oes wedi bod yn meddiant llwythau gwibiog, y rhai sydd wedi bod yn crwydro oddi wrth derfynau Palestina at yr Euphrates, a thua'r gogledd at gyffiniau Syria.

USAL: chweched mab Ioctan (*Gen.* x. 27; 1 *Cron.* i. 21), hiliogaeth yr hwn a boblogasant y rhanau deheuol o Arabia Ddedwydd.

USBEKIAID: pobl berthynol i hiliogaeth y Tyrciaid; y rhai, yn niwedd y bymthegfed ganrif, a oresgynasant ac a orchfygasant y tywysogaethau lliosog hyny ag yr oedd Turkestan wedi ei dosbarthu iddynt ar y pryd; ac y maent wedi cadw meddiant o honynt byth er hyny. Y maent yn wasgaredig dros holl Turkestan Annibynol a Chineaidd, ac wedi ymsefydlu yno, yn amaethu y tir, ac yn masnachu. Y mae yn debygol iddynt ymfudo o Kiptchak, a mabwysiadu yr enw *Usbekiaid* oddi wrth *Usbeg*—un o'u penaethiaid. Gwahaniaetha Usbekiaid Khiva, Bokhara, Khokan, a'r Turkestan Chineaidd, oddi wrth eu gilydd mewn iaith, moes, ac arferion. Gwel TURKESTAN.

USHER, JAMES: archesgob Armagh, yn yr Iwerddon, ac un o'r preladiaid mwyaf dysgedig a fu erioed yn perthyn i Eglwys Esgobaethol yr ynys hono. Hanai o un o'r teuluoedd Anglo-Gwyddelig hynaf. Ganwyd ef yn Nublin, Ionawr 4ydd, 1580. Yr oedd ei dad, Arnold Usher, yn un o'r ysgrifenyddion perthynol i'r canghellys, ac yn foneddwr yn perchen etifeddiaeth dda. Yr oedd ei ewythr hefyd, Henry Usher, yn rhagflaenorydd iddo yn yr archesgobaeth uchod. Pan yn dair ar ddeg oed, efe a aeth i Goleg Dublin, a daeth ei hoffder o hanesyddiaeth i'r golwg yn dra buan. Wedi penderfynu cyflwyno ei hun i wasanaeth yr eglwys, ymosododd ar y gwaith mawr o ddarllen holl weithiau llenyddol y Tadau—gorchwyl a gymmerodd iddo tua chwe blynedd ar hugain i'w gwblhau. Pan yn bedair ar ddeg oed, dechreuodd ysgrifenu dyfyniadau o'r holl lyfrau hanesyddol a ddarllenai, mewn trefn i sefydlu y ffeithiau yn sicrach yn ei gof; a phan rhwng pymtheg ac un ar bymtheg, gwnaeth y fath gynnydd mewn gwybodaeth amseryddol fel y darfu iddo dynu allan yn yr iaith Ladin gronicl manwl o'r Beibl, mor bell a Llyfrau y Brenhinoedd; yr hwn nad oedd yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth yr "*Annals*," a gyhoeddwyd wedi hyny, ac a gawsant y fath dderbyniad croesawgar. Erbyn ei fod yn ddwy ar bymtheg oed, yr oedd wedi ymgydnabyddu yn feirniadol â'r ddadl fawr oedd rhwng Eglwys Rhufain a Phrotestaniaeth. Pan yn ddeunaw oed, cymmerodd ddadl le rhyngddo a Henry Fitz-Symonds, Jesuit dysgedig, oedd ar y pryd yn garcharor yn Nghastell Dublin; yr hwn a daflodd allan herfeiddiad cyffredinol yr ymgymmerai efe âg amddiffyn egwyddorion Bellarmine yn erbyn unrhyw wrthwynebwr.

Yn 1600, pennodwyd Usher yn brwyadur, a dewiswyd ef yn ddarlithydd holwyddorol y brif ysgol. Yn 1601, cymmerodd urddau eglwysig; ac yn fuan wedi hyny pennodwyd ef yn ddarlithydd prydnawnol yn Eglwys Crist, Dublin. Gwnaed ef yn G. D. (*bachelor of divinity*) yn y fl. 1607, a dewiswyd ef yn athraw duwinyddol—swydd a ddaliwyd ganddo am dair blynedd ar ddeg. Yn yr un flwyddyn, pennodwyd ef yn ganghellwr Eglwys Gadeiriol Sant Padrig. Yn 1609, talodd ymweliadau â Lloegr, ac arosodd am beth amser yn mhrifysgolion Rhydychain a Chaergrawnt, a daeth yn gydnabyddus â llawer o ddynion dysgedicaf yr oes. Yr oedd ei awyddfryd am wybodaeth mor fawr fel y defnyddiai bob cyfleusdra i'w hymofyn. Yn 1610, efe a wrthododd y swydd o benaeth y coleg. Yn 1613, ymddangosodd ei waith llenyddol cyntaf yn Llundain, sef ei "*De Ecclesiarum Christianarum Successione et Statu*," yr hwn a amcanwyd fel math o barhâd i "*Apology*" yr esgob Jewel. Cyflwynwyd y gwaith hwn i'r brenin Iago I. gan yr archesgob Abbot, fel blaenffrwyth enwog prifysgol Dublin. Dosberthir y gwaith yn dair rhan; ond ni orphenwyd ond y gyntaf yn unig, yr hwn a gyrhaeddai hyd amser Hildebrand; a chyfran o'r ail. Yn 1615, pennodwyd Dr. Usher gan gydgynghorfa o glerigwyr a gynnaliwyd yn Dublin, i dynu allan restr o erthyglau i ddal cyssylltiad âg athrawiaeth a dysgyblaeth yr Eglwys Brotestanaidd yn yr Iwerddon. Yr oedd yr erthyglau yn gant a phedair mewn nifer, ac yn hollol Galfinaidd o ran eu syniadau. Parodd hyn, a daliadau ereill—megys nad oedd esgobion yn urdd wahanol i henuriaid, y dylid cadw y Sabbath yn fanwl, ac na ddylid caniatau goddefiad i Babyddion—iddo gael ei gyhuddo o fod yn coleddu syniadau Puritanaidd; ond yn gymmaint a bod ei deyrngarwch i'r egwyddor o frenhiniaeth yn eithaf hysbys, ni chafodd lai o arwyddion o ffafr y brenin, er fod ei wrthwynebwyr yn ceisio ei gamddarlunio. I'r gwrthwyneb, darfu i Iago ei ddyrchafu yn esgob Meath yn y fl. 1620. Cyhoeddodd Usher ei draethawd "*On the Religion of the Ancient Irish and British*," yn 1622; ac yn y flwyddyn ddilynol, fe'i gwnaed yn aelod o gyfringynghor yr Iwerddon. Yn fuan ar ol hyn, daeth drosodd i Loegr ar orchymyn y brenin, mewn trefn i gario yn mlaen waith a ddechreuwyd ganddo rywbryd o'r blaen, yn mherthynas i hynafiaeth yr eglwysi Prydeinig. Cadwodd y gwaith hwn ef yn Lloegr nes y bu farw Dr. Christopher Hampden, archesgob Armagh, yn Ionawr, 1624; yr hyn a agorodd y ffordd i'w bennodiad i'r archesgobaeth.

Digitized by Google

Gan ei fod yn awr yn swyddog uchaf yn yr Eglwys Wyddelig, ni adawodd efe ddim heb ei wneuthur er diwygio yr hyn oedd o'i le, a'r hyn oedd yn eisieu, yn ol ei dyb ef, er sicrhau dysgyblaeth, ac amddiffyn athrawiaeth yr eglwys. Sylwai fod Arminiaeth yn cynnyddu yn barhaus —athrawiaeth yr edrychai arni fel un beryglus; ac ymroddodd i chwilio i ddechreuad y ddadl ar ragluniaethiad; a darganfu waith tra galluog ar y pwngc, yr hwn a gyhoeddodd efe yn Dublin yn 1631. Ei deitl oedd "*Goteschalci et Predestinarianæ Controversiæ ab eo Motæ Historiæ.*" Cyhoeddodd un arall hefyd yn 1632, sef "*Veterum Epistolarum Hibernicarum Sylloge,*" yn cynnwys casgliad o amryw lawysgrifau yn mherthynas i sefyllfa yr Eglwys Wyddelig, o B.A. 592 hyd B.A. 1180. Yn 1638, cyhoeddodd ei "*Emmanuel; or a Treatise on the Incarnation of the Son of God:*" ac yn 1639, "*Britannicarum Ecclesiarum Antiquitates,*" am yr hwn y dywedir ei "fod yn cynnwys yr hanes manylaf am yr Eglwys Brydeinig, o blaniad cyntaf Cristionogaeth, ugain mlynedd ar ol croeshoeliad ein Hiachawdwr, yn Mhrydain a'r Iwerddon, hyd ddiwedd y seithfed ganrif." Yn 1641, ymddangosodd y gwaith canlynol:—"*The Judgment of Dr. Reynolds concerning the Original of Episcopacy defended,*" &c. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, yr oedd efe yn Lloegr ar y pryd, a chymmerodd blaid y brenin. Gwrthododd eistedd, ar ol cael ei ddewis, yn Nghymmanfa Westminster, ac anfoddlonodd y senedd drwy y pregethau a draddododd efe yn Rhydychain. Pan yr oedd achos y brenin yn gwaethygu, gadawodd y ddinas hono; ac ar ol bod yn preswylio am dymmor yn Nghymru, a manau ereill, aeth i Lundain yn 1647; pan, er fod ei gydymdeimlad gyda'r achos brenhinol, yr etholwyd ef yn bregethwr Lincoln's Inn:—swydd a weinyddwyd ganddo hyd ei farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le ar yr 20fed o Fawrth, 1656, yn ei 76ain mlwydd oed. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "O Arglwydd! maddeu i mi—yn enwedig fy mhechodau o ommeddiad!"

Gorchymynodd Cromwell, yr hwn a'i parchai yn fawr am ei ddysg, gladdu ei weddillion gyda rhwysg yn nghapel Erasmus, yn mynachlog Westminster. Yr oedd Usher yn ddyn o alluoedd meddyliol rhagorol, yn ysgolhaig dwfn a phenigamp, yn grefyddol a rhydd oddi wrth uchelgais bydol. Yr oedd hefyd yn ddyn hynaws a siriol yn ei gymdeithas. Nid oedd yn cenfigenu wrth ddedwyddwch ereill, na chwaith yn dueddol i gondemnio neb heb brawf pendant o'i fod yn haeddu hyny. Geilw Dr. Johnson ef yn "oleuad mawr yr Eglwys Wyddelig." Heb law y gweithiau a enwyd eisoes, cyhoeddodd Usher lawer o weithiau ereill, ac yn eu plith, ei "*Chronologia Sacra,*" sef Amseryddiacth Ysgrythyrol—cyfansoddiad o fri ac enwogrwydd mawr. Gwel AMSERYDDIAETH. Cyhoeddwyd argraphiad newydd o weithiau Usher, mewn un gyfrol ar bymtheg, yn Dublin, yn y flwyddyn 1841.

USURIAETH: ocr, ocraeth, llôg, arian mael. Arferir y gair yn fynych am lôg afresymol. Cododd yr arferiad o wystlo tir, weithiau am lôg afresymol o uchel, i fyny yn mysg yr Iuddewon yn ystod y caethiwed, yn wrthwyneb i orchymyn pendant y gyfraith: *Lef.* xxv. 36, 37; *Ezra* xviii. 8, 13, 17. Gallai Iuddew godi llôg gan ddyeithr-ddyn, ond nid gan ei frodyr: *Ecsod.* xxii. 25; *Deut.* xxiii. 13. Galwodd Nehemiah sylw at y ddeddf hon, a mynodd ufudddod iddi: *Neh.* v.

Gwaharddwyd usuriaeth gan senedd Prydain yn y flwyddyn 1341: ac hyd y bymthegfed ganrif ni oddefid i Gristionogion dderbyn llôg arian. Yr Iuddewon yn unig a wnelent hyny, ac erlidiwyd ac alltudiwyd hwy o'r herwydd. Yn ol deddf a wnaed yn y 37ain o Harri VIII. (yn 1545) pennodwyd y llôg cyfreithlawn ar arian i fod yn ol 10*p.* y cant. Newidiwyd y swm trwy amryw ddeddfau diweddarach; ac yn *1713*, yn y 13eg flwyddyn o deyrnasiad y frenhines *Anne,* dygwyd ef i lawr i 5*p.* y cant. Ond gan fod y pennodiad o unrhyw swm fel llôg cyfreithlawn wedi ei brofi yn anfanteisiol i fasnach y wlad, diddymwyd y deddfau a berthynent iddo yn y flwyddyn 1854. Felly nis gellir yn awr ddywedyd fod unrhyw swm o lôg yn fwy cyfreithlawn nag un arall.

UTA. Ymddengys mai llygriad ydyw o'r gair Accub: *Ezra* ii. 45.

1. UTHAI: mab Ammihud, o feibion Phares, mab Iudah: 1 *Cron.* ix. 4. Ymddengys ei fod yn un o'r rhai a drigasant yn Ierusalem ar ol y caethiwed. Yn *Neh.* xi. 4, gelwir ef "Athaiah mab Uzziah."

2. UTHAI: un o feibion Bigfai, a ddychwelasant yn yr ail fintai gydag Ezra: *pen.* viii. 14.

UTHR BENDRAGON: tad y brenin Arthur, brawd Emrys Wledig, a mab i un o'r pendefigion Brythonaidd. Pan fu farw ei frawd, Emrys Wledig, yn B.A. 500, coronwyd ef yn frenin y Brythoniaid. Yr oedd yn enwog fel rhyfelwr, a chofnodir yn y "*Brutiau Cymreig*" lawer o chwedleuon am weithredoedd a amlygent ei wrhydri a'i ddewrder; ond yn gymmaint a bod hanes ei ddyddiau wedi ei amgau mewn niwl a thywyllwch, wrth gwrs y mae yn ddiammheu y gellir edrych ar lawer o honynt yn ddim amgen na chwedlau disail. Dywed y "*Brut*" mai yr achos iddo gael yr enw 'Pendragon' oedd, i seren gynffonog ymddangos, ac ynglŷn â hi lun draig o dân, ac iddo yntau wneuthur draig aur gyffelyb i hono; a phan yr elai i'r frwydr, dygid hono yn wastad o flaen ei fyddin. Ond ereill a dybiant mai enw swyddol ydyw, yn arwyddo *penllywiawdwr,* a bod y Brythoniaid yn arfer dewis blaenor felly. Ymddengys ei fod wedi sefyll allan, ac yn llwyddiannus ar adegau, fodd bynag, yn erbyn ymosodiadau y Sacsoniaid; ac ar y cyfan, fod ei deyrnasiad yn un blodeuog— yr hwn a barhaodd am ddwy flynedd ar bymtheg. Mynegir mai y ffordd y daeth i gyfarfod â'i farwolaeth oedd, trwy i un o'r gelynion wenwyno ffynnon yr arferai efe yfed o honi.

UZAI: tad Palal, yr hwn a gynnorthwyodd Nehemiah i ail adeiladu mur y ddinas: *Neh.* iii. 25.

UZZA: gardd. Y llanerch yn yr hwn y claddwyd Manasseh, brenin Iudah, a'i fab Amon: 2 *Bren.* xxi. 18, 26. Yr ardd gyssylltiedig â phalas Manasseh ydoedd (*adn.* 18; a 2 *Cron.* xxxiii. 20), ac am hyny bernir mai yn Ierusalem yr oedd hi. Dengys y ffaith o'i bod yn cael ei chrybwyll nad hi oedd y man lle yr oedd beddau arferol y brenhinoedd. Modd bynag, ni wyddys yn mha le y safai.

Digitized by Google

1. UZZA: Beniaminiad—un o feibion Ahihud: 1 *Cron.* viii. 7.

2. UZZA: mab Abinadab, yn nhŷ yr hwn y trigodd arch Duw yn hir: 1 *Cron.* xiii. 7, 9—11. Gelwir ef Uzzah mewn lle arall.

3. UZZA, MEIBION: teulu o Nethiniaid, y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 49; *Neh.* vii. 51.

1. UZZAH: un o hiliogaeth Merari (1 *Cron.* vi. 29). Ond ymddengys fod diffyg yn y copi, drwy yr hwn y mae meibion Gersom wedi eu gadael allan; canys disgrifir Libni a Simei mewn lle arall fel hiliogaeth Gersom, ac nid Merari. Fe allai mai yr un ydyw Zina, neu Zizah, mab Simei (1 *Cron.* xxiii. 10, 11); canys y mae yn amlwg fod yr enwnau hyn yn dynodi yr un personau; ac mewn llythyrenau Hebraeg, nid ydynt yn annhebyg i Uzzah.

2. UZZAH: un o feibion Abinadab, yn nhŷ yr hwn yn Ciriath-Iearim y gorphwysodd yr arch am ugain mlynedd. Ymddengys mai mab hynaf Abinadab (1 *Sam.* vii. 1) oedd Eleazar, yr hwn a gyssegrwyd i edrych ar ol yr arch. Uzzah, y mae yn debygol, oedd yr ail, ac Ahio y trydydd. Canlynodd y ddau ei symmudiad pan ymgymmerodd Dafydd gyntaf â'i chario i Ierusalem. Ymddengys fod Ahio wedi myned o flaen y fèn —y fèn newydd (1 *Cron.* xiii. 7)—ar yr hon y gosodwyd hi, a cherddodd Uzzah wrth ochr y fèn. Aeth yr orymdaith, gyda phob math o gerddoriaeth, mor bell a lle a elwir yn "llawr dyrnu Cidon" (1 *Cron.* xiii. 9), ac yn "llawr dyrnu Nachor;" 2 *Sam.* vi. 6. Yn y lle hwn—gan ymlithro, hwyrach, dros y graig lefn—tripiodd (*Heb.*) yr ychain, neu dymchwelodd yr arch (yn ol y Deg a Thrigain). Daliodd Uzzah hi, i'w hattal rhag syrthio; ond bu farw yn y fan wrth ei hochr. Yr oedd ei farwolaeth, trwy ba foddion bynag yr achoswyd hi, mor ddisymmwth a dychrynllyd, fel y mae, yn iaith gyssegredig yr Hen Destament, yn cael ei phriodoli yn uniongyrchol i ddigofaint Duw. Digofaint yr Arglwydd a lidiodd wrth Uzzah; a Duw a'i tarawodd ef yno, am yr amryfusedd hwn, "o blegid iddo estyn ei law at yr arch;" 1 *Cron.* xiii. 10. Cynnyrchodd y digwyddiad deimlad dwfn. Ofnodd Dafydd gario yr arch yn mhellach; a newidiwyd hen enw y lle—ac o hyny allan galwyd ef *Peres-Uzza*, sef Rhwyg Uzza: 2 *Sam.* vi. 8; 1 *Cron.* xiii. 11. Nid oes un lle i gredu fod Uzzah yn Lefiad.

UZZEN-SERAH: tref a sylfaenwyd, neu a ail adeiladwyd, gan Serah, merch Ephraim, neu ferch Beriah. Nid ydyw yn cael ei henwi ond yn unig yn 1 *Cron.* vii. 24, mewn cyssylltaid â'r ddwy Beth-horon. Ond y mae yn anadnabyddus yn awr.

1. UZZI: mab Bucci, a thad Zerahïah, yn llinach yr archoffeiriaid: 1 *Cron.* vi. 5, 51; *Ezra* vii. 4. Er mai Uzzi ydoedd hynafiad llinachol Zadoc, nid ydyw yn ymddangos iddo erioed fod yn archoffeiriad. Yn wir, cynnwysir ef yn hiliogaeth Phinees, rhwng yr archoffeiriaid Abisua a Sadoc; y rhai, yn ol Josephus, oeddynt bersonau preifat. Y mae yn rhaid ei fod yn gydoeswr ag Eli—yn hytrach, yn gynnarach nag ef.

2. UZZI: mab Tola, mab Issachar, a thad pump o feibion, y rhai oeddynt oll yn benaethiaid: 1 *Cron.* vii. 2, 3.

3. UZZI: mab Bela, o Beniamin: 1 *Cron.* vii. 7.

4. UZZI: mab arall i Bela, neu yr un un; o'r hwn y disgynodd rhai o deuluoedd Beniamin, y rhai a ymsefydlasant yn Ierusalem ar ol y dychweliad o gaethiwed: 1 *Cron.* ix. 8.

5. UZZI: Lefiad, mab Bani, ac arolygwr ar y Lefiaid oedd yn preswylio yn Ierusalem, yn amser Nehemiah: *Neh.* xi. 22.

6. UZZI: offeiriad, penaeth teulu tad Iedaiah, yn amser Ioiacim yr archoffeiriad: *Neh.* xii. 19.

7. UZZI: un o'r offeiriaid a gynnorthwyasant Ezra i gyssegru mur Ierusalem: *Neh.* xii. 42. Fe allai mai yr un ydoedd a'r diweddaf a enwyd.

UZZIA: un o gard Dafydd; ac ymddengys oddi wrth ei gyfenw, "yr Asterathiad," ei fod yn frodor o Asterath, y tu hwnt i'r Iorddonen: 1 *Cron.* xi. 44.

1. UZZIAH: brenin Iudah. Wedi i Amaziah gael ei ladd, dewiswyd ei fab, Uzziah, gan y bobl i feddiannu yr orsedd wâg, pan nad oedd ond un mlwydd-ar-bymtheg oed; ac am y rhan fwyaf o'i deyrnasiad maith o 52ain o flynyddoedd efe a fu byw yn ofn Duw, a dangosodd ei hun yn llywodraethwr doeth, gweithgar, a duwiol. Efe a ddechreuodd ei deyrnasiad trwy ryfelgyrch llwyddiannus yn erbyn gelynion ei dad, sef yr Edomiaid—y rhai oeddynt wedi gwrthryfela oddi wrth Iudah yn amser Iehoram, tua phedwar ugain mlynedd yn gynt. Wedi treiddio mor bell a Morgaingc 'Akaba, lle y cymmerodd efe y lle pwysig a elwid Elath, adeiladodd gaerau o'i hamgylch, a sefydlodd hi yn farchnad i fasnach dramor; yr hyn yr oedd Iehosaphat wedi methu ei wneyd. Cofnodir y llwyddiant hwn yn Ail Lyfr y Brenhinoedd (xxiv. 1, &c.). Ond oddi wrth Ail Lyfr y Croniel yr ydym yn dysgu llawer mwy. Cariodd Uzziah ryfeloedd buddugoliaethus ereill yn mlaen yn y deheu, yn enwedig yn erbyn y Mehuniaid, neu bobl Maân, a'r Arabiaid, y rhai oedd yn trigo yn Gur-baal. Y mae tref gaerog o'r enw Maân etto mewn bod yn Arabia Garegog, i'r deheu o'r Môr Coch. Ni wyddys yn mha le y safai Gur-baal. O'r braidd y gellir disgwyl i'r fath elynion ddangos gwrthwynebiad maith ar ol gorchfygiad llwyth mor nerthol a rhyfelgar a'r Edomiaid. Tua'r gorllewin, ymladdodd Uzziah gyda'r un llwyddiant yn erbyn y Philistiaid: llwyr ddinystriodd furiau Gath, Iabneh, ac Asdod, a sylfaenodd ddinasoedd caerog newydd yn nhiriogaeth y Philistiaid. Ac ni bu efe yn llai ymdrechgar mewn gweithrediadau diffynol nag ymosodol. Efe a gadarnhaodd furiau Ierusalem yn eu manau gwanaf, a rhoddodd beiriannau rhyfel nerthol arnynt i ergydio saethau a cheryg mawrion, ac arfogodd fyddin o 307,500 o wŷr â'r arfau milwraidd goreu y gallesid eu cael y pryd hwnw. Yr oedd hefyd yn noddwr i amaethyddiaeth:—cloddiodd bydewau lawer, adeiladodd dyrau yn yr anialwch er amddiffyn y praidd, ac amaethodd winllanoedd cyfoethog a thir llafur ar ei gyfrif ei hun. Ac ni ddarfu iddo erioed adael addoliad y gwir Dduw. Dylanwadwyd yn fawr arno gan Zechariah—prophwyd na chrybwyllir am ei enw ond yn unig mewn cyssylltiad âg ef (2 *Cron.* xxvi. 5); canys, gan y rhaid ei fod wedi marw o flaen Uzziah, nis gall fod yr un a'r Zechariah a nodir yn *Esa.* viii. 2. Felly, codwyd y deyrnas ddeheuol i sefyllfa fwy llwyddiannus nag yr oedd hi wedi bod ynddi er marwolaeth Solomon; a chan fod gallu Israel yn grad' leihau yn y tymmor olaf o deyrnach Ieh

Digitized by Google

oedd gallu Iudah yn ymestyn dros yr Ammoriaid a'r Moabiaid, a llwythau ereill y tu hwnt i'r Iorddonen, oddi ar y rhai y cododd Uzziah dreth. Gwel 2 *Cron.* xxvi. 8, ac *Esa.* xvi. 1—5:—oddi wrth y rhai yr ymddengys fod y dreth flynyddol o ddefaid (2 *Bren.* iii. 4) wedi ei hadfywio un ai yn ystod y teyrnasiad hwn neu yn fuan ar ei ol. Nid oedd diwedd Uzziah mor lwyddiannus a'i ddechreuad. Wedi ymchwyddo gan lwyddiant ei yrfa, efe a benderfynodd losgi arogldarth ar allor Duw; ond gwrthwynebwyd ef gan yr archoffeiriad Azariah a phedwar ugain ereill:—gwel *Exod.* xxx. 7, 8; a *Num.* xvi. 40; a xviii. 7). Llidiodd y brenin o herwydd eu gwrthwynebiad; ac fel yr oedd efe yn ymwthio yn mlaen gyda'i arogldarth, tarawyd ef yn ddisymmwth â gwahanglwyf—afiechyd, yn ol Gerlach, sydd yn cael ei achosi gan gyffro ffyrnig. Yn 2 *Bren.* xv. 5, yr oll a ddywedir ydyw—"Yr Arglwydd a darawodd y brenin, fel y bu efe wahanglwyfus hyd ddydd ei farwolaeth, ac y trigodd mewn tŷ o'r neilldu;" ond ni ddywedir ei fod wedi meddiannu y swydd offeiriadol. Gorfodwyd Uzziah gan y trychineb hwn i drigo y tu allan i'r ddinas, a llywodraethid y deyrnas hyd ei farwolaeth gan ei fab Iotham, fel rhaglaw. Claddwyd Uzziah "gyda'i dadau;" ond nid yn meddau y brenhinoedd: 2 *Cron.* xxvi. 23. Yn ystod ei deyrnasiad digwyddodd daeargryn, yr hon, er na chrybwyllir hi yn y llyfrau hanesiol, oedd yn un ddifrifol iawn yn ei heffeithiau. Cyfeirir ati fel yn ffurfio cyfnod amseryddol gan Amos (*pen.* i. 1), a chrybwyllir hi yn *Zech.* xiv. 5, fel dirgryniad oddi wrth yr hwn y ffodd y bobl. Y mae Josephus yn ei chyssylltu âg ymgais cyssegr-ladradaidd Uzziah i offrymu arogldarth; ond y mae hyn yn dra annhebyg, gan nas gallai ddigwydd yn ddiweddarach na'r eilfed flwyddyn ar bymtheg o'i deyrnasiad. Y mae y chwe phennod cyntaf o brophwydoliaeth Esaiah yn perthyn i'r teyrnasiad hwn; a dywedir (2 *Cron.* xxvi. 22) fod hanes cyflawn am dani wedi ei ysgrifenu gan y prophwyd hwnw. Gellir cael rhai crybwyllion am sefyllfa Iudah y pryd hwn gan y prophwydi cydoesol, Hosea ac Amos—er mai yn Israel, yn fwyaf neillduol, yr oedd y ddau hyn yn llafurio. Yr ydym yn casglu oddi wrth eu hysgrifeniadau (*Hos.* iv. 15; vi. 11; *Amos* vi. 1), yn gystal ag oddi wrth bennodau cyntaf Esaiah, er fod sefyllfa y deyrnas ddeheuol yn rhagori llawer, yn foesol a chrefyddol, ar y deyrnas ogleddol, etto nad ydoedd mewn un modd yn rhydd oddi wrth y pechodau sydd yn dueddol i ganlyn cyfoeth a llwyddiant. Ar yr un pryd, y mae Hosea yn coleddu gobeithion disglaer am y bendithion oeddynt i darddu oddi wrthi; ac er ei fod yn sicr fod y gobeithion hyn yn cyfeirio at rywbeth llawer uwch na rhagoroldeb gweinyddiaeth Uzziah, ac er na ellir yn briodol egluro pa fodd y dychwelir yr Israeliaid at "Dafydd eu brenin" ond yn unig trwy ei gyssylltu â theyrnas Crist, etto y mae yn eglur fod y prophwyd, wrth fyfyrio ar sefyllfa Iudah y pryd hwn, yn ymgysuro yn yr ystyriaeth fod Duw yno yn cael ei wir anrhydeddu, a'i addoliad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus; ac am hyny, fod ganddynt bob lle i gredu y cyflawnid ei addewidion i'w bobl yn y diwedd: *Hos.* i. 7; iii. 3. Dylid sylwi, gyda gi-wg ar gymmeriad cyffredinol Uzziah fel brenin, fod ysgrifenydd Ail Lyfr y Cronicl yn hysbysu yn bendant mai ei ymgais anghyfreithlawn i losgi arogldarth oedd yr unig eithriad i ragoroldeb ei weinyddiaeth o'r swydd am tua deuddeg a deugain o flynyddoedd: 2 *Cron.* xxvi. 2. Parhaodd ei deyrnasiad o 808—9 hyd 756—7 C.C.

2\. UZZIAH: Lefiad Cohathaidd, a hynafiad Samuel: 1 *Cron.* vi. 24.

3\. UZZIAH: offeiriad, o feibion Harim; yr hwn a gymmerasai wraig ddyeithr yn nyddiau Ezra: *pen.* x. 21.

4\. UZZIAH: tad Athaiah, neu Uthai: *Neh.* xi. 4.

5\. UZZIAH: tad Iehonathan—un o arolygwyr Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 25.

1\. UZZIEL: pedwerydd mab Cohath, tad Misael, Elsaphan neu Elisaphan, a Sithri, ac ewythr i Aaron: *Exod.* vi. 18, 22; *Lef.* x. 4. Gelwid y teulu a ddisgynasant oddi wrtho ef yn Uzzieliaid; ac Elisaphan, penaeth y teulu hwn, oedd hefyd prif dad y Cohathiaid, yn ol y cyfarwyddyd dwyfol, yn amser Moses (*Num.* iii. 19, 27, 30), er ei fod yn ymddangos mai efe oedd yr ieuangaf o feibion Cohath: 1 *Cron.* vi. 2, 18. Nid oedd teulu Uzziel yn rhifo ond cant a deuddeg o bobl mewn oed, dan Amminadab eu penaeth, ar yr adeg pan ddygwyd yr arch i fyny i Ierusalem gan y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xv. 10.

2\. UZZIEL: cadben Simeonaidd, mab Isi; yr hwn, ar ol rhyfelgyrch llwyddiannus ei lwyth i ddyffryn Gedor, a aeth gyda'i dri brawd, yn ben ar dri chant o wŷr, yn nyddiau Hezeciah, i fynydd Seir, ac a darawodd y gweddill o'r Amaleciaid—y rhai oeddynt wedi goroesi lladdfa flaenorol Saul a Dafydd, ac a gymmerasant feddiant o'u gwlad, "ac a wladychasant yno hyd y dydd hwn;" 1 *Cron.* iv. 42.

3\. UZZIEL: pen un o deuluoedd Beniamin: 1 *Cron.* vii. 7.

4\. UZZIEL: cerddor, o feibion Heman, yn nheyrnasiad Dafydd (1 *Cron.* xxv. 4): a gelwir ef yn *adn.* 18 yn Azareel.

5\. UZZIEL: Lefiad, o feibion Ieduthun: yr hwn yn nyddiau y brenin Hezeciah a gymmerodd ran weithredol mewn glanhau a phuro y deml, ar ol yr holl lygredigaethau a ddygwyd i mewn iddi gan Ahaz: 2 *Cron.* xxix. 14, 19.

6\. UZZIEL: mab Harhaiah, offeiriad, y mae yn debygol, yn nyddiau Nehemiah; yr hwn a gymmerodd ran mewn adgyweirio y mur: *Neh.* iii. 8. Disgrifir ef fel "o'r gofaint aur;" h.y. o'r offeiriaid hyny, swydd etifeddol pa rai oedd adgyweirio neu wneyd y llestri cyssegredig, fel y cesglir oddi wrth y cyfeiriad at yr apothecariaid a grybwyllir yn yr un adnod, y rhai a ddynodir yn 1 *Cron.* ix. 30. Crybwyllir am y gofaint aur hefyd yn *Neh.* iii. 31, 32. Fod yr Uzziel hwn yn offeiriad sydd hefyd yn debygol oddi wrth ei enw; ac hefyd oddi wrth yr amgylchiad fod Malchiah, mab y gôf aur, felly.

UZZIELIAID: hiliogaeth Uzziel, un o'r pedwar teulu mawr i ba rai yr oedd y Cohathiaid wedi eu rhanu: *Num.* iii. 27; 1 *Cron.* xxvi. 23.

DIWEDD Y NAWFED GYFROL.

gan

DINBYCH, ARGRAPHWYD GAN THOMAS GEE.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google